NEDL TRANSFER
HN 62KQ Y

Cyc 210
KH26

Harvard College Library

BOUGHT WITH INCOME

FROM THE BEQUEST OF

HENRY LILLIE PIERCE,

OF BOSTON.

Under a vote of the President and Fellows,
October 24, 1898.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Y

# GWYDDONIADUR CYMREIG.

## Y GWAITH CENEDLAETHOL PWYSICAF

YN YR

## Iaith Gymraeg.

Y RHAGYMADRODD, GYDA HANES BYWYD DR. PARRY,
A SYLWADAU AR EI YSGRIFENIADAU,

GAN Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D., LIVERPOOL.

CYNNWYSA DDEUDDEG AR HUGAIN O FAPIAU.

Digitized by Google

## LLYTHYRAU O GANMOLIAETH I'R GWAITH.

It seems to me a Work of great promise......I can conscientiously bid you good speed in the work, which seems to me as sound in doctrine as it is unsectarian in principle.

JOHN WILLIAMS,
*Bognor, Sussex.* *Archdeacon of Cardigan*, &c.

Y mae y gwaith yn dra theilwng o gefnogaeth oddi wrth bawb sydd yn dymuno yn dda i'w gwlad a'u cenedl.

*Llundain.* THOMAS PHILLIPS.

Llyfr tra rhagorol, yn debyg o fod o werth ac anrhydedd mawr i lenyddiaeth Gymreig, o ran ei gynnwysiad, a'r gwaith celfyddgar sydd arno.

*Llanfyllin.* DAVID MORGAN.

Y mae yn ymddangos i mi y bydd, pan ei gorphener, yn drysor anmhrisiadwy i Gymru. Y mae yn cyflenwi yn hollol ddiffyg mawr oedd, hyd yma, yn aros yn ein llenyddiaeth.

*Llundain.* OWEN THOMAS.

Dylai pob dyn ieuangc, gyda'r meddwl cyntaf am gael tŷ a theulu, feddwl hefyd am gael '*Y Gwyddoniadur*' i'w deulu, os bydd ynddo ddim awydd am iddynt 'weithio eu ffordd' yn anrhydeddus mewn unrhyw gylch o ddefnyddioldeb.

*Llanbrynmair.* SAMUEL ROBERTS.

Y mae y '*Gwyddoniadur*' yn llyfr sydd yn debyg o dynu sylw cyffredinol. Yr wyf yn penderfynu gwneyd unrhyw beth yn fy ngallu i hwyluso ei gyhoeddiad a'i gylchrediad.

*Llandeilo.* JOHN JONES, *Gwein. Wesleyaidd.*

Yr oedd yn llawen iawn genyf weled yr hysbysiad cyntaf am y '*Gwyddoniadur Cymreig*,' a da genyf chwanegu fod y llawenydd hyny wedi cynnyddu yn fawr iawn wrth ganfod y dull a'r modd y mae y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen. Yr wyf o galon yn dymuno i chwi bob llwyddiant gyda y fath anturiaeth bwysig.

*Aberdâr.* THOMAS PRICE.

Y mae y gwaith hwn yn ddigon *capable* i siarad drosto ei hun wrth bawb a'i darlleno. Gobeithiaf y cewch chwi a Mr. Parry estyniad oes i orphen y gwaith; yr hyn a fyddai i ni yn 'fywyd o feirw.'

*Amlwch.* WILLIAM ROBERTS.

Y fantais benaf a gynnygiwyd erioed yn ein hiaith, hyd yn hyn, i gyrhaedd trwyddi gydnabyddiaeth â phob cangen o wybodaeth gyffredinol, ydyw y '*Gwyddoniadur*.'.....Daeth allan fel cawr grymus.

*Liverpool.* WILLIAM REES.

Bydd pob Cymro, a fedr, ond a esgeulusa ei dderbyn, yn ymddwyn yn eithaf anwladgarol, ac yn euog o daflu diystyrwch pechadurus ar y wybodaeth deilyngaf o sylw dyn.

*Cendl.* THOMAS REES

Gallaf ddyweyd yn hyderus a chydwybodol fy mod yn edrych ar y gwaith hwn, os â yn mlaen fel y mae wedi dechreu, fel y rhagoraf yn yr iaith Gymraeg.

*Athrofa Pont-y-pool.* T. THOMAS.

Y mae y rhanau sydd wedi dyfod allan yn cynnwys digon o brofion y gallwn gymmeryd yn ganiataol, pan y cwblheir ef, y bydd ei gronfa o wybodaethau y fath na chafodd y Cymry o'r blaen.

*Bangor.* JOHN PHILLIPS.

Hyderaf y bydd gan y dyn a feddianno '*Y Gwyddoniadur*' gyfaill gwybodus a pharod yn ei ymyl i ymgynghori âg ef, ac i gael hysbysrwydd a chyfarwyddyd ganddo bron ar bob mater ag y gall dyn feddwl am dano.

*Liverpool.* HENRY REES.

It appears to me, after having perused the two first parts, that the work is *exceedingly* well executed. When finished, it will be an *invaluable* treasure to the Welsh people.

*Thrussington.* JOHN OWEN, *Rural Dean.*

## CYMMERADWYAETHAU Y WASG.

*Yr Amserau.*—'Nid oes yr un Cymro nad ydyw yn gwybod fod y fath lyfr heb ei gyhoeddi. Nid oes ond ambell Ddic-Sion-Dafydd o Gymro, chwaith, nad ydyw yn teimlo fod eisieu y fath lyfr.'

*Y Bedyddiwr.*—'Y mae yn un o'r llyfrau mwyaf pwysig, os nid y pwysicaf oll, a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith Gymraeg.'

*The Carnarvon Herald.*—'We beg to recommend the Work to the most cordial support of all lovers of '*Cymru, Cymry, a Chymraeg.*''

*Y Croniel.*—'Trysor o werth ammhrisiadwy—nid yn unig i Gymry yr oes yma, ond i Gymry yr oes a ddaw.'

*Y Cylchgrawn Cymreig.*—'Y mae yr hwn sydd wedi derbyn y '*Drysorfa*' o'r dechreuad wedi gwneyd cymmaint o orchest a derbyn '*Y Gwyddoniadur.*'

*Y Diwygiwr.*—'Y mae yn ddiau y gwna llyfr fel hwn les i'r Cymry.'

*Y Drysorfa.*—'Gellir disgwyl y bydd '*Y Gwyddoniadur*,' pan wedi ei gwbleiddio, yn goron gogoniant i lenyddiaeth Cymru. Y mae enw Mr. Parry, fel golygydd, yn sicrhâd i ni am deilyngdod yr holl erthyglau.'

*Y Dysgedydd.*—'Bydd yn drysorfa gyflawn o wybodaeth gyffredinol yn ei holl ranau a'i changhenau; yr hyn a wna y Gymraeg, fel cyfrwng gwybodaeth, mor gyflawn a chyfoethog a'r Saesneg. Bydd yr erthyglau ar ei brif faterion yn wreiddiol—nid yn gyfieithiadau.'

*Yr Eurgrawn.*—'Yr ydym yn cymmhell pob dyn ieuangc i fynu y llyfr hwn. Yna bydd ganddo lyfrfa gwerth ei dangos, pe na byddai ganddo un llyfr arall.'

*Y Gwron.*—'Daw y gweithwyr, drwy y llyfr hwn, yn gydnabyddus â syniadau gwŷr dysgedicaf yr oesoedd.'

*Y Seren Gomer.*—'Wele '*Wyddoniadur*' yn cael ei gynnyg gan gyhoeddwr anturiaethus—dysgedigion penaf Cymru yn ysgrifenu iddo—dan olygiaeth gŵr sydd yn deilwng o ymddiried y genedl; a phaham na chefnogwn y Gwaith?'

*Y Traethodydd.*—'Yn wir, y mae yr holl waith, o ran cynnwys, ymddangosiad, a phris—cyfansoddiad, pupur, argraphwaith, ffurf, a rhadlonrwydd—yn gyfryw ag yr ydym yn llawenychu ynddo, ac y teimlem ein hunain yn pechu yn erbyn llenyddiaeth, a chrefydd, ac anrhydedd ein cenedl, pe na byddai i ni wneyd a allem er ei argymmhell i'w sylw, a rhoddi ein holl ddylanwad yn mhlaid ei lwyddiant.'

*Y Wasg.*—'Erioed ni huliwyd y fath wledd o ddanteithion llenyddol ger bron ein cydgenedl ag a gynnygir yn awr yn '*Y Gwyddoniadur*.'

Digitized by Google

Digitized by Google



Y PARCH. JOHN PARRY, D.D.

BALA.

Digitized by Google

Digitized by Google

# The Encyclopædia Cambrensis.

Y

# GWYDDONIADUR CYMREIG:

GAN

YSGRIFENWYR ENWOCAF Y GENEDL.

DAN OLYGIAD

Y PARCHEDIG JOHN PARRY, D.D.,

BALA.

YR AIL ARGRAPHIAD,

YN CYNNWYS

ERTHYGLAU NEWYDDION, A'R MANYLION DIWEDDARAF, AR Y TESTYNAU AMRYWIOL SYDD YN Y GWAITH.

DAN OLYGIAD

THOMAS GEE.

Cyf. I.

DINBYCH:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN T. GEE A'I FAB.

MDCCCLXXXIX.

Digitized by Google

Cyc 210

HARVARD COLLEGE
OCT 4 1902
LIBRARY.

Pierce Fund

Digitized by Google

# ENWAU NIFER O'R PRIF YSGRIFENWYR.

## A LIST OF THE PRINCIPAL CONTRIBUTORS.

AMBROSE, Parch. W., Porthmadoc.
ANWYL, y Proffeswr EDWARD, M.A., Aberystwyth.

CHARLES, Parch. D., D.D., F.R.G.S., Penaeth Coleg y Methodistiaid Calfinaidd, Trefecca.
CHARLES, Parch. JAMES, Dinbych.

DAVIES, Parch. AARON, Pontlottyn.
DAVIES, Parch. D. CHARLES, M.A., Penaeth Coleg y Methodistiaid Calfinaidd, Trefecca.
DAVIES, Parch. D. S., Caerfyrddin.
DAVIES, EVAN, Ysw., M.A., LL.D., Abertawe.
DAVIES, Parch. EVAN, Trefriw.
DAVIES, Parch. GETHIN, M.A., Penaeth Coleg y Bedyddwyr, Bangor.
DAVIES, Parch. H. L., Trecastell.
DAVIES, Parch. JOHN, Caerdydd.
DAVIES, Parch. JOHN, Nerquis.
DAVIES, Parch. J. GWYNORO, Abermaw.
DAVIES, Parch. J. PRICE, M.A., Caerlleon.
DAVIES, Mr. MORRIS, Bangor.
DAVIES, Parch. WILLIAM, D.D., Bangor.
DAVIES, Mr. W. M. (*Meirionfab*), Blaen-y-coed.

EDMUNDS, Mr., Caernarfon.
EDWARDS, y Proffeswr ELLIS, M.A., Bala.
EDWARDS, Parch. H. T., M.A., Deon Bangor.
EDWARDS, Parch. LEWIS, D.D., Penaeth Coleg y Methodistiaid Calfinaidd, Bala.
EDWARDS, y Proffeswr O. M., M.A., Llanuwchllyn.
EDWARDS, Parch. RICHARD F. (*Rhisiart Ddu o Wynedd*).
EDWARDS, Parch. ROGER, Wyddgrug.
EDWARDS, T. F., Ysw., M.R.C.S., Dinbych.
ELLIS, Parch. GRIFFITH, M.A., Bootle.
ELLIS, Parch. R. (*Cynddelw*), Caernarfon.
ELLIS, Parch. ROBERT, LL.D., Llangollen.
EVANS, Parch. D., Dudley.
EVANS, Parch. D. SILVAN (*Hirlas*), Llanwrin.
EVANS, Parch. DAVID, M.A., Gelligaer.
EVANS, Parch. DAVID CHARLES, Pont Menai.
EVANS, Mr. D. DELTA, Llundain.
EVANS, D. EMLYN, Ysw., Henffordd.
EVANS, Parch. E., Abermaw.
EVANS, Parch. E. HERBER, D.D., Penaeth Coleg yr Annibynwyr, Bangor.
EVANS, Parch. EVAN (*Ieuan Glan Geirionydd*).
EVANS, Parch. EVAN, Llangollen.
EVANS, Parch. J., gynt o Eglwysbach.
EVANS, Parch. J. (*I. D. Ffraid*), Llansantffraid, ger Conwy.
EVANS, Mr. JAMES, Caernarfon.
EVANS, Parch. JOSEPH, Dinbych.
EVANS, Mr. J. J., Henllan, ger Dinbych.
EVANS-OWEN, Parch. J., Llanberis.
EVANS, Parch. REES, Llanwrtyd.
EVANS, Mr. SAMUEL, Caerfyrddin.
EVANS, Parch. SIMON, Eglwyswrw.
EVANS, Parch. W., M.A., Pembroke Dock.

FOULKES, Parch. JOHN, Rhuthyn.
FOULKES, Mr. ISAAC, Liverpool.
FRIMSTONE, Parch. THOMAS, Llangefni.

GEE, Mr. EDWARD WILLIAMS, Eglwyswen.
GEE, Mr. J. HOWEL, Dinbych.
GEE, Miss MARY S., etto.
GEE, ROBERT, Ysw., M.D., Liverpool.
GRIFFITH, Mr. DAVID (*Clwydfardd*), Abergele.
GRIFFITH, Parch. D., Bryn Marl, Llandudno.
GRIFFITHS, Parch. D. A., Troed-rhiw-dalar.
GRIFFITHS, Parch. EDWARD, Meifod, Trefaldwyn.
GRIFFITH, Mr. JOHN (*Y Gohebydd*), Llundain.
GRIFFITHS, Parch. WILLIAM, Caergybi.
GRIFFITHS, Parch. ROBERT, Dinbych.

HOWELL, yr Archddiacon DAVID, M.A., Gwrecsam, &c.
HUGHES, Parch. BENJAMIN, Llanelwy.
HUGHES, Parch. DAVID, B.A., Tredegar.
HUGHES, Parch. H. W., Liverpool.
HUGHES, Parch. JOHN, D.D., Caernarfon.
HUGHES, Mr. J. CEIRIOG (*Ceiriog*), Caersws.
HUGHES, Mr. OWEN, Maerdy, Corwen.
HUMPHREYS, Parch. RICHARD, Dyffryn.
HUGHES, Parch. THOMAS, Kenchester.

ISAAC, Parch. D. LLOYD, Pont-y-pool.
IWAN, Parch. R. AMBROSE AP, Rhuthyn.

Digitized by Google

JAMES, Parch. J. SPINTHER, Llandudno.
JONES, Parch. CADWALADR, Dolgellau.
JONES, Parch. DAVID, Treborth.
JONES, Parch. E., Myddfai.
JONES, Mr. EDWIN AMBROSE (*Edeyrn*).
JONES, Parch. EVAN, Caernarfon.
JONES, Parch. EVAN, Dinbych.
JONES, Parch. E. K., Brymbo, Gwrecsam.
JONES, Parch. FRANCIS, Abergele.
JONES, Mr. G. (*Glan Menai*), Caernarfon.
JONES, Parch. HUGH, Liverpool.
JONES, Parch. HUGH, Tregarth.
JONES, Mr. HUGH (*Erfyl*), Caerlleon.
JONES, Parch. HUGH (*Harddfryn*), Liverpool.
JONES, Parch. HUGH, D.D., Penaeth Coleg y Bedyddwyr, Llangollen.
JONES, Parch. J. E. (*Ioan Emlyn*), M.A., LL.D., [Ebbw Vale.
JONES, y Proffeswr J. MORRIS, M.A., Bangor.
JONES, Parch. J. OWEN, Llanberis.
JONES, Parch. J. R. KILSBY, Llanwrtyd.
JONES, Parch. JOHN (*Vulcan*), Bangor.
JONES, Mr. JOHN, Llundain.
JONES, Parch. J. CYNDDYLAN, D.D., Caerdydd.
JONES, y Proffeswr J. HARRIS, M.A., PH.D., Trefecca.
JONES, Parch. J. OGWEN, B.A., Rhyl.
JONES, Parch. JOSEPH, Llanbedr-pont-Stephan.
JONES, Parch. MICHAEL D., Penaeth Coleg yr Annibynwyr, Bala.
JONES, Parch. CYNHAFAL, D.D., Colwyn Bay.
JONES, Parch. OWEN, Llandudno.
JONES, Parch. OWEN, M.A., Liverpool.
JONES, Parch. R. G., Pont-y-pridd, Morganwg.
JONES, Parch. R. H. (*Quellyn*), Llanidloes.
JONES, Parch. T. M. (*Gwenallt*), Penmachno.
JONES, Parch. THOMAS (*Glan Alun*), Wyddgrug.
JONES, Parch. W. R. (*Goleufryn*), Caernarfon.
JONES, Parch. WILLIAM, Liverpool.

LEVI, Parch. THOMAS, Aberystwyth.
LEWIS, Parch. J. WYNDHAM, Caerfyrddin.
LEWIS, Mr. L. W. (*Llew Llwyfo*), Caernarfon.
LEWIS, Parch. THOMAS, Casnewydd.
LLOYD, DAVID, Ysw., M.D., Dinbych.
LLOYD, y Proffeswr J. E., M.A., Bangor.

MATTHEWS, Mr. JOHN, Aberystwyth.
MATTHEWS, Mr. JOHN, *N.P. Bank*, Amlwch.
MICHAEL, Parch. OWEN, Pont-y-pridd.
MILLS, Parch. JOHN, F.R.A.S, Llundain.
MORGAN, Parch. DAVID, gynt o Lanfyllin.
MORGAN, Parch. EDWARD, Dyffryn.
MORGAN, Parch. RICHARD HUMPHREYS, M.A., Pont Menai.
MORGAN, Parch. W. R., M.A., Tregynon.
MORRIS, Parch. J. A., Aberystwyth.
MORRIS, Parch. JAMES, Merthyr Tydfil.

OWEN, Syr HUGH, Llundain.
OWEN, Mr. DAVID, Llundain.
OWEN, Parch. JOHN, Burry Port.
OWEN, Parch. JOHN, M.A., Thrussington.
OWEN, Parch. JOHN, Tŷ'n Llwyn, Bangor.
OWEN, Parch. JOHN, M.A., Criccieth.
OWEN, Parch. R., M.A., Pennal, Machynlleth.
OWEN, Parch. SAMUEL, Tan-y-grisiau.

PARRY, Parch. ABEL J., gynt o Abertawe.
PARRY, Parch. GRIFFITH, D.D., Carno.
PARRY, Parch. R. (*Gwalchmai*), Llandudno.
PARRY, Mrs., Trem Aran, Bala.
PETER, y Proffeswr JOHN (*Ioan Pedr*), Bala.
PETER, Mrs., etto.
PETERS, Parch. EVAN, Bala.
PHILLIPS, Parch. THOMAS, D.D., Henffordd.
PIERCE, Parch. THOMAS, Liverpool.
POWELL, Parch. EBENEZER, Holt.
PRICE, Parch. DAVID, America.
PRICE, Parch. THOMAS, PH.D., Aberdâr.
PRITCHARD, Parch. JOHN, Amlwch.
PRITCHARD, Parch. JOHN, D.D., Penaeth Coleg y Bedyddwyr, Llangollen.
PRITCHARD, Parch. WILLIAM, Pentraeth.
PRYS, Parch. OWEN, M.A., Penaeth Coleg y Methodistiaid Calfinaidd, Trefecca.
PRYS, Mr. R. J. (*Gweirydd ap Rhys*), Caergybi.
PRYSE, Parch. WILLIAM, y Cenhadwr, Sylhet.
PUGH, Parch. HUGH, Mostyn.

REES, EBENEZER, Ysw., Liverpool.
REES, Parch. HENRY, Liverpool.
REES, Parch. JOHN, Canaan, Abertawe.
REES, Parch. THOMAS, D.D., Abertawe.
REES, Parch. WILLIAM, D.D. (*Gwilym Hiraethog*), Liverpool.
RHYS, JOHN, Ysw., M.A., Penaeth Coleg yr Iesu, Rhydychain.
ROBERTS, Parch. E., Pont-y-pridd.
ROBERTS, Parch. EDWARD, (*I.G.Aled*), Rhyl.
ROBERTS, Mr. EZRA, Rhuthyn.
ROBERTS, Parch. JOHN, Dinbych.
ROBERTS, Parch. JOHN (*I. Gwyllt*), Caernarfon.
ROBERTS, Parch. JOHN (*J.R.*), Conwy.
ROBERTS, Parch. JOHN (gynt o Liverpool. Edinburgh.
ROBERTS, Parch. ROBERT, Dolgellau.
ROBERTS, Parch. S., M.A., (*S.R.*), Conwy.
ROBERTS, Parch. THOMAS, Bethesda.
ROBERTS, Parch. T. (*Scorpion*), Llanrwst.
ROBERTS, Parch. WILLIAM, Amlwch.
ROBERTS, Parch. W. (*Nefydd*), Blaenau Gwent.

Digitized by Google

## ENWAU NIFER O'R PRIF YSGRIFENWYR.

ROWLANDS, Dr., Llanelli.
ROWLANDS, Parch. DANIEL, M.A., Bangor.
ROWLANDS, Parch. D. (*Dewi Môn*), Aberhonddu.

SAUNDERS, Parch. DAVID, D.D., Abertawe.
STEPHENS, Parch. NOAH, Liverpool.
STEPHENS, THOMAS, Ysw., Merthyr Tydfil.

THOMAS, Parch. E., Casnewydd.
THOMAS, Mr. EBENEZER (*Eben Fardd*), Clynnog.
THOMAS, Mr. J. (*Pencerdd Gwalia*), Llundain.
THOMAS, Parch. JOHN, D.D., Liverpool.
THOMAS, Parch. JOSIAH, M.A., Liverpool.
THOMAS, Parch. OWEN, D.D., Liverpool.
THOMAS, Parch. R., Liverpool.
THOMAS, Parch. ROBERT (*Ap Vychan*), Bala.
THOMAS, Parch. R. D. (*Iorthryn Gwynedd*).
THOMAS, Parch. THOMAS, D.D., Penaeth Coleg y Bedyddwyr, Pont-y-pool.
THOMAS, Parch. WILLIAM, M.A., Llandyssul.

WALTERS, Parch. JOHN, Brithdir, Dolgellau.
WILLIAMS, Parch. B., Canaan, Abertawe.
WILLIAMS, Mr. B. M., Caernarfon.
WILLIAMS, Parch GEORGE, Tŷ Ddewi.
WILLIAMS, y Proffeswr HUGH, M.A., Bala.
WILLIAMS, Parch. H. C. (*H. Cernyw*), Corwen.
WILLIAMS, Parch. JOHN, M.A., Archddiacon Aberteifi, &c.
WILLIAMS, Parch. JOHN, Dinorwig.
WILLIAMS, Parch. JOHN (*Glanmor*), Ebbw Vale.
WILLIAMS, Parch. JOHN, Llandrillo, Corwen.
WILLIAMS, Parch. JOHN (*Ab Ithel*), Llan-y-mawddwy.
WILLIAMS, Parch. JOHN, Rhosllanerchrugog.
WILLIAMS, Parch. J. (*Gorfyniawc*), Liverpool.
WILLIAMS, Parch. M., M.A. (*Nicander*) Amlwch.
WILLIAMS, Parch. R. E., Rhuthyn.
WILLIAMS, Parch. ROWLAND, (*Hwfa Môn*), Llangollen.
WILLIAMS, Parch WILLIAM, Abertawe.
WILLIAMS, Parch. WILLIAM, Glyndyfrdwy.
WILLIAMS, Mr. W. (*Creuddynfab*), Llandudno.
WILLIAMS, Parch. W. H. (*Watcyn Wyn*), Ammanford.
WILLIAMS, Mr. W. PRYDDERCH, Llundain.
WILLIAMS, Mr. WILLIAM, Manchester.
WILLIAMS, Parch. WILLIAM CALEDFRYN (*Caledfryn*), Groeswen.
WILLIAMS, Parch. WILLIAM OWEN, Liverpool.

## Cymmeradwyaethau y Wasg i'r Argraphiad Cyntaf.

**Yr Amserau.**—'Nid oes yr un Cymro nad ydyw yn gwybod fod y fath lyfr heb ei gyhoeddi. Nid oes ond ambell Ddic-Shon-Dafydd o Gymro, chwaith, nad ydyw yn teimlo fod eisieu y fath lyfr.'

**Y Bedyddiwr.**—'Y mae yn un o'r llyfrau mwyaf pwysig, os nid y pwysicaf oll, a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith Gymraeg.'

**The Carnarvon Herald.**—'We beg to recommend the Work to the most cordial support of all lovers of '*Cymru, Cymry, a Chymraeg.*'

**Y Cronicl.**—'Trysor o werth ammhrisiadwy—nid yn unig i Gymry yr oes yma, ond i Gymry yr oes a ddaw.'

**Y Cylchgrawn Cymreig.**—'Y mae yr hwn sydd wedi derbyn y *Drysorfa* o'r dechreuad wedi gwneyd cymmaint o orchest a derbyn Y GWYDDONIADUR.'

**Y Diwygiwr.**—'Y mae yn ddïau y gwna llyfr fel hwn les i'r Cymry.'

**Y Drysorfa.**—'Gellir disgwyl y bydd Y GWYDDONIADUR, pan wedi ei gwbleiddio, yn goron gogoniant i lenyddiaeth Cymru. Y mae enw Mr. Parry, fel golygydd, yn sicrhâd i ni am deilyngdod yr holl erthyglau.'

**Y Dysgedydd.**—'Bydd yn drysorfa gyflawn o wybodaeth gyffredinol yn ei holl ranau a'i changhenau; yr hyn a wna y Gymraeg, fel cyfrwng gwybodaeth, mor gyflawn a chyfoethog a'r Saesneg. Bydd yr erthyglau ar ei brif faterion yn wreiddiol—nid yn gyfieithiadau.'

**Yr Eurgrawn.**—'Yr ydym yn cymmhell pob dyn ieuangc i fŷnu y llyfr hwn. Yna bydd ganddo lyfrfa gwerth ei dangos, pe na byddai ganddo un llyfr arall.'

**Y Gwron.**—'Daw y gweithwyr, drwy y llyfr hwn, yn gydnabyddus â syniadau gwŷr dysgedicaf yr oesoedd.'

**Y Seren Gomer.**—'Wele WYDDONIADUR yn cael ei gynnyg gan gyhoeddwr anturiaethus—dysgedigion penaf Cymru yn ysgrifenu iddo—dan olygiaeth gŵr sydd yn deilwng o ymddiried y genedl; a phaham na chefnogwn y Gwaith?'

**Y Traethodydd.**—'Yn wir, y mae yr holl waith, o ran cynnwys, ymddangosiad, a phris—cyfansoddiad, papur, argraphwaith, ffurf, a rhadlonrwydd—yn gyfryw ag yr ydym yn llawenychu ynddo, ac y teimlem ein hunain yn pechu yn erbyn llenyddiaeth, a chrefydd, ac anrhydedd ein cenedl, pe na byddai i ni wneyd a allwn er ei argymmhell i'w sylw, a rhoddi ein holl ddylanwad yn mhlaid ei lwyddiant.'

**Y Wasg.**—'Erioed ni huliwyd y fath wledd o ddanteithion llenyddol ger bron ein cydgenedl ag a gynnygir yn awr yn y GWYDDONIADUR.'

Digitized by Google

## Cymmeradwyaethau amryw o Hen Enwogion y Genedl i'r Argraphiad Cyntaf.

### Y Parch. JOHN JONES, Llandeilo.

'Y mae y GWYDDONIADUR yn llyfr sydd yn debyg o dynu sylw cyffredinol. Yr wyf yn penderfynu gwneyd unrhyw beth yn fy ngallu i hwyluso ei gyhoeddiad a'i gylchrediad.'

### Y Parch. DAVID MORGAN, Llanfyllin.

'Llyfr tra rhagorol, yn debyg o fod o werth ac anrhydedd mawr i lenyddiaeth Gymreig, o ran ei gynnwysiad, a'r gwaith celfyddgar sydd arno.'

### Y Parch. JOHN PHILLIPS, Bangor.

'Y mae y rhanau sydd wedi dyfod allan yn cynnwys digon o brofion y gallwn gymmeryd yn ganiataol, pan y cwblheir ef, y bydd ei gronfa o wybodaethau y fath na chafodd y Cymry o'r blaen.'

### Y Parch. THOMAS PHILLIPS, Llundain.

'Y mae y gwaith yn dra theilwng o gefnogaeth oddi wrth bawb sydd yn dymuno yn dda i'w gwlad a'u cenedl.'

### Y Parch. THOMAS PRICE, Aberdar.

'Yr oedd yn llawen iawn genyf weled yr hysbysiad cyntaf am Y GWYDDONIADUR CYMREIG; a da genyf chwanegu fod y llawenydd hyny wedi cynnyddu yn fawr iawn wrth ganfod y dull a'r modd y mae y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen. Yr wyf o galon yn dymuno i chwi bob llwyddiant gyda y fath anturiaeth bwysig.'

### Y Parch. HENRY REES, Liverpool.

'Hyderaf y bydd gan y dyn a feddianno Y GWYDDONIADUR gyfaill gwybodus a pharod yn ei ymyl i ymgynghori âg ef, ac i gael hysbysrwydd a chyfarwyddyd ganddo bron ar bob mater ag y gall dyn feddwl am dano.'

### Y Parch. THOMAS REES, Cendl.

'Bydd pob Cymro, a fedr, ond a esgeulusa ei dderbyn, yn ymddwyn yn eithaf anwladgarol, ac yn euog o daflu diystyrwch pechadurus ar y wybodaeth deilyngaf o sylw dyn.'

### Y Parch. WILLIAM REES, Liverpool.

'Y fantais benaf a gynnygiwyd erioed yn ein hiaith, hyd yn hyn, i gyrhaedd trwyddi gydnabyddiaeth â phob cangen o wybodaeth gyffredinol, ydyw Y GWYDDONIADUR..........Daeth allan fel cawr grymus.'

### Y Parch. SAMUEL ROBERTS, Llanbrynmair.

'Dylai pob dyn ieuangc, gyda'r meddwl cyntaf am gael tŷ a theulu, feddwl, hefyd, am gael Y GWYDDONIADUR i'w deulu, os bydd ynddo ddim awydd am iddynt 'weithio eu ffordd' yn anrhydeddus mewn unrhyw gylch o ddefnyddioldeb.'

### Y Parch. WILLIAM ROBERTS, Amlwch.

'Y mae y gwaith hwn yn ddigon *capable* i siarad drosto ei hun wrth bawb a'i darlleno. Gobeithiaf y cewch chwi a Mr. Parry estyniad oes i orphen y gwaith; yr hyn a fyddai i ni yn 'fywyd o feirw.'

### Y Parch. OWEN THOMAS, Llundain.

'Y mae yn ymddangos i mi y bydd, pan ei gorphener, yn drysor ammhrisiadwy i Gymru. Y mae yn cyflenwi yn hollol ddiffyg mawr oedd, hyd yma, yn aros yn ein llenyddiaeth.'

### Y Parch. T. THOMAS, Athrofa Pont-y-pool.

'Gallaf ddyweyd yn hyderus a chydwybodol fy mod yn edrych ar y gwaith hwn, os ä yn mlaen fel y mae wedi dechreu, fel y rhagoraf yn yr iaith Gymraeg.'

### The Very Rev. JOHN WILLIAMS, Archdeacon of Cardigan.

'It seems to me a Work of great promise.........I can conscientiously bid you good speed in the work, which seems to me as sound in doctrine as it is unsectarian in principle'

### The Rev. JOHN OWEN, Rural Dean, Thrussington.

'It appears to me, after having perused the two first parts, that the work is *exceedingly* wel executed. When finished, it will be an *invaluable* treasure to the Welsh people.'

Digitized by Google

# CYNNWYSIAD Y GYFROL GYNTAF.

Ymddengys Erthyglau yn y tudalenau hyn ar wahanol Wledydd y Byd, &c., gyda ffigyrau â llythyrenau wrthynt, megys *Abyssinia*, N 100; *Æolia*, O 385, &c. Wrth ddefnyddio y cynllun hwn, yr ydym yn gallu rhoddi y manylion diweddaf am danynt ynglyn â'r Mapiau y perthynant iddynt.

Yn tudal. 8, ceir Erthyglau o'r un natur, sydd yn syrthio dan lythyrenau pellach o'r wyddor, megys *Tripoli*, O 100; *Penrhyn Gobaith Da*, U 100; y rhai a roddir yn mysg yr uchod o herwydd yr un rheswm.

Yn y gyfrol ddiweddaf, bydd *Taflen lawn* o'r holl Erthyglau fydd yn y Gwaith, wedi eu trefnu yn ol y wyddor, fel y bydd yn hawdd cael pob Erthygl fydd ynddo, yn mha gyfrol bynag yr ymddengys.


| | Tudal. |
|---|---|
| Aalar ... ... | 1 |
| Aarim Gwel Harim | 1 |
| Aaron ... ... | 1 |
| Aaroniaid ... ... | 3 |
| Ab ... ... ... | 3 |
| Abacuc Gwel Habacuc | 4 |
| Abad Gwel Mynach | 4 |
| Abades Gwel Abad | 4 |
| Abadir ... ... | 4 |
| Abadias, Abdias ... | 4 |
| Abadon ... ... | 4 |
| Abagtha ... ... | 4 |
| Abal ... ... ... | 4 |
| Aban ... ... | 4 |
| Abana ... ... | 4 |
| Abarim ... ... | 4 |
| Abaris ... ... | 4 |
| Abaron ... ... | 6 |
| Abatty ... ... | 6 |
| Abba ... ... | 6 |
| Abda ... ... | 6 |
| Abdi ... ... ... | 6 |
| Abdias ... ... | 6 |
| Abdiel ... ... | 6 |
| Abdon ... ... | 6 |
| Abedmelech Gwel Ebed-melech ... ... | 6 |
| Abednego ... ... | 6 |
| Abel ... ... ... | 7 |
| Abel ... ... ... | 9 |
| Abel-beth-Maachah ... | 9 |
| Abel-Carmain ... ... | 9 |
| Abel-Maim Gwel Abel-beth-Maachah ... | 9 |
| Abel-Meholah ... .. | 9 |
| Abel-Misraim ... ... | 9 |
| Abel-Sittim ... ... | 9 |
| Abeliaid *Abelians*, neu *Abelites* ... ... | 10 |
| Aber ... ... ... | 10 |
| Aberth ... .. | 10 |
| Abes ... ... ... | 14 |
| Abesta ... ... | 14 |
| Abgarus, neu Agbarus ... | 14 |
| Abi ... .. ... | 14 |
| Abiah ... ... | 14 |
| Abialbon ... .. | 14 |
| Abiasaph ... ... | 14 |
| Abiathar ... ... | 14 |
| Abib ... ... ... | 15 |
| Abida ... ... | 15 |
| Abidan ... ... | 15 |
| Abiel ... ... | 15 |
| Abiezer ... ... | 15 |
| Abi-esriad ... ... | 15 |
| Abigail ... ... | 15 |
| Abihail ... ... | 16 |
| Abihu ... ... | 16 |
| Abihud Gwel Abiud | 19 |
| Abila, neu Abela ... | 16 |
| Abilene ... ... | 16 |
| Abimael ... ... | 16 |
| Abimelech ... ... | 16 |
| Abinadab ... ... | 17 |
| Abinoam ... ... | 17 |
| Abiram ... ... | 17 |
| Abiram ... Abiron | 17 |
| Abisag ... ... | 17 |
| Abisai ... .. | 17 |
| Abisalom ... ... | 18 |
| Abisei Gwel Abisua | 18 |
| Abisidariaid *Abecedarians* | 18 |
| Abisua ... ... | 18 |
| Abisun ... .. | 18 |
| Abisur ... ... | 19 |
| Abital ... ... | 19 |
| Abitub ... ... | 19 |
| Abiud ... ... | 19 |
| Abner ... ... | 19 |
| Abracadabra ... ... | 19 |
| Abracas, Abracsas, neu Abrasacs ... ... | 19 |
| Abram, Abraham ... | 20 |
| Abraham, Mynwes ... | 26 |
| Abrahamiaid ... ... | 26 |
| Abrec ... ... | 26 |
| Abred ... ... | 27 |
| Absalom ... ... | 30 |
| Absalom, Lle ... ... | 32 |
| Absen Gwel Enllib | 33 |
| Abstinentiaid ... *Abstainers* | 33 |
| Abubus ... ... | 33 |
| Abumah ... ... | 33 |
| Abwna ... ... | 33 |
| Abwydyn ... ... | 33 |
| Abyssinia ... | N 100 |
| Abyssinia, neu Habesh ... | 33 |
| Abyssinia, Eglwys ... | 34 |
| Acaciaid *Acacians*, neu *Acatiani* ... ... | 36 |
| Academiaid ... *Academics* | 36 |
| Acale ... ... | 37 |
| Accad ... ... | 37 |
| Accaron ... ... | 38 |
| Accos ... ... | 38 |
| Accub ... ... | 38 |
| Accupha ... ... | 38 |
| Accho ... ... | 38 |
| Aceldama ... ... | 38 |
| Acephaliaid ... *Acephali* | 39 |
| Acithio ... ... | 39 |
| Acoemetiaid ... ... | 39 |
| Acolythiaid ... *Acolythists* | 39 |
| Acra Gwel Accho | 39 |
| Acrabattene ... ... | 39 |
| Acrabbim ... ... | 39 |
| Acrabi, neu Acraba ... | 39 |
| Actau ffugiol Crist ... | 39 |
| Actau ffugiol yr Apostolion.. | 42 |
| Actau Pilat ... | 43 |
| Actau y Saint *Acta Sanctorum* ... ... | 41 |
| Actau yr Apostolion ... | 45 |
| Acua Gwel Accub | 48 |
| Acwariaid ...*Aquarians* | 48 |
| Acwila ... ... | 48 |
| Ach ... ... ... | 48 |
| Achaia ... ... | 48 |
| Achaia ... | O 385 |
| Achaicus ... ... | 49 |
| Achan, Achar ... ... | 49 |
| Achaz ... ... | 49 |
| Achbor ... ... | 50 |
| Achiacharus Gwel Achior | 50 |
| Achim ... ... | 50 |
| Achimelech ... ... | 50 |
| Achior, neu Achiacharus ... | 50 |
| Achiram ... ... | 50 |
| Achis ... ... | 50 |
| Achisamach ... ... | 51 |
| Achlysur ... ... | 51 |
| Achmetha ... ... | 51 |
| Achor ... ... | 52 |
| Achos ... ... | 52 |
| Achsah ... ... | 54 |
| Achsaph ... ... | 54 |
| Achub ... ... | 54 |
| Achubydd, Achubwr ... | 54 |
| Achwyn—ion ... ... | 55 |
| Achzib ... ... | 55 |
| Adad Gwel Hadad-rimmon | 55 |
| Adadah ... ... | 55 |
| Adadezer Gwel Hadadezer | 55 |
| Adadrimon Gwel Hadad-rimmon ... ... | 55 |
| Adah ... ... | 56 |
| Adaiah ... ... | 56 |
| Adalia ... ... | 56 |
| Adam ... ... | 56 |
| Adamah Gwel Adam; Admah ... ... | 56 |
| Adamant ... ... | 56 |
| Adami Gwel Adam | 56 |
| Adan ... ... | 56 |
| Adar (person) ... ... | 56 |
| Adar (dinas) ... ... | 56 |
| Adar (mis) ... ... | 56 |
| Adar Gwel Aderyn | 56 |
| Adarsa, neu Adasa ... | 56 |
| Adarwr—wyr ... ... | 56 |
| Adbeel ... ... | 57 |
| Adbiel, neu Abdiel ... | 57 |
| Ad-daledigaeth ... ... | 58 |
| Adeilad, Adeilyddiaeth. Gwel Tŷ; Teml ... ... | 58 |
| Adeilyddiaeth Eglwysig ... | 58 |
| Aden Gwel Arad | 60 |
| Adenedigaeth Gwel Ailenedigaeth ... ... | 60 |
| Ader ... ... ... | 61 |
| Aderyn ... ... | 61 |
| Aderyn aflan ... ... | 61 |
| Aderyn brith ... ... | 62 |
| Aderyn y bwn, Aderyn y bwmp, Bwmp y gors ... | 62 |
| Aderyn y corph Gw. Dylluan | 63 |


Digitized by Google

Tudal.

Aderyn y tô ... ... 63
Adessenariaid *Adessenarians* 63
Adfent ... ... 65
Adferiad ... ... 65
Adferiaid *Restorationists* 66
Adfesur ... ... 67
Adfyd ... ... 67
Adfywiad Crefyddol Gwel Diwygiad Crefyddol ... 67
Adgenhedliad Gwel Ail-enedigaeth ... ... 67
Adgyfodiad Crist Gwel Crist 67
Adgyfodiad cyffredinol ... 67
Adgyweiriad ... ... 71
Adgyweirio ... ... 74
Adi ... ... ... 74
Adiabene ... ... 74
Adiaphoriaid *Adiaphorists* 74
Adida ... ... 74
Adiel ... ... 74
Adin... ... ... 74
Adina ... ... 74
Adithaim ... ... 74
Adla, neu Adlai ... 74
Adma ... ... 74
Admael ... ... 75
Admatha ... ... 75
Adnabod ... ... 75
Adnah, neu Adna ... 75
Adnewyddu—iad ... 75
Adnod ... ... 75
Adon ... ... 76
Adonai ... ... 76
Adonia ... ... 77
Adoniah ... ... 77
Adoniaid ... *Adonists* 78
Adoni-Bezec ... ... 78
Adonicam ... ... 78
Adoniram ... ... 78
Adonis ... ... 78
Adonisedec ... ... 78
Adora ... ... 79
Adoraim ... ... 79
Adoram ... ... 79
Adrammelech ... ... 79
Adramytium ... ... 79
Adria, Hadria ... *Adriatic* 79
Adrian Gwel Hadrian 79
Adriel ... ... 79
Adroddiad ... ... 79
Adsain ... ... 79
Adulam ... ... 79
Adummim, neu Adommim... 80
Adwaen ... ... 80
Adwy—on ... ... 80
Adytum ... ... 80
Adda ... ... 81
Addafiaid ... ... 84
Addas—rwydd ... ... 84
Addewid—ion ... ... 84
Addfed—u ... ... 86
Addfwyn—der ... ... 86
Addoldy—ai ... ... 87
Addoli ... ... 88
Addoliad Cythreuliaid ... 92
Addoliad Delwau Gwel Delwaddoliaeth ... 93
Addoliad Seintiau Gwel Seintiolaeth ... ... 93
Adduned—au ... ... 93
Addunedau Mynachaidd ... 93
Addysg ... ... 93
Ael—iau ... ... 94
Ælia Capitolina... ... 94
Aelodau ... ... 94
Aelodaeth Eglwysig Gwel Eglwys ... ... 94
Aelwyd—ydd ... ... 94
Aeneas ... ... 95
Æolia ... O 385

Aeoniaid ... ... 95
Aeriaid ... *Aerians* 95
Aeron ... ... 95
Aetiaid ... *Aetians* 95
Aethnen, Aethwydd ... 95
Afa ... ... ... 96
Afal—au ... ... 96
Afalwydden, Afallen ... 96
Afen Gwel Bethafen 96
Afiaid Gwel Hefiaid 96
Afith.. ... ... 96
Aflafar ... ... 96
Aflanhau ... ... 96
Aflendid ... ... 96
Afles... ... ... 97
Afluniaidd ... ... 97
Aflwydd ... ... 97
Afon—ydd Gwel Mynyddoedd 98
Afradlawn ... ... 99
Afrlladen ... ... 99
Afu ... ... ... 99
Affaith (ffaith) ... ... 99
Affghaniaid ... *Affghans* 99
Affghanistan ... G 387
Affrica ... ... 100
Affrica — Cyfeiriadau Ysgrythyrol ati, &c. Y 100
Affrica Ddeheuol T 100
Affrica Ddwyreiniol X 100
Agaba ... Y 100
Agabus ... Y 100
Agag... ... Y 100
Agagiad ... ... 101
Agareniaid, neu Hagariaid *Hagarenes* ... ... 101
Agat, Acat ... ... 101
Age ... ... ... 101
Agen—au ... ... 101
Agenda ... ... 101
Aggeus ... ... 101
Agnus Dei ... ... 101
Agonisticiaid ... *Agonistici* 102
Agonyclitiaid ...*Agonyclitæ* 102
Agoriad ... ... 102
Agrippa ... ... 102
Agur... ... ... 102
Agwedd—au ... ... 103
Angel ... ... 106
Angel yr Arglwydd ... 108
Angel yr Eglwys ... 109
Angeliaid ... *Angelites* 109
Angeligion ... *Angelics* 109
Angenad neu Angenan ... 109
Angenoctyd ... ... 110
Angenrheidrwydd, ac Angenrheidiaid *Necessity, and Necessarians* ... ... 110
Angerdd—ol ... ... 112
Angeu Gwel Marwolaeth 113
Anghariad ... ... 113
Anghrediniaeth ... *Unbelief* 112
Anghrist ...*Antichrist* 114
Anghydffurfiaeth *Nonconformity* ... ... 114
Anghydoligion neu Anghatholigion ... *Acatholici* 118
Anghyfannedd—ol—rwydd.. 118
Anghyfanneddle—oedd ... 118
Anghyfiaith ... ... 118
Anghyfiawn—der ... 118
Anghyfleus ... ... 119
Anghyfraith ... ... 119
Anghyfunwyr ... *Dissidents* 119
Anghyffelybiaid...*Anomœans* 119
Anghymmedroldeb ... 119
Anghymmeradwy ... 120
Angladd Gwel Claddedigaeth ... ... 121
Angor—au ... ... 121

Ahab ... ... 122
Ahafa ... .. 122
Aharah ... ... 123
Aharhel ... ... 123
Ahasbai ... ... 123
Ahasferus ... ... 123
Ahaz Gwel Achaz 124
Ahaziah ... ... 123
Ahaziah, neu Jehoahaz ... 124
Aher... ... ... 124
Ahi ... ... ... 124
Ahiah ... ... 124
Ahian ... ... 124
Ahicam ... ... 124
Ahiezer ... ... 125
Ahihud ... ... 125
Ahimaas ... ... 125
Ahiman ... ... 125
Ahimelech Gwel Achimelech ... ... 125
Ahimoth ... ... 125
Ahinadab ... ... 125
Ahinoam ... ... 125
Ahio... ... ... 125
Ahira ... ... 125
Ahiram ... ... 125
Ahisahar ... ... 125
Ahisar ... ... 125
Ahitophel ... ... 125
Ahitub ... ... 126
Ahoah ... ... 126
Ahohiad ... ... 126
Aholah ac Aholibah ... 126
Aholiab ... ... 126
Aholibamah ... ... 126
Ahumai ... ... 126
Ahuzam ... ... 126
Ahuzzath ... ... 126
Ai ... ... Gwel Hai 126
Aiah... ... ... 126
Aialon, neu Ajalon ... 126
Aiath Gwel Hai 126
Aieleth-Hasahar ... 127
Ailenedigaeth ... *Regeneration* ... ... 127
Ail-ennyn ... ... 132
Ail-fedyddwyr *Anabaptists* 132
Aill ... ... ... 133
Ain ... ... ... 133
Ainon ... ... 133
Aipht ... L 100, a 133
Aktistetiaid ... *Aktistetæ* 148
Alabaster ... ... 148
Alaeth ... ... 148
Alai ... ... ... 148
Alammeth ... ... 148
Alammelech ... ... 148
Alamoth ... ... 148
Alarwm. Gwel Larwm. 148
Alascaniaid, Alasciaid. *Alascani* ... ... 148
Alban ... ... 149
Albaniensiaid, Albaniaid. *Albanois* ... ... 150
Albatiaid ... *Albati* 150
Albigensiaid ... *Albigenses* 153
Alcam neu Alcan ... 153
Alcimus, neu Iacimus ... 153
Alcoran, neu Coran *Koran* 153
Alch—au ... ... 155
Aled, Tudur ... ... 155
Alegori ... ... 156
Aleliwia ... ... 156
Aleniaid ... *Allenites* 156
Aleph ... ... 156
Alexander ... ... 156
Alexander Jannæus ... 162
Alexandria, Alexandreia, Alexandrea ... ... 162
Alexandrium ... ... 166


Digitized by Google

| | Tudal. |
|---|---|
| Apostolaidd, Canonau *Apostolic Canons* ... | 272 |
| Apostolaidd, Y Sefydliadau *Apostolic Constitutions* | 278 |
| Apostolaidd, Y Tadau *Apostolic Fathers* ... | 281 |
| Apostolaidd, Yr Oes ... | 273 |
| Apostoligion ... *Apostolici*, neu *Apostolics* | 281 |
| Apostooliaid *Apostoolians* | 282 |
| Apotactiaid ... *Apotactitæ* | 282 |
| Apothecari—esau—aid ... | 282 |
| Apphia ... | 283 |
| Appii-Forum ... | 282 |
| Appwyntiad Eglwysig Gwel Bywoliaeth Eglwysig | 283 |
| Appwyntio ... | 283 |
| Apharsathchiaid, neu Apharsachiaid *Apharsathchites* | 283 |
| Aphec ... | 283 |
| Apheremah ... | 283 |
| Aphetor ... | 283 |
| Aphic ... | 283 |
| Aphrah ... | 283 |
| Aphrodite ... | 283 |
| Ar ... | 284 |
| Ar, Arddu, Arddwr ... | 284 |
| Arabaeg ... | 284 |
| Arabah ... | 284 |
| Arabia, Arabiaid, Arabaeg ... | 284 |
| Arabia ... | F 385 |
| Arabigiaid *Arabici, Arabii* | 291 |
| Arabus ... | 291 |
| Arad... ... | 291 |
| Arad... ... | 291 |
| Aradr ... | 291 |
| Aradus ... | 292 |
| Araf—wch ... | 292 |
| Arafnah, neu Ornan ... | 292 |
| Arail... ... | 292 |
| Aralleg Gwel Dammeg, Deongliadaeth | 292 |
| Aralleiriad Gwel Alleiriad | 292 |
| Arain, neu Aramæa ... | 292 |
| Aramaeg ... | 293 |
| Aran... ... | 294 |
| Ararat ... | 294 |
| Arba, neu Caer Arba ... | 296 |
| Arbaces ... | 296 |
| Arbathiad ... | 297 |
| Arbela, neu Arbah-el ... | 297 |
| Arbiad ... | 297 |
| Arbonai ... | 297 |
| Arcas ... | 297 |
| Arci ... ... | 297 |
| Arciad ... | 297 |
| Arcturus ... | 297 |
| Arch Gwel Gweddi | 297 |
| Arch Noah ...Gwel Noah | 301 |
| Arch y cyfammod ... | 297 |
| Archangel ... | 301 |
| Archau, Llys yr... *Court of Arches* ... | 303 |
| Archddiacon ... | 304 |
| Archelaus ... | 305 |
| Archesgob, Archesgobaeth ... | 305 |
| Arch-henuriad ... | 308 |
| Archimandriad ... | 308 |
| Archippus ... | 308 |
| Archoffeiriad ... | 308 |
| Archoffeiriadaeth ... | 309 |
| Archoll—ion—edig ... | 310 |
| Archontiaid ... | 310 |
| Archsynagogydd ... | 310 |
| Archwaeth—u ... | 310 |
| Ardalus ... | 310 |
| Ardath ... | 310 |
| Ardreth—ol—u... ... | 310 |
| Ardderchog—rwydd ... | 310 |
| Arddodiad dwylaw ... | 311 |
| Aredig ... | 311 |
| Areithfa ... | 312 |
| Areli... ... | 313 |
| Areopagus ... | 313 |
| Ares ... ... | 313 |
| Aretas ... | 313 |
| Arethusa ... | 314 |
| Arf—au—ogaeth ... | 314 |
| Arfad ... | 319 |
| Arfadiaid ... | 319 |
| Arfaeth *Purpose, Decree* | 319 |
| Arffed ... | 326 |
| Arffedog—au ... | 326 |
| Argae ... | 326 |
| Argentinus ... | 326 |
| Arglwydd ... | 326 |
| Arglwyddes ... | 327 |
| Arglwyddiaeth ... | 327 |
| Argob ... | 328 |
| Argoel ... | 328 |
| Argraff ... | 328 |
| Argyfenw, neu Argyfenwad. | 328 |
| Argyhoedd—i—iad, *Conviction, Reproof* ... | 328 |
| Argyweddu ... | 330 |
| Arhoed ... | 330 |
| Ariaid ... *Arians* | 330 |
| Arian ... | 332 |
| Arian bathol ... | 332 |
| Arian y deyrnged ... | 335 |
| Ariangarwch ... | 335 |
| Arianwen ... | 336 |
| Arias Montanus Benedictus.. | 336 |
| Aridai, neu Aridæus ... | 337 |
| Arie, neu Aria ... | 337 |
| Ariel ... | 337 |
| Arimanes, neu Areimanios ... | 337 |
| Arimathea ... | 337 |
| Arioch ... | 339 |
| Aristarchus ... | 339 |
| Aristeus ... | 339 |
| Aristides ... | 339 |
| Aristobulus ... | 339 |
| Aristobulus y Cristion ... | 340 |
| Aristotle ... | 341 |
| Arlais ... | 348 |
| Arloesi ... | 348 |
| Arlwy—o ... | 348 |
| Armagedon ... | 348 |
| Armenia ... | 350 |
| Armenia, Eglwys ... | 350 |
| Armeniaeg ... | 351 |
| Armeniaeg, Cyfieithiad ... | 352 |
| Arminius, Arminiaeth *Arminianism* ... | 352 |
| Armon ... | 355 |
| Arnaddynt ... | 356 |
| Arnan ... | 356 |
| Arnauld, Antoine ... | 356 |
| Arndt, Iohann ... | 357 |
| Arnobius ... | 357 |
| Arnold o Brescia ... | 360 |
| Arnold, Thomas, D.D. ... | 358 |
| Arnoldiaid ... *Arnoldists* | 360 |
| Arnoldiaid Gw. Waldensiaid | 360 |
| Arnon ... | 360 |
| Aroer ... | 360 |
| Arogl—i—iad ... | 361 |
| Arogldarth—u ... | 362 |
| Arom, neu Aroma ... | 362 |
| Aron, neu Aaron ... | 362 |
| Aros ... ... | 363 |
| Arpad, neu Arphad ... | 363 |
| Arphaxad ... | 363 |
| Arsa .. ... | 378 |
| Arsaces ... | 363 |
| Arswyd ... Gwel Ofn | 363 |
| Artaxerxes, neu Artachshast | 363 |
| Artaxerxes Law Hir *Longimanus* ... | 364 |
| Artaxerxes Ochus ... | 365 |
| Artemas ... | 365 |
| Artemis Gwel Diana | 365 |
| Artimon, Artimoniaid Gwel Gwrthdrindodiaid ... | 365 |
| Artotyriaid Gwel Moritaniaid ... | 365 |
| Arth... ... | 365 |
| Arthur ... | 366 |
| Aruboth ... | 372 |
| Arumah ... | 372 |
| Arwisg—o ... | 372 |
| Arwyddion ... | 372 |
| Arwyddlun—iau ... | 373 |
| Arwyl—ion ... | 376 |
| Arwystli Gloff ... | 377 |
| Arwystli Hen ... | 377 |
| Asa ... ... | 378 |
| Asadias ... | 378 |
| Asael ... | 378 |
| Asaf, neu Asaph ... | 378 |
| Asahel ... | 379 |
| Asaiah ... | 378 |
| Asamoglaniaid, neu Agemoglaniaid ... | 379 |
| Asan... ... | 379 |
| Asanias ... | 379 |
| Asaph ... | 379 |
| Asarelah ... | 379 |
| Asaria, neu Azariah ... | 379 |
| Asarias ... | 379 |
| Asbazareth ... | 379 |
| Asbel ... | 379 |
| Ascalon, neu Ascelon ... | 379 |
| Ascension, Ynys | Y 100 |
| Asceticiaid ... *Ascetics* | 380 |
| Ascitiaid, neu Ascodrogitiaid *Ascites*, neu *Ascodrogrites* | 382 |
| Asclepidotiaid *Asclepidotæans* ... | 382 |
| Ascodrutiaid ...*Ascodrutes* | 382 |
| Aschenas ... | 382 |
| Asdod, neu Azotus ... | 382 |
| Asdodiaeg ... | 383 |
| Asdoth-Pisgah ... | 383 |
| Asebebia ... | 383 |
| Asebia ... | 383 |
| Asen—au ... | 383 |
| Asenath, neu Asnath ... | 383 |
| Aser ... ... | 384 |
| Aser, Llwyth ... | 384 |
| Asgad ... | 384 |
| Asia ... ... | 384 |
| Asia Leiaf ... | M 385 |
| Asia, Saith Eglwys | N 385 |
| Asia, Ynysoedd... | K 385 |
| Asiarch ... | 386 |
| Asideaid ... | 386 |
| Asiel... ... | 387 |
| Asima, neu Asimath ... | 387 |
| Asio ... ... | 387 |
| Asipha ... | 387 |
| Asmafeth, neu Azmafeth ... | 387 |
| Asmodeus ... | 387 |
| Asmon ... | 387 |
| Asmoneaid ...*Asmonæan Dynasty* ... | 387 |
| Asna, neu Esna... ... | 388 |
| Asnappar ... | 389 |
| Asor ... ... | 389 |
| Asp ... Gwel Neidr; Sarff | 389 |
| Aspatha ... | 389 |
| Aspenaz ... | 389 |
| Asphar ... | 389 |
| Assassiniaid *Assassinians* | 389 |
| Assemani ... | 391 |
| Asser, neu Ashi, neu Rav Ashe ... | 391 |
| Asser, neu Asker, neu Asserius Menevensis ... | 391 |


Digitized by Google

Tudal.
Assideaid Gwel Asideaid 393
Assidiaid *Assidian Jews* 393
Assos ... ... 393
Assur Gwel Assyria 394
Assuriaid ... *Ashurites* 394
Assyria ... ... 394
Assyria, Ymherodraeth ... 395
Astalch, neu Aestalch ... 396
Astaroth, neu Asteroth Carnaim ... ... 396
Astath ... ... 396
Astoreth, Astaroth, neu Astarte ... ... 396
Astronomyddiaeth Gwel Ser, Seryddiaeth ... 397
Astronomyddion Gwel Ser, Seryddiaeth ... 397
Astud—rwydd ... ... 397
Astyllen, neu Estyllen, neu Asdell ... ... 397
Asuppim ... ... 397
Asuran ... ... 397
Asuritiaid ...*Assuritans* Gwel Donatiaid ... 397
Aswy ...Gwel Llaw 397
Asymiaid ... *Asymians* 397
Asyn ... ... 398
Atad... ... ... 401
Atalia, Attaleia... ... 402
Atargatis, neu Atergatis ... 402
Atariaid ... ... 402
Ataroth ... ... 402
Ateb ... ... 402
Ateb Cydwybod dda ... 402
Ater... ... ... 402
Atolwg—ygu ... ... 402
Attai ... ... 403
Attal ... ... 403
Attalus ... ... 403
Atterbury, Francis ... 404
Attwf ... ... 405
Athaliah ... ... 405
Athanasius ... ... 405
Athanasius, Credo ... 409
Atheistiaeth ... *Atheism* 410
Athen ... ... 413
Athenagoras ... ... 416
Athias, Joseph ... ... 417
Athociaid ... *Athocians* 417
Athos ... ... 417
Athraw ... ... 418
Athrawiaeth ... ... 418
Athrawiaethau, Hanes *History of Doctrines* ... 418
Athrist ... ... 422
Athrodwr ... ... 422
Athrofa ... *Academy* 422
Athroniaeth ...*Philosophy* 423
Athrywynwr ... ... 428
Audeaid, neu Audiaid *Audæans*, neu *Audiani* ... 428
Audientiaid ... *Audientes* 428
Augusti, Christian Johann Wilhelm ... ... 428
Augustus ... ... 429
Aur ... ... ... 431
Avatar, neu Avatara ... 431
Ave Maria ... ... 433
Awdurdod—au ... ... 433
Awel ... ... 434
Awenau ... *Muses* 434
Awr ... ... ... 435
Awstin Aurelius Augustinus 436
Awstin ... *Augustine* 444
Awstiniaid *Augustinians* 445
Awydd—fryd—us ... 446
Awyr ... ... 446
Azazel ... ... 452
Azecah ... ... 452
Aziza ... ... 452

Tudal.
Aznoth Tabor ... ... 452
Azotus Gwel Asdod 452
Azza... ... ... 452

Baal, Bel ... ... 453
Baalah ... ... 455
Baalath ... ... 455
Baalath-Beer ... ... 455
Baal-Bek, neu Balbek Gw. Baal-Gad ... ... 455
Baal-Berith, neu Baal-Brith 455
Baal-Gad ... ... 455
Baal-Hamon ... ... 458
Baal-Hanan ... ... 458
Baal-Hazor ... ... 458
Baal Hermon .. ... 458
Baali ... ... 458
Baalim ... ... 458
Baalis ... ... 458
Baal-Meon, neu Beth-Baal-Meon, neu Beth-Meon ... 458
Baal-Peor, Baal-Phegor ... 458
Baal-Perazim ... ... 458
Baal-Salisa .. ... 458
Baal-Samen ... ... 458
Baal Sephon, neu Baal-Tsephon ... ... 458
Baal-Tamar ... ... 459
Baaltis ... ... 459
Baal-zebub, neu Beelzebub .. 459
Baanah ... ... 459
Baanias ... ... 460
Baara ... ... 460
Baasa ... ... 460
Baban—od ... ... 460
Babel, Tŵr ... ... 460
Babilon ... ... 462
Babilonia ... ... 470
Baca, a Becaim ... ... 472
Baca... ... ... 472
Bacbaccar ... ... 472
Bacbuc ... ... 472
Bacbuciah ... ... 472
Bacchus ... ... 473
Bacon, Roger ... ... 475
Bacon, Francis ... ... 477
Bach ... ... 473
Bach ... ... 474
Bachgen ... ... 475
Bachgenaidd ... ... 475
Bachgenes ... ... 475
Bachigyn ... ... 475
Bâd .. Gwel Llong 489
Baedd ... ... 489
Baglog ... ... 490
Bagnoleniaid ... ... 490
Bagoas, Bagous ... ... 490
Baharumiad, a Barhumiad... 491
Bahurim ... ... 491
Bai, Beiau—o—us ... 491
Baich ... ... 491
Baith ... ... 491
Balaam ... ... 491
Balac ... ... 493
Baladan ... ... 493
Balah ... ... 493
Balanus ... ... 493
Balchder Gwel Gostyngeiddrwydd ... ... 493
Balm ... ... 493
Balthasar ... ... 494
Ballegrwyd ... ... 494
Bama, neu Bamah ... 494
Bamoth ... ... 494
Baner ... ... 494
Bangor ... ... 496
Bangor Aidan ... ... 521
Bangor Asaf :—Llanelwy, *St. Asaph* ... ... 513
Bangor Catwg ... ... 497

Tudal.
Bangor Beuno :—Clynnog Fawr yn Arfon ... ... 519
Bangor Cadfan :—Bangor Enlli 501
Bangor Cennydd ... 521
Bangor Cybi :—Caergybi ... 512
Bangor Dathan ... ... 520
Bangor Deiniol :—Bangor, sir Gaernarfon ... ... 506
Bangor Dewi :—St. David's.. 517
Bangor Dunawd :—Bangor is y Coed ... ... 504
Bangor Dyfrig :—Caerlleon ar Wysg ... ... 501
Bangor Eurdeyrn ... 521
Bangor Gyngar ... ... 520
Bangor Illtyd ... ... 598
Bangor Padarn ... ... 511
Bangor Seiriol :—Bangor Penmon ... ... 520
Bangor Teilo :—Llandaf ... 500
Bangor y Tŷ Gwyn ar Daf... 504
Bangor Wydrin ... ... 518
Bani... ... ... 521
Bannod Groeg Gwel Groeg 521
Bar ... ... ... 521
Bara .. ... ... 521
Bara Gosod ... ... 523
Barabbas ... ... 523
Barac ... ... 523
Barachiah, Barachias ... 524
Baralotiaid ... *Barallots* 524
Barbariad ... ... 524
Barbary, Talaethau o 100
Barcer ... ... 524
Barclay, Robert... ... 524
Barcos ... ... 525
Barcud ... ... 525
Bardesaniaid *Bardesanists* 525
Bardd ... ... 525
Barddas ... ... 561
Barddoniaeth ... ... 561
Barddoniaeth y Beibl ... 561
Barf ... ... ... 568
Bar-Iesu ... ... 570
Bar-Iona ... ... 570
Barlaamiaid *Barlaamites* 570
Barlys Gwel Haidd 570
Barn, Barnedigaeth, Barnu.. 570
Barn, Dydd ... ... 571
Barn Duw ... ... 577
Barnabas ... ... 577
Barnabas, Efengyl ... 578
Barnabas, Epistol ... 579
Barnabiaid ...*Barnabites* 580
Barnau Tymmorol Gwel Rhagluniaeth... ... 580
Barnwr ... ... 580
Barnwyr ... ... 581
Barnwyr, Llyfr y ... 582
Baronius, Cæsar ... 584
Barrow, Isaac ... ... 585
Barsabas ... ... 587
Bartimeus ... ... 587
Bartholomeus ... ... 587
Bartholomeus, Dydd St. ... 587
Bartholomiaid *Bartholomites* 588
Baruc, neu Baruch ... 588
Baruch, Llyfr ... ... 589
Barzilai ... ... 590
Basamath, neu Basemath ... 590
Basan ... ... 590
Basca, Bascama... ... 590
Basdardd, neu Bastardd ... 590
Basged ... ... 591
Basil ... ... 592
Basilidiaid *Basilideans* 594
Basmath, neu Basemath ... 596
Basutoland ... u 100
Bataniaid Gwel Assassiniaid ... ... 596

Digitized by Google

Tudal.
Bates, William, D.D. ... 596
Bath, Bathiant Gwel Arian 596
Bath Kol ... ... 597
Bathfa ... *Mint* 598
Bath-Rabbim ... ... 598
Bathseba ... ... 598
Baxter, Richard ... 598
Baxteriaeth *Baxterianism* 600
Bdeliwm ... ... 601
Bebai ... ... 601
Becah ... ... 601
Bechuanaland ... W 100
Bedad ... ... 601
Bede... ... ... 602
Bedydd ... ... 602
Bedydd ar Wely cystudd *Clinic Baptism* ... 623
Bedydd dros y Meirw *Baptism for the dead* ... 623
Bedydd Esgob *Confirmation* 622
Bedydd Tybiadol *Hypothetical Baptism* ... 623
Bedydd yr Ysbryd Glân ... 623
Bedd, Beddrod ... ... 623
Bedd-adeiladau ... ... 626
Beddargraff ... ... 627
Beelzebub, neu Baalzebub ... 628
Beer... ... ... 629
Beer-elim Gwel Beer, 1. 629
Beer-la-hai-roi ... ... 629
Beeroth ... ... 629
Beerseba ... ... 630
Beghardiaid *Beghards*, neu *Beguards* ... 630
Begwiniaid ... *Beguines* 631
Behmeniaid ...*Behmenists* 631
Behemoth ... ... 632
Beibl, Y ... ... 683
Beibl—yr Hen Destament ... 676
Beibl—y Testament Newydd 678
Eto eto ... ... 680
Beibl, Beirniadaeth y *Biblical Criticism* ... 655
Beibl, Cyfieithiadau y ... 645
Beibl, Y Cyfieithiad Newydd B 654
Beibl Cymraeg ... ... 634
Beibl Gymdeithas ... 640
Beibl, Y gwaharddiad i'w ddarllen yn Eglwys Rhufain ... ... 672
Beibligion *Biblici*, neu *Biblicists* ... ... 691
Beichiog—i ... ... 691
Bel ... ... ... 692
Bela ... ... ... 692
Belgium ... ... 692
Belial ... ... 694
Bellarmine, Robert ... 694
Beloochistan ... H 385
Belsassar ... ... 695
Belsham, Thomas ... 696
Beltein, neu Beltane ... 696
Beltesassar ... ... 697
Belus ... ... 698
Ben ... ... ... 698
Benaiah ... ... 698
Ben-ammi Gwel Ammon... 698
Bendecar ... ... 698
Bendifaddeu ... ... 698
Bendigedig ... ... 698
Bendith—io—ion ... 699
Benedict ... ... 700
Benedict o Nursia, a'r Benedictiaid *Benedict of Nurcia, and the Benedictines*... 701

Tudal.
Bengel, John Albert ... 704
Benhadad ... ... 707
Benhail ... ... 708
Benhinnon, Benhennon ... 708
Beniamin ... ... 708
Beniaminiaid ... .. 708
Beni Caibr ... ... 709
Benoni Gwel Beniamin 709
Benson, Joseph, A. C. ... 709
Beor ... ... 709
Bera ... ... 709
Berachia ... ... 709
Beraiah ... ... 710
Berea ... ... 710
Bereaid .. *Bereans* 710
Bered ... ... 710
Berengariaid *Berengarians* 710
Berenger, Berengarius ... 710
Bereschith ... ... 712
Beri ... ... 712
Beriah ... ... 712
Berith, neu Baratres ... 712
Berkeley, George ... 712
Bernard ... ... 714
Bernardiaid *Bernardines* 716
Bernice ... ... 717
Berosh ... ... 717
Berotha, neu Berothai ... 718
Beryl ... ... 718
Beryliaid ... *Beryllians* 719
Besor ... ... 719
Betah ... ... 719
Beten ... ... 719
Betonim ... ... 719
Beth ... ... 719
Bethabara ... ... 719
Bethacexem ... ... 719
Beth-afen ... .. 720
Bethania ... ... 720
Beth-arbel ... ... 721
Bethasmafeth ... ... 721
Beth-Baal-Meon ... 721
Beth-Dagon ... ... 721
Beth-Diblathaim ... 721
Bethel ... ... 721
Betheliad ... ... 722
Bethemec ... ... 722
Bether ... ... 722
Bethesda ... ... 722
Beth-esel ... ... 722
Beth-hogla ... ... 722
Beth-horon ... ... 722
Beth-iesimoth ... ... 723
Beth-lebaoth ... ... 723
Bethlehem ... ... 723
Bethlehemiaid ... ... 725
Beth-maus ... ... 725
Beth-nimrah ... ... 725
Bethpeor ... ... 725
Bethphage ... ... 725
Beth-phelet ... ... 725
Beth-rehob ... ... 725
Bethsaida ... ... 725
Beth-sean ... ... 725
Beth-semes ... ... 726
Beth-sittah ... .. 726
Bethsur ... ... 726
Beth-tappuah ... ... 726
Bethuel ... ... 726
Bethul ... ... 726
Bethulia ... ... 726
Beulah ... ... 726
Beuno ... ... 726
Beza, Theodore ... ... 727
Bezaleel ... ... 730

Tudal.
Bezer ... ... 730
Bidcar ... ... 730
Biddeliaid ...*Biddelians* 730
Bildad ... ... 731
Bilhah ... ... 731
Bingham, Joseph ... 731
Birmah Gwel Burmah 731
Bithron ... ... 731
Bithynia ... ... 731
Blaenffrwyth ... ... 732
Blaenor—i—aid ... 732
Blagur—o—yn ... ... 732
Blaidd ... ... 732

Canolbarth Deheuol Affrica X 100
China, Ymherodraeth ... I 385
Chios, neu Scio ... ... O 385
Corsica ... ... O 385
Creta, neu Candia ... O 385
Cyprus ... ... K 385

Derbe ... ... P 385
Dalmatia ... ... O 385

Guinea ... ... B 100

Hindustan, neu India ... I 385

Illyricum, neu Illyria ... P 385
India Bellaf *Further India* I 385
Ionia ... ... P 385

Japan ... ... I 385

Kaffraria ... ... X 100
Kordofan, &c. ... ... L 100

Madagascar ... ... X 100
Malta, neu Melita ... P 385
Mitylene, neu Mytilene ... L 385
Morocco ... ... P 100

Namaqualand, neu Gwlad yr Hottentotiaid ... T 100
Natal ... ... U 100
Nubia ... ... L 100

Penrhyn Gobaith Da ... U 100
Persia ... ... F 385

Rhodes ... ... L 385
Rwssia yn Asia ... ... I 385

Samos ... ... L 385
Scio ... ... ... L 385
Senegambia ... ... Q 100
Soudan, neu Nigritia ... Q 100
St. Helena ... ... Y 100

Teyrnas Rydd Orange ... W 100
Teyrnas Rydd y Congo ... S 100
Transvaal ... ... W 100
Trigolion Asia ... ... L 385
Tripoli, neu Tripolis ... O 100
Tunis ... ... P 100
Turkestan Orllewinol, neu Tartary Annibynol *Independent Tartary* ... H 385
Twrci ... ... D 385
Twrci yn Asia ... ... D 385

Y Sahara ... ... Q 100
Ynysoedd Kurile ... ... L 385

Zululand ... ... W 100

Digitized by Google

# Y RHAGYMADRODD.

WELE y gwaith pwysig a gwerthfawr hwn o'r diwedd oll allan o'r wasg; ac nis gallwn lai na llongyfarch y cyhoeddwr anturiaethus, a'n cenedl yn gyffredinol, ar ei orpheniad. Y mae dros bum mlynedd ar hugain, bellach, er pan y dechreuwyd ar y cyhoeddiad o hono; ac er fod rhai dyddiau tywyll iawn wedi myned drosto yn y cyfamser, etto fe'i dygwyd allan, gan mwyaf, gyda chyssondeb mawr o hyny hyd yn hyn. A phan ystyrier nodwedd uchel ac amrywiog ei gynnwysiad; trefn eiriadurol cyfléad ei erthyglau; yr anhawsder, mewn gwlad mor gyfyng a Chymru, i sicrhau gwasanaeth nifer digonol o ysgrifenwyr i ymgymmeryd yn galonog â'r gwahanol destynau, a pharotoi eu cyfansoddiadau yn brydlawn ar ei gyfer; ac, yn enwedig, pan gofier fod iechyd ei olygydd galluog ac ymroddedig wedi pallu i fesur mawr pan oedd y gwaith ar ei ganol, ac iddo gael ei gymmeryd ymaith yn gwbl rai blynyddoedd cyn ei orpheniad:—pan ystyrier hyn oll, nid peth bychan, dybygem ni, oedd ei ddwyn allan gyda'r fath gyssondeb, a'i orphen pan y gwnaed. Dichon fod rhai yn teimlo yn siomedig, os nad yn rwgnachlyd, o blegid ei fod wedi bod cyhyd heb ei gwbleiddio; ond y mae yn sicr genym y bydd y rhai mwyaf meddylgar yn mhlith ei dderbynwyr, erbyn ystyried pob peth, yn hytrach yn tueddu i synu fod y fath waith, dan y fath amgylchiadau, wedi ei ddwyn i ben o fewn y fath amser; ac yr edrychir arno ganddynt, yn awr wedi ei orphen, fel trysor o'r gwerthfawrocaf iddynt hwy eu hunain, ac i'w plant, a'u plant hwythau, am oesoedd a chenedlaethau lawer.

Y mae cylch gwybodaeth y byd yn awr mor eang, ac yn cynnwys y fath liosawgrwydd ac amrywiaeth gwrthddrychau, fel y mae yn gwbl anobeithiol i un dyn, pa mor nerthol bynag ei feddwl, a pha mor helaeth bynag ei fanteision, allu cyrhaedd cydnabyddiaeth fanwl a chyflawn, o fewn yr amser byr sydd iddo ar y ddaear, âg ond ychydig iawn mewn cymmhariaeth o honi. Fe fu amser, a hyny ar ryw olwg braidd yn ddiweddar, pryd na buasai yn anmhossibl i ddyn gael rhyw syniad, ac nid hollol arwynebol chwaith, am gydol gwybodaeth y byd, a phryd yr edrychid ar ambell un, ac nid yn gwbl anmhriodol, fel ysgolhaig cyffredinol. Ond y mae y dyddiau hyny wedi myned heibio. Y mae y cynnydd dirfawr a wnaed gan y meddwl dynol yn ystod y can mlynedd diweddaf yn ei ymchwiliadau i holl gylchoedd natur, i holl gyfnodau hanesyddiaeth, i darddiad a theithi a pherthynasau gwahanol ieithoedd, ac i syniadau crefyddol ac arferion cymdeithasol gwahanol genhedloedd, ac mewn gwahanol oesoedd, wedi helaethu cylch gwybodaeth i'r fath raddau ag i wneuthur y fath orchestwaith, erbyn hyn, yn gwbl annichonadwy, a'r ymgais at bob peth o'r fath yn hollol afresymol. Rhaid i bob dyn yn awr wneyd ei feddwl i fyny i fod yn anwybodus am lawer iawn o bethau, a cheisio ymfoddloni heb feddiannu dim tebyg i wybodaeth gyffredinol.

Yr un pryd, y mae yr awydd naturiol sydd mewn dyn am wybodaeth yn anniwalladwy, a'i allu i gynnyddu ynddi, dybygid, yn gyfattebol. Nid oes odid ddim mwy anghydnaws â'i deimlad nag anwybodaeth am rywbeth pwysig y sonier wrtho am dano, neu yr ymofyner âg ef yn ei gylch, yn enwedig os bydd yn gyfryw ag y gallesid disgwyl iddo ef fod yn ei wybod. Ac er ei fod yn deall yn dda nas gall byth gyrhaedd gwybodaeth gyflawn ond am ychydig iawn, mewn cymmhariaeth, o'r pethau sydd i'w gwybod, etto y mae mor awyddus am wybod rhyw gymmaint ynghylch y gwahanol wrthddrychau a ddelont, neu a allant ddyfod dan ei sylw, fel nas gall lai na gwerthfawrogi pa beth bynag a'i cynnorthwyo i ryw fesur tuag at hyny. Un o'r cynnorthwyon goreu tuag at gyrhaedd y fath amcan ydyw Geiriadur Cyffredinol; hyny yw, llyfr yn traethu ar amrywiol ganghenau gwybodaeth o bob math, gan gyfleu y gwahanol erthyglau yn gyfwyddorol, neu yn ol trefn llythyrenau yr iaith, yr un modd ag y trefnir y geiriau mewn geiriadur cyffredin. Y mae hyny wedi cael ei wneuthur i raddau helaeth yn yr iaith Saesneg, yn gystal ag yn y Ffrangcaeg a'r Germanaeg, ac amryw eraill o ieithoedd cyfandir Ewrop.



Digitized by Google

Y llyfr cyntaf a gyhoeddwyd yn Lloegr i'r amcan hwn, mewn cyssylltiad â'r gwyddorion a'r celfyddydau, oedd y "*Lexicon Technicum, or an Universal English Dictionary of Arts and Sciences, explaining not only the terms of Art, but the Arts themselves.*" Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn 1704, mewn un gyfrol fawr unplyg. Y mae enw NEWTON—"Mr. ISAAC NEWTON, *Master of the Mint*"—yn mhlith y tanysgrifwyr. Ei awdwr oedd y Parch. JOHN HARRIS, D.D., F.R.S. Ganwyd ef yn y fl. 1667. Dygwyd ef i fyny yn Mhrifysgol Caergrawnt. Cafodd beth dyrchafiad eglwysig. Cyhoeddodd amryw lyfrau, a rhai o honynt yn rhai helaeth iawn. Yn eu plith, y mae cyfrol o ddarlithiau yn erbyn Atheistiaeth, a draddodwyd ganddo yn 1698, mewn cyssylltiad â'r *Boyle Lecture.* Yn 1710, fe'i dewiswyd yn ysgrifenydd y Gymdeithas Frenhinol, pan oedd Syr ISAAC NEWTON yn llywydd iddi; ond cyn iddo wasanaethu yn llawn un flwyddyn, fe'i diswyddwyd, o blegid rhyw gamymddygiad anadnabyddus. Bu farw mewn dirfawr dlodi yn 1719. Y mae y geiriadur yn awr dan ein sylw, i'r amcan uniongyrchol y cyhoeddwyd ef, yn waith tra rhagorol, ac fe ennillodd boblogrwydd mawr yn fuan. Cyhoeddodd yr awdwr gyfrol newydd o "*Adgyflenwad*" iddo yn 1710; ac y mae un erthygl yn hono a ysgrifenwyd gan Syr ISAAC NEWTON. Cyn y flwyddyn 1741, yr oedd pump o argraphiadau o hono wedi eu cyhoeddi—pryd y chwanegwyd cyfrol arall adgyflenwol ato. Y mae ei gynnwysiad, gan mwyaf, erbyn hyn, fel ag y gallesid disgwyl, yn anghyfattebol i safon gwybodaeth yr oes bresennol; ond y mae yn teilyngu sylw neillduol, fel y cais cyntaf, yn y deyrnas hon, i ymdrin â'r gwyddorion a'r celfyddydau mewn ffurf geiriadurol.

Y nesaf at yr eiddo Dr. HARRIS, oedd y "*Cyclopædia, or Universal Dictionary of the Arts and Sciences,*" gan EPHRAIM CHAMBERS. Dyma y llyfr cyntaf a alwyd wrth yr enw hwn yn Lloegr; ac am flynyddoedd lawer ni chydnabyddid yr un arall yn gyfryw ond efe. Yr oedd yr awdwr yn enedigol o Kendal, yn Westmoreland. Bu farw yn y flwyddyn 1740. Fe'i rhwymwyd yn egwyddorwas gyda llyfrwerthwr, a gwneuthurwr darlunleni; ond gan ei fod wedi tynu cynllun y llyfr hwn yn ei feddwl, efe a adawodd y gorchwyl hwnw, ac a ymroddodd yn hollol i ysgrifenu. Wedi blynyddoedd o lafur caled, fe gyhoeddwyd y llyfr yn 1728, mewn dwy gyfrol fawr unplyg. Ennillodd ar unwaith y fath gymmeradwyaeth, fel ag yr etholwyd yr awdwr, yn 1729, yn aelod o'r Gymdeithas Frenhinol. Mewn llai na deng mlynedd, daeth ail argraphiad allan, gyda diwygiadau a chwanegiadau; ac wedi hyny, drydydd a phedwerydd cyn marw yr awdwr. Daeth y pummed argraphiad allan yn 1746, gyda mwy drachefn o chwanegiadau. Ac yn 1781—86, daeth argraphiad allan dan olygiad Dr. ABRAHAM REES, wedi ei helaethu i bedair o gyfrolau mawrion unplyg, a'r hen erthyglau wedi eu cywiro yn fanwl, fel ag i beri i'r gwaith gyfatteb i wybodaeth uchaf adeg y cyhoeddiad o hono. Ond o'r dechreuad, ac yn yr argraphiad mawr cyntaf o hono gan Dr. REES, y mae y gwaith yn ei gyfyngu ei hunan yn unig i'r gwyddorion a'r celfyddydau. Ac yn y cylch hwnw, fe'i cydnabyddid am y pryd, nid yn unig yn Mhrydain, ond trwy holl Ewrop, yn sefyll yn y dosbarth blaenaf.

Ar gyfieithiad o'r gwaith hwn i'r Ffrangcaeg y seiliwyd yr "*Encyclopédie*" mawr ac enwog a gyhoeddwyd yn Paris, dan olygiaeth DIDEROT a D'ALEMBERT—llyfr a roddes ei enw ar y cyfnod y perthynai iddo, ac a ennillodd y fath hynodrwydd mewn cyssylltiad â'r syniadau gwylltion ar lywodraeth, a'r syniadau anffyddol ar grefydd, a osodid allan ynddo, fel y tybir ei fod wedi gwneuthur mwy na dim arall i barotoi meddyliau y Ffrangcod i'r chwyldroad mawr a gymmerodd le yn eu gwlad yn niwedd y ganrif ddiweddaf. Dechreuwyd cyhoeddi hwn yn 1751, a gorphenwyd ef, gyda'r "*Adgyflenwad*" iddo, yn 1777, mewn tair ar ddeg ar hugain o gyfrolau mawrion unplyg—un ar ddeg o'r rhai a roddir i gerfluniau. Cyfyngid y gwaith hwn hefyd, fel yr eiddo HARRIS a CHAMBERS, i'r gwyddorion a'r celfyddydau, gyda'r chwanegiad o fasnach a llaw-weithiau, ac ychydig o enwau daearyddol; ac yn y cyfrolau adgyflenwol, ychydig o fywgraphiadau. Cydnabyddir yn gyffredinol fod y gwaith hwn yn arddangos gallu anghyffredin, yn enwedig yn y gwyddonau pur, ac yn y cymmhwysiad o honynt at wahanol ganghenau athroniaeth naturiol; ond y mae y gwenwyn Atheistaidd sydd yn treiddio drwyddo, a'r dôn isel, ddirmygus, a diystyrllyd, sydd yn hynodi pob cyfeiriad a wneir ynddo at Gristionogaeth, wedi ei wneuthur yn awr, a hyny yn hollol deilwng, yn ysgymmun cyffredinol.

Fe gyhoeddwyd drachefn yn Paris—yr hwn mewn rhan y gelliir ei olygu yn ail argraphiad o'r gwaith blaenorol, ond wedi ei helaethu yn ddirfawr, a'i drefnu mewn chwech ar hugain o wahanol ddosbarthiadau—yr "*Encyclopédie Methodique.*" Bu y gwaith hwn

Digitized by Google

hanner can mlynedd yn dyfod allan o'r wasg; sef, o'r flwyddyn 1782 hyd 1832; ac y mae yn cynnwys dau cant a saith o gyfrolau—o'r rhai y mae un ar ddeg a deugain yn cael eu rhoddi i gerfluniau. Y mae yn llawer iawn mwy rhydd oddi wrth syniadau anffyddol ac anghristaidd na'r gwaith y mae wedi ei sylfaenu arno, ac i fesur mawr wedi ei dynu o hono; ac y mae cyfrolau y blynyddoedd diweddaf o hono agos yn hollol felly. Ond nid ydyw yn ddim amgen na chwech ar hugain o eiriaduron mawrion ar wahanol destynau, a rhai o honynt yn ymestyn i liaws o gyfrolau—megys yr un ar feddygaeth, i dair cyfrol ar ddeg; ac felly, o angenrheidrwydd, pa beth bynag a ddywedir am ei ragoriaeth, y mae yn anhylaw iawn i'w ddefnyddio.

Ond y mae dechreuad y cyhoeddiadau gwerthfawr a elwir "*Cyclopædias,*" neu "*Encyclopædias*"—y rhai ag y mae y gair "GWYDDONIADUR" wedi ei gymmeryd yn y Gymraeg i'w dynodi—i'w briodoli, nid yn unig, nac yn benaf, i eiriaduron HARRIS na CHAMBERS, nac i'r "*Encyclopédie*" Ffrangcaeg, y rhai, fel y gwelsom, a gyfyngid agos yn hollol i'r gwyddorion a'r celfyddydau; ond i ddosbarth arall o eiriaduron, a elwid yn hanesyddol. Un o'r rhai cyntaf, ac un o'r rhai rhagoraf o'r cyfryw oedd, "*Le Grand Dictionnaire Historique,*" gan LOUIS MORERI, a ddygwyd allan yn gyntaf yn Lyons, yn 1674, yn un gyfrol fawr unplyg. Bu yr awdwr farw yn 1680, yn 37ain mlwydd oed, pan yn prysur barotoi ail argraphiad mewn dwy gyfrol. Helaethwyd y gwaith hwn, wedi marwolaeth yr awdwr, gan y naill olygydd ar ol y llall, fel yr oedd yr ugeinfed argraphiad, yr hwn a gyhoeddwyd yn Paris yn 1759, yn cynnwys deg o gyfrolau mawrion unplyg. Fe'i cyfieithwyd yn fuan i holl brif ieithoedd Ewrop, ac yr oedd yn mhob man yn cael lledaeniad anghyffredin. Yn y fl. 1701, cyhoeddwyd cyfieithiad o hono, gyda chwanegiadau gwerthfawr i'r iaith Saesneg, "*The Great Historical, Geographical, Genealogical, and Poetical Dictionary,*" &c., mewn dwy gyfrol fawr unplyg, gan JEREMY COLLIER. Yn y flwyddyn 1705, daeth cyfrol arall allan gan COLLIER, a elwid yn "*Adgyflenwad;*" ac yn 1721, daeth allan bedwaredd cyfrol, a elwid yn "*Attodiad.*" Y mae COLLIER yn adnabyddus fel un o'r gwŷr Eglwysig a elwid *Nonjurors*, y rhai, yn y chwyldroad yn 1688, a wrthodasant gymmeryd y llŵ o ffyddlondeb i'r brenin WILLIAM III., ac a ymffurfiasant yn blaid esgobyddol ar wahân oddi wrth yr Eglwys Wladol. Cyssegrwyd COLLIER yn esgob i'r blaid hono yn 1714—a bu farw yn 1726. Ysgrifenodd lawer iawn; ac y mae yr amrywiol gyfrolau o'i draethodau, ei "*Hanes yr Eglwys yn Mhrydain,*" ac yn neillduol ei ysgrifeniadau yn erbyn llygredigaeth ac anfoesoldeb y chwareudai yn ei ddyddiau, yn parhau yn brofion pendant o'r gallu mawr oedd yn eiddo iddo fel y cyfryw. Y mae y geiriadur hwn yn dwyn tystiolaeth amlwg i'r un peth. Am flynyddoedd lawer wedi ei gyhoeddiad cyntaf, fe'i hystyrid yn gwbl anhebgorol braidd yn mhob llyfrgell o ddim gwerth; ac y mae yn parhau yn drysorfa gyfoethog o wybodaeth ar y testynau neillduol sydd dan sylw ynddo.

Yn y flwyddyn 1677, fe ddygwyd allan yr argraphiad cyntaf mewn dwy gyfrol unplyg; ac yn 1683, fe gyhoeddwyd "*Adgyflenwad*" mewn dwy gyfrol gyffelyb; ac yn 1698, ail argraphiad, wedi ei gywiro, a'i helaethu, a chydgorphori y chwanegiadau â'r gwaith gwreiddiol, mewn pedair o gyfrolau mawrion unplyg o'r "*Lexicon Universale.*" Ond ni a roddwn yr enwad yn y Gymraeg:—"Geiriadur Cyffredinol, yn cynnwys Hanesiaeth gyssegredig a chyffredin yr holl Genhedloedd, ac yn mhob Oes; Amseryddiaeth hyd y dyddiau presennol; Daearyddiaeth hen a diweddar; Achyddiaeth y prif deuluoedd yn mhob gwlad, wedi eu chwilio allan o bob cofrestr; yn gystal a Chwedloniaeth, Defodau, Arferion, a holl Hynafiaethau y cyn-oesoedd wedi eu tynu allan o ffynnonellau ieithyddiaeth; yr Adroddiad cyflawnaf am y Gwŷr enwocaf o ran athrylith a dysgeidiaeth, heb law am enwau, natur, a phriodoliaethau Anifeiliaid, Llysiau, Mŵnau, Meini, a Gemau." Awdwr y gwaith oedd JOHN JAMES HOFFMANN, dysgawdwr Groeg yn gyntaf, ac wedi hyny hanesyddiaeth, yn Mhrifysgol Basle, yn Switzerland. Ganwyd ef yn Basle, yn 1635, a bu farw yno yn 1706—heb fod unwaith erioed, meddir, allan o'r ddinas. Y mae y gwaith hwn, hyd y dydd heddyw, yn cael ei ystyried yn nodedig o werthfawr; ac yn neillduol felly yn nghyflawnder, a manylder, a chywirdeb, ei erthyglau daearyddol ac achyddol. Ond yn gymmaint a'i fod wedi ei ysgrifenu yn yr iaith Ladin, ni chyrhaeddodd byth yn mhellach na'r ail argraphiad a nodwyd genym, yr hwn a gyhoeddwyd yn Leyden, yn 1698.

I'r un dosbarth a'r ddau ddiweddaf, ond yn fwy o natur lenyddol a bywgraphiadol, ac i fesur mawr yn beirniadu gwaith MORERI, y perthyna y "*Dictionnaire Historique et Critique*"—"Geiriadur Hanesyddol a Beirniadol"—gan BAYLE. Ganwyd yr

Digitized by Google

awdwr, Tachwedd 18fed, 1647; a bu farw Rhagfyr 28ain, 1706. Cyhoeddwyd y geiriadur hwn gyntaf yn 1607; a daeth ail argraphiad allan, gyda llawer o chwanegiadau, yn 1702. Cyhoeddwyd dau neu dri o wahanol gyfieithiadau o hono i'r Saesneg; ac y mae yr argraphiad a ystyrir yn oreu o'r cyfieithiad, mewn pump o gyfrolau mawrion unplyg, y rhai a ddaethant allant yn 1734, yn parhau i gael ei werthu am bris uchel. Y mae y gwaith hwn yn cael ei gydnabod yn nodedig o alluog; ac y mae ei gynnwysiad a'i arddull yn gyfryw ag sydd yn ei wneuthur yn hynod o ddyddorol. Er fod ysbryd ammheus yr awdwr yn rhedeg drwyddo, ac felly y rhaid ei ddarllen yn ochelgar, etto y mae yn un o'r ychydig lyfrau hyny ag y ceir rhywbeth braidd yn mhob tudalen o honynt, ag y byddai yn anhawdd, os nad yn ammhossibl, cyfarfod âg ef mewn un llyfr arall.

Y mae y Gwyddoniaduron (*Encyclopædias*) diweddaraf, ac er's cryn amser bellach, yn cyfuno cynnwysiad yr hen eiriaduron gwyddonol a chelfyddydol, fel eiddo Harris a Chambers, gyda'r hen eiriaduron hanesyddol, bywgraphyddol, daearyddol, hynafiaethol, a beirniadol, &c., fel yr eiddo Moreri, Collier, Hoffmann, a Bayle, ac yn amcanu rhoddi crynhöad, mwy neu lai cyflawn, o holl gylch gwybodaeth y byd. Y mae amryw lyfrau i'r amcan hwn yn yr iaith Saesneg, a rhai o honynt o nodwedd uchel iawn. Y mae y rhai Saesneg, fel rhai y Cyfandir, o ddau fath, o ran ffurf neu drefn eu cyfansoddiad. Y mae rhai yn rhanu y cynnwysiad i amrywiol ddosbarthiadau, yn ol natur y testynau, gan wneuthur geiriadur gwahanol ar gyfer pob dosbarth, fel y gwelsom y gwneir yn yr "*Encyclopèdie Methodique*," yn y Ffrangcaeg; ac eraill yn cymmeryd yr holl faterion fel y digwyddont yn ol trefn y llythyrenau, a'r cwbl yn gwneyd ond un geiriadur. Y mae manteision ac anfanteision yn gyssylltiedig â'r naill gynllun a'r llall, ac nid ydym ni am gymmeryd arnom benderfynu pa un yw y goreu.

Y Gwyddoniadur helaethaf a gyhoeddwyd etto yn y Saesneg, a'r cyntaf oll yn yr iaith i gymmeryd i mewn holl gylch gwybodaeth, ydyw "*Cyclopædia*" mawr y Dr. Abraham Rees. Dechreuwyd cyhoeddi y gwaith hwn yn 1803, ac fe'i gorphenwyd yn 1819, mewn pump a deugain o gyfrolau mawrion pedwar-plyg, ac yn cael ei werthu am bump a phedwar ugain o bunnoedd. Y mae y gwaith wedi ei seilio ar argraphiad y Dr. Rees o "*Wyddoniadur Chambers*," ac yn cynnwys pob peth sydd yn hwnw; ond y mae yr erthyglau ar y gwyddonau a'r celfyddydau wedi eu cywiro a'u helaethu yn ddirfawr, er eu dwyn i gyfatteb i wybodaeth uchaf y pryd yr oeddynt yn cael eu cyhoeddi; ac y mae yr holl faterion ereill, hanesyddiaeth, daearyddiaeth, bywgraphyddiaeth, &c., yn cael eu cymmeryd i mewn ar raddeg eang iawn, yn cyfatteb i faint y gwaith. Fe fu y llyfr hwn yn ein meddiant, ac yn cael ei ddefnyddio yn gysson genym am flynyddoedd; ac ni a allwn dystiolaethu mai anfynych iawn y cawsom ein siomi ynddo pan yn ymgynghori âg ef. Y mae lliaws o'r erthyglau, y mae yn wir, yn mhell o gyfatteb i ddysgeidiaeth yr oes bresennol; ond y mae y gwaith, yn ddiddadl, yn teilyngu llawer mwy o barchedigaeth nag a roddir iddo gan rai ysgrifenwyr y dyddiau hyn. Cymro, fel y mae yn hysbys, oedd yr awdwr, genedigol o Lanbrynmair, a mab i'r hybarch Lewis Rees. Ceir erthygl fer arno yn y "Gwyddoniadur" hwn.

Yn y flwyddyn 1817, a chyn gorphen cyhoeddiad yr eiddo y Dr. Rees, fe ddechreuwyd dwyn allan yr "*Encyclopædia Metropolitana*," yr hwn a orphenwyd yn 1845, mewn deg-ar-hugain o gyfrolau mawrion pedwar-plyg, y rhai a ddygwyd allan mewn pedair-ar-bymtheg a deugain o ranau, un-swllt-ar-hugain yr un. Y mae y gwaith hwn wedi ei ranu yn bedwar o ddosbarthiadau, gyda geiriadur gwahanol i'r amrywiol ddosbarthiadau. Eithr y mae ei raniadau yn fynych yn gyfryw ag y mae yn anhawdd rhoddi un cyfrif am danynt; ac y mae y gwaith, yn ganlynol, yn dra anhylaw i'w ddefnyddio. Ond y mae ei gynnwysiad o radd uchel iawn. Yr oedd lliaws o brif ysgrifenwyr y deyrnas, a hyny pan yn eu hoedran goreu, yn ysgrifenu iddo—megys Herschel, Whately, Hampden, Newman, ac amryw eraill; ac y mae lliaws o'r erthyglau a gyhoeddwyd ynddo, wedi eu dwyn allan ar wahân, yn mhlith y llyfrau mwyaf poblogaidd a dylanwadol ar eu gwahanol destynau. Yn hwn y cyhoeddodd Richardson yn gyntaf ei eiriadur mawr i'r iaith Saesneg.

Yn mhell cyn gorphen cyhoeddiad y "*Metropolitana*," fe ddechreuwyd cyhoeddi gwaith a ennillodd gylchrediad helaethach nag un gwyddoniadur a ddygasid allan erioed o'r blaen yn y deyrnas hon; sef, y "*Penny Cyclopædia*." Dechreuwyd cyhoeddi y gwaith hwn yn Ionawr, 1833, yn rhifynau ceiniog yn yr wythnos, a chyda hyny yn rhanau misol. Amcenid ar y cyntaf ei orphen mewn wyth cyfrol. Yr oedd yn cael ei ddwyn allan o dan nawdd, ac i fesur dan olygiad, y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth

Digitized by Google

Fuddiol. Yn fuan wedi dechreu ei gyhoeddi, fe benderfynwyd helaethu y gwaith, fel ag i gyfatteb i ddysgeidiaeth uchaf y byd ar y pryd ar yr amrywiol ganghenau dan sylw ynddo. Wedi penderfynu felly, fe welwyd y byddai raid iddo gael ei gyhoeddi yn gyflymach nag fel y cychwynasid ef; ac felly dechreuwyd dwyn allan ddau rifyn ceiniog yn yr wythnos; ac yn mhen ychydig, pedwar. Ond fe effeithiodd hyny yn ddirfawr ar ei ledaeniad. Pan y cyhoeddid un rhifyn yn yr wythnos, yr oedd y derbynwyr yn 75,000. Can gynted ag y daeth allan ddwy waith yn yr wythnos, fe syrthiodd ei dderbynwyr i 55,000, ac yn raddol i 44,000. A phan y codwyd ef i bedair ceiniog, fe syrthiodd i tuag 20,000—yr hyn oedd eu nifer yn y diwedd. Yr oedd hyny yn golled ddirfawr i'r cyhoeddwr, Mr. CHARLES KNIGHT; ond wedi penderfynu i'r gwaith fod y fath ag ydoedd, yr oedd angenrheidrwydd hollol am hyny, onid ê buasai yn parhau i ddyfod allan am ddwy flynedd ar bymtheg ar hugain. Gorphenwyd ei gyhoeddi yn 1843, mewn saith ar hugain o gyfrolau unplyg bychan. Cyhoeddwyd dwy o gyfrolau adgyflenwol yn 1846, ac un arall drachefn yn 1858—yn gwneuthur yn y cwbl ddeg cyfrol ar hugain. Y golygydd oedd Mr. GEORGE LONG. Cynnorthwyid ef gan tua dau cant o ysgrifenwyr, a'r cwbl y gwŷr blaenaf yn y deyrnas hon, ac ar gyfandir Ewrop, yn eu cydnabyddiaeth â'r canghenau neillduol a ymddiriedid iddynt i ysgrifenu arnynt. Y mae y gwaith hwn yn cael ei gydnabod yn gyffredinol yn un o'r rhai rhagoraf a chyflawnaf a gyhoeddwyd erioed. Nid oes ond y "*Britannica*" yn unig yn cael ei ystyried megys ar y blaen iddo: ac y mae ei radlonedd yn gyfryw ag i'w osod yn nghyrhaedd miloedd ag y mae hwnw yn anghyrhaeddadwy iddynt. Gan mor gyflym ydyw cynnydd gwybodaeth, y mae mewn rhai rhanau erbyn hyn yn hynafol; ond y mae y corph o hono yn gyfryw ag y gellir dibynu yn gwbl arno.

Yn y flwyddyn 1854, fe ddechreuodd Mr. KNIGHT, cyhoeddwr y gwaith blaenorol, ddwyn allan, dan ei olygiad ei hunan, yr "*English Cyclopædia: a New Dictionary of Universal Knowledge*," yr hwn a orphenwyd yn 1862, mewn tair ar hugain o gyfrolau mawrion; y rhai a adgyflenwyd yn 1869—73, trwy gyhoeddiad pedair o gyfrolau yn chwanegol. Y mae y gwaith hwn wedi ei ranu yn bedwar o ddosbarthiadau, hyny yw, yn cynnwys pedwar o eiriaduron gwahanol, gyda chyfrol o Fynegai, er galluogi y darllenydd i gyfeirio yn ddidrafferth at yr hyn y byddo yn ymofyn am dano. Y mae y gwaith wedi ei seilio ar y "*Penny Cyclopædia*," ac yn cynnwys yn gwbl yr un defnyddiau, ond wedi eu had-drefnu, a chwanegu llawer atynt. Y mae pob erthygl wedi ei hadolygu yn fanwl, a'i dwyn i gyfatteb i'r wybodaeth ddiweddaf ar ei thestyn, naill ai gan ei hawdwr gwreiddiol, neu gan ryw ysgrifenydd ag oedd wedi gwneuthur ei mater yn bwngc neillduol ei efrydiaeth. Y mae y cyhoeddiad hwn, yn y Dosbarth Bywgraphyddol, yr helaethaf a'r goreu, fe ddichon, sydd yn yr iaith Saesneg, ac y mae yn cynnwys hanes lliaws o enwogion yn mhlith y byw yn gystal a'r meirw. Y mae y rhanau eraill yn cynnwys sylwedd y "*Penny Cyclopædia*," gyda'r cywiriadau a'r chwanegiadau y cyfeiriasom atynt.

Ond yr un sydd wedi ennill y bri uchaf o'r cwbl yn mhlith y gwyddoniaduron, a'r un sydd yn sicr, a chymmeryd pob peth at eu gilydd, yn rhagori arnynt oll, ydyw yr "*Encyclopædia Britannica: a Dictionary of Arts, Sciences, and General Literature.*" Y mae hwn, yn ddiddadl, yn anrhydedd i'n teyrnas. Y mae wedi cyfnewid a chynnyddu yn ddirfawr er ei gyhoeddiad cyntaf. Daeth yr argraphiad cyntaf o hono allan yn rhifynau chwecheiniog yr un, yn y flwyddyn 1768; ac fe orphenwyd y cyhoeddiad yn 1771, mewn tair o gyfrolau mawrion, pedwar-plyg. Y golygydd oedd Mr. WILLIAM SMELLIE, argraphydd yn Edinburgh. Cyfyngid y gwaith hwn ar y cyntaf yn unig i'r Gwyddorion a'r Celfyddydau; ond yn yr ail argraphiad, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1777—83 mewn deg o gyfrolau, fe eangwyd ar y cynllun gwreiddiol, trwy gymmeryd Hanesyddiaeth a Bywgraphyddiaeth i mewn. Yn y trydydd argraphiad, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1788—97, mewn deunaw o gyfrolau mawrion, yr ymddyrchafodd y gwaith i'r rhagoriaeth hwnw a'i cododd ar unwaith, nid yn unig i sylw cyffredinol yn y deyrnas hon, ond i enwogrwydd trwy holl Ewrop—cymmeriad ag y mae wedi ei gadw o hyny hyd yn hyn. Y mae yr enwogrwydd hwn a ennillwyd ganddo i'w briodoli, yn arbenig, i ragoriaethau neillduol yr erthyglau ar amrywiol ganghenau Athroniaeth Naturiol, a ysgrifenwyd iddo gan y Proffeswr ROBISON, o Edinburgh. Wedi i bedwerydd, a phummed, a chweched argraphiad gael eu cyhoeddi, heb fod dim arbenigrwydd neillduol yn perthyn iddynt, yn y blynyddoedd 1815—24, fe ddygwyd allan "*Adgyflenwad*" i'r chweched argraphiad, mewn chwech o gyfrolau mawrion, a gododd y gwaith etto i enwogrwydd uwch nag a ennillasid ganddo erioed. Dyma y pryd y

Digitized by Google

cyhoeddwyd yn gyntaf y traethodau dysgedig a galluog yn rhagarweiniol i'r gwaith, gan DUGALD STEWART a PLAYFAIR, y rhai a dynasant sylw cyffredinol, ac a ystyrid ar y pryd yn mhlith cyfansoddiadau rhagoraf yr oes. Yn y seithfed argraphiad, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1830—42, mewn un ar hugain o gyfrolau, fe gydgorphorwyd yr "*Adgyflenwad*" â'r gwaith, ac fe ail gyfansoddwyd y llyfr drwyddo. Yr oedd lliaws mawr o'r gwŷr enwocaf a galluocaf yn y deyrnas hon, ac ar gyfandir Ewrop, yn ysgrifenu i'r argraphiad hwn; ac fe chwanegwyd dau o Ragdraethodau ardderchog ato gan Syr JAMES MACKINTOSH a Syr JOHN LESLIE, megys parhad i, ond ar yr un pryd yn hollol annibynol ar, Ragdraethodau STEWART a PLAYFAIR. Yn yr argraphiad hwn yr ydym yn cael y gwaith am y tro cyntaf, yn ei holl ymddangosiad, o ran papur, ac argraph, a cherfluniau, mewn gwedd hollol deilwng i ragoriaethau neillduol ac arbenig ei gynnwysiad. Yn y blynyddoedd 1853—60, fe ddygwyd allan yr wythfed argraphiad, gyda dau o Ragdraethodau newyddion chwanegol—un gan yr Archesgob WHATELY, ar Ddechreuad, Cynnydd, a Llygriadau Cristionogaeth; ac un arall, nodedig o alluog, gan Dr. FORBES, athraw Athroniaeth Naturiol yn Mhrifysgol Edinburgh, ar Gynnydd Gwyddoniaeth, fel parhâd i Ragdraethawd Syr JOHN LESLIE. Yr oedd lliaws o erthyglau newyddion, gan rai o'r ysgrifenwyr enwocaf a galluocaf yn y deyrnas, yn yr argraphiad hwn etto; er nad oedd y cwbl o hono, megys yn y seithfed argraphiad, wedi ei ail osod, ac agos ei ail ysgrifenu o'r newydd. Y mae y nawfed argraphiad o hono wedi dechreu cael ei gyhoeddi, Ionawr, 1875, ac yn awr yn dyfod allan o'r wasg, yn gyfrolau mawrion prydferth, deg swllt ar hugain yr un, dan olygiad Dr. BAYNES, Athraw Rhesymeg, Rheitheg, ac Arddansoddiaeth yn Mhrifysgol St. Andrews. Y mae hwn yn waith newydd hollol yn y nifer amlaf o lawer o'r erthyglau, ac yn gyfryw ag nad oes dim, fe ddichon, yn rhagori arno, os cyffelyb iddo, mewn unrhyw iaith, o ran manylder, eglurder, cywirdeb, a helaethrwydd yr ymdriniaeth, ar yr amrywiol destynau ag sydd dan sylw ynddo. Ni fwriedir cyhoeddi y gyfrol o Ragdraethodau yn yr argraphiad hwn. Yn lled araf y mae y gwaith yn dyfod allan. Addewid tair cyfrol o hono yn y flwyddyn; ond nid oes etto, yn mhen yn agos i bedair blynedd, ond wyth o gyfrolau wedi eu cyhoeddi. Y mae yr wythfed yn terfynu gyda'r gair "*Fakir:*" ac os ä rhagddo ar y raddeg y mae wedi cychwyn, prin y gellir ei gynnwys mewn deg ar hugain o gyfrolau—ac nid oes wybod pa bryd y gorphenir ef. Y mae gwŷr galluocaf y deyrnas yn ysgrifenu iddo, ac y mae ei holl gynnwysiad yn cyfatteb i ddysgeidiaeth uchaf yr oes. Pan ei gorphener, fe fydd ei hunan agos, i bwy bynag a'i meddianno, yn llyfrgell ddigonol ar wybodaeth gyffredinol.

Y mae lliaws o Wyddoniaduron eraill wedi eu cyhoeddi yn y Saesneg nad ydym yn gweled yn angenrheidiol i ni fanylu arnynt; megys yr "*Edinburgh Encyclopædia,*" dan olygiad Syr DAVID BREWSTER, a orphenwyd yn 1830 mewn deunaw o gyfrolau pedwar-plyg; yn yr hwn, yn 1813, y gwnaeth traethawd enwog Dr. CHALMERS ar Wirionedd Cristionogaeth, ei ymddangosiad cyntaf:—yr "*Oxford Encyclopædia,*" mewn chwe chyfrol pedwar-plyg, a orphenwyd yn 1828; yn yr hwn y cyhoeddwyd gyntaf y traethawd o eiddo y Parch. JOHN HOWARD HINTON ar Dduwinyddiaeth:—yr "*Encyclopædia Londonensis,*" a gyhoeddwyd 1810—1829, mewn pedair ar hugain o gyfrolau pedwar-plyg:—y "*London Encyclopædia,*" a orphenwyd yn 1829, mewn dwy ar hugain o gyfrolau wythplyg mawr:—y "*Popular Encyclopædia,*" seiliedig ar y "*Conversations Lexicon*" Germanaeg, a gyhoeddwyd yn Glasgow, yn 1841, mewn saith o gyfrolau wythplyg mawr:—CHAMBERS' "*Encyclopædia,*" seiliedig etto ar y "*Conversations Lexicon,*" gyda chwanegiadau lawer, a gyhoeddwyd yn 1874, mewn deg o gyfrolau wythplyg mawr:—ac yn arbenig "*The American Encyclopædia,*" a gyhoeddwyd mewn ail argraphiad yn 1873—76, mewn un ar bymtheg o gyfrolau mawrion wythplyg, yr hwn a ystyrir yn un o'r rhai goreu o'i faint a gyhoeddwyd erioed.

Y mae cyfres arall o Eiriaduron, nodedig o alluog a dysgedig, yn cael eu dwyn allan dan olygiad Dr. WILLIAM SMITH, ac yn cael eu cyhoeddi gan MURRAY, yn Llundain, ag sydd yn cyfarfod angenion dosbarth o efrydwyr, na cheir ond ychydig neu ddim, mewn gwyddoniaduron cyffredin yn cyfatteb iddynt. Y mae y rhai hyn yn cynnwys "*Dictionary of Greek and Roman Antiquities,*" mewn un gyfrol, ail argraphiad 1849: "*Greek and Roman Biography and Mythology,*" mewn tair cyfrol, 1850: "*Greek and Roman Geography,*" mewn dwy gyfrol, 1856: "*Dictionary of the Bible,*" mewn tair cyfrol, 1863 (argraphiad Americanaidd, wedi ei ddiwygio a'i helaethu gan HACKETT ac ABBOTT, mewn pedair cyfrol, 1873). Y mae y llyfrau hyn, i'w hamcan, o werth anmhrisiadwy. Dichon nad oes mewn unrhyw iaith rai sydd yn rhagori arnynt, os i'w

Digitized by Google

cystadlu â hwynt, yn y canghenau neillduol o wybodaeth y maent yn perthyn iddynt. Y maent yn gynnyrch yr ymchwiliad manylaf a dyfalaf, a mwyaf dysgedig, ar yr amrywiol destynau sydd ynddynt dan sylw; ac nid oes perygl i'r efrydydd gael ei gamarwain ganddynt.

Y mae y Geiriaduron Ysgrythyrol, yn yr iaith Saesneg, yn rhy liosog i ni allu cyfeirio atynt, ac ni chawn ond nodi y rhai enwocaf. Un sydd wedi ennill cymmeradwyaeth uchel, a phoblogrwydd mawr, ydyw yr eiddo CALMET—yn neillduol fel ag y mae wedi ei gyhoeddi, gyda thalfyriadau a chwanegiadau, gan Mr. CHARLES TAYLOR. Cyhoeddwyd y pummed argraphiad o hwn, mewn pump o gyfrolau mawrion pedwar-plyg, yn 1830. Y mae geiriaduron diweddarach, erbyn hyn, wedi taflu y gwaith hwn o'r flaenoriaeth a roddid iddo yn gyffredinol unwaith; ond y mae yn parhau yn gyfoethog o ddefnyddiau gwerthfawr er cynnorthwyo y myfyriwr meddylgar i fyned i mewn i ystyr llawer o ranau y dadguddiad dwyfol. Y mae yn neillduol yn rhagorol ar arferion a defodau dwyreiniol.

Un arall nodedig o werthfawr, ac yn cymmeryd i mewn yr holl ymchwiliadau diweddar, ydyw "*A Cyclopædia of Biblical Literature, originally edited by* JOHN KITTO, D.D., F.S.A. *Third edition, greatly enlarged and improved. Edited by* WILLIAM LINDSAY ALEXANDER, D.D., &c., Edinburgh, 1862—66." Y mae y gwaith hwn, er ei gyhoeddiad cyntaf, wedi ennill iddo ei hunan, a hyny yn hollol deilwng, safle uchel a thra anrhydeddus; ac y mae, yn yr argraphiad hwn, wedi ei helaethu a'i ddiwygio yn ddirfawr. Un chwanegiad nodedig o werthfawr ydyw, y crybwylliadau bywgraphyddol a roddir ynddo am bob un o ddim enwogrwydd fel beirniad neu esboniwr ar ryw gyfran o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, neu fel awdwr unrhyw lyfr a wasanaetha yn gynnorthwy tuag at hyny.

Geiriadur Ysgrythyrol arall sydd wedi ennill cymmeradwyaeth mawr, ac wedi cael lledaeniad helaeth, ydyw "*The Imperial Bible Dictionary—Historical, Biographical, Geographical, and Doctrinal, &c. Edited by the Rev.* PATRICK FAIRBAIRN, D.D., London, 1866." Y mae y gwaith mewn dwy o gyfrolau mawrion, ac yn cael ei addurno â lliaws mawr o gerfluniau, llawer o honynt ar ddur, ac âg amryw ddarlunleni pryd-ferth. Y mae gofal neillduol wedi ei gymmeryd gan y golygydd, a'r gwŷr galluog a dysgedig a'i cynnorthwyent ef, yn mharotoad yr holl erthyglau i'r gwaith hwn; ac y mae ei fod yn cynnwys athrawiaethau y Beibl, yn gystal a'i hanesyddiaeth, ei ddaearyddiaeth, a'i fywgraphyddiaeth, yn gosod nodwedd arno ag sydd yn ei wneuthur fel llyfr teuluaidd, os nad i'r efrydydd, yn hytrach yn fwy gwerthfawr na'r eiddo ALEXANDER, neu hyd yn oed yr eiddo SMITH.

Ond y Geiriadur Ysgrythyrol goreu, a goreu o lawer, sydd etto wedi ei ddwyn allan yn y Saesneg, ydyw yr eiddo SMITH y cyfeiriwyd ato uchod:—"*Dictionary of the Bible: comprising its Antiquities, Biography, Geography, and Natural History.*" Y mae y llyfr hwn, yn enwedig yn yr argraphiad Americanaidd o hono, i'r efrydydd ysgrythyrol, yn drysor anmhrisiadwy. Nid oes odid gwestiwn yn dal perthynas â'r pyngciau neillduol sydd dan sylw ynddo, nad yw yma yn cael ei drafod yn ngoleuni y ddysgeidiaeth uchaf a'r ymchwiliadau mwyaf manwl a dyfal, a hyny gyda y parchedigaeth llwyraf i hawliau y Beibl fel dadguddiad dwyfol. Y mae y llyfr, fel y cyhoeddwyd ef gyntaf yn Lloegr, yn ffrwyth cyfraniadau tua deg a thrigain o ddysgedigion Beiblaidd galluocaf y deyrnas hon a'r America; ac y mae cynnyrchion tua phump ar hugain yn chwanegol yn yr argraphiad Americanaidd. Y mae y gwaith hwn yn sicr o gadw ei le, fel yr uchaf yn y dosbarth y perthyna iddo, am flynyddau lawer.

Y mae dau eiriadur nodedig o werthfawr wedi eu cychwyn gan Dr. SMITH fel parhâd i'r geiriadur i'r Beibl o'r eiddo ef:—un, "*A Dictionary of Christian Antiquities;*" a'r llall, "*A Dictionary of Christian Biography, Literature, Sects, and Doctrines.*" Bwriedir i'r cyntaf fod mewn dwy gyfrol, a'r ail mewn tair; ond nid oes ond y gyfrol gyntaf o'r naill a'r llall etto wedi eu cyhoeddi. Bydd y rhai hyn, pan y gorphenir hwynt, yn cynnwys casgliad anmhrisiadwy o wybodaeth am yr hyn oll sydd yn adnabyddus am hanes a dadleuon yr Eglwys Gristionogol, o fewn yr wyth canrif cyntaf.

Y mae Geiriaduron Duwinyddol yn lliosog yn y Saesneg. Heb gyfeirio yn awr at yr eiddo WILSON, BROWN, BUCK, a WATSON, y rhai sydd wedi cael lledaeniad helaeth iawn, a rhai o honynt, megys yr eiddo BROWN a BUCK, wedi dyfod trwy liaws o argraphiadau, ni wnawn ond nodi dau neu dri o'r rhai diweddaraf. Un yw, "*A Dictionary of Doctrinal and Historical Theology. Edited by the Rev.* JOHN HENRY BLUNT, M.A., F.S.A., *London*, 1871." Y mae yr awdwr, a'r rhai a'i cynnorthwyent, yn perthyn

Digitized by Google

i'r blaid Uchel-eglwysig yn y sefydliad gwladol; ac yn ganlynol, y maent yn edrych ar bob pwngc oddi ar y safle hwnw. Ond y mae y llyfr yn un o ddysgeidiaeth uchel, ac yn cynnwys ffrwyth llawer iawn o ymchwil. Y mae yr erthyglau ar y pyngciau mawrion mewn cyssylltiad â'r Drindod, Person Crist, &c., yn nodedig o dda; ond nis gellir dibynu llawer ar y rhai sydd ynddo ar y gwirioneddau mawrion a phwysig yn y rhai y mae Protestaniaeth Efengylaidd yn gwahaniaethu oddi wrth Babyddiaeth. Y mae yr un gŵr wedi dwyn allan eiriadur arall ar Sectau, Heresiau, &c.; ond nid ydym ni yn gydnabyddus â hwnw.

Ceir sylwedd amryw o Eiriaduron Ysgrythyrol a Duwinyddol yn y cyhoeddiad Americanaidd—"*The Encyclopædia of Religious Knowledge. Edited by Rev.* J. NEWTON BROWN, 1839." Cyfrol fawr yn cynnwys 1,276 o dudalenau, mewn llythyren fân, ond eglur, ydyw; ac yn gyflawn o wybodaeth werthfawr ar bob peth cyssylltiedig â chrefydd, ac yn neillduol bywgraphiadau crefyddol.

Y mae Geiriadur gwerthfawr iawn yn awr yn cael ei ddwyn allan yn America:—"*Cyclopædia of Biblical, Theological, and Ecclesiastical Literature. Prepared by the Rev.* JOHN M'C CLINTOCK, D.D., *and* JAMES STRONG, S.T.D." Daeth y gyfrol gyntaf allan yn 1867, a'r bedwaredd yn 1872, yn dwyn y gwaith yn mlaen hyd y gair "*Juxon.*" Yr oedd Dr. M'C CLINTOCK, y prif olygydd, wedi marw cyn cyhoeddiad y bedwaredd gyfrol; ond y mae y gwaith, yr ydym yn deall, yn parhau i fyned rhagddo, ac yn cael lledaeniad helaeth. Nis gellir gorphen y gwaith, ni a dybiem, mewn llai na deuddeg neu bymtheg o gyfrolau. Y mae y golygwyr yn aelodau o'r cyfundeb Wesleyaidd; ond y mae y nifer amlaf o'r ysgrifenwyr yn aelodau gydag enwadau eraill. Amcenir i'r gwaith gyfatteb, o ran maint a rhagoriaeth, i Eiriadur HERZOG yn Germany.

Fe wêl darllenydd y GWYDDONIADUR CYMREIG gyfeiriadau mynych ynddo at HERZOG'S "*Real Encyclopædia.*" Geiriadur Beiblaidd a Duwinyddol, nodedig o alluog a defnyddiol, ydyw hwn, y gorphenwyd ei gyhoeddi yn Germany yn 1866, mewn dwy ar hugain o gyfrolau. Y mae ail argraphiad o hono, wedi ei ddiwygio a'i helaethu yn fawr, yn awr yn cael ei ddwyn allan yn Leipzig. Cychwynwyd ar gyfieithiad i'r Saesneg, talfyredig ond tra gwerthfawr, o'r gwaith hwn, flynyddoedd yn ol yn America, dan olygiad Dr. BOMBERGER. Nid ydym ni wedi gweled ond y gyfrol gyntaf, a thair rhan o'r ail gyfrol, o'r cyfieithiad hwnw; ac nid ydym yn gwybod a ddaeth chwaneg o hono allan o'r wasg. Ond y mae yn bossibl y ceir cyfieithiad cyflawn yn fuan i'r Saesneg o'r gwaith, allan o'r argraphiad newydd sydd yn awr yn cael ei gyhoeddi yn Germany.

Wrth sôn am Germany, ni a ddylasem grybwyll mai yno y cyhoeddwyd un o'r Gwyddoniaduron mwyaf a gyhoeddwyd erioed, a elwir yn gyffredin, 'Geiriadur ZEDLER,' oddi wrth enw y llyfrwerthydd anturiaethus a'i dygodd allan. Dechreuwyd ei gyhoeddi yn 1732; a gorphenwyd ef, megys ag y mae, yn 1754. Y mae y geiriadur hyd ddiwedd yr egwyddor yn cyrhaedd i bedair a thrigain o gyfrolau mawrion unplyg; ac yna y mae pedair o gyfrolau o'r un maint yn dechreu "*Adgyflenwad.*" Ond nid ydyw pedair cyfrol yr "*Adgyflenwad*" yn cyrhaedd ddim pellach na'r llythyren *C.*; ac yno y safodd y gwaith, heb byth ei orphen, wedi cyrhaedd i wyth a thrigain o gyfrolau mawrion unplyg! Y mae yn sicr na chaiff yr "*Adgyflenwad*" ei orphen byth.

Yr oeddym ni fel cenedl wedi bod, hyd gyhoeddiad Y GWYDDONIADUR, yn nodedig o amddifad o'r fath lyfrau yn ein hiaith. Yr oedd cryn ymdrech wedi ei wneuthur, er's rhai oesoedd, i ledaenu llyfrau crefyddol yn ein gwlad—rhai o honynt yn gyfansoddiadau gwreiddiol, ond gan mwyaf yn gyfieithiadau; eithr nid oedd ond ychydig iawn o lyfrau genym tuag at roddi manteision gwybodaeth wyddorol, a chelfyddydol, a hanesyddol yn nghyrhaedd ein cenedl. Yr un pryd, yr oedd rhai llyfrau wedi eu cyhoeddi ag oeddynt yn dangos fod eu hawdwyr yn ymdeimlo â'r angen oedd ar y wlad am y fath fanteision, er nad oeddynt ond pell iawn oddi wrth fod yn ddigonol i gyflenwi yr angen hwnw. Y cyntaf oll o'r cyfryw, adnabyddus i ni, oedd, "*Egluryn Ffraethineb, sef Dosparth ar Retoreg,* un o'r saith gelfyddyd, yn dysgu lluniaeth ymadrodd a'i pherthynasau. A ddechreuwyd gan Mr. WILLIAM SALESBURY, a anghwanegwyd ac a orphenwyd gan Mr. HENRI PERRI, drwy draul Syr SION SALISBURY, o Leweni, sir Ddinbych. Printiedig gan IOAN DANTES, yn Llundain, 1595." Daeth argraphiad newydd o hono allan, yn llyfr wythplyg, mewn gwedd brydferth iawn, yn 1805—6—7, dan olygiad Dr. WILLIAM OWEN PUGHE, mewn cyssylltiad â'r "*Greal,*" a gyhoeddid yno gan OWAIN MYFYR ac yntau. Daeth argraphiad drachefn allan yn ddeuddeg-

Digitized by Google

plyg, yn Llanrwst, yn 1829. Ond y mae yr argraphiadau hyn, yn dra annhêg, yn gadael allan lawer o bethau gwerthfawr perthynol i'r llyfr, fel yr ymddangosodd yn yr argraphiad cyntaf. Y mae y llyfr hwn, yn enwedig pan ystyrier yr amser y cyhoeddwyd ef, yn dra rhagorol; ac y mae yn ammheus genym a oes, ar ei destyn, ei ragorach wedi ymddangos byth yn ein hiaith.

Cyhoeddwyd wedi hyny, o bryd i bryd, amryw lyfrau yn gwasanaethu er rhyw gymmaint o gymmhorth i'n cydwladwyr, yn eu hymgais am helaethu cylch eu gwybodaeth: megys "*Hanes y Ffydd,*" gan CHARLES EDWARDS, a gyhoeddwyd yn 1671, a thrachefn yn 1676, ac amryw weithiau ar ol hyny: "*Drych y Prif Oesoedd,*" gan THEOPHILUS EVANS, yn 1716 a 1740, ac yn fynych drachefn: "*Hanes y Byd a'r Amseroedd,* neu Lyfr Gwybodaeth y Cymro, o waith S. T. (SIMON THOMAS)," yn 1721, 1724, a 1728: "*Pantheologia.* Hanes holl Grefyddau y Byd, &c.—at yr hyn y chwanegwyd Nodau yn rhoi hanesion am amrywiol iawn o wledydd yn Ewrop, Asia, Affrica, ac America; eu sefyllfa, eu marsiandïaeth, eu heangder, ynghyd â moesau, dysg, arferion, ymborth, a dull gwisgoedd, a threfn bywyd eu trigolion; wedi ei dynu allan o'r awdwyr diweddaraf, goreu, a chywreiniaf, gan W. WILLIAMS, gweinidog o Eglwys Loegr." WILLIAMS, Pant-y-celyn, oedd hwn. Dechreuwyd cyhoeddi y llyfr yn rhanau yn 1762, ond aeth tair blynedd ar ddeg heibio cyn ei gwbleiddio. Y mae yn llyfr helaeth, yn cynnwys yn agos i saith gant o dudalenau, ac y mae ei gynnwysiad yn wir werthfawr. Nid oedd ein cenedl, cyn ei ymddangosiad, wedi cael dim cyffelyb iddo i eangu eu gwybodaeth gyffredinol, ac nid llawer o rai gwell sydd genym etto ar y testynau neillduol sydd ynddo dan sylw. Yr oedd nodiadau WILLIAMS hefyd yn ei waith gorchestol—"*Golwg ar Deyrnas Crist,*" a gyhoeddwyd yn 1764, yn werthfawr i'r Cymro uniaith, er rhoddi rhyw syniad iddo am gylchdroadau y bydoedd, ac eangder y greadigaeth. Ond yn y flwyddyn 1784, fe gyhoeddwyd "*Drych y Ddaear a'r Ffurfafen,*" gan MATTHEW WILLIAMS; yr hwn a roddai eglurhâd llawer helaethach a manylach ar ddaearyddiaeth a seryddiaeth, mewn dull tra naturiol a hawdd ei ddeall, ac o'r hwn y cyhoeddwyd rhai argraphiadau ar ol hyny.

Yn y cyfamser, yr oedd JOHN ROBERTS (SIÔN ROBERT LEWIS), o Gaergybi, wedi dechreu, er 1760, cyhoeddi ei Almanaciau, y rhai a ddygwyd allan ganddo yn flynyddol am bedair blynedd a deugain, a'r rhai, yn mhlith rhai pethau ammheus, a gynnwysent lawer iawn o wybodaeth fuddiol ar ddaearyddiaeth, a seryddiaeth, ac yn achlysurol ar helyntion yr amseroedd, yn y deyrnas hon, ac ar Gyfandir Ewrop ac America. Gan y dosberthid o honynt tuag ugain mil yn flynyddol yn mhlith y werin, y mae yn sicr eu bod wedi gwneyd rhan dda tuag at ledaenu llawer o wybodaeth werthfawr, o natur gyffredinol, yn mhlith ein cydwladwyr.

Yn y flwyddyn 1768, a thrachefn mewn ail argraphiad yn 1796, fe gyhoeddwyd hefyd gan JOHN ROBERTS, "*Arithmetic,* neu *Rifyddeg:* yn gosod allan sylfaenau ac ymarferiad rhifyddiaeth yn eglur mewn amryw ganghenau; a mesuriaeth yn helaeth, wrth y lliosogiad deuddegawl, y degranau, a'r *sliding rule.* Gyda darluniadau, ac addysgiadau cymmhwys i'r unrhyw." Yr oedd hwn yn llyfr tra gwerthfawr, yn neillduol ar y pryd, gan ei fod yn cyfarfod, pan oedd ysgolion dyddiol yn dra anaml, âg angenion dosbarth mawr yn mhlith y bobl.

Ond y cais cyflawnaf yn y blynyddoedd hyny at roddi crynoad o wybodaeth wyddorol i'n cenedl oedd y llyfr canlynol, yr hwn y rhoddwn ei wyneb-ddalen agos yn gyflawn er galluogi ein darllenwyr i ffurfio rhyw syniad am ei gynnwysiad:—"*Anerch Ieuengctyd Cymru.* Yn bedair rhan. Yn y cyfryw yr amlygir llawer o bethau buddiol i ddealltwriaeth dynolryw (yn enwedig i'r ieuengctyd) mewn perthynas i wlad ac eglwys:—I. Areithyddiaeth (*rhetoric*), yn cynnwys y gelfyddyd o ddarllen, ysgrifenu, ymresymu, barddoniaeth, cyfraith, a difinyddiaeth. II. Rhifyddaeg (*arithmetic*), yn cynnwys helaethrwydd o reolau buddiol, gyda thoriadau degranau (*decimal fractions*) ac athrawiaeth i fesur tir, coed, meini, gwydr, llestri, &c. III. Naturiawl athronddysg (*natural philosophy*), yn cynnwys naturiaethau, damweiniau, priodoliaethau, ac effeithiau elfenau, goruchelion, mettelau, gemau, a daearwriaeth (*geography*); sef, hanes pedwar chwarter y byd, &c. IV. Awyriaeth (*astronomy*), yn cynnwys rheolau i ddeall cwrs yr amseroedd a'r môr, ac i gwmpasu y byd, deioli, lliwo, paentio, garddu, impio, a physygwriaeth, &c. Yn holiadau ac attebion. Gan JOHN THOMAS. Argraphwyd yn Ngwrecsam, gan M. & S. MARCH, 1795." Y mae y rhagymadrodd hefyd wedi ei ddyddio o Wrecsam. Y mae y llyfr yn cynnwys 376 o dudalenau 12plyg, lled fychan. Pan y sylwir ar faint y llyfr, y mae yn hawdd gweled nas gallasai gynnwys ond



Digitized by Google

ychydig iawn ar yr amrywiol destynau sydd ganddo dan sylw. Daethom ni i'r penderfyniad trwy ddarllen ychydig arno, yn llyfrgell GWEIRYDD AP RHYS, nad ydyw ond casgliad o amrywiol lyfrau Saesneg, a hyny gan un nad oedd ei hunan, ond yn dra anmherffaith, wedi meistroli yr amrywiol ganghenau a ddysgir ynddo. Pa fodd bynag, y mae yr ymgais hwn o'i eiddo, er yn dra anmherffaith, yn teilyngu sylw arbenig, fel y cynnyg cyntaf i ddwyn elfenau yr amrywiol wyddorau a'r celfyddydau, yn yr un llyfr, i gyrhaedd y Cymry. Nid ydym yn gwybod dim am yr awdwr. Dywedir yn "*Llyfryddiaeth y Cymry*" (td. 692), nis gwyddom ar ba awdurdod, mai yr un gŵr ydoedd a'r hwn a elwid, "JOHN THOMAS, Pen y ffordd wen." Os felly, yr oedd efe yn enedigol o Bentre'r Foelas, sir Ddinbych, yn dipyn o fardd, ac yn awdwr dau neu dri o lyfrau eraill.

Yn mhen rhai blynyddoedd ar ol hyn, fe gyhoeddwyd gwaith bychan, ond buddiol iawn, ar Ddaearyddiaeth, a elwid, "*Cyfarwyddiadau mewn Geography*, neu Ddrych y Byd yn Gyffredinol, mewn dull o holiad ac attebiad; a sylw-nodau, yn dangos amryw ddull o lywodraeth a threfn y byd; hyd a lled teyrnasoedd eang a bychain, a rhifedi eu trigolion, eu hamrywiol fath o grefyddau, eu hanifeiliaid gwylltion a dofion, eu marsiandïaeth, eu llaw-waith, a'u talentau; cynnyrch a ffrwythau y coed mwyaf tyfadwy yn mhob gwlad; moroedd, llynoedd, afonydd, a mynyddoedd, &c. Ynghyd â chyfarwyddiad pa fodd i gael y lleoedd hyn ar y *map*, neu y glôb. Wedi ei gasglu a'i gyfieithu allan o'r eilfed argraphiad ar bymtheg o waith LENGLET DU FRESNOY, C. SMITH, ac amryw Geographwyr enwog eraill. Gan WILLIAM THOMAS, Bala. Caerlleon: argraphwyd gan W. C. JONES, 1805." Gweinidog llafurus a defnyddiol i'r Annibynwyr yn y Bala oedd yr awdwr. ac un a ymdrechodd i gyhoeddi amryw lyfrau eraill yn ein hiaith—yn enwedig ei gyfieithiad o Esboniad y Dr. GUYSE ar y Testament Newydd. Yr oedd y llyfryn yn awr dan ein sylw, ar adeg ei gyhoeddiad, er nad ydyw ond bychan, yn anrheg werthfawr i'n cenedl ar y testynau neillduol yr ymdrinir â hwynt ynddo.

Ond y cynnyg mwyaf galluog a llwyddiannus a wnelsid etto i ddwyn Gwyddoriaeth i sylw y Cymry yn eu hiaith eu hunain, yn y fath fodd ag i gyfatteb i'r dull goreu o wneuthur hyny yn y Saesneg, oedd trwy gyhoeddiad y gwaith canlynol, o'r hwn, er galluogi ein darllenwyr i ffurfio rhyw syniad am ei gynnwysiad, y rhoddwn i mewn yma y ddalen-enwawl yn gyflawn:—"*Daearyddiaeth*, yn rhoddi hanes am yr amrywiol wledydd, teyrnasoedd, ac ardaloedd, sydd yn Ewrop, Asia, Affrica, ac America; hefyd y moroedd, llynau, afonydd, mynyddoedd, ynysoedd, &c., sydd ar yr holl ddaear. Yn cynnwys:—I. Cydsafiad y byd yn ol trefn NEWTON, ynghyd â sylwiadau cywir o berthynas i'r ddaear yn ei gorsaf amgylchynol, ynghyd â phethau eraill a arwain i wybodaeth o seryddiaeth; gan fod yn angenrheidiol gwybod prif ansoddau a threiglіadau sêr y nefoedd, i egluro yr achos o lanw a thrai y môr, diffygiau yr haul a'r lleuad, &c. II. Cyntefigaeth a hanes cenhedloedd, dull eu llywodraeth, eu crefydd, eu lliosogrwydd, eu cyfreithiau, eu cyfoeth, eu trethi, ac eu gallu byddinawl. III. Ardymeriad wybren eu bröydd, hanes eu tir o berthynas i bob ansoddau anianol a damweiniol, eu hanifeiliaid, bwystfilod, pysgod, adar, ac ymlusgiaid. IV. Eu moesau, defodau, ac arferion gwladol, eu hagweddau corphorol, ac eu gwisgoedd; hefyd, eu hieithoedd, eu celfyddydau, a'u gweithfaoedd. V. Y prif ddinasoedd, trefydd, a'u hydred a'u lledred. VI. Talfyriad o egwyddorion pob enw o grefydd Gristionogol, ynghyd â sylw ar y dull o addoli sydd gan eilunaddolwyr, Mahometaniaid, ac Iuddewon. At yr hyn y chwanegir, cofnodau amseryddol, yn mynegu am y pethau mwyaf hynod a ddigwyddodd yn mhob oes, sef cynllun o hanesyddiaeth y byd o'r greadigaeth hyd y flwyddyn 1816. Hefyd, taflen yn cynnwys rhifedi trigolion holl gantrefydd a phlwyfydd Cymru yn ol cyfrifiad y llywodraeth arnynt yn 1811. Y cyfan wedi eu casglu yn ofalus gan ROBERT ROBERTS, o Gaergybi. Caerlleon, argraphwyd gan J. FLETCHER, dros y cyhoeddwr, 1816." Y mae y rhagymadrodd wedi ei ddyddio, "Llundain, Awst 12fed, 1816." Yr oedd yr awdwr, yr hwn a adwaenem yn dda, yn fab i Mr. JOHN ROBERTS, awdwr y "*Geirlyfr Ysgrythyrol*," a'r gwaith ar "*Rifyddeg*," ac amryw lyfrau eraill heb law ei "*Almanaciau*" poblogaidd. Yr oedd y mab, er pan yn ieuangc, wedi rhoddi ei holl fryd ar seryddiaeth a daearyddiaeth, ac yn gydnabyddus iawn â hwynt. Yr ydym yn cael llythyr o'i eiddo pan oedd yn yr ysgol yn Llundain, dan yr enw IDRIS O GYBI, yn y pedwerydd rhifyn o'r "*Greal*," (td. 229—232), dyddiedig, "Athrofa Heol Burlington, Myhefin, 1806," yn yr hwn y mae yn rhoddi crynöad byr o brif ffeithiau seryddiaeth. Y mae yn y llyfr hwn, yn

Digitized by Google

gyntaf, yn rhoddi arweiniad i wybodaeth o seryddiaeth, ynghyd âg amrywiol sylwadau ar yr awyrgylch, goleuni y Gogledd, mellt a tharanau, daeargrynfäau, gwynt, dyfrbistyll, &c., gyda thaflen werthfawr o eglurhâd ar y prif eiriau a arferir mewn seryddiaeth, a thaflen ddaearyddol yn cynnwys enwau a sefyllfa y prif ddinasoedd a'r trefi, yr ynysoedd, y moroedd, y penrhynau, &c.; yn y byd adnabyddus. Y mae yr arweiniad yma yn ymestyn i 96 o dudalenau, yn cael eu rhifo ar wahân oddi wrth y gweddill o'r llyfr. Yna y mae Daearyddiaeth yn briodol yn dechreu, ac yn cynnwys, rhwng y ddangoseg yn y diwedd, 548 o dudalenau, yn gwneyd yn y cwbl xvi + 96 + 548=660 o dudalenau wythplyg. Cyhoeddwyd drachefn, yn mhen rhai blynyddoedd, mewn wyth tudalen, chwanegiad at y Daearyddiaeth, o'r flwyddyn y cyhoeddwyd y gwaith hyd ganol 1828. Y mae y darlunleni i addurno ac egluro y gwaith wedi eu gwneyd yn anghyffredin o dda. Yn y rhestr o'r Tanysgrifwyr, yr ydym yn cael y Parchedigion CHARLES, o'r Bala (2 gopi), JONES, o Ddinbych, JOHN ELIAS, RICHARD LLOYD, Beaumaris, CADWALADR WILLIAMS, MICHAEL ROBERTS, o Bwllheli, JOHN PARRY, Caerlleon, ynghyd â'r Dr. WILLIAM OWEN PUGHE, ac amryw eraill o'r gwŷr blaenaf yn Nghymru ar y pryd. Y mae y llyfr hwn, mewn gwirionedd, yn un tra rhagorol; yn cynnwys crynodeb cyflawn, a chywir, ac eglur o'r wybodaeth oreu a feddai y byd, y pryd hwnw, ar ei amrywiol destynau; a byddai yn gymmwynas werthfawr i'n cenedl, pe dygid allan argraphiad newydd o hono gyda'r diwygiadau a'r chwanegiadau angenrheidiol, er ei gael i gyfatteb i sefyllfa bresennol gwybodaeth y byd ar seryddiaeth a daearyddiaeth.

Tua y flwyddyn 1826, fe ddechreuodd Mr. ROBERTS ddwyn allan waith arall ar Ddaearyddiaeth, ar ffurf Geiriadur, a alwai y "*Mynegai Daearyddol*," yn rhoddi hanes am Wledydd, Teyrnasoedd, Dinasoedd, Trefi, Afonydd, Llynau, Mynyddoedd, &c., y Byd, yn ol trefn yr egwyddor. Llyfr gwerthfawr iawn ydoedd hwn; ac y mae yn ddiammheu ei fod, o blegid ymchwiliadau manylach a diweddarach, mewn rhai pethau yn gywirach na'r "*Daearyddiaeth*." Nid ydym, ar hyn o bryd, yn alluog i daraw ein llaw ar unrhyw gopi o hono; ond yr ydym yn cofio ei fod yn cael ei gyhoeddi yn rhifynau chwe cheiniog yr un, mewn wythplyg, a'r colofnau yn ddwbl; ac y bwriedid ei gwbleiddio mewn cyfrol ychydig helaethach na'r "*Daearyddiaeth*." Nid ydym yn hollol sicr, eithr yr ydym yn tybied yn lled gryf, na chafodd y gwaith byth ei orphen; ond y bu raid i'r awdwr, o ddiffyg cefnogaeth ddigonol, roddi heibio yr anturiaeth o'i gyhoeddi. Fe'n hesgusodir am ymdroi yn hwy nag y bwriadem gyda Mr. ROBERT ROBERTS, gan nad ydym yn cael fod unrhyw grybwylliad am dano, a'r gwasanaeth gwerthfawr a wnaeth i'n cenedl, wedi ei wneuthur erioed o'r blaen trwy y wasg Gymreig.

Tua y flwyddyn 1831, fe ddechreuodd y diweddar Mr. JOHN WILLIAM THOMAS (*Arfonwyson*), gyhoeddi ei "*Elfenau Rhifyddiaeth*;" yr hwn, pe cawsai ei orphen yn ol cynllun a bwriad yr awdwr, a fuasai yn sicr, o ran sylwedd, yn llyfr ar rifyddiaeth heb braidd ei ragorach mewn unrhyw iaith. Gall y darllenydd weled, yn yr erthygl dan enw yr awdwr, yn y nawfed gyfrol o'r "GWYDDONIADUR" (td. 675), ei ddalen-enwawl yn gyflawn, fel y mae ar amlen un o'r rhifynau. Yr oedd yn cael ei ddwyn allan yn rhifynau wythplyg, chwe cheiniog yr un, a bwriedid ei orphen mewn tua deg ar hugain o'r cyfryw. Eithr o ddiffyg cefnogaeth, ac amgylchiadau cyfyng yr awdwr ar y pryd, ni chyhoeddwyd ond tri rhifyn o hono. Dyma yn sicr, yn ein bryd ni, yn ol ein hadnabyddiaeth a'n cyfeillgarwch â'r awdwr, un o'r colledion mwyaf, mewn ystyr wyddorol, a gafodd ein cenedl ni erioed; a rhaid i ni, yr ydym yn ofni, ddisgwyl yn hir etto cyn y bydd iddi gael ei gwneyd i fyny.

Cyhoeddwyd rhai llyfrau eraill, gwir werthfawr, er helaethu gwybodaeth gyffredinol ein cenedl, yn enwedig mewn hanesyddiaeth; megys, "*Hanes Prydain Fawr*," gan y Parch TITUS LEWIS, Caerfyrddin, mewn un gyfrol wythplyg, yn 1810; "*Y Merthyrdraith*," gan y Parch. THOMAS JONES, Dinbych, yn un gyfrol fawr pedwarplyg, yn 1813; yr "*Amseryddiaeth Ysgrythyrol*," gan y Parch. SIMON LLOYD, yn un gyfrol wythplyg, yn 1816; "*Hanes Crefydd yn Nghymru*," gan y Parch. DAVID PETER, Caerfyrddin, yn un gyfrol wythplyg, 1816; "*Hanes yr Eglwys Gristionogol*," gan y Parch. DAVID MORGAN, Machynlleth, yn ddwy gyfrol wythplyg, 1830; ac amryw eraill. Eithr nid ydym yn gwybod am ddim yn uniongyrchol yn wyddorol, heb law y rhai y cyfeiriasom atynt eisoes.

Ond fe gyhoeddwyd lliaws mawr, o bryd i bryd, o erthyglau, a rhai o honynt yn dra galluog, ar y gwyddorion a'r celfyddydau, yn yr amrywiol gyhoeddiadau cyfnodol—pythefnosol, misol, neu dri-misol, neu achlysurol—sydd wedi eu dwyn allan yn ein

Digitized by Google

hiaith, megys yr "*Eurgrawn Cymraeg*," a gyhoeddid yn Nghaerfyrddin, 1770; "*Y Geirgrawn*," dan olygiad Mr. D. DAVIES, Treffynnon, 1796; "*Y Greal*," dan olygiad Cymdeithasau y Gwyneddigion a'r Cymreigyddion yn Llundain, 1805—6, a 7; "*Yr Eurgrawn Cymraeg*" yn Nghaernarfon, dan olygiad DAFYDD DDU, 1807—8; "*Seren Gomer*," "*Goleuad Cymru*," "*Y Dysgedydd*," "*Y Gwyliedydd*," "*Y Brud a Sylwydd*," "*Y Cylchgrawn*" (dan olygiad BLACKWELL), "*Y Gwladgarwr*" (dan olygiad IEUAN GLAN GEIRIONYDD), "*Y Cymro*" (Llundain), "*Y Brython*," ac yn arbenig "*Y Traethodydd*," cyhoeddiad yr hwn a fu, yn ddiammheu, yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanes llenyddiaeth Cymru.

Ond nid oedd genym etto ddim yn ein hiaith yn amcanu cyfatteb i'r "*Encyclopædias*"=y "*Gwyddoniaduron*" y cyfeiriasom atynt, ag sydd mor gyffredin yn y Saesneg, ac mewn amryw o ieithoedd Cyfandir Ewrop. Yr oedd dechreu da, y mae yn wir, wedi ei wneuthur tuag at hyny mewn cyssylltiad â gwybodaeth Feiblaidd a duwinyddol. Y cais cyntaf at hyny oedd trwy gyhoeddiad y "*Geir lyfr Ysgrythyrol:* neu Egwyddor, yn dangos Arwyddocâd y rhan fwyaf o Eiriau, ac Ymadroddion caled, a Naturiaethau Creaduriaid, a gynnwysir yn yr Hen Destament a'r Newydd. Yn gyttunol â *Liturgy*, Erthyglau, a Homiliau, Eglwys Loegr. Wedi ei dalfyru gan mwyaf allan o Eirlyfr y Parchedig Mr. WILSON, &c. Gan JOHN ROBERTS. Argraphwyd yn Nulyn (Dublin) gan S. POWELL, 1773." Y JOHN ROBERTS hwn oedd cyhoeddwr yr "*Almanaciau*" o Gaergybi, a thad awdwr y "*Daearyddiaeth*." Llyfr deuddeg-plyg ydyw hwn, o tua 280 o dudalenau, ac wedi ei dynu allan, gan mwyaf, fel y cydnabydda yr awdwr, o Eiriadur y Parch. THOMAS WILSON:—hen eiriadur parchus iawn yn y Saesneg, y seithfed argraphiad o'r hwn sydd yn awr ger ein bron, wedi ei ddwyn allan mor foreu a 1661. Nid ydyw y talfyriad Cymraeg ond bychan, ac anmherffaith iawn; ac etto, yr oedd yn cyfarfod âg angen neillduol y Cymry ar y pryd, ac felly fe gafodd dderbyniad rhwydd ganddynt. Fe werthwyd yr argraphiad yn fuan, a rhoddes yr awdwr hysbysiad o'i fwriad i gyhoeddi argraphiad newydd, wedi ei ddiwygio a'i helaethu yn fawr. Ond yn y cyfamser, fe ddaeth i ryw gyd-ddealltwriaeth, naill â Mr. W. C. JONES, argraphydd, Caerlleon, neu ynte â Mr. CHARLES, o'r Bala, i roddi i fyny yr amcan o gyhoeddi argraphiad newydd, ac i roddi i fyny hefyd y defnyddiau a barotoisid ganddo tuag ato. Yn ganlynol, fe ddechreuwyd cyhoeddi, yn rhanau swllt yr un, ond ar y cyntaf heb enw neb yn neillduol fel awdwr—ac yn y flwyddyn 1805, fe ddygwyd allan y gyfrol gyntaf o'r "*Geiriadur Ysgrythyrol:* yn cynnwys Arwyddocâd geiriau anghyfiaith, ynghyd âg Enwau ac Hanesion yr amrywiol Genhedloedd, Teyrnasoedd, a Dinasoedd, y crybwyllir am danynt yn yr Ysgrythyrau: hefyd, Eglurhâd Byr ar holl brif Byngciau Crefydd: ac y mae yn dangos Sefyllfa a Maintioli Mynyddoedd; Naturiaethau Creaduriaid; Coedydd a Meini gwerthawr; Aberthau, Gwyliau, a Defodau Iuddewig, gyda'u cyfeiriad a'u harwyddocâd, fel Cysgodau o Bethau Ysbrydol ac Efengylaidd: hefyd, Sylwadau Beirniadol ar lawer o Ysgrythyrau. Gan y Parch. THOMAS CHARLES, A.B., gynt o Ysgoldy yr Iesu, Rhydychain." Daeth yr ail gyfrol allan yn 1808, y drydedd yn 1810, a'r bedwaredd yn 1811. Daeth allan ail argraphiad o'r gyfrol gyntaf, wedi ei helaethu a'i diwygio yn fawr, yn 1813; a chyhoeddwyd amryw "Sylwadau Chwanegol at y Geiriadur," yn yr ail lyfr o'r "*Drysorfa Ysbrydol;*" y rhai, yn gystal ag eraill a gafwyd yn llawysgrif yr awdwr, a gyd-gorphorwyd â'r argraphiad newydd a ddygwyd allan yn rhanau wedi ei farwolaeth ef, ac a orphenwyd yn gyfrolau, yn y blynyddoedd 1819, 1821, 1823, a 1825. Daeth argraphiad newydd allan drachefn, y trydydd o'r holl waith, yn 1836, mewn dwy o gyfrolau wythplyg mawr; ac ar ol hyny, amryw argraphiadau mewn un gyfrol. Y mae y gwaith hwn mor adnabyddus, fel nad oes angenrheidrwydd am i ni ddywedyd ond ychydig am dano; ac y mae ei ragoriaethau yn cael eu cydnabod yn gyffredinol y fath fel y mae uwch law pob canmoliaeth. Y mae yn sicr yn drysor anmhrisiadwy i'n cenedl o wybodaeth Ysgrythyrol; ac y mae ynddo, gyda hyny, lawer iawn o wybodaeth gyffredinol. Y mae, yn ei Erthyglau Athrawiaethol, yn cynnwys crynöad mor fanwl, ac eglur, a chynnwysfawr, o ddysgeidiaeth yr Ysgrythyrau ar amrywiol wirioneddau yr efengyl, fel y mae yn ammheus genym a ellir cael, o fewn can lleied cylch, mewn unrhyw iaith, ddim yn rhagori arno; ac, yn neillduol, y mae yr eglurhâd a geir ynddo ar ystyr lliaws o adnodau, anhawdd eu deall, yn ngwahanol lyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, yn nodedig o alluog, a dedwydd, a boddlonol. Y mae y gwaith, yn sicr, yn ffrwyth darlleniad eang, ac astudiaeth fanwl a dyfal, am lawer o flynyddoedd; ac y mae wedi ei ysgrifenu mewn arddull hynod o naturiol, a rhydd, ac ystwyth, ac yn ei

Digitized by Google

holl deithi yn gwbl Gymreig. Heb law hyny, y mae drwyddo yn arddangos craffder anghyffredin, ar du yr awdwr, i ganfod yr hyn oedd yn uniongyrchol yn angenrheidiol ar ein cenedl ar y pryd; ac yn enwedig yr hyn a fyddai yn wasanaethgar i'r lliaws pregethwyr ag oeddent y blynyddoedd hyny yn ein gwlad heb gael ond ychydig iawn o fanteision addysg, a llawer o honynt yn gwbl analluog i ddarllen unrhyw iaith ond y Gymraeg. Yr un pryd, y mae, yn ol ei enw a'i amcan, yn ei gyfyngu ei hunan braidd yn hollol i gylch yr Ysgrythyrau. Yn wir, nid ydym yn cofio fod ynddo gymmaint ag un erthygl ar unrhyw air, oddi eithr yn unig y gair "*Beibl,*" nad ydyw i'w gael yn yr Ysgrythyrau yn y Gymraeg. Ac er ei fod yn gwneuthur lliaws o gyfeiriadau at, ac yn fynych yn gosod allan yn eglur, y casgliadau y mae Gwyddoniaeth ac Athroniaeth yn arwain iddynt, etto nid ydynt yn dyfod yn uniongyrchol dan ei sylw; ac y mae Daearyddiaeth a Bywgraphyddiaeth Gyffredinol y tu allan yn gwbl i'r cylch a dorasid gan yr awdwr iddo ei hun. Ac hyd yn oed gyda golwg ar gwestiynau Beiblaidd, y mae yn rhaid cydnabod ei fod yn ysgrifenu cyn gwneuthur yr ymchwiliadau manwl, a'r darganfyddiadau gwerthfawr a wnaed, wedi dyddiau yr awdwr, ac yn wir, mewn cymmhariaeth, yn y blynyddoedd diweddaf, i Ddaearyddiaeth a Hynafiaethau y Gwledydd Ysgrythyrol, ac i Arferion a Defodau y Dwyrain; ac felly, fod yn anmhossibl iddo fod i fyny â gwybodaeth bresennol y byd am y cyfryw bethau. Ond er y cwbl, ni phetruswn ddywedyd ei fod yn un o'r cynnorthwyon gwerthfawrocaf i'r efrydydd Cristionogol yn ei ymchwiliadau i ystyr y Dadguddiad Ysgrythyrol, a'i fod yn llyfr a geidw ei safle fel y cyfryw tra y parhao yr iaith Gymraeg.

Llyfr arall gwerthfawr iawn i'r Cymry ydyw y "*Geiriadur Duwinyddol:* yn cynnwys Sylwadau Eglurhaol, Beirniadol, ac Ymarferol, ar Brif Eiriau, Erthyglau, Gosodiadau, a Dyledswyddau Crefydd; ac ar holl Rasau a Rhinweddau y Fuchedd Gristionogol, ynghyd â'r Pechodau gwrthwynebol iddynt. Hefyd, Darluniad teg o Egwyddorion ac Ymarferion yr amrywiol Bleidiau Crefyddol, a fu yn y Byd o amser CRIST hyd yn hyn; ynghyd â Hanes fer o fuchedd yr ysgrifenwyr mwyaf enwog a ymddangosasant yn yr oesoedd a aethant heibio, ar faes Duwinyddiaeth: gan W. JONES, Pen-y-bont, Morganwg." Daeth y gwaith allan yn rhifynau, y rhai a orphenwyd yn ddwy gyfrol helaeth wyth-plyg, mewn colofnau dwbl, ac a gyhoeddwyd, y gyntaf yn Merthyr yn 1837, a'r ail yn y Bontfaen yn 1839. Yr oedd yr awdwr yn enedigol o'r Bala, ac yn weinidog parchus iawn gyda'r Annibynwyr yn Mhen-y-bont—lle hefyd y bu farw yn 1847. Y mae y gwaith hwn yn cynnwys crynöad cyflawn o'r pethau goreu a geir yn Ngeiriaduron Saesneg WILSON, BROWN, BUCK, JONES, ac ereill; dyfynion rhagorol o Dr. OWEN, CHARNOCK, NEWTON, &c., heb law cynnyrch ymchwiliadau dyfal yr awdwr ei hunan, am flynyddoedd lawer, i ystyr dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau ar amrywiol ganghenau athrawiaeth yr efengyl, a gwahanol faterion eglwysig. Yr oedd y rhan fywgraphiadol, yn enwedig, yn hollol newydd i'r Cymry, ac yn dderbyniol iawn ganddynt. Cafodd y gwaith ledaeniad helaeth trwy ein gwlad ar ei gyhoeddiad cyntaf, ac y mae ail argraphiad o hono wedi dyfod allan er's rhai blynyddoedd bellach.

Daeth argraphiad destlus iawn hefyd allan yn y Gymraeg o "*Eiriadur Ysgrythyrol*" GURNEY, wedi ei gyfieithu, os nad ydym yn camgofio, gan y Parch. ISAAC JONES, a'i gyhoeddi gan Cox, yn Aberystwyth. Ond nid ydym yn gwybod digon yn ei gylch i wneuthur un cyfeiriad pellach ato.

Yn mhen rhai blynyddoedd wedi dechreu cyhoeddi y "GWYDDONIADUR," fe ddechreuwyd dwyn allan y "*Geiriadur Beiblaidd a Duwinyddol:* yn cynnwys Nodiadau eglurhaol ar Eiriau, Personau, Cenhedloedd, Defodau, Gwyliau, Seremonïau, Gwledydd, Afonydd, Anifeiliaid, Adar, a Phrif Byngciau Athrawiaethol yr Ysgrythyrau Sanctaidd; gan y Parch. J. JONES (*Mathetes*); yn cael ei gynnorthwyo gan rai o brif ysgrifenwyr y Bedyddwyr yn Nghymru." Cyhoeddwyd y gwaith yn Nghaerfyrddin yn rhifynau, a daeth y gyfrol gyntaf allan yn 1864, a'r ail yn 1869, mewn wyth-plyg mawr, a llythyren lled fras, ac yn golofnau dwbl, a'r ddwy gyfrol yn cynnwys rhyngddynt 2,144 o dudalenau. Y mae yr ail gyfrol yn terfynu gyda'r gair "Galatiaid." Nid oes genym ni ond y ddwy hyn; ac y mae y gwaith er's rhai blynyddoedd wedi peidio a dyfod allan. Y mae "Bedydd," yn sicr, mewn gwaith o'r fath, yn cael yn hwn ormod, a gormod o lawer o le. Yr un pryd, fe geir ynddo lawer o wybodaeth fuddiol a gwerthfawr iawn ar faterion Beiblaidd a chyffredin; a bydd yn resyn mawr os gadewir ef yn anorphenol, fel yr ydym yn ofni y gwneir, gan fod MATHETES wedi marw er Tachwedd 18fed, 1878. Byddai yn angenrheidiol, ni a dybygem, cael dwy neu dair o gyfrolau etto i'w gwblhau, ar yr un raddeg ag y dygwyd ef rhagddo hyd y cyrhaeddodd.

Digitized by Google

Fe wnaed rhai ceisiadau i ddwyn allan Eirlyfrau mwy cyffredinol na'r rhai hyn yn ein hiaith. Tua'r flwyddyn 1823, dechreuwyd cyhoeddi y "*Cyneirlyfr: neu Eiriadur Cymraeg*, yn cynnwys Tadogaeth Geiriau, Rheolau Barddoniaeth, Hanes Enwogion Cymru, Dadleniad byr o Wledydd, Dinasoedd, Trefydd, Swyddi, Moroedd, Llynoedd, Afonydd, Mynyddoedd, Ogofau, Hynafiaethau Cymreig, &c. &c. At yr hyn y chwanegir Llysieudraeth, ynghyd â'r Diarhebion Cymreig wedi eu hesbonio, gan EDWARD WILLIAMS (*Bardd Glas*) Morganwg." Argraphwyd y gwaith yn Aberhonddu, gan WILLIAM WILLIAMS; ac yn 1826, fe'i cyhoeddwyd mewn dwy gyfrol wythplyg—y gyntaf yn cynnwys 600, a'r ail 472 o dudalenau. Gweithiwr cyffredin, tlawd, oedd yr awdwr—cylchwr wrth ei alwedigaeth—yn byw yn y Bontfaen, ac yn ddysgybl barddonol i IOLO MORGANWG. Ond y mae ei genedl, yn sicr, wedi bod yn rhy ddiystyr o'i goffadwriaeth. Yr ydym wedi methu a chael yn un man, er cryn lawer o ymchwil, unrhyw hanes am dano. Bu farw, medd "*Llyfryddiaeth y Cymry*," tua'r flwyddyn 1856, yn fwy na phedwar ugain mlwydd oed. Eithr y mae yn rhaid ei fod yn llawer mwy na hyny, os yn 1856 y bu farw; o blegid fe gyhoeddodd lyfr, "*Cyfaill y Cymry*," yn 1791, bum mlynedd a thrigain cyn hyny; ac yr ydym hefyd yn cael fod Cymdeithas y Gwyneddigion, yn 1793, wedi cyhoeddi Awdl o'i gyfansoddiad ef. Y mae y llyfr hwn yn arddangos diwydrwydd mawr, ar du yr awdwr, yn ei amcan i gyfarfod yr hyn a deimlid ganddo ef yn angen neillduol ar ei genedl ar y pryd; ac yn sicr, ag ystyried ei amgylchiadau isel ac anfanteisiol, y mae yn syndod iddo allu ei gyflawni megys ag y gwnaeth. Y mae ynddo yn egluro y geiriau Cymraeg yn y Gymraeg, a chyda hyny yn rhoddi y Saesneg am danynt; fel y mae hefyd, mewn rhan, yn Eiriadur Cymraeg a Saesneg. Ond y mae lliaws mawr o eiriau Cymraeg diledryw wedi eu gadael allan o hono; ac nid yw yr eglurhâd a roddir ganddo ar ystyr y geiriau sydd ynddo bob amser yn hollol foddlonol. Y mae yn eglur hefyd nad oedd y cynnorthwyon goreu a diweddaraf yn nghyrhaedd yr awdwr pan yn parotoi yr erthyglau daearyddol; ac felly y mae y rhanau hyny o'r gwaith yn dra anmherffaith. Yr un pryd, y mae y llyfr yn cynnwys llawer o wybodaeth fuddiol iawn i'r Cymro uniaith; ac erbyn cymmeryd pob peth i ystyriaeth, y mae yn anrhydedd mawr i goffadwriaeth yr awdwr llafurus.

Ond yr unig lyfr Cymraeg, cyn cyhoeddiad y "GWYDDONIADUR," yn proffesu ei hunan yn "*Encyclopædia*," oedd y "*Welsh Encyclopædia*:—y Geirlyfr Cymraeg, yr hwn sydd yn cynnwys Geiriadur Ysgrythyrol, Hanesol, ac Ieithyddol, lle y dangosir Arwyddocâd Geiriau anghyfiaith; gydag hanesion am Genhedloedd, Teyrnasoedd, Dinasoedd, Mynyddoedd, Llynoedd, Afonydd, Creaduriaid, a Meini gwerthfawr, y rhai a grybwyllir yn yr Ysgrythyrau, ac ereill sydd yn adnabyddus ar yr holl ddaear; hefyd, eglurhâd ar Seryddiaeth, Llanw a Thrai y Môr, Diffygiadau yr Haul a'r Lleuad, &c. Hefyd, Hanes Diwygwyr a'r Merthyron yn y Byd Crefyddol; ynghyd â Hanes Paganiaeth, Atheistiaeth, Deistiaeth, Theophilanthropiaeth, Iuddewiaeth, Mahometiaeth, a Christionogaeth, ac Eglurhâd o'u Daliadau yn hollol ddiduedd. Hefyd, Hanes y Cymry, o ba genedl y tarddasant, eu dyfodiad i Ynys Prydain, y Derwyddon a'u Crefydd; eu Rhyfeloedd gyda'r Rhufeiniaid, y Pictiaid, y Gwyddelod a'r Saeson: ynghyd âg Ansawdd yr iaith Gymraeg; sef, ei Geiriau a'i Rhywiau, ei Rhanau Ymadrodd, a'i Tharddiad. Gan O. WILLIAMS, Waunfawr, a J. JONES, Aberystwyth. Cyf. I. *Albion Press*, Llanfair-caereinion: argraphwyd gan R. HUMPHREYS, dros E. JONES, 1835." Yr oedd y llyfr wedi cael dechreu ei gyhoeddi yn rhifynau er 1827. Y mae y gwaith wedi ei orphen yn gwneuthur cyfrol drwchus, mewn pedwar-plyg, yn cynnwys iv. + 1254 o dudalenau, wedi ei argraphu ar bapyr da, ac â llythyren fras yn nghorph y gwaith, eithr gyda lliaws a Nodiadau helaeth, yma a thraw, mewn llythyren fanach, ond hollol eglur. Y mae y Saesneg yn cael ei roddi am ystyr yr amrywiol eiriau Cymraeg sydd yn cael eu hegluro ynddo. Fe ysgrifenwyd y gwaith yn hollol, hyd ddiwedd yr erthygl ar y gair "Ehedydd," td. 709, gan Mr. OWEN WILLIAMS. Yn y copi o'r llyfr sydd yn meddiant ei fab, Mr. OWEN WILLIAMS, cyfrwywr, Caernarfon, y mae yr awdwr ar y tudalen a nodwyd, wedi ysgrifenu fel y canlyn:—"Dyma y wyneb-ddalen olaf a ysgrifenais i, pryd yr ammharodd fy iechyd wrth ormod gorchwyl; a'r canlyniad fu, i'r diweddar Barch. ISAAC JONES, o Aberystwyth, orphen y rhan olaf. Y mae diwygiad at ail argraphiad genyf. OWEN WILLIAMS, Waunfawr, 1873." Ond bu yr awdwr farw Hydref 3ydd, 1874, yn 84ain mlwydd a naw mis oed. O'r lle y gadawyd y gwaith gan Mr. OWEN WILLIAMS, ac yn enwedig ar ol myned trwy y llythyren "I," y mae yr erthyglau yn llawer iawn byrach nag ydynt yn y rhan flaenorol; tra, ar yr un pryd, y maent yn arwyddo dysgeidiaeth uwch, a llai o hygoeledd hanesyddol, ac wedi eu hysgrifenu

Digitized by Google

yn fwy manwl a gofalus. Y mae llawer iawn o wybodaeth werthfawr yn y gyfran a ysgrifenwyd gan Mr. O. WILLIAMS, yn enwedig am drefi, pentrefi, a phlwyfi Cymru, yn gystal ag am Hynafiaethau Cymreig yn gyffredinol; eithr gyda'r diffyg pwysig y cyfeiriasom eisoes ato, o ormod o lawer o ymddiried yn ngwirionedd hanesyddol y dychymmygion a'r traddodiadau, a gofnodir gan rai o'r hen frudwyr mynachaidd, yn gystal ag mewn lliaws o chwedlau, nad oes un awdurdod uwch drostynt na llafar cyffredin gwlad.

Fe welir oddi wrth yr Adolygiad hwn, a gymmerwyd genym, ar yr hyn a wnelsid yn ein hiaith tuag at ddwyn manteision gwybodaeth gyffredinol, yn enwedig yn y gwyddorion a'r celfyddydau, i gyrhaedd ein cenedl, fod digon o le wedi ei adael i ymgais newydd at rywbeth o nodwedd uwch na dim oedd genym etto er sicrhau hyny. Yr oedd cryn lawer o siarad, a pheth ysgrifenu, wedi bod ynghylch y diffyg amlwg yma oedd yn llenyddiaeth ein gwlad, a'r dymunoldeb o wneyd rhywbeth effeithiol er ei gyflenwi. Ond nid oedd neb yn ddigon anturus i ymgymmeryd â'r fath orchwyl nes i Gyhoeddwr y "GWYDDONIADUR ymaflyd ynddo. Ac y mae yn deg i ni hysbysu mai ei ddrychfeddwl ef oedd y cyhoeddiad o hono, ac mai efe a dynodd allan ei gynllun. Ni a dderbyniasom lythyr oddi wrth ei ddiweddar Olygydd, yn dwyn tystiolaeth bendant i hyny. Pan yn ein hargymmhell i barotoi erthygl ar ryw destyn ag yr oedd efe ar y pryd yn bryderus yn ei chylch, fe sicrhäai i ni mai yn meddwl ei frawd-yn-nghyfraith y cychwynasai y gwaith yn gwbl, ac mai yn hynod o anewyllysgar yr ymgymmerasai efe â'i Olygiaeth; ond ei fod, ar ol dechreu arno, yn hoffi y gwaith yn fawr, oddi eithr yn unig y drafferth a'r anhawsder i gael rhai i ysgrifenu iddo, a'i fod yn gweled fod ganddo fantais fawr drwyddo i ymgais at wneuthur llawer o ddaioni i'w genedl. Fe fu y Cyhoeddwr, a'n cenedl hefyd drwyddo, yn nodedig o ddedwydd yn y Golygydd y sicrhawyd ei wasanaeth i'r gwaith. Cafwyd ynddo un ag oedd wedi bod am flynyddoedd yn cyfoethogi ei feddwl yn arbenig â'r gwybodaethau ag yr oeddem ni, fel cenedl, yn neillduol yn ddiffygiol mewn manteision i'w cyrhaedd yn ein hiaith ein hunain; un â'r fath frwdfrydedd yn naturiol iddo fel ag i roddi ei holl enaid i'r peth yr ymgymmerai âg ef; un mor benderfynol, fel nad oedd unrhyw lafur yn ormod ganddo er cyrhaedd pa beth bynag a osodid ganddo yn amcan iddo ei hun; un yn meddiannu gallu tra anghyffredin er eglurhau, yn y modd symlaf a mwyaf dealladwy i eraill, y golygiadau a gyflwynid ganddo ger eu bron; ac un mor gydnabyddus â chydol gwybodaeth fel ag i ddeall pwys a gwerth cymmharol ei gwahanol ganghenau, ac felly i sicrhau na byddai i'r naill, mewn cyhoeddiad o'r fath ag a olygid ganddo, ormesu yn ormodol ac yn annhêg ar derfynau y llall. Yr oedd ei feddwl ynddo yn hollol, ac fe gymmerodd lafur dirfawr gydag ef. Cyfoethogwyd ei gynnwysiad â lliaws mawr o erthyglau yn gynnyrchion uniongyrchol ei ysgrifell ei hunan, heb law trwy yr arolygiad gofalus a gymmerid ganddo ar y cwbl, a'r chwanegiadau a'r cywiriadau a welid ganddo yn fynych yn angenrheidiol ar erthyglau a anfonid iddo gan ysgrifenwyr ereill. Ac fe fu y gwaith o'r dechreuad yn llwyddiant hollol. Teimlid ar unwaith ei fod y peth oedd yn eisieu ar ein gwlad, a bod addasrwydd arbenig ynddo, nid yn unig o ran drychfeddwl, ond o ran y modd yr oedd hwnw yn cael ei weithio allan, i gyfarfod ein hamgylchiadau neillduol fel cenedl. Nis gallwn osod allan ein syniad ein hunain am dano, yn ei holl gyfrolau, yn well nag mewn geiriau a ddefnyddiwyd genym mewn Adolygiad byr arno yn y "*Traethodydd*," am y fl. 1855, yn mhen ychydig amser wedi dechreu ei gyhoeddiad:—

"Y mae yr hanner cyfrol cyntaf o'r gwaith rhagorol hwn yn awr ger ein bron; ac yr ydym yn deall, oddi wrth yr hysbysiad ar ei amlen, fod y derbyniad ag y mae eisoes wedi ei gael gan y wlad yn gyfryw fel nad rhaid i ni fod mewn dim petrusder, o ran hyny, ynghylch cyhoeddiad y gweddill o hono. Y mae yr hysbysiad hwn yn rhoddi i ni fwy o foddlonrwydd, ar ryw ystyr, nag ymddangosiad y llyfr ei hunan. Nis gall un gwladgarwr, dybygem, lai na llawenhau fod y fath lyfr yn cael ei gyhoeddi yn ei iaith. Y mae ei ymddangosiad yn brawf fod genym yn ein mysg, pa beth bynag a feddylir am danom gan genhedloedd eraill, rai gwŷr o ddysgeidiaeth ac athrylith, yn tynu allan eu holl ymadferthoedd mewn ymdrech at ddyrchafu a choethi meddyliau eu cydwladwyr, ac wedi llwyddo yn y testynau a ddaethant dan eu sylw hyd yn hyn, i wneyd hyny yn y fath fodd ag na fyddai yn un dianrhydedd ar ysgrifenwyr galluocaf unrhyw genedl yn y byd. Nis gall pobl â'r cyfryw athrawon ganddynt, pa mor isel bynag y gallant fod ar y pryd, fod yn hollol anobeithiol am ddyrchafiad. Yn y golygiad hwn y mae cyhoeddiad gwaith o'r fath i ni yn destyn llawenydd mawr. Ond y mae y sicrhâd a roddir i ni, fod cynnifer o'n cydwladwyr wedi eu dyrchafu eisoes o

Digitized by Google

ran eu chwaeth llenyddol mor uchel ag i allu gwerthfawrogi y fath lyfr, a rhoddi prawf effeithiol o hyny trwy wneyd yr anturiaeth o'i gyhoeddi, mewn ystyr arianol, yn ddiberygl i'r rhai sydd yn ymroddi iddi, i ni yn destyn llawenydd mwy. Y mae yn dra ammheus genym na buasai anturiaeth fel hon, ychydig flynyddau yn ol, yn troi allan, nid yn unig yn siomedigaeth, ond yn golled ddirfawr, os nad yn ddinystr masnachol hollol, i'r sawl a ymgymmerasai â hi. Nid oes etto ddeng mlynedd ar hugain er pan y ceisiwyd, trwy y '*Bryd a Sylwydd*,' wneyd rhywbeth tuag at gyfnewid a dyrchafu gwedd y meddwl Cymreig, ac ni a wyddom pa mor siomedig y troes yr amcan hwnw allan. Ond er y pryd hwnw, y mae cynnydd mawr wedi bod ar wir wybodaeth yn Nghymru, a chyfnewidiad amlwg er gwell, yn y golygiad hwn, wedi cymmeryd lle yn ansawdd meddwl y genedl; ac nid y prawf lleiaf o hyny i ni ydyw, y sicrhâd a roddir i ni am y derbyniad sydd i'r gwaith hwn. Yn wir, ni a fuasem yn teimlo yn dra digalon yn achos ein gwlad, pe, wedi yr holl foddion a arferwyd i'w diwyllio yn y blynyddoedd diweddaf, y buasai amcan fel hwn yn troi allan yn aflwyddiannus. Y mae y gwaith yn gyfryw nad oedd genym o'r blaen, yn ein hiaith, ddim cyffelyb iddo; ac yr ydym yn dra hyderus, os dygir ef rhagddo hyd ei orpheniad yn ol yr hyn sydd wedi ymddangos eisoes, na bydd gan un genedl, mewn unrhyw iaith, ddim yn rhagori llawer arno. Y mae yr ysgrifenwyr, gan mwyaf, wedi llwyddo yn yr hyn sydd yn ymddangos i ni, ac a deimlid, fe allai, ganddynt hwythau, yr anhawsder mwyaf mewn gwaith o'r fath, sef cyfyngu eu sylwadau ar yr amrywiol destynau o fewn terfynau priodol, yn ol natur y gwaith, heb fod yn rhy fyr i atteb amcan y cyhoeddiad. Buasai ymhelaethu dan bob gair, fel y buasai yn hawdd gwneyd, yn chwyddo y llyfr yn ormodol, fel ag i beri iddo fod yn anghyrhaeddadwy i'r lliaws; a buasai rhyw fath o dalfyru yn gwneyd y cwbl, mewn cymmhariaeth, yn ddiddefnydd—yn peri na buasai ond swp o esgyrn sychion, noethion, diflas, a difaeth. Y gamp oedd bod yn fyr, ac etto yn gyflawn; yn fanwl, heb fod yn faith; yn gryno, ac etto yn gynnwysfawr. Y mae hyny, fel y gŵyr pawb a fuant yn ymgais at ddim o'r fath, yn wir anhawdd: ond y mae y GWYDDONIADUR wedi llwyddo yn rhagorol gyda golwg ar yr anhawsder hwn. Yr ydym yn teimlo braidd dan bob erthygl, fod tegwch yn cael ei wneyd â'r testyn; tra, ar yr un pryd, nad oes odid un o honynt yn ymestyn i'r fath raddau ag i ormesu ar derfynau y lleill. Y mae enw a chymmeriad ein cyfaill, Mr. PARRY, yn ddigon o sicrhâd am gywirdeb yr addysg a gyfrenir ynddo, ac yn arbenig, na bydd i ddim gael ymddangos ar ei ddalenau anghydweddol â'r parch uchaf i gymmeriad, a'r ymddarostyngiad llwyraf i awdurdod, y Dadguddiad Dwyfol. Y mae y gwaith wedi ei addurno â cherfluniau heirdd a thra darluniadol. Y mae dros bedwar ugain o'r cyfryw yn yr hanner cyfrol hwn, ac y maent oll wedi eu gwneyd yn y modd goreu. Yn wir, y mae yr holl waith, o ran cynnwys, ymddangosiad, a phris—cyfansoddiad, papur, argraphwaith, ffurf, a rhadlonrwydd—yn gyfryw ag yr ydym yn llawenychu ynddo, ac y teimlem ein hunain yn pechu yn erbyn llenyddiaeth a chrefydd, ac anrhydedd ein cenedl, pe na byddai i ni wneyd a allem er ei argymmhell i'w sylw, a rhoddi ein holl ddylanwad yn mhlaid ei lwyddiant."

Fe welir fod y "Y GWYDDONIADUR CYMREIG" wedi ei fwriadu i gael ei ddwyn allan yn ddosbarthiadau, ac mai y *Dosbarth* I., yn ol y cynllun gwreiddiol, yn cynnwys Duwinyddiaeth, Daearyddiaeth, Hynafiaethau, Beirniadaeth, Bywgraffyddiaeth, a Llenoriaeth Ysgrythyrol, Hanes Eglwysig, a Bywgraffyddiaeth Grefyddol, ydyw yr hyn a geir yn y deg cyfrol sydd yn awr wedi eu cyhoeddi. Ond yr oedd y Golygydd, er yn fuan wedi dechreu cyhoeddiad y gwaith, yn ofni na byddai efe yn alluog, os cai fyw, i ofalu am unrhyw Ddosbarth ar ol y cyntaf; ac felly fe gymmerodd ei ryddid, yn achlysurol, i ddwyn i mewn i'r Dosbarth cyntaf, rai erthyglau a fuasent yn disgyn yn fwy naturiol i ddosbarth arall; ond felly yn chwanegu llawer at werth y dosbarth presennol, tra yn gadael digon i le i ymdriniaeth helaethach ar y testynau hyny dan eu dosbarth priodol. Yr ydym yn gweled fod yr un peth wedi ei wneyd mewn rhan yn yr "*Attodiad*" i'r gwaith, yn niwedd y llyfr, yr hwn a ddygwyd allan dan olygiad ein cyfaill, y Parch. JOHN OGWEN JONES, B.A. Yr ydym yn hyderu, pa fodd bynag, y ca y cyhoeddwr ddigon o gefnogaeth i'w alluogi i ddwyn allan Ddosbarth arall, yn cynnwys y Gwyddorion a'r Celfyddydau, Anianyddiaeth Naturiol, Hanesiaeth a Llenyddiaeth Gyffredinol, &c.; fel ag i gwblhau yr amcan a fwriedid ar y cyntaf, ac i sicrhau i'n cenedl, rhwng y ddau ddosbarth, yn ein hiaith ein hunain, gyfrwng cydnabyddiaeth ag y gellir dibynu yn hollol arno, â chydol gwybodaeth, ac un na bydd raid iddi gywilyddio o hono, yn ol ei faintioli, mewn cymmhariaeth â'r rhai galluocaf sydd yn

Digitized by Google

eiddo i un genedl arall. Ond pe na byddai i ddim mwy o hono byth gael ei gyhoeddi nag a ddygwyd allan eisoes, ac a geir yn y deg cyfrol hyn, ni phetruswn ddywedyd ei fod yn drysor anmhrisiadwy i'n cenedl. Y mae y testynau neillduol sydd dan sylw ynddo yn cael traethu arnynt gyda'r fath eangder a manylder ag sydd hollol ddigonol i ddarllenwyr cyffredin, er rhoddi iddynt syniad boddlonol yn eu cylch; ac nid hawdd a fyddai i'r efrydydd mwyaf manwl a gofalus gael crynöad cywirach a chyflawnach o'r prif bethau angenrheidiol eu gwybod, cyssylltiedig â phob pwngc yr ymdrinir âg ef, nag sydd yma wedi ei barotoi ar ei gyfer. Yn wir, y mae rhai o'r erthyglau athrawiaethol ac arddansoddol yn ymddangos i ni yn nodedig o alluog, ac o nodwedd llawn mor uchel, a dywedyd y lleiaf, a dim adnabyddus i ni mewn unrhyw Wyddoniadur sydd yn yr iaith Saesnig; ac y mae y llyfr drwyddo, o'i ddechreu i'w ddiwedd, yn anrhydedd i'n gwlad ac i'n cenedl. Yr un pryd, fel yr awgrymasom eisoes, yr ydym yn hyderu yn fawr y caiff y cyhoeddwr y fath gefnogaeth, ag a'i galluoga i ddwyn allan yr ail ddosbarth, mewn gwedd ag a fyddo yn cyfatteb i holl ragoriaethau y dosbarth cyntaf; ac felly sicrhau i'n cenedl WYDDONIADUR cyflawn, o'r fath oreu—o ran ei bris yn gyrhaeddadwy braidd i bob gradd ac amgylchiad yn ein gwlad, ac etto o ran ei wedd yn gyfryw ag i fod yn addurn i lyfrgell unrhyw foneddwr.

Yr oedd ein hanwyl gyfaill, Golygydd parchedig y gwaith hwn—o ran galluoedd naturiol ei feddwl, rhagoriaethau arbenig ei gymmeriad, y gwasanaeth mawr a gyflawnwyd ganddo i'w genedl, a'r safle uchel ac anrhydeddus a ennillodd yn ei mysg—yn gyfryw ag i deilyngu Cofiant helaeth a manwl; ac y mae yn resyn dirfawr na buasai y fath un eisoes wedi ei gyhoeddi. Y mae yn ddiddadl y buasai y fath waith—yn cynnwys hanes ei feddwl, y llafur dybryd a gymmerodd i'w ddiwyllio ei hunan, ei ymröad i'r llafur hwnw yn ngwyneb yr holl amgylchiadau a dueddent i'w ddigaloni, a'r cynnydd a wnaed ganddo mewn cydnabyddiaeth âg amrywiol ganghenau gwybodaeth—yn dra dyddorol, ac yn nodedig o werthfawr, yn neillduol fel esampl ac fel cefnogaeth i ieuengctyd ein gwlad i ymdrechu yn yr un cyfeiriad. Yr oeddym wedi addaw i ni ein hunain y cawsem Gofiant felly am dano, yn enwedig wedi deall fod ei gyd-frawd-yn-nghyfraith, y diweddar Barch. EBENEZER POWELL, wedi ymgymmeryd â'i barotoi. Ond, ysywaeth! cyn iddo ef allu gwneuthur ond ychydig, neu ddim, gyda golwg ar y fath amcan, fe'i cymmerwyd ef ymaith ei hunan yn dra annisgwyliadwy, fel y mae y gobaith am dano, oddi wrtho ef, wedi ei golli yn gwbl ac am byth. Nid oes genym ni na'r defnyddiau na'r hamdden i barotoi dim o'r fath; ac felly rhaid i ni foddloni yn unig ar ychydig grybwylliadau am brif ffeithiau ei hanes, gydag ymgais byr i roddi rhyw ddisgrifiad cyffredinol o hono yn nodweddau neillduol ac arbenig ei feddwl.

Y mae ychydig amrywiaeth yn yr adroddiadau a wnaed ynghylch amser ei enedigaeth; ond fe'i ganwyd mewn pentref bychan, yn agos i Wrecsam, a elwir *Bersham*, Mawrth 23ain, 1812. Y mae hyn yna yn hollol sicr, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun i ni laweroedd o weithiau, yn gystal ag i ereill o'i gyd-efrydwyr, y rhai ydynt etto yn fyw; ac i wneuthur y peth yn gwbl ddiammheuol, yn ol ysgrif ar ei hanes a ymddangosodd yn "*Nhrysorfa y Plant*," ryw wyth mlynedd cyn ei farwolaeth, a'r hon, yn ol tystiolaeth bendant Mr. LEVI, "a gywirwyd gan Mr. PARRY ei hun." Enw ei dad oedd EDWARD PARRY, *founder* wrth ei alwedigaeth: gŵr o gorph cryf, tawel, a hamddenol ei feddwl, o dymmer nodedig o hynaws a charedig, ac o deimladau gwir grefyddol. Enw morwynol ei fam ydoedd MARY EVANS. Yr oedd hi yn wraig o gynneddfau cryfion anghyffredin, ac yn un nas gellid cyfarfod â'i chyffelyb ond yn dra anfynych. Yr oedd o feddwl llawer mwy bywiog a gweithgar, o ddeall llawer cyflymach a chryfach, ac o ysbryd llawer mwy penderfynol na'i phriod; ac y mae yn ddiddadl mai trwyddi hi yr etifeddodd Mr. PARRY y rhagoriaethau meddyliol arbenig a berthynent iddo. Efe oedd yr unig fachgen. Yr oedd ganddo amryw chwiorydd. Y mae tair o honynt etto yn fyw yn Manchester, ac wedi bod ar hyd eu hoes, o'u hieuengctid, yn aelodau defnyddiol a gwerthfawr o eglwys y Trefnyddion Calfinaidd yno, sydd yn awr yn ymgynnull yn Moss Side. Yr oedd Bersham, lle y ganwyd ac y magwyd ef, yn lle hollol Saesneg; fel, er fod ei rieni yn Gymry trwyadl, nad oedd efe, yn ei flynyddoedd cyntaf, yn gwybod ond ychydig iawn o Gymraeg. Dechreuodd ei addysg ar lyfr mewn Ysgol Sabbothol a gedwid yn y gymmydogaeth hono dan arolygiad y diweddar Mr. RICHARD HUGHES, argraphydd a chyhoeddwr, Gwrecsam; a derbyniodd y pryd hyny, yn benaf trwy gyfarchiadau Mr. HUGHES ar ddiwedd yr ysgol, y fath argraphiadau crefyddol ar ei feddwl, fel yr edrychai, hyd ddiwedd ei oes, ar Mr. HUGHES gyda'r edmygedd a'r



Digitized by Google

parchedigaeth mwyaf. Wedi iddo dyfu ychydig, bu am beth amser yn myned i ysgol ddyddiol a gedwid yn Ngwrecsam, yn dysgu darllen ac ysgrifenu; ond dywedai wrthym mai ysgol dra aneffeithiol oedd hono. Yn y flwyddyn 1824, pan oedd efe yn ddeuddeng mlwydd oed, fe symmudodd ei rieni i Manchester i drigiannu. Yno fe ymunodd y rhieni â'r eglwys Gymraeg a gyfarfyddai y pryd hyny yn Oak Street, ond a symmudodd cyn diwedd y flwyddyn i Cooper Street. Gan nad oedd y plant yn deall ond ychydig iawn o Gymraeg, ac nad oedd achos Saesneg yno gan y Methodistiaid, aeth y rhieni i fesur yn brofedigaethus o'u plegid; ac yr oeddynt yn methu gwybod pa beth a fyddai oreu ei wneyd. O'r diwedd, penderfynasant fod i JOHN a'i chwiorydd fyned i'r Ysgol Sabbothol a gynnelid mewn cyssylltiad â chapel Grosvenor Street, lle yr oedd y diweddar Barch. WILLIAM ROBY y pryd hyny yn gweinidogaethu; ac felly yno yr anfonwyd hwynt. Yno hefyd y buont yn myned am beth amser yn benaf i wrandaw. Ac yr oedd coffa'da gan Mr. PARRY, hyd ddiwedd ei oes, am rai o'r pregethau a glywsai gan Mr. ROBY pan y byddai yn myned yno. Ond wedi iddo ef a'i chwiorydd fod yn myned yno am dymmor, aeth y rhieni, yn enwedig y fam, yn dra phryderus wrth fod y plant yn myned felly eu hunain i addoldy gwahanol i'r eiddynt hwy, ac heb eu harolygiad hwy drostynt, rhag iddynt gyfarfod â rhyw rai, a'u gwneuthur yn gyfeillion iddynt, a allent eu niweidio yn y peth penaf: ac o herwydd hyny, yn lled fuan wedi agor y capel newydd yn Cooper Street, hwy a benderfynasant eu cymmeryd gyda hwynt yno, a chael ganddynt hwythau ymroddi i ddysgu Cymraeg, fel ag i ddeall yr hyn a bregethid iddynt. Ac felly fu. Ymroddodd y plant i ddysgu y Gymraeg, a JOHN yn arbenig, nes y daeth o'r diwedd i'w deall yn drwyadl; er mai ar ol myned i'r Bala y llwyddodd i feistroli yn hollol gyfnewidiadau y cydseiniaid, ac yn enwedig rhywiau y sylweddeiriau. Bu am beth amser heb allu mwynhau dim yn y pregethu Cymraeg, ond y teimlad a arddangosid gan y pregethwyr, a'r effeithiau a ganfyddai ar y gwrandawyr. Ond fel yr oedd ei gydnabyddiaeth â'r iaith yn cynnyddu, daeth i hoffi y pregethu ynddo ei hunan, yn enwedig pan gaent rai o'r prif bregethwyr i'w mysg; yr hyn ni ddigwyddai yn fynych y pryd hyny, yn ol y drefn i siroedd y Gogledd anfon, yn eu tro, ddau frawd bob mis rhwng Liverpool a Manchester, i wasanaethu yr achos yn y ddau le.

Daeth y bachgen yn fuan i gymmeryd dyddordeb neillduol yn yr Ysgol Sabbothol. Clywsom ef, fwy nag unwaith, yn adrodd mai yr hyn a roddes y symbyliad cryfaf, braidd o bob peth erioed, i'w feddwl i ymroddi i ddysgu oedd, gwaith athraw iddo—gŵr o'r enw Mr. ANWYL—ryw Sabbath yn yr ysgol, wedi iddo ef ddarllen adnod, yn myned heibio iddo ef heb ofyn un cwestiwn iddo; ond yn gofyn cwestiwn oddi wrthi i'r bachgen a eisteddai yn agosaf ato ef, oddi ar dybiaeth fod y cwestiwn yn un rhy uchel iddo ef allu ei atteb. Digwyddai ei fod ef yn gwybod yn dda y pryd hyny yr attebiad a ddylesid roddi i'r cwestiwn; a theimlodd yn ddwys o blegid yr hyn a ymddangosai iddo yn radd o ddarostyngiad arno yn ngolwg y dosbarth; a phenderfynodd, yn y fan, yr ymroddai o hyny allan i ba lafur bynag a fyddai yn angenrheidiol i ddysgu, fel na feiddiai yr athraw fyned heibio iddo felly drachefn. Ac fe wnaeth hyny. Rhoddes ei holl fryd ar gasglu gwybodaeth—a gwybodaeth o bob math. Nid äi i un lle heb ei lyfr, a defnyddiai bob adeg a allai gael i ddarllen.

Pan oedd tua phedair ar ddeg oed, fe'i rhoddwyd i ddysgu rhyw waith mewn dûr (*file cutter*)—gyda'r hyn y bu am ryw gymmaint o amser. Nid oedd y gwaith hwnw yn dygymmod yn dda â'i iechyd; ac o blegid rhyw gyfnewidiad yn amgylchiadau y gŵr yr oedd yn egwyddorwas iddo, fe'i rhyddhawyd oddi wrtho. Bu ar ol hyny adref am beth amser, ac yn anmhenderfynol pa beth i'w wneuthur. Yr oedd yn awyddus iawn, pe buasai bossibl iddo, am gael myned i ryw ysgol, er ei gymmhwyso ei hunan at ryw beth heb law gweithio â'i ddwylaw. Ond yr oedd amgylchiadau ei rieni y fath fel yr oedd yn anmhossibl iddynt ei anfon i un ysgol felly; ac, ysywaeth, nid oedd neb arall â llygad digon craff ganddo i weled rhagoriaeth y bachgen, ac i weini cymmhorth iddo. Yn y cyfwng hwn, efe a aeth i Gymru, i ymweled â rhai o'i berthynasau; ac o dueddau Llangollen, lle yr oedd ei berthynasau yn preswylio, aeth i Gymdeithasfa y Bala, Mehefin 18fed a'r 19eg, 1828. Dyna y Gymdeithasfa gyntaf iddo ef fod ynddi erioed, a'r unig Gymdeithasfa a gafodd hyd Gymdeithasfa y Bala yn y flwyddyn 1839, wedi iddo fyned yno i'r Athrofa. Mwynhaodd y Gymdeithasfa yn 1828 yn anghyffredin, yn enwedig pregeth Mr. ELIAS, ar *Eph.* iv. 20, 21. Clywsom ef yn dywedyd fod ei lais wedi bod yn ei glustiau am fisoedd, yn adrodd ac yn ail adrodd y geiriau—"Os bu i chwi ei glywed ef." Ryw bryd dychwelodd i Manchester, ac fe'i rhwymwyd yn egwyddorwas i ddysgu gwaith saer coed. Nid ydym yn meddwl iddo gael nemawr ddyddordeb

Digitized by Google

yn ei gelfyddyd, ac felly na feddyliodd erioed am ragori ynddi. Ond yr oedd yn parhau i gael y dyddordeb mwyaf yn ei lyfrau, ac yn mynu cael rhai oriau bob dydd, pa beth bynag a ddigwyddai, tuag at ddarllen. Tua'r pryd hwn, fe ymunodd â'r dosbarthiadau hwyrol mewn cysylltiad â'r *Mechanics' Institute* yn Manchester, y rhai a ddilynwyd ganddo, i fesur mwy neu lai, am amryw flynyddoedd. Ennillodd gryn gydnabyddiaeth yno âg elfenau rhifyddiaeth; ac yn enwedig fe gynnyddodd yn ei wybodaeth o rammadeg yr iaith Saesnig, ac arferodd gryn lawer â chyfansoddi ynddi. Pan yn dysgu y grammadeg, mynodd ddau gopi o hono; a thorodd un o honynt, o ddalen i ddalen, fel yr oedd yn dyfod ati, gan ddirwyn y ddalen ar ei fys, fel y gallai edrych arni yn mha le bynag y byddai, a sicrhau ei chynnwysiad yn hollol yn ei gôf. Yr oedd yn talu sylw neillduol i'r darlithiau a draddodid y pryd hyny yn yr *Institute*, gan rai o wyddonwyr penaf y deyrnas—yn enwedig darlithiau Dr. DALTON a Dr. LARDNER. Yr oedd yn nodedig o hoff o Dr. LARDNER fel darlithydd. Llawer gwaith y clywsom ef yn dywedyd, ei fod ef yn arfer siarad mor naturiol âc eglur ar y pyngciau a fyddent yn destynau ei ddarlithiau, fel nid yn unig yr oedd yn hawdd ei ddeall, ond yn anmhossibl peidio ei ddeall. Bu y dosbarthiadau a'r darlithiau hyny o wasanaeth annhraethol werthfawr i Mr. PARRY. Ac er fod ei rieni, yn enwedig ei fam, yn ofni yn fynych rhag i'w ymroddiad i'r fath efrydiau ei niweidio yn ei grefydd, yn enwedig gan ei fod yn gorfod colli y cyfarfod eglwysig, bob yn ail wythnos, er mwyn bod yn bresennol yn y darlithiau, etto yr oedd efe yn teimlo rhwymau cydwybod arno i ddefnyddio y manteision oeddynt yn ei gyrhaedd er diwyllio ei feddwl, a'i gymmhwyso ei hunan, os gallai, i ddefnyddioldeb mwy mewn blynyddoedd dyfodol. Ac yr oedd, hyd yn nod y pryd hyny, mor ddyfal ac ymroddedig gyda'r holl foddion yn y capel, oddi eithr ar y nosweithiau y byddai yn dilyn y dosbarthiadau a'r darlithiau, ag yr oedd yn bossibl iddo fod; ac, yn enwedig, yr oedd yn ymroddi gyda'r holl egni oedd yn eiddo iddo, a'r holl frwdfrydedd a berthynai i'w natur, i wneuthur yr Ysgol Sabbothol y perthynai iddi yn effeithiol i'w hamcanion mawrion. Ac fe lwyddodd gymmaint yn hyny, nes y daeth i gael ei deimlo a'i gydnabod yn gyffredinol fel ei nerth mwyaf yn mhlith y Cymry yn Manchester.

Yn nechreu y flwyddyn 1836, fe ddechreuwyd achos newydd gan y Methodistiaid yn Manchester, mewn hen gapel i'r Wesleyaid Saesnig, yn Ancoats Lane. Aeth un neu ddau o'r rhai oeddynt yn flaenoriaid yn Cooper Street yno i'w sefydlu, ac i'w arolygu; ac annogwyd Mr. PARRY, a dau neu dri o frodyr eraill, i fyned yno i'w cynnorthwyo, yn enwedig gyda'r Ysgol Sabbothol. Cydsyniodd â hyny—ac yno bellach yr ystyrid ef megys aelod. Yn mis Mai, 1837, fe'i dewiswyd yn flaenor i'r eglwys fechan hono. Yn Nghymmanfa Manchester, 1837—yr hon a gynnelid y blynyddoedd hyny ar wythnos y Sulgwyn—yn cael ymddiddan âg ef, a'i dderbyn i'r frawdoliaeth megys blaenor, y gwelsom ni ef gyntaf erioed. Yr hwn oedd yn cymmeryd y rhan flaenaf yn ei holi ar yr adeg hono oedd y diweddar Barch. JOHN HUGHES, Pont Robert. Yr oedd yn Manchester, fel yr oedd braidd yn mhob man arall y pryd hwnw, ryw rai yn eu gosod eu hunain i fyny fel gwylwyr neillduol ar yr athrawiaeth—rhai o honynt hefyd heb fod yn rhy ofalus am eu buchedd—ac yr oedd y rhai hyny yn ammheu, neu yn cymmeryd arnynt ammheu, a oedd Mr. PARRY yn hollol iach yn y ffydd, yn enwedig ar athrawiaeth yr Iawn. Yr oedd yr hen frawd oedd yn ei holi wedi cael rhyw awgrym gan y rhai hyny fod rhyw ammheuaeth felly o berthynas iddo, er nad oedd hyny, hyd y gwyddid, yn meddwl neb oddi eithr yr eiddynt hwy eu hunain; ac yn ganlynol, yr oedd y cwestiynau a roddid iddo, i fesur mawr, yn cael eu hamcanu i'w brofi yn y cyfeiriad hwnw. Ond er ei fod yn mhell o atteb yn y geiriau a ddewisasid gan y rhai a'i hammheuent, etto yr oedd yn llefaru mor groyw ar drefn yr iachawdwriaeth, fel un wedi ei dadguddio i ni yn yr Ysgrythyrau yn y ffurf o gyfammod rhwng y Personau Dwyfol â'u gilydd, ac ar y sicrwydd sydd yn codi oddi ar hyny, mai nid ar antur y bu Crist farw, ac nas gall ei farwolaeth fod yn ofer heb i'r Tad fod yn anffyddlawn i'w addewid mewn cyfammod i'w Fab—fel y cafwyd y boddlonrwydd llwyraf yn ei attebion; ac y dywedodd yr hen JOHN HUGHES, yn ei ddull ei hunan:—"Dyna dduwinyddiaeth yr Ysgrythyr Lân, a dyna dduwinyddiaeth yr Ysbryd Glân; ac yn y dduwinyddiaeth yna y mae yr unig sicrwydd sydd genym ni am iachawdwriaeth y byd." Yr ydym yn cofio fod y diweddar Barch. ROBERT WILLIAMS, Aberdyfi—yr hwn oedd yn cartrefu y pryd hyny yn Manchester, ac yn gyfaill mawr i Mr. PARRY—wrth fodd ei galon wrth weled fod amcanion rhyw rai, adnabyddus iddo ef, ag oeddynt wedi bod yn fwyaf prysur yn llunio ac yn lledaenu yr ammheuon am gywirdeb credo

Digitized by Google

ei gyfaill, wedi troi allan mor aflwyddiannus. Fel y dywedasom, dyma y tro cyntaf i ni ddyfod i gyfarfyddiad âg ef; a daethom ein dau, ar unwaith, yn nodedig o hoff o'n gilydd. Deallasom fod ar ei feddwl ymroddi i weinidogaeth yr efengyl; ond yr oedd yn ymdeimlo cymmaint â'i anghymmhwysder ei hunan, fel yr oedd yn ofni yn ddirfawr ymgymmeryd â'r gwaith; ac nis gwyddai yn y byd pa bryd y cynnygiai arno. Yn mis Chwefror, 1838, yr oeddym ni drachefn yn Manchester, am ddau Sabbath, yn ol y drefn oedd y pryd hwnw, y cyfeiriasom eisoes ati, i anfon pregethwyr o'r siroedd yno. Ac erbyn hyny, yr oedd ei awydd am bregethu yn llawer cryfach na phan y gwelsem ef o'r blaen, ac yn enwedig ei awydd am ymgymmhwyso tuag at hyny. Yr oeddym ni wedi penderfynu myned i'r Bala, i'r Athrofa, ddechreu y tymmor canlynol; ac yr oedd yntau hefyd yn awyddus anghyffredin am gael myned yno. Nid oedd trefniadau neillduol wedi eu gwneuthur y pryd hyny gyda golwg ar fynediad rhai yno; ond yn unig fod y Cyfarfodydd Misol i dalu rhyw swm pennodol dros bob un a anfonid ganddynt. Yr oeddym ni yn teimlo yn dra hyderus na byddai i'r swyddogion eglwysig yn Manchester, ond gosod yr achos ger eu bron, ommedd talu y swm angenrheidiol drosto ef, fel ymgeisydd am y weinidogaeth, modd y gallai, o leiaf, gael ei addysg yn rhad yno; ac felly, aethom ein dau at y nifer amlaf o lawer o honynt, ac at y cwbl o'r rhai a dybid yn bwysicaf, a chawsom addewid barod ganddynt, bob un yn bersonol, y caniateïd yn sicr y dymuniad. Ond drwg genym i un brawd, un oedd wedi cymmeryd y rhan benaf mewn lledaenu, os nad mewn llunio, yr ammheuon ynghylch cywirdeb ei gredo, droi yn anffyddlawn iddo, a hyny yn hollol groes i'w addewid bendant i ni ein dau y gwnai efe ei oreu yn ei blaid. Ysywaeth! fe wnaeth gymmaint ag a allai yn ei erbyn; ac fe lwyddodd i gael y mwyafrif o'r brodyr eraill yr un ffordd ag ef ei hunan—fel, o'u rhan hwy, y cauesid drws yr Athrofa yn gwbl yn ei erbyn. Y rheswm mawr a ddefnyddid gan y brawd hwnw oedd, nad oedd Mr. PARRY wedi rhoddi ei achos iddynt hwy fel ymgeisydd am y weinidogaeth, ac felly nas gallent yn deg ei anfon i'r Bala fel y cyfryw. Yr oedd y diweddar Barch. RICHARD HUMPHREYS, o'r Dyffryn, yn digwydd bod yn Manchester ar y pryd, ac yn gwybod yr holl amgylchiadau. Yr oedd ganddo feddwl uchel iawn am Mr. PARRY, a llawenhäai yn fawr fod yn ei fwriad ymroddi i'r weinidogaeth; ac yr oedd yn teimlo yn nodedig o ofidus ei fod yn cael ymddwyn tuag ato megys y gwneid gan ei gyd-swyddogion. Yr oedd efe yn ei annog i ddechreu pregethu ar unwaith, er mwyn tynu ymaith achlysur y gwrthwynebiad oddi wrth ryw rai a ymddangosent fel yn ceisio achlysur. Ond er fod Mr. PARRY yn llawn awydd am ddechreu ar y gwaith, etto ni fynai ddechreu dan y fath amgylchiadau; gan y credai y byddai yr un rhai ag oeddynt yn gwrthwynebu iddo fyned i'r Bala fel yr oedd, yn sicr o ddywedyd ei fod yn myned i bregethu yn unig er mwyn iddo gael ysgol. "Yr wyt ti yn dy le, JOHN," meddai Mr. HUMPHREYS, "felly y gwnaent: ond, cred di, fe ddaw ymwared o rywle." Pan oedd Mr. HUMPHREYS yn dychwelyd adref, fe alwodd yn y Bala, gyda Mr. EDWARDS a Mr. CHARLES, ac adroddodd iddynt hwy yr amgylchiadau. Y canlyniad a fu, iddo gael llythyr oddi wrthynt yn ei wahodd i'r Athrofa i gael ei addysg yn hollol rad, os na byddai y cyfeillion yn Manchester yn foddlawn i dalu drosto; ar yr ammod iddo aros yno cyhyd ag y gallai, fel ag i fod o ryw gynnorthwy iddynt hwy yn addysgiaeth y dosbarthiadau isaf. Y mae yn deg i ni hysbysu na alwyd byth arno gan yr athrawon parchedig i gyflawni y gwaith yna. Ryw bryd yn nechreu Mai, 1838, ni a gawsom lythyr oddi wrtho, yn adrodd i ni yr amgylchiadau a nodasom uchod, ac yn hysbysu ei fwriad i fyned i'r Bala y mis Awst canlynol, gan ddadgan ei hyder y caem gyfarfod yno, os na ddigwyddai i ni gael gweled ein gilydd cyn hyny. Lluddiwyd ni i fyned i'r Bala hyd ar ol Cymdeithasfa Bangor, yn mis Medi; ond yn ddioed wedi y gymdeithasfa, ni a aethom yno ato, lle y buom hyd nes aethom i Edinburgh, yn mis Hydref, 1841.

Wedi cyrhaedd y Bala, fe ymroddodd o lwyr-fryd calon i'w efrydiau. Yr oedd megys yn llosgi gan ei awydd angerddol am wybodaeth: ac yn gymmaint ag nad oedd etto yn pregethu, yr oedd yn gallu rhoddi ei holl amser, a'i holl nerth, at ddyledswyddau uniongyrchol y dosbarthiadau. Ac yr oedd ei gynnydd yn amlwg i bawb. Ar y Sabbothau, yr oedd gorchwylion neillduol dyddiau yr wythnos yn yr Athrofa yn cael eu gadael heibio yn hollol ganddo; a byddai bob tro yn ei le yn y capel, ac ymroddai yn enwedig yn ffyddlawn, megys ag y gwnai yn Manchester, i lafur gyda'r Ysgol Sabbothol. Cyfyngai ei ddarlleniad yn gwbl ar y Sabbothau i'r Beibl, ac i rai o'r prif awdwyr ar dduwinyddiaeth. Nid oedd rhyw lawer o duedd ynddo y pryd hwnw—nis gallwn ddywedyd pa fodd yr oedd mewn blynyddoedd diweddarach—at ymchwil-

Digitized by Google

iadau beirniadol ar eiriau yr Ysgrythyrau; ond yr oedd yn wastadol yn ymgais am gael gafael ar yr egwyddorion, a gredid ganddo ef, a orweddant yn nghanol pob adnod, yn aros am ryw un i'w canfod, a'u tynu allan i olwg y byd. Yr oedd adnodau y Beibl felly, i'w feddwl ef, yn gyfoethog o ystyr; ac nid oedd dim a garai yn fwy mewn pregeth, neu mewn ymddiddan, na chael yr ystyr hwnw, yn ei holl eangder, wedi ei agoryd yn oleu o'i flaen. Ar ol Cymdeithasfa y Bala, 1839, efe a ddychwelodd i Manchester, dros ystod gwyliau yr Athrofa, ac a aeth yn ol i'r Bala drachefn yn nechreu Awst. Tra yn Manchester y pryd hwnw, fe fu rhyw ymddiddan yn mhlith y blaenoriaid yno am iddo ddechreu pregethu; ond ni wnaed un ysgogiad pellach tuag at hyny. Yr oedd yr un dylanwad gwrthwynebus iddo, ag oedd wedi bod o'r blaen yn ei attal, yn parhau yn ei rym; ac yr oedd yntau yn rhy annibynol ei feddwl i dalu unrhyw warogaeth i'r sawl a'i harddangosai, er ennill ei ffafr. Pa fodd bynag, pan y dychwelodd i'r Bala, ar ddechreuad y tymmor canlynol, ac yn awr wedi cael sierwydd gan ei rieni y cedwid ef ganddynt yno, os gallent mewn un modd, tra y gwelai efe yn angenrheidiol iddo fod yno, daeth dechreu pregethu yn ddifrifol at ei feddwl; er nad oedd, o blegid ei amgylchiadau neillduol yn ei berthynas eglwysig â Manchester ac â'r Bala, yn gwybod yn iawn pa fodd i ysgogi. Ond pan yn petruso felly, penderfynwyd y cwestiwn yn rhwydd, os i fesur yn afreolaidd, gan y diweddar JOHN DAVIES, Ysw., Fronheulog. Yr oedd rhyw bregethwr lled enwog—nid ydym yn cofio pwy—wedi addaw cyhoeddiad i Mr. DAVIES i fod yn Llandderfel am y Sabbath, Rhagfyr 1af, 1839; ond am ryw resymau, wedi anfon ato fod yn ammhossibl iddo ddyfod y pryd hyny, ac yn galw y cyhoeddiad yn ol. Yr oedd Mr. DAVIES wedi cael y llythyr hwnw ryw fis cyn i'r amser ddyfod. Y Sabbath canlynol iddo dderbyn y llythyr, yr oedd cyfarfod chwechwythnosol yr Ysgolion Sabbothol yn cael ei gynnal yn Llandderfel; ac amryw yn areithio ynddo, ar ryw faterion cyssylltiedig â'r Ysgol, ac yn eu plith Mr. PARRY. Ac fe areithiodd y pryd hyny gyda'r fath rwyddineb, a grym, a dylanwad, nes penderfynu meddyliau pawb oeddynt yn y lle fod ynddo ddefnyddiau pregethwr rhagorol, a'u gwneuthur oll yn awyddus am ei glywed. Erbyn hyn, nid oedd dim a foddlonai Mr. DAVIES ond iddo addaw dyfod yno i bregethu, neu, os mynai ef, i "ddywedyd gair ar y bennod," ar y Sabbath gwâg ag oedd ganddynt. Ni fynai ei nacau. Ac felly, fe addawodd Mr. PARRY fyned. A phan ddaeth y Sabbath, efe a aeth, ac a bregethodd yno ddwy waith—y boreu a'r hwyr. A dyna y troion cyntaf iddo. Dyna ddechreu, o'r diwedd. Cwynai ef ei hunan yn ddirfawr ar ei ymgais cyntaf hwn; ac yr oedd yn synu fod y blaenor wedi rhoddi dim cydnabyddiaeth iddo am y fath bregethau. Ond efe yn unig oedd yn teimlo felly. Yr oedd pawb eraill yn dra awyddus am iddo fyned rhagddo. Ac felly, wedi i Mr. EDWARDS ohebu â'r cyfeillion yn Manchester, fe gymmerwyd ei achos, yn y dull arferol, i Gyfarfod Misol sir Feirionydd, ac fe anfonwyd cenhadon oddi yno i'r eglwys yn y Bala i ymddiddan âg ef, ac i dderbyn llais yr eglwys o berthynas iddo. Cafodd, fel y gallesid disgwyl, dderbyniad rhwydd a chalonog gan bawb. Aeth yntau ei hunan, yn mhen amser, i'r Cyfarfod Misol, a derbyniwyd ef yno yn bregethwr rheolaidd. Yn Nghymdeithasfa y Bala, 1841, fe ymddiddanwyd âg ef, yn y dull arferol y pryd hyny, ac fe'i derbyniwyd yn aelod o'r Gymdeithasfa.

Yn niwedd Hydref, 1841, nyni a aethom ein dau, gyda'r Parch. JOHN JONES, yn awr o'r Ceinewydd, a MORGAN LLOYD, Ysw., A. S., i Edinburgh, er mwyn manteision y Brifysgol yno. Ein bwriad, wrth fyned, oedd aros yno hyd nes y gallem gael ein graddio yn anrhydeddus. Ac aethom ni ein dau yno am dymmor drachefn, gyda'r un amcan. Ond gan nad oedd modd byw yno, na thalu costau y Brifysgol, heb arian, ac na chawsom ond odid neb i deimlo fod arnom ni eisieu y rhai hyny, bu raid i ni roddi y bwriad i fyny yn gwbl am fyned trwy yr holl gylch athrofaol, a phenderfynu ymsefydlu, fel yr oeddym, yn mha le bynag y byddai Rhagluniaeth yn ein trefnu. Tra yr oeddym yn Edinburgh, y tymmor cyntaf, disgynodd yn ddwys iawn ar feddwl Mr. PARRY mai ei ddyledswydd ef oedd myned allan i'r India yn genhadwr. Am gryn amser, nid oedd odid ddim arall, tu allan i'r testynau oedd genym yn y dosbarthiadau, i'w gael ganddo. Yr oedd hyny wedi dechreu i fesur trwy bregeth Mr. REES yn y Bala ar ordeiniad Mr. THOMAS JONES; ac yr oedd y cyfarfod gweddïo cenhadol a gynnelid bob boreu Sadwrn gan yr efrydwyr mwyaf crefyddol yn y Brifysgol, a'r hwn y byddem ni yn myned iddo yn achlysurol, er nad yn hollol gysson, yn tueddu i feithrin y fath deimladau yn mhawb a gyrchent iddo. Ryw fodd, yr oedd Mr. PARRY wedi dyfod braidd yn benderfynol, mai ei ddyledswydd ef oedd cynnyg ei hun i fyned allan gyda'r efengyl i blith paganiaid India. Ond wedi ymgynghori âg amryw gyfeillion, a chael

Digitized by Google

pawb o honynt braidd yn hollol wrthwynebol i hyny, ac yn gryf o'r farn mai ei ddyledswydd yn hytrach oedd aros yn y wlad hon, er mwyn yr achos gartref, fe roddes y bwriad hwnw heibio. Ond yr oedd yn llawn o ysbryd cenhadol hyd ddiwedd ei oes; ac nid oedd dim a daniai ei enaid i fwy o dosturi, a chydymdeimlad, a haelioni, a hyawdledd, nag ystyriaeth o anghenion miliynau y byd sydd yn trengu o eisieu gwybodaeth.

Cyn ein myned yr ail waith i Edinburgh, yr oedd Mr. CHARLES, er canol yr haf, 1842, wedi gadael y Bala, ac wedi symmud i gymmeryd arolygiad yr Athrofa yn Nhrefecca, a Mr. EDWARDS wedi ei adael ei hunan yn y Bala. Yn Nghymdeithasfa Abergele, yr hon a gynnaliwyd yn mis Rhagfyr, 1842, fe benderfynwyd fod i Mr. EDWARDS edrych allan am ryw un a fernid ganddo ef yn gymmhwys i weithredu fel cynnorthwywr iddo yn yr Athrofa. Yn Nghymdeithasfa Llanrwst, yr hon a gynnaliwyd yn mis Mawrth, 1843, derbyniwyd llythyr oddi wrtho yn enwi Mr. PARRY fel un cymmhwys, yn ol ei feddwl ef, i'r gwaith a ofynid; a chymmeradwywyd ef yn unfryd gan y Gymdeithasfa i'r swydd o athraw chwanegol yn yr Athrofa. Ond erbyn i Mr. PARRY ddychwelyd o Edinburgh i Manchester, ar ol diwedd y tymmor yn Ebrill, 1843, yr oedd teimlad mor gryf yn mhlith nifer mawr o'r cyfeillion yno am iddo ymsefydlu yn eu plith hwy fel gweinidog iddynt, fel y taflwyd ef i gryn betrusder pa beth fyddai oreu iddo wneyd; neu yn hytrach, pa beth a ddylasai wneyd. Ar y pryd, yr oedd ei deimladau yn mhlaid Manchester. Yr oedd ei rieni a'i chwiorydd yno; yr oedd cyfeillion ei febyd a'i ieuengctid yno; yr oedd yno nifer mawr o wŷr ieuaingc o Gymru yn y masnachdai a'r ystordai, ag y gobeithiai ac y credai y gallai gael dylanwad daionus arnynt ar yr adeg bwysicaf o'u hoes; yr oedd yn gweled yn amlwg fod ei weinidogaeth yn gymmeradwy gan y gwahanol gynnulleidfaoedd, oddi wrth y cyrchu oedd ar ei ol, a'r astudrwydd a delid ganddynt i'r hyn a lefarai; yr oedd yn teimlo fod y lle wedi ei esgeuluso yn rhy hir, ac wedi ei adael braidd yn hollol heb unrhyw fath o ofal gweinidogaethol; ac yr oedd y gydnabyddiaeth a addewid iddo yno yn llawer iawn mwy na'r hyn a allai ddisgwyl gael ar y pryd yn y Bala:—rhwng pob peth, yr oedd yn tueddu i aros yn Manchester; ac yr oedd mor debyg yn amser Cymdeithasfa y Bala, yn Mehefin 1843, mai felly y byddai iddo wneyd, fel y rhoddwyd yno ar Mr. EDWARDS i chwilio am ryw un arall i'w gynnorthwyo. Pa fodd bynag, wedi cymmeryd y peth i ystyriaeth fanylach, a chael fod yno beth o'r hen ysbryd, ag a ddangosasid tuag ato flynyddau cyn hyny, yn parhau yn fyw ac yn gryf mewn rhai o honynt; ac yn enwedig, wedi deall fod yr un gŵr ag oedd wedi bod â chymmaint llaw yn ei erbyn fwy nag unwaith o'r blaen, yn parhau mor fyw i'r un ystrywiau ag y buasai erioed; ac yn neillduol, wrth feddwl y cai fwy o fanteision ac o hamdden yn y Bala i'w berffeithio ei hunan mewn dysgeidiaeth, nag a allai gael gyda gofal gweinidogaethol lle mor fawr—erbyn ystyried yr holl amgylchiadau, fe benderfynodd fyned i'r Bala; yr hyn a wnaeth ar adagoriad yr Athrofa yn Awst, 1843.

Yn Rhagfyr, 1844, efe a briododd SARAH, merch henaf y diweddar Mr. THOMAS GEE, Dinbych, a chwaer i Gyhoeddwr y "GWYDDONIADUR;" ac ni bu priodas fwy dedwydd erioed. Cafodd ynddi hi un a'i profodd ei hunan, yn holl ystyr y gair, yn "ymgeledd gymmhwys" iddo; un nad oedd raid iddo, gyda hi, fod mewn unrhyw ofal am ei amgylchiadau teuluaidd, fel, o ran y rhai hyny, y cai ei amser yn gwbl iddo ei hun; un alluog a pharod i'w gynnorthwyo yn ei ymchwiliadau a'i lafur llenyddol; ac un yr oedd ei gofal penaf, bob amser, ar ei wneuthur ef yn gwbl ddiofal am bob peth, ond gorchwylion uniongyrchol ei swydd a'i waith. Y mae yn hollol sicr genym fod llawer iawn o'r gwasanaeth gwerthfawr a wnaed gan Dr. PARRY i'w genedl i'w briodoli i raddau helaeth iawn i'w darbodaeth, a'i gofal, a'i chymmhorth hi. Ganwyd iddynt bedwar o blant, dau fab a dwy ferch, y rhai ydynt oll yn fyw; ac ni a hyderwn bob un yn ceisio dilyn esampl eu tad parchedig, fel ag i gyrhaeddyd, pan ddaw yr amser, y lle dedwydd y maent yn sicr ei fod ef wedi cyrhaedd iddo. Yn Nghymdeithasfa y Bala, 1845, fe'i neillduwyd i gyflawn waith y weinidogaeth, pryd y traddodwyd y cynghor ardderchog gan y Parch. HENRY REES, a gyhoeddwyd wedi hyny yn y "*Traethodydd*," dan yr enw "Paul a Timotheus."

Yr oedd yn awr yn ymroddi gyda chyssondeb, a gofal, ac egni mawr i waith yr Athrofa, ac er ei gymmhwyso ei hunan yn fwy-fwy i gyflawniad ei orchwylion ynddi; ac nid oedd unrhyw lafur yn ormod ganddo gymmeryd arno ei hunan er sicrhau hyny. Ymroddodd yn awr hefyd i gylch helaeth o efrydiaeth dduwinyddol, gan ddarllen yn fanwl gyfundraethau CALVIN, MELANCTHON, TURRETINE, MASTRICHT, STAPFER, ac eraill, yn y Lladin, yn gystal a'r prif awdwyr yn y Saesneg; a'u cymmharu â'u gilydd, a sylwi

Digitized by Google

yn neillduol ar y pethau y gwahaniaethent ynddynt. Nid ydym yn gwybod i ba raddau yr ymgydnabyddodd âg ysgrifeniadau y tadau, ac âg ysgrifenwyr y canol oesau, trwy ei ddarlleniad uniongyrchol ei hunan; ond gwyddom ei fod yn hollol gyfarwydd â'u golygiadau neillduol, can belled ag y gellir penderfynu pa beth oeddynt, ar yr amrywiol gwestiynau ag y mae dadleuon rhwng gwahanol bleidiau Cristionogol o berthynas iddynt. Yr oedd ei feddwl yn cael hyfrydwch anghyffredin mewn cymmharu golygiadau gwahanol y prif ddysgawdwyr mewn duwinyddiaeth ac athroniaeth; ac nid oedd dim a roddai fwy o foddhâd iddo na chanfod, weithiau, yr hyn a ymddangosai iddo ef yn gydolygiad sylweddol a thrwyadl rhwng awdwyr a ystyrir o syniadau tra gwahanol, ac mewn rhai amgylchiadau, rhai wedi bod yn dadleu yn frwd â'u gilydd, o blegid yr hyn nad oedd, wedi ei olrhain, ond gwahaniaeth geiriau yn unig. Yr oedd hefyd, tra y parhaodd ei nerth, yn pregethu yn gysson ar y Sabbothau yn y Bala a'r cymmydogaethau. Yr oedd yn hynod o hwyrfrydig i fyned ar gyhoeddiad i un lle yn mhell oddi cartref. Yr oedd yn teimlo rhwymedigaeth arno i fod, hyd y byddai yn bossibl iddo, gyda'r dosbarthiadau yn yr Athrofa yn brydlawn ar ddechreu yr wythnos, fel yr attelid ef gan hyny rhag myned yn mhell yn ystod y tymmorau athrofaol. Ac hyd yn nod ar adegau gŵyliau yr Athrofa, gorchwyl anhawdd iawn oedd cael ganddo ef roddi cyhoeddiad i fyned i ddim pellder; ac nid ydym yn gallu cofio iddo fod ar gyhoeddiad yn yr hyn a elwir 'taith,' yn ol yr hen ddull Methodistaidd, gymmaint ag unwaith wedi iddo ymsefydlu fel athraw yn y Bala. Y gwirionedd yw, heb law ei fod yn meddwl am dano ei hun yn annhraethol rhy isel fel pregethwr, ei fod yn gwbl argyhoeddedig mai fel athraw y gallai efe wneuthur mwyaf o ddaioni; a bod cymmaint hefyd o dreth yn cael ei rhoddi ganddo ar ei feddwl, a chymmaint o draul ar ei lais, yn ei waith fel athraw, yn enwedig yn y dull egnïol a brwd a arferid ganddo ef i siarad, fel y buasai yn ammhossibl i'w natur ddal i lafurio hefyd gyda phregethu, megys ag y dymunasai, ac megys y credai y dylid pregethu; fel ag yr oedd yr ychydig seibiant a gai, yn adeg y gŵyliau, yn anhebgorol angenrheidiol iddo tuag at ei alluogi i fyned rhagddo gyda'r gorchwylion a ddisgynent arno yn y misoedd canlynol. Yr ydym yn cofio mai trwy lawer iawn o ymdrech y llwyddasom ni i gael ganddo ymweled â Llundain, yn adeg Cymmanfa y Pasc, Mawrth 25ain, 27ain, a'r 28ain, 1864. Ond wedi iddo ddyfod, yr oedd yn teimlo yn nodedig o ddedwydd, a rhoddodd ei wasanaeth foddhâd cyffredinol.

Pregethodd y pryd hyny dair gwaith yn Jewin Crescent, ac unwaith neu ddwy yn mhob un o'r capeli eraill. Yr oedd y pregethau a glywsom ni, yn y Crescent—yn neillduol y rhai ar *Ioan* xiv. 6, a 1 *Cor*. i. 30—yn dra rhagorol. Ond yr oedd ei gyfarchiad yn y cyfarfod eglwysig, foreu Gwener y Croglith, yn rhagori ar bob un o'i bregethau, ac mewn gwirionedd yn un o'r pethau goreu o'r fath a glywsom ni erioed. Y mater dan sylw oedd, "Ymddygiad addas i efengyl Crist." Sylwai ar yr angenrheidrwydd am fod yr holl fywyd, yr holl ymarweddiad, yr holl gymmeriad, yn addas i'r efengyl; a bod hyny yn cynnwys pethau bychain bywyd, fel ei bethau mawrion; y pethau lleiaf, fel ei bethau mwyaf; pethau cyffredin, fel pethau cyssegredig; pethau yr wythnos, fel pethau y Sabbath; pethau y fasnach a'r alwedigaeth, fel pethau y capel a'r addoliad. "Y mae y cymmeriad Cristionogol," meddai, "i fod yn un cerfwaith cyfan, a'i holl ranau mewn cyfartaledd prydferth i'w gilydd, ac oll o'r un nodwedd. Os Cristion, Cristion yn mhob man; Cristion gyda phob peth; Cristion bob amser. Fel yr adeilad yna, sydd wedi ei wneyd ar y ffurf Gothic. Edrychwch arno. Y mae y cyfanwaith yn Gothic; ac felly yn unig, fe allai, y mae yn taraw y syllydd arwynebol. Ond erbyn i chwi graffu ychydig arno, chwi a welwch fod y cwbl yn Gothic:—pob rhan yn Gothic; pob bŵa yn Gothic; pob drws yn Gothic; pob ffenestr yn Gothic; pob gwydr yn mhob ffenestr yn Gothic: ac y mae y cyfanwaith felly, am fod yr holl ranau felly. Dyna ydyw y Cristion—Cristion ydyw. Cristion yn y capel, a Christion yn ei deulu; Cristion yn gweddïo, a Christion yn gweithio; Cristion yn adrodd ei dywydd yn y cyfarfod eglwysig, a Christion yn ei holl ymwneyd â'r byd:"—ac felly yn y blaen, gyda'r fath hyawdledd, a nerth, a dylanwad, nes peri fod pawb yn y lle fel wedi eu gwefreiddio. Ond etto, fel y sylwa y Parch. BENJAMIN HUGHES, Llanelwy, mewn llythyr a ddodir i mewn yn yr erthygl ddyddorol arno yn y *Drysorfa* am fis Mawrth, 1874:—"Diau mai ar adegau cyffredin, ac yn y mân gapelau o ddeutu y Bala, y gwnaeth ei orchestion mwyaf fel pregethwr. Mewn trefn i'w weled yn ei ogoniant yn y pulpud, buasai raid i chwi fyned i gapel bach y Glyn ar brydnawn Sabbath tawel, neu i gapel y Parc, neu Cefnddwysarn, neu y Sarnau, neu Tal-y-bont, &c. Ac nid oes ond yr Hollwybodol a ŵyr y fath gyfoeth o berlau gwerth-

Digitized by Google

fawr a gafodd eu hau yn y manau hyny trwy ei weinidogaeth. Rhyw un drychfeddwl mawr a fyddai ganddo yn gyffredin yn ei bregeth; a dangosai y gwirionedd hwnw yn ei amrywiol brydweddion, ac olrheiniai ef i wahanol gyssylltiadau, er adeiladaeth y saint, ac fel y parai ras i'r gwrandawyr."

Yn Nghymdeithasfa Pwllheli, Mai 13eg, 1855, fe draddododd anerchiad ardderchog ar yr achlysur o ordeiniad Mr. ROBERT PARRY fel cenhadwr i'r India. Ei destyn oedd *Ioan* xvii. 18, a'r mater oedd "Eglwys Crist fel eglwys genhadol." Argraphwyd yr anerchiad yn y "*Drysorfa*," ac y mae yn ddiddadl yn teilyngu lledaeniad cyffredinol. Yr oedd rhyw eneiniad hynod ar ysbryd Mr. PARRY ei hunan y pryd hyny, a thrwyddo ef ar y gynnulleidfa, nad anghofir byth gan y rhai oeddynt yn bresennol. Dewiswyd ef i draddodi y cynghor yn Nghymdeithasfa Machynlleth yn mis Mehefin, 1861, ar yr achlysur o neillduad pedwar o frodyr i holl waith y weinidogaeth. Ei destyn y pryd hyny oedd 1 *Cor.* iii. 19. Argraphwyd y cynghor hwn hefyd yn y "*Drysorfa*;" ac nid oes modd i neb ei ddarllen heb deimlo difrifoldeb newydd yn ei ysbryd, yn ei gyssylltiad â gweinidogaeth yr efengyl. Nid oeddym ni yn digwydd bod yn y Gymdeithasfa hono yn Machynlleth; ond yr ydym yn deall fod effeithiau nodedig oddi wrth draddodiad y cynghor ar deimladau yr holl gynnulleidfa.

Fe'i dewiswyd i fod yn Llywydd Cymdeithasfa y Gogledd am y flwyddyn 1866. Yr oedd erbyn hyn wedi dechreu gwaelu o'r anhwylder a lynodd wrtho am weddill ei oes, fel nas gallai arddangos, i'r un graddau, y bywiogrwydd, a'r egni, a'r sirioldeb, oeddynt unwaith yn eiddo iddo. Ond yr oedd y gostyngeiddrwydd, yr hynawsedd, yr ymaros, y doethineb, y boneddigeiddrwydd, a'r crefyddolrwydd, oeddynt bob amser yn hynodi ei gymmeriad, yn awr braidd yn amlycach ynddo nag o'r blaen; ac ni welsom gadeirydd erioed, er mor dawel, a di-rwysg, ac anymhongar ei ddull, yn llywyddu yn fwy effeithiol.

Yr oedd rhyw annhueddrwydd hynod ynddo am flynyddoedd at ysgrifenu, yn enwedig i'r wasg. Fe lwyddodd Dr. EDWARDS, trwy lawer o gymmhell, i gael rhai erthyglau ganddo i'r "*Traethodydd.*" Cafwyd tair erthygl i'r gyfrol gyntaf, yn 1845:—un ar *Athroniaeth Bacon*, un ar PALEY'S *Horæ Paulinæ*, ac un ar *Egwyddorion Amaethyddiaeth.* Ysgrifenodd wedi hyny erthyglau ar PLATO a BUTLER, &c. Y mae yr erthyglau hyny oll yn arddangos yn amlwg nodweddau neillduol ei feddwl, yn enwedig y gallu oedd mor arbenig yn eiddo iddo, i esbonio golygiadau ysgrifenwyr athronyddol mewn modd eglur a dealladwy i feddyliau darllenwyr cyffredin.

Llwyddodd ei frawd yn-nghyfraith, trwy lawer o ymdrech, i gael ganddo, yn niwedd 1853, ymgymmeryd â golygu y gwaith hwn. Yr oedd yn hynod anfoddlawn ar y cyntaf i hyny, ac yn enwedig i ganiatau i'w enw ymddangos ar ei wyneb-ddalen fel golygydd; ac ofnai hefyd, rhwng yr Athrofa a'r "GWYDDONIADUR," na allai efe wneyd ond llawer llai nag oedd eisoes yn wneyd gyda phregethu. Yr un pryd, yr oedd yn gweled fod cyfleusdra gwerthfawr yn cael ei roddi iddo i wneuthur gwaith a allai fod yn dra gwasanaethgar i'w genedl, a gwaith hefyd yr ymdeimlai fod ynddo ryw fesur o gymmhwysder ato; ac felly, er yn dra hwyrfrydig, fe ymgymmerodd âg ef. Yr oedd erbyn hyn gyda gorchwyl a ofynai y cwbl agos o'r amser a allai gael, yn gysson â'i ddyledswyddau fel athraw; a rhwng y naill a'r llall, a'i lafur gyda phregethu, a'r cyfarfodydd eglwysig, a chyfarfodydd yr Ysgolion Sabbothol, nid oedd prin yn cael un munyd i orphwys, ond pan yn mreichiau cwsg. Ac y mae yn hynod, yn wir, pa fodd y gallodd ei natur ddal cyhyd dan y fath lafur. Ond yr oedd yn cael y fath hyfrydwch yn mhob rhan o'r gwaith oedd ganddo mewn llaw, fel na fynai sôn am seibiant; a phan y llwyddid, yn ystod gwyliau yr Athrofa, i'w ddarbwyllo i fyned i ryw le i orphwys am ychydig, nid oedd dim gorphwys yno iddo ef. Weithiau, fe fyddai angenrheidrwydd ei waith yn ei ddilyn i ba le bynag yr elai; a phan na byddai hyny, fe fyddai ei ymroddiad ei hunan iddo yn gyfryw fel nad oedd modd ei gadw oddi wrtho. Yr oedd, pa fodd bynag, er y cwbl, yn cael iechyd lled dda trwy y blynyddoedd, hyd yn agos i ddiwedd y flwyddyn 1865—pryd, pan oddi cartref yn Llanberis, mewn cyfarfod cyssylltiedig â'r Undeb Llenyddol yno, y cymmerwyd ef yn glaf gan ryw beth a ymddangosai o natur y parlys, ac yn peri rhyw gryndod anghysurus iawn iddo yn ei law ddeheu. Wedi cyrhaedd y Bala, a rhoddi ei hunan dan ddwylaw y meddyg, Dr. HUGHES—yr hwn a fu am weddill ei oes yn gwasanaethu arno gyda'r fath fedrusrwydd, a gofal, a thynerwch, ag sydd yn teilyngu diolchgarwch pawb o'i gyfeillion—gobeithid y byddai i'r cryndod gilio, ac yr adferid ef yn fuan megys cynt. Ond nid oedd yn cilio, er nad oedd yn cynnyddu; a galluogwyd ef i fyned rhagddo megys o'r blaen gyda'i ddyledswyddau yn yr Athrofa, ac i fesur mawr gyda'r "GWYDDONIADUR." Yn Nghymdeithasfa Rhuthyn, yn mis Ebrill,

Digitized by Google

1866, y gyntaf iddo ef fel llywydd am y flwyddyn hono, yr oedd yn ymddangos yn lled gryf a siriol, er fod cryndod y llaw yn peri iddo deimlo yn dra phryderus, yn enwedig wrth gofio fod ei dad wedi ei daraw â pheth cyffelyb. Dywedai wrthym y pryd hyny, y buasai yn llawer mwy esmwyth ei feddwl pe gallasai anghofio am ei dad. Wedi myned adref o Ruthyn, cynnyddodd y cryndod; ac erbyn diwedd y tymmor athrofaol, yn nechreu Mehefin, 1866, yr oedd yn llawer mwy digalon, er nad oedd yn ymddangos ryw lawer, os dim gwaelach. Pa fodd bynag, barnodd ef, a'r meddyg, mai gwell iddo oedd peidio myned i'r Gymdeithasfa Chwarterol nesaf, oedd i'w chynnal yn Llanfair-caereinion y mis hwnw. Erbyn ad-agoriad yr Athrofa yn mis Awst, yr oedd gryn lawer yn fwy siriol, er fod y cryndod yn parhau, ac yn hytrach wedi cynnyddu. Yr oedd er hyny yn teimlo yn llawer gwell; a daeth yn ddigon cryf a gwrol i fyned i Gymdeithasfa Caernarfon yn mis Medi; ac yr oedd yn parhau felly, fel yr aeth hefyd, er fod yr hin yn lled anfanteisiol, i Gymdeithasfa y Wyddgrug yn Rhagfyr; a llanwai y gadair yn y ddwy Gymdeithasfa yn dra effeithiol. Aeth drachefn i Gymdeithasfa Aberdyfi yn Mawrth, 1867; lle hefyd y gweithredai fel llywydd, yn gymmaint a bod y Parch. HENRY REES, yr hwn a bennodasid yn llywydd am y flwyddyn hono, yn analluog i fod yn bresennol o herwydd afiechyd. Dyna, hyd ag yr ydym yn cofio, y tro diweddaf i Mr. PARRY fod yn mhlith ei frodyr mewn Cymdeithasfa; ac ni a glywsom ei fod yno yn gyflawn o ddoethineb, a gonestrwydd, a thynerwch. Ymdrechai ei egni yn erbyn ei afiechyd, gan ymgymmeryd yn ewyllysgar â phob triniaeth a olygid yn briodol iddo, gartref ac yn Malvern, ac yn achlysurol mewn lleoedd ereill, er ei wellhâd. Ond nid oedd dim yn tycio. Er y byddai ambell ddiwrnod yn teimlo yn well, a'i fod am rai o'r blynyddoedd diweddaf yn llawer mwy siriol ei feddwl nag yr oedd wedi bod, etto gwywo a llesghau yn raddol yr oedd ei natur. Parhäai, pa fodd bynag, yn ffyddlawn, yn nghanol ei holl wendid, i waith ei ddosbarthiadau yn yr Athrofa, ac i gyfansoddi, er nas gallai ysgrifenu, erthyglau hefyd i'r "GWYDDONIADUR." Un o'r pethau diweddaf a wnaeth oedd cywiro a chyflenwi, ac i fesur mawr ail gyfansoddi, yr erthygl a anfonasid iddo ar PLATO; ac yr oedd wedi dechreu ei erthygl ar RESYMEG. Yr oedd yn myned allan ac yn cerdded gryn lawer bob dydd, os byddai yr hin mewn un modd yn caniatau. Aeth allan i gerdded felly y dydd Iau cyn ei farwolaeth, er nad oedd yn teimlo llawn cystal ag arferol y diwrnod hwnw. Hyderai ei deulu, a'r meddyg, nad oedd yr hyn y cwynai o'i blegid, y pryd hwnw, ond rhywbeth o'r un natur ag a ddioddefasid ganddo lawer gwaith o'r blaen; ac y byddai fel arferol yn mhen ychydig amser. Ond ar y Sabbath canlynol, yr oedd yn amlwg fod rhywbeth tra gwahanol wedi ymaflyd ynddo, i ddim a welsent o'r blaen, ac nas gallasai y diwedd fod yn mhell. Yr oedd ei feddwl yn nodedig o dawel, a'i ymddiried yn ddiysgog yn y CRIST oedd mor anwyl ganddo, ac y soniasai gymmaint am dano. Ychydig amser cyn marw, dywedodd wrth ei wraig a'i ferch, y rhai a safent wrth y gwely, gan ei wylio yn dyner—"*I am going to God's rest—to God's rest—to God's rest*, SARAH *bach*." Nid ydym, ar hyn o bryd, yn cofio i ni glywed iddo ddywedyd dim ar ol hyny A chan wanhau yn raddol, fe ehedodd ei ysbryd, ar foreu Llun, Ionawr 19eg, 1874, tuag ugain munyd i un-ar-ddeg, yn dawel a di-boen, i'r orphwysfa nefol, pan yn un mlwydd a thrigain oed. Y dydd Gwener canlynol, fe roddwyd yr hyn oedd farwol o hono i orwedd yn hen fynwent gyssegredig Llanycil; a chafodd, mewn gwirionedd, gladdedigaeth anrhydeddus. Yr oedd yn amlwg fod pawb yn teimlo fod "gŵr anwyl," a "gŵr sanctaidd i DDUW," yn cael ei hebrwng i dŷ ei hir gartref. Yr oedd rhywbeth hynod, ac y sylwyd arno gan lawer, fod ei Dad nefol wedi ei gymmeryd ef ato ei hun y diwrnod cyn ad-agoriad yr Athrofa—y tymmor cyntaf wedi i'w gyssylltiad ef â hi, fel athraw ynddi, fod wedi darfod, ac i athrawon newydd ddyfod yno i wasanaethu yn ei le. Yr oedd ei holl galon yn rhwym wrth yr Athrofa, a'i hyfrydwch mwyaf yn y cyflawniad o'r dyledswyddau a ddisgynent arno yn ei berthynas â hi. Yr oedd wedi bod yn ei gwasanaethu yn ffyddlawn am ddeng mlynedd ar hugain, ac wedi gwrthod llawer o gynnygion teg a roddasid iddo, a gwrthsefyll llawer o gymmhelliadau taerion a gawsai, i ymadael â hi, ac ymsefydlu mewn lleoedd ereill; a rhai o honynt yn sicr, yn ol y llythyrau sydd yn awr ger ein bron, yn lleoedd ag y buasai yn ennill mawr iddo, mewn ystyr arianol, pe buasai yn myned iddynt. Ond tra y gallai gredu fod ei wasanaeth yn rhoddi boddlonrwydd i'r cyfundeb, ac y teimlai ei fod yn gallu gwneyd ei ran tuag at gyrhaedd yr amcan mewn golwg drwy yr Athrofa, nis gallai feddwl am ymadael. Ac un o brofedigaethau mwyaf—os nad prif brofedigaeth ei oes—oedd yr angenrheidrwydd a deimlai i roddi i fyny ei swydd ynddi.



Digitized by Google

Derbyniodd Mr. PARRY, yn Gorphenaf, 1873, y gradd o Ddoctor mewn Duwinyddiaeth o Athrofa Washington a Jefferson, Pennsylvania, America:—yr un athrofa ag y derbyniodd Dr. M'COSH, Dr. HALL o New York, ac eraill llawn mor alluog a hwy, er, fe allai, nad mor adnabyddus, eu gradd o honi. Ni bu byw ond ychydig i wisgo y gradd; ond ni roddwyd yr anrhydedd ar neb erioed mwy teilwng o hono. Ac y mae yn sicr, pe cyfyngid ef bob amser i rai cyffelyb iddo ef, y gosodid llawer mwy o fri arno.

Yr oedd cais ar gael ei wneuthur amryw flynyddoedd cyn hyn, gan liaws o'i gyfeillion at Brifysgol Edinburgh, ar iddi ei anrhydeddu â'r gradd o LL. D., ac y mae braidd yn sicr y llwyddasid yn yr ymgais. Ond, ryw fodd, fe ddaeth y sî am hyny i'w glustiau ef, ac fe ddangosodd yn y fan y fath wrthwynebiad i'r amcan, fel y rhoddwyd yr ymgais heibio.

Yr ydym yn teimlo mesur o anhawsder i draethu ar nodweddau neillduol ei feddwl, gan na chawsom ni fantais uniongyrchol i'w adnabod wedi i'w feddwl lawn addfedu—ond yn hytrach megys efrydydd, pan oedd yr ŷd yn llawn yn y dywysen. Yr un pryd, yr ydym yn tybied nad oedd y gwahaniaeth rhyngddo ef y pryd hyny a'r hyn a ddaeth ar ol hyny, ond yn unig gwahaniaeth mewn graddau; ac mai meddwl yr efrydydd bywiog, a llafurus, a dyfal-barhaus, wedi ei eangu, a'i gyfoethogi, a'i gryfhau, oedd meddwl yr Athraw dysgedig, yr Awdwr galluog, a'r Pregethwr coeth, a chymmeradwy, ac effeithiol.

*Meddwl yr efrydydd, yn arbenig, oedd yr eiddo ef:*—meddwl yr efrydydd hanesyddol. Nid ydym yn hòni iddo y gwreiddiolder, a'r yni, a'r ymdreiddiad, sydd yn nodweddu y darganfyddwr mewn athroniaeth neu dduwinyddiaeth; ond buasai yn anhawdd iawn cael ei gyffelyb, ac ni chyfarfuasom ni â'i ragorach erioed, am ddirnad ac egluro unrhyw ddarganfyddiad, neu yr hyn a hònai fod yn gyfryw, a gyflwynid ger ei fron. Yn y nodwedd hwn a berthynai i'w feddwl, ymroddai i feistroli yn drwyadl yr hyn yr ymgymmerai âg ef. Yr oedd hyn ynddo o'r dechreuad. Nid elai byth heibio i air wrth ddarllen heb fynu gwybod ei ystyr yn hollol. Nid elai byth o'r naill adran, neu o'r naill frawddeg i'r llall, tra y byddai unrhyw dywyllwch yn aros yn ei feddwl ar ystyr yr un flaenorol. Ni foddlonai byth ar ryw wybodaeth arwynebol am feddwl yr awdwr a ddarllenid ganddo. Mynai ei gael yn oleu iddo ei hunan, fel ag y gallai ei roddi allan yn ei eiriau ei hunan, a'i brofi, neu ei wrthbrofi, oddi ar ddeddfau y meddwl, ffeithiau natur, hanes y byd, neu dystiolaeth yr Ysgrythyrau. Y nodwedd hwn ynddo a barai iddo fod yn anfoddlawn ar unrhyw fater a fyddai dan sylw, ag y byddai gwahaniaeth golygiadau yn ei gylch, heb gymmharu gwahanol awdwyr â'u gilydd, a mynu gweled yn fanwl syniad pob un arno, a chadw yn ofalus yn ei gof y gwahaniaeth neillduol a allai fod rhyngddynt.

Yn y nodwedd hwn a berthynai iddo, fe fyddai yn gwbl anghysurus nes cael syniad eglur yn ei feddwl, mor eglur ag y gallai ei osod allan yn fanwl mewn geiriau pendant, ar ba destyn bynag pwysig a fyddai ger bron; neu ynte weled, yn foddlonol iddo ei hunan, yn mha le yr oedd y dirgelwch o berthynas iddo yn dechreu, a pha bryd y gallai ymdawelu i fod mewn tywyllwch. Yn ganlynol, yr oedd pob golygiad niwlog, cymmysglyd, yn anghymmeradwy iawn ganddo; a'r dull a arferir gan rai awdwyr, o ymguddio mewn mwys-eiriau, a phlethu ymadroddion anmhennodol, dan gochl rhyw ddoethineb uchel a chyfriniol, yn wir ddirmygus yn ei olwg. Yr un pryd, nid oedd yn rhoddi ei amgyffrediad ei hunan o unrhyw wirionedd yn safon eglurder i feddyliau rhai ereill; ac nid oedd neb parotach nag ef i gydnabod fod gwahaniaeth rhwng meddwl a meddwl, fel sydd rhwng llygad a llygad; ac y gall yr hyn a ymddengys yn dywyllwch dudew i'r naill fod yn ddim amgen na niwl teneu i'r llall.

Peth arall nodedig ynddo oedd, *y tegwch a fynai wneyd â syniadau pob awdwr,* gyda rhyw allu i gymmeryd safle neillduol yr awdwr ei hunan i edrych ar y mater yr ymdrinid ganddo âg ef. Yr oedd hyn yn cyfodi, y mae yn ddiddadl, mewn rhan, oddi ar y natur dda, y meddwl caredig a hynaws, rhydd oddi wrth bob drwgdybiaeth, oedd yn gynhenid yn eiddo iddo; ond y mae yn sicr fod eangder ei sylw, cylch helaeth ei ddarlleniad, a'i gydnabyddiaeth fanwl â gwahanol gyfundraethau Athronyddol a Duwinyddol, ac âg amrywiol ffurfiau gwirionedd, wedi cryfhau y nodwedd hwn ynddo i raddau anghyffredin. Yr oedd fel hyn, fel pob dyn gwir fawr, yn un o'r meddylwyr mwyaf rhyddfrydig, yn ngwir ystyr y gair, a adnabuom ni erioed.

*Yr oedd ei holl enaid yn ei efrydiau.* Yr oedd argyhoeddiad llwyr wedi meddiannu ei feddwl, er yn ieuangc, nad oedd modd llwyddo heb lafur: a bod gobaith llwyddo trwy

Digitized by Google

lafur: ac felly yr oedd yn ymroddi o'r dechreu "â'i holl egni" i gyfoethogi ei feddwl â gwybodaeth. Yr oedd hyny ganddo ef yn bwngc cydwybod. Ymdeimlai â'i rwymedigaeth i'w Greawdwr i ddiwyllio ei feddwl. Nid awydd am wybod er mwyn enw neu glod. Yr oedd yn dirmygu ysbryd a theimlad felly. Yr oedd yn ystyried fod rhwymedigaeth o'r un natur arno i lanw ei feddwl â gwybodaeth, ag oedd arno i gadw ei galon yn bur, a'i gydwybod yn dyner; ac yn ganlynol, y buasai yn pechu yn erbyn Duw trwy esgeuluso ymroddi, hyd y gallai, i'w efrydiau. Ac yr oedd gyda'i lyfrau fel un yn cael ysglyfaeth lawer.

*Yr hyn ydoedd fel efrydydd oedd, yr ydym yn deall, fel athraw.* Ei amcan, ni a dybiem, oedd gwneyd yr efrydwyr, hyd y gallai, yn gyfryw ag oedd efe ei hunan. Ni chawsom ni erioed yr hyfrydwch o'i weled yn myned rhagddo gyda'i ddosbarthiadau; ond y mae tystiolaeth unfrydol y rhai fuont dan ei addysg y fath ag sydd yn sicrhâd i ni ei fod yn athraw o'r rhagoriaethau uchaf. Yr ydym ni yn gwybod y byddai yn cymmeryd y gofal mwyaf bob dydd i'w barotoi ei hunan ar gyfer ei ddosbarthiadau, fel nas gallai yr un cwestiwn teg gyfodi, mewn cyssylltiad â'r gwersi, nad oedd efe yn gwbl barod i'w atteb. Yr oedd wedi ei argyhoeddi yn hollol o'r angenrheidrwydd am y fath barotoad gan atteb a roddodd un chwaer iddo, mewn dosbarth yn yr Ysgol Sul, pan oeddym yn efrydwyr yn y Bala. Yr oedd y chwaer hono âg ychydig anhwylder meddyliol arni ar y pryd, ac etto nid cymmaint ag i'w hanghymmhwyso i fod yn y dosbarth. Yr oedd rhyw un wedi darllen adnod; ac fe ofynodd yntau ryw gwestiwn oddi ar yr adnod. Ond nid oedd neb yn y dosbarth yn gallu ei atteb. "Wel," meddai Mr. PARRY, "ni a'i gadawn o:—chwi a gewch ei chwilio allan erbyn y Sabbath nesaf." "Ië," meddai y chwaer hono, "fel yna y byddai DAFYDD EDWARDS bob amser yn gwneyd, os na byddai o yn gwybod ei hunan." Ac fel y digwyddai, nid oedd efe ei hunan, y tro hwnw, yn gwybod yn hollol y modd i atteb y cwestiwn a ofynasid ganddo; ac fe gyfaddefodd hyny yn y fan. "Yr oeddwn i yn meddwl mai felly yr oedd hi," meddai hithau. Eithr fe effeithiodd hyny gymmaint arno ef, fel y penderfynodd na chai yr un peth ddigwydd ond hyny; ac fe ddaliodd y peth byth yn ei feddwl, pan y galwyd ef i gylch pwysicach yn yr Athrofa.

Er ei gymmhwyso ei hunan at gyflawniad y dyledswyddau a ddisgynent arno fel athraw, fe deimlai fod o bwys annhraethol iddo ei berffeithio ei hunan i'r graddau uchaf ag y gallai mewn dysgeidiaeth, yn enwedig yn y Lladin—yr iaith ag yr oedd efe yn addysgu y dosbarthiadau ynddi. Ac efe a ymroddodd i astudio ei grammadeg a'i chyfansoddiad yn fanwl, ac i ddarllen ynddi am flynyddoedd—nid yn unig y llyfrau cyffredin a arferid yn yr athrofa, o'r rhai yr oedd yn enwedig yn hoff o HORACE, ond hefyd y prif lyfrau ar Dduwinyddiaeth ac Athroniaeth. Fe ddaeth felly mor gynnefin â hi nes oedd yn ei darllen agos mor ddi-boen a'r Saesneg neu y Gymraeg. Yn mhen rhai blynyddoedd wedi ymsefydlu yn y Bala, fe ymroddodd hefyd i ddysgu y Germanaeg, ac a ddaeth yn gwbl gyfarwydd â hi:—yn gymmaint felly, fel yn ei flynyddoedd diweddaf, yr oedd yn darllen mwy, ond odid, yn yr iaith hono nag mewn un arall. Yr oedd yn derbyn un, os nad chwaneg, yn gysson o'r cyhoeddiadau cyfnodol galluocaf, Duwinyddol ac Athronyddol, a gyhoeddir yn Germany; ac yr oedd y prif lyfrau diweddar yn y Germanaeg, mewn Beirniadaeth Ysgrythyrol, Duwinyddiaeth, ac Athroniaeth, yn ei feddiant, ac wedi eu darllen yn ofalus ganddo. Yr un modd am y canghenau eraill o'r cylch athrofaol, ag yr oedd eu gofal yn uniongyrchol yn disgyn arno ef—yr oedd yr un mor ymroddedig i'w meistroli yn hollol, ac i'w cael mor eglur yn ei feddwl ei hunan, fel ag y gallai eu troi megys bob ffordd, er mwyn eu dangos i eraill.

*Yr oedd yn meddu gallu neillduol i ofyn cwestiynau,* ac i arwain meddwl yr efrydwyr, trwy y cwestiynau, i ddirnadaeth o'r mater a fyddai ganddynt dan sylw. Y mae amryw o'r rhai galluocaf o'r rhai a fuont dan ei addysg yn ystyried mai yn hyn yr oedd ei ragoriaeth arbenig, a'i fawr nerth fel athraw. Ond nid ydym ni wedi cael un engrhaifft o'r dull neillduol a arferid ganddo, ac felly nis gallwn roddi un disgrifiad mwy pendant o hono.

*Yr oedd rhyw dynerwch yn ei ddull fel athraw ag oedd yn ennill calon yr efrydwyr,* ac yn peri eu bod yn gwbl ddi-ofn gydag ef. Teimlent, ar unwaith, yn hollol gartrefol yn ei bresennoldeb; ac yn hyderus, pa faint bynag eu diffygion, y caent ynddo ef un y credent oedd yn eu caru, ac yn meddwl, yn benaf oll, am eu cynnydd a'u cysur. Yr un pryd, yr oedd rhyw beth o'i amgylch a'u cadwent oll rhag myned yn hyf arno, a rhag cymmeryd mantais ar ei dynerwch i ymddwyn, mewn un modd, yn ammharchus tuag ato.

Digitized by Google

Ond yn lle ymhelaethu ar yr hyn nad oes genym ni un fantais neillduol iddo, am y modd y cyflawnai ei wasanaeth fel athraw, ni a ddodwn i mewn yma lythyrau a ysgrifenwyd gan ddau o'r rhai a fuont dan ei addysg, a dau ag y cydnebydd pawb adnabyddus o honynt, nas gall fod rhai mwy cymmhwys i ddwyn tystiolaeth ar yr hyn y maent yn ysgrifenu arno—y Parch. GRIFFITH ELLIS, B.A., Bootle, a'r Parch. EVAN DAVIES, Tregeiriog. Fel hyn yr ysgrifena Mr. ELLIS:—

BOOTLE, *Mawrth* 31*ain*, 1876.

ANWYL SYR,

Gorchwyl digon anhawdd i ddysgybl ydyw ysgrifenu unrhyw adgofion a orweddant yn ei fynwes am un o'i hen athrawon ymadawedig; ac yn enwedig rhoddi dadganiad o'i syniadau am dano fel athraw, am ei alluoedd a'i nodweddau, ac am y dylanwad oedd iddo ar feddyliau a bywydau y rhai a ddeuent i gyffyrddiad âg ef. A dyma yr hyn y ceisiwch genyf ei wneyd gyda golwg ar y diweddar Ddr. PARRY. Y mae yn dda genyf ar lawer cyfrif gael y fraint, er fy mod yn ofni i'r fraint hon, fel llawer o freintiau eraill, gael cam oddi ar fy nwylaw. Nid wyf yn sicr y gallaf ddadgan fel y dymunwn fy nheimladau fy hun tuag ato, ac nid wyf yn sicr chwaith pa faint o ymddiried a ddylwn roddi i'm teimladau, gan mai math o gymmysgedd ydynt o barch, edmygedd, ac anwyldeb. Yr wyf yn sicr fod ei ddylanwad wedi gadael argraph annileadwy ar fy meddwl, ac wedi effeithio ar fy holl fywyd, a'i fod wedi gwneuthur yr un peth âg ugeiniau eraill; ond nid wyf mor sicr fy mod yn gallu mesur y dylanwad hwnw, neu yn wir yn hollol ddeall ei natur. Yr ydym yn fynych yn derbyn argraphiadau heb yn wybod i ni ein hunain, ac ar ol eu derbyn yn methu gwybod yn iawn pa fath ydynt. Deallwn fod y gymdeithas y buom ynddi wedi gadael rhyw argraph arnom; ond pa beth ydyw, ac i ba beth yr arweinia, nid ydym, hwyrach, yn gallu penderfynu. Rhaid ymfoddloni yn awr i "adwaen o ran," a disgwyl wrth y dyfodol am adnabyddiaeth berffeithiach.

Cefais y fraint o fyned i'r Athrofa yn Awst, 1865, pryd yr oedd Dr. PARRY—neu fel yr adnabyddid ef yr adeg hono, Mr. PARRY—yn ei gyflawn nerth a'i iechyd, a'i feddwl yn ei fywiogrwydd a'i weithgarwch mwyaf. Ond yn mhen ychydig wythnosau dechreuodd ei iechyd anmharu, er na effeithiodd hyny lawer ar ei gyflawniad o'i ddyledswyddau, hyd ddiwedd y flwyddyn athrofaol yn Mehefin, 1866. Cefais fel hyn ychydig brawf o'r hyn a fu ei fywyd am lawer o flynyddoedd yn ei gyssylltiad â'r athrofa; a dichon nad annyddorol fyddai disgrifiad byr o'r gwaith a gyflawnid ganddo yr adeg hono. Am hanner awr wedi naw yn y boreu, byddai ganddo ddosbarth, yn cynnwys yr holl efrydwyr (rhwng deugain a hanner cant o nifer) mewn Athroniaeth, yn darllen MASSON'S "*British Philosophy.*" O ddeg hyd un-ar-ddeg, byddai ganddo dri o ddosbarthiadau gyda'u gilydd yn dysgu Lladin, rhwng pa rai y byddai yn rhanu ei sylw. Darllenai un dosbarth VIRGIL'S "*Æneid,*" a SALLUST'S "*Catiline,*" bob yn ail diwrnod. Darllenai yr ail ddosbarth CÆSAR'S "*Commentaries.*" Ac yr oedd y trydydd dosbarth yn dechreu dysgu Lladin—yn ymboeni gyda'r grammadeg, a chyda HENRY'S "*First Latin Book.*" Yr wyf yn cofio yn dda am y diweddaf, gan mai iddo ef y perthynwn ar y pryd. Yr oedd yn yr ystafell dri o fyrddau, ac eisteddai un dosbarth wrth bob bwrdd. Dechreuai Mr. PARRY gyda'r cyntaf; ac yn mhen ychydig, gadawai y dosbarth hwnw, naill ai i fyned dros y wers neu i gyfieithu darn mewn ysgrifen, nes y dychwelai ato eilwaith; a chymmerai y dosbarth wrth y bwrdd canol am ychydig; a thrachefn, deuai atom ninnau i'n *drillio* yn y *declensions*, ac i fyned gyda ni trwy yr *exercises* yn HENRY. Nid anghofiaf byth fy nheimlad pan yn eistedd yn yr ystafell y tro cyntaf erioed, ac yn clywed efrydwyr yr ail flwyddyn yn darllen VIRGIL, ac efrydwyr y flwyddyn gyntaf yn darllen CÆSAR, ac yn myned trwy y *declensions* a'r *conjugations*, a minnau heb ddeall un gair oedd yn cael ei ddyweyd, ac yn ofni yn fy nghalon anghofio *Mensa, Mensæ*, &c., erbyn y deuai yr athraw at y trydydd bwrdd. Yr oeddwn yn edifarhau y diwrnod hwnw i mi erioed adael y chwarel, ac yn teimlo awydd yn fy nghalon i redeg yn ol iddi, unwaith y cawn ddiangc o'r ystafell ddysgedig hono. Fel hyn y bu Mr. PARRY yn ymdrechu bob dydd gyda *thri* o ddosbarthiadau ar unwaith, hyd nes y daethom ni (oeddym yn dechreu gyda'r Lladin) yn alluog i ymuno â'r rhai oeddynt yn darllen CÆSAR; a bu y ddau hyn ganddo ar hyd y flwyddyn. O un-ar-ddeg hyd ddeuddeg, byddai ganddo y dosbarth hynaf mewn Lladin. O ddau hyd dri o'r gloch yn y prydnawn drachefn, byddai ganddo yr holl ddosbarthiadau mewn *Mathematics*. Wrth un bwrdd, eisteddai nifer o rai yn ymboeni gydag *Arithmetic*, ac yn dechreu gydag *Algebra*. Wrth fwrdd arall, ceid nifer o rai ychydig yn mhellach yn mlaen mewn *Algebra*, ac yn dechreu gyda *Geometry*: ac wrth y trydydd, yr oedd nifer bychan yn uwch fyth mewn *Algebra*, ac wedi cyrhaedd i'r llyfrau olaf yn *Euclid*, ac un neu ddau wedi dechreu ar *Trigonometry*. Ac yn ystod yr awr hon, byddai y rhai hyn oll yn cael eu cyfran o sylw yr athraw. Yn y cŵr hwn, byddai brawd o chwarelwr, wedi cyrhaedd cryn oedran cyn dechreu dysgu rhifyddiaeth, yn chwysu gyda rhyw *sum* fechan yn y *rule of three*, a'r athraw yn sefyll uwch ei ben, neu yn eistedd wrth ei ochr (os byddai lle), i'w hegluro iddo. Yn y cŵr arall, byddai llengcyn direidus yn methu *solvio equation*, ac ebrwydd yr estynai yr athraw gymmhorth iddo yntau. A'r foment nesaf, gwelid ef yn cynnorthwyo yr ysgolheigion mawr, oeddynt yn ymboeni gyda'r *Sin. A* a'r *Cos. B*, &c. Fel hyn y byddai yn llafurio bob prydnawn gyda deg ar hugain neu chwaneg o efrydwyr, heb nemawr ddau o honynt yn gyfartal o ran eu cyrhaeddiadau a'u manteision boreuol, ac yn gwneyd ei oreu, yn llawen, i'w cael oll yn mlaen yn y gwahanol ganghenau. Dyma ei waith rheolaidd am flynyddoedd lawer:—ond y flwyddyn hono, pallodd ei nerth, ac anmharodd ei iechyd; a'r flwyddyn ganlynol, nodwyd athrawon cynnorthwyol i gymmeryd rhan helaeth o'r gwaith oddi ar ei ysgwyddau. Gresyn na wnaethid hyny yn gynt.

Yr adeg hon y derbyniais yr argraphiadau dyfnaf o lawer oddi wrtho. Nid oeddwn wedi ei weled erioed, ond unwaith, cyn cael eistedd wrth ei draed yn yr athrofa; ac felly, yr oedd yn naturiol i'r argraphiadau a dderbyniwn oddi wrtho yr adeg hon fod yn gryfion ac yn ddyfnion. Y peth cyntaf ynddo a'm tarawodd oedd, ei sirioldeb hapus ac agored yn ei ymwneyd â'r efrydwyr. Yr

Digitized by Google

oedd yn naturiol i mi wylio pob ysgogiad o'i eiddo gyda'r gofal mwyaf; ond er fy nghysur, yr oeddynt oll yn llawn o sirioldeb a thynerwch, a theimlais yn ebrwydd fy mod wedi dyfod o hyd i *gyfaill*, yn gystal ag athraw. Gwnaeth ei wyneb siriol a'i galon agored i mi deimlo yn hapus ar unwaith yn ei bresennoldeb. A dyma yn ddiau deimlad yr holl efrydwyr bob amser. Caent dderbyniad rhwydd a diwarafun i'w fynwes; ac wedi cymmeryd eu lle ynddi unwaith, teimlent yn glyd a hapus yno byth mwyach. Yr oedd ganddo allu neillduol i wneyd cyfeillion mewn ychydig iawn o amser, ond yr oedd ei oes yn rhy fer i wneyd cymmaint ag un gelyn. Y syndod ydoedd fod un yn gwneyd cymmaint o gyfeillion yn medru eu cadw. Cefais y fraint o aros yn y Bala am chwe blynedd; ond ni welais yr achos lleiaf i newid dim ar y syniad cyntaf a ffurfiais am dano yn y wedd hon. Ond caf sylwi etto ar y cyfeillgarwch rhyngddo a'r efrydwyr. Y peth nesaf ynddo a'm tarawodd yn fawr yr adeg yma ydoedd, ei allu i gynnyrchu gweithgarwch a brwdfrydedd yn yr efrydwyr. Yr oedd y fath weithiwr ei hun fel y llanwai bawb o'i amgylch âg ysbryd gweithio. Er mor siriol oedd ei lygaid, yr oedd, er hyny, ryw dân yn gwreichioni o honynt a fyddai yn tanio bodau pur oerion ar adegau. Yr oedd ei ysbryd mor dwymn fel y byddai gwres yn ymwasgaru oddi wrtho trwy bob ysgogiad o'i eiddo, pa le bynag y byddai. Nid anghofiaf ef byth gyda'r dosbarthiadau Lladin. Byddai o'r naill ddosbarth i'r llall, yn eu cadw oll ar lawn waith; a gollyngai y cwbl oddi yno ar ben yr awr, yn llawn o frwdfrydedd am feistroli y gwersi a osodid o'u blaenau. Byddai fy nhraed yn methu fy nghario yn ddigon buan i'm lletty yr adeg hono, i ymosod ar y wers newydd yn y Grammadeg Lladin. Yr unig gŵyn y gallaswn feddwl am dani yn ei erbyn oedd, ei fod yn gyru olwynion ei gerbyd yn *rhy* chwyrn i'r gwan allu ei ganlyn. Yn brin y cai yr arafaidd amser ganddo i ddyweyd yr hyn oedd yn ei wybod; ac weithiau, wedi iddo ddechreu mewn pwyll myned trwy ryw *tense* yn un o'r berfau Lladin, cipid ef o'i enau hwyrfrydig gan yr athraw brwdfrydig, a byddai y cyfan drosodd mewn eiliad. Ond fel hyn y byddai ef yn tanu ei ysbryd bywiog ei hun i ambell efrydydd hanner marw, neu ynte yn gwneyd iddo gilio o'i bresennoldeb. Nis gallai oddef i neb fod yn farwaidd a digalon gyda'i waith yn ei olwg; ond ei gynllun gwastadol i effeithio cyfnewidiad ar y cyfryw oedd, tanu iddynt gymmaint ag a fyddai yn bossibl o'i ysbryd ei hun.

Wrth ddarllen unrhyw awdwr Lladinaidd, byddai yn gorfodi pawb i'w ddeall gyda'r manylder a'r trwyadledd mwyaf. Byddai yn rhaid deall pob gair, a gwybod ei holl hanes; ac felly, ofer hollol oedd ymorphwys ar y *crib*. Gorfodai bob efrydydd i ddefnyddio ei eiriadur a'i rammadeg. Dywedai MAURICE am HARE, fel athraw yn Nghaergrawnt:—"Gofalai am wasgu ar ein meddyliau nad oedd un ffordd i ystyr yr hyn a ddarllenem heb fod yn myned *trwy y geiriau*." Ac felly y byddai Mr. PARRY bob amser yn gwneyd i'w ddosbarth ddeall yn drwyadl bob gair fyddai yn digwydd yn yr hyn a ddarllenid, ac nid ymddibynu ar gyfieithiadau BOHN, OWGAN, a'i Gyf. Ac yn y wedd hon gosodai i lawr sail dda i addysg drwyadl. Yr oedd yn elyn i'r *cribs*; a gwyn fyd na byddai efrydwyr yn gyffredin yn cadw yn llawer mwy clir oddi wrthynt, gan nad oes ond ychydig iawn o honynt y gellir rhoddi un dibyniaeth arnynt, a'u bod yn fynych yn gwneuthur niwed anadferadwy.

Ond yn y dosbarthiadau mewn Rhesymeg ac Athroniaeth y teimlai Mr. PARRY yn fwyaf cartrefol; ac yma hefyd y deuai mwyaf o'i fawredd i'r golwg, ac y gadawai yr argraph dyfnaf ar feddyliau yr efrydwyr. Yr oedd y ddysgyblaeth gyda dysgu Lladin a Mesuroniaeth yn werthfawr; ond yn y dosbarthiadau uchod y byddai y meddwl yn cael ei gyfoethogi. Bûm ar lawer adeg yn petruso ai doeth ydoedd y gyfundrefn oedd yn gosod arnom gymmaint o waith, nad oedd yn gwneyd y pryd hwnw, ac na wnaeth byth, i'r rhan fwyaf o honom ond dysgyblu ein meddyliau heb gyfoethogi nemawr arnynt. Ond yn y dosbarthiadau mewn Rhesymeg ac Athroniaeth, yr oeddym yn cael rhywbeth i'r meddwl afael ynddo, a gwneyd defnydd o hono. Yn ystod y pedair blynedd y bûm yn yr Athrofa, bu ganddo amryw lyfrau mewn llaw fel *Text Books*, megys MASSON's "*British Philosophy*," THOMPSON's "*Laws of Thoughts*," MANSEL's "*Metaphysics*," ac eraill. Ac wrth y dosbarthiadau hyn y glynai hefyd, wedi iddo fyned yn analluog i wneyd nemawr gyda'r dosbarthiadau eraill. Yr oedd ei feddwl o duedd athronyddol, a threuliodd lawer o'i amser i ddarllen ac astudio yr awdwyr goreu mewn Rhesymeg ac Athroniaeth. Rhyfeddem ar lawer adeg at ei gydnabyddiaeth eang a MILL a HAMILTON, REID a STEWART, a lliaws o awdwyr eraill yn Lloegr ac Ysgotland; yn gystal a'r athronwyr Almaenaidd KANT, FICHTE, SCHELLING, HEGEL, ac eraill. Pa bwngc bynag fyddai dan sylw caem wybod ganddo yr holl olygiadau gwahanol o berthynas iddo y byddai unrhyw bwys yn perthyn iddynt. Weithiau, darllenai yn gyhoeddus yn y dosbarth ranau o REID, ac yn enwedig o nodiadau Syr WILLIAM HAMILTON arno, a LOCKE, HUME, BERKELEY, ac eraill. A theimlem ar ambell achlysur ei fod yn darllen gormod; ond gweinyddai hyny i ddangos i ni fod cyfandir gwybodaeth yn llawer eangach nag yr oedd rhai o honom erioed wedi meddwl. Anfynych y byddai yn penderfynu unrhyw gwestiwn; a theimlai yn eithaf boddlawn os llwyddai i gael y dosbarth i ddeall y gwahanol olygiadau arno, a'u gwahanol anhawsderau. Ar y cyntaf, yr wyf yn cofio, y teimlwn yn lled anfoddlawn i'r drefn hon. Ymddangosai i mi fy mod, ar ol dyfod i'r athrofa, a dechreu cropian ychydig gydag Athroniaeth, wedi cael fy arwain i le nad oedd dim ond ansefydlogrwydd ac ammheuaeth yn ddichonadwy. Codid o'm blaen gwestiynau pwysig, ond gadewid hwynt oll heb eu penderfynu; ac ofnwn y gallai hyny fy arwain i dir peryglus. Yr oedd o leiaf yn gynllun pur annioddefol i mi, oedd wedi arfer penderfynu *pob* cwestiwn ryw ffordd neu gilydd. Ond ni fûm yn hir cyn dyfod i ddeall y dangosid i mi ffordd dra rhagorol. Wrth ddyfod yn raddol i ymdeimlo â mawredd ac anhawsderau y cwestiynau, yr oedd yn dda genyf gael eu gadael, am ryw ysbaid o leiaf, yn agored. Gwyddai Mr. PARRY yn dda nad oeddym ni ar y pryd yn gweled ond ychydig o fawredd y pyngciau a ddygid ganddo o dan ein sylw, ac y byddai eu penderfynu y naill ffordd neu y llall yn attalfa arnom i ddyfod i'w weled ar unrhyw adeg; ac felly gadawodd y ffordd yn rhydd i ni i'w dilyn yn mhellach, a'u penderfynu drachefn, os gallem, gyda goleuni helaethach. Trwy hyn hefyd, meithrinai ynom y gwyleidd-dra sydd yn nodweddu pob dyn ymchwilgar, a'r hwn sydd yn un o ammodau hanfodol llwyddiant yn yr ymchwil am wirionedd. Yr oedd efe wedi deall ei hun fod gwirionedd mor fawr, fod iddo gynnifer o wahanol agweddau, ac y gellid edrych arno o gynnifer o wahanol gyfeiriadau, fel y petrusai honi ei

Digitized by Google

fod gydag unrhyw fater wedi cael gafael ar yr *holl* wirionedd, a gofalai yn wastad am feithrin yr un gwylder gochelgar yn ei efrydwyr.

Wrth wneyd y sylwadau uchod, nid ydwyf yn dymuno awgrymu mai dyn gwan, ofnus, petrusgar ydoedd. I'r gwrthwyneb yn hollol:—nid wyf yn meddwl i mi adnabod dyn erioed yn meddu mwy o ymddiried mewn gwirionedd, nac yn teimlo mwy o nerth gwirionedd yn ei ysbryd. Yr oedd ei ymlyniad yn angerddol wrth *ran* o wirionedd—yn unig y byddai yn ofalus i gadw mewn cof yn wastad mai *rhan* ydoedd. Nid oedd eangder ei feddwl yn ddim ond canlyniad naturiol y syniad a gyrhaeddasai am eangder gwirionedd. Gafaelai yn gryf yn y gronyn lleiaf o wirionedd; ac ni symmudai yn mlaen i gymmeryd gafael mewn chwaneg nes y byddai wedi sicrhau yn ei feddiant yr hyn y cymmerasai afael ynddo eisoes. Ond, ar yr un pryd, yr oedd ei feddwl yn llawn o awydd angerddol am wirionedd yn ei gyfander a'i gyflawnder; a pha mor werthfawr bynag oedd unrhyw ran o hono yn ei olwg, ei ymdrech gwastadol ydoedd adnabod gogoniant y rhan yn ei pherthynas â'r cyfan. Ac wrth gynnyrchu y duedd hon yn meddyliau yr efrydwyr, gosododd i lawr sail i ymchwiliad pwyllog o bob cyfeiriad dichonadwy i bob pwngc a ddeuai dan eu sylw mewn blynyddoedd diweddarach. Dysgai ni i farnu drosom ein hunain ar bob pwngc trwy beidio penderfynu drosom y cwestiynau a ddygai ger ein bron; ond dysgai ni hefyd i beidio ar un cyfrif ffurfio barn fyrbwyll, ac i ofalu na foddlonem ar ddim nes cael gafael ar y gwirionedd.

Byddai bob amser yn hoff o weled arwyddion o annibyniaeth meddwl a gwreiddiolder. Fel yr awgrymwyd uchod, gosodai bris uchel ar wybodaeth gywir a chyflawn o'r gwahanol syniadau ar unrhyw fater; ond yr oedd yn well ganddo, er hyny, weled un yn ceisio meddwl yn annibynol, a llawenychid ei ysbryd wrth glywed syniad gwreiddiol, gan nad pa mor lleied fyddai ei werth. Gallu pwysig yn ei olwg oedd y gallu i *feddwl*, a'r gallu i osod y meddwl hwnw allan wrth siarad neu ysgrifenu. Gwnai i ni yn achlysurol ysgrifenu traethodau byrion ar wahanol faterion: weithiau, caem eu darllen; bryd arall, byddai raid i ni foddloni ar eu hysgrifenu yn unig. Ond byddai y rhan fwyaf o'r amser yn cael ei dreulio ganddo i ofyn cwestiynau—ac nid bob amser y byddem yn dygymmod â'r oruchwyliaeth. I lawer o honom, nid oedd gofyn cwestiwn ond moddion i ddwyn adref at ein hystyriaethau ein hanwybodaeth; a theimlem ar adegau y buasai yn fwy buddiol, o leiaf yn fwy dymunol i'n teimladau, iddo symmud ein hanwybodaeth trwy gyfranu i ni ychydig o'i ystôr fawr ei hun. Buasai "un dafn o'i fôr ef yn fôr i ni." Ond nid felly y gwnai, hyd oni byddai wedi ein dwyn i feddwl uwch ben cwestiwn; ac yna, mewn ychydig eiriau, gollyngai ffrwd o oleuni ar y mater dan sylw, nes gwneyd i ni ddigio wrthym ein hunain ein bod yn methu gyda pheth mor hynod agos at ein dwylaw.

Nid oedd dim yn fwy amlwg ynddo na'r boddhâd a deimlai yn ei waith. Byddai yr olwg arno gyda'r dosbarth, naill ai yn eistedd yn ei gadair, neu yn cerdded yn arafaidd yn ol ac yn mlaen ar hyd yr ystafell rhwng y gwahanol fyrddau, gan sefyll yn awr ac yn y man i edrych yn myw llygad ambell i efrydydd, yn llanw y lle â sirioldeb a hapusrwydd. Pan y byddai wedi gyru ambell i efrydydd i'r niwl, neu yn gwrandaw ar un o'i hoff efrydwyr (o blegid byddai ganddo yntau ei *favourites*) yn ceisio dwyn ei resymau yn erbyn rhai o syniadau athronyddol Mill, a'i ysgol, torai allan i chwerthin yn iachus a boddlawn, nes methu dyweyd gair mewn attebiad. Byddai yn hoff (yn enwedig ar adegau) o gyfeirio cwestiynau at ambell i efrydydd y gallai ddisgwyl oddi wrtho sylwadau lled wreiddiol ac annibynol. Ond ni byddai un amser yn ymostwng i "alw am Samson, i beri i ni chwerthin;" o blegid yr adegau y byddai yn fwyaf siriol ei ysbryd oeddynt yr adegau y byddai yn fwyaf egnïol i ddwyn yn mlaen waith y dosbarth.

Byddai yn fynych yn bur dyner o rai lled ddi-amcan pan fyddent heb gael llawer o fanteision boreuol; ond byddai yn lled galed, weithiau, wrth y diog a'r diofal. Gwelsom ef ar un achlysur yn anfon un o'r efrydwyr i chwilio am efrydydd ieuangc, heb fod yn bregethwr, i ofyn ei reswm dros fod yn absennol o'r dosbarth y prydnawn hwnw; a diau fod yn ffodus iddo mai ymweliad annisgwyliadwy o eiddo ei dad oedd wedi ei gadw gartref. Ymdrechai gynnyrchu cydwybodolrwydd yn yr efrydwyr ieuaingc; ond os gwelai fod eu cydwybodau yn rhy weiniaid i'w cadw gyda'u dyledswyddau, rhoddai ychydig gymmhorth iachus yn achlysurol trwy ambell edrychiad lled dreiddgar, a gair pur awdurdodol. Nid oedd ei gariad at yr efrydwyr yn ei attal i gyflawni ei ddyledswyddau tuag atynt, ac nid oedd cyflawniad ei ddyledswyddau chwaith yn ei luddias i'w hoffi. Teimlai y dyddordeb mwyaf yn rhagolygon pob efrydydd, a byddai yn sylwi gyda manylder ar alluoedd pob un. Cymmerai ddyddordeb neillduol yn y meusydd cenhadol; a phan y gwelai efrydydd y barnai fod ynddo gymmhwysderau i lafurio, naill ai yn Llydaw neu yn India, ni phetrusai ddadgan ei farn iddo, a cheisio ei berswadio i ymgymmeryd â'r naill neu y llall. A chyda'r efrydwyr nad oeddynt wedi penderfynu yn hollol ar gwrs eu bywyd, byddai yn cymmeryd dyddordeb neillduol yn eu hachos, ac yn eu symbylu yn mlaen i ymgyrhaedd am y sefyllfaoedd goreu y barnai fod ganddynt alluoedd digonol i'w llanw. Ceisiai lanw meddyliau yr efrydwyr âg uchelgais iachusol, ond gofalai yn wastad am ei gyfeirio ar hyd canol llwybr barn. Yr oedd ganddo gariad angerddol at yr hyn sydd bur a chywir, ac edrychai gyda'r dirmyg a'r dygasedd mwyaf ar bob gŵyriad gwirfoddol oddi wrth yr hyn sydd lân, uniawn, a phur. Hoffai weled nôd dyn ieuangc wedi ei osod yn uchel; ond teimlai fod unrhyw nôd, pa mor uchel bynag, yn myned yn ddirmygus, os ceisid ei gyrhaedd ar draul aberthu purdeb ac uniondeb. Ni chlywais ef yn pregethu ond ychydig weithiau; ond yr oedd ei holl fywyd yn un bregeth fawr ar "brydferthwch sancteiddrwydd."

Dichon y gallwn ymhelaethu llawer ar wahanol bethau, ond nid wyf yn sicr y gallwn drwy hyny wneyd fy syniad am Dr. Parry yn fwy eglur. Yr oedd, yn ei gyssylltiad â'r efrydwyr, yn weithiwr egnïol—mor egnïol a phe na buasai ganddo un gorchwyl arall o gwbl mewn llaw. Yr oedd yn foneddwr trwyadl yn ei holl deimladau a'i ymddygiadau, ac yn un a gerid yn angerddol gan yr holl efrydwyr fuont dan ei ofal.

Nid wyf wedi dyweyd gair am y sirioldeb a ddangosid ganddo ef, a Mrs. Parry, a'r teulu, i'r efrydwyr yn eu tŷ; ond yr wyf yn dra sicr y bu ei gymdeithas siriol ef, a charedigrwydd dirodres Mrs. Parry, a'r teulu, yn gysur ac yn fendith i ugeiniau o'r efrydwyr. Yr wyf fi yn dra rhwymedig iddynt yn y wedd hon, ac nid am nad wyf yn teimlo yn ddwfn yr wyf heb ddyweyd chwaneg

Digitized by Google

ar y pen hwn. Gallaf grybwyll y bu gair siriol o eiddo Mr. PARRY yn llawer o gynnaliaeth i aml un mewn digalondid mawr gyda golwg ar ei bregethu—ac yn enwedig yn ei flynyddoedd olaf, pan y cafodd fwy o gyfleusderau i wrandaw yr efrydwyr nag a gawsai erioed o'r blaen.

Nid wyf chwaith wedi cyfeirio at Dr. PARRY mewn unrhyw gylch, ond yn unig yn ei berthynas â'r Athrofa. Y mae genyf adgofion melus am dano yn y cyfarfodydd eglwysig yn y Bala; ond y mae ei hanes yno yn llawer mwy adnabyddus nag oedd ei hanes yn ymwneyd â'r efrydwyr.

Digon digalon ydyw genyf gyfeirio at ei flynyddoedd diweddaf, pan yr oedd ei iechyd wedi ammharu, a'i gyfansoddiad wedi myned yn adfail. Trwm i galonau yr efrydwyr, a'i gwelsent yn ei nerth a'i fywiogrwydd cyntefig, oedd ei weled yn disgyn mewn cwpl o flynyddoedd i'r fath wendid a llesgedd. Gwywodd ei nerth fel y gwywa blodeuyn wedi ei ddiwreiddio yn ngwres y dydd. Anhawdd fuasai credu y gallasai ei nerth gilio mor ebrwydd. Ond felly y bu. Cafodd fyw am amryw flynyddoedd yn nghanol gwendid a gwaeledd, nad oes neb wedi ei amgyffred yn iawn, ond ei anwyl briod a'i blant, a'r meddyg ffyddlawn a wasanaethai arno. Bu ei ysbryd yn ei waith hyd y diwedd; ac y mae yn lled sicr y buasai wedi marw yn gynt oni buasai ei fod yn parhau i fyned at yr efrydwyr i gynnal ei ddosbarthiadau. Y mae yn wir, nad oedd, o lawer, yn ei flynyddoedd diweddaf yr hyn fuasai gynt gyda hwynt. Arafaidd a phoenus oedd ei symmudiadau; ac wedi iddo eistedd yn ei gadair, nis gallai godi oddi yno, ar lawer adeg, heb gymmhorth un o'r efrydwyr; ond er y cwbl, yr oedd ei hen gydnabyddiaeth âg awdwyr athronyddol, a'i allu i'w deongli, yn gwneyd ei sylwadau, i'r diwedd, yn hynod werthfawr i'r efrydwyr a ddilynent ei ddosbarthiadau. Yr ydwyf yn tybied ei fod, wedi i'w nerth gilio, yn gofyn llai o gwestiynau, ac yn ymollwng yn fwy rhydd i gyfranu i'r efrydwyr o'r ystorfa eang oedd yn ei feddwl ei hun.

Yr wyf wedi dyweyd fy syniadau am Dr. PARRY heb gymmaint a chrybwyll y ffaith fod yn yr athrofa athraw arall y teimlaf y parch dyfnaf iddo, a'r serch puraf tuag ato. Er eu bod ill dau yn cydweithio, etto yr oedd eu gwaith yn hollol ar wahân; ac yr wyf wedi ceisio gosod allan yr argraphiadau ar fy meddwl am Dr. PARRY, heb amcanu o gwbl ei gymmharu na'i gyferbynu â Dr. EDWARDS. Yr wyf yn diolch i'r Arglwydd am i mi gael y fantais o eistedd wrth draed y fath athrawon, a derbyn oddi wrthynt ddylanwad mor iachusol. Bendith fawr i'n cyfundeb oedd cael y fath ddynion, am gynnifer o flynyddoedd, yn athrawon yn Athrofa y Gogledd.

Buasai yn dda genyf allu dadgan fy syniadau a'm teimladau am Dr. PARRY mewn dull mwy teilwng o'i alluoedd a'i ymroddiad. Bydd genyf barch calon i'w goffadwriaeth tra byddwyf byw; a'm dymuniad yw cael fy llanw â'r un gweithgarwch gyda gwaith y Gwaredwr ag oedd yn llanw ei ysbryd yntau. Heddwch i'w lwch, a bendith Duw ar ei weddw a'i blant.

Yr eiddoch yn gywir,

GRIFFITH ELLIS.

Yn nesaf, ni a ddodwn i mewn lythyr y Parch. EVAN DAVIES, yr hwn a anfonwyd i Mr. POWELL, pan oedd efe yn darparu ar gyfer Cofiant i Dr. PARRY. Fel y canlyn yr ysgrifenai Mr. DAVIES:—

TREGEIRIOG, 1876.

ANWYL SYR,

Adeg ddedwydd ar fy mywyd oedd yr amser yr oeddwn yn y Bala o dan addysg Dr. EDWARDS, a'r diweddar Dr. PARRY; a buasai raid fy mod yn amddifad o bob amgyffred pe y gallaswn gymdeithasu â'r doeth a'r dysgedig heb deimlo yr hyfrydwch uwchaf; sef, yr hyfrydwch hwnw sydd yn eangu y meddwl ac yn gwella y galon. Ond wrth eistedd i ysgrifenu ychydig o adgofion gwasgarog am yr hybarch a'r anwyl Dr. PARRY, yr ydwyf yn teimlo mwy nag un anhawsder i wneyd dim yn briodol. Yr oedd myncdiad i'r athrofa, i mi, yn agorfa mor sydyn i ganol rhyfeddodau, fel yr oeddwn i raddau, dros ystod y blynyddoedd y bûm yno, fel un mewn gweledigaethau; ac yr oedd y naill weledigaeth yn dilyn y llall yn ddidôr, nes fy nghadw mewn syndod parhaus, fel nad oedd genyf hamdden lawer i sylwi ar y neb oedd yn fy arwain. Teimlwn hefyd fod Dr. PARRY, fel athraw, yn un o'r rhai mwyaf anhawdd i'w ddarlunio yn briodol; gan fod ei ragoriaeth mawr, nid mewn hynodrwydd i dynu sylw yr edrychydd, ond mewn dylanwad distaw, ond effeithiol, oedd i'w deimlo yn ei gymdeithas.

Yr adeg yr oeddwn i yn yr Athrofa, yr oedd yr is-athrawon wedi eu pennodi i ddysgu rhif a mesur (*mathematics*) i'r holl efrydwyr, ac yn dysgu Saesneg a Lladin i'r dosbarthiadau ieuangaf—yr hyn o'r blaen a ddysgid gan Dr. PARRY. Yr oedd Dr. PARRY yn dysgu Athroniaeth i'r holl efrydwyr, a Lladin i efrydwyr y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn. Byddai yr holl efrydwyr yn ei gyfarfod i ddysgu Athroniaeth am hanner awr wedi naw yn y boreu; ac nid anghofir yr yni gyda pha un y byddai yn cyflawni ei waith yn hwnw. Weithiau, byddai Dr. PARRY yn yr ystafell ddeg munyd yn rhy fuan, yn aros yr efrydwyr, ac yn cyfarch gwell iddynt o un i un ar eu dyfodiad i mewn, gyda'r sirioldeb hwnw oedd yn bywiogi yr ysbryd digalon, ac yn taflu yni adnewyddol i'r meddwl oedd yn tueddu i lesgau. Ceid ef, weithiau, yn rhodio yn ol ac yn mlaen yn y fynedfa—a byddai yn rhoddi cyfarchiad mor garedig i bob efrydydd wrth fyned heibio, fel y byddai yn teimlo ei galon yn ysgafnhau yn y fan. Bryd arall, byddai yr efrydwyr yno o'i flaen, a deuai yntau i mewn yn frysiog, â thair neu bedair o gyfrolau mawrion yn ei freichiau, wedi troi ar ranau detholedig o honynt yma ac acw; gan na byddai byth yn cyfarfod yr efrydwyr heb barotoi yn fanwl ar eu cyfer. Gydag y byddai wedi dyfod trwy y drws, dywedai mewn tôn oedd yn arddangos ysbryd hynaws a thymmer dda, "*Good morning, young gentlemen!*"—yr hyn a fyddai fel awel yn gwasgar rhyw fywyd a sirioldeb drwy y lle. Neu, fe allai y byddai, gyda'r *post*, y boreu hwnw, wedi derbyn rhyw newydd o bwys a dyddordeb, a hysbysai ni o hwnw, ar air byr; a gwasanaethai hyny i ddwyn yr athraw a'r ysgolheigion i ryw agosrwydd hyfryd at eu gilydd. Dyna Dr. PARRY yn awr yn eistedd yn ei gadair freichiau wrth ben y bwrdd; ac y mae pawb â'i lyfr yn agored ar wers y diwrnod hwnw. Y *text-book* am y tymmor ydyw MANSEL'S "*Metaphysics.*"

Digitized by Google

Gofynir i un ddarllen adran; yna gofynir i'r nesaf ato, o bossibl, roddi, yn ei eiriau ei hun, swm a sylwedd yr hyn a ddarllenwyd. Llwyddid i wneyd hyny weithiau yn fwy, weithiau yn llai perffaith. Yr oedd efe yn dra gofalus am i bob syniad yn yr adran gael sylw; ac os, wrth wneyd y crynhoad, y gadewid allan un dywediad, byddai raid ail gynnyg, neu fe allai y gelwid ar y nesaf drachefn i roddi yr adran yn fwy cyflawn. Tra y byddai hyn yn myned yn mlaen, byddai llyfr Dr. PARRY, yn gystal a llyfrau yr efrydwyr, yn gauedig, a'i feddwl yn gweithio ar yr adran, a phob llinell o honi wedi ei meddiannu ganddo i berffeithrwydd. Os na cheid y crynodeb yn weddol gyflawn, dywedai—"*No, no, Mr. ——, there is so and so,*" gan adrodd oddi ar ei gôf rywbeth pwysig a adawsid allan. Byddai y rhai oeddynt heb gynnefino llawer â'r iaith Saesnig, cyn dyfod i'r Athrofa, yn teimlo mesur o anhawsder i wneyd hyn; ond byddai dull Dr. PARRY yn gofyn, mor dyner a charedig, fel y temtid y mwyaf anfedrus i gynnyg; a phan y byddai perygl i un dori i lawr yn hollol, dywedai, "*Well, Mr. ——, let us have it then in Welsh.*" Wedi llwyddo i gael crynodeb boddhaus o'r hyn a ddarllenid, gofynai amryw gwestiynau oddi wrth yr adran; ac nid oeddid i symmud yn mlaen nes cael sicrwydd fod pawb, nid yn unig yn ei deall, ond wedi cael ei chynnwys yn gyflawn i'w gôf. Wedi hyny, mynai i ni gydnabyddu â syniadau athronwyr eraill ar y pwngc fyddai genym dan sylw; ac adroddai, oddi ar ei gôf, olygiadau DESCARTES, MALEBRANCHE, LOCKE, REID, STEWART, BROWN, HAMILTON, STUART MILL, ac amryw eraill. Yr oedd gwrandaw arno yn adrodd syniadau yr ysgrifenwyr uchod, gan nodi yn fanwl yr amliw o wahaniaeth oedd rhwng y naill a'r llall ar y gwahanol faterion yr ymdrinid â hwynt, yn peri i ni yn mron feddwl ei fod yn hollwybodol. Byddai ganddo hefyd yn fynych gyfres o gwestiynau wedi eu parotoi i ni ysgrifenu attebion iddynt gartref; ac ni byddai dim yn ei foddhau yn fwy na'n gweled yn cymmeryd y drafferth i'w hatteb.

Cynnil iawn oedd Dr. PARRY o'i farn ei hun ar bob cwestiwn; ac mewn gwirionedd, yr oedd yn amcan ganddo i'w chelu yn llwyr oddi wrthym. Yr oedd am i bawb gydnabyddu â holl gylch athroniaeth, a barnu drostynt eu hunain pa olygiadau i'w derbyn neu i'w gwrthod. Yr ydym yn cofio i un cyfaill ymofyngar, unwaith, ofyn ei farn ar un o'r cwestiynau sydd yn rhanu athronwyr y byd yn ddau ddosbarth. Dywedai yntau y buasai dilynwyr PLATO yn ei atteb fel hyn, a dilynwyr ARISTOTLE fel arall; ac yna adroddai y prif resymau oedd gan y naill blaid a'r llall dros eu golygiadau. Gofynai yr efrydydd iddo eilwaith, pa un oedd y golygiad cywir. "Nid oes gan neb hawl i ddyweyd hyny," ebai Dr. PARRY, "ond barned pob un drosto ei hun. Rhodded ystyriaeth ddyfal i'r hyn a ddywedir o'r ddwy ochr, ac wedi hyny creded yr hyn y mae ei feddwl ef ei hun yn ddyweyd sydd wirionedd." Nid ydwyf yn cofio ei glywed yn dadgan ei farn bersonol ei hun ar unrhyw fater yn y dosbarth, oddi gerth unwaith—a hyny ar bwngc oedd yn dal mwy o berthynas â hanes athroniaeth nag â golygiadau athronyddol. Clywais ef yn traethu ei olygiadau yn lled rydd ar LOCKE fel athronydd. Ymddengys ei fod yn edmygydd aiddgar o LOCKE; ac nis gallai gredu ei fod yn gwadu *innate ideas*, yn ystyr presennol a phriodol yr ymadrodd; ond yn unig yn yr ystyr yr oedd yn cael ei ddefnyddio gan Ddeistiaid yr oes hono. Cymmerai y sylw manylaf o bob awgrym yn ei draethawd ar y deall, er cadarnhau y farn hon am dano.

Byddai gwledd wastadol yn ei ddosbarth i'r ymofynydd meddylgar; a byddai lliaws yr efrydwyr yn llawenychu fel rhai yn cael ysglyfaeth lawer. Ei amcan mawr oedd dysgu yr efrydwyr i ddeall y pwngc yr ymdrinid âg ef yn ei holl gyssylltiadau, yn fwy na'u parotoi i sefyll yn uchel yn yr arholiad ar y *text-book* a fyddai ganddynt ar y pryd. Yr oedd yn diystyru astudio yn uniongyrchol i gyfarfod yr arholiad. Argraphai er ein hystyriaethau y pwys o astudio erbyn blynyddoedd dyfodol o ddefnyddioldeb ymarferol, yn fwy nag erbyn yr arholiad ar ddiwedd y tymmor. Yr ydwyf yn cofio i ni fod, am rai dyddiau, heb symmud fawr yn mlaen gyda MANSEL. Gan fod Dr. PARRY yn ystyried y mater oedd dan sylw yn un tra phwysig, mynai i ni gael gwybod pob peth, ol a blaen, yr oedd gwahanol athronwyr yn ei ddyweyd arno. Yr oedd yno un brawd wedi rhoddi ei fryd ar sefyll yn uchel yn yr arholiad; a galwodd sylw yr athraw, mewn dull lled benderfynol, at y ffaith na byddai i ni gael ein harholi ond yn MANSEL yn unig; ac felly, nad oedd nemawr o bwys i ni beth oedd golygiadau athronwyr eraill ar y cwestiwn. Pa faint bynag o ddiffyg parch a gostyngeiddrwydd, pa faint bynag o hyfdra anesgusodol, pa faint bynag braidd o gablu urddas oedd yn y sylw hwn, ni wnaeth Dr. PARRY un math o atteb angharedig iddo; ond yr oedd yn hawdd gwybod ei fod wedi teimlo i'r byw. Gallwn feddwl mai y rhai tyneraf a mwyaf caredig sydd yn teimlo ddwysaf oddi wrth yr angharedigrwydd a dderbyniant, ond fod lledneisrwydd eu hysbryd yn eu hattal rhag defnyddio un cyfle i'w ad-dalu. Yr oedd Dr. PARRY yn fyw i deimlo oddi wrth angharedigrwydd—yn enwedig os byddai rhyw radd o waelder (*shabbiness*) yn gyssylltiedig â'r angharedigrwydd hwnw; ond nid oedd ynddo ddim ysbryd dial, na'r duedd leiaf i dalu yn ol. Yr oedd yn hyfrydwch ganddo dalu da am ddrwg. Yn ei ymddygiad ef, perffeithid ystyr cyfrin y llinellau hyn:—

"The Sandal-tree, most sacred tree of all,
Perfumes the very axe that bids it fall."

Ni byddai byth yn troi attebiad neb, pa mor drwsgl bynag, yn destyn chwerthiniad. Etto, pan ddigwyddai fod rhyw amryfusedd yn y cwestiwn a ofynid, ac i attebiad na ddisgwyliasai gael ei roddi iddo, ymdorai gyda'r efrydwyr i chwerthin yn rhydd ac iachus; ond priodolai y bai o'r camgymmeriad yn fwy i ffurf y cwestiwn, fel y rhoddasid ef ganddo ef, nag i hurtrwydd yr attebwr. Neu, pan geid attebiad lled ffraeth gan un o'r rhai lleiaf eu dysg a'u cyrhaeddiadau, byddai yn mwynhau y digrifwch yn y fath fodd ag a fyddai yn mwyhau mwynhâd pawb eraill. Megys un tro, pan yn egluro rhyw syniad athronyddol, cyfeiriai at wirionedd oedd yn hunan-brofedig i'r rhai oeddynt yn deall ond ychydig iawn o egwyddorion rhif a mesur. I'r rhai hyny, yr oedd yr hyn a ddywedid yn y wireb hono mor eglur a bod dau a dau yn bedwar. Ond gan fod yno rai yn y dosbarth heb fod yn flaenllaw iawn yn y wybodaeth hono, cymmerai drafferth i egluro y wireb, gan dybied, wedi iddynt ddeall y gosodiad hwnw, nas gallent lai na deall y gosodiad arall. Wedi gofyn a oedd pawb yn gweled y gosodiad rhifyddol y cyfeiriai ato, a chael attebiad cadarnhaol oddi wrth amryw, gofynodd i un, nad oedd, a dyweyd y lleiaf, yn enwog am ei wybodaeth mewn

Digitized by Google

*mathematics,*—"*Do you see it, Mr. so and so?*" A'r atteb a gafodd oedd, "*No indeed, Sir; but I will believe you.*" Yr oedd rhywbeth yn yr amgylchiad, ac yn nhôn ac ysbryd yr attebiad, ar y pryd yn ei wneyd yn fwy hynod a digrifol nag y gall ymddangos wrth ei adrodd, fel y torodd Dr. PARRY a'r efrydwyr i chwerthin yn ogoneddus; ac ymdorid eilwaith ac eilwaith i chwerthin, nes iddo fyned bron fel y chwerthin hwnw ar Olympia a ddisgrifir yn

"Anniffoddadwy chwerthin siglai 'r nen!"

Yn mhlith deugain neu chwaneg o efrydwyr, yr oedd yr athraw, o herwydd rhyw gyssylltiadau, yn ffurfio cyfeillach agosach â rhai o honynt na'u gilydd, a gwyddom fod ganddo ei gyfeillion neillduol ar y pryd; ond yr hyn y rhyfeddem ato oedd, nad allai un dewin yn y dosbarth wybod pwy oedd felly; gan y byddai yr un tiriondeb a charedigrwydd yn cael eu dangos, a'r un parch a sylw yn cael eu talu i bawb yn ddiwahaniaeth. Pan y byddai tô newydd o efrydwyr yn dyfod i mewn, wedi iddo unwaith gael enw arnynt, nid oedd berygl iddo eu hanghofio na'u camgymmeryd. Pan ddigwyddai i un ddyfod i'w ddosbarth am y waith gyntaf, gwnai sylw caredig o hono, gan ei annog yn mlaen yn galonog; a byddai yn gallu taflu yni yr annogaeth yn fywyd i ysbryd y neb a anerchai. Dranoeth, byddai mor gartrefol gyda'r dysgybl newydd a phe buasai yn ei ddosbarth er's misoedd, a byddai yntau ei hun yn teimlo mai nid dyeithr a dyfodiad oedd yn nosbarth Dr. PARRY.

Un o'r pethau oedd yn gadael yr argraph oreu ar ein meddwl fel efrydwyr oedd, y ffaith fod Dr. PARRY yn meddwl mor uchel o honom. Nid oedd neb mor isel ei ddysg, nac mor gyfyng ei gyrhaeddiadau, ag i beri iddo ef ymddangos fel yn edrych yn anobeithiol arno; ond bob amser dangosai ei fod, yn y modd mwyaf diffuant, yn disgwyl pethau mawr oddi wrthym oll yn y dyfodol. A phwy a ŵyr pa faint o symbyliad a fu hyn i lawer; o herwydd rhaid i un fod wedi myned yn isel iawn os na theimla awydd cryf i weithio ei hunan i fyny â'r syniadau uchaf a goleddir am dano.

Gyda Dr. PARRY, teimlem ein bod yn mhresennoldeb boneddwr o'r fath fwyaf urddasol ac anrhydeddus—y math hwnw ag y byddem yn teimlo yn rhydd, ac nid yn colli ein hunan-feddiant, ac yn gwladeiddio yn eu cymdeithas. Nid oedd ei uwchafiaeth yn ein darostwng, ond yn hytrach yn ein dyrchafu. Teimlem y parch dyfnaf iddo; ond nid oedd ynddo ddim i gynnyrchu ofn gwasaidd ynom. Yr oedd ei uwchafiaeth a'i fonedd mor ddidrais a naturiol, fel na theimlai neb am dano ei hun yn ei gymdeithas mai *gwas* boneddwr ydoedd.

Diau y bydd pennod yn y cofiant ar Dr. PARRY yn y cyfarfod eglwysig, gan fod ganddo ddawn nodedig at wneyd y cyfarfod hwnw yn fywiog, dyddorol, ac adeiladol. Yr oedd ei iechyd wedi adfeilio i raddau mawr pan yr oeddwn i yn y Bala, fel yr ydwyf yn deall na chlywais i ef yn ei amser goreu; ond clywais ef yn dda, ac yn dda iawn. Eithr carwn roddi un enghraifft o'i ddull a'i ddawn yn y cyfarfod eglwysig yn y fan yma. Y noson y cyfeirir ati, yr oedd yn waeth gan ei anhwyldeb nag arfer. Eisteddai mewn congl neillduedig, yn edrych yn isel a digalon, fel pe buasai yn dymuno cael llonyddwch i orphwys, yn hytrach na gwneyd dim yn gyhoeddus y pryd hwnw. Gwrthodai godi i holi profiadau ar gais un o'r blaenoriaid—ac nid heb daerineb anarferol y caed ganddo gydsynio. Wedi cyfodi ar ei draed, gofynai pa un ai y meibion, ynte y merched, oedd i ddyweyd eu profiadau y noson hono. Hysbyswyd ef mai y meibion oeddynt wedi cael eu holi y tro o'r blaen, ac felly mai y merched oedd i ddyweyd eu profiadau yn y cyfarfod hwnw. Fel yr oedd yn cychwyn, cododd un o'r blaenoriaid i'w arwain i'r ochr arall i'r capel, gan ei fod yn llesg ar y pryd. Ond dyma fe yn myned yn mlaen heibio iddo, ac yn myned i'r faingc bellaf yn ochr y meibion yr oedd neb yn eistedd arni; ac yn mhen pellaf hono, disgynodd ar fachgenyn ieuangc, yr hwn a allai fod o gylch pymtheg oed. Gofynodd iddo:—

"A fyddwch chwi yn *arfer* dyfod i'r seiat, fy machgen i?"

"Byddaf, Syr."

"A fyddwch chwi yn dyfod i'r seiat mor *gysson* ag y mae modd i chwi?"

"Byddaf, Syr. Yr ydwyf yma agos yn mhob un."

"A ydych chwi yn meddwl fod dyfod i'r seiat yn ddigon o grefydd i chwi?"

"Nac ydyw, Syr."

"Beth sydd eisieu i chwi yn chwaneg?"

"Credu yn Iesu Grist, Syr."

"Da iawn, da iawn—credu yn Iesu Grist. A oes eisieu rhywbeth heb law hyny?"

"Y mae eisieu byw yn dduwiol, Syr."

"Da iawn; y mae eisieu byw yn dduwiol. Ond beth sydd yn gynnwysedig mewn byw yn dduwiol? A ydyw cadw y deg gorchymyn yn gynnwysedig mewn byw yn dduwiol?"

"Ydyw, Syr."

"A ydyw cilio oddi wrth gwmpeini drygionus ac annuwiol yn gynnwysedig mewn byw yn dduwiol?"

"Ydyw, Syr."

"A wyddoch chwi am adnod yn dangos y dylai crefyddwyr—y dylai y rhai sydd yn y seiat—gilio oddi wrth rai annuwiol a drygionus?"

"Gwyn fyd y gŵr ni rodia yn nghynghor yr annuwiolion, ac ni saif yn ffordd pechaduriaid, ac nid eistedd yn eisteddfa y gwatwarwyr."

"Da iawn:—cofiwch yr adnod yna. Ond a ydych chwi yn ymgadw o gymdeithas y rhai drygionus i'r graddau y dylech chwi?"

"Wn i ddim, Syr."

"Wel, ni wn innau ddim. Yr ydwyf yn meddwl nad ydych, ac am hyny yr oeddwn yn eich arwain at hyn. Yr ydwyf wedi eich gweled chwi ddwy waith bellach gyda rhai na ddylasech chwi ar un cyfrif eu canlyn. Yr oeddych yn canlyn rhai yr oedd pwy bynag a'u dilynai yn peryglu ei gymmeriad am byth. Yr oedd yn beth hollol annheilwng gweled neb o'r seiat gyda y rhai y gwelais i chwi yn eu plith. Yr ydwyf fi yn eich adwaen chwi, ac yr oeddwn yn adwaen eich tad hefyd. Dyn da iawn—dyn duwiol oedd eich tad; a buasai yn drallod mawr iddo ef eich



Digitized by Google

gweled chwi gyda y rhai y gwelais i chwi fwy nag unwaith yn eu canlyn. Dywed y Beibl y gallwn dristau yr Ysbryd Glân. Y mae eich tad wedi marw—y mae efe heddyw yn y nefoedd, ac y mae lle i ofni fod ei ysbryd yn tristau yno, wrth eich gweled chwi yn canlyn rhai mor ddrwg."

"A wnewch chwi addaw ymgadw oddi wrthynt ar ol hyn?"

"Gwnaf, Syr," meddai yntau dan grynu.

"A ydych chwi yn ystyried eich bod, wrth addaw yma, yn ymgyfammodi â Duw i gilio oddi wrthynt—yn llwyr, a hollol, am byth?"

"Ydwyf, Syr."

"Cofiwch hyn, a chofiwch y rhybudd yma! Cyhoeddwch anghyttundeb â hwynt o hyn allan. 'Os pechaduriaid a'th ddenant, na chyttuna.'"

Wedi hyny, rhoddodd gyfarchiad dwys ac effeithiol i holl ieuengctyd yr eglwys. Bu y cynghor hwn yn foddion i gadw y llangc hwnw o ffordd dinystr, megys y bu llawer cynghor cyffelyb i Dr. PARRY mewn amgylchiadau eraill. Fel yna yr oedd Dr. PARRY bron bob seiat; a mi a nodais yr hanesyn hwn, nid am fod ynddo ddim neillduol, ond am ei fod yn wir ddangoseg o hono yn y seiat; a buasai yn hawdd nodi degau o hanesynau o'r fath. Y mae chwithdod mawr ar ei ol, a'r rhai mwyaf pur a dirodres sydd yn teimlo y chwithdod hwnw fwyaf.

Ydwyf, ANWYL SYR,

Yr eiddoch yn gywir,

EVAN DAVIES.

Y mae y tystiolaethau hyn, gan Mr. ELLIS a Mr. DAVIES, y rhai y byddai yn hawdd chwanegu atynt, yn ddigon er penderfynu fod rhagoriaethau tra anghyffredin yn eiddo iddo fel athraw; ac yn rhoddi cyfrif am y lle tra chyssegredig a ennillwyd ganddo yn nheimladau pawb, hyd ag y gwyddom ni, o'r rhai a gawsant y fraint o fod dan ei addysg yn yr Athrofa. Ond nid yn nghylch uchel yr Athrofa, yn unig, y byddai efe yn cymmeryd dyddordeb. Yr oedd yn teimlo yn ddwys yn achos plant, a phobl ieuaingc, yn gyffredinol; ac felly yn gosod gwerth mawr ar, ac yn nodedig o ymdrechgar gyda'r Ysgol Sabbothol, fel y moddion cyfaddasaf, yn ei fryd ef, er cyfarfod eu hamgylchiadau neillduol hwy. Ni a welsom ei fod, pan yn ŵr ieuangc yn Manchester, yn ymdrechgar iawn gyda'r ysgol; a thrachefn yn y Bala, pan yn efrydydd yno. Ond ni newidiodd yn hyn wedi ei ddyrchafu yn athraw yn yr Athrofa. Tra y gallodd, os na byddai yn rhyw le yn pregethu, byddai yn sicr o fod yn bresennol yn yr ysgol bob Sabbath, ac yn rhoi ei wasanaeth yn y modd mwyaf egnïol, a chyda hyfrydwch mawr, mewn rhyw ddosbarth neu arall o honi. Ac nid hyny yn unig, ond fe fu o'r flwyddyn 1843, pan yr ymsefydlodd yn y Bala megys athraw, hyd nes yr attaliwyd ef gan y llesgedd a ddaeth arno yn niwedd ei oes, yn cymmeryd gofal neillduol am gyfarfodydd chwech-wythnosol yr Ysgolion Sabbothol yn Nosbarth Penllyn—a hyny gyda'r fath ffyddlondeb a llwyddiant, meddir, fel na welwyd ei gyffelyb er dyddiau Mr. CHARLES. Bu yr un modd am lawer o flynyddoedd yn gofalu am y cyfarfodydd yn Nosbarth Edeyrnion, ac hefyd yn Nosbarth Ceryg-y-druidion; ac angenrheidrwydd hollol arno, o blegid fod y llafur yn ormod iddo, a barodd iddo roddi i fyny y gofal am y rhai hyny, a chyfyngu ei hunan i Ddosbarth Penllyn yn unig. Pe buasai y sylwadau a wnaed ganddo, o bryd i bryd, yn ystod pum mlynedd ar hugain, a chwaneg, yn y cyfarfodydd hyny ar gael, buasent, y mae yn ddiammheu, o'u cyhoeddi, o werth annhraethol i athrawon ac athrawesau yr Ysgol Sabbothol trwy Gymru i gyd. Pan yr oeddym ar ganol ysgrifenu hyn, galwodd brawd gyda ni, yr hwn a fu am flynyddoedd yn dilyn y cyfarfodydd hyny, pan oedd Mr. PARRY yn gofalu am danynt; a sicrhâ i ni, fod y dylanwad a gâi ei sylwadau ynddynt braidd yn anhygoel; ac y byddai pawb yn myned adref o honynt, nid yn unig wedi eu boddhau, ond â'u calonau wedi eu cynnhesu o'r newydd at yr achos da, ac yn fwy penderfynol nag erioed i wneuthur a allent yn ei blaid.

Yn yr ymdeimlad â'u rhwymedigaeth iddo, eu colled am dano, a'u galar ar ei ol, fe gynnygiodd Cyfarfod Ysgolion Dosbarth Penllyn wobr o ddeg punt am Farwnad Goffadwriaethol iddo. Daeth amryw gyfansoddiadau i law Dr. EDWARDS, yr hwn a weithredai fel beirniad. Dyfarnwyd y wobr ganddo i ISLWYN; ac y mae ei farwnad yn sicr yn un dlws a choeth anghyffredin. Ond golygai y beirniad fod dwy eraill yn tynu mor agos at yr un a fernid ganddo ef yn oreu, a rhoddai y fath ganmoliaeth iddynt, fel y tueddwyd y pwyllgor i brynu y rhai hyny—un gan y Parch. EVAN DAVIES, o Dregeiriog, a'r llall gan y Parch. HUGH JONES, Llanrhaiadr, yn awr o Lanllechid—ac y mae y tair wedi eu cyhoeddi gyda'u gilydd gan Mr. GEE yn llyfr bychan destlus, llawn o farddoniaeth ddiledryw, ac yn cyflwyno darluniad byw, oddi ar deimlad calon, o'r gwrthddrych y cenir am dano.

Ni chawsom ni yr hyfrydwch o wrandaw arno yn pregethu ond ychydig o weithiau erioed:—unwaith, yn mhen ychydig fisoedd wedi iddo ddechreu; teirgwaith, ar ei ymweliad â Llundain, y cyfeiriasom ato eisoes; ac unwaith drachefn, yn Nghymmanfa

Digitized by Google

Manchester, rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Yr oedd yr holl bregethau a glywsom ni ganddo, fel cyfansoddiadau, o nodwedd uchel iawn; yn gyflawn o'r meddyliau cryfaf a gwerthfawrocaf a phrydferthaf; ac yn troi yn hollol o gylch Person ein Gwaredwr Mawr—yr hyn, ni a dybygem, oedd ei hoff bwngc. Yr oeddynt hefyd yn cael eu traddodi gyda llawer o yni a theimlad—yn amlwg yn arwyddo nad oedd y pregethwr am arbed dim arno ei hunan. Ond y troion diweddaf y clywsom ni ef, o blegid ei fod yn llefaru gyda'r fath egni a brwdaniaeth, a braidd ormod o bwysleisiad, ac yntau yn mhell o fod yn gryf, yr oedd ei lais yn methu dilyn y meddyliau; fel nad oedd y pregethau, er eu rhagored, yn cael y dylanwad hwnw ar y cynnulleidfaoedd a ddisgwyliasid oddi wrth wirioneddau mor fawrion a gogoneddus, yn cael eu gosod allan mewn iaith mor gywir, a nerthol, a dillyn. Ond yr oedd yr anerchiad cenhadol yn Nghymdeithasfa Pwllheli, yn 1855, y cyfeiriasom ato eisoes, y fath ag oedd yn gorchfygu pawb; ac, ag ond edrych arno yn unig oddi ar safle celfyddyd, yn ddigon i brofi, pe na buasai gorchwylion eraill mor bwysig, ac y tybiai efe fod ynddo fwy o gyfaddasder iddynt, yn disgyn arno, fel ag i'w gadw i fesur mawr rhag rhoddi ond ychydig, mewn cymmhariaeth, o'i fryd ar bregethu, y buasai yn sefyll yn llawn mor uchel yn y pulpud fel pregethwr, ag y cydnabyddir yn gyffredinol ei fod yn sefyll yn ei ddosbarthiadau fel athraw.

*Yr oedd yn ŵr duwiol—a duwiol iawn.* Yr ydym yn rhoddi hyn i mewn yn olaf—nid am ein bod yn edrych arno y lleiaf, ond am ein bod yn ei ystyried y peth pwysicaf; a'i fod hefyd yn nodwedd mor arbenig ynddo ef. Os gwelsom ddyn duwiol erioed, yr oedd efe felly. Cawsom gyfleusderau aneirif i gael profion hollol foddlonol i ni ein hunain o hyny, pan oedd, mewn cymmhariaeth, yn ŵr ieuangc; a phob tro y cyfarfuasom â'n gilydd ar ol hyny, hyd ddiwedd ei oes, ymddangosai i ni yn cynnyddu fwy-fwy mewn dwysder crefyddol. Yn ystod yr holl flynyddoedd y buom yn y Bala, ac yn Edinburgh, yn cyd-fwyta, yn cyd-gysgu, yn cyd-efrydu, yn cyd-fyw â'n gilydd, ac, weithiau, mewn amgylchiadau a ofynent ychydig ras i beidio grwgnach a phechu, nis gallwn gofio am un amgylchiad yn yr hwn y gwelsom ef mewn unrhyw agwedd, yn arddangos unrhyw deimlad, nac y clywsom ef yn dywedyd cymmaint a gair, annheilwng o'r broffes Gristionogol. Teimlad ein calon pan y clywsom am ei ymadawiad oedd—*ei fod wedi myned i ganol y nefoedd.* Yr oedd mor rydd yma, hyd y gallem ni ganfod, a neb a welsom ni erioed oddi wrth yr hyn sydd yn anghymmhwyso dynion i fyned yno. Yr oedd yn wir mor rydd ei hunan oddi wrth bob peth drwg, fel yr oedd nid yn unig yn hynod o ddi-feddwl-ddrwg am eraill, ond yn dra anmharod i gredu dim drwg am neb. A phrofedigaeth nid bechan iddo fyddai yr angenrheidrwydd am hyny—yn enwedig am rai âg enw Crist arnynt.

Fel dyn duwiol *yr oedd yn nodedig o hoff o'r Beibl, ac yn dra chydnabyddus â'i gynnwysiad.* Fel y Salmydd, yr oedd ei "ewyllys yn nghyfraith yr ARGLWYDD," a'i fyfyrdod ynddi ddydd a nos. Yr ydym yn cofio yn dda, pan yn y prysurdeb mwyaf gyda'i efrydiau, na byddai byth yn esgeuluso Y LLYFR. Byddai ganddo wrth ei law, y boreu yn yr ystafell, i edrych i mewn iddo cyn myned at yr un llyfr arall. Cymmerai ef gydag ef i lawr i'w ystafell eistedd, i droi i mewn iddo yn awr ac eilwaith yn achlysurol yn ystod y dydd, yn y cyfyngau rhwng gwahanol ranau yr efrydiaeth. A phob hwyr drachefn, cyn myned i orphwys, pa mor ddiweddar bynag fyddai hyny, a byddai yn gyffredin yn ddiweddar iawn, byddai raid cael ychydig amser i ddal cymmundeb â'r Meddwl Dwyfol yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Ac yr oedd yn amlwg yn teimlo yn ddwys oddi wrth ei gynnwysiad. Byddai ei holl natur, ar adegau, fel yn cael ei gwefreiddio gan rai o'i ymadroddion. Ac hyd yn nod wedi ei wanhau gan afiechyd, a phan oedd y rhan fwyaf o'r yni a fuasai unwaith yn eiddo iddo wedi ei golli, byddai yn cael ei gyffroi, weithiau, i'r fath raddau gan eiriau y Beibl, nes yr ymddangosai ar y pryd fel pe buasai ei holl nerth wedi ei adfer iddo drachefn. Adroddwyd i ni gan Mr. GRIFFITH ELLIS am dano un noswaith yn y cyfarfod eglwysig yn y Bala, pan mewn llesgedd mawr, yn ymddiddan â hen frawd; i hwnw, mewn dull hynod o syml, adrodd adnod yr oedd wedi cael hyfrydwch mawr ynddi:—"Efe a breswylia yr uchelderau; cestyll y creigiau fydd ei amddiffynfa ef: ei fara a roddir iddo, ei ddwfr fydd sicr." "Ah!" meddai yntau, "y mae hi yn adnod anwyl! Adroddwch hi etto EDWARD ROWLAND." A dyna yr hen frawd yn ei hadrodd hi drachefn. Ar hyny ymddangosai Mr. PARRY megys wedi ei daraw mor rymus gan brydferthwch y disgrifiad, nes oedd ei holl natur yn cyffroi, ac y tywalltodd allan, yn gwbl ddifyfyr, y fath ffrwd o hyawdledd nerthol ar bethau cadarnaf creadigaeth DUW, a phethau cadarnaf celfyddyd dyn, yn cydgyfarfod

Digitized by Google

yn gymmhariaethau i osod allan ddiogelwch y dyn duwiol, nes yr oedd teimladau pawb yn y lle wedi eu cynnhyrfu drwyddynt. Yr oedd CRIST yn fywyd iddo, a gair CRIST yn preswylio yn helaeth ynddo; ac y mae yn gwbl sicr genym ei fod yn awr gyda CHRIST —gydag ef mewn gogoniant.

Y mae darlun ardderchog o hono, o ran y dyn oddi allan, yn ei lawn faint, wedi ei osod i fyny yn un o'r ystafelloedd yn Athrofa y Bala, a wnaethpwyd gan un o brif arlunwyr y deyrnas; ac y mae darlun lawn mor ardderchog, nid o'i holl feddwl, ond o hono yn ei brif nodweddau—yn nghylch eang ei wybodaeth, eglurder ei ddirnadaeth, craffder ei sylw, tryloewder ei farn, purdeb ei chwaeth, priodoldeb a phrydferthwch a choethder ei iaith, a'i ymostyngiad trwyadl ar bethau crefydd i ddysgeidiaeth y Dadguddiad Dwyfol—yn yr erthyglau galluog a gwerthfawr yr anrhegodd ei genedl â hwy yn y "GWYDDONIADUR CYMREIG;" y rhai, y mae yn ddiogel genym, a gadwant ei enw mewn coffadwriaeth tra y pery yr iaith yr ysgrifenodd ynddi. Buasai yn dda iawn genym pe buasai genym hamdden a defnyddiau i wneyd y crybwyllion hyn am dano yn fwy teilwng o hono; ond, megys ag y maent, yr ydym yn gobeithio y gwasanaethant er symbylu ambell ŵr ieuangc o blith ein cenedl i ymgyssegru, megys ag y gwnaeth yntau, yn ngwyneb pob anhawsderau, ac er pob anfanteision, i geisio gwneyd y goreu sydd bossibl, yn mhob ystyr, o'r meddwl anfarwol a roddes y Duw Mawr iddo.

OWEN THOMAS.

46, CATHERINE STREET, LIVERPOOL, *Ebrill 9fed*, 1879.

---

O. Y.... Y mae yn deg i dderbynwyr y gwaith hwn gael deall fod ei olygiaeth, er pan y bu farw Dr. PARRY, wedi bod yn hollol yn nwylaw y Cyhoeddwr, Mr. GEE, megys ag yr oedd y gofal, i fesur mawr, wedi bod arno cyn hyny yn ystod yr amser y bu Dr. PARRY yn y fath waeledd. Fe genfydd y darllenydd, oddi wrth yr hyn y cyfeiriasom ato yn *tudal.* xxvii. o'r Rhagymadrodd blaenorol, pa mor bell y daeth y gwaith allan dan olygiad Dr. PARRY. Oddi yno i'r diwedd, oddi eithr yr ATTODIAD, bu ei ofal yn hollol yn nwylaw y Cyhoeddwr. A digon o ganmoliaeth, a phrin y gall fod canmoliaeth uwch, i'r modd y cyflawnwyd y gwaith ganddo yw—ei fod, hyd y diwedd, yn cadw i fyny y nodwedd uchel a berthynai iddo o'r dechreuad; fel mai nid hawdd ydyw i neb allu penderfynu, oddi wrth y gwaith ei hunan, pa le yr oedd gofal y naill yn terfynu, a gofal y llall yn dechreu.

O. T.

---

GWELLIANT GWALL:—*Tudal.* xxviii., *llinell* 13, yn lle "llawn," darllener "llanw."

Digitized by Google

# Y RHAGYMADRODD

I'R

# AIL ARGRAPHIAD.

NID yw yn anhawdd cofio heddyw y symmudiadau cyntaf a arweiniasant i gyhoeddiad 'Y GWYDDONIADUR CYMREIG,' er fod agos i bum mlynedd a deugain er pan deimlais y cymmhelliad cyntaf i ymgymmeryd â'r anturiaeth. Bûm lawer gwaith, er hyny, yn mron a'i alw yn 'rhyfyg,' pan yn adolygu hanes ei daith—yr anhawsderau oedd i'w gorchfygu—y draul fawr oedd ynglŷn â'i gyhoeddiad—y maes cyfyng, mewn cymmhariaeth, oedd i'w werthiant—y blynyddoedd a gymmerodd i'w ddwyn allan—y pryder a deimlwyd am i'w erthyglau fod yn gywir, ac yn deilwng—a llawer o ystyriaethau eraill a dueddent i fy nigaloni. Er hyny, yr oedd fy nghrêd yn ddiysgog fod ar fy nghyd-genedl wir angen am y fath lyfr, ac ni lacâodd fy mhenderfyniad i fyned yn mlaen gyda'r gwaith.

Pan ymddangosodd yr hysbysiad cyntaf am 'Y GWYDDONIADUR,' yr oedd ystyr ei deitl yn ddyeithr i lawer. Defnyddiwyd ef am ei fod yn eglurhâd ar gynnwysiad y Gwaith; ac yn gyfystyr â'r gair Saesneg '*Encyclopædia*'—yr hwn y gellir ei ddisgrifio fel Geiriadur yn ymdrin â Chylch Gwybodaeth Gyffredinol; yn yr hwn yr ymdrinir â changhenau amrywiol Gwyddoniaeth a Chelfyddyd mewn erthyglau gwahanol.

Bwriadwyd dwyn Y GWYDDONIADUR allan, ar y dechreu, yn bedwar Dosbarth, fel y canlyn:—

I. DUWINYDDIAETH:—DAEARYDDIAETH, HYNAFIAETHAU, BEIRNIADAETH, BYWGRAPHYDDIAETH A LLENORIAETH YSGRYTHYROL; HANES EGLWYSIG A BYWGRAPHYDDIAETH GREFYDDOL, &c., &c.

II. DAEARYDDIAETH GYFFREDINOL, AC ANIANAETH.

III. Y GWYDDORAU A'R CELFYDDYDAU.

IV. HANES A LLENORIAETH GYFFREDINOL; BYWGRAPHYDDIAETH, AC UWCHANIANAETH.

Ond gwelwyd yn fuan y byddai llawer o erthyglau yn rhwym o ymddangos, mewn rhan o leiaf, mewn mwy nag un Dosbarth; ac felly, penderfynwyd ei ddwyn allan yn un Gwaith, i gynnwys Erthyglau ar y Testynau cyffredinol canlynol:—

ANIANYDDIAETH GYFFREDINOL, AC YSGRYTHYROL.
ATHRAWIAETHAU:—EU HANES, &c. ATHRONIAETH FOESOL A MEDDYLIOL.
BARDDONIAETH, A CHERDDORIAETH.
BYWGRAPHYDDIAETH GYFFREDINOL, A CHREFYDDOL.
DAEARYDDIAETH YSGRYTHYROL, A CHYFFREDINOL. GWLEIDYDDIAETH, &c.
DUWINYDDIAETH, &c., A'R YSGRYTHYRAU SANCTAIDD.
ENWOGION Y BEIBL, AC ENWOGION YR EGLWYS, A'U DALIADAU.
GWLEDYDD Y BYD:—EU HANES, A'U NEILLDUOLION.
HYNAFIAETHAU YSGRYTHYROL, A CHYFFREDINOL. UWCHANIANAETH.
HANESYDDIAETH EGLWYSIG.
LLENYDDIAETH YSGRYTHYROL A CHYFFREDINOL. Y CELFAU BREINIOL.
PRIF AWDURON A GWRONIAID Y BYD.
Y GWYDDORAU. Y GENEDL GYMREIG:—EI HANES, A'I HIAITH, &c.
A LLAWER O ERTHYGLAU AR DESTYNAU ERAILL.

Yr hyn a'm cymmhellodd i ymgymmeryd â'r gorchwyl gyntaf oedd yr ystyriaeth fod gan bob cenedl wareiddiedig, o'r bron, ei 'GWYDDONIADUR' ('*Encyclopædia*')—a chan lawer cenedl amryw o honynt. Ond nid oedd gan y Cymry gymmaint ag un llyfr yn eu hiaith o'r cymmeriad hwn, fyddai yn fanteisiol i ddarllenwyr cyffredin gyfeirio ato ar lawer amgylchiad fydd yn eu cyfarfod, ac i efrydwyr ieuaingc pan yn dechreu gwneyd eu hymchwiliadau i wahanol feusydd gwybodaeth.



Digitized by Google

Nid ydyw yr erthyglau sydd ynddo wedi eu bwriadu i'r rhai hyny sydd am wneyd canghenau neillduol yn brif destynau eu hefrydiaeth. Y mae llawer o weithiau galluog wedi eu cyhoeddi yn y Saesneg, yr Almaenaeg, a'r Ffrangcaeg, &c., sydd yn fwy addas i'r cyfryw. Ond bwriadwyd erthyglau Y GWYDDONIADUR i ymofynwyr am wybodaeth gyffredinol ar y gwahanol destynau y dymunent eu deall yn well, ac i'w galluogi i ymddiddan am danynt, a'u hegluro, i ieuengctyd, ac eraill fyddai o fewn cylch eu dylanwad. Er hyny, yr wyf yn anturio dywedyd fod yn y Gwaith hwn nifer mawr o erthyglau—yn enwedig ar destynau duwinyddol, a thestynau yn dwyn perthynas â hanes ein cenedl, ei chrefydd, ei hiaith, ei llenyddiaeth, a'i gwroniaid, yn grefyddol a gwladol, &c.—na cheir eu rhagorach, os eu cystal, mewn unrhyw Wyddoniadur drwy'r byd. Anturiaf ddywedyd hefyd, fod corph yr erthyglau a geir ynddo yn fwy cymmhwys i ddarllenwyr Cymreig na dim a geir mewn llyfrau cyffelyb mewn un iaith; ac yr wyf yn hyderu yr addefir hyn gan bawb a'u darlleno. Y mae y Rhestr o Enwau Awdwyr yr Erthyglau, ynddi ei hun, yn sicrhau hyny; yn gymmaint a'i bod yn cynnwys llawer o'n hysgrifenwyr galluocaf—gwŷr o alluoedd addefedig, oedd yn deall y testynau yn dda, yn adnabod sefyllfa y genedl a'i hangenion yn drwyadl, a'r ffurfiau mwyaf cyfaddas i egluro cwestiynau pwysig a dyrus i'w meddyliau. Fel y dywedir mai Saeson, Almaeniaid, a Ffrangcod ydyw yr ysgrifenwyr cymmhwysaf i ddarparu gweithiau cyffelyb i'w cenhedloedd hwy, felly y gellir dywedyd hefyd, mai Cymry yn unig a allent gyflawni yr orchestgamp hon yn y modd goreu, ac yn fwyaf boddhaol a manteisiol i ddarllenwyr Cymreig.

Cyhoeddwyd y rhan gyntaf o'r argraphiad cyntaf yn 1854, a gorphenwyd ef yn 1879. Cymmerodd felly bum mlynedd ar hugain i'w orphen. Yn mhen ychydig flynyddoedd, dechreuais barotoi ar gyfer yr argraphiad hwn. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf yn y flwyddyn 1889; ac erbyn hyn, y mae wedi ei orphen. Y mae'r Gwaith yn cynnwys agos i ddeng mil o erthyglau—oll yn wreiddiol; a thros ddeunaw cant mwy nag oedd yn yr argraphiad cyntaf.

Er dirfawr alar i laweroedd, fel ag i minnau, cafodd golygydd yr argraphiad cyntaf ei alw oddi wrth ei waith, i dderbyn 'y goron,' yn y flwyddyn 1874. Am y gwasanaeth ammhrisiadwy a gyflwynodd Dr. PARRY ar allor y genedl, trwy olygu y cyfrolau cyntaf, ac ysgrifenu llawer o'u herthyglau pwysicaf, nid ydyw yn gweddu i mi ddyweyd llawer, o herwydd y berthynas oedd rhyngom â'n gilydd—er y caraswn wneyd. Yr wyf, gan hyny, yn cyfeirio y darllenydd at sylwadau y diweddar Dr. O. THOMAS yn ei Ragymadrodd i'r gwaith ar orpheniad yr argraphiad cyntaf, yr hwn a geir ar ddechreu y gyfrol gyntaf. Dr. PARRY, pe buasai yn fyw, fuasai wedi ei ysgrifenu; ond ymgymmerodd Dr. THOMAS yn garedig â gwneyd y diffyg i fyny:—a gwnaeth hyny yn deilwng o hono ei hun. Goddefer i mi ddyfynu yr hyn a ganlyn o'r Rhagymadrodd galluog hwnw, sydd yn dangos y llawenydd a deimlodd efe ar ymddangosiad Y GWYDDONIADUR:—

'Nis gall un gwladgarwr, dybygem, lai na llawenhau fod y fath lyfr yn cael ei gyhoeddi yn ei iaith. Y mae ei ymddangosiad yn brawf fod genym yn ein mysg, pa beth bynag a feddylir am danom gan genhedloedd eraill, rai gwŷr o ddysgeidiaeth ac athrylith, yn tynu allan eu holl ymadferthoedd mewn ymdrech at ddyrchafu a choethi meddyliau eu cydwladwyr, ac wedi llwyddo yn y testynau a ddaethant dan eu sylw hyd yn hyn i wneyd hyny yn y fath fodd ag na byddai yn un dianrhydedd ar ysgrifenwyr galluocaf unrhyw genedl yn y byd. Nis gall pobl â'r cyfryw athrawon ganddynt, pa mor isel bynag y gallant fod ar y pryd, fod yn hollol anobeithiol am ddyrchafiad. Yn y golygiad hwn, y mae cyhoeddiad Gwaith o'r fath i ni yn destyn llawenydd mawr.'

Yn y dyfyniad canlynol y mae Dr. THOMAS yn dwyn ei dystiolaeth i ragoroldeb ei erthyglau, a'i gynnwysiad yn gyffredinol:—

'Ni phetruswn ddywedyd ei fod yn drysor ammhrisiadwy i'n cenedl. Y mae y testynau neillduol sydd dan sylw ynddo yn cael traethu arnynt gyda'r fath ëangder a manylder ag sydd yn hollol ddigonol i ddarllenwyr cyffredin, er rhoddi iddynt syniad boddlonol yn eu cylch; ac nid hawdd a fyddai i'r efrydydd mwyaf manwl a gofalus gael crynhöad cywirach a chyflawnach o'r prif bethau angenrheidiol eu gwybod, cyssylltiedig â phob pwngc yr ymdrinir âg ef, nag sydd yma wedi ei barotoi ar ei gyfer. Yn wir, y mae rhai o'r erthyglau athrawiaethol ac arddansoddol yn ymddangos i ni yn nodedig o alluog, ac o nodwedd llawn mor uchel, a dywedyd y lleiaf, a dim adnabyddus i ni mewn unrhyw Wyddoniadur sydd yn yr iaith Saesnig; ac y mae y llyfr drwyddo, o'i ddechreu i'w ddiwedd, yn anrhydedd i'n gwlad, ac i'n cenedl.'

Dymunaf gyfeirio y darllenydd, hefyd, at erthygl ragorol ar Dr. PARRY sydd yn

Digitized by Google

yr wythfed gyfrol, yn dechreu yn *tudal.* 336A, a ysgrifenwyd gan y diweddar Ddr. JOHN HUGHES, gynt o Liverpool, ac yn ddiweddarach o Gaernarfon; y Parch. W. R. JONES, o Gaernarfon; a'r Parch. GRIFFITH ELLIS, o Liverpool—tri o weinidogion oedd yn ei adnabod yn dda, ac yn meddu cymmhwysderau neillduol i ffurfio barn ar werth ei lafur, a theilyngdod ei ysgrifau. Goddefer i minnau chwanegu cymmaint a hyn—fod Dr. PARRY, ar hyd y blynyddoedd, er ei bryder mawr a'i lafur gydag erthyglau y GWYDDONIADUR, yn teimlo mai gan ATHROFA Y BALA yr oedd yr hawl gyntaf, a phenaf, ar ei amser a'i alluoedd. Yr oedd hyn yn ddealledig rhyngom pan yr ymgymmerodd efe â'r olygiaeth; ac felly, teimlais innau hi yn ddyledswydd arnaf i ysgafnhau ei lafur yn mhob modd y gallwn. Yr oedd yr holl ohebiaethau a'r trefniadau yn gorwedd arnaf fi, o'r dechreu; a syrthiodd llawer o waith arall i fy nwylaw pan ddechreuodd ei iechyd adfeilio—a mwy drachefn pan yr ehedodd ei enaid mawr a phur i 'wlad sydd well i fyw.' Cefais gynnorthwy gwerthfawr y diweddar Barch. J. OGWEN JONES gyda'r ATTODIAD i'r argraphiad cyntaf.

Erbyn hyn, y mae yr ail argraphiad wedi ei gwbl orphen, ynghyd â MYNEGAI CYFLAWN O'R ERTHYGLAU—yr hwn sydd yn ffurfio cyfrol fechan ar ei phen ei hun. Y mae o'r un maintioli a'r GWYDDONIADUR, ac i'w gael fel rhan o'r Gwaith. Darparwyd ef er cyfleusdra i ddarllenwyr y GWYDDONIADUR gael yr erthyglau yn hwylus, heb fod yn gorfod chwilio am danynt yn y Mynegai sydd ar ddechreu pob cyfrol. Yr oedd darparu y MYNEGAI hwn yn wir angenrheidiol ar amryw ystyriaethau. Nid ydyw yr erthyglau sydd yn y Gwaith i'w cael yn fanwl yn ol trefn y wyddor; yr hyn a achoswyd gan y ffaith nad oedd modd cael llawer o'r erthyglau mewn pryd i'w gosod yn eu lleoedd priodol gan yr ysgrifenwyr, o herwydd fod galwadau pwysig eraill arnynt. Heb law hyny, y mae ATTODIAD i'r gwaith; yr hwn sydd yn dechreu yn *tudal.* 420 o'r ddegfed gyfrol; a chyfeiriadau mewn erthyglau eraill at destynau a geir yn eu lleoedd priodol, y buasai yn anhawdd eu cael pe hebddo. Ond yn y gyfrol hon, y mae yr holl erthyglau wedi eu gosod yn fanwl yn ol trefn y wyddor; a cheir fod llawer o gyfeiriadau atynt sydd mewn erthyglau eraill yn cael eu nodi hefyd. O herwydd y rhesymau hyn, yr wyf yn hyderu y bydd y MYNEGAI yn gyfleusdra i bawb fydd yn feddiannol ar y Gwaith.

Bydd llawer o ddarllenwyr y GWYDDONIADUR, mae'n debyg, yn awyddus i wybod hanes ei enedigaeth, a'r symmudiadau cyntaf a wnaed gydag ef, yn gystal a hanes ei daith. Yr wyf eisoes wedi egluro y cymmhelliadau a deimlais i'w gyhoeddi. Wedi i'r teimlad hwn ymsefydlu yn fy meddwl, y peth cyntaf a wnaethum oedd ymgynghori â rhai cyfeillion yr oedd genyf ymddiried yn eu barn am y possiblrwydd i gael erthyglau teilwng iddo, a'r rhai hyny yn cael eu hysgrifenu gan Gymry, ac o safleoedd Cymreig; ac ynghylch y tebygolrwydd hefyd y byddai i'r Gwaith gael y fath derbyniad ag a'm cadwai, o leiaf, rhag dinystr. Yr oedd rhai yn ammhenderfynol; ond annogwyd fi yn galonog i fyned yn mlaen gan y nifer liosocaf. Y symmudiad nesaf oedd parotoi Rhestr o Eiriau y tybiwn i y dylai y Gwaith gynnwys erthyglau arnynt. Argraphwyd hon yn llyfryn, gyda llythyr yn egluro yr amcan; pa rai a anfonwyd i lawer o brif ysgrifenwyr y genedl. Cynnwysai y llythyr, hefyd, ddau ddymuniad:—yn gyntaf, y byddai iddynt edrych yn fanwl dros y Rhestr, a chwanegu pa eiriau bynag y tybient hwy y dylid eu gosod ynddi. Yr ail ddymuniad oedd, y byddai iddynt osod eu henwau gyferbyn âg unrhyw erthyglau yr ymgymmerent hwy â'u hysgrifenu—am y rhai, wrth gwrs, y bwriedid talu iddynt. Derbyniais lawer o'r Rhestrau yn ol, gyda chwanegiadau; ac amlygodd pob un, yn mron, ei barodrwydd i gynnorthwyo. Dadganodd llawer hefyd eu cymmeradwyaeth wresog o'r bwriad i gyhoeddi y fath lyfr; ac y gallwn ymddiried y derbyniwn eu cefnogaeth hwy yn mhob modd y gallent, ac y cymmhellent eu cyfeillion i'w dderbyn; a buont oll, mae'n debyg, cystal a'u gair.

Wedi cario y rhag-ddarpariadau yn mlaen mor bell a hyn, y gwaith nesaf ydoedd cael golygydd galluog, oedd yn meddu cydymdeimlad gwresog â'r amcan. Syrthiodd fy meddwl ar Mr. PARRY; ond gwrthododd yn bendant ar y cyntaf—a pharhaodd i wrthod am amser. Ond o'r diwedd, wedi arfer pob rheswm a dylanwad a feddwn i arno, efe a gydsyniodd yn niwedd y flwyddyn 1853, fel y dywed Dr. THOMAS yn y dyfyniad canlynol o'i Ragymadrodd:—

'Llwyddodd ei frawd-yn-nghyfraith, trwy lawer o ymdrech, i gael ganddo, yn niwedd 1853, ymgymmeryd â golygu y Gwaith hwn. Yr oedd yn hynod anfoddlawn ar y cyntaf i hyny, ac yn enwedig i'w enw ymddangos ar y wyneb-ddalen fel golygydd; ac ofnai hefyd, rhwng yr ATHROFA

Digitized by Google

a'r 'GWYDDONIADUR,' na allai efe wneyd ond llawer llai nag oedd eisoes yn wneyd gyda phregethu. Yr un pryd, yr oedd yn gweled fod cyfleusdra gwerthfawr yn cael ei roddi iddo i wneyd gwaith a allai fod yn dra gwasanaethgar i'w genedl, a gwaith hefyd yr ymdeimlai fod ynddo ryw fesur o gymmhwysder ato; ac felly, er yn dra hwyrfrydig, fe ymgymmerodd âg ef. Yr oedd, erbyn hyn, gyda gorchwyl a ofynai y cwbl agos o'r amser a allai gael, yn gysson â'i ddyledswyddau fel athraw; a rhwng y naill a'r llall, a'i lafur gyda phregethu, a'r cyfarfodydd eglwysig, a chyfarfodydd yr Ysgolion Sabbothol, nid oedd prin yn cael un munyd i orphwys, ond pan yn mreichiau cwsg. Ac y mae yn hynod, yn wir, pa fodd y gallodd ei natur ddal cyhyd dan y fath lafur. Ond yr oedd yn cael y fath hyfrydwch yn mhob rhan o'r gwaith oedd ganddo mewn llaw, fel na fynai sôn am seibiant; a phan y llwyddid, yn ystod gŵyliau yr Athrofa, i'w ddarbwyllo i fyned i ryw le i orphwys am ychydig, nid oedd dim gorphwys ynddo ef.'

Dyna, ar fyr eiriau, hanes y symmudiadau cyntaf a wnaed gyda'r Gwaith hwn.

Ymddengys yn hynod, fe allai, i lawer o'r darllenwyr fy mod i wedi ymgymmeryd â'r fath anturiaeth fawr a hon, megys ar unwaith. Ond nid felly y bu. Yn raddol yr addfedodd fy meddwl i gyhoeddi y GWYDDONIADUR, a hyny ar ol llawer o ystyriaeth ddifrifol. Sefydlwyd y swyddfa hon, fel y mae yn hysbys, gan y Parch. THOMAS JONES, o'r dref hon, i argraphu llyfrau crefyddol a buddiol i'r genedl—fel y gwnaeth y Parch. THOMAS CHARLES yn y Bala. Yna, hi a syrthiodd i ddwylaw fy nhad; a chadwodd yntau ei chymmeriad yn uchel a phur tra y bu byw. Trwy ei esiampl ef, a rhyw ddylanwadau neu gilydd, na raid i mi eu henwi, teimlais innau yn gyffelyb; a dyma, mewn gwirionedd, a benderfynodd fy meddwl i fod yn argraphydd. Cefais annogaethau i ymgymmeryd â'r un a fynwn o dair galwedigaeth arall a ystyrid yn fwy anrhydeddus ac ennillfawr—a chan rai boneddigion, hefyd, oedd y tu allan i gylch fy mherthynasau: ond gwrthodais—yn unig am fy mod yn argyhoeddedig mai trwy yr argraphwasg y gallwn fod yn fwyaf defnyddiol. Dichon y bydd llawer yn barnu fy mod wedi camgymmeryd: ond dyna oedd fy mhenderfyniad y pryd hwnw—ac nid wyf etto wedi edifarhau.

Gyda hyn yna o eglurhâd ar hanes y Gwaith, yr wyf yn teimlo mai fy nyledswydd nesaf ydyw diolch i Ysgrifenwyr yr Erthyglau am y caredigrwydd mawr, a'r cymmhorth gwerthfawr a charedig a dderbyniais oddi wrthynt i ddwyn y GWYDDONIADUR allan. Hebddynt hwy, buasai ei gyhoeddi yn ammhossibl. Gwnaethant garedigrwydd mawr â'r genedl hefyd; a chredaf yr edrychir ar y Rhestr odidog hon o ysgrifenwyr Cymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg am ysbaid maith o amser gan y Cymry, yn mha wlad bynag y byddant yn preswylio, gyda pharch ac edmygedd, a diolchgarwch hefyd, am eu gwasanaeth gwerthfawr i'w cyd-genedl—a thrwyddynt hwy i genhedloedd eraill fydd yn dyfod dan eu dylanwad.

Nis gallaf anghofio dau ddosbarth arall, oeddynt mor angenrheidiol i sicrhau ei gyhoeddiad, am y derbyniad caredig a pharod a roisant hwythau i'r Gwaith, a'r gefnogaeth a roisant iddo trwy gymmhell eraill i'w dderbyn. O'r braidd y mae'n rhaid i mi egluro fy mod yn cyfeirio yma at Garedigion Llenyddiaeth dda yn mysg pob Enwad Crefyddol yn y Dywysogaeth. Ac at y rhai hyn, y mae yn rhaid chwanegu y Llyfrwerthwyr hefyd—llawer o ba rai a roisant brofion eu bod, wrth gymmhell y GWYDDONIADUR ar eu cymmydogion, yn gweithredu dan ddylanwad ystyriaethau llawer uwch na manteision masnachol.

Derbynied y cyfryw oll fy niolchgarwch diffuant:—ac yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar fy mod wedi cael yr anrhydedd o gyhoeddi yr argraphiad cyntaf; a bod fy mab a minnau wedi gallu gorphen yr ail. Ac, ar sail y tystiolaethau i'w werth a dderbyniasom gan lawer o arweinwyr y genedl yn mhob cylch, yr wyf yn hyderu y bydd o wasanaeth mawr i drigolion Cymru am flynyddoedd lawer.

Y mae yn ddiammheu fod diffygion ac ammherffeithrwydd i'w cael ynddo. Ond anturiaf ddywedyd hyn—fy mod yn credu yn ddïysgog fod pawb y bu ganddynt law yn y gwaith o adeiladu y Tŵr Llenyddol Anenwadol uchel hwn i'r genedl yn Nghymru wedi trethu eu galluoedd goreu i barotoi pob erthygl; a'u bod wedi gwneyd hyny gyda gallu a medrusrwydd a dderbynia gymmeradwyaeth galonog eu cydwladwyr yn mhob gwlad. Maddeuer i bawb o honom y diffygion a geir ynddo. Gwnaethom oll ein goreu—a mwy na hyn nis gellir ei ddisgwyl gan neb

THOMAS GEE.

DINBYCH, *Tachwedd* 1*af*, 1896.

# Y GWYDDONIADUR.



**AALAR**, un o arweinyddion gweinidogion y deml, a meibion gweision Solomon, y rhai a ddaethent i fyny o Thelmeleth a Thelharsa, taleithiau yn ymherodraeth Babilon, i Ierusalem: 1 *Esdr*. v. 36. Gwel CALLATHAR.

**AARIM.** Gwel HARIM.

**AARON**, [אהרן, *uchel* neu *athraw*], mab hynaf Amram, fab Lefi, o'i wraig Iochebed, ferch Lefi. Yr oedd efe yn frawd i Moses a Miriam; o ddeutu tair blwydd hŷn na'i frawd Moses, ac o ddeutu saith mlwydd, fel y bernir, yn iau na'i chwaer Miriam: *Exod.* vi. 20; a vii. 7; 1 *Cron.* vi. 1—3. Efe a anwyd o ddeutu'r flwyddyn c. c. 1574; neu, yn ol amseryddiaeth Hales, c. c. 1730, un flwyddyn cyn i Pharaoh gyhoeddi ei orchymyn creulawn am ddistrywio plant gwryw yr Hebreaid. Cyfarfyddwn â'i enw gyntaf yn hanes y cyfymweliad hynod rhwng yr Arglwydd a Moses, pan ymddangosodd Duw iddo yn y berth danllyd, tra yr oedd efe yn bugeilio praidd Iethro, yn Horeb. Un o esgusodion Moses, neu ei wrthddadleuon rhag derbyn y genadwri bwysig i waredu ei gydgenedl o'r Aipht oedd, nad oedd efe yn ŵr ymadroddus, ond mai safndrwm ydoedd, a thafottrwm; ond yr Arglwydd a chwalai yr wrthddadl hono o'i eiddo trwy ei adgofio mai awdwr holl beiriannau natur oedd efe, yr hwn a'i hanfonai, gan sicrhau y byddai efe gyda'i enau, ac y dysgai efe iddo yr hyn a ddywedai: a thra yr oedd efe eto yn ceisio ymwrthod â'r genadwriaeth, dywedai yr Arglwydd wrtho fod ei frawd Aaron wedi ei ddonio yn helaeth â'r cymhwysder a farnai efe mor angenrheidiol, ac y gallai efe lefaru yn ei enw, a throsto ef: *Exod.* iv. 10—16. Y mae yn ymddangos ddarfod i Aaron briodi gwraig o lwyth Iudah, o'r enw Eliseba, neu Elisabeth, yn ystod deugain mlynedd absennoldeb Moses yn nhir Midian; o'r hon y ganesid iddo bedwar o feibion, sef Nadab, Abihu, Eleazar, ac Ithamar: *Exod.* vi. 23—25. Mewn ufudd-dod i orchymyn yr Arglwydd, aeth Aaron i'r anialwch i gyfarfod ei frawd Moses; ac wedi deugain mlynedd o ysgariad, hwy a gyfarfuant â'u gilydd mewn serchogrwydd mawr yn Horeb, lle y mynegodd Moses i Aaron y genadwriaeth bwysig a dderbyniasai efe gan Dduw; ac yna, hwy a ddychwelasant yn nghyd at eu cenedl orthrymedig; ac wedi cynnull eu holl henuriaid, Aaron a gyflwynodd ei frawd i'w sylw, ac a'i cynnorthwyodd i egluro iddynt, ac argymhell i'w hystyriaeth a'u cymmeradwyaeth y genadwri a ymddiriedasid iddo gan Dduw eu tadau: *Exod.* iv. 27—31. Yn yr holl orchwylion dilynol i hyn, o gyfymweliad cyntaf Moses â Pharaoh hyd onid aeth meibion Israel trwy y Môr Coch, ymddengys fod Aaron gyda'i frawd Moses yn barhaus o'r bron, yn ei gynnorthwyo a'i galonogi; ac ni chrybwyllir unrhyw weithred wahaniaethol o'r eiddo ei hunan; a pharhaodd y cydweithrediad yma rhyngddynt hyd farwolaeth Aaron. Yr oedd Aaron a Hur yn bresennol gyda Moses ar y bryn, tra yr oedd efe yn edrych ar Iosuah a meibion Israel yn ymladd â'r Amaleciaid; a pharhaodd y ddau i gynnal ei freichiau blinedig fyny nes i'w pobl ennill y fuddugoliaeth yn llwyr: *Exod.* xvii. 10—12.

Gellir meddwl fod y bobl yn cyfrif Aaron fel eu penaeth, tra yr ydoedd Moses yn absennol yn y mynydd i dderbyn llechau y gyfraith gan Dduw; ac wedi blino gan hir absennoldeb eu blaenor mawr, ymgynnullasant at Aaron, a cheisiasant ganddo ddarparu delw weledig iddynt i gynnrychioli eu Duw, fel y gallent ei addoli ef trwy y cyfrwng hwnw, megys yr addolai yr Aiphtiaid eu duwiau trwy gyfrwng y cyfryw ddelwau. Amlygai Aaron gymmaint o wendid ffydd yn yr amgylchiad profedigaethus yma fel nas beiddiodd wrthsefyll eu cyfeiliornad; ond mewn cydsyniad â'u cais, efe a gymmerth y tlysau aur a offrymid ganddynt, ac a wnaeth o honynt ddelw llo, neu darw ieuanc—cyffelybrwydd yr eilun-dduw Apis, yr hwn oedd yn Memphis, ac a addolid trwy wlad yr Aipht yn gyffredinol. Ond er argraffu ar eu hystyriaethau mai i fod yn arwyddlun o'r gwir Dduw y gwnelsai efe y ddelw hon, gofalodd Aaron am gyhoeddi gŵyl i Iehofah y dydd canlynol; ac ar y dydd hwnw, ymgynnullai y bobl i gadw yr ŵyl, yn gyffelyb i'r modd y cadwai yr Aiphtiaid eu gwyliau i Apis, trwy fwyta, ac yfed, a chwareu, a dawnsio, a bloeddio. Yn y cyfamser, anfonid Moses i waered o'r mynydd, â llechau y gyfraith ganddo, y rhai a ysgrifenasid â "bys Duw;" a'r rhai hyn a daflwyd ganddo, fel eu torwyd, pan y gwelodd pa beth oedd yn myned yn mlaen yn y gwersyll. Ar ei ail ymddangosiad, töwyd y lluaws gan gywilydd, a chrynent o flaen ei gerydd llym, fel na feiddiai neb yngan gair yn erbyn ei waith yn dinystrio yr eilun y buasent mor ddiweddar yn ynfydu o'i flaen. Lladdwyd llawer o'r bobl â'r cleddyf ac â'r haint, o herwydd eu camwedd yn y peth hwn: *Exod.* xxxii.

Yn ystod ei hir absennoldeb yn y mynydd, derbyniasai Moses hyfforddiadau dwyfol o barth y sefydliad eglwysig—y tabernacl a'r offeiriadaeth—y rhai y dechreuodd efe eu rhoddi mewn gweithrediad yn fuan wedi hyny. O dan y trefniad newydd yma, yr oedd Aaron i fod yn archoffeiriad, a'i feibion a'i hiliogaeth yn offeiriaid; a'r holl lwyth y perthynai iddo, sef llwyth Lefi, a neillduid i wasanaeth cyssegredig. Gan hyny,



Digitized by Google

wedi gorphen y tabernacl, ac i bob parotoad gael ei wneyd at ddechreu ar y gwasanaeth sanctaidd, cyssegrwyd Aaron a'i feibion gan Moses, yr hwn a'u heneiniodd â'r olew sanctaidd, ac a ddododd y gwisgoedd cyssegredig am danynt. Yr arch-offeiriad a ymroddai yn ddiesgeulus i gyflawnu gorchwylion pwysig ei swydd ddyrchafedig; a thros ysbaid yn agos i ddeugain mlynedd y bu yn gweini y swydd, ni ddygwyddodd ond ychydig o achlysuron i'w ddwyn yn hanesyddol i sylw. Dywedir, er ei anrhydedd, ei fod wedi tewi pan darawyd ei ddau fab hynaf yn feirw am eu camwedd ysgeler ger bron yr Arglwydd: *Lef.* x. 1—11.

Gallem gasglu fod Aaron yn ddarostyngedig i eiddigeddu weithiau wrth awdurdod a dylanwad rhagorach ei frawd; canys ymddengys ddarfod iddo gefnogi Miriam yn ei hymddygiad cenfigenus tuag at Moses, pan ddygai Iethro wraig Moses ato i'r gwersyll, gan ofni y byddai anrhydedd gwraig y blaenor yn fwy na'r eiddo hi: ei chwaer, yn ei chenfigen, a geisiai iselu Moses ei hunan gyda'r bobl, a chydsyniodd Aaron yn ormodol â hi yn ei phechod. Cymmerodd yr Arglwydd blaid ei was mewn modd neillduol yn y tro, gan geryddu Aaron a Miriam yn llym o herwydd eu hymddygiad, a tharawyd Miriam â'r gwahanglwyf, trwy yr hyn yr argyhoeddwyd yr archoffeiriad o ysgelerder ei gamwedd, ac efe a ymostyngodd yn edifeiriol i daer erfyn maddeuant Moses a Duw: *Num.* xii.

Yn mhen tuag ugain mlynedd ar ol hyn, tua'r flwyddyn c. c. 1471, pan oedd y gwersyll yn anialwch Paran, ffurfiwyd gwrthryfel cryf yn erbyn Moses ac Aaron, o dan flaenoriaeth Corah, Dathan, ac Abiram, y rhai oeddynt benaethiaid dylanwadol yn mysg y llwythau. Corah, gan ei fod o lwyth Lefi, a hònai fod yr offeiriadaeth yn perthyn iddo ef, gystal ag i Aaron a'i feibion; a Dathan ac Abiram, gan eu bod o lwyth Reuben, cyntafanedig Iacob, a allasent ymhoni eu bod yn meddu gystal hawl i'r llywodraeth wladol a Moses. Ond yr Arglwydd a amlygodd ei ddigofaint yn erbyn y cydfradwyr, trwy beri i'r ddaiar agoryd ei safn, a'u llyncu hwy, a'r rhai a lynent wrthynt; ac amlygodd ei eiddigedd dros ei swyddogion gosodedig ei hunan ar ei bethau cyssegredig, trwy anfon tân, yr hwn a ddifaodd ddau gant a deg a deugain o wŷr—cynnulleidfa Corah—y rhai yn anghyfreithlawn a gymmerasant thuserau i arogldarthu ger bron yr Arglwydd. Dranoeth, pan aeth y gynnulleidfa i gwyno yn erbyn Moses ac Aaron, gan eu cyhuddo o ladd eu blaenoriaid, cymmerodd y Goruchaf blaid ei rai eneinniog drachefn, trwy beri i bla mor ofnadwy ymdori yn mysg y grwgnachwyr, fel y bu farw pedair mil ar ddeg a saith gant o honynt mewn ychydig fynydau: a phan welwyd yr arwydd yma o ddigofaint yr Arglwydd, gorchymynodd Moses i Aaron gymmeryd tân oddi ar yr allor yn ei thuser, a dodi arogldarth arno, gan brysuro at y gynnulleidfa, i wneyd cymmod drosti, yr hyn a wnaeth efe—"Ac efe a safodd rhwng y meirw a'r byw, a'r pla a attaliwyd;" *Num.* xvi. Ac er cadarnhad neu amlygiad helaethach i'r bobl mai i Aaron a'i hiliogaeth yr oedd yr Arglwydd yn dewis cyflwyno yr offeiriadaeth, parwyd i benaethiaid y llwythau roddi bob un ei wialen, â'u henwau yn ysgrifenedig arnynt, yn mhabell y cyfarfod, gan eu gadael yno dros nos; ac erbyn edrych y gwiail y bore dranoeth, blodeuasai gwialen Aaron dros lwyth Lefi, a dygasai almonau; ac o hyny allan, cadwyd y wialen ryfedd hon yn y babell, yn dystiolaeth o osodiad Aaron a'i deulu gan Dduw yn yr offeiriadaeth: *Num.* xvii. 10.

Ni chaniatawyd i Aaron fyned i dir yr addewid, o herwydd iddo ef, gystal a'i frawd, amlygu anymddiried yn yr Arglwydd, pan darawyd y graig yn Meribah (*Num.* xx. 8—13); ac yn fuan ar ol hyny, pan symmudodd y gwersyll i Moserah, ger llaw mynydd Hor, gorchymynodd yr Arglwydd i Aaron esgyn i fynydd Hor yn ngolwg yr holl bobl, i farw yno, ac i Moses ei frawd, ac Eleazar ei fab, ei ddilyn ef yno, fel y diosgid y wisg archoffeiriadol oddi am dano ef, a'i dodi am Eleazar ei fab ef. Felly Aaron a fu farw yn mynydd Hor, yn gant a thair blwydd ar ugain oed; ac efe a gladdwyd gan ei fab a'i frawd mewn ogof yn y mynydd: a meibion Israel a alarasant am dano ef ddeng niwrnod ar ugain. Ac ar y dydd cyntaf o fis Ab, cynnelir cofwyl ei farwolaeth gan yr Iuddewon hyd heddyw: *Num.* xx. 24—29.

Wrth adolygu hanes blaenorol Aaron, gallwn weled ei fod wedi ei gynnysgaethu â doniau helaeth i lenwi y swydd bwysig ei galwyd iddi gan Dduw. Gallwn feddwl ei fod, tra yn yr Aipht, mewn amgylchiadau uwch law y cyffredin o'i hydgenedl; canys prin y gallasai un oedd yn rhwym yn ngwasanaeth y priddfeini hebgor amser a thraul y daith o'r Aipht i Horeb, i gyfarfod ei frawd—taith nas gallasai ei chyflawnu, yn ol y Dr. Shaw, dan ddau fis o amser. Gan ei fod yn frawd maeth i un a ddygid i fyny yn fab i ferch y brenin, nid yw yn annhebyg nad oedd efe a'i chwaer Miriam wedi cael manteision addysg goruwch y cyffredin o'u cydgenedl; canys dywedir am Aaron ei fod yn ymadroddwr galluog. Efallai fod Aaron yn fath o lywydd ar yr Israeliaid tra yr oeddynt yn adeiladu, neu yn darpar defnyddiau i adeiladu y pyramidiau yn yr Aipht; canys er ei fod ef dan awdurdod swyddogion Pharaoh, efe a allasai fod yn ben ar ei bobl ei hun, ac felly y cymhwysaf o bawb i ddwyn eu cwynion a chyflwyno eu ceisiadau o flaen y brenin: ac efallai fod hyn yn rheswm am fod Pharaoh a'i weision yn ymddwyn tuag Moses ac Aaron fel gwŷr o gryn gyfrifoldeb yn mysg eu pobl, a dylanwad arnynt, ac fel goruchwylwyr cyfaddas i ddwyn eu hachos ger bron y llys breninol.

Yr oedd efe hefyd yn ŵr wedi ei ddonio âg ysbrydoliaeth ddwyfol. Yr oedd cyfymweliad Moses â'i frawd yn mynydd Horeb yn un o'r arwyddion mwyaf calonogol a roddes Duw iddo o'i alwad i'w swydd bwysig gan un digon galluog i'w ddysgu a'i gynnal yn y gwaith. Rhagddywedasai Duw y cyfarfyddai â'i frawd Aaron, yr hwn nis gwelsai er ys llawer o flyneddoedd; a diau fod cyflawniad hyny mor ebrwydd wedi bod yn galondid mawr i Moses i ymgymmeryd â'r genadwriaeth. Ar yr un pryd, rhaid na buasai Aaron yn ymgymmeryd â thaith mor faith, ac yn anturio i'r fath berygl a thraul, heb ei fod yn feddiannol ar sicrwydd digonol o'r awdurdod ddwyfol a'i cymhellai i hyny: ac heb law hyny, nis gallasai ddysgwyl cyfarfod ei frawd yn y fath le anhygyrch a mynydd Sinai, oni buasai ei fod dan arweiniad dwyfol:—o ganlyniad, fel yr oedd Aaron yn arwydd i Moses, yn ei gyfarfyddiad âg ef, yr oedd cael Moses yn y fath le yn arwydd i Aaron hefyd.

Aaron oedd y cyntaf o archoffeiriaid yr Eglwys Iuddewig; ac yr oedd efe yn gysgod nodedig o Iesu Grist, "archoffeiriad a phroffeswyd ein ffydd ni," mewn llawer o bethau. Yr oedd wedi ei ddidoli oddi wrth ddynion i'r swydd sanctaidd;

Digitized by Google

felly yr oedd Crist: *Heb.* vii. 26. Ni chymmerodd y swydd arno, heb ei alw gan Dduw: felly Crist hefyd: *Heb.* v. 4, 5. Aaron yn unig oedd i fyned i'r cyssegr sancteiddiolaf, a gwaed ganddo, yn enw y bobl: felly Crist yn unig a ddygodd ei waed ei hunan i'r nefoedd, yn enw a thros ei bobl: *Heb.* ix. 6—12. Ond, goruwch Aaron, y mae Crist wedi ei wneuthur yn offeiriad trwy lw dwyfol—yn offeiriad ar bethau daionus i ddyfod—yn archoffeiriad ein proffes—yn offeiriad, nid fel Aaron, dros amser, ond yn dragwyddol; "Ti wyt offeiriad yn dragwyddol, yn ol urdd Melchisedec."

**AARONIAID**: hiliogaeth Aaron, y rhai a wasanaethent mewn pethau cyssegredig, fel offeiriaid yr Arglwydd, dan oruchwyliaeth Moses: *Num.* iv. 5, 49; 1 *Cron.* xii. 27; a xxvii. 17. O herwydd i Uzzah, yr hwn nid oedd o'r teulu hwn, gyffwrdd âg arch Duw, pan oedd yr ychain a'i cludent yn ei hysgwyd, yn llawr dyrnu Nachon, efe a darawyd yn farw gan Dduw: 2 *Sam.* vi. 6, 7. Yr oedd yr Aaroniaid yn mysg y rhai cyntaf a ddaethant at Dafydd yn Hebron, i'w wneuthur yn frenin: 1 *Cron.* xii. 23, 27. Rhanwyd y teulu yma gan Dafydd i bedwar ar ugain o ddosbarthiadau, i weini ar gylch yn ngwasanaeth y cyssegr, a chadarnhawyd y trefniant yma gan Solomon, a pharhaodd mewn grym hyd enedigaeth Ioan Fedyddiwr, o leiaf: 1 *Cron.* xxv. *Luc* i. 5, 23.

**AB**, [אב, *tad*]: arferedig yn fynych fel y sill blaenaf mewn enwau priod cyfansoddedig; megys, Abner, *tad goleuni;* Abraham, *tad lluaws.* Yn yr Hebraeg, fel yn yr Ethiopaeg, ac yn enwedig yr Arabaeg, y rheol yw, pan fyddo enw cyfansoddedig yn cynnwys dau enw cadarn, fod un o'r ddau yn ei berthynas â'r llall i'w ystyried yn y cyflwr meddiannol, a hwnw bob amser yw yr olaf. Felly ystyr yr enw Abner yw *tad goleuni* yn unig, ac nid *goleuni y tad,* fel y tybiodd rhai yn gamsyniol y gellid cyfieithu y cyfryw enwau y naill ffordd neu y llall, wyneb a gwrthwyneb. Cyfarfyddir â'r gair weithiau mewn enwau merched; megys, Abigail, *tad gorfoledd;* Abisag, *tad cyfeiliornad.* Yn y rhai hyn a'u cyffelyb, y mae *ab* yn cael ei arferyd yn ffugrol, gan arwyddo *achos, awdwr, gwreiddyn,* neu *ffynnonell.* Yn yr ystyr yma yn unig y gall y fath enwau fod yn briodol i ferched.

**AB**, [אב]. Enw Caldeaidd ydyw hwn ar yr unfed mis ar ddeg gwladol, a'r pummed mis eglwysig, yn y calaniadur Iuddewig, yn yr hwn y cyfrifir bob amser ddeng niwrnod ar ugain, a dechreua gyda lleuad newydd ein mis Awst ni. Y mae gan yr Iuddewon eu blwyddyn wladol, yr hon sydd yn dechreu yn mis Tisri; a'u blwyddyn eglwysig, yr hon sydd yn dechreu yn mis Nisan, wrth ba un y cyfrifir amser eu gwyliau. Nid yw yr enw *Ab* i'w gael yn yr Hen Destament, ond gelwir y mis hwn yno yn "bummed mis," a daeth yr enw i arferiad ar ol y caethgludiad i Babilon. Y mae y mis hwn yn hynod am y trychineb ofnadwy a ddygwyddodd ynddo i'r genedl hon mewn gwahanol oesoedd. Ar y dydd cyntaf o'r mis hwn y bu farw Aaron: *Num.* xxxiii. 38. Cedwir un o'u gwyliau penaf ar y nawfed dydd o'r mis hwn, yn goffadwriaeth am ddinystr y ddwy deml. Tybir fod y ddwy deml wedi eu dinystrio ar yr un dydd; ac edrychir ar yr ŵyl hon o herwydd hyny yn nesaf mewn pwysigrwydd at Ddydd mawr y Cymmod. Dechreuir y ddarpariaeth at y dydd ympryd hwn, gan rai o'r Iuddewon manylaf, mor gynnar a'r 17eg o'r mis blaenorol, trwy ymgadw oddi wrth gigfwyd, diod gadarn, a phob danteithion; ereill a ddarparant ar ddechreu y mis hwn; ac ereill ddechreu yr wythnos o fewn yr hon y bydd yr ŵyl. Ond rhaid i bawb ymbarotoi ar y prydnawn blaenorol; ac ni chymmer rhai ond ychydig o fara sych a halen, ac ychydig o ddwfr glân—ac fel arwydd neillduol o'u galar mawr ar yr ŵyl, bwytânt ŵy wedi ei ferwi yn galed, a hwnw wedi ei amdoi â lludw. Y mae yr ympryd yn dechreu ar ol machludo yr haul yr wythfed dydd, a gorfyddir ar bawb o bob oedran ac amgylchiadau, yn ddiwahaniaeth, ei gadw, os na bydd hyny yn peryglu bywyd. Ni byddant yn eillio eu barfau, yn ymolchi, yn gwisgo eu hesgidiau, nac yn ymddyddan â'u gilydd ond mewn tôn isel a galarus. Ni bydd dysgedigion y genedl chwaith yn darllen hyd yn oed eu llyfrau hoffaf, sef y Talmud, &c.: ond os darllenant rywbeth, rhaid darllen llyfr Iob, Galarnad, neu ranau o Ieremïah, neu y bedwaredd ar ddeg o Esaiah. Am wasanaeth y synagog ar yr ŵyl hon, edrycher dan y gair GWYLIAU.

Er y cedwir yr ŵyl hon yn goffadwriaeth am ddinystr y ddwy deml, ar y nawfed o fis Ab, dywedir yn 2 *Bren.* xxv. 8, mai ar y *seithfed* y dinystriwyd y deml gyntaf, ac yn *Ier.* lii. 12, mai ar y *degfed* y gwnaed hyny; ond yn y cyfieithiadau Syriaidd ac Arabaidd, dywedir mai ar y *nawfed.* Dywed Josephus fod y ddwy wedi eu dinystrio y *degfed* dydd o'r mis (*Bell. Jud.* vi. 4, 5); ond y mae Buxtorf yn cyssoni y tystiolaethau hyn, trwy ddyweyd mai ar y *degfed y gorphenwyd* y dinystr, ond mai ar y *nawfed* y dechreuodd.

Heb law dinystr y ddwy deml, yr hyn a ystyrir gan yr Iuddewon fel eu colledion mwyaf, dywed Moses Cotenzis fod y pethau canlynol hefyd wedi dygwydd ar y nawfed o fis Ab:—Dywedodd yr Arglwydd mai Iosuah a Chaleb yn unig a gaent fyned i wlad yr addewid; "Diau ni ddeuwch chwi i'r tir am yr hwn y codais fy llaw, am wneuthur i chwi breswylio ynddo, ond Caleb, mab Iephunneh, a Iosuah, mab Nun; *Num.* xiv. 30. Dinystriwyd dinas Bettar hefyd ar y nawfed o Ab, a lladdwyd Ben Cozibah (*Bar Cocâb*), ac amryw o filoedd o Iuddewon, yno, a chafodd sylfeini y deml eu haredig gan Turnus Rufus:—y ddau ddygwyddiad diweddaf a gymmerasant le yn amser Hadrian.

Mewn calaniadur a briodolir i'r astronomydd Rab Ada, yr hwn oedd yn byw yn y drydedd ganrif, dywedir mai ar y 15fed o Ab y cedwid yr ŵyl ar yr hon y cesglid coed yr offrwm i gyntedd y deml, at yr hyn y cyfeirir yn *Neh.* x. 34; a xiii. 31. Y mae ereill yn gosod yr ŵyl hon ar ddiwrnod arall; neu yn meddwl, ar sail y traethawd hwnw, *Taanith,* fod y coed yn cael eu dwyn yno gan naw o deuluoedd gwahanol, ar ddyddiau gwahanol; ond fod pedwar o'r dyddiau hyn yn syrthio o fewn mis Ab. Ond y mae Josephus yn dyweyd (*Bell. Jud.* ii. 17) fod yr ŵyl hon yn cael ei chadw, yn ei amser ef, ar y 14eg o'r mis hwn. Ond, fel y dywed Nicholson, gyda phriodoldeb, y mae yn anhawdd iawn penderfynu hyn mewn hanes cenedl mor hynod am luosogi ei seremoniau.

Ar y 15fed o Ab, cedwid gŵyl gynt yn goffadwriaethol am yr heddwch a wnaed rhwng llwyth Beniamin a'r llwythau ereill. Cedwid yr ŵyl hon gynt, ond nid yn awr, gan y merched ieuainc, trwy wledda a dawnsio, i adgofio yr hyn a goffeir yn *Barn.* xxi. 21, am y gwyryfon a wnaed yn wragedd gan feibion Beniamin.

Digitized by Google

Yn y *Megillat Taanith*, dywedir fod y lamp orllewinol, neu lamp y prydnawn (fel y gelwir hi gan ysgrifenwyr Iuddewig, sef y ganol), wedi diffodd yn y deml, yn amser Ahaz, ar y 18fed o'r mis hwn, a chedwir gŵyl yn goffadwriaeth am hyny. Efallai mai dyma y diffoddiad lampau y cyfeirir ato yn 2 *Cron.* xxix. 7, fel rhan o ymdrechiadau Ahaz i roddi diwedd ar wasanaeth y deml. Gwel Misoedd Iuddewig; Gwyliau Iuddewig.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Mills' Brit. Jews.*)

ABACUC. 2 *Esd.* i. 40. Habacuc yr Hen Destament. *Gwel* Habacuc.

ABAD, sydd enw ar benaeth mynachlog. Daeth i'r arferiad yna trwy y Lladin neu y Ffrancaeg; ond ei darddiad sydd o'r gair Syriaidd, *abba*, gwreiddyn yr hwn yw yr Hebraeg, אב (*ab*), tad. Gwel Mynach.

ABADES. *Gwel* Abad; Mynaches; Lleian.

ABADIR, [Βαίτυλος], careg a ddifrodwyd gan Sadwrn (*Saturnus*) yn lle ei fab Iau (*Jupiter*): canys prophwydwyd y byddai i Sadwrn gael ei ymlid o'i deyrnas gan un o'i feibion; ond fel y gallai ysgoi y brophwydoliaeth hon, efe a lyncai yr holl feibion a enid iddo o'i wraig Ops cyn gynted ag y deuent i'r byd; heb law mai ar yr ammod na byddai iddo gynnyrchu plant gwryw y cafodd Sadwrn y deyrnas gan un o'i frodyr. Ops, yn anfoddlawn i'w holl blant gael eu difa fel hyn, a guddiodd oddi wrth ei gŵr enedigaeth Iau, Neptune ("Nefydd Naf Neifion" y Cymry?), a Phluto ("Arawn, brenin Annwn" y Cymry, a "Dis" y Groegiaid), ac a roddai geryg mawrion iddo yn eu lle, y rhai a lyncid ganddo yn ddiarwybod; a'r gareg a daflodd i'w safn yn lle Iau oedd Abadir; ac felly yr achubwyd y duwdodyn. Yr oedd y Carthaginiaid yn addoli Abadir neu Abadires. Gwel Iau; Ops; Sadwrn.—(*Hesiod Theog.; Apollod*, i. 1; *Virg. Æn.*, viii.; *Paus*, viii. 8; *Tibull. El.*, iii; *Hom. Il.; Ovid. Fast.*, iv. *Met.* i; *Wright & Chis. Dict. Poet. Hist. &c.; Lempr. Class. Dict.*, d. g. *Saturnus; Univ. Hist.*, cyf. xvii. td. 287.)

ABADIAS, ABDIAS. 1 *Esd.* viii. 15; 2 *Esd.* i. 39. Ffurfiau Groeg o'r enw Hebraeg Obadiah.

ABADON, [אבדון, *dinystr;* yn ol y Groeg, Ἀπολλύων—Apolyon, *dinystrydd*] *Dad.* ix. 11. Gelwir angel marwolaeth, brenin y locustiaid arwyddluniol, wrth yr enwau hyn. Yn yr Hen Destament, mae y gair Hebraeg, *Abadon*, yn arwyddo *dinystr* (*Iob* xxxi. 12), neu *le dinystr, h. y.* Hades, y byd anweledig, bro marwolaeth, uffern (*Iob* xxvi. 6; xxviii. 22; *Diar.* xv. 11; *Salm* lxxxviii. 11). Ond yn *Dad.* ix. 11, mae yn cael ei bersonoli a'i ddefnyddio fel enw priod. Bernir ei fod yn arwyddo Mahomet, fel blaenor y lluoedd Arabaidd neu Saracenaidd; yr oedd efe, a'i olynwyr, y Caliphiaid, fel brenin ar y locustiaid hyny, wedi eu hanfon gan angel y pwll diwaelod i daenu egwyddorion dinystr, a darostwng trwy dân a chleddyf drigolion y gwledydd dan lywodraeth tywysog y tywyllwch. Mae cyfodiad a chynnydd Mahometiaeth yn dangos cyflawniad eglur o'r brophwydoliaeth hon. Mae yr holl amgylchiadau yn cyfateb i nodwedd yr Arabiaid, a hanes yr ysbaid hwnw, yn cyrhaedd o b. a. 612, i b. a. 762, yr hyn a wna bump o fisoedd prophwydol, neu gant a hanner o flyneddau. Yr oeddynt yn lluosog, fel y Midianiaid gynt (*Barn.* vi. 5), y rhai y dywedir eu bod "fel locustiaid o amldra;" ac er y dywed Solomon (*Diar.* xxx. 27) am y locustiaid, nad "oes brenin iddynt," mae yn nodedig y dywedir am y rhai arwyddluniol hyn, fod iddynt frenin, a hwnw yn un ofnadwy; *Abadon*—y dinystrydd, cynnrychiolydd cymhwys y diafol, "yr hwn sydd yn lleiddiad dyn er y dechreuad," am "na safodd yn y gwirionedd;" felly yntau, yn taenu ei dwyll trwy ryfel a thywallt gwaed, oedd ar unwaith yn distrywio cyrff ac eneidiau dynion: *Ioan* viii. 44; *Dad.* xi. 1—11.

ABAGTHA, [אבגתא, *tad y gwinwryf*]. Un o ystafellyddion y brenin Ahasferus: *Est.* i. 10.

ABAL, (אבל, *galar*). Yr un ag Abel-Beth-Maachah.

ABAN, un o hiliogaeth Iudah: 1 *Cron.* ii. 29.

ABANA, [אבנה], sydd un o'r ddwy afon y cyfeiriai Naaman ati: 2 *Bren.* v. 12. Tebygol mai cangen o'r Barrada, neu Chrysorrhoas, yw yr afon hon, ac yn tarddu o'r rhan ddwyreiniol i fynydd Libanus. Mae yn rhedeg bron oddi amgylch i Damascus, prif ddinas Syria, er dyfrhau y gerddi, a hefyd trwy ganol y ddinas, i wasanaeth y trigolion. Mae yn rhedeg am tua phymtheng milltir, y rhan ddeheuol i'r ddinas; ac o herwydd sychder yr anialwch, fe'i collir ynddo. Gwel Parphar.

ABARIM, [עברים] rhestr o fynyddoedd yw y rhai hyn, yn gorwedd rhwng afon Arnon a'r Iorddonen, ac yn cyrhaedd i derfynau llwyth Reuben a gwlad Moab. Gelwir rhanau o'r mynyddoedd hyn wrth eu sefyllfa ar y prif fynydd. Wrth gymharu *Deut.* xxxii. 49, â *Deut.* xxxiv. 1, gallem dybied mai yr un yw Pisgah a Nebo; ond mwy priodol, efallai, fyddai galw y grib *uchaf* o'r mynydd, Pisgah; o herwydd ystyr gwreiddiol y gair yw, *dyrchafedig, codi i fyny;* ac felly, y pen uchaf o hono yw Pisgah.

Yn agos i'r mynyddoedd hyn y gwersyllodd yr Israeliaid ar eu taith o'r Aipht i Ganaan. *Num.* xxvii. 12; xxxiii. 44—48. Gwel Pisgah a Nebo.

ABARIS. Yr oedd amryw o'r enw: sonir am un yn Ovid, a laddwyd gan Parsëus; ac un arall yn Virgil, a laddwyd gan Euryalus; ond yr un mwyaf pwysig mewn chwedloniaeth yw y person y dywedir ddarfod iddo ysgrifenu teithiau gogleddol, oraclau, a daroganau y duw Apolo (Beli, Belyn, Ap Haul, y Cymry?), i'r hwn yr oedd yn offeiriad. Mae dadl frwd gan yr hynafiaethwyr yn nghylch gwlad, a swydd, ac ystyr enw yr Abaris hwn; ond cytunant oll fod ei ddoethineb a'i rinweddau yn fawrion dros ben, a'i wyrthiau yn dra rhyfeddol. Dywed rhai mai Scythiad ydoedd; ac ereill, iddo fyned i dir Groeg o wlad ar dueddau y Caucasus (Mynyddau Gwynion); a chytunant braidd yn unfryd mai *Hyperboriad* (Gorogleddwr) ydoedd o genedl. Ond yr holiad sy'n rhoddi yr hynafiaethwyr a'r chwedlonwyr ar eu goreu i'w ateb ydyw, Pa barth o'r byd yw gwlad y Gorogleddwys (*Hyperboreans*)? Rhai a'i dodant yn mharthau mwyaf gogleddol Scythia, ar gyfer y Caucasus, neu barthau gogleddol Tartary a Muscovy, yn ymestyn hyd Scandinavia, neu Sweden a Norway; ond syrth y tybiau yma i'r llawr o flaen tystiolaethau awdurol Herodotus, Hecatëus, Diodorus Siculus, ac ereill

Digitized by Google

o'r uchawduron, y rhai a ddywedant yn eglur mai *ynys* oedd gwlad y Gorogleddwys, heb fod yn llai na Sicily, yn sefyll yn y cyfanfor ar gyfer Ffrainc, ac i'w gweled o Ffrainc dan yr Arth—y cydser gogleddol; y gelwid y trigolion *Hyperborei=Trans-Boreani* (Gorogleddwys), am eu bod yn preswylio tu hwnt i'r Βορέας—*y gwynt gogleddol;* bod yr ynys hon o hinsawdd dedwydd, y tir yn fras a ffrwythlawn, ac yn dwyn dau gnwd yn y flwyddyn. Er y cytunir weithian yn lled unfryd mai ynys oedd gwlad y Gorogleddwys, eto mae amryw yn methu penderfynu pa ynys sy'n ateb oreu i ddarluniad Hecatæus, ac ereill, a ddyfynir gan Diodorus. Tybia rhai yn ddilys mai Iwerddon ydoedd: dadleua Toland yn frwd nad oes un man mor deilwng o'r anrhydedd ag ynys yr Ia *(Iceland)*! ond barn yr ysgrifenydd yw, fod y Celtic Davies wedi profi yn eithaf eglur nad oes un lle dan haul yn ateb yn gywir i ddarluniad yr uchawduron o wlad y Gorogleddwys, o ran sefyllfa, hinsawdd, ffrwythlondeb, iaith, crefydd, a chydfasnach â'r Groegiaid, ond ynys Prydain yn unig; ac am hyny, mai gŵr oedd yr enwog Abaris o genedl y Cymry; ac o ran ei swydd, ei fod yn "Fardd wrth Fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain. Priodolai y Groegiaid eilunaddolgar iddo allu goruchnaturiol; yn ol eu harfer hwy i bob un y mynent ei anrhydeddu fel *duw* neu is-dduw, neu offeiriad i'r duwiau. Dywed Herodotus y cariai Abaris saeth, a roddwyd iddo gan Apollo, trwy yr holl fyd, *gan ymprydio*, neu, yn ol rhai, *gan beidio bwyta dim daiarol.* Iamblicus a ddywed y cludid Abaris gan ei saeth trwy yr awyr, dros afonydd, a moroedd, a mynyddoedd; ac mai fel hyn yr ehedodd efe i Athen, pan aeth yno yn genadwr dros ei wlad, yn amser rhyw bla dinystriol a ymwelodd â'i genedl. Ond y mae Himerius, yr areithiwr, yn rhoi hanes mwy rhesymol na hyn o Abaris, a'i fynediad i Athen. "Dywedir," ebe Himerius, "mai gŵr doeth o wlad y Gorogleddwys oedd Abaris; iddo ddyfod yn Roegydd hyawdl, a'i fod yn debyg i Scythiad o ran gwisg ac ymddygiad—pan lefarai, gellid meddwl ei fod yn un o ganol y coleg neu y brif lenorfa—y daethai i Athen yn cludo bwa, a chawell saethau yn crogi dros ei ysgwydd, wedi ymddilladu â brithwe, a gwregys euraidd am ei lwynau, ac yn gwisgo llodrau o'i sawdl hyd ei wasg—ei fod yn ffraeth a difyr yn ei ymddyddan, yn gwneyd negesau pwysig, yn ochelgar a diwyd, yn graff mewn amgylchiadau dyrys, yn gochel peryglon dyfodol yn ddeheuig, yn ymchwiliwr dyfal am wybodaeth, yn hoff o gyfeillach, yn ymorphwys ond ychydig ar gyfoeth, ac yn meddu pob ymddiried o blegid ei ddoethineb." Wele Abaris, person chwedlonol y Groegiaid coelgrefyddol, yn ol tystiolaeth hen Roegwr mwy difrifol, wedi troi allan yn *ddyn* ac nid *duw*, yr hyn yw tynged y rhan fwyaf o'r duwiau paganaidd; ac yn lle ehedeg o ynys y Gorogleddwys i Athen, trwy yr awyr, ar gefn y saeth a roddwyd iddo gan Apollo, wele ef yn cerdded yno fel gŵr arall, ac yn cario ei gawell saethau ar ei ysgwydd, yn ol arfer ei oes. Am ei "wisg o frithwe," mae yn debyg fod Abaris yn "fardd, ofydd, a derwydd," ac am hyny, efallai mai gwisg fraith o'r trilliw barddonol oedd ganddo—"glas, gwyrdd, a gwyn." Dywed Rollin fod Abaris yn brydydd, ac iddo gyfansoddi amryw ganiadau. Yr oedd yn hawdd i Himerius gamgymmeryd ei genedl, a'i ystyried yn Scythiad o blegid amwysedd ystyr y gair *Hyperborei* (Gorogleddwys); ond y mae tystiolaeth yr "areithiwr" ei hun am ei laeswisg o frithwe, yr hon a wisgid gan feirdd Ynys Prydain er ys cyn cof, yn profi ar unwaith nad Scythiad ydoedd; canys arfer y Scythiaid bob amser oedd ymenhuddo mewn crwyn. "Mae enw Abaris," ebe y Celtic Davies, "yn perthyn i'r Cymry:—Αβροι—Κιμεροι, ως τιμες φασι, κιμεριοι. Gallasai Abaris fod yn un o'r *Abroi;* ond ni pherthyn yr enw mor briodol i'r *genedl* ag i *grefydd* y Cymry. Mae *Afarwy =myfyrgar*, yn enw cynnefin yn yr hen Gymraeg. Yr wyf yn ystyried y gair *Abaris* fel darluniad o'r *nodwedd* neu yr *urdd*, megys y *Magus*, neu y *Derwydd.* Bernir y cadarnheir y dyb yma yn y crynodeb o Dderwyddiaeth sydd yn y Trioedd Braint a Defod." Dywed yn mhellach fod y Gorogleddwys yn arfer *gwellt gwenith* yn eu defodau crefyddol;—fod Herodotus yn darlunio rhoddion cyssegredig y Gorogleddwys, megys wedi eu hanfon o'r naill bobl i'r llall, ar eu ffordd i dir Groeg, yn *orchuddiedig*, neu *yn rhwym mewn gwellt gwenith;* sef, efallai, wedi eu cymmeradwyo a'u cadarnhau *â gwellt gwenith*, yn unol â defod henafol y cyfeiria hen fardd Cymreig ati fel hyn:—

"Oni 'mddyddan ychwaneg,
*Tor y gwelltyn â'm dyn deg.*"

Hyny yw, tor ymaith bob cyfeillach â hi. Os oedd yr hwn a *dorai y cyfryw welltyn* yn tori cydgyfeillach, yna yr oedd yr hwn a'i *rhoddai*, a'i *cydrwymai*, neu a'i *cyfnewidiai*, yn *gwneyd*, neu yn *cadarnhau* cyfammod; yr hyn, efallai, a wneid gan y Gorogleddwys, pan ymddiriedent eu rhoddion cyssegredig i estron genedl. Tybia Davies mai mewn cyfeiriad at ryw ddefod o'r fath hyn y lluniwyd y gair Lladin *stipulor* (taraw bargen trwy ofyn neu gynnyg), o'r gair *stipula* (gwelltyn); ac mai y gair Gwyddelig *fodar* (gwelltyn), yw gwreiddyn *fœdus, fœderis* (cyfammod neu gyngrhair). Beth bynag am hyn, mae yn amlwg fod ein beirdd a'n Derwyddon ni yn gwneyd rhyw ddefnydd seremoniol o *gorsenau gwellt*, gystal ag amryw lysiau ereill, a choed, at yr hyn y cyfeiria Hopcin Tomas ap Einion Offeiriad, *yn enw Taliesin*, yn y llinellau hyn, a'u cyffelyb:—

"Bum yn nghaer Fefenydd
Yt grysynt *wellt* a gwŷdd."

Hyny yw, bûm yn Ninas Fefenydd *(Belenydd?)* lle y prysurai *gwellt a choed*, neu *frigau.*—Yr oedd yr *hen Gymry* yn priodoli rhinweddau mawrion i'r arwyddlun dan sylw: "Gwrnerth Ergydlym a laddes yr arth mwyaf ac a welwyd erioed *â saeth wellten.*" *Saeth* o'r natur yma, mae yn bur debyg, oedd yr un a gariai Abaris, y cyfeiria Herodotus ati, "trwy yr holl fyd, *gan ymprydio.*" Yr oedd yr hynafiaid yn bur hoff o fwyseiddio geiriau, yn enwedig yn eu hanesion cyfriniol o bethau; a dichon y gallasai διστός *(saeth)*, a dardda o δίω *(meddwl* neu *ddyfalu)*, arwyddo *syniadau* Abaris, gystal a'i saeth; a gallai nad oedd yr hyn a ddywedai Herodotus, yn y geiriau ὀυδὲν σιτεομενὸς, yn arwyddo, yn gyntefig, nad oedd efe yn *bwyta dim daiarol*, fel y dywed Smith; ond nad oedd yn *darparu* ar gyfer ei deithiau, yr hyn ni wnai y beirdd un amser, gan fod "Trwyddedogaeth *(cynnaliaeth)* ble'r elont," yn fraint gyssegredig iddynt hwy, yn ol cyfreithiau eu gwlad. Heb law hyny, dichon nad yw yr ymprydio a briodolir i Abaris yn arwyddo dim mwy na'i fod yn ŵr syml a chymmedrol mewn bwyta ac yfed, fel yr oedd y gwir feirdd yn gyffredin; ac am hyny yn bur annhebyg i'r Groegiaid gwastraffus. Dywed Iamblicus fod Abaris yn ddysgybl i Pythagoras; pan y tybia ereill mai yr olaf oedd ddysgybl i'r blaenaf: ond tebycach o lawer yw, fel y dengys

Digitized by Google

Toland a Borlase—wedi i'r ddau athronydd, Abaris a Pythagoras, fyned yn adnabyddus â'u gilydd, iddynt rydd ddadguddio eu cyfrinion, y naill i'r llall, ac i bob un fabwysiadu syniadau eu gilydd. Os amgen, tebycach yn ddilys ddiammheu ydyw, fod Pythagoras yn ddysgybl i Abaris; canys fel y sylwa Borlase, pe na buasai clod sect y Derwyddon (beirdd) yn hysbys trwy y byd cyn amser Pythagoras, ni fuasai efe byth yn myned i'w gwlad i ymddyddan â hwynt; o blegid nis gallasai y beirdd fenthyca braidd ddim cyn amser yr athronydd hwn gan y Groegiaid, gan nad oeddynt hwy yn alluog, cyn amser Pythagoras, i gyfranu nemawr ddysg na chrefydd i neb, am nad oedd ond ychydig o'r fath nwyddau yn meddiant y genedl. Heb law hyn, fe ddywed y Groegiaid eu hunain, yn benodol, fod Pythagoras, athroniaeth yr hwn oedd yn dra thebyg i eiddo'r beirdd, wedi bod yn gwrandaw doethineb y Galiaid a'r Brahminiaid—ar ddoethineb y Galiaid yn unig (yr un genedl, ar y dechreu, a'r Prydeiniaid), mae yn debyg iawn, trwy Abaris, yr hwn a gyflwynodd ei *saeth* iddo, neu, a wnaeth gyfammod âg ef, ac a'i haddysgodd, yr un pryd, yn nghyfrinion ei athrawiaeth. Gyda golwg ar drawseneidiad *(metempsychosis)*—sef, pa un a gafodd Pythagoras yr athrawiaeth gan y *beirdd*, ynte ai *efe* a'i dysgodd iddynt *hwy*—gan yr addefa y Groegiaid eu hunain, fel y sylwa Davies, iddo fod yn ddysgybl i'r doethion Celtig—gan y cydnabyddir iddo dderbyn *saeth* Abaris, yr hon a gariai trwy y byd—cyfeiriad amlwg at gyfrin yr Abred, careg sylfaen barddoniaeth—gan y cydnebydd Aristotle nad ymfudodd athroniaeth o dir Groeg i Ffrainc, *ond yn y gwrthwyneb:*—o blegid hyn oll, tybir yn ddiau mai diogelach yw casglu ddarfod i un estron fenthyca o sefydliad cenedlaethol y Cymry, nag iddo ef drosglwyddo ei syniadau ei hun i urdd o ddynion oedd bob amser yn ammheus o newydd bethau, sef y beirdd—un o'r sawl, yn ol cryn debygolrwydd, fel y gwelir yn yr erthygl hon, oedd yr enwog Abaris. Bucheddai, yn ol Smith, c. c. 570. Gwel Abred; Annwn; Ceugant; Gorogleddwys=Hyperboriaid; Gwynfyd; Pythagoriaid; Trawseneidiad.—(*Wright & Chis. Dict.; Toland's Druids*, llyth. iii; *Diod. Sic.*, ii. 47; *Herodot.*, iv. 33, 36; *Bell's Rollin*, cyf. iii. td. 294.; *Steph. Byzant. de Urb.; Davies' Celtic Res.*, cyf. ii. td. 139, &c.; *Myv. Arch.*, cyf. i. td. 29; ii. td. 68; *E. Williams—Iolo's Poems*, § ii. 228; *Not. in Cæs. Comm., edit. Delph.*, td. 123; *Frick.*, td. 38; *Clem. Alex. Strom.*, llyfr vi; *Euseb. Præp. Evang.*, x. 2; *Borlase's Antiq. Corn.*, ii. 4; *Diog. Laert. ex. Aristot; Lempr. Class. Dict.; Smith's Class. Dict.*)

ABARON=*Afaran*, neu *Afaron*. 1 *Mac.* ii. 2. Gwel Eleazar.

ABATTY: tŷ abad; tŷ neu breswylfa y cyfundeb o fynachod, dan lywyddiaeth abad. Gwel Mynachlog.

ABBA, [אב, *Ab*; y ffurf Galdaeg, אבא; 'Αββᾶ, *Abba*]: gair Syriaeg, yn arwyddo *tad*. Cyfarfyddir âg ef deirgwaith yn y Testament Newydd, a hyny mewn cyssylltiad â'r gair Groeg πατὴρ, *tad*, a chyfieithir hwynt "Abba, Dad;" *Marc* xiv. 36; *Rhuf.* viii. 15; *Gal.* iv. 6. Nid yw yn hawdd gweled pa ham y defnyddir dau air fel yma o wahanol ieithoedd, yn arwyddo yr un peth. Dywedir y byddai yr Iuddewon, wedi iddynt ddyfod yn gydnabyddus â'r iaith Roeg, trwy gyfieithiad y Deg a Thrigain, a'u hymwneyd â'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yn arfer cymmysgu geiriau Groeg â'u geiriau eu hunain, yn debyg fel y gwneir yma. Hefyd, fe ystyrid y gair *abba* yn hynod o fynegiadol o *anwyldeb a serchogrwydd mabaidd;* ac wrth ddefnyddio y gair hoff yma mewn cyssylltiad â'r gair cyffredin, *tad*, byddid drwy hyny yn dangos nerth anarferol o serchogrwydd. Ni oddefai yr Iuddewon i'w gweision na'u morwynion alw eu meistr yn *abba*, na'u meistres yn *imma;* yr oedd ganddynt waharddiad ar hyn yn eu cyfreithiau; ond can gynted ag y mabwysiedid rhai o honynt, byddent yn rhydd i lefaru iaith plant, a dyweyd *abba*, &c. Y mae y berthynas sydd rhwng pechadur â Duw yn rhy ofnadwy iddo fyned yn *agos iawn* ato; ond wedi "derbyn y mabwysiad," y mae ysbryd y Mab yn cael ei anfon i'w galon, "yn llefain Abba, Dad."

1. ABDA, [*gwas*, neu *gwasanaeth*]: tad Adoniram: 1 *Bren.* iv. 6.

2. ABDA: lefiad, ac un o brif gantorion y deml: *Neh.* xi. 17; gelwir ef Obadïah yn 1 *Cron.* ix. 16.

ABDEMELECH. Gwel Ebedmelech.

1. ABDI, [עבדי, *fy ngwas yw efe*]: un o feibion Merari: 1 *Cron.* vi. 44; 2 *Cron.* xxix. 12.

2. ABDI: un o'r rhai a gyttaliasent â gwragedd dyeithr: *Ezra* x. 26.

ABDIAS: dysgybl tybiedig i Grist yn Babilon. Cyfrifir iddo lyfr yn cynnwys bucheddau yr apostolion, yn llawn o chwedlau ffugiol, hollol annheilwng o'r grediniaeth leiaf.—*(Buck.)*

1. ABDIEL, [עבדיאל, *gwas Duw*]: un o lwyth Gad: 1 *Cron.* v. 15.

2. ABDIEL: tad Selemïah: *Ier.* xxxvi. 26.

1. ABDON, [עבדון, *gwas barn*]. Un o farnwyr Israel. Yr oedd iddo ddeugain o feibion, a deg ar ugain o wyrion, y rhai a farchogent ar ddeg a thrigain o ebolion asynod. Bu yn ei swydd wyth mlynedd—c. c. 1120—1112: *Barn.* xiii. 13—15.

2. ABDON: un o hiliogaeth Beniamin: 1 *Cron.* viii. 23.

3. ABDON: un arall: 1 *Cron.* viii. 30; a xi. 36.

4. ABDON: un o'r rhai a anfonodd Iosïah i ymofyn â'r Arglwydd: 2 *Cron.* xxxiv. 20; ac a elwir Achbor yn 2 *Bren.* xxii. 12.

5. ABDON: dinas berthynol i lwyth Aser, yr hon, yn nghyd â'i meusydd pentrefol, a roddwyd i feibion Gerson, o deuluoedd y Lefiaid, yn ol gorchymyn yr Arglwydd: *Ios.* xxi. 30; 1 *Cron.* vi. 74.

ABEDNEGO, [עבדנגו, *gwas yr haul*]: yr oedd yn un o'r bechgyn ieuainc a gaethgludwyd o Iudah i Babilon gan fyddinoedd Nebuchodonosor. Crybwyllir ei fod o had tywysogion Iudah; ac o herwydd ei fod mor ieuanc, ac heb ddim gwrthuni ynddo, yn un o wyneb hardd-deg ac o feddwl deallgar, arbedwyd ei fywyd; a chafodd ef a'i gyfeillion Daniel, Hananïah, a Misäel, eu cynnal yn ysgolion penaf Babilon, ar draul y brenin, am dair blynedd, i ddysgu iaith a llyfrau, a chyfreithiau, y Caldeaid. Yr oeddid wedi dogni iddynt ran beunydd o fwyd y brenin, ac o win ei ddiod ef, i'w maethu, fel y byddai grym ynddynt i sefyll yn llys y brenin; ond rhoddasant eu bryd ar beidio ymhalogi trwy gyfranogi o fwydydd breision, ac o winoedd cynhyrfus a

Digitized by Google

allasent fod wedi eu cyssegru i eilunod. Dewisasent ffa a llysiau ereill yn fwyd, a dwfr yn ddiod; a chafwyd, ar ol prawf teg, eu bod yn decach o wedd, ac yn dewach o gnawd, na'r holl fechgyn oedd yn bwyta rhan o fwyd y brenin: ac yn mhen dyddiau y tair blynedd, dygwyd hwynt ger bron y brenin a'i gynghor i gael eu holi; a chafwyd eu bod "yn mhob rhyw ddoethineb" yn "ddeg gwell" na holl ddewiniaid a dysgedigion prif golegau Babilon; a chawsant eu gosod mewn swyddau o anrhydedd uchel i sefyll ger bron y brenin. Newidiwyd eu henwau mewn dysgwyliad y buasent yn debycach felly o anghofio Duw eu tadau. Enw Iuddewaidd Abednego oedd Azarïah —*fy nerth yw Iehofah.* Rhoddwyd iddo yr enw Caldeaidd Abednego (*gwas yr haul*) mewn hyder, efallai, y buasai yn addoli yr haul, yn ol defodau y Babiloniaid. Ond glynodd ef a'i gymdeithion, er pob hudoliaeth, yn nghyffes crefydd eu tadau. Yn mhen amryw flyneddoedd ar ol eu codi i weini yn y llys, gwnaeth Nebuchodonosor ddelw aur o faint ac o harddwch ardderchog; ac a'i gosododd i fyny mewn gwastadedd eang, cyfagos i'r brif ddinas, i fod yn dduw ei lys, ei deulu, a'i deyrnas: ac anfonodd i gasglu yn nghyd y tywysogion, y dugiaid, pendefigion, rhaglawiaid, trysorwyr, cyfreithwyr, trethwyr, a holl lywodraethwyr y taleithiau, i "gyssegru y ddelw." Daeth dydd heulog yr ŵyl fawr; ymdyrodd y myrddiynau i'r gwastadedd, gan amgylchynu y ddelw gyda bloedd gorfoledd. Cyhoeddwyd gyda llais croch fod pawb i syrthio i'w haddoli; ac y bwrid i ffwrn o dân poeth bob un a feiddiai anghydffurfio â'r drefn. Seinid y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulsimer, y saltring, y symphon, a phob rhyw gerdd, er anrhydedd i'r ddelw; a llawen syrthiodd y dyrfa oll i'w haddoli, ond Abednego a'i ddau gyfaill, Sadrach a Mesach. Nid hawdd gwybod pa le yr oedd Daniel: gallasai ei fod ar ei wely yn glaf, neu gallasai ei fod mewn talaeth bellenig ar neges dros yr orsedd, neu gallasai ei fod yno yn gweini wrth yr orsedd, ond allan o gyrhaedd y gorchymyn. Ni safodd ond y *tri* yn erbyn gorchymyn y brenin; ond safasant hwy yn ddiysgog dros enw eu Duw. Yr oedd eu profedigaeth yn un o nerth ofnadwy. Yr oedd y brenin yn dŷn ac yn daer am eu cydymffurfiad—weithiau yn ymresymu, weithiau yn addaw, ac weithiau yn bygwth. Yr oedd pawb ereill yn cydymffurfio, ac am iddynt hwythau wadu eu crefydd. Sibrydai y gelyn wrthynt y gallent *rith* addoli y ddelw, a chadw eu calon i Dduw eu tadau; a dichon na cheisid y fath ufudd-dod ganddynt byth ar ol y bore hwnw. Yr oedd urddas ac elw uwch nag erioed mewn addewid iddynt, os plygent; a'r ffwrn dân, os na phlygent: ond ymddiriedasant yn ddiysgog yn eu Duw. Yr oeddynt wedi dysgu ei garu a'i ofni o'u mebyd; ac wedi ei gyffesu yn ddirodres, ond yn wrol, yn Babilon. Gwyddai y brenin mai Iehofah Israel oedd eu Duw. Yr oedd y Duw hwnw wedi gorchymyn iddynt beidio eilunaddoli. Yr oedd gorchymyn llys y nefoedd a gorchymyn llys y ddaiar yn hollol groes i'w gilydd. Cydymgyfammododd Abednego â'i ddau gyfaill i ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion. Buasent yn siriol ufuddhau i frenin Babilon mewn pethau *gwladol* teg; ond ni ferthyrent eu cydwybod, ac ni wadent eu crefydd er dim. Safasant yn hyf dawel dros eu Duw, pan oedd pawb yn syrthio o flaen y ddelw. Safasant pan dan holiad o flaen y brenin. Safasant pan oedd y "gwŷr cryfion nerthol" yn dyfod i'w rhwymo; ac nid ymollyngasant pan yn cael eu cario tua'r ffwrn: ond yr oedd Mab Duw ger llaw, er nad oeddynt yn ei weled. Aeth i'r ffwrn o'u blaen i ddiffodd angerdd y tân. Daeth yno i'r golwg, i'w hanrhydeddu a'u dyddanu. Gwelodd y brenin hwy oddi draw yn rhodio yn rhyddion yn nghanol y tân dan nawdd eu Ceidwad. Cyfododd ar frys, nesaodd yn synedig tua genau y ffwrn—cyfarchodd y tri fel gwasanaethwyr y Duw goruchaf—erfyniodd arnynt ddyfod allan o'r tân, a dyfod ato—arweiniodd hwynt at ei deyrngadair—ymdyrodd y tywysogion o'u hamgylch; gwelwyd na finiasai y tân ar eu cyrff, na ddeifiasai flewyn o'u pen, ac nad aethai sawr y tân arnynt. Plethodd y brenin ei ddwylaw, dan waeddi, "Bendigedig yw Duw Sadrach, Mesach, ac Abednego." Diflanodd gogoniant y ddelw; ni chanwyd anthem iddi byth eilwaith—aeth pawb i'w ffordd, i'r gwahanol daleithiau, gan gyhoeddi, yn ol esampl y brenin, nad oedd un duw a allai wared fel Duw y nefoedd. Mawrhawyd Sadrach, Mesach, ac Abednego, trymhawyd eu dylanwad, helaethwyd eu defnyddioldeb, cyfnerthwyd holl rasau eu crefydd, anfarwolwyd coffadwriaeth eu ffyddlondeb i'w Duw, a bydd cof am fuddugoliaeth eu ffydd yn ngwlad y gwynfyd.

Y mae hanes Abednego yn dangos i ieuenctyd werth crefydd fore. Os ydyw ieuenctyd am fod yn ddefnyddiol dros Dduw, y mae o bwys i ddechreu yn ddioed. Dengys ei hanes hefyd i rieni ac athrawon y dylid hyfforddi plant pan y bydd eu teimladau yn dyner. Darfu i ryw dad ffyddlawn, neu fam dyner, ddysgu Abednego pan oedd yn fachgen bach. Dichon fod ei fam yn gwlychu ei wyneb â dagrau, pan oedd yn cael ei gymmeryd oddi wrthi i gaethiwed: ac mai ei gair *olaf* iddo wrth ymadael oedd, "Cofia Dduw dy dadau." Dengys yr hanes fod cymdeithas yn fuddiol. Yr oedd yno dri mewn cyfammod i fod yn ffyddlawn i Dduw, ac yr oedd gair a gwên y naill yn gysur i'r lleill yn awr y brofedigaeth.

ABEL, [אבל, *tarth*, *gwagedd*]. Ceir ei hanes yn gyflawn yn yr adnodau canlynol:—*Gen.* iv. 2, 4, 8, 9, 10, 25; *Mat.* xxiii. 35; *Luc* xi. 50, 51; *Heb.* xi. 4; xii. 24; 1 *Ioan* iii. 12. Saif yn uchel yn mhlith enwogion yr hen oruchwyliaeth; y mae yn un o'r henuriaid yn y cwmwl tystion a osodwyd o'n hamgylch; ac y mae yr Ysbryd Glân wedi anfarwoli ei enw o blegid ei ffydd fywiol yn y Gwaredwr, a'i ymarweddiad sanctaidd. Y mae yn ymddangos mai efe oedd ail fab Adda, o'i wraig Efa. Y cyntaf a elwid Cain, enw yn dynodi *meddiant;* a'r rheswm a roddai ei fam am ei alw felly oedd, "Cefais ŵr gan yr Arglwydd." Efallai fod ffydd Efa yn yr addewid o Had y wraig, a'i fuddugoliaeth, wedi ei chryfhau drwy enedigaeth ei chyntafanedig, ac iddi roddi enw arno a ddynodai ei phrofiad hyderus a gorfoleddus ar yr achlysur; ond erbyn geni yr ail fab, yr ydoedd wedi profi yn helaethach o'r gwagedd a'r chwerwder cyssylltiedig â sefyllfa gwympiedig dynoliaeth; gan hyny, hi a alwodd ei enw ef *Abel*, neu yn hytrach *Hebel;* enw sydd yn ei ystyr gyntefig yn arwyddo *gwendid*, neu *gwagedd*, ac a ddefnyddir yn ei ail ystyr i ddynodi *gofid*, neu *galar*.

Pan drodd y ddau fab hyn allan, i ddechreu ymaflyd mewn rhyw alwedigaeth at eu cynnaliaeth, dewisodd Cain fod yn llafurwr y ddaiar, ac Abel a ymgymmerodd â bugeiliaeth praidd fel ei swydd, yr hon oedd yn alwedigaeth dra manteisiol i ŵr o feddylfryd crefyddol, y cyfryw ag oedd efe. Yr oedd bugeiliaeth yn swydd bwysig ac anrhydeddus yn y cyn oesoedd, a dilynwyd Abel ynddi

Digitized by Google

gan rai y mae eu henwau yn fwyaf peraroglaidd yn yr hanes ysgrythyrol; megys, Abraham, Isaac, a Iacob, Moses, a Dafydd, ac amryw o'r prophwydi.

Y mae i Abel air da gan y gwirionedd ei hunan, ac efe a elwid gan Grist ei hunan, "Abel gyfiawn;" a dywed Ioan am dano, fod "ei weithredoedd ef yn dda." Gwnaed ef yn gyfiawn yr un ffunud ag y gwneir rhai yn gyfiawn yn yr oes bresennol—trwy ras, trwy waed Crist, a thrwy ffydd yn ei waed ef; ac yn rhinwedd yr undeb bywiol oedd rhwng ei enaid a'r Gwaredwr addawedig, efe a alluogid i ddwyn ffrwythau cyfiawnder yn ei holl ymarweddiad, trwy yr hyn y profid ei fod yn feddiannol ar egwyddor gyfiawn, yn ddyn oedd wedi ei eni o Dduw.

Y mae sylw neillduol yn cael ei wneyd yn yr Ysgrythyrau ar offrwm Abel. "Ac Abel yntau a ddug o flaenffrwyth ei ddefaid, ac o'u brasder hwynt," yn offrwm i'r Arglwydd. "Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain." "A'r Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm." Y mae y crybwylliadau hyn yn arwain meddwl y darllenydd yn naturiol i ymofyn, Pa fodd y gallasai Abel feddwl fod eisieu aberthu i Dduw? Ni chymhellwyd hyny iddo gan natur na rheswm, ei farn, ei deimlad, na'i hunan-les; o blegid ymddengys fod dinystrio ffrwythau y ddaiar, a lladd a llosgi anifeiliaid, yn hollol groes i'r pethau yna: a pha feddwl dynol a allasai ddyfalu i sicrwydd y buasai y cyfryw aberthau yn gymmeradwy gan Dduw? Gan hyny, rhaid ei fod yn aberthu mewn ufudd-dod i orchymyn pendant Duw. Nid dyfais ddynol, galwad natur, cymhelliad rheswm, na dichell offeiriadol a barodd fod aberthu wedi dyfod i arferiad yn mysg dynion; ond gosodiad dwyfol. Y mae yn debyg fod Duw wedi gorchymyn hyny i Adda, a bod Abel yn aberthu yn ol esamplau ac addysg ei rieni, os na chafodd adnewyddiad o'r cyfryw orchymyn gan Dduw ei hunan.

Crybwyllir ryw adeg neillduol ar yr hon yr ymddangosai Cain ac Abel gyda'u hoffrymau ger bron yr Arglwydd. "A bu wedi talm o ddyddiau:" efallai mai y meddwl yw, wedi talm o ddyddiau wedi iddynt ddechreu llafurio y ddaiar a bugeilio y praidd; neu yn mhen ysbaid o amser ar ol iddynt dderbyn eu cynnyrchion. Neu, efallai fod y geiriau yn cyfeirio at ryw amser nodedig, megys y Sabbath.

Yr hyn a aberthodd oedd "blaenffrwyth ei ddefaid, a'u brasder hwynt;" *h. y.*, rhai o'r ŵyn *cyntaf* a lydnasant, a'r *goreuon* o honynt. Yr oedd Abel wedi ei argyhoeddi nad oedd modd cael maddeuant heb ollwng gwaed: ac yr oedd iaith fud arwyddluniol ei aberth yn dal allan wirioneddau mawrion yr efengyl i'w sylw ef, ac ereill, yn more oes y byd. Byddai tybied ei fod yn dwyn ei offrwm fel llwgr-rodd i'r Duwdod, er cael maddeuant—neu fod Duw yn gweithredol gospi yr anifail yn ei le ef, neu fod digon o rinwedd iawnol yn yr offrwm hwnw i symmud ei anwiredd—yn annheilwng o ddyn, ac yn sarhad ar Dduw, ac yn groes hollol i'r Ysgrythyrau: *Esa.* i. 11; *Heb.* x. 4.

Dywedir fod ei offrwm ef yn rhagori ar eiddo ei frawd: *Heb.* xi. 4. Rhagorai yr aberth o ran ysbryd a dybenion yr offrymydd; canys "trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain." Ac fe ddywedir ddarfod i Dduw edrych ar Abel, ac ar ei offrwm (*Gen.* iv. 4); *h.y.*, efe a gymmeradwyodd ansawdd meddwl yr offrymydd, ei egwyddorion a'i ddybenion, yn gyntaf, ac yna derbyniodd ei offrwm. Yr oedd efe yn nesau at Dduw yn edifeiriol, didwyll, a difrifol, gan ddwys deimlo ei euogrwydd, ei lygredd, a'i annheilyngdod. Credai ei fod yn haeddu marw, a chrynai ger bron yr uchel Dduw, canys efe a wyddai nad oedd ei offrwm gwael ef yn cynnwys un rhinwedd iawnol: ond defnyddiai ef yn unig fel cysgod o aberth Iesu; ac â'i holl galon ymaflodd yn yr aberth anfeidrol hwnw fel ei unig a'i ddigonol sail am faddeuant pechodau. Dyma ei ffydd ef, trwy yr hon y rhagorai ef a'i aberth gymmaint ger bron Duw ar Cain a'i offrwm.

Dywedir fod Duw wedi "dwyn tystiolaeth i'w roddion ef;" *Heb.* xi. 4. Ni chrybwyllir gan yr apostol, na chan Moses, pa fodd y gwnaed hyn. Barn gyffredin yr esbonwyr yw, i hyn gael ei wneyd trwy i dân ddisgyn o'r nefoedd i ysu ei aberth; ond nis meddwn un prawf o hyn, gan na roddodd yr haneswyr sanctaidd unrhyw awgrymiad i ni o hyny yn y Beibl. Y sail gryfaf dros olygu felly yw, bod Duw mewn oesoedd dilynol wedi dwyn tystiolaeth o'i gymmeradwyaeth o wasanaeth ei bobl yn y ffordd hono lawer gwaith: *Gen.* xv. 17; *Lef.* ix. 24; *Barn.* vi. 21; 1 *Bren.* xviii. 38. Ond gan fod hyny yn cael ei grybwyll yn bendant mewn amgylchiadau ereill, ac na chrybwyllir dim am y fath beth yn yr amgylchiad yma, y mae yn fwy tebyg na chymmerodd y fath wyrth le ar yr achlysur hwn; canys y mae yn dra thebyg y buasai y cyfryw ffaith osodedig—y wyrth gyntaf o'r fath mewn hanesiaeth—wedi ei chrybwyll gan yr hanesydd sanctaidd, pe y cymmerasai le. Gan hyny, yr ydym yn gorfod casglu mai mewn rhyw ffordd arall, anhysbys i ni yn bresennol, y dug Duw dystiolaeth o'i gymmeradwyaeth o Abel a'i roddion. Fe ymddyddanodd Duw â Chain; a thrwy ymddyddan, amlygodd ei anghymmeradwyaeth o'i ymddygiad ef; a pha ham na allasai efe ymddyddan âg Abel, a thrwy ymddyddan amlygu ei gymmeradwyaeth o hono ef a'i aberth? Ond pa fodd bynag y dygid y dystiolaeth hon, y mae yn amlwg fod Abel wedi deall drwyddi ei fod yn gyfiawn ger bron y Duw a addolai, a'i bod mor gyhoeddus fel ei deallid gan Cain yn gystal ag Abel. "A thrwyddi hi y mae efe wedi marw yn llefaru eto." Mae amryw o'r hen ysgrifau Groegaidd yn darllen y geiriau yn wahanol; fel hyn, "A thrwyddi hi y llefarir am dano eto;" *h. y., y canmolir ef eto.* Os dyma y darlleniad cywiraf, yna meddwl yr apostol oedd, fod y weithred ffyddiog yma o eiddo Abel wedi peri fod coffadwriaeth anrhydeddus am dano hyd ei ddyddiau ef. Ond, er fod amryw awduron dysgedig yn amddiffyn y darlleniad uchod, fe'n tueddir ni i gymmeradwyo yr hen ddarlleniad, o'r hwn y gwnaed ein cyfieithiad awdurdodedig,—"A thrwyddi hi, y mae efe, wedi marw, yn llefaru eto." Ymddengys fod yma gyfeiriad gan yr apostol at yr iaith a ddefnyddid yn *Gen.* iv. 10; "Llef gwaed dy frawd sydd yn gwaeddi arnaf fi o'r ddaiar;" ac mai ei amcan yma oedd darlunio Abel yn llefaru eto. Ac y mae ymadrodd i'r un perwyl yn cael ei ddefnyddio ganddo yn *Heb.* xii. 24; "A gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel:" lle yr awgrymai fod Abel a Christ yn llefaru eto. Trwy ei waith yn offrymu aberth gwaedlyd trwy ffydd, cyhoeddai Abel yn ei ddydd y gwirionedd pwysig mai trwy waed yn unig y mae i bechadur gael ei gyfiawnhau ger bron Duw; ac y mae yn parhau i lefaru o genedlaeth i genedlaeth, gan dystiolaethu mai un o egwyddorion cyntaf crefydd ddadguddiedig yw, nas gellir gwaredu oddi wrth

Digitized by Google

bechod mewn un ffordd arall. Gellid meddwl fod yr apostol yn bwriadu dangos fod rhyw leferydd neillduol gan ffydd Abel, a bod ei dduwioldeb ef yn meddu dylanwad parhaus er rhybuddio oesoedd dilynol o werthfawrogrwydd crefydd, ac o'r mawr bwys sydd yn yr athrawiaeth fawr o'r angenrheidrwydd am waed er gwneuthur cymmod dros anwiredd dyn.

Y mae yr ymadrodd, "gwaed y taenelliad," at yr hwn y cyfeiriwyd uchod, yn golygu aberth Crist; a'r ymadrodd, "na'r eiddo Abel," yn golygu ei offrwm yntau; trwy yr hyn y dangosai yr apostol mai gwaed Iesu oedd y sylwedd a gysgodid gan offrwm Abel. Ei amcan yma oedd cymharu yr Iesu âg Abel; nid er dangos fod tywalltiad gwaed y naill na'r llall yn galw am ddialedd, ond er dangos fod iachawdwriaeth trwy waed yn cael ei dadguddio yn eglurach yn nhrefn yr efengyl nag ei dadguddid dan yr hen oruchwyliaeth; ac felly, egluro yn gysson âg amcan yr epistol hwn ragoriaeth yr oruchwyliaeth Gristionogol ar bob un flaenorol iddi. Yr oedd gwaed Abel yn dywedyd yn ddystaw fod gorsedd y nef *yn gofyn iawn*, er maddeuant pechodau; ond yr oedd gwaed y taenelliad yn dywedyd yn uchel a chroew fod y llywodraeth ddwyfol *wedi cael iawn anfeidrol*—fod y Tad wedi tystio iddo gael boddlonrwydd ynddo, a bod maddeuant rhad a thragwyddol yn cael ei gynnyg i bob pechadur edifeiriol a chrediniol trwyddo. Yr oedd aberth Abel yn dywedyd trwy yr oesoedd nad oedd modd maddeu heb waed; ac fe gadarnhawyd hyny gan aberth anfeidrol Crist.

ABEL. Y mae dau air Hebraeg lled wahanol yn cael eu hysgrifenu yn *Abel* yn y cyfieithiadau cyffredin o'r Ysgrythyrau sanctaidd. Y blaenaf yw הבל, *Hebel*, enw ail fab Adda, yr hwn a arwydda *wendid* neu *wagedd;* ond yr olaf אבל, *Abel*, yn briodol felly, a arwydda *galar*, *lleithder*, a *glaswellt tr.* Y gair olaf hwn yw yr un a geir mor fynych yn ffurfio rhan o enwau gwahanol leoedd yn yr hanesiaeth sanctaidd; ac â hwn, felly, y mae a fynom ni yn yr erthygl hon. Gwelir fod i'r gair amryw ystyron; ond dichon nas gwelir yn union berthynas agos a naturiol y naill ystyr i'r llall. Prif ystyr y gair *Abel* yw *galar;* ond gwyddys fod galar yn amlygu ei hun yn gyffredin mewn dagrau; ac felly, gan fod y llygad gwlyb yn gydymaith gwastadol y galon drist, daeth y gair Hebraeg am alar i arwyddo *lleithder* yn gyffredinol; ac yna, am fod *lleithder* drachefn mor ffafriol i dyfiant ffrwythiannus glaswellt, daeth yr un gair i gynnwys yr ystyr hono hefyd! Ac felly, trwy drawsenwad naturiol, daeth y gair i ddynodi amryw *leoedd* yn sefyll ar wastattiroedd dyfredig a glaswelltog.

ABEL-BETH-MAACHAH. Yn mharthau gogleddol Palestina, heb fod yn mhell oddi wrth droed Libanus, gorwedda llecyn helaeth o wlad, yn ffurfio parth pwysig o Syria; gelwid y rhanbarth hwn, a hyny yn hir cyn dyfod o Israel i'r tir, yn "fro Maachathi;" *Deut.* iii. 14. Pan oresgynwyd y parth hwn gan blant Israel, dan Moses, rhoddwyd ef i hanner llwyth Manasseh yn feddiant (*Deut.* iii. 13, 14; *Ios.* xii. 5); ond ni buont alluog i'w feddiannu yn llawn erioed: *Ios.* xiii. 13. Yn y diriogaeth hon, neu o'r hyn lleiaf yn bur agos iddi, safai dinas, yr hon a elwid Abel; ac er mwyn ei hynodi, efallai, gelwid hi yn Abel-Beth-Maachah, *h. y.*, Abel *ger tŷ* neu *breswylfan Maachah.* Gelwid y lle hefyd yn Abel-Maim, neu *wastadedd y dyfroedd.* O gymharu 2 *Sam.* xx. 14, 15, 18, â'u gilydd, gwelir fod y lle yn cael ei alw yn Abel, ac yn Abel-Beth-Maachah: ac o gymharu 1 *Bren.* xv. 20, a 2 *Cron.* xvi. 4, â'u gilydd, gwelir yn gwbl eglur fod yr un lle yn cael ei alw yn Abel-Maim hefyd. Ymddengys fod y ddinas hon yn lle o gryn bwys yn y wlad yn y cynoesoedd; o blegid gelwir hi yn 2 *Sam.* xx. 19, yn "fam yn Israel." Gellid meddwl ei bod yn ddinas pur gadarn hefyd, canys pan gododd "Seba, mab Bicri, gŵr o Iemini," neu Beniamin, yn erbyn Dafydd, cawn mai iddi y ciliodd ef, mai ynddi yr ymsefydlodd, ac mai ynddi hefyd y lladdwyd ef: 2 *Sam.* xx. 1—22. Yn mhen pedwar ugain mlynedd ar ol hyn, ymosododd Benhadad, brenin Syria, ar Abel, a chymmerodd hi: 1 *Bren.* xv. 20. Ac yna, wedi i ddau gan mlynedd dreiglo ymaith, daeth Tiglath-pileser, brenin Assyria, i fyny yn ei herbyn; cymmerodd hi, gwnaeth hi yn ddifrod hollol, a danfonodd ei thrigolion i Assyria yn gaethion rhyfel: 2 *Bren.* xv. 29.

ABEL-CARMAIN, [*lle y gwinllanoedd*]: un o bentrefydd yr Ammoniaid, o ddeutu chwe milltir o Philadelphia, neu Rabbath Ammon, medd Eusebius, yn amser yr hwn yr oedd y lle yn parhau yn enwog am ei winllanoedd rhagorol: *Barn.* xi. 33.—(*Sept.*)

ABEL-MAIM. Gwel ABEL-BETH-MAACHAH.

ABEL-MEHOLAH: hyny yw, *gwastadedd y dawns.* Tref fechan yn meddiant Manasseh. Safai ar yr ochr orllewinol i'r Iorddonen, ac heb fod yn mhell oddi wrth ei glanau. Tybir ei bod o ddeutu deuddeng milltir ar ugain i'r gogledd-ddwyrain i Ierusalem, ac o ddeutu pedair milltir ar ddeg i'r deheu i Bethsean, neu Scythopolis: 1 *Bren.* iv. 12. Y mae dau amgylchiad nodedig wedi cyfranu at wneyd Abel-Meholah yn lle o fri yn yr hanes sanctaidd, er lleied a gwaeled ydoedd ynddo ei hun; sef buddugoliaeth orenwog Gideon ar y Midianiaid, yr hon a ymestynodd hyd yma (*Barn.* vii. 22); a genedigaeth yr enwog Eliseus, olynydd y Thesbiad, a gŵr Duw, o'i mewn: 1 *Bren.* xix. 16.

ABEL-MISRAIM; neu yn ol y Deg a Thrigain, Πένθος Αἰγύπτου, hyny yw, *galar yr Aiphtiaid.* Pan drengodd y patriarch Iacob yn nhir yr Aipht, dygwyd ef, yn ol ei orchymyn ei hun, i fyny i Ganaan, i'w gladdu: dodwyd ef gyda'i dadau, "yn ogof maes Macpelah." Yn ei ddygiad i fyny, anrhydeddwyd Ioseph, ei fab, gyda phresennoldeb holl henuriaid tŷ Pharaoh, a holl henuriaid yr Aipht. Wedi dyfod o'r fintai fawr hon "hyd lawr dyrnu Atad, yr hwn sydd dros yr Iorddonen;" hwy "a alarasant yno alar mawr, a thrwm iawn: canys gwnaeth [Ioseph] alar dros ei dad saith niwrnod:" a bu, "pan welodd y Canaaneaid, y rhai oedd yn preswylio yn y wlad, y galar yn llawr dyrnu Atad; yna y dywedasant, Dyma alar trwm gan yr Aiphtiaid: am hyny y galwasant ei enw Abel-Misraim, yr hwn sydd dros yr Iorddonen;" *Gen.* l. 10, 11. Y mae sefyllfa benodol y lle hwn yn anhysbys yn awr; ond gesyd Jerome ef i sefyll rhwng Iericho a'r Iorddonen, ger llaw y fan lle y safai Beth-hoglah, mewn dyddiau diweddarach.

ABEL-SITTIM; hyny yw, *gwastadedd Sittim.* Tref yn sefyll yn rhosydd Moab, o du y dwyrain

Digitized by Google

i'r Iorddonen. Un o wersyllfaoedd olaf meibion Israel, cyn cyrhaedd Canaan: *Num.* xxxiii. 49. Y mae y lle yn cael ei alw yn gyffredin yn Sittim yn y Beibl: *Micah* vi. 5. Dywed Eusebius ei fod yn agos i fynydd Peor. Adwaenid y lle yn nyddiau Josephus wrth yr enw Abila, a dywed ef fod y fan o ddeutu trigain ystâd oddi wrth yr Iorddonen. [*Hynafiaethau*, iv. 8, 1; v. 1, 1.] Y mae y lle yn hynod am y gosp lem a weinyddwyd ynddo ar blant Israel, o herwydd eu hymlygriad ffiaidd gyda'r Moabiaid: *Num.* xxv. 1—9. Oddi yma hefyd y danfonodd Iosuah y ddau ysbïwr hyny gynt i "edrych y wlad, a Iericho;" *Ios* ii. 1.

**ABELIAID**, [Seis., *Abelians*, neu *Abelites*.]: plaid o hereticiaid a gyfodasant i sylw yn agos i Hippo, yn Affrica. Eu prif ddaliad gwahaniaethol oedd, priodi, ac eto byw gyda'u gwragedd heb eu hadnabod. Yn ol yr hanes a rydd awdwyr am danynt, yr oeddynt yn selio y daliad hwn ar yr adnod hono—"Y mae yn ol, fod o'r rhai sydd â gwragedd iddynt, megys pe byddent hebddynt;" 1 *Cor.* vii. 29. Mae yn debygol y gelwid hwy wrth yr enw hwn, heb reswm yn y byd am hyny amgen na bod Abel heb hiliogaeth; nid am ddarfod iddo ymattal oddi wrth yr arfer naturiol o'r wraig ar ol priodi gwraig, ond o achos iddo gael ei ladd cyn priodi.

**ABER**, sydd gorff rhedegog o ddwfr croew. Mae yr aber yn anwastad yn maintioli ei dyfroedd. Mae ar amseroedd yn ddigon helaeth ei dyfroedd fel i deilyngu yr enw *afon*, ond buan y sycha i fyny, ac felly y gwahaniaethir hi oddi wrth afon. Mae aber yn arwyddo *heluethrwydd*. Mae amryw leoedd yn cael eu henwi oddi wrth gwymp yr aber fydd yn agos; megys, *Aber Teifi*, &c. Gwel 2 *Sam.* xvii. 20; 2 *Cron.* xxxii. 30; a *Iob* xx. 17. Gwel Afon.

**ABERTH**, ydyw rhoddiad creadur i farwolaeth, yn gyffredin trwy dywallt ei waed, a'i losgi ar allor, mewn trefn i heddychu Duw, trwy roddi iawn am yr anfri a daflwyd ar ei fawrhydi a'i lywodraeth. Mae *aberth* yn gwahaniaethu oddi wrth *offrwm*, am ei fod yn cynnwys rhoddi i farwolaeth; tra nad yw offrwm ond cyflwyniad o beth yn ei gyflwr neu ei gyfanrwydd naturiol, heb ei ddinystrio na gwneyd cyfnewidiad arno. Prif ddyben aberth ydyw gwneyd iawn, mewn trefn i sicrhau heddwch: ond defnyddid aberthau i ddybenion ereill, sef i gadarnhau cyfammod, i ddadgan diolchgarwch, ac fel erfyniad am drugaredd. Yr oedd yr arferiad o aberthu yn y byd er ei ddechreuad: *Gen.* iv. 3, 5; viii. 20; xii. 7; xv. 9—21; xx. 13. Dengys yr hanesion boreuaf fod yr arferiad wedi ymledaenu dros yr holl fyd adnabyddus. Mae hanesion boreuaf Groeg yn llawn o anghreifftiau o aberthau gwaedlyd, ac yn mhellach hefyd, o aberthau dynol. Mae y chwedl am Iphigenia yn cael ei haberthu gan ei thad, i ddyhuddo digofaint Diana, yn ddangosiad amlwg fod pwrcasu bywyd âg aberth yn unol â'u syniadau hwy. Nid ydyw gwirionedd chwedlau o'r fath o bwys yn y byd fel prawf o hanfodiad y teimlad o'r angenrheidrwydd am aberthau, a'u dybenion. Ond nid ydyw eu hanes yn amddifad o esamplau credadwy o aberthau dynol: a pharhaodd yr arferiad yn hir yn y cyrau hyny o'r wlad ag oedd yn mhell oddi wrth ddylanwad gwareiddiad. Aberthodd Themistocles, o flaen brwydr Salamis, rai o'r Persiaid, i Dionysus [*Plut. Them.* 13]. Yr oedd yr un syniad am effeithiolrwydd aberthau dynol yn ffynu yn mysg y Rhufeiniaid. Pan offrymodd Decius ei hun dros ei wlad, edrychid arno fel un wedi ei anfon i fod yn iawn i ddyhuddo digofaint y duwiau [*Liv.* viii. 9]. Dilynodd mab Decius ei esampl ychydig flyneddoedd yn ddiweddarach; a dywedodd, wrth wneuthur hyny, fod eu teulu hwy yn cael yr anrhydedd o fod yn ebyrth i symmud ymaith beryglon y wlad [*Liv.* x. 28]. Dywed Cæsar am y Derwyddon, mai eu barn hwy oedd, "nad oedd dim ond einioes a wnai iawn dros einioes;" ac felly, yr oedd aberthau dynol yn rhan sefydledig o'u haddoliad. [*De Bello Gallico*, vi. 16]. Yr oedd y Canaaneaid yn aberthu eu plant i farwolaeth, er anrhydedd eu duwiau (*Salm* cvi. 37; *Ier.* xix. 5). Mae ychydig anghreifftiau o'r lluaws mawr y mae Grotius, Dr. Magee, ac ereill, wedi eu casglu, yn ddigon i ddangos, er fod dynion heb ddadguddiad dwyfol wedi colli gwybodaeth am y gwir Dduw, eto nad oeddynt wedi colli y teimlad o euogrwydd, a'r angenrheidrwydd i'w symmud ymaith drwy aberthau.

Aberthau o anifeiliaid oedd y rhai lluosocaf yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Yr arferiad cyffredin yn yr oesoedd boreuaf oedd llosgi yr holl anifail (ὁλοκαυτειν); ac oddi wrth y gair hwn y cymmerir y gair *holacaust*, am aberthau a lwyr losgid ar yr allor. Ond yr arferiad mewn oesoedd diweddarach, fel y gwelwn yn Homer, oedd llosgi y coesau mewn brasder, a rhyw ranau o'r perfeddion, a gwledda ar y gweddill. Tybient fod y duwiau yn ymhyfrydu yn y mwg a esgynai oddi ar yr allor, a bod effeithiolrwydd yr aberth yn ymddibynu ar nifer yr anifeiliaid a offrymid. Felly, arferiad cyffredin oedd aberthu cant o ychain ar unwaith; a gelwid aberth felly, oddi wrth y nifer (ἑκατομβη, *hecatomb*): ond ni chyfyngwyd yr enw at y nifer, ond rhoddwyd ef ar bob aberth o bwysigrwydd mwy na chyffredin.

Mae gwahanol farnau mewn perthynas i ddechreuad yr arferiad o aberthu. Golyga rhai eu bod i'w hystyried yn rhoddion i gydnabod dibyniad yr offrymwr ar ei dduw, a thrwy hyny, i sicrhau ei ffafr, heb olygu fod dim anghydfod blaenorol rhyngddynt. Ond pe felly, blodau a ffrwythau fuasai y rhoddion mwyaf naturiol. Yr oedd rhoi creadur diniwed i farwolaeth yn annaturiol i ddangos teimlad o ddiolchgarwch. Syniad arall ydyw, fod aberth yn ddefod gyfammodol, ac yn wledd gyfeillgar, yn yr hon yr oedd yr addolwr a'i dduw yn cydgyfranogi ac yn mwynhau cyfeillach eu gilydd. Ond y mae hyn yn anghysson â'r hyn a gawn am aberthau yn Llyfr Genesis; o herwydd y prif aberth oedd y poeth offrwm, yr hwn a ddifäid yn llwyr ar yr allor, fel nad oedd dim yn cael ei adael i wledda arno. Mae yn wir mai y gair a ddefnyddir am aberthau Cain ac Abel, ydyw מנחה (*mincha*), yr hwn a arwydda *rhodd*, ac a ddefnyddir am bob math o offrwm; ac felly, er na ddywedir mai poeth-offrwm oedd aberth Abel, nid yw y gair yn anghysson â hyny. Ond y gair a ddefnyddir am aberth Noah (*Gen.* viii. 20); Abraham (*Gen.* xxii. 7, 8, 13; *Iob* i. 5); ydyw עלה (*holu*), yr hwn a arwydda *llwyr losgiad*, *ac esgyniad tua'r nefoedd mewn mwg.* Yn hanesion y Groegiaid, darlunir Jupiter fel wedi ei ddigio, am fod Prometheus wedi cadw y goreu o'r anifail yn ymborth, yn lle llosgi y cyfan ar yr allor. Priodola ereill yr arferiad i goelgrefydd a dyfeisiau dynion; a bod yr Arglwydd, er mwyn amddifadu addolwyr y gau dduwiau o honynt, wedi eu cymmeryd i'w addoliad ei hun, er nad oedd efe yn eu cymmeradwyo ynddynt eu hunain. Nid ydyw

Digitized by Google

un o'r esboniadau hyn yn dangos gwir natur aberth, fel moddion i heddychu dyn â Duw trwy iawn; a'u dyben ydyw symmud ymaith rym yr ymresymiad, sydd yn codi o'r arferiad cyffredinol o aberthu, dros y gwirionedd sylfaenol hwn. Mae rhesymau cryfion dros gredu fod yr arferiad o aberthu wedi ei sefydlu gan Dduw ei hun er dechreuad y byd, i'r dyben o gynnefino dynolryw â'r syniad, ac i'w parotoi i dderbyn y drefn ogoneddus i'w hadferu oddi wrth ganlyniadau y cwymp trwy iawn. Ac y mae hyn wedi tycio—mae y syniad am heddwch trwy aberth wedi myned yn gyffredinol. 1. Dangosir eu tarddiad dwyfol yn y dosbarthiad a wnaed rhwng anifeiliaid glân ac aflan cyn y dylif, cyn i ddyn gael caniatâd i ddefnyddio cig anifeiliaid yn ymborth; gan hyny, y mae yn rhaid mai gyda golwg ar aberthu y gwnaed y dosbarthiad. 2. Mae y gwaharddiad i fwyta gwaed, ar ol rhoddi caniatâd i fwyta cig, yn brawf: *Gen.* ix. 4. Y rheswm dros wahardd gwaed oedd, mai yn y gwaed y mae yr einioes, a bod yr einioes, neu y gwaed, i'w offrymu ar yr allor i wneyd cymmod dros yr enaid: *Lef.* xvii. 11. Er na sonir am wneyd cymmod â'r gwaed yn y gwaharddiad cyntefig yn Genesis, eto fe roddir yn rheswm yno, mai y gwaed ydyw yr einioes; ac y mae yn anhawdd gweled rheswm yn hyn, ond a geir yn Lefiticus, sef, fod einioes yn lle einioes—fod gwaed yr anifail i fod yn aberth dros fywyd y dyn. Yr oedd Duw yn hòni hawl yn y gwaed fel cyfrwng cymmod âg ef ei hun. Nid oedd dyn i'w fwyta tra y byddai iawn heb ei gael. 3. Er mor fynych y cyfeirir at aberthau yn mysg y patriarchiaid cyntefig, ni sonir unwaith am offrwm diwaed ar ol offrwm gwrthodedig Cain: *Gen.* viii. 20; xv. 9, 10; xxii. 13; *Iob.* i. 5; xlii. 8, 9; *Exod.* v. 3; x. 26; xii. 3—7. 4. Nid oes un rheswm boddhaol pa ham y gwisgwyd ein rhieni cyntaf mewn peisiau crwyn, ond eu bod yn grwyn yr anifeiliaid a laddwyd yn ebyrth. Nid oedd caniatâd i fwyta eu cig; ac mae yn annhebygol y rhoddwyd hwynt i farwolaeth er mwyn cael eu crwyn yn wisg, gan y gallesid cael defnyddiau ereill. Yma yn ddiau yr ydym yn cael y sefydliad cyntaf o aberthu gan Dduw ei hun. 5. Yn hanes Cain ac Abel y cawn yr hanes cyntaf am aberthu wrth ei enw: *Gen.* iv. 3, 4. Yr oedd offrwm Cain yn wrthodedig, ond "yr Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm." Pa beth oedd yr achos fod un yn dderbyniol, a'r llall heb fod? Yn *Heb.* xi. 3, dywedir, "Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain." Nid gwahaniaeth cymmeriad moesol y ddau frawd oedd yr achos o'r gwahaniaeth yn nerbyniad eu hebyrth; ond yn eu ffydd yr oedd y gwahaniaeth. Yr oedd gwahaniaeth yn yr aberthau eu hunain: "ffrwyth y ddaiar" oedd un; ond "ffrwyth y defaid, a'u brasder," oedd y llall. Yr oedd rhagoriaeth yn perthyn i aberth Abel, o ran ei werth, ac hefyd o ran ei gymhwysder; ond yr oedd y rhagoriaeth hwn yn tarddu o'i ffydd. Mae ffydd yn edrych yn ol at ryw ddadguddiad blaenorol, fel sail ei hymddiried, ac yn amlygu ei hun mewn gweithred unol â natur y dadguddiad hwnw. Dadguddiodd ffydd Noah ei hun yn unol â natur y dadguddiad a roddwyd iddo, trwy adeiladu arch. Yr addewid i Abraham oedd, y byddai Canaan yn etifeddiaeth i'w had: ac felly, aeth o Ur y Caldeaid mewn ffydd, i gymmeryd meddiant o honi. Gwrthododd Moses gyfoeth yr Aipht, am fod ganddo olwg ar gyfoeth gwell, yn ol yr addewid i'w dadau. Yr un modd yr oedd Abel yn gweithredu yn unol â dadguddiad blaenorol, mai y ffordd gymmeradwy i bechadur nesau at Dduw oedd trwy aberth, a hwnw yn aberth gwaedlyd. Dywed Calvin, gan mai i ffydd Abel y priodolir rhagoriaeth ei aberth, y mae yn canlyn, (1.) Mai nid heb orchymyn y cyflwynodd ei aberth, er nad yw y gorchymyn i lawr. (2.) Gan fod ufudd-dod yn well nag aberth y pryd hwnw, fel ar ol hyny, y mae yn rhaid fod Abel, wrth offrymu, yn rhoi ufudd-dod i Dduw, ac nid yn dilyn ei fympwy ei hun. (3.) Gan fod Duw bob amser yn debyg iddo ei hun, heb ymhyfrydu mewn addoliad allanol a chnawdol, ac eto fod aberthau oes gyntaf y byd yn gymmeradwy ganddo, mae yn rhaid fod meddyliau yr addolwyr yn ymgodi at ddirgeledigaethau gogoneddus, nas gallasai ond dadguddiad dwyfol eu hamlygu iddynt. Mae Jonathan Edwards yn crynoi ei sylwadau ar hyn i'r geiriau canlynol:—"Yn fuan ar ol y cwymp y sefydlwyd aberthau, i fod yn gysgodau o aberth Crist. Nid dan y ddeddf y sefydlwyd hwynt gyntaf—yr oeddynt yn rhan o addoliad gosodedig Duw o'r dechreuad. Yr oedd eu cymmeradwyaeth yn brawf o'u dwyfol osodiad. Mae goleuni natur yn erbyn lladd anifeiliaid fel addoliad i Dduw: a chan nad yw yn orchymynedig gan ddeddf natur, mae yn rhaid fod gorchymyn pendant yn sail yr arferiad; o herwydd y mae Duw wedi dadgan ei anfoddlonrwydd yn erbyn awdurdod ac athrawiaethau dynol yn ei addoliad ef: *Esa.* xxix. 13. Nid oes gan ddynion sail i ddysgwyl ei gymmeradwyaeth, ond yn yr hyn sydd o'i ordeiniad, ac mewn canlyniad i'w addewid."

Y peth cyntaf ar ol codi y tabernael yn yr anialwch a sefydlodd yr Arglwydd oedd yr aberthau hyny, trwy ba rai yr ydoedd yn dewis i'r bobl nesau ato ef trwyddynt. Aberthu oedd yn gwneyd i fyny eu haddoliad cyhoeddus; ïe, yn mhellach, yr oedd yr holl genedl fel yn pwrcasu eu bywyd trwy aberthu; yr oedd pob un fel yn cydnabod nad oedd ganddo hawl i fyw, ond trwy brynu ei fywyd â bywyd rhyw greadur yn ei le. Yr oedd yr holl gyfundrefn gostus hono wedi ei chyfaddasu yn y modd doethaf i drosglwyddo i'r meddwl, trwy synwyrau y corff, syniadau eglur am *haeddiant* dyn fel troseddwr; *cyfiawnder* Duw yn gofyn iawn; *anallu* dyn, trwy unrhyw ddyfais o'i eiddo, i ddianc rhag y gosp haeddiannol; *trugaredd* Duw yn dyfeisio trefn maddeuant; mai trefn trwy *gyfrifiad* ac *aberth* ydyw hono; *perthynas* yr offrymwr â'r aberth; *cyffesiad* yr offrymwr o'i haeddiant, a'i *dderbyniad* o'r drefn.

Mae yr aberthau i'w golygu (1.) Yn eu perthynas â Duw, fel brenin Israel: ac yn (2.) Yn eu perthynas âg ef fel llywydd moesol y byd;—neu, i osod yr un peth mewn geiriau ereill, o ran eu rhinwedd yn y gyfundrefn yr oeddynt yn rhan o honi: ac yn (3.) Yn eu perthynas âg aberth Crist. Yn yr ystyr gyntaf, yr oedd iddynt rinwedd gwirioneddol. Yr oeddynt yn ateb yr un dyben yn llywodraeth wladol Israel ag y mae aberth Crist yn ateb yn llywodraeth foesol y byd. Yr oedd eu rhinwedd yn codi o osodiad Duw; ond yr oedd y gosodiad hwnw yn peri fod yr un grym ynddynt ag oedd yn mhob rhan o'r cyfammod cenedlaethol hwnw. Yr oedd yr addewidion i ufudd-dod, y bygythion am anufudd-dod—gwobr, a chosp—yn wirioneddol; ac yn dangos eu hunain felly yn llwyddiant ac aflwyddiant y genedl, eu hamddiffyniad yn eu gwlad eu hunain, a'u halltudiad i wlad eu gelynion. Nid oeddynt yn cyrhaedd, mae yn wir, yn mhellach na phethau gweledig; ond yn y cylch hwnw, ni allasai gobaith ddysgwyl am ddim uwch, nac ofn arswydo rhag dim trymach.

Digitized by Google

i'r Iorddonen. Un o wersyllfaoedd olaf meibion Israel, cyn cyrhaedd Canaan: *Num.* xxxiii. 49. Y mae y lle yn cael ei alw yn gyffredin yn Sittim yn y Beibl: *Micah* vi. 5. Dywed Eusebius ei fod yn agos i fynydd Peor. Adwaenid y lle yn nyddiau Josephus wrth yr enw Abila, a dywed ef fod y fan o ddeutu trigain ystâd oddi wrth yr Iorddonen. [*Hynafiaethau*, iv. 8, 1; v. 1, 1.] Y mae y lle yn hynod am y gosp lem a weinyddwyd ynddo ar blant Israel, o herwydd eu hymlygriad fflaidd gyda'r Moabiaid: *Num.* xxv. 1—9. Oddi yma hefyd y danfonodd Iosuah y ddau ysbiwr hyny gynt i "edrych y wlad, a Iericho;" *Ios* ii. 1.

**ABELIAID**, [Seis., *Abelians*, neu *Abelites.*]: plaid o hereticiaid a gyfodasant i sylw yn agos i Hippo, yn Affrica. Eu prif ddaliad gwahaniaethol oedd, priodi, ac eto byw gyda'u gwragedd heb eu hadnabod. Yn ol yr hanes a rydd awdwyr am danynt, yr oeddynt yn selio y daliad hwn ar yr adnod hono—"Y mae yn ol, fod o'r rhai sydd â gwragedd iddynt, megys pe byddent hebddynt;" 1 *Cor.* vii. 29. Mae yn debygol y gelwid hwy wrth yr enw hwn, heb reswm yn y byd am hyny amgen na bod Abel heb hiliogaeth; nid am ddarfod iddo ymattal oddi wrth yr arfer naturiol o'r wraig ar ol priodi gwraig, ond o achos iddo gael ei ladd cyn priodi.

**ABER**, sydd gorff rhedegog o ddwfr croew. Mae yr aber yn anwastad yn maintioli ei dyfroedd. Mae ar amseroedd yn ddigon helaeth ei dyfroedd fel i deilyngu yr enw *afon*, ond buan y sycha i fyny, ac felly y gwahaniaethir hi oddi wrth afon. Mae aber yn arwyddo *helaethrwydd*. Mae amryw leoedd yn cael eu henwi oddi wrth gwymp yr aber fydd yn agos; megys, *Aber Teifi*, &c. Gwel 2 *Sam.* xvii. 20; 2 *Cron.* xxxii. 30; a *Iob* xx. 17. Gwel Afon.

**ABERTH**, ydyw rhoddiad creadur i farwolaeth, yn gyffredin trwy dywallt ei waed, a'i losgi ar allor, mewn trefn i heddychu Duw, trwy roddi iawn am yr anfri a daflwyd ar ei fawrhydi a'i lywodraeth. Mae *aberth* yn gwahaniaethu oddi wrth *offrwm*, am ei fod yn cynnwys rhoddi i farwolaeth; tra nad yw offrwm ond cyflwyniad o beth yn ei gyflwr neu ei gyfanrwydd naturiol, heb ei ddinystrio na gwneyd cyfnewidiad arno. Prif ddyben aberth ydyw gwneyd iawn, mewn trefn i sicrhau heddwch: ond defnyddid aberthau i ddybenion ereill, sef i gadarnhau cyfammod, i ddadgan diolchgarwch, ac fel erfyniad am drugaredd. Yr oedd yr arferiad o aberthu yn y byd er ei ddechreuad: *Gen.* iv. 3, 5; viii. 20; xii. 7; xv. 9—21; xx. 13. Dengys yr hanesion boreuaf fod yr arferiad wedi ymledaenu dros yr holl fyd adnabyddus. Mae hanesion boreuaf Groeg yn llawn o anghreifftiau o aberthau gwaedlyd, ac yn mhellach hefyd, o aberthau dynol. Mae y chwedl am Iphigenia yn cael ei haberthu gan ei thad, i ddyhuddo digofaint Diana, yn ddangosiad amlwg fod pwrcasu bywyd âg aberth yn unol â'u syniadau hwy. Nid ydyw gwirionedd chwedlau o'r fath o bwys yn y byd fel prawf o hanfodiad y teimlad o'r angenrheidrwydd am aberthau, a'u dybenion. Ond nid ydyw eu hanes yn amddifad o esamplau credadwy o aberthau dynol: a pharhaodd yr arferiad yn hir yn y cyrau hyny o'r wlad ag oedd yn mhell oddi wrth ddylanwad gwareiddiad. Aberthodd Themistocles, o flaen brwydr Salamis, rai o'r Persiaid, i Dionysus [*Plut. Them.* 13]. Yr oedd yr un syniad am effeithiolrwydd aberthau dynol yn ffynu yn mysg y Rhufeiniaid. Pan offrymodd Decius ei hun dros ei wlad, edrychid arno fel un wedi ei anfon i fod yn iawn i ddyhuddo digofaint y duwiau [*Liv.* viii. 9]. Dilynodd mab Decius ei esampl ychydig flyneddoedd yn ddiweddarach; a dywedodd, wrth wneuthur hyny, fod eu teulu hwy yn cael yr anrhydedd o fod yn ebyrth i symmud ymaith beryglon y wlad [*Liv.* x. 28]. Dywed Cæsar am y Derwyddon, mai eu barn hwy oedd, "nad oedd dim ond einioes a wnai iawn dros einioes;" ac felly, yr oedd aberthau dynol yn rhan sefydledig o'u haddoliad. [*De Bello Gallico*, vi. 16]. Yr oedd y Canaaneaid yn aberthu eu plant i farwolaeth, er anrhydedd eu duwiau (*Salm* cvi. 37; *Ier.* xix. 5). Mae ychydig anghreifftiau o'r lluaws mawr y mae Grotius, Dr. Magee, ac ereill, wedi eu casglu, yn ddigon i ddangos, er fod dynion heb ddadguddiad dwyfol wedi colli gwybodaeth am y gwir Dduw, eto nad oeddynt wedi colli y teimlad o euogrwydd, a'r angenrheidrwydd i'w symmud ymaith drwy aberthau.

Aberthau o anifeiliaid oedd y rhai lluosocaf yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Yr arferiad cyffredin yn yr oesoedd boreuaf oedd llosgi yr holl anifail (ὁλοκαυτειν); ac oddi wrth y gair hwn y cymmerir y gair *holacaust*, am aberthau a lwyr losgid ar yr allor. Ond yr arferiad mewn oesoedd diweddarach, fel y gwelwn yn Homer, oedd llosgi y coesau mewn brasder, a rhyw ranau o'r perfeddion, a gwledda ar y gweddill. Tybient fod y duwiau yn ymhyfrydu yn y mwg a esgynai oddi ar yr allor, a bod effeithiolrwydd yr aberth yn ymddibynu ar nifer yr anifeiliaid a offrymid. Felly, arferiad cyffredin oedd aberthu cant o ychain ar unwaith; a gelwid aberth felly, oddi wrth y nifer (ἑκατομϐη, *hecatomb*): ond ni chyfyngwyd yr enw at y nifer, ond rhoddwyd ef ar bob aberth o bwysigrwydd mwy na chyffredin.

Mae gwahanol farnau mewn perthynas i ddechreuad yr arferiad o aberthu. Golyga rhai eu bod i'w hystyried yn rhoddion i gydnabod dibyniad yr offrymwr ar ei dduw, a thrwy hyny, i sicrhau ei ffafr, heb olygu fod dim anghydfod blaenorol rhyngddynt. Ond pe felly, blodau a ffrwythau fuasai y rhoddion mwyaf naturiol. Yr oedd rhoi creadur diniwed i farwolaeth yn annaturiol i ddangos teimlad o ddiolchgarwch. Syniad arall ydyw, fod aberth yn ddefod gyfammodol, ac yn wledd gyfeillgar, yn yr hon yr oedd yr addolwr a'i dduw yn cydgyfranogi ac yn mwynhau cyfeillach eu gilydd. Ond y mae hyn yn anghysson â'r hyn a gawn am aberthau yn Llyfr Genesis; o herwydd y prif aberth oedd y poeth offrwm, yr hwn a ddifäid yn llwyr ar yr allor, fel nad oedd dim yn cael ei adael i wledda arno. Mae yn wir mai y gair a ddefnyddir am aberthau Cain ac Abel, ydyw מנחה (*mincha*), yr hwn a arwydda *rhodd*, ac a ddefnyddir am bob math o offrwm; ac felly, er na ddywedir mai poeth-offrwm oedd aberth Abel, nid yw y gair yn anghysson â hyny. Ond y gair a ddefnyddir am aberth Noah (*Gen.* viii. 20); Abraham (*Gen.* xxii. 7, 8, 13; *Iob* i. 5); ydyw עלה (*hola*), yr hwn a arwydda *llwyr losgiad, ac esgyniad tua'r nefoedd mewn mwg.* Yn hanesion y Groegiaid, darlunir Jupiter fel wedi ei ddigio, am fod Prometheus wedi cadw y goreu o'r anifail yn ymborth, yn lle llosgi y cyfan ar yr allor. Priodola ereill yr arferiad i goelgrefydd a dyfeisiau dynion; a bod yr Arglwydd, er mwyn amddifadu addolwyr y gau dduwiau o honynt, wedi eu cymmeryd i'w addoliad ei hun, er nad oedd efe yn eu cymmeradwyo ynddynt eu hunain. Nid ydyw

Digitized by Google

un o'r esboniadau hyn yn dangos gwir natur aberth, fel moddion i heddychu dyn â Duw trwy iawn: a'u dyben ydyw symmud ymaith rym yr ymresymiad, sydd yn codi o'r arferiad cyffredinol o aberthu, dros y gwirionedd sylfaenol hwn. Mae rhesymau cryfion dros gredu fod yr arferiad o aberthu wedi ei sefydlu gan Dduw ei hun er dechreuad y byd, i'r dyben o gynnefino dynolryw â'r syniad, ac i'w parotoi i dderbyn y drefn ogoneddus i'w hadferu oddi wrth ganlyniadau y cwymp trwy iawn. Ac y mae hyn wedi tycio—mae y syniad am heddwch trwy aberth wedi myned yn gyffredinol. 1. Dangosir eu tarddiad dwyfol yn y dosbarthiad a wnaed rhwng anifeiliaid glân ac aflan cyn y dylif, cyn i ddyn gael caniatâd i ddefnyddio cig anifeiliaid yn ymborth; gan hyny, y mae yn rhaid mai gyda golwg ar aberthu y gwnaed y dosbarthiad. 2. Mae y gwaharddiad i fwyta gwaed, ar ol rhoddi caniatâd i fwyta cig, yn brawf: *Gen.* ix. 4. Y rheswm dros wahardd gwaed oedd, mai yn y gwaed y mae yr einioes, a bod yr einioes, neu y gwaed, i'w offrymu ar yr allor i wneyd cymmod dros yr enaid: *Lef.* xvii. 11. Er na sonir am wneyd cymmod â'r gwaed yn y gwaharddiad cyntefig yn Genesis, eto fe roddir yn rheswm yno, mai y gwaed ydyw yr einioes; ac y mae yn anhawdd gweled rheswm yn hyn, ond a geir yn Lefiticus, sef, fod einioes yn lle einioes—fod gwaed yr anifail i fod yn aberth dros fywyd y dyn. Yr oedd Duw yn honi hawl yn y gwaed fel cyfrwng cymmod âg ef ei hun. Nid oedd dyn i'w fwyta tra y byddai iawn heb ei gael. 3. Er mor fynych y cyfeirir at aberthau yn mysg y patriarchiaid cyntefig, ni sonir unwaith am offrwm diwaed ar ol offrwm gwrthodedig Cain: *Gen.* viii. 20; xv. 9, 10; xxii. 13; *Iob.* i. 5; xlii. 8, 9; *Exod.* v. 3; x. 26; xii. 3—7. 4. Nid oes un rheswm boddhaol pa ham y gwisgwyd ein rhieni cyntaf mewn peisiau crwyn, ond eu bod yn grwyn yr anifeiliaid a laddwyd yn ebyrth. Nid oedd caniatâd i fwyta eu cig; ac mae yn annhebygol y lladdwyd hwynt i farwolaeth er mwyn cael eu crwyn yn wisg, gan y gallesid cael defnyddiau ereill. Yma yn ddiau yr ydym yn cael y sefydliad cyntaf o aberthu gan Dduw ei hun. 5. Yn hanes Cain ac Abel y cawn yr hanes cyntaf am aberthu wrth ei enw: *Gen.* iv. 3, 4. Yr oedd offrwm Cain yn wrthodedig, ond "yr Arglwydd a edrychodd ar Abel, ac ar ei offrwm." Pa beth oedd yr achos fod un yn dderbyniol, a'r llall heb fod? Yn *Heb.* xi. 3, dywedir, "Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain." Nid gwahaniaeth cymmeriad moesol y ddau frawd oedd yr achos o'r gwahaniaeth yn nerbyniad eu hebyrth; ond yn eu ffydd yr oedd y gwahaniaeth. Yr oedd gwahaniaeth yn yr aberthau eu hunain: "ffrwyth y ddaiar" oedd un; ond "ffrwyth y defaid, a'u brasder," oedd y llall. Yr oedd rhagoriaeth yn perthyn i aberth Abel, o ran ei werth, ac hefyd o ran ei gymhwysder; ond yr oedd y rhagoriaeth hwn yn tarddu o'i ffydd. Mae ffydd yn edrych yn ol at ryw ddadguddiad blaenorol, fel sail ei hymddiried, ac yn amlygu ei hun mewn gweithred unol â natur y dadguddiad hwnw. Dadguddiodd ffydd Noah ei hun yn unol â natur y dadguddiad a roddwyd iddo, trwy adeiladu arch. Yr addewid i Abraham oedd, y byddai Canaan yn etifeddiaeth i'w had. ac felly, aeth o Ur y Caldeaid mewn ffydd, i gymmeryd meddiant o honi. Gwrthododd Moses gyfoeth yr Aipht, am fod ganddo olwg ar gyfoeth gwell, yn ol yr addewid i'w dadau. Yr un modd yr oedd Abel yn gweithredu yn unol â dadguddiad blaenorol, mai y ffordd gymmeradwy i bechadur nesau at Dduw oedd trwy aberth, a hwnw yn aberth gwaedlyd. Dywed Calvin, gan mai i ffydd Abel y priodolir rhagoriaeth ei aberth, y mae yn canlyn, (1.) Mai nid heb orchymyn y cyflwynodd ei aberth, er nad yw y gorchymyn i lawr. (2.) Gan fod ufudd-dod yn well nag aberth y pryd hwnw, fel ar ol hyny, y mae yn rhaid fod Abel, wrth offrymu, yn rhoi ufudd-dod i Dduw, ac nid yn dilyn ei fympwy ei hun. (3.) Gan fod Duw bob amser yn debyg iddo ei hun, heb ymhyfrydu mewn addoliad allanol a chnawdol, ac eto fod aberthau oes gyntaf y byd yn gymmeradwy ganddo, mae yn rhaid fod meddyliau yr addolwyr yn ymgodi at ddirgeledigaethau gogoneddus, nas gallasai ond dadguddiad dwyfol eu hamlygu iddynt. Mae Jonathan Edwards yn crynoi ei sylwadau ar hyn i'r geiriau canlynol:—"Yn fuan ar ol y cwymp y sefydlwyd aberthau, i fod yn gysgodau o aberth Crist. Nid dan y ddeddf y sefydlwyd hwynt gyntaf—yr oeddynt yn rhan o addoliad gosodedig Duw o'r dechreuad. Yr oedd eu cymmeradwyaeth yn brawf o'u dwyfol osodiad. Mae goleuni natur yn erbyn lladd anifeiliaid fel addoliad i Dduw: a chan nad yw yn orchymynedig gan ddeddf natur, mae yn rhaid fod gorchymyn pendant yn sail yr arferiad; o herwydd y mae Duw wedi dadgan ei anfoddlonrwydd yn erbyn awdurdod ac athrawiaethau dynol yn ei addoliad ef: *Esa.* xxix. 13. Nid oes gan ddynion sail i ddysgwyl ei gymmeradwyaeth, ond yn yr hyn sydd o'i ordeiniad, ac mewn canlyniad i'w addewid."

Y peth cyntaf ar ol codi y tabernacl yn yr anialwch a sefydlodd yr Arglwydd oedd yr aberthau hyny, trwy ba rai yr ydoedd yn dewis i'r bobl nesau ato ef trwyddynt. Aberthu oedd yn gwneyd i fyny eu haddoliad cyhoeddus; ïe, yn mhellach, yr oedd yr holl genedl fel yn pwrcasu eu bywyd trwy aberthu; yr oedd pob un fel yn cydnabod nad oedd ganddo hawl i fyw, ond trwy brynu ei fywyd â bywyd rhyw greadur yn ei le. Yr oedd yr holl gyfundrefn gostus hono wedi ei chyfaddasu yn y modd doethaf i drosglwyddo i'r meddwl, trwy synwyrau y corff, syniadau eglur am *haeddiant* dyn fel troseddwr; *cyfiawnder* Duw yn gofyn iawn; *anallu* dyn, trwy unrhyw ddyfais o'i eiddo, i ddianc rhag y gosp haeddiannol; *trugaredd* Duw yn dyfeisio trefn maddeuant; mai trefn trwy *gyfrifiad* ac *aberth* ydyw hono; *perthynas* yr offrymwr â'r aberth; *cyffesiad* yr offrymwr o'i haeddiant, a'i *dderbyniad* o'r drefn.

Mae yr aberthau i'w golygu (1.) Yn eu perthynas â Duw, fel brenin Israel: ac yn (2.) Yn eu perthynas âg ef fel llywydd moesol y byd;—neu, i osod yr un peth mewn geiriau ereill, o ran eu rhinwedd yn y gyfundrefn yr oeddynt yn rhan o honi: ac yn (3.) Yn eu perthynas âg aberth Crist. Yn yr ystyr gyntaf, yr oedd iddynt rinwedd gwirioneddol. Yr oeddynt yn ateb yr un dyben yn llywodraeth wladol Israel ag y mae aberth Crist yn ateb yn llywodraeth foesol y byd. Yr oedd eu rhinwedd yn codi o osodiad Duw; ond yr oedd y gosodiad hwnw yn peri fod yr un grym ynddynt ag oedd yn mhob rhan o'r cyfammod cenedlaethol hwnw. Yr oedd yr addewidion i ufudd-dod, y bygythion am anufudd-dod—gwobr, a chosp—yn wirioneddol; ac yn dangos eu hunain felly yn llwyddiant ac aflwyddiant y genedl, eu hamddiffyniad yn eu gwlad eu hunain, a'u halltudiad i wlad eu gelynion. Nid oeddynt yn cyrhaedd, mae yn wir, yn mhellach na phethau gweledig; ond yn y cylch hwnw, ni allasai gobaith ddysgwyl am ddim uwch, nac ofn arswydo rhag dim trymach.

Digitized by Google

Yr oedd yr un rhinwedd yn perthyn i'w haberthau yn y cyfammod yr oedd Israel yn byw dano. Ond yn eu perthynas â llywodraeth foesol Duw, sydd yn cynnwys tynged ysbrydol a thragwyddol dynion, nid oedd iddynt ddim rhinwedd; cysgodau yn unig oeddynt o'r aberth mawr oedd i dynu ymaith bechodau y byd. Ac fel y gallent fod yn gysgodau priodol o aberth gwell, yr oedd yn angenrheidiol eu bod yn meddu ar rinwedd gwirioneddol i ryddhau oddi wrth gospedigaethau gwladol, ac aflendid seremoniol. Yr oedd holl oruchwyliaeth Moses yn ateb dyben presennol i'r rhai oedd yn byw dani, yr ydoedd hefyd yn rhagarweiniad i gyfammod gwell. Felly yr aberthau. Mor sicr ag yr ydoedd rhyddhad oddi wrth gospedigaeth dymmorol trwy yr aberthau hyny, y mae rhyddhad oddi wrth farwolaeth dragwyddol trwy aberth Crist. Mor eglur ydyw y prawf oddi wrth aberthau y gyfraith, fod Crist wedi marw i wneuthur iawn, fel y mae y rhai sydd yn gwadu hyn yn ceisio dirymu y prawf o'i wirionedd trwy wadu natur iawnol yr aberthau hyny. Y ddwy brif wrthddadl a ddygir yn mlaen yn erbyn eu golygu yn aberthau i wneyd iawn neu gymmod ydynt—1. Nad oedd un aberth a arbedai fywyd dyn wedi ei euogfarnu o drosedd angeuol. 2. Am y troseddau hyny nad oedd y gyfraith wedi penodi cosp angeuol drostynt, ond dirwyau arianol a chaethiwed personol, nad oedd aberthau yn ddigonol i ryddhau oddi wrth y rhwymedigaethau hyny. Mae y ddau beth hyn yn wir, ac eto nid ydynt yn gwrthbrofi fod yr aberthau wedi eu gosod i wneyd cymmod. Er bod rhai troseddau nad oedd aberth trostynt, megys cabledd, eilunaddoliaeth, llofruddiaeth, godineb; eto, troseddau oedd y rhai hyn oedd yn taraw yn erbyn eu cyfansoddiad gwladol. Nid nad oedd aberthau yn gwneuthur cymmod yn yr amgylchiadau y trefnwyd hwynt oedd yr achos fod y dynion a gaed yn euog o'r troseddau hyn yn cael eu rhoddi i farwolaeth yn ddiarbed, ond o herwydd bod yn anghysson âg egwyddorion sylfaenol y cyfammod hwnw, ac â hanfodiad y genedl mewn undeb â'u gilydd, i osod ac i ganiatau aberthau yn yr amgylchiadau hyny.

Ond er mai y troseddwyr rhyfygus hyn oedd yr unig rai a gospid â marwolaeth yn ol y gyfraith wladol, eto, nid hwy oedd yr unig rai oedd yn haeddu marwolaeth yn ol y ddeddf foesol. Cyhoeddiad hon oedd, "melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur." Ac un o ddybenion cyfammod Sinai ydoedd, bod yn arddangosiad o egwyddorion deddf a chyfiawnder, ac o ammodau bywyd yn ngwyneb deddf. Felly, buasai pob trosedd o gyfraith Moses yn rhwymo y troseddwr i ddyoddef marwolaeth, ond fel yr oedd aberthau yn eu rhyddhau oddi wrth y rhwymedigaeth hono. Ymddengys yn amlwg, wrth edrych dros y gyfraith Iuddewig, fod yr Arglwydd wedi trefnu aberth i fod yn iawn iddo ef fel brenin gwladol am y troseddau nad oeddynt yn perthyn i'r dosbarth o bechodau rhyfygus: *Lef.* i. 4; v. 15, 16; xvi. 34; xvii. 11. Am ddydd mawr y cymmod y dywedir, "Dydd cymmod yw, i wneuthur cymmod drosoch ger bron yr Arglwydd;" *Lef.* xxiii. 28. Mae y gair כפר *(copher)* a gyfieithir *iawn*, a *gwneyd cymmod*, yn arwyddo *cuddio, taenu dros*, ac felly yn dyfod i arwyddo *heddychu, cymmodi, dyhuddo*, trwy fod y trosedd yn cael ei guddio â gwaed. Mae amgylchiadau offrymiad yr aberth yn ddangosiad gweledig o'i natur. Wrth edrych ar berchenog yr anifail yn dyfod â'r goreu o'i eidionau neu ei braidd at yr allor, yn gosod ei law ar ei ben, yr offeiriad yn tywallt ei waed, yn ei wahanu, ac yn ei losgi yn y tân, a'r offrymwr yn cydnabod wrth wneuthur arwydd gweledig o drosglwyddiad ei droseddau ei hun ar yr aberth—"Yn awr, O Arglwydd, mi a bechais, ac a wnaethym anwiredd; ond yr ydwyf yn dychwelyd mewn edifeirwch i dy bresennoldeb, a bydded hwn yn iawn drosof"—mae yn anhawdd dychymygu pa fodd y gallesid dangos yn amlycach fod trosedd yn cael ei drosglwyddo neu ei gyfrif ar ben yr aberth, a'i fod yn cael ei roddi i farwolaeth er mwyn arbed bywyd y troseddwr. Mae aberthau dydd mawr y cymmod yn dangos yn eglurach nag un arall mai eu dyben oedd dwyn ymaith bechodau. Rhoddir un bwch i farwolaeth yn bechaberth, taenellir ei waed o flaen y drugareddfa, yna dygir y bwch diangol ger bron, ac ar ol i'r offeiriad osod ei ddwylaw ar ei ben, a chyffesu holl anwireddau a chamweddau meibion Israel, anfonir ef ymaith yn fyw, yn fwch diangol, i'r anialwch, gan ddwyn ymaith bechodau y bobl. Gwel Bwch diangol.

Nid er mwyn yr argraffiadau moesol ar yr offrymwr y sefydlwyd aberthau yn gyntaf ac yn benaf. Yr oedd yn rhaid dwyn yr aberthau at y tabernacl, ac yno eu hoffrymu. Pe na buasai ond argraffiadau da ar yr offrymwr yn unig mewn golwg, ni buasai o bwys yn mha le yr offrymid hwynt. Ond yr oeddynt i gael eu cyflwyno i breswylydd mawr y tabernacl a'r deml yn ei wydd ef, i ddangos eu bod yn rhywbeth, yn eu cyfeiriad cyntaf, i'r ddeddf, i gyfiawnder, ac i Dduw.

Mae y pwys o gadw natur iawnol aberthau y gyfraith mewn golwg yn codi oddi ar y goleu a rydd hyny i ni ar aberth Crist. Nid ydyw ysgrifenwyr y Testament Newydd yn rhoddi un awgrymiad fod y crybwylliadau a'r cyfeiriadau at yr Hwn a aberthodd ei hun yn ddifai i Dduw, i'w deall mewn ystyr wahanol i'r ystyr a briodolid i'r aberthau yr oedd yr Iuddewon yn gydnabyddus â hwy. Dyben yr aberthau hyny oedd parotoi meddyliau dynion i dderbyn syniadau cywir am angeu Mab Duw. Pe na buasai aberthau y gyfraith wedi eu bwriadu i fod yn gysgodau o aberth gwell i ddyfod, mae yr hyn a ddywedwyd am natur iawnol yr aberthau hyny yn para yn ei rym fel prawf mai marw yn aberth i wneyd iawn a ddarfu Iesu Grist. Pa beth bynag oeddynt hwy yn y trefniant tymmorol a gweledig hwnw, y mae angeu Crist yr unrhyw yn llywodraeth Duw ar y byd. Os oeddynt i fod yn lle y troseddwr, gwaed am waed, einioes am einioes, felly y mae yr angeu rhyfedd a dirgeledig hwnw.

Ac hefyd yr oeddynt hwy wedi eu trefnu fel cysgodau i fod yn rhagddangosiad o hyny. "Y gyfraith sydd ganddi gysgod daionus bethau i ddyfod;" *Heb.* x. 1. "Y rhai ydynt gysgod pethau i ddyfod, ond y corff sydd o Grist;" *Col.* ii. 17. "Yr hwn ydoedd gyffelybiaeth;" *Heb.* ix. 9. Yn *adn.* 23, gelwir hwynt yn "bortreiadau y pethau sydd yn y nefoedd."

Mae *amrywiaeth* aberthau y gyfraith yn fater teilwng o sylw, er mwyn y fantais a geir ynddynt i weled mawredd a pherffeithrwydd aberth Crist. Dyben yr amrywiaeth hwn ydyw, dangos y gwahanol ystyriaethau y gallwn edrych ar bechod ynddynt, amrywiaeth angenion pechadur yn y canlyniad, a holldigonolrwydd aberth Crist fel iawn am bechod, yn holl eangder a dyfnder ei bechadurusrwydd. Yn nechreu Lefiticus, ni a welwn fod *pum* math o aberthau wedi eu sefydlu:—

Digitized by Google

1. *Y poeth-offrwm.* [עֹלָה, *hola, holacaust=whole burnt offering*]. Yr oedd y cwbl o'r poeth-offrwm yn cael ei losgi ar yr allor, ond y croen yn unig; yr holl anifail yn esgyn megys yn y tân: ac ystyr y gair Hebraeg *hola*, am yr aberth hwn, ydyw "aberth esgynol." Yr olwg a gawn ar bechod yma, ydyw, diffyg caru Duw â'r holl galon. Mae y ddeddf yn gofyn fod y cwbl sydd gan ddyn, ei holl galon, ei holl enaid, a'i holl nerth i esgyn, i gael eu cyssegru i Dduw. Yr oedd y poeth-offrwm yn gyfaddefiad na chafwyd hyny gan ddyn; ond fod hyny i'w gael yn Nghrist. Cyflwynodd ei hun yn aberth llosg cyfan—*whole burnt offering*—i'w Dad drosom ni. Yn yr aberth hwn hefyd, cedwir o flaen y meddwl y boddlonrwydd a roddodd Crist i ofynion cyfiawnder. Yr ydoedd yn "aberth tanllyd o arogl peraidd i'r Arglwydd;" *Lef.* i. 9. Yr oedd ei fywyd yn gyssegriad perffaith i ewyllys ei Dad: *Ioan* iv. 34; x. 18; xii. 27, 28; *Mat.* xxvi. 42; *Phil.* ii. 8; *Heb.* x. 7—9.

2. *Y bwyd-offrwm.* Y gair מִנְחָה (*mincha*), a gyfieithir *bwyd-offrwm*, a arwydda *rhodd* neu *offrwm*. Offrwm o beillied wedi ei gymmysgu âg olew a thus ydoedd. Fod y bwyd-offrwm yn cyfranogi o natur yr aberthau oedd yn gwneyd cymmod sydd amlwg: "Am hyny y tyngais wrth dŷ Eli, na wneir iawn am anwiredd tŷ Eli âg aberth, nac â bwyd-offrwm byth;" 1 *Sam.* iii. 14. "Os yr Arglwydd a'th annogodd di i'm herbyn, arogled offrwm" (bwyd-offrwm); 1 *Sam.* xxvi. 19. Yr oedd yr offrwm hwn yn ddangosiad o berffeithrwydd cymmeriad Crist fel aberth. Mae pechod, nid yn unig yn ddiffyg o ymgyflwyniad i Dduw, ond y mae yn llygru y nodweddiad drwyddo. Nis gellir ysgar y ddau beth hyn oddi wrth eu gilydd, eto y mae yn fanteisiol i edrych arnynt ar wahan. Yr oedd peilliad, olew, thus, a halen, i fod yn bresennol yn y bwyd-offrwm; a'r cwbl yn arddangos purdeb a pherffeithrwydd moesol. Gwaherddir surdoes a mêl; nid oedd dim surni, na dim oedd yn ddarostyngedig i ymweithio a suro, fel mêl, i fod ynddo. Nid teimladau naturiol oedd hynawsedd a daioni Crist. Ni wnaeth ddim ond er gogoniant Duw. Halen, nid mêl, oedd yn ei ddangos ef. Cyflwynodd berffeithrwydd a rhinwedd ei nodweddiad i Dduw wrth farw.

3. *Yr aberth hedd.* [שְׁלָמִים, *shelamin.*] I ddynodi cyflawnder, neu berffeithrwydd, y mae yr Hebraeg yn fynych yn defnyddio y rhif lluosog: felly yma, "aberth yr heddychau," heddwch yn ei gyflawnder, pob heddwch. Yn yr aberth hwn, nid oedd dim yn cael ei losgi ond y rhanau mwyaf mewnol: *Lef.* iii. Onid allwn weled yma y ddarpariaeth sydd yn yr aberth mawr ar gyfer halogrwydd ein natur. Cyflwynodd efe natur sanctaidd, yn ei thueddiadau a'i hegwyddorion dirgelaf. Yr oedd yr aberth hedd yn dangos *effaith* marwolaeth Crist—sef heddwch. Dyma yr unig aberth gwaedlyd ag yr oedd caniatâd i'r offrymwr gyfranogi o hono. Ar ol llosgi y rhanau tufewnol, yr oedd y gweddill yn myned i hulio bwrdd yr offrymwr; yr oedd tân yr allor a'r offrymwr yn ymborthi ar yr un aberth. Mae y cymhwysiad yn amlwg.

4. *Yr aberth dros bechod,* a'r *aberth dros gamwedd.* Mae y gair Hebraeg am *bech-aberth*, yr un a'r gair am *bechod* (חַטָּאת, *chatath*). Yr un gair hefyd sydd am *gamwedd* ag sydd am *aberth dros gamwedd*, sef אָשָׁם (*asham*). Dengys hyn yn amlwg mor agos yr ystyrid y berthynas rhwng yr aberthau hyn â'r hyn yr oeddynt yn gwneuthur iawn drostynt. Ystyr gwreiddiol *chata* (*pechu*) yr un fath a'r Groeg ἁμαρτάνω, ydyw, *gwyro*, neu *fethu y nod* neu y llwybr. Ystyr cyntaf *asham* ydyw *esgeulusdra*, yn enwedig mewn rhodiad, heb fod yn annhebyg i παράπτωμα yn Groeg. Mae yn anhawdd penderfynu y gwahaniaeth rhwng pechod a chamwedd; ac fe ddywed Müller fod yn anmhosibl dyfod i benderfyniad boddlonol. Dywed rhai mai y gwahaniaeth ydyw, fod pechod yn gyflawniad o'r hyn a waherddid ei wneuthur; a chamwedd ydyw esgeuluso gwneyd yr hyn a orchymynid: ond os edrychir yn fanwl (*Lef.* iv, v), gwelir mai nid hyn ydyw y gwahaniaeth. Golyga ereill mai pechod ydyw anwybodaeth o'r ddeddf, ac mai camwedd ydyw anwybodaeth o drosedd neillduol o'r ddeddf. Dywed y Dr. Owen, fod aberth dros gamwedd yn fath o attodiad at y pech-aberth, i'w gyflwyno mewn amgylchiadau oedd heb ddyfod o fewn cylch deddf y pech-aberth. Os cymharwn *Lef.* iv, lle y cawn ddeddf y pechaberth, â'r vi, sydd yn cynnwys cyfarwyddiadau yr aberth dros gamwedd, gwelir y gwahaniaeth mawr yma rhyngddynt—fod y gyntaf yn cyfeirio at bechodau a gyflawnwyd mewn anwybod, "pan becho y dyn mewn anwybod yn erbyn yr un o orchymynion yr Arglwydd;" ond yn *Lef.* vi. 2, gwelwn mai yn fwriadol y cyflawnir y weithred. Mor bell a hyn, y mae y gwahaniaeth rhyngddynt yn amlwg—un dros bechod o anwybod, a'r llall dros bechod o fwriad. Ond y mae pechodau o anwybodaeth yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth eu gilydd. Mae anwybodaeth yn fwriadol neu yn anfwriadol, ac y mae hyn yn peri fod gwahaniaeth yn y pechodau a gyflawnir yn y ddau gyflwr hyn. Anwybodaeth noeth ydyw gwraidd un, ond y mae esgeulusdra, os nad dymuniad i gael ei dwyllo, yn chwanegu at euogrwydd y llall; er hyny, y mae gwahaniaeth rhyngddynt â phechodau gwirfoddol; maent yn cyfranogi o natur pechodau o anwybod, ac hefyd o bechodau o fwriad. Anwybodaeth, ond anwybodaeth fwriadol, ydyw eu gwraidd. At bechodau o'r natur yma y mae *Lef.* v. yn cyfeirio. Yr oedd y pechaberth dros bechodau o anwybodaeth, a'r aberth dros gamwedd yn gwneyd iawn am bechodau o fwriad: ond dros bechodau o *anwybodaeth fwriadol* yr oedd aberth neillduol, yn gynnwysedig o'r ddau beth arall, sef dros gamwedd, a thros bechod; a hyny gyda phriodoldeb mawr, am fod anwybodaeth a bwriad yn cyfarfod yn y pechodau hyn.

Yn ngoleu y pech-aberth, ni a welwn nad ydyw anwybodaeth ddim yn ddigon o esgus dros y pechodau a gyflawnir trwyddo; yr oedd yn rhaid gwneyd iawn drostynt âg aberth. Nid y weithred a gyflawnwyd, gymmaint ag agwedd y galon a ganiatâai gyflawnu y fath weithred, heb wybod ei fod yn bechod, oedd yn cyfansoddi ei echryslonrwydd. Nid oes dim yn tueddu gymmaint i ddallu y meddwl ag ydyw gŵyrdroi a chamddefnyddio y gwirionedd. I gydwybod dyner sydd yn ofni fod llawer o bechodau wedi eu cyflawnu, nad yw hi yn gwybod am danynt, yr unig sail heddwch ydyw Crist fel ein *pech-aberth*.

I gyfarfod troseddau *bwriadol* y sefydlwyd yr aberth dros gamwedd: *Lef.* vi. Nid ydyw hyn yn cynnwys eu bod yn waeth na phechodau o anwybod. Mae pechodau bwriadol weithiau yn llai echryslawn na phechodau o anwybod, pan y mae yr anwybodaeth yn effaith cariad at y tywyllwch a hir bechu yn erbyn y goleuni, fel y mae y goleuni mewn dyn wedi myned yn dywyllwch. Mae y troseddau a grybwyllir yn *Lef.* vi yn droseddau yn erbyn cymmydog; ond y mae troseddau felly yn droseddau yn erbyn Duw hefyd, ac y mae yn rhaid iddo ef gael aberth drostynt.

Digitized by Google

Syniad arall am natur yr offrwm dros gamwedd ydyw, ei fod yn aberth dros bechod nad oedd neb yn gwybod am dano ond yr hwn a'i cyflawnodd. Yr oedd y gyfraith yn gofyn iawn dros bechodau felly. Yr oedd ein Meichiau yn aberth dros gamwedd:—"Yr Arglwydd a fynai ei ddryllio ef; efe a'i clwyfodd; pan osodo efe ei enaid yn aberth dros *gamwedd*" (אשם, *asham*); *Esa.* liii. 10. Yr ydoedd hefyd yn aberth dros bechod:—"ac efe a ddug *bechodau* laweroedd."

Pa olwg bynag a gymmerir ar bechod, fel diffyg o ymgyssegriad perffaith i ewyllys Duw—fel halogedigaeth nodweddiad personol—fel llygriad natur a gelyniaeth wreiddiol at Dduw—fel pechodau gweithredol, a hyny pan gyflawnir hwynt yn y fath hollol anwybodaeth fel na ŵyr y gydwybod mai pechodau ydynt; neu pan gyflawnir hwynt yn wybyddus ac yn fwriadol, gan wrthod gorchymynion a gwaharddiadau y ddeddf:—pa ddirgelwch bynag sydd mewn pechod, a dirgelwch ydyw—pa ddyfnder, pa uchder, pa hyd, pa led bynag—y mae amrywiaeth aberthau y gyfraith wedi eu trefnu gyda'r doethineb mwyaf, i ddangos fod dirgelwch cyfatebol yn aberth Crist—ei fod yn ddigon i wneyd iawn *i guddio* holl echryslonedd pechod, a hyny yn ngwyneb cyfiawnder tragwyddol. "Lle yr amlhaodd pechod, y rhagor amlhaodd gras."—*(Outram De Sacrif.; Magee, on the Atonement; Pye Smith, on the Sacrifice of Christ; Lightfoot de Ministerio Templi; Owen on the Hebrews.)*

**ABES**, [אבץ, *wy*]: dinas o fewn terfynau llwyth Issachar: *Ios.* xix. 20.

**ABESTA**: enw un o lyfrau sanctaidd doethion Persia, a briodolir ganddynt i sylfaenydd crefydd y Magi—Zoroaster. Mae hwn, a dau lyfr arall y mae yn esboniad arnynt, yn cynnwys yn nghyd y cyfan o gyfundrefn addolwyr tân.

**ABĠARUS**, neu **AGBARUS**, brenin Edessa, yn Mesopotamia, yr hwn, medd Eusebius, a ysgrifenodd lythyr at ein Hiachawdwr, ac a gafodd atebiad grasusol oddi wrtho; ac y mae y ddau lythyr wedi eu cadw gan yr hanesydd hwnw. Er bod rhai dysgedigion yn amddiffyn eu gwiredd, ystyrir hwynt yn gyffredinol yn ffugiol. Mae yr epistol a gyfrifir i Grist yn annheilwng o hono, ac yn ymddangos fel clytwaith, wedi ei gymmeryd allan o'r Efengylau. Nid tebyg yw y buasai dim wedi ei ysgrifenu gan ein Hiachawdwr â'i law ei hun yn aros yn anadnabyddus i bawb o'r byd hyd amser Eusebius, ond yn hytrach y buasai yn rhan arbenig o'r Testament Newydd. Mae y chwedl ddarfod i'n Hiachawdwr anfon darlun o hono ei hun gyda'r llythyr, yn anhygoel a phlentynaidd. Nid yw y llythyr breninol chwaith wedi ei ysgrifenu yn arddull tywysog dwyreiniol.—*(Buck, Mosheim, &c.)*

**ABI**, [אבי, *fy nhad*]: merch Zachariah, a mam y brenin Hezeciah: 2 *Bren.* xviii. 2. Abïah y gelwir hi yn 2 *Cron.* xxix. 1.

1. **ABIAH**, [אביה, *yr Arglwydd yw fy nhad*]: un o feibion Samuel, i'r hwn yr ymddiriedid gweinyddiad barn yn mysg y bobl; a'r hwn, yn nghyd â'i frawd Ioel, trwy gymmeryd gwobr er gwyro barn, a roddes achlysur i Israel i ofyn am frenin: 1 *Sam.* viii. 2—5; 1 *Cron.* vi. 28.

2. **ABIAH**, mab Ieroboam I, brenin Israel. Ei gystudd trwm a gymhellodd ei dad i beri i'w wraig ymddyeithro, a dwyn anrheg gyda hi i Siloh, er ymgynghori â'r hen brophwyd Ahïah mewn perthynas i'w anhwyldeb. Y prophwyd hwn oedd yr un a ragfynegasai, yn nyddiau Solomon, y dyrchefid Ieroboam i fod yn frenin ar Israel. Er ei fod y pryd hyn yn ddall gan henaint, a bod gwraig Ieroboam wedi ymddyeithro ar ei dyfodiad ato, hysbyswyd iddo gan yr Arglwydd pwy ydoedd, a pha beth oedd ei neges, a rhoddwyd cenadwri chwerw iddo i'w thraethu wrthi; sef, gan mai Abïah oedd yr unig un o holl dylwyth Ieroboam y caed peth daioni ynddo tuag at Arglwydd Dduw Israel, mai efe oedd yr unig un o'r tylwyth hwnw a ddeuai i'r bedd mewn heddwch, ac y galerid am dano yn Israel. Ac felly, ar ddychweliad y fam adref, bu farw y gŵr ieuanc, fel yr oedd hi yn dyfod i drothwy y tŷ; a holl Israel a alarasant am dano ef: 1 *Bren.* xiv. 1—18.

3. **ABIAH**, yr hwn hefyd a elwir **Abiam** yn 1 *Bren.* xv. 1; mab Rehoboam, ac ŵyr Solomon, a'r ail frenin ar Iudah, wedi ysgariad y deg llwyth oddi wrth dŷ Dafydd. Efe a ddechreuodd deyrnasu tua'r flwyddyn 957 c.c., yn y ddeunawfed flwyddyn i Ieroboam, brenin Israel, a thair blynedd y teyrnasodd efe. Efe a wnaeth ymdrech egnïol ar ddechreuad ei deyrnasiad i ddychwelyd y deg llwyth dan arglwyddiaeth coron Iudah; ond er iddo ennill buddugoliaeth nodedig ar Ieroboam, yr hwn oedd ganddo ddau cymmaint o wŷr yn y gâd ag efe, a chymmeryd amryw o'i ddinasoedd, ni bu yn llwyddiannus yn ei amcan. Fe'n hysbysir fod yn bresennol yn y frwydr uchod wyth gan mil o wŷr o du Ieroboam, a phedwar can mil o du Abïah, a bod pum can mil wedi eu gadael yn lladdedig ar y maes: 2 *Cron.* xiii. Er fod yr adroddiad a gawn ni yn y Cronicl am ymddygiad Abïah o flaen y frwydr hon, a'i gyfarchiad i'w wŷr, yn peri i ni edrych arno fel dyn yn feddiannol ar ryw fesur o deimladau crefyddol, fe'n hysbysir yn y Breninoedd, iddo rodio yn holl bechodau ei dad, y rhai a wnaethai efe o'i flaen ef; ac nad oedd ei galon ef berffaith gyda'r Arglwydd ei Dduw: 1 *Bren.* xv. 1—8.

4. **ABIAH**, un o hiliogaeth Eleazar, fab Aaron; offeiriad, a phenaeth yr wythfed dosbarth yn ngwasanaeth y deml. Pan ddychwelodd yr Iuddewon o gaethiwed Babilon, ni chafwyd ond pedwar dosbarth o'r pedwar ar ugain y rhanwyd yr offeiriaid iddynt yn amser Dafydd: ac nid oedd dosbarth Abïah yn un o honynt: *Ezra* ii. 36—39; *Neh.* vii. 39—42; xii. 1. Ond fe ranwyd y pedwar dosbarth hyn yn bedwar ar ugain drachefn, a rhoddwyd yr un enwau arnynt ag oedd arnynt cyn y caethiwed. Ac felly yr oedd Zechariah, tad Ioan Fedyddiwr, o'r dosbarth hwn: 1 *Cron.* xxiv. 10; *Luc* i. 5.

**ABIALBON**, [אביעלבון, *y tad mwyaf deallgar*]: un o gedyrn Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 31. Gelwir ef "Abialbon yr Arbathiad," wrth yr hyn y gellir casglu ei fod o dylwyth Caleb, i'r hwn y rhoddwyd maes Caer Arba, a'i phentrefydd, yn etifeddiaeth: *Ios.* xxi. 11, 12. Efe a elwir "Abiel yr Arbathiad," yn 1 *Cron.* xi. 32.

**ABIASAPH**, [אביאסף, *tad cynnullydd*]: mab Corah, a brawd Assir ac Elcanah, o lwyth Lefi: *Exod.* vi. 24.

**ABIATHAR**, [אביתר, *tad y llawnder*]. Y degfed archoffeiriad Iuddewig, a'r pedwerydd o Eli. Pan y lladdwyd ei dad, Ahimelech yr archoffeiriad, yn nghyd â'r offeiriaid yn Nob, gan ei drwg-

Digitized by Google

dybid o fod yn dueddol i'r ffoadur Dafydd, fe lwyddodd Abïathar i ddianc o ddwylaw y lleidd-iaid, a chan ddwyn yr ephod yn ei law, efe a ddaeth i ogof Adulam at Dafydd: 1 *Sam.* xxii. 20—23; a xxiii. 6. Efe a dderbyniwyd yn roes-awus gan Dafydd, a gweinyddodd fel offeiriad iddo ef a'i ganlynwyr yn ystod eu halltudiaeth a'u crwydriadau, gan ymofyn â'r Arglwydd dros Dafydd, pan fyddai mewn unrhyw gyfyng-gynghor: a phan ddyrchafwyd Dafydd i fod yn frenin ar Iudah, efe a osododd Abïathar yn arch-offeiriad. Yn y cyfamser, penodasid Sadoc yn archoffeiriad gan Saul, ac efe a barhaodd i wein-yddu y swydd fel y cyfryw, tra yr oedd Abïathar yn archoffeiriad yn Iudah. Yr oedd penodiad Sadoc i'r swydd, nid yn unig yn gyfreithlawn, ond yn unol â'r ddedfryd ddwyfol o ddiswyddiad a gyhoeddasid trwy Samuel ar dŷ Eli: 1 *Sam.* ii. 30—36. Gan hyny, pan ddaeth llywodraeth holl Israel a Iudah i ddwylaw Dafydd, nid oedd ganddo sail gyfiawn, na rheswm teg dros ddiswyddo Sadoc, a gosod Abïathar yn ei le ef; ac efallai y buasai cynnyg y fath beth yn dramgwyddedig i'w ddeiliaid newyddion, y rhai a ymarferasant â gweinidogaeth Sadoc; a diau ei fod o gryn bwys gan y brenin ennill bodd y dosbarth yma o'i ddeiliaid ar ddechreuad ei deyrnasiad arnynt. Gan hyny, er ysgoi y dyryswch yma, caniataodd Dafydd i'r ddau benodiad sefyll; ac felly, bu Abïathar a Sadoc yn gyd-archoffeiriaid hyd ddiw-edd teyrnasiad Dafydd: ond nid oes genym un-rhyw hysbysiad pa fodd y trefnid gweinyddiad dyledswyddau y swydd rhyngddynt dan yr am-gylchiad dyeithrol hwn. Y mae yn ddiau fod Abïathar yn berffaith hysbys, gan ei fod yn archoffeiriad, o'r bwriad dwyfol i Solomon ddilyn ei dad yn y llywodraeth; gan hyny, gellir barnu ei fod ef y lleiaf ei esgus, ar ryw gyfrifon, o bawb o'r rhai a geisient wrthdroi yr amcan hwnw, trwy gyfodi Adonïah i'r orsedd. Ac yn y golygiad hwnw, dybygid, yr edrychai Solomon ar ei ym-ddygiad, yr hwn, wrth ei ddiswyddo o'r arch-offeiriadaeth, ac erchi iddo ymneillduo i sefyllfa o anghyhoeddusrwydd, a ddywedai wrtho yn eglur, mai cyssegredigaeth ei swydd, a'i wasanaeth blaen-orol i'w dad, y brenin Dafydd, yn unig a barai nas rhoddid ef i farwolaeth. Trwy y diswyddiad yma ar Abïathar y cyflawnid y ddedfryd a gy-hoeddasid er ys talm ar dŷ Eli, yr hwn oedd o linach Ithamar, mab ieuangaf Gerson. Yr oedd Sadoc, yr hwn a arosodd yn yr archoffeiriadaeth, o linach hynaf Eleazar. Mae yn debyg nad oedd yn ddrwg gan Solomon gael achlysur i adferu yr archoffeiriadaeth i un linach, a hono yr hynaf, yn ol y trefniant gwreiddiol: 1 *Bren.* i. 7, 19; a ii. 26, 27.

Fe grybwyllir yn *Marc* ii. 26 am amgylchiad megys wedi cymmeryd lle dan archoffeiriadaeth Abïathar, yr hwn a gymmerodd le mewn gwirion-edd dan archoffeiriadaeth ei dad, Ahimelech, fel y gwelir oddi wrth 1 *Sam.* xxi. 1. Mae llawer o gyn-nygiadau wedi cael eu gwneyd i egluro y dyrys-wch ymddangosiadol yma: efallai mai y tebycaf i fod yn gywir yw yr hwn a ddeongla y cyfeiriad yn Marc fel hyn:—"Yn nyddiau Abïathar, *yr hwn wedi hyn a fu yn archoffeiriad.*" (Gwel yr Esgob Middleton, *Greek Article*, td. 188—190.) Ond y mae hyn yn gadael anhawsder arall o flaen y dar-llenydd, yr hwn a ddeillia oddi ar gyfeiriad llwyr wrthwyneb, yn 2 *Sam.* viii. 17; 1 *Cron.* xviii. 16; a xxiv. 3, 6, 31, lle y sonir am Ahimelech, neu Abimelech, fab Abïathar, fel yr un oedd yn gyd-archoffeiriad â Sadoc, ac a ddiswyddwyd gan Solomon, tra y mae yr hanes a feddwn mewn rhanau ereill o'r Ysgrythyr, fel y dangoswyd eisoes, yn darlunio y gŵr hwnw fel Abïathar, mab Abimelech, neu Ahimelech. Yr unig eglurhad a ymddengys yn symmud ymaith yr holl anhaws-derau hyn yn fwyaf effeithiol, yw y dybiaeth o fod y tad a'r mab yn dwyn arnynt y ddau enw, Abimelech ac Abïathar; ac y gallent, a'u bod yn cael eu galw wrth y naill neu y llall. Ond, er nad oedd yn beth anghyffredin i'r Iuddewon feddu dau enw, nid oedd yn beth arferol i'r ddau, y tad a'r mab, feddu yr unrhyw ddau enw. Gan hyny, yr ydym ni yn tueddu i adael yr ymadrodd yn *Marc* ii. 26, fel ei eglurwyd uchod; a chasglu y gallasai yr anghyssonderau ereill gael eu hachosi drwy drawsddodiad anfwriadol y geiriau gan ryw ysgrifenydd ar y dechreu, yr hyn a ddilynid gan ysgrifenyddion ereill ar ei ol: ac fe gadarnheir y dybiaeth yna gan yr ystyriaeth fod y darlleniad yn gywir, sef "Abïathar fab Abimelech," yn yr hen gyfieithiadau Arabaidd a Syriaidd.

ABIB, [אביב], y mis cyntaf yn y flwyddyn wladol Iuddewig, yn cynnwys 30 niwrnod: *Exod.* xiii. 4; xxiii. 15; *Deut.* xvi. 1. Dechreuai gyda lleuad newydd mis Ebrill; neu yn ol y Rabbin-iaid, gyda lleuad newydd mis Mawrth. Ystyr y gair *Abib* yw, *tywysen lâs* (neu *werdd* yn hytrach =*green ear:* ond tywysen *lâs* a ddywedwn ni). Arferid enwi y misoedd yn y dyddiau hyny oddi wrth ymddangosiad natur ar y pryd, ac arferir hyn gan lawer o genedloedd eto, a gelwid y mis hwn Abib ("mis y tywysenau gleision"), am fod yr ŷd, yn enwedig yr haidd, yn Palestina a'r Aipht, yn dywysen las ar y pryd. Ar ol y caeth-gludiad, gelwid y mis hwn Nisan: *Neh.* ii. 1; *Esth.* iii. 7. Gwel NISAN.

ABIDA, [אבידע, *tad gwybodaeth*]: mab Midian: 1 *Cron.* i. 33.

ABIDAN, [אבידן, *fy nhad sy farnwr*]: tywysog llwyth Beniamin: *Num.* i. 11.

1. ABIEL, [אביאל, *Duw fy nhad*]: tad Cis: 1 *Sam.* ix. 1; xiv. 51.

2. ABIEL: un o'r deg ar ugain cedyrn yn llu Dafydd: 1 *Cron.* xi. 32. Gelwir ef Abialbon yn 2 *Sam.* xxiii. 31. Dau enw cyfystyr ydynt.

1. ABIEZER, [אביעזר, *fy nhad yw fy nghy-mhorth*]: un o lwyth Manasseh: *Ios.* xvii. 2; 1 *Cron.* vii. 18. Gelwir ei hiliogaeth ar ei enw: *Barn.* vi. 34; viii. 2.

2. ABIEZER: un o gedyrn Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 27; 1 *Cron.* xi. 28.

ABI-ESRIAD: un o hiliogaeth Abiezer: *Barn.* vi. 11; viii. 32. *Lluosog*, Abi-esriaid; yn *Num.* xxvi. 30, Ieezeriaid. O'r teulu hwn yr hanodd Ioas, tad Gideon. Preswylient yn Ophrah.

1. ABIGAIL, [אביגיל, *tad gorfoledd*]: gwraig Nabal, y Carmeliad; "da ei deall, a theg ei gwedd;" 1 *Sam.* xxv. 3. Ar ol marw Nabal, cymmerodd Dafydd hi yn wraig iddo ei hun: *adn.* 14—42. Hi oedd mam ail fab Dafydd, Chileab: (2 *Sam.* iii. 3) yr hwn a elwir Daniel, yn 1 *Cron.* iii. 1. Mynych y mae dau neu chwaneg o enwau yn perthynu i'r un person yn yr Ysgrythyrau; felly yma: ac y mae y ffaith hon yn symmud llawer o anghyssonderau ymddangosiadol y cyf-arfyddir â hwynt wrth ddarllen y Beibl.

Digitized by Google

2. ABIGAIL: chwaer Dafydd, a mam Amasa: 1 *Cron.* ii. 16, 17. Gelwir hi yn ferch Nahas, yn 2 *Sam.* xvii. 25. Tebygol mai dyna oedd enw ei mam; neu fod i Iesse ddau enw.

ABIHAEL, [אביחיל, *tad cadernid*]: un o dylwyth Merari: *Num.* iii. 35. *Abihail* yw yn y cyfieithiad Seisonig.

1. ABIHAIL, [אביחיל, *tad cadernid;* h.y., *cadarn, cryf*]: mab Huri, pen cenedl o lwyth Gad, a ymsefydlodd yn Basan: 1 *Cron.* v. 14.

2. ABIHAIL: tad y frenines Esther, ac ewythr Mordecai, o frawd ei dad: *Esth.* ii. 7, 15. Y mae y ddau enw hyn, yn gystal a'r un blaenorol, o'r un ystyr a llythyreniad, yn wreiddiol, ac yn y cyfieithiad Seisonig. Dylasai gael ei ysgrifenu *Abichail;* ond y mae y nesaf yn amrywio o ran ystyr a llythyreniad.

3. ABIHAIL, [אביחיל, *tad y goleuni*]: gwraig Rehoboam, brenin Iudah. Gelwir hi yn ferch Elïab, brawd hynaf Dafydd (2 *Cron.* xi. 18, 19); ond gan fod Dafydd wedi dechreu teyrnasu dros bedwar ugain mlynedd cyn ei phriodas hi, a'i fod yn ddeg ar ugain oed pan y dechreuodd deyrnasu, rhaid mai wyres neu orwyres i Elïab ydoedd hi. Y mae, fel enw merch, yn egluro ein sylwadau dan y gair *Ab*.

4. ABIHAIL: benyw arall, gwraig Abisur: 1 *Cron.* ii. 29.

ABIHU, [אביהוא, *tad o hono*]: un o feibion Aaron, yr hwn, gyda'i frawd Nadab, a ddistrywiwyd gan dân oddi wrth Dduw am ryfygu arogldarthu iddo ef â "thân dyeithr," neu gyffredin, yn lle tân cyssegredig oddi ar yr allor, yr hwn ar y cyntaf a ddisgynasai o'r nef: *Lef.* x. 1—11. Y dygwyddiad arswydus hwn a gymmerodd le yn mhen wyth niwrnod ar ol eu cyssegriad; a thebygol mai yn eu meddwdod y cyflawnasant y pechod a dynodd y farn arnynt, gan fod gwaharddiad i'r offeiriaid yfed gwin pan yn gweini yn y cyssegr, wedi ei roddi yn uniongyrchol ar ol, ac megys yn gyssylltiol â'r hanes yma. Y mae y gosp ddisymmwth a llem hon yn rhybudd i holl weinidogion Duw o'r mawr bwys o fod yn ffyddlawn yn nghyflawniad eu dyledswyddau, gan olygu ei ewyllys yn mhob peth, fel y gogonedder ef; a mwy na hyny, y mae yma ddadguddiad amlwg o'r digofaint dwyfol, yr hwn a ddifa bawb oll a feiddiant wasanaethu Duw ond âg arogldarth tanllyd wedi ei gymmeryd oddi ar yr un allor, a'r un aberth, trwy yr hwn y perffeithia efe yn dragywydd y rhai a sancteiddir.

ABIHUD. Gwel ABIUD.

1. ABILA, neu ABELA, [oddi wrth yr Hebraeg, *Abel (llanerch welltog)*, enw a roddir yn yr Ysgrythyr i amryw leoedd, fel y gwelir isod].—1. *Abila Lysanias*, a elwir felly i'w gwahaniaethu oddi wrth ereill o'r enw; a chan Josephus, *Abila Libanus;* prif ddinas Abilene, a elwir yn awr Souk Wady Barrada, ar yr afon Barrada, ac o ddeutu 18 milltir i'r gogledd-orllewin o Damascus. Ystyr *Souk* yw *marchnad*, enw a ddodir yn fynych i bentrefydd y cynnelir marchnadoedd ar gylch ynddynt. Dywed Burckhardt fod yma ddau bentref, un o bob tu i'r afon Barrada. Y mae gwyrddlesni siriol y gymmydogaeth yn dangos priodoldeb yr enw yn ei ffurf Hebraeg, i arwyddo *man* neu *lanerch welltog*.

2. ABILA: tref rhwng Paneas a Damascus, a grybwyllir gan Eusebius.

3. ABILA: un arall, yn llwyth Manasseh, yn nghylch 18 milltir i'r dwyrain o fynedfa yr Iorddonen o lyn Tiberias, yr hon a elwir yn awr *Yebla*. Y mae yn adfeiliedig ac anghyfannedd: darnau o'r caerau, hen golofnau, ac eglwysydd, yn unig sydd i'w gweled. Tebygol ei bod yn un o ddinasoedd y Decapolis, a enwir yn gyffredin gan hen ysgrifenwyr, yn nghyd â Gadara.

ABILENE, a elwir felly oddi wrth y brif ddinas Abila. Tiriogaeth, neu ardal fechan, ar lethr dwyreiniol Anti-Libanus, ar ba un yr oedd Lysanias yn detrarch: *Luc* iii. 1. Yr oedd yn cyfateb, o leiaf mewn rhan, i'r hen Syria Maachah, (1 *Cron.* xix. 6); ond nid yw y terfynau yn bresennol yn hysbys. Ymddengys ei bod yn cynnwys llethrau dwyreiniol Anti-Libanus, a'r dyffrynoedd prydferth rhwng ei odrau, a'r bryniau gyferbyn a gwastadedd y dwyrain. Y mae yn ardal brydferth a ffrwythlawn ragorol, yn goediog, ac yn cael ei dyfrhau gan ffrydiau o ffynnonau lluosog Anti-Libanus.

Bu Lysanias, mab Ptolemy, yn llywodraethu fel tetrarch ar y diriogaeth hon; ond rhoddwyd ef i farwolaeth drwy ystryw Cleopatra, yr hon a feddiannodd y dalaeth. Gwedi ei marw hi, fe'i rhoddwyd gan Augustus dan ardreth i un Zenodorus; ond am nad oedd efe yn ei chadw rhag ysbeilwyr, cymmerwyd hi oddi arno, ac fe'i rhoddwyd i Herod Fawr. Ar ei farwolaeth ef, rhoddwyd y rhan ddeheuol o'r diriogaeth at Trachonitis ac Iturea, i wneyd tetrarchaeth i'w fab Phylip; ond y rhan fwyaf o lawer, yn cynnwys dinas Abila, a roddwyd y pryd hwnw, neu yn fuan wedi hyny, i Lysanias arall, a enwir gan Luc (iii. 1), yr hwn y tybir oedd o hiliogaeth y Lysanias cyntaf, ond ni chrybwyllir am dano yn un lle gan Josephus. Ni sonir chwaith ganddo ef, nac un hanesydd cyffredin arall, am y parth hwn o Abilene, hyd yn nghylch deng mlynedd o'r amser y cyfeirir ato gan Luc, pryd ei rhoddwyd gan yr ymherawdwr Caligula i Agrippa I., megys "tetrarchaeth Lysanias," i'r hwn ei cadarnhawyd wedi hyny gan Claudius. Ar ei farwolaeth ef, yr oedd yn gynnwysedig yn y gyfran o'i feddiannau a roddwyd i'w fab Agrippa II. Y mae yr eglurhad hwn ar raniad Abilene rhwng Lysanias a Phylip, yn symmud yr anghyssondeb ymddangosiadol o fod Luc yn galw Lysanias yn detrarch Abilene, ar yr un pryd, yn ol Josephus, ag yr oedd (cyfran o) Abilene yn meddiant Phylip.

ABIMAEL, [אבימאל, *tad anfonedig oddi wrth Dduw*]: mab Ioctan: *Gen.* x. 28. Barna rhai iddo ef a'i hiliogaeth breswylio yn Arabia; ereill a ddadleuant mai yn Armenia a'r gwledydd cyfnesol, y cyfanneddodd. Y mae yn sicr fod amryw lwythau yn Arabia y pryd hwn, yn haeru eu bod yn hanu o Ioctan.

ABIMELECH, [אבימלך, *fy nhad y brenin*]: brenin y Philistiaid, yn Gerar, yn amser Abraham: *Gen.* xx. 1, &c., c. c. 1898. Ymddengys ei fod yn enwad cyffredin ar freninoedd y Philistiaid, megys *Pharaoh* ar freninoedd yr Aipht, a *Cæsar* ar ymherawdwyr Rhufain. Pan gymmerodd Abimelech Sarah i'w dŷ, y mae yn beth rhyfedd fod ymweliad gwyrthiol yn rheidiol er dangos iddo ei amryfusedd; a pheth rhyfedd hefyd na allasai Abraham ei chael adref trwy ofyn am ei rhyddhad. Ond y mae cydnabyddiaeth âg arferion y dwyrain yn eglurhau y dyryswch. Pan

Digitized by Google

gymmerir benyw i dŷ gwragedd tywysog dwyreiniol, mewn bwriad i'w gwneyd yn wraig iddo, bydd yn annichonadwy ei chael oddi yno mwy, o leiaf yn amser bywyd y tywysog gorseddol. Ni oddefir i neb gael ymddyddan â'r cyfryw mewn amgylchiadau cyffredin. Adroddir am y Milwriad Pitt, yr hwn oedd swyddog yn myddin Rwssia, ddarfod i'w wraig a'i ferch syrthio i ddwylaw y Tartariaid; a chan eu bod ill dwyoedd yn wragedd prydweddol, gwnaed anrheg o honynt i'r ymherawdwr yn Nghaer Cystenyn. Terfynodd ymdrechiadau y tad a'r priod trallodedig i'w rhyddhau yn ei garchariad ef ei hun mewn daiardy; a chafodd y sicrhad arswydus na oddefid i un o'r rhyw, a gymmerid unwaith i dŷ y gwragedd, *ymadael oddi yno byth mwyach*. Mae yr hanesyn hwn yn gosod cyfaddasrwydd cyfryngiad rhagluniaeth ar ran Abraham yn y goleuni cryfaf; ac yn egluro ofnau Abraham ac Isaac, o achos tegwch nodedig Sarah a Rebeccah, a'u profedigaeth i'r bai o gelu y gwirionedd. Hawdd deall na byddai bywyd gŵr o nemawr bwys, os yn sefyll ar ffordd trachwant tywysogaidd. Ymddengys, er hyny, fod breninoedd Gerar y pryd hwnw yn meddu rhywfaint o ofn Duw. Y mae amgylchiadau yr hanes yn dangos fod rhai o egwyddorion adgasaf unbenaeth ormesol wedi gwreiddio yn gynnar yn y dwyrain; o blegid y mae yn amlwg fod hawl y penadur i gymmeryd iddo ei hun unrhyw fenyw ddibriod a fynai, yn cael ei addef o bobtu, ac mai yr holl ddrwg yn yr achos yma oedd, fod Sarah eisoes yn briod. Gwelir amgylchiad cyffelyb yn *Gen*. xii. 15; ac yn ddiweddarach yn *Esd*. ii. 3; a gwelir mor ofalus eu cedwid mewn neillduedd, ac mor anhawdd cael dyfodfa atynt, neu eu cael yn ol drachefn, oddi wrth *Esd*. iv. 5, &c. Cawn Abimelech, rai blyneddoedd gwedi, gyda Phichol, "tywysog ei lu," yn ymweled â gwersyll Abraham, ar ol ei symmudiad allan o'i derfynau ef tua 'r deheu, ac yn llunio cynghrair o heddwch a chyfeillgarwch âg ef. Cydsyniodd Abraham; a dyma y cynghrair cyntaf y ceir hanes am dano. Fe'i cadarnhawyd trwy lw a wnaed ganddynt ill dau ger llaw ffynnon a gloddiasai Abraham, ond a ddygasai bugeiliaid Abimelech oddi arno yn ddiarwybod i'r brenin. Adferwyd y ffynnon i'w chyfiawn berchenog, ac Abraham a'i galwodd Beer-seba (*ffynnon y llw*), a chyssegrodd y lle i wasanaeth Iehofah: *Gen*. xxi. 22—34.

2. ABIMELECH: brenin arall yn Gerar, yn amser Isaac, c. c. 1804: tybir ei fod yn fab i'r un blaenorol. Ymwelodd Isaac â Gerar yn amser newyn; a thrwy ofn, gwadodd ei wraig, yn debyg fel y gwnaethai ei dad, yr hyn a'i dug i gyffelyb brofedigaeth. Canfuwyd y gwirionedd yn ddamweiniol, a cheryddodd Abimelech ef am ei fai. Ymddengys fod y wlad erbyn hyn wedi dyfod yn fwy dan driniaeth, ac yn llawnach o drigolion nag ydoedd yn amser ymweliad Abraham, tua chan mlynedd cyn hyny, yr hyn a barodd iddynt fod yn lled eiddigus o Isaac—ymryson am y pydewau dwfr a gloddiasai efe, fel na chaffai hawl drwyddynt yn y tir: ac wrth weled ei lwyddiant a'i fawr gyfoeth, dymuno arno ymadael o'u cyffiniau, yr hyn a wnaeth efe. Talodd Abimelech ymweliad wedi hyny âg Isaac yn Beer-seba, gydag Ahussath ei gyfaill, a Phichol, "tywysog ei lu," lle y gwnaethant gynghrair a chyfammod o gyfeillgarwch ac ewyllys da: *Gen*. xxvi.

3. ABIMELECH: mab Gideon, o'i ordderchwraig; gormesdeyrn a llofrudd ei frodyr ei hun.



Iotham, ei frawd ieuangaf, er dynoethi ei gymmeriad ysgeler, a rhagfynegu cwymp ei bleidwyr anniolchgar, a draethodd ddammeg y prenau—y cyfansoddiad hynaf o'r fath sydd ar gael. Y mae yn dangos mor rymus y gellir cyfeirio at y rheswm a'r gydwybod trwy gyfrwng y dychymyg. Wedi teyrnasu o hono dair blynedd, lladdwyd ef gan wraig, pan yn ymosod i gymmeryd y tŵr yn Thebes: *Barn*. ix. Yn ofer y ceisiodd ei falchder milwraidd droi ymaith waradwydd ei farwolaeth; canys nodir y ffaith mai gwraig a'i lladdodd ef yn mhell ar ol hyny yn gyssylltiol â'i goffadwriaeth: 2 *Sam*. xi. 21.—(*Kitto*, *Brown*, &c.)

4. ABIMELECH, mab Abiathar, ac offeiriad yn amser Dafydd: 1 *Cron*. xviii. 16. Gwel Abiathar; Abimelech.

1. ABINADAB, [אבינדב, *tad ewyllysgarwch*]: gŵr o Ciriath-Iearim, yn nhŷ yr hwn y bu arch yr Arglwydd "ddyddiau lawer," wedi ei dychwelyd o wlad y Philistiaid, "nid amgen nag ugain mlynedd;" 1 *Sam*. vii. 2: hyny yw, cyn i'r diwygiad y sonir am dano yn yr adnodau nesaf gymmeryd lle. Nid yw yn meddwl yr holl amser y bu yr arch yn nhŷ Abinadab: amlwg yw ei bod yno lawer yn hwy na hyny—70 mlynedd, medd Scott. Sancteiddiwyd Eleazar ei fab i'w chadw; ac enwir dau fab arall iddo yn gweini arni yn amser Dafydd, sef Ussah ac Ahïo: 1 *Sam*. vii. 1; 2 *Sam*. vi. 3.

2. ABINADAB: un o feibion y brenin Saul: 1 *Cron*. viii. 33; 1 *Sam*. xxxi. 2. *Issui* y gelwir ef yn 1 *Sam*. xiv. 49: yr oedd iddo felly ddau enw, yr hyn a welir yn fynych yn yr Ysgrythyrau.

3. ABINADAB: ail fab Iesse, a thad, efallai, i un o swyddogion Solomon, a briodasai Taphath, ei ferch ef: 1 *Cron*. ii. 13; 1 *Bren*. iv. 11.

4. ABINADAB: mab Ido, ac un o swyddogion Solomon: 1 *Bren*. iv. 14.

ABINOAM, [אבינעם, *tad prydferthwch*]: tad Barac: *Barn*. iv. 6; v. 1.

1. ABIRAM, [אבירם, *tad uchder*—sef *uchel;* Deg a Thrigain, Αβειρων; Seis. *Abiron*, yn *Eccl*. xlv. 18]: mab Elïab, o lwyth Reuben, yr hwn, gyda Dathan ei frawd, ac On mab Peleth, o'r un llwyth, a ymunasant â Corah, o lwyth Lefi, mewn bradwriaeth yn erbyn Moses ac Aaron: *Num*. xvi.

2. ABIRAM: mab Hiel y Betheliad: 1 *Bren*. xvi. 34.

ABIRON: yr un ag *Abiram*. *Eccles*. xlv. 18. Gwel Abiram.—(*Cruden's Apoc. Con*., d. g.)

ABISAG, [אבישג, *tad cyfeiliornad*]: llances deg o Sunam, yn llwyth Issachar, a ddewiswyd i ymgeleddu y brenin Dafydd yn ei henaint, ac a gyfrifid yn wraig iddo. Ar ol marw Dafydd, ei fab Adonïah a'i gofynodd yn wraig; ond Solomon, yn gweled nad oedd hyn ddim amgen na chais am y freniniaeth, a'i nacaodd, ac a gospodd ei fradwriaeth a marwolaeth: 1 *Bren*. i. 1—4; ii. 13—25.

ABISAI, [אבישי, *tad anrhegion*]: nai Dafydd o fab ei chwaer, Serfiah, a brawd Ioab ac Asahel; un o'r milwyr glewaf yn ei amser, a blaenor yn myddinoedd Dafydd. Yr oedd y tri brawd yn hynod o ymroddgar yn mhlaid eu hewythr. Ymddengys fod Dafydd yn rhoddi mwy o hyder ar dalentau Ioab; ond yr oedd Abisai yn cael mwy o'i gyfrinach a'i gyfeillgarwch: yr ydym yn ei gael bob amser yn agos ato, ac yn barod i beryglu

Digitized by Google

ei fywyd drosto. Cymmaint oedd ei wroldeb a'i ddyhewyd, fel y byddai Dafydd yn fynych yn gorfod ei attal. Efe a aeth gyda Dafydd i wersyll Saul (1 *Sam.* xxiv. 5—9); ac a fynasai wedi hyny ladd Simei: 1 *Sam.* xxvi. 9—12. Aeth gyda Dafydd dros yr Iorddonen, ac efe oedd llywydd y drydedd ran o'r fyddin a ddarostyngodd wrthryfel Absalom: 2 *Sam.* xviii. 2. Wedi hyny, lladdodd y cawr Isbibenob, pan oedd bywyd Dafydd mewn dirfawr berygl: 2 *Sam.* xxi. 15, 17. Efe oedd benaf o'r "tri chedyrn" a ruthrasant drwy fyddin y Philistiaid, pan flysiodd Dafydd ddwfr o bydew Bethlehem: 2 *Sam.* xxiii. 14—19. Ysgydwodd ei waewffon unwaith yn erbyn tri chant, a lladdodd hwynt: 1 *Cron.* xi. 20, 21. Yn 2 *Sam.* viii. 13, dywedir i Dafydd ennill brwydr yn Nyffryn yr Halen; ond yn 1 *Cron.* xviii. 12, dywedir mai Abisai a'i hennillodd, a thebygol mai felly yr oedd, ond y cyfrifid y fuddugoliaeth i'r brenin.

ABISALOM, [אבישלום, *tad heddwch*]. Am Abïam, mab Rehoboam, y dywedir, "Ac enw ei fam ef oedd Maachah, merch Abisalom;" 1 *Bren.* xv. 2. Tybir gan rai, oddi wrth 2 *Cron.* xi. 21, mai yr un yw Abisalom ag Absalom, ac mai merch Absalom a olygir, yr hon oedd yn nain i Abïam, ond a elwir yn fam iddo, mewn ffordd o anrhydedd, yn ol y drefn arferedig yn mysg yr Iuddewon. Cadarnheir y dyb hon, trwy fod Rehoboam, tad Abïam, wedi priodi dwy arall o berthynasau agos, sef merch Ieremoth, mab Dafydd, a merch Elïab, brawd Dafydd. Ac nid anhygoel, gan hyny, oedd iddo briodi merch Absalom, yr hwn oedd ewythr iddo: 2 *Cron.* xi. 18. Enw priodol merch Absalom oedd Tamar (2 *Sam.* xiv. 27); ond gelwid hi Maachah ar ol ei nain freninol: 2 *Sam.* iii. 3. Yn 2 *Cron.* xiii. 2, gelwir hi Michaiah, merch Urïel. Gallai mai yr un un a feddylir wrth Urïel ag Absalom; neu ynte, gallasai fod yn ferch naturiol y naill, ac yn ferch fabwysiadol y llall. Barna ereill mai person arall oedd Abisalom; a bod i'r ferch, a'i thad, amryw enwau, yr hyn oedd ddigon arferedig yn mysg yr Iuddewon. Yr ydym yn tueddu i gymmeradwyo y golygiad cyntaf, ac yn gadael y darllenydd i ymgynghori â Josephus, ac âg esbonwyr diweddarach, a barnu drosto ei hunan.

ABISEI: 2 *Esdr.* i. 2. Gwel Abisua.

ABISIDARIAID, [*Abecedarians*]: enw a roddir ar gyfansoddiadau y byddo eu rhanau wedi eu trefnu yn ol llythyrenau yr egwyddor, oddi wrth enwau y llythyrenau cyntaf, A, B, C. Fel hyn, cyfarfyddwn â salmau, galarebau, a gweddïau Abisidaraidd, a hyny yn benaf gan ysgrifenwyr Hebreig; oddi wrth yr hyn y gallwn gasglu mai ganddynt hwy y dyfeisiwyd y rhyw yma o gyfansoddiadau. Dyma y dynodiad cyntaf ac egluraf o bennillion yn y llyfrau barddonol Hebraeg. Y mae pryddestau o'r fath yma yn cynnwys dwy ar ugain o linellau, neu bennillion, neu adranau, a phob llinell, pennill, neu adran, yn dechreu gyda'r llythyrenau olynol, yn ol eu trefn yn yr egwyddor. Amcenid y ddyfais gelfyddydol yma yn gymhorth i'r cof; ac fe'i defnyddid yn fynychaf mewn cyfansoddiadau a fwriedid i fod at wasanaeth cyffredinol; megys moeswersi, a ffurfiau i'w harfer mewn gwasanaeth crefyddol.

Y mae deuddeg o'r cyfryw bryddestau ar gael eto yn yr Hen Destament, sef *Salm* xxv, xxxiv, xxxvii, cxi, cxii, cxix, a cxlv; *Diar.* xxxi. 10—31; *Galar.* i, ii, iii, a iv. Tair o'r rhai hyn —sef *Salm* cxi, a cxii; a *Galar.* iii—ydynt Abisidaraidd, neu wyddorol berffaith, yn y rhai y mae pob llinell wedi ei nodi â'i llythyren reolaidd, yn ol trefn yr egwyddor Hebraeg; ac yn y naw ereill, dynodir pob pennill, neu adran, felly. Gellir sylwi mewn perthynas i'r tair cyntaf, fod yr holl bryddest yn ddosbarthedig i bennillion; dwy o honynt, sef *Salm* cxi, a cxii, i ddeg bob un, oll o ddwy linell, oddi eithr y ddau bennill olaf yn mhob un, y rhai sydd gyfansoddedig o dair llinell; a'r drydedd, sef *Galar.* iii, a gynnwysa ddau bennill ar ugain, o dair llinell bob un, a llythyren arweiniol pob pennill yn llythyren arweiniol pob llinell yn y pennill hwnw. Yn y tair pryddest yma, y mae y llinellau a drefnir fel hyn gan y llythyrenau dechreuol yn yr un bryddest, yn nodedig am eu cyhydedd, agos yn cyfateb yn nifer y geiriau, ac, efallai, yn nifer y sillau; a'r llinellau yn yr un pennill yn cyfateb y naill i'r llall yn eu sylwedd a'u ffurf, yn y synwyr a'r cyfansoddiad.

Am y naw pryddest ereill, y mae chwech o honynt, sef *Salm* xxv, xxxiv, cxix, a cxlv; *Diar* xxxi; a *Galar* iv; yn cynnwys pennillion o ddwy linell: dwy, sef *Galar.* i, a ii, a gynnwysant bennillion o dair llinell bob un: ac un, sef *Salm* xxxvii, a gynnwysa bennillion o bedair llinell; gan ganiatau llawer ar gyfer eiluniadau afreolaidd, yr hyn a achlysurid, ond odid, trwy ddiofalwch adysgrifwyr. Y mae y pennillion hyn yn ymranu yn naturiol i'w hamryfal linellau, gan fod y synwyr a'r cyfansoddiad yn dynodi eu ffiniau, a bod y llinellau yn cyfateb i'w gilydd mewn sylwedd a ffurf, megys yn y pryddestau sydd yn fwy perffaith egwyddorol; ond y mae dwy o'r rhai hyn, sef *Salm* cxi, a cxii, yn fyrach eu llinellau na'r drydedd, sef *Galar.* iii, o tuag un ran o dair, neu yn agos i'r hanner: ac o'r naw pryddest ereill, pennillion neu adranau, y rhai yn unig sydd egwyddorol, y mae tair, sef *Galar.* i, ii, a iv, yn gynnwysedig o linellau hwy; a'r chwech ereill o rai byrach.

Oddi wrth yr anghreifftiau hyn, gallwn gasglu fod y pryddestau perffaith egwyddorol yn gynnwysedig o adnodau neu bennillion wedi eu trefnu gyda pheth gofal am gynghanedd, neu leddfleisiad, mesur, rhif, neu fydr.

Y pryddestau ereill, y rhai a ddosberthir yn bennillion gan lythyrenau yr egwyddor, sydd gyfansoddiadau o'r un rhywogaeth, ac yn gynnwysedig o fydrau yr un ffunud. Gallwn gasglu, oddi wrth y pryddestau gwyddorawl perffaith hyn, nad oedd y mydr Hebreig yn gynnwysedig o odlaeth, neu seiniau cyffelyb a chyfatebol, ar derfyn y mydrau; ond mewn rhyw fath o gynghanedd, neu fesur, deddfau yr hwn sydd yn anadnabyddus i ni yn bresennol. Er hyny, y mae ffurf nodedig y cyfansoddiad mor amlwg, fel y gwahaniaetha yn ddigon eglur rhwng y rhanau o'r Ysgrythyrau Hebreaidd a ysgrifenwyd mewn mydraeth, a'r rhanau hyny o honynt a ysgrifenwyd mewn rhyddiaith.

ABISUA, [אבישוע, *tad diogelwch*]: mab Phinëes, a phedwerydd archoffeiriad cenedl Israel yn llinach Aaron. Tybir ei fod yn gweini ei swydd yn nyddiau Ehwd, barnwr Israel, ac efallai, am ran o amser y gorthrymder dan Eglon, brenin Moab, o flaen hyny: 1 *Cron.* vi. 4, 50; *Ezra* vii. 1—5; *Barn.* iii. Josephus a'i geilw *Abïezer.*

ABISUN: 1 *Esdr.* viii. 2. Yr un ag *Abisua.*

Digitized by Google

ABISUR, [אבישור, *tad uniondeb*]: un o hiliogaeth Iudah: 1 *Cron.* ii. 29.

ABITAL, [אביטל, *tad y gwlith*]: un o wragedd Dafydd: 2 *Sam.* iii. 4.

ABITUB, [אביטוב, *tad daioni*]: mab Ehud, neu Ehwd: 1 *Cron.* viii. 6—11.

ABIUD, [Gr. Ἀβιούδ, Heb. ABIHUD, *tad gogoniant*]: mab Zorobabel, a thad Eliacim: *Mat.* i. 13. Nid enwir ef yn yr Hen Destament..

ABNER, [אבנר, *tad goleuni*]: mab Ner, cefnder i'r brenin Saul, a thywysog ei lu: 1 *Sam.* xiv. 50, 51. Ar ol marwolaeth Saul, c. c. 1056, yr oedd teimlad y genedl yn rhanedig mewn perthynas i'w ganlynwr ar yr orsedd. Mewn canlyniad i osodiad dwyfol, yr hwn oedd wedi ei wneyd yn hysbys yn flaenorol i hyn, gwnaed Dafydd yn frenin ar ei lwyth ei hun, sef Iudah, ac fe deyrnasodd yn Hebron. Ond yn y llwythau ereill, yr oedd teimlad cryf yn erbyn hyny: cymmerodd Abner fantais ar hyn, ac a osododd Isboseth yn frenin ar Gilead, llwyth Assur, Iezreel, Ephraim, Beniamin, ac ar holl Israel. Parhaodd i'w bleidio, ac i wneyd ymosodiadau ar Dafydd am saith mlynedd; ond pan geryddwyd ef gan Isboseth am gymmeryd iddo ei hun un a fuasai yn ordderchwraig i Saul, efe a droes i bleidio Dafydd, a chafodd dderbyniad croesawgar. Ond Ioab, dan rith tybied ei fod yn ysbïwr, a'i lladdodd ef yn fradwrus, c. c. 1048, er mwyn dial gwaed ei frawd Asahel, neu am ei fod yn eiddigus o'i ddylanwad. Anfoddlonodd Dafydd yn ddirfawr wrth Ioab am hyn; gwnaeth gladdedigaeth anrhydeddus i Abner, a chyfansoddodd alarnad dra phwysig ar yr achlysur. Y mae yn hynod darawiadol:—

"A fu marw Abner fel y mae yr ynfyd yn marw?—
Ei ddwylaw—heb fod yn rhwym,
Ei draed—heb eu rhoddi mewn egwydydd;—
Fel y syrthia un o flaen meibion anwir, felly y syrthiaist ti!"

Y mae cyfeiriad yr alarnad at y *modd* y lladdwyd Abner, ac y mae yn rhoddi dysgrifiad o ansawdd ei sefyllfa ar y pryd, sef â'i ddwylaw a'i draed yn rhyddion, ac nid yn rhwym fel troseddwr wedi ei roddi i fyny i law dialydd y gwaed. Honai Ioab iddo ei ladd o achos gwaed Asahel ei frawd. Lladdasai Abner Asahel mewn hunanamddiffyniad, pan oedd yn erlid ar ei ol mewn rhyfel; ond Ioab, dan rith hawl dialydd gwaed, a gyflawnodd lofruddiaeth. Felly yr edrychai Dafydd ar yr amgylchiad yn mhen ysbaid maith ar ol hyn, pan y cyhuddai Ioab o ollwng "gwaed rhyfel mewn heddwch." Y mae yr alarnad ddwys a byreiriog megys yn dadgan syndod digofus, fod Abner, oedd yn ŵr mawr a thywysogaidd, yn lle cael ei roddi i fyny yn gyfreithlawn i haeddiannol gospedigaeth, wedi cael ei wanu yn fradwrus fel adyn diffaith drwy ddwylaw llofruddiog: 2 *Sam.* ii, iii; 1 *Bren.* ii. 5.—*(Brown, Kitto.)*

ABRACADABRA, o'r gair Groeg ἀβράκαξ *(abracacs)*, medd Fenning, sef enw eilun Assyriaidd. Cymmerodd yr henadur Serenus Sammonicus yn ei ben fod cyfaredd neillduol yn y gair i wellhau y cryd, yn enwedig y cryd dysbeidiol, bob pedwardydd, neu bob yn eilddydd. Gelwid yr olaf, gan Hypocrates, yn *Hemitritaios*, yr hwn yn gyffredin oedd farwol. Defnyddir y gair yn awr, fynychaf, fel digrifwch, heb briodoli un ystyr benodol iddo, megys *hocus pocus* (hoced pwca). Tuag at iddo gynnyrchu yr effaith ddychymygol o wellhau y cryd, dylai gael ei ysgrifenu, meddai Sammonicus, fel ag i ffurfio triongl swyngyfareddol, fel hyn:—

A B R A C A D A B R A
A B R A C A D A B R
A B R A C A D A B
A B R A C A D A
A B R A C A D
A B R A C A
A B R A C
A B R A
A B R
A B
A

Ceir y gair *Abracadabra* yn y triongl yna, pa A bynag a gymmerir i ddechreu, o'r un ar ddeg sydd yn y llinell ar y chwith, ond cyrchu ryw ffordd, o'r naill lythyren wahanol i'r llall, nes cyrhaedd yr A olaf sydd ar y ddeheu, yn y llinell uchaf. Y mae y cafareddion Groegaidd, sydd yn dwyn arnynt yr argraff ABPAKAΔABPA, yn dangos yn amlwg y dylai y gair swyngyfareddol hwn gael ei gynanu *Abrasadabra*, er mai *Abracalan* a ddywedir gan yr Iuddewon. Dichon fod *Abrasadabra* yn arwyddo *arfaeth ddwyfol*, yn deilliaw o enw cyssegredig y Bod Goruchaf, *Abrasacs* neu *Abras*. Tybia rhai mai gwraidd y gair yw y llythyrenau cyntaf sydd yn y geiriau Hebraeg אב *(ab)*, בן *(ben)*, רוח *(ruach)*—(Tad, Mab, Ysbryd)—a'r rhai cyntaf yn y geiriau Groeg, σωτηρα απο ξυλου *(sotêra apo csylow)*—iachawdwriaeth o'r groes. Ond nid gair Aiphtaeg, na Groeg, na Hebraeg, ydyw *Abrasacs*; ond enw Persiaidd, yn dynodi y duw Persiaidd, Mithras, sef yr haul. Dywed Dyche, y rhodresai Basilides, yr heretic, yn yr eilfed ganrif, fod dirgelwch mawr yn y gair, yn enwedig yr enw cyfriniol 365, neu *Duw*, am fod llythyrenau y gair yn yr iaith Roeg, o'u cyssylltu yn nghyd, yn gwneyd y cyfanswm hwnw, mewn cyfeiriad at rifedi dyddiau y flwyddyn, i gyfateb â'r hyn y dyfeisiodd efe 365 o orymdeithiau sanctaidd, &c. Yn mhellach, arferai dynion ofergoelus ysgrifenu y gair *Abracadabra* yn y dull trionglog uchod, ar ddernyn o bapyr pedronglog; ac wedi ei blygu yn ofalus, fel ag i guddio yr ysgrifen, gwnïent ef âg edaf wen, a rhwyment ef am y gwddf âg ysnoden, fel y gallai orphwys ar y ddwyfron, gyferbyn â'r galon; ac wedi ei wisgo felly am naw niwrnod, elent, mewn dystawrwydd difrif-ddwys, cyn codiad haul, at lan afon a redai tua'r dwyrain; yna, troent eu cefn at yr afon, tynent y papyr oddi am y gwddf, ond heb ei agor na'i ddarllen, a thaflent ef dros eu penau i'r afon. Wrth gymharu y sylwadau yma â'r hyn a ddywedir ar *Abracas*, *Abracsas*, neu *Abrasacs*, ymddengys yn amlwg, fel y tybir, eu bod oll o'r un tarddiad dychymygol ac ofergoelus. Gwel ABRACAS.—*(Fenning's Dict.; Dyche's Dict.; Pop. Ency.*, d.g.)

ABRACAS, ABRACSAS, neu ABRASACS, [ἀβραξας]. Abracas, ebe Irenëus a Theodoret, sydd air cyfriniol, yn cynnwys y rhif 365, a ddefnyddid gan Basilides, ac a gymhwysid at Dywysog y nefoedd. Eglurodd Spanheim y rhif fel hyn:—

| | |
|---|---|
| α | 1 |
| β | 2 |
| ρ | 100 |
| α | 1 |
| ξ | 60 |
| α | 1 |
| ς | 200 |
| | 365 |

Cafodd hyn ei gyfeirio at Mithras, neu yr haul, megys yr addolid ef gan y Persiaid, a gelwid ef gan y prydyddion, yn gyffredin, "Arglwydd y nefoedd," ac, "y flwyddyn." Dywed Wright a Chiswell, mai un o dduwiau Basilides, yr heretic, dan ffugenw, oedd *Abracsas*. Eglura ereill y geiriau cyfystyr a chyfriniol hyn yn rhinddysgeidiol, megys yn cyfeirio at y Drindod, fel *Abracadabra;* ond barna Beausobre a'r Dr. Lardner yn benderfynol, nad yw y gemau a gasglodd Clifflet, a Montfaucon, dan yr enwau yma, ond gweddillion paganaidd yr Aipht, ac nid gweddillion Cristionogol. Pa fodd bynag, tebycach yw, y cyfeiriai y geiriau yn ddechreuol at egwyddorion athronyddol Basilides, yn hytrach nag at ei egwyddorion duwinyddol, er y rhaid addef fod y cyfryw wedi cael eu dirfawr gymmysgu â'u gilydd.

*Abracsas*, neu *Abrasacs (ceryg)*, sy dra lluosog, ac yn cynnrychioli y corff dynol—yn meddu pen ceiliog, a thraed ymlusgiad. Canfyddir yr argraff *Abracsas*, neu *Abrasacs*, yn fynych mewn llythyrenau Groeg arnynt, yr hyn sydd yn dangos eu bod o darddiad estronol. Tystia Bellermann, yn ei draethawd ar "Emau yr Hynafiaid," wrth sylwi ar ddelw Abracsas, mai y rhai sydd yn dwyn yr argraff uchod yn unig sydd gynnwynol. Yr oedd y gemau a drosglwyddwyd i Ewrop o'r Aipht ac Asia, y rhai oedd luosog yn yr Yspaen hefyd, yn perthyn, yn ol ei farn ef, i sect grefyddol y Basilidiaid, ac yn cael eu defnyddio weithiau i ddysgu athrawiaethau cyfriniol, weithiau fel arwyddluniau, ac weithiau fel cyfareddion neu swyneilunod. Tardda Groteffend yr enw o'r iaith Bersiaeg, ond barna Bellermann iddo gael ei gyfansoddi o'r geiriau Aiphtaeg, *abac* a *sacs*, ac a'i cyfieitha, "*gair sanctaidd y fendith*," yr hyn a ddwg ar gof *Tetragrammaton* yr Iuddewon. Rhydd ereill eglurhad gwahanol ar y gair. Cymhwyswyd yr enw, *Ceryg Abracsas*, yn ddiweddar at bob math o emau yn dwyn arnynt gyfansoddiadau dammegol, neu eiriau mewn llythyrenau estronol, megys *Ablanathanabla*, &c., ac hyd yn oed at y rhai sydd yn dwyn arwyddluniau Sebasim, yr haul a'r lloer, a cherfiadau ereill, y rhai, pa fodd bynag, sydd ddiffygiol o gyfeirlun nodweddiadol y Basilidiaid. Eglura Bellermann y cerfiadau Basilidaidd sydd ar amryw geryg o'r dosbarth yma, trwy gymhorth yr ieithoedd Semetic. Y mae yr ymchwiliad dyddorol i'r pwnc yma gan Neander, diweddar broffeswr yn mhrif ysgol Berlin, yn teilyngu cael ei gymharu yn ofalus â'r syniadau a ddygwyd yn mlaen gan Bellermann. Gwel ABRACADABRA; BASILIDIAID.—(*Williams's All Rel.*, d.g. *Abraxas; Wright & Chiswell's Dict. Poet.*, d.g. *Abraxas; Ency., Parthenis*, d.g. *Trinitas; Lardner's Hist. of Heretics*, td. 102, &c.; *Bellermann's Gems of the Ancients*, erth. *Image of Abraxas; Pop. Ency.*, d.g. *Abraxas.)*

ABRAM, [אברם, *tad dyrchafedig*], neu ABRAHAM, [אברהם, *tad llawer*]: patriarch yn y ddegfed genedlaeth o Noah, yn llinell Sem. Tybir iddo gael yr enw gan y Canaaneaid, i arwyddo ei ddyfod o'r tu hwnt i'r Euphrates. Ganwyd ef O. B. 2008, C. C. 1996, (Hales, O. B. 3258, C. C. 2153), yn Ur, dinas Galdeaidd, yn Mesopotamia; yn 38° 51′ hydred dwyreiniol, a 37° 9′ lledred gogleddol. Traddodiad a briodola ei sylfaeniad i Nimrod; a'r Iuddewon hyd heddyw a'i galwant "Ur y Caldeaid," a gwnant bererindodau beunyddiol iddi fel lle genedigol Abraham. Enw presennol Ur yw Orfah. Ni chawn un crybwylliad am Abraham cyn bod yn drigain mlwydd oed. Wedi ei dywys i adnabyddiaeth o'r gwir Dduw, efe a ymddidolodd oddi wrth ei genedl eilunaddolgar, ac a adawodd wlad ei enedigaeth, gyda Sarah ei wraig, Terah ei dad, a Lot fab Haran ei frawd, y rhai a gydweithredent âg ef, pa un ai oddi ar argyhoeddiad o ddrygedd eilunaddoliaeth, ai oddi ar ymlyniad wrtho ef, nid ymddengys. Wedi ymdaith o honynt amryw ddyddiau yn olynol, daethant hyd yn Haran: *Gen.* xii. 31—neu Charan: *Act.* vii. 2—i'r gogledd-orllewin o Ur, 150 o filltiroedd. Tybir i'r lle gael ei enwi oddi wrth Haran, tad Lot, a brawd Abraham. Saif mewn gwastadedd tywodog; ac y mae rhyw weddillion o'r lle eto yn aros. Preswyliodd Abraham yn Haran tua phum mlynedd, o ba le, wedi derbyn cyfarwyddiadau pellach oddi wrth Dduw, a chladdu ei dad, yr ymadawodd. Yn ol y cyfarwyddiadau a dderbyniodd Abraham oddi wrth Dduw yn Haran, yr oedd, nid yn unig i adael ei wlad a'i genedl, ond "tŷ ei dad" hefyd, gan fyned i'r wlad a ddangosid iddo: ac mewn ufudd-dod i'r gorchymyn dwyfol, efe a adawodd Haran ei frawd ar ol; ond Lot a'i dilynodd i Ganaan. Cadarnheir gwirionedd yr hanes boreuol hwn am ymfudiad Abraham yn *Ios.* xxiv. 2. Yr oedd traddodiad mewn bod ar ol Moses yn mysg y genedl am grefydd eilunaddolgar eu tadau yn Mesopotamia; ac y mae dilysrwydd y traddodiad, ar dir dynol, yn fwy credadwy, o herwydd ei choleddu gan y genedl ei hun yn groes i anrhydedd ei hynafiaeth. Yr oedd y cof am Abraham yn parhau yn mysg y Caldeaid yn hir ar ol hyny. [*Jos. Hyn.*, i, 7.]

Ar ei ymadawiad o Haran, cafodd addewid gydbwys â pheryglon ac anhawsderau y daith: *Gen.* xii. 2, 3. Dichon mai dyma yr awgrym uniongyrchol cyntaf a dderbyniodd Abraham o ddyben rhagluniaeth ddwyfol yn ei alwedigaeth; a diau yw, ddarfod cadarnhau a gwroli ei feddwl yn fawr ar dderbyniad y fath addewid gynnwysfawr; a pha fodd yn amgen, tra yr oedd y fath ddyben gogoneddus i'w gyflawnu ynddo, a'r fath fwriad grasol yn cael ei amlygu tuag ato? Yn ngrym yr addewid rasol hon, aeth Abraham i'w daith, mewn ymchwil am y wlad "yr oedd efe i'w derbyn yn etifeddiaeth:" a chymmaint oedd nerth a dylanwad ei ffydd, fel yr "aeth allan heb wybod i ba le yr oedd yn myned;" *Heb.* xi. 8. Wedi ymdaith faith a lluddedig, croesodd yr Iorddonen i'r deheu o lyn Gennesaret (Môr Galilea), a chyrhaeddodd Ganaan, tir ei breswylfod. Y lle y pabellodd Abraham ynddo gyntaf yn Nghanaan ydoedd Sichem (*Gen.* xii. 6), neu Sichar (*Ioan* iv. 5); *h. y.*, yn nyffryn Sichem, canys wedi hyny yr adeiladwyd y ddinas—o Haran, 400 o filltiroedd. Sichem oedd un o ddyffrynoedd ffrwythlonaf y wlad, ac hefyd un hynod o anhygyrch, ac felly yn meddu manteision diogelwch yn ngwyneb ymgyrch gelynion; a hyn, fe ddichon, ydyw yr achos y dywedir, mewn cyssylltiad â derbyniad y llythyr hwn, "A'r Canaaneaid oedd yn y wlad y pryd hwnw." Adeiladodd Abraham yma allor, ac a alwodd ar enw yr Arglwydd, yr hwn a ymddangosodd iddo, ac a addawodd roddi y tir hwnw i'w had ef; yntau ar bwys yr addewid hon, a adeiladodd yno allor i'r Arglwydd fel arwydd o gyssegriad y wlad at addoliad dwyfol, ac i gymmeryd meddiant o honi yn enw ei had addawedig. Adeiladodd allor hefyd ar fynydd cyfagos, rhwng Bethel a Hai, neu Ai (*Ios.* vii. 2); o Sichem, 18 milltir. Yn fuan, efe a ymadawodd oddi yma, gan fyned ac ymdaith yn neheubarth y wlad. Yn y cyfamser, ymwelwyd â

Digitized by Google

Chanaan gan newyn cyffredinol; a chan nad oedd masnach ŷd rhwng Canaan a'r Aipht y pryd hyn, fel y bu yn amser Iacob (*Gen.* xli. 57), gorfuwyd arno, gyda theulu lluosog, i ymfudo yno. Y mae y traddodiadau Iuddewaidd a chenedlig yn nghylch trigias Abraham yn yr Aipht yn amryw a dyeithr. "Efe a ddysgodd iddynt y gelfyddyd o rifyddiaeth, ac a'u cyfarwyddodd i ddeall seryddiaeth. Canys cyn dyfodiad Abraham i'r Aipht, yr oedd yr Aiphtiaid yn anhysbys o ryw ranau o ddysgeidiaeth; canys y gelfyddyd o seryddiaeth a ddaeth oddi wrth y Caldeaid i'r Aipht," &c. [*Josephus*, llyfr i, pen. viii.] Diau fod Josephus, yn y nodiad ger bron, yn dilyn traddodiad. Ni buasai cyfranu addysg mewn seryddiaeth yn gydweddol âg uchel alwedigaeth Duw i Abraham; canys yr oedd y gelfyddyd hono yn offeryn eilunddiwiaeth yn Caldea yn y cyfamser. Mwy tebygol yw mai gorchwyl Abraham yn mysg yr Aiphtiaid oedd trysori eu harian a'u haur, mewn cyfnewid am ei braidd a'i anifeiliaid, y rhai oeddynt erbyn hyn bron yn aneirif; canys dywedir ei fod, pan ddychwelodd oddi yno, "yn gyfoethog iawn o arian ac aur," tra yr oedd ei olud blaenorol yn ei anifeiliaid: *Gen.* xiii. 2. Ar ei fynediad i'r Aipht, ni bu ymddygiad Abraham mor ddiffuant ag y gallesid dysgwyl. Yr hyn a achosodd yr amryfusedd oedd tegwch pryd a glendid Sarah. Diau y gwyddai Abraham yn dda am anallu yr Aiphtiaid i wrthsefyll y cyfryw brofedigaethau, ac ofnai i'w hawddgarwch hi dynu sylw y brenin, ac iddo roddi ei fryd ar ei gael ef o'r ffordd, er mwyn ei phriodi. Oddi ar yr ystyriaethau hyn, Abraham a gynghorodd Sarah i ddirgelu eu hundeb priodasol, a chytunasant ymdaith yn mysg yr Aiphtiaid fel brawd a chwaer. Nid cynt y cyrhaeddodd Abraham i'r Aipht nag y dechreuodd glendid Sarah dynu sylw tywysogion Pharaoh, canys "glân odiaeth oedd hi;" "A thywysogion Pharaoh a'i gwelsant hi, ac a'i canmolasant hi wrth Pharaoh: a'r wraig a gymmerwyd i dŷ Pharaoh." Ar hyn, yr Arglwydd a darawodd Pharaoh â phla llymdost, fel ag i'w analluogi i gyflawnu ei fwriadau: ac efe a alwodd am Abraham, ac a'i ceryddodd am ei anwroldeb, ac a ddychwelodd iddo ei wraig, ac a'i gollyngodd ymaith.

Pan beidiodd y newyn yn Nghanaan, Abraham a ddychwelodd yno. Ar ei ddychweliad, ymwelodd â Sichem, lle yr estynasai ei babell ar ei ddyfodiad cyntaf; ac wedi cyrhaedd yr allor a adeiladasai efe rhwng Bethel a Hai, efe a alwodd ar enw yr Arglwydd: *Gen.* xiii. 4. Erbyn hyn, yr oedd deadellau Lot hefyd wedi mawr gynnyddu, i'r hwn "yr oedd defaid, a gwartheg, a phebyll." Gan fod dyffryn Sichem yma yn gul (rhwng Gerazim ac Ebal), "nid oedd abl i'w cynnal hwynt i drigo yn nghyd; am fod eu cyfoeth hwynt yn helaeth, fel na allent drigo yn nghyd." O achos hyn, cyfododd cynhen rhwng bugeiliaid Abraham a bugeiliaid Lot, o herwydd prinder naill ai porfeydd ai ffynnonau, os nad pob un o'r ddau; ac er mwyn gochel canlyniadau annymunol, Abraham yn ddoeth iawn a gynghorodd fod iddynt ymadael â'u gilydd, ac ymffurfio yn ddwy fintai wahanol. Gan fod Abraham hyd yma yn ddiblant, yr oedd yn naturiol i Lot, ac efe yn fab i'w frawd, ddysgwyl bod yn etifedd iddo. Ond nid oedd hyny yn gydweddol â'r dyben dwyfol: ac mor esmwyth yr arweiniwyd ei ymadawiad yn mlaen, er parotoi y ffordd i'r hwn oedd i etifeddu yr addewidion. Cafodd Lot y fantais o ddewis ei breswylfod, a detholodd wastadedd dyfradwy yr Iorddonen; ac efe a symmudodd ei bebyll a'i anifeiliaid yno, ac a luestodd ar gyffiniau Sodom. Abraham yntau a gorlanodd ei braidd wrth odre y mynyddoedd, ac a breswyliodd yn Hebron, dinas o hynafiaeth dirfawr (*Num.* xiii. 22), 27 milltir i'r deheu o Ierusalem: *Gen.* xiii. 12. [*Josephus*, llyfr i, pen. viii.] Yn fuan wedi ymadawiad Lot, ymddangosodd yr Arglwydd i Abraham, a gorchymynodd iddo, o'r man lle yr ydoedd, gymmeryd golwg gyffredinol ar Wlad Canaan o amgylch ogylch, ac addawodd roddi iddo "yr holl dir a welai, ac i'w had hyd byth." Gorchymynodd iddo hefyd "rodio trwy y wlad, ar ei hyd ac ar ei lled, canys i ti y rhoddaf hi:" ac felly y bu, â'i luest yn symmudol, dros y gweddill o'i fywyd: *Heb.* xi. 9.

Yn y cyfamser, Amraphel brenin Sinar, Arioch brenin Elasar, Cedorlaomer brenin Elam, a Thidal brenin y cenedloedd, a wnaethant ryfel yn erbyn Bera brenin Sodom, Birsa brenin Gomorrah, Sinab brenin Admah, Semeber brenin Seboim, ac â brenin Bela neu Soar. Daethant i frwydr yn nyffryn Sidim (yn awr, gorweddfa y Môr Marw), a Chedorlaomer a'i gynghreirwyr a orfuant; i ddwylaw pa rai y syrthiodd holl gyfoeth Lot yn ysglyfaeth, ac yntau ei hun yn garcharor. Nid cynt y clybu Abraham am anffawd ei nai, nag yr "arfogodd o'i hyfforddus weision, dri chant a deunaw," ac yr ymlidiodd ar ol y breninoedd cynghreiriol o Mamre hyd Dan, pellder o fwy na chan milltir, a goddiweddodd hwynt ger llaw tarddellau yr Iorddonen; lle, wedi ymosod arnynt yn nyfnder nos, y gyrodd hwynt ar ffo, a dychwelodd yn fuddugoliaethus, wedi gwaredu Lot, ac adferyd ei feddiannau. Nad oedd cadarmerth Abraham ar yr achlysur hwn yn effaith tuedd ryfelgar, nac ysbeilgar, eglur yw; canys dychwelodd i frenin Sodom ei gyfoeth ysbeiliedig, yr hwn, yn ol arfer yr amseroedd hyny, oedd yn eiddo iddo ef; ond ni fynai Abraham ymgyfoethogi ar draul tlodi ei gymmydog: *Gen.* xiv. 23. Ar ei ddychweliad, croesawyd ef gan Melchisedec, offeiriad a brenin Salem (Ierusalem), yr hwn a ddaeth allan i'w gyfarfod, "ac a'i bendithiodd ef, ac a ddywedodd, bendigedig fyddo Abram gan Dduw Goruchaf, meddiannydd nefoedd a daiar: bendigedig fyddo y Duw Goruchaf, yr hwn a roddes dy elynion yn dy law." Abraham ar hyn a roddodd i Melchisedec y ddegfed ran o'r holl anrhaith a ennillasai, fel cydnabyddiaeth o urddas ei berson a'i swyddogaeth: *Heb.* vii. 1. Gweddus oedd i Abraham gydnabod uchafiaeth y person urddasol hwn, oedd "wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw" yn nirgelwch ei achyddiaeth, &c. Gwel Melchisedec.

Yn fuan wedi hyn, daeth gair yr Arglwydd at Abraham, mewn gweledigaeth, gan ddywedyd, "Nac ofna; myfi ydyw dy darian, dy wobr mawr iawn." Yntau a ymofynodd âg ef yn nghylch pwy fyddai ei etifedd. Gan ei fod hyd yma yn ddiblant, yr oedd yn naturiol iddo fod yn bryderus yn yr achos. Ymddengys iddo dybied mai ewyllys yr Arglwydd oedd, iddo fabwysiadu Eleazar ei gaethwas (brodor o Damascus); ond yn hyn yr oedd yn gamsyniol; canys, "Wele air yr Arglwydd ato ef, gan ddywedyd, Nid hwn fydd dy etifedd, onid un a ddaw allan o'th ymysgaroedd di fydd dy etifedd:" wrth yr hyn y deallodd, er ei lawenydd, fod Canaan i fod yn etifeddol yn ei hiliogaeth naturiol ef ei hun, yr hyn, o dan yr amgylchiadau, a ymddangosodd yn anhygoel. Ond i symmud ymaith ei ammheuon, Duw a'i harweiniodd allan ar noswaith glir, ac a ddywedodd,

Digitized by Google

"Golyga yn awr y nefodd, a rhif y ser, o gelli eu cyfrif hwynt: dywedodd hefyd wrtho, Felly y bydd dy had di." Cafodd yr olygfa ryfeddol hon y fath effaith ar feddwl Abraham fel y symmudodd yn hollol ei bryder blaenorol, ac y cynhyrfodd ynddo grediniaeth ddiysgog yn addewid Duw, a dysgwyliad hyderus am ei chyflawniad: "Yntau a gredodd yn yr Arglwydd, ac efe a'i cyfrifodd iddo yn gyfiawnder;" ac erys yn esampl o etifeddiad cyfiawnder ffydd hyd genedlaeth a chenedlaeth. Dywedodd yr Arglwydd wrtho hefyd mai i etifeddu Canaan y dygasai efe ef allan o Ur y Caldeaid; gofynodd yntau am arwydd o hyny; "Arglwydd Dduw, trwy ba beth y caf wybod yr etifeddaf hi? Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymmer i mi anner dair blwydd, a gafr dair blwydd, a hwrdd tair blwydd, a durtur, a chyw colomen. Ac efe a gymmerth iddo y rhai hyn oll, ac a'u holltodd hwynt ar hyd eu canol, ac a roddodd bob rhan ar gyfer eu gilydd," &c. Dyma y dull yn yr oesoedd gynt o gadarnhau cyfammod. Wedi tori gwddf yr aberth, a gollwng ei waed, holltid ef ar hyd ei ganol, a gosodid pob rhan ar gyfer eu gilydd, gan adael lle i gerdded rhyngddynt; a'r pleidiau cyfammodol a äent i fewn yn y ddau ben, ac wedi cyfarfod yn y canol, cymmerent y llw arferol. Wedi i Abraham osod yr aberth a'i ddarnau mewn trefn, pan fachludodd yr haul: "wele ffwrn yn mygu, a lamp danllyd yn tramwyo rhwng y darnau hyny." A chyfarfu yr Arglwydd âg ef rhwng darnau yr aberth; a gwnaeth gyfammod âg ef am Wlad Canaan a'i therfynau: "I'th had di y rhoddais y wlad hon, o afon yr Aipht, hyd yr afon fawr, afon Euphrates;" *Gen*. xv. 18. Yr oedd yr amgylchiad hynod hwn yn gysgod amlwg o waith Duw yn cymmodi pechaduriaid âg ef ei hun trwy aberth Crist: *Exod*. xxix. 41—44; 2 *Cor*. v. 19. Hysbysodd yr Arglwydd hefyd i Abranam ar yr achlysur hwn am gaethiwed ei hiliogaeth yn ngwlad yr Aipht, dros yr ysbaid maith o bedwar can mlynedd; yn nghyd â'u gwaredigaeth hwynt, a dinystr eu cystuddwyr. Awgrymai Iehofah fod ei gynllun yn anaeddfed, ac nad oedd y ffordd i feddianniad cyflawn o'r wlad eto yn agored, yn gymmaint a bod ei phreswylwyr gwreiddiol heb gyflawnu yn llwyr fesur eu hanwiredd: *Gen*. xv. 16:—y dychwelai ei hiliogaeth o'r Aipht yn y bedwaredd oes "gyda chyfoeth mawr," pryd y byddai anwiredd cynnyddol y Canaaneaid yn gyfryw ag a alwai am eu dinystr uniongyrchol, ac a wnai eu hamddifadiad o'u gwlad yn oruchwyliaeth gyfiawn!

Abraham, wedi deall fod Canaan i fod yn etifeddol yn ei hiliogaeth naturiol ef ei hun, ar annogaeth Sarah ei wraig, yr hon oedd anmhlantadwy, efe a ddyweddïodd Agar ei llawforwyn (Aiphtes o genedl); a ganwyd iddi Ismael, yn yr hwn yr ymgysurai Abraham yn fawr, yn yr ystyriaeth o'i fod, fel y tybiai efe, yn cofleidio etifedd. Ond cafodd ei fod, yn hyn hefyd, yn gamsyniol; canys yn mhen tair blynedd ar ddeg wedi hyn, ymddangosodd yr Arglwydd iddo drachefn, pryd yr adnewyddodd ei gyfammod âg ef, a'i addewidion iddo: "Myfi yw Duw hollalluog, rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith. A mi a wnaf fy nghyfammod rhyngof a thi, ac a'th amlhaf di yn aml iawn." Ar hyn, Abraham a syrthiodd ar ei wyneb—yn hytrach, ar ei wyneb a'i ddwylaw, gan osod ei dalcen ar y ddaiar, yn ol yr arferiad dwyreiniol—yr hyn a arddangosai yr ymostyngiad mwyaf llwyr, a'r addoliad mwyaf gwylaidd. "A llefarodd Duw wrtho ef, gan ddywedyd, Myfi, wele, mi a wnaf fy nghyfammod â thi, a thi a fyddi yn dad llawer o genedloedd. A'th enw ni elwir mwy Abram *(tad dyrchafedig)*, onid dy enw fydd Abraham *(tad llawer)*; canys yn dad llawer o genedloedd y'th wnaethym," &c.: *Gen*. xvii. 1—8. Yr oedd y chwanegiad hwn at enw blaenorol Abraham yn hollol gydweddol âg addewid Duw iddo, sef y byddai iddo amlhau ei had, a bendithio ei hiliogaeth, ac y byddai Gwlad Canaan o ben i ben yn eiddo iddynt. [Gwel CANAAN.] Ar yr achlysur hwn hefyd, cymhellwyd ef i'w enwaedu, gyda gorchymyn penodol ar fod iddo ddwyn ei holl wrywiaid yn ddieithriad dan yr unrhyw oruchwyliaeth, yn arwydd cyfammod rhyngddo ef a hwynt, ac i'w gwahaniaethu oddi wrth y cenedloedd eilunaddolgar; yn gystal ag i'w hadgofio o'u rhwymedigaethau personol i gadw y cyfammod a wnaethai efe â Duw ar eu rhan. Cadarnheid y cyfammod hwn, nid yn unig âg addewid, ond â bygythiad hefyd: "A'r gwryw dienwaededig, yr hwn ni enwaeder cnawd ei ddienwaediad, torir ymaith yr enaid hwnw o fysg ei bobl: o blegid efe a dorodd fy nghyfammod i." Gwnaed ychydig gyfnewidiad yn enw Sarah hefyd: "Dy wraig ni elwi ei henw Sarai *(fy nhywysoges)*, onid Sarah *(tywysoges)* fydd ei henw hi." Rhoddai hyn iddo ystyr annherfynol, megys ag y gwnaed yn achos Abraham ei hun; ac yr oedd hyn oll mewn perffaith gydgordiad â'r "addewidion mawr iawn a gwerthfawr" a wnaethai Duw iddynt. Cyn ymadael oddi wrtho y tro hwn, bu i'r Arglwydd symmud pryder Abraham trwy chwanegu addewid o etifedd, yr hwn oedd i gael ei eni tua'r pryd hyny y flwyddyn ganlynol: "Sarah dy wraig a ymddwg i ti fab yn ddiau; a thi a elwi ei enw ef Isaac: a mi a gadarnhaf fy nghyfammod âg ef yn gyfammod tragwyddol, ac â'i had ar ei ol ef." Amlygai Abraham erbyn hyn deimlad dwys yn achos Ismael, yr hwn oedd weithian wedi cyrhaedd oedran serchogrwydd: "O na byddai fyw Ismael ger dy fron di!" Mewn atebiad, addawai yr Arglwydd ei fendithio, a'i ffrwythloni; ond mynai iddo ddeall ar yr un pryd mai Isaac fyddai ei etifedd: "Eithr fy nghyfammod a gadarnhaf âg Isaac, yr hwn a ymddwg Sarah i ti."

Abraham, mewn ufudd-dod i'r gorchymyn dwyfol, a aeth dan enwaediad; ac a enwaedodd "ar bob gwryw o ddynion ei dŷ." Yn fuan wedi hyn, anrhydeddwyd Abraham âg ymweliad oddi wrth Dduw, yn nghyd â dau o'i angelion, i'w hysbysu o'i fwriad i ddinystrio dinasoedd y gwastadedd, a'u trigolion; dros y rhai y bu i Abraham eiriol yn daer, ond yn aflwyddiannus, oddi eithr yn achos Lot yn unig: *Gen*. xix. [Gwel LOT.] Pan ddygwyddodd yr amgylchiad difrifol hwn, yr oedd Abraham yn ngwastadedd Mamre, ac yn eistedd wrth ddrws ei babell. Cododd ei olwg, ac wele dri wŷr yn sefyll ger ei fron: yntau a redodd i'w cyfarfod, ac a ymgrymodd tua'r ddaiar, gan ymhwedd arnynt yn daer i aros gydag ef i orphwyso; â'r hyn y cydsyniasant. Nid ymddengys iddynt fyned i mewn i'r babell; ond arosasant dan bren oedd ger llaw, lle, y mae yn debygol, yr oedd allor i'r Arglwydd; canys yn y cyfryw leoedd y byddai Abraham yn arferol o addoli. Brysiodd Abraham i barotoi gogyfer â'u croesawu; gosododd ymborth o'u blaen; a hwythau, yn ymddangosiadol, a fwynhäent ei garedigrwydd. Wedi holi yn nghylch Sarah, ac adnewyddu yr addewid o had iddi, hwy a ymadawsant. Pan gyfododd y gwŷr i ymadael, sylwai Abraham eu bod yn edrych tua Sodom: a chan ofni fod dinystr yn eu bryd, efe a aeth gyda hwynt gan eu hebrwng.

Digitized by Google

Fel yr oeddynt yn ymdaith, yr Arglwydd *(Iehofah)* a ddywedodd (wrth y ddau angel oedd gydag ef), "A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaf? Canys Abraham yn ddiau fydd yn genedlaeth fawr a chref, ac ynddo ef y bendithir holl genedloedd y ddaiar. Canys mi a'i hadwaen ef, y gorchymyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn; fel y dygo yr Arglwydd ar Abraham yr hyn a lefarodd efe am dano." Heb ymattal yn hwy, yr Arglwydd a amlygodd ei fwriad, canys dyma ddyben yr ymweliad presennol: "Am fod gwaedd Sodom a Gomorrah yn ddirfawr, a'u pechod hwynt yn drwm iawn; disgynaf yn awr, ac edrychaf, ai yn ol eu gwaedd a ddaeth ataf fi y gwnaethant yn hollol: ac onid e, mynaf wybod." Gwyddai Abraham yn dda mai yn ol y waedd euogfawr a ddyrchafasai at Dduw yr oedd cyflwr dinasyddion y gwastadedd yn sefyll, a rhagwelai y canlyniad annocheladwy! Wedi yr ymddyddan a gymmerodd le, y ddau angel a ymadawsant, ac a aethant tua Sodom, "ac Abraham yn sefyll eto ger bron yr Arglwydd." Teimlai Abraham yn ddwys yn achos trigolion diofrydedig Sodom a'r cyd-ddinasoedd; yn enwedig y flaenaf, lle yr oedd Lot yn preswylio; ac ni allodd ymattal rhag eiriol ar ei ran. "Abraham hefyd a nesaodd, ac a ddywedodd, A ddyfethi di y cyfiawn hefyd yn nghyd â'r annuwiol?" Nid annhebygol fod Abraham yn teimlo dros frenin Sodom, â'r hwn y cawsai efe o'r blaen achos i ddangos ei gydymdeimlad, pan y gwaredodd ef o ddwylaw Cedorlaomer, ac a ddychwelodd iddo ei eiddo ysbeiliedig; yr oedd yn naturiol gan hyny iddo geisio rhagflaenu ei ddinystr. Ymofynodd â'r Arglwydd a oedd unrhyw deleran, yn yr ystyriaeth o ba rai y gallesid arbed y ddinas—"Ond odid y mae deg a deugain o rai cyfiawn yn y ddinas; a ddyfethi di hwynt hefyd, ac nid arbedi y lle er mwyn y deg a deugain cyfiawn sydd o'i mewn hi?" &c. "A dywedodd yr Arglwydd, Os caf fi yn Sodom ddeg a deugain yn gyfiawn o fewn y ddinas, mi a arbedaf yr holl fangre er eu mwyn hwynt." Abraham, yn gwybod ei fod yn mhell uwch y nod, gyda gwylder teilwng o'r presennoldeb dwyfol, a ddaeth â'r rhifedi i lawr hyd yn ddeg. "Yntau a ddywedodd, Nis dyfethaf er mwyn deg." Ond nid oedd yn Sodom neb cyfiawn, nac oedd un, wedi cael Lot allan o honi; felly, ni chwanegodd Abraham, canys teimlai fod ei eiriolaeth dros y Sodomiaid yn ddisail, a'u tynged hwythau wedi ei selio. "A'r Arglwydd a aeth ymaith pan ddarfu iddo ymddyddan âg Abraham: ac Abraham a ddychwelodd i'w le ei hun."

Wedi hyn, bu Abraham yn ymdeithio yn Gerar, lle rhwng Cades a Sur, ar derfynau de-orllewin Canaan, a breswylid gan y Philistiaid. Nid cynt y cyrhaeddodd efe ddinas Gerar, nag y tynodd glendid Sarah sylw Abimelech y brenin, ac efe a anfonodd, ac a'i dug hi i'r brenindy. Yr achos o'r amryfusedd hwn eto oedd, i Abraham ddywedyd am dani, "Fy chwaer yw hi," megys ag y gwnaethai pan yn ymdeithio yn yr Aipht. Bwriad Abimelech oedd ei phriodi; ond yr Arglwydd a luddiodd ei amcan, canys ymddangosodd iddo mewn breuddwyd, gan ei fygwth â marwolaeth ddisymmwth oni ddychwelai efe hi i'w gŵr yn ddiymaros. Priodolai Abimelech yr achos, a hyny yn gyfiawn, i ledrith Abraham, a dychwelodd ei wraig iddo y dydd canlynol, gyda cherydd llym am ei anymddiried. Dywedai Abraham ei bod yn wraig iddo yn ddiau, ond ei bod yn chwaer iddo hefyd; ac felly yr oedd, canys yr oedd Sarah yn ferch i Terah, ond nid o fam Abraham. Mewn atebiad i weddi Abraham, symmudwyd y farn a roddasai yr Arglwydd ar Abimelech a'i dŷ yn achos Sarah; ac wedi eu llwytho âg anrhegion, hwy a ymadawsant: *Gen.* xx.

Yn fuan wedi hyn, ganwyd Isaac; ac Abraham a'i henwaededd yn ol y cyfammod. Ar ei *ddyddyfniad* (yr hyn, yn ol yr arferiad dwyreiniol, a wneid rhwng tair a phedair blwydd oed), Abraham a wnaeth "wledd fawr," fel yr arferid gwneyd ar ddyddyfniad etifeddion. Yn ystod y wledd, cyffrowyd eiddigedd Sarah, o herwydd gweled Ismael, mab Agar, yn gwatwar. Yr oedd Ismael, y pryd hyn, tua deunaw mlwydd oed; ac hyd yn ddiweddar, efe, yn ol pob tebygolrwydd, oedd i fod yn etifedd; ac ymddengys fod Ismael ei hun yn teimlo felly, a bod ei ymddygiad ar ddydd y wledd yn tarddu oddi ar ddiystyrwch neu eiddigedd. Oddi ar eiddigedd dros hawliau ei mab ei hun, Sarah a ddirgymhellodd Abraham i yru Agar a'i mab ymaith: "Bwrw allan y gaethforwyn hon a'i mab; o herwydd ni chaiff mab y gaethes hon gydetifeddu â'm mab i Isaac." Yr oedd cydymffurfio â'r cais penodol hwn o eiddo ei wraig yn hollol groes i deimlad ac ewyllys Abraham; ond cafodd ei fod er hyny yn gwbl gydweddol â'r ewyllys ddwyfol: "A Duw a ddywedodd wrth Abraham, Na fydded drwg yn dy olwg am y llanc, nac am dy gaethforwyn; yr hyn oll a ddywedodd Sarah wrthyt, gwrandaw ar ei llais; o herwydd yn Isaac y gelwir i ti had," &c. Wedi gwneyd y parotoadau angenrheidiol ar gyfer ei thaith, Abraham a ollyngodd Agar a'i mab ymaith; a hi a aeth ac a grwydrodd yn anialwch Beer-seba. Daeth Ismael yn genedl liosog; a'r llwythau Arabaidd, hyd heddyw, a ymffrostiant eu disgyniad oddi wrtho. Gwel Ismael.

I'r graddau y cynnyddai golud Abraham, a'i weision, a'i anifeiliaid, cynnyddai ei nerth a'i ddylanwad hefyd, yr hyn oedd mor fawr yr amser yma, fel y dechreuai y breninoedd cymmydogaethol ei ofni a'i fawrhau; canys wele Abimelech, brenin y Philistiaid, yn dyfod o Gerar, gyda Phichol, tywysog ei lu, i'r dyben o sicrhau ei ffafr, trwy gael ganddo fyned i gyfammod âg ef na byddai iddo oresgyn ei deyrnas, na gorthrymu arno ef, na'i olafiaid, â'r hyn y cydsyniodd y patriarch urddasol gyda phob ewyllysgarwch. Wedi ceryddu Abimelech yn achos y pydew dwfr a ddygasai ei weision— o'r hyn yr oedd Abimelech yn anwybodus— Abraham a wnaeth gyfammod âg ef, ac a alwodd le y cyngrhair Beer-seba—"o blegid yno y tyngasant ill dau," &c. "Ac Abraham a ymdeithiodd ddyddiau lawer yn nhir y Philistiaid;" *Gen.* xxi. Wedi rhoddi i Abraham gynnifer o brofion o'i ffafr a'i ffyddlondeb ei hun, wele yr Arglwydd, o'r diwedd, yn galw am brawf o'i eiddo yntau. Yn *Gen.* xxii. 1—19, ni gawn y prawf a wnaeth yr Arglwydd o ffydd ac ufudd-dod Abraham. Mae perthynas yr hanes rhyfedd hwn âg Abraham yn bersonol yn bwysig, ac yn y cyssylltiad hwn yr ymgynnygia gyntaf i sylw. Ond y mae cwestiynau ereill yn codi, sydd yn angenrheidiol i'w ddeall, mewn trefn i weled gwir natur yr amgylchiad hwn. Pa ham y gofynir am Isaac yn aberth? Pa ham y gorchymynir ei aberthu yn y lle penodol hwn, oedd ddeugain milltir o ffordd o'r fan lle yr oedd? Pa ham, ar ol cael pob peth yn barod i gyflawnu y gorchymyn, yr attelir hyny yn y ffordd benodol a enwir? A pha ham, mewn cyssylltiad â'r weithred hon, yr adnewyddir yr addewidion a roddwyd yn flaenorol? Gellir ateb y cwestiynau hyn yn y fath

Digitized by Google

fodd ag i ddangos eu cymhwysder i brofi Abraham, ac i fod yn wobr iddo ar gyflawniad mor fuddugoliaethus o'r prawf. Ond, i'w deall yn gyflawn, rhaid edrych arnynt yn eu cyssylltiad â hanes dyfodol y genedl yr oedd Abraham yn dad iddi. Yr oedd cyffredinolrwydd yr arferiad o offrymu aberthau dynol yn codi o'r teimlad cyffredinol o euogrwydd yn natur dyn, a'r angenrheidrwydd am iawn, yn nghyd â'r camsyniad arswydus o fod marwolaeth cydgyfranogwr mewn euogrwydd yn iawn drosto. Ymgorffolwyd yr holl wirionedd sydd yn y syniad hwn, sef hawl Duw mewn dyn, a'r angenrheidrwydd am iawn, yn y sefydliad Iuddewig. Yr oedd Israel yn eiddo i'r Arglwydd, a'r cyntafanedig mewn modd arbenig, fel cynnrychiolydd yr holl bobl; a'r hyn hefyd a benodwyd yn lle y cyntafanedig, sef y Lefiaid a'r aberthau:—gan fod yr Arglwydd wedi gwneuthur cyfammod âg Abraham, y mae yn dangos ei hawl yn y cyntafanedig trwy orchymyn offrymu Isaac, ac fel rhagddarpariaeth i sefydliad aberthawl y gyfraith, derbynir yr hwrdd yn lle Isaac.

Yr oedd Abraham i fyned i dir Moriah, ac yna dangosai yr Arglwydd iddo fynydd, yr hwn a elwir *Iehofah a edrych*: *Gen.* xxii. 14. Yr oedd Moses yn gydnabyddus â mynydd etifeddiaeth Israel (*Exod.* xv. 17), a chyfeiria ato fel lle y deml. Gorchymynwyd codi y deml yno, fel lle o enwogrwydd: 1 *Cron.* xxi. 18; 2 *Cron* iii. 1.

Tra y bu Abraham yn Beer-seba, derbyniodd genadwri oddi wrth Nachor ei frawd, o Haran, yn ei hysbysu fod ganddo ddeuddeg o blant, ac ŵyres â'i henw Rebeccah. Nid oedd y crybwylliad o'enw Rebeccah ar yr achlysur hwn, ond odid, ond damweiniol; tra yr ydoedd, ar yr un pryd, yn dal cyssylltiad uniongyrchol â'r dyben dwyfol yn ngalwad ac ymddidoliad Abraham; megys y gwelir rhag llaw. Yn mhen tua deuddeng mlynedd wedi profedigaeth mynydd Moriah, dygwyddodd un alarus arall, sef marwolaeth Sarah, yr hyn a gymmerodd le yn Nghaer Arba (Hebron) yn y 127fed flwyddyn o'i hoedran, yr hyn yn ddiau oedd yn brofedigaeth chwerw i Abraham. Gan na feddai efe ddim tir o'i eiddo ei hun yn Nghanaan (*Act.* vii. 5), Abraham a appeliodd at breswylwyr Hebron am feddiant beddrod, er sicrhau claddfa i'w briod ymadawedig; a daeth i gytundeb âg Ephron, un o'r dinaswyr, am faes Machpelah, yr hwn a bwrcasodd efe er 400 sicl (tua 45*p.*) o arian. "Felly y sicrhawyd maes Ephron, yr hwn oedd yn Machpelah, yr hon oedd o flaen Mamre, y maes a'r ogof oedd ynddo, a phob pren a'r a oedd yn y maes, ac yn ei holl derfynau o amgylch, yn feddiant i Abraham, yn ngolwg meibion Heth, yn ngŵydd pawb a ddelent i borth ei ddinas ef." Ac yma y claddodd Abraham Sarah "allan o'i olwg," gyda 'r seremoniau arferol yn y wlad hono ar y cyfryw achlysuron. "Ac wedi hyny Abraham a gladdodd Sarah ei wraig yn ogof maes Machpelah, o flaen Mamre; hono yw Hebron, yn nhir Canaan;" *Gen.* xxiii.

Abraham, yn gweled ei fod ei hun weithian wedi heneiddio, a roddes ei fryd ar barhad ei goffadwriaeth, ac yn gweled nas gallesid, dan yr amgylchiadau, ddiogelu iddo ef ddisgyniad priodol, efe a anfonodd Eleasar ei was i Mesopotamia, at ei bobl ei hun, i gyrchu gwraig i Isaac, er mwyn attal cymmysgedd teuluol, ac i gadw ei hiliogaeth ar wahan oddi wrth eilunaddolwyr, gan ba rai yr oedd Canaan y pryd hyny yn cael ei phreswylio. Dygodd Eleasar dan adduned ddifrifol y buasai yn gweithredu yn deilwng o'r ymddiried, ac nid yn cyflwyno un o ferched Canaan dan rith ei dyfod o Mesopotamia. "A mi a barat i ti dyngu i Arglwydd Dduw y nefoedd, a Duw y ddaiar, na chymmerech wraig i'm mab i o ferched y Canaaneaid, y rhai yr ydwyf yn trigo yn eu mysg: ond i'm gwlad i yr äi, ac at fy nghenedl i yr äi di, ac a gymmeri wraig i'm mab Isaac." Oddi ar y dybiaeth y gallasai ei neges fod yn aflwyddiannus, Eleasar a ofynai i'w feistr urddasol a oedd efe i ddychwelyd Isaac i Mesopotamia, i ddewis iddo ei hun, os gwrthodai y wraig appwyntiedig ddyfod? yr hyn a waharddodd Abraham yn y modd mwyaf penderfynol; "Gwylia arnat rhag i ti ddychwelyd fy mab i yno.——Os y wraig ni fyn ddyfod ar dy ol di, yna glân fyddi oddi wrth fy llw hwn; yn unig na ddychwel di fy mab i yno." A bu iddo symmud pryder Eleasar gyda golwg ar hyn, trwy chwanegu y buasai yr Arglwydd yn anfon ei angel o'i flaen ef. Eleasar yn ddiymaros a ymbarotôdd i'r daith; ac wedi trafael faith a lluddedig, cyrhaeddodd ddinas Nachor (Haran), lle yr oedd teulu Abraham yn preswylio. Gwnaeth i'w gamelod benlinio wrth ffynnon y tu allan i'r ddinas; canys felly y byddai camelod yn gorphwyso; yntau a alwodd ar enw yr Arglwydd, gan atolwg ar fod iddo gael ei arwain i gyfarfod â chyfryw un yn ddyweddi i fab ei feistr, ag a ryngai fodd yn ei olwg. Ac efe eto yn llefaru, wele Rebeccah, merch Bethuel fab Nachor, brawd Abraham, yn dyfod at y ffynnon i dynu dwfr. Aeth yn ymddyddan rhyngddynt, ac aethant yn nghyd i'r ddinas, ac i dŷ Bethuel, lle y cafodd Eleasar dderbyniad croesawgar. Dechreuodd Eleasar "draethu ei negesau," cyn cyfranogi o garedigrwydd y teulu. Dywedodd am rinweddau ei feistr, ei gyfoeth, a'i awdurdod; a darluniodd ragoriaethau a hawddgarwch personol Isaac, yn nghyd â helaethrwydd ei etifeddiaeth, yr hyn a roddodd foddlonrwydd neillduol i'r teulu oll, yn enwedig i Rebeccah. Wedi swperu, ac ystyried yr achos o'r ddau tu, daethpwyd at y pwnc ar yr hwn yr oedd llwyddiant negeswriaeth Eleasar yn ymddibynu, a'r hwn nis gallasai neb ei ateb ond Rebeccah yn unig—"A äi di gyda'r gŵr hwn?" Yn y cyfwng hwn, crynai calon Eleasar ynddo, rhwng ofn a gobaith, ond Rebeccah a symmudodd ei holl ofnau, canys "hi a ddywedodd, Af." Tranoeth, gadawodd Rebeccah dŷ ei thad, a chychwynodd gydag Eleasar tua Chanaan; ac wedi eu dyfod hyd Lahai-roi, lle yr oedd Isaac yn cyfanneddu, efe a'i cymmerodd hi i babell amddifad ei fam ymadawedig, ac a'i priododd: *Gen.* xxiv. Wedi sefydlu Isaac, a throsglwyddo iddo yr etifeddiaeth, Abraham a briododd Ceturah, o'r hon y bu iddo chwech o feibion, y rhai, wedi ei ddyddiau ef, a ddaethant yn benau teuluoedd lluosog, ac a boblogasant Arabia a'i chylchoedd. Wedi hir oes o ymgyssegriad llwyr, ac o bererindod, Abraham a fu farw O. B. 2183, a chyn Crist, 1821, yn 175 mlwydd oed, ac a gladdwyd yn maes Machpelah gyda Sarah ei wraig. "Ac Abraham a drengodd, ac a fu farw, mewn oedran teg, yn hen ac yn gyflawn o ddyddiau; ac efe a gasglwyd at ei bobl. Ac Isaac ac Ismael ei feibion a'i claddasant ef yn ogof Machpelah, yn maes Ephron fab Soar yr Hethiad, yr hwn sydd o flaen Mamre; y maes a brynasai Abraham gan feibion Heth: yno y claddwyd Abraham a Sarah ei wraig."—*(Kitto's Pict. Bible; Calmet's Dict.; a Geiriadur y Parch. T. Charles.)*

Yn y cyfwng hirfaith o Adda hyd Grist, ni bu

Digitized by Google

neb mor nodedig ag Abraham, ac ni ddynodir neb mor amlwg gan fys dwyfol ysbrydoliaeth. Aethai enw ac addoliad y gwir Dduw ar lwyr goll yn llygredigaeth eppil Noah, yn fuan wedi y dylif; ond adferwyd hwynt yn ngalwedigaeth Abraham, yr hwn, er cael ei ddwyn i fyny mewn gwlad ac yn mysg cenedl eilunaddolgar, a arweiniwyd i dir neillduaeth i'r dyben o gyfodi cenedl wahaniaethol, heb fod yn cyfattal duwiau gau, ac i ddwyn addoliad dwyfol i agwedd sefydlog. Yr oedd Iehofah, enw ac addoliad yr hwn fel "Duw Noah" a gollesid yn ngwrthgiliad ei hiliogaeth, i'w adnabod a'i addoli rhag llaw wrth yr enw "Duw Abraham" o genedlaeth i genedlaeth hyd ymddangosiad Crist; pryd yr ymwneir âg ef fel "Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist," a "Thad ein holl drugareddau." Yr oedd galwad ac ymddidoliad Abraham yn un o'r pethau pwysicaf a ddygwyddodd er ddechreu y byd, ac yn un o'r amgylchiadau mwyaf dyddorol a gofnodir yn holl gylch hanesiaeth Ysgrythyrol; canys dyma yr ysgogiad uniongyrchol cyntaf o eiddo dwyfol ddoethineb tuag at iachawdwriaeth y byd. Yr oedd gwythïen ffydd, trwy yr hon yr oedd gwaedoliaeth "Had y wraig" i redeg yn ddigymmysg, wedi ei cholli yn nghyflafan Tŵr Babel, ac yn ngwrthgiliad a gwasgariad teulu Noah; ond daeth i'r golwg yn mherson Abraham, a pharhaodd yn ddidor yn ei hiliogaeth hyd enedigaeth yr Iachawdwr: *Mat.* i; *Luc* iii. Abraham ydoedd y cyff gwreiddiol, o'r hwn y tarddodd "Blaguryn yr Arglwydd," ac nid oedd Isaac, ei had naturiol, ond gwystl o'i had priodol, "yr hwn yw Crist;" *Gal.* iii. 6. Medd Abraham, gan hyny, yr anrhydedd o fod yn dad i'n Hiachawdwr, ac yn dad pawb a gredant ynddo yn mhob cenedlaeth: *Rhuf.* iv. 11—14.

Bydd y pethau canlynol yn mywyd Abraham, yn galondid i gredinwyr pob oes a gwlad, tra y darllenir ei hanes.

1. *Ei ymgyssegriad i wasanaeth ac ewyllys Duw.* Gwir fod golud Abraham yn cynnyddu, trwy fod ei ddeadellau, dan weniadau rhagluniaeth, yn tra-amlhau; eto, yr oedd ei oes yn dymmor o bererindod sanctaidd ac ymroddedig i wasanaeth yr Arglwydd. Yr oedd ei amgylchiadau yn gyfryw ag a'i galluogai i fyw yn ddidoledig oddi wrth y byd; a'i fywyd ymdeithiol yn ffafriol i hunangyssegriad. Pe buasai yn ddinesydd daiarol, buasai dan brofedigaeth barhaus i gymmeryd rhan weithredol mewn achosion tymmorol, drwy yr hyn y lleihasid dylanwad egwyddorion crefyddol ar ei feddwl, ac yr attaliesid rhydd weithrediad gras, i raddau mwy neu lai, ar ei galon. Ymddengys doethineb Duw yn amlwg iawn mewn trefnu i Abraham fod yn symmudol, er ei gadw yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd, a'i ddwyn i chwennych gwlad well, a cheisio dinas âg iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw: *Heb.* xi. 10. Y mae ymgyssegriad Abraham i wasanaeth dwyfol yn deilwng o efelychiad y rhai oll a gyfrifir gydag ef "yn deilwng o'r byd hwnw," yn yr hwn ni bydd pleserau cnawdol yn foddion dedwyddwch: *Luc* xx. 35.

2. *Ei ymddidoliad o'i wlad, ac oddi wrth ei genedl.* Pa fodd y derbyniodd Abraham ei argraffiadau crefyddol, nid ymddengys. Nid yw yn annhebygol i'r Arglwydd ymddangos iddo cyn ei alw yn effeithiol allan o Ur—ïe, amryw weithiau. Nid annhebygol chwaith fod ei deulu o dan ddylanwad yr un ysbryd ag ef ei hun; gan fod eu hymadawiad yn effaith eu gwirfoddol gydsyniad: *Gen.* xi. 5. Nad oedd ymddidoliad Abraham a'i deulu o Ur yn effaith unrhyw gyfyngder amgylchiadol, eglur yw; canys yr oeddynt yn berchen golud helaeth pan ymadawsant: *Gen.* xii. 5. Yr oedd eu gwaith yn cylchymdeithio i'r gogledd hefyd, yn lle cymmeryd y dramwyfa uniongyrchol i Ganaan, rhwng Babilon a'r Aipht, yn profi eu bod dan arweiniad rhyw gynghor heb law yr eiddynt eu hunain. Yn fyr, yr oedd galwad ac ymddidoliad Abraham yn ffrwyth arfaeth Duw, ac yn rhan o'i gynllun gwreiddiol am iachawdwriaeth. Yr oedd ymddidoliad Abraham yn effaith ei ffydd, a saif yn arwydd o oruchafiaeth yr un gras ysbrydol ar y byd, yn ei fwynderau a'i hudoliaethau; ac yn esampl o hunanymwadiad, ac o ymddidoliad oddi wrtho, i gredinwyr, hyd ddiwedd amser: *Heb.* xi. 8—10.

3. *Y cyfammod a wnaeth Duw âg ef.* Yr oedd y cyfammod a wnaethai yr Arglwydd Dduw âg Adda wedi ei dori trwy ei anufudd-dod personol ef ei hun; a'r cyfammod a wnaethai efe â Noah wedi ei dori drwy anufudd-dod ei hiliogaeth. Chwanegodd y Goruchaf, o blegid hyn, fyned i gyfammod â dyn yn mherson Abraham, yr hwn a ddewiswyd i fod yn dad i'r genedl o'r hon yr oedd y Gwaredwr i ddyfod. Yn ol y cyfammod hwn, yr oedd yr Arglwydd i fod yn Dduw i Abraham ac i'w had, yr hyn oedd yn sicrhau ei nodded a'i amddiffyn; ac Abraham, o'r tu arall i rodio yn ffyrdd yr Arglwydd, ac i'w gydnabod ef fel unig wrthddrych ei addoliad. Fel arwydd o'r cyfammod hwn, yr oedd Abraham i enwaedu ei wrywiaid, i'w dwyn dan rwymedigaethau personol o gydymffurfiad. Trwy y ddefod ddifrifol hon, gosodid allan enwaediad y galon, a diosgiad corff pechodau y cnawd yn enwaediad Crist: *Col.* ii. 11. Yr oedd goruchwyliaeth lem yr enwaediad yn gysgod nodedig o oruchwyliaeth Ysbryd Duw ar y galon, ac yn meddu addasrwydd neillduol i arddangos ei phriodol ffrwyth, sef croeshoelio y cnawd, yn nghyd â'i wyniau a'i chwantau. Gwel CYFAMMOD.

4. *Ei ymlidiad ar ol y breninoedd.* Bu yn dda i Lot fod Abraham ger llaw i'w achub o ddwylaw ei elynion cyn ei ddyfetha; a Christ, ein cyfathrachwr dwyfol ni, a'n dwg "o feddiant Satan at Dduw," ac a edfryd i ni ein hetifeddiaeth ysbeiliedig: *Act.* xvi. 18. Bu dda hefyd i'r Sodomiaid i Abraham ddial Lot ar ei wrthwynebwyr; canys gwaredodd eu dinas a'u brenin o ddwylaw y breninoedd cynghreiriol. Yr un modd hefyd yr estynir ymgeledd rhagluniaeth Duw i annuwiolion, mewn cyssylltiad â chynnaliaeth ei bobl neillduedig. Ond ni chaiff cymmwynasgarwch ei effaith briodol ar yr anedifeiriol: *Esa.* xxviii. 10.

5. *Ei eiriolaeth ar ran y Sodomiaid.* Dyma yr anghraifft gyntaf er dechreu y byd o eiriolaeth bersonol er attal tywalltiad barn, a diau ei fod yn gysgodol o eiriolaeth Crist "dros y troseddwyr." Ni fynai yr Arglwydd wneuthur y peth hwn yn ddiarwybod i Abraham: "A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaf?" *Gen.* xviii. 17. Mor gymhwysiadol at bwysigrwydd a dylanwad cyfryngdod Crist! Ni fyn Iehofah weinyddu na thrugaredd na barn tu cefn i'w awdurdod, "Canys y Tad sydd yn caru y Mab, ac yn dangos iddo yr hyn oll y mae yn ei wneuthur;" *Ioan* v. 20. Yr oedd llwyddiant eiriolaeth Abraham yn achos Lot hefyd yn gysgodol o effeithiolaeth haeddiant Crist yn ei eiriolaeth dros ei saint: 1 *Ioan* ii. 2. Ni bu i eiriolaeth a thaerineb Abraham leshau dim i'r Sodomiaid anniwair; ac ni lesha Crist ddim i bechaduriaid caledion ac anedifeiriol, y rhai a barhant i ddwyn yn mlaen wrthryfel

Digitized by Google

agored yn erbyn Duw, hyd oni byddo eu dinystr yn anocheladwy: 2 *Pedr* ii. 6; *Salm* i. 22.

6. *Caffaeliad Isaac trwy yr addewid.* Pan ymadawodd Abraham a Sarah o Ur, yr oeddynt yn mlyneddoedd eu nerth; ac ni buasai caffaeliad etifedd, y pryd hyny, yn groes i gwrs natur; ond ni buasai had naturiol Abraham, felly, yn gysgodol o'i had ysbrydol, cenedliad yr hwn oedd i fod yn hollol annibynol ar achosion naturiol: *Mat.* i. 20. Yr oedd hefyd yn gysgodol o enedigaeth freiniol ei had crediniol trwy yr Ysbryd Glân: *Gal.* iv. 24. Dygir y rhai sydd o ffydd Abraham i etifeddiaeth anllygredig: *adn.* 28.

7. *Ei offrymiad bwriadol o Isaac ar orchymyn Duw.* Nid oedd offrymu anifeiliaid yn beth dyeithr i Abraham: *Gen.* xv. 9, 10. Ond yr oedd y meddylddrych o offrymu aberth dynol wrth arch Duw yn hollol newydd iddo ef ac i'r holl fyd; eto, mynai Iehofah iddo ddeall mai â chyfryw aberth y rhyngid ei fodd ef; nid posibl iddo fod yn amgen yn ol natur pethau. Yr oedd diofryd Abraham yn yr achos hwn yn gyfartal i gyflawniad llythyrenol o orchymyn Duw: "A'i uniganedig fab a offrymodd efe;" *Heb.* xi. 17. Trwy gyfrwng yr hwrdd yn y dyrysni, cafodd Abraham ei Isaac yn rhydd a diangol; ond dangosai Duw, yr hwn oedd i edrych iddo ei hun am "Oen y poethoffrwm," na arbedid ei Isaac ef; ond y byddai iddo gael ei ddryllio a'i glwyfo, "pan osodai efe ei enaid yn aberth dros bechod;" *Esa.* liii. 10; *Heb.* x. 5.

8. *Ei ddychweliad gydag Isaac o'r mynydd y trydydd dydd.* Yr oedd myned Isaac i'r mynydd ar yr achlysur hwn, megys pe yr aethai i "fro a chysgod angeu," gan ei fod, yn mryd ei dad, megys marw. Yr oedd ei ryddhad oddi wrth goed yr allor, gan hyny, a'i ddyfodiad o'r mynydd, megys adgyfodiad o feirw: *Heb.* xi. 19. Yr oedd ei ddyfodiad o'r mynydd y "trydydd dydd" yn arwydd mor nodedig a'r eiddo y prophwyd Ionas o ddyfodiad Mab y dyn o "galon y ddaiar," lle y buasai am dridiau a thair nos: *Mat.* xii. 40.

9. *Nerth a dylanwad ei ffydd.* Yr oedd talentau naturiol Abraham, a'i dduwioldeb ymarferol, yn nodedig; ond ei ffydd oedd ei enwogrwydd uchaf. Eneiniwyd ef âg olew y gras gwerthfawr hwn tu hwnt i'w gyfeillion, fel y saif yn uchaf yn nghofrestr enwogion yr Hen Destament, ac yn esampl anrhydeddus o efelychiad i ddeiliaid y Newydd: *Rhuf.* iv. 3—11. Trwy yr un gras y mae ei holl had yn cael yr un oruchafiaeth: 1 *Ioan* v. 4.

10. *Ei farwolaeth.* Cyn gweled ond cyflawniad rhanol ac anmherffaith o'r addewidion a dderbyniasai, bu farw; ond mewn ymorphwysiad llwyr ar ffyddlondeb yr hwn a addawodd: *Heb.* xi. 13. Cafodd sicrwydd o gyflawniad addewidion Duw, a thystiolaeth trwy ffydd o'u dianwadalwch ar amryw achlysuron cyn gadael y byd, a bu farw "yn gwbl sicr ganddo, am yr hyn a addawsai efe, ei fod ef yn abl i'w wneuthur hefyd;" *Rhuf.* iv. 24. Ei ffydd, trwy roddi bodolaeth bresennol i bethau dyfodol, a'i galluogai i weled a mwynhau cyflawniad yr addewidion. Cyfeiriai Crist ato yn y cyssylltiad yma er cadarnhad o'i raghanfodiad: "Gorfoledd oedd gan eich tad Abraham weled fy nydd i: ac efe a'i gwelodd hefyd, ac a lawenychodd;" *Ioan* viii. 56. Gall y rhai a gerddant lwybrau ffydd Abraham, fwynhau yr un fraint, a phrofi yr un llawenydd: *Rhuf.* iv. 12. O herwydd ei ffydd, ei berthynas naturiol ac ysbrydol â Christ, a'i fywyd dinam, bydd Abraham "byth mewn coffadwriaeth."

ABRAHAM, MYNWES: yr ymadrodd cyffredin yn mysg yr Iuddewon am baradwys, neu y drydedd nef [*Josephus, Han. Mac., pen.* xviii]. Dyma beth a feddylir pan ddywedir fod Lazarus yn mynwes Abraham: *Luc* xvi. 23. Pan bwysai gŵr ar ddwyfron ei gyfaill, dywedid ei fod yn ei fynwes; sef yn ei ffafr, ac o dan ei nodded: *Ioan* xiii. 23. Coleddai yr Iuddewon syniadau uchel am sefyllfa ddyrchafedig Abraham yn y nef, a gobeithion hyderus am dani trwy rinwedd eu disgyniad naturiol oddi wrtho. Ond mynai Crist iddynt ddeall mai ffydd Abraham, ac nid perthynas naturiol âg ef, oedd yn rhoddi hawl a chymhwysder i le yn ei fynwes; o'r hyn yr oedd amgylchiadau y goludog a Lazarus yn brawf: *Luc* xvi.

ABRAHAMIAID: Deistiaid proffesedig a gyfodasant tua'r flwyddyn 1782, yn Bohemia. Eu blaenoriaid oeddynt bersonau o nodwedd isel ac annysgedig; ond a ennillasant—ac ystyried na pharhasant ond dros amser byr—lawer o ganlynwyr. Cyfodasant dan nawdd cyfraith goddefiad a gyhoeddwyd gan yr ymherawdwr Joseph II, o Awstria, oddi wrth yr hwn, wedi hyny, y dyoddefasant erlidigaeth chwerw. Cawsant, neu mabwysiadasant eu henw, o herwydd eu bod yn proffesu eu hunain o'r un ffydd ag Abraham yn flaenorol i sefydliad yr enwaediad. Undod Duw a Gweddi yr Arglwydd ydoedd yr unig bethau Beiblaidd a dderbynient. Deisebasant y llywodraeth am ryddid i addoli yn ol eu cydwybodau; ond gan na addefent eu hunain yn Iuddewon, nac yn aelodau o un o bleidiau crefyddol eu gwlad, gommeddwyd eu cais. Yr ymherawdwr Joseph, er ei fost o'i gariad at ryddid crefyddol, yn y flwyddyn 1783, a ymlidiodd y bobl orthrymedig hyn allan o'u gwlad, gan eu gyru i dueddau Hungary, Transylvania, a Sclavonia, lle y gorfodwyd hwynt i gofleidio y grefydd Babaidd; ond er gwaethaf llymder yr erlidigaeth, glynodd amryw o honynt wrth eu hegwyddorion.

ABREC, sydd air a lefwyd, ar orchymyn Pharaoh, o flaen Ioseph, er anrhydedd iddo, pan osododd Pharaoh ef yn llywodraethwr ar holl wlad yr Aipht, y rhoddodd ei fodrwy ar ei law, y gwisgodd ef mewn gwisgoedd sidan, y gosododd gadwyn aur am ei wddf ef, ac y gwnaeth iddo farchogaeth yn yr ail gerbyd oedd ganddo: *Gen.* xli. 1—43. Nid yw y dysgedigion yn cytuno am ystyr y gair *Abrec*, yr hwn a gyfieithir yn y Beibl Seisonig, "*plyger y glin*," ond a adewir heb ei gyfieithu yn y Beibl Cymraeg. Tybia A. Clarke mai gair Aiphtaeg ydyw, ac am hyny fod ei ystyr yn hollol anadnabyddus. T. Charles a rydd y gair Hebraeg, אברך (*abrech*), fel gwreiddyn iddo, yr hwn a ddichon fod yn gyfansoddedig o אב (*ab*), *tad*, a רך (*rach*), *tyner*, yr hyn a ddynoda nodwedd Ioseph yn bur briodol—*tad*, o herwydd ei ofal dros y bobl; *tyner*, o blegid ei ieuenctyd. Neu, gallai y gair fod yn gyfansoddedig o אב (*ab*), *tad*, a ברך (*berech*), bendith; a buasai yr enw yma mor gymhwys i Ioseph a'r llall, am iddo gymmeryd y fath ofal i ysgoi melldith drom y saith mlynedd o newyn, trwy drysori bendithion y saith mlynedd o amldra. Beth bynag yw ystyr gyntefig y gair *Abrec*, yr oedd ei lefain o flaen Ioseph yn un o'r pethau trwy y sawl y mynai Pharaoh ei anrhydeddu; o blegid y mae bloeddiadau o glodforedd o flaen gwŷr mawrion, pan yn ymddangos yn gyhoeddus, yn beth cyffredin drwy holl India. Gwel IOSEPH.—(*Dubois; A. Clarke; T. Charles.*)

Digitized by Google

**ABRED**, [*pred*—mudiad], drwg; cyfeiliorn; gwibiad; crwydrad; sefyllfa orwael. Gair yn perthyn i un o brif bynciau dwyfyddiaeth hen feirdd Ynys Prydain, a Derwyddon Gâl, sef trawsneidiad, neu drawsfudiad yr enaid. Yr oedd y beirdd yn dosbarthu holl fodolaeth yn dri chylch, rhawd, neu yrfa, yn y dull yma:—

"Tri chylch hanfod y sydd: Cylch y Ceugant, lle nid oes namyn Duw, na byw na marw, ac nid oes namyn Duw a eill ei dreiglo; Cylch yr Abred, lle pob ansawdd hanfod o'r marw, a dyn a'i treiglwys; Cylch y Gwynfyd, lle pob ansawdd hanfod o'r byw, a dyn a'i treigla yn y nef."

CYLCH YR ABRED, neu Gylch y Treigliadau, i'r hwn, ebe 'r Celtig Davies, yr oedd natur a dyn yn ddarostyngedig. Y cylch yma, yn anad un arall, oedd yn cynnwys eu hathrawiaeth hynod o drawsneidiad, yr hon a gymmodent yn gywrain âg anfarwoldeb yr enaid, ac a'i ddedwyddwch diffael yn y diwedd; ac yr oedd *rhaghanfodiad* yr enaid, wrth gwrs, yn ddolen anhebgorol yn yr athrawiaeth. Dau eithaf-ben Cylch yr Abred, os goddefir yr ymadrodd, oedd *annwn* a *dyndod*. Wrth *annwn* y golygid y dyfnder mawr, yr anoddyfn, y "pwll diwaelod," trigle y rhan isaf o fodolaeth, mangre "anelwig ddefnydd" pob creadur byw a marw—yn ngeiriad y Trioedd—"lle pob ansawdd hanfod o'r marw" [lle y cynnyrcha natur bob peth byw o'r marw]; lle y teyrnasai "drwg perffaith" yn ei lawn rwysg, heb ddim da yn trigo ynddo. Dyma eithaf-ben, neu "bwnc" isaf Cylch yr Abred—"uffern" ddyfnaf y beirdd! I annwn y bwriai y beirdd eneidiau y *beilchion*—y pechaduriaid mwyaf yn eu tyb hwy—i ddechreu eu rhawd drawsymfudol; canys "O dri pheth y syrthir yn Abred gan angen—(1.) O falchder hyd annwn." Y radd nesaf yn nghylch yr Abred oedd *obryn*=affwys. Hwn, fel yr ymddengys, oedd cyntedd, porth, neu enau annwn. Nid oedd y fan yma, bid sicr, yn llawn mor ddrwg ag annwn ei hunan. Yma y bwrid enaid yr *anwireddus*—"Syrthir yn Abred—(2.) O anwiredd hyd obryn." Y radd neu y cyflwr nesaf i obryn, yn Nghylch yr Abred, oedd *cydfil*. *Mil*=milyn, yw bwystfil, neu ryw anifail arall. *Cyd*fil, yn nghyfundrefn y beirdd, oedd fwystfil neu anifail o'r un ansawdd neu duedd a'r enaid a drosglwyddid iddo. Fel hyn, (ymdreched pawb fod yn ddifrifol wrth ddarllen "traddodiad y tadau"), os wrth "heliwr cadarn" y meddylir un yn hela y gwylltfilod a helir gan foneddigion ein hoes ni, gellir casglu yn ddiau mai cydfil Nimrod oedd *bytheuad;* a phe buasai yn byw dan oruchwyliaeth beirdd Ynys Prydain, mae yn debyg iawn mai yn y cyfryw y rhoddasid ei enaid i ddechreu dwyn ei benyd; ac wedi hyny, odid na chawsai ei drosglwyddo i ysgyfarnog, er mwyn iddo deimlo holl ddychryn ac ing y milyn diniwaid hwnw, wrth ffoi am ei einioes o flaen cŵn yr heliwr cadarn, creulawn! Ymddengys mai cydfil Herod oedd *cadnaw*. "Dywedwch i'r cadnaw hwnw," meddai Iesu Grist. Fe allai mai cydfil Cæsar Nero oedd *llew;* o blegid at y Cæsar hwn y cyfeiria Paul, fel y tybir, pan ddywedai, "Ac mi a waredwyd o enau y llew." *Hedydd* oedd y cydfil y bu Iolo Morganwg ynddo unwaith, ebe efe, cyn dyfod yn ddyn!—

"From death on wings of rapture borne,
*I soar'd a lark*, and hymn'd the morn;
The sportsman heard my joyful sound;
His brutal shaft soon brought me to the ground;
To nobler life restor'd, *I breath'd once more a man.*"

[Dygwyd fi o farwolaeth ar edyn hyfrydwch,
*Ymgodais yn hedydd*, a chenais fawl y bore;
Clywodd yr adarwr fy hyfryd sain;
Ei saeth filain a'm cwympodd yn ebrwydd i'r llawr;
Adferwyd fi i fywyd ardderchocach, *ac anadlais unwaith eto yn ddyn.*]

Yr *annhrugarogion* a fwrid i gylch y cydfilod: canys "Syrthir yn Abred—(3.) O annhrugaredd hyd gydfil, a threiglo yn ol at ddyndod, fel o'r blaen." Y radd olaf yn Nghlych yr Abred, sef ei eithaf-ben uchaf, yw "*cyflwr dyndod.*" Er mai "*tri*" oedd rhif cyssegredig y beirdd, eto, cafodd Cylch yr Abred, ryw fodd, *bedwar* cyflwr neu sefyllfa. Mae yn amlwg y credai y beirdd fod Cylch yr Abred yn cynnwys *pob creadur byw*, daiarol a morawl, o leiaf, yn ddiwahaniaeth, pa un bynag ai pysg ai adar, ai pedwarcarnolion y ddaiar, ai dyn; ac yn wir, lled-dybir fod y Trioedd yn rhoi yr *angelion* hefyd yn agored i'r treigliad! Dywed un Sais, a ysgrifenodd "Hanes Cymru," yn ddiweddar, yn bur ffraeth, yn ei dyb ei hun, fel yr ymddengys, "nad ydyw *pysgod* yn ddarostyngedig i'r ddeddf fawreddog hon!" Ond yn hyn y mae yn cyfeiliorni, am nad yw yn gwybod ysgrifeniadau y beirdd, nac eangder Cylch yr Abred; canys sicr ydyw fod Thomas ab Einion Offeiriad, yn enw Taliesin, yn darostwng y "pysgod" hefyd "i'r ddeddf," yn y llinellau hyn:—

"Mewn boly tywyll ym tywalltwys,
*Mewn mor dylan ym dychwelwys;*
Bu goelfain im' pan ym cain fygwys,
Duw Arglwydd yn rhydd a'm rhyddhawys."

[Taflwyd fi i fol tywyll *yn cigion y môr—môr di-lan* (cefnfor), trwy yr hwn y'm cludwyd: newydd da i mi oedd cael fy nedwydd fygu, canys y pryd hyny y rhyddhaodd yr Arglwydd Dduw fi o'm caethiwed.]

Gwelir yma nad o *hedyddion* yn unig y gallasai eneidiau y beirdd "anadlu unwaith eto yn ddyn," ond hefyd y gallasent wneyd hyny o *bysgod;* canys diau mai pysgodyn oedd y "*bol croen*" a ddattodwyd gan un o goredwyr Gwyddno, ger bron Elphin, o'r hwn y "rhyddhawyd" Taliesin; yr hwn, meddai y chwedl, oedd yn alluog i brydyddu "mewn mynyd" ar ol *anadlu yn ddyn!* Beth bynag am hyn, tybir fod yn y llinellau a ddyfynwyd gyfeiriad amlwg, er mor chwedlonol, at drawsneidiad i *bysgod*. Dywed yr un bardd drachefn,—

"Mi a fûm am logawd
Yn ngwlad y Drindawd;
*Ni wyddys beth yw y cnawd,
Ai cig ai pysgawd.*"

[Mi a fûm yn nghanghell neu gyssegrfa gwlad y Drindod: *ni wyr neb beth yw fy nghnawd, pa un ai cig ai pysgod.* Neu, fel y mae y llinellau yn "Ngorchestion y Beirdd,"—

"Mi fûm â'm llygawd yn gweled y Drindawd;
Mi fydda dann ddydd brawd ar wyneb daearawd,
Nis gwyddys beth yw 'nghnawd ai cig ai pysgawd."]

Yr ydys yn gwybod amcan, erbyn hyn, beth yw helaethder Cylch yr Abred, a pha fath yw ei wahanol raddau neu gyflyrau; ac yn gwybod hefyd mai annwn a dyndod yw ei ddau eithafben. Yn ol athrawiaeth y beirdd, cafodd pob enaid byw ei *ddechreuad* yn annwn, a threiglodd pob un yr Abred yn gyflawn, trwy ei holl gyflyrau, o'r pryfyn distadlaf, trwy yr ymlusgiaid a'r pedwarcarnolion, yr ehediaid, a'r pysgod, a'r cyfan oll, nes cyrhaedd eithaf-ben uchaf y cylch, sef "pwnc rhyddid yn nyndod." Barnai y beirdd fod "y drwg yn gorbwyso'r da" yn mhob un o'r tri chyflwr cyntaf yn Nghylch yr Abred; er hyny, barnent fod *graddau* yn y drwg—fod y drwg yn waeth yn annwn—y gwaethaf oll—nag yn obryn, ac yn waeth yn obryn nag yn y cydfil, er bod y drwg yn gorbwyso y da yma hefyd.

Digitized by Google

O herwydd hyn, yr oedd sefyllfa yr enaid yn gwella rhywfaint bob cam a gymmerai o gorff y naill anifail i'r llall, nes o'r diwedd iddo gyrhaedd "pwnc rhyddid yn nyndod." Yn unol â hyn, sylwa Iolo Morganwg, er bod y drwg yn gorbwyso y da, hyd yn oed yn y drws nesaf i ddyndod, eto, bod eneidiau, fel y treiglent o greaduriaid distadl a ffyrnig, i rai tynerach a diniweidiach, wrth ddynesu at gyflwr dyndod, yn dyfod yn fwy diwylliedig eu tueddiadau, heb fod gymmaint dan lywodraeth y drwg; ac o'r diwedd, eu bod yn cyrhaedd rhyw radd o *ddaioni nacaol!* Yr oedd yr enaid, tra ar ei dreiglad trwy y tri chyflwr dan sylw, yn gwbl amddifad o gof, amgyffred, ac ymwybodolrwydd; ac, meddai Iolo, "Lle bo drwg yn gorbwyso yn anocheladwy, nis gellir ystyried y byddai yn gysson â chyfiawnder fod un creadur, yn y fath gyflwr, yn feius, nac yn wrthddrych cospedigaeth. Yma y teyrnasa ffawd." Ond am y *pedwerydd* cyflwr o Gylch yr Abred, sef dyndod, yr oedd drwg a da yma yn dyfod yn hollol gydbwys, a'r enaid yn dyfod i fwynhad o'i holl gynneddfau—yn cyrhaedd "pwnc rhyddid," yn ystyr helaethaf y gair, ac yn dyfod "yn gyfrifol am ei holl weithredoedd, gan y byddai ganddo allu i ymlynu wrth y da neu y drwg, yn ol fel y byddai iddo ddarostwng neu beidio darostwng ei dueddiadau dan reolaeth rheswm a natur didwyll—deddfau sefydlog y Creawdwr." Yn y cyflwr o ddyndod, yr oedd y beirdd yn gosod dyn "mewn sefyllfa prawf" yn gyfangwbl. Os parhäai i ymwrthod â'r drwg, ac i ddewis y da, hyd angeu, yr oedd i gael "ei ddyrchafu i'r fath gyflwr uwch law dyndod ag a gyfatebai i'w gyrhaeddiadau mewn daioni, ac yn ol y graddau y byddai y cyfryw yn gorbwyso yn erbyn drwg." Y cyflwr yma o ddyrchafiad uwch law dyndod, oedd "Cylch y Gwynfyd," lle yr adferid i'r enaid gof perffaith-gwbl, fel y gallai olrhain, gyda manylwch a dywenydd, bob cyflwr a sefyllfa, a phob dygwyddiad a gyfarfu yn mhob corff, tra yn "treiglo yr Abred," o annwn i fyny: yr oedd hyn i fod "yn rhan helaeth o'i wynfyd." Wedi i'r enaid unwaith gyrhaedd Cylch y Gwynfyd, yr oedd yn gwbl allan o berygl mwyach o syrthio i gyflyrau isaf yr Abred, gan fod yn annichonadwy i'r drwg gael y trechaf arno byth mwy. Ond gallasai ddyfod i roi tro i "gyflwr dyndod," drachefn a thrachefn wrth ei bleser; a pha bryd bynag y cymmerai hyny le, byddai ymweliad y fath enaid gogoneddus yn sicr o fod yn fendith i'r byd; ac ehedai yn ol, yn marwolaeth, yn ddiffael, i Gylch y Gwynfyd. Ar y llaw arall, os ymlynai enaid, tra yn treiglo cyflwr dyndod, cyn cyrhaedd gwynfyd erioed, wrth y drwg, yr hyn ni wnai ar ol cyrhaedd gwynfyd unwaith, efe a syrthiai, yn marwolaeth, i'r fath gyflwr anifeilaidd yn Abred ag a gyfatebai i'w frynti; a gallasai ei frynti fod mor ysgeler ag i'w daflu yn ol i annwn, fel yr awgrymwyd eisoes; ac os felly y byddai, efe a ddychwelai eilwaith trwy y fath gyfres o fodau anifeilaidd ag a fyddent yn fwyaf addas i'w ddiosg o'i ddrygioni. Ar ol iddo "dreiglo yr Abred," dyrchefid ef eilwaith i gyflwr dyndod, o'r hwn y gallai, yn ol fel yr ymddygai, ymgodi i wynfyd, neu syrthio i'r Abred drachefn; ond, pe dygwyddasai iddo syrthio i'r Abred, y naill dro ar ol y llall, am filiwn o oesau, byddai y llwybr i wynfyd yn agored fyth o'i flaen; ac yn hwyr neu hwyrach, efe a gyrhaeddai yn anffaeledig i'w gyflwr o wynfyd appwyntiedig iddo, o'r hwn ni syrthiai yn dragwyddol. "Mae trueni diddiwedd," ebe yr hen fardd, "yn beth annichonadwy; nis gall, o angenrheidrwydd, fod yn gysson â chyfiawnder Duw, yr hwn nid yw byth yn gweithredu trwy ddygasedd, er amlygu goruchaf allu, yr hyn a fyddai yn *falchder.* 'Duw, cariad yw,' i'r graddau pellaf a pherffeithiaf: y mae efe yn gwrthwynebu drwg er mwyn ei ddileu, ac nid i'r dyben dygasog o'i gospi." "Pan unwaith," eb efe, yn mhellach, "y ceir perffaith wybodaeth o ddrwg, o'i holl achosion, yr hyn sydd anmhosibl nes yr elo pob creadur byw drwy bob dull dichonadwy i hanfod meidrol fyned, yr hyn yw treiglo yr Abred, yna, fe gasëir drwg am byth, ac fe'i gochelir; ond gan fod drwg, ynddo ei hun, yn beth dichonadwy, fe erys felly, fel pob peth dichonadwy arall, yn oes oesoedd o ran ei egwyddorion elfenol, gan fod pob dichonadwy yn bethau tragwyddoldeb." Yr oedd y golygiadau neillduol hyn a goleddai y beirdd, am gylch yr Abred, yn eu hattal yn effeithiol i ladd nac anmharchu anifeiliaid o un math yn afreidiol. Ond nid oeddynt, fel y Brahminiaid, yn gwahardd amddifadu unrhyw greadur o'i fywyd yn mhob amgylchiad; yn y gwrthwyneb, yr oeddynt hwy yn caniatau dyfetha pob anifail a allai, yn uniongyrchol neu ddamweiniol, achosi marwolaeth dyn; heb law eu bod yn defnyddio amryw anifeiliaid glân yn eu haberthau. Er bod y gwir feirdd cyntefig yn gwbl wrthwynebol i bob creulondeb at ddyn ac anifail, yr oeddynt yn casau rhyfel fel uffern ei hun; ac nid oedd yn gyfreithlawn iddynt ymyryd dim âg ef ond er heddychu pleidiau gwrthwynebus, yr hyn a wnaent, yn fynych, hyd yn oed pan fyddai byddinoedd gelynol wedi dynoethi eu cleddyfau ar faes y gwaed. Nid oedd yn gyfreithlawn "dwyn noeth arf" yn ngŵydd y beirdd;—eto, yr oeddynt yn ystyried yr holl dueddiadau sydd mewn rhai creaduriaid i ddinystrio eu gilydd, ac ereill, gystal a chreulondeb dyn, fel daioni rhagluniaeth, wedi eu doeth drefnu i brysuro y treiglad trwy Gylch yr Abred, ac i ddwyn y creaduriaid a ddinystrid yn gynt i "Gylch y Gwynfyd" appwyntiedig iddynt; am hyny, yr oeddynt hwy yn ystyried fod y creadur a gaffai sarhad, neu farwolaeth, yn ennillwr yn y pen draw, tra y tynai yr ymosodwr diachos euogrwydd arno ei hunan. Yn awr, er y tybir fod y crynoad uchod yn cynnwys sylwedd yr hyn oll sydd yn ysgrifenedig ar Gylch yr Abred, eto, gan fod yr ychydig Drioedd sydd ar y pwnc yn dra dyddorol, gystal ag yn anhysbys i'r rhan fwyaf o'r Cymry, bernir nas gellir terfynu yr erthygl hon yn foddhaol heb eu cofrestru hwynt yma. Er mwyn amrywiaeth, cyflwynir y Trioedd hyn i'r darllenydd yn eu llafarwedd gyssefin—yr eiddo Gwent a Morganwg; a thybir y gall pawb eu deall yn lew, trwy gymhorth yr eglurhad a roddwyd ar y pwnc eisoes.

"Tri achos bywedigion: Cariad Duw gan eitha deall cyflawn; Deall Duw yn gwybod eitha moddion; a Nerth Duw gan eitha Mynn cariad a deall.

"Tri chylch hanfod y sydd: Cylch y Ceugant, lle nid oes namyn Duw, na byw na marw, ag nid oes namyn Duw a eill ei dreiglo; Cylch yr Abred, lle pob ansawdd-hanfod o'r marw, a dyn a'i treiglwys; Cylch y Gwynfyd, lle pob ansawdd-hanfod o'r byw, a dyn a'i treigla yn y Nef.

"Tri chyflwr hanfod bywedigion: Cyflwr Abred yn Annwn; Cyflwr Rhyddyd yn Nyndod; a Chyflwr Cariad, sef Gwynfyd yn y Nef.

"Tri anghen pob hanfod wrth fywyd; Dechre yn Annwn: Treigl yn Abred; a Chyflawnder yn y Nef, sef Cylch y Gwynfyd; ac heb hynn o dripheth nis gellir unpeth namyn Duw.

Digitized by Google

"Tri pheth angen yn Abred: Y lleiaf o bob byw, ag o hyny ddechre; Defnydd pob peth, ag o hyny cynnydd, yr hynn nis gellir mewn cyflwr amgen; a llunio pob peth o'r marw, ag o hyny Gwahanfod.

"Tri pheth nis gellir amgen na'u bod ar bob byw gan gyfiawnder Duw: Cydymoddef yn Abred, can heb hynny, ni chylai neb gyflawn wybod ar ddim; Cydran cydfraint ynghariad Duw; a chyttiwedd [cyd-ddiwedd], gan allu Duw wrth a fo cyflawn a thrugar.

"Tri achos angen Abred: Cynnull defnydd pob ansawdd; cynnull gwybodaeth pob peth; a chynnull Nerth er gorfod pob gwrth a chythraul, ag ymddiosg a'r drwg; ag heb hynn o dreiglo pob cyflwr byw, nis gellir cyflawn ar un byw na rhyw.

"Tri phrif anffawd Abred: Angen, Anghof, ag Angau.

"Tri phen Angen y sydd cynn cyflwyr wybodaeth: Treiglo 'r Abred: treiglo 'r Gwynfyd; a chof o'r cyfan hyd yn Annwn.

"Tri chynghyd anhebgor Abred: Anghyfraith gan nas gellir amgen; diangc Angau rhag drwg a chythraul; a chynnydd bywyd a daioni, gan ymddiosg á'r drwg yn niangc angau; a hynn o gariad Duw yn gafaelu ar bob peth.

"Tri pheiriant Duw yn Abred, er gorfod drwg a chythraul, a diangc oddi wrthynt at Wynfyd: Angen, Anghof, ag Angau.

"Tri chynghyfoedion y sydd: Dyn, Rhyddyd, a Goleuni.

"Tri angenorfod Dyn: Dioddef, newid, a dewis; a chann allu dewis, ni wyper am y ddau arall cynn dygwydd.

"Tri chydgyfran Dyn: Abred a Gwynfyd; Angen a Rhyddyd; a Drwg a Da, ag oll yn gydbwys; a gallu gan ddyn ymlynu wrth yr un a fynno.

"O dri pheth y syrth angen Abred ar ddyn: anymgais a Gwybodaeth; anymlyn a'r Da; ag ymlyn a'r drwg, sef y syrth gan hynn o bethau hyd ei gydryw [gydfil] yn Abred, a threiglo 'n ol fal y bu gyntaf.

"O dri pheth y syrthir yn Abred gan angen, er ymlynu yn mhob peth arall wrth y Da; o Falchder hyd Annwn; o Anwiredd hyd Obryn; ag o Annhrugaredd hyd Gydfil; a threiglo 'n ol at Ddyndod fal o'r blaen.

"Tri chyntefigaeth cyflwr Dyn: Cynnull cyntaf ar Wybodaeth, Cariad, a Nerth, heb angau; ag nis gellir hynn ym mraint Rhydd a Dewis cynn Dyndod; a'r tri hynn a elwir y tri gortrech [gorthrech].

"Tri gortrech ar Ddrwg a Chythraul y sydd: Gwybodaeth, Cariad, a Gallu; gan y gŵyr, y mynn, ag y dichon y rhain yn eu cynghyd [yn nghyd] y pethau a fynont; ag ynghyflwr Dyn eu dechre, a pharhau dros fyth.

"Tri braint cyflwr Dyn: Cydbwys drwg a da, ag yna cymhariaeth; Rhyddyd wrth ddewis, ag o hynny Barn a Dewis; a Chynnechre Gallu, ym mraint Barn a Dewis; gan eu rhaid cynn dim arall o wneuthur.

"Tri gwahanfod pob byw gwrtharall; Awen, Cof, a Chanfod; sef y bydd cyflawn ar bob un, ac nis gellir cyfun y rhain ar un byw arall, a phob un yn gyflawn, ag nis gellir dau gyflawn ar ddim.

"Tripheth a roddwys Duw ar bob byw: sef Cyflawnder ei Ryw; Gwahander pen ei hun; a Bannogaeth Awen gyssefin rhag arall; yna hunan cyfoll pob un gwrtharall.

"Tri gwahaniaeth angenorfod rhwng Dyn a phob byw arall, a Duw: Ing ar Ddyn ag nis gellir ar Dduw; Dechre ar Ddyn ag nis gellir ar Dduw; ag angen newid cyflwr olynol yng Nghylch y Gwynfyd ar Ddyn, o anoddef y Ceugant, ag nis gellir ar Dduw, gan allu pob dioddef, a hynny gan Wynfyd.

"Tripheth y sydd ar eu difant: Tywyll, Anwir, a Marw.

"Tripheth sy'n ymgadarnhau beunydd, gan fod mwyaf yr ymgais atynt: Cariad, Gwybodaeth, a Chyfiawnder.

"Tripheth sy'n ymwanhau beunydd, gan faint pennaf yr ymgais yn eu gwrth: Cas, Camwedd, ag Anwybodaeth.

"Tripheth sydd ar eu cynnydd: Tân, sef Goleuni; Deall, sef Gwirionedd; ag Enaid, sef Bywyd; a gorfod wnant ar bob peth, ag yna diwedd Abred."

Yn y dull yma y trosglwyddwyd syniadau hen feirdd Ynys Prydain i ni ar bwnc hynod yr Abred; a gellir casglu oddi wrth dystiolaeth yr uchawdwron, yn enwedig Cæsar, fod y Trioedd hyn yn cynnwys rhai, o leiaf, o syniadau gwirioneddol yr hen feirdd cyntefig, er bod arwyddion amlwg ar y wisg nad ydyw amgen na gweuad y beirdd mynachaidd, hanner Derwyddol a hanner Cristionogol, a fucheddent o'r ddegfed hyd y bymthegfed ganrif: ac yn wir, nid ar y wisg yn unig y mae yr arwyddion hyn, ond y mae corff y Trioedd yma, megys yr eiddo prydyddiaeth yr un cyfnod, yn dangos mai cymmysg ydyw yr athrawiaeth a gynnwysant ar y pwnc dan sylw, o uffern—purdan Cristionogaeth dywyll y dyddiau hyny—ac Abred yr hen feirdd. Fel hyn y dywed un o'r ddau brif ffug-Daliesin—Ionas Mynyw, neu Tomas ap Einion Offeiriad, ar y pwnc:—

"Nifer a fuant yn anghyffred
*Uffern*, oer gwerin gwaredred,
Hyd pumoes byd,
Hyd pan ddillyngwys Crist gaethiwed
O ddwfn fais affwys *Abred*,
Maint dyddwg Duw trwy nodded."

[Bu lluaws, yn anwybodus o'u sefyllfa, yn *uffern*, truenus dreiglad gwaredigaeth y werin, am bum oes y byd; hyd oni ryddhaodd Crist hwynt o gaethiwed y dyfnder mawr, o eigion pwll yr *Abred*; y rhai a gymmerwyd oll gan Dduw i'w nawdd.]

Mae rhai yn cyhuddo Iolo Morganwg o fod yn awdwr y Trioedd blaenorol, ac o'r athrawiaeth a gynnwysant; ond y mae y fath gyhuddiad yn hollol annheg a disail: canys y mae yn ddiammheuol i Iolo gael y Trioedd o hen lawysgrifau Cymreig diffuant; ac y mae y dyfyniad uchod, yn mysg lliaws ereill a ellid eu dwyn ger bron, yn profi fod yr un syniadau yn cael eu coleddu gan y beirdd, o'r ddegfed hyd y bymthegfed ganrif, o leiaf; a phrofa gwaith Cæsar, ac ereill, drachefn, fod yr hen feirdd, oesau cyn cred, yn traddodi syniadau cyffelyb, o ran sylwedd, am "Gylch yr Abred." Mae Iolo, yn wir, yn gonest gyfaddef nad yw y rhan fwyaf o "Draddodiadau Barddas" a'n cyrhaeddasant ni, ond "y fath ag a goethwyd gan Gristionogaeth;" ac onid yw y fath gyfaddefiad yn ddigon boddhaol i bawb ond y rhagfarnllyd? Bernir, yn gyffredin, fod y beirdd yn mysg y rhai cyntaf yn Ynys Prydain i gofleidio Cristionogaeth; a'r achos o hyny oedd, meddent hwy, nad oeddynt yn gweled dim yn nghrefydd Crist yn groes i farddoniaeth (*traddodiadau* y sefydliad—nid *prydyddiaeth*), yr hon nid oedd ofergoeledd wag, fel yr haera rhai, namyn yr hen grefydd batriarchaidd, wedi ei chael o'r un ffynnonell o oleuni a gwirionedd, a'r hon y tynai efengyl Iesu Grist ei hys-

Digitized by Google

brydoliaeth o honi. Dichon i'r defodau barddonol a ymddangosant i ni yn awr yn goelgrefyddol, fod unwaith—yn hytrach, mae yn debyg iddynt fod —yn arwyddion o bethau gwirioneddol, da, a chrefyddol, ond ein bod ni wedi colli yr agoriad iddynt; ac am hyny, yn analluog i fyned i mewn i'w hystyr. Dywed Toland mai yr achos penaf i'r beirdd gofleidio Cristionogaeth mor rhwydd a bore, oedd, bod yr offeiriadaeth Gristionogol, yn enwedig y Babyddol, yn cyfateb mor gywir i'w hen sefydliad Derwyddol, twyll-offeiriadol, hwy eu hunain. Dichon hefyd fod peth gwir yn hyn; boed hyny fel ag y bo, ymddengys wrth bob tystiolaeth iddynt hwy fod yn y dosbarth blaenaf o'u cydgenedl a gofleidiodd Gristionogaeth; a dywedir fod y beirdd yn gyffredinol wedi cael eu derbyn yn ebrwydd i'r offeiriadaeth Gristionogol, ac felly, fod yr hen weinidogion wedi dyfod i wasanaethu eu swydd dan yr oruchwyliaeth newydd; a mwy na hyn, dywedir nad oedd un brodor o Brydain yn cael ei ystyried yn addas i'r offeiriadaeth Gristionogol ar y cyntaf, os na fyddai yn pethyn i un o'r tair urdd farddonol—Bardd, Ofydd, neu Dderwydd. Bu y rheol yma mewn grym, fel y dywedir, hyd amser Garmon a Bleiddian, yn y bummed ganrif. Gellid rhoddi rheswm arall, lled gryf hefyd, fel y tybir, dros yr arfer yma;—sef, nad oedd neb o'r Cymry, y pryd hyny, ond y "Beirdd Braint a Defod," yn meddu un radd o ddysgeidiaeth, ac ond ychydig iawn o wybodaeth. Wrth ystyried hyn oll, nid rhyfedd fod amryw o ddaliadau yr hen grefydd farddonol wedi cael eu llusgo gan y beirdd i'w Cristionogaeth, ac yn enwedig eu hoff bwnc mawr am "Gylch yr Abred."—"Pa mor wrthwynebus bynag y dichon i'r athrawiaeth yma ymddangos i'r rhan fwyaf," meddai Eliezer Williams, "nid yw yn agored i'r cyhuddiad o duedd lygredig ac anfoesol, gan ei bod bob amser yn cyssylltu purdeb a sancteiddrwydd wrth ddedwyddwch a gogoniant; a drygioni, ar y llaw arall, wrth drueni a chythraul, neu ddistryw." Dywed Cæsar, yn wir, mai dyben yr athrawiaeth hon oedd arwain dynion i fwrw ymaith ofn marwolaeth, a dyfod yn fwy gwrol. Dichon fod gwir yn hyn—gwir dilys, beth bynag, yw fod y Prydeiniaid yn fwy gwrol na neb a gyfarfu Cæsar; a chafodd ef brofi hyny, er ei ofid, pan y gorfu iddo, fel y dywed Lucan, "ddangos ei gefn dychrynedig i'r Prydeiniaid ymlidiol." Ond gwir hefyd yw, bod y beirdd yn edrych yn mhellach na hyn—yr oeddynt yn dysgu dynion i "ymlynu wrth y Da," er mwyn cyrhaedd "Cylch y Gwynfyd," ac i ymwrthod â'r "Drwg," er mwyn gochel "Cylch yr Abred." Gwel Barddoniaeth; Ceugant; Derwyddiaeth; Gwynfyd; Trawsfeidiad.—(*Iolo Morganwg's Poems*, 2 gyf.; *Iolo* MSS.; *Owen's (Dr. Pughe) Heroic Elegies of Llywarch Hen, Introd.*; *Pughe's Dict.*, d. g. *Abred, Anoddyfn, Bardd, Derwydd, &c.*; *Pughe, Hu Gadarn*; *Williams' (Ab Ithel) Eccles. Antiq. of the Cymri*; *Richards' Cambro-Brit. Biog. Sketch of the Druids*; *Jones' Relicks*; *Roberts' Camb. Pop. Antiq.*; *Hughes' Hor. Brit.*, cyf. i; *Davies' Celt. Res. & Myth.*; *Borlase's Antiq.*; *Myv. Arch.*, 3 cyf.; *Cambro-Brit.*, 3 cyf.; *Cam. Reg.*, 3 cyf.; *Welsh Sketches*, cyf. ii; *Mavor's Hist. Engl.*, cyf. i; *Pezron's Antiq.*; *Stephens' Lit. Kym.*; *Arch. Cambr.* iii. 3, &c.; *Woodward's Hist. Wales*, pen. xxxi; *Cæs. Comm.*, vi. 13; *T. Price, Hanes Cym.*; *Eliezer Williams' English Works, Ep*, ii. pen. 1.)

ABSALOM, [אבשלם, *tad heddwch*]: trydydd mab Dafydd, a'i unig fab o Maachah, merch Talmai, brenin Gesur: 2 *Sam.* iii. 3. Cyfrifid ef y dyn harddaf yn Israel; ac yr oedd yn nodedig am faint ei wallt mawr, yr hwn a fawrygid yn neillduol, dybygid: 2 *Sam.* xiv. 25. Fe'n hysbysir y cneifiai efe ei ben yn achlysurol, am y byddai ei wallt yn myned yn anghyfleus o drwm arno; nid yw y darlleniad Hebreig o angenrheidrwydd yn arwyddo ei fod yn gwneyd hyny bob blwyddyn; dywedid y pwysai ddau can sicl, wrth bwys y brenin; tuag un wns ar ddeg ar ugain, medd Calmet; ond y mae Kitto yn sylwi, fod esbonwyr yn amrywio cymmaint yn eu barn am bwysau gwallt Absalom—rhai, fel Geddes, yn ei gyfrif can uched a 112 wns; a rhai, fel y Dr. A. Clarke, yn ei gyfrif mor isel a 7½ wns, fel na allwn ni benderfynu dim yn sicr am dano, ond ei fod yn fawr anghyffredinol. Ond er hardded oedd o gorff a gwedd allanol, nid oes dim tegwch yn perthyn i'w nodweddiad moesol—dyn masw, mursenaidd, gwaedlyd, creulawn, aflan, twyllodrus, ydoedd; ac ni chrybwyllir yn ei hanes am gymmaint ag un weithred dda o'i eiddo, trwy ei holl fywyd. Plentyn arall Dafydd o Maachah, oedd ferch, o'r enw Tamar, yr hon hefyd oedd yn deg iawn; a daeth hon yn wrthddrych trachwant aflan ei hanner brawd, Amnon, mab hynaf Dafydd; a hi a dreisiwyd ganddo ef. Ac y mae yn deilwng o sylw yr efrydydd ysgrythyrol yma, ein bod yn canfod, pa le bynag y byddo amlwreiciaeth yn cael ei oddef, fod anrhydedd chwaer wedi ei ymddiried i warchodaeth ei brawd cyflawn, yn fwy nag hyd yn oed ei thad, dyddordeb yr hwn ni chyfrifir mor drwyadl a chyflawn ynddi. Gwelwn ryw arwydd o'r syniad yma mor fore a dyddiau Iacob: *Gen.* xxxiv. 6, 13, 25—31. Felly, yn yr amgylchiad yma, Absalom, fel ei chyflawn frawd, a gymmerodd gam Tamar i fyny, gan ei chymmeryd i'w dŷ ei hun, lle y trigai mewn neillduaeth; ac yntau yn dra digofus wrth Amnon, eto heb yngan gair iddo mewn ffordd o edliwiad, a ddysgwyliai yn bryderus am gyfleusdra i ymddial arno: ac yn mhen dwy flynedd, pan fuasid yn meddwl fod yr archoll uchod wedi gwellhau i fesur mawr, yr oedd gan Absalom wledd fawr, mewn cyssylltiad â chneifiad ei ddefaid, yn Baal-hazor, yn agos i Ephraim, i'r hon y gwahoddodd efe holl feibion y brenin: ac fel na byddai achlysur o unrhyw ddrwgdybiaeth, efe a wahoddodd y brenin, ei dad, yno hefyd; ac, fel y dysgwyliai, gommeddodd y brenin ddyfod ei hunan, ond caniataodd i Amnon a'r tywysogion ereill ddyfod. Felly hwy a wleddasant yn nghyd, a phan oeddynt wedi gwresogi gan win, gweision Absalom a ruthrasant ar Amnon, ac a'i lladdasant, megys eu dysgasid gan eu meistr. Y tywysogion ereill, wedi eu brawychu gan y fath weithred, ac heb wybod yn amgenach na fwriedid eu distrywio hwythau yr un ffunud, a brysurasant i ffoi tua Ierusalem, gan ddwyn y newydd am y gyflafan alaethus i'w tad. Ac Absalom, yntau, gan ofni dialedd y brenin, a ddiangodd i Gesur, lle yr arosodd gyda'i daid, y brenin Talmai, dair blynedd: 2 *Sam.* xiii.

Ond, er holl ysgelerderau Absalom, yr oedd ei dad yn ei hoffi yn ddirfawr; fe allai fod ei degwch dieilfydd, ei ysbryd gwrhydrus, a'i âch freninol, yn cylymu serchiadau ei dad wrtho ef, er nad oedd efe yn gallu gwerthfawrogi y cyfryw deimladau yn deilwng; ac y mae yn ymddangos fod yr hen ŵr Dafydd yn galaru beunydd am absennoldeb Absalom, er na feiddiai ei alw adref rhag rhoddi tramgwydd i deimlad y cyffredin, trwy ymddangos, megys pe'r edrych-

Digitized by Google

asai yn ddinwys ar ei weithred ysgeler yn lladd ei frawd. Ond, ryw fodd, deallodd Ioab ddirgel ddymuniad Dafydd am gael ei fab, a garai yn fawr er ei euogrwydd, adref; ac efe a roddes wraig ddoeth o Tecoah ar waith i osod achos dychymygol o'i flaen, i gael ei farn arno, ac yna i gymhwyso y ddedfryd ddysgwyliedig mor fedrus at achos Absalom, fel y canfu y brenin yr amcan, ac y deallodd fod gan Ioab law yn y peth. A chan ystyried hyn fel rhyw radd o amlygiad o farn y cyffredin, efe a awdurdododd Ioab i anfon am ei fab alltudiedig adref. Felly Absalom a ddychwelodd; ond Dafydd, gan ystyried ei ddyledswyddau fel brenin a thad, a ffrwynai ei deimladau, ac a ommeddai ganiatau iddo ddyfod i'w wyddfod. Ond wedi dwy flynedd o amser, gan nas gallai Absalom oddef ei warthruddiad yn hwy, efe a ddefnyddiodd foddion a orfododd Ioab i gymmeryd sylw o'i achos, a thrwy ei gyfryngaeth, llwyr gymmodwyd Absalom â'i dad; a chafodd Dafydd yr hyfrydwch o weled ei anwyl fab unwaith eto: 2 *Sam.* xiii, a xiv.

Fe allai y byddai ychydig sylwadau ar y sefyllfa nodedig yr oedd Absalom ynddi y pryd hwn yn fanteisiol i ni i ganfod pa mor bell y dylanwadai ansoddion arbenig y ffurflywodraeth Hebreig ar gyfreithiau cyffredinol cyntafanedigaeth yn mysg y dwyreinwyr. Yr oedd Amnon a Chileab yn frodyr hynach iddo, fel nad oedd Absalom ar y dechreu namyn trydydd mab Dafydd; ond fe ddichon ei fod, hyd yn oed tra yr oeddynt hwy yn fyw, yn ei ystyried ei hun yn meddu hawl i olynu ei dad yn y llywodraeth, ac ni buasai hyny yn anghysson âg arferiad y dwyreinwyr, gan mai efe yn unig oedd o ddeilliad breninol o du ei fam; ac y mae trâs freninol neu bendefigaidd o du y fam yn cael ei olygu hyd heddyw yn ddigon o sail i roddi y blaen i un ar frawd hynach, na byddai ei drâs o du ei fam mor urddasol; fel y caed anghraifft yn ddiweddar, yn Abbas Mirza, yn Persia. Gall yr amgylchiad yma, wrth ei ystyried mewn cyssylltiad âg ymddygiad Absalom yn ol llaw, roddi lle i ni feddwl ei fod ef wedi coledd bwriad am olynu ei dad ar yr orsedd yn fore; ac o ganlyniad, fod symmudiad Amnon o'r ffordd yn weithred o gyfrwysdra er rhwydd'au y ffordd i'r amcan yma, gystal ag o ymddial yn achos Tamar. Gallasem farnu fod y brawd hynaf arall, Chileab, wedi marw; ac os oedd hawliau Absalom, neu yn hytrach seiliau ei honiadau, mor gryfion tra yr oedd Amnon a Chileab yn fyw, rhaid eu bod lawer yn gryfach, pan ar ei ddychweliad o'r alltudiaeth, y cafodd efe ei hun y mab hynaf yn fyw—ac yn ol deddfau cyffredinol cyntafanedigaeth, yn etifedd y goron. A chan mai y cyfryw oedd ei sefyllfa, a bod ei dad weithian yn hen, ymddangosai ar y cyntaf yn anhawdd canfod pa beth a'i cymhellai i gyfodi bradwriaeth yn erbyn coron a bywyd ei hen dad tirion, o'r hwn y cawn ef yn euog mor fuan. Dylem ystyried, gan hyny, bod gan frenin hawl, a'i fod at ei ryddid, yn ol arferion dwyreiniol, i fyned heibio i'r mab hynaf, ac enwi un ieuangach i'r olyniaeth. Ond nid yw debyg y buasai hyn yn effeithio yn niweidiol i Absalom, gan fod genym bob lle i feddwl y buasai Dafydd, pe gadewsid iddo ei hunan, yn ddigon llawen i adael i reol yr olyniaeth gymmeryd ei rhediad cyffredin o blaid ei fab anwylaf. Ond, o dan sefydliadau dwyfiwyddol yr Hebreaid, yr oedd y Brenin Dwyfol yn cadw hawl penodiad i'r llywodraeth yn ei law ei hun, ar yr hyn ni feddai y brenin neu y rhaglaw dynol un math o ddylanwad. Yr oedd tŷ Dafydd wedi ei sefydlu fel brenhinllwyth; ac er i ddeddf y gyntafanedigaeth gael cymmeryd ei rhedfa gyffredinol o'r diwedd, eto, cadwai y Brenin Dwyfol yr hawl i benu yr aelod a fynai o'r tylwyth hwnw i'r orsedd yn ei law ei hun. Rhoddasid yr hawl hono mewn gweithrediad yn nheulu Dafydd, trwy neillduad Solomon, yr hwn nid oedd y pryd hwn namyn plentyn, i olynu Dafydd yn y freniniaeth. Cawsai Dafydd wybod er ys amryw flyneddoedd o'r blaen fod ei deyrnllwyth ef i gael ei sicrhau mewn mab na anesid y pryd hyny; 2 *Sam.* vii. 12: a phan anwyd Solomon, ni allasai ei dad fod yn anhysbys, hyd yn oed pe na chawsai hysbysiad neillduol, mai efe oedd yr etifedd etholedig; a rhaid fod y ffaith yma yn hysbys i amryw ereill, fel yr oedd y bachgen yn cynnyddu; ïe, fe allai, fod corff y genedl yn gwybod hyny. Yn hyn y gallwn ni weled cymhelliad naturiol i wrthryfel Absalom—er diogelu iddo ei hunan orsedd a farnai yn eiddo iddo yn ol cyfreithiau cyntafanedigaeth—yn mywyd ei dad; rhag y byddai oediad, er dysgwyl terfyn naturiol ei einioes, gryfhau achos Solomon, gyda'i gynnydd yntau mewn dyddiau, fel ag i wneyd ei olyniad yn ddiddadl.

Yr oedd harddwch person Absalom, ei drâs urddasol o ochr ei fam, a'i hawl naturiol, yn tueddu y bobl i gefnogi ei honiadau, yr hyn a gadarnhawyd trwy ei ymdrechion dichellgar ef i ennill eu calonau. Yn y lle blaenaf, efe a awgrymai mai efe oedd etifedd y goron—trwy y rhwysg a arferai pan ymddangosai yn y cyhoedd; tra ar yr un pryd yr oedd y rhwysg hwnw yn adlewyrchu ei ymostyngiad a'i gydymdeimlad â'r bobl a ddeuent i ymofyn am farn, yn fwy amlwg, pan yr ymholai i'w cwynion, ar eu mynediad o flaen y brenin, ac y lled-awgrymai pa ryw bethau rhagorol a ellid ddysgwyl oddi wrtho ef, pe ar yr orsedd, ac yn meddu awdurdod i gwblhau ei amcanion mawrion a haelfrydig; a thrwy y cyfryw ddichellion, "efe a ladrataodd galon holl wŷr Israel:" a phan o'r diwedd, yn mhen pedair blynedd wedi ei ddychweliad o Gesur, yr aeth efe i Hebron, ac y cyhoeddodd ei hun yn frenin yno, efe a gefnogid gan gorff mawr o bobl; ac mor fawr oedd y cydfradwriaeth, fel y gwelodd Dafydd yn angenrheidiol ffoi am ei fywyd o Ierusalem, ac encilio i Mahanaim, o'r tu hwnt i'r Iorddonen: 2 *Sam.* xv.

Y mae esbonwyr wedi cael eu dyrysu yn ddirfawr gan yr ysbaid yma: 2 *Sam.* xv. 7; "Ac yn mhen deugain mlynedd." Rhai a farnent ei fod yn golygu deugain mlynedd wedi i'r Israeliaid ofyn am frenin; neu, o'r amser y parodd Saul ladd yr offeiriaid yn Nob; neu o'r pryd yr eneiniwyd Dafydd gan Samuel; ereill, o ddechreuad teyrnasiad Dafydd; ac ereill a'i cyfrifant o enedigaeth Absalom, ac felly barnant fod yr ysbaid yn dynodi ei oedran ef y pryd hwn. Y mae gan Josephus ddarlleniad gwahanol: "Ond yn mhen pedair blynedd wedi ei gymmodi â'i dad, efe a ddaeth ato ef:" ac y mae y darlleniad yma yn cael ei gadarnhau gan yr adlun o gyfieithiad y Deg a Thrigain, o'r hwn y gwnaed y cyfieithiad Armeniaidd, yn yr hwn y mae y nifer bach *pedair* yn lle *deugain mlynedd.* Ac y mae Dr. Wall yn crybwyll pedair cyfysgrif o'r *Vulgate* yn y rhai y mae y nifer bach yr un ffunud; â hyn hefyd y cydsynia Scott; ac y mae y Dr. Gill yn sylwi y rhaid fod rhai o'r hen ysgrifenwyr wedi gwneyd y camgymmeriad, trwy ysgrifenu *aarbaim* yn lle *arba*, yr hyn oedd yn gamgymmeriad hawdd cwympo iddo wrth adysgrifio Hebraeg, ac felly deuai y gair *deugain* i fewn yn lle *pedair.*


Ond i ddychwelyd: pan glybu Absalom fod y

Digitized by Google

brenin wedi ffoi o'r brif ddinas, efe a aeth yno, ac a gymmerodd feddiant o'r orsedd yn ddiwrthwynebiad. Yn mysg y rhai a ymunasant âg ef, yr oedd Ahitophel, yr hwn a fuasai yn gynghorwr i Dafydd, a'r hwn y parai ei synwyr cryf i'w gynghorion gael eu cyfrif megys oraclau yn Israel. Brawychid mwy ar Dafydd trwy anffyddlondeb Ahitophel nag un amgylchiad arall yn y gydfradwriaeth ofidus hon; ac efe a atolygai ar ei gyfaill Husai yr Arciad, fyned ac ymuno âg Absalom, gyda 'r bwriad o geisio gwrthdroi cynghor Ahitophel. Y cynghor cyntaf a roddes Ahitophel i Absalom oedd, bod iddo gymmeryd meddiant cyhoeddus o'r gordderchwragedd breninol a adawsid yn y ddinas; yr oedd hyn, nid yn unig yn llwybr yn yr hwn y gallesid cadarnhau yr olyniad i'r orsedd, fel y gwelir yn hanes Adonïah yn ceisio Abisag yn wraig; ond, yn yr amgylchiad yma, fel yr awgrymai y cynghorwr dichellgar, parai y fath ymddygiad ysgeler i'r bobl ymroddi i gefnogi ei achos yn fwy trwyadl, dan yr argyhoeddiad nad oedd yn bosibl ei gymmodi â'i dad mwyach. Yr oedd Husai heb gyrhaedd gwersyll Absalom hyd yn hyn; yn fuan wedi ei ddyfod, cynnaliwyd cynghor rhyfel yn ngwersyll Ahitophel, er mwyn penderfynu pa ffordd i weithredu yn erbyn Dafydd rhag llaw. Cynghorai Ahitophel ar fod iddynt erlyn ar ol y brenin y noswaith hono, a'i daraw tra byddai yn flinedig ac yn llesg; ond Husai, amcan yr hwn oedd cael amser i Dafydd, a ddadleuai yn dra medrus, oddi wrth wroldeb adnabyddus y brenin, y gallent hwy gael eu gorchfygu yn eu hymosodiad arno, ac mor niweidiol a fyddai hyny i'w hachos yn y cychwyn; ac am hyny, efe a gynghorai fod i holl Israel gael eu crynhoi i'w herbyn yn y fath rym fel na byddai yn bosibl iddo eu gwrthsefyll; ac yn anffodus i Absalom, dewiswyd cynghor Husai, yn hytrach na'r eiddo Ahitophel; ac felly, cafodd y brenin arfod i gasglu ei adnoddau, trwy gynnorthwy ei ganlynwyr dylanwadol, a seibiant i'r bobl ystyried yr anturiaeth beryglus yr oedd llawer o honynt ar ymgymmeryd â hi. A'r brenin a gyfododd fyddin gref yn fuan, yr hon a ddosbarthodd efe yn dair rhan: un dan lywyddiaeth Ioab; y llall dan Abisai; a'r drydydd dan Ittai y Gathiad. Amcanai y brenin gymmeryd prif lywyddiaeth y gâd ei hunan; ond ni chaniatäai y bobl iddo beryglu ei fywyd gwerthfawr; ac felly rhoddwyd llywodraeth y gâd i Ioab. Cymmerodd y frwydr le ar ymylau coedwig Ephraim; a thrwy ddyfais Ioab yn tynu y gelyn i'r coed, ac yn cau arnynt yno, fel eu dystrywid yn hawdd, y trodd y fuddugoliaeth, dan fendith y Goruchaf, yn erbyn Ahitophel: lladdwyd ugain mil o'i wŷr, a'r lleill a ffoisant i'w cartrefi. Absalom ei hunan a ffodd ar ful cyflym; ond fel yr oedd efe yn myned, cydiodd cangenau pren yn ei wallt hir, yn yr hwn yr ymogoneddai, a'r mul a'i gadawodd yn grogedig yno. Y gorchymyn a roddasai Dafydd i'r milwyr beidio â chymmeryd bywyd Absalom, a barai iddynt beidio â'i ladd; ond pan glybu Ioab pa le yr oedd, efe a ddaeth yno, ac a'i trywanodd â thair o bicellau. Yna cymmerwyd ei gorff i lawr, a bwriwyd ef i bydew yn y goedwig, a chyfodwyd carnedd o geryg arno ef.

Ond yr oedd hoffder Dafydd o Absalom yn parhau er ei holl ddrygioni: ac fel yr oedd efe yn eistedd wrth borth Mahanaim, yn dysgwyl newyddion o'r frwydr, fe allai ei fod yn fwy pryderus am glywed fod Absalom yn fyw, nag oedd efe am glywed bod y frwydr wedi ei hennill; a chyn gynted y clybu efe fod Absalom wedi ei ladd, "efe a gyffrôdd, ac a aeth i fyny i ystafell y porth, ac a wylodd." A'r bobl a aethant yn lladradaidd i'r ddinas, fel ffoaduriaid, neu ddrwgweithredwyr, yn hytrach na buddugoliaethwyr pan glywsant dristäu o'r brenin, a'r modd y galarai am ei fab, gan ddywedyd, "O fy mab Absalom! fy mab, fy mab Absalom! O na buaswn farw drosot ti, Absalom, fy mab, fy mab!" Mae yn ddiau y gallasai y canlyniadau o'r gwendid yma yn y brenin fod yn dra pheryglus, oni buasai i Ioab fyned ato a'i geryddu yn llym am ddigaloni y rhai a beryglasant eu bywyd yn ei achos, a gwneyd iddo ddyfod i waered i loni y rhyfelwyr dychweledig â'i bresennoldeb: 2 *Sam* xiii. hyd xix.

ABSALOM, LLE. Mae gwyddfa nodedig, dan yr enw "Beddrod Absalom," yn weledig yn Nyffryn Iehosaphat, o'r tu allan i furiau Ierusalem; ac y mae y teithwyr i'r ddinas sanctaidd, yn gyffredin, wedi cymmeryd sylw o hono, a'i ddarlunio. Y mae yn agos i'r bont isaf dros y



BEDDROD ABSALOM.

Cedron. Dernyn petryal ydyw, wedi ei naddu allan o'r graig, ac y mae yn mesur tua 24 troedfedd petryal, ac wedi ei addurno ar bob ochr â dwy golofn, a dwy hanner colofn, o'r dull Ionig, ac adgolofnau ar y conglau; ac ar y pendrawst, gwelir trisylchau ac addurniadau Dorig. Mae ei uchder o ddeunaw i ugain troedfedd hyd y pendrawst; a hyd yma, y mae wedi ei dori o'r graig yn gyfangwbl. Ond nid ydyw y graig gerllaw mor uchel yma ag ydyw yn y wyddfa nesaf, a elwir "Beddrod Zecharias;" am hyny, y mae y rhan uchaf o'r beddrod yn faenwaith, wedi ei adeiladu o geryg mawrion. Mae y rhau yma yn gynnwysedig yn gyntaf o ddwy res betryal, yr uchaf yn llai na'r isaf; ac yna y mae nendwr bychan yn rhedeg i fyny i bigwrn isel, yr hwn, dybygid, oedd yn ymagor ychydig yn ei ben uchaf, fel fflam. Fe allai fod y gwaith maen yma tua 20 troedfedd o uchder, ac felly yn rhoddi i'r cyfan uchder o tua 40 troedfedd. Y mae ystafell fechan wedi ei chloddio yn nghorff y bedd, i'r hwn y torasid twll trwy un o'r ystlysau amryw ganrifoedd yn ol.

Digitized by Google

Y mae yr hen deithwyr a gyfeiriant at y wyddfa hon, a Calmet ar eu holau, yn barnu eu bod yn cael ei hanes yn 2 *Sam.* xviii. 18; lle y dywedir, fod Absalom, am nad oedd ganddo fab, wedi cyfodi colofn iddo ei hun, yn nyffryn y brenin, yr hon a elwir "Lle Absalom," neu "Llaw Absalom;" hyny yw, "Gwyddfa" neu "Gofadail Absalom." Ond, â'r wybodaeth a feddwn ni erbyn hyn, y mae yn hawdd i ni benderfynu, gyda chipolwg ar hon, a'r wyddfa gyfagos arall sydd dan enw Zecharias, na feddant y cyssylltiad lleiaf â'r personau eu gelwir ar eu henwau. Sylwa y Dr. Robinson, "fod arddull yr adeiladyddiaeth, a'r addurniadau, yn dangos eu bod yn ddiweddarach na'r rhan fwyaf o'r beddrodau afrifed ereill a amgylchynant y ddinas, y rhai, gydag ychydig eithriadau, sydd yn hollol amddifad o unrhyw addurniadau adeiladdol. Eto, cafodd y crefyddolion tramor a gyrchent yn dorfeydd i Ierusalem yn y bedwaredd ganrif y cofadeiliau hyn yma; ac yr oedd yn naturiol iddynt eu cyfrif yn feddrodau rhyw bersonau a grybwyllir yn yr Ysgrythyrau. Eto, o'r pryd hyny hyd yn awr, y mae traddodiad wedi methu penderfynu yn llwyr enwau pwy a ddylai fod arnynt. 'Teithlyfr Ierusalem' (*Itin Hier.*), yn y flwyddyn 333, a sonia am ryw ddwy wyddfa fel beddrodau Esaiah a Hezeciah. Adamus, tua'r flwyddyn 697, a grybwylla un o'r rhai hyn yn unig, ac a'i geilw 'Beddrod Iehosaphat.' Ymddengys nad oedd haneswyr Cadgyrchoedd y Groes wedi sylwi ar y beddrodau hyn. Y crybwylliad cyntaf am fedd Absalom a wneir gan Beniamin o Tudela, yr hwn a eilw y llall yn fedd y brenin Uzziah; ac o'r pryd hyny hyd yn awr, y mae adroddiadau teithwyr yn dra amrywiol ac anghysson."—(*Robinson's Biblical Researches*; cyf. 1, t. 519, 520; *Kitto's Bibl. Cycl.*, d.g.)

**ABSEN.** Gwel Enllib.

**ABSTINENTIAID,** [*abstinentes, abstemii, abstainers*=ymarbediaid]: sectariaid yn Ffrainc ac Yspaen, yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif, ac fe allai mai hiliogaeth yr Encratiaid oeddynt, a sefydlwyd gan Litïan; o leiaf, yr oeddynt yn cofleidio amryw o'r un egwyddorion. Dichon, pa fodd bynag, nad oedd ond enw o wawd a dirmyg ar bersonau oedd yn nodedig o gymmedrol. Gwel Encratiaid.)—*Williams' All Rel.*, d.g. *Abstainers.*)

**ABUBUS,** tad Ptolomëus, yr hwn oedd gadben yn maes Iericho: 1 *Mac.* xvi. 11, 15.

**ABUMAH:** dinas o Iudah; lle genedigol Sebudah, mam Ioacim. Gelwir y lle *Rumah* yn 2 *Bren.* xxiii. 36.—(*Jos. Hynaf.*, llyfr. iv, pen. 8.)

**ABWNA:** teitl neu enw a roddir i batriarch Abyssinia, yn arwyddo *ein tad.* Dewisir y patriarch hwn yn gyffredin o blith yr offeiriaid Coptig, canys y mae yr Abyssiniaid a'r Coptiaid yn ymgyfeillach yn Cairo yn yr Aipht. Y mae ganddo dano archoffeiriaid, a elwir *Camosatiaid*, y rhai a wylant dros y gwŷr llên cyffredin, y duwinyddion, a'r mynachod dysgedig.—(*Buck's Theol. Dict.*, d.g.)

**ABWYDYN:** abwyd; pryfyn. "Pa faint llai dyn, yr hwn sy bryf, a mab dyn, yr hwn sydd abwydyn?" *Iob.* xxv. 6. Er holl fawredd ac ardderchogrwydd dyn, nid yw, wrth ei gystadlu â Duw, ond fel y pryfyn distadlaf. Nid yw yr anghyfartaledd sydd rhwng y naill a Duw yn ddim llai, na'r anghyfartaledd rhwng y llall ag ef yn ddim mwy. Yn y cyfieithiad Seisonig, ni roddir ond yr un gair am *bryf* ac *abwydyn* yn y lle hwn; "*How much less man that is a* worm, *and the son of man which is a* worm?" Ond yn y testyn gwreiddiol, y maent yn eiriau gwahanol רמה (*rimmoh*) a תולעה (*toulaioh*); a'r un modd yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, *σαπρια*, a *σκωληξ*. Yn yr adnodau canlynol, y mae *toulaioh* yn cael ei gyfieithu *pryf* a *phryfed*, ac nid *abwydyn*, fel uchod: *Salm* xxii. 6; *Esa.* xli. 14; lxvi. 24; *Ionah* iv. 7; *Exod.* xvi. 20; *Iob* vii. 5; *Esa.* xiv. 11. Y mae Homer, y bardd Groegaidd, yn cyffelybu dyn o gymmeriad isel a dibwys i abwydyn:—

——*ὥςτε σκωληξ*
**Επι γαιη κειτο ταθεις.**

"Fel abwydyn, gorweddodd yn estynedig ar y ddaiar."
*Iliad;* llyfr xiii; 654.

Arferid y gair Hebraeg fel enw priodol. Gelwir un o ddisgynyddion Issachar, *Tola (abwydyn)*: *Gen.* xlvi. 13. Yr oedd hefyd yn enw ar un arall o'r llwyth hwnw: *Barn.* x. 1. Barna Bochart ddarfod eu galw wrth yr enw hwn, am fod llwyth Issachar yn un o'r rhai eiddilaf yn Israel, ac am fod eu rhieni mewn amgylchiadau isel, neu am fod y plant eu hunain yn eiddil ac afiachus pan anwyd hwynt. Gwel Pryf. (*Kitto's Bib. Cycl.* d.g. '*Worm.*')

**ABYSSINIA,** neu **HABESH,** sydd wlad fynyddig yn nwyreinbarth Affrica, yr hon a derfynir tua'r gogledd a'r gorllewin gan Nubia, tua'r dwyrain gan y Môr Coch, a thua'r deheu gan wledydd anhysbys Affrica, yn cyfryngu rhyngddi a'r Cefnfor Indiaidd. Yn y wlad hon y tardd yr afon Nilus. Adnabyddid hi (yn nglŷn â Nubia) yn yr hen oesoedd (a hwyrach y gelwir hi yn yr Ysgrythyrau) wrth yr enw Ethiopia (gwel *Seph.* iii. 10; *Esa.* xviii. 1); ond tebygol ydyw mai Nubia Uchaf, sef Ethiopia Briodol, oedd teyrnas y frenines Candace, ac nid Abyssinia. Eithr er yr amser yr ymwelwyd â'r wlad gan y Portugïaid, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, gelwir y wlad gan Ewropiaid wrth yr enw Arabaidd, *Abyssinia* (yn arwyddo *pobl gymmysg*); ond ei phreswylwyr a'i galwant eto *Itiopia*, neu *Gheez.* Mae y wlad, o ran maintioli, o ddeutu cymmaint arall a'r Ynysoedd Prydeinig, yn cynnwys o bedair i bum miliwn o drigolion, yn mysg pa rai y mae llawer o Iuddewon a Mahometiaid. Bernir yn gyffredin i'r Iuddewon grwydro yno ar ol dinystr Ierusalem. Barnodd rhai teithwyr, wrth ganfod y fath debygolrwydd rhyngddynt â'r genedl hono mewn arferion, yn gystal a llun eu cyrff, y gallant fod yn hiliogaeth y deg llwyth. Lliw eu crwyn (sef yr Abyssiniaid) yw gwineu; nid oes neb duon yn eu plith ond y caethion. Yr iaith a siaradent hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd yr Ethiopaeg, cangen o'r ieithoedd Semitig, neu y Gheez, yr hon erbyn hyn sydd yn iaith farw: eu iaith bresennol, sef yr Amharaeg, sydd wedi deilliaw o honi. Hyd yr unfed ganrif ar bymtheg, yr oedd yn deyrnas eang, wedi ei rhanu yn daleithiau, yn cael ei llywodraethu gan ymherawdwr a rhaglawiaid; ond oddi ar y chwyldroad yn nghylch y grefydd Babaidd, nid yw ymherawdwr ond enw gwag, heb arwyddo na mawredd nac awdurdod. Gwrthryfelodd y rhaglawiaid, a gwnaethant eu hunain yn annibynol. Y prif daleithiau ydynt Dankali, Adel, Tigre, Amhara, a Shoa, yn nghyd â rhai direedd helaeth yn y



Digitized by Google

parthau deheuol, a breswylir gan lwythau creulawn y Galla. Y prif dalaeth yw Amhara, yn mhrifddinas yr hon, sef Gondar, y preswylia yr ymherawdwr, neu y Negus. Yr hen brifddinas oedd Axum. Am chwaneg o hanes y wlad, gwel ABYSSINIA, td. 100N, a cyf. iii., td. 269.



BENYW. OFFEIRIAID. RHYFELWR.

ABYSSINIA, EGLWYS. Yr hyn sy'n gwneyd hanes y wlad hon yn fwy dyddorol na'r cyffredin yw y ffaith fod y grefydd Gristionogol, a dderbyniwyd gan ei thrigolion o ddeutu pymtheg cant o flyneddoedd yn ol, er gwaethaf holl ymosodiadau Paganaidd, Mahometaidd, a Phabaidd, y cenedloedd o'u hamgylch, yn cael ei phroffesu ganddynt hyd heddyw; ac mor ddyddorol a hyny, dyma yw un o'r ychydig ffrydiau, heb fod yn gyssylltiedig â Phabyddiaeth, a ordeiniodd Duw i drosglwyddo y gyfrol sanctaidd i ni yn ddiogel trwy ystormydd yr oesoedd tywyll.

Haerir yn benderfynol ganddynt hwy, ond heb ddigon o sail, fod eu teulu breninol wedi deilliaw o Solomon, ac mai ei brenines hwy oedd brenines Seba. Mae eu llenyddiaeth, yn debyg i eiddo yr hen Iuddewon gynt, wedi ei chyfyngu i'w gwasanaeth crefyddol, a chroniclau eu cenedl; a'u barddoniaeth, gan mwyaf, yn gynnwysedig o emynau. Yr oedd yr oll o'r Beibl ganddynt mewn llawysgrifen, pan y daethant gyntaf yn adnabyddus i Ewropiaid (1490); ac yn hollol yr un fath a'r eiddom ninnau, ond ei fod yn cynnwys llyfr Enoch (*Iudas* 15), a'r Apocrypha i gyd, oddi eithr llyfrau y Maccabeaid. Ond o herwydd eu tlodi dirfawr, yn nghyd â phris uchel y llyfr, nis cafwyd ef yn gyflawn yn meddiant neb o honynt; yn eu temlau yn unig y cafwyd y gyfrol yn gyfan. Llyfr y Dadguddiad, a Chaniad Solomon, yw hoff ranau yr offeiriaid; ond gwaherddir yr olaf i'r bobl gyffredin, a'r gwragedd. Sefydlwyd Eglwys Abyssinia yn nechreuad y bedwaredd ganrif, o ddeutu B. A. 330, yn amser Cystenyn Fawr. Dywedir wrthym gan yr hen ysgrifenwyr eglwysig, a chadarnheir hyny gan eu croniclau hwy eu hunain, i un Meropius, athronydd o ysgol Alexandria, yn nghyd â dau o'i ddysgyblion ieuainc, Ædesius, a Frumentius, anturio gwneyd ymchwiliad i ranau mewnol y wlad; ac i'r trigolion lofruddio yr athronydd, ond iddynt arbed einioes y ddau lanc; ac mai y Frumentius hwn a fu yn offeryn i'w dychwelyd i'r ffydd Gristionogol. Dygwyd hwy i Axum, y ddinas freninol. Ac yn fuan, bu eu dysgeidiaeth yn foddion i'w dwyn i sylw y brenin, yr hwn a'u cyflogodd yn ddysgawdwyr i'r tywysog ieuanc; ac o radd i radd, daeth Frumentius yn brif weinidog y llywodraeth; ond yr oedd ei amcanion ef yn cyrhaedd yn mhellach nag achosion gwladol. Ar ol llwyddo i gael cenad y brenin i ymweled â'i wlad, efe a hysbysodd yr hanes i Athanasius, esgob Alexandria, yn nghyd â'r tebygolrwydd y gellid efengyleiddio y wlad, pe danfonid cenadon iddi. Ar ol dwys ystyriaeth, barnodd yr hen esgob nad oedd neb yn fwy cymhwys na'r hwn oedd eisoes wedi dangos cymmaint o frwdfrydedd am ei thröedigaeth; a'r canlyniad fu, iddo urddo Frumentius yn esgob Abyssinia. Dychwelodd y cenadwr i'r wlad yn llawn awydd am ei dychweliad, a phregethodd yn llwyddiannus; planodd lawer o eglwysi, adeiladodd dai i addoli, ac yn fuan bedyddiodd, yn mhlith ereill, y llys, a'r teulu breninol. Felly, oddi ar ei sefydliad hyd y pryd hwn, y mae eglwys Abyssinia yn ystyried ei hun yn rhan o'r Eglwys Goptic; a'i phrif swyddog, yr hwn a elwir Abwna (*tad*), yn cael ei ddewis bob amser gan batriarch yr eglwys hono. Mae ei daliadau yn amrywio yn fawr oddi wrth eglwysi Rhufain a Groeg: felly, gellir ei chyfrif fel y bedwaredd ddosran fawr o'r Eglwys Gristionogol. Fel yr eglwys hono, o ran egwyddorion cred, Monophysiaid, neu Eutychiaid, ydynt, yn dal mai un natur sydd yn mherson Crist, sef y ddwyfol; yn yr hon y credant fod holl briodoliaethau y ddynoliaeth wedi ei llyncu. Cyfododd yr ymrysonfa hon yn nghylch yr athrawiaeth yn y bummed ganrif, dan dernasiad yr ymherawdwr Marcion. Yn y flwyddyn 451, galwyd cynghor Calcedon i'w phenderfynu. Condemniwyd yr athrawiaeth, yn nghyd â'i hawdwr, Eutychus (yr hwn oedd eisoes mewn alltudiaeth), a phenderfynwyd "fod dwy natur wedi eu huno yn mherson Crist, a hyny heb gyfnewidiad, cymmysgiad, nac annhrefn." Ond daliodd Cristionogion Abyssinia at y daliadau a fabwysiedid gan eu mam eglwys. Ond i ddychwelyd at yr hanes, buan yr attaliwyd llwyddiant y cenadwr gan yr ymherawdwr Constantius, mab Cystenyn Fawr, yr hwn a geisiodd ddyrysu ei lafur, trwy ddylanwadu ar y teulu breninol i ymwrthod â'r cenadwr a'i athrawiaeth, a'i ddanfon i'r Aipht, at yr athronyddion, i'w hyfforddi yn y cyfeiliornad Ariaidd; ond gwrthodwyd ei gynghorion, a diystyrwyd ei orchymynion; a'r eglwys fechan a lynodd wrth yr hen athrawiaeth, pan oedd cyffredinolrwydd yr eglwysi wedi llyncu yr heresi. Pan ymwelwyd â'r wlad gan y teithiwr Bruce, yn y flwyddyn 1770, yr oedd ar gael amryw o hen groniclau cenedlaethol, cerfysgrifau, adfeilion temlau, a'r cyffelyb, yn goffawdriaeth o'r pethau uchod, a gymmerasant le yn amser sefydliad Cristionogaeth, a llafur y cenadwr Frumentius, amryw gyfrolau o ba rai, yn nghyd â chopi cyfan o'r Ysgrythyrau sanctaidd yn yr iaith Ethiopaeg, a ddygwyd ganddo i'r wlad hon. Y cyfwng, o amser Constantinus (337) hyd deyrnasiad Justinian (527), sydd berffaith wag o bob hanes am danynt. Gwnaeth yr ymherawdwr hwn lawer o ymdrech i'w dychwelyd oddi wrth y ffydd Eutychaidd; ond bu yn hollol aflwyddiannus. Yn y ganrif hon, y chweched, gwnaeth yr Abyssiniaid gryn egni i efengyleiddio rhan o wlad eu cymmydogion Arabaidd, yr hon yr oeddynt newydd ei goresgyn. Danfonasant at Justinian am genadau; ond buan y gorfu iddynt, nid yn unig roddi i fyny yr amcan clodwiw, ond rhoddi i fyny hefyd,

Digitized by Google

fel llawer o genedloedd ereill, ran o'u gwlad eu hunain, sef Adel. o flaen arfau y gau brophwyd ei hun, a gweled y grefydd Fahometaidd yn cymmeryd meddiant o honi; ac y mae y rhan hono yn parhau hyd heddyw yn ddarostyngedig i'r Coran. Ond methodd ef, na neb o'i ganlynwyr creulawn hyd yn awr, trwy oresgyniad na chynghrair, sefydlu eu cyfeiliornadau yn un o'r taleithiau ereill. Tua'r flwyddyn 1434, sef amser teyrnasiad Zara Jacob, yr ydym yn cael fod mynachlog wedi ei sefydlu i'r Abyssiniaid yn Ierusalem, ac un arall yn Rhufain. Rhoddwn yma dalfyriad o lythyr yr ymherawdwr hwn at y mynachod yn Ierusalem, gan ei fod yn agoriad i ansawdd yr Eglwys Abyssiniaidd, yn nghyd âg i ysbryd yr amseroedd hyny:—

"Myfi, Zara Jacob, wyf yn cymmynu hanner teyrnged gwlad Zembla am ddwy flynedd, yr hyn sydd gan wns o aur, i fynachlog Ierusalem, tuag at eich bwyd a'ch dillad chwi, i fod yn goffadwriaeth am danaf fy hun, yn nghyd â'n harglwyddes Mair, &c. O hyn allan, cedwch drosof fi lamp yn llosgi yn medd ein Harglwydd, ac yn nghofadail ein harglwyddes Mair, yn Gethsemane; un arall yn Bethlehem, lle ganwyd ein Harglwydd; ac un arall ar Fynydd yr Olewydd, o'r lle yr esgynodd; yn nghyd â thair yn ein capel ein hunain. Bydded eich gweddiau a'ch bendithion gyda mi trwy yr holl oesoedd. Amen."

Yn y flwyddyn 1445, efe a ddanfonodd genadau i gynghor Florence, yn amser yr ymraniad olaf rhwng eglwysi Groeg a Rhufain. Y cenadau hyn a bleidiasant eglwys Groeg yn yr anghydfod mawr hwnw yn nghylch deilliad yr Ysbryd Glân; ac oddi ar hyny, y mae lle i gasglu fod gradd o gydnabyddiaeth wedi bod rhyngddynt ac Eglwys Rhufain. Yr ymherawdwr hwn, yn ngrym ei benboethni, a ferthyrodd amryw o'i ddeiliaid am wrthod cyduno â'r athrawiaeth Gristionogol, ac a wnaeth gyhoeddiad yn ei ymherodraeth, y byddai i bwy bynag na wisgai ar ei law ddeheu y geiriau, "Yr wyf yn ymwrthod â'r diafol, er mwyn Crist ein Harglwydd," gael ei ddirwyo a'i fflangellu. Yn y ganrif ddilynol, daeth amgylchiadau yr Eglwys Abyssiniaidd yn adnabyddus i Ewropiaid, trwy y drafnidiaeth a ddechreuodd rhyngddynt a'r Portugiaid, yr hon a barhaodd am gant a deg o flynyddoedd. Danfonodd y brenin John II. o Portugal, Peter Covilham, ac Alphonso Payva, ar daith o ymchwiliad, ac i gael allan wlad y Preutur Sion. Covilham, wrth dramwyo glanau y Môr Coch, a ddaeth o hyd i'r hanes fod cenedl o ddynion yn proffesu Cristionogaeth yn preswylio yr ucheldiroedd rhyngddo a'r gorllewin. Efe a gychwynodd yn ddioed i chwilio am danynt, a llwyddodd i gael gafael ar lys y Negus, yn y flwyddyn 1490; a chafodd dderbyniad croesawus iawn; a sefydlodd gydnabyddiaeth rhwng y ddau lys. Danfonodd yr ymherawdwr genadau at frenin Portugal, i erfyn ei gynnorthwy i wrthsefyll y byddinoedd Mahometaidd; yr hwn, ar yr ammod y byddai iddynt goffeidio Pabyddiaeth, a anfonodd 400 o filwyr, yn nghyd âg amryw o fynachod a Jesuitiaid. Yn y flwyddyn 1603, llwyddodd y Jesuit Paez i gael gan yr ymherawdwr a'r llys wneyd addefiad cyhoeddus o'u hymlyniad wrth y grefydd Babaidd. Y diwrnod canlynol, ymgynnullodd y mynachod Abyssiniaidd i ddadleu yn gyhoeddus a'r Jesuitiaid yn ngŵydd y brenin; yr hwn, yn fuan, a gyhoeddodd y ddedfryd fod y rhai blaenaf wedi eu gorchfygu. Y Jesuitiaid, gan hyny, a alwyd yn y fan i bregethu o flaen y llys, ac i weinyddu yr offeren Rufeinig. Yn ddioed, danfonodd yr ymherawdwr at y Pab Clement VIII, ac ac at Philip a John, breninoedd Yspaen a Portugal, i hysbysu ei dröedigaeth. Ond yn fuan, cafwyd allan fod dylanwad yr Abwna yn gryfach na gorchymyn y brenin. Gwrthryfel gwaedlyd a dorodd allan, a lladdwyd yr ymherawdwr a'i brif gynghorwyr. Amgylchiad cyffelyb a gymmerodd le yn fuan drachefn, dan deyrnasiad Socinius, yr ymherawdwr nesaf ond un, yr hwn a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw Sultan Segued; yr hwn, ar ol gwrandaw dadl gyhoeddus eto rhwng y ddwy blaid, a gyhoeddodd y byddai i'r hwn a wadai fod dwy natur yn mherson Crist gael ei gospi am saith mlynedd. Yr Abwna, drachefn, o'r tu arall, a gyhoeddodd esgymundod ar yr hwn a feiddiai ddal y fath gyfeiliornad, neu unrhyw gyfeiliornad arall o eiddo Eglwys Rhufain. Rhyfel gwaedlyd arall a fu y canlyniad, a gorchfygwyd yr Abwna. Ar ol marwolaeth Paez, yr hwn a fu yn genadwr yn y wlad am bedair blynedd ar bymtheg, y pab a urddodd Alphonozo Meudaz i fod yn batriarch ar yr Eglwys Ethiopiaidd, yn y flwyddyn 1626; yr hwn a gafodd y derbyniad mwyaf croesawus. Yr ymherawdwr, y tywysogion, yn nghyd â'r mwyafrif o'r mynachod, a wnaethant yr addefiad mwyaf difrifol o'u hymostyngiad i'r pab. Meudaz a gyhoeddodd, yn y modd mwyaf haerllug, waharddiad hollol i'r offeiriaid genedigol gyflawnu unrhyw wasanaeth crefyddol, heb yn gyntaf ymddangos o'i flaen ef; yn nghyd â gwaharddiad i'r holl ddeiliaid, dan boen marwolaeth, lynu wrth eu hen grefydd;—gorchymynodd hefyd fod i'r eglwysi gael eu hail gyssegru, a'r offeiriaid eu hail urddo; ac i'r hen a'r ieuanc gael eu hail fedyddio, &c., &c.;—ffurfiodd hefyd gynllun i gael rhan o'r cyllid gwladol i gynnal yr offeiriadaeth. Ond trwy iddo ddangos gormod o haerllugrwydd, yn fuan cyfododd gwrthdarawiad mawr yn erbyn ei symmudiadau. Mynodd y bobl, yn y lle cyntaf, gael caniatâd y brenin i ddarllen eu ffurfweddiau mewn iaith oeddynt yn ei deall. Llywodraethwyr y taleithiau a gyfodasant yn unfryd mewn gwrthryfel yn erbyn yr ymherawdwr, a mawr fu y tywallt gwaed; a drylliwyd y croesau a'r addurniadau yn yr eglwysydd, a symmudwyd delwau y seintiau. Amlygodd yr ymherawdwr i Meudaz ei fod o angenrheidrwydd yn rhwym o wrandaw ar y bobl, neu golli y goron; ac fel yr unig feddyginiaeth rhag dinystr, cyhoeddodd fel y canlyn:—"Clywch! clywch! clywch! yr ydym yn adferu i chwi grefydd eich tadau;—darllened eich offeiriaid eich hunain eich gwasanaeth eich hunain, yn eich temlau eich hunain; a byddwch ddedwydd. Yr wyf fi yn hen, ac yn gosod fy mab Facilidas i deyrnasu yn fy lle." (1632.) Y gŵr ieuanc, yn ddioed, a roddodd orchymyn i'r patriarch a'r Jesutiaid i ymadael o'r wlad. Taer ddymunent hwy gael cenad i aros, ar yr ammod y byddai iddynt liniaru eu mesurau. Atebodd y tywysog ieuanc, mai rhy hwyr oedd cynnyg y fath beth yn awr, mai gwell oedd iddynt brysuro, rhag dygwydd iddynt beth a fyddai gwaeth. A'r diwedd fu, am nad ymadawent â chyrau y wlad, eu gwerthu yn gaethion i'r Tyrciaid; a dygwyd Abwna arall o Alexandria gyda rhwysg mawr. Derbyniwyd y newydd yn alarus yn Rhufain, ond gyda phenderfyniad ymroddgar i wneyd cynnyg am y wlad drachefn, yr hyn a wnaed yn egnïol dros ben, amryw weithiau. Un tro, danfonwyd chwech o Jesuitiaid o Ffrainc; pedwar a laddwyd, a dau a

Digitized by Google

ddychwelasant i fynegu tynged eu cydlafurwyr; tri ereill yn fuan a gychwynasant, ac a oddiweddasant yr un farwolaeth. Yn y flwyddyn 1751, gwnaeth Louis XIV, yn nghyd â'r Pab Innocent, gynnyg drachefn, a danfonasant un Poncet, i weithredu yn lledrithiog fel meddyg; a thywy ei ymddygiad cyfrwys, cafodd fynediad diogel i ganol y wlad. Ond er mai eu merthyru, yn gyffredin, oeddynt yn gael, eto, mae lle i gasglu fod amryw wedi llwyddo i gyrhaedd canolbarth y wlad, ac hwyrach i ledaenu egwyddorion Pabyddiaeth mewn parthau o honi, gan y dywedir wrthym gan y teithwyr a ymwelasant â'r wlad yn ddiweddar, nad yw duwinyddion ysgol Alexandria yn cael eu llwybr eu hunain yn y wlad yn bresennol. Pan oedd Pierce yno, o ddeutu deng mlynedd ar ugain yn ol, nid oedd yr un Abwna yn y wlad er ys pymtheng mlynedd; ond tua'r amser hwnw, dygwyd un drachefn, gyda rhwysg anarferol, yr hwn, gyda phob brys, a gyhoeddodd ei benderfyniad, na chaffai yr un ei urddo yn offeiriad, heb yn gyntaf gymmeryd llw ei fod yn derbyn yr oll o athrawiaeth yr Eglwys Goptig, ac yn barod i ymostwng i ddysgyblaeth y Cymmundeb Alexandriaidd, a llwyr ymwrthod â holl gyfeiliornadau Groeg a Rhufain. Ond yr ychydig eglwysi Pabaidd ag oedd yn y wlad, a gyfodasant derfysg nid bychan; ac er attal tywallt gwaed, barnodd yr Abwna mai gwell oedd lliniaru gradd ar ei fesurau. Yr oedd y temlau brodorol, yn yr adeg, mor aml yn y trefi a'r pentrefi fel y gellid clywed y naill gynnulleidfa yn corganu o'r llall.

*Arferion a defodau crefyddol.* Er bod Cristionogion Abyssinia wedi glynu yn fanwl wrth athrawiaethau cred yr Eglwys Goptig, ac wedi gwrthod yr un fath y cyfeiliornadau Ariaidd, Mahometaidd, Groegaidd, a Phabaidd, eto y maent wedi corffoli llawer o ddefodau Iuddewig yn eu gwasanaeth crefyddol. Nid yw yn hawdd penderfynu pa un ai mabwysiadu y cyfryw a wnaethant trwy ymgymmysgu cymmaint â'r lluaws Iuddewon yn eu gwlad, ai iddynt gael eu trosglwyddo iddynt yn amser sefydliad yr eglwys. Mae yr olaf yn llawn mor debyg a'r blaenaf, gan y gwyddys nad oedd y fameglwys wedi ei llwyr buro oddi wrthynt yn moreuddydd Cristionogaeth. Pa faint bynag o symledd crefyddol oedd yn eu harferion a'u gwasanaeth yn yr oesoedd boreuol, nid ydynt yn awr ddim amgen na swp o ffurfiau meirwon a llygredig. Nid ydynt yn canu nac yn pregethu, ond yn unig darllen a chorganu yr Ysgrythyrau, yn nghyd â gweinyddu y sacramentau. Dywedir eu bod yn dra hoff o ddarllen y Beibl. Gweinyddir y sacramentau yn debyg i Eglwys Groeg. Cyfrenir ffrwyth digymmysg y winwydden gyda llwy, y dognedd yn ol sefyllfa yr hwn fyddo yn derbyn. Dechreuant eu haddoliad trwy guro y llawr â'u traed, yn nghyd â churo tabyrddau bychain; a phan y gwresogant, curant eu dwylaw, gan neidio a bloeddio. Enwaedir y plant, y naill ryw fel y llall, a thalant sylw manwl i holl olchiadau, bwydydd, gwyliau, a phuredigaethau y ddeddf seremoniol. Eu haddoldai sydd adeiladau gwladaidd wedi eu toi â gwellt, o lun crwn, wedi eu hamgylchu â cholofnau cedrwydd; eto, y fath ydyw eu parch iddynt, na faidd neb fyned i mewn, heb yn gyntaf ddiosg ei esgidiau, a'u gadael yn y drws. Bob amser, y maent wedi eu hadeiladu ar lan afon, er mwyn cyfleusdra i gyflawnu y golchiadau Iuddewig. Taenellir yr holl gynnulleidfa unwaith yn y flwyddyn, yn gofladwriaeth am fedydd Crist. Tybiodd rhai teithwyr eu bod felly yn mynychu yr ordinhâd o fedydd bob blwyddyn. Ond y mae Bruce yn dangos i foddlonrwydd nad ydyw yr arferiad ganddynt ond cofladwriaeth, ac nid sacrament. Neillduant fwy na hanner y flwyddyn yn ddyddiau ympryd, a chedwir hwynt yn fanwl felly. Mae eu seintiau yn ddirif, a gweddïant yn aml arnynt; ac y maent hyd yn oed yn cyhuddo y Pabyddion o ddiffyg gwarogaeth i'r Forwyn Fair, yr hon a alwant, "Brenines y nefoedd a'r ddaiar." Y fath yw eu chwedlau am wyrthiau eu seintiau, fel yr oeddynt yn medru hyd yn oed ddystewi y Jesuitiaid, nes yn y diwedd y gorfu i'r cyfryw haeru nad oedd gwyrthiau yn un prawf o wirionedd crefydd. Mae ganddynt yn mhlith eu gwyliau, un yn gyssegredig i asen Balaam, ac un arall i Pontus Pilat, am olchi ei ddwylaw. Nid yw priodas ond peth cyffredin yn mhlith y radd isaf o'u hoffeiriaid a'u mynachod, er bod hyny yn groes i reolau eu hurdd. Mae rhai o honynt yn byw mewn amlwreiciaeth, yr hyn nid yw yn beth anghyffredin yn mhlith yr Abyssiniaid; eto edrychant ar eu mynachod a'u mynachesau gyda llawer o arddunant. Yr un modd ag Eglwys Groeg, nid oes yn eu temlau ddelwau o un math, ond mae eu darluniau yn lluosog iawn. Yr ymherawdwr yw pen yr eglwys, a chanddo ef y mae yr hawl i osod ei holl swyddogion, oddi eithr yr Abwna.

Erbyn hyn, mae yr Abyssiniaid yn mhlith gwrthddrychau tosturi y Feibl Gymdeithas, yr hon sydd wedi argraffu y Beibl yn gyfan yn un o brif ieithoedd sathredig y trigolion, sef yr Amharaeg, yn nghyd â'r Testament Newydd yn eu hen iaith eglwysig—yr Ethiopaeg. Yn y flwyddyn 1820, cafwyd allan, yn ddamweiniol, fod brodor o Ffrainc wedi dygwydd cyfarfod âg Abyssiniad dysgedig yn yr Aipht (hen athraw Syr William Jones), ac iddo, oddi ar olwg ar elw, ei gyflogi i gyfieithu y Beibl i'r iaith Amharaeg. Cynnygiwyd y cyfieithiad i Eglwysi Groeg a Rhufain, y rhai a'i diystyrasant; ond y Feibl Gymdeithas a'i cofleidiodd yn llawen, er gorfod talu dros fil o bunnau am dano. Oddi ar y flwyddyn 1844, mae Cymdeithas Genadol yr Eglwys Sefydledig wedi bod, ac yn parhau i wneyd ymdrech i sefydlu cenadaeth yno. Mae y Dr. Krapf, yn nghyd â dau gynnorthwywr, yn llafurio yn awr yn eu plith, ac wedi llwyddo, trwy anhawsderau mawrion, i sefydlu un orsaf; ac y maent yn dra gobeithiol am helaethiad eu terfynau.—*(Rep. Church Miss. Soc.; Bruce's Trav.; Salt's Abyss.; Ludolf's Hist. Abyss.; Edin. Cab. Lib., No. 12., Nub. & Abyss.; Encycl. Brit.; Penny Cycl.; Jour. Rev. Isenberg & Krapf.)*

ACACIAID: pleidiau y sonir am danynt mewn hanes eglwysig, oddi wrth eu harweinwyr, Acacius, esgob Cesarea; ac Acacius, patriarch Caer Cystenyn.

ACADEMIAID. Tŷ a gardd oedd yr Academia gyntaf, yn un o faesdrefi Athen, yn amgylchedig â mur, a'r tir wedi ei drefnu yn rhodfeydd dan gysgodion coed. Dywedir yn gyffredin ei galw felly oddi wrth ei pherchenog cyntaf, Academus, neu Ecademus, am yr hwn yr adroddir iddo sefydlu ysgol yma i arfer y gwrolgampau; modd bynag, rhoddir tarddiadau ereill i'r enw. Tua chanol y bummed ganrif cyn Crist, syrthiodd llwyni Academus i feddiant Cimon, y maeslywydd Athenaidd, yr hwn a addurnodd y lle gyntaf â delwau, ac â ffynnonau, yn nghyd â chwanegu gwelliadau ereill, fel ag i'w wneyd yn

Digitized by Google

encilfa yn mha un y cyfunid llawer o foethusrwydd celfyddyd gyda swynion y golygfeydd naturiol. Wrth farw, gadawodd yr ardd i'r cyhoedd, a daeth yn hoff gynnullfan carwyr athroniaeth a myfyrdod unigeddol. Yma y byddai Socrates yn arfer ymneillduo yn achlysurol i gydymddyddan â'i ddysgyblion. Ond ei ysgolor ardderchog, Plato, a enwogodd yr Academia gyntaf fel eisteddle athroniaeth, trwy sefydlu ysgol yma, i ba un y bu yn athraw am agos i hanner can mlynedd. Oddi wrth hyn, gelwir yr athroniaeth Blatonaidd yn fynych yn Academiaeth, neu athroniaeth yr Academia; a'i chanlynwyr yn Academiaid. Yr oedd yr hynafiaid a goffeidient gyfundrefn Plato yn cael eu galw yn *Academici* (Academiaid), tra y mae coleddwyr yr un tybiau, er amser adferiad llenoriaeth, wedi cymmeryd arnynt yr enw Platoniaid. Y rhai a elwid athronwyr yr Academia gyntaf, oedd y rhai a ddysgent athrawiaethau Plato yn eu purdeb cyntefig. Rhai o brif linellau y gyfundrefn hon oedd y gwrthgyferbyniad rhwng deddfau a ffeithiau; y cyffredinol a'r neillduol; gwrthddrychau y meddwl neu y rheswm, a gwrthddrychau y synwyrau; y byd meddyliol a'r byd gweledig.

Bu Plato farw tna'r flwyddyn 348 c.c. Tua'r flwyddyn 296 cyn y cyfrif Cristionogol, darfu i Arcesilaus, un o'i olynwyr, ddwyn i mewn rai cyfnewidiadau yn athrawiaethau gwreiddiol yr ysgol, gan gymmeryd arno ddiwygio yr hen Academia, a chyfodi un newydd: ar gyfrif hyn, ystyrir ef yn sylfaenydd *ail* Academia, neu y ganol, fel yn wahaniaethol oddi wrth yr hen. Dywedir y byddai efe yn efelychu Pyrrho, ac yn cyfeillachu â Thimon, fel wedi iddo gyfoethogi y gelfyddyd o ammheuaeth o eiddo Pyrrho âg ysgolheigdod dillynaidd Plato, a'i harfogi a rhesymeg Diodorus, y cyffelybid hi gan Aristotle i anghenfil; a chyda llawer o ddigrifwch, cymhwysai ati y pennill lle mae Homer yn dywedyd, "Ei bod hi yn llew o'r tu blaen, yn ddraig o'r tu ol, ac yn afr yn y canol." Fel hyn, yn ol ei dyb ef, yr oedd Arcesilaus yn Blato o'r tu blaen, yn Byrrho o'r tu ol, ac yn Ddiodorus yn y canol.

Egwyddor yr ysgol ganol, oedd, na ddylem ymddiried i'n synwyrau na'n rheswm fel cyfrwng na safon gwirionedd; ond ein bod i gydymffurfio â thybiau y byd mewn masnach a thrafodaeth gyffredin bywyd.

Yr oedd Carneades yn ei flodau tua chan mlynedd ar ol Arcesilaus, a chyfrifir ef yn sylfaenydd y drydedd Academia, yr hon a elwid y newydd. Nid oedd Carneades yn dilyn Arcesilaus yn mhob peth, er ei fod yn coleddu ei brif ddaliadau; ac o herwydd hyn, cafodd ei ystyried fel awdwr ysgol newydd.

Yr oedd yr Academia newydd yn hòni nad oes genym un llwybr i wahaniaethu y gwir oddi wrth y gau, ac y gallai yr ymddangosiadau mwyaf cyffredin ein harwain ar gyfeiliorn. Haerent fod sicrwydd yn anmhosibl, hyd yn oed i'r hwn a alwent yn ddyn doeth; ond y dylai fod ganddo ei dyb, neu ei farn. Dysgent y dylai dyn ddilyn y tebygolrwydd mwyaf, a bod hyny yn ddigon i holl ddybenion bywyd; ac yn unol â hyn, gosodent i lawr reolau i gyrhaedd dedwyddwch. Yr oedd yr ail a'r drydedd Academia yn cytuno yn eu barn am wendid y natur ddynol, a'r anmhosiblrwydd iddi byth gyrhaedd sicrwydd am wirionedd, tra y gwahaniaethant yn eu syniad am werth tebygolrwydd fel rheol dedwyddwch. Dywedai Arcesilaus, sylfaenydd a phrif addurn yr ail ysgol, nad ydoedd o un gwerth fel rheol hapusrwydd, ac mai prif ddoethineb dyn oedd cydymffurfio â thybiau dynion ereill. I'r gwrthwyneb, hònai Carneades fod tebygolrwydd o werth; ac hefyd y dylai fod gan bob dyn farn o'i eiddo ei hun.

Yr oedd ysgolion ereill, diweddarach na'r rhai hyn, a hònent eu bod yn Academiaid; ond ni chyrhaeddasant ddim enwogrwydd.

Nid oedd yr athronwyr hyn wedi cyrhaedd sicrwydd am y gwirioneddau mwyaf; megys, bod Duw, cyfrifoldeb dyn, anfarwoldeb yr enaid, ac anghyfnewidioldeb rhinwedd. Ni ddylid rhestru Plato yn mysg y rhai a broffesent fod yn ddysgyblion iddo, fel yn agored i'r cyhuddiadau hyn yn eu holl nerth: yr oedd gwahaniaeth hanfodol rhwng ei egwyddorion ef a rhai yr Academiaid diweddaraf. Gwel PLATO.

Egwyddorion y blaid hon, yn nghyd â'r un Epicureaidd [gwel EPICUREAID], oedd yn ffynu yn fwyaf cyffredinol yn y byd yn amser ymddangosiad yr Iachawdwr. Dengys ystyriaeth o egwyddorion yr athronwyr hyn, sefyllfa dywyll a galarus y byd, a'r mawr angenrheidrwydd am ymddangosiad Dysgawdwr dwyfol i ddwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni.

ACALE, [*Acalle*]: merch Minos a Pasiphai, ac wyres y duw Iau.—(*Apollod.* iii. 1.)

ACCAD: un o'r pedair dinas y dywedir ddarfod i Nimrod eu hadeiladau yn nhir Sinar, neu Babilonia; neu, yn hytrach, eu bod yn ddechreuad ei freniniaeth ef: *Gen.* x. 10. Y mae llawer o ddadleu wedi bod yn nghylch y lle y safent. Mae Ælian [*De Animal;* xvi. 42] yn crybwyll bod afon yn ardal Sittacene, a elwid gan y Groegiaid, *Argades*, yr hyn sydd mor agos i'r enw *Archad*, a ddyry y Deg a Thrigain i'r ddinas hon, fel y tueddwyd Bochart i gyfleu Accad ar yr afon hono [*Phaleg;* iv. 17]. Y mae yn ymddangos fod amryw o'r hen gyfieithwyr wedi cael y gair *Achar*, yn lle *Accad*, yn eu cyfysgrifau Hebreig; ac y mae tebygolrwydd neillduol llythyraeth y ddau enw yn Hebraeg yn ei wneyd yn beth mor hawdd i adysgrifwyr gymmeryd y naill am y llall, fel y mae yn ammheus pa un yw y gwir enw. Achar oedd hen enw Nisibis, ac am hyny y cawn yr ysgrifenwyr Iuddewig hyd ddyddiau Jerome yn cyfrif mai yr un oedd Nisibis, neu, Nisibin, ag Accad; ond nid oes nemawr o ymddiried i'w roddi ar awdwyr Iuddewig, fel daiaryddwyr. Y mae yn ddiau fod Nisibis yn rhy bell i'r gogledd i'w chydio â Babel, Erech, a Chalneh, "yn ngwlad Sinar." Ni allasai y trefi hyny fod yn dra phell oddi wrth eu gilydd; gan eu bod yn cael eu nodi fel "dechreuad breniniaeth" Nimrod: a thrwy gydgyfarfyddiad amryw amgylchiadau, arweiniwyd sylw Bochart i ymofyn am danynt yn hen dalaeth Sittacene. Wedi cael sicrwydd fod llawer o debygolrwydd mai Achar oedd cynenw y lle hwn, tynir y sylw yn neillduol at dwr o hen adeiladau, a elwid *Akker-koof*, yn Sittacene, lle a adwaenir yn mysg y Tyrciaid wrth yr enw *Accer-i-Nimrood*, ac *Akker-i-Babil*. Y Milwriad Taylor, y cyfarosydd Prydeinig yn Bagdad, oedd y cyntaf a feddyliodd mai dyma oedd yr hen Accad, ac i chwilio am brofion o hyny. Gallesid dysgwyl y cawsid rhyw faint o oleuni ar ei sefyllfa yn yr hen Dalmud Babilonaidd; ac felly y ceir, dan yr enw *Aggada;* ac fe'i crybwyllir gan Maimonides hefyd, dan yr un enw, *Aggada*. Y mae Akker-koof tua naw

Digitized by Google

milltir i'r gorllewin o'r Tigris, yn y fan lle y mae yr afon hono yn dyfod agosaf i'r Euphrates. Mae y twr o adfeilion, i'r hwn yn fwyaf neillduol y rhoddir yr enw Bryn Nimrod (*Tel-i-Nimrood*), yn gynnwysedig o fryncyn, ar yr hwn y mae crynswth o waith priddfeini, yr hwn sydd yn ymddangos yn debyg i dŵr, neu bigadail afreolaidd, yn ol y safle o'r hwn yr edrychir arno. Y mae tua 400 troedfedd o amgylchedd yn y gwaelod, ac yn ymddyrchafu 125 troedfedd goruwch y bryn llethrawg ar yr hwn y gorwedda. Y mae y bryncyn, yr hwn a ymddengys yn ffurflo gosail yr adeilad yn gorff o falurion, wedi crynhoi o adfeilion yr oruwch-adeiladaeth: ac yn yr adfail ei hunan, y mae yn hawdd dilyn yr haenau o briddfeini heul-losg, o'r rhai y mae yn gyfansoddedig; y rhai sydd wedi eu cydio yn nghyd â chalch, neu losgbyg, ac wedi eu dosbarthu yn



rhesi amrywiadol o 12 i 20 troedfedd o uchder, ac yn ysgaredig gan haenau o gyrs, fel y mae yn arferol yn ngweddillion hynafiaethol y gwledydd hyny.

Y mae teithwyr wedi methu gwneyd allan pa ddefnydd yr amcenid i'r hen adeilad hynod yma ei wasanaethu, a thra amrywiol ydyw eu dychymygion ar hyny. Y mae argloddiau y dyfrffosydd a'r dyfr-gloddfeydd yn y gymmydogaeth hon, a'r gweddillion helaeth o briddfeinwaith a phriddlestri a ganfyddir o amgylch, yn brawf fod y *Tel* yn sefyll unwaith yn nghanol dinas nid anenwog; ac yn gymmaint a bod ei adeilwaith yn profi mai un o'r hynafiaethau Babilonaidd ydyw, y peth mwyaf tebyg yw, mai un o'r hen bigadeiladau hyny a gyfodid ar uchelfeydd gynt, ac a gyssegrid i'r cyrff nefol ydyw, y rhai a ddefnyddid yn yr oesoedd boreuol fel temlau ac arsyllfeydd. Yr oedd y cyfryw adeiladau yn gyffredin yn yr holl drefi Babilonaidd, ac ymddengys fod y rhai sydd ar gael wedi eu hadeiladu ar gynllun yr un oedd yn y brif ddinas, Babilon, i fesur mwy neu lai. —(*Kitto's Bib. Cycl.*)

ACCARON: un o ddinasoedd y Philistiaid: 1 *Mac.* x. 89. Gwel Ecron.

ACCHO, [עכו, *caredig*]: yr un ag Acra. Dinas o Phœnicia, neu Syria, sydd yn gorwedd ar lan Môr y Canoldir, yn lledred gogleddol 30° 54′, a hydred dwyreiniol 35° 10′, ar benrhyn bychan, ychydig i'r gogledd o fynydd Carmel. Fe'i rhoddwyd i lwyth Aser: *Barn.* i. 31; *Ios.* xix. 25.—[*Gr.*] Darfu i un o'r Ptolemiaid helaethu ac addurno y lle, a'i galw ar ei enw ei hun, Ptolemais, dan yr hwn enw y bu dros ystod teyrnasiad y Groegiaid yn Syria; ond adferwyd ei hen enw iddi ar ei disgyniad i ddwylaw y Saraceniaid. Crybwyllir ei henw yn fynych yn amser Rhyfelgyrchoedd y Groes; canys fe'i cymmerwyd, yn y flwyddyn 1191, gan Philip Augustus o Ffrainc, a Richard I. o Loegr. Bu dros ysbaid yn meddiant Marchogion Malta, y rhai a'i cadarnhasant âg amddiffynfeydd cryfion, ac a adeiladasant amryw eglwysydd ynddi, y benaf o ba rai a gyflwynwyd i St. Ioan, am ba achos y gelwid y lle "St. Ioan o Accho," neu yn llygredig, "St. Ioan o Acra," ac yn Francaeg, St. Jean d' Acre.

Bu y dref hon mewn cyflwr tra adfeiliedig am dymmor maith ar ol hyn; canys yn y flwyddyn 1291, gwarchaewyd arni gan Melemesson, penadur yr Aipht, gyda byddin o gan mil o wŷr traed, a thrigain mil o farchogion; ac er i Farchogion St. Ioan ei hamddiffyn yn ddewrwych, fe'i cymmerwyd o'r diwedd, ac fe'i llwyr ddistrywiwyd o'r bron; ac nid oes o'r hen ddinas yn aros namyn ychydig golofnau, ac adfeilion rhai o hen eglwysydd y Cristionogion.

Y mae y ddinas newydd, yr hon a adeiladwyd yn benaf gan y Sheikh Daher, yn gorwedd tua milltir oddi wrth yr hen furiau: darfu i'r tywysog uchod gadarnhau y lle, ac adfywio ei thrafnidiaeth yn fawr tua chanol y ddeunawfed ganrif; a'i olynwr yn y rhaglawiaeth, Diessar Pasha, a wnaeth amddiffynfeydd cedyrn iddi, ac a adeiladodd deml Fahometaidd ysblenydd ynddi, gan ei haddurno â'r colofnau a fuasent unwaith yn addurno yr hen adeiladau Groegaidd yn y dinasoedd cymmydogaethol. Yn y flwyddyn 1799, ymosododd Napoleon Buonaparte â byddin o Ffrancod ar y lle hwn; ond Diessar—trwy gynnorthwy Syr Sydney Smith, a nifer o forwyr Seisonig—a lwyddodd i achub y lle, a'r maeslywydd Ffrengig a gododd y gwarchae ac a enciliodd i'r Aipht, wedi treulio tua thrigain niwrnod o flaen y ddinas, colli tua thair mil o'i wŷr, a gwneyd deuddeg o gâdruthriadau aflwyddiannus ar y lle. Adgyweiriwyd y ddinas, a chadarnhawyd ei hamddiffynfeydd yn fuan eilwaith; ond yn y flwyddyn 1832, gwarchaewyd arni drachefn gan raglaw yr Aipht, yr hwn a'i cymmerodd ar yr ail o Orphenaf oddi ar ei hen feistr, y Sultan. Yn y flwyddyn 1840, ymosodwyd arni drachefn gan y Seison dan y llyngesydd Napier, yr hwn a'i cymmerodd ar ol tânbelenu ei muriau am ychydig oriau. Y mae y ddinas hon yn gorwedd 27 milltir i'r deheu o Tyrus, a 23 milltir i'r gog.-og.-or. o Ierusalem.

ACCOS: un o benau cenedl yr offeiriaid a ddaethant o Babilon i Ierusalem, yn amser Nehemïas ac Atharïas, y methwyd cael eu hysgrifen yn mysg yr achau; "ac am hyny y gwaharddwyd iddynt offeiriadu;" 1 *Esd.* v. 38, 39.

ACCUB, [*Heb.* עקוב]. Amryw o'r enw: 1 *Cron.* ix. 17; *Ezra* ii. 42, 45; *Neh.* vii. 45; xi. 19.

ACCUPHA: un o benau cenedl gweinidogion y deml, a ddychwelasant o Babilon i Ierusalem: 1 *Esd.* v. 31.

ACELDAMA, Ἀκελδαμα, oddi wrth yr Hebraeg, חקל דמא, *maes y gwaed*]: y maes a bwrcaswyd â'r arian am y rhai y bradychodd Iudas yr Iachawdwr. Ei enw yn flaenorol oedd "Maes y Crochenydd," naill ai am ei fod yn perthyn i grochenydd, ai ynte am ei fod yn cynnwys pridd cyfaddas i wneuthur llestri o hono.

Am mai gwerth neu wobr gwaed, a dalwyd am fradychu un diniwed, oedd y deg ar ugain arian

Digitized by Google

a daflodd Iudas yn ol i'r deml, ni roddai yr archoffeiriaid a'r Phariseaid hwynt yn nhrysorgell y deml, rhag iddynt ei halogi; o herwydd hyny y defnyddiwyd hwynt i brynu lle claddfa i ddyeithriaid neu bererinion (*χενοι*).

Dywedir yn *Act.* i. 18, mai "Iudas a bwrcasodd faes â gwobr anwiredd." Priodolir y weithred iddo ef yn y geiriau, o herwydd mai mewn canlyniad i'w fradwriaeth ef y gwnaed y pwrcas. Dywed Matthew (xxvii. 9) fod y weithred hon yn gyflawniad o brophwydoliaeth yn Ieremïah: ond y mae yr adnodau y cyfeirir atynt yn gyflredin yn *Ier.* xxxii. 6, a'r rhai canlynol, yn edrych yn annheilwng o brophwydoliaeth o'r amgylchiad dan sylw. Y mae amryw o'r llawysgrifau yn darllen "Zechariah," ac "Esaiah." Nid oes cyfeiriad felly yn Esaiah, ond y mae yn *Zech.* xi. 13, 14. Y mae yn debygol, gan hyny, mai at yr adnodau hyn y mae y cyfeiriad yn Matthew, a bod y llawysgrifwyr boreuaf wedi camgymmeryd yn enw y prophwyd.

Y mae y maes y cyfeirir ato yn bresennol fel Aceldama i'r tu deheu o Ierusalem, ar un o'r llechweddau hwnt i ddyffryn Hinnom. Gwnaeth Helena, mam Cystenyn Fawr, adeliad yno i gladdu y marw; a'r traddodiad ydyw, fod natur ddifäol y tir y fath, fel ag i beri i'r cyrff ddifianu mewn ychydig ddyddiau. Yr oedd y lle hwn yn cael ei gadw trwy yr oesoedd fel claddfa. Bu yn meddiant yr Armeniaid, y Tyrciaid, a'r Ffrancod. Dywed y Dr. Robinson, nad oes yno yn bresennol ond adfeilion yr adeiladau a godwyd yno o bryd i bryd.

ACEPHALIAID [*Acephali*=di ben], sydd enw o ddirmyg a roddwyd i amryw o'r sectariaid; rhai o'r sawl a ymwrthodasant â'u pen, neu eu harweinydd, tra yr oedd ereill o honynt yn rhy annibynol eu hysbryd i gydnabod neb yn ben. Rhoddwyd yr enw yn yr ystyr blaenaf i gangen o'r Eutychiaid, i'r rhai yr oedd Peter Mongus yn arweinydd, yr hwn a roddes ei enw wrth gynghorfa Calcedon, ond a wrthodwyd gan ei ddilynwyr. Rhoddwyd yr enw yn yr ystyr arall i'r Cristionogion, y rhai, yn achosion cynghorfa Ephesus, a wrthodasant ddilyn na Cyril nac Ioan o Antioch. Cymhwyswyd yr enw, yn drydydd, at ryw esgobion a hònent ryddhad oddi wrth awdurdod y patriarch.—(*Mosheim's Ec. Hist.*, i. 82; *Williams' Dict. of all Rell.*, d.g.)

ACITHIO: un o hynafiaid Iudith: *Iud.* viii. 1.

ACOEMETIAID, [*Ακοιμηται* = Gwyliedyddion]: enw a roid i ryw fynachod yn y brif eglwys, yn enwedig yn y dwyrain; y rhai a renid yn dri dosbarth, i gyflawnu gwasanaeth dwyfol ddydd a nos yn ddiorphwys; arferiad a ffyna yn Eglwys Rhufain, yn mysg crefyddolion y "cymmun sanctaidd," hyd y dydd hwn.—(*Robinson's Theol. Dict.*, d.g.; *Williams' Dict. of all Rell.*, d.g.; *Geiriadur Jones*, d.g.)

ACOLYTHIAID, [Seis., *Acolythists*; o'r Gr. *Ακολουθοι* = Dilynwyr]: enw a gymhwysid at ryw ieuenctyd, yn y brif eglwys, a ymlynent wrth esgobion, er cael eu derbyn i'r weinidogaeth sanctaidd. Cyfyngwyd yr enw, ar ol hyn, yn Eglwys Rhufain, a chymhwysir ef yn awr at y radd isaf o offeiriaid, y rhai a barotoant yr elfenau at y cymmun, a oleuant y lampau, ac a gynnorthwyant yn y gorymdeithiau. Rhenir hwynt yn Rhufain yn dri o ddosbarthiadau:—1. Y *Llysol*, a weinyddant ar y pab. 2. Y *Sefydledig*, a wasanaethant yn yr eglwys. 3. Yr *Ardalaidd*, a wyliant yn ngwahanol barthau o'r ddinas —math o geisbyliaid.

ACRA. Gwel ACCHO.

1. ACRABATTENE: rhandir o Iudea, yn ymestyn rhwng Sichem, a elwir yn awr Naplosa, a Iericho, tua'r dwyrain. Yr oedd tua deuddeng milltir o hyd. Ni cheir yr enw yn y Beibl, ond yn Josephus. Cymmerodd ei enw oddi wrth dref a elwid Acrabi—a dywedir fod pentref yno yn awr dan yr enw Akrabeh.

2. ACRABATTENE: rhandir arall yn Iudea, yn gorwedd ar y tu deheuol i'r Môr Marw, yn yr hwn y preswyliai yr Edomiaid cyn y caethgludiad, ond yn adnabyddus ar ol hyny wrth yr enw Idumea: 1 *Mac.* v. 3. Tybir iddo gael ei enw oddi wrth "riw Acrabbim," a enwir yn *Num.* xxxiv. 4, a *Ios.* xv. 3, fel terfyn deheuol llwyth Iudah. Gwel ACRABBIM.—(*Kitto.*)

ACRABBIM, rhandir ar gyffiniau Edom a Beniamin, ar y tu deheuol, a gyfenwid Acrabattene, er ei wahaniaethu oddi wrth yr ardal arall o'r un enw, ar gyffiniau Ephraim a Beniamin, ar yr ochr ogleddol: *Ios.* xv. 2.

ACRABI, neu ACRABA: dinas o Mesopotamia, ar lenydd y Chaboras.

ACTAU FFUGIOL CRIST. Yn niwedd ei Efengyl, dywed Ioan wrthym, pe yr ysgrifenid y cyfan a wnaeth ac a ddywedodd Crist, na chynnwysai y byd y llyfrau a ysgrifenid. Nid yw yr hanes sydd genym am ei eiriau a'i weithredoedd ond rhyw grynoad byr, yn cynnwys sylwedd y pethau a wnaeth ac a ddywedodd, cyn belled ag yr oedd yr Ysbryd Glân yn gweled yn angenrheidiol eu rhoddi, er dysgu ac egluro yr egwyddorion mawrion oedd ef ar fedr eu dysgu i'r byd. Rhywrai o aelodau yr eglwys gyntefig, yn methu deall amcan yr ysgrifenwyr ysbrydoledig wrth fod mor fyr, a dybient y buasai o fudd i'r eglwys gael chwaneg o ymadroddion, a hanes cyflawnach am weithredoedd Crist. O ganlyniad, aethant yn nghyd â chrynoi ymadroddion traddodiadol, a chofnodi gweithredoedd ffugiol a briodolid iddo.

Dechreua awdwr erthygl ar y pwnc hwn yn *Kitto's Biblical Cyclopædia*, trwy ddyfynu yr ymadrodd yn *Act.* xx. 35; "Dedwydd yw rhoddi, yn hytrach na derbyn," fel un o'r ymadroddion ffugiol. Pa fodd bynag, golygwn ni fod hyn yn rhy bell; gwell genym ei alw yn ymadrodd traddodiadol; o blegid os oedd Paul dan ddwyfol ysbrydoliaeth, rhaid i ni gredu fod Crist wedi llefaru y geiriau a briodolir iddo yma.

Yn niwedd ail lythyr Clement o Rufain, fel ei dyfynir gan Clement o Alexandria, ceir yr ymadrodd canlynol:—"Canys yr Arglwydd ei hun, pan ofynwyd iddo gan rywun, pa bryd y deuai ei deyrnas, a atebodd, 'Pan fyddo dau yn un, a'r hyn sydd oddi allan fel yr hyn sydd oddi fewn, a phan fyddo y gwryw gyda'r fenyw heb fod yn wryw na benyw.'" Meddyliem nad anhawdd darbwyllo darllenwyr y Testament Newydd mai ffugiol yw y dywediad uchod. Yn Epistol Barnabas, priodolir y dywediad canlynol i Grist:—"Bydded i ni wrthwynebu pob drygioni." Yr unig ysgrifen a briodolir i Grist yw y llythyr a ddanfonodd at Abgarus (neu Agbarus), brenin Edessa, yn ateb i lythyr a dderbyniodd oddi wrth y

Digitized by Google

tywysog hwnw. Gellir tybied, ar yr olwg gyntaf, fod rhesymau cryfion dros eirwiredd y llythyrau hyn; o blegid dywed Eusebius [*Hist. Eccl.*, i. 13], a Moses Chorensis [*Hist. Armen.*, ii. 29—31], iddynt weled y llythyrau hyn yn nghoflyfrau Edessa; a chyhoeddasant hwynt yn yr iaith Armeniaidd, yn nghyd â chyfieithiad i'r Groeg, o gylch dechreu y bummed ganrif. Ac yn mhen ychydig ar ol hyn, y mae Ephraim, diacon o eglwys Edessa, yn nodi y llythyrau rhwng Crist ac Abgarus, fel achlysur o droedigaeth pobl y lle hwnw i'r ffydd Gristionogol; ac yn cynghori y bobl, ar gyfrif hyny, i lynu yn eu proffes, ac i fyw yn deilwng o honi. Pa fodd bynag, dywed Gieseler [*Eccl. Hist.*], yr hwn nid yw byth yn dueddol i roddi coel ar chwedlau, fod un Christian Abgarus yn frenin Edessa, B. A. 170, yr hyn a ddengys fod yr efengyl wedi myned yno y pryd hwnw; ac o ganlyniad, yr oedd digon o amser i ffugio y llythyrau hyn yn hir cyn dyddiau Eusebius. Mae W. F. Rink wedi bod yn dadleu dros eirwiredd y llythyrau hyn, mor ddiweddar a B. A. 1843. [Gwel *Illgen's Zeitschrifft Hist. Theol.*, ii.] Yn mhen dau can mlynedd ar ol Eusebius, y mae Evagrius, gan ddilyn Procopius, nid yn unig yn cadarnhau yr hanes, ond hefyd yn chwanegu llawer o bethau nad oedd Eusebius a'i gydoeswyr yn hysbys o honynt. Y mae amryw ysgrifenwyr diweddar, ar un llaw, yn anewyllysgar i sefyll dros wirionedd yr hanes, ac ar y llaw arall, yn anfoddlawn ei gwadu yn hollol. Y mae Baronius yn rhoddi yr hanes a'r llythyrau ar ol Eusebius, ond heb roddi ei air dros wirionedd yr hanes. Y mae Spondanus yn ail adrodd yr hanes ar ol Baronius, heb ddyweyd dim ond fod Gretzer wedi profi gwireddolrwydd ac awdurdod llythyr ein Iachawdwr at Abgarus yn erbyn Casaubon. Cyfeiria Gerard Vossius ni at dystiolaeth unfrydol yr hynafiaid, gan gymmeryd arno ei fod ef yn ddiammheuol yn eu hystyried yn awdurdodol. O'r ochr arall, mae y Pab Gelasius, Natalis Alexander, a Du Pin, yn Eglwys Rhufain, yn nghyd â'r rhan fwyaf o'r ysgrifenwyr Protestanaidd, o'r farn, ac wedi dwyn yn mlaen resymau cedyrn, er profi fod llythyr Abgarus, a'r eiddo Crist, yn ffugiol. Pa fodd bynag, gan fod cymmaint o ddefnydd wedi ei wneyd o honynt yn yr eglwys gynt, a dysgedigion yn mhob oes wedi talu cymmaint o sylw iddynt, rhoddwn hwynt mewn gwisg Gymreig, i'r darllenydd gael mantais i farnu am danynt drosto ei hun.

LLYTHYR ABGARUS AT EIN IACHAWDWR.

"Abgarus, tywysog Edessa, at Iesu yr Iachawdwr da, yr hwn a ymddangosodd yn y wlad o gylch Ierusalem, Iechyd. Yr wyf wedi cael hanes am danat a'th welliadau, dy fod yn eu cyflawnu heb na chyffyriau na llysiau; canys dywed yr hanes dy fod yn peri i'r dall weled, a'r cloff rodio; dy fod yn glanhau y gwahangleifion, ac yn bwrw allan ysbrydion aflan a chythreuliaid, a'th fod yn iachau rhai y sydd wedi bod mewn hir nychdod, ac yn cyfodi y meirw. Ac wedi clywed hyn am danat, penderfynais ynof fy hunan un o'r ddau beth hyn: naill ai dy fod yn Dduw, ac wedi dyfod i lawr o'r nefoedd, dy fod yn gwneyd y gweithredoedd nerthol yma; ai ynte dy fod yn Fab Duw, gan dy fod yn abl i wneuthur y cyfryw bethau. Gan hyny, trwy y llythyr yma, yr wyf yn dymuno arnat ddyfod ataf, a'm gwellhau oddi wrth anhwyldeb sydd arnaf. Canys myfi a glywais fod yr Iuddewon yn grwgnach yn dy erbyn, ac yn ceisio dy niweidio. Canys y mae genyf fi ddinas fechan, ond prydferth, yr hon, fe ddichon, a all fod yn ddigon i ti ac i minnau."

ATEB EIN IACHAWDWR I ABGARUS.

"Abgarus, bendigedig ydwyt, yn gymmaint a'th fod yn credu ynof, er na'm gwelaist. Canys ysgrifenwyd am danaf, na byddai i'r rhai a'm gwelent gredu ynof, fel y byddai i'r rhai na'm gwelent gredu, a byw. Gyda golwg ar yr hyn a ysgrifenaist ataf am i mi ddyfod atat, angenrhaid i'r holl bethau, er mwyn pa rai y'm hanfonwyd, gael eu cyflawnu genyf yn y lle hwn; ac wedi eu cyflawnu, i mi gael fy nerbyn i fyny at yr hwn a'm hanfonodd. Gan hyny, wedi i mi gael fy nerbyn i'r nefoedd, myfi a ddanfonaf atat un o'm dysgyblion, yr hwn a'th iacha o'th anhwyldeb, ac a rydd fywyd i ti a'r rhai oll sydd gyda thi."

Mewn cyssylltiad â'r llythyrau, dywed Procopius, ac ereill, i Abgarus ddanfon darluniedydd i dynu darlun o Grist; ond gan fod ei wyneb yn dysgleirio, methai y darluniedydd a chyflawnu ei orchwyl; yna cymmerodd yr Iesu liain gwyn, ac a'i gosododd ar ei wyneb, ac argraffwyd ei ddelw yn uniongyrchol ar y lliain, yr hwn a anfonodd efe i'r brenin Abgarus. Bu y darlun o werth mawr i drigolion Edessa, trwy iddo rwystro Chosroes, brenin Persia, i gymmeryd y ddinas. Dywed Leo iddo ef weled y darlun, a bod y bobl yn ei addoli.

Dywedir i Grist roddi darlun arall o hono ei hun ar napcyn i Veronica, yr hwn a'i canlynodd at y groes.

Dywed traddodiad, i'r wraig a wellhasid o'r dyferlif, adeiladu cofgolofn, â delw yr Iesu arni; yr hon, medd Sozomen a Cassiodorus, a dynwyd i lawr gan Julian; ond dywed Asterius, mai Maximinus a'i dinystriodd.

Sonir hefyd am ddarlun arall, yr hwn a roddodd Nicodemus i Gamaliel. Darfu i'r Iuddewon drywanu hwnw; ac yn y fan, daeth allan ddwfr a gwaed.

Dywed Gieseler [*Hanes yr Eglwys*, cyf. i, td. 85] mai y son cyntaf a gawn am ddarluniau o Grist sydd yn mhlith y Carpocratiaid [*Iren.* i, 25], ac yn Nghapel duwiau Alexander Severus [*Lamprid.* c. 29]. Teimlai yr eglwys erlidiedig, yn y canrifoedd cyntaf, angen Crist fel patrwm o ddyoddefgarwch. Oddi yma y cododd y dybiaeth, sylfaenedig ar *Esa.* liii. 2, 3, ei fod yn hagrach na dynion yn gyffredin (felly y golygai Tertullian, Clement o Alexandria, Origen, &c.). Ar yr un pryd, gwaherddid gwneyd un math o ddelw, yn ol *Exod.* xx. 4; ond cyn gynted ag y daeth celfyddyd i geisio arddangos Crist, rhaid oedd gosod allan ei wychder allanol. O ganlyniad, o'r bedwaredd ganrif yn mlaen, tybid fod yr Iesu yn feddiannol ar gorff anarferol brydferth, a bod rhyw beth yn ddwyfol fawreddig yn ei ymddangosiad allanol, yn ol *Salm* xlv. 2. [*Esboniad Jerome* ar *Mat.* ix. 9.] Eto, cyfaddefent nad oedd un darlun cywir o hono ar gael. Canys am wedd ddynol yr Arglwydd, y mae amrywiol farnau, ac amryw luniau wedi eu tynu, eto nid oedd un gan nad pa fath ydoedd, y gallwn fod yn sicr ynom ein hunain pa fath ydoedd yn wyneb hwnw. Y mae Eusebius yn son am ddelw yn Paneas, yr hon, fel y tybid, a gyfeiriai at yr Iesu a'r amgylchiad yn *Mat.* ix. 20. Mae ysgrifenwyr diweddarach yn adrodd yr hanes ar ei ol ef, ac y mae Jahn Malala (B. A. 600) yn galw enw y wraig Beronice. Wrth gymharu amryw fathau arian, gellir barnu i'r ddelw gael ei gosod i fyny er coffadwriaeth am ryw ymherawdwr (Hadrian

Digitized by Google

a feddylir), ac i'r Cristionogion gamgymmeryd o herwydd fod y gair σωτηρι, neu θεῳ, yn ymddangos yn yr ysgrifen. Y ddelw ddwyfol, yr hon ni wnaed gan ddwylaw dynion, yr hon, medd Evagrius, a anfonwyd i'r brenin Abgarus, yr hon a goffeir mor fynych yn y dadleuon ar ddelwaddoliaeth, a ddygwyd o Edessa i Gaer Cystenyn. Ac y mae Rhufain a Genoa yn bresennol mewn dadl am yr anrhydedd o'i meddu. Dygwyd copi gwyrthiol newydd o honi ar briddfaen o Edessa i Gaer Cystenyn, B. A. 968, trwy orchymyn yr ymherawdwr Nicephorus. Mae hefyd ddelw o Grist, meddir, wedi ei thynu gan Luc. Sonir am hon yn gyntaf gan Theodorus Lector (B. A. 518). Mae hefyd ddarlun o Grist pan oedd tua thair ar ddeg oed, gan Luc, yn y cyssegr sancteiddiolaf, yn Eglwys St. John Lateran, yn Rhufain. Delw Crist, am yr hon y soniwyd eisoes, gan Nicodemus, sydd wedi ei thori allan o bren cedrwydden, a ddygwyd i Gaer Cystenyn o Berytus, gan Nicephorus, ac y mae yn bresennol yn Lucca. Mae y darlun a roddodd Crist i Veronica yn bresennol yn Jaen, Milan, a Rhufain; ac amlwg yw nas gall y tri fod yn iawn. Er nas gallwn gael allan yn gywir pa bryd, na pha fodd y tarddodd y traddodiadau uchod a'u cyffelyb, mae yn amlwg eu bod yn ddyledus i Eglwys Rhufain am eu ffurf bresennol. Ac yr oedd hanes darluniau o Iesu Grist wedi eu tynu ganddo ei hun, a'u rhoddi i ereill fel moddion coffadwriaeth, yn gyfleus iawn i Eglwys Rhufain er amddiffyn delwaddoliaeth. Pa fodd bynag, fel yr ydym wedi dyweyd yn barod am y llythyrau, barna dysgedigion yn gyffredin nad yw y cyfan ond chwedlau ffugiol a disail.—(Gwel *Archbishop Wake's Apostolic Fathers*, a'r awdwyr a goffeir yno; *Kitto's Bib. Cycl.*; *Jones on the Canon of N. Test.*; *Du Piu*, *Nouvelle Bibl*, cyf. i; *Gieseler's Church History*, yn nghyd â'r amryw awdwyr a goffeir ganddo; gweler hefyd y ffugeb Gymraeg a elwir '*Pryd Mab Duw,' Greal*, td. 393.)

ACTAU Y SAINT, *(Acta Sanctorum)*. Mae y llyfr a adwaenir wrth yr enw uchod yn un tra theilwng o sylw, er bod ei feithder y fath fel nad yw o fawr ddefnydd ond fel cyfeirlyfr achlysurol. Cynnwysa un ar ddeg a deugain o gyfrolau wythplyg, o'r maintioli mwyaf. Dechreuwyd y gwaith gan y Tad Heribert Rosweida, Jesuitiad, pan oedd yn drigain mlwydd oed, ac o ganlyniad yn rhy hen i'w gwblhau, er nad oedd yn ol ei gynllun ef i fod dros un gyfrol ar bymtheg, a dwy gyfrol o nodiadau eglurhaol. Dechreuodd yn 1607, trwy argraffu cyfrol wythplyg, dan yr enw "*Fasti Sanctorum*" (Croniclau y Saint), yn cynnwys hanes bywydau y saint oedd ef wedi gael yn yr Iseldiroedd, mewn ysgrifen. Ond bu farw, Hydref, 5ed, 1629, cyn agos gwblhau yr hyn oedd wedi ei ddechreu. Ar ol hyn, cyflwynwyd gofal dygiad yn mlaen y gwaith i Bollandus, yr hwn oedd y pryd hwnw tua phedair ar ddeg ar ugain oed. Efe a symmudodd o Mechlin i Antwerp, er mwyn ei ddwyn yn mlaen. Ar ol chwilio holl gasgliadau Rosweida, efe a ddechreuodd ohebiaeth dros holl Ewrop, gan annog ei gyfeillion i chwilio pob llyfrgell cofrestriad, neu unrhyw beth lle gellid cael gwybodaeth ar y pwnc. Yn fuan, gwelodd fod y gorchwyl yn ormod iddo ef, a galwodd i'w gynnorthwyo ddyn ieuangach a chryfach o gyfansoddiad nag ef ei hun, o'r enw Godfrey Henschen, o Guelderland. Trwy y cymhorth yma, galluogwyd ef i gyhoeddi y ddwy gyfrol gyntaf, yn Antwerp, yn 1643, y rhai a gynnwysant fywydau Saint mis Ionawr—gan mai cynllun y misoedd yw yr un a ddilynir yn 1658. Cyhoeddodd Saint mis Chwefror yn dair cyfrol; a dwy flynedd wedi hyn, gan fod ei lafur o hyd yn cynnyddu, mynodd gydweithiwr arall, o'r enw y Tad Daniel Paperbroch, y pryd hwnw tua deuddeg ar ugain oed, yr hwn a ddanfonodd gyda Henschen i Italy a Ffrainc i gasglu ysgrifau. Bu Bollandus farw cyn cyhoeddi cyfrol arall, Medi 12fed, 1665. Ar ol ei farwolaeth, dygwyd y gwaith yn mlaen gan amryw bersonau a elwid Bollandiaid. Cyhoeddodd Henschen a Paperbroch Saint mis Mawrth, mewn tair cyfrol (Antwerp), 1668, a rhai Ebrill yn dair cyfrol, 1675. Y mae Saint mis Mai yn llenwi saith gyfrol; yr ail a'r drydedd o ba rai a gyhoeddwyd gan Henschen a Paperbroch yn unig, yn 1683. Mae y gyntaf, y bedwaredd, a'r bummed, wedi eu dyddio 1685: a chynnorthwyid yn eu gwneuthuriad gan Francis Baert a Chonrad Jauning. Cyhoeddwyd y chweched a'r seithfed gan yr un personau, yn 1689. Daeth llafur personol Henschen i ben, pa fodd bynag, trwy ei farwolaeth, Medi 11eg, 1681. Mae Saint Mehefin yn llenwi chwech cyfrol; cyhoeddwyd y gyntaf yn 1695, yr ail yn 1698, y drydedd yn 1701, y bedwaredd yn 1707; ar y bummed, chwanegwyd John Baptist Sollier fel golygydd, a chyhoeddwyd hi yn 1709. Golygwyd y chweched gyfrol yn ddwy ran, gan Chonrad Jauning yn unig, yn 1716. A chwanegwyd Merthyreg y mynach Usuardus ati gan Sollier. Bu farw Paperbroch, Mehefin, 25ain, 1714. Mae Saint Gorphenaf yn cyrhaedd dros saith gyfrol. Cyhoeddwyd y ddwy gyntaf gan Jauning, Sollier, a John Pinei, yn 1719 a 1721. Y mae enw William Cuper wedi ei chwanegu ar y drydedd gyfrol, ac enw Peter Bosh ar y bedwaredd, yn 1725, a pharheir yr enwau hyn trwy gyfrol y bummed, 1727, a'r chweched, 1729, a'r seithfed, 1731. Ymddengys yr un enwau hefyd ar y tair cyfrol gyntaf o'r chwech, am Saint Awst, 1733-35 a 37. Cyhoeddwyd y bedwaredd am Awst, gan Cuper a Pinei yn unig, yn 1739; y bummed a'r chweched yn 1741 a 1743, gan Pinei, Cuper, a John Stilting. Mae Saint Medi yn llenwi wyth gyfrol, y gyntaf yn 1746, gan Pinei, Stilting, John Limpen, a John Veldius; yr ail yn 1748, gan Stilting, Limpen, Veldius, a Constantine Swyskhen; y drydedd yn 1750, gan yr un personau, at y rhai y chwanegwyd John Perier; y bedwaredd yn 1753, gan Stilting, Swyskhen, a Perier; y bummed gan yr un rhai, gyda chwanegiad o Urban Sticken; y chweched, seithfed, a'r wythfed yn 1757-60 a 62, gan Stilting, Swyskhen, Perier, a John Cleus. Mae Saint Hydref, hyd y pedwerydd ar ddeg o'r mis, yn llenwi chwech cyfrol. Cyhoeddwyd y gyntaf yn 1765, gan Stilting, Swyskhen, Perier, Cornelius Bye, Jacob Bue, a Joseph Ghesquière; yr ail a'r drydedd yn 1768-70, gan Swyskhen, Bye, a Ghesquière. Hyd yma dynodid y golygwyr fel aelodau o Gymdeithas y Jesuitiaid, ac argreffid y cyfrolau yn Antwerp. Argraffwyd y bedwaredd gyfrol am Hydref, yn Brussels, mewn plygiad gwahanol, yn 1780, gan yr un golygwyr, gyda'r chwanegiad o Ignatius Hubens. Gelwid yr holl gymdeithion y pryd hwnw, "Henuriaid Duwinyddol." Argraffwyd y bummed gyfrol yn Brussels, yn 1786, gan Cornelius Bye, Jacob Bue, a John Baptist Fonson. Argraffwyd y chweched gyfrol yn mynachdy Tongerloo, 1794, mewn rhan gan Bye, Fonson, Anselm Berthadus, ac mewn rhan gan Bue, Sardus Dyckius, Cyprian Gaorius, a Mathias Stalsius. Trueni fod gwaith mor llawn o hanes hynod ag "Actau y Saint," yr hwn a ddygwyd y..

Digitized by Google

mlaen am gant a thrigain a phump o flyneddoedd wedi aros heb ei orphen. Ond gan fod y rhan fwyaf o'r mynachdai yn Ewrop wedi eu dinystrio, ac nas gellir yn rhwydd gael prynwyr i gymmaint o chwedlau traddodiadol, tebyg yr erys y gwaith, ac na argreffir byth mo fywydau y saint ereill. Arosodd y gwaith yn hollol pan aeth byddinoedd Ffrainc i Belgium, yn 1794. Gellir ystyried y gweithiau canlynol fel yn dal perthynas agos â'r gwaith mawr dan sylw.—1. *Exhibitio Errorum quos Paperbrochius suis in notis ad Acta Sanctorum commisit, per Seb. a Sancto Paulo,* 4to, 1693 (Arddangosiad o'r camsyniadau a wnaeth Paperbrochius yn ei Nodiadau ar Actau y Saint, gan Sebastian a Sancto Paulo, 4plyg, 1693); 2.*Examen Juridico-Theologicum præambulorum Sebastiani a Sancto Paulo auctore, N. Rayæo,* 4to, 1698 (Ymchwiliad i'r Feirniadaeth Dduwinyddol flaenorol, o eiddo Sebastian a Sancto Paulo, gan N. Rayæo, 4plyg 1698); 3. *Responsio D. Paperbrochii,* 3 *tom.* 4to, 1696, 1698 (Atebiad D. Paperbrochius, 3 cyf. 4plyg. 1696 a 1698); 4. *Acta Sanctorum Bollandiana apologeticis libris vindicata, fol.* Antwerp, 1755, Llyfrau Amddiffynol o "Actau y Saint," gan y Bollandiaid, yn cael eu hamddiffyn, unplyg, Antwerp, 1755). Mae y llyfr hwn, fynychaf, yn cydfyned â'r gwaith mawr dan sylw, fel pe byddai yn rhan o hono. Pwy bynag fyddo yn ewyllysio gwybod rhagor, cyfeiriwn ei sylw at yr Actau eu hunain; a Llyfroniaeth Belgium *(Bibliotheca Belgica),* gan Foppens, 4plyg, Brussells, 1739, cyf. i; *Geiriadur Hanesol (Moreri, Dictionnaire Historique),* gan Moreri, 8plyg, Paris, 1759, cyf. 2; *Penny Cyclopædia,* d.g. *Bollandus; Biographical Dictionary,* Chalmers, cyf. 6.

ACTAU FFUGIOL YR APOSTOLION. Rhyngodd bodd i'r Ysbryd Glân roddi ar gof a chadw gryn lawer o hanes Paul a Phedr yn y llyfr a adwaenir wrth yr enw Actau yr Apostolion. Pan gofiom fod yr apostolion yn ddeuddeg, yr ydym yn barod i ddywedyd, "Wele yma ddau wedi gweithio yn enwog; ond pa le mae y deg? Ai nis gwnaethant hwy ddim yn ngwasanaeth eu Meistr? Ai ni buasai hanes eu gweithredoedd hwy yn fuddiol i'r eglwys?" Tebyg i hyn oedd teimlad yr eglwys gyntefig; ac o ganlyniad, ymosododd rhai personau da eu hamcan, ond camsyniol eu golygiadau, ar y gorchwyl o gasglu yn nghyd y traddodiadau am danynt; ac wedi myned drwy amryw ddwylaw, cyhoeddwyd hwynt fel hanesion o'r apostolion ereill yn gystal a chyflawniad o'r hanes sydd genym yn yr Actau. Tebyg fod amryw bethau ereill yn cynhyrfu yr ysgrifenwyr; megys, casineb at Paul, fel y gwelir yn y Clementinion, neu Bregethau Pedr: awydd eglwysi i briodoli eu dechreuad i ryw apostol, yn gystal ag awydd am gael tystiolaeth neu esampl bendant rhyw apostol ar bwnc mewn dadl. Tebyg fod amryw Actau ffugiol yn adnabyddus yn bresennol, na wyddai Eusebius ddim am danynt; ond y mae ef wedi nodi amryw, megys, "Actau Paul," "Actau yr Apostol Ioan, gan Andreas, Ioan, ac ereill; o ba rai (medd efe) nid oes un o'r ysgrifenwyr yn y dilyniad eglwysig wedi ymostwng i wneyd sylw yn ei weithiau; ac yn wir, mae y ddulliaeth yn annhebyg iawn i eiddo yr apostolion, ac y mae y syniadau, ac amcan y peth a ddysgir ynddynt, yn gwyro mor bell ag y mae yn bosibl oddi wrth athrawiaeth iachus, fel y teilyngant, yn ddiammheuol, gael eu nodi allan fel ffugchwedlau cyfeiliornwyr." [*Euseb. Eccl. Hist.,* td. 100.] Rhoddwn yma enwau yr Actau ffugiol, yn nghyd â'u syniadau.

1. *Actau Pedr a Phaul,* y rhai sydd yn rhoddi hanes y cweryl a fu rhyngddynt a Simon Magus, yn Rhufain, yn nghyd â'u dienyddiad. Mae yn amlwg i'r llyfr hwn gael ei ysgrifenu ar ol sefydliad y dybiaeth mai ar dueddau Dalmatia yr oedd yr ynys ar ba un yr aeth yn llongddrylliad ar Paul, ac nid rhwng Sicilia ac Affrica. Mae y llyfr hwn yn hynod ar gyfrif y ffaith iddo gael ei ddyfynu yn 1490, fel tyst i brofi fod Paul wedi urddo Bachylus, yn esgob Messina. Pa bryd yr ysgrifenwyd y llyfr hwn nis gallwn mewn un modd farnu.

2. *Actau Paul a Thecla.* Ysgrif hynod ei hanes yw hon, fel ei rhoddir gan Tertullian a Jerome. Dywed y blaenaf, mai henuriad yn Asia oedd yr ysgrifenydd, yr hwn a drowyd allan o'i swydd am ysgrifenu y llyfr, fel y dywedai, o gariad at Paul. Condemniwyd ef fel ffugchwedl yn yr oes yr ymddangosodd. Mae hyn yn brawf cryf i ni fod yr eglwys gyntefig yn ofalus iawn pa lyfrau a dderbyniai fel Ysgrythyr.

3. *Actau Barnabas;* yn proffesu eu bod wedi eu hysgrifenu gan Marc.

4. *Teithiau Philip.* Gwel rhif 5.

5. *Actau Philip yn Groeg.* Actau Philip y gelwid llyfr a gondemniwyd gan y Pab Gelasius. Bernir mai yr un ydyw a rhif 4. Pa fodd bynag, yr ydys wedi gadael allan amryw adroddiadau cyfeiliornus yn yr argraffiadau diweddaf, ac yn enwedig eiddo y Dr. Tischendorf. Defnyddid hwn yn aml gan y Gnosticiaid.

6. *Actau Andreas.* Meddylir mai yr un yw hwn ag a gondemniwyd gan Eusebius, er bod rhai pethau drwg wedi eu bwrw allan o hono mewn copïau diweddar. Yr oedd yn gymmeradwy iawn gan y Manicheaid, yr Encratiaid, a'r Apotactiaid.

7. *Actau Andreas a Matthïas,* yn ninas y bwytawyr dynion. Dyma un o'r ystorïau gwylltaf a dyeithraf a allai dychymygwr gwyrthiau byth ei freuddwydio. Ymddengys ei fod yn dra hen, ac wedi ei daenu, nid yn unig yn yr ieithoedd Lladin a Groeg, ond hefyd yr Anglo-Sacsoneg.

8. *Actau a Merthyrdod Matthew,* sydd ddiweddiad i'r un blaenorol. Y mae yr enw yn chwythig yn y naill neu y llall o'r llawysgrifau: dylasai fod yn mhob un o honynt yn Matthïas neu Matthew. Yr oedd hwn yn anadnabyddus hyd yn ddiweddar iawn.

9. *Actau Thomas,* a ddefnyddid yn aml gan y Manicheaid, megys yr hysbysa Awstin i ni.

10. *Marwolaeth Thomas,* a gyhoeddwyd gan Tischendorf, am y tro cyntaf.

11. *Merthyrdod Bartholomeus.* Nid oedd hwn yn adnabyddus hyd yn ddiweddar, er bod y gau Dionysius yn son am ysgrifeniadau Bartholomeus.

12. *Actau Thaddeus,* neu Iudas yn Edessa.

13. *Actau Ioan.* Coffeir am hwn gan Epiphanius, Awstin, ac Athanasius. Cynnwysa chwedlau anghredadwy am yr apostol. Defnyddid ef gan yr Encratiaid, y Manicheaid, a'r Priscilaniaid. Meddylir mai darn ydyw o Actau yr Apostolion, gan Abdïas.

14. *Actau yr Apostolion,* gan Abdïas; y rhai a broffesant eu bod wedi eu hysgrifenu gan Abdïas; yr hwn a ddywed wrthym iddo gael ei urddo yn esgob Babilon gan yr apostolion, pan ar eu taith tua Persia. Ond nid yw yn hen nac yn eirwir. Nid oedd yn adnabyddus i Eusebius na Jerome, nac i un o dadau yr eglwys. Dywed yr awdwr iddo ei ysgrifenu yn yr iaith Roeg, ac i Julius Africanus, ysgrifenydd Groegaidd arall, ei gyf-

Digitized by Google

ieithu i'r Lladin. Y mae yn dyfynu o Hegesippus, yr hwn oedd yn byw yn yr ail ganrif.

15. *Actau Pedr*, neu Deithiau Pedr, neu fel eu gelwir weithiau, Adgofion Clement; sydd lyfr wedi ei lenwi â gweledigaethau a chwedlau disail, a darddasant o ysgol yr Ebioniaid. Ei amcan ydyw codi Pedr, er mwyn diraddio Paul. Y mae llyfr arall, a elwir Clementines, neu Homiliau Pedr, yn Rhufain, wedi ei gasglu gan Clement, lle y gwrthwynebir yn egniol athrawiaethau Paul.

16. *Actau Paul*; a gyfansoddwyd ar ol ei farwolaeth, er rhoddi ei hanes o'r ail flwyddyn, a'i garchariad cyntaf yn Rhufain, hyd ei farwolaeth. Geilw Eusebius hwynt yn ffugiol.

17. *Gweddïau Cyffredin yr Apostolion.* Y mae ar gael lyfr gweddi, dan enw Matthew; ond gwrthodir ef, gan ddysgedigion, fel gwaith rhyw dwyllwr amryw oesoedd ar ol yr apostol. Gyda golwg ar y gweddïau a briodolir i Pedr, Marc, a Iago, nid oes neb o'r dysgedigion yn credu eu bod wedi eu hysgrifenu gan y dynion sanctaidd hyny yn y modd y maent yn bresennol wedi eu cyhoeddi. Tebyg iawn mai gweddïau cyffredin y tair neu bedair eglwys gyntefig, megys Rhufain, Antioch, Alexandria, a Ierusalem, ydynt, â'r rhai yr oedd Pedr, Marc, a Iago, yn dal cyssylltiad agos. Nid annhebyg fod yr apostolion wedi rhoddi cyfarwyddiadau i'r eglwysi dan eu gofal pa fodd i ddwyn yn mlaen amryw ranau y gwasanaeth; ac o ganlyniad, gallwn eirych ar y ffurfweddïau yma fel yn cynnwys ysbryd, er nad ffurf, gweddïau yr apostolion.

18. *Credo yr Apostolion.* Tybiwyd gan lawer bod hon wedi ei galw felly, nid am ei bod yn cynnwys sylwedd athrawiaeth yr apostolion, ond hefyd ei bod wedi ei chyfansoddi ganddynt, naill ai yn eu cymmanfa gyntaf ar ol adgyfodiad Crist (*Act.* i), neu yn amser yr erlidigaeth dan Herod (*Act.* xii)—yr hyn yw y mwyaf tebygol, yn ol tyb Baronius, ac ereill. Pa fodd bynag, gellid dysgwyl, pe buasai rhywbeth o'r fath yn cael ei wneyd gan yr apostolion, y buasai Luc yn ei gofnodi; hefyd, y mae yr amryw gredoau a daenid yn yr eglwys gyntefig, y rhai a wahaniaethent, nid yn unig mewn ymadroddion, ond mewn erthyglau cyfain, yn dangos na chafodd y credo a alwn ni Credo yr Apostolion ei gyfansoddi ganddynt hwy yn debyg i'w ffurf bresennol, er y gall fod yr erthyglau a gynnwysir ynddo wedi eu traddodi gan yr apostolion i'w dychweledigion boreuaf.

19. *Canonau yr Apostolion.* Tebyg, fel y mae yr esgob Beveridge wedi dangos mai nid yr apostolion, ond cymmanfaoedd yr oesoedd cyntaf, a gyfansoddasant y canonau hyn; a'u bod wedi eu gwneyd ar wahanol amserau, a'u dwyn i'w ffurf bresennol cyn pen tri chan mlynedd wedi Crist; sef, cyn cymmanfa gyffredinol gyntaf Nicea. Dyma y dyddiad boreuaf a roddir iddynt gan ddysgedigion; ond y mae rhai na addefant eu bod cyn hyned a hyny.

Wrth geisio rhoddi hanes yr Actau ffugiol, cyfarfyddwn âg un anhawsder neillduol; sef, y gwahanol enwau neu deitlau wrth ba rai y cyfeirir atynt gan wahanol awdwyr, yn gystal a'r cyfnewidiadau sydd wedi eu gwneyd yn eu cynnwysiad mewn gwahanol oesoedd. Cyfeiriwn y darllenydd at ***Euseb. Eccl. Hist. (Bohn, Lond.***, td. 100); ***Cave's Lives of the Apostles; Kitto's Journal***, Ebrill, 1852; ***Kitto's Bibl. Cycl.; Calmet's Dict.*** (London, 1852); ***J. A. Fabricius Codex Apocryphus N. T.; J. C. Thilo's Codex Apocryphus N. T.; Acta Apostolorum Apocrypha ex triginta codicibus Græcis vel nunc primum eruit vel secundum atque emendatius edidit Constantinus Tischendorf; Theol. et Phil. Dr.***; *Theol. Prof.*; *P. Ord*; H. Lips. 1851; *Gieseler's Church Hist.*, cyf. i; ***Neander's Church Hist.***, cyf. ii; ***Wake's Apos. Fathers.***

ACTAU PILAT. Y mae rhai beirniaid diweddar yn ammheu bodolaeth y fath lyfr, o blegid nad yw ar gael yn bresennol, ac hefyd nad oes genym dystiolaeth o'i fodolaeth oddi wrth neb a'i gwelodd. Pa fodd bynag, gan fod amryw yn credu ei fodolaeth mewn oesoedd hen a diweddar, gan fod rhesymau cryfion dros hyny, a chan fod y fath ddefnydd wedi ei wneyd o'r traddodiad am ei fodolaeth gan elynion a chyfeillion Cristionogaeth yn y canrifoedd cyntaf, y mae yn deilwng o sylw gan bawb sydd am ddeall hanes yr eglwys. Dywed rhai mai y cyntaf a wnaeth ddefnydd o'r traddodiad, os na ellir hefyd ei alw yn dad y traddodiad, oedd Justin Ferthyr, yr hwn, medd Gieseler, "a gyfeiria at Actau Pilat, a'r Actau am drethiad Quirinus," nid am iddo eu gweled, ond am ei fod yn cymmeryd yn ganiataol eu bod yn nghoflyfrau Rhufain. Oddi yma y cododd y traddodiad Cristionogol am gynnwysiad yr Actau hyny, o'r hwn draddodiad y mae Tertullian wedi dyfynu [*Hanes yr Eglwys*, cyf. i, td. 65]. Pa fodd bynag, ymddengys i ni fod Gieseler wedi myned braidd yn rhy bell yn y fan yma; o blegid y mae yn ffaith fod y Rhufeiniaid yn arfer cadw coflyfrau o bethau hynod a ddygwyddent: ac hefyd bod llywodraethwyr y taleithiau dan rwymau i gadw coflyfrau i'w danfon i Rufain. Nid annhebyg, gan hyny, i Pilat wneyd hyn, ac iddo, yn mhlith pethau ereill, ysgrifenu rhywbeth am groeshoeliad Crist. Heb law hyn, y mae Justin Ferthyr, mewn oes y gallesid yn hawdd gael allan y twyll, yn cyfeirio at Actau Pilat hyd yn oed wrth ysgrifenu at ymherawdwyr Rhufain: "Ar fod y pethau hyn felly, a ellir ddysgu oddi wrth Actau Pilat." [*Apol.* i, adran 35.] Eto: "Bod y pethau hyn wedi eu cyflawnu a ellir ddysgu oddi wrth Actau Pontius Pilat." [adran 48.] Yn yr ymrafaelion rhwng y Cristionogion, dyfynid hwy gan bob plaid. Un blaid a'u dyfynai dros ei harferiad o gadw y Pasc, fel y tystiolaetha Epiphanius: "Oddi wrth Actau Pilat, gellir gweled yn amlwg, gan bawb a chwiliont, fod ein Iachawdwr wedi dyoddef yr wythfed o Ebrill." Mae Epiphanius yn dyfynu yr un Actau, ond yn ol gwahanol adysgrifau, yn eu herbyn: "Eto yr ydym yn cael mewn ysgrif arall o Actau Pilat, lle yr arwyddir iddo ddyoddef y pymthegfed o fis Ebrill." [*Heres.* i, adr. 1.] Coffëir hwynt hefyd gan Chrysostom: "Nid yw yr amser y dyoddefodd y Gwaredwr yn anhysbys; canys yn y coflyfrau am weithredoedd Pilat, yn gystal a'r gosodiadau am y Pasc, hysbysir ni i'n Iachawdwr ddyoddef yr wythfed dydd o fis Ebrill." Dywed Tertullian, yr hwn oedd yn gyfarwydd iawn â hanes Rhufain, i Pilat ysgrifenu at Tiberius hanes dyoddefiadau, a marwolaeth, ac adgyfodiad Crist. "Yr holl bethau yma yn nghylch Crist a ysgrifenodd Pilat, yr hwn oedd o ran ei gydwybod yn Gristion, at Tiberius Cæsar." [*Apol.*, c. 21.] Eto; "Tiberius, gan hyny, wedi adrodd yr hyn a glywsai am Grist, o Syria a Palestina, a ddymunodd ganiatad y senedd i'w osod yn mhlith y duwiau." Mae Eusebius yn adrodd yr un peth ar awdurdod uchel Tertullian fel hanesydd, yn gystal ag arferiad cyffredinol y Rhufeiniaid o gadw cofnodau o'r pethau mwyaf hynod. "Yn amser yr erlidigaeth dan Maximinus, ysgrifenodd gelynion Cristionog-

Digitized by Google

aeth adysgrifau ffugiol o Actau Pilat, yn cynnwys llawer o gableddau ar yr Iachawdwr [*Eusebius*, pen. ix. adr. 8], i'r rhai nid oedd gan y Cristionogion ddim i'w osod mewn cyferbyniad. Yr olaf, pa fodd bynag, a ddaethant âg adysgrifau allan i'w taraw hwythau" [*Epiphanius ar Heres.*, pen. i]. Yr oedd yr rhai hyn yn amrywio yn eu dull. Un o honynt, yn yr amseroedd diweddaraf, a adwaenir wrth yr enw, "Efengyl Nicodemus." Hwyrach nad anfuddiol fyddai rhoddi ychydig o hanes yr efengyl hon—y fwyaf anrhydeddus a phwysig o'r efengylau ffugiol. Mae wedi ei rhanu yn ddau ddarn anghymmesur; y rhai, fe ddichon, oeddynt ddau waith gwahanol. Cynnwys y rhan gyntaf yw (*pen.* i—xvi) adroddiad llawn o arholiad Crist o flaen Pilat, ei groeshoeliad, a'i adgyfodiad. Tebyg ei fod, o ran ei darddiad, yn Iuddewiaeth Gristionogaidd, ac wedi ei ysgrifenu er mwyn effeithio ar yr Iuddewon anghredinıol trwy esampl Annas a Chaiaphas, y rhai, medd yr hanes, a ddychwelwyd i'r ffydd trwy dystiolaeth Nicodemus a Ioseph o Arimathea. Darlunia yr ail ran ddisgyniad Crist i uffern, a'r pethau rhyfedd a wnaeth yno. Ymddengys hon yn ddiweddarach na'r rhan gyntaf. Mae ynddo rai ysgrifau Lladin ar bennod chwanegol, yn yr hon y mae Annas a Chaiaphas yn cymmeryd llw ger bron Pilat eu bod hwy wedi eu hargyhoeddi yn llwyr o fod Iesu, yr hwn a gondemniasid ac a laddasid ar eu cais hwy, mewn gwirionedd yn Fab Duw. Y mae Thilo wedi chwanegu at hyn y Llythyrau oddi wrth Pilat at yr ymherawdwyr Claudius a Tiberius Cæsar. Nis gall y llyfr yn ei ffurf bresennol fod yn gynnarach na'r bummed ganrif. Nid oes dim sylw neillduol wedi ei gymmeryd o honi hyd y drydedd ganrif ar ddeg. Y mae yn amlwg nad yw y rhagdraith—yr hwn a ddywed iddo gael ei ysgrifenu yn Hebraeg gan Nicodemus yn amser Crist, a'i gyfieithu i'r Groeg gan Ananïas, Iuddew Cristionogol dan Theodosius, ond twyll. Ystyrid y llyfr yn uchel iawn trwy y canoloesoedd, a chyn dyfeisio yr argraffwasg, yr oedd wedi ei gyfieithu i'r Lladin, Cymraeg, Gaeleg, yr Anglo-Sacsoneg, Almaeneg, a Ffrancaeg. Fel y gallo y darllenydd gael cyfle i weled rhagoriaeth yr efengylau canonaidd ar y rhai ffugiol, mewn symledd hanesyddol ac arwyddion o wireddolrwydd, rhoddwn ychydig ddyfyniadau o'r efengyl yma, yr hon a ystyrir gan feirniaid yn gyffredin fel yn dyfod agosaf at y rhai canonaidd.

DISGYNIAD CRIST I UFFERN.

"Gorchymynodd Pilat i'r swyddog ddwyn yr Iesu ger ei fron mewn modd araf. Taenodd y swyddog frethyn o flaen Iesu iddo gael cerdded arno. Gan fod yr Iuddewon yn anfoddlawn, gofynodd Pilat i'r swyddog pa ham y gwnaethai hyn? Yntau a atebodd ei fod yn llygad-dyst o ddyfodiad Crist i Ierusalem y tro diweddaf, a'r modd yr oedd wedi cael ei anrhydeddu. Gwnaed i'r Iesu gerdded heb y brethyn; ond fel yr oedd yn cerdded rhwng y milwyr a ddalient y banerau, darfu i'r eryrod blygu i roi anrhydedd iddo. Yr Iuddewon, yn gweled hyn, a godasant eu llef mewn digllonedd yn erbyn y rhai a ddygent y banerau. Galwodd Pilat hwynt ger bron, a holodd hwynt pa ham y gwnaethent hyn; hwythau a atebasant na wyddent hwy, fel paganiaid, un achos pa ham yr anrhydeddent yr Iesu, ond i'r banerau wneuthur hyny o honynt eu hunain. Yna rhoddodd Pilat ganiatad i'r Iuddewon wneyd prawf er boddlonrwydd iddynt eu hunain; hwythau, wedi dewis deuddeg o'r dynion cryfaf, a roddasant faner i bob chwech i'w dal ger bron Pilat, gan eu bygwth â marwolaeth os goddefent i'r banerau blygu. Ond pan oedd y swyddogion yn dwyn yr Iesu, y banerau a blygasant drachefn, ac a'i haddolasant ef. Yna yr Iuddewon a ddechreuasant achwyn fod yr Iesu yn swynwr; ei fod wedi ei genedlu mewn godineb; ei fod wedi ei eni yn Bethlehem, ac achosi marwolaeth yr holl blant yno; fod ei rieni wedi ffoi i'r Aipht, o blegid bod arnynt ofn y bobl; a'i fod wedi halogi y Sabbath. Yn y cyfamser, gofynodd Pilat i'r Iesu, 'Beth yw gwirionedd?' Atebodd yr Iesu, 'Gwirionedd sydd yn y nefoedd.' Gofynodd Pilat drachefn, 'Ai nid oes gwirionedd ar y ddaiar hefyd?' Yr Iesu a atebodd, 'Gwel fel y mae y rhai a feddant y gwirionedd ar y ddaiar yn cael eu barnu gan y rhai a feddant awdurdod ar y ddaiar.'"

Yma y canlyn hanes y croeshoeliad a'r adgyfodiad. "Ar ol hyn, cafodd Ioseph o Arimathea weledigaeth o'r Iesu, yr hwn a ymddangosodd iddo mewn goleuni dysglaer. Syrthiodd Ioseph wrth draed yr Iesu; eithr yr Iesu a'i cyfododd ef i fyny, gan ddywedyd, 'Nac ofna, Ioseph; gwel fi pwy ydwyf.' Gwaeddodd Ioseph allan, 'Rabboni Elïas.' Efe a atebodd, 'Nid Elïas ydwyf, ond Iesu o Nazareth, a gladdwyd genych chwi.' Er prawf o hyn, yr Iesu a'i harweiniodd at y bedd lle y dodasid y corff, yna efe a'i harweiniodd ef i'w dŷ, a chan ei fendithio, efe a ymadawodd oddi wrtho. Ar ol hyn, adroddodd Ioseph o Arimathea i Annas a Chaiaphas na chyfodasai yr Iesu o feirw yn unig, ond ei fod wedi galw amryw ereill i fywyd, y rhai oeddynt wedi ymddangos yn Ierusalem; ac yn eu plith yr oedd dau fab i'r archoffeiriad Simeon, yr hwn a gymmerasai yr Iesu yn ei freichiau pan yn blentyn. Yr oeddynt y pryd hwnw yn byw yn Arimathea, ond yn ddystaw fel y meirw, ac yn parhau yn gysson mewn gweddi. Ioseph, Nicodemus, Annas, a Chaiaphas, a aethant i Arimathea yn uniongyrchol, ac a'u cawsant hwy yn gweddïo, ac a'u dygasant mewn modd parchus i'r synagog yn Ierusalem, lle, gyda'r drysau yn gauad, eu tyngedasant i egluro iddynt amgylchiadau eu hadgyfodiad. Clarinus a Lenthius (canys dyna eu henwau), pan glywsant hyn, a grynasant ac a ocheneidiasant; a chan edrych tua'r nefoedd, gwnaethant arwydd y groes ar eu tafodau, yna gofynasant am ddefnyddiau i ysgrifenu, a phan eu cawsant, ysgrifenasant yr hanes canlynol:—'Yr oeddynt gyda'r tadau yn y pydew tywyll, pan yn ddisymmwth y tywynodd goleu haul euraidd o'u hamgylch. Cyfododd y tad Adda, a'r patriarchiaid, a'r prophwydi, a chyhoeddasant fod y Gwaredwr wedi dyfod. Eu tad Simeon, yr hwn a gymmerasai yr Iesu yn ei freichiau yn Ierusalem, a unodd yn y cyhoeddiad. Llawenychodd holl gynnulleidfa y saint. Daeth Ioan Fedyddiwr yn mlaen, ac adroddodd yr hyn a gymmerasai le yn y bedydd; a'i fod ef wedi dyfod yno o flaen Iesu i hysbysu ei ddyfodiad. Yna adroddodd Adda trwy Seth i'r patriarchiaid yr hyn a glywsai gan yr angel Gabriel pan yn ei wendid: yr oedd wedi ei ddanfon i gyrchu ychydig olew oddi ar bren trugaredd; sef, iddo gael ei gyfeirio at Grist, yr hwn a ddygai olew trugaredd i'r credinwyr, ac a arweiniai Adda i baradwys. O'r diwedd, daeth Arglwydd y gogoniant ar ddull dyn, goleuodd y tywyllwch tragwyddol, a rhyddhaodd y cadwynau oesol. Tarawodd angeu â'i ogoniant, a thraddododd Satan i afael uffern; ac aeth âg Adda gydag ef i'w ogoniant. Efe a alwodd ato yr holl saint; a chan gymmeryd Adda erbyn ei ddeheulaw, efe a'i ben-

dithiodd ef a'i holl had cyfiawn. Rhoddodd Adda ddiolch, a phawb gydag ef a blygasant eu gliniau i'r Iesu. Efe a wnaeth arwydd y groes ar bob un o honynt, ac a'u harweiniodd allan o uffern, ac Adda yn eu blaenori. Canodd Dafydd, Habacuc, a'r prophwydi, gân o fawl gyda'r holl saint. Yna rhoddodd yr Arglwydd Adda a'r saint i'r archangel Michael, i'w harwain i baradwys. Cyfarfuant â dau ŵr hen iawn, y rhai a ddywedent mai Enoch ac Elias oeddynt; nad oeddynt hwy eto wedi profi marwolaeth, a'u bod i fyw hyd ddyfodiad anghrist, â'r hwn yr oeddynt i ymladd ac i gael eu lladd, ac wedi tridiau a hanner, i esgyn i fyny i'r cymylau. Yna daeth yn mlaen ddyn truenus yr olwg arno, tebyg i leidr, ac arwydd y groes ar ei ysgwyddau, yr hwn a ddywedai mai efe oedd y lleidr a groeshoeliasid gyda Christ; fod yr Iesu wedi ei anfon ef i baradwys, a'r porthor wedi ei ollwng i mewn o blegid bod arwydd y groes arno; ac wedi dywedyd wrtho fod Adda a'i holl had crediniol i ddyfod yn fuan. Y dirgelion dwyfol hyn a welsom ac a glywsom ni, Clarinus a Lenthius: nis gallwn ddywedyd rhagor, yn ol gorchymyn yr archangel Michael. Eithr parhewch, a rhoddwch y gogoniant i Dduw, fel y byddo iddo gymmeryd trugaredd arnoch. Rhoddodd Clarinus ei ysgrif i Annas, Caiaphas, a Gamaliel; a rhoddodd Lenthius yr eiddo yntau i Nicodemus a Ioseph; yn ddisymmwth, gweddnewidiwyd hwynt mewn gogoniant, ac nis gwelwyd hwynt mwyach." Wrth gymharu y ddwy ysgrif, cafwyd eu bod yn cytuno, heb wahaniaethu cymmaint a llythyren. Pwy bynag a ewyllysia weled chwaneg, darllened *Giesler's Church Hist.* cyf. i, td. 65; *Pearson on the Creed*, td. 292—3; *Eusebius' Eccles. Hist.*; *Epiphanus ar Heresi*; *Henke de Pilati Actus Probab.*, Lipo, 1802; *Jones on the New Test. Canon; Die Apokryph. Evangelien*, u; *Apostolgeschichten Übers Mit; Einleit. und Aumerk*, v; *Dr. K. F. Basberg; Codex Apocryphus a J. A. Fabricii; Thilo's Codex Apocryphus N. T.*, Lipo, 1832; *Bibliotheca Sacra*, Mai, 1852.

**ACTAU YR APOSTOLION.** Hwn yw teitl y pummed, a'r olaf, o lyfrau hanesiol y Testament Newydd. Dodir ef, yn gyffredin, ar ol y pedwar Efengylwr; ond ceir ef, mewn llawer o'r hen ysgriflyfrau, ar ol Epistolau Paul. Gelwir y llyfr hwn, weithiau, megys yn *Codex Bezæ*, "Actau, neu Weithredoedd yr Apostolion;" dro arall, megys yn y *Codex Alexandrinus*, "Gweithredoedd yr Apostolion Sanctaidd." Yn y cyfieithiad Syriaeg, gelwir ef fel hyn; "Llyfr yr Actau, neu Hanes yr Apostolion Bendigedig, cyfansoddedig gan fy Arglwydd sanctaidd, Luc, yr Efengylwr." Yn y cyfieithiad Arabaeg, y teitl yw, "Dechreuad Llyfr Actau yr Apostolion Sanctaidd;" ac yn y cyfieithiad Ethiopaeg, "Actau yr Apostolion, neu, Gweithredoedd y Gweinidogion; hyny yw, Hanes yr Apostolion Sanctaidd."

Eglur yw mai yr un yw awdwr Efengyl Luc a llyfr "Actau yr Apostolion." Cymharer *Luc* i. 1, âg *Act*. i. 1. Cyflwynir y naill a'r llall i un, Theophilus, yr hwn, y mae yn debygol, oedd ŵr o fonedd ac awdurdod, ac yn dra adnabyddus yn yr eglwys foreuol; ac yn yr adnod gyntaf, y mae awdwr yr Actau yn cyfeirio at y "traethawd cyntaf" a wnaethai. Tybia Benson, ac ereill, nad oedd yr "Efengyl" a'r "Actau" ond un llyfr ar y cyntaf; ac iddo gael ei ddosbarthu yn ddwy ran; ac mai y rhan olaf yw "yr Actau:" ond nid oes sail ddigonol i gofleidio y dyb hon. Ymddangosodd y ddau lyfr ar wahan, a chyda gwahanol deitlau er yr oesoedd boreuaf. Ymddengys fod yr awdwr yn llygad-dyst o lawer o'r pethau rhyfedd a draetha. Ni cheir ef yn llefaru yn ei berson ei hun hyd *Act*. xvi. 11, lle y mae yn son am fyned gyda Paul i Philippi. Yna yr ydym yn colli golwg arno drachefn, hyd ddychweliad Paul yn ol i Philippi, yn mhen dwy flynedd o amser wedi hyny, pryd y dywedir iddynt "fordwyo ymaith o Philippi" gyda'u gilydd: *Act*. xx. 4—6. O'r pryd hwn hyd ddiwedd yr amser y mae yr hanes yn ei gymmeryd i mewn, ceir ef yn gydymdeithydd â'r apostol Paul.

O barth i gynnwynoldeb y llyfr hwn; nid oes un ddadl wedi bod gan neb mewn un oes, nad yr un yw yr awdwr a'r un a ysgrifenodd yr Efengyl sydd dan ei enw; ac y mae pob peth sydd yn profi gwirionedd yr Efengyl, yr un mor rymus o blaid gwiredd yr Actau. Cyfrifid ef yn mysg yr *Homologoumena*, sef y llyfrau hyny a dderbynid yn ddinacâd gan yr eglwys foreuol drwy y byd. Yr oll o'r ammheuaeth a gododd erioed o barth iddo sydd wedi bod yn nghylch y modd y cafodd yr awdwr hanes yr amgylchiadau a ddarlunia, sef, yn neillduol yr hyn a gynnwysir yn y deuddeg pennod cyntaf. Tybia rhai fod gwahanol ysgrifeniadau yn bod ag oeddynt yn cynnwys yr hanes hwn, ac iddo wneuthur defnydd o honynt. Y mae duwinyddion yr Almaen yn gyffredin o'r farn hon; ond dywed ereill, o'r ochr arall, nad oes un sail i ni gasglu ddarfod iddo ddodi dim i lawr, ond fel y traddodid iddo gan y rhai a fuasent yn llygad-dystion o'r pethau. Y mae yn wir, i rai sectau, mewn amseroedd ar ol hyn, wrthod Llyfr yr Actau, megys y Severiaid, y Marcioniaid, a'r Manicheaid; ond ni wnaed hyn oddi eithr ar seiliau athrawiaethol yn unig; o herwydd bod y llyfr yn cynnwys pethau croes i'w daliadau hwy, ac nid oddi ar un dyb mai ffugysgrifen ydoedd. O barth i'r *awdwr;* os Luc a ysgrifenodd yr Efengyl sydd dan ei enw, amlwg yw mai *efe* yw awdwr yr Actau. Y mae seiliau cedyrn i farnu ddarfod i Luc ysgrifenu yr Efengyl o dan arolygiad yr apostol Paul; ac y mae lle i gredu mai dan yr un arolygiaeth yr ysgrifenodd efe yr Actau hefyd. Priodolai Irenæus a Tertullian ef i Luc, yn yr ail ganrif; a chadarnheir eu tystiolaeth hwy gan Origen, Jerome, Augustine, Eusebius, a'r holl ysgrifenwyr ar eu hol hwy. Dywed Chrysostom, ac ereill o'r tadau, fod y llyfr hwn yn cael ei ddarllen yn flynyddol yn yr eglwysydd yn y tymmor rhwng y Pasc a'r Pentecost.

Pwy oedd Luc—nid oes genym fodd i farnu yn mhellach na'i fod, yn debygol, yn frodor o Antioch, ac yn feddyg wrth ei alwedigath, yn ol tystiolaeth Eusebius; ac felly, yr un ag a elwir yn *Col*. iv. 14, "Luc, y physygwr anwyl." Ond ammheuir hyn gan Calvin, Basnage, ac ereill; y rhai a farnent fod yr enw "physygwr" yn cael ei chwanegu i'r dyben i'w ddynodi oddi wrth Luc yr Efengylwr. *Lucas* oedd y dull byr o ysgrifenu *Lucanus*; ac felly safai *Silas* am *Silvanus*. Tardda *Lucanus* oddi wrth *lucus*, a *Silvanus* oddi wrth *silva*—dau air o'r un ystyr, sef *coedwig*; a chan y byddid yn arferol o ddefnyddio gwahanol enwau ar yr un person, tybia Greswell, Josiah Conder, &c., oddi wrth hyn, yn nghyd â rhesymau ereill, mai yr un yw Luc a Silas. Nid yw yr awdwr yn siarad am dano ei hun fel cydymaith Paul, ar ol i Paul a Silas ymadael â'u gilydd; a chan ei fod yn llefaru yn ei berson ei hun wedi i Paul a Silas ddyfod yn nghyd, y mae yn naturiol casglu mai Silas

Digitized by Google

yr Actau, a Silfanus yr Epistolau, oedd yr ysgrifenydd.

O barth i'r *amser* a'r *lle* yr ysgrifenwyd yr Actau—bernir, yn gymmaint ag nad yw yr hanes yn cyrhaedd yn mhellach na charchariad Paul yn Rhufain, a bod yr ysgrifenydd gyda'r apostol pan yr aeth i Rufain (*Act.* xxviii. 14), mai dyna y lle a'r pryd y cyfansoddodd efe ei lyfr, tua'r flwyddyn 63. Gwel Luc.

Nid yw yn ymddangos i awdwr yr Actau amcanu rhoddi hanes gyflawn o'r eglwys yn ystod y deng mlynedd ar ugain cyntaf ar ol esgyniad Crist, na chwaith o fywyd yr apostol Paul yn y cyfamser hwnw; canys y mae yn ddystaw am yr oll a gymmerodd le yn mysg yr Iuddewon ar ol tröedigaeth yr apostol, ac am ledaeniad yr efengyl yn y gwledydd dwyreiniol, a'r Aipht, yn nghyd â llafur a dyoddefiadau yr apostolion ereill heb law Paul.

Wrth ymchwilio yn fanwl i'r hanes, canfyddwn fod gan yr awdwr ddau beth neillduol mewn golwg:—1. Traethu yn mha ddull y cyfranesid doniau yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost, a choffäu am y gwyrthiau a wnaed gan yr apostolion yn ganlynol. 2. Traddodi y fath hanesion ag a ddangosai hawl y Cenedloedd i gael derbyniad i eglwys Crist—hawl y gwrthddadleuid yn ei erbyn gan yr Iuddewon. Oddi wrth hyn, gwelwn yr achos pa ham y mae yn coffäu am dröedigaeth y Samariaid (*Act.* viii), a hanes Cornelius (*Act.* x, xi), yr hwn a fedyddiwyd gan Pedr, er nad oedd o'r enwaediad. O herwydd hyn hefyd yr adrodda am benderfyniad y cynghor yn Ierusalem yn nghylch deddf Moses; ac y mae mor fanwl yn ei hanes am dröedigaeth Paul, a'i weinidogaeth i'r Cenedloedd. Y mae hyn hefyd yn brawf diammheuol i Lyfr yr Actau gael ei ysgrifenu yn yr iaith Roeg.

Y mae cryn ansicrwydd yn bod o barth i *amseryddiaeth* y llyfr hwn. Nid yw yr awdwr yn nodi, ond yn awr a phryd arall, yr ysbaid o amser rhwng y naill amgylchiad a'r llall. (Cymharer *Act.* xx. 31; *Act.* xxiv. 27; *Act.* xxviii. 30.) Defnyddia yn fynych ymadroddion cyffredinol; megys, "ac yn y dyddiau hyny," "yr amser hwnw." Noda, er hyny, am dri pheth neillduol ag y ceir eu hamseriad gan haneswyr Rhufeinig; sef—1. Y newyn, dan Claudius Cæsar: *Act.* xi. 28. 2. Ymlidiad yr Iuddewon o Rufain, dan yr un ymherawdwr: *Act.* xviii. 2. 3. Mynediad Porcius Ffestus i'w swydd; *Act.* xxiv. 27: ac oddi wrth hyn, gellir penderfynu, yn lled agos, amseriaeth yr amgylchiadau mwyaf neillduol a enwir. Dodwn i lawr yma daflen amseryddol, yn cynnwys barnau amrywiol o wŷr enwog am hyn:—

| | Eusebius. | Ushor. | Pearson. | Michaelis. | Bengel. | Eichhorn. | Hug. | Haenlein. | Greswell. | Dr. Anger. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Esgyniad Crist .................... | 33 | 33 | 33 | 33 | 30 | 32 | 35 | 33 | 30 | 31 |
| Llabyddio Stephan.............. | 33 | 34 | 34 | ... | 30 | 37 | ... | 36 | 37 | 37 |
| Tröedigaeth Paul................. | 33 | 35 | 35 | 37? | 31 | 37 neu 38 | 38 | 36-38 | 37 | 38 |
| Taith gyntaf Paul i Ierusalem (*Act.* ix. 26) | ... | 38 | 38 | ... | 33 | 40 neu 41 | 38 | 39 | 41 | 41 |
| Ail daith Paul i Ierusalem (*Act.* xi. 12)................... | ... | 44 | 44 | 44 | 41-44 | 44 | 44 | 44 | 43 | 44 |
| Trydedd daith Paul i Ierusalem (*Act.* xv)................ | ... | 53 | 49 | ... | 47 | 52 | 52 | 49? | 48 | 48 |
| Dyfodiad Paul i Corinth....... | ... | 54 | 52 | 54? | ... | ... | 53 | 54 | 50 | 52 |
| Pedwaredd daith Paul i Ierusalem (*Act.* xviii. 22)......... | ... | 56 | 54 | ... | 49 | 56 | 55 | 54 | 52 | 54 |
| Arosiad Paul yn Ephesus...... | ... | 56-59 | 54-57 | ... | ... | ... | 56-58 | ... | 53-55 | 55-59 |
| Pummed daith Paul i Ierusalem (*Act.* xxi. 17).......... | ... | 59 | 58 | 60 | 53 | 60 | 59 | 60 | 56 | 58 |
| Dyfodiad Paul i Rufain........ | 55 | 63 | 61 | 63 | 56 | 63 | 62 | 63 | 59 | 61 |
| Marwolaeth Paul................. | 68 | 67 | ... | ... | 67 | 65-68 | 67 | 68 | ... | ... |

Yr amgylchiad cyntaf o bwys yn hanes yr eglwys gyntefig ag sydd yn galw am sylw yr amserydd yw merthyrdod Stephan, a'r erlidigaeth a godwyd yn erbyn y Cristionogion yn Ierusalem yn ganlynol i hyny. Tybiai rhai o'r amseryddion boreuol, i labyddiad Stephan gymmeryd lle yn yr un flwyddyn ag y croeshoeliwyd ein Harglwydd. Y mae Eusebius a Bengel o'r farn hon. Myn ereill mai yn y flwyddyn 34 y bu hyny; penderfyna ereill ar y flwyddyn 36; ac ereill eto, megys Spanheim, Witsius, Fabricius, a Schmidt, y flwyddyn 40 neu 41. Dywed Lardner mai tua diwedd y flwyddyn 35, neu ddechreu y flwyddyn 36, y cymmerodd hyn le; ac y mae Greswell a Dr. Anger, ar ol llawer o ymresymiad, yn disgyn ar y flwyddyn 37, fel y gwelir yn y daflen uchod. Eu tyb hwy yw, i Stephan gael ei ferthyru ar ŵyl y Pentecost, yn mis Mai, o'r flwyddyn 37; ac i dröedigaeth Paul gymmeryd lle yn mis Hydref o'r un flwyddyn. Y mae Michaelis, Eichhorn, a Milman, o'r un farn. Oddi wrth y crybwylliad fod Iuddewon o Affrica, Cilicia, a manau ereill, yn Ierusalem, yn ymddadleu â Stephan, y rhai ni fyddent yno oni bai fod rhyw amgylchiad neillduol—megys un o'r uchel ŵyliau—yn galw am hyny, y mae yn debygol mai ar un o'r gwyliau hyn y llabyddiwyd Stephan, ac efallai, yn ol barn Greswell, ar ŵyl y Pentecost. Yn hanes merthyrdod Stephan, gelwir Saul, yn ein cyfieithiad ni, yn "ddyn ieuanc;" *Act.* vii. 58: ond y mae yn rhaid ei fod dros ddeg ar ugain oed; canys νεανιας (*neanias*) yw y gair yn yr iaith wreiddiol, ac ni elwid neb felly ond a fyddai wedi cyrhaedd yr oedran hwn. Gelwid dynion ieuainc o dan ugain yn παιδες (*paides*); rhwng ugain a deg ar ugain, yn νεανισκοι (*neaniscoi*); yna deuent yn νεανιαι (*neaniai*); ac wedi cyrhaedd deg a deugain, cyfrifid hwy yn πρεσβυτεροι (*presbuteroi*), sef henuriaid. Rhaid fod Paul, gan hyny, rhwng deg ar ugain a deugain; ac y mae cyssondeb rhwng hyn a'r cyfenw a rydd efe arno ei hun yn ei Epistol at Philemon, sef "Paul yr

Digitized by Google

hynafgwr," pum mlynedd ar ugain ar ol hyn. Os oedd Saul yn ddeugain oed yn y flwyddyn 37, a hono y flwyddyn y merthyrwyd Stephan, cawsai ei eni tua 'r un amser a'n Hiachawdwr. Cafodd ei ddwyn i fyny wrth draed Gamaliel: ac os, fel y mae yn debygol, y dygwyd ef o Tarsus i Ierusalem, pan tua deuddeg neu bedair ar ddeg oed, ac aros o hono yno hyd nes yr oedd yn ugain, byddai wedi dychwelyd i Cilicia yn hir cyn i Ioan Fedyddiwr ddechreu ei weinidogaeth. Efallai nad ymwelodd â Iudea drachefn hyd ar ol esgyniad Crist, ac felly, nad oedd un math o gydnabyddiaeth rhyngddo a neb o'r apostolion. Dychwelodd i Ierusalem, hwyrach, fel Rabbi neu ddoctor, yn ddysgedig yn y gyfraith a'r defodau Iuddewig, ac yn llawn sel dros grefydd ei dadau. Ni ddywedir i ni pa un a oedd Saul yn mhlith "y rhai o Cilicia" a ymddadleuant â Stephan; ond y mae yn dra naturiol i farnu ei fod, ac i'w anallu i "wrthwynebu y doethineb a'r ysbryd trwy yr hwn yr oedd Stephan yn llefaru" lenwi ei feddwl â thristwch a chynddaredd. Os felly, nid oedd yn rhyfeddod ei fod ef, pan y tywalltwyd gwaed y merthyr, yn "sefyll ger llaw, ac yn cydsynio i'w ladd ef, ac yn cadw dillad y rhai a'i lladdent ef;" *Act.* xxii. 20. Mae gwahanol farnau o barth i'r ysbaid o amser rhwng marwolaeth Stephan a throëdigaeth Paul. Caniateir rhai misoedd gan rai; gan ereill, blwyddyn neu ddwy. Y mae yn amlwg na chymmerodd hyny le yn uniongyrchol ar ol yr amgylchiad chwerw hwnw; canys yr oedd y dysgyblion yn Damascus wedi clywed "faint o ddrygau" a wnaethai efe "i'r saint yn Ierusalem," cyn i Saul gyrhaedd yno.

Peth arall ag y mae gwahaniaeth barn yn ei gylch yw amser ysgrifeniad Epistol cyntaf Paul at Timotheus, a'i Epistol at Titus, yn nghyd â'i ymweliad â Creta. Golyga Lardner i'r Epistol at Timotheus gael ei ysgrifenu pan oedd yr apostol yn Macedonia, yr ail waith, tua diwedd y flwyddyn 56; ac â hyn y cytuna Baronius, Estius, Lightfoot, Benson, Doddridge, Hammond, a Hug. Tybir i Paul ymweled â Creta, ar ol ei ymadawiad o Ephesus, ond cyn ei ddyfod i Macedonia, ac iddo adael Titus ar ei ol yn Creta; ac yna, o herwydd na chyfarfu â Titus, yn ol ei ddysgwyliad, yn Troas, iddo ysgrifenu ei epistol ato o Troas, gan ddymuno arno ddyfod ato i Nicopolis, yn Thrace, canys yno yr arfaethasai auafu: *Titus* iii. 12. Myn ereill, mai tua 'r flwyddyn 64 neu 65 y cymmerodd yr amgylchiad hwn le. Mae y farn olaf hon yn ymddibynu yn gwbl ar y dyb o fod yr apostol wedi derbyn ei ryddhad o'i garchariad yn Rhufain; iddo gymmeryd teithiau amrywiol yn ganlynol i hyny, i ymweled â'r eglwysi, a chael ei ail garcharu yn Rhufain, cyn ei ddienyddiad yno. Nid oes genym hanes am hyn yn Llyfr yr Actau; ond y mae rhai crybwylliadau yn yr epistolau yn rhoddi lle i'r farn hon. Dyma dyb Pearson, Whitby, Basnage, Cave, Fabricius, Mill, Paley, Olshausen, Greswell, a Tate. Golygir i'r apostol gymmeryd mordaith i Asia o Rufain, gan gymmeryd Creta ar ei ffordd, ac iddo adael Titus yno, a Timotheus yn Ephesus, ar ei ffordd i Macedonia; ac iddo ysgrifenu at y naill a'r llall yn fuan wedi hyn o Wlad Groeg. Nis gellir yn hawdd gyssoni 1 *Tim.* i. 3, ac *Act.* xx. 3–6, ond ar y dybiaeth hon. Dywedir yn yr epistol, i Paul ddeisyfu ar Timotheus aros yn Ephesus, pan yr aeth ef i Macedonia; ond yn yr Actau, ni a gawn i Timotheus fordwyo ymaith gyda Paul o Ephesus; a chan hyny, nis gall fod yr epistol wedi ei ysgrifenu ato, wedi i Paul fyned i Macedonia o Ephesus, ar y pryd y crybwyllir yn yr Actau. O barth i ail garchariad Paul yn Rhufain, cyfeirir y darllenydd at 2 *Tim.* iv. 16, 17, a chymharer â 2 *Tim.* i. 16, 18; iv. 19. Ceir fod y dyb hon yn gyffredin yn y bedwerydd ganrif, wedi ei seilio gan mwyaf ar y crybwylliadau yn yr Ail Epistol at Timotheus; ac os felly, tra thebygol yw i'r apostol wneyd y goreu o'i amser, trwy deithio i wahanol wledydd. Yn unol â hyn, fe ddywedir i ni gan Clemens Romanus, yr hwn oedd yn byw yn yr oes apostolaidd, i Paul fyned cyn belled a therfynau eithaf y gorllewin; ac y mae yn rhaid mai yr Yspaen a feddylir yn ol ei amcan, fel y gwelir yn *Rhuf.* xv. 28. Felly, os cafodd ei ryddid ar ol ei garchariad cyntaf, a theithio o hono i wahanol wledydd, y mae yn bur naturiol meddwl iddo ymweled â Creta y pryd hyn.

Gellir dosbarthu Llyfr Actau yr Apostolion yn dri dosbarth, fel y canlyn:—

*Dosbarth* I. Yn cynnwys dechreuad a chynnydd y fameglwys yn Ierusalem, o amser esgyniad Crist hyd yr erlidigaeth Iuddewaidd gyntaf (*pen.* i—viii).

1. Yr amgylchiadau cylchynol i esgyniad Crist i'r nef (*pen.* i).
2. Disgyniad yr Ysbryd Glân ar yr apostolion ar wyl y Pentecost, yn nghyd â phregeth Pedr mewn canlyniad i hyny (*pen.* ii).
3. Iachâd y gŵr cloff gan Pedr ac Ioan—cynghor a phregeth Pedr—y pethau a ddygwyddasant i'r apostolion mewn canlyniad i'r wyrth hono (*pen.* iii, iv).
4. Marwolaeth Ananïas a Sapphira—gwyrthiau yr apostolion—eu curo, a'u gollwng ymaith (*pen.* v).
5. Dewis diaconiaid—atebiad a merthyrdod Stephan—yr erlidigaeth Iuddewaidd gyntaf (*pen.* vi, vii, viii. 1—4).

*Dosbarth* II. Yn cynnwys gwasgariad y dysgyblion, tröedigaeth Paul, a sylfaeniad Eglwys Gristionogol yn Antioch (*pen.* viii. 5—xii).

1. Planu yr eglwys yn Samaria (*pen.* viii. 5—25).
2. Tröedigaeth yr eunuch o Ethiopia (*pen.* viii. 26—40).
3. Tröedigaeth, bedydd, a phregethu cyntaf Paul (*pen.* ix).
4. Gwyrthiau Pedr, a thröedigaeth Cornelius a'i deulu (*pen.* x, a xi. 1—18).
5. Sylfaeniad yr eglwys genedlig gyntaf yn Antioch (*pen.* xi. 19—30).
6. Lladd Iago—carchariad a gwaredigaeth Pedr — marwolaeth druenus Herod Agrippa (*pen.* xii).

*Dosbarth* III. Yn cynnwys tröedigaeth y cenedloedd mewn gwahanol wledydd trwy law Barnabas a Paul; ac ar ol eu hymadawiad oddi wrth eu gilydd, trwy law Paul a'i gymdeithion (*pen.* xii—xxviii).

1. Planu amryw o eglwysi yn ynys Cyprus, Perga, Pamphylia, Antioch yn Pisidia, Iconium, Lystra, a Derbe—dychweliad Paul i Antioch (*pen.* xiii, xiv).
2. Ymgynghoriad yr apostolion yn Ierusalem yn nghylch yr enwaediad—eu llythyr at yr eglwysi o barth i hyny (*pen.* xv. 1—35).
3. Ail ymadawiad Paul o Antioch—pregethu yr efengyl ganddo mewn gwahanol wledydd, yn neillduol yn Philippi, yn Macedonia—tröedigaeth ceidwad y carchar (*pen.* xv. 36—41; a xvi).

Digitized by Google

4. Teithiau a llafur apostolaidd Paul a'i gymdeithion yn Thessalonica, Berea, ac Athen—ei amddiffyniad o flaen llys yr Areopagiaid (*pen.* xvii).

5. Taith Paul i Corinth, ac oddi yno i Antioch (*pen.* xviii. 1—22).

6. Trydydd ymadawiad Paul o Antioch—canlyniadau ei bregethiad yn Ephesus (*pen.* xviii. 23—28; a xix).

7. Llafur Paul yn Ngwlad Groeg ac yn Asia Leiaf, a'i daith tua Ierusalem (*pen.* xx).

8. Erlid Paul yn Ierusalem, a'i anfoniad fel carcharor i Cæsarea (*pen.* xxi, a xxii. 1—30).

9. Paul yn dyfod i Cæsarea—cyhuddiadau yr Iuddewon yn ei erbyn—ei amddiffyniad o flaen Ffelix—yn appelio at Cæsar—ei amddiffyniad o flaen Agrippa (*pen.* xxxiii. 31—35, xxiv—xxvi).

10. Mordaith Paul o Cæsarea—ei longddrylliad ar ynys Malta—ei fordaith oddi yno i Rufain, lle y mae yn pregethu yr efengyl i'r Iuddewon, ac yn aros ddwy flynedd (*pen.* xxvii, xxviii).

Y mae amryw ffug-ysgrifeniadau dan yr enw "Actau yr Apostolion," rhai o honynt ar goll; ond cyfeirir atynt gan hen awduron, ac ereill eto ar gael. Y canlynol yw y rhai mwyaf neillduol:—"Actau Pedr, Ioan, a Thomas;" "Ysgrifeniadau Bartholomeus yr Apostol;" "Actau, Pregethiad, a Dadguddiad Pedr;" "Actau yr Apostolion, gan Seleucus;" "Actau Paul a Hecla;" "Actau yr Apostolion, mewn arferiad gan yr Ebioniaid;" "Actau yr Apostolion, mewn arferiad gan y Manicheaid;" "Dadguddiad Thomas, Paul, Stephen," &c.; "Epistolau Barnabas, Clement, Ignatius, a Polycarp;" "Teithiau Pedr;" "Actau Pilat, neu Efengyl Nicodemus;" "Hanes y Deuddeg Apostol;" "Epistol Paul at y Laodiceaid;" "Epistol Paul at Seneca," &c., &c.—(*Limborch, Commentarium in Acta Apostolorum; Walch, Dissertationes in Acta Apos.; Biscoe, History of the Acts, confirmed from other authors,* 8plyg, Oxford, 1829; *Benson, On the planting of the Christian Churches,* 3 cyf. 4plyg; *Neander, History of the Planting, &c., of the Christian Church by the Apostles (Edinburgh Biblical Cabinet); Lardner's Credibility of the Gospel History; Olshausen on the Gospels, &c.,* (Edinburgh); *Conder's Literary History of the New Testament; Kitto's Cyclopædia of Biblical Literature; Hackett, on the Acts of the Apostles; Horne's Introduction to the Critical Study and Knowledge of the Scriptures; Davidson's Biblical Criticism.*)

ACUA: yr un ag Accub: 1 *Esdr.* v. 30.—ymyl y ddalen.

ACWARIAID: plaid o Gristionogion yn yr eglwys gyntefig, a gyssegrent ddwfr yn lle gwin yn y cymun. Gwnaent hyn, naill ai oddi ar yr esgus o gymmedroldeb, neu am fod yfed gwin yn beth gwaharddedig. Y mae eu henw yn deilliaw o'r gair Lladin, *aqua* (dwfr).

ACWILA, ['Ακύλας; Lladin, *Aquila*=eryr]: Iuddew, genedigol o Pontus, yn Asia Leiaf, yr hwn, yn nghyd â'i wraig Priscila, a ennillwyd at Gristionogaeth trwy weinidogaeth yr apostol Paul. Gwneuthurwr pebyll oedd efe wrth ei gelfyddyd; a chan fod yr apostol hefyd o'r un gelfyddyd, bu yn llettya gydag Acwila a Phriscila yn Corinth, ac yn gweithio gyda hwynt er ei gynnaliaeth ei hun: *Act.* xviii. 2, 3. Yr oedd yr ymherawdwr Claudius wedi gorchymyn i'r Iuddewon ymadael o Rufain; a chan nad oedd y Rhufeiniaid yn gallu gwahaniaethu rhwng Iuddewon a Christionogion, barnodd Acwila a'i wraig ei bod yn fwy diogel iddynt hwy gilio i Corinth: wedi hyny, daethant yn gymdeithion i'r apostol yn ei lafur; ac y mae efe yn son am danynt gyda chymmeradwyaeth mawr: *Act.* xviii. 2, 12, 26; *Rhuf.* xvi. 3, 4; 1 *Cor.* xvi. 19; 2 *Tim.* iv. 19. Ymddengys fod cyfeillgarwch mawr rhwng Paul a hwynt, ac iddynt unwaith achub ei fywyd ef, trwy beryglu eu bywydau eu hunain, naill ai pan oedd Paul wedi ei ddwyn o flaen Galio yn Corinth, neu yn amser y terfysg yn Ephesus: *Act.* xviii. 12; xix. 24. Buant yn ffyddlawn hefyd yn Corinth i addysgu Apolos yn fanylach yn y grefydd Gristionogol: *Act.* xviii. 25, 26. Yr oeddynt wedi dychwelyd i Rufain pan oedd Paul yn ysgrifenu ei Epistol at y Rhufeiniaid; ond rhai blyneddoedd wedi hyny, pan oedd yn ysgrifenu ei Ail Epistol at Timotheus, yr oeddynt yn Ephesus. Wrth "yr eglwys yn eu tŷ hwynt," y meddylir y credinwyr a arferent ymgynnull yn eu tŷ er addysg ac addoliad crefyddol, gyda'u teulu eu hunain, oedd, efallai, yn lluosog. Nid oedd gan y Cristionogion eto dai addoliad wedi eu hadeiladu; yr oeddynt felly dan angenrheidrwydd i ymgyfarfod mewn tai anneddl. Nid yw Josephus yn son am orchymyn Claudius; ond y mae Suetonius, awdwr paganaidd, yn cyfeirio ato. Y mae hyn yn dystiolaeth i gywirdeb yr hanes Ysgrythyrol.—(*H. Horne; Brown; Kitto,* &c.)

ACH, [ילד; Gr. γενεαλογια]: bonedd, llinach, ach, achres, asglinen, edryd, edryf, gwelygordd, gwehelyth, hân, tras, cyff; cofres ysgrifenedig o enwau yn dangos haniad neu darddiad un person, neu deulu, neu lwyth, neu genedl: *Num.* i. 18; 1 *Cron.* v. 1, 7, 17; *Neh.* vii. 5. Yr un peth a olygir wrth yr ymadrodd *tŷ eu tadau* a *hiliogaeth,* yn *Ezra* ii. 59; *Neh.* vii. 61, lle y dywedir, "A'r rhai hyn a ddaethant i fyny o Tel-melah, Telharesa, Cerub, Adon, ac Immer: ond ni fedrent ddangos *tŷ eu tadau,* na'u *hiliogaeth,* ai o Israel yr oeddynt;" a 1 *Esd.* v. 36—39. Cyfieitha W. Salesbury, γενεαλογίαις, yn 1 *Tim.* i. 4, yn *achay.*—"Ag nad ystyriant chwedlay, ag *achay* anorffen;" a γενεαλογιας, yn *Tit.* iii. 9, yn *iachae,* — "Eithr gwrthladd questione ynvydion ac *iachae;*" ond cyfieitha ἀγενεαλογήτος, yn *Heb.* vii. 3, yn *genedl,*—"Heb dad, heb vam, heb *gene ll;*" a γενεαλογουμενος, yn *adn.* 7 o'r un bennod, yn *genhedlayth,*—"Eithr hwn ni hanoedd i *genhedlayth* o honynthwy." Ond y gair *achau* a ddefnyddia y cyfieithiad awdurdodedig yn yr holl adnodau hyn; ac y mae yn dra thebyg mai yr un peth a olygir ynddynt oll. Gwel Cenedlaeth; Achau Crist; Achau y Patriarchiaid; Achau Saint Ynys Prydain.

ACHAIA, [Αχαια, *blinder*]: talaeth o Groeg, i'r hon yr oedd Corinth yn brif ddinas. Bu Paul yn pregethu yn Corinth, ac yn Achaia. *Act.* xviii. 12. Ac y mae yn deilwng o sylw, fod Luc, yn y rhan uchod, yn galw Galio yn rhaglaw Achaia, yr hyn yn wir ydoedd teitl priodol y swyddog y lle ar y pryd yr ysgrifenai efe; ond ni buasai felly nemawr o amser o'r blaen, ac ni pharhaodd felly nemawr yn hwy: ac fel hyn profir manylrwydd a chywirdeb yr adroddiad yn neillduol. Dywedir mai yn y dalaeth hon y dyoddefodd Andreas ferthyrdod. *Achaia,* yn ei ystyr helaethaf, a ddynoda *Hellas,* neu Groeg, a elwir yn awr Livadia; ac a derfynid ar y gogledd gan Thessalia, ar y gorllewin gan afon Achelous,

Digitized by Google

ar y dwyrain gan yr Ynysfor Groegaidd, ac ar y deheu gan gyfyngdir Corinth. Ond, mewn ystyr gyfyngach, ni ddynodai yr enw namyn talaeth fechan yn y Penrhyn Moreaidd, a elwir yn bresennol *Romania Alta*. Mae yn ymestyn tua'r gorllewin ar lan angorfa Corinth; ei phrifddinas oedd Patrae, Patara, neu Patres.—(*Plinius*, cap. iv. llyfr v; *Strabo*, llyfr viii; *Ptolemeus*, llyfr iii.)

ACHAICUS, [Αχαϊκος,]: un o ddysgyblion Paul, yr hwn a argannolid i sylw y Corinthiaid: 1 *Cor.* xvi. 15, 17. Efe, yn nghyd â Stephanus a Ffortunatus, a ddygent Epistol cyntaf yr Apostol Paul at y Corinthiaid, tua'r flwyddyn 56.

ACHAN, ACHAR, [עָכָן; Gr. Αχαν, neu Αχαρ]. Yr oedd Achan yn fab i Carmi, o lwyth Iudah, ac yn un o'r milwyr yn myddin Iosuah pan yn cymmeryd dinas Iericho: *Ios.* vii. 1. Yn 1 *Cron.* ii. 7. gelwir ef Achar (עָכָר), am iddo beri trallod i Israel: a gelwir y fan lle y gosodwyd ef i farwolaeth yn Ddyffryn Achor, neu Ddyfryn Trallod: *Ios.* vii. 26.

Yr oedd yr Arglwydd wedi dedfrydu dinas Iericho, a'i holl drigolion (gyda yr eithriad o Rahab a'i theulu)—y trigolion i gael eu dyfetha â'r cleddyf, a'r meddiannau llosgadwy i gael eu llosgi; ond yr oedd yr holl feteloedd, megys yr aur, yr arian, y pres, &c., i gael eu diogelu i wasanaeth yr Arglwydd, fel nad oedd dim i gael ei ystyried yn ysbail i'r milwyr yn nghymmeriad y ddinas. Gwnaed hyn yn eithaf dealladwy cyn dechreu y rhyfel, a chadwyd at hyn gan bawb ond gan Achan, mab Carmi. Trachwantodd ef mewn "mantell Fabilonig," sef mantell gostfawr o Sinar; a "dau can sicl o arian"—gwerth tua deg punt ar ugain; "ac un llafn aur, o ddeg sicl a deugain ei bwys," yr hyn oedd yn werth tua chant a thair punt ar ddeg. Y pethau hyn a gymmerodd, ac a'u diogelodd o dan lawr ei babell, gan feddwl na buasai yr amryfusedd yn dyfod i'r amlwg; a thrwy hyn, meddyliodd am gyfoethogi ei hun ar draul tori gorchymyn yr Arglwydd. Yn fuan ar ol hyn, gwnaed ymosodiad ar Ai, yr hyn a drodd allan yn aflwyddiannus i Israel, a theimlodd Iosuah mai yr achos o hyn oedd pechod yn mhlith y bobl: ymddarostyngodd ger bron ei Dduw; gofynodd am eglurhad; atebwyd ef gan yr Arglwydd, fod Israel wedi pechu trwy gymmeryd o'r diofrydbeth; rhoddodd hefyd gyfarwyddyd iddo pa fodd i gael allan y troseddwr, yn gystal a'r gosp a weinyddai arno. Tranoeth, yn ol y cyfarwyddyd, cynnullwyd yr holl bobl, a chymmerwyd y cynllun o chwilio am yr euog drwy goelbren; a chafwyd, yn gyntaf, fod llwyth Iudah yn euog; yna daliwyd teulu y Zarhiaid; yn nesaf, daliwyd Zabdi; ac yn ddiweddaf oll cafwyd mai Achan oedd y gŵr ag oedd wedi troseddu. Cyfaddefodd Achan y weithred; a dywedodd pa le yr oedd y pethau lladratedig; a chafwyd hwynt wedi eu claddu o dan lawr ei babell, fel y dywedasai. Yna Iosuah a gymmerth y troseddwr, a'r pethau a gymmerodd, yn nghyd â'r oll a berthynai iddo, yn cynnwys ei blant, ei anifeiliaid, a'i babell, i Ddyffryn Achor; ac yno, holl Israel a labyddiasant Achan, a llosgwyd ei weddillion â thân ger bron yr holl bobl; ac ar eu llwch, codwyd carnedd fawr o geryg, fel cofgolofn i'r oesoedd dyfodol o amryfusedd Achan yn troseddu gorchymyn pendant Iehofah. Saif Achan yn golofn er dangos i oesoedd y byd y mawr berygl o droseddu gorchymynion Duw, yn nghyd â'r sicrwydd y derbyn pob trosedd ei gosp ddyladwy; *Ios.* vi. 17, 19; a vii; 1 *Cron.* xi. 7.

1. ACHAS, [אָחָז, *meddiannydd*; *Gr.* 'Αχας]. AHAZ yw y gair a arferir yn y Beibl Cymraeg. Mab Iotham, a'r unfed ar ddeg o freninoedd Iudah. Ymddengys cryn anhawsder wrth gymharu blynyddoedd ei oedran ef âg eiddo ei fab Hezeciah. Dywedir (2 *Bren.* xvi. 2) fod Ahaz yn ugain mlwydd pan ddechreuodd deyrnasu, ac mai un ar bymtheg o flynyddoedd y teyrnasodd. Dywedir hefyd fod Hezeciah yn fab pum mlwydd ar ugain pan ddechreuodd deyrnasu: 2 *Bren.* xviii. 2. Ymddengys hefyd y dechreuodd Hesecciah deyrnasu cyn marwolaeth ei dad. Cymharer 2 *Bren.* xvii. 1, âg xviii. 1. Felly, yn ol yr amseriad hwn, ni allasai Ahaz fod uwch law deng mlwydd pan anwyd Hezeciah—yr hyn sydd dra annhebyg. Barna rhai fod hyn yn ffaith, ac y dygwyddodd amgylchiad cyffelyb rai troion. Y dull y mae ereill yn esbonio y dyryswch yw, trwy ddyweyd y goddef yr adnod yn nghylch oedran Hezeciah ei chyfieithu yn wahanol. Yn lle "mab pum mlwydd ar ugain," dylid darllen "mab y bummed flwyddyn ar ugain;" gan olygu, nid blynyddoedd ei oedran, ond nifer y blynyddoedd er pan y cymmerodd rhyw amgylchiad pwysig gwladwriaethol le; a bernir mai adgyweiriad y deml gan Iotham ydyw yr hyn y cyfeirir yma ato. Cawn esampl o ddyryswch cyffelyb yn hanes Ahaziah, brenin Iudah. Ahaz oedd un o'r breninoedd mwyaf drygionus a eisteddodd ar orsedd Iudah. Mor gynted ag yr esgynodd i'r orsedd, efe a ddiystyrodd esamplau ei dad, ac awdurdod a rhybuddion y prophwyd Esaiah, ac a lygrodd addoliad Iehofah, gan ynfydu ar ol duwiau dyeithr, er pob amlygiad o ffafrau a barnau Duw tuag ato. Dygodd i mewn eilunod y Canaaneaid, a dilynodd freninoedd Israel mewn rhyfyg annuwiol. Tynodd ei fab trwy y tân i'r eilun-dduw Moloch; ac i gyflawnu mesur ei anwiredd, halogodd deml Dduw, a dirmygodd ffurfiau a llestri ei wasanaeth; symmudodd yr allor bres o'r cyssegr, gan osod yn ei lle allor wedi ei ffurfio yn ol cynllun allor freninol Assyria; a chan faint ei orawydd i foddhau Tiglath-pileser, efe a drefnodd ystafelloedd y deml yn ol mympwy y penadur hwnw. Ymddengys llygredigaeth ei galon yn ddirfawr, pan ystyriom fod ei sel dros ei eilunaddoliaeth yn cynnyddu yn gyfatebol i'r gwg a ddangosai rhagluniaeth ddwyfol i'w erbyn. Pan oedd gyfyng arno, y chwanegodd droseddu yn erbyn yr Arglwydd: 2 *Cron.* xxviii. 22. Pan ymosodwyd arno gan Pecah, brenin Israel, a Resin, brenin Syria, wedi i'r Edomiaid gilio oddi wrtho, a phan oedd y Philistiaid yn gwneyd ymgyrchiadau i dir Iudah, er bod yr Arglwydd wedi addaw ei waredu, eto efe a alwodd am frenin Assyria i'w gynnorthwyo, gan anfon iddo arian ac aur a gymmerasai o drysorau tŷ y brenin, a thrysorau tŷ yr Arglwydd. Daeth dan deyrnged i frenin Assyria, ar yr ammod iddo ei waredu o law breninoedd Israel a Syria; yr hyn a roddes achlysur i Tiglath-pileser i gyfyngu arno, trwy estyn ei diriogaethau mor bell a'r rhandiroedd tu hwnt i'r Iorddonen. Nis gellir dyweyd na fuasai hyn yn cymmeryd lle, oni buasai ffolineb Ahaz; o blegid yr oedd yr Assyriaid y pryd hyny yn parotoi i helaethu eu tiriogaethau yn y gorllewin i'r Euphrates. Yr oedd brenin Assyria yn gweithredu yn yr amgylchiad hwn yn fwy er ei les ei hun, nag er cynnorthwy i Ahaz. Arweiniodd ef i'r fath gyfyngder, fel nad allasai, gyda holl arian y



Digitized by Google

deml, a'r drysorfa freninol, ymryddhau oddi wrtho. Yr oedd ei ddeiliaid yn ei ffieiddio o herwydd ei deyrnasiad drygionus, o blegid rhoddasant iddo gladdedigaeth ddibarch. Ni chladdwyd ef yn meddrod y breninoedd: 2 *Bren.* xvi; 2 *Cron.* xxviii.

2. ACHAZ. Tad Iehoadah: 1 *Cron.* viii. 36.

1. ACHBOR, [עכבור] Tad Baalhanan, brenin Edom: *Gen.* xxxvi. 38.

2. ACHBOR: swyddog yn llywodraeth Iosïah, yr hwn a anfonodd y brenin i ymgynghori â Huldah y brophwydes yn nghylch llyfr y gyfraith: 2 *Bren.* xxii. 14.

3. ACHBOR: tad Elnathan: *Ier.* xxvi. 22.

ACHIACHARUS. Gwel ACHIOR.

ACHIM, ['Αχειμ, *darparaf*, neu *cadarnhaf*]. Mab Sadoc, a thad Eliud, o lwyth Iudah, a theulu Dafydd. Yr oedd yn llinach ein Harglwydd: *Mat.* i. 14.

ACHIMELECH, [אחימלך, *brawd*, neu *gyfaill y brenin*; *Gr.* 'Αχιμελεχ]. AHIMELECH yw y gair a arferir yn y Beibl Cymraeg. Mab Ahitub, a brawd Ahïah, a'i olynydd yn yr archoffeiriadaeth. Barna rhai, oddi wrth y ffaith fod Ahïah ac Ahimelech yn archoffeiriaid dan yr un teyrnasiad, mai dau enw ydynt ar yr un person; ond y mae y seiliau cryfaf dros farnu eu bod yn bersonau gwahanol. Pe buasai teyrnasiad Saul ond dros dymmor byr, buasai y dyb yn ymddangos yn fwy rhesymol. Sefydlodd Ahimelech y tabernacl yn Nob, un o ddinasoedd yr offeiriaid, yr hon oedd yn nghylch chwech o filltiroedd o Ierusalem. Ar ei ffoedigaeth oddi wrth Saul, daeth Dafydd yno; a chan gymmeryd arno ei fod ar neges bwysig oddi wrth y brenin, a ddeisyfodd ran o'r bara cyssegredig gan yr archoffeiriad, gan nad oedd ganddo fara cyffredin. Cafodd ganddo hefyd gleddyf Goliath, yr hwn a gedwid yn y babell, yn oblygedig mewn brethyn, fel arwydd buddugoliaeth. Adroddwyd hyn wrth Saul gan Doeg, Edomiad oedd yn ei wasanaeth, yr hwn a arosai ar y pryd yn Nob. Adroddodd yr amgylchiadau yn y fath fodd ag i gynhyrfu eiddigedd y brenin yn erbyn Dafydd, ac ennyn ei ddigofaint at Ahimelech. Barnai hyn yn wrthryfel yn ei erbyn ef, ac yn gefnogiad i Dafydd. Anfonodd Saul am dano ef a'r offeiriaid a drigent yn Nob, ac a'u cyhuddodd o fradwriaeth; yr hyn a wrthwynebent trwy ddadleu eu hanwybodaeth o fwriadau gelynol yn Dafydd tuag at Saul a'i orsedd. Ond er ymddiheurad Ahimelech, rhoddodd y brenin orchymyn i'w swyddogion i ladd yr holl offeiriaid. Gwrthodasant gyflawnu ei orchymyn; ofnasant gyffwrdd âg eneiniog yr Arglwydd; a gallesid dysgwyl y buasai y gommeddiad hwn o eiddo y rhedegwyr yn dwyn Saul ei hun i ymresymu yn ei feddwl ar y mater, a'i ystyried yn fwy trwyadl; ond nid felly y bu, o blegid rhoddes y gorchymyn eilwaith i Doeg, yr hwn a drodd ac a ruthrodd ar yr offeiriaid, ac a laddodd y diwrnod hwnw bump a phedwar ugain o wŷr "yn dwyn ephod lïan." Tarawodd yr Edomiad maleisus hwn, heb law yr offeiriaid, bob peth byw yn Nob. Yr unig berson o'r offeiriaid a ddiangodd oedd Abïathar, mab Ahimelech, yr hwn a ffodd am nodded at Dafydd, ac a ddaeth wedi hyny yn archoffeiriad. Darfu i'r anghyfiawnder, a'r creulondeb, a'r annuwioldeb, a amlygodd Saul yn yr amgylchiad hwn, ddyeithro meddwl y genedl oddi wrtho yn fwy na'i holl weithredoedd blaenorol; ac mewn canlyniad, darparwyd y genedl i dderbyn y ffafr dymmorol fwyaf a allasai ddymuno—brenin wrth fodd calon Duw: 1 *Sam.* xxii. Gwel DAFYDD; ABIATHAR

1. ACHIOR, neu ACHIACHARUS, [Αχιωρ, *brawd y goleuni*]: cyfaill a pherthynas i Tobit, yr hwn a ddygwyd i Ninefeh gan Salmaneser: *Tobit* i. 21.

2. ACHIOR: cadflaenor yr Ammoniaid, yr hwn a ymunodd â Holophernes, tywysog lluoedd Nebuchodonozor, yn ei ymgyrchiadau i'r gwledydd gorllewinol o Ninefeh. Gwel LLYFR IUDITH.

ACHIRAM, [אחירם, *dyrchafiad fy mrawd*]: o lwyth Beniamin; penaeth tylwyth yr Achiramiaid; yr un, efallai, ag Ehi, yn *Gen.* xlvi. 21. Enw penaeth llwyth Naphtali yn yr ymadawiad o'r Aipht oedd Ahira, mab Enan: *Num.* i. 15.

ACHIS, [אכיש; *Gr.* 'Αγχοῦς, 'Αρχις, 'Αχις]: mae ystyr yr enw yn ansicr. Gelwir ef *Abimelech* yn nheitl *Salm* xxxiv. Brenin Gath. Ymddengys ei fod yn feddiannol ar y rhinweddau o uniondeb a haelfrydedd. Ffodd Dafydd ato ddwywaith am nodded: 1 *Sam.* xxi. 10—15; xxvii. 1—3. Y waith gyntaf, yr oedd Dafydd mewn perygl mawr, o blegid adwaenwyd ef gan weision Achis fel yr hwn "a laddodd ei fyrddiwn," ac a ennillodd ei ogoniant milwraidd ar draul y Philistiaid. Wedi deall eu hymddyddan, efe a ofnodd yn ddirfawr rhag brenin Gath, ac a newidiodd ei wedd, ac a gymmerth arno ynfydu, gan gripio drysau y porth, a gollwng ei boeryn i lawr ar ei farf. Pan welodd Achis hyn, efe a geryddodd ei weision, gan ddywedyd, "Wele, gwelwch y gŵr yn gwallgofi, pa ham y dygasoch ef ataf fi? Ai eisieu ynfydion sydd arnaf fi, pan ddygasoch hwn i ynfydu o'm blaen i? a gaiff hwn ddyfod i'm tŷ i?" Wedi hyn, Dafydd a frysiodd o Gath. Mae Winer [*Kitto's Cyclopædia*] yn crybwyll am ddynion urddasol ereill a gymmerasant arnynt ynfydu mewn amgylchiadau peryglus, fel Dafydd; megys Ulysses. Ymddangosai yn fanteisiol i Ulysses, fel y mae y prudd-feirdd yn adrodd—o blegid yn Homer, yr awdwr goreu, nid oes un awgrym am hyny; ond y maent hwy yn ei ffugio yn eu prudd-chwareuon—ddarfod iddo ddianc rhag myned i'r fyddin (i Troia) trwy gymmeryd arno fod yn wallgof; ond medd Cicero, "er bod y ddyfais hon yn fanteisiol, eto nid oedd yn anrhydeddus." [*Cicero de Offic.*, llyfr iii. pen. 26.] Crybwyllir am ereill a arferasant yr un ddyfais, megys y seronydd Meton, L. Junius Brutus, a Bacha, brenin Arabia. Barna rhai mai syrthio i lesmair a wnaeth Dafydd y pryd hyn, a bod rhai ymadroddion o eiddo y Deg a Thrigain yn ffafrio y golygiad, neu o leiaf yn arwyddo mai felly y deallent hwy yr hanes. O ddeutu pedair blynedd wedi hyn, pan oedd Dafydd yn fwy adnabyddus, ac yn blaenori chwe chant o filwyr, daeth eilwaith i Gath, a deisyfodd gael aros yno, neu yn un o drefi y Philistiaid. Cafodd ef, a'i wŷr, a'u teuluoedd, dderbyniad croesawus gan Achis. Rhoddodd Siclag i Dafydd, gan feddwl y byddai mwyach yn ffyddlawn yn ei wasanaeth ef. O ddeutu dwy flynedd wedi hyn, aeth y Philistiaid i ryfel yn erbyn Israel, pryd y cynnygiwyd i Dafydd swydd uchel yn y fyddin; ond gan nad oedd hyny yn boddhau y Philistiaid, gollyngodd y brenin ef a'i wŷr ymaith. Daeth o Siclag i Hebron, yn Iudah. Wedi hyn, nid

Digitized by Google

ydym yn cael un crybwylliad am Achis. Yn ei holl drafodaeth â Dafydd, dangosodd yr uniondeb, y boneddigeiddrwydd, a'r tiriondeb mwyaf. Nis gallwn lai na theimlo parch mawr ato, er mai Philistiad dienwaededig oedd.

ACHISAMACH: o lwyth Dan; tad Aholïab; un o wneuthurwyr y tabernacl: *Exod.* xxxi. 6.

ACHLYSUR, [Llad. *occasio;* Seis. *occasion;* Gr. ἀφορμη]: ei ystyr gwreiddiol ydyw unrhyw beth angenrheidiol i gyflawnu peth arall, megys moddion, defnydd, cyfleusdra, amgylchiadau manteisiol i gyflawnu peth; achos damweiniol, diwrnod; dygwyddiad: *Rhuf.* vii. 8, 11; 2 *Cor.* v. 12; xi. 12; *Gal.* v. 13; 1 *Tim.* v. 14. Mewn athroniaeth naturiol, mae *achlysur* yn cael ei ddefnyddio yn fynych, yn debyg i *achos.* Mae pob peth sydd yn flaenorol i'r effaith, ac mewn cyssylltiad âg ef, megys offeryn, rheswm, cymhelliad, a dyben, yn cael eu galw yn achosion. Yn yr ystyr yma, y mae chwaneg nag un achos i bob effaith; ac y mae achlysur yn un o honynt. Mewn moesddysg, y mae gwahaniaeth pwysig rhwng achos ac achlysur. Nid oes dim yn achos ond ewyllys, neu berson yn bwriadu ac yn ewyllysio: ond pa beth bynag a ddefnyddia y cyfryw i gyflawnu da neu ddrwg, y mae hwnw yn achlysur. Ni phriodolir rhinwedd na bai i achlysur. Nid oes dim yn dangos drwg pechod yn fwy na'i fod yn cymmeryd y ddeddf yn achlysur i weithio pob trachwant; ac nid oes dim yn amlygiad cryfach o ddaioni a doethineb Duw na'i fod yn cymmeryd achlysur oddi wrth bechod i weithio allan yr hapusrwydd a'r gogoniant mwyaf. "Eithr pechod, wedi cymmeryd achlysur trwy y gorchymyn, a weithiodd ynof fi bob trachwant:" *Rhuf.* vii. 8. Y ddeddf sydd yn dwyn y pechod sydd yn natur dyn i'r amlwg; hyny yw, i oleuni ei gydwybod. Natur y ddeddf ydyw fod pechod yn ymgodi ac yn gwrthryfela yn ei herbyn, ac felly yn dangos ei natur ei hun fel anghyfraith. Heb oleuni y ddeddf, yr oedd pechod yn *farw;* hyny yw, heb ei adnabod. Ond yn mhresennoldeb y ddeddf, y mae pechod yn deffro ac yn cryfhau; y mae yr *ewyllys* yn ymgodi yn erbyn ei hawdurdod, ac y mae y *chwant am wybodaeth* yn ymlosgi gan awydd i brofi y peth gwaharddedig. Mae Duw yn cyfarfod natur dyn â'i ddeddf, yr hon sydd sanctaidd, cyfiawn, a da. Yn lle cael ei chymmeradwyo a'i charu, y mae hi yn cyffroi y gwrthwynebiad cryfaf, ac yn deffro chwant am yr hyn y mae yn ei wahardd. *Achlysur* yn unig ydyw y ddeddf—yr *achos effeithiol* ydyw pechadurusrwydd dyn.

ACHMETHA, [אחמתא]: *Ezra* vi. 2. ECBATANA: 2 *Mac.* ix. 13; *Iud.* i. 1, 2; *Tobit* iii. 7; *Hyn. Jos.*, x. 11, 7; a ix. 4, 6: dinas yn Media. Mae tarddiad yr enw yn ammheus; ond y mae Rawlinson wedi profi, bron tu hwnt i ammheuaeth, fod yr enw yn cael ei roddi yn unig ar ddinasoedd, yn y rhai y byddai amddiffynfeydd er diogelu y trysorau breninol. Fe'n hysbysir yn Ezra, fod yr Iuddewon, yn nheyrnasiad Darius Hystaspes, wedi atolygu ar i ymchwiliad gael ei wneyd yn nhrysordy y brenin yn Babilon, am y cyhoeddiad a wnaethai Cyrus yn flaf yr Iuddewon: *Ezra* v. 17. Felly y gwnaed ymchwiliad yn nhŷ y llyfrau, lle y cedwid y trysorau yn Babilon; ond nis cafwyd ef yno: eithr ymddengys ddarfod ei gael wedi hyny yn Achmetha, yn y llys yn nhalaeth Media: *Ezra* vi. 1, 2. Golygai y Deg a Thrigain, a Josephus, mai yr un oedd Achmetha ag Ecbatana, enw cyffredinol ar ddinas.

Yn *Iudith* i. 2—4, fe'n hysbysir fod Ecbatana wedi ei hadeiladu gan Arphacsad, brenin y Mediaid, yr hwn a'i gwnaeth ei brifddinas. Fe'i hadeiladwyd â cheryg nadd, ac fe'i hamgylchynwyd â chaer uchel a thrwchus, ar yr hon yr oedd pyrth llydain, a thyrau dyrchafedig a chedyrn. Herodotus a briodola ei seiliad i Dejoces; mewn ufudddod i orchymyn yr hwn yr adeiladodd y Mediaid "y ddinas fawr a chadarn," a adwaenir yn awr wrth yr enw Agbatana, lle y mae y muriau wedi eu hadeiladu gaer o fewn caer, a hyny yn y fath fodd, fel y mae pob cylch mewnol yn uwch na'r cylch allanol nesaf iddo, o uchder y murganllawiau yn unig. Achlysurid hyn mewn rhan gan ansawdd y tir, yr hwn oedd fryn pigyrnol, ac mewn rhan gan yr adeilad ei hunan. Yr oedd nifer y cylchoedd yn saith; ac o fewn y fwyaf tu fewnol yr oedd y trysorlys. Yr oedd canllawiau y cylch cyntaf, yn wyn; yr ail, yn ddu; y trydydd, yn goch; y pedwerydd, yn las; y pummed, yn felyn: ac yr oedd y rhai hyn oll wedi eu lliwio yn glaerwych âg amryfal eiliwiau: ond yr oedd canllawiau y chweched cylch wedi eu gwisgo âg arian; a'r seithfed âg aur. Y cyfryw ydoedd y llys a'r amddiffynfeydd a adeiladodd Dejoces iddo ei hun: ond efe a archodd i gorff cenedl y Mediaid adeiladu eu tai yn gylch oddi amgylch i'r mur allanol."—[*Herodot.*, i. 98.] Y mae yr uchgadben Rawlinson yn dadleu nad yw y chwedl am y saith gaer liwiedig namyn un o'r ffugchwedlau Sabeaidd.—[*Geogr. Journal*, x. 127, 128.] Y farn gyffredin yw, mai yr un a Hamadan yr oes bresennol oedd Ecbatana. Y mae Hamadan yn dref fawr, ac yn orsaf lywodraethol un o daleithiau Persia; mae yn gorwedd yn lledred gogleddol 34° 53′, hydred dwyreiniol, 40,° ar gŵr eithaf dyffryn bras, wrth odre y mynyddoedd Elwund, copäau uchaf pa rai sydd yn orchuddiedig gan ia oesol. Mae gweddillion hen furiau adfeiliedig o drwch dirfawr, ac o hen dyrau priddfeini, yn y gymmydogaeth, yn brofion digonol fod dinas henach na'r un bresennol wedi bod yn gorwedd ar yr un llanerch; ac heb law hyny, y mae yma bentyrau o adfeilion diweddarach, yn tystio nad yw Hamadan yn gymmaint ag oedd hi ychydig o oesoedd yn ol. Cyfrifid ei phoblogaeth gan Southgate, tua 30,000; ond y mae teithwyr diweddarach yn haeru nad ydynt gynnifer. Mae llawer o Iuddewon yn preswylio ynddi; y rhai a ddywedant eu bod yn hiliogaeth y rhai hyny o feibion y gaethglud a arosasant yn Media. Dywedai Benjamin o Tudela, eu bod yn 50,000 yn ei amser ef; ac y mae rhai teithwyr lled ddiweddar yn cyfrif eu tai yn 500; ond ni chyfrifai Rabbi David de Beth Hillel, yr hwn sydd gystal awdurdod ar hyn ag a ellir ei gael, mo honynt uwch law dau gant o deuluoedd. Ac efe a ddywed am danynt eu bod yn y cyffredin mewn sefyllfa gysurus, yn meddu tai da, a gerddi teg; a'u bod gan mwyaf yn fasnachwyr a gofaint aur; ac y mae ganddynt ddwy synagog yn y dref. Mae beddrod yn nghanol y ddinas, ac yn nghadwraeth yr Iuddewon, yr hwn a alwant yn feddrod Mordecai ac Esther. Gan fod Ecbatana y pryd hyny yn drigias hafaidd y llys Persiaidd, nid yw yn anghredadwy i Mordecai ac Esther farw, a chael eu claddu yno: ac y mae y dystiolaeth draddodiadol, wrth ei chymmeryd mewn cyssylltiad â'r ffaith uchod, ac â bod y cyfryw gofadail mewn dinas lle y bu yr Iuddewon yn

Digitized by Google

drigiannol yn wastadol, yn well sail nag a geir
yn fynych, am gyflead amryw hen feddrodau.
Crybwylla hanesyddiaeth am Ecbatana arall,
yn Palestina, wrth droed mynydd Carmel, tua
Ptolemais, lle y bu Cambyses farw. [*Herodot.*
iii. 64; *Pliny* v. 19.] Ond ni chrybwyllir mo
honi dan yr enw yma, nac unrhyw enw cyffelyb,
yn yr ysgrifeniadau Hebraeg.

ACHOR, [עכור, *gofid*, neu *drallod*], ydoedd enw
dyffryn, nid pell o Iericho, yn agos i'r Iorddonen,
yn llwyth Beniamin, ac wedi ei hynodi ar faes yr
hanes dwyfol fel lle dinystr Achan a'i deulu, a'r
hyn oll a feddai, am ei drachwant yn cymmeryd
y fantell Fabilonig deg, dau can sicl o arian, ac
un llafn aur, o ysbail Iericho, y rhai, yn ol gor-
chymyn Duw, oeddynt i fod yn ddiofryd bethau:
*Ios.* vi. 17—19; vii. 1. Gwel ACHAN; AI.

ACHOS, [Llad. *causa*; Seis. *cause*; Gr. *αιτια*].
1. Achos effeithiol, cymhelliad, rheswm, sail:
*Mat.* xix. 3; *Luc* viii. 49; *Act.* xxii. 24; xxviii.
20; 2 *Tim.* i. 6—12; *Tit.* i. 13; *Heb.* ii. 11.
2. Mater, helynt, gorchwyl, amgylchiad, pwnc:
*Act.* x. 21; xxiii. 28; *Mat.* xix. 10.
3. Mewn ystyr cyfreithiol (*a*), hawl, cynghaws:
*Exod.* xviii. 16; a xxii. 9. (*b*) Cyhuddiad, ach-
wyniad: *Act.* xxv. 18—27; *Mat.* xxvii. 37;
*Marc* xv. 26. Yn yr ystyr yma, cyfieithir y
gair weithiau, *achwyn*, *achwynion*. (*c*) Trosedd,
bai, euogrwydd: *Ioan* xviii. 38; xix. 4—6; *Act.*
iv. 6; xiii. 28; xxviii. 18.
Mewn athroniaeth (1), unrhyw beth sydd yn
rhagflaenu yr effaith, ac yn angenrheidiol i'w gyn-
nyrchiad [Gwel ACHLYSUR]; gelwir y rhai hyn
yn achosion anianyddol, neu ail achosion. (2.) Yr
hwn sydd â gallu ac ewyllys i beri i beth fod;
gelwir hwnw yn achos effeithiol, achos cyntaf,
neu achos arddansoddol.
Mae yr holl ymresymiadau mewn duwinydd-
iaeth naturiol yn dechreu gyda'r geiriau, *achos*,
*achos cyntaf*, *prif achos*, ac *achos terfynol*. Ed-
rychir ar Dduw yn yr ymchwiliadau hyn fel achos
cyntaf a gwreiddiol yr holl greadigaeth. Un o'r
gofyniadau cyntaf a ofynir ar y mater yma
ydyw, Pa fodd y mae dyn yn dyfod i feddu y
syniad yma am ei Greawdwr? Ai effaith ym-
resymiad a sylwadaeth ar y greadigaeth o'i am-
gylch, ac ar weithrediadau ei feddwl ei hun, ai
ynte rhan hanfodol o gyfansoddiad ei feddwl
ydyw? Mae y gofyniad yr un, mewn geiriau
ereill, a phe gofynid, A ydyw gwybodaeth dyn
am Dduw yn uniongyrchol ai yn anuniongyrchol?
a oes rhyw ddarpariaeth yn ei feddwl, yn chwan-
egol at y galluoedd sydd ganddo, i sylwi ac i
ymresymu ar y pethau a welir, mewn ffurf o
deimlad, neu reddf, neu ddarwelediad, sydd yn ei
ddwyn megys wyneb yn wyneb â'i Greawdwr, yn
ei gyfansoddiad ei hun; ai ynte a ydyw y gred-
iniaeth o hyn yn orphwysedig ar rym yr ymres-
ymiadau a all efe ei hun godi ar ddeddfau a chyf-
addasiad rhanau y greadigaeth i'w gilydd? Yr
olwg gyffredin ar hyn ydyw, mai peth i'w brofi
trwy ymresymiad ydyw. Ond yn ol y syniad
hwn, y mae sylfeini yr ymresymiad yn gynnwyn-
ol yn y meddwl—yn rhan o gyfansoddiad dyn—
nad oes eisieu ei ddysgu, ac nas gellir ymwrthod
âg ef. Maent yn gynnwysedig yn y ddau osod-
iad yma;—nas gall dim ddechreu bod heb achos,
—nas gall gwahanol foddion gydweithredu i'r un
dyben, heb fod cyfaddasiad deallus a bwriadol
ynddynt i'r dyben hwnw. Pa un bynag o'r ddau
osodiad hyn a gymmerir, nid oes ond un cam
yn yr ymresymiad, ac y mae hwnw yn un nas
gall y meddwl lai na'i gymmeryd. Mae dechreu-
ad i'w weled i lawer o bethau; o ganlyniad, yn
ol y gosodiad cyntaf, y mae achos iddynt. Mae
llawer o anghreifftiau o gydweithrediad i'r un
dyben yn y greadigaeth; o ganlyniad, yn ol yr
ail osodiad, y mae cynlluniwr wedi cyfaddasu y
moddion i'r dyben. Mae pawb yn teimlo grym
yr ymresymiad hwn, er fod rhai yn dewis dyweyd
fod y syniad am Dduw yn naturiol yn y meddwl,
ac nid yn cael ei gasglu oddi wrth ei weithred-
oedd; ond er ei fod yno, yno yn y tywyllwch
y mae, heb ei ddwyn i oleuni nes ei ddeffroi
gan weithredoedd Duw. Y mae y ddau olygiad
yma yn cytuno yn hyn—fod rhyw deimlad neu
grediniaeth yn y meddwl sydd yn naturiol yn
tywys dyn i'r syniad am Dduw mewn amgylch-
iadau priodol, ac mai yr amgylchiadau priodol
ydyw amlygiadau o Dduw yn ei waith. Nid
ydyw y gwahaniaeth sydd rhyngddynt ond
ychydig, ac nid yw o ddim pwys ymarferol. Ac
i un o'r ddau olygiad yma y mae ein hysgrifen-
wyr galluocaf a goreu yn dyfod â'r gofyniad.
Ond y mae athroniaeth uchaf Kant, Steward, a
Whewell, ar hyn, i'w chael mewn ychydig eiriau
yn ysgrifeniadau Paul, "O herwydd yr hyn a
ellir ei wybod am Dduw sydd eglur ynddynt
hwy; canys Duw a'i heglurodd iddynt." Dyna
ddadguddiad o Dduw yn y meddwl, naill ai mewn
sylfeini ymresymiad sydd yn arwain ato trwy
un casgliad, a hwnw yn anocheladwy, neu ynte
mewn syniad am Dduw yn y meddwl sydd yn
barod i gael ei alw i oleuni ymwybyddiaeth;
"Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y
byd, wrth eu *hystyried* yn y pethau a wnaed, a
welir yn amlwg, sef ei dragwyddol allu ef a'i
Dduwdod." Dyna amlygiadau o Dduw yn ei
weithredoedd yn angenrheidiol i'w hystyried
mewn trefn i weled ei dragwyddol allu ef a'i
Dduwdod. Nis gallwn lai na sylwi mor rhyfedd
y mae geiriau yr ysgrifeniadau sanctaidd yn cyd-
gordio â chasgliadau mwyaf gofalus a diogel
athroniaeth feddyliol a defnyddiol.
Yn gytunol â dysgeidiaeth yr apostol, ac â
chasgliadau yr athronwyr, ni a osodwn y mater
fel hyn:—Mae yn meddwl dyn yn wreiddiol ac
yn naturiol, ryw syniadau neu gynneddfau, yn
ngoleu pa rai y mae dan fath o angenrheidrwydd
meddyliol i edrych ar bob peth sydd yn dyfod
o dan ei sylw; ac y mae y syniadau neu y
cynneddfau hyn, pan ddygir hwynt at weithred-
oedd Duw, yn arwain dyn yn mhellach na'r
gweithredoedd, yn mhellach na'r pethau a welir—
yn ei arwain at Dduw ei hun. Un o'r syniadau
hyn ydyw y syniad am *achos*. Pa fodd y mae
hyn yn arwain dyn at Dduw, fel yr achos cyntaf?
Ni amcenir profi fod gan ddyn y syniad yma—
cymmerir hyn yn ganiataol. Os gofynir pa ham?
yr ateb yw, am nas gall lai na'i gredu—mae dan
angenrheidrwydd ei natur i'w dderbyn fel y gwir-
ionedd—nis gall ei wadu heb wadu ei hun. Wrth
olrhain dygwyddiad i ddygwyddiad, ac effaith at
achos, nid oes gorphwysfa i'r meddwl ond mewn
credu fod achos cyntaf a thragwyddol i'r cwbl.
Os gofynir pa ham na allasai y byd fod erioed,
fel y gwelir ef yn awr? I hyn gellir ateb, fel o'r
blaen, nas gall dyn orphwys mewn effeithiau ac
achosion dilynol a dibynol, heb achos annibynol
yn ddechreuad i'r cwbl, ac yn cynnal y cwbl.
Gallwn edrych ar y gyfres o achosion ac effeith-
iau sydd yn gwneyd i fyny y byd, neu gwrs
natur, fel un effaith—un cyfanwaith; ac i'r effaith
hwn rhaid fod achos, ac y mae yn rhaid i'r

Digitized by Google

achos hwn fod o flaen ac yn annibynol ar y dygwyddiadau neillduol sydd yn cymmeryd lle mewn amser. Wrth fyned yn ol trwy gyfnewidiadau a dygwyddiadau amser, mae y meddwl o'r diwedd yn gorphwys yn y grediniaeth fod UN sydd yn annibynol ar y cwbl, ac yn achos i'r cwbl.

Mae y modd y cawn ni y syniad am Dduw fel *prif achos* ychydig yn wahanol. Nid myned yn ol ar hyd cyfres o ddygwyddiadau amseryddol, nes gweled y ddolen gyntaf o'r gyfres mewn llaw hollalluog a thragwyddol; ond ymgodi oddi wrth achos is at un uwch, nes cyrhaedd y prif achos. Mae achosion yn y greadigaeth, y naill yn uwch na'r llall, a'r cwbl yn cynnyrchu eu heffeithiau priodol eu hunain. Nis gall achos is gynnyrchu yr effeithiau sydd yn briodol i achos uwch. Gallwn siarad am attyniad fel achos lluaws o effeithiau adnabyddus; ond y mae effeithiau ereill nas gall attyniad eu hachosi; megys, goleuni y ganwyll, gwres y tân, rhwd yr haiarn—rhaid cael achos arall i gyfnewidiadau fel y rhai hyn. Ni allwn eu crynoi i gyd dan yr enw achosion fferyllaidd. Ond y mae effeithiau uwch eto, ac mae yn rhaid cael achos uwch i'w cynnyrchu. Dywed gallofyddiaeth i ni pa fodd y mae ysgogiad y galon yn achosi cylchrediad y gwaed; ac fe ddywed fferylliaeth pa gyfnewidiadau y mae y gwaed yn myned trwyddynt yn yr ysgyfaint: ond nis gall y naill ddyweyd pa fodd y mae y galon yn ysgogi, na'r llall pa ham y mae y gwaed yn cyfnewid, na pha fodd y mae y fath gyfnewidiad yn ei barotoi i'w ddybenion. Yma, rhaid i ni esgyn at achos uwch, sef bywyd. Mae lluaws o effeithiau nad oes ond bywyd yn achos priodol iddynt. Ond y mae effeithiau uwch eto ag y mae dyn yn gydnabyddus â hwy yn ei feddwl ei hun, nas gall bywyd anianol roddi cyfrif am danynt—ei deimladau, ei ddychymyg, ei reswm, ei gydwybod, a'i ewyllys. Nid oes ond enaid ac ysbryd yn achos digonol a phriodol i'r rhai hyn. Ond nis gall aros gydag ef ei hun, mae holl weithrediadau ei enaid yn ei arwain allan o hono ei hun; mae ei ofnau a'i obeithion, ei reswm a'i ddychymyg, ei nerth a'i wendid, yn ei arwain at un uwch. Ni chaiff foddlonrwydd i'w feddwl nes cyrhaedd y *prif achos*. A chan ei fod yn Achos i bob achos is, mae yn rhaid ei fod yn meddu ynddo ei hun yr hyn sydd yn hanfodol iddynt hwy. O alluoedd difywyd y greadigaeth i fyny at weithrediadau uchel ysbryd anfarwol, mae y cwbl wedi ffrydio o hono ef. Mae ynddo ef nerth a bywyd, doethineb a chynghor; o herwydd trwy eu meddu yn dragwyddol ynddo ei hun y gall fod yn brif achos o honynt yn ei greaduriaid.

Mae y greadigaeth yn ymddangos, nid yn unig fel cyfres o achosion ac effeithiau, ond hefyd fel *moddion a dyben:* ac y mae hyn yn ein harwain at yr ymadrodd, *achos terfynol;* o herwydd nid oes dim i'w ddeall wrtho ond yn unig yr hyn sydd yn gynnwysedig yn y gair *dyben*, *bwriad*, neu *amcan*. Wrth ofyn, Pa beth yw achos terfynol y llygad? y meddwl yw, Pa beth yw dyben y llygad? Os dywedir, fel y mae Butler yn dyweyd, mai achos terfynol y pleser a geir mewn gwneuthur daioni, a'r boen sydd wedi ei chyssylltu â gwneuthur drygioni, ydyw ein hannill i wneuthur y naill ac i osgoi y llall—y meddwl yw, mai dyma oedd y dyben mewn golwg wrth wneuthur y fath drefniad. Dyma un eto o'r syniadau sydd yn rhan o gyfansoddiad meddwl dyn, sef *dyben;* ac yn ngoleu y syniad yma y mae yn darllen y cwbl a wel. Neu mewn geiriau ereill, nis gall lai na gofyn am *ddybenion* pethau. Fel y mae y syniad am achos yn naturiol i ddyn, ac nis gall lai nag "ystyried" gweithredoedd y greadigaeth yn ngoleu y syniad hwnw felly yr un modd y mae ystyried y cwbl yn ngoleu y meddylddrych neu y syniad am *ddyben* yn naturiol iddo: ac y mae hon eto yn ei arwain at Dduw fel y llall, ond ei arwain ato fel trefnwr neu gynlluniwr yn benaf, ac at y priodoliaethau sydd yn ymddangos yn ei gynlluniau, sef ei ddoethineb a'i ddaioni. Y mae y syniad yma yn arwain at ddoethineb Duw, fel y mae yr egwyddor arall yn arwain at ei allu.

Mewn rhai dosbarthiadau o wybodaeth naturiol, y mae yr ymofyniad am *ddyben* wedi arwain eu hamaethwyr at y darganfyddiadau pwysicaf. Arweiniwyd Harvey at gylchrediad y gwaed trwy ofyn, I ba ddyben y mae y cauadau sydd yn y gwythïenau yn agor un ffordd yn y rhai sydd yn trosglwyddo y gwaed tua'r galon, a ffordd arall yn y rhai sydd yn ei gario oddi wrth y galon? Yr un modd y perffeithiodd Dolland yr ysbeiadyr, trwy ymofyn am ddyben gwahanol ranau y llygad. Yn unol â'r un egwyddor, y mae Cuvier wedi olrhain llun cyrff anifeiliaid oddi wrth un dant, neu un asgwrn o'r troed; ac wedi crynoi corff o wybodaeth a dderbynir gan yr holl fyd celfyddydol, am faintioli, a lluniau, ansoddau, ac arferion creaduriaid na welwyd erioed gan lygad dyn, yn unig oddi wrth argraffiad eu hymlwybriad ar y graig cyn iddi ymgaledu.

Wrth ymofyn i ddybenion gweithredoedd Duw, gellir gwneyd hyny, yn gyntaf, er mwyn cael amlygiadau o briodoliaethau Duw, ac fel hyn y mae yr egwyddor yn sail duwinyddiaeth naturiol; ac yn ail, er mwyn eangu ein gwybodaeth am y gwrthddrychau y gwneir yr ymofyniad yn eu cylch; ac yn y wedd yma y mae yr egwyddor yn rheol arweiniol mewn gwybodaeth gelfyddydol. Nid ydyw yr ymofyniad *pa ham* yn arwyddo yr un peth yn ei gymhwysiad at holl weithredoedd Duw. Pan ofynir yr ymofyniad mewn athroniaeth naturiol, y meddwl yw, *trwy ba foddion?* ond mewn anianaeth, ei ystyr yw, *i ba ddyben?* Os gofynir, Pa ham y mae y gareg yn syrthio tua'r ddaiar, a mwg yn esgyn; pa ham y mae dwfr yn trymhau wrth oeri, nes y bydd ar fin rhewi, ond wedi hyny pob chwanegiad at ei oerfel yn ei ysgafnhau?—y meddwl yma yw, Pa egwyddorion mewn natur sydd yn achosi hyn? Ond pan ofynir, Pa ham y mae y gwaed yn rhedeg trwy y corff, a'r sudd yn esgyn i fyny y goeden—y meddwl yma ydyw, I ba ddyben? Mae y berthynas rhwng yr egwyddor dan sylw âg un dosbarth o weithredoedd y Creawdwr yn nes ac yn amlycach nag â dosbarth arall. Mewn anianaeth, gellir eu defnyddio yn y ddwy ffordd a nodwyd, fel rheol athronyddol a duwinyddol. Ond y tu allan i'r cylch hwn, fel rheol mewn duwinyddiaeth naturiol, yn benaf, y defnyddir hi. Hyn barodd i Bacon ddyweyd am dani, ei bod yn ddiffrwyth fel rheol mewn athroniaeth, y tu allan i'w therfynau priodol ei hun. Ond fel rheol sylfaenol mewn duwinyddiaeth naturiol, gellir ei chymmeryd fel lamp yn ein llaw i holl diriogaethau gweithredoedd Duw, a hi a'n galluoga i weled ei dragwyddol allu a'i Dduwdod ynddynt.

Yr un modd y gellir dangos fod gan ddyn syniadau ereill sydd yn rhan o ddodrefn creadigol ei feddwl, yn a thrwy ba rai y mae "yr hyn a ellir ei wybod am Dduw yn eglur iddynt hwy;" ond ar yr un pryd, mai trwy ddadguddiad allanol priodol

Digitized by Google

i'r syniadau hyn y maent yn dyfod i ymwybyddiaeth yr enaid. Fel hyn y mae dyn yn esgyn at dragwyddoldeb, a holl bresennoldeb Duw, trwy y syniadau sydd ganddo am barhad, neu amser, ac hefyd am eangder neu ofod. Mae dan angenrheidrwydd ei natur i'w priodoli i'r achos cyntaf o bob peth. Mae y syniad neu y teimlad am gyfiawnder, sydd yn naturiol i ddyn, yn cael ei ddadguddiad priodol, nid yn y greadigaeth, ond mewn rhagluniaeth; ac felly mae dyn yn myned o angenrheidrwydd i edrych ar Dduw fel llywydd moesol a barnwr. Ac er ein bod wedi crwydro allan o gylch yr hyn a fwriadwyd ei ddyweyd dan y gair *Achos*, gan fod y dull o ymresymu yr un, caniateir i ni ddyweyd eto fod y dadguddiad diweddaf a chyflawnaf o Dduw, yn ei Fab, wedi ei gyfaddasu, nid yn unig i euogrwydd a thrueni ei gyflwr, ond hefyd i gyfansoddiad meddyliol a moesol ei enaid; ac mai cyfaddasiad y dadguddiad allanol i'w ddeall, ei gydwybod, a'i ewyllys, ydynt y profion goreu mai yr un ydyw Awdwr ein hiachawdwriaeth ag Awdwr ein natur.

Pa olwg bynag a gymmerir ar natur y cyssylltiad sydd rhwng ail achosion a'u heffeithiau, addefir fod dibyniad y cwbl ar yr Achos Cyntaf yn amlwg, yn ol pob golygiad y gellir dyweyd dim yn rhesymol drosto: felly, daw hanes y gwahanol farnau hyny yn fwy priodol mewn dosbarth arall o'r gwaith hwn.

ACHSAH, [עַכְסָה, *addurn; Gr.* 'Αχσά]: merch Caleb, yr hon a addawsai ei thad yn wraig i'r hwn a ennillai Ciriath-sepher, yr hon a elwid Debir. Ennillwyd y gamp gan Othniel, mab Cenaz, brawd Caleb. Tra yr oeddynt yn arwain y briodferch mewn gorymdaith i dŷ ei gŵr, disgynodd oddi ar yr asyn, a gofynodd am faes âg ynddo ffynnonau dyfroedd, yn chwanegol at y rhodd arall a gawsai gan ei thad. "A Chaleb a roddodd iddi y ffynnonau uchaf a'r ffynnonau isaf," yn ol dymuniad ei chalon: *Ios.* xv. 16—19; *Barn.* i. 9—15. Ymddengys priodoldeb y dymuniad hwn, wrth ystyried mai rhandir fynyddig, anghymhwys fel porfa, yn hinsawdd wresog Palestina, oddi eithr fod digon o ddwfr yn agos, oedd "gwlad y deheu."

ACHSAPH, [אַכְשָׁף]: un o ddinasoedd breninol y Canaaneaid: *Ios.* xi. 1. Barnodd amryw am dani, mai yr un ydoedd ag Achzib, am fod y naill fel y llall yn cael eu cyfleu yn llwyth Aser: ond trwy fanwl ystyriaeth o *Ios.* xix. 25, 29, fe'n tueddir i farnu yn hytrach mai dau le gwahanol oeddynt. Mae llawer mwy o resymoldeb yn y dychymyg mai yr un oedd Achsaph ag Accho, neu Acra, gan na chyfarfyddwn âg enw Accho yn rhestr y dinasoedd a ddisgynasant i ran llwyth Aser, oddi eithr ei bod yn myned yno dan yr enw Achsaph, er ein bod yn meddu sicrwydd, oddi wrth *Barn.* i. 21, fod Accho yn gorwedd yn rhandir y llwyth hwnw.

ACHUB. Yr un gair—σωζω *(sozo)*—sydd am *achub, cadw,* ac *iachau,* yn y Testament Newydd. Weithiau, hefyd, rhoddir *gwaredu* yn gyfieithiad o hono; ond, y rhan fynychaf, ρυομαι *(ruomai)* ydyw y gair cyferbyniol i waredu. Defnyddiai y Groegiaid σωζω am gadw, amddiffyn, diogelu rhag peryglon, colledion, a dinystr. Dichon nad allesid cael un gair yn ein iaith ni i osod allan holl feddwl y gair Groeg, ac mai hyny a barodd i'r cyfieithwyr ddefnyddio amryw. Mae ystyr y gair *achub,* &c., yn y Testament Newydd, yn wahanol i'w ystyr yn un man arall. Dywed yr Archesgob Sumner nad yw y gair Seisoneg, *save,* i'w gael hyd yn oed yn yr Hen Destament, heb gyfeiriad at waredigaeth dymmorol, os nad yw *Ier.* xvii. 14 yn esampl. [*Sumner's Evidence.*] Ond yn y Testament Newydd, ei ystyr neillduol ydyw, arbed rhag digofaint dwyfol, gwaredu oddi wrth bechod, a chadw i fywyd tragwyddol: *Mat.* i. 21; *Rhuf.* v. 10; *Ioan* iii. 17; xii. 47; *Mat.* xviii. 11; *Rhuf.* xi. 14; 1 *Cor.* i. 21; 1 *Tim.* iv. 16; *Heb.* vii. 25; *Iago* i. 21.

"Priodolir achubiaeth neu gadwedigaeth pechadur i Dduw; 'Efe yw achubwr pob dyn, yn enwedig y ffyddloniaid;'—i ras; 'Trwy ras yr ydych yn gadwedig;'—i waed Crist; 'prynedigaeth trwy ei waed;'—i'w adgyfodiad; 'y'n achubir trwy ei fywyd;'—i'r Ysbryd Glân; 'achubodd ni trwy adnewyddiad yr Ysbryd Glân;'—i ffydd; 'trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd;'—i'r efengyl; 'geiriau, trwy y rhai y'th iacheir di, a'th holl dŷ;'—i broffes, ac i fedydd, mewn cyssylltiad â ffydd, 'y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig;'—ac i fedydd; 'sydd yn ein hachub ni, sef bedydd.'

"Mae yr holl dystiolaethau hyn i'w deall mewn cyssondeb â'u gilydd; a chyda'u gilydd, y maent yn dysgu fod Duw, o'i ras penarglwyddiaethol, yn achub dynion trwy gyfryngdod ei Fab, yr hwn a fu farw er gwneyd iawn, ac a adgyfododd, fel y byddai ganddo bob awdurdod yn y nefoedd a'r ddaiar i iachau pwy bynag sydd yn dyfod at y Tad trwyddo ef, sef pawb a ddygir trwy weithrediad yr Ysbryd Glân i gredu yr efengyl, a thrwy hyny, i gael cyfranogi o'i bendithion; a phwy bynag a ddygir i gredu, y maent hwy, fel effaith naturiol eu ffydd, ac mewn ufudd-dod i orchymyn Crist, yn gwneuthur proffes o'u ffydd: a bedydd ydyw dechreuad y broffes hono yn y rhai a ennillir mewn oedran oddi wrth grefyddau gau i wybodaeth a ffydd yr efengyl."—*(Dr. Brown,* ar *Pedr.)*

ACHUBYDD, ACHUBWR, [σωτηρ—*sotêr.*] Enw a roddid gan y Groegiaid ar eu duwiau, ar ol gwaredigaethau hynod; ac ar yr achlysur, adeiladent demlau, a chyssegrent allorau iddynt. Darostyngent y gair, weithiau, trwy ei roddi yn gyfenwad ar ddynion, er mwyn talu anrhydedd mawr iddynt. Gelwir Othniel ac Ehwd yn achubwyr; a chyfieitha y Deg a Thrigain ef *soter: Barn.* iii. 9, 15: a sylw Awstin ar yr adnodau ydyw, nad oes neb yn cael ei alw wrth yr enw hwn, ond y rhai y mae Duw yn achub trwyddynt. Er mwyn dangos allan brif waith neu swydd Crist, galwai yr ysgrifenwyr sanctaidd ef, "yr Achubwr," "yr Iachawdwr," "y Ceidwad." Mae y tri gair yn Gymraeg am *soter.* Yr oedd yr hynafiaid mewn petrusder am ei ystyr wreiddiol a chyflawn, a dywedodd Cicero nad oedd yn perthyn i'r iaith Lladin un gair digon cynnwysfawr am dano. "*Hoc* (σωτηρ) *quantum est? ita magnum ut Latine uno verbo exprimi non possit.*" *Salvator* fuasai y gair, ond nid oedd hwnw yn arferedig gan ysgrifenwyr da; yr oedd *servator* yn annigonol; fel y mae *preserver,* yn Seisoneg, yn llawer llai ei gynnwys na *saviour.* Yr oedd yr eglwys Ladinaidd mewn ammheuaeth pa gyfieithiad i'w ddefnyddio o air oedd mor hanfodol i Gristionogaeth. Defnyddiodd Tertullian "*Salvificator*" *(salus facio)*; Hilar, "*Salutoris;*" ond dewisodd Awstin "*Salvator;*" a dywedai, er nad ydoedd yn Lladin da cyn i Grist

Digitized by Google

ddyfod, ei fod ef wedi ei wneyd felly, o herwydd fel y mae cysgodau yn dilyn sylweddau, felly y mae geiriau i darddu o bethau.

Mae y cyfieithiad Seisoneg yn unfrydol yn rhoddi "*Saviour.*" Y gair mwyaf cyffredin yn Gymraeg ydyw Iachawdwr; defnyddir Achubwr a Cheidwad ddwywaith neu dair bob un. Mae y Dr. Morgan yn rhoddi Iachawdwr unwaith neu ddwy, lle y mae Achubwr, neu Geidwad, yn y cyfieithiad cyffredin. Defnyddir y gair am,

1. ***Dyn.*** Achubodd y barnwyr, Othniel, Ehwd, Gedeon, a Samson, feibion Israel rhag eu gelynion: *Neh.* ix. 27; *Barn.* iii. 9. Achubodd Boaz Naomi, trwy adferu ei chysuron: *Ruth* iv. 5. Achubodd Dafydd yr oen o safn y llew, a'r Israeliaid rhag y Philistiaid: 1 *Sam.* xvii. 35, 36. Ac achubodd Cyrus yr Iuddewon o'r caethiwed, trwy roddi rhyddid iddynt i adael Caldea, ac adferu iddynt eu gwlad a'u breintiau: 2 *Cron.* xxxvi. 22.

2. ***Angel.*** Achubodd angelion Duw Lot rhag y Sodomiaid, a Hezeciah rhag yr Assyriaid, a Daniel rhag y llewod, a'r apostolion o'u carcharau: *Gen.* xix. 10; 2 *Bren.* xix. 35; *Dan.* vi. 22; *Act.* v. 19; a xii. 7.

3. ***Duw.*** Achubodd yr Israeliaid o'u cyfyngderau: *Salm* cvi. 21. Efe yw yr unig achubydd; a rhoddodd i ni sicrwydd, trwy ei air a'i lw, yr achuba bawb a ymddiriedant ynddo: *Esa.* xlv. 21, 22; *Joel* ii. 32. Y mae ynddo allu anfeidrol i achub: *Esa.* xlix. 26; l. 2; a lix. 1. Y mae yn ymhyfrydu mewn achub: *Zeph.* iii. 17; ac y mae yn gyfiawn wrth achub: *Rhuf.* iii. 26.

4. ***Iesu.*** Rhagfynegwyd y byddai yn Achubydd: *Zech.* ix. 9. Edrychodd y saint arno, yn nyddiau ei gnawdoliaeth, fel y gwir Achubydd: *Luc* i. 69; a ii. 30, 38. Y mae ei aberth yn sylfaen ddigonol i arbed ac i adferu pob dyn; ac y mae yn sicr o weithredol achub yr holl gredinwyr: 1 *Tim.* iv. 10. A thrwy ei gariad, a'i ddaioni, a'i haeddiant ef, y ceir y moddion a'r dylanwadau achubol: *Tit.* iii. 4—6; 2 *Pedr* i. 1.—(*Pearson on the Creed; Trench on Words.*)

ACHWYN—ION, [*cwyn, cyhuddiad*]. Un gair Groeg a gyfieithir *achwyn* yn y Testament Newydd ydyw, *αἰτία*. Arwydda—1. *Achos, cymhelliad, rheswm.* "Ai cyfreithlawn i ŵr ysgar â'i wraig am bob achos?" Felly yn *Luc* viii. 47; *Act.* xxii. 24; xxviii. 20; 2 *Tim.* i. 6, 12; *Tit.* i. 13; *Heb.* ii. 11. 2. Arwydda *helynt, mater;* "Beth yw yr *achos* y daethoch o'i herwydd?" *Act.* x. 21; xxiii. 28; *Mat.* xix. 10; "Os felly y mae yr achos," os felly y mae y peth. 3. Mewn ystyr cyfreithiol, arwydda *cyhuddiad o drosedd.* Yn yr ystyr yma fe'i cyfieithir *achwyn;* "Am yr hwn ni ddyg y cyhuddwyr i fyny ddim *achwyn* o'r pethau yr oeddwn i yn tybied; canys allan o reswm y gwelaf fi anfon carcharor, heb hysbysu hefyd yr *achwynion* a fyddo yn ei erbyn ef;" *Act.* xxv. 18, 27: "A hwy a osodasant hefyd uwch ei ben ef ei *achos* (Seis., *his accusation*), yn ysgrifenedig, Hwn yw Iesu," &c.; *Mat.* xxvii. 37. Arferent osod math o ddalen ar y groes, â'r cyhuddiad, neu yr *achwyn*, a ddygid yn erbyn y croeshoeliedig, wedi ei ysgrifenu arni: *Marc* xv. 26. Y mae defod gyffelyb yn China eto. 4. Arwydda *bai, euogrwydd, trosedd,* yr hyn sydd yn briodol ddefnydd achwyn; "Nid wyf fi yn cael dim *achos* ynddo ef" (ymyl y ddalen), "dim *bai* arno:" a W. Salesbury—"Nyd wyf yn cahel un *bai* arno;" *Ioan* xviii. 38: eto, "un *bai*," a "dim *achos;*" *Ioan* xix. 4, 6: eto, "achos angeu," *Act.* xiii. 28; xxviii. 18. Gan y Deg a Thrigain, yn *Gen.* iv. 13, arwydda "anwiredd;" ac yn *Diar.* xxiv. 17, "trawsedd."

Gair arall yn y Testament Newydd, a gyfieithir *achwyn*, ydyw *κατηγορέω*, ac arwydda *llefaru yn erbyn, cyhuddo.* 1. Arwydda *cyhuddo, dwyn tystiolaeth yn erbyn un*, mewn llys gwladol. "A hwy a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Ai rhydd iachau ar y Sabbathau? fel y gallent *achwyn* arno;" *Mat.* vii. 10: yn *Marc* iii. 2, "fel y *cyhuddent* ef:" yn *Luc* xi. 54, "i gael *achwyn* arno. Felly xxiii. 2, 10; *Ioan* viii. 6; *Act.* xxiv. 2, 19; xxv. 5; xxviii. 19. Yn yr un ystyr y gelwir y diafol, yn *Dad.* xii. 10, "yn *gyhuddwr* y brodyr, yr hwn oedd yn eu *cyhuddo* hwy ger bron ein Duw ni ddydd a nos." "Ha wraig, pa le y mae dy *gyhuddwyr* di?" ebai Crist wrth y wraig: *Ioan* viii. 10. Dyma, mae yn debyg, ystyr y gair yn *Ioan* v. 45. Mae y sylweddair *κατηγορια*, *achwyn, cyhuddiad*, yn arwyddo yr un peth: *Luc* vi. 7; *Ioan* xviii. 29. 2. Arwydda y gair yma *cwyno* hefyd, heb law *achwyn* yn gyfreithiol: 1 *Tim.* v. 19; "Yn erbyn henuriad na dderbyn *achwyn*, oddi eithr gan ddau neu dri o dystion." Yn *Tit.* i. 6, cawn, "Heb gael y gair o fod yn afradlawn;" *μὴ ἐν κατεγορία ἀσωτίας*, heb fod *dan y cwyn* o fod yn afradlawn; Seis., "*not accused of riot:*" *Barn.* xxi. 22; *Ezra* iv. 6.

Mae gair arall eto a gyfieithir *achwyn*, *εγκαλέω*, *galw i gyfrif;* yna, *dwyn beiau yn erbyn un, achwyn, cyhuddo.* Yn *Act.* xix. 38, cyfieithir y gair yma, *rhoddi yn erbyn*, ac yn *adn.* 40, *achwyn*, "O herwydd enbyd yw rhag *achwyn* arnom am y derfysg heddyw." Yn ol y Seis., "O herwydd yr ydym mewn perygl o gael ein *galw i gyfrif*," &c. Gwel hefyd *Act.* xxiii. 28, 29; xxvi. 2, 7. Dyma y gair yn *Rhuf.* viii. 33, "Pwy a *rydd ddim yn erbyn* etholedigion Duw?" eu galw i gyfrif, eu dwyn dan achwyniad.

*Camachwyn* ydyw dwyn camgyhuddiad yn erbyn dyn. Yn yr ystyr o achwyn ar gam yr ydym i ddeall y gair yn *Diar.* xxx. 10. "Nac *achwyn* ar was wrth ei feistr, rhag iddo dy felldithio, a'th gael yn euog." Gwel hefyd *Luc* xix. 8.

1. ACHZIB, [אכזיב]: yr oedd dau le o'r enw yma, er na wahaniaethir hwynt yn gyffredin. Yr oedd un mewn enw yn llwyth Aser, er ei fod yn wastadol o'r bron yn meddiant y Phœniciaid, yn gymmaint a'i fod yn un o'r lleoedd y methodd yr Israeliaid â gyru eu cyndrigolion o honynt; *Barn.* i. 31. Yn y *Talmud*, fe'i gelwir *Chezib;* a'r Groegiaid a'i galwent *Ecdippa;* ond ei henw presennol yw *Zib.* Y mae yn gorwedd ar lan Môr y Canoldir, tua deng milltir i'r gogledd o Acra; ac fe'i darlunir fel lle bychan, ac ychydig o goed palmwydd yn tyfu o ddeutu yr anneddau.

2. ACHZIB, yn llwyth Iudah (*Ios.* xv. 44, *Mic.* i. 14); am yr hon nis meddwn ddim hanes: ond, oddi wrth ei chyflead yn y rhestr, fe ymddengys ei bod tua chanol cyffindir gorllewinol y llwyth, tua'r Philistiaid; fe allai mai yr un yw hon a'r Cezib a grybwyllir yn *Gen.* xxxviii. 5.

ADAD. Gwel HADAD-RIMMON.

ADADAH [עדעדה]: tref ar y cŵr deheuol i Iudah, tua therfyn Idumea; *Ios.* xv. 22.

ADADEZER. Gwel HADADEZER.

ADADRIMMON. Gwel HADAD-RIMMON.

Digitized by Google

1. ADAH, [עדה, *harddwch*]: un o wragedd Lamech: *Gen.* iv. 19.

2. ADAH: un o wragedd Esau, merch Elon yr Hethiad: *Gen.* xxxvi. 2, 4: yr un, y mae yn debyg, ydyw a Iudith, yr hon a enwir yn *Gen.* xxvi. 34.

ADAIAH, [עדיה, *tyst yr Arglwydd*]. 1. Tad Iedidah, mam y brenin Iosiah; 2 *Bren.* xxii. 1; 2 *Cron.* xxiii. 1.——2. Ereill o'r un enw: 1 *Cron.* vi. 41; viii. 21; ix. 12, &c.

ADALIA, [אדליא, *tlodi,* neu *tarth*]: un o feibion Haman: *Est.* ix. 8.

ADAM, [אדם, *daiar goch*]: dinas yn perthyn i lwyth Naphtali, yn sefyll o du y deheu i Fôr Tiberias, ar gyfer Iericho. Ar gyfer yma y safodd yr Iorddonen yn bentwr: *Ios.* iii. 16. Yr un lle ydoedd ag Adami: *Ios.* xix. 33; ac ag Adamah: *adn.* 36. Mae yn debyg i'r ddinas yma gael ei henw oddi wrth liw y ddaiar yn y gymmydogaeth, yr hwn, medd haneswyr, sydd fath o glai coch; fel y gelwir Rhuthin, neu Rhudd Ddin, a Rhuddlan, &c., yn ein gwlad ninnau, ar yr un cyfrif.

ADAMAH. Gwel Adam; Admam.

ADAMANT, [Ff. *diamant;* Gr. *αδαμας*]. Ystyr y gair yw *anorchfygedig.* Yr adamant yw y caletaf a'r dysgleiriaf o'r meini gwerthfawr; y mae ei allu gwrthdorawl yn anghymharol; ac y mae, er bod yn galed, yn peri nad yw y gallu hwnw byth yn lleihau. Efe hefyd yw y gwerthfawrocaf o'r holl berlau. Yn gyffredin, nid oes iddo un lliw; ond ambell waith, ceir gafael ar berlau adamant gwyrdd, melyn, glas, a du; y ddau olaf ydynt y mwyaf anghyffredin. Gan ei fod yn galetach nag unrhyw faen arall, gellir ysgrifenu âg ef ar yr holl feini gwerthfawr ereill; ond nis gall un o honynt hwy wneyd un argraff arno ef. Yn wir, nis gellir ei falu na'i dori i unrhyw ffurf âg un math o offeryn, ond yn unig trwy gymhwyso ato, ar olwyn o fetel, lwch ellfwn neu lwch o hono ef ei hun, ac yna ei wasgu at yr olwyn, a'i gyru hithau yn y modd cyflymaf; effeithia hyn arno yn raddol, a gellir ei falu yn y modd yma i'r dull hwnw y byddo y gweithiwr yn dewis.

O ran defnydd, yr un peth yw yr adamant a golosgoed, sef ulyf. Cyssyllter chwe rhan o olosgoed âg un ar bymtheg o ufelnwy, i'w llosgi, a'r canlyniad yw 22 o sur ulyfig; gwneler yr un fath â'r un pwysau o adamant, ac un ar bymtheg o ufelnwy, a cheir yr un canlyniad, sef 22 o sur ulyfig. Ac eto, y mae rhagoriaeth annhraethol rhwng yr adamant a'r golosgoed. Y mae y naill y perl gwerthfawrocaf, a'r llall yn delpyn hollol ddiwerth. Ond pa beth yn natur yr adamant sydd yn peri y rhagoriaeth, sydd bwnc anhawdd, os nad anmhosibl ei ateb.

Cafwyd gafael ar feini adamant yn Asia, Affrica, America Ogleddol a Deheuol, ac hefyd yn Ewrop; ond o'r India y cafwyd mwyaf o honynt, ac hefyd y rhai gwerthfawrocaf. Ceir gafael arnynt mewn crisial wythochrog, mewn mariandiroedd, yn debyg megys ag y ceir aur yn Awstralia; ac y mae yn ffaith anwadadwy, fod y gemau hyn yn cael eu ffurfio ac yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn yn y cyfryw leoedd. Pa fodd y ffurfir hwy, sydd ddirgelwch; a pha fodd y mae defnydd mor ddrewedig a gwaed ac ulyf yn cael ei buro i'r fath raddau, nes dysgleirio yn amgen un perl arall, sydd ddirgelwch mwy.

Sonir am yr adamant yn y Beibl amryw weithiau. Yr oedd yr ail rês yn nwyfroneg yr archoffeiriad yn cynnwys carbwncl, saphir, ac adamant. Ac y mae rhai yn barnu mai dau faen o adamant o ddysgleirdeb a phrydferthwch dirfawr oedd yr Urim a'r Thummim oedd i fod ar y ddwyfroneg. Cyfeirir hefyd at yr adamant yn *Ier.* xvii. 1; *Ezec.* iii. 9; *Zech.* vii. 12. Yr unig briodoledd berthynol i'r adamant a ddangosir yn y lleoedd uchod, yw ei galedrwydd.

ADAMI. Gwel Adam.

ADAN, [אדן, *uchel*]: a enwir yn *Ezra* ii. 59; *Adon,* yn *Neh.* vii. 61. Un o'r rhai na fedrent ddangos tŷ eu tadau, ai o Israel yr oeddynt.

ADAR, [אדר, *gogoniant*]. Mab Bela, ac ŵyr Beniamin: 1 *Cron.* viii. 3. *Ard* ydyw yn *Gen.* xlvi. 21; *Num.* xxvi. 40.

ADAR, [אדר, *gogoniant*]: dinas yn perthyn i lwyth Iudah: *Ios.* xv. 3. Mae yn debyg mai yr un ydyw a Hasar-Adar, am yr hon y crybwyllir yn *Num.* xxxiv. 4.

ADAR, [אדר]: *Est.* iii. 7. Y chweched mis Iuddewig yn ol y cyfrif gwladol, a'r deuddegfed yn ol y cyfrif eglwysig. Ar ol y gaethglud i Babilon y defnyddiwyd yr enw gyntaf. Wrth gyfrif y flwyddyn yn ol y lleuad, fel y gwna yr Iuddewon, y mae yn un ar ddeg o ddyddiau yn fyrach nag wrth ei chyfrif yn ol yr haul. Felly, ar ol bob tair blynedd, chwanegant fis o naw ar ugain o ddyddiau, yr hwn a alwant Ve-Adar, neu ail Adar. Cedwid y seithfed o'r mis hwn gan yr Iuddewon fel ympryd, er coffadwriaeth am farwolaeth Moses, er bod gwahaniaeth yn bod yn eu mysg am y diwrnod y collasant eu blaenor;—rhai yn ei osod ar y cyntaf, ereill ar y seithfed, ac ereill eto ar y nawfed. Ar y nawfed, cedwid ympryd mewn coffadwriaeth am yr ymrafael a fu rhwng y ddwy ysgol a ymrestrai o blaid Hillel a Shammai, ychydig flyneddoedd cyn Crist.

Cedwid y trydydd ar ddeg yn ŵyl i gofio am farwolaeth Nicanor: 2 *Mac.* xv. 36. Ordeiniwyd dau o ddyddiau y Purim yn wyliau, sef y pedwerydd ar ddeg a'r pymthegfed o fis Adar.

ADAR. Gwel Aderyn.

ADARSA, neu ADASA: dinas o Ephraim, tua phedair milltir o Beth-horon, rhwng Beth-horon Uchaf a Diospolis; o blegid fe ddywedir yn 1 *Mac.* vii. 40, 45, fod byddin fuddugol Iudas wedi ymlid y Syriaid o Adasa hyd Gadara, neu Gasera, yr hon sydd daith un diwrnod. Fe'i gelwir hefyd Adaser, ac Adaco, neu Acodaco, yn ngwaith Josephus. Yma y gorchfygwyd Nicanor, gan Iudas Maccabëus, yr hwn a laddwyd ei hunan yn yr un lle, ar ol hyny.—*(Carpenter.)*

ADARWR—WYR. Sonir yn fynych yn yr Ysgrythyrau am adarwyr (Seis. *fowlers*), sef dynion, rhai er mwyn elw, ac ereill er difyrwch, yn gwneyd arferiad o ddal adar gwylltion. Gwel y lleoedd canlynol:—*Lef.* xvii. 13; 1 *Sam.* xxvi. 20; *Salm* xci. 3; a cxxiv. 7; *Diar.* i. 17; a vi. 5; a vii. 23; *Preg.* ix. 12; *Galar.* iii. 52; *Hos.* ix. 8; *Amos* iii. 5, &c. Oddi wrth y mynych grybwylliadau hyn, a llawer yn chwaneg a allesid eu

Digitized by Google

dyfynu, ymddengys fod adarwyr yn dra lluosog yn ngwledydd y dwyrain yn yr oesoedd gynt. Ac yn yr holl fanau a nodwyd, nid ynganir dim am *saethu* adar; eithr yn mhob lle, arwyddir eu dal â rhwydau, maglau, telmau, &c. Mae Diodorus Siculus yn mynegu am drigolion Rhinocolura, ar gyffiniau yr Aipht, wrth Fôr y Canoldir, eu bod yn arfer dal soflieir a hwyaid gwylltion drwy osod rhwydau hirion, wedi eu gwneyd o gyrs mânddelltedig, yn estyn dros amryw ystadiau gyda glan y môr; ac yn y rhwydau hyny, dalient nifer o'r adar ar eu dyfodiad yn heidiau lluosog oddi wrth y môr; ac yna defnyddient rai yn ymborth iddynt eu hunain, a gwerthent y lleill. Morier hefyd a ddywed fod rhifedi aneirif o soflieir yn cael eu dal yn ngogleddbarth Persia, ac yn Armenia. Ac i'r dyben hwn, fe ddywed fod yr adarwyr yn arferyd y dull digrifol a ganlyn:—gwthiant flaenau dau bastwn dan eu gwregysau, ac ar flaenau uchaf y pastynau hyny, gosodant eu hugan uchaf, neu bâr o lodrau, y rhai o hirbell a ymddangosant yn debyg i ddau gorn anifail. Fel hyn y cynniweiriant y meusydd â rhwydau bychain yn eu dwylaw; a'r adar, wrth eu gweled felly yn debycach i anifeiliaid nag i ddynion, a oddefant iddynt nesau mor agos atynt, fel y gall yr adarwyr daflu eu rhwydau drostynt: ac fel hyn y delir rhifedi mawr o'r adar mewn ychydig amser. Weithiau, defnyddir rhwydau ceuol, sef rhai âg un pen iddynt yn eang, gan gulhau yn raddol tua'r pen arall. Y dull hwn o adara a elwir *tunnelling*. A dywed y Dr. Shaw, fod yr Arabiaid yn arfer y cyfryw rwydau yn fynych; a thuag at hudo yr adar iddynt, eu bod weithiau yn gosod cawellaid o rai dofion o'r tu ol i'r rhwyd; y rhai, trwy eu hysgrechiadau dibaid a ddenant yr adar gwylltion i ymgasglu atynt, a llawer o honynt yn eu trafiull a ymddyrysant yn ngafael y rhwyd. Bernir fod cyfeiriad at y dull hwn yn *Ier.* v. 27; "Fel cawell (Seis. *cage*) yn llawn o adar," &c. [Gwel Rhwyd.] Dull arall o adara, effeithiol iawn, ond mwy llafurus, a elwir eu "hela." At hyn y cyfeirir yn 1 *Sam.* xxvi. 20, lle y dywedai Dafydd fod Saul yn ei ymlid ef "megys un yn hela petris ar y mynyddoedd." Ac am y dull hwn y mae y Dr. Shaw drachefn yn sylwi, fod yr Arabiaid wedi dyfod i ddeall fod petris, ar ol cael eu brawychu i godi ddwywaith neu dair, yn myned yn lluddedig; nes yw eu hymlidwyr, cyn hir, yn gallu eu curo i lawr â'u *serwattys*, sef math o bastynau.

Amryw oesoedd yn ol, yr oedd dull o adara a elwid hebogyddiaeth, mewn cymmeriad mawr yn amryw wledydd, ac yn Mhrydain yn arbenig. Ond dyfodiad gynau a phylor i arferiad a barodd i'r dull hwn gael ei ddodi heibio yn mron yn llwyr, er yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Cyn hyny, yr ydoedd yn brif ddifyrwch breninoedd, tywysogion, a bonedd. Diammheu mai wrth sylwi gymmaint yw greddf a medrusrwydd adar rheibus, yn eu herlyniad o'u hysglyfaeth, y cododd awydd mewn dynion am ddefnyddio rhyw foddion tuag at gael iddynt eu hunain wasanaeth rhai o'r cyfryw adar i ddal adar ereill; a'r rhywogaeth a farnwyd yn debycaf o ateb y dyben hwnw oedd rhai o lwyth yr hebog, neu y gweilch. I ddarparu yr adar hyn i'r gwasanaeth amcanedig, yr oedd llawer iawn o lafur yn ofynol. Yn fynychaf cymmerid hwy pan yn gywion ieuainc o'r nythod; ac felly dygid hwynt i fyny yn ddofion, fel y cynnefinid hwynt i fyw yn ddiarswyd yn mysg dynion. Ond yn ei ddull o'u porthi, yr oedd yr addysgydd yn ennill awdurdod arnynt. Pan wnelai y cyw yr hyn a geisid ganddo, yna (ac nid yn amgen) rhoddid iddo olwyth o gig, neu ryw abwyd a hoffai, fel gwobr am ei ufudd-dod; a thrwy hyny deuai yn raddol i wybod ei fod yn rhyngu bodd ei geidwad. Eithr os byddai yn gyndyn iawn, teflid taenell o ddwfr oer am ei ben, fel y deallai ei fod yn troseddu. Gwisgid hwynt hefyd â gwahanol addurniadau ar eu penau a'u coesau, a dodid cloch arian fechan wrth bob coes, heb law rhyw delmau ereill, tuag at eu llywodraethu. Ond y ddau brif ymgais wrth addysgu yr adar hyn i'r gwasanaeth amcanedig, oedd cael ganddynt ehedeg at wrthddrychau yr helwriaeth, a dychwelyd yn ol drachefn ar alwad y meistr. I'r dyben blaenaf, dodid golwyth o gig ar flaen trostan, neu wrth linyn, yn nghyd â siobyn o blu rhyw aderyn o'r fath ag yr ewyllysid dysgu yr hebog i'w ddal; ac i'r perwyl hwn, gwneid weithiau eilun celfydd o un o'r cyfryw adar i'w ddodi gyda'r cig ar flaen y trostan neu y llinyn. Yna, safai dyn o hirbell gan chwyfio yr eilun hwnw uwch ei ben i geisio hudo yr hebog i frys-ehedeg ato. Yn y cyfamser, y sawl a fyddai yn dal yr hebog a'i gollyngai ymaith, pan y gwelai efe ef yn chwannog i ruthro at y gwrthddrych crybwylledig; ac os byddai yr ymgais yn llwyddiannus, gadewid iddo fwyta yr abwyd, er mwyn ei wneuthur yn fwy awyddus i wneyd yr un modd y tro nesaf drachefn: wedi hyn, gelwid ef yn ol â math o chwibanogl. Trwy fynych ymarferiadau o'r fath yma, dysgid yr hebogau, o'r diwedd, i ehedeg ar ol a dal adar gwylltion, megys crëyrod, petris, cyffylogod, &c. Pan fyddid yn myned allan i'r cyfryw helwriaethau hebogaidd, byddai yn gyffredin fintai luosog o bendefigion a boneddigesau, ar feirch, yn ymgyfarfod yn nghyd, i fyned gyda'u gilydd i weled y difyrwch; ac yn fynychaf, dygid yr hebogiaid ar arddyrnau y meistriaid; ac wrth eu dwyn yn y dull hwnw, yr oedd yn angenrheidiol gwisgo menyg hirion a chryfion, rhag awchlymder eu hewinedd. Pan gyrhaeddent i'r fan lle y dysgwylid cael yr helwriaeth, a phan ganfyddid un neu chwaneg o'r adar yr amcenid ymosod arnynt, a chyfle dymunol yn ymgynnyg i'r perwyl, yna gollyngid ymaith hebog neu ddau i'r anturiaeth; a dyna yr adeg pryd y cynhyrfid dyddordeb yr edrychwyr i'r eithaf, i weled yr ymdrechfa rhwng yr hebog a'r ysglyfaeth; ac weithiau byddai raid iddynt farchogaeth dros lawer o filltiroedd cyn i'r hebog orddiwes ei wrthddrych, er mai anfynych y methai efe yn ei ymgais; a byddai yn angenrheidiol i'r prif hebogydd fod yn y fan pan orphenid yr ymdrechfa, i'r dyben o achub yr helwriaeth, a chymmeryd gofal am yr hebog, gan ei borthi yn ddyladwy am ei orchest. Oddi wrth yr hyn a adroddwyd, canfyddir yn amlwg mai fel difyrwch i'r bobl uwchradd, yn hytrach nag er buddioldeb, yr arferid y dull uchod o adara; a chan fod cymmaint o lafur i ddarparu yr hebogau hyny yn eu gwneyd mor ddrudfawr fel y dywedir nas gellid prynu un wedi ei gwbl addysgu am nemawr llai na chant punt; felly, nid rhyfedd ddarfod dodi yr arferiad heibio.

ADBEEL, [אדבאל, *cwmwl Duw*]: un o ddeuddeg mab Ismael, a sylfaenydd llwyth o Arabiaid; *Gen.* xxvi 13, 16.

ADBIEL, neu ABDIEL: un o hiliogaeth Gad; 1 *Cron.* v. 15.

Digitized by Google

AD-DALEDIGAETH, taliad yn ol, rhoddi gwerth yn ol am a dderbyniwyd. "Canys pa ddiolch a allwn ni ei ad-dalu i Dduw am danoch chwi," &c.; 1 *Thes.* iii. 9. Yr ydwyf mor ddedwydd yn eich ymlyniad, fel yr wyf yn ei ystyried yn anmhosibl diolch i Dduw yn ddigonol am yr ansawdd sydd arnoch gyda chrefydd. Y mae pob taledigaeth yn ad-daledigaeth; hyny yw, yn rhoddiad yn ol werth am gyfwerth; gan hyny cyfeiriwn y darllenydd at y gair TALEDIGAETH.

ADEILAD, ADEILYDDIAETH, } Gwel TY; TEML.

ADEILYDDIAETH EGLWYSIG, yw y rhan hono o adeilyddiaeth a ddefnyddir yn ngwneuthuriad eglwysydd a chrefydd-dai: ond fel cangen o gelfyddyd, ac mewn golygiad deinofyddol, nid yw yn dygwydd o fewn amlinell y dosbarth hwn o'r "Gwyddoniadur Cymreig."

Arferai Cristionogion syml a dirodres y ganrif gyntaf addoli mewn tai anneddd, ac yn fynych o dan yr awyr, neu mewn ogofäau, mewn lleoedd pellenig ac anghysbell; o blegid nid yn unig ni chydnabyddid mo honynt gan y llywodraeth wladol, ond erlidid hwynt yn aml ganddi yn y modd llymdostaf. Yn ystod y ddwy ganrif gyntaf, gan hyny, addolid yn mha le ac ar ba bryd bynag y gellid gwneuthur hyny gydag un math o ddiogelwch; ac nid cyn y drydedd ganrif y gallai y Cristionogion hyn anturio cyflawnu eu gwasanaeth crefyddol mewn rhyw radd yn gyhoeddus, a dechreu adeiladu eglwysydd neu addoldai yn ol eu hangen. Er y bedwaredd ganrif, y mae yr eglwysydd yn gyffredin wedi dyfod i fod yn adeiladau helaeth eu maint a gorwych eu hymddangosiad. Codwyd rhai mawrwych o'r fath gan Cystenyn Fawr, Theodosius, a Justinian; a throwyd llawer o demlau paganaidd hefyd i fod yn eglwysydd Cristionogol. Yn y canoloesoedd, gwnaethpwyd llawer o adeiladau harddwych dros ben, i gynnal ynddynt wasanaeth dwyfol; y rhai, o ran uchder, prydferthwch, a mawrwychder, ni ragorwyd arnynt hyd y dydd hwn.

Rhai o'r eglwysydd enwocaf ar hyn o bryd ydyw, Eglwys St. Pedr, yn Rhufain; Notre Dame (Ein Harglwyddes), yn Paris; St. Stephen, yn Vienna; Eglwys Isaac, yn St. Petersburg; Mynachlogydd Cwlen a Strasburg, yn yr Almaen; ac Eglwys St. Paul, yn Llundain. Y mae eglwysydd cadeiriol Rouen, Rheims, Amiens, a Beauvais, yn Ffrainc; Ulm, Freiburg, Marburg, Meissen, ac Oppenheim, yn yr Almaen; Lund ac Upsal, yn Sweden; Drontheim, yn Norway; Toledo, Oviedo, a Burgos, yn yr Yspaen; a Milan a Pisa, yn Italy; yn adeiladau godidog hefyd, ac yn gyfartal o ran maint a gwychder i unrhyw un o eglwysydd cadeiriol y deyrnas hon. Eglwys St. Pedr, yn Rhufain, yw y fwyaf yn Ewrop. Gan rai Vienna a Strasburg y mae y clochdai pigfeinion uchaf; y mae y blaenaf yn 465, a'r olaf yn 456, o droedfeddi o uchder.

Eglwys gadeiriol St. Paul, yn Llundain, yw yr adail benaf o'r fath a adeiladwyd erioed gan Wrthdystwyr; a'r rheswm am hyny yw, nad yw Gwrthdystiaeth neu Brotestaniaeth mor ffafriol i eglwysydd gorfawr a gorwych ag ydyw Pabyddiaeth. Mewn gwirionedd, ymddengys fod y Gwrthdystwyr, wrth adeiladu eu lleoedd o addoliad, yn edrych o'r braidd yn hollol ar gyfleusdra y gwrandawyr, yn enwedig yn Mhrydain ac yn America; a gellir yn hawdd egluro hyn, wrth ystyried nad ydynt hwy yn cynnal gwasanaeth dwyfol yn eu heglwysydd yn yr un ystyr ag y mae y Pabyddion yn defnyddio yr ymadrodd hwnw; ond cydymgynnullant hwy yn benaf i glywed gair Duw yn cael ei egluro iddynt, ac i gael eu haddysgu yn eu dyledswyddau tuag at eu Creawdwr, a thuag at eu cymmydog. Y mae y Gwrthdystwyr yn amcanu mwy at adeiladu y gwrandawyr; tra y mae y Pabyddion yn ymfoddloni yn benaf ar gynnyrchu ysbryd dyhewydus ynddynt. Y mae y naill yn anerch y deall, fel y dull tebycaf i gyrhaedd y galon; a'r llall yn anerch y teimlad, fel y llwybr hyrwyddaf i dreiddio i ddirgelion y fynwes: ac i'r dybenion hyn, y mae y blaenaf yn ymwneyd mwy â'r dyn oddi mewn, a'r olaf yn ymwneyd mwy â'r dyn oddi allan; y mae y naill yn cyfeirio at y glust, a'r llall yn annelu at y llygad. Daw y Gwrthdystiwr i'w addoldy i *glywed;* daw y Pabydd yno i *weled.* Y mae o bwys gan hyny fod eglwys y naill yn rhagorwych, a'r gwasanaeth yn fawreddog; ond boddlonir y llall, os bydd ei eglwys yn gyfleus, a'r gwasanaeth yn adeiladol. Oddi wrth y pethau hyn, gan hyny, y mae yn lled hawdd canfod pa ham y mae gwledydd Pabaidd yn rhagori cymmaint ar wledydd ereill yn eu hadeiladau eglwysig.

Dosberthir eglwysydd yn bum math neu ddosbarth: eglwysydd mamddinasol neu archesgobol, cadeiriol neu esgobol, colegol, mynachlogol, a phlwyfol. Gwahanieithir hwynt yn hytrach yn eu dyben nag yn null eu hadeilyddiaeth; canys y mae ambell eglwys blwyfol (megys Eglwys Crist, yn swydd Hants) yn meddu ar holl weddnodau eglwys gadeiriol; ac y mae eglwys fynachlogol Westminster yn gyfartal, yn mhob peth hanfodol, i eglwys archesgobol Caergaint. Gan fod yr adeiladau hyn yn amrywio cymmaint yn eu plith eu hunain, yn gystal ag oddi wrth eu gilydd, byddai ceisio darlunio eu gwahanol nodebau oll yn orchwyl lled anorphen.

Yn gyffredin, y mae adeiladau eglwysig y Deyrnas Gyfunol yn perthyn, o ran dull eu gwneuthuriad, i'r ddullwedd Gothaidd, yr hon a elwir hefyd y Ddullwedd Bigfain neu Flaenfain, ac a renir yn dri dosbarth, yn ol y tri chyfnod yr oedd mewn mwyaf o gymmeradwyaeth ynddynt. 1. Y Ddullwedd Seisonig Gynnar neu Foreuol, yr hon oedd mewn arferiad cyffredin yn y drydedd ganrif ar ddeg. 2. Yr Addurnog, cyffredin yn ystod y rhan fwyaf o'r bedwaredd ganrif ar ddeg; ac ystyrir hi yn gyffredin megys yr harddaf a'r berffeithiaf o bob dull. 3. Yr Unionsyth, yr hon a ellir ei galw yn ddullwedd y bymthegfed ganrif. Aeth hon o radd i radd yn fwyfwy ei gorwychder, ond yn llai ei phrydferthwch: a chyfenwyd hi yn Ddullwedd Tudur (o herwydd ei bod mewn bri ac arfer yn yr amser yr oedd teulu Tudur ar orsedd Prydain), ac hefyd yn Ddullwedd Flodeuog. Mewn llawer adail, ceir amrywiaeth neu gymmysgedd o'r holl ddullweddau hyn, fel mai prin y gellir dywedyd eu bod yn hollol yn perthyn i'r naill neu i'r llall o honynt.

Ceir ar Gyfandir Ewrop, megys yn Ffrainc, Italy, a'r Almaen, gynlluniau prydferth iawn o adeilyddiaeth eglwysig, nid yn unig yn y ddullwedd a elwir Gothaidd, ond hefyd yr Italaidd. Y prif adeiladau o'r dysgrifiad yma yn Lloegr a Chymru yw y rhai canlynol: eglwysydd cadeiriol Caergaint, Caerefrog, Caergaradog neu Salisbury, Caerloew, Caerwrangon, Caergeri neu Sisedr, Caerlleon, Caerliwelydd, Norwich neu Gaergynan, Caerwynt, Caerwysg, Caerodor, Lincoln neu Gaerlwydgoed, Baddon, Durham, Ely, Peter-

Digitized by Google

borough, Lichfield, Rochester, Henffordd, Rhydychain, Wells, Bangor, Llanelwy, Llandaf, a Thyddewi. St. Paul, yn Llundain, fel y dywedwyd eisoes, sydd yn adeilad ddiweddar. Ripon a Manceinion sydd eglwysydd colegol wedi eu troi yn ddiweddar i fod yn rhai cadeiriol. Heb law y rhai hyn, y mae amryw ereill, lled debyg iddynt, a elwir mynachlanau, neu eglwysydd mynachlogaidd, y rhai sydd yn dwyn gweddnod eglwysydd cadeiriol o ran eu hadeiladaeth, yn gystal ag o ran y defnydd a wneir o honynt; megys Westminster, Beverley, Lichfield, a Chaerefrog.

Mae yn eglwysydd cadeiriol Caergaint, Norwich, Peterborough, Caerloew, a Westminster, gromgafell hannergylchol yn y pen dwyreiniol iddynt.

Y mae gan Ely lygorn 170 troedfedd o uchder; a thŵr hardd llawer uwch ar ben y porth gorllewinol; yr oedd iddi gynt ddau dŵr ar onglau y fynedfa orllewinol; ond weithian nid oes ond un o honynt yn aros. Dullwedd yr adail oddi allan sydd Normanig, a Seisonig gynnar. Y mae corff yr eglwys yn anghraifft deg o ddull y Normaniaid. Y côr a berthyn i'r ddullwedd a elwir Seisonig Addurnog. Codwyd y rhan hon o'r adail, yn nghyd â'r capel Mair, rhwng y flwyddyn 1321 a'r flwyddyn 1349. Y mae gwneuthuriad y ddau yn dra rhagorwych. Dywedir mai oddi wrth lygorn eglwys Ely y benthyciodd Syr Cristopher Wren gynllun cromen fawr Eglwys St. Paul. Y mae y capel Mair ar y naill ochr i'r eglwys hon, ac nid yn y pen dwyreiniol, fel y mae yr arfer gyffredin. [Gwel *Bentham's Ely; Miller's Ely.*]

Y mae Caergaradog, ar lawer cyfrif, yn un o'r eglwysydd cadeiriol prydferthaf yn Lloegr, a'r fwyaf unffurf o ran ei dullwedd. Y mae capel Mair wedi ei osod yn y côr, yr hyn a ystyria rhai yn arwydd o ddiffyg chwaeth yn yr adeiladydd. Y mae porth ar yr ochr ogleddol yn arwain i gorff yr eglwys. Y clwysdai mawrion a harddwych a arweiniant i'r cabidyldy. Cynnelir y tŵr neu glochdy gan bedwar o genbyst mawrion, â cholofnau bychain o'u hamgylch: ar ben y tŵr y mae pigadail; ac y mae uchder y ddau yn nghyd yn 404 troedfedd. Codwyd y bigadail ryw amser wedi gorphen y tŵr; ac y mae ei bwysau wedi peri i'r cenbyst wyro i gryn raddau o herwydd hyny, nes ydyw y bigadail yn gogwyddo yn agos i ddwy droedfedd o fod uwch ben ei throed, yn gyffelyb i dŵr nodedig Pisa, yn Italy. [Gwel *Dodworth's Salisbury.*]

Y mae i eglwys gadeiriol Henffordd gorff, esgyll ar bob ochr, porth gogleddol, dau groes, côr, capel Mair, clwysdai, a chabidyldy. Normanig yw y corff; ond Seisonig foreuol yw dullwedd y pen dwyreiniol. O dan y capel y mae cuddgell neu ddirgelfa; ac ar gydiad y corff â rhanau ereill yr adail, y mae tŵr ysgwâr dirfawr o faintioli. Y mae y pen gorllewinol a'r cabidyldy mewn adfeilion.

Nid annhebyg yw eglwys gadeiriol Caerwrangon: y mae iddi ddau groes, ond nid oes esgyll ystlysol i'r croes sydd yn myned ar draws y corff. Y mae rhanau mewnol y corff yn y ddullwedd Seisonig, a'r cabidyldy yn yr un Normanig: o'r tu de y mae y clwysdai ac ysgol y brenin: a chabidyldy crwn o'r tu mewn, ac amrygongl o'r tu allan, gyda cholofn yn y canol, yr un fath a Chaergaradog a Lincoln. [Gwel *Wild's Lincoln and Worcester.*]

Y mae eglwys gadeiriol Wells yn amrywio cryn lawer yn ei chynllun oddi wrth bob un o'r lleill. Saif y cabidyldy ar ochr ogleddol yr eglwys; mae y clwysdai yn y lle arferol, ond nid oes iddynt ond tair ochr; y fynedfa iddynt sydd oddi tan dŵr de-orllewinol yr adail. Y mae yma ddau dŵr ar y pen gorllewinol, porth gogleddol, croes hefyd, ac esgyll ar bob ystlys; yn mhen pellaf y côr y mae capel Mair, yn harddwych iawn ei wneuthuriad. Seisonig foreuol yw adeiladyddiaeth y corff; ond ymddengys fod y tyrau yn llawer diweddarach. Y mae cuddgell dan yr eglwys. Y mae golwg drom ar yr holl adeilad.

Eglwys gadeiriol Caerwysg a sylfaenwyd yn 932, ac a adeiladwyd yn 1112. Y mae iddi gabidyldy (yr hwn a ddefnyddir yn llyfrgell) gwahanol ei ddull i'r cyfryw adeiladau yn gyffredin. Dinystriwyd clwysdai yr eglwys yn amser rhyfeloedd Cromwell. Y mae iddi ddau dŵr yn y ddullwedd Normanig, y naill ar ben gogleddol a'r llall ar ben deheuol y croes. Y mae y corff yn hynod o hardd, ac yn y ddullwedd Seisonig gynnar.

Sylfaenwyd eglwys gadeiriol Caerodor tua'r flwyddyn 1142. Mewn golygiad adeilyddol, nid yw gystal a llawer o rai ereill; y mae yn afreolaidd ac anmherffaith o ran ei chynllun, ac nid oes corff iddi; ond y mae peth gwaith Normanig cywrain yn y cabidyldy.

Adeiladwyd eglwys gadeiriol Peterborough o'r newydd yn 1117; y mae ar lun croes Ladin seml, âg un tŵr mawr, a dau dŵr bychan ar y pen gorllewinol, a'r rhai hyny yn terfynu yn bigfain. Saif capel Mair wrth gefn yr allor. Y mae i'r croes esgyll ystlysol, a thŵr ar gynghroesiad y corff â rhanau ereill yr adail. Y mae y pen dwyreiniol yn nodedig am dri o fwäau mawrion, o dan y rhai y mae porth bychan, a llyfrgell oddi arno. O ran dullwedd, y mae yr eglwys hon mewn rhan yn Normanig, ac mewn rhan yn perthyn i'r cyfnod Seisonig boreuol; ond y mae peth o honi wedi ei wneuthur yn ddiweddarach, megys y pen dwyreiniol, yr hwn sydd yn y ddullwedd unionsyth, neu y fath a elwir Dullwedd Tudur.

Y mae Caerloyw, yr hon a adeiladwyd o'r newydd yn 1089, yn gwahaniaethu cryn dipyn oddi wrth yr un flaenorol. Mae y gromgafell yn fawr iawn; ac mewn cyssylltiad â hi ac â'r fynedfa i'r esgyll ystlysol y mae capelau: capel Mair a ymestyn tuag yn ol. Y cabidyldy a'r clwysdai sydd o'r tu de. Ar yr ochr ogleddol y mae lle a elwir yr *olchfa.* Ar yr ochr ddeheuol y mae porth glandeg. Ymgyfyd tŵr hardd, o'r ddullwedd unionsyth, o gydiad y corff â'r croes. Perthyna muriau a cholofnau y corff i'r ddullwedd Normanig.

Gan eglwys gadeiriol Rhydychain y mae corff byr, côr, croes gogleddol, gydag asgell hwy na'r croes deheuol, yr hwn nid oes iddo esgyll. Y mae dau gapel mawr ar ystlysau clwysdai y côr; a chabidyldy cywironglog ar yr ochr ddeheuol.

Eglwys gadeiriol Caerliwelydd, yr hon a fu unwaith yn briordy, nid yw ond bechan, a gwaelach yr olwg arni nag un o'r lleill.

Y mae i eglwys gadeiriol Caergeri gorff, esgyll ystlysol, croes, côr, capel Mair (a ddefnyddir yn awr yn lle llyfrgell), a chlwysdy. Saif y clochdy ar ei ben ei hun; ac y mae y bigadail arno yn orwych yr olwg arni.

Y mae gan Gaerlleon gorff, esgyll ystlysol, a chroes deheuol, yr hwn a ddefnyddir yn awr fel eglwys blwyfol: y mae côr, a chapel Mair yn y pen dwyreiniol; clwysdy tua'r gogledd; a chabidyldy ac ysgoldy ar y tu gogleddol i'r clwysdy.

Lichfield sydd ganddi gorff a chôr, agos yr un hyd; capel Mair; asgell ar y naill du i'r croes; yn nghyd â chlwysdy cyfarystlys.

Digitized by Google

Y mae i eglwys archesgobol Caergaint gorff a chlwysdy ar yr ochr ogleddol yn arwain i'r cabidyldy, yr hwn o ran ei ffurf sydd leddbetryal; croesau dyblyg, côr, a chapelau ystlysol. Yn mhen pellaf y côr y mae capel harddwych, gyda chromgafell, a chapel crwn y tu hwnt i hyny, a elwir Coron Becket. Y mae y bedyddfaen mewn capel cylchog, yn arwain o'r croes gogleddol: perthyn llyfrgell hefyd i'r adeilad hon. Y cuddgelloedd o dan yr holl eglwys yw yr harddaf yn y deyrnas. Y mae tri thŵr, un yn y canol, a dau yn y pen gorllewinol. [Gwel *Britton's Canterbury.*]

Y mae Caerefrog ar gynllun godidog a phrydferth iawn. Y mae esgyll dyblyg i'r croes; cabidyldy wythonglog yn arwain o'r croes gogleddol; tŵr gorwych yn y canol; dau dŵr ar y pen gorllewinol; ystafell cofnodau; ac esgoblys. Y mae hefyd guddgell fechan.

Caerwynt sydd iddi gynllun rheolaidd. Yr oedd y clwysdy yn gywironglog; ond y mae efe a'r cabidyldy hefyd wedi eu dinystrio. Y mae y croes yn nodedig, ac nid oes nemawr o'i fath; o herwydd bod yr esgyll yn rhedeg o amgylch y tair ochr. Yn nghysswllt â'r pen dwyreiniol, y mae capel Mair, o faintioli canolig; ac y mae cuddgelloedd helaeth o dan yr eglwys.

Lincoln, neu Gaerlwydgoed, a gynnwys gorff, côr, a chroesau dyblyg. O'r tu cefn i'r côr y mae lle a elwir yr henadurfa: y mae talfur bychan yn gyssylltiedig â'r croes deheu. Y clwysdy, yr hwn nid yw ond bychan mewn cymhariaeth, a arweinia i gabidyldy mawrwych, amrygongl ei lun, degochrog, gydag attegion hedegog iddo. Y mae esgyll i'r croes gorllewinol, a thŵr mawr ar gyssylltiad y corff â'r côr. Uwch ben y porth gorllewinol, y mae dau dŵr llai o faintioli. Y mae eglwys Lincoln yn un dra pherffaith ei hadeiladaeth. [Gwel *Wild's Lincoln and Worcester.*]

Y mae i Norwich, neu Gaergynan, gorff hir ac un croes. Terfynir y pen dwyreiniol gan gromgafell, wrth gefn yr hon y mae capel Mair, ac ar ei hystlys y mae dwy asgell. Yn gyssylltiedig âg asgell ystlysol y côr y mae esgoblys, neu lys yr esgob. Y mae hefyd glwysdai mawrion ar du deheuol yr adail; ond y mae y cabidyldy wedi ei ddistrywio.

Y mae i Westminster gorff a chroes hir, gydag esgyll dyblyg, cromgafell yn mhen dwyreiniol y côr, gyda phedwar capel amrygongl hannerog o'i hamgylch. Tu hwnt i hyny y mae y capel Mair tra gorwych a adeiladwyd gan Harri VII, ac a elwir yn gyffredin ar enw y penadur hwnw. I'r de y mae clwysdai; ac yn yr un cyfeiriad hefyd y mae y cabidyldy, yr hwn sydd adeilad hardd wythonglog: o'r tu cefn y mae rhai clwysdai bychain cyssylltiedig gan dramwyfa dywell wrth y clwysdai mawrion. [Gwel *Neale's History of St. Peter's Church, Westminster.*]

Rochester sydd iddi gorff ac esgyll ystlysol, croes ddyblyg (ond nid yw ond ar du gogleddol y côr yn unig), côr, a changell ar y pen pellaf iddo. I'r de-orllewin y mae cabidyldy lleddbetryal hir. Ymgyfyd tŵr isel o gydiad y groes â chorff yr eglwys; ac yn y pen gorllewinol y mae capel.

Eglwys gadeiriol Baddon, oedd unwaith yn abatty, sydd ar lun croes, yn ffurfio dau groes bychan diesgyll: y mae gwisgfa fechan yn gyssylltiedig â'r croes deheuol; a thŵr mawr yn ymddyrchafu o'r canol. Y mae y côr yn gyfunlled â chorff yn eglwys.

Ystyrir eglwys gadeiriol Durham yn gynllun perffaith o'r adeilyddiaeth Normanig. Cynnwysa gorff âg esgyll ystyllog iddo; côr, âg iddo esgyll ar bob tu; croesau; clwysdai; gwisgfa; cabidyldy; neuadd y mynachod, yn awr y llyfrgell, â chuddgell oddi tani; capel Mair; a naw allor yn y pen dwyreiniol. Saif tŵr yn canol, a dau ar ben gorllewinol corff yr adail: yn yr un pen hefyd y mae allor a math o gapel. O du gorllewin y clwysdai y mae hundy helaeth.

Eglwys gadeiriol Manceinion sydd adeilad â llawer o harddwch yn perthyn iddi. Nid ydoedd ond eglwys golegol hyd oni wnaethpwyd y lle yn eisteddfa esgob yn 1848. Sylfaenwyd hi yn amser Harri V, a chodwyd hi o newydd yn nheyrnasiad Harri VII.

Tröed eglwys Ripon o fod yn golegol i fod yn gadeiriol yn y flwyddyn 1836, pryd y ffurfiwyd yr esgobaeth. Y mae hefyd yn eglwys blwyfol. Dywed Rickman, wrth son am yr adail hon, fod llawer rhan o honi yn dra haeddiannol o sylw, yn enwedig yr wyneb gorllewinol, yr hwn sydd yn gynllun hardd o'r ddullwedd Seisonig gynnar. Dechreuwyd ei hadeiladu yn 1331; ond tebygol na orphenwyd y côr hyd y flwyddyn 1494. Dywedir ei bod yn un o'r eglwysi goreu eu cymmedr yn yr holl deyrnas. Y mae iddi ddau dŵr unffurf yn y pen gorllewinol, a phob un yn 110 troedfedd a uchder, heb law y tŵr mawr a elwir Tŵr St. Wilfred. O dan dŷ y cabidwl y mae esgyrndy helaeth, yn cynnwys casgliad dirfawr o weddillion dynol wedi eu pentyru yn drefnus o amgylch y muriau.

Cynnwys eglwys gadeiriol Bangor gôr, corff, croes, esgyll, a thŵr ysgwâr yn y pen gorllewinol. Y mae rhai o'r ffenestri yn bengrwn, a rhai o honynt yn flaenfain. Adeiladwyd y côr o newydd rhwng 1496 a 1500; a chodwyd y clochdy yn 1532, fel y canfyddir wrth yr ysgrifen uwch ben y drws gorllewinol.

Adail led fechan, ond cryno a dillyn, yw eglwys gadeiriol Llanelwy. Ei dull sydd ar lun croes, gyda thŵr ysgwâr gwalciog, 93 troedfedd o uchder, yn y canol. Y corff a'r croes a berthynant i ddullwedd addurnog adeilyddiaeth, cyffredin yn nheyrnasiad Iorwerth I. a'r II. Nid oes ond ychydig attegion neu wanasau o amgylch yr eglwys hon.

Prif hynodrwydd eglwys gadeiriol Llandaf, yw, nad oes iddi groes o fath yn y byd; ac y mae o ganlyniad yn amddifad o'r nodwedd sydd yn gyffredin yn perthyn i adeiladau croesion. Y mae iddi esgyll ystlysol, henadurfa, a chapel Mair; y mae tŵr, yn nullwedd Tudur, yn asgellu y pen gorllewinol tua'r gogledd; ac ystyrir ei gwyneb gorllewinol fel yn meddu ar brydferthwch nid bychan. [Gwel *Freeman's Remarks on the Architecture of Llandaff Cathedral; Archæologia Cambrensis*, i. td. 24, a 108, N. S.]

Eglwys gadeiriol Tyddewi sy mewn rhan yn y ddullwedd bigfain. Cynnwysa gorff, côr, croesau, esgyll ystlysol, a thŵr yn y pen gorllewinol. Y mae yr addurnwaith coed yn harddwych ddigyffelyb. Hon mewn ystyr adeilyddol yw yr eglwys gadeiriol henaf yn Nghymru; ond nid yw mewn cystal diwyg a Bangor a Llanelwy. [Gwel *Jones & Freeman's History and Antiquities of St. David's*]

(*Britton's Cathedrals; Browne Willis' Survey of the Cathedrals; Dugdale's Monasticon; Rickman's Essays on Gothic Architecture; Freeman's History of Architecture.*)

**ADEN.** Gwel Arad.

**ADENEDIGAETH.** Gwel Ailenedigaeth.

Digitized by Google

**ADER**, [עדר]: un o benau cenedl llwyth Benjamin, o'r rhai a gyfanneddasant yn Ierusalem: 1 *Cron*. viii. 15, 28.

**ADERYN**. Wrth yr enw *Adar* y gelwir yr holl rywogaethau o greaduriaid hedegog; a elwir hefyd ehediaid, ednod, &c.; ac iddynt y mae yn briodol bod yn wisgedig â phlu, a meddu dwy aden, dau droed, a phig neu gylfin: ac epiliant oll drwy ddodwyad. Mae yn beth dadleuol pa un ai o'r sychdir ai o'r dyfroedd y deilliodd adar yn eu creadigaeth ar y cyntaf. Yr hanesydd Ysgrythyrol, yn ei adroddiad o waith y pummed dydd (*Gen*. i. 20, 21), a fynega ddywedyd o Dduw ar y dydd hwnw, "Heigied y dyfroedd ymlusgiaid byw, ac eheded ehediaid uwch y ddaiar, yn wyneb ffurfafen y nefoedd. A Duw a greodd y morfeirch mawrion, a phob ymlusgiad byw, y rhai a heigiodd y dyfroedd yn eu rhywogaeth, a phob ehediad asgellog yn ei rywogaeth." Ac yn yr adroddiad o waith y chweched dydd, lle y traethir am greadigaeth anifeiliaid, ymlusgiaid, a bwystfilod y ddaiar (*adn*. 25), ni sonir dim am yr ehediaid. Eto, mewn ffordd o adolygiad cyffredinol ar holl waith y cread, dywedir (*Gen*. ii. 19), "A'r Arglwydd Dduw a luniodd o'r *ddaiar* holl fwystfilod y maes, a holl ehediaid y nefoedd."

Mae amryw eiriau wedi cael eu defnyddio yn y Beibl Hebraeg i arwyddo adar; megys צפור (*tzippor*), yr hwn a arferir fel enw cyffredin i bob math o adar; ond a gyfyngir weithiau i adar y tô yn neillduol. עוף (*oph*), yr hedegydd; a gyfieithwyd yn "ehediad asgellog," (Seis. *fowl*), yn *Gen*. i. 21, ac mewn llawer o fanau ereill. עיט (*ait*), aderyn ysglyfaethus; a gyfieithwyd yn "adar," (Seis. *fowls*), yn *Gen*. xv. 11; *Iob* xxviii. 7; *Esa*. xviii. 6; *Ezec*. xxxix. 4: ond yn y Seisoneg, yn y ddau le olaf, darllenir "adar ysglyfaethus," (*ravenous birds*). Y mae ברברים (*barbwrim*) yn dygwydd yn 1 *Bren*. iv. 23 yn unig, ac wedi ei gyfieithu yn "ednod breision" (Seis. *fatted fowl*), gan arwyddo rhai wedi eu pesgi drwy borthiant dyfal.

Mae yn hysbys fod mwy o amrywiaeth rhywogaethau yn mhlith adar nag yn mhlith anifeiliaid. Mae y rhai olaf hefyd yn llawer mwy sefydlog a chartrefig nag ydyw yr ehediaid; y rhai, o herwydd hawsder eu hymsymmudiad, sydd yn alluog i wneuthur crwydriadau llawer mwy eang, ac i ymfudo hyd yn oed o un wlad i wlad arall, a hyny weithiau i ddirfawr bellder, a thros foroedd meithion, fel y mae yn hysbys fod rhai rhywogaethau o adar yn arfer gwneuthur ar wahanol dymmorau o'r flwyddyn. Hefyd, y mae adar, o ran eu dull o fywoliaethu, yn llawer mwy amrywiog nag ydyw anifeiliaid. Mae rhai adar yn preswylio yn gwbl ar y tir, a rhai o honynt hefyd yn dewis y tiroedd mwyaf anial a diffaeth; ereill yn hoffi y dwfr yn hytrach, ac yn byw gan mwyaf ar yr elfen hono; ereill drachefn yn medru amrywio eu dull, gan gymmeryd y tir a'r dwfr bob yn ail, a chwilio am eu cynnaliaeth o'r naill neu y llall, fel y dygwydd i ddamweiniau, neu eu tueddiadau, eu harwain.

Mae naturiaethwyr yn arfer defnyddio gwahanol ffyrdd i gydrestru amrywiol adar yn ddosbarthiadau. Weithiau yn ol natur eu hymborth:—megys, 1. Rhai yn dewis grawn yn lluniaeth; y cyfryw ag yw y rhai oll sydd wedi eu dwyn i agwedd ddofedig. 2. Rhai yn lladd creaduriaid ereill i ymborthi arnynt. 3. Rhai a ymborthant ar abwy neu furgynod. 4. Rhai yn ymborthi ar bysgod. Y naturiaethwr nodedig Linnæus a wahaniaethai adar yn chwe dosbarth, yn ol dull eu pigau:—sef, 1. Y dosbarth hebogaidd; y rhai y mae eu pigau yn fachog. 2. Y dosbarth piodaidd; sef y rhai sydd â'u pigau yn gcimion, ac heb fod mor fachog a'r rhai blaenorol. 3. Y dosbarth o ryw y gwyddau; â phigau llifddanneddog (*serrated*), fel y mae i'r hwyaid, ac ereill. 4. Y dosbarth cyffylogaidd; sef rhai â'u pigau yn grynion ac yn bwl. 5. Y dosbarth o ryw y golfanod (adar y to), â phigau blaenfeinion union. 6. Y dosbarth o ryw yr ieir, â phigau yn meinhau yn raddol ac ar osgo o'r bon i'r blaen. Mae Buffon wedi dosbarthu adar ysglyfaethus fel y canlyn:—1. Y dosbarth eryraidd; y rhai a laddant eu hysglyfaeth. 2. Y dosbarth fwlturaidd; a ymborthant ar furgynod. 3. Y dosbarth barcudaidd. 4. Y dosbarth hebogaidd. 5. Y dosbarth nosawl; y rhai a geisiant eu hysglyfaeth yn y tywyllwch: yr hwn ddosbarth sydd yn gynnwysedig, gan mwyaf, o wahanol rywiau o ddylluanod. Ac at y rhai uchod, efe a chwanega ddosbarth cymmysgryw o adar, y rhai, er meddu adenydd, ydynt analluog i ymddyrchafu uwch law y ddaiar, o'r hwn ddosbarth y mae'r estrys yn enghraifft arbenig.

**ADERYN AFLAN**. Y mae yn ymddangos ddarfod i Iehofah, er dechreuad y byd, roddi rhyw rybudd i ddynion, i'r perwyl o'u cyfarwyddo i ystyried yr holl greaduriaid, mewn golygiad moesol, yn wahaniaethol i ddau ddosbarth—yn cael ei ddynodi wrth yr enwau *glân* ac *aflan*. Ac y mae yn amlwg fod y gwahaniaeth hwn yn osodedig er dyddiau y cynfyd; canys er bod duwinyddion yn gyffredin yn gydsyniol eu tyb nad oedd dynolryw ddim yn arfer ymborthi ar gig creaduriaid yn flaenorol i'r dylif, eto, y mae yn eglur fod creaduriaid yn cael eu haberthu er mor fore a dyddiau Cain ac Abel. Ac ar yr un pryd, y mae seiliau digonol i gasglu fod Iehofah cyn foreued a hyny wedi amlygu i ddynion ryw reolau wrth ba rai yr oeddynt i ddeall pa rywogaethau o greaduriaid a fyddant yn gymmeradwy fel aberthau iddo ef, ac hefyd pa rai a fyddent anghymmeradwy. Ac er nad yw y rheolau hyny wedi eu coffäu yn yr Ysgrythyr, eto, oddi wrth y modd yr oedd yr Arglwydd yn gorchymyn i Noah (*Gen*. vii. 2, 3) mewn perthynas i'r gwahaniaeth yr oedd efe i'w wneuthur rhwng yr anifeiliaid a'r ehediaid glân ac aflan, y rhai yr oedd efe i'w cymmeryd i'r arch; ymddengys yn ddiammheuol fod y gwahaniaeth rhwng y rhai hyny yn ddigon hysbys i ddynion yn flaenorol. A'r un peth a ymddengys drachefn oddi wrth y modd yr oedd Noah yn gwahaniaethu rhwng anifeiliaid ac ehediaid glân ac aflan, pan yn dewis y rhai blaenaf yn unig i'w hoffrymu yn boethoffrymau ar yr allor, ar ei ddyfodiad allan o'r arch, wedi i'r dylif fyned heibio (*Gen*. viii. 20). A diau fod addolwyr cydwybodol y gwir Dduw, yn yr oesoedd dilynol, yn cadw eu golwg ar yr unrhyw reol yn newisiad y creaduriaid a aberthent.

Ond yn mhen rhyw ysbaid o amser wedi hyny, rhoddodd Iehofah i genedl yr Iuddewon, ar fynydd Sinai, gyfreithiau ysgrifenedig; ac yn y rhai hyny, penodid yn amlwg pa greaduriaid oedd i'w cyfrif yn lân, a pha rai yn aflan. Yr oedd yr holl anifeiliaid (heb eu dynodi i gyd wrth eu henwau) i gael eu gwahaniaethu, yn benaf, yn ol dull eu traed; a'r rhai glân a ddynodid yn mhellach wrth y nodweddiad o'u bod yn cnoi eu cil. Eithr i wahaniaethu rhwng adar glân ac aflan, nid oedd y nodau uchod yn ddefnyddiol;

Digitized by Google

a phed aethid i ddewis nodau i'r cyfryw berwyl, nid mor hawdd a fuasai cael allan rai digon crynodwl ac eglur i bob graddau o bobl, dysgedig ac annysgedig; dinesig a gwledig, fedru, wrth y nodau hyny, benderfynu pa chediaid a fyddent yn gyfreithlawn iddynt eu bwyta, a pha rai yn anghyfreithlawn. Felly, yn lle eu gwahaniaethu wrth eu hansoddau nodiannol, defnyddiwyd trefn amgen; sef rhoddi rhestr o enwau cynnefin yr holl rai aflan a gwaharddedig yn unig, heb ynganu dim am y rhai glân a chaniataol: oddi wrth yr hyn y gellir casglu fod yr holl adar anghrybwylledig yn y rhestr i'w golygu yn rhai cyfreithlawn i'r Iuddewon eu bwyta. A phan sylwer pa fath chediaid sydd heb eu henwi yno, canfyddir mai y cyfryw oeddynt ag sydd yn arferol o ddewis grawn, a phethau yn tyfu o'r ddaiar, yn ymborth; tra, i'r gwrthwyneb, y gwelir mai y rhai gwrthodedig oedd y fath ag a ymborthent ar adar, pysgod, neu ryw greaduriaid ereill, byw neu feirw; a'r cyfryw sydd yn gyffredinol yn meddu pigau ceimion, a chrafangau bachog, i ddal a rhwygo eu hysglyfaeth. Mae y rhestr grybwylledig o enwau yr adar aflan i'w gweled yn *Lef.* xi. 13—19, ac yn *Deut.* xiv. 12—18. Cynnwysa yn nghylch ugain o nifer. 1. Yr eryr. 2. Yr wyddwalch. 3. Y forwennol. 4. Y fwltur. 5. Y barcud. 6. Y gigfran. 7. Yr estrys. 8. Y frân nos. 9. Y gog. 10. Y gwalch. 11. Aderyn y cyrff. 12. Y fulfran. 13. Y ddylluan. 14. Y gogfran. 15. Y pelican. 16. Y biogen. 17. Y ciconia. 18. Y crŷr. 19. Y gornchwigl. 20. Yr ystlym. Yn awr, fel y mae yn hysbys fod llawer mwy o amrywiaeth yn mysg adar nag yn mysg anifeiliaid, felly, gellid tybio fod llawer math o adar aflan heb fod eu henwau yn gynnwysedig yn y rhestr uchod: eithr yn ngwyneb hyn, nis dylid anghofio am adar, eu bod yn ddosbarthedig i amrywiol lwythau, ac na chrybwyllir yn y rhestr ond megys enwau y rhai penaf o bob llwyth, a bod yr enwau hyny yn cymmeryd i mewn yr amrywiol deuluoedd cangenol o'r cyfryw lwythau, fel yr arwyddir drwy ddarfod chwanegu at yr enwau, yn awr ac eilwaith, y geiriau "yn eu rhyw," gan roddi ar ddeall fod yr holl gangenau o'r llwythau hyny i'w hystyried yn aflan fel eu gilydd.

Ond wrth droi yr Ysgrythyrau Hebreig i ieithoedd gwahanol wledydd, y mae yn amlwg fod y cyfieithwyr yn cael anhawsder dirfawr i ddewis enwau adar yn yr ieithoedd hyny yn cyfateb yn fanwl i'r enwau Hebreig, nid yn unig o ran gwir ystyr yr enwau ynddynt eu hunain, eithr hefyd o ran fod gwahaniaeth nid bychan rhwng adar y naill wlad a'r llall, ac felly rhwng rhai Gwlad Canaan a'r eiddo gwledydd ereill pell oddi yno. O herwydd hyny, y mae dysgedigion yn barnu fod llawer o'r enwau a ddefnyddiwyd yn y Beiblau Cymreig a Seisoneg heb gyfateb i'r enwau yn yr Hebraeg. Felly, yn ystod y gwaith hwn, ceir crynoad o sylwadau yr awdwyr goreu ar y gwahanol enwau yn y rhestr yn eu lleoedd priodol yn ol trefn y wyddor, at ba rai y cyfeiriwn y darllenydd.

Diau fod pob un o'r ehediaid, y rhai yr oedd y gyfraith seremonïol yn eu gwahardd yn ymborth, i'w golygu yn gynnwysedig dan y cyfenwad o "aderyn aflan." Ond yn y fan o'r Ysgrythyr lle y crybwyllir y cyfenwad hwn yn fwyaf arbenig, sef yn *Dad.* xviii. 2, cyfeirir yn benaf at y cyfryw adar ag a arferent gyrchu i leoedd anrheithiedig ac anghyfannedd, megys y lle y safai Babilon Galdeaidd gynt, i gwymp yr hon yr oedd yr apostol yn y lle uchod yn cyffelybu cwymp Babilon Anghristaidd; ac ymddengys ei fod ef yn benthyca ymadroddion oddi wrth y rhai a ddefnyddid gan y prophwydi, pan fyddent yn darlunio cwymp ac anghyfannedd-dra dilynol y Fabilon Galdeaidd, megys yn *Esa.* xiii. 20—22; a xiv. 23; *Ier.* l. 39, lle y dywedid y byddai y tai yn llawn o ormesiaid (Seis., *doleful creatures*), cywion yr estrys, ellyllon, cathod, aderyn y bwn, &c. Eithr gan fod yr apostol yn llefaru gyda chyfeiriad at bethau ysbrydol, diau mai mewn ystyr cyffelybiaethol yr oedd efe yn crybwyll am adar, yn enwedig gan ei fod yn eu cyssylltu hwynt â "chythreuliaid" ac "ysbrydion aflan;" y cwbl, ysgatfydd, yn cyfeirio at eilunddelwau a gau athrawon Babilon anghristaidd.—(Gwel *Vitringa* a *Lowman*, ar *Dad.* xviii. 2.)

ADERYN BRITH: *Ier.* xii. 9. Nid oes cyfeiriad yma at ryw un dosbarth o adar amryliw, ond yn unig at adar brithion perthynol i unrhyw ddosbarth; a'r meddwl ydyw, fod yr Eglwys Iuddewig, trwy ei bod yn coleddu ysbryd eilunaddolgar ac erlidgar, wedi myned yn debyg i aderyn brith, yr hyn a barai i Dduw edrych arni fel rhyw anghenfil gwrthun. Rhai a farnant fod y gymhariaeth hon yn cael ei defnyddio o herwydd fod yr eglwys wedi mabwysiadu gwahanol eilundduwiau y Cenedloedd o'i hamgylch, ac felly, yn debyg i aderyn brith. Ereill, o herwydd ei bod wedi erlid a lladd y prophwydi; ac felly, wedi britho ei hun, fel aderyn ysglyfaethus, â'u gwaed. Nid annhriodol i egluro hyn ydyw "Chwedl y Frân a'r Colomenod."

ADERYN Y BWN, ADERYN Y BWMP, BWMP Y GORS, [Seis., *bittern;* Ffr., *butor;* Ll., *botanrus stellaris*, neu yn ol Linnæus, *arden stellaris*]. Dosbarth o adar perthynol i'r *grallatores* (hirgoesogion.) Y mae aderyn y bwn o ddeutu dwy droedfedd a hanner o hyd. Y mae ganddo wddf hir, coesau hirion, a chynffon fer. Y mae ei ylfin yn bedair modfedd o hyd, o liw llwyd. Y mae y plu ar ei wddf a'i fron yn hir a llaes. Ei liw ydyw melyn-goch, wedi ei fritho â rhesi a brychau duon, ac y mae ei fochau a'i goryn yn ddu. Ei ymborth yw pysgod, llyffaint, ac ymlusgiaid. Ei gartrefle yw y corsydd, yn mysg y corsenau a'r brwyn; ac yno y gwna ei nyth, yr hwn a gyfansoddir o gorsenau. Bydd yn dodwy yn gyffredin bump o wyau, o liw llwyd-wyrdd: eistedd arnynt 26ain o ddyddiau. Bydd yn ymguddio yn ddystaw trwy'r dydd yn y glaswellt a'r brwyn, a chyda'r nos, try allan i chwilio am ymborth; ac weithiau ar ei ddyfodiad allan o'i ymguddfa, y peth cyntaf a wna fydd ehedeg i fyny yn raddol nes cyrhaedd uchder mawr, ac nes y collir ef o'r golwg yn lân. Mae yn debyg mai ei waith yn ehedeg mor uchel a bwrcasodd iddo yr enw ardderchog *ardea stellaris* (cyrchydd y ser). Ond nid oes dim perthynol i'r aderyn hwn yn ei hynodi gymmaint a'i lais, yr hwn sydd debyg i frefiad tarw; ac a elwir gan Dryden, "*bumping*," a chan Goldsmith, "*booming*:"—

> "At evening o'er the swampy plain
> The bitterns' boom come far."

ac mae'n debyg mai o herwydd y cri hwn y gelwir ef genym *aderyn y bwn*, *aderyn y bwmp*. Parai llef aderyn y bwn ddychryn cyffredinol trwy gymmydogaeth gyfan gan mlynedd yn ol, o blegid ystyrid hyny yn arwydd sier o farwolaeth rhyw un yn dra buan; ac os byddai rhyw un farw, dy-

Digitized by Google

wedai y bobl, "Pa fodd y gallasem ddysgwyl dim yn amgen; oni ddarfu y fran nos ein rhybuddio?"

Y mae yn gwestiwn a oes rhai o'r adar hyn yn Mhrydain yn awr; os oes, diau eu bod yn dra anaml. Ond yn amser Harri VIII, yr oeddynt yn lluosog yma, ac yn cael eu prisio yn fawr o blegid y pleser a geid yn eu hela, a'r blas hefyd a geid ar eu cig.

Sonir am aderyn y bwn yn yr Ysgrythyrau: *Esa.* xiv. 23; "Gosodaf hi yn feddiant i aderyn y bwn." Cyfieithir yr un gair (Heb. *cippod*) yn *Esa.* xxxiv. 11, yn "draenog," ac yn *Zeph.* ii. 14, yn "dylluan;" ac yn Seis., *bittern* yw y gair yn y tri lle; ond Lowth ac ereill a ddarllenant *porcupine.* Y mae yn debyg nad aderyn a feddylir wrth y gair Heb. *cippod*, ond math o ddraenog, a elwir yn awr gan yr Arabiaid *canqfud*, yr hyn sydd debyg iawn i lygriad o'r gair Heb. *cippod.*—*(Bochart; Gesenius; Robinson's Travels in Palestine; Keith's Land of Israel.)*

**ADERYN Y CORFF.** Gwel DYLLUAN.

**ADERYN Y TO,** [צִפּוֹר; Gr. *στρουθίον*]. Ceir y gair yn y cyfieithiad Cymraeg yn y lleoedd canlynol:—*Lef.* xiv. 4; *Salm* lxxxiv. 3; *Mat.* x. 29; *Luc* xii. 6, 7. Cynnwysa y gair gwreiddiol, nid yn unig aderyn y tô, ond yr holl rywogaeth o adar mân, yn enwedig y rhai a ystyrid yn lân a chyfreithlawn eu bwyta dan y gyfraith; o blegid y mae yr un gair yn fynych yn cael ei gyfieithu "aderyn" ag a gyfieithir mewn manau ereill yn "aderyn y tô;" ac yn *Gen.* vii. 14, cyfieithir ef "aderyn o bob rhyw." Y mae y gair Hebraeg *(tsippor)* yn ddynwarediad o leisiad adar mân, ac yn gyfystyr â'r gair Seisoneg *chirrup.* Ond y mae yn angenrheidiol sylwi nad yw yn golygu y rhai a ymborthent ar wybed, na'r gwennoliaid; y rhai a restrir, fel y tybir, gyda'r hebogiaid a'r brain, yn mhlith rhywogaethau aflan a gwaharddedig y gyfraith. Y mae aderyn y tô yn Syria yr un mor hirhoedlog, bywiog, a chyfeillgar ag yw yn ein gwlad ni, a thâl ymweliad mynych â thai y preswylwyr.

Defnyddir "aderyn y tô" yn *Salm* cii. 7, fel arwyddlun o unigrwydd, gofid, a phryderwch;—"Gwyliais, ac ydwyf fel aderyn y tô, unig ar ben y tŷ." Ac yn *Mat.* x. 29, arferir ef gan ein Iachawdwr i arddangos manylrwydd gofalon rhagluniaeth—ei bod yn gwylio dros, ac yn gofalu am, y creaduriaid mwyaf distadl a diwerth; pa faint mwy dros y rhai a "dalent fwy na llawer o adar y tô."—*(Kitto's Bib. Cyc.)*

**ADESSENARIAID.** Yn Niwygiad Protestanaidd yr Almaen, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, wrth yr enw hwn yr adwaenid y rhai a gredent wir bresennoldeb corff a gwaed Crist yn elfenau Swper yr Arglwydd. Tardda o'r gair Lladin *adesse*—bod yn bresennol. Yr enw cyferbyniol oedd, *Sacramentariaid*, wrth yr hwn yr adwaenid y rhai a wadent y gwir bresennoldeb yn yr elfenau. Dadl boeth, boenus, a thrychinebus, oedd y "Ddadl Sacramentaraidd" yn mhlith y diwygwyr Almaenaidd. Dyma ei hanes: hen fympwy yr Eglwys Babaidd yw traws-sylweddiad; hyny yw, bod yr elfenau ar a thrwy gyssegriad yr offeiriad, sef ei waith yn dywedyd, "*Hoc est corpus meum*" ("hwn yw fy nghorff"), yn cael eu trawssylweddu i wir gnawd, gwaed, corff, enaid, a duwdod Iesu Grist; ac nad oes y gronyn lleiaf o'r elfen na'i phriodoliaeth yn aros, oddi eithr ei gweledigrwydd, ar ol ei chyssegriad; ac mai gwir gorff sanctaidd Crist ydyw (cedwir ef yn y *pix*)' tra y bydd heb ei fwyta. Dyfynir tadau yr Eglwysi Groegaidd a Lladinaidd o blaid y mympwy; ac, fel mewn dadleuon Cristionogol ereill, dyfynir hwy yn ei erbyn, nid yn unig trwy ddyfynu y naill dad yn erbyn y llall, eithr yr un, megys St. Hilary, yn erbyn ei hunan. Ac ymddengys ar y cyfan, fod y "ser bore" hyny wedi ysgrifenu mwy yn ymarferol, dylanwadol, a chymhwysiadol, nag yn athrawiaethol, mympwyol, ac ymchwiliadol ar y pwnc. Yn y canrifoedd cyntaf, nid oedd dirgelwch y mympwy yn cynhyrfu myfyrdod offeiriad, mynach, nac esgob; yn unig cynhyrfid rhyw orbarch rhyfeddol i'r Swper Sanctaidd: a'r teimlad hwn, wrth gwrs naturiaeth, a gynnoai addurniadau, fel eu tybid, o gylch yr ordinhad. Yn y bedwaredd ganrif, rhoddwyd bara cyffredin o'r neilldu, a darparwyd torth deneu, lechweddog, briodol i'r cymun; yr hon, rhag colli y tamaid lleiaf, a dorid â chyllell yn dameidiau cyfartal yn ol rhif y cyfranogwyr. Erbyn diwedd y chweched ganrif, yr oedd yr addurniadau parchedigol hyn wedi cynnyddu i'r fath raddau, fel y bu i Gregory Fawr (Gregory I.) gyssylltu yr offeren (gwel OFFEREN) â'r cymun. Ac ystyriwyd y gweinyddiad yn offrymiad aberth dros y byw a'r meirw. Tua chanol y nawfed ganrif, bu i abad o Corbey, yn Ffrainc, o'r enw Paschasius Radbert, ysgrifenu dros draws-sylweddiad; ac efe a wrthwynebwyd gan fynach o'r un lle, o'r enw Ratramn neu Bertram. Gwnaeth y ddadl gynhwrf ar y pryd, canys yr oedd yr ysgrifenwyr yn ddysgedig a doniol. Gwyddel dysgedig hefyd, o'r enw Joannes Scotus Erigena, cyfaill i Siarl Foel o Ffrainc, ac i Alffric o Loegr (y rhai a ddywedent mai nid yr un person oedd cyfaill Alffric), a ysgrifenodd yn erbyn y pwnc yn y rhan ddiweddaf o'r ganrif hon. Bu yr unfed ganrif ar ddeg yn enwog am y ddadl hon. Yn y flwyddyn 1004, Leutheric, Archesgob Sens, yn Ffrainc, a ysgrifenodd mai y gwir gredinwyr yn unig oedd yn bwyta corff Crist yn y Swper. Ac yn y flwyddyn 1045 y gwisgodd y cawr Berengarius ei arfogaeth yn erbyn traws-sylweddiad. Canon a meistr yr ysgol yn Tours, ac wedi hyny archddiacon Angers yn Ffrainc oedd y gŵr hwn. Cyfrifid ef yn ŵr duwiol a thra dysgedig; ac yr oedd yn athronydd hefyd. Cynhyrfwyd yr holl eglwysi gan ei ysgrifeniadau; a'r pab Leo IX. a gynnullodd ddau gynghor, un yn Rhufain, a'r llall yn Vercelli, yn ei erbyn. Ac yn yr un flwyddyn, 1050, brenin Ffrainc a gynnullodd gynghor yn Paris i'r un dyben; ond nid oedd modd attal Berengarius. Yn y flwyddyn 1054, y pab Victor II. a gynnullodd ddau gynghor yn Tours er ei ddystewi; ac fe orfuwyd arno am dro. Ond buan y dechreuodd ddysgu yr un syniad (mai arwyddion yn unig oedd yr elfenau) drachefn. Y pab Nicholas II, yn y flwyddyn 1059, a'i galwodd o flaen cynghor yn Rhufain; a thrwy fygythiadau, &c., dadgyffesodd eilwaith. Ond pan ddychwelodd i Ffrainc, aeth ati gydag aidd adnewyddol i ddysgu ei gred ar y pwnc; a'i ddysgyblion a gynnyddasant yn ddirfawr. Y pab Alexander II, ni feiddiodd gan bleidwyr Berengarius ei alw i gyfrif; yn unig rhybuddiodd ef drwy lythyr i beidio cynhyrfu yr eglwys. Gregory VIII (Hildebrand), gŵr a fynai blygu neu dori bob peth a ddeuai yn ei erbyn, oedd y nesaf a ddaeth i dawelu y ddadl; canys yr oedd Lanfranc, Archesgob Caergaint, ac ereill, yn ymosod yn ffyrnig ar Berengarius, ac yn galw am ei ddyfetha. Gwysiwyd ef o flaen cynghor i Rufain yn y flwyddyn 1078; cafwyd ganddo

Digitized by Google

arwyddo gosodiad amwysol ar y pwnc er mwyn heddwch. Eithr ni foddlonid ei elynion heb iddo brofi ei gywirdeb drwy ymaflyd mewn haiarn gwynias; ac os na losgai hwnw ei law, credent ei fod yn gywir. Ni fynai Hildebrand ddarostwng yr athronydd i'r fath ffolineb; gan hyny, galwodd gynghor eilwaith yn y flwyddyn 1079, a chafodd gan Berengarius arwyddo gosodiad mwy cadarn, fel y tybid; a chan ddangos iddo bob caredigrwydd, anfonodd ef adref i Ffrainc. Cyn gynted ag y cyrhaeddodd yno, ysgrifenodd lyfr yn condemnio ei ymddygiad yn Rhufain, ac yn dysgu ei gred ar y pwnc. Hildebrand, yr hwn a addefai fod barn Berengarius yn ysgrythyrol ar y pwnc, ond fod y Forwyn Fair wedi ei rybuddio i beidio âg aflonyddu yr eglwys, a'i cynghorodd i ymdawelu; yr hyn, er bod Lanfranc, Guitmund, ac ereill, yn ymosod arno, a wnaeth. A chan gilio i ynys St. Cosme, treuliodd ddiwedd ei oes mewn myfyrdod, a bu farw yn y flwyddyn 1088. Tua'r pryd hyn, er mwyn dirymu dylanwad heresi Berengarius, y sefydlwyd "Dyrchafiad yr Aberth" (*Elevation of the Host*), yn y cymun. Yn y ddeuddegfed ganrif y bu Peter Waldo a'i ganlynwyr yn cynhyrfu y ddaiar am symlrwydd yr efengyl ar y pwnc hwn, yn nghyd â phynciau ereill. Yn y drydedd ganrif ar ddeg, er i'r pab Innocent III, yn nghynghor Lateran, 1215, osod traws-sylweddiad yn mhlith pynciau cyhoeddus yr eglwys, eto i gyd beiddid ei ammheu, a dadleu yn ei erbyn: a'r gŵr a wnaeth fwyaf o gyffro yn y pwnc oedd John o Paris, yr hwn a elwid Joannes Pungens Asinum (Ioan Symbylwr Asyn). Wickliffe a'r Lollardiaid yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a gynhyrfasant y pwnc, ac am gael y ddwy elfen yn y cymun. Yr oedd y cwpan wedi ei golli o hono, gan ei bod yn afreidiol yn ol athrawiaeth traws-sylweddiad; o herwydd fod holl gorff Crist, cnawd a gwaed, yn barod yn yr arlladen; ac am fod yn beryglus colli dyferion o'r gwaed gwerthfawr wrth drin y cwpan. Yn y bymthegfed ganrif y bu John Wessel Basilius—gŵr o Groningen, ac a fu byw yn Paris am flynyddoedd, yr hwn oedd dra dysgedig, yn Blatoniad, ac yn gredwr anymddibynol yn y Beibl—yn taranu yn erbyn y mympwy Pabyddol hwn. John Huss hefyd a'i ganlynwyr a drinent yr un pwnc, ac a gawsant y cwpan yn ol gan gynghor Bâsle. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn y flwyddyn 1519, yn mis Rhagfyr, y bu i Luther gyhoeddi ei bregeth ar Swper yr Arglwydd. Ac yn nechreu y flwyddyn ganlynol, atebwyd ef gan John Eck, canghellydd Ingolstadt. Traws-sylweddwr oedd Luther ar y pryd; ac amcan ei bregeth oedd dwyn y swper i'w symlrwydd cyntefig. Yr oedd afresymoldeb y pwnc, ac afreoleiddiwch gweinyddiad y cymun wedi dwyn sylw y diwygwyr yn gynt. Yn y flwyddyn 1513, yr oedd Conrad Pelican, a Wolfgang Fabricius Capito, wedi dadguddio eu meddyliau yn gyfrinachol i'w gilydd ar y pwnc. Yn 1513, gŵr o Holland, cyfreithiwr, cyfaill i Erasmus, o'r enw Cornelius Hoen, pan yn garcharor am ei ymlyniad wrth yr efengyl, a ganfyddodd yn mhlith llyfrau James Hock, deon Nealdwick—hen gyfaill i John Wessel—amryw draethodau o waith y gŵr hwn, ac yn eu plith draethawd ar y swper: gan farnu y gwnaent les ar y pryd, cyflwynodd hwy i'w gyfeillion. A dau o honynt, John Rhodius, llywydd brawdoliaeth Utrecht, a George Saganus, a gymmerasant daith i Wittenberg er cyflwyno y traethawd i Luther. Yr oedd Andrew Carlstadt, cyfaill Luther, yn dygwydd bod gydag ef ar y pryd yr ymddangosodd y gwŷr o Holland o'i flaen. Atolygodd Rhodius arno dderbyn a phleidio golygiadau pen duwinydd y ganrif o'r blaen, i goffadwriaeth yr hwn y proffesai gymmaint parch. Carlstadt a ddymunodd yr un peth, gan erfyn arno ysgrifenu yn erbyn y pwnc o fwyta yn naturiol gnawd Crist, ac egluro ystyr ysbrydol yr ordinhad. Luther, gan ysgwyd ei ben, a wrthododd. Ar hyny, Carlstadt a ddywedodd, "Wel, gan hyny, er fy mod yn llawer mwy anghymhwys, myfi a'i gwnaf." A dyna ddechreu y ffrae rhwng y ddau ddiwygiwr hyn. Bu hyn yna yn y flwyddyn 1520. Cymmerodd y ddau ddiwygiwr eu sefyllfaoedd gwrthwynebol. Luther *gyd*-sylweddiad yn lle *traws*-sylweddiad, a Carlstadt yr ystyr ysbrydol. Luther a eglura ei *gyd*-sylweddiad, drwy ddyweyd er na throisid yr elfenau i gorff Crist, eto i gyd, fod Crist yn *wir* bresennol yn yr elfenau, trwy nerth ei orchymyn ei hun, yn dywedyd, "Hwn yw fy nghorff," yn debyg i gleddyf yn y wain, enaid yn nghorff dyn, neu dân mewn haiarn gwynias. Carlstadt a ddywedai mai arwyddion oedd yr elfenau; a bod Crist, pan yn dywedyd, "Hwn yw fy nghorff," wedi cyfeirio â'i fys at ei gorff, yn yr un modd ag yr esboniai Luther y geiriau, "Ti yw Pedr; ac ar y graig hon"—gan gyfeirio ato ei hun â'i fys: a dywedai mai yn y *cof* yr oedd Crist gan y cyfranogydd: "Gwnewch hyn er *cof* am danaf." Y ddau hyn, ar ol eu derbyniad hanner croesawgar yn Saxony, a droisant eu hwynebau tua Switzerland, ac a gyrhaeddasant at John Œcolampadius, diwygiwr Bâsle, yn y flwyddyn 1521. Hwn a'u derbyniodd gyda mynwes agored; ond gan ei fod yn ŵr o dymmer heddychol, ac yn ofni peri anghydfod rhwng y diwygwyr, efe a'u hanfonodd at Zuinglius i Zurich. Cawsant y derbyniad mwyaf caredig yno hefyd. Ac wedi ymddyddan llawer ar y swper, hwy a roddasant lythyr Cornelius Hoen, yn nghyd â thraethawd John Wessel, i Zuinglius. Gŵr wedi ei fagu yn egwyddorion gweriniaethol William Tell, a myfyriwr diduedd yr Ysgrythyrau drosto ei hun, heb ofalu am draddodiadau eglwys, na thadau, oedd Zuinglius; felly yn hollol wahanol yn ngogwyddiadau ei feddwl, heb law yn ei dymmer naturiol, i Luther, yr hwn oedd ddefodwr (*conservative*) ystyfnig, a phleidiwr ffyrnig i lywodraeth offeiriadol yn yr eglwys. Modd bynag, er i Zuinglius lyncu mympwy Hoen a Wessel yn ddibetrus, fe gytunodd â'i gyfaill Œcolampadius i beidio cyfodi terfysg yn mhlith y diwygwyr. Yr oedd Carlstadt, ar y pryd, yn ymdrechu symleiddio y swper, a difodi y delwau o'r eglwysdai yn Wittenburg; a chan fod Luther yn wrthwynebydd ffyrnig iddo yn y ddau bwnc, efe, yn nechreu y flwyddyn 1524, a giliodd, heb ddywedyd wrth un dyn, i Orlamund. Yma, aeth â'i waith yn mlaen yn ogoneddus. Luther a ddaeth yno gydag awdurdod ail i archesgob, i'w wrthwynebu a'i ddarostwng. Safodd Carlstadt yn wrol, a dywedodd wrth Luther, y byddai iddo ei wrthwynebu ar air ac ysgrif, tra y byddai gair Duw o'i du. Synodd Luther, a dywedodd, "Beth! gwrthwynebu fy ngolygiadau i!" Aeth yn adgas rhyngddynt; a Luther, gan dynu *florin* aur o'i logell, a'i heriodd i'r ornest. Carlstadt a'i derbyniodd; a chan ei phlygu, fel y byddai hynod, rhoddes hi yn ei logell fel gwystl o'r antur. Ond awdurdod Luther oedd drechaf yn Saxony; a bu raid i Carlstadt ffoi i Strasburg, ac oddi yno i Bâsle. O'r fan hon y cyhoeddodd Carlstadt ei draethawd cyntaf. Luther a ysgrifenodd at y Strasburgiaid yn ei erbyn. Capito a Bucer a ysgrifenasant

Digitized by Google

*yn ol o sefyllfa adfeiliedig i'w gyflwr cyntefig.* Defnyddia Josephus ef am adferiad Israel trwy law Zorobabel [*Hynaf.* xi. 3, 8; iv. 6]. Ni ddefnyddir y sylweddair ond unwaith yn y Testament Newydd—yn yr ymadrodd, "amseroedd adferiad pob peth." Y mae yr ymadrodd blaenorol, ac "amseroedd i orphwys," yn gyfystyr, ac y mae y gystrawen ramadegol yn gofyn cyfeirio y ddau at yr amser dyfodol. Mae yr ymadrodd, "amser y diwygiad" (*Heb.* ix. 10), yn lled debyg. Mae yr ymadrodd yn arwyddo gwaith Crist, trwy ei allu prynedigol, yn dwyn yn ol, neu yn adferu, y greadigaeth gwympiedig i gyflwr o burdeb. Yr un syniad sydd yn yr adnodau canlynol; *Rhuf.* viii. 19; *Dad.* xxi. 1; 2 *Pedr* iii. 13. Defnyddir y ferf amryw weithiau, a chymhwysir hi at adferiad corfforol, a chyfieithir hi, "gwneyd yn iach;" *Mat.* xii. 13; *Luc* iv. 10: "cael ei olwg;" *Marc* viii. 35. Defnyddir hi hefyd mewn ystyr ysbrydol neu foesol: *Act.* i. 6; "Ai y pryd hwn y *rhoddi drachefn* y freniniaeth i Israel,"—adferu y freniniaeth. Cymhwysir y gair yn fynych at adferiad teyrnas neu lywodraeth, gan awgrymu hefyd ryw wellâd ar y sefyllfa gyntefig. Yr oedd yr apostolion yn credu yr adferai Crist deyrnas Iudah i'w gogoniant blaenorol; ond gyda hyny, efallai, y meddylient am gyssylltiad teyrnas ysbrydol â hi yn ol y prophwydoliaethau; *Esa.* i. 26; ix. 7; *Ier.* xxiii. 6; xxx. 15—17; *Dan.* vii. 13. Yr un gair a ddefnyddia y Deg a Thrigain yn y manau canlynol; *Ier.* xvi. 15; xxiv. 6; l. 19. Cyfieithir y gair yn *Mat.* xvii. 11, "edfryd;" "Elias yn wir a ddaw yn gyntaf, ac a *edfryd* bob peth"—a adfera bob peth. Esbonia *Mal.* iv. 6, pa beth fyddai hyn, sef, "troi calonau y tadau at y plant, a chalonau y plant at y tadau." Fel yr oedd Elias y Thesbiad yn ddiwygiwr ar foesau y genedl, y byddai Ioan "yn ysbryd a nerth Elias" yn gwrthsefyll y ffrwd o lygredigaeth ac anulirefu pechadurus, gan adferu yn eu lle sefyllfa o drefn. Ond ymddangosai Crist fel Creawdwr, i greu trefn newydd yn y byd ysbrydol. Gan fod Elias y brophwydoliaeth i edfryd neu adferu pob peth, pan y deuai; y mae yn rhaid, gan hyny, nad efe oedd yr hwn a ymddangosodd gyda Moses ar y mynydd, ac a ddiflanodd yn ebrwydd; ac fel prawf o hyny y dygir y geiriau i mewn.

Defnyddir y gair mewn moesddysg am weithred o gyfiawnder, trwy yr hon yr adferir i'n cymmydog yr hyn a ddarfu i ni yn anghyfiawn ei amddifadu o hono: *Exod.* xxii. 1; *Luc* xix. 8.

Y mae adferiad, ad-daliad, neu iawn, bob amser yn rhagdybied cam neu niwed, ac yn flaenaf yn golygu meddiant bydol; ond nid hyny yn unig ac yn benaf, yn gymmaint ag y dichon dynion wneyd cam â'u gilydd yn eu personau a'u henwau da yn gystal a'u meddiannau.

Yr oedd mesur a chyfartalwch adferiad dan y gyfraith farnol yn amrywio yn ol natur a graddau y camwedd. Mewn rhai amgylchiadau, yr oedd adferiad llawn o'r hyn a gamattaliwyd yn ddigonol, heb ddim yn ychwaneg: gwel *Exod.* xxii. 5, 6, 12. Yn achos lladrad, os creadur byw fyddai, ac os ceid ef yn meddiant y lleidr, yr oedd addaliad dwbl yn ofynol; *Exod.* xxii. 4: eithr os ceid ef wedi ei ladd, neu ei werthu, rhaid oedd i'r ysbeilydd ei dalu yn ol ar ei bummed, os ych fyddai; ac ar ei bedwerydd, os dafad fyddai; *Exod.* xxii. 1. Mewn amgylchiadau ereill, yr oedd adferiad llawn o'r hyn a gamattaliwyd yn ddigonol, yn nghyd â chwanegiad o'r bummed ran ato, ac aberth dros y camwedd i'r Arglwydd: *Lef.* vi. 1—7. Ond nid oedd y deddfau hyn yn rhwymo ond Israel yn unig dros amser terfynedig—hyd oni ddelai yr hâd.

Sylwa ysgrifenwyr ar hyn yn nghylch adferiad —1. Bod y golled i gael ei gwneyd i fyny, os gellir, mewn rhyw, neu bod y niwed a wneir i gael ei brisio, a'n bod i adferu y *peth* neu y *gwerth.* 2. Ein bod yn rhwym i ddychwelyd y peth, yn nghyd â'i gynnyrch naturiol, fel iawn am y golled a wnaethom ar y pryd, a'r elw a attaliasom. 3. Pan nas gellir dychwelyd y peth, a'r gwerth yn ansicr, ein bod i roddi boddlonrwydd rhesymol. 4. Ein bod i wneyd, mewn ffordd o adferiad, yr hyn a ofynir gan y gyfraith o'r hyn lleiaf, am fod hyny yn gyffredin yn gyfartaledd; ac yn y rhan amlaf o amgylchiadau, yn fwy tirion na chaled. 5. Nad yw dyn yn rhwym yn unig i wneyd adferiad am y cam a wnaeth, ond hefyd am holl ganlyniadau uniongyrchol y weithred gamweddus. Pan fyddo y niwed cyntaf yn cael ei wneyd yn wirfoddol a bwriadol, ystyrir y niweidiwr yn ewyllysio holl ganlyniadau naturiol y weithred niweidiol hono.

Mesur a chyfartalwch moesol adferiad ydyw, bod i'r hwn a wnaeth y cam ddychwelyd (os bydd hyny yn alluadwy) yr hyn a gymmerodd, neu a gamattaliwyd, yn llawn, neu yn ei ryw a'i gyfiawn log; ac os bydd hyny yn analluadwy, bod iddo gyfaddef ei fai, galaru o'i herwydd, a gwneyd yr iawn neu y boddlonrwydd goreu a allo am ei gamwri. Gwel *Exod.* xxii. 16, 17.

Dylid sylwi hefyd, na ddylai cywilydd attal neb rhag adferu yr hyn a gamattaliwyd i'w gyfiawn berchen—anrhydedd yw gwneuthur cyfiawnder. Heb law hyny, nid oes galwad i'r adferwr wneyd ei hun yn adnabyddus i gyfiawn berchen y peth. os gall ei adferu yn effeithiol heb hyny; y mae gwneyd hyny yn ddirgel yn ateb yr un dyben.

ADFERIAID. Y rhai sydd yn credu yr adferir holl ddynolryw i ddedwyddwch yn y diwedd; nad yw sefyllfa o brawf yn terfynu yn angeu, nac ychwaith yn y farn. Credant mewn adgyfodiad, a barn gyffredinol, pryd y bydd y rhai a iawn ddefnyddiasant eu manteision ar y ddaiar yn cael eu dyrchafu i ddedwyddwch uwch; a'r rhai a fuant feirw yn anedifeiriol a ddeuant allan i warth a chospedigaeth, ond nad yw eu cospedigaeth ond moddion a ddefnyddir gan Grist i'w harwain i edifeirwch. a phan y dybeno y ddysgyblaeth lem hon yn eu dychweliad, am yr hyn y tybir nad oes ammheuaeth, fe'u hadferir i wynfyd y nef. Golygir fod yr athrawiaeth hon yn tarddu yn naturiol o briodoliaethau Duw, yn enwedig ei gariad cyffredinol, yr hwn nis gall ewyllysio llai; a'i hollalluogrwydd, sydd ddigonol i'w gyflawnu, a'i ddoethineb, yr hwn a dreinai y cynllun eangaf. Sylfaenir hi hefyd ar farwolaeth Crist dros bob dyn. Haerant hefyd nad yw y gair *tragywyddol* ddim yn arwyddo tragwyddoldeb yn ei gyssylltiad â thrueni yr annuwiol; ond amser terfynol yn unig, fel y defnyddir ef yn fynych yn yr Hen Destament i osod allan barhad yr oruchwyliaeth Iuddewig. Tybir fod yr adnodau canlynol yn ffafrio yr un golygiad: *Gen.* xii. 3; xxii. 18; *Gal.* iii. 8; *Phil.* ii. 10, 11; *Dad.* v. 13; 1 *Tim.* ii. 1—6; *Eph.* i. 7—11; *Rhuf.* v. 12—21; viii. 20, 21; 1 *Cor.* xv. 24—28. Mae y syniadau uchod wedi eu mabwysiadu gan Unitariaid yn lled gyffredinol yn bresennol gan rai o ysgrifenwyr yr Almaen, ac hefyd gan rai yn yr America. Ffurfiwyd cymdeithas yn y flwyddyn 1785, yn America, i roddi arbenigrwydd iddynt, a defnyddiwyd Adferwyr a Chyffredinolwyr (*Restorationists* ac

Digitized by Google

*Universalists*) yn ddiwahaniaeth i'w dynodi. Ond yn fuan, aeth rhai o aelodau y cyfundeb i wadu cospedigaeth mewn byd arall yn hollol. Cymmerodd y blaid hon yr enw *Cyffredinolwyr;* gan haeru fod cosp berffaith am bechod yn cymmeryd lle yn y byd hwn, a'r fynyd yr ä yr annuwiol drwy angeu, y bydd mor sanctaidd a hapus a'r angelion. I hyn yr ateba yr Adferwyr—fel y gelwir y blaid wrthwynebol, ar ol yr ymraniad—mai i angeu, gan hyny, ac nid i Grist, y mae iachawdwriaeth i'w phriodoli.

ADFESUR, [*ad—mesur*]. Ail fesur; mesur drachefn. "Ac â pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau;" *Mat.* vii. 2. Llefara yr Arglwydd Iesu yma, nid yn erbyn iawn farnu personau ac ymddygiadau, ond yn erbyn barnu yn fyrbwyll; barnu pan nad oes genym y manteision angenrheidiol i wneyd hyny yn gywir, a phan y mae y meddwl dan ddylanwad rhagfarnau. Yr hwn a fesura bersonau ac ymddygiadau mewn modd annheg, adfesurir iddo yntau—cymmerir yr un safon i'w fesur wrtho ag a gymmerodd ef i fesur ereill.

ADFYD, [*ad—byd*]: blinder; helbul.

"Adfyd pob hir dristwch."—*Diar.*

Ein dyledswyddau mewn adfyd ydynt, gwrolder; *Diar.* xxiv. 10: ystyriaeth; *Preg.* vii. 14: cydnabyddiaeth o Dduw; *Diar.* iii. 6: ymostyngiad; 1 *Sam.* iii. 18: a gweddi; *Iago* v. 13.

ADFYWIAD CREFYDDOL. Gwel DIWYGIAD CREFYDDOL.

ADGENEDLIAD. Gwel AILENEDIGAETH.

ADGYFODIAD CRIST. Gwel CRIST.

ADGYFODIAD CYFFREDINOL. Mae yr ymadrodd *adgyfodiad o feirw*, yn yr Ysgrythyrau, yn gystal ag mewn ysgrifeniadau anysbrydoledig, yn golygu, trwy droelleg,—1. Rhyddhâd personau neu genedloedd o gyfyngder a chaethiwed; *Ezec.* xxxvii. 12, 13; *Hos.* vi. 1, 2; 1 *Cor.* i. 9, 10. 2. Bywhâd ysbrydol pechaduriaid trwy eu haileni; *Eph.* ii. 1—5; *Col.* iii. 1:—neu eglwysi trwy eu deffroi, eu llwyddo, a'u lluosogi: *Esa.* xxvi. 19; *Dad.* xx. 6. 3. Adgyfodiad personau neillduol o feirw dros amser; 2 *Bren.* iv. 18, 38; *Ioan* xi. 1—44:—neu adgyfodiad cyffredinol y meirw y dydd diweddaf; 1 *Cor.* xv. Yn yr ystyr olaf y mae a fynom âg ef yn awr.

*Hanes yr athrawiaeth yn mysg yr Iuddewon.*

Cawn bron bob cenedl dan y nef, hyd yn oed yn ei sefyllfa fwyaf anwaraidd, yn credu bodolaeth enaid ar wahân oddi wrth gorff; ond y mae eu tybiau am natur y sefyllfa hon, lawer o honynt, yn wrthun i'r eithaf. Ond ni chawn athrawiaeth yr adgyfodiad o feirw yn nhraddodiadau neb o honynt, nac ychwaith yn ysgrifeniadau neb o'u hathronwyr. Athrawiaeth ddadguddiedig yw hon, ac yr ydym yn ddyledus i'r Beibl am yr oll a wyddom o berthynas iddi: eto, wedi ei hamlygu, nid yw yn groes i reswm, nac yn gwrthwynebu anianaeth.

Mae rhai esbonwyr yn gwadu fod un cyfeiriad yn llyfrau hynaf y Beibl at yr adgyfodiad, ac nad oedd y patriarchiaid a'r prophwydi cyn amser Esaiah yn gydnabyddus â'r athrawiaeth hon. Tybia rhai, megys Grotius, Patrick, Warburton, Kennicot, Knapp, Henke, Eichhorn, Bush, Barnes, fod Iob (*Iob* xix. 25, 27), wrth ddadgan ei hyder y gwelai ei brynwr ar y ddaiar, yn cyfeirio at ei adferiad i'w iechyd arferol. Er fod ychydig o amrywiaeth mewn perthynas i gyfieithiad y geiriau, eto addefa pawb y gall y geiriau osod allan yr adgyfodiad gydag eglurder a phriodoldeb. Y gwrthwynebiad i'w cymmeryd yn yr ystyr yma ydyw, y buasai gwybodaeth o'r adgyfodiad yn symmud ymaith bob petrusder o feddwl Iob a'i gyfeillion am natur ei gystuddiau. Ond mae hyn yn gamsyniad am natur y ddadl rhyngddynt. Y cwestiwn ydoedd, nid a oedd pechod i gael ei gospi, a rhinwedd ei wobrwyo—yr oeddynt oll yn cydweled ar hyn—ond a oedd Iob yn dduwiol neu yn annuwiol. Credai ei gyfeillion ei fod yn annuwiol, a bod ei gystuddiau yn brawf o hyny. Yr oedd Iob ei hunan wedi arfer cyssylltu cyflwr pechadurus âg aflwyddiant; ond, er hyny, teimlai ei uniondeb, a dadganai ei hyder fod iddo Brynwr neu amddiffynwr (*goel*) byw, yr hwn a safai uwch ben ei lwch neu ei fedd i amddiffyn ei gymmeriad; ac er i'w gorff gael ei lygru, yr oedd yn hyderus y cai weled Duw trwy neu allan o'i gnawd, gyda'i lygaid corfforol. Gan fod peth gwahaniaeth wedi bod mewn perthynas i gyfieithiad y geiriau hyn, ni a roddwn y cyfieithiad canlynol gan Dr. Alexander, ar ol cymhariaeth o luaws o gyfieithiadau hen a diweddar.—

"But I, even I know that my Vindicator liveth,
And that one coming after (me) shall arise over (my) dust or tomb;
Even after my skin shall be devoured this (shall be),
And out of my flesh shall I see God—
Whom I, even I shall see for my self,
And my (own) eyes shall behold, and not another,
My reins are consumed in my bosom."

"Ond mi, ïe, myfi a wn fod fy Amddiffynydd yn fyw,
A bod un yn dyfod ar fy ol (i) a gyfyd ar (fy) llwch neu (fy) medd;
Ïe, ar ol i'm croen gael ei ysu (y bydd) hyn,
Ac o'm cnawd y gwelaf fi Dduw—
Yr hwn a gaf fi, ïe, myfi ei weled i mi fy hun,
A'm llygaid fy (hun) a edrychant, ac nid arall,
Mae fy arenau yn cael eu difa yn fy mynwes."

Mae yn anhawdd meddwl nad yw y geiriau hyn yn gosod allan tu hwnt i ddadl grediniaeth Iob yn adgyfodiad y corff. Am wrthddadleuon ereill, gwel Barnes ar yr adnodau hyn, ac atebiad Dr. Henderson iddynt yn ei ragymadrodd i Barnes ar Iob. Mae *Iob* xiv. 13, 15, yn brawf o'r un gwirionedd. Cymhwysir *Salm* xvi. 10, 11, yn y Testament Newydd, at adgyfodiad Crist; ond nid yw yn annhebygol fod Dafydd, fel y dywed Calvin, yn cael golwg ar ei adgyfodiad ei hun trwy adgyfodiad Crist. Y mae *Salm* xlix. 14, 15, yn cynnwys awgrymiad arall o'r un gwirionedd. Pa fodd bynag y deallir yr ymadrodd, "mewn cyffelybiaeth" (*Heb.* xi. 19), cynnwysa y geiriau brawf fod Abraham yn gydnabyddus â'r syniad o adgyfodiad i fywyd, a'i fod yn credu y gallai Duw ei gyflawnu. Mae adnodau yn y prophwydi sydd yn dysgu adgyfodiad y corff, naill ai yn uniongyrchol neu trwy gasgliad naturiol; *Esa.* xxvi. 19; *Ezec.* xxxvii. 1—14:—er mai adferiad cenedl Israel a osodir allan trwy adgyfodiad o feirw, eto mae yn rhaid fod yr athrawiaeth yn adnabyddus, cyn y gallesid ei defnyddio fel cymhariaeth. Yr adnod fwyaf uniongyrchol a phenderfynol ydyw, *Dan.* xii. 2. Gwel y *Dr. Alexander's Congregational Lectures;*" darlith iii.

Pan ymddangosodd Crist yn y byd, yr oedd yr athrawiaeth hon yn cael ei chredu yn gyffredinol gan yr Iuddewon, oddi gerth y Saduceaid a'r Esseniaid: *Mat.* xxii. 23—32; *Luc* xx. 27—38;



Digitized by Google

*Ioan* xi. 24; *Act.* xxiii. 6. Gwadai y Saduceaid adgyfodiad y meirw a sefyllfa ddyfodol; *Act.* xxiii. 8: gan na dderbynient ond llyfrau Moses yn unig, a'r cyfryw yn aneglur ar y pwnc. Yr oedd yr Esseniaid yn gwadu yr athrawiaeth hon, er yn credu yn anfarwoldeb yr enaid. Mae yn debyg iddynt hwy gael eu denu i hyn gan yr athroniaeth Blatonaidd, yr hon sydd yn dysgu fod y corff fel carchar i'r enaid, o ba un y gwaredir ef yn angeu. Dan ddylanwad yr unrhyw dybiaeth, cawn yr athronwyr yn Athen yn gwatwar Paul pan bregethai iddynt yr adgyfodiad; *Act.* xvii. 32. Credai y rhan luosocaf o'r Iuddewon na byddai adferiad y dyn yn gyflawn heb y corff; ond yr oedd eu golygiadau am ddedwyddwch y saint yn y byd dyfodol yn anianol, ac yn arwain i gyfeiliornadau peryglus. Mynai llawer o honynt y byddai y bywyd dyfodol yr un fath a'r un presennol, ond yn unig na byddai yno boen; ac mai pren y bywyd, yr hwn y sonia Ioan am dano (*Dad.* xxii. 2–14), fyddai yn cyfranu iddynt anfarwoldeb. Pan ystyriom y pethau uchod, nid rhyfedd fod y Saduceaid mor ffraethlym yn erbyn y fath dyblau cnawdol ac anhygoel. Am oesau wedi ymddangosiad Crist, cawn lawer o'r prif Rabbiniaid yn dysgu athrawiaethau cyffelyb, hyd yn oed Moses Ben Maimon ei hun. Credai rhai o honynt na adgyfodai cyrff yr annuwiolion. Ystyrient fod adgyfodiad y corff yn hanfodol i ddedwyddwch y saint, ac felly yr amddifedid yr annuwiolion o'u cyrff er mwyhau eu poen. Cyfeiliornent "am na wyddent yr Ysgrythyrau na gallu Duw." Diffygiol, ar y goreu, oedd barnau yr Iuddewon am yr athrawiaeth gysurlawn a bendigedig hon.

*Hanes yr athrawiaeth yn mysg y Cristionogion, neu drwy y cyfnod Cristionogol.*

Yr ydym wedi gweled fod yr athrawiaeth wedi ei derbyn gan gorff yr Iuddewon pan ymddangosodd Crist—fod rhai o honynt yn ei gwadu, a llawer yn cyfeiliorni yn ei herwydd. Er i Grist a'i apostolion sefydlu gwirionedd yr athrawiaeth dan sylw, ac unioni y camfarnau oedd yn mysg y genedl mewn perthynas iddi, cyn diwedd yr oes apostolaidd yr oedd cyfeiliornadau lawer wedi ymlithro i mewn i'r eglwys. Ymddengys, oddi wrth 1 *Cor.* xv. a 2 *Tim.* ii. 18, fod rhai yn yr eglwysi yn gwadu yr athrawiaeth hon; naill ai wedi eu denu gan athroniaeth y cenedloedd, neu wedi coffeidio barn y Saduceaid neu yr Esseniaid. Cawn Hymeneus a Philetus (2 *Tim.* ii. 17, 18) yn gwadu yr adgyfodiad yn ei ystyr cyffredin, gan ddal mai adgyfodiad ysbrydol i well cyflwr a feddylir; a chan fod hwnw wedi cymmeryd lle yn ei berthynas â'r saint, nad oedd un arall i'w ddysgwyl. Drwy ysbaid y tri canrif cyntaf—oes y Diheuredwyr—dadleuwyd llawer ar y pwnc. Yr oedd mwyafrif y tadau yn credu adgyfodiad yr un corff ag sydd genym ar y ddaiar, megys Clement (o Rufain), Justin, Tertullian, Irenæus, Theophilus, Athenagoras, Cyprian, &c.; ac er nad yw y Testament Newydd yn son am adgyfodiad y cnawd, ond adgyfodiad y meirw—*αναστασις των νεκρων*, cawn *αναστασις της σαρκος* (*adgyfodiad y cnawd*), yn ysgrifeniadau y tadau yn foreu, ac yn Nghredo yr Apostolion. Yr oedd Clement o Alexandria, ac Origen, yn gwahaniaethu yn nghylch corff yr adgyfodiad oddi wrth y rhai uchod. Origen, efallai, ydoedd y cyntaf a ddechreuodd athroni mewn perthynas i'r corff dyfodol. Gwrthwynebai y cyfryw a dybient y byddai y corff a fydd yn fateraw fel yr un presennol. Barnai na byddai rhanau sylweddol a llygredig iddo, ac nad yw y corff hwn ond hedyn i'r un dyfodol. Gwadai y Gnosticiaid yr athrawiaeth hon yn hollol, am eu bod yn credu mai mater yw yr achos o bechod; felly, er y credent yn anfarwoldeb yr enaid, gwadent adgyfodiad y corff. Carpocrates a Cerinthus oedd eu prif ddysgawdwyr.

Yr oedd amryw o'r Tadau Cristionogol, megys, Justin Ferthyr, Irenæus, Tertullian, a Lactantius, yn derbyn *Dad.* xxv. 5, 6, am yr "adgyfodiad cyntaf" mewn ystyr llythyrenol, ac felly yn credu y byddai dau adgyfodiad. Dyma, efallai, ddechreuad y Milflwyddwyr, y rhai a hoffent yn fawr yr adgyfodiad cnawdol y mediant gael rhan o hono, er teyrnasu ar y ddaiar gyda Christ am fil o flyneddoedd. [Gwel MILFLWYDDWYR.] Cawn Methodius yn ymosod ar ddaliadau Origen, gan hòni y byddai yr un corff yn hollol yn codi—yr un aelodau, cyhyrau, gwaed, cnawd, &c.; ac y byddai gwahaniaeth rhywiau, ond nid yn ddarostyngedig i nwydau o un math. Haerai Jerome yr adgyfodai hyd yn oed y gwallt a'r dannedd. Yr oedd Awstin, yn moreu ei oes, o farn wrthwynebol; ond daeth wedi hyny yn fwy tueddol i'r adgyfodiad cnawdol, er nad aeth mor bell a rhai o'r tadau yn y ffordd hon. Barnai mai corff tua deg ar ugain oed a gai pob dyn. Dïos fod athrawiaeth y Milflwyddwyr yn dylanwadu yn rymus ar y pryd er magu, os nad achosi, y cyfeiliornadau uchod. Coffeidiodd Gregory o Nazianzen, Chrysostom, Synesius, ac ereill, farn Origen yn agos; ac nid oedd Basil fawr yn mhell oddi wrtho. Yr oedd holl wrthwynebwyr y Milflwyddwyr yn gogwyddo at farn Origen. O'r pedwerydd canrif hyd yr wythfed, athrawiaeth Jerome ac Awstin oedd mewn bri yn benaf. Tua'r deuddegfed canrif, codwyd cyfeiliornadau y Gnosticiaid i sylw drachefn gan y Cathariaid, a'r Bogomiliaid, y rhai a wrthwynebwyd yn gadarn gan Bernhard Moneta, fel cynnrychiolwr yr eglwys gyffredinol. Cawn yn ysgrifeniadau yr Ysgolwyr lawer iawn ar y mater hwn—yn enwedig yr athraw angelaidd, Thomas Aquinas. Dywed mai defnydd y corff pan yn myned i'r bedd, a dim arall, a adgyfyd—y bydd gwahaniaeth rhywiau, ond yn rhydd oddi wrth chwantau cnawdol—y bydd cyrff yr adgyfodiad yn gyflym, heb gynnydd na lleihâd yn perthyn iddynt; nas gellir eu gweled â llygaid o gnawd; y bydd cyrff y saint yn ogoneddus a dysglaer, ond cyrff y damnedigion yn afluniaidd a hagr, ac yn alluog i ddyoddef poenau diddiwedd—a llawer o bethau tybiaethus ereill. Yr athrawiaeth uchod, gydag ychydig wahaniaeth, a goffeidid yn gyffredinol yn oes yr Ysgolwyr. Pan gymmerodd y Diwygiad Protestanaidd le, ni wahaniaethid yn y peth hwn. Yn yr oesoedd diweddar, cawn y Rhesymwyr, naill ai yn gwadu yr athawiaeth yn hollol, neu yn esbonio ymadroddion y Beibl i ateb eu dybenion eu hunain. Cawn Henke, ac Eckermann, yn gwadu yr adgyfodiad; Priestley, Swedenburgh, a Bush, yn gwyrdroi ymadroddion amlwg yr Ysgrythyrau er profi eu tybiau rhagffurfiedig hwy, gan wneyd yr adgyfodiad yn bob peth bron, ond yr hyn a ddywed y Beibl. Barna Bush, nad yw adgyfodiad y Testament Newydd ddim yn ychwaneg na bodolaeth ddyfodol—sefyllfa ddyfodol o anfarwoldeb—y bydd y fodolaeth hono mewn corff, ond corff ysbrydol; *h.y.*, rhyw ddefnydd nyfelaidd, coethedig iawn—a elwir yn gorff, o eisieu gwell gair—a feddiennir yn angeu gan y meirw, ac nid ar ddydd y farn ddiweddaf; o ganlyniad, fod yr adgyfodiad yn cymmeryd lle yn barhäus—pawb yn adgyfodi pan yn

Digitized by Google

marw. Anhawdd gweled pa fodd y gellir cymhwyso yr ymadrodd *adgyfodiad* at beth na syrthiodd. Teimla Bush yr anhawsdra hwn; felly, ymdrecha i ddangos na olygai Crist na'i apostolion i'w hymadroddion gael eu deall yn llythyrenol, ond eu bod wedi cyfaddasu eu hiaith at farn sefydlog y genedl Iuddewig ac ereill ar y pryd; ac fel hyn, mae yr awdwr dysgedig uchod wedi cael ei wasgu gan wirioneddau ereill cyssylltiedig â'r adgyfodiad, nes gorfod gwadu adgyfodiad corff Crist, dydd y farn ddiweddaf, &c. Y mae wedi rhag-gau y ddadl, gan ymdrechu dangos fod yr adgyfodiad, fel ei deallir yn gyffredin, yn anmhosibl. Gellir haeru anmhosiblrwydd rhifyddol a moesol yn mlaen llaw; ond nis gellir, gyda rheswm, haeru anmhosiblrwydd anianyddol yn mlaen llaw. Dywed Crist, fod cyfeiliornadau y Saduceaid yn codi o anwybodaeth o ddau beth—o'r Ysgrythyrau a gallu Duw: *Mat.* xxii. 29. Mae yn gosod gwiredd yr athrawiaeth i orphwys ar un, a'i chyflawniad ar y llall.

*Yr athrawiaeth Ysgrythyrol o'r adgyfodiad.*

Mae yn amlwg fod yr Ysgrythyrau, yn enwedig y Testament Newydd, yn dysgu adgyfodiad cyffredinol y meirw. Cawn ddau air—*αναστασις* (*anastasis*) ac *εγερσις* (*egersis*), yn cael eu cyfieithu yn *adgyfodiad*. Deillia *αναστασις* o *ανιστημι* = *sefyll i fyny*, neu *drachefn*; a'i feddwl yn y Testament Newydd yw, adsefydliad, neu fodolaeth ddyfodol. Tardda *εγερσις* o *εγειρω* (*egeiro*) = *cyffroi, dihuno, adeiladu*; a'i ystyr yn y Testament Newydd yw adferiad i fywyd, cyfodi i fyny. Gweler *Mat.* viii. 15; ix. 25; x. 8; xi. 5; xii. 41; xiv. 2; xvi. 21; xxvi. 32; xxvii. 52; *Luc* vii. 14; viii. 54; xx. 37; xxiv. 6, 34; *Ioan* ii. 19; v. 21; xii. 1; xxi. 14; *Act.* iv. 10; x. 40; xxvi. 8; *Rhuf.* iv. 24, 25; viii. 11, 34; x. 9; 1 *Cor.* xv; 2 *Cor.* v. 15; *Gal.* i. 1, *Eph.* i. 20; *Col.* ii. 12; *Heb.* xi. 19; a lluaws ereill. Mae yn eglur, oddi wrth yr anghreifftiau uchod, fod *egeiro* yn fwyaf cyffredin yn dynodi y weithred o adgyfodi; ac *anastasis*, adnewyddiad yr holl ddyn yn y sefyllfa ddyfodol—anfarwoldeb ein holl natur. Ond y mae parhâd yr hwn a adgyfodir mewn bywyd yn ychwanegiad at feddwl cyntaf y gair *anastasis*. Ac felly y mae Crist ei hun yn dywedyd—"Nis gallant farw mwy;" *Luc* xx. 36. Dywed Paul hefyd "nad yw Crist, yr hwn a gyfodwyd oddi wrth y meirw, yn marw mwyach;" *Rhuf.* vi 9, 10. Felly, daeth y gair i arwyddo adgyfodiad i fywyd tragwyddol; *Act.* i. 22; ii. 31; iv. 33; xxvii. 18; *Rhuf.* i. 4; vi. 5; 1 *Pedr* i. 3; iii. 21. Defnyddir y gair *anastasis* tua deg ar ugain o weithiau yn y Testament; ond bron yn mhob man, er yn tybied adgyfodiad y meirw, golyga yr hyn a nodwyd; a'r adgyfodiad yn unig fel arweiniad i mewn i sefyllfa o anfarwoldeb i'r corff a'r enaid. Darllener ymddyddan Crist â'r Saduceaid (*Mat.* xxii. 23, 32) er prawf o hyn. Ar y tir hwn, cyfieitha Dr. Campbell *adn.* 23, "*Who say that there is no future life.*" Gwadai y Saduceaid sefyllfa ddyfodol, a'r adgyfodiad yn unig fel canlyniad. Mae yr *anastasis* yn cynnwys y ddau: felly deallasid llawer rhan o'r Ysgrythyr yn well pe cyfieithesid *anastasis* yn *sefyllfa* neu *fodolaeth ddyfodol*.

Cymmer yr adgyfodiad le yn niwedd y byd—y dydd diweddaf. Dyma farn gyffredin yr Iuddewon yn amser Crist: *Ioan* xi. 24. Hyn oedd athrawiaeth Crist a'i ddysgyblion: *Ioan* v. 21, 29; vi. 39, 40; 1 *Thes.* iv. 15, 17. Haera rhai fod yr adgyfodiad wedi cymmeryd lle cyn diwedd yr oes apostolaidd, fel y cyfeiriwyd uchod: 2 *Tim.* ii. 18. Creda y Milflwyddwyr y bydd dau fath o adgyfodiad—y cymmer un le fil o flynyddau o flaen y llall (*Dad.* xx. 5, 6): ond y mae dywediadau Crist, ac ymresymiadau Paul, yn groes i'r farn hon. Rhaid gan hyny fod meddwl arall i'r ymadroddion uchod, ar ba rai, yn benaf, y sylfaena y Milflwyddwyr eu barn. Dyfynwyd *Ioan* v. 39, ac 1 *Thes.* iv. 16, gan rai er profi y cyfyd y saint y dydd diweddaf o flaen yr annuwiolion. Efallai y gwnant; ond nid oes yma sail i'r dybiaeth hon. Amcan y blaenaf yw profi adgyfodiad cyffredinol y da a'r drwg; dyben yr olaf yw dangos na bydd i'r saint byw gael eu cyfnewid, cyn cyfodi y rhai meirw. Nid yw fod y da yn cael eu henwi o flaen y drwg yn un prawf o hyn; neu profa *Mat.* xxv. 46, y dechreua cosp yr anghyfiawn o flaen gwobr y cyfiawn. Cymmer yr adgyfodiad le, gan hyny, pan ddarfydd yr eglwys fodoli ar y ddaiar, yr hon a erys hyd y dydd diweddaf: *Dad.* xx.

Bydd yr adgyfodiad yn gyffredinol—pob gradd, pob oedran, a phob cymmeriad: *Dan.* xii. 2; *Ioan* v. 28, 29; vi. 54; *Act.* xxiv. 15; 1 *Cor.* xv. 22. Mae tystiolaeth yr Ysgrythyrau yn bendant iawn ar y mater hwn; ac ymddengys fod natur gwobr a chosp yn y byd dyfodol yn gofyn hyn. Ystyriai yr Iuddewon na byddai dedwyddwch y saint yn gyflawn heb y corff; felly defnyddient yr *anastasis* i osod allan berffeithrwydd y sefyllfa ddyfodol pan unid y corff a'r enaid â'u gilydd: o ganlyniad, fod *hades*—sefyllfa anweledig y meirw—yn fodolaeth anmherffaith. Yr oedd rhai o'r Iuddewon, fel y crybwyllwyd o'r blaen, yn credu na chyfodai cyrff yr annuwiolion; gan farnu, os oedd uniad eneidiau a chyrff y saint yn chwanegiad i'w dedwyddwch hwy, yr amddifadid y rhai drygionus o'u cyrff; ond fel y mae yr uniad hwn yn mwynhau dedwyddwch y duwiolion, felly y bydd yn trymhau poenau yr annuwiolion; canys adgyfodiad barn—i warth a dirmyg tragwyddol—fydd iddynt hwy: *Dan.* xii. 2, *Ioan* v. 29.

Priodolir adgyfodiad y meirw i Grist, a gosodir y weithred hon allan fel y ddiweddaf o'i eiddo yn ei berthynas â'r byd hwn yn ei swydd gyfryngol: 1 *Cor.* xv. 22—28. Dywed Crist ei hun, mai efe yw yr adgyfodiad a'r bywyd (*Ioan* xi. 25); fod ganddo agoriadau uffern a marwolaeth: *Dad.* i. 18. Mewn perthynas i'r moddion neu y cyfrwng trwy ba un y cyfodir y meirw, nid yw yr Ysgrythyrau wedi ymostwng i foddio cywreinrwydd dyn:—dywedir, yn *Ioan* v. 28, mai trwy ei lefērydd ef; yn 1 *Cor.* v. 51, 52, mai wrth ganiad yr udgorn; yn 1 *Thes.* iv. 16, mai gyda bloedd a llef yr archangel, ac âg udgorn Duw. Ond diau fod yr ymadroddion hyn, mewn rhan o leiaf, yn ffugrol, wedi eu cymmeryd oddi ar arferiadau yr oesau gynt; ac nad yw y darluniadau cynhyrfus yma i'w deall yn hollol lythyrenol. Y prif feddylddrych yma yw, y daw Crist mewn mawredd, rhwysg, a gogoniant, i godi y meirw oll o'u beddau, drwy nerth ei allu ei hun: *Phil.* iii. 21. Pob peth sydd bosibl gyda Duw.

Prif reswm Cristionogaeth dros adgyfodiad y meirw yw adgyfodiad Crist: 1 *Cor.* xv. 12—23; 1 *Thes.* iv. 14. Y mae yr ymresymiad wedi ei sylfaenu ar undeb Crist â'i aelodau; y maent hwy yn cyfranogi o'i fywyd ef yn y fath fodd, fel, gan ei fod ef yn byw byth, y bydd iddynt hwythau fyw hefyd; ond os gwadwn eu hanfarwoldeb a'u hadgyfodiad hwy, yr ydym yn gwadu yr eiddo ef. Dangosir adgyfodiad y saint fel yn sylfaenedig ar gymdeithas neu undeb â Christ trwy ffydd, ac ef ei hun fel egwyddor bersonol eu hadferiad i fywyd: *Ioan* vi. 39, 54. Dengys Paul hefyd, nad

Digitized by Google

gweithrediad o allu Duw y tu allan iddynt yn unig ydyw, ond y gweithrediad uchaf o nerth adgyfodiad Crist; y mae y naill yn tarddu o'r llall, a hyny trwy breswyliad Ysbryd Crist ynddynt: *Rhuf.* viii. 11. "Y blaenffrwyth yw Crist;"—y mae ei adgyfodiad ef yn ernes allanol, fel y mae rhoddiad yr Ysbryd yn ernes du fewnol: 1 *Cor.* xv. 20; *Rhuf.* viii. 11. Y mae adgyfodiad Crist yn gynllun o adgyfodiad y saint: 1 *Cor.* xv. 35—44; *Phil.* iii. 21; *Col.* iii. 4; 1 *Ioan* iii. 2.

Bydd cyfnewidiad mawr i gymmeryd lle ar gyrff y saint yn yr adgyfodiad: 1 *Cor.* xv. 42—44. Bydd corff yr adgyfodiad—1. Yn meddu anllygredigaeth (*adn.* 42); heb afiechyd, heb boen, heb duedd nac elfenau dadfeiliad. 2. Yn meddu anfarwoldeb: *adn.* 53. Y mae anllygredigaeth ac anfarwoldeb yn ansoddau pur debyg, ond nid yn hollol yr un. Gall corff fod yn anllygredig, heb elfenau dadfeiliad ynddo ei hun, eto yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu gan arall; ond ni wel corff anfarwol ddiwedd trwy ddadfeiliad mewnol, ac ni ddifodir ef gan allu allanol: *Luc* xx. 36. 3. Yn meddu gogoniant: *adn.* 43. Ymddangosodd Crist yn ogoneddus ar fynydd y gweddnewidiad: *Mat.* xvii. 2. Gwelodd Ioan ef mewn urddas a gogoniant mawr: *Dad.* i. 13—16. Bydd corff yr adgyfodiad yn gyffelyb i'w gorff gogoneddus ef (*Phil.* iii. 21); yn dysgleirio fel y ffurfafen, yn eirianu fel y ser, yn llewyrchu fel yr haul: *Dan.* xii. 3; *Mat.* xiii. 43. Bydd yn gyffelyb i Grist yn ei ailymddangosiad: 1 *Ioan* iii. 2. 4. Yn meddu nerth, yn weithgar, yn gyflym, yn ddiflino—yn alluog i wasanaethu Duw ddydd a nos yn y deml: *Dad.* vii. 15, 17. 5. Yn gorff ysbrydol, yn gyferbyniol i gorff anianol:—corff yn yr hwn y mae yr egwyddor fywydol (*y ψυχη*, yr *anima* yn Lladin), yr enaid anifeilaidd, yn llywodraethu—wedi ei gyfaddasu trwy beiriannau ymborth, anadliad, &c., i'r bywyd presennol. Bydd y corff ysbrydol wedi ei gyfaddasu i lywodraethiad yr ysbryd a'i beiriannau, nid wedi ei gymhwyso i fywyd anifail, fel yn bresennol, ond i fywyd ysbrydol. Gwisg yr enaid, a'i ystyried fel egwyddor o fywyd anifeilaidd, yn ei gyssylltiad â byd lle y mae ymborth a chwsg yn angenrheidiol, ydyw y naill; ond gwisg enaid, a'i ystyried yn ei gyssylltiad âg anfarwoldeb, a bywyd ysbrydol, ydyw y llall.

Nid yw fod Crist wedi bwyta ar ol ei adgyfodiad yn profi fod ymborth yn angenrheidiol i gorff ysbrydol; canys nid yw yn sicr pa un ai pan gododd Crist o'r bedd, neu pan esgynodd i ogoniant yr ysbrydolwyd ei gorff: a phe buasai sicrwydd digonol fod ei gorff yn ysbrydol pan fwytaodd, ni buasai hyny yn brawf wed'yn fod corff yr adgyfodiad i fwyta; o herwydd bwytaodd Crist i ddyben neillduol—i argyhoeddi ei ddysgyblion o wiredd ei adgyfodiad ei hun. Gan fod corff yr adgyfodiad i feddu yr ansoddau uchod, sicrhânt iddo ieuenctyd diddiwedd, hoewder heb lesgedd, a harddwch heb wywder.

Y mae adgyfodiad y corff, fel anfarwoldeb yr enaid, yn angenrheidiol i ddybenion gwobr a chosp. Er mai y meddwl ydyw eu gwrthddrych priodol, y mae y corff yn angenrheidiol fel offeryn i'w cyflawn weinyddiad. Yn y byd hwn y mae yr enaid yn ddyledus i'r corff am luaws o wrthddrychau ei adnabyddiaeth a'i deimlad; a'r casgliad ydyw fod perffeithiad yr enaid yn dibynu ar adferiad y peiriant corfforol. Y mae cyfiawnder yn gofyn eu haduniad—y mae a wnelo efe â'r holl ddyn. Y mae adgyfodiad y cyfiawn, o ran ei *natur* a'i *ganlyniadau*, i'w briodoli i'w undeb â Christ; ond ynddo ei *hunan*, nid ffrwyth y prynedigaeth, mwy nag adgyfodiad yr anghyfiawn, ydyw. Mae cyfiawnder yn gofyn y ddau, a'r ddau i ddybenion barn. Pa un a ydyw yr adgyfodiad yn ganlyniad naturiol i barotoad blaenorol, a hyny yn unol â deddf osodedig, fel yr awgryma cymhariaeth Paul am yr hedyn—ai ynte yn gyfnewidiad gwyrthiol, uwch law pob deddf—nid yw yn effeithio ar yr angenrheidrwydd am dano fel yn sylfaenedig ar gyfiawnder; ac y mae gallu Duw yn ddigonol ac yn angenrheidiol i'w gyflawnu. Pa un bynag, y mae yn debyg i wyrth yn mawredd ac unigrwydd y cyfnewidiad; ond yn annhebyg yn ei ddybenion, ac yn yr egwyddorion sydd yn arwain ato ac yn gofyn am dano.

Er yr holl gyfnewidiadau drwy ba rai yr â y corff cyn cyrhaedd yr adgyfodiad, ni chyll ei hunaniaeth. Nid yw yr hunaniaeth hwn yn gofyn fod holl ronynau cyfansoddol y corff presennol i gael eu cyfodi, na bod yr un priodoleddau yn perthyn i'r corff hwn a'r hwn a fydd. Nid ydym, mewn gwirionedd, yn gwybod digon am hunaniaeth athronyddol i sylfaenu arni un wrthddadl yn erbyn yr adgyfodiad; o ganlyniad, y mae ei hawdurdod yn ddiwerth ar y pwnc. Digon yw fod Duw wedi dywedyd y cyfyd y meirw, ac y *cyfnewidir ein corff gwael ni* i fod yr un ffurf a'i gorff gogoneddus ef. Y mae y corff yn myned trwy lawer o gyfnewidiadau yn y byd hwn, heb golli ei hunaniaeth i ddybenion cyflawnder; ac nid oes ond anwybodaeth a rhyfyg a wadant nas gall fyned trwy lawer mwy.

Y cwestiwn sydd wedi cael ei ddadleu fwyaf yn mysg Cristionogion ydyw, Ai yr *un corff* a gyfodir. Y mae yr holl anhawsderau ar hyn wedi cyfodi, medd Dwight, drwy wthio ein hymchwiliadau yn mhellach nag y gallwn eu dilyn, neu drwy ddiffyg penderfynu pa beth a feddylir wrth yr *un corff*. Dywed y Dr. Leonard Wood, yn ei ddarlithiau duwinyddol, mai swm yr hyn a ddysg yr Ysgrythyr ar y mater ydyw:—1. Y bydd yr adgyfodiad yn adgyfodiad y *corff*. 2. Y bydd cyrff y saint yn yr adgyfodiad yn dra gwahanol i'r hyn ydynt yn y fuchedd hon: ond y bydd corff pob un o'r saint yn eiddo iddo ef ei hun, ac fe'i adnabyddir felly ganddo ei hun, a chan ereill.—Ac mai dyma y cwbl: a dyma ddigon ar hunaniaeth y corff presennol a'r un dyfodol.

Dodwn yma ddyfyniad o waith y Dr. Burton ar hyn. Y mae ei enw ef ei hun yn teilyngu sylw i'r hyn a ddywed; ac heb law hyny, mae y dyfyniad canlynol yn cael ei arganmawl i sylw neillduol gan Conybeare a Howson, yn eu gwaith ardderchog ar fywyd yr apostol Paul:—

"Ni ddywedir yn un man yn y Testament Newydd yr adgyfodwn gyda'r un cyrff ag sydd genym yn awr. Os na ddywedwn fod y llysieuyn byw sydd yn tyfu o'r ddaiar yn hollol yr un peth a'r hedyn a roddwyd yn y ddaiar, nis gallwn appelio at Paul fel prawf y daw yr un cyrff i fyny ag sydd yn myned i lawr; neu, o'r hyn lleiaf, rhaid i ni addef mai yr unig debygolrwydd rhyngddynt ydyw, fod y ddau yn cael eu galw yn gyrff, ac felly yn syrthio dan yr un rhywogaeth, fel y mae cyrff dynol a chyrff nefol, er yn dra gwahanol i'w gilydd. Felly nid yw geiriau Paul yn ein cyfiawnhau i ddyweyd y bydd mwy o debygolrwydd rhwng y corff presennol a'r un dyfodol, nag sydd rhwng dyn a seren. Nis gall dim fod yn eglurach na'r ymadrodd a arferir yn y gymhariaeth a ddefnyddia ef am yr hedyn—"Nid y corff a fydd yr ydwyt yn ei hau;" 1 *Cor.* xv. 37. Dywed hefyd mor bendant am y corff—"Efe a heuir yn gorff anianol, ac a

Digitized by Google

gyfodir yn gorff ysbrydol. Y mae corff anianol, ac y mae corff ysbrydol;" *adn.* 44. Mae y geiriau hyn yn gofyn eu chwilio yn fanwl; maent yn eang a dwfn eu hystyr. Mewn iaith gyffredin, mae y geiriau *corff* ac *ysbryd* yn cael eu gwrthgyferbynu fel dau beth hollol wahanol. Ond y mae yr apostol yma yn dwyn y ddau air at eu gilydd, ac yn llefaru am *gorff ysbrydol.* O ganlyniad, nid oedd Paul yn gosod ysbryd a chorff yn gyferbyniol i'w gilydd. Ond er y gellid mewn iaith rydd ddefnyddio y geiriau yn gyferbyniol, heb fod yn gamsyniol ein barn, eto arbedai beth petrusder ped edrychem ar *ysbryd* yn gyferbyniol i *fater*, a chymmeryd corff yn air cyffredinol i gynnwys y ddau. *Corff*, gan hyny, yn iaith Paul, ydyw hanfodiad neillduol a gwahanol. Dywedir mai corff ysbrydol fydd corff yr adgyfodiad; o ganlyniad, yn ol y sylwadau uchod, bydd yn dra gwahanol i'r corff presennol. Ymddengys fod Paul hefyd yn cau allan yn hollol y syniad yma pan y dywed, "nis gall cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw."

Ni a ddodwn ddyfyniad eto ar hyn o waith y Dr. J. Brown, Edinburgh—ysgrifenydd craff a diogel. "Yn hyn, fel mewn llawer o bethau ereill, y mae anmherffeithrwydd iaith yn rhwystr i eglurdeb syniadau. Yn ol yr ystyr a briodolwn i'r ymadrodd *yr un*, ni a allwn, mewn gwirionedd, haeru a gwadu adgyfodiad yr un corff. Os wrth *yr un*, y meddylir, bod yn gyfansoddedig o'r un gronynau yn union, mae yn bur annhebyg, os nad yn anmhosibl, i'r un corff adgyfodi ag a ddodwyd yn y bedd—os bod *yr un*, yw meddu yr un ansoddau, yna nid yw corff yr adgyfodiad yr un a'r hwn y'n hymddifadir o hono yn angeu; o herwydd y mae ansoddau mwyaf gwahaniaethol y naill heb fod gan y llall. Ond os wrth fod *yr un* y meddylir, bod yr un mewn ystyr tebyg i'r hyn y mae y corff yr un mewn babandod a henaint, i'r hyn y mae yr hedyn a fwrir i'r ddaiar a'r planigyn byw sydd yn tyfu oddi wrtho, yna ni a ddywedwn mai athrawiaeth y Testament Newydd ydyw, fod yr un corff yn cael ei adgyfodi ag a gladdwyd. Nis gellir profi anmhosiblrwydd y fath hunaniaeth; mae iddi ddybenion pwysig yn llywodraeth Duw; mae y fath hunaniaeth yn dybiedig yn y gair *adgyfodiad*, yr hyn a arwydda adferiad i fywyd yr hyn oedd yn ein meddiant o'r blaen; ac nid creadigaeth sylwedd newydd, neu fywhâd sylwedd na bu mewn cyssylltiad blaenorol â'r enaid. Mae cymharu angeu i hûn, neu gwsg, yn gysson â hyn; mae yn gysson hefyd â'r adnodau sydd yn dangos y cyfyd y meirw o'r manau y cyflewyd hwynt yn angeu—y bydd y beddau, a'r moroedd, yn rhoddi i fyny eu meirw. Ymddengys ei fod yn cael ei dystiolaethu mewn geiriau pendant, pan y dywedir, 'rhaid i'r marwol *hwn* wisgo anfarwoldeb, a'r llygradwy *hwn* wisgo anllygredigaeth.' Mor bell a hyn, y mae y cyrff a adferir i'r saint yn yr adgyfodiad yr un a'r cyrff sydd ganddynt ar y ddaiar. Ond er eu bod *yr un* mewn rhyw ystyr, y maent yn wahanol iawn mewn ystyr arall."

Bydd ymwybyddiaeth y saint yn brawf iddynt eu hunain o hunaniaeth eu cyrff, fel y mae ymwybyddiaeth yr hynafgwr yn brawf iddo yntau mai yr un corff sydd ganddo a phan yn blentyn; o ganlyniad, mae codi dadl oddi wrth hunaniaeth yn erbyn adgyfodiad y meirw yn anathronyddol, o herwydd y mae yr athrawiaeth oruchel hon uwch law cylch cyfreithlawn athroniaeth i'w phenderfynu. Ond nid yw methu deall y *modd y mae*, yn rheswm dros wadu *ffaith y sydd;* neu rhaid i ddyn wadu ei fodolaeth ei hun; canys y ffaith yn unig a wyr, ac nid y modd.

Er nad oes dim ond yr oraclau dwyfol yn unig yn profi yr adgyfodiad o feirw, mae llawer o bethau mewn natur, yn mysg llysiau a thrychfilod, yn tebygoli iddo, ac felly yn gwasanaethu i symmud ymaith y gwrthddadleuon yn erbyn y posiblrwydd o'r adgyfodiad, felly y defnyddir hwynt gan Paul.

Y modd y gellir edrych ar hunaniaeth a chyfnewidiad y corff, trwy ei gymhariaeth ef, ydyw fel hyn:—mae hedyn y planigyn gwywedig yn aros; a thrwy ddylanwad gwres, &c., y mae yn ymagor, ac yn tynu defnydd newydd ato, ac yn ail flaguro, fel mai yr un ydyw trwy gyfrwng yr hedyn a'r hen blanigyn, ac eto y mae yn newydd hefyd. Wrth gymhwyso y gymhariaeth, mae amryw dybiau wedi eu ffurfio am yr hedyn bywydol yn nghorff dyn, a phob un yn ddigon i symmud yr wrthddadl o anmhosiblrwydd, hyd yn oed i reswm· ac i hyny y defnyddir y gymhariaeth.

ADGYWEIRIAD. Er mwyn gwneyd yn fwy dealladwy y sylwadau sydd yn disgyn dan y gair hwn, rhoddwn ychydig o hanes prif argraffiadau y Testament Groeg—ffurfiad y testyn derbyniedig (*textus receptus*), a'r ymdrechiadau a wnaed o bryd i bryd i berffeithio y testyn. Yn y flwyddyn 1514, argraffwyd y Testament Groeg gyntaf yn Meibl amrywieithog Alcala, dan nodded Cardinal Ximenes, dair blynedd cyn i Luther ymwrthod â Phabyddiaeth; ond ni chyhoeddwyd ef hyd 1522; ac yn y cyfamser, cyhoeddodd Erasmus Destament Groeg, sef yn 1516. Wrth ei barotoi i'r wasg, cymharodd Erasmus amryw o ysgrifiyfrau a gafodd yn Bâsle, yn nghyd â'r dyfyniadau a gafodd yn ysgrifeniadau amryw o'r tadau Groegaidd. Ni allesid dysgwyl yn amgen na bod lluaws o wahanol ddarlleniadau wedi ymlithro i'r ysgrifiyfrau mewn pedwar cant ar ddeg o flyneddau, yn fwriadol ac yn ddifwriad, trwy ddiofalwch ac ymyraeth y rhai oedd yn copïo, yn gystal a thrwy achosion anocheladwy. Mae dysgedigion wedi rhoi mwy o lafur ac amser at y gorchwyl o chwilio a chymharu hen ysgrifiyfrau yr Ysgrythyrau Sanctaidd, nag at un gorchwyl beirniadol arall; ac er eu bod wedi llwyddo i ddangos miloedd o'r hyn a elwir yn ddarlleniadau gwahanol, eto, addefir ganddynt oll nad ydynt yn gwneyd un cyfnewidiad o bwys mewn ffaith nac athrawiaeth trwy yr holl gyfrol ddwyfol: ac y maent oll, bron, o natur nas gellir eu gwneyd yn ddealladwy mewn cyfieithiad. Mae Cristionogion, weithiau, wedi dychrynu wrth glywed am wahanol ddarlleniadau yn y Beibl, fel pe bai sylfeini eu ffydd mewn perygl; ond nid oes dim wedi dangos yn eglurach na'r ymdrechiadau hyn, fod y Beibl, fel y mae yn yr ieithoedd gwreiddiol yn bresennol, yn mhob peth sydd i lywodraethu ein barn a'n hymddygiad, ein hofn a'n gobaith, yn berffaith yr un fath a phan ddaeth o law y dynion sanctaidd a'i llefarodd. Pe buasai yr Arglwydd wedi cyflawnu gwyrth i gadw holl ysgrifiyfrau Asia, Ewrop, ac Affrica, heb i gymmaint ag un cyfnewidiad yn y dull o sillebu gair, neu o gyfleu gair mewn brawddeg, ymlithro i un o honynt, ni buasai gymaint ag un amgylchiad mewn hanesiaeth, un gwirionedd mewn athrawiaeth, un addewid nac un bygythiad ynddo, nad yw yn y Beibl yn bresennol. Llafur beirniaid gyda llawysgrifau sydd yn ein galluogi i ddywedyd hyn. Yr ydym yn gwneyd y sylw rhagarweiniol hwn er mwyn

Digitized by Google

rhagflaenu unrhyw bryder i'r rhai y mae y mater hwn yn newydd iddynt, wrth glywed am amrywiaeth yn narlleniadau eu Beiblau, ac am y gwahanol dybiau o barth iddynt. Yn 1519, cyhoeddodd Erasmus ail argraffiad, wedi cymharu amryw ysgriflyfrau nad oeddynt yn ei feddiant yn flaenorol, ac wedi gwneyd ymchwiliadau pellach i weithiau y tadau. Cyhoeddodd argraffiadau drachefn yn 1522, ac yn 1527. Erbyn y pedwerydd argraffiad, yr oedd wedi gwneyd amryw gyfnewidiadau, trwy gael mantais i'w gymharu â'r un a gyhoeddwyd dan nawdd Ximenes, yn Alcala — neu Complutum, fel y gelwid y lle y pryd hwnw. Argraffiad diweddaf Erasmus oedd yn 1535. Oddi wrth y ddau Destament a enwyd, sef un Complutum, neu Alcala, ac un Erasmus, mae yr holl argraffiadau a ddaethant ar eu hol wedi eu cymmeryd, gydag ychydig o gyfnewidiadau a ddygwyd i mewn ar ol chwilio ychwaneg o lawysgrifau. Yn 1546, cyhoeddodd Robert Stephens ei argraffiad cyntaf o'r Testament Newydd. Ar ol tair blynedd, cyhoeddodd un arall; ac yn y ddau argraffiad hyn dilynodd y testyn Complutenaidd, fel y gelwir un Ximenes. Yn 1550, daeth ei drydydd argraffiad allan, yr hwn a elwir "Regia;" ac yn hwn, dywedai ei fod wedi cael cymhorth pymtheg o lawysgrifau, a'i fod wedi dilyn pummed argraffiad Erasmus; ac, fel y dywedwyd, yn y ddau argraffiad olaf yr oedd Erasmus wedi cydymffurfio â'r un Complutenaidd. Yn ei bedwerydd argraffiad, yn 1551, defnyddiodd Stephens adnodau. Y llafurwr nesaf yn y gwaith hwn oedd Beza, cyfaill Calvin. Cymmerodd Beza drydydd argraffiad Robert Stephens, a gwnaeth ychydig o gyfnewidiadau ynddo, yn unol â rhyw welliadau a dybiai ef oedd i'w cael mewn o bymtheg i ugain o lawysgrifau oedd wedi dyfod o dan ei sylw. Parodd i'w gymmeriad uchel fel ysgolor Groegaidd, a'i ddylanwad yn mhlith yr eglwysi diwygiadol, i'w argraffiad ef ymledanu yn brysur. Cymmerodd argraffwyr o'r enw Elzevirs, fantais o boblogrwydd Testament Beza, a chyhoeddasant yr argraffiad cyntaf o hono yn 1624. Dywedir, yn y rhagymadrodd, iddo gael ei argraffu oddi wrth y Regia, trydydd argraffiad Stephens, yn nghyd âg argraffiadau ereill. Yr argraffiad hwn o eiddo Stephens oedd hefyd sail llafurwaith Beza, er iddo amrywio oddi wrtho, pan y tybiai fod ganddo awdurdod digon o lawysgrifau o'i ochr. Ond er na enwir un argraffiad gan yr Elzevirs, ond un Stephens, fel sail eu Testament hwy, yn nghyd âg argraffiadau ereill—y rhai goreu oedd i'w cael—eto, dilyn Beza yr oeddynt, pan y byddai efe yn amrywio oddi wrth Stephens. Ond celent ei enw, rhag rhoi tramgwydd i'r Pabyddion, ac i hyny niweidio gwerthiad y llyfr. Yn eu hailargraffiad, yn 1633, dywedent yn y rhagymadrodd, mewn ffordd o ddadgan llwyddiant y gwaith; "*Textum ergo habes ab omnibus receptum*"—y mae genych y testyn a dderbynir gan bawb. Hyn ydyw dechreuad yr ymadrodd a welir mor fynych mewn llyfrau beirniadol, "*textus receptus*"=y testyn derbyniedig. Ac er i'r geiriau gael eu defnyddio mewn ymffrost ar y cyntaf, y maent yn awr yn wir: hwn ydyw y testyn a dderbynir yn bresennol o'r Testament Groeg. Ac wrth edrych yn ol ar yr hyn a ddywedwyd, gwelwn—mai yr argraffiad cyntaf o'r Testament yn yr iaith wreiddiol oedd yr un a wnaed yn Complutum, yn Yspaen, ar sail ychydig ysgriflyfrau a ellid eu cael yn gyflëus: —i Erasmus, ar sail ysgriflyfrau ereill, barotoi argraffiad; ond iddo, yn y trydydd argraffiad, ddilyn yr un Complutenaidd yn benaf:—i Robert Stephens, yn ei drydydd argraffiad, sef y Regia, ddilyn pummed argraffiad Erasmus: — i Beza ddilyn y Regia yn benaf; ond iddo ddiwygio neu adgyweirio y testyn mewn rhai manau, ar sail agos i ugain o ysgriflyfrau ereill:—ac yn ddiweddaf, i'r Elzevirs ailargraffu Beza, yr hwn sydd wedi ei ddilyn yn yr holl argraffiadau diweddaf. Fe ddichon y gall y darllenydd ofyn "Paham yr oedd yn angenrheidiol cymharu yr holl ysgriflyfrau hyn? Onid oedd pob un yn cynnwys y Testament yn gyflawn?" Digon gwir: ond fel y dywedwyd, yr oedd yn bur debygol y buasai mân wallau yn dyfod i mewn, gan fod pob copi wedi ei ysgrifenu â'r llaw; ac y mae bron yn anhygoel meddwl fod yn bosibl i ddyn, pa mor hyddysg bynag, gopïo llyfr mor fawr heb i ryw lythyrenau gael eu gadael allan, rhai ereill eu rhoi i mewn, a rhai, efallai, eu trosglwyddo o'u lle priodol.

Ond er i'r testyn derbyniedig gael ei ffurfio fel y dywedwyd, ac iddo gael derbyniad cyffredinol, eto, fel yr oedd beirniaid yn dyfod o hyd i lawysgrifau ereill, mewn gwahanol wledydd, ymröent at y gwaith o'u cymharu, a chyhoeddent ffrwyth eu llafur mewn argraffiadau newyddion, gyda darlleniadau gwahanol ar ymyl neu ar odre y dail, neu weithiau yn y testyn ei hun, gyda chyfarwyddiadau i'w gwahaniaethu oddi wrth y darlleniad derbyniedig.

Yn 1657, cyhoeddodd Walton gasgliad mawr o wahanol ddarlleniadau yn ei Feibl amrywieithog. Yn ei erbyn ef yr ysgrifenodd y Dr. Owen. Mae cyfeillion a phleidwyr y duwinydd mawr yn arfer cyfaddef ei fod ef wedi cael y gwaethaf yn y ddadl hon. Mae y Dr. Goold, ei olygydd diweddaf a mwyaf gofalus, er addef fod y Dr. Owen, yn eangder ei ysgoleigdod a'i allu beirniadol, islaw i Walton, eto, yn ei amddiffyn dan ddyweyd mai nid difrïo y dosbarth hwn o feirniadaeth ysgrythyrol oedd ei amcan yn ysgrifenu; ond gosod ei wyneb yn erbyn yr hyder o wneyd cyfnewidiadau yn yr ysgriflyfrau, pan nad oeddynt yn eu cael yno; ac felly rhoi mantais i Sosiniaid, ar un llaw, i wanhau y profion o'r gwirioneddau y maent hwy yn eu gwadu; ac ar y llaw arall, rhoi yn ngallu y Pabydd i ddyrchafu anffaeledigrwydd ei eglwys, trwy wneyd dangosiad ymffrostgar o annigonolrwydd y Beibl yn rheol.

Efallai, hefyd, pan nad oedd y gangen hon o feirniadaeth ond yn ei babandod, nad oedd mor hawdd gweled nad oedd gan y Beibl ddim i'w golli, ond pob peth i'w ennill, trwy fod pob un o'r gwahanol ddarlleniadau hyn yn dyfod yn brawf o'i ddilysrwydd a'i burdeb hanfodol. Nad oedd y dosbarth yma o feirniadaeth ond yn ei fabandod yn amser Owen, a brofwyd yn amlwg yn y gwaith nesaf a ddaeth allan o'r un natur, gan John Mill, yn 1707—yn cynnwys darlleniadau ereill ar ymyl y dail, ffrwyth cymhariaeth casgliadau o ysgriflyfrau oedd heb eu chwilio o'r blaen. Rhoddodd y gwaith hwn fywyd newydd yn y rhai a'i dilynodd yn yr un llafurwaith. Yn 1734, cyhoeddodd Bengel y Testament Newydd, gan gymeryd, fel y dywed, "mêr yr argraffiadau mwyaf cymmeradwy" yn destyn, gyda chwanegiadau Mill, yn nghyd â'r rhai a gasglodd efe ei hun o ddau ar ugain o ysgriflyfrau ychwanegol. Mae Bengel yn sefyll yn uchel yn mhlith beirniaid ysgrythyrol, am gywirdeb ei farn, eangder ei ddysgeidiaeth, a dwysder ei grefydd. Mae ei "*Gnomon Novi Testamentum*," sydd yn cael ei barotoi i'r wasg, yn Seisoneg, gan Clark, o Edinburgh, yn cynnwys mwy o feirniadaeth werth-

Digitized by Google

fawr ar eiriau y Testament Newydd, mewn cylch bychan, nag a geir yn un man arall, yn mha iaith bynag. Yr oedd Bengel, trwy astudiaeth hirfaith o lawysgrifau y Testament Newydd, wedi gwneyd ei hun yn hynod hyddysg ynddynt; ac wrth sylwi ar ddarlleniadau neillduol mewn rhai o honynt, a'u habsennoldeb o ereill, daeth i'w feddwl eu dosbarthu, yn ol eu tebygolrwydd i'w gilydd, yn *deuluoedd*. Dosbarthodd y cyfan i ddau deulu mawr—un Affrica, ac un Asia—gan dybied fod tebygolrwydd i'w gael yn llawysgrifau yr un wlad, o herwydd eu bod wedi eu copio oddi wrth eu gilydd.

Yn 1751, daeth allan waith mawr Wetstein. Chwiliodd yntau yn Lloegr, Ffrainc, yr Almaen, a Holland, am lawysgrifau nad oedd neb wedi eu cymharu. Dysgrifia hwynt yn ei ragymadrodd yn nghyd â'r manau yr oeddynt yn nghadw; a rhydd y darlleniadau blaenorol, yn nghyd â'r ychwanegiadau a gafodd ef ei hun, ar ymyl y dail.

Y nesaf a enwogodd ei hun trwy gymharu copïau o'r Testament Newydd mewn llawysgrifau oedd Griesbach. Nid aeth neb trwy lafur mwy, gyda mwy o ymroddiad a chariad at ei waith, na'r ysgolhaig enwog hwn, yn nygiad allan ei Destament Newydd. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf yn 1774, a'r ail yn 1775. Ond yr oedd yr ailargraffiad, mewn ystyr, yn llyfr newydd; yr ydoedd wedi ei gyfoethogi â llafur dysgedigion yn y cyfwng rhwng y ddau argraffiad, ac wedi rhoi dirfawr lafur yn chwanegol o'i eiddo ei hun. Yn argraffiadau Mill, Bengel, a Wetstein, yr oedd testyn 1624 yn cael ei gadw, heb un cyfnewidiad ynddo, a ffrwyth eu llafur hwy yn cael ei gadw ar ymylau y dail; ond amcanai Griesbach at adolygiad beirniadol o hono, mewn trefn i'w sefydlu rhag llaw. Gydag ef y dechreuwyd yr hyn a elwir "*recensio*"—adgyweiriad, neu adchwiliad. Y dyben mewn golwg oedd dilyn allan awgrymiad Bengel, yn nosbarthiad llawysgrifau yn deuluoedd, yn ol eu cytundeb neu anghytundeb mewn rhyw ddarlleniadau neillduol. Felly, nid oes dim i'w ddeall wrth y gair *adgyweiriad*, yn y cyssylltiad yma, ond yr hyn a fuasai gair Bengel yn ei drosglwyddo yn well; sef, dosbarth o lawysgrifau wedi eu trefnu yn ol eu tebygolrwydd i'w gilydd. Gwnaeth Bengel ddosbarthiad o honynt i ddau ddobarth; ond yn nghyfundrefn Griesbach, y mae tri dosbarth neu adgyweiriad 1. Yr Adgyweiriad Gorllewinol. Mae hwn yn cynnwys ysgriflyfrau a arferid gynt, lle yr arferid yr iaith Lladin. A hwn y cytuna yr *Italic*, neu yr hen gyfieithiad Lladin, cyn amser Jerome; y cyfieithiad Lladin cyffredin; a'r dyfyniadau a geir yn y tadau Lladin, megys Tertullian, a Cyprian. 2. Yr Adgyweiriad Dwyreiniol, Alexandriaidd, neu Aiphtaidd. Cytuna hwn mewn darlleniadau neillduol â dyfyniadau o waith ysgrifenwyr Alexandriaidd, Clement, Origen, Isidore, Athanasius, a Cyril. Y cyfieithiadau a wnaed oddi wrth lawysgrifau Alexandriaidd, ydynt y Coptig, yr Ethiopig, a'r Armeniaidd. 3. Yr Adgyweiriad Bysantiaidd, neu yr un perthynol i Gaer Cystenyn. A hwn y cytuna darlleniadau a geir mewn ysgrifenwyr oedd yn byw yn Groeg, Asia Leiaf, a'r gwledydd cyfagos, yn niwedd y pedwerydd canrif, ac yn y pummed a'r chweched. Mae testyn derbyniedig y Testament Groeg yn cytuno â hwn.

Y mae llawysgrifau y dosbarth Bysantiaidd yn llawer mwy lluosog na'r lleill; o herwydd yn ngwledydd gorllewinol Ewrop, ychydig o lawysgrifau Groegaidd a wnaed ar ol y pedwerydd canrif, ac ychydig yn yr Aipht ar ol y chweched; ond yn y dwyrain, yr oeddynt yn cael eu hamlhau nes y darganfyddwyd y gelfyddyd o argraffu. Nid oes un lawysgrif yn cynnwys yr un adgyweiriad yn berffaith; ond dywedir ei bod yn perthyn i'r Alexandriaidd, i'r Gorllewinol, neu Ddwyreiniol, yn ol amledd nodau neillduol un o'r dosbarthiadau hyn.

Yn ol y gyfundrefn hon, gwaith y beirniad ydyw chwilio allan pa beth ydyw darlleniad pob dosbarth neu adgyweiriad, trwy gymharu yr holl lawysgrifau sydd yn ei gyfansoddi. Os ceir fod y tri dosbarth yn cytuno yn yr un darlleniad, dywedir fod y prawf allanol o blaid dilysrwydd neu awdurdod y darlleniad hwnw; ond os anghytunant, y gorchwyl ydyw pwyso tebygolrwydd tumewnol y naill yn erbyn y llall, gan gadw mewn golwg pa beth ydyw tuedd darlleniadau gwahanol pob dosbarth. Tuedd yr Adgyweiriad Gorllewinol ydyw bod yn *esboniadol;* yr un Dwyreiniol i fod yn *ramadegol;* a'r un Bysantiaidd i fod yn *eireglurol*. Felly, y mae darlleniad sydd â'i amcan i esbonio yn ammheus yn y cyntaf; un sydd â'i duedd i buro yr iaith yn yr ail; ond y mae yr un Bysantiaidd yn cymmysgu neillduolion y ddau ddosbarth arall.

Y mae dilysrwydd neu awdurdod unrhyw ddarlleniad, yn ol Griesbach, i'w benderfynu, nid yn ol nifer yr ysgriflyfrau sydd yn ei gynnwys, ond yn ol nifer y dosbarthiadau o'i blaid. Os ceir yr un darlleniad mewn amryw ysgriflyfrau o'r un dosbarth, nid ystyrir hwynt yn dystion annibynol dros y darlleniad hwnw. Ac fel y dywedwyd o'r blaen, gan fod yr ysgriflyfrau Bysantiaidd yn fwy lluosog na'r rhai Alexandriaidd a Gorllewinol, pe ceid cant o gopïau o'r blaenaf dros ryw ddarlleniad, yn erbyn deg neu ddeuddeg o'r ddau olaf, penderfynir o blaid y darlleniad y ceir y nifer lleiaf o'i blaid, o herwydd yr ystyrir eu bod yn fwy annibynol. Dyben yr holl gyfundrefn hon ydyw rhoi eu hawdurdod priodol i ychydig o lawysgrifau annibynol, yn erbyn lluaws o rai wedi eu copïo oddi wrth eu gilydd, ac o ganlyniad heb feddu yr awdurdod i benderfynu unrhyw ddarlleniad a ellid gasglu oddi wrth eu nifer. Y cyfryw ydyw cyfundrefn Griesbach, a'r defnydd a amcanai efe wneyd o honi. Ond er cymmaint y perchir llafur a dysgeidiaeth Griesbach gan ddysgedigion, yn gystal a ffrwyth y llafur hwn—ei argraffiad o'r Testament Groeg—eto, y farn gyffredinol, bron, y dyddiau hyn, yw, nad oes un sail mewn traddodiad na hanesiaeth i'r fath ddosbarthiad o ysgriflyfrau, gyda nodau mor wahaniaethol a sefydlog ag a'i galluogai i ddyweyd yn bendant i ba ddosbarth y perthynent. Yn wyneb haeriad Griesbach, fod yr Adgyweiriad Alexandriaidd a Gorllewinol mewn bod yn nechreu y trydydd canrif—yr ateb yw, ei fod yn dra annhebygol y gallasai hyny fod heb i haneswyr eglwysig wneyd rhyw sylw o hyny. Pe buasai dosbarthiad beirniadol wedi ei wneyd, neu pe buasai ymdrech i buro y Testament Newydd wedi cymmeryd lle yn Alexandria, Italy, a Chaer Cystenyn, buasai rhyw sail i ddosbarthiad Griesbach; ond nid oes un awgrymiad gan ysgrifenwyr boreuol am y fath beth. Nid yw yn annhebygol y gallasai ysgriflyfrau yr un darn o wlad gytuno mewn rhyw bethau neillduol; ond pe cymmerid ysgriflyfrau Alexandria fel sail un dosbarthiad, pa ham na chymmerid rhai Antioch fel sail dosbarthiad arall? ac felly ceid fod y gyfundrefn yn llawer rhy

Digitized by Google

gyfyng i gynnwys y cwbl. Y mae dosbarthiad Griesbach wedi ei chwilio yn drwyadl gan y Dr. Laurence, Eichhorn, Matthæi, a beirniaid diweddarach; ac wedi cael ei ddangos, dybygid, yn amddifad o resymau da dros ddidoliad o lawysgrifau i ddosbarthiadau caeth—o'r hyn lleiaf, fod gwybodaeth eangach a manylach o lawysgrifau, ac o hen gyfieithiadau, yn angenrheidiol cyn y gellir gwneyd dosbarthiad boddhaol o honynt, os gellir hyd yn oed wedi hyny.

Dilynwyd Griesbach gan Hug; yr hwn, mewn rhan a fabwysiadodd ei gyfundrefn. Ac wedi hyny, gan y Dr. Scholz, yr hwn a deithiodd lawer i chwilio allan lawysgrifau nad oeddynt wedi eu chwilio o'r blaen. Hona efe mai y testyn Alexandriaidd sydd yn cynnwys yr Ysgrythyrau yn eu purdeb, a bod pob cyfnewidiad a geir mewn ysgrifau ereill yn llygriadau. Ond nid cynt y cyhoeddodd Scholz ffrwyth ei lafur, yn 1820, nad oedd galwad gan feirniaid am argraffiad o'r testyn gwreiddiol, wedi ei ffurfio ar egwyddorion gwell, ac hefyd, gyda mwy o ofal yn nghymhwysiad ei egwyddorion. Yn 1831, cyhoeddodd Lachmann argraffiad, gan broffesu dilyn, yn benaf, yr ysgrifau dwyreiniol, a dim ond *y rhai hynaf o honynt*, gan roddi, yn achlysurol, mewn manau ammheus, y darlleniadau gorllewinol. Yn 1842, cyhoeddodd argraffiad newydd ac eangach. Mae y gwaith hwn wedi cael derbyniad mawr.

Yr argraffiad beirniadol o'r Testament Newydd diweddaf a gyhoeddwyd ar y Cyfandir, ydyw un y Dr. Tischendorf, yn 1849. Mae efe wedi rhoddi llafur mawr i wneyd ymchwiliadau i ysgriflyfrau, gan ddilyn y *rhai hynaf* fel ei brif awdurdod, heb esgeuluso y rhai diweddaraf, nac ychwaith hen gyfieithiadau a dyfyniadau o'r tadau, os byddai lle i ammheu rhyw ddarlleniad.

Mae beirniaid ac esbonwyr Seisonig yn dechreu talu mwy o sylw i ddilysrwydd a phurdeb y testyn gwreiddiol. Ac fel prawf o hyn, y mae Alford, yn ei Destament Groeg (a gyhoeddwyd, y gyfrol gyntaf yn 1849), yn rhoddi testyn diwygiadol. Y mae yntau hefyd, fel y beirniaid diweddaraf, yn dilyn, yn benaf, yr ysgrifau *hynaf*.

Gwelir fod beirniaid yn myned i roddi llai o bwys ar y *lle* yr ysgrifenwyd unrhyw ysgriflyfr, gan ymofyn yn hytrach i'w hynafiaeth, ac am arwyddion o ofal a diduedd rwydd yn y copïwr.

Mae yr holl ymdrechiadau mawrion a diflino hyn i sicrhau gair Duw i ni yn ei burdeb cyntefig, yn mhob llythyren a iod o hono, mor bell ag y gall y llafur mwyaf wneyd hyny, yn bur foddhaol i barch goleuedig at y gyfrol sanctaidd. Nid oes dim ychwaith yn creu cymmaint o hyder yn meddyliau pawb sydd yn gydnabyddus â'r llafur hwn, am ddilysrwydd hanfodol yr Ysgrythyrau dwyfol. Mae ymchwiliad trwyadl i ysgriflyfrau y Beibl, hen gyfieithiadau a dyfyniadau y tadau, yn gosod hyn yn y modd mwyaf buddugoliaethus tu hwnt i ddadl. Dan y geiriau BEIBL; DARLLENIADAU GWAHANOL; YSGRIFLYFRAU, caiff y darllenydd fantais pellach i weled hyn. (Gwel *Bibliotheca Sacra*, 1843; *Norton's Genuineness of the Gospels; Davidson's Lectures on Biblical Criticism; Alford's Greek Testament; Prolegomena.*

ADGYWEIRIO; *trwsio, taclu, adferu. Barn* xxi. 23; 2 *Bren.* xii. 6; xxii. 6; 1 *Cron.* xi. 8. "Y brodyr, os goddiwedder dyn ar ryw fai, chwychwi, y rhai ysbrydol, *adgyweiriwch* y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder;" *Gal.* vi. 1; *dygwch ef yn ol, adferwch ef i'w le, gwnewch ef yn iawn*=καταρτίζετε τὸν τοιοῦτον. Mewn ysgrifeniadau meddygol, arwydda y gair yma roddi aelodau dadgymmaledig yn eu lle, a'u hiachau; efallai fod cyfeiriad at hyny yn y gair yma. Arwydda yn gyffredinol, gwneyd yn gyflawn, pa un bynag ai mewn ystyr naturiol ai moesol. Yn *Math.* iv. 21, cyfieithir ef, "*yn cyweirio* eu rhwydau." Yma, yn *adgyweirio* dyn wedi syrthio gyda chrefydd. Yn 2 *Cor.* xiii. 11; 2 *Pedr* v. 10; *Heb.* xiii. 21, cyfieithir y gair yn *fod yn berffaith*, a *pherffeithio*. Yn 1 *Thes.* iii. 10, fe'i cyfieithir yn "*gyflawnu* diffygion," &c. Y mae yn cynnwys symmud o ystâd o ddiffyg i ystâd o gyflawnder a pherffeithrwydd.

ADI, [אַדִּי, *fy nhyst*]: un o hynafiaid Crist, yn llinach Mair: *Luc* iii. 28.

ADIABENE. Rhandir o Assyria, trwy yr hon y dylifa yr afonydd Diab, ac Adiab, ar eu ffordd i'r Tigris. Sonia Josephus lawer am Helena, brenines yr Adiabeniaid, a'i mab Izates, fel dychweledigion at Iuddewaeth, yn amser yr Ymherawdwr Claudius, B.A. 41. [*Hynafiaethau Josephus*; llyfr 20. pen. ii.] Gelwir y dalaeth yma yn awr *Bontan*.

ADIAPHORIAID, [*Adiaphorists*=cymmedroliaid]: y Lutheriaid a ddilynasant Melancthon, ac a danysgrifiasant y cyfamseriad (*interim*). Gwel LUTHERIAID.

ADIDA, ['Αδιδά, *tyst y llaw*]: dinas o Iudah, lle y gwersyllai Simon Maccabeus er gwrthsefyll dyfodiad Tryphon i'r wlad, yr hwn a ddaliasai Ionathan trwy frâd yn Ptolemais: 1 *Mac.* xiii. 13.

1. ADIEL, [עֲדִיאֵל, *tyst yr Arglwydd*]. Un o lwyth Simeon; 1 *Cron.* iv. 36.

2. ADIEL: un arall; tad un o drysorwyr y brenin Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 25.

ADIN, [עָדִין, *addurnedig*]. Dychwelodd amryw o'i hiliogaeth o gaethiwed Babilon gyda Zorobabel, c. c. 556, ac Ezra, c. c. 457: *Ezra* ii. 15; viii. 6.

ADINA, [עֲדִינָא]. Un o gedyrn Dafydd, penaeth y Reubeniaid: 1 *Cron.* xi. 42.

ADITHAIM. Dinas o Iudea: *Ios.* xv. 36. Y mae Eusebius yn son am ddwy ddinas o'r enw *Adatha*; un tua Gaza, a'r llall tua Lyda, o'r tu dwyreiniol i'r ddinas hono.

ADLA, neu ADLAI, [עַדְלַי, *fy nhyst*]: tad Saphat, yr hwn oedd yn ben bugail i'r brenin Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 29.

ADMA, [אַדְמָה, *daiarol*]: un o'r pum dinas annuwiol a ddistrywiwyd â thân o'r nefoedd, ac wedi hyny a gladdwyd dan ddyfroedd y Môr Marw: *Gen.* xix. 24. Hon oedd y fwyaf dwyreiniol o'r rhai a lyncwyd i fyny; ac y mae rhyw seiliau i feddwl na lwyr orchuddiwyd mo honi gan y dwfr, neu ynte, fod trigolion y wlad wedi adeiladu dinas o'r un enw ar lan ddwyreiniol y Môr Marw; canys fel hyn y dywed Esaiah, yn niwedd y bymthegfed bennod, yn ol cyfieithiad Groegaidd y Deg a Thrigain,—"Duw a ddistrywia y Moabiaid, dinas Ar, a gweddill Adma."

Digitized by Google

**ADMAEL**: angel y ddaiar, yn ol dychymyg y Rabbiniaid Iuddewig. Priodolai y Rabbiniaid hyn angelion, nid yn unig i'r pedair elfen, fel eu gelwir, ond bron i bob peth arall. Bernir fod cyfeiriad at rai o'r angelion dychymygol hyn mewn rhai manau o Lyfr y Dadguddiad, megys lle y sonir am *angel y pydew diwaelod* (*Dad.* ix. 11), ac am *angel y tân* (*Dad.* xiv. 18). Crybwyllir am *angel y ddaiar* yn y traethawd a elwir *Ialcot Rubeni* (plyg xiii. 2), a gelwir ef *Admael*. Y mae gan y Rabbiniaid hefyd *angel* yn llywodraethu ar *y glaswellt;* ac un arall yn llywodraethu ar yr *anifeiliaid* a borant y glaswellt. Dywedant i Dduw ddefnyddio *angel y môr*, yr hwn a elwir *Rahab*, i lyncu y dyfroedd yn y greadigaeth, fel yr ymddangosai y sychdir. Yntau a anufuddhaodd, a Duw a'i lladdodd ef.

**ADMATHA**, [אדמתא, *cwmwl angeu*]. Un o gynghorwyr Ahasferus: *Esth.* i. 14.

1. **ADNAH**, neu **ADNA**, [עדנה, *gorphwysdra*]. Un o benaethiaid Manasseh, y rhai a droisant at Dafydd, pan oedd yn myned i Siclag: 1 *Cron.* xii. 20.

2. **ADNAH**. Un o dywysogion Iehosaphat: 2 *Cron.* xvii. 14.

3. **ADNAH**. Un o hiliogaeth yr offeiriaid a ddychwelodd o Babilon: *Neh.* xii. 15.

4. **ADNAH**. Un o'r rhai a briodasant wragedd dyeithr, ac a'u rhoisant ymaith: *Ezra* x. 3.

**ADNABOD**. 1. Ffurfio perthynas ddeallawl â phersonau neu bethau; a hyny yn gystal yn ddechreuol, a gorphenol a chyflawn. (1.) Yn ddechreuol: dyfod yn adnabyddus y tro cyntaf, ffurfio perthynas ddeallawl rhwng dyn a gwrthddrychau ereill, pan fyddo y meddwl, y tro cyntaf, yn dyfod i gyffyrddiad â rhai o'u nodweddion a'u priodoliaethau. (2.) Yn gyflawn a gorphenol: pan fyddo y syniad, neu y meddylrith, a ffurfiwyd am bersonau, neu bethau, yn cyfarfod â'i wrthddrych, dywedwn ein bod yn adnabod y cyfryw.

2. Cydnabod un y peth yw, neu y proffesa ei fod. (1.) Gyda'r meddylrith o ewyllys da, gofal am, neu wobrwyo; "adnabod y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich llywodraethu chwi yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio;" 1 *Thes.* v. 12. (2.) Gyda'r meddylrith ychwanegol o gymmeradwyaeth, parch, gwneuthur cyfrif o un; "Yr Arglwydd a edwyn ffordd y rhai cyfiawn;" *Salm* i. 6: "Nid adnabyddaf ddyn drygionus;" *Salm* ci. 4; gwel *Nah.* i. 7: "Nid adnabum chwi erioed;" *Mat.* vii. 23: "Nid adwaenom neb yn ol y cnawd," nid ydym yn gwneuthur cyfrif o neb o ran y cnawd; 2 *Cor.* v. 16. (3.) Gyda'r syniad o ymwybodolrwydd neu brofiad o'r peth, "Fel yr adnabyddwyf ef," &c.; *Phil.* iii. 10.

3. Diweireb (*euphemism*) am *orwedd gyda*, sef un o ryw arall: *Mat.* i. 25; *Luc* i. 34.

**ADNEWYDDU—IAD**, [*newydd*]. Nid yw ανακαινωσις (*anacainosis*), a gyfieithir *adnewyddu*, i'w gael ond yn Paul, ac mewn ysgrifenwyr eglwysig. Adferu peth i'w sefyllfa gyntefig, gwneyd o newydd—"gwyneb y ddaiar" (*Salm* civ. 30); "dinasoedd diffaith" (*Esa.* lxi. 4); "y freniniaeth" (1 *Sam.* xi. 14) — ei chadarnhau; "bai" (*Diar.* xvii. 9)—ei ddwyn ar gof; "dyddiau" (*Galar.* v. 21)—eu bendithio â'u gogoniant a'u llwyddiant dechreuol. "Adnewyddiad yr Ysbryd Glân;" *Titus* iii. 5; *Col.* iii. 10; gwaith yr Ysbryd yn adferu dyn yn ol i ddelw Duw: a chan mai yn raddol y gwneir hyny, dywedir fod y dyn oddi mewn yn cael ei adnewyddu o ddydd i ddydd (2 *Cor.* iv. 16): a gorchymynir i ddiwiolion "ymadnewyddu yn ysbryd eu meddwl;" *Eph.* vi. 23: ac "ymnewidiwch trwy adnewyddiad eich meddwl;" *Rhuf.* xii. 2: "ymadnewyddu drachefn i edifeirwch;" *Heb.* vi. 6—adferiad trwy edifeirwch i'r sefyllfa a gollwyd trwy bechod.

**ADNOD**. Dan y gair hwn rhoddir hanes y gwahanol adraniadau a wnaed ar destyn (*text*) gair Duw nes ei ddwyn i ffurf bresennol y pennodau a'r adnodau sydd mewn arferiad cyffredin. Nid gwaith yr ysgrifenwyr sanctaidd eu hunain ydyw yr adraniadau hyn, er fe ddichon fod yr ysgrifenwyr barddonol, fel beirdd pob gwlad, yn cadw y gwahaniaeth rhwng barddoniaeth a rhyddiaith yn amlwg i'r llygad mewn llinellau prydyddol, mesuredig. Y mae yr ysgrifiyfrau hynaf o'r Beibl Hebraeg, a'r cyfieithiadau hynaf, yn dangos y gwahaniaeth hwn. Ond nid ydyw bod yr ysgrifiyfrau presennol yn cadw y gwahaniaeth rhwng prydyddiaeth a rhyddiaith yn amlwg yn hyd y llinellau, yn brawf pendant fod yr ysgrifenwyr gwreiddiol wedi gwneyd hyny; ond y mae natur prydyddiaeth, ac yn enwedig prydyddiaeth Hebraeg, yn gwneyd hyny yn debygol. Ac y mae cyfeiriad Paul at yr ail Salm yn brawf o ddosbarthiad y Salmau y pryd hwnw.

Ond er hyny, nid oedd hyn yn ddosbarthiad ar y geiriau i adnodau, fel y defnyddir hwynt genym ni, nac ychwaith ar y llythyrenau i eiriau. Y dull o ysgrifenu yn y nifer mwyaf o'r llawysgrifau hynaf ydyw, gosod y llythyrenau yn ymyl eu gilydd, fel pe baent yn gwneyd un gair o ddechreu y llinell hyd y diwedd; ac felly o linell i linell, heb un nod i ddangos yn mha le y mae gair yn dechreu nac yn diweddu, ond yr hyn a geir mewn ychydig o lythyrenau terfynol. Rhaid i'r darllenydd ddosbarthu y llythyrenau yn eiriau iddo ei hun, ac y mae y synwyr a drosglwydda y llythyrenau iddo yn ymddibynu ar ei fedrusrwydd i wneyd didoliad cywir o honynt. Nis dichon na pharai hyn weithiau ddarlleniadau gwahanol o'r un linell o lythyrenau. Nid oes un cynnorthwy chwaith i'w gael oddi wrth nac acen, na chweoneb, na'r iota tanysgrif, mewn llawer o'r ysgrifiyfrau Groegaidd. Dyma linell o *Act.* i. 1, i ddangos hyn:—

ΤΟΝΜΕΝΠΡΩΤΟΝΛΟΓΟΝΕΠΟΙΗΣΑΜΗΝ
ΠΕΡΙΠΑΝΤΩΝΩΘΕΟΦΙΛΕ.
YTRAETHAWDCYNTAFAWNAETHUMO
THEOPHILUS.

Yn y Testament presennol, y mae y geiriau blaenorol fel y canlyn:—

*Τον μὲν πρῶτον λόγον ἐποιησάμην περὶ πάντων ὦ Θεόφιλε.*

Y traethawd cyntaf a wnaethum, O Theophilus.

Yn y flwyddyn 462, cyhoeddodd Euthalius, diacon yn Alexandria, yr Actau a'r Epistolau, nid yn ol y drefn flaenorol o gyfres barhaol a didoliad o lythyrenau, ond mewn llinellau hir a byr yn ol y synwyr. A hyn oedd yr ymadawiad cyntaf o bwys oddi wrth y dull blaenorol. Gelwid y llinellau hyn yn *sticoi* (στιχοι), oddi wrth rengau milwraidd. Bwriedid hwy i ateb yr un dyben a'r attalnodau presennol, i gynnorthwyo y darllenydd i weled y synwyr, ac i lywodraethu ei lais. Nid Euthalius oedd dyfeisiwr cyntaf y drefn hon: yr oedd mewn arferiad yn ysgolion y paganiaid Groegaidd yn mhell cyn hyny. A dywed Josephus, ei fod ef wedi ysgrifenu ei

Digitized by Google

*Hynafiaethau* mewn 60,000 o'r llinellau hyn. Ond Euthalius a gymhwysodd y dull hwn at ysgriflyfrau y Testament Newydd gyntaf. Yr oedd yn fantais fawr i ddarllenwyr anhyddysg, fel y gwelir oddi wrth yr anghraifft hon; *Tit.* ii. 2:—

ΠΡΕΣΒΥΤΑΣ ΝΗΦΑΔΙΟΥΣ ΕΙΝΑΙ
ΣΕΜΝΟΥΣ
ΣΩΦΡΟΝΑΣ
ΥΓΙΑΙΝΟΝΤΑΣ ΤΗ ΠΙΣΤΕΙ
ΤΗ ΑΓΑΠΗ
ΤΗ ΥΠΟΜΟΝΗ.

BOD O'R HYNAFGWYR YN SOBR
YN ONEST
YN GYMMESUR
YN IACH YN Y FFYDD
YN NGHARIAD
MEWN AMYNEDD.

Ymddengys, oddi wrth hyn, mai i eiriau, ac i adraniadau hwy na geiriau, yn ol y synwyr, y dosbarthwyd y llythyrenau gan Euthalius. Nid hir ar ol hyn y buwyd heb ysgrifenu yr Efengylau yr un modd. Gan nad oedd y llinellau i gyd yn cael eu llenwi yn ol y dull yma, a'r memrwn yn ddrud, dychwelwyd yn ol at yr hen ddull o lenwi y llinellau; ond i ddangos yn mha le yr oedd y *sticoi* yn dybenu, rhoddid attalnod. Yn fuan ar ol dechreu defnyddio yr attalnodau, rhanwyd yr holl lythyrenau yn eiriau. Ond yr oedd rhai yn dadleu dros yr hen ysgriflyfrau, ac yn parhau i'w copio.

Yr oedd adraniadau ereill yn cael eu defnyddio, sef i bennodau a *thitloi* — math o gynnwysiad byr (**κεφαλαια a τιτλοι**). Cyn amser Euthalius, y mae Tertullian yn cyfeirio atynt; ond nid oeddynt mewn arferiad cyffredin nes iddo ef eu harfer yn yr Actau a'r Epistolau. Tua chanol y trydydd canrif, cyhoeddodd Ammonius o Alexandria Gydgordiad; ac i hyrwyddo cyfeiriadau, defnyddiodd efe fath o bennodau. Yn y chweched canrif, rhanwyd yr Efengylau i'r *titloi*. Gwelir oddi wrth y ffugyrau canlynol nad oedd y dosraniadau hyn yn cyfateb i'r rhai sydd arferedig genym ni.

| | Titloi. | Cephalaia. |
|---|---|---|
| Matthew | 68 | 355 |
| Marc | 49 | 336 |
| Luc | 83 | 342 |
| Ioan | 18 | 223 |

Yn y wedd hon yr arosodd pethau, nes i Hugo St. Caro, tua 1240, gyhoeddi esboniad ar y Beibl —(*Biblia cum Postilla*); ac efe hefyd a gyhoeddodd y Mynegair Ysgrythyrol cyntaf i'r cyfieithiad Lladin cyffredin. Hyd yn hyn, nid oedd dim rhaniadau yn y Beiblau hyn; ac felly, er mwyn rhwyddineb cyfeiriad, dosranodd y Beibl yn bennodau, y rhai a ddefnyddir hyd heddyw; ac hefyd gwnaed adraniadau cyfartal o bob pennod, mwy neu lai yn ol hyd y bennod, a gosododd lythyrenau mawr yr egwyddor ar ymyl y dail i'w dynodi; ond nid oedd yr adraniad hwn yn cyfateb i'n hadnodau presennol. Dechreuodd yr adnodau gyda Rabbi enwog, o'r enw Mordecai Nathan, 1445. Yn ol esampl Hugo, gwnaeth M. Nathan Fynegair i'r Beibl Hebraeg, a dilynodd Hugo yn ei bennodau; ond yn lle defnyddio ei adraniadau ef o'r pennodau trwy lythyrenau, dosbarthodd hwynt i adnodau fel y rhai sydd yn ein Beiblau yn bresennol, gan eu rhifo â ffugrau. Fel hyn, benthyciodd yr Iuddewon y dosraniad i bennodau oddi wrth y Cristionogion, a'r Cristionogion yr adnodau oddi wrth yr Iuddewon. Yr hwn a ddefnyddiodd y ddyfais nesaf ar ei ol ef oedd James Le Fevre, yn y Salmau, yn 1509. Yn 1528, cyhoeddodd Pagninus ei gyfieithiad Lladinaidd o'r Hen Destament a'r Newydd, ac a ddefnyddiodd adnodau wedi eu rhifnodi trwy yr holl Feibl. Gwir awdwr yr adnodau a ddefnyddir yn bresennol ydyw Robert Stephens, yr argraffydd enwog a dysgedig; efe a'u hadranodd, meddai, pan yn marchogaeth ar geffyl o Paris i Lyons, ac a'u defnyddiodd yn ei bedwerydd argraffiad o'r Testament Newydd yn 1551, ac yn yr holl Feibl yn 1555. Amrywiodd ychydig oddi wrth Pagninus, gan wneuthur yr adnodau yn y Testament Newydd yn llawer lluosocach.

Daeth y dosbarthiad i adnodau i'r iaith Seisonig yn gyntaf yn *Meibl Genera*, 1560; wedi hyny yn *Meibl yr Esgobion*, 1560; a daeth wedi hyny i *Feibl y Brenin Iago*, neu y cyfieithiad awdurdodedig, yn 1611.

Yn yr argraffiad cyflawn cyntaf o'r Testament Newydd yn Gymraeg, sef *Testament W. Salusbury*, a argraffwyd yn 1567, ni cheir y pennodau wedi eu rhanu yn adnodau, ond yn *Act.* xxi. a xxii. 1—12, ac o ddechreu yr Ail Epistol at Timotheus hyd ddiwedd y Dadguddiad. Dyma fel y ceir y paragraph cyntaf o Efengyl Ioan ganddo ef:—

"Yn y dechrae ydd oedd y Gair, a'r gair oedd y gyd a Duw, a'r Gair hwnw oedd Duw. Hwn oedd yn y dechrae gyd a Duw. Oll a wnaethpwyd trwy'r *Gair* hwnw, ac eb ddaw ny wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd. Ynddaw yr oedd bywyt, a'r bywyt' oedd oleuni dynion. A'r goleuni a dywyn yn y tywyllwch, a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred."

Yr argraffiad Cymraeg nesaf ydoedd o'r holl Feibl—*Beibl Dr. Morgan*, 1588. Y mae hwn wedi ei ranu yn adnodau, fel y ceir yr holl argraffiadau.

Gan fod y dosraniad i bennodau ac adnodau yn ddyfais ddiweddar, nid ydynt yn gosod un rhwymedigaeth ar y darllenydd; ac yn wir, pe byddai ammheuaeth yn y testyn gwreiddiol o barth i ddidoliad y llythyrenau i eiriau, nid ydyw y didoliad presennol yn awdurdodol yn erbyn un gwell. Nid oes ond ychydig o wahaniaeth wedi bod yn nghylch ffurfiad y geiriau o'r llythyrenau. Ond am y dosbarthiad i bennodau ac adnodau, y mae yn resyn na wnaethid hwynt gyda mwy o ofal i beidio tywyllu y synwyr.

ADON, [אדן, *sail*]: enw lle neu dref yn nhir y caethiwed: *Neh.* vii. 61. Daeth rhai i fyny oddi yno, ac o fanau ereill, yn ol i Palestina, "ond ni fedrent ddangos tŷ eu tadau," &c.; *h. y.*, nis gallent brofi eu hachau fel yr oedd y gyfraith yn gofyn. Rhai o'r offeiriaid, o herwydd yr un achos, a fwriwyd allan o'r offeiriadaeth: *adn.* 63—65. Y mae hyn yn dangos y mawr bwys a roddai yr Iuddewon ar eu hachau a'u gwaedoliaeth.

ADONAI, [אדני, neu אדוני; Groeg y Deg a Thrigain, Κυριος]: un o enwau Duw yn yr Hebraeg, yn arwyddo *arglwydd*, *meistr*, neu *berchenog*; ac ni roddir mo hono i neb ond i'r Bod Goruchaf yn unig. Hen ffurf luosog y gair אדן (*adon*) ydyw; ac y mae, yr un fath a rhai geiriau lluosog ereill, yn cael ei gymhwyso at Dduw mewn ffordd o ragoriaeth neu ardderchogrwydd. Y mae gair arall yn cynnwys yr un llythyrenau, ond nid yn hollol yr un hafarnodau, yn arwyddo *fy Arglwydd:* ond y mae Gesenius yn hòni mai gair lluosog yw *Adonai*, heb un olddodiad rhagenwol yn gysylltiedig wrtho, fel y mae rhai wedi barnu; ac er prawf o hyn, dywed fod i'r ffurf hon ystyr lluosog bob amser; ac ychwanega fod Iehofah yn galw ei hun ar yr enw hwn (*Esa.*

Digitized by Google

viii. 7; *Iob* xxviii. 28) yr hyn nid yw yn cydweddu â'r dyb mai olddodiad rhagenwol, ac nid lluosog, yw terfyniad y gair; canys nid priodol fyddai i'r llefarydd alw "fy Arglwydd," neu "fy arglwyddi," arno ei hun. Yn y rhif unigol, yn gystal ag yn y lluosog rheolaidd, rhoddir yr enw hwn yn fynych i ddynion; megys i Putiphar (*Gen.* xxxix. 2, 3, &c.); ac i Ioseph (*Gen.* xlii. 30, 33); gwel hefyd *Gen.* xviii. 3; *Exod.* iv. 10, 13; *Esa.* xix. 4.

Yn y Beibl Cymraeg, cyfleithir y gair hwn fynychaf yn *Arglwydd*, ac mewn ychydig fanau yn *Ior*, ac argreffir hwynt mewn llythyrenau cyffredin; ond weithiau gwelir pob un o'r ddau mewn llythyrenau penigol bychain. Dichon nad yw yr holl argraffiadau yn gwbl yr un fath gyda golwg ar hyn; ond y mae yn beth i gwyno o'i herwydd, nad yw yr un a'r unrhyw air gwreiddiol yn cael ei gynnrychioli yn mhob man gan yr un gair Cymraeg, ac yn yr un fath lythyren. Y mae ychydig o wahaniaeth rhwng y cyfieithiad Seisoneg a'r un Cymraeg yn hyn o beth; ac yn gyffredin rhaid addef fod yr un Seisoneg, ar y cyfan, yn gyssonach âg ef ei hun. Y mae yn y Gymraeg ddigonedd o eiriau i osod allan yr holl enwau dwyfol yn yr Hebraeg, heb eu cymmysgu â'u gilydd, fel y mae yr holl gyfieithwyr wedi gwneuthur, o amser y Deg a Thrigain hyd y dydd heddyw. Tueddai yn fawr at eglurdeb pe cedwid yr enw IEHOFAH yn ddigyfnewid, pa le bynag y dygwydda yn yr Hebraeg; yna safai DUW am *Elohim*; ARGLWYDD, am *Adonai*; ac Arglwydd, am *Adon*. Gellid cadw IAH hefyd yn ei ffurf gyssefin, neu ynte ei gyfieithu yn IOR, yn mhob un o'r ychydig fanau lle y cyfarfyddir âg ef.

Yr Iuddewon, o barch neu o goelgrefydd, ni seiniant byth mo'r enw cyssegredig *Iehofah*; ond darllenant *Adonai* yn ei le, yn mhob man y cyfarfyddant âg *Iehofah* yn y Beibl Hebraeg: ac o herwydd hyn y mae yn dygwydd fod y llythyrenau יהוה yn cael yn gyffredin eu hysgrifenu â llafarnodau y gair *Adonai*, ac nid â'r llafarnodau sydd yn perthyn i'r gair *Iehofah* ei hun. [Gwel ADONIAID.] Y mae yr ofergoel yma cyn hened o leiaf ag amser Josephus; canys dywed yr ysgrifenydd hwnw wrthym nad cyfreithlawn iddo ef lefaru yn nghylch y peth, gan mor ddirgeledig ydoedd.—(*Gesenius' Hebrew Lexicon*, d. g.; *Kitto's Cycl. of Bibl. Lit.*)

ADONIA. Gwyliau a gedwid gynt, er anrhydedd i Adonis, neu Tammuz, gan fenywod. Yr oedd chwedl yn mysg y paganiaid, fod Gwener wedi syrthio mewn cariad âg Adonis, mab Cinyras, brenin Cyprus; fod Adonis yn dra hoff o hela, ac un diwrnod, fod baedd gwyllt wedi ymosod arno yn mynydd Libanus, a'i archolli yn farwol; oddi wrth hyn, fe alwyd yr afon oedd yn llifo heibio i'r fan yn *Adonis*. Yr oedd galar Gwener yn fawr dros ben ar ol y gwr ieuanc, ac aeth at Proserpina, brenines y byd isod, a chafodd ganddi addaw y cai dreulio chwe mis gyda hi bob blwyddyn, ar yr ammod y dychwelai yn ol i dreulio y chwe' mis ereill. Ar amser yr Adonia, neu y gwyliau y cyfeiriwyd atynt, yn mis Awst, byddai yr afon Adonis o liw cochaidd, oddi wrth fath o ocr a ysgubai i'w chanlyn y pryd hyny o fynydd Libanus; a chredai y trueiniaid mai rhedeg yn waed y byddai o gydymdeimlad âg archoll Adonis. Byddai merched Phœnicia, Assyria, ac (mewn amser) Iudea, a rhai gwledydd ereill hefyd, yn treulio dau ddiwrnod yn ei wyl flyneddol. Y diwrnod cyntaf, byddent yn casglu yn nghyd ddelwau o hono, ac yn galaru yn ddirfawr ar ei ol fel marw; ond yr ail, byddent yn ymysgwyd oddi wrth bob prudd-der, ac yn ymdaflu i bob llawenydd, o blegid iddo gael ei adferu yn ol i Gwener am chwe' mis arall. Byddai y gwyliau hyn yn hynod o lygredig. Bernir fod ystyr y chwedl yn cyfeirio at olyniad y tymmorau. Yr Adonia yr oedd Ezeciel yn gweled yr Iuddewesau eilunaddolgar yn gadw yn y weledigaeth. "Ac efe a ddywedodd wrthyf, Tro eto, cei weled ffieidd-dra mwy, y rhai y maent hwy yn eu gwneuthur. Ac efe a'm dwg i ddrws porth tŷ yr Arglwydd, yr hwn oedd tua'r gogledd, ac wele yno wragedd yn eistedd yn wylo am Tammuz;" *Ezec.* viii. 13, 14. Ceir cyfeiriad prydferth iawn at y chwedl yn *Nyholl Gwynfa* Milton; can. i, llin. 446 (470, yn nghyfieithiad y Dr. Pughe).

> "Tammuz a ddoai nesaf, archollâad
> Yr hwn o flwydd i flwydd yn Lebanon
> A ddenai fwyn lodesi Syria ar
> Ddydd haf idd ei alaru ar odlau serch,
> O groth ei graig tra rhedai idd y mor
> Adonis lyfn, tybygynt a ruddaai
> Gwaed Tammuz: llanwent yr hanesion hyn
> O nwyf yn merched Seion unfath ias,
> Eu trythyll nwydau yn y cyntedd myg
> Ezeciel sylwai yn ei dremiad ar
> Au addoliadau Iudah swrth."

Gwel ADONIS; TAMMUZ.

1. ADONIAH, [אדניה]: mab Dafydd o Haggith: 2 *Sam.* iii. 4. Efe oedd y pedwerydd mab a anwyd i Dafydd yn Hebron. Ganwyd ef wedi i'w dad gael ei wneuthur yn frenin; ond nid oedd efe yn teyrnasu y pryd hyny ond ar Iudah yn unig. Pan oedd y brenin Dafydd "yn hen," ac Amnon, ei fab hynaf, wedi ei ladd gan Absalom, a Chileab, ei ail fab, efallai, wedi marw, neu yn ddyn llonydd di son am dano, ac Absalom wedi ei ladd yn y gwrthryfel, — Adoniah, yn ystyried mai efe oedd y mab hynaf, ac mai ei eiddo ef wrth reswm oedd y freniniaeth (1 *Bren.* ii. 15), "a ymddyrchafodd, gan ddywedyd, Myfi a fyddaf frenin." Yn ol yr arferiad ddwyreiniol, gallasai Adoniah ystyried fod gwell hawl ganddo i'r orsedd na'i frawd hynaf, Amnon; gan i Amnon gael ei eni cyn i Dafydd fod yn frenin. Ond yr oedd Absalom yn hŷn nag ef, ac wedi ei eni ar ol i'w dad gael y freniniaeth, ac o deulu breninol o du ei fam.

Cerddodd yn ffordd Absalom, ac ennillodd galonau y bobl: 1 *Bren.* ii. 15. Darfu i Ioab, tywysog y llu, ac Abiathar, yr offeiriad, fabwysiadu ei achos, a dyfod yn arweinwyr iddo. Parotôdd Adoniah wledd freninol wrth faen Zoheleth, yr hwn sydd wrth Enrogel, a gwahoddodd ei holl frodyr, oddi eithr Solomon, a "holl wŷr Iudah," gweision y brenin, "Nathan y prophwyd, Benaiah, a'r gwŷr cedyrn," sef y Cerethiaid a'r Pelethiaid oeddynt dan Benaiah, ac oeddynt yn gwneyd i fyny warchodlu y brenin: 1 *Bren.* i. 33, 38. Tra yr oeddynt yn mwynhau y danteithion, ac yn parotoi i'w eneinio yn frenin, hwy a glywsant fod Solomon wedi ei enwi i fod yn frenin gan Dafydd, a'i fod wedi ei eneinio gan Sadoc a Nathan wrth lyn Gihon: "A'r holl wahoddedigion, y rhai oedd gydag Adoniah, a ddychrynasant, ac a gyfodasant, ac a aethant bob un ei ffordd." Yn ei ofn rhag Solomon, aeth Adoniah ac a ymaflodd yn nghyrn yr allor, lle yr ystyrid bywyd dyn yn rhy gyssegredig i'w gymmeryd ymaith, er y lleddid rhai hyd yn oed yno: *pen.* ii. 28. Pan fynegwyd hyn i Solomon, hysbysodd y negesydd yr ymddygai tuag ato

yn ol ei ymddygiadau rhagllaw: "Os bydd efe yn ŵr da, ni syrth un o'i wallt ef i lawr; ond os ceir drygioni ynddo ef, efe a fydd marw."

Yn mhen tua blwyddyn ar ol hyn, wedi marwolaeth Dafydd, aeth Adoniah at Bathseba, mam Solomon, i grefu ganddi fyned a gofyn i'r brenin a gai efe Abisag y Sunamees, y ferch ieuanc ydoedd wedi bod yn ymgeleddu Dafydd yn ei hen ddyddiau, yn wraig. Digiodd Solomon wrth hyn yn aruthr, meddyliodd nad oedd cais Adoniah ond ymgais llechwraidd am y freniniaeth drachefn, ac anfonodd Benaiah i'w ladd yn y fan. Efallai pe buasai Adoniah wedi priodi Abisag, y buasai, pan gawsai gyfle, yn hòni ei hawl i'r orsedd wedi hyny, yn rhinwedd ei undeb â hi, ac felly yn achlysuro cynhwrf a thrychineb. Pa fodd bynag, ymddengys mai mewn goleuni tebyg i hyny yr edrychai Solomon ar y peth ar y pryd; ac y mae y cyfrif uchel a wneid o'i dduwioldeb a'i ddoethineb yr amser yma, yn ein tueddu i feddwl ei fod, ar y cyfan, yn gweithredu yn gydwybodol.

2. ADONIAH: yr oedd gwr o'r enw yma yn byw yn amser Iehosaphat. Yr ydoedd yn un o'r Lefiaid a anfonodd y brenin i ddysgu yn ninasoedd Iudah; 2 *Cron.* xvii. 8.

3. ADONIAH: un o "benaethiaid y bobl" oedd yn selio y cyfammod yn amser Nehemiah; *Neh.* x. 16.

ADONIAID, [*Adonists*]: ydynt ddosbarth neu blaid o feirniaid a haerant fod gwir sain yr enw Hebraeg, *Iehofah*, wedi myned ar goll; ac yn bytrach na cheisio cynanu yr "enw annhraethadwy," a ddefnyddiant air arall yn ei le bob tro y cyfarfyddant âg ef, sef *Adonai*, fel enw ar y Goruchaf. Dywed yr Iuddewon fod sain yr enw *Iehofah*, yr hwn a ystyrient yn rhy gyssegredig iddynt adrodd, wedi colli, ac na wyddys pa lafariaid a ddylid osod dano; fod y cyssegredigrwydd a waharddai iddynt ddywedyd y gair wedi peri iddynt o'r diwedd golli y wybodaeth o'r llafarnodau cyntefig.

ADONI-BEZEC, [ארני־בזק, *arglwydd Besec*]= Brenin Besec: tref yn nghylch 17 milltir i'r dwyrain o Neapolis, neu Sichem. Mae terfynau cyfyng y breniniaethau yn ac o amgylch Palestina, yn amser ei goresgyniad gan yr Hebreaid, yn ymddangos yn y ffaith fod y *melec* bychan hwn wedi darostwng cynnifer a 70 o'r mân freninoedd hyny; ac y mae creulondeb eu harferion rhyfelgar i'w weled yn ei waith yn tori bodiau dwylaw a thraed ei garcharorion, heb ganiatäu iddynt ddim bwyd ond a gasglent o dan ei fwrdd ef. Yr oedd y buddugoliaethau hyny wedi rhoddi iddo y flaenoriaeth yn mysg y Canaaneaid a'r Phereziaid cynghreiriol, yn erbyn y rhai y cyrchodd Iudah a Simeon ar ol marw Iosuah. Maeddwyd ei fyddin, a chymmerwyd yntau yn garcharor. Y gorchfygwyr, er mwyn dangos fel yr oeddynt yn casäu ei ymddygiad at ei gaethion, a'i triniasant ef yr un modd. Deffröwyd ei gydwybod i weled ysgelerder ei fai, a chydnabyddai gyfiawnder y taledigaeth. Hyn, yn ddiau, a amcenid yn y driniaeth lem a arferwyd tuag ato. Dygwyd ef i Ierusalem, ac yno y bu farw; c. c. 1425. *Barn.* i. 4—7.—(*Kitto*, &c).

ADONICAM, [אדניקם, *yr Arglwydd dyrchafedig*]. Dychwelodd chwe chant a chwech a thrigain o'i hiliogaeth o gaethiwed Babilon, gyda Zorobabel; *Ezra* ii. 13.

ADONIRAM, [אדנירם, *arglwydd yr uchder*]. Mab Abda, yr hwn oedd ar y deyrnged yn amser Solomon; 1 *Bren.* iv. 6; v. 14. Y mae rhai yn tybied mai talfyriad o'r enw hwn yw Adoram, a Hadoram; 2 *Sam.* xx. 24; 1 *Bren.* xii. 18; 1 *Cron.* xviii. 10; ac mai yr un gwr "oedd ar y dreth" yn amser Dafydd, Solomon, a Rehoboam. ond mwy tebyg yw eu bod yn wahanol bersonau. Gwel ADORAM.

ADONIS, [אבניס]. Yn ol testyn y Vulgate, yn *Ezec.* viii. 14, dywedir i'r prophwyd weled gwragedd yn eistedd yn y deml, ac yn wylo am Adonis; ond yn ol darluniad y testyn Hebraeg, dywedir eu bod yn wylo am Tammuz, *y cuddiedig*.

Y ffugchwedlau cenedlig a adroddant am Adonis fel y canlyn:—Bugail ieuanc prydweddol ydoedd, mab i Cinyras, brenin Cyprus, o'i ferch ei hun Myrrha. Syrthiodd y dduwies Gwener mewn cariad ato, a mynych gyfarfyddai âg ef ar fynydd Libanus. Mawrth, gan genfigenu wrth ei gydymgeisydd, a drawsymffurfiodd yn faedd gwyllt; ac fel yr oedd Adonis yn hela, tarawodd ef yn ei arffed, ac a'i lladdodd. Galarai Gwener am farwolaeth Adonis, ac ni fynai ei chysuro. Y dwyreinwyr, i efelychu ei galar, a sefydlasant ryw ddyddiau arbenig i wylo am Adonis. Ar ol ei farw, aeth Gwener at yr ysbrydion, a chafodd ganiatâd Proserpina i Adonis gael bod gyda hi am chwe mis yn y flwyddyn, a pharhau am y chwech ereill yn y gororau uffernol. Ar hyn y sylfaenwyd y floddest gyhoeddus a ddilynai y galarnadau am ei farwolaeth. Dywed rhai, mai priodor o Syria, oedd Adonis; o Cyprus, neu o'r Aipht, medd ereill.

Yn mysg yr Aiphtiaid addolid Adonis, dan yr enw Osiris, gwr Isis. Ond gelwid ef weithiau Ammuz, neu Tammuz, *y cuddiedig*, i ddynodi, mae yn debyg, ei farwolaeth, a'i gladdedigaeth. Yr Hebreaid, mewn diystyrwch, a'i galwent ef *y marw* (*Salm* cvi. 28); am yr wylid am dano ef, gan ei arddangos fel marw yn ei arch: ar ach lysuron ereill, galwent ef "delw yr eiddigedd" (*Ezec.* viii. 3, 5), am ei fod yn wrthddrych eiddigedd Mawrth. Y Syriaid, y Phœniciaid, a'r Cypriaid, a'i galwent Adonis; a thybia Calmet, y dynodai yr Ammoniaid a'r Moabiaid ef wrth yr enw Baal-peor.

Y modd y byddent yn dathlu gwyl y gau dduw hwn, ydoedd fel y canlyn. Arddangosent ef megys yn gorwedd yn farw yn ei arch; wylent am dano, ymofidient, a chwilient am dano yn ddyfal a phryderus iawn. Gwedi hyn, cymmerent arnynt eu bod wedi ei gael drachefn, a'i fod eto yn fyw. Wrth y newydd da hwn, dangosent arwyddion o'r gorfoledd mwyaf anghymmedrol, a chyflawnent luaws o ymarferiadau gwarthus, i ddarbwyllo Gwener, pa mor fawr y llawen-gyfarchent hi ar adfywiad a dychweliad gwrthddrych ei hoffder, megys y cydymdeimlent â hi o'r blaen ar ei farwolaeth. Yr Hebrëesau, am y rhai y llefara y prophwyd Ezeciel, oeddynt yn cadw gwyliau Tammuz, neu Adonis, yn Ierusalem; a dangosodd Duw i'r prophwyd y gwragedd yn wylo am y duw gwaradwyddus hwn, hyd yn oed yn y deml. Gwel ADONIA; TAMMUZ.

ADONISEDEC, [אבני־צדק, *arglwydd cyfiawnder*, neu *arglwydd Sedec*; fel y mae Melchisedec yn arwyddo *brenin cyfiawnder*, neu *frenin Sedec*, oddi wrth yr hyn yr ymddengys fod *Sedec* yn un o hen enwau Ierusalem]: brenin Ierusalem, pan y goresgynwyd Gwlad Canaan gan yr Israeliaid.

Digitized by Google

Am ei hanes, gwel *Jos.* x., c.c. 1451. Wrth ystyried y driniaeth lem a gafodd ef a'r brenhinoedd ereill ar law Iosuah, dylid cofio mai rhyfel diarbed ydoedd hwnw, er llwyr ddiwreiddio cenedloedd eilunaddolgar wedi eu diofrydu gan Dduw i ddinystr. A phe buasent hwy yn fuddugol, nid yw yn debyg y buasai y driniaeth ar Iosuah a gwŷr Israel yn ddim gwell, ond yn hytrach yn waeth. Hen arfer buddugoliaethwyr yn y dwyrain oedd gosod eu traed ar yddfau brenhinoedd gorchfygedig, fel yr ymddengys oddi wrth gofadeiliau hynafiaethol Persia a'r Aipht.

ADORA: dinas ar gyffiniau Idumea, a enwir yn 1 *Mac.* xiii. 20; a chan Josephus [*Hynafiaethau*, viii. 10. 1, &c.]. Yr un ag Adoraim.

1. ADORAM, [אדרם, *addurnedig*]. Y swyddog oedd ar y deyrnged yn amser Dafydd: 2 *Sam.* xx. 24.

2. ADORAM. Swyddog ar y dreth dan Rehoboam, yn amser gwrthryfel y deg llwyth. Anfonodd y brenin ef at ei bobl, fe allai i geisio eu tawelu, neu yn hytrach i godi y deyrnged yr oeddynt yn anewyllysgar i'w thalu. Ei gribddeiliaeth, ond odid, oedd prif achos eu hanfoddlonrwydd; a phan ei cawsant i'w dwylaw, llabyddiasant ef â meini, fel y bu farw. Cymmerodd Rehoboam y rhybudd, a phrysurodd i'w gerbyd, i ffoi i Ierusalem: 1 *Bren.* xii. 18.

ADORAIM, [אדורים, *cryfder y môr*]. Dinas yn neheu Iudah, un o'r rhai a gadarnhawyd gan Rehoboam. Darganfyddwyd hi yn ddiweddar gan Dr. Robinson, dan yr enw Dura, ynghylch pum milldir i'r de-orllewin o Hebron, yn sefyll ar lethr dwyreiniol bryn triniedig âg olewyddlanau a meusydd ŷd yn ei hamgylchu. Y mae yn bentref o gryn faint, ond nid oes yno ddim hen adfeilion.—[*Kitto*, &c.]

1. ADRAMMELECH, [אדרמלך, *y brenin addurnedig*]. Un o feibion Senacherib, brenin Assyria. Efe, a'i frawd Sareser, a laddasant eu tad, fel yr oedd yn addoli yn nhŷ Nisroch ei dduw, ac a ddiangasant i Armenia: 2 *Bren.* xix. 37; *Esa.* xxxvii. 38.

2. ADRAMMELECH. Enw un o'r eilunod a addolid gan bobl Sepharfaim, a sefydlwyd yn Samaria gan frenin Assyria, yn lle yr Israeliaid a gymmerwyd i gaethiwed y tu hwnt i Babilon. Gan y llosgent eu meibion yn tân i Adrammelech ac Annamelech, tebygol mai rhyw ffurf wahanol oedd o eilunaddoliaeth Moloch: 2 *Bren.* xvii. 31.

ADRAMYTIUM, ['Αδραμύττιον]. Hwyliai yr apostol Paul, yn ei fordaith gyntaf i Italy, mewn llestr oedd yn rhwym i Adramytium, a elwir yn awr *Adramiti*, tref arforawl o Mysia, yn Asia Leiaf, ar gyfer ynys Lesbos: *Act.* xxvii. 12. Trefedigaeth Athenaidd ydoedd. Dywed Aristotle fod y dref hon, a'r culfor ar lan yr hwn y gorweddai, wedi cael eu henw oddi wrth *Adramyttus*, mab Alyattes, brenin Lydia, a brawd Croesus, yr hwn a'i hadeiladodd. Gellir casglu oddi wrth rai o'r bathodau a wnaed yma, yr arferai y trigolion addoli Castor a Phollux (*Act.* xxviii. 11); cystal a Iou ag Minerva. Lle tlawd yw yn awr, âg ychydig bysgotwyr yn byw ynddo.

ADRIA, HADRIA—S., *Adriatic.* Dyma yr enw a roddid unwaith ar Lynclyn Venice. Cafodd y fraich hon o Fôr y Canoldir yr enw hwn oddi wrth ddinas Adria, neu Hadria, yr hon sydd yn gorwedd tua 30 milldir i'r de-orllewin o Venice, rhwng geneuau yr afonydd Adige a'r Po; yr hon yn amser yr ymherawdwr ydoedd un o'r porthladdoedd i'r llynges Rufeinig. Geilw awduron Groeg ef Llynclyn Ionia. Yr oedd Môr Adria, yn ol yr hen ysgrifenwyr, yn cynnwys yr holl ddarn hwnw o Fôr y Canoldir sydd yn gorwedd rhwng gwlad Groeg ac Italy, a Sicily. Ond yn awr, cyfyngir Adria, neu Lynclyn Venice, i'r fraich hono o'r môr sydd yn ymestyn o gyfyngfor Otranto i ddinas Venice.

Sonir yn *Act.* xxvii, fod yr apostol Paul a'i gydgarcharorion ar eu taith i Rufain yn morio yn Adria, a chael ar y bedwaredd nos ar ddeg eu bod yn nesau i ryw wlad, ar draeth pa un yr aeth hi yn llongddrylliad arnynt; ac wedi iddynt ddiange, yna y gwybuant mai Melita y gelwid yr ynys. Yr ydym ni yn ystyried Melita neu Malta yn Môr y Canoldir; ond yn nyddiau yr apostol Paul cyfrifid hi yn Adria, yr hyn sydd yn dangos i ni fod terfynau Adria yn gyfyngach yn awr na'r amser hwnw.

ADRIAN (ymherawdwr). Gwel HADRIAN.

ADRIEL, [עדריאל, *praidd Duw*]: y gŵr y rhoddodd Saul ei ferch Merab yn wraig iddo yn lle Dafydd, fel yr addawsai. Tebygol i'w chwaer Michal fabwysiadu eu plant, gan y dywedir na fu iddi hi blant ei hun: 1 *Sam.* xviii. 19; 2 *Sam.* xxi. 8.

ADRODDIAD, [*adrodd, mynegu, hysbysu, rhoi cyfrif*]: cyfrif a roddir; mynegiad o ffeithiau mewn atteb i ymholiad; mynegiad o farn neu benderfyniad mewn achos cyfreithiol, yn cynnwys holl weithrediadau y llys yn yr achos; hysbysiad swyddol o ffeithiau, yn cynnwys crynoad o weithrediadau swyddog i'w uchafiaid, neu gyspwyll i lywodraeth neu gymdeithas; papyr a roddir gan gadbeniaid llongau i'r tollty, yn cynnwys cyfrif o'r llwyth.

ADSAIN, [*sain*]: adlais adlef, dadsain, darystain; careg atteb, craig lafar; gwrthdarawiad swn o fynydd, craig, neu fur: *llios.*, adseiniau. "Agos yw y dydd terfysg, ac nid *adsain* mynyddoedd" (*Esec.* vii. 7); sef drygfyd gwirioneddol wedi dyfod ar y wlad, ac nid son am dano o bell; neu mewn cyferbyniad i sain gorfoledd yn dadseinio'r mynyddoedd yn amser cynauaf gwin, ac yn adeg heddwch a hawddfyd: *Esa.* xvi. 9, 10; xl. 9.

ADULAM, [אדלם]: hen ddinas (*Gen.* xxxviii. 1, 12, 20) yn nyffryn llwyth Iudah (*Jos.* xv. 35); ac un o ddinasoedd brenhinol y Canaaneaid: *Jos.* xii. 15. Yr oedd hi yn un o'r trefydd a gadarnhaodd Rehoboam (2 *Cron.* xi. 7; *Micah* i. 15); a chrybwyllir hi wedi y caethgludiad: *Neh.* xi. 30; 2 *Mac.* xii. 38. Dywed Eusebius a Jerome, ei bod fel math o bentref mawr yn eu hamser hwy —ddeng milldir i'r dwyrain o Eleutheropolis: ond y mae yn amlwg eu bod hwy, gan ddilyn y Deg a Thrigain, yn ei chyfrif yr un ag Eglon, tra y mae yn sicr eu bod yn lleoedd gwahanol, ac yn meddu brenhinoedd gwahanol yn amser Iosuah: *Jos.* xii. 12, 15. Y mae yn amlwg fod Adulam yn un o ddinasoedd y gwastadedd, rhwng mynyddoedd Iudea a'r môr; ac oddi wrth ei chyfle yn y rhestr, yn enwedig yn 2 *Cron.* xi. 8, y mae yn ymddangos nad oedd yn mhell o Gath y Philistiaid. Oddi wrth hyn, gallem gasglu bod *ogof Adulam* (1 *Sam.* xxii. 1), i'r hon yr enciliodd Dafydd o Gath, yn agos i ddinas o'r un enw: ond nid oes

Digitized by Google

un ran o'r Ysgrythyr a gyssyllta y ddinas â'r ogof; ac y mae yn ddiau nad mewn gwastadedd yr ymofynid am ogof, yn yr hon y gallai pedwar cant o wŷr lechu; ac ni ddarganfyddwyd unrhyw ogof o'r fath yn y cyffiniau hyny. Gan hyny, nid yw yn annhebyg bod ogof Adulam yn y mynydd-dir, ar y tu dwyreiniol i Iudah, tu a'r Môr Marw, lle y mae y cyfryw ogofeydd, a lle y cyfarfyddir â'r un enwau weithiau ag a geir ar leoedd yn y parthau gorllewinol, megys Carmel. Cadarnhëir y dyfaliad yma trwy yr ystyriaeth o'r ffaith mai yn y cyfeiriad yma y byddai Dafydd yn llechu yn fynych, o'r lle y symmudai i dir Moab, yr hon oedd ger llaw; tra y buasai raid iddo groesi y wlad ar ei thraws, pe y buasai ogof Adulam yn agos i'r ddinas a elwid felly. Wedi ystyried amryw resymau ereill, rhy faith i'w crybwyll yma, ymddengys fod seiliau da i'r traddodiad lleol a'i cyflea ar gyffiniau y Môr Marw, er nad oes dim sicrwydd am yr ogof neillduol a benodir fel yr un yr oedd Dafydd ynddi. Y mae yr ogof a ddarlunir fel y cyfryw mewn sefyllfa y buasai yn llawer mwy tebyg i Dafydd alw ei rieni yno ato, am yr amcanai eu cymmeryd i wlad Moab, nag un man yn y dyffrynoedd gorllewinol. Y mae tua chwe' milltir i'r de-orllewin o Bethlehem, mewn ochr cornant ddofn (*Wady Khureitun*), yr hon sydd yn myned oddi tan fynydd Herodion, ar y tu deheuol. Y mae hon yn ogof naturiol, anferth o faintiolaeth; a'r fynedfa iddi yn gul, ac amryw ystafelloedd neu gelloedd ar bob llaw iddi. Y mae yn dra thebyg fod Dafydd, yr hwn oedd frodor o Bethlehem, yn ddigon hysbys o'r llanerch nodedig yma, ac wedi bod yn llechu ynddi lawer gwaith, pan arferai fugeilio praidd ei dad yn ei chymmydogaeth; gan hyny, byddai yn naturiol iddo feddwl am dani fel lloches ddiogel ar ei ffoedigaeth o Gath; ac yr oedd yn dra chyfleus iddo i ffurfio mintai o ganlynwyr yn y fan hon, gerllaw ei hen gartref.

ADUMMIM, neu ADOMMIM, [אדמים], a enwir ddwywaith yn yr Ysgrythyrau; unwaith yn *Ios.* xv. 7, lle y gallem feddwl fod yr enw, *rhiw Adummim*, yn dynodi y terfyn rhwng Iudah a Beniamin; a gellid casglu, oddi wrth y cyfdestun, ei fod yn rhiw ar y ffordd rhwng Gilgal (a Iericho hefyd) a Ierusalem. Yr ail grybwylliad o'r enw, ni a gawn yn *Ios.* xviii. 17; ond nid ydys yn cael dim ychwaneg o hysbysrwydd am y lle yma; yn unig fe'i gelwir *rhiw Adummim*. Mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr yn meddwl ei fod yn dynodi *lle y gwaed*, a chyda Jerome, yn barnu mai y rhan beryglus neu fynyddig o'r ffordd rhwng Iersualem a Iericho ydoedd, a'i bod wedi ei galw felly ar gyfrif y gwaed lawer a dywelltid yno gan yspeilwyr, y rhai a fynychent y lle. Ond y mae yn fwy tebyg fod yr enw yn dyfod oddi wrth *Adam*, ac yn arwyddo *cochni y ddaiar*, neu y graig, yn y lle. Y mae yn ymddangos fod y rhiw crybwylledig mor hynod fel cyrchle lladron, fel y dewisodd yr Arglwydd Iesu y fan i ddarlunio golygddrych dammeg y Samariad trugarog fel wedi cymmeryd lle arni: *Luc* x. 30, &c. Mae y teithwyr diweddaf yn darlunio y cyfryw lanerch, yr hon sydd dra pheryglus i'w theithio y dyddiau hyn, yn y mynydd-dir, tuag wyth milltir o Ierusalem, a phedair o Iericho.

ADWAEN: gwybod am, adnabod, gwybod trwy brofiad, arddel, gwybod gydag ymostyngiad, cymmeradwyaeth, &c. "Mi a'i *hadwaen* ef, y gorchymyn efe i'w blant," &c.; mi *a wn am dano ef* mai y cyfryw fydd ei arferion: *Gen.* xviii. 19. "Ac nid *adwaenai* Samuel eto yr Arglwydd;" yr oedd yn ei adwaen fel ei addolwr, ond nid oedd yn ei *adnabod* fel yr oedd yn llefaru wrtho; "Nid egluresid iddo ef air yr Arglwydd eto;" 1 *Sam.* iii. 7. "Efe a safodd," ebe Eliphaz (*Iob* iv. 16) am y drychiolaeth, "ac nid *adwaenwn* ei agwedd ef" —nid oeddwn yn gallu gwneyd allan ei agwedd, "*I could not discern the form thereof*," ni allaswn ei adnabod. Gelwir y duwiau dyeithr wrth Israel, "y rhai nid *adwaenost*;" *Deut.* xiii. 2, &c.—sef y rhai na chefaist brofiad o honynt fel duwiau. Mae yn debyg, mai o blegid eu hamddifadrwydd o adnabyddiaeth ysbrydol a phrofiadol o Dduw y dywedir am feibion Eli "nad *adwaenent* yr Arglwydd;" 1 *Sam.* ii. 12. Sonir yn fynych am adnabod yr Arglwydd, ei enw, a'i dystiolaethau, &c., yn yr ystyr yma. Pan ddywedai Pharaoh, "Yr Arglwydd nid *adwaen*," dangosai nad oedd yn ei *arddel*, yn ei *arddel*, nac yn meddwl am *ymostwng* iddo fel Duw. Mae yn debyg mai *arddel* ydyw ystyr y gair yn *Salm* cxlii. 4. Fe ddefnyddir y gair yn fynych hefyd i arwyddo *arddel fel cyfaill*, fel hen *gydnabod, cymmeradwyo, ymfoddloni mewn*. "Yr Arglwydd a *edwyn* y rhai sydd eiddo ef;" 2 *Tim.* ii. 19. "Myfi yw y bugail da, ac a *adwaen* yr eiddof fi, ac a'm hadwaenir gan yr eiddo fi;" *Ioan* x. 14, 27. "Arglwydd, beth yw dyn, pan *gydnabyddit* ef?" *Salm* cxliv. 3. "Chwi yn unig a *adnabum* o holl deuluoedd y ddaiar;" *Amos* iii. 2. "Daionus yw yr Arglwydd, ac efe a *edwyn* y rhai a ymddiriedant ynddo;" *Nah.* i. 7. "Canys yr Arglwydd a *edwyn* ffordd y rhai cyfiawn;" *Salm* i. 6. Mae y ferf ידע yn yr holl fanau hyn yn yr Hen Destament yn arwyddo *cymmeradwyo*, fel y mae y ferf γινώσκειν, a ddefnyddia y Deg a Thrigain am dani, yn arwyddo yn y manau a nodasom yn y Testament Newydd. Mae hyn i'w weled yn eglur iawn yn *Rhuf.* vii. 15, lle mae y cyfieithwyr Cymreig a Seisonig wedi ymwrthod â'r gair cyffredin *adwaen*, neu *adnabod*, gan gymmeryd gair sydd yn arwyddo *cymmeradwyo* neu *ymfoddloni*:—"Canys yr hyn yr wyf yn ei wneuthur (οὐ γινώσκω), nid yw *foddlawn* genyf. "*I allow not*."—Cyf. Seis. "*I do not approve*."—*Macknight*.

Defnyddir y gair hefyd i arwyddo cymmundeb ystlenaidd, megys *Luc* i. 34.

ADWY—ON: bwlch, drylliad mewn mur. Mewn dinasoedd caerog, byddai o bwys fod y muriau yn gyfain ac yn gedyrn; o blegid byddai ymosodiad y gelyn yn nerthol iawn arnynt wrth ymdrechu am gael mynedfa i'r ddinas: o herwydd hyn, sonir yn fynych yn y Beibl am "gau," "cyweirio," a "chodi" yr adwyau: 1 *Bren.* xi. 27; *Esa.* xliv. 26. Pan byddai gelyn wedi llwyddo i wneyd adwy yn y mur, byddai yr ymgyrch yn y fan hono, rhwng y gelynion fyddai yn ceisio myned i fewn, a'r amddiffynwyr fydai yn ceisio eu dal draw, yn galed iawn; o herwydd hyn, ystyrid "sefyll ar yr adwy" yn beth pwysig iawn i ddiogelwch y ddinas: *Esec.* xiii. 5; xxii. 30; *Salm* cvi. 23. Lleferir yn fynych am y pethau hyn mewn ystyr foesol, pan y mae "sefyll ar yr adwy" yn arwyddo gwneyd ymdrech i ddwyn y bobl oddi wrth eu hanwiredd, ac i erfyn ar Dduw beidio eu dinystrio fel gelyn: a "chyfodi yr adwyau," yn arwyddo adferu o wrthgiliadau, &c.

ADYTUM. Gair Groeg pur, yn dynodi *cysseyredig*; ac a ddefnyddid am y lle mwyaf cys-

Digitized by Google

segredig yn y temlau paganaidd, i'r hwn nid elai neb ond yr offeiriaid. Yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, defnyddid ef yn gyfystyr â'r geiriau *cyssegr sancteiddiolaf* yn mysg yr Iuddewon.

ADDA, [אדם, *Adam*]. Fel enw priodol, arwydda *Adda*; fel cyfenwad, perthyna i ddyn yn gyffredinol; fel ansoddair, arwydda *coch*; a chydag ychydig gyfnewidiad (*Adamah*), arwydda *daiar*.

Crewyd dyn y chweched dydd, wedi creu pob peth arall; *Gen.* i. 26—31. Dangosir ei greadigaeth ef yn ffrwyth cynghor—"Deuwn gwnawn ddyn:" ac nid, fel y gweddill o'r greadigaeth, yn amlygiad o allu yn benaf—"Duw a ddywedodd, ac felly y bu:" ac hefyd yn amlygiad o Dduw, sef ei ddelw. Dyn ydyw nod uchaf y greadigaeth; mae yn ei gyfansoddiad ef holl elfenau a deddfau y greadigaeth islaw iddo; ond y mae ynddo elfen uwch, a galluoedd sydd yn ei gyfaddasu i fod yn llygaid i'r cwbl, i ddarllen eu rhyfeddodau, a gogoneddu y Creawdwr ynddynt. Yr oedd gwaith y dyddiau ereill megys grisiau yn arwain at greadigaeth dyn, ac ynddo ef yn cael eu pen a'u coron. Yr oedd efe yn cyfranogi o'r hyn oedd wedi ei greu yn flaenorol iddo ef:—defnydd ei gorff ydyw pridd y ddaiar. Mae ynddo yr un elfenau ag a geir yn y pridd y mae yn ei sathru dan ei draed, yn y llysiau, a'r anfeiliaid direswm —ac y maent ynddo ef yn ddarostyngedig i'r un deddfau ag y maent ynddynt hwy. Er yn ddiweddar y gwnaed hyn yn hysbys i ni gan fferyllwyr: ac ni allasai neb brofi, cyn yr hanner can mlynedd diweddaf, neu ychydig yn rhagor, mai yr un *carbon*, *oxygen*, *hydrogen*, *nitrogen*, calch, haiarn, *sulphur*, ac ychydig ddefnyddiau ereill, sydd ynddo ag sydd yn y tir y tyfa y llysiau o hono; eto dywed yr hanes ysgrythyrol hyn yn benderfynol. Felly mae yn rhagdybied y darganfyddiadau diweddar filoedd o flyneddoedd cyn eu gwneuthur: "Yr Arglwydd Dduw a luniasai y dyn o bridd y ddaiar;" neu yn gywirach, "yn bridd o'r ddaiar:"—*aphar*, pridd, yn arwyddo tywod, clai, calch, a'r defnyddiau ereill sydd mewn pridd. Mae yr enw a roddir ar y dyn yn ddangosiad o'r un ffaith. Gellir darllen yr un adnod yn fwy llythyrenol, "Iehofah Elohim a luniodd yr Adam (neu ddyn) yn bridd o'r Adamah (neu ddaiar)." Cymmerwyd ei enw oddi wrth y sylwedd y lluniwyd ei gorff o hono.

Y peth nesaf yn hanes creadigaeth dyn ydyw, ei gynnysgaethiad â bywyd naturiol: "ac a anadlasai yn ei ffroenau ef anadl einioes: a'r dyn a aeth yn enaid byw." Defnyddir y gair נפש (*nephesh*), a gyfieithir yma *enaid*, yn fynych am y bywyd anifeilaidd a theimladwy, trwy yr hwn y mae y creadur yn anadlu; ac felly i'w wahaniaethu oddi wrth fywyd llysieuol. Gwelir hyn oddi wrth yr ymadroddion canlynol:—"Heigied y dyfroedd ymlusgiaid byw;" *Gen.* i. 20. "Duw a greodd bob ymlusgiad byw;" *adn.* 21. "Dyged y ddaiar bob peth byw wrth ei rywogaeth;" *adn.* 24. "Pob peth a ymsymmudo ar y ddaiar, yr hwn y mae einioes ynddo;" *adn.* 30. Gwelir fod y gair yma yn arwyddo anifeiliaid byw; er mai *nephesh*, enaid, sydd yma yn Hebraeg. Yn unol â hyn y gellir deall y geiriau, "a dyn a aeth yn enaid byw;" hyny yw, efe a aeth yn greadur byw. Deallir hyn yn gyffredinol am gynnysgaethiad dyn âg ysbryd anfarwol, a defnyddir yr adnod fel prawf fod gan ddyn enaid i fyw byth. Dadleua Dr. P. Smith [*Kitto's Cyclo.*, d.g. *Adam*] yn erbyn hyn, ar bwys yr adnodau blaenorol; a chyfieitha yr ymadrodd yn "anifail byw" (*living animal*). Ond mae y cyfieithiad cyffredin, dybygem ni, yn well a'r sylwadau canlynol o eiddo Calvin yn gywirach, yn mha rai yr unir golygiadau Smith â'r esboniadau cyffredin ar yr adnod:—"Pa beth bynag ydyw barn llawer o'r hynafiaid ar hyn, nid oes un petrusder ar fy meddwl i i gydsynio â'r rhai sydd yn deall yr adnod hon am fywyd anifeilaidd neu naturiol dyn. Os dywed neb wrth hyn, nad oes gan hyny un gwahaniaeth rhwng dyn a'r anifeiliaid; fy ateb yw—er nad yw Moses yma yn crybwyll ond am un o gynneddfau isaf yr enaid, yr hwn sydd yn rhoi bywyd i'r corff, yn ei alluogi i anadlu, ac yn llywodraethu ei ysgogiadau, nid yw hyn yn un prawf nad oes gan yr enaid gynneddfau uwch, trwy ba rai y gwahaniaethir ef oddi wrthynt. Crybwyllir yn gyntaf am yr anadl; ac yna, chwanegir fod enaid wedi ei roddi iddo, trwy yr hwn y mae yn byw, yn teimlo, ac yn ysgogi. Gwyddom fod i'r enaid lawer o alluoedd neu gynneddfau; ac nid yw yn afresymol meddwl nad oes yma gyfeiriad ond at un o honynt, yn enwedig gan fod cyfeiriad wedi ei wneyd yn y bennod gyntaf at ei alluoedd meddyliol. Y mae tair gradd yn nghreadigaeth dyn; ffurfiad ei gorff marw o bridd y ddaiar, anadliad bywyd naturiol ynddo trwy ei gynnysgaethu âg enaid, ac argraffiad ei ddelw ei hun ar ei enaid, i'r hwn y mae anfarwoldeb yn perthyn." Dealla Calvin wrth "enaid" (*nephesh*) wir ansawdd yr enaid; ond bod y gair *byw* a gyssylltir âg ef, "enaid byw," yn dangos ei berthynas â'r corff, ac nid natur ei alluoedd yn gyffredinol. O ran yr ymadrodd ei hun, gellir ei gyfieithu "enaid byw," neu anifail byw; a gwneir felly yn fynych, yn ol yr amgylchiadau y defnyddir yr ymadrodd ynddynt. Mae amryw eiriau yn yr Hebraeg, a ddefnyddir am anadl, enaid, ac ysbryd, yn meddu ar ddau ystyr. *Neshama* a arwydda anadl, ac enaid—a'r naill mor fynych a'r llall. Defnyddir *ruach* am anadl neu wynt; ond yn fwyaf cyffredin am ysbryd. Felly *nephesh* a arwydda anadl, neu anifail; ond yn fwyaf mynych, enaid.

Mewn cyssylltiad â hyn, gallwn edrych ar amryw dystiolaethau ysgrythyrol am ddyn fel yn gyfansoddedig o gorff, enaid, ac ysbryd; 1 *Thes.* v. 23; *Heb.* iv. 12. Ymddengys fel pe byddai y Beibl yn gwahaniaethu yr enaid oddi wrth y corff, a'r ysbryd oddi wrth y corff, ac hefyd yr enaid oddi wrth yr ysbryd. Y mae rhai wedi meddwl fod chwaneg na "dwy ran" mewn dyn; hyny yw, chwaneg na dau sylwedd gwahanol, sef yr ysbrydol a'r anianol:—ereill a feddyliant mai y gwahaniaeth rhwng enaid ac ysbryd ydyw, y gwahaniaeth rhwng cynneddfau uchaf ac isaf yr enaid:—ereill, mai y sylwedd ydyw yr enaid, a gweithrediad neu fywiogrwydd y sylwedd ydyw yr ysbryd. Ond yn fynych dangosir fod yr enaid yn meddu bywiogrwydd i ddyoddef a gweithredu. Y cwestiwn ydyw, pa un y y golygiad cywiraf, bod yr enaid yn perthyn i'r ysbryd, ynte yr ysbryd i'r enaid:—ai gallu, neu gynneddf, neu ansawdd o'r ysbryd ydyw yr enaid, ai ynte yr enaid sydd yn meddu yr ysbryd, ac felly yn ysbrydol:—neu, mewn geiriau ereill, pa beth ydyw hanfod dyn fel creadur personol a chyfrifol i Dduw? Nid dau sylwedd, neu ddwy ran wahanol, ydyw enaid ac ysbryd: wrth enaid y meddylir yr ysbryd, ond yr ysbryd yn ei berthynas â'r corff. Wrth yr ymadrodd, "enaid anifeilaidd," am enaid dyn, nid ydys i feddwl fod gan ddyn ddau enaid—un fel eiddo yr anifail, a'r llall yn ei gymhwyso i fyd ysbrydol. Un enaid sydd gan ddyn: ond pan yr edrychir arno fel



Digitized by Google

bywyd y corff, a dim uwch, gellir ei alw felly. Nid oes gan enaid anifail natur na galluoedd uwch nag sydd yn ei gymhwyso i fod yn fywyd y corff: ond am enaid dyn, heb law ei fod yn meddu y gallu, trwy undeb â'r peiriant corfforol, i roi bywyd ac ysgogiad ynddo, y mae hefyd yn ysbrydol, yn meddu ar alluoedd priodol i'w wneuthur yn gyfrifol i Dduw, ac i fwynhau ei heddwch a'i gymdeithas. Felly y mae dyn yn gyfansoddedig o ddwy ran—un wedi ei chymeryd o bridd y ddaiar, o'r un elfenau ag sydd yn gwneyd i fyny y gyfundrefn weledig; ac felly y mae efe ei hun trwy ei gorff yn rhan o'r gyfundrefn hono, yn ddarostyngedig i'w deddfau, ac yn cyfranogi o'i chyfnewidiadau—a'r llall yn ysbryd, ond ysbryd mewn undeb â'r corff, yn ei fywhau a'i lywodraethu; a thrwyddo y mae mewn undeb â'r byd gweledig:—ac yn yr ystyr yma, fel un bod personol, ond yn cynnwys dwy ran wahaniaethol, lleferir am enaid dyn. Ond fel y defnyddir enw yr oll yn fynych am ran, felly defnyddir enaid am gorff dyn yn fynych; megys, "ni adewi fy enaid yn uffern;" ac hefyd am ysbryd. Trwy y cyfansoddiad hwn y mae dyn yn alluog i'w adnabod ei hun fel person gwahaniaethol—y byd y mae yn rhan o hono, ac yn cael gwrthddrychau ei deimladau corfforol oddi wrtho—ac hefyd Creawdwr y ddau. Mae ynddo gymhwysder hefyd i fod yn gyfrifol; mae ganddo allu i deimlo grym cymhelliadau, ewyllys i ddewis a gwrthod, a dyben moesol i gyrchu ato; mae o dan ddeddf, ac eto yn rhydd—mae ei ddeddf a'i ryddid yn ei natur—ac y mae ganddo alluoedd i garu, ac i wneyd ei hun yn wrthddrych cariad. Ac nid yn unig y mae ynddo gymhwysder i garu ac ewyllysio, ac i arglwyddiaethu ar y greadigaeth islaw iddo; ond y mae ynddo deimlad o ddyledswydd, ac ymwybyddiaeth mai mewn cyflawnu ei ddyledswydd, a mwynhau cymmeradwyaeth Duw, y mae ei hapusrwydd penaf.

Y mae yr ymgynghoriad dwyfol yn nghylch creadigaeth dyn yn y geiriau, "Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain;" *Gen.* i. 26. Mae rhai wedi ceisio gwneyd gwahaniaeth rhwng *delw* a *llun;* gan gymhwyso *delw* at y cymhwysderau naturiol a roddir i ddynolryw yn gyffredinol, a *llun* at roddion o ewyllys da. Perthyna y ddelw i'r corff, a'r llun i'r meddwl,—yn ol Augustine. Ond nid oes le i feddwl fod un gwahaniaeth, o herwydd yn yr adnod nesaf ni ddefnyddir y gair *llun;* "Felly Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd efe ef." Yma y mae *delw* ddwywaith; pe buasai *llun* yn chwanegiad at y syniad, nid yw yn debygol y gadawsid ef allan.

Heblaw hyny, arferai yr Hebreaid fynychu yr un peth mewn geiriau gwahanol. Yn *Gen.* v. 1, rhoddir y gair *llun*, a gadewir allan *delw*,—"Ar lun Duw y gwnaeth efe ef." Esboniad rhai, "ar lun a delw Duw," ydyw—yr arglwyddiaeth a roddwyd i ddyn, fel y gallai arddangos llywodraeth Duw ar y byd. Hyn oedd syniad Chrysostom. Yr oedd hyn yn tarddu oddi ar ei fod ar ddelw Duw; *adn.* 26. Gan fod y ddelw wedi ei cholli trwy y cwymp, gallwn gasglu oddi wrth ei hadferiad pa beth ydoedd. Yn *Col.* iii. 10, ac *Eph.* iv. 24, dywedir fod delw Duw yn cael ei hadferu trwy adgenedliad ysbrydol; ac mai mewn "gwybodaeth, cyfiawnder, a gwir sancteiddrwydd," y mae yn gynnwysedig. Efallai mai nid hyn oedd y cwbl; ond hyn oedd yn ateb dyben Paul, ac felly mae yn rhoddi rhan am y cwbl. Yr oedd delw Duw, gan hyny, yn gynnwysedig yn mherffeithrwydd ei natur

Y mae delw Duw yn gynnwysedig yn benaf mewn uniondeb moesol:—"gwneuthur o Dduw ddyn yn uniawn;" *Preg.* vii. 29. Arwydda y gair ישר (*iashar*) weithiau uniondeb naturiol; ac y mae rhai wedi cymhwyso y gair yn yr ystyr hwn yma, sef at lun y corff; ond heb sail digonol. Yn anfynych iawn y defnyddir y gair am uniondeb corfforol; o dros gant o weithiau y ceir y gair yn yr Hen Destament, ni ddefnyddir ef ond tua deg neu ddeuddeg o weithiau ond i arwyddo uniondeb moesol—gwir rinwedd. Mae y gair yn fynych yn ysgrifeniadau Solomon, a phob amser yn yr ystyr hwn: ac y mae yn amlwg nad oes un ystyr arall yn ateb amcan yr ysgrifenydd yn yr adnod dan sylw; o herwydd ymofyniad i garictor moesol sydd yn y fan hon, a dywed na chafodd un yn mhlith mil o rai uniawn; ond nid eu Creawdwr sydd i'w feio am hyny—"gwnaeth Duw ddyn yn uniawn." Ond i fod ar ddelw Duw yn yr ystyr yma, yr oedd yn rhaid ei fod yn meddu cyfansoddiad i'w gymhwyso i fod yn greadur personol ac anfarwol; ac yn yr ystyr hwn hefyd yr oedd ar ddelw Duw. Efallai mai at ddelw Duw yn yr ystyr yma y cyfeirir yn benaf yn *Gen.* ix. 6; lle y rhoddir yn rheswm dros gospi y llofrudd â marwolaeth, "ar ddelw Duw y gwnaeth efe ddyn." Defnyddir y gair *diniweidrwydd* yn fynych i ddangos cyflwr creedig Adda; ond nis gall fod gwahaniaeth rhwng diniweidrwydd a chyfiawnder, mewn creadur sydd dan rwymau i ufuddhau, ac yn gyfrifol am ei weithredoedd. Nis gall fod cyfwng rhwng pechod a chyfiawnder, rhwng uniondeb a gwyrni, mewn ystyr moesol, mwy nag mewn ystyr naturiol.

Mae dynion wedi amrywio yn eu barn am eangder neu ystyr y diniweidrwydd neu y cyfiawnder gwreiddiol oedd yn meddiant Adda. Mae y Pelegiaid wedi ei ddysgrifio heb garictor moesol yn y byd—peth diddrwg didda—ac felly yn gallu bychanu cwymp dyn. Edrycha Sosiniaid arno yn gyffelyb, gan haeru fod rhinwedd creadigol yn anmhosibl; o herwydd nas gall dyn fod yn sanctaidd ond trwy ewyllysio hyny. [Gwel J. Edwards, yn erbyn hyn, yn ei *Draethawd ar Bechod Gwreiddiol.*] Mae ereill, er addef fod dyn yn sanctaidd yn ei gyflwr cyntaf, eto a ddywedant fod rhywbeth yn ei gyfansoddiad, fel creadur dan ddylanwad y cnawd a'r byd, oedd yn ei wneyd yn fwy nag yn agored i bechu. Esboniant y posiblrwydd i bechu yn fath o ragbarotoad iddo; hwn oedd golygiad yr Ellmyn, Schleiermacher. Mae syniad y diwygwyr yn gynnwysedig yn ngeiriau Calvin:—"Wrth ddelw Duw y meddylir uniondeb gwreiddiol, yr hyn oedd yn gynnwysedig yn mhurdeb diwyrni ei ddeall, darostyngiad ei serchiadau i'w reswm, llywodraethiad ei holl synwyrau, a'i barodrwydd i briodoli ei holl ddoniau i ddaioni Duw: ac er mai eisteddle cyntaf a mwyaf priodol y ddelw hon oedd yn y meddwl a'r galon, neu yn yr enaid a'i alluoedd, eto, nid oedd un rhan, hyd yn oed o'i gorff, nad oedd yn pelydru rhyw raddau o ogoniant.

Yn nghreadigaeth Adda, fel ein tad cyntaf, y sylfaenir y gwirionedd, fod holl ddynolryw yn frodyr i'w gilydd, ac fel eu gilydd yn wrthddrychau gofal eu tad nefol. Creadigaeth un dyn, fel tad yr hil ddynol, oedd y moddion i sicrhau hyn; ac fe wasanaetha yn brawf o hono. Mae hyn yn amlwg oddi wrth y defnydd cyntaf a wneir o'r gair *Adda*,—"Gwnawn ddyn (*Adam*) ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain: ac arglwyddiaethant:"—yma, fe ddengys y ferf luosog fod "dyn"

Digitized by Google

wedi ei ddefnyddio fel ag i gynnwys yr hil, ac o herwydd hyny y dywedir "arglwyddiaethant." "Felly Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd efe ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt." Yma, dywedir fod y dyn wedi ei greu "yn wryw ac yn fenyw," a hyny cyn creu Efa; a defnyddir am dano y rhagenw lluosog *hwynt*, i ddangos mai llefaru am ddechreuad yr *hil* ddynol y mae yr hanesydd, ac am Adda fel y cyntaf o ddynolryw. Nid oedd y gair *Adda* yn enw personol ac unigol ar y cyntaf, ond yn enw ar yr hil ddynol; ac mewn ail ystyr neu gymhwysiad y defnyddir ef yn enw ar y dyn cyntaf;—a rhoddir yr enw mewn ffordd o enwogrwydd ar y cyntaf o'r hil. Ni chollodd y gair ychwaith ei ystyr cyntefig i ddynodi dynolryw; a defnyddir ef yn fynych yn yr Hen Destament i'r dyben hyny: ac heb law hyny, nid oes ffurf luosog iddo; ac felly, er y defnyddir ef yn fynych am holl ddynolryw, yn yr ystyr o'u bod yn un teulu y gwneir felly.

Y mae dau hanes am greadigaeth dyn; un yn fyr yn y bennod gyntaf, a'r llall yn feithach ac yn fanylach yn yr ail o Genesis. Y mae y cyntaf yn cyfeirio at y rhywogaeth, yr ail at y person. Nid ailadroddiad afreidiol ac anghelfydd ydyw y naill o'r llall:—y mae y ddau yn angenrheidiol. Pe na buasai genym ond yr hanes cyntaf, ni chawsem ond hanes am ddyn dychymygol (*ideal*); heb y cyntaf, gwelsem ddyn fel creadur unigol, heb ddeall ei berthynas â'r greadigaeth o'i amgylch. Y mae y dull yr adroddir hanes creadigaeth anifeiliaid a llysiau yn cadarnhau y golygiad. Yn y bennod gyntaf, dywedir fod y cwbl yn cael eu creu yn ol eu *rhywogaeth:* ac yn y 5ed adnod o'r ail bennod, dywedir fod yr Arglwydd "wedi creu pob planigyn *cyn* ei fod yn y ddaiar, a phob llysieuyn cyn iddo darddu allan:"—yn y 6ed, dywedir, "Onid tarth a esgynodd o'r ddaiar;" ac awgrymir mai y pryd hwnw y dechreuodd y planigion a'r llysiau ymddangos. Yn y bennod gyntaf, dangosir bob peth yn fwy yn eu perthynas â chynllun, ewyllys effeithiol, a gair hollalluog Duw, ac hefyd yn eu hundeb a'u gwasanaethgarwch i'w gilydd; ond yn yr ail bennod, ar ol y golygiad uchel a chyffredinol a geir yn y gyntaf, y mae yr hanes yn myned yn fwy unigol a manwl.

Y mae camsyniadau deublyg yn bod mewn perthynas i sefyllfa gyntefig dyn. Y mae rhai wedi dysgrifio ei wybodaeth, ei sancteiddrwydd, a'i alluoedd, mewn dull sydd briodol yn unig "i'r ail Adda, yr Arglwydd o'r nef." Yr oedd ganddo y galluoedd uchaf, a phrofiad cyflawn-oed am y pethau oedd o'i amgylch; yr ydoedd hefyd yn uniawn tuag at Dduw; ond eto dechreu gyrfa o gynnydd yr ydoedd, ac nid wedi cyrhaedd ei phen draw. Y camsyniad gwrthwynebol ydyw, fod ei gyflwr yn un barbaraidd a gwyllt—fawr uwch, os dim, na'r anifail. Mae anffyddwyr yn gyffredin wedi cymmeryd yr ochr yma. Nid yn unig y mae hyn yn groes i'r hanes dwyfol, ond y mae ffeithiau hanesiaeth gyffredinol, a chasgliadau rheswm wedi eu gwneyd gan ddynion heb feddwl am y Beibl, yn hollol groes iddo. Dywed Cousin, "fod dysgrifio dechreuad hanes crefydd a chymdeithas mewn sefyllfa anwaraidd yn afresymol." "Rhaid addef, ar dir rheswm," medd F. Schlegel, "fod dynolryw wedi cael eu dysgu yn y dechreu gan Ysbryd Duw." Tystiolaeth Ouveroff, yr hynafiaethydd enwog, ydyw, mai "nid mewn cyflwr barbaraidd na llygredig, y dechreuodd dyn; ond mewn cyflwr gwell ac uwch, nes at y Duwdod." Traddodiad yr hen fyd yn gyffredinol oedd, fod dyn wedi dechreu ei yrfa ddaiarol dan arweiniad dysgeidiaeth ddwyfol. Y mae y tystiolaethau hyn, a lluaws o rai cyffelyb gan y dynion enwocaf, wedi eu sylfaenu ar yr anmhosiblrwydd naturiol i ddyn ymgodi mewn gwareidd-dra a moesoldeb, ond trwy addysg oddi uchod. Heb law hyn, nid oes yn hanes y byd anghraifft o lwyth o ddynion wedi ymgodi o gyflwr barbaraidd, heb gymhorth oddi allan iddynt. Yn ol trefn'bresennol y byd, nid oes, ac nis gall fod, un llwybr i godi barbariaid, ond trwy fynediad dyn i'w mysg sydd wedi mwynhau manteision uwch ei hun. Yn nechreuad yr hil ddynol, nid oedd un *dyn* i wneyd hyn; y mae yn rhaid, gan hyny, mai *Bod uwch* oedd dysgawdwr cyntaf dyn. Ac y mae bod dynion gwareiddiedig ar y ddaiar yn awr yn brawf, yn annibynol ar y dystiolaeth ddwyfol, o hyn. Wrth edrych ar y mater yn y goleu hwn, y mae yn afreidiol dangos y buddioldeb, y pwysigrwydd, y tebygolrwydd blaenorol, o ddadguddiad, neu Ddysgawdwr dwyfol: y mae yn ffaith nas gellir ei gwadu—mae cofadail o honi o flaen ein llygaid lle bynag y ceir dyn gwareiddiedig. Mae anallu dyn i'w wneyd ei hun, yn brawf o *Greawdwr* dwyfol; ac y mae bod dynolryw yn analluog i wareiddio eu hunain, yn y lle cyntaf, yn brawf o'r un natur a'r un grym, o *Ddysgawdwr* dwyfol. Pe dywedai rhywun nad yw hyn yn angenrheidiol, nid rhaid i ni ond gofyn am un anghraifft o genedl o farbariaid wedi eu gwareiddio eu hunain. [Gwel *Whately's Political Economy.*] Y mae hyn yn gadarnhâd ar dir annibynol o wirionedd hanes y Beibl am gyflwr cyntaf dyn dan addysg ei Greawdwr. Cynnysgaethwyd ef hefyd, nid yn unig â chynneddfau i ddysgu iaith, ond âg iaith ei hun, mor bell ag yr oedd ei amgylchiadau a'i angenion yn gofyn. Dangosir fod Adda yn defnyddio iaith yn union ar ol ei greadigaeth; ac nid yn unig yn rhoi *enwau* ar wrthddrychau, ond, yn amgylchiad Efa, yn rhoi rhesymau dros ei galw yn gyntaf yn *wraig*, ac ar ol hyny, *Efa.* Y mae yr ymchwiliadau diweddar i berthynasau ieithoedd â'u gilydd, yn cryfhau, o hyd, y prawf o un iaith wreiddiol. Pe gadawsid i ddynion eu hunain ddyfeisio ieithoedd, yn ol tybiaeth rhai, buasai gan bob llwyth, neu bob teulu, bron, ei iaith ei hun. Felly yma eto, y mae gwybodaeth gelfyddydol yn dyfod i dystiolaethu o blaid gwybodaeth ysgrythyrol. Gellir gwneyd yr un sylw, oddi wrth amseryddiaeth a daiareg, am amser creadigaeth dyn; ond daw yr holl bethau hyn yn helaethach dan eu henwau priodol eu hunain.

Trefnwyd holl amgylchiadau dyn yn gyfatebol i'w gyfansoddiad, ac yn gyfaddas iddo gyrhaedd dybenion ei greadigaeth. Fel creadur yn meddu synwyrau a theimladau corfforol, gosodwyd ef mewn paradwys ddaiarol (*Gen.* ii. 8—15):—fel creadur rhesymol a chrefyddol, gosodwyd ef dan ddeddf (*adn.* 16, 17), a sancteiddiwyd Sabbath iddo:—ac fel creadur cymdeithasgar, cynnysgaethwyd ef âg ymgeledd gymhwys iddo (*adn.* 18—25). Yr oedd creadigaeth Efa yn unol â'r ddeddf yr oedd y Creawdwr wedi gweithio wrthi o'r dechreu; sef, yn mhob cynnyrch newydd o'i allu, corffori rhyw beth newydd gyda'r amlygiadau blaenorol o hono ei hun. Crewyd Adda, nid yn uniongyrchol o ddim, ond o'r hyn oedd wedi ei greu yn flaenorol, sef pridd y ddaiar; felly, yn unol â'r un cynllun, er nad yn yr un modd, crewyd Efa, nid o bridd y ddaiar, ond o asen Adda. Crewyd Adda o ddefnyddiau oedd



Digitized by Google

mewn bod yn flaenorol, ond nid aeth yn ol mor bell a phridd y ddaiar yn nghreadigaeth y wraig, ond defnyddiodd ran o'r dyn ei hun. Yr oedd yr Arglwydd yn ei wyrthiau yn gweithio yn unol â'r deddfau yr ydoedd wedi eu gosod iddo ei hun. Dangosir i ni yn hyn fod priodas wedi ei sylfaenu, nid ar nwydau sydd yn llywodraethu yr anifeiliaid, ond ar ordinhâd Duw ei hun. Nid chwedl i *ddangos* agosrwydd perthynas y gŵr a'r wraig ydyw hanes creadigaeth Efa, ond *moddion* i sicrhau agosrwydd y borthynas oedd dull ei chreadigaeth.

Yn nghanol yr holl fanteision hyn, dyledswydd dyn oedd perffeithio ei hun fel creadur moesol a chyfrifol, trwy ymostwng i Dduw yn unol â gwirfoddolrwydd ei natur ei hun. Ni wyddai ddim am ddrwg nes dysgu y posiblrwydd o hono trwy y gwaharddiad i'w gyflawnu. Yr oedd marwolaeth, a'r cwbl a berthynai iddo,—ofn, euogrwydd, cywilydd, poen,—yn ddyeithrol. Crewyd ef mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd; ond er hyny, yr oedd ei berffeithiad mewn sancteiddrwydd yn anmhosibl, dybygem, yn ol deddf ei natur, heb y prawf a wnaed arno. Y mae yn ammhëus a allasai godi i deimlad trwyadl o hono ei hun, fel person cyfrifol i Dduw, heb o leiaf y gwaharddiad a roddwyd iddo. Perffeithrwydd sancteiddrwydd ydyw ymostwng i *ewyllys* Duw; ond cyn cael gorchymyn neu waharddiad o'r natur a gafodd, ni chawsai fantais ond i ddilyn ei dueddiadau ei hun, heb feddwl am ewyllys ei Greawdwr. Yr oedd gosod ewyllys Duw ger ei fron yn foddion i ddwyn allan i'w deimlad fod ganddo ewyllys cyfrifol ei hunan. Am natur temtasiwn a chwymp dyn, yn nghyd â'u canlyniadau, gwel CWYMP; CYFAMMOD.

ADDAFIAID. Enw plaid, a alwyd felly, yn ol Epiphanius, o herwydd eu bod yn proffesu iddynt gael eu hadferu i ddiniweidrwydd cyffelyb i'r eiddo Adda, pan grewyd ef; ac o herwydd hyny, y dylent ymdebygu iddo trwy fod "yn noethion." Ffieiddient briodas, gan haeru na buasai yr undeb priodasol oni buasai bechod. Cododd y blaid hon yn yr ail canrif, ond ni pharhaodd yn hir. Yn y deuddegfed canrif, ymddangosodd eilwaith, gyda syniadau mwy ynfyd nag o'r blaen. Tua dechreu y pymthegfed canrif, dywedir i'r golygiadau ymdaenu i Germany, Bohemia, Poland, Holland, a Lloegr; er fod Lardner a Beausobre yn ammheu eu bodolaeth o gwbl.

ADDAS—RWYDD: cymhwys, priodol, gweddus, cyfatebol:—y naill beth yn gweddu neu yn cyfateb i'r llall; megys, yn 1. Yr ymddygiad a'r broffes; "Dygwch gan hyny ffrwythau addas i edifeirwch;" *Mat.* iii. 8; *Act.* xxii. 20. 2. Yr ymddygiad a'r rhagorfreintiau; "Ar rodio o honoch yn addas i'r alwedigaeth y'ch galwyd iddi;" *Eph.* iv. 1. 3. Yr ymddygiad yn cyfateb i'r perthynasau a'r rhwymedigaethau; "Fel y rhodioch yn addas i'r Arglwydd;" *Col.* i. 10. Arwydda hefyd deilyngdod; "Nid ydwyf addas i'm galw yn apostol, am i mi erlid eglwys Duw;" 1 *Cor.* xv. 9.

ADDEF. Gwel CYFADDEF.

ADDEWID—ION, [*addaw*]. 1. *Addewid dyn.* Addewid oddi wrth y naill ddyn i'r llall, ydyw gwiriad difrifol y cyflawna yr hyn y mae yn ymgymmeryd âg ef, neu yr achosa iddo gael ei gyflawnu. Ymddengys fod y syniad o'n rhwymedigaeth i gyflawnu ein haddewidion yn un o syniadau moesol cynhenid ein natur. Y mae peidio eu cyflawnu, heb fod dim yn amgylchiadau yr addäwr, neu rhyw ammodau yn yr addewidion eu hunain, yn cyfreithloni hyny, yn drosedd o eirwiredd; ac nid oes un syniad mewn dyn yn fwy cynhenid a chryf na'r syniad o'i rwymedigaeth i ymlynu wrth yr hyn sydd wir ac anrhydeddus, ac i ymwadu â'r gwrthwyneb. Mae wedi ei gynnysgaethu â gallu i wahaniaethu rhwng gwir a chelwydd, ac y mae yn feddiannol ar barch i eirwiredd yn yr hyn a leferir; a'r waith gyntaf y trosedda yn erbyn y teimlad hwn, y mae yn ymwybodol nad yw amgen na thrais ar syniadau mwyaf cyssegredig ei natur. Nid ydyw pallu oddi wrth addewidion ond ffurf o gelwydd:—y mae yn drosedd o eirwiredd ar air a gweithred.

Y mae cyflawnu yr hyn a addewir yn angenrheidiol er cysur, hyrwyddiad, a bodolaeth cymdeithas. Gweithreda dynion oddi ar ddysgwyliadau a gobeithion: un o'r prif egwyddorion ar ba rai y mae llwyddiant cymdeithas yn gorphwys ydyw *ymddiried* neu *ddysgwyliad hyderus*; ac achosir a phenderfynir hyn gan y sicrhâd a dderbynir gan ereill. Pe na byddai dibyniad i'w roddi ar wiriadau ereill, byddai yn anmhosibl gwybod pa fodd i farnu, a phenderfynu, a gweithredu, o barth i amgylchiadau dyfodol. Felly, y mae ymddiried mewn addewidion yn hanfodol i drafodaeth cymdeithas; ac heb hyny, ymddibynai ein gweithrediadau, gan mwyaf, ar ddamweiniau. Pan y mae un yn derbyn addewid gan arall, y mae, trwy hyny, yn dyfod i hawl o ryw dda; hyny yw, yr hyn sydd yn cael ei addaw iddo:—trwy yr addewid, y mae yr eiddo wedi myned yn rhinweddol oddi wrth y naill i'r llall; eiddo cyfreithlawn y diweddaf ydyw yn awr, os nad yw yn seiliedig ar ammodau, y rhai, trwy fethu eu cwblhau, sydd yn amddifadu yr hwn y gwnaed yr addewid iddo o'i hawl ynddi. Trwy beidio cwblhau addewidion, y mae un yn dangos nad oedd yn ddifrifol wrth wneuthur yr addewid, neu nad oes ganddo nemawr o sefydlogrwydd a phenderfyniad; a thrwy y naill neu y llall, ei ysgafnder neu ei anwadalwch, gall lychwino ei barch a'i gymmeriad, a rhwystro ei ddefnyddioldeb dros ei holl oes.

Ond y mae rhai amgylchiadau yn bod nad yw rheswm nac Ysgrythyr yn ein rhwymo i gyflawnu addewidion; ac nid yw y rhesymau uchod yn cyffwrdd â hwynt. Y mae yr addewidion hyny yn ddirym, pan y mae yr hyn a addewir yn anmhosibl i'w gwblhau; ond ar yr un pryd, os bydd un yn wybyddus o'r anmhosiblrwydd wrth addaw, y mae yn euog o dwyll, ac yn rhwym o ateb trwy dalu yr hyn sydd gydwerth â'r hyn a addawsai; neu, pan y mae, ar ol addaw, yn gwneyd y cyflawniad yn anmhosibl yn wirfoddol, y mae ar yr un tir a phe y torasai yr addewid, pe buasai y cyflawniad yn bosibl. Y mae addewidion yn ddirym, hefyd, pan y mae eu cwblhâd yn anghyfreithlawn. Gall achosion fel hyn fod, pan y mae anghyfreithlondeb y peth yn adnabyddus i'r ddwyblaid wrth roddi a derbyn yr addewid, neu pan y mae yn dyfod yn adnabyddus wedi i'r addewid gael ei gwneuthur. Nid yw neb dan rwymau i gwblhau addewid anghyfreithlawn; o blegid y mae dan rwymedigaeth flaenorol i wneyd y gwrthwyneb: ac y mae yn rhaid i bob rhwymau damweiniol a rydd dyn arno ei hun blygu i'r rhwymau tragwyddol sydd arno, y

Digitized by Google

rhai y mae yn anmhosibl ei ryddhau oddi wrthynt. Yn ngwneuthuriad yr addewidion hyny y mae y bai yn gynnwysedig, ac nid yn eu troseddiad. Yn y dosbarth hwn yr oedd addewidion Iephthah a Herod—addawsant yr hyn nad oedd ganddynt yr un hawl ynddynt. [*Paley's Moral Philosophy; Doddridge's Works.*]

2. *Addewidion Duw* ydynt y dadguddiadau grasol a roddes o'i fwriad i gyfranu "pethau da" i ddynion. Gallesid ymresymu yn mlaen llaw, oddi ar ystyriaeth o natur a pherffeithiau Iehofah, os byddai iddo byth, o'i rad ewyllys da, ymddarostwng i roddi addewid i ddynion, y buasai ei chyflawniad yn gwbl sicr. Pa bethau bynag a berthynant i ddyn, trwy ba rai y mae cwblhad ei addewid yn ammheus, y mae Efe yn gwbl rydd oddi wrthynt. Llesteirir cyflawniad addewidion dynol trwy ddiffyg geirwiredd, neu ddiffygion ereill mwy esgusodol; gall dyn esgeuluso cyflawnu yr hyn a addawodd trwy dwyll a chelwydd, trwy anwadalwch a chyfnewidioldeb; neu gall weithiau ballu o herwydd cyfnewidiadau mewn amgylchiadau. Ond y mae Duw yn anfeidrol uwch law yr holl bethau hyn—uwch law pob anmherffeithiau ac anfanteision. Nid oes dim gwreiddiol yn ei natur, ac ni ddichon dim ddygwydd yn oes oesoedd, i wneyd ei addewid yn ddirym. "Y mae yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog," neu yn dwyllodrus (ψεύδω); *Heb.* vi. 18. Y mae addaw unrhyw beth pwysig mewn byrbwylldra yn anghytunol â chymmeriad dyn doeth; ond pa faint mwy anghytunol fyddai hyny â natur y Goruchaf! Y mae ei holl addewidion Ef yn ffrwyth "cynghor dianwadal." Y mae ei anghyfnewidioldeb yn sicrhau eu cwblhâd. "Cadernid Israel ni ddywed gelwydd, ac nid edifarha;" ac nid all dim gymmeryd lle nad oedd yr Hwn "sydd yn gweled y diwedd o'r dechreuad" yn berffaith wybyddus o hono. Y mae Duw yn Gadernid, i aros yn un; yn Oleuni, i ganfod pob anhawsderau; ac yn Allu, i effeithio yr hyn y mae wedi ymrwymo i'w wneuthur. Am fod addewidion y Beibl yn eiddo y fath Fod, y mae yn rhaid eu bod "oll yn ïe, ac oll yn Amen;" 2 *Cor.* i. 20.

Lleferir yn fynych yn y Testament Newydd am "*yr* addewid." Yn mysg yr addewidion, edrychir ar ryw un fel yn arbenig, neu golygir yr oll yn gynnwysedig mewn un addewid fawr. "I chwi y mae *yr addewid;*" *Act.* ii. 29. "Amser *yr addewid;*" *Act.* vii. 18. "Nid ammheuodd efe *addewid* Duw;" *Rhuf.* iv. 20. "Plant *yr addewid,*" a "gair *yr addewid;*" *Rhuf.* ix. 8, 9. Gelwir hi yn "*addewid* y bywyd;" 1 *Tim.* iv. 8: ac yn "*addewid* yr etifeddiaeth dragwyddol;" *Heb.* ix. 15. "Tir *yr addewid*" oedd Gwlad Canaan, ac "etifeddion *yr addewid*" ydyw had ysbrydol Abraham. Gwaith Paul, a'r apostolion ereill, oedd "efengylu *yr addewid* a wnaed i'r tadau;" *Act.* xiii. 32. Fel hyn, y mae rhyw addewid fawr, neillduol, yn rhedeg drwy yr holl Ysgrythyrau; hi ydyw baich y dadguddiad dwyfol yn yr Hen Destament a'r Newydd. Y mae iddi amryw gangenau, ond y maent oll yn codi o *yr* addewid fel eu boncyff cyffredin. Gelwir hwy wrth yr enw lluosog *addewidion*, i ddynodi yr amrywiaeth sydd yn perthyn iddynt; eu bod mor aml ag ydyw angenion ac amgylchiadau y pechadur; ac y gall, i ba gyfyngder bynag yr ä, gael addewid i'w adgyfnerthu a'i gysuro; ond y mae yr holl addewidion yn cyfarfod, ac yn cael eu cynnwys mewn *un*—yr hen addewid a roddwyd i Abraham — y dystiolaeth hono, "Myfi yw yr Iehofah Hollddigonol;"—yr addewid felus hono, "Mi a fyddaf yn Dduw i ti, ac i'th hâd ar dy ol;"—a'r addewid hono oedd yn sail pob addewid arall a roddwyd iddo, sef yr addewid am y Messïah. Yn y Messïah, "ynddo Ef," y mae yr addewidion oll yn wreiddiedig; fel y mae y ffrydiau yn cael eu dechreuad yn y ffynnon, fel y mae y llinellau yn cyfarfod yn y canolbwynt, fel y mae y pelydrau yn llifo o'r haul, felly mae yr holl addewidion yn cydgyfarfod "ynddo Ef," ac yn derbyn eu grym a'u heffeithiolrwydd o hono ef. Un addewid fawr ydyw yr efengyl. Yr efengyl dan yr hen oruchwyliaeth oedd "yr addewid a wnaed i'r tadau;" a'r efengyl yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd ydyw yr addewid hono "wedi ei chyflawnu i'w plant." Dadguddiodd Duw ei feddyliau o heddwch i'r byd mewn addewid; rhoddodd yr addewid oesoedd lawer cyn ei chyflawnu; dygodd hi yn mlaen trwy anhawsderau mawrion ac afrifed; a'i amcan yn hyny oedd gogoneddu ei berffeithiau ei hun — gogoneddu ei ddoethineb yn ngwyneb ystrywiau dynion maleisus, gogoneddu ei allu yn ngwyneb gwrthwynebiadau gelynion, a gogoneddu ei ddaioni a'i ffyddlondeb diwyrni yn ngwyneb anghrediniaeth, anffyddlondeb, ac enciliadau y rhai y rhoddwyd yr addewidion erddynt. Amcan arall ganddo yn hyn, oedd adgyfnerthu ffydd ac amynedd ei bobl: *Heb.* vi. 12.

Y mae yn adgyfnerthiad ac yn ddyddanwch i'r credinwyr yn mhob oes i edrych yn ol ar lwybreiddiad yr addewid am y Messïah trwy yr holl oesoedd, a'r anhawsderau oedd ar ei ffordd hyd ei chwblhâd perffaith yn y dyn Crist Iesu. Bu llawer tymmor o brawf ac anhawsder yn y cynamseroedd, pryd y byddai ffydd y credinwyr ar ei llawn waith o barth i gyflawniad yr addewid; ond profodd ffyddlondeb yr addäwr yn fuddugol ynddynt oll; ac y mae hyny yn sail i gredu yn ddiysgog y cwblheir yr addewidion sydd eto yn aros heb eu cyflawnu. Yn mabandod dynoliaeth, nid oedd gan y credinwyr Patriarchaidd i ymorphwys arno ond geirwiredd a ffyddlondeb yr hwn a addawsai; ac yr oedd hyny yn sail digonol i'w ffydd; nid oedd ganddynt un addewid uniongyrchol, eglur, i bwyso arni; dim ond math o awgrymiad byr yn gorwedd yn nghanol y bygythiad i'r sarff, rhyw un pelydryn yn tywynu yn nghanol y gaddug, neu yn ngeiriau Pedr, "canwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll." Yn y cyhoeddiad grasol hwnw yr oedd bywyd yn cael ei sibrwd wrth ein rhieni cyntaf yn nghanol acenion marwolaeth; ond er mor aneglur, fe dderbyniwyd yr addewid yn galonog; llawenychodd Adda am oes faith yn ei goleuni; ac fel y gwnaeth "mam yr Arglwydd," gyda geiriau y llu nefol, felly y gwnaeth mam pob dyn byw gyda y dadguddiad o "Hâd y wraig"—hi gadwodd y geiriau hyn, gan eu hystyried yn ei chalon. Ymlidiodd sŵn yr addewid ddychryn y cwymp o'u mynwesau; cyfododd seren ddydd gobaith yn eu calonau; a dysgwylient yn bryderus am yr hwn oedd ar ddyfod. Yn fuan ganwyd Cain—llawenychodd ei fam, a dywedodd, "Cefais ŵr gan yr Arglwydd:" dichon ei bod yn dirgel obeithio mai efe oedd y Gwaredwr. Wedi ei somedigaeth o gael cyflawniad yr addewid yn Abel, ganwyd iddi fab drachefn, a hi "a alwodd ei enw ef Seth; o blegid Duw (ebe hi) a osododd i mi hâd arall yn lle Abel, am ladd o Cain ef;" *Gen.* iv. 25. Dyma yr addewid yn fuddugoliaethus eilwaith, ac yr oedd y dygwyddiad a ymddangosai i reswm yn ddinystr arni, yn foddion pellach i'w chadarnu-

Digitized by Google

hau a'i hegluro; o blegid yr oedd aberth Abel, a'i farwolaeth, yn rhagddangos "aberth gwell," a marwolaeth Iesu Grist y Cyfiawn. Drachefn, pan oedd drygioni y byd wedi ymddyrchafu i'r fath uchder, fel y penderfynodd Duw ddinystrio gwaith ei ddwylaw, yr oedd dinystr holl ddynolryw (oddi eithr ychydig bersonau), ar ryw gyfrif, yn bygwth diddymiad yr addewid; a llefaru yn ddynol, onid ydyw yn fwy tebygol fod yr had addawedig yn cael ei gynnwys yn mhlith y myrddiynau sydd yn trengu yn y dwfr, nag yn yr wyth sydd yn gadwedig yn yr arch? Ond yn hytrach na diddymu yr addewid, trodd hyn allan yn gadarnhâd chwanegol iddi; o blegid wedi y dylif, adgadarnhawyd hi i Noah mewn cyfammod, yn yr hwn y rhoddwyd arwydd gweledig o ffyddlondeb Duw i'r hyn a lefara. Er mai bendithion tymmorol a gynnwysir yn fwyaf neillduol yn y cyfammod hwnw, eto, fel yr oedd yn gyssylltiedig â'r addewid gyntaf, yr oedd yn arddangos ac yn cadarnhau bendithion ysbrydol yr addewid hono (*Esa.* liv. 8, 9, 10). Cyfyngwyd yr addewid, wedi hyn, i Abraham, mai o hono ef y deuai yr Had; ond gwedi ei rhoddi iddo, treiglodd llawer o flyneddoedd meithion ymaith cyn y gwelodd yr arwydd gwanaf o'i chwblhâd; ie, bu fyw i weled pob moddion naturiol, trwy ba rai y gallasai ddysgwyl am ei chyflawniad, wedi pallu—"ei gorff ei hun, a bru Sarah, wedi marweiddio," ac yn eu marweiddiad hwy yr oedd pob gobaith a thebygolrwydd y byddai i'r addewid gael ei chyflawnu trwy gwrs cyffredin natur wedi marw hefyd; nid oedd nerth eu ffydd ond prin yn gyfartal â nerth yr anhawsderau, a mawredd yr annhebygolrwydd. Yr oedd yn rhaid i Dduw ymddangos iddo, a chyfryngu, trwy fynegu iddo ei deitlau goruchel, yn awr ac eilwaith, er mwyn codi ei ben uwch law petrusder ac ammheuaeth, ac uwch law cael ei ddylanwadu gan syniadau natur a rheswm. Nid oedd ganddo, y pryd hyn, syniad o'r posiblrwydd o gyflawniad yr addewid ond trwy foddion naturiol; a dangosodd hyny yn eglur yn achos Hagar ac Ismael. Ond gweithiodd yr addewid ei ffordd yn mlaen yn llwyddiannus yma; a thrwy ei goruchafiaeth ar bob anhawsder yn amgylchiad Abraham a Sarah, profodd ei hun yn deilwng o ymddiried diysgog pechaduriaid yn mhob oes i ddyfod. Ond yr oedd un ymosodiad cryfach eto yn ol. Pan oedd Abraham yn mhrydnawn ei ddydd, a'i fab Isaac, "i'r hwn y gwnaethpwyd yr addewidion," wedi dyfod i oedran llanc, a dangos ei hun yn mhob modd yn deilwng o'r anrhydedd o fod yn "fab yr addewid," dywedodd Duw wrth Abraham, "Cymmer yr awr hon dy fab, sef dy unig fab Isaac, yr hwn a hoffaist, a dos rhagot i dir Moriah, ac offryma ef yno yn boethoffrwm ar un o'r mynyddoedd yr hwn a ddywedwyf wrthyt;" *Gen.* xxii. 2. Dyma nos dywyllaf yr addewid; ymddangosai y gorchymyn hwn yn ddifodiad hollol arni. Cwestiwn mawr ffydd Abraham oedd, pa fodd i ddiogelu yr addewid wrth ladd yr hwn yr oedd yr addewid wedi ei chorffori ynddo? Ond cawn atebiad ei ffydd gan awdwr y Llythyr at yr Hebreaid (xi. 19); "Cyfrifai bod Duw yn abl i'w gyfodi ef o feirw, o ba le y cawsai efe hefyd mewn cyffelybiaeth." Dybenodd y prawf hwn yn fwy o gadarnhâd i'r addewid, ac o adgyfnerthiad i ffydd, na dim fuasai cyn hyny. Yn awr y cyfryngodd Duw trwy lw. Yn awr yr arddangoswyd yn eglur aberth a meichiaeth Crist. Pa ragddangosiad mor darawiadol o'r Meichnïydd wedi ei goroni â drain, a'r hwrdd wedi ei ddal mewn dyrysni? Fel hyn, daeth yr addewid yn fuddugol trwy yr holl anhawsderau a nodwyd—dybenai pob anhawsder mewn cadarnhâd chwanegol iddi, hyd ei chyflawniad perffaith yn ymddangosiad Had y wraig yn Bethlehem, ei fywyd, ei farwolaeth, a'i adgyfodiad o'r bedd, a'i esgyniad i'r gogoniant.

Wrth gymmeryd golygiad eangach ar yr addewidion, gellir cynnwys y rhai a grybwyllir yn y Testament Newydd mewn tri dosbarth. 1. Yr addewid am Grist; *Act.* iii. 25; xii. 33; xxvi. 6; *Gal.* iii. 21, 22. 2. Yr addewid am yr Ysbryd Glân, yn ei rasau a'i weithrediadau; *Act.* ii. 33, 39. Gelwir hon yn "addewid y Tad;" *Luc* xxiv. 29; *Act.* i. 4. Er fod yr addewid hon, fel pob addewid arall, yn cael ei chynnwys yn yr addewid i Abraham, eto, ni wnaed hi mewn modd uniongyrchol a neillduol iddo; ond edrychir arni fel canlyniad y fendith addawedig i'w had (*Gal.* iv. 6). 3. Yr addewid am orphwysfa yn y byd a ddaw, o'r hon nid oedd yr orphwysfa i had naturiol Abraham ond cysgod ac arddangosiad. Dysgwyliai y patrieirch "am ddinas ac iddi sylfeini" (*Heb.* xi. 9); ac am "adgyfodiad gwell" (*Heb.* xi. 35); yr hyn a gynnwysid yn yr addewid a roddwyd iddynt, fel y dangosir gan Iesu Grist (*Math.* xxii. 32).

Mae amryw addewidion neillduol yn gyssylltiedig â chyflawniad o ddyledswyddau neillduol. Cyssylltir y rhagorfraint o weled a mwynhau Duw â'r ansawdd o burdeb calon; *Math.* v. 3. Addawa yr Arglwydd waredu mewn adfyd, cadw y dyn, a'i fywhau, ei wneyd yn wynfydedig ar y ddaiar, ei nerthu ar ei glaf wely, a chyweirio ei wely yn ei glefyd, a'r cyfan mewn cyssylltiad â gwaith y dyn yn "ystyr wrth y tlawd;" *Salm* xli. 1—3. Y mae Pedr yn sicrhau wrth y rhai yr ysgrifena atynt, na lithrant byth, tra byddont yn gwneuthur y pethau a ddywedasai o'r blaen; 2 *Pedr* i. 10.

Mae addewidion Duw yn gorphwys, ac yn dibynu am eu cyflawniad, ar eirwiredd a ffyddlondeb y Tad, ar ras a chyflawnder y Mab, ac ar gynnorthwyon a dylanwadau yr Ysbryd Glân; 1 *Cor.* x. 13; *Heb.* x. 23; 2 *Tim.* ii. 13; 2 *Cor.* xii. 8; *Heb.* ii. 18; *Esa.* lix. 21. Gwel Abraham; Noah; Cyfammod.—(*Dr. Owen's Works; Howe's Works; Whitby's Commentary*, &c.)

ADDFEDU: parod i'w dori i lawr, neu i'w gasglu; llawn dwf; ar gymmeryd effaith; wedi ei orphen; dyfod yn barod; ymberffeithio drwy welliant graddol. Y mae dynion, gwledydd, a chenedloedd, yn addfedu i farn, pan y byddo eu hanwiredd yn amlhau: *Dad.* xiv. 18. A bwria yr Arglwydd ei gryman i mewn pan addfedo cynauaf gweithredwyr anwiredd, pryd y cydgesglir hwynt i'w llwyr losgi, "am amlhau o'u drygioni hwynt;" *Ioel* iii. 13.

ADDFWYN—DER: llarieidd-dra, hynawsedd, lledneisrwydd, tiriondeb, tynerwch. Dynoda ansawdd, tymmer, ac ymddygiad dyoddefus a maddeugar. Mae y dymmer hon yn cael ei rhestru yn mhlith ffrwythau yr Ysbryd; *Gal.* v. 22, 23. 2. Mae i'w meithrin a'i hymarfer gan y saint; *Seph.* ii. 3; *Col.* iii. 12, 13; *Iago* iii. 18; *Titus* iii. 2. 3. Mae yn werthfawr yn ngolwg Duw; 1 *Pedr* iii. 4. 4. Mae yn un o ansoddau y ddoethineb sydd oddi uchod; *Iago* iii. 17. 5. Y mae yn rhaid bod yn addfwyn mewn trefn i ymdebygoli i Grist. "Er addfwynder a hynawsedd Crist:" yn hytrach, "trwy," neu "yn

Digitized by Google

addfwynder a hynawsedd Crist;" 2 *Cor.* x. 1. Yr oedd Paul am fod yn debyg i Grist, trwy fod yn dirion a thyner wrth ereill. 6. Yn y dyn Crist Iesu y gwelwyd y dymmer hon yn ei pherffeithrwydd; "Addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon;" *Mat.* xi. 29; a xxi. 5.

Addfwynder sydd ras a ddysgwyd gan Iesu Grist yn unig; ac nid yw yn ymddangos i neb o'r hen athronwyr erioed ei ddeall na'i argymhell.

Addfwynder dan ddyoddefiadau neu gystuddiau.—Mae yn agos yn ei ystyr i amynedd; y gwahaniaeth rhyngddynt ydyw hyn, fe ddichon; —dynoda *amynedd* dymmer y dyoddefydd gyda golwg ar ei gystudd, ond *addfwynder* ei dymmer gyda golwg ar y rhai a'i cystuddia. Gellir edrych ar ein cystuddiau yn dyfod oddi wrth Dduw ac oddi wrth ddynion—ac addfwynder ydyw y duedd a ddylem ei choleddu, a'r hon y mae pob Cristion yn ei choleddu, mor bell ag y mae dan ddylanwad egwyddorion Cristionogol, gyda golwg ar Dduw a dyn, fel achosion neu achlysuron ei ddyoddefiadau.

ADDOLDY—AI: adeiladai wedi eu neillduo i wasanaeth crefyddol. Y cyntaf o'r fath yma y mae genym hanes am dano, oedd y *tabernacl;* yr hwn a gyfodwyd yn yr anialwch, ar y dydd cyntaf o'r mis cyntaf, yn yr ail flwyddyn wedi ymadawiad yr Israeliad o Wlad yr Aipht. Gwnaed yr adeilad ysblenydd yma gan Bezaleel ac Aholiab, yn ol y cyfarwyddyd manwl a roddasai yr Arglwydd ei hunan i Moses; *Exod.* xxv. —xxvii; a xxxv.—xxxvii. Yr ail ydoedd y *babell,* a gyfodasid gan Dafydd yn Ierusalem, i dderbyn yr arch, yr hon a gyrchodd efe yno o dŷ Obed-Edom, gyda llawenydd mawr; 2 *Sam.* vi. 12—17; 1 *Cor.* xv. 1. Yn y cyfamser, yr oedd yr hen dabernacl, a'r allor bres, yn aros yn Gibeon, hyd ddyddiau Solomon, mab Dafydd; 1 *Cron.* xvi. 39; 2 *Cron.* i. 3—6. Er fod y pebyll hyn yn dra harddwych, ac wedi eu gwneuthur o ddefnyddiau tra drudfawr, teimlai y brenin Dafydd awydd cryf am adeiladu tŷ mwy sefydlog a mawreddog at wasanaeth crefydd, wedi ei gadarnhau yn y freniniaeth; ond er fod Duw yn cymmeradwyo ei amcan, ni chaniatäai iddo wneuthur y gwaith, am mai rhyfelwr a fuasai o'i ieuenctid, ac mai gwaed lawer a dywalltasai; eithr ei fab ef, Solomon, a gafodd yr anrhydedd o adeiladu y deml orwych ar fynydd Moriah, yr hon dros oesoedd lawer a fu yn brif ogoniant y tir; 2 *Sam.* vii. 1—12; 1 *Cron.* xvii. 1—14; a xxviii; 2 *Cron.* ii. Er fod y tabernacl a gyfodasid yn yr anialwch, a'r deml a adeiladodd Solomon ar Moriah, wedi eu gwneuthur o dan gyfarwyddyd anffaeledig yr Arglwydd ei hunan, yr oeddynt yn fwy drudfawr eu defnyddiau, ac ysblenydd eu gwneuthuriad, na'r adeiladau mwyaf godidog a welir yn gyssegredig at wasanaeth Cristionogaeth yn yr oes hon; ac, er y meddai y Goruchaf hawl berffaith i *drethu* y bobl tuag at adeiladu yr addoldai hyn, efe a welodd yn dda yn hytrach eu gadael i offrymu tuag at y naill a'r llall, yn ol ewyllysgarwch eu calonau; *Exod.* xxxv. 20—29; 1 *Cron.* xxix. 1—5. Efallai y gallem ninnau ddysgu, oddi wrth hyn, mai nid yr adeiladau tlotaf a mwyaf esgeulusedig mewn ardal y dylai yr addoldai fod; ond y dylai parch a diolchgarwch i'r gwrthddrych a addolir beri i ddynion offrymu o'u meddiannau yn ewyllysgar tuag at adeiladu lleoedd cyflëus i gyfarfod ynddynt, i addoli Duw yn gynnulleidfaol; a chadw y cyfryw leoedd mewn cywair lanwaith a da.

Mewn oesoedd diweddarach, tuag adeg y caethgludiad, efallai, dechreuai yr Iuddewon alltudiedig adeiladu synagogau, neu dai, yn y rhai y cyfarfyddent i gydymgynghori, ac i gydaddoli Duw eu tadau; ac yn amser ymddangosiad Crist yn y cnawd, yr oedd synagogau i'w cael yn holl brif ddinasoedd a trefydd Palestina, lle yr ymgyfarfyddai yr Iuddewon ar y Sabbathau a'r dyddiau gwyliau, i ddarllen ac esbonio y gyfraith, &c.

Wedi i Gristionogaeth ddechreu ymdaenu, a thynu sylw lled fawr yn y byd, cyrchai lluaws mawr yn nghyd i'r cyfarfodydd crefyddol; a gwelid angenrheidrwydd yn fuan i ddarpar adeiladau mawrion, er cynnwys y cyfryw gynnulleidfaoedd: ac mor foreu ag oes Cystenyn Fawr, os nad yn foreuach, nyni a gawn fod addoldai Cristionogol yn cael eu cyfodi mewn rhai o'r prif ddinasoedd, ar arddull yr hen frawdlysoedd Groegaidd a Rhufeinaidd, a elwid y *Basilica,* am fod yr arddull hwnw y mwyaf manteisiol a adwaenid yn yr oesoedd hyny i wneyd adeilad eang, a'i goleuo yn dda. Dywedir i Cystenyn adeiladu addoldŷ Cristionogol o'r arddull yma ar safle llys y Lateran, ar fynydd Caelius. Yn fuan wedi hyny, efe a adeiladodd Eglwys Pedr, ar safle Cemmaes Nero: ac wedi hyny, efe a ddechreuodd drydedd addoldy oddi allan i furiau Rhufain, yn yr un arddull, yr hwn a gyssegrid i goffadwriaeth yr apostol Paul. Gorphenid yr adeilad yma yn mhen hanner can mlynedd wedi hyny, gan Theodosius. Y cyntaf o'r addoldai uchod, sef S. Giovano Laterano, a renid gan bedair rhes o golofnau, ar y rhai y gorweddai y muriau a gynnalient nenau y pum asgellfa, o ba rai y ffurfid yr adeilad; y ganol, a elwid corff (*nave*) yr addoldy, oedd yn lletach ac yn uwch na'r lleill; a'r ddwy ystlysgell o bob tu, yn is y naill na'r llall, er mwyn cyfleusdra i roddi ffenestri yn yr amryfal furiau: felly rhoddid rhes o ffenestri yn muriau y corff, oddi ar nenau y ddwy asgellfa nesaf iddo; a'r un ffunud yn muriau y ddwy brif asgellfa, goruwch nenau y ddwy asgellfa eithaf, y rhai hefyd oeddynt yr isaf. Trefnid hyd y corff a'r asgellfäau o'r dwyrain i'r gorllewin, ac fe'u croesid gan draws-gorff o'r gogledd i'r deheu. O flaen yr adeilad, yr oedd porthfa helaeth, neu gyntedd, i'r hwn y gallai y bobl ymgynnull, i ochel y dryghin, cyn agoriad yr addoldy, a dechreuad y gwasanaeth crefyddol. Cymmerwyd trafferth i wneyd y darluniad manwl uchod o'r hen addoldai Cristionogol a nodwyd, er rhoddi mantais i'n darllenwyr i ddeall o ba le y tarddodd yr arddull nodedig a welir yn fynych yn adeilwaith rhai o'r hen addoldai hynaf yn ein gwlad. Y mae yn draddodiad cyffredin, mai o waith gwiail plethedig yr adeiledid yr addoldai Cristionogol cyntaf yn Mhrydain, cystal ag mewn gwledydd ereill; a barna amryw mai oddi wrth y bwa pigfain yn ffenestri a drysau y cyfryw adeiladau, y ffurfiwyd yr arddull a ffyna mor gyffredin mewn adeiladau cyssegredig, yr hwn a adwaenir wrth yr enw Adeilyddiaeth Gothig.

Un o'r rhai enwocaf a fu yn y deyrnas hon mewn unrhyw oes, fel archadeiladydd eglwysydd, oedd Syr C. Wren; ac o'i fedrusrwydd dihafal yn hyn, ceir anghreifftiau ysblenydd, yn St. Paul, Llundain; a St. Iago, Westminter. Efe a sylwai, y gellid clywed llais cymmedrol yn darllen, neu yn llefaru, ddeg troedfedd a deugain o flaen y llefarydd neu y darllenydd, ugain troedfedd o'r tu ol iddo, a deg troedfedd ar ugain o bob ochr iddo; a chynghorai efe fod i bob adeilad a fwriedir yn addolfa gael ei gwneuthur ar gynllun cyfatebol

Digitized by Google

i'r mesuriadau uchod, mewn cyfartaledd, gan ei fod yn ei gyfrif y mwyaf manteisiol i'r holl gynnulleidfa allu clywed yn eglur yr hyn oll a adroddir.

Efallai nad oes odid lanerch o'r ddaiar lle y mae addoldai Cristionogol mor luosog, mewn cymhariaeth i'r trigolion, ag yw Cymru. Yn ol y cyfrifon seneddol sydd o'n blaen, gwelwn fod tuag un cant ar ddeg o addoldai yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig o fewn y pedair esgobaeth Gymreig, tua'r flwyddyn 1850: neu tuag un addoldy am bob deg cant a hanner o'r trigolion. Ac o ddeutu yr un amser, perthynai i'r gwahanol enwadau ymneillduol yn Nghymru y nifer canlynol o addoldai:—

| | Capeli. | Ysgoldai. | Cyfan. |
|---|---|---|---|
| Trefnyddion Calvinaidd... | 753 | 111 | 864 |
| Trefnyddion Wesleyaidd.. | 391 | 101 | 492 |
| Annibynwyr ................................ | | | 684 |
| Bedyddwyr ................................ | | | 301 |
| Enwadau ereill ............................ | | | 28 |
| Cyfanrif, ................................ | | | 2369 |

Neu *un* am bob pum cant a chwech o'r trigolion. Neu, os cyfrifwn y cyfan yn nghyd, gwnant yn agos i dair mil a phedwar cant o addoldai, neu, tuag un addoldy am bob tri chant a deugain o'r trigolion.

| | |
|---|---|
| Nifer yr addoldai gan Eglwys Loegr, trwy Gymru a Lloegr ... | 14,077 |
| Y nifer gan Anghydffurfwyr o bob enw ................................ | 20,390 |
| Y nifer gan Babyddion ............... | 570 |
| Nifer yr eisteddleoedd gan Eglwys Loegr ................................ | 5,317,915 |
| Y nifer gan Anghydffurfwyr o bob enw ................................ | 4,708,537 |
| Y nifer gan Babyddion,.............. | 186,111 |

Felly, trwy Loegr a Chymru, am bob 100 o eisteddleoedd sydd gan Eglwys Loegr, y mae gan yr Ymneillduwyr 93.

Wrth roddi yr eisteddleoedd gan bob enwad ar wahan, y maent fel y canlyn:—

| | |
|---|---|
| Eglwys Loegr.......................... | 5,317,915 |
| Wesleyaid .............................. | 2,194,298 |
| Annibynwyr .......................... | 1,067,760 |
| Bedyddwyr............................. | 752,343 |
| Trefnyddion Calvinaidd.............. | 250,678 |
| Pabyddion ............................. | 186,111 |
| Presbyteriaid.......................... | 86,692 |

Yn y flwyddyn 1801, yr oedd yn meddiant Eglwys Loegr 4,289,885 o eisteddleoedd: yn 1851, eu nifer oedd fel y gwelir uchod; ac felly, wedi chwanegu 1,028,030 mewn hanner can mlynedd. Yr oedd eisteddleoedd y Trefnyddion Wesleyaidd a Chalvinaidd, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr, yn 1801, yn 641,484; yn 1851, yr oedd eu nifer yn 4,265,079. Y mae Eglwys Loegr wedi chwanegu yn yr hanner canrif 24 am bob 100, a'r enwadau uchod 455 am bob 100.

Yn ol Mr. Horace Mann, dylai fod 58 o eisteddleoedd am bob 100 o drigolion, i fod yn ddigonol i'r boblogaeth. Yn ol y cyfrif hwn, mae poblogaeth Cymru a Lloegr yn gofyn lle i addoli i 10,389,013 o bersonau. Mae Cydffurfwyr ac Anghydffurfwyr, gyda'u gilydd, yn meddu lle i 10,212,563. Ond y mae y cyfartaledd rhwng cyfleusderau addoli yn y trefydd a'r wlad yn wahanol. Yn y wlad y mae yn fwy na digon, ac yn y trefydd yn llawer llai na digon. Mewn 72 o drefydd, mae y diffyg yn 1,332,992.—(*Census of Great Britain: abridged from the Official Report, by H. Mann.*)

ADDOLI: mae y gair yn ei ystyr priodol yn arwyddo, ymostyngiad y creadur ger bron ei Dduw, mewn cydnabyddiaeth o'i fawredd a'i anfeidrol deilyngdod ynddo ei hun, ei rwymedigaeth iddo fel ffynnon ei fod a'i fywyd—cyflwyniad mawl a diolch iddo am ddoniau a dderbynia ganddo, yn nghyd âg ymbiliau arno am yr holl radau a'r bendithion angenrheidiol i'w mwynhau.

Mae amryw eiriau yn cael eu cyfieithu *addoli*. 1. Ευσεβεω (*eusebeo*). Cyfieithir y gair hwn yn *duwioldeb* yn 1 *Tim.* v. 4; "Dysgant yn gyntaf arfer duwioldeb." Arwydda y gair, bod yn dduwiolfrydig, neu grefyddol; defnyddid ef, fel *pius* gan y Lladinwyr, am barch a charedigrwydd i rieni ac uchafiaid; yn yr ystyr olaf y defnyddir ef yn Timotheus. 2. Θεραπευω (*therapeuo*). *Worship* ydyw y Seisoneg am y gair yma yn *Act.* xvii. 25; ond *gwasanaethu*, yn Gymraeg. Meddwl y gair yn gyffredin, ydyw gofalu am, rhoi gwasanaeth gwirfoddol i, ac weithiau, iachâu (*Math.* iv. 23), gofalu am y claf. 3. Λατρεύο (*latreuo*); *Act.* xxiv. 14; xxvii. 23. Arwydda y gair hwn *wasanaethu:* felly y cyfieithir ef yn gyffredin; *Mat.* iv. 10; *Act.* vii. 7, 42; *Rhuf.* i. 9; *Phil.* iii. 3; 2 *Tim.* i. 3; *Heb.* ix. 14; xii. 28; *Dad.* xxii. 3. Arwydda hefyd, gweinidogaethu fel offeiriad, cyflwyno aberth; *Heb.* viii. 5; xiii. 10: yn y deml nefol hefyd; *Dad.* vii. 15. 4. Προσκυνεω (*proscuneo*), *cusanu tuag at,*—i un gusanu ei law ei hun, a'i hestyn mewn ffordd o barch i un arall, yn ol yr arferiad ddwyreiniol. Hwn yw y gair yn y Deg a Thrigain am *ymgrymu, ymostwng tua'r ddaiar mewn parch; Gen.* xix. 1; lxxviii. 12. Arwydda *addoli* Duw mewn ffordd o ymgrymu neu ymostwng ger ei fron. Defnyddir ef, yn *Ioan* iv. 20, 24; xii. 20; *Act.* viii. 27; xxiv. 11; *Dad.* xi. 1; *Heb.* xi. 21; *Heb.* i. 6; ac mewn manau ereill, am *addoli* Duw. Defnyddir ef am ymostwng i uchafiaid yn gyffredinol; *Mat.* ix. 18; xx. 20; xxviii. 17; *Luc* iv. 7, 8. 5. Σεβομαι (*sebomai*), bod yn wylaidd, yn ofnus. Cyfieithir ef, yn *Mat.* xv. 9, *anrhydeddu; Marc* viii. 7, *addoli;* yn *Esa.* xxix. 13, Deg a Thrigain, *anrhydeddu; Act.* xviii. 13, *addoli; Act.* xiii. 43, 50, a xvii. 4, 17, *crefyddol,* yn yr ymodroddion "proselytiaid crefyddol," "gwragedd crefyddol." Mae y gwahanol eiriau hyn yn cyfeirio at wahanol elfenau mewn addoliad.

Y galluoedd, â'r rhai y cynnysgaethwyd dyn i ymgydnabod â Duw mewn addoli, a gyfansoddant ei brif urddas a'i ragoriaeth ar bob creadur daiarol arall. Dyn yn unig a all addoli. Gwelir ei fawredd a'i ragoriaeth mewn llaweroedd o bethau. Ymddyrchafa yn ben uwch law yr holl greaduriaid a'r elfenau. "Pob natur gwylltfilod, ac adar, ac ymlusgiaid, a'r pethau yn y môr, a ddofir ac a ddofwyd gan natur ddynol." Darostyngwyd pob peth tan ei draed ef. Y mae y natur ddynol o hyd yn ymddyrchafu yn uwch uwch mewn gallu ac awdurdod ar greaduriaid ac elfenau y byd isod hwn; tra y mae pob creadur arall yn aros, o genedlaeth i genedlaeth, yn yr un sefyllfa ag ydoedd ar y dechreu. Ond pan y mae y dyn yn disgyn oddi ar orseddfainc ei freniniaeth, lle yr archai ac y derbyniai warogaeth ac ymostyngiad creaduriaid ac elfenau i'w fawrhydi, ac yn ymostwng mewn llwch a lludw, i gyflwyno ei warogaeth a'i addoliad ei hun ger bron gorseddfainc ei Wneuthurwr, dyma y lle a'r pryd y

Digitized by Google

gwelir urddas a mawrhydi ei natur yn eu llawn ogoniant.

Y mae y naturiaeth ddynol, nid yn unig yn gymhwys ac yn alluog i addoli, ond y mae ynddi ryw reddf, anianawd, tuedd—nis gwyddom beth i'w galw — rhywbeth annileadwy yn mron, a'i hysgoga i addoli. "Yr holl genedloedd a rodiant bob un yn enw ei dduw ei hun." Ni chafodd ymchwiliad manylaf y blyneddoedd diweddaf i ansawdd ac arferion y llwythau mwyaf barbaraidd ac anwareiddiedig ond ychydig iawn o esamplau ag y dywedid eu bod yn amddifaid o bob syniad am dduw ac addoli. Tra y mae llawer o lwythau dynol, yn nhywyll leoedd y ddaiar, wedi suddo is law y natur anifeilaidd mewn llawer o bethau, y mae y rhagoriaeth hwn eto yn aros; yr unig beth, yn mron, yn eu natur, y gellir gweithredu arno, ac ymaflyd ynddo, er eu dyrchafu o bydewau y llygredigaeth a'r trueni dwfn y suddasant ynddynt. Os haerir mai ffrwyth traddodiad o'r oesoedd boreuaf ydyw hyn, nid yw yn newid dim ar yr achos; rhaid fod yr ymsyniad o'r peth ei hun yn hanfodol yn y galon ddynol, i ddal gafael ar y cyfryw draddodiad. Collwyd llaweroedd o'r hen draddodiadau boreuol o blith dynion; ond erys hwn ynddynt, a deil ei afael a'i ddylanwad arnynt yn barhäus. Ymddengys y gwahaniaeth mawr hwn rhwng ansawdd cyflwr dyn syrthiedig a'r eiddo yr angel syrthiedig. Nid oes genym le i feddwl ddarfod i un angel syrthiedig deimlo un ysgogiad byth tuag at addoli, er pan gollodd ei ddechreuad, ac y gadawodd ei drigfa ei hun. Darfu pob tuedd at ymgydnabod â Duw yn y ffordd hono ynddo am byth; drylliodd, a thaflodd y rhwymau hyn oddi wrtho yn hollol. Syrthiodd dyn i'r un cyflwr o euogrwydd ac anufudd-dod ag yntau; ond taflwyd rhyw rwymyn dirgeledig am ei galon ef, drwy rin y llef hono ar ei ol o orseddfainc Duw—"Adda, pa le yr wyt ti?"—a'i ceidw byth yn ei afael, mor belled ag y mae tueddiad at addoli yn aros ynddi.

*Iehofah yn unig sydd i'w addoli.* "Canys er bod rhai a elwir yn dduwiau, pa un bynag ai yn y nef ai ar y ddaiar (megys y mae duwiau lawer, ac arglwyddi lawer) eithr i ni nid oes ond un Duw, y Tad, o'r hwn y mae pob peth, a ninnau ynddo ef; ac un Arglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y mae pob peth, a ninnau trwyddo ef. Ond nid yw y wybodaeth hon gan bawb;" 1 *Cor*. viii. 5, 6. Y mae y wybodaeth hon yn hanfodol angenrheidiol er iawn addoli—y wybodaeth am y gwir a'r priodol wrthddrych i'w addoli. Collodd y byd hon trwy bechod; a dyma elfen fawr ei drueni. Er na chollodd ei alluoedd a'i gymhwysderau moesol, na'i duedd i addoli, collodd ei wrthddrych, a chollodd wir ysbryd addoli. Gwelodd ddefnydd duw i'w addoli yn mhob peth a ganfyddai ei lygad ac y dodai ei law arno; ffurfiai yr aur a'r arian, yr efydd a'r haiarn, y pren a'r gareg, yn dduw — yn ddelw gerfiedig iddo: geilw arno, addola ef, gan ddywedyd, "Gwared fi, canys fy nuw wyt."

Megys mai addoli y gwir Dduw ydyw rhwymedigaeth benaf ac uchaf y creadur rhesymol, a'r modd y gall roddi y gogoniant a'r anrhydedd mwyaf iddo; felly, cyflwyniad o'r gwasanaeth hwn i unrhyw wrthddrych arall heb law Iehofah ydyw y sarhâd mwyaf a ddichon dyn daflu arno, a'r diraddiad mwyaf y gall ddarostwng ei hunan iddo. Prif bwnc gweinidogaeth Moses a'r prophwydi, yn yr Hen Destament, ydoedd gwrthwynebu eilunaddoliaeth; dadleu hawl anaralladwy dragywyddol Iehofah, fel unig wir wrthddrych addoliad ei greadur. Hònir hon yn bendant yn y gorchymyn cyntaf o'r ddeddf foesol. Y gorchymyn mawr a chyntaf o'r gyfraith, yw, "Clyw, Israel, yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw." Rhoddwyd hwn "yn orchymyn ar orchymyn, yn llin ar lin," laweroedd o weithiau, yn fynychach nag un gorchymyn arall, fel y peth yr eiddigeddai y Brenin mawr drosto yn benaf oll. "Gogoniant" ydyw, na rydd mo hono i arall, nac i ddelwau cerfiedig—y gogoniant yr aethai y byd yn ol am dano, "gan ei droi i gyffelybiaeth llun dyn llygredig, ac ehediaid, ac anifeiliaid pedwar-carnol, ac ymlusgiaid;" *Rhuf*. i. 23. Neillduodd yr Arglwydd hàd Abraham o blith y Cenedloedd, a sefydlodd ei oraclau yn eu plith, i fod yn dystion drosto, mai efe oedd Dduw—i gondemnio y byd eilunaddolgar: gosododd drefn o addoliad yn eu plith, sefydlodd hwy yn wladwriaeth neillduedig, cauodd o'u hamgylch â deddfau a barnedigaethau, a rhwymodd hwy wrtho ei hun, ei addoliad, a'i wasanaeth, â rhwymau cyfammod, addewidion, annogaethau, rhybuddion, a bygythion. "Yr oedd Ierusalem a'r deml," fel y sylwa un ysgrifenydd, "yn golofnau tystiolaeth yn erbyn holl ddinasoedd a themlau y Cenedloedd. Yr oedd gwaith y genedl yn cyrchu i Ierusalem i addoli yr unig wir Dduw, dair gwaith bob blwyddyn, yn wrthdystiad i arferion yr holl genedloedd ereill yn eu gwaith yn addoli delwau o gerfiad eu dychymyg a'u dwylaw eu hunain. Ierusalem a'r deml oeddynt unig loches a noddfa y gwirionedd, yn nghanol byd ag oedd wedi syrthio yn aberth i dwyll a chelwydd, a'r genedl Hebrëig oedd yr unig dyst dros Iehofah, mai efe oedd Dduw."

Appelia Duw, yn ei air, at ei weithredoedd yn nghreadigaeth nefoedd a daiar, ei oruchlywodraeth ar bob peth, yn nghyd â pherffeithrwydd ei ragwybodaeth am bob peth a ddygwyddant yn ngoruchwyliaeth yr amser dyfodol, fel profion o'i "anweledig bethau ef, sef ei dragywyddol allu a'i Dduwdod," a gesyd yr hawl a hòna i fod yn unig wrthddrych addoliad ei greadur rhesymol i orphwys ar y profion hyny. Coffa y pethau hyn yn fynych iawn i'w bobl ei hun, Israel, trwy y prophwydi, er eu cadw rhag eilunaddoliaeth; ac wrth y Cenedloedd, pan y dadleua yn erbyn eu heilunod a'u heilunaddoliaeth hwythau. Heria yr eilunod hyny i wneyd "da neu ddrwg," —i fynegu y pethau gynt, neu y pethau a ddaw. Geilw ei bobl ei hun yn dystion o'r pethau mawrion a wnaethai efe iddynt a throstynt hwy, a geilw y Cenedloedd hefyd yn dystion na allai eu duwiau hwynt na gwneyd na gwybod dim oll. Heria hwy i ddyfod yn mlaen i ddadleu eu hachos —i ddwyn eu "rhesymau cadarnaf:" a dywed mai "gwynt a gwagedd"—"pethau na wnaent lesâd" —"pethau heb ddim," oedd eu "tawdd-ddelwau." Y perffeithrwydd hwn o fawredd dwyfol ac anfeidrol, dadguddiedig yn ei weithredoedd a'i air, a gyfansodda ei deilyngdod o'r parch addoliadol a ofyna, a'r cyflawnder anfeidrol o gyfaddasrwydd sydd ynddo at ddiwallu angenion a dymuniadau yr addolydd. Wrth addoli, y mae y creadur yn tywallt ei hunan allan yn ei holl angen a'i ddymuniadau ar y gwrthddrych a addola; ac yn yr "Hwn a wnaeth nefoedd a daiar" yn unig y caiff ei enaid orphwysfa, a'i lawn ddigoni. Y mae y Beibl, yn mhob man, yn galw sylw at yr amlygiadau o fawredd Duw yn ei weithredoedd, er dangos ei hawl, ei deilyngdod, a'i gyfaddasrwydd, fel yr unig wrthddrych i'w addoli. Yr un modd yn union y dadleuai yr apostolion yn erbyn eilun-

Digitized by Google

addoliaeth yn Lystra, ac yn Athen (gwel *Act.* xiv. 15; a xvii. 23, 24), ag y dadleuasai y prophwydi gynt. Rhan o genadwri yr angel, a welodd Ioan (*Dad.* xiv. 7) yn "ehedeg yn nghanol y nef, â'r efengyl dragywyddol ganddo," oedd, "Ofnwch Dduw, ac addolwch yr hwn a wnaeth y nef, a'r ddaiar, a'r môr, a'r ffynnonau dyfroedd."

Y mae cydnabyddiaeth gywir o Dduw yn y dadguddiadau a wnaeth o hono ei hun yn anhebgorol angenrheidiol er ei iawn addoli. Yr adnabyddiaeth hon o hono yn unig a gynnyrcha yn yr enaid y teimladau priodol i'r gwaith. Heb ei adnabod, nis gellir ei garu, ac ymddiried ynddo; ac heb hyny, nis gellir ei addoli. "Y rhai a adwaenant dy enw a ymddiriedant ynot;" *Salm* iv. 10. "Yna yr adnabyddwn, os dilynwn adnabod yr Arglwydd: ei fynediad a ddarperir fel y bore; ac efe a ddaw fel gwlaw atom, fel y diweddar-wlaw a'r cynnar-wlaw i'r ddaiar;" *Hos.* vi. 3. Fel y mae dylanwad yr haul a'r gwlaw ar y ddaiar yn tynu allan y gwreiddiau a'r hadau a orweddant yn guddiedig ynddi o'r blaen, nes y maent yn tyfu ac yn cynnyrchu eu ffrwythau priodol, y mae dylanwad yr adnabyddiaeth hon o Dduw yn nawseiddio ac yn cyd-dymmeru holl alluoedd a theimladau yr enaid, nes eu tynu allan ato ei hun mewn gwylder a pharchedig ofn addoliadol. I greaduriaid pur a dihalog, buasai y dadguddiad a wnaeth yr Anfeidrol o hono ei hunan yn ei weithredoedd, yn ddigonol, fe ddichon, er ei addoli: ond y mae peth yn nghyflwr dyn fel pechadur, sydd yn ei osod y tu hwnt i allu addoli yn ngoleuni y dadguddiad hwn yn unig; canys onid oes yn Nuw "ogoniant mwy ofnadwy," a'r na ddadguddir yn ngweithredoedd ei ddwylaw, ni all troseddwr euog byth nesäu ato yn ysbryd gwir addolwr. Amlygu y gogoniant hwnw—"gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist"—ydyw amcan a dyben Ysgrythyr y gwirionedd. Nid ydyw, fel y gwelsom eisoes, yn rhoddi y cyntaf, yr un a geir o hono yn ei weithredoedd, o'r neilldu, ac yn peri nad oes angen sylwi ar hwnw mwyach; ond at-ddodiad iddo yn hytrach ydyw—cyflawniad o'i ddiffyg mawr yn wyneb yr amgylchiad newydd y daethai y byd iddo drwy bechod—dadguddiad o ddaioni a chymmwynasgarwch "Duw, ein Hachubwr," tuag at ddyn euog, yn Nghrist Iesu—y ddarpariaeth o drefn fawr ei ras, i "ddangos ei gyfiawnder trwy faddeuant pechodau." "Hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod di, yr unig wir a bywiol Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist;" *Ioan* xvii. 23. Gallasai angelion pur addoli Duw byth wrth goffadwriaeth ei fawredd naturiol, a pherffeithrwydd ei sancteiddrwydd ef, "Gan ddywedyd, Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog, yr hwn oedd, a'r hwn sydd, a'r hwn sydd i ddyfod. Teilwng wyt, O Arglwydd! i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu; canys ti a greaist bob peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent, ac y crewyd hwynt;" *Dad.* iv. 11. Ond buasai y dadguddiad o Dduw yn y goleuni hwn yn unig yn peri i ddyn, fel troseddwr, ffoi oddi wrtho mewn dychryn ac anobaith, yn hytrach nag yn ei ennill ato mewn ysbryd addoli. Ond yn y dadguddiad efengylaidd—"Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau"—cafodd yntau "ffordd newydd a bywiol i nesäu at Dduw mewn llawn hyder ffydd," â mawl-gân newydd yn ei enau, "Teilwng yw yr Oen a laddwyd. Canys ti a'n prynaist ni i Dduw trwy dy waed, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl" Dyna addoliad y pechadur. "Trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu" yr adferir ef i gyflwr a sefyllfa rhyngddo a Duw, ag y gall addoli, ac yr adferir ysbryd addoli ynddo—y gwneir ef "yn frenin ac yn offeiriad i Dduw a'i Dad ef," i offrymu mawl ac addoliad cymmeradwy. Cyduna angelion â'r prynedigion oddi ar y ddaiar i addoli yr "Oen a laddwyd."

Y mae Duw i'w addoli—

*Yn gymdeithasol, yn bersonol, ac yn deuluaidd.* Yr oedd Iesu Grist ei hun, fel yr oedd yn ddyn, pan yn ei sefyllfa o ddarostyngiad ar y ddaiar, yn addoli y Tad; *h.y.*, yn gweddïo arno—yn fynychaf o'r neilldu ar ei ben ei hunan. Cofféir hyn laweroedd o weithiau yn ei hanes; ac yn hyn, "efe a adawodd i ni esampl, fel y canlynem ei ôl ef." Ni chyflwynwyd y fath addoliad oddi ar y ddaiar erioed o'r blaen. Gofynai y nefoedd megys mewn syndod uwch ben yr addolwr, "Pwy yw hwn a lwyr roddodd ei galon i nesäu ataf fi?" Dysgodd hyn hefyd i'w ddysgyblion yn ei athrawiaeth—"Dos i'th ystafell, a chau dy ddrws arnat, a galw ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel." A "phob duwiol a weddïa"—a addola Dduw yn bersonol a dirgelaidd. Arfer duwiolion yn mhob oes ydoedd addoli Duw *yn eu teuluoedd* hefyd; ac y mae addewid am amser i ddyfod, pan y newynir holl dduwiau y ddaiar, ac "yr addolant ef bob un o'i fan, sef holl ynysoedd y cenedloedd;" *Seph.* ii. 11. Ond, "Yr Arglwydd a gâr byrth Seion (lle yr addoliad cymdeithasol), yn fwy na holl breswylfeydd Iacob." Cyfannedda yr "Ofnadwy" yn "moliant yr Israel." Y mae "yn ofnadwy iawn yn nghynnulleidfa y saint;" ac erys mawl ef yn Sïon. Dan yr Hen Destament, neillduodd Duw leoedd penodol ac amserau penodol i addoli; a threfnai ffurfiau a defodau penodol i'w bobl i gyflwyno addoliad iddo. Ymgynnullai Israel o flaen drws pabell y cyfarfod i addoli, yn ystod eu pererindod yn yr anialwch. Wedi eu sefydliad yn Nghanaan, bu Siloh, a Mispah, yn lleoedd addoli am dymmor. Symmudwyd yr arch a'r lle addoli o'r diwedd i Ierusalem; ac yno y parhaodd hyd ddiwedd tymmor yr oruchwyliaeth hono. "Y lle a ddewiso yr Arglwydd dy Dduw i osod ei enw ynddo:"—Duw oedd i ddewis y lle y mynai ei addoli ynddo yn gynnulleidfaol dan yr Hen Destament, a gwrthryfel a sarhâd arno fuasai i'r bobl ymgynnull i unrhyw fan arall. Gosododd Iesu Grist oruchwyliaeth a deddf newydd i addoli; o dan hon, y mae yr arferiad o addoli yn gymdeithasol fyth i barhau; ond y mae yr addolwyr at eu rhyddid i ddewis y lle a fynont hwy i ymgynnull iddo—"Lle bynag y byddo dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt."

"Y mae yr awr yn dyfod, pryd nad addoloch y Tad, nac yn y mynydd hwn, nac yn Ierusalem. Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd; canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef. Ysbryd yw Duw; a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn ysbryd a gwirionedd;" *Ioan* iv. 21—24. Nid ydym i gasglu oddi wrth yr ymadroddion uchod, nad oedd ysbryd a gwirionedd yn brif elfenau hanfodol yn addoliad Duw dan yr Hen Destament, *Ysbryd* cystuddiedig, a chalon ddrylliog gystuddiedig, oeddynt yr aberthau cymmeradwy yn yr addoliad dwyfol dan yr oruchwyliaeth hono, yn gystal a than yr oruchwyliaeth bresennol. Yr oedd amddifadrwydd o'r pethau ysbrydol hyn yn gwneuthur addoliad yr Iuddew yn wrthodedig ac

Digitized by Google

anghymmeradwy gan Dduw, pa mor fanwl bynag y cydymffurfiai â'r defodau a'r seremoniau allanol a orchymynai y gyfraith ddwyfol iddo yn ei addoliad; ond yr oedd y pethau ereill hyny hefyd yn bwysig y pryd hwnw. Tynodd Crist y pethau hyny ymaith, a dododd hwynt heibio, fel pethau diwerth a diangenrhaid mwyach; a gosodai yr holl bwys mewn addoli ar agwedd calon ac ysbryd yr addolwyr. Yr oedd holl seremoniau a defodau yr addoliad dwyfol yn y "cyssegr bydol," dan yr hen oruchwyliaeth, yn arwyddocaol—yn "gysgod y daionus bethau a fyddent"—"portreiadau y pethau nefol." Y tabernacl a'r deml, yr allor a'r aberth, yr offeiriaid a'u gwisgoedd, y bwydydd a'r diodydd, &c., oeddynt oll yn athrawon at Grist—"y corff sydd o Grist." Wedi ei ddyfodiad ef, nid oes ystyr na dyben iddynt, nac angen am danynt. Y maent "yn llygredigaeth wrth eu harfer." Yr ydym ni i wasanaethu ac addoli Duw dan y Testament Newydd, "mewn newydd-deb ysbryd, ac nid yn hender y llythyren:" a'r addoliad i gael ei gyflwyno yn y symledd sydd yn gweddu i oruchwyliaeth ysbrydol yr efengyl. Cythryblid yr eglwysi cyntefig yn ddirfawr gan athrawon deddfol, y rhai a fynent Iuddeweiddio yr addoliad efengylaidd. Parai y rhai hyn fwy o bryder i feddyliau yr apostolion na dim arall, fel yr ymddengys yn llythyrau Paul at amryw o'r eglwysi.

Pen ar y pethau a ddywedwyd yw hyn—Addoli, gogoneddu, a mwynhau Duw, ydyw dyben uchaf creadigaeth a bodolaeth dyn. Y dyn nad yw yn addoli Duw mewn ysbryd a gwirionedd, neu a addola rywbeth arall yn lle Duw, lleidr ac ysbeiliwr ydyw. Yn deml iddo ei hun i breswylio a llywodraethu ynddi, y ffurfiodd Iehofah y galon ddynol:—ac â hon yn unig ar y ddaiar yr ewyllysiai efe gyfrinachu. Dywedai megys am dani, "Yma y preswyliaf yn dragywydd; yma y trigaf, canys chwennychais hi." Ond O! yr anrhaith dragwyddol a wnaeth y gelyn arni! "Y mae genym lawer o brofion trist ac eglur," medd Howe, "ddarfod i'r Duwdod gefnu a gadael ei deml yn anghyfanedd. Y mae yr adfeilion gorwych yn weledig i bob llygad, ar y rhai y mae yr ysgrifen yn ddarllenadwy eto ar eu tal wyneb—'*Yma unwaith y preswyliai Duw.*' Y mae digon o brofion yn nghyfansoddiad ac ansawdd enaid dyn i ddangos ddarfod i'r presennoldeb dwyfol unwaith drigo ynddo; a mwy na digon o annhrefn a halogrwydd i brofi ei fod yn awr wedi cefnu ac ymadael. Y mae y lampau wedi diffoddi; yr allor wedi ei dymchwelyd; y goleuni a'r cariad wedi diflanu—y rhai a fuant unwaith, y naill yn pelydru gyda'r fath ddysgleirdeb nefol, a'r llall yn cynneu gyda'r fath angerdd duwiolfrydig. Y mae y canwyllbren euraidd wedi ei symmud, a'i daflu ymaith fel peth diwerth, i roi lle i orseddfainc tywysog y tywyllwch. Yr arogldarth sanctaidd, yr hwn a anfonai i fyny ei golofnau o beraroglau gwerthfawr, sydd wedi ei newid yn dawch gwenwynllyd ac uffernol; ac wele yma, 'yn lle perarogl, ddrewi.' Y mae hardd-drefn yr holl deml wedi ei droi i annhrefnusrwydd; prydferthwch sancteiddrwydd, i anmhuredd adgas; tŷ gweddi, i ogof lladron, a'r rhai hyny yn lladron o'r fath waethaf a chreulonaf; o blegid y mae pob chwant yn lleidr, a phob lladrad yn gyssegr-ysbeiliad. Y galluoedd ardderchog, y rhai a amcenid i fyfyrdod a mwynhâd dwyfol, ydynt wedi eu dyeithro at wasanaeth yr eilunod mwyaf dirmygus, ac i gofleidio y pethau gwaelaf a ffieiddiaf—i edrych ar, ac ymhoffi yn y gwageddau oferaf—i achlesu a meithrin gwŷn a drygioni. 'Pa ddrwg na wnaeth y gelyn yn y cyssegr? Pa fodd y drylliwyd y cerfiadau â bwyeill ac â morthwylion?' * * * Y mae pob peth yn ddidrefn ac yn ddiffaethwch; fel, os oes rhyw arwydd yn aros o'r presennoldeb dwyfol, y gellir gofyn, Os yw Duw yma, pa fodd y dygwyddodd fel hyn? Y gogoniant gwywedig, y tywyllwch, yr annhrefn, yr halogrwydd, y sefyllfa a'r agwedd resynol ar y deml hon, a dengys yn rhy amlwg fod y Preswylydd mawr wedi ymadael."—*Howe's Living Temple*, td. 75.

Ond er iddo ymadael, rhoddodd "y Preswylydd mawr" amlygiadau boreu o'i fwriad i ddychwelyd yn ol i adfeiddiannu ac ad-drefnu yr hen deml anrheithiedig, ac i ail breswylio ynddi. Yn nghyflawnder yr amser, daeth yn mherson y Mab i'r byd yn y natur ddynol, "ar ol y gogoniant," i'w adferu yn ol; i osod sylfeini adeiladaeth teml newydd ar adfeilion yr hen, i fod "yn breswylfa i Dduw trwy yr Ysbryd." Y mae calon pob credadyn yn breswylfod, a'r Eglwys Gristionogol yn deml y Duw byw, lle yr offrymir aberthau addoliad ysbrydol, cymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist. Trwy ffydd yn Nghrist yn unig y daw pechadur yn faen bywiol yn yr adeiladaeth newydd ysbrydol. Trwy gredu yn unig y daw bywyd ac ysbryd addoli i'r enaid. "Heb ffydd anmhosibl yw rhyngu ei fodd ef." "Trwy ffydd yr offrymodd Abel i Dduw aberth rhagorach na Chain, gan i Dduw ddwyn tystiolaeth i'w roddion ef." Trwy ffydd y mae yr enaid yn cael yr olwg hono ar Dduw, a'r fath adnabyddiaeth o hono, ag sydd yn ei gymmodi âg ef, ac yn ei lenwi â chariad, gwylder, a pharchedig ofn tuag ato; a thrwy ffydd yn ei waed ef y purir ei galon a'i gydwybod "oddi wrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw." Melus y canodd ein per ganiedydd am hyn:—

"Y fynyd gynta credost, yw 'r fynyd byddi byw,
Trwy gredu yn Nghrist yn unig cai wel'd gogoniant Duw.

Cai 'r cwbl fel y mynost, y fynyd caffost ffydd;
Tywyllwch wna hi 'n oleu, a chanol nos yn ddydd;
Hi ysgafnhâ dy feichiau, er bod hwy 'n feichiau mawr;
Hi sugna bob cysuron o ganol nef i lawr.

Hi ddena yn ddirgelaidd i ganol nef dy fryd,
Hi wna it' 'mado 'n ddiddig a'r cyfan yn y byd;
Hi wna it' weddio 'n fynych, can's wrth weddio cai,
Y cyfan a ofyni, yn union i'w fwynhau."

Hefyd, Y mae dedwyddwch uchaf a phuraf dyn wedi ei gyssylltu yn anwahanol â'r ymarferiad priodol o'i alluoedd uchaf, er cyrhaedd dyben uchaf ei fodolaeth fel creadur addoli. Y gwir addolwr yn unig yw y dyn gwir ddedwydd. Yr enaid sydd wedi gollwng ei afael o hono ei hunan, a cholli yr olwg arno ei hunan, a dianc allan o hono ei hunan, gan ymdywallt ar Dduw mewn Cyfryngwr, ac ymlenwi â'i holl gyflawnder ef, yw yr unig un a brofa ac a fwynhâ y tangnefedd hwnw sydd "uwch law pob deall." Efe a ŵyr beth ydyw meddwl y fath ymadroddion—"Dystawa yn yr Arglwydd;" "gobeithia yn yr Arglwydd;" "ymddigrifa yn yr Arglwydd;" a "calon ddisigl yn ymddiried yn yr Arglwydd." Y mae y gwir addolwr yn mwynhau gwir ddedwyddwch; ac mor fuan ag y delo yr addolwr a'i addoliad yn berffaith, bydd ei ddedwyddwch hefyd yn berffaith. "Digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron, ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd." Yn mherffeithrwydd eu haddoliad y mae perffeithrwydd mwynhâd a dedwyddwch y nefolion. Y maent ger bron gorseddfainc Duw, ac yn ei wasanaethu ef ddydd a nos yn ei

Digitized by Google

deml; a'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc a drig yn eu plith hwynt. Ni bydd arnynt na newyn mwyach, na syched mwyach; ac ni ddisgyn arnynt na'r haul, na dim gwres. O blegid yr Oen, yr hwn sydd yn nghanol yr orseddfainc, a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain hwynt at ffynnonau bywiol o ddyfroedd: a Duw a sych ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt;" *Dad.* vii. 16, 17.

ADDOLIAD CYTHREULIAID. Yn yr Ysgrythyr Lân, gelwir eilunaddoliaeth, weithiau, yn addoliad cythreuliaid, neu aberthu i gythreuliaid. Yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain o'r Hen Destament, yn gystal ag yn iaith wreiddiol yr Ysgrythyrau Cristionogol, y gair a gyfieithir *cythreuliaid* yw *δαιμονια* (*daimonia*); i'r hwn y mae ystyr llawer helaethach na'r gair Cymraeg, *cythreuliaid*, yr hwn sydd yn air mathawl (*specific*), yn hytrach na rhywogaethol (*generic*) fel yr ymddengys fod *daimonia.* Er mwyn gallu o honom iawn ymsynied o berthynas i'r testyn hwn, angenrhaid yw i ni, yn y lle cyntaf, wahaniaethu yn ofalus rhwng syniadau yr Iuddewon a'r eiddo cenedloedd ereill ar yr athrawiaeth am ddemoniaid; o blegid y mae demoniaeth, neu gythreuliaeth, y naill, yn dra gwahanol i'r eiddo y llell.

Bod addoliad cythreuliaid, neu ddemoniaid, yn llawer hynach na'r genedl Iuddewig, sydd hysbys agos i bawb. Yn mhlith cenedloedd ereill, gan hyny, y mae i ni olrhain ei darddiad, megys y Caldeaid, yr Aiphtiaid, y Pheniciaid, ac ereill; dynwared neu ddilyn pa rai y byddai yr Iuddewon, pan y byddent hwy yn syrthio i'r pechod a'r ffieidd-dra hwnw.

Ymddengys mai y gwrthddrychau cyntaf, oddi eithr y Bod Goruchaf, i'r sawl y telid parch addoliadol, oedd y cyrff nefol—y nef wybrenog, yr awyr, yr haul, a'r tân, &c., y rhai, pan eu hystyrir fel gwrthddrychau addoliad, a elwir gan y Deg a Thrigain, *demoniaid.* Yn *Esa.* lxv. 11, lle y cyfeirir at ddemoniaeth yr Iuddewon—y rhai, yn rhy fynych, a ddilynent esampl eu cymmydogion eilunaddolgar—cyhuddir hwy o "arlwy bwrdd i'r llu (Heb. *Gad*) acw"—y llu dinystriol, galluoedd y nefoedd; a'r gair a ddefnyddir gan y Deg a Thrigain am yr Heb. *Gad*, neu llu, yw *daimoniow*, neu gythraul. Yn *Deut.* xxxii. 17, a *Salm* cvi. 37, y gair *Shedim*, yr hwn yn yr Hebraeg a arwydda y *tywalltwyr allan*, sef galluoedd aniau, a gyfieithir *cythreuliaid;* "Aberthasant i'r שרים (*Shedim*), nid i Dduw; i dduwiau nid adwaenent, i rai newydd diweddar, y rhai nid ofnodd eich tadau." "Aberthasant hefyd eu meibion a'u merched i'r *Shedim.*" Felly, yn *Salm* xci. 6; "Y dinystr a ddinystrio ganol dydd:" nis gall feddwl y peth a alwn ni yn gythraul neu ddiafol; ond cyfieithiad y Deg a Thrigain yw, "cythraul neu ddemon canol dydd" (*δαιμόνιου μεσημβρινου*). Pan y mae y bardd ysbrydoledig yn dywedyd, "Holl dduwiau y cenedloedd eilunod (y Deg a Thrigain, *δαιμονια* = *cythreuliaid*) ydynt," y mae y cyferbyniaeth (*antithesis*) yn dangos yn amlwg beth y mae yn ei feddwl: "Nid yw duwiau cenedloedd ereill ddim ond y cyrff nefol—y nef a'i lluoedd; ond IEHOFAH, ein Duw ni, yw Creawdwr y nefoedd: y nefoedd ei hun, yn nghyd â'i llu, y maent hwy yn eu haddoli; ond yr hwn a wnaeth y nefoedd yw gwrthddrych ein haddoliad ni."

Y mae yn debyg mai dyma eilunaddoliaeth, neu ddemonaddoliaeth, yn ei ffurf mwyaf syml a chyntefig; ond, mewn amser, dechreuwyd cyssylltu y meddylrith o ryw fodau deallawl â'r gwrthddrychau uchod o addoliad; ac at hyn, arweinid y meddwl yn bur naturiol, gan y credent fod y cyrff nefol wedi eu creu i lywodraethu y byd. Ystyrid y bodau deallawl, neu y demoniaid, hyn yn fath o gyfrwng-dduwiau, rhwng y duwiau goruchaf a dynion; megys y dywed Plato, "Pob demon sy fod canol, rhwng Duw a dynion marwol." Os gofynir, Pa beth y mae efe yn ei feddwl wrth "fod canol?" efe a ddywed, "Nis gall dyn agosäu at Dduw yn ddigyfrwng; eithr y mae yr hyn a wnelo dyn â'r duwiau yn cael ei ddwyn yn mlaen yn gwbl trwy gyfryngiad y demoniaid." Ymddengys mai dyma oedd dwyfyddiaeth Athen, pan y safai Apostol y Cenedloedd yn nghanol Areopagus, ac y traddodai yr araeth glodforus a gofnodir yn *Act.* xvii; "Ha wŷr Atheniaid, mi a'ch gwelaf chwi yn mhob peth yn dra *choelgrefyddol*"=(*δεισιδαιμονεστέρους*) *yn fwy ymroddgar* (nag ereill) *i addoliad demoniaid;* yn orgrefyddgar, yn hytrach na choelgrefyddol—a thybir fod yr apostol, drwy gorff ei anerchiad, yn dadgan barn y gwyr doethaf yn mhlith y Groegiaid eu hunain; megys yn yr ymadrodd canlynol—"Y Duw a wnaeth y byd, a phob peth sydd ynddo, gan ei fod yn Arglwydd nef a daiar, nid yw yn trigo mewn temlau o waith dwylaw: ac nid â dwylaw (anrhegion) dynion y gwasanaethir ef, fel pe bai arno eisieu dim; gan ei fod ef yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll." "Dyma (medd Mr. Mede) oedd barn y Cenedloedd yr amser yma—nad i'r duwiau nefol a goruchel y cyflwynid anrhegion ac aberthau, eithr i ddemoniaid, gan nad oedd ar y blaenaf angen am danynt; o blegid yr oeddynt hwy i'w haddoli â'r meddwl pur, ac âg emynau a mawl." Y dyb hon a gadarnheir gan Porphyry, yn ei draethawd ar lwyrymwrthodiad â phob math o gig fel ymborth: "Ac nis gwnai y sawl sydd yn gwbl adnabyddus â galluoedd yr OLL mawr (y *το Πᾶν*) offrymu aberth gwaedlyd i'r *duwiau*, ond i *ddemoniaid;* a hyn a gadarnheir gan y dwyfyddion eu hunain." [*Porphyry de Abstin.*]

Heb law y math yma o ddemoniaid, y rhai a ystyrid o radd uchel, ac yn nesaf at y duwiau, yr oedd y Cenedloedd yn cydnabod math arall; nid amgen ysbrydoedd dynion meirw gwedi eu dwyfoli. Y mae Hesiod, un o'r ysgrifenwyr Paganaidd hynaf, wrth ddysgrifio y genedlaeth ddedwydd oedd yn byw yn oes gyntaf y byd, neu yr oes aur, yn dywedyd, "Wedi marw y genedlaeth hon, drwy ewyllys Iau, hwy a ddyrchafwyd i fod yn DDEMONIAID—ceidwaid dynion marwol, yn sylwi ar eu gweithredoedd da a drwg, *wedi eu gwisgo mewn awyr*, yn rhodio yn wastad o amgylch y ddaiar, cyfranwyr cyfoeth; a dyma yr urddas breninol y maent yn ei fwynhau." Tybiai rhai o'r Atheniaid mai demoniaid dyeithr, anadnabyddus iddynt hwy, oedd *Iesous* ac *Anastasis*= Iesu ac Adgyfodiad; ac mai cyhoeddi gwron-dduwiau, neu ddemoniaid dyeithr (*Ξένων δαιμονίων*), yr oedd yr apostol Paul: *Act.* xvii. 18. Yr un ysgrifenydd ysbrydoledig (1 *Tim.* iv. 1) a ragfynega am ryw ddynion, y rhai, "yn yr amseroedd diweddaf," a ymadawent "oddi wrth y ffydd," ac mai un o'u nodau yw "rhoddi coel i athrawiaethau cythreuliaid;" sef, athrawiaethau am gythreuliaid, neu ddemoniaid; hwyrach mai ysbrydion dynion meirw, wedi eu canoneiddio—rhywbeth a gymmerai le yn mhlith Cristionogion, yn cyfateb i wron-addoliaeth neu ddemoniaeth y Cenedloedd.

Yr oedd yr Iuddewon, o ran eu demoniaeth, yn gwahaniaethu oddi wrth y Cenedloedd. Er

Digitized by Google

anghraifft, yn ol demoniaeth y Cenedloedd, Beelzebub oedd un o dduwiau y Pheniciaid, yn Ecron; eithr yn ol athrawiaeth yr Ysgrythyrau am ddemoniaid, yr un peth oedd efe a Satan, neu y Diafol; nid amgen penaeth y demoniaid, neu y cythreuliaid. Dybygid eu bod yn llechu yn eilunod y Paganiaid; ac o herwydd pa ham, bod y rhai a aberthent i'r cyfryw eilunod yn aberthu i ddemoniaid, neu gythreuliaid: 1 *Cor.* x. 20, 21; cymharer *Deut.* xxxii. 17; *Salm* cvi. 37; *Baruch* iv. 7. Godidog y darlunia Milton yr angelion syrthiedig—demoniaid y Beibl—yn cael eu haddoli o dan wahanol enwau a ffurfiau yn mhlith y Cenedloedd; megys Moloch, gan yr Ammoniaid; Chemos, gan y Moabiaid; Ashtoreth, gan y Pheniciaid; Osiris, Isis, Orus, gan yr Aiphtiaid, &c.—*Coll Gwynfa*, llyfr i. Gwel CYTHRAUL.

ADDOLIAD DELWAU. Gwel DELWADDOLIAETH.

ADDOLIAD SEINTIAU. Gwel SEINTIOLAETH.

ADDUNED — AU, [*gofuned*, *diofryd*]: addewid ddifrifol, ac ymrwymiad gwirfoddol i wneyd rhyw wasanaeth i Dduw; neu ymwadu â rhyw beth neu bethau cyfreithlawn, er ymgyssegru yn fwy llwyr at ei waith. Y mae deddfau a rheolau addunedau i'w cael yn gyflawn yn *Lef.* xxvii; *Num.* xxx; a *Deut.* xxiii. 18, 21—23. Ni helaethir yma ar bethau eglur y rhanau uchod o'r gair, ond yn unig edrych fel y mae natur a phwys addunedu yn cael ei ddangos. Wedi gwneyd yr adduned, byddai y dyn yn rhwym o gyflawnu yn fanwl yr oll a gynnwysai. Mewn rhai amgylchiadau, gellid ymryddhau oddi wrth yr adduned, trwy dalu gwerth penodol, yn ol oed a rhyw yr addunedydd. Byddai rhai yn cyssegru eu hunain, ac ereill eu plant, at ryw wasanaeth i'r Arglwydd, am ryw ysbaid penodol o amser; ac ereill am eu holl fywyd. Byddai rhai yn cyssegru rhyw ran o'u hamser, ac ereill o'u meddiannau, at ryw achos penodol. Wedi addunedu, nid oedd y dyn i esgeuluso y cyflawniad am un fynyd dros yr amser penodol: *Deut.* xxiii. 21; "Canys yr Arglwydd dy Dduw gan ofyn a'i gofyn genyt; a byddai yn bechod ynot. Ond os peidi ag addunedu, ni bydd pechod ynot." Gwel hefyd *Preg.* v. 4. Y mae yn amlwg oddi wrth yr ymadroddion hyn fod y pethau yr ymrwymid iddynt yn bethau tu allan i rwymedigaeth gyffredinol dynion, fel deiliaid deddf a llywodraeth Duw; o blegid pa un bynag ai addunedu neu beidio a wna dyn, y mae anufudd-dod i orchymynion eglur a gosodiadau penodol y Beibl yn bechod. Dywed Josephus, fod addunedu yn beth cyffredin yn mhlith yr Iuddewon, ar ol cael eu gwaredu o ryw gyfyngder neu gystudd, er amlygu eu diolchgarwch mewn ymgyflwyniad i'r Arglwydd a'i wasanaeth yn fwy trwyadl. Yr oedd adduned y Nazareaid yn cael ei hystyried yn bwysig a chyssegredig iawn. Yr oedd hawl gan rieni i ddiddymu addunedau eu plant, y rhai a fyddent ar y pryd o dan eu hawdurdod hwy. Ni ofynid hwy, os na byddai y rhieni yn caniatâu neu yn cydsynio. Felly hefyd addunedau gwragedd priod. Gallai y gwr ddiddymu adduned y wraig, os mynai; ac ni byddai hi yn rhwym i'w chyflawnu, os byddai y gwr yn anfoddlawn. Gwelwn, felly, nad yw yn beth iawn addunedu peth y mae hawl iddo, ac awdurdod arno, yn perthyn i rywun arall. Cawn eglurhâd cyflawn ar hyn yn *Num.* xxx.

Addefir yn rhwydd nad yw addunedu yn aros dan oruchwyliaeth yr efengyl, yn yr un dull, ac yn yr un amgylchiadau, ag ydoedd dan oruchwyliaeth yr Hen Destament, ac nas gall fod, mwy na lluaws o bethau ereill a berthynent i wladwriaeth Israel. Er hyny, credir fod ysbryd y peth yn aros. Y mae rhywbeth, cyfwerth a chyferbyniol i addunedu yr Hen Destament, yn aros eto yn y Newydd. Os oedd rhyw egwyddorion yn perthyn i addunedu, y mae y rhai hyny yn aros, er fod yr oruchwyliaeth wedi newid.

ADDUNEDAU MYNACHAIDD. Pwy bynag a fyno fod yn fynach, rhaid iddo addunedu tri o bethau; nid amgen, *tlodi*, *diweirdeb*, ac *ufudd-dod*. Y mae adduned o *dlodi* yn rhwystro i'r mynachod ddal un math o feddiannau yn unigol neu ar eu penau eu hunain, yn annibynol ar y mynachdy y byddant yn perthyn iddo, yr hwn a ddichon ddal meddiannau corfforedig. Yn ol syniadau Eglwys Rhufain, y mae tair gradd o dlodi; sef y radd uchel, y radd uwch, a'r radd uchaf. Yn y radd gyntaf, gall mynachdy feddiannu rhyw gymmaint o dir, ond eto nid mwy nag a fyddo digon at ei gynnaliaeth; megys yn mysg y Carmeliaid a'r Awstiniaid. Yn yr ail radd, nis gall mynachdy ddal unrhyw dir, ond meddiannau personol yn unig; sef llyfrau, dillad, bwyd a diod, ardrethi, a phethau cyffelyb; fel yn mysg y Dominiciaid. Yn y drydedd radd, ni chaniateir dal tir, nac un math o feddiannau personol ychwaith; megys yn mhlith y Ffrancisciaid, ac yn enwedigol yn mhlith y dosbarth a elwir y Brodyr Cycyllog. Y mae yr adduned o *ddiweirdeb* yn gofyn llwyr ymwrthodiad â phob ymgystlwn ystlenol; ac y mae yr adduned o *ufudd-dod* yn gofyn hollol ymroddiad i reolau yr urdd, a chwbl ymostyngiad i orchymynion y penaeth, o ba natur bynag y byddont.

ADDYSG. Y mae y gair Hebraeg, a gyfieithir *addysg*, yn deilliaw o wreiddyn sydd yn arwyddo *rhwymo*, neu *attal*. Cyfieithir ef, weithiau, "cerydd" (*Deut.* xi. 2); ac yn *Diar.* vii. 22, "cyffion;"—Seisoneg, "*correction*." Felly, cyflea y syniad fod cyfanu addysg am Dduw, a'i gyfraith, yn "attal," yn gweithredu fel "cyffion," neu yn "ceryddu," tueddiad naturiol i lygredigaeth.

1. Y mae addysg grefyddol yn seiliedig ar y pummed gorchymyn. "Addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd" ydyw, a pheth y mae Efe yn ei ewyllysio ac yn ei gymmeradwyo: *Exod.* xx. 12; *Eph.* vi. 2—4; *Salm* lxxviii. 3—7. Gair Duw yw defnydd yr addysg. Dylid edrych yn ddyfal ar fod y gwirioneddau hyn yn cael eu deall, eu bod yn gwreiddio yn y meddwl, yn dylanwadu ar y gydwybod, ac yn ennill y serchiadau.

2. Amlwg yw ei fod yn waith y dylid dechreu arno yn gynnar. "Hyfforddia blentyn," medd y gair; hyny yw, tra byddo yn blentyn, "yn mhen (neu ddechreuad) ei ffordd," ac nid wedi ei heneiddio; canys dylai addfedrwydd oedran ddangos ffrwyth toreithiog, yn gynnyrch y driniaeth foreuol: *Diar.* xxii. 6; 1 *Sam.* i. 28; ii. 26; xii. 2.

3. Mae y ddyledswydd hon, fel pob dyledswydd arall, i'w chyflawnu gyda diwydrwydd a chyssondeb: *Preg.* xi. 6. Dylai yr addysg gael ei chyfaddasu yn ol y gallu i'w derbyn, gan ddwyn yr un gwirioneddau yn fynych o flaen y meddwl, "yn orchymyn ar orchymyn, llin ar lin, ychydig yma ac ychydig acw;" *Esa.* xxviii. 9, 10. Mewn addfwynder, yn amyneddgar, y mae dysgu y rhai gwrthwynebus, os ydys yn dysgwyl llwyddo;

Digitized by Google

2 *Tim.* ii. 25: heb eu cyffroi, fel na ddigalonont; *Col.* iii. 21. Mae sarugrwydd i'w ochelyd ar y naill law, ac ysgafnder ar y llall; mae modd bod yn siriol, heb fod yn wag a chellweirus; yn ddifrif, heb fod yn chwerw. Dilynwn hynawsedd yr Athraw mawr: *Math.* xi. 29; xii. 20. Nis gellir cael dylanwad ar blant heb ennill eu serchiadau; yr hyn sydd i'w gyrhaeddyd, nid drwy anwes a moethau, ond drwy fod yn bwyllog a phenderfynol yn yr hyn sydd yn ei le, a dangos diysgogrwydd, wedi ei dymmeru â thiriondeb, wrth rybuddio a cheryddu, nes eu hargyhoeddi eich bod yn ddiffuant yn ceisio eu lles; *Diar.* xxix. 15, 17. Dylid eu dal hefyd mewn ufudd-dod, eu gwarchadw rhag cyfeillach ddrwg, a rhoddi o'u blaen esamplau da, teilwng i'w dilyn; 1 *Tim.* iii. 4; *Diar.* i. 10, 15, 16; *Salm* ci. 2; 1 *Cron.* xxii. 11—16.

4. Gofaler am feithrin yn eu meddyliau barch i ddydd yr Arglwydd, ac ymarferiadau cyhoeddus crefydd. Dysger iddynt eu cyfrif yn freintiau dymunol, ac yn wasanaeth hyfryd. Mager ynddynt chwaeth at symledd prydferth ordinhadau yr efengyl.

5. "Plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd; ei wobr ef yw ffrwyth y groth;" ac fel y cyfryw y dylid ymddwyn tuag atynt: *Salm* cxxvii. 3. Mae yn amlwg eu bod yn wrthddrychau gofal eglwysig yn gystal a theuluaidd. Yr oedd plant a phobl ieuainc yn yr eglwysi cyntefig: mae yr apostolion yn eu cyfarch yn eu llythyrau drwy lefaru wrthynt, ac nid am danynt; *Eph.* vi. 1; 1 *Ioan* ii. 12—14. Y mae eglwys, heb blant dan addysg briodol, yn henaidd ac adfeiliedig, ac yn dra thebyg o ddifianu: ond dangosir gofal neillduol am y plant mewn eglwysi effro a gweithgar, ac y mae y rhai hyny mewn cyflwr blodeuog a gobeithiol.

6. Mae perygl i rieni ac athrawon golli golwg ar y gwirioneddau pwysig—fod dyn yn greadur syrthiedig—fod plant yn llygredig wrth natur, yn cyfeiliorni o'r bru, fel y mae yr anufudd yn ymddieithro o'r groth: a rhag somi eu hunain drwy ddysgwyl gormod oddi wrthynt, da fyddai cofio mai "ffolineb sydd yn rhwym yn nghalon plentyn," ac mai amcan dysgyblaeth arno mewn addysg a cherydd yw gyru ei ffolineb "yn mhell oddi wrtho;" *Diar.* xxii. 15. Y mae y gwaith o addysgu yr ieuanc a'r anwybodus i'w gyflawnu gyda gweddi ac ymddibyniad am gymhorth oddi uchod, a bendith yr Arglwydd ar ein llafur: *Salm* cxxvii. 1; 1 *Cor.* xv. 58. Ni ddylai rhwystrau mawrion ein digaloni; dylem edrych ar yr arwyddion lleiaf o lwydd yn annogaethol, a pheidio diystyru "dydd y pethau bychain;" *Zech.* iv. 6, 7, 10. Mae y meibion eto i fod yn lle eu tadau, a'r merched hwythau yn lle eu mamau, yn eglwys Dduw; ac addewid ei gyfammod grasol yn perthyn iddynt,—"tywalltaf fy Ysbryd ar dy had, a'm bendith ar dy hiliogaeth;" *Salm* xlv. 16; *Esa.* xliv. 3; *Act.* ii. 39.

7. Mae esiamplau duwiolion yn gymhelliad i'w dilyn yn hyn. Y mae Duw ei hun yn canmawl Abraham am ei ffyddlondeb yn addysgu ei blant a'i dylwyth yn ffordd yr Arglwydd: *Gen.* xviii. 19. Yr oedd Dafydd yn hyfforddi Solomon yn ddifrifol a serchog yn y pethau mwyaf eu pwys: 1 *Cron.* xxviii. 9. Y mae Solomon, yntau, wrth hyfforddi ei blant, yn coffau yn barchus addysg dda ei rieni: *Diar.* iv. 3—19. Mae mam Lemuel yn gynllun i famau crefyddol: *Diar.* xxxi. 1—9. Yr oedd duwioldeb Timotheus yn gynnyrch addysg dda ei nain a'i fam: 2 *Tim.* i. 5; iii. 15. Ac yr oedd yr apostol Ioan yn llawenychu yn fawr wrth gael fod rhai o blant yr arglwyddes etholedig yr oedd yn ysgrifenu ati, yn rhodio mewn gwirionedd, fel y derbyniasant orchymyn gan y Tad; 2 *Ioan* 4.

AEL—IAU. Ellael; ymyl; ael llygad; ael bryn; ael gwisg: *ar ael*, a arwydda, yn ymyl, yn agos.

"Twr diwael ar *ael* yr allt."—*D. ab Gwilym.*

Mae y gair Groeg, ὀφρυος, a gyfieithir (*Luc* iv. 29) *ael*, yn air o ystyr helaeth, fel y Cymraeg, ac fel y Seisoneg, *brow*. Arwydda ael llygad, ael bryn, ac ael gwisg, yn ogystal.

ÆLIA CAPITOLINA. Dyma yr enw a roddwyd i Ierusalem, pan ddarfu i'r ymherawdwr Adrian, tua'r flwyddyn 134, gyfleu trefedigaeth Rufeinig yno, gan alltudio yr Iuddewon oddi yno dan berygl marwolaeth. Mae Jerome, ac ereill, yn dywedyd y gwaherddid iddynt euwaedu eu plant; ac yn ein sicrhau y byddai yr Iuddewon, yn ei amser ef, yn prynu caniatâd gan y milwyr Rhufeinig i edrych ar eu hen ddinas, a thywallt dagrau wrth ei chofio. Gwelid hen bobl garpiog yn myned i fyny i Fynydd yr Olewwydd, gan wylo yn yr olwg a gaent oddi yno ar anrheithiad y deml. Daeth yr enw *Ælia* mor gyffredin, fel mai gan yr Iuddewon yn unig, ac ychydig o'r Cristionogion dysgedicaf, y cedwid yr enw Ierusalem. Gelwid y ddinas yn *Ælia*, am mai *Ælius* oedd enw teuluaidd Adrian; a *Capitolina*, oddi wrth *Jupiter Capitolinus*, yr eilun i'r hwn yr oedd y ddinas yn awr yn gyssegredig, ac i'r hwn yr adeiladasid teml ar y fan lle yr adgyfodasai yr Iesu. Dodasid delw farmor o Gwener i fyny ar Galfaria hefyd, ar y graig lle y safasai y groes; a dodasid mochyn o farmor ar y porth a arweiniai tua Bethlehem. Yn amser yr ymherawdwr Cystenyn, tynwyd ymaith y gwaradwyddiadau hyn, a dechreuwyd galw y ddinas ar ei hen enw ei hun drachefn.

AELOD—AU, (cangeniad oddi wrth beth). Arferir y gair weithiau am ran o gorff dyn, megys coes, llaw, clust, llygad, tafod, &c.; *Rhuf.* xii. 4; 2 *Cor.* xii. 26; *Iago* iii. 5: bryd arall am holl alluoedd corff ac enaid; *Rhuf.* vi. 13; a vii. 23: bryd arall, am y tueddiadau pechadurus sydd yn ein natur lygredig, y rhai a elwir felly am fod rheswm ac ewyllys dyn pechadurus yn eu defnyddio megys y defnyddia y corff yr aelodau; *Col.* iii. 5. *Iago* iv. 1—4. Hefyd, darlunir yr holl gredinwyr megys aelodau bywiol o gorff dirgeledig Crist; 1 *Cor.* xii. 17; *Eph.* v. 30: a chyd-aelodau i'w gilydd; *Eph.* iv. 25. Y maent mewn undeb â'u gilydd yn eu hundeb â'r Pen mawr, ac yn rhwym o wneyd eu goreu er lles, cysur, ac adeiladaeth eu gilydd: *Eph.* iv. 3; *Col.* iii. 12, 13; *Gal.* vi. 1.

AELODAETH EGLWYSIG. Gwel Eglwys.

AELWYD—YDD. 1. Y lle y cynneuir tân arno; *Esa.* xxx. 14. Y mae y gair *aelwyd* yn sefyll am ddau air Hebreig, sydd yn cyfleu y meddwl fod aelwyd, gyda'r Israeliaid, yn lle poethedig; hyny yw, careg wedi ei gosod ar le i ddal tân; *Salm* cii. 3; *Ier.* xxxvi. 22, 23; *Esa.* xlvii. 14. Mae un o'r geiriau, *yoogah*, yn sefyll am deisen wedi ei chrasu ar yr aelwyd. 2. Esgyrn y cystuddiol a gyffelybir i aelwyd; *Salm* cii. 3. Yr esgyrn ydynt sylfaen y corff; arnynt hwy y mae yr holl adeilad gorfforol yn gorphwys,

Digitized by Google

ac wrthynt hwy mae ei holl ranau yn ymgynnal. Mae cystudd y corff yn cael ei deimlo fel pe byddai yr esgyrn yn poethi ac yn cynneu; *Ier.* xx. 9. 3. Tywysogion Iudah a gyffelybir i aelwyd o dân yn y coed; *Zech.* xii. 6. Byddant hwy yn debyg i aelwyd, a'u gelynion neu eu gwrthwynebwyr fel coed i gael eu goddeithio gan y tân a fyddo arni.

AENEAS, [Gr. *Αἰνεας*, *canmoladwy*; o'r prifair *αἰνεω*, *canmawl*]. Dyn yn Lyda, a fuasai yn gorwedd wyth mlynedd yn glaf o'r parlys, ac a iachawyd gan Pedr; *Act.* ix. 32—35. Effeithiodd y wyrth er tröedigaeth llawer o drigolion Lyda a Saron at yr Arglwydd Iesu.

AEONIAID: oddi wrth y gair Groeg *αιων* (*αιων*), yr hwn a ddynodai oes, neu hydfod. Defnyddid y gair gan ddysgyblion Plato, er dynodi unrhyw rinwedd neu berffeithrwydd; ac am hyny, darlunient y Duwdod fel cysoddiad o bob *Aeoniaid*, neu berffeithderau dichonadwy. Yr oedd Valentinus, yr hwn a berthynai i blaid o'r Gnosticiaid, yn dal fod deg ar ugain o dduwiau, y rhai a alwai efe yn *Aeoniaid*; ac mai o honynt hwy y deilliodd Iachawdwr y byd. Cerinthus, ac ereill o'r cyfeiliornwyr boreuol, a ddysgent fod Duw Dad yn hollol anadnabyddus cyn ymddangosiad Crist, yn preswylio mewn rhyw nefoedd belienig, gyda'r Aeoniaid, neu yr ysbrydion gwynfydedig; a bod yr Aeoniaid yn amrywio mewn graddau—mai yr isaf o honynt oedd Crist, yr hwn a ddisgynodd o'r nefoedd ar y dyn Iesu, pan ydoedd yn cael ei fedyddio, gan ddadguddio y Tad iddo ef, a'i alluogi i wneyd gwyrthiau; a phan ei traddodwyd i ddwylaw yr Iuddewon, bod y Crist wedi dychwelyd i *Pleroma*, neu *y Llawnder*, gan adael yr Iesu i ddyoddef a marw. Fel hyn, cyfododd cyfeiliornadau o'r rhyw mwyaf niweidiol yn yr Eglwys Gristionogol yn fore, gan wyrdroi yr athrawiaeth efengylaidd am berson Crist, yr hon sydd yn un o egwyddorion sylfaenol Cristionogaeth.

AERIAID: oedd enw a roddwyd ar enwad o Gristionogion a ymneillduent oddi wrth yr eglwys a elwid yn gatholicaidd, yn niwedd y pedwerydd canrif. Dywedir mai Aërius, henuriad ag oedd yn eglwys Sebastia, o fewn Pontus, yn Asia Leiaf, oedd sylfaenydd yr enwad hwn. Y mae yr oll o'r hanes sydd genym ni am danynt, o ran eu hegwyddorion a'u hymarferiadau crefyddol, wedi eu cael allan o ysgrifau Epiphanius, esgob Cyprus, yr hwn a ymgymmerodd â'r gwaith o ysgrifenu yn eu herbyn y pryd hwnw; o ganlyniad, nid oes genym un sail i ddysgwyl iddo roddi yr olwg fwyaf pleidiol i ni ar eu daliadau. Dr. Mosheim a ddywed, nad yw yr awdwr uchod yn dwyn un cyhuddiad yn eu herbyn o ran eu hymddygiadau moesol, nac yn erbyn cywirdeb eu cred o barthed i athrawiaethau yr efengyl; eithr addefa eu bod yn un yn hyn â'r eglwys yn gyffredin y dyddiau hyny. Eithr y mae yn enwi y pedwar peth canlynol, a fernid yn gyfeiliornus ynddynt, sef—1. Eu bod yn gosod allan mai yr un swyddogaeth oedd henuriad ac esgob yn ol trefn y Testament Newydd; ac nad oedd y gwahanol enwau hyn yn gosod allan eu bod yn ddwy swydd wahanol, ond dangos gwahanol gymhwysderau a gweithrediadau yr un swyddog. Yn yr eglwys gyntefig, meddent, nid oedd ond un swyddog—yn un mewn gwaith, ac yn un mewn awdurdod—i'w ddeall wrth yr enwau uchod. 2. Eu bod yn gosod allan mai peth pechadurus oedd offrymu gweddïau ger bron Duw dros ddynion meirw; a gweddïo ar seintiau meirw, mewn dim o achosion dynion byw, yr hyn oedd mewn ymarferiad cyffredin y dyddiau hyny. 3. Eu bod yn dywedyd nad oes un awdurdod yn ngair Duw dros gadw y Pasc yn ŵyl grefyddol dan oruchwyliaeth y Testament Newydd. Ac 4. Eu bod yn dywedyd nad oes un awdurdod ysgrythyrol i osod i fyny dyddiau ymprydiol ar ryw amserau o'r flwyddyn; megys y Grawys, dyddiau cyn y Pasc, &c. Dyma y prif gyfeiliornadau a roddid yn erbyn yr Aëriaid, ac y cyhuddwyd hwy yn gyfeiliornwyr o herwydd eu cyhoeddi a'u hamddiffyn. Ymdaenodd eu hegwyddorion yn gyflym trwy eglwysi Pontus, Armenia, Cappadocia, ac ereill yn y gwledydd o amgylch: a Mosheim a ddywed, "nad oedd hyn ryfedd yn y byd; o blegid fod yr eglwysi y dyddiau hyny wedi eu gorlwytho â thraddodiadau a dychymygion dynol yn eu hymarferiadau crefyddol, nes oeddynt yn dechreu blino dan eu beichiau."

Gellir meddwl yn lled sier, mai hon oedd yr egwyddor y sylfaenodd yr Aëriaid eu hymddygiadau arni—*Nad ydym i gymmeradwyo dim yn addoliad y Duw byw, ond a fyddo wedi ei orchymyn neu ei ddangos mewn esamplau eglur yn y Testament Newydd.* Codwyd erlidigaeth flin yn eu herbyn yn fuan gan flaenoriaid yr eglwys a elwid yn gatholic, a dedfrydwyd hwy yn hereticiaid; ond nid oedd hyn yn tycio i attal eu llwyddiant a'u hymledaniad ar y pryd. Ond trwy fod Epiphanius wedi marw yn fuan wedi dechreu y pummed canrif, yr ydym wedi ein gadael yn amddifad o bob hanes sier yn mhellach o barthed iddynt. Eithr wrth ystyried yr amgylchiadau, eu bod wedi ymledanu mor helaeth ac mor gyflym yn y gwledydd a enwyd, a bod, yn nechreu y seithfed canrif, y rhai a elwid yn Paulicaniaid (yr enwad oedd yn hollol o'r un golygiadau diwygiadol a'r Aëriaid) wedi llwyddo yn anarferol yn yr un gwledydd, y mae genym bob sail i gredu nad oedd egwyddorion yr Aëriaid wedi eu hollol ddileu o'r gwledydd hyny, er cymmaint oedd y tymmestloedd geirwon y gorfu arnynt eu dyoddef. Er fod yr egwyddorion a amddiffynent wedi bod fel tân dan ludw am amser, mewn dystawrwydd hanesyddol, pan ddaeth awel diwygiad i anadlu arnynt, yn amser y Paulicaniaid, gwelwyd hwynt yn ail ennyn o newydd.

AERON. Ffrwythau haf; megys afalau, ellaig, eirin, cnau, &c.; hefyd ffrwythau a llysiau a fwytëir yn îr.—*O. Pugh.*

"A'r aeron (*ὀπώρα*), a chwennychodd dy enaid, a aethant ymaith oddi wrthyt;" *Dad.* xviii. 14. Gwel FFRWYTHAU.

AETIAID; cangen o'r Ariaid, a elwid felly oddi wrth Aetius, esgob Antiochia, am yr hwn y dywedir ei fod yn dal fod "ffydd heb weithredoedd yn ddigonol er iachawdwriaeth," neu, yn hytrach, er cyfiawnhâd; ac "nad yw pechod yn cael ei gyfrif i gredinwyr." Ychwanegir hefyd, ei fod yn hòni fod Duw wedi dadguddio pethau iddo ef, a gelasai efe rhag yr apostolion: ond, efallai nad yw hyn yna ddim amgen na chamddarluniad o'r hyn a ddysgai efe ar athrawiaeth y dylanwadau dwyfol.

AETHNEN, AETHWYDD.—*S. Aspen.* Math o boplysen (*populus*) yr hon sydd hynod am fod ei dail yn ysgwyd wrth yr awel wanaf, a phan y

Digitized by Google

byddo dail coed eraill yn llonydd. Y mae yn hen ddywediad am y gwan a'r ofnus, "Crŷn fal dail yr aethwydd." Gwel POPLYS.

AFA, [עַוָּא]: lle yn Syria, efallai ar rai o gyrion Gwlad Canaan. Dygodd Salmaneser, brenin Assyria, breswylwyr y lle hwn, yn mysg lleoedd ereill, i Samaria, yn lle meibion Israel, pan gaethgludwyd hwynt ymaith: 2 *Bren.* xvii. 24. Yn 2 *Bren.* xviii. 34, gelwir y wlad yma yn *Ifah.* Yn *Deut.* ii. 23, gelwir hi *Hazerim*, a'r preswylwyr *Afiaid.* Cyfeirir atynt yn *Ios.* xiii. 3, hefyd. Cawsant eu hymlid o'u gwlad ryw bryd gan y Caphtoriaid (*Deut.* ii. 23). Ychydig a wyddys yn eu cylch. Y mae'n debygol na chodasant o gwbl i ddim enwogrwydd.

AFAL—AU, [S. *apple;* Heb. תַּפּוּחַ, *tappuach*]. Y mae llawer math o afalau:—afal pêr, afal sur, afal melyn hir (*lemon*), afal euraidd (*orange*), &c. Y mae gwahaniaeth barn yn mysg awduron yn nghylch pa ffrwythau a feddylir wrth y gair Hebraeg, *tappuach*, yn y Beibl, yr hwn a gyfieithir yn y Gymraeg, *afalau.* Y mae y rhan fwyaf o honynt yn barnu nad yw y gair *afal* yn trosglwyddo ystyr y gair Hebraeg i ni; o blegid nid yw afalau, fel sydd genym ni, yn meddu ar un rhagoriaeth na hynodrwydd yn Ngwlad Canaan. Ond i'r gwrthwyneb, nid ydynt ond bychain o faintioli, ac nid ydynt o un defnydd, mewn cymhariaeth.

Y mae y rhan fwyaf o'r dysgedigion yn cytuno mai y llebron (*citron*) a feddylir. Y mae hwn yn ffrwyth hardd a gwerthfawr, yn dra thebyg i'r afal aur (*orange*), ond yn unig ei fod yn fwy o faintioli, yn dewach ei groen, ac nid mor grwn; bydd weithiau yn chwe modfedd o hyd; y mae ei arogl yn dra pheraidd, a'i sudd yn hynod o adfywiol. Byddai yr Israeliaid yn arfer dwyn y ffrwythau hyn i'r deml mewn cewyll, wedi eu gwneyd o rwydwaith arian; ac mae'n debyg mai hyn oedd yn meddwl Solomon pan y cymharai gair a ddyweder mewn amser, *h. y.* yn brydlawn, i afalau aur mewn gwaith arian cerfiedig, neu mewn cewyll arian: *Diar.* xxv. 11. Cyfeirir gan yr un gwr at y ffrwythau hyn, yn *Can.* ii. 5, a vii. 8.

AFALWYDDEN, AFALLEN, [Heb. תַּפּוּחַ, *tappuach*]. "Megys pren afalau yn mysg prenau y coed, felly y mae fy anwylyd yn mhlith y meibion;" *Can. Sol.* ii. 3. Ymddengys yn dra eglur, yn ol dysgrifiadau yr Ysgrythyrau o'r pren afalau, nad y pren a elwir felly genym ni a feddylir, ond y llebronwydden (*citron tree, citrus*). Y mae hwn yn bren tal, hardd, a chysgodfawr; y mae ei ddail yn fawr, o ffurf hirgrwn; ei flodau yn wyn, ac yn beraroglaidd; a'i ffrwyth yn euraidd yr olwg arnynt, ac yn brydferth rhagorol; ac y mae hefyd yn fythwyrdd. Mae y teithwyr sydd wedi bod yn y gwledydd cynhes, lle y gwelir ef yn ei ogoniant, yn dywedyd wrthym fod yn anmhosibl dychymygu mor hyfryd, yn ngwres y dydd, yw eistedd dan gysgod y pren hwn; a bod yn hawdd i'r sawl a brofodd hyny deimlo grym geiriau Solomon, "Bu dda genyf eistedd dan ei gysgod ef;" *Can.* ii. 3.

Y cyfryw yw Crist. "Megys pren afalau yn mysg prenau y coed, felly y mae fy anwylyd yn mhlith y meibion." Mae ei ddail yn fythwyrdd, yn gweini cysgod bob amser, ac yn adfywiol i bob enaid lluddedig.

AFEN. Gwel BETHAFEN.

AFIAID. Gwel HEFIAID.

AFITH: dinas Hadad, mab Bedad, un o hen freninoedd Edom: *Gen.* xxxvi. 35.

AFLAFAR, [o *af* a *llafar;* fel mae y gair Groeg cyferbyniol, ἄφωνος, o *α*, nacaol, a φωνή, llais= *mud, di-lafar, di-sain, anmhendant mewn sain*]. Cyfieithir ἄφωνος yn *fud;* megys "asen *fud*" (2 *Pedr* ii. 16); "Eilunod *mudion*" (1 *Cor.* xii. 2). Fe'i cyfieithir hefyd, *bod yn fud*, nid oddi ar ddiffyg gallu i lefaru, ond oddi ar hunan-feddiant amyneddgar dan ddyoddefaint; megys, "Fel oen ger bron ei gneifiwr yn *fud;*" *Act.* viii. 32: cymharer *Esa.* liii. 7. Ond yn 1 *Cor.* xiv. 10, lle y cyfieithir y gair yn *aflafar*—"Y mae cymmaint ysgatfydd o rywogaethau lleisiau yn y byd, ac nid oes un o honynt yn *aflafar*"—arwydda *anmhendant, diystyr,* llais heb fod ei "rym" (*adn.* 11) yn cael ei adnabod. Yn y cyfieithiad Seis., "*without signification*" ydyw.

AFLANHAU. Gwneuthur yn aflan; cyfnewid ansawdd, nodweddiad, neu gyflwr yr hyn oedd o'r blaen yn lân, sanctaidd, neu gyssegredig. Y meddylrith gwrthwynebol yw glanhau, puro, sancteiddio, neu gyssegru. Gweithred yw, a gyflawnir ar yr hyn fyddo wedi ei neillduo i ryw wasanaeth neu ddyben arbenig, trwy beri absennoldeb o'r cymhwysder i gyflenwi y cyfryw wasanaeth, neu ateb y cyfryw ddyben.

1. O dan y sefydliad Moesenaidd, sonir am *bethau* megys yn alluog i gael eu halogi. Yn mysg y cyfryw, cyfrifid llestri, gwisgoedd, ymborth, diod, tai—y rhai trwy amgylchiadau neillduol, a wneid yn anghymhwys i'r gwasanaeth, neu i ateb y dyben i'r hwn yr oeddynt wedi eu bwriadu a'u neillduo. Gwel *Lef.* xi. 32.

2. Sonir am bersonau yn ymaflanhau, a hyny dan y sefydliad Cristionogol yn gystal a'r un Iuddewaidd. Hyn a ddygwyddai trwy amryfal foddion—1. Trwy gyffyrddiad â'r hyn a fyddai aflan: *Lef.* xi. 39. 2. Trwy fwyta o'r hyn a fyddai aflan: *Lef.* xi. 40; xvii. 15. 3. Trwy i un gyflawnu rhyw ddefodau ar ol y meirw, oddi eithr eu cyfnesefiaid. Perthynai y ddeddf hon i'r offeiriaid yn neillduol. *Lef.* xxi. 1—5. Ystyrid gwŷr a gwragedd yn aflan o dan amgylchiadau neillduol; megys gwŷr a gwragedd yn eu dyferlif, a gwragedd wedi esgor ar blant: *Lef.* xii, a xv. 4. Byddai y gwahanglwyf yn aflanhau: *Lef.* xiii; xix. 5. Byddai godineb, llosgach, a halogedigaeth annaturiol yn aflanhau: *Lef.* xviii. 6. Y mae troseddu y ddeddf foesol yn halogi neu yn aflanhau dyn:—yn gyffredinol, *Mat.* xv. 18—20; neu trwy gyflawnu pechodau neillduol, yn enwedig eilunaddoliaeth, yr hwn mewn modd arbenigol, a elwid *y ffieidd-dra: Salm* cvi. 39.

AFLENDID. Y cyflwr o fod yn aflan; ansawdd aflan. Y syniad gwrthwynebol yw glendid, glanweithdra, purdeb; neu y cyflwr o gyssegredigrwydd, neu neillduaeth, i ryw ddyben neu wasanaeth arbenig. Mewn ystyr duwinyddol, gellir ystyried aflendid o ddau fath—Lefiticaidd a moesol; neu aflendid perthynol i'r rhai oedd dan yr oruchwyliaeth Iuddewig, a'r hwn sydd yn perthyn i'r sawl sydd dan yr oruchwyliaeth Gristionogol.

1. Aflendid Lefiticaidd, yr hwn sydd yn golygu ei ddeiliaid fel Iuddewon, ac sydd yn cyfodi oddi ar ddiffyg cydymffurfiad â'r gyfraith Lefiaidd. Megys y mae y rhan fwyaf o'n syniadau yn rhai perthynasol (*relative*), felly hefyd y mae hwn; nid

Digitized by Google

yw yn cyfodi oddi ar ddim sydd yn y gwrthddrychau eu hunain, eithr oddi wrth y modd y golygir hwynt o ran eu perthynas â phethau ereill. 1. Dynoda negyddiad (*negation*), neu absennoldeb o neillduedigaeth neu gyssegredigrwydd i ryw wasanaeth neu ddyben penodol. Yn yr ystyr yma, cyfrifid rhai anifeiliaid ac adar yn aflan, am eu bod heb eu neillduo, megys ereill, i'w defnyddio fel ymborth, neu i'w hoffrymu yn ebyrth. Ymddengys fod y gwahaniaethiad hwn mor hen ag amser Noah. Yr oedd y genedl Iuddewig yn bobl briodol, yn neillduedig a sanctaidd; ac am hyny, hwy a gyfrifent bawb ereill yn gyffredin neu aflan: *Act.* x. 28. Eithr yr awr hon, wedi i ddyben y neillduaeth yma gael ei ateb, y mae y gwahaniaethiad ei hunan wedi ei ddileu, fel nad oes neb, o dan Grist Iesu, mwy na'u gilydd, yn gyffredin neu aflan. Megys yr oedd pob peth a offrymid neu a aberthid wedi eu neillduo i Dduw, felly hefyd yr oedd *gwaed* yr aberth; a phob gwaed arall a gyfrifid yn waed cyffredin neu aflan. "Barnu yn *aflan* (Gr. *cyffredin*) waed (aberth) y cyfammod" (newydd), yw ei gyfrif yn amddifad o rinwedd neu effeithioldeb cymmodol a phuredigol; neu heb fod yn waed aberth, wedi ei neillduo a'i offrymu i Dduw. 2. Dynoda ansawdd yr hyn sydd yn anghymhwys i'w ddefnyddio fel ymborth; a hyny, nid o ran dim sydd yn y peth ei hun, nac yn cyfodi oddi ar ei berthynas â dim oddi allan, eithr yn tarddu yn unig oddi ar dyb y dyn ei hun o berthynas iddo. Y gwahaniaeth hwn, er nad ydyw yn gwbl o'r un natur a'r un blaenorol, sydd er hyny wedi derbyn ei wreiddyn oddi wrtho. Gallesid dysgwyl yn ddigon naturiol y buasai llawer oedd wedi eu dwyn i fyny o'u mebyd yn egwyddorion y grefydd Iuddewig, er iddynt gofleidio y grefydd Gristionogol, yn glynu yn lled afaelgar wrth amryw osodiadau perthynol i'w hen grefydd. Ac felly y bu. Yr oedd deddf Moses yn gwahardd amryw bethau fel ymborth, ac yn eu hystyried yn aflan; ac er i'r gwahaniaeth rhwng glân ac aflan, yn yr ystyr yma, gael ei ddileu gyda therfyniad yr oruchwyliaeth Iuddewig, eto, yr oedd rhai, wedi iddynt gofleidio Cristionogaeth, yn parhau i gyfrif rhai pethau yn aflan a gwaharddedig fel ymborth, ac yn cadw rhai o'r gwyliau perthynol i Iuddewaeth. Gyda golwg ar y pwnc dan sylw, gesyd yr apostol Paul i lawr yr egwyddor hon—*Yr hyn nid yw aflan ynddo neu o'i ran ei hun, sydd felly i'r neb a farna ei fod.* O blegid y sawl a farna beth yn aflan, er nad yw aflan ynddo ei hun, eto y mae felly iddo ef. Y gwahaniaeth hwn, er ei fod, fel y sylwyd o'r blaen, yn tarddu oddi ar syniad Iuddewaidd, nid ydyw i'w gyfyngu i'r Iuddew yn unig; eithr y mae yn wir am bob dyn, yn gymmaint a bod ei wreiddyn yn gorwedd mewn deddf gyffredin i naturiaeth foesol dyn fel y cyfryw. Pan fyddo dyn yn llwyr argyhoeddedig, ac yn dilys gredu fod unrhyw weithred neu ymarfer yn anghyfreithlawn, y mae yn effeithio arno ef yr un modd yn gwbl a phe bai felly: y mae yn rhwymo ei gydwybod yr un modd, ac y mae yntau yn ei gwneuthur neu yn peidio ei gwneuthur oddi ar y rheswm mawr moesol—*i'r Arglwydd.* Y mae yr athrawiaeth hon yn cael ei hegluro yn helaeth yn *Rhuf.* xiv; a dylid sylwi yn ofalus, nad yw yr achosion a grybwyllir gan yr apostol, sef bwyta, neu gadw dydd gŵyl, namyn cymhwysiadau neillduol o reol neu egwyddor gyffredin, yr hon y gellir ei thynu oddi wrth yr ymadroddion canlynol:—"Eithr yr hwn sydd yn petruso, os bwyty, efe a gondemniwyd, am nad yw yn bwyta o ffydd" (argyhoeddiad o gyfreithlondeb y peth): "*a pheth bynag* nid yw o ffydd, pechod yw." Nid yw yr egwyddor neu y rheol hon, pa fodd bynag, yn perthyn dim i'r hyn sydd ynddo ei hun yn dda neu ddrwg; o blegid nis gall ein barnau effeithio dim ar y cyfryw.

2. Aflendid moesol. Ymddengys mai un o ddybenion neillduol y Goruchaf, yn ei ymddygiadau tuag at y genedl Iuddewig, ac yn sefydliad y gyfundrefn Foesenaidd, oedd ffurfio iaith grefyddol i'r byd. Oddi wrth ymddygiadau Duw tuag at y bobl hyn, y cawsom y geiriau *etholedigaeth, galwedigaeth, iachawdwriaeth, sancteiddrwydd, cyfiawnder,* &c.; ac oddi wrth eu cyfundrefn addoliadol y derbyniasom y geiriau *offeiriad, allor, aberth, glân, aflan,* &c. A phan ysgrifenwyd y Testament Newydd, er fod y meddyliau yn wahanol, ni newidiwyd yr iaith — ysgrifenwyd meddwl yr Ysbryd yn mhriod-ddull yr Hen Destament. Y mae gan Gristionogaeth, gan hyny, ei hetholedigaeth, galwedigaeth, iachawdwriaeth, aberth, allor, offeiriad, sancteiddrwydd, ei glân, a'i haflan, &c.

Sonir am aflendid, yn ei ystyr moesol a Christionogol, fel yn perthyn i nodweddiad, i ddrwg neu bechod ynddo ei hun, ac i weithredoedd; a'r meddylrith gwrthwynebol yw cyfiawnder neu sancteiddrwydd, fel yr ymddengys oddi wrth y testynau canlynol:—"Canys megys ag y rhoddasoch eich aelodau yn weision i aflendid ac anwiredd, i anwiredd; felly yr awr hon rhoddwch eich aelodau yn weision i gyfiawnder, i sancteiddrwydd;" *Rhuf.* vi. 19. "Canys ni alwodd Duw nyni i aflendid, ond i sancteiddrwydd;" 1 *Thes.* iv. 7. (1.) Aflendid nodweddiadol. Fel y cyfryw, priodolir ef i'r dyn ei hun; a'r un peth yw dyn aflan, a dyn drwg, neu bechadurus: *Preg.* ix. 2. (2.) Aflendid pechod yw pechadurusrwydd pechod, neu anwiredd pechod: *Zech.* xiii. 1; *Salm* xxxii. 5. (3.) Fel yn perthyn i weithredoedd. (*a*) I weithredoedd yn gyffredinol, pan fyddont yn amddifad o sancteiddrwydd neu gydymffurfiad â chyfraith Duw: *Rhuf.* vi. 19. (*b*) I weithredoedd neillduol, megys halogedigaeth annaturiol: *Rhuf.* i. 24; *Eph.* v. 5.

**AFLES:** diles, anfuddiol, dibwrpas. "Canys yn ddiau y mae dirymiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen, o herwydd ei lesgedd a'i *afles.*" Nid ei lesgedd a'i afles ynddo ei hun, ond o ran ei gyfaddasrwydd i estyn i bechadur faddeuant a chyfiawnder. Yn yr ystyr yma y mae yn hollol aflesol a dibwrpas.

**AFLUNIAIDD:** dilun, didrefn. "A'r ddaiar oedd *afluniaidd* a gwag;" *Gen.* i. 2. Nid ellir dywedyd yn briodol fod unrhyw sylwedd heb lun arno; ond y mae y gair gwreiddiol yn cludo y meddylrith am beth mewn dyryswch, heb undeb na threfn; yr elfenau mewn sefyllfa o gymmysgedd, mewn canlyniad i ryw ddirywiad a fuasai arnynt yn flaenorol i hyny, dybygid. *Deut.* xxxii. 10; *Esa.* xxxiv. 11; *Ier.* iv. 23.

**AFLWYDD:** anffawd, dryglam, trychineb Duw oedd yn poeni Israel â phob rhyw aflwydd, yn ystod y dyddiau lawer y buont heb y gwir Dduw, ac heb offeiriad yn ddysgawdwr, ac heb gyfraith: 2 *Cron.* xv. 3—6. Dywedir fod distryw ac aflwydd yn ffyrdd pechaduriaid (*Rhuf.* iii. 16); hyny ydyw, y mae tuedd yn eu hymarweddiad i ddistrywio rhinwedd, ac aflonyddu dedwyddwch a heddwch pawb yr ymwnelont â hwy.



Digitized by Google

**AFON—YDD:** y dyfroedd rhedegog, trwy ba rai y mae yr holl ddwfr a gesglir o fewn cyfran neillduol o wyneb y ddaiar, yn ymdywallt i fôr neu lyn. Gofer dwy neu dair o ffynnonau wedi ymuno, yn gyffredin, a ffurfia aber neu nant; yr hon drwy ymgyssylltu â ffrydiau cyffelyb a gynnydda yn afonig; a hithau, drwy dderbyn rhai ereill wrth fyned yn mlaen, a ymchwydda yn afon; a'r afon, drwy ymarllwysiad iddi ddyfroedd cangenau chwanegol, a ymleda yn brif afon.

Y rhandir y byddo ei holl ddwfr yn disgyn tua'r un gwaelod neu redle, a elwir *pannwl* neu bantle afon, dyffryn, neu ddyfr-hynt. Y llinellau a ddangosant ei derfynau a elwir *rhediad y dwfr*, sef ei wahaniad i'r naill ochr a'r llall, gyda disgyniad y tir. Y terfynau hyn ydynt amrywiol; megys, cyfres o fynyddoedd, trumiau o fryniau, neu ynte ychydig godiad graddol yn arwyneb y tir. Yn y modd hwn y mae penau y Rhine, y Rhone, y Po, a'r Danube, yn cael eu gwahanu gan derfyn cribog yr Alpau; ond yn nwyreinbarth Ewrop, codiad bychan yn arwyneb y tir sydd yn gwneuthur llinell y gwahaniad rhwng y dyfroedd a redant drwy y Vistula a'r Niemen i'r Baltic, a thrwy y Volga, Dnieper, a'r Dniester, i Fôr Caspia a'r Môr Du. Yn America, y mae pannylau yr afonydd mwyaf; a'r rhai lleiaf yn Ewrop. Y mae rhediad afonydd yn fynych yn gylchlynol a dolenog; fel y mae eu hyd gwirioneddol yn llawer mwy na llinell uniawn rhwng eu tarddiad a'u harllwysiad. Mae y trefniad hwn yn eu gwneuthur yn llawer mwy gwasanaethgar i ddyn, drwy ffrwythloni rhanau helaethach o'r ddaiar, a'u bod yn fordwyol, drwy eu rhediad arafaidd, hyd yn mhell i ranau mewnol tiriogaethau eang. Y mae eu disgyniad hefyd yn amrywio yn fawr, o ychydig droedfeddi i lawer o filoedd, rhwng eu codiad a'u terfyniad. Ond y mae eu disgyniad mwyaf yn y parthau uchaf yn agos i'w codiad; ac wedi cyrhaedd y gwaelodion, mae eu disgyniad yn ychydig iawn a graddol, fel y mae eu rhediad yn araf a manteisiol i fordwyaeth. Lle y byddo y disgyniad yn fawr, mae y ffrwd yn rhedeg yn chwyrn, a phwysau y corff o ddwfr yn mwyhau y cyflymdra, fel y mae eu mordwyad yn y cyfryw leoedd yn cael ei rwystro. Os bydd y disgyniad dros graig serth, neu ddibyn, bydd yno *raiadr*—un o'r mwyaf arddunawl o wrthddrychau anian. Mae eu *hymarllwysiad* yn eu haberoedd weithiau drwy un ffrwd, ac weithiau y maent yn ymranu yn gangenau, ac yn ffurfio math o ynysoedd, fel y *Deltas*, oddi wrth debygolrwydd eu ffurf i'r llythyren Roeg Δ. Y mae y Ganges, y Volga, y Mississippi, y Nilus, ac ereill, yn nodedig am eu deltaod eang. Y mae rhai afonydd yn colli mewn tywod a chorsydd.

Yr afonydd y sonir am danynt yn y Beibl wrth eu henwau, ydynt, Pison, Gihon, Hiddecel (Tigris), ac Euphrates—pedair afon Paradwys (*Gen.* ii. 11—14); Chebar, yn Mesopotamia (*Ezec.* i. 1); Ahafa, yn Caldea (*Ezra* viii. 15, 21); Ulai, yn Persia (*Dan.* viii. 2, 16); Sihor (Nilus), afon yr Aipht (*Esa.* xxiii. 3; *Ier.* ii. 18); Abana a Pharpar, afonydd Damascus (2 *Bren.* v. 12); ac afonydd Palestina, sef yr Iorddonen, yr Arnon, y Iabboc. Iarmuth, Canah, Cerith, Cison, Besor, afonydd Gaas, Belus, Zared (yn Moab; *Deut.* ii. 13). Am y rhai hyn, gwel dan eu henwau yn eu lleoedd priodol. O holl ffrydiau Palestina, yr Iorddonen yn unig sydd yn teilyngu yr enw *afon:* nid yw y lleill, oddigerth un neu ddwy, ond cornentydd chwyddedig, chwyrn, yn y gauaf, y tymmor gwlyb, ac yn sych hollol yn yr haf.

Yr Hebreaid a arferent y gair "yr afon," heb ychwanegiad, weithiau am y Nilus, weithiau am yr Euphrates, ac weithiau am yr Iorddonen. Wrth y cyssylltiad y mae deall pa un a feddylir: *Exod.* i. 22; *Ezra* iv. 10, 16; *Zech.* x. 11.

Fe ddichon y byddai yn ddymunol gwahaniaethu y geiriau a gymhwysir yn yr Ysgrythyr at wahanol fathau o afonydd.

1. יאר (*ieor*), gair, fel y tybir, o darddiad Aiphtaidd, yn arwyddo ffos, dyfrglawdd, neu afon. Cymhwysir yr enw hwn yn mron yn hollol yn yr Ysgrythyr i "afon yr Aipht" (יאר מצרים); yn *Dan.* xii. 5—7, mae yn dynodi afon arall. Wrth yr enw "afon yr Aipht" yn ddiau y meddylir y Nilus; ac y mae i'w wahaniaethu oddi wrth "afon (neu gornant) yr Aipht," a enwir isod.

2. נהר (*nahar*), yw y gair a arferir yn gyffredin am afon neu ffrwd barhäus. Y mae o'r un ystyr hyd heddyw yn yr Arabaeg; ac yn yr iaith hono, fel yn yr Hebraeg, y mae yn cynnwys *camlesydd;* megys, "*Nahar*awan Khuzistan:" a rhaid fod yr Ysgrythyr yn meddwl yr Euphrates a'i chamlesydd, pan yn son am "afonydd (*naharoth*) Babilon;" *Salm* cxxxvii. 1.

3. נחל (*nachal*), sydd yn dynodi ffrwd, aber, neu gornant;—rhai yn llifo yn barhäus, ond y rhan fwyaf heb fod felly, gan nad yw y niferamlaf, fel y soniwyd, o ffrydiau Palestina yn ddim amgen na nentydd yn llifo yn y gauaf yn unig. Y mae cyfeiriad tra darluniadol at y cyfryw afonydd yn *Iob* vi. 15. Pan fyddo y gair yn sefyll wrtho ei hun, ymddengys ei fod yn dynodi dim amgen na chornant gauafaidd; ond pan feddylir ffrwd barhäus wrtho, defnyddir gair arall yn gyssylltiedig yn dangos hyny: megys yn *Salm* lxxiv. 15; *Amos* v. 24. Mae rhai o'r cyfryw aberoedd yn cael eu dynodi yn neillduol: megys "afon yr helyg," yn *Esa.* xv. 7; ffrwd i'r dwyrain i'r Môr Marw, a elwir yn bresennol, fel y tybir, *Wady-el-Ahsy*, yr hon sydd yn disgyn o'r mynyddoedd, ac yn myned i'r Môr Marw, yn ei ben dwyreiniol. "Afon yr Aipht"—a enwir yn *Num.* xxiv. 5; *Ios.* xv. 4, 47; 1 *Bren.* viii. 65; 2 *Bren.* xxiv. 27; *Esa.* xxvii. 12; ac a elwir hefyd "yr afon," yn *Ezec.* xlvii. 19; xlviii. 28—yr hon a ddysgrifir fel ar gyffiniau Palestina a'r Aipht, yn ddiau yw y Wady-el-Arish, yn gyfagos i bentref o'r enw, a elwid gynt Rhinocorura. Yn antfodus, nid yw hon yn cael ei gwahaniaethu mor eglur ag y buasai dymunol yn y cyfieithiad awdurdodedig, oddi wrth "afon (*ieor*) yr Aipht," sef y Nilus.

Y mae y gair *nachal* weithiau o'r un ystyr a'r gair *Wady* yn yr Arabaeg; *h. y.*, dyffryn yn cael ei ddyfrhau gan nant neu afonig. Y cyfryw ydoedd "dyffryn Escol" (*Num.* xiii. 23, 24), a "dyffryn Gerar" (*Gen.* xxvi. 17); ac y mae *nachal* weithiau yn arwyddo naill ai yr afonig neu y dyffryn y byddo yn rhedeg trwyddo; megys "afon Zared;" *Deut.* ii. 13, 14, *ymyl y ddalen:* ac mewn ambell fan y mae yn anhawdd dywedyd pa un a feddylir; megys yn *Ios.* xv. 7; xix. 14. Y mae yn debyg mai yr un oedd "afon (neu ddyffryn) Zared" ag "afon yr helyg." [Gwel *Kitto's Cycl.*, d. g. *Rivers.*]

Y mae y gair *afon*, yn allegol, yn arwyddo helaethrwydd a chyflawnder o unrhyw beth (*Iob* xxix. 6); hefyd digonedd, hyfrydwch, a mwynhâd, yn nghyd â chyssondeb a pharhâd y cyfryw hyfrydwch: *Salm* xxxvi. 8. Doniau a grasau yr Ysbryd, yn gyffelybiaethol, a elwir yn "afonydd o ddwfr bywiol:" *Ioan* vii. 38. Cawodydd maeth-

Digitized by Google

lawn yn dyfrhau y ddaiar, ac yn ei ffrwythloni, a elwir yn "afon Duw:" *Salm* lxv. 9. Ac yn *Salm* xlvi. 4, presennoldeb grasol Duw yn ei eglwys, a'r bendithion a darddant oddi wrth hyny, yw "yr afon a'i ffrydiau a lawenhânt ddinas Duw."—*Cruden.*

**AFRADLAWN.** Arwydda ασωτος (*asôtos*), a gyfieithir *afradlawn*, yn ei ystyr cyntaf, un anachubadwy, tu hwnt i obaith neu feddyginiaeth. Yn yr ystyr hwn y defnyddir ef gan ysgrifenwyr Groeg [*Soph. Ajax*, 190; *Plato Leg.* 743 *B.*]. Ystyr y sylweddair, *asôtia*, yw trythyllwch, gloddest, afradlonedd. Dengys gwreiddyn y gair fod y meddwyn, y gloddestwr, a'r trythyll, bron yn anobeithiol. Y gorair *asôtos* a ddefnyddir am y mab afradlawn yn y wlad bell. Yn *Eph.* v. 18, cyfieithir y gair *gormodedd:* "Ac na feddwer chwi gan win, yn yr hyn y mae gormodedd" (*asôtia*); hyny yw, "yn yr hyn y mae afradlonedd."

**AFRLLADEN.** Pan gyfarfyddom â'r gair yma yn y Beibl, dylid deall, *llethen*, *lleden*, neu *deisen denen*, yr hyn, yn briodol, yw ystyr y gair Hebraeg רקיק; ac nid *afrlladen.* Ystyr *afrlladen* yw, y deisen fendigaid a arferwyd gynt gan y Pabyddion yn Nghymru am y bara yn Swper yr Arglwydd; ond o herwydd mai teisenau teneuon a arferid ganddynt hwy gynt, ac hyd heddyw, yn Swper yr Arglwydd, daeth y gair *afrlladen*, o fesur ychydig, i'w arfer am *deisen denen*, ac yn amryfusol iawn a gadwyd felly yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Ysgrythyrau. Gwell ydyw y cyfieithiad Seisoneg, *wafer.*

Gwneid y teisenau teneuon hyn o'r peilliaid gwenith goreu, ac yn groew; ac nid ydym i ddeall nad oeddynt yn gymmysgedig âg olew, yn gystal a'r teisenau ereill ag oeddynt yn dewion: âg olew y cymmysgid y bwyd offrwm, o ba fath bynag y byddai. Nid yw y gorchymyn am *eneinio* y teisenau teneuon (afrlladen) yn rhoddi ar ddeall na chymmysgid hwy, fel y lleill, âg olew; ond gan eu bod mor deneuon, rhagor y rhai a wneid mewn ffwrn neu badell, yr oeddynt yn fwy tueddol i sychu a chaledu na 'r lleill; am hyny, gorchymynid eu heneinio, fel na sychent ac na heneiddient yn fuan cyn eu defnyddio: *Exod.* xxix. 2; *Lef.* ii. 4—7; vii. 12; *Num.* vi. 19.

Yr addysg a dynai yr apostol Paul oddi wrth burdeb a chroewder y bwyd offrwm, yw, y dylem ninnau offrymu ein hunain i Dduw gyda phurdeb a diniweidrwydd difalais—yn fara croew purdeb a gwirionedd: 1 *Cor.* v. 7, 8. Gwel OFFEREN.

**AFU.** Gwel *Exod.* xxix. 13, 22; *Lef.* iii. 4, 10, 15; vii. 4; viii 16, 25; ix. 10, 19; *Diar.* vii. 23; *Galar.* ii. 11; *Ezec.* xxi. 21. Y gair Hebraeg ydyw כבד: o'r ferf כבד=*bod yn drwm*—oddi wrth bwysau y rhan hono o'r coluddion. Yr un modd, medd y Dr. Taylor, y mae yr ysgyfaint yn cael eu galw yn y Seisoneg, *the lights*, am eu bod yr ysgafnaf o'r ymysgaroedd. Sonir am yr afu fel eisteddle y serchiadau: *Salm* xvi. 9; "Llawenychodd fy *nghalon*," neu fy afu. Felly hefyd, mae yn debygol, yn *Gen.* xlix. 6; "Na ddeled fy *enaid* i'w cyfrinach hwynt," neu fy afu. Cyfieithir yma gan y Deg a Thrigain, τὰ ἥπατά=*afu.* Barna Gesenius mai o air Arabaidd, yn arwyddo *gwerthfawr*, y tardda y gair Hebraeg; "yr hyn sydd yn cydweddu â syniadau yr hen ddwyreinwyr, y rhai a ystyrient yr afu y mwyaf gwerthfawr o'r ymysgaroedd, am y barnent mai efe sydd yn ffurfio y gwaed yn benaf, ac mai yn y gwaed y mae eisteddle bywyd." Yr oedd y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, yn gystal a'r Hebreaid, yn ystyried yr afu yn eisteddle y nwydau, yn enwedig cariad a chas: gan Æschylus, yn eisteddle tristwch; gan Euripides, ofn; gan Theocritus, cariad; gan Archilochus, digofaint; a'r un modd gan y beirdd Rhufeinaidd, Horace, Persius, a Juvenal. Ystyrid clwyf yn yr afu yn farwol. Mae yr ymadroddion, "hyd oni ddryllio y saeth ei afu," a "fy afu a dywalltwyd ar y ddaiar," yn arwyddo marwolaeth. Mae βάλε Φαυσιαδην 'Απισάονα ἧπαρ (=ac a darawodd Apisaon, mab Phausias, yn ei afu) yn Homer, a θιγγάνει πρὸς ἧπαρ (=a gyffyrddodd â'i afu) yn Æschylus, yn cael eu harfer i arwyddo clwyf anwelladwy. Pan ddefnyddir y gair yn *Ezec.* xxi. 21, cyfeiria at y dull boreuaf o ddewiniaeth, trwy edrych i mewn i ymysgaroedd anifeiliaid a dynion a leddid yn ebyrth. Edrychid ar yr afu fel y rhan fwyaf pwysig yn y ddyfais o ddewinio trwy yr ymysgaroedd. Gelwid y dewiniaid hyn, gan y Groegiaid, ηπăτοσκοποι=*chwilwyr yr afu.* Barna Vitruvius, yr hyn a ymddengys yn meddu cryn debygolrwydd, fod y math hwn o ddewiniaeth wedi gwreiddio yn y ffaith y byddai y cynoeswyr yn arfer chwilio afu y creaduriaid a fynychent y lleoedd yr ewyllysient hwy drigo ynddynt; ac os gwelent y byddai yr afu yn afiach, ac wedi ei niweidio, casglent fod dwfr ac ymborth y tiroedd hyny yn niweidiol. Gwel DEWINIAETH.—(*Kitto's Cyc.*)

**AFFAITH**; [*ffaith*]: y serch, y tueddfryd; yr un peth ag *effaith.* "Mewn cyfraith, cyfranogiad o euogrwydd pechod neu drosedd un arall." —*Dr. Pughe.*

O lladd anifail ddyn, dyma alanas heb *affaith* iddi.
*Affaithwyr* yw y rhai a addawant gyflog er lladd dyn.
*Welsh Laws.*

"Felly y tyni ymaith *affaith* y gwaed gwirion o'th fysg;" *Deut.* xxi. 9. Nid ydyw y gair yn y gwreiddiol yn y lle hwn, ond rhoddwyd ef i mewn gan y cyfieithwyr. Y gair cyfystyr yn y Seisoneg ydyw *guilt.*

**AFFGHANIAID:** gair yn arwyddocau *Mynyddwyr.* Enw llwyth galluog, yn y rhan ddwyreiniol o Persia, yn mreniniaeth Cabul. Yr oeddynt ar y cyntaf yn cyfanneddu y mynyddoedd rhwng Persia, Hindostan, a Bactria; ac y maent yn parhau o ymarferion crwydraidd hyd heddyw. Eu crefydd sydd fath o Fahometiaeth; ond y maent hwy yn ymffrostio eu bod yn hanu o Saul, brenin cyntaf yr Israeliaid. Dychymygai y diweddar Syr William Jones mai gweddillion y deg llwyth oeddynt; a thros y cyfryw olygiad, efe a ymresymai fel hyn:—"Fe 'n hysbysir yn Llyfr Esdras fod y deg llwyth, ar ol hir grwydriad, wedi dyfod i wlad a elwir Arsareth, lle y gallem dybied ddarfod iddynt ymsefydlu. Ac y mae yr haneswyr Persiaidd goreu yn dyweyd fod yr Affghaniaid yn hanu o'r genedl Iuddewig; a meddant draddodiadau o'r cyfryw haniad yn eu mysg eu hunain; a haerir yn mhellach, fod eu teuluoedd yn cael eu dynodi âg enwau llwythau Iuddewig, er eu bod yn ymdrechgar i guddio eu trâs er pan gofleidiasant Fahometiaeth. Y mae tebygrwydd yn eu hiaith i'r Galdaeg: ac y mae rhandir eang dan eu hawdurdod, a elwir Hazareth, yr hwn sydd dra thebyg i'r gair a ddefnyddiai Esdras." Y mae ysgrifenwyr wedi methu olrhain hynafiaeth yr Affghaniaid yn mhellach yn ol na'r nawfed ganrif.



Digitized by Google

# AFFRICA.

YSTYR Y TALFYRIADAU A ARFERIR YN Y MAPIAU.

| | | | |
|---|---|---|---|
| B., *neu* Bay | Machwy. | Mt., *neu* Mountain | Mynydd. |
| Bank, Banks | Bryn, Bryniau. | Mts., *neu* Mountains | Mynyddoedd. |
| C., *neu* Cape | Penrhyn. | New | Newydd. |
| Castle | Castell. | North, Northern | Gogledd, Gogleddol. |
| Coast | Arfordir. | Ocean | Cefnfor. |
| Ch. *neu* Channel | Sianel. | P., *neu* Port | Porth. |
| East, Eastern | Dwyrain, Dwyreiniol. | P., Pena., Peninsula | Gorynys. |
| English Miles | Milldiroedd Saesnig. | Plateau | Gwastadedd uchel. |
| Equator | Cyhydedd. | Pt., *neu* Point | Pwynt. |
| Firth, *neu* Frith | Morgaingc. | R., *neu* River | Afon. |
| Ft., *neu* Fort | Caerfa, Amddiffynfa. | Ruins of ... | Adfeilion. |
| G. of, *neu* Gulf of | Llyngclyn. | S., *neu* Sound | Culfor. |
| H., Havn., *neu* Haven | Porthladd, *neu* Machwy | St., neu Saint | Sant. |
| Hd., *neu* Head | Penrhyn, Pentir. | Sea, *neu* Sea of | Môr. |
| Hill, *neu* Hills | Bryn, Bryniau. | Shoal, Shoals | Bâs-le, Bâs-leoedd. |
| I., Isle, *neu* Island | Ynys. | South Southern | Deheu, Deheuol. |
| Is., Isles, *neu* Islands | Ynysoedd. | Str., *neu* Strs., Straits | Culfor, Culforoedd. |
| L., *neu* Lake | Llyn. | Town | Tref. |
| Land | Tir. | Tropic | Trofan. |
| Loch, *neu* Lough | Llwch:—llyn agored i'r môr. | West, Western | Gorllewin, Gorllewinol. |

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD YN Y MAP HWN.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adriatic S. | Y Môr Adriaidd. | Island & Town | Ynys a Thref. |
| Africa | Affrica. | Italy | Yr Ital. |
| Atlantic Ocean | Môr y Werydd. | Kong Mounts. | Mynyddoedd Kong. |
| Asia Minor | Asia Leiaf. | Mediterranean Sea | Môr y Canoldir. |
| Balearic Is. | Ynysoedd Balearaidd. | Meridian of Greenwich | Nawngylch Greenwich. |
| Bight | Machwy. | Mouth of R. Zambesi | Genau yr afon Zambezi. |
| Black Mountains | Mynyddoedd Duon. | Mozambique (I. and Town) | Ynys a Thref Mozambique. |
| Black Sea | Môr Du. | Plateau of Ahaggar | Bwrdd-dir Ahaggar. |
| Cape Colony | Trefedigaeth y Penrhyn. | Plateau of Tasili | Bwrdd-dir Tasili. |
| Cape of Good Hope | Penrhyn Gobaith Da. | Princess Isle | Ynys y Dywysoges. |
| Chief Mouth of Niger | Prif enau yr afon Niger | Red Sea | Môr Coch. |
| Constantinople | Caer Cystenyn. | River Nile | Yr Afon Nilus. |
| Desert of Bahiouda | Anialwch Bahiouda. | Rome | Rhufain. |
| Dividing Plateau between Central and Southern Africa—6,000—7,000 feet. | Bwrdd-dir rhwng Canol a Deheu Affrica —o 6,000 i 7,000 troedfedd o uchder. | Ruins of Petra | Adfeilion Petra. |
| | | Ruins of Thebes | Adfeilion Thebes. |
| | | Spain | Yspaen. |
| | | St. Cyprian Bay | Machwy St. Cyprian. |
| Egypt | Aipht. | Straits of Babelmandeb | Culfor. Babelmandeb. |
| Equator | Y Cyhydedd. | Transvaal Republic | Gweriniaeth Transvaal. |
| France | Ffraingc. | Tropic of Cancer | Trofan y Cranc. |
| Galla Countries | Tiriogaethau Galla. | Tropic of Capricorn | Trofan yr Afr. |
| Gold Coast | Arfordir yr Aur. | Turkey | Twrci. |
| Goree Island & Fort | Ynys a Chaerfa Goree. | White Nile | Y Nilus Wen. |
| Indian Ocean | Y Cefnfor Indiaidd. | Zanzibar (I. & Town) | Ynys a Thref Zanzibar. |

YR ydym wedi traethu yn helaeth ar nodweddion anianyddol a'r darganfyddiadau diweddar a wnaed mewn cyssylltiad âg Affrica, mewn erthyglau eraill yn y gwaith hwn; ni a gyfyngwn ein hunain gan hyny yma at yr adnabyddiaeth oedd gan yr hynafiaid a phreswylwyr y canol-oesoedd am y rhan hwn o'r byd.

Y mae yr enw *Affrica* yn ddiau o darddiad brodorol, er mai y Rhufeiniaid a'i defnyddiodd gyntaf yn Ewrop, dybygid; y rhai a'i rhoddasant yn enw ar un o'u talaethau yn y chwarter hwn, yn yr hon yr oedd dinas Carthage. Enw priodol ar ran o'r cyfandir, gan hyny, oedd *Africa* unwaith; ond y mae er's llawer o flynyddoedd bellach yn enw ar y cyfandir i gyd. Y gwir enw a roddid arno gan yr ysgrifenwyr Groegaidd a Rhufeinaidd oedd *Libya.* Galwai Herodotus holl breswylwyr y rhanau gogleddol o'r cyfandir ar yr enw cyffredinol *Libyaid*, a phreswylwyr y rhanau deheuol o hono yn *Ethiopiaid.* Haerai Herodotus fod Affrica yn cael ei hamgylchynu gan ddwfr, oddi gerth y llain cul o dir a elwir yn bresennol yn Yddfdir Suez; ac un rheswm dros ei gredingiaeth oedd y chwedl, fod y Phœniciaid wedi morio o'i chwmpas oll yn nyddiau Pharaoh Necho, brenin yr Aipht, rhwng y blynyddoedd 610 a 594 c.c. Nid ydyw yr adroddiad a roddir ganddo o'r fordaith hon ond prin a chymmysglyd. Er hyny, yr oedd dyfaliad yr hen ysgrifenydd, fod y môr yn amgylchu cyfandir mawr Affrica, ond y gyddfdir a enwyd, yn gywir; ac yn awr, ar ol tori Camlas Suez, gall llong forio o'i gwmpas yn hollol.

Y mae genym sicrwydd boddhaol am hen fordaith arall, a wnaed gan Hanno, un o lywodraethwyr neu frenhinoedd Carthage; yr hwn a hwyliodd o'r ddinas hono trwy Gulfor Gibraltar, er sefydlu trefedigaethau ar lenydd y Werydd. Cymmerodd gydag ef nifer mawr o longau, a 30,000 o ymsefydlwyr, y rhai a adawyd ganddo mewn amryw leoedd; ac yna moriodd tua'r deheu—a

Digitized by Google

Digitized by Google




CYHOEDDEDIG GAN T. GEE A'I FAB. DINBYCH.

Digitized by Google

Gama allan Gorphenaf 8fed, 1807, i ymdrechu myned i'r India o gwmpas y Penrhyn; a bu yn hynod lwyddiannus i wneyd darganfyddiadau newyddion ar yr arfordir. Wedi iddo ef orphen ei fordaith, gellir dywedyd fod llongau Portugal wedi morio yr holl arfordir, o Gulfor Gibraltar i Gulfor Babelmandeb, yn ngenau y Môr Coch, gyda'r eithriad o tua mil o filldiroedd rhwng hyny a Meckdeesha.

Dywedir fod yr Arabiaid wedi adnabod y gororau hyn er's llawer o amser cyn hyny.

Yn ol rhai haneswyr, yr oedd sefydliadau Ffrengig ar arfordir Affrica, yn mhellach i'r deheu na Phenrhyn Nun, lawer o amser cyn i'r Portugëaid ei ddarganfod. Ac y mae hyn yn sier, fod y Ffrangcod yn anfon pedair neu bump o longau bob blwyddyn o Normandy i'r afon Gambia tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg.

Gwnaed amryw sefydliadau ar arfordir gorllewinol Affrica mewn blynyddoedd diweddarach, yn debyg fel y gwnaeth y Portugëaid a'r Ffrangcod, yn gyntaf gan y Prydeiniaid, ac ar ol hyny gan yr Isellmyn; ac fe aeth rhai o fasnachwyr y wlad hon amryw weithiau gryn bellder i fyny yr afon Gambia. Ond yr oedd ein gwybodaeth am arfordir mawr Affrica yn fychan hyd yn oed ar ddechreu y ganrif hon, o'i gymmharu â'r hyn a feddwn yn awr. Ac y mae mor sier a hyny, fod genym lawer etto i'w ddysgu am linellau allanol y cyfandir hwn.

Canolbarth Affrica.—Y mae wedi bod yn anhysbys, mewn rhan fawr, i wledydd gwareiddiedig y byd drwy yr oesoedd, er fod y rhanbarth mawr hwn o hono wedi cyffroi cryn lawer o gywreingarwch bob amser. Dywed yr hanesydd Herodotus fod Necho, brenin yr Aipht, wedi danfon allan hynt archwiliadol, dan lywyddiaeth morwyr Phœniciaidd, i'r dyben o fordwyo o gwmpas Affrica; a'u bod, ar eu dychweliad, yn tystio iddynt gyflawni y gorchwyl. Ychydig o'r ysgrifenwyr hynafol a roddent grediniaeth i'r dystiolaeth hon: ond y mae rhai daearyddwyr diweddar yn tybied i hyny gymmeryd lle. Pa fodd bynag, y mae un peth yn sier—os bu i'r fath hynt erioed fordwyo o amgylch y cyfandir Affricanaidd, y mae yr olion, neu yr effeithiau, yn mron wedi eu llwyr golli. Ni ddarfu i'r Aiphtiaid, o dan y Ptolemiaid, wneyd nemawr o ymchwiliadau daearyddol; ond aeth y Rhufeiniaid yn mlaen mor bell ag Abyssinia, ac ardaloedd y Nilus Uchaf. Nis gwyddom ddim am yr hyn a wnaeth y Carthageniaid mewn darganfyddiadau yn mharthau mewnol Affrica. Haerir gan rai i'w marsiandwyr gyrhaedd glanau y Niger; ond nid ydynt wedi gadael dim ar eu hol i gadarnhau y dybiaeth. I'r Arabiaid yr ydym yn ddyledus am yr hysbysrwydd cyntaf am y dosbarth mewnol o Affrica ogleddol; y rhai, gyda'u camelod, a lwyddasant i groesi yr Anialwch Mawr i ganol y cyfandir, ac ar hyd y ddau arfordir mor bell a Senegal a'r Gambia ar du y gorllewin, a Sofala ar du y dwyrain; a sefydlasant drefedigaethau yn Sofala, Mombas, Melinda, ac amryw leoedd eraill. Ond y Portugëaid, yn y bymthegfed ganrif, oedd y rhai cyntaf i roddi unrhyw amlinelliad tebyg i fod yn gywir am y ddau arfordir, ac i gwblhau y fordwyaeth o amgylch y rhan hwn o'r byd.

Parodd yr ansicrwydd a'r dyryswch ag oedd mewn cyssylltiad â daearyddiaeth canolbarth Affrica i ychydig ddysgedigion a gwyddonwyr ffurfio cymdeithas gyda'r amcan o archwilio ei pharthau mewnol. Ffurfiwyd hi yn Llundain yn 1788; ac o dan ei nawdd, gwnaed chwanegiadau pwysig at ddaearyddiaeth canolbarth y cyfandir hwn gan Houghton, Mungo Park, Hornemann, a Burckhardt. Ymdoddi a wnaeth y gymdeithas hon o'r diwedd yn y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol yn 1831. Y mae llawer mwy wedi ei wneyd yn ystod y can mlynedd diweddaf i'n gwneyd yn hysbys yn naearyddiaeth Affrica, nag a wnaed yn ystod yr holl ganrifoedd blaenorol er amser y Ptolemiaid. Ond gyda Mungo Park, a siarad yn fanwl, y dechreuodd y cyfnod pwysig i wneuthur ymchwiliadau yn nghanolbarth Affrica. Aeth Mungo Park o'r afon Gambia sydd ar yr arfordir gorllewinol, i'r Niger neu yr Ioliba, ac olrheiniodd yr afon hono mor bell a thref Silla, ynghyd â'r gwledydd oedd rhyngddynt; ac wedi penderfynu cyffiniau deheuol Anialwch Sahara, efe a ddychwelodd yn 1797. Gwnaeth y teithiwr anturiaethus hwn ail daith yn yr un ardaloedd, i'r dyben o fyned i lawr yr afon Iobila nes cyrhaedd ei genau. Ni chwanegodd y daith nemawr at y darganfyddiadau a wnaed o'r blaen, ond costiodd i'r teithiwr ei fywyd. Ar ol cyrhaedd i Boussa, lladdwyd ef gan y brodorion. Yn 1799, aeth Hornemann o Cairo i Murzuk, ac anfonodd hanes gwerthfawr oddi yno yn mherthynas i'r gwledydd oedd ar y tu deheuol—yn enwedig Bornu. Yna efe a aeth mlaen yn yr un cyfeiriad; ond tybir iddo, naill ai marw, neu gael ei ladd yn fuan, gan na chyrhaeddodd un gair pellach o'i hanes i Ewrop. Anfonwyd hynt ymchwiliadol allan gan y llywodraeth Brydeinig yn 1816, dan lywyddiaeth y Cadben Tuckey, i archwilio yr afon Congo; yr hon, fel y tybid ar y pryd, oedd yr un a'r Ioliba. Anturiaeth anffodus y trodd hon allan; ac nid oedd y wybodaeth ddaearyddol a gasglwyd drwyddi ond bechan, gan nad aethpwyd i lawr yr afon ond tua 280 o filldiroedd. Yn 1819, aeth Lyon a Ritchie o Tripoli i Murzuk, ac ychydig y tu hwnt i'r lle diweddaf. Yn 1822, aeth Denham, Clapperton, ac Oudney, yn mlaen yn yr un cyfeiriad, o Tripoli ar draws yr Anialwch Mawr, a chyrhaeddasant Llyn Tsad ar y 4ydd o Chwefror, 1823. Archwiliwyd y wlad oddi amgylch mor bell a Sakatu yn y gorllewin, a Mandara yn y deheu. Taith lwyddiannus iawn a phwysig oedd hon i'r rhanau mewnol o Affrica. Bu farw Oudney yn Bornu; ond ymgymmerodd Clapperton âg ail daith o ororau Guinea. Croesodd y Kawara, a chyrhaeddodd Sakatu; ac yn y lle hwnw bu yntau hefyd farw. Dychwelodd ei was, Richard Lander, i Brydain, ar ol chwilio ychydig ar yr ardaloedd cyfagos. Llwyddodd yr Uchgadben Laing i gyrhaedd Timbuktu o Tripoli tua'r adeg hon; ond llofruddiwyd ef yn yr anialwch pan yn dychwelyd yn ol. Yn 1827 a 1828, aeth Caillie o Rio Munez, ar y goror gorllewinol, a chyrhaeddodd i Timbuktu—o ba le y dychwelodd drwy yr Anialwch Mawr i Marocco. Yr oedd y lle y terfynai yr Ioliba, neu y Niger, yn ddirgelwch hyd y flwyddyn 1830, pan y cafwyd hyn allan gan Lander a'i frawd, y rhai a'i dilynasant hi i lawr hyd at ei genau. Aethant hwy eu dau allan eilwaith yn 1832, gyda'r amcan o fyned i fyny yr un afon hyd Timbuktu. Ond ni chyrhaeddasant ond i Rabba, ac anffodus a fu canlyniadau yr anturiaeth hon.

Troi yn aflwyddiannus hefyd a wnaeth yr hynt i'r Niger yr ymgymmerwyd â hi gan y Cadben Trotter a'i gymdeithion, dan nawdd llywodraeth y wlad hon yn 1841. Bu yn hynod ddinystriol i fywydau. Gwnaeth Mr. Duncan, un o'r rhai a

Digitized by Google

fuasai gyda'r anturiaeth i'r Niger dan Trotter, beth chwanegiad at ein gwybodaeth ddaearyddol trwy ei daith i Adafoodia, yn 1845 ac 1846. Ond cyfarfu y teithiwr anturiaethus hwn â marwolaeth anamserol, mewn ail ymgais a wnaed ganddo i gyrhaedd Timbuktu.

Yr oedd y teithiau uchod yn gyfyngedig yn benaf i'r rhanau gogleddol a gorllewinol o'r cyfandir Affricanaidd. Ond y mae nifer y teithwyr fuont yn olrhain y gwledydd y rhed y Nilus drwyddynt, ag y mae eu hinsawdd yn llawer iachach na'r eiddo Affrica orllewinol, yn llawer lliosocach o ran nifer; ac ychydig o honynt a fuont feirw, o'u cymmharu â'r rhai a gollasant eu bywydau yn Affrica orllewinol. Yn mysg y teithwyr enwocaf yn Affrica ddwyreiniol, gellir enwi Bruce, Brown, Burckhardt, Cailliaud, Ruppell, Russeger, Beke, a'r hynt Aiphtaidd i fyny y Nilus. Er i'r drefedigaeth Isellmynaidd yn neheubarth Affrica gael ei sylfaenu mor foreu a 1650, ni chafwyd ond ychydig iawn o wybodaeth am ranau mewnol y cyfandir yn y deheu hyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif, pan yr ymgymmerodd y teithwyr canlynol, y naill ar ol y llall, âg archwilio y dosbarth mawr hwn o'r wlad:—Vaillant, Barrow, Trotter, Somerville, Lichenstein, Burchell, Campbell, Thomson, Smith, Alexander, a Harris. Sefydlwyd gorsaf genhadol gan Gymdeithas Genhadol yr Eglwys yn Mombas, yn o ddeutu 4 gradd lledred deheuol, ar arfordir dwyreiniol Affrica, lle yr ymsefydlodd y cenhadon selog Krapf a Rebmann. Bu y ddau genhadwr hyn yn ddiwyd iawn yn olrhain ac yn archwilio y wlad. Wedi myned rai cannoedd o filldiroedd i fyny i'r wlad, cawsant fod yno fynyddoedd uchel, yn cael eu gorchuddio âg eira parhaus; yr hyn sydd yn rhyfedd wrth ystyried fod eu sefyllfa mor agos i'r cyhydedd. Yn neheubarth Affrica, y mae y cenhadon Cristionogol wedi bod yn arbenig yn rhagarloeswyr i ddarganfyddiadau daearyddol. Y penaf yn ddiammheuol o honynt oll oedd Dr. Livingstone —cenhadwr perthynol i Gymdeithas Genhadol Llundain, ac un a ddaeth wedi hyny yn un o deithwyr a darganfyddwyr enwocaf Affrica, a'r byd. Danfonwyd Dr. Livingstone ar y cyntaf i lafurio yn ngorsaf genhadol Kuruman; ac yn y fan hono y dechreuodd yr ysbryd ymchwiliadol anturiaethus oedd mor nodedig ynddo ymddadblygu. Yn 1845, efe a sefydlodd genhadaeth yn Chonuane; ac a aeth oddi yno i Kolobeng, ar gyffiniau Diffeithwch Kalahari, Sahara deheubarth Affrica; ac yno diwylliodd gardd-lysiau, a thyddyn, heb law gweinyddu ar angenrheidiau ysbrydol y boblogaeth Bechuanaidd oedd yn amgylchynu Kolobeng. Hon ydoedd yr orsaf bellaf yn y cyfeiriad hwn o'r holl orsafoedd cenhadol. Yma y clywodd efe fod llyn mawr y tu hwnt i anialwch y Kalabari, nad oedd un dyn gwyn wedi gweled ei lenydd; ac o blegid ei fod yn awyddus am sefydlu gorsaf genhadol i gyhoeddi yr efengyl yno, penderfynodd droi allan i chwilio am dano. Yna, ar Mehefin 1af, 1849, cychwynodd Dr. Livingstone, a'r Meistri Oswell a Murray, ar draws yr anialwch tuag yno. Wedi teithio yn mlaen am 300 o filldiroedd, daethant at lan afon fawr a elwir y Zouga, yr hon a red allan o'r llyn. Hwy a ddilynasant ei chwrs am 300 o filldiroedd eraill tuag i fyny, pan y cyrhaeddasant ben dwyreiniol y llyn y clywsant am dano, a elwir Llyn Ngami; yr hwn sydd yn 2,825 o droedfeddi yn uwch nag arwynebedd y môr. Darfu i ryw farsiandwyr Saesnig a fuont yn y gymmydogaeth ar ol hyny lwyddo i gerdded o'i gwmpas, a chawsant ei fod tua thrigain milldir o hyd, ac ynghylch pedair ar ddeg o led. Yn 1851, aeth Livingstone ac Oswell ar daith arall tua'r gogledd, ond mewn cyfeiriad mwy dwyreiniol. Pan gyrhaeddasant i ledred 17.25 deheuol, darganfyddasant y Chobé a'r Seshekè.—afonydd dyfnion a llawn o ddyfroedd yn wastadol, y rhai y tybid eu bod yn llifo i'r Zambezi. Cafwyd allan fod y Zouga yn cael ei llyngeu i fyny yn y tywod, a'r creigiau, a'r pyllau halen; ond yr oedd yr afonydd eraill a enwir yn llifo drwy wlad wastad a thra ffrwythlawn.

Olrheiniodd y Cadben Vardon y parthau hyny sydd i'r gogledd-ddwyrain o Kolobeng, gan fyned i fyny gyda'r afon Limpopo i gryn bellder. Yn 1851, gwnaeth Gassiot daith ddyddorol o borthladd Natal i'r gogledd-orllewin drwy y mynyddoedd, gan gadw gyda'u godrau gorllewinol; a chyrhaeddodd yn y diwedd i Limpopo. Yn ystod yr un flwyddyn, archwiliodd Mr. Galton ran o ddeheubarth Affrica, o Fachwy Walfisch, ar yr arfordir gorllewinol, mor belled a'r lle y trigai y Damara a'r Ovampo. Er na ddarganfyddwyd llawer o bethau dyddorol yn nodweddion yr ardaloedd hyn, archwiliwyd yn gywir eu sefyllfa; ac yn yr ystyr hwn yr oedd y daith yn un bwysig. Ond addawai y genhadaeth a gynlluniwyd gan Mr. James Richardson, i fyned at Lyn Tsad, fod y bwysicaf o bob un a aeth allan hyd hyny i ganolbarth Affrica. Gadawodd y boneddwr hwnw Brydain yn 1849, mewn trefn i wneyd cyttundebau masnachol gyda phenaethiaid gogleddbarth Affrica, mor bell a Llyn Tsad—drwy yr hyn y gellid helaethu masnach gyfreithlawn y gwledydd hyny, a diddymu caethwasiaeth. Aeth y doctoriaid Barth ac Overweg allan gydag ef, er gwneyd sylwadau gwyddonol ar y daith. Cyrhaeddodd y tri i Tripoli yn mis Mawrth, 1850. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, croesodd y teithwyr y Sahara yn llwyddiannus; a thrwy gymmeryd cwrs cwmpasog i wneyd hyny mewn cyfeiriad gorllewinol, olrheiniasant ranau helaeth o ogledd Affrica, nad oedd un Ewropiad wedi bod yno o'u blaen. Yr oedd y daith o Ghat i Kano, yn neillduol trwy deyrnas alluog Air neu Asben, yn hynod ddyddorol. Yr ail flwyddyn archwiliodd y teithwyr hyn gyfran helaeth o Sudan mewn gwahanol gyfeiriadau. Ac i'r dyben o gwblhau y gwaith yn fwy llwyr, ar eu dyfodiad i gyffiniau y wlad hono hwy a ymwahanasant—bob un yn cymmeryd ei gwrs ei hun: a'u bwriad oedd cydgyfarfod yn Kuka, prifddinas Bornu. Cyrhaeddodd Barth ac Overweg y lle hwnw yn ddiogel; ond bu farw Richardson ar y ffordd, o fewn taith chwe diwrnod iddo, yn mis Mawrth, 1851. Parhaodd y teithwyr eraill i gario yn mlaen eu hymchwiliadau. Aeth Barth tua 350 o filldiroedd i'r deheu, mor bell ag Yola, prifddinas teyrnas Adamaua: a mordwyodd Overweg Lyn Tsad mewn cwch, yr hwn a barodd iddo drafferth fawr i'w ddwyn o Tripoli ar draws tywod poeth y Sahara, yn ddarnau, ar gefnau y camelod. Yn mis Medi, 1851, aeth y teithwyr gyda'u gilydd tua Borgu; gwlad fynyddig yn gorwedd i'r gogledd-ddwyrain o Lyn Tsad, o ddeutu hanner y ffordd rhyngddo a'r Aipht. Teithiasant dan amddiffyniad byddin gref o Sheikhiaid Bornu; ond ymosodwyd arnynt, fodd bynag, cyn myned yn mhell oddi wrth Lyn Tsad; a buont dan orfod i ffoi yn ddisymmwth: a thrwy encilio yn gyflym y gallodd Barth ac Overweg ddiogelu eu bywydau

Digitized by Google

a'r offerynau a'r celfi oedd ganddynt. Wedi dychwelyd i Kuka, hwy a acthant tua'r deheu gyda lliaws o wŷr meirch yn arfog, a thua deng mil o draed-filwyr, a chamelod a chreaduriaid eraill liaws mawr. Archwiliasant y wlad gryn bellder y tu hwnt i Mandara ar yr achlysur, a chawsant ei bod yn un hynod o ffrwythlawn. Gyda dechreu y drydedd flwyddyn o'u taith, aeth Dr. Barth i Masena, prifddinas teyrnas Baghermi, i'r de-ddwyrain o Lyn Tsad; tra y teithiodd Dr. Overweg mewn cyfeiriad de-orllewinol, a chyrhaeddodd o fewn 150 o filldiroedd i Yacoba, tref fawr y Fellahiaid. Ond hon, ysywaeth, oedd ei daith olaf. Ar ei ddychweliad i Kuka ymaflodd twymyn ynddo; ac wedi dioddef cystudd byr, ond trwm, bu farw yn mis Medi, 1852. Yna aeth Dr. Barth tua Timbuktu. Bu y teithwyr anturiaethus hyn yn foddion i daflu llawer o oleuni ar y canolbarth.

Yn awr ni a ddychwelwn at deithiau a darganfyddiadau Dr. Livingstone. Yn Ebrill, 1850, ymgymmerodd âg ail daith ymchwiliadol, a chymmerodd gydag ef ei briod a'i dri phlentyn y tro hwn, a dewisodd y ffordd rwyddaf tua'r afon Zouga. Croesodd yr afon, ond lluddiwyd ef gan amgylchiadau i fyned yn mhellach ar y pryd; a bu raid iddo, er yn lled anfoddlawn, ddychwelyd yn ol i Kolobeng. Yn 1853, fodd bynag, efe a esgynodd i fyny yr afon Zambezi amryw gannoedd o filldiroedd, gan ddilyn cwrs yr afon fawr hono; ac wedi hyny llwyddodd i groesi y cyfandir hyd i Loanda, ar yr arfordir gorllewinol, yn nhalaeth Bortugeaidd Angola. Wedi aros yno rai misoedd, aeth y teithiwr anturiaethus yn ol i'r fan hono ar y Zambezi, o ba le y cychwynodd i gyfeiriad Loanda; a dilynodd yr afon, yr hon oedd yno yn cymmeryd cyfeiriad dwyreiniol, ac aeth yn mlaen nes y cyrhaeddodd yr arfordir dwyreiniol, yn agos i Kilimane, yn 1856. Yn ystod y daith hon y darganfyddodd efe raiadr mawr Victoria, ar y Zambezi. Daeth drosodd i Brydain yn niwedd y flwyddyn 1856, lle y derbyniodd barch ac anrhydedd mawr; a chyhoeddodd ei lyfr rhagorol, a elwir "*Missionary Travels in South Africa.*" Cyflwynwyd iddo fathodyn aur y Gymdeithas Ddaearyddol. Yn y fl. 1858, ymgymmerodd, dros ein llywodraeth ni, â blaenori hynt ymchwiliadol ar y Zambezi, ac i eangu ei ymchwiliadau blaenorol i ranau mewnol y wlad, gyda'r amcan o arloesi y ffordd i sefydlu masnach â'r parthau hyny o Affrica y dychwelodd o honynt yn 1856. Dilynwyd ef y pryd hwn gan ei frawd, Charles Livingstone. Dr. John Kirk oedd llysieuydd yr hynt; Mr. Francis Skead oedd y mesurydd, a Mr. Richard Thornton oedd y daearegydd. Parhaodd yr hynt am bum mlynedd, ac y mae ei hanes wedi ei gyhoeddi yn ngwaith Livingstone—"*The Zambezi, and its Tributaries.*" Ni bu y daith hon mor ffrwythlawn a'r hon yr ymgymmerodd Livingstone â hi drosto ei hun. Ond cafwyd allan drwyddi amryw bethau pwysig. Darganfyddwyd porthladd y gellid yn rhwydd ei wneyd yn wasanaethgar i fasnach, pan y dechreuid masnachu yn ardaloedd y Zambezi. Profwyd fod yr afon fawreddog Zambezi yn fordwyol i agerlestri ysgeifn, mor bell i fyny a Gwylltredion Kebrabassa. Archwiliwyd yr afon Shire, a darganfyddwyd llynoedd Shirwa a Nyassa. Y mae y Shire yn alluog i nofio llestri yn tynu tair troedfedd o ddwfr yn mhob tymmor; ac y mae Llyn Nyassa, o'r hwn y llifa y Shire, yn fath o fôr yn nghanol y wlad—yn meddu amryw gannoedd o filldiroedd o arfordir. Yn 1863, cychwynodd y teithiwr mawr i lawr y Zambezi tua chartref. Daeth i lawr i enau y Zambezi, a hwyliodd yn y *Lady Nyassa* i Zanzibar, ac oddi yno yn yr un llestr am Bombay. Cyrhaeddodd i Lundain Gorphenaf 20fed, 1864, a chafodd dderbyniad brwdfrydig y tro hwn drachefn.

Yr oedd yn mryd Livingstone ymgymmeryd â hynt ymchwiliadol arall, i'r dyben, fel y dywedodd ei hun, "o esgyn i fyny y Rovuma, neu ryw afon i'r gogledd o Benrhyn Delgado; ac yn chwanegol at waith arall, i ymdrechu myned ar hyd pen gogleddol Llyn Nyassa, ac o gwmpas pen deheuol Llyn Tanganyika, mewn trefn i wybod rhywbeth am ansawdd yr ucheldir yn y rhan hwnw o Affrica. Wrth wneuthur hyn, nid wyf yn dymuno anesmwytho ar yr hyn a wnaed gan Speke a Grant, ond yn hytrach cadarnhau eu darganfyddiadau ardderchog hwy."

Cynnyrchodd darganfyddiadau Livingstone yn nghanolbarth Affrica ddyddordeb anarferol, a dymunodd y Gymdeithas Ddaearyddol arno i gario allan ei amcan o flaenori hynt arall er penderfynu cwestiwn y dyfr-arllwysfa (*watershed*), neu yr ucheldir, rhwng llynoedd Nyassa a Tanganyika; gan yr ystyrid ar y pryd, ond gwneyd hyny, y buasai y cwestiynau mwyaf dyrus yn nghylch y canolbarth wedi eu hegluro. Penderfynodd Livingstone ymgymmeryd â'r anturiaeth hon, er ei fod yn 53ain mlwydd oed; a thanysgrifiwyd yr arian gofynol i gario yr amcan allan. Yn mis Awst, 1865, y cychwynodd Livingstone o Loegr i Bombay, ac oddi yno i Zanzibar. Cyflogodd ychydig wŷr o Ynysoedd y Johanna, ac ychydig Sepwyaid, a rhai o'r Wasawahili, i fyned gydag ef; ac ar yr 28ain o Fawrth, 1866, aeth y teithiwr mawr drosodd o Ynys Zanzibar i'r cyfandir, a chychwynodd ar unwaith i fyny yr afon Rovuma. Fel y teithiai yn mlaen, yr oedd llythyrau yn dyfod yn achlysurol oddi wrtho yn cynnwys hanes ei daith, a'r digwyddiadau a'i cyfarfu. Ond yn Rhagfyr y flwyddyn hono cyrhaeddodd penaeth gwŷr Johanna, cymdeithion Livingstone, i Zanzibar, ac adroddai chwedl a ddygai dristwch i bob calon; sef, fod y teithiwr enwog wedi ei lofruddio ar lenydd Llyn Nyassa, gan haid o'r Ma-zitus. Yr oedd cymmaint o bethau o gwmpas y chwedl mor debyg i wirionedd fel nad oedd ond ychydig a ammheuent ei dilysrwydd. Yr oedd hi ar y cyntaf, gan hyny, yn cael ei chredu yn gyffredinol yn Ewrop ac America. Nid oedd Syr Roderick Murchison, fodd bynag, yn cael ei foddloni fod y chwedl a adroddai Musa yn wir; ac yn raddol dechreuodd eraill hefyd ammheu ei chywirdeb. O'r diwedd danfonwyd hynt allan i wneyd ymofyniadau i'w gwirionedd, yn gynnwysedig o wirfoddolwyr, dan arweiniad Mr. E. D. Young, a'r is-gadben Hawker, i Zambezi, gyda'r amcan o fyned yn mlaen oddi yno i fyny y Shire tua Llyn Nyassa. Bu yr hynt i raddau yn llwyddiannus; o blegid er na welodd Mr. Young Dr. Livingstone, etto cafodd dystiolaeth ddigonol a boddhaol fod y chwedl a adroddai Musa yn hollol anwireddus. Yn 1868, derbyniodd Syr Roderick Murchison lythyr oddi wrth Livingstone, yn ei hysbysu iddo fod am amser maith yn aros gyda Mataka, penaeth yn llywodraethu rhan o lwyth Ajawa. Y rheswm dros ei hir ddistawrwydd oedd, ei fod yn analluog i ddanfon dim i Loegr ar ol gadael glenydd y Nyassa. Treuliodd 1867, a rhan o 1868, i deithio i'r de-orllewin o Lyn Tanganyika, mewn trefn i chwilio yr afon Chambezi. Ar ol

Digitized by Google

gadael dyffryn y Loangwa, yr hwn a groeswyd ganddo i'r gorllewin o'r Nyassa, ar ei ffordd i Babisa, ac i Lunda, dringodd i fyny i ucheldir oedd o dair i chwe mil o droedfeddi uwch law arwyneb y môr, ac ynghylch 350 o filldiroedd ysgwâr. Yr oedd yr ucheldir hwn, gan mwyaf, yn orchuddiedig â choedwigoedd mawrion, ac yn ymgodi yn fryniau, weithiau—ond yn dir ffrwythlawn, yn cael ei ddyfrhau gan afonydd. I'r dwyrain oddi yma yr oedd ucheldiroedd Usango, ac yr oedd y gorllewin yn cael ei derfynu gan Fynyddoedd y Kone. Fel yr elai yn mlaen i'r gogledd, yr oedd yr afonydd, y rhai oeddynt hyd hyny yn ymdywallt i ddyffryn y Loangwa, yn newid eu cwrs gyda chyfeiriad cyffredinol tua'r gogledd-orllewin, neu ynte tua'r Chambezi, yn yr hon, fel y credai efe, yr oedd tarddellau y Nilus: ac yr oedd yr argyhoeddiad hwn wedi dyfnhau ynddo mewn canlyniad i'w deithiau yn y gogledd-ddwyrain a'r dwyrain. O hyn allan, daeth yr afon Chambezi yn wrthddrych o ddyddordeb anarferol iddo, yn gymmaint a'i bod yn rhedeg o fwrdd-dir tua'r dwyrain—yn orllewinol i Lyn Bangweolo, ac oddi yno i Lyn Moero, o dan wahanol enwau; ac yn mhellach i'r gogledd, mynegid ei bod yn llifo i Lyn Ulenge, ar ol cwrs o bump neu chwe chant o filldiroedd.

Yr ydys wedi nodi uchod y prif ddarganfyddiadau a wnaed ganddo yn mherthynas i'r ucheldir rhwng llynau Tanganyika a Nyassa, hyd Gorphenaf, 1868. Ac mewn llythyr a ysgrifenodd ar y 30ain o Fai, 1869, rhydd grynodeb o'r gwaith oedd yn ei aros i'r gorllewin o'r Tanganyika. Fel y canlyn y dywed efe:—

"Ynghylch y gwaith sydd yn fy aros, nid yw ond cysylltu y tarddellau yr wyf fi wedi eu darganfod o bump i saith gant o filldiroedd i'r deheu i Nilus Speke a Baker. Y mae y swm o ddwfr sydd yn llifo yn ogleddol o ledred 12° deheuol mor fawr, fel yr wyf yn tybied i mi fod yn gweithio yn nharddelloedd y Congo yn gystal a'r Nilus. Y mae genyf i fyned i lawr llinell ddwyreiniol yr afonydd, i'r man lle y cyrhaeddodd Baker. Yr un yw y Tanganyika a Nzige Chowambe Baker; ac y mae ei ben draw 300 o filldiroedd i'r deheu oddi yma. Y mae dwfr y gorllewin a'r canolbarth yn myned oddi yma i ryw lyn sydd yn anhysbys ar du y gorllewin neu y de-orllewin. Y mae genyf i gael allan pa un ai i'r Congo, neu i'r Nilus, y mae y dyfroedd a redant allan o'r llyn yn myned. Y mae'r bobl sydd i'r gorllewin oddi yma, a elwir y Manyema, yn ddynion-fwytawyr, os ydyw yr Arabiaid yn dyweyd y gwir. Hwyrach y bydd raid i mi fyned yno yn gyntaf, ac i lawr y Tanganyika, os diangaf heb fy mwyta, er cyfarfod fy mintai newydd o Zanzibar. Gobeithiaf yn fawr y bydd i chwi wneyd eich goreu i'm cynnorthwyo â nwyddau ac â dynion."

Dyna y llythyr diweddaf a dderbyniwyd oddi wrth Livingstone. Deuai ambell newydd yn awr ac eilwaith o Zanzibar, yn adsain adroddiadau o eiddo rhyw Arabiaid crwydrol, y rhai a ddywedent fod Livingstone yn rhywle i'r gorllewin o'r Tanganyika, ac mewn sefyllfa wir anghenus. Er i lythyrau gael eu cyhoeddi oddi wrtho o 1867 hyd 1869, ychydig oedd yn credu yn wirioneddol ei fod ef yn fyw. I benderfynu pob ammheuaeth yn mherthynas i Livingstone, modd bynag, ymgymmerodd Mr. H. M. Stanley yn Hydref, 1869, a gwneyd hynt ymchwiliadol am dano, ar draul Mr. J. Gordon Bennett, o'r "*New York Herald.*" Ond yn Ionawr, 1871, y cychwynodd efe, a'r rhai oedd gydag ef, o Zanzibar ar ororau dwyreiniol Affrica: ac ar y 10fed o Dachwedd yr un flwyddyn, daeth o hyd i Livingstone yn Ujiji, ar lan Llyn Tanganyika. Llawenydd i'r holl fyd gwareiddiedig oedd cael sicrwydd fod y darganfyddwr enwog yn fyw.

Bu Livingstone ac yntau gyda'u gilydd yn gwneyd ymchwiliadau yn yr ardaloedd hyny am fisoedd. Teithiasant o ddeutu 750 o filldiroedd, a chyrhaeddasant i Unyanyembe Chwef. 28ain, 1872; ac yn y lle hwnw yr ymadawodd Stanley ac yntau â'u gilydd—y blaenaf i ddychwelyd yn ol. Ond ni fynai Livingstone adael Affrica nes gorphen ei ymchwiliadau. Dywedodd mewn llythyr a ysgrifenodd at Mr. Bennett fod dyfr-arllwysfa Canolbarth Affrica dros saith gant o filldiroedd o hyd, a'i fod wedi archwilio chwe chant o'r milldiroedd hyn; ond yn anffodus, mai y seithfed cant oedd y mwyaf dyddorol, a'i fod yn penderfynu gwneyd ei oreu i'w harchwilio, ac hefyd i wneyd yr oll a allai i lethu y gaethfasnach ofnadwy a chreulawn a ddygid yn mlaen ar yr arfordir dwyreiniol. Wedi cyrhaedd hyd Zanzibar, yn ol ei addewid i Livingstone, anfonodd Stanley ddau ar bymtheg o ddynion i fyny iddo, y rhai a fwriedid i gario ei adgyflenwadau o Unyanyembe yn orllewinol, gan ei fod yn awyddus i benderfynu y cwestiwn i'w foddlonrwydd ei hun, pa un ai y Nilus ai y Congo oedd yr afon Lualaba. Tua chanol Gorphenaf y cyrhaeddodd y bobl hyn Unyanyembe. Eu harweinydd oedd Uledi Manwa Sera, yr hwn a fu yn gydymaith i Speke a Grant ar eu teithiau. Ond yr oedd gyda Livingstone yn Unyanyembe hefyd bump o ymlynwyr ffyddlawn, a fuont gydag ef o Mawrth, 1866, hyd 1873, yn ei ddilyn yn ymroddgar yn ei holl deithiau yn ystod yr amser hwnw—dros wyth mil o filldiroedd! Cafodd adgyflenwadau gyda'r gwŷr a anfonwyd o Zanzibar oedd yn ddigon i barhau iddo am dair blynedd.

Casglwyd trysorfa, dan nawdd y Gymdeithas Ddaearyddol, i anfon allan hynt ymchwiliadol er cynnorthwyo Livingstone; ac yn Chwef. 1872, cychwynwyd allan, dan arweiniad yr is-gadbeniaid Dawson a Henn, a W. Oswell Livingstone, mab y teithiwr. Ond nid aeth yr hynt hwn, am ryw resymau, yn ddim pellach na Zanzibar. Parotowyd hynt arall, dan arweiniad yr is-gadbeniaid Cameron a Murphy; a chychwynasant o Zanzibar yn Ebrill, 1873. Aeth un rhan o'r hynt yn mlaen o Bagamoyo i archwilio i gyfeiriad mwy canolbarthol, a chyrhaeddodd y rhan arall Unyanyembe tua chanol mis Medi; ac yno y clywsant o enau ei ffyddlawn was, Chumah, yr hanes galarus am farwolaeth Livingstone. Bu farw ar y 4ydd o Fai, 1873, yn Muilala, yn nheyrnas Bisa. Dygwyd ei gorph i Zanzibar yn ngofal yr is-gadben Murphy a Dr. Dillon; ac yna aeth yr is-gadben Cameron yn mlaen tua Ujiji, er diogelu y dyddlyfrau a'r papurau a adawodd Dr. Livingstone ar ol yn y lle hwnw. Dygwyd corph y teithiwr a'r darganfyddwr mawr drosodd i Brydain, a chladdwyd ef gydag arwyddion o barch a galar cyffredinol yn Mynachlog Westminster.

Gellir yn awr yn briodol ystyried Mr. H. M. Stanley yn un o'r prif deithwyr a'r darganfyddwyr Affricanaidd. Y mae hanes ei daith o Zanzibar i Ujiji, yr hon sydd wedi ei hadrodd mor ddyddorol ganddo yn ei waith, "*How I found Livingstone*," yn dangos yn amlwg ei fod yn meddu cymmhwysderau arbenig i wneyd gwaith darganfyddwr daearyddol, a theithiwr, mewn gwlad o'r fath ag ydyw Canolbarth Affrica.

Digitized by Google

Ac nid oes neb arall, ac eithrio Livingstone, wedi gwneyd cymmaint ag ef, o bossibl, i daflu goleuni ar y rhan hwn o'r byd, a fuasai am gynnifer o oesoedd mor anhysbys i breswylwyr y rhanau eraill o'r ddaear. Nid hir y bu Mr. Stanley ar ol dychwelyd o'i daith ymchwiliadol am Livingstone, cyn cychwyn allan ar hynt arall, i'r un rhan o'r byd, a hyny y tro hwn ar gais perchenogion y "*New York Herald,*" a'r "*Daily Telegraph,*" y rhai a dalent y treuliau. Cychwynodd Mr. Stanley o Loegr yn mis Awst, 1874, a chroesodd o ynys Zanzibar hyd Bagamoyo ar yr 17eg o Dachwedd. Tri amcan mawr oedd mewn golwg ganddo yn yr hynt hon; sef, mordwyo o gwmpas y Llyn Victoria Nyanza—penderfynu pa afonydd a lifant i mewn ac a redant allan o Lyn Tanganyika—ac olrhain yr afon Lualaba; yr hon, fel y tybiai Livingstone, oedd yr un a'r Nilus, tra y meddyliai eraill mai yr un ydoedd a'r afon Congo.

Llwyddodd Stanley i gyrhaedd y tri amcan mewn golwg:—y cyntaf, drwy fordwyo o gwmpas y Victoria Nyanza, a mapio allan ei linell arfordirol; yr ail, drwy fordwyo o amgylch Llyn Tanganyika, a darganfod nad oedd y pryd hwnw un afon weledig yn rhedeg o hono; a'r trydydd, trwy ddilyn cwrs y Lualaba—yr hon, o hyny allan, y mynai efe ei galw "y Livingstone"—i lawr i Fôr y Werydd, a phrofi mai hi ydyw Congo yr hen ddaearyddwyr. Yn chwanegol at yr amcanion mawr a blaenaf hyn, chwanegodd Stanley at y wybodaeth ddaearyddol am gyfandir Affrica, drwy osod ar y map fanylion pellach yn mherthynas i lyn mawr arall—y Muta Nzige, neu "Lyn y Locustiaid Meirw;" drwy osod lle Mynyddoedd y Lleuad yn nes i'r gogledd nag yr arferent fod ar fapiau Affrica; trwy olrhain tarddellau y Nilus un gradd yn mhellach i'r Shimceya, lle y mae yn rhaid fod pen deheuol dyfroedd y Nilus; a thrwy ddarlunio y bwrdd-diroedd o ba rai y mae yr afonydd mawrion yn tarddu. Buasai y pethau diweddaf a nodir, wrthynt eu hunain, yn dra phwysig; ond o'u cymmharu â'r mordwyad a'r darluniad a roddodd o'r Victoria Nyanza—y ffeithiau a gafodd allan yn mherthynas i'r Tanganyika, nad oes gyssylltiad rhyngddo a dyfroedd y Nilus—a'r darganfyddiadau a wnaeth yn mherthynas i'r Livingstone, neu y Congo:—wrth y pethau diweddaf hyn nid ydynt ond bychain.

Un diwrnod, wedi gweled ei holl ddilynwyr mewn tai diddos, ac mewn heddwch â brodorion y gymmydogaeth, aeth Mr. Stanley, gyda deg o ddwylaw dewisedig, ar fwrdd y *Lady Alice*, i fordwyo y Victoria Nyanza; a chyn mordwyo o gwmpas, ac archwilio pob rhan o'r môr mewnol hwn yr oeddynt wedi cwblhau mordaith o 1,000 filldiroedd. Daeth y *Lady Alice* ar ei thaith at diriogaeth Mtesa—ymherawdwr mawr Uganda. Synai y teithwyr gael eu hunain megys yn nghanol gwlad a phobl wareiddiedig, a'r brenin yn meddu byddin sefydlog a llynges, ac yn llywodraethu ar dros 2,000,000 o bobl. Cafodd Stanley a'i gwmni groesaw mawr gan y brenin hwn, ac ymhyfrydai Mtesa mewn siarad a gofyn llawer o gwestiynau am y grefydd Gristionogol. Ystyriai Stanley ei fod wedi cofleidio Cristionogaeth cyn iddo adael y lle, a theimlai yn dra awyddus am i genhadon Cristionogol gael eu hanfon i addysgu ei bobl yn y grefydd hono. Y mae mwy nag un o gymdeithasau cenhadol y wlad hon yn darparu ar gyfer cario allan yr amcan hwn, ac y mae rhai wedi cychwyn hyn. Wedi gorphen ei waith ar y Victoria Nyanza, dechreuodd ar y gorchwyl o fordwyo Llyn Tanganyika. Nid oedd ganddo lawer i'w wneyd yno, yn gymmaint a'i fod wedi bod yn nghwmni Livingstone, yn cerdded ar hyd llinell faith o'i lenydd, flynyddoedd cyn hyny. Y mae y llyn hwn—na chafwyd gwaelod iddo er plymio 200 o wrhydau—tua 330 o filldiroedd o hyd, gyda lled cyfartal o 28 o filldiroedd, yn derbyn i mewn iddo o ddeutu 40 o afonydd, ac oll yn tywallt iddo tua 65,000 o droedfeddi ysgwâr o ddwfr bob eiliad, ac etto nid oes un afon yn rhedeg o hono! Hawdd oedd gweled ei fod yn codi yn gyflym yn awr; ond y mae yr un mor sicr fod arwyneb y llyn wedi disgyn llawer mewn amseroedd diweddar. Tybiai yr is-gadben Cameron mai arllwysfa dwfr o'r Tanganyika oedd crigyll (*creek*) Lukuga; ond yn Gorphenaf, 1876, cafodd Stanley allan nad oedd hwn yn ddim ond ffrith neu lwyn tew o laswellt corsenog, a bod pobl yn gallu cerdded drwyddo—ac nad oedd un brodor o'r glenydd erioed wedi clywed am un afon yn llifo allan o'r llyn! Beth sydd wedi cymmeryd lle yma?—beth sydd yn cymmeryd lle?—neu pa beth sydd ar gymmeryd lle? ydynt gwestiynau anhawdd eu hatteb. Yr oll oedd yn hysbys yn 1876 oedd—nad ydoedd un afon weledig yn rhedeg allan o'r llyn, a bod Ujiji, a'r pentrefi cyfagos, ar hyd ei lenydd yn debyg o gael eu gorchuddio gan y dyfroedd gan fel y mae dwfr y llyn yn ymgodi yn bresennol.

Trodd Stanley, a'i ddilynwyr, o Ujiji tua'r gorllewin, gan groesi y Tanganyika i Ruanda, ac oddi yno dros y wlad sydd rhwng yr afonydd a lifant i'r llyn ag afon fawr y Lualaba. Aethant drwy Uguha ac Ubujwe, a thrwy Uvinza—dosbarth poblogaidd ar un adeg: ond nid ydyw yn bresennol yn ddim amgen nag anialwch o bentrefydd adfeiliedig. Oddi yno drachefn i Uhombo, ac yn mlaen i Manyema, ac wedi hyny at yr afon Luama; ac yn hytrach na chroesi yr afon, fel y gwnaethai Livingstone a Cameron, aethant i lawr gyda'i glàn hyd y fan lle yr ymuna â'r Lualaba, drwy wlad oedd yn newydd i deithwyr Ewropaidd. Ar y 5ed o Dachwedd, 1876, gadawodd y teithwyr Nyangwe, ac yr oedd edrych yn mlaen ar y coedwigoedd tewion o bob tu i'r afon yn ddigon i beri dychryn i'r dewraf rhag wynebu y daith: ond yr oedd eisieu cael allan yn mha le, y tu hwnt i'r coedwigoedd hyny, yr oedd genau yr afon a lifai wrth eu traed:—hefyd, pa un ai y Nilus ai y Congo ydoedd? Os yr olaf, yr oedd 900 o filldiroedd rhyngddynt a Môr y Werydd, a hyny drwy wlad nad oedd hyd yn oed y marsiandwyr Arabaidd yn gwybod am dani, a lle yr oedd anwariaid a bwytawyr dynion yn preswylio. Ond rhedai yr afon ardderchog hon drwyddi, naill ai yn ogleddol, fel y Nilus, neu yn orllewinol, fel y Congo; ac yr oedd y teithiwr anturiaethus, a'i ddilynwyr dewr, yn benderfynol o wybod pa un, trwy ddilyn ei chwrs i'r pen. Wedi bod am ddeng niwrnod yn gweithio eu ffordd yn mlaen drwy y coedwigoedd ofnadwy a pheryglus ar ei glenydd, dechreuodd canlynwyr Stanley amlygu anfoddlonrwydd. Ond llwyddodd i dawelu ychydig arnynt. Ac yn awr y meddyliwyd gyntaf am barhau y daith yn mlaen drwy fordwyo yr afon. Ond ni fynai yr Arabiaid wrandaw ar y cynnyg hwn.

O hyny yn mlaen, bu raid i Stanley a'i ganlynwyr ymladd eu ffordd yn mlaen, nid yn unig er gwaethaf yr anhawsderau naturiol anorfod yn

Digitized by Google

mron a'u cyfarfu, ond hefyd er gwaethaf gelynion brodorol ymladdgar a ymosodent arnynt o bob tu i'r afon. O'r diwedd, ar ol dyfod heibio i saith o raiadrau mawrion ar yr afon, ac ar ol llafur a dioddefiadau dirfawr, cyrhaeddasant i Emboma, ar arfordir gorllewinol Affrica, ar lan y Werydd; a phrofwyd felly hyd sicrwydd mai yr un ydyw y Lualaba a'r Congo. Mewn llythyr a ysgrifenwyd ganddo ar ol cwblhau y gwaith, dywed Stanley fel y canlyn:—"Yr wyf gyda theimlad dwfn o ddiolchgarwch gwirioneddol i Ragluniaeth yr Arglwydd, yr hon a'm gwaredodd i, a fy mhobl, mewn modd gwyrthiol oddi wrth farwolaeth greulawn oddi ar ddwylaw cannibaliaid, o erchyllderau caethwasiaeth, o bum mis o lafur caled bob dydd trwy ddau ar bymtheg a deugain o raiadrau a gwylltredion ofnadwy—y Rhagluniaeth hono a'n nerthodd i wrthwynebu lluoedd o anwariaid a sychedent am ein gwaed, ac a'n dygodd yn ddiogel o ddeuddeg ar hugain o frwydrau, ac a'm harweiniodd dros gyfandir anadnabyddus Affrica i Fôr y Werydd. Yr wyf yn eich hysbysu fod gwaith y fintai Anglo-Americaidd, yr hwn a osodasoch i ni i'w wneyd, wedi ei gyflawni i'r llythyren."

Daeth yn ol i Lundain, Ionawr 22ain, 1878. Aeth i Affrica drachefn, yn 1879, gyda hynt ymchwiliadol a ffurfiwyd gan Gymdeithas Gydgenedlaethol Affrica, ar yr hwn y gosodwyd ef yn benaeth gan frenin Belgium. Ei orchwyl y tro hwn oedd chwilio y Congo; ac efe a sefydlodd ddeuddeg o orsafoedd yno, a agorodd 4,500 o filldiroedd o afonydd i drafnidiaeth a masnach, ac a sefydlodd agerlongau ar yr afon uchaf. Gellir dywedyd mai efe a wnaeth Weriniaeth Rydd Congo. Bu yno yn chwilio ac yn trefnu pethau o 1879 hyd 1885; ac yna dychwelodd gartref drachefn. Anfonodd y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol ŵr o'r enw Mr. Keith Johnson yno yn 1878; ac ar ol ei farwolaeth, anfonodd Mr. Joseph Thomson yn 1882. Aeth Syr F. Goldsmid yno yn 1883. Ar ol hyn, anfonwyd y Cadfridog Gordon i'r Soudan, i ddiddymu y gaethfasnach, yn 1884.

Ionawr 25ain, 1887, cychwynodd Mr. Stanley am Affrica o Charing Cross, Llundain. Amcan mawr yr ymgyrch hwn oedd rhoddi cyfleusdra i Emin Bey ddiangc. Yr oedd wedi ei gau i fyny gan lwythau gelynol yn, neu yn agos i Wadelai, ar Lyn Albert Nyanza, er Ebrill, 1883. Pan syrthiodd Khartoum, torwyd ymaith bob cysylltiad rhwng Emin Bey a'i gynghreiriaid. Awstriad ydyw Emin Bey. Ei enw priodol ydyw Schnitzler, a meddyg ydyw wrth ei alwedigaeth. Aeth i wasanaeth rhaglaw yr Aipht, a phennodwyd ef yn llywodraethwr Talaeth y Llynau, yr hyn a elwid gynt yn Soudan Aiphtaidd; ac enw Tyrcaidd arno ydyw Emin Bey. Llwyddodd ei gynnorthwywr, Dr. Janker, trwy lawer o beryglon, i gyrhaedd Zanzibar; a gofynodd am i allu milwraidd cryf gael ei anfon i waredu Emin Bey. Anfonwyd dau gadgyrch yno gyda'r amcan hwn—un dan Dr. Oscar Seus, a'r llall dan Dr. Fisher; ond buont yn aflwyddianuus o herwydd gelyniaeth y brodorion. O herwydd eu haflwyddiant hwy, fe gychwynodd Stanley yno, fel yr hysbyswyd uchod; ac ni a roddwn yma ychydig o fanylion am ei daith. Cychwynodd o Yunbuya, ar lanau yr Aruwimi, Meh. 28ain, 1887, gyda 389 o ddynion—swyddogion, ac eraill. Gadawodd yr uchgadben Barttelot ar ol mewn gwersyll wedi ei gadarnhau, gyda 257 o ddynion; a symmudodd ei hun yn mlaen. Gorweddai ei lwybr trwy goedwig anferth, yr hon sydd yn saith gan milldir o hyd. Awst 13eg, yr oedd mewn lle o'r enw Air-Sibbon; ac yna, Hydref 18fed, yn Kilinga-Longa. Cyrhaeddodd le o'r enw Ibwiri tua Tach. 10fed, lle yr arosodd y fintai am dri diwrnod ar ddeg, gan ymgryfhau ar ol ei chyfyngderau, fel y dywed Stanley ei hun, "ar gyflawnder dihysbydd o ddofednod, geifr, *bananas*, ŷd, eloron melus, a ffa," &c. Gadawsant Ibwiri Tach. 24ain, a chyrhaeddasant, Rhagfyr 1af, i le a alwai efe yn "Fynydd Pisgah." Yma gadawsant "y goedwig ddu, gaddugawl, a marwol, ar eu holau, a chanfyddasant gyntaf â'u llygaid eu hunain y gwastadeddau mawrion a breision oedd o'u blaen, âg arnynt bob cyflawnder yr oeddynt wedi dyheu cyhyd am danynt—a bloeddiasant a neidiasant gan lawenydd." Ar ol wyth ugain o ddyddiau o gaddug parhaol, meddai, yn y goedwig dew, ac awyr laith a phoeth dan gangau y coed, nes yr oedd yn anhawdd anadlu, "cawsom weled goleuni y dydd yn pelydru yn llachar o'n hamgylch yn mhob cyfeiriad, gan wneuthur pob peth yn brydferth yn ein golwg. Tybiem nad oeddym erioed wedi gweled y glaswellt yn edrych mor lâs, na gwlad dan haul yn ymddangos mor dra phrydweddol. Yn llythyrenol, bloeddlai a neidiai y dynion gan lawenydd, a chystadleuent â'u gilydd mewn rhedeg yn mhob cyfeiriad dan eu beichiau." Aed yn mlaen drachefn, gan ymladd yn barhaus, o'r bron, â'u gelynion. Ar y 13eg, gwelsant y Nyanza y tro cyntaf, gyda llawenydd dirfawr. Y 14eg, yr oeddynt yn mhentref Kakongo, yn nghongl ddeorllewinol y llyn; ond yr oedd Emin Pasha ar yr ochr arall; ac nid oedd ganddynt fadau i groesi y llyn, na choed digon mawr i wneuthur ysgraffau o honynt. Felly, bu raid myned yn ol i gyrchu y bâd a adawyd ar ol yn Kilinga-Longa; ac yn y cyfamser, bu Stanley yn sâl iawn. Ar y 29ain o Ebrill, 1888, cyrhaeddasant Emin Pasha, a chawsant ei fod mewn sefyllfa lewyrchus. Cymmhellodd Stanley ef i ymadael gyda hwynt, a chymmeryd ei holl bobl gydag ef, y rhai oedd yn rhifo tua deng mil—yn cynnwys gwŷr, gwragedd, a phlant. Ond nid oedd efe yn foddlawn i ymadael. Gan hyny, cychwynodd Stanley yn ol, Mai 25ain, trwy ganol y llwythau gelyniaethus a'r goedwig farwol i gyrchu y dynion yr oedd wedi eu gadael yn ngwersyll Barttelot; a chafodd fod nifer o honynt wedi meirw, rhai wedi eu lladd, a llawer wedi ymadael oddi yno. Yr oedd Barttelot wedi ei lofruddio gan y Manyemiaid, ac o'r holl wersyll nid oedd yno ond un-ar-ddeg-a-thrigain. Er y cwbl, nid oedd calon Stanley wedi colli y gradd lleiaf o'i dewrder Yna dychwelodd yn ol at Emin Pasha, i'w gymmhell i ddychwelyd gydag ef. Derbyniwyd llythyrau o Ujiji, dyddiedig Mawrth 10fed, 1889, yn hysbysu fod Mr. Stanley wedi cyfarfod â Tippoo Tib, a'i fod wedi danfon rhai o'i gleifion yn ol. Hysbysent hefyd ei fod am ddyfod i'r arfordir dwyreiniol gydag Emin Pasha; ac y byddai Tippoo Tib yn Zanzibar tua Gorphenaf. Dyna y newyddion diweddaf pan yr ydym yn argraphu y dalenau hyn.

Y mae llawer eraill wedi enwogi eu hunain yn fawr fel teithwyr Affricanaidd, ac y mae eu gweithiau a gyhoeddwyd wedi taflu goleuni ar bethau fuasent yn dywyll drwy yr oesau mewn cyssylltiad â'r cyfandir mawr hwn. Traethasant yn helaeth ar ei hanesiaeth naturiol, ei

Digitized by Google

lysieuaeth, ei ddaearyddiaeth, a llynau ac afonydd mawr y canolbarth; ac y mae anturiaethau personol llawer o'r cyfryw yn mysg y llwythau brodorol yn hynod ddyddorol. Yn mysg y rhai enwocaf o honynt, gellir enwi Speke, Grant, Burton, Cameron, Baker, Schweinfurth, &c. Y mae y cwestiynau mawr daearyddol mewn cyssylltiad â'r canolbarth wedi eu clirio i raddau pell erbyn hyn; ond bydd y wlad etto am amser maith yn faes dyddorol o ymchwiliad i ddynion anturiaethus ac ymofyngar; a gwneir ymdrechion mwy yn barhaus i sefydlu masnach gyda rhanau o honi, ac i'w dwyn i gyssylltiadau agosach â gwledydd eraill y byd.

*Sefyllfa, a Therfynau y Cyfandir.*—Y mae y wlad yn gorwedd ar y deheu i Ewrop, ac wedi ei gwahanu oddi wrtho gan Fôr y Canoldir. Y mae Môr y Werydd ar ei du gorllewinol, a Chefnfor India ar y dwyreiniol. Dyma'r unig gyfandir yr hwn y mae rhan fawr o hono ar ddau du y cyhydedd; ac y mae y rhan fwyaf o hono yn gorwedd rhwng y trofanau. O herwydd hyn, dyma'r cyfandir poethaf, ar y cyfan, sydd ar wyneb y ddaear.

*Ei Arwynebedd, a'i Boblogaeth.*—Dyma'r ail gyfandir o ran maintioli o fewn yr holl fyd, a'r trydydd o ran nifer cymmhariaethol ei boblogaeth. Cyfrifir fod ei arwynebedd yn agos i ddeuddeng miliwn a hanner (12,421,425) o filldiroedd petryal (*square miles*); ac y mae yr amcangyfrif a wneir o'i boblogaeth yn agos i ddau cant ac wyth o filiynau (207,899,987)—yr hwn sydd tuag un ran o saith o holl boblogaeth y byd.

*Ei Raniadau Gwladwriaethol.*—Nis gellir nodi gyda sicrwydd pa nifer o dalaethau annibynol sydd ynddo; o herwydd fod rhan mor fawr o hono etto yn anadnabyddus, a bod perthynasau gwahanol dalaethau â'u gilydd yn newid yn fynych. Yr Aipht, gyda Nubia, ydyw ei deyrnas benaf; a Chairo, ei brif ddinas, ydyw y liosocaf ei thrigolion. Y mae y daflen ganlynol yn cynnwys prif raniadau y cyfandir, a'r ffigyrau mor gywir ag y gellir eu cael yn awr.

GWLEDYDD A THALAETHAU AFFRICA.

| Enw. | Arwynebedd mewn milldiroedd petryal Saesnig. | Poblogaeth, yn ol y cyfrifon diweddaf. | Prif ddinasoedd. | Yr Afonydd, &c., y saif y prif ddinasoedd arnynt. |
|---|---|---|---|---|
| Yr Aipht ... ... ... | 494,000 | 6,806,381 | Cairo | Nilus. |
| Nubia, &c. ... ... ... | 760,000 | 11,500,000 | Khartoum, &c. | Nilus. |
| Abyssinia ... ... ... | 158,000 | 3,000,000 | Gondar, &c. | Llyn Tana. |
| Talaethau Barbary ... ... | (940,700) | (12,472,947) | | |
| Tripoli, &c. ... ... | 399,000 | 1,150,000 | Tripoli | Arfordir. |
| Tunis ... ... ... | 44,920 | 2,000,000 | Tunis | Arfordir. |
| Algeria—ymherodraeth ... | 182,780 | 3,817,465 | Algiers | Arfordir. |
| Morocco ... ... ... | 314,000 | 6,500,000 | Morocco | Tensift. |
| Y Sahara ... ... ... | 3,300,000 | 3,700,000 | Mourzouk, &c. | Glasdir. |
| Senegambia ... ... ... | 250,000 | 12,000,000 | Bathurst, &c. | Gambia. |
| Soudan ... ... ... | 1,213.000 | 50,000,000 | Timbuctoo, &c. | Niger. |
| Guinea .. ... ... ... | 672,500 | 20,000,000 | Coomassie, &c. | Dah. |
| Teyrnas Rydd y Congo ... | 802,000 | 8,000,000 | Benza, &c. | gogledd y Congo. |
| Namaqualand .. ... ... | 1,000.000 | 10,000.000? | Angra Pequena | Arfordir Gorllewinol. |
| Trefedigaeth y Penrhyn, &c. | 213,917 | 1,377,213 | Tref y Penrhyn, &c. | Machwy Table. |
| Teyrnas Rydd Orange ... | 41,484 | 134,000 | Bloemfontein | gogledd yr Orange. |
| Y Transvaal ... ... ... | 112,700 | 800.000 | Prætoria | Apis. |
| Canolbarth Deheuol Affrica. | 800,000 | 15,000,000 | Linyante, &c. | Chobé. |
| Sofala, a Mozambique ... | 382,700? | 300,000 | Mozambique | Cefnfor India. |
| Zanzibar—gwlad ac ynys ... | 706,725? | 10,000,000? | Zanzibar | Ynys Zanzibar. |
| Gallas a Somali ... ... | 890,000? | 12,000,000? | Harar, &c. | gogledd y Webbe. |
| Tiriogaeth y Llynau ... | 780,000 | 10,500,000 | Ujiji | Llyn Tanganyika. |
| Heb ei archwilio ... ... | 826,260? | 27,587,000? | ... | ... |
| Madagascar ... ... ... | 228,540 | 4,450,000 | Anantanarivo | Ynys Madagascar. |
| Cyfanrifau ... ... | 15,513,166 | 233,095,006 | | |

*Ffurf y Cyfandir.*—Yn debyg i Ogledd a Deheu yr America, y mae ei ffurf yn drionglog, gyda'r ochr hwyaf yn wynebu y gorllewin; ond y mae gwaelod y cyfandir yn llawer lletach, ac yn fwy crwn nag America Ddeheuol. Ychydig y mae unrhyw ran o hono yn ei daflu i'r môr. Dyma ffaith sydd yn myned yn mhell i egluro ei hanes yn y gorphenol, a'i sefyllfa bresennol.

*Ei Foroedd, Môr-geingciau, a Chulforoedd.*—Y Canolfor, yr hwn sydd yn gorwedd rhwng Affrica ac Ewrop—Culfor Gibraltar, rhwng Morocco ac Yspaen—Môr-gaingc Guinea, rhwng Guinea Isaf a Guinea Uchaf—Machwy Table, ar y deorllewin i Drefedigaeth y Penrhyn—Sianel Mozambique, rhwng Mozambique a Madagascar —a Môr-gaingc Aden, Culfor Babelmandeb, a'r Môr Coch, rhwng Affrica ac Ewrop.

*Ynysoedd.*—Y mae y rhai hyn wedi eu trefnu yn sypiau, fel y canlyn:—Yn Môr y Werydd y mae yr ynysoedd canlynol; yr Azores, Madeira, Canary, a Cape Verd, Fernando Po, Ascension, a St. Helena. Yn Nghefnfor India, y mae Madagascar, Mauritius, Zanzibar, Amirantes, Seychelles, a Socotra. Ynysoedd Cape Verd.—Swp o ynysoedd llosgfalaidd (*volcanic*) ydynt hwy—yn gorwedd 320 o filldiroedd i'r gorllewin o Cape Verd. Perthynant i Portugal. Ascension a St. Helena a berthynant i Brydain. Y mae hynodrwydd neillduol yn perthyn i'r ddiweddaf, fel yr ynys yr alltudiwyd yr ymherawdwr Napoleon Buonaparte iddi, yn 1816; a lle y bu farw Mai 5ed, 1821. Madagascar ydyw ynys fwyaf y cyfandir hwn, a'r chweched o ran maintioli yn yr holl fyd. Y mae ei harwynebedd yn ddau cant a phedair ar ddeg o filoedd (213,917) o fill. pet. yn mron, a'i phoblogaeth yn agos i bedair miliwn a hanner (4,450,000).

*Culdiroedd a Phenrhynoedd.*—Culdir Suez,

Digitized by Google

yn uno Affrica âg Asia. Y Penrhynoedd Bonn a Spartel, ar yr arfordir gogleddol; Blanco a Verd, ar yr arfordir gogledd-orllewinol; Palmas a Formosa, ar y deheu o Guinea Uchaf; Lopez a Negro, ar y gorllewin o Guinea Isaf; Gobaith Da ac Agulhas, ar y ddeheu i Drefedigaeth y Penrhyn; a Guardafui, ar yr arfordir gogledd-ddwyreiniol.

*Arwynebedd y Cyfandir, a'i Fynyddoedd.*—Y mae y rhan ddeheuol o'r cyfandir gryn lawer yn uwch na'r rhan ogleddol; ac y mae ei fynyddoedd yn mron yn gwbl yn agos i'w gylch allanol. Y mae y pum llinell ganlynol o fynyddoedd yn Nghyfandir Affrica:—1. Llinell yr Atlas—sydd yn rhedeg rhwng Môr y Canoldir a'r Sahara. Miltsin, yn Morocco, ydyw yr uchaf yma; sef, 11,400 tr. (troedfedd) uwch law y môr. 2. Y Llinell Ganol, yn Guinea Uchaf a'r Soudan, yn nghyd â Mynyddoedd y Kong. Alantika ydyw yr uchaf o honynt—9,000 tr.; a Mynyddoedd y Lleuad, yn agos i Lyn Tanganyika—10,000 tr. 3. Y Llinell Dde-orllewinol ar hyd yr arfordir—o Bight y Biafra i Drefedigaeth y Penrhyn. Yr uchaf yw Cameroon—13,129 tr. 4. Y Llinell Dde-ddwyreiniol—o Benrhyn Gobaith Da i Benrhyn Guardafui. Yr uchaf yw Kilimandjâro, yr hwn sydd ar y dwyrain i Lyn Victoria Nyanza—18,800 tr. Y mae'n debyg mai hwn ydyw yr uchaf yn holl Affrica. 5. Y Llinell Ogledd-ddwyreiniol, o Benrhyn Guardafui i Guldir Suez. Ras Detchen, yn Abyssinia, yw yr uchaf—15,986 tr.

*Llosg-fynydd (Volcanoes).* — Dwy losg-foel, neu fynydd tanllyd, sydd ar y cyfandir hwn, mor bell ag y mae yn adnabyddus; sef, Kilima Njaro, a Kenia, yn agos i'r cyhydedd.

*Afonydd, &c.*—Y mae afonydd y cyfandir yn perthyn i dair padell fawr: sef, Môr y Canoldir, Môr y Werydd, a Chefnfor India. 1. Yn llifo i Fôr y Canoldir:—Y Nilus, yr hon sydd yn tarddu o Lyn Victoria Nyanza ar y cyhydedd, gan lifo i'r gogledd, trwy Nubia a'r Aipht, i Fôr y Canoldir. Ar linell uniawn, mesura 2,300 o filldiroedd; ond pe mesurid ei throadau, byddai yn 4,100 milldir. Derbynia ar ei chwith y Bahr-el-Ghazal, o ganolbarth y cyfandir; ar y dde, y Giraffe a'r Sobat; y Bahr-el-Azrek, neu y Nilus Lâs; a'r Atbâra, Tacazze, neu'r Aswad, o Abyssinia. Ar ol derbyn yr afonydd hyn, nid ydyw yn derbyn un afon am bellder o 1,700 milldir. Dywedir fod y pantle, ar hyd yr hwn y mae yr afon fawreddog hon yn llifo, yn mesur 520,000 milldir petryal. 2. Yn llifo i Fôr y Werydd, y mae y Senegal a'r Gambia, ac yn cyfeirio tua'r gorllewin trwy Senegambia. Y Joliba neu'r Niger a lifa yn nghyfeiriad y gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain trwy y Soudan, am 2,000 o fill. Y Congo, neu y Zaire, yn Guinea Isaf, yr hon sydd yn tywallt i'r Werydd swm o ddwfr sydd yn mron gymmaint a'r Amazon, yn America Ddeheuol—ymddengys fel yn tarddu o Lyn Tanganyika; a'r Orange i'r gogledd o Drefedigaeth y Penrhyn, 1,000 mill. 3. Yn llifo i Gefnfor India:—Y Zambezé, o Lyn Dilolo, 1,430 mill., gan ymdywallt i Sianel Mozambique. Y mae y Zambezé, fel y Nilus a'r Congo, yn llifo dros ei glanau ar adegau neillduol o'r flwyddyn. Ar derfyn gogledd-ddwyreiniol y wlad y mae y Môr Coch, yr hwn sydd yn meddu lle mor hynod yn hanesiaeth yr Ysgrythyrau.

*Llynau.*—Y mae yma amryw lynau o faintioli mawr; a rhai o honynt heb fod yn ail i lynau mwyaf Gogledd America ac Asia. Y ddau fwyaf ydyw y Victoria Nyanza a'r Albert Nyanza, ar y cyhydedd; o ba rai y mae y Nilus Wen (*White Nile*) yn llifo. Y mae y cyntaf â'i arwynebedd yn 21,500 mill. petryal. I'r deorllewin o Victoria Nyanza y mae Llyn Tanganyika, yn mesur tua 13,000 mill. pet. Llifa yr afon Lukuga o'i ochr orllewinol. Llynau Tana ac Assal, yn Abyssinia; Tchad, yn y Soudan; Nyassa a Shirwa, i'r gorllewin o Mozambique; a Bangweolo (yn agos i'r hwn y bu farw Livingstone yn 1873); ac amryw eraill yn agos i darddleoedd y Congo.

*Hinsawdd y Cyfandir.*—Gan ei fod yn gorwedd yn benaf rhwng y trofanau, y mae tymmheredd Affrica yn uwch nag un o'r cyfandiroedd eraill. Neillduolrwydd arall perthynol iddo ydyw, ei fod yn cynnwys y rhanau sychaf sydd ar wyneb yr holl ddaear. Y mae y cyfandir, gan hyny, yn cynnwys tri o barthau mawr sydd yn gwahaniaethu, o angenrheidrwydd, yn y swm o wlaw sydd yn disgyn arnynt yn flynyddol. Yn y parth canol, rhwng 16° lledred gogleddol a 20° deheuol, disgyna gwlawogydd trymion ar adegau. Yma, gan hyny, y ceir llynau mawrion Affrica, sydd yn derbyn yr holl wlaw sydd yn disgyn yno ar adegau. Y mae y parth gogleddol yn ymestyn o 16° lled. i Fôr y Canoldir; ar yr hwn, gyda'r eithriad o lain cul ar hyd ei arfordiroedd gogleddol a gorllewinol, nid oes braidd ddim gwlaw yn disgyn drwy y flwyddyn; ac yn y rhan hwn y mae y Sahara—yr anialwch mwyaf yn yr holl fyd. I'r deheu o ledred 20° deheuol, y mae parth arall sydd heb wlaw; sef, Anialwch Kalahâri, ar yr hwn nid oes ond ychydig o wlaw yn disgyn yn y flwyddyn. O herwydd y darnau mawrion o'r cyfandir hwn sydd heb dderbyn ond ychydig o wlaw, ystyrir ef y sychaf o gyfandiroedd y byd.

*Cynnyrchion Naturiol.*—Y mae llai o fwnau defnyddiol yn Affrica nag mewn unrhyw gyfandir arall o'r byd. Ond y mae halen, yr hwn yw ei fwn mwyaf gwerthfawr, i'w gael yn gyffredin. Ceir haiarn yn Algeria, Trefedigaeth y Penrhyn, a'r Soudan; a glô yn Mozambiqué, Madagascar, a Natal. Y mae cryn lawer o aur i'w gael yn Nghanolbarth Affrica, ac ar yr afon Limpopo. Ceir efydd (*copper*) a phlwm mewn llawer o fanau; ac yn ddiweddar, cafwyd llawer o adamant ar yr afon Vaal, yn neheubarth y cyfandir. Y mae ei lysiau yn lled brin; ond rhwng y trofanau, y mae y blodau yn ardderchog; ac yn mysg y coed, ceir y baobab—y pren mwyaf sydd yn adnabyddus. Abyssinia ydyw cartref prysgwydd y coffi; a cheir gwinwydd, corsenau sugr, coffi, cotwm, a llin mewn cyflawnder yn Nyffryn y Zambeze. Y mae anifeiliaid gwylltion yn hynod liosog; a cheir yno yr holl rywogaethau yn mron ag sydd yn perthyn i'r Hen Fyd. Y mae y gorilla a'r chimpanzee yn niferi lliosog yn nghoedwigau mawr y gorllewin; a cheir epäod, yn eu gwahanol rywogaethau, pa le bynag y mae y palmwydd yn lliosog. Ceir y llew, y llewpart, a'r udfil (*hyena*) yno; ond ni cheir dywalgwn (*tigers*) mewn un lle. Y mae yr afon-farch (*hippopotamus*), yr hwn nid yw mewn un wlad arall, yn ei holl afonydd mawr. Nid ydyw elephant a rhyncorn Affrica o'r un rhywogaeth a rhai Asia; a gellir dywedyd yn gyffredinol, fod ei holl anifeiliaid crwyn-dew yn wahanol i'r eiddo pob cyfandir arall. Yr estrys yw yr hynotaf o adar y cyfandir hwn; yr afange (*crocodile*) o'i ymlusgiaid;

Digitized by Google

dref iachaf a mwyaf dymunol yn y wlad. Magdala, amddiffynfa ar wastat-tir uchel Talanta, yr hon a gymmerwyd gan Syr Robert Napier yn 1868, pan y lladdwyd y brenin Theodore, ac y gwaredwyd y carcharorion Prydeinig oedd ganddo.

*Hinsawdd, a Chynnyrchion.*—Y mae hi yn hynod o boeth yn nyffrynoedd y wlad, yn oer ac yn iach ar y gwastat-tiroedd uchel, ac yn oer iawn ar y mynyddoedd. Parhâ y gwlawogydd trymion blynyddol o fis Mehefin hyd fis Medi. Y mae y coedwigoedd yn fawr iawn, a'r coed yn tyfu i faintioli mawr; a'i sycamorwydd a'i chedrwydd o faintioli mwy na chyffredin. Y mae coed ffrwythydd, a phlanhigion meddygol, i'w cael mewn cyflawnder mawr yno; ac y mae cotli a chotwm yn tyfu yn wyllt ar y mynyddoedd. Ceir ynddi fwnau o amryw fathau; ond o'i haiarn a'i halen yn unig y gwneir defnydd priodol. Am ei bwystfilod gwylltion, y maent yn lliosog; ac yn cynnwys y llew, y panther, yr udfil, a'r elephant, &c. Ceir adar o bob math yno, o'r bron; a seirph o faintioli mawr trwy y wlad i gyd.

*Gweithfeydd a Masnach.*—Cynnwysa ei hallforion ifori, aur, caethion, gwartheg, mulod, a mêl. Gwneir defnyddiau dillad cotwm ynddi, ac o wlân a blew geifr, a gwahanol offerynau defnyddiol mewn haiarn a phrês, ynghyd â lledr a memrwn *(parchment)*. Y mae ei masnach yn cael ei chario yn mlaen yn yr hen ddull, o gyfnewid defnyddiau, yn mhorthladd Aiphtaidd Masuah, neu Massowah, gan nad oes borthladd yn perthyn i'r wlad. Addawyd y porthladd hwn i'r llywydd presennol; ond ni chyflawnwyd yr addewid etto.

*Poblogaeth.*—Y mae yr Abyssiniaid presennol yn fath o gymmysgfa o wahanol genhedloedd; ond ar y cyfan, gellir eu hystyried o darddiad Semitaidd. Yr ieithoedd a siaradant ydyw yr Amharaidd, a'r Tigre (dwy dafodiaith o'r Ethiopaeg), yr Arabaeg, a'r Galla. Ei ffurfiau o grefydd ydyw Cristionogaeth isel a llygredig, a Mahometaniaeth. Y mae gwareiddiad mewn sefyllfa hynod o isel yn y wlad.

BARBARY, TALAETHAU. [Gwel cyf. iii., td. 269, am fanylion boreuach nag 1889.] Y mae pedair o dalaethau yn perthyn i Barbary; sef, TRIPOLI, TUNIS, ALGERIA, a MOROCCO. Arwynebedd yr holl wlad mewn milldiroedd petryal Saesnig ydyw 940,700, a'i phoblogaeth, yn ol y cyfrifiad diweddaf, yn 12,472,947. Yn ol eraill, dywedir eu bod dros dair-miliwn-arddeg (13,000,000). Y mae hi lawn wyth gwaith gymmaint a'r Ynysoedd Prydeinig. Terfynir hi ar y gogledd gan Fôr y Canoldir, ar y gorllewin gan Fôr y Werydd, ar y deheu gan y Sahara, ac ar y dwyrain gan yr Aipht. Gwel d. g. TRIPOLI, TUNIS, ALGERIA, a MOROCCO.

*Arwynebedd a Mynyddoedd Talaethau Barbary.*—Gwastat-tir uchel ydyw y rhanau gorllewinol o Barbary; o'r hwn y cyfyd y tair llinell o fynyddoedd a elwir Mynyddoedd yr Atlas, y rhai sydd yn rhedeg yn gyfochrog â Môr y Canoldir, ac â'u gilydd. Cynnyddant yn eu huchder o'r dwyrain i'r gorllewin; ac yn mynyddoedd Miltsin, yn Morocco, cyrhaeddant 11,400 tr. O Tunis i derfynau yr Aipht, y mae y wlad, gan mwyaf, yn isel a gwastad.

*Afonydd a Threfi.*—Gan fod y mynyddoedd yn agos i'r môr o un tu, ac ar y tu arall yn agos i'r Anialwch Mawr, y mae yr afonydd yn fychain, mewn cymmhariaeth, a'r trefydd, gan mwyaf, ar yr arfordir.

*Prif Drefi.*—Y mae Tripoli yn cario masnach fawr yn mlaen gyda Chanolbarth Affrica trwy deithwyr. Tunis ydyw y dref fwyaf poblog yn Barbary; a chyda'r eithriad o Alexandria, y fwyaf ei masnach. Kairwan, â phoblogaeth o 50,000, ydyw yr ail ddinas yn Tunis; a hi oedd cartref cyntaf yr ymherodraeth Saracenaidd yn Barbary. Poblogaeth Tunis ydyw 150,000; a hi ydyw y ddinas fasnachol benaf yn Affrica, gyda'r eithriad o Alexandria. Yn agos iddi, ar y gogledd-ddwyrain, y mae gweddillion Carthage; yr hon oedd, ar un adeg, yn ymgystadlu â Rhufain. Prif ddinas y drefedigaeth Ffrengig o Algeria ydyw Algiers, gyda phoblogaeth, yn 1881, o 70,747. Y mae ganddi amddiffynfeydd, ac ymddengys fel dinas Ewropaidd.

Ar yr arfordir gorllewinol y mae Tangiers—porthladd caerog, yr hwn oedd unwaith yn perthyn i Brydain. Rabatt, gyda phoblogaeth o 40,000, a alforia wlân ac ŷd. Y ddinas hon, gynt, oedd canolbwynt masnach rhwng Ewrop a Morocco. Mogadore, â phoblogaeth o 20,000, ydyw prif borthladd Morocco; ac o honi y mae llongau yn mordwyo i Ewrop.

Yn y canolbarth, y mae Morocco, prif ddinas yr ymherodraeth o'r un enw. Saif ar wastadedd ëang. Dinas fawr ac aflan ydyw—wedi ei hadeiladu yn wael, ac wedi ei hamddiffyn gan furiau. Fez, dinas sanctaidd Morocco, ac un o gartrefleoedd y Sultan, ydyw y prif fan lle y gwneir y lledr a elwir *morocco* yn benaf; a darperir ef yno i berffeithrwydd mawr.

*Hinsawdd a Chynnyrchion.*—Y mae hinsawdd yr arfordir yn hynod o dyner ac iach. Dywedir fod hinsawdd Algeria yn gymmhwys iawn i Ewropiaid; ond ar y tu deheuol i Fynyddoedd yr Atlas, y mae yr hinsawdd yn hynod boeth. Ceir halen mewn llawer o fanau yno; ond nid ydyw glô wedi ei ddarganfod etto. Y mae y mynyddoedd yn cynnwys efydd, haiarn, plwm, &c.; ond ychydig o weithfeydd mŵn sydd yno yn talu am eu gweithio. Rhwng Mynyddoedd yr Atlas a Môr y Canoldir, y mae llain hir, cul, sydd yn hynod gynnyrchiol—yn tyfu gwenith, ŷd India, haidd, cotwm, indigo, tybaco, gwinwydd, olewydd, a chorsenau sugr; ac y mae llethrau deheuol y mynyddoedd wedi eu gwisgo â choedwigoedd tewion o rawn-balmwydd. Yn y mynyddoedd, ceir llewod mawr ffyrnig, a chyflawnder o epäod, draenogod mawr *(porcupines)*, a chrychgorniaid *(antelopes)*.

*Gweithfeydd a Masnach.*—Gwneir y lledr morocco goreu, a defnyddiau o gotwm, gwlaneni, a sidan, mewn symiau mawr yn y trefi. Y mae teithluoedd masnachol bob amser yn symmud rhwng yr arfordir a'r Soudan, drwy y Sahara. Y prif allforion ydynt ŷd, ffrwythydd, gwlân, ifori, lledr morocco, a meirch.

*Poblogaeth.*—Y mae yn cynnwys Berberiaid, Mŵriaid, Tyrciaid, ac Arabiaid. Mahometaniaeth ydyw crefydd gyffredin y wlad, a'r ieithoedd Berberaidd a Mŵraidd-Arabaidd a siaredir yno.

TRIPOLI, neu TRIPOLIS. Talaeth ar arfordir gogleddol Affrica, a'r fwyaf dwyreiniol o Dalaethau Barbary. Ei llywodraethwr cyffredinol ydyw Ahmed Rassim Pasha, yr hwn a bennodwyd yn Tachwedd, 1881. Y mae yn cynnwys Fezzan, ynghyd â'r Sanjak o Barka. Mae ganddi arwynebedd o 399,000 mill. pet., a phoblogaeth

Digitized by Google

o tua 1,150,000. Nid oes un afon o fewn y wlad, ac yn anaml y bydd gwlaw yn disgyn ynddi. Codir arian i gyfarfod â'i threuliau trwy dreth, neu deyrnged. Y prif bethau a ddadforir iddi ydyw metteloedd, defnyddiau dillad, a defnyddiau eraill o wneuthuriad Prydeinig a gwledydd eraill Ewrop, a gwinoedd, a gwirodydd. Y prif gynnyrchion a allforir ydynt bustych, ifori, gwenith, olew, haidd, plu yr estrys, *madder*, pupur, gwlân, ac yn ddiweddar esparto. Poblogaeth Bengazi, ei hail brif dref, oedd 22,000, y cyfrif diweddaf—yn cynnwys Arabiaid, Groegiaid, a Levantiaid. Y mae ei masnach mewn ŷd, gwlân, a chynnyrchion amaethyddol eraill, yn fawr, wrth ystyried sefyllfa y wlad. Gwerth ei dadforion o'r Deyrnas Gyfunol, yn 1887, oedd 8,798*p*.; ac yr oedd ei hallforion i'r Deyrnas Gyfunol yn 237,040*p*.

TUNIS. Y mae y teulu sydd yn teyrnasu yn Tunis wedi bod yn llywodraethu yno er y fl. 1691. Disgynyddion ydynt o Ben Ali Tourki, brodor o ynys Creta, yr hwn a orchfygodd y wlad; ond talai deyrnged i ymherawdwr Twrci. Bey blaenorol Tunis oedd Sidi Mohamed-el-Sadok. Ganwyd ef Hydref 3ydd, 1813; dilynodd ei frawd i'r orsedd Medi 23ain, 1859. Telid teyrnged i Twrci yn mron bob amser, hyd nes yr ymaflodd y Bey diweddar yn yr awenau. Llwyddodd i gael rhaith ymherodrol gan y sultan, Hydref 25ain, 1871, oedd yn ei ryddhau o'i rwymedigaeth i dalu y deyrnged; a thrwy hyny yn rhinweddol meddiannodd ei annibyniaeth. Y Bey presennol ydyw Sidi Ali Pasha, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu Hyd. 28ain, 1882.

Unbenaethol hollol oedd llywodraeth Tunis hyd amser teyrnasiad y penadur diweddar; yr hwn, mor fuan ag yr esgynodd i'r orsedd, a gyhoeddodd orchymyn ar fod i lysoedd cyfiawnder gael eu sefydlu, ac i sicrwydd gael ei gyhoeddi am ddiogelwch rhyddid gwladol a chrefyddol y deiliaid. Ymddiriedwyd gweinyddiad achosion cyffredinol y wladwriaeth, o dano, i gynghor, cynnwysedig o chwech o aelodau. Heb law hyny, sefydlwyd corph ymgynghoriadol—yn cael ei wneyd i fyny o drafnoddwyr tramor, amryw o swyddogion y llywodraeth, ac aelodau o gynghor y brif ddinas.

Yr oedd rhaglawiaeth Tunis, fel yr eglurwyd gynt, yn ddarostyngedig i ymherodraeth y Twrc; ond erbyn hyn, gellir ei hystyried fel wedi ei chyssylltu â Ffrainge—mewn enw dan lywodraeth y Bey, ond mewn gwirionedd dan Ffrainge ei hun. Yn ol cyttundeb a wnaed Mai, 1881, y maent hwy i gilio pan y bydd y llywodraeth gartrefol yn alluog i gadw trefn o fewn y wlad. Dan y cyttundeb a wnaed yn Gorphenaf, 1882, Ffrainge sydd yn llywodraethu, ac yn casglu y trethi, yn enw y Bey—i'r hwn y caniateir 37,500*p*. yn y flwyddyn, ac i'r tywysogion 30,000*p*. Y mae yn mhrif dref Tunis weithfeydd mawr o sidan a gwlân o bob math. Y prif allforion ydynt ŷd, olew, gwlân, ac esparto. Swm ei chyllid yn 1885-86 oedd 929,702*p*., a'i threuliau yr un flwyddyn 928,708*p*. Ei dyled wladol, 5,656,750*p*. Dadforion yn y flwyddyn 1886, 1,208,631*p*.; a'i hallforion, 776,699*p*.

Mesura 44,920 mill. pet. Y mae ei phoblogaeth, tua 2,000,000. Pellder tref Tunis o Lundain ydyw tua 1,350 milldir.

ALGERIA. Preswylid y wlad gynt gan nythod o fôr-ladron oedd yn peri dinystr mawr ar longau yn Môr y Canoldir; ac yr oeddynt yn ddychryn i fasnachwyr. Fel cospedigaeth arnynt, tânbelenwyd Algiers, y brif ddinas, yn 1816, gan Arglwydd Exmouth a'r llynges Brydeinig; a diddymwyd môr-ladrad, a'r gaethfasnach, yn nhalaethau dwyreiniol Barbary o hyny allan. Yn 1830, o herwydd cweryl a gymmerodd le rhwng trafnoddwr Ffrainge a llywodraeth y Dey, ymosododd y Ffrangcod ar y ddinas; ac ar ol ymladdfa galed, gorchfygasant hi. Yna ymosodasant ar y wlad; ac ar ol rhyfel waedlyd â'r trigolion, trechwyd hwynt, a chyssylltwyd y wlad â Ffrainge.

Erbyn hyn, hon yw y drefedigaeth fwyaf a phwysicaf a berthyn i Ffrainge; ac yr oedd hi yn gwbl dan reolaeth filwraidd hyd y flwyddyn 1871, pan sefydlwyd ynddi lywodraeth wladol. Ac yn awr, yn lle llywodraethwr milwraidd, y mae llywodraethwr cyffredinol gwladol yn gweinyddu y cyfreithiau yn y drefedigaeth. Llywodraethwr cyffredinol Algeria yn bresennol (1889) ydyw Mr. Louis Tirman, yr hwn a bennodwyd i'r swydd yn Tachwedd, 1881.

Nid ydyw terfynau y wlad wedi eu nodi allan yn fanwl, gan fod rhai dosbarthiadau ar y cyffiniau hefyd yn cael eu hawlio gan lywodraeth Ffrainge, a chan y llwythau crwydrol a'u preswyliant. Yn ol cyfrifon a gyhoeddwyd yn niwedd 1888, y mae arwynebedd y drefedigaeth, heb y Sahara, yn mesur 182,780 o fill. pet., gyda phoblogaeth o 3,817,465. Nifer yr ymsefydlwyr Ffrengig yno oedd 219,627, a'r holl boblogaeth o ddisgyniad Ewropaidd 206,210. Yr oedd holl fasnach Algeria am y flwyddyn 1886 fel y canlyn:—dadforion, 9,690,000*p*.; ac allforion, 7,290,200*p*. Y mae o ddeutu dwy ran o dair o holl fasnach y wlad yn cael ei dwyn yn mlaen gyda Ffrainge, a'r gweddill gydag Yspaen, Twrci, a Phrydain Fawr, &c. Yn niwedd y flwyddyn 1888, yr oedd 1,554 o filldiroedd o ffyrdd haiarn wedi eu hagor yn y drefedigaeth.

Nid oedd cyllid Algeria yn 1831, y flwyddyn gyntaf ar ol ei gorchfygiad gan Ffrainge, ond 10,000*p*. Yn y flwyddyn ddiweddaf, yr oedd yn 1,750,000*p*. Y mae traul y drefedigaeth wedi bod bob amser yn fwy na'i chyllid. Nid ydyw traul y fyddin, na thraul y gweithiau cyhoeddus, a symiau mawrion eraill a dreulir gan y llywodraeth, yn cael eu cynnwys yn y cyfrif, gan y darperir ar eu cyfer yn nghyllideb Ffrainge ei hun. Nifer y fyddin Ffrengig yn Algeria ydyw 50,000 o wŷr.

MOROCCO. Ymherawdwr *(sultan)* presennol y wlad yw Muley-Hassan, yr hwn a anwyd yn 1831. Esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth ei dad, Medi 17eg, 1873. Y ffurf o lywodraeth sydd yn ymherodraeth Fez a Morocco ydyw yr unbenaethol. Y sultan ydyw ei phenaeth crefyddol, yn gystal a'i phenaeth gwladol; ac y mae efe yn honi hawl ar fywydau ac eiddo ei holl ddeiliaid. Fel llywodraethwr crefyddol, saif y sultan ar ei ben ei hun yn hollol. Nid oes derfyn ar ei awdurdod, fel sydd ar awdurdod llywodraethwyr gwledydd Mahometaidd eraill. Nid oes gan y sultan weinidogion rheolaidd; ond y mae yn cario ei weinyddiadau yn mlaen trwy gyfrwng rhywrai ffafredig fydd o amgylch ei berson. Rhoddir ei archiadau mewn grym yn ddibetrus; ac y mae efe yn cyfodi ei gyllid—yr hyn, fel y tybir, sydd tua 500,000*p*. yn y flwyddyn—trwy awdurdod filwraidd.

Y mae yr ymherodraeth yn cynnwys Fez a

Digitized by Google

Morocco; ac y mae wedi ei rhanu i dair ar ddeg ar hugain o dalaethau —rhai o honynt yn fawrion iawn, a'r lleill yn gyfyngedig agos i un dref. Rheolir y talaethau bychain gan eu penaduriaid eu hunain, y rhai nid ydynt o'r bron yn cydnabod awdurdod y sultan. Y mae ychydig o wahaniaeth rhwng sultan Morocco a'i ddeiliaid, fel sect grefyddol, a dilynwyr Mahomet yn Twrci a Phersia, a gwledydd eraill; yn gymmaint a'u bod hwy yn mabwysiadu fel gwers-lyfr eu ffydd esboniad ar y "*Coran*," o waith Sidi Beccari.

Nis gellir ond cael amcangyfrifon o arwynebedd Morocco, gan fod y cyffiniau deheuol, tuag anialwch Sahara, heb eu penderfynu, ac yn cael eu hawlio, weithiau gan y sultan; a phryd arall gan y llwythau crwydrol sydd yn y parthau hyny, nad ydynt yn cydnabod ei awdurdod ef. Ond yn ol yr ymchwiliadau diweddaf, mesura arwynebedd tiriogaethau y sultan tua 314,000 o fill. pet. Y mae yr amcangyfrifon yn amrywio yn fawr ynghylch y boblogaeth. Mŷn rhai mai 2,500,000 ydyw y rhif—eraill a'u cyfrifant yn 3,000,000 o eneidiau. Ond gellir meddwl y byddem yn lled agos i'r gwir wrth ystyried fod ei thrigolion yn rhifo tua 6,500,000.

Y mae mwy na dwy ran o dair o'r bobl yn Fŵriaid; a'r gweddill yn Arabiaid crwydrol—yn Iuddewon, ac yn Negroaid. Tybir fod yno o ddeutu 200,000 o Iuddewon. Nid ydyw nifer y Cristionogion yno i gyd yn fwy na 1,000. Y mae rhan fawr o barthau mewnol Morocco yn gwbl anhysbys i Ewropiaid.

Bychan, mewn cymmhariaeth, ydyw masnach dramor y wlad; ac nid ydyw wedi cynnyddu yn y blynyddoedd diweddar. Holl werth y dadforion yno, yn y fl. 1887, oedd 1,258,354*p.*, a'r allforion yn 1,286,723*p.* A Phrydain Fawr, Yspaen, a Ffraingc, y gwneir y gyfran helaethaf o'i masnach; ac y mae y nwyddau y masnachir ynddynt yn myned gan mwyaf trwy borthladd Tangier.

Nid oes ynddi ffyrdd haiarn. Ei hallforion a gynnwysant ŷd India, ffa, pys, olew, gwlân, hwyaid ac ieir, ŵyau, llawr-leni, crwyn geifr, lledr, ŷd, gwartheg, plu yr estrys, coed-lud, ac esparto. Ei dadforion a gynnwysant ddefnyddiau llian a chotwm, a gwlân, tê, coffi, sugr, canwyllau, brethyn, sidan, haiarn, prês, a defnyddiau wedi eu gwneyd o haiarn.

Y mae tair prif dref yn ymherodraeth Morocco; sef, Fez, gyda phoblogaeth o 80,000, yr hon yw y benaf; Morocco, gyda 50,000; a Mequinez, gyda 56,000. Y cyllid a'r treuliau blynyddol ydynt o ddeutu 1,700,000*p.* bob un.

Y SAHARA. Cyfeiriwn yn gyntaf at yr erthygl dan y gair SAHARA, yn cyf. iii., td. 269, a chyf. ix., td. 153. Dyma'r anialwch mwyaf a pherffeithiaf ar wyneb y ddaear. Am gannoedd o filldiroedd, nid ydyw y llygad yn gallu gweled ond tywod noeth, neu ddarnau noethion o greigleoedd, heb fod na llysiau na choed yn tyfu arnynt, ac yn cynnwys ond ychydig iawn o ffurfiau o fywyd anifeilaidd. Tybid gynt mai tua 2.650 o filldiroedd oedd ei hyd o'r dwyrain i'r gorllewin, a 960 o'r gogledd i'r deheu. Erbyn hyn, tybir ei fod tua 3,000 o filldiroedd o hyd, a'i led yn amrywio o 1,000 i 1,200 milldir. Cynnwysa tua 3,300,000 o fill. pet., a'i phoblogaeth tua 3,700,000.

SENEGAMBIA. Gwel cyf. iii., td. 269, am amryw fanylion am y wlad hon.



*Terfynau.*—Yn y gogledd, y mae y Sahara; gorllewin, Môr y Werydd; deheu, Guinea Uchaf; a'r dwyrain, y Soudan.

*Arwynebedd a Phoblogaeth.*—Y mae y wlad yn mesur, gyda Sierra Leone, 250,000 mill. pet., neu tua dwy waith cymmaint a'r Ynysoedd Prydeinig; a'i phoblogaeth o ddeutu 12,000,000. Y mae y rhanau gorllewinol o'r wlad yn isel ac yn wastad, ac afonydd mawr yn rhedeg drwyddynt; y rhai, fel y Nilus, sydd yn llifo dros eu glanau yn flynyddol. Y rhanau dwyreiniol ydynt yn fynyddig. Heb law nifer o drefedigaethau Prydeinig, Ffrengig, a Thyrcaidd, sydd ar ei harfordir, ac ar yr afonydd Gambia, Senegal, a Jeba, y mae ynddi nifer o deyrnasoedd bychain brodorol.

*Afonydd.*—Y prif afonydd ydynt y Senegal, Gambia, Rio Grande, a Rokelle.

*Prif Drefi.*—St. Louis, gyda phoblogaeth o 15,000, ar enau y Senegal, ydyw prif dref y meddiannau Ffrengig. Bathurst, â'i phoblogaeth yn 7,000, ar enau y Gambia, ydyw prif dref y drefedigaeth Brydeinig yn Senegambia; ac ystyrir hi yr iachaf yn Affrica Orllewinol. Y mae Bissao, prif dref y meddiannau Portugeaidd, a chartref ei chaethfasnach, ar ynys ar enau y Jeba. Free Town, gyda phoblogaeth o 18,000, ar enau y Rokelle, yw prif dref y wladychfa Brydeinig yn Sierra Leone; yr hon a sefydlwyd yn 1787, gyda'r amcan o ddarostwng y gaethfasnach yn ngorllewin Affrica.

*Hinsawdd a Chynnyrchion.*—Y mae hinsawdd Senegambia yn llaith, ac yn hynod o afiach i Ewropiaid. Y mae clefydau angeuol yn ffynu yn y tymmor gwlyb; tra yn y tymmor sych y mae y gwres yn annioddefol. Yn mysg ei choed gwerthfawr y mae y *baobab* ardderchog, neu bren bara; y *shea*, neu bren ymenyn; a'r *mimosa*, o'r hwn y mae glud Senegal yn cael ei dynu. Y mae gwinwydd, a ffigyswydd, a phlanhigion coffi wedi eu dwyn i'r wlad. Yr elephant, yr afonfarch, y llewpart, a'r epaod, ydyw prif greaduriaid gwylltion Senegambia. Yn yr afonydd ceir afangcod, a seirph gwenwynig yn y corsdiroedd, a môr-grwbanod (*turtles*) ar yr ynysoedd. Yn Bambouk y mae mwngloddiau aur cyfoethog.

*Masnach.*—Y mae y Prydeiniaid, y Ffrangcod, a'r Portugeaid wedi cymmeryd meddiant, bob un o honynt, o un o afonydd mawr y wlad er hwylusdod i'w masnach, fel yr eglurwyd uchod. Glud Senegal, *teak*, coed *mahogany*, olew y balmwydden, cnau *cocoa*, reis, ifori, llwch aur, sinsir, cŵyr, a chrwyn, ydyw y prif allforion.

*Poblogaeth.*—Y mae Senegambia yn cynnwys tri o lwythau amlwg; sef, y Fellatah, yn y gogledd; y Mandingöaid, yn y deheu; a'r Jaloofiaid, yn y canolbarth; ac y mae y llwythau uchod wedi ymdaenu hefyd dros y Soudan gorllewinol, a Guinea Uchaf. Dywedir fod yr iaith Mandingoaidd, yr hon y mae holl ieithoedd y wlad yn ymdyru o'i chwmpas, a'r hon sydd yn fwyaf defnyddiol i fasnachwyr ar ei harfordir, yn ol tystiolaeth y rhai sydd yn ei hadnabod, yn iaith gyfoethog a phrydferth. O ran eu crefydd, y mae y trigolion yn Fahometiaid selog, er fod rhai yn parhau i lynu wrth yr hen syniadau paganaidd.

SOUDAN, neu NIGRITIA. *Terfynau* y wlad ydynt, y Sahara, ar y gogledd; Senegambia, ar y gorllewin; Guinea, a Thalaeth Rydd y Congo,

Digitized by Google

yr hon a ffurfiwyd yn ddiweddar, ar y ddc; a Kordofan ar y dwyrain.

*Maintioli a Phoblogaeth.*—Y mae ei maintioli yn ansicr; ond tybir ei bod tua 1,213,000 mill. pet., neu naw gwaith cymmaint a'r Deyrnas Gyfunol; a chyfrifir fod ei phoblogaeth tua 50,000,000. Llywodraethwyd y wlad yn dda gan y Cadfridog Gordon hyd 1879, yn ol yr hanesion mwyaf credadwy.

*Arwynebedd, a Mynyddoedd.*—Yn y dwyrain y mae y wlad yn isel a llaith, lle y mae y llynau Tchad a Fittre, y rhai sydd yn 1,000 tr. uwch law wyneb y môr. Y mae y gweddill yn cynnwys y badell uchel, yn yr hon y mae yr afon Niger. Y mae y badell hon wedi ei gwahanu oddi wrth Guinea Uchaf gan y mynyddoedd Kong, y rhai sydd tua 2,500 tr. o uchder; ac oddi wrth y rhanau anadnabyddus o Ganoldir Affrica, gan y gadwen o fynyddoedd a elwir Chadda.

*Rhaniadau Gwladol.*—Y mae y Soudan wedi ei rhanu i nifer o fân deyrnasoedd annibynol—y penaf o ba rai sydd fel y canlyn, gan eu henwi o'r gorllewin i'r dwyrain:—

| *Teyrnasoedd.* | *Prifdrefi.* |
|---|---|
| Bambarra | Sego. |
| Ludamor | Benowm. |
| Beroo | Walet. |
| Massina | Jenneh. |
| Timbuctoo | Timbuctoo. |
| Borgu | Boussa. |
| Yaouri | Yaouri. |
| Gando | Rabba. |
| Sokoto | Sokoto. |
| Andamawa | Yola. |
| Mandâra | Mora. |
| Bornu | Kuka. |
| Bagirmi | Masena. |
| Kânem | Maoo. |
| Wâdai | Warra. |
| Darfûr | Kobbe. |

Y mae y ddau ddiweddaf wedi eu cyssylltu yn ddiweddar â'r Aipht.

*Afonydd.*—Yr unig afon o bwys sydd yn y Soudan ydyw y Niger, neu y Joliba, a'r afonydd sydd yn dylifo iddi; sef, y Chadda a'r Sokoto. Y prif afonydd sydd yn ymdywallt i'r llyn Tchad ydynt y Komaduga a'r Shary.

*Prif drefi.*—Yn mhantle y Niger—Rabba, gyda phoblogaeth o 40,000. Boussa, lle y lladdwyd y teithiwr Mungo Park, yn 1806. Yaouri, prif dref teyrnas o'r un enw. Timbuctoo, gyda phoblogaeth o 20,000—y dref sydd yn fwyaf adnabyddus i Arabiaid yn yr holl Soudan; a phrif le masnach rhwng Barbary, Guinea, a Senegambia. Jenneh, prif ddinas Massina, a Kabara, porthladd Timbuctoo, ydynt drefi pwysig yn ngorllewin y Soudan. Sego, gyda phoblogaeth o 30,000, prif ddinas Bambarra, lle y gwelodd Mungo Park y Niger gyntaf, yn 1796. Funda a Yola, trefydd pwysig ar yr afon Chadda. Sokoto, gyda phoblogaeth o 80,000, prif ddinas teyrnas Sokoto, ar yr afon Joliba—y ddinas fwyaf poblog a phwysig yn nghanolbarth Affrica; yr hon sydd yn cario masnach helaeth yn mlaen gyda Tripoli ac Ashantee. Yma y bu Clapperton farw, yn 1827.

Yn mhantle y Tchad:—Kuka, prif ddinas teyrnas gref Bornu, ar y tu de-ddwyreiniol i'r llyn. Angornu, gyda phoblogaeth o 30,000, yw y fwyaf pwysig yn Bornu. Y mae ynddi farchnad wythnosol; a gwneir masnach helaeth ynddi mewn caethion, cotwm, amber, coral, &c. Kano, â phoblogaeth o 30,000, ar yr afon Komaduga; lle y mae gweithfeydd sidan, a masnach helaeth.

*Hinsawdd, a Chynnyrchion.*—Y mae hinsawdd y Soudan yn mhob rhan o honi yn hynod boeth; ac y mae y flwyddyn yn cynnwys dau dymmor—y gwlyb, a'r sych, neu y tymmor poeth. Y mae ceryg haiarn yn mhob rhan o'r wlad, a llwch aur yn yr afonydd. Nid oes ynddi goedwigoedd mawr yn y canolbarth, nac yn y rhanau gorllewinol; ond y mae y coed baobab, shea, palmwydd, cnau coca, ac *india-rubber* yn lliosog. Reis, ŷd India, a millet, ydyw y prif rawn a dyfir; a thyfir cotwm, tybaco, ac indigo hefyd yn lled gyffredin. Yr afon-feirch a'r afancod a heidiant y Niger; ac y mae elephantiaid, teigrod, udfilod *(hyenas)*, &c., yn lliosog. Ymlusgiaid adgas a gwenwynig a heidiant yr holl wlad hefyd, ac y mae trychfilod yn ddirifedi yn mhob cyfeiriad.

*Gweithfeydd, a Masnach.*—Offerynau haiarn a wneir ynddi yn benaf, a llestri wedi eu gwisgo âg aur, sidan, llian, cotwm, a defnyddiau lledr. Y mae masnach mewn mân nwyddau yn cael ei chefnogi yn mhob man; a cheir yn mhob pentref negröaidd farchnad lle y mae angenrheidiau bywyd yn cael eu gwerthu. Y mae ffyrdd i deithluoedd wedi eu tori allan gan natur yn y wlad; a chychwynant gyda chyssondeb o'r Aipht, Tripoli, Algeria Ddeheuol, a Morocco, i Kano a Timbuctoo—y rhai ydynt y prif drefi masnachol. Yr hyn y masnachir ynddynt yn benaf ydyw halen a soda, o'r gogledd; coed lliwio, a choed adeiladu, ac olew y palmwydd o'r gorllewin; a chaethion, llwch aur, ifori, cŵyr, plu, ac adamant o'r canolbarth.

*Poblogaeth.*—Y mae y Soudan, am oesoedd cyn côf, wedi bod yn gartref a phrif gyrchle yr hiliogaeth negröaidd. Eu crefydd, gan mwyaf, ydyw Mahometiaeth; ond yn y dwyrain, y mae Ffetishiaeth yn parhau. Yr ieithoedd a'r tafodiaethau a arferir drwy y wlad ydynt yn lliosog.

**GUINEA.** Enw ydyw hwn ar ran fawr o Affrica Ddwyreiniol, yn ymestyn ar hyd dwy ochr môr-gaingc o'r enw, o Sierra Leone i Benrhyn Negro. Gwel cyf. iii., td. 269.

Rhenir y wlad yn ddwy ran—Guinea Uchaf a Guinea Isaf. Ar y tu dwyreiniol, y mae Dyffryn y Congo; yr hwn sydd wedi ei ddarganfod yn ddiweddar, ac a elwir Teyrnas Rydd y Congo. Y mae y deyrnas hon yn debyg o agor y wlad i fasnach yr holl wledydd gwareiddiedig.

*Mesur, a Phoblogaeth.*—Mesura, heb gyfrif Teyrnas Rydd y Congo, 672,500 mill. pet.; yr hyn sydd tua phum gwaith maintioli yr Ynysoedd Prydeinig. Am rifedi ei phoblogaeth nis gellir bod yn sicr; ond tybir eu bod yn rhifo tuag 20,000,000. Rhenir Guinea oddi wrth y Soudan gan Fynyddoedd y Kong, y rhai sydd o 2,000 i 3,000 o droedfeddi o uchder. Rhwng y mynyddoedd hyn a'r môr y mae gwastadedd isel, a chorslyd mewn rhai manau, yn hynod o ffrwythlawn, wedi ei orchuddio â phorfeydd breision, ond yn hynod o afiach. Y mae y rhan hwn o Guinea yn ymestyn 1,800 milldir o hyd wrth 80 milldir. Mynyddoedd y Camaroon ydynt yn 13,000 tr. yn eu pigyn uchaf. I'r deheu o hyn y mae y tir yn hynod o isel. Ond y mae holl ganolbarth y wlad yn wastattir lled uchel.

*Rhaniadau Gwladol.*—Newidiant yn fynych;

Digitized by Google

ond ar yr adeg bresennol, y maent fel y canlyn :—

Rhenir GUINEA UCHAF i wyth talaeth; sef, Liberia, Gold Coast, Ashantee, Dahomey, Yariba, Benin, Eggarah, ac Old Calabar.

Y mae Liberia yn weriniaeth annibynol; ac yn cynnwys y wlad sydd rhwng yr afonydd San Pedro a Manna, ac yn mesur 14,000 o fill. pet. Cynnwysa ei phoblogaeth tua 18,000 o ymfudwyr o America, a'u hiliogaeth; y rhai, ynghyd â'r brodorion, a rifant tua 1,050,000. Ei phrif ddinas ydyw Monrovia (pobl., 6,000)—yr hon sydd yn 3,650 milldir o Lundain.

Cynnwysa Trefedigaeth y Gold Coast arfordir Morgaingc Guinea, ac ymestyna i'r tir ar gyfartaledd 50 mill. Mesura tua 29,401 o fill. pet., â phoblogaeth o 1,406,450. Perthynai gynt i'r Isellmyn a'r Prydeiniaid; ond Ebrill 6, 1872, trosglwyddwyd holl drefedigaethau yr Iseldiroedd i Brydain Fawr. I'r wlad hon yr anfonir ei chynnyrchion yn benaf. Ceir aur, yr hwn ydyw un o'i phrif allforion, yn fân ronynau yn gymmysgedig â phridd, a thywod, &c. Allforir hefyd ifori, gum copal, crwyn epäod, cotwm, ac olew y balmwydden; a dywedir y tŷf y balmwydden-olew yno yn hynod iawn o ffrwythlawn. Cape Coast Castle ydyw prif dref y sefydliadau Prydeinig. Prynodd Prydain Lagos, ynys fechan a phorthladd, yno yn ddiweddar; sydd yn debyg o fod yn ganolbwynt mawr i fasnach. Derbyniodd y drefedigaeth hon o Brydain, yn 1887, werth 267,177*p.*; ac anfonodd yma yn yr un flwyddyn werth 306,666*p*.

Rhenir GUINEA ISAF i bum talaeth; sef, Biafra, Loango, Congo, Angola, a Benguela.

*Trefi.*—Y maent, gan mwyaf, ar yr arfordir; rhanau o'r hwn sydd yn myned dan wahanol enwau, yn ol y defnyddiau a geir o honynt i'w hanfon i wledydd tramor:—er esampl, Grain Coast (Arfordir yr Yd); Gold Coast (Arfordir yr Aur); Slave Coast (Arfordir y Caethion); ac Ivory Coast (Arfordir yr Ifori), &c.

*Hinsawdd, a Chynnyrchion.*—Arfordiroedd Guinea Uchaf ydynt yn isel ac afiach, ac mae'r gwres yn fawr iawn yno. Rhenir y flwyddyn yn ddau dymmor; sef, y gwlyb, a'r sych. Yn y tymmor gwlyb, disgyna swm aruthrol o wlaw. Ar ol hyny, ceir tymmor niwlog yn gyffredin; yr hwn fydd yn hynod o afiach. Am Guinea Isaf, y mae hi yn llawn mor afiach, ac yn hynod agored i glefydau. Dywedir fod Loango, Congo, ac Angola, a chanolbarth Benguela, yn wledydd iach. Yr unig fŵn pwysig a geir yn Guinea Uchaf ydyw aur; yr hwn sydd i'w gael yn benaf yn Ashantee. Ond y mae aur, arian, efydd, a phlwm, i'w cael yn Guinea Isaf. Coed a llysiau y gwledydd hyn ydynt yn debyg i'r rhai a dyfir yn y Soudan. Ceir y gorilla, yr epa, y chimpanzee, a'r orang-outang, yn nghymmydogaethau yr afon Gaboon yn benaf.

*Gweithfeydd, a Masnach.*—Y mae yr Ashanteeaid yn hynod alluog i wneuthur peiriannau cerddorol; ac fel gweithwyr aur, y maent yn hynod o fedrus. Mewn gwneuthur llian o laswellt, a pharotoi lledrau, y maent yn dangos gallu neillduol hefyd.

*Y Trigolion.*—Negröaid ydyw yr holl frodorion; ac y maent yn gyffredin mewn sefyllfa isel o wareiddiad. Paganiaid ydynt oll—gyda'r eithriad o'r Mandingoaid, y rhai sydd yn Fahometiaid; ac ychydig o lwythau yn Guinea Isaf, y rhai sydd yn proffesu ffurf isel o Gristionogaeth. Caethwasiaeth ac amlwreicaeth ydynt yn gyffredin yno; ac y mae y gwahanol deyrnasoedd yn mron yn wastad mewn rhyfel â'u gilydd. Y mae yr ieithoedd gwahanol a siaredir gan y trigolion yn lliosog.

TEYRNAS RYDD Y CONGO. I'r dwyrain o Guinea Isaf y gorwedda Teyrnas Rydd y Congo; yr hon a ffurfiwyd yn ddiweddar. Fe gynnwysir o fewn y dalaeth hon, gyda dau eithriad bychan, yr holl bantle drwy yr hwn y mae y Congo yn llifo—am yr hon y mae sicrwydd erbyn hyn mai hi ydyw yr afon fwyaf o lawer sydd yn Affrica. Yr eithriadau a nodwyd ydynt yn agos i enau yr afon. Ar yr ochr ddeheu, y mae Ffraingc wedi cymmeryd meddiant o ran a elwir gororau Ogowe a Kwilu, gan eu bod yn cael eu sychu gan y ddwy afon hyn. Yr ochr arall i'r afon, am gryn bellder, y mae Portugal yn hawlio rhan, sydd o fewn terfynau Angola. Gyda'r eithriadau hyn, y mae holl bantle anferth y Congo yn cael ei gynnwys yn Nheyrnas Rydd y Congo. Ymestyna y pantle hwn o Fôr y Werydd ar y gorllewin, i Lyn Tanganyika ar y dwyrain, ac o ledred 4° gog. i Lyn Bangweolo yn Nghanolbarth Affrica, yn lled. 12° de. Mr. H. M. Stanley ydyw prif fforiwr *(explorer)* y rhanbarth ëang hwn; ac y mae yn anrhydedd i Gymru ei fod yn un o honom. Pa beth bynag a ddywedir gan yr Americaniaid, a'r Saeson, a'r byd yn gyffredinol, i'r gwrthwyneb—yn Ninbych, o fewn tua hanner cant o latheni i brif borth yr hen gastell, ar y llaw dde, mewn hen dŷ sydd erbyn hyn wedi ei glirio ymaith—yno y ganwyd Henry Morton Stanley! O hyn nis gall fod ammheuaeth, gan fod cyflawnder o brofion o hyny ar gael. Yn mysg eraill, y mae gan y golygydd (T. Gee) lythyr yn llawysgrifen Mr. Stanley ei hun, sydd yn ddigon i brofi hyn. Ei enw oedd John Rowlands—yr un enw a'i dad.

Yr oedd ei fam yn fyw hyd yn ddiweddar. Mrs. Jones oedd ei henw hi—drwy ei phriodas. Yn Glasgoed, treflan o ddeutu tair milldir ar yr hen ffordd o Lanelwy i Abergele, mewn tŷ ar y llaw ddeheu, tua dau cant o latheni o'r brif fynedfa i Bodelwyddan, yr oedd hi a'i gŵr yn byw. Y mae Mr. Stanley ei hun yn adnabyddus i lawer o drigolion Dinbych, a'r ardaloedd cylchynol; ac y mae ganddo amryw berthynasau yma. Am fanylion pellach, gweler yr Attodiad, d. g. STANLEY.

Ond i ddychwelyd at Dalaeth Rydd y Congo. Y mae yn cynnwys ochr ddeheuol y Congo hyd o fewn ychydig filldiroedd i Vivi; dau du yr afon oddi yno i Manyanga; yr ochr chwith oddi yno i'r cyhydedd, a'r ddau du iddi oddi yno yn mlaen. Yn y dwyrain, ymestyna hyd Lyn Tanganyika. Cyfrifir fod ei harwynebedd yn 802,000 o fill. pet.; a bod ei phoblogaeth tuag 8,000,000.

Gellir morio afon ardderchog y Congo gyda'r llongau mwyaf o'i genau, wrth Banana, i'r Yelala Falls, uwch law Vivi--pellder o 460 mill. Ond rhwng hyny a Leopoldville, ar Stanley Pool, pellder o 280 mill., y mae yr afon yn llifo mor wyllt, ac amryw raiadrau ynddi, fel nas gellir ei morio. Disgwylir y gellir cyfarfod â'r diffyg hwn mewn rhan drwy wneyd ffordd haiarn ar ei glanau yn yr ardaloedd hyn. O Leopoldville i'r Stanley Falls, pellder o 900 milldir, gellir ei morio. Ac oddi yno drachefn, gellir ei morio am lawer o gannoedd o filldiroedd. Y mae poblogaeth yr eang-diroedd hyn yn cynnwys

Digitized by Google

llwythau negröaidd lawer; o ba rai nid oes neb o'r bron wedi cyrhaedd sefyllfa dda o wareiddiad; ac y mae llawer o honynt yn gannibaliaid —yn fwytäwyr dynion. Dywedir fod llawer o ardaloedd ffrwythlawn ar ochrau yr afonydd; ond y mae y mynydd-dir diffrwyth sydd yn ysgaru rhwng yr afonydd o'r canolbarth, lle y mae tiroedd rhagorol, yn peri fod y draul o gludo defnyddiau yn sicr o fod yn rhwystr ar ffordd masnach am flynyddoedd lawer. Y mae yr afonydd canlynol yn llifo i'r Congo; sef, y Kasai, Mobangi, Ruhi, Lubanga, Arawhimi, a llawer eraill. Cyfrifir fod yr afon fawr hon, gyda'r afonydd eraill sydd yn ymdywallt iddi, pa rai y gellir eu morio, yn agor o leiaf 6,000 o filldiroedd i farsiandïaeth holl deyrnasoedd y byd. Nis gellir ammheu nad ydyw agoriad y parthau anferth hyn o Affrica i fasnach, gwareiddiad, a'r efengyl, yn un o'r digwyddiadau mwyaf pwysig a gymmerodd le yn yr amseroedd diweddar. Y mae trigolion yr holl wlad yn gorwedd mewn trueni annisgrifiadwy, a'u sefyllfa yn hynod o isel yn mhob ystyr.

Wedi i Mr. Stanley ymweled â'r wlad, a hysbysu ei ddarganfyddiadau, ffurfiwyd Cymdeithas Gydgenedlaethol yn Brussels, o dan lywyddiaeth brenin y Belgiaid, yn 1876. Cydnabyddwyd y Deyrnas Rydd, yn 1884 ac 1885, gan brif alluoedd Ewrop, a chan yr Unol Dalaethau, ar yr ammod o'i bod yn gweithredu ar egwyddorion masnach rydd, ac heb godi ond enw o dollau ar longau, er ei chynnorthwyo i gario gorchwylion y deyrnas yn mlaen, ac estyn cyfleusderau mwy i fasnach y byd.

Cynnwysa yr allforion olew y balmwydden, copal, ifori, cŵyr, coed lliwio, crwyn, &c. Y mae prysgwydd coffi, a chorsenau sugr, a chotwm, yn tyfu yn wyllt yn y wlad. Cafwyd aur yno, a haiarn, plwm, efydd, a mŵnau eraill. Y mae brenin y Belgiaid, yr hwn yw ei llywodraethwr, wedi gwaddoli y deyrnas hon â 40,000*p*. yn y flwyddyn, allan o'i gyfoeth personol.

**Nid oedd ei holl allforion yn y fl. 1887 ond 300,000*p*.**

NAMAQUALAND, neu GWLAD YR HOTTENTOTIAID. Y mae y wlad ëang hon yn cynnwys 1,000,000 mill. pet.—tuag wyth gwaith maintioli yr Ynysoedd Prydeinig. Nid oes un sicrwydd am nifer y boblogaeth, ond tybir eu bod yn rhifo tua 10,000,000. Y mae yr arfordir gan mwyaf yn isel, ac yn wastat-tiroedd gwaelion. Am y canolbarth, y mae yn uwch, ac yn fynyddig. Y prif afonydd ydynt y Swakop, yr Orange, a'r Great Fish River, neu yr Oup, sydd yn ymdywallt iddi. Tir ysgafn ydyw yn gyffredin, a thywodlyd, âg ychydig o borfa arno. Anfynych y gwelir gwlaw yno, ac y mae y trigolion yn dioddef llawer o eisieu dwfr.

Poblogir y wlad ëang hon gan lawer o lwythau o Hottentotiaid. Bernir yn gyffredin mai yr Hottentotiaid oedd trigolion cyntaf rhanau deheuol Affrica; a gwahaniaethir hwynt oddi wrth y Negröaid, y Bechuaniaid, a'r Kaffrariaid, gan amryw o neillduolion amlwg. Tybir mai dyma y genedl isaf, a mwyaf anolygus, o'r holl deulu dynol. Pobl ddïoglyd a diymdrech ydynt. Ni byddant byth yn trin y tir. Rhai o'r llwythau a dderbyniant eu cynnaliaeth oddi wrth wraidd, glydau, a math o fara yn cael ei wneyd o galon y balmwydden. Eraill a ymborthant ar forgrug, pryfed copyn, malwod, a locustiaid wedi eu sychu; ac eraill ar gynnyrch eu gwartheg, a helwriaeth. Dywedir eu bod, fel pobl, yn hynod iawn o amddifad o deimladau crefyddol o unrhyw natur. Fetishiaid, neu eilunaddolwyr, ydyw llawer o'r rhai sydd yn meddu rhyw fath o syniad am grefydd. Dywedir fod llawer wedi cofleidio Cristionogaeth. Y mae gwir iaith yr Hottentotiaid yn mron wedi darfod am dani; ond cynnrychiolir hi gan y Namaqua, a thafodieithoedd eraill, a siaredir i'r gogledd o'r cyhydedd, ac uwch law gwlad y Kaffrariaid.

## AFFRICA DDEHEUOL.

O dan y pen hwn cynnwysir y darn ëang hwnw o'r cyfandir sydd yn saith o raniadau gwladol; sef, Trefedigaeth y Penrhyn (gyda'r Transkei, a Griqualand gor.), a Natal—y rhai ydynt yn eiddo Prydain; Basutoland, Bechuanaland, a Zululand—y rhai ydynt fwy neu lai o dan amddiffyniad Prydain; a'r Transvaal, yr hon sydd yn ymarferol yn wlad annibynol; a Theyrnas Rydd Orange, yr hon sydd yn gwbl annibynol.

*Terfynau.*—Ar y gogledd, afon Limpopo, a'r afon Orange, neu Gariep; ar y gorllewin, Môr y Werydd; ar y ddeheu a'r dwyrain, Cyfanfor India. Y mae y darn mawr yma o Affrica yn cynnwys 451,000 mill. pet.; neu yn agos i bedair gwaith maintioli yr Ynysoedd Prydeinig; tra y mae ei phoblogaeth tua 4,000,000.

*Arwynebedd, a Mynyddoedd.*—Y mae Affrica Ddeheuol yn cynnwys nifer o wastat-tiroedd; y rhai sydd yn ymgodi yn uwch y naill ar ol y llall, o'r deheu i'r gogledd. Gwahenir hwynt gan gadwyni o fynyddoedd sydd yn rhedeg yn gyfochrog â'u gilydd, ac â'r arfordir cylchynol. O'r cadwyni hyn, Drakensberg, yn Kaffraria a Natal, ydyw yr uchaf (10,000 tr.)—â'i bigau uchaf yn fynych wedi eu gorchuddio âg eira.

*Afonydd, a Threfydd.*—Y prif afonydd yn Affrica Ddeheuol ydynt yr Orange, a'r Limpopo yn y gogledd. Y mae yr Orange yn derbyn y Great Fish a'r Vaal ar y dde, a'r Hartebeest a'r Brak ar y chwith. Disgyna yr afon Olifant, neu Elephant, i Fôr y Werydd; ac y mae yno amryw o ffrydiau bychain sydd yn ymdywallt i Gefnfor India.

Yn mhantle yr afon Orange y mae Bloemfontein, prif ddinas Teyrnas Rydd Orange; a Prætoria, prif ddinas y Transvaal.

Ar yr arfordir deheuol, y mae Cape Town, prif ddinas Trefedigaeth y Penrhyn—yr hon sydd yn meddu 33,000 o drigolion. Allforir o honi symiau mawr o winoedd, brandi, a gwlân. Port Elizabeth, yn cynnwys 13,000 o drigolion, ydyw y prif borthladd—a Graham's Town, gyda thua 7,000 o drigolion, cartref y llywodraeth yn y rhan ddwyreiniol o'r drefedigaeth, ydyw yr unig leoedd o bwysigrwydd. Butterworth ydyw prif ddinas Kaffraria. Pietermaritzburg ydyw prif ddinas Natal; a Durban, neu Port Natal, ydyw ei phrif borthladd; poblogaeth yr hon sydd yn 315,000—y rhan fwyaf o ba rai ydynt yn Gaffrariaid neu Zuluiaid.

*Hinsawdd, a Chynnyrchion Naturiol.*—Sych iawn ydyw yr hinsawdd, ac y mae y wlad yn hynod amddifad o bob clefydau heintus. Dywedir ei bod yn gymmhwys i bersonau sydd yn dioddef oddi wrth afiechyd ar eu hysgyfaint. Y mae Natal yn ddiguro fel gwlad iach. Cafwyd symiau mawr iawn o aur, yn 1868, ar yr afon Limpopo; ac yn ddiweddarach, cafwyd

Digitized by Google

llawer o ddarnau o adamant ar yr afon Vaal, rhwng yr afon Orange a Gweriniaethau y Transvaal. Y mae glô yn Natal; a haiarn, efydd, halen, &c., mewn amryw fanau. Nid oes yno fforestydd mawr, oddi eithr yn Natal; lle y mae llawer o'r dyffrynoedd wedi eu gwisgo â phinwydd, a choed eraill. Anfonwyd grawn o wahanol fathau o Ewrop yno, a ffrwythydd; ac y maent yn tyfu yn dda. Gwelir y llew, yr udfil, y llewpart, yr ych gwyllt, a'r afon-farch yno yn achlysurol. Anfynych y gwelir y rhyncorn; ac y mae yr elephantiaid wedi cilio y tu draw i'r afon Orange.

*Masnach.*—Gwlân ydyw y nwydd pwysicaf o lawer a anfonir o'r drefedigaeth. Anfonir gwin oddi yno hefyd; ond gyda'r eithriad o Constantia (cynnyrch dwy o winllanoedd wrth droed y Table Mountain), y mae y gwin yn hynod o wael. Yr allforion eraill ydyw crwyn, ffwrw *(furs)*, cyrn, aloes, ifori, plu estrys, sugr, coffi, a chotwm.

*Pobl.*—Yn Affrica Ddeheuol, ceir nifer fawr o wahanol genhedloedd—Ewropiaid, Kaffrariaid, Hottentotiaid, a rhai hiliogaethau cymmysgedig. Ystyrir fod yr Ewropiaid sydd yno wedi tarddu o'r ymsefydlwyr boreuol o Holland, a Phrydain, ac o ychydig o Ffrangcod a Germaniaid. Cyfyngir y Caffrariaid yn mron yn gwbl i'r rhanau dwyreiniol o Drefedigaeth y Penrhyn; tra y mae yr Hottentotiaid, gan mwyaf, yn preswylio yn y gogledd-orllewin. Y mae llawer o honynt, er hyny, yn gwasanaethu fel gweision i'r bobl wynion yn holl ranau y drefedigaeth.

PENRHYN GOBAITH DA. Yn cyf. iii., td. 270, ac yn ein sylwadau cyffredinol ar Affrica ac Affrica Ddeheuol, ceir manylion pellach. Trefedigaeth Brydeinig ydyw Penrhyn Gobaith Da (*Cape of Good Hope*). Yn fanwl, llain o dir uchel ydyw, yn agos i derfyn deheu-orllewinol eithaf Cyfandir Affrica.

Llywodraethwr presennol y drefedigaeth hon ydyw Syr H. G. R. Robinson. Derbynia gyflog o 6,000*p.* yn flynyddol.

Gan yr Isellmyniaid y sefydlwyd trefedigaeth y Penrhyn, yn 1652. Bechan ydoedd ar y cyntaf, ond yr oedd ei therfynau wedi eu ehangu cyn i Brydain gymmeryd meddiant o honi yn 1796. Yn ol Cyttundeb Amiens, 1803, rhoddwyd hi yn ol i'r Iseldiroedd; ond meddiannwyd hi drachefn gan filwyr Prydeinig yn 1806. Y mae ei therfynau wedi eu helaethu, drwy chwanegu ati Transkei a Griqualand gorllewinol, ac yn mesur 213,917 o fill. pet. Poblogaeth Trefedigaeth y Penrhyn yn niwedd 1887 oedd tua 1,377,213.

TRANSKEI. Ymestyna y tiriogaethau hyn o'r Kei i Natal, a therfynir hwynt ar y gogledd gan fynyddoedd uchel Quathlamba.

GRIQUALAND. Trwy ddeddfau seneddol, &c., a wnaed yn 1877 a 1879, cyssylltwyd y gwledydd hyn â Threfedigaeth y Penrhyn; sef, Griqualand ddwyreiniol, Fingoland, yr Idutywa Reserve, a Galekaland. Yn 1885, cyssylltwyd Tembuland a Bonavaland â'r drefedigaeth. Yn 1884, cyssylltwyd Port St. John's, a Walfish Bay; ac yn 1885, holl arfordir Pendoland.

Yn gyffredin, y mae y rhanau dwyreiniol a deheuol o'r drefedigaeth yn derbyn digonedd o wlaw, a'r wlad yn goediog, ac yn hynod gynnyrchiol. Gwlân a gwinoedd ydyw ei phrif gynnyrchion; a megir ceffylau, defaid, gwartheg, ac estrys yno gyda llwyddiant mawr. Y mae ynddi aur, glô, efydd, adamant, a manganese.

Allforion y drefedigaeth yn 1887 oeddynt 7,858,974*p.*; a'i dadforion yn yr un flwyddyn, 5,036,135. Y mae ei llywodraeth yn un seneddol, a'r weinyddiaeth yn gyfrifol i'r wlad. Y mae ei chynghor deddfwrol yn rhifo 22 o aelodau etholedig, a'i chyfordy *(house of assembly)* yn rhifo 76 o aelodau etholedig.

Capetown ydyw ei phrif ddinas—poblogaeth yr hon, yn 1888, oedd 37,545—heb gyfrif y trefydd cylchynol.

NATAL. Yr oedd trefedigaeth Natal ar un adeg yn ffurfio rhan o'r sefydliad yn Penrhyn Gobaith Da. Yn y flwyddyn 1856 y neilldu-wyd hi yn drefedigaeth ar ei phen ei hun, yn annibynol ar y Penrhyn, ac yn ddarostyngedig i goron Prydain; ac yn 1856 y rhoddwyd iddi ei breinlen. Gwneir y gallu llywodraethol i fyny gan lywydd, yn cael ei gynnorthwyo gan gynghor gweithredol, a chynghor deddfwrol o ddeg ar hugain o aelodau. Dewisir tri ar hugain o honynt gan y trigolion. Y mae pump yn aelodau wrth eu swydd, a phennodir dau o honynt gan lywodraeth Prydain. Llywodraethwr presennol Natal ydyw Syr A. E. Havelock; ac y mae efe yn derbyn tâl blynyddol o 4,000*p.* Yr oedd derbyniadau cyllid cyhoeddus y drefedigaeth am y flwyddyn 1887 yn 816,815*p.*, a'r treuliau yn yr un tymmor yn 689,572*p.* Prif ffynnonell y cyllid ydyw tollau a threthi; a'r hyn sydd yn galw mwyaf am y treuliau ydyw cadwraeth yr heddgeidwaid, a gweinyddiad y cyfreithiau. Ychydig o drefedigaethau Prydain sydd wedi eu sefydlu heb bwyso ar drysorfa y deyrnas hon: ond y mae Natal yn enghraifft o drefedigaeth o'r fath. Cafodd fenthyg 10,000*p.* yn ei dyddiau boreuol, ond y mae wedi eu talu yn ol er's cryn amser. Telir y costau milwraidd yno, fodd bynag, gan Brydain Fawr. Dyled gyhoeddus y drefedigaeth yn niwedd 1887 oedd 4,035,126*p.*

O ddeutu 19,000 o filldiroedd ysgwâr ydyw arwynebedd y drefedigaeth, a chyfrifid nifer y boblogaeth, yn niwedd 1887, yn 447,100. Nid oes ond ychydig o ymfudo wedi bod yno yn y blynyddoedd diweddar. Holl werth y dadforion yno yn y flwyddyn 1887 oedd 2,263,920*p.* Gyda Phrydain Fawr yn benaf y mae masnach dramor Natal. Y prif nwyddau a allforir oddi yno ydyw gwlân, crwyn, sugr, ifori, ŷd India, blew angora, a phlu estrys. Amaethir cotwm yno yn bresennol; ond ychydig sydd wedi ei ddanfon oddi yno yn ddiweddar.

BASUTOLAND. Gorwedda yn y gogledd-ddwyrain i Drefedigaeth y Penrhyn; ac ar ei therfynau y mae Teyrnas Rydd Orange, Natal, a Caffraria, neu Caffreland. Ei phoblogaeth yw tua 175,000. Gwlad dan amddiffyniad Prydain ydyw:—nid trefedigaeth. Y mae Ewropiaid yn cael eu gwahardd i ymsefydlu ynddi. Nid ydyw yr ychydig bobl wynion sydd yno ond y rhai sydd yn dwyn cyssylltiad â masnach, neu â'r llywodraeth. Y mae'r wlad yn cael ei dyfrhau yn dda. Dywedir mai hi ydyw y wlad y cynnyrchir ydau ynddi oreu yn Affrica Ddeheuol. Ei phrif gynnyrchion ydynt gwlân, gwenith, ac ydau eraill. Darganfyddwyd glô ynddi mewn dau fan. Y mae y wlad yn myned rhagddi yn gyflym. Llywodraethir hi gan Iswyddog sydd yn preswylio yno, dan gyfar-

Digitized by Google

wyddyd prif swyddog y deyrnas hon yn Affrica Ddeheuol. Ei phrif ddinas ydyw Maseru, gyda phoblogaeth o 600; 30 o ba rai sydd yn Ewropiaid. Swm ei chyllid yn 1887-88 oedd 30,100*p.*, a'i threuliadau yn 30,586*p.*

BECHUANALAND. Gorwedda i'r gogledd o Drefedigaeth y Penrhyn, ac ar ei de-ddwyrain y mae Gweriniaeth Affrica Ddeheuol, neu y Transvaal. Y mae y rhan o honi a berthyn i Brydain tua 270 mill. o hyd, a thua 170 o led—yn mesur 45,000 mill. pet. Am y rhan o'r wlad sydd dan amddiffyniad Prydain, mesura 135,000 mill. pet. Llywodraethwr Trefedigaeth y Penrhyn sydd yn awdurdodi ar y rhan a berthyn i Brydain, ac y mae yn meddu awdurdod i wneyd cyfreithiau trwy gyhoeddiadau swyddol yn enw y frenhines. Ond yn gyffredin, y mae deddfau Trefedigaeth y Penrhyn mewn grym yno.

ZULULAND. Gwlad y Zuluiaid. Gwlad yn Affrica Ddeheuol ydyw hon, i'r gogledd-ddwyrain o Natal; ac yn mron nad ellir dyweyd ei bod yn eiddo Prydain. Mesura 10,000 mill. pet., a thybir fod ei phoblogaeth tua 200,000. Y mae yn cael ei dyfrhau yn dda, a'r tir yn dda. Mesura ei harfordir tua 140 mill.; ac y mae yn llaith a phoeth, cyfaddas i dyfu corsenau sugr. Gwlad anwastad a bryniog ydyw, â'i hafonydd yn rhedeg yn gyflym. Ar ddechreu y ganrif hon, ffurfiodd penaeth Zuluaidd o'r enw Chaka ei bobl yn fyddin ar gynlluniau gwledydd Ewrop, a daeth yn llywydd yr holl wlad rhwng yr afon Limpopo a Threfedigaeth y Penrhyn. Yn 1838, dilynwyd ef gan ei frawd, Dingaan. Aeth amryw o gadfridogion Chaka yn annibynol, a ffurfiasant deyrnasoedd yn y gogledd a'r gorllewin pell. Dan Panda, olynydd Dingaan, cyfyngwyd y terfynau i'r hyn a adwaenir yn awr fel Zululand. Cetewayo oedd dilynydd Panda yn 1873, ac efe a ail drefnodd y fyddin. O blegid anghyttundeb a fu rhwng Cetewayo a llywodraeth Natal yn 1879, aeth byddin Prydain i'r wlad; ac ar ol brwydrau celyd, gorchfygwyd y Zuluiaid yn Gingihlova ac Ulundi, a chymmerwyd Cetewayo yn garcharor. Yna rhanwyd y wlad rhwng deunaw o benaethiaid; ond ni pharhaodd hyn yn hir. Yn 1882, cafodd Cetewayo ail feddiant o ran o'r wlad, gyda byddin frodorol, dan swyddog Prydeinig, rhyngddo a Natal; ond cafodd ei orchfygu yn fuan gan y penaeth Usibebu; a bu raid iddo ffoi i'r Zulu Reserve, lle y bu farw Chwef. 9fed, 1884. Appeliodd ei fab, a'i etifedd, Dinizulu, at y Böeriaid am gynnorthwy, a gorchfygwyd Usibebu Mehefin 10fed, 1884. Yn 1885-6, aeth llawer o'r Böeriaid i'r wlad, a gwthiasant y Zuluiaid allan, a chymmerasant feddiant o'u tiroedd. O herwydd hyn, aeth y Zuluiaid i'r Reserve, a Natal; a ffurfiodd y Böeriaid werinlywodraeth, gan wrthod cydnabod na chyttundebau na hawliau y brodorion, Awst 16eg, 1884, gan ei galw yn Weriniaeth Nieuwe—"*Nieuwe Republick.*" Ar hyn, pennododd Prydain Syr Arthur Havelock, llywodraethwr Natal, i ohebu âg arweinyddion y Böeriaid; a chydnabyddwyd eu hawl i'r darnau chwanegol yr oeddynt wedi eu meddiannu. Y mae y deyrnas newydd, a elwir "Y Weriniaeth Newydd," yn cael ei chyfyngu i'r rhan orllewinol o Zululand; ond nid ydyw yn cyrhaedd yr arfordir. Maintioli y deyrnas ydyw tua 1,380 mill. pet. Gelwir y brif ddinas yn Vryheid—ystyr yr hwn ydyw Rhyddid. Yn 1887, cyssylltwyd yr oll o Zululand â'r wlad hon, gyda'r eithriad o'r Weriniaeth Newydd—yr hon sydd yn mesur tua 8,200 o fill. pet. Yn ddiweddar yn 1887, ceisiodd dau benaeth Zuluaidd gynnorthwy y Böeriaid yn erbyn Prydain; sef, Dinizulu ac Undabuko; a bu cryn anghysuron mewn canlyniad. Etchowe ydyw prif ddinas meddiannau newydd Prydain yno.

TRANSVAAL. Gelwir hi hefyd, "Gweriniaeth Affrica Ddeheuol." Gorwedda rhwng lled. 22° 15′ a 28° 40′ deh., a hyd. 26° a 32° 10′ dwyr. Mesura 112,700 mill. pet., gyda phoblogaeth o 800,000, o ba rai y mae o 50,000 i 60,000 yn bobl wynion. Heb law ei gwartheg a'i chynnyrch amaethyddol, prif gyfoeth y wlad ydyw aur; a chafwyd yno efydd, plwm, cobalt, haiarn, a glô. Y mae hanes y wlad yn debyg fel y canlyn:—Yn 1840, yr oedd nifer o'r Böeriaid yn anfoddlawn i gael eu llywodraethu fel y gwnelid yn y Penrhyn—yn benaf ynglŷn â'r gaethfasnach, a'r modd yr ymddygid tuag at y brodorion; a gadawsant y drefedigaeth hono, ac ymsefydlasant yn Natal. Yr oedd eu hymddygiadau hwythau tuag at y Zuluiaid yn gyfryw fel y bu raid i lywodraeth y wlad hon ymyryd, a chyssylltu y sefydliad â Phrydain. Yn hytrach nag ymostwng i hyny, ymadawodd llawer o'r trigolion o Natal, croesasant yr afon Vaal, a sefydlasant wladwriaeth, yn yr hon y gallent weithredu yn fwy rhydd yn eu cyssylltiadau â'r brodorion. Yn 1854, cydnabyddwyd y wladwriaeth newydd. Ond yn 1877, darfu i lywodraeth y Penrhyn, gan ei bod yn ofni cythrwfl a allai arwain yr holl frodorion i ymgodi, gymmeryd meddiant o'r wlad, a'i chyssylltu. O herwydd hyn, cymmerodd nifer fawr o'r Böeriaid arfau, a llwyddasant i orchfygu niferi bychain o filwyr Prydain. Yna anfonwyd rhagor o filwyr yno, a buasai y gwrthryfel yn fuan wedi ei ddarostwng; ond ar ol ystyried pethau, rhoddwyd eu gwlad i fyny i'r Böeriaid, Awst 3, 1881, yn ddarostyngedig i ammodau neillduol, a bod goruwchlywodraeth coron Prydain yn cael ei gydnabod. Y prif drefi ydynt Potchefstroom, a Prætoria—yr hon yw y brif ddinas, gyda phobl. o 4,500.

Yr allforion yn 1885-6 oeddynt tua 600,000*p.*, a'r dadforion yn yr un flwyddyn yn 524,966*p.*

TEYRNAS RYDD ORANGE. Gweriniaeth yn Affrica Ddeheuol ydyw, yn gorwedd i'r gogledd o Drefedigaeth y Penrhyn. Sefydlwyd hi gan ymfudwyr Isellmynaidd o'r drefedigaeth hono. Cyhoeddwyd y wlad yn eiddo Prydain yn 1848, gan Syr Henry Smith; ond trwy gyttundeb a wnaed rhwng Syr George Clark, cynnrychiolydd neillduol y goron, a chynnrychiolwyr y wlad, cyhoeddwyd y trigolion yn "bobl rydd ac annibynol yn ngwir ystyr y geiriau, a bod eu llywodraeth i gael ymddwyn tuag ati o hyny allan fel llywodraeth rydd ac annibynol." Gwlad fugeiliol ydyw y Transvaal; ond y mae y rhan ddwyreiniol o honi yn hynod gyfaddas i dyfu ŷd. Y mae adamant, a meini gwerthfawr eraill, yn y wlad, a glô rhagorol. Gwlân, plu estrys, crwyn, a meini gwerthfawr ydyw y prif allforion. Mesura 41,484 mill. pet., gyda phoblogaeth o tua 134,000; o ba rai y mae mwy na'u hanner yn bobl wynion. Y mae y gallu deddfwrol yn gorwedd yn y Volksrand, yn cynnwys 55 o aelodau, y rhai sydd yn cael eu dewis gan y cynnrychiolaethau gwahanol i ba rai y mae y wlad wedi ei rhanu. Ei phrif ddinas ydyw

Digitized by Google

Bloemfontein, poblogaeth yr hon, yn 1885, oedd 3,270. Y mae ei hallforion a'i dadforion, bob un, tua 1,000,000*p.* yn y flwyddyn.

KAFFRARIA. Gwlad y Kaffrariaid (*Kaffres*) yn Affrica Ddeheuol. Y mae yr enw, pan y defnyddir ef yn awr, yn golygu y tiriogaethau a adnabyddir fel y Transkei, y rhai sydd yn gorwedd rhwng Basutoland a'r môr, a rhwng yr afon Kei a Natal. Cyssylltwyd rhan o'r wlad, a elwid gynt Kaffraria Brydeinig, â Threfedigaeth y Penrhyn yn 1863; ac adwaenir hi yn awr fel y ddwy ran o King William's Town ac East London. Gwel cyf. vi., td. 431.

CANOLBARTH DEHEUOL AFFRICA. Cynnwysa y parth ëang hwn wlad y Bechuaniaid, Anialwch Kalahári, a phantle y Zambeze, uwch law Gwladychfa Portugïaidd Tete. Cyfrifir ei fod yn cynnwys tuag 800,000 mill. pet., neu saith gwaith cymmaint a'r Ynysoedd Prydeinig; a thybir fod eu poblogaeth tua 15,000,000. Pobl ofnus ydyw y Bechuaniaid—llawer îs law y Kaffrariaid, o ran eu ffurf a'u cryfder. Trinant y tir, a thalant sylw neillduol i'w deadellau o ddefaid a gwartheg. Y Bakalahari, sydd yn preswylio yr anialwch, a'r Makololo, rhwng Llyn Ngami a'r Zambeze, ydyw y prif ddosbarthiadau o'r bobl hyn. Saif y Bechuaniaid, fel pobl, gryn lawer yn uwch nag y tybiwyd flynyddoedd yn ol. Y maent wedi gwneyd cynnydd canmoladwy yn y celfyddydau defnyddiol; ond y maent yn mron yn amddifaid o deimladau crefyddol. Er hyny, dangosasant yr ymlyniad dyfnaf wrth Dr. Livingstone; yr hwn oedd y cenhadwr Cristionogol cyntaf a ymweloedd erioed â'u gwlad.

AFFRICA DDWYREINIOL. O dan yr enw hwn cynnwysir holl ochr ddwyreiniol y cyfandir sydd yn gorwedd rhwng Machwy Delagoa a Morgaingc Aden.

*Ei Hanrywebedd, a'i Phoblogaeth.*—Terfynir hi ar y deheu gan Zululand a Gweriniaeth y Transvaal; ar y dwyrain, gan Gefnfor India; ar y gogledd, gan Forgaingc Aden; ac Abyssinia ar y gorllewin—y parth ëang sydd yn cynnwys y llynau mawr, a rhanau o'r canoldir sydd heb eu harchwilio. Golygir fod y darn mawr hwn o'r cyfandir yn mesur 1,979,000 mill. pet. Nis gellir gwneyd ond amcangyfrif o'r boblogaeth; yr hwn y tybir sydd tua 22,000,000. Ar yr holl arfordir y mae llysieuaeth o bob natur yn tyfu yn gryf; ac y mae llawer o fân ffrydiau yn rhedeg i'r cefnfor. Yn rhedeg am bellder oddi wrth, ac yn gyfochrog â'r arfordir, y mae cadwyni o fryniau a mynyddoedd sydd heb fod yn uchel.

*Rhaniadau.*—Yn y terfyn deheuol eithaf, y mae gwladychfeydd o Bortugiaid—awdurdod pa rai sydd wedi ei gyfyngu i barthau Sofala a Mosambique, y rhai sydd yn mesur 382,700 mill. pet., gyda phobl. o 300,000. Y mae y darn ëang o'r wlad sydd yn gorwedd rhwng y llynau mawr a'r cefnfor, a rhwng y Rovuma a Mombasa, o dan amddiffyniad Germany. O Mombasa hyd y cyhydedd, yn mron, y mae Prydain yn meddu awdurdod gyffelyb ar y wlad. Y mae Gallas a Somali yn mesur tua 890,000 mill. pet., gyda phobl. o 12,000,000.

*Afonydd.*—Yr unig afonydd pwysig yn yr holl ororau ëang hyn ydynt y Zambeze, yr hon sydd yn tarddu o Lyn Dilolo, a'i chyfeiriad tua'r dwyrain; a'r Congo. Tardda yn Llyn Lunda; a gelwir hi Luapula nes iddi fyned drwy Lyn Moero. Ar ol hyny gelwir hi Lualaba. Ond yn ei phen agosaf i'r môr, am lawer o gannoedd o filldiroedd, Congo, neu Livingstone, yw ei henw.

*Trefydd.*—Yn mhantle y Zambeze y mae Quillimane a Tete—trefydd caerog ar y brif afon, yn perthyn i'r Portugïaid, o ba rai yr allforir caethion, ifori, a llwch aur. Ar yr arfordir dwyreiniol y mae Sofala, prif ddinas y llywodraeth Bortugïaidd, o'r hon yr allforir symiau mawr o lwch aur. Tybir gan rai mai dyn.a "Gwlad Ophir" Solomon. Mozambique, gyda phobl. o 9,090, dinas gaerog etto, ydyw prif ddinas meddiannau y Portugiaid yn Affrica Ddwyreiniol, o'r hon yr allforir ifori, llwch aur, a chaethion. Zanzibar—gwlad yw hon yn mesur tua 406,000 mill. pet., a'i phobl. yn 7,000,000. Y mae ynys o'r un enw, yn mesur tua 625 mill. pet., a phobl. o 300,000. Y mae dinas o'r un enw hefyd; yr hon ydyw prif ddinas Sultan Zanzibar; ymherodraeth yr hwn sydd wedi ei gyfyngu i'r ynys hon, a Pemba, a llain cul o dir ar hyd yr arfordir. Berbera, ar Forgaingc Aden, yw y brif dref yn ngwlad y Somali; yr hon sydd yn enwog am ei choffi a'i gludau peraidd. Harar, y brif dref yn ngwlad Gallas, a allforia goffi, caethion, glud, a myrr, trwy ei phorthladd Zeyla, ar Forgaingc Aden.

*Hinsawdd, a Chynnyrchion.*—Yn y deheu, y mae yr hinsawdd yn debyg i hinsawdd Trefedigaeth y Penrhyn; ond yn mhob man arall y mae hi yn hynod o boeth, a gwlawogydd yn disgyn ar adegau neillduol; ac yn hynod afiach hefyd—fel y mae yn gyffredin rhwng y trofanau. Yn ynys Zanzibar, y mae y gwlaw sydd yn disgyn yn flynyddol yn mesur 167 mod. Darganfyddwyd glô rhagorol yn Mozambique; a llwch aur, efydd, ceryg haiarn, ac amber, mewn amryw ardaloedd.

*Masnach.*—Shanganny ydyw y brif farchnad yn y byd am *cloves*, ifori, a *gum-copal.* Yn ynys Socotra y ceir yr *aloes* rhagoraf sydd yn adnabyddus. Er fod Syr Bartle Frere wedi gorfodi yr Imam o Muscat, a phenaethiaid ereill, i arwyddo cyttundeb yn 1873, drwy yr hwn yr oeddynt yn rhwym i ddiddymu y fasnach ysgeler mewn caethion, y mae hi etto yn cael ei chario yn mlaen gyda grym a bywiogrwydd mawr drwy y rhan yma o Affrica.

*Pobl.*—Ystyria Burton a Speke fod brodorion yr arfordir dwyreiniol yn perthyn i deulu mawr y Kaffrariaid. Y mae Arabiaid yn lliosog yn nhiriogaethau Imam; ac y mae ychydig o Ewropiaid yn y gwledydd sydd dan lywodraeth Portugal.

MADAGASCAR. Hon yw yr ynys fwyaf sydd yn perthyn i Gyfandir Affrica, ac y mae yn gorwedd ar yr ochr ddwyreiniol o'r cyfandir, oddi wrth yr hwn y mae wedi cael ei gwahanu gan Sianel Mozambique; ac o'i chwmpas y mae dyfroedd Cefnfor India. Gwel cyf. vii. 158. Y mae ei maintioli o ddeutu dwywaith cymmaint a'r Ynysoedd Prydeinig, a chyfrifid ei phoblogaeth yn 1889 tua 4,450,000. Ei hyd ydyw 1,010 milldir, a'i lled 370 milldir; a mesura 228,540 mill. pet. Yn 1816, trwy Radama, brenin yr Hofahs, awdurdod yr hwn dros yr holl ynys a gydnabyddid, daeth y wlad i berthynas gwladol a masnachol â'r deyrnas hon. Ond yr oedd y Ffrangcod wedi bod â'u llygaid arni er's dau cant neu dri o flynyddoedd, a llawer ymdrech

Digitized by Google

wedi cael ei wneyd ganddynt i gael rhyw fath o feddiant o honi. A thrwy gyttundeb a arwyddwyd yn Tamatave, Rhag. 12, 1885, cyhoeddwyd Madagascar dan nawdd Ffraingc; a chaniatawyd i'r Ffrangcod gael porthladd yn Machwy Diego Suarez, i'w gwneyd yn borthladd llyngesol. Y mae y tir yn gyffredinol yn ffrwythlawn, y porfeydd yn dda, a fforestydd mawrion yn tyfu coed gwerthfawr, a phlanigion meddygol. Ei chynnyrchion eraill ydyw reis, sugr, sidan, cotwm, cnau cocoa, bananas, pytatw melus, indigo, pupur, india rubber, &c. Ychydig, mewn cymmhariaeth, yw ei chynnyrchion mwnawl. Cafwyd mŵn haiarn mewn amryw fanau; a dywedir fod glô i'w gael yno. Ceir aur, arian, efydd, a phlwm hefyd mewn symiau bychain. Mân-ddefnyddiau mewn aur ac arian, hetiau gwellt, a gwisgoedd a elwir lambas, ydyw prif ddefnyddiau masnach y wlad. Bu farw Ranavalo II. Gorphenaf 13, 1883, ac esgynodd ei nith, Ranavalona III., i'r orsedd; a hi sydd yn llywodraethu yn awr.

ASCENSION. Ynys ydyw hon yn y Werydd Ddeheuol, 760 o filldiroedd o St. Helena. Mesura tua 7½ milldir o hyd, a 6 o led. Nid oedd neb yn ei phreswylio hyd y fl. 1815, pan y cymmerodd Prydain feddiant o honi. Yn ngofal swyddogion Bwrdd y Morlys y mae hi yn cael ei hymddiried, a defnyddir hi at wasanaeth y llynges.

ST. HELENA. Y mae yn debyg fod hon yn un o'r ynysoedd sydd yn fwyaf adnabyddus yn y byd. Gorwedda yn y Werydd Ddeheuol, 760 mill. oddi wrth Ascension, a 1,200 mill. oddi wrth Gyfandir Affrica. Ei hyd ydyw 10½, a'i lled 6½ mill. Nid oedd ei phoblogaeth yn 1881 ond 5,059. Y mae ei hinsawdd yn rhagorol. Gwelwyd hi gyntaf gan forwr Portugïaidd, o'r enw Juan de Nova Castella, yn 1501; ond parhaodd yn anadnabyddus i drigolion Ewrop hyd 1588. Yr oedd heb drigolion nes i'r Isellmyn gymmeryd meddiant o honi. Yn 1673, cymmerwyd hi oddi wrth yr Isellmyn gan y Cadben Munden—un o swyddogion llynges Prydain; ac yn fuan wedi hyny, cafodd Cwmpeini yr India Ddwyreiniol siarter arni gan Siarl II. O 1815 i 1821, trosglwyddwyd hi gan y cwmni i'r llywodraeth, gan fod arnynt ei heisieu fel preswylfa i'r rhyfelwr enwog Napoleon Bonaparte; yr hwn a fu farw yno Mai 5, 1821. Codwyd ei weddillion yn 1840, ac anfonwyd hwynt i Paris. Un porthladd da yn unig sydd yn yr ynys; sef, Machwy St. James.

Ei dadforion yn 1887 oedd 46,853*p.*; a'i hallforion yn yr un flwyddyn yn 13,856*p.*

## AFFRICA.

### Cyfeiriadau Ysgrythyrol ati, &c.

Y prif wledydd o'r cyfandir hwn y mae cyfeiriad atynt yn yr Ysgrythyrau, yw yr Aipht, Ethiopia, a Lybia, am y rhai y traethir dan eu hamrywiol enwau; ac felly yr un modd am y rhanau a grybwyllir mewn hanes eglwysig, hen a diweddar.

Y mae Calmet, yn ei nodiadau ar arwyddocâd yr enw *Affrica*, yn meddwl y gallai darddu oddi wrth y gair Hebraeg *ophar* (llwch), neu *apher* (lludw), am fod rhanau meithion o'r wlad hon yn ddiffeithfaoedd tywodog, blin i'w teithio, a hollol ddiffrwyth. Neu, ynte, ei fod yn tarddu o *phreca*, gair yn arwyddo *tori ymaith*, neu *rwygo;* yr hyn sydd ddarluniadol o'r orynys yma, fel y mae wedi ei thori ymaith, megys oddi wrth Asia, gan y Môr Coch, ac yn cydio wrth y cyfandir mawr gerfydd cyfyngdir Suez yn unig. Ond yr enw cyffredin ar y cyfandir yma gan yr hen ysgrifenwyr Rhufeinaidd a Groegaidd oedd *Libya;* ac *Affrica* ydoedd enw a roddai y Rhufeiniaid ar un o'u talaethau yn y cyfandir hwn, yn yr hon yr oedd dinas Carthage.

Poblogwyd Affrica yn benaf gan Ham a'i hiliogaeth; Misraim a boblogodd yr Aipht; Pathrusim, Casluhim, Naphtuhim, a Ludim, a feddiannasant ranau eraill, y rhai nis gallwn eu nodi yn bendant yn awr; ond yr ydys yn gyffredin yn cyfleu Lehabim yn Lybia, a Phut rhwng Numidia a Lybia, ar lan Môr y Canoldir. Bernir hefyd fod llawer o'r Canaaneaid a yrwyd o'r wlad o flaen Iosuah, wedi cilio i Affrica.

Dygwyd yr efengyl yn foreu iawn i amryw barthau o Affrica: bernir fod yr efengylwr Marc wedi bod yn cyhwfanu baner y groes, ac yn cyhoeddi newyddion da yr efengyl yn y tir hwn; a chredir gan rai, mai yr Eunuch galluog o Ethiopia, yr hwn a ddysgwyd ac a fedyddiwyd gan Phylip, oedd yr offeryn cyntaf, yn llaw Duw, i ddadlenu trefn gras dwyfol i'r Abyssiniaid. Y mae yn ddiddadl fod amryw oleuadau disglaer wedi bod yn eglwysi Affrica, yn oesoedd boreu Cristionogaeth, megys Awstin, o Hippo; Cyprian, o Carthagena, &c.; am nodwedd, llafur, ac amserau pa rai y traethir dan eu hamrywiol enwau. Y mae rhyw weddillion o hen eglwysi blodeuog Affrica yn aros; sef, y Coptaidd a'r Abyssiniaidd: ond Och! fel y tywyllodd yr aur pur, ac y trawsfeddiannwyd lle y gwirionedd, fel y mae yn yr Iesu, gan grugau o ofergoelion a gwag-ddychymygion dynion llygredig eu meddyliau!

AGABA. Amddiffynfa yn agos i Ierusalem, yr hon a adferwyd gan Galestus, ei llywydd, i Aristobulus, fab Alexander Jannæus.—*Josephus, Hynaf.*, li. xiii., pen. 16, ad. 5.

AGABUS ["Αγαβος]: enw prophwyd, am yr hwn y tybir ei fod yn un o ddeg dysgybl a thrigain Crist. Daeth efe, ynghyd âg eraill, o Iudea i Antiochia, tra yr oedd Paul a Barnabas yno (B. A. 43), gan ragfynegu dynesâd newyn, yr hwn a fu hefyd y flwyddyn ganlynol; *Act.* xi. 27—30. Meddyliodd rhai fod y newyn yma yn gyffredinol; ond y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr diweddar o'r farn nad yw y geiriau gwreiddiol yn golygu yr holl fyd, na'r holl ymherodraeth Rufeinig chwaith; ond eu bod yn gymmhwysiadol at Iudea yn unig; fel yn *Luc* ii. 1; a bod eu cyfeiriad at y newyn hwnw a ymdaenodd dros Palestina yn y bedwaredd flwyddyn o Claudius. Cynnorthwyid yr Iuddewon tlodion yn gyffredinol y pryd hyny gan frenhines Adiabene, yr hon a anfonai i'r Aipht i brynu ŷd iddynt; ac er cynnorthwyo y Cristionogion yn y wlad hono, gwnelid casgliad gan y brodyr yn Antiochia, y rhai a anfonasant eu rhodd gyda Paul a Barnabas i Ierusalem. Yn mhen llawer o flynyddoedd ar ol hyn, cyfarfu yr un Agabus â Phaul, yn Cesarea, ac a'i rhybuddiai o'r dioddefiadau yr oedd i'w cyfarfod, os mynai fyned yn mlaen i Ierusalem.

AGAG [אגג, *goruwch-ystafell*]: ydoedd yr enw cyffredin ar frenhinoedd yr Amaleciaid, un o ba

Digitized by Google

rai oedd yn dra galluog mor fore ag amser Moses: *Num.* xxiv. 7. Gwel AMALEC.

2. AGAG. Yr oedd un arall yn byw yn amser Saul, yn elyn creulawn a gwaedlyd i genedl Israel. Gorchymynodd yr Arglwydd, drwy enau Samuel, i Saul fyned i ddinystrio yr Amaleciaid, er cyflawnu y farn a gyhoeddasid yn eu herbyn er ys pedwar can mlynedd cyn hyny, am eu creulondeb tuag at Israel ar eu dyfodiad o'r Aipht. Dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, wedi i'r Amaleciaid wneuthur yr ymosodiad hwn ar Israel, "Ysgrifena hyn mewn llyfr, yn goffadwriaeth; a mynega i Iosuah: canys gan ddileu y dileaf goffadwriaeth Amalec oddi tan y nefoedd;" *Exod.* xvi. 14. Ymddiriedwyd y gorchwyl hwn i Saul ar ol ei eneiniad yn frenin: ac efe a aeth yn eu herbyn â byddin gref, yn 210,000 o rifedi, a tharawodd yr Amaleciaid o Hafilah i Sur: ond yn groes i orchymyn yr Arglwydd, efe "a'r bobl a arbedasant Agag, a'r goreu o'r defaid," &c., o gybydd-dod ac awydd i'r anrhaith. Ceryddodd Samuel Saul yn llym am ei anufudd-dod a'i ragrith, gan hysbysu iddo wrthodiad yr Arglwydd o hono. Yna anfonodd i gyrchu Agag, yr hwn "a ddaeth ato ef yn hoew;" yn hyderus, efallai, y cawsai efe ei arbed ar gyfrif y sefyllfa anrhydeddus y buasai unwaith yn ei llenwi, ac am ei fod ar y pryd dan nawdd y brenin: ond Samuel a'i darniodd ef ger bron yr Arglwydd yn Gilgal, neu a barodd wneuthur hyny, wedi cyhoeddi arno yn gyntaf ddedfryd gyfiawn Barnydd yr holl ddaiar:—"Fel y diblantodd dy gleddyf di wragedd, felly (=*yr un ffunud, yn gymhwys*) y diblentir dy fam dithau yn mysg gwragedd." Ymwelwyd âg ef â'r un gospedigaeth a roddasai ef ar ereill:—fel y gwnaethai efe, felly y gwnaed iddo: 1 *Sam.* xv.

AGAGIAD: *Esth.* iii. 1; a viii. 3, 5. Gelwir Haman ar yr enw hwn, mae yn debyg, am ei fod o waedoliaeth breninoedd yr Amaleciaid, ac wedi etifeddu eu gelyniaeth at bobl yr Arglwydd.

AGARENIAID, neu HAGARIAID: hiliogaeth Ismael. Gelwid hwy wrth yr enw hwn oddi wrth Agar, o'r hon y tarddasant. Mae yr enwau Arabiaid a Saraceniaid yn fwy helaeth eu hystyr na'r enw hwn; o blegid y maent yn cynnwys hiliogaeth disgynyddion ereill Abraham, tra nad yw yr Agareniaid ond hiliogaeth Ismael yn unig. Ymddengys ddarfod i'r enwau Agareniaid ac Ismaeliaid gael eu rhoddi mewn amser ar lwythau gwahanol. "Pebyll Edom, a'r *Ismaeliaid*; y Moabiaid, a'r *Hagariaid*: *Salm* lxxxiii. 6. Trigent yn Arabia Felix, yn ol Pliny. Dywed Strabo, eu bod yn cyd-drigo â'r Nabatheaid (y rhai oeddynt hiliogaeth Ismael) a'r Chauloteaid yn Arabia Deserta. Tybia ereill, mai Petra oedd eu prifddinas, ac felly mai Arabia Petræa oedd eu tiriogaeth. Yn 1 *Cron.* v. 10, ni a gawn fod meibion Reuben wedi rhyfela â hwynt, a'u gorchfygu, a phreswylio "yn eu pebyll, trwy holl du dwyrain Gilead." Rhoddwyd yr enw gan Stockman, ac ereill, ar y rhai a wrthgiliasant yn y seithfed canrif oddi wrth Gristionogaeth at Fahometiaeth.

AGAT, ACAT, [שְׁבוֹ; Seis. *agate*; Gr. ἀχάτης]. Enw ar ddosbarth o geryg amryliw, ac mor galed, fel y gellir eu caboli. Y maent o'r un defnydd a'r gareg dân, sef y gallestr, ond fod ynddynt hwy ychydig o haiarn, yr hyn a achosa yr amryw liwiau ynddynt. Y mae rhai o honynt yn hanner tryloew, ereill yn dra thywyll, yn ol y swm o haiarn a gynnwysant. Y maent i'w cael yn y creigiau hyny, ffurfiad pa rai a briodolir i dân; ond pa fodd y ffurfir ceryg bychain mor brydferth yn nghanol y creigiau hyn, sydd ofyniad yn nghylch pa un nid yw daiaregwyr yn cytuno: ond y maent oll yn cydweled ddarfod ffurfio yr agat pan oedd y creigiau mewn cyflwr toddedig, a phan y byddai nwy yn dianc allan o honynt, ac yn achosi gwagleoedd bychain ynddynt; ac yn y gwagleoedd hyn y ceir yn awr geryg agat. Pa fodd y cafodd y defnyddiau, o ba rai y cyfansoddir yr agat, eu ffordd i'r celloedd hyn, sydd ddirgelwch. Rhai a dybiant, ddarfod i'r gallestr, eu prif ddefnydd (98 o bob 100 rhan), ymdywallt i'r tyllau hyn yn wlyb, ac yna galedu yn raddol: ereill, fod y gronynau hyn o gallestr yn rhedeg at eu gilydd trwy rym cyfattyniad: ereill, fod y gwres yn y creigiau yn gweithio allan ddefnyddiau yr agat i lenwi i fyny y gwagleoedd a achosid trwy ddiangiad y nwy.

Nid yw y chalcedon, yr onyx, y sardonyx, yr amethyst, a'r iaspis, ond math o agat. Cawn gyfeiriad at y meini hyn yn yr Ysgrythyrau sanctaidd. Yn *Exod.* xxviii. 19, y gwelwn fod yr agat yn un o'r perlau gwerthfawr yn y drydedd res yn nwyfroneg barnedigaeth. Hefyd yn *Esa.* liv. 12; "Gwnaf hefyd dy ffenestri o risial"= Seis., "*I will make thy windows of agates.*" *Ezec.* xxvii. 16; "a chwrel a gemau"=Seis., "*and coral and agate.*"

AGE, [אָגֵא, *dyffryn, llanerch*]: yr Harariad tad Sammah: 2 *Sam.* xxiii. 11.

AGEN—AU: holltiad, agoriad, ffiochen. Gosodwyd Moses mewn agen yn y graig, tra yr oedd gogoniant yr Arglwydd yn myned heibio iddo: *Exod.* xxxiii. 21, 22. Barna rhai, mai un o'r agenau a wnelsid yn y graig, pan ei tarawsid fel y llifeiriodd y dwfr o honi, i ddisychedu yr Israeliaid a'u hanifeiliaid, ydoedd. Mae yr Arabiaid yn arfer dangos hollt mawr yn y graig ar ran o fynydd Sinai hyd heddyw, am yr hon y mae yn draddodiad yn eu mysg mai yno y llechodd Moses tra yr oedd gogoniant yr Arglwydd yn myned heibio iddo. Yr oedd y graig ar yr hon y safai Moses, a'r agen yn yr hon y llechai, yn arlun nodedig o Grist; yn mherson, nodweddiad, ac iachawdwriaeth yr hwn yn unig y gallwn ni, bechaduriaid, trwy ffydd, weled gogoniant Duw, a byw. Bod y ddaiar yn agenu oedd ei bod yn sychu, yn caledu, ac yn diffrwytho, dan farn Duw: *Ier.* xiv. 4. "Taro y tŷ mawr âg agenau, a'r tŷ bychan â holltau," a ddynodai anrheithiad cyffredinol dinasoedd Israel gan y gelyn, neu ymweliad dinystriol daiargryn â'r wlad: *Amos* vi. 11.

AGENDA: rhangymmeriad lluosog o'r ferf Lladin *ago* neu *agere*=*gwneyd, cyflawnu.* Mae yn arwyddo, yn mysg duwinyddion, y pethau y mae dyn yn rhwym i'w *cyflawnu*, yn wrthgyferbyniol i *credenda*, yr hwn sydd yn deilliaw yr un fath o'r ferf Lladin, *credo* (*credere*), *credu*, ac yn arwyddo y pethau y mae dyn yn rhwym i'w *credu.*

AGGEUS: yr enw *Haggai*, yn ol yr iaith Roeg: 1 *Esd.* vii. 3; 2 *Esd.* i. 40.

AGNUS DEI. 1. Y Lladin am yr ymadrodd, *Oen Duw*; ac a arferir fel hyn yn anghyfieithedig yn ngwasanaeth yr Eglwys Babaidd.

Digitized by Google

**2. AGNUS DEI.** Yr arwyddlun neu ddelw o oen, yn cario baner neu groes, a arferir gan Babyddion yn eu gorymdeithiau mewn gwledydd Pabaidd; ac yn addurn i'w llyfrau, a dodrefn eu gwasanaeth, yn Mhrydain.

AGONISTICIAID, [*Agonistici*]: enw a roddai Donatus ar y rhai hyny o'i blaid a anfonid ganddo i'r ardaloedd cymmydogol, i'r ffeiriau a'r marchnadoedd, &c., i bregethu ei athrawiaeth. Mae yr enw yn arwyddo *ymdrechwyr*, oddi wrth y gair Groeg *αγον* (*agon*), ymdrech; am eu bod yn cael eu hanfon allan megys i ymladd â rhagfarn y bobl, a'u gorfodi i dderbyn eu hopiniynau hwy.—(*Rees' Encycl.*)

AGONYCLITIAID, [*Agonyclitæ*]: gair a gyfarfyddir weithiau mewn hanes eglwysig, fel enw ar ymblaid grefyddol a ffynai yn y seithfed canrif; prif egwyddor wahaniaethol pa un oedd, peidio penlinio byth, ar unrhyw achlysur, ond gweddio o'u sefyll bob amser.

**AGORIAD.** Yn unol â natur yr Hebraeg, fel y Gymraeg, y mae dyben agoriad yn cael ei ddangos yn ei enw, fel yr *agorydd*. Y mae o'r un gwreiddyn a'r gair a gyfieithir "agor:" *Diar.* viii. 6; "Agoraf fy ngwefusau ar bethau uniawn." Er fod agoriadau yn adnabyddus yn mysg yr Iuddewon — *Barn.* iii. 25; *Esa.* xxii. 22; cymharer 1 *Cron.* ix. 27—os barnwn oddi wrth y cyfeiriadau anfynych atynt, nid oeddynt mewn arferiad cyffredin. Yr oedd yr agoriadau yn llawer mwy na'r rhai sy mewn arferiad genym ni; ac ar achosion pwysig, byddent yn cael eu cario ar yr ysgwydd, i arddangos llywodraeth. Ac yr oedd dwyn yr agoriad yr un peth a meddu llywodraeth: *Esa.* xxii. 22; *Iob* xii. 14; *Dad.* i. 18; iii. 7; ix. 1; cymharer xvi. 19. Yn arwyddluniau yr Aiphtiaid, gwelir yn fynych y duwiau a'r breninoedd yn dwyn agoriadau ar eu hysgwyddau. Ac yn mysg eu dysgrifiadau darluniadol o fynediad yr enaid o'r byd hwn i'r byd arall, gwelir Isis, un o'r duwiesau, yn sefyll yn ymyl âg agoriad yn ei llaw, i ddynodi ei hawdurdod yn yr amgylchiadau pwysig hyn. Ac oddi wrth ei swydd hon, dysgrifiwyd y dduwies ar golofn yn Arabia, "Myfi Isis, wyf frenines yr Aipht: yr hyn a rwymais i, nis gall neb ei ddattod." Efallai mai oddi wrth yr Aiphtiaid yr aeth yr agoriad yn arwydd o awdurdod yn mysg yr Hebreaid, ac hefyd y Groegiaid. Yn rhai o ganiadau y Groegiaid, rhoddir agoriad y ddaiar i Pluto; agoriad y môr, i Proteus; ac agoriad y byd, i Gariad. Yn nghroniel Gregory Bar-Hebræus, y mae y geiriau hyn, "Yr Iuddew, yr hwn oedd ddoe mewn gwisg freninol yn llywydd ar y cwbl, âg awdurdod ganddo i *rwymo* a *dattod*, sydd heddyw yn gardotyn." Fe wasanaetha yr esamplau hyn i egluro y cyfeiriadau ysgrythyrol.

AGRIPPA. Mab i Herod Agrippa, ac orŵyr i Herod Fawr, yr hwn oedd frenin Iudea pan anwyd ein Harglwydd Iesu Grist. Gelwir ei dad yn y Testament Newydd wrth yr enw *Herod frenin* yn unig (*Act.* xii. 1, &c.); a hwn wrth yr enw y *brenin Agrippa*. Yr oedd ganddo ddwy chwaer, sef Bernice, y sonir am dani yn *Act.* xxv; a Drusila, am yr hon y crybwyllir yn *Act.* xxiv. Dywedir fod y flaenaf yn cyd-fyw âg Agrippa, fel ei wraig. Teulu hunanol a diegwyddor oedd holl deulu Herod Fawr; eto, buant yn llwyddiannus, trwy eu gweniaith i'r rhai oedd yn oruchel yn Rhufain, a thrwy eu creulondeb at y rhai oedd dan eu llywodraeth. Ar farwolaeth ei dad (*Act.* xii.; B. A. 44), nid oedd Agrippa ond dwy ar bymtheg oed. Rhoddodd Claudius Cæsar, ymherawdwr Rhufain, iddo deyrnas Chalcis, yn nghyd â chadwraeth y deml a'i thrysorau, a'r hawl i ddewis yr archoffeiriaid; ond gommeddodd roddi Iudea dan ei lywodraeth, gan ei farnu yn rhy ieuanc i'r gorchwyl. Ar yr amser y gwnaed Ffelix yn llywodraethwr Galilea, yn B. A. 53, symmudodd Claudius ef o Chalcis, i fod yn detrarch Batanea, Trachonitis, Gaulonitis, gyd âg Abilene;—taleithiau bras a chyfoethog. [Gwel *Hanes Rhyfeloedd yr Iuddewon*, llyfr ii. pen. 12, adran 8.] Yr hanes cyntaf a geir am dano yn y Testament Newydd, yw ei fod ef a Bernice yn dyfod i ymweled â Ffestus, i gyfarch iddo ar ei ddyfodiad i lywodraeth Galilea, ar ol Ffelix; pan yr oedd yr apostol Paul yno yn garcharor. Gan fod Agrippa mor adnabyddus âg arferion yr Iuddewon—wedi cael ei ddwyn i fyny yn eu plith, ac yn hawlio perthynas â hwynt—dangosodd Ffestus iddo achos yr apostol, er mwyn iddo gael rheswm i'w ddanfon gydag ef, am ei garchariad, i Rufain. Bu hyn yn agoriad drws i Paul i esbonio athrawiaeth yr efengyl, mewn araeth, efallai na fedd yr iaith Roeg mo'i gwell, o ran priodol eiriau a rhesymeg. Mor nerthol oedd ymadrodd Paul fel y synodd ar Ffestus, a meddyliodd ei fod yn ynfydu, gan na wyddai efe yr Ysgrythyrau, nac arferion y genedl Iuddewig; ac a waeddodd yn y cynghor, "Paul, yr wyt ti yn ynfydu; llawer o ddysg sydd" wedi dwyn ymaith dy synwyrau. Yna yr atebodd yr apostol, mai geiriau sobrwydd oedd efe yn eu traethu, ac y gwyddai y brenin hyny: yna, gan droi at Agrippa, y mae yn gwneuthur yr appeliad mwyaf treiddgar a gafaelus ar ei gydwybod, ac yn gwaeddi, "A wyt ti yn credu i'r prophwydi? mi a wn dy fod yn credu." Trwy hyn dangosodd iddo nad oedd yn bosibl iddo gredu iddynt hwy heb dderbyn yr efengyl hefyd. Deffrowyd cydwybod y brenin; ac yn ol gonestrwydd ei feddwl, efe a atebodd, "Yr wyt ti o fewn ychydig i'm hennill i fod yn Gristion." Ond y mae lle i ofni nad aeth Agrippa ddim pellach.

Yr oedd Agrippa, bob amser, yn wir gyfaill i'r Iuddewon; ac yn y rhyfel a dorodd allan, heb fod yn hir ar ol yr hyn a gymmerodd le uchod, rhwng y genedl wargaled hono a'r Rhufeiniaid, efe a wnaeth gymmaint ag oedd yn ei allu, ac oedd yn bosibl i wladgarwr ei wneuthur, drostynt, er eu dwyn i ufudd-dod i'r ymherawdwr; a llawer gwaith y gosododd efe a'i gyfaill Flavius Josephus eu bywydau mewn perygl, trwy fyned atynt i erfyn arnynt geisio ammodau heddwch, a rhoddi eu harfau gwrthryfelgar i lawr. Bu Agrippa fyw flynyddoedd ar ol dinystr Ierusalem. Bu farw yn 70 mlwydd oed, B. A. 99. Efe oedd y tywysog diweddaf o deulu Herod.

**AGUR,** [אגור, *casglydd*]. Enw ysgrifenydd casgliad o ddiarebion, y rhai a chwanegwyd at yr eiddo Solomon, ac a gynnwysir yn y ddegfed bennod ar ugain o'r llyfr hwnw. Barnai Gesenius, mai gwrthddrych allegawl ydoedd Agur, yn hytrach na gwir ddynsawd; ac efe a ddadleuai mai darnodiad Syriaidd o un ymroddgar i geisio doethineb ydyw y gair, yn hytrach nag enw personol: ac y mae yn rhaid addef na sonir un gair am Agur, na neb o'i dylwyth, mewn un rhan arall o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Ond mae y darluniad manwl a neillduol a roddir o hono yma, fel "mab Iaceh:" a'r gŵr a lefarodd ei ddi-

Digitized by Google

archion ar y cyntaf wrth ei gyfeillion Ithiel ac Ucal; yn gadael argyhoeddiad ar ein meddyliau ni ei fod yn enw dyn neillduol, ac mai nid ffug-enw ar Solomon, na neb arall ydoedd, fel y tybiodd rhai. Ni ddodai y Deg a Thrigain mo'r bennod hon, a briodolid i Agur, na'r naw adnod flaenaf o'r bennod ganlynol iddi, yn eu cyfieithiad o'r Hen Destament; yr hyn a brawf, efallai, eu bod hwy yn petruso pa un a berthynent i'r cyflyfr sanctaidd, neu nad oeddynt yn adnabyddus iddynt. Gelwir y cyfansoddiad hwn, "y brophwydoliaeth;" enw a roddid yn fynych ar gynnyrchion diammheuol ysbryd prophwydoliaeth. Efallai mai rhai o'i ddysgyblion oeddynt Ithiel ac Ucal, wrth y rhai y llefarodd efe yr addysgiadau gwerthfawr hyn. Crybwyllir enw Ithiel yn *Neh.* xi. 7. Gallem gasglu am Agur, mai trwy ddysgeidiaeth ddwyfol, heb nemawr o gymhorth addysg ddynol, y cawsai efe ei gymhwyso, fel Amos gynt, i brophwydo,—"Yn wir," medd Agur, "yr ydwyf yn ffolach na neb, ac nid oes deall dyn genyf. Ni ddysgais ddoethineb, ac nid oes genyf wybodaeth y sanctaidd." Ac yn gyffelyb y dywedai Amos mewn atebiad i Amazia, —"Nid prophwyd oeddwn i, ac nid mab i brophwyd oeddwn i; namyn bugail oeddwn i, a chasglydd ffigys gwylltion: a'r Arglwydd a'm cymmerodd oddi ar ol y praidd, a'r Arglwydd a ddywedodd wrthyf, Dos, a phrophwyda i'm pobl Israel;" *Amos* vii. 14, 15.

**AGWEDD—AU**, [*ag—gwedd*]: ffurf, dull, ystum, arlun; *Iob* iv. 16; 1 *Bren.* vi. 25; 2 *Bren.* xvi. 10. "Gan gymmeryd arno agwedd gwas;" *Phil.* ii. 7. Y gair a gyfieithir yn y fan hon, *agwedd*, ac yn yr adnod flaenorol *ffurf*, ydyw μορφῆ. Ni cheir ef ond unwaith yn y Testament Newydd, heb law yn y ddau le yma; sef yn *Marc* xvi. 12; a chyfieithir ef yno *gwedd*. Y Seisoneg, yn y tri lle yw *form*. Yn y Deg a Thrigain, rhoddir ef am תבנית (*tabnith*), cynllun, cynddelw, megys yn *Esa.* xliv. 13. Y gair Cymraeg yn y lle hwn yw *delw*. Cyfieithir ef hefyd am זיו (*zif*), dysgleirdeb, megys yn *Dan.* v. 6, 10; vii. 28. Yn y testyn Cymraeg, y geiriau cyfatebol ydynt *llun*, a *gwedd*. Arferir ef hefyd am תמונה (*temuna*), ymddangosiad, ffurf; *Iob* iv. 16. Cymhwysir μορφῆ gan ysgrifenwyr paganaidd at y duwiau, i ddynodi eu ffurf pan wnaent eu hunain yn weledig i ddynion; ac arwydda, yn fwyaf mynych, yn eu gweithiau hwy, *ffurf brydferth*, ac weithiau prydferthwch y rhyw fenywaidd, destlusrwydd arddull, tegwch gwynebpryd, a lledneisrwydd ymddygiad.

Barna rhai esbonwyr mai wrth "ffurf Duw" y meddylir, y pelydrau gogoneddus o ddwyfoldeb a lewyrchent ar brydiau yn mywyd yr Arglwydd Iesu. Tybia y Sosiniaid, a rhai o'u hoff esbonwyr, mai y gallu gwyrthiol â pha un y cynnysgaethwyd ef, a feddylir; ond y mae y ffaith fod yr apostol yn ystyried ffurf Duw fel rhywbeth ag y darfu i'r Mab, yn ei ymgnawdoliad, ymwaghau (κενουν εαυτον) o honi, yn milwrio yn erbyn y syniad hwn. Mae yr un rheswm yn myned yn wrthwyneb i olygiad arall a gynnygir; sef, fod ffurf Duw yr un peth a'i natur a'i hanfod—μορφη yn gyfystyr a φυσις. Nis gall hyn fod yn gysson, o blegid yr oedd "holl gyflawnder y Duwdod yn trigo ynddo yn gorfforol" pan oedd yn nyddiau ei gnawd. Mae yn debygol fod yr ymadrodd yn golygu y goleuni gogoneddus, yn yr hwn y dywedir fod y Duwdod yn trigo —"y goleuni nas gellir dyfod ato;" o'r hwn nid oedd y gogoniant tanbeidiol yn y sancteiddiolaf ond arwyddlun ac adlewyrchiad gwanaidd. Dyma wisg Iehofah; ynddi hi yr ymddangosai i'r patriarchiaid a'r prophwydi gynt. Hyn a elwir yn *wedd* ac yn *wyneb* yr Arglwydd; *Ioan* v. 37; *Salm* xxxi. 16. Cadarnheir y syniad hwn gan ystyr y gair Groeg, yr hwn yn ddiwahaniaeth sydd yn golygu ffurf ac ymddangosiad unrhyw beth neu berson, ac nid ei hanfod a'i sylwedd. Mae yr ymadrodd, μορφὴν δούλου, hefyd yn cadarnhau hyn; arwydda, nid fod yr Arglwydd Iesu mewn gwirionedd yn gaethwas, ond ei fod yn gyffelyb mewn ffurf ac ymddangosiad. Yn mhlith ei ddysgyblion yr oedd fel un yn gwasanaethu: *Ioan* xxii. 25.

*Agweddau*, mewn arlunyddiaeth a cherfwaith, ydynt ddulliau a gosgedd yr arlun neu y gerfddelw, neu y trefniad a'r cyflead hwnw o wahanol ranau y portread ag a wasanaetha i amlygu gweithrediadau a theimladau y person a arddangosir.

Yn mysg y dwyreinwyr yr oedd yn beth cyffredin i arddangos teimladau y galon mewn agweddau ac ystumiau corfforol. Y mae hyn yn bod i raddau yn mysg holl genedloedd y ddaiar, a diau fod gwreiddyn ac achos yr arferiad mewn natur;—y mae yn naturiol i deimladau y galon arddangos eu hunain mewn iaith ac agweddau corfforol. Ond yr oedd hyn, er yn naturiol i bawb, ac i bob cenedl yn ogystal, yn cael ei feithrin yn fwy, ac yn cael ei gario yn mhellach gan y dwyreinwyr nag un genedl arall. Cyfeirir yn y Beibl at yr agweddau corfforol hyny a arddangosant y teimladau o addoliad, ymostyngiad, erfyniad, a pharch; ac wrth edrych yn fanwl iddynt, y mae yn hawdd gweled eu bod yn dwyn cryn debygrwydd i'r agweddau a arferir hyd y dydd hwn yn y gwledydd dwyreiniol, ac i'r rhai a arferid gynt yn yr Aipht, y rhai y gellir eu hadnabod oddi wrth y darluniau a'r cerfiadau a drosglwyddir o'r wlad hono.

Addoliad ac ymostyngiad. Mae un o'r geiriau Seisonig am addoli—*adoration*—wedi ei ffurfio o ddau air Lladin, sydd yn srwyddo *dwyn y llaw at y genau*, neu *gusanu y llaw;* ac at hyn y cyfeiria Iob mor darawiadol yn *pen.* xxxi. 26: ac y mae yn hawdd dangos fod lluaws o eiriau ereill mewn gwahanol ieithoedd am addoli, ymostwng, &c., yn meddu cyfeiriadau at yr agweddau corfforol a arferid wrth ddangos y teimladau hyny. Byddai y Rhufeiniaid yn addoli â'u penau yn orchuddiedig, a chusanent eu llaw; byddai eu bys bach yn gorphwys ar y fawd; a chan grymu eu penau, hwy a dröent o aswy i dde; weithiau safent, neu gogwyddent yn mlaen, gan sefydlu eu llygaid ar y ddaiar. Penlinient hefyd yn fynych, ac ar brydiau syrthient ar eu hyd ar y ddaiar. Eisteddai yr Aiphtiaid ar eu sodlau wrth addoli. Byddai y Persiaid bob amser yn troi eu gwynebau at yr haul neu y dwyrain; a dywedir mai yn eu plith hwy y dechreuodd yr arferiad grybwylledig o gusanu y llaw. Cusanent law breninoedd a gwyr mawrion fel arwydd o ymostyngiad a pharch, a hawdd y gallasai yr arferiad gael ei throsglwyddo i'w defosiynau crefyddol. Y Moslemiaid, neu y Mahometiaid, yn eu gweddïau a daflent eu hunain, yn ol y drefn sefydledig yn eu plith, i naw o wahanol agweddau, y rhai a farnent y mwyaf cyfaddas i wahanol ranau y gwasanaeth. Ni a ddygasom yr holl agweddau (naw) i'r erthygl hon; o herwydd fod yn debygol fod yr Hebreaid yn eu hamrywiol addoliadau yn arfer braidd yr holl agweddau ag a arferid gan y Moslemiaid, ond yn unig ar un achlysur.

Digitized by Google

Dyma y prif wahaniaeth rhyngddynt. Mewn addoliad cyhoeddus, gweddïai yr Hebreaid *yn eu sefyll* (1 *Bren.* viii. 54; *Ezra* ix. 5; *Dan.* vi. 10; 2 *Cron.* vi. 13); ond yn eu haddoliadau dirgel, cymmerent yr agweddau hyny a ymddangosent fel y mwyaf manteisiol a chyfaddas i'w teimladau ar y pryd. Ymddengys mai rhyw ffurf o benlinio oedd y mwyaf arferedig mewn defosiwn dirgel.

1 2 3 4 5 6 7 8 9



Dar. 4.

Sefyll, ydyw arferiad presennol yr Iuddewon mewn gweddi gyhoeddus. Cymmerwyd yr agwedd hon o'r synagog gan y Cristionogion cyntefig, a myntumir hi yn barhaus gan yr eglwysi dwyreiniol. Ymddengys hefyd oddi wrth eu cofadeiliau mai hyn oedd arferiad y Persiaid a'r Aiphtiaid yn yr hen amseroedd, er fod y rhai diweddaf weithiau yn penlinio o flaen eu duwiau. Yn addoliad y Moslemiaid, fel y gwelir, y mae pedwar allan o bob naw yn sefyll (1, 2, 4, 8); ac agwedd y tri o'r pedwar hyn (2, 4, 8) sydd yn sefyll gyda dwylaw plethedig, ydyw yr agwedd dwyreiniol mwyaf priodol a pharchus. Yn yr ystum hon y safai un ger bron breninoedd a gwŷr mawrion. Tra yn addoli yn yr agwedd hon, byddai y dwylaw ar brydiau yn estynedig tua'r nef (1 *Bren.* viii. 22; 2 *Cron.* vi. 12, 29; *Esa.* i. 15). Byddai dyrchafu y llaw ddeheu wrth wneuthur llw yn beth mor gyffredin, fel y byddai i un ddyweyd, "Mi a ddyrchefais fy llaw," yn gyfystyr a phe dywedasai, "Mi a dyngais" (*Gen.* xiv. 22. Cymharer xli. 44; *Deut.* xxxiii. 40.

1 2



Dar. 5.

Yr oedd yr agwedd hon yn arferedig hefyd gan genedloedd ereill; ac ni a gawn esamplau o honi yn ngherfluniau Persia a Rhufain. Safai y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn fwyaf cyffredin yn eu haddoliadau; os nad ydym yn camsynied—y Rhufeiniaid bob amser.

Penlinio hefyd, oedd un o'r agweddau a arferid wrth addoli. Yr oedd hwn yn dull lled gyffredin, a diammheu ei fod yn un o'r agweddau mwyaf priodol yn ngŵydd yr Anfeidrol. Mae yn dangos fod yr addolydd yn teimlo y dylai ymostwng a bychanu ei hun yn mhresennoldeb Un sydd uwch nag ef; i enaid sydd yn ymdeimlo yn ddim, ac yn llai na dim ger bron Duw, y mae gallu plygu a phenlinio yn ymwared. Mae yn dwyn y dyn oddi allan i agwedd gyfatebol i'r eiddo y dyn oddi mewn. Nid oes dim yn fwy priodol i ysbryd isel a gostyngedig na dwyn y corff, mor bell ag y mae yn bosibl, i'r un agwedd. Mae genym lawer o esamplau o'r agwedd hon. Yr oedd yn gyffredin yn Iudea, yr Aipht, a llawer o wledydd ereill. Mae gostwng ar liniau yn cael ei ddarlunio yn fynych yn y Beibl fel dull o addoli: 1 *Bren.* viii. 54; *Ezra* ix. 5; *Dan.* vi. 10; 2 *Cron.* vi. 13; *Luc* xxii. 41; *Act.* vi. 60. Pan oedd y Duw-ddyn yn ei ing yn yr ardd, a'i enaid yn drist hyd angeu, *efe a aeth ar ei liniau.* Mae y dull hwn, medd Kitto, o ddechreuad dwyreiniol, ac y mae tair ffurf o hono yn cael eu cadw yn addoliad y Moslemiaid. Byddai yr Aiphtiaid, yn gystal a'r Hebreaid, nid yn unig yn penlinio, ond yn ymdaflu ar y ddaiar.



Dar. 6.

Arferai yr Iuddewon, i'r dyben o ddangos yr edifeirwch a'r hunan-ffieiddiad mwyaf, daflu, nid yn unig eu cyrff, ond eu penau ar y ddaiar. Y dull cyffredin yn bresennol o wneyd hyn, ydyw yr un a ddangosir yn agweddau y Moslemiaid (5), yn yr hwn y mae y corff yn gorphwys ar y gliniau, y breichiau, a'r pen. Yr oedd yr agwedd hon yn arddangosiad o'r gostyngeiddrwydd dwysaf, yr ymostyngiad mwyaf, ac ymneillduad y meddwl oddi wrth wrthddrychau gweledig, a'i ymsefydliad ar Dduw a phethau ysbrydol. I'r dyben o arddangos gofid, hunan-ffieiddiad, ac edifeirwch, rhoddai yr Israeliaid ludw ar eu penau (*Ios.* vii. 6; *Iob* ii. 12; *Galar.* ii. 10), fel ag y gwneir hyd y dydd hwn gan y dwyreinwyr. Mae y crybwylliad a wneir am gyfeillion Iob, eu bod yn "taenu llwch ar eu penau," yn brawf ei fod yn arferiad yn y cyn-amseroedd. Dywed Herodotus (ii. 85), fod hyn yn arferiad gan yr Aiphtiaid hefyd. "Eu dull o arwylo a chladdu," medd yr hanesydd, "sydd fel y canlyn:—pan y mae rhyw un o enwogrwydd mewn teulu yn marw, y mae holl fenywod y teulu yn *iro eu penau a'u wynebau â llaid;* ac yna, gan adael y corff yn y tŷ, hwy a wibiant ar hyd y ddinas, ac a gurant eu hunain," &c. Mae y cofadeiliau yn Thebes yn dangos personau yn cyflawnu yr hyn a ddarlunia Herodotus, ac yn penlinio ar un glin.

Onid yw yn debygol mai oddi wrth yr Aiphtiaid y cafodd yr Hebreaid yr arferiad hon? Yr oedd yn beth cyffredin hefyd, mewn amgylchiadau o gyfyngder, i un "guro ei ddwyfron;" *Luc* xviii. 13.

Eistedd, sydd agwedd arall ar y corff wrth addoli. Dywedir, yn 2 *Sam.* vii. 18, fod Dafydd wedi myned i mewn, ac eistedd ger bron yr Arglwydd; ac yn yr ystum hono y gweddïodd. Nid yw yr eisteddiad y cyfeirir ato yma o'r un dull a'r eisteddiad cyffredin:—ond fel y nawfed ffurf yn yr

agweddau Moslemaidd. Penlinia yr addolwr yn gyntaf, ac yna eistedda yn ol. Bernir mai yn yr agwedd hon, neu un gyffelyb, yr oedd Elias, pan yr oedd ei "ben rhwng ei liniau:" 1 *Bren.* xviii. 42. Yn y dull hwn o eistedd, yr oeddynt yn



Dar. 7.

hynod ofalus am agwedd y dwylaw: rhoddent hwy dros eu gilydd, neu yn mhleth, neu cuddient y naill yn llawes y llall.

Erfyniad hefyd sydd deimlad a arddangosai ei hun mewn agweddau allanol; a phwy bynag fyddo y gwrthddrych yr erfynir arno, pa un bynag ai y Creawdwr ynte y creadur, y mae agweddau allanol yr erfynydd yn rhwym o fod yn gyffelyb yn y naill a'r llall. Mae ymwybyddiaeth o angenion a theimlad o berygl yn sicr o wneuthur eu hunain yn amlwg yn agweddau yr erfynydd, a hyny yn y fath fodd ag y gellid gwybod i ba deimladau y mae ei feddwl yn ddarostyngedig. Mae y meddwl mewn ansawdd dawel, a digyffro, a hunan-feddiannol, pan yn ddarostyngedig i'r teimladau o barch ac addoliad; ac o herwydd hyny y mae yr agweddau corfforol a arddangosant y teimladau hyn yn fwy parchus a boneddigaidd; ond pan y mae yr enaid mewn ymbiliau ac erfyniau, pryd y mae yn gweled peryglon sydd yn anocheladwy os na dderbynia ymwared oddi wrth arall, ac angenion nad oes ganddo ef ei hun a'u cyflenwa, y mae ei feddwl yn rhwym o fod yn llawn terfysg ac ystorm, ac y mae yr agweddau corfforol yn arwyddo ofn a dyryswch, ac yn cael eu nodweddu gan afreoleidd-dra, yn hytrach na chan foneddigeiddrwydd. Mae y darlun canlynol yn dangos hyn; dengys dri o gaethion



Dar. 8.

yn erfyn; un yn sefyll, un yn penlinio, ac un yn eistedd, a'r tri â'u dwylaw yn estynedig. Gwelir y darlun hwn ar gofadail Aiphtaidd, ac eraill cyffelyb iddo ar gerfluniau Persia yn y cyn-amseroedd. Mae y cyntaf o'r darluniau Aiphtaidd yn meddu cryn ddyddordeb, am ei fod yn arddangos un o frodorion Lebanon.

Sonir hefyd yn fynych yn yr Ysgrythyrau am *syrthio ar y ddaiar*, neu *wrth draed arall*, fel ystum o erfyniad neu barch, ac weithiau fel arwydd o'r naill a'r llall: 1 *Sam.* xxv. 24; 2 *Bren.* iv. 37; *Esth.* viii. 3; *Mat.* xviii. 29; xxviii. 9; *Act.* x. 25. Yn yr anghraifft y cyfeirir ati ddiweddaf, lle y mae Cornelius yn syrthio wrth draed Pedr, gellir gofyn pa ham y gwaharddodd yr apostol beth nad oedd yn anghyffredin yn mysg ei genedl ei hun, gan ddywedyd fel rheswm, "Dyn wyf finnau hefyd." Yr atebiad yw, fod syrthio ar y ddaiar, a syrthio wrth draed, yn cael eu hystyried gan y Rhufeiniaid fel dull o addoliad, a hyny yn unig. Ni wneid y parch hwnw â neb ond â'u duwiau: am hyny, yr oedd ystyr yr ymddygiad mewn cyssylltiad â'r canwriad, yr hwn oedd yn Rhufeinwr, yn wahanol i'r hyn a fuasai pe buasai yn un o'r dwyreinwyr. Mae hyn yn bod yn mhlith y dwyreinwyr hyd y dydd hwn; ond fel dull o ddangos parch, a hyny yn unig, ni wneir ef ond yn anfynych, oddi eithr tuag at freninoedd; eithr y mae yn fwy cyffredin fel arddangosiad o ddychryn neu ddeisyfiad.

Weithiau, byddai y dwyreinwyr, pan yn yr agwedd hon, neu â'u gliniau yn blygedig, yn cyffwrdd eu talcen yn y llawr, a chyn cyfodi, cusanent y ddaiar, neu draed, neu ymyl gwisg y brenin, neu y tywysog, ger bron yr hwn y caent ganiatâd i ymddangos.



Dar. 9.

Mae yn ddiddadl fod arferiad cyffelyb yn mhlith yr Iuddewon: mae hyny yn eglur wrth gyfeirio at y geiriau gwreiddiol, sydd yn gosod allan eu hagwedd o gyfarch eu gilydd; megys נפל ארצה= *gogwyddo at y ddaiar*; השתחוה ארצה=*syrthio ar hyd ar y ddaiar*; ברע אפים ארצה=*syrthio â'i wyneb ar y ddaiar*; a'u cyssylltu â'r cyfeiriadau at yr arferiad o gusanu y traed, ac ymyl y wisg. Ni sonir yn y Beibl am *gusanu y llaw*, fel arwydd o serchogrwydd a pharch; ond gan fod y dulliau ereill oedd gan y dwyreinwyr o gyfarch eu gilydd gan yr Iuddewon, y mae yn naturiol i ni gasglu fod yr arferiad hon ganddynt hefyd, er na chyfeirir yn benodol ati. Arferid y dull hwn gan weision neu ddysgyblion tuag at eu meistriaid, gan wragedd tuag at eu gwŷr, a chan blant tuag at eu tad, ac weithiau tuag at eu mam. Yr oedd hefyd yn arwydd o barch yn cael ei ddangos gan yr ieuanc tuag at yr hen, neu gan yr anwybodus a'r digrefydd tuag at y dysgedig a'r crefyddol.




Dar. 10.

Byddai y Rhufeiniaid, fel yr awgrymwyd o'r blaen, yn cusanu eu llaw wrth fyned heibio temlau neu gerfluniau eu duwiau. Yn y Beibl, y mae *cusanu* yn cael ei arfer yn gyfystyr âg addoli (1 *Bren.* xix. 18, *Hos.* xiii. 2): ac eglura hyn yr ymadrodd yn yr ail Salm, "Cusenwch y Mab;"—addolwch ef, telwch iddo y warogaeth y mae yn ei haeddu. Tybir fod y gusan hon, yr hon oedd yn ddangosiad neillduol o barch ac ymostyngiad, â rhywbeth

Digitized by Google

arbenig ynddi; a thybir gan rai mai y gusan a roddid ar y talcen ydoedd, yr hon a arferid gynt gan yr Arabiaid i ddangos y graddau uchaf o barch.

Ymgrymu oedd agwedd arall i ddangos parch. Mae amryw eiriau Hebreig yn gosod allan wahanol ddulliau o ymgrymu; megys קדר=*gogwyddo y pen; כרע=plygu y corff yn isel; ברך=plygu y glin*, a *bendithio*. Dengys y geiriau hyn fod graddau pell o gydffurfiad rhwng arferion a dulliau yr Hebreaid o ymgrymu, ac arferion y dwyreinwyr yn gyffredin. Mae yr agweddau o ymgrymu yn bedwar math.



Dar. 11.

1. Cyffwrdd y gwefusau a'r talcen gyda y llaw ddeheu, a gogwyddo y pen neu y corff, neu beidio gwneyd hyny, a chyffwrdd y ddaiar, neu beidio. 2. Dodi y llaw ddeheu ar y ddwyfron, gyda, neu heb ogwyddo y pen neu y corff. 3. Plygu y corff yn bur isel, gyda breichiau plethedig. 4. Plygu y corff, a rhoddi y dwylaw ar y gliniau. Y diweddaf sydd un o agweddau gweddi, ac sydd yn arddangosiadol o'r graddau uchaf o barch yn mhresennoldeb breninoedd a gwŷr mawrion. Yn y darluniau Aiphtaidd, ni a welwn ddynion yn gostwng eu breichiau rhyngddynt a'r llawr wrth ymgrymu i'w huchafiaid, neu yn sefyll mewn modd parchus, gan ddodi y llaw ddeheu ar yr ysgwydd aswy. Mae y gair ברך yn arwyddo *bendithio* a *phlygu y glin*, yr hyn a awgryma y byddai un yn arfer derbyn bendith gan arall dan benlinio; a chadarnheir hyn gan y ffaith y byddai llaw yr hwn a fyddai yn bendithio ar ben yr un a fyddai yn cael ei fendithio.

Crybwyllasom nad oes yn y Beibl gyfeiriad at gusanu y llaw fel arwydd o serchogrwydd a pharch rhwng dynion a'u gilydd: ond y mae yn eglur fod yr arferiad hon yn ddefod grefyddol, ac yn cael ei harfer wrth addoli:—"Os edrychais ar yr haul pan dywynai," medd Iob, "a'r lleuad yn cerdded yn ddysglaer; ac os hudwyd fy nghalon yn guddiedig, ac os fy *ngenau a gusanodd fy llaw;*" *Iob* xxxi. 26, 27. I ddeall y geiriau hyn, mae yn angenrheidiol ystyried y byddai y Persiaid yn yr oesoedd boreuaf yn addoli yr haul a'r lleuad; a bernir gan rai gwŷr dysgedig mai enwau ar y goleuadau hyn oedd Adrammelech ac Anammelech, yn 2 *Bren.* xvii. 31; y cyntaf yn golygu yr haul, a'r diweddaf y lleuad—y naill yn arwyddo "brenin mawreddus," a'r llall "brenin tyner." At hyn y cyfeiria Iob: a'i ymresymiad yw—os bu iddo ef ar ryw amser, pan yn edrych ar oleuadau mawrion y nefoedd, gyflwyno y parch a'r addoliad hyny iddynt, nad yw yn ddyledus i neb ond yr Anfeidrol, yr oedd yn euog o eilunaddoliaeth, ac yn gwneyd ei hun yn agored i gospedigaeth.

Mae yr arfer o gusanu, fel arwydd o addolbarch, yn bod yn yr India. "Yn Surat," medd un hanesydd, "y mae pren mawr i'w weled, ar yr hwn yr edrychir gyda pharch; i fyny y mae cloch yn grogedig, yr hon y mae yr addolwyr ffolion yn ei chanu, fel trwy hyny y gallont alw yr eilunddaw i roddi gwrandawiad iddynt. Yna maent yn myned i'w hagweddau defosiynol, y rhai ydynt fel y canlyn:—Lledant eu dwylaw unedig tuag i waered mor bell ag y gallant; codant hwy drachefn bob yn ychydig ac ychydig, a dyrchafant hwy at eu geneuau i'w cusanu; ac yn ddiweddaf, estynant hwy mor bell ag y gallant, tra yn unedig, dros eu penau. Wedi cyflawnu y ddefod hon, rhai a weddiant yn sefyll: ereill a ymdaflant ar y ddaiar, gan ymdroi yn y llwch, ac yna cyfodant drachefn: ereill a wnant ond yn unig gyffwrdd y ddaiar gyda'u penau a'u talcenau, ac a wnant ystumiau ereill cyffelyb i ddangos eu hunan-ymwadiad a'u gostyngeiddrwydd."

Mae yn y sylwadau blaenorol ddefnydd addysg i addolwyr y gwir Dduw. Os oedd y Persiaid, yr Aiphtiaid, ac eilunaddolwyr ereill, mor fanwl a gofalus o barth i'w hagweddau wrth gyflwyno addoliad i'w duwiau, pa faint mwy y dylem ni fod yn wyliadwrus pa fodd i ymddwyn wrth addoli yr Anfeidrol! Onid yw brwdfrydedd a difrifwch eilunaddolgar, a'r hyn a dybiant hwy yn weddeidd-dra defosiynol, yn condemnio yr agweddau dibarch ac amddifaid o weddeidd-dra a ddangosir yn rhy fynych yn ein plith? Os oeddynt hwy yn gogwyddo yn ormodol at ofergoel a mursendod ffurfiol yn eu hagweddau, wrth geisio boddhau eu duwiau dychymygol, onid yw yn beryglus ein bod ni yn gogwyddo at anystyriaeth a didduwiaeth yn ein hagweddau crefyddol? Byddai ystyriaeth ein bod yn mhresennoldeb Duw yn sicr o ddwyn, nid yn unig ansawdd yr enaid, ond agwedd y corff hefyd, i drefn a gweddeidd-dra. Os oedd y seraphiaid dihalog, yn ngweledigaeth Esaiah, yn cuddio eu hwynebau â'u hadenydd, ger bron Iehofah ar ei orseddfainc uchel; ac os oedd yr angelion, yn ngweledigaeth Ioan, yn syrthio ar eu hwynebau ger bron Duw a'r Oen; pa faint mwy y dylai "dyn, yr hwn sydd bryf, a mab dyn, yr hwn sydd abwydyn," nesau at y presennoldeb Dwyfol, gyda "gwylder a pharchedig ofn," ac ymagweddu yn yr ymarferiad â'i ordinhadau dan lywodraeth y syniad fod yr Hwn y mae yn ei addoli yn "dân ysol."—*(Kitto's Cyc.)*

ANGEL, [ἄγγελος, *aggelos;* מלאך, *malach*]. Y mae y geiriau Groeg a Hebreig yn arwyddo *cenad*—un wedi ei anfon ar neges benodol, ac felly yn enw *swydd*, ac nid natur. Defnyddir y gair yn fynych am genadon a anfonir oddi wrth ddynion; *Num.* xx. 14; *Ios.* vi. 17; *Iago* ii. 25; *Luc* vii. 24; a ix. 52: ac am ddynion a anfonir oddi wrth Dduw; *Mal.* iii. 1; *Marc* i. 2; *Gal.* iv. 14; *Mal.* ii. 7; *Hag.* i. 13. Yn y manau hyn, oddi eithr mewn lle neu ddau, cyfieithir y gair gwreiddiol (*aggelos*, neu *malach*) trwy *genad*. Yr un modd y defnyddir ef am angelion eglwysi Asia; *Dad.* ii. 1, 8, 12, 18; iii. 1, 7, 14. Gelwir yr elfenau yn angelion; *Salm* civ. 4; lxxviii. 49; lle y gelwir lluoedd o ddrygau yn angelion. Mae yr un syniad yn *Salm* cxlviii. 8. Dywedir fod gan Satan ei angelion: 2 *Cor.* xii. 7; "cenad Satan i'm cernodio;"—efallai, rhyw anhwylder corfforol. Hefyd, *Math.* xxv. 41; "y diafol a'i angelion." Nid oes un anhawsder i wahaniaethu angelion, yn yr ystyr is hwn, oddi wrth yr hyn a ddeallir yn gyffredinol yn yr Ysgrythyrau wrth y gair; sef y bodau uchel hyny a ddefnyddir yn genadon ysbrydol gan Dduw, ac y cyfeirir atynt mor fynych. Gelwir hwynt weithiau wrth enwau ereill; megys "meibion Duw;" *Iob* i. 6; xxxviii. 7: "gwasanaethwyr;" *Iob* iv. 18: "saint;" *Iob* v. 1; xv. 15. Maent yn ysbrydion (*Heb.* i. 14); ac yn eu sefyllfa naturiol, yn anweledig (*Col.* i. 16);

Digitized by Google

ac felly, dywedir eu bod "yn ymddangos" pan yn dyfod yn weledig; *Luc* i. 11; *Math.* ii. 13, 19. Gelwir angelion da a drwg yn ysbrydion; *Math.* viii. 16; *Eph.* vi. 12: o herwydd hyny, priodolir iddynt anfarwoldeb. Dywedir am "blant yr adgyfodiad," "nis gallant farw mwy: o blegid cydstat ydynt â'r angelion;" *Luc* xx. 35, 36.

Priodolir nerth mawr iddynt; 2 *Thes.* i. 7; 2. *Pedr* ii. 11. Cyfeiria Crist at eu nerth i waredu; *Math.* xxvi. 53. Yn yr ymddangosiadau hynotaf o eiddo Duw i ddynion, yr oedd angelion yn bresennol; megys rhoddiad y ddeddf, amgylchiadau bywyd Crist, gwaredigaeth Pedr o garchar, dinystr llu Senacherib; a bydd iddynt le yn nygiad yn mlaen y farn ddiweddaf. Priodolir nerth gwyrthiol iddynt—nerth sydd yn ymddangos felly i ddynion; sef peri daiargrynfäau; *Math.* xxviii. 2: agor drysau carchar Pedr; *Act* xii. 1—11: cymmeryd llun dynol, a gwneyd ymddangosiadau o honynt eu hunain, yr hyn ni phriodolir i Satan a'r angelion syrthiedig.

Maent yn lluosog—"myrdd myrddiwn;" *Dan.* x. 7; *Salm* lxviii. 17; 2 *Bren.* vi. 16, 17; *Iudas* 14; *Dad.* v. 11; *Heb.* xii. 22;—"ac at fyrddiwn o angelion." Dywed Crist, pe gofynasai, y cawsai "fwy na deuddeg lleng o angelion."

Dangosir eu bod yn warcheidwaid, neu yn ysbrydion gwasanaethgar i bersonau unigol, ac hefyd i genedloedd. Yr oeddynt yn cyflawnu swydd felly i Grist pan ar y ddaiar—"yn esgyn ac yn disgyn ar Fab y Dyn;" *Ioan* i. 51. Yr oeddynt yn cyflawnu negeseuau yn amgylchiadau ei enedigaeth; *Luc* i. 11—20; xxvi. 38; *Math.* i. 20, 21; ii. 13, 19, 20. Gweiniasant iddo yn adeg ei demtasiwn; *Math.* iv. 11. Angel a'i nerthodd yn ei ing yn yr ardd; *Luc* xxii. 43. Gwyliasant ei fedd, a gweiniasant yn ei adgyfodiad; *Math.* xxviii. 2—7; *Marc* xvi. 5—7. Yr oeddynt yn bresennol pan esgynodd; *Act.* i. 10, 11: a deuant gydag ef i'r farn; *Math.* xiii. 14; 1 *Thes.* iv. 16; 2 *Thes.* i. 7. Mae Llyfr y Dadguddiad, drwyddo, yn dangos mai angelion a ddefnyddir i gyflawnu amcanion Pen yr Eglwys, yn ninystr ei elynion, ac yn ngwaredigaethau ei bobl.

Y maent yn warcheidwaid i'r saint—"ysbrydion gwasanaethgar;" *Heb.* i. 14; *Salm* xxxiv. 7; *Act.* xii. 7—15; *Gen.* xxxi. 1, 2; 2 *Bren.* vi. 17; *Zech.* iii. 4—10. Gwaredwyd Lot o Sodom; Iacob, oddi wrth Esau; Daniel o ffau y llewod; Pedr, oddi wrth Herod a'r Sanhedrim Iuddewig, trwy eu gweinidogaeth. Arweiniwyd Ioseph a Mair i'r Aipht; Phylip, at yr eunuch Ethiopaidd; Cornelius, at Pedr, a thrwy athrawiaeth Pedr at Grist, ganddynt. Buont yn addysgu Abraham, Iosuah, Gideon, Dafydd, Elias, Daniel, Zechariah, Mair y forwyn, y dysgyblion, a'r apostolion. Nid oes un rheswm i gredu fod eu gweinidogaeth wedi ei hattal—"Angel yr Arglwydd a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant ef;" "Canys efe a orchymyn i'w angelion am danat ti, dy gadw yn dy holl ffyrdd;" *Salm* xci. 11: "Canys y mae eu hangelion hwy yn y nefoedd, bob amser yn gweled wyneb fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd;" *Math.* xviii. 10. Pa fodd bynag y deallir "y rhai bychain hyn," pa un ai yn llythyrenol am blant, ai yn ffugrol am dduwiolion, y mae y geiriau yn dysgu fod angelion, ac angelion o urddas, y rhai sydd yn gweled gwyneb Duw (1 *Bren.* x. 8), yn eu hamddiffyn. Ac nid fel cydymffurfiad â dychymyg yr Iuddew, ond fel yn meddu gwirionedd ynddo ei hun, y mae y Gwaredwr yn dyfod â'r sylw yn mlaen. Ac y mae hyn yn gysson â'r berthynas a ddangosir yn yr Ysgrythyrau rhwng yr eglwys a'r angelion. Trwyddi hi y mae yr angelion yn cael gweled mawr amryw ddoethineb Duw; *Eph.* iii. 10: a'r gogoniant sydd yn ei haros hi ydyw testyn eu myfyrdod; 1 *Pedr* i. 11:—nid dyoddefaint Crist, ond y "dyoddefaint hyd Grist"—*τὰ εἰς Χριστὸν παθηματα;* sef "hyd ddydd Crist"—a'r gogoniant sydd yn aros ei eglwys ar ol ei ddyfodiad.—(*Luther*, *Calvin*, *Dr. Brown.*)

Mae angelion yn warcheidwaid teyrnasoedd a chenedloedd neillduol. Angel yr Arglwydd a arweiniodd Israel o'r Aipht i Ganaan; *Exod.* xiv. 19; xxiii. 20; xxxii. 2; *Num.* xx. 16; *Ios.* v. 13. Y mae Daniel (x. 5—13) yn dangos fod un o angelion gwarcheidiol yr Israeliaid—efallai Gabriel—fel yn ymryson â breninoedd Persia am eu rhyddhad; ac yna y mae Michael, un o'r tywysogion penaf, un o brif amddiffynwyr y genedl—"eich tywysog chwi;" *Dan.* x. 21—yn dyfod i'w gynnorthwyo; *Dan.* x. 13. Y mae yr angel cyntaf yn dychwelyd oddi wrth ei ymweliad â Daniel, i ryfela â thywysog Persia drachefn; *adn.* 20. Yn *Dan.* xii. 1, gelwir Michael, "y tywysog mawr sydd yn sefyll dros feibion dy bobl." Yn *Iudas* 9, dywedir fod "Michael yr archangel yn ymddadleu â diafol yn nghylch corff Moses." Pa un bynag ai wrth "gorff Moses" y meddylir ei gorff gwirioneddol, yr hwn a guddiwyd gan yr Arglwydd (*Deut.* xxxiv. 5, 6), ai ynte yr Eglwys Iuddewig, fel y gelwir eglwys Crist yn "gorff Crist," mae yr adnod yn dangos fod Michael yn angel amddiffynol i'r Iuddewon. Yn *Zech.* i. 8—14, mae angel yn dangos ei ofal a'i bryder dros yr Iuddewon. Gan nad yw yr Arglwydd dan angenrheidrwydd i ddefnyddio angelion i amddiffyn ei bobl, a chospi ei elynion, gellir gofyn, Pa ham y defnyddir hwynt? Nis gwyddom am ateb gwell na'r un a rydd Calvin; sef, i gyfarfod ein gwendid, fel na byddo dim yn fyr i nerthu ein hyder. Dylai tystiolaeth yr Arglwydd, ei fod ef yn amddiffynwr i ni, fod yn ddigon; ond yn wyneb amledd ein gelynion, a'n tuedd i ofni, dywed, nid yn unig ei fod ef yn gofalu trosom, ond fod ganddo luaws o weision i gymmeryd ein gofal hefyd. Mae gwas Eliseus yn esampl o hyn; 2 *Bren.* vi. 17—wedi ei orchfygu gan ddychryn, trwy luoedd yr Assyriaid, gweddïodd ei feistr fel yr agorid ei lygaid, "ac wele y mynydd yn llawn meirch a cherbydau tanllyd o amgylch." Nis gellir casglu oddi wrth yr ymadrodd, ei "angel ef" (*Act.* xii. 15), fel y gwnaed yn y ganrif gyntaf, fod i bob dyn duwiol un angel gwarcheidiol, a dim ond hyny; o herwydd, fel y gwelwyd, weithiau y mae un angel i genedl, a phryd arall luoedd o honynt i un dyn. Ond y casgliad oddi wrth y cwbl ydyw, fod holl lu y nefoedd yn gwylied dros ddiogelwch yr eglwys.

Mae lluaws o ymadroddion yn dangos fod yr angelion yn weinidogion cyfiawnder, i weinyddu cosp; *Gen.* xix. 1—23; *Exod.* xii. 23; *Num.* xxii. 22—35; *Ios.* v. 13, 14; 2 *Sam.* xxiv. 16, 17; 2 *Bren.* xix. 35; *Act.* xii. 23; *Dad.* vii. 11. Dywedir fod Ahab wedi ei dwyllo, mewn ffordd o farn, gan ysbryd a aeth allan i'r perwyl:—fe ddichon mai angel ydoedd; 1 *Bren.* xxii. 21.

Dangosir fod ganddynt allu ar yr elfenau:—y gwynt, *Dad.* vii. 1, 2; y tân, *Dad.* xiv. 18; y dyfroedd, *Dad.* xvi. 5; yr haul, *Dad.* xix. 17; a lluaws o fanau yn yr Hen Destament.

Nid ydyw fod pob peth o Dduw, a than ei lywodraeth ef, yn anghysson â'i fod yn defnyddio offerynoldeb ei greaduriaid. Mae dyn, a'r cread-

Digitized by Google

uriaid sydd is law iddo, yn cael eu defnyddio felly—pa ham nad angylion? Nid oes un gwrthwynebiad, ar dir rheswm, i'w bod a'u hofferynoldeb. Y mae graddoldeb yn natur i fyny at ddyn, a rhyfyg fyddai i neb haeru ei fod yn terfynu gyda dyn. Yr oedd crediniaeth yn y byd paganaidd am greaduriaid uwch na dyn. Yr oedd gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid eu his-dduwiau—*dei minores*. Felly, nid oes un rheswm i gredu, ar dir natur na hanesiaeth, mai y cwbl a feddylir wrth angylion, ydyw, gallu a gofal Duw yn cael ei bersonoli, mewn ymostyngiad at wendidau cenedloedd babanaidd oedd i raddau mawr dan lywodraeth dychymyg.

Dengys yr Ysgrythyrau fod graddau yn mysg yr angelion (*Eph.* i. 21; 1 *Thes.* iv. 16; *Iudas* 9); ac y mae hyn yn gysson â'r cwbl a wyddom am greadigaeth Duw. Y mae ysgrifenwyr Iuddewig a Christionogol wedi difyru eu hunain â llawer o ddychymygion ar hyn, yn enwedig yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth. Basil, a Gregory o Nazianzen, a ddechreuodd; ond wrth ddarllen Dionysius, gallem feddwl ei fod wedi bod yn y nefoedd, a gweled yr angelion yn eu holl raddau a'u gogoniant. Gwna ddosbarthiad triphlyg o honynt:—

1. Thronau, cerubiaid, a seraphiaid.
2. Arglwyddiaethau, awdurdodau, a galluoedd.
3. Tywysogaethau, archangelion, ac angelion.

Yn fuan, camddefnyddiwyd amryw o dystiolaethau yr Ysgrythyr am angelion, gan roddi parch ac addoliad dwyfol iddynt. Mae y syniad a'r arferiad yma wedi eu mabwysiadu gan Babyddion. Mewn ffordd o awdurdod dros yr arferiad, defnyddiant yr adnodau hyny sydd yn dangos fod parch dwyfol yn cael ei roddi i "Angel yr Arglwydd;" yr hyn a ddeallent hwy am angel creedig: ac hefyd, estynant y crybwylliadau am ofal angelion dros y saint i gynnwys dyledswydd y saint i'w haddoli. Ond yn erbyn y fath gasgliad, y mae, nid yn unig rheswm, ond hefyd y tystiolaethau hyn, yn benderfynol—*Dad.* xix. 10; xxii. 8, 9; *Col.* ii. 18.

**ANGEL YR ARGLWYDD.** Yn fynych yn yr Hen Destament, dywedir fod person goruchel yn ymddangos fel "Angel neu genad Duw, neu Iehofah," yr hwn sydd yn gweithredu yn enw yr Hollalluog, yr hwn sydd yn llefaru am dano ei hun yn wahaniaethol, mewn rhyw ystyr, oddi wrth Iehofah neu y Duw anweledig; ac eto gelwir ef yn Dduw, a phriodola iddo ei hun weithredoedd ac anrhydedd Duw. Yn yr anghraifft gyntaf, *Gen.* xvi. 7, dywedir fod "Angel yr Arglwydd" wedi cael Hagar wrth y ffynnon: yn *adn.* 10, mae yn priodoli iddo ei hun waith dwyfol: yn *adn.* 11, dywed, "yr Arglwydd a glybu dy gystudd di"—ac felly priodola i'r Arglwydd yr hyn ychydig o'r blaen a briodola iddo ei hun: yn *adn.* 13, dywed Hagar iddi weled Duw,—"Ti, O Dduw, wyt yn edrych arnaf fi." Yn *Gen.* xii. 7, a xvii. 1, dywed mai yr Arglwydd oedd yn ymddangos i Abraham, er mwyn dangos mai nid neb llai na Duw oedd yn ymddangos; ond wrth Hagar, "Angel yr Arglwydd." Maent yn esbonio eu gilydd:—yr angel ydyw Iehofah, ac y mae Iehofah yn ymddangos trwy ei angel.

Y mae sylw Abraham yn cael ei dynu yn uniongyrchol at un yn neillduol o'r tri angel a ymddangosasant iddo (*Gen.* xviii, xix); cyferchir ef, "Fy Arglwydd" (xviii. 3). Ystyria y ddau ereill ond fel cymdeithion yn unig. Cyfarcha Lot y ddau a aeth ato ef, "Fy arglwyddi," (xix. 2), heb wneyd gwahaniaeth rhyngddynt. Yn *pen.* xviii, un yn unig sydd yn llefaru; ond yn *pen.* xix, mae y ddau yn gyfartal. Y mae yr hwn a wnelai Abraham âg ef yn llefaru fel Duw ei hun, tra y mae y ddau oedd yn llefaru wrth Lot yn dywedyd, "Ni a ddinystriwn y lle hwn" (*adn.* 13); ac wedi gwahaniaethu eu hunain oddi wrth eu Harglwydd, y maent, yn *adn.* 21, 22, yn llefaru yn ei enw ef. Y mae yr hwn oedd yn llefaru wrth Abraham yn cael ei alw yn Arglwydd bedair gwaith ar ddeg: ond yn *pen.* xix, dwywaith y mae yn llefaru; *h. y.*, y ddau angel yn llefaru yn ei enw.

Yn *Gen.* xxxi. 11, y mae "angel yr Arglwydd" yn ymddangos mewn breuddwyd i Iacob: yn *adn.* 13, y mae yn ei alw ei hun "Duw Bethel," gan gyfeirio at y weledigaeth (*pen.* xxviii. 11—22), er na sonir yn hanes y weledigaeth am "Angel yr Arglwydd," ond yn unig am yr angylion oedd yn esgyn ac yn disgyn ar hyd yr ysgol; a'r Arglwydd a ddywedir yno oedd yn sefyll ar ben yr ysgol: ond yn *pen.* xxxi. 11, 13, ni a welwn, pan y dywedir mai yr Arglwydd sydd yn ymddangos, mai trwy ei angel y byddai yn gwneyd; felly Duw oedd yr hwn yr ymdrechodd Iacob âg ef: *Gen.* xxxii. 24. Rhoddodd yr enw Israel arno (un yn ymdrechu gyda Duw); bendithiodd ef; ac y mae Iacob yn galw y fan yn Peniel (=gwyneb Duw) am ei fod wedi gweled Duw, wyneb yn wyneb. Ac y mae yr ateb a rydd yr Arglwydd i'r ymofyniad am ei enw yn debyg i'r ateb a rydd "Angel yr Arglwydd" i'r un gofyniad: *Barn.* xiii. 17, 18. Yn *Hos.* xii. 4, dywedir iddo "gael nerth gyda'r Angel."

*Gen.* xlviii. 15, 16; "Ac efe a fendithiodd Ioseph, ac a ddywedodd, Duw, yr hwn y rhodiodd fy nhadau, Abraham ac Isaac, ger ei fron, Duw, yr hwn a'm porthodd er pan ydwyf, hyd y dydd hwn, yr angel, yr hwn a'm gwaredodd i oddi wrth bob drwg, a fendithio y llanciau." Yma ymddengys ddwywaith fel Duw, ac yna fel "Angel yr Arglwydd."

*Exod.* iii. 2; "Angel yr Arglwydd a ymddangosodd iddo mewn fflam dân:" yn *adn.* 6, dywed mai "Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Iacob" oedd: yn *adn.* 14, mai "Ydwyf yr hwn Ydwyf" oedd yn llefaru âg ef. Wrth gyfeirio at hyn, mae Stephan yn dywedyd (*Act.* vii. 30), i "Angel yr Arglwydd" ymddangos i Moses mewn fflam dân, mewn perth: dengys hyn fod yr enw yn adnabyddus yn ei ddyddiau ef, a'i fod yn credu mai yr un ydyw yr Arglwydd ag Angel yr Arglwydd.

*Exod.* xx. 20, 21; "A dywedodd Moses wrth y bobl, Nac ofnwch; o herwydd i'ch profi chwi y daeth Duw, ac i fod ei ofn ef ger eich bronau, fel na phechech. A safodd y bobl o hirbell; a nesaodd Moses i'r tywyllwch, lle yr ydoedd Duw." Yma, rhoddir y bobl ar eu gwyliadwriaeth rhag digio yr Arglwydd; o herwydd ni faddeua efe eu hanwiredd hwynt. Felly y mae Iosuah (xxiv. 19) yn rhybuddio y bobl gyda golwg ar y Duw goruchaf—"mae fy enw ynddo," *h.y.*, natur a gogoniant Duw. Gwel yr hyn a ddywedir am Grist: *Ioan* v. 19, 23; x. 30, 38; xiv. 10; xvii. 21; *Col.* ii. 9. "Fy ngogoniant ni roddaf i arall;" *Esa.* xlii. 8. "Wele fi yn anfon angel o'th flaen di;" *Exod.* xxiii. 20. Ond wedi i'r bobl ddigio yr Arglwydd trwy y llo aur, y mae yn dywedyd, "nid af fi i fyny yn dy blith" (*Exod.* xxxiii. 3); ond yn ei le y mae yn anfon angel (*adn.* 2, a *pen.* xxxii. 34): y mae yn rhaid, gan hyny, fod hwn yn angel creedig; ond yr angel yn *pen.* xxiii, yn "Angel yr Arglwydd." Ar gyfrif eiriolaeth Moses, ac edif-

Digitized by Google

eirwch y bobl, y mae yn galw yn ol y bygythiad, ac yn dywedyd, "Fy wyneb a gaiff fyned gyda thi;" *pen.* xxxiii. 14. "Wrth wyneb, y meddylir ymddangosiad personol, neu y person ei hun" [*Gesenius*]; megys yn 2 *Sam.* xvii. 11; *Deut.* iv. 37. Wedi iddynt gael maddeuant, y mae yr addewid gyntaf (*pen.* xxiii. 20) yn cael ei chyflawnu iddynt; o ganlyniad, yr un a feddylir wrth "wyneb Duw," a'r "angel" a adawyd i'w harwain gyntaf. Mae *Esa.* lxiii. 8, 9, yn esboniad pellach ar hyn,—"Felly efe a aeth yn Iachawdwr iddynt. Yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd, ac angel ei gynddrychioldeb a'u hachubodd hwynt." Mae "angel ei gynddrychioldeb," neu "ei wyneb," yn cael ei esbonio trwy uno *Exod.* xxiii. 20, âg *Exod.* xxx. 14:—yn y cyntaf gelwir ef yn "angel," yn yr ail yn "wyneb;" y mae Esaiah yn uno y ddau air, ac yn ei alw yn "angel ei wyneb, neu ei gynddrychioldeb." Pan oedd Iosuah (*Ios.* v. 14) yn sefyll o flaen Iericho, mewn digalondid wrth feddwl am ei chaerau cedyrn, ymddangosodd gŵr iddo â chleddyf noeth yn ei law; a gofynodd Iosuah iddo, "Ai gyda ni yr wyt ti, ai gyda'n gwrthwynebwyr?" "Nag e," atebai yntau, "eithr yn dywysog llu yr Arglwydd yn awr y daethum." Yn *adn.* 15, y mae yn hòni iddo ei hun anrhydedd dwyfol, megys y gwnaeth "Angel yr Arglwydd" yn *Exod.* iii, trwy beri i Moses dynu ei esgidiau oddi am ei draed, am fod y ddaiar y safai arni yn ddaiar sanctaidd:—yn *Ios.* vi. 2, gelwir y tywysog yn Arglwydd; *h. y.*, Iehofah. Wrth "llu yr Arglwydd," y meddylir, nid Israel, ond y llu angelaidd; o herwydd am danynt hwy y defnyddir yr ymadrodd o ddechreu Genesis yn mlaen: *Gen.* ii. 1; xxxii. 2; 1 *Bren.* xxii. 19; *Neh.* ix. 6; *Salm* ciii. 21; 2 *Bren.* vi. 27.

Yn *Mal.* iii. 1, gelwir ef yn "Angel y cyfammod;" a dywedir, mai "yr Arglwydd, yr hwn yr ydych yn ei geisio," ydyw.

Nis gellir meddwl mai angel crëedig, yn llefaru ac yn gweithredu yn enw Duw ydyw "Angel yr Arglwydd;" o herwydd, yn 1. Y mae yr ysgrifenydd yn ei alw yn Dduw, ac yn Iehofah. Nis gellir esbonio hyn ar y dybiaeth mai creadur ydoedd, heb gredu fod yr ysgrifenydd ysbrydoledig yn dyweyd yr hyn nad oedd yn wirionedd. 2. Mae hyn yn cymmeryd yn ganiataol fod creadur yn meddu awdurdod i hòni iddo ei hun enw ac anrhydedd Duw, am ei fod yn genad yr Arglwydd. Ar yr un tir y gallasai yr apostolion hòni iddynt eu hunain anrhydedd Crist. 3. Mae yr esboniad hwn yn anghysson â gwir ystyr yr ymadrodd *Malach Iehofah*=Angel yr Arglwydd. Y mae y gystrawen Hebrëig yr un fath a'r Gymreig: nid rhyw angel, ond "*yr* Angel yr Arglwydd"—yn dangos unigrwydd ac arbenigrwydd.

Esboniad arall sydd wedi cael ei roddi ar yr ymadrodd ydyw, mai amlygiad allanol o Dduw ei hun a feddylir, pa beth bynag y dygwyddai i hyny fod. Y mae yn ddigon i ddangos nas gall hyn fod yn wir, i sylwi y byddai raid, ar y dybiaeth hon, priodoli gweithredoedd personol i'r tân, y cwmwl, y goleu, &c. Llefarodd Angel yr Arglwydd wrth Moses *o'r* tân.

Nid ymadrodd cwmpasog am yr Arglwydd ei hun ydyw. Y mae hyn yn unol â'r gwirionedd mai un Duw sydd; ond y mae yn anghysson â'r holl adnodau dan sylw, lle y mae gwahaniaethiad personol i'w weled.

Yr unig esboniad arall ydyw, fod undeb natur, a gwahaniaethiad personol yn yr Hanfod ddwyfol—fod Angel yr Arglwydd yn Dduw, ac eto ei fod yn berson gwahaniaethol yn y Duwdod. Y mae hyn yn unol â'r hyn a ddysgir i ni yn y Testament Newydd am Fab Duw.

Y mae y defnydd a wna y Pabyddion o'r adnodau hyn, mewn amddiffyniad o'r arferiad o addoli angelion, yn cael ei ddangos yn ddisail yn wyneb y casgliad mai Mab Duw ydyw "Angel yr Arglwydd."

ANGEL YR EGLWYS. Dywed y Dr. Prideaux, fod gweinidog y synagog, yr hwn oedd yn cyflwyno gweddïau y gynnulleidfa i Dduw, ac felly yn gweithredu fel eu cynnrychiolydd, eu cenad, neu angel, yn cael ei alw yn Hebraeg שליח צבור, *sheliac tsibbor*, "angel yr eglwys;" a bod yr enw wedi cael ei fenthyca oddi wrth y synagog, a'i gymhwyso at brif weinidogion saith eglwys Asia. Dywed Vitringa yn ychwanegol—pan ddaeth y swydd o weddïo a dysgu yn gyhoeddus i gael ei hymddiried yn enwedigol i'r blaenaf yn mysg yr henaduriaid (τῳ πρωτῳ των πρεσβυτερων), yr hwn a alwai oes ddiweddarach yn *esgob*, i'r enw gael ei gyfyngu ato ef. Geilw Elliott, awdwr yr *Horæ Apocalypticæ*, sylw neillduol at y ffaith fod yr enw wedi cael ei fenthyca, nid o'r deml, ond o'r synagog: felly, yn arwyddo fod swyddau yr offeiriaid Lefiaidd wedi eu terfynu yn Nghrist, ac mai swydd yr esgob neu y gweinidog Cristionogol ydyw addysgu ac arwain y praidd, ac nid cyflawnu swyddau offeiriadol neu gyfryngol.

ANGELIAID. Enw plaid yn nheyrnasiad yr ymherawdwr Anastasius, o ddeutu y flwyddyn 494; a elwid felly oddi wrth Angelium, enw lle yn Alexandria, lle y cedwid eu cyfarfodydd ar y cyntaf. Yr oedd rhyw neillduolrwydd yn eu syniadau am bersonau y Drindod. Dalient nad yw un o'r personau yn hanfodi o hono ei hun, ac o'i natur ei hun, ond bod Duwdod cyffredin i'r tri pherson, a bod pob un yn Dduw trwy gyfranogiad o'r natur gyffredin hon.

ANGELIGION. Plaid a gafodd ei henw oddi wrth y parch a dalent i angelion, neu oddi wrth y grediniaeth mai angelion a greodd y byd. Yr oedd teimlad felly yn ffynu, mewn rhai manau, yn amser Paul: *Col.* ii. 18. Rhydd Conybeare, oddi wrth Mr. Hartley, yn ei hanes am Gristionogion diweddar Colossa, y sylw canlynol:—fod gan y Groegiaid presennol draddodiad yn eu mysg, fod Colossa mewn perygl o gael ei dinystrio gan lifeiriant mawr; a phan oedd y trigolion yn ffoi am eu bywyd, ac yn galw am gymhorth oddi uchod, i'r archangel Michael ddisgyn o'r nefoedd, ac agor y ddaiar, mewn man y cyfeiriant hwy ato hyd y dydd hwn, ac i'r dyfroedd gael eu llyncu i fyny, a'r trueiniaid gael eu bywyd. Adeiladwyd eglwys i'r archangel yn y fan yr agorodd y ddaiar. Enwir y deml archangelaidd hon gan amryw ysgrifenwyr, ναος αρχαγγελικος. Mewn cynghor a ddelid yn Laodicea, tref gyfagos, yn y pedwerydd canrif, condemniwyd addoliad angelion.

ANGENAD, neu ANGENAN, [o *angen*, eisieu]: hen eiriau Cymreig dillynion, yn arwyddo yr un peth ag *eneiniad diweddaf*, yn iaith fwy sathredig y dydd heddyw. Gwel ENEINIAD DIWEDDAF.

"Y pummed gymun yw yr olew a elwir *Angenad:* hwn a roddir pan fo dyn yn trengu."—*Llyfr Gwyn Hergest.*

> *Angenan* glaf-wan glwyfawl, cwyn ingus,
> Cyn angeu erchylliawl. *Gwilym ab Ieuan Hen.*

Digitized by Google

Defnyddir *Angenu* am y weithred o weinyddu y cyfryw eneiniad.

"*Angenu;* sef yw hyny, olew gleiniedig ar ddyn y mewn clefyd peryglus ydd *angenid* dyn drwy leinder buchedd."—*Llyfr Gwyn Hergest.*

*Dodi olew*, sydd ymadrodd arall arferedig yn yr un ystyr.

"Ac ar hyny, nycha y clywynt ddiaspedain yn y gaer; a gofyn a orug Owain i'r forwyn, 'Py waeddi yw hwn?' '*Dodi olew* ar y gwrda biau y gaer,' heb y forwyn."—*Mabinogion.*

ANGENOCTYD, [*angenog*]: rheidusrwydd, tlodi, caledi, cyfyngder. "Yn ein holl orthrymder a'n hangenoctyd;" 1 *Thes.* iii. 7. "Danfon i ni wrth ein hangenoctyd hwn, gyfryw dywydd a chawodydd ardymmerus, modd y derbyniom ffrwythau y ddaiar, i'n mwyniant ni, ac i'th urdduniant dithau."—*Lyfr Gweddi Gyffredin.*

ANGENRHEIDRWYDD, ANGENRHEIDIAID [*Necessity, Necessarians*]. Egwyddor sylfaenol athroniaeth naturiol ydyw, fod achos i bob effaith. Y mae y cwestiwn, A ydyw yr egwyddor neu y ddeddf hon yn dwyn yr un berthynas âg ewyllysiau a gweithredoedd dynion ag ydyw â'r byd difywyd? yn arwain at y ddadl yn nghylch rhyddid yr ewyllys; yr hon sydd, er dyddiau Pelagius, wedi tynu llawer o sylw athronyddion a duwinyddion. Gelwir y rhai a haerant fod ewyllys dyn yn ddarostyngedig i'r ddeddf hon yn *Angenrheidiaid*, yn wrthgyferbyniol i'r rhai a wadant hyn, ac a elwir yn Amddiffynwyr Rhyddid yr Ewyllys. Dywed J. S. Mill, yr hwn sydd yn dal yr athrawiaeth o angenrheidrwydd, ei bod yn gynnwysedig yn hyn:—"Os gwyddom y cymhelliadau sydd o flaen meddwl dyn, yn nghyd â'i garictor a'i duedd naturiol, y gallwn gasglu yn anffaeledig pa fodd yr ymddyga: y gallwn ddyweyd yn mlaen llaw pa beth a wna mewn unrhyw amgylchiad, ond i ni gael adnabyddiaeth drwyadl o hono, a'r ystyriaethau sydd yn ei ysgogi, mor sicr ag y gallwn ragddyweyd unrhyw ddygwyddiad naturiol, megys disgyniad y gareg pan ollynger hi o'r llaw."—*Logic;* cyf. i, td. 486.

Gosodir yr un athrawiaeth allan gan y Dr. L. Woods, un o'r duwinyddion sydd wedi ysgrifenu ddiweddaraf ar y mater, fel y canlyn:—"Mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd moesol yn dysgu fel ffaith fod holl weithredoedd gwirfoddol dynion yn tarddu o ddylanwad achosion yn gweithredu ar y meddwl; bod cyssylltiad sicr ac anghyfnewidiol rhwng yr achosion hyn a'u heffeithiau; bod deddfau y meddwl yn sefydlog a rheolaidd, a'r un achosion yn cynnyrchu yr un effeithiau yn y byd moesol ag yn y byd naturiol. Mae yr athrawiaeth hon yn cynnwys, pe gallem wybod pa fodd y gweithredai achosion moesol mewn amser dyfodol, y gallem ragddyweyd, gyda sicrwydd, pa beth fyddai eu heffeithiau." [*Works;* cyf. i, td. 128.] Ni ddywedir y gallwn wybod mewn un amgylchiad y cwbl sydd yn effeithio i ysgogi dyn: a hyny ydyw yr achos o'n petrusder am ymddygiadau dynion, ac nid unrhyw ansicrwydd yn ngweithrediad y ddeddf fod yr un achosion yn cynnyrchu yr un effeithiau. Er y dywedir fod effeithiau yn dilyn eu hachosion yn y byd moesol gyda'r un sicrwydd ag yn y byd naturiol, eto, dymuna amddiffynwyr y golygiad hwn i ni sylwi yn neillduol, mai achosion ac effeithiau anianyddol ydyw y naill, ond mai achosion ac effeithiau moesol ydyw y lleill; o herwydd hyn y gelwir yr angenrheidrwydd hwn yn *foesol*, ond mewn ystyr eang i'r gair moesol. Mae llawer o'r rhai sydd yn amddiffyn yr athrawiaeth dan sylw yn dewis ymwrthod â'r gair *angenrheidrwydd*, o herwydd ei fod yn rhoi mantais i'w gwrthwynebwyr i ddrwgliwio eu syniadau, ac hefyd yn tywyllu eu meddyliau eu hunain am danynt, os na byddys yn ofalus i ymdrechu yn erbyn dylanwad naturiol y gair. Dywed Mill, na ddeallir y mater yn gyffredinol byth, oni ymwrthodir â'r gair anhapus hwn. Y mae y gair *angenrheidrwydd*, yn ei gymhwysiad at achosion ac effeithiau y byd naturiol, yn arwyddo, i deimlad y cyffredin, fod chwaneg na *sicrwydd* y dilynir yr achos gan yr effaith—fod rhyw nerth neu rinwedd yn yr achos yn *peri* yr effaith, ac nas gall lai na bod. Ond yr ydym yn teimlo nad oes gan ddim y fath allu a hyn ar ein hewyllysiau—y gallwn wrthsefyll cymhelliadau, os dewiswn. Er ein bod yn rhoi ufudd-dod i'r cymhelliadau cryfaf, mor sicr a rheolaidd ag ydyw gweithrediad un o ddeddfau natur, er hyny, y mae genym y teimlad y gallem eu gwrthsefyll, pe dewisem. Mae Angenrheidiaid yn addef y teimlad hwn o ryddid i wneyd fel y mynant; a chan fod y gair *angenrheidrwydd* yn cadw yr elfen hono allan o'r golwg, ac felly yn gwneyd i'w syniadau ymddangos yn anghysson â theimladau naturiol dyn, teimlant, pe defnyddiasid rhyw air arall, megys *sicrwydd* (*certainty*), y buasai yn well. Wrth ddefnyddio y gair gan hyny i osod allan y sicrwydd y bydd i ddynion weithredu yn unol â'u carictor, ac â'r cymhelliadau a ymddengys gryfaf iddynt ar y pryd, rhybuddiant eu darllenwyr yn fynych i beidio cario drosodd i'r ymchwiliad hwn y syniad o orfodaeth sydd yn nglŷn â'r gair mewn ymchwiliadau anianyddol, ac mewn arferiad cyffredinol.

Y prif resymau a ddygir dros angenrheidrwydd moesol neu athronyddol, fel y gelwir ef weithiau, ydyw y ffeithiau y mae pawb yn gydnabyddus â hwynt;—sef, fod pawb yn ymwybodol eu bod yn ffurfio eu penderfyniadau yn unol â'u nodweddiad, ac â'r cymhelliadau a gyflwynir i'w sylw. Heb weithredu oddi ar reswm neu gymhelliad, nis gallwn fod yn greaduriaid rhesymol—nôd o afresymoldeb ydyw gweithredu heb gymhelliad; gweithred resymol wedi ei chyflawnu heb reswm, sydd wrthddywediad: y mae pob ymdrech i berswadio dynion trwy resymau neu gymhelliadau yn addefiad o wirionedd yr athrawiaeth. Mae Duw ei hun yn gosod ystyriaethau neu gymhelliadau rhesymol o flaen dynion, i'w hennill i weithredu yn briodol. Y teimlad cyffredin ydyw, nad oes neb yn meddwl actio heb reswm—y byddai yn ddiangenrhaid i ddyn wneyd felly—ac nad yw yn fraint y dymunai neb ei meddu ond y dyn gorphwyllog. Rheswm yr athronydd hefyd o blaid hyn ydyw—fod yn rhaid i bob effaith gael achos, ac felly rhaid bod penderfyniadau yr ewyllys wedi eu hachosi gan rywbeth:—nas gall y rhywbeth hwnw fod yr ewyllys ei hun; o herwydd, yn 1af, Byddai hyny yn priodoli penderfyniad yr ewyllys i benderfyniad blaenorol, a hwnw i un blaenorol drachefn, ac felly yn ol yn ddiderfyn—yr hyn sydd yn afresymol: neu yn 2il, Rhaid i'r ewyllys benderfynu ei ddewisiad, trwy nwyd neu fympwy direswm—yr hyn sydd yn annheilwng o greadur rhesymol, ac yn hollol ddinystriol i rinwedd a phechod. Haerant, gan hyny, nad oes brawf oddi wrth ymwybyddiaeth nac ymresymiad i gasglu fod un sail arall i weithrediad gwirfoddol ond *cymhelliad*, ac felly y cymhelliad cryfaf: o herwydd, os ydyw dyn dan lywodraeth dymun-

iad am ddedwyddwch, mae yn rhaid ei fod yn dymuno y dedwyddwch mwyaf.

Honir hefyd fod rhagwybodaeth sicr o weithrediadau gwirfoddol dynion yn profi yr athrawiaeth hon: o herwydd y mae y fath ragwybodaeth yn annirnadwy, ond ar y dybiaeth fod cyssylltiad sicr rhwng cymhelliadau a phenderfyniadau yr ewyllys; neu, mewn geiriau ereill, fod *dygwyddiadau* dyfodol yn adnabyddus yn eu *hachosion*. Fel hyn y dywedir y gallwn ddeall yn unig pa fodd y mae y fath wybodaeth gan Dduw: o herwydd y mae dyweyd fod ein hewyllysiau yn cael eu penderfynu yn ddamweiniol, heb achos, neu mewn rhyw ffordd sydd yn ei gadael yn ansicr, yn anghysson â dyweyd fod gan Dduw wybodaeth sicr o honynt. Nis gall un feddu gwybodaeth sicr o'r hyn sydd ynddo ei hun yn ansicr. Defnyddir ymadroddion pendant y Beibl fel prawf o'r un syniad:—"Rhaid iddo fyned i Ierusalem." "Angenrhaid yw dyfod rhwystrau." "Ni all na ddel rhwystrau." "Am fod yn rhaid i'r Arglwydd wrtho." "Canys rhaid yw bod hyn oll." "Onid oedd raid i Grist ddyoddef."

Y brif wrthddadl yn erbyn yr athrawiaeth hon ydyw, ei bod yn difodi y gwahaniaeth rhwng pechod a sancteiddrwydd; yn gwneyd gwobr a chosp yn anmhosibl; ac yn difodi pob cymhelliad i ufudd-dod. Gwelir y canlyniadau hyn gan yr Angenrheidiaid; a dangosir yn foddhaol, yn ol eu tyb hwy, mai canlyniadau teg y syniad gwrthwynebol ydynt. Os ydyw rhyddid, sydd yn gynnwysedig mewn annibyniaeth ar gymhelliadau, neu ddifaterwch tuag at y naill yn hytrach na'r llall, yn hanfodol i sancteiddrwydd, yna, nis gall y Bod goruchel ei hun fod yn sanctaidd; o herwydd fod ei gariad at sancteiddrwydd a chyfiawnder yn angenrheidrwydd tragwyddol yn ei natur ei hun i weithredu yn berffaith. Yr un modd, nis gall yr angelion etholedig fod yn sanctaidd, na'r cythreuliaid yn bechadurus. O herwydd hyn, gwedir gan Whitby, fod gweithredoedd yr angelion yn rhinweddol, ac eiddo y cythreuliaid yn bechadurus, ac felly yn haeddu cosp. Efallai fod ofn cabledd wedi ei gadw oddi wrth dynu yr un casgliad oddi wrth sancteiddrwydd angenrheidiol Duw. Ac hefyd, atebir, fod y rhyddid hwn o hunan-benderfyniad, yn wahaniaethol oddi wrth benderfyniad trwy gymhelliadau, yn anghysson â dylanwad moddion: o herwydd os rhyddid annibynol ar gymhelliadau sydd gan ddyn, onid afresymol ydyw defnyddio moddion, a chyflwyno rhesymau ger ei fron: ac nid yn unig afresymol, ond hefyd niweidiol; o herwydd yn unol â'r rhyddid hwn, yn ol mesur dylanwad rheswm arno, mae ei rinwedd yn lleihau. Fel y sylwyd, hona yr Angenrheidiaid hefyd fod y rhyddid hwn yn anghysson â'r briodoledd o ragwybodaeth; o herwydd os nad ellir gwybod ewyllysiau gwirfoddol dynion yn eu hachosion—yr hyn nis gellir, os ydynt ddamweiniol—y canlyniad ydyw, rhaid gwadu fod Duw yn meddu y fath briodoledd. Hwn ydyw yr anhawsder mwyaf o bob un i'r athrawiaeth o ryddid yr ewyllys. Nis gall y meddwl gyssoni y dybiaeth y dichon i beth fod neu beidio, ac eto fod un o'r ddau wedi ei ragweled yn sicr. Mae lluaws o amddiffynwyr cyssonaf rhyddid wedi gwadu rhagwybodaeth berffaith.

Mae ysgrifeniadau yr Angenrheidiaid, ac yn enwedig traethawd anfarwol Edwards ar yr Ewyllys, wedi dangos nas gellir deall natur gyfrifol dyn, a llywodraeth foesol Duw, heb gymmeryd cymhelliadau moesol i ystyriaeth. Yr ochr arall, y mae teimlad personol pob un o'i gyfrifoldeb a'i ryddid yn hòni lle i'r elfen hon hefyd. Y cwestiwn ydyw, pa fodd i gymmesuro neu gyfaddasu y ddwy elfen hyn i'w gilydd? Mae M'Cosh yn eu trefnu fel hyn: Yn erbyn amddiffynwyr rhyddid, hòna fod y meddwl, fel y corff, dan lywodraeth deddf achosiaeth: ond yn erbyn amddiffynwyr caethaf angenrheidrwydd, dadleua fod ewyllysiad yn codi o gymhelliadau, ac o gymhelliadau sydd yn gweithredu yn unol â deddf; eto, mai y meddwl ei hun ydyw ffynnonell y cymhelliadau, ac nid dylanwadau allanol:—neu, fel y mae Coleridge yn geirio y cyferbyniad, "y dyn sydd yn gwneyd y cymhelliad, ac nid y cymhelliad sydd yn gwneyd y dyn." Geilw sylw at y gwahaniaeth sydd rhwng achosion moesol ac anianyddol:—nas gall mater gynnyrchu effeithiau hyd nes y dygir dau sylwedd at eu gilydd, i'w hansoddau gael gweithredu ar eu gilydd, ond fod y meddwl yn sylwedd hunan-weithredol—yn alluog i gynnyrchu, yn unol â'i briodoliaethu ei hun, feddyliau, dymuniadau, ac ewyllysiau.

Mae gan y Dr. Harris [*Man Primeval*] bennod ar y mater hwn. Sylwa fod gwahaniaeth rhwng deddf achosiaeth yn y meddwl ac yn y byd naturiol yn yr unig beth y mae o bwys iddynt fod yn debyg yn y ddadl hon. Mae achosion anianyddol yn gweithredu oddi allan i'r hyn yr effeithiant arnynt, ond y mae cymhelliadau yn dufewnol: ac er addef iddynt gael eu cyflwyno yn allanol i'w sylw, y mae eu bod yn cael eu gwrthod neu eu derbyn yn dangos fod y meddwl yn rhydd mewn ystyr sydd yn gwneyd fod yn anniogel cymharu dylanwad cymhelliadau ar y meddwl i weithrediad pethau allanol ar eu gilydd. Ac er addef ein bod yn gweithredu yn unol â'r cymhelliadau, nid fel gwrthddrychau naturiol y maent yn ysgogi dyn. Nid y cymhelliadau sydd yn derbyn ac yn gweithredu ar y dyn; ond efe, y person, sydd yn derbyn ac yn gweithredu arnynt hwy. Yma, dylid cofio fod Edwards yn edrych ar gymhelliad, nid fel peth allanol, ond fel y mae y peth hwnw yn cael ei dderbyn a'i olygu gan y meddwl, yn nghyd â holl amgylchiadau a sefyllfa y meddwl. Ond y cwestiwn, medd Harris ydyw, Ai yn wirfoddol y daeth y meddwl i fod y peth ydyw? Dywed, am frawddeg Coleridge "mai y dyn sydd yn gwneyd y cymhelliad, ac nad y cymhelliad y dyn"—fod pob aelod o'r cyferbyniad hwn yn cynnwys hanner gwirionedd. Oddi wrth weithrediad cyfrifol cyntaf dyn, y mae dyn a'r cymhelliad yn dechreu ffurfio eu gilydd. Y cymhelliad sydd gyntaf mewn amser, ond yr ewyllys yn nghyfansoddiad y meddwl. Ac felly, er addef mai y cymhelliad sydd yn penderfynu yr ewyllysiad, y mae yn derbyn y gallu hwnw oddi wrth gydsyniad gwir foddhaol yr ewyllys ei hun. Y mae cymhelliadau yn dylanwadu ar y carictor; ond, yn gyntaf, y mae y carictor i'w olygu fel yn dylanwadu ar y cymhelliadau. Yn unol â hyn, gallwn ddyweyd fod cymhelliadau, er nad yn achosion angenrheidiol a gorfodol o'r ewyllysiau, eto y maent yn sefyll mewn cyssylltiad angenrheidiol â hwynt fel achlysuron, neu ammodau.

Hyn ydyw golygiad Coleridge ar y mater—"Pa beth sydd yn penderfynu y dyn i weithredoedd da a rhinweddol? Yr ewyllys deallawl, neu y gallu hunan-benderfynol? Mewn rhan, mae hyn yn wir; ac o ganlyniad, y mae yr ewyllys mewn modd arbenig yn rhan *ysbrydol* o'n natur: ond a ddywed unrhyw ddyn ystyriol mai yr ewyllys yn unig, a dim arall, sydd yn penderfynu y cwbl ag

Digitized by Google

*ydyw* a'r cwbl *a wna?* Onid oes dim i'w briodoli i gyssondeb y gyfundrefn y perthyna iddi, ac i gyfaddasrwydd rhagordeiniedig gwrthddrychau a phersonau adnabyddus ac anadnabyddus sydd yn ei amgylchynu ac yn gweithredu *ar* yr ewyllys tra ar yr un pryd *gyda'r* ewyllys? Oddi wrth weithrediad yr awyr ar yr ysgyfaint, heb fod y naill yn flaenorol i'r llall, ac eto y ddau yn effeithio ar eu gilydd, ni a allwn gael help i ddeall hyn."—*Coleridge's Aids*, &c.

Yn ol Syr W. Hamilton, pa ochr bynag i'r ddadl a gymmerwn, angenrheidrwydd neu ryddid, yr ydym yn cyfarfod â dirgelwch. Os na ddywedwn fod dyn yn achos hollol a gwreiddiol i benderfyniadau ei ewyllys, nis gall fod yn *rhydd*-weithredydd; ac yr ydym yn addef angenrheidrwydd, os ydyw. Yn y lle cyntaf, nis gallwn amgyffred pa fodd y mae achos yn bod heb hefyd fod yno effaith; *h.y.*, nis gallwn amgyffred dechreuad hollol ac annibynol i ddim. Yn ail, pe addefem hyn, er nas gallwn ei amgyffred, eto nis gallwn ddirnad pa fodd y mae achos, nad yw yn cael ei benderfynu gan gymhelliad, yn achos rhesymol, moesol, a chyfrifol. Felly ymddengys fod y cwestiwn yn ddirgelwch anamgyffredadwy; o herwydd cymmerwn yr ochr a fynom, nis gallwn ysgoi dirgelwch. Penderfyniad Syr W. H. ydyw: Er nas gallwn amgyffred pa fodd y mae dyn yn rhydd, eto yn 1. Yr ydym yn ymwybodol ein bod felly; ac yn 2. Yn mhlith ffeithiau y meddwl, er nas gallwn amgyffred llawer o honynt, rhaid i ni addef eu bod.

Y mae y gyfundrefn o angenrheidrwydd wedi cael ei defnyddio mewn gwahanol oesoedd i wahanol ddybenion: ac y mae y rhai mwyaf crefyddol a difrifol o athronwyr Prydain, gydag ychydig eithriadau, wedi bod yn amddiffynwyr rhyddid yr ewyllys mewn gwahanol ffyrdd. Defnyddiwyd yr athrawiaeth o angenrheidrwydd i amddiffyn Atheistiaeth, ac i ddifodi y gwahaniaeth rhwng enaid a chorff, gan Hobbes, Spinoza, Hume, ac ereill; ac yn eu herbyn, amddiffynwyd yr athrawiaeth o ryddid gan Cudworth, Clarke, a Reid. Ysgrifenodd yr Unitariaid, Priestley a Belsham, o blaid angenrheidrwydd; ac y mae yr un athrawiaeth yn ein dyddiau ni wedi bod mewn bri uchel yn mysg yr anffyddwyr a elwir *Socialists* a *Communists*, fel llwybr i ennill dysgyblion i'w syniadau dinystriol am gymdeithas. Eto, y mae dynion o ysbryd ac o ddybenion pur wahanol i'r rhai hyn wedi cymmeryd i fyny y gyfundrefn o angenrheidrwydd. Leibnitz a'i defnyddiodd i gyssoni rheswm a ffydd yn erbyn ammheuaeth Boyle. Jonathan Edwards a ddefnyddiodd yr un gyfundrefn i amddiffyn Calviniaeth yn erbyn ymosodiadau Arminiaeth. Dilynwyd ef yn hyn gan Dr. E. Williams, Dr. Chalmers, a lluaws o rai ereill sydd wedi derbyn eu Calviniaeth oddi wrth Edwards. Ond ni ddefnyddiodd Calvin ei hun y dull athronyddol hwn i osod allan ei syniadau neillduol.

Y mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd yn ymddangos yn anghysson â'r hyn a ddywedir am ryddid yr ewyllys, ac am gwymp dyn, yn nghredoau y Diwygiad. Wrth ddyweyd fod dyn wedi colli rhyddid ei ewyllys trwy bechod, cymmerir yn ganiataol fod rhyddid yn bosibl; ond ar y dybiaeth o angenrheidrwydd cyffredinol, yr oedd dyn cyn y cwymp fel wedi y cwymp yn amddifad o ryddid; ac o ganlyniad, nis gallai golli trwy bechod yr hyn nad oedd ganddo cyn hyny. Mae sefyllfa ewyllys dyn dan lywodraeth pechod yn gwestiwn arall. Gwel Ewyllys; Rhyddid.

**ANGERDD—OL**, [*angar*]: ager, gwres, tuedd, tanbaid, gwresog.

*Angerdd* arall oedd arno.
Another *disposition* was in him. *H. Culhwch.*

Tri ergyrwaew glyw, glew genawon,
Tri eryr ongyr *angerddolion*.

The three spear-pushing chiefs, that were gallant youths,
The three eagles of lances, *violent ones*. *Cynddelw.*

"Ac *angerdd* tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr;" *Heb.* x. 27. Y gair Groeg am *angerdd*, yn yr adnod hon, yw ζηλος, yr hwn a gyfieithir yn fynych, *sel: Ioan* ii. 17; *Rhuf.* x. 2; 1 *Col.* iv. 13. Yn y frawddeg hon, dynoda *soriant, digofaint:*—"angerdd tân;" hyny yw, digofaint tanllyd: Seis., "*fiery indignation;*"—Beza, "*ignis fervor.*" Mae "angerdd tân," medd Dr. Owen, yn cyfeirio at dri pheth:—1. Sancteiddrwydd natur Duw, o'r hyn y mae y gospedigaeth a ddysgrifia yr apostol yn deilliaw, fel yr hyn sydd fwyaf cyfaddas iddo. 2. Gweithrediad cyfiawn ewyllys Duw, yr hyn, weithiau, a elwir ei lid a'i ddigofaint. 3. Llymder ofnadwy y gospedigaeth ei hun yn ei natur a'i heffeithiau.

**ANGHREDINIAETH**, [*un heb gredu; απιστια, apistia*]. Y mae gwahanol gyfieithiadau y gair hwn a'i berthynasau yn dangos y cyssylltiad agos sydd rhwng anghrediniaeth, anffyddlondeb, ac anufudd-dod. Gwreiddyn y gair ydyw πιστις, (*pistis*)=*ffydd*. Cyfieithir yr ansoddair, *apistos*, yn gyffredin, *anffyddlawn=unfaithful: Mat.* xvii. 17; "O genedlaeth anffyddlawn:" *Marc* ix. 19; *Luc* ix. 41; xii. 46. Weithiau, *anghredadyn=unbeliever: Ioan* xx. 27; "Na fydd anghredadyn ond credadyn:" 2 *Cor.* vi. 15; "Pa ran sydd i gredadyn gydag anghredadyn." Weithiau, *digred:* 1 *Cor.* vi. 6; vii. 12, 13, 14; x. 27; xiv. 22, 23, 24. Yn 1 *Tim.* v. 8; "A gwaeth yw na'r diffydd:" *Tit.* i. 15; "I'r diffydd, nid pur dim." Cyfieithir y sylweddair yn unffurf—*anghrediniaeth: Mat.* xiii. 58; xvii. 20; *Marc* vi. 6; *Rhuf.* iii. 3; iv. 20; xi. 20, 23. Ond fe ellir cyfieithu y gair yn *anffyddlondeb*. Fe ddichon mai anghrediniaeth, fel y mae yn amlygu ei hun yn anffyddlondeb, ydyw yr ystyr: *Rhuf.* iii. 3; "Beth, os anghredodd rhai, a wna eu hanghrediniaeth hwy ffydd Duw yn ofer?"—A wna eu hanffyddlondeb hwy ffyddlondeb Duw yn ofer neu yn ddirym? Cyfeirir at yr *ymddiried* a roddwyd iddynt: *adn.* 2. Ni thyr Duw ei gyfammod â'r gwir Israel o herwydd anffyddlondeb y rhai nad ydynt o Israel yn ol yr ysbryd.

Mae gair arall a gyfieithir weithiau yn *anghrediniaeth*, sef απειθεια (*apeitheia*)—anewyllysgarwch, cyndyn i gredu, anufudd-dod: *Heb.* iv. 6; "Ac nad aeth y rhai y pregethwyd yn gyntaf iddynt i mewn o herwydd anghrediniaeth." Anufudd-dod yn codi o anghrediniaeth: *adn.* 11; "Yn ol yr un siampl o anghrediniaeth:" *Act.* xiv. 2; "Yr Iuddewon anghredadin:" xvii. 5; "Y rhai oedd heb gredu:" xix. 9; *Heb.* iii. 18; "Y rhai ni chredasant." Ond cyfieithir y gair hwn fynychaf, *anufudd-dod: Luc* i. 17; *Tit.* i. 10; iii. 3; *Act.* xxvi. 19: a *Rhuf.* xi. 30; "Canys megys y buoch chwithau gynt yn anufudd i Dduw, eithr yr awr hon a gawsoch drugaredd trwy anufudd-dod y rhai hyn"—*faithless* yw y Seisoneg. Mae y ddau yn y gair anghrediniaeth fel gwrthryfelgarwch yn erbyn ewyllys Duw: *adn.* 32; "Canys Duw a'u cauodd hwynt oll mewn *anufudd-dod*" (*unbelief*);—anufudd-dod, ac anghrediniaeth fel gwreiddyn: *Eph.* ii. 2; "Yn mhlant anufudd-dod;"

Digitized by Google

—anghrediniaeth a gwrthwynebiad o'r efengyl, medd Luther, Bengel, &c.; gwrthwynebiad i ewyllys a llywodraeth Duw, ac yn enwedig y ddeddf ysgrifenedig ar y galon, medd ereill.

I gyfansoddi y pechod o anghrediniaeth, rhaid oedd fod Duw wedi tystiolaethu a llefaru wrth ddynion, a thystiolaethu yn y fath fodd ag y gallai dynion wybod a deall y dystiolaeth, a rhoddi digon o brofion er argyhoeddiad pob meddwl rhesymol, diragfarn, mai Duw oedd yn tystiolaethu. Hyn oll a wnaeth efe, pan "lefarodd wrthym ni yn ei Fab." "Oni buasai fy nyfod i a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod," medd Crist; *h.y.*, ni buasai y pechod hwn o anghrediniaeth arnynt. Y peth cyntaf sydd yn hanfodol er ffydd a chredu, ydyw clywed y dystiolaeth ddwyfol—"Canys ffydd sydd yn dyfod trwy glywed, a chlywed trwy air Duw." Ond yr oedd yn angenrheidiol hefyd cyflwyno y dystiolaeth i'w sylw gyda phrofion diymwad o'i dwyfolder, i fod yn wrthddrych addas i'w ffydd, a chyn y buasai euogrwydd mawr o herwydd ei gwrthod a'i hanghredu; a hyn hefyd a wnaed. "Oni bai wneuthur o honof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall, ni buasai arnynt bechod: ond yr awr hon hwy a welsant, ac a'm casasant i a'm Tad hefyd;" *Ioan* xv. 24. Cawsant y dystiolaeth yn athrawiaeth Crist, a chawsant y profion egluraf o'i dwyfoldeb yn ei weithredoedd ef; a'r ddau beth hyn yn nghyd a gyfansoddai fawredd eu pechod yn ei hanghredu; ac a'u gwnelent yn ddiesgus am eu pechod.

Y mae y dystiolaeth yn aros fyth yr un yn y gair a'r efengyl; ond nid yw y profion gweledig —"yr arwyddion oedd yn canlyn;" "Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu trwy arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd a doniau yr Ysbryd Glân"—i'w cael yn awr. Yr amser yr oedd y dystiolaeth oruchnaturiol, sef tystiolaeth nad oedd i'w chael yn ngweinidogaeth natur, nac yn bosibl i feddwl dyn heb ddadguddiad goruchnaturiol o honi gael un wybodaeth am dani—amser dadguddiad y dystiolaeth oruchnaturiol hon, meddwn, oedd amser priodol y *gweithredoedd* goruchnaturiol hyny fel seliau a phrofion o ddwyfolder y dystiolaeth hono. Llefarai Crist yn enw y Tad, Creawdydd ac Arglwydd nef a daiar; a dygai y Creawdwr a'r Llywydd mawr dystiolaeth i wirionedd ei honiadau a'i athrawiaethau yn y gwyrthiau a'r rhyfeddodau mawrion hyny a gyflawnid o flaen llygaid y bobl y lleferid y dystiolaeth yn eu clustiau. Yr oedd natur a'i helfenau yn plygu ac yn gogwyddo yn ol ac yn mlaen bob ffordd, ac yn gwneyd pob peth, ar amnaid "yr hwn oedd yn llefaru."

Megys yn yr efengyl y cyssylltir bywyd a chadwedigaeth enaid â ffydd, ac â ffydd yn unig, y cyssylltir colledigaeth pob enaid o wlad efengyl ag anghrediniaeth. "Hon yw y ddamnedigaeth," medd Crist, "ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni." "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol; a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wel fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef;" *Ioan* iii. 19, 36. Yr oedd bywyd a marwolaeth y genedl Iuddewig gynt, mewn ystyr wladwriaethol a thymmorol, yn gystal ag yn ysbrydol a thragwyddol, wedi eu gosod, yn nhrefn oruchwyliaethol Duw tuag ati, i droi ar ffydd ac anghrediniaeth. Nid oedd dim a ddygai y genedl a waredwyd o'r Aipht i feddu a mwynhau yr orphwysfa a addawsid iddi yn Nghanaan, ond ei ffydd yn addewid Duw, a'i allu a'i ffyddlondeb ef i'w chyflawnu; ac nid oedd dim a'u hattaliasai i fyned i mewn i'r orphwysfa hono ond anghrediniaeth. "Yr ydym ni yn gweled," medd yr apostol, "na allent hwy fyned i mewn, o herwydd anghrediniaeth"—er dyfod o'r Aipht, a thrwy y môr, a'r anialwch, nes dyfod i olwg yr orphwysfa, nis gallasent fyned i mewn. Syrthiodd yr holl genedlaeth, ond Caleb, mab Iephuneh, a Iosuah, mab Nun, y rhai yr oedd ysbryd arall ynddynt, sef ysbryd ffydd. Dyma egwyddorion cadwedigaeth a damnedigaeth dan yr efengyl eto. Trwy ffydd yn unig yr eir i mewn i'r orphwysfa. Y mae addewid wedi ei gadael i ni o honi yn ngair y dystiolaeth; ac anghrediniaeth yn unig sydd yn attal ac yn cau yr enaid allan o honi. "Byddwn ddyfal gan hyny i fyned i mewn i'r orphwysfa hono, fel na syrthio neb yn ol yr un esampl o anghrediniaeth;" *Heb.* iv. 11.

Cynnwysa anghrediniaeth ynddo ei hun hanfod a gwreiddiau pob drwg arall. Y mae megys yn rhedeg yn y gwddf i Dduw. "Yr hwn nid yw yn credu yn Nuw, a'i gwnaeth ef yn gelwyddog, o blegid na chredodd y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab;" 1 *Ioan* v. 10. Amcana anghrediniaeth fel hyn ei "wneuthur ef yn gelwyddog."

Gellir trwsio, golchi, paentio, a gweddeiddio rhyw gymmaint ar bechadur yn ei anghrediniaeth; ond nid ellir gwella dim ar ei gyflwr mewn gwirionedd, tra y byddo ei galon o dan lywodraeth y pechod hwn. Llafurio i'w ddiwygio oddi wrth bechodau ereill, tra y gadewir ef yn hwn, nid yw ddim amgen na'i guro oddi ar y maes agored i'w gastell a'i amddiffynfa, tra yr erys o hyd mewn cyflwr o elyniaeth yn erbyn Duw, fel y sylwai y Dr. Owen. Nid amcan gweinidogaeth yr efengyl ydyw diwygio y byd, ond ei ddychwelyd. Y mae diwygiad yn canlyn dychweliad o angenrheidrwydd; canys fel y mae anghrediniaeth yn wreiddyn pob drwg, felly hefyd y mae ffydd yn wreiddyn pob rhinwedd. Nid oedd yr apostolion, y rhai a ddeallent eu commisiwn yn drwyadl, byth yn galw ar ddynion i adael y pechod yma a'r pechod arall, nac i ymarfer â'r ddyledswydd hon neu arall, mewn ffordd o ragbarotoad; ond eu galw i gredu dan boen damnedigaeth yn gyntaf peth, gan wybod y buasai ymadawiad â phob pechod, ac ymarferiad o bob dyledswydd, yn canlyn yn naturiol fel ffrwythau ffydd i'r gwirionedd.

ANGEU. Gwel MARWOLAETH.

ANGHARIAD, [*an—car*]. Nid oes dim yn fwy anghytunol â deddf Duw, swm yr hon yw cariad; na dim yn fwy gwrthwyneb i natur Duw, yn yr hon y mae cariad yn berffeithder mor arbenig, fel y dywedir mai "Duw cariad yw." Y mae hefyd yn anghydweddol â dyn, o blegid crewyd ef ar "lun a delw Duw." Mae anghariad rhwng personau unigol, ac mewn cymdeithasau, yn beth tra annymunol a niweidiol; ond pan yn lefeinio eglwys Crist, ac yn cael ei lochi gan ei haelodau, y mae yn fwyaf felly o bob man. Mae amryw bethau yn achosion sydd yn cynnyrchu anghariad rhwng dynion â'u gilydd; megys tymmerau afrywiog, chwerwon, ac anghymdeithasgar, fel yr eiddo Nabal. Mor wahanol oedd tymmer y mab hwn i Belial i dymmer Abraham, gyda meibion Heth; neu yr eiddo Paul o flaen ei farnwyr! Yr oedd y naill yn cenedlu anghariad, ac yn cynnyrchu ei debyg mewn ereill, tra yr



Digitized by Google

oedd y llall yn gynnyrch i deimladau llednais a boneddigaidd. Y mae tueddiad annhrugarog, ac yn enwedig, anghyfiawn, yn nghyd â nwydau poethion a direol, yn cenedlu ac yn meithrin anghariad.

ANGHRIST, [*an Crist; αντίχριστος, antichristos*]. Arwydda y rhagddod *αντι* (*anti*) "yn lle" ac hefyd "yn erbyn;" pan ddefnyddir ef mewn cyssylltiad â gair yn arwyddo gweithredydd, i ffurfio gair cyfansawdd, ei ystyr ydyw is-weithredydd, neu gweithredydd yn lle un arall; neu ynte un yn gweithredu yn erbyn un arall; ac weithiau, bob un o'r ddau. Os cymmerir yr ystyr cyntaf, un yn gosod ei hun yn lle Crist ydyw; yn ol yr ail, un yn gwrthwynebu Crist. Ond tebycach ydyw fod y gair yn cymmeryd i mewn y ddau; ac felly, arwydda, un yn enw Crist yn ei wrthwynebu—un yn proffesu bod dan Grist ac ar ei enw, ac eto yn defnyddio y mantesion hyn yn ei erbyn. Ni ddefnyddir y gair ond mewn dau o epistolau Ioan: 1 *Ioan* ii. 18; "Yr awr ddiweddaf ydyw: ac megys y clywsoch y daw anghrist, yr awr hon hefyd y mae anghristiau lawer:"—*adn.* 22; "Pwy yw y celwyddog, ond yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw y Crist? Efe yw yr anghrist, yr hwn sydd yn gwadu y Tad a'r Mab." Yn 1 *Ioan* iv. 3; "Eithr hwn yw ysbryd anghrist:"—2 *Ioan* 7; "O blegid y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd, y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. Hwn yw y twyllwr a'r anghrist." Yr oedd yr Ysbryd wedi rhagddyweyd yr ymadawai llawer oddi wrth y gwirionedd; ond yma yn gyntaf y defnyddir y gair *anghrist, ysbryd anghrist, y twyllwr*, yn y rhif unigol, am holl elynion y gwirionedd. Yr oedd y saint wedi clywed fod anghrist yn dyfod i'r byd; y mae yn cadarnhau hyny, ac yn chwanegu fod anghristiau lawer yr awr hon. Yr hyn a ddywed Ioan mewn ffordd o ddysgrifiad am y rhai a arwyddir wrth yr enw ydyw, "oddi wrthym ni yr aethant hwy allan," "yr hwn sydd yn gwadu y Tad a'r Mab," "y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd." Yma y mae yr apostol yn cymhwyso y gair at y rhai oedd yn gwadu mai Iesu oedd y Crist; ac hefyd at y rhai oedd yn gwadu fod y Messiah wedi dyfod yn y cnawd. Nid ydyw fod y rhif unigol yn cael ei ddefnyddio yn ein rhwymo i feddwl fod cyfeiriad at berson neillduol; o herwydd y mae y rhif unigol gyda'r bannod o'i flaen yn arwyddo dosbarth o ddynion: *Mat.* xii. 35; "Y dyn da"—pob dyn da. Felly yn y manau canlynol: *Mat.* xviii. 17; 1 *Pedr* iv. 18; "Os braidd y mae *y cyfiawn* yn gadwedig:" a *Titus* ii. 8; *Ioan* x. 10, 12: ac yn aml yn Llyfr y Diarebion. Cyfarfyddir â'r bannod yn fynych yn y Groeg, pan na byddo yn y Gymraeg. Felly yn yr adnodau uchod, "yr anghrist," "y twyllwr," a gymmer i mewn bob heresiau a chyfeiliornwyr; ac eto, y mae yn y geiriau briodoldeb i ddynodi rhyw sefydliadau, neu heresiau, neu bersonau neillduol, sydd yn sefyll yn erbyn Crist, ac yn enwedig dan y broffes o fod o'i blaid. Y mae dynion yn amrywio yn eu barn am y dosbarth o ddynion oedd gan Ioan yn ei olwg. Meddylia rhai, ei wrthwynebwyr Iuddewig. Ond y farn fwyaf gyffredin ydyw, mai y Gnosticiaid oeddynt: ac yr oedd y blaid hon yn lluosog y pryd hwnw. Y mae yr enw *Gnosticiaeth* yn dangos gwreiddyn y cyfeiliornad: arwydda *gwybyddiaeth;* ac yr oedd ei phroffeswyr yn hòni eu bod yn gwybod pob peth mewn ystyr ddyfnach nag yr oedd y dadguddiad sanctaidd wedi amlygu:—rhai yn addoli rheswm oeddynt. Nid oeddynt yn foddlawn i dderbyn gwirioneddau y Beibl, heb yn gyntaf eu darostwng i benderfyniadau eu rheswm.

Cymhwysir y gair gan ysgrifenwyr yn gyffredin at yr hwn a welodd Daniel (vii. 8, 20). "â deg corn yn llefaru mawrhydri;" at y *dyn pechod* (2 *Thes.* ii. 3, 8); ac at y bwystfil yn dyfod o'r pwll diwaelod: *Dad.* xi. 7; xvii. 8. Yr un gwrthwynebydd mawr i Grist a'i wirionedd a olygir yn y tri lle; a defnyddir y gair *anghrist* i'w ddynodi gan ysgrifenwyr, ond nid yn yr Ysgrythyrau. Mae barnau wedi amrywio yn fawr, pa beth, neu pwy a feddylir wrth anghrist yn yr ystyr hwn. Mahometiaeth a feddylir gan rai: y farn gyffredin yn mhlith Protestaniaid ydyw, mai Pabyddiaeth, neu y pab fel cynnrychiolydd y gyfundrefn hono, a feddylir. Y mae hanesiaeth yn dangos fod pob egwyddor neu gyfundrefn yn ymddangos yn neillduol mewn rhyw berson fel ei chynnrychiolydd. Cyfeiria ereill y gair at undeb ysbryd aflywodraethus a gormesol, neu aflywodraeth anffyddol mewn undeb â gormes Pabyddol, a'r undeb hwn yn cael ei arddangos a'i gynnrychioli yn enwedigol mewn Jesuitiaeth. Yn 2 *Thes.* ii. 3, 8, y mae Paul yn dangos nad oedd dydd Crist mor agos ag yr oeddynt hwy yn meddwl; bod rhyw ddrygioni mawr i ymddangos yn gyntaf, yr hwn a elwir *ymadawiad, y dyn pechod;* bod rhyw attalfa i lawn amlygiad y drygioni hwn—"yr hyn sydd yn attal," "yr hwn sydd yn attal:" bod y drygioni hwn yn ymestyn o ddyddiau Paul hyd at ddyfodiad Crist; nid yn unig y byddai ei ymledaeniad yn eang (*adn.* 4, 10, 12), ond ei barhâd yn hir o'i ddechreuad cyntaf, trwy ei wahanol ymddangosiadau, hyd at ei gyflawn derfyniad a'i ddinystr. "Y mae dirgelwch yr anwiredd yn gweithio *eisoes:*" yr oedd yr hyn oedd yn attal yn hanfodi yn nyddiau yr apostol, ac attaliai hyd nes y byddai y drygioni hwn wedi tori allan i w gyflawn rym. Y mae y dysgrifiad, yn gyntaf, yn *gyffredinol—ymadawiad, dirgelwch yr anwiredd;* ac hefyd yn *neillduol—yr anwir hwn, y dyn pechod.* Mae hyn yn cyfateb i'r hyn a gawn yn yr efengyl am Grist: yn gyntaf, "teyrnas nefoedd;" ac yna, ef ei hun yn ei ogoniant. Y ddau ddysgrifiad yma, sef y cyffredinol a'r neillduol, a daflant oleu ar eu gilydd. Mae yr *ymadawiad* yn cael ei ddysgrifio yn helaethach yn 1 *Tim.* iv. 1. Wrth yr "anwiredd," nid pob math a feddylir yma, er fod llawer math (*Mat.* xxiv. 12); ond y math hwnw, oddi wrth yr hwn y mae "yr anwir" yn derbyn ei gyfenwad: yr ydoedd yn gweithio yn ddirgelaidd (cymharer *Deut.* xxxi. 21, 27), ac fe weithia felly, nes y cyfoda "yr anwir" ei hun, "yn ol neu trwy weithrediad Satan." Dysgrifir yr hwn sydd yn attal fel person a pheth—yr *hwn*, a'r *hyn*, sydd yn attal. Nid yr "ymadawiad" neu "ddirgelwch yr anwiredd" a attelir, ond "yr anwir"—ymgorffoliad yr elfenau i'r "dyn pechod:" o herwydd y mae dirgelwch yr anwiredd a'r hyn sydd yn attal yn cydhanfodi; ond pan symmudir ymaith yr hyn sydd yn attal, *yna* yr amlygir yr anwir. Mae y *dyn pechod* yn codi neu yn deilliaw o'r "ymadawiad;" ac wrth gymharu yr hyn a ddywedir am yr "anwir" â'r hwn sydd yn "attal," y gwelir pa beth ydyw y ddau. Mae arwyddion a rhyfeddodau gau yn perthyn i'r "anwir," a rhyw fath o *fawrhydi* ac ymddangosiad *ysbrydol*—"Hyd onid yw megys Duw, yn eistedd yn nheml Dduw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw." Yr oedd gallu gwladol Rhufain, yn amser Paul, yn ben yn Ierusalem, Corinth (y lle yr ydoedd yn ysgrifenu ei epistol), a Thessalonica (y lle yr ysgrifenai ato),

Digitized by Google

a'r holl wledydd amgylchynol. Ysgrifenodd Paul ei epistol yn amser Claudius. Felly, meddyliai llawer o'r hynafiaid, mai efe a feddylir yn uniongyrchol wrth yr "hwn sydd yn attal:" mai llygriad Cristionogaeth âg Iuddewaeth ydyw "dirgelwch yr anwiredd;" yr hyn, fel y gwelir oddi wrth yr Actau a'r Epistolau, oedd yn lled gyffredinol y pryd hwnw. Yr oedd yr Iuddewon yn codi yn erbyn yr efengyl, a'r gallu Rhufeinig yn unig oedd yn eu cadw rhag myned i eithafion pellach: yn Corinth, yr oedd Galio, y rhaglaw Rhufeinig, ac yn Ierusalem, Claudius Lysias, yn cadw eu hawdurdod arnynt (*Act.* xxiii. 21, 32); ac yn Rhufain, yr ymherawdwr ei hun. Yr oedd y gallu Rhufeinig, er nad yn uniongyrchol, yn attal cynddaredd yr Iuddewon yn erbyn y gwirionedd—nid oedd y "dyn pechod" wedi ymddangos yn amser Paul, ond yr oedd rhagbarotoadau iddo; nid oedd yr "hwn oedd yn attal" wedi ei symmud eto. Dyma brawf mai y gallu Rhufeinig oedd yr hwn, neu yr hyn oedd yn attal; o herwydd ni bu un gallu arall yn gweithredu mor faith, na chwaith mor nerthol. Eto, nid attal gweithrediad Satan yr ydoedd, ond ymgorffoliad a rhwysg "yr anwir." Ar ol symmudiad ymaith yr hwn oedd yn attal, byddai Satan yn nerth i'r "anwir:"—mae y gallu anghristaidd a ddarlunia Paul yn gweithredu mor faith, fel nas gall lai na bod yr un a'r bwystfil o'r pydew diwaelod; ac y mae tebygolrwydd yn eangder a nerth eu dylanwad: *Dad.* xvii. 8.

Y mae y sylwadau hyn yn unol â geiriad yr apostol; ac y mae ysgrifenwyr Protestanaidd wedi ysgrifenu yn helaeth i'r dyben o brofi mai at Babyddiaeth yn unig y gall yr holl nodau hyn gyfeirio. Y diweddaraf ar hyn ydyw Elliott, yn ei *Horæ Apocalypticæ.* Gwel PAB.

ANGHYDFFURFIAETH: ymadrodd perthynasol yn dynodi anymostyngiad i awdurdod act gyfreithiol a fynai rwymo cydwybodau ac ymarferiadau pob gweinidog eglwysig yn y deyrnas hon wrth drefniant unffurfiol o egwyddorion a defodau crefyddol a benodid gan yr awdurdod wladol. Deil yr unrhyw berthynas âg Eglwys Wladol Lloegr, ag a ddeil Protestaniaeth âg Eglwys Rhufain yn y wlad hon ac ar y Cyfandir. Cymmer i mewn bob plaid o bob egwyddorion athrawiaethol, ac o bob math o ffurflywodraeth eglwysig a ymwahanent oddi wrth gymundeb yr Eglwys Esgobaethol Sefydledig, fel y mae y gair *Protestaniaeth* yn cynnwys pob plaid grefyddol a wrthodent ymgymundeb âg Eglwys Rhufain. Y pryd y cynnysgaethwyd yr Eglwys Ddiwygiedig â ffurf o gyfansoddiad gyntaf, oedd yn nheyrnasiad Edward VI., pan yr oedd yn Galvinaidd yn ei barn, yn esgobyddol yn ei llywodraeth, ac yn Babaidd yn ei ffurfiau a'i defodau o addoliad: ond bu yn ansefydlog gyda golwg ar y rhai hyn yn ystod teyrnasiad Harri VIII., o herwydd anwadalwch y penadur hwnw. Yn ystod adferiad y Pabyddion, o dan Philip a Mary, ffodd llawer o'r Protestaniaid i Ffrainc, yr Iseldiroedd, Switzerland, a rhanau ereill o'r Cyfandir, am ymwared. Cydymffurfiodd cynnifer o'r rhai a aethant drosodd i Germany â'r dull Swissaidd o addoli, â pha bobl yr oeddynt yn un o ran barn o'r blaen. Ar eu dychweliad, yn amser Elizabeth, yr hon a esgynodd i'r orsedd yn 1558, adnabuwyd hwynt wrth yr enw *Puritaniaid;* ond ymddygwyd tuag atynt gan yr awdurdodau gwladol yr un modd ag yr ymddygwyd at y rhai a alwyd ar ol hyny, dan deulu Stuart, yn *Anghydffurfwyr,* a than deulu Hanover, yn *Ymneillduwyr.* Ond yr oedd y Protestaniaid mor syml yn eu dull o addoli, ac yn gymmaint is law y Pabyddion mewn bonedd, cyfoeth, a rhif, fel nad oedd yn gydweddol â golygiadau na thueddiadau Elizabeth i roddi ei chefnogaeth i'w daliadau, na chaniatau yr hyn a geisient. Ond ar ol rhoddi Llyfr Gweddi Gyffredin Edward VI. o dan olygiad pwyllgor o dduwinyddion, ac i ychydig gyfnewidiadau gael eu gwneyd ynddo, y rhai a dueddent at Babyddiaeth yn fwy na Phuritaniaeth, pasiwyd Deddf Unffurfiaeth (1 *Eliz.*, pen. 2); yr hon—tra yr awdurdodai y frenines a'i dirprwywyr "i benodi a chyhoeddi y fath seremoniau a defodau" ag a fernid yn gymhwys, yn chwanegol at y rhai hyn—a waharddai gyflawniad o addoliad crefyddol, o dan berygl o gosp lem, ond yn y dull a benodid yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Yn ol adran 14, gosodwyd dirwy o 12*c.*, i gael ei chodi gan y wardeniaid, ar bwy bynag na fynychai eglwys y plwyf; ac nid ydyw y ddirwy hon eto wedi ei dirymu ond mor bell ag y mae a fyno âg Anghydffurfwyr. Ni roddwyd y ddeddf hon mewn gweithrediad ond mewn rhan o 1558 i 1565, pryd y dechreuwyd ei gweinyddu gyda mwy o lymder, ac yr amddifadwyd llawer o'r Anghydffurfwyr o'u bywoliaethau (y rhai, er eu hamrywiaeth barn, oeddynt mewn undeb â'r Eglwys, yn herwydd eu gwrthwynebiad i ymneillduad cyfangwbl); a rhoddwyd amryw yn y carchar. Ond daeth yr uchel lys hwn yn fwy llym eto yn ei benodiadau. Gosodai y ddeddf 23 *Eliz.*, pen. i, § 5, fod i bob un uwch law pymtheng mlwydd oed, nad arferai fyned i ryw eglwys, capel, neu le y byddid arferol o ddarllen y Gweddi Gyffredin, ond a ymattaliai, yn groes i 1 *Eliz.*, pen. 2, i gael ei ddirwyo o 20*p.* y mis; ac os byddai i neb ymattal rhag myned i'r eglwys am flwyddyn, yr oedd i gael ei rwymo am 200*p.* o leiaf, gyda dau feichiau, ac i barhau felly yn rhwym oni chydymffurfiai. Yn adranau 6 a 7 o'r ddeddf hon, ordeinir—"Os bydd i unrhyw berson neu bersonau, corff gwladwriaethol neu gyfunol, gadw a chynnal unrhyw ysgolfeistr na byddo yn myned i'r eglwys, fel y dywedwyd, neu gael ei ganiatau gan yr esgob neu raglaw yr esgobaeth, fod iddynt gael eu dirwyo o 10*p.* y mis;" ac ordeiniwyd yn mhellach, "fod y cyfryw ysgolfeistr neu athraw a feiddiai ddysgu yn groes i'r ddeddf hon, i gael ei analluogi i fod yn ddysgawdwr ieuenctyd, a'i garcharu am flwyddyn." Yn ol deddf arall (y 29 *Eliz.*, pen. 6, § 4—6), ordeiniwyd fod i'r personau hyny a brofasid yn euog unwaith o beidio mynychu addoliad dwyfol, yn groes i 23 *Eliz.*, pen. i, i dalu i'r trysorlys, heb un cyhuddiad na dyfarniad arall, bob Pasc a Gwyl Mihangel, yr hyn fyddai yn aros o'r ddirwy, yn ol 20*p.* y mis, hyd oni chydymffurfient, ac yn niffyg eu bod yn cael eu talu, fod gan y frenines hawl i attafaelu holl dda, a dwy ran o dair o dir, y fath droseddwyr. Yn ol 3 *James* I., (pen. 4, § 11), gallai y brenin wrthod y taliad o 20*p* y mis, a chymmeryd dwy ran o dair o dir y troseddwr, yn ol ei ddewisiad. Tua diwedd teyrnasiad Elizabeth, ymdrechwyd attal y trosedd o Anghydffurfiaeth, a'i lwyddiant chwanegol, trwy ddeddf arall (35 *Eliz.*, pen. i), yr hon a benodai fod i unrhyw berson uwch law un ar bymtheg oed, a wrthodai yn gildynus fyned i addoliad dwyfol, a'r hwn a wadai mewn argraff, ysgrif, neu ddarlith, allu ac awdurdod ei mawrhydi mewn materion eglwysig, a'r hwn a gynghorai bersonau i ymgadw o'r eglwys neu o gymundeb, neu i fod yn bresennol mewn cymmanfaoedd neu gyf-

arfodydd anghyfreithlawn, neu gyfarfodydd o dan y lliw neu y ffugesgus o unrhyw ymarferiad o grefydd, i gael ei draddodi i garchar, hyd oni chydymffurfiai i fyned i'r eglwys, a gwneyd ymostyngiad. Os byddai i neb rhyw un, a ddyfarnid yn euog o dan y ddeddf hon, wrthod cydymffurfio am dri mis, yr oedd yn ofynol iddo ymadael o'r deyrnas a phob rhan arall o lywodraeth ei mawrhydi am byth; ac i ymadael o ryw borthladd, ac o fewn rhyw amser, a benodid gan yr ynadon; ac os byddai i neb o'r rhai hyn nacau ymadael, neu ddychwelyd heb ganiatâd y frenines, byddai yn euog o gyflafan heb fraint Eglwyswyr. Ac er mai yn erbyn y Pabyddion yr oedd y darpariadau hyn wedi eu bwriadu yn benaf, effeithient ar yr Anghydffurfwyr yn gyffredinol gyda'r un gerwindeb.

Yr oedd y Protestaniaid yn blaid nerthol yn nyddiau Elizabeth, pe buasent yn fwy unedig. Gwnaed cynnygiad yn 1561, yn y gymanfa eglwysig gyntaf a gynnaliwyd yn Lloegr, er diddymu rhyw seremonïau a ffurfiau a wrthwynebid gan y Puritaniaid. Collwyd y mesur gan fwyafrif o un yn unig; er y gwybyddid fod yr archesgob Parker a'r frenines yn ei erbyn. Yr oedd ganddynt ddylanwad mawr hefyd yn mhlith y Cyffredin, a gallasent ddysgwyl y caniatëid iddynt eu cais, gan nad oeddynt yn gofyn am ddadymchweliad y cyfansoddiad eglwysyddol, ond yn unig fod i rai defosiynau a ffurfiau, y rhai a ystyrient yn anghydweddol â symlrwydd Cristionogaeth, gael eu gadael heibio; ac yn gyffredinol, fod i bethau dibwys beidio cael eu hystyried yn anhebgorol. Er fod un blaid, wrth ben pa un yr oedd y cadeirdraw Cartwright, o Cambridge, yn dymuno henaduriaeth yn fwy nag esgobyddiaeth; ac un arall, yr Annibynwyr neu y Browniaid, yn dymuno dadgyssylltiad yr eglwys â'r wladwriaeth yn gyfangwbl; eto, y mae lle i gasglu y buasai ychydig o oddefiad ac o gydddygiad yn boddio rhan fawr, ac yn lleddfu anfoddlonrwydd y cyfan. Ond dewiswyd cyfeiriad gwrthwynebol yn y teyrnasiad hwn, a'r rhai dyfodol; yr hyn a ddygodd o gwmpas, o'r diwedd, ryfel gartrefol, a dadymchweliad yr awdurdod freninol am dymmor. Yn 1603, pan fu farw Elizabeth, ac y daeth James VI. o Scotland yn ei lle, llenwid yr Anghydffurfwyr â dysgwyliadau am fwy o dawelwch, o herwydd ei fod yn aelod o'r Eglwys Henaduriaethol; wrth yr hon, fwy nag unwaith, yr oedd wedi dangos ei ymlyniad. Ond siomwyd hwy oll yn hyn: canys pan alwyd am gymmanfa, yn ol eu cais, yn yr hon yr oedd pedwar o'u gweinidogion hwy, a ddewisasid gan James, pryd yr oedd naw o esgobion o'r ochr arall, a chyda hwy gynnifer o urddasolion, a James ei hunan yn llywydd, ni wnaed dim ond eu hanfon ymaith mewn diystyrwch, yr hyn a barodd ofn ynddynt am chwaneg o ymosodiadau arnynt; ac yn fuan ar ol hyn, gwnaed amryw gyfnewidiadau yn y cyfeireb (*rubric*), a rhoddwyd cyhoeddiad yn gofyn cydymffurfiaeth o'r math manylaf. Yn 1604 y pasiwyd Llyfr y Canonau, gan gymmanfa, yr hon a lywyddid gan yr esgob Bancroft; yn yr hwn yr oedd cospedigaethau llymion, yn dymmorol ac ysbrydol, yn cael eu cyhoeddi yn erbyn y duwinyddion Protestanaidd; a dilynwyd ef yn fuan gan erlidigaeth o'r fath lymaf. Yn ol 3 *James* I., pen. 4, § 32, gosodid dirwy o 10*p*. y mis ar bwy bynag a gynnaliai, a gynnorthwyai, a gadwai, neu a lettyai yn ei dŷ, was, teithiwr, neu ddyeithrddyn, yr hwn, heb un rheswm nac esgus, a esgeulusai fynychu yr eglwys am fis cyfan. Yn ol 21 *James* I., pen 4. § 5, ordeinir fod cwynion yn cael eu rhoddi yn erbyn personau, am na fynychent yr eglwys a gwrandawiad gwasanaeth dwyfol, yn mhob sir, yn ol ewyllys yr achwynwr. Ond er y cyfan a wnaed er dadwreiddio Anghydffurfiaeth, llwyddo a wnaeth. Yr oedd rhifedi mawr o offeiriaid yr Eglwys o ddaliadau Puritanaidd, y rhai a hiraethent am gyfnewidiad; ac ni wnaeth y cyfnewidiad yn nghredo James, o fod yn Galvinaidd i fod yn Arminaidd, ond ychwanegu at eu rhif.

Cyffelyb oedd ymddygiad Charles I. tuag at y Puritaniaid i un o'i ragflaenwyr, a chafodd yr archesgob Laud yn gynnorthwywr galluog ac aiddgar; ond buan y bu i'w ymddygiad trahaus achosi anghydfod rhyngddo a'i senedd ac a'i bobl. Ymfudodd llawer o'r Puritaniaid i Ogledd America, a sefydlasant drefedigaeth Massachusetts Bay, er mwyn mwynhau diogelwch a llonyddwch, hyd oni rwystrwyd hwy o'r diwedd gan gyhoeddiad o eiddo y brenin. Trowyd cannoedd o weinidogion Protestanaidd o'u bywoliaethau, o herwydd eu gwrthwynebiad i Lyfr y Campau, a gyhoeddasid yn y teyrnasiad blaenorol. Condemniwyd Calviniaeth gan awdurdod freninol, a rhoddwyd attaliadau ar y dulliau a'r amserau o bregethu.

Ond yr oedd cyfnewidiad yn ymyl. Yn 1644, cyhuddwyd Laud o uchel-fradwriaeth, a thorwyd ei ben; ac o gylch pum mlynedd ar ol hyny, dyoddefodd Charles yr un dynged. Diddymwyd Esgobyddiaeth gan y senedd, a phob peth oedd yn groes i gynllun Eglwys Geneva. Yn ystod y werinlywodraeth, Henaduriaeth oedd y grefydd sefydledig; ond yr oedd Annibyniaeth yn ffynu yn y fyddin, ac mewn bri mawr gan Cromwell ei hunan. Blodeuodd y Crynwyr a'r Bedyddwyr o dan ei deyrnasiad; a daeth amryw sectau i fod, o'r daliadau mwyaf gwyllt a dychymygol, y rhai a oddefid oll, ond Esgobyddiaeth, yr hon oedd yn cael ei gwahardd; a'r Anghydffurfwyr, yn eu llwyddiant, gan anghofio y gwersi a ddylasai eu gorthrymderau eu dysgu iddynt, a ddangosasant at yr Esgobyddion yr un gerwindeb ag a ddangosasid o'r blaen atynt hwythau. Pan ddaeth Charles II. i'r orsedd, pasiwyd gweithred gyfreithiol a roddodd ei arwyddocâd hanesyddol i'r ymadrodd dan sylw; sef yr Act o Unffurfiaeth (*The Act of Uniformity*)—yn darbodi fod i holl weinidogion crefydd yn y deyrnas hon wneuthur dadganiad o'u cymmeradwyaeth a'u cydsyniad diffuant o'r cwbl oll, ac o bob peth a gynnwysir yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Cafodd yr act hon y cydsyniad breninol ar y 19eg o Fai, 1662. Ac ar y 24ain o Awst canlynol—dydd Bartholomëus—bwriwyd allan o winllan y weinidogaeth uwch law dwy fil o weinidogion, am yr ewyllysient yn hytrach gadw cydwybod ddirwystr tuag at Dduw yn eu mynwesau, na llawnodi eu henwau fel rhai yn cymmeradwyo cynnifer o bethau a olygent eu bod yn hollol groes i'r Ysgrythyrau Sanctaidd.

Y prif offeryn yn ffurfiad a dygiad yn mlaen yr act hon ydoedd yr archesgob Sheldon; yr hon, yn nghyd âg amryw fesurau gorthrymus ereill, y llwyddodd i'w cario drwy y senedd, drwy gefnogaeth a dylanwad Arglwydd Clarendon.

Bu yr act hon yn ffynnonell o'r hon y tarddai allan lifeiriant dirfawr o ofidiau a gorthrymderau, pa rai a ddirwasgasant yn dost ar amgylchiadau a phersonau lluaws o ddynion goreu yr oes hono. Canys pan brofwyd fod cynnifer i'w cael, a feiddient nacäu ymostwng iddi, gan ddewis yn

Digitized by Google

dyddiau hyny, ar y llaw arall; yn gystal a hyny yn gofgolofn o allu ffydd yn, a chydwybod i, yr hyn a gredai y dyoddefwyr erlidiedig ei fod yn achos Duw a'r gwirionedd.

ANGHYDOLIGION, neu ANGHATHOLIGION, [Llad. *Acatholici*]: enw cyffredinol ar y sawl ni pherthynant i gymundeb Eglwys Rhufain. Yn y gwledydd hyny, ar gyfandir Ewrop, lle mae y rhan fwyaf o'r trigolion yn Babyddion, gelwir Ardystwyr neu Brotestaniaid ar yr enw hwn; ac ystyrir ef yn air heb gymmaint o ddirmyg yn perthyn iddo.

ANGHYFANNEDD — OL — RWYDD: anrheithiedig, disathr, heb drigiannydd, dianneddl (*Gen.* xlvii. 19; *Exod.* xxiii. 29; *Esa.* xxiv. 12; xlix. 8; *Mat.* xiv. 15): — "Wele, yr ydys yn gadael eich tŷ i chwi yn anghyfanneddl;" *Mat.* xxiii. 38. Y mae yn ddiau mai y deml a olygir yma wrth "eich tŷ:"—tŷ Dduw ei hun a fuasai unwaith; ond yn awr, efe a ymwrthodai â hi, o herwydd anwireddau a rhagrith y rhai a gymmerent arnynt ei addoli ynddi, ac a'i galwai "eich tŷ." Buasai Duw yn hir-ymarhöus wrth y genedl Iuddewig; ond yn awr, yr oedd trugaredd ar ei rhoddi i fyny, ac yr oedd llwyr anrheithiad y wlad, a'r ddinas, ac yn enwedig y deml, ar gymmeryd lle. Wedi i Dduw ymwrthod â'r deml, ac ymadael o honi, yr oedd yn rhwym o fyned yn anghyfannedd: *Ier.* xii. 7; xxii. 6; *Ezec.* xxxvi. 4.

"Am hyny, pan weloch y ffieidd-dra *anghyfanneddol*, a ddywedwyd trwy Daniel y prophwyd, yn sefyll yn y lle sanctaidd (y neb a ddarlleno, ystyried);" *Mat.* xxiv. 15; *Dan.* ix. 26, 27; xi. 31; xii. 11. Y mae yn ddiau mai yr eilun, neu offer eilunaddoliaeth, a osodid i fyny yn y lle sanctaidd gan anrheithydd Ierusalem, yw yr hyn a olygir yn y prophwydoliaethau uchod. Efallai fod prophwydoliaeth Daniel yn cyfeirio yn y lle blaenaf at halogiad y deml gan Antiochus Epiphanes; yr hwn a barodd gyfodi allor eilunaddolgar ar allor y poethoffrwm, ar yr hon yr offrymid pethau aflan i Jupiter Olympius, i'r hwn hefyd y cyssegrai efe y deml ei hunan. Yn y golygiad yna ei cymhwysid gan awdwr Llyfr Cyntaf y Maccabeaid: 1 *Mac.* i. 54; vi. 7; 2 *Mac.* vi. 2—5. Ac y mae Josephus yn rhoddi darluniad manwl o'r unrhyw amgylchiad, fel cyflawniad o'r unrhyw ragfynegiad.—*Hyn. Iudd.*, llyfr xii, pen. 5, ad. 4; a llyfr 12, pen. 7, ad. 6.

Yn yr adnod a ddyfynwyd uchod, sef *Mat.* xxiv. 15, fe gymhwysir y brophwydoliaeth gan yr Arglwydd Iesu at yr hyn a gymmerai le mewn cyssylltiad âg ymosodiad y Rhufeiniaid ar Ierusalem. Cynghorir y rhai a welent y ffieidd-dra anghyfanneddol yn sefyll yn y lle sanctaidd, i ffoi i'r mynyddoedd. Gellir cymhwyso y geiriau hyn yn briodol at ddynesiad lluoedd y Rhufeiniaid yn erbyn y ddinas, gan ddwyn y llumanau, ar y rhai yr oedd lluniau eu heilunod, i'r rhai y rhoddent anrhydedd eilunaddolgar, a'r rhai a olygid gan yr Iuddewon megys eilunod. Encilad annysgwyliadwy y lluoedd Rhufeinig oddi wrth furiau y ddinas, a roddes gyfle i'r rhai a gofient rybudd y Gwaredwr i ufuddhau i'w gynghor, trwy ffoi i'r mynyddoedd. Ond os y barnwn mai y deml ei hunan a olygir wrth "y lle sanctaidd," yn y testyn dan sylw, nyni a ganfyddwn gyflawniad o'r brophwydoliaeth yn y ffaith, ddarfod i'r Rhufeiniaid, pan gymmerasant y ddinas ac yr anrheithiasant y lle sanctaidd, ddwyn eu llumanau i'r deml, a'u dodi oddi ar y porth dwyreiniol, *gan offrymu aberthau iddynt*; [*Jos. Rhyfel. Iudd.*, llyfr vi, pen. 6, ad. 1.] Ac y mae Havercamp, gan ddyfynu Tertullian, yn sylwi, fod holl grefydd y gwersyll Rhufeinig, o'r bron, yn gynnwysedig mewn addoli y llumanau, tyngu i'r llumanau, a dyrchafu y llumanau goruwch pob duwiau ereill. Ac nid dyma y tro olaf i'r "ffieidd-dra anghyfanneddol" ymddangos yn "y lle sanctaidd:" canys fe'n hysbysir fod yr ymherawdwr Adrian wedi peri dodi delw baedd ar un o byrth y ddinas, a elwid porth Bethlehem, yn unig er mwyn sarhau yr Iuddewon; ac efe a adeiladodd deml i Ion hefyd ar seiliau yr hen deml Iuddewig, ac a barodd ddodi delw o hono ei hunan i fyny yn y rhan lle y safai y cyssegr sancteiddiolaf.

ANGHYFANNEDDLE — OEDD: man, neu fanau na byddo dynion yn cyfanneddu ynddynt: —"Adeiladant hefyd yr hen ddiffaethfa, cyfodant yr anghyfanneddfa gynt, ac adnewyddant ddinasoedd diffaeth, ac anghyfannedd-dra llawer oes;" *Esa.* lxi. 4. Cyflawnwyd yr addewid yma yn llythyrenol, pan ddychwelodd yr Iuddewon o Babilon, ac yr adeiladasant eu tai a'u dinasoedd anrheithiedig, gan adfeddiannu eu gwlad anghyfannedd: ac os edrychwn ar yr addewid yn golygu amseroedd yr efengyl, efallai mai y meddwl yw, y byddai i ddinasoedd a thaleithiau y Cenedloedd, y rhai oeddynt megys yn anrheithiedig ac anghyfannedd, neu yn amddifad o grefydd, gael eu hadeiladu a'u prydferthu yn addoliad y gwir Dduw. Ffyniant gwir grefydd yn y byd a wisga y ddaiar, yr hon sydd yn awr yn orchuddiedig gan anrhaith pechod—megys gwlad a wnaed yn anrheithiedig ac anghyfanneddol gan oresgynwyr didrugaredd — â phrydferthwch a dedwyddwch moesol, megys pe na buasai pechod wedi ei hanurddo erioed. Gwel *Esa.* li. 3.

ANGHYFIAITH, [*cyfiaith*]: iaith ddyeithr.

"*Anghyfiaith* yw dyn na wyper pa ddyweto: ac na wypo pa ddyweter wrtho." *Welsh Laws.*

Gelwir yr Aiphtiaid yn "bobl anghyfiaith" i'r Israeliaid. Nid yw y gair Hebraeg, לעז, i'w gael yn un man ond yn yr adnod hon—*Salm* cxiv. 1. Tybir gan rai mai ei ystyr yma yw yr un a roddir yn y testyn Cymraeg; sef anghyfiaith, iaith farbaraidd, annealladwy i'r Israeliaid. Cyfieithir ef yn y Deg a Thrigain, *βαρβαρω*; ac yn y Vulgate, *barbaro*. Cadarnheir y golygiad hwn yn *Salm* lxxxi. 5; "lle (sef yr Aipht) y clywais iaith ni ddeallwn." Ceir hefyd aml gyfeiriad at y ffaith hon, sef bod Israel mewn gwlad estronol ac yn clywed iaith ddyeithr, yn llyfrau Moses; megys *Gen.* xlii. 23. Barna ereill fod y gair gwreiddiol yn gyfansoddedig o ל (*o*), ac עז (*trais*), a'i fod yn cyfeirio at drais a chreulondeb yr Aiphtiaid tuag at yr Hebreaid. Dyma farn yr esgob Horsley. Dywed fod yr ymadrodd, "pobl anghyfiaith," yn gyfystyr â *phobl orthrymus*. Tybia ereill, ei fod yn cyfeirio yn fwy neillduol at farbareidd-dra moesau yr Aiphtiaid nag at ddyeithrwch eu hiaith.

ANGHYFIAWN—DER, [*cyfiawn*]: y gwrthwyneb i gyfiawnder ac uniondeb. Gan fod holl hawliau a gofynion deddf Duw yn seiliedig ar gyfiawnder, y mae pob pechod yn anghyfiawnder. Mae gwneyd anghyfiawnder â dyn yn drosedd o ddeddf Duw, ac yn drais ar ei hawliau yntau fel creadur. Gellir gwneyd anghyfiawnder âg arall mewn amryw o ffyrdd:—â'i enaid trwy wyrdroi ei farn, a chamarwain ei ewyllys, a llygru a halogi

Digitized by Google

ei galon; â'i gorff, trwy ei ysbeilio o bethau sydd anwyl ganddo, megys ei fywyd, ei iechyd, ei ddiweirdeb, a'i enw da, trwy gamdystiolaethau, neu awgrymau disail, a dueddant i'w iselhau yn ngolwg ereill; ac hefyd yn ei gyssylltiadau â'i feddiannau.

"Attal y gwirionedd mewn *anghyfiawnder;*" *Rhuf.* i. 18. Y gair gwreiddiol am *attal* ydyw κατεχω; a bernir gan rai mai ei ystyr yn y lle hwn ydyw, *carcharu, cau i mewn.* Arwydda y ferf, cadw peth oddi wrth arall, a llesteirio peth i weithredu yn ol ei dueddiad naturiol. Gallai mai yr ystyr diweddaf yw y mwyaf naturiol yn y fan hon, a mwyaf cytunol âg amcan yr apostol —fod y doethion cenedlig yn carcharu, yn cadwyno i lawr y gwirionedd yr oeddynt yn ei wybod, rhag iddo, yn ol ei duedd ei hun, ennill dylanwad ar eu calonau a'u bucheddau. Cymmer ereill y ferf yn yr ystyr o *ddal* neu *gredu*, ac arall-eiriant yr ymadrodd fel hyn—"Y rhai sydd yn dal (credu) y gwirionedd, *gan fyw* mewn anghyfiawnder." Ond y mae yn dra thebygol fod ei ystyr i'r ymadrodd, heb chwanegu *gan fyw* ato. Attal y gwirionedd yn anghyfiawn ydyw y drychfeddwl y mae yr apostol yn bwriadu roddi, ac nid etlaith a chanlyniad hyny. Mae yr anghyfiawnder yn gynnwysedig yn yr ymddygiad o garcharu y wybodaeth hono am Dduw, ag y daethant i'w meddu trwy oleuni natur. Barna ereill, yn gydunol âg ystyr arall i'r ferf, sef *cadw oddi wrth arall*, ei fod yn cyfeirio at ymddygiad y doethion yn cyfyngu y gwirionedd iddynt eu hunain, ac yn peidio ei ddadguddio i ereill. Cadwent ef oddi wrth y werin, a charcharent ef mewn cylch bychan yn eu mysg eu hunain. Credai llawer o honynt mewn un Duw; ond nid addolent ef yn gyhoeddus, ac ni ddadguddient y gwirionedd hwn i'r bobl gyffredin. Dywedai Plato nad oedd y wybodaeth mai un Duw sydd i'w chyhoeddi mewn un modd i'r lluaws. Yn ei *Timæus*, dywed, "Nid yw chwaith yn hawdd i ni gael allan Riant y bydysawd, nac yn ddiogel ei hysbysu i'r werin." Mae Awstin o Hippo, yn ei lyfr ar *Wir Grefydd*, yn beio yr athronwyr yn y crynswth, am eu bod yn ymarfer â'r defodau mwyaf ofergoelus a gwarthus gyda'r bobl gyffredin, er eu bod yn eu hysgolion yn traddodi athrawiaethau o barth i natur y duwiau sydd yn gwbl anghytunol â'r defodau hyny.

ANGHYFLEUS: anghymhwys, anghyfaddas. *Act.* xxvii. 12; "A chan fod y porthladd yn anghyfleus i auafu, y rhan fwyaf a roisant gynghor i ymado oddi yno hefyd, os gallent ryw fodd gyrhaeddyd hyd Phenice, i auafu yno." Etallai mai yr angorfa ar ben de-ddwyreiniol ynys Creta, a elwid, yn *adn.* 8, "porthladdoedd prydferth," yw yr hyn a elwir yma "porthladd;" ac er ei bod yn angorfa werthfawr mewn ystorm, etallai nad oedd yn meddu cymmaint o gymhwysderau i fod yn borthladd gwastadol, fel nad oedd yn lle cyfleus i auafu ynddi; gan hyny, y rhan fwyaf o'r morwyr a ymgynghorasant bod iddynt ymdrechu i gyrhaedd Phenice, yr hwn oedd yn borthladd mwy diogel a chyfleus i dreulio y gauaf ynddo.

ANGHYFRAITH, [*cyfraith*]: anghydffurfiad â chyfraith. "Canys *anghyfraith* yw pechod;" 1 *Ioan* iii. 4. Ystyr y gair ἀνομία yw diffyg cydffurfiad â gofynion cyfraith, yr hyn sydd yr un peth a throseddiad o honi. Yn 1 *Tim.* i. 9, mae yr ansoddair ἀνομοις, yr hwn a ffurfir o ἀνομια, yn cael ei gyfieithu, "y rhai digyfraith;" ac yn *Rhuf.* ii. 12, y mae y rhagferf ἀνόμως yn cael ei chyfieithu "yn ddiddeddf." Y mae ἀνομία yn dygwydd yn fynych yn y Testament Newydd. Yn yr adnod grybwylledig, *anghyfraith* yw y cyfieithiad, yr hwn yw y nesaf o ran ei ystyr i'r gwreiddiol. Yn y lleoedd canlynol, cyfieithir ef *anwiredd* —*Mat.* vii. 23; xiii. 41; xxiii. 28; xxiv. 12; *Rhuf.* iv. 7; vi. 19; 2 *Thes.* ii. 7; *Tit.* ii. 14; *Heb.* i. 9: yn 2 *Cor.* vi. 14, *anghyfiawnder.* Mae *anghyfraith* yn air mwy dewisol nag un o'r ddau ereill, o blegid fod y drychfeddwl o ddeddf yn cael ei gadw ynddo, fel yn y gwreiddiol.

ANGHYFUNWYR, [*Dissidents*]: enw a roddir weithiau ar Ymneillduwyr oddi wrth Eglwys Loegr; ond yn fwy cyffredin a neillduol ar y rhai hyny yn Poland a ymneillduasant oddi wrth yr Eglwys Babaidd. Cynnwysant y Lutheriaid, y Calviniaid, a'r Groegiaid. Ond ni chymhwysir yr enw at sectau llai yn y wlad hono; megys yr Ailfedyddwyr, y Sociniaid, y Crynwyr, ac ereill. Sefydlwyd eu hawliau crefyddol yn amser yr heddwch (*pax dissidentum*) yn 1573; ond caethiwyd arnynt yn y ddeunawfed ganrif gan amryw dywysogion. Yn 1717 a 1718, yn nheyrnasiad Augustus yr Ail, amddifadwyd hwynt o'u hawl i bleidleisio yn y senedd (*diet*). Cynnorthwywyd hwy yn eu cais am ddiddymiad y ddeddf gaethiwus hon, ac ereill cyffelyb, gan Rwssia a Prwssia, yn 1766; ac o hyn y darfu i'r galluoedd hyny gael un o'u hesgusion dros eu hymyriad â materion gwladol Poland. Adferwyd eu hiawnderau yn 1775, gyda rhai eithriadau: ond wedi buddugoliaeth Rwssia, gosodwyd hwy ar yr un tir a'r Pabyddion.

ANGHYFFELYBIAID, [*Anomœans*]: enw a roddid ar yr Ariaid manylaf, yn y bedwaredd ganrif, er eu gwahaniaethu oddi wrth yr Hanner Ariaid. Gwel ARIAID; HANNER ARIAID.

ANGHYMMEDROLDEB, [*an — cymmedrol*]: anghymmesur. Arwydda y gair ακρασια (*acrasia*) *amddifadrwydd o nerth;* mae yn gyfansoddedig o *a—di*, a κρατος—*nerth.* Yr oedd y Phariseaid "oddi mewn yn llawn o drawsedd ac *anghymmedroldeb;*" *Mat.* xxiii. 25. Anghymmedroldeb yw diffyg o nerth moesol yn y dyn i lywodraethu ei hun, ac i gadw ei nwydau a'i flysiau o fewn terfynau priodol. Y maent ynddynt eu hunain, a phan mewn ystad gymmesur, pan yn ddarostyngedig i reswm, yn ddiniwed a chyfreithlawn; ond pan y maent yn rhedeg dros y terfynau hyny, ac yn meistroli y dyn, yn lle cael eu meistroli ganddo, y maent yn anghymmedrol. Y mae ακρασια, yn 1 *Cor.* vii. 5, yn cael ei gyfieithu *anlladrwydd.* Y mae anghymmedroldeb yn arwyddo gormodedd yn mhob peth. Bod mor bell oddi wrth y naill eithaf a'r llall ydyw bod yn gymmedrol; eithr gogwyddo at un o ddau eithafion yw bod yn anghymmedrol. Y meddwl cyffredin a gyssylltir â'r gair ydyw gormodedd mewn bwyta ac yfed, glythineb a meddwdod. Yn y pethau hyn y mae anghymmedroldeb yn ymddangos wrthunaf ac amlycaf; ond y mae anghymmedroldeb yn cynnwys mwy—fel y mae rhinwedd a sobrwydd yn cynnwys mwy nag ymattaliad oddi wrth ddiodydd meddwol. Pa ymarferiad bynag a niweidia iechyd, a anmhara y synwyrau, a ennyna y nwydau, a gymyla y deall, a gamarweinia y farn, a wanhâ y galluoedd—pa beth bynag a effeithia mewn rhyw fodd yn niweidiol ar ddyn, y mae yn

Digitized by Google

dyfod o dan y pechod o anghymmedroldeb. Efallai mai anghymmedroldeb mewn rhyw arddulliad ydyw pob pechod. Fel ag y gellir olrhain achos pob trosedd a gyflawnir gan ddyn i hunan, felly hefyd y maent oll yn cymmeryd arnynt y nodwedd o anghymmedroldeb. Y mae cariad dyn ato ei hun yn reddf yn ei natur: y mae mor naturiol iddo, fel na orchymynir mo hono i'w goledd; addefir ef yn y ddeddf foesol, a sefydlir ef fel safon ein cariad at ein cymmydog: ond pan y mae y cariad hwn yn myned dros ei derfynau, pan y mae ei hunan yn cael ei garu yn fwy na'r Creawdwr, y mae yr hunan-gariad yn anghymmedrol, ac am hyny yn bechod. Yr un modd y gellir edrych ar braidd bob pechod. Nid yw y pechodau mwyaf gwarthus—pechodau sydd yn darostwng dyn i iselder cyffelyb i'r anifail—ond blysiau naturiol a chyfreithlawn wedi rhedeg dros eu terfynau eu hunain.

Yn mha ymarferiadau bynag y gellir dyweyd fod un yn sobr, y mae yn bosibl bod yn anghymmedrol ynddynt; ac y mae y pechod o anghymmedroldeb mor eang ag ydyw y rhinwedd o sobrwydd. Bod yn sobr yn ein hymchwiliadau am wirionedd, ydyw bod yn rhydd oddi wrth ddylanwad rhyfyg a rhagfarnau — yn ein hymgais am olud bydol, ydyw bod yn rhydd oddi wrth gybydd-dra ac anghyfiawnder—mewn blinderau a phrofedigaethau, ydyw bod yn amyneddgar, a gallu meddiannu ein heneidiau:—a'r gwrthwyneb i'r pethau hyn sydd yn anghymmedroldeb ac anghymmesuredd.

ANGHYMMERADWY, [*cymmer*]: annerbyniol; gwrthodedig. Cyfarfyddir â'r gair yn y lleoedd canlynol: — *Rhuf.* i. 28; 1 *Cor.* ix. 27; 2 *Cor.* xiii. 5—7; 2 *Tim.* iii. 8; *Tit.* i. 16; *Heb.* vi. 8. Y gair Groeg yn yr holl fanau hyn yw *ἀδόκιμος*; yr hwn, yn y Deg a Thrigain, a gymhwysir at feteloedd, megys *αδοκιμον αρ γυριον* (*Diar.* xxv. 4; *Esa.* i. 22), yn yr ystyr o *wrthodedig*. Yn y Testament Newydd, arwydda fynychaf *haeddiannol o gondemniad;* ac weithiau *diwerth, diddefnydd.* "Duw a'u rhoddes hwynt i fyny i *feddwl anghymmeradwy;*" *Rhuf.* i. 28. Arwydda *meddwl anghymmeradwy* (*ἀδόκιμον νοῦν*) meddwl wedi ei ddallu yn farnol, medd rhai; meddwl difarn, anneallus, analluog i ddosbarthu y naill beth oddi wrth y llall, medd ereill. Yn ol y golygiadau hyn, edrychir ar *νοῦν*, fel y deall yn unig; pan y mae yn fwy tebygol ei fod yn cynnwys yn gystal, os nad yn fwy arbenig, eisteddle y teimladau a'r tueddiadau, a elwir yn yr Ysgrythyrau, *y galon;* neu yn ol Robinson, *y dull o feddwl a theimlo.* Felly, y mae y gair yn golygu meddwl analluog i weled ac i deimlo, i ganfod yr hyn sydd dda ac i'w gymmeradwyo, yn yr egwyddor ac yn yr ymarferiad; meddwl anghall, amddifad o adnabyddiaeth o rinwedd, ac archwaeth ato.

"Yn y geiriau hyn," medd Calvin, "gallwn weled tebygrwydd rhwng y pechod a'r gosb. Am nad oedd gymmeradwy ganddynt aros yn y wybodaeth hono am Dduw, yr hon yn unig sydd yn arwain y meddwl at wir ddoethineb, rhoddes Duw hwynt i fyny i feddwl gwyrog, anghall; yr hwn na allasai dderbyn dim gwybodaeth, na chymmeradwyo un rhinwedd. Pan ddywed *nad oedd gymmeradwy,* y mae yr un peth a phe dywedasai na ddarfu iddynt ddilyn y wybodaeth hono am Dduw gyda y dyfalwch a ddylasent, ond yn wirfoddol droi eu meddyliau oddi wrthi: dengys felly, eu bod, trwy ddewisiad drygionus, wedi rhoddi eu pleserau eu hunain o flaen Duw, a bod y cyfeiliornad, â'r hwn y twyllwyd hwynt, yn hollol wirfoddol." Am fod cadw Duw yn eu meddyliau yn *anghymmeradwy* ganddynt hwy, rhoddes Duw hwynt i fyny i feddwl oedd *anghymmeradwy* ganddo yntau.

"Rhag i mi mewn un modd wedi i mi bregethu (cyhoeddi rheolau yr ymdrechfa) i ereill, fod fy hun yn *anghymmeradwy;*" 1 *Cor.* ix. 27. Tybir gan rai, fod y gair *ἀδόκιμος* yn y fan hon yn cyfeirio at feteloedd gwrthodedig; ond y mae yn fwy tebygol y cyfeiria at y prawf a wneid ar ymgeiswyr yn yr ymdrechfeydd Groegaidd. Gelwir y prawf a wneid arnynt yn Athen, *δοκιμάσια;* yr hwn sydd o'r un gwreiddair a'r gair a gyfieithir *anghymmeradwy.* Yr oedd yn rhaid iddynt fod yn feddiannol ar y cymmeriad a'r sefyllfa a ofynid yn rheolau yr ymdrechfa, onid e ni chaffent fod yn rhestr yr ymdrechwyr. Heb law y prawf blaenorol, byddai y barnwyr ar ol yr ymdrechfa yn gwneyd yr ymchwiliad mwyaf anmhleidgar a manwl i'r modd y darfu iddynt ymddwyn yn yr ymdrech, er mwyn gwybod pa un a ymdrechasant yn gyfreithlawn, ai na ddo—pa un a ymdrechasant yn unol â rheolau (*νομίμως*) y gamp yn mhob peth; ac os gwelid, yn y prawf, eu bod wedi colli yn yr ychydigyn lleiaf, a gwyro rhywfaint oddi wrth y rheolau, ni roddid y goron iddynt—collent y gamp, ac weithiau bwrid hwy ymaith o'r ymdrechfan gyda'r dirmyg mwyaf. Y cyfryw ymdrechwyr — pa un bynag a gondemnid hwy fel ymgeiswyr, *h. y.*, fel rhai anaddas i ymdrech, neu ar ol i yr ymdrechfa—oeddynt *ἀδόκιμοι*, sef rhai anghymmeradwy. I ochel gwaradwydd cyffelyb, yr oedd yr apostol, yr hwn yn fynych a'i darlunia ei hun fel ymgeisydd yn gystal a chyhoeddydd (*κήρυξ*) yn yr yrfa Gristionogol, yn dra gofalus i'w gymhwyso ei hunan gogyfer â'r ymdrech, ac i sylwi yn ddyfal ar ei rheolau gosodedig; rhag mewn un modd, wedi iddo gyhoeddi y rheolau hyny i ymgeiswyr ereill, ei fod ei hun yn wrthodedig. Mae yn debyg fod *ἀδόκιμοι* yn cyfeirio yn fwy at wrthodiad y dyn fel ymgeisydd, neu fel ymdrechydd — yr anghymmeradwyad mewn canlyniad i'r ymchwiliad cyntaf, ac nid yn ganlynol i'r ymchwiliad diweddaf; a'r meddwl yw, fod yr apostol yn ofni, rhag iddo, wedi cymhwyso ereill i redeg yr yrfa Gristionogol, fod ei hun yn anghymhwys i ymdrechu. Cyfeirir yma, mae yn eglur, at yr ymarferiadau rhagbarotoawl, megys "ymgadw," a "churo awyr," am ba rai y llefara yr apostol yn y geiriau blaenorol. Y mae y golygiad hwn yn gwasanaethu i ddangos gostyngeiddrwydd dwfn yr apostol; o blegid amlyga ei ofn, nid yn unig rhag iddo golli y goron yn y diwedd, ond rhag iddo gael ei ystyried yn annheilwng i fod yn rhestr y rhai sydd yn ymgeisio am y gamp ogoneddus. Dywedodd yr apostol hyn, i gyffroi gweinidogion y gair, yn benaf, i'r diwydrwydd mwyaf i gyrhaedd purdeb a hunan-lywodraethiad, nid yn unig fel y gallent sicrhau iddynt eu hunain goron cyfiawnder, ond fel y gallent hefyd fod yn esamplau *i ereill.* "Dynion o feddwl llygredig, *anghymmeradwy* o ran y ffydd:" "Amprofadwy erwydd y ffydd:" —W. S.: "*Rejectanei circa fidem:*"—Beza: 2 *Tim.* iii. 8. Ymddengys fod *anghymmeradwy*, yn y testyn Cymraeg, a *reprobate* yn y Seisoneg, yn ddiffygiol, a Beza yn y Lladin, yr un modd. Barnwn gyfieithiad Macknight yn fwy cywir— "*undiscerning concerning the faith:*" yr hyn a ymddengys ond edrych ar y cyd-destyn. Y mae y gwreiddiol yn yr adnod hon yn gyfystyr âg yn *Rhuf.* i. 28. Yr oedd eu golygiadau ar athraw-


Digitized by Google

iaeth crefydd yn dywyll a chymmysglyd—nid oedd ganddynt synwyr i ddosbarthu y drwg a'r da; ac o herwydd hyn, yr oeddynt hwythau yn *anghymmeradwy*. "Bod Crist ynoch, oddi eithr i chwi fod yn *anghymmeradwy;*" **2** *Cor*. xiii. 5. Er mwyn deall ystyr y gair yn yr adnod hon, y mae yn angenrheidiol edrych ar y cyd-destyn. "Bod Crist ynoch," neu yn eich plith—*ἐν ὑμῖν*. Ymddengys mai amcan yr apostol oedd cyfarfod â dywediadau uchelfrydig y blaid oedd yn Corinth, yr hon a geisiai brawf gan Paul fod Crist yn llefaru ynddo ac yn gweithio trwyddo. Yr oedd y blaid hon yn debyg i'r Israeliaid (*Exod*. xvii. 7), y rhai, ar ol yr holl arwyddion a'r rhyfeddodau a wnaethai Duw yn eu gŵydd, a barhaent yn ammheus am ei bresennoldeb yn eu plith, gan ofyn, "A ydyw yr Arglwydd yn ein plith, ai nid yw?" Felly yr oedd y Corinthiaid. Wedi yr holl wyrthiau a wnaed yn eu mysg, a'r doniau a gyfranwyd iddynt, yr oeddynt yn gofyn am brawf pellach oddi wrth yr apostol fod Crist yn llefaru ynddo; ac o herwydd hyn, y mae yn appelio atynt eu hunain—"Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd; holwch eich hunain." Yn hytrach na chwilio am brawf uniongyrchol oddi wrthyf fi fod Crist yn llefaru ynof, holwch eich hunain; edrychwch i'ch mysg eich hunain: profwch eich hunain, i edrych a oes yn eich mysg ddoniau ysbrydol; ac os gwelwch fod, y mae hyny yn brawf fod Crist yn llefaru ynof fi, a bod ei nerth yn gweithredu trwof fi, yn gymmaint ag mai oddi wrthyf fi y derbyniasoch y doniau hyny. "Oddi eithr i chwi fod yn *anghymmeradwy*"—*ἀδόκιμοι*, neu *heb brawf* o bresennoldeb Crist yn eich plith. Mae yr ystyr hwn i'r gair *ἀδόκιμοι* yn ymddangos yn bur gysson, wrth ystyried mai y gair Groeg am *brawf*, neu "brofiad," yn *adn*. 3, ydyw *δοκιμήν*. Y prawf o bresennoldeb Crist mewn unrhyw eglwys oedd, fod y doniau gwyrthiol, a'r doniau ysbrydol, ynddi. Y rhai hyn, wedi eu cyfranu gan Grist, oeddynt yr arwyddion o'i bresennoldeb a'i nerth: *Act*. ii. 33. Ac wrth dybied fod y blaid yn Corinth yn amddifad o'r profion hyn, y mae yr apostol mewn modd anghyfeiriol—ond llym—yn eu hargyhoeddi o u pechodau: "oddi eithr, efallai, eich bod heb un prawf," fel y gellir darllen y gwreiddiol.

Mae yn anhawdd gwybod pa beth yw ystyr y gair *anghymmeradwy* yn *Tit*. i. 16; "Ac at bob gweithred dda yn *anghymmeradwy:*" a *Heb*. vi. 8; "Sydd *anghymmeradwy* ac agos i felldith." Barna Robinson mai *diles, diddefnydd*, ydyw y drychfeddwl; ac, fel y cyfryw, yn haeddu anghymmeradwyaeth. Barna Macknight, mai y meddwl yn y gyntaf yw *annealllus* (*without discernment*), a'i fod yn gyfystyr yma ag yn yr adnod a grybwyllwyd o'r blaen, "Anghymmeradwy (anneallus) o ran y ffydd;" a bod y gair, yn *Heb*. vi. 8, yn gyfystyr ág yn **2** *Cor*. xiii. 5; "*heb brawf*," "sydd anghymmeradwy," neu *heb brawf* o ffrwythlonder. (Gwel *Whitby*. *Calvin*, a *Macknight*, ar yr adnodau; *Kitto; West's Pindar.*)

**ANGLADD.** Gwel Claddedigaeth.

**ANGOR—AU**: offeryn gwasanaethgar a gwir angenrheidiol mewn morwriaeth; ei ddyben yw attal y llong rhag cael ei gyru i leoedd caregog a pheryglus o flaen gwyntoedd ystormus. Mae angorau cenedloedd gwaraidd yr oes hon yn cael eu gwneyd o haiarn, ac yn gynnwysedig o baladr, neu goes, ar un pen i'r hwn y mae trawst a elwir bôn, troed, neu said; oddi ar yr hwn y mae dolen, wrth yr hon y sicrheir y rhaff neu y gadwen: y pen arall i'r paladr, sydd yn terfynu mewn dwy fraich, a elwir gafael-fachau—fel y gwel yr anghyfarwydd yn well trwy y darluniau isod.



Dar. 12.

Dywedir y byddai yr hen angorau yn cael eu gwneyd o geryg mawrion, neu goed ceimion wedi eu llwytho â phlwm: ac y mae y cyfryw angorau yn cael eu defnyddio eto gan rai cenedloedd anwar, y rhai ni chawsant fantais i ymgydnabod â pherffeithiad y celfyddydau. Defnyddia ereill gewyll wedi eu llenwi â cheryg, neu sachau wedi eu llenwi â thywod, i'r un dyben. Gollyngid y rhai hyn i'r môr wrth raffau; a thrwy eu pwysau, attalient y llong.

Y Groegiaid o'r diwedd a ddechreuasant wneyd eu hangorau o *haiarn:* ac ar y dechreu, nid oedd ganddynt ond un gafael-fach, neu ddant; ond o'r diwedd ychwanegwyd dant arall, naill ai gan Eupalamus, neu, yn ol ereill, gan Anacharsis, yr athronydd; ond nid oeddynt eto yn meddu y trawst, fel yr ymddengys oddi wrth yr hen ddarluniau: ac felly yr oeddynt yn dra anmherffaith.

Byddai amryw angorau yn perthyn i bob llong; ond yr oedd un, yr hwn a dra rhagorai mewn maintioli a nerth ar y lleill, ac a ystyrid gynt yn gyssegredig, fel nad arferid ef un amser oddi eithr pan fyddai y perygl yn fawr.

Byddent gynt yn bwrw angorau o ben ol y llong: at yr hyn y cyfeirir yn *Act*. xxvii. 29; "Ac a hwy yn ofni rhag i ni syrthio ar leoedd geirwon, wedi iddynt fwrw pedair angor allan o'r llyw, hwy a ddeisyfasant ei myned hi yn ddydd." Nid yw yn debyg y buasent yn bwrw pedwar o angorau gwahanol o'r llyw; am hyny, y mae rhai yn barnu mai angor pedwar-fach a olygir, sef yr angor goreu, neu y *prif angor*, yr hwn a gyfrifid yn gyssegredig, ac ni ddefnyddid byth ond pan yr ystyrid y perygl yn ddirfawr. Y mae y cyfryw angorau yn cael eu defnyddio yn y dwyrain, yn enwedig gan yr Aiphtiaid, hyd yr oes bresennol; fel y tystia Bruce, a theithwyr ereill. Gan hyny, os *un* angor, â phedwar gafael-fach iddo, a fwrid o'r llyw, nid ymddengys un anghyssondeb yn yr

Digitized by Google

hyn a ddywedir yn *adn.* 30, fod y llongwyr wedi cymmeryd arnynt fwrw angorau ereill o'r pen blaen i'r llong.—Gwel LLONG.

1. AHAB, [אחאב, *brawd y tad;* Gr. 'Αχαάβ]: mab Omri, a'r chweched o freninoedd Israel, yr hwn a deyrnasodd un mlynedd ar ugain—o 918 hyd 897 c. c. Yr ydoedd, ar amryw gyfrifon, y mwyaf iselwael a dirmygus o holl freninoedd Israel; ond er hyny, o herwydd dylanwad ei deyrnasiad ar sefyllfa grefyddol y wladwriaeth, rhoddir cryn arbenigrwydd i'w hanes yn yr Ysgrythyr. Trawsfeddiannwyd gorsedd Israel gan ei dad, yr hwn a geisiodd ymgadarnhau yn y freniniaeth trwy gynghrair â Tyrus; ac i'r dyben hyny, cymmerodd Ahab Iezebel, merch Ethbaal, neu Ithobaal, brenin Tyrus a Sidon, yn wraig. Priododd Ahab, fel y mae yn fwyaf tebygol, cyn marwolaeth ei dad. Trodd yr amgylchiad hwn allan yn anfantais ac yn niwed o'r mwyaf, yn gystal i'r brenin ei hun ag i'r deiliaid. Hynodai Iezebel mewn cyfrwysedd, dyblygrwydd, a drygioni. O herwydd cryfder ei galluoedd, a'i hyfedredd yn mhob ystrywiau a dichellion, ennillodd yn rhwydd ac yn fuan feistrolaeth drwyadl ar ei gwr—y cyfryw feistrolaeth ag oedd yn naturiol i fenyw mor ystrywgar ennill ar ddyn mor amddifad o yni a nerth. Daeth yn arglwyddes ar ei gydwybod a'i ymddygiad, fel nad oedd yr hwn a gyfrifid yn frenin Israel yn ddim amgen nag offeryn yn llaw Iezebel, i'w drin fel y mynai ei hewyllys fympwyol hi. Nodweddau ei gymmeriad ef oedd gwendid a hunanolrwydd; y rhai a'i gwnaent, ac ydynt yn gwneyd pob penadur a nodweddir ganddynt yn hynod anghymhwys i lywodraethu ereill; yn gymmaint ag mai y cymhwysder cyntaf mewn brenin a ddylai fod—bod yn frenin ar ei chwantau a'i flysiau ei hun. Er fod Ahab yn frenin o ran swydd, nid oedd o ran cymhwysderau i'w llanw uwchlaw y gwaelaf a mwyaf gwasaidd yn ei holl lywodraeth. Pryderai yn ddiflino am ei anrhydedd a'i lwyddiant ei hun, tra yr esgeulusai yn hollol anrhydedd crefydd, a llwyddiant y genedl. Yr oedd ar unwaith yn ddiffygiol o gallineb i uchel petyglon, ac o wroldeb i'w cyfarfod; ac y mae yn esampl galarus o ddyn wedi ei osod mewn swydd bwysig, heb feddu ar yr ansoddau a gyfansoddant gymhwysder i'w gweinyddu; a dengys ei holl hanes y wers hon—y gall gwendid a ffolineb mewn penadur beri niweidiau, a dwyn anfanteision gwladol, yn gystal ag y gall y drygioni mwyaf anfad. Da fuasai i deyrnasoedd y byd, pe nas ganesid neb ar ei ol o gyffelyb feddwl ag ef i eistedd ar eu gorseddau. Gwnaeth Ieroboam, mab Nebat, ddau lo aur, ac a'u gosododd, un yn Bethel, a'r llall yn Dan, er lluddias y bobl i gyrchu i Ierusalem i addoli; a thrwy hyny, "gwnaeth i Israel bechu:" ond ymddengys mai yn lle y cerubiaid y bwriadasai hwynt, ac nid fel cynnrychioliad rhai o dduwiau y Cenedloedd. Ond rhagorodd Ahab hyd yn oed ar Ieroboam mewn rhyfyg annuwiol; o blegid ar annogaeth ei wraig efe a ddygodd i mewn eilunod y Tyriaid a'r Sidoniaid, Baalim ac Astaroth, neu Astarte. Adeiladodd deml yn Samaria, cyssegrodd lwyn i Baalim, cynnaliai offeiriaid a phrophwydi yr eilunod, ac ystyriai Iehofah gyda'r lloi aur fel ei gynnrychioliaid, a Baal gyda'i ddelw yn ogyfuwch mewn dwyfoldeb, ac yn gyfartal mewn teilyngdod o addoliad. Daeth eilunaddoliaeth y grefydd fwyaf rwysgfawr yn y tir: ac yn hyn y gwelwn briodoldeb y dywediad, "y gwnaeth Ahab ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd yn fwy na neb a fuasai o'i flaen."

Rhoddes y dirywiad a'r gwrthryfel hwn achlysur i un o'r cyfryngiadau mwyaf mawreddus o eiddo Iehofah. Amlygodd ei fawr allu a'i eiddigedd yn erbyn duwiau dyeithr. Dangoswyd, trwy ddisgyniad tân o'r nefoedd, mai Iehofah ydyw *y* Duw; ac nad oedd Baal, duw yr haul, yn ddim amgen nag enw, heb neb sylweddol i ateb iddo. Trwy hyn tywalltodd Duw ddirmyg ar eilunod, a gorchuddiodd eu haddolwyr â gwarth; ac adgyfnerthodd ymddiried ei wir addolwyr ynddo, a'u hymlyniad wrtho; 1 *Bren.* xviii.

O'r diwedd, cyhoeddwyd barn Duw ar Ahab a'i dŷ gan Elias; sef y byddai i'w holl hiliogaeth gael eu diwreiddio yn ystod teyrnysiad ei fab Lladdwyd Ahab mewn rhyfel gyda'r Syriaid, yn ol rhagfynegiad Micheah y prophwyd (1 *Bren.* xxii. 28-40). Gwel IEZEBEL; NABOTH; ELIAS; BENHADAD.

2. AHAB: mab i Colaiah, yr hwn, gyda Sedeciah, a brophwydodd gelwydd wrth Israel. Cyhoeddasant wrth y gaethglud yr un peth ag a gyhoeddodd y gau brophwydi wrth eu brodyr yn Iudah—y byddai i Nebuchodonozor golli ei awdurdod yn fuan ar y Cenedloedd: a thrwy eu twyllo fel hyn â gobaith am adferiad, hwy a'u cynhyrfasant yn erbyn Ieremiah. Cymharer *Ier.* xxviii. 11. Bygythiwyd hwynt am hyn gan y prophwyd, yr hwn a ragfynegodd y rhoddid hwy i farwolaeth yn ngŵydd y rhai a dwyllasant, ac y byddai i hyn fod yn ddiareb a rheg gyffredin mewn oesoedd dilynol—"Gwneled yr Arglwydd dydi fel Sedeciah ac fel Ahab, y rhai a rostiodd brenin Babilon wrth y tân;" *Ier.* xxix. 21, 22.

Tybia y Rabbiniaid mai yr un rhai oedd y gau brophwydi hyn a'r henuriaid a geisiasant halogi Susannah, fel yr adroddir yn ei histori. Ond ymddengys y dyb yn gwbl ddisail, fel y sylwa Calmet, os cymharwn ddull eu cospedigaeth; o blegid llosgwyd y ddau gau brophwyd, ond llabyddiwyd y ddau henuriad.

AHAFA, (*Ezra* viii. 15, 21, 31): yr afon, ar lan yr hon y cynnullai plant caethglud Iudah eu hail fintai, dan Ezra, pan oeddynt yn dychwelyd i Ierusalem. Gellid casglu, oddi wrth *Ezra* viii. 15, ei bod wedi cael ei henw oddi wrth dref y llifeiriai drwyddi,—"A chesglais hwynt wrth yr afon sydd yn myned i Ahafa." Os felly, nid allasai ei bod yn meddu nemawr o bwysigrwydd ynddi ei hunan; ac y mae yn debyg nad oedd yn ddim amgen nag un o'r lluaws dyfrffosydd a gyfarfyddir mor fynych yn Babilonia. Ac efallai mai dyma yr achos fod daiaryddwyr Beiblaidd mor anwyddiannus i allu penderfynu arni. Bu rhai yn ymofyn am Ahafa yn y Lycus, neu Zab Fechan, am fod yr afon hono yn cael ei galw yn Adiaba, neu Diaba, yn yr hen amseroedd; ond dylem gofio na byddai unrhyw debygrwydd rhwng yr enwau yna ag Ahafa, mewn llythyrenau Hebreig; ac nid yw yn debyg y buasai nifer o bobl, a fuasent yn bwriadu cyd-deithio i Palestina, yn trefnu eu cyfarfyddle ar y tu gogledd-ddwyreiniol i'r Tigris, yn Assyria, gan adael dwy afon fawr—y Tigris a'r Euphrates—rhyngddynt a'r gwastadedd y byddai yn rhaid iddynt ei groesi. Ac ar yr un pryd, efallai mai gormod a fyddai i ni benderfynu ei bod yn gorwedd i'r de-orllewin o Babilonia, am fod hyny yn y cyfeiryd i Palestina; canys nid y ffordd *unionaf* o'r naill le i'r llall a gymmerir gan dyrfa yn y cyffredin: ac felly yma, buasai y ffordd unionaf

Digitized by Google

i Ganaan yn dwyn y fyddin ymfudawl ar hyd diffaethwch anhygyrch, i bawb o'r bron, ond i ychydig o'r Arabiaid: ac er gochel hwn, yr oedd y ffordd gyffredin a gymmerai y cyfryw fyddinoedd ac y mae hi eto, yn gorwedd ychydig i'r gogledd orllewin, trwy Mesopotamia, lawer o'r tu uchaf i Babilonia; ac yna, wedi croesi yr Euphrates, y mae y cyfeiryd i Palestina i'r de-orllewin. Gan hyny, y peth mwyaf tebyg yw, fod Ahafa yn un o afonydd neu ffrydiau Mesopotamia, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Euphrates, yn rhywle yn y gogledd-orllewin o Babilonia.

AHARAH: trydydd mab Beniamin; 1 *Cron.* viii. 1. Meddylir mai yr un gwr a elwir *Ehi*, yn *Gen.* xlvi. 21; ac *Ahiram*, yn *Num.* xxvi. 38. Os felly, yr oedd iddo dri o enwau gwahanol.

AHAREL: mab Harum, o hiliogaeth Iudah. 1 *Cron.* iv. 8.

AHASBAI: un o gedyrn o Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 34.

AHASFERUS. Y mae anhawsdra i benderfynu pa un o freninoedd Persia ydoedd. Barna rhai mai Xerxes oedd, y pedwerydd ar ol Cyrus. Golyga ereill, mai Artaxerxes Longimanus ydoedd. Rhesymir gan ereill, mai Darius Hystaspis ydoedd. Crybwyllir rhai o brif amgylchiadau ei deyrnasiad yn Llyfr Esther. Cyfeirir at eangder ei ymherodraeth—ei fod yn teyrnasu o India hyd Ethiopia, ar gant a saith ar ugain o dalaethiau. Crybwyllir am ei nwyd byrbwyll yn bwrw ymaith Fasti o fod yn frenines; am y modd y dewiswyd Esther i fwynhau ei brenin-fraint; am ddyrchafiad Haman, fab Hammedatha, yr Agagiad, y modd y gosododd y brenin ei orseddfainc ef goruwch cadeiriau yr holl dywysogion; am fyrbwylldra y brenin yn cydsynio â chreulondeb calon ddialgar Haman, i selio ysgrifen er dyfetha yr Iuddewon; am anturiaeth dduwiolfrydig Esther yn achos ei phobl, am lwyddiant ei dawn a'i dyfais, y modd y gwenodd rhagluniaeth ar ei hympryd, ac y gwrandawodd y nefoedd ei gweddi, fel ag y trowyd calon y brenin i ddarostwng Haman a'i deulu, i ddyrchafu Mordecai i'w le, i estyn ymwared i'r Iuddewon, i'w cadw rhag y dinystr dedfrydedig, ac fel y lluosogwyd eu breintiau a'u cysuron trwy ddylanwad Esther a Mordecai.

Y mae hanes y brenin mawr hwn, Ahasferus, yn dysgu i ni yn eglur iawn—1. Nad all golud, na rhwysg, na bri, nac awdurdod, nac unrhyw fawredd daiarol, ddim digoni calon dyn. Pe buasai mwyniant daiarol yn medru dedwyddu enaid anfarwol, buasai Ahasferus yn ddedwydd. Teyrnasai dros gant a saith ar ugain o dalaethiau; a gorweddai y talaethiau hyny yn y brodiroedd hyfrydaf dan haul—o gylch glenydd yr Euphrates a'r Tigris, a chyffiniau Eden. Preswyliai Ahasferus mewn palasau o farmor. Llwythid ei fyrddau â phasgedigion breision, a gloew-win puredig. Yr oedd tywysogion, a doethion, a gordderchadon ei lys, yn diwyd gydymroi i'w wasanaethu; ond nid allai ei goron ysblenydd, na'i deyrnwialen berlawg, na'i fantell ysgarlad, na'r gadwen aur, na'r gwely esmwyth a'r lleni sidan, na'r dodrefn drudfawr, na'r gwinoedd a'r danteithion, na gloewder ei gerbyd, na nerth ei fraich ribanawg, na thannau y delyn, nac uchder ei fri, nac eangder ei ymherodraeth, nac amlder ei oludoedd, na gweniaith ei gynghorwyr, ddim ei wneyd yn ddedwydd. Yr oedd ganddo yn nghanol y cyfan ysbryd aflonydd, ac enaid newynog. Yr oedd *tlodion* ei deyrnas yn fwy diwall ac yn fwy dedwydd nag oedd efe; a dylai hyn ddysgu i ni, nad all pethau goreu y ddaiar ddim diwallu na dedwyddu enaid anfarwol.

2. Dysga ei hanes i ni mai bywyd isel, diddefnydd, profedigaethus, a hollol annheilwng o ddyn, ac yn enwedig o dywysog, ydyw bywyd o gyfeddach a gloddest, i borthi chwantau y corff a balchder ysbryd. Yr ydym yn darllen iddo, yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad, wneuthur gwledd fawr i bendefigion ei deyrnas, cadernid Persia a Media, rhaglawiaid a thywysogion y talaethiau; fel y dangosai efe gyfoeth a gogoniant ei deyrnas, ac anrhydedd a phrydferthwch ei fawredd, ddyddiau lawer. Parhaodd y wledd am chwe mis; sef am "gant a phedwar ugain o ddyddiau." Ac wedi gorphen dyddiau gwledd y tywysogion, y brenin a wnaeth i'r holl bobl a gafwyd yn Susan, o'r mwyaf hyd y lleiaf, wledd dros saith niwrnod, yn nghyntedd gardd y palas—lle yr oedd lleni gwynion, gwyrddion, a rhuddgochion, wedi eu cylymu â llinynau sidan, ac â phorphor, wrth fodrwyau arian a cholofnau marmor; a'r gwelyau oeddynt o aur ac arian, ar balmant grisial, a marmor, ac alabaster, ac iasinct. Ac yfed yr oeddynt mewn llestri aur, a chyfnewid amryw lestri, a gwin breninol lawer, yn ol gallu y brenin. Y frenines Fasti hefyd a wnaeth wledd i'r gwragedd, yn y brenin-dŷ. Yr oedd treulio wythnosau a misoedd i loddesta yn y dull yma yn fywyd annheilwng o lywyddion; yn fywyd nychawl i nerth a gweithgarwch corff a meddwl, yn llygrawl i foesau da, ac yn attaliol i ffyniant masnachaeth a chelfyddyd. Tra yr oedd y brenin a'i dywysogion yn treulio eu dyddiau gwerthfawr i loddesta felly, yr oedd deddfau llwyddiant pob sefydliad buddiol yn cael eu hesgeuluso; a therfynodd llawenydd a rhodres y wledd mewn cynhen a siomedigaeth.

3. Dengys hanes Ahasferus, mai niweidiol iawn ydyw cymdeithas cyfeillion gwenieithgar a llygredig. Yr oedd gan y brenin mawr Ahasferus luoedd o gynghorwyr ffraeth, ac o gymdeithion difyr. Ac yn nesaf ato yn y freniniaeth, yr oedd saith o brif dywysogion Media a Persia, saith o ddoethion penaf ei deyrnas, swydd pa rai oedd astudio yr amserau, ac esbonio cyfraith a barn. Yr oeddynt i gael gweled wyneb y brenin yn barhäus; ond y mae lle i ofni eu bod yn fwy cyfarwydd â geiriau gweniaith nag â geiriau cariad a ffyddlondeb. Y mae un Mordecai yn werth saith o Memuchaniaid. Y mae un cyfaill craff, cywir, ffyddlawn — cyfaill yn glynu drwy bob tywydd — cyfaill mor barod i nodi bai ag ydyw i ganmawl rhinwedd—cyfaill yn cofio am ddydd y cyfrif, ac am y byd mawr tu draw i'r llen — cyfaill yn dymuno iachawdwriaeth ei gyfeillion—yn werth mwy na saith gant o Marseniaid a Memuchaniaid. Gwnaeth Ahasferus les yn ei deyrnas fawr:—cefnogodd rinwedd, a gwrthwynebodd drais, ar ol iddo gael ei droi a'i dueddu i wrandaw ar gynghorion doethineb, pwyll, a thegwch. Galwodd yn ol lythyrau creulawn cenfigenus a dialeddol Haman; a daeth, mewn canlyniad, "goleuni a llawenydd, a hyfrydwch, ac anrhydedd," i ran yr Iuddewon gorthrymedig.

AHAZIAH, [אחזיה ac אחזיהו, *daliad, meddiant,* neu *weledigaeth yr Arglwydd—Cruden; yr hwn a gynnal Iehofah—Kitto*; Gr. 'Οχοζίας—*Ochozïas*]. Mab oedd i Ahab, a'i olynydd yn y freniniaeth; ac efe oedd seithfed brenin Israel. Efe a deyrn-

Digitized by Google

asodd ddwy flynedd, sef c.c. 897—895. Ymddengys fod Iezebel wedi cael yr un effaith niweidiol ar ei mab ag a gafodd ar ei gŵr, a bod Ahazïah wedi dilyn yr un llwybrau drygionus a'i dad: 1 *Bren.* xxii. 51—53. Y prif ddygwyddiad gwladol a gymmerodd le yn ei deyrnasiad ef oedd gwrthryfel y Moabiaid, y rhai a gymmerasant y cyfleusdra oddi wrth orchfygiad a marwolaeth Ahab i attal y dreth a dalent i'r Israeliaid: 2 *Bren.* i. 1. Ymunodd Ahazïah â Iehosaphat, brenin Iudah, i adnewyddu y fasnach forwrol ar y Môr Coch; ond yr oedd yr Arglwydd yn erbyn Ahazïah; am hyny, drylliwyd y llongau, ac aeth yr antur yn ddiddym: 2 *Cron.* xx. 35—37. Yn fuan ar ol hyn, syrthiodd Ahazïah o lofft ei balas, a chafodd ei niweidio yn fawr gan y codwm; a bu mor orphwyllog ag anfon i ymofyn â Baalzebub, duw Ecron, yn nghylch ei adferiad. Ond cyfarfu Elias y Thesbiad â chenadon y brenin, ac anfonodd hwynt yn ol i'w hysbysu y byddai efe farw cyn disgyn o'r gwely yr oedd arno, am iddo ddiystyru Duw Israel, trwy ymofyn â Baalzebub, duw Ecron: 1 *Bren.* xxii. 51, hyd 2 *Bren.* i. 18.

2. AHAZIAH, neu IEHOAHAZ: mab Iehoram ac Athalïah, merch Ahab a Iezebel. Efe oedd chweched brenin Iudah; ac ni theyrnasodd ond un flwyddyn (c. c. 885), a hyny yn ddrygionus, gan gymmeryd ei arwain yn mhob peth gan gynghorion diffaeth ei fam eilunaddolgar, Athalïah. Efe a feithrinodd y cyssylltiad annymunol a gymmerodd le, ac a gynnyddodd, rhwng y ddau freninlwyth—yr eiddo Iudah ac Israel—y rhai a gyssylltwyd yn awr trwy briodas. Yn ganlynol, efe a ymunodd â'i ewythr, Iehoram, brenin Israel, yn ei ymgyrch yn erbyn Hazael, brenin Syria, er adferu Ramoth-Gilead; ac wedi hyny, ymwelodd âg ef tra yn gorwedd yn glwyfedig yn ei balas haf, yn Iezreel: 2 *Bren.* viii. 28, 29. Aeth y ddau frenin yn eu cerbydau i gyfarfod Iehu; a phan saethwyd Iehoram drwy ei galon, ymdrechodd Ahazïah ffoi; ond erlidiwyd ef, ac wedi ei glwyfo yn farwol, nis gallodd gyrhaedd ond i Megido, lle y bu farw. Cludwyd ei gorff mewn cerbyd gan ei weision i Ierusalem, i'w gladdu: 2 *Bren.* ix. 21—28. Gosodir yr amgylchiadau hyn allan ychydig yn wahanol yn 2 *Cron.* xxii. 7—9; ond nid yw y gwahaniaeth o bwys, nac yn gofyn eglurhâd neillduol. Ymddengys, wrth yr ymadrodd yma, fod Iehu yn gywir wrth ystyried Ahazïah yn mysg y rhai y cafodd efe orchymyn i'w dyfetha, er diwreiddo tŷ Ahab; canys yr oedd efe yn ŵyr i Ahab, o du ei fam, Athalïah, merch Ahab a Iezebel, ac wyres Omri; ac yr oedd ei nodwedd a'i weithredoedd yn cyfateb yn fanwl i eiddo y tylwyth drygionus. Ystyrir fod ei bresennoldeb yn Iezreel, ar amser gweithrediadau Iehu, megys wedi eu trefnu gan ragluniaeth er cyflawnu ei ddinystr. Dywedir yn 2 *Bren.* viii. 26, mai "mab *dwy flwydd ar ugain* oedd Ahazïah, pan aeth efe yn frenin;" ond yn 2 *Cron.* xxii. 2, mai "mab *dwy flwydd a deugain* oedd." Yn ol yr oedran olaf, buasai yn rhaid iddo fod yn hynach na'i dad; yr hyn nis gallasai fod, canys bu hwnw farw yn ddeugain oed (2 *Cron.* xxi. 20), ac urddwyd Ahazïah yn frenin yn ei le yn ebrwydd ar ol iddo farw (xxii. 1). Tybia rhai fod y "ddwy flwydd a deugain" yn golygu o ddechreuad teyrnasiad Omri hyd ddechreuad teyrnasiad ei orŵyr, Ahazïah; ond barna Charles nas gellir cyssoni y ddau le, ac mai gwall ydyw y "ddwy flwydd a deugain," a ddygwyd i mewn i'r testyn trwy ddiofalwch rhyw adysgrifenydd.—(*Geir. Charles*; *Williams*; *Calmet*; ***Brown***; a *Kitto's Bib. Cyc.*, d.g.; *Bedford's Cron.*, t.d. 659.)

AHAZ. Gwel ACHAZ.

AHER. Arwyddocâd y gair hwn, Aher, ydyw *arall;* a chan na chyfarfyddwn â'r gair, fel enw priodol, yn un man arall, y mae amryw o'r farn mai cyfeiriad sydd yma at hiliogaeth Dan. Bernir hefyd fod y geiriau *Suppim*, *Huppim*, i'w cymmeryd yn y rhif luosog, er dynodi hiliogaeth Sephupham a Hupham, y rhai a ddarlunir mewn man arall yn benau teuluoedd, o lwyth Beniamin (*Num.* xxxvi. 39), a bod "*Husim*, meibion Aher," yn golygu yr Hussimiaid, meibion y llall, sef *Dan*, am yr hwn ni chrybwyllir yn yr achdraith hwn, oddi eithr yn y cyfeiriad tywyll yma. Yn *Gen.* xlvi. 21, cawn Muppim a Huppim yn mysg meibion Beniamin; ac yn *adn.* 23, dywedir, "A meibion Dan oedd Husim."

AHI, [אחי]: mab Abdïel, o dylwyth y Gadiaid, yr hwn oedd ŵr mawr yn y llwyth, dybygid, ac arweinydd eu milwyr i ryfel, efallai; 1 *Cron.* v. 15—20.

1. AHIAH, [אחיה=*brawd yr Arglwydd*]: un o feibion Ehud, o lwyth Beniamin: 1 *Cron.* viii. 6. Yn y Barnwyr (iii. 15), crybwyllir am "Ehwd, fab Gera, fab Iemini," neu ŵr o lwyth Beniamin, yr hwn a fu yn offeryn i waredu Israel oddi tan ormes Eglon, brenin Moab; efallai mai yr un ydoedd a thad Ahïah.

2. AHIAH: brodor o Siloh, yr hwn oedd yn cydoesi â Solomon a Ieroboam; ac y mae yn ymddangos ei fod ef wedi cyfansoddi rhyw gyminaint o hanes teyrnasiad Solomon: 2 *Cron.* ix. 29. Fe fernir mai trwyddo ef yr anfonodd yr Arglwydd genadwri at Solomon, i'w galonogi, pan ydoedd efe yn adeiladu y deml (1 *Bren.* vi. 12, 13), ac mai efe a alwyd drachefn at yr un brenin, â chenadwri arw, i'w fygwth â barn Duw am ei wyrni: 1 *Bren.* xi. 11—13. Arno ef y dodwyd i hysbysu ysgariad y deg llwyth oddi wrth dŷ Dafydd, a sylfaeniad teyrnlwyth Ieroboam: 1 *Bren.* xi. 29—39. Ac yn mhen llawer o flynyddoedd drachefn, pan oedd Ahïah wedi myned yn ddall gan hir ddyddiau, efe a gafodd genadwri i hysbysu y dinystr llwyr a ddisgynai ar Ieroboam am ei annuwioldeb ysgeler: 1 *Bren.* xiv. 4—16.

3. AHIAH: mab Ahitub, brawd Ichabod, mab Phinees, mab Eli, offeiriad yr Arglwydd yn Siloh, yn amser teyrnasiad Saul. Yr oedd efe yn frawd a rhagflaenor yn yr archoffeiriadaeth i'r Abimelech hwnw a laddwyd gan Saul am gynnorthwyo Dafydd: 1 *Sam.* xiv. 3; xxii. 11.

4. AHIAH: brawd Elihoreph, a mab Sisa. Y brodyr hyn oeddynt ysgrifenyddion i'r brenin Solomon: 1 *Bren.* iv. 3.

AHIAN: un o feibion Semida, o dylwyth y Gileadiaid: 1 *Cron.* vii. 19.

AHICAM, [אחיקם]: mab Saphan; un o'r pedwar gwŷr urddasol a anfonodd Iosïah brenin Iudah at Huldah y brophwydes, i ymgynghori â hi mewn perthynas i lyfr y gyfraith, yr hwn a gawsid yn y deml: 2 *Bren.* xxii. 12—14. Trwy ei ofal caredig ef y cadwyd Ieremïah y prophwyd rhag ei roddi i law y bobl i'w ladd, yn nheyrnasiad y brenin annuwiol ac erlidigaethus Iehoiacim: *Ier.* xxvi. 24.

Digitized by Google

AHIEZER, [אחיעזר]: penteulu, neu dywysog llwyth Dan, ar ymadawiad plant Israel allan o wlad yr Aipht: *Num.* i. 12.

1. AHIHUD, [אחיהוד]: tywysog llwyth Aser, yr hwn, yn nghyd â phenaethiaid y llwythau ereill, a gydweithredent â Iosuah ac Eleazer, i ranu y tir addawedig rhwng meibion Israel: *Num.* xxxiv. 27.

2. AHIHUD: fab Ehud, fab Gera, o lwyth Beniamin: 1 *Cron.* viii. 7.

1. AHIMAAS, [אחימעץ, *brawd digofaint*, neu *ddigofus*]: mab Sadoc, yr archoffeiriad, yr hwn a olynodd ei dad yn yr archoffeiriadaeth. Efe a wasanaethodd Dafydd yn ffyddlawn yn amser gwrthryfel Absalom. Gan fod Dafydd wedi gorchymedd i Sadoc ac Abiathar—y rhai, dan ei deyrnasiad ef, oeddynt gydarchoffeiriaid—ddwyn arch yr Arglwydd o Ierusalem, gorfyddent hwythau aros gyda hi i weini ger ei bron; ond eu meibion, Ahimäas a Ionathan, a ymguddiasant oddi allan i'r ddinas, fel y byddent yn barod i ddwyn unrhyw newydd pwysig i Dafydd o barth i fudiadau neu amcanion Absalom, o'r hyn y gallent gael hysbysiad o'r ddinas. Felly, pan roddodd Husai hysbysiad i'r offeiriad o'r penderfyniad y daethai y rhyfel-gynghor iddo, yn ngwersyll Absalom, hwy a anfonasant eneth—er gochel drwgdybiaeth, efallai — i erchi i Ahimäas a Ionathan brysuro i ddwyn y newydd i Dafydd; ond canfyddid hyn gan ryw lanc, yr hwn a aeth ac a fynegodd i Absalom, ac yntau a anfonodd ei weision i erlyn ar ol y cenadon gyda phob brys, er eu rhwystro, os gellid mewn un modd, i ddwyn y genadwri i'r brenin; eithr hwy a ddaethant i dŷ gŵr yn Bahurim, lle oedd yehydig tu hwnt i fynydd yr Olewydd o Ierusalem, ar y ffordd tua'r Iorddonen; a chan fod y gŵr yn ffyddlawn i achos y brenin, efe a barodd iddynt fyned i waered i bydew sych oedd yn ei gyntedd, a'r wraig a leddodd glawr ar wyneb y pydew, ac a daenodd arno falurion ŷd, fel na feddyliai neb am fyned i chwilio yno; a phan ddaeth yr erlynwyr i'r tŷ, gan ymofyn am danynt, hi a ddywedodd eu bod wedi myned dros yr aber ddwfr; ac felly y collodd yr erlynwyr bob oliad arnynt, fel y dychwelasant i'r ddinas yn aflwyddiannus: a phan ddeallodd y wraig nad oedd perygl mwyach, hi a'u gollyngodd o'r pydew, a hwy a aethant i'w ffordd, nes dwyn eu cenadwri i'r brenin yn ddiogel: 2 *Sam.* xv. 24—27; xvii. 21. Yr oedd cyfaddasrwydd neillduol yn Ahimäas i ymgymmeryd â'r cyfryw orchwyl a hwn, gan ei fod yn gyflym ei draed; o'r hyn y cawn anghraifft nodedig yn fuan ar ol hyn, pan, ar yr achlysur o orchfygiad Absalom, a'i farwolaeth, y llwyddodd Ahimäas i gael ei benodi gan Ioab i ddwyn y newyddion i Dafydd: yr oedd cenad arall, o'r enw Cusi, wedi ei anfon o'i flaen ef; ond aeth Ahimäas heibio iddo yn fuan, ac a ddug y newyddion yn gyntaf i'r brenin. Efe a adwaenid o bell, wrth ei ddull yn rhedeg: a phan hysbyswyd hyny i'r brenin, efe a ddywedodd, "Gŵr da yw hwnw, ac â chenadwriaeth dda y daw efe;" a chyfiawnheid y dyb dda yma o eiddo y brenin am dano, trwy y tynerwch a amlygai, yn ei waith yn ysgoi y rhan hono o'r genadwri, o barth marwolaeth Absalom, yr hyn y gwyddai yn dda a fuasai yn archolli meddwl y brenin, yr hwn a feddai deimladau tyner tad at Absalom, er cynddrwg ydoedd: 2 *Sam.* xviii. 29—33.

2. AHIMAAS: pen tywysog llwyth Naphtali, dan y brenin Solomon; efe a gymmerodd Basmath, merch Solomon yn wraig: 1 *Bren.* iv. 15.

1. AHIMAN: un o'r tri chawri enwog, meibion Anac, oeddynt yn cyfanneddu yn Hebron, pan ddaeth yr ysbïwyr Hebreaidd drwy y wlad i edrych i'w hansawdd: *Num.* xiii. 22; *Barn.* i. 10.

2. AHIMAN: gŵr o lwyth Lefi, yr hwn oedd yn un o arolygwyr porthorion y deml, wedi y dychweliad o gaethiwed Babilon: 1 *Cron.* ix. 17; *Neh.* xi. 19.

AHIMELECH. Gwel ACHIMELECH.

AHIMOTH: mab Elcanah, o dylwyth Lefiaid: 1 *Cron.* vi. 25.

AHINADAB, [אחינדב, *brawd ewyllysgar*]: un o'r deuddeg tywysog, y rhai a osodid ar gynnifer o randiroedd, i barotoi lluniaeth i'r brenin a'i dŷ, bob un am ei fis. Y parth deheuol o'r fro, tu hwnt i'r Iorddonen, oedd rhandir Ahinadab: 1 *Bren.* iv. 14.

AHINOAM, [אחינעם, *tegwch y brawd*]: gwraig o Iezreel; un o wragedd Dafydd, a mam Amnon. Fe'i cymmerwyd yn gaeth gan yr Amaleciaid, pan yr anrheithiasant Siglac; ond fe'i rhyddhawyd hi a'r lleill o'r gaethglud yn fuan gan Dafydd: 1 *Sam.* xxv. 43; xxvii. 3; xxx. 5; 2 *Sam.* ii. 2; iii. 2.

1. AHIO, [אחיו, *ei frawd*]: un o feibion Abinadab; yr hwn, yn nghyd â'i frawd Uzza, a yrai y fen newydd, ar yr hon y dodasid yr arch gan Dafydd i'w dwyn i Ierusalem. Yr oedd Ahio yn myned o flaen yr arch, i dywys yr ychain, tra yr oedd Uzza yn rhodio ger yr arch oedd ar y fen: 2 *Sam.* vi. 3, 4.

2. AHIO: un o'r penau cenedl o lwyth Beniamin, a gyfanneddai yn Ierusalem: 1 *Cron.* viii. 14, 28.

3. AHIO: mab i Iehiel, yr hwn a gyfenwid "tad Gibeon:" 1 *Cron.* viii. 31; ix. 37.

AHIRA, [אחירע]: mab Enan, penaeth llwyth Naphtali, ar ddyfodiad meibion Israel allan o'r Aipht: *Num.* i. 15.

AHIRAM, [אחירם]: un o feibion Beniamin, a thad yr Ahiramiaid: *Num.* xxvi. 38.

AHISAHAR, [אחישחר]: un o feibion Iediel, o lwyth Beniamin: 1 *Cron.* vii. 10.

AHISAR, [אחישר]: enw y gŵr a weinyddai y swydd bwysig o benteulu i'r brenin Solomon: 1 *Bren.* iv. 6.

AHITOPHEL, [אחיתפל, *brawd dinystr* neu *ffolineb*]. Cyfaill mynwesol a chynghorwr Dafydd unwaith, ond a drodd allan wedi hyny yn elyn bradwrus iddo. Enciliodd ar ol Absalom, ac yr oedd yn un o'r rhai prysuraf yn y gwrthryfel annaturiol hwnw. Pan glywodd Dafydd fod y gwladyddwr profedig a doeth yn mysg y cydfwriadwyr, gweddïodd yn daer ar i'r Arglwydd droi ei gynghor yn ffolineb (gan gyfeirio efallai at ei enw); a defnyddiodd ei gyfaill ffyddlawn Husai, yr Arciad, i gael ei ddymuniad i ben. Nid heb achos yr oedd Dafydd yn ei ofni; o blegid gwyddai yn dda am ei alluoedd: ac y mae yr hanes yn dangos ei fod yn cyfarwyddo Absalom i ddefn-

Digitized by Google

yddio y moddion mwyaf penderfynol ac effeithiol i ddymchwelyd llywodraeth ac awdurdod ei dad. Ond, mewn atebiad i weddi Dafydd, gwrthodwyd ei gynghor, siomwyd ei falchder uchelfrydig, a'r canlyniad fu, i'r cynghorwr galluog a diegwyddor droi yn ddienyddwr iddo ei hun trwy ymgrogi: 2 *Sam.* xv; xvi; xvii. Mae Dafydd yn cyfeirio at y bradwr hwn, dybygid, yn *Salm* xli. 9; lv. 12—15; lxix. 25; a cix. 8, pan yn llefaru yn brophwydol am y Messïah, yr hwn a fradychwyd gan Iudas, "un o'r deuddeg" dewisedig ganddo ef ei hun; a chyffelyb fu ei ddiwedd arswydus yntau: *Act.* i. 16—20. Y ddau hyn yw yr unig hunan-leiddiaid y sonir am danynt yn y Beibl, oddi eithr y gallwn gyfrif Saul a Zimri o nifer y cyfryw: 1 *Sam.* xxxi. 4; 1 *Bren.* xvi. 18.

1. AHITUB, [אחיטוב, *brawd o ddaioni*]: mab Phinëas, ac ŵyr yr archoffeiriad Eli; yr hwn, gan fod ei dad wedi ei ladd pan gymmerwyd arch Duw gan y Philistiaid, a olynodd ei daid Eli yn yr archoffeiriadaeth, tua'r flwyddyn c. c. 1141; ac a olynwyd ei hunan gan ei fab Ahïah, tua'r flwyddyn c. c. 1093: 1 *Sam.* iv; xiv. 3.

2. AHITUB: tad Sadoc, yr hwn a gyfodwyd i'r archoffeiriadaeth gan Saul, ar farwolaeth Ahimelech: 1 *Cron.* vi. 8; 2 *Sam.* viii. 17. Ni bu hwn erioed yn archoffeiriad.

3. AHITUB: un o feibion Ehud y Beniaminiad: 1 *Cron.* viii. 6—11.

AHOAH: un o feibion Bela, cyntafanedig Beniamin: 1 *Cron.* viii. 1—4.

AHOHIAD, [אחוחי]: un o brif gedyrn y brenin Dafydd oedd "Eleazar, mab Dodo, yr Ahohiad:" efallai ei fod o cael ei ddynodi yr Ahohiad, am ei fod o dylwyth yr Ahoah uchod: 1 *Cron.* xi. 12. Un arall o'i gedyrn oedd o'r un tylwyth, dybygid, sef, "Ilai yr Ahohiad:" 1 *Cron.* xi. 29.

AHOLAH, ac AHOLIBAH, [אהלבה ,אהלה]: dau enw ffugiol, neu arwyddluniol, a ddefnyddid gan yr Arglwydd trwy y prophwyd Ezeciel, er dynodi breniniaethau Samaria, neu y deg llwyth, a Iudah. Y mae grym arwyddocaol neillduol yn perthyn i'r ddau enw:—*Aholah* a gyfieithir yn gyffredin *pabell;* ond yn fwy priodol, a ddynoda, *a hi a fedd ei phabell ei hun;* gan arwyddo ei bod yn meddu pabell neu deml o'i dyfais ei hun, neu ddyfais ddynol. Yr enw arall, *Aholibah*, a arwydda, *fy mhabell*, neu *deml, sydd ynddi:* hyny yw, Yr ydwyf fi, yr Arglwydd, wedi rhoddi iddi deml, a gwasanaeth crefyddol. Darlunir y ddwy yn euog o'r un ysgelerder; sef, puteinio â'r Aiphtiaid ac â'r Assyriaid, trwy efelychu eu harferion ffiaidd ac eilunaddolgar: ac am hyny, y mae yr Arglwydd yn bygwth eu gadael i drugaredd y bobl hyny, y darfuasai iddynt ymserchu mor afresymol ynddynt: a'r canlyniad fu, eu caethgludo a'u darostwng dan orthrymder blin. Ond yr oedd camwedd Aholibah yn fwy ysgeler na'r eiddo Aholah, yn gymmaint a'i bod yn feddiannol ar freintiau rhagorach na'i chwaer, a'i bod wedi gwrthod derbyn addysg trwy y dinystr a oddiweddodd ei chwaer am ei hysgelerder. Rhyw grynodeb byr o hanes yr Eglwys Iuddewig yw yr alleg hon, yn yr hon y darlunir ei hanffyddlondeb i Dduw, a'r gospedigaeth gyfiawn a ddisgynodd arni yn y canlyniad: *Ezec.* xxiii.

AHOLIAB, [אהליאב, *pabell y tad*]: mab Achisamach, o lwyth Dan; y celfyddydwr cywrain a benodwyd gyda Bezaleel i adeiladu y tabernacl, a pharotoi ei ddodrefn cywrain a'i addurniadau ysblenydd: *Exod.* xxxv. 34.

AHOLIBAMAH, [אהליבמה]: enw un o wragedd Esau; ac y mae yn debyg i ryw randir o fynydd Seir, a feddiannwyd gan yr Edomiaid, gael ei alw ar ei henw; a phenaeth y cyfryw randir, yr hwn hefyd oedd benteulu yn hiliogaeth Esau o'r wraig hon, a elwid "Duc Aholibamah:" *Gen.* xxxvi. 2, 5, 40, 41; 1 *Cron.* i. 52.

AHUMAI: mab Reaiah, o hil Iudah: 1 *Cron.* iv. 2.

AHUZAM: mab Asur, o Naarah: 1 *Cron.* iv. 6.

AHUZZATH, [אחזת, *gwelediagaeth*]: cyfaill Abimelech yr ail, brenin Gerar, yr hwn a'i canlynai ar ei ymweliad âg Isaac: *Gen.* xxvi. 26. Dyma yr anghraifft gyntaf a gawn ni o'r dynsawd pwysig hwnw a gyfarfyddir yn fynych yn y llysoedd dwyreiniol, dan yr enw "cyfaill" neu "anwylddyn y brenin," ond heb fod dan gyfrifoldeb unrhyw swydd yn y llywodraeth. Barna amryw esbonwyr mai enwedigydd cyffredin yw *Ahuzzath*, yn dynodi *lluaws o gyfeillion*, y rhai a ddilynent Abimelech; ac felly ei golygid gan y cyfieithwyr Caldeaidd, dybygid.

AI. Gwel HAI.

AIAH, [איה]: mab Sibeon, o feibion Seir yr Horiaid: *Gen.* xxxvi. 20—24; 1 *Cron.* i. 38—40.

AIALON, neu AJALON, [אילון, *dinas y derw*] tref a dyffryn yn nhiriogaethau llwyth Dan (*Ios.* xix. 42); yr hon a roddwyd i'r Lefiaid: *Ios.* xxi. 24; 1 *Cron.* vi. 69. Ymddengys, oddi wrth grybwylliad a wneir yn 2 *Cron.* xxviii. 18, ei bod yn lled agos i Bethsemes; ac yr oedd yn un o'r dinasoedd a adeiladodd neu a gadarnhaodd Rehoboam (2 *Cron.* xi. 10): yr oedd hefyd yn un o'r amddiffynfeydd a gymmerodd y Philistiaid oddi ar Ahaz, brenin Iudah: 2 *Cron.* xxviii. 18. Ond y prif amgylchiad a hynododd y dref, neu yn hytrach y dyffryn yn yr hwn y gorweddai, oedd yr hyn a grybwyllir yn hanes Iosuah; yr hwn, pan yn ymlid ar ol y pum brenin, yn min yr hwyr, wedi brwydr galed Gibeon, gan edrych yn ol tua Gibeon, ac i waered ar y dyffryn arddderchog a orweddai o'i flaen, a ddywedai—"O haul, aros yn Gibeon; a thithau leuad, yn nyffryn Aialon;" *Ios.* x. 12. Oddi wrth grybwylliad o eiddo Jerome, yr hwn a gyflea Aialon tua dwy filltir Rhufeinaidd o Nicopolis, ar y ffordd i Ierusalem, yn nghyd â pharhâd o olion yr hen enw, dan y ffurf o Yâlo, llwyddodd y Dr. Robinson i benderfynu ar y dyffryn, a'r lle y gorweddai y dref; ac oddi ar nen tŷ yn Beit Ur (yr un a Bethhoron), efe a edrychai i waered ar y dyffryn eang a phrydferth a orweddai o'i flaen, tua Ramleh. Mae y dyffryn hwn yn cyfeirio i'r gorllewin wrth ogledd, rhwng rhesau o fryniau, ac yna, yn gogwyddo i'r de-orllewin trwy y gwastadedd gorllewinol mawr. Fe'i gelwir yn bresennol Merj Ibn 'Omeir. Ar ystlys y bryn hir sydd yn terfynu y dyffryn ar y tu deheuol, y mae pentref bychan, a elwir Yâlo; yr un, yn ol pob tebyg, a'r hen Aialon.

AIATH: yr un a *Hai:* *Esa.* x. 28.

Digitized by Google

**AIELETH-HASAHAR**, [*ewig y bore* — yr haul neu wawr y pore]: teitl yr eilfed Salm ar ugain. Tybia Aben-Ezra, a beirniaid ereill, ei fod yn dynodi cân—yn dechreu, efallai, gyda'r geiriau hyn, neu yn dwyn yr enw hwn, a'r dôn ar ba un y cenid y salm. Eithr Luther, ac ereill, a dybiant ei fod yn golygu testyn y salm, sef Dafydd ei hun; neu, yn gysgodol, y Messïah. Felly, gellir ystyried y salm yn brophwydoliaeth am Grist yn cael ei erlid gan Satan a'i offerynau, gan Iuddewon a Chenedloedd, megys ewig bryd-ferth yn cael ei hela gan gŵn gwaedlyd: gwel *adn*. 6, 7, 12, 13, 16, 20, 21. Yr oedd ei elynion wrth eu gorchwyl yn *fore* (*Ioan* xviii. 28); ac yntau a gyfododd o'r bedd yn *fore* y trydydd dydd (*Ioan* xx. 1), pryd y diangodd o gyrhaedd ei holl erlidwyr, ac yn fuddugol ar ei holl elynion. Cymharer *Salm* xviii. 33; *Can*. ii. 9, 17; viii. 14. Gall yr ymadrodd, hefyd, gyda harddwch neill-duol, osod allan adgyfodiad gorfoleddus y saint, *fore* mawr y dydd olaf, trwy rinwedd eu hundeb â Christ, fel eu pen ysbrydol a gogoneddus.—(*Kitto; Charles; Brown*, &c.)

**AILENEDIGAETH.** Yr ymadroddion ys-grythyrol ydynt, *aileni* (*παλιγγενεσία*), *geni oddi uchod*, neu *drachefn* — *λεινάσθαι ἄνωθεν*, neu *δεύτερον*.

Mae *παλιγγενεσία*—(*palingenesia*) yn gyfan-soddedig o *palin*=drachefn, a *genesis*=cenedliad, genedigaeth, dechreuad. Arwydda y gair yn fynych mewn ysgrifeniadau Groegaidd, gyfnew-idiad hollol er gwell yn nghyflwr neu sefyllfa un. Geilw Cicero ei adferiad o alltudiaeth yn *palin-genesia*. Cymhwysa Josephus y gair at adferiad gwlad Israel ar ol y gaethglud. Geilw y gyfraith Rufeinaidd ryddhâd caethion yn ailenedigaeth. Defnyddid y gair hefyd am adnewyddiad y ddaiar yn y gwanwyn, adferiad i iechyd, ac am adferiad yn gyffredinol, megys i lwyddiant neu i ddyrchaf-iad. Dywedai yr Iuddewon fod pagan yn cael ei *eni*, ei *eni o newydd*, pan y cofleidiai eu crefydd hwy; edrychent arno fel plentyn yn dechreu byw. Dybena cyfieithiad y Deg a Thrigain y geiriau yn *Iob* xiv, 14; "Dysgwyliaf hyd oni 'm genir drachefn."

Er fod llawer o ymadroddion perthynol a chyf-ystyr yn y Testament Newydd; eto, dwywaith y defnyddir *palingenesia*—ailenedigaeth, neu aden-edigaeth: *Mat*. xix. 28; *Titus* iii. 5. Yn y cyntaf, gelwir Cristionogaeth "yr adenedigaeth"—oddi wrth un o'i phrif wirioneddau, yn ol barn Calvin, a llawer ereill. Dealla rhai y gair yn y lle uchod, am adferiad pob peth yn niwedd y byd. Una Olshausen y ddau ystyr—bydd "yr ailenedigaeth" yn berffaith, pan y delo teyrnas anweledig Crist i amlygrwydd yn niwedd y byd. Y mae y cyf-newidiad a gymmer le yn mhob un o ddeiliaid y deyrnas yn cael ei drosglwyddo i'r cyfan: felly, pa un bynag yr edrychir arni, yn anweledig ynte yn weledig—neu y ddau, y naill yn tarddu o'r llall—mae yr ymadrodd, "yr adenedigaeth," yn briodol i'w ddynodi. Mae "golchiad yr adenedigaeth, sef (*καὶ*) adnewyddiad yr Ysbryd Glân," yn cyfeirio at gyfnewidiad personol; ac y mae holl ieithwedd yr Ysgrythyrau yn unol â'r syniad sydd yn y gair *adenedigaeth*: *Ioan* iii. 3, 5, 6, 7; i. 13; 1 *Pedr* i. 3, 23; a 1 *Ioan* drwyddo. Yr un geiriad a ddefnyddir pan briodolir y cyfnewidiad i ddyn: 1 *Cor*. iv. 15; *Philem*. 10. Mae pob enwad a ddefn-yddir am y cyfnewidiad yn briodol i'w ddangos, yn ei berthynas â sefyllfa flaenorol dyn, neu â rhyw gynneddf neillduol. Pan edrychir ar y cyfnew-idiad fel yn rhoddi bywyd, mae ailenedigaeth yn briodol i ddangos ei ddechreuad. Y mae lluaws o ymadroddion yn dynodi crefydd, oddi wrth bob un o'r tair cynneddf neu gymhwysder sydd mewn dyn, i *wybod*, i *deimlo*, i *weithredu*—megys gwyb-odaeth, cariad, ewyllysio: — ond y mae *bywyd* yn cangach nag un gair a gymmerir oddi wrth gynneddf neillduol, am ei fod yn cynnwys y cwbl. Mae yn oleuni yn y deall, yn gariad yn y serch, yn weithrediad yn yr ewyllys. Felly y mae *ail-enedigaeth* yn air mwy priodol i ddangos y cyf-newidiad hwn yn ei gyffredinolrwydd, nag un a gymmerir oddi wrth unrhyw gynneddf neillduol. Cyferbynir "geni o'r ysbryd" â "geni o'r cnawd:" fel y mae y naill yn ddechreuad bywyd naturiol, felly y mae y llall yn ddechreuad bywyd ysbryd-ol; ac y mae genedigaeth ysbrydol yn ddechreuad newydd mor wirioneddol a neillduol, mor annib-ynol ar ddyn am ei wir darddiad, ac mor cang a thrwyadl yn ei effeithiau, ag yw genedigaeth naturiol. Felly, pe dywedid mai ymadrodd ffugr-ol ydyw *ailenedigaeth*, nid ellir dywedyd felly am fod y cyfnewidiad a ddynodir drwyddo yn llai gwirioneddol, ond yn unig am ei fod yn llai cyffredinol ac adnabyddus na'r hyn y benthycir y gymhariaeth oddi wrtho. Nid allasai geiriau llai grymus nag a ddefnyddir osod allan ei natur a'i bwysigrwydd. Yr hyn ydyw geni i'r corff, ydyw aileni i'r ysbryd. Y maent yn perthyn i gylchoedd gwahanol—un i'r cnawd a'r llall i'r ysbryd. Nid oes yn y cyfnewidiad hwn un chwanegiad at gynneddfau dyn. Ei wrthddrych ydyw "ysbryd y meddwl" (*Eph*. iv. 23)—*πνεύματι του νοός*. Y mae ysbryd (*pneuma*) yn sefyll mewn perthynas tebyg â meddwl (*nous*), ag ydyw enaid â chorff. Y rhan anfarwol o ddyn, a'i ystyried yn alluog i feddwl ac ymserchu, a elwir "meddwl" (*nous*); ond y rhan uchaf, neu yr egwyddor *lywodraethol* o'r "meddwl," a elwir "ysbryd." Felly, y mae cyfnewidiad yn cym-meryd lle, nid yn unig yn y meddwl, ond yn ysbryd y meddwl. Hwn ydyw ei eisteddle pri-odol. Mae y meddwl yn parhau fel o'r blaen yn ei gyfansoddiad naturiol:—ac nid yw ailenedig-aeth yn chwanegu un gynneddf nac un teimlad newydd. Nid oes eisieu un cyfnewidiad ar y cynneddfau, fel cynneddfau; ond yr ysbryd sydd yn preswylio yn, ac yn llywodraethu y meddwl, sydd yn cael ei gyfnewid. Mae y cof yn gweith-redu fel cynt, ond ar wrthddrychau newydd; neu os ar hen wrthddrychau, oddi ar egwyddor neu ysbryd newydd:—felly hefyd y cynneddfau ereill. Felly, nid cyfansoddiad y meddwl, na'i weithred-iad, a gyfnewidir, ond ysbryd y meddwl: a chadwer mewn cof, mai yr hyn ydyw yr enaid i'r corff, ydyw yr ysbryd i'r meddwl. Nid cynneddf o'r meddwl ydyw yr ysbryd, na chwaith sylwedd gwahanol i'r meddwl, ond y bywyd sydd yn nerth i'r cwbl, yn rhoddi i'r meddwl yn ei holl gynneddfau a'i deimladau ei ogwydd, gan roddi iddynt ddefn-yddiau myfyrdod ac ymhyfrydiad, ac yn gwlwm eu cydweithrediad. Mae hyn yn unol â'r dys-grifiadau sydd yn dangos mai dyn ei hun ydyw gwrthddrych y cyfnewidiad. Ansawdd y *dyn* sydd yn rhoddi ei ansawdd i'w weithredoedd mewnol ac allanol. Fel y byddo y pren y mae y ffrwyth; ac nis gellir newid y ffrwyth heb newid y pren. "Gwisgo y *dyn* newydd," "wedi *eich* creu yn Nghrist Iesu," "oddi eithr *eich* geni drachefn," "creadur newydd," ac ymadroddion cyffelyb, ydyw dull yr Ysgrythyrau o lefaru ar hyn. Y mae hyn yn unol â moesddysg gywir —mai y gweithredoedd sydd yn *amlygu* natur y

Digitized by Google

dyn, ond y dyn sydd yn *cyfansoddi* natur y gweithredoedd. Dynodir dyn wrth ei egwyddor lywodraethol, yn flaenorol i ailenedigaeth: y mae dyn yn "gnawdol," am fod ysbryd y meddwl dan lywodraeth y cnawd, sef y bywyd anianol; ond yn yr ailenedigaeth, mae yn cael ei ddwyn i gyfranogi o "fuchedd Duw" neu fywyd Duw (*Eph.* iv. 18); ac y mae y modd deilliadol (*genitive*), ζωῆς τοῦ Θεοῦ, yn brawf mai nid bywyd yn ol Duw, neu fywyd rhinweddol, ac nid bywyd cymmeradwy gan Dduw, ydyw yr ystyr yma; ond bywyd Duw yn yr enaid—bywyd deilliedig o Dduw, ac yn gynnwysedig mewn cymdeithas âg ef. Mae y diailanedig wedi ymddyeithrio oddi wrtho: ac y mae ailenedigaeth yn adferiad yr enaid i'r bywyd ysbrydol hwn, trwy ei ddwyn i gyfranogi o gyflawnder Duw.

Pa gynneddf ydyw gwrthddrych uniongyrchol gweithrediad Duw?—y naturiol, ynte y moesol?—ai y deall, ynte y galon neu yr ewyllys? Y mae duwinyddion wedi ateb y cwestiwn hwn yn wahanol, yn ol y syniad fydd ganddynt am ddibyniad y cynneddfau ar eu gilydd. Os edrychir ar y meddwl trwy y gymhariaeth o beiriant—golygiadau y deall yn cynnyrchu teimladau y galon, a'r ddau yn dybenu y mhenderfyniadau yr ewyllys—mae yn naturiol meddwl mai y deall a oleuir yn gyntaf mewn trefn i gyfnewidiad y galon a darostyngiad yr ewyllys. Ond os sefydlir y meddwl yn fwy ar yr ewyllys fel y gallu ysbrydol, yr hwn sydd yn rhoddi nodwedd i olygiadau y deall, yn hytrach na derbyn ei gymmeriad ei hun oddi wrthynt—y mae mor naturiol dyweyd mai yn, ac ar, yr ewyllys y mae Ysbryd Duw yn gweithio yn achubol gyntaf. Ond os edrychir ar y cynneddfau hyn fel yn ddibynol ar eu gilydd, yn ol ac yn mlaen, y naill yn rhoi ac yn derbyn dylanwad oddi wrth y llall—y duedd efallai, fydd i wadu fod un flaenoriaeth; ond bod yr holl ddyn, a'r oll ar unwaith, yn wrthddrych y gweithrediad achubol. Gwelir fod y cwestiwn hwn yn dwyn perthynas â'r ddadl yn nghylch natur dylanwad cymhelliadau ar yr ewyllys. [Gwel ANGENRHEIDRWYDD.] Y mae yn bosibl i ni wahaniaethu cymmaint rhwng cynneddfau a galluoedd nes anghofio mai *un* ydyw yr enaid, a dyrysu ein hunnin gyda'r adraniadau hyn.

Yr Ysgrythyrau a briodolant "oleuo llygaid y meddwl," "agor y galon," a "gweithio ynom ewyllysio a gweithredu," i'w ewyllys da Ef.

Gosodir yr angenrheidrwydd am ailenedigaeth allan gan Grist—1af, O ran y ffaith: ac yn 2il, Yr egwyddor. Y cyntaf yw ei lygredd; "yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd." Yr ail ydyw yr anmhosiblrwydd i ddyn cnawdol fyned i deyrnas ysbrydol. Y mae yr ymresymiad yn gorphwys ar egwyddor hollol gyffredinol—nas gall fod dim yn yr effaith nad yw yn yr achos. Trefn yr ymresymiad ydyw—1. Mae dyn yn gnawdol, am ei fod wedi ei eni o'r cnawd; felly, yn gyffelyb, nid oes dim yn ysbryd, ond sydd wedi ei eni o'r Ysbryd. 2. Nis gall cnawd fyned i deyrnas Dduw; ysbryd yn unig a all fwynhau teyrnas ysbrydol. 3. Y casgliad ydyw, Y mae yn annichonadwy i ddyn fyned i deyrnas ysbrydol heb ei eni o'r Ysbryd. Mae yr anmhosiblrwydd hwn yn *gyffredinol;* "oddi eithr geni *dyn* drachefn:" *Rhuf.* viii. 7; *Gen.* viii. 21; *Rhuf.* v. 12; *Preg.* vii. 20; 1 *Ioan* i. 10; *Rhuf.* iii. 20; 1 *Ioan* ii. 2; *Luc* xxiv. 47; *Marc* xvi. 15. Mae yn *hollol:*—nid un o'r pethau sydd anmhosibl gyda dynion ac yn bosibl gyda Duw ydyw—"mor anhawdd ag yr ä goludog i deyrnas nefoedd"—ond mae hyn yn anmhosibl gyda Duw: "Oddi eithr geni dyn drachefn, ni *ddichon* efe fyned i mewn." Mae yr anmhosiblrwydd hwn yn codi oddi ar, (1.) Natur teyrnas Crist, fel y mae hi yn gadarnhâd i egwyddorion llywodraeth foesol Duw. (2.) Dybenion gwaith y prynedigaeth. (3.) Cyfansoddiad moesol dyn:—nid yn unig y mae llywodraeth Duw yn un foesol; ac felly, tra y pery yn anghyfnewidiol, nis gall dyn ansancteiddd fyned iddi; ond, y mae egwyddorion natur dyn yn sierhau yr un peth: megys,—[1.] Rhaid dwyn ei garictor i gydymffurfiad â'i gydwybod. [2.] Rhaid dwyn ei dueddiadau, ei archwaeth, a'i arferion, i gydymffurfiad â'r lle y bydd ynddo, y gwaith fydd iddo i'w wneyd, a'r gymdeithas fydd ganddo. Cymhwyser hyn at y dysgrifiadau a geir o'r nefoedd—ei gorchwylion, ei mwynhâd, a'i chymdeithas—a gwelir oddi ar egwyddorion natur dyn yr anmhosiblrwydd dan sylw.

Crist ydyw ffynnonell y bywyd newydd; a thrwy ddyfod i undeb âg ef, y mae pechadur yn cyfranogi o'r bywyd hwn: *Phil.* iii. 10; *Rhuf.* vi. 5; vii. 4; a viii. 29; *Col.* iii. 10, 11; *Eph.* ii. 10; 2 *Cor.* v. 17. Crist yw yr elfen, yn yr hon, trwy ffydd, yr ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod. "Od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn greadur (creadigaeth) newydd: yr hen bethau"—y sefyllfa ddiailenedig, a'r cwbl a berthynai iddi—"a aethant heibio." Nid mynediad ymaith Iuddewaeth a feddylir. Undeb â Christ fel dechreuad bywyd ysbrydol, ac nid fel cyfrwng cymmod—mae hyny yn dyfod i mewn yn yr adnod nesaf. "Wedi ein creu yn Nghrist Iesu;" yn Nghrist y mae y greadigaeth newydd yn cymmeryd lle. "Os dysgwyd chwi ynddo......dodi o honoch heibio yr hen ddyn...ac ymadnewyddu." "Ynddo," mewn undeb âg ef: nid fel yn y Seisoneg, "*by him;*" nac fel mewn rhai cyfieithiadau Lladin, "*ab eo;*" neu Beza, "*per eum:*"—ond "ynddo"=ἐν αὐτῷ. Trwy fod ynddo, dysgwyd hwynt i ddodi heibio yr hen, a gwisgo y dyn newydd. Yn unol â hyn, y mae cynnyrchu ffydd yn y galon yn cael ei ddysgrifio yr un peth ag aileni: "Pwy bynag sydd yn credu mai Iesu yw 'r Crist, o Dduw y ganed ef." "Ond cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, sef i'r sawl a gredant yn ei enw ef: y rhai ni aned o waed, nac o ewyllys y cnawd, nac o ewyllys gŵr, eithr o Dduw;" *Ioan* i. 12, 13.

Y mae bod yn Nghrist yn angenrheidiol i adgenedliad pechadur i fywyd newydd; o herwydd y mae pechod yn pellhau dyn oddi wrth Dduw, ac y mae yn rhaid symmud y teimlad o bellder ac euogrwydd, trwy ddwyn ewyllys dyn i dderbyn y cymmod, cyn y gall garu Duw. Y mae o bwys i gadw cyfiawnhâd a dychweliad mewn golwg wrth ystyried pa fodd y mae dyn yn cael ei eni i fywyd newydd. "Ailenedigaeth," medd Nitzsch, "yn ei wreiddyn, ydyw undeb cyfiawnhâd a dychweliad." Trwy gyfiawnhâd y mae pechadur yn derbyn heddwch cydwybod (*Rhuf.* v. 1); ysbryd mabwysiad: *Rhuf.* viii. 15. Mewn dychweliad, cyfnewidir ei ewyllys: yn undeb y pethau hyn y mae bywyd newydd yn dechreu yn y galon. Undeb y ddau sydd mewn golwg mewn adnodau fel y canlyn: *Ioan* i. 7—9; *Heb.* ix. 9, 14, &c. Yma, edrychir ar gyfiawnhâd yn fwy yn ei effeithiau ar y galon; ond y mae hyn yn tarddu yn angenrheidiol o'r cyfnewidiad a wna yn y cyflwr.

Y mae y cwestiwn wedi ei ofyn yn fynych,—Pa un sydd gyntaf, ai cyfiawnhâd, ai ailenedigaeth? Ac wrth edrych ar y ddau, ar wahân, y mae llawer i'w ddyweyd o bob ochr. Os dywedir mai

Digitized by Google

ailenedigaeth ydyw y cyntaf—yna gellir gofyn, Pa fodd y mae yn gysson â chyflawnder Duw i gyfranu ei ddelw i bechadur dan felldith? Onid yw hyn yn anghysson â'r dystiolaeth, mai yr annuwiol ydyw gwrthddrych cyfiawnhâd, ac nid yr ailanedig? Pa fodd y gall yr enaid fod yn gyfranog o fywyd ysbrydol, cyn cael undeb â Christ? Os, ar y llaw arall, y dywedir mai cyfiawnhâd ydyw y cyntaf—yn erbyn hyn gellir dyweyd fod credoau a duwinyddion y Diwygiad, gan mwyaf, yn dysgu yn wahanol. Nid yw hyn yn gysson iawn chwaith â'r hyn a ddysgir yn gyffredin am alwedigaeth effeithiol. Pa fodd hefyd y dygwyd pechadur i gredu yn Nghrist er ei gyfiawnhâd, cyn cael ei aileni? Pa fodd yr actiodd pechadur fywyd trwy gredu, cyn cael yr egwyddor o fywyd yn yr ailenedigaeth?

Fel hyn, y mae anhawsderau o bob ochr. Y mae tuedd mewn gosod ailenedigaeth o flaen cyfiawnhâd i arwain pechadur i chwilio ei hun am arwyddion sancteiddiad cyn derbyn cysur yr efengyl. Tuedd gosod cyfiawnhâd yn gyntaf ydyw arwain i hyder Antinomaidd, heb ymdrechu at fywyd sanctaidd. Ond y mae dangos undeb y ddau yn Nghrist yn osgoi y gwrthddadleuon a'r peryglon hyn, ac yn gadael gweinidogaeth yr efengyl yn rhydd i wahodd pechaduriaid ato.

"Gair gwirionedd yr efengyl" ydyw y moddion i genedlu bywyd ysbrydol yn yr enaid;—yr had oddi wrth ba un y mae yn tarddu, a'r ymborth trwy ba un y mae yn cael ei gynnal a'i gynnyddu. Y gair, hefyd, sydd yn aros fel had yn y galon, i roddi goruchafiaeth ar bechod, ac i fod yn facth i sancteiddrwydd. "Pob un a aned o Dduw, nid yw yn gwneuthur pechod; o blegid y mae ei had ef yn aros ynddo ef, ac nis gall efe bechu, am ei eni ef o Dduw;" 1 *Ioan* iii. 9. Mor bell ag y mae egwyddorion y bywyd ysbrydol yn ffynu, nis gall efe bechu o gwbl. Oddi wrth air Duw yn y galon nis gall dim pechadurus darddu. Cynnyrch llygredigaeth, ac nid egwyddorion sancteiddrwydd, ydyw pechod. Y mae y galon yn cael ei phuro drwy ffydd, ac hefyd trwy y gwirionedd. Y mae ffydd yn ffydd i'r gwirionedd; ac y mae yn rhaid i'r gwirionedd fod o flaen y meddwl i fod yn wrthddrych ffydd; ac oddi wrth natur y gwirionedd y mae ffydd yn derbyn ei dylanwad. "Ei dderbyn, nid fel gair dyn, eithr fel y mae yn wir yn air Duw, yr hwn sydd yn nerthol weithio ynoch chwi, y rhai sydd yn credu." Y gair sydd yn "gweithio," ond gweithio "yn y rhai sydd yn credu." Y mae y gair yn meddu cymhwysder i effeithio cyfnewidiad yn nghalon a charitor dyn. Nid oes dim dirgelwch yn hyn. Y mae yn yr efengyl y gwirioneddau sydd yn meddu cymhwysder naturiol i weithio y cyfnewidiad sydd yn angenrheidiol i gymhwyso dyn i'r nefoedd, ond iddynt gael eu dwyn i'r meddwl drwy ffydd. Y mae pob teimlad yn y dyn newydd yn cael ei gynhyrfu gan wirionedd priodol; ac nid oes dim a'i cynnyrcha ond y gwirionedd hwnw. Y ffordd i gael heddwch â Duw, ydyw credu y dystiolaeth sydd yn ei ddadguddio fel "Duw yr heddwch." Trwy gredu "gair y cymmod," y mae i ni "dderbyn y cymmod." Nis gellir gorfoleddu mewn gobaith, ond trwy goelio y dystiolaeth sydd yn dadguddio sail gobaith. Nid oes un llwybr i doddi y galon mewn edifeirwch duwiol, ond trwy gredu yn y cariad anfeidrol y pechwyd yn ei erbyn. Y ffordd i gynnyrchu cariad yn y galon, yn lle gelyniaeth, ydyw, trwy olwg ffyddiog ar sancteiddrwydd a chariad Duw yn wyneb Iesu Grist. Y mae holl weithrediadau y galon ailanedig yn codi yn naturiol oddi wrth y gwirioneddau priodol i'w cynnyrchu; a hyny, nid trwy drefniad dirgelaidd ac annealladwy, ond oddi wrth gyfansoddiad y meddwl—trwy weithrediad naturiol achos ac effaith.

Ond yna, fe ofynir, Ai nid oes dim mewn ailenedigaeth ond gweithrediad galluoedd naturiol? Ai nid oes dim yn y cyfnewidiad hwn ond gweithrediad naturiol cynneddfau dyn, dan ddylanwad priodol a naturiol y gwirioneddau a gyflwynir i'w sylw? Yr ydym wedi dywedyd nad oes dim dirgelwch, dim neillduolrwydd, dim uwchlaw y ddeddf gyffredin o achos yn dwyn ei effaith priodol, yn nghyfnewidiad a sancteiddiad y dyn a gredo y gwirioneddau cyfaddas i'w sancteiddio. Ond yma, fe welir, ein bod yn cymmeryd yn ganiataol, fod y gwirionedd yn cael ei gredu, fod y gair yn y galon, fod yr had wedi cael tir da. Ond pa fodd y mae y galon wedi dyfod i gredu, a chofleidio yr hyn sydd yn ffolineb ganddi, ac yn groes i'w hanian? Ai nid oes dim uwch law natur, ei deddfau, a'i hegwyddorion, a'i hymdrechiadau, mewn dwyn dyn anianol i dderbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw? Fe ellir cynnyrchu cyfnewidiadau mawr yn nheimlad, ac archwaeth, ac arferion y dyn, trwy foddion naturiol a gweithrediad naturiol ei alluoedd, heb unrhyw ddylanwad neillduol a goruchnaturiol; megys gwneuthur y meddw yn sobr, dysgu yr anwybodus, codi yr anniwair o'i farbareidd-dra cyntefig i fwynhau ac arddangos hapusrwydd a rhinweddau cymdeithas goethedig:—a ellir yr un modd gwneyd yr annuwiol yn dduwiol, yr ansanctaidd yn sanctaidd, yr anianol yn ysbrydol? I hyn y mae yr ateb yn amlwg, hyd yn oed oddi wrth ystyriaeth o alluoedd naturiol dyn yn ei sefyllfa bechadurus. Ni ddaw dyn, yn yr ymarferiad mwyaf diwyd o'i gynneddfau ei hun, heb ddylanwad dwyfol a goruchnaturiol, byth yn sanctaidd. I ba gynneddf neu deimlad bynag yr edrychwn, gwelwn nas dichon iddynt roddi dechreuad newydd i gariad at Dduw, a sancteiddrwydd, heb ddylanwad dwyfol. Dichon y gydwybod gondemnio y galon ansanctaidd, ond nid ei newid. Y mae llais Duw yn y gydwybod mor analluog a'i lais yn ngorchymynion y ddeddf ac addewidion yr efengyl i newid y galon heb Ysbryd Duw. Gellir dywedyd yr un modd am bob egwyddor sydd yn ei natur; megys rheswm, hunan-gariad, ofn, a gobaith. Y mae Ysgrythyr a phrofiad yn dangos nad ydyw dynion yn cael eu llywodraethu gan argyhoeddiad y rheswm a'r gydwybod, nac yn cael eu harwain gan yr ystyriaeth o'u daioni uchaf. Yr ydoedd yn ddiareb yn mysg y paganiaid, fod dynion yn gwybod y da, ac yn dilyn y drwg. Ac yn hyn y mae caethiwed pechod yn gynnwysedig;—fod gan ddynion allu i weled ei ddrwg a'i gondemnio, heb allu i ladd ei lywodraeth arnynt. Y mae dyn yn rhydd yn ei bechod, ac y mae yn gaeth yn ei ryddid. Mae anallu gwirioneddol mewn dyn anianol i greu sancteiddrwydd ynddo ei hun: rhaid i ysbryd gael ei eni o gnawd, cyn y gellir olrhain adenedigaeth i weithrediad naturiol meddwl naturiol.

Priodolir y gwaith mewn gwahanol ffyrdd i'r Ysbryd Glân yn yr Ysgrythyrau; (1.) Y mae absennoldeb yr Ysbryd yn nod o gyflwr annychweledig; *Iudas* 19, 20. (2.) Y mae presennoldeb yr Ysbryd yn nod o gyflwr dychweledig; *Rhuf.* viii. 9, 14; 1 *Ioan* iv. 13. (3.) Priodolir y gwaith yn uniongyrchol i'r Ysbryd; *Ioan* iii. 5; 1 *Pedr* i. 22. (4.) Priodolir llwyddiant yr efengyl yn gyffredinol i'r Ysbryd; 1 *Thes.* i. 5; *Act.* xvi. 14; 2 *Cor.*



Digitized by Google

iii. 3. (5.) Dangosir gwaith yr Ysbryd yn rhan arbenig o drefn yr iachawdwriaeth; *Tit.* iii. 5. (6.) Mae cyflwr dyn yn un o anallu i ddychwelyd at Dduw heb ei nerth ef ei hun; *Ioan* v. 40; vi. 44. (7.) Y mae addewidion am yr Ysbryd i newid y galon; *Ezec.* xxxvi. 26, 27; *Ioel* ii. 28. (8.) Priodolir y gwaith iddo gan ddynion duwiol; *Rhuf.* vii. 18; 1 *Cor.* xv. 10; *Salm* cxv. 1.

Y mae gwahanol esboniadau wedi cael eu rhoddi ar natur a graddau gweithrediad Ysbryd Duw mewn ailenedigaeth. Mae bod y llyfr sydd yn foddion i effeithio y cyfnewidiad wedi ei ysbrydoli ganddo yn sail ddigonol gan rai i briodoli y gwaith hwn iddo. Ond heb ddywedyd chwaneg ar hyn, y mae y golygiad yma yn anghysson â gweddïo am yr Ysbryd; gan fod ei waith wedi ei gyflawnu, yn ol y dyb hon, pan orphenwyd y gyfrol sanctaidd. Ond yn chwanegol at barotoi yr offeryn, dywed ereill fod yr Ysbryd yn trefnu amgylchiadau dynion; a thrwy afiechyd, marwolaethau perthynasau, ac ymweliadau neillduol, yn deffro yr ystyriaeth ac yn parotoi y meddwl i dderbyn y dylanwad sydd yn y gair:—bod y rhinwedd angenrheidiol yn y gwirionedd, fel y mae gwefraeth neu wres mewn gwrthddrychau naturiol; ac nad oes eisieu ond cyfarfyddiad manteisiol o amgylchiadau, i ddwyn y rhinwedd hwnw i'r meddwl. Y mae rhagluniaeth, yn ddiau, yn y modd a nodir yma, yn wasanaethgar yn fynych i ddwyn meddwl dyn at ei gyflwr, ac at y gair: ac y mae addeflad o ddylanwad yr Ysbryd mor bell a hyn yn gysson â gweddïo am dano. Gellir addef hefyd nad oes dim diffyg yn y proflon o ddwyfoldeb yr efengyl i ennill ei fford yn y byd, fel y mae lluaws o wirioneddau moesol yn gwneyd. Ond nid yw gwirioneddau yr efengyl yn sefyll yn yr un berthynas â dyn a gwirioneddau ereill. Y mae eu dirgelwch yn dramgwydd i'w ddeall; eu purdeb yn dramgwydd i'w galon; a'u graslonrwydd yn dramgwydd i'w hyder hunan-gyflawn; *Ioan* iii. 10. Y mae y neillduolrwydd yma yn eu cymmeryd allan o bob cymhariaeth âg ymledaniad gwirioneddau ereill yn y byd.

Ond heb law hyn, y mae yr Ysgrythyrau yn bendant ar weithrediadau personol yr Ysbryd yn ailenedigaeth pechadur. Ystyrier y tystiolaethau canlynol:—"Ti yw y Crist, Mab y Duw byw;" *Math.* xvi. 13—17. "Pob un a'r sydd yn credu mai Iesu yw y Crist, o Dduw y ganed ef;" 1 *Ioan* v. 1. Felly yr oedd genedigaeth o Dduw yn angenrheidiol i gyffes Pedr; a dywed Crist, "Nid cig a gwaed a ddadguddiodd hyn i ti, ond fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd." Ystyr naturiol y geiriau hyn ydyw, fod gweithrediad personol ar feddwl Pedr. "Myfi a blenais, Apolos a ddyfrhaodd, ond Duw a roddes y cynnydd;" 1 *Cor.* iii. 6, 7. Yn chwanegol at yr amgylchiadau manteisiol o ymresymiad Paul a hyawdledd Apolos, gweithrediad personol Duw oedd yn rhoi cynnydd. "Canys arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr;" 2 *Cor.* x. 4. Yn chwanegol at barotoi yr arfau—gwirioneddau yr efengyl—y mae nerth Duw yn angenrheidiol i'w cymhwyso. "Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hyny, nid o honoch eich hunain: rhodd Duw ydyw;" *Eph.* ii. 8. Y mae lluaws o dystiolaethau cyffelyb.

Ond heb law tystiolaethau o'r natur yma, mae ereill sydd yn cyssylltu preswyliad yr Ysbryd yn y galon â'i waith yn ei chyfnewid. Y mae eu corff yn "deml i'r Ysbryd Glân;" 1 *Cor.* vi. 19. "Preswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd;" *Eph.* ii. 22. "Ar roddi o hono ef i chwi...fod wedi ymgadarnhau mewn nerth, trwy ei Ysbryd ef, yn y dyn oddi mewn;" *Eph.* iii. 16. "Yn ol y nerth sydd yn gweithredu ynom ni;" *adn.* 20. "Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef;" *Phil.* ii. 13. Y mae yr Ysbryd yn preswylio ynddynt er mwyn gweithio ynddynt. Mae pechadur yn cael ei aileni pan y mae yr Ysbryd yn cymmeryd meddiant o'r galon; ac y mae yn preswylio ynddi er mwyn dwyn y gwaith i berffeithrwydd.

Ond yn mysg y rhai sydd yn addef llawn ystyr yr ymadroddion hyn, ac yn priodoli achubiaeth pechadur yn hollol i weithrediad personol a goruchnaturiol Ysbryd Duw, y mae gwahaniaeth barn am wrthddrych uniongyrchol ei ddylanwad—pa un ai y gair, ai y meddwl. Yn y weithred o ddyfod â'r galon i gredu yr efengyl, pa un ai yr enaid sydd yn cael ei ddeffro i deimlo nerth y gwirionedd, ai ynte y gair sydd yn cael ei wneuthur yn nerthol i weithredu ar y meddwl. Os dywedir mai ar y meddwl yn uniongyrchol—yr wrthddadl ydyw, mai y gair ydyw y moddion; "trwy air y gwirionedd." I hyn yr atebir, nad yw y golygiad o weithrediad uniongyrchol yn gwneuthur y gair yn afreidiol, os na osodir ef allan mewn modd sydd yn dangos fod yr Ysbryd yn sancteiddio y pechadur cyn ei ddwyn at y gair. Mae gweithrediad uniongyrchol yn y wedd yna yn agored i rym yr wrthddadl; o herwydd, os ydyw yr Ysbryd yn rhoi archwaeth sanctaidd, neu duedd flaenorol at Dduw a'i air, heb y gair, ac mewn trefn i ddwyn pechadur ato, gellir yn briodol gofyn, Gan fod y peth anhawddaf wedi ei wneuthur heb y gair—sef dechreu bywyd sanctaidd—pa ham nad ellir ei orphen heb y gair? Y mae yr Ysgrythyrau yn priodoli sancteiddiad pechadur i'r gair: onid yw, gan hyny, yn annhebygol, nad oes a wnelo y gair â'r peth pwysicaf yn ei sancteiddiad, sef dechreuad y duedd neu yr anian sanctaidd? Y mae dull Andrew Fuller, Dr. Williams, Dr. Payne, a llawer ereill, yn gosod allan weithrediad uniongyrchol yn agored i'r wrthddadl uchod. Ac heb law hyny, fel y sylwa Dr. Payne, y mae Fuller a Williams yn cyfyngu y gair *ailenedigaeth* at weithrediad uniongyrchol yr Ysbryd, ac felly yn rhoi yr enw ar yr hyn nad yw y Beibl yn ei alw felly; tra na ddefnyddiant y gair am ddylanwad y gwirionedd a'r Ysbryd ar y meddwl: ac felly gwadant mai ystyr priodol y gair ydyw yr hyn a eilw y Beibl yn *ailenedigaeth*. Y mae Dr. Anderson o Glasgow yn gosod allan weithrediad uniongyrchol yr Ysbryd yn y fath fodd ag i osgoi yr wrthddadl uchod, neu o'r hyn lleiaf yn ymdrechu gwneyd felly. Dywed mai effaith y gweithrediad hwn yw, nid rhoi archwaeth sanctaidd, ond dwyn y meddwl at y gwirionedd, er gwaethaf rhagfarn, gelyniaeth, a balchder y galon; ac ar ol i'r gair gael ei dderbyn i'r galon, y mae yn diwreiddio y rhagfarn, yn lladd y gelyniaeth, ac yn darostwng y balchder. Trwy y golygiad yma, cedwir llawn ystyr ymadroddion yr Ysgrythyr:—"Yr ennillodd efe nyni trwy air y gwirionedd;" "Wedi eich aileni, nid o had llygredig, eithr anllygredig, trwy air Duw;"—heb fychanu dim ar waith yr Ysbryd. Trwy hyn fe gedwir ei le priodol i'r gair fel moddion iachawdwriaeth, a chyfrifoldeb dynion i'w dderbyn. Y mae hyn yn dangos fod y gair mor angenrheidiol fel moddion ag ydyw yr Ysbryd fel gweithredydd. Yr Ysbryd sydd yn agor y galon i dderbyn y gair; a'r gair yn y galon ydyw yr hâd anllygredig sydd yn byw ac yn

Digitized by Google

parhau yn dragywydd. Y gair, wedi ei ddeall a'i gredu, ydyw yr egwyddor fywiol weithgar sydd yn cynnyrchu sancteiddrwydd a dedwyddwch. Yn ol y golygiad yma, y mae ffydd yn angenrheidiol i duedd, neu archwaeth, neu anian sanctaidd; ond yn ol y syniad blaenorol, y mae yr anian neu y duedd yn angenrheidiol mewn trefn i gredu. Ond os gofynir eto, Pa beth ydyw natur y gweithrediad uniongyrchol hwn? Nid oes dim i'w ddywedyd ond ei fod yn ddirgelwch. Pe dywedem mai gweithred greadigol ydyw, ni byddai yn anghysson âg ymadroddion y Beibl.

Am y golygiad arall, fod yr Ysbryd yn gweithio, nid yn uniongyrchol, ond trwy y gair, gofynir— Pa ddrychfeddwl a gyssylltir â'r ymadroddion hyn? Os dywedir ei fod yn rhoi goleu ar y gair, nis geilir meddwl ei fod yn chwanegu at ei wirioneddau; nid yw yn rhoi dim newydd ato; nid oes eisieu ychwaith rhoi dim goleu newydd ynddo— "Mae cyfraith yr Arglwydd yn berffaith, yn troi yr enaid." Ond y mae y meddwl yn dywyll; ac y mae yr Ysbryd yn "goleuo llygaid y meddwl;" *Eph.* i. 18. Os dywedir fod yr Arglwydd yn rhoddi nerth gyda'r gwirionedd, a oes rhyw ystyr i hyn, heb law fod yr Arglwydd yn gweithio yn nerthol i ddwyn pechadur i gredu? Cymherir yr efengyl i bethau y mae eisieu rhoi nerth gyda hwynt i fod yn effeithiol; megys gordd, a chleddyf: ac yn unol â'r gymhariaeth, gellir dywedyd fod yr Ysbryd yn rhoi nerth gyda'r gair, neu yn gweithio trwy y gair; ond mewn ymchwiliad i drefn gweithrediadau yr Ysbryd a'r gair, y mae eisieu cofio mai ymadroddion cymhariaethol ydynt.

Pa olwg bynag a gymmerir ar y cwestiwn hwn, y mae yma ddirgelwch: ond y mae yn bosibl i un ffordd o'i osod allan fod yn fwy cysson â'r holl ffeithiau perthynol, ac yn fwy dealladwy hyd at y dirgelwch na'r llall. Y mae amddiffynwyr y ddau olygiad yn dal mai y gwirionedd, wedi ei ddeall a'i gredu, ydyw y moddion offerynol; ac mai yr Ysbryd yn gweithredu yn unol â'r gair ar y galon, ydyw yr achos effeithiol. Pa fodd y mae yr Ysbryd yn gweithredu trwy y gair neu y gwirionedd?—sydd ymofyniad cyffelyb i, Pa fodd y mae gallu creadigol Duw yn gweithredu mewn undeb â dylanwadau naturiol—gwres, a lleithder, &c.—i roddi bywyd yn yr hedyn llysieuol? Defnyddia Dr. Owen, ac ereill, y gair *anianyddol*, neu *naturiol*, i osod allan natur dylanwad yr Ysbryd. Y mae gwahanol ystyriaethau i'r gair hwn, sydd yn peri ei fod yn agored i gael ei gamddeall. Yr oedd y gair *moesol* yn cael ei ddefnyddio yn flaenorol, i nodi allan ddylanwad y gwirionedd; ac er mwyn dangos fod yr Ysbryd yn gweithredu yn effeithiol ar y meddwl i dderbyn y gwirionedd, defnyddient y gair *anianyddol*. Ond wrth olrhain y geiriau hyn i geisio esbonio dull gweithrediadau yr Ysbryd, yr ydym yn myned allan o'n terfynau. Efallai nad ydyw ei weithrediadau achubol yn cyfateb yn hollol i'r hyn a ddeallwn ni wrth ddefnyddio y naill neu y llall o'r geiriau hyn. Y maent hwy yn cynnwys y syniadau sydd genym ni am bethau o'r fath; ond nid yw yn anmhosibl fod gweithrediadau yr Ysbryd yn wahanol i ddim a allwn ni ffurfio barn am dano. Y cwbl a wyddom ydyw, yr effeithiau a welwn mewn ereill neu a brofwn ynom ein hunain. Gwyddom, pan ailenir, neu pan ddychwelir pechadur, fod Ysbryd Duw wedi bod yn gweithredu, a bod y gair wedi bod yn gweithredu. Gwyddom am ddylanwad y gair—ei fod ar y deall yn gyntaf, ac ar y cyneddfau ereill trwy y deall. Ond am natur dylanwad uniongyrchol Duw, nis gwyddom mwy nag a wyddom pa fodd y dechreuir bywyd naturiol, neu y dygir yn mlaen weithrediadau dirgelaidd natur. Ond yn hyn y mae doethineb; o herwydd nid *dull* ond *natur* a *moddion* gweithrediad yr Ysbryd sydd o bwysigrwydd ymarferol. Y mae yr hyn sydd angenrheidiol i'n goleuo am natur ac effeithiau bywyd ysbrydol, ac hefyd am y moddion, i'w gael yn ddigon eglur.

Y mae o'r pwys ymarferol mwyaf i gofio nad yw yr athrawiaeth o ailenedigaeth pechadur gan yr Ysbryd Glân ddim yn anghysson, yn gyntaf, â gweithrediad rhydd a gwirfoddol ei natur ei hun; ac nis gall unrhyw syniadau am y gwaith hwn, sydd yn anghysson â natur dyn, fod yn gywir. Nis gallwn ddychymygu ond am ddwy ffordd i effeithio y cyfnewidiad grasol hwn, heb orthrechu neu dreisio y rhyddid y mae dyn yn deimlo sydd yn angenrheidiol i'w gyfrifoldeb:— naill ai trwy berswadiad, neu ddylanwad moesol, mewn ffordd o gyflwyno ystyriaethau i'w sylw; neu ynte, nid yn wrthwynebol i berswadiad moesol, nac hebddo, ond eto trwy weithredu ar ei duedd, neu "ysbryd ei feddwl," fel y mae yn dyfod yn wirfoddol i ymostwng i'r efengyl. O'r ddwy ffordd yma, nis gall y gyntaf fod yn anghysson â rhyddid dyn, ond y mae yn annigonol; o herwydd nid yw moddion allanol o'r math perffeithiaf yn gwneyd dim mwy na chynnyg gwirioneddau i ddyn i'w credu neu i'w hanghredu, i'w derbyn neu i'w gwrthod: a diffyg y moddion hyn sydd yn gwneyd fod Gweithredydd Dwyfol yn angenrheidiol.

Ond a ydyw yn bosibl i Ysbryd Duw weithredu ar ysbryd dyn mewn undeb â'r gwirionedd, yn y fath fodd ag i fyned dan wraidd ei anewyllysgarwch, heb ddinystrio ei ewyllys trwy ei gorfodi? Byddai dywedyd nad allai, yr un peth a dyweyd fod achubiaeth dyn yn anmhosibl. Ond y mae yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu fod hyn yn bosibl, trwy ddywedyd ei fod yn cael ei gyflawnu. Y mae dyn, wrth gael ei aileni, yn cael ei ddwyn i wneuthur yr hyn oedd yn naturiol iddo yn ol ei greadigaeth wreiddiol; sef i gredu yr hyn sydd wir, i garu yr hyn sydd yn uniawn, i ddewis yr hyn sydd dda, ac i ymofyn am ei hapusrwydd mewn purdeb. Nis gall yr hyn a'i dwg ef i wneyd hyn fod yn drais ar ei natur. Dygodd pechod ef i gaethiwed; y mae gras yn ei ddwyn i ryddid. Mewn cyssylltiad â hyn, mae y cwestiwn wedi ei ofyn, A ydyw gwaith Ysbryd Duw yn aileni yn wrthwynebadwy (*resistible*), ynte yn anwrthwynebadwy (*irresistible*)? Mae rhai wedi ateb y cwestiwn, trwy ddywedyd fod gras anwrthwynebadwy yn anghysson â rhyddid dyn: ac heb law hyny, dywedir yn yr Ysgrythyrau fod dynion yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân. I hyn yr addefir, pan y cyfeirir cymhelliadau, rhesymau, a gwirioneddau at feddwl dyn, y gellir eu gwrthwynebu; a pha beth bynag a wna yr Ysbryd Glân, mewn ffordd o addysgu, a gorchymyn, a chymhell, trwy yr efengyl, fod dynion yn ei wrthwynebu, a thrwy hyny yn mwynhau eu pechod. Ond pan y mae yr Ysbryd yn aileni ac yn dychwelyd, y mae yn gweithio islaw i'r syniadau anianol, a'r meddyliau gelynol, o ba rai y mae y gwrthwynebiad yn codi. Y mae yn symmud ymaith yr achos o'r gwrthwynebiad. Mae gwahanol farnau mewn perthynas i briodoldeb y geiriau hyn—gwrthwynebadwy ac anwrthwynebadwy. "Y cwestiwn mewn dadl," medd Jonathan Edwards, "yw, Pa beth sydd yn penderfynu dychweliad dyn? A mwy priodol ydyw



Digitized by Google

gofyn, A ydyw gras Duw yn ras penderfynol (*determining*) neu effeithiol? na gofyn, A ydyw yn anwrthwynebadwy." Defnyddia Wesley y gair *anwrthwynebadwy* i ddynodi gras cadwedigol yr Ysbryd Glân. "Ymddengys hefyd fod Duw yn gweithio yn anwrthwynebadwy yn ein dychweliad."—*Wesley's Works;* 1839, cyf. 10.

Y mae hyn yn arwain i sylw arall,—Nad ydyw gwaith yr Ysbryd Glân, yn ailenedigaeth pechadur, yn anghysson â chyfrifoldeb dyn. Ymddengys hyn, wrth ystyried mai nid y gwaith hwn sydd yn creu—yn rhoi bod, i'w gyfrifoldeb. Nid rhaid ond appelio at brofiad a chydwybod dyn i gael ei gydsyniad ei fod yn gyfrifol am ei sefyllfa bechadurus—yr hyn sydd yn gwneuthur gwaith yr Ysbryd yn angenrheidiol. Y mae cydwybod dyn yn cadarnhau tystiolaeth yr Ysgrythyrau am ei wrthodiad o Dduw. Mae pob dyn yn gyfrifol am y cyflwr y mae ynddo cyn profi gwaith achubol gras. Ac mor bell ydyw gwaith yr Ysbryd oddi wrth fod yn sail i gyfrifoldeb dyn, fel mai ei gyfrifoldeb fel pechadur sydd yn gwneyd gwaith yr Ysbryd yn angenrheidiol. Mae yr un gwirionedd i'w weled wrth ystyried, hefyd, fod cydwybod dyn yn dwyn tystiolaeth i'w gyfrifoldeb am ddefnyddiad parchus, difrifol, cysson, a chydwybodol, o'r moddion trwy ba rai y mae yr Ysbryd yn gweithio.

Ond nid yn unig, y mae dyn yn gyfrifol cyn cael yr Ysbryd, ond y mae yn parhau yn gyfrifol ar ol ei dderbyn. Mae yn teimlo mai *efe* sydd yn pechu, ac yn ymhyfrydu ynddo, cyn troi at yr Arglwydd; teimla hefyd mai *efe* sydd yn edifarhau ac yn credu yr efengyl, wrth droi ato. Felly, nid ydyw y gwirionedd, fod cadwedigaeth dyn yn hollol o Dduw, yn anghysson â theimlad yn nghydwybod dyn fod ei ddinystr yn hollol o hono ei hun, a'i fod ef ei hun yn gyfrifol am hyny.

Gellir myned yn mhellach, a dywedyd, nid yn unig nid oes anghyssondeb rhyngddynt, ond y maent yn cadarnhau ac yn egluro eu gilydd. Heb y Beibl, ac heb yr Ysbryd, y mae dyn yn gyfrifol; ond y mae athrawiaeth y Beibl, a'r addewidion am yr Ysbryd, yn cymmeryd yn ganiataol y ffaith a'r teimlad o gyfrifoldeb. Heb hyn, ni byddai addewidion y gwirionedd o un gwerth i ddyn—ni byddai arno angen am danynt. Ac wedi eu derbyn i'w brofiad, y maent yn bywiogi y teimlad mai un i roddi cyfrif ydyw.

Wrth ddysgu y gwirionedd hwn, y perygl mwyaf ydyw peidio rhoi ei le priodol i ewyllys grasol Duw, ac hefyd i ewyllys cyfrifol dyn. Y mae dibyniad a chyfrifoldeb dyn yn mhob cyflwr —creadigol, cwympedig, ac adferedig—yn ddirgelwch. Y mae cydhanfodiad creadur cyfrifol a Chreawdwr anfeidrol yn beth nas gall dyn ei amgyffred. Ond y mae pechod wedi taflu tywyllwch chwanegol ar yr hyn oedd o'r blaen yn ddirgelwch. Y mae creadigaeth yn ddirgelwch: nis gallwn amgyffred pa fodd y mae dim yn *dechreu* bod; ond nis gallwn ammheu na bu dechreuad i bob peth, ond i'r Achos Cyntaf o bob peth. Y mae gwyrthiau yn ddirgelwch: mae ystyriaethau oddi wrth gyssondeb rhagluniaeth, ac anghyfnewidioldeb y deddfau sydd yn llywodraethu y byd, yn gwneyd eu bod yn annhebygol cyn iddynt gymmeryd lle; ond ar dystiolaeth ddigonol, nis gallwn ammheu eu cyflawniad. Y mae seiliau crediniaeth yn meddwl dyn yn ddirgelwch: nid oes ganddo ond dywedyd mai felly *y mae*, heb fedru dyweyd *pa fodd* y mae. Felly am y cyfnewidiad mawr dan sylw—"Pethau Duw, nid edwyn neb ond Ysbryd Duw." "Mae y gwynt yn chwythu lle y myno, a thi a glywi ei sŵn ef; ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod nac i ba le y mae yn myned: felly y mae pob un a'r a aned o'r Ysbryd." Dylid ymdrechu cadw y teimlad o gyfrifoldeb yn fyw trwy ei gyfarch, a dangos mai yr eglurhâd ymarferol ar bob dirgelwch cyffelyb ydyw—"Yr hwn sydd yn ewyllysio gwneuthur ewyllys Duw a gain wybod am y ddysgeidiaeth."

AIL-ENNYN, [*ail—ennyn*]: ennyn drachefn, ail-gynneu. "Yr ydwyf yn dy goffäu, i ail-ennyn dawn Duw, yr hwn sydd ynot;" 2 *Tim.* i. 6. Mae y ffugr yma yn eglur wedi ei fenthycio oddi wrth gynhyrfu tân pan fyddo yn mron diffoddi; a thybia rhai, fod yma gyfeiriad at y rhan hono o waith yr offeiriaid, sef trin y *lampau* yn y deml, a'u porthi âg olew, mewn trefn i'w cadw i losgi yn wastadol. Ereill a dybiant, fod y cyfeiriad at y ffurf o "dafodau gwahanedig, megys o dân," yn mha un y disgynodd yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost; *Act.* ii. 3. Mynych y mae duwioldeb yn cael ei gymharu i dân neu fflam; ac y mae grasau a rhinweddau gwir grefydd i'w cadw yn wresog a llewyrchus yn yr enaid, drwy eu maethu yn ddyfal, a'u dwyn i ymarferiad.

AIL-FEDYDDWYR [*Anabaptists*]. Y gair *Ail-fedyddwyr*, sydd drosglwyddiad i'r Gymraeg o'r gair *Anabaptists*:—y rhan gyntaf o hono yn gyfieithiad, a'r rhan arall yn Roeg, gyda therfyniad Cymraeg; "Canys nid yw y gair *bedyddio*, neu *batyddio* (fel yr arferai William Salesbury ef), amgen na'r gair *baptizo*," meddai yr enwog Tegid.

Nid ydyw hwn wedi bod yn enw arddeledig gan un dosbarth nac enwad o grefyddwyr erioed: ond yn enw a roddwyd gan eu gwrthwynebwyr ar y rhanau hyny o Gristionogion a ddalient fod dysg a phroffes yn ofynol cyn bedydd. Gan eu bod o'r farn hyny am dderbyniad aelodau trwy fedydd i eglwys Dduw, yr oeddynt yn ystyried bedydd, cyn dysg a phroffes, yn beth ofer; gan hyny, yn bedyddio, ar ol cael proffes, y rhai a fedyddiasid gan ereill o farn wahanol yn eu mabandod. Fel hyny, ystyrid hwy gan eu gwrthwynebwyr (a hyny yn briodol wrth ystyried eu barn hwy) yn *ail-fedyddio;* tra nad oeddynt, yn ol eu barn eu hunain, ond yn gweinyddu y bedydd Cristionogol yn gywir am y waith gyntaf.

Mae amryw awdwyr yn priodoli dechreuad yr enw hwn i dymmor terfysgwyr yr Almaen, o 1520 hyd 1536. Ac hefyd yn ei gyfyngu i gryn fesur gan ddyweyd mai "y rhai hyny yn benaf sydd i'w golygu wrtho."

Os ydyw y cyfyngiad hwn yn ymgodi oddi ar barch i'r Bedyddwyr presennol, diau y dylai yr enwad parchus hwn gydnabod yr ewyllys da a ddangosir; ond gormod o aberth yw cuddio gwirionedd er mwyn unrhyw amcan; a diau fod seiliau i gredu fod yr enw hwn mewn arferiad mor fore a'r drydedd ganrif. Rhoddwyd ef ar y Gothiaid, y Novatiaid, ac ereill, y pryd hyny, am eu bod yn bedyddio y rhai a fedyddiasid o'r blaen gan yr Eglwys Babaidd. Cymhwyswyd ef ar ol hyny at y Donatiaid, yr Albigensiaid, y Waldensiaid, &c., yn y canrifoedd dilynol; ac o hyny hyd yn awr, at y rhai hyny a wrthodent addef cywirdeb y bedydd cyn cael proffes. Gan hyny, nid ydyw yn briodol i ni ar hyn o bryd fanylu ar hanes yr Ellmyniaid: deuant dan sylw yn eu lle priodol. Gwel BEDYDDWYR.—(*Penny Cyc.; Pop. Cyc.*)

Digitized by Google

**AILL**, [*all*]: arall; *ll.* eillion. *Mab aill*,—un a fabwysiadwyd. "Eithr os heb gospedigaeth yddych...gan hyny, meibion aill ydych [ymyl y ddalen,—o ordderch, llwyn a pherth, bastardieit], ac nid meibion o *briod*;" *Heb.* xii. 8.—W. S.


**AIN**, [עין]. Un o ddinasoedd Simeon, oedd o fewn tiriogaethau llwythau Iudah: *Ios.* xix. 17; 1 *Cron.* iv. 32. Mae y gair Hebraeg yn arwyddo *ffynnon;* a'r unrhyw yw ei arwyddocad yn yr Arabaeg, y Syriaeg, a'r Ethiopaeg. *En* a arferir am dano yn gyffredin yn y cyfieithiadau Seisonig a Chymreig, mewn cyssylltiad âg enwau lleoedd, yn agos i ba rai y byddai ffynnonau nodedig; megys, *Engedi*, ffynnon y mynnod; *Engannim*, ffynnon y gerddi; *Endor*, ffynnon y ty; *Enhadah*, y ffynnon gyflym; *Enmispat*, ffynnon barn; *Eneglaim*, ffynnon y lloi; *Ensemes*, ffynnon yr haul; *Enrogel*, ffynnon y troed; &c.

**AINON**, [*Αινον*, *ffynnon*]. Enw lle yn agos i Salim, lle yr oedd Ioan yn bedyddio; *Ioan* iii. 33. Dywed Jerome ei bod wyth o filltiroedd Rhufeinig i'r deheu o Scythopolis, yn agos i Salim a'r Iorddonen. Eusebius hefyd a ddywed ei bod wyth milltir i'r deheu o Scythopolis, neu Bethsan, a 53 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Ierusalem. Y rheswm a roddir am waith Ioan yn dewis y lle hwn i fedyddio ynddo ydyw, "Canys dyfroedd lawer oedd yno." Yr oedd dwfr yn brin mewn llawer parth o'r wlad hono, yn enwedig yn y fro fynyddig, yn agos i'r lle y pregethai Ioan; a chan fod y son mawr oedd am dano trwy yr holl wlad yn peri i dorfeydd mawrion gyrchu i'w wrandaw, yr oedd yn rhesymol iddo ddewis lle dyfradwy gan ffynnonau a ffrydiau, er cyfarfod âg angenrheidiau y bobl a'u camelod, yn gystal ag er hwylusdod i'w bedyddio. Pa un ai trwy drochiad neu daenelliad y gweinyddai yr ordinhad hon arnynt. Gwel BEDYDD.

**AIPHT**, [מצרים—*Mitzraim;* Gr. *Αἴγυπτος;* Llad. *Ægyptus*]. Yn *Esa.* xix. 6; xxxvii. 25; *Micah* vii. 12; gelwir y wlad hono מצור (*Matzor*): ac yn *Salm* lxxviii. 51; a cv. 23; gelwir hi ארץ חם (*Eretz Ham*), sef gwlad Ham, yr hwn ydoedd un o feibion Noah; neu Cham, yn ol y cyfieithiad Cymraeg. Ac yn *Esa.* xxx. 7; li. 9; *Salm.* lxxxvii. 4; gelwir yr unrhyw wlad, רהב (*Rahab*). Ymddengys fod yr enw *Mitzraim*—y mwyaf cyffredin yn yr Ysgrythyrau Hebreig—wedi tarddu oddi wrth ail fab Cham (*Gen.* x. 6). Y mae yn amlwg fod yr enw Seisoneg, *Egypt*, wedi ei gymmeryd oddi wrth y Groeg, *Αἴγυπτος;* am darddiad ac ystyr pa un y mae cryn wahaniaeth barn. Rhai, gan olygu fod y gair yn arwyddo *du*, a dybient fod y wlad yn cael ei galw felly o herwydd lliw tywyll ei phridd, ei dwfr, a'i thrigolion. Ereill, gan dybio mai at y wlad hon y cyfeiriai y prophwyd Ieremiah (*pen.* xlvii. 4) dan yr enw *Ai Caphtor*, felly ddarfod i ereill dalfyru yr enw hwnw, gan ysgrifenu *Ai-Capht*, neu *Ai-Copht;* yr hyn sydd yn dyfod yn lled debyg i swn yr enw Cymraeg, *Aipht*. Ond addefir fod yn rhy anhawdd penderfynu y pethau hyn gyda nemawr sicrwydd.

Y mae yr Aipht yn gorwedd yn y bedwaran bono o'r byd a elwir Affrica, rhwng y graddau 23° 40′ a 31° 28′ o ledred gogleddol, a rhwng 30° a 24° 36′ o hydred dwyreiniol. Ei hyd a ystyrir yn nghylch 530 o filltiroedd; a'i lled mwyaf, o Pelusium i Alexandria, yn nghylch 250. Amgylchynir hi o du y dwyrain gan Palestina, Idumea, Arabia Petræa, a'r Llynclyn Arabaidd: o du y gorllewin gan dywod-diroedd eang anialwch Libya. Ond y mae y rhan gyfanneddol o'r Aipht yn cael ei chyfyngu o fewn dyffryn yr afon Nilus, yr hon sydd yn rhedeg o ddeheu i ogledd, drwy ganol yr holl wlad; a'r dyffryn o bob tu iddi nid yw yn gyffredin oddi ar o ddwy filltir i dair o led. Yn lledred 30° 15′, y mae yr afon yn ymranu yn ddwy brif ffrwd; y rhai, yn gyferbyniol i ffrwd arall yn tarddu ryw ychydig yn uwch i fyny, a ffurfiant y dalaeth deironglog, yr hon o'r herwydd a elwid y *Delta*, o ran ei thebygrwydd i lun y llythyren Roeg Δ. Wrth gongl uchaf y Delta y mae y wlad yn ymranu yn naturiol i ddau brif ddosbarth; y dalaeth o'r tu deheuol i'r gongl hono a elwir yr Aipht Uchaf, a'r un o'r tu gogleddol, yr Aipht Isaf. Am rifedi trigolion y wlad nid oes nemawr sicrwydd. Yn yr oesoedd boreuol, dywedir ei bod yn cynnal 8,000,000 o bobl. Yn nyddiau Diodurus Siculus ystyrid hwynt yn nghylch 3,000,000. Y mae y llywodraeth bresennol yn eu cyfrif yn 3,200,000; ond bernir fod y rhifedi hwn braidd yn rhy helaeth.

Nid negroaid oedd yr Aiphtiaid na'r Ethiopiaid, ond cangen oeddynt o deulu y Caucasiaid. Eu lliw oedd yn felynddu—yn enwedig lliw y graddau uchaf. Yr oeddynt yn gryfion iawn er eu bod yn eiddil. Eu hiaith sydd yn awr i'w chael yn y Goptaeg—perthynas agos i'r tafodieithoedd Shemitig.




DAR. 13. 1. AIPHTWR-ETHIOPAIDD. 2, 4. ETHIOP. 3. AIPHTWR.

Oddi ar amrywiol ystyriaethau, yr ydys yn gyffredin yn golygu yr Aipht fel y debycaf o holl wledydd y ddaiar i ennill sylw dysgedigion, hanesiaethwyr, a philosophyddion. Cyfrifir hi yn wastad fel y feithrinfa gyntaf o ba un yr ymdaenodd gwybodaeth o'r celfyddydau, a threfn llywodraeth wladol yn mysg yr holl amrywiol lwythau; y rhai, yn yr oesoedd dilynol, a ymsefydlasant yn y gwahanol diriogaethau o'r tu gorllewinol i'r Môr Du ac anialwch Syria; ac felly y mae hyd yn oed y rhai mwyaf diwylliedig a diweddaraf o genedloedd Ewrop yn arferol o briodoli egwyddorion cyntaf eu dysgeidiaeth a'u celfyddydau i'r bobl athrylithgar y rhai a breswylient ar lanau yr afon Nilus, mewn rhyw oesoedd boreuach nag y goffeir ar ddalenau hanesiaeth gyffredinol. Yn wir, yr oedd gwlad y

Digitized by Google

breninoedd Pharaohaidd yn hen wladwriaeth, tra nad oedd Groeg eto ond yn ei babandod. Yr oedd awduron boreuaf Ewrop wedi darlunio yr Aipht megys eisoes wedi cyrhaeddyd uchder eithaf ei gorwychder, ac hyd yn oed yn dechreu adfeilio, cyn i philosophyddion a haneswyr groesi Môr y Canoldir i chwilio am wybodaeth; y rhai, erbyn eu myned yno, a lenwid â syndod wrth weled y fath brofion o hynafiaeth a chelfyddydaeth tu hwnt i ddim a glywsent neu a ddychymygasent: ac wrth ganfod y fath arwyddion o ddoethineb, cywreinrwydd, a chyfoethogrwydd, prin y gallent ddysgwyl y byddai i'w cydwladwyr goelio yr hyn a adroddent pan ddychwelent adref. Yn nyddiau Homer, yr oedd prif ddinas Thebes, â'i chant o byrth, a'i phreswylwyr aneirif, yn ddefnydd rhyfeddod ac aruthredd, fel y buasid yn debygol o gyhuddo yr hen fardd hwnw o arferyd gormodiaith anfaddeuol, oni bai fod y gweddillion o'r ddinas sydd eto yn aros, ar ol gwrthsefyll niweidiau yr hinsawdd ac anwareidddra barbariaeth am ysbaid tair mil o flyneddoedd, yn dwyn tystiolaeth amlwg o orwychder hyd yn oed tu hwnt i'r hyn oll a gofieir yn *Odyssey* Homer. Tra yr oedd y cenedloedd sydd yn awr yn gwneyd mwyaf o gynhwrf yn y byd, ac yn peri y dylanwad dwysaf ar y natur ddynol, heb gyrhaeddyd eto drwy yrfa gyntaf bywyd cymdeithasol, yr oedd trigolion Thebes a Memphis wedi cyrhaedd i radd dra helaeth o wareiddiad; ac nid hyny yn unig, eithr hefyd yn dangos awyddfryd ymdrechgar am ddeall cyfansoddiad y greadigaeth, a'r deddfau sydd yn rheoli ysgogiadau y cyrff wybrenol. Ac nid chwaith am eu coeth-ysgoleigdod a'u dammeg-ddysg yr oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn ddyledus i'r Aiphtiaid; eithr, wrth olrhain, y mae yn hawdd canfod mai o'r un ffynonell y tarddodd y celfyddydau gwerthfawrocaf a fuont mewn ymarferiad, nid yn unig yn mysg y ddwy genedl grybwylledig, ond hefyd a goleddwyd gan y doethion clodforusaf yn holl Ewrop. Ymostyngodd Pythagoras i astudio elfenau celfyddydau rhif a mesur (*mathematics*) yn ysgolion offeiriaid yr Aipht; a hefyd Hecatæus a Herodotus a gasglasant ddefnyddiau eu hanesion yn mhlith yr unrhyw athrawon, y rhai oeddynt wedi cadw coffadwriaethau o wybodaeth oesoedd blaenorol yn ofalus.

Addefir yn fynych mai y Groegiaid oedd yr unig genedl yn Ewrop a allai hòni gwybodaeth mewn hynafiaethau; eto, y rhai doethaf, hyd yn oed yn mysg y bobl uchelfrydig hyny, a ystyrient eu hunain ond megys er doe mewn cymhariaeth i'r Aiphtiaid. Byddai Plato yn cyffesu nad oedd ei gydwladwyr ef yn meddu dim coffadwriaethau o ddygwyddiadau dros fil, neu o'r hyn mwyaf ddwy fil, o flyneddoedd cyn ei amser ef; tra yr oedd doethineb yr Aipht yn amser Moses wedi myned yn ddiarebol hyd yn oed yn mysg cangen-lwythau Syria, y rhai oeddynt yn cyffinio ar eisteddleoedd cyssefin gwybodaeth y cynfyd. Gan yr ymddengys mai Phenice a roddes yr esampl gyntaf o ymdrafod masnachol i drefedigaethau anwar tueddau gogleddol y Môr Mawr, felly bernir mai hi a fu y cyfrwng drwy yr hon y trosglwyddwyd dysgeidiaeth, cyfreithiau, a chrefydd yr Aipht i hynafiaid y cenedloedd dewrion a chelfyddgar, y rhai a ennillasant y fath enwogrwydd didranc i Athen a Lacedæmonia.

Dosrenir hanesiaeth yr Aipht i bump o gyfnodau:—

I. Y cyfnod Pharaohaidd, neu yr Aipht dan ei llywodraethwyr ei hun. Mae ei ddechreuad yn anadnabyddus: dybena yn narostyngiad y wlad gan Cambyses, C. C. 525.

II. Y cyfnod Persiaidd:—o C. C. 525, i oresgyniad y wlad gan y Macedoniaid, C. C. 332.

III. Y cyfnod Macedonaidd neu Roegaidd. Cyfrifir hwn o sylfaeniad Alexandria, yn C. C. 332; neu o'r flwyddyn 323, pryd y gwnaed yr Aipht, yn lle bod yn *satrapy*, neu dywysogaeth ddibynol, yn deyrnas annibynol, gan Ptolemy, mab Lagus. Cyrhaedda y cyfnod hwn hyd at farwolaeth Cleopatra, C. C. 30.

IV. Y cyfnod Rhufeinig—o ymostyngiad Alexandria i Augustus, C. C. 30, i gymeriad y ddinas gan Khalif Omar, yn B. A. 640.

V. Y cyfnod Mahometaidd—o'r flwyddyn 640 hyd yn bresennol.

Mae yn ddiammheuol y byddai cofnodau hanesiol o helyntion yr Aipht yn ei hoesoedd boreuol yn ddifyrus iawn i'n darllenwyr, ar amrywiol olygiadau; eto, y berthynas rhyngddi a'r tylwyth a ddewisai yr Arglwydd i fod yn bobl iddo ei hun, i ba rai y bu yr unrhyw wlad yn gyntaf yn fammaeth garedig, ond wedi hyny yn orthrymes greulawn. Ar yr ystyriaethau hyn yn arbenig y mae sylw y Cristion yn cael ei arwain ati. Yr Aipht oedd yr ysgol y dygwyd pobl yr Arglwydd i fyny ynddi yn eu hieuenctid; ac er bod y ddysgyblaeth yn llem ac yn erwin, eto drwy ei bod o gyfaddasiad dwyfol, ac felly o ddifeth ddoethineb, nis gallai lai nag ateb y dyben, tra ar yr un pryd yr oedd yn cael ei thymmeru â thrugaredd wyliadwrus. "Pan oedd Israel yn fachgen, mi a'i cerais ef;" *Hos.* xi. 1.

Pan yn gyntaf yr ymfudodd plant yr Israel i'r Aipht, yr oedd y wlad hono wedi hir fwynhau bendithion llywodraeth sefydledig; yr hyn hefyd a barhaodd i'w mwynhau tra y bu dan awdurdod drawsfeddiannol y llinach o reolwyr a elwid "y breninoedd bugeiliol:" y rhai a fuont ymdrechgar i ffurfio, diwygio, a gweinyddu y cyfreithiau rhagorol hyny; y rhai, mae yn debygol, oedd wedi bod yn arferedig mewn rhyw ddull yn yr Aipht er pan yn gyntaf y sefydlasid hi fel teyrnas unbenawl—cyfreithiau y canmolwyd eu doethineb gymmaint gan awdwyr Groegaidd lawer o oesoedd ar ol hyny. Ac yn chwanegol at hyn, yr oedd yr Aiphtiaid yn hiliogaeth ryfelgar hefyd, ac yn llwyr abl i amddiffyn eu cyffiniau eu hunain. Ac fel hyn, gan fod y wlad, drwy ragoroldeb ei chyfreithiau, yn ddiberygl oddi wrth derfysgoedd tufewnol; a thrwy ei sefyllfa, a dewrder milwrol ei thrigolion, yn ddiarswyd oddi wrth odid ymgyrch goresgynol oddi allan; felly y mae hanesiaeth yn dangos fod yr Aipht yn mwynhau llawer ysbaid hir o dawelwch a llwyddiant rhagorhaiach un deyrnas gynoesawl arall. Yr effaith lesol o hyn oedd, ei bod, hyd yn oed yn y dyddiau boreuol hyny, yn cynnyddu yn gyflym mewn pob celfyddyd fuddiol ac addurniadol; yr hyn a'i gwnaeth yn brif feithrinfa gwareiddiad dynolryw yn y cynoesoedd.

Cyfanneddodd yr Israeliaid yn nghanol y bobl dra diwylliedig a gweithgar hyn am yn agos i ddau cant a hanner o flyneddoedd; ar y cyntaf fel ymdeithyddion, ac ar ol hyny fel caethion: ac yno, fel yr ymddengys, yr ennillasant wybodaeth a medrusrwydd yn yr amrywiol gelfyddydau a addurnant fywyd cymdeithasol, yr hyn a fu yn barotoad rhagorol tuag at eu galluogi i wneuthur y defnydd helaethaf o adnoddau gwlad eu hetifeddiaeth addawedig. Am y cyfryw gelfyddydau, nis gallent fod yn gwybod braidd ddim o'r blaen,

Digitized by Google

tra yn dilyn bywyd bugeiliol. Hyn, yn ddiammheuol, oedd un o'r dybenion y bwriadodd trugaredd ddwyfol i gaethiwed yr Aipht fod yn otferynol i'w ddwyn oddi amgylch.

Y waith gyntaf y crybwyllwyd am yr Aipht yn yr Ysgrythyrau ydoedd mewn cysylltiad â hanes Abraham (*Gen.* xii). Efe, a'i dylwyth, yn nghyd â'r eiddo Lot ei nai, "â'u holl olud a gasglasent hwy, a'r eneidiau a ennillasent yn Haran," a aethant o'r wlad hono i Wlad Canaan, i "wastadedd Moreh." Ac yn ol amseryddiaeth ein Beiblau ni, yn y flwyddyn c. c. 1921, bu newyn yn y tir hwnw; yr hyn a barodd i Abraham gilio yn ebrwydd o'r wlad a addawsid i'w hiliogaeth. Ac wedi iddo ymdeithio oddi rhwng Bethel a Hai, tua'r deheu, efe yn ganlynol a groesodd anialwch Sur, gan gyfeirio i'r Aipht. Ond nid ydyw yr hanesydd ysbrydoledig wedi rhoddi dim hysbysrwydd i ni pa barth o'r wlad hono a gerddodd Abraham ar y pryd; eto, er byred yr hanes, y mae dau beth yn cael ei sicrhau;—yn un peth, bod yr Aipht yn wlad o arbenigrwydd nid bychan, hyd yn oed y pryd hwnw; peth arall, ddarfod i Abraham ddyfod o hyd i'r brif ddinas, neu gartrefle y brenin, ac felly bod unbenaeth wedi ei sefydlu yn y wlad, a bod y teitl *Pharaoh* yn cael ei roi i'w breninoedd. Buasai yn ddymunol iawn cael gwybod pa frenin, a pha linach, oedd yn teyrnasu ar yr Aipht yn amser ymweliad Abraham; ond nid yw yr hanes sanctaidd yn crybwyll enw priodol un o freninoedd yr Aipht hyd ar ol amser Solomon. Ac y mae amseryddiaeth y wlad yn yr oesoedd boreuol hyny yn orchuddiedig gan lawer o ansicrwydd a chymmysgedd, er cymmaint o oleuni sydd wedi tywynu ar y pethau hyn drwy fod dysgedigion yn dyfod yn fwyfwy medrus i ddeongli yr argraffnodau arwyddluniol (*hieroglyphics*).

Trwy i Abraham, yr hwn ydoedd Galdead, gael mab o Hagar yr Aiphtes, ac iddi hithau drachefn gymmeryd Aiphtes yn wraig i'w mab hwnw, sef Ismael (*Gen.* xxi. 9, 21), felly ei hiliogaeth ef a ffurfiodd genedl o waedoliaeth gymmysg, ac oddi ar y golygiad hwn, fel y tybir, y galwyd hwynt yn Arabiaid (ערב, "pobl gymmysg"), yr hon genedl, mewn amseroedd diweddarach, a ddaeth yn bobl rymus iawn.—[*Sharpe's Early History of Egypt*; td. 11.] Yn *Gen.* xxxix. y ceir dechreuad yr hanes nodedig am gludiad Ioseph i waered i'r Aipht, yn nghyd â'r holl ganlyniadau pwysig a darddodd oddi wrth hyny i orŵyrion Abraham. Ffrwythlondeb y wlad a fu yr annogaeth i hyny, a'r newyn yn Ngwlad Canaan a fu yr achlysur. Ac y mae crybwylliadau amgylchiadol yn dangos hefyd fod yr Aipht y pryd hwnw (tua 1720 c. c.) yn nodedig am ei hanturiaethau masnachol; ac y mae holl rediad yr hanes yn rhoi lle i gasglu fod ansoddau cymdeithasol y trigolion yn dra chydblethedig, a'r wlad dan reolaeth llywodraeth gadarn-ffurf a meistrolgar. Fel y mae yn arferedig mewn llysoedd breninol yn y dwyrain, yn mhob oes, fod dyrchafiad dynion i swyddau uchel yn fynych yn ddygwyddiadau hynod a disymmwth; felly y caethwas Ioseph a gymmerwyd o'r carchar, a thra dan berygl dienyddiad, a ddyrchafwyd i urddas prif lywydd, ac ymddiriedwyd iddo y gofal o ddarparu lluniaeth i'r holl deyrnas, gyferbyn â'r newyn oedd yn nesau, o'r hyn yr oedd ef ei hun wedi rhoddi rhagfynegiad. Gan ei fod erbyn hyn mewn sefyllfa mor gyfrifol, ystyrid ef yn ddigon uchelradd i ymgyfathrachu â'r dosbarth offeiriadol, yr hwn ddosbarth a safai yn dra uchel yn yr Aipht y pryd hwnw; felly mynegir ddarfod iddo gael merch offeiriad On yn wraig. Ac o herwydd y parch a ennillasai, a'r dylanwad mawr oedd ganddo yn y llys, dangoswyd ffafr helaeth i'r Hebreaid. Er hyny, dywed yr hanes ysgrythyrol (*Gen.* xlvi. 34), mai "ffieiddra yr Aiphtiaid oedd pob bugail defaid," cyn i Israel a'i feibion fyned i waered yno: a chan mai trinwyr anifeiliaid oedd yr Hebreaid, diau eu bod yn ddirmygus yn ngolwg yr Aiphtiaid. Ac eto, caniatawyd iddynt yn benodol gael trigo "yn y man goreu yn y wlad;" ac felly cyflewyd hwynt yn nhir Gosen, y parth yn arbenig a ddymunasent; a hyny, yn ddiammheu, o herwydd addasrwydd y tir i feithrin anifeiliaid. Ac ar ol sefydlu ei dad a'i dylwyth yn foddhaol yn y wlad, aeth Ioseph yn mlaen i ddarparu gogyfer âg angenion y genedl newynllyd: ac wrth wneuthur hyny, efe a droes holl diroedd y wlad i fod yn eiddo parhaus i'r brenin; ond bod i'r deiliaid gael pedair rhan o'r cynnyrch, a'r bummed i fyned i Pharaoh bob blwyddyn: yn unig â thir yr offeiriaid ni bu a wnelai Ioseph. Hyn sydd dystiolaeth arall am helaethrwydd ei awdurdod.

Mor fanteisiol, o ran ei frasder, ydoedd tir Gosen, fel y darfu i'r Israeliaid "gynnyddu ac amlhau yn ddirfawr odiaeth, fel y llanwyd y wlad o honynt." Ond wedi rhyw ysbaid, bu farw Ioseph; a chyfododd brenin newydd (ond odid un o linach newydd) yr hwn nid adnabuasai mo Ioseph (*Exod.* i. 8); sef un heb gydnabyddiaeth bersonol âg ef, ac ysgatfydd yn anhysbys o'r gwasanaeth a wnaethai efe. Y brenin hwn, yn eiddigeddus o herwydd cynnydd yr Hebreaid, a gymmerth mewn llaw eu gorthrymu, i'r dyben o leihau eu rhifedi a gwanychu eu grym. I'r perwyl hwn, gosodwyd dogn-feistriaid creulawn arnynt, a dognau trymion o waith iddynt i'w cyflawnu. Gorfodwyd yr Hebreaid i adeiladu i Pharaoh "ddinasoedd trysorau, sef Pithom a Raamses." Er hyn i gyd, canfyddwyd fod eu hamlhad yn cynnyddu. O ba herwydd, trymhawyd eu beichiau, nes gwneyd eu heinioes hwynt yn chwerw drwy y gwasanaeth caled (*Exod.* i. 14) "mewn clai ac mewn priddfaen, ac yn mhob gwasanaeth yn y maes." A pheth oedd greulonach fyth, gorchymynwyd dyfetha y bechgyn a enid iddynt cyn gynted ag y deuent i'r byd. Yr helyntion hyn a arweiniasant i ddygn anghydfod; ennynodd casineb echrydus rhwng y gorthrymwyr a'r gorthrymedig; a'r Israeliaid a chwilient am bob cyfleusdra i ymddial yn ddirgelaidd ac yn ddichellgar (*Exod.* ii. 12). O'r diwedd, daeth awdurdod oddi uchod i athrywyn yn yr achos, a chafodd y genedl gystuddiedig ymadael o'r Aipht. Ymddengys fod y wlad y pryd hwnw yn gyflawn o drigolion, ac mewn triniaeth ragorol, ac ynddi luosogrwydd o ddinasoedd, ond dan lywodraeth penadur träarglwyddiaethol, a'i lys yn amgylchedig gan uchelswyddwyr a gwarchodfilwyr. Yr oedd hefyd ddefodau cyfarchiadol wedi eu sefydlu, a graddoliaeth ddosbarthiadol yn gwahaniaethu y bobl, carchardy breninol, a phrif swyddog. Yr oedd urdd offeiriadol wedi ei neillduo o blith y lleygion, ac y mae yn debygol fod rhai gwŷr o'r urdd hono yn llenwi swyddau gwladwriaethol; canys ymddengys fod offeiriad Midian ac offeiriad On yn llywodraethu dinasoedd o'r un enwau. Yr oedd yr offeiriaid hefyd yn rhanedig i wahanol ddosbarthiadau—doethion, swynyddion, a dewiniaid—pob dosbarth yn gweinyddu yn eu galwedigaeth osodedig; yr oedd meddygon neu bwrargoglwyr y meirw; yr oedd y fyddin freninol yn cynnwys cadbeniaid dewisol, a gwŷr meirch, a

Digitized by Google

cherbydau. Mor ymroddgar oedd y trigolion yn gyffredinol i ddilyn amaethyddiaeth, a'r fath ydoedd eu syniadau am eiddo perchenogol, fel y mynwesent y casineb mwyaf tuag at fugeiliaid anifeiliaid, neu lwythau crwydrol, gan olygu y cyfryw fel ysbeilwyr, nemawr llai peryglus na heidiau o helwyr.

Y teimladau soredig a achlysurwyd drwy ymadawiad yr Israeliaid o'r Aipht a fu yn foddion i gadw y ddwy genedl yn ddyeithrol, os nad yn elynol hefyd, am rai cannoedd o flyneddoedd; sef hyd ddyddiau Dafydd a Solomon, pryd yr ymddengys ddarfod adferu cyfeillach drachefn i ryw raddau rhwng y ddwy wlad (1 *Bren.* iii, vii, ix, xi). Solomon a briododd ferch i ryw Pharaoh, yr hwn a losgasai ddinas Gezer; ac felly yr oedd raid ei fod yn meddu awdurdod ar yr Aipht Isaf. "A meirch a ddygid i Solomon o'r Aipht, ac edafedd llin:" chwe chan sicl o arian ydoedd pris cerbyd, a chant a deugain oedd pris march. Eto, Ieroboam, yr hwn a gyfodasai ei law yn erbyn y brenin Solomon, ac yn ganlynol a wnaed yn frenin y deg llwyth gwrthryfelgar, a gafodd nodded yn yr Aipht, yr hon ar y pryd (tua 975 c. c.) a lywodraethid gan Sisac. Oddi wrth 2 *Cron.* xii, ymddengys ddarfod i'r Sisac hwnw, yn y bummed flwyddyn i Rehoboam, olynwr Solomon, "ddyfod i fyny yn erbyn Ierusalem" â llu mawr iawn, yn gynnwysedig o gerbydau, milwyr, meirch, a gwŷr traed, heb law cynnorthwywyr o genedloedd ereill: ac wedi iddo ennill dinasoedd cedyrn y rhai oedd yn ei ffordd, efe a ddaeth i'r brif ddinas ac a gymmerodd lawer o drysorau o honi. Ac oddi wrth ymadroddion y prophwyd Ioel (*pen.* iii. 19), ymddengys ddarfod i'r Aipht, mewn cysylltiad âg Edom, arfer grym a chreulondeb nodedig tuag at deyrnas Iudah, yn nghylch naw can mlynedd cyn Crist. Pa fodd bynag, darfu cynnydd a gorthrymder yr ymherodraeth Assyriaidd dueddu yr Aiphtiaid a'r Israeliaid yn fuan i fod yn fwy cyfeillgar â'u gilydd er mwyn eu diogelwch cyffredinol. Felly, yn 2 *Bren.* xvii, dywedir ddarfod i Hosea brenin Israel, yn y ddeuddegfed flwyddyn i Ahaz brenin Iudah (730 c. c.) ballu talu y deyrnged arferol i frenin Assyria, gan ffurfio cynghreiriaeth â So, brenin yr Aipht, yr hwn yr oedd yn rhaid ei fod yn benadur galluog iawn cyn y gellid ei dybio yn abl i fod yn gymhorth rhag yr Assyriaid. Ond yn erbyn yr adnodded ddynol hon, gwrthdystiodd y prophwyd Esay (*pen.* xxx) yn egniol iawn, gan ddadgan llwyr aflesoldeb yr unrhyw, ac ymdrechu i arwain ei gydwladwyr i'r ymarferiad o gyfiawnder a duwioldeb, yn gymmaint ag mai trwy eu hesgeulusdod o hyny yr oedd Duw wedi cefnu arnynt. Ond oddi ar yr ymddygiad uchod o eiddo y brenin Hosea, yr Assyriaid a oresgynasant Samaria, ac a gaethgludasant Israel i Assyria (2 *Bren.* xvii. 6). Er hyn i gyd, ymddengys (2 *Bren.* xviii. 21) fod teyrnas Iudah yn nheyrnasiad Hezeciah (726 c. c.) yn parhau i hyderu ar y ffon gorsen hon, sef yr Aipht, yr hon pwy bynag a bwysai arni, hi a äi i gledr ei law ef, ac a dyllai trwyddi hi: felly yr oedd Pharaoh brenin yr Aipht i bawb a hyderent arno ef. Yn y flwyddyn olaf o deyrnasiad Iosïah (609 c. c.), ymddengys ddarfod i'r Aipht amcanu helaethu ei dylanwad ar Wlad Canaan, pan aeth Pharaoh-Necho "i fyny yn erbyn brenin Assyria, hyd afon Euphrates" (2 *Bren.* xxiii. 29); a phan yr aeth Iosïah i'w erbyn, efe a'i lladdodd mewn brwydr. Ei olynwr, Ioachaz, a ddiorseddwyd ar ol teyrnasiad byr o dri mis, ac a garcharwyd yn Riblah gan frenin yr Aipht, yr hwn hefyd a osododd dreth drom ar y wlad. A Pharaoh-Necho wedi hyn a wnaeth ei frawd hynaf ef, Eliacim, yn frenin, gan gyfnewid ei enw i Ioachim. Ioachaz, ar ol hyny, a fu farw yn yr Aipht. Eithr dylanwad yr Aipht ar Iudah a ddarfyddodd yn fuan; canys yn y bedwaredd flwyddyn i Ioachim (604 c. c.), Nebuchodonosor brenin Babilon a ddaeth yn erbyn Iudea a'r rhai oedd mewn cynghrair â hi (*Ier.* xlvi; 2 *Bren.* xxiv), ac hefyd a orchfygodd Pharaoh-Necho, ac a adgymmerodd Arabia Garegog oddi ar yr Aiphtiaid, yn nghyd â'r hyn oll oedd eiddynt rhwng yr Euphrates a'r Nilus. Zedeciah, brenin nesaf Iudah, gan wrthryfela yn erbyn Nebuchodonosor, a wnaeth gynghrair â Pharaoh-Hophra (*Ier.* xliv); a phan ddaeth Nebuchodonosor i warchae ar Ierusalem, a chlywed fod llu yr Aipht yn dyfod i gynnorthwyo y ddinas, cymmerwyd y milwyr Caldeaidd ymaith (*Ier.* xxxvii. 5). A dyma y waith olaf y bu gallu yr Aipht yn wasanaethgar i'r Iuddewon.

Ar ol y caethiwed yn Babilon, bu Gwlad Canaan yn hir (o 301 hyd 180 c. c.) dan feistrolaeth Ptolemiaid yr Aipht; ac yn yr ysbaid hwnw, bu y wlad hono eilwaith, fel cynt, yn noddfa i lawer o'r Iuddewon, gan fwynhau amrywiol gymmwynasau a rhagorfreintiau: ac oddi wrth *Mat.* ii. 13, ymddengys fod cyffelyb achles yn cael ei chaniatau iddynt yno am oesoedd ar ol hyny. Eto, nis gellir dyweyd fod yr Iuddewon mewn nemawr gymmeradwyaeth gan yr Aiphtiaid.—[*Philo, c. Apion.* ii. td. 521.] Yn wir, gan Aiphtwr, sef Manetho (300 c. c.) y rhoddwyd i'r byd yr hanes Iuddewig mwyaf enllibus a chamddarluniol a wnaed erioed; ac hefyd yn nyddiau Augustus, darfu un o'r enw Chæremon gymmeryd poen neillduol i wneyd i'r Iuddewon ymddangos yn ddirmygus.—[*Joseph, c. Apion,* i. 32; cym. *Creuzer, Com. Herod,* i. 270.]

Yn nheyrnasiad Ptolemy Philometer, Onïas—tad yr hwn, sef y trydydd archoffeiriad o'r un enw a lofruddiasid—a ffodd i'r Aipht; ac yno, daeth i ffafr neillduol gyda'r brenin a'r frenines Cleopatra. O herwydd bod archoffeiriadaeth y deml yn Ierusalem, yr hon swydd o ran hawl a berthynai i dylwyth Onïas, wedi ei throsglwyddo i dylwyth y Maccabeaid, pan y penodwyd Ionathan i'r swydd (153 c. c.), felly Onïas a ddefnyddiodd y ffafr oedd iddo yn llys Ptolemy i sefydlu teml a gwasanaeth yn yr Aipht, drwy yr hyn y didolid yr Iuddewon oedd yn y wlad hono oddi wrth eu perthynas â'r deml yn Ierusalem. Cydsyniodd y brenin â'r deisyfiad hwn. I gymmodloni Iuddewon yr Aipht â'r cynnygiad o godi ail deml, Onïas a'u cyfeiriodd at *Esa.* xix. 19, 20; "Y dydd hwnw y bydd allor i'r Arglwydd yn nghanol tir yr Aipht, a cholofn i'r Arglwydd ger llaw ei therfyn hi. Yn arwydd hefyd ac yn dystiolaeth y bydd i Arglwydd y lluoedd yn nhir yr Aipht." I'r perwyl amcanedig, cymmerodd hen deml adfeiledig Bubastis, yn Leontopolis, yn nhalaeth Heliopolis, cant a hanner o ystadau o Memphis, yr hwn le a wnaeth efe fel rhyw fath o Ierusalem fechan [*Joseph. de Bell. Jud.*, i. 1], gan godi yno allor ar ddull yr un yn y deml, a gosod ei hun i fyny yn archoffeiriad. Caniataodd y brenin iddo ddarn o dir o amgylch y deml tuag at gynnaliaeth yr addoliad; a pharhaodd i sefyll hyd oni ddinystriwyd y lle gan Vespasian—[*Jos. Antiq.*, xiii. 3; xx. 9; *De. Bell. Jud.*, vii. 10.] Ymddengys fod yr ardal lle y safai y deml hon yn cael ei hystyried yn brif sefyllfa yr Iuddewon yn yr Aipht, oddigerth Alexandria; ac yn ol enw ei

Digitized by Google

sylfaenydd, galwyd hi 'Ονίου χώρα.—*Josephus' Antiq.*, xiv. 8; *Helon's Pilgrim.*, td. 328.

Un o'r pethau hynotaf a ddynodir mewn cysylltiad â'r Aipht yw yr hyn a elwir *hieroglyphics*. Y mae y gair yn ei ystyr llythyrenol yn arwyddo cerfiadaeth gyssegredig; ac fe'i defnyddid gan y Groegiaid mewn cyfeiriad at yr arwyddluniau a'r argraffnodau a fyddid yn eu cael yn gerfiedig ar demlau, beddrodau, ac adeiladau cyhoeddus



Dar. 14. Y TU MEWN I FEDDROD.

ereill yn yr Aipht. Ar yr un pryd, ymddengys fod yr arferiad yn un a ymgynnygiai yn naturiol i holl ddynolryw tra yn eu cyflwr cyntaf o wareiddiad; ac yn cael ei gymhell arnynt o angenreidrwydd, ac oddi ar yr ystyriaethau mwyaf eglur. Y mae dyn yn dueddol i geisio tynu lluniau pethau cyn y dysgo ysgrifenu; efe a ddarlunia ffurf allanol rhyw wrthddrych yn mhell cyn y byddo yn alluog i ddysgrifio rhyw ddamwain; efe a gyfynga ei gynddrychau i'r llygad tra eto mewn oedran anghyfatebol i allu dyfod o hyd i foddion mwy uniongyrchol i gyfarch y deall, neu i ddifyru y mympwy. Yn moreuddydd cymdeithas, y mae pob hysbysiadau, nas gellir eu trosglwyddo mewn geiriau geneuol, yn cael eu traddodi trwy gyfrwng ysgrifddarluniau; ac y mae y dull anmherffaith hwn yn parhau yn mhob gwlad, hyd oni ddelo rhyw ddamwain hapus, neu ymweliad rhyw bobl fwy diwylliedig, i hysbysu y gelfyddyd o ysgrifenu yn llythyrenol.

Er anghraifft, pan yn gyntaf y tiriodd yr Yspaenwyr ar dueddau arforawl yr America, hysbyswyd y dygwyddiad i drigolion parthau mewnol y wlad drwy ddarluniau anghelfydd o ddynion, arfau, a llongau; o ba rai y cadwyd rhyw nifer o anghreifftiau gan Purchas: i ddiwydrwydd llafurus yr hwn yr ydym yn ddyledus am yr hanesion goreu o ddarganfyddiad a goresgyniad y byd gorllewinol gan Ewropiaid. Ond weithian, braidd yn mhob amgylchiad, trwy gynnorthwy gwyddor-lythyrenau, yr ydys wedi dodi heibio yr arferiad cyntefig mor llwyr, fel y mae yr unrhyw yn myned yn brysur i anghof yn y rhan fwyaf o wledydd; ac ni fedd y gramadegydd athronyddol mwyach ond rhyw ymresymiad cwmpasog a lled aneglur i'w alluogi i gyssylltu llenyddiaeth goethedig ei oes oleu ef âg ymdrechiadau y barbariad i amlygu ei feddyliau drwy arwyddluniau arddangosol. Y mae cofadeiladau yr Aipht, drwy eu gorfaith barhad, yn trosglwyddo hanesion nad ydynt i'w cael mewn un lle arall, ac yn dangos esgyniad graddol dynolryw, o'r cyfnod cyntaf hyd y diweddaf, yn y gelfyddyd nodedig sydd yn awr dan ein hystyriaeth. Dywed Wathen, y gellid cael allan hefyd haniad eu breninoedd, o du y tad a'r fam, oddi wrth "eu henwau a'u baneran" arwyddluniol: a phe na byddent wedi deilliaw o'r teulu breninol, y gellid gwybod oddi wrthynt pa hawl fyddai ganddynt i'r orsedd. Rhoddwn un o honynt ger bron ein darllenwyr, yr hwn sydd heb fod yn annhebyg i'r hyn a arferir mewn herodraeth yn ein dyddiau ni.



Dar. 15.

Ni oddef ein terfynau i ni anturio i'r fath fanwl ymchwiliad ag a fyddai yn ddigon i lenwi cyfrol helaeth: am hyny, cyfyngwn ein hunain at roddi mynegiad cyffredinol o brif egwyddorion y gelfyddyd, cyn belled ag i'w gwneyd yn ddealladwy i ymofynwyr anghyfarwydd, y rhai na byddo ganddynt hamdden i dreiddio i'w dyfnderoedd.


Yn awr, mewn perthynas i'r arwyddluniau rhag-grybwylledig, o ba rai yr oedd y fath amledd ar gofadeiladau yr Aipht, deuwn yn bresennol i son am yr iaith yn mha un yr ysgrifenid hwynt, y maith gaddug fu yn eu gorchuddio, a'r goleuni sydd yn ddiweddar wedi tywynu ar yr unrhyw. Darfu i ddull ceinwych a llyfnwneuthuriad allanol colofnau (*obelisks*) yr Aipht ennill gorhoffder goresgynwyr y wlad hono gymmaint, fel y mynodd rhai o ymherawdwyr Groeg a Rhufain eu trosglwyddo ymaith o'u sefyllfaoedd cyntefig i addurno eu prif ddinasoedd hwy eu hunain. Yn y modd hwn, dygwyd llawer o honynt i Ewrop, lle y darfu i hynodrwydd anarferol yr arwyddluniau a'u gorchuddiai gynhyrfu sylw dysgedigion. Ond am drefn gysson y dull o ysgrifenu trwy yr arwyddluniau hyny, nid oedd neb yn wybyddus oddi eithr offeiriaid eilunaddolgar yr Aipht yn unig, y rhai oeddynt wedi bod yn ofalus i ddirgelu yr unrhyw; a phan gynnyddodd ymdaniad y grefydd Gristionogol nes dymchwelyd addoliad ac offeiriadaeth yr eilunod, â pha rai yr oedd y drefn nodedig uchod o ysgrifenu yn anwahanol gyssylltiedig, diflanodd y wybodaeth yn ebrwydd, ac anghofiwyd hi mor lwyr, fel, pan ddarfu i un o'r ymherawdwyr gyhoeddi cynnygiad o wobr helaeth i bwy bynag a fyddai yn alluog i ddarllen yr argraffnodau oedd ar ryw golofn a amcanai efe ei gosod i fyny, ni ddaeth cymmaint ag un ymgeisydd yn mlaen i hòni hawl i'r wobr.

Yr oedd yr arwyddluniau, a elwid *hieroglyphics*, yn gynnwysedig o luniau gwrthddrychau gweledig, megys dynion ac anifeiliaid, mewn amrywiol agweddau; planigion, dodrefn teuluol, arfau rhyfel, offer amaethyddol, &c., a ffurfnodau ereill nid mor hawdd i'w hadnabod. Yr unig oleufynag tuag at eu deongli ydoedd llyfr wedi ei ysgrifenu gan un a elwid Horus Apollo, neu Horapollo, ac wedi ei gyfieithu o'r Aiphtaeg i'r iaith Roeg, yn yr hwn lyfr y ffuantid rhoddi arwyddocâd rhyw ychydig nifer o'r nodau hyny; ac ystyr rhyw rifedi bychan yn chwaneg a drosglwyddid waered drwy ryw fath o draddodiad ansicr:—y cwbl yn llwyr annigonol i fod o ddefnydd ymarferol.

Yr oedd yr holl gerfiadau hyn wedi eu gweithio yn dda; ïe, efallai, yn well nag y gallai y Groegiaid eu hunain eu gweithio. Am ddelwau marwion y

Digitized by Google

wlad hefyd, megys delwau Amenoph a Rameses, dangosant fedrusrwydd mawr yn y gelfyddyd.




Dar. 16.

Parhaodd yr anhawsder i ddeall yr arwyddluniau hyd ddechreu y ganrif bresennol. Ond yr oedd gwaith neu ddau o ddirfawr ddysgeidiaeth wedi rhwyddhau y ffordd tuag at gael y cwbl i oleuni, sef trwy gasglu yn nghyd beth afrifed o hysbysiadau yn dwyn mwy neu lai o berthynas â'r testyn; ond yn wasgaredig ac ar led yn ysgrifeniadau gwahanol awdwyr uchelddysg: yr hyn a brofai na chafodd y gelfyddyd o ysgrifenu drwy arwyddluniau mo'i dodi heibio ar oresgyniad yr Aipht gan Cambyses y Persiad, fel yr oeddid wedi barnu yn gyffredinol; eithr ddarfod iddi barhau mewn ymarferiad hyd oni thanwyd y grefydd Gristionogol yn y wlad. Profai hefyd beth arall o ddirfawr bwys; sef nad aethai iaith gyntefig yr Aipht ar ddifancoll gyda'r gelfyddyd o ysgrifenu arwyddluniol; eithr mai yr un a'r unrhyw ydoedd a'r iaith a leferir hyd heddyw dan yr enw Coptaeg. Yn yr iaith hon, yn ysgrifenedig mewn llythyrenau Groeg, y mae eto ar gael amryw lyfrau, ac yn eu plith gyfieithiad o'r Beibl yn gyflawn.

Ond er y darpariadau uchod, nid oedd eto nemawr o obaith y gellid dyfod i allu darllen yr arwyddluniau. O'r diwedd, pa fodd bynag, dygwyddodd damwain, drwy ba un y cafwyd agoriad i'r dirgelwch, a mynediad i mewn i drysorfeydd hynafiaethau yr Aipht; ac o hyny hyd yn awr yr ydys yn eu dadlenu i ŵydd y byd. Pan wnaeth y Ffrancod ryfelgyrch i'r Aipht, yn y flwyddyn 1798, aeth gyda'r milwyr amryw wŷr dysgedig, i'r dyben o helaethu gwybodaeth gelfyddydol; ac yn mysg gwrthddrychau ereill, denwyd eu sylw at gofadeiladau y wlad hono. Ac wrth gloddio at sylfeini ryw hen amddiffynfa yn agos i Rosetta, wrth geg un o gangenau yr afon Nilus, daethant o hyd i gareg hynod, âg arni ddarlleniad o dri math:—un rhan wedi ei cherfio yn y dull arwyddluniol; rhan arall yn y dull *enchorial*, sef yr hyn a ellid ei alw yn rhedeglaw gyntefig yr Aipht; a'r drydedd ran yn yr iaith Roeg, ac yn ymddangos fel cyfieithiad o'r ddwy flaenorol. Pan gymmerwyd Alexandria gan y Seison, daeth yr holl bethau a gasglesid gan y Ffrancod i'w dwylaw hwy; a dygwyd careg Rosetta, yn mysg pethau ereill, i Loegr yn nechreu 1802, yr hon a gedwir yn y neuadd Aiphtaidd yn y British Museum, yn Llundain.

Y mae y gareg grybwylledig yn gyfangorff durfing o'r natur a elwir *basaltic*, o liw du, ac yn nghylch tair troedfedd o hyd, dwy a hanner o led, ac un o dewder; ac wedi ei llyfnhau yn dda o un tu. Mae y darlleniad wedi ei niweidio i gryn raddau mewn rhai manau, yn enwedig yn nechreu y rhan arwyddluniol, a diwedd y rhan Roegaidd. Y cynnwysiad sydd fath o osodedigaeth o eiddo offeiriaid yr Aipht, yn priodoli dwyfol anrhydedd i Ptolemy Epiphanes, ac yn clodfori amrywiol weithredoedd o haelioni cyhoeddus a doethineb a gyflawnwyd ganddo ef yn y blyneddoedd boreuaf o'i deyrnasiad. Tybir yr amseriad tua 190 c. c.




Dar. 17.—Careg Rosetta.


1 Y dull arwyddluniol. 2 Rhedeg-law gyntefig yr Aipht. 3 Yr iaith Roeg.

Y tair llinell hyn, yn ngwaelod y darlun, ydynt ranau bychain o'r cerfiadau ar bob dosbarth o'r gareg.

Dyfodiad y gareg uchod i Loegr a ennynodd frwdfrydedd dirfawr; a choleddwyd gobaith cryf y byddai yn foddion i alluogi dysgedigion i gael allan ystyr arwyddluniau. Felly, llawer o ysgoleigion enwog y deyrnas hon a'r Cyfandir a lafuriasant yn ddyfal gyda'r gorchwyl; eithr dros ryw hyd heb ond ychydig lwyddiant. Aeth cyn belled a'r flwyddyn 1819, cyn cael y wir allwedd ddymunedig; ond y pryd hwnw, fe'i cafwyd, a hyny mewn erthygl o waith y Dr. Young, a gyhoeddwyd yn yr "*Encyclopædia Britannica.*"

Math arall o wrthddrychau sydd yn hynodi yr Aipht yn arbenig yw y *pyramidiau*—yr hwn sydd air anghyfiaith a arferir fel enw ar adeiladau wedi eu gwneyd yn eang yn y gwaelod, ond yn meinhau yn raddol ar i fyny, ac yn terfynu yn bigfain. Trwy daith o ddeng milltir i'r deheuorllewin o ddinas Cairo, neu gylchdaith o ugain milltir, yn amser gorlifiad yr afon Nilus, arweinir yr ymdeithydd i blith rhyfeddodau nodedig a

elwir, Pyramidiau yr Aipht. "Y mae yn anmhosibl," medd y Dr. Edward Daniel Clarke, "i ddynion, a chanddynt deimladau coethedig, allu edrych ar y pethau hyn heb syndod. Ni fedrwn ddysgrifio y teimladau a'n meddiannai tra yn syllu ar yr olygfa aruthrol oedd o'n blaen, fel yr oeddem yn dynesu at y cofadeiladau gorfaintiolus hyn, y rhai a ymddangosent fel yn cyrhaeddyd hyd y cymylau!" Y mae pyramidiau Gizeh yn sefyll ryw bellder anghyfartal oddi wrth eu gilydd gyda godrau dwyreiniol bryniau Libya, rhyw encyd oddi wrth lan orllewinol yr afon Nilus. Y maent yn dri o nifer, ac wedi eu sylfaenu ar graig, yn nghylch 150 troedfedd yn uwch na'r gwastattir; ac felly i'w canfod o bellder dirfawr. Wrth agosau atynt o'r Aipht Uchaf, dywed awdwr y gwaith a elwir, "*Scenes and Impressions*," &c., ei fod ef yn cael ei siomi o hyd, trwy dybied ei fod o fewn lled cae i'r adeiladau; tra,



Dar. 18. Pyramid Cheops.

yn lle hyny, y bu raid iddo deithio lawn pedair milltir cyn cyrhaeddyd y fan lle y safent. Mor ddidarth ac eglur yw yr awyr yn y wlad hono, fel y mae gwrthddrychau o hirbell yn ymddangos mor amlwg a phe baent yn ymyl. Bernir ddarfod dewis y dull pyramidaidd i wneyd yr adeiladau hyn, er mwyn sicrhau eu sefydlogrwydd. Y maent hefyd ar ddull perffaith pedeirongl, a phob ochr yn culhau yn raddol a rheolaidd, nes terfynu yn bigfain; ond gan ofalu ar yr un pryd fod i led pob ochr, yn y gwaelod, fod yn fwy nag uchder y pyramid. Mesuriadau yr un hynotaf, sef yr un yn Cheops, yw 752 troedfedd bob ochr wrth y llawr; y pedair ochr yn nghyd yn gwneyd yn nghylch 3,000 troedfedd, ac felly yn gorchuddio mwy na 13½ cyfar o dir. Uchder yr unrhyw sydd tua 480 troedfedd; sef yn nghylch 110 troedfedd yn uwch nag eglwys St. Paul yn Llundain, a 43 yn uwch na'r eiddo St. Pedr yn Rhufain. Pe golygid y pyramid hwn yn gyfangorff trwyadl, cynnwysai fwy na 3,000,000 o latheni chweochrog (*cubic*). Dywed Pliny, fod 366,000 o ddynion yn llafurio am ugain mlynedd i wneyd yr adail aruthrol hon, a darfod treulio deng mlynedd i wneyd sarn tuag at gyfleu y ceryg i'w lle. "Yr olygfa oddi ar gopa'r adeilad," medd M. Jomard, "sydd tu hwnt i bob dysgrifiad. Mewn sefyllfa mor anarferol o ddyrchafedig, y mae'r meddwl fel pe bai wedi colli y meddiant o hono ei hun, a'i holl gynneddfau megys wedi eu goreangu; a'r hyn oll a welir yn cydweithredu i gynhyrfu dychymygion. Y mae y llygad, tra yn gwibio ar led terfyngylch mor ddifesur, yn cael ei arwain i graffu ar ddosbarthiad darnodol y wlad yn ddwy lain lydan, un yn werdd a'r llall yn ddiffaeth; sef y Diffaethwch, a'r Delta. Ar un llaw, y mae Libya fel cefnfor aruthrol o dywod llosgedig, yn ymchwyddo yma ac acw yn domenau mawrion fel tonau y weilgi; ar y llaw arall, y mae tir o ffrwythlondeb diddarfod, yr hwn nid yw un amser yn colli ei rinweddau cynnyrchiol. Ar un llaw, y mae anghyfannedd-dra, unigedd, a dystawrwydd; ar y llall, y mae poblogrwydd tyrfaol, a dinas dra helaeth Cairo, a channoedd o bentrefi ffynadwy, a gorsafau i amaethyddiaeth a masnach." "Camgymmeriad," medd y Dr. Richardson, "yw tybied fod grisiau i'r pyramidiau; ond y mae yn rhaid ymgropian dros geryg mawrion a gwenithfeini; rhai wedi tori o'u lle, rhai yn malurio ymaith, ac ereill wedi syrthio yn bentyrau gan adael bylchau yn y saernïaeth; a'r cwbl yn annhrefnus. Mewn rhai manau, y mae lled ac uchder y meini yn gyfartal, ond yn fynychaf y mae eu huchder yn llawer mwy na'u lled; yn amryw ddarnau o'r muriau, y mae'r meini yn bedair troedfedd o uchder, a'r haen cyntaf yn gydwastad â dwyfron dyn."

Llawer o ddyfeisiau sydd wedi cael eu ffurfio o barth i ddyben cyntefig yr adeiladau anniflanol hyn. Dwy fil a thri chant o flyneddoedd yn ol, yr oedd eu dysgrifwyr cyntaf yn anwybodus o amser a dyben eu codiad—yn fwy felly nag yr ydym yn yr oes hon. Yn bresennol, nid oes ammheuaeth nad oedd pob un o honynt yn gwasanaethu fel beddrod; ond eu hamseriad, a'r cymhelliadau a arweiniodd i ymdrechion mor anferth i sicrhau dybenion mor isel, sydd yn dywyll. Ond pa fodd bynag, y maent yn gofgolofnau parhaus o ffoledd gormesol.

Syr John Gardner Wilkinson a gynnygiodd y sylwadau canlynol mewn perthynas i'r pyramidiau. "Y cofadeiladau hynaf yn yr Aipht, ac ond odid yn y byd, yw y pyramidiau o du y gogledd i Memphis; ond o ddiffyg arwyddluniau arnynt, a phob olion o gerfiadaeth, y mae yn anmhosibl penderfynu yr amser yr adeiladwyd hwynt, na pha beth oedd enwau eu sylfaenwyr. Oddi wrth y cwbl a ellir gasglu mewn perthynas i hyn, y mae yn ymddangos mai Suphis, a'i frawd Sensuphis, a'u hadeiladodd, tua'r flwyddyn 2120 c. c.; ac fe ddichon ddarfod gwneyd y beddau ger llaw iddynt, neu eu trychu yn y graig, yn fuan ar ol gorphen y pyramidiau. Y mae y rhai hyn yn dwyn enwau breninoedd boreuol iawn, y cyfryw nad ydym yn alluog i sicrhau pa amser yr oeddynt yn byw, nac o ba linach yr oeddynt yn deilliaw:—a pha un a oeddynt yn gydoeswyr â rhagflaenorwyr uniongyrchol Osirtasen, neu ynte yn rheoli y cwbl o'r Aipht, ydynt gwestiynau nas gallaf fi hyd yma anturio eu hateb."

Y mae maintioli aruthrol y pyramidiau, y dirgelwch annhreiddiadwy sydd yn gorchuddio eu dechreuad a'r dybenion o'u gwneuthur, yn nghyd â'r ystyriaeth y bydd iddynt barhau yn hir ar ol i'r rhan fwyaf o gofarwyddion presennol mawredd dynol falurio yn llwch—y mae yr ystyriaethau hyn yn creu teimladau nas gellir eu cynnyrchu gan unrhyw ddangosiadau ereill am nerth a diwydrwydd dynion. Y mae hefyd ryw gyssylltiad neillduol rhyngddynt â rhai o'r dygwyddiadau mwyaf nodedig a gynnwysir yn holl hanesyddiaeth dynolryw. Y mae yn dra thebygol ddarfod i Moses syllu arnynt lawer gwaith; ac y mae yn sicr iddynt gael eu rhyfeddu a'u mawrygu yn fynych gan Homer, Herodotus, Pythagoras, a Plato. Bu Alexander a Buonaparte yn byddino eu milwyr dan eu cysgod; a diammheu y telir iddynt deyrnged o barch gan feirdd, haneswyr, a philosophyddion, am lawer o oesoedd hirion eto i ddyfod.

Digitized by Google

Yr ail byramid, sef un Cephrenes, yr hwn a saif yn ymyl y cyntaf, sydd ryw faint yn llai. Am y trydydd, dywedir iddo gael ei adeiladu gan y brenin Men-ka-re, yr hwn a elwid Mycerinus, neu Mencheres, gan y Groegiaid: efe oedd olynydd Saophis II. Mae arch y penadur hwn i'w gweled yn y British Museum, i'r hwn sefydliad y cyflwynwyd hi yn y flwyddyn 1838 gan y milwriad Howard Vyse; sef y gwr a ddaethai o hyd iddi yn y flwyddyn o'r blaen. Y mae yr arch wedi ei gwneyd ar ddull *mummy*, ond y mae y pen wedi ei golli. O'r tu blaen i'r arch hon y mae dwy res unionsyth o arwyddluniau, y rhai a ddeonglwyd i'r perwyl a ganlyn:—"Osirian frenin, Men-ka-re, o dragwyddol fywyd, genedigol o'r nef, cenedledig o Netpe......Gan ddarestyn dy fam Netpe drosot ti, bydded iddynt hwy wylied dros dy orphwysfa yn y nef, a'th arddangos i'r duw, ceryddwr dy elynion, frenin Men-ka-re o dragwyddol fywyd." Y mae hefyd yn weledig ryw ranau o'i gorff, yn cynnwys darn o'i gefn, cyswllt ei gluniau, a'i goesau, yn nghyd â cherpyn o'i amwisg wlanen.

Byddai ein hanes am gynnyrchion celfyddydol yr Aipht yn ddiffygol iawn pe na chrybwyllem am y Sphinx mawr, yr hwn sydd yn wastad wedi cael ei gyfrif fel cydymaith, ac weithiau hyd yn oed fel rhyfeddod fwy na'r pyramidiau. Yr hysbysrwydd diweddaf mewn perthynas i'r cofarlun aruthrol hwn a gafwyd drwy lafur dyfal Mr. Caviglia; yr hwn, ar ol amryw fisoedd o ymdrechiadau lluddedig a phryderus, a lwyddodd o'r diwedd i ddwyn yr holl gerf-ddelw grybwylledig i'r amlwg, gan arloesi llanerch helaeth o gan troedfedd o'i hamgylch. A sylwa Mr. Salt, yr hwn oedd lygad-dyst o'r llafur uchod, mai nid hawdd fyddai i neb anmhrofedig o'r fath lafur ffurfio un dychymyg o'r anhawsderau oedd i dori drwyddynt yn y cyflawniad o'r gorchwyl, yn enwedig tra yn cloddio gwaelod y ffos ddofn; canys er pob rhagocheliad, pan ddelai yr awel leiaf o wynt, neu rhyw ysgydwad, byddai yr holl dywod amgylchynol mewn ysgogiad, ac ochrau gogwyddedig y ffos yn llithro i lawr, haen ar ol haen, nes llenwi pob gwagle. Ac hyd yn oed pan fyddai yr ochrau yn ymddangos yn fwyaf safadwy, os ymattaliai y gweithwyr ond am awr, caent weled ar eu dychweliad fod y rhan fwyaf o'u llafur i fyned drwyddo drachefn. Yr oedd hyn yn dygwydd yn benaf o'r tu deheuol i'r cloddle, lle y bu y bobl oll—o drigain i gant o nifer—yn ymboeni am saith niwrnod heb wneyd nemawr gynnydd, o herwydd bod y tywod yn llithro i lawr yn ddibaid.


Ond yr hyn a ddygwyd i'r golwg a wnaeth daledigaeth helaeth am y draul a'r drafferth i gyd, pan ddaeth y gwrthddrych celfydd-ddull i'r amlwg:—ei goesau mawrion amrosgo yn ymestyn allan hanner cant o droedfeddi o flaen ei gorff, yr hwn sydd mewn agwedd orweddol. Malurion o'i farf drwchus a gafwyd o dan ei en; ac ar esgynlawr gyferbyn ei wyneb, yr oedd pob dodrefn a berthyn i deml; megys bwrdd o wenithfaen, ac allor, &c. Ac ar yr un palmant, yn y canol rhwng palfau y ddelw, yr oedd y llech fawr o wenithfaen a grybwyllwyd, ddim llai na phedair troedfedd ar ddeg o uchder, saith o led, a dwy o dewder. Yr oedd gwyneb y gareg hon, pa un oedd yn edrych tua'r dwyrain, yn addurnedig â cherfiadau harddwych, ar godiad (*bass-relievo*), yn cynnrychioli dau Sphinx wedi eu gosod ar golofnwadnau, ac offeiriaid yn dal offrymau o'u blaen; ac hefyd ar yr unrhyw gareg yr oedd darlleniad hir mewn arwyddluniau o wneuthuriad rhagorol. Tybid fod y llech wenithfaen uchod, yn nghyd â dwy lech arall o galchfaen, wedi eu haddurno yn gyffelyb, i'w golygu fel rhanau o ryw fath o deml fechan, yn gymmaint a'u bod wedi eu gosod un o bob tu i'r llech wenithfaen, ac ar union-linell â hi. Yr oedd un o honynt wedi sefyll yn ei lle; ond y llall wedi syrthio a thori; ac y mae rhyw ddarnau o honi wedi eu rhoi i gadw yn y British Museum. Yr oedd gyferbyn â gwyneb yr adeilad yma gerflun o lew bychan yn ei orwedd, a'i lygaid yn cyfeirio tua'r Sphinx mawr. Ac heb law y pethau hyn, yr oedd yma amryw ddarnau o lewod ereill wedi eu bras gerfio, yn nghyd â phen blaen Sphinx arall o wneuthuriad lled weddus; a'r cwbl wedi eu lliwio yn gochion,—lliw, fel y tybir, a ystyrid yn yr Aipht, yr un modd ag yn yr India, yn fwyaf priodol i ddybenion cyssegredig. O'r tu fewn i'r deml, yr oedd allor o wenithfaen, ac un o'i phedwar corn yn aros yn ei le ar ei chongl: ac oddi wrth effeithiau tân oedd yn amlwg ar y gareg, gellid penderfynu y byddid yn arfer poethoffrymu arni. Ar ochr palf aswy y Sphinx mawr, yr oedd amryw hen draddodiadau wedi eu tori mewn llythyrenau Groeg, ac yn gyfeiriedig at wahanol dduwiau. Ac ar ail fys yr un balf, mewn llythyrenau lled ddyfnion, yr oedd darlleniad prydyddol o folawd i'r Sphinx. Felly hefyd, ar fysedd y balf ddeheu yr oedd amrywiol fân gyfarchiadau i'r duwiau Harpocrates, Mars, a Hermes.

Yr ychydig hysbysiadau a roddwyd yma mewn perthynas i'r Sphinx a gasglwyd allan o'r defnyddiau a gafwyd trwy y llafur crybwylledig o eiddo Caviglia. Ond wrth adael ei sylwadau ef, bydd yn syn gan y darllenydd, ond odid, glywed na bu ol yr holl lafur hwnw i'w weled ond am ychydig o amser; ac er ys talm maith bellach y mae y gerf-ddelw cyn ddyfned yn y tywod ag erioed, fel nad oes i'r ymdeithydd dyeithrol yn yr Aipht, yn y blynyddoedd hyn, ddim mwy o honi i'w weled nag oedd pan yn gyntaf yr ymwelodd Caviglia â'r lle. Dywed y Dr. Richardson mai cymmaint ag oedd yn weledig pan fu efe yno oedd y ddwyfron, yr ysgwyddau, a'r gwddf, y rhai ydynt ar ddull dynol, ac hefyd y corff, yr hwn sydd fel yr eiddo llew. "Y mae y gwddf," medd efe yn mhellach, "wedi malurio yn ddirfawr, fel y mae yn ymddangos megys yn rhy wan i gynnal y pen. Mae penwisg y ddelw yn debyg o ran dull i'r hen berwigau cyntefig, yn taflu allan o bob tu i'r clustiau, fel gwallt Arabiaid Barbary; a'r clustiau eu hunain hefyd o faintioli anghyfartal, a'r trwyn wedi ei dori ymaith. Y mae y gwyneb i gyd wedi ei liwio yn goch, yr hwn yw y lliw a briodolir i gyndrigolion yr Aipht, ac i holl dduwiau y wlad, oddigerth Osiris. Mae nodweddau gwynebpryd y ddelw yn tebygu i'r eiddo cenedl y Nubiaid, neu yr Aiphtiaid cyntefig, ac felly yn hollol wahanol i'r eiddo y Negroaid; a'r edrychiad sydd yn hynod o lariaidd ac addfwyn, a hyny i'r fath raddau, fel y gallai addolwyr y Sphinx ymffrostio o'u duw tu hwnt i'r holl dduwiau o bren a maen a addolid gan genedloedd dall-dybus y byd." Y mae yr un awdwr yn chwanegu drachefn nad oedd efe ddim wedi deall fod un fynedfa i fyned i mewn i gorff y ddelw, fel ag i allu gwybod a oedd yn geuol ai peidio. Ond dywed y Dr. Pococke, fod mynedfa i'w chefn, ac hefyd i gopa ei phen; a thybiai efe fod yr offeiriaid, drwy eu dichell, yn defnyddio yr olaf i fyned i mewn i ateb cwestiynau y bobl a ddeuent i ymgynghori â'r eilun fel oracl; a'r llall,

Digitized by Google

ysgatfydd, a weinyddai fel mynedfa i lawr i ryw ystafelloedd oddi tanodd.

Mewn perthynas i fesuriadau y ddelw; yn ol Pococke, yr oedd y pen a'r gwddf (y cwbl oedd yn weledig uwchlaw y tywod pan fu ef yno) yn 27 troedfedd o uchder; y ddwyfron yn 33 troedfedd o led; a'r hyd i gyd yn nghylch 130. Yn ol Pliny, nid oedd yr hyd ond 113 troedfedd, eithr yr uchder yn 63. Yn ol Dr. Richardson, yr oedd ymestyniad y cefn yn nghylch 120 troedfedd, ac ymddyrchafiad y pen uwchlaw y tywod o 130 i 135—yr hyn sydd yn dyfod yn lled agos i fesuriad Coutelle. Y mae yn lled sicr fod y gwahaniaeth mesuriadau o uchder y ddelw yn cael ei achlysuro drwy fod y tywod yn ddyfnach ar rai amserau na'u gilydd, ac ymddengys eu bod wedi dyfnhau yn ddirfawr ar ol dyddiau Pliny. Yr oedd y Sphinx yn gwbl gyfan yn amser Abdollatiph; a mawr oedd y ganmoliaeth a roddai efe i'r unrhyw o ran cyfartalwch rhanau a harddwch ymddangosiad, gan ei gyfrif yn fwyaf o'r holl ryfeddodau a welsai efe yn yr Aipht. Tystia Makrisi, mai y Sheik Mahomet yn benaf a anffurfiodd y Sphinx; yr hwn, mewn ysbryd gwir Fussulmanaidd, a ystyriai ei hun dan rwymau i ddistrywio pob delwau, yn enwedig os tebygent i un math o greaduriaid byw. Gelwid ef yr "Ymprydiwr,"—enw yn dynodi ei gaeth-ymlyniad wrth reolau ei grefydd: ac y mae ei ymosodiad ar y Sphinx, ac ar y llewod ceryg wrth byrth dinas Cairo, yn ddigon o brawf ei fod yn ddallbleidiwr ffyrnig.



Dar. 19. Y Neuadd Fawr yn Nheml Carnak.

Y mae yr Aipht yn nodedig neillduol hefyd am ei *themlau*. Y rhai hyn, yn nesaf ar ol y pyramidiau, sydd yn dwyn yr arwyddion amlycaf o fedrusrwydd y cyndrigolion yn y gelfyddyd o adeiladwaith. Ac mor aml oedd y gweddillion o'r unrhyw yn y wlad, yn enwedig tua'i chanol a'r parth uchaf, fel y parasant i Denon lefain allan, "Temlau eto! temlau o hyd! dim caerau, dim llongbyrth, dim pontydd, dim ymdrochfeydd, dim chwareudai!" Ac am y temlau hyny, dywed ymdeithwyr eu bod oll mor unffurf o ran eu dull a threfn eu hadeiladaeth, fel y mae dysgrifiad o un yn ddigon i alluogi y darllenydd i ffurfio meddylddrych lled gywir am y cwbl, oddi eithr eu bod yn gwahaniaethu o ran maintioli. I arwain i mewn i'r llanerch gyssegredig, lle y byddo teml yn sefyll, ceir ffordd neu fynedfa eang, wedi ei phalmantu, yn nghylch can troedfedd o led, ac o dri i bedwar cant o hyd, a chwaneg mewn rhai manau. Y fynedfa hon a elwir y *dromos;* ac o bob tu iddi, o'r naill ben i'r llall, y mae math o ddelwau o'r dull a ddysgrifiwyd eisioes dan yr enw Sphinx, yn sefyll tua 30 troedfedd oddi wrth eu gilydd. Ar ol pasio y rhai hyn, deuir at yr hyn a elwir *propylæum*, yn cynnwys dau byramid heb fod yn hollol flaenfeinion, rhwng y rhai y mae y porth cyntaf sydd yn arwain i'r deml; ac ar ol hwnw deuir at ail borth, a thrydydd drachefn; canys nid oes un reol sefydledig i benderfynu rhifedi y pyrth na'r delwau Sphinx; y mae hyny yn ymddibynu ar hyd a lled y *dromos*. Ar ol myned drwy y *propylæum*, neu y pyrth, yr ydys yn cyrhaedd i'r deml ei hun, i ba un y mae yn wastad fath o rodfa golofnog *(piazza)* hardd a helaeth, a delw-gell *(sekos)* o faintioli cymmedrol, ond heb un ddelw ynddi, neu o'r hyn lleiaf yr un ar ddull dynol, eithr rhyw gynddrych o greadur anifeilaidd. O bob tu i'r rhodfa grybwylledig y mae ystafelloedd ystlysol o uchder cyfartal, yn culhau yn raddol o'r gwaelod i fyny. Y mae muriau y temlau wedi eu haddurno â lluniau cerfiedig mawrion, o amrywiol ddulliau.

Y gweddillion o deml Carnak sydd wedi ennill sylw ymdeithwyr yn arbenig. Y deml hon a safai yn nghylch milltir oddi wrth y lan ddwyreiniol o'r afon Nilus. Wrth nesau ati ar hyd y

Digitized by Google


fynedfa *(dromos)*, yr ydys yn dyfod at amrywiol byrth mawrion, y naill ar ol y llall—pob un wedi ei addurno â cherf-ddelwau o'r gwaith cywreiniaf. Mae y prif borth, yr hwn sydd yn wynebu tua'r afon, yn 64 troedfedd o uchder. O'r ddau tu i'r porth yma yr oedd gynt ddau ddrws yn arwain i gyntedd eang, âg iddo ddwy res o golofnau, un o du y gogledd, a'r llall o du y deheu; a rhes ddwbl o rai talach yn rhedeg drwy y canol, ac yn terfynu gyferbyn a dwy ddelw o faintioli aruthrol, un o bob ochr i res o risiau, saith ar ugain o nifer, yn arwain i lawr i Neuadd Fawr Carnak. Y neuadd ryfeddol hon, o herwydd ei hynodrwydd digyffelyb, sydd wedi bod yn destyn sylwadau pob awdwr braidd a ysgrifenodd yn nghylch rhyfeddodau yr Aipht. Y mae ei mesuriad arwynebol yn 314 troedfedd wrth 164. Ei nen ddwysdrom, o faenwaith, a gynnelir gan 134 o golofnau, yn ddosbarthedig i un ar bymtheg o resi, a'r rhan fwyaf o'r colofnau hyny yn naw troedfedd o drawsfesur, ac yn agos i 43 troedfedd o daldra; y rhai yn y ddwy res ganol nid ydynt lai nag un droedfedd ar ddeg a hanner o drawsfesur, a 73 o daldra; a thrawsfesur eu coronwaith yn y pen uchaf yn 22 troedfedd. Y muriau oll, y colofnau, y trawstiau, y nenau, a phob wyneb gweledig i'r llygad, ydynt wedi eu gorfritho â cherfiadau—duwiau, gwroniaid, a gwahanol arwyddluniau—y cwbl ar y cyntaf wedi eu harddwychu â'r lliwiau bywiocaf.

Ond nid oedd y neuadd golofnog uchod ond un rhan o hynodion y deml fawrwych dan sylw. Y mae y gweddillion o dyrau cedyrn, adeil-ranau pedryfal, neuaddau, colofnau gwenithfaen, a'r pentyrau aruthrol o faen-saernïaeth sydd eto yn aros, wedi eu hanner gladdu mewn pridd a thywod, yn dangos yn amlwg fod yr adeilad, pan yn gyfan, uwch law 1,200 troedfedd o hyd. Ac yr oedd rhodfa, gyda rhes o Sphinxes mawrion o bob tu iddi, yn arwain o'r deml hon hyd i Luxor, pellder nemawr llai na milltir a hanner; yr hon a allasai fod yn gyfleus iawn fel lle i arddangos coegwychder gorymdeithiau crefyddol.

Yma, yn ddilynol i'r sylwadau blaenorol ar demlau yr Aipht, ni buasai yn anmhriodol traethu ychydig am ei beddrodau a'i hadeiladau claddfaol; ond gan fod y pethau hyn yn dyfod o dan sylw mewn lleoedd ereill, cyfeirir y darllenydd at y geiriau BEDD, CLADDU, &c.

Am y dull *(style)* cyssefin o adeiladu yn y wlad dan sylw, dywed dysgedigion ei fod yr un, o ran egwyddorion a nodweddiad, o'i ddechreuad (dwy ganrif ar bymtheg cyn cred) hyd ei ddiflaniad yn nechreuad Cristionogaeth; er yn ddiammheu ddarfod i amryw ddiwygiadau ac addurniadau gael eu dwyn i mewn yn ystod amseroedd diweddarach. Un o nodweddiadau arbenig yr hen ddull oedd yr arferiad o gulhau yr adeiladau fel y byddent yn esgyn i fyny, yn ol y dull pyramidaidd. A bernir ddarfod i hyn ddechreu gyda'r hen arferiad gyntefig o wneyd anneddau o'r corsenau, y rhai yr oedd y fath amledd o honynt yn tyfu ar lanau yr afon Nilus. Yn wir, y mae y cerfiadau ar golofnau, wedi eu gwneyd yn ol un o'r dulliau Pharaoaidd, yn rhoi lle i gasglu eu bod yn cyfeirio at yr hen byst cyntefig a wneid o gorsenau. Gwel NILUS.

Pan fyddai adeiladau uchel yn cael eu gwneyd â chorsenau, y mae yn amlwg fod yn angenrheidiol iddynt ogwyddo y naill at y llall, ac felly ar osgo tuag i mewn; ac o ganlyniad byddai yr adeilad yn rhwym o gulhau ar i fyny yn debyg i byramid, fel y crybwyllwyd. Y mae yn ymddangos hefyd fod dull cyffredinol temlau yr Aipht wedi cael ei achlysuro drwy yr arferiad o chwanegu darnau newyddion o bryd i bryd, nes i'r darn cyssefin o'r diwedd ymddangos yn ddim amgen na chnewullyn y cwbl. Y cyntaf peth fyddai porth-adail (πυλὼν) mawr, yn gynnwysedig o ddau dŵr cadarn o waith maen, a mynedfa i mewn rhyngddynt; yr hyn a amcenid er mwyn peri mwy o edmygedd wrth nesau at y lle.



Dar. 20.

Cyssylltid y porth hwn â'r adeilad gyssefin gyda dau fur cyfarystlys, a rhes o golofnau yn wynebol iddynt oddi fewn; ac fel hyn yr oedd yr encyd rhwng y porth a'r adeilad grybwylledig yn cyfateb i gyntedd cyssegrawl, priodol iawn i nodweddiad crefydd ddirgeledig y wlad. A phan gyfodai brenin newydd, odid na chwanegai neuadd arall o flaen neu yn gyssylltiol â'r cyntedd uchod; a brenin drachefn, gan chwennych dangos ei barch i'r duwiau, ac anfarwoli ei enw ei hun, a wnai betryal ysplenydd gyferbyn â'r neuadd, a phorthadail eto i ragwynebu y llall, ac yn orchuddiedig â darlleniadau canmoliaethus i'w goffadwriaeth; ac os byddai yn rhyfelwr, rhoddai hyny gyfleusdra rhagorol i'r cerfwyr osod allan ei orchestion drwy gywreindeb eu celfyddyd.

Am *arfogaeth filwrol* yr Aiphtiaid gellid traethu yn helaeth iawn. Eu prif offerynau oeddynt y bwa, y waewffon, y bicell, y dafl, y cleddyf syth, y cleddyf cam, y fwyell, y darian, yr helm, y llurig emmog, &c. Ond y peth a grybwyllir yn fwyaf arbenig yn yr Ysgrythyrau yw eu *rhyfelgerbydau*. Ac o herwydd nad oes yn mysg holl ddarluniau milwrol yr Aipht gymmaint ag un anghraifft o feirch-filwyr *(cavalry)*, eithr yn wastad minteioedd o draed-filwyr *(infantry)*, a rhengau o ryfelwyr mewn cerbydau, pob cerbyd yn cael ei dynu gan ddau farch yn gyfystlys—felly y mae amryw awdwyr cyfrifol yn barnu nad oedd meirch-filwyr, yn yr ystyr cyffredinol, yn arferedig yn myddinoedd yr Aiphtiaid boreuol, er y crybwyllir mor fynych am y cyfryw yn *Exod.* xiv. 5—28, fel y gellid tybio, oddi wrth ein cyfieithiadau ni, fod hanfodiad y fath ryfelwyr i'w weled yn ddiammheuol yn y dysgrifiad o'r fyddin a gymmerodd Pharaoh i ymlid ar ol yr Israeliaid. I'r perwyl a ganlyn y sylwa y Proffeswr Hengstenburg ar y mater: — "Y mae yn sicr nad oedd nemawr bwys yn cael ei roddi ar feirchfilwyr yn amser y breninoedd boreuol o'r enw Pharaoh, ac y mae yn ammheuol a oedd rhyfelwyr o'r fath yn eu byddinoedd hwynt. Y dysgrifiad mwyaf nodedig o fyddin Aiphtaidd yw yr

Digitized by Google

hyn a geir yn *Exod.* xiv. 6, 7; "Ac efe (Pharaoh) a daclodd ei gerbyd, ac a gymmerodd ei bobl gydag ef; a chymmerodd chwe chant o ddewis gerbydau, a holl gerbydau yr Aipht, a chadbeniaid (neu yn hytrach *cerbyd-ryfelwyr*) ar bob un o honynt." Dyma ddarluniad cyflawn o'r ddarpariaeth a wnaeth Pharaoh i fyned i'w ryfelgyrch. Cynnwysai, yn gyntaf, gerbydau; ac yn ail, cerbyd-ryfelwyr: ni sonir am feirch-filwyr mwy nag am draed-filwyr. Y mae hyn hefyd yn eglurhau *adn.* 9, lle y dywedir, "A'r Aiphtiaid a ymlidiasant ar eu hol hwynt (sef yr Israeliaid) holl feirch a cherbydau Pharaoh, a'i wŷr meirch, a'i fyddin:" —neu, yn ol y darlleniad Hebraeg, "holl *gerbyd-feirch* Pharaoh, a'i *farchogwyr*, a'i lu." Lle y gwelir, pe cymmerid "gwŷr meirch" yn yr ystyr cyffredin o rai yn marchogaeth ar geffylau (*cavalry*), yna, fe ymddangosai cerbydau Pharaoh yn weigion! Eilwaith, dywedir yn *adn.* 17, yn ol yr Hebraeg, "Mi a ogoneddir ar Pharaoh, ac ar ei holl fyddin, ar ei gerbydau ef, ac ar ei farchogion;" ac felly yma eto, y mae *marchogion* yn cyfateb i'r *cerbyd-ryfelwyr* yn *adn.* 7. Am hyny, os oedd cerbyd-ryfelwyr, a meirch-filwyr hefyd, pa fodd y dygwyddodd nad ydynt un amser wedi eu crybwyll yn nghyd? Drachefn, yn *adn.* 23, dywedir, "A'r Aiphtiaid a erlidiasant, ac a ddaethant ar eu hol hwynt i ganol y môr, sef holl feirch Pharaoh, a'i gerbydau, a'i farchogion." Yma, drachefn, pe cymmerid *marchogion* yn yr ystyr cyffredin, byddai yn beth rhyfedd fod meirch a cherbydau yn cael eu crybwyll, a cherbyd-ryfelwyr wedi eu gadael allan, y rhai oeddynt y rhan arbenicaf o'r llu. Ac heb law y lleoedd a nodwyd, yr ymadrodd yn *pen.* xv. 1, "Taflodd y march a'i farchog i'r môr," a eglurir yn ddigonol yn *adn.* 4, o'r un bennod, lle ni chrybwyllir am ddim ond dymchweliad cerbydau a cherbyd-ryfelwyr Pharaoh. Ac at y sylwadau hyn o eiddo yr awdwr uchod, gellir chwanegu fod y gair gwreiddiol, a gyfieithir *marchog*, yn cael ei arfer yn fynych yn yr Ysgrythyr mewn ystyr amwys; megys yn *Ier.* li. 21—"A thi y gwasgaraf y march *a'r marchwr;* ac â thi y drylliaf y cerbyd *a'i farchog:*" ond yn yr Hebraeg wreiddiol, yr un gair a ddefnyddir ddwywaith.

Y mae hen ddarluniau yn dangos nad oedd rhyfel-gerbydau yr Aipht ond ysgeifn iawn eu gwneuthuriad—dim ond ychydig iawn o attegwydd (*frame-work*) o goed, wedi eu sicrhau yn nghyd, a'u haddurno â defnyddiau metelaidd ac ymylwaith lledr. Eu hochrau oeddynt mewn rhan yn agored, ac yn gwbl felly o'r tu ol; ac hefyd mor isel fel y gallai y cerbydwyr neidio iddynt gyda'r hawsder mwyaf; a byddai raid iddynt farchogaeth yn eu sefyll, canys nid oedd un eisteddle iddynt, er y gallent yn achlysurol pan yn lluddedig eistedd ar yr ochrau, neu led-eistedd ar eu sodlau, yn ol arferiad pobl y dwyrain. Ni byddai corff y cerbyd yn gorwedd yn gydbwys ar yr echel, eithr yn mantoli ymlaen i gryn raddau, gan drymhau ar y meirch, er nas gallai cerbyd mor ysgafn beri nemawr ludded iddynt, tra ar yr un pryd yr oedd y cyfryw ddull yn esmwythau sefyllfa y marchogwyr. A pheth arall yn tueddu i'r un perwyl oedd bod gwaelod y cerbyd wedi ei wneyd mewn ffordd o rwydwaith o garciau plethedig, ac felly yn cyfateb mewn rhyw fesur i wrth-lafnau (*springs*) ein hoes ni. Yr oedd y cerbydau hyn bob amser yn cael eu tynu gan ddau farch yn gyfystlys, a'r rhai hyny wedi eu trwsiadu yn harddwych, gyda chyfeiriad at ba rai y dywedai y priodfab breninol am ei ddyweddi, "I'r meirch yn ngherbydau Pharaoh y'th gyffelybais, fy anwylyd;" *Can.* i. 9. Byddai yn mhob cerbyd yn gyffredin ddau o bersonau, un yn gweithredu fel rhyfelwr, a'r llall fel cerbydwr; er yn wir nad yw y darluniau o frwydrau a buddugoliaethau Pharaoh yn dangos ond y brenin ei hun yn ei gerbyd ef; a hyny, fel y tybir, o blegid y cyfrifid yn sarhad ar ei fawrhydi roddi dyn cyffredin mor agos ato yn y darlun. Gwel Cerbyd.

Un o'r celfyddydau yr oedd yr Aiphtiaid gynt yn nodedig am eu harferiad o honi, a'u medrusrwydd ynddi, ydoedd perarogli (*embalming*) cyrff y meirw. Canys, fel y sylwa Mr. Pettigrew, er bod y ddefod yn arferedig yn mysg yr Iuddewon, y Persiaid, yr Arabiaid, a'r Ethiopiaid, eto, yr oedd gwybodaeth yr Aiphtiaid o'r gelfyddyd yn rhagori ar yr eiddo pob cenedl arall. Yr oedd yr athrawiaeth o hanfodiad yr enaid dynol ar ol ei ymadawiad â'r corff yn parhau yn eu plith er eu holl ofergoelion ereill; eto, ymddengys eu bod yn tybio fod attal llygredigaeth y cnawd yn angenrheidiol tuag at ddedwyddwch yr ysbryd ar ol ei ymadawiad o'r corff. O herwydd pa ham, defnyddient y ddyfais o berarogli cyrff eu meirw, yr hon ddyfais a gyflawnid drwy dynu allan y rhanau tu fewnol, a mwyaf tueddol i lygru; ac yn eu lle, dodid amrywiol ddefnyddiau peraroglus, a chyfferi o'r ansoddau effeithiolaf, tuag at ragflaenu pydriad a maluriad y cnawd. Yna, dodid y corff i wlyb-nawsio am ryw ennyd mewn gwlybwr a elwid *natron;* ac ar ol hyny, amwisgid ef mewn rhwymynau o lian, a dodid ef mewn arch o goed. Mae effeithiolrwydd y driniaeth yma i'w ganfod yn amlwg yn y lluaws afrifed o gyrff sydd i'w gweled mewn cadwraeth hollol ddilwgr hyd y dydd hwn. Fel anghraifft o ansawdd bresennol y *mummies*, fel y gelwir y cyfryw gyrff, adroddwn sylwadau M. Villoteau ar gorff benyw Aiphtaidd a agorasid ganddo ef:—"Yr oedd holl ranau y corff hwn, er eu bod wedi llwyr sychu, yn aros yn eu hystum naturiol:—y gwallt, y llygaid, y trwyn, a'r genau, mewn cystal cadwraeth, fel yr oedd yn hawdd canfod nodweddau naturiol y gwynebpryd. Yr oedd y gwallt yn hollol ddu, heb un blewyn gwyn, er y gellid barnu fod y ddynes mewn gwth o oedran pan fuasai farw. Y cwbl a ellid ganfod oedd ychydig gochni tua 'r gwraidd. Nid oedd chwaith yn hawdd i'w dynu ymaith, ond arosai yn gudynau hirion plethedig, wedi eu gosod ar goryn y pen mewn ddull lled esgeulus; yr hyn a'm tueddai i dybio fod y merched y pryd hwnw yn arfer gollwng eu gwallt yn gudynau hirion i lawr eu cefnau. Yr oedd yr amrantau, blew y llygaid, a'r eiliau, yn parhau yn eu dull naturiol. Yr oedd y llygaid yn ymddangos yn fwy pwl, am eu bod wedi sychu, a'r ganwyll wedi soddi i mewn ryw ychydig. Yr oedd y trwyn heb anffurfio nemawr, eithr yn hynod luniaidd a hardd. Yr oedd y tafod wedi sychu, gan ymddangos fel dernyn o femrwn. Yr oedd y gwefusau yn deneuon, a'r genau yn gymmesur. Y dannedd a ymddangosent fel wedi treulio gan henaint; ond heb un yn ngholl nac yn adfeiliedig. Yr oedd arwyddion o fod y corff wedi cael ei agor yn yr ochr aswy."

Barnai Syr John Gardner Wilkinson fod y peraroglwyr yn perthyn i'r dosbarth meddygol, gan fod y gelfyddyd yn gofyn llawer o wybodaeth physygwrol; a dywed Moses mai meddygon a beraroglasant gorff Iacob (*Gen.* l. 2). Gwel Bedd; Claddu, &c.

Digitized by Google

Gan fod yr Aipht yn wlad mor glodfawr am ei ffrwythlondeb, ac yn arferol o gael ei galw yn ydle (*granary*) y byd, felly nis gellir llai na dysgwyl clywed fod y trigolion yn arfer llawer o lafur mewn *amaethyddiaeth* a *garddwriaeth*. Ymddengys fod triniaeth y ddaiar yn nghynoesoedd yr Aipht dan arolygiad neillduol yr offeiriaid a'r breninoedd. Yn yr hen ddarluniau, dangosir y brenin, ar ol ennill buddugoliaeth, yn dyfod i dalu cydnabyddiaeth i'r duwiau am eu nodded. Y peth cyntaf a gynnygid i'w sylw oedd pwysfawrogrwydd amaethyddiaeth; cyn iddo gyflwyno ei offrwm darparedig, deuai yr offeiriad yn mlaen, gan estyn iddo ysgub o yd, yr hon a dorai y brenin drwyddi â chryman, ac yna gosodai ei roddion ar yr allor. Amaethyddiaeth yn wir oedd mammaeth gwareiddiad; ond yn yr Aipht yr oedd llawer o ystyriaethau yn peri ei bod o fwy pwys na chyffredin. Y rhai trymaf o'r rhai hyn oedd yr ystyriaeth o brinder tir cynnyrchiol, a byrdra y tymmor o'r flwyddyn yn yr hwn y gellir trin y tir yn y wlad hono; yr hyn a wnai i lwyddiant yr amaethydd ddibynu yn hollol ar ei ddiwydrwydd i ddyfrhau ei feusydd. Yn wir, y rhan fwyaf pwysig o lafur amaethwyr yr Aipht oedd gofalu am iawn ddefnyddio gorlifiadau yr afon Nilus; a rhaid fod hyny yn waith anhawdd iawn mewn blyneddoedd pan na byddai llif yr afon yn ddigon helaeth. Oddi ar y golygiad yma yr oedd Moses yn canmawl Gwlad Canaan rhagor yr Aipht. "Y mae yr Arglwydd dy Dduw yn dy ddwyn i mewn i wlad dda, i wlad afonydd dyfroedd, ffynnonau a dyfnderau yn tarddu allan yn y dyffryn ac yn y mynydd. Nid fel tir yr Aipht y mae, yr hwn y daethoch allan o hono, lle yr hauaist dy had, ac y dyfrheaist â'th droed, fel gardd lysiau: ond y tir yr ydych yn myned trosodd iddo i'w feddiannu sydd fynydd-dir a dyffryndir, yn yfed dwfr o wlaw y nefoedd; tir yw yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei ymgeleddu: llygaid yr Arglwydd dy Dduw sydd bob amser arno o ddechreuad y flwyddyn hyd ddiwedd y flwyddyn hefyd;" *Deut.* viii. 7; a xi. 10—12. Y mae yn wir nad oedd dim angenrheidrwydd am wrteithio y tir yn yr Aipht. Taenid yr had ar wyneb y pridd lleidiog, lle y soddai i mewn o hono ei hun, neu y sethrid ef i mewn gan draed anifeiliaid. Defnyddid yr aradr i lyfnu, yn hytrach nag i aredig; fel y gwelir yn yr holl hen ddarluniau fod yr aradrwr yn myned ar ol yr hauwr: a dengys yr unrhyw hefyd fod grawn o amrywiol rywogaethau yn cael eu cynnyrchu yn yr Aipht, fel y mae yn ddiammheuol mai hi oedd y farchnadfa ŷd fwyaf ar y ddaiar yn y cynfyd. Moses, wrth adrodd y fath drychineb a wnaed drwy bla y cenllysg, a enwa brif gynnyrchion amaethyddol yr Aipht. "A'r llin a'r haidd a gurwyd; canys yr haidd oedd wedi hedeg, a'r llin wedi hadu: a'r gwenith a'r rhyg ni churwyd, o herwydd diweddar oeddynt hwy;" *Exod.* ix. 31, 32. Am unrhywiaeth y rhyg, nid oes nemawr sicrwydd; ond y gwenith a'r haidd ydynt ddigon hysbys, ac felly hefyd y llin. Gellir casglu yn ddiammheuol fod y fath ddygwyddiad arswydus a phla y cenllysg yn beth dyeithrol iawn mewn gwlad lle y mae y fath dywydd yn un o'r damweiniau mwyaf anarferol, heb law y difrod colledus a barai i boblogaeth amaethyddol.

Y *llawr dyrnu* ydoedd le o arbenigrwydd neillduol. Y lloriau hyn a wneid o glai wedi ei dymmeru yn dda; a phan sychai yn ddigonol, byddai mor galed a llech o fynor. Bernir y byddent yn cael eu darparu ar draul amrywiol deuluoedd yn gydgyfranogol, fel yr oedd un yn ateb i wasanaeth yr holl ardal amgylchynol. Ac yn llyfrau yr Hen Destament, sonir amryw weithiau am y lloriau dyrnu fel lleoedd tra hysbys. Yn hanes claddedigaeth Iacob, fe ddywedir fod y fintai angladdol yn gorphwys mewn llawr dyrnu a ddynodid yn flaenorol fel eiddo rhyw berchenog o'r enw Atad; ond oddi ar yr achlysur galarus a grybwyllwyd, rhoddwyd enw newydd i'r lle: "A hwy a ddaethant hyd lawr dyrnu Atad, yr hwn sydd dros yr Iorddonen; ac a alarasant yno alar mawr a thrwm iawn; canys gwnaeth alar dros ei dad saith niwrnod. A phan welodd y Canaaneaid, y rhai oedd yn preswylio yn y wlad, y galar yn llawr dyrnu Atad, yna y dywedasant, Dyma alar trwm gan yr Aiphtiaid: am hyny y galwasant ei enw Abel-misraim, yr hwn sydd dros yr Iorddonen;" *Gen.* l. 10, 11. Yr oedd y gorchwyl o ddyrnu, yn gyffredin, yn cael ei gyflawnu trwy wasanaeth ychain, fel y ceir mynych grybwylliad yn yr Ysgrythyrau; megys, "Na chau safn ych tra fyddo yn dyrnu;" *Deut.* xxv. 4. Gwel DYRNU.

Yr Aipht, heb law hynodrwydd ei chynnyrch amaethyddol, ydoedd hefyd yn rhagori yn mhell ar yr holl wledydd cynoesol o ran ei *garddwriaeth*. Ymddengys y byddai cyndrigolion y wlad hono yn fwy gofalus am eu gerddi nag am eu hanneddau. Y mae hen ddarluniau o'u gwleddoedd bob amser, braidd, yn dangos fod blodau yn rhan arbenig o'u haddurniadau, a ffrwythau yn rhan benaf o'u moethau. Tra nad oedd gorchwylion yr amaethwr ond am y tymmorau byrion o hau a chynauafa, yr oedd gwaith a gofal y garddwr yn ddibaid. Ffurfient eu gwelyau blodau yn ysgwâr a lluniaidd; gwnaent eu rhodfeydd yn union-linellog, ac ar godiad; a gwŷdd-dai (*arbours*) o ddelltwaith plethedig, yr un bellder oddi wrth eu gilydd, ar hyd parwydydd pa rai y dringai y gwinwydd, a phlanigion dringiadol ereill. Meithrinent amrywiaethau o lysiau bwytadwy yn helaeth. Mewn conglau cyfleus, yr oedd ganddynt lynau eang, yn meithrin amrywiaeth o bysgod ac adar dyfrawl. Yn wir, y mae yn anhawdd edrych ar ddarluniau o erddi yr Aipht heb ryw radd o gydymdeimlad â chwynion yr Israeliaid yn yr anialwch: "A meibion Israel a wylasant, ac a ddywedasant, pwy a rydd i ni gig i'w fwyta? Cof yw genym y pysgod yr oeddym yn eu bwyta yn yr Aipht yn rhad; y cucumerau, a'r pompionau, a'r cenin, a'r winwyn, a'r garlleg: ond yr awr hon y mae ein heneidiau ni yn gwywo, heb ddim ond y manna yn ein golwg;" *Num.* xi. 4—6.

Y dueddfryd hon tuag at erddi a arferir yn fynych fel defnydd cyffelybiaeth farddonol yn Nghaniad Solomon; yr hon gân, er ei bod o ystyr lawer mwy cyssegredig a goruchel, yn ol barn Iuddewon a Christionogion, eto a amcenid yn arbenig fel priodas-gerdd y brenin hwnw â thywysoges brydferth o'r Aipht—merch i'r Pharaoh oedd yn teyrnasu ar y pryd. "Gardd gauedig yw fy chwaer, a'm dyweddi: ffynnon glöedig, ffynnon seliedig yw. Dy blanigion sydd berllan o bomgranadau, a ffrwyth peraidd, camphir, a nardus; ïe, nardus a saffrwn, calamus a synamon, a phob pren thus, myrr, ac aloes, yn nghyd â phob rhagorol ber-lysiau. Ffynnon y gerddi, ffynnon y dyfroedd byw, a ffrydiau o Libanus;" *Can.* iv. 12—15. Ond o'r holl flodau a'r ffrwythydd a gynnyrchid gan erddi yr Aipht, nid oedd un a werthfawrogid yn fwy na'r un a elwid y

Digitized by Google

*lotus*. Nid oes braidd un darlun na bydd hwn i'w weled ynddo. Y boneddigesau a'i gwisgent fel addurn yn eu gwallt, ac arferent wddf-gadwyni wedi eu gwneyd o'i flodeu-ddail; a phrin y gwelid hwynt un amser heb rai o'r blodau hyn yn eu dwylaw. Yr ystyriaeth o hyn yma a rydd gynnorthwy i eglurhau mater sydd wedi peri dirfawr benbleth i feirniaid ysgrythyrol, sef teitl *Salm* xlv. Tybir yn gyffredin mai priodasgerdd oedd y Salm hono, wedi ei chyfansoddi ar yr achlysur o ddyweddïad Solomon â merch Pharaoh, er yr addefir yn ddiwâd fod yr ystyr ysbrydol yn cyfeirio at ardderchogrwydd teyrnas y Messïah. Teitl y Salm yw, "I'r Pencerdd a'r Sosannim, i feibion Corah, Maschil, Cân cariadau." Y mae'r gair *Sosannim* wedi dyrysu esbonwyr Iuddewig a Christionogol; y mae yn arwyddo *lili* yn y rhif luosog; ac y maent oll yn dadgan nad oes dim perthynas rhwng y blodau hyny a thestyn y gân dan sylw. Ond ymddengys yn ebrwydd yr amcenid i'r briodasgerdd gael ei chanu gan gyfeillesau y dywysoges Aiphtaidd; a gelwid hwynt wrth yr enw "lili," nid yn unig gyda chyfeiriad at y *lotus*, neu lili yr afon Nilus, eithr gyda chyfeiriad uniongyrchol at eu harferiad o ddefnyddio y *lotus* fel prif addurn eu penau. Felly, *Sosannim*, yn lle bod yn enw rhyw dòn anadnabyddus (fel yr haera y rhan fwyaf o esbonwyr), oedd gyfeiriad barddonol at brydferthwch a gwisgiadau y cantoresau hyny, a gwlad eu tarddiad.

Ond o'r ardd, trown ein golwg tua'r winllan: y ddwy, yn wastad, a ystyrid mewn cyssylltiad agos â'u gilydd yn yr Aipht; a chawn weled maes newydd o eglurhadaeth ysgrythyrol yn ymagor o'n blaenau, yr hyn nis gallasem ond prin ei ddysgwyl pan ystyriom anamledd presennol y gwinwydd yn nyffryn y Nilus. Yn wir, nis gallai gwin fod yn helaeth un amser yn yr Aipht; canys er fod yr arferiad o hono yn ganiataol i'r offeiriad, nid oedd yn oddefedig i'r bobl gyffredin ei yfed ond ar ryw uchel-wyliau, yn enwedig gŵyl yr eilun Artemis Bubastus; pryd, fel y dywed Herodotus, yr yfid mwy o win nag yn yr holl weddill o'r flwyddyn. Ar amseroedd ereill, yfent fath o ddiod a wneid o haidd. Er hyn i gyd, y mae yr hen ddarluniau yn rhoi ar ddeall fod llafur nid bychan yn cael ei gymmeryd i feithrin y gwinwydd yn yr Aipht yn yr oesoedd boreuol, er nad oedd yn bosibl iddynt ffynu ond mewn rhyw ychydig o ardaloedd, lle y byddai uchder y tir yn eu diogelu oddi wrth orlifiad yr afon; a phan gynnyddodd masnach yr Aiphtiaid, daethant yn alluog i brynu gwin o wledydd ereill; a hwnw yn well, ac yn rhatach, na'r gwin a wnaent hwy eu hunain. Eto, y mae yn ymddangos fod gwin yn cael ei gwneyd yno yn nyddiau y patriarch Iacob; pe amgen, y mae yn debygol iawn y buasai gwin yn cael ei enwi yn mysg y ffrwythau ereill o gynnyrch Syria, y rhai yr oedd efe yn eu hanfon gyda'i feibion, er mwyn ennill ffafr swyddog Pharaoh, yr anadnabyddus Ioseph. "Cymmerwch," meddai efe, "o ddewis ffrwythau y wlad yn eich llestri, a dygwch yn anrheg i'r gŵr, ychydig falm, ac ychydig fêl, llysiau, a myrr, cnau, ac almonau;" *Gen.* xliii. 11. Ond i'r gwrthwyneb, erbyn amser y prophwyd Esaiah, ymddengys nad oedd y gwinwydd o nemawr sylw yn y Aipht; canys ni sonir am eu dinystr hwy yn mysg y barnedigaethau a gyhoeddai y prophwyd hwnw yn erbyn yr Aipht, er ei fod yn eu crybwyll yn benodol yn mysg y bygythion yn erbyn Syria a Chaldea. Gwel Gwin, Gwinllan.

Yn nesaf i'r winwydden, y palmwydd oedd y coed ffrwythau a werthfawrogid fwyaf gan yr Aiphtiaid; a gwelir y ddau fath yn cael eu cyssylltu yn nghyd gan Solomon yn ei ddarluniad barddonol o ferch Pharaoh. "Dy uchder yma sydd debyg i balmwydden, a'th fronau i'r grawnsypiau. Dywedais, Dringaf i'r balmwydden, ymaflaf yn ei cheinciau: ac yn awr dy fronau fyddant megys grawn-gangenau y winwydden, ac arogl dy ffroenau megys afalau; a thaflod dy enau megys y gwin goreu i'm hanwylyd, yn myned i waered yn felus, ac yn peri i wefusau y rhai a fyddo yn cysgu lefaru;" *Can.* vii. 7—9. Plenid y palmwydd, bob amser, yn y rhanau sychaf a mwyaf agored o'r ardd; ac yn gyffredin, dangosir eu ffrwythau *(dates)* yn tyfu yn sypynau mawrion maethlawn. Pomgranadau hefyd oeddynt ffrwythau a hoffid yn fawr, a chrybwyllir am danynt yn benodol yn Nghaniad Solomon; "Aethym i waered i'r ardd gnau, i edrych am ffrwythydd y dyffryn, i weled a flodeuasai y winwydden, a flodeuasai y pomgranadau;" *Can.* vi. 11. Gwel Pomgranad.

Y coed sycamor hefyd, o herwydd y ffigys pereidd-flas a gynnyrchent, a feithrinid yn ddyfal gan yr Aiphtiaid gynt; a gwelir fod yr Israeliaid, ar ol gadael yr Aipht, yn teimlo eu mawr golled am y ffrwythau hyny, gan edliw y peth i Moses, "Pa ham y dygasoch ni i fyny o'r Aipht, i'n dwyn ni i'r lle drwg yma? lle heb had, na ffigysbren, na gwinwydden, na phomgranad-bren, ac heb ddwfr i'w yfed?" *Num.* xx. 5. Gwel Sycamorwydden.

Yn Nghaniad Solomon, rhoir ar ddeall fod y ffigysbren yn blaguro ar yr un amser a ffrwythiant y winwydden;—"Fy anwylyd a lefarodd, ac a ddywedodd wrthyf, Cyfod, fy anwylyd, a thyred di, fy mhrydferth: canys wele y gauaf a aeth heibio;....y ffigysbren a fwriodd allan ei ffigys irion, a'r gwinwydd â'u hegin grawn a roddasant arogl teg;" *Can.* ii. 10—13. Y ffigys ni fwytëid yn ir, eithr cedwid hwy yn ymborth gauaf, drwy eu gwasgu yn nghyd yn deisenau, y fath ag a grybwyllir yn mysg yr anrhegion a ddug gwraig Nabal i Dafydd:—yna "Abigail a frysiodd, ac a gymmerth ddau cant o fara, a dwy gostrelaid o win, a phump o ddefaid wedi eu gwneuthur yn barod, a phump hobaid o gras-yd, a chan swp o resin, a dau can teisen o ffigys;" 1 *Sam.* xxv. 18. Y mae yr hyn a ddywedwyd yma yn ddigon i brofi hoffder yr Aiphtiaid o'u gerddi, ac i ddangos i ni briodoldeb gwahoddiad serchiadol y bendefiges Aiphtaidd yn y geiriau hyny; "Deffro di, ogleddwynt, a dyred, ddeheuwynt, chwyth ar fy ngardd, fel y gwasgarer ei pheraroglau: deued fy anwylyd i'w ardd, a bwytaed ei ffrwyth peraidd ei hun;" *Can.* iv. 16.

Yn mysg y gwahanol sylwadau ar brif nodweddau yr Aipht, y mae yn briodol iawn i grybwyll ychydig am ei *hinsawdd.* Ar y golygiad hwn, nid oes ond ychydig wahaniaeth yn y naill flwyddyn ragor y llall: y mae y tywydd a'r tymmorau yn hynod o reolaidd; y mae y gwres yn dra brwd; yr awyr yn glir a dysglaer iawn, heb braidd un ennyd o gysgodrwydd. Er, yn wir, mai yn anfynych y mae gwlaw yn disgyn yn yr Aipht, hyd yn oed yn misoedd y gauaf, eto, nid yw yn beth mor lwyr anarferol ag y darfu i amryw haeru. Y mae mellt a tharanau yn fwy anarferol fyth; a phan ddygwyddant, y maent mor ddigynhwrf fel nad yw y trigolion yn ofni dim niwed oddi wrthynt. Ar rai prydiau, bydd cawodydd o genllysg yn dyfod i waered o



Digitized by Google

ffyniau Syria, hyd at gyffiniau yr Aipht. Ond y mae rhew yn beth dyeithr iawn yno. Y mae gwlith y nos yn dra helaeth yn holl barthau y wlad. Y mae y gwynt yn chwythu o'r gogledd yn barhaus, o fis Mai hyd fis Medi, ac yna y mae yn cilio tua'r dwyrain, ac yn mlaen tua'r deheu, gan barhau yn ansefydlog hyd tua diwedd mis Ebrill. Gwyntoedd deheuol y gwanwyn, drwy eu bod yn chwythu dros gras-diroedd tywodlyd Affrica, sydd yn fwyaf anwadal, ac hefyd yn fwyaf afiachus. Yn gyssylltiol â'r rhai hyn y dygwydd y rhuthriadau arswydus, a elwir *simoom* neu *samiel*, y rhai yn fynych a fuont yn ddinystriol i finteioedd masnachol (*caravans*), ac weithiau i fyddinoedd o filwyr. Y gwybed blinderus a elwir *musquitos*, y locustiaid, a'r llyffaint—hefyd, y pla, y frech wen, a'r gwahanglwyf—ydynt brif anffodion yr Aipht.

Yr Aipht yn dyst i'r Beibl.—Y mae cyfeiriadau mynychach at yr Aipht yn yr Ysgrythyrau nag at un wlad arall, oddi eithr Gwlad Canaan. A chan fod cynnifer o byramidiau, cofgolofnau, temlau, a beddrodau, a'r cwbl yn cynnwys darluniau o arferion, cynnyrchion, a chelfyddydau y trigolion y pryd y gwnaed hwynt, yn nghyd â lluaws o enwau breninoedd, a nodiadau amseryddol, y mae hyn yn rhoddi mantais i ddangos naill ai cywirdeb neu anghywirdeb yr Ysgrythyrau yn eu crybwylliadau am yr Aipht. I'r Cristion, y mae hwn yn gwestiwn o bwysigrwydd mawr, am ei fod yn dwyn cyssylltiad â sylfeini ei ffydd. Y mae yr ymchwiliadau mwyaf trwyadl wedi cael eu gwneyd i hanesiaeth yr Aipht, fel y ceir ef yn ysgrifenedig yn ngwenithfaen annhreuliadwy eu cofgolofnau, a hyny heb un meddwl pa fodd yr effeithiai ar gywirdeb y Beibl; ïe, yn hytrach, yn nechreuad yr ymchwiliadau hyn, dygwyd hwynt yn mlaen mewn ysbryd gelynol i'r gyfrol ddwyfol. Ond yn awr, ystyriaeth bwysig ydyw edrych pa fodd y mae y ddau hanes hyn o'r un wlad yn sefyll tuag at eu gilydd? A ydyw Aipht y Beibl yr un ag Aipht y cofgolofnau a'r beddrodau? A ydyw yr ystafell Aiphtaidd yn y British Museum, a'r arwyddluniau sydd ar y saernïaeth aruthrol, am yr hwn y dywedai Buonaparte wrth ei filwyr, pan yn sefyll yn eu cysgod—"Filwyr! y mae deugain canrif yn edrych i lawr arnoch!"—yn cyttuno â thystiolaeth Moses ac Esaiah? Os ydynt, dyma brawf annibynol fod hanesiaeth y Beibl yn gredadwy.

Ond yma y mae yn naturiol gofyn, A ydyw haneswyr paganaidd yn cytuno â'r Beibl, ac â hanesiaeth arwyddluniol y ceryg. Os ydynt, dyma dyst newydd; os nad ydynt, y mae cytundeb yr haneswyr sanctaidd â'r arwyddluniau yn myned yn rhyfeddach fyth, ac yn myned yn mhell i ddangos mai dan ysbryd anffaeledigrwydd yr oeddynt yn ysgrifenu. Y mae prif ysgrifenwyr Groeg a Rhufain wedi gwneyd crybwylliadau am yr Aipht, ac y mae llawer o'r hyn a ddywedant am dani wedi cael ei brofi yn anghywir. Ysgrifenodd Herodotus a Diodorus hanesion rheolaidd am dani. Mae llawer o'r hyn a adroddir gan y ddau fel ffeithiau yn anghywir, ac yn anghysson â'u gilydd. Gan fod yr erthygl hon yn lled faith eisioes, ni wnawn ond cyfeirio at awdwr lle y ceir prawf helaeth o'r hyn a ddywedir. Y mae *Kenrick's Ancient Egypt under the Pharaohs* yn cynnwys anghreifftiau lluosog. Gwel cyf. ii. td. 72, 84, 393.

**Tybiwyd yn fynych fod amseryddiaeth yr Aipht yn anghysson â'r hanesiaeth sanctaidd o** barth i hynafiaeth y crybwylliadau a gynnwysir yn Llyfr Genesis am dani. Ond edrycher am fynyd ar ba sail y mae y dybiaeth hon yn gorphwys. Ysgrifenodd Manetho, yr hwn ydoedd Aiphtwr ac archoffeiriad Isis, yn yr Aipht Isaf, a'r unig ddosbarth o'r wlad at yr hwn y cyfeirir dan yr enw Aipht yn yr Ysgrythyrau (c. c. 332—284), hanes o'i wlad enedigol; ac, fel y tybir, i'r dyben o gywiro y camsyniadau y syrthiodd Herodotus iddynt. Y mae ei hanes ef wedi ei golli; ond y mae ei gyfres o freninoedd, neu frenin-linau (*dynasties*) ar gael: ond y mae yn ammheus a ydynt yn awr fel y gadawodd efe hwynt; o herwydd yn drydedd law y maent genym ni. Ac am eu dechreuad, y mae yn ddiammheuol eu bod yn ffugiol; gan fod y duwiau, gwroniaid, ac ysbrydoedd dynion ymadawedig yn cael lle ynddynt. Menes ydyw y llywydd dynol cyntaf, a Nectanebus yr olaf; ac y mae yr holl gyfnod, o Menes i Nectanebus, yn cynnwys deg ar ugain o frenin-linau, neu deuluoedd o freninoedd yn tarddu o'r un gwreiddyn. Mae nifer y breninoedd yn amrywio o 300 i 500, yn ol y gwahanol ddarlleniadau. Dywed Mr. Kenrick, fod yn anmhosibl sylfaenu amseryddiaeth ar y fath sylfaen. Heblaw hyny, nid oes fawr ddim ond enwau yn y gyfres: ac y mae enwau noeth yn ammheus. Nid oes sicrwydd fod yr holl freninoedd hyn yn olynol chwaith, neu ynte fod y breninoedd oedd yn cydoesi yn cael eu rhoi i lawr fel yn dilyn eu gilydd. Bod rhyw gamgymmeriad yn ffugyrau Manetho, sydd sicr; o herwydd erbyn eu rhoddi at eu gilydd, y maent yn 1,500 o flyneddoedd yn hwy na'r cyfnod yr oedd ei freninoedd ef yn teyrnasu ynddo.

Os edrychwn at y cofadeiladau eto, ni a gawn luaws o enwau; ond nis gellir, oddi wrthynt hwy chwaith, ffurfio unrhyw amseryddiaeth gyffredinol i gydgordio âg amseryddiaeth y byd. Nis gellir eu cyssoni yn berffaith chwaith â Manetho. Mewn gwirionedd, oddi wrth y cofadeiladau a Manetho yn nghyd, nis gellir siarad yn benderfynol am unrhyw flwyddyn hyd nes y daw yr hanes i gyssylltiad â'r hanes Ysgrythyrol. Mae yr eilfed linach ar ugain yn nghyfres Manetho yn cyfateb i deyrnasiad Rehoboam. Yn y bummed flwyddyn o'i deyrnasiad ef y cymmerodd Shishak Ierusalem—yn y flwyddyn c. c. 974. Y mae Shishak yr Ysgrythyrau yr un a Sheshonc y cofadeiladau. Gwelir, oddi wrth hyn, mai trwy yr Ysgrythyrau y gellir dwyn sicrwydd gyntaf i amseryddiaeth yr Aipht. Dyma anghraifft arall. Daeth Sennacherib i fyny yn erbyn Iudea yn c. c. 713; ac y mae hyn yn ein galluogi i ddywedyd pa bryd yr oedd Sethos yn teyrnasu yn Memphis yn yr Aipht Isaf, a Thirhakah yn yr Aipht Uchaf. Mor bell ydyw amseryddiaeth yr Aipht oddi wrth wrthbrofi dim sydd yn yr Ysgrythyrau, fel mai oddi wrthynt hwy yn unig y gellir cael sicrwydd i hanesiaeth yr Aipht.

Dywed Mr. Kenrick, mai Amasis yw y brenin cyntaf yn perthyn i'r Aipht, am yr hwn y gwyddom ddim o'i hanes personol; ac felly, mai yn y flwyddyn c. c. 569 y mae hanes yr Aipht mewn gwirionedd yn dechreu. Mae enwau rhai o weithredoedd cyhoeddus, a hyd teyrnasiad y breninoedd oedd o'i flaen ef yn adnabyddus; ond am danynt fel dynion, nis gwyddom ddim. Ffeithiau hanesiaeth yr Hebreaid, megys adeiladu teml Solomon, ydyw y ffeithiau cyntaf yn hanes y byd y mae genym sicrwydd am eu hamseriad.

Digitized by Google

Un o'r ffeithiau mwyaf credadwy yn hanes yr Aiphtiaid, yn gorphwys ar eu hawdurdod a'u traddodiadau hwy eu hunain, ydyw, fod y rhan isaf o'r Aipht, am lawer o flyneddoedd, dan lywodraeth llwyth o fugeiliaid crwydraidd, y rhai sydd yn adnabyddus wrth yr enw *Hyksos*, sef breninoedd bugeiliol. Y mae hyn yn gorphwys ar awdurdod Manetho, fel y ceir ef yn ysgrifeniadau Josephus. Y breninoedd bugeiliol hyn oedd yn gwneyd i fyny yr unfed ar bymtheg frenlinlin, yn ol ei gyfrif ef. Ar ol teyrnasu am 511 o flyneddoedd, cododd breninoedd cynnwynol y wlad, y rhai oeddynt yn y cyfwng yn teyrnasu yn yr Aipht Uchaf, i fyny, ac alltudiasant yr *Hyksos* o'u tiriogaethau. Y mae Hengstenburg, a rhai ysgrifenwyr ereill, yn gwadu fod hanes Manetho am y bugeiliaid hyn yn haeddu credliniaeth; o herwydd fod lluaws o chwedlau amlwg ffugiol yn gymmysgedig âg ef. Ond rhoddir derbyniad iddo gan y cyffredin o ysgrifenwyr ar yr Aipht. Sylwed y darllenydd fel y mae yr hanes yn egluro ffaith sydd yn ymddangos yn dywyll wrth gymharu hanes Abraham â hanes Ioseph. Nid oedd un gwrthwynebiad i Abraham yn yr Aipht, o herwydd ei fod yn fugail: ond yn amser Ioseph, ffieidddra yr Aiphtiaid oedd pob bugail defaid. Esboniad amlwg ar hyn ydyw, fod Abraham wedi myned i'r Aipht yn amser teyrnasiad y breninoedd bugeiliol. Ymddengys hyn fel y canlyn:—yr oedd teyrnasiad y bugeiliaid yn parhau, yn ol Manetho, 511 o flyneddoedd; ac nid oes ammheuaeth nad oeddynt yn terfynu tuag amser ymadawiad Israel o'r Aipht.

| | | |
|---|---|---|
| Yn ol Dr. Hales, yr oedd yr ymadawiad yn | 1648 | C.C. |
| Hyd teyrnasiad y bugeiliaid | 511 | „ |
| Dechreuad teyrnasiad y bugeiliaid | 2159 | „ |
| Genedigaeth Abraham | 2153 | „ |

Y mae yn amlwg, gan hyny, pa ham nad oedd Abraham yn wrthddrych dirmyg am ei fod yn fugail.

Ond yn amser Ioseph, yr oedd y teimlad yn hollol wahanol; yr oedd bugeiliaid yn wrthddrych eu ffieidd-dra. Ac y mae y gwirionedd hwn yn cael ei dystio gan gannoedd o ddarluniadau a geir ar furiau yr Aipht. I ddangos eu dirmyg o honynt, yr oedd y cerfwyr yn ymhyfrydu eu dangos yn mhob ystum a diwyg gwaradwyddus. Weithiau, darlunient hwy fel y gwnaent gaethion rhyfel, dan wadnau eu sandalau; er mwyn dangos eu dirmyg gwastadol trwy eu sathru dan eu traed. Gwelir oddi wrth hyn mai "ffieidd-dra" yr Aiphtiaid oeddynt. Ond pa ham y mae y gwahaniaeth teimlad hwn rhwng amser Abraham ac Ioseph? Ychydig cyn gwerthiad Ioseph yn gaethwas i'r Aipht, yr oedd yr *Hyksos* (y breninoedd bugeiliol) wedi eu halltudio o'u hamddiffynfeydd diweddaf, a'r breninoedd gwreiddiol wedi ail ennill eu hawdurdod. Nid oedd hyn yn anfantais i Ioseph; o herwydd ni allasai neb wybod yn yr Aipht ei fod ef yn fachgen i fugail: aeth yno yn ieuanc, a thyfodd i fyny yn eu mysg fel Aiphtwr. Ni wyddai neb yn amgen, nes i'r newydd gael ei sibrwd yn y llys fod brodyr Ioseph wedi dyfod. Y mae hyn oll yn wiriad amlwg o'r hanes sanctaidd. Dyma ffaith yn cael ei grybwyll yn yr hanes, heb ddim i'w hesbonio; ond y mae traddodiadau Aiphtaidd yn egluro yr achos o hyny, ac y mae y cwbl yn cydamseru â'r hyn a ddywedir yn y Beibl.

Y mae Manetho hefyd, yn y gweddillion o'i hanes sydd i'w cael, yn crybwyll am Moses wrth ei enw, gan ddywedyd ei fod o genedl wahanol i'r Aiphtiaid—ei fod wedi bod yn byw yno, iddo ddysgu ei genedl i ymwrthod âg eilunaddoliaeth, ac iddo ef a hwythau adael yr Aipht. Fel hyn yr oedd y gweithredoedd nerthol a wnaeth yr Arglwydd yn yr Aipht i'w bobl wedi ymgymmysgu â'u traddodiadau, ac wedi cael lle yn eu hanes.

Mae yn yr erthygl hon eisoes luaws o anghreifftiau o gadarnhad i gyfeiriadau a chrybwylliadau Ysgrythyrol oddi wrth ymchwiliadau diweddar: ni wnawn ond cyfeirio at ychydig eto o'r unrhyw. Yr oedd lliw yr Aiphtiaid yr un a'r Coptiaid presennol—yn felynddu, ac yn dywyllach na lliw trigolion Arabia a Phalestina. Y mae hyn yn gadarnhad i *Gen*. xii. 10, &c., lle y dywedir mai gwraig lân *(fair)* oedd Sarah, o'i chymharu â'r Aiphtiaid; ac y mae yr un flaenoriaeth yn cael ei roddi yn awr ganddynt i fenywod o liw goleu. Yr oedd yr Aipht yn meddu ar ddaiar a hinsawdd briodol i gynnyrchu ŷd; ond ar y gorllewin iddi, yr oedd anialwch tywodlyd; ar y dwyrain, tiriogaeth greigiog. Nid ydyw Palestina yn wlad ŷd—oddigerth y rhan ogleddol, sef Galilea; ac y mae yr anialwch Arabaidd rhyngddi a gwastadedd ffrwythlawn Mesopotamia. I'r Aipht, gan hyny, y byddai trigolion gwledydd pellenig yn dyfod yn amser newyn. Mor rymus y mae hyn yn egluro geiriau Moses!—"A daeth yr holl wledydd i'r Aipht at Ioseph i brynu ŷd;" *Gen*. xli. 57. Y mae yr un amgylchiad yn dangos doethineb Ioseph yn rhagbarotoi ar gyfer amser newyn; ac hefyd yn esbonio pa ham yr aeth ei frodyr i'r Aipht. Y mae darluniad wedi ei gael yn Benihapan o'r trysordai ŷd y byddid yn arferol eu gwneuthur; y rhai hefyd a wnaeth Ioseph *(Gen*. xli. 48, 56). Y maent wedi eu hadeiladu o briddfeini, ar lun pobty, gydag agoriad yn y pen uchaf i dywallt yr ŷd iddynt, a math o ganad yn yr ochr i'w ollwng allan. Y mae y cofadeiladau yn dangos mor ofalus y byddai pobyddion yr Aipht yn parotoi pob math o fwydydd; ac felly, yn egluro *Gen*. xl. 1, 17. Mae anffyddwyr wedi haeru yn ddiweddar nad oedd yr Aipht yn cynnyrchu gwin; ac felly, fod *Gen*. xl. 9—11, a'r cyfeiriad yn *Num*. xx. 5, yn anghywir. Ond y mae beddrod Eimai, yn Gizeh, yn cynnwys darluniad cyflawn o ddull tyfiant a diwylliad y winwydden, ac o wneuthuriad y gwin, ac felly, yn gosod geirwiredd yr Ysgrythyrau allan o ddadl.

Yr oedd priddfeini o hynafiaeth mawr yn yr Aipht; ac, yn ol yr Ysgrythyrau, yr oeddynt yn wneuthuredig o wellt yn gymmysg â chlai. Yn unol â hyn, dygodd Rosellini briddfeini o Thebes, ac arnynt arwyddair neu *stamp* Thothmes IV, y pummed brenin o'r ddeunawfed llinach. Am y priddfeini hyn, dywed Rosellini, "Y mae priddfeini y cyfnod hwn i'w cael, bob amser, wedi eu cymmysgu â gwellt." Dyfyna Hengstenberg eiriau Prokesch, yr hwn a ddywed, "Y mae priddfeini y pyramid cyntaf yn Dadhoor wedi eu gwneyd o glai y Nilus, yn gymmysgedig â gwellt toredig, yr hwn sydd o barhad dirfawr." Un o'r darluniadau gwerthfawrocaf a gafwyd yn yr Aipht o gwbl ydyw un a gafwyd gan Rosellini yn Thebes; ac y mae efe yn galw ei eglurhad o'r darlun hwn yn "esboniad o ddarlun sydd yn arddangos yr Hebreaid fel yr oeddynt yn gwneuthur priddfeini." Y mae y darlun hwn yn gynnwysedig o nifer o ddynion; rhai yn cario y clai, ereill yn ei gymmysgu â gwellt, ereill yn cymmeryd y priddfeini o'r moldiau, ereill yn eu cario wedi eu gorphen ar eu hysgwyddau. Y mae annhebyg-

olrwydd y dynion i'r Aiphtiaid i'w weled ar unwaith. Y mae eu lliw, llun eu hwynebau, a'u barf, yn dangos ar unwaith mai Hebreaid ydynt. Uwch ben y darlun, mewn geiriau arwyddluniol, dywedir, "Caethion a ddygwyd gan ei fawrhydi i adeiladu teml y Duw mawr." Y mae pwysigrwydd y darlun hwn, fel arddangosiad gweledig o wirionedd Llyfr Exodus, wedi tynu sylw mawr. Y mae rhai wedi ammheu ei ddiffuantrwydd; ond y mae barn ddiduedd Syr Gardner Wilkinson, yr hwn sydd wedi chwilio eilwaith i'r mater, wedi penderfynu o blaid ei hynafiaeth; ac y mae y farn hon yn fwy boddhaol, o gymmaint ag nad ydyw Syr G. W. yn benderfynol mai darluniad o'r Hebreaid ydyw. Ond etto, dywed, "Y mae yn hynod gweled caethion dyeithr yn gwneyd yr un gwaith, yn cael eu harolygu gan 'feistriaid gwaith,' a'r cwbl fel y darlunir yr Hebreaid." Ond y mae yr ymchwilwyr manylaf wedi dyfod i'r penderfyniad mai darlun o'r Hebreaid ydyw; megys Rosellini, Hengstenberg, Osborn, Kitto, a Hawks. Gwel PRIDDFEINI.

Er mwyn dangos y ffrwd o oleuni y mae darganfyddiadau o'r natur hyn wedi ei daflu ar yr Ysgrythyrau, byddai yn angenrheidiol cyfeirio at bob adnod, yn mron, sydd yn cyffwrdd â'r Aipht. Dylid cofio nad yw gwirionedd y Beibl yn ymddibynu ar y profion y gellir eu dwyn o'r cofadeiladau hyn. Pe na byddai un cofadail yn y wlad hono, ni effeithiai hyny ddim ar wiredd a diffuantrwydd yr Hen Destament; ond gan fod y fath gofadeiladau, a chan eu bod yn egluro yr Ysgrythyrau mewn cynnifer o gyfeiriadau, dylem eu defnyddio yn ddiolchgar i'r perwyl hyny. Y mae ymchwiliadau trwyadl a hirfaith, bellach, wedi casglu digonedd o ddefnyddiau i egluro y mater dan sylw, o ba rai yr ydym wedi cynnysgaeddu ein darllenwyr âg ychydig o enghreifftiau. Yn chwanegol at y llyfrau y cyfeiriwyd atynt mor fynych, y mae *Egypt a Witness for the Bible*, gan Dr. Hawks, yn llyfr gwerthfawr: gwel hefyd wahanol erthyglau dan y geiriau ereill yn y gwaith hwn, heb law y rhai y cyfeiriwyd atynt eisoes:—GENESIS; EXODUS; NILUS; PUM LLYFR MOSES, &c. Gwel 100 L.

AKTISTETIAID, [*a κτιζω, aktistetæ*]: plaid o'r Monophysiaid yn y chweched ganrif, y rhai a ddalient nad corph crëedig oedd gan Grist. Gelwid hwy weithiau yn Niobiaid, ar ol eu blaenor Stephanus, a gyfenwid Niobes, dysgawdwr areithyddiaeth yn Alexandria. Gwel MONOPHYSIAID.

ALABASTER, [ἀλάβαστρον]: gleinfaen hardd a gwerthfawr. Yn *Est.* i. 6, darllenwn, "Y gwelyau oedd o aur ac arian, ar balmant o faen grisial, a marmor, ac alabaster, ac iasinct." Yn y Saesoneg—"The beds were of gold and silver, upon a pavement of red, and blue and white, and black marble:" ac ar ymyl y ddalen, "of porphyre, and marble and alabaster, and stone of blue colour." Yn *Mat.* xxvi. 7, a *Marc* xiv. 3, cyfieithir ἀλάβαστρον μύρου yn Gymraeg, "blwch o enaint;" yn y Saesoneg, "alabaster box of ointment."

Rhoddid yr enw *alabastra* ar lestri bychain a ddefnyddid gynt i ddal olew ac enaint perarogl. Yr oeddynt yn gyfansoddedig o faen gwyn, caled, a phrydferth, o'r hwn yr oedd chwareli yn yr Aipht; ac yr oedd llawer iawn o'r llestri hyn yn cael eu gwneyd yn Alabastron, yr hon oedd ddinas yn yr Aipht, yn agos i'r cloddfeydd; ac oddi wrth y ddinas hon y cafodd y llestri yr enw *alabastra.*

Rhoddir yr enw *alabaster* yn awr i ddefnydd arall, sef *gypsum*—glyfaen; o'r hwn y gwneir llestri cyffelyb i'r rhai a wneir â'r maen alabaster; ond nid ydynt yn agos mor galed, nac mor werthfawr.

Cawn hefyd fod yr enw *alabastra* yn cael ei roddi ar lestri o aur, ac arian, ac ifori, pa rai a ddefnyddid i ddal peraroglau.

Y dull cyffredin fyddai ar y llestri hyn, oedd crwn yn y corph, a gwddf main hir; ac o blegid hyn, nis gellid yn fuan arllwys eu cynnwys; ac y mae hyn yn esbonio i ni pa ham y darfu i Mair dori y blwch—gwnaeth hyny i hwyluso rhediad yr olew ar ben ein Harglwydd bendigedig. Yr oedd ei chalon mor lawn o gariad tuag ato, fel nas gallasai aros rhediad arafaidd yr olew trwy wddf main y blwch; ac yr oedd yn foddlawn i wastraffu yr enaint a dryllio y blwch, i'r dyben o amlygu ei chariad mawr tuag at yr Arglwydd Iesu.

ALAETH, [*al-aeth: al*, banyn yn eangu yr ystyr; ac *aeth*]: tristwch, gofid, galar, wylofain, cwynofain, ubain: *Ier.* xlix. 3.

ALAI, [אהלי]: merch Sesan, yr hon a briododd Aiphtiad o'r enw Iarha, yr hwn oedd yn ngwasanaeth ei thad: ac ymddengys ei bod yn hen nain i un o gedyrn Dafydd, o'r enw Zabad: 1 *Cron.* ii. 31, 34—36; a xi. 41.

ALAMMELECH, [אלמלך, *Duw sydd Frenin*]: dinas yn perthyn i lwyth Aser: *Ios.* xix. 26.

1. ALAMETH, ALEMETH, [עלמה, *cuddiad*, neu *cuddiedig*]: mab Becher, mab Beniamin: 1 *Cron.* vii. 8.

2. ALEMETH: mab Iehoadah, mab Ahaz, mab Micah, mab Meribbaal, mab Ionathan, mab "Saul fab Cis," o lwyth Beniamin: 1 *Cron.* viii. 36.

3. ALEMETH: dinas yn perthyn i lwyth Beniamin, a roddwyd i'r offeiriaid. Tybir y safai yn agos i Anathoth; a chafodd ei henw, fe allai, oddi wrth Alemeth, fab Becher, neu fab Iehoadah: 1 *Cron.* vi. 60. Fe'i gelwir hefyd *Almon* yn *Ios.* xxi. 18: ac fe dybygir mai yr un ddinas oedd a Bahurim: 2 *Sam.* iii. 16. Gwel ALMON.—(*Wood's Dict.*, d.g. *Alemeth.*)

ALAMOTH: math o offeryn cerdd, ar yr hwn yr efelychid llemsain gwyryfon: 1 *Cron.* xv. 20.

ALARWM. Gwel LARWM.

ALASCANIAID, ALASCIAID, [*Alascani*]: canlynwyr John Alasco, esgob Pabaidd Polandaidd, ac ewythr brenin Poland; yr hwn, o blegid y coleddiai egwyddorion y Diwygiad, a ddaeth i Brydain yn nheyrnasiad Edward VI., ac a gyfrifwyd yn mysg ein diwygwyr ni; a pherchid ef yn fawr ganddynt, er y dywedir ei fod yn gwahaniaethu oddi wrthynt yn nghymmhwysiad y geiriau, "Hwn yw fy nghorph," at y *ddwy* elfen yn y sacrament. Efe oedd arolygydd yr Eglwys Isdiraidd gyntaf yn Austin Friars, gyda phedwar o weinidogion cynnorthwyol. Bu farw yn y flwyddyn 1560, ac y mae yn debyg i'w olygiadau neillduol farw gydag ef.—(*Ency. Perth.; Robinson's Dict.*)

Digitized by Google

ALBAN: y Cristion cyntaf y meddwn hanes am dano iddo ddyoddef merthyrdod yn Ynys Prydain, oedd yn frodor o'r ddinas Rufeinaidd, Verulam, yr hon yn awr, er anrhydedd i'w goffadwriaeth ef, a elwir *St. Albans:* yno, dybygid, y ganwyd ef, tua chanol y drydedd ganrif. Mae Matthew o Westminster, Thomas o Walsingham, ac amryw hen awdwyr ereill, yn tystio mai Cymry oedd ei rieni; ond y mae haneswyr ereill yn haeru mai o deulu Rhufeinaidd yr hanodd. Efallai fod y naill a'r llall yn gywir mewn rhan; canys nid oedd yn beth anghyffredin yn yr oesoedd hyny i rai o ddinaswyr anrhydeddusaf Rhufain ymgymmysgu trwy briodas â changenau o deuluoedd pendefigaidd a thywysogaidd Cymru, neu gynfrodorion Prydain. Pa fodd bynag, fe ymddengys ei fod yn hanu o dylwyth anrhydeddus: ac fe'n hysbysir iddo fyned pan yn ieuanc i Rufain, a gwasanaethu o hono saith mlynedd yn myddinoedd yr ymherawdwr Diocletian; a'r pryd hwnw, efallai, y cymmerodd efe yr enw Lladinaidd, Albanus, arno ei hun.

Wedi dychwelyd adref, efe a ymsefydlodd yn ei ddinas frodorol, Verulam, lle y bu yn trigo dros ysbaid mewn heddwch, ac yn fawr ei barch gan bawb a'i hadwaenai, fel dinesydd anrhydeddus, ac enwog am ei lettygarwch. Ond nid yw yn ymddangos, oddi wrth yr ychydig grybwyllion a feddwn ni am dano, er gloewed y gallai ei nodwedd fod fel dinesydd, ei fod hyd yn hyn wedi rhoddi nemawr o'i sylw ar Gristionogaeth.

Pa fodd bynag, wedi i Diocletian a'i gyd-ymherawdwr Macsen Erclwff, yr hwn oedd elyn creulonach na'r llall at Gristionogaeth, lwyddo i ddarostwng y gwrthryfeloedd a dorasant allan mewn amryfal daleithiau o'r ymherodraeth, cyhoeddent gyfreithiau tra gorthrymus ar y Cristionogion, gan orchymyn distrywio eu holl addoldai, llosgi eu holl lyfrau crefyddol, a'u difuddio o'u holl ragorfreintiau dinesig: ac yn fuan wedi hyn, gorchymynid carcharu holl weinidogion yr Eglwys Gristionogol, ac ymddwyn tuag atynt megys drwgweithredwyr: a phan welwyd nad oedd hyn oll yn ddigonol i beri i Gristionogaeth lwyr wywo, awdurdodwyd y swyddogion gwladol trwy yr holl daleithiau i arferyd pob rhyw greulonderau i beri i'r gweinidogion wadu eu proffes o Gristionogaeth, ac aberthu i'r eilunod, gan hyderu, os gellid llwyddo i gael gan y bugeiliaid wneuthur felly, na fyddai yn anhawdd cael gan y praidd ddilyn eu hesamplau hwynt. Y canlyniad o gyhoeddiad y deddfau gorthrymus hyn a fu i luaws mawr o'r dynion mwyaf enwog mewn duwioldeb a dysgeidiaeth gael eu merthyru yn y modd creulonaf, mewn amrywiol ranau o'r ymherodraeth. A phan welwyd fod cynnifer o filoedd o Gristionogion yn parhau eto yn ddianwadal yn eu proffes Gristionogol, rhoddwyd gorchymyn cyhoeddus i'r holl swyddogion gwladol, yn mhob talaeth o'r ymherodraeth, i gymhell Cristionogion o bob rhyw a sefyllfa i aberthu i'r eilunod; ac os gommeddent, i'w rhoddi oll i farwolaeth yn y modd creulonaf.

Mewn canlyniad i'r gorchymyn hwn, torodd yr erlidigaeth allan yn Mhrydain hefyd; a chafodd Cristionogion Cymru, fel ereill, brofi yn lled helaeth oddi wrth ei llymder; fel y dywed Jeffrey o Fynwy, fod Cristionogaeth, trwy yr erlidigaeth hon, wedi ei llwyr ddileu o'r bron oddi ar holl wyneb yr ynys. Ac y mae Richard o Cirencester yn dywedyd i gynnifer a 17,000 o Gristionogion gael eu merthyru o fewn ystod mis.

Tra yr oedd yr erlidigaeth hon yn ennyn yn ofnadwy yn yr ynys, deuai un o weinidogion Caerlleon ar Wysg ar ffo i Verulam, a chafodd loches ddiogel dros beth amser yn nhy Alban; yr hwn, wedi clywed ei weddïau taerion ddydd a nos, a sylwi ar ei ymarweddiad sanctaidd a'i ymddyddanion grasol, a ennillwyd i gofleidio y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. Y mae haneswyr yn gyffredin yn galw y ffoadur crybwylledig yn Amphibalus: ond gan fod y gair yn arwyddo y wisg hirllaes a wisgid gan athrawon crefyddol yr oesoedd boreuol hyny, bernir mai enw dynodawl o'i swydd ydoedd, yn hytrach na'i enw personol.

Pan ddeallodd y swyddogion Rhufeinaidd fod gweinidog Cristionogol yn cael ei lochesu yn nhy Alban, hwy a anfonasant filwyr i'w ddal ef: ond Alban, wedi ei rybuddio am eu dyfodiad, yn lle ei fradychu i'w dwylaw, a roddodd y wisg offeiriadol am dano ei hunan, ac a aeth allan i'w cyfarfod, y rhai, gan feddwl mai efe oedd y gweinidog y daethant i'w ymofyn, a'i dygasant at y barnwr, yr hwn oedd ar y pryd yn aberthu i'r eilunod. Pan welodd y barnwr Alban, efe a'i adnabu yn y fan; ac wedi ymlenwi o ddigofaint o herwydd iddo dwyllo y milwyr yn y fath fodd, ac felly rwyddhau ffoedigaeth y gweinidog Cristionogol, efe a ddywedodd wrtho: "Yn gymmaint ag na thraddodaist i'r milwyr gablwr ein duwiau, i gael ei gospi yn ol ei haeddiant, gwel y gospedigaeth a gei dithau, os gwrthodi roddi addoliad i'n duwiau ni."

Ond Alban, yn gadarn yn y ffydd, a safodd yn ddi-gryn ger bron y barnwr, ac a addefodd yn ddibetrus mai addolwr yr unig wir Dduw oedd efe, ac mai y Duw byw, yr hwn a wnaeth nef a daiar, yn unig a wasanaethai efe: ac a chwanegodd, nad oedd efe yn cyfrif addoli eilunod meirwon yn ddim amgen nag ynfydrwydd pechadurus, a fyddai yn sicr o derfynu mewn dinystr tragywyddol. Yna y barnwr yn ddigllawn a orchymynodd fflangellu Alban, gan dybied y gallasai fflangellau fod yn fwy effeithiol na geiriau i'w ddwyn yn ol at yr hen grefydd; ond pan welodd y barnwr nad oedd obaith iddo allu siglo ffydd Alban trwy deg na hagr, efe a orchymynodd ei ddienyddio. Y swyddog appwyntiedig i'w ddienyddio, wrth sylwi ar gadernid ffydd a thaerni gweddïau Alban, a argyhoeddwyd; a chan daflu ei gleddyf o'i law, efe a syrthiodd wrth ei draed, ac a ddeisyfodd gael marw gydag ef, neu yn ei le, yn hytrach na bod yn euog o dywallt gwaed gwirion. Daliwyd yr holl filwyr â syndod wrth weled hyn; ond un o'r rhai mwyaf dideimlad o honynt, gan ymaflyd yn y cleddyf, a dorodd ben Alban dduwiol âg ef.

Cafodd llawer o drigolion Verulam eu dychwelyd i'r ffydd Gristionogol yr amser hwnw; a chan na allasent wneuthur proffes gyhoeddus o'u ffydd yn Nghrist yn Verulam, hwy a benderfynasant fyned ar ol y gweinidog duwiol a grybwyllwyd i barthau gorllewinol yr ynys, lle yr enciliasai efe ar ferthyrdod Alban; ond pan gychwynasant, byddin o'u cymmydogion paganaidd a'u dilynasant, a'u goddiweddasant, ac a'u lladdasant: ac wedi dal y gweinidog, dygasant ef yn ol hyd yn agos i Verulam, o fewn tua thair milltir, lle y rhoddwyd yntau i farwolaeth. Yn agos i'r un amser y cafodd Aaron, neu Caron, a Julius o Gaerlleon ar Wysg, ac Augulius, esgob Llundain, eu merthyru, a llawer ereill, y rhai ni chadwyd eu henwau ar gof hyd y pryd hwn: ond y mae yn ddiammheuol, pe buasai hanes Prydain dan deyrnasiad Diocletian a Macsen Erclwff, wedi ei gadw

Digitized by Google

yn lled gyflawn, y gwelsem amryw anghreifftiau o ferthyrdod a dyoddefaint o'r un natur a'r un a grybwyllwyd uchod. Ac am fod yr ychydig hysbysiad a gawn ni gan Gildas yn mynegu ddarfod i'r Cristionogion orfod "ffoi i'r coedydd a'r lleoedd anial, a'r ogofeydd celedig," y mae yn ddilys y buasai genym yr awr hon goffadwriaeth am ddefnyddiad amryw leoedd adnabyddus yn ein plith i'r cyfryw ddiogeliad. Nid yw yn ymddangos ddarfod i'r erlidigaeth hon barhau oddi ar flwyddyn a hanner, neu ddwy flynedd, yn Mhrydain; canys hyd oni ddarostyngwyd y trawsfeddiannydd Carausius, a'i raglaw Alectus, ni allesid rhoddi cyfreithiau gwaedlyd Diocletian a Macsen mewn gweithrediad yma; ac er na allai Custeint Clorus lai na gweini cyfreithiau ei uchafiaid tra yr oedd yn rhaglaw yr ynys, y mae cymmaint ag a wyddom am ei natur dyner a haelfrydig yn ein tueddu i farnu iddo osod terfyn ar yr erlidigaeth, o fewn ei ran ei hunan o'r ymherodraeth, mor fuan ag y gellid wedi ei esgyniad i'r orsedd ymherodrol.

Gallem feddwl fod rhyw gofion tywyll am yr erlidigaeth hon yn aros eto yn nhraddodiadau lleol rhai parthau o Gymru. Y mae ogof fawr yn y graig, ger llaw Llangatwg, Crughywel, yn sir Frycheiniog, a elwir Eglwys Faen; yn yr hon y barnai y Parch. T. Price y cyfarfyddai y Cristionogion erlidiedig hyn i gynnal gwasanaeth crefyddol ar y tymmor crybwylledig. Ac wrth odreu y Mynydd Mawr, yn Arfon, y mae lle a elwir Cwm Cerwin, yn agos i ymyl yr hen fford Rufeinig a arweiniai o Ddinas Dinlle i Ddinas Emrys; a thraddodiad lleol yn gyssylltiedig â hi, yr arferai y Rhufeiniaid ferthyru Cristionogion yno, trwy eu rhoddi mewn barilau, i'r rhai y gyrasid picellau llymion, a'u gollwng i dreiglo i waered ar hyd y llethr; ac yn gyfagos i'r lle y mae olion hen orsedd Rufeinig, lle ond odid yr eisteddid mewn barn arnynt, cyn eu harwain i'r dienyddle. Y mae lle arall a elwir Nant Dienydd, ar gyffiniau plwyfydd Llanddona a Llanfihangel, yn Môn, ag y mae y cyffelyb draddodiad yn gyssylltiedig âg ef: ac y mae yno hen orsaf Rufeinig, a elwir Dinsylwy, ger llaw, a bryncyn crwn, a elwir Pen yr orsedd, rhwng hyny a'r dienyddle. Efallai fod llawer o'r cyfryw leoedd mewn rhanau ereill o'r Dywysogaeth, y rhai na chafwyd cyfleusdra i ddyfod i ymgydnabyddiaeth â hwy.

Chwanegai y mynachod Pabaidd amryw ffugchwedlau at hanes merthyrdod Alban, yr hwn hefyd a ddarlunient fel un o saint eu blwyddiadur, cofwyl yr hwn a gadwent ar y 10fed o Orphenaf. Dywed Bede, fod y lle y dienyddiwyd ef ychydig y tu allan i dref Verulam, a bod yn rhaid croesi yr afon i ddyfod i'r lle; ond bod y dyrfa a ymgasglasai i fod yn dystion o'i ferthyrdod mor fawr, ac awydd y merthyr am selio y gwirionedd â'i waed mor fawr, fel gan fod y bont yn rhy gyfyng i'r lluaws fyned drwyddi yn rhwydd, y dyrchafai ei olygon tua'r nef mewn gweddi; ac mewn atebiad i'w weddi, i ddyfroedd yr afon ymranu, fel y gallai y dyrfa fyned drwyddi yn droedsych; ac mai y wyrth hon a effeithiai ar y dienyddwr nes peri iddo daflu y cleddyf o'i law, a gommedd gweinyddu ei swydd. Dywedir hefyd i ffynnon ymagor ar ben bryn y dienyddiad mewn atebiad i'w weddi, er tori ei syched; ac yna, ddarfod iddi ddiflanu o'r golwg. Chwanegir ddarfod i'r milwr a wrthodai ei ddienyddio gael ei roddi i farwolaeth am hyny; ac i'r milwr a gyflawnodd y ddedfryd gael ei daraw â dallineb. Ac wrth gymharu adroddiad dysyml y ffaith gan yr hen hanesydd Cymraeg, Gildas, yr hwn a ysgrifenai yn y chweched ganrif, â'r adroddiad a geir gan yr hanesydd Saxonaidd, yr hwn a ysgrifenai yn yr wythfed ganrif, gwelwn gymmaint y ffynai hygoeledd Pabaidd yn y cyfnod crybwylledig.—*(Geoffrey of Monmouth's British History; Gildas; Horæ Britannicæ; Hanes Cymru, gan y Parch. T. Price; Fuller's Church History; Usher de Brit. Eccles.)*

**ALBANIENSIAID, ALBANIAID** [*Albanois*]. Yr oeddynt yn debyg i ryw weddillion o'r Manicheaid henafol, a ganfyddwyd yn Albania, yn yr wythfed ganrif. Gwel MANICHEAID.

**ALBATIAID**, [*Albati*, o'r Llad. *albus*, gwyn]: meudwyaid, yn niwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, y rhai a wisgent ddillad gwynion hirllaes; oddi wrth ba rai y cawsant yr enw.

**ALBIGENSIAID**: oeddynt blaid o Gristionogion diwygiadol, a fu yn ac o gylch Toulouse, Provence, ac Albigeois, yn Languedoc, yn mharth deheuol Ffrainc. Adwaenid hwy wrth enwau gwahanol i hwn, yn y parthau hyny, yn mhell cyn iddynt gael eu galw yn Albigensiaid; megys, Cathariaid, yr hyn a arwydda Puritaniaid, Paterniaid, Bulgariaid, a Paulicaniaid. Paulicaniaid oedd yr enw mwyaf cyffredin a fabwysiadent hwy eu hunain, mewn cyfeiriad at blaid luosog o'r enw hwn yn y dwyrain, oddi wrth ba rai y tybient hwy eu bod wedi tarddu ar y cyntaf. Dywedir fod llawer o'u brodyr wedi dyoddef eu llosgi yn achos eu crefydd o dan yr enw hwn, yn Orleans, yn Ffrainc, drwy orchymyn Robert y brenin, yn y flwyddyn 1017. Nid yw yn annhebyg nad yn Albigeois—talaeth rhwng yr afonydd Garonne a Rhine—y darfu i'r rhai cyntaf o honynt ymddangos a dechreu lledaenu eu hegwyddorion, a bod y rhai hyn, a fu eu dechreuad, yn encilwyr o Bulgaria, rhwng y nawfed a dechreu y ddegfed ganrif. Gwelir eu bod wedi dyfod o dan sylw cynghorfäau a chynnadleddau taleithiol yr Eglwys Babaidd, yn Toulouse, yn y flwyddyn 1119; yn Lombez, yn y flwyddyn 1176; a chymmanfaoedd cyffredinol y Lateran, yn y flwyddyn 1139, ac yn y flwyddyn 1176; pan y dedfrydwyd hwy yn hereticiaid wrth y gwahanol enwau uchod. Dywedai Mr. Perrin, hanesydd boreuol a manwl iawn, o barth iddynt, ei fod ef ei hun wedi gweled y Testament Newydd wedi ei ysgrifenu yn iaith y Valence, mewn hen lythyrenau ar groen, ag oedd yn eiddo i un o honynt, yn y flwyddyn 1120; a llyfr arall, yr hwn a gynnwysai atebiad i'r gofyniad, "Pa beth yw Anghrist?" wedi ei ysgrifenu yn dra rhagorol, mewn ffordd o brydyddiaeth, ag oedd wedi ei gyfansoddi a'i ysgrifenu tua'r amser uchod. Tua y flwyddyn 1254, daethant yn adnabyddus yn gyffredin wrth yr enw Albigensiaid; wedi i luaws lled fawr ddyfod i breswylio o amgylch i ddinas a elwid Alby, yn neheubarth Ffrainc, ac i iarll y lle hwnw ymuno â hwy a'u pleidio. Bernir gan rai nad oeddynt hwy yr un bobl a'r Waldensiaid neu Vaudois, a breswylient yn nyffrynoedd Piedmont, a'u bod yn bobl wahanol o ran eu hegwyddorion a'u daliadau crefyddol. Ond y mae hyn yn gamgymmeriad hollol, fel y gellir meddwl yn ngwyneb hanesiaeth deg; canys cydnabyddid hwy gan eu gelynion yn un o ran eu hegwyddorion, eu daliadau, a'u hymarferiadau crefyddol, ac fel dwy gangen wedi tarddu o'r un cyff; a dywedir gan

Digitized by Google

haneswyr, sydd wedi chwilio fanylaf i'w hanes, fod y ddau enwad yn proffesu yr un athrawiaethau, ac yn gweini eu dysgyblaeth eglwysig yn gwbl yr un modd. Ystyriai yr Albigensiaid eu hunain eu bod yn tarddu oddi wrth yr un gwreiddyn, ac yn un yn eu hegwyddorion a'r Waldensiaid—eu bod hwy a hwythau wedi derbyn eu hegwyddorion ar y cyntaf er ys cannoedd o flyneddoedd oddi wrth ddyeithriaid a ddaethant i breswylio y gwledydd hyn o'r dwyrain, ac mai Paulicaniaid oedd yr enw y gelwid eu hynafiaid wrtho, ac mai peth amgylchiadol oedd yr enwau y gelwid hwy arnynt y pryd hyny. Renerius Saccho, yr hwn oedd yn ddyn o alluoedd cryfion, a fu unwaith yn un o honynt tua dechreu y drydedd ganrif ar ddeg, ond efe a'u gadawodd, ac a drodd yn elyn ac yn fradychwr iddynt. Am hyn, gwnaeth y pab ef yn flaenor yn y chwil-lys, i'w gwrthwynebu a'u cospi: ond pan ar y pryd hwn yn flaenor y chwil-lys, y mae yn dwyn tystiolaeth uchel am eu cymmeriad yn mhob peth, ond eu bod y gwrthwynebwyr gwaethaf o neb i'r Eglwys Gatholig, fel y geilw ef hi; ac y mae yn hawdd i ni gredu yr hyn a ddywed am eu rhinwedd, o blegid ei fod yn elyn calon iddynt. Fe ddywed mai hwy, o bob hereticiaid a gododd yn erbyn yr eglwys, oedd y rhai gwaethaf. "Yn 1. Hwy ydyw y rhai hynaf. Dywedir gan rai," medd ef, "eu bod er dyddiau yr apostolion: ereill a ddywed eu bod er amser Sylvester, esgob Rhufain, yn nechreu y bedwaredd ganrif: ond y mae yn sicr genyf eu bod yn bodoli bum can mlynedd cyn amser Peter Waldo, yn y ddeuddegfed ganrif. 2. Y maent hwy," medd efe, "yn lliosocach na neb gwrthwynebwyr ereill a gyfarfu yr eglwys o'r blaen. Byddai ereill mewn rhyw le neu dalaeth neillduol, eithr y maent hwy wedi ymdaenu dros bob gwlad, yn mhob dinas a thref; ac nid oes braidd un gongl o wlad nad ydynt hwy ynddi. 3. Nid ydynt yn peri eu harswyd a'u dychryn ar ddynion, fel y mae hereticiaid ereill yn gwneuthur; canys byddai hereticiaid ereill, yn gyffredin, yn proffesu rhyw egwyddorion mor ddrwg a chyfeiliornus am grefydd, ac yn byw mor ansanctaidd a halogedig, nes y byddai pobloedd yn eu harswydo. Eithr y maent hwy mor gywir eu golygiadau am Dduw, ac ar holl erthyglau Cristionogaeth, ac yn arwain bywyd mor rinweddol, duwiol, a chyflawn, fel y maent yn ennill cymmeradwyaeth a pharch holl drigolion y gwledydd. Ni thwyllant neb am ddim, ni ormesant neb, ni ddywedant gelwydd wrth neb, ni thyngant, ac ni regant; eithr talant dda am ddrwg, ac nid attaliant oddi wrth neb eu hiawnderau. Nid oes i'w osod yn eu herbyn, ond eu bod yn erbyn yr Eglwys Gatholig—yn dyweyd yn ddrwg am dani, ac yn ei gosod allan fel y butain fawr, yn lle bod yn eglwys Crist, ac yn fam i holl ddrygau y gwledydd; bod yr offeiriaid y dynion gwaethaf a mwyaf niweidiol o bawb i lesiant yr holl wledydd lle maent; a hawdd iawn gan y bobl eu credu am danynt yn y pethau hyn. Un o'r gwersi cyntaf," meddai, "y maent yn eu dysgu i'w dysgyblion ieuainc, ydyw, dysgu pa fath rai ydyw gwir ddysgyblion Iesu Grist i fod; a gwnant hyn allan o athrawiaeth Crist ei hun, a geiriau ei apostolion, gan ddangos iddynt mai y rhai sydd yn ymdebygoli fwyaf iddynt mewn athrawiaeth a sancteiddrwydd buchedd a bywyd ydyw eu holynwyr. Dangosant yn ngwyneb hyn, na ddichon pabau Rhufain, yr esgobion, a'r offeiriaid, sydd yn ymroddi i'r byd, gan ddefnyddio pob peth y deuant o hyd iddo i chwanegu eu cyfoeth, eu rhwysg, eu hanrhydedd bydol, a dwyn yn mlaen eu trais, eu gormes, a'u creulondeb yn erbyn ereill, byth fod yn rhodio yn ol athrawiaeth ac esamplau yr apostolion, tra felly; gan hyny, nad ydynt yn wir fugeiliaid a blaenoriaid eglwys Crist. 'Yr ydym yn gwbl sicr,' meddant, 'nad ymddiriedodd Iesu Grist ofal ei braidd anwyl erioed i'r fath fleiddiaid a'r rhai hyn, ac nad amcanodd efe i neb o honynt wisgo y fath swydd; pa rai sydd drwy eu cyfeiliornadau echryslawn, eu bywydau aflan, a'u gweithredoedd drygionus, yn halogi a dinystrio ei eglwys ddiwair ef, yn lle ei chadw a'i meithrin yn ei phurdeb cyntefig, pan yr oedd, megys morwyn bur, heb arni na brycheuyn na chrychni.'" Un arall o flaenoriaid y chwil-lys a ddywed, mai "y prif gyhuddiadau yn eu herbyn oedd, eu bod yn sefyll dros oruchel awdurdod yr Ysgrythyrau fel unig lyfr crefydd dynion; a'u bod yn dedfrydu pob peth, mewn cred ac ymarferiadau crefyddol, nad ydyw i'w weled yn y Testament Newydd yn gyfeiliornad; a'u bod yn tystiolaethu fod gan bob dyn hawl i chwilio hwn drosto ei hun yn yr iaith y mae efe yn ei deall, ac i ymarfer yr hyn a ddysgir iddo ynddo am grefydd, yn annibynol ac yn anghyfrifol am hyny i neb dynion ereill." "Y maent," medd un arall, "yn dysgu eu plant o'u mebyd i ddarllen a chwilio yr Ysgrythyrau, fel na chyfarfyddir âg un hogyn gwladaidd, neu hogen fechan, na roddant i chwi ateb parod am yr hyn oll a ellwch ei ofyn iddynt yn nghylch y Beibl; ac y mae llawer o honynt yn medru adrodd yr holl Destament Newydd ar eu tafod leferydd. Y mae yn syndod meddwl" meddai, "fod dynion a ymddangosant mor wladaidd a thrwsgl yr olwg arnynt ag ydynt hwy yn gyffredin, yn rhai mor gyflawn mewn moesau da, ac yn medru ymddwyn mor weddus yn mhob sefyllfa ag y gwnant hwy." "Eu barbiaid," medd un arall (yr enw a elwid ar weinidogion yr Albigensiaid), "ydynt yn myned oddi amgylch o ddinas i ddinas, ac o dref i dref, ac o deulu i deulu, fel mân fasnachwyr, yn dwyn gyda hwy ryw fân nwyfau tlysion, er eu cynnyg ar werth; a phan y llwyddant i ennill sylw a ffafr y bobl drwy y rhai hyn, yna dywedant, 'Y mae genyf berl sydd lawer mwy gwerthfawr na'r rhai hyn i'w ddangos i chwi, os celwch arnaf heb fy mradychu i'r llywyddion gwladol ac eglwysig.' Wedi iddynt gael yr addewid, tynant allan y Beibl o'u llogell—*y perl gwerthfawr yw gair Duw*;—yna, darllenant ranau o hono, gan ei egluro; ac os bydd modd ganddynt, gadawant ryw ran o hono yn y teulu." Llwyddiant yr Albigensiaid a'u hymlyniad wrth yr Ysgrythyrau fu yr achlysur i'r Eglwys Babaidd wneuthur y gyfraith gyntaf erioed, yn Toulouse, yn y flwyddyn 1229, i ddedfrydu cyfleithiad o'r Ysgrythyrau i'r iaith gyssefin, i neb eu meddu a'u darllen ond yn yr hen iaith Ladinaidd, yn drosedd yn haeddu marwolaeth. Gallesid chwanegu lluaws mawr o dystiolaethau am eu cred, eu bywyd, a'u hymddygiadau, hyd yn oed o weithiau eu gwrthwynebwyr; megys, Thecasius a Mezeray haneswyr credadwy, ag oedd o'r Eglwys Babaidd, pa rai a ddywedant eu bod, o ran eu golygiadau ar athrawiaethau yr efengyl, yn debyg i'r rhai a elwid yn Galviniaid wedi hyny. Bu llawer o bregethwyr doniol a nerthol iawn yn eu gweinidogaeth y naill amser a'r llall; sef, Peter de Bruis, Henry, ac Arnold, gydag amryw ereill. Llwyddodd yr Albigensiaid am amser yn anarferol, fel yr oedd llaw yr Arglwydd yn amlwg gyda hwy; canys bernir, er cymmaint oedd y gwrthwynebiad iddynt, fod o

Digitized by Google

gylch ugain o ddinasoedd a threfydd yn neheubarth Ffrainc, wedi derbyn eu hathrawiaeth, a lluaws mawr o'r trigolion wedi dyfod i broffesu eu hegwyddorion, a llawer o'r llywyddion a'r penaethiaid wedi dyfod yn ffafriol iawn iddynt, a rhai wedi ymuno â hwy. Yn mhlith ereill ag oedd yn bleidiol iddynt, gellir enwi y pendefigion Raymond, rhaglaw Toulouse, a Roger ei nai, i'r hwn y perthynai llawer o diriogaethau, a phrif ddinas ei raglawiaeth oedd Bezier; ac iarll Alby, ac ereill yn Ffrainc, a rhai ar ororau Yspaen. Y fath lwyddiant, fel y gallesid dysgwyl, a gynhyrfodd holl lid a chynddaredd yr eglwys yn eu herbyn; ac ni adawodd ddim moddion o ysgelerder, creulondeb, neu falais, a fedrai eu dyfeisio, heb eu harferyd i'w poenydio ac i'w distrywio. Cyhoeddodd y pab, Innocent III, warantau ar ol gwarantau *(bulls)* yn eu herbyn, yn mha rai yr esgymunai hwy, a llwythai eu cymmeriad â'r enwau gwaethaf, a chyhoeddai arnynt y melldithion trymaf, a chyfeiriai y rhai hyn at holl freninoedd Ewrop, y tywysogion, y duciaid, a'r holl swyddogion gwladol, ac at yr holl archesgobion, ac esgobion, yr abadau, y mynachod, a'r offeiriaid, gan eu galw i ddyfod allan dros y ffydd Gatholig, ac achos eu Duw, a'r Eglwys Lân Gatholig—i ddarostwng, lladd, a distrywio, ac i wasgaru y rhai a ymgyfodai yn eu herbyn â'u holl nerth. Gorchymynai i bawb o'i ddeiliaid beidio rhoddi i neb o honynt un amddiffyniad nac un cymhorth mewn un modd, nac estyn iddynt un ymgeledd, pe byddai y câr agosaf iddynt, na gwneuthur iddynt un gymmwynas, nac yn fyw nac yn farw, o dan y perygl o'i anfoddlonrwydd mwyaf ef. Ond er y cwbl, nid oedd yn tycio i wneuthur y difrod a chwennychai, ac nid oedd yn llwyddo yn ei amcanion er attal llwyddiant a lledaeniad yr Albigensiaid yn neheubarth Ffrainc: canys rhai o flaenoriaid a thywysogion y taleithiau hyny oeddynt yn hwyrfrydig iawn i ymgymmeryd â'r ffieiddwaith o lofruddio eu deiliaid, er y cymhellid hwy yn daer gan yr offeiriaid yn wastadol i wneuthur hyny, pan yr oeddynt yn hollol argyhoeddedig o'u diniweidrwydd, a'u bod yn cynnwys y rhan oreu a ffyddlonaf o'u deiliaid, fel gwladwyr, yn mhob peth daionus, er nad oeddynt hwy eu hunain yn hollol ymadael â chymundeb yr Eglwys Babaidd. Ond cododd i fyny yn Yspaen, yn y cyfamser, ddyn ysgeler, o'r enw Dominic, a gynlluniodd gymdeithas a ddwg ei enw; yr hwn yn gyntaf a sefydlodd yr hyn a elwir y chwilys, yr hwn a fu y peiriant mwyaf dychrynllyd, uffernol, a chreulawn o holl ddyfeisiau uffern, i boenydio, lladd, a dyfetha dynolryw, o un a fu o'i flaen nac ar ei ol. Awdurdodwyd y llys hwn gan y pab yn y flwyddyn 1216; a gwnaeth Dominic, ei luniwr, yn llywydd iddo, mewn llawn awdurdod i chwilio am ac i garcharu y neb a allai gael gafael arnynt a fyddai o'r ffordd a alwai efe a'i gynghor yn heresi: a gallai efe, a'r rhai a drefnid ganddo, ddedfrydu, lladd, a llosgi, neu ddyfetha â'r cleddyf yn ddiarbed, bawb nad ymostyngai i drefniadau yr eglwys. Rhoddodd iddo ef a'i urdd fynachaidd awdurdod i roddi dinasoedd, trefydd, a phersonau unigol, yn mhob lle yr ewyllysient, ar eu llw i gyhuddo y neb a wyddent am danynt a fyddai o'r ffordd hono, yr hwn a elwid "llw y puredigaeth:" ac os gommeddai neb gymmeryd y llw hwn, ystyrid hyny yn brawf digonol ei fod yn Albigensiad. Bu ef a'i blaid yn ffyddlawn ac egniol i gyflawnu eu swydd, yn nghyd â'r urdd fynachaidd a elwid y Ffrancisciaid, fel y merthyrwyd miloedd lawer o rai diniweid yn fuan yn Ffrainc a lleoedd ereill. Ond er fod gorchymyn y pab yn gaeth, ar i bawb o freninoedd a thywysogion y gwledydd dderbyn y chwilys, a chefnogi ei weinyddiad, eto, amryw o dywysogion yn neheubarth Ffrainc a ommeddasant ei dderbyn o fewn i'w tiriogaethau, a gwrthsafent ei weinyddiad i lofruddio eu deiliaid ac ysglyfaethu eu meddiannau; o blegid ysglyfaethent holl eiddo pawb o'r Albigensiaid a allent gael gafael arnynt, i fod yn gyfoeth i'r eglwys. Eithr nid oes derfyn ar ddyfnderoedd maleis-ddrwg Satan a'i offerynau: canys pan yr oeddynt yn methu llwyddo i gyrhaedd eu hamcanion fel hyn, hwy a roddasant i fyny ryfel y groes, ac anfonwyd allan lu o fynachod, bob yn ddau, gyda'u gilydd, trwy holl wledydd Ewrop, i bregethu y rhyfel hwn, ac i annog dynion o bob sefyllfa, yn enw y nefoedd a phob daioni amserol a thragwyddol, i ymrestru o dan arwydd y groes goch, a dyfod i ryfel yn erbyn y tywysogion a'r gwledydd hyny a bleidient y rhai a enwent yn hereticiaid. Gosodent y rhyfel hwn allan yn un llawn mor anrhydeddus, rhinweddol, ac angenrheidiol, ag un a fu yn erbyn y Mahometiaid, er ennill y tir sanctaidd. Addawent, yn enw y pab, y "tad sanctaidd," y cai pwy bynag a ymrestrai, a gymmerai arfau, ac a ddeuai allan i'r rhyfel hwn, lawn faddeuant o'i holl bechodau o'i febyd i'w fedd, pa beth bynag a fyddent; a phwy bynag a wasanaethai ynddo am ddeugain niwrnod, y cai fynediad helaeth i fwynhad o dragwyddol wynfyd wedi marw. Casglwyd yn fuan fyddin o ddau can mil mewn llawn arfau, o dan lywyddiad abad, i ymosod ar y taleithiau hyny yr oedd yr Albigensiaid amlaf ynddynt. Ond cyn i'r lladdfa ddechreu, yr oedd yn rhaid arfer cynllwyn i gasglu y rhai diniweid yn nghyd fel defaid i'r lladdfa. Rhoddwyd allan gyhoeddiad fod cynnadledd ddadleuol i gymmeryd lle, yn ninas Montreal, ar amser penodedig, i benderfynu achos y cweryl trwy ddadleuaeth deg, pan y byddai blaenoriaid yr Eglwys Gatholig yn bresennol i ddadleu eu hachos; ac annogid yr Albigensiaid i ddwyn eu pobl oreu i ddadleu dros eu hachos, ac y trefnid barnwyr priodol o bob tu. Eithr wedi bod ychydig o ddadleu, daeth y cyfrwysdra o gasglu lluoedd o rai diniweid at eu gilydd yn ddigon amlwg; canys cyhoeddwyd fod byddin y groes goch yn amgylchu y ddinas, dan arfau dinystr, ac yn nesau ati cyn gyflymed ag y medrent. Y rhai a allent a ddiangasant am eu bywyd, i ddwyn y newydd galarus i'w cyfeillion; y lleill a ddyfethwyd drwy y tân a'r cleddyf. Y fyddin o dan arwydd y groes goch, a'r abad yn llywyddu, a aeth yn mlaen o ddinas i ddinas, ac o dref i dref, trwy daleithiau Toulouse, Provence, ac ereill yn Languedoc, gan ladd a dinystrio, trwy arfau rhyfel, tân, a ffagodau, yn ddiarbed. Yr oedd llawer o'r dinasoedd hyn yn rhai caerog, ac iddynt amddiffynfeydd a chestyll cedyrn, i ba rai y diangai llawer o drigolion y gwledydd, rhag ofn y fyddin, am noddfa; ond y fath oedd grym a chynddeiriogrwydd y fyddin, fel y distrywient y rhai hyn, lladdent eu hamddiffynwyr â'r cleddyf, ysbeilient yr oll o'r meddiannau a allent eu dwyn ymaith at wasanaeth yr eglwys, a rhoddent y gweddill o'r meddiannau ac o'r dynion ar dân, i'w llosgi yn un goelcerth. Er fod llawer o breswylwyr y dinasoedd hyn yn Babyddion, eto, nid arbedid hwy, am eu bod wedi cydfyw â'r hereticiaid. Dywedwyd wrth flaenor y fyddin mai felly yr oedd, ac mai nid gweddus oedd iddo eu llofruddio

gyda'r lleill. "O!" ebe yntau, "y maent wedi cydfyw yn dawel â'r hereticiaid—*lleddwch hwynt oll heb arbed*; fe edwyn yr Arglwydd y rhai sydd eiddo ef." Bernir fod dros ddau can mil wedi eu llofruddio yn y gwledydd hyny, o'r flwyddyn 1206 hyd y flwyddyn 1228, mewn gwahanol ddull a modd; a'r rhai hyn, gan mwyaf o lawer, yn proffesu egwyddorion yr Albigensiaid. Y chwilys oedd yn barhaus yn eistedd, fel barnwyr, yn dedfrydu; a'r milwyr oedd yn rhoddi y ddedfryd mewn gweithrediad.

Cesglid cannoedd o'r rhai diniweid yn nghyd i neuaddau mawrion, yn mha rai yr oedd cyflawnder o danwydd wedi ei gasglu yn barod; a chynnygid iddynt eu bywyd a'u rhyddid, os gwadent eu hegwyddorion, ac ymostwng i'r eglwys—pan yr atebent yn unllais, na fedrent, er dim, wadu eu crefydd, a'r hyn a gredent oedd wirionedd, er achub eu bywydau. Yna, teflid hwy i ganol y fflamau ysol, nes eu llosgi yn ulw, wedi eu hamgylchu gan lu o wŷr arfog, rhag i neb ddianc, er dirfawr orfoledd i'r mynachod a'r offeiriaid. Yn Bizier, prif ddinas yr iarll Rogers, yr hon oedd ddinas boblog a chadarn, ymosodwyd arni gan y fyddin, ennillwyd hi, a bernir iddynt osod i farwolaeth ddim llai na thrigain mil o bobl yn yr un dydd: a dyfethwyd hi yn hollol drwy ei llosgi, a'r oll oedd ynddi, ond yr hyn a allai y milwyr ei gludo ymaith. Wrth weled y fath ddifrod yn cael ei wneuthur ar fywydau a meddiannau dynion, y pendefigion Raymond a Rogers, ac ereill o raglawiaid y gwledydd hyn, trwy eu bod yn gweled yn ddigon amlwg mai nid argyhoeddi a diwygio dynion oddi wrth yr hyn a alwent yn gyfeiliornadau oedd amcan y fath fyddin, ond ysglyfaethu meddiannau dynion; hwy a benderfynasant godi byddin i wrthsefyll byddin y groes, ac amddiffyn eu deiliaid diniweid. Ond trwy amledd byddin y groes, rhoddwyd mwy na thri chan mil o filwyr o dan lywyddiaeth Simon de Mortfort, yr hwn oedd filwr glew a chyfrwys, ac yn ddigon creulawn i unpeth, gorchfygwyd byddin y pendefigion; a thrwy fradychiad, traddodwyd y gwroniaid dewrwych a haeddbarch hyn i ddwylaw eu gelynion, a'u byddinoedd a laddwyd ac a wasgarwyd.

Parhaodd yr erlidigaeth a'r rhyfel hwn dros gant a hanner o flynyddoedd, o dan dywysiad y chwilys, a chollwyd drwy hyny dros *filiwn o fywydau dynion*, cyn iddynt allu llwyr ddileu a gwasgaru yr Albigensiaid o'r taleithiau a nodwyd, ac o ororau Yspaen. Enciliodd llawer o honynt yn yr amser hwn at eu brodyr, y Waldensiaid, i ddyffrynoedd Piedmont, pa rai a amddiffynid y pryd hwn gan ddugiaid o Savoy am rai cannoedd o flyneddoedd; ereill a enciliasant i'r Almaen, ac ereill i Calabria yn Italy. Ac y mae yn ddiddadl fod rhai o honynt wedi dyfod drosodd i Loegr, a bod goleuni eu hegwyddorion wedi llewyrchu ar y deyrnas cyn amser Wickliffe; o blegid yr oedd llawer o honynt yn Guienne, deheubarth Ffrainc, yr hon oedd y pryd hwnw dan lywodraeth Lloegr, ac yr oedd yr iarll Raymond yn frawd yn nghyfraith i frenin Lloegr. Gyda galar yr ydym yn dywedyd am y gwledydd hyny a fu o dan ein sylw, yn mha rai y bu y fath luaws o ddynion—dynion oedd yn deall egwyddorion gwir grefydd, ac yn byw o dan eu dylanwad, ac mor gadarn dros ei phurdeb, fel y rhoddent eu bywydau i lawr yn orfoleddus drosti, yn hytrach na'i gwadu—y mae'r gwledydd hyn heddyw yn anialwch diffaeth, a thywyllwch dudew a'r bwystfil yn teyrnasu ynddynt.—*(Perrin's History of the Albigensians*, llyfr iii; *Sismondi's History of the Crusade against the Albigensians; Gully's Narrative; Limborch's History of the Inquisition*, cyf. i; *Milner's Church History*, cyf. iii; *Jones' History of the Christian Church*, llyfr iii; *Hanes yr Eglwys Gristionogol, gan D. Morgan*, cyf. ii. td. 44—49.)

ALCAM, neu ALCAN, [*al-can*, ystaen; Heb. בדיל—*bedil*]: delid digon adnabyddus, o liw arian, ac ychydig caletach na phlwm:—Seis., *tin*. Mae yn cael ei enwi gyntaf yn *Num*. xxxi. 22, lle y mae Moses yn crybwyll y chwe math o feteloedd. Yr oedd yn mhlith yr anrhaith a gymmerwyd oddi ar y Midianiaid, ac o'r defnyddiau oeddynt i'w puro trwy dân. Yn *Ezec*. xxvii. 12, sonir am dano fel nwydd marchnadol, a ddygid i Tyrus o Tarsis; sef Tartessus yn Yspaen, yn ol Bochart; neu Cernyw *(Cornwall)* yn Mhrydain, fel y tybia ereill, gan ei fod yn hysbys y byddai y Phœniciaid yn ei gyrchu oddi yma er yn fore. [Gwel Tarsis.] Yn *Zech*. iv. 10, sonir am "gareg alcam;" sef careg wrth linyn, a ddefnyddir gan adeiladwyr i edrych a fydd y gwaith yn cael ei wneuthur yn uniawn; neu ynte fath o bwyntel i dynu llinellau cywir yn nghynllun yr adeilad. Mae y gair Hebraeg hefyd yn arwyddo cymmysgedd o blwm, *alcam*, ac adwynau gwael ereill, yn gysylltiedig âg arian, yn y mŵn, i'w gwahaniaethu oddi wrtho trwy doddi. *Esa*. i. 25; "Mi a ddychwelaf fy llaw arnat, ac a lân-buraf dy sothach, ac a dynaf ymaith dy holl *alcam*." Ymddengys oddi wrth y cyd-destyn mai y meddwl yw, y byddai i Dduw, drwy ei farnedigaethau, buro ei bobl oddi wrth eu pechodau, a dyfetha ei elynion anedifeiriol o'u mysg yn ei ddigofaint; *Mal*. iii. 2—4; *Ier*. vi. 29, 30; ix. 7; *Ezec*. xxii. 18, 20.

ALCIMUS, neu IACIMUS, ['Άλκιμος ὁ καὶ Ἰάκειμος: *Joseph. Hyn. Iudd*., xii. 9, 7; ffurfiau Groegaidd o'r enwau Eliacim a Ioachim—enwau a roddir y naill am y llall yn fynych yn yr Hebraeg]: archoffeiriad gormesol yr Iuddewon yn amser Iudas Maccabæus; 1 *Mac*. vii. 5—22; ix. 54—56; 2 *Mac*. xiv. 3, 13, 26.—*(Kitto.)*

ALCORAN, neu CORAN; llyfr y Mahometiaid. Y mae saith o brif argraffiadau o hono. Cyhoeddwyd dau yn Medina, un yn Mecca, un yn Cufa, un yn Bassora, un yn Syria, heb law yr argraffiad cyffredin. Y mae nifer yr esboniadau ar y Coran mor luosog, fel y dywedir y byddai raid cael cyfrol fawr i gynnwys eu henwau yn unig. Y prif rai, yn ol Ben Oschar, yr hwn sydd wedi ysgrifenu eu hanes, ydynt Reidhari, Thaalebi, Zamalehschari, a Bacai.

Cyfansoddir y gair *Alcoran* o'r fannod Arabaidd *al*; a *coran*, o'r ferf *caraa*=*darllen*. Arwydda *ddarlleniad*, neu *yr hyn y dylid ei ddarllen*. Y mae y gair yn cael ei arfer gan y Mahometiaid i ddynodi, nid yn unig yr holl lyfr, ond unrhyw bennod neu adran o hono; yn debyg fel y byddai yr Iuddewon yn galw yr holl Ysgrythyr, neu unrhyw ran neillduol o hono, wrth yr enw *Carah*, neu *Micra*; y rhai ydynt eiriau o'r un gwreiddyn ac arwyddocâd. Y mae y sylw hwn yn milwrio yn erbyn barn rhai Arabiaid dysgedig; y rhai a ddywedant fod y Coran wedi ei enwi felly, am ei fod yn gasgliad o ranau anghyssylltiol, y rhai sydd yn ei wneyd i fyny. Seilir y dybiaeth hon ar y ffaith fod y ferf *caraa* yn arwyddo *casglu*, yn gystal a *darllen*.

Heb law yr enw neillduol hwn, gelwir y Coran wrth enwau ereill; megys *Al Forcan*, o'r ferf *faraca*=*rhanu*. Nid, fel y dywed y Mahometiaid,

Digitized by Google

—o blegid ei fod yn cael ei ranu yn bennodau, neu yn gwahaniaethu rhwng da a drwg; ond o herwydd yr un rheswm ag y mae yr Iuddewon yn defnyddio y gair *Perek* neu *Pirka*, o'r un gwreiddiau, i ddynodi rhan o Ysgrythyr. Gelwir ef hefyd *Al Moshâf*, y *gyfrol*; ac *Al Kitâb*, y *llyfr*, mewn ffordd o hynodrwydd—yr hyn sydd yn ateb i'r gair *Biblia*, yn mysg y Groegiaid; ac *Al Dhikr*, y *rhybudd*—yr hwn enw a roddir hefyd i lyfrau Moses a'r efengyl.

Dosberthir y Coran i 114 o brif ranau anghyfartal o ran eu maint, y rhai a alwn ni yn bennodau, ond gelwir hwy gan yr Arabiaid, *Sowar*—yn y rhif unigol, *Sûra*;—gair na arferir ond yn anfynych ar un achlysur arall, ac a arwydda *rhes, trefn*, neu *gyfres reolaidd.* Y mae o'r un arwyddocâd a'r gair *Sura* neu *Tora*, gan yr Iuddewon; y rhai hefyd a alwant dair rhan ar ddeg a deugain, "Y Pum Llyfr Sedarim," yr hwn sydd yn air o'r un ystyr a'r gair Arabaidd.

Adrenir bob pennod i ranau llai, ac o hyd anghyfartal, y rhai a elwir yn gyffredin *adnodau;* ond y gair Arabaidd yw *Ayat*, yr un a'r Hebraeg *Othoth*, sydd yn arwyddo arwyddion neu ryfeddodau: y cyfryw ydynt ddirgelion Duw, ei berffeithiau, ei weithredoedd, ei farnau, a'i ordinhadau, am ba rai yr ymdrinir yn yr adranau hyny.

Heb law y dosbarthiad anghyfartal hwn o bennod ac adnod, y mae y Mahometiaid wedi ei ddosbarthu i drigain o ranau cyfartal, y rhai a alwant *Ahzab* (yn yr unigol *Hizb*), a phob un o'r rhanau hyn wedi ei hadranu i bedair rhan gyfartal; yr hyn hefyd sydd yn ddilyniad o ddull yr Iuddewon, gan y rhai y dosbarthwyd eu Mishna i drigain rhan, a elwir *Massiototh;* ond yn fwyaf cyffredin, rhenir y Coran yn unig i ddeg adran ar ugain, a elwir *Ajaza*, o'r unigol *Jos;* a phob un yn ddau cymmaint a'r blaenaf, ac yn cael ei ddosbarthu yn gyffelyb yn bedair rhan. Y rhaniadau hyn ydynt er gwasanaeth y darllenwyr yn y temlau breninol, neu i fod yn y capelau cyfagos, yn y rhai y mae yr ymherawdwyr a'r mawrion wedi eu claddu. Y mae deg ar ugain o'r darllenwyr hyn yn perthyn i bob capel; a dechreua pob un ei ran bob dydd, fel y mae yr holl lyfr yn cael ei ddarllen yn feunyddiol drosodd. Yn nesaf i'r teitl, yn nechreu pob pennod, oddi eithr y nawfed, gwelir y ffurf ddifrifol a ganlyn, a elwir gan y Mahometiaid *Bismillah*, =*Yn enw y trugarocaf Dduw;* yr hwn ffurf a ddodant bob amser yn nechreu eu holl lyfrau a'u hysgrifeniadau, fel nodeb arbenig eu crefydd; ac ystyrir esgeuluso y ffurf hon yn annuwioldeb ganddynt. Arfera yr Iuddewon, er mwyn yr un peth, ffurf gyffelyb—*Yn enw yr Arglwydd*, neu, *Yn enw y Duw mawr;* a'r Cristionogion dwyreiniol y ffurf ganlynol—*Yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.* Ond bernir ddarfod i Mahomet gymmeryd y ffurf hon, fel y cymmerodd luaws o bethau ereill, oddi wrth y doethion *(Magi)* Persiaidd; y rhai a arferent ddechreu eu llyfrau yn y geiriau hyn—*Yn enw y trugarocaf a'r cyfiawnaf Dduw.*

Y mae naw pennod ar ugain o'r Coran yn meddu yr hynodrwydd hwn—eu bod yn dechreu gyda rhyw lythyrenau, rhai gydag un lythyren, a'r lleill gyda rhagor. Y llythyrenau hyn, yn ol barn y Mahometiaid, ydynt arwyddnodau arbenig y Coran, a chuddiant lawer o ddirgelion dwfn, pa rai ni roddwyd i neb eu deall ond i'r prophwyd ei hun. Er hyn, cymmer rhai y rhyddid i geisio dyfalu pa beth a all eu hystyr fod, a meddyliant fod y llythyrenau yn sefyll am gynnifer o eiriau yn dynodi enwau, perffeithiau, gweithredoedd, ac ordinhadau Duw; ac am hyny, y mae y llythyrenau dirgelaidd hyn, yr un modd a'r adnodau, yn cael eu galw yn arwyddion. Y mae ereill yn ceisio esbonio y llythyrenau hyn, oddi wrth eu gallu, neu eu gwerth mewn ffugyrau, yn ol y *Cabala* Iuddewaidd, a elwir *Gematria;* ond y mae yn ddiau fod hyn yn aros eto mewn tywyllwch. Fel hyn, er esampl, y mae pump o bennodau, un o ba rai yw yr ail, yn dechreu gyda'r llythyrenau hyn, A, L, M; y rhai a dybir gan rai sydd yn sefyll am *Allah latif magid—Duw sydd rasol, ac i'w ogoneddu:*—neu, *Ana li minni=I mi, ac o honof fi; h.y.*, I mi y perthyn pob perffeithder, ac o honof fi y deillia pob daioni: —neu, am *Allah Ana Alam=Ydwyf y doethaf Dduw.* Dywed ereill, gan fod y llythyren A yn perthyn i ran isaf y gwddf, y cyntaf o beiriannau llafar—L i daflod y genau, y peiriant canol —ac M i'r gwefusau, y rhai ydynt y peiriant diweddaf—felly bod y llythyrenau hyn yn arwyddo mai Duw yw y dechreuad, y canol, a'r diwedd; ac y dylai gael ei fawrygu yn nechreuad, yn nghanol, ac yn niwedd ein geiriau a'n gweithredoedd: neu, gan mai swm y tair llythyren, mewn rhif, yw un ar ddeg a thrigain, arwyddant y byddai i'r grefydd a ddysgir yn y Coran gael ei sefydlu yn nghorff y nifer hwn o flyneddoedd. Ond y mae tyb un o'r ysgrifenwyr Cristionogol ar hyn yn ymddangos yn llawn mwy rhesymol nag un o'r rhai a enwyd; sef, bod y llythyrenau hyn wedi eu rhoddi gan yr ysgrifwas, am *Amar li Mahomed; h. y., yn ol gorchymyn Mahomet;* fel y mae y pum llythyren a ddodwyd wrth y bedwaredd bennod ar bymtheg yn debyg o fod wedi eu hysgrifenu gan ysgrifenwyr Iuddewig, am *Cob yaas;* hyny yw, *fel hyn y gorchymynodd.*

Addefir yn gyffredin, fod y Coran wedi cael ei ysgrifenu mewn iaith hynod o bur a thlws, yn mhriodiaith llwyth Coreish, y mwyaf boneddigaidd a gwaraidd o'r holl lwythau Arabaidd; ond gyda pheth cymmysgedd, er yn anfynych, o briodieithoedd ereill. Efe yn ddiammheu ydyw safon yr iaith Arabaidd; a thybir gan rai o'r Mahometiaid, fel y dysgir yn y llyfr ei hun, ei fod yn anefelychadwy gan un ysgrifenydd dynol; ac edrychir ar hyn fel un o'r profion cryfaf o'i darddiad dwyfol. At hyn yr appeliodd Mahomet ei hun am gadarnhad i'w genadwri; heriodd yn gyhoeddus y dynion mwyaf hyawdl yn Arabia—yn yr hon yr oedd miloedd o'r cyfryw y pryd hwnw, ac uchelgais penaf pa rai oedd rhagori mewn prydferthwch arddull o ysgrifenu—i ddwyn yn mlaen un bennod a ddaliai i'w chystadlu ag ef. Ond dywedir fod un o'r enw Hamsah Benahmed wedi ysgrifenu llyfr yn erbyn y Coran, gyda chymmaint o dlysni, o leiaf, ag yntau; ac ysgrifenodd Moselema un arall, yr hwn y dywedir sydd yn rhagori arno, a'r hwn a effeithiodd yn ddrwg ar Fahometiaeth.

Y mae arddull y Coran, yn y cyffredin, yn dlws a hyawdl; yn enwedig yn y lleoedd hyny y mae yn efelychu y dull prophwydol o lefaru. Y mae yn gryno, ac weithiau yn dywyll, yn cael ei addurno â ffugrau cydweddol â'r chwaeth ddwyreiniol, a'i fywiogi gan ddywediadau byrion a blodeuog, ac mewn llawer o fanau, yn enwedig pan y mae mawredd Duw yn cael ei ddysgrifio, âg ymadroddion mawreddus ac arddunol.

Amcan cyffredinol y Coran, fel y sylwa un gŵr dysgedig, oedd hyn:—Uno proffeswyr y tair crefydd hyny oedd y pryd hwnw yn Asia, y rhai oeddynt yn byw yn mysg eu gilydd—y nifer

Digitized by Google

fwyaf yn eilunaddolwyr, a'r gweddill yn Iuddewon a Christionogion—uno y rhai hyn yn y grediniaeth a'r addoliad o un tragwyddol, anweledig Dduw, trwy allu yr hwn y gwnaethpwyd pob peth, a'u dwyn oll dan warogaeth i Mahomet, fel prophwyd a chenad Duw; yr hwn, ar ol yr aml rybuddion, addewidion, a bygythion mewn oesoedd boreuol, oedd o'r diwedd i sefydlu a lledaenu crefydd Duw ar y ddaiar trwy rym arfau, ac i gael ei gydnabod yn benaeth mewn materion crefyddol, yn gystal ag yn brif dywysog mewn materion gwladol.

Felly, athrawiaeth fawr y Coran yw unoliaeth Duw. Adferu y pwnc hwn oedd cenadwriaeth y prophwyd; ac i'r dyben o ennill sylw dynion ato, ac at ei ddysgeidiaeth, y mae rhan fawr o'r llyfr yn cael ei gymmeryd i adrodd lluaws o esamplau o farnau Duw ar y rhai a anmharchasant ei genadau gynt. Y mae llawer o'r hanesion hyn wedi eu cymmeryd o'r Hen Destament a'r Newydd; ond y mae y nifer mwyaf wedi eu cymmeryd o lyfrau ammheuol, a thraddodiadau yr Iuddewon a'r Cristionogion.

Mae y rhan arall o'r Coran yn cynnwys rheolau, a chyfarwyddiadau, ac annogaethau i rinwedd a daioni; yn mysg pa rai y mae llawer o ddywediadau gwerthfawr i'w cael, heb fod yn wersi rhy isel hyd yn oed i Gristion eu cymmeryd. Y mae un o esbonwyr goreu y Coran yn dosbarthu ei gynnwysiad i'r *alegoraidd* a'r *llythyrenol.* Dan y cyntaf, cynnwysir yr holl ranau tywyll a dammegawl, gyda'r cyfryw ag ydynt wedi eu diddymu; o dan y diweddaf, cynnwysir y rhanau eglur, a'r rhai sydd mewn grym yn awr.

Y foeswers fwyaf ragorol yn yr holl lyfr, medd ei esbonwyr, ydyw hono yn y bennod *Al Alras;* sef, "Dangos dosturi, gwna dda i bawb, ac nac ymddadleu â'r anwybodus:" neu fel y mae Mr. Sale yn ei chyfieithu—"Arfer dynerwch, gorchymyn yr hyn sydd gyfiawn, a thyn yn mhell oddi wrth yr anwybodus." Darfu i Mahomet, yn ol awdwyr y *Keschaf,* ar ol deisyf eglurhad helaethach gan Gabriel ar yr adran hon, dderbyn oddi wrtho yr hyn a ganlyn:—"Cais yr hwn a'th fwrw allan, dyro i'r hwn a gymmero oddi arnat, maddeua i'r hwn a'th niweidia; o blegid ewyllysia Duw i chwi blanu yn eich eneidiau wreiddiau ei brif berffeithiau." Y mae yn hawdd gweled fod yr eglurhad hwn wedi ei gymmeryd o'r Testament Newydd.

Y mae yn grediniaeth gyffredinol yn mysg y Mahometiaid, fod y Coran o darddiad dwyfol; ïe, ei fod yn dragwyddol a digrëedig, yn aros, fel y geiria rhai, yn hanfod y Duwdod ei hun:—fod yr ysgrif gyntaf er tragwyddoldeb yn gorwedd wrth orsedd Duw; yn ysgrifenedig ar lech o faintioli anferth, ar yr hon hefyd y mae y cynghorion dwyfol, mynedol, a dyfodol, yn ysgrifenedig:—fod copi o'r llech neu y bwrdd hwn, mewn cyfrol o bapyr, wedi ei anfon gan yr angel Gabriel i'r nefoedd isaf, ar fis Ramadan; o ba le y dadguddiodd Gabriel hi i Mahomet, yn rhanau, rhai yn Mecca a rhai yn Medina, ar wahanol amserau yn ystod 23 o flyneddoedd. Dywedant, fod rhai pennodau wedi eu rhoddi yn gyfain ac ar unwaith; ond fod y rhan fwyaf wedi eu rhoddi yn ddarnau bychain, ac yn cael eu hysgrifenu o bryd i bryd gan ysgrifwas y prophwyd, hyd oni orphenwyd y llyfr. Yr adran gyntaf a roddwyd oedd y pum adnod gyntaf o'r 96 bennod.

Mai Mahomet oedd gwir awdwr a dyfeisydd y Coran, sydd tu hwnt i ddadl; er fod yn debygol iddo gael ei gynnorthwyo gan ereill, fel y gwrthddadleuodd rhai o'i gydwladwyr yn ei erbyn: ond pwy oeddynt, nid allasent brofi; gan fod y prophwyd wedi cymmeryd digon o ofal rhag i'w ystryw ddyfod i'r goleu.

Cynnwysa y Coran, fel y dywedwyd eisoes, 114 o bennodau, y rhai a deitlir, rai o honynt, yn lled ddigrifol. Dyma rai o enwau y pennodau:—"Y Fuwch," "Teulu Imran," "Gwragedd," "Y Bwrdd," "Anifeiliaid," "Y Daran," "Y Wenynen," "Y Daith Nosawl," "Yr Ogof," "Mair," "T. H.," "Al Torkan," "Y Morgrugyn," "Y Copyn," "Y Groegiaid," "Mwg," "Yr hon a brofwyd," "Y Pin," "Y Graddau," "Y rhai a roddant bwysau neu fesur bychan," "Toriad y dydd," "Y Ffigysen," "Yr Enllibiwr," "Angenrheidiau;" a lluaws ereill cyffelyb. Cymhwysir y gair *Alcoran,* weithiau, at lyfrau ereill, hynod am eu twyll a'u hannuwioldeb. Darllenwn am Alcoran y Cordeliers, yr hwn a barodd gryn gynhwrf, yn yr hwn y dyrchefir St. Francis, ac y cystadlir ef âg Iesu Grist. Tebyg yw mai talfyriad ydyw o hen lyfr, a elwir, "*The conformity of the life of the seraphic father, St. Francis, with the life of Christ;*" a gyhoeddwyd yn 1510. Gwel MAHOMETIAETH.—(*The Koran, by G. Sale; Encyclo. Brit.*)

**ALCH—AU**: greidell, cledr. Clwyd lydan o bres, ar ddull rhwydwaith, wedi ei gosod dan amgylchiad allor y poethoffrwm, i gynnal y tân, a thrwy yr hon y disgynai y lludw i badell oddi tanodd. Yr oedd yn bedeirongl, a modrwyau ar ei phedair congl, i'w chadwyno wrth gyrn yr allor, a thrwy ba rai y gosodid trosolion, i'w dwyn ar ysgwyddau pan yn teithio o wersyllfa i wersyllfa yn yr anialwch: *Exod.* xxvii. 4, 5; xxxviii. 4, 5.

**ALED, TUDUR**: bardd enwog o sir Ddinbych, yr hwn a gyfanneddai yn y Garth Geri, yn mlwyf Llansannan, trwy yr hwn y llifeiriai yr afon Aled, oddi wrth yr hon y cymmerodd ei gyfenw barddonol. Blodeuai o'r flwyddyn 1480 i'r fl. 1520. Yr oedd yn nai i Dafydd ab Edmwnt, yr hwn hefyd oedd ei ddysgawdwr mewn barddoniaeth; ac i'r hwn y cyfansoddai farwnad deimladwy, yn yr hon y dywedai—

"Fewythr o waed, f'athro oedd,
Fynwes gwawd, fy nysg ydoedd;
Mae som o'i eisieu yma,
Methu 'r dysg am athro da."

Ac efe a'i terfyna â gweddi ar Fair dros enaid ei athraw trancedig;—

"Anfoned y nef anerch,
O radau Mair ar wawd merch;
Gwneled Fair o'i gwen wlad fydd,
Roi Paradwys i'r prydydd."

Ymddengys, oddi wrth amryw bryddestau a gyfansoddodd er clodfori gorchestion Syr Rhys ab Thomas, o'r Dinefwr, ei fod yn gyfaill mynwesol i'r pendefig gwladgarol hwnw, ac yn fynych ymwelydd â'i lys, os na bu hefyd yn ganlynwr iddo dros ryw ysbaid.

Y mae amryw bryddestau o'i waith ar gael eto mewn llawysgrifen; ac yn eu mysg y mae adroddiad am y gwyrthiau a gyflawnid ger ffynnon Gwenfrewi, yn Nhreffynnon; yn nghyd â hanes draddodiadol y santes hono.

Dywed awdwr parchedig y "Geirlyfr Bywgraffyddol" o enwogion Cymreig, ei fod yn un o'r "brodyr duon," neu yn aelod o'r urdd Dominicaidd. Ond nis gwyddom pa fodd y gellir cyssoni y dystiolaeth uchod â'r englyn canlynol o waith ein bardd ei hun; trwy yr hwn y profir,

Digitized by Google

yn ddiammheuol, ei fod yn aelod o urdd y Ffranciscaid, neu y "brodyr llwydion," oddi eithr i ni ganiatau ei fod yn aelod o'r ddau urdd;—

"*Pan wisgwyd y Bardd yn Ficer o Urdd St. Francis.*

"Brawd i St. Francis, na bo brych—f' wyneb,
Pan fyner ei edrych;
Yn ei grefydd yn gryfwych,
Yn ei wisg, wyf yn was gwych." *Tydur Aled.*

—(*A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen, by the Rev. R. Williams, M. A.*)

ALEGORI; gair Groeg mewn llythyrenau Cymraeg. Ei ystyr cyntefig ydyw, *llefaru peth arall.* Felly y mae unrhyw hanes gwirioneddol neu dybiadwy ag y gellir yn briodol chwanegu ystyr ffugrol neu foesol at yr un llythyrenol, yn alegori. Y mae alegori i ystori neu hanes yr hyn ydyw troell ymadrodd i eiriau unigol;—chwanegiad ydyw o ystyr arall at yr ystyr cyntefig a llythyrenol. Weithiau, nid oes un cyfeiriad yn yr alegori at y cymhwysiad; megys yn "Hanes y Mab Afradlawn:" bryd arall, y mae y fath gyfeiriad, ac y mae yr alegori yn gymmysg; megys yn *Salm* lxxx, lle y dangosir, yn *adn.* 17, mai Israel, "gŵr dy ddeheulaw," a feddylir wrth y winwydden. Unwaith yn unig y mae y gair yn yr Ysgrythyrau: *Gal.* iv. 24; "Yr hyn bethau ydynt mewn alegori:" lle y defnyddir hanes Sarah ac Isaac, Agar ac Ismael, i osod allan y gwahaniaeth rhwng y ddau Destament. Gwel Dammeg.

ALELIWIA: gair Hebraeg, yn arwyddo *molwch yr Arglwydd,* neu, *mawl i Iehofah.* Yn ngwasanaeth y deml, dywedai yr offeiriaid wrth y cantorion, "Aleliwia;" dywedai y cantorion hwythau, "Aleliwia;" yna, moliannent yr Arglwydd; ac eilwaith, sef ar derfyniad y fawl-gân, dywedent "Aleliwia;" ac yn wrthgeiniol (*antiphonal*) iddynt, dywedai yr holl bobl, "Amen, Aleliwia," hefyd; *Salm* cvi. Yn gyffelyb i'r dull yna o foliannu yr Arglwydd y clywodd Ioan y Duwinydd ei foliannu yn "nheml pabell y dystiolaeth yn y nef:" *Dad.* xix.; "Ac ar ol y pethau hyn, mi a glywais megys llef uchel gan dyrfa fawr yn y nef, yn dywedyd, Aleliwia:....iachawdwriaeth, a gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, i'r Arglwydd ein Duw ni," &c........"ac eilwaith y dywedasant Aleliwia. A syrthiodd y pedwar henuriad ar ugain a'r pedwar anifail i lawr, ac a addolasant Dduw," &c., "gan ddywedyd, Amen, Aleliwia." Yna clywodd Ioan "lef yn dyfod allan o'r orseddfainc, yn dywedyd, Moliennwch ein Duw ni," &c.; ac atebwyd hi gan "lef tyrfa fawr," &c., "yn dywedyd Aleliwia....Llawenychwn, a gorfoleddwn, a rhoddwn ogoniant iddo ef." Gwel Haleliwia.

ALENIAID, [*Allenites*]: dysgyblion Henry Allen, o Nova Scotia; yr hwn a ddechreuodd daenu ei athrawiaethau tua'r flwyddyn 1778, ac a fu farw yn 1783. Yr oedd ganddo blaid gref pan y bu farw, ond yn awr maent yn llawer llai. Cyhoeddodd amryw draethodau a phregethau, yn y rhai y daliai fod eneidiau holl ddynolryw yn ddeilliadau oddi wrth, neu yn hytrach yn rhanau o'r un Ysbryd mawr—eu bod oll yn bresennol yn Eden, a'u bod yn weithredol yn y camwedd cyntaf. Tybiai fod ein rhieni cyntaf, cyn pechu, yn ysbrydion pur, ac nad oedd y byd defnyddiol eto wedi ei greu; ond mewn canlyniad i'r cwymp, fel na byddai i ddynolryw suddo i hollol ddinystr, fe wnaed y byd hwn, a gwisgwyd y dynion â chyrff defnyddiol; ac y bydd i'r holl deulu dynol, yn eu tro, gael eu harwisgo â chyfryw gyrff, a mwynhau ynddynt sefyllfa o brawf am hapusrwydd didranc.—(*H. Adam's Dict.; Encyc. of Rel. Know.*)

ALEPH, [א]; y llythyren gyntaf yn yr egwyddor Hebraeg. Ystyr y gair *aleph* yw *ych;* arwydda hefyd y *rhif cyntaf;* ac weithiau, *tywysog* neu *flaenor.*

ALEXANDER, [Ἀλέξανδρος = *cynnorthwywr* neu *ryddhawr dynion*]: mab Philip II, brenin Macedon. Ganwyd ef yn y flwyddyn c. c. 356. Gelwir ef yn gyffredin yn *Alexander Fawr.* Ei fam oedd Olympias, merch Neoptolemus, brenin Epirus; a thrwyddi hi, hònai Alexander ei fod o âch y gwron Achilles. Er ei fod wedi cael y fantais o gael Aristotle yn athraw iddo, a'i fod wedi derbyn dylanwad y ddysgeidiaeth hono i fesur helaeth



Dar. 21.

mewn llawer o bethau, eto, trwy weniaith rhai, ac ymostyngiad pawb o'i amgylch iddo, meithrinwyd ynddo nwydau aflywodraethus, a fuont i raddau yn erbyn ei boblogrwydd mewn amser dyfodol. Dygwyd ef i fyny yn filwr o'i febyd: aeth i'r maes am y tro cyntaf gyda'i dad pan oedd yn ddeunaw oed, pryd y darostyngwyd byddinoedd Thebes ac Athen, yn nghyd â'u cynghreirwyr, yn Chæronea (c. c. 338), ac y dygwyd Groeg yn ddarostyngedig i frenin Macedonia. Mewn canlyniad i hyn, galwodd Philip gymmanfa o holl ddinasoedd y Groegiaid yn nghyd i Corinth, yn yr hon y dewiswyd ef i fod yn dywysog eu lluoedd unedig, i fyned i ryfel yn erbyn y Persiaid. Ond pan oedd ar gychwyn i'r ymgyrch hon, lladdwyd ef gan Pausanias, un o'i osgorddion, yn nghanol ei bendefigion, ar y ffordd i'r chwareufa, ar adeg priodas ei ferch Cleopatra. Dilynodd Alexander ei dad i'r freniniaeth pan oedd yn ugain oed. Ond yr oedd marwolaeth sydyn ei dad wedi creu gobeithion yn y teyrnasoedd ag oedd wedi eu darostwng ganddo, y gallent yn yr adeg yma ymryddhau a bwrw ymaith ei iau oddi ar eu gwarau. Pa fodd bynag, trwy ei wroldeb a'i benderfyniad, cafodd yntau gymmanfa yn nghyd i Corinth, lle y dewiswyd ef yn arweinydd eu galluoedd unedig yn erbyn Persia, yn lle ei dad, gan bawb ond y Lacedæmoniaid.

Gan fod Alexander yn penderfynu na adawai neb o'i elynion yn y gogledd heb fod o dan warogaeth iddo, cyn troi ei wyneb tua'r dwyrain cychwynodd, yn ngwanwyn y flwyddyn c. c. 335, tua mynedfeydd mynydd Hæmus (y Balkan), a chroesodd hwynt er pob gwrthwynebiad o eiddo y brodorion. Gorchfygodd y Triballiaid; croesodd y Danube yn erbyn y Getæaid; ac ar ei ddychweliad, darostyngodd ddwy genedl arall o farbariaid

Digitized by Google

ar lanau y Danube—yr Illyriaid a'r Taulantiaid. Yn ei absennoldeb, taenwyd y gair ei fod wedi marw, a meddyliodd y Groegiaid eilwaith y gallent fwrw ymaith iau Macedonia: a phan oeddynt yn nghanol eu llawenydd, dychwelodd Alexander yn fuddugoliaethus o'r gogledd; ymostyngodd yr Atheniaid, ac amryw o ddinasoedd ereill; ond gwrthodwyd hyny gyda dirmyg gan y Thebiaid. Wedi cael ychydig o wrthwynebiad, cymmerodd eu prif ddinas, Thebes; lladdwyd miloedd o'r trigolion, a gwerthwyd y gweddill yn gaethion, a dyfethwyd y ddinas yn gydwastad â'r llawr. Erbyn hyn, yr oedd holl wledydd Groeg dan ei lywodraeth, ac yntau yn barod i gychwyn o flaen y fyddin drosodd i Asia. Nid oedd ei fyddin y pryd hwn uwch law pymtheng mil ar ugain—tua deng mil ar ugain o wŷr traed, a phum mil o wŷr meirch; ac nid oedd ei goffrau ychwaith ond lled weigion, i feddwl gwynebu ar y fath anturiaeth oedd o'i flaen. Er hyny, nid oedd dim yn ei ddigaloni, a chroesodd yr Hellespont yn ngwanwyn y flwyddyn c. c. 334, gyda phenderfyniad hollol i ddarostwng ei elynion.

Yr oedd ymherodraeth Persia y pryd hwn yn anferth o eang, ac yn cael ei hamgylchu mewn llawer o fanau â lleoedd geirwon i fyned trwyddynt. Nid oedd y Persiaid eu hunain ond llwyth bychan, mewn cymhariaeth i'r cenedloedd afrifed oedd dan eu llywodraeth. Yr oedd y taleithiau pellaf o dan awdurdod llywydd a benodid gan y brenin; a phan y byddai y naill neu y llall o'r llywyddion hyn yn gallu bwrw ymaith bob ofn cosp, a chasglu digon o wroldeb i herio ei feistr, torid ymaith yr undeb. Yr oedd tuedd at hyn yn wanychdod mawr i'r ymherodraeth, yr hon oedd, erbyn y pryd hwn, wedi colli llawer o'r nerth ag y bu unwaith yn ei feddu. Nid oedd Darius, y brenin, ychwaith, ond tra diffygiol mewn gwroldeb a medr milwraidd; o'r hyn yr oedd Alexander yn feddiannol i raddau helaeth. Ymladdwyd y frwydr gyntaf yn agos i'r afon Granicus, yr hon sydd yn rhedeg i fôr Marmora. Yr oedd yn myddin y Persiaid lawer o Roegiaid, a ffoisant yno o dro i dro, er ys hir amser, o herwydd yr anghydfyddiaethau mynych oedd yn eu gwlad enedigol. Y prif flaenor gan y Persiaid yn y frwydr hon oedd Memnon, Groegiad o Rhode. Mynai Memnon iddynt gilio yn ol, ac anrheithio y wlad, fel y byddai raid i'r Macedoniaid roddi i fyny eu herlyn o eisieu cynnaliaeth. Ond ni fynai y Persiaid wrandaw, er mor anghymhwys oeddynt i wynebu byddin Alexander, yr hon oedd yn llawer rhagorach o ran ei dysgyblaeth a'i medr milwraidd: a'r canlyniad fu, dinystrio y gwŷr traed Groegaidd oedd yn myddin Persia, ond dwy fil; pa rai a anfonwyd i Macedonia, o dan y gollfarn i fod yn gaethion. Dangosodd Alexander lawer iawn o diriondeb tuag at ei filwyr archolledig ar ol y frwydr hon. Yr oedd yn ymweled â hwynt, a chaniataodd lawer o ragorfreintiau i rieni a phlant y rhai a gollasant eu bywydau; a thrwy hyn, yr oedd yn ennill ei filwyr i'w hoffi, ac i fod yn fwy awyddus am oruchafiaeth. Casglodd Memnon, ar ol y frwydr hon, y gweddill o fyddin y Persiaid, ac aeth i Miletus, ac oddi yno i Halicarnassus, ac i Cos; wedi hyny, hwyliodd i ynys Chios, a chymmerodd hi, gan fwriadu gwneyd ei ffordd i Macedonia, er mwyn galw Alexander adref, a'i orfodi i wneuthur tir Groeg yn eisteddle y rhyfel. Ond pan oedd ar ei ffordd, yn Lesbos, yn gwarchau ar Mitylene, gorchfygwyd ef, a bu farw o'i blaen. Wedi hyn, gan nad oedd gan Darius neb y gallasai ymddiried ynddynt, mewn gobaith i gyflawnu amcanion Memnon, nid oedd dim i'w wneyd ond ymroddi i drefnu ei fyddinoedd dwyreiniol oreu y gallai.

Yn ngwanwyn y flwyddyn ddyfodol (c. c. 333), wedi chwanegu ei fyddin trwy gael llawer o filwyr newyddion, a dychwelyd o'r gwŷr y darfu iddo ganiatau iddynt fyned i Macedonia i auafu, darostyngodd Alexander daleithiau Phrygia, Lysia, Pisidia, Pamphylia, Paphlagonia, a Chappadocia, yn Asia Leiaf, a gosododd raglawiaid arnynt. Wedi hyn, aeth yn mlaen tua gwastadedd Cilicia—yn yr un cyfeiriad, dybygid, ag yr aeth Cyrus yr ieuangaf lai na chan mlynedd o'i flaen, yn ei ymgyrch yn erbyn ei frawd Artaxerxes. Ar y daith hon, bu Alexander yn agos i angeu, trwy dwymyn, yn Tarsus (*Tersoos*), wedi ei hachosi naill ai trwy ei orlafur, neu trwy iddo ymdrochi yn ei chwŷs yn yr afon Cydnus. Ar ol ei adferiad, aeth yn mlaen gyda morgainc Issus, hyd Myriandrus, yn Syria. Yr oedd Darius wedi bod yn aros am ryw ysbaid yn ngwastadedd eang Syria, lle yr oedd yn cael digon o dir i drefnu ei fyddin luosog, yr hon, medd Plutarch, oedd yn chwe chan mil o rifedi. Ond yn hytrach na gwrandaw ar gynghor Amyntas, Groegiad enciliedig, dewisodd gymmeryd meddiant o'r bylchau sydd ar y ffordd o Cilicia i Syria, gan obeithio, trwy hyny, y gallai rwystro Alexander yn ei flaen; ond yn lle hyny, o herwydd fod y bylchau hyny rhwng y mynyddoedd yn lled gyfyng, nid oedd yn gallu trefnu ond rhan fechan o'i fyddin i wynebu y gelyn ar unwaith; a thrwy hyny, yr oedd Alexander ar gystal tir ag yntau, er fod ei fyddin yn annhraethol lai o nifer. Torai Alexander y naill res ar ol y llall o fyddin Darius, fel y taflwyd y Persiaid i'r annhrefn mwyaf. Pan welodd y brenin hyny, rhoddodd arwydd i ffoi, a throdd y meirchfilwyr, a'r gweddill o'r fyddin, eu cefnau; ond rhwng y lladdfa yn y frwydr, a'u bod yn mathru eu gilydd wrth ffoi, o herwydd cyfyngder y cymoedd yr oeddynt yn myned trwyddynt, bu y difrod ar fyddin y Persiaid yn arswydus. Llwyddodd Darius ei hun i ddianc dros yr afon Euphrates; ond syrthiodd y gwersyll, a'r holl glud, yn nghyd â'i fam, ei wraig, a'i blentyn, y rhai a gymmerasai gydag ef i faes y frwydr, yn ol arfer y Persiaid, i ddwylaw y gelyn. Ennillwyd y frwydr hon tua dechreu mis Tachwedd, c. c. 333, yn niwedd y drydedd flwyddyn i Darius, ger llaw Issus, yn Cilicia; yr hon a benderfynodd dynged unbenaeth Persia: a'r canlyniad fu, i Alexander gymmeryd meddiant o Syria, a chael ffordd agored i wynebu ar yr Aipht a Babilon. Yr oedd Darius wedi anfon llawer o drysorau, yn nghyd â'i ordderchadon, tri chant a naw ar ugain o rifedi, i Damascus, prif ddinas Syria, o dan ofal gosgordd; y rhai oll, yn gystal a'r ddinas, a roddwyd i fyny i feddiant y gelyn gan y llywydd pan glybu ddarfod i Darius ffoi.

Ar ol brwydr Issus, tramwyodd Alexander yn mlaen i Phœnicia gyda'r môr, a derbyniodd ymostyngiad gan bawb hyd oni ddaeth i Tyrus. Yr oedd y ddinas hon yn un o'r rhai enwocaf, os nad yr enwocaf oll, yn y byd y pryd hwnw am ei chyfoeth a'i masnach, ac wedi bod felly am ganrifoedd. Cawn ddysgrifiad ardderchog o'i llwyddiant a'i chyfoeth, yn gystal a'i chwymp, yn *Ezec.* xxvii. Yr oedd yn sefyll ar ynys o ddeutu hanner milltir oddi wrth y tir, yr hon oedd wedi ei hamgylchu â muriau uchel a chedyrn, tua chant a hanner o droedfeddi, ac yn gyflawn o bob angen-

Digitized by Google

rheidiau rhyfel. Rhoddodd Sidon ei hun i fyny heb gynnyg gwrthwynebiad; ond yr oedd Tyrus, gan ei bod yn meddu ar lynges alluog, ac amddiffynfeydd cedyrn, yn tybied ei bod yn ddigon galluog i wrthsefyll ymgyrch y gelyn. Cafodd Alexander brofi nas gallai ei chymmeryd mor hawdd a dinasoedd ereill, neu ei gorchfygu mewn un dydd, fel y gwasgarasai fyddinoedd lluosog Darius. Yr unig ffordd oedd ganddo i gael mynedfa at y ddinas, oedd gwneuthur sarn lydan o'r cyfandir hyd ati. Dygodd gedrwydd o Libanus, a chludodd adfeilion yr hen Dyrus i'r môr (*Ezec.* xxvi), yr hon a orchfygwyd gan Nebuchodonosor o'r blaen. Ond ar ol saith mis o lafur caled, gorphenwyd y gwaith, a chymmerwyd y ddinas, er pob gwrthwynebiad ac ystryw o eiddo y Tyriaid. Y mae gwaith Alexander yn aros hyd heddyw, ac ynys Tyrus yn rhan o'r cyfandir. Lladdwyd wyth mil o'r Tyriaid; gwerthwyd deng mil ar ugain o honynt i gaethiwed; ac, yn ol rhai hanesion, gorchymynodd y gorchfygwr i ddwy fil o honynt gael eu croeshoelio ar lan y môr. [Gwel Tyrus.] Yn awr, dyma nerth ymherodraeth Persia wedi syrthio i feddiant Alexander, yn gystal ar y dwfr ag ar y tir. Wedi hyn, aeth yn mlaen at Gaza, yn Palestina; ac yn mhen dau fis, dacw hithau yn syrthio, er holl ymdrech ei phreswylwyr i'w hamddiffyn; a chafodd y gwragedd a'r plant eu gwerthu i gaethiwed.

Ar ol gorchfygu Tyrus a Gaza, aeth Alexander yn mlaen tua Ierusalem, mewn llawn fwriad i ddial ar yr Iuddewon, a llwyr ddinystrio eu dinas, o herwydd iddynt nacau anfon lluniaeth a chynnorthwy iddo pan oedd efe yn gwarchau ar Tyrus. Mynai yr Iuddewon fod eu llw o ffyddlondeb i Darius yn cyfreithloni eu hymddygiad, ac yn galw am dynerwch oddi wrtho yntau tuag atynt; ond nid oedd dim yn tycio i liniaru ei gynddaredd. Pa fodd bynag, dywed Josephus [*Hyn. yr Iudd.*, llyfr xi. 8. 4—6], ddarfod i Iadua, yr archoffeiriad, yn y cyfyngder hwn, orchymyn i'r bobl "wneuthur eu hymbiliau, ac uno gydag ef i offrymu aberthau i Dduw," ar fod iddo eu gwaredu a'u hamddiffyn. Yn yr adeg yma, dywedai Iadua ei fod wedi cael gweledigaeth, yn gorchymyn iddo agor pyrth y ddinas, a bod iddo ef a'r offeiriaid fyned allan yn eu gwisgoedd swyddol i gyfarfod y gorchfygwr, heb ofni dim rhag y canlyniadau. Pan ddeallodd yntau fod Alexander yn agos i'r ddinas, gwnaeth Iadua y cwbl yn ol y weledigaeth. Pan gyfarfyddodd y brenin âg ef felly, ymostyngodd o'i flaen, er mawr siomedigaeth i'r rhai oedd yn ei ganlyn, gan eu bod hwy wedi tybied y cawsent fynedfa ddirwystr i'r ddinas, ac y daethent oddi yno gydag ysbail fawr. Anturiodd Parmenio, un o'i gadbeniaid, ofyn iddo pa ham yr oedd efe, yr hwn a addolid gan bawb, ei hun yn addoli archoffeiriad yr Iuddewon. Atebai yntau, "Nid efe a addolais, ond y Duw hwnw a'i hanrhydeddodd â'i barchus offeiriadaeth; canys gwelais y dyn hwn mewn breuddwyd, pan oeddwn yn Dios, yn Macedonia. Yr hwn, pan oeddwn yn myfyrio pa fodd y gallwn feddiannu llywodraeth ar Asia, a'm cynghorodd nad oedwn ddim, ond myned yno yn galonog dros y môr: o blegid y byddai iddo ef dywys fy myddin, a rhoddi i mi fuddugoliaeth ar y Persiaid. Oddi wrth hyn y mae, gan na welais neb arall yn yr ymwisgiad hyny, a gweled o honof y dyn hwn ynddo, a chan gofio y weledigaeth hono, a'r annogaeth a gefais ynddi; yr wyf yn credu fy mod yn myned â'r lluoedd hyn yn mlaen dan ddwyfol arweiniad, a chyda hwynt y buddugoliaethaf ar Darius, gan ddyfetha cryfder y Persiaid; ac y llwydda pob peth yn ol yr hyn a feddyliais." Dywed Josephus yn mhellach hefyd, ei fod wedi myned i'r deml i offrymu aberthau i Dduw, a gwneyd anrhegion i'r archoffeiriad a'r offeiriaid, a bod yr archoffeiriad wedi dangos prophwydoliaeth Daniel iddo, am ddyfodiad y Groegiaid i ddyfetha ymherodraeth Persia, a'i fod wedi barnu yn y fan mai ato ef y cyfeirid. Caniataodd i'r Iuddewon, mewn canlyniad i hyn, ryddid i ddilyn cyfreithiau eu hynafiaid, a pheidio a thalu teyrnged y seithfed flwyddyn. Caniatawyd hefyd i'r Iuddewon yn Babilon, a Media, i fwynhau eu cyfreithiau eu hunain. Ammheuir cywirdeb yr hanes hwn gyda'r archoffeiriad gan rai. [Gwel *Dr. Thirlwall's Hist. of Greece*, vi. 206.] Pa fodd bynag, cytunir fod yr Iuddewon wedi cael llawer o ryddid, a mwynhau eu rhagorfreintiau i raddau helaeth.

Ar ol hyn, gan fod y ffordd yn rhydd o'i flaen i'r Aipht, croesodd yr anialwch at Pelusium, a chymmerodd hi heb unrhyw wrthwynebiad. Yn yr adeg yma, yr oedd yr Aipht yn cael ei phreswylio gan lawer o Roegiaid a Phersiaid, heb law y brodorion; ac anghydfod parhaus yn eu mysg, yr hyn oedd yn eu gwneyd yn fwy hawdd eu darostwng. Aeth Alexander o Pelusium i Heliopolis; ac oddi yno i Memphis, y brif ddinas. Yr oedd yr Aiphtiaid yn ei groesawu fel eu gwaredwr, o dan orthrymder y Persiaid. Aeth drachefn oddi yno i ymweled â theml Jupiter Hammon, yn niffaethwch Libya, tua dau can milltir o'r Aipht. Ar y daith hon, penderfynodd adeiladu dinas Alexandria, rhwng y môr a llyn Marea [gwel Alexandria], yr hon a fu yn hir yn brif ddinas y wlad, ac am lawer o amser yn hynod am ei masnach. Anfonodd wobrwyon o'i flaen i offeiriaid Jupiter Ammon, mewn trefn i gael eu cydsyniad i'w gydnabod fel mab y duw hwnw. Wedi cyrhaedd yno trwy lawer o beryglon, cafodd ei ddymuniad;—cydnabyddodd yr oracl ef yn fab Jupiter; ac o hyny allan, arwyddai ei lythyrau a'i ddeddfau fel y cyfryw. Ond er fod digon o falchder a gwag-ogoniant ynddo ef ei hun i ymffrostio yn hyn, nid oedd neb arall ond yn chwerthin am ei ben.

Wedi sefydlu llywodraeth yn yr Aipht, casglodd ei fyddin yn nghyd ddechreu y flwyddyn c. c. 331, i chwilio am Darius. Ar ol treulio peth amser yn Tyrus, i drefnu pethau yno, aeth yn mlaen i Thapsacus, dinas ar yr afon Euphrates, a chroesodd Mesopotamia, hyd at y Tigris. Yr oedd Darius wedi gwneyd cais dair gwaith am heddwch; ond gan nad oedd hyny i'w gael ond trwy roddi i fyny ei holl ymherodraeth i'w elyn, penderfynodd gasglu byddin yn nghyd i'w wrthwynebu. Gwersyllodd gydag un cant ar ddeg o filoedd, yn agos i bentref bychan a elwid Gaugamela, neu Dŷ'r Camel. Ond gorchfygwyd ef gan Alexander y pryd hwn, a gorfu arno ffoi i Ecbatana, yn Media, gan adael llawer o drysor a dodrefn gwerthfawr yn meddiant y gelyn. Am nad oedd Gaugamela ond pentref bychan a disylw, galwyd y frwydr hon yn frwydr Arbela, tref o ddeutu deuddeng milltir i faes y gwaed. Y pryd hwn, syrthiodd ymherodraeth Persia i feddiant y buddugoliaethwr, ac ymostyngodd y rhan fwyaf o'r taleithiau iddo yn ddiwrthwynebiad. Ar ol treulio peth amser i orphwys, aeth yn mlaen, a chymmerodd feddiant o Babilon, a'i holl drysorau. Ac er fod Darius eto yn fyw, nid oedd ganddo mwyach nerth i feddwl sefyll yn wyneb ei elyn. Yn lle difrodi a dinystrio y

Digitized by Google

temlau, a lladd yr offeiriaid, fel breninoedd Persia, gorchymynodd adnewyddu teml Bel, yn Babilon; a rhoddodd addoliad i'r duw hwnw, yn ol defodau y Caldeaid.

Ymddengys fod Alexander wedi cyfnewid cryn lawer y pryd hwn o ran ei dymmer a'i ymddygiadau. Yr oedd yn dymuno ymddangos fel penadur dwyreiniol, ac hefyd yn ymroddi i eithafion gloddest a meddwdod. Dywedir ddarfod iddo, ar ol aros ychydig ddyddiau yn Babilon, fyned i Susa, prif sedd a thrysorfa breninoedd Persia y pryd hwnw, yr hon oedd ar lanau y Choaspes, neu Kerah; ac oddi yno i Persepolis, lle y gauafodd, gan ymroddi i loddest a meddwdod. Yn un o'r gwleddoedd a wnaeth i'w gadbeniaid, lle yr oedd eu gordderchadon hefyd wedi eu gwahodd: pan oeddynt wedi ymlenwi â gwin, cynnygiodd un Thais, gordderch Ptolemæus, yr hon a fuasai yn butain gyhoeddus yn Athen, fod i Persepolis, yn nghyd â'r palas, gael eu llosgi, er mwyn dial ar y Persiaid; o herwydd fod Xerxes wedi llosgi Athen. Ammheua rhai yr hanes uchod, gan briodoli ei dinystr i amser diweddarach, a'i fod yn fwy tebyg i waith y Mahometiaid. Yr oedd Persepolis yn lle cyssegredig gan y Persiaid, ar y cyfrif ei bod unwaith wedi bod yn brif ddinas yr ymherodraeth ac yn gladdfa eu penaduriaid, ar ol i sedd y llywodraeth, gael ei symmud i Susa ac Ecbatana.

Yn ngwanwyn y flwyddyn c. c. 330, aeth Alexander ar ol Darius i Ecbatana, yn Media; ffodd yntau tua Bactria, a rhwymwyd ef gan ddau o'i bendefigion ar y ffordd, gan fwriadu, os byddai i Alexander eu herlyn, ei draddodi iddo, er mwyn ennill ei ffafr; ond os na ddilynai hwynt, bwriadent ladd eu brenin, a chymmeryd meddiant o weddill yr ymherodraeth eu hunain. Wedi i Alexander ddyfod i Ecbatana, cafodd fod Darius wedi ffoi, a dilynodd ar ei ol hyd Rhagæ neu Rages; ac oddi yno, drachefn, drwy un o'r ffyrdd cul yn mynyddoedd Elburz, mewn lle a elwir yn gyffredin, Mynedfa Caspia *(Caspian Pass)*: teithiodd i berfeddion y wlad, trwy anialwch sych a thywodlyd Parthia. Ond cyn iddo eu goddiweddyd, deallodd Bessus, a'r rhai oedd yn ei ganlyn, fod eu herlynydd braidd ar ddisgyn ar eu gwarthaf; gan nad ufuddhäai Darius i farchogaeth, er dianc gyda mwy o gyflymder, rhoddasant iddo amryw o archollion marwol, a ffoisant ymaith gyntaf y gallent gyda chwe chant o wŷr meirch. Erbyn i Alexander gyrhaedd yno, yr oedd y brenin Darius Codomannus wedi trengu. Nis gallai ymattal rhag wylo wrth yr olwg arno. Taflodd ei fantell drosto, a gorchymynodd ei ddwyn i Susa, at Sisigambis, ei fam, gan ei gladdu ar ei draul ei hun âg arwyl freninol, yn nghladdfa breninoedd Persia. Gwel DARIUS.

Y pryd hwn, aeth y fyddin yn mlaen i Hyrcania, yr hon oedd yn cynnwys rhan o Mazanderan bresennol. Bwriadai Alexander, drwy hyn, ennill o'i blaid y gweddill o'r Groegiaid a wasanaethasant yn myddin Darius, gan nad oedd yn ddiogel iddo fyned yn mhellach i'r dwyrain, ac nad oedd ei feddiant o'r taleithiau a orchfygasai yn sicr, os byddai iddo adael o'i ol fyddin o'r Groegiaid yn barod i ryfel. Nid hir y bu, trwy ei diriondeb, heb eu cael i ddyfod i'w wersyll mewn ymostyngiad: maddeuodd yntau iddynt oll; oddi eithr rhyw negesyddion o Lacedæmonia at Darius, a ymostyngasant ar yr un pryd, y rhai a roddodd mewn cadwynau; a derbyniodd y lleill i'w fyddin ar yr un telerau ag y gwasanaethasant frenin Persia. Wedi bod am yspaid pymtheng niwrnod yn Zadracarta, prif ddinas Parthia, cyfeiriodd ei wyneb tua therfynau Areia, i ddinas Susia, a gosododd Satibarzanes, pendefig Persiaidd, yn llywydd yn Areia, gan benderfynu myned ei hunan gyda ei fyddin yn mhellach. Yr oedd â'i fryd ar ddarostwng y bradwr Bessus, yr hwn oedd wedi ffoi i Bactria, un o barthau pellaf yr ymherodraeth, a chael cryn nifer o'r brodorion i lynu wrtho, a'i gyhoeddi yn frenin o dan yr enw Artaxerxes. Ond pan oedd Alexander ar ol hwn, ac wedi ei ymlid mor bell nad oedd fawr o obaith iddo ei oddiweddyd, daeth galwad am dano yn ol gyda brys; o blegid, mor fuan ag y trodd ei gefn ar Areia, gwrthryfelodd Satibarzanes yn erbyn ei awdurdod. Dychwelodd yntau gyda'r cyflymdra mwyaf i Artacoana, prif ddinas y dalaeth, a gosododd lywydd newydd yno. Ar ol hyn, dygodd dan ei awdurdod y Mardiaid, yr Ariaid, y Drangiaid, yr Aracansiaid, ac amryw genedloedd ereill, heb lawer o drafferth. Yr oedd yn cyflawnu ei deithiau gyda ei fyddin mor gyflym, fel y disgynai ar ei elynion, yn fynych, heb iddynt ei ddysgwyl. Dywedir iddo deithio, un tro, wrth ymlid ar ol Darius, ddeugain milltir yn y dydd, am un diwrnod ar ddeg.

Yr adeg yr oedd Alexander yn mysg y Drangiaid, ceir hanes am un o'r creulonderau hyny ag sydd i'w canfod yn ei hanes yn duo ei nodweddiad yn fawr. Daeth cyhuddiad fod Philotas, mab Parmenio, un o'i dywysogion penaf, wedi llunio bradwriaeth yn erbyn y brenin. Dichon fod yr hyn a roddid yn ei erbyn yn wirionedd: pa fodd bynag, cynnaliwyd prawf ar ei achos, cyhoeddwyd ef yn euog, a rhoddwyd y ddedfryd mewn grym trwy ei roddi i farwolaeth. Yn ganlynol, gan fod Alexander naill ai yn drwgdybio Parmenio, yr hwn oedd y pryd hwn gyda byddin yn Ecbatana, o fod mewn cynghrair â'i fab, neu yn teimlo ei fod wedi llofruddio ei fab heb sail ddigonol i'r cyhuddiad yn ei erbyn, a thrwy hyny yn ofni rhag y buasai y tad yn defnyddio y cyfleusdra i ddial arno mewn amser dyfodol o herwydd y creulondeb hwn tuag ato, anfonodd y brenin lythyr at dri o swyddogion ereill yn y fyddin yn Media, yn gorchymyn iddynt roddi yr un ddedfryd mewn grym ar Parmenio. Yr oedd cyfeiriad Alexander y pryd yma tua y gogledd; a darostyngodd yn y gauaf hwn yr holl wlad hyd at fynydd Caucasus, lle yr adeiladodd ddinas, gan ei henwi ar ei enw ei hun, *Alexandria;* yr un a Candahar, medd rhai, ond heb sail ddigonol, dybygid.

Yn y flwyddyn ganlynol (c. c. 329), erlidiodd Alexander ar ol Bessus, nes ei yru allan o Bactria, a chymmerodd feddiant o'r dalaeth. Croesodd Bessus yr afon Oxus; llosgodd ei gychod, ac ymneillduodd i Nautaca, tref yn Sogdiana, mewn gobaith na byddai i'w elyn ei ddilyn yno. Pa fodd bynag, er nad oedd ar ei glanau ddim ag y gallasai eu defnyddio i wneyd badau, i'w ddwyn ef a'i fyddin drosodd, cynlluniodd i lenwi y crwyn oedd gan y milwyr ar eu pebyll, â gwelltglas a chorsenau sychion, i nofio arnynt drosodd; ac felly y croesodd Alexander a'i fyddin mewn pum niwrnod. Yn fuan wedi iddynt fyned drosodd, gan fod canlynwyr Bessus yn ofni rhag y canlyniadau, traddodasant ef yn rhwym i ddwylaw ei erlynydd; ac wedi iddo ei gadw yn ngharchar am ychydig amser, gorchymynodd dori ei drwyn a'i glustiau ymaith, a'i anfon i Ecbatana i'w roddi i farwolaeth. Cymmerodd ei daith oddi wrth yr afon Oxus i Maracanda, prif ddinas Sogdiana, neu fel y gelwir hi yn bresennol Samarcand, yr hon

Digitized by Google

yw prif ddinas Tartariaid Usbec. Gweithiodd ei ffordd yn mlaen drachefn tua y dwyrain mor bell a glanau yr afon Iaxartes, neu Sir; ac yma hefyd yr adeiladodd ddinas Alexandria, gyda bwriad iddi fod yn amddiffynfa iddo yn erbyn y Scythiaid, y rhai oedd yn preswylio y wlad sydd yn awr yn meddiant y Kirghiz. Yr oedd preswylwyr y gwledydd hyn yn rhai gwrol a chelyd, fel nad gorchwyl bychan oedd eu darostwng. Ond er y cyfan, canlynodd yn mlaen nes y daeth o'r diwedd at Cyropolis, ar yr afon Iaxartes; ac ar ol ei chymmeryd, aeth dros yr afon, ac ymlidiodd fyddin o feirch-filwyr y Scythiaid, nes oedd ef a'i filwyr wedi pallu gan y gwres a'r syched; a gorfodwyd ef i fyned drosodd yn ei ol o herwydd afiechyd, wedi ei achosi trwy yfed dwfr afiachus, yr hwn oedd yr unig ddwfr a ellid ei gael yn y lleoedd sychion hyny. Tua diwedd y flwyddyn hon, dywedir ddarfod i Alexander, pan oedd un tro wedi ynfydu trwy feddwdod, drywanu ei gyfaill Cleitus i farwolaeth. Yr oedd Cleitus, yntau, yn feddw, a dannodai i'r brenin nad oedd ganddo un hawl i'r fath anrhydedd a roddid arno; yntau a gyffrodd mor fawr o ran ei nwydau, fel yr aeth bywyd ei gyfaill yn ysglyfaeth i'w gynddaredd. Edifarhaodd yn chwerw wedi sobri; ond yr oedd yn rhy ddiweddar y pryd hyny.

Yn y flwyddyn drachefn, c. c. 328, priododd Roxana, merch pendefig o Persia, yr hon oedd yn un o'r pendefigesau caeth yn ei wersyll. Yr oedd hon mor ddrygionus a chreulawn ag oedd o lân a phrydferth. Dilynodd llawer o'r rhai blaenaf yn ei fyddin ei esampl, a threuliwyd y rhan fwyaf o'r gauaf hwn mewn gwleddoedd priodas. Ond er mwyn bod yn debyg i Bacchus a Hercules, ei frodyr, fel yr ymhonai meibion Jupiter, y rhai a arweiniasant eu byddinoedd, yn ol yr hanes, i'r India; penderfynodd yntau wneuthur yr un modd. Mynai i bawb a ddelai ger ei fron ei addoli megys duw, yn ol fel y telid gwarogaeth i freninoedd Persia. Tybiodd Calisthenes, y philosophydd, yr hwn a anfonasai Aristotle, ei athraw, gydag ef i'w addysgu, pan oedd yn cychwyn ei ryfel yn erbyn y Persiaid, mai ei ddyledswydd oedd dangos iddo yr ynfydrwydd o ofyn y fath beth gan ei ddeiliaid. Ond yn lle gwrandaw arno, efe a deimlodd fod hyn yn ormod o hyfdra arno, a gorchymynodd ei roddi i farwolaeth. [Gwel *Amseryddiaeth Lloyd.*] Dywed y *Penny Cyclopædia*, ar dystiolaeth Arrian [iv. 5, 6], un a ysgrifenodd hanes bywyd Alexander, mai o herwydd bradwriaeth i lofruddio y brenin y cafodd Calisthenes, ac ereill o'i gyfeillion oedd mewn cynghrair âg ef, eu rhoddi i farwolaeth. Treuliodd y flwyddyn hon mewn darostwng y gwledydd hyny a briodolid yn rhan o'r India, ag oedd yn gorwedd y tu yma i'r Indus, a gauafodd yn Nautaca.

Wedi y pethau hyn, croesodd Alexander yr afon Indus, a dechreuodd ar ei orchwyl yn yr India. Y dref gyntaf a gymmerodd oedd Taxila, rhwng yr Indus a'r Hydaspes, yn awr y Behut neu Bedusta. Ymostyngodd Taxilas y brenin i'r oruchwyliaeth yn ddidrafferth. Yr oedd yr ymrafaelion oedd rhwng y penaethiaid Indiaidd yn peri nad oedd mor anhawdd cael yr oruchafiaeth arnynt. Y tu hwnt i'r afon Hydaspes, yr oedd breniniaeth Porus, yr hwn a ddaeth yn eu herbyn gyda byddin luosog. Nid mor hawdd oedd croesi yr afon, rhwng ei bod yn lled lydan, a bod y gelyn gyda'i fyddin, a nifer o elephantiaid yr ochr draw yn eu gwylio; ond er hyny, llwyddodd Alexander a rhan o'i filwyr, yn nghyd â'i feirch-filwyr, i groesi mewn lle arall heb yn wybod i'r gelyn, nes oedd yn rhy ddiweddar i gynnyg eu gwrthwynebu. Wedi hyn, nid oedd gan Porus ddim i'w wneyd ond parotoi ei hun i'r frwydr. Trefnodd ei fyddin, â'r cawrfilod o'i blaen; ac ymdrech galed fu y canlyniad. Er hyny, bu y Groegwyr yn drech nag ef o ddigon; a dywed un cyfrif fod colled y gelyn yn y frwydr hon yn nghylch tair mil ar ugain o'r Indiaid. Syrthiodd dau fab y brenin yn y frwydr hon, ac o'r diwedd gorfu i'r tad roddi ei hun i fyny i Alexander. Cafodd dderbyniad teilwng o'i fawrhydi a'i wroldeb, a dychwelwyd iddo ei lywodraeth yn ol. Cymmerwyd nifer o'r cawrfilod gan y Groegiaid; a thybir mai wedi hyn y dechreuodd yr Ewropiaid ddefnyddio y creaduriaid hyn yn eu rhyfeloedd.

Sylfaenodd Alexander ddwy o ddinasoedd ar lan yr afon Hydaspes. Enw un oedd Nicæa, mewn coffadwriaeth am ei fuddugoliaeth; a'r llall Bucephala, er anrhydedd ei farch, Bucephalus, yr hwn a fu farw yno o henaint a blinder, wedi dwyn ei farchogwr yn ddiogel trwy lawer o frwydrau. Oddi wrth yr afon Hydaspes, teithiodd at yr Alcesines, neu Chin-ab, yr hon y dywedir ei bod yn afon o gryn faintioli. Croeswyd yr afon mewn cychod ac ar grwyn. Aeth yn mlaen, a darostyngai bawb yn ei ffordd, gan lwyr benderfynu na roddai ben ar ei ymgyrch yn y cyfeiriad hwnw nes cyrhaedd y Ganges. Ond yr oedd ei filwyr, wrth weled y wlad yn dlawd, a theimlo eu hunain yn ddiffygiol, fel dyeithriaid mewn gwlad bell, yn rhy anhyblyg i gymmeryd eu harwain na thrwy deg na thrwy hagr dros yr afon Hyphasis. Yma, gan hyny, yr oedd terfynau buddugoliaethau Alexander yn y cyfeiriad hwn. Dychwelodd yn ol rhyngddo a'r Hydaspes, ac i lawr yr afon hono, ac i lawr hyd yr Indus, gan orchfygu amryw genedloedd oedd ar ei glanau. Ymddengys ei fod yn bwriadu dwyn ei arfau yn mhell i'r deheu, yn yr India, cyn dychwelyd i Babilon.

Hwyliodd i lawr yr Indus, a sylfaenodd ddinas yn y fan y mae y Chin-ab a hithau yn cyfarfod. Gosododd lywydd, yn nghyd â byddin o Thraciaid, i gadw meddiant o sefyllfa filwrol yn y wlad hono. Wedi chwanegu ei lynges, aeth i lawr yn mhellach, gan ymweled â Sogdi, a darostyngodd y penaethiaid Musicanus ac Oxycanus—dau benaeth Indiaidd oedd ar lanau yr afon—a chymmerodd eu dinasoedd. Cymmerodd feddiant o Sindomana, prifddinas Sambus; yr un, y mae yn debyg, a Sehwan, mewn amser diweddarach. Ymddengys iddo drachefn anfon rhan o'i fyddin ar hyd y tir o lanau yr Indus i wlad yr Arachotiaid a'r Drangiaid, gan orchymyn iddynt fyned i Carmania. Ar y daith hon, gan eu bod yn tramwyo trwy anialdiroedd tywodlyd a sych, bu farw llawer o'i filwyr trwy newyn a syched. Yn Pattala, ar yr Indus, sylfaenodd ddinas a sefyllfa lyngesol. Aeth i lawr drachefn mor bell nes y cyrhaeddodd Fôr yr India (*Indian Ocean*), a chwiliodd y gwledydd oedd ar ei gyffiniau.

Gorchymynodd i Nearchus ei lyngesydd, fyned oddi yno o'i gyda chynnifer o longau ag oedd ganddo yn gymhwys, i lynclyn Persia. Aeth ef ei hun o Pattala ar y tir, tua Medi, 325 c. c., gyda'r bwriad o'i gyfarfod yno. Dyoddefodd ei filwyr yn fawr yn y teithiau hyn oddi wrth y gwres a syched. Wedi iddo gyrhaedd prif ddinas Carmania, cyfarfu â Craterus a'r cawrfilod, yn nghyd â'r fyddin oedd gydag ef, a anfonodd ffordd arall o lanau yr Indus. Daeth Nearchus yn ddiogel gyda y llynges i Harmozia. Aeth y brenin yn

Digitized by Google

mlaen gyda rhan o'r fyddin i Pasargadæ, lle y claddwyd Cyrus; a chafodd fod lladron wedi cloddio iddo i ysbeilio ei drysorau. Yr hyn oedd mewn golwg ganddynt oedd yr arch aur oedd am ei gorff eneiniedig. Ond wedi cymmeryd y caead, a thaflu y corff o'r lle y gorweddai er ys dau can mlynedd, yr oedd eu hysbail yn rhy drwm i'w ddwyn ymaith. Gorchymynodd Alexander i weddillion adfeiliedig y penadur hwnw gael eu rhoddi yn y bedd drachefn, a'u sicrhau rhag y cyffelyb ddirmyg eilwaith. Tramwyodd o Pasargadæ i Persepolis, ac oddi yno i Susa. Ar y daith hon, rhoddodd lywydd talaeth Persis i farwolaeth, o herwydd ei gamddefnydd o'i awdurdod, a gosododd Peucestas yn llywydd yn ei le.

Wedi cyrhaedd Susa, ar lanau Eulæus (Ulai, *Dan.* viii. 2, 16), neu Choaspes, cafodd y fyddin orphwys am ryw dymmor. Yn y lle hwn y gadawsai y pendefigesau Persiaidd; a phan ddychwelodd y pryd hwn (c. c. 324), priododd Barsine, merch henaf Darius; ac hefyd ar yr un pryd, medd un hanesydd, priododd Parysatis, merch Ochus. Rhoddodd Drybetes, merch ieuangaf Darius, i'w gyfaill Hephæstion. Rhoddodd hefyd wragedd o honynt i tua phedwar ugain neu fwy o'i swyddogion penaf. Rhanai hwynt rhyngddynt yn ol ei ddewisiad ei hunan, fel pe na buasai ond rhoddi iddynt swydd yn ei fyddin. Rhoddai y brenin waddol gyda phob un o honynt, a gwobrwyon helaeth i'r rhai oedd wedi ei wasanaethu yn ffyddlawn. Talodd hefyd ddyled ei holl filwyr. Yr oedd ei gyfoeth y pryd hwn yn anferth. Dywedai nad oedd ganddo ddim llai na chant a phedwar ugain a deg o filoedd o dalentau (o ddeutu pymtheg miliwn ar ugain o bunnau, yn ol ein cyfrif ni) yn Ecbatana yn unig; a llawer iawn o drysorau heb law hyny yn Babilon, a manau ereill o'i ymherodraeth.

Ar ol hyn, gwnaeth lawer o welliadau ar y Tigris, mewn trefn i'w gwneyd yn fordwyol. Hwyliodd ar hyd-ddi mor bell ag Opus; gollyngodd yno lawer o'r fyddin, y rhai oeddynt yn afiach ac yn fethedig, o herwydd henaint, i fyned adref i Macedonia, eu gwlad eu hunain, gan addaw gwobrau iddynt, a rhoddi gosgordd i'w hamddiffyn ar eu taith; ond tybient hwy ei fod am ymwrthod â hwy, er mwyn eu gwadu, a rhoddi eu lleoedd i'r Persiaid. Pa fodd bynag, wedi darostwng yr anghydfod hwn, aeth i Ecbatana, prif ddinas yr ymherodraeth yn y gogledd, tua diwedd y flwyddyn hon (324 c. c.). Y pryd hwn, yn Ecbatana, bu farw Hephæstion, un o'i gyfeillion penaf, o dwymyn, mewn canlyniad i yfed i ormodedd. Bu yr amgylchiad hwn yn chwerw i Alexander. Wedi hyn, aeth i lawr o Ecbatana i Babilon, er cael ymwared o'i alar; ac ar ei ffordd, rhoddodd ei fryd ar ddinystrio llwyth mynyddig o ysbeilwyr, a elwid Cossæaid. Yr oedd fel pe buasai wedi ymddiofrydu i ddwyn pawb o dan warogaeth iddo ei hun. Ar ei ddyfodiad i Babilon, cyfarfu âg ef genadon o wahanol barthau yr ymherodraeth, yr hon oedd yn cyrhaedd braidd dros yr holl fyd adnabyddus, i dalu eu gwarogaeth iddo.

Yr oedd yn bwriadu gwneyd Babilon yn brif ddinas ei ymherodraeth, a gosod ei hun i fyny mewn mawredd na welodd y byd mo'i gyffelyb o'r blaen. Penderfynodd y pryd hwn chwilio allan y gwledydd yn nghylch Môr Caspia, a hwylio o amgylch Affrica; a gorchymynodd barotoi llynges i'r perwyl hwnw. Yr oedd rhanau helaeth o'r wlad o amgylch Babilon dan ddwfr, er y pryd y trodd Cyrus yr afon Euphrates o'i gwely, pan gymmerwyd y ddinas: ac ni cheisiwyd byth feddyginiaethu y niwed hyd yr adeg yma. Ond ymroddodd Alexander ar y gorchwyl hwnw gyda ei benderfyniad arferol: a diammheu y buasai yn cyflawnu ei amcan i raddau helaeth, pe cawsai fyw. Yr oedd wedi rhoddi ei fryd hefyd ar adeiladu teml Belus, neu Bel, yr hon a ddinystriwyd gan Xerxes; ac ymosododd ar y gorchwyl o ddifrif. Dywedir ddarfod i'r Iuddewon, y rhai oedd yn filwyr yn ei fyddin, pan ddaeth eu tro hwy i weithio, wrthod rhoddi eu dwylaw arno, am nad oedd eu crefydd yn caniatau iddynt wasanaethu eilunod: a phan welodd yntau nad ufuddhäent trwy wobr na chosp, gollyngodd hwynt ymaith i fyned i'w gwlad. Yr oedd ganddo fwriad hefyd i ddarostwng yr Arabiaid, a gwneuthur ymgyrch yn erbyn y Carthaginiaid, a dwyn yn mlaen ei frwydrau i'r gorllewin, mor bell a cholofnau Hercules, ar gyffiniau Yspaen.

Ond yn nghanol yr holl drafferthion a'r cynlluniau hyn, bu farw (c. c. 323); a darfu am ei holl amcanion, pan nad oedd ei oed ond deuddeng mlwydd ar ugain ac wyth mis, ac wedi teyrnasu am ddeuddeng mlynedd ac wyth mis. Yr hyn a fu yn angeu iddo oedd y dwymyn; wedi ei hachosi, medd rhai, trwy ei lafur yn arolygu y gwaith oedd yn cael ei ddwyn yn mlaen ganddo yn y corsydd o amgylch Babilon: ond, yn ol pob tebyg, ei feddwdod a'i anghymmedroldeb a fu yr achos—am yr hyn yr oedd ef a'i dywysogion yn ddiareb. Dywedir fod deugain o honynt unwaith wedi yfed eu hunain i farwolaeth gyda'u gilydd; a diammheu y buasai ei einioes wedi dyfod i derfyn yn gynt nag y daeth, oni buasai y llafur ag yr oedd ynddo yn ei ymgyrchoedd rhyfelgar; o blegid, pan y caffai ychydig o lonyddwch, byddai yn feddw am ddyddiau a nosweithiau cyfain yn olynol. Fel hyn y terfynodd Alexander Fawr ei fywyd, wedi bod yn fwy llwyddiannus na neb, ond odid, a fu o'i flaen nac ar ei ol, yn ei ryfeloedd, yn enwedig mewn mor lleied o amser. Er fod ynddo lawer o diriondeb a rhinweddau wedi ymddangos, yn enwedig yn y tymmor cyntaf o'i fywyd, eto, y mae llawer o amgylchiadau yn ei hanes yn dangos ei fod yn drahaus a gwagogoneddgar, a dangosodd rai gweithiau y creulondeb mwyaf. Eneiniwyd ei gorff, a chladdwyd ef yn Alexandria, yn yr Aipht.

Y mae Daniel (*pen.* viii. 2—8) yn gosod allan lywodraeth y Mediaid a'r Persiaid, drwy yr arwyddlun o "hwrdd â deugorn iddo," ac Alexander trwy yr arwyddlun o "fwch geifr." "Gwelais mewn gweledigaeth, ac yr oeddwn i wrth afon Ulai. Yna y cyfodais fy llygaid, ac wele hwrdd yn sefyll wrth yr afon â deugorn iddo......Gwelwn yr hwrdd (ymherodraeth Persia) yn cornio tua'r gorllewin (yn dwyn Babilon, Syria, Asia Leiaf, a thir Groeg, dan ei hawdurdod), tua'r gogledd (y Scythiaid, y Libyaid, yr Armeniaid, a chenedloedd ereill), a thua'r deheu (yr Aipht, Arabia, yr India, ac Ethiopia); fel na safai un bwystfil o'i flaen ef, ac nid oedd a achubai o'i law ef..... Ac fel yr oeddwn yn ystyried, wele hefyd fwch geifr (Alexander Fawr) yn dyfod o'r gorllewin (o Groeg, yr hon sydd i'r gorllewin o Persia), ac heb gyffwrdd â'r ddaiar;" ar ymyl y ddalen, "ac nid oedd a'i cyffyrddai ar y ddaiar"—yn arwyddo cyflymdra ei fynediad, a'r modd yr oedd yn darostwng yn anorchfygol yn mhob man lle yr elai. "Ac i'r bwch yr oedd corn hynod rhwng ei lygaid; ac efe a ddaeth hyd at yr hwrdd deugorn a welswn i yn sefyll wrth yr afon, ac efe a redodd ato



Digitized by Google

yn angerdd ei nerth. Gwelais ef hefyd yn dyfod hyd at yr hwrdd, ac efe a fu chwerw wrtho, ac a darawodd yr hwrdd, ac a dorodd ei ddau gorn ef, ac nid oedd nerth yn yr hwrdd i sefyll o'i flaen ef, eithr efe a'i bwriodd ef i lawr, ac a'i sathrodd ef; ac nid oedd a allai achub yr hwrdd o'i law ef." Y mae hyn yn gosod allan hollol ddadymchweliad ymherodraeth y Persiaid gan Alexander a'r Groegiaid. "Am hyny, y bwch geifr a aeth yn fawr iawn; ac wedi ei gryfhau, torodd y corn mawr, a chododd pedwar o rai hynod yn ei le ef, tua phedwar gwynt y nefoedd." Gosodir allan yma gynnydd cyflym ymherodraeth Groeg o dan Alexander, yn nghyd â'r terfyn disymmwth a roddwyd arni drwy ei farwolaeth sydyn ef yn mlodau ei ddyddiau ac uchder ei lwyddiant.

Fel hyn yr eglurir y weledigaeth i Daniel, gan yr angel Gabriel, *adn.* 20, 21; "Yr hwrdd deugorn a welaist yw breninoedd Media a Persia, a'r bwch blewog yw brenin Groeg; a'r corn mawr sydd rhwng ei lygaid ef, dyna y brenin cyntaf." Gwel Groegiaid.—(*Arrian's Anabasis; Plut. Life of Alex.; Williams's Life of Alex.; Penny Cyc.; Amser. Lloyd; Prid. Con.; Newton on the Prophecies;* &c.)

2. ALEXANDER, a gyfenwid BALAS, neu **Βαλλης**: brenin a deyrnasodd ar Syria, o'r flwyddyn 150 hyd 145 c. c. Dewisodd y cyfenw hwn, medd rhai, ar ol ei fam, Bala, neu Balle.



Dar. 22.

Dywedir fod gwrthryfel wedi tori allan yn amser ei ragflaenor, Demetrius Soter, a bod breninoedd yr Aipht, Cappadocia, a Pergamus, yn pleidio y gwrthryfelwyr. Yr oedd Demetrius, rywbryd cyn hyn, wedi alltudio Heraclides, llywydd Babilon, i Rhodes; ac yn awr, annogodd yntau Alexander Balas, un o sefyllfa isel, i hòni ei fod yn fab i Antiochus Epiphanes; ac mai ganddo ef yr oedd cyfiawn hawl i'r orsedd yn lle ei dad. Cydnabyddwyd ei hawl gan senedd Rhufain, a brenin yr Aipht. Daeth brenin Cappadocia, a brenin Pergamus, allan o'i blaid. Ennillodd hefyd Ionathan Maccabæus, blaenor yr Iuddewon, o'i blaid, trwy wneuthur cyfeillach âg ef, ac anfon iddo roddion gwerthfawr. Cafodd Demetrius ei orchfygu, a syrthiodd ar faes y gwaed, ar ol sefyll yn erbyn ei wrthwynebydd dros ysbaid byr. Wedi esgyn i orsedd Syria, priododd Cleopatra, merch Ptolemæus Philometor, brenin yr Aipht. Ar yr achlysur hwn, derbyniodd Ionathan lawer o anrhydedd ganddynt, a rhoddent roddion i'w gilydd. Trodd y llwyddiant a'r dyrchafiad hwn yn ddinystr iddo; o blegid ymroddodd i loddest a phleserau, gan adael ei lywodraeth yn nwylaw ei weision; y rhai, o herwydd eu camlywodraeth, a barasant fod ei awdurdod yn adgas yn ngolwg ei ddeiliaid. Yn wyneb hyn, daeth Demetrius Nicator, mab hynaf Demetrius Soter, yn mlaen i hòni hawl i goron ei dad, a gorfu ar Balas ddyfod allan mewn arfau i'w amddiffyn ei hun. Gwrthododd Ptolemy, ei dad yn nghyfraith, ei bleidio, gan ei gyhuddo o fwriadu ei lofruddio; ond tybia rhai mai esgus oedd hyn i guddio ei fwriadau ei hunan gyda golwg ar Syria. Parhaodd Ionathan yn ffyddlawn iddo, a gwobrwyodd y brenin ef â chadwen aur o'r fath ag a wisgai tywysogion, a rhoddodd hefyd Ecron (Ἀκκαρών) yn feddiant iddo. Ond nid oedd fawr o obaith iddo, gan fod brenin yr Aipht wedi troi yn ei erbyn. Gorchfygwyd ef, a gorfu iddo, â phum cant o wŷr meirch, ffoi i Abæ, yn Arabia, am nodded. Ond yn lle ei amddiffyn, torodd Zabdiel, y penaeth Arabaidd, ei ben, ac anfonodd ef i Ptolemy, yn y flwyddyn c. c. 145. Wedi hyn, esgynodd Demetrius II. i'r orsedd. Gadawodd Balas fab ar ei ol, yr hwn oedd yn ieuanc y pryd hwn, ond wedi hyny a wnaed yn frenin ar Syria gan Tryphon, o dan yr enw Antiochus Theos.—(1 *Mac.* x, xi; *Hynaf. yr Iudd., Josephus,* xiii; *Cyc. of Bib. Lit.; Penny Cyc.*)

3. ALEXANDER IANNÆUS: y tywysog cyntaf o'r Maccabeaid a gymmerodd arno yr enw *brenin*. Gwel Maccabeaid.

4. ALEXANDER: mab Herod Fawr. Gwel Herod.

5. ALEXANDER: Iuddew o Ephesus, yr hwn y cawn hanes am dano yn *Act.* xix. 33, yn y cythrwfl a godwyd yn y ddinas hono yn nghylch Diana, pan oedd Paul yn pregethu. Tybia rhai mai yr un ydoedd a'r "gof copr" y crybwylla Paul am dano yn yr Ail Lythyr at Timotheus (iv. 14); ond heb sail ddigonol, yn ol barn ereill.

6. ALEXANDER "y gof copr" (1 *Tim.* i. 20; 2 *Tim.* iv. 14): yr hwn, yn nghyd â Hymenëus, a esgymunwyd gan Paul, o herwydd eu bod wedi gwadu y ffydd, a derbyn cyfeiliornadau. Tybir mai nid am ei fod yn dilyn y grefft hono y gelwir ef "y gof copr," ond am ei fod yn ei medru; fel yr oedd yn arferiad yn mysg yr Iuddewon mwyaf dysgedig i fod yn fedrus mewn rhyw gelfyddyd.

ALEXANDRIA, ALEXANDREIA, neu ALEXANDREA, [ἡ Ἀλεξάνδρεια; Arab. *El Skanderish*, neu *Iskanderia*]: dinas enwog o'r Aipht, yn lledred 31° gog.; hydred 30° dwyr.; o ddeutu deuddeng milltir i'r gorllewin o aber Canopaidd yr afon Nile. Sefydlwyd Alexandria gan Alexander Fawr, yn y flwyddyn c. c. 332. Yr oedd sefyllfa tref fechan Rhacotis yn ymddangos iddo yn meddu cymmaint o fanteision naturiol, fel y penderfynodd osod yno brif ddinas ei ymherodraeth. Dywedir iddo fwriadu hyn mor ddisymmwth, fel, wedi iddo benderfynu ar sefyllfa y ddinas newydd, nad oedd wrth law un offeryn i nodi allan ei therfynau; ac iddo, ar awgrymiad un o'r gweithwyr, orchymyn iddynt ogryn blawd ceirch yn rhesi ar y ddaiar, ac felly drefnu maintioli y ddinas. Deonglwyd hyn gan y dewinwyr fel yn arwyddocau lle yn llawn o bethau angenrheidiol er cynnaliaeth dyn: ac yn wir, bu Alexandria am flynyddoedd yn gyru llawer o ŷd i Rufain ac i Italy. Mewn llong yn hwylio o Alexandria i Italy y gosodwyd Paul pan anfonwyd ef i sefyll ei brawf o flaen Cæsar yn Rhufain; *Act.* xxvi. 6—38. Dechreuwyd adeiladu y ddinas yn ddioed, ond nis gorphenwyd hi hyd deyrnasiad yr ail Ptolemy—Ptolemy Philadelphus (c. c. 283).

Yr oedd hen Alexandria yn gorwedd yn mron o ddwyrain i orllewin, ar hyd dernyn cul o dir, rhwng Môr y Canoldir a llyn Mareotis; y naill yn rhoddi i'w meddiant holl fasnach Ewrop ac Asia Orllewinol; a'r llall, trwy ddyfrffos i'r afon Nile, holl fasnach yr Aipht. Yr oedd ei hyd, o ddwyrain i orllewin, o ddeutu pedair milltir; ei lled, o ogledd i ddeheu, tua milltir; a'i chylch, yn

Digitized by Google

ol Pliny, yn bymtheg milltir. Yr oedd yr heolydd wedi eu gosod allan mewn onglau cywir, a phob un yn ddigon o led i ganiatau i gerbydau a dynion fyned yn ol ac yn mlaen ar hyd-ddynt. Yr oedd dwy heol fawr yn rhedeg yn union i'r pedwar prif borth—pob heol o ddeutu dau cant o droedfeddi o led. Yn mhen gorllewinol y fwyaf, yr hon oedd tua phedair milltir o hyd, yr oedd y Necropolis, neu yr angladdfa, â'i gerddi; yn y pen dwyreiniol, yr Hippodrome fawr, neu redegfa y meirch. Y leiaf oedd yn rhedeg o ogledd i dde, o'r môr hyd lyn Mareotis. Yn y fan lle yr oedd y ddwy heol hyn yn croesi eu gilydd, yr oedd ysgwâr fawr a gwych, o'r hon y gellid cael golygfa hardd ar yr holl ddinas; ac oddi wrth yr hon yr oedd palasau, a themlau, ac adeiladau gwladwriaethol, o farmor ac o borphyry, yn difyru y llygad ar bob ochr. Yn y pen dwyreiniol o'r ddinas, yr oedd penrhyn cul, yn rhedeg allan i'r môr, ac yn ffurfio un ochr y porthladd. Yn wynebu y ddinas, ac yn ei hamddiffyn rhag y môr, yr oedd ynys hir, gul, o'r enw Pharos, wedi ei chysylltu â'r cyfandir gan gob, a alwyd yn Heptastadium, oddi wrth ei hyd o saith (ἑπτα=*hepta*) *stadia* (σταδιον=*stadion*)—o ddeutu tri chwarter milltir. Fel hyn y ffurfiwyd dau borthladd, yn eu cynllun nid yn annhebyg i'r lythyren H ar ei hochr—⊏⊐; un ar y tu dwyreiniol, dan yr enw y Porthladd Mawr (yn awr, y Porthladd Newydd), a'r llall ar y tu gorllewinol, dan yr enw Eunostus (ευνοστος), (yn awr, yr Hen Borthladd), neu Borthladd y Dychweliad hapus. Cysylltwyd y ddau â'u gilydd trwy adwyau yn yr Heptastadium, a groesid gan bontydd y gallesid eu codi fel y byddai eisieu. Yn yr Eunostus, wrth ben gorllewinol y ddinas, yr oedd y Cibotus (κιβωτος=crwnbwll) wedi ei wneuthur ac wedi ei uno trwy ddyfrffos â llyn Mareotis, ac â changen Canopaidd yr afon Nile. Yn mhen dwyreiniol ynys Pharos, yr oedd y goleu-dŵr enwog, a ystyriwyd yn un o ryfeddodau y byd. Adeiladwyd ef gan Ptolemy Philadelphus (c. c. 283) o farmor gwyn, ac yn 400 troedfedd o uchder: ar ei ben yr oedd tân bob amser yn llosgi, er cyfarwyddyd i'r morwyr. Y mae goleu-dŵr yn bresennol ar yr un fan.

Oddi fewn, rhanwyd Alexandria yn dair rhan, yn cyfateb i elfenau gwreiddiol ei phoblogaeth. 1. Y Regio Judæorum, neu ran yr Iuddewon. 2. Y Brucheium, neu Pyrucheium—y rhan freninol, neu Roegaidd. 3. Y Rhacotis, neu y rhan Aiphtaidd.

1. Yr oedd y rhan berthynol i'r Iuddewon yn y gogledd-ddwyrain o'r ddinas. Amgylchynid y rhan hon â muriau, y rhai a fuont lawer tro o wasanaeth mawr i'w hamddiffyn yn yr ymrafaelion oedd yn fynych yn codi rhwng yr Iuddewon a'u cyd-ddinaswyr Groegaidd. Yr oedd nifer yr Iuddewon yn Alexandria yn lluosog iawn, fel y canfyddwn oddi wrth ffaith a grybwyllir gan Josephus;—fod Ptolemy Philadelphus wedi rhyddhau 120,000 o Iuddewon a ddygwyd o Ierusalem. Yr oedd ganddynt, ar y cwbl, yr un breintiau a'r Groegiaid, er eu bod, ar brydiau, wedi eu hamddifadu o honynt. Llywodraethid hwynt gan Ethnarch, Sanhedrim, a chyfreithiau o'r eiddynt eu hunain. Nid oeddynt yn cydnabod llywodraeth y deml yn Ierusalem, gan fod Iuddewon yr Aipht wedi adeiladu teml eu hunain yn Heliopolis, neu On.

2. Yr oedd y Brucheium, neu y rhan Roegaidd, yn rhedeg o'r dwyrain hyd at y leiaf o'r ddwy brif heol, i'r gogledd at y porthladd mawr, ac i'r deheu at furiau y ddinas. Amgylchwyd y rhan hon hefyd gan ei muriau ei hun. Yma yr oedd y prif adeiladau cyhoeddus;—palas y Ptolemiaid, y llyfrgell enwog, a'r amgueddfa (*museum*); y Cæsarium, neu deml y Cæsariaid, lle yr addolid hwynt fel duwiau; y Mausoleum, neu angladdfa y Ptolemiaid, lle yr oedd corff Alexander Fawr, lle hefyd y claddwyd Marc Antony; ac yn olaf, yr Emporium, neu yr *Exchange*, mewn ysgwâr ardderchog, wedi ei amgylchu ar dair ochr gan resi o golofnau gwych, ac ar y gogledd gan lwythfanau y porthladd mawr. Yr oedd marsiandwyr o bob cenedl yn ymgasglu yma am dros wyth can mlynedd, gan fod Alexandria wedi etifeddu holl fasnach Tyrus a Carthage. Pan gymmerwyd y ddinas gan yr Arabiaid, yn y seithfed ganrif, yr oedd y Brucheium yn mron yn anghyfannedd, a'i adeiladau wedi cwbl adfeilio.

3. Yr oedd y Rhacotis yn y rhan orllewinol o'r ddinas, ar sefyllfa yr hen Rhacotis. Ei phrif adeiladau oeddynt ystordai ŷd, ar hyd y Cibotus, Stadium, a'r Serapeion, hen deml y duw Serapis. Adeiladwyd yr olaf gan Ptolemy Soter; ac yn ol Ammianus Marcellinus, yr oedd yn rhagori ar holl demlau y byd, ond y Capitol yn Rhufain. Yma, cadwyd rhan o'r llyfrgell enwog, hyd ei dinystr, yn B.A. 390, gan Theophilus, esgob Alexandria, mewn ufudd-dod i orchymyn yr ymherawdwr Theodosius yn diddymu paganiaeth trwy ei lywodraeth.

Cododd Alexandria yn fuan iawn i radd o lwyddiant bron yn ddigyffelyb; ac ar ol marwolaeth Alexander, daeth yn brif ddinas yr Aipht. O dan y Ptolemiaid cyntaf y cyrhaeddodd hi ei hanrhydedd uchaf; ac yno yr ymgasglodd yr athronyddion mwyaf enwog, i fwynhau y nodded haelionus a roddwyd gan y breninoedd hyny i bob celfyddyd a dysgeidiaeth. Teyrnasodd y Ptolemiaid yn Alexandria am 293 o flynyddoedd. Dan y breninoedd diweddaraf o'r rhai hyn, lleihaodd y ddinas. O'r flwyddyn c. c. 204, yr oedd y Rhufeinwyr yn ymyraeth, i raddau mwy neu lai, âg achosion Alexandria. Yn y flwyddyn c. c. 55, cymmerodd Alexandria ran yn y rhyfeloedd cartrefol oedd yn dyrysu yr ymherodraeth Rufeinig, a syrthiodd yn ganlynol i law Pompey, Gabinius, Julius Cæsar, Cassius, Marc Antony, ac yn ddiweddaf, ar ol marwolaeth Cleopatra, dan awdurdod Augustus Cæsar. Y mae yr hanesydd Diodorus Siculus, yr hwn a ymwelodd â'r ddinas o ddeutu y flwyddyn B. A. 58, yn cyfrif nifer ei dinasyddion rhydd yn 300,000; at ba nifer y dylid chwanegu, o leiaf, gymmaint eto ar gyfer y caethweision a'i thrigolion achlysurol. Heb law Iuddewon, Groegiaid, ac Aiphtiaid, yr oedd ei phoblogaeth yn cynnwys Italiaid, Syriaid, Libyaid, Ciliciaid, Ethiopiaid, Arabiaid, Bactriaid, Persiaid, Scythiaid, ac Indiaid. Yr oedd yno weithfeydd papyr, llian, gwydr, a *muslin*. Gellir ffurfio dychymyg am eangder masnach Alexandria, a'i mawr gyfoeth, oddi wrth y ffaith fod yr ardrethi porthladdol yn unig, yn y flwyddyn c. c. 63, yn cyrhaedd y swm o 6,250 o dalentau, neu filiwn o bunnau o'n harian ni.


Nid yw hanes cyffredinol Alexandria, dan yr ymherawdwyr Rhufeinig, o fawr o ddyddordeb. Yr oedd ymrafaelion yn cymmeryd lle yn feunyddiol rhwng y trigolion Iuddewig a'r awdurdodau; ac yn y brwydrau canlynol, lladdwyd hwynt yn ddidrugaredd. Dywed Josephus, fod 50,000 wedi cael eu lladd ar yr un achlysur gan y milwyr Rhufeinig. Ymwelodd Hadrian â'r ddinas yn B. A. 122, ac adferodd lawer o'r adeiladau

Digitized by Google

cyhoeddus oeddynt y pryd hyny wedi adfeilio. Gorchymynodd Caracalla i'w filwyr ladd y dinasyddion am ddau ddiwrnod, o herwydd rhyw sylwadau a wnaethant arno ef. Amgylchodd Diocletian Alexandria yn B. A. 297, ac a'i hennillodd yn ol, pan yr oedd hi yn pleidio Achilleus; ond ymddygodd yn dirion wrth ei thrigolion. Ond yn yr erlidigaeth gyffredinol a gymmerodd le yn ysbaid ei deyrnasiad, merthyrwyd llawer o'i thrigolion Cristionogol.

Adfeiliodd y ddinas yn raddol hyd y seithfed ganrif, pryd nad oedd ond y Rhacotis yn meddu ei gwychder blaenorol. Yn y flwyddyn 640, cymmerwyd Alexandria—ar ol iddo warchae o'i hamgylch am bedwar mis ar ddeg—gan Amrou, cadben y Caliph Omar. Hyd yn oed yn ei chyflwr y pryd hyn, ysgrifenodd Amrou am ei fuddugoliaeth fel y canlyn:—"Ennillais ddinas y gorllewin. Y mae ei maintioli yn ddirfawr: nid allaf ddysgrifio y rhyfeddodau sydd ynddi. Y mae ynddi 4,000 o balasau, 4,000 o ymolchfeydd, 12,000 o werthwyr olew, 12,000 o arddwyr, 40,000 o Iuddewon yn talu teyrnged, a 400 o chwareudai a lleoedd o ddifyrwch. O'r amser hwn, yr oedd Alexandria yn adfeilio yn gyflym; eto, yr oedd manteision ei sefyllfa fel lle masnach yn ei chadw rhag syrthio yn hollol i ddiystyrwch, hyd nes y cafwyd allan y fordaith o gwmpas Penrhyn Gobaith Da, yn 1497; yr hyn a newidiodd gwrs y fasnach âg India, ac a gwblhaodd gwymp Alexandria. Syrthiodd nifer ei thrigolion o 600,000 i 6,000.

Y mae Alexandria bresennol wedi ei hadeiladu gan mwyaf, fel y gwelir yn y darlun, ar yr hen Heptastadium, a'r ddaiar wedi ei chasglu o'i hamgylch. Nid oes ond ychydig o weddillion yr hen ddinas i'w gweled: y mwyaf penodol ydynt y dyfr-gistiau mawrion a gloddiwyd oddi dan y tai, i ddal dwfr yr afon Nile, er gwasanaeth y trigolion; yr angladdfa; yr *obelisks*, neu golofnau pigfeiniol, a elwir yn gyffredin Nydwyddau Cleopatra; a cholofn Pompey, a adeiladwyd er



Dar. 23. ALEXANDRIA.

anrhydedd i'r ymherawdwr Diocletian. Ond nid yw y rhai olaf yn briodol felly; canys gwaith yr hen Aiphtiaid gynt ydynt, a ddygwyd ac a osodwyd i fyny yn Alexandria; megys y dygwyd amryw i Rufain yn yr un modd. Dywed yr arglwydd Nugent am y ddinas bresennol fel y canlyn:—"Y mae yr olygfa gyntaf ar ddinas Alexandria yn un sydd yn peri prudd-der mawr, yr hwn sydd yn dyfnhau trwy gydnabyddiaeth â'i hanesion amgylchiadol. Mae aflendid ei heolydd, a'r cwmpasoedd—golwg ddigalon, afiachus, a thlawd, ei thrigolion—ei hadeiladau newyddion heb eu gorphen, a chyflwr adfeiliedig yr hen adeiladau; ïe, y mae pob peth yn arddangos esgeulusdra ac aflawenwch. Nid oes ganddi na'r croesaw llawen a geir mewn dinas boblog, nac ychwaith yr unigrwydd hynod a berthyn i hen adfail neu ddiffaethwch." Rhoddodd y diweddar Mehemet Ali gefnogaeth fawr i ddinas Alexandria, ac eiliwyd ei ymdrechiadau gan yr angenrheidrwydd am gael cyssylltiad mwy uniongyrchol a chyflym â'r India, nag o gwmpas Penrhyn Gobaith Da. Er bod y mynediad i borthladd Alexandria yn anhawdd, eto y mae yn borthladd diogel; a'r unig un ydyw ar lan ogledd-ddwyreiniol Affrica sydd bob amser yn agored. Y mae agerlongau yn rhedeg yno o Southampton, Marseilles, Malta, Trieste, a manau ereill ar Fôr y Canoldir; a thrwy Alexandria y mae yr hyn a elwir yr *overland route* i India. Yn awr y mae ffordd haiarn wedi ei hagor o Alexandria i'r afon Nile, pellder o 66 milltir; ac yn fuan, fe'i hagorir oddi yno i Cairo, pellder o 140 o filltiroedd. Nifer ei thrigolion yn 1825 oedd 16,000; yn 1837, 40,000; yn 1840, 60,000, heb law milwyr a morwyr y llynges: ac yn bresennol y mae yn debyg nad yw eu nifer (1890) yn llai na 210,000.—(*Josephus' Antiq.*, xii. 2, § 12; xiv. 7, 2; xiv. 10, §§ 1, 2; *Diodorus*, llyfr xvii; *Strabo*, llyfr xvii; *Smith's Dict. of Geography*; *Kitto's Cyc. Bib. Lit.*; *Maculloch's Com. Dict.*)

Digitized by Google

ALEXANDRIA: EI LLYFRGELL, A'I HYSGOL BAGANAIDD a CHRISTIONOGOL. Er mor nodedig oedd Alexandria am ei masnach a'i chyfoeth, yr oedd yn fwy felly am ei hynodrwydd mewn llenoriaeth ac athroniaeth. Fel y dywedwyd uchod, un o brif ymdrechiadau y ddau Ptolemy cyntaf, Soter a Philadelphus, oedd gwahodd i'w prif ddinas ddysgedigion y byd, gan roddi iddynt yr annogaethau mwyaf haelionus. Sefydlwyd y llyfrgell a'r amgueddfa ganddynt, o ddeutu y flwyddyn c. c. 285. Yr oedd y llyfrgell yn y rhan a elwir y Brucheium; a gosodwyd Demetrius Phalereus, areithydd ac athronydd enwog, a alltudiwyd o Athen, yn llywydd cyntaf arni. Bu efe yn ddiwyd yn casglu yn nghyd lyfrau o wahanol ieithoedd y byd; ac, ar ei awgrymiad, dywedir i Philadelphus orchymyn y cyfieithiad i'r Groeg o'r Hen Destament, a adnabyddir wrth yr enw "Cyfieithiad y Deg a Thrigain." [Gwel CYFIEITHIAD Y DEG A THRIGAIN.] Y mae Josephus yn dywedyd iddo grynhoi yn nghyd 200,000 o gyfrolau. Beth bynag am hyny, dan nawdd y ddau Ptolemy, cynnyddodd nifer y llyfrau gymmaint, nes yr oedd yr adeilad yn y Brucheium yn rhy fechan i'w cynnwys; ac yn amser Ptolemy Physcon (y "Bol Mawr"), c. c. 146—117, dechreuwyd ail lyfrgell yn y Serapeion. Dywedir ei fod ef wedi gorchymyn cymmeryd gafael yn mhob llyfr a ddygwyd i'r Aipht; ac ar ol ei gopïo, i anfon yr adysgrif i'w pherchenogion, a gosod y llawysgrif wreiddiol yn y llyfrgell. O'r diwedd, cyrhaeddodd nifer y cyfrolau i 700,000. Ond pan warchaewyd ar Alexandria gan Julius Cæsar, llosgwyd y llyfrgell yn y Brucheium, a 400,000 o'r llyfrau oedd ynddi; ond ail sefydlwyd hi, gyda rhodd Marc Antony i Cleopatra, o lyfrgell Pergamus, yn cynnwys 200,000 o gyfrolau. Cynnyddodd y llyfrgell o'r amser hwn am bedair canrif, hyd nes y distrywiwyd y Serapeion gan Theophilus, esgob Alexandria: ond adferwyd hi wedi hyny. A phan gymmerwyd y ddinas gan Amron, yn ol yr hanes cyffredin, llosgwyd y llyfrgell ar orchymyn Omar y Caliph. Pan ysgrifenodd Amron ato, i ofyn pa beth a fynai iddo ei wneuthur, dywedodd, "Os ydyw y llyfrau hyn yn cytuno â llyfr Duw, y maent yn afreidiol, ac nid oes eisieu eu cadw; ond os nad ydynt, y maent yn beryglus, a dylid eu distrywio." Gan hyny, rhanwyd hwynt i'r ymolchfeydd oedd yn y ddinas i'w llosgi; a dywedir fod eu nifer cymmaint, fel yr oeddynt yn ddigon am dros chwe mis i gynhesu dwfr yr ymolchfeydd. Y mae Gibbon (*pen.* li.) yn ammheu yr hanes hwn; gan mai amddiffynwyr dysgeidiaeth oedd yr Arabiaid, ac nid ei gwrthwynebwyr.

Yn yr amgueddfa, cynnaliwyd dynion dysgedig ar draul y llywodraeth: yno yr oeddynt yn hyfforddi eu dysgyblion, ac yn traddodi darlithiau i'r cyhoedd. Parhawyd hyn gan y breninoedd canlynol, a'r ymherawdwyr Rhufeinig, am amryw ganrifoedd; ac felly ni a gawn, yn mhlith enwogion Alexandria, rai o ddysgedigion mwyaf y byd —yn baganiaid, Iuddewon, a Christionogion; canys yr oedd manteision dysgeidiaeth yn agored i bawb. Ni enwogwyd ysgrifenwyr Alexandria, fel awduron gwreiddiol, ond fel esbonwyr awduron Groeg, a'r oesoedd o'r blaen; megys Homer, Æschylus, &c.:—beirniaid, efelychwyr, a gramadegwyr oeddynt. Yr oedd celfyddydau rhif a mesur mewn bri mawr yno: dechreuwyd y gangen hon o ddysgeidiaeth gan Euclid (c. c. 200), yr hwn sydd bron wedi rhoddi ei enw i feintoniaeth (*geometry*); a chanlynwyd ef gan Apollonius o Perga (c. c. 250); y meintonydd mawr, Eratosthenes (c. c. 230), yr hwn oedd lyfrgellydd y llyfrgell fawr, ac yn enwog hefyd fel daiaryddwr, astronomydd, amseryddwr, ac athronydd; ac ereill, hyd at Pappus (B. A. 380). Nid oedd un gangen o wybodaeth nad oedd yn cael ei hastudio yn Alexandria: ac yno y bu Aratus, yr astronomydd; Theocritus; Callimachus ac Apollonius Rhodius, y prydyddion; Antiphilus ac Apelles, y darlunwyr; Aristophanes ac Aristarchus, y gramadegwyr; yn nghyd â llawer ereill rhy luosog i'w henwi. Astudiwyd athroniaeth y Groegiaid gyda'r sel mwyaf yn Alexandria; ond yn eu hathroniaeth, fel yn eu llenoriaeth, yr oedd diffyg o wreiddioldeb. Yr oedd y sectau gwahanol o athronyddion, yn enwedig dilynwyr Plato, yn addysgu yn Alexandria; canys yno yr oedd dysgedigion y byd yn ymgasglu. Y mae yn ddiammheuol fod cymundeb gwastadol rhwng gwahanol genedloedd, a gwahanol ysgolion athronyddol, a ymgasglent ac a ymsefydlent yn Alexandria fel prif eisteddle gwybodaeth y byd, yn gwasanaethu i leihau y gwahaniaethau oedd rhwng y pleidiau athronyddol hyn, ac i rwyddhau y ffordd i blaid newydd ymgodi; y rhai, heb broffesu unrhyw gyfundrefn benodol a chaeth, a ddewisent eu syniadau o wahanol ysgolion, yn ol eu cyssondeb, yn eu tyb hwy, â'r gwirionedd. Ac oddi wrth eu gwaith yn dewis fel hyn yr hyn a ymddangosai iddynt hwy yn wirionedd, pa le bynag y caent ef, gelwid hwy yn Eclectiaid. Gwel ECLECTIAID.

Dywedir fod Potamo, o Alexandria, wedi dwyn cyfundrefn o'r fath i Rufain (B. A. 200). Yr oedd y Platoniaid Newydd hefyd, Plotinus a Porphyry, yn cymmeryd y blaen (B. A. 250) yn eu hymdrechiadau i uno syniadau Aristotle a Plato, yn nghyd âg egwyddorion deilliedig o'r dwyrain. Cawn weled fod yr ysbryd Eclectaidd hwn wedi dylanwadu ar Gristionogion, ac yn ddechreuad i lawer o gyfeiliornadau.

Mewn perthynas i'r Iuddewon, y rhai oeddynt yn elfen mor bwysig yn mhoblogaeth Alexandria, nid oes ammheuaeth nad oedd eu cymundeb â'r Groegiaid am gyhyd wedi lliniaru llawer ar y gerwindeb tymmer, a'r pleidgarwch ysbryd, a'u hynodent mewn manau ereill. Ni ymwrthododd ond ychydig o honynt, mae yn debyg, â chrefydd eu tadau; eto, yr oedd llawer, o dan ddylanwad yr hyn oedd mor gymmeradwy o'u hamgylch, yn cyssylltu Iuddewiaeth â Phlatoniaeth. Y mae Philo, yn nechreuad yr oes Gristionogol, yn esampl da o'r ysbryd yma. Y mae efe, yn ei waith ar Lyfrau Moses, yn ceisio cyssoni yr athroniaeth Roegaidd â'r Ysgrythyrau Sanctaidd, gan ddangos fod ei hegwyddorion hanfodol wedi deilliaw oddi wrth y dadguddiad a roddwyd i Moses. Er mwyn cyflawnu hyn yn effeithiol, y mae yn rhoddi esboniad allegawl ar Lyfrau Moses. Yr oedd felly yn mhlith Iuddewon Alexandria ysbryd gwahanol i'r ysbryd Rabbiniaidd a Phariseaidd a ganfyddwn yn y Testament Newydd.

Deuwn yn awr at ddechreuad Cristionogaeth yn Alexandria, ei chynnydd, a'i hanes. Dywedir mai Marc yr efengylwr oedd y cyntaf i bregethu Crist yn Alexandria, ac iddo farw yno:—nis gwyddys ai yn naturiol ai fel merthyr. Nid oes genym ond ychydig wybodaeth am gyflwr boreuol yr eglwys yn Alexandria, er fod Eusebius yn dywedyd fod cynnifer o gredinwyr, hyd yn oed yn y dechreuad, fel yr oedd Philo yn ei ystyried yn ddigon o bwys i roddi hanes rhyw gorff o fynachod oedd wedi codi yn eu plith: ond yn hyn y

Digitized by Google

mae Eusebius yn camgymmeryd; canys y mae Philo yn dysgrifio plaid Iuddewaidd a alwyd yn Therapeutæ—plaid yn debyg i'r Esseniaid, yn Palestina. Ond y mae yn debygol fod Cristionogaeth, fel yn yr holl brif ddinasoedd, wedi cynnyddu yn gyflym yn Alexandria; ac yn enwedig yn mhlith y tlodion a'r annysgedig. Yn mhlith y dysgedigion, yr oedd yr athroniaeth Blatonaidd wedi darparu y ffordd i Gristionogaeth, trwy ddyrchafu eu syniadau, a dysgu iddynt anfarwoldeb yr enaid; ond er hyny, yr oedd yn gwneyd hyn mor anmherffaith, fel ag i adael dymuniadau llawer heb eu boddloni, fel Justin Ferthyr, yr hwn a gafodd mewn Cristionogaeth yr hyn yr oedd wedi ceisio yn ofer am dano yn ysgolion Zeno, Aristotle, Pythagoras, a Plato.

Yr oedd athroniaeth yn ateb y dyben i ysgwyd eu hyder mewn amldduwiaeth, ac i greu syched ynddynt am grefydd well nag oedd yn ffynu yn eu mysg;—un a allai ar yr un pryd gyfarfod eu teimladau dyfnaf, a sefyll ymchwiliad treiddgaraf eu rheswm ymffrostgar. Rhai yn wir, yn yr ysbryd Eclectaidd, a gyssylltent Gristionogaeth âg athroniaeth; ereill a'i derbynient yn ei phurdeb.

Gan fod hefyd yn mhith yr Iuddewon yn Alexandria ysbryd mwy haelfrydig nag yn mhlith eu brodyr yn Iudea, nid yw yn annhebygol fod llawer o honynt hwy yn mysg y Cristionogion boreuol. Alexandriad o genedl oedd Apolos: *Act.* xviii. 24. Gwel Apolos.

Un o'r enwau cyntaf a gyfarfyddwn yn hanes yr eglwys yn Alexandria yw enw Pantænus, i'r hwn yr oedd Clement (B. A. 190) yn ddysgybl, fel ag yr oedd Origen enwog (B.A. 210) iddo yntau. Hyfforddwyr *(catechists)* oeddynt yn eglwys Alexandria; ac i'r swydd hon, dewisent ddynion cydnabyddus â chrefydd y Groegiaid, ac o ddygiad i fyny athronyddol, fel y gallent ateb gofynion a gwrthbrofi dadleuon y rhai a ddymunent newid athroniaeth am Gristionogaeth. Yn ysgrifeniadau Clement ac Origen, yr ydym yn canfod tuedd ysgol dduwinyddol Alexandria i ymdebygoli cymmaint ag oedd yn bosibl i'r hen ddysgeidiaeth athronyddol, ac i ffurfio cyfundrefn yn debyg o ddenu ati y Groegiaid dysgedig; tuedd hollol gyferbyniol i'r hyn a elwir Montaniaeth—tuedd yr eglwysi yn Asia Leiaf. Yr oedd ysgol Alexandria yn ceisio uno ffydd (πιστις) â gwybodaeth (γνωσις), trwy ddywedyd fod ffydd yn arwain y pechadur at Grist, a gwybodaeth yn ei ddysgu i amgyffred gwirioneddau ei gred, i brofi eu tarddiad oddi wrth Grist—yn fyr, i ffurfio cyfundrefn gelfyddydol o grefydd. Nid oeddynt yn diystyru ffydd, fel y Gnosticiaid; ond dywedent fod rhywbeth uwch law ffydd. Eu barn hwy ydoedd mai yr un sail—sef yr Ysgrythyrau a thraddodiadau—oedd i ffydd a *gnôsis*, sef gwybodaeth;—mai ffydd ydyw dechreuad y bywyd ysbrydol, ond mai astudiaeth gelfyddydol o'r bywyd hwn ydyw y *gnôsis*. Cynnwysai y *gnôsis* hefyd yr ymresymiadau a ddefnyddient i brofi gwirionedd a diffuantrwydd yr athrawiaethau a dderbynient, yn nghyd â'u hatebion i wrthddadleuwyr. Dywed Clement, "mai ffydd ydyw gwybodaeth o bethau hanfodol crefydd; ond mai y *gnôsis* ydyw adnabyddiaeth eangach o'r un gwirioneddau yn eu gwahanol gyssylltiadau, ac yn ffurfiedig i gyfundrefn yn unol â rheolau ymresymiad dynol." Yr oedd tuedd at lygredigaeth mewn dull athronyddol o'r fath, a chyfrifwyd hyd yn oed Clement ac Origen fel rhai heb fod yn "iach yn y ffydd;" ac alltudiwyd Origen o Alexandria gan yr esgob Demetrius am ei ysgrifeniadau. Yr oedd y gwahaniaeth hwn rhwng ffydd a gwybodaeth yn gyfaddas i athroniaeth Groeg, yr hon a gyfyngwyd, fel braint anhawdd ei chyrhaedd, i ryw ychydig o bersonau; canys nid oedd y *gnôsis* yn gyrhaeddadwy ond i'r dysgedigion. Oddi wrth ysbryd cyfyng o'r fath, a'r gwahaniaeth uchod rhwng ffydd a gwybodaeth, yn nghyd â dyrchafiad y wybodaeth athronyddol hon uwch law ffydd, y cododd heresiaeth y Gnosticiaid. Os nad Alexandriaid, dynion o ddygiad i fyny Alexandriaidd oedd Cerinthus, Basilides, a Valentine—penaethiaid y sect; a'r dysgedigion a'r cyfoethogion oeddynt, gan mwyaf, eu dilynwyr. Gwel Gnosticiaid.

Nid ydym yn clywed am effeithiau erlidigaeth yn Alexandria, hyd amser Decius (B. A. 249—251), pryd y merthyrwyd llawer yn Alexandria a'r amgylchoedd. Dionysius oedd esgob Alexandria y pryd hyn—a braidd y diangodd efe. Ysgrifenodd yn erbyn Novatus, a derbyniodd yn ol i'r eglwys y rhai oeddynt wedi adfeilio yn ystod yr erlidigaeth, ac yn awr yn edifeiriol. Ysgrifenodd hefyd yn erbyn heresi y Sabelliaid, yr hon oedd yn dechreu ymddangos. Yn amser Diocletian, dyoddefodd yr Aipht yn enwedig oddi wrth yr erlidigaeth; ac yn Alexandria, merthyrwyd Pedr yr esgob, yn nghyd â Faustus, Dion, ac Ammonius, eu henuriaid.

Yn nechreu y bedwaredd ganrif, pan oedd Alexander yn esgob Alexandria, ymranodd yr eglwys, gan gyfeiliornadau Arius [gwel Arius]; yr hwn, ar ol ei gondemniad yn Alexandria, gan yn agos i gant o esgobion, a aeth i fanau ereill, gan ennill canlynwyr; ac er ei gondemniad, wedi hyny, yn Nghynghor Nice (yn Bithynia), ni chafodd Alexander heddwch hyd ei farwolaeth. Dilynwyd Alexander yn yr esgobaeth gan yr enwog Athanasius (B. A. 326), amddiffynwr y wir ffydd. Teirgwaith yr alltudiwyd ef o Alexandria, gan ddilynwyr Arius; a theirgwaith y galwyd ef yn ol.

Appwyntiwyd George, o Cappadocia, gan yr ymherawdwr Constantius, yn esgob yn ei le; a chanddo ef erlidiwyd pleidwyr Athanasius gyda'r creulondeb mwyaf. Claddwyd ef gan baganiaid Alexandria, yn B.A. 362. Julian a orchymynodd i yru Athanasius allan o'r Aipht, lle yr oedd efe yn guddiedig yn y diffaethwch; ond dygwyd ef yn ol i'w esgobaeth gan yr ymherawdwr canlynol, Jovian. Gorfodwyd ef i ffoi am ychydig, dan yr ymherawdwr Valens; a bu farw B. A. 373. O'r amser hwn, cafodd dilynwyr Arius yr oruchafiaeth yn Alexandria, ac ymddygasant yn erlidgar tuag at eu gwrthwynebwyr. Yn amser Theodosius, bu terfysg yn mhlith paganiaid Alexandria, a lladdwyd llawer o'r Cristionogion: mewn canlyniad, gorchymynodd Theodosius ddistrywio y temlau oeddynt eto yn y ddinas. Nid ydym yn clywed llawer am Alexandria o'r amser hwn hyd ei chymmeriad gan yr Arabiaid, yr hyn a nodwyd uchod. Y mae Alexandria yn awr yn rhoddi teitl i batriarch sydd yn trigo yn Cairo.

Yn y ddadleuaeth yn nghylch amser cadw y Pasc, cymmerodd eglwys Alexandria ran gyda'r eglwys orllewinol; yr oedd hefyd yn dal yr athrawiaeth o fedydd babanod. Gwel Athanasius; Origen, &c.—(*Eusebius' Eccl. Hist.; Neander's Church Hist.; Gibbon*, pen. xv, xvi, xxi, xxiii; *Mosheim.*)

**ALEXANDRIUM**: castell a adeiladwyd gan Alexander Jannæus, ar fynydd yn agos i Coreæ (Κορέαι), un o brif ddinasoedd y rhan fwyaf ogleddol o Iudea, tua Samaria. Yma y claddid

Digitized by Google

tywysogion teulu Jannæus; ac yma y dygodd Herod weddillion ei feibion Alexander ac Aristobulus (pa rai oeddynt o'r teulu uchod o du y fam), y rhai a osodwyd i farwolaeth yn Sebaste [*Hyn. Jos.*, xiii. 24; xiv. 6, 10, 27; xvi. 2, &c.]. Ni wyddys yn iawn yn mha le yr oedd sefyllfa Coreæ; ac am hyny, y mae sefyllfa Alexandrium yn ammheus; eithr tybia Dr. Robinson [*Bib. Res.*, iii. 83] ei fod ef wedi ei chanfod yn y lle a elwir yn bresennol Kuriyzet, yr hwn sydd o ddeutu wyth milldir i'r de wrth ddwyrain o Nabulus (Shechem). Eithr tybir fod y lle hwn yn rhy bell i'r gogledd i fod o fewn terfynau mwyaf gogleddol Iudea.—(*Kitto's Cyc. Bib. Lit.*)

ALEXIAID, [*Alexians*]: yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, brodyr a chwiorydd i Alex Sant, y rhai a elwid yn gyffredin *Cellitiaid*. Gwel CELLITIAID.

ALFAH, [עלוה]: enw tiriogaeth un o dduciaid Edom: *Gen.* xxxvi. 40. Gelwir y diriogaeth hon *Aliah*, yn 1 *Cron.* i. 51.

ALFAN, [עלון]; mab Sobal, o hiliogaeth Seir yr Horiad, y rhai a breswylient y wlad cyn i feibion Esau ei dwyn oddi arnynt: *Gen.* xxxvi. 23; *Deut.* ii. 12, 22. Gelwir hwn hefyd *Alian*, yn 1 *Cron.* i. 40.

ALI—AID: plaid o Fahometiaid a ymranasant ar farwolaeth Ali ben Abi Taleb. Dechreuodd yr anghydfod ar ei esgyniad ef i awdurdod, fel pedwerydd olynwr y prophwyd. Gelwid ei bleidwyr ef yn Shiitiaid, neu hereticiaid, gan y Sonnitiaid, neu y rhai uniongred. Yr oedd Ali yn fab i Abi Taleb, ewythr Mahomet, ac wedi cael ei ddwyn i fyny gyda'r olaf. Dywedir, pan yr hysbysodd y prophwyd ei anfoniad i'w gydnabod, ac y gofynodd pwy a ddeuai yn brif weinidog iddo, ddarfod i Ali atteb gyda brwdfrydedd, yr ymgymmerai ef â'r gorchwyl, er nad oedd etto ond pedwar ar ddeg oed. Hynododd ei hun trwy ei uniondeb, ei hyawdledd, a'i wroldeb; a bu yn un o brif golofnau y grefydd hono. Priododd Fatima, merch Mahomet; a bu iddo wyth o wragedd ereill wedi ei marw hi. Yr oedd iddo bymtheg o feibion a deunaw o ferched. Collodd ei fywyd mewn canlyniad i archoll cleddyf gwenwynig, yn Kufa, B. A. 660, yn dair a thrigain oed. Y mae ei hiliogaeth yn dra lliosog. Caniateir iddynt wisgo yn wahanol i ereill, a dynodir hwynt mewn gwahanol wledydd âg amrywiol enwau neu deitlau. Gelwid Ali gan y Persiaid, *Shir-i-Khoda;* hyny yw, *Llew Duw*—ar gyfrif ei wroldeb. Anrhydeddir ef ganddynt yn nesaf i'r prophwyd ei hunan, a chynnaliant ŵyl flynyddol er coffadwriaeth am ei ferthyrdod. Y mae rhai o'r Tartariaid hefyd, ac amryw o dywysogion India, yn ddilynwyr iddo hyd heddyw. Edrychir arno gydag adgasrwydd gan y Tyrciaid; ac arferent am hir amser, hyd yn ddiweddar, gyhoeddi melldithion echrydus arno yn eu gweddïau. Derbynir y Coran gan yr Aliaid, fel y Mahometiaid; ond ymwrthodant yn hollol â'r traddodiadau a briodolir i'r prophwyd.—(*Pop. Cyc.; Pen. Cyc.; Lives of the Suc. of Mah., by Washington Irving.*)

ALIAN [עלין]: un o hiliogaeth Esau: 1 *Cron.* i. 40. *Alfan*, yn *Gen.* xxxvi. 23.

ALIM, GALIM, [גלים, *pentyrwyr*]: dinas yn perthyn i lwyth Beniamin, yn yr hon y preswyliai Phalti, i'r hwn y rhoddodd Saul Michal ei ferch, gwraig Dafydd: I *Sam.* xxv. 44; *Esa.* x. 30.

ALMARIC—IAID. Gelwid ef weithiau Almaric o Bena, oddi wrth ei le genedigol. Bu yn athraw rhesymeg a duwinyddiaeth yn Paris yn nechreu y drydedd ganrif ar ddeg. Collfarnwyd ei egwyddorion gan yr athrofa yno, ac amddifadwyd ef o'i gadair ynddi, yn 1204. Cyfeiriodd yntau at y pab Innocent y trydydd am ei nodded; ond pan welodd nad oedd gobaith llwyddo yn Rhufain, dychwelodd i Paris, yn 1207, a chynnygiodd alw yn ol ei syniadau; ond yn fuan wedi hyn, bu farw. Ymddengys iddo redeg i eithafion gyda golwg ar grefydd yn ei pherthynas â phrofiad dyn ei hun, mewn gwrthgyferbyniad i'r pwys a roddid ar ddefodau crefyddol, a'r ymddibyniad a orchymynid ei roddi ar yr eglwys a'i gosodiadau, mewn trefn i fod yn gadwedig. Hònai yntau fod mor angenrheidiol, er iachawdwriaeth, i ddyn gredu ei fod ef ei hun yn aelod o Grist, a chredu yn ei ddioddefiadau a'i adgyfodiad. Bernir ei fod yn oll-dduwiad (*pantheist*) yn y pen draw, ac mai yn ol y syniadau hyny y dylid deall ei feddwl yn y gosodiad uchod:—Nad ydyw y greadigaeth ond gwahanol ffurfiau o ymddangosiad ag y mae Duw yn ei wneuthur o hono ei hun:—mai Duw ydyw pob peth, a bod pob peth yn Dduw, ac y bydd y cyfan yn dychwelyd yn ol yn y diwedd i'w ffynnonell ddechreuol; ac felly, yn ol iaith rhai o ganlynwyr Almaric, fod dyn yn Dduw mor bell ag y mae iddo hanfodiad.

Nid ennillodd Almaric ei hun ddylanwad helaeth; ond cymmerwyd ei egwyddorion i fyny gan ei ddysgybl David o Dinanto, ac ennillodd lawer i'w bleidio. Cymmeradwyent y syniadau a daenid gan Ioachim, mynach Floris—fod awdurdod y Tad yn terfynu gyda goruchwyliaeth Moses; bod eiddo y Mab yn cyrhaedd o'i ymddangosiad yn y cnawd hyd y flwyddyn 1200; a bod cyfnod yr Ysbryd Glân yn dechreu y pryd hwnw ynddynt hwy:—bod y ffyddloniaid oll yn cael eu gwneyd yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân; ei fod yn ymgnawdoli ynddynt; ac na byddai profiad crefyddol mwyach yn codi oddi ar ymddibyniad ar un person neillduol, yn yr hwn y mae Duw wedi ymgnawdoli, ond fod yr ymwybyddiaeth hwn o breswylfod yr Ysbryd Glân ynddynt yn cymmeryd ei le. Ymwrthodent âg addoliad seintiau a delwau, ac hyd yn oed â holl ffurfiau a defodau crefydd, gan ymddiried yn gwbl i'r profiad hwn ynddynt eu hunain. Cyhuddid hwynt hefyd, ac nid heb seiliau, dybygid, o ddal nad oedd na nef nac uffern ond yn y bywyd hwn; nad oedd raid i'r rhai oedd wedi cyrhaedd gwybodaeth gywir wrth ffydd na gobaith; eu bod hwy wedi cyrhaedd yr adgyfodiad a'r baradwys nefol eisoes; a bod yr hwn sydd yn pechu yn meddu uffern ynddo ei hun. Dywedent mai Babilon oedd yr eglwys, ac mai y pab oedd anghrist. Yn y flwyddyn 1210, cafodd amryw o honynt eu herlid, ac hyd yn oed eu llosgi wrth yr ystanc. Gwaharddwyd a llosgwyd eu llyfrau hefyd.—(*Nean. Ch. Hist.; Mosheim's Eccl. Hist.*)

ALMODAD, [אלמודד]; mab Ioctan: *Gen.* x. 26; 1 *Cron.* i. 20.

ALMON, [עלמון]: un o'r pedair dinas a berthynai i'r offeiriaid yn llwyth Beniamin: *Ios.* xxi. 18. Bernir mai yr un ydoedd ag Alemeth: 1 *Cron.* vi. 60. Barnai Iarchi a Kimchi mai yr un ydoedd a Bahurim (2 *Sam.* iii. 16), yr hon a

Digitized by Google

eilw y Targum, *Almeth:* ac y mae yr amrywiol enwau yn arwyddo yr un peth, sef "ieuenctyd." Ni wyddys yn bresennol pa le y gorweddai.

ALMON—AU, [שקד, *gwyliadwrus*]. Sonir amryw weithiau yn yr Ysgrythyrau am y pren almon; ac almonau, sef ffrwythau y pren hwnw. Y mae y pren almon yn perthyn yn naturiol i ranau gorllewinol Asia; ond yn awr y maent wedi eu gwasgaru ar hyd deheubarth Ewrop a thrwy Asia; y maent yn dra lluosog yn China hefyd.



Dar. 24.

Ni wneir llawer o ddefnydd o goed y pren almon; o blegid, yn un peth, nid ydynt yn tyfu i faintioli mawr; ac eto, ambell i waith, gwneir dodrefn addurnedig o honynt; ac o blegid y gellir yn hawdd eu caboli, a'u bod yn hirbarhaol, nid ydynt yn anghymhwys i lawer math o ddodrefn ac offerynau.

Y mae amryw gyfeiriadau yn yr Ysgrythyrau, ac mewn hen awduron, at flodau y pren almon. Blodeua yn gynnar iawn—yn mis Ionawr—ac y mae ei ffrwyth yn addfed yn Ebrill. Y mae Solomon yn cymharu pen gwyn henaint i'r pren almon yn llawn blodeu. *Preg.* xii. 5; "Ië, yr amser yr ofnant yr hyn sydd uchel, ac yr arswydant yn y ffordd, ac y blodeua y pren almon," &c. Y mae yr Arglwydd yn dangos i Ieremïah, trwy weledigaeth "gwialen o bren almon," ei barodrwydd a'i brysurdeb i gyflawnu ei air: *Ier.* i. 11, 12. Gwialen o bren almon oedd "gwialen Aaron, yr hon a flagurasai:" *Num.* xvii. 8; "A thranoeth y daeth Moses i babell y dystiolaeth: ac wele, gwialen Aaron dros dŷ Lefi a flagurasai, ac a fwriasai flagur, ac a flodeuasai flodeu, ac a ddygasai almonau."

Y mae ffrwyth y pren almon yn dra blasus a gwerthfawr: ystyrid ef felly yn amser y patriarchiaid, ac ystyrir ef felly yn awr. Cawn yn *Gen.* xliii. 11, ddarfod i Iacob anfon almonau, yn mysg pethau ereill gwerthfawrocaf Gwlad Canaan, yn anrheg i'r gŵr oedd yn arglwydd ar wlad yr Aipht.

Yr oedd addurniadau y canwyllbren aur i fod ar lun almonau: *Exod.* xxv. 31—34; a xxxvii. 19, 20.

Y mae cnau almonau nid yn unig yn ddefnyddiol fel ymborth, ond hefyd gwesgir olew allan o honynt, yr hwn a ddefnyddir yn aml mewn cyfferi—y mae llawer math o gnau almonau, ond y maent oll yn ddarostyngedig i ddau, sef almonau melus ac almonau chwerw—ac y mae gwahaniaeth hanfodol rhwng y ddau, ac felly rhwng yr olew a wesgir o'r naill a'r llall; y mae yr olew a wesgir o'r almonau melus yn ddiniwed, ond y mae olew yr almonau chwerw yn dra gwenwynig; ac felly dylid bod yn ofalus i beidio bwyta llawer o'r almonau chwerw, rhag ofn dygwyddiadau anffodus.

Tyf y pren almon yn y wlad hon; ond anaml iawn y daw â ffrwyth i berffeithrwydd, o blegid anwadalrwydd ac oerfel yr hin.

Y mae cannoedd lawer o dynelli o almonau yn cael eu dwyn i Loegr bob blwyddyn, ac edrychir arnynt fel y danteithion mwyaf cymmeradwy.

ALMON—DIBLATHAIM: un o orsafoedd yr Israeliaid, ar eu ffordd o fynydd Hor i rosydd Moab: *Num.* xxxiii. 46, 47.

ALMUGIM, ALGUMMIM, [Seis. *algum*, ac *almug*]. Yn 1 *Bren.* x. 11, darllenwn, "A llongau Hiram hefyd, y rhai a glydent aur o Ophir, a ddygasant o Ophir lawer iawn o goed almugim:" ac yn 2 *Cron.* ix. 10, 11; "Gweision Hiram hefyd, a gweision Solomon, y rhai a ddygasant aur o Ophir, a ddygasant goed algummim, a meini gwerthfawr; a'r brenin a wnaeth o'r coed algummim risiau i dŷ yr Arglwydd, ac i dŷ y brenin, a thelynau a nablau i'r cantorion, ac ni welsid eu bath o'r blaen yn ngwlad Iudah." Nid oes genym sicrwydd pa wlad a ddynodir wrth yr enw *Ophir* yn y lleoedd uchod; ond y mae y rhan luosocaf o'r gwŷr dysgedig sydd wedi ysgrifenu ar y mater yn cytuno mai rhyw barth o'r India a feddylir; hwyrach, cymmydogaethau Malacca, neu ardaloedd Malabar. Ond wedi penderfynu yn foddhaol yn nghylch y wlad o ba un y cludid y coed algummim, gan longau Hiram a Solomon, y mae yn anhawdd, os nad yn anmhosibl, gwybod yn sicr pa goed a feddylir wrth yr enwau uchod.



Dar. 25.

Cyfieithir y geiriau i'r Groeg, Ξύλα πεύκινα—*coed pinwydd;* ac i'r Lladin, *ligna thyina*—*coed thynon.* Ond y mae yn debygol nad oedd y coed algummim yn perthyn i'r dosbarth thynon, na'r pinwydd; ac yn awr, y mae y rhan fwyaf, y mae

Digitized by Google

yn debyg, o'r rhai sydd wedi ysgrifenu ar y pwnc, yn barnu mai *coed sandal*, a ddynodir y *santalum album*, oeddynt.

Y mae lluaws mawr o'r coed hyn yn tyfu yn mharthau mynyddig Malabar, a gwerthir hwy gan y trigolion i farsiandwyr gwahanol wlodydd y ddaiar. Y mae y coed hyn o liw goleu, ac yn galed a llyfn, ac yn meddu arogl tra pheraidd. Defnyddir hwy yn awr yn dra chyffredin mewn rhai gwledydd i wneuthur dodrefn addurnedig, ac offer cerdd. Eu maintioli yw o ddeutu troedfedd o drwch, a deg troedfedd ar ugain o uchder.

ALOES, ALOEWYDD, [אחלים, *ahalim* ac *ahaloth*]: enw a roddir yn yr Ysgrythyrau ar sudd perarogl: *Salm* xlv. 8; *Diar*. vii. 17; *Can. Sol*. iv. 14; a *Ioan* xix. 39. Oddi wrth bob un o'r adnodau uchod, y mae yn hawdd canfod fod yr aloes yn rhyw ddefnydd peraidd a gwerthfawr.



Dar. 26

Cynnyrchir y sudd peraidd hwn gan fath o goed perthynol i Sylhet a Malacca yn yr India, y rhai a elwir *aquilaria agallochum*, neu *aquilaria ovatum*; perthynol, yn ol Linnæus, i'r dosbarth *decandria monogynia*. Hysbysir i ni fod celloedd bychain yn y coed hyn yn cynnwys y perarogl sydd yn cael ei alw *aloes* yn y Beibl Cymraeg. Bydd y trigolion, wrth chwilio am dano, yn naddu y coed nes dyfod o hyd i wythïenau llwyd-ddu ynddynt, a dilynant y rhai hyn nes dyfod at y celloedd a gynnwysant y sudd perarogl, yr hwn a grynhoir ganddynt, ac a werthir yn eu marchnadoedd.

Nid oes dim perthynas rhwng aloes y Beibl â'r aloes a ddefnyddir mor helaeth yn awr mewn cyfferi: sudd yr *aloe soccotrina*, neu yr *aloe perfoliata* yw hwnw, ac y mae yn ddrewedig ac yn chwerw iawn.

ALOGIAID. Gwel CERINTHUS.

ALON, [אלון]; mab Iedaiah, o dylwyth Simeon, a gŵr enwog yn mysg ei frodyr yn ei oes: 1 *Cron*. iv. 37.

ALHON—BACUTH, [אלון בכות]; neu "dderwen y wylofain." Lle yn Bethel, yn yr hwn y claddwyd Deborah, mammaeth Rebeccah; a galwyd y lle ar yr enw hwnw, o herwydd galar dwys Iacob a'i deulu am dani: *Gen*. xxxv. 8.

ALOTH, [עלות, *esgyn*]: enw lle dan lywodraeth Solomon: 1 *Bren*. iv. 16.

ALPHA, [Α]: felly y gelwir y llythyren gyntaf yn yr egwyddor Roeg, yr hon sydd yn cyfateb i *aleph* (א) yn yr Hebraeg. Peth cyffredin yn mhlith gwahanol bobloedd y ddaiar ydyw defnyddio llythyrenau yr egwyddor yn lle rhifnodau: felly y gwnai yr Hebreaid a'r Groegiaid: ac felly, safai alpha (Α) neu aleph (א) am *un*—y cyntaf; ac oddi ar yr arferiad hwn y cymmer ein Harglwydd fantais, pan y geilw ei hun "*Alpha* ac *Omega*;" *Dad*. i. 8, 11; xxi. 6; a xxii. 13—"Myfi yw Alpha ac Omega (Ω—y llythyren olaf yn yr egwyddor Roeg), y dechreu a'r diwedd."

1. ALPHEUS, ['Αλφαῖος]: tad Iago Leiaf (*Mat*. x. 3; *Luc* vi. 15); a gŵr Mair, chwaer mam yr Iesu (*Ioan* xix. 25), am ba achos y gelwir Iago yn "frawd yr Arglwydd;" *Gal*. i. 19.

Wrth gymharu *Ioan* xix. 25, â *Luc* xxiv. 10, a *Mat*. x. 3, y mae yn ymddangos mai yr un oedd Alpheus a Cleophas; ac mai Alpheus oedd ei enw Groegaidd, tra y gelwid ef yn Hebraeg neu Syriaeg, yn Cleophas, yn ol arfer y taleithiau, neu yr amser pan elwid dynion ar ddau enw yn fynych: wrth y naill eu hadwaenid gan eu cyfeillion a'u cydwladwyr; ac wrth y llall, gan y Rhufeiniaid neu ddyeithriaid.

2. ALPHEUS: tad yr efengylwr Lefi, neu Matthew: *Marc* ii. 14.

ALTASCHITH, [אל־תשחת, *na ddyfetho*]: teitl neu arwyddair y Salmau hyn:—lvii, lviii, lix, lxxv. Bernir mai prif ystyr y gair שחת (*sichith*) yw dinystr, neu lwyr ddyfethiad; megys yn *Salm* lxxviii. 38, 45; *Gen*. vi. 13; a ix. 11, 15. Ymddengys fod ei ystyr yn eangach na'r gair *lladd;* megys yn *Ezec*. ix. 6, 8. Hefyd, arwydda y gair ymlygriad pechadurus a gwrthgiliedig yn *Exod*. xxxii. 7; *Deut*. xxxi. 29. Nid yw esbonwyr yn penderfynu pa beth yw ystyr y gair *altaschith* yn nheitl y Salmau crybwylledig—pa un ai arwyddo y mae, na oddefai Duw i Dafydd gael ei ddyfetha gan ei elynion, ynte na oddefai Dafydd i'w ganlynwyr ddyfetha Saul: 1 *Sam*. xxiv.

ALLEIRIAD, [*all—arall*, a *geiriad*]: aralleiriad, geiriad arall, amgeneiriad; efelychiad; cyfansoddiad yn cael ei eirio yn wahanol i'w ddull cyntefig, heb newid ei ystyr. Goddef alleiriad helaethiad ac eglurhad ar y testyn, gystal a newidiad geiriau, tra yr ymgedwir at yr ystyr naturiol ac amlwg. Yr Ysgrythyr sydd wedi bod yn destyn alleiriad fynychaf yn mhob oes; ac nid dull anwiw o egluro y Beibl ydyw. Y prif alleiriadau Ysgrythyrol, efallai, yw yr eiddo Erasmus, yr Esgob Hall, y Dr. Hammond, y Dr. Patrick, y Dr. Doddridge, a'r Dr. Samuel Clarke. Y mae rhai athrawon yn defnyddio y dull yma, gyda phrydyddiaeth, i ddysgu cyfansoddiad i'w dysgyblion. Nid ydys yn gwybod am un anghraifft o alleiriad Ysgrythyrol na phrydyddol yn y Gymraeg; gan hyny, tybir na bydd anghraifft neu ddwy yn annerbyniol gan ddarllenwyr y *Gwyddoniadur*.

ANGHRAIFFT O'R YSGRYTHYR.

*Y Gwreiddiol.*

1. "Dechreu efengyl Iesu Grist, Fab Duw.

2. Fel yr ysgrifenwyd yn y prophwydi, Wele, yr ydwyf fi yn anfon fy nghenad o flaen dy wyneb, yr hwn a barotoa dy ffordd o'th flaen.

Digitized by Google

3. Llef un yn llefain yn y diffaethwch, Parotowch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef.

4. Yr oedd Ioan yn bedyddio yn y diffaethwch, ac yn pregethu bedydd edifeirwch, er maddeuant pechodau:" *Marc* i. 1—4.

*Yr Alleiriad.*

(1.) "Yma y dechreu hanes bywyd ac athrawiaeth Iesu Grist, Mab Duw, Iachawdwr y byd; (2.) Ymddangosiad yr hwn, yn y cnawd, a ddygwyd i sylw trwy bregethiad Ioan Fedyddiwr, fel y rhagddywedwyd gan y prophwydi gynt; megys, Malachi (iii. 1)—Wele fi yn anfon fy nghenad, neu fy rhagredegwr, ac efe a arloesa y ffordd o'm blaen i. (3.) Rhagddywedodd y prophwyd Esaiah hefyd yn gyffelyb (xl. 3.)—'Llef un yn llefain yn yr anialwch, Parotowch ffordd yr Arglwydd, uniawnwch lwybr i'n Duw ni yn y diffaethwch.' (4.) Pan ddaeth yr amser i wneyd ymddangosiad Duw yn y cnawd yn hysbys, ymddangosai Ioan Fedyddiwr, yn ol y prophwydoliaethau hyn, yn niffaethwch Iudea, gan bregethu i'r holl bobl yr angenrheidrwydd o edifeirwch, o ymwrthodiad â phechod, ac o fuchedd newydd; a dangosai hyn iddynt âg arwydd gweledig ac allanol, trwy fedyddio â dwfr, fel y gallent trwy hyny ymbarotoi i dderbyn yr efengyl, ac y byddent yn gymhwys i fwynhau yr iachawdwriaeth, o'r hon yr oedd yr Iesu i fod yn awdwr a chyhoeddwr."—*Y Dr. Samuel Clarke.*

ANGHRAIFFT MEWN PRYDYDDIAETH.

*Y Gwreiddiol.*

"Cadben mawr ein iachawdwriaeth,
Welaf yn y frwydr hon;
Holl elynion ei ddyweddi
Sy'n gorfod plygu ger ei fron:
Plant afradlawn sy'n dod adref,
Rhai fu 'n mhell o dir eu gwlad,
Rhai fu 'n fudion sy'n clodfori
Duw am iachawdwriaeth rad."
*Morgan Rhys.*

*Yr Alleiriad.*


Yr wyf yn gweled awdwr ein iachawdwriaeth dragwyddol yn Flaenor yn y rhyfel ysbrydol yma; am hyny, y mae holl elynion yr eglwys, sef dyweddi yr Oen, yn gorfod ymostwng iddo. Y canlyniad o'r fuddugoliaeth hon ydyw, fod plant afradlawn, y rhai a gymmerasant eu taith i wlad bell, lle y chwennychent gael ymlenwi â'r cibau a fwytäai y moch, yn codi ac yn myned at eu Tad i gael eu gwala a'u gweddill o fara 'r bywyd; a bod y rhai oedd ddystaw cyn cael eu gorchfygu, yn moliannu Duw am y waredigaeth fawr a gawsant o fyddin y cryfarfog.

ALLOR—AU, [S. *altar;* Ll. *altare;* Heb. מִזְבֵּחַ, o זָבַח,—*lladd, lladd aberth, aberthu.*] Adeilad gyfleus i aberthu arni. Yr allor gyntaf y darllenwn am dani yn y Beibl yw yr un a adeiladwyd gan Noah, ar ei ddyfodiad allan o'r arch: *Gen.* viii. 20; "A Noah a adeiladodd allor i'r Arglwydd." Wedi hyny, darllenwn am Abraham, Isaac, a Iacob, a Moses, ddarfod iddynt adeiladu allorau: *Gen.* xii. 7; xxvi. 25; xxxiii. 20; a *Exod.* xvii. 15. Gwyddom hefyd fod gan y paganiaid yn ngwahanol wledydd y ddaiar eu hallorau, ar ba rai yr aberthent yn wastadol i'w heilun-dduwiau: ac y mae yn debyg mai allorau oedd y cromlechau y ceir gafael arnynt mewn gwahanol barthau o'r byd, pa rai a wnelid o geryg mawrion heb eu naddu; gosodid dwy neu dair o honynt ar eu penau yn y ddaiar, a rhoddid un i orwedd ar eu penau.




Dar. 27.

Yr ydym yn darllen hefyd y byddai y paganiaid yn gwneuthur eu hallorau weithiau â cheryg bychain, wedi eu codi yn dwmpath, ac un gareg fawr ar ei ben.



Dar. 28.

Yn ddiweddarach, yn mhlith y cenedloedd mwyaf gwaraidd, gwnelid allorau mwy destlus a chywrain, fel y gwelir yn y darlun isod, yr hwn a ddengys yn gywir pa fath allorau a ddefnyddid gan y Groegiaid, yr Aiphtiaid, y Babiloniaid, y Rhufeiniaid, a'r Persiaid, yn yr amseroedd hyny pan oedd eilunaddoliaeth yn ei rym a'i wychder mwyaf yn eu plith.





Dar. 29. 1, 2, 3. Groegaidd. 4. Aiphtaidd. 5. Babilonaidd. 6. Rhufeinig. 7, 8. Persiaidd.

*Allor y poethoffrwm yn y tabernacl.* Pan osodwyd ef i fyny yn yr anialwch, cyfarwyddwyd Moses gan yr Arglwydd i wneyd allorau perthynol iddo. *Exod.* xxxii. 1—8; "Gwna hefyd allor o goed sittim, yn bum cufydd o hyd, a phum cufydd o led, yn bedairongl, a'i huchder o dri chufydd," yr hyn yw o ddeutu naw troedfedd bob ffordd, a phum troedfedd o uchder. "A gwna ei chyrn ar ei phedair congl, o'r un y bydd ei chyrn, a gwisg hi â phres."..."Gwna hi âg ystyllod yn gau...a gwna iddi alch o bres ar waith rhwyd, a gwna ar y rhwyd bedair modrwy o bres ar ei phedair congl, a dod hi dan amgylchiad yr allor

oddi tanodd, fel y byddo y rhwyd hyd hanner yr allor." Ar yr alch hon y llosgid yr aberthau, ac yr oedd i fod yn gymhwys i wyneb yr allor oddi mewn, ac i gyrhaedd i lawr hyd ei hanner, er dyogelu coed yr allor rhag effaith tân; ac y mae yn debyg fod pridd yn cyrhaedd i fyny hyd hanner yr allor, er dyogelu ei gwaelod rhag yr un effeithiau. Er hwyluso yr offeiriaid i aberthu arni, yr oedd codiad graddol o bridd un ochr iddi, ac ar hyd y codiad hwn yr esgynai yr offeiriaid pan aberthent, o blegid yr oedd esgyn ar hyd risiau yn waharddedig iddynt: *Exod.* xx. 26.

Y mae gwahanol farnau gyda golwg ar y defnydd a wnelid o'r modrwyau a berthynent i'r alch bres; ond y mwyaf naturiol a rhesymol, mae yn debyg, yw, mai wrth y modrwyau y codid yr alch allan, i'r dyben o'i glanhau pan fyddai angenrheidrwydd.




Dar. 30.

Perthynol i'r allor hon yr oedd pedyll i dderbyn ei lludw, rhawiau i'w glanhau, cawgiau i dderbyn gwaed yr aberthau ac i'w daenellu, cigweiniau i osod y cig ar yr allor a'i drefnu yno, pedyll tân i ddwyn y tân sanctaidd pan y symmudid y tabernacl—y rhai hyn oll oeddynt i fod o bres. Hwyrach fod cyrn yr allor hon yn ateb dau ddyben;—sef i rwymo yr aberthau wrthynt: *Salm* cxviii. 27; "rhwymwch yr aberth â rhaffau, hyd wrth gyrn yr allor:"—ac hefyd i fod yn arwydd o allu mawr y Duw yr aberthid iddo.

Yr oedd yr allor hon, er ei gwneyd yn mhob dim yn ol y cyfarwyddyd a gafodd Moses gan yr Arglwydd, i'w hystyried yn aflan a halogedig nes gwneyd cymmod drosti a'i sancteiddio; a bu Moses saith niwrnod wrth y gwaith hwn: *Exod.* xxix. 36, 37. Ar yr allor hon yr aberthid fore a hwyr yn wastadol, yn ol gorchymyn Duw; ac at hon y cyfeiriai yr Israeliaid eu gwynebau yn feunyddiol, fel cyfrwng eu hyder a'u gobaith yn Nuw.

*Allor y poethoffrwm yn nheml Solomon.* Yr oedd allor y poethoffrwm yn nheml Solomon yn llawer




Dar. 31.

mwy o faint na'r un oedd yn y tabernacl; yr oedd hon yn ugain cufydd o hyd, ac ugain cufydd o led, a deg cufydd o uchder—yr hon oedd oll o bres: 2 *Cron.* iv. 1. Darfu i'r brenin Asa adnewyddu allor yr Arglwydd (yr allor hon) yr hon oedd o flaen porth yr Arglwydd: 2 *Cron.* xv. 8. Tynodd Ahaz hi ymaith o daleen tŷ yr Arglwydd: 2 *Bren.* xvi. 14. Glanhawyd hi gan Hezeciah: 2 *Cron.* xxix. 18. A darfu i Manasseh, ar ei ddychweliad o Babilon, ei chyweirio hi: 2 *Cron.* xxxiii. 16. Ac yn amser y caethgludiad i Babilon, nis gwyddom pa un a gafodd yr allor hon ei distrywio, neu ynte ei chymmeryd ymaith gan Nebuchodonozor. Y dyb olaf sydd fwyaf tebygol: 2 *Cron.* xxxvi. 18.


*Allor y poethoffrwm yn yr ail deml.* Am allor y poethoffrwm yn yr ail deml, nis gwyddom ond ychydig. Hyn sydd amlwg, iddi gael ei hadeiladu cyn gosod sylfeini y deml; *Ezra* iii. 2—6: ond nis gwyddom yn sicr beth oedd ei defnydd. Y mae yn debyg ei bod yn gyfansoddedig o geryg heb eu naddu, ac nid o goed a phres; o blegid nid oedd yr Iuddewon ar y pryd mewn amgylchiadau i wneyd allor bres; ac edrychir ar 1 *Mac.* iv. 47 yn brawf o hyn.

*Allor y poethoffrwm yn nheml Herod.* Y mae Josephus yn dysgrifio allor y poethoffrwm, a adeiladwyd gan Herod, fel hyn: "O flaen y deml hon (teml Herod) yr oedd yr allor, yr hon oedd bymtheg cufydd o uchder; yr oedd ei hyd a'i lled yr un faint, sef deg cufydd a deugain; ei ffurf oedd yn ysgwâr; ac yr oedd iddi gonglau tebyg i gyrn, ac yr oedd y ffordd i fyny iddi ar hyd esgyniad graddol o'r deheu: gwnaethpwyd yr allor hon heb gynnorthwy un offeryn haiarn, ac ni chyffyrddodd un offeryn o'r fath â hi un amser."



Dar. 32.


Gan nad oes genym ddarluniau cywir o'r gwahanol allorau hyn, nid yw y gwŷr hyny sydd yn fwyaf cyfarwydd â'r mater yn cytuno yn nghylch eu ffurf. Gwelir yma y darluniau hyny sydd yn ymddangos agosaf i'w lle.



Dar. 33.

Sylwa y darllenydd fod grisiau wedi eu gosod i fewn yn darlun 34, ac ymddengys iddo fod hyny yn groes i'r cyfarwyddyd a roddwyd i Moses gan yr Arglwydd: ond os try i *Ezec.* xliii. 17, gwel


yno fod y prophwyd yn son am risiau fel yn perthyn i'r allor bres—"a'i grisiau yn edrych tua'r dwyrain." Ac y mae yn debyg mai teml



Dar. 34.

Solomon a ddysgrifir gan y prophwyd, ac i'r deml hono y perthyn darlun 34, a gellir yn hawdd meddwl fod Solomon yn cadw at ysbryd y gorchymyn, os nad at y llythyren; o blegid, yn y darlun—a chaniatau ei fod yn lled gywir—canfyddir fod codiad y grisiau yn ychydig iawn, ac hefyd fod cyfwng rhwng pob pedair o honynt, ac felly yr oedd y dyben mewn golwg yn ngwaharddiad grisiau yn cael ei ateb, sef gweddeidd-dra.

*Yr allor aur yn y tabernacl.* Yr oedd hefyd allor aur, neu allor yr arogldarth peraidd, yn perthyn i'r tabernacl ac i'r deml: *Exod.* xxx. 1—4; *Num.* iv. 11; *Exod.* xxxvii. 25. Yr oedd yr allor hon yn sefyll yn y tabernacl rhwng y canwyllbren aur a bwrdd y bara gosod, ond yn nes i'r sancteiddiolaf o flaen y wahanlen. Yr oedd yn gyfansoddedig o goed sittim, ac wedi ei gwisgo âg aur; ei hyd oedd un cufydd, ei lled un cufydd, a'i huchder oedd dau gufydd. Yr oedd i fod yn bedair ongl, ac yr oedd yn perthyn iddi gyrn, yr un fath a'r allor bres. Yr oedd iddi hefyd



Dar. 53.

ymylgylch, neu goron o aur o amgylch ei gwyneb, o dan ba un yr oedd modrwyau i dderbyn ei throsolion pan y symmudid hi. Yr oedd ei throsolion hefyd i fod o goed sittim, wedi eu gwisgo âg aur.

*Yr allor aur yn nheml Solomon.* Yr oedd yr allor aur yn nheml Solomon yn gyffelyb i'r un oedd yn y tabernacl, ond yn unig ei bod wedi ei gwneyd o gedrwydd, ac nid o goed sittim: 1 *Bren.* vi. 20; xii. 48; a 1 *Cron.* xxviii. 18: yr oedd hon hefyd wedi ei gwisgo âg aur. Yr ydym yn cael ddarfod i Antiochus Epiphanes ddwyn ymaith yr allor aur oedd yn perthyn i'r ail deml; 1 *Mac.* i. 21: ac ar ol hyny, adferwyd hi gan Judas Maccabæus: 1 *Mac.* iv. 49.

Ar yr allor yma y llosgid arogldarth ddwywaith bob dydd, ar amser yr offrymau boreuol a phrydnawnol. Yr oedd yr arogldarth hwn yn gyfansoddedig o'r llysiau a'r defnyddiau pereiddiaf; *Exod.* xxx. 34—38: ac yr oedd i gael ei losgi mewn thuser aur, ar allor yr arogldarth, gan yr archoffeiriad.

Y mae awdwr yr Epistol at yr Hebreaid, wrth ddangos rhagoriaeth yr oruchwyliaeth Gristionogol ar yr oruchwyliaeth Iuddewig, yn dyweyd (xiii. 10), "Y mae genym ni allor o'r hon nid oes awdurdod i'r rhai sydd yn gwasanaethu y tabernacl i fwyta." Yr oedd rhyddid i'r offeiriaid fwyta cyfran o'r aberthau cyffredin—yr oeddynt "yn gydgyfranogion o'r allor;" "ond," medd yr apostol, "fe'n gwnaed ni yn gyfranogion o Grist." Y mae rhyddid i ni i ymborthi arno ef.

Y mae yn briodol edrych ar yr allorau dan yr hen oruchwyliaeth fel cysgodau o'r Cyfryngwr mawr:—yr allor bres yn dangos Crist yn ei ddyoddefiadau dyfnion ar y ddaiar; a'r allor aur, Crist yn ei eiriolaeth effeithiol yn y nef. Oddi ar yr allor bres y ceffid tân i losgi yr arogldarth ar yr allor aur; felly, yn herwydd rhinwedd dyoddefiadau Crist ar y ddaiar, y mae ei eiriolaeth yn llwyddiannus yn y nef.

Yn y dysgrifiad a roddir o'r tabernacl yn *Heb.* ix, nid oes son am yr allor aur, os nad hi a feddylir wrth χρυσοῦν θυμιατήριον (thuser aur): mae rhai yn barnu hyny, ac ereill i'r gwrthwyneb; ond cawn gyfle i edrych i mewn i'r rhesymau a ddygir o bob tu dan y gair THUSER.

*Yr allor yn Athen.* Cyfeiria yr apostol Paul, yn ei bregeth yn Areopagus, at allor yn Athen, ar yr hon yr ysgrifenasid—"I'r Duw nid adwaenir;" *Act.* xvii. 23. Y mae llawer o'r farn nad oedd y fath allor yn Athen o gwbl, o blegid nad yw neb o'r haneswyr Groegaidd yn son gair am y fath un. Yr oedd yno allorau ar ba rai yr ysgrifenasid, "I'r duwiau nid adwaenir," ond dim un "I'r Duw nid adwaenir."

Cyfododd Epimenides, yr athronydd, allorau yn amser y pla ofnadwy yn Athen yn ei ddyddiau ef, ar ba rai yr ysgrifenasid, "I'r Duw, i'r hwn y perthyn hyn;" hyny yw, "I'r Duw a fedr attal y pla:" a sonir am yr allorau hyn eu bod yn allorau dienw—Βωμοὶ ἀνώνυμοι. Ac y mae rhai o'r farn y cyfeiriai yr apostol at un o'r rhai hyn. Y mae rhai yn ceisio cyfiawnhau yr apostol yn y cyfeiriad a wna, trwy ddywedyd nad ydyw ond wedi defnyddio y rhif unigol yn lle y lluosog, a bod gwirionedd y cyfeiriad yn aros. Gwrthwynebwyd yr amddiffyniad hwn drachefn gan ereill, y rhai a ddywedent y buasai y fath gyfaddasiad o'r geiriau yn sicr o ladd grym a phwys ymresymiad yr apostol yn meddyliau yr Atheniaid, o blegid gallasent ar unwaith ei gyhuddo o anwiredd. Y mae ereill yn ceisio eglurhau y pwnc fel hyn:—dywedant fod rhai allorau yn Athen yn sefyll o'r hen amseroedd, a bod yr argraffiadau arnynt wedi eu gwisgo ymaith, a bod yr Atheniaid, drwy eu bod yn dra choelgrefyddol, yn gadael i'r allorau hyn aros yn eu cyflwr adfeiliedig; ac, yn eu hanwybodaeth o'r duw neillduol i ba un yr adeiladwyd hwy ar y cyntaf, wedi peri argraffu arnynt,

Digitized by Google

"I'r Duw nid adwaenir," ac i'r apostol weled un o'r rhai hyn, a'i chymmeryd yn destyn ei bregeth. Y mae Awstin o'r farn fod allor yn Athen i Dduw yr Iuddewon—y gwir Dduw; a bod yr Atheniaid wedi clywed llawer o son am dano, ond nad oeddynt yn adnabyddus o'i enw; ac yn eu hanwybodaeth, iddynt ysgrifenu ar yr allor, "I'r Duw nid adwaenir."

Nid oes ammheuaeth nad oedd allorau yn Athen ar ba rai yr ysgrifenasid, "I'r duwiau nid adwaenir:" y mae genym dystiolaethau hanes-wyr paganaidd ar y pwnc, ac yr ydym yn eu credu: pa ham ynte na chredwn dystiolaeth yr apostol Paul, yr hwn a ddywed yn bendant, "Mi a gefais allor yn yr hon yr ysgrifenasid, I'r Duw nid adwaenir." Onid yw tystiolaeth yr apostol o gymmaint gwerth a thystiolaeth pagan? Cymmerodd yr apostol fantais oddi wrth yr allor hon i gyfeirio meddyliau yr Atheniaid hunanol ac ofergoelus at y gwir a'r bywiol Dduw, fel unig wrthddrych teilwng eu haddoliad a'u gwasanaeth.

ALLOR: y bwrdd yn eglwysydd sefydledig y wlad hon, lle y gweinyddir y cymun, neu Swper yr Arglwydd.

Gyda golwg ar ddefnyddiau yr allor, nis gall fod dim dadl nad o *goed* y gwneid yr allorau Cristionogol cyntaf; ac nid oeddynt mewn gwirionedd yn ddim amgen na'r byrddau cyffredin, arferedig mewn tai annedd. Ond yn rhwysg amser, galluogwyd y Cristionogion i adeiladu a gwaddoli eglwysydd, ac i gyssegru i ddybenion crefyddol lestri a dodrefn y cyssegr. Er hyny, parhaodd yr allorau am dalm o amser i gael, yn gyffredin, eu gwneuthur o goed, megys cynt; canys yr ydym yn cael i'r Donatiaid, yn eu cythrwfl cyssegr-ysbeilgar yn y bedwaredd ganrif, losgi rhai o'r allorau; hyn ac yr ydym yn darllen am ddynion a gawsant eu curo â darnau o rai ereill. Ac y mae hyn yn deilwng o sylw mwy neillduol, am mai *allorau coed* a arferir yn yr Eglwys Brydeinig, tra yn Eglwys Rhufain ystyrir *maen* fel yn hanfodol i gyfansoddi allor; mor hanfodol, fel na chyssegrid un allor â'r olew sanctaidd, oni byddai hi wedi ei gwneuthur o faen; a thybiai rhai y byddai i allor gludadwy golli ei chyssegredd, os symmudid y maen o'i le. Pa fodd bynag, y mae yn ddilys ddigon fod *allorau meini* mewn arferiad mewn rhai manau gryn dalm cyn yr amser yr oedd Optatus (esgob Milevi, yn Numidia, yn y bedwaredd ganrif) yn ysgrifenu yn erbyn y Donatiaid. Defnyddiwyd hwynt, ar y cyntaf, nid yn gymmaint oddi ar ddewisiad ag oddi ar angenrheidrwydd, yn tarddu oddi wrth agwedd a sefyllfa pethau yn yr amseroedd hyny. Yn oesoedd cyntaf yr Eglwys Gristionogol, gorfyddai ar y Cristionogion ymneillduo i'r claddogofau, i gadw addoliad, ac i arfer defodau eu crefydd. Yn y rhai hyny y claddesid llawer o'r merthyron; ac yr oedd y beddrodau yn ymddangos iddynt hwy, nid yn unig fel y lleoedd mwyaf cyfleus, ond hefyd fel y lleoedd mwyaf cyssegredig, i gyssegru y cymun sanctaidd arnynt. Nid hawdd oedd ysgaru teimladau y prif Gristionogion oddi wrth y lleoedd difrifol a'r allorau hyn; ac wedi dyfod amseroedd gwell, pryd y gallent ddewis lle a dull eu gwasanaeth, adeiladent allorau cyn debyced byth ag y gallent i'r allorau hyn yr ymgryment ger eu bron yn nydd yr erlidigaeth. Dewisent, gan hyny, yn fynych, y lle y derbyniasai rhyw ferthyr goron merthyrdod, i adeiladu eu heglwys arno, a gwasanaethai maen ei fedd yn lle allor. Yn mhen amser, codid, hwyrach, adeilad mwy gorwych yn yr un lle, a gadewid i feddrod y merthyr aros yn y guddgell neu ddirgelfa, a gosodid yr allor yn union uwch ei ben. Ond nid hir y bu yr eglwysydd cyn myned yn amlach na'r merthyron, neu, o leiaf, yn amlach na'r manau lle y dyoddefasai y merthyron hyn; ond eto codid allor faen megys cynt, hyd onid aeth yn arferiad, yn mhen gronyn, i symmud creiriau y saint o'r lle y buasent farw ynddo, a'u claddu o dan allorau yr eglwysydd newyddion.

Fel hyn, defnyddiwyd allorau meini, ar y cyntaf, o herwydd angenion yr amseroedd; cynnyddodd yr arferiad, hyd onid aeth yn lled gyffredinol; ac o'r diwedd, gorchymynwyd y peth gan Eglwys Rufain. Parhaodd pethau felly hyd y Diwygiad, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, pryd y parodd y Diwygwyr symmud yr allorau meini, a gosod rhai o goed yn eu lle, gan adferu yr eglwys yn hyn, yn gystal ag mewn pethau ereill, yn nes at burdeb a symledd yr efengyl yn moreuddydd Cristionogaeth.

Yn eglwysydd sefydledig y deyrnas hon, nid oes ond ychydig iawn o'r hen allorau meini yn aros hyd heddyw. Rhestrir hwynt weithiau yn mhlith cywreinion yr hen oesoedd. Y mae rhai o'r allorau ystlysol yn aros yn nghapel Roslin, yn yr Alban, wedi eu gwneuthur o faen; a dywedir fod tuag wyth ereill o'r un defnydd i'w cael mewn gwahanol fanau yn Nghymru a Lloegr. Y rhai hyn oll, nid prif allorau, ond allorau ystlysol ydynt: ond yn Nghapel St. Mair Magdalen, yn Ripon, y mae yr allor faen gyntefig yn aros, a hi yw yr unig allor yn yr eglwys hono. Nodid yr hen allorau meini â phum croes, mewn cyfeiriad at bum loes neu bum archoll ein Iachawdwr.

Y mae *allor*, bob amser, yn rhagdybied *aberth*, a llefaru yn briodol, gan hyny, nid oes allor gan Anghydoligion; a phan ddefnyddier y gair am *fwrdd y cymun*, rhaid ei ddeall mewn ystyr gyffelybiaethol neu allegol; canys y mae Eglwys Loegr yn dysgu yn bendant nad *aberth* mo sacrament Swper yr Arglwydd. Ond dywedir gan rai y gelwir hi yn *fwrdd* gyda golwg ar y cymun a weinyddir arni; ac yn *allor* ar gyfrif yr aberth o fawl a diolch a offrymir yno i'r Hollalluog Dduw, ac am mai arni hi hefyd yr offrymir rhoddion ac elusenau. Arfera y Pabyddion y gair yn ei iawn ystyr; canys, yn ol athrawiaeth Eglwys Rhufain, y mae yr *offeren* yn wir a phriodol *aberth*.

Mewn eglwysydd Pabaidd, y mae, yn fynych, amryw allorau yn sefyll yn mhen dwyreiniol cynnifer o gapelau, wedi eu cyflwyno i gynnifer o seintiau. Yn amser y Diwygiad, symmudwyd y rhai hyn oll, ond yr allor fawr; ond gwneir cynnygion gan rai yn y blyneddoedd hyn i adferu yr allor faen, ac ereill o arferion y canoloesoedd. Y mae yn amlwg, fel y gwelsom eisoes, fod yr allorau meini yn hen; ond y mae mor amlwg a hyny fod yr allorau coed yn hynach. Dywed y Pabyddion wrthym fod yr allor faen yn gysgod neu arddangosiad o Grist, sylfaen yr adeilad ysbrydol, sef yr eglwys. Y mae i bob allor o'r fath dair o risiau i esgyn ati, y rhai a orchuddir â llorlen. Addurnir hi â blodau naturiol a chelfyddydol, yn ol y tymmor o'r flwyddyn; ac nid arbedir traul i'w harddwychu âg aur, arian, a meini gwerthfawr. Gosodir yr hyn a elwir "pabell y cymun sanctaidd" ar yr allor; ac ar bob ochr iddi, saif canwyllau o gŵyr gwyn; ond bob amser y cedwir gwasanaeth er cof am y meirw, ac yn ystod tri diwrnod olaf Wythnos y Dyoddefiad, canwyllau o gŵyr melyn a ddefnyddir. Gosodir croglun, neu lun Crist ar y groes, i orphwys ar yr allor.

Digitized by Google

Y mae hefyd, yn gyffredin, ar bob allor, adysgrifen deg, mewn llythyren fras, o'r *Te Igitur*, sef gweddi a gyfeirir at Dduw Dad yn unig; gelwir hi hefyd y "Weddi ddirgel." Perthyna i'r allor hefyd gloch fechan, yr hon a genir naw gwaith: teirgwaith pan syrthio yr offeiriad ar ei liniau; teirgwaith pan ddyrchafo efe aberth yr offeren; a theirgwaith pan y gesyd efe ef i lawr. Y mae ganddynt allor gludadwy, neu gareg gyssegredig, â thwll neu geudod bychan yn nghanol ei gwyneb, lle y gosodir creiriau y saint a'r merthyron; a selir hi gan yr esgob: os dygwydd i'r sel dori, cyll yr allor ei hansawdd gyssegredig. Y mae, yn mhellach, yn perthyn i'r allor garegl a chwpan, i ddal yr elfenau; blwch i ddal y arrlladen, neu aberth yr offeren; llen wen, ar ddull pabell, i orchuddio y blwch: thuser yr arogldarth; llestr i ddal y dwfr bendigaid; ac amryw bethau ereill, megys corfflenі, pallau, a'r cyffelyb. Gwneir holl lestri a dodrefn yr allor Babaidd o'r defnyddiau mwyaf drudfawr; a gofelir eu bod oll yn ddillyn a harddwych yn eu gwneuthuriad

Gorchudd yr Allor. Yn y 82ain o'r "Gosodedigaethau a Chanonau Eglwysig," a osodwyd allan yn y flwyddyn 1603, penodir a threfnir yn y dull canlynol, gyda golwg ar yr allor, ei gorchudd, a'i haddurn:—"Gan nad ŷm yn ammheu nad oes ym mhob Eglwys yn nheyrnas Lloegr, fwrdd cymhwys a gweddus wedi ei ddarparu a'i osod i wasanaethu'r cymun bendigaid; yr ŷm yn ordeinio cadw a chyweirio, o amser bwygilydd, yr unrhyw fwrdd mewn trefn weddus a chyfleus, a'i hulio bryd gwasanaeth Duw â charped sidan, neu ddefnydd arall gweddus a threfnus, a farno glwysynad y lle yn addas, o bydd dim dadl yng nghylch hyny, ac â lliain teg ar bryd y weinidogaeth, fel y gweddai i'r bwrdd hwnw; ac felly sefyll, oddi eithr pan weinydder y dywededig gymun bendigaid. Y pryd hyny cyfleir ef mor gymhwys o fewn yr eglwys neu'r ganghell ag y gallo'r cymunwyr glywed y gweinidog yn well yn ei weddi a'i weinidogaeth, a'r cymunwyr hefyd yn gymhwysach ac yn amlach gymuno gyda'r dywededig weinidog; a bod y Deg Gorchymyn wedi eu gosod ar y dwyreinbarth i bob eglwys a chapel, lle bo hawsaf i'r bobl eu gweled a'u darllen, ac adnodau dewisol ereill yn ysgrifenedig ar furiau yr eglwysydd a'r capelau dywededig, mewn lleoedd cyfleus: ac felly hefyd bod eisteddfa gyfaddas wedi ei gwneuthur i'r gweinidog i ddarllen y gwasanaeth ynddi. Y rhai hyn oll i'w gwneuthur ar gost y plwyf."

ALLTUD—IAETH, [*all-tud*]: all-fro, allwlad, arall-wlad; dyeithr, estron, un yn ymdaith, neu wedi ei yru allan o wlad ei enedigaeth, cyflwr o ddeoliad: *Gen.* xxiii. 4; *Lef.* xxii. 10; a xxv. 45; 2 *Sam.* xv. 19; *Ruth* ii. 10. Y mae y gair, fel y dengys ei darddiad, yn ei ystyr briodol, yn arwyddo yn unig, *un o wlad estronol*, mewn cyferbyniad i *frodor:* mewn ystyr ddiweddar a chyfyngedig, arwydda un wedi ei yru allan o'i wlad, yn gosp am droseddu ei chyfreithiau. Y mae y gwahanol eiriau Hebraeg, yn yr Hen Destament, a gyfieithir genym ni yn *alltud*, yn cael eu cyfieithu yn y Saesoneg, yn gyffredin, yn *stranger* a *sojourner* (dyeithr ac ymdeithydd): "Canys ymdeithydd ydwyf gydâ thi, ac *alltud* fel fy holl dadau;" *Salm* xxxix. 12. Yr oedd y Salmydd felly mewn ystyr gyffredinol, megys pob dyn; ac fel ei "holl dadau"—ei hynafiaid, y patriarchiaid—y rhai a gyfaddefent mai "dyeithriaid a phererinion oeddynt ar y ddaiar:" ac yn fwy neillduol, nid oedd efe ond "ymdeithydd" ac "alltud" gyda, neu yn ngolwg Duw, hyd yn oed yn Ngwlad Canaan, i'r hon yr oedd gan bob Israeliad, a chan Dafydd yn benodol, gyda golwg ar ddynion, hawl gyfreithlawn; Duw oedd y gwir feddiannydd—trwy ei ganiatad ac wrth ei ewyllys Ef yr oeddynt hwy yn cael ymdaith ynddi; ac ar ei gymmeriad fel "ymdeithydd ac alltud" y mae yn seilio dadl am wrandawiad ei weddi gan yr hwn oedd wedi dadguddio ei hunan mewn modd nodedig yn gyfaill a noddwr i'r dyeithr. Tebygol yw i'r ymadrodd gael ei gymmeryd o *Lef.* xxv. 23, lle y mae yr Arglwydd yn gwahardd i'r tir gael ei werthu; o blegid mai ei eiddo ef ydoedd, ac mai "dyeithriaid ac alltudion" oeddynt hwy gydag ef. Ceir ymadroddion tra chyffelyb yn 1 *Cron.* xxix. 15. "I'r rhai yn unig y rhoddwyd y ddaiar: ac ni ddaeth *alltud* yn eu plith hwy;" *Iob* xv. 19. Y mae Eliphaz yn gwahodd Iob i wrandaw arno ef yn traethu ymadroddion oedd yn cynnwys doethineb gydgrynöedig yr oesoedd gynt, y rhai a drosglwyddesid, trwy draddodiad, o dad i fab; arwirebau moesol, effaith sylwadaeth eu hynafiaid ar ddynolryw a chwrs rhagluniaeth, y rhai oeddynt yn byw yn oes euraidd y byd, pan oedd y "ddaiar wedi ei rhoddi iddynt hwy yn unig;" *h. y.*, cyn iddynt ymgyfathrachu â chenedloedd ereill, a chyn i burdeb eu moesau a'u golygiadau gael ei lygru drwy ymgymmysgiad â dyeithriaid. Cwyna Iob ei fod fel "alltud" (Seis. *alien*) yn ngolwg ei wasanaethyddion: *Iob* xix. 15. Nid ydym yn cyfarfod â'r gair hwn ond unwaith yn y Testament Newydd; sef yn araeth Pedr yn nhŷ Cornelius:—"Chwi a wyddoch mai anghyfreithlawn yw i ŵr o Iuddew ymwasgu neu ddyfod at *alltud;*" *Act.* x. 28. Y gair a gyfieithir yma "*alltud*," yw 'Ἀλλόφυλος (*allophulos*)—un o lwyth neu genedl arall: o αλλος—*arall*, a φυλή—*llwyth* neu *genedl:* Nid yw hwn chwaith yn dygwydd yn y Testament Newydd ond yn y fan yma; arwydda yma, *un heb fod yn Iuddew:*—y Seisoneg—"*one of another nation.*" Er nad oedd yr hyn a ddywed Pedr yn wrthddrych gwaharddiad pendant, yr oedd egwyddor y peth yn ddealledig gan bob Iuddew, ac yn cael ei rhagdybio yn yr holl gyfundrefn Iuddewig; un o amcanion mwyaf arbenig yr hon ydoedd diogelu neillduaeth y genedl fel un wahaniaethol a chyssegredig.

Dangosai yr Arglwydd, yn ffurfiad y cyfreithiau Iuddewig, ofal a thynerwch nodedig tuag at yr "alltud a'r dyeithr." Yr oedd amryw osodiadau â'u cyfeiriad atynt hwy yn benodol. Yr oedd cynnyrch y seithfed flwyddyn—"Sabbath y tir"—i gael ei gyflwyno i ddybenion elusengar, ac yn benodol i fod yn ymborth "i'th *alltud*, yr hwn a ymdeithio gyda thi;" *Lef.* xxv. 6. Y mae yr Arglwydd yn gwneuthur appeliadau mynych a grymus at yr Israeliaid, i'w cyffroi i ddangos caredigrwydd i'r ymdeithydd a'r dyeithr, trwy ddwyn ar gof iddynt eu cyflwr adfydus eu hunain, pan yn ddyeithriaid yn nhir yr Aipht: *Exod.* xxii. 21; a xxiii. 9. Nid oedd yr "alltud a'r gwas cyflog" i gael cyfranogi o oen y Pasc, heb iddynt yn gyntaf gael eu henwaedu: *Exod.* xii. 45. Am eglurhad ar y gwahanol ddosbarthiadau o ddyeithriaid yn Israel, yn nghyd â'r cyfreithiau a berthynent iddynt, gwel Dyeithr.

Alltudiaeth sydd gosp am ryw droseddau penodol o'r gyfraith wladol, trwy ba un y dedfrydir y troseddwr i ymadael â gwlad ei enedigaeth, ac i gael ei gadw mewn caethiwed a chaledwaith yn

Digitized by Google

y sefydliadau tramor, appwyntiedig gan y llywodraeth i'r dyben hwnw, am ysbeidiau amrywiol o amser (megys 7 neu 14 mlynedd); ac mewn rhai amgylchiadau, am yr holl oes, yn ol natur a graddau y trosedd. Y mae y gosp hon, yn ei ffurf eithaf, yn nesaf mewn llymder i'r brif gospedigaeth *(capital punishment)*. Yr ydym yn canfod alltudiaeth, mewn gwahanol ddulliau, yn hanfodi yn y byd er ys llawer o oesoedd. Mewn hen hanesiaeth, nid yw yn beth anghyffredin gweled poblogaeth dinas neu wlad gyfan, wedi ei goresgyn gan allu cryfach, yn cael ei halltudio i wlad y gelyn. Gwneid hyn fynychaf oddi ar un o ddau ddyben, ac weithiau oddi ar y ddau yn nghyd: naill ai i'r dyben o lenwi â phoblogaeth werthfawr ddinasoedd newyddion, wedi eu hadeiladu oddi ar falchder a rhwysg, neu er amddiffyniad, ac yn aros i fesur yn anghyfannedd; neu ynte, i'r dyben o dori i fyny gyfansoddiadau gwladol a ammheuid fel rhai gelynol a pheryglus, ac o chwalu gweddillion hen fawredd. Er ateb y dyben blaenaf, dygid ymaith yn benaf y crefftwyr celfyddgar; a'r dyben olaf a atebid yn oreu trwy gymmeryd ymaith yr holl deuluoedd mwyaf urddasol yn y wlad, yn nghyd â'r milwyr mwyaf eu medrusrwydd. Dynodai y Groegiaid boblogaeth alltudiedig fel hyn, trwy yr ymadrodd ἀναστατοι [*Herod.* vii. 93]. Math o alltudiaeth genedlaethol oedd gwahanol gaethgludiadau cenedl Israel; ac yr oedd y rhai hyn yn disgyn arnynt hwy gyda llymder deublyg; o blegid fod eu symmudiad o Ierusalem ac o'u gwlad yn eu cau allan oddi wrth gyflawniad rhai o'u defodau crefyddol mwyaf pwysig, ac yn eu gorfodi i gyfnewid llawer ar y lleill i gyfarfod â'r cyfnewidiadau yn eu hamgylchiadau.

Nid oedd y gosp o alltudiaeth yn cael ei chynnwys yn y gyfraith Foesenaidd; ond ar ol y caethgludiad, dygwyd i mewn i blith yr Iuddewon alltudiaeth bersonol, yn nghyd â fforffediad meddiannau. Yr oedd y gosp hon yn mhlith y Groegiaid. Clesthenes, arweinydd plaid wladwriaethol, yn Athen, a ddygodd i mewn arferiad a elwid *octracism*, trwy yr hon y gallai unrhyw berson gael ei alltudio am ddeng mlynedd heb gael ei gyhuddo o unrhyw drosedd, os byddai i'r Atheniaid ammheu ei fod wedi ennill gormod o ddylanwad, neu ei fod yn llochesu syniadau neu amcanion yn tueddu i beryglu rhyddid y bobl. Gelwid y ddedfryd hon *octracism* (o'r gair Groeg ὀστρακον—*cragen)*, am y byddai y dinasyddion wrth roddi amlygiad i'w barn, yn ysgrifenu enw y person y dymunent iddi gael ei rhoddi mewn gweithrediad arno ar gragen. Dywedir mai Clesthenes a syrthiodd gyntaf yn aberth i'w ddeddf ei hunan. Yr oedd y gospedigaeth hon hefyd mewn arferiad gyffredin yn mhlith y Rhufeiniaid. Yr enw wrth ba un yr adnabyddid hi yn y cyfnod ymherodrol ydoedd *Exsilium.* Yr oedd yr enwad cyffredinol hwn yn cynnwys amrywiol raddau, yn ol natur y trosedd; un o ba rai ydoedd yr hyn a elwid *diminutio capitis* (yn llythyrenol—*colliant pen*); gelwid y math hwn o alltudiad wrth yr enw yma, am y byddai yr alltudiedig yn colli drwyddo ei hawliau fel dinesydd; ac hefyd am y byddai dinas Rhufain, trwy hyny, yn colli pen, neu berson. Math arall, tynerach, a elwid *Relegatio*, yr hwn a gynnwysai orchymyn i breswylio mewn mangre benodol, neu waharddiad i breswylio mewn rhyw leoedd penodedig; gadawai y ddedfryd hon ei gwrthddrych yn y meddiant o'i holl hawliau fel dinesydd Rhufeinig. Ond y math llymaf o alltudiaeth ydoedd yr hyn a elwid *Deportatio in insulam*—alltudiad i ynys. Yr oedd yr alltudiedig yn fforffedio ei ddinasyddiaeth a'i holl feddiannau, ac yn cael ei drosglwyddo mewn cadwynau ar fwrdd llong i ynys a benodid gan yr ymherawdwr, lle y gorfodid ef i aros, yn y cyffredin, mewn alltudiaeth barhaus, a phob amser am dymmor annhenodedig. Yn y modd yma yr alltudiwyd yr apostol Ioan, gan yr ymherawdwr Domitian, "am air Duw a thystiolaeth Iesu Grist," i Patmos—ynys fechan, greigiog, yn y Môr Ægëaidd, tua deunaw milltir o amgylchedd; yr hon, ar gyfrif ei chyflwr anial ac anghyfanneddol, a ddefnyddid gan yr ymherawdwyr Rhufeinaidd fel lle o alltudiaeth. Yn yr unigedd hwn y derbyniodd ac yr ysgrifenodd Ioan weledigaethau gogoneddus Llyfr y Datguddiad: *Dad.* i. 9.

Gellir olrhain dechreuad alltudiaeth fel cosp wladol yn Mhrydain mor bell yn ol â theyrnasiad Elizabeth, a'i dilynydd Iago I; yn nheyrnasiad yr hwn, yn y flwyddyn 1619, y dechreuwyd alltudio i'r America, yr hon oedd y pryd hwnw yn ddarostyngedig i lywodraeth Lloegr. Ni ddaeth y dull yma o gospi, pa fodd bynag, i weithrediad cyffredin hyd amser Sior I. Parhaodd ei ddeddfau ef mewn grym o berthynas i alltudiaeth i'r America o'r fl. 1718 hyd doriad allan y rhyfel Americaidd, yn y fl. 1775. Darfu i'r lluosogiad anghyffredinol o droseddwyr yn ngharcharau cyffredin y deyrnas, yn ystod y rhyfel uchod, dynu sylw amryw o bersonau gwladgarol, nes eu dwyn i ymdrechu am gael trefniant gospedigaethol newydd a diwygedig. Mewn canlyniad i hyn y sefydlwyd penydfaoedd *(penitentiaries)*. Ond buan y canfyddwyd aneffeithioldeb y sefydliadau hyn i ateb y dyben bwriadedig; a chafodd y gosp o alltudiaeth ei hadnewyddu trwy weithred a basiwyd yn y fl. 24ain o deyrnasiad Sior III; pryd y sefydlwyd ar ororau dwyreiniol Awstralia, a'r ynysoedd cymmydogaethol, fel lleoedd o alltudiad. Yn mis Mai, 1787, y darfu i'r fintai gyntaf o alltudedigion adael Lloegr; yr hon, yn y flwyddyn ganlynol, a sylfaenodd drefedigaeth New South Wales. O hyny hyd yn awr, y mae y trefniant hwn wedi parhau, gyda rhyw gyfnewidiadau achlysurol. Ar ol y diwygiadau yn y gyfraith, yn nheyrnasiad Sior III, Sior IV, a William IV, alltudiad yw y gosp am luaws o droseddau a gyfrifid o'r blaen yn haeddu marwolaeth; megys lladradau o ryw fath penodol, dyn-laddiad, ffug-ysgrifiad, gwneuthuriad arian a phapyrau drwg, &c. Y prif sefydliadau cospedigaethol ydynt yr ynys fechan losgfaol a elwir Norfolk Island—sefyllfa yr hon sydd tua 900 milltir oddi wrth lanau dwyreiniol Awstralia—Bermuda, yn nghyd â'r ddwy drefedigaeth Awstraliaidd—New South Wales a Van Diemen's Land.

Y mae Bentham, Dr. Whateley (archesgob presennol Dublin), yn nghyd âg ysgrifenwyr ereill ar gospedigaethau, yn condemnio egwyddor gyffredinol alltudiaeth. Gellir gweled gwrthddadleuon Bentham mewn pennod ar alltudiaeth yn ei "*Theory of Punishments;*" ac eiddo yr archesgob yn ei "*Letters to Earl Grey.*" Gellir symio i fyny eu rhesymau oll yn fyr fel y canlyn:—1. Fod alltudiaeth wedi troi allan yn aflwyddiannus yn mhob prawf sydd hyd yn hyn wedi ei wneuthur ar yr egwyddor. 2. Fod alltudiaeth yn diddymu un o brif ddybenion cosp (sef "gosod yn esampl") gyda golwg ar y wlad ag y mae y troseddwyr yn cael eu gyru o honi. 3. Ei bod yn gosod i lawr sail lygredig a niweidiol i bobl-

Digitized by Google

ogaeth ddyfodol y gwledydd yr alltudir hwynt iddynt. 4. Ei bod yn cau allan ymchwiliad manwl a rheolaidd. 5. Ei bod yn fwy costus na threfniant y carcharau cartrefol. Rhoddwyd terfyn ar y drefn hon yn 1775; ac adnewyddwyd hi yn 1786. Ond gwrthododd awdurdodau Penrhyn Gobaith Da dderbyn y cyfryw garcharorion yn 1849; ac felly trefedigaethau Awstralia yn 1864. Yn mhen ychydig flynyddoedd, rhoddwyd diwedd ar y drefn; a chedwir hwy yn awr yn ngharcharau y wlad hon.

ALLWEDD. Gwel AGORIAD.

AMAD. Tref berthynol i lwyth Aser: *Ios*. xix. 26.

AMADATHA, AMADATHEUS: yr un a Hammedatha: *Est*. iii. 1; ix. 01.

AMAETHYDDIAETH: y gelfyddyd o lafurio y ddaear. Wedi i'r Arglwydd greu dyn, efe "a'i cymmerodd, ac a'i gosododd ef yn ngardd Eden, i'w llafurio ac i'w chadw hi;" *Gen*. ii. 15: a phan drowyd ef allan o honi am ei anufudd-dod, ac i'r ddaear gael ei melldithio o'i achos, hysbyswyd ef mai "trwy lafur y bwytäai o honi holl ddyddiau ei einioes;" *Gen*. iii. 17. Llafurwr y ddaiar oedd Cain, a dug o ffrwyth y ddaiar offrwm i'r Arglwydd. Ymddengys fod llafur, i ryw fesur, yn angenrheidiol er iechyd a chysur dyn hyd yn oed yn nghyflwr ei ddiniweidrwydd, ac yr oedd y llafur neu yr ymarferiad hwnw yn troi allan yn gynnaliaeth a chysur iddo. Nid oes genym ddim mantais i wybod pa faint fu y cynnydd ar amaethyddiaethcyn y dylif; ac o ganlyniad, pa beth a allasai fod y cyfnewidiadau wedi hyny. Tybia rhai fod cryn gyfnewidiad wedi cymmeryd lle y pryd hwnw yn ansawdd y pridd a'r hinsawdd; ac o ganlyniad, fod hyny yn galw am driniaeth wahanol. Pa fodd bynag, y mae yn ddiammheu fod Noah a'i feibion yn hysbys o'r cynnydd a fu arni yn mysg y cynddylifiaid; ac un o'r pethau cyntaf a gawn ni yn ei hanes ef, wedi dyfod o'r arch, yw, iddo ddechreu bod yn llafurwr a phlanu gwinllan: *Gen*. ix. 20.

Y mae hanes amaethyddiaeth yn dangos ei bod yn amrywio mewn gwahanol wledydd yn ol natur y tir a'r hinsawdd, a bod ei chynnydd wedi bod yn amrywiol mewn gwahanol oesoedd ac yn mhlith gwahanol genedloedd, yn ol fel y byddai gwybodaeth yn amlhau a gwareiddiad yn ffynu. Yn yr amseroedd a'r gwledydd ag y byddai y preswylwyr yn anaml, a rhyfeloedd yn cymmeryd lle yn fynych rhwng y gwahanol lwythau a'u gilydd, byddai eu cyfoeth yn gynnwysedig yn benaf mewn anifeiliaid. Ychydig o gynnyrch llafur mewn grawn a fyddai yn angenrheidiol er eu cynnaliaeth, yr hyn a godid yn lled ddidrafferth yn y lleoedd brasaf a hawddaf eu trin. Dewisid hyn hefyd er mwyn bod i raddau yn symmudol, fel y gellid cymmeryd y da ymaith yn fwy hylaw pan y byddai perygl oddi wrth y gelynion. Ond pan y byddai trigolion gwlad yn lluosogi, ffurf o lywodraeth yn cael ei sefydlu, ac iddynt hwythau deimlo eu hymddibyniad y naill ar y llall, gosodid y terfynau yn fwy amlwg, a chyfyngid pawb i ddiwyllio ei randir ei hun. Ceir hanes fod hwsmonaeth yn uchel yn mysg y Chineaid, y Japaniaid, y Caldeaid, yr Aiphtiaid, a'r Phœniciaid, yn dra bore. Addolid yr ŷch gan yr Aiphtiaid ar gyfrif ei wasanaethgarwch i lafurio y ddaiar. Y mae yn amlwg fod Gwlad Canaan, mor fore a dyddiau Abraham, yn cael ei hystyried ganddo ef, a chan ei phreswylwyr, yn feddiant priodol i'r trigolion; o blegid yr ydym yn cael hanes ddarfod i Abraham brynu maes Ephron, yr Hethiad, am "bedwar can sicl o arian cymmeradwy yn mhlith marchnatawyr," i fod yn feddiant beddrod iddo yno. Gosodir hyn allan yn fanwl. "Felly y sicrhawyd maes Ephron, yr hwn oedd yn Macpelah, yr hon oedd o flaen Mamre, y maes a'r ogof oedd ynddo, a phob pren a'r a oedd yn y maes, ac yn ei holl derfynau o amgylch, yn feddiant i Abraham yn ngolwg meibion Heth, yn ngŵydd pawb a ddelynt i borth ei ddinas ef;" *Gen*. xxiii. 16, 17, 18. Ymddengys fod y terfynau yn cael eu gosod yn bur fanwl yn yr Aipht yn yr adeg yr oedd Ioseph yn llywydd ar y wlad; o blegid dywedir ddarfod iddo "brynu holl dir yr Aipht i Pharaoh: canys yr Aiphtiaid a werthasant bob un ei faes; o blegid y newyn a gryfhasai arnynt: felly yr aeth y tir i Pharaoh. Yn unig tir yr offeiriaid ni phrynodd efe." Yr oedd Pharaoh wedi penu hwnw yn rhan iddynt; "am hyny ni werthasant hwy eu tir;" *Gen*. xlvii. 20, 22.

Y mae yr ychydig grybwylliadau a geir am y patriarchiaid yn cyfeirio atynt yn benaf fel "bugeiliaid defaid." Ond wedi dyfod plant Israel o'r Aipht, ac iddynt gymmeryd meddiant o wlad yr addewid, gosodasant ei therfynau yn gyntaf yn ol rhifedi y llwythau, ac wedi hyny yn ol rhifedi eu teuluoedd, a chedwid at y rhaniad hwnw yn dra manwl. [Gwel DEDDFAU TIR.] Nodid etifeddiaeth pob un allan â cheryg terfynau, ac nid â gwrychoedd a chloddiau, fel yn ein gwlad ni. Cyfeiria y muriau a'r cloddiau a grybwyllir yn achlysurol yn yr Ysgrythyrau at y rhai a fyddai o amgylch perllenau, gwinllanoedd, a gerddi. Ystyrid y rhai a fyddo yn "symmudo terfynau" yn euog o gamwedd anfad (*Iob* xxiv. 2). Gwaherddir ef, a chyhoeddir bygythion yn nghyfraith Moses ar y neb a'i gwnelai (*Deut*. xix. 14; xxvii. 17). Yn yr adegau ag yr oedd y genedl yn rhodio yn ffyrdd yr Arglwydd, ac yn cadw ei orchymion ef yn ddyfal, byddent yn llwyddo yn mhob peth, a bendith yr Arglwydd yn eu cyfoethogi. Yr oedd yn adeg lwyddiannus iawn tua diwedd teyrnasiad Dafydd, a dechreu teyrnasiad Solomon. Fel yr oedd y boblogaeth yn cynnyddu, ymweithient i'r mynyddoedd, a dygid hwynt dan driniaeth fanwl. Cesglid y ceryg, a gosodid hwynt yn drumau ar hyd ochrau y brynlau, fel na byddai i'r dyfroedd gludo y pridd i'r gwaelodion. Y mae yr olion sydd i'w canfod yn ngwahanol barthau y wlad o ddarnau o dir, y naill uwch law y llall (*terraces*), fel hyn, yn dangos eu bod wedi bod dan driniaeth fanwl pan oedd y wlad yn fwyaf poblog. Ond pan y byddai y trigolion yn myned yn anamlach, nesëid i lawr i'r gwaelodion, ac esgeulusid y bryniau, y rhai oeddynt yn fwy anhawdd eu trin.

Y mae yn ymddangos fod y tir yn Ngwlad Canaan yn dra ffrwythlawn hyd yn oed yn y lleoedd y byddai deneuaf; ond er mor ffrwythlawn ydoedd yn naturiol, nid oedd yn peri nad oedd yn angenrheidiol ei frashau â gwrtaith. Cyfeirir at hyn gan Iesu Grist yn nammeg y ffigysbren diffrwyth, lle y mae y gwinllanydd yn eiriol, "gâd ef y flwyddyn hon hefyd, hyd oni ddarffo i mi gloddio o'i amgylch a bwrw tail;" *Luc* xiii. 7—9: gwel hefyd 2 *Bren*. ix. 37; *Salm* lxxxiii. 10; *Esa*. xxv. 10; *Ier*. ix. 22; *Luc* xiv. 34, 35. Tröid dwfr trwy ddyfrffosydd, o aberoedd ac afonydd, i'r lle y gellid ei gael er ffrwythloni y tir, a gochel gwywdra drwy ormod sychder mewn

Digitized by Google

Becket, wedi iddo gael ei ddyrchafu yn archesgob Caergaint, yr arferai fyned i'r meusydd gyda mynachod y fynachlog lle y preswyliai, ac mewn adegau prysur, cymmerai ran yn y gorchwylion ei hunan wrth gyweirio y gwair a thrin yr ŷd. Nid yw y crybwyllion a geir am eu dull o drin y ddaiar, ac am eu hoffer y pryd hyny, yn rhoddi mantais i gael ond gwybodaeth led anmherffaith am danynt.

Dygwyd cryn welliadau o amgylch yn amser Harri VII, ac aethant ar gynnydd o dan deyrnasiad Harri VIII. Y pryd hwn y cyhoeddwyd y llyfr cyntaf yn y wlad hon ar amaethyddiaeth, gan Syr A. Fitzherbert, yr hwn a alwai yn "Llyfr Hwsmonaeth" (*Book of Husbandry*). Y mae yn cynnwys cyfarwyddiadau i arloesi, sychu, a gwrteithio y tir, y rhai oeddynt yn ffrwyth ei brofiad a'i ymarferiad ef ei hun yn y gorchwyl am dros ddeugain mlynedd. A dywed un ysgrifenydd nad oes eisieu chwanegu llawer ato, na gadael ond ychydig iawn allan, oddi eithr y cyfeiriadau Ysgrythyrol, a rhyw syniadau coelgar o eiddo y Rhufeiniaid yn nghylch dylanwad y lleuad, a'r cyffelyb, na byddent yn angenrheidiol mewn llyfr ar hwsmonaeth yn bresennol, gyda golwg ar godi ŷd. Cyhoeddwyd amryw lyfrau o dan deyrnasiad Elizabeth, mewn mydryddiaeth ac iaith rydd. Rhoddir y lle blaenaf i weithiau Tusser, Googe, a Syr Hugh Platt, yn y cyfnod hwn. Aeth ar gynnydd drachefn o dan y werinlywodraeth. Ond tua chanol y ddeunawfed ganrif, wedi bod am ysbaid lled faith heb i unrhyw welliant o bwys gael ei ddwyn i mewn, rhoddwyd ail fywlogrwydd mewn amaethyddiaeth gan un Jethro Bull, amaethwr yn swydd Berk. Nid yw yn ymddangos ei fod ef ei hun wedi gwneuthur llawer o welliadau; ond dywedir fod y diffygion oedd yn ei gyfundrefn ef wedi peri i fwy o sylw gael ei dalu i ddiwylliant tir, a thrinogaeth anifeiliaid; a chyhoeddwyd llawer o lyfrau newyddion cyn diwedd y ganrif ddiweddaf. Yn y ganrif bresennol, y mae amaethyddiaeth wedi gwneuthur cynnydd helaeth yn mhob rhan o honi, a cheir llyfrau ar bob cangen a berthyn iddi, a phob gwybodaeth sydd yn dwyn cyssylltiad â thriniaeth y ddaiar wedi ei dwyn yn wasanaethgar iddi. Nid yw y gwelliadau wedi cael eu dwyn yn mlaen mor gyffredinol ag y gellid dysgwyl. Tra y ceir un parth o'r wlad o dan y driniaeth oreu, gwelir y rhan arall heb fod yn mhell o fod mor ddiolwg ag yn y canoloesoedd. Y mae hyn yn codi, i fesur mawr, oddi ar anwybodaeth am amaethyddiaeth, fel celfyddyd, yn mysg amaethwyr eu hunain, a'r diffyg o ysbryd anturiaethus: ac nid un o'r pethau lleiaf sydd ar ffordd eu llwyddiant yw y sefyllfa anniogel y mae y tyddynwr ynddi rhyngddo a pherchenog ei dir: trwy hyny y mae anturiaeth a llafur yn cael ei rwystro i fesur mawr, gan na byddai y budd o hyny, yn y cyffredin, yn dychwelyd yn ol i'r llafurwr.

Y mae amaethyddiaeth wedi gwneuthur cynnydd mwy cyffredinol, efallai, yn yr Alban, nag yn un parth arall o'r Deyrnas Gyfunol, er tua chanol y ganrif ddiweddaf. Y mae y drefn sydd yn derbyn cymmeradwyaeth gyffredinol yn bresennol o sychu tir wedi effeithio cyfnewidiad mawr; ac y mae yn ffaith fod mwy o amaethwyr yno wedi ymofyn am yr arian a ganiateir gan y llywodraeth i sychu tir nag mewn un rhan o'r deyrnas. Gwneir defnydd helaeth hefyd o wrteithiau fferyllawl. Mantais a ganiateir, yn gyffredin, gan berchenogion tiroedd, yw ammodrwymau (*leases*) am ysbaid maith ar y tyddynod; ac felly, y mae yn annogaeth i'r amaethwr i anturio trwy dreulio arian i wellhau y tir, gan fod ganddo sicrwydd y bydd iddo ef, neu ei etifeddion, fwynhau y cynnyrch. Y mae yno gymdeithasau amaethyddol, y rhai sydd wedi bod yn foddion i ddwyn i mewn ddiwygiadau mawrion, ac i gael dynion medrus i chwilio i mewn i natur y tiroedd, ac i'r gwrteithiau mwyaf priodol i'w ffrwythloni. Cafodd "Fferylliaeth Amaethyddol" (*Agricultural Chemistry*) Liebig ddylanwad helaeth ar Scotland. Edrychai yr hen bobl yn lled ddrwgdybus ar unrhyw drefn newydd a ddygid i sylw: ond wedi i addysg gael ei droi yn fwy yn y cyfeiriad, ac i'r genedl ieuanc, drwy y manteision hyny, ddyfod yn gydnabyddus â fferylliaeth yn ei pherthynas âg amaethyddiaeth, gwnaeth gyfnewidiad mawr. Y mae ymchwiliadau a llafur y proffeswr Johnstone, yr hwn y mae ei enw yn adnabyddus iawn, bellach, er ys amryw flyneddoedd, yn ei berthynas â Chymdeithas Amaethyddol Ucheldiroedd Scotland, a'r amrywiol weithiau o'i eiddo mewn cyssylltiad â fferylliaeth amaethyddol, wedi bod yn dra llwyddiannus. Gwnaed cynnydd helaeth mewn amaethyddiaeth yn Ucheldiroedd yr Alban yn y pymtheg neu yr ugain mlynedd diweddaf.

Y mae cynnydd gwybodaeth yn yr hanner canrif ddiweddaf mewn fferylliaeth, ac yn enwedig cymhwysiad y wybodaeth hono at amaethyddiaeth, wedi chwanegu llawer at ei manteision. Gellir adnabod natur y tir mewn gwahanol barthau—pa ffrwyth a ddwg, a pha beth na ddwg y maes;—

> "Et quid quæque ferat regio, et quid quæque recuset."
> *Geor.* I. 53.

ac am natur y sylweddau a ddefnyddir yn wrtaith—pa beth, a'r modd i'w gymhwyso i droi allan yn fwyaf ffrwythlawn. Gwnaed cynnydd cyfatebol o ran gwelliant ar offer hwsmonaeth. Y mae trinogaeth anifeiliaid wedi dyfod i fwy o sylw nag o'r blaen. Nid yn unig gofelir am eu cael o'r rhywogaeth oreu, ond telir mwy o sylw i'w cysgodi a'u porthi, fel y byddant yn fwyaf ffrwythlawn. Y mae y naill a'r llall o'r pethau hyn yn cael ystyriaethau y cymdeithasau amaethyddol, ac mor bell ag y maent yn foddion i beri diwygiad ynddynt, y maent yn ateb dybenion daionus. Ond cyn y gwelir amaethyddiaeth wedi dyfod i raddau o berffeithrwydd yn gyffredinol, y mae yn rhaid gosod y tyddynwr mewn sefyllfa, rhyngddo a'i feistr, fel y gallo deimlo yn fwy annibynol arno, a mwy o sicrwydd y bydd iddo fwynhau ffrwyth ei anturiaeth a chynnyrch ei lafur, yn debyg fel y mae yn yr Alban.

Nid oes un gelfyddyd, dybygid, a'i chynnydd wedi bod mor araf ag amaethyddiaeth, wrth ystyried mai "llafurio y ddaiar" oedd gorchwyl cyntaf dyn, a bod hyny wedi parhau i fod yn alwedigaeth y rhan luosocaf o ddynolryw o'r pryd hwnw hyd y dydd heddyw. Y mae hyny wedi tarddu, i fesur mawr, oddi wrth y gwahaniaeth yn hinsoddau y gwahanol wledydd, a'r amrywiaeth yn natur y tir, nid yn unig mewn gwahanol wledydd, ond ceir amrywiaeth mawr yn yr un wlad, ac hyd yn oed yn yr un ardaloedd, yr hyn sydd yn galw am drinogaeth wahanol, a'i angenion yn galw am lawer o wahaniaeth yn natur yr hyn a ddefnyddir i'w frasau, mewn trefn iddo fwrw ffrwyth. Y mae sefyllfa yr amaethwr hefyd, o angenrheidrwydd, yn ei gadw, i fesur mwy neu lai, mewn neillduedd, fel nad yw yn cael cyfleusdra i gymdeithasu â chynnifer o'r un alwedigaeth ag ef ei hun, ond i raddau bychain

Digitized by Google

tra y bu yn blaenori byddinoedd Absalom, wedi amlygu galluoedd milwraidd rhagorol, neu ni buasai Dafydd, yr hwn oedd yn filwr medrus ei hunan, byth yn ei osod yn y fath swydd bwysig. Ond pan dorodd gwrthryfel Seba allan, yr oedd Amasa mor annyben yn ei ysgogiadau, yr hyn a achlysurid efallai gan anfoddlonrwydd y milwyr i'w ddilyn, fel yr anfonai Dafydd Abisai, yn nghyd â'r gwarchodlu teuluaidd, i erlyn Seba, a Ioab a'i gyfeillion a'u dilynasant fel gwirfoddolion: ond pan oeddynt yn agos i faen mawr Gibeon, fe 'u goddiweddwyd gan Amasa, â hyny o wŷr a gynnullasai efe. Gwelai Ioab yn y fan fod hwn yn arfod manteisiol iawn iddo ef gael ymwared o wrthymgeisydd peryglus; lluniodd ei amcan gwaedlyd, yr hwn hefyd a roddes efe mewn gweithrediad yn fuan: efe a gyfarchai Amasa megys cyfaill: cydiai â'i *ddeheulaw* yn ei farf i'w gusanu, tra y defnyddiai ei law *aswy*, ar yr hon ni wyliai Amasa, i'w drywanu â'i gleddyf, fel y bu farw yn y fan. Yna Ioab a gymmerth lywyddiaeth y fyddin arno ei hun, ac a barhaodd yr erlyniad ar ol Seba: ac yr oedd efe mor boblogaidd gyda'r fyddin, fel nas gallai y brenin Dafydd ei symmud o'r swydd, na'i alw i gyfrif am ei weithred waedlyd: 2 *Sam.* xx. c. c. 1022. Gwel ABNER: ABSALOM; IOAB; IETHER; ITHRA.

2. **AMASA**: un o benaethiaid meibion Ephraim; yr hwn, yn nghyd â rhai gwŷr ereill o gyffelyb feddwl, wedi gwrandaw ar ymliwiad Oded y prophwyd, a wrthwynebasant yn egnïol i'r rhai a gymmerasid yn gorcharorion rhyfel gan Pecah, brenin Israel, oddi ar Ahaz, brenin Iudah, gael eu cadw yn eu plith megys caethweision a chaethforwynion: 2 *Cron.* xxviii. 12.

**AMASAI**, [עֲמָשַׂי]: pen tywysog mintai gref o wŷr. o lwyth Iudah a Beniamin, y rhai a ymunasant â Dafydd yn Siclag. Ymddengys, oddi wrth gyfarchiad Dafydd iddynt, ei fod wedi lled ofni ar y dechreu mai i'w fradychu i ddwylaw Saul y daethant hwy; ond ateb caruaidd Amasai iddo a'i gwnelai yn esmwyth ar y pen yna yn fuan: 1 *Cron.* xii. 16—18.

1. **AMASIAH**, [אֲמַצְיָה, *nerth yr Arglwydd*]: mab Ioas, ac wythfed brenin Iudah. Yr oedd efe yn bum mlwydd ar ugain oed pan ddechreuodd deyrnasu; ac efe a deyrnasodd naw mlynedd ar ugain—o'r fl. 838 c. c., hyd y fl. 809 c. c. Ymddangosai ar ddechreu ei deyrnasiad fel un yn meddu rhyw gymmaint o ofal am gydffurfio, yn allanol o leiaf, â gosodiadau dwyfol; canys pan gospai efe leiddiaid ei dad, fe ddywedir na laddodd efe feibion y lleiddiaid mewn ufudd-dod i gyfraith Moses: 2 *Bren.* xiv. 5, 6. Yn y ddeuddegfed flwyddyn o'i deyrnasiad, efe a amcanodd ddarostwng yr Edomiaid drachefn dan iau Iudah; yr hon a fwriasant ymaith yn amser Iehoram; 2 *Bren.* viii. 20. Gwelwn fod gallu milwraidd Edom yn fawr y pryd hwn, yn wyneb yr hyn a ddywedir yn yr hanes am Amasïah; sef, nad ystyriai nerth ei deyrnas ei hun yn ddigonol, er y gallasai droi allan dri chan mil o wŷr etholedig, yn medru trin gwaewffon a tharian; ac am hyny, efe a logai fyddin gynnorthwyol o gan mil o wŷr gan frenin Israel, am gan talent o arian. Dyma yr enghraifft gyntaf a gawn ni o fyddin logedig yn yr hanes Iuddewig. Ond ni wnaeth hon unrhyw wasanaeth i Amasïah; canys anfonodd Duw genad ato, i erchi iddo beidio eu cymmeryd i'w wasanaeth yn y cadgyrchiad presennol, am nad oedd yr Arglwydd gydag Israel, sef gyda holl feibion Ephraim; ond, os y mynai ei ffordd ei hun, y parai Duw iddo syrthio o flaen ei elynion; ac yntau, gan gydnabod nad oedd efe namyn math o raglaw dan y Goruchaf yn llywodraeth Iudah, a ufuddhaodd i'r genadwri, er ei fod drwy hyny yn colli ei gan talent, ac yn cyffroi llid yr arfogion o Israel, y rhai a'u cyfrifent eu hunain wedi eu sarhau yn dost, drwy eu troi o'r neilldu, a'u hanfon i'w cartrefi ar fin y frwydr, fel pe na buasent deilwng o ymddiried: a hwy a amlygasant eu digllonedd trwy anrheithio y dinasoedd, a llofruddio y bobl ar eu ffordd adref. Ond gwobrwywyd ufudd-dod Amasïah drwy y fuddugoliaeth fawr a gafodd ar yr Edomiaid, yn nyffryn yr halen, o'r rhai y lladdwyd deng mil yn y frwydr, a deng mil ereill a roddwyd i farwolaeth drwy eu taflu o ben y creigiau serth, fel y drylliwyd hwynt oll. Ond, o'r pryd hwn allan, yr ydym yn gorfod edrych ar ddirywiad Amasïah; canys yn mysg yr anrhaith a syrthiodd i'w ddwylaw drwy y fuddugoliaeth hon, yr oedd "duwiau meibion Seir;" ac er iddo gael prawf eglur mor ddiweddar eu bod yn analluog i waredu eu haddolwyr eu hunain, "efe a'u gosododd hwynt iddo ef yn dduwiau, ac a addolodd ger eu bron hwynt, ac a arogldarthodd iddynt." Ymtalchïodd ei galon gan ei lwyddiant, ac anghofiodd y Duw a roddasai y fuddugoliaeth iddo, gan addoli eilunod y gelyn a roddasid yn ei law, a hyny a dynodd soriant y Goruchaf arno, ac anfonwyd prophwyd ato i ymliw âg ef am ei ffolineb a'i anniolchgarwch; ond ni wnaeth namyn ymgaledu dan y genadwri, a bygwth lladd y genad; ar yr hyn y dywedai gŵr Duw yn onest wrtho, "Mi a wn fod Duw wedi arfaethu dy ddinystrio di, am i ti wneuthur hyn, ac na wrandewaist ar fy nghynghor i."

Yn fuan wedi hyn, efe a geisiodd achlysur i ryfela â Ioas, brenin Israel, gan fwriadu darostwng y deg llwyth dan ei awdurdod; ac anfonodd feiddiad sarhaus at y penadur hwnw, yr hwn a'i hatebodd yn nammeg yr ysgellyn a'r gedrwydden, gan geryddu ei falchder a'i wag-ogoniant, a thywallt arno y dirmyg a deilyngai. Ond ni fynai Amasïah wrandaw; ac felly, cyfarfu y ddau benadur ar faes y gwaed. Yn y frwydr, gorchfygwyd Amasïah, ac efe a gymmerwyd yn garcharor gan Ioas, yr hwn a'i dug i'w ganlyn i Ierusalem; ac wedi tori mur y ddinas, "o borth Ephraim i borth y gongl, pedwar can cufydd," neu chwe chan troedfedd, efe a arweiniodd ei fyddin i fewn trwy y bwlch, ac a anrheithiodd y ddinas, heb arbed hyd yn oed pethau cyssegredig y deml. Ond efe a adawodd Amasïah ar yr orsedd, gan gymmeryd gwystlon na byddai iddo ymladd yn ei erbyn mwy. Eithr ni fwynhaodd Amasïah nemawr o'r rhyddid hwn; canys yn fuan wedi marwolaeth Ioas, yr hyn, dybygid, a gymmerodd le bron yn ebrwydd ar ol ei ddychweliad o'r cadgyrchiad yma, torai gwrthryfel cryf allan yn Iudah yn erbyn Amasïah, yr hwn a ffieiddid gan y bobl, efallai o herwydd ei ymlyniad wrth eilunaddoliaeth, a'r distryw a dynasai efe ar y wlad. Pan ddeallodd Amasïah fod y gwrthryfel yma yn cryfhau, a bod ei orsedd a'i fywyd mewn perygl, efe a ffodd o Ierusalem i Lachis, lle yr oedd amddiffynfa gref; ond y cydfradwyr a anfonasant ar ei ol ef yno, ac a'i lladdasant: a dygasant ei gorff ef ar feirch, i'w gladdu yn mysg breninoedd Iudah, yn Ierusalem: 2 *Bren.* xiv. 1—21; 2 *Cron.* xxv. 1—27.

2. **AMASIAH**, [אֲמַצְיָה, *nerth yr Arglwydd*]: offeiriad y llo aur, yn Bethel, yn amser Ieroboam yr

Digitized by Google

ail, yr hwn a achwynai wrth y brenin ar Amos y prophwyd, ei fod yn rhagfynegu drygau i ddyfod ar y tir; ac a atolygai ar y prophwyd encilio i freniniaeth Iudah, a phrophwydo yno: *Amos* vii. 10—17.

AMATHIS, AMATHITIS: rhandir o Syria; o ba un, Hamath, ar yr afon Orontes, oedd y brif ddinas: 1 *Mac.* xii. 25.

1. AMATHUS, ['Αμαθοῦς]: un o feibion Canaan. Hamathiad: *Gen.* x. 18. Preswyliodd ei hiliogaeth yn Amathis, Amathine, neu Epiphania, ar yr Orontes.—*(Jos., Hyn. Iudd.)*

2. AMATHUS, ['Αμαθοῦς]: tref gaerog tu hwnt i'r Iorddonen, yr hon a osodid gan rai un milltir ar ugain i'r deheu o Pela. Yn ol Josephus, cymmerwyd hi gan Alexander Jannæus; a chanfyddir ei bod yn lle o bwys, pan ystyrir i Aulius Gabinius, y cadflaenor Rhufeinig, ei gwneuthur yn eisteddfa un o'r pum llywodraeth neu raglawiaeth y rhanodd efe y wlad iddynt. Crybwylla Josephus mewn lle arall ddarfod i balas gael ei losgi ἐν 'Αμαθοῦς (yn Amathus), a thebygol mai yr un lle ydoedd.—*(Josephus, Rhyfeloedd Iuddewig,* I. iv. 2; viii. 5; *Hynafiaethau Iuddewig,* XIII. xiii. 5; XIV. v. 4; a XVII. x. 6.)

AMAURIAID: oeddynt ganlynwyr Amauri de Chartres, penboethyn Ffrengig yn y drydedd ganrif ar ddeg, yr hwn a haerai fod defnydd yn dragwyddol, a bod i grefydd dri chyfnod mewn cydgordiad â'r Tri Pherson yn y Drindod. Condemniwyd ei opiniynau gan Gynghor Paris, yn y flwyddyn 1206, a llosgwyd amryw o'i ganlynwyr mewn canlyniad. I'r dyben o osgoi y fath ddienydd, gwadodd Amauri ei holl gyfeiliornadau, ac aeth i drigo i St. Martins des Champs, lle y bu farw o ofid.—*(Biogra. Dic., by J. Watkins, Ll. D.; Grand Dictionaire Historique et Critique de L. Moreri.)*

AMBR, AMBER, [חשמל—*chasmil*]: oedd gyfansoddiad wedi ei wneyd i fyny o aur ac arian, neu ynte aur ac efydd. Yn *Ezec.* i. 4, 27; a viii. 2; sonir am "liw ambr." Yn awr, y mae yn ymddangos yn debygol nad y mŵn golosgaidd a elwir *ambr*, y cyfeirir ato yn y lleoedd uchod; o blegid ceir gafael ar hwn weithiau yn ddiliw, weithiau yn wan-felyn, a phryd arall yn llwydddu; gan hyny, nid yw "lliw ambr," a chymmeryd ambr yn yr ystyr uchod, yn cyfleu un meddwl sicr. Ond os deallir wrtho gyfansoddiad o feteloedd o aur ac arian, neu o aur ac efydd—yr hanner o bob un—bydd ar y cyfansoddiad liw dysglaer rhagorol; ac y mae yn debyg fod y fath gyfansoddiad yn adnabyddus i'r prophwyd. Ac wedi iddo eistedd i lawr i ddysgrifio y gweledigaethau rhyfedd oedd wedi eu cael, nid oedd dim yn cynnyg ei hun i'w feddwl, i arddangos y dysgleirdeb rhagorol a welsai yn nghanol y tân, mor darawiadol ag ambr; ac felly, fe ysgrifenodd "fel gwelediad dysgleirdeb, megys lliw ambr."

AMBROSE: esgob Milan, a hanai o dylwyth Rhufeinaidd pendefigaidd; ond efe a anwyd yn Ffrainc, lle yr oedd ei dad ar y pryd yn rhaglaw dros y llywodraeth Rufeinaidd. Y mae Cave yn dadleu mai yn Arles y ganwyd ef; yr hon meddai, oedd brif ddinas y dalaeth hon y pryd hyny, a phreswylfa gyffredin y rhaglaw; ac efe a chwanega fod Arles yn ddinas o fri a gwychder mor fawr, fel y gelwid hi gan Ausonius yn *Gallulæ Roma* (Rhufain yn Ffrainc) ar gyfrif mawredd a gwychder y lle, gystal ag am ei bod yn drefedigaeth Rufeinaidd. Ond y mae awdwyr diweddarach yn rhoddi yr anrhydedd yma i Trier, neu Treves, yr hon a elwid y pryd hwnw, *Augusta Treverorum*, a'r hon, meddant, oedd eisteddle benaf y rhaglawiaeth.

Yr oedd Ambrose yn ieuengaf o dri o blant: yr oedd ei chwaer Marcellina a'i frawd Satyrus wedi eu geni o'i flaen ef. Y mae chwedl yn gyssylltiedig â dyddiau ei faboed, ar yr hon, dybygid, y mae tipyn o ol bysedd mynachod y canoloesoedd. Dywedir fod y baban Ambrose un diwrnod yn cysgu mewn cryd, yn nghyntedd agored y llys rhaglawaidd, pan yr ymsefydlodd haid o wenyn o ddeutu ei wyneb, gan fyned i mewn ac allan i'w enau agored, heb wneyd y niwed lleiaf iddo: yr hyn, pan ganfu ei dad, yr hwn oedd yn myned heibio, efe a archodd i'r llances a weinyddai arno eu gadael yn llonydd: ac yn fuan ar ol hyny, esgynai yr haid i'r awyr, nes diflanu o'r golwg. Ei dad, wedi ei synu gan yr amgylchiad, a ddywedai wrth y rhai oeddynt o'i amgylch, "Os bydd y bachgen yma byw, efe a dry allan yn ŵr mawr:" ac amser a brofodd wirionedd ei ragfynegiad.

Nis gwyddom pa hyd y bu ei dad fyw ar ol hyn; y mae yn debyg iddo farw tra yn llywodraethu yn y parthau hyny: ac wedi ei farwolaeth, dychwelai y fam a'r holl deulu i Rufain; a dangosir y lle y safai eu tŷ hyd heddyw, yr hwn, yn bresennol, a gyfanneddir gan fynachod Benenedictaidd. Chwedl arall a adroddir am ddyddiau ei blentyndod, yw—ei fod yn sylwi ar ei fam a'i chwaer yn cusanu llaw yr esgob un diwrnod (y dull yr arferid dangos parch i lywodraethwyr yr eglwys yn y ddyddiau hyny), ac iddo yntau ddyfod yn mlaen yn siriol, gan gynnyg ei law iddynt i'w chusanu; a chwanegai y dylasent wneyd, gan ei fod yn sicr y byddai yn esgob.

Cafodd addysg deilwng i urddas ei dras; ac fel y cynnyddodd, efe a feistrolodd holl ddysgeidiaeth Rhufain a Groeg; a thrwy ofal a chynghorion ei chwaer Marcellina, yr hon oedd o dueddtryd dra chrefyddol, ac wedi ymroddi i gyflwr o wyryfiaeth, efe a warchodwyd rhag y llygredigaethau y buasai gŵr ieuanc o'i sefyllfa ef mor agored i gael ei faglu ynddynt mewn dinas o fath Rhufain.

Wedi gorpheniad ei ddysgeidiaeth fel hyn, efe, a'i frawd Satyrus, a aethant i Milan, yr hon oedd y pryd hyny yn orsaf y llys, ac yn brif ddinas yr ymherodraeth orllewinol, ac felly yn lle manteisiol i wŷr ieuainc o'u sefyllfa a'u cyrhaeddiadau hwy i ymweithio i sylw y llywodraeth. Dechreuodd ar ei gyfred gyhoeddus fel dadleuydd cyfreithiol yn llys Anicius Probus, rhaglaw Italy, yr hwn yn fuan a'i dewisodd yn un o'i gynghorwyr; a chyn hir, a'i penododd yn gonsul taleithiau Insubria, Æmylia, a Liguria; a phan yn ei anfon allan, dywedai wrtho, "Dos i'th ffordd, a llywodraetha yn fwy tebyg i esgob nag i farnwr," heb ddychymygu nemawr pa beth a gymmerai le ar ol hyny. Wedi ei awdurdodi fel hyn, dechreuai ar ei swydd, gan wneyd ei breswylfa yn Milan, prif ddinas y dalaeth, ac yn wir un o brif ddinasoedd yr ymherodraeth orllewinol y pryd hyny. Gweinyddodd y swydd anrhydeddus hon dros bum mlynedd gyda'r fath ddoethineb a chyfiawnder, fel yr ennillodd gymmeradwyaeth yr ymherawdwr, a pharch a hoffder y bobl yn gyffredinol. Ac fel hyn y cyrhaeddodd y 34ain mlwydd o'i oedran, pan y cymmerodd amgylchiad le a barodd gyfnewidiad ar rawd ei einioes. Canys bu

Digitized by Google

a wahoddodd un o'r enw Simplician, henuriad dysgedig a duwiol dros ben, o Rufain i Milan, i'w addysgu yn fanylach mewn pethau crefyddol; ac y mae yn ymddangos fod anwyldeb neillduol wedi parhau yn y canlyniad rhwng y dysgybl a'r athraw dros ei oes. Ymroddodd Ambrose yn egnïol iawn i ddwyn yn mlaen ddiwygiad yn ei esgobaeth, i adferu dysgyblaeth yn yr eglwys, i gymmodi cymmydogion, ac i chwynu yr efrau Ariaidd a hauasid dros amryw flyneddoedd yn y dalaeth, fel y daeth crefydd trwy ei offerynoliaeth i flodeuo fel rhosyn yn yr esgobaeth. Ond ni pharhaodd yr hindda hyfryd yma yn hir; canys o ddeutu y flwyddyn 377, y Gothiaid, yr Huniaid, ac amryw lwythau anwaraidd ereill o'r gogledd, a ymdywalltent fel llifeiriant ar amryw ranau o'r ymherodraeth Rufeinig, gan anrheithio y wlad y ffordd yr elent. Ac y mae yn ymddangos ddarfod i un llwyth o honynt ymsefydlu yn rhywle yn agos i Milan, yr hyn a lanwodd yr holl wlad â braw: ac er gochel eu creulonderau, ffôdd Ambrose ac amryw ereill i Illyrica, lle y buont dros ysbaid o amser mewn math o alltudiaeth; ond o'r diwedd, llwyddodd byddin yr ymherawdwr i yru y locustiaid diffiol hyn o Italy yn llwyr; ac yna cawsant ddychwelyd i'w cartrefleodd.

Yn y cyfamser, mynegwyd i Gratian, mab yr ymherawdwr tranceedig Valentinian, fod llu o Ellmyn yn anrheithio Ffrainc; ac efe a arweiniodd ei fyddin yno ar frys i'w gwrthwynebu: ond cyn cychwyn, efe a anfonodd am Ambrose, gan ddeisyf arno ei ddysgu yn fanylach yn egwyddorion crefydd, yn enwedig y pynciau yr oedd mwyaf o ddadleu yn eu cylch: ac ar yr achlysur yma yr ysgrifenodd Ambrose y llyfr a elwir *Y Ffydd*; yn yr hwn y trafodai efe wrthddadleuon yr Ariaid, am Fab Duw ac athrawiaeth y Drindod, yn fanwl; ac at hwn chwanegodd draethawd arall, ar gais neillduol yr ymherawdwr, ar "Ddwyfoldeb yr Ysbryd Glân."

Ond tua'r pryd hyn y dechreuodd gofidiau Ambrose mewn gwirionedd; canys Justina, yr ymherodres waddolog, gweddw yr hen Valentinian, trwy gynnorthwy ei hewythr, Cerealis, a fynodd gael ei mab ieuanc, Valentinian, yr hwn oedd yn hanner brawd i Gratian, i gyd-deyrnasu âg ef. Yr oedd y fenyw hon yn cefnogi y blaid Ariaidd â'i holl enaid, er ei bod wedi celu hyny yn ddichellgar tra y bu byw ei gŵr; ond wedi iddo farw, hi a ymroddodd i lenwi meddwl ei mab â'r egwyddorion annuwiol hyny, ac a'i gosododd ef ar waith i geisio ennill Ambrose hefyd at yr unrhyw blaid. Ond yr esgob a'i hadgofiai o greiydd ei dad, gan ei rybuddio yntau i lynu wrth yr unrhyw; a dangosai iddo y gwahaniaeth mawr oedd rhwng egwyddorion Ariaeth a gair yr Arglwydd. Ond y tywysog ieuanc, heb allu goddef gwrthddywediad, a ffromodd, ac a archodd i'w warchodlu amgylchynu yr eglwys; ond ni chynhyrfai hyn nemawr ar feddwl yr esgob, yr hwn a wenai arnynt fel pe na buasent namyn cynnifer o blant yn chwareu. Ar hyny, cythruddai yr ymherawdwr yn fwy, a gorchymynai yn daiog iddo ddyfod allan o'r eglwys; i'r hyn yr atebai yr esgob, gan ddywedyd, "Ni chydsyniaf â hyn yma byth o'm bodd; ni fradychaf y gorlan i'r bleiddiaid, ac ni roddaf yr eglwys i fyny i'r fath ymyrwyr annuwiol. Os ydych yn bwriadu fy rhoddi i farwolaeth, y mae genych gleddyfau a gwaewffyn oddi mewn; gwnewch hyny yma. Yr ydwyf yn barod i ddyoddef y cyfryw angeu." Ond ni feiddient wneyd hyny, gan ofn y bobl. Er hyny, yr oedd yr ymherodres yn llawn cynddaredd yn ei erbyn, am ei fod yn sefyll mor wrol yn erbyn ei holl gynlluniau i ddwyn esgobion neu weinidogion Ariaidd i'r eglwysydd; a chynnygiai wobrwyon ac anrhydedd i bwy bynag a'i cymmerai i ddalfa yn yr eglwys, ac a'i cludai trwy drais i alltudiaeth. Ond yr oedd llaw yr Arglwydd yn amlwg gydag ef, yr hwn a'i gwaredodd mewn modd hynod o'r maglau a osodid iddo gan ei elynion, ac aml waith a ddychwelodd eu traha ar ben ei elynion; ac yn hyn hefyd y gwiriwyd yr Ysgrythyr hono: "Adwaenir yr Arglwydd wrth y farn a wna: yr annuwiol a faglwyd yn ngweithredoedd ei ddwylaw ei hun;" *Salm* ix. 17. Ac er holl ymdrechion Justina, gwywo yr oedd Ariaeth yn y gorllewin; ac yr oedd teimladau y bobl yn cael eu hamlygu mor ddi-gêl dros yr esgob, fel y gwelodd yr ymherodres mai ei doethineb hi oedd ymattal oddi wrth y cyfryw ymryson, rhag ofn y peryglai orsedd ei mab.

Tua'r flwyddyn 383, yr oedd Macsen Wledig wedi cael gan y fyddin oedd dan ei lywyddiaeth yn Mhrydain ei gyhoeddi ei yn ymherawdwr, ac wedi goresgyn Ffrainc a'r Almaen; ac o'r diwedd, cyfarfu Gratian a'i fyddin â'r gwrthryfelwr, yn agos i Lyons, yn Ffrainc, lle y bu ymladd caled rhwng y ddwy fyddin. Ond pan ganfu Gratian fod amryw o'i fyddin ef yn encilio at y gelyn, efe a ddechreuodd encilio gydag ychydig farchogion ffyddlawn o faes y gwaed; ond yn mhen ychydig ddyddiau, efe a laddwyd yn fradwrus gan un o swyddogion Macsen; ac wedi llofruddio cynnifer ag a allai gael i'w ddwylaw o ddilynwyr ffyddlawn Gratian, ymbarotoai Macsen i oresgyn Italy. Yn y cyfyngder hwn, nid oedd gan Justina, a'i mab Valentinian, ddim i'w wneyd ond anfon Ambrose, wedi yr holl sarhad a roddasant arno, fel cenad at Macsen, i geisio ei attal i oresgyn Italy a'i hanrheithio; a thrwy ei ddoethineb a'i hyawdledd, efe a lwyddodd i'w gadw o'r tu arall i'r Alpau y pryd hyny.

Yr oedd cyflwr yr ymherodraeth Rufeinig Orllewinol y pryd hwn yn wir resynus, trwy lofruddiad diweddar yr ymherawdwr Gratian; trawsfeddianniad llwyddiannus Macsen o luaws o'r taleithiau Rhufeinig; rhuthriadau parhaus y llwythau barbaraidd i ranau ereill o'r ymherodraeth a natur annewr Valentinian, y tywysog ieuanc—un anmhrofiadol o'r byd, a'r hwn oedd y pryd hyn wedi ei ddychrynu yn ddirfawr gan y newydd am fwriad Macsen i oresgyn Italy. Ond dan yr amgylchiadau hyn, yr oedd y paganiaid yn ymhyfhau yn Rhufain, gan hyderu y gallent lwyddo i adferu defodau eu crefydd; a'r blaid yma a flaenorid gan un Q. Aurelius Symmachus, gŵr o gryn enwogrwydd, ysgolhaig da, gwladweinydd galluog, ac un o areithwyr hyawdlaf yr oes. Yr oedd efe y pryd hwn yn uchelfaer *(provost)* Rhufain, ond yn bagan aiddgar, a thra awyddus am adferiad hen ddefodau ei grefydd. Y gŵr hwn, ar yr adeg grybwylledig, a anfonodd gofeb yn enw y senedd at yr ymherawdwr, yn yr hon—wedi darlunio y modd gorthrymus y trinid y paganiaid—y mae efe yn atolygu ar eu rhan am adferiad eu defodau crefyddol, yn enwedig am adferiad allor buddugoliaeth, a'r gwaddoliadau perthynol iddi. Ond mor fuan ag y clybu Ambrose am hyn, efe a ysgrifenai at yr ymherawdwr, gan ei dyngedu yn y modd mwyaf difrifol nas gwnelai y fath beth ag adferu eilunaddoliaeth, yr hyn y buasai eu hynafiaid mor ymdrechgar i'w ddileu o Rufain. Ysgrifenodd Ambrose hefyd ateb galluog i'r gofeb a anfonasai

Digitized by Google

Symmachus at y penadur, gan adolygu ei holl resymau a dadlenu twyll ei ddadleuon; fel mai y canlyniad fu, i'r ymherawdwr wrthod cais Symmachus, a lled wgu arno yntau ei hun hefyd.

Gallwn feddwl fod Ariaeth yn ail godi ei phen n Milan tua'r flwyddyn 386; o leiaf, yr oedd Justinia yn parhau i arfer ei holl ddylanwad gyda'r ymherawdwr ieuanc, ei mab, i gael ganddo gyhoeddi cyfraith fwy fafriol i'r Ariaid: yr hyn a wnaed yn y flwyddyn grybwylledig. Ac wedi cael yr awdurdod yma, anfonai Justina am Ambrose i'r llys, gan geisio yn gyntaf trwy eiriau teg gael ganddo roddi yr eglwys yn agored i'r Ariaid i weinidogaethu ynddi: ond nid effeithiai gwenau llysoedd ymherodrol, mwy na gwg, ar Ambrose, i'w siglo oddi wrth ei egwyddorion: a llawer o flinder a gafodd efe oddi wrth y blaid Ariaidd a feithrinid o ddeutu y llys, hyd oni bu farw Justina. Ond yr oedd lluaws y bobl gydag ef, ac yn teimlo mor wresog dros eu hesgob, a thros y gwirionedd, fel y buasent yn rhoddi eu heinioes i lawr wrth y miloedd drosto; ac y mae yn ddiau y buasai y llys wedi ymddwyn yn arwach ato lawer gwaith, oni buasai fod "ofn y bobl" yn eu hattal.

Ond, "pan fyddo ffordd gŵr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda, efe a bair i'w elynion fod yn heddychol âg ef;" ie, weithiau, a ffoi ato am gynghor a diogelwch:—ac felly y bu yn nodedig yn y tro yma. Canys o ddeutu y pryd hwn, deuai newyddion beunydd i Milan, fod Macsen yn ymbarotoi drachefn i oresgyn Italy; a chan fod y llys yn hollol analluog i amddiffyn y wlad rhagddo, nid oedd gan yr ymherawdwr ddim i'w wneyd ond bwrw ei hun ar drugaredd Ambrose drachefn, ac atolygu arno anturio unwaith eto i sefyll yn yr adwy, a myned ar genadwriaeth at y goresgynydd Macsen. Ac felly, gan gladdu yr adgofion o'r holl sarhad a gawsai, efe a ymgymmerodd â'r daith yn ewyllysgar: ac wedi cyrhaedd Triers, lle yr oedd Macsen yn aros, efe a gafodd dderbyniad i'w wyddfod. Ond gan fod y gormesdeyrn wedi rhoddi ei fryd ar oresgyn Italy yn awr, ni bu Ambrose mor llwyddiannus yn ei genadwriaeth y tro hwn ag a fuasai efe o'r blaen; ond efe a ddychwelodd i Milan, ac a gynghorodd yr ymherawdwr i fod yn ofalus pa fodd yr ymwnelai â Macsen, yr hwn, er ei fod yn proffesu heddwch, oedd yn amcanu rhyfel: yr hyn a brofwyd yn wirionedd yn fuan. Canys Macsen, trwy frâd ddichellgar, a sicrhaodd fylchau yr Alpau, ac yna yn ddisymmwth a arllwysodd ei lengau i Italy, gan ddechreu anrheithio y wlad o'i flaen; a Valentinian a'i fam yn ofni cael eu cymmeryd yn garcharorion rhyfel gan y goresgynydd, a gymmerasant long, ac a ffoisant i Thessalonica, o'r lle yr anfonasant at Theodosius, ymherawdwr y dwyrain, gan atolygu iddo ddyfod i'w cynnorthwyo ar frys, cyn eu llwyr ddyfetha. Felly Theodosius a arweiniodd ei fyddin yn erbyn Macsen, ar wersyll yr hwn y disgynodd yn annysgwyliadwy; a chyn gallu o hono drefnu ei fyddin i'w wrthwynebu, byddin Theodosius a gymmerodd Macsen yn garcharor, ac efe a roddwyd i farwolaeth fel gwrthryfelwr; ac felly adferwyd heddwch i'r ymherodraeth. Yr oedd Theodosius yn ymlynwr gwresog wrth yr eglwys a gyfrifid yn uniawngred, ac yn barchus iawn o Ambrose, fel un a safasai mor bybyr yn erbyn Ariaeth: ond tra y bu efe yn aros yn Milan, dan ddylanwad nwydau cyffrous a dallbleidiaeth, efe a roddes orchymyn creulawn allan i ddistrywio trigolion Thessalonica, er cospi camymddygiad rhai personau yn y ddinas tuag at yr Iuddewon, ac archai i esgob Cristionogol y lle ailadeiladu y synagog ar ei draul ei hun. Gofidiai Ambrose yn fawr o herwydd hyn, ac ymliwiai â'r ymherawdwr yn ddiarbed o'r herwydd; ac o'r diwedd, llwyddodd i gael gan ei Fawrhydi alw y gorchymyn yn ol.

Ar achlysur arall, pan oedd milwyr Theodosius, yn ol ei orchymyn, wedi cyflawnu creulonderau dirfawr yn Thessalonica, ceryddai Ambrose yr ymherawdwr yn llym am y fath ysgelerder, gan ommedd derbyniad iddo at fwrdd yr Arglwydd dros wyth mis, fel y byddai ei edifeirwch yn amlwg i bawb. Ac yn ystod yr amser hyny, yr oedd yr ymherawdwr yn treulio ei ddyddiau mewn trallod ac wylofain, heb wisgo dim ond galarwisgoedd; canys yr oedd tystiolaeth yn ei gydwybod bod Ambrose yn ŵr Duw, a chredai yn ei galon fod yr hyn a rwymid ar y ddaiar ganddo ef yn rhwymedig yn y nef; a chyn ei ryddhau oddi tan y cyfryw esgymundod, bu raid iddo gyhoeddi cyfraith trwy ei holl ymherodraeth, yn trefnu fod pob dedfryd o barth i fywyd neu ddirwyad o etifeddiaethau, i fod ddeng niwrnod ar ugain wedi ei llawnodi cyn ei rhoddi mewn gweithrediad, fel y byddai hamdden i ymbwyllo uwch ben y farn. Wedi i Theodosius ddychwelyd i'w ymherodraeth ei hun, efe a ddywedai wrth Nectarius, esgob Caer Cystenyn, ei fod ef wedi cyfarfod âg athraw geirwir yn Milan, yr hwn a ddysgasai iddo y gwahaniaeth sydd i fod rhwng tywysog ac esgob; ac mai Ambrose oedd yr unig un a gyfarfuasai ef yn wir deilwng o'r enw esgob.

Bu farw Ambrose yn Milan, yn y fl. 397, er colled a galar dwys i holl Italy. Wrth geisio rhoddi crynodeb cywir o'i nodweddiad, gellir dyweyd ei fod yn ofalus yn wastad i dalu da am ddrwg, a chymmwynasau am sarhad. Cyfrifai ei hun ar hyd ei oes yn annheilwng i fod yn esgob, ac yn llai na'r lleiaf o'i frodyr yn y swydd gyssegredig hono; eto, trwy ras Duw, "efe ydoedd ganwyll yn llewyrchu ac yn goleuo" i holl esgobion yr oes hono. Llywodraethai ei dalaeth mewn ffyddlondeb digyffelyb, gweinyddai Swper yr Arglwydd bob dydd, a phregethai bob Sabbath o'r bron, heb law ar amryw achlysuron neillduol ereill; a chymmerai fwy o boen i addysgu ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig, na dim pump o'i olynwyr. Amddiffynai y gwirionedd yn ddiarswyd, a safai dros ddysgyblaeth yr eglwys yn bybyr, heb dderbyn wyneb penaduriaid na llwfrhau yn wyneb eu bygythion: ceryddai droseddwyr yn ddiarbed a diduedd; ac eto, nid oedd neb tynerach o'r gwir edifeiriol. Pan ddeuai rhai ato ef gan gydnabod eu camweddau, wylai drostynt a chyda hwy, nes peri iddynt hwythau wylo hefyd; a gofalai am guddio eu camweddau rhag pawb ond Duw, ar yr hwn y gweddïai yn daer am faddeuant iddynt.

Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd eisoes, y mae yn hawdd canfod fod Ambrose yn un o'r dynion hynod hyny, y rhai yn mhob oes a ennillasant ddylanwad anghyffredin ar eu cyd-ddynion, a thrwy hyny, a adawsant argraff ddofn ar yr oes yr oeddynt yn byw ynddi. Y mae y cyfryw ddynion yn wastadol, nid yn unig yn meddu gwybodaeth a medr trwyadl yn y celfion a ennillant y meddwl cyffredin, ond heblaw hyny, y maent yn meddu penderfyniad dianwadal i gyrhaedd eu hamcanion er pob rhwystrau. Ac nid anfynych y maent yn dangos nad yw o gymmaint pwys ganddynt pa fodd eu cyrhaeddant, ond iddynt eu hennill: ac oni buasai ein bod wedi gormesu ar y mwyaf ar ein gofod eisoes, ni buasai yn anhawdd

Digitized by Google

dangos fod Ambrose yn feddiannol ar raddau helaeth o'r cyfryw gymhwysderau.

Ond gan fod dynion o'r nodwedd yma yn y cyffredin wedi meddu mwy o egni i weithredu nag o ddawn i ymchwilio, anfynych y gadawsant lawer o gyfansoddiadau ar eu holau, nac y gadawsant dylanwad parhaus ar syniadau nac ymddygiadau dynolryw heb law trwy eu hesamplau. Felly yr oedd gyda gwrthddrych yr hanes hwn. Nid ydyw hyny o'i gyfansoddiadau sydd ar gael i'w cystadlu, ar amryw gyfrifon, â'r eiddo rhai o'r tadau, ac nid ydyw yn ymddangos ei fod mor ddyfnddysg a rhai o honynt; ond yr oedd ganddo enaid a allai ymgyfodi i gyfarfod unrhyw anhawsder, a phenderfyniad mor ansigledig a'r Alpau eu hunain. Dywed Gibbon am dano, y gallai weithredu yn well nag ysgrifenu, a bod ei gyfansoddiadau yn gyffredin yn amddifad o chwaeth neu athrylith.

Yr argraffiad goreu o'i weithiau ydyw yr un a gyhoeddwyd mewn dwy gyfrol unplyg, yn Paris, yn y flwyddyn 1686—1690, gan y mynachod Benedictaidd. Y darn cyntaf yn y casgliad yma sydd draethawd, mewn chwe llyfr, ar y Greadigaeth:—ei deitl ydyw, "*Hexameron.*" Y mae y traethawd hwn yn werthfawr, yn benaf, fel y mae yn eglurhad ar ansawdd gwybodaeth anianyddol yn y bedwaredd ganrif. Dywedir mai y traethawd llenyddol galluocaf o'i eiddo yw yr un a elwir, *De Officiis Ministorum.* Llawer o'i gyfansoddiadau ereill ydynt wedi eu hysgrifenu er argymhell ei hoff rinwedd, sef gwyryfiaeth, neu anweddogaeth (*celibacy*).

Dywed Awstin, mai Ambrose oedd y cyntaf a ddug yr arferiad o ganu salmau i'r eglwysydd gorllewinol; er fod y cyfryw mewn arferiad yn yr eglwysydd dwyreiniol yn mhell cyn ei ddyddiau ef. Gallem feddwl fod y ganiadaeth gyssegredig yma yn effeithio yn rymus iawn ar y bobl; canys yr ydym yn cael fod blaenoriaid yr Ariaid yn gosod hyny yn mysg yr ystrywiau a ddefnyddid ganddo i lygattynu yr Italiaid.—(*Cave's Lives of the Saints*, cyf. iii. td. 118—204; *Penny Cycl.*, d.g.; *Larkin's Spec. Pat.*, td. 54, 55; *Gibbon's Decline and Fall of the Roman Empire*, cyf. ii.)


AMCAN—ION—U: arfaeth, bryd, bwriad, meddylfryd: *Preg.* iii. 1, 17; *Salm* xxi. 11. "Yr wyf fi, gan hyny, felly yn rhedeg, nid megys ar amcan;" 1 *Cor.* ix. 26. Y gair ἀδήλως (*adêlôs*), a gyfieithir "ar amcan" yma, a arwydda *anweledig, anamlwg, celedig, tywyll, anadnabyddus, ansicr.* —"Nid val yn annilys;" W. S. Y mae yn ddiau fod yr apostol yn cyfeirio yn y geiriau hyn at ddeddfau yr ymdrechfeydd Groegaidd gynt, lle yr oedd yn rhaid i'r rhedegwyr redeg yr yrfa yn ol rheolau gosodedig, yn amlwg yn ngwydd y barnwr a'r holl edrychwyr; ac nid "ar amcan," heb unrhyw reol i'w dilyn, na nôd i gyrchu ato. Felly yr wyf finnau, medd yr apostol, yn fy holl lafur yn yr efengyl, a'm holl hunan-ymwadiad Cristionogol, "yn rhedeg, nid ar amcan"—"nid yn annilys"—ond â nod sicr genyf yn fy ngolwg i gyrchu ato, a rheolau perffaith i ymgadw wrthynt, gan gofio fod sylw dynion ac angelion, ïe, a Duw, barnwr pawb, arnaf: 1 *Cor.* ix. 26; 2 *Tim.* ii. 5: a iv. 7,

AMDO: amwisg i gorff marw. Gwisgai y Groegiaid y corff marw o'r pen i'r traed â dilledyn gwyn, meddai Homer [*Il.* σ 352-3].

*Εν λεχέεσσι δὲ θέντες, ἑανῳ λιτὶ καλυψαν*
*Ες πόδας ἐκ κεφάλῆς· καθύπερθε δὲ, φάρεϊ λευκῳ.*

Mewn llian gwyn a glân o'r pen i'r troed
Amdoid y corff, pan ar y gwely rhoed.

Defnyddid y gwyn i arwyddo diniweidrwydd. Weithiau, darparai y fam amdo i'w mab pan y byddai yn ieuanc, heb un rhagolwg iddo farw yn fuan. Mewn rhai manau, rhwymid y corff yn yr amwisg a fyddai yn arferol o wisgo yn ei fywyd; mewn parthau ereill, gwisgid cyrff y rhai cyfoethog â'r pethau mwyaf gwerthfawr. Gwaharddai Solon, o'r tu arall, i'r Lacedæmoniaid roddi unrhyw addurniadau diangenrhaid o amgylch y meirw. Rhoddai y Rhufeiniaid am danynt y dillad a arferent wisgo (*velamina nota*). Yn mysg yr Iuddewon hefyd, ni roddid weithiau ond ei ddillad arferol am y marw; bryd arall, rhwymid y corff o amgylch â llian, a napcyn ar y wyneb.



Dar. 36.

Yn y wedd yma y gwisgwyd corff ein Harglwydd Iesu Grist gan Ioseph o Arimathea: *Mat.* xxxii. 59; *Marc* xv. 46. Darparai rhai wisg i'r dyben hwnw lawer o amser cyn iddynt farw, naill ai heb neu gydag addurniadau, yn ol fel y dewisent ac y caniatäai eu hamgylchiadau. Gwel CLADDU.


AMDDIFAD: bod heb gysur, diymgeledd. 1. Un wedi colli ei blant (*Gen.* xxvii. 45). 2. Plant wedi colli eu rhieni yn ieuainc (*Exod.* xxii. 24; *Deut.* xiv. 27; xvi. 11; xxiv. 17; *Salm* cix. 9; *Galar.* v. 3). Yn yr ystyr yma y defnyddir y gair fynychaf yn yr Hen Destament. Dengys yr Arglwydd ei ofal am danynt (*Deut.* x. 18; *Salm* x. 14, 18; lxviii. 5; cxlvi. 9; *Ier.* xlix. 11); a bod yr amddifaid yn cael eu gadael i ddyoddef gorthrymder, yn arwydd o felldith (*Salm* cix. 12; *Esa.* ix. 17; *Galar.* v. 7). Gwaherddir eu gorthrymu a gwyro eu barn (*Deut.* xxiv. 17; *Salm* lxxxii. 3); a chyhoeddir melldithion ar eu gorthrymwyr, a bendithion ar y rhai a fyddai yn dyner o honynt (*Exod.* xxii. 22, 23; *Deut.* xxvii. 19; *Iob* xxix. 12; *Esa.* x. 2; *Ier.* vii. 6; *Mal.* iii. 5). Dangosir hefyd fod y neb a fyddai yn greulawn tuag at yr amddifad, wedi myned i'r graddau eithaf o ddideimladrwydd (*Iob* vi. 27; xxii. 9; xxiv. 9; *Salm* xciv. 6; *Esa.* i. 17, 23; *Ier.* v. 28; *Ezec.* xxii. 7). "Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw hyn; ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon," &c.: *Iago* i. 27. 3. Arwydda hefyd sefyllfa o fod yn ddigysur a dinodded, pa un bynag ai oddi wrth rieni, perthynasau, cyfeillion, &c.: *Ioan* xiv. 18; "Nis gadawaf chwi yn amddifaid." Ni byddai y dysgyblion, wedi ymadawiad Iesu Grist, yn ddinodded a digysur—yn *amddifad*—gan ei fod yn addaw yr Ysbryd Glân i fod yn Ddyddanydd iddynt. Cymharer *Hos.* xiv. 3; 1 *Thes.* ii. 17.

AMDDIFFYNFA—FEYDD. Er yn fore iawn yn hanes y byd, yr ydym yn cael fod "rhyfeloedd a son am ryfeloedd," wedi bod; ac mor fore a hyny, yr ydym yn deall fod gwahanol lwythau a phobloedd y ddaiar wedi dyfeisio rhyw fath o amddiffynfeydd iddynt eu hunain. Hwyrach na ddangosir dyfais a gallu dynion mewn dim yn fwy nag yn hyn, sef trwy lunio arfau i'r dyben o ddinystrio eu gilydd, ac amddiffynfeydd i ddyogelu eu hunain. Y mae y muriau a'r tyrau a bortreiadir ar gofadeiladau yr Aipht, pa rai a osodwyd

Digitized by Google

i fyny o ddeutu pymtheg cant o flyneddoedd cyn Crist, yn profi i ni fod y gelfyddyd o adeiladu amddiffynfeydd yn dra hysbys yn yr adeg fore hono; ac y mae yr un peth yn cael ei ddangos yn y darganfyddiadau a wnaethpwyd gan Mr. Layard yn adfeilion Ninefeh.


Y mae y darlun isod, yn yr hwn y dangosir,



Dar. 37.

oddi wrth ffughanes y llygod a'r cathod, amddiffynfa dra destlus a chywrain, yn nghyd â'r ysgol a ddefnyddid tuag at ei chymmeryd, yn profi i ni y perffeithrwydd a gyrhaeddasid yn fore iawn yn adeiladaeth amddiffynfeydd. Gwelir yma fod y ceryg neu y coed wedi eu naddu, a'u hysgwario.


Yn foreuach na hyn, yr oedd yr amddiffynfeydd yn cael eu gwneuthur trwy gasglu ceryg mawrion, heb eu naddu, a'u gosod ar eu gilydd yn ffurf muriau, yn ol y gwahanol ddulliau Cyclopeaidd, Pelasgiaidd, Etruscaidd, a Celtig; yn mha rai nid oedd pyrth yn cael eu gwneuthur, ond yn unig lleoedd agored yn cael eu gadael yn y



Dar. 38.

muriau, rhwng y meini mawr a ddefnyddid i'w hadeiladu. Gan fod y tri dull cyntaf a enwyd i'w cael yn Etruria, gellir casglu oddi wrthynt pa fodd yr oedd medrusrwydd mewn amgaerwaith filwrol yn cynnyddu. Efallai fod y rhai hyn o wneuthuriad a chynllun boreuach, er y dichon nad ydynt, na'r adeg pan y gorchfygwyd amryw o'r cenedlaethau oedd yn preswylio yn Nghanaan gan Iosuah. Efallai fod dinasoedd caerog y Canaaneaid hyn wedi eu hadeiladu gyda mwy neu lai o fedrusrwydd, ond fod ynddynt oll feini mawrion yn y meini isaf. Gellir gweled arwyddion o'r dull hwn yn Asia Leiaf, Armenia, Syria, ac hyd yn oed yn Ierusalem; ac y mae meini mawrion, o hanner cant i drigain troedfedd o hyd, ac o led a thrwch cyfatebol, i'w gweled yn bresennol mewn llawer o ddinasoedd y gwledydd hyny, lle yr oedd cloddfeydd yn agos.


Chwanegwyd hefyd yn dra bore, at y muriau o amgylch dinasoedd, ffosydd dyfnion, weithiau dwy a thair o honynt, dros ba rai y byddai pontydd yn arwain i borth y ddinas. Y mae y darlun dilynol yn dangos dwy ffos (*a a*) y tu allan i'r amddiffynfa. Yr unig fynedfaoedd iddi ydyw dwy




Dar. 39.

bont, un ar bob tu; ac y mae milwyr ar y tyrau. Mae hwn yn ddarlun o ddinas yn Asia, a gymmerwyd gan un o freninoedd buddugoliaethus yr Aipht, cyn amser ymherodraethau Assyria a Babilon.


Yn chwanegol at hyn hefyd, adeiledid tyrau yn nghanol y dinasoedd, neu ynte yn y lleoedd



Dar. 40.

mwyaf manteisiol, ac i'r tyrau hyn, os byddai y perygl yn fawr, yr elai y milwyr, ac y cludid yr aur, yr arian, a'r trysorau. Cymmerwyd y darlun hwn oddi wrth ddarlun paentiedig Aiphtaidd. Y mae y tyrau wedi eu llenwi â milwyr, ac y mae llun eu tarianau yn dangos mai Aiphtiaid oeddynt.

Yr oedd y tŵr (צריח, *tsaroch*) yn amddiffynfa o'r fath foreuaf. I'r tŵr yr elid yn fynych wedi i bob rhan arall o'r ddinas syrthio i ddwylaw y gelyn. Cymmerwyd y darlun hwn oddi wrth un




Dar. 41.

sydd i'w weled yn bresennol yn Persia. Y mae y ffos o amgylch i'w gweled, a'r porth yn y gwaelod, yn y graig, neu y bryn, ar ba un yr adeiledid y tŵr. Weithiau adeiledid tŵr ar le a ystyrid yn gadarn o ran ei ffurf neu ei sefyllfa naturiol; byddai tyrau, ar brydiau, yn cael eu

**hadeiladu hefyd i amddiffyn terfynau gwlad, neu i sicrhau mynedfa gul drwy fynyddoedd neu fryniau, neu i fod yn ddiogelfa neu yn lle y gellid trosglwyddo trysorau y trigolion yn y mynyddoedd, wedi i'r gwastadedd gael ei feddiannu gan y gelynion.** Gellir gweled tyrau, yn fynych, wedi eu cerfio ar gofadeiladau yr Aipht. Ac yn y parth gorllewinol o'r ynys hon, dengys tyrau crynion Launceston, Restormel, Trematon, a Plympton, fod hynafiaid y Cymry yn defnyddio tyrau yn amddiffynfeydd. Efallai iddynt gael eu gwybodaeth am eu gwerth fel amddiffynfeydd oddi wrth y Phœniciaid, neu y Carthaginiaid; gan eu bod yn masnachu llawer â thrigolion y gwledydd hyny.


Defnyddir tyrau gan y bugeiliaid drwy holl wledydd Asia hyd y dydd hwn; ac y maent i'w



Dar. 42.

gweled ar leoedd uchel uwch ben dinasoedd ar y gwastadedd, er mantais i gael golwg eang ar y wlad; a throid hwynt weithiau yn amddiffynfeydd (2 *Cron.* xxvi. 10; xxvii. 4).

Cymmerwyd y darlun canlynol oddi ar sel, ac y mae yn arwyddlun o Babilon. Dangosir y



Dar. 43.

**ddinas fel yn cael ei chynnal gan ddau lew, ac yn sefyll ar bob tu i'r afon Euphrates, a chanddi fur allanol; a dangosir fod iddi oddi mewn amryw dyrau canllawiog. Y mae darlun arall ar gael o Babilon, ond yn ddiweddarach na dar. 43, yr hwn a ddengys y tyrau a'r llewod, &c.: ond yn hwnw, dangosir canllawiau y tyrau yn wastad, nid yn bigog fel yn hwn.**



Dar. 44.

**Yn y darlun uchod, a gopiwyd o un o'r cerfiadau Aiphtaidd, y mae genym amryw dyrau. Yr hwn sydd yn y canol, yn ddiammheuol, ydyw yr arfle: a'r llinellau a gylchynant y tyrau a ddangosant y muriau allanol.**

Dywedodd yr ysbïwyr am Wlad yr Addewid fod "ei dinasoedd yn gaerog ac yn fawrion iawn." Yr oedd y Canaaneaid, y mae yn debyg, yn deall y gelfyddyd o adeiladu amddiffynfeydd gystal a neb oedd yn cydoesi â hwy, ac yr oedd cadernid eu dinasoedd wedi gwneyd i'r rhan fwyaf o'r ysbïwyr wangaloni a dychrynu, ac edrychent ar eu gorchfygiad yn hollol anmhosibl; a diau mai felly y buasai oni bai fod Duw gydag Israel.

Cawn fantais, wrth roddi hanes y dinasoedd cyntefig, megys Ninefeh, Babilon, a Ierusalem, i fod yn fanylach yn nghylch eu hamddiffynfeydd.

Sonir yn aml yn yr Ysgrythyrau am yr Arglwydd fel amddiffynfa i'w bobl: *Salm* xci. 2; "Dywedaf am yr Arglwydd, fy noddfa am hamddiffynfa ydyw, ynddo yr ymddiriedaf." *Diar.* xviii. 10; "Tŵr cadarn yw enw yr Arglwydd, ato y rhed y cyfiawn, ac y mae yn ddiogel." Y mae Ef yn Hollalluog i amddiffyn rhag pob gelyn, yn Hollgyfoethog i wneyd pob angen i fyny, ac yn anfeidrol yn ei drugaredd; yn "gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu."

AMDDIFFYNYDD Y FFYDD, [Ll., *Fidei Defensor*]: yr enwad a roddodd y pab Leo x, yn y flwyddyn 1521, i Harri VIII, brenin Lloegr, fel cydnabyddiaeth o'i waith yn ysgrifenu ei draethawd Lladin ar y Saith Sacrament, yn erbyn Luther. Cadarnhawyd yr enwad, wedi hyny, gan Clement VII. Ond pan ddinystriodd Harri y mynachlogydd a'r crefydd-dai, a chymmeryd eu cyllid i'w feddiant ei hun, difuddiodd y pab ef, nid yn unig o'r enwad a roisai efe iddo, eithr o'i goron hefyd. Er hyny, yn y 35ain flwyddyn o'i deyrnasiad, cadarnhaodd y senedd ei hawl ef i'r enw; a dygir ef gan freninoedd a breninesau Prydain o'r pryd hwnw hyd y pryd hwn.

Y mae yr enw *Amddiffynydd y Ffydd* yn perthyn i freninoedd Lloegr, yr un fath ag yr oedd *Cristianusaf Fawrhydi* yn perthyn gynt i freninoedd Ffrainc, ac *Apostolig Fawrhydi* i freninoedd Hungary; ac yn y cyffelyb fodd ag y mae *Catholig* neu *Gatholicaf Fawrhydi* yn perthyn yn awr i freninoedd Yspaen, a *Ffyddlonaf Fawrhydi* i freninoedd Portugal.

Dywed yr hanesydd Chamberlayne, y perthynai yr enw hwn i freninoedd Lloegr cyn yr amser a nodwyd; ac y mae yn dwyn yn mlaen amryw brofion o hyny allan o freintleni Prifysgol Rhydychain: ac os felly, ni wnaeth y Pab Leo ddim ond adferu hen enw ag yr oedd gan y brenin hawl iddo er yr oesoedd gynt; yr un modd, er anghraifft, ag yr adferwyd y cyfenw *Apostolig* i Maria Theresa yn 1758, yr hwn a berthynai i benaduriaid Hungary er amser Stephan I, yn y flwyddyn 1000.

AMEDIAID, [*Duwgarwyr*]: cynnulleidfa o grefyddwyr yn Italy: gelwir hwy felly am eu bod yn proffesu eu hunain yn *amantes Deum—Duwgarwyr;* neu, yn hytrach, *amati Deo—y rhai caredig gan Dduw.* Gwisgent ddillad llwydion, ac esgidiau coed; ni wisgent lodrau, ac ymwregysent â chortyn. Yr oedd ganddynt wyth ar ugain o fynachlogydd; ac unwyd hwy gan y pab Pius v. mewn rhan â'r urdd Bisterciaidd, ac mewn rhan âg urdd y Soccolanti, neu wisgwyr esgidiau coed.

AMEN: gair Hebraeg, yn arwyddocau *sicr, gwir, gwirionedd.* [Gwel *Simonis Lex. Hebr.*] Pan oedd y melldithion yn cael eu cyhoeddi ar

Digitized by Google

fynydd Ebal (*Deut.* xxvii), yr oedd yr holl bobl, ar ol pob melldith, i ddywedyd *Amen*, i ddadgan eu cydsyniad. Pan fyddai y mater yn bwysig iawn, dyblid y gair hwn—"Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel o dragwyddoldeb a hyd dragwyddoldeb. *Amen ac Amen;*" *Salm* xli. 13. "Bendigedig hefyd fyddo ei enw gogoneddus ef yn dragywydd; a'r holl ddaiar a lanwer o'i ogoniant. *Amen ac Amen;*" *Salm* lxxii. 19. Yn *Esa.* lxv. 16, gelwir yr Hollalluog yn *Elohe Amen*; yn ol y cyfieithiad Cymraeg, *Duw 'r gwirionedd*, sef *Duw yr Amen*. Hwyrach mai gyda chyfeiriad at hyn y mae *Amen* yn un o deitlau Crist: "Y pethau hyn y mae *Amen* yn eu dywedyd, y Tyst ffyddlawn a chywir;" *Dad.* iii. 14. Byddai Crist yn aml yn dechreu ei hysbysiadau pwysig trwy ddywedyd, "*Amen, Amen*, meddaf i chwi;" yr hyn a gyfieithir, "Yn wir, yn wir," &c.

Y mae Gweddi yr Arglwydd, yn *Mat.* vi, yn diweddu â'r gair *Amen*, gyda chyfeiriad, nid yn unig at y deisyfiadau sydd ynddi; ond hefyd, ac efallai yn benaf, at y fawlgan yn ei diwedd, "Canys eiddo ti yw y deyrnas," &c. Ac ymddengys y byddai y gair hwn yn cael ei arfer yn yr eglwys apostolaidd ar ol y gweddïau a'r diolchiadau:—"Pa fodd y dywed yr hwn sydd yn cyflawnu lle yr anghyfarwydd, *Amen*, ar dy ddodiad diolch," &c.: 1 *Cor.* xiv. 16. Yn niwedd yr esboniad byr ar Weddi yr Arglwydd yn Nghatecism yr Eglwys Sefydledig, hysbysir i ni ystyr y gair *Amen* yn y diwedd, ac ar ddiwedd pob gweddi arall; "A hyn (sef cyflawnu y deisyfiadau) yr ydwyf yn ei obeithio y gwna Efe o'i drugaredd a'i ddaioni, trwy ein Harglwydd Iesu Grist; ac am hyny yr wyf yn dywedyd *Amen*, Poed felly y bo."

Y mae yn arferiad cyffredinol yn holl eglwysydd Cristionogaeth i ddywedyd *Amen* ar ddiwedd pob gweddi, diolch, a bendith. Tystia rhai o'r hen dadau y byddai dywediad yr *Amen*, ar ddiwedd y gweddïau, gan gynnulleidfaoedd lluosog, fel twrf taran yn ysgwyd yr holl adeilad lle y byddent yn ymgynnulledig. Yn yr Eglwys Sefydledig, y drefn yw bod i'r clochydd a'r bobl ddywedyd yr *Amen*, ar ol i'r gweinidog orphen y weddi neu y fendith. Yr arferiad yn yr eglwysi Ymneillduol, yn Nghymru, o leiaf, yw, y bydd y gweinidog yn dywedyd yr *Amen* ar ddiwedd y weddi; ond bydd y bobl yn dywedyd *Amen*, nid yn unig ar ddiwedd y weddi, ond hefyd pa bryd bynag y byddo rhyw ddeisyfiad neu ymadrodd ynddi yn cyffwrdd yn neillduol â'u teimladau; ac felly hefyd ar y pregethau yn gystal ag ar y gweddïau: yr hyn sydd weithiau yn ddyryswch, ac weithiau yn gefnogiad i'r llefarwr.

AMETHYST, [אחלמה; Gr. Ἀμέθυστος]: yr enw a roddir ar un o'r meini gwerthfawr. Y mae yr *amethyst* yn un o'r meini caletaf a gwerthfawrocaf, yn nesaf at yr adamant. Ei liw sydd gymmysg o goch a glas. Cyfrifir, dan yr enw *amethyst*, bum math o feini gwerthfawr, yn ol fel y byddo eu lliwiau yn oleuach neu yn dywyllach. Ond cyfyngir y pump i ddau ddosbarth cyffredinol, sef yr *amethyst dwyreiniol* a'r *amethyst gorllewinol*. Ond eto y mae gwahaniaeth mawr rhwng y ddau hyn: y mae yr amethyst dwyreiniol yn brin iawn, ac o galedrwydd a gwychder anghyffredin; mewn gair, dysgleiria yn debyg i'r adamant, i'r hwn y perthyn yn agos. Cyfansoddir ef o *silica* 97.50, *alumina* 0.25, *oxide of iron* a *manganese* 0.50=98.25. I'r rhyw hwn hefyd y perthyn y *saphir*, na'r hwn nid oes faen gwerthfawrocach, ond yn unig yr adamant. Yn y tân, cyll yr amethyst ei liw glasgoch, a daw allan mor glir a thryloew a'r adamant; a hawdd iawn i'r mwyaf cyfarwydd gamgymmeryd y naill am y llall.

Y mae yr *amethyst gorllewinol* wed'yn yn gynnwysedig o graig risial, a cheir gafael arno mewn llawer o wledydd y ddaiar; megys, India, Siberia, Sweden, Germany, Yspaen, &c. Cafwyd gafael ar rai hefyd yn Lloegr.

Defnyddid y meini amethyst gan yr hynafiaid i wneyd modrwyau a gwddf-addurniadau; ac y mae yn debyg mai yr amethyst gorllewinol oedd: o blegid dywedir wrthym ei fod yn hawdd ei naddu—yr hyn sydd wir am yr amethyst gorllewinol yn unig.

Hwn oedd y nawfed maen yn nwyfroneg yr archoffeiriad: *Exod.* xxviii. 19; "A'r drydedd res oedd lygur, ac acat, ac *amethyst.*" Hysbysir i ni hefyd yn *Dad.* xxi. 20, fod amethyst i fod yn un o'r deuddeg maen gwerthfawr sydd i fod yn seiliau i'r Ierusalem Newydd:—"y deuddegfed, amethystus."

AMGELLIAID, [*Circumcellians* neu *Circumcelliones*, o'r Llad. *circum* a *cella*]. Crwydriaid yn mysg y mynachod, &c.; rhyw Ddonatiaid, y rhai, wedi cael eu gyru o Affrica gan yr ymherawdwr Cystenyn, a grwydrent o amgylch, weithiau yn cardota eu bara, ac weithiau yn mynu ei gael trwy rym arfau. Darlunir hwynt fel "penboethiaid gerwin ac anwar," y rhai a godent derfysgoedd, ac a gyflawnent bob math o ryseddau, gan herio angeu a merthyrdod yn y modd mwyaf arwrol. Pa fodd bynag, gan y cymmerent y cleddyf i amddiffyn eu crefydd, megys y rhagddywedodd ein Harglwydd, ac megys y dygwyddodd yn gyffredin, dyfethwyd llawer o honynt â'r cleddyf, er na lwyr ddiddymwyd y sect hyd y chweched ganrif. Gwelir eu syniadau crefyddol proffesedig dan y gair DONATIAID, o'r sawl y tarddasant; y rhai, er hyny, a orfodwyd i ddiarddel yr Amgelliaid o'u cymundeb.—(*Mosh. Eccl. Hist.*)

AMGYFFRED. Y mae καταλαμβανω, yr hwn a gyfieithir (*Ioan* i. 5; *Eph.* iii. 18) *amgyffred*, yn arwyddo derbyn neu gymmeryd yn awchus. Cyfieithir ef weithiau *dal* (*Ioan* viii. 3; xii. 35); "fel na ddalio y tywyllwch chwi:" yn 1 *Thes.* v. 4, "goddiweddu:" yn *Rhuf.* ix. 30, a 1 *Cor.* ix. 24, "derbyn;" fel y byddai y rhedegwyr yn y campau Groegaidd yn derbyn y wobr neu y goron. Gyda yr un cyfeiriad cyfieithir ef yn *Phil.* iii. 12, "ymaflyd"—*crafangu am*. Pan gyfieithir ef *amgyffred*, yr ystyr ydyw cymmeryd gafael â'r meddwl. Mewn tri lle yn unig y mae y gair yn yr un ffurf ag yn *Eph.* iii. 18: sef yn *Act.* iv. 13; x. 34; xxv. 25: ac yn y tri lle hyn, arwydda ddyfod i benderfyniad diysgog oddi wrth ffeithiau a gyflwynir i'r sylw. "A *deall* mai gwŷr anllythyrenog oeddynt:" "Yr wyf yn *deall* mewn gwirionedd:" "Eithr pan *ddeallais*," &c.: "Amgyffred gyda'r holl saint beth yw y lled, a'r hyd, a'r dyfnder, a'r uchder." Y mae lluaws o wahanol farnau am y geiriau hyn:—(1.) Cyfeiriai llawer o'r tadau, megys Jerome, ac Awstin, ac oddi wrthynt hwy Anselm, Thomas Aquinas, &c., y geiriau at yr hyn a alwent "dirgelwch y groes" (*sacramentum crucis*); hyny yw, at lun y groes: a'r hyn a dybient hwy a arddangosid drwy hyny. Yn ol Awstin—yr oedd "yr hyd," yn dangos hiramynedd; "y lled," cariad; "yr uchder," gobaith neu ogoniant; "a'r dyfnder," ymostyngiad neu

Digitized by Google

waradwydd y groes. (2.) Cyfeiria ereill y geiriau at drefn yr efengyl. Yr ateb i hyn ydyw, nad oes cyfeiriad uniongyrchol yn yr adnodau cylchynol ar y mater hwn. (3.) Y mae rhai wedi meddwl fod cyfeiriad yn y geiriau at berffeithrwydd Duw; o herwydd y tebygolrwydd sydd rhwng y geiriau hyn a *Iob* xi. 8; "Cyfuwch â'r nefoedd ydyw," &c.; ond y mae yn amlwg mai nid hyn oedd o flaen meddwl yr apostol. (4.) Cymhwysa ereill y geiriau at gariad Duw. Aralleiriad Erasmus ydyw, "Bod cariad Duw yn cyrhaedd, yn 'ei uchder,' at yr angylion; yn 'ei ddyfnder,' i uffern; yn 'ei hyd a'i led,' at holl gyrau y byd." Geiria Grotius yr un syniad fel hyn, "Y mae daioni Duw, yn 'ei led,' yn cyrhaedd at bob dyn; yn 'ei hyd,' yn parhau trwy holl oesoedd y byd; yn 'ei ddyfnder,' cyrhaedda at iselder trueni dyn; ac yn 'ei uchder,' cymmer ef i ogoniant." Mewn trefn i benderfynu ai hwn ydyw yr esboniad cywir, y mae yn angenrheidiol penderfynu ai cariad Duw at ddyn, ai cariad dyn at Dduw, yw yr ymadrodd blaenorol—"Wedi eich gwreiddio a'ch seilio mewn cariad." (5.) Esboniad lluaws o rai ereill ydyw, mai at gariad Crist y cyfeiria y geiriau. Y mae Calvin, Bloomfield, a Barnes, yn mhlith y rhai hyn. Y mae yn debygol fod yr esboniad hwn wedi ei fenthyca oddi wrth yr ymadrodd sydd yn dilyn—"a gwybod cariad Crist"—fel pe byddai y geiriau hyn yn eglurhad ar y rhai blaenorol. Ond mewn atebiad i hyn, gellir dywedyd fod y cyssylltair *τε*, a gyfieithir *a*, yn cyssylltu, nid rhanau o frawddeg sydd yn dibynu ar, ac yn egluro eu gilydd, fel y gwnai *και*, ond rhanau annibynol; ac felly fod y symmudiad yn mlaen sydd yn y geiriau, "a gwybod cariad Crist," nid yn esboniad ar "yr hyd a'r lled," &c., yn y geiriau blaenorol, ond yn chwanegiad atynt. (6.) Y mae De Wette, oddi wrth debygolrwydd y geiriau hyn i *Col.* ii. 2, 3, yn meddwl fod cyfeiriad ynddynt at ddoethineb Duw. (7.) Y mae ereill wedi cymhwyso y geiriau at yr eglwys, dan y gymhariaeth o deml; ac nid at deml Diana, fel y gwna Macknight. Dywed y Dr. Eadie, mai hwn ydyw yr esboniad goreu. Bod y fath gymhariaeth yn meddwl yr apostol sydd amlwg oddi wrth y weddi—ar fod i Grist drigo ynddynt, ar iddynt gael eu seilio mewn cariad. Y mae geiriau "hyd, lled, dyfnder, ac uchder," yn briodol am deml. Dysgrifir y deml ysbrydol yn niwedd *Eph.* ii; y mae dechreu *pen.* iii, o'r adnod gyntaf hyd y 13eg, i'w hystyried rhwng cromfachau; yn *adn.* 14, y mae ei weddi yn dechreu, ac y mae geiriad y weddi yn unol â'r gymhariaeth flaenorol am yr eglwys. Nid yw yn dywedyd "hyd a lled, uchder a dyfnder" pa beth; ond gan fod y deml ysbrydol yn ei feddwl, a'r geiriau yn gweddu mor briodol i fesurau teml, a'r syniad yn un Ysgrythyrol, nid yw yn annaturiol meddwl mai hwn ydyw cyfeiriad cywir yr ymadroddion dan sylw. Gellir cyfeirio ei "hyd" a'i "lled" at ei hymledaeniad dros y byd, a'i "huchder" a'i "dyfnder" at ei chynllun yn mwriadau dyfnion Duw, ac at ei pherffeithrwydd pan welir hi yn ei gogoniant. Pa beth a alluoga Gristion i amgyffred neu ddeall y mesurau hyn sydd yn perthyn i'r deml anweledig, a hyny yn ei hystâd anorphenedig ar y ddaiar?—Bod wedi ymgadarnhau mewn nerth trwy yr Ysbryd yn y dyn oddi mewn—bod Crist yn trigo trwy ffydd yn y galon—bod wedi gwreiddio a seilio mewn cariad: trwy fod yn y deml y mae amgyffred ei ogoniant." Gwel "*Eadie on the Ephesians.*"

AMGYLCH—YNU: o ddeutu, amgylch ogylch, heb fwlch o un tu. *Exod.* xxv. 11; *Ezec.* xxxvii. 2; *Heb.* ix. 4; *Dad.* iv. 3. "Amgylchyni fi â chaniadau ymwared;" *Salm* xxxii. 7: "fy llwybr a'm gorweddfa"..."fi yn ol ac yn mlaen;" *Salm* cxxxix. 3, 5:—a arwydda hollwybodaeth, manylrwydd sylw Duw, yn nghyd â sicrwydd a helaethrwydd yr ymwared y mae yn ei roddi, yr hyn sydd yn peri i'r ystyriol ryfeddu a llawenhau: *Exod.* xv. 1; *Barn.* v. 3; *Esa.* xii. 4.

AMI, [אמי], neu Amon; un o weision Solomon: *Ezra* ii. 57; *Neh.* vii. 59.

AMIEL, [עמיאל]; mab Gemali, y penaeth a anfonwyd dros lwyth Dan i edrych ansawdd tir Canaan: *Num.* xiii. 1, 2, 12.

AMINADAB, [עמינדב, *fy mhobl garedig;* Deg a Thrigain, Ἀμιναδάβ]: un o hynafiaid Dafydd a Christ (*Mat.* i. 4). Yr oedd yn fab i Aram, ac yn dad i Nahason, ac i Eliseba, gwraig Aaron (*Exod.* vi. 23).

AMITTAI, [אמתי]: tad Ionah y prophwyd; brodor o Gath-Hepher, yn llwyth Zabulon: *Ionah* i. 1; 2 *Bren.* xiv. 25.

AMISABAD, [עמיזבד]: mab Benaiah, un o dywysogion y brenin Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 6.

AMLDDUWIAETH, [*Polytheism;* πολυς—*llawer;* θεος—*duw*]: yr enw a roddir ar y grediniaeth mewn lluosogrwydd o dduwiau, neu fodau anweledig uwch law dyn, a'r addoliad a delir iddynt. Y gwahaniaeth rhwng amldduwiaeth ac eilunaddoliaeth ydyw hyn:—golyga y cyntaf luosogrwydd o dduwiau yn unig, heb gyfeiriad at un ffurf weledig; ond eilunaddoliaeth ydyw gwneyd llun neu ffurf o un duw, neu o lawer o dduwiau. Tystiolaeth y Beibl ydyw, nad oedd ond un Duw yn cael ei gydnabod a'i addoli yn oesoedd boreuol y byd. Y mae ystyriaeth fanwl o'r tebygolrwydd sydd yn rhedeg trwy olion coelgrefyddau gwahanol genedloedd y ddaiar yn arwain i'r un penderfyniad. Pa bryd y dechreuodd dynion gydnabod mwy nag un duw fel gwrthddrych addoliad, y mae yn anmhosibl dywedyd. Pan ysgrifenwyd llyfrau cyntaf y Beibl, ymddengys fod amldduwiaeth yn gyffredinol, ond yn mysg hiliogaeth Abraham; ac ychydig o bersonau mewn llwythau ereill, megys Melchisedec, brenin Salem; ac Abimelech, brenin y Philistiaid; Iob a'i gyfeillion yn mysg yr Arabiaid; a Iethro, chwegrwn Moses. Mewn trefn i gadw gwirionedd rhag myned ar ddifancoll llwyr, dewisodd yr Arglwydd Abraham a'i hiliogaeth i fod yn dystion iddo; rhoddodd iddynt ddadguddiad o hono ei hun fel yr unig a'r gwir Dduw, sefydlodd gyfundrefn â hwy ar sail ei uchafiaeth a'i unigrwydd: *Exod.* xx. 2; *Deut.* iv. 39; vi. 4; xxxii. 39; x. 14; *Num.* xvi. 22; xxvii. 16. Dysgai y prophwydi hefyd yr athrawiaeth hon: *Esa.* xliv. 6—9; xlv. 5, 6, 21, 22. Bod yr Iuddewon, ar ol eu dychweliad o Babilon, yn y cyfwng rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, wedi glynu wrth y gwirionedd hwn, sydd amlwg.

Y mae y syniadau goruchel, pur, ac ysbrydol, sydd yn y gyfrol ddwyfol am natur a phriodoliaethau yr unig wir Dduw, wedi cael eu teimlo yn mhob oes fel un prawf amlwg mai dadguddiad oddi wrth Dduw ydyw. Y mae anffyddwyr diweddar yn teimlo hyn; a dyma yr achos eu bod

Digitized by Google

yn ceisio haeru mai yn raddol y daeth cenedl Israel i feddu y syniadau hyn; mai amldduwiaeth oedd eu crefydd gyntaf, ac mai hyny a ddysgir yn llyfrau yr Hen Destament; ac nad oeddynt yn meddu y syniad mai un Arglwydd sydd, hyd ar ol eu dychweliad o Babilon. Ond yn chwanegol at y cyfeiriadau blaenorol, dengys y rhai canlynol mor gamsyniol ydyw yr haeriad uchod:— *Gen.* i. 1; v. 22; vi. 9; xiv. 19, &c.; *Salm* xxiv, cxv, cxxxv; 2 *Bren.* i. 16; xix. 17, 18; 2 *Cron.* xiii. 9; *Esa.* xl. 18; a lluaws o rai cyffelyb. Ac heb law hyny, y mae holl hanes yr Israeliaid yn dangos mai eu tuedd ydoedd—nid ymgodi o amldduwiaeth i'r grediniaeth mewn un Duw—ond yn hytrach i ddirywio, i adael yr Arglwydd eu Duw, ac i blygu i dduwiau y Cenedloedd.

Ond gan mai undduwiaeth oedd yr athrawiaeth a dderbynid gyntaf gan ddynion, y mae yn naturiol gofyn, Pa fodd y dechreuodd amldduwiaeth? A allwn ni olrhain y coelgrefyddau hyn i ryw achosion penodol? Y mae dynion wedi meddwl y gellir; ac y mae gwahanol dybiau wedi eu dyfeisio mewn trefn i geisio esbonio hyn.

Efallai y gellir olrhain addoliad natur, yr hyn oedd y ffurf yr ymddangosai amldduwiaeth ynddo yn fwyaf cyffredinol yn oesoedd boreuaf y byd, i'r duedd sydd mewn dyn i athronyddu; hyny yw, i esgyn oddi wrth effeithiau at achos. Yn mabandod gwybodaeth, y mae dynion yn edrych dros ail achosion, ac yn priodoli pethau a dygwyddiadau i weithrediad uniongyrchol Duw;—nid iddo ef fel Awdwr peiriant y greadigaeth, a'r deddfau sydd yn llywodraethu y cwbl, ac hefyd fel yr hwn sydd yn cynnal ac yn bywiogi y cwbl, ond fel yr uniongyrchol a'r unig weithredydd yn mhob dim. Dan syniadau cywir am ysbrydolrwydd Duw, ni buasai hyn yn arwain i amldduwiaeth; ond yr oedd yr effaith yn hollol wahanol pan yr oedd y galon lygredig yn gwrthod meddwl am Dduw fel yr unig Lywydd Hollalluog; ac felly, er addef rhyw allu anweledig fel yr achos o bob peth, rhenid y gallu hwn megys rhwng gwahanol fodau, a lliosogrwydd o dduwiau yn cael eu dychymmygu yn ol amrywiaeth y gwrthddrychau dan sylw.

O weithrediad y teimlad hwn, yn ei gyssylltiad â'r bodau wybrenol, y cododd amldduwiaeth y dwyrain.

I ddynion yn amddifad o wybodaeth gywir am Dduw, nid oedd dim a allasai fod yn fwy naturiol na thalu parch a gwarogaeth i'r amlygiadau egluraf a feddent o allu a doethineb y Creawdwr. Cawn, mewn canlyniad, mai "llu y nef," yn oesoedd boreuaf y byd, oeddynt brif wrthddrychau addoliad braidd bob cenedl. Byddai yr haul a'r lloer a'r ser yn fore iawn yn tynu sylw, ac yn ennyn syndod. Bu llawer llygad athronyddol, ar wastadedd yr Euphrates a chreigiau Edom yn syn syllu arnynt, pan nad oedd cymdeithas eto ond yn nyddiau ei mebyd. Nid rhywbeth diweddar ydyw yr efrydiaeth o ryfeddodau y ffurfafen, fel y profa Llyfr Iob, a hynafiaethau Caldea, a'r Aipht, a Hindostan. Talwyd, yn ddiammheu, gymmaint o sylw iddynt gan lawer yn yr oesoedd cyntefig ag a dalwyd erioed. Ac oddi wrth hyn, y mae gan mwyaf o chwedlau crefyddol y Groegiaid a'r Aiphtiaid wedi tarddu: oddi yma hefyd y deilliodd hen arwyddluniau y Persiaid o *mihr*, neu yr haul, yn nghyd â seraddoliaeth y Sabeaid, ac amseryddiaeth aruthrol India a China.

Gan mai trwy ddylanwad yr haul a'r lloer yr oedd y ddaiar yn cael ei bywiocau a'i ffrwythloni, y tymmorau yn cael eu llywodraethu, a llanw a thrai y môr yn cael eu rheoli, hawdd iawn ydoedd i grebwyll fywiog bersonoli y bodau yma, a phriodoli iddynt fywyd ac ewyllys. Ar y cyntaf nid oeddynt yn cael eu hystyried yn dduwiau: edrychid arnynt fel arwyddluniau gweledig o'r "Duw Ali"—y bod anweledig: ond cyn gynted ag yr edrychid arnynt yn unig fel personau, ac nid fel offerynau yn llaw Bod anfeidrol, nid oedd ond cam bychan, i feddwl llygredig dyn, i dalu iddynt wasanaeth crefyddol.

Yn y modd yma yr oedd ein duwiau yn lluosogi yn gyflym. Teimlent fod tywyllwch ac oerfel yn wrthwyneb i oleuni a gwres, heb ddeall mai absennoldeb y ddau olaf yn unig oeddynt; priodolent alluoedd iddynt, a dyrchafent hwy i restr eu duwiau. Y mae yn debyg mai goleuni a thywyllwch, neu ysbryd goleuni a thywyllwch, oedd y ddau dduw cyntaf yn rhestr y paganiaid; un yn ffynnonell pob daioni, a'r llall yn awdwr pob drwg. Hyn oedd ymdrech gyntaf dychymyg a rheswm dyn i esbonio y cymmysgedd o ddrwg a da a geir yn y byd. Hon oedd cyfundrefn y Magiaid yn Persia.

Yr oedd amldduwiaeth rhai gwledydd yn gymmysgedd o wahanol elfenau. Efallai mai fel hyn yr ydoedd yn yr Aipht. Mewn cenedl filwraidd, parch i filwyr buddugol, neu wroniaid, ydyw y duedd gryfaf; ond mewn gwlad amaethyddol, y mae yn fwy naturiol iddynt dalu parch i'r elfenau y mae eu llwyddiant yn dibynu arnynt. Yr oedd yr Aiphtiaid yn rhyfelwyr ac yn amaethwyr. Yr oedd y blaenor a'u harweinient i fuddugoliaeth yn sicrhau lle iddo ei hun yn nheml y duwiau. Yr oedd eu llawnder a'u cysuron cartrefol yn dibynu ar ffafr yr afon Nilus; edrychid arni yn ewyllysio eu llwyddiant neu eu haflwyddiant; gwisgid hi â phriodoliaethau dwyfol; gwneid delw gerfiedig o honi; adeiledid teml iddi; sefydlid offeiriadaeth:—ac felly y mae yr hyn sydd yn dechreu mewn dull arwyddol o ddangos eu dibyniad ar fendithion rhagluniaeth yn dibynu mewn eilunaddoliaeth. Y mae anwybodaeth y bobl, a dichell ystrywgar yr offeiriaid, yn gwaethygu ac yn rhoddi parhad i'r ffieiddra. Nid yw yn anghysson â syniadau fel hyn, fod rhyw olion o'r hen grediniaeth mewn un Duw yn aros; ac yn enwedig, gan nad oedd y dychymyg, pa mor ffrwythlawn bynag, yn cyfarfod holl anhawsderau a chwestiynau y meddwl. Er i'r buddugoliaethwr arwain eu tadau i'r frwydr, nid efe a roddodd fod iddynt eu hunain; ac er i'r Nilus ffrwythloni eu meusydd, nid hi oedd eu creawdwr. Y grediniaeth mewn achos cyntaf yn unig a gyfarfyddodd yr anhawsderau hyn. Yr oedd dibyniad achosion yn cael eu cyssylltu yn eu meddwl â deddf cenedliad; ac felly, priodolid achau i'r duwiau, a'r enw a safai uchaf yn y llinach oedd y creawdwr, y Ζευς πατηρ—Jupiter, tad y duwiau a dynion.

Yn mysg y cenedloedd paganaidd a gredent fod y byd a'i ddygwyddiadau dan ofal Rhagluniaeth, ffynai y syniad fod llywodraethiad y cwbl wedi ei ymddiried i ddosbarth o ysbrydion uwch nag eneidiau dynion, ac eto yn is na'r bodau nefol a drigai yn yr haul, y lloer, a'r planedau, ac a roddai fywyd iddynt. Gelwid y rhai hyn gan y Groegiaid, δαιμονες—*dæmons*; a chan y Rhufeiniaid, *genii*. [Gwel ADDOLIAD CYTHREULIAID.] Gellir rhoddi amryw resymau dros y trosglwyddiad dychymygol hwn o awdurdod a gallu i gynnifer o is-dduwiau. Nid oedd ganddynt ddychymyg am Dduw ond mewn rhyw le penodol; ac felly, nis gallent ddeall pa fodd yr oedd ei

Digitized by Google

ddylanwad yn cyrhaedd drwy y greadigaeth, heb ddefnyddio gweinidogion i gyflawnu ei orchymynion. Yr oedd y cyflwr o dawelwch a syrthni a dybient yn hanfodol i wir ddedwyddwch, yn gwneyd yn angenrheidiol iddynt ryddhau y Duw goruchel oddi wrth ofalon llywodraeth; ac felly, creu nifer aneirif o ddirprwywyr yn ei le. Yr oedd y pellder anfeidrol rhyngddynt a'r duwiau, pan ddaethant i adfyfyrio ar hyn, yn peri iddynt ddymuno cael llenwi y gwagle â bodau is, y rhai a allent eu defnyddio fel cyfryngwyr ac eiriolwyr drostynt gyda y duwiau pellenig. Yr oedd y graddoldeb a welir ar y ddaiar, o'r llysieuyn a'r pryfyn hyd at ddyn, yn sail ddigonol gan yr athronwyr i estyn yr un graddoldeb oddi wrth ddyn i fyny at y cyrff wybrenol, ac oddi wrthynt hwy at yr hwn a eistedd yn ben ar y cwbl. Nid yw yn annhebygol chwaith fod llygriad o draddodiadau Ysgrythyrol am angelion da a drwg wedi cydweithredu âg achosion ereill.

Achos arall yn nghynnyrchiad amldduwiaeth, ydoedd, bywiogrwydd a ffrwythlondeb dychymyg y bardd. I hyn y priodola Herodotus nifer fawr o dduwiau y Groegiaid. Ar ol dyweyd fod gwybodaeth y Groegiaid yn ei babandod o barth i darddiad y duwiau, eu parhad, a'u llun, chwanega mai Homer a Hesiod "oeddynt awduron achau y duwiau, a roddasant enwau iddynt, ac a ddysgrifiasant eu priodoliaethau, eu gweithredoedd, a'u lluniau." Ysgrifenodd Hesiod, hen fardd Groegaidd, yr hyn a elwir *Theogony*—hanes dechreuad y byd a chenedliad y duwiau; cynnwysa dybiau dychymygol am y greadigaeth, personolir ei gwahanol ranau, a darlunir trefn eu cynnyrchiad, dan y gymhariaeth o genedliad olynol. Hoff waith Homer ydyw personoli teimladau, elfenau, ac egwyddorion; neu, yn ngeiriau Shakspeare, i roddi "*To airy nothing a local habitation and a name.*" Dywed yr esgob Thirlwall, am grefydd y Groegiaid, ei bod yn gynnwysedig mewn addoli natur, a bod y nifer mwyaf o'u duwiau yn cyfateb i ranau gweledig o'r greadigaeth, neu i ddosbarthiadau o wrthddrychau wedi eu casglu yn nghyd dan ryw syniad penodol; ac heb law yr ymgorfforiad o alluoedd natur, a phersonoliad o syniadau y meddwl, yr oedd yn debygol fod duwiau gwarcheidiol yn cael eu cydnabod ganddynt, y rhai a ddeillient o nodweddiad a hanes y genedl ei hun, ac a gynnrychiolai ddim ond eu teimlad o ymddibyniad ar Fod uwch law iddynt. Bod rhan fawr o chwedlau crefyddol y Groegiaid yn ddull alegoraidd o drosglwyddo eu syniadau am gyssylltiadau naturiol, sydd amlwg; ac y mae llawer o honynt yn gwneyd hyny gyda thlysni mawr: megys pan ddywedir fod Ofn a Dychryn yn feibion Mars, duw rhyfel; bod Cwsg yn frawd i Angeu; bod yr Awenesau yn ferched Cof; bod Iechyd a Gwellhad yn ferched i Æsculapius, yr hwn oedd naill ai yn feddyg enwog, neu yn bersonoliad o feddyginiaeth; a bod Gwyrddlesni yn briod â Zephyr, neu awel y gwanwyn.

Pa le bynag y mae y grefydd Gristionogol wedi ymledaenu, y mae amldduwiaeth â'i llygredigaethau a'i chreulonderau wedi diflanu. Ond mewn rhan fawr o'r byd, y mae yr unig wir Dduw, Creawdwr nefoedd a daiar, yn anadnabyddus eto; ac y mae dynion wrth y miliynau yn eu cospi eu hunain er cymmodi duwiau dychymygol. Gwel EILUNADDOLIAETH—(*Cudworth's Intellectual System; Sir William Jones on the Gods of Greece and Italy; Encycl. Brit.; Hume's Natural History of Religion*).

AMLWREICIAETH: bod yn meddu mwy nag un wraig ar yr un pryd. Yn ol ordeiniad Duw, nid oedd yn gyfreithlawn i un dyn gymmeryd mwy nag un wraig ar unwaith—"Yn wrryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt." Ond fel yr oedd llygredigaeth yn cynnyddu, troseddwyd y rheol hon. Y crybwylliad cyntaf a geir am hyn cyn y dylif, sydd am Lamech, "yr hwn a gymmerodd iddo ddwy o wragedd;" *Gen.* iv. 19. Fel yr oedd anwiredd yn amlhau, "gwelodd meibion Duw (teulu Seth—addolwyr y gwir Dduw) ferched dynion (hiliogaeth annuwiol Cain), mai teg oeddynt hwy, a hwy a gymmerasant iddynt wragedd o'r rhai oll a ddewisasant;" *Gen.* vi. 2. Ymlygrasant i'r fath raddau, fel y penderfynodd Duw ddileu dyn oddi ar wyneb y ddaiar. Nid oedd i Noah, a'i dri mab, ond un wraig bob un; ac nid oedd gan Iob chwaith, yr hwn oedd yn byw, yn ol barn rhai, mor fore ag amser Abraham, ond un wraig; a cheir cyfeiriadau yn ei lyfr at y godinebwr, ei fod yn euog o gamwedd haeddiannol o gospedigaeth gan y barnwyr (*Gen.* xxxi. 11). Pan y gosodir allan ran dyn annuwiol gyda Duw, tybir fod yno gyfeiriad at amlwreiciaeth: *Iob* xxvii. 15; "Ei weddillion ef a gleddir yn marwolaeth, a'i *wragedd* gweddwon ni wylant." Ymddengys nad oedd amlwreiciaeth yn cael ei gymmeradwyo yn mysg yr Aiphtiaid, oddi wrth yr hanes a gawn ni am Abraham pan aeth yno (*Gen.* xii. 11—19). Cawn hanes cyffelyb yn ei ymweliad âg Abimelech, brenin Gerar (*Gen.* xx. 2—11). Y mae yn amlwg yr ystyrid priodas yn gyssegredig yn yr adegau, ac yn mhith y cenedloedd y byddai gwareiddiad yn ffynu; ac yn enwedig yn mysg y duwiolion, pan y byddai crefydd yn fywiog yn eu meddyliau. Ar yr un pryd, cawn hanes fod i rai o honynt amryw ordderchadon. Efallai fod hyny wedi tarddu mewn rhai amgylchiadau, o leiaf, oddi ar awydd am hiliogaeth. Gwelwn fod Abraham wedi cydsynio â chais Sarah, mewn dysgwyliad am had, i gymmeryd Hagar ei llawforwyn yn ordderchwraig iddo: *Gen.* xvi. 2—5. Dangosir oddi wrth yr hanes a gawn ni am Rebeccah (*Gen.* xxv. 21), am Rahel (xxx. 1), am Leah (*adn.* 9), ac am Hannah (1 *Sam.* i. 6, 7), fod y dymuniad am hiliogaeth yn gryf iawn yn mysg y gwragedd yn y dwyrain. Wrth edrych ar amgylchiadau teuluoedd y patriarchiaid, gwelir yn amlwg eu bod yn gorfod bwyta o ffrwyth eu trosedd o'r ddeddf a roddodd Duw i ddynion yn hyn: *Gen.* xvi. 4—10; xxx. 1, 3, 15. Yr oedd gan Dafydd, Solomon, ac ereill o gryn enwogrwydd yn yr Hen Destament, amryw o wragedd a gordderchadon: 2 *Sam.* xx. 3; 1 *Bren.* xi. 3; 1 *Cron.* iii. 1—9.

Ymddengys ar y cyfan yn ammheus pa un a oedd amlwreiciaeth yn cael ei ganiatau o dan y gyfraith ai peidio. Bernir gan rai fod y geiriau, "Na chymmer wraig yn nghyd â'i chwaer, i'w chystuddio hi, gan noethi noethni hono gyda'r llall, yn ei byw hi" (*Lef.* xviii. 18), yn gwahardd yn benodol i gymmeryd mwy nag un wraig ar yr un pryd. Ar ymyl y ddalen, darllenir "Na chymmer wraig yn nghyd â gwraig arall." Dywedir fod y gair a gyfieithir *chwaer* yn y fan hon yn arwyddo unrhyw fenyw, heb fod un berthynas naturiol rhyngddynt, fel y mae dynion yn cael eu galw yn *frodyr*, nad ydynt felly yn ol ystyr gyfyngaf y gair. "Y mae y geiriau, 'gwraig yn nghyd â'i chwaer' (medd un ysgrifenydd), i'w canfod yn yr Hebraeg wyth waith, os wyf yn cofio yn iawn. Y maent yn cyfeirio at

wrthddrychau difywyd yn mhob lle arall heb law yr un a nodwyd; megys edyn y cerubiaid, tynoau *(tenons)*, morteisiau, &c. Ymddengys eu bod yn arwyddo, yn fwyaf uniongyrchol, gyffelybrwydd hollol y naill beth i'r llall; ac yna yn gwahardd cymmeryd "gwraig yn nghyd â gwraig arall yn ei byw hi," fel y darllenir ar ymyl y ddalen. Pa fodd bynag, caniateid i ŵr roddi llythyr ysgar i'w wraig mewn rhyw amgylchiadau *(Deut.* xxiv. 3); ond y mae Iesu Grist yn dangos mai o herwydd calongaledwch y genedl y caniatawyd hyny. Ymddengys nad oedd amlwreiciaeth yn beth cyffredin yn mysg yr Iuddewon yn nyddiau Crist, oddi wrth absennoldeb unrhyw gyfeiriad at hyny yn yr efengylau. A phan y mae yr Iesu yn cyfeirio at ysgariaeth, y mae yn amlwg ei fod yn ei anghymmeradwyo. Gan fod y neb a roddai ymaith ei wraig, ac a briodai un arall, yn godinebu *(Luc* xvi. 18), y mae yn eglur fod yr hwn a wnelai hyny heb ollwng y gyntaf ymaith, yn euog o'r un camwedd. Yn y cyfeiriadau a geir yn epistolau Paul at briodas *(Rhuf.* vii. 2, 3; 1 *Cor.* vii. 12, 14, 16), ni roddir ar ddeall yn amgen nac un gŵr ac un wraig.

Deallir *Mal.* ii. 14, 15, gan Dr. Dwight, yn cyfeirio at amlwreiciaeth—"O herwydd mai yr Arglwydd a fu dyst rhyngot ti a gwraig dy ieuenctyd, yr hon y buost anffyddlawn iddi; er ei bod yn gymhar i ti, ac yn wraig dy gyfammod." Y mae yr Arglwydd yn hysbysu yma ei fod ef yn dyst o undeb rhwng un gŵr ac un wraig, a thrwy hyny yn amlygu nad oedd yr undeb hwn yn cymmeryd i mewn yn gyfreithlawn ddim yn chwaneg. "Onid un a wnaeth efe? a'r ysbryd yn ngweddill ganddo;" a chan hyny, gallasai yr un mor hawdd greu amryw, pe dewisasai. 'A pha ham un? I geisio had duwiol.' 'Creodd un gŵr ac un wraig, ac unodd hwy, a hwy yn unig, yn y sefydliad priodasol. O blegid trwy addysg grefyddol ac esamplau da, meithrinai un gŵr, wedi ei uno fel hyn âg un wraig, dduwioldeb yn eu had. Ceir yma fantais i gasglu fod y geiriau yn rhoddi ar ddeall yn eglur a diymwad, mai anfynych y gellir canfod plant crefyddol lle y byddo amlwreiciaeth yn ffynu."

Nid yw amlwreiciaeth yn cael ei wahardd yn mysg dilynwyr Mahomet. Yr oedd gan Mahomet ei hun amryw o wragedd; ac y mae hyn yn beth cyffredin yn mhlith y Tyrciaid, a thrwy holl Asia. Cymmer eu hymherawdwyr luaws mawr o wragedd—o un fil i dair mil, a dywed rhai lawer iawn chwaneg na hyny. Myn rhai fod nifer y menywod yn llawer lluosocach na'r gwrywaid yn Syria ac Arabia; ac o ganlyniad, fod hyny yn rheswm dros yr arferiad. Ond y mae y cyffredin o deithwyr yn sierhau i'r gwrthwyneb, fod y nifer yn mhob gwlad yn lled gyfartal; os nad yw, y gwrywaid o'r ddau yw y lluosocaf, ond fod llawer o honynt yn cael eu cymmeryd i'r fyddin, i'r môr, ac i orchwylion afiachus, yr hyn sydd yn gwneyd gwahaniaeth mewn llawer o wledydd, yn enwedig ar rai adegau. Y mae hyn yn dangos yn amlwg na fwriadodd y Creawdwr fod i un gŵr feddu mwy nag un wraig ar unwaith.

Gwaherddid amlwreiciaeth yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Nid yw yn cael ei ganiatau mewn un wlad Gristionogol. Mewn rhai gwledydd, gweinyddir y gospedigaeth drymaf—marwolaeth—ar y troseddwr. "Y mae amlwreiciaeth," medd y Dr. Paley, "nid yn unig yn drosedd o ddeddf natur, ac amcan eglur y Duwdod, ond yn cynnyrchu i'r pleidiau eu hunain, ac ereill, yr effeithiau canlynol:—Ymrafaelion a drwgdybiau rhwng gwragedd yr un gŵr; serchiadau rhanedig, neu amddifadrwydd o bob serch yn y gŵr ei hun; moethusrwydd yn y cyfoethog, yr hyn sydd yn gwanychu galluoedd a bywiogrwydd y meddwl, gan gynnyrchu y syrthni hwnw mewn meddwl a chorff sydd er ys hir amser wedi bod yn nodweddiad cenedloedd y dwyrain; diraddiad un ran o'r hil ddynol, y rhai a ddarostyngir yn offerynau i foddio chwantau aflan y rhan arall yn y gwledydd lle y mae amlwreiciaeth yn ffynu; esgeulusdod ar y plant; a'r drygau amrywiol, ac weithiau annaturiol, sydd yn tarddu oddi ar brinder merched." Gwel GORDDERCH; PRIODAS. —*(Hend. Buck. Cyc. of Bib. Lit.; Dwight's Theol.; Paley's Mor. Phil.)*

AMMHEUGARWCH, AMMHEUWYR,—[*Scepticism, Sceptics.*] Y mae dynion yn llenyddiaeth pob oes, yn mron, yn gwadu fod sierwydd yn gyrhaeddadwy i ddyn ar ddim. Dechreuodd y syniad yma gymmeryd ffurf reolaidd, ac ymgorffori ei hun mewn math o gyfundrefn, gyntaf, yn Groeg, ddwy fil o flyneddoedd yn ol.

Dau eithafoedd gwybodaeth ddynol ydynt—ar y naill law, ammheugarwch; ar y llall, ymhoniad penderfynol o sierwydd trwy rym ymresymiad. Y mae y cyntaf, yr hyn hefyd a elwir Pyrrhoniaeth (Pyrrho), yn ceisio myned dan sylfeini sierwydd, gan wadu fod *gwirionedd hanfodol* yn gyrhaeddadwy; fod pob peth yn wir i bawb sydd yn ymddangos felly iddynt. Mi fyn yr ymhonwr, y *Dogmatist*, amddiffynwr yr eithafoedd cyferbyniol, fod dim elfenau anmherffeithrwydd yn perthyn i wybodaeth dyn; ond gan anghofio terfynau ei alluoedd, a gwendid a llygredigaeth ei natur, ymestyna at wybodaeth berffaith a thrwyadl o bob peth. Y mae y ddau eithafoedd hyn i'w cael yn mhob cyfnod; un yn haeru nas gellir profi dim, a'r llall y gellir profi pob peth. Y mae y ddau yn haeru rhyw gymmaint o wir, ond nid yr holl wir. Dywed Pascal—yr hwn yn ei "Feddyliau" anfarwol sydd yn gosod ei hun yn erbyn y ddau, ac yn uwch na'r ddau, a thrwy briodoli ei lle ei hun yn nghyfansoddiad y meddwl, ac yn nghanfyddiad pethau ysbrydol, i'r galon a'r teimlad, sydd yn cyssoni athroniaeth â ffydd—"fod eu hegwyddorion yn wir, ond bod eu casgliadau yn gyfeiliornus, am fod yr egwyddorion cyferbyniol yn wir hefyd." "Rhaid addef gwendid ein gallu i ymresymu yn wyneb pob ymhoniad i'r gwrthwyneb; ac y mae gwirionedd yn gyrhaeddadwy i ddyn er gwaethaf pob ammheugarwch." "Y mae natur yn cynnal rheswm gwan rhag suddo i ammheuaeth diddiwedd. Y mae natur yn cau genau yr ammheuwr, a rheswm yr ymhonwr." Cymmeryd un rhan yn unig o'r natur ddynol y mae y ddau eithafoedd hyn, a ffurfio eu tybiau am ddyn yn unol â'r rhan a ddewisent hwy; yn lle ffurfio athroniaeth am ddyn sydd yn cymmeryd i mewn yr oll o hono.

Ni a enwn rai o'r prif egwyddorion a ddefnyddir gan ammheuwyr i ddangos nad yw yn bosibl i ddyn gyrhaedd sierwydd mewn dim. Y mae gwybodaeth yn rhywbeth rhwng y meddwl sydd yn gwybod, a'r gwrthddrych a wybyddir. Y mae tri pheth, gan hyny, i'w hystyried mewn gwybodaeth:—y meddwl—y gwrthddrych, yr hwn a ddygir i'r meddwl trwy y wybodaeth a feddiennir o hono—a'r wybodaeth, sef y darluniad o'r gwrthddrych yn y meddwl. Y mae gwybodaeth yn gywir, os ydyw yn ddarluniad cywir o'r gwrthddrych yn y meddwl: y mae yn anghywir,



Digitized by Google

os nad yw y darluniad yn ffyddlawn. Haeriad yr ammheuwr ydyw, nad yw gwybodaeth yn ddarluniad cywir o'r gwrthddrych. A chan fod tair elfen yn mhob gweithred o wybodaeth, y mae ei holl resymau yn codi o ystyriaeth o'r naill neu y llall o'r tri pheth hyn, neu o'r cwbl yn nghyd. Y rhesymau a ddefnyddia yr ammheuwr a darddant oddi wrth yr ystyriaeth o'r hyn ydyw gwybodaeth ei hun. Y diffyg cyntaf ydyw, Y mae gwybodaeth yn anmherffaith; nid yw ond bach mewn cymhariaeth i'n hanwybodaeth. Diffyg arall ydyw, Nid oes parhad yn perthyn iddi—y mae gwybodaeth yn gyfnewidiol; y mae opiniynau gwahanol genedloedd yn amrywio, ac y mae opiniynau yr un dyn, o febyd hyd henaint, yn agored i'r cyfnewidiadau mwyaf. Casgliad yr ammheuwr oddi wrth hyn yw, Gan fod syniadau yn newid yn ol gwahanol amseroedd, lleoedd, amgylchiadau, a phersonau, pa ymddiried a ellir ei roddi ynddynt?

Y mae gwrthwynebiadau yn erbyn sicrwydd gwybodaeth yn codi eto oddi wrth y gwrthddrych sydd o flaen y meddwl pan yn gwybod. Y mae hyn, bob amser, yn cael ei wneyd i fyny, mewn rhan, o amlygiadau sydd yn agored i'n sylw; ac mewn rhan, o'r hyn sydd allan o gyrhaedd ein sylw. Y mae dau beth, gan hyny, yn perthyn i wrthddrych-wybodaeth; yr hyn sydd yn amlwg, a'r hyn sydd yn guddiedig; ansoddau ac effeithiau, ar un llaw; a sylweddau ac achosion, ar y llaw arall. Os cyfyngwn ein sylw at yr hyn sydd o flaen y llygad—yr arwyneb—nid oes dim mor gyfnewidiol. Y mae ymddangosiadau pethau yn newid o awr i awr. Pa fodd y gall ein gwybodaeth fod yn sicr o'r hyn sydd ynddo ei hun mor ansicr? Edrychwn eto yn is na'r arwyneb, yn is na'r ansoddau gweledig—mor fach ydyw ein gwybodaeth am sylwedd!

Ond y mae gwrthwynebiadau eto yn erbyn sicrwydd gwybodaeth, yn codi o gyfansoddiad y meddwl sydd yn gwybod. Dwy gynneddf sydd gan ddyn a drosglwyddant wybodaeth iddo yn *ddigyfrwng*. Un ydyw y synwyrau corfforol. Ond nid yw y rhai hyn yn anffaeledig yn eu gweithrediad: y maent yn fynych yn ein twyllo. Y mae y llygad yn gweled yr un gwrthddrych yn wahanol ar wahanol amserau: ac y mae gwahanol synwyrau yn gwahaniaethu yn fynych yn eu tystiolaeth am yr un gwrthddrych; megys pan y mae y llygad yn gweled darlun yn sefyll allan oddi wrth y mur, a'r llaw yn ei deimlo yn gorwedd ar y mur. Yr ail gynneddf sydd yn ein hysbysu am wrthddrychau yn ddigyfrwng yw y rheswm. Nid ydyw rheswm yn credu mewn peth am ei fod yn ei weled, fel y gwna y llygad, ond am nas gall lai na'i gredu; y mae dan angenrheidrwydd natur i'w gredu. Y mae gwrthod crediniaeth yn ymddangos iddo yn drais ar ei gyfansoddiad. Cwestiwn yr ammheuwr yn y fan yma yw, A ydyw yr angenrheidrwydd y mae y rheswm yn ei deimlo i gredu peth yn brawf o'i wirionedd? A ydyw rhyw osodiad sydd yn y meddwl yn ddarluniad cywir o ddeddf natur, neu o sylwedd anweledig, am fod y meddwl yn teimlo ei hun yn analluog i'w wrthod? Y mae dyn, wrth roddi derbyniad i egwyddorion yn y modd yma, yn gweithredu oddi ar fath o ffydd reddfol, ac nid oddi ar ymresymiad yn gorphwys ar brawf. Addefa yr ammheuwr y byddai hyn yn ddigon o reswm i roi derbyniad i'r cyfryw, pe ceid dynion i gytuno yn y pethau nas gall rheswm eu gwrthod. Y ddau allu hyn, sef synwyrau corfforol a rheswm, sydd yn dyfod â gwrthddrychau megys yn ddigyfrwng i'r meddwl; y cyntaf yn ein cynnysgaethu âg ymddangosiadau gweledig a theimladwy o bethau, a'r olaf âg egwyddorion sydd yn ymddangos yn angenrheidiol. Ond wedi cael y gwrthddrychau hyny, y mae y meddwl yn gweithredu arnynt, yn eu dosbarthu, yn eu cyfleu, ac yn tynu casgliadau oddi wrthynt: hyny yw, y mae y meddwl yn *ymresymu* ar y pethau y mae yn eu derbyn trwy y ddau allu uchod. Y mae cymharu y gwahanol gasgliadau a dynir oddi wrth yr un ymddangosiadau yn ddigon o brawf nad oes llawer o ymddiried i'w roddi yn ngallu dyn i ymresymu.

Fel hyn, y mae holl wrthwynebiadau yr ammheuwyr yn codi, naill ai oddi wrth natur, neu wrthddrych, neu gynneddf gwybodaeth: a'u casgliad oddi wrth y cwbl ydyw, fod sicrwydd ar unrhyw fater yn beth allan o gyrhaedd dyn. Nid yn unig y mae sicrwydd ar bethau crefyddol yn beth anmhosibl, ond y mae sicrwydd ar unrhyw beth yn anmhosibl—yn codi oddi ar y gwendidau a'r anmherffeithrwydd sydd yn hanfodol i natur y cynneddfau y mae dyn wedi ei gynnysgaethu â hwynt. Ac hyd yn oed pe addefid nad oes un anmherffeithrwydd yn perthyn iddynt, ond eu bod yn anffaeledig yn eu gweithrediad; eto, y mae cwestiwn yr ammheuwr yn ein dilyn wed'yn—Pa fodd y *gwyddom* ac y gallwn *brofi* fod ein syniadau yn ddelw gywir o wir hanfod a natur pethau ynddynt eu hunain? Y mae ammheugarwch o'r natur yma yn difodi gwirionedd ar unwaith. Nid yn unig y mae gwirionedd crefyddol yn diflanu, ond y mae gwirionedd moesol a chelfyddydol o bob natur yn diflanu yr un modd.

Mewn trefn i weled grym y gwrthddadleuon a enwyd, yn nghyd â'r atebion a roddir iddynt, edrychwn am fynyd ar y dull y mae y meddwl yn casglu gwybodaeth. Gellir dosbarthu holl wybodaeth dyn i ddau fath:—yn gyntaf, Y wybodaeth uniongyrchol, neu elfenol, a dderbynir naill ai trwy synwyrau y corff, neu trwy y rheswm: ac yn ail, Y wybodaeth a geir mewn ffordd o gasgliad neu ymresymiad. Fel y dywedwyd o'r blaen, y mae dwy gynneddf neu allu, trwy ba rai y ceir gwybodaeth yn uniongyrchol; sef, sylwadaeth a rheswm. Trwy sylwadaeth, yr ydym yn cael ein hysbysu am wrthddrychau oddi allan i ni: ac hefyd, trwy sylwadaeth yr ydym yn dyfod i weled yr hyn sydd yn ein meddyliau; hyny yw, ein holl deimladau a'n meddyliau; neu mewn un gair, ein hymwybyddiaeth. Ond y mae gallu arall, sef rheswm. Nid yw hwn yn gweled yr hyn sydd, fel y mae sylwadaeth; ond oddi wrth yr hyn a gyflwynir i sylw y meddwl, naill ai yn allanol neu yn fewnol, y mae y rheswm yn gweled megys yr hyn sydd raid fod, ac nas gall lai na bod. Ac oddi yma y mae dosbarth arall o wirioneddau yn codi, a elwir wrth wahanol enwau; megys egwyddorion gwreiddiol, egwyddorion angenrheidiol, &c. Hynodrwydd yr egwyddorion hyn ydyw, eu bod yn dadgan yr hyn nas gall lai na bod; ac o ganlyniad, y maent mewn cydgordiad â meddyliau Duw, a gwirioneddau cyffredinol. Y mae holl wybodaeth uniongyrchol dyn yn gynnwysedig o'r hyn a geir naill ai trwy sylwi ar yr hyn sydd oddi allan i ni mewn llyfrau neu weithredoedd, neu trwy sylwi ar gynnwysiad ein hymwybyddiaeth mewnol ein hunain; ac hefyd yn yr egwyddorion angenrheidiol sydd yn perthyn i'r rheswm. Y mae y ddau allu yma yn wasanaethgar i'w gilydd. Pan wel dyn, trwy sylwadaeth, ryw beth yn dechreu bod, y mae rheswm yn ymgodi

Digitized by Google

at yr egwyddor gyffredinol ac angenrheidiol—fod achos i bob peth sydd yn dechreu bod. Y mae sylwadaeth yn gweled rhyw ddau ddygwyddiad; ond nis gallai dyn wybod eu bod yn olynol, ond fel y mae y rheswm yn meddu y syniad am barhad neu amser, yr hyn sydd yn gwneyd olyniad yn bosibl. Pan wel dyn ryw ansawdd — megys gwyn—y mae y rheswm yn chwanegu y syniad am sylwedd; ac felly cyn y gall y farn ddyweyd am ddim, "Y mae hyn yn wyn neu yn goch," y mae mor angenrheidiol cael syniad y rheswm am sylwedd, ag ydyw cael hysbysiad y llygad am liw. Yn y modd yma yr ydym yn cael defnyddiau ein holl wybodaeth; ond wedi cael y defnyddiau, y mae galluoedd ereill yn dechreu gweithredu arnynt. Gallwn alw gweithrediad yr holl alluoedd hyn yn nghyd yn ymresymiad: ac y mae hyn o ddau fath. Yn gyntaf, pan ymgodwn oddi wrth ryw bethau neillduol at yr egwyddor gyffredinol sydd yn eu cynnwys;—gelwir hyn "*induction.*" Y math arall o ymresymu ydyw, casglu oddi wrth ryw wirionedd neillduol neu gyffredinol, wirioneddau ereill sydd yn gynnwysedig ynddo;—gelwir hyn "*deduction.*" Yma fe ddylid dywedyd, fod y cof yn angenrheidiol i weithrediad sylwadaeth ac ymresymiad. Y mae y cof yn trysori ffrwyth ein sylwadau, ac y mae y cof hefyd yn cyssylltu casgliadau ein hymresymiad â'r gosodiadau cyntefig, o ba rai y maent yn tarddu. Ond am syniadau y rheswm—y maent yn annibynol ar y cof. Nid oes eisieu gwasanaeth y cof i'w dysgu—y maent yn tarddu yn naturiol o gyfansoddiad y meddwl. Nid oes eisieu ei wasanaeth er eu credu—gan eu bod yn angenrheidiol: teimlir eu presennoldeb fel egwyddorion nas dichon iddynt ond bod.

Yr ydym wedi enwi y gwahanol gynneddfau neu alluoedd sydd yn angenrheidiol i gasglu gwybodaeth, a dull eu gweithrediad. Yn awr y mae yn angenrheidiol sylwi, nas gallwn gyrhaedd gwybodaeth sicr trwy y cynneddfau hyn am ddim ond ar un ammod; a hyny ydyw, drwy roddi ymddiried yn nghywirdeb y cynneddfau hyn, drwy gredu nad ydynt wedi eu gwneyd i'n twyllo. Felly y mae pob gwybodaeth yn gorphwys o angenrheidrwydd yn y ffydd naturiol hon — yn nidwylledd a diffuantrwydd y cynneddfau sydd yn rhoddi gwybodaeth yn ein meddiant. Y mae ymresymiad yr ammheuwr yn gorphwys ar yr haeriad—fod ein cynneddfau yn ein twyllo, ac felly nas gallwn roddi ymddiried ynddynt. Fe addefir eu bod weithiau yn gwneyd felly; ond pa ham?—ai trwy ddiofalwch yn eu defnyddiad, ai ynte o ddiffyg safon i wybod pa bryd y maent yn gwneyd felly neu beidio? Trwy ddiofalwch, y mae yn amlwg; o herwydd y mae i bob cynneddf ei safon ei hun, ac ni a allwn wybod pa beth ydyw hono. Y mae pob un yn gwybod fod ei synwyrau wedi ei dwyllo weithiau; ond fe wyr hefyd na wnant felly un amser gyda gofal angenrheidiol. Er ein bod hefyd yn fynych yn cael ein camarwain gan gamgasgliadau mewn ymresymiad, o'r ddau natur a nodwyd, eto y mae ymresymeg Aristotle yn dangos fod safon anffaeledig i'w gael mewn ymresymu oddi wrth un gwirionedd at y gwirioneddau sydd yn gynnwysedig ynddo: ac y mae *Organum* Bacon, wedi ei berffeithio gan athronwyr diweddarach, yn cynnwys safon sicrwydd mewn ymresymu oddi wrth bethau neillduol at y deddf sydd yn eu cynnwys. Ac eto, ni wnaeth y naill neu y llall ond dwyn i ffurf ac amlygrwydd yr egwyddorion y mae dynion yn eu defnyddio yn mhob oes a gwlad, yn holl achosion bywyd. Mor bell, gan hyny, oddi wrth fod yn agored o angenrheidrwydd i gael ei dwyllo, nid oes un gynneddf nas gall dyn gyrhaedd sicrwydd trwyddi am ei gwrthddrychau priodol, trwy y gofal angenrheidiol. Am syniadau y rheswm, y maent yn angenrheidiol; nid oes na mwy na llai yn perthyn iddynt; y maent yr un yn mhob dyn, a gwlad, ac amgylchiadau. Y mae yn wir fod dynion wedi amrywio yn eu barn am y syniadau gwreiddiol hyn, ac am y dull o'u dosbarthu; ond am y syniadau eu hunain, y mae pawb yn gweithredu yn gyffredinol ac yn ddiwahaniaeth dan eu dylanwad. Pwy sydd yn ammheu nad yw pob peth a wel yn bodoli mewn rhyw le—a phob peth a ddygwydd yn dygwydd mewn amser—a bod sylwedd yn perthyn i bob ansawdd—a bod achos i bob peth sydd yn dechreu bod?

Y mae gwrthddadleuon ammheuwyr, yn nghyd â'r ymchwiliadau a achlysurwyd ganddynt, i derfynu gwybodaeth ddynol, wedi bod yn wasanaethgar i roddi arbenigrwydd, yn gyntaf, i *ffydd*, fel sail athroniaeth. Y mae i ffydd ddwy ystyr—un athronyddol, ac un dduwinyddol. Yn yr ystyr gyntaf, arwydda, crediniaeth o'r egwyddorion hyny nas gall y meddwl eu gwrthod, ac eto, nis gall roddi rheswm drostynt: yn yr ystyr hwn, y mae ein holl wybodaeth yn gorphwys ar ffydd. Ffydd mewn dadguddiad goruwchnaturiol ydyw dechreuad ein bywyd ysbrydol yn Nghrist; ac ar grediniaeth ddiysgog yn ein teimladau gwreiddiol a diledryw y gorphwys ein bywyd naturiol. Iaith Pascal ar hyn ydyw, "Yr ydym yn canfod gwirionedd, nid yn unig trwy ymresymiad, ond hefyd trwy deimlad: a thrwy deimlad yr ydym yn canfod egwyddorion cyntaf; ac fel nad ydynt yn tarddu o ymresymiad, nis gellir eu gwanhau trwy ymresymiad. Yn ofer y llafuria y Pyrrhoniaid sydd yn gwneyd hyn yn amcan. Gwyddom nad breuddwydio yr ydym gan nad pa mor analluog yr ydym i brofi hyny trwy ymresymiad. Nid yw yr anallu hwn yn profi ond gwendid ein cynneddfau i ymresymu, ac nid ansicrwydd ein holl wybodaeth. Ië, y mae ein gwybodaeth o egwyddorion cyntaf mor sicr a dim a geir trwy ymresymiad; ac ar ganfyddiadau y teimlad a'r galon, rhaid i'n holl ymresymiadau orphwys yn ddiweddaf oll. Y mae egwyddorion yn cael eu teimlo, a gosodiadau eu casglu; a'r ddau gyda sicrwydd, ond mewn dull gwahanol. Ac y mae mor afresymol i'r deall ofyn i'r galon am *brawf* o'i hegwyddorion cyntaf, cyn rhoddi cydsyniad iddynt, ag y byddai i'r galon ofyn i'r deall am *deimlad* o'r holl osodiadau a brofir ganddo."

Y mae yr ymchwiliadau uchod wedi dangos, yn ail, fod *gostyngeiddrwydd* yn dymmer briodol i'r athronydd yn gystal ag i'r Cristion. Y mae y cymhwysder yma, gyda chymhwysderau ereill, yn cael eu hargymhell yn y dyfyniad canlynol o Pascal: "Rhaid fod ynom dri ansawdd; tymmer yr ammheuwr, yr ymresymwr, a thymmer y Cristion sydd yn ymostwng mewn ffydd. Y mae y rhai hyn yn ymuno â'u gilydd, ac yn tymmeru eu gilydd; a than eu dylanwad, ni a *ammheuwn* lle y dylem, ni a *ddadleuwn* lle y dylem, ac a *ymostyngwn* lle y dylem." Y mae yn *Gomer* yr anghreifftiau canlynol allan o "Ddoethineb y Cymry," i egluro hyn:—

"Nid call ond a welo ei hûn yn fôl.
Nid adnabyddus ond a adnebydd ei hûn.
Nid deallus ond a ddeall ei wall ei hunan."



Digitized by Google

A dybena yr Archddiacon Williams y gyfrol gyntaf o'i waith trwy ddyweyd fod "yr athroniaeth a gamarweiniodd brif feddyliau Ewrop, yn cyhoeddi fel ei hegwyddor arweiniol ar hyn, '*Ammheua*, mewn trefn i ddeall,' yn lle '*Cred* mewn trefn i ddeall.' Hon ydyw y ddyledswydd gyntaf a ofynir gan athroniaeth a Christionogaeth; a chyflawniad o hon a wared ddynion oddi wrth gyfeiliornadau ysbrydol a meddyliol." Gwel ANFEIDROL; GWYBODAETH, &c.; ac hefyd PYRRHO; HUME; DESCARTES.

AMMI, [עַמִּי, *fy mhobl*], a RUHAMAH, [neu efallai yn fwy priodol, *Rachamah*, רחמה, *a gafodd drugaredd*]. Gwel *Hos.* ii. 1. Y mae yr enw hwn, a roddwyd ar y deg llwyth ar ol eu gwrthodiad, yn arwyddo, y bydd yn y dyddiau diweddaf, neu y milflwyddiant, i Dduw eu gwaredu o'u holl drueni a'u caethiwed, a'u dwyn hwynt i berthynas gyfammodol neillduol âg ef ei hun. Sylwed y darllenydd, fod y prophwyd yn cael gorchymyn gan yr Arglwydd i alw brodyr a chwiorydd yr eglwys wrth yr enw hwn. "Dywedwch wrth eich brodyr, Ammi; ac wrth eich chwiorydd, Ruhamah. Dadleuwch â'ch mam, dadleuwch." Er ei bod wedi ei bwrw ymaith o achos ei hanffyddlondeb gwaradwyddus, eto, y fath yw y ddarpariaeth a wnaed er ei hadferiad yn Nghrist, fel y bydd iddi ddychwelyd at ei Harglwydd cyfreithlawn. "O achos hyn (medd yr Arglwydd), dadleuwch â'ch mam, dadleuwch;" gweithiwch ar ei theimladau mamaidd; gwnewch iddi weled, er ei bod drwy ei godineb wrth gyfraith yn ddarostyngedig i ysgariaeth cyfiawn am byth; eto nad yw hawl y gŵr (cyntaf) iddi erioed wedi ei golli. Y mae yn ei harddelwi fel ei eiddo. "Dychwel drachefn ataf fi, medd yr Arglwydd." Gwel RUHAMAH.

Os arweinir y darllenydd i ystyried y mater yn y golygiad hwn, y mae y geiriau Ammi a Ruhamah, yn nghyd â'r athrawiaethau cyssylltiedig â'r naill a'r llall, yn ymddangos yn ddwys a thyner tu hwnt i bob dychymyg.—*Hawker.* *Ammi* a *Ruhamah*, yn arwyddo adferiad y genedl; yn gyferbyniol i'r enwau *Lo-ruhamah* a *Lo-ammi* (*Hos.* i. 6—9), yn arwyddo ei gwrthodiad.

1. AMMIEL, [עמיאל]: tad Bathsua, neu Bathseba: 1 *Cron.* iii. 5. Gelwir ef Eliam yn 2 *Sam.* xi. 3—enw yn cael ei wneyd i fyny o'r un llythyrenau: a thybia rhai mai yr un ydoedd a mab Ahitophel y Giloniad, un o gedyrn Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 34.

2. AMMIEL: blaenor y chweched dosbarth o'r porthorion: 1 *Cron.* xxvi. 5.

AMMI-NADIB. Yn *Can.* vi. 12, crybwyllir cerbydau Ammi-nadib, megys yn ddiarebol am eu cyflymdra. Am Ammi-nadib, ni wyddys chwaneg nag a ellir ei gasglu yma; sef yr ymddengys ei fod fel Iehu, yn un o brif gerbydwyr ei oes. Mewn amryw lawysgrifau, y mae y meddylddrych Hebraeg yn rhanedig i ddau air, עמי נדיב—*Ammi nadib;* yr hyn ni feddylia enw person, eithr arwydda, "yn fy moddlonrwydd," neu "pobl foddlawn i'w llywodraeth." Dilynwyd y rhaniad yma yn y Syriaidd, a chan yr Iuddewon yn eu cyfieithiad Yspaenaidd, a chan amryw gyfieithwyr diweddar; ond wrth ei gymmeryd yn y dull hwn, y mae yn anhawdd rhoddi unrhyw ystyr foddhaol i'r frawddeg.—(*Good's Song of Songs*, vi. 12; *Kitto's Cycl. of Bib. Lit.*, d.g. *Aminadab.*)

AMMON—IAID, [עמון, *ei bobl*]; neu BEN-AMMI, [*mab fy mhobl*]: oedd fab Lot, o'i ferch ieuangaf, a thad yr Ammoniaid. Trigent mewn parth o wlad o du y dwyrain i'r Amoriaid, ac yn cael eu gwahanu oddi wrth wlad Moab gan yr afon Arnon. Preswylid hi, cyn iddynt hwy ei meddiannu, gan gawri, a elwid y Zamzummiaid: "Ond yr Arglwydd a'u dyfethodd hwynt o'u blaen hwy (meibion Ammon), a hwy a ddaethant ar eu hol hwynt, ac a drigasant yn eu lle hwynt;" *Deut.* ii. 21, 22. Pa bryd y cymmerodd hyn le, nid yw hysbys. Yr oedd gan yr Ammoniaid freninoedd, ac yr oeddynt yn ddienwaededig: *Ier.* ix. 25, 26. Ymddengys mai eu prif lafur oedd amaethyddiaeth. Gorchymynwyd i Israel, pan ar derfynau Gwlad yr Addewid, i beidio molestu a gorthrymu meibion Ammon, yn nghyd â'r Moabiaid; "o blegid," medd yr Arglwydd, "ni roddaf feddiant o dir meibion Ammon i ti; canys rhoddais ef yn etifeddiaeth i feibion Lot;" *Deut.* ii. 19. Ond er eu bod wedi eu harbed ganddynt yn ol y gorchymyn, a'u cadw rhag pob anfantais ac anghysur y gallasai mynediad y fath luoedd anferth drwy eu gwlad eu hachlysuro, eto ni ddangosasant un caredigrwydd tuag at feibion Israel: ni ddaethant i gyfarfod Israel â bara ac â dwfr yn y ffordd, a chyflogasant Balaam, y dewin, i'w melldithio hwynt. O herwydd eu hanghymmwynasgarwch a'u gwaith yn ad-dalu y daioni a ddangoswyd iddynt â drwg, rhoddwyd gwaharddiad na oddefid i nac Ammoniad na Moabiad ddyfod i gynnulleidfa yr Arglwydd hyd y ddegfed genedlaeth: *Deut.* xxiii. 3, 4. Bwriadwyd y gwaharddiad hwn i fod yn barhaus. Pan ddarllenwyd llyfr y gyfraith yn amser Nehemiah, "cafwyd yn ysgrifenedig ynddo, na ddylai yr Ammoniad na'r Moabiad ddyfod i gynnulleidfa Duw yn *dragywydd*: *Neh.* xiii. 1. Y crybwylliad cyntaf am eu gwrthwynebiad i Israel, a wneir yn *Barn.* iii. 13; "Eglon, brenin Moab, a gasglodd ato feibion Ammon, ac Amalec, ac a aeth ac a darawodd Israel." O ddeutu cant a deugain mlynedd wedi hyn, hysbysir ni fod Israel wedi gadael Iehofah, a "gwasanaethu Baalim ac Ashtaroth, a duwiau Syria, Sidon, a Moab, a *duwiau meibion Ammon;*" am eu puteindra oddi wrth Dduw, "efe a'u gwerthodd hwynt yn llaw y Philistiaid, ac yn llaw meibion Ammon." Aeth meibion Ammon trwy yr Iorddonen, i ymladd yn erbyn Iudah, Beniamin, ac Ephraim; "fel y bu yn gyfyng iawn ar Israel." Yn eu cyfyngder, llefasant ar yr Arglwydd; dywedasant wrtho, "Pechasom!" Bwriasant y duwiau dyeithr o'u mysg, a gwasanaethasant yr hwn a'u dygasant o wlad yr Aipht; a dywedir fod "enaid Iehofah wedi tosturio o herwydd adfyd Israel." Cyfododd Iephthah, y Gileadiad, yn waredydd iddynt. Anfonodd at frenin yr Ammoniaid, i ofyn iddo am ei reswm dros ymosod ar ei wlad; a'r atebiad a gafodd oedd, mai "o herwydd i Israel ddwyn ei wlad, pan ddaeth i fyny o'r Aipht, o Arnon hyd Iabboc, a hyd yr Iorddonen;" *Barn.* xi. 13. Ond anfonodd Iephthah genadau ato yn ol, y rhai a brofasant fod y cyhuddiad yn ddisail; o blegid mai i'r Amoriaid, ac nid i feibion Ammon, y perthynai y diriogaeth a orweddai rhwng Arnon a Iabboc. Yn *Ios.* xiii. 25, gelwir y diriogaeth hon yn "hanner gwlad meibion Ammon;" ond ymddengys, oddi wrth *Num.* xxi. 26—29, fod Sehon, brenin yr Amoriaid, wedi dwyn y tiroedd hyn oddi arnynt, yr hyn sydd yn profi gwirionedd haeriad Iephthah. "Tarawodd Iephthah yr Ammoniaid o Aroer hyd Minnith, sef ugain

Digitized by Google

dinas, â lladdfa fawr iawn;" *Barn.* xi. 33. Ennillwyd buddugoliaeth fawr arnynt (c. c. 1095) gan Saul (1 *Sam.* xi. 11), pan y lladdwyd Nahas, eu brenin. Mewn canlyniad i'r dirmyg a wnaeth Hanun ar genadau Dafydd, gorchfygwyd yr Ammoniaid a'r Syriaid, y rhai a ddaethant i'w cynnorthwyo, gan Israel: 2 *Sam.* x. Yn mhen blwyddyn, gwarchaeodd Dafydd ar Rabbah, eu prif ddinas, ac fe'i cymmerodd hi, yn nghyd âg ysbail lawer: 2 *Sam.* xii. 26—31. Yn nheyrnasiad Iehosaphat, ymunodd yr Ammoniaid â'r Moabiaid, ac â llwythau ereill o fynydd Seir, i oresgyn Iudah: ond trwy gyfryngiad dwyfol, distrywiasant eu gilydd, yn lle Iudah; a bu Iehosaphat a'i bobl am dridiau yn ysglyfaethu yr ysbail: 2 *Cron.* xx. 25. Pan ddygwyd y ddau lwyth a hanner i gaethiwed, darfu i frenin Ammon etifeddu Gad, a'i ddinasoedd; ac am hyn y cyhoeddodd yr Arglwydd, trwy Ieremïah, farnedigaeth yn erbyn yr Ammoniaid—y byddai Rabbah, y brif ddinas, yn garnedd anghyfanneddol, ac y llosgid ei merched â thân: *Ier.* xlix. 1, 2. Daeth meibion Ammon, a chenedloedd ereill, i fyny yn erbyn Ierusalem (c. c. 607), gyda Nebuchodonozor, ac ymunodd â hwy yn eu gorfoledd am ei chwymp; ac am hyn y prophwydodd Ezeciel "ddial Duw" arnynt: *Ezec.* xxvi. 2, 3. Ar ddychweliad yr Iudddewon o Babilon, dangosodd meibion Ammon eu hen gasineb tuag atynt, trwy ddirmygu a gwrthwynebu eu gwaith yn ail adeiladu Ierusalem: *Neh.* iv. 3, 7, 8.

Prif dduw yr Ammoniaid a elwir yn y Beibl Moloch; addolent hefyd eilun a elwid Chemos. Dygwyd addoliad y cyntaf i Israel gan y gwragedd a gymmerasai Solomon o fysg yr Ammoniaid; ac ni ddistrywiwyd yr uchelfeydd a godasai i'r ffieidd-dra hwn hyd amser Iosïah. Y mae y wlad a breswylid gynt gan yr Ammoniaid yn gorwedd i'r dwyrain o Palestina; a meddiennir hi yn awr gan yr Arabiaid a'r Tyrciaid. Y mae yn naturiol yn un o'r taleithiau mwyaf ffrwythlawn yn Syria, ac yr oedd am lawer o oesoedd yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd.

Y mae yr adroddiadau a rydd gwahanol deithwyr o ansawdd y wlad hon yn bresennol, yn brawf fod y Duw mawr yn alluog i gyflawnu yr hyn a lefara. Edrycher y prophwydoliaethau hyn—*Ezec.* xxv. 2, 5, 7, 10; xxi. 32; *Ier.* xlix. 2; *Seph.* ii. 9: a chymharer hwynt â'r adroddiadau canlynol. "Y mae yr holl wlad hon, yr hon oedd gynt mor boblogaidd a blodeuog, yn bresennol yn ddiffaethwch anferth." [*Seetzen's Travels.*] "Gwelir adfeiliau yn mhob cyfeiriad. Rhenir y wlad rhwng y Tyrciaid a'r Arabiaid; ond perchenogir hi yn benaf gan y diweddaf; ac y mae gorthrymder y naill, ac anrheithiad y llall, yn ei chadw yn 'anghyfannedd-dra gwastadol,' ac yn ei gwneyd 'yn fwyd i'r Cenedloedd.' Y mae y rhan fwyaf o'r wlad heb ei phreswylio, yn cael ei gadael i'r Arabiaid crwydredig, ac y mae y trefi a'r pentrefi mewn ystâd gwbl adfeiliedig." [*Seetzen's Travels.*] "Yn barhaus, ac yn mhob lle, gellir gweled olion hen ddinasoedd, gweddillion hen demlau, adeiladau cyhoeddus, ac eglwysi Groegaidd." [*Burckhardt's Travels.*] "Ni chofir meibion Ammon yn mysg y Cenedloedd;" *Ezec.* xxv. 10. Tra y mae yr Iuddewon, y rhai a fuont yn hir yn elynion iddynt, yn parhau yn bobl mor neillduol ag erioed, er yn wasgaredig yn mysg pob cenedl, nid oes un arwydd fod yr Ammoniaid yn aros: nid oes neb yn awr yn cael eu galw felly, na neb yn hawlio disgyniad oddi wrthynt. Parhasant, pa fodd bynag, am amser maith ar ol i'r brophwydoliaeth gael ei mynegu; o blegid cadwent eu henw, a pharhasant yn lluosog hyd yr ail ganrif o'r cyfnod Cristionogol: ond erbyn hyn, ïe, oesoedd cyn hyn, y mae meibion Ammon wedi eu hanghofio yn mysg y Cenedloedd!

AMMONIAETH: cyfundraeth Ammonius Saccas, athronydd Cristionogol o Alexandria. Yr oedd yn byw o ddeutu diwedd yr ail ganrif. Ystyrir ef fel sylfaenydd yr athroniaeth hono a elwir yr Alexandriaidd, neu y Blatonaidd Newydd. Yr oedd Plotinus, Longinus, ac Origen, yn mysg ei ddysgyblion. Fel yr oedd ei athrylith yn eang a chynnwysfawr, felly hefyd yr oedd ei gynlluniau yn anturiaethus a hynod. Cynnygiodd wneyd undeb cyffredinol rhwng pob sect, pa un bynag ai athronyddol ynte crefyddol, trwy ffurfio cyfundraeth o athrawiaethau, y rhai y tybiai ef oeddent yn tueddu i'w huno oll yn yr undeb mwyaf perffaith. Mewn trefn i gyrhaedd hyn, dysgai fod egwyddorion mawrion pob gwirionedd athronyddol a chrefyddol i'w canfod yn mhob sect—nad oeddent yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd ond yn unig yn eu dull o'u gosod allan, ac mewn rhai pethau o ychydig bwys—ac y gallent, trwy eglurhad penodol o'u golygiadau, eu crynoi i un corff. Mewn cydffurfiad â'r cynllun hwn, credai y dylid adferu holl gyfundraethau crefyddol y Cenedloedd i'w purdeb cynhenid, a'u dwyn at eu safon gwreiddiol, sef hen athroniaeth y dwyrain, yr hon a gedwir yn ddilwgr yn Plato; a chadarnhäai fod y cynllun hwn yn gydunol â bwriadau Iesu Grist, unig amcan yr hwn, wrth ddisgyn o'r nef, oedd gosod terfynau i'r hygoeledd oedd yn ffynu: symmud y cyfeiliornadau a ymblethasant â chrefyddau yr holl genedloedd, ac nid i ddiddymu yr hen dduwinyddiaeth, o ba un y daethant allan. Cynnwysa y gyfundraeth hon reolau moesol. Caniateir i ddyn fyw yn ol deddfau ac arferion ei wlad, ac yn ol cyfarwyddiadau natur; eithr gorchymynir i'r dyn doeth ddyrchafu ei feddwl drwy fyfyrdod, ac i farweiddio y corff, fel y gallo fod yn alluog i fwynhau presennoldeb a chynnorthwy y duwiau, ac esgyn ar ol angeu i bresennoldeb y Rhiant Goruchaf. Mewn trefn i gymmodi y crefyddau poblogaidd, ac yn enwedig y grefydd Gristionogol, gyda'r ddysg newydd hon, efe a wnaeth holl hanes y duwiau paganaidd yn alegori, gan fyntumio nad oeddynt ond gweinidogion nefol, yn meddu hawl i fath o addoliad isel. Addefa fod Iesu Grist yn ddyn da, ac yn gyfaill Duw; ond dywedai nad oedd yn amcan ganddo ddinystrio yn gwbl addoliad y duwiau paganaidd, ond mai ei unig amcan oedd puro yr hen grefydd. Bu y gyfundraeth hon, er mor deg yr olwg yn ei chyfodiad, yn achos o gyfeiliornadau afrifed, a llawer o lygredigaethau yn yr Eglwys Gristionogol. Yn ei sefydliad cyntaf, cymmeradwywyd hi gan Athenagoras, Pantænus, a Chlement o Alexandria; ac wedi hyny, derbyniwyd hi gan luaws o Gristionogion a phaganiaid.

AMNAID—EIDIO: arwydd, neu awgrym, a wnelo un â'i lygad, ei ben, neu ei law. *Salm* xxxv. 19: "Y sawl a'm casânt yn ddiachos, nac *amneidiant* â llygad." Y mae y gair Hebraeg, *curats*, yn arwyddo llygad-gamu mewn gwatwargerdd, neu amlygu eithaf diystyrwch. Un o nodau dyn i'r fall, a gŵr anwir, yw, ei fod yn amneidio â'i lygaid (*Diar.* vi. 13). Fe olygir yr arferiad yma yn ein mysg ninnau, yn gyffredin, yn arwyddo *twyll:* ac y mae y cyfryw ddyn dichellgar, twyll-

Digitized by Google

odrus, yn sicr o beri llawer o flinder mewn cymdeithas: *Diar.* x. 10; "Y neb a amneidio â'i lygaid a bair flinder."

AMNER, [*am a ner=am yr hyn sy'n meddu yni* neu *rym.—Dr. Pughe*]: pwrs, cod, cwd, coden, alwar, powtner, pwtner. Cyfieitha W. Salesbury ddau air Groeg yn *amner*, *βαλάντιον (balantion)*, a *γλωσσόκομον (glôssocomon)*. Yn y Testament Newydd, ceir y cyntaf yn *Luc* x. 4; xii. 33; xxii. 35, 36. Yn *pen.* xii. 33, cyfieitha y gair yn *amnerae;* "Gwnewch y-chwy *amnerae* (ymyl y ddalen, "byrsau") a'r ny's hen eiddiant:"—y cyfieithiad awdurdodedig, "pyrsau:" yn "Oraclau Bywiol" J. W., "alwarau." Ond yn *pen.* x. 4, cyfieitha W. S. yr un gair fyth yn "côd;" ac felly y cyfieithiad awdurdodedig, ac "Oraclau Bywiol" J. W. Eto, yn *pen.* xxii. 33, 36, cyfieitha W. S. yr un gair fyth yn "cwd" (ymyl y ddalen, "côd, amner, pwrs"); ac yma, fel yn yr anghraifft gyntaf, y cyfiethiad awdurdodedig a'i trydd yn "pwrs," ac "Oraclau Bywiol" J. W. yn "alwar." Nid yw y cyfieithiad Seisonig nemawr well; oanys yn un o'r manau yna (*pen.* xii. 33), ceir y gair "*bags,*" ac yn y lleill, "*purse;*" ond Theo. Beza a'i cyfieitha yn yr holl adnodau yn gysson â'r gair Llad. "*crumena.*" Y gair Hebraeg cyfystyr yw כִּיס *(cis)—yr hyn a guddia* neu *a gau arian i mewn.* *Diar.* i. 14; *Esa.* xlvi. 6; *Micah* vi. 11.

Ceir y gair arall *(γλωσσόκομον)*, a gyfieitha W. S. yn *amner*, yn *Ioan* xii. 6, a xiii. 29, yr unig fanau lle y mae y gair Groeg yma yn y Testament Newydd. "Pwrs" sydd gan y cyfieithiad awdurdodedig yn yr adnod gyntaf, a "côd" yn y llall: "côd" sydd yn "Oraclau Bywiol" J. W. yn y ddwy adnod; a "*bag*" ydyw y gair Seisonig, a *marsupium* ydyw y Lladin yn y ddau le. Cyfieithir dau air Groeg arall hefyd yn y cyfieithiad awdurdodedig yn "côd," "ysgrepan," "pwrs," a "gwregys!" Y cyntaf, *πήρα (pera)*, a geir yn *Mat.* x. 10; *Marc* vi. 8; *Luc* ix. 3: x. 4; xxii. 35, 36; lle y ceir "côd," weithiau, ac "ysgrepan," bryd arall, yn y cyfieithiad awdurdodedig. Felly hefyd y ceir ef yn "Oraclau Bywiol" J. W.; ond W. S., yn fwy cysson, a gyfieitha hwn yn mhob man yn "ysgrepan;" a'r Seisonig, "*scrip;*" a'r Lladin, "*pera.*" Y gair Groeg arall, *ζώνη (zône)*, a geir yn *Mat.* iii. 4; x. 9; *Marc* i. 6; vi. 8; *Act.* xxi. 11; *Dad.* i. 13; xv. 6, lle y ceir "pwrs," a "gwregys," yn y cyfieithiad awdurdodedig, yn blith draphlith. W. S. a J. W. a gyfieithant hwn, bob amser, yn "gwregys;" ond y cyfieithiad Seisonig, fel ein cyfieithiad awdurdodedig ninnau, a'i trydd weithiau yn "*girdle,*" ac weithiau yn "*purse,*" tra y ceidw y Lladin yn gysson at y gair *zona.*

Wedi chwilio y pedwar gair Groeg a nodwyd ar ddechreu yr erthygl hon, er anghraifft, yn y dull a gymhellir yma, tybir y gellid eu cyfieithu yn briodol yn mhob man yn y Testament Newydd fel hyn:—

**Βαλάντιον** [o *βάλλειν ἐντός—taflu i mewn*], pwrs; *lli*, pyrsau. [Nid yw y gair "pwrs" yn Ngeiriadur y Dr. Pughe, ond y mae yn Ngeiriadur y Dr. Davies, ac yn yr eiddo y rhan fwyaf o'i olynwyr; ac y mae yn yr iaith Gymraeg, ac ar arfer gwlad, er ys cannoedd o flyneddoedd; ac y mae yn llawer mwy cynnefin nag *amner, alwar, powtner,* a *pwtner.*]

**Γλωσσόκομον** [o *γλῶσσα, tafod,* a *κομέω, cadw—côd* neu *goffawr i gadw tafodau* neu *chwythbibau offer cerdd*], cod: *lli.* codau.

**Ζώνη** [o'r Heb. זנה, *zana—amgylchu, cylchwregysu*], gwregys: *lli.* gwregysau.

**Πήρα** [o *φέρω—cario*], ysgrepan: *lli.* ysgrepanau.

Y mae cyfieithu amryw eiriau Groeg fel hyn, sydd mor wahanol eu hystyr, i'r un gair Cymreig, a chyfieithu yr un gair Groeg i gynnifer o eiriau Cymreig mor wahanol eu hystyr, fel y gwneir y naill beth a'r llall yn yr anghreifftiau uchod—mae hyn yr anfantais fwyaf i'r efrydydd ysgrythyrol i ddeall yr ysgrifenwyr gwreiddiol yn gywir a goleu. Ond ni wyddys am un moddion diogelach i'r efrydydd i gyrhaedd y cywirdeb cyfieithiadol manwl sydd yn gweddu i'r llyfr sanctaidd, na "chymharu ysgrythyr âg ysgrythyr," trwy gymhorth mynegeiriau da a helaeth. Gwel Cod; Gwregys; Pwrs; Ysgrepan.—*(Wigram's Concordance; Cruden's Con.; Butterworth's Con., by Dr. Adam Clarke; Bag. Crit. Gr. and Engl. New Test.)*

AMNERYDD, [*Almoner;* neu *Amner*]: enw a roddid weithiau ar y rhai a fyddent yn cyfranu arian a adewid mewn ewyllysiau i dlodion; bryd arall, y rhai a fyddent yn gadael elusenau yn eu hewyllys; ac weithiau, y tlodion a fyddent yn derbyn yr elusen. Y mae yn arwyddo, hefyd, swyddog y brenin, tywysog, prelad, neu yr eiddo unrhyw ŵr mawr a fyddai yn cyfranu ei elusenau i'r tlodion. Yr oedd pob mynachdy mawr gynt yn Lloegr yn meddu ei amnerydd. Cadwai breninoedd Ffrainc, a phabau Rhufain, swyddog i'r dybenion hyn er yn dra bore. Gorchwylion yr Uchel Amnerydd, yn amser Edward I., oedd casglu y gweddill ar y bwrdd breninol, a'i gyfranu yn ddyddiol i'r tlodion; ymweled â'r cleifion, gwragedd gweddwon, carcharorion, ac ereill mewn cyfyngder. Coffäai y brenin hefyd am ei gyfraniadau, yn enwedig ar wyliau penodol; a gofalai na byddai i ddilladau gwerthfawr a fwrid o'r neilldu gael eu rhoddi ymaith heb i'w gwerth gael ei dderbyn, mewn trefn i chwanegu elusenau y brenin. Y mae y swydd o Arglwydd Uchel Amnerydd wedi bod yn hir mewn amseroedd diweddar yn cael ei dal gan archesgobion Caerefrog. Delir y swydd o Is-amnerydd yn bresennol gan ddeon Caerlleon. Cyfrenid, gynt, elusenau y brenin yn ddyddiol i bedwar ar ugain o dlodion, a enwid gan y plwyfolion yn y plwyf nesaf at y palas breninol, ac i ereill a fyddent wedi bod yn ngwasanaeth y brenin, ond wedi myned yn rhy hen, ac hefyd i weddwon gwasanaethwyr ei fawrhydi a fyddent wedi marw yn dlodion, ac heb allu darpar gogyfer âg angen eu gwragedd a'u plant ar ol eu marwolaeth. Cyfrenir rhodd flyneddol yn bresennol gan yr Arglwydd Amnerydd, yn enw y frenines, ar y dydd Iau nesaf i'r Pasc. Sefydlwyd athraw Arabaeg yn Nghaergrawnt yn y flwyddyn 1770, ac y mae yn cael ei benodi gan yr Arglwydd Amnerydd, ac hefyd yn derbyn ei dâl ganddo o'r arian sydd dan ei ofal. Yr oedd swydd amnerydd yn cael ei dal gynt yn Ffrainc gan yr hwn a fyddai yn y swydd eglwysig uchaf yn y deyrnas, ac yr oedd cyfraniad elusenau y brenin, ac arolygiad yr holl dai lle y gwneid elusen yn y deyrnas dan ei ofal. [*Cycl. of Pol. Knowledge.*]

Rhoddir yr enw hefyd, gan haneswyr eglwysig, ar ddiaconiaid yr eglwysi. Yr oedd cyfranu elusen yn rhan bwysig o swydd y diaconiaid yn yr Eglwys Gristionogol: *Act.* vi. 1—3. Fel yr oedd llafur yr apostolion yn cynnyddu, a'u cylch yn myned yn fwy eang, gwelwyd yn angenrheidiol cael dynion "da eu gair," i'w gosod "ar hyn

o orchwyl," fel y byddai iddynt hwy ymroddi yn fwy llwyr i "weddi a gweinidogaeth y gair." Dangosid caredigrwydd mawr gan y Cristionogion boreuaf tuag at eu gilydd mewn amgylchiadau o gyfyngder: *Act.* xi. 29, 30; 2 *Cor.* viii. 4; *Gal.* ii. 10; ac yr oedd yn angenrheidiol cael dynion "llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb" i gyflawnu "gweinidogaeth y saint"—i ddwyn caredigrwydd y naill eglwys i'r llall, ac i gael allan pa le y byddai gwir angen. Gwel ELUSEN.

AMNON, [אמנון, *ffyddlawn*]: mab hynaf Dafydd o Ahinoam, ei ail wraig, yr hwn a halogodd ei chwaer Tamar. Yn mhen dwy flynedd wedi hyn, gorchymynodd Absalom i'w weision ei ladd pan yn ei feddwdod yn Baal-hasor, yn agos i Ephraim, am y trachwant anghyfreithlawn a nodwyd: 2 *Sam.* xiii. Gwel ABSALOM.

AMON, [אמון]: *Ier.* xlvi. 25, ymyl y ddalen. Un o dduwiau yr Aipht; ac yn ol barn unfryd ysgrifenwyr awdurol, yr un a Zeus neu Iau. Ymddengys mai yn Mercë yr oedd gorsaf gyntaf ei addoliad, oddi yno disgynodd i Thebes, ac oddi yno, yn ol Herodotus (ii. 54), fe'i trosglwyddwyd i Oasis Siwah ac i Dodona; yn yr holl leoedd hyn yr oedd iddo oraclau enwog. Ei brif deml a'i oracl yn yr Aipht, modd bynag, ydoedd yn Thebes; dinas a gyssegrasid yn benodol iddo; yr hon, mae'n debyg, a feddylir wrth No, a No Amon y prophwydi. Arddangosir ef yn gyffredinol ar gof-adeiladau yr Aipht ar lun dyn yn eistedd, âg iddo ben hwrdd, neu ynte ar lun hwrdd



Dar. 37.

cyflawn, ac o liw glas. Preswylwyr y Thebaid, er anrhydedd iddo, a ymgadwent rhag bwyta cig defaid; ond aberthent hwrdd iddo yn flynyddol, a gwisgent y ddelw â'r croen. Pa reswm oedd am y defodau coelgrefyddol hyn, nid yw yn hawdd gwybod. Oddi wrth hen gerfiadau Aiphtaidd, a dysgrifiadau yr hynafiaid, tybir y byddai yn rhoddi ei atebion oraclaidd drwy ryw arwyddion yn amser mudiad ei babell, yr hon a gyfodid mewn bâd, ac a ddygid ar ysgwyddau deugain o offeiriaid.

Am y gallu a addolid dan ffurf Amon, haera Macrobius (*Saturnal* i. 21), fod y Lybiaid, dan rith Amon, yn addoli yr haul ar fachlud; ond mae yn cyfeirio at y cyssylltiad oedd rhwng cyrn yr eilun ac arwydd yr hwrdd yn y sidydd. Rhai a geisiant brofi fod Amon yn arwyddo yr haul yn Alban Eilir, ac ereill a dybiant ei fod yn dynodi gorlifiad y Nilus yn Alban Elfed. Pa fodd bynag am hyny, amlwg yw fod y cyfatebolrwydd a dybia rhai rhwng gŵyl Amon a'r Pasc Iuddewig yn hollol ddisail; o blegid oen gwryw, neu fŷn, ac nid hwrdd, oedd aberth y Pasc.

Y mae tarddiad yr enw yn aneglur: yn ol rhai, arwydda *bugail* ["maethydd"]; a rhai a dybiant mai y meddwl yw *cynnyrchu goleuni;* ac ereill, mai yr ystyr yw *cuddiedig*. Nid oes braidd ammheuaeth nad yw y testyn Hebraeg gyda'r nodau llafar yn gosod allan yn gywir enw Aiphtaidd yr eilun; o blegid gellir casglu oddi wrth ffurf yr enw yn yr ysgrifeniadau awdurol, fod yr enw cynnwynol Amn, yn cael ei swnio Amon, ac ymddengys fod y Groegiaid wedi ei newid i Ἄμμων.

Nid oes achos i ammheu nad yw enw y gau dduw hwn mewn gwirionedd i'w gael yn *Ier.* xlvi. 25; "Wele, myfi a ymwelaf ac Amon No." Mae y cyd-destyn, a'r holl seiliau mewnol, yn ffafriol i'r cyfieithiad hwn. Y Deg a Thrigain a'i cyfieitha Ἀμμών, fel y mae hefyd yn galw No yn Διόσπολις yn *Ezec.* xxx. 14. Mae y Peshito yn ei gymmeryd fel enw priod, gan nad yw אמון yn hanfodi yn y Syriaeg yn yr ystyr sydd iddo fel gair Hebraeg pur. Mae *Targum Jonathan* a'r *Vulgate*, modd bynag, wedi cyfieithu yr ymadrodd, "lluaws Alexandria." Y rheswm am gymmeryd y gair yn arwyddo "lluaws" yw, ei fod yn cael ei arferyd yn yr ystyr hwnw yn *Ezec.* xxx. 15. Eto, y mae dysgedigion diweddar yn tueddu i wellhau y darlleniad, a rhoi Amon, y gau-dduw Aiphtaidd, yn y ddau le. [Gwel *Kitto.*] "Lluaws No:"—ymyl y ddalen, yn y Gymraeg, "Maethydd No: *Heb.* Amon;" *Ier.* xlvi. 25. Yn *Nah.* iii. 8; "No dylwythog:"—ymyl y ddalen, "No fagai: *Heb.* No Amon," ef allai yn golygu Memphis [*Noph*].

AMORIAD—IAID, [Heb. האמלי; Deg a Thrigain, Ἀμοῤῥαῖοι; *chwerw*, *gwrthryfelwr*, fel arall, *brugaldiwr*]: eppil pedwerydd mab Canaan, a'r mwyaf galluog ac enwog o'r llwythau Canaaneaidd: *Gen.* x. 16. Yn amser Abraham, yr oeddynt yn preswylio yn Haseson-tamar; lle a alwyd wedi hyny Engedi: *Gen.* xiv. 7. Cymharer 2 *Cron.* xx. 2. Yr oedd y ddinas hon yn niffaethwch Iudah, nid yn mhell o'r Môr Marw; felly, ymddengys iddynt wladychu ar y cyntaf yn neheubarth Gwlad Canaan; ond wedi hyny, estynasant eu terfynau, a meddiannasant randiroedd ffrwythlonaf Moab ac Ammon, rhwng yr afonydd Iabboc ac Arnon, o du y dwyrain i'r Iorddonen: *Ios.* v. 1; *Num.* xiii. 29; xxi. 29. "Mynydd yr Amoriaid," oedd yn neheubarth Canaan, ac a alwyd wedi hyny "Mynyddoedd Iudah." *Deut.* i. 7, 19, 20; *Ios.* xi. 21; xx. 7; xxii. 11; 2 *Cron.* xxvii. 4. Pan addawodd Duw i Abraham roddi y wlad yn etifeddiaeth i'w hiliogaeth ef, yr oedd tri o'r gynghreirwyr, Mamre, Aner, ac Escol, yn perthyn i'r genedl hon: *Gen.* xiv. 13, 24; xv. 21. Y pryd hyny, ni chyflawnasid anwiredd yr Amoriaid: *Gen.* xv. 16: *h. y.*, nid oeddynt hwy a'r cenedloedd Canaaneaidd ereill, a gynnwysir yma dan enw y genedl flaenaf ac enwocaf o hon ynt, eto wedi cyrhaedd y graddau hyny o annuwioldeb a drygioni ag a wnaethant ar ol hyny. Yn amser Moses, yr oeddynt wedi addfedu i farn; gorchfygodd yr Israeliaid y ddwy freniniaeth gadarn o du y dwyrain i'r Iorddonen, sef yr eiddo Sehon, brenin Hesbon, ac Og, brenin Basan; a Moses a roddodd eu tir yn etifeddiaeth i lwythau Reuben a Gad, a hanner llwyth Manasseh: *Num.* xxi. 21—35; xxxii. 1, &c.; *Deut.* i. 4; *Ios.* xii. 1—6; xiii. 8—33. Gorchfygodd Iosuah, yn mrwydr nodedig Gibeon, bump o'u breninoedd o'r tu yma i'r Iorddonen, ac a lwyr ddifrododd eu gwlad a'u

Digitized by Google

dinasoedd; a daeth yn etifeddiaeth i lwyth Iudah: *Ios.* x. Yr oedd yr Amoriaid yn mhlith y lluoedd cynghreiriol a ddysgrifir yn "bobl lawer, fel y tywod sydd ar fin y môr o amldra; meirch hefyd, a cherbydau lawer iawn." Dywed Josephus eu bod yn 300,000 o wŷr traed, 10,000 o wŷr meirch, ac 20,000 o gerbydau. [*Hynafiaethau Iuddewig*, v. 1]. Daeth Iosuah arnynt yn ddisymmwth wrth ddyfroedd Merom (llyn Samachonites, yn ol Josephus, a elwir yn awr Bahrat-al-Huleh), ac Israel a'u tarawsant hwynt, fel na adawyd un yn ngweddill: *Ios.* xi. 8. c. c. 1450. Ond er eu darostwng felly, cawn fod llawer o'r genedl yn aros mewn rhanau ereill o'r wlad; a chyda eu meirch a'u cerbydau, cyfyngasant y Daniaid i'r mynydd-dir, ac ni adawsant iddynt ymsefydlu yn y gwastadedd; a dywedir fod yr Amoriaid *yn mynu* preswylio yn mynydd Heres yn Aialon, ac yn Saalbim; eto llaw tŷ Ioseph (sef llwyth Ephraim) a'u gorthrechodd hwynt, fel y buant dan dreth iddynt: "a therfyn yr Amoriaid oedd o riw Acrabbim (*ysgorpionau*), o'r graig, ac uchod;" *Barn.* i. 34—36. Yn nyddiau Samuel, yr oedd heddwch rhwng Israel a'r Amoriaid, yr hyn a grybwyllir fel peth nodedig: 1 *Sam.* vii. 14. Cyfododd Solomon dreth wriogaeth (teyrnged o wasanaeth) ar y bobl a adawsid o'r Amoriaid a'r cenedloedd Canaaneaidd ereill: 1 *Bren.* ix. 20, 21. Tebygol mai eu hiliogaeth oedd "meibion gweision Solomon," y sonir am danynt yn *Ezra* ii. 55.

Y mae anghyssondeb ymddangosiadol rhwng *Deut.* i. 44, a *Num.* xiv. 45; gan y dywedir yn y lle blaenaf, mai yr *Amoriaid* a darawsant Israel, ac yn yr olaf mai yr *Amaleciaid.* Yr eglurhad naturiol yw hyn: yn y blaenaf, ni enwir yr Amaleciaid; ac yn yr olaf, wrth Canaaneaid, deallir yr Amoriaid. Y mae Amos (ii. 9) yn son am yr Amoriaid fel cawri o faint a nerth, fel cedrwydd o uchder, ac fel derw o gryfder: ond dichon mai at Og, brenin Basan, yr olaf "a adawsid o weddill y cawri," yn unig y cyfeirir: *Deut.* iii. 11. Yn *Ios.* ix. 7, y mae y Gibeoniaid yn cael eu galw yn *Hefiaid*; ond yn 2 *Sam.* xxi. 2, dywedir mai "gweddill yr *Amoriaid*" oeddynt: efallai am eu bod yn disgyn o un ach gyffredin, ac yn ddarostyngedig i dywysog o'r Amoriaid, gan nad ydym yn darllen fod i'r Hefiaid frenin.

**AMOS**, [עָמוֹס]: un o'r prophwydi lleiaf. Ni wyddir mwy am ei hanes nag a rydd am dano ei hun. Ei le genedigol oedd Tecoa, tref yn llwyth Iudah, yn nghylch deuddeng milltir, deheuddwyreiniol o Ierusalem, a chwech o Bethlehem; un o'r trefydd a amgaerid gan Rehoboam, er diogelwch i'w deyrnas (2 *Cron.* xi. 5—12). Dywedir gan haneswyr diweddar, fod adfeiliau y dref i'w gweled yn awr ar fryn tra uchel, gwastad ar y pen, yn nghylch pedwar neu bum cyfer o dir: creigiog yw yr olwg ar y bryn hwn, ond amgylchir ef â gwastadedd, yn enwedig o du y dwyrain, rhyngddo a'r Môr Marw, a gyfenwid yn "anialwch Tecoa" (2 *Cron.* xx. 20). Felly y gelwid lleoedd na chyfanneddid ynddynt, ond a arferid yn borfeydd i ddefaid, ac anifeiliaid ereill.

Dywed Amos mai "bugail" oedd cyn iddo gael ei alw i fod yn brophwyd; ond nid bugail oedd, fel Mesa, brenin Moab (2 *Bren.* iii. 4), a chanddo ereill tano; gan y dywed i'r Arglwydd ei gymmeryd "oddi ar ol y praidd;" *Amos* vii. 15: felly, yr oedd yn fugail ei hun. Dywed hefyd, ei fod yn "gasglydd ffigys gwylltion," neu ffrwythau y sycamorwydden (*Luc* xix. 4): coedydd oedd y rhai hyn, a debygent i ffigys (Gr. *sycon*) o ran eu ffrwyth, ac i'r morwydd (*moron—mulberry*) o ran eu dail: felly, gellir eu galw yn ffigysmorwydd. Tyfent mewn lleoedd isel: 1 *Bren.* x. 27; 1 *Cron.* xxvii. 28: yr oeddynt yn aml yn Ngwlad Canaan, ac hefyd yn yr Aipht. Gan mai "bugail" oedd Amos, ac hefyd yn gasglydd ffigysmorwydd, diau mai isel oedd ei sefyllfa; ond eto, dewiswyd ef i fod yn brophwyd i Israel, a chynnysgaethwyd ef gan Dduw â doniau addas i'w orchwyl. "Diammheu," medd Calvin, "y danfonid bugail yn brophwyd i Israel, er taflu dirmyg ar eu balchder, am wrthod gwrandaw ar y prophwydi ereill."

Dywed Amos hefyd nad oedd "yn brophwyd nac yn fab i brophwyd" (*Amos* vii. 14): hyny yw, nid oedd yn brophwyd o ran ei alwedigaeth ddechreuol, gan mai bugail oedd; ni chafodd ei ddwyn i fyny yn brophwyd. Yn ol yr hyn a ddarllenwn yn Llyfr Cyntaf Samuel, a manau ereill, yr oedd athrofäau gynt, yn y rhai y dygid i fyny y prophwydi; o herwydd hwy, yn fwyaf neillduol, oeddynt yr athrawon yn y dyddiau hyny, fel yr ysgrifenyddion yn nyddiau ein Harglwydd. Eu swydd oedd ysgrifenu ac eglurhau y gyfraith; a rhai o honynt a gynnysgaethid âg ysbryd prophwydoliaeth er rhagfynegu pethau i ddyfod. Nid oedd Amos wedi cael dysgeidiaeth prophwyd; ac nid oedd chwaith "yn fab i brophwyd;" sef, nid oedd ei dad yn brophwyd; neu, fel y tybia rhai, nid oedd wedi bod yn ddysgybl i brophwyd, gan y gelwid y rhai oeddynt dan addysg "yn feibion y prophwydi" (2 *Bren.* ii. 3). Gwnaed Amos yn brophwyd mewn ffordd anarferol; cafodd ei alw mewn modd neillduol gan Dduw; a hyn a ddylasai beri iddo gael derbyniad neillduol. Ond nid felly y bu; ei wrthod a gafodd fel ereill, gan yr Israeliaid. Ni fynai un moddion a arferai Duw—arferol neu anarferol—er dwyn y bobl eilunaddolgar hyn i'w hiawn bwyll. Nid oes un swyniaeth yn dallu dyn gymmaint ag eilunaddoliaeth.

Am yr amser y prophwydodd Amos, dywed wrthym iddo ddechreu yn nheyrnasiad Uzziah, brenin Iudah; ac yn nheyrnasiad Ieroboam, mab Ioas, brenin Israel. Cyfoedion mewn rhan oedd y breninoedd hyn; a hir y bu y ddau yn teyrnasu; a llwydd helaeth a gawsant yn erbyn eu gelynion cymmydogaethol. Ac o herwydd yr annhrefn, yr annuwioldeb, a'r moethineb, a ganlynasant y llwyddiant hwn, y danfonwyd Amos at bobl Israel, er eu rhybuddio am y barnau a dynent arnynt eu hunain. Enwir hefyd beth arall yn nghylch yr amser, sef iddo ddechreu prophwydo "ddwy flynedd o flaen y ddaiargryn." Dygwyddodd hyn, fel y dywedir gan Zechariah (*pen.* xiv. 5), yn nyddiau Uzziah. Ni sonir ond yma ac yn Zechariah am y dygwyddiad hwn: ond dywed Josephus, yn ei *Hynafiaethau Iuddewig*, i hyn ddygwydd ar y pryd y rhuthrai Uzziah i'r deml i arogldarthu (2 *Cron.* xxvi. 16). Tybir yn gyffredin mai amser Amos oedd yn nghylch 780 cyn Crist, tua'r un pryd ag y prophwydodd Esaiah a Hosea; yr oedd Ionah ychydig o'i flaen, a Ioel a Micah ychydig amser ar ei ol.

**AMOS, LLYFR.** Cynnwysa naw o bennodau, a ellir eu dosbarthu i dair rhan. Yn y gyntaf—*pen.* i, hyd ii. 8—cawn gyhoeddiad o farnau ar amryw leoedd a chenedloedd—Damascus, Tyrus, Edom, Ammon, Moab, Iudah, ac Israel—oll yn saith; a seithwaith y dywedir, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd," neu Iehofah. Arfera y prophwyd hefyd yr ymadrodd anarferol hwn, "am dair o anwireddau, ac am bedair," neu, "am dri throsedd,

Digitized by Google

ac am y pedwerydd." Defnyddia y gair *tri* neu *dair* mewn ystyr annherfynol, i ddynodi llawer. Yr oeddynt yn euog o lawer o droseddau; ond yr oedd un, a enwa yn bedwerydd, yn gyfryw, fel nad arbedid hwynt mwyach; ac mewn perthynas iddynt oll, fe nodir yn neillduol y pedwerydd; ac o ran pawb o honynt, rhyw greulondeb barbaraidd a enwir. Yn yr ail ran—*pen.* ii. 9; a iii, iv, v, vi,—pobl Israel yn unig a olygir: a nodir eu hanniolchgarwch i Dduw, eu gormes, eilunaddoliaeth, moethineb, annheimladrwydd tan gospedigaethau, defodau rhagrithiol, a'u caethiwed. Cawn yn y drydedd ran—*pen.* vii, viii, ix—*bum* gweledigaeth, oll yn perthyn i bobl Israel; a'u dyben yw dangos diammheurwydd ac agosrwydd eu caethiwed: a diwedda y llyfr gyda phrophwydoliaeth hynod am eu dychweliad, a gynnwysir yn y pum adnod olaf. Wedi traddodi y drydedd weledigaeth (*Amos* vii), cyhuddwyd ef wrth y brenin gan Amaziah, offeiriad Bethel, fel un yn codi cynhwrf yn y wlad. A barna rhai orfod arno ymadael wedi hyn i'w wlad ei hun.

Er mai bugail oedd Amos, heb ddysg—megys dysgyblion ein Harglwydd—eto, meddiannai gymhwysderau neillduol tuag at ei swydd. Darfu Jerome, un o'r hen dadau, mewn rhyw fodd, ddyweyd peth hollol anghysson am dano yn yr ystyr hyn; sef, "ei fod yn anfedrus yn ei ymadrodd" (*imperitus sermone*). Nid oedd ynddo un diffyg o'r fath hyn; o herwydd, fel y dywed y dysgedig Lowth, "Pe chwiliai neb ei ysgrifeniadau, gan ystyried y mater, ac nid y dyn, byddai iddo, yn ddiau, dybied nad oedd ein bugail *ddim yn ol i'r apostolion penaf;* gan ei fod, mewn goruchder syniadau ac ucheledd ysbryd, yn mron yn gydradd â'r penaf, heb fod yn iselach braidd na neb o honynt o ran harddwch ymadrodd a dillynder cyfansoddiad. [*Durlithiau Hebraeg*, dar. 21.] "Ceir ynddo," medd yr archesgob Newcome, "amryw fanau tra chyffrous a thoddedig, amryw yn ddillyn ac yn oruchel. Ni rydd un prophwyd ddarluniadau mwy godidog o fawredd Duw, neu geryddon mwy llym i'r gloddestgar, neu a ddengys fwy o frydaniaeth yn erbyn gormes ac anghyfiawnder, neu ddigllonedd mwy uchelfryd o'u herwydd."

Dechreua ei lyfr yn y geiriau hynod a chyffrous hyn:—

> Iehofah, o Sïon y rhua,
> Ac o Ierusalem y danfon ei lef;
> A galara drigfanau 'r bugeiliaid,
> A gwywa ben Carmel.

Y mae "rhuo" yn dangos mai barn a feddylir, a barn o sychder, gan na fyddai porfeydd i'r anifeiliaid. Dywed yn gyntaf am yr effaith—galar i fugeiliaid: ac yna, yn ol arfer gyffredin y prophwydi, am yr achos; sef gwywo o ben Carmel:—mynydd eang yn agos i Fôr y Canoldir, o fewn terfynau y deg llwyth; ac nid mynydd o'r un enw o du deheu i Ierusalem.

Gellir nodi yn enwedig orlymder y wawdiaith a ganlyn (*Amos* iv. 4, 5):—

> Ewch i Bethel a throseddwch,
> Yn Gilgal chwanegwch droseddu!
>Ië, dygwch yn y bore eich aberthau.
> Ar y drydedd flwyddyn eich degymau!
> Ac arogldarthwch yn nghyd â surdoes yr offrwm diolch,
> Hysbyswch, cyhoeddwch offrymau gwirfodd!
> Canys hyn a hoffwch. blant Israel,
> Medd Arglwydd Iehofah.

Mewn modd tra godidog y gesyd allan fawredd Duw: *Amos* iv. 13;—

> Canys, wele yr hwn a luniodd y mynyddoedd,
> Ac a greodd y gwynt,
> A'r hwn a fynega i ddyn beth yw ei fwriad,
> A wna y wawr a'r tywyllwch,[1]
> Ac a rodia ar uchelderau 'r ddaiar,—
> Iehofah, Duw y lluoedd, yw ei enw.

Gallwn ddywedyd gyda Brown dduwiol, o Haddington, — "Pa mor wael yw ehediadau Homer, wrth eiddo bugail Tecoa!" Cawn y cyffelyb ddarluniad mawreddig yn *pen.* v. 8.

Cyfeirir at ddau fan yn y llyfr hwn—*pen.* v. 25, 26; a ix. 11—yn y Testament Newydd; gwel *Act.* vii. 42, 43; a xv. 16, 17. Y mae yn y Seisoneg gyfieithiad newydd o'r llyfr hwn, yn nghyd âg ereill o'r prophwydi lleiaf, gan yr archesgob Newcome, a chan Dr. Henderson. Y mwyaf llythyrenol yw y cyntaf, a'r rhwyddaf i'w ddarllen yw y diweddaf. Chwanega y ddau nodiadau tra gwerthfawr. Golygant mai nid rhyddiaith ond prydyddiaeth yw y llyfr, oddi eithr ychydig yn y seithfed bennod.

Sonir yn yr Ysgrythyrau am ddau ereill o'r enw hwn; sef, Amos yn nghofrestr tadogaeth Crist: *Luc* iii. 25: ac Amos, tad Esaiah; *Esa.* i. 1. Ond nid yr un enw yw y diweddaf yn yr Hebraeg;—cyfieithiad y Deg a Thrigain a barodd hyn. Enw y prophwyd yw עָמוֹס—*Omus;* ond tad Esaiah oedd אָמוֹץ—*Amuts.* O herwydd y cymmysgedd hyn, Augustine, y goreu o'r hen dadau, gan na wyddai Hebraeg, a arweinid i'r dyb mai tad Esaiah oedd y prophwyd Amos.

AMPHIPOLIS: dinas o Twrci Ewropaidd, a seiliwyd gan y maeslywydd Athenaidd enwog Cimon, tua 500 mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol, a'r hon a wnelid yn brif ddinas y dosbarth dwyreiniol o Macedonia. Yr oedd yn gorwedd ar lân yr afon Strymon, yn agos i'w dyfodiad allan o lyn Kerkine, a elwir yn awr Takino, ac o ddeutu tair milltir uwch law ei harllwysiad i'r môr. Fe'i cylchynid gan yr afon, yr hyn a ddynodir wrth ei henw. Bu amryw enwau arni o bryd i bryd, megys Acra, Strymon, Myrica, Eion, tref Mawrth, a Chrysopolis, neu Gristopolis. Yr oedd ei sefyllfa fanteisiol ar làn afon fordwyol, ac mor agos i'r môr agored, yn nghymmydogaeth coedwigoedd Kerkine, a mwngloddiau aur mynydd Pangæus, yn ei gwneyd yn lle tra phwysig i'w meddu; ac felly y cawn fod ymrysonau blinion a mynych wedi bod rhwng y Thraciaid, y Macedoniaid, y Lacedæmoniaid, a'r Atheniaid, am ei meddu; a'i bod wedi bod ar wahanol amserau yn meddiant y gwahanol alluoedd uchod. Ei henw presennol gan y Tyrciaid yw *Emboli*, ar yr afon Strymon; ond y Cristionogion Groegaidd a'i galwant *Cristopolis.* Y mae yn anrheithiedig er ys llawer oes; ond y mae pentref, cynnwysedig o tua chant o dai, yn gorwedd yn bresennol ar ran o'i hen orsaf.

Dywedir fod Paul a Silas, pan eu gwaredwyd o garchar Philippi, wedi myned drwy Amphipolis ar eu ffordd i Thessalonica, yr hon oedd yn gorwedd o fewn tuag wyth milltir a deugain iddi. [*Thucyd.* i. 100; iv. 102, *sq.*: *Herod.*, vii. 117;

[1] Felly y mae yn ol amryw gopïau, ac yn ol cyfieithiad y Deg a Thrigain; a mwy addas yw i'r lle hwn. Sonia am y "wawr" yn gyntaf, ac â yn ol, fel y gwna y prophwydi yn aml, ac enwa y "tywyllwch" rhagflaenol. Os gommeddir y cyssylltiad *a* o flaen *tywyllwch*, yna bydd y llinell fel y canlyn:—

A wna y wawr yn dywyllwch.

Digitized by Google

*Diod. Sic.* xvi. 8; *Appian.* iv. 104, *sq.*; *Plin.* iv. 17; *Liv.* xlv. 29; *Cellar. Notit.*, i. 1053, *sq.*; *Tomlin's Un. Gaz. Art.*, d.g. *Emboli*].

AMRAM, [עמרם]: mab Cohath, o lwyth Lefi. Efe a briododd Iochebed, chwaer ei dad, o'r hon y cenedlodd efe Aaron, Miriam, a Moses. Efe a fu farw yn yr Aipht, pan yn 137 mlwydd oed: *Exod.* vi. 18, 20.

AMRANT—AU: cauad y llygad. "Amrantau y boreu" (*Iob* xli. 18), a arwydda dysgleirdeb boregwaith heb gymylau. Dywedir am yr Arglwydd, fod "ei amrantau yn profi meibion dynion;" *Salm* xi. 4: hyny ydyw, y mae yn hysbys o'u holl ffyrdd; yn adnabod eu holl feddyliau a bwriadau eu calonnau; ac yn ngweinyddiad ei holl oruchwyliaethau tuag atynt, yn eu "profi," yn dangos pa beth sydd ynddynt. Arwydda amrantau, weithiau, y *llygaid: Salm* cxxxii. 4; *Diar.* vi. 4. Gwel LLYGAD.

AMRAPHEL, [אמרפל, *un yn llefaru am bethau cuddiedig*, neu, *un yn llefaru am farn neu ddinystr*]: brenin Sinar, neu Babilonia; un o'r pedwar breninoedd a ddaethant i ryfel yn erbyn Palestina, yn nyddiau Abraham, ac a gaethgludasant Lot, ond a orchfygwyd gan Abraham: a dyma y rhyfel cyntaf y mae genym hanes am dano: *Gen.* xiv. 1—16.

AMRYFUS—EDD: camsyniol, cyfeiliornus; cyfeiliornad, twyll, hudoliaeth. Pechu yn *amryfus* a arwydda, pechu mewn anwybodaeth neu gamgymmeriad: *Lef.* v. 15, 18; "A phechu trwy amryfusedd, yn y pethau a gyssegrwyd i'r Arglwydd"—"er na wyddai, eto euog fydd" (*adn.* 17)—"a gwnaed yr offeiriad gymmod drosto am ei amryfusedd (neu am ei gamgymmeriad) a gamgymmerodd efe." Yn ol y Deg a Thrigain, *περὶ της ἀγνοίας αυτου, ἧς ἠγνόησε*—"am ei anwybodaeth, o'r hyn y bu yn anwybodus;" *Num.* xv. 27, 29. Lladd cymmydog yn *amryfus*, a olyga, ei ladd trwy ddamwain, heb un bwriad nac amcan blaenorol. Yr oedd yn rhaid gwneuthur ymchwiliad manwl, a dyfod i benderfyniad nad oedd y llofrudd yn bwriadu dwyn ymaith fywyd ei gymmydog, cyn y byddai diogelwch iddo yn y ddinas noddfa: *Num.* xxxv. 22—25; *Deut.* iv. 42; xix. 4—6; *Ios.* xx. 3—5. Gwel DINAS NODDFA.

Arwydda y gair Groeg, *πλάνη*, a gyfieithir "amryfusedd," yn *Mat.* xxvii. 64; 2 *Thes.* ii. 11; 2 *Pedr* iii. 17—crwydro allan o'r iawn ffordd; cyfeiliornad mewn barn, neu fuchedd; twyll, hudoliaeth. Cyfieithir ef, yn *Rhuf.* i. 27; *Iago* v. 19, 20; 2 *Pedr* ii. 18; a 1 *Ioan* iv. 6, "cyfeiliorni:" yn *Eph.* iv. 14; *Iudas* 11, "twyll:" ac yn 1 *Thes.* ii. 3, "hudoliaeth." "Bydd yr *amryfusedd* diweddaf yn waeth na'r cyntaf;" *Mat.* xxvii. 64:—Seis., "*The last error.*" Hyny yw, bydd y *twyll* diweddaf, sef fod i'r dysgyblion ddyfod o hyd nos, a lladrata corff yr Iesu, "a dyweyd wrth y bobl, Efe a gyfododd o feirw," yn waeth na'r twyll cyntaf, sef ddarfod iddo hòni ei fod yn Fab Duw, ac y cyfodai y trydydd dydd oddi wrth y meirw. "Am hyny y denfyn Duw iddynt hwy *amryfusedd* cadarn fel y credont gelwydd;" 2 *Thes.* ii. 11; *ἐνέργειαν πλάνης*:—Seis., "*strong delusion;*" sef nerthol weithrediad cyfeiliorni. Cyfieithir y gair *ἐνέργεια*, yn *Eph.* iii. 7, "grymus weithrediad:" yn *Eph.* iv. 16, "nerthol weithrediad:" yn *Col.* i. 29, "yn ol ei weithrediad ef." Arwydda weithrediad lle y mae nerth a gallu yn cael ei arfer. Yr un ystyr sydd i'r gair yn 2 *Thes.* ii. 9; *ἐνέργειαν τοῦ Σατανᾶ*—"gweithrediad Satan;" at yr hyn y cyfeiria *adn.* 11.—(*Rose and Major; Parkhurst; Robinson.*)

AMSDORFIAID: plaid o'r Lutheriaid, a ymunasant âg Amsdorf, yn erbyn Melancthon, yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Hònent fod gweithredoedd da, nid yn unig yn anfuddiol, ond yn rhwystr i fod yn gadwedig. Gwel ANMHLEIDOGION.

AMSER—AU—OEDD: tymmor, adeg, seibiant, ysbaid terfynol, mewn cyferbyniad i dragwyddoldeb; yr hwn a fesurir wrth symmudiadau y cyrff nefol, yn enwedig yr haul. Fe ddefnyddir y gair, weithiau, am yr adeg fanteisiol i wneyd rhyw beth: *Preg.* viii. 5; "Calon y doeth a edwyn amser a barn;" efe a ŵyr pa beth a ddylai gael ei wnenthur, a'r amser goreu i'w wneyd. Dywedir am ddoethion Persia, eu bod "yn gwybod yr amserau;" *Esth.* i. 13: hwynt-hwy oeddynt yr haneswyr gwladwriaethol, cyfarwydd yn mrudiau, cyfreithiau, ac achau y wladwriaeth. Dedfrydwyd Nebuchodonosor am ei falchder, i fod â'i ran gyda bwystfilod yn ngwellt y ddaiar, tra y cyfnewidid "saith amser" arno; hyny yw, saith mlynedd: *Dan.* iv. 15, 16. Dywedir am feibion Issachar, eu bod yn "medru deall yr amseroedd, i wybod beth a ddylai Israel ei wneuthur;" 1 *Cron.* xii. 32. Y mae rhai yn barnu fod hyn yn arwyddo eu bod yn gyfarwydd yn neddfau yr hin, yn craffu ar y ser, yn adwaen y tymmorau, ac yn deall arwyddion o gyfnewidiadau yn yr awyr, yr hyn a allasai fod o wasanaeth mawr mewn amaethyddiaeth. Ond y mae yn fwy tebyg mai callineb mewn gwleidyddiaeth yw yr hyn a olygir: yn y cyfwng yma, yr oeddynt yn deall mai dyledswydd Israel oedd gwneyd Dafydd yn frenin. Annogai Paul yr Ephesiaid i brynu yr *amser*, am fod y dyddiau yn ddrwg (*Eph.* v. 16); hyny yw, bod iddynt ymdrechu yn bryderus i wneyd y defnydd mwyaf buddiol o'u hamser, o herwydd bod cynnifer o demtasiynau i'w afradloni yn y byd drwg presennol. Y mae amser wedi ei roddi i ni i'w ddefnyddio i'r amcanion gwerthfawrocaf; ac y mae gan bawb ddigon o orchwylion daionus i'w gymmeryd i fyny yn gyflawn, fel na raid i ni byth gyfrif un mynyd yn gorwedd yn drwm ar ein dwylaw. Ni feddy dyn sydd ganddo enaid i'w waredu oddi wrth farwolaeth dragwyddol fynyd i'w dreulio ar oferedd: ond y mae myned i mewn trwy y porth cyfyng—rhodio a boddloni Duw—cymmeryd gafael yn y bywyd tragwyddol, a gogoneddu Duw yn y byd sydd yr awr hon, yn gofyn ymdrech egniol oes gyfan.

AMSERONI, [*almanac*]. Y farn fwyaf cyffredin yw, fod y gair *almanac* yn air o haniad Arabaidd, ac yn arwyddo *cyfrif;* am ei fod yn cynnwys calaniadur o ddyddiau, wythnosau, a misoedd, yn nghyd âg amserau cyfodiad yr haul a'r lleuad, diffygion, oriau llawn llanw, gwyliau yr eglwys, tymmor eisteddiad llysoedd barn, sylwadau am yr hin y flwyddyn ddyfodol, &c.

Y mae yn anmhosibl i unrhyw wlad, lle y coleddir rhyw faint ar y wyddoniaeth serydddol, fod yn hir heb ryw fath o amseroni; ac felly y canfyddwn mewn hanesyddiaeth, fod seryddwyr blaenaf pob oes a gwlad, naill ai yn cyfansoddi, neu yn diwygio amseroniau. Nid ydys yn meddu nemawr o hysbysiaeth pa fath oeddynt

Digitized by Google

yr almanaciau cyntaf a gyhoeddwyd yn Ewrop. Dywedir y byddai y cenedloedd a gyfanneddent ar lanau y Baltic yn cerfio math o amseroniau ar goed, ar eu cleddyfau, neu ar fenybr eu bwyeill. Meddwn dystiolaeth Theon, fod y Groegiaid a'r Alexandriaid yn eu ffurfio tuag oes Ptolomeus, neu yn fuan ar ol hyny. Ond yn y blyneddoedd diweddaf, y mae amryw amseroniau yn cael eu cyhoeddi, yn enwedig yn Lloegr, yn cynnwys llawer o ystadegau gwladol, masnachol, neu grefyddol, tra gwerthfawr, a chrynoad o gyfarwyddiadau tra buddiol i wahanol ddosbeirth o'r gymdeithas ddynol. Cyhoeddir yr Almanac Morwrol (*Nautical Almanac*) dan gyfarwyddyd dirprwywyr, bob blwyddyn; cynnwysant gyfrifon am ddwy flynedd neu dair yn mlaen.

Y mae yr Almanac Morwrol o werth mawr i'r morwr i'w alluogi i ddyweyd beth yw ei hydred a'i ledred; neu, mewn geiriau ereill, pa beth yw ei bellder i ddwyrain neu orllewin, gogledd neu dde, oddi wrth unrhyw bwynt, megys Llundain. Y modd y mae yn gwasanaethu i'r perwyl yma sydd fel y canlyn. Y mae symmudiad y lleuad o gwmpas y ddaiar yn gyflymach nag yr ymddengys symmudiad un corff arall; felly, amrywia pellder y lleuad oddi wrth yr haul, neu ryw ser, yn fawr mewn ychydig amser; hyny yw, pan welir y lleuad yn agos i ryw seren, bron yn ei chuddio, os edrychir yn mhen yr hanner awr, ceir gweled y bydd wedi symmud o'r neilldu iddi, ac felly ä yn mlaen, gan ennill yn barhaus ar y seren. Yn yr Almanac Morwrol, y mae lle y lleuad yn y ffurfafen am bob awr drwy y flwyddyn; ac hefyd, ei phellder, bob tair awr, oddi wrth amryw o'r cyrff wybrenol, megys yr haul, ac hefyd y cyfryw o'r planedau a'r ser sefydlog ag sydd yn agos i'w llwybr, ac felly yn gyfleus i sylwadaeth. Ni a allwn egluro y modd i ddefnyddio yr almanac i gael hydred unrhyw le, yn y dull canlynol:—Os edrychir, gwelir fod yr almanac, ar ddiwrnod penodol, megys y cyntaf o Hydref, 1854, yn dyweyd fod pellder yr haul a'r lleuad oddi wrth eu gilydd, ar awr benodol, yn Greenwich, yn hyn a hyn; yna, tybier fod morwr, ar y diwrnod hwnw, mewn rhyw le ar y ddaiar, yn edrych gyda'i *sextant* pa beth yw y pellder rhyngddynt yn y fan lle y mae efe; yna, ar ol yr adgyweiriadau angenrheidiol i ddwyn ei gyfrifon i gyssylltiad â chanolbwynt y ddaiar, y mae yn cael fod yr un pellder rhyngddynt yn uniawn ag y mae ei almanac yn dyweyd sydd rhyngddynt y foment hono yn Greenwich; yna, y mae ar yr un linell ganol dydd (*meridian*) ag ydyw Greenwich, naill ai i'r gogledd neu i'r deheu. Y mae ei almanac yn dywedyd pa beth ydyw yr amser yn Greenwich, pan y bydd rhyw bellder penodol rhwng yr haul a'r lleuad; y mae ei sylwadau ef ei hun yn dyweyd pa beth ydyw yr amser yn y fan lle y mae efe, am yr un pellder; yna, am bob awr o wahaniaeth rhyngddynt, y mae pellder y morwr oddi wrth Lundain yn bymtheg gradd i'r dwyrain neu i'r gorllewin. Fel hyn y mae yr amseroni yn gwasanaethu i gael allan yr hydred. Trwy gyfrifon lled debyg y mae yn cael allan ei ledred. Dwywaith yn y flwyddyn y mae yr haul ar, neu ar gyfer, llinyn y cyhydedd (*equator*); a dwywaith yn y mis y mae y lleuad felly; ond bob amser arall, y maent naill ai i'r gogledd neu i'r deheu i'r cyhydedd; ac y mae iddynt yr hyn a elwir *osgoad gogleddol* neu *ddeheuol* (*north or south declination*). Y mae osgoad yr haul a'r lleuad yn amrywio bob dydd. Y mae yr almanac yn dyweyd pa beth ydyw osgoad yr haul, neu ei bellder oddi wrth gyhydedd y nefoedd, hanner dydd, am bob dydd drwy y flwyddyn; ac osgoad y lleuad bob awr o bob dydd drwy y flwyddyn. Y cymhorth a rydd y taflenau hyn i gael allan y lledred sydd fel y canlyn:—Os bydd i'r morwr, trwy y *quadrant* neu y *sextant*, gael allan fod uchder y lleuad ganol dydd (*meridian altitude*) yn 75°; ac wrth edrych i'w amseroni, y mae yn gweled fod osgoad y lleuad am y diwrnod hwnw yn 27° i'r gogledd. Y mae fod yr osgoad yn ogleddol yn dangos fod y lleuad uwch law y cyhydedd; hyny yw, os bydd yr edrychydd i'r gogledd i'r trofanau (*tropics*): o ganlyniad, wrth dynu yr osgoad o'r uchder canolddydd (75°—27° =48°), y mae yn cael allan fod uchder canolddydd y cyhydedd yn 48°: a chan fod yr uchder hwn, a lledred y lle bob amser yn gwneyd i fyny 90°, y mae yn cael (90°—48°=42°) fod lledred ei long yn 42°. Gan mai yr unig amcan ydyw dangos egwyddor gwasanaethgarwch yr amseroni i alwedigaeth y morwr, yr ydym yn gadael allan fan gyfrifon dibwys i'r amcan.

AMSERYDDIAETH: yw y wyddor a'n dysga i fesur amser yn ol cylch y ser, ac yn neillduol trwy gylchdroadau yr haul a'r lleuad; ond yn ystyr gyffredin a chyfyngach y gair, arferir ef i arwyddo y gelfyddyd o drefnu ffeithiau hanesyddol yn ol yr amser y dygwyddasant. Ar yr olwg gyntaf, ymddengys hyn yn orchwyl rhwydd; ond er mwyn dangos pa mor anhawdd ydyw penderfynu dyddiad ffeithiau filoedd o flyneddoedd yn ol, gallwn grafu fod dadl frwd yn mhlith croniclwyr newyddiadurol mewn perthynas i rai amgylchiadau yn mebyd y diweddar Dduc Wellington—nid oes gwybodaeth bendant pa bryd y ganwyd ef, na pha bryd y cafodd ei fedyddio. Ond heb law yr ansicrwydd sydd yn codi oddi ar bellder yr amser, nid oedd haneswyr yn byw o fewn cannoedd o flyneddoedd i rai o'r amgylchiadau pwysicaf mewn hanes; ac yr oedd yr haneswyr sydd yn coffa llawer o'r amgylchiadau ereill yn analluog i gasglu gwybodaeth gywir am danynt o herwydd fod y pethau wedi dygwydd mewn cwr arall o'r byd, mewn oes heb nemawr o dramwy o'r naill fan i'r llall; ond yn fwy na'r cwbl, anhawdd iawn penderfynu hyd y flwyddyn a ddefnyddid mewn gwahanol oesoedd; ac o ganlyniad, nis gwyddom pa fodd i ddeall unrhyw honiadau a wneir gan yr hen haneswyr. Hyd amser Julius Cæsar, yr oedd hyd y flwyddyn Rufeinig yn ymddibynu yn fynych ar fympwy yr offeiriadaeth, gan mai yn eu dwylaw hwy yr oedd gofal yr amseroni (*calendar*). Yr oedd eu blwyddyn weithiau cyhyd a blwyddyn a hanner, a'r nesaf ddim ond hanner blwyddyn. Yr oedd rhyw gymmysgaeth fel hyn yn sicr o ddwyn annhrefn a dyryswch i'r cyfrifon a'r ystadegau cyhoeddus. Yn oesoedd cyntefig Groeg a Rhufain, nid yw hanesiaeth fawr gwell na chwedlau; ac y mae yn angenrheidiol cael ysbryd deongliadol uwch na dynol cyn nithio y gwir o blith cymmaint o gymmysgedd. Y mae Müller, Thirwall, Grote, Niebuhr, ac Arnold, wedi gwneyd mwy o ddefnydd o gamsyniadau haneswyr clasurol, yn neillduol Livy a Herodotus, nag a fedrent wneuthur o'u cywirdeb. Y mae yn destyn syndod gan hyny fod gan lleied o anhawsdra i gyssoni amseryddiaeth yr Ysgrythyrau â'r Ysgrythyr ei hun, ac â ffeithiau diymwad hanesyddiaeth. Er hyny, y mae amryw bwyntiau yn gofyn esboniadau gwell na dim a roddwyd hyd yn hyn, ac yn ymgynnyg eu hunain i sylw yr

Digitized by Google

efrydydd fel cyfleusderau i gyssylltu ei enw â gorchwyl fydd yn sicr o drosglwyddo ei glod yn barchus i sylw oesoedd dyfodol. Un peth o bwys mawr i efrydydd Ysgrythyrol ydyw, *hyd* a *rhaniad* y flwyddyn Iuddewig. Tybiai y Cenedloedd nad oedd ond 360 o ddyddiau yn y flwyddyn, pan y mae pum niwrnod, a chwe awr yn mron yn rhagor: o ganlyniad, buasai gwyliau penodedig yr Iuddewon yn myned yn eu hol bum niwrnod a chwarter bob blwyddyn, nes eu gwneyd yn anmhosibl, yn mhen ychydig o flyneddoedd, i gynnal y gwyliau gosodedig. Ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis cyntaf, bwyteid y Pasc. Yr un hwyr, dechreuid bwyta y bara croew, a pharheid am un niwrnod ar ugain; ar ail ddydd y bara croew, offrymid ysgub y cwhwfan; yn mhen deng niwrnod a deugain, offrymid offrwm bara newydd; ac ar y pymthegfed dydd o'r seithfed mis, cedwid gŵyl o ddiolchgarwch ar ol cynnulliad holl ffrwythau y tir. Bu Moses fyw ddeugain mlynedd ar ol rhoddi y gorchymynion hyn: ac os oedd y flwyddyn Iuddewig yr un hyd a blwyddyn y cenedloedd paganaidd, buasai y gwyliau uchod wedi myned yn eu hol ddau can niwrnod a deg: ond cawn yn *Jos.* v. 10, pan ddaeth yr Israeliaid i Ganaan, eu bod wedi cadw y Pasc ar y pedwerydd ar ddeg o fis Abib —yr oedd yr ŷd yn addfed ar y meusydd, a'r Iorddonen wedi llifo dros ei glàn, yr hyn a wnaethai bob blwyddyn yn amser y cynauaf. Gan hyny, syrthiai pob gŵyl ar yr amser priodol; yr hyn a fuasai yn anmhosibl pe buasai y flwyddyn heb gael ei chywiro trwy chwanegu y dyddiau angenrheidiol. Nis gallwn fod yn sicr pa fodd y gwnaethant hyn, ond ymdrechwn roddi rhyw ddrychfeddwl o'r dull a ymddengys yn fwyaf rhesymol. Gorchymynodd Moses i'r Israeliaid, er mwyn rheoli eu gwyliau, i sylwi ar fis Abib. Hwn oedd i fod yn ddechreuad misoedd, a mis cyntaf y flwyddyn. Ar y pedwerydd dydd ar ddeg o hono, yr oeddynt i ladd a bwyta y Pasc; a'r dydd canlynol oedd dydd cyntaf y bara croew, yr hwn, bob amser, oedd i ddisgyn ar y Sabbath: *Lef.* xxiii. 11. Gan hyny, dyma drefn y Sabbathau yn y mis cyntaf—1, 8, 15, 22, 29. Casglwn, oddi wrth *Gen.* vii. 24; viii. 3, 4, mai 150 o ddyddiau oedd o ail ddydd ar bymtheg yr ail fis hyd ail ddydd ar bymtheg y seithfed mis; fod pob mis yn cynnwys deg ar ugain o ddyddiau: o ganlyniad, disgyna Sabbathau yr ail fis ar y 6, 13, 20, 27; y trydydd mis, ar y 4, 11, 18, 25. Y dydd ar ol y pedwerydd oedd dydd y Pentecost, sef y degfed dydd a deugain ar ol offrymu yr ysgub gwhwfan; canys yr oeddynt i gyfrif saith Sabbath cyflawn ar ol y dydd y cwhwfenid hi. Ac ar yr hanner canfed dydd, yr oeddynt i offrymu dwy dorth: gan hyny, o unfed dydd ar bymtheg y mis cyntaf i bummed dydd y trydydd mis yr oedd hanner can niwrnod, a disgyna yr hanner canfed ar y dydd ar ol y Sabbath, fel y gorchymyna Moses yn *Lef.* xxiii. 16. Sabbathau y pedwerydd mis ydynt yr 2, 9, 16, 23, 30. Sabbathau y pummed mis ydynt y 7, 14, 21, 28. Sabbathau y chweched mis ydynt y 5, 12, 19, 26. Cyn nodi Sabbathau y seithfed mis, sylwn fod Moses, yn *Lef.* xxiii. 24, yn dywedyd, "Ar y seithfed mis, ar y dydd cyntaf o'r mis, y bydd i chwi Sabbath." Gellid gofyn, Pa un ai Sabbath achlysurol oedd y diwrnod hwn, neu Sabbath rheolaidd a pharhaus, yn disgyn ar y seithfed diwrnod ar ol y Sabbath blaenorol? Yn ol defodau y tymmor, yr oedd y degfed dydd o'r mis hwn i gael ei gadw fel dydd o ymostyngiad a gweddi, ond ni fuasai yn angenrheidiol gorchymyn cadw hwn yn Sabbath oni bai fod cwrs y Sabbathau wedi ei newid, gan y buasai hwn yn Sabbath rheolaidd: gan hyny, naturiol ydyw i ni gasglu fod chwe diwrnod, fel arferol, rhwng y chweched dydd ar ugain o'r chweched mis, yr hwn oedd Sabbath, a'r dydd cyntaf o'r seithfed mis, yr hwn oedd Sabbath hefyd; gan hyny, rhaid fod yma ddau ddiwrnod yn rhagor na rhifedi rheolaidd dyddiau y mis. Sabbathau y seithfed mis ydynt y 1, 8, 15, 22, 29. Os cymharwn *Lef.* xxiii. 27, 34, 39, profir cywirdeb y llinellau blaenorol. Sabbathau yr wythfed mis ydynt y 6, 13, 20, 27. Sabbathau y nawfed mis ydynt y 4, 11, 18, 25. Sabbathau y degfed mis ydynt y 2, 9, 16, 23, 30. Sabbathau yr unfed mis ar ddeg ydynt y 7, 14, 21, 28. Sabbathau y deuddegfed mis ydynt y 5, 12, 19, 26. Sylwasom eisoes fod dydd cyntaf mis Abib yn disgyn ar y Sabbath; gan hyny, rhaid fod yma ddau ddiwrnod arall yn cael eu rhoddi i mewn. Wele bedwar diwrnod yn rhagor at y flwyddyn o 360 o ddyddiau, yr hyn a'i gwna o fewn diwrnod a chwarter i fod yn gywir. Ond y mae hyn yn ddigon i daflu dyryswch mawr yn y cyfrifon, os nad oedd rhyw ddull i'w cywiro, gan y buasai yn hanner can niwrnod yn mywyd Moses ei hun; a phan ddaethant i Wlad Canaan, yn lle bod yno ar fin y cynauaf, y degfed o fis Abib, cawsant eu bod hanner diwrnod o flaen yr amser penodedig. Rhaid i ni, gan hyny, chwilio am ryw esboniad pellach yn nghylch y cyfnewidiadau a wnaed yn y flwyddyn Iuddewig.

Oddi wrth *Lef.* xxiii. 10, a *Deut.* xvi. 9, casglwn fod cyhoeddiad y gwyliau yn ymddibynu ar addfedrwdd y cynauaf; ac os gwelai yr offeiriaid bod y flwyddyn gyfrifedig yn gwahaniaethu gymmaint oddi wrth dymmor y cynauaf, dichon eu bod yn gohirio dechreuad mis Abib, nes y byddai yr holl wyliau yn disgyn i'w lle priodol, ac yn eu galluogi i gwhwfan yr ysgub ac offrwm yr aberth o ddiolchgarwch yn yr amser priodol. Dichon eu bod yn gwneyd chwanegiadau o wythnosau cyflawn er mwyn cadw chwe diwrnod rhwng pob Sabbath. Y mae *Lef.* xxiii. 15, yn rhoddi ar ddeall i ni nad oedd y 15fed dydd o'r seithfed mis yn dygwydd un amser cyn diwedd y cynauaf, yr hyn oedd yn anmhosibl heb i ryw chwanegiad tebyg i'r hwn a nodwyd gael ei wneuthur. Nid oedd mor anhawdd gwneuthur hyn ag y gellid meddwl. Yr oedd yn ddigon yn awr ac eilwaith ar ddiwedd y flwyddyn i'r offeiriaid godi eu llygaid ac edrych, cyn cyhoeddi gwyliau y flwyddyn ddyfodol, pa un a oedd y meusydd yn wynion i'r cynauaf; os nad oeddynt, gohirid ddechreuad mis Abib am wythnos neu ddwy, fel y byddai amgylchiadau yn gofyn. Nis gwyddom ond am un wrthddadl o bwys a ellir ddwyn yn erbyn yr esboniad uchod. Gorchymynodd Moses i'r Israeliaid i gadw dechreuad y misoedd fel gŵyl i'r Arglwydd, ar yr hon yr oedd yn rhaid iddynt offrymu aberthau neillduol; ac ymddengys eu bod wedi cadw y drefn yn eu huchel-fyd a'u hisel-fyd. Yn amser Saul, Dafydd, a Solomon, telid sylw neillduol i'r dyddiau hyn. Gwel 1 *Sam.* xx. 5; 1 *Cron.* xxiii. 31; 2 *Cron.* ii. 4; viii. 13. Sonir am danynt fel gwyliau sefydlog a chyffredin gan Ezra, Hezeciah, a'r prophwydi. Gwel 2 *Cron.* xxxi. 3; *Esa.* i. 13, 14; lxvi. 23; *Ezec.* xlvi. 1; *Hos.* ii. 11; *Amos* viii. 5; *Ezra* iii. 5. Y mae y Deg a Thrigain wedi cydnabod yr un peth yn newisiad y gair a arferir braidd yn ddieithriad i arwyddo dechreuad misoedd; sef *νουμηνία* neu *νεομηνία*. Yr un gair a arferir yn

Digitized by Google

wastadol gan yr ysgrifenwyr paganaidd am ŵyl y lleuad newydd a gedwid yn eu plith: ac yn y cyfieithiad Seisonig, y gair cyffredin am y dydd cyntaf o'r mis, yn yr un adnodau, yw *new moon*. Ond os oedd yr Israeliaid yn sefydlu eu gwyliau yn y modd hyn, nid gwiw cynnyg yr esboniad blaenorol, gan na fuasai y dydd cyntaf o'r mis a'r dydd cyntaf o'r lleuad yn cydgyfarfod ond ar ddechreu y flwyddyn.

Sylw I. Nid misoedd lleuadol oedd misoedd Moses, onid e, ni fyddai pum mis olynol yn cynnwys 150 o ddyddiau—ond 148 o bellaf. Yr un modd, nid tri mis ar ddeg, ond deuddeng mis, oedd yn y flwyddyn Iuddewig; canys deuddeg cadben oedd yn gwasanaethu eu mis yn amser Dafydd; a deuddeg swyddog oedd yn darparu lluniaeth i Solomon, pob un yn ei fis. Dywed Archesgob Usher, "Nis gellir profi fod yr Hebreaid yn gwneyd un defnydd o fisoedd lleuadol hyd amser y caethiwed."—Medd rhai, hyd amser Alexander Fawr, pan yr ymlusgodd arferion Groegaidd i mewn.

II. Nid tebyg y buasai yr Arglwydd yn gorchymyn gwneuthur peth a fuasai yn brofedigaeth. Gwyddom fod yr arferion mwyaf diniweid yn cael eu gwahardd, o herwydd fod ynddynt duedd i dori i lawr y gwahaniaeth rhwng pobl ddewisol Duw a'r cenedloedd cylchynol; a buasai y sylw pwysig a pharhaus oedd raid ei dalu i'r lleuad, yn ol y cyfrif lleuadol, yn debyg iawn o'u harwain, bob yn ychydig, i dalu mwy o barch i'r bodau wybrenol nag sydd yn rhyngu bodd i'r Duw byw. Dyma hanes haul-addoliaeth a ser-addoliaeth llawer gwlad: a gallwn fod yn sicr na fuasai Duw yn gorchymyn dim oedd yn debyg i'r cenedloedd cylchynol; onid e, gallesid ammheu pa un ai addoliad y Duw byw, ai ynte addoliad y lleuad, oedd yn cael ei weinyddu ar y dydd cyntaf o'r mis. Gall fod rhyw gyssylltiad, yn y Seisoneg, rhwng *moon* a *month*; a rhwng *μην* a *μηνη*, yn y Groeg; ond nid oes dim yn yr Hebraeg. Y geiriau a arferir yn yr Hen Destament am y *lleuad*, ydynt ירח a לבנה, a'r gair gwastadol am *fis* ydyw חדש; ac nid oes un cyssylltiad na thebygolrwydd rhyngddynt. Yn yr Hebraeg, sonir bob amser am "*ddechreuad y misoedd*," ac nid y *lleuad newydd*; a dyna yr ymadrodd a geir bob amser lle y mae y Deg a Thrigain wedi arfer *νουμηνία*, neu *lleuad newydd*. Dywed gwas y Sunamees, "Pa ham yr äi di ato heddyw, nid yw hi na *newydd-loer* na Sabbath:"—ond yn ol yr Hebraeg, "nid yw na *dechreuad mis* na Sabbath." Bob amser, sonir, nid am ddydd cyntaf y *lleuad*, ond am ddydd cyntaf y mis. Y mae yr Iuddewon yn cyfaddef fod dull newydd o gyfrif amser y gwyliau wedi dyfod i ymarferiad o ddeutu y caethiwed, er fod rhai o honynt am hòni ei fod wedi disgyn trwy draddodiad oddi wrth Moses, ond nad ydyw yn gynnwysedig yn y gyfraith. Gwyddom nad oes un esboniad o anhawsderau y pwynt uchod nad yw yn agored i wrthddadleuon pwysig; ond ni phetruswn ddywedyd mai yr un blaenorol sydd yn fwyaf cysson âg awgrymiadau a gorchymynion pendant y gyfraith, ac âg ysbryd yr oruchwyliaeth Foesenaidd.

Gan fod amryw ddygwyddiadau, o bwysigrwydd cenedlaethol a chyffredinol, wedi eu cofrestru yn yr Ysgrythyrau, defnyddir amryw adraniadau amseryddol,—y greadigaeth—y dylif—y mynediad o'r Aipht: *Num.* xxxiii. 38; 1 *Bren.* vi. 1—sylfaeniad y deml: 2 *Cron.* viii. 1. Y mae yr ysbaid cyntaf yn dechreu gyda'r greadigaeth, ac yn dybenu gyda'r dylif. Cyfrifir hyd yr ysbaid hwn, trwy roddi at eu gilydd oedran y patriarchiaid ar enedigaeth y mab a roddir i lawr yn yr hanes — nid yr hynaf bob amser ydyw hwnw: *Gen.* v. Y mae yr ysbaid hwn, yn ol cyfrif cyffredin y testyn Hebreig, yn 1656 o flyneddoedd; yn ol y testyn Samariaidd, yn 1307; yn ol y Deg a Thrigain, yn 2262, neu 2256. Yn y cyfieithiad Cymreig a Seisonig, dilynir y cyfrif Hebreig, wedi ei drefnu gan Archesgob Usher. Y mae yr Iuddewon diweddar yn gwneyd y cyfrif o'r greadigaeth i enedigaeth Crist yn 3760, sef 244 llai nag Usher.

| Y prawf. | Yr ysbaid. | Usher. | Deg a Thrigain. | Josephus. Hales. |
|---|---|---|---|---|
| *Gen.* v. | 1. O'r greadigaeth hyd y dylif . . . . | 1656 | 2262 | 2256 |
| *Gen.* xi. 10—32; xii. 4. | 2. O'r dylif hyd alwad Abraham . . . | 427 | 1207 | 1062 |
| *Gen.* xxi. 5; xxv. 26; xlvii. 9, 28. | 3. O alwad Abraham hyd y mynediad o'r Aipht . . . . . . . . . . | 430 | 425 | 445 |
| 1 *Bren.* vi. 1. | 4. O'r mynediad o'r Aipht hyd sylfaeniad teml Solomon . . . . . . . . | 479 | 601 | 621 |
| | 5. O sylfaeniad y deml hyd yr adferiad dan Cyrus . . . . . . . . . | 476 | 476 | 493 |
| | 6. O adferiad yr Iuddewon hyd enedigaeth Crist . . . . . . . . . . . | 536 | 537 | 534 |
| | | 4004 | 5508 | 5411 |

Gwelir oddi wrth y taflenau canlynol eto y gwahaniaeth sydd rhwng y Deg a Thrigain a'r Hebraeg; ac nid yw yn anhawdd esbonio y gwahaniaeth sydd rhyngddynt. Y mae y Deg a Thrigain yn chwanegu can mlynedd at oedran chwech o batriarchiaid *cyn* y dylif, ar enedigaeth y plentyn hynaf; ac yn lleihau yr ysbaid y buont fyw ar ol hyny o gan mlynedd. Felly, gadewir eu hachau yr un peth a'r cyfrif cyffredin, er ei fod yn hwyhau yr amser o'r greadigaeth i'r dylif o chwe chan mlynedd. Yn mywyd Lamech, y mae y Deg a Thrigain yn chwanegu chwe blynedd cyn genedigaeth Noah, ac yn tynu deg ar ugain o rif y blyneddoedd y bu fyw ar ol hyny, ac felly yn byrhau ei einioes o bedair blynedd ar ugain. Y mae yr holl chwanegiadau yn gwneyd y dylif chwe chant a chwech o flyneddoedd yn ddiweddarach na chyfrif y Beibl Hebraeg. Y mae Josephus, ar y cyfan, yn lled agos i gyfrif y Deg a Thrigain, er yr ymddengys ei fod yn ysgrifenu â'r ddau gopi o'i flaen, ac weithiau yn dilyn y naill, ac weithiau y llall. Ar *ol* y dylif hefyd, chwanega y Deg a Thrigain gan mlynedd at oedran y chwe patriarch cyntaf. Gosodir i fewn Cainan, fel y gwneir yn *Luc* iii. 36, gan ei wneyd yn 130 mlwydd oed pan aned Selah. Geilw Sarug yn 80 mlwydd, yn lle 30. Felly, y mae yr holl wahaniaeth yn yr ail gyfnod, sef o'r dylif hyd alwad Abraham, yn 780 o flyneddoedd. Y mae y testyn Samariaidd yn cytuno â'r Deg a Thrigain yn y cyfnod hwn, oddi eithr ei fod yn gadael allan Cainan.

Digitized by Google

Y mae y gwahaniaeth yn y trydydd ysbaid, sef o alwedigaeth Abraham hyd y mynediad o'r Aipht, yn codi oddi ar fod y Deg a Thrigain yn cyfrif fod galwedigaeth Abraham wedi cymmeryd lle yn Haran, ac Usher, a'r cyfieithiad Seisonig a Chymreig, yn ei osod bum mlynedd cyn hyny, sef yn Ur y Caldeaid: *Gen.* xii. 1; *Act.* vii. 2, 3.

O'R GREADIGAETH I'R DYLIF.

| Profion. | Personau. | Hebraeg. | LXX. | Samar. |
|---|---|---|---|---|
| *Gen.* v. 3. | Bu fyw Adda . . . . . . | 130 ac a genedlodd | 230 | 130 |
| — 6. | —— Seth . . . . . . | 105 —— | 205 | 105 |
| — 9. | —— Enos . . . . . . | 90 —— | 190 | 90 |
| — 12. | —— Cenan . . . . . . | 70 —— | 170 | 70 |
| — 15. | —— Mahalaleel . . . . | 65 —— | 165 | 65 |
| — 18. | —— Iered . . . . . . | 162 —— | 162 | 62 |
| — 21. | —— Enoch . . . . . | 65 —— | 165 | 65 |
| — 25. | —— Methuselah . . . . | 187 —— | 187 | 67 |
| — 28. | —— Lamech . . . . . | 182 —— | 188 | 53 |
| *Gen.* vii. 11. | —— Noah—amser y dylif | 600 —— | 600 | 600 |
| | | 1656 | 2262 | 1307 |

O'R DYLIF HYD Y MYNEDIAD I'R AIPHT.

| Profion. | Personau. | HEBRAEG. Blyneddoedd. | DEG A THRIGAIN. Blyneddoedd. | SAMAR. Blyneddoedd. |
|---|---|---|---|---|
| *Gen.* xi. 10. | Bu fyw Sem ar ol y dylif | 2 ac a genedlodd | 2 | 2 |
| — 12. | —— Arphaxad „ | 35 —— | 135 | 135 |
| LXX, a *Luc* iii. 36. | Bu fyw Cainan . . . . | . . . . . . . . | 130 ac a genedlodd | |
| *Gen.* xi. 14. | —— Salah . . . . | 30 —— | 130 | 130 |
| — 16. | —— Heber . . . . | 34 —— | 134 | 134 |
| — 18. | —— Peleg . . . . | 30 —— | 130 | 130 |
| — 20. | —— Reu . . . . . | 32 —— | 132 | 132 |
| — 22. | —— Serug . . . . | 30 —— | 130 | 130 |
| — 24. | —— Nachor . . . | 29 —— | 79 | 79 |
| — 26—32. | —— Terah . . . . | 130 —— | 130 | 130 |
| *Gen.* xii. 4. | —— Abraham . . . | 75 ac a gafodd yr addewid . . | 75 | 75 |
| *Gen.* xxi. 5. | Eto, wedi cael yr addewid | 25 ac a genedlodd | 25 | 20 |
| *Gen.* xxv. 26. | Bu fyw Isaac . . . . | 60 —— | 60 | 60 |
| *Gen.* xlvii. 9. | Iacob—ei oed . . . . | 130, ac a aeth i waered i'r Aipht. | 130 | 130 |
| *Exod.* xii. 40, 41; LXX; *Gal.* iii. 17. Gwel *Num.* xxvi. 59. | Yr Israeliaid yn yr Aipht | 215 o flyneddoedd. | 215 | 215 (?) |
| | | 857 | 1637 | 1502 |
| | Felly, y mynediad o'r Aipht a gymmerodd le Neu. . . . . . . . . | O. B. 2513 C. C. 1491 | O. B. 3899 | O. B. 2749 |

Y mae y gwahaniaeth yn y pedwerydd ysbaid yn codi oddi ar ammheuaeth am ddilysrwydd un adnod, a gwahaniaeth barn am rai ereill. Y mae Usher yn gwneyd yr ysbaid hwn yn 479 o flyneddoedd, ac ychydig o ddyddiau, ac yn sylfaenu ei gyfrif ar 1 *Bren.* vi. 1; ac yn ol darlleniad yr adnod yma, nid oes ammheuaeth am gywirdeb y cyfrif. Ond y mae gwahanol ddarlleniadau o'r adnod yn y Deg a Thrigain: ac yn 2 *Cron.* iii. 2, lle y mae hanes yr un dygwyddiad, nid oes dyddiad. Nid oes cyfeiriad at yr adnod chwaith mewn ysgrifenwyr ar amseryddiaeth, megys Josephus a Theophilus, cyn Eusebius, yn y bedwaredd ganrif; ac nid yw efe yn ei derbyn fel dilys.

Yn ol *Act.* xiii. 20, ymddengys fod Paul yn cyfrif 450, o raniad Canaan "hyd Samuel," ac felly wrth roi

| | |
|---|---|
| Yn yr anialwch, ac hyd raniad y tir ... | 40 |
| Y Barnwyr hyd Samuel .................. | 450 |
| Saul, 40; Dafydd, 40; y 3edd o Sol., 3 | 83 |
| | 573 |

nis gall yr ysbaid hwn fod yn llai na 573 o flyneddoedd. Cyfeiria Usher eiriau Paul at y cyfwng rhwng genedigaeth Isaac a'r mynediad i Ganaan, yr hyn sydd yn ymddangos yn annaturiol. Rhydd Josephus, am yr ysbaid hwn, 592; Dr. Hall, 621; Jackson, 579; Clinton, a Cunningham, 612 o flyneddoedd. Y mae amryw o bethau ansicr yn hanes y Barnwyr, sydd yn gwneyd yn anmhosibl i benderfynu hyd yr ysbaid hwn. Enwir chwe tymmor o gaethiwed, yn estyn dros 111 o flyneddoedd; a phedwar ar ddeg o farnwyr, heb gyfrif Iosuah, Eli, a Samuel, yn llywodraethu am 273 o flyneddoedd. Y mae rhoi y ddau hyn at eu

Digitized by Google

gilydd, yn gwneyd y tymmor yn 390 o flyneddoedd; ac wrth chwanegu 46 a 83 yn ol y cyfrif blaenorol, yr ydym yn cael ysbaid o 519 o flyneddoedd. Ond yma y mae amryw bethau nad ydys yn sicr am danynt. A oedd y barnwyr i ryw fesur yn cydoesi â thymmorau y caethiwed? Meddyliai Usher eu bod. Mae Hall, ar sail *Barn.* ii. 18, yn meddwl nad oeddynt. Nis gwyddom ychwaith pa hyd y bu Iosuah yn llywodraethu, na'r henuriaid ar ei ol, oddi eithr Othniel, ei fab yn nghyfraith. Y mae yn ansicr hefyd a ydyw Eli i'w gyfrif yn mysg y barnwyr; gan fod ammheuaeth ai llywodraethwr gwladol ai barnwr dinasol yn unig ydoedd. Mae yr Ysgrythyrau hefyd yn ddystaw am y cyfwng rhwng marwolaeth Samson a Saul. Barnodd Eli Israel am ddeugain mlynedd; ond yn ol Usher, yr ydoedd yn gydoeswr â Samson, ac nid yn olynwr iddo. Un mlynedd ar ugain oedd rhwng marwolaeth Eli ac etholiad Saul, yn ol cyfrif Usher; ac eto, ymddengys hyn yn anghysson â geiriau Samuel (1 *Sam.* xii. 2) ar yr achlysur; "Mi a heneiddiais ac a benwynais." Gwelir oddi wrth hyn, os na dderbynir 1 *Bren.* vi. 1, ac os oes petrusder am *Act.* xiii. 20, nas gallwn gyrhaedd sicrwydd am yr ysbaid hwn.

Y mae y pummed a'r chweched ysbaid yn y daflen gyntaf yn dangos cytundeb hollol, yn mron, yn yr Hebraeg, y Deg a Thrigain, a Josephus. Cesglir y gyntaf o'r Ysgrythyrau, a'r ail o ysgrifenwyr paganaidd.

Y rhesymau dros ddilyn yr Hebraeg, yn hytrach na'r Deg a Thrigain, a Phum Llyfr Moses yn iaith y Samariaid, ydynt—1. Cywirdeb cyffredinol y testyn Hebraeg, yr hwn a wyliwyd yn eiddigeddus gan yr Iuddewon. 2. Y manteision a rydd yr amseryddiaeth byraf i drosglwyddiad y gwirionedd o Adda i Abraham, am fod Lamech yn cydoesi âg Adda a Shem, a Shem yn cydoesi âg Abraham. 3. Am fod amseriad y greadigaeth yn ol y cyfrif hwn, yn cytuno â dygwyddiad seryddol pwysig; sef fod echel mwyaf cylchdaith y ddaiar yn cytuno y pryd hwnw â llinell y cyhydedd. 4. Y mae cynnydd y boblogaeth mewn gwledydd newyddion, yn yr amseroedd hyn, yn dangos fod y cyfnod rhwng y dylif ac Abraham yn ddigon i roddi cyfrif am luosogrwydd y boblogaeth yn nyddiau Abraham; ac y mae y Beibl Hebraeg yn enwi yr un nifer o genedlaethau ag a enwir yn y Deg a Thrigain.

Yn erbyn hyn, dywedir dros y Deg a Thrigain —y cyfrif hwyaf—yr hwn sydd yn gwneyd oed y byd 2000 o flyneddoedd yn fwy na'r llall—1. Fod llygriad yr Hebraeg yn fwy tebygol na'r Groeg, am fod y Beibl Hebraeg yn nwylaw yr Iuddewon, ac ychydig o rai dysgedig o honynt yn unig am dymmor yn nechreuad y cyfrif Cristionogol; ac y gallent hwy deimlo yn bryderus i fyrhau y tymmor rhwng y greadigaeth a genedigaeth Crist, er mwyn dangos nad oedd yr adeg a benodasid gan eu hesbonwyr hwy i'r Messiah ymddangos ddim wedi pasio, tra nas gallasai cyfieithwyr y Deg a Thrigain ddim bod dan yr un cymhelliad: ac heb law hyny, yr oedd y cyfle yn eisieu ar ol ei orphen, o herwydd yr ydoedd mewn arferiad cyffredinol yn mysg Iuddewon a Christionogion. 2. Cyfrifer y tymmor hwyaf o ddeutu 1100 o flyneddoedd yn fwy cysson na'r 350 sydd yn yr Hebraeg, rhwng y dylif ac amser Abraham, a lledaeniad hiliogaeth Noah dros wledydd eang, o'r India ac Assyria i Ethiopia, yr Aipht, a Groeg, ac hefyd â sefydliad teyrnasoedd Babilon, Ninefeh, a'r Aipht.

Y mae amryw anhawsderau ar y ffordd i ffurfio cyfundraeth o amseryddiaeth yn yr ieithoedd dwyreiniol. Y mae yn hawdd gwneyd camgymmeriadau wrth gopïo rhifnodau yn yr Hebraeg. Saif א am 1, א̈ am 1000, ב am 2, כ am 20, ו am 700, ז̈ am 7000: ac wrth ysgrifenu y naill yn lle y llall, yr hyn y mae yn hawdd iawn ei wneyd, cynnyrchir anghyssonderau; megys yn 2 *Sam.* viii. 4; 1 *Cron.* xviii. 4.

Hefyd, mae gwahanol ddulliau o gyfrif—gwladol ac eglwysig—yn dechreu yn fynych hefyd mewn gwahanol fisoedd; ac hefyd y mae anghyssonderau yn fynych rhwng y cyfrif cyffredin a'r gwir amser. Y mae dull yr Iuddewon yn cyfrif amser yn arwain yn fynych i anhawsderau. Er anghraifft, am frenin sydd wedi teyrnasu blwyddyn, a rhanau o ddwy ereill, dywedir ei fod wedi teyrnasu tair blynedd: gosodant i lawr y prif ffigrau, gan esgeuluso y rhai lleiaf; megys *Barn.* xx. 35, 46. Pan deyrnasai tad a mab gyda'u gilydd—weithiau, cynnwysai y naill y llall, weithiau, ni wnant. Yn ol yr egwyddor hon, dywedir fod Iotham wedi teyrnasu un mlynedd ar bymtheg; 2 *Bren.* xv. 33: ac eto, yn *adn.* 30, sonir am yr ugeinfed flwyddyn. Ymddengys iddo deyrnasu gydag Uzziah am bedair blynedd. Cymharer hefyd 2 *Bren.* xiii. 1, 10; 2 *Bren.* xxiv. 8; â 2 *Cron.* xxxvi. 9. Yn ol yr un egwyddor, esbonir *Dan.* i. 1, a *Ier.* xxv. 1; gan fod Nebuchodonozor yn cyd-deyrnasu â'i dad pan warchaewyd ar Ierusalem. Trwy gymhwysiad o'r un egwyddor, symmudir ymaith lawer o anhawsderau yn amseryddiaeth gwledydd ereill y dwyrain, megys yr Aipht.

Yn fynych hefyd, defnyddir gwahanol ddull o gyfrif am yr un dygwyddiad: *Gen.* xv. 3; a *Gal.* iii. 17. Sonia Moses am 400 mlynedd o enedigaeth Isaac hyd y mynediad o'r Aipht, a Paul am 430 o alwedigaeth Abraham hyd roddiad y ddeddf—tri mis ar ol y mynediad o'r Aipht.

Wrth ffurfio amseryddiaeth, y mae dwy reol o bwys i'w hystyried. 1. Sefydlu dyddiad rhyw amgylchiad pwysig, a chyfrif yn ol neu yn mlaen oddi wrth hwnw. Cyfnod genedigaeth Crist yw y pwynt y cyfeirir ato mewn amseryddiaeth diweddar. Y mae amseryddiaeth yr Actau yn dibynu ar amser marwolaeth Herod; *Act.* xi: a dyddiad Epistolau Paul ar amser ei dröedigaeth. 2. Hyd y gellir cadarnhau casgliadau hanesiaeth, a sylwadau seryddol, yr oedd y Pasc Iuddewig yn dechreu y diwrnod cyn y llawn lleuad, rhwng y 18fed o Fawrth a'r 16eg o Ebrill. A chan nas gall diffyg ar y lleuad ddygwydd ond pan y bydd hi yn llawn, y mae y Pasc yn dechreu y diwrnod cyn y diffyg a gymmer le (pan y bydd hyny), rhwng y ddau ddydd penodedig. Yr oedd y Pasc ar y 14eg o Nisan; ac wrth gyfrif yn ol, ni gawn ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn. Deng niwrnod ar ugain llawn ar ol y 14eg o Nisan, yr oedd y Pentecost; 177 o ddyddiau ar ol llawn lleuad mis Nisan, neu chwe llawn lleuad, yr oedd Gŵyl y Pebyll. Yr oedd Gŵyl y Cymmod bum niwrnod yn gynt, sef y degfed o Tisri. Fel hyn, ond cael gwybod pa bryd y cymmerodd diffyg ar y lleuad le, ni a allwn benderfynu dechreu y flwyddyn, a'i holl wyliau.

Yn llyfrau Moses, hyd at amser Iacob, y mae yr amseryddiaeth yn gorfforedig â'r achau. Yn ddiweddarach, pan oedd yr Israeliaid dan eu breninoedd eu hunain, dyddient eu blyneddoedd yn ol amser eu teyrnasiad hwy, fel y gwelir yn llyfrau y Breninoedd, y Croniel, a Ieremïah. Yn ddiweddarach, ar ol eu darostyngiad dan iau dyeithriaid, cyfrifent yn ol blyneddoedd eu teyrnasiad hwy: er anghraifft, y Babiloniaid: *Ier.* xxv.

Digitized by Google

1; lii. 12, 28; *Dan.* ii. 1; vii. 1. Y Persiaid: *Ezra* iv. 24; vi. 15; vii. 8; *Neh.* ii. 1; v. 14; xiii. 6; *Hag.* i. 1; ii. 1; *Zech.* vii. 1; *Dan.* x. 1. Yn y Testament Newydd hefyd ni a gawn anghreifftiau cyffelyb: *Luc* iii. 1; *Mat.* ii. 1; *Luc* i. 5. Weithiau, ond nid mor fynych, y cyfrifir oddi wrth ddygwyddiadau neillduol; megys o'r ymadawiad o'r Aipht: *Exod.* xix. 1; *Num.* xxxiii. 38; 1 *Bren.* vi. 1: hefyd, oddi wrth ddechreuad y gaethglud i Babilon: *Ezec.* xxxiii. 21; xl. 1. Ar ol i'r Iuddewon fyned o dan iau y Syriaid, cyfrifent oddi wrth y rhifnod Antiochaidd. Dechreua hon pan ddechreuodd Seleucus Nicator (un o gadbeniaid Alexander Fawr) deyrnasu ar Syria, 312 c. c. Defnyddiwyd y cyfnod hwn am lawer o oesoedd gan baganiaid, Iuddewon, Cristionogion, a Mahometiaid. Defnyddir hwn yn llyfrau y Maccabeaid, ac hefyd gan Josephus.

Ar ol dechreuad yr Eglwys Gristionogol, ni ddefnyddiwyd y cyfnod Cristionogol yn uniongyrchol, ond parhawyd fel o'r blaen mewn gwladyddiaeth a llenyddiaeth. Yn mhlith Cristionogion y dwyrain yr oedd yr un Antiochaidd mewn arferiad, ac y mae hyd yn bresennol mewn cyssylltiad â'r cyfnod Cristionogol. Yn Alexandria, mewn trefn i gyfrif y Pasc, defnyddient gyfnod Diocleslan, yr hwn hefyd a elwid yn gyfnod y Merthyron. Dechreua yn y flwyddyn gyntaf o Diocleslan yr ymherawdwr, yr hwn a ddechreuodd y ddegfed erlidigaeth.

Parhawyd i gyfrif yn ol y cyfnod hwn hyd B. A. 583; pryd y dechreuodd Dionysius, abad Rhufeinig, ymwrthod, fel y dywed, "â'r dull o gyfrif oedd yn cadw mewn coffadwriaeth ormesdeyrn creulawn, a chyrchu yn ol at amser enawdoliaeth ein Harglwydd Iesu Grist, i gyfrif blynyddoedd oddi yno." Mae y flwyddyn gyntaf o'r cyfnod hwn yn dechreu Ionawr 1af, hyd Rhagfyr 31ain, B. A. 754. Ymledodd y cyfrif hwn yn raddol, yn enwedig trwy esampl Beda yn Mhrydain, yr hwn a'i defnyddiai yn ei weithiau. Charles Martel, brenin Ffrainc, oedd y brenin cyntaf a'i defnyddiodd. Sefydlwyd ef trwy gyfraith yn 1431, gan y pab Eugenius. Sefydlwyd blwyddyn genedigaeth Crist gan Dionysius, dair blynedd ar ol marwolaeth Herod, yr hyn sydd yn anghysson â *Mat.* ii. Tybir mai yr hyn a gamarweiniodd Dionysius oedd cyfrif y 15fed flwyddyn i Tiberius Cæsar o'r amser y dechreuodd deyrnasu ei hun, yn lle o'r amser y dechreuodd gyd-deyrnasu âg Augustus, tair blynedd o flaen marwolaeth Augustus.

Y mae y flwyddyn Gristionogol yn cynnwys 365 o ddyddiau; a phob pedwaredd flwyddyn, 366 o ddyddiau. Y mae pob blwyddyn yn cael ei hystyried yn 365¼ o ddyddiau, yr hyn sydd 11′ 11″ yn ormod, neu ddiwrnod bob 129 o flynyddoedd. O ganlyniad, tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, yr oedd yr amser cyfrifedig ar ol y gwir amser bron ddeuddeng niwrnod. Er mwyn cyweirio hyn, gorchymynwyd gan Gregory xiii. fod y flwyddyn 1582 i gynnwys 355 o ddyddiau; ac mewn canlyniad, gadawyd allan o'r 5ed i'r 14eg o fis Hydref, yn y flwyddyn hono: ac i rwystro y fath afreoleiddiwch o hyny allan, trefnwyd fod i un flwyddyn naid o bob 400 mlynedd i gael ei hystyried yn flwyddyn gyffredin.

Nid yw y diwygiad uchod *(new style)*, wedi ei fabwysiadu yn mhob gwlad hyd heddyw. Y mae rhai gwledydd, megys Rwssia, yn glynu wrth yr hen ffordd. Angenrhaid yw i ni gofio fod dyddiad Rwssia ddeuddeng niwrnod ar ol pob gwlad lle y mae yr arddull newydd mewn ymarferiad.

Nid yw o fewn terfynau ein testyn i wneyd un sylw o amseryddiaeth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid; ond gan fod mynych son am y Cyfnod Olympaidd, gall fod yn dderbyniol rhoddi ychydig eiriau o eglurhâd. Nid oedd gan drigolion Groeg un amser penodol i gyfrif oddi wrtho. Dechreuai blwyddyn pob teyrnas ar ddiwrnod coffadwriaethol o'r peth mwyaf pwysig yn ei hanes; a chyfrifid ei blyneddoedd o enedigaeth neu farwolaeth rhyw frenin enwog, neu ryw fuddugoliaeth fawr. Yn y flwyddyn 776 o flaen Crist, sefydlwyd y Chwareu Olympaidd, a chynnelid ef mewn bri mawr bob pedair blynedd. Gan fod yr amgylchiad hwn yn un o barch ac enwogrwydd mawr trwy holl Groeg, daeth yn fuan i gael ei arfer gan haneswyr fel dull adnabyddus i'r cyffredin o sefydlu dyddiad y ffeithiau a gofnodent. Yr oedd pedair blynedd yn mhob Olympiad. Cofnodent fel hyn yn gyffredin—"Olym. 50. 3." Hyny yw, y drydedd flwyddyn o'r degfed Olympiad a deugain. Y mae gan hyny 49 Olympiad wedi myned heibio, a dwy flynedd; sef $49 \times 4 + 2 = 198$. Tyner hyn o 776, y flwyddyn gyntaf y sefydlwyd hwynt, a cheir bod y flwyddyn uchod yr un peth a'r flwyddyn 578 cyn Crist. Eto, dychwelodd yr Iuddewon o Babilon 536 cyn Crist, neu $776 - 536 = 240$ o flyneddoedd ar ol yr Olympiad cyntaf. Y mae gan hyny 60 Olympiad wedi myned heibio; a dygwyddodd hyn yn y 61fed Olympiad. Hawdd i'r darllenydd gymhwyso y cyfnod hwn at yr amseryddiad cyffredin a geir mewn awduron hanesyddol. Terfynwn trwy gyflwyno i sylw y darllenydd y crynodeb canlynol o brif gyfnodau hanesiaeth, yn nghyd â'u cyssylltiad â'r cyfnod Cristionogol.

| PRIFNODAU. | MIS A BLWYDDYN EU DECHREUAD. |
|---|---|
| Oed y byd yn ol y cyfrif Groegaidd | Medi 1, 5598 c.c. |
| Cyfnod eglwysig Caer Cystenyn | Mawrth 21, neu Ebrill 1, 5508 c.c. |
| Cyfnod gwladol Caer Cystenyn | Medi 1, 5508 c.c. |
| Y cyfnod Alexandriaidd | Awst 29, 5502 c.c. |
| Cyfnod eglwysig Antioch | Medi 1, 5492 c.c. |
| Y cyfnod Juliaidd | Ionawr 1, 4713 c.c. |
| Oed y byd | Hydref, 4008 c.c. |
| Oed y byd (cyfrif Iuddewig) | Mawrth, 3761 c.c. |
| Y cyfnod gwladol Iuddewig | Hydref, 3761 c.c. |
| Cyfnod Abraham | Hydref 1, 2015 c.c. |
| Dinystr Caerdroia | Mehefin 12 neu 24, 1184 c.c. |
| Cyfnod adeiladiad teml Solomon | Mai, 1015 c.c. |
| Cyfnod Olympaidd | Newyddloer heulorsaf haf *(new moon of summer solstice)*, 776 c.c. |
| Y cyfnod Rhufeinig | Ebrill 21, 753 c.c. |
| Cyfnod Nabonasar | Chwefror 26, 747 c.c. |

Digitized by Google

| | |
|---|---|
| Cyfnod 70 wythnos Daniel . . . . . . | Alban eilyr *(vernal equinox)*, 458 c.c. |
| Cylch Meto *(Metonic cycle)* . . . . . . | Gorphenaf 15, 432 c.c. |
| Cyfnod Calippus *(Calippic period)* . . . . | Newydd loer hirddydd haf, 330 c.c. |
| Cyfnod Philip *(Philippian era)* . . . . | Mehefin, 323 c.c. |
| Y Prifnod Antiochaidd *(Syro Macedonian)* . | Medi 1, 312 c.c. |
| Y Prifnod Syriaidd . . . . . . . . . | Hydref 19, 125 c.c. |
| Y Prifnod Sidonaidd . . . . . . . . . | Hydref, 110 c.c. |
| Prifnod Cæsaraidd Antioch . . . . . . | Medi 1, 48 c.c. |
| Prifnod Juliaidd . . . . . . . . . . | Ionawr 1, 45 c.c. |
| Prifnod Spaenaidd . . . . . . . . . | Ionawr 1, 38 c.c. |
| Prifnod Actiaidd . . . . . . . . . . | Ionawr 1, 30 c.c. |
| Prifnod Actiaidd yn yr Aipht . . . . . | Medi 1, 30 c.c. |
| Prifnod Augustus . . . . . . . . . . | Chwefror 14, 27 c.c. |
| Y cylch Pabaidd *(Pontifical Indiction)* . . | Rhagfyr 25, neu Ionawr 1, 8 c.c. |
| Cylch Caer Cystenyn . . . . . . . . | Medi 1, 3 c.c. |
| Y cyfnod Cristionogol cyffredin . . . . . | Ionawr 1, 1 o.c. |
| Dinystr Ierusalem . . . . . . . . . . | Medi 1, 69 o.c. |
| Cyfnod y Maccabeaid . . . . . . . . | Tachwedd 24, 166 o.c. |
| Cyfnod Dioclesian . . . . . . . . . | Medi 17, 284 o.c. |
| Cyfnod yr Esgyniad . . . . . . . . . | Rhagfyr 12, 295 o.c. |
| Cyfnod y Merthyron . . . . . . . . . | Chwefror 23, 303 o.c. |
| Cyfnod yr Armeniaid . . . . . . . . | Gorphenaf 7, 552 o.c. |
| Cyfnod yr Hegira . . . . . . . . . . | Gorphenaf 16, 622 o.c. |
| Y cyfnod Persiaidd . . . . . . . . . | Mehefin 16, 632 o.c. |

—(*Shuckford's Connection; Prideaux's Old & New Test. History; Clinton's Fasti Hellenici and Fasti Romani; Dr. Smith's Dict. of Chronology and History; Amseryd. Ysgryth. y Parch. S. Lloyd; Angus' Bible Handbook.*)

AMWISG, [o *gwisg*]: gorchudd; amdo. "Simon Pedr...a wregysodd ei *amwisg* (canys noeth oedd efe);" *Ioan* xxi. 7; sef, heb ond ei wisg isaf am dano, a rhoddes un arall ar hono, yr hon oedd fath o arwisg o lian, a wisgid rhwng y dilledyn nesaf i'r corff a'r gochl neu y fantell, ac a grynöid am y corff â gwregys. "Ioseph....a'i tynodd ef i lawr, ac ei amwisgodd yn y lliain;" hyny yw, efe a'i rhoddes mewn amdo: *Marc* xv. 45.—W.S.

AMYNEDD, fel un o rasau y fuchedd Gristionogol ydyw, y dymmer meddwl hono sydd yn cadw y credadyn yn dawel a sefydlog o ran ei ysbryd dan orthrymderau a siomedigaethau bywyd; yn ddiymmod a dyfalbarhaol at lwybr ei ddyledswydd dan anfanteision ac yn wyneb anhawsderau; ac yn bwyllog ac ymarhous yn ei ddysgwyliad am y pethau y gobeithia eu mwynhau. Arfera yr ysgrifenwyr sanctaidd ddau air i osod allan y dymmer neu yr agweddiad meddwl grasol hwn; sef, μακροθυμια—hirfrydedd, yr hwn a gyfieithir weithiau yn *amynedd*, fel yn *Heb.* xii. 1; ac weithiau yn *hirymaros*, fel yn *Rhuf.* ii. 4; ix. 22; a 2 *Cor.* vi. 6. Y gair arall, a'r hwn a arferir fynychaf am amynedd, ydyw ὑπομονῇ—goddef dan, ymaros yn dawel a dirwgnach dan amgylchiadau profedigaethus a gofidus, heb gythruddo, anfoddloni, achwyn, ac ymwylltio. Y mae felly yn arwyddo hunanfeddiant, hunanlywodraeth y meddwl a'i dymmer yn mhob amgylchiad. "Yn eich amynedd, meddiennwch eich eneidiau;" *Luc* xxi. 19. Bu gair Crist yn ddiau yn foddion effeithiol i feithrin y dymmer ragorol o amynedd a ddangosodd y dysgyblion profedigaethus pan y daethant i wyneb amgylchiadau. Canmola yr Arglwydd Iesu yr eglwys yn Philadelphia am "gadw gair ei amynedd" ef: *Dad.* iii. 10: sef, ddarfod iddi ymagweddu yn ol ei air a'i esampl ef dan y blinderau a oddefasai er mwyn ei enw a'i achos ef. Amynedd, gan hyny, ydyw y rhinwedd duwiol a elwir allan i ymarferiad yn benaf oll yn wyneb profedigaethau, croesau, a blinderau, a'r un y mae gair Crist yn ei chymhell yn benaf ar ei ganlynwyr yn wyneb y pethau hyny. "Y mae yn rhaid i chwi wrth amynedd;" o blegid "yn y byd gorthrymder a gewch;" a thra y byddo dysgyblion Crist yn yr un byd a gorthrymderau, rhaid iddynt feithrin ac ymarfera y dymmer fawrfrydig hon. "Chwi a glywsoch am amynedd Iob." Gosodir Iob fel yr esampl fwyaf nodedig o'r gras hwn o holl ddynion sanctaidd yr Ysgrythyrau: "ni roddodd yn ynfyd ddim yn erbyn Duw." Ond yn Nghrist Iesu y llewyrchodd y rhinwedd hwn, fel pob rhinwedd arall, yn ei lawn a'i berffaith ogoniant. "Yr hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid," a "phan ddyoddefodd, ni fygythiodd; pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn." "Fel oen yr arweinid ef i'r lladdfa, ac fel y tau dafad o flaen y rhai a'i cneifiai, felly nid agorai yntau ei enau;" *Heb.* xii. 3; 1 *Pedr* ii. 23; *Esa.* liii. 7. Felly, wrth ddyoddef dros ein pechodau ni, "efe a adawodd i ni esampl fel y canlynem ei ol ef." Nid rhoddi esampl o amynedd a dyoddefgarwch o'n blaen ni oedd dyben ei ddyoddefiadau ef, ond "tros ein pechodau ni," fel aberth cymmod, oedd yr amcan mawr a goruchel ynddynt: ond wrth ddyoddef felly *trosom* ni, efe a adawodd esampl berffaith *i ni* o amynedd, hunanfeddiant, tawelwch, ac addfwynder ysbryd a thymmer. Yr oedd ei brofedigaethau ef yn fwy, yn gryfach, a chwerwach, na dim profedigaethau a gyfarfu â neb o'i bobl erioed, nac a gyfarfydd âg un o honynt byth chwaith; fel yr oedd urddas anfeidrol yn ei berson, a phurdeb difrycheulyd yn ei fywyd, a'r ymosodiadau arno yn fwy tanllyd, a hyny oddi wrth greaduriaid anniolchgar a drwg, y treuliasai yn eu plith fywyd o gymmwynasgarwch i'w bendithio a'u llesau. Efe a oddefodd "ddywedyd yn ei erbyn"—"y cyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid"—y cyfryw ddirmyg a gwaradwydd—yr oll a allai cynddaredd a gelyniaeth ei ddyfeisio a'i weithredu, heb fygwth na difenwi; ac nid yn unig hyny, ond â'i anadl olaf efe a "eiriolodd dros y troseddwyr" hyn, gan ddywedyd "O! Dad, maddeu iddynt! canys ni wyddant beth y maent yn ei wneuthur!" Croes ein Harglwydd Iesu Grist, gan hyny, ydyw y lle i'r Cristion fyned i edrych arni, i ystyried ac i ddysgu amynedd,



Digitized by Google

fel na flino, ac nad ymollyngo yn ei enaid, dan orthrymderau a chroesau bywyd.

"Caffed amynedd ei pherffaith waith, fel y byddoch berffaith a chyfan, heb ddiffygio mewn dim;" *Iago* i. 4. Y mae i amynedd ei swydd a'i lle gyda golwg ar ddyledswyddau y fuchedd Gristionogol, yn gystal ag mewn perthynas â goddef profedigaethau mewn arafwch a thawelwch meddwl; a chyn y caffo ei *pherffaith waith*, rhaid ei dwyn allan i ymarferiad yn ei holl gysylltiadau. Y mae "yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni" i'w rhedeg "trwy amynedd." Yn y berthynas hon, y mae yn wrolfrydigrwydd, ysbryd penderfynol, dyfal-barhaol, i dori drwy bob rhwystrau ac anhawsderau heb ddigaloni a llaesu dwylaw.

"Y mae yn rhaid i chwi wrth amynedd; fel, wedi i chwi ddyoddef yn ol ewyllys Duw, y derbynioch yr addewid:"—amynedd i ddysgwyl am yr addewid yn amser ac yn nhrefn Duw ei hun. Yn hyn y diffygiodd ffydd ac amynedd tad y ffyddloniaid ei hunan; pan yr aeth i dori ffordd gnawdol allan i geisio cyrhaedd yr addewid o had, yn nghyflawniad yr hon yr ymddangosai Duw fel yn hir oedi. Pan y mae amynedd yn cael ei pherffaith waith, y mae yr enaid "dan obaith yn credu yn erbyn gobaith,"—yn ymsefydlu ar ei ddysgwylfa, ac yn aros ar ei dwr; os oeda y weledigaeth, efe a erys ac a ddysgwyl am dani yn llwybr ufudd-dod a dyledswydd; ac felly, cymhwysir ef i'w derbyn a'i mwynhau pan y delo. Hyder diysgog yn ngwirionedd addewid Duw, ei allu, a'i ddoethineb, a'i ffyddlondeb i'w chyflawnu, a gynnyrcha y dysgwyliad amyneddus hwn wrtho.—*(Evans' Christian Temper; Geiriaduron Buck, Charles, a Jones; Porter's Sermons.)*

AMYNEDD DUW: dyoddefgarwch neu hirymaros Iehofah tuag at wrthddrychau cyndyn, anufudd, ac annuwiol, yn attal ac yn oedi eu cosp a'u dinystr, yn ol eu haeddiant. Hyd y gallwn ni wybod, y mae rhai o berffeithiau gogoneddus y Duwdod, na ddygir allan mewn dadguddiad ymarferol o honynt yn un cwr o'i lywodraeth ond ar y ddaiar yn unig: un o'r rhai hyn yw ei amynedd. "Nid arbedodd yr angelion a bechasant;" ni weinyddodd tuag atynt hwy yn ol ei amynedd a'i hirymaros, ond yn ol ei gyfiawnder. Mor gynted ag y pechasant, syrthiodd eu barnedigaeth arnynt. Ond tuag at ddyn, pan bechodd, efe a ddangosodd ei hirymaros—oedodd weinyddiad y gosp haeddedig arno. Byd yn cael ei oddef ganddo mewn amynedd yw y byd hwn, a phob dyn ynddo. Yn ei amynedd, fel yn mhob perffeithrwydd, y mae Duw yn anfeidrol. Rhaid fod ei amynedd ef felly, pan feddyliom am wrthryfel, anufudd-dod, a gelyniaeth y byd tuag ato. Efe, "yr hwn sydd yn lanach ei lygaid nag y gall edrych ar anwiredd, ac ni all edrych ar ddrwg," yn gweled ac yn canfod yr holl ddrygau a'r ffieidd-dra a gyflawnir ar y ddaiar, a'r holl ddrygau hyn yn taraw yn erbyn ei natur, ei gyfraith, a'i awdurdod ef yn uniongyrchol, eto, yn arbed y byd o oes i oes—yn estyn dyddiau y gwrthryfelwyr, ac yn llenwi eu geneuau â daioni am flynyddoedd, yn lle eu distrywio yn ol eu haeddiant. Rhaid ei fod yn annherfynol yn ei amynedd, ac yn anfeidrol yn ei hirymaros. Gelwir ef "Duw yr amynedd." Y mae, nid yn unig yn amyneddgar, ond y mae yn Dduw yr amynedd, neu yn Dduw mewn amynedd. Gall, nid yn unig weithredu a llefaru fel Duw hollalluog, hollwybodol, ac "unig ddoeth," ond gall *oddef*, a llywodraethu ei hun, fel Duw, mewn amynedd. Ymogonedda ynddo ei hun yn hyn. Er ddarfod i Ephraim ei "gyffroi ef i ddig yn nghyd â chwerwedd," efe a ddywed, "Ni chyflawnaf angerdd fy llid; ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim, canys Duw ydwyf fi, ac nid dyn; y Sanct yn dy ganol di; ac nid äf i mewn i'r ddinas."

Dywedir mai sail gweinyddiad hir amynedd Duw tuag at y byd euog ydyw aberth ei Fab: na buasai arbediad barn a dinystr i ddyn euog, mwy nag i angel euog, oni buasai cyfryngdod Emmanuel. Rhoddid awgrymiad o hyn, y mae yn llwyr debygol, i'r troseddwyr cyntaf, drwy eu gwisgo â pheisiau o grwyn y creaduriaid a laddesid yn aberthau drostynt, fel y tebygir. Ni bu byth er y cwymp na chyfrin na chyfathrach rhwng Duw a dynion, ond mewn aberth. "Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant," oedd y wers fawr a ddelid o hyd o flaen llygaid y byd, trwy yr holl osodiadau dwyfol, o'r dechreuad hyd gyflawnder yr amser. A chan yr ewyllysiai Duw ddangos a gogoneddu ei drugaredd yn narpariaeth iawn er maddeuant pechodau, efe a ogoneddai hefyd ei hir amynedd ar y sail hono, drwy arbed y byd gwrthryfelgar, ac estyn amser a manteision iddo, a'i dywys â golud ei ddaioni i edifeirwch.

Er fod amynedd Duw yn anfeidrol fawr, y mae yn derfynol, o angenrheidrwydd, yn ei berthynas â'i wrthddrychau, ac amser ei weinyddiad. Bu ei hir amynedd yn aros, yn nyddiau Noah, wrth yr hen fyd anghrediniol ac anufudd, tra y darperid yr arch; ond daeth y tymmor hir hwnw i ben o'r diwedd: "Daeth y dylif, ac a'u cymmerodd hwynt oll ymaith." "A chyfrifwch hir amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth;" 2 *Pedr* iii. 15. Cyfeiriai yr apostol, yn flaenorol, at watwarwyr, a rodient yn ol eu chwantau eu hunain, gan ddywedyd, "Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef? canys er pan hunodd y tadau, y mae pob peth yn parhau fel yr oeddynt o ddechreuad y creadigaeth." Diystyrent fel hyn "olud daioni a hirymaros Duw, gan drysori iddynt eu hunain ddigofaint erbyn dydd digofaint." Ymgryfhaent mewn anystyriaeth, rhyfyg, a llygredigaeth, ar draul amynedd Duw; ac felly, gwnaent gamgyfrif a chamddefnydd ofnadwy o'i amynedd a'i ddaioni. Y cyfrif a'r defnydd a fynai Duw i ddynion wneuthur o'i hirymaros, ydyw, *er iachawdwriaeth*—i sicrhau eu hawl yn ei iachawdwriaeth ef, a ddadguddir ac a gynnygir iddynt yn yr efengyl. Ei ddyben yn eu hoedi, ac yn eu harbed, ydyw, eu tywys i edifeirwch â'i ddaioni. "Mi a roddais iddi amser i edifarhau, ond nid edifarhaodd hi."

Y mae dynion, trwy gamddefnyddio yr amser a'r manteision a fwynhant o amynedd a daioni Duw, yn trysori euogrwydd trymach arnynt eu hunain nag a ddichon i'r angelion na chadwasant eu dechreuad, y rhai ni fuont erioed yn wrthddrychau yr unrhyw oruchwyliaeth o ras, ei wneuthur, gan eu bod yn pechu yn erbyn y caredigrwydd a'r cymmwynasgarwch mwyaf a ddangosodd y Duwdod tuag at unrhyw greadur yn ei lywodraeth.

AMYRALDIAID, [*Amyraldists*]. Canlynwyr Moses Amyraldus, yr hwn (fel y daionus Mr. Baxter, ac ereill) a ymdrechai i ganfod llwybr canol rhwng Calviniaeth ac Arminiaeth, yr hyn a'i dygodd i ddadl â'r godidog Peter du Moulin. Credai fod "Duw yn dymuno dedwyddwch pob dyn," ac nad yw yn gwrthod neb "trwy arfaeth ddwyfol:"—Fod ffydd yn angenrheidiol—Nad yw Duw yn gommedd i neb "y gallu i gredu," er nad

yw yn rhoddi i bawb "ei gynnorthwy" i gredu. Ystyria Mosheim, a'i gyfieithydd, nad yw hyn ond Arminiaeth wedi ei gwisgo mewn gorchudd o ymadroddion amwysol.—(*Mosheim's Eccl. Hist.*, v. 375.)

**ANAB**, [ענב]: un o'r dinasoedd yn mynydd-oedd Iudah, o'r rhai yr ymlidiodd Iosuah yr Anaciaid: *Ios.* xi. 21; a xv. 50. Dywed y Dr. Robinson yn ei *Ymchwiliadau yn Palestina* (cyf. ii. td. 195), iddo sylwi o'r lle a elwir Main, neu Maon yr Ysgrythyr, ar le o'r enw yma, wedi ei nodi â thŵr bychan.

**ANAC**, [ענק]: mab Arbah, a thad y cawri Anacaidd: *Ios.* xiv. 15; a xv. 13, 14. Enwau ei feibion oeddynt Sesai, Ahiman, a Thalmai, y rhai a ddaethant i fod yn genedlaeth fawr: *Ios.* xi. 21.

**ANACIAID**: hiliogaeth Anac oeddynt, y rhai oeddynt yn gynnwysedig o dri llwyth, y rhai a hanent o'i dri mab, ac a enwid bob llwyth ar enw eu tad, ond y genedl a enwid ar enw Anac: *Ios.* xi. 21. Pan oresgynwyd Gwlad Canaan gan yr Israeliaid, yr oedd yr Anaciaid yn meddu am-ryw ddinasoedd cedyrn; megys Hebron, Debir, ac Anab, a threfydd ereill yn ngwlad y deheu. Eu maintioli cawraidd, a'u gwedd filwraidd, a frawychodd yr ysbiwyr Hebreaidd yn ddirfawr; ond fe'u gorchfygwyd o'r diwedd gan Caleb; a'r gweddill o honynt a ddiangasant am noddfa i fysg y Philistiaid: *Num.* xiii. 33; *Deut.* ix. 2; *Ios.* xi. 21; a xiv. 12; *Barn.* i. 20.

**ANACH—AU**: achos o rwystr, attalfa. Yn y rhagdraith i Ail Epistol Paul at y Corinthiaid, yn nghyfieithiad William Salesbury, cytarfyddwn â'r ymadrodd canlynol:—"Erwydd pa bleit S. Paul wedy i rwystro gan iawn *anachae* y ddyvot atynt wy, a scrivenodd yr epistol hwn o Macedonia," &c. Yn ngwasanaeth trefn priodas yr Eglwys Sefydledig, y mae y gair yn cael ei arfer am yr achos a ystyrir yn rhwystr cyfreithlawn i uno rhai mewn cyflwr priodasol: "O gŵyr un o honoch un *anach*, fel na ddylech yn gyfreithlawn fyned yn nghyd mewn priodas."

**ANAD** [*a—nad*]: arbenig, penaf, enwedig. "Yn anad dim"—yn *fwy na* dim, uwch law pob peth.

> "Dy fardd mad, yn *anad* neb,
> Digroenes deigr ei wyneb." *D. ab Gwilym.*

Alleiriad:—Digroenwyd gwyneb dy fardd da gan ddagrau yn *fwy na* neb. "Mor llygredig oedd ei wedd yn *anad* neb, a'i bryd yn *anad* meibion dynion;" *Esa.* lii. 14. "Fel y difynwyd ei wedd yn *fwy na* neb, a'i ffurf yn *fwy na* meibion dynion."—Seis. Mae geiriau o gyffelyb ystyr yn *Salm* xxii. 6; "A minnau, pryf ydwyf, ac nid gŵr; gwarthrudd dynion, a dirmyg y bobl:" ac yn *Esa.* liii. 3, 4; "Dirmygedig yw, a diystyraf o'r gwŷr; gŵr gofidus, a chynnefin â dolur: ac yr oeddym megys yn cuddio ein hwynebau oddi wrtho: dirmygedig oedd, ac ni wnaethom gyfrif o hono. Diau efe a gymmerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau: etto ni a'i cyfrifasom ef wedi ei faeddu, ei daro gan Dduw, a'i gystuddio:"—oll yn cyfeirio yn amlwg at Iesu Grist, ac yn ddarluniad nerthol o hono yn nyfnder ei ddarostyngiad, pan wedi cael ei ffangellu, poeri arno, a thynu blew ei gernau! "Mor llygredig oedd ei wedd yn *anad* neb, a'i bryd yn *anad* meibion," pan y dygodd Pilat ef allan i'w boenydwyr, ac yntau "yn arwain y goron ddrain a'r wisg borphor," ac y llefodd Pilat mewn syndod yn wyneb y rhai oedd yn deisyfu dwyn ei einioes oddi arno, gan edrych arno yntau—"*Wele y dyn!*" (*Ioan* xix. 1—5)—Wele y dyn, yr hwn y dywed eich Ysgrythyrau chwi ei fod yn decach na meibion dynion; fod gras wedi ei dywallt ar ei wefusau; ei fod yn wyn a gwridog, yn rhagori ar ddeng mil;—ïe, ei fod oll yn hawddgar (*Salm* xlv. 2; *Can.* v. 10—16—Wele y dyn! ac, "mor llygredig yw ei wedd yn *anad* neb, a'i bryd yn *anad* meibion dynion!"

**ANADL—U**, [*an-adl*]: ffun, chwythad; gwynt, awel; yr awyr;—yr hwn, trwy gael ei dynu i mewn gan yr ysgyfaint, sydd yno yn dyfod i gyffyrddiad â'r gwaed, ac yn cyfranu iddo ei ansawdd fywydol: *Gen.* ii. 7; *Iob* xii. 10; *Salm* civ. 29; *Act.* xvii. 25. Y mae amryw o eiriau yn yr Hebraeg, y rhai sydd oll yn cael eu cyfieithu mewn gwahanol fanau yn yr Hen Destament yn anadl, einioes, gwynt, enaid, ac ysbryd. Felly y mae y gair πνεῦμα (*pneuma*) yn y Testament Newydd weithiau yn arwyddo anadl, awyr, gwynt, ac enaid neu fywyd; brydiau ereill, yr ysbryd anfarwol. Y mae yn hawdd canfod y rheswm pa ham y mae yr un geiriau wedi eu defnyddio i osod allan anadl ac enaid, neu y bywyd anifeilaidd; sef, am fod y bywyd hwnw yn cael ei gynnal a'i amlygu trwy y weithred o anadlu. Y mae y geiriau a arwyddant awyr, anadl, a gwynt, yn cael eu defnyddio hefyd i osod allan ysbryd; o blegid mai awyr ydyw yr elfen buraf a mwyaf annaiarol mewn natur—yr annhebycaf i sylwedd ac eto yn sylwedd—elfen sydd yn sefyll megys ar derfyn sylweddoliaeth, ac yn cyssylltu sylwedd ac ysbryd; yn anweledig fel ysbryd, ac felly y fwyaf cyfaddas i drosglwyddo i ni syniad am briodoliaethau ysbryd. Y mae tri neu bedwar o'r geiriau Hebraeg y cyfeiriwyd atynt uchod yn deilwng o sylw. 1af, נשמה (*neshama*). *Gen.* ii. 7; "*anadl einioes.*" *Iob* xxvii. 3; "tra fyddo fy *anadl* ynof." Arwydda yma yr enaid, y ψυχή—yr egwyddor fywydol, yr hon sydd yn cael ei chynnal trwy anadlu. Defnyddir ef hefyd i osod allan Ysbryd Duw yn cyfranu i ddyn fywyd a doethineb: *Iob* xxxii. 8; a xxxiii. 4. Defnyddir ef unwaith am y meddwl: *Diar.* xx. 27. Trwy draws-enwad (*metonymy*), gesyd allan greadur byw, neu yr hyn sydd yn meddu anadl: *Deut.* xv. 16; *Ios.* x. 40. 2il, נפש (*nephesh*). Cyfieithir y gair hwn yn *einioes* yn *Gen.* i. 30; a ix. 45. "Einioes am einioes;" *Exod.* xxi. 23. Dyma y gair sydd yn benodol yn arwyddo *enaid*, yn yr ystyr o fywyd anifeilaidd: y gair Groeg cyfatebol iddo ydyw ψυχή, â'r hwn y cyfieithir ef yn gyffredin gan y Deg a Thrigain: Llad. *anima*, o'r hwn y mae y Seis., *animal*, anifail, neu greadur byw—yr hyn sydd yn meddu anadl. "A'r dyn a aeth yn enaid (Heb. *nephesh*) byw:" *h. y.*, yn anifail neu greadur byw: *Gen.* ii. 7. Y mae y gair hwn o ystyr eangach na'r blaenaf: cymhwysir ef yn fynych at y *meddwl*, fel eisteddle y synwyrau a'r gwahanol deimladau: cyfieithir ef yn yr ystyr hwn *calon*;—"Chwi a wyddoch *galon* y dyeithr;" *Exod.* xxiii. 9. Arwydda hefyd *ddyn* yn yr oll o hono, fel person; "Pan becho *dyn*" neu *enaid*: *Lef.* iv. 2. 3ydd, רוח (*rwach*). Dyma y gair a gyfieithir yn "anadl" yn *Iob* ix. 18, a iv. 9; *Salm* xviii. 15. Cyfieithir ef yn fynych yn *wynt*: *Amos* iv. 13; *Esa.* xxvii. 8. Dyma y gair sydd yn 1 *Bren.* xviii. 12; 2 *Bren.* ii. 16; ac *Esa.* xl. 7; lle y mae y gwynt yn cael ei alw yn "Ysbryd yr Arglwydd;" am y tybid y byddai yr

Digitized by Google

awyr yn cael ei gynhyrfu gan anadl dwyfol: *Exod.* xv. 8; *Iob* xv. 30. Y mae y gair hefyd yn fynych yn dynodi yr *enaid*—yr egwyddor fywydol. Dyma y gair sydd yn benodol yn arwyddo yr ysbryd anfarwol, ac yn cyfateb i'r *το πνεῦμα* yn y Groeg, mewn cyferbyniad i'r *ἡ ψυχή*—yr enaid neu y bywyd anifeilaidd. Cymhwysir ef hefyd at wahanol alluoedd y meddwl; megys y deall, yr ewyllys, &c.: *Iob* xx. 3; *Hag.* i. 14.

Y mae y gair *anadlu* yn cael ei ddefnyddio yn fynych yn yr Ysgrythyrau mewn ystyr ffugrol. Trwy yr ymadrodd, "Duw yn *anadlu,*" y gosodir allan y grym a'r hawsder anfeidrol â pha un yr oedd efe yn cyfranu bywyd i ddyn yn ei greadigaeth: *Gen.* ii. 7. Am yr un rheswm y gelwir ei ddigofaint yn ninystr ei elynion yn "*anadl* Duw," "*anadl* ei wefusau;" *Iob* iv. 9; *Esa.* xi. 4. Dywedir y bydd iddo ddinystrio yr "anwir hwnw" âg "*ysbryd* ei enau:"—Seis., *anadl* ei enau *(the breath of his mouth)*—*τῳ πνεύματι τοῦ στόματος*. Y mae ymadroddion o'r un natur yn *Salm* xxxiii. 6; a civ. 30; yn dynodi gallu creadigol. Crist yn *anadlu* ar y dysgyblion, a ddynodai ei waith yn cyfranu iddynt ddoniau a grasusau yr Ysbryd Glân: *Ioan* xx. 22. Wrth Ysbryd Duw yn *anadlu ar yr esgyrn sychion*, yr ydym i ddeall, yn uniongyrchol, ei waith yn cynnysgaethu y gaethglud yn Babilon â gobaith, gwroldeb, ac eiddigedd am eu dychweliad a'u gwaredigaeth; ac mewn ystyr gyffiniol, ei waith yn cyfranu bywyd ysbrydol i'w bobl, ac yn adgyfodi eu cyrff yn y dydd diweddaf: *Ezec.* xxvii. 9. Gelwir Zedeciah yn "anadl ffroenau" yr Iuddewon, am fod nawdd a chynnorthwy y brenin yn angenrheidiol er diogelwch a chysur cenedl: *Galar.* iv. 20. Dywedir fod Saul yn "chwythu bygythion a chelanedd yn erbyn dysgyblion yr Arglwydd:"—Seis., *breathing out;* Gr. *ἐμπνέων*, o'r ferf *ἐμπνέα*, yr hon, medd Robinson, a arwydda yma *anadlu*—bod yn llawn o beth—bod ar ymdori ganddo.—(*Gesenius' Heb. Lex.,* a *Robinson's Greek Lex.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Brown's Dict.*)

ANAF—US—ION: bai, mefl; archoll; un y byddo rhyw aelod yn ngholl neu ddiffygiol iddo, yn enedigol neu trwy ddamwain felly: *Mat.* xv. 30; xviii. 8. Yr oedd y gyfraith Iuddewig yn gofyn i'r offeiriaid fod yn hollol rydd oddi wrth bob anaf (anmherffeithrwydd neu wrthuni) personol: *Lef.* xxi. 17—23. Mae y Mishna yn rhoi ar ddeall nad oedd anaf amserol yn cau allan o'r offeiriadaeth, ond yn unig am gyhyd ag y byddai yn parhau. Nid oedd un creadur âg anaf arno chwaith i gael ei aberthu i'r Arglwydd: *Lef.* xxii. 19—25; *Deut.* xv. 21; *Mal.* i. 7, 14. Ymddengys fod y rheol yn gofyn i'r cyfryw fod yn berffeithgwbl, yn allanol a thu fewnol; felly, os ceid fod anifail, er yn allanol yn ddianaf, â'i ranau tu fewnol yn ddiffygiol, ni offrymid mo hono yn aberth. Yr oedd y pethau hyn yn cysgodi Crist yn ei gymhwysder swyddol fel offeiriad ar dŷ Dduw, a pherffeithrwydd ei aberth fel iawn dros bechod: *Heb.* viii, ix, x.

ANAH, [ענה]: mab Sibeon yr Hefiad, a thad Aholibamah, gwraig Esau: *Gen.* xxxvi. 24, 25. Yn gyssylltiedig â'r crybwylliad o'i enw, gwneir y sylw canlynol gan yr hanesydd sanctaidd;—"Hwn yw Anah a gafodd y mulod yn yr anialwch wrth borthi asynod Sibeon, ei dad:" ac nid oes nemawr ran o'r Ysgrythyr, yn nghylch ystyr yr hon yr amrywia dysgedigion yn fwy. Barna rhai mai y meddwl yw, ei fod ef wedi cael allan y ffordd i gynnyrchu mulod yn gyntaf y pryd hyny; ond yn erbyn y golygiad yna, dadleuir:—1. Nad yw y gair Hebraeg, a gyfieithir *cael*, yma, byth yn arwyddo *dyfeisio;* ond yn hytrach *cyfarfod* â rhyw beth. 2. Bod gair arall yn cael ei arfer yn Hebraeg am *fulod;* ond nad yw y gair hwn, *iamin*, i'w gael yn un man arall yn yr Ysgrythyrau. 3. Mai porthi *asynod* ei dad yr oedd Anah yn yr anialwch, ond na sonir yma am feirch dan ei ofal. 4. Na chawn ni un crybwylliad am fulod mewn unrhyw hanesiaeth cyn amser Dafydd.

Y mae Jerome yn cyfieithu y geiriau fel hyn:—"Hwn yw Anah a gafodd y dyfroedd twymn yn yr anialwch," &c.: ac efe a ddywed fod y gair yn meddu yr ystyr hono yn iaith y Carthaginiaid yn ei oes ef. Ac â'r cyfieithiad yma y cytuna Gesenius, Boothroyd, ac amryw o'r beirniaid diweddar. Y cyfieithiad Syriaidd yw, "Hwn yw Anah a gafodd y *dyfroedd* yn yr anialwch:" a'r cyfieithiad yma o'r gair a gymmeradwyai yr athraw Lee yn benaf. Y rhan fwyaf o'r cyfieithwyr Groegaidd a adawant y gair yn annghyfiaith, fel enw priodol. Yn y testyn Samaraeg, yr hwn a ddilynir gan y Targums, *emims*, neu *cawri*, yw y gair a gawn ni am fulod yn yr adnod hon. Y mae yr athraw Robinson, yr hwn a ymenwogodd gymmaint drwy ei ymchwiliadau yn Palestina, yn sylwi fod llanerch tua phum neu chwe milltir i'r de ddwyrain o'r Môr Marw, ac o ganlyniad yn nghymmydogaeth mynydd Seir, yn nodedig am ei ffynnonau poethion. Dywedir fod asynod, gystal a chamelod, yn dra chraffus i ganfod dwfr, hyd yn oed pan fyddo dan y ddaiar, ac yn alluog i'w arogli o bellder mawr. Gan hyny, fe ddichon mai yr asynod a borthai Anah, a'i harweiniodd i ddarganfod rhyw ffynnon gref; neu, efallai lyn o ddwfr: yr hyn, yn y broydd sychion hyny, a gyfrifid yn ddarganfyddiad pwysig, ac a gyfrifid yn deilwng i'w groniclo gan yr hanesydd.

Y mae yn lled anhawdd cyssoni *Gen.* xxxvi. 2, â *Gen.* xxxvi. 24: canys yn y cyntaf, gelwir Anah yn *ferch* i Sibeon; ond yn yr olaf, fe'i geiwir yn un o *feibion* Sibeon. Trwy gymharu amryw gyfysgrifau a chyfieithiadau, tueddwyd y Dr. Boothroyd i roddi *mab* yn lle *merch*, yn *adn.* 2; ond tueddai Rosenmüller i farnu fod gan Sibeon fab a merch o'r un enw.

ANAHARETH, [אנחרת, *ennynfa; sychder; gweryriad; tagiad*]: enw dinas oedd ar un o derfynau llwyth Issachar: *Ios.* xix. 19.

ANAIAH, [עניה]: un o'r gwŷr a safent ar ddeheulaw Ezra yn y pulpud coed, i ddarllen llyfr y gyfraith: *Neh.* viii. 4.

ANALLU. Gwel CYFRIFIAD.

ANAMIM, [ענמים]: ail fab Mizraim: *Gen.* x. 13. Mae yn debygol, wrth fod yr enw yn lluosog, mai teulu neu hiliogaeth Anam a feddylir. Efe a boblogodd y Mareotis, neu yn hytrach, Pentapolis (pum dinas) Cyrene, yn Affrica, yn ol yr athrawon Iuddewig. Yr oedd Bochart yn barnu fod yr Anamim (Anamiaid) hyn yn preswylio y gwledydd o amgylch teml Jupiter Ammon, ac yn y Nasamonitis.—(*Calmet.*)

ANAMMELECH, [ענמלך, *ateb*, neu *gôn y brenin a'r cynghor*]: a grybwyllir yn 2 *Bren.*

Digitized by Google

xvii. 31, gydag Adrammelech, fel un o dduwiau trigolion Sepharfaim, y rhai oeddynt yn mysg trefedigion Samaria: efe a addolid trwy losgi plant yn tân iddo. Yr ydys hyd yma wedi methu dyfod i benderfyniad boddhaol am eirdarddiad yr enw. Dadleua rhai fod y rhan gyntaf o'r gair yn Aramaegaidd, ac yn arwyddo *defaid*, a'r rhan olaf yn arwyddo *brenin*: a barnant fod cyfeiriad yn yr enw at y cyfseryddiad Cepheus, neu y rhan hono a gynnwys y ser a adwaenir yn mysg yr Arabiaid dan yr enw "Y bugail a'r defaid." Ereill a farnant mai y gair Arabaeg am *ddelw*, sef *canam*, gydag ychydig gyfnewidiad, yw y rhan flaenaf o'r enw; ac felly, mai *delw y brenin* yw yr ystyr. Y mae ereill yn meddwl fod y rhan flaenaf o'r gair yn dalfyriad o enw y dduwies Bersiaidd Anahit: ac y mae y cyffelyb ansicrwydd yn ffynu o barth y ffurf dan ba un yr addolid yr eilun hwn. Y Talmud Babilonaidd a ddywed mai ar lun ceffyl yr oedd y ddelw hon; ond y mae Kimchi yn meddwl mai ar lun gwyddiar *(pheasant)* neu sofliar ei llunid.—*(Carpzov's Apparatus*, td. 516.)

1. ANANIAS, [ענניה, *Cwmwl yr Arglwydd*]. Yn *Tobit* v. 12, crybwylla Tobias ei fod yn fab Ananïas Fawr. Am yr Ananïas hwn, ni wyddys yn rhagor nag a geir yn yr ateb o eiddo Tobit. "Yna y dywedodd Tobit, Croeso wrthyt, fy mrawd: na ddigia wrthyf am i mi geisio gwybod y llwyth a'r teulu y daethost o honynt. Canys, fy mrawd, yr wyt ti o dylwyth onest a da. O achos mi a adwaen Ananïas a Ionathas, meibion Samaias fawr; fel yr oeddym yn myned yn nghyd i Ierusalem i addoli, gan ddwyn gyda ni y cynffrwyth, a degwm cynnydd yr anifeiliaid: hwy ni throseddasant yn amryfusedd ein brodyr ni. Yr wyt ti o wreiddyn da, fy mrawd." Mae y darnodiad yna yn "adgof uwch anghof" parth yr Ananïas hwn, gan briodoli iddo nodweddiad uchel, crefyddol, a gwleidiadol.

2. ANANIAS AB NEBEDÆUS: archoffeiriad Iuddewig; B. A. 49. Y crybwylliad hanesyddol cyntaf o barth yr Ananïas hwn [*Jos. Hynaf.*, llyfr 20] yw, y cyhuddid ef o derfysg ac aflywodraeth yn erbyn y llywodraeth Rufeinig, yn mhalf pa un yr ydoedd Palestina ar y pryd. Anfonwyd ef gan Quadratus, rhaglaw Syria, i Rufain, i sefyll ei brawf ger bron yr ymherawdwr Claudius; a rhyddhawyd ef, a dychwelodd. Yr apostol Paul, wedi ei ddal am y ffydd, a ddygid ger bron y cadlywydd Rhufeinig (*Act.* xxiii); a gwysiodd y cadlywydd yr offeiriad i'r prawf, fel y galluogid ef i ffurfio barn o barth y cyhuddwyr yn erbyn Paul. Pan ydoedd Paul yn amddiffyn ei hun, yr ydys yn cael yr Ananïas hwn, ac efe yn gynhyrfus, yn erchi taraw Paul ar ei enau. Yr apostol a atebai yn hyf, coethfiniog, a daroganol; "Duw a'th dery di, bared wedi ei wyngalchu; canys a wyt ti yn eistedd i'm barnu i yn ol y ddeddf, a chan droseddu y ddeddf, yn peri fy nharaw i;" *adn.* 3. Ceir yr Ananïas hwn, yn nesaf, yn cyfarfod Paul, i'w wrthwynebu ger bron Felix, rhaglaw Rhufeinig talaeth Cesarea. Y mae yn debygol hefyd iddo roddi nawdd, os nad ysgogiad, i'r cydfradwriaeth llofruddiog yn erbyn Paul, gan lochi, felly, benboethi direol ac ysgelerder mileinig gwerin benrydd.

Daeth yr Ananïas hwn i ddiwedd drwg. Heidid cymmydogaethau Ierusalem, ar y pryd, gan giwdodau o ysbeilwyr. Ar un adeg, blaenorid mintai o'r ansawdd hwn gan Eleazar, mab y cyfryw Ananïas; yr hwn, yn annaturiol, a gyfarwyddai y carnladron hyn i wneyd ymosodiad lladronaidd ar eiddo ei dad; a lladdwyd Ananïas yn y cythrwfl, tra yn ymguddio mewn dyfrffos, gan gyflawnu felly ddadganiad Paul, "Duw a'th dery."

3. ANANIAS: un o arddelwyr cyntaf Cristionogaeth yn Ierusalem (B. A. 33), yr hwn, yn nghyd â'i wraig, Sapphira, a wnaethant gynghrair i ddarnguddio rhan o'u meddiant, ac i ddywedyd celwydd o berthynas iddo wrth yr apostolion, a hwy a darawyd yn farw am eu traha: *Act.* v. 5. Ymddengys mai pechod yr Ananïas hwn ydoedd, nid peidio bwrw ei holl feddiant i'r drysorgist gyffredinol, ond cymmeryd arno a dadgan ei fod yn gwneyd hyny, ac efe yn peidio. Nid bod yn anhael, ond bod yn gelwyddog oedd ei bechod; a rhoddid lliw dyfnach i'r trosedd, gan y cyflawnid ef mewn cysylltiad â, a than gysgod crefydd. Yn hanes traha a thyngedfen yr Ananïas hwn, yr ydys yn dysgu, yn 1af, Fod tymmor wedi bod, ac y gall fod eto, y byddai yn rhinwedd gwerthu yr oll sydd genym, gan osod y cyfan at nawdd a gwasanaeth yr holl eglwys. Ymddengys mai amgylchiadau yn unig a allai gyfiawnhau, llawer llai rhinweddoli, y fath aberthiad a hyn. Dyledswydd â'i gwraidd mewn amgylchiadau, ac nid mewn egwyddorion hanfodol cyfundraeth, fyddai dyledswydd i werthu y cwbl er mwyn teyrnas nef. Yr oedd y Cristionogion boreuol hyn, wrth ddadgan eu hunain yn mhlaid Cristionogaeth, yn colli nawdd gwlad a chyfoeth. I gyfarfod â'r amgylchiadau anghyffredin hyny, gelwid ar y cyfoethogion i werthu yr oll ag oedd ganddynt, gan ffurfio felly drysorfa gyffredinol, er noddi ac achub eu gilydd. Yr ydys, yn 2il, Yn canfod mai yn wirfoddol, ac nid yn orfodol, y byddent, hyd yn oed dan yr amgylchiadau anghyffredin hyny, yn cyfranu eu heiddo. "Tra yr ydoedd yn aros, onid i ti yr ydoedd yn aros? ac wedi ei werthu, onid oedd yn dy feddiant di?" *Act.* v. 4. 3ydd, Canfyddir mai peth anhawdd iawn ei guddio ydyw traha. Un o dyngedfenau anhebgor euogrwydd yw, y myn ddyfod i'r golwg. Pan y troseddir deddfau anian, bydd y gosp wrth sodlau y trosedd; mewn troseddau llywodraeth foesol, ceir y cospau, weithiau, yn fwy gohiriedig, ond nid byth yn llai sicr.

4. ANANIAS: dysgybl yn Damascus: *Act.* ix. 10. Gorchymynai yr Arglwydd iddo fyned at Saul, ac efe newydd ei gyfnewid, a gosod ei ddwylaw arno, a rhoddi iddo ei olwg, a'i fedyddio. Tybir oddi wrth hyn ei fod yn swyddog yn yr eglwys, a'i fod yn un o'r deg dysgybl a thrigain.

5. ANANIAS, y Saducead; gwleidiadydd enwog: B. A. 60. Blaenorai efe y gwrthryfel trychinebus o eiddo yr Iuddewon, a fwriedid er bwrw ymaith yr iau Rufeinig, ond a ddiweddodd yn ninystr Ierusalem, a gwasgariad y genedl. Yn B. A. 66, yr ydys yn cael y gwron gwladgarol hwn yn genad yn llys Idumea, yn gofyn eu cynnorthwy cynghreiriol yn erbyn y gelyn cyffredin; ond yr ydys yn cael fod yr ymbleidio cywilyddus cartrefol, y gallu erch Rhufeinig, a thyngedfen anorfod, yn gwneyd pob ymroad, pa mor wladgar bynag, yn annhyciannol; ac ni wnaeth y cyffro dan sylw ond cyflymu distryw y genedl Iuddewig.

6. ANANIAS: *Cân y Tri Llanc*, 65; 1 *Mac.* ii. 59. Gwel HANANIAH.

ANATHEMA, (αναθεμα): a arwydda, yn llythyrenol, unrhyw beth wedi ei ddodi heibio, neu ei neillduo. Cyfansoddir y gair o'r ferf *ανατιθημι—gosod ger bron*. Yna arwydda, un-

Digitized by Google

rhyw beth wedi ei gyssegru yn offrwm i Dduw. Pan y mae *ανα* yn flaenddodiad i ferf, mae yn gyffredin yn cyssylltu y drychfeddwl o ddyrchafiad â hi: er anghraifft, pan yn gyssylltiedig â'r ferf, *βαινω*, ystyr yr hon yw *myned* neu *symmud*, y mae *αναβαινω* yn arwyddo *esgyn* neu *symmud* rhywbeth *tuag i fyny*. Yr un modd y mae *anathema* weithiau yn ysgrifeniadau y Groegiaid yn arwyddo *dodi i fyny*, gosod offrymau yn y temlau fel y gallesid eu gweled. Yn Herodotus, cawn y gair yn yr ystyr o *gyssegru*. Sonia [llyfr i, § 92] am amryw *αναθηματα* yn nhir Groeg o roddiad Croesus; am driphod aur yn Thebes wedi ei gyssegru i Apollo; am anneri aur yn Ephesus, a tharian o aur yn Pronea. Yn Sophocles, gelwir unrhyw addurn, dilledyn, neu ddodrefnyn gwerthfawr, a roddid fel arwydd o barch, neu er coffadwriaeth, wrth yr enw hwn. Yn "Odyssey," un o ganeuon Homer [llyfr i, llin. 152], gelwir y ddawns a'r caniadau, *αναθηματα δαιτος*,—addurniadau y wledd. Arferid y gair hefyd am berson wedi ymgyssegru yn aberth dyhuddol i'r duwiau uffernol dros ei wlad, megys y darllenwn am Codrus a Churtius.

Defnyddir *anathema* yn y Deg a Thrigain am y gair Hebraeg חרם (*cherem*); ac er mwyn deall ei arwyddocâd, y mae yn angenrheidiol gwneuthur ymchwiliad i ystyr y gair hwn. Mewn amrywiol leoedd, dynoda *dyfetha yn llwyr* (*Exod.* xxii. 19; *Esa.* xi. 15; *Ier.* i. 26). Fel rhangymmeriad, arwydda, *bod yn anafus*: yn *Lef.* xxi. 18, mae yn gyferbyniol i שרוע—"y neb y byddo gormod ynddo." Fel enw, arwydda *rhwyd* (*Hab.* i. 15—17), am y diofrydir yr hyn a ddelir ynddi i ddinystr llwyr. Yn yr ystyr dan sylw, golyga berson neu beth wedi ei ddiofrydu yn ddialw yn ol i Dduw; a gwahaniaethai yr hyn a ddiofrydid oddi wrth yr hyn a addunedid i'r Arglwydd yn hyn—gallesid adferu y diweddaf, trwy dalu swm penodedig (*Lef.* xxvii. 27), tra yr oedd y cyntaf yn hollol anwrthalwadwy. *Lef.* xxvii. 28; "Pob diofrydbeth a ddiofrydo un i'r Arglwydd, ni werthir, ac ni ryddheir."

Y drychfeddwl mwyaf arbenig y mae y gair yn ei gynnwys ydyw, diofrydiad person neu beth i ddinystr. Yn gydweddol â hyn, gorchymynir i feibion Israel ddifrodi (*cherem*) dinasoedd y Canaaneaid (*Deut.* vii. 2, 26; xx. 17); ac wedi iddynt gael eu dinystrio, galwyd enw y lle Hormah—*dinystr*; yn y Deg a Thrigain, *anathema*. Gwnaed hefyd Iericho, a'r hyn oll oedd ynddi, yn ddiofrydbeth i'r Arglwydd; diofrydwyd pob peth byw o'i mewn, oddi eithr Rahab y butain, a'r rhai oedd yn ei thŷ, i farwolaeth; ond rhoddwyd yr arian a'r aur, a'r llestri pres a haiarn, oedd ynddi, at wasanaeth y cyssegr (*Ios.* ii. 6). Arferir y gair hefyd i ddynodi gwrthddrychau nad oedd ynddynt un cyfeiriad at gyssegriad i wasanaeth yr Arglwydd. Yn *Deut.* vii. 26, gelwir duwiau cerfiedig y Canaaneaid yn esgymunbeth (Heb. *cherem;* Deg a Thrigain, *anathema*), a gwaherddir i feibion Israel ymhalogi gyda hwynt, rhag iddynt fod yn esgymunbeth, neu yn anathema, fel hwythau. Yn yr anghreifftiau hyn, dynoda y gair wrthddrychau y felldith; ond weithiau arwydda y felldith ei hun, megys yn *Act.* xxiii. 14; "Ni a'n rhwymasom ein hunain â diofryd (neu, ni a ddiofrydasom ein hunain dan anathema neu felldith) na archwaethem ddim bwyd oni laddem Paul." Yn yr ystyr gyntaf yr arferir y gair braidd yn yr holl fanau y cyfarfyddwn âg ef yn y Testament Newydd; edrychir ar y personau eu hunain yn anathema, yr hyn sydd yn ddull llawer grymusach o lefaru—nid yn unig y mae anathema neu felldith yn gorwedd arnynt, ond y maent eu hunain yn anathema ac yn felldith.

Arwydda y gair Hebraeg, yn ysgrifeniadau yr hen Rabbiniaid, ddiarddelwad neu esgymundod o'r Eglwys Iuddewig; ond y mae y Rabbiniaid diweddaraf yn cyfrif tri math, neu dair gradd, o esgymundod. Gelwir y cyntaf, *niddui—gwahaniad:* cynnwysa hyn ddifreiniad y person o hawliau eglwysig am dymmor, ac o amrywiol gyfleusderau gwladyddol; ni chaffai ymgymmysgu chwaith â chymdeithas. Ymddengys fod yr esgymundod hwn yn gyfystyr â "bwrw allan o'r synagog." Caniateid iddo ddyfod i'r deml; ond yn lle myned i mewn ar y llaw ddeheu, yn ol yr arferiad, byddai yn rhaid iddo fyned ar yr aswy, y ffordd y byddys yn arfer myned allan. Dywed Godwin bod un o byrth y deml wedi ei fwriadu i alarwyr, ac i bersonau dan esgymundod. "Y galarwyr," meddai, "a wahaniaethid oddi wrth y rhai esgymunedig trwy fod eu gwefusau yn cael eu gorchuddio gan ymylon eu gwisgoedd. Nid äi neb i mewn trwy y porth hwnw â'u gwefusau heb eu gorchuddio ond y rhai esgymunedig." Dywed y Mishna, "Y mae pawb sydd yn myned i mewn, yn ol arferiad y deml, yn myned yn mlaen ar hyd y ffordd ddeheu, ac yn myned allan ar hyd y ffordd aswy, oddi eithr un—*cui accidit aliquid*—yr hwn a aflanhawyd gan ryw amgylchiad neillduol. Y mae efe yn myned oddi amgylch, ac yn myned i mewn ar yr aswy. Os, pan ofynir iddo pa ham y mae yn gwneuthur felly, yr etyb, "Am fy mod yn galaru;" atebant hwythau "bydded i'r hwn sydd yn preswylio y tŷ hwn dy gysuro." Eithr os etyb, "Am fy mod yn esgymunedig;" yna dywedir wrtho, "Bydded i'r hwn sydd yn preswylio y tŷ hwn roddi yn dy galon wrandaw o honot eiriau dy gyfeillion, neu dy frodyr, fel y derbyniont di." Ymddengys felly nad oedd y cyfryw bersonau yn esgymunedig o'r deml, er eu bod o'r synagog. Nid ydym i gasglu oddi wrth hyn fod yr Iuddewon yn ystyried eu synagogau yn fwy sanctaidd na'r deml; ond arddengys yr hyn oedd, ac a ddylai fod, amcan esgymundod, sef, cywilyddio a darostwng y troseddwr, mewn trefn i'w ddwyn i edifeirwch; o ba herwydd cauid ef allan o gymdeithas ei gymmydogion yn y synagog; ond gan mai nid dinystr anadferadwy oedd yr hyn yr amcenid ato, ni waherddid iddo ymddangos yn y deml, ac ni amddifedid ef o ymarferiadau â'r ordinhadau mwyaf difrifol, a'r moddion mwyaf effeithiol o ras ac iachawdwriaeth. Trwy ganiatau iddo ryddddyfodiad i'r deml, dangosent nad oeddynt yn ei amddifadu o freintiau cyffredin Israeliad; ond trwy ei "fwrw allan o'r synagog," dangosent nad oeddynt yn barod i'w dderbyn i gyfeillgarwch. Parhäai yr esgymundod hwn am ddeng niwrnod ar ugain; ond gallesid ei leihau trwy edifeirwch yr esgymunedig. Os parhäai yn ei ystyfnigrwydd wedi y deng niwrnod ar ugain, esgymunid ef eilwaith, gan chwanegu melldith ddifrifol. Dywed Kitto, am berson o dan y radd gyntaf o esgymundod, pe buasai farw yn y sefyllfa hono, y taflesid careg ar yr arch i ddangos ei fod yn wahanedig oddi wrth y bobl, ac yr haeddasai gael ei labyddio; ond dywed Burder mai i'r ail radd y perthynai hyn. Rhifa Buxtorf, yn ei eiriadur, bedwar ar ugain o achosion o'r math hwn o esgymundod. Yr ail radd o esgymundod a elwid *cherem* neu *anathema*. Bernir gan rai fod hyn yr un peth a "thraddodi i Satan." Nis gallesid

Digitized by Google

fod llawer o wrthddadleuon y gellid eu dwyn yn erbyn y golygiad hwn; ond ar yr un pryd, mae yn ymddangos yn fwy rhesymol nag un farn arall. "Pwy," medd un ysgrifenydd, "a all roddi terfyn i gariad y cyfryw ddyn a Paul?—fel y dywed Origen, 'Os cymmerodd y Meistr ei wneuthur yn felldith dros ei weision, pa ryfedd fod y gwas yn foddlawn i fod yn anathema dros ei frodyr?' Nid yw hyn yn cynnwys fod Paul yn dymuno cael ei ysgaru oddi wrth gariad Crist, o blegid y mae y dymuniad yn tarddu oddi wrth gariad at Grist yn gystal ag at ei frodyr; ac y mae yn dymuno, ar y dybiaeth pe buasai hyny yn unol âg ewyllys Duw. Ac nid yw yn cynnwys ei fod yn foddlawn i fod yn annuwiol; o blegid nid oedd Crist yn annuwiol, er ei wneuthur yn felldith drosom." Nid ydym yn cyfarfod â'r ymadrodd "anathema maranatha" ond unwaith yn yr Ysgrythyrau, sef yn 1 *Cor.* xvi. 22; y lle y mae yr apostol yn ei gyhoeddi mewn cyfeiriad at y blaid a gyfodasai yn Corinth, ac a ddangosasai anmharch tuag at awdurdod yr Arglwydd Iesu. I roddi pwys chwanegol yn y felldith hon, ysgrifenodd hi â'i law ei hun. Arwydda "maranatha," *y mae yr Arglwydd yn dyfod.* Y geiriau cyntaf ydynt yn y radd olaf o esgymundod. Arferent y ffurf hon am fod prophwydoliaeth Enoch yn dechreu gyda hwynt. Pan y mae yr apostol yn defnyddio y ffurf hon o felldith, y mae yn gyfystyr a phe dywedasai am yr hwn nid yw yn caru Crist, "Y mae uwch law fy ngallu i fynegu pa beth a ddylai y canlyniad o'ch trosedd fod. Am hyny, yr wyf yn eich gadael iddo Ef, pan ddaw i farnu y byw a'r meirw."—*(Trench on the Synonyms of the New Test.; Burder's Oriental Customs; Calmet, a Kitto; Donnegan & Robinson's Greek Lexicons; Parkhurt's Hebrew Lexicon; Calvin and Macknight's Commentaries; Y Traethodydd,* erthygl ar *Rhuf.* ix. 3.)

ANATHOTH: un o'r dinasoedd offeiriadol yn llwyth Beniamin; a'r hon, fel y cyfryw, oedd yn ddinas noddfa: *Ios.* xxi. 18; *Ier.* i. 1; 2 *Sam.* xxiii. 27; *Ezra* ii. 23; *Neh.* vii. 27. Yr hyn a roddes yr enwogrwydd mwyaf ar y lle yma oedd, mai yma y ganwyd Ieremïah, ac y cyfanneddai yn benaf: *Ier.* i. 1; xi. 21—23; a xxix. 27.

Gallwn farnu oddi wrth ysgrifeniadau Jerome bod y ddinas yn adnabyddus dan ei hen enw yn ei amser ef; ac efe a'i cyfleai tua thair milltir Rufeinig i'r gogledd o Ierusalem: ac â hyn y cytuna tystiolaeth Josephus; sef bod Anathoth ugain ystâd o Ierusalem. Ymddengys oddi wrth dystiolaeth Dr. Robinson, yr hwn a fu yn gwneyd ymchwiliadau manwl yn Palestina, ei fod wedi darganfod yr hen Anathoth, yn y pentref a elwir Anata, o fewn taith o tuag awr a chwarter o Ierusalem. Y mae yn gorwedd ar drum llydan o fryniau, ac o honi ceir golygfa ysblenydd ar lechweddau dwyreiniol mynydd-dir Beniamin, yn nghyd â dyffryn yr Iorddonen, a'r rhan ogleddol o'r Môr Marw. Ymddengys ei bod unwaith yn dref gaerog, ac yn lle cadarn; canys y mae rhanau o'r caerau yn sefyll eto, wedi eu hadeiladu o geryg nadd mawrion; ac yn ol pob arwyddion, yn hen iawn, fel yr ymddengys fod sylfeini rhai o'r tai hefyd; ond nid yw yn bresennol namyn pentref bychan a thlawd iawn. Gŵr o Anathoth oedd Abiathar yr offeiriad, ac yno ei deolid gan Solomon ar ei esgyniad i'r orsedd: 1 *Bren.* ii. 26. Difrodwyd y ddinas hon, yn mysg ereill, gan Senacherib, pan y goresgynodd wlad Iudah: *Esa.* x. 30.

ANATHOTHIAID: trigolion Anathoth, dinas berthynol i'r offeiriaid yn llwyth Beniamin: *Ios.* xxi. 18. Yr oedd tua thair milltir o Ierusalem. Gelwir hi yn bresennol *Anata,* medd Robinson. Yr oedd Abiezer, un o gedyrn Dafydd, yn enedigol o Anathoth: 2 *Sam.* xxiii. 27. Yr oedd gan Abiathar yr offeiriad dir yn Anathoth: 1 *Bren.* ii. 26. Anathoth hefyd oedd lle genedigol y prophwyd Ieremïah, yr hwn oedd yn offeiriad yn gystal a phrophwyd. Er mai offeiriaid oedd yn byw yn Anathoth, eto, y mae yn debyg eu bod wedi anghofio cyfraith yr Arglwydd i raddau helaeth yn nyddiau Ieremïah; o blegid yn *Ier.* xi. 18—23, cawn hanes eu cydfwriad yn erbyn Ieremïah. Yr oeddynt wedi penderfynu ei ladd am brophwydo; ond mor ddichellgar oeddynt fel nad oedd y prophwyd yn canfod dim arwyddion o'u casineb ato hyd nes i Dduw ei hysbysu o'i berygl, gan ddywedyd fod ei frodyr, a thŷ ei dad, wedi ymddwyn yn ddichellgar tuag ato (*Ier.* xii. 6): ar hyn, rhoddodd Ieremïah ei hun i ofal Duw, a chafodd hysbysrwydd fod Duw wedi penderfynu dial ar ei elynion. "Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Wele myfi a'u cospaf hwynt; y gwŷr ieuainc a fyddant feirw trwy y cleddyf; eu meibion a'u merched a fyddant feirw o newyn. Ac ni bydd gweddill o honynt, canys myfi a ddygaddrwg ar wŷr Anathoth, sef blwyddyn eu gofwy." Cafodd y bygythiad yma ei gyflawnu yn bur agos i'r llythyren, fel y gellir gweled oddi wrth y ffaith nad oedd ond cant ac wyth ar ugain o'r Anathothiaid yn dychwelyd o Babilon.—*(Robinson's Palestine.)*

ANCR, [o'r Gr. *αναχωρητης*; Seis., *anachoret;* neu *anchorite*]: meudwy, didryfwr, didryfydd, golochwydwr; math ar fynach, yn byw ar ei ben ei hun, heb ymgymmysgu â chymdeithas, er mwyn ymroddi yn llwyrach i fyfyrdodau crefyddol. Gwel MEUDWY.

> Câr Dewi Wyn, myn Cred! wyd,
> Câr i Deilo *ancr* dulwyd.
>
> *Lewis Glyn Cothi.*

"Llyfr Ancr Llanddewi Brefi:" hen lyfr Cymraeg, yn cynnwys, yn mhlith pethau ereill, eglurhad ar y bennod gyntaf yn Efengyl Ioan, a ysgrifenwyd yn 1346, gan ancr neu feudwy o'r lle hwnw. Mewn un o'r hen gofnodau, crybwyllir am dano yn y dull canlynol:—"Gruffydd ab Llewelyn ab Phylip ab Trahaiarn, o'r Cantref Mawr, a beris ysgrifenu y Llyfr Goleulyfr, &c., o law cydymaith iddo, nid amgen na gŵr a oedd Ancr yr amser hwnw yn Llanddewi Brefi; sef y flwyddyn 1346." Llanddewi Brefi sydd blwyf mawr, a phentref, o ddeutu pedair milltir o Dregaron, Ceredigion. Yr oedd yn lle o gryn gyfrifoldeb gynt; ac yr oedd yr hen eglwys orwych yn aros hyd yn ddiweddar. Yma y cafwyd y gymmanfa eglwysig hygof hono, yn yr hon y traddododd Dewi Sant ei bregeth nodedig yn erbyn geugred y Morganiaid. Ymgyfarfu yno hefyd lawer o wŷr eglwysig a dysgedigion ereill, megys Teilo, Padarn, Pawl Hen, a Chatwg; a dywedir fod yn eu mysg lawer o bendefigion ac arglwyddi.

"Fal yr ancr:" ymadrodd diarebol, yn arwyddo didwyll, diffuant, diddichell, neu ddihoced.

ANCHORETIAID, [*Anchorets—Anchorites*]: rhyw feudwyaid crefyddol, neu Asceticiaid, a ymneillduent oddi wrth fywyd cymdeithasol i ogofau a lleoedd anghyfannedd, er mwyn myfyrdod ac ymfarweiddiad, gan ymarfer â holl erwinderau

Digitized by Google

bucheddl fynachol. Ystyriwyd Ioan Fedyddiwr, gan rai, fel pen y sect fympwyol yma, ond yn hollol annhriodol; canys yr oedd iddo ef alwad penodol: ac er ei sefyllfa ymneillduedig, yr oedd yn arwain y bywyd mwyaf gweithgar a llafurus. Dywed rhai mai Ammon Saccas oedd sylfaenydd y bywyd mynachaidd, trwy bregethu marweidd-iad y nwydau fel yr unig feddyginiaeth rhag pechod. Pa fodd bynag, Paul y Meudwy a ys-tyrir yn gyffredin fel tad yr Asceticiaid Cristion-ogol. Yr oedd efe yn ei flodeu tua chanol y drydedd ganrif. Ond Anthon Sant, yr hwn oedd mor nodedig yn mysg y saint Pabyddol, medd ereill, oedd y cyntaf a drefnodd y meudwyaid hyn yn gymdeithas, ac a sylfaenodd fynach-dai. Canfyddir cynllun y saint hyn, pa fodd bynag, mewn paganiaeth: yr oedd yr Aipht, Syria, ac India yn cynnyrchu, ac y maent, ysywaeth, yn parhau i gynnyrchu anghreifftiau lluosog o'r "ymddarostyngiad gwirfoddol" yma, yr hwn a anghymmeradwyir yn yr Ysgrythyrau, a'r hwn sydd mor anghysson â bywyd syml a gweithgar y Cristion efengylaidd.—(*Mosheim's Eccl. Hist.*, i. 275, &c.; *Encyc. Brit.*, d.g.)

ANDRAS, yn yr hen chwedloniaeth Gymraeg, ydoedd enw poblogaidd y dduwies Malen, yr hon hefyd a elwid, "y Fall," "Mam y Drwg," "y Wrach." Ystyrid hi, gan rai, fel ellyll hedegog. Cyfateba ei henwau â Hecate, Bellona, ac Enyo. Mewn chwedlau poblogaidd, fe'i gelwir, "y Fâd Ddu Hyll," a'r "Fâd Felen." Dywedir yr arferai yr hen Gymry offrymu ebyrth dynol i Andras, neu Andrasta; a dywed Dion fod yr enwog Buddug yn ymdyngedu i Andras, ar ei myned-iad i ymladd â'r Rhufeiniaid. Y mae coffadwr-iaeth y dduwies hon, ac olion ei hen arglwydd-iaeth ar ein cenedl, yn aros yn mysg gwerin Cymru hyd heddyw: canys yn eu nwydau drwg, cyfarcha dynion eu gilydd, gan ddywedyd, "Y mae rhyw Andras arnoch chwi;" "Ai yr Andras a welsoch chwi?" "Chwareu yr Andras," &c.

Priodola chwedloniaeth iddi farch lledrithiog, a elwid, "March Malen," ar yr hwn yr arferai hud-olesau farchogaeth drwy yr awyr; ac oddi ar hyny y tarddodd y ddiareb gyffredin, "A gasgler ar farch Malen, dan ei dòr ydd ä." Tybygid mai darluniad chwedlonaidd o'r march dychymygol hwn yw a ganlyn, allan o'r hen gyfansoddiad a elwir *Gorchan Cynfelyn*:—

> "Pei mi brytwn, pei mi ganwn,
> Tardei warchan, gorchegin,
> Gweilging, torch Trychdrwyt,
> Trychethin trychinffwrch
> Cyrchesit en afon,
> Cyn noe geinnyon,
> Tyllei garn gaffon,
> Rac carneu riwrhon
> Ryfeluodogyon,
> Esgyrn fyrr, fyrrfach farchogyon,
> Tyllei Ylfach
> Gwryt gofurthiach."

Yr hyn a ellid ei aralleirio fel y canlyn, mewn iaith sathredig;—"Pe myfi a gyflawnasai y ddefod gyfrinol; pe myfi a ganasai, tarddasai swynialen allan—y blagur uchel, yr hudlath, torch y Try-dreiddydd (enw a roddid ar yr haul fel duw, yn nwyfdraith y Derwyddon). Y trychethin tor-edig yn ei ffwrch a gyrchesid yn yr afon, yn hytrach na'i gein-feirch. Y march carnedig a'r geuffon a dreiddiai o flaen meirch uchelrhon rhyfelwyr. A'i esgyrn byrion, a'i farchogion byr fychain, byddai i'r march gylfinaidd drywanu prif gystuddiwr arwriaeth (sef Hengist, yr hwn a ddarlunir yn gyffelyb yn y *Gododin*)."

Ceir eiliadon o'r cyfryw farch dychymygol ar rai o'r hen fathodau Cymraeg boreuol; megys yr eiddo Cynfelyn, a elwid gan y Rhufeiniaid, *Cuno-belinus*; ac yn enwedig yr eiddo Buddug, fel y gellid casglu oddi wrth y gair *Bodvo*, a geir ar gefn y bathodyn.

Oddi wrth yr hen gyfansoddiad uchod, gwelir fod yr hen syniadau paganaidd wedi parhau i gadw eu dylanwad ar y genedl, i fesur mawr, dros rai canrifoedd wedi dygiad Cristionogaeth gyntaf i'r ynys; a gallwn gasglu mai yn araf y gweithiai yr efengyl ei ffordd yn y wlad cyn dy-fodiad y Saxoniaid yma i flino ein hynafiaid.—(*Davies' Mythology of the Druids*, td. 618; *Camden's Britannia*, argraffiad 1637, td. 90.)

ANDREAS, ['Ανδρέας, *gŵr cadarn*]: un o'r deuddeg apostol. Mae ei enw yn deilliaw o'r Groeg, ond yr oedd yn arferedig yn mysg yr Iuddewon, fel y mae Lightfoot yn dangos allan o'r Talmud [*Harmony*, *Luc* v. 10]. Priodor oedd o ddinas Bethsaida, yn Galilea, mab Ionah, a brawd Simon Pedr. Nid yw yn hysbys pa un oedd yr henaf: *Ioan* i. 42, 44. Yr oedd efe ar y cyntaf yn ddysgybl i Ioan Fedyddiwr, ac ar-weiniwyd ef i dderbyn yr Iesu fel y Messïah mewn canlyniad i waith Ioan yn pwyntio ato yn benodol fel "Oen Duw;" *Ioan* i. 36—40. Ei ofal cyntaf wedi cael boddlonrwydd i'w feddwl ei hun am ddilysrwydd hawl yr Iesu, oedd, dwyn ato ei frawd Simon (*adn.* 41); ond ymddengys na ddaeth un o'r ddau, y pryd hyny, yn ddilynwyr cysson i'r Arglwydd; canys yr ydym yn eu cael ar ol hyn yn dilyn eu gorchwyl fel pysgodwyr ar fôr Galilea, pan y darfu i'r Iesu, ar ol carcharu Ioan, eu galw i'w ganlyn: *Marc* i. 14, 18. Ychydig a ddywedir am Andreas gan yr efengylwyr: y prif ddygwyddiadau y sonir am ei enw yn yr adroddiad o honynt yw, porthi y pum mil (*Ioan* vi. 8); dwyn at yr Iesu y Groeg-iaid oeddynt yn ewyllysio ei weled (*Ioan* xii. 22); a'i ymofyniad ef, a'i frawd Simon, a dau fab Zebedeus, am eglurhad pellach yn nghylch dinystr y deml (*Marc* xiii. 3). Y crybwylliad olaf am dano sydd yn *Act.* i. 13: am ei hanes a'i lafur dilynol, nid oes gofion dilys wedi eu cadw. Nis gellir casglu darluniad o hono o'r efengylwyr, yn mhellach na'i fod yn meddu ar benderfyniad dystaw: ac yn yr Actau y mae yn cilio o'r golwg. Dywed traddodiad iddo bregethu yn Scythia [*Eusebius*, i. 3]: ac o herwydd hyny, y mae y Rwssiaid yn ei hòni fel eu hapostol hwy. Yn ol ereill, bu yn llafurio yn Groeg, ac yn ddiwedd-arach, yn Asia Leiaf, a Thracia; ac iddo gael ei ferthyru drwy groeshoeliad yn Patræ, yn Achaia, ar groes o ffurf a elwir *Crux decussata* (X), adnabyddus yn gyffredin wrth yr enw, "Crog Sant Andreas." Symmudwyd ei wedd-illion wedi hyny, meddir, o Patræ i Gaer Cystenyn. Y mae y Groegiaid diweddar yn ei wneyd yn sylfaenydd eglwys Byzantium, sef Caer Cystenyn; ond am hyn ni ŵyr yr hynaf-iaid ddim. Am y llyfrau Apocryphaidd, a elwir *Gweithredoedd Andreas*, sydd yn awr wedi llwyr golli, ac *Efengyl Sant Andreas*, nid oeddynt ond ffugiol a hollol ddiwerth.

ANDREAS (Sant) DYDD: gŵyl a gedwir gan Eglwys Loegr ac Eglwys Rhufain ar y 30fed o Dachwedd, er coffadwriaeth am yr apostol Sant

Digitized by Google

Andreas, brawd Simon Pedr (gwel yr erthygl flaenorol). Y Sul a ddygwyddo agosaf i'r dydd hwn, naill ai o'i flaen ai ar ei ol, yw y dydd cyntaf yn yr *Adfent.*

ANDRONA, [ανδρων, ο ανηρ—*dyn*]: gair a arferid gynt am y rhan hono yn yr eglwysydd oedd wedi ei barotoi i'r gwŷr, pan ydoedd yn arferiad fod i'r gwŷr a'r gwragedd gyflawnu eu gwasanaeth crefyddol ar wahan, mewn ystafelloedd gwahanol yn eu tai addoliad, yr hon drefn a ddilynir yn fanwl eto yn Eglwys Groeg.—*(Buck.)*

1. ANDRONICUS, ['Ανδρονίκος]: rhaglaw Antiochia, yr hwn a weinyddai y llywodraeth yn absennoldeb Antiochus Epiphanes; yr hwn, trwy gymhelliad Menelaus, a roddes yr hen archoffeiriad Onias i farwolaeth, am yr hyn ei dienyddiwyd yntau mewn modd gwarthus, ar ddychweliad Antiochus: 2 *Mac.* iv. 31—38. c. c. 169.

2. ANDRONICUS: Cristion Iuddewig, yr hwn oedd yn rhyw faint o gâr i'r apostol Paul; ac wedi cydlafurio âg ef yn yr efengyl, a gydgarcharwyd am ei ymlyniad wrthi: *Rhuf.* xvi. 7.

ANELWIG; dilun, afluniaidd. "Dy lygaid a welsant fy *anelwig* ddefnydd;" *Salm* cxxxix. 16. Seis. "My substance, yet being unperfect." Defnydd heb ei ddwyn i ffurf.

ANEM: tref oedd hon yn perthyn i lwyth Issachar, yr hon oedd yn gorwedd yn agos i Bethel, ac a neillduwyd drwy goelbren i'r Lefiaid: 1 *Cron.* vi. 73. Yr un ydoedd, dybygid, ag un a elwid gan y Canaaneaid *En-gannim: Ios.* xix. 21; a xxi. 29.

1. ANER, [ענר; Deg a Thrigain, Αὐνάν]: un o dri thywysogion Canaaneaidd a gyfanneddent yn nghymmydogaeth Hebron, y rhai a unasant eu galluoedd âg Abraham, i ymlid ar ol Cedorlaomer a'i gynghreirwyr, y rhai a anrheithiasent Sodoma, ac a ddygasent Lot a'i deulu ymaith yn garcharorion: *Gen.* xiv. 24. Nid ymddygasant, modd bynag, mor haelfrydig a'r patriarch ar yr achlysur, gan iddynt gymmeryd eu rhan o'r anrhaith.

2. ANER: dinas yn perthyn i hanner llwyth Manasseh, ar y tu gorllewinol i'r Iorddonen, yr hon a roddwyd i'r Lefiaid o deulu Cohath. Ymddengys mai yr un ydoedd a Tanac: 1 *Cron.* vi. 70; *Ios.* xxi. 25.

ANFARWOL—DEB: yw y sefyllfa o barhad yn y meddiant o fywyd yn ddiddiwedd. Gwahanieithir anfarwoldeb oddi wrth dragwyddoldeb yn hyn—fod i'r cyntaf ddechreuad, ond heb ddiwedd; ond nad oes i'r olaf na dechreu na diwedd. Cyfieithir dau air, ἀφθάρτος ac ἀθανασία, yn y Testament Newydd, *anfarwol* ac *anfarwoldeb.* Y mae y cyntaf yn arwyddo *anllygredig.* Felly y cyfieithir ef yn *Rhuf.* i. 23; "Ac a newidiasant ogoniant yr *anllygredig* Dduw," &c.: yn 1 *Cor.* ix. 25; "A hwynt hwy yn wir fel y derbyniont goron lygredig, eithr nyni un *anllygredig,*" &c.: yn *pen.* xv. 52; "A'r meirw a gyfodir yn *anllygredig,*" &c.: ac yn 1 *Pedr* i. 4, 23; "I etifeddiaeth *anllygredig;*" nid o had llygredig, eithr *anllygredig,*" &c. Ond yn 1 *Tim.* i. 17, cyfieithir y gair *anfarwol:* "I'r brenin tragwyddol, *anfarwol,* anweledig," &c. Cyfieithir y gair arall *anfarwoldeb,* yn 1 *Cor.* xv. 53, 54; "Ac i'r marwol hwn wisgo *anfarwoldeb,*" &c.: ac yn 1 *Tim.* vi. 16; "Yr hwn yn unig sydd ganddo *anfarwoldeb,*" &c. Defnyddir y ddau air, fel y gwelir uchod, i osod allan yr anfarwoldeb a berthyn i Dduw, ac hefyd i gadarnhau anfarwoldeb y saint; yn fwyaf arbenig, eu cyrff wedi yr adgyfodiad. Nid oes neb yn dragwyddol anfarwol, heb ddechreu na diwedd, ond Duw yn unig. Y mae efe yn hanfodi "o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb." Nid oes iddo "gyfnewidiad na chysgod troedigaeth;" *Salm* xc. 2; *Iago* i. 17. Y mae anfarwoldeb yn hanfodol iddo o angenrheidrwydd. Pe peidiai â bod felly, peidiai â bod mwyach yn Dduw. Nid oes un creadur nad oes iddo ddechreuad: ond y mae yr Ysgrythyrau yn ein dysgu nad ydynt oll i syrthio i ddiddymdra; ac yn mhlith ereill, y mae dyn yn anfarwol yn yr ystyr yma. Y mae Paul yn egluro athrawiaeth yr adgyfodiad—"y cyfodir y meirw"—yn 1 *Cor.* xv, ac y byddant yn anfarwol o ran eu cyrff yn gystal a'u heneidiau. Cymmerir anfarwoldeb yr enaid yn ganiataol yn yr Ysgrythyr, fel cred a dderbynid yn gyffredin yn mysg yr Iuddewon; ond nid oedd anllygredigaeth a bywyd tragwyddol mewn corff ac enaid wedi ei ddwyn i oleuni mor eglur hyd yn hyn.

Ymddengys fod anfarwoldeb yr enaid yn gred gyffredinol gan genedloedd paganaidd. Yn wir, y mae hanfodiad crefydd, o ba fath bynag y byddo, yn mysg gwahanol genedloedd y ddaiar, yn cymmeryd yn ganiataol syniad o ryw fath am ryw wrthddrych neu wrthddrychau a alwant yn Dduw neu yn dduwiau, a sefyllfa o wobr a chosp wedi darfod â'r fuchedd hon, mewn cymmeradwyaeth neu o dan anfoddlonrwydd y duwiau hyny, yn ol yr hyn a wnaethpwyd yn y corff, pa un bynag fyddo ai da ai drwg. Ystyrir y cydsyniad cyffredinol hwn yn un rheswm sydd yn tueddu yn gryf i gadarnhau y syniad am sefyllfa ddyfodol. Os dadleuir mai cael ei throsglwyddo o'r naill i'r llall yr oedd y dyb yma, y mae yn rhaid ei bod wedi gwreiddio yn rhywle i ddechreu; ac y mae yn bur annhebyg y buasai yn parhau yn gred gyffredinol yn mhlith pob cenedl, ac am gyhyd o amser, oni bai fod iddi ryw sail yn ymwybyddiaeth y dyn ei hun. "Y mae cydsyniad yr holl genedloedd," medd Cicero, "i'w ystyried yn ddeddf natur." *Omni autem in re consensio omnium gentium lex naturæ putanda est.*"

Y mae yn sier fod yr hen athronwyr yn credu yn hanfodiad yr enaid ar ol angeu; ond eto, yr oedd eu syniadau am hyn yn amrywio yn fawr, a phrin yr haeddai yr anfarwoldeb a ganiatäai rhai o honynt yr enw. Ystyrient yr enaid yn rhan o'r hanfod dwyfol wedi ei ysgaru am dymmor, er mwyn ei uno â chorff; ac ar ol marwolaeth y corff, yr adunid yr enaid â Duw, ac y collai bob cof a theimlad o'i bersonoliaeth. Ond yr oedd syniadau y rhai goreu o honynt yn debycach i'r rhai a goleddir yn bresennol. Mewn rhyw ystyr, yr oedd y syniadau cywiraf ar hyn yn eu mysg yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth yr hyn a ddysg yr Ysgrythyrau, a rheswm goleuedig. Credent fod yr enaid yn hanfodi cyn dyfod i'w sefyllfa bresennol. Cymmerir hyn ganddynt fel peth profedig, a defnyddir ef gan Plato yn y *Phædo*—y llyfr mwyaf gorchestfawr a ysgrifenwyd ganddynt ar y mater—yn brawf o anfarwoldeb yr enaid. Ystyria bob dysgeidiaeth yn adgofiad o'r hyn a blanwyd yn flaenorol—την μαθησιν αναμνησιν ειναι—a'i ymresymiad ydyw, "Yr oedd ein henaid yn hanfodi yn rhywle cyn iddo ddyfod i'r corff; rhaid, gan hyny, ei fod yn anfarwol." Y mae gwerth yr hyn a ysgrifenodd Plato, ac ereill o'r hynafiaid, ar hyn, yn codi oddi

Digitized by Google

ar bwysigrwydd y mater, a thlysni eu hiaith. yn hytrach nag oddi wrth gadernid eu hymresymiadau. Traetha Plato yn helaeth, i ddangos fod syniadau yn cenedlu eu gilydd, fod bywyd yn dyfod o farwolaeth, a marwolaeth o fywyd. Rheswm arall ydyw, fod hanfod yr enaid yn anfarwol, ac o ganlyniad, yr hanfoda mewn byd arall. Prin yr haedda pethau fel hyn eu galw yn rhesymau. Ond dadleua yr un cwestiwn hefyd oddi wrth symledd yr enaid, fel y gwna Butler. Y mae dinystr y corff yn gynnwysedig yn nattodiad yr elfenau sydd yn ei gyfansoddi; felly, nis gall yr enaid gyfarfod â dinystr, am ei fod yn ddigyfansawdd. Ond yr oedd eu credin-iaeth yn anfarwoldeb yr enaid yn gryfach na'u rhesymau. Codai o'u cydwybod, yr hunan-gyhuddiad a'r ofn sydd yn nglyn â phechod, a'r boddhad a ddeilliai o ymdrechiadau rhinweddol. Y mae Plato a Cicero yn cyfeirio at wobr rhinwedd, a chosp drygioni.

Ystyriai Aristotle hefyd fod y *meddwl* (νους) yn yr *enaid* (ψυχη), ac mai y meddwl yn unig sydd yn anfarwol. Yr oedd rhai o'r tadau yn Eglwys Groeg yn ei ddilyn yn hyn. Dengys y dyfyniadau canlynol syniadau y rhai mwyaf coethedig yn mysg yr hynafiaid ar anfarwoldeb yr enaid. Y mae Xenophon [*Cyropædia*] yn adrodd Cyrus yn dywedyd, ychydig cyn ei farw:—"Na thybiwch, fy anwyl blant, na byddaf yn bod wedi i mi eich gadael chwi; ond cofiwch fod fy enaid, tra yr ydwyf yn eich mysg, yn anweledig i chwi: eto, yr ydych yn gwybod oddi wrth fy ngweithredoedd ei fod yn hanfodi yn fy nghorff. Credwch y bydd yn hanfodi drachefn, er na byddwch yn ei ganfod....O'm rhan fy hun, nis gallwn byth gredu fod yr enaid yn byw tra y mae yn y corff, ac yn marw pan y mae yn ei adael; neu ei fod yn colli ei ymwybyddiaeth pan y mae yn cael ei droi allan o'i breswylfod." Yr oedd sefyllfa ddyfodol yn bwnc yn athroniaeth Pythagoras. Dywedai Socrates, pan yr oedd yn gwynebu angeu, o dan ddedfryd anghyfiawn yr Atheniaid—"Byddwn yn anesgusodol fy mod yn dibrisio marwolaeth, pe na buaswn yn argyhoeddedig y trosglwyddid fi i bresennoldeb y duwiau, y rhai sydd yn meddu llywodraeth gyfiawn, ac i gymdeithas dynion cyfiawn a da; ond yr wyf yn derbyn fy hyder oddi wrth y gobaith y bydd rhywbeth o ddyn yn aros wedi angeu, ac y bydd sefyllfa dynion da yn llawer gwell na rhai drwg." Dywed hefyd am i'w gyfaill, Crito, wneyd fel y mynai â'i gorff; "ond na fydded iddo alaru wrth ei gladdu, fel pe na byddai Socrates."—[*Xenoph. Memorabilia.*] Y mae Cicero [*De Senectute*] yn gosod Cato i ddyweyd ei fod yn llwyr argyhoeddedig, "gan fod yr enaid dynol yn dangos cymmaint o fywiogrwydd—gan ei fod yn meddu y fath gof am yr hyn a aeth heibio, a'r fath bryder yn nghylch yr hyn sydd i ddyfod—gan ei fod wedi ei gyfoethogi â'r fath gywreinrwydd, gwybodaethau, a darganfyddiadau—fod yn annichonadwy nad yw y bod sydd yn cynnwys yr holl bethau hyn yn anfarwol."

Mae y cydsyniad cyffredinol hwn am anfarwoldeb wedi gwreiddio a pharhau, yn ddiammheu, oddi ar y dymuniad sydd yn gynhenid mewn dyn am anfarwoldeb. Mae y syniad fod dyn i ddarfod yn angeu fel yr anifail, yn cyfarfod â gwrthdarawiad hollol yn y meddwl, fel nad oes dim ond arswyd dialedd tân tragwyddol a barai i neb arwyddo yn y gradd lleiaf ei fod yn dygymmod â'r drychfeddwl. Nid ydym yn cael y fantais leiaf i gasglu fod unrhyw deimlad o'r fath mewn un creadur ar y ddaiar heb law dyn: ond ynddo ef y mae yn deimlad nerthol. Oddi ar y teimlad yma y mae yr ymdrech sydd mewn dyn i dragwyddoli ei enw ar y ddaiar, fel y byddo coffa am dano wedi ei ymadawiad. "Eu meddwl yw y pery eu tai yn dragywydd, a'u trigfeydd hyd genedlaeth a chenedlaeth: enwant eu tiroedd ar eu henwau eu hunain;" *Salm* xlix. 11. Pa beth yw y beddadeiladau, y cofgolofnau, a'r arluniau sydd i'w canfod mor gyffredin, ond arwydd fod yn meddwl dyn wrthdarawiad i'r dybiaeth o ddifodiad, ac awydd am fyw, er iddo farw. Y mae hyn yn un rheswm dros y dymuniad sydd mewn dyn am hiliogaeth; ac yn niffyg hyn, yr ydym yn darllen ddarfod i Absalom "gymmeryd a gosod iddo yn ei fywyd golofn, yn nyffryn y brenin: canys efe a ddywedodd, Nid oes fab genyf i wneuthur coffa am fy enw: ac efe a alwodd y golofn ar ei enw ei hun;" 2 *Sam.* xvii. 18.

Y profion *naturiol* a *moesol* o anfarwoldeb yr enaid, a hanfodiad dyn mewn byd arall, a gesglir oddi wrth yr hyn a allwn ei wybod am natur yr enaid, ac am briodoliaethau Duw. Pa ansoddau bynag o eiddo yr enaid sydd yn dangos ei fod yn gwahaniaethu oddi wrth ddefnydd, sydd yn gwneyd yn annhebygol y bydd iddo drengu gyda'r corff; ac yn annhebygol fod ei Greawdwr wedi ei fwriadu i'r fath ddiwedd: ac y mae yr holl ffeithiau sydd yn dangos y gall y meddwl barhau yr un, tra y mae y corff yn myned trwy y cyfnewidiadau mwyaf yn y byd, yn dangos hefyd ei fod yn debygol y pery wedi i'r corff fyned trwy gyfnewidiad mwy sydyn yn angeu.

Yr ystyriaeth o ddaioni yn cyfaddasu pethau i'w gilydd, yn nghyd â theimladau a dymuniadau enaid dyn, a ddefnyddir yn gyffredin fel rheswm dros hyn. Gwelwyd dynion yn wynebu y trueni mwyaf a allasai y byd hwn gynnyrchu, ac yn dyoddef cael eu dirdynu "heb dderbyn ymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell." Yn awr, naill ai y mae dymuniadau a theimladau wedi cael eu planu yn enaid dyn, na fwriadodd y Creawdwr iddynt byth gael eu cyfarfod a'u digoni, neu ynte y mae yr adeg i hyny yn ei aros mewn byd arall. Yr ydym yn gallu dyoddef trueni, a mwynhau dedwyddwch, cyn iddynt fod mewn bod, ac yn gallu taflu ein meddwl i dragwyddoldeb, pryd na bydd amser mwyach. "Pwy," medd Addison, "a all ddychymygu fod terfyn i hanfodiad y creadur nad oes derfyn i'w feddyliau?"

Nid oes un teimlad mwy cyffredinol a pharhaus yn meddwl dyn na'r dymuniad am anfarwoldeb; ac mewn cymhariaeth i hwn, y mae pob un arall yn wan ac yn achlysurol. Y mae yn anhawdd credu fod Creawdwr daionus wedi ei gynnysgaethu â'r fath deimlad, heb fwriadu ei foddhau. Buasai ofn angeu yn ddigon nerthol i sierhau hunanamddiffyniad, heb y dymuniad am anfarwoldeb. Mae y rheswm hwn yn casglu nerth yn yr ystyriaeth fod cynneddfau yr enaid yn addfedu ac yn cynnyddu bron hyd angeu: ac mae ei ddinystr, pan wedi cyrhaeddyd ei gymhwysder uchaf, yn ymddangos yn anghredadwy.

Y mae grym y teimladau cymdeithasol yn awgrymu yr un peth. Tra yma, mae ein dedwyddwch yn gynnwysedig yn benaf ynddynt. Y mae ymadawiad trwyadl yn angeu yn fwy anghysson â'r daioni sydd yn amgylchynu dyn yma, nag ydyw y grediniaeth o ymgyfarfyddiad mewn byd arall.

Mae anghyfartaledd gwobr a chosp yn y byd hwn—y trueni sydd yn fynych yn cyfarfod â

Digitized by Google

rhinwedd, a'r llwyddiant sydd yn fynych yn cydfyned â drygioni, yn anhawdd, os nad yn anmhosibl eu cyssoni â rhagluniaeth sydd yn gofalu am ddedwyddwch dyn, ond ar y dybiaeth o sefyllfa ddyfodol.

Mae cyffredinolrwydd crefydd yn mysg dynion yn rheswm chwanegol. Nid oes un llwyth mor dywyll a barbaraidd nad oes rhyw fath o grefydd yn eu mysg, a hono yn eu cyfeirio tu hwnt i angeu. Dengys hyn fod dynion wedi eu cynnysgaethu â chynneddfau i addoli, ac i edrych am wobr neu gosp mewn sefyllfa anweledig. Ai i ddim y crewyd hwynt gyda'r fath deimladau a dysgwyliadau? Ai dychymyg ydyw y terfyn y cyfeiriant oll ato?

Nid ydyw hanfodiad yr enaid mewn sefyllfa newydd ar ol dinystr corff, nac ychwaith hanfodiad y corff mewn sefyllfa newydd, ddim yn groes i gyfatebiaeth natur. I egluro hyn, deffnyddir y cyfnewidiadau yr â creaduriaid byw trwyddynt yn y byd hwn. Ond os ydynt yn egluro, fe ddichon nad ydynt yn cyfnerthu dim ar yr ymresymiad; ond gwnant yr hyn a wna cyfatebiaeth mewn unrhyw amgylchiad, sef symmud ymaith annhebygolrwydd blaenorol.

Am hysbysiadau yr Hen Destament ar y mater hwn, gwel Adgyfodiad. Ond eto, Iesu Grist a ddygodd fywyd ac anllygredigaeth anfarwoldeb i oleuni: nid o dywyllwch hollol, ond yn unol â natur yr oruchwyliaeth ragbarotoawl hono, o wawr wanaidd hyd ganol dydd. Ymddengys rheswm Michaelis dros beidio argymhell ufudddod i orchymynion deddf Moses trwy addewidion a bygythion byd arall, yn foddhaol. Deddfau oedd y rhai hyny â'u cyfeiriad at y byd hwn, wedi eu sylfaenu ar wobr a chosp dymmorol. "Byddai yn afresymol cyhoeddi gweithred seneddol i gospi troseddwyr â phoenau uffern."

Y mae holl drefn yr efengyl yn orphwysedig ar sefyllfa ddyfodol. Mae ei holl amcan, ei natur, a'i hathrawiaethau, yn brawf o honi. Y mae addysgiadau Iesu Grist yn llawn o hyn: *Mat.* x. 28; *Luc* xvi. 19—31; xx. 38; *Ioan* v. 28; viii. 51; xi. 26; xiv. 2, 3; *Luc* xxiii. 43. Cyssyllta yr athrawiaeth hon yn gyffredin â'i berson ei hun. Efe a'i dygodd i oleuni, efe sydd yn rhoddi anfarwoldeb gwynfydedig. Dysgir yr un gwirionedd gan yr apostolion: 2 *Cor.* v. 1—10; 2 *Tim.* i. 10; 1 *Thes.* iv. 13; *Phil.* i. 23; 1 *Pedr* iv. 6. Gwel Enaid; Hades; Uffern; Nefoedd.

ANFEIDROL—DEB, [*an*—nacâd; a *meidrol*—mesuradwy]: yn cyfateb mewn ffurf ac ystyr i'r Groeg *αμετρον*, ac yn arwyddo *anfesuradwy.*

"Tri anfeidrolion y sydd, ac nis gellir amgen no phob peth bodiadawl ynddynt:—*eangder, tragwyddoldeb,* a *Duw.* Can nis gellir amgen no eu bod yn mhob man, ac yn mhob amser, ar unwaith, heb symmud.

"Tri pheth nis gellir o bwyll bod ar y tri anfeidrolion:—*dechreu, diwedd,* a *chanol.*"—*Myfyrian Archæology.*

Cymhwysir y geiriau *meidrol* ac *anfeidrol*, yn y lle cyntaf, at faintioli, at yr hyn y gellir ei fwyhau a'i leihau trwy chwanegu ato a thynu oddi wrtho: y tri pheth y gallwn wneyd felly â hwynt ydynt eangder, parhad, a rhif. Wrth gymhwyso y gair at y Duw mawr, gwneir felly, fe ddichon, yn y lle cyntaf, at ei hollbresennoldeb a'i barhad tragwyddol; ac at ei allu, doethineb, daioni, a phriodoliaethau ereill, mewn ail ystyr, trwy luosogrwydd a mawredd ei weithredoedd, y rhai nis gallwn byth eu dychymygu mor fawr nac mor luosog na bydd y priodoliaethau hyn yn anhysbyddadwy hwnt iddynt. Mae syniad dyn yn gliriach am anfeidroldeb mewn eangder a pharhad nag mewn dim arall; ond nis gall ffurfio syniad cywirach na chyflawnach am eangder anfeidrol na pharhad tragwyddol, na'r hyn a geir trwy chwanegu maintioli terfynol a mesuradwy yn ddiddiwedd at eu gilydd. Felly y mae y syniad hwn mewn rhan yn gadarnhaol, ac mewn rhan yn nacaol. Pan feddyliom am barhad neu eangder anfeidrol, ni a gymmerwn ryw rif, yr hwn a allwn ei amgyffred, neu ei ddychymygu, megys miloedd neu filiynau o oesoedd neu filltiroedd; ac yna, ni a fynychwn y swm a ddewiser rhyw nifer o weithiau drosodd; a'r canlyniad yw, fod genym ddychymyg aneglur am swm mawr, a hwnw yn fath o feddiant benodol neu gadarnhaol wedi ei gau i fewn megys o'r gwagle anfeidrol tu hwnt iddo. Am hwn, medd Locke, yr ydym yn debyg i'r morwr, wedi iddo ollwng ei linyn i'r dyfnder heb gael gwaelod; gŵyr pa sawl gwrhyd sydd wedi ei fesur, ond nis gŵyr pa nifer sydd heb eu mesur: am hyn, y mae ei syniad yn nacaol.

Y mae yr amlygiadau o briodoliaethau yn y greadigaeth, o angenrheidrwydd, yn derfynol a meidrol. Y maent yn dangos doethineb, daioni, a gallu mawr; ond nid ydyw yr amlygiadau hyn ynddynt eu hunain yn brawf eu bod yn anfeidrol. Oddi wrth effeithiau yr ydym yn esgyn at achosion; oddi wrth ddeddfau is yr ydym yn ymgodi at ddeddfau uwch; ond, fel y dywed Syr Isaac Newton, er fod pob gris yn yr ymresymiad hwn yn ein harwain yn nes at yr Achos cyntaf, eto, nis gall ein dwyn yn uniongyrchol i'w bresennoldeb. Pa fodd, ynte, y mae y meddwl yn croesi y cyfwng rhwng y ddolen ddiweddaf yn nghadwen ail achosion a'r Bod anfeidrol sydd yn cynnal y cwbl? Pa fodd, er nad yw yn *gweled* ond y meidrol, y mae yn *credu* yn yr anfeidrol? Yr ateb ydyw, Y mae gweithredoedd Duw mor fawr fel nas gallwn lai na chredu ei fod ef ei hun yn anfeidrol fawr. Oddi wrth yr hyn y mae ei allu *wedi ei wneyd*, nis gallwn gredu fod dim, sydd heb fod yn anmhosibl ynddo ei hun, yn anmhosibl i Dduw. Fel hyn y mae dyn yn dwyn yn ei feddwl ei hun yr hyn sydd yn llenwi y diffyg yn yr ymresymiad oddi wrth achosion ac effeithiau meidrol. Nid yw dyn wedi ei adael i berffeithrwydd ei ymresymiad mewn trefn i gael gafael ar yr Hollalluog. Y mae angenrheidrwydd am Dduw i ddedwyddwch dyn mor fawr, fel y mae cyfaddasrwydd yn ei natur, oddi wrth y pethau a wnaed, i *weled yn amlwg* ei dragwyddol allu a'i Dduwdod. Ond am gariad Duw, nid casglu ei anfeidroldeb yr ydym oddi wrth amlygiad meidrol o hono, trwy gyfrwng ein cyfansoddiad ein hunain; o herwydd y mae y briodoledd hon wedi rhoi amlygiad o'i hanfeidroldeb mewn rhodd o anfeidrol werth.

Y mae athronwyr diweddar yr Almaen yn dyweyd llawer am yr anfeidrol a'r annibynol neu annherthynasol *(infinite and absolute)*, ac yn honi i ddyn allu i'w hamgyffred, a nodi allan eu terfynau mewn geiriau, a chasglu oddi wrthynt angenrheidrwydd y cwbl a fu, y sydd, ac a fydd. Mae yn un o drioedd y Cymry fwy o wir athroniaeth ar hyn nag sydd yn holl ddychymygion tywyll yr Ellmyn:—"Tri pheth tu hwnt i bob deall dyn: eithafoedd maintioli, eithafoedd bychander, a dirgelion Duw." Gwneyd hyn yn eglur ydyw dyben rhan fawr o ymdrechiadau Syr W. Hamilton, yr hwn sydd wedi gwneyd iddo enw fel athronydd cyntaf ei oes, ac yn deilwng i'w restru

Digitized by Google

gydag athronwyr cyntaf unrhyw oes. Y mae efe ei hun yn gwneyd esgusawd dros yr aneglurder sydd o angenrheidrwydd yn nglyn â materion mor bell oddi wrth ein syniadau cyffredin, ac yn enwedig mewn iaith nas defnyddir hi ond anfynych i'r fath ymdriniaethau. Ar y tir yma, gallwn ninnau ddysgwyl am hynawsedd ein darllenwyr yn arbenigol, wrth geisio rhoddi ychydig o frawddegau ger eu bron i egluro yr hyn a eilw efe, *The Philosophy of the Conditioned.* Ei ddyben ydyw dangos nas gall dyn ddeall dim ond ar ryw ammodau penodol; fod gallu dyn i feddwl yn cael ei derfynu gan ddeddfau sydd yn ei orfodi i gyssylltu amser a lle â holl wrthddrychau ei wybodaeth. Ac y mae y syniadau sydd genym am amser a lle y fath ag sydd yn dangos gwendid meddwl dyn. Er gwneyd ymdrech, nis gallwn mewn dychymyg roddi dechreuad na diwedd i amser—fe fyn y meddwl fyned yn ol tu hwnt i unrhyw ddechreuad, ac yn mlaen tu hwnt i unrhyw ddiwedd y gallwn ddychymygu am danynt. Nis gallwn garcharu y meddwl rhwng terfynau dychymygol, a dywedyd, Y tu hwnt i'r terfynau yma y mae amser yn peidio â bod. Ond, ar y llaw arall, er mai myned yn ol ac yn mlaen a fyn y meddwl, er nas gall orphwys mewn dechreu na diwedd *dychymygol*, eto, nis gall fyned yn ol mor bell ag i fedru dyweyd, Dyma ddechreuad *gwirioneddol*. Nis gall orphwys yn y naill, ac nis gall gyrhaedd y llall. Rhaid i ddyn gredu fod dechreuad wedi *bod* i amser, neu *na* fu: nid oes lle i ddewis rhwng y ddau. Os dywed *na* fu, nis gall yn ei ddychymyg olrhain cyfres annherfynol—byddai raid cael tragwyddoldeb i wneyd hyny. Pe dywedai *fod* dechreuad wedi bod, nis gall gadw ei feddwl ar unrhyw ddechreuad heb fyned tu hwnt iddo.

Y mae cyferbynu terfynolrwydd ac annherfynolrwydd eangder yn rhoddi yr un fantais i ni weled gwendid meddwl dyn. Nis gall roddi terfyn iddo, nis gall chwaith ei olrhain yn annherfynol; ac eto, rhaid iddo gredu ei fod yn derfynol neu yn annherfynol. Mae y casgliad oddi wrth hyn yn cynnwys un o'r egwyddorion pwysicaf, yn enwedigol yn ei chyssylltiad â chwestiynau athronyddol a duwinyddol;—sef, *o ddau osodiad cyferbyniol, y rhai sydd yn cau allan eu gilydd, megys y bu, neu na fu, dechreuad i amser, nis gall dyn amgyffred y naill na'r llall, ac eto y mae yn rhaid iddo gredu un o'r ddau:*[1] hyny yw, y mae yn rhaid iddo gredu yr hyn sydd yn anamgyffredadwy iddo.

"Nis gall dyn amgyffred yr anfeidrol; nid yw hyn yn bosibl ond trwy symmud yr ammodau o dan ba rai y mae yn meddwl o gwbl. Fel nas gall yr eryr ymgodi yn uwch na'r awyr yr ehed ynddo, ac sydd yn ei gynnal, felly nis gall y meddwl ymgodi yn uwch na'r cylch terfynol yn mha un, a thrwy ba un, y gall weithredu oll. Nis gallwn feddwl am ddim mor fawr nas gallwn ei ddychymygu yn rhan o beth mwy; nac am ran mor fach nad oes ranau llai yn gynnwysedig ynddo. Nis gallwn ddychymygu peth anfeidrol fawr; o herwydd yr unig lwybr i wneyd hyny fyddai chwanegu symiau meidrol at eu gilydd, ond gofynai hyny amser anfeidrol i'w gyflawnu ynddo: am yr un rheswm, nis gallwn olrhain allan mewn meddwl eithafoedd bychander. Fe'n harweinir i'r un penderfyniad wrth gymhwyso yr ymresymiad hwn at eangder, amser, a graddau." "Yn ol y syniadau uchod, dangosir fod rheswm yn wan, ond nid yn dwyllodrus. Ni ddysgrifir y meddwl fel yn golygu dau osodiad sydd yn anghysson â'u gilydd, yn meddu yr un gradd o debygolrwydd; ond yn unig ei fod yn analluog i ddeall pa fodd y mae y naill neu y llall yn bosibl o ddau eithafoedd cyferbyniol; ac eto, gan eu bod yn hollol wrthwynebol a dinystriol i'w gilydd, rhaid i'r naill neu y llall gael ei gydnabod fel gwirionedd. Fel hyn, fe'n dysgir y wers fuddiol, nad yw ein gallu i feddwl ddim i'w osod i fyny fel mesur gwirionedd, ac na ddylem edrych ar derfynau ein gwybodaeth o'r un hyd a lled a therfyngylch ein ffydd: a thrwy fath o ddadguddiad rhyfeddol sydd yn gynnwysedig hyd yn oed yn ein teimlad o anallu i amgyffred dim uwch law yr hyn sydd yn feidrol a dibynol, fe'n dysgir i gredu yn hanfodiad rhyw beth anfeidrol ac annibynol, uwch law cylch yr hyn sydd yn amgyffredadwy i ni." At y dyfyniadau uchod, ni a chwanegwn un eto am duedd yr athroniaeth uchod, a'i gwasanaethgarwch i dduwinyddiaeth. "Mae fy hyder yn ngwirionedd y golygiadau uchod wedi ei sylfaenu, nid yn unig ar argyhoeddiad fy meddwl fy hun, ond hefyd ar eu gwasanaethgarwch i uno a chyssoni yr opiniynau mwyaf gwrthwynebol mewn athroniaeth. Ond uwch law y cwbl, trwy eu cyssondeb â'r gwirionedd dadguddiedig, gwasanaethant yn arbenigol fel dysgyblaeth i ostyngeiddrwydd. Gallaf ddywedyd gyda Chrysostom, 'Gostyngeiddrwydd ydyw sylfaen ein hathroniaeth;' o herwydd arddangosiad proffesedig ydyw o anmhosiblrwydd y ddoethineb hono y mae yr apostol Paul yn gwahardd i ni ymgyrhaedd ati, sef y wybodaeth sydd yn chwyddo; a dengys i ni, oddi wrth fyrdra ein galluoedd, pa ham nas gall dirgel bethau Duw lai na bod tu hwnt i ymchwiliad dyn."

"Dengys y gyfundrefn hon hefyd nad oes un anhawsder i'w gyfarfod mewn duwinyddiaeth, nad yw yr un un wedi ymddangos yn flaenorol mewn athroniaeth: ac os na bydd y duwinydd yn ymyraeth â phethau uwch law yr hyn a welodd Duw yn dda ei ddadguddio, a chamgymmeryd athrawiaethau y gair trwy roddi yn eu lle ddychymygion ymhongar dyn, fe wel fod athroniaeth yn dra gwasanaethgar i dduwinyddiaeth. * * Dangosir yma ei bod mor groes i *ddeall* dynol ag ydyw i *grefydd* wadu arfaeth, rhagwybodaeth, a rhad ras Duw; neu, ar y llaw arall, rydd ewyllys dyn; ond y dylem gredu y ddau, a'r ddau mewn undeb â'u gilydd, er yn analluog i'w hamgyffred ar wahan. Y mae yr athrawiaeth hon yn dysgu, gydag Awstin, Pe na byddai rhad ras yn Nuw, pa fodd y gallai achub y byd; a phe na byddai ewyllys rydd mewn dyn, pa fodd y gallai Duw farnu y byd. Neu, fel y mae yr un athrawiaeth yn cael ei geirio, fe ddichon, yn well gan Bernard, 'Pe diddymid ewyllys rydd, ni byddai dim *i'w* achub; pe diddymid rhad ras, ni byddai dim *i* achub." Y mae *Gomer* yr Archddiacon Williams yn cynnwys dyfyniadau o ysgrifeniadau Syr W. Hamilton ar y mater hwn: dengys hefyd, trwy anghreifftiau,

[1] "The conditioned is the mean between two extremes; two inconditionates exclusive of each, neither of which can be conceived as possible, but of which, on the principle of contradiction, an excluded middle one must be admitted as necessary.

There are many contradictories (and, of contradictories, *one must*, and *only one can* be true), of which we are equally unable to conceive the possibility of either.

Positive thought lies in the limitation of conditioning of one or other of two opposite extremes, neither of which, as unconditioned, can be realized to the mind as possible, and yet of which as contradictories, one or other must, by the fundamental laws of thought, be recognized as necessary."

Digitized by Google

bod iaith a llenyddiaeth yr hen Gymry yn cynnwys yr athroniaeth hon. Yr ydym fel cenedl yn ddyledus i'r hybarch archddiacon am ei lafur yn agor ein llygaid i'r trysorau athronyddol sydd yn ein hiaith.

Mewn pedwar o fanau yn unig, yn ein cyfieithiad ni o'r Ysgrythyrau, yr arferir y gair *anfeidrol;* ond nid yn y berthynas â Duw mewn un o honynt. Y cyntaf yw, 1 *Bren.* vii. 47, gyda golwg ar lestri y deml: "A Solomon a beidiodd a phwyso yr holl lestri o herwydd eu lluosogrwydd *anfeidrol* hwynt: ac ni wybuwyd pwys y pres chwaith:" hyny yw, yr oeddynt yn lluosog iawn dros ben, fel y buasai cymmeryd cyfrif o honynt yn waith mawr, nad oedd, efallai, hamdden y pryd hwnw i fyned trwyddo. Yr ail yw 2 *Cron.* iv. 18: "Fel hyn y gwnaeth Solomon yr holl lestri hyn, yn lluosog iawn; canys *anfeidrol* oedd bwys y pres:"—cyfeiriad at yr un peth eto; ond yma, dywedir am nifer y llestri, eu bod yn "lluosog iawn," a phwys y pres, o'r hwn y gwnaed y llestri hyny, yn *anfeidrol*—yn ddirfawr, yr hwn, gan na phwysid ef cyn nac wedi ei wneuthur yn llestri, a osodir allan mewn ymadroddion agored a gormoddol, i osod ar ddeall ei fod yn rhyfeddol fawr. Y lle nesaf yw 2 *Cron.* xx. 25; lle y dywedir ddarfod i Iehosaphat a'i bobl ysglyfaethu ysbail gwersyll y gelynion a ddaethant i'w herbyn, a chael "llawer o olud, a thlysau dymunol beth anfeidrol: a thridiau y buont yn ysglyfaethu yr ysbail, canys mawr oedd." Y lle nesaf ydyw *Marc* vii. 37; "A synu a wnaethant yn *anfeidrol:*" *h. y.*, yr oeddynt wedi eu llenwi, eu gorchfygu, a'u llyncu megys mewn syndod ac aruthredd meddwl, gan fawredd y gwyrthiau, a'r gweithredoedd nerthol a gyflawnai y Gwaredwr yn eu gwydd hwynt. Yn yr holl fanau hyn, arferir y gair, nid yn ei wir a'i briodol ystyr, ond yn ormoddiaethol; —troellymadrodd arferedig yn yr Ysgrythyrau sanctaidd, a'r dull dwyreiniol, yn neillduol, o lefaru ydyw.

ANFERTH: gwrthun, anghenfilaidd, mawr. "Herwydd hyny yr ymeangodd uffern, ac yr agorodd ei safn yn *anferth;*" *Esa.* v. 14. "*Without measure;*" Seis., *yn ddifesur.* Cyfeiriad ydyw, medd Lowth, at anghenfil newynllyd yn agor ei safn i lyncu ei ysglyfaeth.

ANFONEDIG, [שליח; Gr. *ἀποστολος*, *ἀποστελλομενος;* Llad. *missus legatus*]: un yn myned dros arall i gyflawnu unrhyw orchwyl, neu draddodi rhyw genadwri. Y darnodiad Ysgrythyrol o hono ydyw, "Un yn myned dros arall." "Pwy a *anfonaf?* a phwy a *ä drosom ni?*" *Esa.* vi. 8.

I. Fel gair o ystyr gyffredinol a rhywogaethol *(generic)*, y mae yn cynnwys y mathau canlynol, i nodweddiad y sawl y mae anfonedigaeth yn hanfodol ac angenrheidiol:—

1. CENAD (Gr. *αγγελος*), *angel.* Cenadau ydynt o ddau ryw naturiaeth—nefol a daiarol. Nid yw y gair מלאך *(malach)*, neu *αγγελος* *(angelos)*, yn yr Ysgrythyrau, yn cael ei arfer i ddynodi yn unig radd nefol o fodau; eithr y mae yn cael ei gymhwyso yn ddiwahaniaeth at bob creadur o eiddo Duw a ddanfonir ganddo ef i wneuthur ei ewyllys, neu i ddwyn cenadwri dda neu ddrwg i ddynolryw, pa un bynag a fyddo y creadur yn meddu dealltwriaeth ai peidio. Y mae yn cael ei briodoli, nid yn unig i'r goruchwylwyr a roddir ar waith gan Dduw, eithr hefyd i oruchwylwyr pob creadur. Y mae i ddiafol neu Satan ei angelion neu genadau, ac y mae i bersonau a chymdeithasau yr eiddynt hwythau. Y mae ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau sanctaidd yn son am angel neu genad Satan, am angelion yr eglwysi, am angel Pedr, ac am angelion plant bychain. Y mae yr enw yn cael ei briodoli i Ioan Fedyddiwr, i'r gwyntoedd, ac i'r holl elfenau sydd mewn modd neillduol yn gweithio dros Dduw.

2. TEYRNGENAD (*πρεσβευτης*, *πρεσβευων*, *ambassador*, cenadwr): un a ddanfonir ar neges freninol oddi wrth y naill benadur at y llall, oddi wrth frenin at ei ddeiliaid, neu oddi wrth ddeiliaid at eu brenin. Ychydig anghreifftiau i brofi hyn:—"Tra yr ydoedd Cyrus weithian yn arolygu ac yn hyfforddi yr holl fyddin mewn arfogaeth, daeth cenad *(αγγελος)* oddi wrth Cyaxares, yr hwn a ddywedai fod teyrngenadwyr (*πρεσβεια*, *cenadwriaeth; abstr. pro concr.*) wedi dyfod oddi wrth yr Indiaid." [*Xen. Cyr.*, 2, 4, 1.] "Wedi i Cyrus ddanfon am Araspes, y Mediad (yr hwn oedd gydymaith iddo er yn fachgen, ac i'r hwn wedi iddo ei ddiosg, y rhoddasai efe ei wisg Fediaidd, pan aeth efe ymaith i Persia oddi wrth Astyages), efe a orchymynodd iddo gadw y wraig a'r babell; canys y ddynes hon ydoedd wraig i Abradates, brenin Susa; o blegid pan gymmerwyd gwersyll yr Assyriaid, ni ddygwyddodd bod ei gŵr hi yn y gwersyll, eithr efe a aethai ymaith yn *deyrngenadwr* (*πρεσβευων*) at frenin y Bactriaid." [*Xen. Cyr.*, 5, 1, 1.] "Yr hwn a fynegodd iddo am ddyfodiad y *teyrngenadwr* oddi wrth Ptolemy Euergetes." [*Jos. Hyn. Ludd.*, xii. 4, 1.] "Ac efe (Iason) a fwriodd i lawr garedigol ragorfraint yr Iuddewon, yr hwn a gawsent hwy trwy Ioan, tad Eupolemus, yr hwn a fuasai yn *deyrngenadwr* at yr Rhufeiniaid;" 2 *Mac.* iv. 11. "Tra fyddo efe (y brenin) yn mhell oddi wrtho, efe a enfyn *genadwri* (*πρεσβειαν*=*πρεσβευτην*, *teyrngenadwr)*, ac a ddeisyf ammodau heddwch;" *Luc* xiv. 32. Gwel hefyd *Luc* xix. 14. "Yr ydym ni (yr apostolion) yn *genadau* (*πρεσβευομεν*) dros Grist;" 2 *Cor.* v. 20. Gwel hefyd *Eph.* vi. 20.

3. GWIWGENAD (*εὐαγγελιστης*, *efengylwr)*. Un wedi ei ddanfon i fynegu newydd da neu lawenchwedl, a hyny, yn gyffredin, am y waith gyntaf. Gall yr hyn a fynega yr *αγγελος* *(cenad)*, fod yn ddrwg neu dda—yn tueddu i godi prudd-der yn gystal a llawenydd; ac yn beth a fynegasid o'r blaen: ond yr hyn a fynega yr *εὐαγγελιστης* *(gwiwgenad)* sydd genadwri dda, ac yn un *newydd.* Y mae yn cael ei gymhwyso at Gabriel (*Luc* i. 19); a'r angel a ymddangosodd i'r bugeiliaid (*pen.* ii. 10); i Iesu Grist (*pen.* iv. 18); i'r apostolion (*Act.* xiii. 32); i'r rhai oedd yn pregethu yr efengyl, ac yn planu eglwysi, megys Philip a Timotheus. Y mae yr enw ar swyddogion neillduol yn yr eglwysi apostolaidd (*Eph.* iv. 11). Gwel EFENGYLWR.

4. CENADWR, CENADWRIAETHWR (*αποστολος*, *apostol)*. Un wedi ei anfon i fynegu rhyw genadwri, neu ar ryw neges arall. Gwel APOSTOL.

II. Mewn ystyr gymhwysiadol a neillduol, defnyddir y gair *anfonedig* i ddynodi y sawl a roddir ar waith gan Dduw, ac a arddelir ganddo fel ei weinidogion a'i genadau.

1. Cymhwysir ef at yr holl brophwydi yn ddieithriad. Y mae pob gwir brophwyd yn un "wedi ei ddanfon oddi wrth Dduw." Yr oeddynt yn genadau neu angelion yr Arglwydd. "Yna Haggai, cenad Iehofah, a ddywedodd trwy genadwri Iehofah, wrth y bobl, Yr wyf fi gyda chwi, medd Iehofah;" *Hag.* i. 13. Gwnaed darpariaeth ddoeth ac effeithiol, drwy yr hon yr oedd y prophwydi i roddi prawf ddiwrthddadl mai yr

Digitized by Google

Arglwydd oedd wedi eu hanfon, ai nad ê. Yn gyntaf, trwy nodweddiad neu duedd foesol y brophwydoliaeth neu y ddysgeidiaeth. Yn ol yr egwyddor yma, y mae prophwydoliaeth i gael ei barnu, fel athrawiaeth arall, wrth ei ffrwyth. Pa athrawiaeth bynag sydd, o ran ei thuedd foesol, yn arwain i ymarweddiad nid yw yn iawn, nis gall yr athrawiaeth hono fod yn wir. Gŵyr pob plentyn am reol mewn rhifyddiaeth gyffredin, yr hon, o'i dilyn, sydd yn ei arwain yn sier at yr iawn gynnyrch *(result)*, y rhaid ei bod yn rheol gywir; eithr os ydyw y rheol y fath ag a arwain, wrth ei dilyn, at gynnyrch nid yw iawn, nis gall y rheol hono fod yn gywir; neu, a gwisgo yr egwyddor mewn iaith gymharol, "Pob pren a adwaenir wrth ei ffrwyth. Nis gall pren da ddwyn ffrwyth drwg; na phren drwg ddwyn ffrwyth da." Felly, os ydyw tuedd foesol prophwydoliaeth at yr hyn nid yw dda mewn ymarferiad, nis gall y brophwydoliaeth hono fod yn wir, na'r prophwyd fod yn apostol Duw. Yr ail reol yw, cyflawniad y brophwydoliaeth. Os deuai y brophwydoliaeth i ben, ac os byddai y prophwyd yn arwain dynion i sancteiddrwydd, tybid ei fod wedi ei ddanfon gan Dduw. Pan y byddent yn llefaru am ddygwyddiadau pellenig iawn, yr oeddynt i gael eu barnu wrth nodweddiad neu duedd eu rhagfynegiadau; a phan lefarent am bethau agos, yr oeddynt i gael eu barnu wrth y cyflawniad. Y mae dau le o'r Ysgrythyr yn cadarnhau hyn. Ieremïah a ddywed, Gwrandaw di yr awr hon y gair yma, yr hwn a lefaraf fi lle y clywech di, a lle y clywo yr holl bobl. Y prophwydi y rhai a fuant o'm blaen i, ac o'th flaen dithau erioed, a brophwydasant yn erbyn gwledydd lawer, ac yn erbyn teyrnasoedd mawrion, am ryfel ac am ddrygfyd, ac am haint. Y prophwyd a brophwyda am heddwch, pan ddel gair y prophwyd i ben yr adnabyddir y prophwyd mai yr Arglwydd a'i hanfonodd ef mewn gwirionedd. Gwir, meddai Moses, a'r gair heb fod, ac heb ddyfod i ben, hwnw yw y gair ni lefarodd yr Arglwydd ; y prophwyd a'i llefarodd mewn rhyfyg, nac ofna ef ; eithr os cyfyd yn dy fysg di brophwyd, a dyfod i ben o'r arwydd ; eto, os dywed efe, Awn ar ol duwiau dyeithr, a gwasanaethwn hwynt, y prophwyd hwnw a rodder i farwolaeth ; na chydsynia âg ef, ac na wrandaw arno, ac nac arbeded dy lygad ef, ac nac eiriach ef, ac na chela arno, eithr llabyddia ef â meini, fel y byddo marw ; canys ceisiodd dy wthio di oddi wrth yr Arglwydd dy Dduw. Gellid chwanegu trydydd rheol, nid amgen, fod pob prophwyd a ddysgo yn wahanol i'r hyn a ddysgir gan brophwydi anfonedig yr Arglwydd, neu, yr hyn nid yw ond yr un peth, yn groes i'r Ysgrythyrau ysbrydoledig, yn dwyllwr y bobl.

2. Y mae y cenadon nefol, y rhai a elwir, mewn ffordd o ragoriaeth, *yr angelion*, yn anfonedigion Duw, i gyflawnu ei fwriadau, a gweithio allan ei gynlluniau mewn rhagluniaeth a gras. (1.) Dan yr oruchwyliaeth batriarchaidd. (2.) Yr oedd ganddynt oruchwyliaeth bwysig dan yr oruchwyliaeth Foesenaidd: *Act.* vii. 53. Gelwir y gyfraith, "y gair a lefarwyd drwy angelion;" *Heb.* ii. 2. Gan yr un ysgrifenydd, dywedir, "Nid i'r angelion y darostyngodd efe y byd a ddaw;" *adn.* 5: yr hyn sydd yn rhagarwyddo fod ganddynt ryw fath o lywodraeth dan yr oruchwyliath Iuddewig, yr hon a ddarfyddodd pan ddygwyd "y cyntafanedig i'r byd (a ddaw)," ac y darostyngwyd pob peth dan ei draed ef. (3.) Dan y Messiah, y maent yn meddu gweinidogaeth bwysig, yr hon sydd yn ffurfio rhan o foddion iachawdwriaeth: *Heb.* i. 14.

3. Fod Iesu Grist yn Anfonedig Duw, sydd athrawiaeth ar yr hon y mae Cristionogaeth yn sylfaenedig. Y mae Anfonedig yn un o'i deitlau, ac anfonedigaeth yn un o'i briodoliaethau fel Iachawdwr: *Mat.* xv. 24. Danfonwyd ef "yn nghyflawnder yr amser."

4. Yn mhlith y rhai sydd yn meddu hawl annadleuadwy i'r anrhydedd o fod yn anfonedigion Duw, mae yn rhaid i ni gyfrif yr apostolion: *Ioan* xx. 21; xvii. 18: *Cyf. Dr. G. Campbell.* Gwel Apostol.

5. Y mae yr Ysbryd Glân yn Anfonedig. Cyn i Iesu Grist adael y byd, efe a addawai i'r apostolion gyflenwi ei absennoldeb ei hun, trwy "anfon iddynt Ddyddanydd arall; sef Ysbryd y gwirionedd: chwi a'i hadwaenoch ef; o herwydd y mae yn aros gyda chwi, ac ynoch y bydd efe."

III. Perthyn i bawb a ddanfonir gan Dduw eu tystebion *(credentials)*, eu neges, a'u hawdurdod.

1. Pwy bynag sydd yn honi bod wedi ei anfon oddi wrth Dduw, a ddylai roddi prawf digonol o'i anfoniad; o blegid ni ddanfonodd Duw neb erioed heb ei dysteb yn ei ganlyn. Yn argyhoeddedig o'r gwirionedd hwn y dywedai Moses wrth yr Arglwydd, "Eto, wele ni chredant i mi, ac ni wrandawant ar fy llais; ond dywedant, Nid ymddangosodd yr Arglwydd i ti." Yn erbyn hyn ni ddywedodd yr Hollalluog ddim; eithr a gydnabyddodd y priodoldeb a'r angenrheidrwydd o hono, drwy alluogi deddfwr dyfodol yr Iuddewon i roddi profion diwrthddadl o'i anfoniad oddi wrth Dduw. Nid oedd yr Arglwydd Iesu yn beio yr Iuddewon am anghredu ynddo *ef*, ond am anghredu y gweithredoedd a gyflawnai, at y rhai yr appeliai yn wastadol fel profion o'i anfonedigaeth dwyfol; "Oni bai fy nyfod a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod (o herwydd eu hanghrediniaeth); ond yr awr hon, nid oes ganddynt esgus am eu pechod. Oni bai wneuthur o honof yn eu plith y gweithredoedd ni wnaeth neb arall, ni buasai arnynt bechod;" *Ioan* xv. 22, 24.

2. Pa bryd bynag y danfonai Duw neb, efe a wnai hyny ar ryw neges, ac er mwyn cyflawnu rhyw ddybenion.

3. Y mae y sawl a ddanfonir gan Dduw wedi eu gwisgo âg awdurdod. Y maent yn cael eu hystyried megys yn cynnrychioli y neb a'u danfonodd. Lle bynag, gan hyny, y mae cenad anfonedig, yno y mae, mewn ystyr, bresennoldeb y sawl a'i danfonodd. Y mae ymddygiadau dynion at y rhai a ddanfonir gan Dduw yn cael eu hystyried ganddo fel pe byddent yn ymddwyn felly ato ef ei hun. Yr oedd ymddygiadau Israel tuag at Moses yn cael eu hystyried felly. Pan oeddynt yn tuchan yn erbyn Moses ac Aaron, dywedir mai tuchan yr oeddynt yn erbyn yr Arglwydd: *Exod.* xvi. 7, 8. Pan oedd henuriaid Israel yn cwyno wrth Samuel eisieu cael brenin, "Dywedodd yr Arglwydd wrth Samuel, Gwrandaw ar lais y bobl yn yr hyn oll a ddywedant wrthyt; canys nid ti y maent yn ei wrthod, ond myfi a wrthodasant, rhag i mi deyrnasu arnynt;" 1 *Sam.* viii. 7. Ymddygiad yr Iuddewon at Grist a ystyrid fel yr unrhyw tuag at Dduw. "Yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad, yr hwn a'i hanfonodd ef;" *Ioan* v. 23.

ANFUDDIOL, [*anfudd*]: diles, difudd: *Iob* xv. 3. Dynion drygionus ydynt *anfuddiol*, yn ddiffrwyth ysbrydol, yn ffiaidd gan Dduw, heb ofalu dim am ei ogoniant ef na'u gwir lesiad eu hunain ac ereill; ac felly yn gyflawn agored i gosp:

Digitized by Google

*Rhuf.* iii. 12; *Philem.* 11; *Mat.* xxv. 30. Y mae tristwch gweinidogion y gair yn *ddifudd* i'w gwrandawyr, gan ei fod yn rhwystr i'w myfyrdodau; a chyflawniad eu swydd yn eu harwain i achwyn eu cam wrth Dduw, yr hwn a'u cospa yn ddiau, naill ai yn y byd hwn neu yr hwn a ddaw: *Heb.* xiii. 17. "Gweision anfuddiol yw hyd yn oed y saint ffyddlonaf, gan nad ydynt yn haeddu dim ar law Duw, nac o ddim ennill iddo ef: *Luc* xvii. 10; *Iob* xxii. 2, 3; xxxv. 7; *Salm* xvi. 2, 3.

ANFFAELEDIGRWYDD. Gwel PABYDDIAETH.

ANFFRWYTHLAWN—RWYDD: diffrwyth, dieppiledd. 1. Tir anffrwythlawn yw tir gwael, anial cras, na waeth beth a wnelir iddo. 2 *Bren.* ii. 21: "Mi a iacheais y dyfroedd hyn, ni bydd oddi yno farwolaeth mwy na *diffrwythdra.*" 2. Tir anniwylliedig, â defnyddiau da ynddo, ond heb ei amaethu: cyffelyb i'r cyfryw yw hwnw a ddysgrifir gan ein Harglwydd yn *Mat.* xiii. 23; "A'r hwn a hauwyd yn mhlith drain, yw yr hwn sydd yn gwrandaw y gair; ac y mae gofal y byd hwn a thwyll cyfoeth yn tagu y gair, ac y mae yn myned yn ddiffrwyth."

Gelwir gweithredoedd pechadurus gan yr apostol Paul (*Eph.* v. 11), "gweithredoedd *anffrwythlawn* y tywyllwch." Gweithredoedd heb ddim ffrwyth i Dduw arnynt. Ac hefyd, yn *Rhuf.* vi. 21, gofyna yr apostol, "Pa ffrwyth, gan hyny, oedd i chwi y pryd hwnw o'r pethau y mae yr awrhon arnoch gywilydd o'u plegid:" pa lesiant a daioni a ddeilliodd i chwi oddi wrthynt? Cymhellir pobl Dduw i roddi heibio y cyfryw weithredoedd, a dilyn buchedd newydd; a thrwy hyny, ddwyn ffrwyth cymmeradwy gan Dduw. *Col.* i. 10: "Fel y rhodioch yn addas i'r Arglwydd i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth," &c. 2 *Pedr* i. 8: "Canys os yw y pethau hyn genych, ac yn aml hwynt, y maent yn peri na byddoch na segur, na diffrwyth."

ANFFURFIO, [*anffurf*]: aflunio, anharddu, gwrthuno, hagru. Y mae yr Arglwydd Iesu yn cyhuddo y Phariseaid o *anffurfio* eu hwynebau, pan yn ymprydio: *Mat.* vi. 16; "Canys *anffurfio* eu hwynebau y maent," &c. Nid oedd eu tristwch ond un arwynebol, ymddangosiadol. Hysbysir i ni y byddent yn anurddo eu hwynebau â llwch a lludw, yn eu gadael heb eu golchi a'u glanhau, er mwyn ymddangos yn drist ac edifeiriol; ond nid oedd y cyfan yn cyrhaedd yn ddyfnach na'r baw ar y wynebpryd. Nid tristwch arwynebol a ofynir gan yr Arglwydd, ond tristwch meddwl, tristwch calon; ac nid yw yn angenrheidiol esgeuluso glanweithdra a difwyno y wyneb i'r dyben o gyrhaedd hwn. "Ai dyma yr ympryd a ddewisais? dydd i ddyn gystuddio ei enaid? ai crymu ei ben fel brwynen ydyw, a thaenu sachliain a lludw dano? ai hyn a elwi yn ympryd ac yn ddiwrnod cymmeradwy gan yr Arglwydd? Onid dyma yr ympryd a ddewisais? dattod rhwymau anwiredd, tynu ymaith feichiau trymion, a gollwng y rhai gorthrymedig yn rhyddion, a thori o honoch bob iau? Onid tori dy fara i'r newynog, a dwyn o honot y crwydriaid i dŷ," &c. *Esa.* lviii. 5—7.

ANFFYDDIAETH [*Infidelity*]. Nid enw ar ffurf o ddaliadau penodol ydyw hwn. Nis gellir ei ddysgrifio trwy ddyweyd pa beth y mae ei ddysgyblion yn proffesu ei gredu. Enw ydyw a roddir yn ddiwahaniaeth ar bob ffurf o ymwrthodiad proffesedig o Gristionogaeth, neu o'r gwirioneddau y mae Cristionogaeth yn gorphwys arnynt, ac yn eu cynmeryd yn ganiataol. Amrywia yn fynych yn ei ffurf mewn gwahanol wledydd ac oesoedd; ac yn ei graddau, trwy ymwrthod weithiau â mwy, ac weithiau â llai, o wirioneddau crefydd naturiol a dadguddiedig. Adnabyddir hwynt hefyd wrth wahanol enwau, yn ol y gwirioneddau a wedir ganddynt; megys Atheistiaeth, neu yr ymwrthodiad â'r Bod o Dduw; Ollddnwiaeth, neu wadiad o Bersonoliaeth Duw; gwadiad o Lywodraeth Duw ar y byd—yr hyn nid oes genym un gair i'w ddynodi, ond a osodir allan yn ddiweddar yn Seisoneg wrth y gair *Naturalism*, i arwyddo fod natur wedi ei gadael i'w deddfau a'i galluoedd ei hun; ac hefyd yr ymwrthodiad âg anffaeledigaeth y Beibl, yn nghyd â'r gwirioneddau neillduol a gynnwysir ynddo mewn perthynas i bryn-edigaeth dyn. Er fod ffurfiau anffyddiaeth yn amrywio yn ol y gwahanol wirioneddau yr ymosodant yn benaf yn eu herbyn, eto y maent oll yn cytuno yn eu hymwrthodiad â'r Beibl fel rheol awdurdod eu ffydd. Amrywiant yn newisiad y tir oddi ar ba un yr ymwrthodant âg ef. Gwedir weithiau yr *angenrheidrwydd* am ddadguddiad, bryd arall y *posiblrwydd* o hono; ac hefyd, er addef y ddau beth yna, gwedir *gwirionedd* Gair Duw oddi ar sail yr anghyssonderau ac afresymoldeb yr athrawiaethau a broffesir sydd ynddo. Mae pob ymosodiad anffyddol o'r dechreu hyd yn awr, yn mhob gwlad, yn cymmeryd rhai o'r ffurfiau hyn. Ni a roddwn fras olwg ar yr ymosodiadau hyn, eu hawdwyr, eu natur, yn nghyd â'r prif rai sydd wedi dyfod allan yn eu herbyn, mewn amddiffyniad i'r Beibl a chrefydd.

Yr ymosodiadau cyntaf yr oedd Cristionogaeth yn agored iddynt oedd oddi wrth awdurdodau gwladol. Y cyhuddiadau cyntaf yn erbyn Cristionogion oedd eu bod yn Atheistiaid, yn anfoesol, ac yn wallgofiaid. Gwaith eu hamddiffynwyr (*apologists*) cyntaf oedd amddiffyn y credinwyr yn erbyn eu gwrthwynebwyr, a'u gorthrymwyr paganaidd, trwy osod ger eu bron ffeithiau, gwirioneddau, a dyledswyddau eu crefydd. Cyflwynwyd yr amddiffyniadau hyn gyntaf i ymherawdwyr; a'r gyntaf oll i Hadrian (126) gan Quadratus, esgob Athen (?), ac hefyd gan Aristides yr athronydd [*Eus.* iv. 3]. Cyflwynodd Justin Ferthyr un i Antoninus Pius, ac hefyd un i'r senedd Rufeinig. Yn y gorllewin, y rhai hynotaf yn mysg yr amddiffynwyr boreuol hyn, cyn amser Awstin, oedd Tertullian, yr hwn a ysgrifenodd yn erbyn Iuddewon a phaganiaid—un o'i brif weithiau ydyw ei *Apologeticus:* Cyprian, yr hwn a ysgrifenodd lyfr ar wagedd eilunod: ac hefyd Lactantius, yr hwn a ysgrifenodd lyfr ar farwolaeth erlidwyr.

Gan i Gristionogaeth gael ei gwrthwynebu ar dir ymresymiad, yr oedd yn angenrheidiol cyfarfod y gwrthwynebiadau hyn ar yr un tir. Felly gwrthwynebwyd Celsus gan Origen; a Porphyry gan Methodius, ysgolhaig Origen. Yn erbyn Hierocles, ysgrifenodd Eusebius, yr hanesydd eglwysig. Dyben ei *Præparatio Evangelica* oedd, fel yr arwydda yr enw, parotoi meddyliau paganaidd i dderbyn Cristionogaeth, trwy ddangos oferedd crefyddau ereill; a'i *Demonstratio* a fwriadwyd i'r Iuddewon, fel prawf o ddwyfoldeb Cristionogaeth, yn enwedig yn ei chyssylltiad â phrophwydoliaeth yr Hen Destament.

Achlysurodd gwrthgiliad Julian yr ymherawdwr at baganiaeth, a'i ysgrifeniadau yn erbyn

Digitized by Google

Mornay ei hun (1623). Yn mhlith y Pabyddion, yr oedd Pascal (1662). Yn 1627, cyhoeddodd Grotius ei draethawd bychan—y llyfr mwyaf poblogaidd a gyhoeddwyd erioed ar "Brofion Cristionogaeth." Sylfaenodd yr Anrhydeddus Robert Boyle, yn 1692, ddarlith flyneddol "i brofi gwirionedd y grefydd Gristionogol yn erbyn anffyddwyr," yr hon a barheir hyd yn bresennol. Yr amddiffyniadau galluocaf a wnaed, heb fod mewn cysylltiad â'r ddarlith hon, oedd gan Richard Baxter, Cudworth, Stillingfleet, S. Clarke, Locke, Butler, Lardner, Stackhouse, Warburton, a Paley.

Yr oedd anffyddiaeth yn fwy blodeuog yn llys Louis XIII, yn Ffrainc, yn nechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg, nag ydoedd yn llys Charles I, yn Lloegr: ond er hyny, derbyniodd y Ffrancod lawer o adgyfnerthiad yn eu dibrisdod o egwyddorion crefydd oddi wrth weithiau Herbert, Hobbes, a Bolingbroke; ac yn anuniongyrchol oddi wrth y camddefnydd a wnaethant o draethawd Locke ar *Y Deall.* Voltaire, o athrylith fywiog ac arwynebol, yr hwn ni charai ac ni pharchai neb ond ef ei hun, a gyflwynodd ei fywyd bron yn hollol i'r dyben o lethu Cristionogaeth. Cyfeiriwyd holl nerth llenyddiaeth y wlad i'r un dyben. Cyfieithwyd llyfrau yr anffyddiaid hyn, yn enwedig rhai Lloegr, i iaith Germany; ac yn agwedd farwaidd a dideimlad eglwysi, ac anystyriaeth ac anfoesoldeb cyffredinol trigolion y wlad hono, darllenwyd hwynt yn awyddus. Cofleidiwyd eu syniadau gan luaws: y neb a fedrai wawdio crefydd oreu oedd y mwyaf cymmeradwy yn llys Frederick II. Nid oedd cyfeillion crefydd yn hollol ddystaw. Cyhoeddwyd pedwar ar ddeg a deugain o atebion i lyfr Toland yn Germany: ond yr oedd yr amddiffynwyr hyn yn amrywio yn eu syniadau am yr hyn oedd yn angenrheidiol ac yn werth ei amddiffyn. Credai rhai, tra y diogelid yr hyn oedd hanfodol, y gellid aberthu y gweddill. Yr oedd yr amddiffynwyr hefyd eu hunain dan ddylanwad yr amseroedd: a thra yr oedd Rhesymoliaeth [gwel RHESYMOLIAETH] yn ymgodi, yr oedd rhai o'u prif dduwinyddion yn gosod i lawr, fel eu hegwyddor arweiniol, fod gwahaniaeth i'w wneyd rhwng yr hyn oedd yn perthyn i'r rhai yr ysgrifenwyd yn uniongyrchol atynt yn llyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, a'r hyn a berthynai i bawb—rhwng yr hyn sydd yn lleol, a'r hyn sydd yn gyffredinol. Yr oedd amddiffynwyr Cristionogaeth erbyn hyn wedi ymranu yn ddau ddosbarth —yn 1af, y rhai a amddiffynent yr hyn oedd o fewn terfynau rheswm a thebygolrwydd: ac yn 2il, y rhai a estynent eu hamddiffyniad i'r dadguddiad dwyfol, a'r cwbl a berthynai iddo; sef ei wyrthiau a'i ddirgeledigaethau. Ond am y dosbarth cyntaf, y maent hwy yn gwaghau y Beibl o'r cwbl a berthyn iddo fel trefn i achub pechadur; ac o ganlyniad, nid oes dim gwahaniaeth rhyngddynt a'u gwrthwynebwyr. Fe esbonia hyn y ffaith hynotaf mewn hanes eglwysig; sef, pa fodd y daeth eglwysi Cristionogol ac eglwysi y Diwygiad hefyd yn amddiffynfeydd anffyddiaeth.

Gallwn weled natur anffyddiaeth Germany, wrth ei chymharu âg anffyddiaeth Prydain a Ffrainc. Gan yr olaf, edrychir ar y Beibl fel casgliad o chwedlau disail. Nid yn unig gwadant ei natur oruchnaturiol a'i darddiad dwyfol, ond ni oddefant iddo awdurdod unrhyw hanesiaeth cyffredin. Nid yn unig nid oedd yr apostolion yn ysbrydoledig, ond yr oeddynt yn dwyllwyr. Y dysgrifiadau hyn a geir yn eu ffurf noethaf yn Bolingbroke, Woolston, a Chubb; ac yn Voltaire a'i gydweithwyr yn Ffrainc. Ond edrychai anffyddiaeth neu Resymoliaeth Germany ar y gyfrol sanctaidd yn wahanol. Nid yw yn gwadu ei gwirionedd hanesyddol i ryw raddau; ond haera fod y cwbl sydd yn oruchnaturiol a gwyrthiol yn perthyn iddi yn ddim amgen na'r wisg a roddai anwybodaeth a syndod plentynaidd i ddygwyddiadau naturiol a chyffredin. Cymhwyswyd yr egwyddor hon yn gyntaf at yr Hen Destament gan Eichhorn; a chan Paulus at y Newydd hefyd. Yn ol yr egwyddor hon, nid oedd Iesu ond dyn rhinweddol a doeth; ac nid oedd yr hyn a wnaeth, yn wyrthiau, ond gweithredoedd o gymmwynasgarwch, medr celfyddydol, a damwain. Hyn ydyw Rhesymoliaeth yr Ellmyn. Nid oes ar ddyn eisieu, ac nis gall gael, unrhyw arweiniad uwch na'i reswm ei hun. "Nid yw yn caniatau unrhyw ddadguddiad goruchnaturiol, uniongyrchol, a gwyrthiol, oddi wrth Dduw i ddyn: nad oes ond un dadguddiad cyffredinol, yr hwn a geir trwy natur a rheswm dyn ei hun: nad ysgrifenwyd y Beibl dan ysbrydoliaeth uniongyrchol Duw: na fwriadwyd Cristionogaeth ond i gadarnhau gwersi rheswm: ac nas gall, ac na ddylai dyn dderbyn dim nas gellir ei brofi iddo trwy ei reswm."—*Bretschneider.*

Y mae holl gyfundrefn anffyddol Germany yn gorphwys ar hyn—Nas *gall* Duw roi dadguddiad i'w greaduriaid. Yr anmhosiblrwydd o ddadguddiad goruchnaturiol yw ei chareg sylfaen.

Athroniaeth Kant a roddodd yr attalfa gyntaf ar y ffoledd a'r rhyfyg uchod. Er nad oedd hon, yn ei chyssylltiad â'r efengyl, ond gwedd newydd ar Resymoliaeth; ar yr un pryd, yr oedd yn wellhad mawr ar yr hyn a'i rhagflaenai. Galwai ddynion gyda grym ac eglurdeb at hawliau moesoldeb, a chyfeiriai hwynt at ddybenion uwch na'r boddhad cnawdol oedd wedi myned mor gyffredin. Ond diwygiwr y ganrif bresennol yn Germany ydyw Schleiermacher. Cymhwyswyd ef gan ei addysg foreuol i fod felly. Gwyddai am deimlad crefyddol yn fore; magwyd ef yn mysg y Morafiaid; yfodd yn ddwfn hefyd o athroniaeth Plato. Y lle a roddodd yr anffyddwyr i reswm, a roddodd ef i *deimlad crefyddol,* a hwnw wedi ei dderbyn oddi wrth Grist trwy gymdeithas bersonol. Dangosai ef fod Cristionogaeth yn ddadguddiad goruchnaturiol o wirionedd a gras yn mherson Mab Duw, ac mai *teimlad* y Cristion o hyn ydyw y rheol mewn duwinyddiaeth. Yn hyn y mae nerth a gwendid cyfundrefn Schleiermacher:—ei nerth, mewn gosod Cyfryngwr personol yn ffynonell bywyd i'r byd; a'i wendid, am mai *y teimlad o hyn* ydyw y rheol yn ei ymchwiliad am wirionedd, ac *nid gair Duw.* Ond er mor ddiffygiol ydyw duwinyddiaeth Schleiermacher, yr ydoedd yn fywyd o feirw mewn cymhariaeth i agwedd flaenorol pethau. Y mae ei ganlynwyr—duwinyddion enwocaf Germany y deng mlynedd ar ugain diweddaf—Neander, Nitzch, Tholuck, Julius Müller, &c., wedi cynnyddu yn nghyflawnder eu syniadau mewn cymhariaeth i Schleiermacher: ond yr hyn y maent eto yn ddiffygiol ynddo ydyw—gosod y Beibl yn ei le priodol, a chanfod ynddo lais Duw yn llefaru yn awdurdodol wrth ddyn. Cenfydd y darllenydd lawer o ddiffygion o'r natur yma yn "Bywyd Iesu," gan Neander, yn nghanol ei holl ragoriaethau. Ond er fod ysbryd a golygiadau mwy unol â'r gwirionedd yn cynnyddu yn Germany yn y blynyddoedd hyn, y mae ambell lyfr yn dyfod allan sydd yn dangos nad ydyw yr ysbryd o elyniaeth i'r

Digitized by Google

gwirionedd wedi marw eto. Y ffurf claf yn mha un y mae anffyddiaeth y wlad hon wedi ymddangos ynddi, a geir yn "Bywyd Iesu," gan Strauss. Gwelodd y dyn hwn fod yn anmhosibl gwneyd y gwahaniaeth yr oedd yr hen Resymoliaeth yn sylfaenedig arno, rhwng yr hanesiol a'r goruchnaturiol yn yr efengylau; o herwydd yr hanesiol ydyw y goruchnaturiol—nis gallwn dderbyn yr hanes fel gwirionedd, ac eto gwrthod yr hyn sydd yn wyrthiol ynddo. Y mae yr hanes a'r gwyrthiau wedi eu cyd wau â'u gilydd:—rhaid i'r cwbl fod yn wir, neu y cwbl yn chwedl. A'r olaf ydyw cyfundrefn Strauss. Addefa fod y fath un a Iesu wedi byw tua dechreuad y cyfnod Cristionogol; a'i fod yn credu ei fod yn Fessïah; iddo geisio lledaenu y grediniaeth trwy bregethu; ac o'r diwedd, iddo gael ei roddi i farwolaeth:—ond fod yr holl hanes sydd am dano yn yr efengylwyr yn wisg farddonol a weuwyd allan o ddychymyg crefyddol a dymuniadau ei ganlynwyr. Ond nid yw Strauss wedi nac yn debyg o berswadio llawer sydd wedi darllen yr efengylwyr, nad ydynt yn debycach i hanes nag i ffugchwedl farddonol. Ond yma eto, nid trwy ffurfio ei farn uwch ben cynnwys y llyfr y mae efe yn dyfod i'r penderfyniad mai ffugchwedl ydyw; ond trwy osod i lawr, cyn agor y Beibl, y ddau osodiad yma:—Fod crefydd, ar sylfeini hanesyddol, yn anmhosibl: ac hefyd, Fod gwyrthiau yn anmhosibl. Efallai y dywed rhyw un, O ba le y mae yn cael cysgod rheswm dros y fath osodiadau? Oddi yma:—Os ydyw Duw yn llefaru wrthym, ac yn gwneyd gwyrthiau, rhaid ei fod yn berson, ac yn hollalluog; rhaid i ddyn fod yn anfarwol, ac yn gyfrifol drosto ei hun. Ond y mae y syniadau sydd ganddo fod Duw yr un a'r greadigaeth, a'r greadigaeth yr un a Duw, yn anghysson â hyn. Felly y mae y dull hwn o esbonio y Beibl yn angenrheidiol i fod yn unol â'r atheistiaeth sydd y tu cefn iddo. Os unwaith yr addefir fod gan Dduw ewyllys a chynghor o'i eiddo ei hun, a'i fod yn gwneuthur pob peth yn ol cynghor ei ewyllys, nis gellir gwadu nad all weled yn dda hysbysu ei feddwl i'w greaduriaid ar beth mor bwysig iddynt hwy a'u dedwyddwch tragwyddol.

Gwadai yr hen anffyddwyr, yn Germany a Lloegr, fod gwirioneddau neillduol y Testament Newydd i'w cael ynddo; ond erbyn hyn, y maent wedi newid. Y mae athronwyr Germany yn addef fod athrawiaethau y Drindod, cyflwr cwympiedig dyn, ymgnawdoliad ac aberth Crist, ac ailenedigaeth trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn yr Ysgrythyrau. "Nis gellir gwadu," meddant, "nad ydynt yn y Beibl." Nid yw Strauss yn gwadu fod gwyrthiau hefyd yno. Os derbynir y llyfr o gwbl, rhaid derbyn y pethau hyn fel prif linellau ei gynnwysiad. Felly, defnyddiant ymadroddion Ysgrythyrol gyda'r ymffrost mwyaf; ond eto, gwagheir hwy oll o'u hystyr wirioneddol—"Nid ydynt," meddant, "ond gwisg farddonol ac alegoraidd am syniadau athronyddol."

Y mae y wasg anffyddol yn ffrwythlawn ac ymffrostgar yn America a Lloegr y dyddiau hyn. Y rhai sydd wedi hynodi eu hunain yn benaf ydynt F. W. Newman, Theodore Parker, W. R. Greg, &c. Y mae y dynion hyn yn gwisgo eu hanffyddiaeth mewn geiriau crefydd; ond profant wirionedd y dywediad, "fod hen gyfeiliornadau yn fynych yn ymwisgo mewn enw newydd." Y mae yr enw a roddant arnynt eu hunain a'u syniadau yn ddigon ymhongar—nid amgen na *Spiritualists*, a *Spiritualism*;—a thrwy yr ymffrost a wnant o'u hysbrydolrwydd a'u purdeb crefyddol, twyllant, pe byddai bosibl, hyd yn oed yr etholedigion. Ond erbyn eu chwilio, y cwbl sydd ganddynt i gynnyg i sylw ydyw, cymmysgedd o hen ddeistiaeth Lloegr ac anffyddiaeth Germany, wedi eu lliwio drosodd âg ymadroddion Puritanaidd. Eu hegwyddorion sylfaenol ydynt—Nid oes ond un grefydd; gelwir hono "*the absolute religion*:" y mae hi yn gynnwysedig yn y teimladau neu y syniadau gwreiddiol sydd yn gyffredin i Gristionogaeth, Paganiaeth, ac Iuddewiaeth:—nad oes dim gwahaniaeth rhwng crefydd naturiol a dadguddiedig:—fod gan bob dyn allu i ddarganfod crefydd a gwirionedd iddo ei hun, heb ddadguddiad allanol:—pe byddai dadguddiad yn angenrheidiol, eto y mae bod dadguddiad ysgrifenedig yn cael ei drosglwyddo o oes i oes yn beth anmhosibl:—mewn teimlad y mae crefydd yn gynnwysedig; mewn credu, caru, gobeithio, casau; ond nid yw o bwys pa beth yw gwrthddrych y teimladau hyn, pa un ai Duw ai angel, dyn ai cythraul. Mewn haeriadau digywilydd o'r gosodiadau hyn, yn gymmysg â chyhuddiadau cyffredin anffyddwyr yn erbyn anwybodaeth, aflendid, rhagfarn, creulondeb, ac anghyssonderau yr ysgrifenwyr sanctaidd, y mae llyfrau anffyddwyr presennol yn gynnwysedig.

Ni a welwn oddi wrth y bras ddarlun hwn mai derbyn y Beibl fel gair anffaeledig Duw sydd yn gwahaniaethu Cristionogion oddi wrth eu gelynion. Y mae crediniaeth yr eglwys am yr Ysgrythyrau, o amser Crist hyd yn awr—wedi ei ddadgan yn eglur, yn unfrydol, a pharhaus—yn gynnwysedig yn y tri gosodiad hyn:—yn gyntaf, Eu bod yn cynnwys dadguddiad Dwyfol; yn ail, Eu bod yn cynnwys yr oll o'r dadguddiad hwnw; ac yn drydydd, Eu bod yn ei gynnwys mewn purdeb hollol. Ac y mae ymdrechion anffyddwyr yn gynnwysedig mewn ymosodiadau ar y dadguddiad hwnw, trwy geisio dangos fod dadguddiad yn *afreidiol* neu yn *anmhosibl* ynddo ei hun; neu fod y dadguddiad sydd yn y Beibl *heb fod yn wir*.

Rhaid i ddyn gael oracl anffaeledig i'w gyfarwyddo yn y cwestiynau sydd yn dwyn perthynas â'i ddedwyddwch tragwyddol—Beibl anffaeledig, eglwys anffaeledig, pab anffaeledig, neu hunan anffaeledig. Y mae dadguddiad yr Arglwydd i ni yn y cyntaf: yn fuan fe gododd yr ail, gan hòni hawl i le y cyntaf: dilynwyd ef gan y trydydd: ond eisteddle anffaeledigaeth anffyddwyr ydyw ynddynt hwy eu hunain, gyda hyn o wahaniaeth rhyngddynt, y rhoddir hi gan rai yn y deall, a chan ereill yn y teimlad, yr hyn a alwant yr "*intuitive consciousness*."

Y mae athroniaeth unochrog yn gyffredin yn arwain i anffyddiaeth. Y mae eithafoedd y *ddwy duedd* sydd wedi amlygu eu hunain er dechreuad cyntaf gweithrediad meddwl dyn ar ddirgeledigaethau Duw a natur, yn cyfarfod yn gyffredin mewn ymwrthodiad o'r gwirioneddau pwysicaf i ddyn. Aeth Hobbes dan wraidd pob crefydd, trwy gyfyngu gwybodaeth dyn i ddefnydd a'r byd defnyddiol, trwy un frawddeg, yr hon sydd yn gareg sylfaen ei holl athroniaeth—"Nid oes dim yn y meddwl ond sydd yn gyntaf yn y synwyr." Amddifadodd ddyn o bob teimlad sydd yn ei gymhwyso i fod yn grefyddol, a hauodd hadau atheistiaeth Hume a'i ganlynwyr yn Mhrydain; a Voltaire, a'i gydgynghreirwyr yn erbyn cymdeithas a chrefydd, yn Ffrainc. Yr eithafoedd cyferbyniol sydd wedi arwain i anffyddiaeth Germany. Y meddwl a'i gynlluniau (*ideas*) ei hun ydyw y cwbl: a chan nad allant

ymgodi uwch law iddynt ar hyd risiau ymresymiad, gwadant hanfodiad pob peth y tu allan iddo, hyd yn oed y ddaiar y safant arni, a'r wybren uwch eu penau. Pa ryfedd, gan hyny, fod pob peth mewn crefydd, sydd heb fod yn ffrwyth dychymyg ac ymresymiad dyn, yn wrthodedig, yr un ffordd ag ymchwiliadau Bacon, Newton, a Herschell. Gwel ATHEISTIAETH; CRISTIONOGAETH; DADGUDDIAD; GWYRTHIAU; yn nghyd â'r prif enwau y cyfeirir atynt yn yr erthygl hon.

ANFFYDDLAWN — IAID, [ἄπιστος]: diffydd, anghywir, twyllodrus. Arwydda yn yr Ysgrythyrau, yn 1af, Rhai anmharod i gredu: *Mat.* xvii. 17; *Marc* ix. 19; *Luc* ix. 41. 2il, Paganiaid nad oeddynt yn cydnabod nac yn addoli y gwir Dduw—rhai *digred:* 1 *Cor.* vi. 6; vii. 12—14; x. 27; xiv. 22—24; 1 *Tim.* v. 8; *Tit.* i. 15. 3ydd, Gwrthgilwyr: *Luc* xii. 46; *Dad.* xxi. 8.

ANHARDD — WCH: anweddus, anmhrydferth. *Dad.* xvi. 15; "Gwyn ei fyd yr hwn sydd yn gwylio, ac yn cadw ei ddillad, fel na rodio yn noeth, ac iddynt weled ei *anharddwch* ef:"—Seis., "*his shame.*" Yr un gair ἀσχημοσύνην, ag a gyfieithir yn *Dad.*, *anharddwch*, a gyfieithir yn *Rhuf.* i. 27, *brynti.* Yn naturiol, peth anhardd yw peth gwrthun; yn foesol, peth anweddaidd. 1 *Cor.* xii. 23; "ac y mae ein haelodau *anhardd (τὰ ἀσχήμονα)* yn cael chwaneg o harddwch." Gwel ANWEDDAIDD.

ANHAWDD: caled; peth nas gellir ei wneyd heb ymdrech egnïol. Nid oes dim yn anhawdd i Dduw ei ddeall, ei drefnu, na'i wneuthur; ond y mae pob peth yn bosibl a hawdd gydag ef: *Gen.* xviii. 14; *Ier.* xxxii. 17, 27. Ond y mae cymmaint o waeledd, eiddilwch, ac anmherffeithrwydd mewn dyn, yn mhob ystyr, fel y mae llawer o bethau yn anhawdd iddo ef. Y mae anhawsder yn arwyddo anmherffeithrwydd a gwendid yn y naill beth i gyfarfod â mawredd neu bwysau mewn peth arall: ond nid oes dim â mawredd yn perthyn iddo o'i gystadlu â Duw; eithr y mae pob mawredd yn diflanu yn ddiddym yn ei wydd; nid ydyw y naill beth yn anhawddach na'r llall i allu anfeidrol.

"Mor anhawdd yr ä y goludog i mewn i deyrnas nefoedd;" *Mat.* xix. 23; *Marc* x. 24; *Luc* xviii. 24: hyny yw, y mae llygredd y galon, a thwyll cyfoeth, y fath, ac ymlyniad mor gryf rhwng calon ddaiarol â golud cnawdol, fel y mae yn anhawdd iddo beidio ymddiried yn ei olud, yn lle yn yr Arglwydd; gan hyny, rhaid i'r sawl a fedd lawer o dda y byd hwn ymdrechu yn ofalus rhag ymlynu gormod wrthynt, a chymmeryd ei lywodraethu ganddynt, rhag iddo, trwy eu dylanwad, golli teyrnas nefoedd: *Marc* x. 22.

Dywed Pedr am epistolau ei anwyl frawd Paul fod ynddynt ryw bethau *anhawdd* eu deall: 2 *Pedr* iii. 16. Nid yw y cyfeiriad yma o eiddo Pedr at ysgrifeniadau Paul yn un math o ddiraddiad arnynt; ond i'r gwrthwyneb, yn dystiolaeth anrhydeddus o'r parch a feddai y naill apostol i ysgrifeniadau y llall. Nid arddull epistolau Paul oedd yn dywyll neu aneglur; ond y pethau a drafodai ynddynt, oeddynt wirioneddau athrawiaethol mor bwysfawr ac ysbrydol, y rhai y mae dynion anianol, ar gyfrif tywyllwch eu meddyliau a gwrthnysigrwydd eu calonau, yn eu gwyrdroi i'w dinystr eu hunain: 1 *Cor.* ii. 14; *Rhuf.* viii. 5—7; *Iudas* 19; *Diar.* xxviii. 5.

ANHEFELIAID, [*Anomæans*]: enw ar blaid o Gristionogion, y rhai a wadent fod unrhyw gyffelybrwydd rhwng hanfod y Tad a'r eiddo y Mab. Wrth yr enw yma yr adwaenid y dosbarth mwyaf trwyadl o Ariaid yn y bedwaredd ganrif, am eu bod, nid yn unig yn gwadu cydsylweddolrwydd y Gair; ond hyd yn oed yn haeru ei fod yn gwahaniaethu o ran ei natur oddi wrth y Tad; tra nad oedd yr Is-Ariaid yn gwadu ei debygolrwydd i'r Tad, er eu bod yn gwadu athrawiaeth y cydsylweddiad. Yr Is-Ariaid a goll-farnent yr Anhefeliaid yn Nghynghorfa Seleucia; a'r Anhefeliaid a gondemnient yr Is-Ariaid, yn eu tro, yn Nghynghorfäau Caer Cystenyn ac Antiochia.—*(Rees' Cyclopædia.)*

ANNHEILWNG, [*teilwng*]: anhaeddawl, anghymhwys. "Canys yr hwn sydd yn bwyta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwyta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu corff yr Arglwydd;" 1 *Cor.* xi. 29. Nid yw y gair, *yn annheilwng (ἀναξίως)*, yma, yn golygu annheilyngdod neu anghymhwysder personol i gyfranogi o'r ordinhad sanctaidd—nid fod y cyfranogydd ei hun yn annheilwng yw y drychfeddwl—ond ei fod yn cyfranogi mewn dull annheilwng, dull anghydweddol âg amcan yr ordinhad. Cynnwysa yn y lle hwn y pethau canlynol:—ymarferiad anweddus ac afreolaidd â Swper yr Arglwydd—y cyfryw ag oedd yn bod y pryd hyn yn Corinth—y lle yr ymgynnullent i fwyta hyd lythineb, ac yfed hyd feddwdod, dan y rhith o gofio angeu Crist—a chyfranogi o Swper yr Arglwydd heb wneuthur gwahaniaeth rhyngddo â phrydiau cyffredin. Dyma a feddylia yr apostol wrth yr ymadrodd, "heb iawn farnu corff yr Arglwydd;" yn y Groeg μὴ διακρίνων—heb wahaniaeth rhwng y bara yn y sacrament a bwyd cyffredin.

ANHUDDO. Ystyr briodol y gair *anhuddo* yw dynoethi, egluro, tynu yr *hudd* neu y gorchudd oddi ar rywbeth. Ond ceir y gair wedi ei arfer mewn ystyr hollol wahanol yn 1 *Bren.* i. 1, gan y Dr. Morgan, yr hwn gyfeiliornad a ddilynwyd mewn amryw argraffiadau o'r Beibl Cymraeg; ond y mae y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor wedi diwygio yr orgraff yn y testyn uchod, gan roddi *en*huddo yn lle *an*-huddo; sef ei wisgo, ei *huddo* â dillad.

ANHYBECHIAID, [*Impeccabiles*]: enw a roddwyd i'r hereticiaid hyny a ymffrostient eu bod yn ddibechod, ac nad oedd eisieu edifeirwch;—y fath ydoedd y Gnosticiaid, Priscilaniaid, &c.—*(Buck.)*

ANHYDYN, [*an-hy-tyn*]: anhawdd ei dynu: *yn ffugrol*, cyndyn, ystyfnig, gwrthnysig, anhydrin. Nid ydys yn cofio y dygwydd y gair ond unwaith yn y Beibl Cymraeg, sef yn *Zech.* vii. 11; "Rhoddasant ysgwydd *anhydyn.*" Y gair Heb. (סרר *sarer*), a gyfieithir yma *anhydyn*, a gyfieithir *cilio o'r ffordd*, yn *Exod.* xxxii. 8; *Deut.* xi. 28; a 1 *Bren.* xv. 5; "Buan y *ciliasant o'r ffordd* a orchymynais iddynt"—"Ond *cilio* o honoch *allan o'r ffordd*"—"Ac na *chiliodd oddi wrth* yr hyn oll a orchymynodd efe iddo." Yn *Galar.* iii. 11, *gwyro ffordd;* "Efe a *wyrodd fy ffyrdd.*" Yn *Hos.* iv. 16, *anhywaith;* "Fel anner *anhywaith* yr anhyweithiodd Israel." Ac yn *Deut.* xxi. 18, *cyndyn;* "Ond o bydd i ŵr fab *cyndyn.*" Cymmerwyd y drofeg, neu y droellymadrodd yma, oddi wrth ymddygiad anifail anhywaith, yn gwrthod cym-

Digitized by Google

cynnyrchu yn ol deddfau penodol. Y mae rhai o'r deddfau hyn yn fwy hawdd eu canfod na'u gilydd, am fod yr amgylchiadau sydd yn cymmeryd lle, neu yr hyn a gynnyrchir, yn ymddangos yn fwy rheolaidd; ond nid yw hyny yn profi nad yw y pethau sydd yn ymddangos yn fwy afreolaidd, neu yn ddamweiniau, mewn anian, yn ganlyniadau achosion naturiol, ond yn unig nad ydym ni yn gallu olrhain cydgyfarfyddiad a chydweithrediad gwahanol ddeddfau, fel y maent yn cynnyrchu yr effeithiau hyny. Fel y mae ymchwiliad yn cynnyddu, a dynion yn ymroddi i syllu ar ryfeddodau Duw yn ngwaith y greadigaeth, y mae llawer o bethau wedi eu dwyn i'r goleu; a'r deddfau wrth ba rai y maent yn gweithredu wedi eu darnodi yn fanwl, fel y maent yn cael eu dwyn oddi amgylch yn berffaith reolaidd; yr hyn nad oedd dynion mewn oesoedd a aethant heibio yn edrych arnynt ond fel damweiniau, am nas gallent roddi cyfrif am danynt. Gwel DEDDF; GREDDF.

Arfer "yn erbyn anian" (*Rhuf.* i. 26), yw arfer yn wrthwyneb i naturiaeth, neu yn erbyn tuedd naturiol. "Fel......y byddech gyfranogion o'r dduwiol anian;" 2 *Pedr* i. 4—*θείας κοινωνοὶ φύσεως* —yn gyfranogion o'r ddwyfol natur; wedi eich ail eni; yn meddu anian neu duedd meddwl yn tebygu i Dduw, yn casau pechod, ac yn caru sancteiddrwydd. Y mae y gair a gyfieithir yn y ddau le uchod, *anian*, yn cael ei gyfieithu hefyd, *natur*, a *naturiaeth*: *Rhuf.* ii. 14, 27; xi. 21, 24; 1 *Cor.* xi. 14; *Gal.* iv. 8; *Eph.* ii. 3. Gwel NATUR.


ANIANOL. Y mae dau air yn cael eu cyfieithu yn y Testament Newydd yn *anianol;* sef *φυσικός*, a *ψυχικός*. Y mae y cyntaf yn arwyddo *naturiol*, yn ol natur: *Rhuf.* i. 26: "Anifeiliaid anrhesymol *anianol;*" 2 *Pedr* ii. 12; *Iudas* 10: hyny yw, yn dilyn tueddiadau naturiol. Y mae y gair arall yn cael ei ddefnyddio yn 1 *Cor.* xv. 43, 46, am y corff, fel y mae yn y fuchedd hon yn meddu bywyd a thueddiadau anifeilaidd, mewn cyferbyniad i gorff ysbrydol, yr hyn a fydd wedi yr adgyfodiad. Defnyddir ef hefyd i osod allan yr anian lygredig sydd mewn dyn fel pechadur, pan y mae y meddwl yn cael ei lywodraethu gan ei dueddiadau a'i nwydau llygredig, ac heb fod o dan ddylanwad yr Ysbryd Glân: 1 *Cor.* ii. 14; "Eithr y dyn anianol, nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw," &c. "Y mae y gair a ddefnyddir yma," medd Scott, "wedi achlysuro cryn lawer o ddadl; ond gan ei fod yn tarddu o air sydd weithiau, o leiaf, yn arwyddo yr enaid rhesymol, gellir tybied ei fod yn cyfeirio at alluoedd y meddwl, yn gystal ag at y tueddiadau anifeilaidd. 'Y mae yn y gwrthwyneb i'r dyn sydd wedi ei ail eni a'i ogoneddu; hyny yw, y dyn perffaith adgenedledig; y dyn nad yw yn meddu ond yn unig alluoedd a pherffeithiau naturiol.'—*Leigh.* Un nad yw yn meddu Ysbryd Duw. Y mae dadl yr apostol yn hollol yn gofyn mai wrth y *dyn anianol* yr ydym i ddeall y dyn diadgenedledig, pa mor gall, dysgedig, a phell bynag y byddo oddi wrth feithrin ei dueddiadau cnawdol; o blegid y mae yn ei osod mewn cyferbyniad i'r dyn *ysbrydol;* ac y mae balchder ymresymiad cnawdol mor groes i ysbrydolrwydd ag y gall y nwydau anianol isaf fod."

ANIFAIL—IAID, [Ll. *animal*, o *anima*, bywiad]. Cymmer y gair hwn i fewn, yn ei ystyr eangaf, bob creadur direswm—ehediaid, ymlusgiaid, pysgod, &c., mewn cyferbyniad i ddyn: *Preg.* iii. 19; "Canys dygwydd meibion dynion a ddygwydd i'r anifeiliaid," &c. *Salm* xxxvi. 6; "Dyn ac anifail a gedwi di, Arglwydd." Mewn ystyr gyfyngach, cymmer i mewn y creaduriaid hyny sydd fwyaf defnyddiol a gwasanaethgar i ddyn, mewn cyferbyniad i adar, ac ymlusgiaid, a chreaduriaid creulawn ac ysglyfaethus. *Gen.* vii. 14; "Hwynt, a phob bwystfil wrth ei rywogaeth, a phob anifail wrth ei rywogaeth, a phob ymlusgiad a ymlusgai ar y ddaiar wrth ei rywogaeth, a phob ehediad wrth ei rywogaeth, pob aderyn o bob rhyw." Dosberthid anifeiliaid dan y gyfraith i *lân* ac *aflan;*—yr oedd y cyntaf i'w haberthu a'u bwyta, a'r lleill i'w hystyried yn aflan a gwrthodedig.

Y mae duwinyddion yn methu cydweled yn nghylch geiriau yr apostol Paul yn 1 *Cor.* xv. 32; "Os yn ol dull dyn yr ymleddais âg *anifeiliaid* yn Ephesus;" ac anhawdd, os nad anmhosibl, yw eu penderfynu yn sicr. Efallai fod y rhesymau yn erbyn cymmeryd y geiriau yn llythyrenol yn gryfach na'r rhesymau i'r gwrthwyneb. A ganlyn ydynt rai o honynt—1. Yr oedd fod yr apostol Paul yn ddinesydd Rhufeinig yn ei ddiogelu rhag y fath greulondeb. 2. Nid yw Luc yn son am ddim o'r fath beth yn yr Actau: a phe buasai y fath beth ofnadwy wedi dygwydd i'r apostol yn Ephesus, y mae yn debygol y buasai Luc yn coffa am dano. 3. Nid oes genym hanes am y fath greulonderau yn erbyn y Cristionogion cyn esgyniad Nero i'r orsedd; ac nid oedd Nero ar yr orsedd pan yr oedd Paul yn Ephesus. Hwyrach, gan hyny, mai wrth *anifeiliaid* y dysgrifiai yr apostol ddynion anifeilaidd creulawn yn erbyn y gwirionedd.

Yn *Dad.* iv. 6, darllenwn, "Ac yn nghylch yr orseddfainc yr oedd *pedwar anifail*," &c.; ond yn fwy llythyrenol, "*pedwar peth byw.*" Ar hyn, gwel CERUB.

ANIS, [Seis. *anise;* Gr. *ανησον*]: math o lysiau perarogl a meddyginiaethol. Perthyna i'r dosbarth gwasgodawl *(umbelliferous)*. Blwyddiadur ydyw: y mae arno flodau bychain melynion, ac y mae ei hadau yn cael eu defnyddio yn helaeth mewn cyffeithiau a chyfferi. Ceir o



Dar. 46.

honynt hefyd olew gwresogol a pherarogl. Adwaenir y llysieuyn hwn, gan y Seison, wrth yr enw *dill*, a chan y Cymry wrth yr enw *ffenigl:* ond nid yr un yw y *ffenigl* a'r *anis* yn y dwyrain, er y perthynant i'r un dosbarth. Dywedir gan y dysgedigion y byddai *dill* yn y Seisoneg, a *ffenigl* yn y Gymraeg, yn well cyfieithiad o'r gair gwreiddiol nag *anise* ac *anis;* o blegid nid *ανισον*, ond *αγηφον* yw y gair. Y mae y llys-

Digitized by Google

icuyn hwn yn perthyn i'r un dosbarth a'r *coriander* a'r garddwy *(caraway).*

*Mat.* xxiii. 23; "Gwae chwi ysgrifenyddion a Phariseaid," medd Crist, "ragrithwyr; canys yr ydych yn degymu y mintys, a'r anis, a'r cwmin," &c. Gan fod yr anis yn fwytadwy, yr oedd yn ol y Talmud i'w ddegymu; ac yr oedd yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn ofalus iawn yn nghylch hyny: ond ar yr un pryd, yr oeddynt yn dra esgeulus mewn perthynas i faterion mwyaf pwysig y gyfraith—*barn, trugaredd,* a *ffydd.* Nid yw ein Harglwydd yn eu beio am eu gofal yn nghylch y pethau bychain, ond am eu diofalwch yn nghylch pethau mawr.

ANLLAD—RWYDD: trythyll, nwyfus, aflan, anniwair.

> "Ni bu—
> Na meibion, gweinion gwanach yn eu cred,
> Na merched ar lled yn anlladach."
>
> There never were—nor feeble men weaker in their faith, nor women exposing themselves *more wantonly.*
>
> *Ll. G. Cothi.*

Nid yw "anlladrwydd," yn y Beibl, yn gyfieithiad o'r un gair gwreiddiol yn mhob lle. Yn *Marc* vii. 22, *ασελγεια (aselgeia).* Ei ystyr cyffredinol ydyw gormodedd, anghymmedroldeb mewn iaith; ac felly, yn arwyddo trahausder. Yn yr ystyr hwn y deallir y gair yma gan rai: ond cyfieithir ef "trythyllwch;" *Eph.* iv. 19; 1 *Pedr* iv. 3; *Iudas* 4; 2 *Pedr* ii. 18: ac "anlladrwydd;" *Rhuf.* xiii. 13; 2 *Cor.* xii. 21; *Gal.* v. 19. Yn 1 *Cor.* vii. 5, *ακρασια (acrasia),* a gyfieithir "anlladrwydd;" ac arwydda *dilywodraeth,* neu *ddiallu* arno ei hun: a chyfieithir ef yn 2 *Tim.* iii. 3, yn "anghymmesur."

ANLLYGREDIG—AETH: pur, dilwgr, digyfeiliornad. Mae y gair Groeg a gyfieithir *anllygredigaeth,* yn air a arferir yn gyferbyniol i lygriad, neu dreuliad naturiaeth rhyw fod, ei anianddiad, neu ei ddarfodiad; ac hefyd, mewn cyferbyniad i lwgr moesol pechadurus. Priodolir anllygredigaeth i Dduw *(Rhuf.* i. 23), o herwydd nad yw yn agored i lygru na gwaethygu mewn un modd. Y mae Duw yn hanfodol anllygredig, fel nas gall ymhalogi, na llygru, na dirywio; ac o ganlyniad, y mae efe yn annewidiol a thragwyddol, ac felly yn wrthddrych addas o addoliad ac ymddiried dyn. Gall dyn ddyfod at Dduw dan holl gyfnewidiadau amser, a'r somedigaethau chwerwon a geir yn y creadur, yn gwbl hyderus o'i gael ef yr un, heb gyfnewidiad na chysgod tröedigaeth. Bod pur, diranau, digymmysg ydyw Duw, yn cynnwys pob perffeithrwydd yn hanfodol ynddo ei hunan, yn dibynu yn hollol arno ei hun; a chan ei berffeithied, yn ddigyfnewid.

Aeth athronwyr hunanddoeth y Cenedloedd yn ffyliaid yn eu syniadau a'u hymddygiadau, pan "newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth llun dyn llygredig," &c. Yr oedd llawer o ddelwau neu eilunod yr hynafiaid ar gyffelybiaeth llun dynion llygredig: dwyfyddent amryw o'u gwroniaid a'u cymmwynaswyr, i ba rai yr adeiladent demlau, y cyfodent allorau, ac y llunient ddelwau: ac yr oedd addoliad y gwroniaid hyn, y rhai a gynnrychiolid mewn delwau ar wedd ddynol, yn gwneyd i fyny ran fawr o'u crefydd—yr hyn a brofai eu ffolineb.

Darluniai yr apostol (1 *Pedr* iii. 4) "ysbryd addfwyn a llonydd," megys addurn gogoneddus ac anllygredig—yr hwn a werthfawrogir gan Dduw; ac am hyny i'w geisio gan wragedd, ac ereill, yn hytrach nag unrhyw addurniadau allanol. Y mae pob addurniadau allanol, pa mor deg bynag fyddo eu hymddangosiad, a pha mor werthfawr bynag fyddont yn nghyfrif dynion, yn llygredig a diflanedig, ac yn nghyfrif Duw yn ddiwerth: ond fel y mae yr enaid yn anfarwol, rhaid i bob peth a addurna yr enaid fod hefyd yn anfarwol ac anllygredig, ac yn gyfryw ag a fyddo yn gymmeradwy ger bron Duw.

Yn nhystiolaeth yr efengyl am angeu ac adgyfodiad Iesu Grist, y mae "bywyd ac anllygredigaeth" wedi eu dwyn i oleuni. Yr oedd athronwyr doethion y Cenedloedd yn ymbalfalu yn eu hymchwiliadau am anfarwoldeb i ddyn; ac er fod rhai o honynt yn meddu rhyw ddychymyg tywyll am anfarwoldeb yr enaid, ni feddent y ddirnadaeth leiaf am adgyfodiad y corff i fyw mewn eilfyd. Taflai yr Hen Destament ryw gymmaint o oleuni egwan ar y gwirioneddau pwysig hyn; eto nid oeddynt ond aneglur mewn gwirionedd, hyd nes y dadlenwyd hwy yn gyflawn yn yr efengyl: 2 *Tim.* i. 10.

Y mae athrawiaeth yr efengyl i "ddangos anllygredigaeth." Nid oes dim yn natur ei dysgeidiaeth a duedda i lygru dynion o ran eu syniadau neu eu moesau; ond y mae tuedd pob cangen o athrawiaeth yr efengyl i wneyd dynion yn burach ac yn well. Y mae gair Duw yn "hâd anllygredig" yn y sawl a'i cred, a gweithia ynddynt buredigaeth oddi wrth bob anwiredd, trwy ddylanwad Ysbryd y gwirionedd, nes eu cymhwyso i fwynhau yr "etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, yr hon sydd yn nghadw iddynt yn y nefoedd;" *Tit.* ii. 7; 1 *Pedr* i. 23; *Rhuf.* xvi. 25, 26; 1 *Pedr* i. 4.

ANLLYGREDIGIAID, [*Incorruptibles,* neu *Incorruptibilis*]: enw plaid a ddeilliodd oddi wrth yr Eutychiaid. Eu prif ddaliad gwahaniaethol oedd, fod corff Iesu Grist yn anllygredig; wrth yr hyn y meddylient, nad oedd o'r amser ei ffurfiwyd yn nghroth ei fam wedi bod yn ddarostyngedig i unrhyw gyfnewidiad, hyd yn oed mewn nwydau naturiol a diniwed, megys newyn, syched, &c.; ac felly, ei fod yn bwyta heb achos cyn ei farw, yn gystal ag ar ol ei adgyfodiad.—*(Buck.)*

ANLLYTHYRENOG. Y mae y gair Groeg, *agrammatos,* a gyfieithir "anllythyrenog," yn cael ei gymhwyso gan y dysgedigion Iuddewig at Pedr ac Ioan, yn *Act.* iv. 13, yn yr un ystyr ag y gofynent gyda golwg ar Grist ei hunan, yn *Ioan* vii. 15; "Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth, ac yntau heb ddysgu?" Nid amcanent yn y naill anghraifft na'r llall awgrymu eu bod wedi eu gadael yn amddifaid o fanteision dysgeidiaeth gyffredinol, yr hon oedd yn gynnwysedig o ddarllen ac ysgrifenu, ac o hyddysgrwydd yn y llyfrau crefyddol; ond, nad oeddynt yn wŷr dysgedig, na buasent yn eistedd wrth draed rhai o brif athrawon y gyfraith, ac na chawsent eu hyfforddi yn nghyfriniau eu llenoriaeth neillduol hwynt.

ANMHLANTADWY: bod yn ddieppil; anffrwythlondeb. Yr oedd bod yn ddiblant yn cael ei ystyried yn warth yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid; ond edrychai yr Iuddewon ar y cyfryw, nid yn unig yn ngafael gwarth, eithr o dan gerydd neu gospedigaeth neillduol oddi wrth yr Arglwydd. Pa mor bell yr oedd cenedl Israel yn deall yr addewid o "hâd y wraig" yn cyfeirio at Grist, a pha mor bell yr oedd y syniad hwnw yn

Digitized by Google

cael dylanwad ar eu meddyliau i ddymuno had, mewn gobaith o gael bod yn hynafiaid iddo, dichon nad yw yn hawdd penderfynu. Pa fodd bynag, ymddengys fod yr addewid hono yn cael ei deall mewn ystyr eangach ganddynt hwy, os oedd yn cael unrhyw ddylanwad arnynt i beri iddynt deimlo o herwydd dieppiledd; o blegid nid oedd bod yn anmhlantadwy yn cael ei ystyried yn llai gwaradwydd yn gyffredinol mewn llwythau ereill, wedi i awgrymiadau eglur gael eu rhoddi mai o Iudah y deuai y Siloh (*Gen.* xlix. 10); nac ychwaith wedi cyfyngu yr addewid yn fwy penodol, "mai o had Dafydd, ac o Bethlehem, y dref lle y bu Dafydd, yr oedd Crist i ddyfod" (2 *Sam.* vii. 12; xxii. 51; *Micah* v. 2). Ac y mae yn amlwg hefyd fod yr Iuddewon yn deall hyn (*Mat.* ii. 6; *Ioan* vii. 42).

Y mae y dymuniad sydd mewn dyn am anfarwoldeb, dybygid, yn peri fod ynddo wrthdarawiad i feddwl y bydd i'w goffadwriaeth ar y ddaiar ddarfod, pan y bydd efe yn disgyn i'r bedd; ac am hyny, yr ydym yn cael hanes am Absalom yn "gosod iddo yn ei fywyd golofn," gan ei galw "ar ei enw ei hun," a hyny am y rheswm nad oedd ganddo "fab i wneuthur coffa am ei enw;" 2 *Sam.* xviii. 18. Y mae y dyn sydd yn gorfod rhoddi i fyny y gobaith o gyflawnu rhyw wrhydri yn y byd, yn teimlo yn ddedwydd yn yr hyder y bydd i'r diffyg hwnw gael ei gyflawnu gan ei blant, ac y bydd i'w enw yntau gael ei gadw mewn coffadwriaeth mewn cyssylltiad â'r eiddynt hwy. Heb law hyn hefyd, yr oedd yr Arglwydd wedi addaw bendithio Abraham a'i had; ac un peth penodol oedd, y byddai ei had yn lluosog ar y ddaiar, fel ser y nef, ac fel y tywod sydd ar lan y môr, yn aneirif: *Gen.* xiii. 16; xv. 5; xvi. 10; xxii. 17; xxvi. 24; xxxii. 12; *Exod.* xxx. 13. Mae hyn yn rhoddi rheswm i ni pa ham yr edrychid ar y neb a fyddai yn ddieppil yn eu mysg o dan gerydd neu felldith oddi wrth yr Arglwydd. Ac y mae hyn yn cael ei grybwyll gan Moses fel arwydd o ragoriaeth i genedl Israel "uwch law yr holl bobloedd;" *Exod.* xxiii. 26; *Deut.* vii. 14. Yr oedd Gwlad Canaan wedi ei haddaw iddynt yn etifeddiaeth, ac felly yr oedd y rhai nas gallent obeithio meddiannu y wlad eu hunain yn teimlo oddi wrth yr ystyriaeth fod yr addewid yn sicr i'w had, a thrwy hyny y byddai iddynt ei meddiannu yn eu plant: *Gen.* xii. 7; xiii. 15; xvii. 8; *Deut.* xxxiv. 4. Ac wedi iddynt ddyfod i'r wlad a roddwyd iddynt yn etifeddiaeth, yr oedd i bob teulu ryw gyfran o'r tir i fod yn dreftadaeth iddynt hyd byth. A phan na byddai iddynt blant, yr oeddynt yn teimlo fod eu hetifeddiaeth yn disgyn oddi wrthynt yn feddiant i estroniaid, neu o leiaf i berthynasau nas gallent deimlo tuag atynt fel tuag at eu plant. Y mae y pethau hyn yn dangos mor naturiol oedd i'r dymuniad am had fod yn gryf yn yr Iuddewon; ac y mae yn ddiammheu mai er gochel y gwarth a deimlid o fod yn anffrwythlawn y daeth yn arferiad yn oes y patriarchiaid i wragedd anmhlantadwy roddi eu llawforwynion yn ordderchadon i'w gwŷr, a chymmeryd y plant hyny yn eiddo iddynt eu hunain: *Gen.* xvi. 2; xxx. 3. Yn y Talmud (*Yeramoth* vi. 6), yr oedd dyn yn rhwym o briodi ail wraig, os na byddai iddo gael plant o'r briodas gyntaf cyn pen deng mlynedd; ac hyd yn oed gymmeryd y drydedd, os byddai yr ail drachefn yn ddiblant. Yr oedd priodasau anghyfreithlawn, yn enwedig gyda gwraig brawd, yn anffrwythlawn—"diblant fyddant;" *Lef.* xx. 20, 21—fel arwydd o anfoddlonrwydd yr Arglwydd i'r cyfryw briodasau. Ond tybia rhai y dylid deall yr ymadrodd yn ffugrol; ac yn yr ystyr hwnw, eu bod yn gosod allan nad oedd y plant a enid mewn priodas anghyfreithlawn felly i'w cyfrif yn eiddo eu gwir dad, ond yn hytrach i'w frawd blaenorol, ac felly fod yr ail ŵr yn cael ei amddifadu o ran yn yr etifeddiaeth, yr hon a fuasai yn disgyn iddo pe buasai ei frawd wedi marw yn ddiblant.

ANMHLEIDOGION, [*Adiaphorists;* o'r gair Groeg, ἀδιάφορος]: enw a roddwyd yn yr united ganrif ar bymtheg i'r Lutheriaid cymmedrol, y rhai a lynent wrth syniadau Melancthon: ac wedi hyny, i'r rhai a ymostyngent i ddeddf Charles v, a elwir yr *Interim.* Wedi marwolaeth Luther, yn y flwyddyn 1546, disgynodd y flaenoriaeth i ddwyn achos y Diwygiad yn mlaen ar Melancthon, yr hwn, er nad oedd, efallai, yn meddu cymmaint o wroldeb a diysgogrwydd a'i ragflaenor, eto yr oedd mor enwog am ei dduwioldeb, ac yn llawer mwy dysgedig nag ef, ac nid oedd ychwaith yn ol iddo mewn un rhinwedd. Tybiai Melancthon y gellid goddef llawer o bethau yn Eglwys Rhufain, er mwyn heddwch; megys ei ffurf eglwysig, ymostyngiad i'r pab ar y telerau na byddai i'r awdurdod hono gyfyngu ar eu cydnabyddiaeth o, a'u hymostyngiad i'r, gwirioneddau hyny a ddysgir yn amlwg yn yr Ysgrythyrau sanctaidd. Ystyriai Luther yntau iau y pab yn annyoddefol i'r eithaf, yn mhob ystyr, ac ar bob telerau. Daliai hefyd gyfiawnhâd trwy ffydd "heb weithredoedd y ddeddf," ac anallu dyn, mor bell, fel yr oedd, yn ol barn Melancthon, wrth geisio gochel Rhufain ar un llaw, mewn perygl o roddi mantais i eithafion ar y llaw arall. Nid oedd ychwaith yn gallu cydolygu âg ef am *gydsylweddiad* yr elfenau yn y cymun, â'r hyn yr ymwrthodai Calvin hefyd, a'r eglwys yn Switzerland, yn hollol. Pa fodd bynag, tybiai Melancthon y gellid cadw undeb rhyngddynt, trwy roddi darnodiad amwys o hono, fel y byddai i'r ddwy eglwys ei egluro yn ol eu syniadau neillduol eu hunain. Ni ddarfu iddo sefyll yn dŷn dros y golygiadau yma tra y bu Luther byw; ond wedi ei farw, bu yn fwy hyf a digel, yr hyn a gododd gryn gyffro. Daliai y gellid dysgu, yn unol â gair Duw, yr angenrheidrwydd am weithredoedd da er cael iachawdwriaeth dragwyddol; â'r hyn yr ymwrthodai y blaid arall yn hollol: ac aeth rhai o honynt, o dan arweiniad un Amsdorff, mor bell ag i ddywedyd fod gweithredoedd da yn rhwystr i iachawdwriaeth [gwel AMSDORFFIAID]. Yn yr adeg yma hefyd, pan y mynai Charles v. roddi y cyhoeddiad a elwid *Interim* mewn grym, cyfodid dadl pa mor bell y dylesid ufuddhau iddo. Hònai Melancthon y dylid ufuddhau i gyhoeddiadau ymherodrol mewn pethau dibwys; tra yr ystyriai y blaid wrthwynebol yr hyn a gynnwysid yn y ddeddf hono o'r pwys mwyaf. Achlysurodd hyn ddadleuaeth ffyrnig, a elwir *y Ddadl Anmhleidiol* (*Adiaphoristic Controversy*), yr hon a ddechreuwyd gan Kacius, duwinydd o Jena, yn nghyd â gweinidogion Saxonia Isaf.—Gwel INTERIM.—(*Encyc. of Rel. Knowledge; Buck; Mosheim; Hist. of the Church,* llyfr vi. pen. xi. xiii. *Tract Soc.*)

ANMHOSIBL: annichonadwy; yr hyn nis gall fod. "Y mae yn *anmhosibl* i Dduw fod yn gelwyddog;" *Heb.* vi. 18: gan fod hyny yn anmhosibl i Dduw, o herwydd purdeb ei natur, y mae ei addewid a'i lw yn "ddau beth dianwadal."

Digitized by Google

Gyda dynion, y mae fel arall; y mae ynddynt hwy lawer o bethau sydd yn peri nad ydyw eu haddewidion i bwyso arnynt; ond y mae geiriau Duw, fel efe ei hun, yn bur ac yn sanctaidd. Darfu i Balaam, yr hwn nid oedd amgen na gelyn i Dduw, ddwyn y dystiolaeth hon iddo, "Nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhau;" *Num.* xxiii. 19. Y mae gair Duw yn wirionedd anffaeledig, ac i'w gredu pan yn air noeth; ond pan y mae llŵ wedi ei chwanegu ato, pa mor ynfyd ac ysgeler y mae ei anghredu yn ymddangos. Y gair Groeg am *anmhosibl*, yn y Testament Newydd, yw *ἀδύνατος*—ystyr gyntaf yr hwn yw, *bod yn ddiffygiol o nerth;* ac felly, y mae yn arwyddo gwendid ac eiddilwch corfforol. Yn *Act.* xiv. 8, cyfieithir ef *diffrwyth*. Weithiau, golyga anmhosiblrwydd mewn ystyr foesol—anmhosibl yn ol natur a threfn pethau—unrhyw beth hynod anhawdd, ac annhebyg byth i gymmeryd lle; *Heb.* vi. 4.

ANMHUREDD: diffyg o'r gofal hwnw am weddeidd-dra, diweirdeb, neu sancteiddrwydd, ag sydd yn ddyledus arnom; *Ezec.* xxii. 18, 19; *Diar.* xxv. 4. Yr oedd unrhyw halogrwydd deddfol neu seremonïol yn cael ei gyfrif yn anmhuredd dan gyfraith Moses. Yr oedd o'r rhai hyn amrywiol ddosbeirth: rhai oeddynt wirfoddol, megys cyffwrdd â chorff marw, neu âg un anifail a fuasai farw o hono ei hun; neu unrhyw greadur a gyfrifid yn aflan; neu gyffyrddiad â phethau sanctaidd gan un na byddai yn offeiriad; neu gyffyrddiad âg un gwahanglwyfus; neu âg un wedi ei halogi drwy ysgerbwd marw, &c. Weithiau, byddai yr anmhuredd hyn yn anfwriadol; megys pan ddygwyddai i un yn ddifeddwl gyffwrdd âg esgyrn, neu â beddrod, neu unrhyw beth halogedig; neu pan eu cymmerid gan glefyd o natur halogedig, megys y gwahanglwyf, &c. Byddai y gwelyau, y dillad, a'r dodrefn, a gyffyrddasent â dim aflan, yn cael eu cyfrif wedi cyfranogi o anmhuredd, ac mewn rhai anghreifftiau, yn ei drosglwyddo i eraill. Gwel AFLENDID; PUREDIGAETH, &c.

ANMRWD: heb ei ferwi, neu ei boethi trwyddo. Yn y cyfarwyddiadau a roddai Duw trwy Moses i ddarpar yr oen Pasc, dywedir—"Na fwytewch o hono yn *anmrwd;*" *Ecsod.* xii. 9. Nid yw y geiriau hyn yn un prawf fod yr Israeliaid yn arfer bwyta cig yn anmrwd, yn eu prydau cyffredin, fel y casglodd rhai oddi yr ymadrodd; canys ni chawn un amnaid o'r fath yn un ran o'r Ysgrythyr: ond yr hyn a waherddir iddynt yma, yw gwneyd o honynt ddim o'r fath yn yr ymarferiad crefyddol yma. Y mae yn ddigon hysbys yr arferai eilunaddolwyr, mewn rhai o'u defodau crefyddol, fwyta cnawd eu haberthau, neu ranau o hono, yn anmrwd, ac hyd yn oed yfed eu gwaed. Dywed Young ei bod yn ddefod yn mysg yr Aiphtiaid, mewn rhai o'u cyflawniadau crefyddol, redeg o amgylch yr heolydd, fel gwallgofiaid, a thynu yr anifail a offryment yn ddarnau, fel y byddai ei waed yn dyferu oddi wrth eu gwefusau: ond gwaharddai Duw i'w bobl wneyd dim yn debyg i'r arferion ofergoelus yma.

ANNA: gweddw oedranus, merch Phanuel, o lwyth Aser. Hi a briodasai yn ieuangc; ond yn mhen saith mlynedd, bu farw ei gŵr: a thros ystod ei hir weddwdod, hi a arferai fod yn ngwasanaeth boreuol a hwyrol y deml yn gysson. Yr oedd Anna yn bedwar ugain a phedair mlwydd oed pan ddug ei fam y baban Iesu i'r deml; a chan ddyfod i fewn pan oedd Simeon yn dadgan ei ddiolchgarwch, hithau hefyd a dorodd allan mewn mawl i Dduw, am gyflawniad ei hen addewidion; *Luc* ii. 36, 37.

ANNAI [o *anu*]: cynnwys, dal, amgyffred; 1 *Bren.* vii. 26.

ANNAS, neu ANANUS [Ἄννα]: archoffeiriad Iuddewig, yr hwn, wedi gweini y swydd am un mlynedd ar ddeg, a ddifreiniwyd: ond y mae yn ymddangos ei fod ef yn cadw y teitl wedi hyny; ac, fe allai y byddai yn cyflawnu rhai o ddyledswyddau yr archoffeiriadaeth yn achlysurol. Y mae yn beth lled hynod na chrybwyllir enwau un o'r rhai a fuasent yn gweini y swydd archoffeiriadol yn flaenorol i Caiaphas gan yr efengylwr ond Annas, er fod Ismael Eliazar, a Simeon, wedi bod yn archoffeiriaid yn fwy diweddar nag Annas. Y farn fwyaf gyffredin yn mysg dysgedigion y dyddiau hyn yw, mai Caiaphas oedd yr archoffeiriad, a bod ei dad yn nghyfraith, Annas, yn rhaglaw iddo; neu yr hyn a elwir yn Hebraeg, *sagan*. Y mae enwau y ddau yn cael eu cydio yn yr archoffeiriadaeth gan yr efengylwr: "Dan yr archoffeiriaid, Annas a Chaiaphas;" *Luc* iii. 2. Er egluro hyn, y mae rhai yn dadleu bod Caiaphas ac Annas yn gweini y swydd archoffeiriadol bob yn ail: ond y mae hyny yn anghysson â'r hyn a ddywedir gan Josephus yn ei *Henafiaethau*, pen. ii., adran 2. Eraill a farnent fod Caiaphas yn cael ei alw yn archoffeiriad, am mai efe oedd yn y swydd mewn gwirionedd ar y pryd; a bod Annas yn cael yr enw fel arwydd o barch, o herwydd ei fod ynddi gynt; ond pe felly, pa fodd na chrybwyllid enwau rhai o'r rhai a fuasent archoffeiriaid yn y cyfwng rhwng Annas a Chaiaphas.

Yr oedd swydd rhaglaw yr archoffeiriad, neu *sagan*, yn un mor bwysig fel na buasai yn unrhyw sarhâd ar un a fuasai yn archoffeiriad ei hunan ymgymmeryd â hi; canys, ar achlysuron neillduol, gallai y *sagan* fyned i'r cyssegr sancteiddiolaf. Fel rhaglaw yr archoffeiriad, a henafgwr mawr ei barch ac uchel ei ddylanwad, yr oedd yn eithaf naturiol i'r Iuddewon ddwyn yr Iesu, yn uniongyrchol wedi ei ddal yn Mynydd yr Olewydd, o flaen Annas yn gyntaf, yr hwn a'i hanfonai drachefn o flaen Caiaphas. Y mae cymmaint ag a wyddom ni am yr Annas hwn yn profi ei fod ef yn elyn i Grist a'i ddysgyblion; *Act.* iv. 6.

ANNE, ST., ydoedd (yn ol traddodiad eglwysi Rhufain a Groeg) fam y forwyn Fair. Ei gŵr, meddir, ydoedd un St. Ioachim. Ond os cymmherir hyn â rhestrau y cenedlaethau yn y Testament Newydd, ceir fod y traddodiad Pabaidd yma yn anghywir.

Cedwir Gŵyl St. Anne gan y Pabyddion ar y 26ain o Orphenaf, pryd y cyflwynir iddi addoliad ac anrhydedd mawr. Anfonir ati weddïau taerion, ac erchir ei heiriolaeth dros yr addolwyr gyda ei merch Mair; yr hon, dywedir, nad all y Drindod ei gommedd o ddim a'r a eiriolo neu a orchymyno. Gelwir St. Anne, yn llyfrau y Pabyddion, yn "Fam mam Duw," ac yn "Nain Duw ei hun."

Dangosir yn Ierusalem, yn bresennol, adeilad a elwir Eglwys St. Anne; ac yn gyssylltiol â hono, dangosir i'r pererinion twylledig o Rufain

Digitized by Google

yr ogof neu yr ystafell yn mha un y ganwyd Mair. Sefyllfa yr adeilad hon sydd yn y gogledd o fynydd Moriah, hen safle teml Solomon.

ANNEALLUS; ansynwyrol, annoeth, ynfyd, ffol. "A'u calon *anneallus* hwy a dywyllwyd;" *Rhuf.* i. 21: neu, yn ol W. S., "Ai calon ampwyllog oedd yn llawn tywyllwch." Y mae y rhai ydynt wedi derbyn manteision gwybodaeth am y gwir Dduw, ac wedi gommedd ei anrhydeddu yn ol y wybodaeth hono, gan anghymmeradwyo ei nodwedd a'i lywodraeth, yn cael eu gollwng yn gyffredin i ymddyrysu mewn tywyllwch, ac i suddo i ddyfnderoedd cyfeiliornad, pechod, ac annuwiaeth. "Trwy genedl *anneallus* y'ch digiaf chwi;" *Rhuf.* x. 19: "Ac â chenedl anghall y'ch digiaf;"—*Dr. Morgan:* sef cenedl nad oedd yn meddu gwybodaeth o Dduw, nac mewn cyfammod âg ef.

ANNER, [*an—der*]: buwch ieuanc: *lli.* annair. Yn yr Ysgrythyrau, cymherir pobloedd foethus ac ystyfnig i annair nwyfus ac afreolus: *Ier.* xlvi. 20; "Yr Aipht sydd anner brydferth:" *Ier.* l. 11; "Am i chwi frasâu fel anner mewn glaswellt:" *Hos.* iv. 16; "Fel anner anhywaith yr anhyweithiodd Israel."

Yn ol y gyfraith, os ceid gafael ar gorff marw yn y maes, ac er chwilio, yn methu dyfod o hyd i'r llofrudd, yna yr oedd henuriaid y ddinas nesaf at y lladdedig i gymmeryd anner o'r gwartheg i ddyffryn garw, a'i thorfynyglu yno; ac i olchi eu dwylaw uwch ei phen, fel arwydd o'u diniweidrwydd: a dywedent, "Ni thywalltodd ein dwylaw ni y gwaed hwn," &c.: *Deut.* xxi. 1—6.

Gorchymynodd yr Arglwydd, trwy Moses, i feibion Israel ddwyn *anner goch*, berffaith gwbl, a'i rhoddi at Eleazar, yr offeiriad, i'w dwyn o'r tu allan i'r gwersyll, ac yno i'w lladd. Yr oedd yr offeiriad i gymmeryd peth o'r gwaed ar ei fys, ac i daenellu o'i gwaed hi ar gyfer wyneb pabell y cyfarfod saith waith; yna yr oedd corff yr anner i gael ei losgi, a'r lludw ei gasglu, a'i osod mewn lle glân o'r tu allan i'r gwersyll. Defnyddid y lludw hwn gan feibion Israel i'w gymmysgu â dwfr, yr hwn a elwid dwfr neillduaeth.

Y mae y pethau canlynol yn deilwng o sylw mewn cyssylltiad â'r ddefod hon:—1af. Lliw yr anner; yr oedd i fod yn *goch.* Defnyddir "porphor ac ysgarlad" yn y Beibl i ddangos pechadurusrwydd mawr: ac yr oedd yr aberth hwn i'w ystyried megys pentwr o aflendid; yr oedd pawb a gyffyrddai âg ef i'w hystyried yn aflan hyd yr hwyr. 2il. Nid oes genym hanes yn y Beibl ond am *un* anner goch yn cael ei haberthu; ac er, hwyrach, ddarfod aberthu lluaws trwy yr oesoedd, eto, ar y cyfan, anaml y gwnelid hyny; o blegid ni ddefnyddid ond ychydig o ludw yr anner i gyfansoddi dwfr neillduaeth; ac er mwyn ei lludw, gan mwyaf, yr aberthid hi. Ac yr oedd hen draddodiad yn mysg yr Iuddewon nad aberthwyd yr un anner goch o ddyddiau Moses hyd amser Solomon. 3ydd. Yr oedd yr anner goch i'w lladd a'i llosgi, ac yr oedd ei lludw i'w gadw y *tu allan i'r gwersyll.* Yr oedd i'w hystyried yn hollol aflan a halogedig; ac er hyny, ei lludw hi a ddefnyddid yn mharotoad y dwfr neillduaeth, yr hwn a ddefnyddid i buro ac i lanhau oddi wrth halogedigaeth. Cenfydd yr ystyriol, yn yr hanes a roddir i ni yn nghylch yr anner goch, yn *Num.* xix, gysgod amlwg a rhagorol o'r Hwn, "fel y sancteiddiai y bobl trwy ei waed ei hun, a ddyoddefodd y tu allan i'r porth;" *Heb.* xiii. 12.

ANNHRAETHOL, [*an—traeth*]: nas gellir ei fynegu. "Ochenaidiau *annhraethadwy;*" *Rhuf.* viii. 26: dymuniadau enaid crediniol, heb allu i'w trefnu mewn geiriau, ond yn tori allan mewn griddfanau dwysion, dan ddylanwad Ysbryd y gras. Y mae llawenydd credinwyr hefyd yn "llawenydd *annhraethadwy* a gogoneddus;" 1 *Pedr* i. 8: sef y fath orfoledd yn Nghrist, nas gall iaith ei osod allan, ag sydd yn rhagbrawf ac yn ernes iddynt o'r gogoniant sydd yn eu haros yn y nefoedd. Pan gafodd Paul "ei gipio i fyny i baradwys," clywodd yno "eiriau *annhraethadwy,* y rhai nid yw gyfreithlawn i ddyn eu hadrodd;" 2 *Cor.* xii. 4: hyny yw, yr oeddynt mor ysbrydol, nefol, a goruchel, nas dichon i syniadau daiarolion eu cynnwys, nac i iaith ddynol eu mynegu; am hyny, ni ddylid, ac nid iawn, gan nad yw "bosibl," eu traethu: "Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef;" 1 *Cor.* ii. 9. "Ac i Dduw y byddo y diolch am ei ddawn *annhraethol*"—am Iesu Grist, rhodd benaf y Duwdod; ac am holl fendithion y prynedigaeth ynddo; am gyfoeth yr iachawdwriaeth, dadguddiedig yn yr efengyl; a "rhagorol ras Duw" yn eneidiau ei saint, yn tori allan mewn cariad a haelioni, duwioldeb a defnyddioldeb: 2 *Cor.* ix. 15.

ANNHREFN: didrefnedd, afreolaeth, aflywodraeth, terfysg. Pan fygythiai Duw Edom, trwy y prophwyd, dywedid, yn mysg pethau ereill, "Ac efe a estyn arni linyn *annhrefn,*" &c.: —yn ol y Dr. Morgan, "llinyn aflunieidd-dra." Cyfeiria at y pen saer yn defnyddio llinyn i osod ei waith allan wrtho; a thrwy yr ymadrodd, arwyddocëir fod Duw wedi nodi Edom, a'i mesur â'i linyn, i'w hanrheithio, a gwneyd ei meini yn "feini gwagedd." Cyfieitha rhai y geiriau fel hyn—

"Efe a estyn arni linyn difrod,
A chareg anghyfannedd-dra." *Barnes.*

neu,

"Efe a estyn arni linyn anghyfannedd-dra,
Ac a ollwng blymeu gwagder." *Boothroyd.*

Y mae Burckhardt, yn ei deithiau yn Syria, yn sylwi, nad yw Edom yn bresennol yn ddim amgen na diffaethwch caregog, a noethlwm, ac anghyfanneddol. "Gorweddai o'n blaen wlad eang, erchyll yr olwg arni, yn orchuddiedig gan gellfeini duon, ac ambell i fryncyn yma ac acw yn ymddyrchafu o'r gwastadedd."—(*Travels in Syria,* td. 445.)

ANNIBYNWYR. Gwel ANYMDDIBYNWYR.

ANNUWIAETH. Gwel ATHEISTIAETH.

ANNYWEDDIAETH, [*an-dyweddi*]: sefyllfa personau heb briodi. Deillia y gair Seisonig, *celibacy,* a'r Lladin, *cœlibatus,* medd Scaliger, o'r geiriau Groeg *κοιτη* = *gwely,* a *λειπω* = *gadael.* Dywed ereill ei fod yn cael ei ffurfio o'r geiriau Lladin, *cœli beatitudo*=*dedwyddwch y nef.* Yr hen Rufeiniaid a ddefnyddient bob moddion posibl er anghefnogi annyweddiaeth. Yr oedd yn beth cyffredin i'r llywodraethwyr roddi dirwy a chospau ereill ar ddynion dibriod. Crybwyllir gan Dionysius Halicarnessus am hen gyfansoddiad a rwymai bersonau mewn oedran cyfaddas i briodi. Ond y gyfraith gyntaf a'r fwyaf hynod ag y mae genym hysbysrwydd sicr am dani oedd yr un a elwid *Lex Julia de maritandis ordinibus,*

Digitized by Google

Galwyd hi wedi hyny, *Papia Poppea;* ac yn fwy cyffredin, *Julia Papia;* am mai y trafnoddwyr *(consuls)* Papius a Poppeus a'i cynnygiasant. Ei hamcan oedd cynnyddu y boblogaeth, ac adferu yr anrheithiad a wnaed ar yr ymherodraeth gan y rhyfeloedd cartrefol. Cynnygid gwobrwyon i briodas, a chospau am annyweddïaeth. Pwy bynag o ddinaswyr Rhufain a feddai dri o blant; neu, yn mharthau ereill o Italy, bedwar; neu yn y taleithiau, bump; a ennillai hawl i freintiau chwanegol. Y breintiau a ennillid trwy dri o blant oeddynt, rhyddid oddi wrth y swydd warcheidawl, blaenoriaeth mewn swyddau ereill, a chyfran driphlyg o ŷd. Nis gallasai y rhai a arosent yn ddibriod dderbyn etifeddiaeth oddi wrth neb ond eu perthynasau agosaf, oddi eithr iddynt briodi o fewn cant o ddyddiau ar ol marwolaeth y testamentwr. Rhyddhawyd y Rhufeiniaid, pa fodd bynag, oddi wrth y gyfraith hon gan gyfreithiau ereill a ffurfiwyd yn adfeiliad yr ymherodraeth.

Arferir y gair yn benaf i ddynodi sefyllfa ddibriod yr offeiriaid Pabaidd, neu y rhwymedigaeth ag y maent dani i ymgadw oddi wrth briodas. Mae y mynachod yn cymmeryd arnynt adduned o annyweddïaeth a diweirdeb.

Y mae Eglwys Rhufain yn rhwymo annyweddïaeth cyffredinol ar ei holl wŷr llên, o'r pab i lawr hyd y diacon a'r is-ddiacon iselaf. Dadleua pleidwyr yr arferiad hon fod adduned o annyweddïaeth parhaus yn ofynol yn yr eglwys gyntefig fel ammod ordeiniad; hyd yn oed er yr oesoedd boreuaf. Ond y mae y gwrthwyneb yn eglur oddi wrth luaws o esamplau o esgobion, y rhai a drigent yn y sefyllfa briodasol, heb i hyny fod yn un attalfa arnynt fel swyddwyr. Mae yn ddiammheu fod rhai, os nad yr oll, o'r apostolion yn briod. Yn yr oes ganlynol, y mae genym hysbysrwydd sicr am henuriaid a diaconiaid yn briod, ac yn gyfryw heb ei fod yn un diarhydedd arnynt: er anghraifft, gellir enwi y rhai hyn, Valens, henuriad Philippi, y sonir am dano gan Polycarp; a Chaeremon, esgob Nilus. Yr oedd Novatus, henuriad yn Carthage, yn briod, fel ag y gwelir yn ysgrifeniadau Cyprian; ac yr oedd ef ei hun yr un modd yn briod, fel y tystia Pagi; felly hefyd yr oedd Cæcilus yr henuriad, yr hwn a fu yn foddion i'w ddychwelyd, a Numidius, henuriad arall yn Carthage. Yr ateb a rydd y Pabyddion i hyn ydyw, fod pawb fyddont yn yr ystâd briodasol, pan ordeinier hwynt, yn addunedu byw ar wahan oddi wrth eu gwragedd trwy eu cydsyniad; yr hyn oedd yn cyfateb i adduned o annyweddïaeth mewn personau dibriod. Goddefid i Novatus, henuriad Carthage, gydfyw â'i wraig ar ol ei ordeiniad, fel yr ymddengys oddi wrth y cyhuddiad a ddygwyd yn ei erbyn gan Cyprian, ei fod wedi ei tharaw ac ymddwyn yn annheilwng tuag ati.

Er mai mewn amser diweddarach na'r oes apostolaidd a'r canrifoedd cyntaf y daeth adduned o annyweddïaeth yn ddeddf yn mysg y gwŷr llên, fel y dangosir yn mlaen, eto, y mae yn ymddangos yn debygol fod amlygiadau o'r duedd hon i'w canfod mor fore a'r oes apostolaidd, yn mysg y Cristionogion. Yr oedd gan y gwrthwynebrwydd rhwng plaid Paul a Phedr ddylanwad ar wahanol olygiadau y Cristionogion am fywyd priodasol a dibriod. Ar y cyntaf, cyn i ddylanwad parhaol a threiddiol Cristionogaeth arddangos ei hun yn holl gyssylltiadau bywyd, daeth ysbryd yr efengyl i gyd-darawiad â byd oedd dan lywodraeth chwantau aflan a phechadurus; iel y gallasai, am amser, tuedd feudwyaidd, wrthwyneb i'r undeb priodasol, er nad yn unol âg ysbryd yr efengyl, yn hawdd wneyd ei ymddangosiad, yn enwedig gan fod y pryd hwnw ddysgwyliad am ddifianiad prysur pethau daiarol, yn flaenorol i ddyfodiad teyrnas Dduw.

Yr oedd hefyd gan y syniad a goleddid am wahaniaeth yr offeiriaid a'r lleygon ran yn nghyfodiad annyweddïaeth yr offeiriaid. Gan y tybid fod y gwŷr llên wedi eu neillduo a'u cyssegru i wasanaeth Duw, yr hwn syniad, heb ei gario i eithafion, a ddichon fod yn wirionedd, cesglid fod yn gwbl angenrheidiol gwahardd iddynt gyffwrdd â'r byd a'r pethau sydd yn y byd —fod y fath fur o wahaniaeth i fod rhwng yr offeiriaid a'r bobl gyffredin na ddylent ymdebygoli iddynt mewn dim; a chan eu bod, o ran eu swydd, i breswylio gyda y pethau sydd uchod, y dylai eu cyssylltiad â'r ddaiar fod mor fychan a breuol ag y byddai yn bosibl; na ddylai rhwymau mor nerthol a gwraig a phlant fod am danynt i'w cadwyno wrth y byd; ond y dylent fod yn debyg i angelion Duw, y "rhai nid ydynt nac yn gwreica nac yn gwra." O'r syniad hwn am gyssegredigaeth a gorsancteiddrwydd yr offeiriaid y tarddodd syniadau y canoloesoedd am addunedau, meudwyaeth, annyweddïaeth, a diweirdeb; ac y mae yn ddiammheu mai o'r treisiad hwn ar y natur ddynol, yr ymgais am ei chadwyno trwy addunedau ffolion, ac nid ei phuro a'i dyrchafu, y tarddodd yr aflendid a'r trythyllwch yn mysg yr offeiriaid, yr hwn ni chydnabyddai unrhyw derfynau.

Yn Nghynghor Elvira, yn Yspaen, yr hwn a gynnaliwyd yn y flwyddyn 305, y gwnaed deddf o annyweddïaeth gyntaf, yr hon a rwymai y gwŷr llên, o'r tair gradd cyntaf, i ymattal oddi wrth briodas a chyfeillach briodasol, neu i gael eu diswyddo. Mae y ddeddf yn rhedeg fel hyn: "*Placuit in totum prohiberi episcopis, presbyteris et diaconibus, vel omnibus clericis positis in ministerio abstinere a conjugibus suis.*" Yr oedd dynion o'r duedd feudwyaidd, ac o'r ysbryd offeiriadol, yn awyddus am wneuthur hon yn gyfraith gyffredinol yr eglwys yn Nghynghor Nice: ond gwrthwynebwyd y cynnygiad hwn gan yr esgob a'r cyffeswr Paphnutius; barn yr hwn a feddai bwys mawr ar y mater, am nad oedd yn dueddgar, yn gymmaint a'i fod ef wedi dilyn bywyd cwbl feudwyaidd o ddechreu ei oes hyd yn hyn. Dadleuai fod y bywyd priodasol yn ystâd sanctaidd, fel y cadarnha yr apostol Paul, ac y gallai yr offeiriaid oeddynt yn yr ystâd briodasol fyw bywyd sanctaidd er hyny; na ddylid gosod un iau ar ddynion, yr hon nis gallai gwendid y natur ddynol ei goddef; ac y byddai yn dda arfer gofal rhag niweidio yr eglwys trwy ormod llymder. Eto, er y dadleuai Paphnutius yn erbyn gosod annyweddïaeth yn ddeddf gyffredinol, yr oedd yn ormod dan ddylanwad ysbryd yr oes i wrthwynebu yr arferiad o osod yr urdd ysbrydol dan rwymau annyweddïaeth. Cadwyd at yr hen drefn, na oddefid i weinidogion o'r tair gradd cyntaf—esgobion, henuriaid, a diaconiaid—pan wedi eu hordeinio, briodi; a gadawyd y gweddill yn rhydd i briodi neu beidio.

Yr oedd Cynghor Neocesarea, yn y flwyddyn 314, wedi penderfynu yr un modd, y diswyddid yr henuriad a briodai: a Chynghor Ancyra, yn yr un flwyddyn, a benderfynodd y goddefid i'r diaconiaid, y rhai, ar amser eu hordeiniad, a ddywedent nas gallent oddef bywyd annyweddiawl, briodi mewn canlyniad; tra y byddai i'r rhai na

Digitized by Google

dlywedent ddim ar y mater hwn ar eu hordeiniad, ac a briodent wedi hyny, gael eu diswyddo. Yn yr Eglwys Ddwyreiniol, cynnyddai yn barhaus yr arferiad yn mhlith yr esgobion, os byddent wedi priodi, i ymadael â'u gwragedd: eto, cawn eithriadau o hyn, hyd yn oed yn y bummed ganrif, megys Synesius; yr hwn, pan ar gael ei wneyd yn esgob Ptolemais, yn Pentepolis, a arwyddodd i Theophilus, patriarch Alexandria, ei fwriad o fyw yn yr un berthynas â'i wraig ag y darfuasai iddo ef ei huno: er hyny, efe a ordeiniwyd yn esgob. Yr oedd yn wahanol gyda'r Eglwys Orllewinol. Yr oedd henuriaid a diaconiaid Yspaenaidd yn gwrthwynebu y bywyd annyweddïawl: a chan fod eu syniadau am yr offeiriadaeth yn cael eu cymmeryd o'r Hen Destament, appelient, mewn amddiffyniad iddynt eu hunain, at y ffaith fod offeiriaid yr Hen Destament yn byw yn yr ystâd briodasol. Crybwyllodd Himerius, esgob Taraco, am yr amgylchiad hwn wrth Damasus, esgob Rhufain, gan ofyn am ei gyfarwyddyd. Atebwyd i hyn gan Siricius, yr hwn, yn y cyfamser, a ddilynodd Damasus yn y swydd esgobawl, mewn llythyr yn y flwyddyn 385, yn mha un, trwy wyrdroad amlwg o'r Ysgrythyr, y ceisiai brofi yr angenrheidrwydd am i'r offeiriaid fyw yn ddibriod. Cyfododd yn niwedd y bedwaredd ganrif lawer o ddynion oeddynt uwch law rhwymau yr oes, megys Jovinian a Vigilantius, y rhai a wrthwynebent annyweddïaeth â'u holl egni. Cyfeiriai Jovinian at y ffaith y goddefai yr apostol Paul un i gael ei ddewis yn esgob, yr hwn a feddai wraig a phlant. A chrybwylla Jerome am esgobion yn mysg cyfeillion Vigilantius, y rhai, am yr ofnent yr effeithiai annyweddïaeth gorfodedig yn dra niweidiol ar foesau, ni fynent ordeinio neb arall yn ddiaconiaid ond rhai wedi priodi.

Y cynghor yn Trullo, a gynnaliwyd yn B. A. 692, a wnaeth wahaniaeth rhwng esgobion a henuriaid: caniatawyd i henuriaid, diaconiaid, a'r holl urddau iselaf, i gydfyw â'u gwragedd ar ol eu hordeiniad, a rhoddwyd ynddo gerydd llym i'r Eglwys Rufeinaidd am y gwaharddiad gwrthwyneb; ond ar yr un pryd, gwaharddwyd yr esgobion i gydfyw â'u gwragedd, a gorchymynid iddynt (eu gwragedd) i ymgymmeryd â bywyd meudwyaidd, neu i fod yn ddiaconesau yn yr eglwysi. Fel hyn, sefydlwyd yn Eglwys Groeg annyweddïaeth hollol gyda golwg ar yr esgobion, ond nid neb arall. Sefydlwyd yr un peth yn yr Eglwys Ladinaidd; ond yn bur araf y daeth i rym mewn llawer o fanau: o blegid yn Affrica, cyddrigai yr esgobion â'u gwragedd, hyd yn oed yn amser ail gynghor Truro.

Yn y gymmanfa a alwyd yn Rhufain, yn y flwyddyn 1074, darfu i Gregory VII, nid yn unig adrodd y penderfyniadau blaenorol yn erbyn cyssylltiad priodasol yr offeiriaid, yr hyn a alwai yn "odineb," a mynegu fod y rhai a lynent rhag llaw yn y cyfryw undeb yn ddiarddeledig o'u swyddau, ond cyfarch y lleygon, i'r dyben o'u cyffroi yn erbyn y gwŷr llên a anufuddhäent. Ac ni orphwysodd Gregory gyda chyhoeddiad y deddfau hyn yn y gymmanfa yn Rhufain, ond anfonodd hwynt at yr esgobion oeddynt yn absennol, gan orchymyn iddynt ofalu ar fod iddynt gael eu rhoddi mewn grym: a'i genadon, y rhai a anfonodd i bob man, a'u cyhoeddasant yn mhob lle, ac a edrychasant ar fod y gwŷr llên yn ymostwng iddynt

Yn *Mat.* xix. 3—12, a *Marc* x. 2—12, ceir syniadau Iesu Grist ar y mater hwn. Ei athrawiaeth ef ar annyweddïaeth yw—fod yn rhaid iddo, fel gwir briodas, os bydd yn amcanu at ogoniant Duw, gael ei gyssylltu â'r gallu o feistroli natur. Y cyfryw annyweddïaeth, a'r cyfryw yn unig, y mae efe yn ei adnabod, ag sydd yn cynnwys aberthiad y teimladau dynol oddi ar gariad at deyrnas Dduw, ac er mwyn ei gwasanaethu yn fwy effeithiol. Yn yr ystyr hwn yn unig y gallasai lefaru am annyweddïaeth "*er mwyn teyrnas nefoedd.*" Ni ddefnyddiodd yr ymadrodd hwn o gwbl i ddynodi gwaith un yn cymhwyso ei hunan i'r deyrnas trwy fywyd myfyrgar a'r cyffelyb; ond bob amser i ddynodi gweithgarwch ac egni sanctaidd yn ei deyrnas. Condemnia y rhai sydd yn cuddio eu talentau, mewn trefn i'w cadw. Ond mewn amser, pan yr oedd helaethiad allanol teyrnas Dduw yn wrthddrych penaf egnïon crefyddol, gallasai annyweddïaeth, er mwyn hyny yn neillduol, gael lle a derbyniad. Dylid sylwi nad yw Crist yn dywedyd mewn un modd, Gwyn fyd y rhai a ymgadwant oddi wrth briodas er mwyn teyrnas nefoedd—fel pe buasai hyn, ynddo ei hun, yn beth rhagorol; ond dysgrifio yn syml y mae ef ffeithiau fel yr oeddynt yn bod:—"Y mae eunuchiaid," &c.; gan wahaniaethu y cyfryw sydd yn cymmeryd y dull hwn o fywyd er mwyn teyrnas nefoedd, oddi wrth y rhai nad oes ganddynt un dewisiad yn y peth, neu rai yn cael eu dylanwadu gan gymhellion gwahanol. Yr oedd ei benderfyniad ef, gan hyny, yn wrthwynebus, nid yn unig i'r hen syniad Hebraeg, fod annyweddïaeth *ynddo ei hun* yn waradwyddus, ond hefyd i'r golygiad meudwyaidd a'i gwnai *ynddo ei hun* yn addurn goruchel ar fywyd. Mae sylwadau Crist ar y mater hwn yn cynnwys ei egwyddor fawr, i'r hon y rhoddai arbenigrwydd bob amser; sef, y rhaid i'r galon fod yn gyssegredig i Dduw a'i deyrnas, ac er ei mwyn drefnu yn ewyllysgar holl gyssylltiadau bywyd, fel y byddo amgylchiadau yn gofyn.

Yn 1 *Cor.* vii, ni a gawn olygiadau yr apostol Paul ar annyweddïaeth a gwyryfdod. Cymmerodd ef lwybr canol rhwng y pleidiau gwrthwyneb —y blaid a gondemniai fywyd unigol, a'r blaid a fynai ei argymhell a'i osod yn rhwymedigaeth ar broffeswyr fel yn beth hanfodol i berffeithrwydd Cristionogol. Gwelai pa mor niweidiol y gallai annyweddïaeth gorfodedig fod mewn eglwys fel yr eiddo Corinth; ac am hyny, gwrthwynebai y drwg hwn: ond gosodai fywyd dibriod allan, i'r rhai oeddynt yn gyfaddas o herwydd eu cyfansoddiad naturiol i ymgymmeryd ag ef, fel yn gymhorth i wasanaethu yr efengyl yn fwy diball, heb gael eu troi oddi wrthi gan ofalon daiarol, yn enwedig o dan flinderau oeddynt ar eu cyfarfod. Gosoda hanfod Cristionogaeth, nid mewn annyweddïaeth, nac mewn ymgadwad allanol oddi wrth bethau daiarol, ond yn yr ymwrthodiad hwnw â'r byd yr hwn y mae ei gartref yn y tueddfryd a'r galon, yr hwn a wnai y gŵr priod a'r cyfoethog, yn gystal a'r dibriod a'r tlawd, yn barod i aberthu pob peth ag y byddai angenrheidiau yr amseroedd yn eu gofyn—i oddef colled am bob peth, pa mor anwyl bynag ganddynt, er mwyn yr efengyl.

Nid yw y rhesymau a ddwg yr apostol yn mlaen yn 1 *Cor.* vii, i'w cymhwyso yn fwy at swyddogion eglwysig nag ydynt at aelodau cyffredin. Da oedd iddynt "dan yr angenrhaid presennol"—dan erlidiau—fod yn ddibriod; o blegid trwy eu bod yn rhwym wrth y byd gan lai o gylymau, gallent gael eu dattod gyda llai o dristwch, pan elwid arnynt i farw dros achos yr

Digitized by Google

efengyl: ond fel deddf a rheol gyffredin, "Anrhydeddus yw priodas *yn mhawb;*" *Heb.* xiii. 4. Mae Paul yn enwi "gwahardd priodi" fel un o nodweddau gwrthgiliad y dyddiau diweddaf (1 *Tim.* iv. 3). Dywed Macknight, y cyfeiria yr apostol mewn modd prophwydol yn y gair hwn at syniadau a ddygwyd i mewn yn fore i'r eglwys gan yr Encratiaid a'r Marcioniaid, ac wedi hyny gan y Manicheaid, y rhai a ddalient mai dyfais y diafol oedd priodas, a'i fod yn beth pechadurus dwyn creaduriaid i'r byd i fod yn anhapus, ac yn fwyd i farwolaeth. Mae yn ddiammheu mai un o nodau y Bwystfil ydyw gwneyd annyweddïaeth yn bwnc o orfodaeth.—*(Encycl. Brit.; Rel. Cycl.; Neander's Works; Macknight's Com.)*

**ANRHAITH**: ysbail, ysglyfaeth; yr hyn a gymmerir trwy drais oddi ar ereill; yr hyn a ddygir *heb raith*, neu heb fod trwy gyfraith, oddi ar ei berchenog, megys ysbail rhyfel, &c.: *Jos.* xxii. 8; *Barn.* v. 30; 1 *Sam.* xiv. 32. Defnyddir y gair weithiau fel ansoddair; megys, "Eu baich sydd *anrhaith* ei oddef;" neu sydd *ddirfawr* i'w oddef. "Y mae peth *anrhaith* ar ol;" neu, y mae swm *dirfawr* ar ol.—*Anrhaith-gribddail*—dirwyad trylwyr.—*Anrhaith-oddef*—un y gellid yn gyfreithlawn ei ysbeilio o'i feddiannau fel dirwy. "A ffeithwyr lladrad, os addefant, dirwy a dalant, ac onis gallant dalu dirwy, yr arglwydd a ddichon eu dedd; ac os talant, ni ddylent fod yn ddeolwyr, nac yn enaid faddeu, nac yn *anrhaith-oddef.*"—*(Cyfr. Howel.)*

**ANRHEG—ION.** Yr oedd ac y mae yn arferol yn mysg breninoedd a mawrion y ddaiar i anfon anrhegion y naill at y llall, er profi eu serchogrwydd a'u hewyllys da. 1 *Bren.* iv. 21; "A Solomon oedd yn llywodraethu ar yr holl deyrnasoedd......yr oeddynt hwy yn dwyn *anrhegion (presents)* ac yn gwasanaethu Solomon." Ac yn *Salm* lxxii. 10, y mae yr awdwr yn cyfeirio at y ffaith uchod, ac yn llefaru mewn ffordd brophwydoliaethol am Grist, o'r hwn yr oedd y brenin Solomon yn gysgod. Ac ar ei enedigaeth ef y daeth y doethion o'r dwyrain, "ac a offrymasant iddo *anrhegion*, aur," &c. Defnyddiwyd y gwŷr hyn gan Dduw i ddangos mor rhesymol gwaith ydyw i freninoedd a thywysogion y ddaiar dalu gwarogaeth i'r brenin Iesu. Gwel RHODD, GWOBR.

**ANRHYDEDD**, [כבוד; Gr. τιμη, δοξα; Llad. *honor*]: gogoniant, parch, clodforedd, bri, canmoliaeth.

I. Nid yw y gair hwn yn dynodi unrhyw gynneddf na gallu perthynol i gorff na meddwl; eithr arwydda gyflwr, gradd, neu berthynas, yn yr hon y dichon i unrhyw berson sefyll gyda golwg ar bersonau ac amgylchiadau ereill. Fel gwrthddrychau anrhydedd, y mae yr Ysgrythyr yn cyfrif y rhai canlynol:—1af. Prophwydi, neu athrawon: *Mat.* xiii. 57. 2il. Meistriaid, gan eu gwasanaethwyr: 1 *Tim.* vi. 1. 3ydd. Swyddogion gwladol neu ddinasaidd: *Rhuf.* xiii. 7. 4ydd. Henuriaid, neu weinidogion yr efengyl, ac arolygwyr eglwysi Cristionogol: 1 *Tim.* v. 17, 18: lle yn amlwg yr arwydda τιμης, taledigaeth, neu wobr am eu llafur. 5ed. Y mae anrhydedd yn deilwng i rieni: *Eph.* vi. 2; lle y mae yn cyfleu, nid yn unig y syniad o gariad, parch, ac ymostyngiad, eithr hefyd o'r ddyledswydd o dalu y pwyth i'w rieni. 6ed. Priodolir anrhydedd i Grist, yr hwn sydd wedi "ei goroni â gogoniant ac anrhydedd," fel gwobr am ei ddarostyngiad a'i farwolaeth: *Heb.* ii. 9. 7fed. Cyfrifir anrhydedd hefyd i Dduw, pan y dynoda y cyfryw arddangosiad o berffeithderau naturiol a moesol ag sydd yn cyffroi parch a rhyfeddod yn yr edrychydd. Yn yr ystyr yma, y mae y gair τιμη yn cael ei gyssylltu â δοξα: 1 *Tim.* i. 17; *Dad.* iv. 9, 11; vii. 12; xix. 1.

II. *Anrhydedd o ran yr achos o hono.* Y mae rhai yn ammheu a ddylid ystyried unrhyw sefyllfa, fel y cyfryw, yn sail i anrhydedd; eithr bod anrhydedd yn hytrach yn deilwng yn unig i'r rhai sydd yn llenwi eu lleoedd yn ffyddlawn. Y syniad yna sydd yn cael ei gyfleu yn y llinellau canlynol o waith Pope:—

> "Honour and shame from no condition rise,
> Act well your part; there all the honour lies."

Ymddengys ddarfod i'r bardd dderbyn y syniad yna oddi wrth yr athronydd Epictetus, yr hwn sydd yn cyffelybu bywyd dyn i chwarëyddiaeth *(drama)*, a phob dyn i chwarëydd *(actor)*, a'r Bod Goruchaf i feistr y chwareufa, yr hwn sydd yn trefnu i bob un ei ran, a'r cymmeriad yn yr hwn y mae i ymddangos ynddo a'i gynnrychioli. "Cofia mai chwarëydd *(hypocrite)*"—y gair a gyfieithir yn gyffredin *rhagrithiwr*, yr hwn yn wreiddiol oedd yn arwyddo *chwarëydd*—"a ddylit fod, a chyfryw ag a fyddo yn rhyngu bodd y Meistr, os (chwarëyddiaeth) hir, megys un hir; os byr, megys un byr. Os bydd efe yn ewyllysio i ti gynnrychioli neu *actio* y cardotyn, ymdrecha i arddangos y nodweddiad hwnw yn dda. Felly, os un cloff, os tywysog, os gwerinwr, yw y cymmeriad sydd wedi ei osod i ti i ymddangos ynddo, gwna hyny yn iawn. Dyna yn unig a berthyn i ti—chwareu dy ran yn dda: ond dewis a phenodi y rhan hono, perthyn i arall y mae."—[*Epict. Encheir.*, pen. xxiii.]

Y mae perffeithrwydd anrhydedd, medd Cicero, yn cyfodi oddi wrth y tri pheth hyn:—"Bod i ni gael ein caru: bod gan y bobl ymddiried ynom: bod i ni fod yn wrthddrychau eu mawrygedd, modd y tybiont ein bod yn deilwng o anrhydedd. Y peth sydd yn cyffroi cariad y bobl yn benaf yw y cymmwynasau a wnelom iddynt; ac yn nesaf at hyny, ewyllys da, pan y byddom yn dymuno gwneuthur lles iddynt, hyd yn oed pan fyddo yr ymgais yn aflwyddiannus; o blegid mae y bobl yn cael eu cyffroi yn fawr gan y son am haelfrydigrwydd, cymmwynasgarwch, ffyddlondeb, cyfiawnder, a'r holl rinweddau hyny sydd yn gyssylltiedig âg addfwynder a hynawsedd mewn ymddygiad. Y mae dau beth, hefyd, yn angenrheidiol er mwyn ennill ymddiried y bobl; nid amgen, ein bod yn cael ein hystyried yn meddu uniondeb egwyddorol, a hyny yn gyssylltiedig â challineb; o herwydd yr ydym yn ymddiried yn y sawl a farnom yn deall mwy na ni ein hunain, yn gystal a'r sawl y credwn eu bod yn medru rhagweled y dyfodol; ac wedi y delo i ben, eu bod yn gallu hyrwyddo y gorchwyl, a ffurfio eu cynllun o weithrediad oddi wrth yr amgylchiad. Hyn a ystyria dynion yn wir a buddiol gallineb. Gosodir y fath ymddiried mewn gwŷr uniawn a ffyddlawn, fel na ddrwgdybir hwy o na thwyll na cham; ac o achos pa ham, yr ydym yn gosod dan eu gofal ein hiechyd, ein heiddo, a'n plant. O'r ddau rinwedd yma, uniondeb yw y mwyaf galluog i gynnyrchu ymddiried; o herwydd fod gan uniondeb heb gallineb ddigon o ddylanwad: eto, nis gall callineb heb uniondeb ennill ymddiried; o blegid po mwyaf cyfrwys y bo un, mwyaf agored ydyw i gael ei ddrwgdybio, os na bydd yn meddu cywirdeb. Gall

uniondeb heb gallineb wneuthur llawer, ond nis gall callineb heb gywirdeb wneuthur dim. O dri anhebgorolion anrhydedd, y trydydd yw, bod i un fod yn wrthddrych o fawrygedd a rhyfeddod y bobl, nes iddo gael ei ystyried yn rhyglyddu anrhydedd mawr. Edrychir gyda mawrygedd ar y rhai y tybir eu bod yn rhagori yn fawr ar ereill mewn rhinwedd; ac nid oes dim sydd yn cyffroi rhyfeddod y bobl yn fwy na'r mawrfrydigrwydd hwnw sydd yn dyrchafu dyn uwch law y pethau a ofnir ac a chwennychir gan y lluaws: ac nid yn anghyfiawn, o blegid nis gall neb ymddwyn gydag uniondeb ac anrhydedd tra y byddo yn ofni angeu, poen, alltudiaeth, neu eisieu; nac ychwaith y sawl a ystyria y pethau gwrthwynebol i hyn yn fwy i'w dymuno na dim arall."—*Cicero de Officiis.*

Defnyddir y gair yn gyffredin i ddynodi y parch sydd yn ddyledus i bob rhinwedd a daioni, yn enwedig gwroldeb mewn gwŷr, a diweirdeb mewn gwragedd. Yr oedd Rhinwedd ac Anrhydedd wedi eu dwyfoli yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid gynt, ac yr oedd teml wedi ei chyssegru iddynt yn Rhufain. Mewn amser, adeiladwyd teml i bob un o honynt gan Marcellus, wedi eu cyfleu yn y fath fodd nad oedd yn bosibl i neb fyned i mewn i deml Anrhydedd heb fyned drwy deml Rhinwedd; trwy yr hyn yr oedd y Rhufeiniaid yn cael eu hadgofio yn wastadol mai rhinwedd yw yr unig lwybr diogel i wir anrhydedd.

III. *Anrhydedd o ran y graddau o hono.* Y mae graddau anrhydedd, fel y mae yn cael ei gyfrif yn y wlad hon, yn gynnwysedig dan yr enwau, *nobiles majores*, a *nobiles minores*—pendefigion uwchraddol, a phendefigion israddol. Y rhai sydd yn perthyn i'r gradd neu yr urdd gyntaf, ydynt archesgobion, duciaid, ardalyddion, ieirll, is-ieirll, barwniaid, ac esgobion; a'r rhai sydd yn perthyn i urdd y *nobiles minores*, neu y pendefigion israddol, ydynt farwnigion, marchogion, ysweiniaid, a gwŷr boneddig. Duc yw y teitl tymmorol uchaf a ellir ei gyrhaedd yn y wlad hon gan neb heb fod yn perthyn i'r teulu breninol. O berthynas i'r graddau o anrhydedd a berthyn i benaduriaid a llywodraethwyr, y maent yn cael eu rhesu yn y drefn ganlynol:—Fel yn meddu hawl i'r lle blaenaf, y mae *conditores imperiorum* (sylfaenwyr ymherodraethau), sylfaenwyr ymherodraethau unbenaethol a gwerinol: yn mysg y cyfryw rai y cyfrifir Romulus, Cyrus, Cæsar, Ottoman, Ishmael. Yn yr ail le y gosodir *legislatores* (deddfwyr), y rhai a elwir ailsylfaenwyr, neu *perpetui principes* (tywysogion gwastadol); o blegid y maent drwy eu deddfau a'u gosodiadau yn llywodraethu wedi eu marwolaeth: y cyfryw oeddynt Lycurgus, Solon, Justinian, Edgar, Alphonsus o Castile, y doeth. Yn y trydydd lle, y mae *liberatores* (gwaredwyr), neu *salvatores* (ceidwaid), y rhai sydd yn rhoddi terfyn ar ryfeloedd cartrefol, neu yn gwaredu eu gwlad oddi tan gaethiwed estroniaid, neu drawslywodraeth: megys Augustus Cæsar, Vespasian, Aurelius, Theodoricus, Harri vii. o Loegr, a Harri iv. o Ffrainc. Yn y pedwerydd lle, y mae *propagatores imperii* (amddiffynwyr yr ymherodraeth), y fath sydd mewn rhyfeloedd anrhydeddus yn helaethu eu tiriogaethau, neu yn gwneuthur amddiffyniad ardderchog yn erbyn goresgynwyr. Ac yn y lle olaf, gosodir *patres patriæ* (tadau eu gwlad), y rhai sydd yn llywodraethu yn gyfiawn, ac yn gwneuthur yn dda yn yr amseroedd y maent yn byw. Y ddau fath diweddaf, nid oes angen anghreifftiau o honynt, gan mor luosog ydynt. Graddau anrhydedd mewn deiliaid ydynt, yn gyntaf, *participes curarum* (cyfranogion o ofalon), y rhai y gesyd tywysogion arnynt bwys mwyaf eu negesau—gwŷr eu deheulaw, fel y gellir eu galw. Y nesaf ydynt, *duces belli* (cadlywyddion), cadfridogion mawrion, y rhai sydd yn cyflawnu gwasanaeth pwysig i dywysogion mewn rhyfeloedd. Y trydydd ydynt, *gratiosi* (hoffddynion), y rhai nid ydynt yn myned dros y mesuriad hwn—bod yn ddyddanus i'r brenin, ac yn ddiniwed tuag at y bobl. A'r pedwerydd ydynt, *negotiis pares* (rhai cymhwys i drin achosion), y cyfryw sydd ganddynt leoedd uchel dan dywysogion, ac yn llenwi eu lleoedd yn effeithiol. Y mae math arall o anrhydedd, yr hwn y gellir ei gyfrif yn mhlith y penaf, a'r hwn nid yw yn dygwydd ond anfynych, nid amgen yr eiddo y sawl sydd yn aberthu eu hunain i enbydrwydd ac angeu er mwyn lles eu gwlad; megys M. Regulus, a'r ddau Decius.—[*Bacon's Essay on Honour and Reputation.*]

IV. *Deddfau anrhydedd* (*laws of honour*). Wrth y rhai hyn y meddylir, y rheolau penodol y mae cymdeithas yn gyffredinol, ac yn enwedig y rhan hono sydd yn talu mwy o sylw na chyffredin i ddefodau, ac a ddynodir wrth yr ymadrodd, y *fashionable world*, wedi dystaw gytuno arnynt, er hyrwyddo eu hymdriniaethau yn eu mysg eu hunain. Nid oes dim yn anghysson âg anrhydedd yn yr ystyr cul yma, ond yr hyn sydd yn anghyfleus. Gofynant sylw manwl at fân ddefodau mewn ymddygiad allanol; ond eto goddefant y troseddiadau erchyllaf o ddyledswyddau moesol.

V. *Ffynnonell anrhydedd.* Gan mai gan y brenin, neu y penadur, y mae yr hawlfraint i gyfranu urddas a theitlau anrhydeddus, gelwir ef yn "ffynnonell anrhydedd." Er mai y bobl yw dechreuad pob uchafiaeth, nis gellir cario yn mlaen y llywodraeth heb ymostyngiad priodol i'r sefyllfa y gosodir pob un ynddi. Y mae y ffurflywodraeth Brydeinig wedi ymddiried i'r brenin yr hawl i roddi urddas ac anrhydedd, gan ymddiried y bydd iddo ef eu dosbarthu yn unig i'r sawl a fyddo yn eu teilyngu. O herwydd pa ham, y mae pob gradd o bendefigaeth a theitlau ereill yn cael eu derbyn trwy ganiatâd uniongyrchol oddi wrth y goron—naill ai wedi ei arwyddnodi mewn ysgrifen trwy freintysgrif, megys wrth greu pendefigion a barwniaid, neu trwy arwisgiad corfforol, megys pan wneir un yn farchog yn unig. Oddi ar yr un egwyddor y cyfyd yr hawlfraint o sefydlu swyddau, a gosod rhai i wasanaethu ynddynt. Y mae pob swydd dan y goron, yn ol y gyfraith, yn dwyn anrhydedd gyda hi; o blegid ei bod yn rhagolygu rhagoriaeth mewn galluoedd a thalentau, a'i bod bob amser yn cael ei llanw gan y rhai mwyaf cymhwys. Mewn gair, yr oedd pob urddas a theitl yn y dechreuad â dyledswyddau yn perthyn iddynt—yr iarll (*comes*, sef sir), oedd lywodraethwr sir; a marchog (*miles*, milwr), oedd yn rhwym o ganlyn y brenin yn ei ryfeloedd. Y mae pob peth sydd yn rheswm dros roddi yr hawl i arddodi teitlau i'r brenin, yn rheswm hefyd dros roddi iddo yr hawl i osod rhai mewn swyddau; ond yn unig na bo ganddo hawl i greu swyddau newyddion, a chysylltu cyflogau newyddion â'r swyddau hyny: o blegid byddai hyn yn trethu y deiliaid, yr hyn nis gellir ei wneyd heb reithysgrif seneddol i'r pwrpas. Yn nheyrnasiad Harri iv., sefydlwyd swydd newydd trwy freintlythyrau

oddi wrth y brenin: a'r swydd hono oedd mesur llieiniau a brethynau; a chyssylltwyd cyflog newydd â'r swydd: ac o herwydd y cyflog newydd, galwyd yn ol y breintlythyrau, a chyhoeddwyd hwynt yn ofer yn y senedd. Ar yr un tir, y mae gan y brenin hawl i gyfranu breintiau neillduol i wŷr anghyhoedd; megys rhoddi lle neu flaenoriaeth i unrhyw un o'i ddeiliaid, neu wneuthur estroniaid, neu rai wedi eu geni y tu allan i diriogaethau y brenin, yn ddinasyddion, trwy yr hyn y caniateir iddynt freintiau deiliaid geni. Y fath hefyd yw yr hawl i greu corfforiaethau, trwy ba rai yr unir rhifedi o ddynion, ac y mwynhant lawer o freintiau a hawliau mewn ystyr wladwriaethol, nad oeddynt yn eu mwynhau fel dynion.

VI. *Anrhydedd fel egwyddor lywodraethol.* Gwahaniaethir gweithredoedd yn ol yr hyn y byddom yn eu cyfeirio ato, a'r egwyddor o dan lywodraeth pa un y byddwn yn gweithredu. Rhai a gyfeiriant eu gweithredoedd at Dduw, ereill at eu brenin a'u gwlad, ac ereill atynt eu hunain. Yr egwyddor sydd yn llywodraethu y rhai sydd yn cyfeirio eu gweithredoedd at Dduw, a elwir *crefydd:* pan y bo ein gwlad, a'n brenin, yn nghyd â chyfraith y tir, yn nod at yr hwn y cyfeiriwn ein hymddygiad, gelwir ef *dyledswydd (duty):* ond pan fyddo ein hymddygiadau yn cael eu cyfeirio yn benaf atom ein hunain, gelwir yr egwyddor yn *anrhydedd (honour).* Pan fyddo yr egwyddor gyntaf yn gref iawn, y mae yn gwneuthur rhai enwog am eu duwioldeb: os bydd yr ail yn rymus, y mae yn cynnyrchu gwŷr hynod am eu gwladgarwch a'u ffyddlondeb i'w brenin: ac os bydd yr olaf yn gadarn, gwna rai enwog am hunanbarchedigaeth, a hynod fel gwŷr o anrhydedd *(men of honour).*

**ANSARIAID**, [*Ansarians*]: ydynt breswylwyr cyfres o fynyddoedd yn Syria, crefydd pa rai sydd gymmysgedd o baganiaeth a Mahometiaeth, yr hyn a ddysgwyd iddynt gan hen ddyn oedd yn byw yn mhentref Nasar, gerllaw Kwffa. Oddi wrth lymder tost ei ddull o fyw, cafodd y gair o fod yn sant ac yn brophwyd, heb fod ganddo un cymhwysder arall, oddi eithr gradd uchel o benboethni, os nad oedd yn hytrach yn dwyllwr. Ennillodd lawer o ddysgyblion; ac y mae eu heppil, mewn rhan, yn addoli yr haul, a gwrthddrychau naturiol ereill; ac mewn rhan, heb ganlyn un reol ond eu dychymygion gorwyllt a'u nwydau llygredig eu hunain. Gwel ASSASSINIAID.—*(Encycl. of Rel. Knowledge.)*

**ANSAWDD**, [*an—sawdd: quality, condition*]: a gynnwysa mewn arferiad gyffredin, holl briodoleddau peth, oddi eithr maintioli. Defnyddir ef hefyd am gyflwr, sefyllfa, neu agwedd allanol peth, yn gystal ag am ei gynneddfau priodol ei hun.

"Tra fai yn yr ansawdd hwnw."
Whilst he was in that *situation*. *Triad.*

"Pe gwnaethem dda yn y byd, ni a fuasem mewn ansawdd dda yn dragywydd." Cynnwysa yr hyn sydd yn atebiad i'r gofyniadau, Pa fath *(quale)?* Pa fodd *(quomodo)?* Yn mha gyflwr *(statu)?* Yn mha agwedd *(quo situ)?*

Byddai yn well defnyddio y gair *ansawdd* i ddynodi yr hyn sydd mewn peth yn ei wahaniaethu oddi wrth bethau ereill, ac yn gyfystyr â *quality*, i arwyddo yr hyn sydd yn gwneyd y peth yr hyn ydyw; ac i wahaniaethu rhwng priodoledd ac ansawdd, cymhwyso priodoliaethau at ansoddau uwch, fel y gwneir wrth lefaru am briodoliaethau Duw. Trwy gymharu ansoddau yn unig y gallwn ddywedyd fod pethau yn debyg neu yn annhebyg i'w gilydd; o herwydd nis gwyddom ddim yn uniongyrchol ond ansoddau, priodoliaethau, ac ymddangosiadau, teimladwy neu feddyliol. Fel hyn y penderfynir fod corff ac ysbryd yn hollol wahanol yn eu natur; am fod eu hansoddau yn wahanol. Gwahaniaethir ansoddau i *hanfodol* a *damweiniol.* Y mae meddu rheswm, a bod o ryw ffurf benodol, yn hanfodol i ddyn: ond nid yw bod yn fawr nac yn fach, yn arlunydd nac yn brydydd, yn bethau ag y mae eu meddu yn angenrheidiol i fod yn ddyn. I ddynodi yr un gwahaniaeth, gelwir hwynt yn ansoddau *naturiol* a *chyrhaeddadwy.* Y mae gwynder yn ansawdd naturiol eira; caledwch yn naturiol i'r diamwnt; ffurf neu lun i gorff: ond y mae llun penodol, megys crwn neu ysgwar, yn ddamweiniol.

Y mae yr ansoddau sydd yn perthyn i ddefnydd neu gorff, fel corff, i'w wahaniaethu oddi wrth bob peth arall, yn cael eu galw yn ansoddau gwreiddiol, neu gynnwynol *(primary qualities);* a'r ansoddau sydd yn gwahaniaethu y naill gorff oddi wrth y llall, a elwir yn ansoddau ailraddol *(secondary qualities).*

Gwnaeth Aristotle raniad o bob peth y gellir rhoddi enw arno, neu ar fod, yn ei ystyr eangaf, i ddeg dosbarth *(categories);* sef, sylwedd, maint, ansawdd, perthynas, gweithrediad, goddefiad, amser, lle, sefyllfa, ac agwedd. Yn y dosbarthiad hwn, fel y gwelir, ansawdd ydyw y trydydd. Y mae hwn yn ddosbarthiad o *bethau:* ond rhanodd Kant y gwahanol *ddulliau y mae deall dyn yn barnu am* bethau, i bedwar dosbarth; sef, maint, ansawdd, perthynas, a ffurf *(modality).* Y mae pob peth y mae dyn yn ffurfio barn am dano yn dyfod dan un o'r penau hyn. Yn ol y cyntaf yr ydym yn edrych ar bethau fel un, neu lawer, neu y ddau mewn undeb, ac felly yn gyfanrwydd. Yn ol yr ail, ystyrir y peth fel mewn bod, neu heb fod mewn bod, neu ynte y fath nas gallwn ei ddysgrifio, ond trwy ddywedyd pa beth nad yw *(existence, nonexistence, limitation).* I'r trydydd dosbarth y perthyn pob barn a wnawn am berthynas—sef, perthynas sylwedd ac ansawdd; achos ac effaith; gweithrediad ac adweithrediad. I'r pedwerydd y perthyn posiblrwydd, hanfodiad, ac angenrheidrwydd. Am ansoddau defnydd, ysbryd, &c., gwel yr erthyglau priodol.

**ANSELM**: oedd un o'r rhai mwyaf o'r dynion enwog hyny sydd wedi dal archesgobaeth Caergaint *(Canterbury).* Hynododd ei hun fel amddiffynwr yr eglwys, ac fel duwinydd. Ganwyd ef yn Piedmont, wrth droed yr Alps, yn 1033; bu farw yn 1109. Pan yn 27 oed, aeth i fynachdy Bec, yn Normandy; ac yno, dan lywyddiaeth Lanfranc, cyflwynodd ei hun gydag eiddigedd mawr i'w efrydau. Yn mhen tair blynedd, cafodd le Lanfranc, fel prior y mynachdy. Yn y swydd hon yr oedd efrydiau, dysgyblaeth, a chrefydd y lle dan ei ofal. Yr oedd ei dduwiolfrydedd dwys, ei adnabyddiaeth o ddynion, ei eiddigedd dros eu hiachawdwriaeth, yn nghyd â'i ddysgeidiaeth a'i fedr i drosglwyddo dysg i ereill, yn gymhwysderau amlwg ynddo i'r swydd. Gwnai y pryd hyn gwestiynau dyfnaf athroniaeth crefydd yn faterion ei ymchwiliad. Ar ol marwolaeth Herluin, abad y tŷ, dewiswyd Anselm yn olynwr iddo. Yn y cyfamser, gwnaeth ymweliadau â Lloegr, ac ennillodd barch y brenin,

William I. Safai yn awr rhwng y llywodraeth wladol ar un llaw, a'r pab Gregory VII. ar y llall; yr hwn a ymddiriedodd iddo gadwraeth y mynachdy rhag syrthio i ddwylaw yr esgobion. Ar ei drydydd ymweliad â Lloegr, cynnygiwyd archesgobaeth Caergaint iddo, gan William Rufus, yr hon oedd wedi bod yn wag er ys pedair blynedd, ar ol marwolaeth Lanfranc. Ymwrthododd â hi hyd y gallai, oddi ar ragweled y peryglon a'i hamgylchynai yn y frwydr dros ryddid yr eglwys yn erbyn gorthrwm yr awdurdod wladol, yn chwanegol at y caethiwed tost y cedwid y barwniaid eglwysig, yn gystal a gwladol, ynddo gan William II. Yr oedd sefyllfa yr eglwys yn druenus gan ymrysonau dau bab â'u gilydd. Yr oedd golwg yr Eglwyswyr ar Anselm: ond er fod y brenin mewn afiechyd, yr hwn a ofnai a allasai fod yn farwol, wedi argymhell y swydd arno, eto yn fuan cododd amryw achosion dadl rhyngddynt. O'r braidd y cafodd awdurdodiad y pab, Urban II., am fod William yn pleidio ei wrthwynebwr, neu yn hytrach dewisasai gadw yr awdurdod yn ei law ei hun. Gwrthodwyd caniatad iddo i ymweled yn bersonol â'r pab: ar hyn, ymadawodd Anselm â'r wlad; a bu fyw fel alltud, weithiau yn Rhufain, ac weithiau mewn manau ereill yn Italy. Mewn mynachdy, yn Capua, yr ysgrifenodd ei draethawd i ddangos yr angenrheidrwydd am ddyfodiad Duw yn ddyn *(Cur Deus Homo)*. Mewn cymmanfa *(synod)* yn Bari, yn 1098, y bu yn amddiffyn athrawiaeth yr Eglwys Ladinaidd am ddeilliad yr Ysbryd Glân, yn erbyn y Groegiaid. Ar ol hyn, bu yn aros am ysbaid yn Lyons, gan ymroddi yn hollol i wasanaeth yr eglwys, ac i efrydiaeth duwinyddol. Ar ol marwolaeth William II, achos yr hwn a ddadleuai yn Bari, fel na ddisgynai dan esgymundod y pab, yr oedd y llwybr yn agored iddo yn ol i Loegr, ac yno y dychwelodd. Ond gan iddo wrthod cymmeryd ei ail awdurdodi yn ei swydd gan y brenin Henry I, yr hwn a hònai hawl i'r awdurdod a berthynai i'r pab, er fod yr esgobion yn ymostwng iddo, bu raid iddo ymadael â'r deyrnas drachefn, nes y cytunodd y brenin a'r pab i derfynu yr ymrafael, trwy adael yr awdurdod i osod mewn swydd yn llaw y pab, ond ar yr ammod fod yr offeiriaid i dalu gwarogaeth i'r brenin am eu bywoliaethau. O hyn allan, derbyniodd Anselm lawer o brofion o ewyllys da ac ymddiried y brenin, fel nad ymorphwysodd hyd nes y sierhaodd, hyd y gallai, *ryddid yr eglwys*: felly, gosododd mewn gweithrediad grymus *lywodraeth yr eglwys*. Ar un llaw, amddiffynai ragorfreintiau archesgobaeth Caergaint, yn erbyn y brenin; ac ar y llall, amddiffynai annibyniaeth eglwys Loegr a'i hiawnderau, fel unig gynnrychiolydd y Babaeth yn y deyrnas hon. Fel prawf nad oedd ei eiddigedd dros ryddid ac awdurdod ei swydd ddim yn tarddu oddi ar awydd i ddarostwng pob peth dan lywodraeth yr eglwys, yr ydoedd mor eiddigeddus dros burdeb dysgyblaeth yn mysg yr offeiriaid ag ydoedd yn mysg y lleygwyr. Ac fel moddion angenrheidiol i sicrhau iawn drefn cyffredinol, dadleuai dros y pwysigrwydd o deimlad a bywyd crefyddol, yn enwedigol yn mysg y mynachod. Y mae yn wir nad oedd neb yn sefyll allan i ymladd brwydrau y pab yn erbyn llywodraethau gwladol mor egniol a phendertynol ag Anselm; ond y mae yn angenrheidiol cofio, mewn trefn i wneyd cyfiawnder â'i gymmeriad, nad oedd y pryd hyny fawr os dim gwir grefydd ond yr hyn oedd wedi ei chydblethu âg ofergoelion Pabyddiaeth; fod llygredigaeth William II. ei wrthwynebydd, yn ddinystriol i rinwedd a chrefydd; a'i fod ef ei hun yn ymddwyn, yn yr amgylchiadau mwyaf cyfyng, yn y fath fodd ag i brofi purdeb ei gymmeriad.

Ond nid fel esgob yn brwydro dros ryddid a threfn yr eglwys, nac fel abad yn defnyddio ei ddoethineb a nerth llariaidd ei gymmeriad i addysgu a llywodraethu ieuenctyd, nac fel mynach duwiolfrydig yn gofalu am eu lleshad tymmorol ac ysbrydol yn unig, yr enwogodd Anselm ei hun; ond hefyd yn nerth athronyddol ei feddwl. Cydnabyddir ef fel tad yr ysgolheigwyr *(scholastics)*. Cymmerai y blaen yn yr ysgogiad meddyliol a ymestynodd drwy amryw ganrifoedd, yn yr hwn yr ymroddai ysbrydoedd cryfaf a chraffaf yr Eglwys Orllewinol, i weithio ffrwyth myfyrdodau canrifoedd blaenorol, mewn athroniaeth a duwinyddiaeth, i gyfundrefnau mwy neu lai annibynol. Nid yn unig gydag ef y dechreuodd yr egnïad meddyliol hwn; ond yr oedd ei waith ef ei hun yn gynnwysedig mewn ymchwiliadau eang a thrwyadl, yn null ac ysbryd Awstin, yn hytrach nag mewn cyflead rhesymegyddol o olygiadau meddylwyr blaenorol. Felly y mae mwy o wreiddioldeb ynddo ef nag a geir yn yr ysgolheigion diweddaraf; y rhai, gan mwyaf, a ymfoddlonent ar roddi syniadau y tadau Cristionogol yn ffurf a dull yr athronwyr paganaidd.

Y mae ei weithiau yn cynnwys traethodau ar ddeddfau neu ffurfiau y meddwl. I'r dosbarth hwn y perthyn ei ymddyddan ar ramadeg [*Dialogus de Grammatico*]; yn yr hwn y dengys ei hyddysgrwydd yn Aristotle, ac hefyd ei allu i feddwl drosto ei hun. Cynnwysa ei ymddyddan ar wirionedd [*De Veritate*] yr egwyddorion mwyaf gwreiddiol a chyffredinol sydd yn uno athroniaeth â duwinyddiaeth. Y mae ganddo amryw draethodau ar athrawiaethau penodol—am y Drindod, ymgnawdoliad y Gair, deilliad yr Ysbryd Glân: ac hefyd amryw ar dduwinyddiaeth athronyddol; megys, am yr ewyllys a'i pherthynas â gras; rhagwybodaeth ac arfaeth Duw; hanfod; ac hefyd, hanfodiad Duw, &c.

Dwy egwyddor gyffredinol a welir yn rhedeg trwy ei holl weithiau ef. Yn gyntaf, Yr oedd wedi ymgodi cymmaint uwch law ei oes ag i addef y dylem chwilio am y sylfeini sydd mewn rheswm am y gobaith sydd ynom. Yn ail, Fod gwybodaeth wirioneddol yn ymddibynu ar ymostyngiad yr ysbryd i Dduw, a'r dadguddiad y mae wedi ei roddi o hono ei hun. Yn yr agwedd meddwl yma y dadguddia y gwirionedd ei hun i'r meddwl, ac y daw dyn i adnabod ei lais. Mewn ffydd yn unig y mae canfyddiad rheswm o wirionedd yn gyrhaeddadwy; ac y mae y canfyddiad athronyddol hwn yn beth sydd rhwng ffydd a golwg. Os gallwn ymgodi oddi wrth ffydd i ddeall *(intellectum)*, dylem ddiolch i'r hwn sydd wedi ein cynnysgaethu â'r fath alluoedd. Eto, nid ein gallu ni i amgyffred ydyw mesur y gwirionedd, a dylem barchu a rhyfeddu y dirgeledigaethau sydd uwch law ein hamgyffred. Y mae sicrwydd ein gwybodaeth ni yn beth ynom ein hunain, ac o ganlyniad yn anmherffaith; felly rhaid iddo orphwys ar awdurdod Duw yn ei air. Fel y mae pob bod yn gorphwys ar Fod Duw, felly y mae sylfeini dyfnaf gwybodaeth yn Nuw, y gwirionedd tragwyddol. Y mae cynlluniau pob peth creedig yn meddwl Duw, a dadguddiad o'r meddwl hwn i feddwl dyn ydyw y ffordd i'r gwirionedd. Y mae rhyw du mewn, megys, i bob

Digitized by Google

peth a wnaeth Duw, sef y *cynllun*, y *dyben*, a'r *rhaid*, i gyrhaedd y dyben hwnw. I'r graddau y mae pethau yn cyfranogi o'r rhai hyn, mai gwirionedd ydynt; ac mor bell ag y mae dyn yn eu deall, y mae yntau yn cyfranogi o'r gwirionedd. Ond trwy ffydd yn y dadguddiad o honynt, y mae dyn yn dyfod i'w deall—*neque enim quæro intelligere ut credam, sed credo, ut intelligam*—nid wyf yn ymdrechu deall mewn trefn i gredu, ond credu mewn trefn i ddeall.

Y ddau lyfr yr adwaenir ef oreu wrthynt, mewn athroniaeth, ydyw y *Monologium* a'r *Prosologium*. Eu dyben ydyw egluro dau ddull o brofi bod Duw. Cynnwysa y cyntaf yr ymresymiad arferol oddi wrth weithredoedd y Creawdwr, gan gasglu oddi wrth ansoddau a ganfyddir mewn natur eu hanfodiad yn annibynol ar natur, a'u holrhain fel priodoliaethau dwyfol i Fod tragwyddol ac annibynol. Ond y gwaith sydd yn amlygu mwyaf o wreiddioldeb meddwl ydyw y *Prosologium;* ymresymiad y llyfr hwn, bron yn ei eiriau ei hun, sydd fel y canlyn:—"Y mae yr ynfyd sydd yn gwadu bod Duw, yn meddu syniad, er hyny, am Fod mor oruchel a pherffaith, nas gall dim—un ffurf o fod—fod yn uwch nag ef; o ganlyniad, rhaid ei fod yn meddu hanfodiad angenrheidiol a thragwyddol. Ond haera nad oes un *hanfodiad gwirioneddol* yn cyfateb i'r syniad hwn sydd yn y meddwl. Ond yn y fath haeriad, y mae yn ei wrthwynebu ei hun, gan ei fod yn gwadu hanfodiad i'r Bod, i'r hwn, er hyny, y priodola bob perffeithrwydd. Y mae lluaws o bethau ereill sydd heb fod yn berffaith yn hanfodi; rhaid, gan hyny, fod yr hyn sydd yn meddu pob perffeithrwydd yn meddu y perffeithrwydd o fod." Y mae gwahaniaeth barn wedi bod am rym yr ymresymiad hwn. Dwy ffordd yn unig y gellir cynnyg ei wrthwynebu:—Yn 1af. Trwy wadu fod gan ddyn syniadau yn meddu y priodoliaethau o angenrheidrwydd a chyffredinolrwydd. 2il. Gellir ammheu a ydyw yn deg i gasglu hanfodiad allanol oddi wrth syniad yn y meddwl. Perthyna yr ystyriaethau hyn i erthyglau ereill.

Mewn duwinyddiaeth, gwnaeth Anselm fwy na neb arall, o ddyddiau yr apostolion hyd ei amser ei hun, i egluro ac amddiffyn angeu Crist fel *aberth i wneyd iawn am bechod*. Efe oedd y cyntaf a wrthsafodd yn effeithiol y dybiaeth ffol a dderbynid am ganrifoedd yn yr eglwysi Groegaidd a Lladinaidd, ac a amddiffynid gan ddynion fel Awstin ac Ambrose—fod angeu Crist yn bridwerth i'r diafol, mewn trefn i bwrcasu pechaduriaid o'i allu. Y mae ei syniadau ar hyn yn gynnwysedig yn ei draethawd, *Cur Deus Homo;* hyny yw, fel y mae ef ei hun yn ei esbonio, "Pa ham y mae yn rhaid i Dduw ddyfod yn ddyn." Gellid rhoddi y crynodeb canlynol o'i gynnwysiad:—"Y mae ufudd-dod cyffredinol a pherffaith yn ddyledus o angenrheidrwydd oddi wrth ddyn i Dduw, am ei fod yn greadur iddo. Y mae yr hwn sydd yn cadw yr ufudd-dod hwn oddi wrth ei gyfiawn berchenog yn euog o gamwri anfeidrol yn ei erbyn. Byddai yn well i bechaduriaid ddyoddef dinystr tragwyddol, nag i'r fath gam fyned yn ddigosp. I wneyd iawn am y trosedd hwn, i amddiffyn anrhydedd y ddeddf, i ddiogelu purdeb y priodoliaethau dwyfol rhag cael eu cymylu, y mae diogelwch o nerth anfeidrol, ac ad-daliad o werth anfeidrol, yn angenrheidiol. Y mae hyn yn gofyn yr uchafiaeth, yr annibyniaeth, a'r gwiwdeb tragwyddol sydd yn y natur ddwyfol. Ond y mae hyn gofyn, hefyd, fod y fath berthynas a chymundeb nas gall hanfodi ond rhwng rhai o'r un natur. Rhaid i'r Gwaredwr, gan hyny, fod yn wir ddyn. Nis gall ond yr hwn sydd yn Dduw ac yn ddyn fod yn Brynwr a Gwaredwr digonol i ddynion euog."

Cynnwysa ei waith, hefyd, "Myfyrdodau," a "Gweddïau." Y mae argraffiad yn Seisoneg o "Fyfyrdodau" Awstin ac Anselm. Y mae ei "Weddïau," gan mwyaf, yn gyfeiriedig at Dduw a Christ; ond weithiau at Mair Forwyn a'r saint. Dengys y llythyrau a ysgrifenodd ar wahanol dymmorau ei fywyd, ei dynerwch, ei ddoethineb, a'i allu i gyfaddasu ei hun at wahanol amgylchiadau y rhai yr ysgrifenai atynt.

Nid oedd yn rhydd oddi wrth holl effeithiau yr oesoedd tywyll a choelgrefyddol y magwyd ef ynddynt; ond eto yr ydoedd yn fendith i'r ganrif y bu yn byw ynddi: ac wedi marw y mae yn llefaru eto, fel tyst, mewn gair a gweithred, o'r gwirionedd a'r gras sydd yn Nghrist.

Yr argraffiad da, cyntaf, o'i waith, a gyhoeddwyd yn 1675, gan Gerberon, gyda hanes ei fywyd gan Cadmer, ei gyfaill. Ailargraffwyd hwn, gyda chwanegiadau, yn 1721 a 1744. Ar y Cyfandir, y mae cryn sylw wedi ei dalu, yn ddiweddar, i'w fywyd a'i weithiau. Cyhoeddwyd dwy gyfrol yn Bonn, gan F. R. Hape: y gyntaf yn 1843, yn cynnwys ei fywyd; yr ail yn 1852, yn cynnwys ei olygiadau.—(*Milner's Church Hist.*, llyfr iii.)

ANTEROS: Groegwr, ac esgob Rhufain. Dyoddefodd ferthyrdod yn y drydedd ganrif, am gasglu gweithredoedd y merthyron, ar ol dal y swydd yn unig am ddeugain niwrnod. Bu farw yn y flwyddyn 235.

ANTINOMIAETH: ymadrodd yn cael ei wneuthur i fyny o ddau air Groeg—*αντι*, a *νομος*—*yn erbyn cyfraith;* neu *wrthddeddf*. Enw ydyw a roddwyd, i ddechreu, gan Martin Luther ar olygiad neillduol o berthynas i'r ddeddf foesol, yr hwn a goleddwyd gan ei ddysgybl a'i gyd-drefwr, o'r enw John Agricola, yn enedigol o Eisleben, yn Saxony. Pan darodd y Diwygiad Protestanaidd allan, dygwyd yr athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy ffydd yn benodol i sylw y byd, wedi i Eglwys Rhufain er ys oesoedd ei gadael heibio yn hollol, a'i chladdu o'r golwg dan syniadau deddfol a defodau ofergoelus. A chan nad oedd gwybodaeth ysgrythyrol y pryd hwnw, o leiaf yn mysg y cyffredin, ond tra diffygiol ac anmherffaith, nid ydyw yn rhyfedd y bu i rai o bleidwyr gwrol ac aiddgar yr athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy ffydd, yn mhoethder yr ymrysonfa â'u gwrthwynebwyr, fyned yn rhy bell lawer gwaith, gan osod allan eu meddyliau trwy ymadroddion anmhenderfynol a geiriau anochelgar. Yn y cyfryw amgylchiad y cyfododd John Agricola i gyhoeddi ac amddiffyn yr athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy ffydd, heb weithredoedd y ddeddf: ac yn ei eiddigedd drosti, gan geisio disylfaenu deddfoldeb ei wrthwynebwyr, aeth mor bell a dal nad oedd y Deg Gorchymyn yn perthyn ond i oruchwyliaeth Moses yn unig; a bod esampl yr Arglwydd Iesu, a gorchymynion y Testament Newydd, wedi dyfod yn eu lle dan yr efengyl, ac felly eu gwneuthur yn afreidiol.

Nid hawdd y gellir cael golwg gywir a diduedd ar farn neu syniad dyn wrth ddarllen gweithiau y rhai a ysgrifenasant yn ei erbyn. Yr ydym yn canfod yn gyffredin, fod ysgrifenydd, wrth ymosod i argyhoeddi ei gydgreadur o'r hyn ag y

byddo ef yn meddwl ei fod yn camsynied, yn ymdrechu i fwyhau ei gyfeiliornad—i roddi yn ei erbyn fwy o lawer nag a haeddai, gan weithio ei syniad i'r holl eithafion ag y mae ef yn tybied ei fod yn arwain iddynt; ac yna, priodoli y cyfan yn syniad i'r hwn yr ymosodai yn ei erbyn: tra nas gall cydwybod y cyhuddedig oddef i'r cyfryw olygiadau gael eu cydnabod yn mysg egwyddorion ei ffydd. Ymddengys y bu i'r unrhyw annhegwch gael ei wneuthur â golygiadau Agricola; y rhai, wedi eu diosg o'r ddulliaith gymmysglyd a'r geiriau anochelgar a arferid yn yr oes hono, nas gellir eu cael yn amgen na'r hyn a grybwyllwyd eisoes. Wrth edrych ar y Deg Gorchymyn yn perthyn i oruchwyliaeth Sinai, nid oedd yn gadael heibio egwyddor y ddeddf foesol, gan wadu y rhwymedigaethau i ymarweddu yn sanctaidd; o blegid yr oedd yn dwyn esampl Crist a gorchymynion y Testament Newydd yn mlaen i gymmeryd lle y Deg Gorchymyn, ac i ateb eu holl ddybenion yn gyflawn. Yr un pryd, yr oedd ei gamgymmeriad yn hyn yn rhoddi mantais i ddynion anwybodus, yn enwedig i rai o dueddiadau halogedig, i droi heibio rwymedigaethau moesol, i edrych yn isel ar rinwedd, ac i ymollwng i fywyd penrhydd. Llwyddodd Luther i gael gan John Agricola roddi heibio ei syniadau dyeithrol: ond ar ol marwolaeth Luther, ymroddodd drachefn i'w cyhoeddi i'r byd. Nis gallodd ei ddysgeidiaeth newydd ennill nemawr ddylanwad ar y Cyfandir; oddi eithr yn mysg y dosbarth isaf, mwyaf anwybodus, a llygredig.

Daeth y cyfeiliornad drosodd i Brydain, a chafodd dderbyniad gan amryw bersonau yn Scotland a Lloegr, yn amser Oliver Cromwell. Aeth rhai o honynt mor bell ag i ddal—nas gall yr etholedigion syrthio o ffafr Duw; nad ydyw y gweithredoedd drygionus a gyflawnir ganddynt, neu eu troseddau o'r ddeddf foesol, yn wir bechadurus—neu nad ydynt yn cael eu hystyried fel y cyfryw, yn eu hachos hwy, gan y Goruchaf—ac felly, nad oes ganddynt achos i gyfaddef eu pechodau, neu i'w tori ymaith trwy edifeirwch. Er fod puteindra yn ymddangos yn bechadurus yn ngolwg dynion, ac yn cael ei ystyried yn gyffredin yn drosedd erchyll o'r ddeddf ddwyfol, eto, nad ydyw yn yr etholedigion, mewn amgylchiadau neillduol, yn cael ei ddynodi fel pechod yn ngolwg Duw: o blegid mai dyma un o nodweddion hanfodol a neillduedig yr etholedigion, nas gallant hwy wneuthur dim sydd yn anfoddhaol gan Dduw neu yn waharddedig gan ei ddeddf. Rhai o honynt a ddalient nas gall gweithredoedd da ddwyn yn mlaen, na gweithredoedd drwg attal, ein hiachawdwriaeth; nas gall plentyn Duw bechu, mwy nag y gallasai yr Arglwydd Iesu bechu; ac am hyny, ei fod yn bechod ynddo ef ofyn am faddeuant pechod: bod lladd a godinebu yn bechodau yn y drygionus; ond nad oeddynt felly yn mhlant gras; ac nad oedd Duw yn edrych arnynt hwy fel pechaduriaid: am hyny, nad oedd celwydd a thwyll Abraham yn bechodau ynddo ef. Mae yn anhawdd meddwl y bu i neb goleddu syniadau mor ddyeithrol i efengyl Crist—mor wrthwynebol i ddyben uchel y prynedigaeth—heb ei fod, naill ai yn hollol anghyfarwydd yn yr Ysgrythyrau, neu ynte wedi ymollwng mor bell o dan lywodraeth tueddiadau halogedig, fel ag i ymdrechu gweithio agorfa gyfreithlawn iddynt redeg allan, heb gyfarfod â rhwystr nac anesmwythdra oddi wrth gyhuddiadau cydwybod oddi fewn, nac oddi wrth waradwyddiadau dynion oddi allan.

Fel ag y rhoddwyd yr enw *Antinomiaeth* yn y dechreu ar syniad cyfeiliornus, mewn ffordd o ddirmyg arno, felly, yn yr un ystyr, mae yn parhau i gael ei ddefnyddio hyd y dydd hwn. Ni chawn y bu i un blaid o Gristionogion enwi eu hunain yn Antinomiaid; ac nid oes berson unigol, nac unrhyw blaid o bobl, yn ewyllysio cael eu galw gan ereill wrth yr enw hwn. Mynych y cafodd ei briodoli i bersonau unigol, cystal ag i blaid o grefyddwyr, y rhai ag yr oedd ansawdd eu hegwyddorion proffesedig yn ei wrthod; ac ymdrechwyd yn egnïol i ymwrthod â'r cyfryw enw, hyd yn oed gan y rhai hyny ag yr oedd eu golygiadau crefyddol yn cyfateb i'w ystyr. Oddi ar fod gwrthdarawiad gwreiddiol yn y ddynoliaeth syrthiedig i sancteiddrwydd y Goruchaf, ymosodwyd gan wahanol bersonau, lawer gwaith a llawer modd, i ddwyn athrawiaethau yr efengyl i gydweddu â'u syniadau anianol, ac i ganiatau rhyddid a chefnogaeth i'w tueddiadau halogedig, gan wyrdroi gras Duw i drythyllwch; cymmeryd haeddiant aberth yr Arglwydd Iesu yn achlysur i'r cnawd; a gosod cyfiawnhad trwy ffydd yn hollol ryddhau y credadyn oddi wrth angenrheidrwydd am gyflawnu gweithredoedd da. Gellir canfod mewn hanesiaeth eglwysig y bu i'r syniadau hyn gael eu coleddu mewn gwahanol ddulliau gan luaws o'r pleidiau cyfeiliornus a gyfodasant yn mysg y Cristionogion, mor fore a'r canrifoedd cyntaf. Yr oedd yr apostol Paul yn ymwybodol fod gwir berygl i ddynion o amgylchiadau gweiniaid, anhyddysg yn ngwirioneddau yr efengyl, yn enwedig i rai o syniad anianol ac archwaeth lygredig, dynu y camgasgliad hwn oddi wrth yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd. Ac felly, yn ei Epistol at y Rhufeiniaid, wedi profi yn helaeth wirionedd yr athrawiaeth, cyfododd yr wrthddadl hon i sylw, i'r dyben i'w dadymchwelyd—"Beth wrth hyny a ddywedwn ni? A drigwn ni yn wastad mewn pechod, fel yr amlhao gras?...Beth wrth hyny? A bechwn ni, o herwydd nad ydym dan y ddeddf, eithr dan ras?" Y mae yn dra thebygol y bu i Paul yn ei deithiau ganfod profion lluosog o duedd rymus calon dyn i dynu y cyfryw gamgasgliad oddi wrth yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd, heb weithredoedd y ddeddf. Yr oedd y syniad dinystriol hwn wedi cynnyddu i'r fath raddau, pan ysgrifenodd Iago ei epistol, fel ag yr ymosododd yn benodol i draethu yn ei erbyn.

Pan y mae dynion yn ymsefydlu yn barhaus i feddwl ac i draethu ar syniadau neillduol o'r eiddynt eu hunain ar wirioneddau yr efengyl, yn y cyffredin maent yn cymmeryd golwg hannerog neu unochrog ar y gwirioneddau hyny; ac o awyddfryd i ddwyn allan eu syniadau neillduol i amlygrwydd, ac i fuddugoliaethu ar eu holl wrthwynebiadau, maent yn eu gweithio yn fynych yn rhy bell i ryw eithafion, a hyny ar draul cymylu gwirioneddau ereill. Dyma fel y dygwyd llawer o wirioneddau pwysig i wisgo ymddangosiad Antinomaidd—o duedd i esgusodi esgeulusdra a diofalwch pechadurus dyn; a hyny gan rai duwinyddion dysgedig a llafurus, yn byw yn hynod o dduwiol eu hunain, ac yn annog ereill, yn y modd mwyaf difrifol, i fyw yn sanctaidd: ond yr un rhai yn rhoddi ymddangosiad Antinomaidd i wirioneddau yr efengyl wrth geisio gosod allan raslonrwydd a chadernid trefn y prynedigaeth. Rhoddwyd y cyhuddiad hwn yn erbyn y Dr. Tobias Crisp, yr hwn oedd yn dduwinydd enwog ac aiddgar, ac a fu byw trwy ei oes grefyddol yn un o'r rhai mwyaf nodedig mewn

Digitized by Google

gostyngeiddrwydd a haelioni, ac yn ddiarebol am ei sancteiddrwydd a'i dduwioldeb. Seiliwyd y cyhuddiad yn ei erbyn, nid am ei fod yn gwadu rhwymedigaeth i gydffurfio â'r ddeddf foesol, nac am nad oedd yn dal angenrheidrwydd am weithredoedd da, ond ar ei olygiad hannerog a'i eiriau anochelgar wrth geisio dyrchafu mawredd gras Duw yn y prynedigaeth, perffeithrwydd teilyngdod aberth Crist Iesu i wneuthur i fyny holl angen pechadur, ac agosrwydd yr undeb gogoneddus sydd yn hanfodi rhwng y credadyn a'r Gwaredwr.

Wrth edrych ar unrhyw wirionedd yn ei wahanol berthynasau, yr ydym yn canfod fod iddo ei ddwy ochr; ac y mae sefyll yn unig ar y naill, gan esgeuluso y llall, yn arwain yn anocheladwy i gyfeiliornad. Os ymosodir i egluro mawredd trueni gwreiddiol dyn, a'r angenrheidrwydd anhebgorol sydd am waith yr Ysbryd Glân, gan adael heibio rhoddi un sylw i natur anallu pechadurus, ac i barhad diysgog rhwymedigaethau moesol, yr ydys yn dwyn y gwirioneddau hyny i ymddangos i'r pechadur fel yn esgusodi ei fywyd diofal a phenrydd. O'r un duedd y mae golygiad unochrog ar fwriadau y Goruchaf: wrth edrych arnynt yn unig yn eu manylrwydd a'u cadernid; nas gellir myned allan o'u cyrhaedd, nac attal eu cyflawniad; gan adael heibio sylwi ar burdeb eu dybenion, eu cydrediad âg egwyddor y ddeddf foesol, i'w harddangos yn rhoddi cefnogaeth a chalondid i'r dyn ymestyn yn egnïol i gyrhaedd dyben eithaf ei greadigaeth. Wrth sylwi yn barhaus ar ffyddlondeb Duw i'w gyfammod, a sicrwydd ei addewidion, gan adael heibio eu perthynas â phuro y galon; edrych yn gwbl ar barhad y cyflwr cadwedig, heb roddi sylw iddo yn ei gyssylltiad âg egwyddor dduwiol; yr ydys yn dwyn y cyfryw wirioneddau i wisgo ymddangosiad ag sydd yn ffafriol i'r pechadur ymdawelu yn niogelwch y cyflwr cadwedig, a hyny ar wahan oddi wrth weithio allan ei iachawdwriaeth ei hun trwy ofn a dychryn. Pan yr ymosodir i ddyrchafu mawredd gras Duw yn y prynedigaeth, gan esgeuluso rhoddi sylw teilwng i'w amcan uchel a'i effeithiau priodol, yr ydys yn gogwyddo athrawiaeth gras yn fanteisiol i galon lygredig ei chymmeryd yn achlysur i'r cnawd. Yr un modd, wrth geisio eglurhau parodrwydd Duw i faddeu pechodau, a mawredd rhagorfreintiau yr hwn sydd yn credu yn Nghrist, heb sylwi ar y cyssylltiad hanfodol sydd rhwng maddeuant ac edifeirwch, na dangos fod y ffydd sydd yn dwyn yr enaid i hawl yn y cyfryw ragorfreintiau yn aros yn y galon yn egwyddor bywyd sanctaidd —rhaid addef fod y cyfryw wirioneddau yn cael eu gadael yn hollol agored i'r pechadur i dynu casgliad oddi wrthynt i'w ddinystr ei hun, gan gymmeryd parodrwydd Duw i faddeu yn gefnogaeth i fyw yn ei bechodau, ac ymorphwys ar grediniaeth y deall, heb roddi un sylw i grediniaeth y galon.

Os cymmerwn olwg ar hanes y ddwy gyfundraeth dduwinyddol—yr un sydd yn hòni, a'r un sydd yn gwadu, rhyddid yr ewyllys; un yn amddiffyn iawnderau y creadur, a'r llall yn amddiffyn iawnderau y Creawdwr—y naill yn dechreu gyda'r dyn, a'r llall yn dechreu gyda Duw—canfyddwn yn amlwg fod eithafion yn y naill, gystal ag eithafion yn y llall, yn hollol anghysson â phurdeb yr efengyl. Mae eithafion y ddwy o'r un duedd foesol, yn ymgyfarfod i gynnyrchu yr un effeithiau; er fod y ffrydiau yn cychwyn allan o barthau gwrthgyferbyniol, maent yn cyrhaedd i'w gilydd yn eu hymarllwysiad i'r môr marw, ac yn cyd-ddyfrhau gwraidd Antinomiaeth. Gwedi iddynt gael eu gweithio mor bell fel ag i gymylu gwirioneddau ereill, gan redeg allan dros y terfyn i dir gwaharddedig, y maent yn esgor ar efengyl arall, yr hon nid yw efengyl. Dyma duedd uniongyrchol yr ymgais anochelgar hono, o geisio egluro trefn y prynedigaeth yn ei chyfaddasrwydd i ddyn yn ei sefyllfa bresennol, a hyny trwy ddangos ei bod wedi effeithio i dyneru y gyfraith foesol yn ddeddf newydd gras, gan ei chyfaddasu i gydweddu â gwendidau ein natur—ei manylrwydd a'i hysbrydolrwydd gwreiddiol wedi cael eu llarieiddio i'r fath raddau fel ag y mae credadyn, yn nghanol llygredigaethau a themtasiynau y byd hwn, yn dyfod i fyny mewn sancteiddrwydd calon a buchedd i ateb yn gyflawn i'w holl ofynion, ac i allu ymffrostio mewn perffeithrwydd dibechod. Mae y darostyngiad yma ar brawfreol rhinwedd, yn uniongyrchol yn erbyn purdeb yr efengyl, yn rhoddi golwg dra arwynebol ar fyw yn dduwiol yn Nghrist Iesu; ac yn gadael heibio y nefoleidd-dra ysbryd, y ddirnadaeth ysbrydol, a'r manylrwydd mewnol ac allanol sydd yn gynnwysedig mewn perffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw.

Yn yr unrhyw eithafion, o ddarostwng y ddeddf foesol. lleihau drygedd trosedd o honi, a dyrchafu dyn uwch law iddo ei hun, y mae crefydd yr Arglwydd Iesu yn cael ei gweithio o'r ysbrydol i'r anianol—i sefyll mewn olyniaeth ffurfiau, ac nid mewn olyniaeth ffydd a sancteiddrwydd—yn gynnwysedig yn nefodau y dyn oddi allan, ac nid yn nefoleiddiad y dyn oddi mewn—yn waith y dwylaw, ac nid yn waith y galon. Oddi yma y dyrchefir bedydd yn ailenedigaeth—yr honir cyfranogiad o Swper yr Arglwydd yn faddeuant pechodau—ac yr edrychir ar arian a phenydiau yn ddyhuddiant cymmeradwy am droseddau o'r ddeddf foesol. Ni phallodd y cyfryw syniadau a chynnyrchu effeithiau anghristaidd trwy yr oesoedd, gan eglurhau eu tueddiad Antinomaidd trwy brofion mor amlwg, fel ag i droi gwledydd cyfain yn llawn o drigfanau trawsder. Fel y mae yn beryglus ar un llaw, wrth geisio amddiffyn iawnderau Duw, beidio caniatau ei iawnderau i'r dyn a'i waith, rhag rhoddi mantais iddo i ymesgusodi ac ymgyfiawnhau yn ei ddiofalwch pechadurus; felly, mae llawn cymmaint o berygl ar y llaw arall, wrth amddiffyn iawnderau y dyn, beidio caniatau ei iawnderau i waith Duw, rhag, wrth hyny, dechreu cyfodi y dyn dros ei derfyn priodol—i edrych mor arwynebol ar ddeddfau y meddwl fel ag i dybied ei fod uwch law eu llywodraeth, gan adael heibio yr hyn sydd yn cyssylltu llywodraeth y Goruchaf â'r ysbryd, neu y byd o feddwl; ac o ganlyniad, edrych mor arwynebol ar y ddeddf foesol fel ag i roddi ymaith ei hysbrydolrwydd, a manylder ei sancteiddrwydd, gan ymddyrchafu yn raddol yn ddigon uchel i gymmeryd yr awdurdod yn ei law i gyfnewid crefydd yn hollol wrth ei ewyllys ei hun. Wedi ysgaru crefydd oddi wrth ei phurdeb, pa ddull bynag a ddefnyddir i effeithio yr ysgariaeth, y mae yn dyfod dan lywodraeth syniad y cnawd, i wrthweithio prif ddyben crefydd, ac yn foddion mwyaf effeithiol i dawelu y gydwybod rhag aflonyddu ar fwyniant pechod.

Rhoddwyd y cyhuddiad hwn yn erbyn yr athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy ffydd, heb weithredoedd y ddeddf—ei bod ynddi ei hun, o duedd Antinomaidd. Dyma y brif wrthddadl a ddyg-



Digitized by Google

wyd yn mlaen i'w gwrthwynebu gan ysgrifenwyr deddfol Eglwys Rhufain, a chan wadwyr haeddiant dyhuddol marwolaeth yr Arglwydd Iesu. Ond wrth iddynt geisio cau allan yr athrawiaeth hon, a dwyn yn mlaen weithredoedd edifeirwch y pechadur i wasanaethu yn ei lle, gan eu cydnabod, o angenrheidrwydd, yn ddyhuddiant teilwng am droseddau o'r gyfraith foesol, rhaid addef eu bod, trwy hyny, yn diraddio y gyfraith, ac yn cymylu drygedd trosedd o honi, mor bell fel nas gellir canfod nemawr bwys mewn cydffurfio â'i gorchymynion, gan y gall ychydig weithredoedd anmherffaith edifeirwch y pechadur wneuthur dyhuddiant boddhaol dros holl bechodau ei oes, trwy gyfateb yn gyflawn i bwysigrwydd ac anrhydedd y gyfraith freiniol; felly, o dan esgus gochelyd Antinomiaeth, ymosodent yn uniongyrchol i ddirmygu prawfreol rhinwedd, a diraddio bonedd gweithredoedd da, gan fwrw gwenwyn marwol at wraidd ymarweddiad sanctaidd. Pa mor wahanol y mae cyfiawnder ffydd yn arddangos y gyfraith foesol, trwy eglurhau ei phurdeb a'i hanrhydedd, ac adlewyrchu ar echryslonrwydd trosedd o honi; ac felly, o ganlyniad, yn cymhell, yn y modd mwyaf effeithiol, i gydffurfio â'i rheolau. Y mae cyfiawnhad trwy ffydd yn caniatau eu llawn ogoniant gwreiddiol i weithredoedd da—gymmaint, yn ol eu teilyngdod, ag a allasent feddu yn y sefyllfa o ddiniweidrwydd. Nid oeddynt i gael eu cydnabod yn y sefyllfa hono yn unrhyw ddyhuddiant dros gamwedd: yr un modd, y maent yn cael eu cydnabod yn y cyfiawnhad trwy ffydd, pan yn eu cau allan yn unig o fod yn unrhyw ddyhuddiant dros bechod. Os oedd angenrheidrwydd am danynt yn y cyflwr crëedig, i ogoneddu Duw, i gysur y dyn ei hun, ac i lesâd ei gydgreadur, mae y cyfiawnhad trwy ffydd yn gadael iddynt eu lle gwreiddiol wrth adferu y pechadur i ffafr Duw, heb leihau y radd leiaf ar yr angenrheidrwydd anhebgorol am danynt i ateb eu dybenion cyntefig. Y mae mor bell oddi wrth gefnogi Antinomiaeth, fel y mae yn diogelu cadwedigaeth y pechadur rhag gwanhau na chymylu y cymhellion gwreiddiol i sancteiddrwydd. Ac nid hyny yn unig, ond y mae yn dwyn y cyfryw gymhellion allan yn llawer mwy amlwg, ac yn chwanegu atynt gymhellion newydd i ufudd-dod, y rhai sydd hollol ddyeithrol i natur, ac nas gallesid eu dwyn i oleuni ar dir purdeb gwreiddiol.

Heb law fod gosod cymmeradwyaeth pechadur gyda Duw i ddibynu yn unig ar haeddiant aberth yr Arglwydd Iesu, ynddo ei hun yn cymhell i sancteiddrwydd, y mae yr ymadrodd *cyfiawnhad trwy ffydd* yn cynnwys hefyd fod cyssylltiad anwahanol rhwng y cyfnewidiad hwnw yn nghyflwr y pechadur a chyfnewidiad ei galon, neu ansawdd ei egwyddor. Nis gellir cael dyrchafiad i heddwch Duw ar sail haeddiant Iesu Grist ond trwy ffydd—trwy gredu y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab; ac y mae y grediniaeth o'r dystiolaeth hon yn cynnwys ynddi gymmeradwyaeth o Dduw, trwy ei gydnabod yn wrthddrych teilwng i ymddiried ynddo, ac i roddi serch arno. Mae yn derbyn ei holl ewyllys ddadguddiedig; ei orchymynion, fel ei addewidion; y dystiolaeth am ei burdeb, gystal a'r dystiolaeth am ei raslonrwydd; ac yn defnyddio haeddiant Crist yn foddion sancteiddhad, yn yr un weithred ag y mae yn ei ddefnyddio yn sail maddeuant pechodau. Felly, y mae yn wreiddyn buchedd newydd—yn egwyddor sydd yn ymestyn yn barhaus i gyrhaedd delw yr Hwn a'i creodd—"O blegid ffydd, heb weithredoedd, marw yw." Os ydyw yn rhy farw i ymaflyd yn y gorchymynion, y mae yn rhy farw i gymmeryd gafael yn yr addewidion; os ydyw yn rhy ddifywyd i ddefnyddio esampl Crist yn rheol ymarweddiad, y mae yn rhy ddifywyd i ddefnyddio angeu Crist yn sail cyfiawnhad ger bron Duw. Wrth i'r pechadur edrych trwy ffydd ar gymmwynasgarwch Duw i ni yn Nghrist Iesu, nis gall lai na theimlo y cymmwynasgarwch hwnw yn gosod rhwymedigaeth anwrthwynebol arno i wneuthur yn brif neges ei fywyd, pa fodd y dylai rodio a boddloni Duw. Pan y mae dyn yn derbyn caredigrwydd mawr gan ei gydgreadur, y mae yn naturiol iddo deimlo ei hun dan rwymedigaeth i hwnw; a hyny yn ol mawredd a graslonrwydd y rhodd a dderbyniodd oddi ar ei law. Os cauir allan y cyfiawnhad trwy ffydd, gan osod gweithredoedd edifeirwch y pechadur yn ei le—os na olygir yr Arglwydd Iesu uwch law dyn, na'i angeu uwch law esampl o wroldeb dros y gwirionedd—yr ydys yn cymylu mawredd a phurdeb cariad Duw yn yr iachawdwriaeth, ac yn gadael heibio nerth ei ddylanwad i sancteiddio calon y pechadur. Pa faint mwy a phurach y mae ei gariad yn ymddangos wrth olygu y Messiah yn Dduw wedi ymddangos yn y cnawd, ac wedi marw i ddwyn cospedigaeth ein heddwch ni; a bod bywyd tragwyddol i'r euog i'w gael yn rhad ar sail ei haeddiant, ond yn unig credu ynddo. Pan y mae y pechadur, trwy ffydd, yn derbyn gan Dduw yr anrheg uchel o fywyd tragwyddol, a hyny ar draul mor fawr ag angeu y Messiah—y Duw-ddyn—ni ddichon beidio ag ymgyflwyno yn hollol i fyw i'r Hwn a fu farw drosto.

Rhaid addef y derbyniodd yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd gam dirfawr, lawer gwaith, oddi ar ddwylaw ei hamddiffynwyr. Ni lwyr wellhawyd eto y gweliau â pha rai y clwyfwyd hi yn nhŷ ei charedigion—trwy arddangos aberth yr Arglwydd Iesu yn gwneuthur i fyny bob peth y creadur—wrth geisio eglurhau ei gyfaddasrwydd i gyfateb i holl angenion y pechadur, ac felly, wasanaethu yn lle ymarweddiad sanctaidd, gystal ag yn sail maddeuant pechodau—wrth gau allan weithredoedd da o'r cyfiawnhad, gan wrthod eu cydnabod yn unrhyw ddyhuddiant dros gamwedd; ymroddi i'w diraddio a'u dirmygu fel pethau hollol ddiwerth a gwrthodedig, heb ddangos fod iddynt eu lle priodol, ac nad yw haeddiant aberth Crist yn eu troi allan oddi yno, gan wasanaethu yn eu lle, nac yn lleihau yr angenrheidrwydd am danynt. Y mae o bwys dirfawr dosbarthu yn gywir rhwng lle gweithredoedd da a lle haeddiant Crist yn ngwaith y prynedigaeth. Dyrchafu yr olaf i le y blaenaf sydd Phariseaeth—yn arddangos cymmeriad y Barnwr wedi colli yn y Gwaredwr, y sanctaidd wedi cael ei guddio o'r golwg yn y trugarog: tra y mae darostwng y blaenaf i le yr olaf yn Antinomiaeth—yn arddangos yr Achubwr wedi diddymu hawl y Creawdwr, a dyben creadigaeth yn cael ei golli yn nyfals y prynedigaeth. Oddi ar ddiffyg synied yn gywir am y cyfryw ddosbarthiad yr edrychwyd ar dystiolaeth Paul a'r eiddo Iago yn anghysson â'u gilydd:—pan y tystiodd y naill, "Yr ydym ni gan hyny yn cyfrif mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn heb weithredoedd y ddeddf;" tra y dywedodd y llall, "Chwi a welwch, gan hyny, mai o weithredoedd y cyfiawnheir dyn, ac nid o ffydd yn unig." Y mae Paul yn llefaru am haeddiant aberth Crist yn ei le priodol ei hun; ac Iago yn traethu am weithredoedd y ddeddf,

Digitized by Google

yn eu lle priodol eu hunain: ac y mae y naill a'r llall yn cyfiawnhau eu gwrthddrych; ond pob un yn ei le ei hun, ac mewn ystyr neillduedig iddo ei hun. Y mae Paul yn llefaru am effaith haeddiant Crist, fel y mae yn sail cyfiawnhad: ac Iago yn traethu am effaith yr un haeddiant, fel y mae yn foddion sancteiddhad, gan ddwyn ffrwyth yn mywyd yr hwn sydd yn credu:—y blaenaf yn llefaru am gyfiawnhad y pechadur ger bron Duw, a'r olaf yn traethu am gyfiawnhad proffes y Cristion ger bron dynion:—y naill yn eglurhau y ddyfais oruwchnaturiol sydd i gyfiawnhau yr euog, a'r llall yn llefaru am y modd naturiol ag y mae i'r pechadur gael ei gyfiawnhau.

Sancteiddrwydd sydd yn hynodi y cyfan o drefn y prynedigaeth; y mae fel gwaed yn rhedeg trwy ei holl gorff. Dyma guddiad ei chryfder, gogoniant ei gras, a nerth ei dyddanwch. Nis gellir cael ei gras ar wahan oddi wrth ei phurdeb, mwy nag y gellir ysgar y naill oddi wrth y llall yn Nuw ei hun. Mae yn wir na ddichon i'w sancteiddrwydd ddyfod yn ddyddanwch i ni, ond trwy ei gras; ac y mae yn liawn mor wir hefyd, na ddichon i'w gras ein dyddanu, ond trwy ein dyrchafu i'w sancteiddrwydd. Gosodwyd ei dyben uchel yn ysgrifenedig ar ddalen aur, i sefyll allan mor amlwg fel ag i gael ei wisgo ar dalcen yr archoffeiriad—"Sancteiddrwydd i'r Arglwydd." Tra y mae mawredd ei chariad a'i gwaredigaeth yn denu y pechadur yn mlaen, y mae ei phurdeb yn gwthio ei halogrwydd draw, i'w hysgar oddi wrth eu gilydd, yn llwyr a thros byth. Nid yw ei gras a'i chostau dirfawr, llifeiriant ei chariad a marwolaeth y Messiah, ond moddion i ddyrchafu y dyben uchel o ddyrchafu sancteiddrwydd, cyflawnu cyfiawnder y ddeddf yn y pechadur, gan ei ddwyn yn berffaith ar ddelw Duw. Antinomiaeth sydd o duedd i rwygo y prynedigaeth yn ddrylliau, gan ysgar ei gras oddi wrth ei phurdeb, a gwahanu ei diogelwch oddi wrth ei glendid:—yn ymgais i dori haeddiant angeu Crist oddi wrth sancteiddrwydd ei fywyd; i ysgar ei aberth oddi wrth ei eiriolaeth; ac i wahanu rhwng ei swyddau cyfryngol:—yn ymgais i ysgar rhwng gweithredoedd y Tri Pherson Dwyfol yn y prynedigaeth; ac yn ymgais i droi y drefn gostus oddi wrth ei phrif ddyben.

ANTIOCHIA: adeiladwyd un ar bymtheg o ddinasoedd o'r enw yma yn Asia orllewinol, gan Seleucus Nicator, y penadur Syro-Groegaidd cyntaf, er cadw coffadwriaeth o'i dad, Antiochus; ond ni chrybwyllir namyn dwy o honynt yn yr Ysgrythyrau. 1. Dinas a adeiladwyd ar lanau yr Orontes, 300 milldir i'r gogledd o Ierusalem, a thua 30 milltir o Fôr y Canoldir. Yr oedd yn gorwedd yn nhalaeth Seleucia, yr hon a gyfenwid Tetrapolis, o herwydd ei bod yn cynnwys y pedair dinas, Antiochia, Seleucia, Apamea, a Laodicea. Cawsai y gyntaf ei henw, fel y crybwyllwyd, oddi wrth Antiochus, tad yr hwn a'i hadeiladodd; yr ail oddi wrtho ef ei hun; y drydedd, oddi wrth ei wraig, Apamea; a'r bedwaredd oddi wrth ei fam. Rhoddid yr unrhyw enw (*Tetrapolis*) i Antiochia hefyd, am ei bod yn gynnwysedig o bedair treflan, neu bedair rhan, pob un yn cael ei chylchu gan fur gwahanol; a'r pedair yn cael eu cylchu gan un mur cyffredinol. Adeiladwyd y gyntaf gan Seleucus Nicator, yr hwn a'i poblodd â threfedigion o Antigonia: yr ail, gan drefedigion o'r rhan, neu y dreflan flaenaf: y drydedd, gan Seleucus Callinicus: a'r bedwaredd, gan Antiochus Epiphanes. [*Strabo*, xvi. 2; a iii. 354]. Hon oedd prif ddinas Syria, lle y cyfanneddai y penaduriaid Syriaidd (1 *Mac.* iii. 37; a vii. 2); ac wedi hyny, bu yn brif ddinas y taleithiau Rhufeinig yn Asia. Fe'i cyfrifid yn drydedd, wedi Rhufain ac Alexandria, yn mysg dinasoedd yr ymherodraeth; ac nid ydoedd nemawr yn ol mewn maintioli ac ysblander i Alexandria neu Seleucia. [*Jos. Rhyfeloedd Iuddewig*, iii. 2, § 4; *Strabo*, xvi. 2. cyf. iii. td. 356.] Yr oedd ei noddfa a'i theml yn gyssegredig i Apollo a Diana: 2 *Mac.* iv. 33. Yr oedd y deml a'r pentref yn gorwedd yn ddwfn yn mynwes llwyn trwchus o lawryf a chypreswydd, yr hwn a gyrhaeddai hyd amgylchedd o ddeng milltir, ac a ffurfiai gysgodfa oer ac anhydraidd yn yr haf poethaf: a mil o ffrydiau o'r dwfr puraf yn tarddu o bob bryn, a gadwent i fyny wyrddlesni y ddaiar ac ardymmer yr awyr." [*Gibbon*, pen. xxiii.] Yr oedd mor dra phoblogaidd fel y dywedir ddarfod i'r Iuddewon ladd deng myrddiwn (100,000) o ddynion ynddi mewn un diwrnod, yn mhen tua 150 o flynyddoedd wedi ei hadeiladu: 1 *Mac.* xi. 47. Cyfrifid ei phoblogaeth yn ddau can mil yn nyddiau Chrysostom, o ba rai yr oedd y naill hanner, neu fwy, yn Gristionogion mewn enw; a dywedai Chrysostom bod yr eglwys yn Antiochia yn cynnal tair mil o dlodion, heb law gweini cynnorthwy achlysurol i amryw ereill. Sonia Cicero am dani fel dinas wedi ei henwogi trwy feithriniad llwyddiannus y celfyddydau a'r gwybodaethau. Preswyliai lluaws mawr o Iuddewon ynddi, i ba rai y caniatasai Seleucus Nicator freintiau dinasyddiaeth, gan eu gwneyd yn gydradd yn mhob peth â dinasyddion ereill. A pharhawyd y rhagorfreintiau yma iddynt gan Vespasian a Titus; y rhai, yn erbyn dymuniadau yr Alexandriaid a'r Antiochiaid, a noddent yr Iuddewon, er mor gyndyn y parhäai y genedl hono yn ei gwrthryfel yn erbyn y Rhufeiniaid.

Cafodd yr efengyl ei phregethu yn dra bore yn Antiochia, a bu llwydd mawr ar Gristionogaeth yn y ddinas fawr hon: *Act.* xi. 19, 21, 24. Yma y cafodd dysgyblion Crist yr enw *Cristionogion* gyntaf: *Act.* xi. 26. A daeth Antiochia yn fuan yn ganolbwynt, o'r hwn y lledaenid Cristionogaeth yn mysg y cenedloedd cylchynol; a bu eglwys Antiochia yn uchel ei bri yn y byd Cristionogol dros lawer o ganrifoedd.

Dadl a gyfodasai rhwng rhyw gredinwyr Iuddewig o Ierusalem â dychweledigion cenedlig o Antiochia, mewn perthynas i rwymedigaeth barhaus defod yr enwaediad, a fu yn achlysur i alw yn nghyd y gynghorfa apostolaidd gyntaf: *Act.* xv.

Hysbysir ni yn *Act.* xi. fod yr erlidigaeth a gyfododd tuag amser merthyrdod Stephan, wedi gwasgaru lluaws o'r dysgyblion o ddinas Ierusalem, a darfod iddynt yn eu halltudiaeth dramwy hyd Phenice, a Cyprus, ac Antiochia, heb lefaru y gair wrth neb ond wrth yr Iuddewon yn unig. Yr oedd rhai o'r rhai hyn a wasgarasid yn wŷr o Cyprus, ac o Cyrene, ac felly yn gyfarwydd yn yr iaith Roeg; a phan ddaeth y rhai hyn i Antiochia, hwy a lefarasant wrth y Groegiaid, hyny yw, yr Iuddewon Groegaidd, "gan bregethu yr Arglwydd Iesu." Cyn cynted ag y clywodd yr eglwys yn Ierusalem am y llwyddiant a fuasai ar bregethu Crist yn Antiochia, yn llawn o gydymdeimlad Cristionogol, anfonai ŵr cymhwys i ymweled â hwy, i'w cynghori a'u cynnorthwyo:—"A'r gair a ddaeth i glustiau yr eglwys oedd yn Ierusalem, am y pethau hyn; a hwy a anfon-

Digitized by Google

asant Barnabas i fyned hyd Antiochia." Aeth y "Mab Dyddanwch" yma ar ei neges gysurus: a phan ddaeth efe i Antiochia, efe a ganfyddodd, er ei lawenydd, fod gras Duw wedi rhagori ar y newyddion a ddygasid i Ierusalem—"A phan ddaeth, a gweled gras Duw, fe fu lawen ganddo; ac efe a gynghorodd bawb oll, trwy lwyrfryd calon, i lynu wrth yr Arglwydd. O blegid yr oedd efe yn ŵr da, ac yn llawn o'r Ysbryd Glân, ac o ffydd; a llawer o bobl a chwanegwyd i'r Arglwydd." Y mae y braslun yma o ymweliad Barnabas âg Antiochia yn neillduol o gynnwysfawr a phrydferth: mewn ychydig, fe'n hysbysir pa beth a welodd y cenadwr, a pha fodd y teimlodd—pa beth a argymhellodd i'w sylw, i ba fesur y bu ei genadwriaeth yn llwyddiannus, a pha fath oedd ei brif nodweddion yntau—fel y mae y cyfan yn gwneyd yr adroddiad yn neillduol o ddyddorol.

Yn y cyfamser, golygai Barnabas fod Saul, yr hwn, er cael nodded rhag erlidigaeth fel dinesydd Rhufeinig, a enciliasai i Tarsus, ei ddinas frodorawl, yn meddu cymhwysderau neillduol i ddwyn achos Crist yn mlaen yn Antiochia; ac wedi peth ysbaid, efe a aeth i Tarsus i ymofyn am dano; ac wedi ei gael, efe a'i dug ef i Antiochia; "A bu iddynt flwyddyn gyfan ymgynnull yn yr eglwys, a dysgu pobl lawer." Yr oedd y ffaith ei fod ef yn apostol y Cenedloedd, a'i fod yn dra hyddysg yn yr iaith Roeg, yn gystal a'i dröedigaeth nodedig a'i sel danbaid, yn ei ddynodi yn un cymhwys fel cenadwr at yr eglwys yn Antiochia, lle y cyrchai cynnifer o enwogion yr oes.

Cymmerodd llawer o bethau tra dyddorol le yn y ddinas hon tra y bu Paul a Barnabas yn aros ynddi:—dychwelwyd lluaws mawr i ffydd Crist, galwyd y dysgyblion gyntaf yn Gristionogion, a hyny drwy awdurdodiad dwyfol, dybygid; ac yn y flwyddyn o. c. 44, anfonid Paul a Barnabas i ddwyn rhodd yr eglwys yn Antiochia i'r brodyr tlodion yn Ierusalem. Ar eu dychweliad i Antiochia—ac Ioan Marc yn eu canlyn—gorchymynwyd iddynt gan yr Ysbryd Glân fyned ar daith i'r bröydd cylchynol, i bregethu yr efengyl i bobloedd ereill oeddynt yn llwyr estronaidd iddi; ac wedi iddynt ymprydio a gweddïo, hwy a aethant i'w taith, ac a ymwelsant â Cyprus, Perga, Iconium, Derbe, a Lystra, gan bregethu yr Iesu i'r bobl yn mhob man. Wedi eu herlid o Lystra, hwy a ail ymwelasant âg Antiochia; o'r lle, yn y flwyddyn 51, eu hanfonid ar genadwri i Ierusalem, i ymgynghori â'r apostolion mewn perthynas i'r ddadl a gyfodasai yn nghylch yr enwaediad, yr hwn y mynai y credinwyr Iuddewig orfodi y dychweledigion cenedlig i'w gymmeryd. Wedi i'r apostolion wneyd eu penderfyniad ar y ddadl yma yn hysbys, dychwelodd cenadon Antiochia yno ar frys, gan ddwyn "Llythyr y Cynghor Apostolaidd" gyda hwy, i'w ddarllen i'r brodyr yn Antiochia, a'r ardaloedd cylchynol. Ar ol hyn drachefn, soniasant am fyned i ymweled â'r eglwysi yn y dinasoedd amgylchynol, lle y buasent yn llafurio ar y daith flaenorol: ond wedi peth ymrafael yn nghylch pwy a gymmerent gyda hwy, fel eu gweinidog—a bu hyn yn achos iddynt ymneillduo oddi wrth eu gilydd—Barnabas a gymmerth Marc gydag ef, ac a fordwyodd i Cyprus; tra y cymmerth Paul Silas, gan dramwy trwy Syria a Cilicia, gan gadarnhau yr eglwysi.

Yn Antiochia y ganwyd Luc, a Theophilus hefyd, i'r hwn y gwna efe gyflwyniad anrhydeddus o'i lyfrau, medd rhai dysgedigion.

Fel y daeth y gyfundrefn eglwysig i ymdebygu yn raddol i'r un wladol, aeth yr eglwysi oedd yn y dinasoedd uchaf eu gradd yn y wladwriaeth i arhoni uchafiaeth ar eglwysi ereill mewn pethau crefyddol. Felly y bu am Rufain, Alexandria, ac Antiochia; ac mewn amser, felly y bu gydag eglwys Caer Cystenyn a Ierusalem, lle y cymhwysid yr enw *Exarch* at yr esgob trigiannol, ond yn fuan fe'i cyfnewidiwyd am y teitl *Patriarch:* ac yn bresennol y mae tri esgob yn Syria yn hòni eu hawl o'r teitl "Patriarch Antiochia;" sef patriarch Eglwys Groeg, patriarch y Monophysiaid Syriaidd, a phatriarch y Maroniaid.

Bu llawer o helyntoedd blinion, yn anianyddol a gwladyddol, ar y ddinas hon: tair gwaith yn y bedwaredd ganrif, unwaith yn y pummed, a dwy waith yn y chweched, y bu agos iddi gael ei llwyr ddistrywio gan ddaiargrynfäau.

Yn y flwyddyn 260, darfu i Sapor, brenin y Persiaid, ei chymmeryd a'i hanrheithio; a thorfeydd o'r preswylwyr a laddwyd, neu a werthwyd i gaethiwed. Yn y ddaiargryn a fu yn y flwyddyn 526, distrywiwyd o ddeutu 250,000 o fywydau, yr oedd y dref yn llawnach nag arferol ar y pryd, trwy gyrchiad pobl iddi i gadw Gŵyl Dyrchafael. Rhoddes yr ymherawdwr Justinian o ddeutu 180,000*p.* tuag at adgyweirio y ddinas, yr hyn a wnaed yn y flwyddyn 529; ac efe a barodd ei galw *Theopolis*, neu "Ddinas Duw," medd Evagrius; ond yn y flwyddyn 548, Chosroes, brenin Persia, a'i cymmerodd, ac a'i llosgodd, gan ladd y rhan fwyaf o'i thrigolion. Justinian a'i hail adeiladodd drachefn yn y flwyddyn 552; a Chosroes a'i cymmerodd yr ail waith yn 574, yn nheyrnasiad Justin, pan wnaed ei muriau a'i phrif adeiladau yn gydwastad â'r llawr. Yn y flwyddyn 588, ymwelwyd â hi gan ddaiargryn ofnadwy, drwy yr hon y distrywiwyd trigain mil o'i thrigolion. Ailadeiladwyd hi ar ol hyn, a thrachefn cafodd ei darostwng dan anffodau newyddion. Yn y flwyddyn 637 neu 638, yn nheyrnasiad Heraclius, fe'i cymmerwyd gan y Saraceniaid; a thrwy dalu 300,000 o ddarnau aur y cafodd y trigolion gan y goresgynwyr ymattal rhag ei difrodi. Yn y flwyddyn 966, fe'i hadgymmerwyd gan Nicephorus Phocas. Dywed Cedranas fod byddin o gan mil o Saraceniaid yn gwarchae arni yn y flwyddyn 970, ond yn aflwyddiannus; er hyny, ar ol hyn, hwy a lwyddasant yn eu hamcan, a chyfodasant amddiffynfeydd newyddion o'i hamgylch, gan ei gwneyd, o'r bron, yn anorchfygol.


Pan oedd Godffrey o Bouillon ar ei grwysgadgyrch i adennill Tir yr Addewid, efe a osododd warchae ar Antiochia, yn y flwyddyn 1097; a bu yma ymdrech faith a gwaedlyd: ond o'r diwedd—trwy eu dewrder dihafal, a gohebiaeth gyfrinachol â rhai o'r trigolion—y Cristionogion a ennillasant y dydd Mehefin 3ydd, 1098. Mai 29ain, 1268, fe'i cymmerwyd gan Boadocbar neu Bibars, llywydd yr Aipht a Syria, yr hwn a'i hanrheithiodd, ac a laddodd 17,000 o'r trigolion, ac a gaethgludodd 100,000 ereill. Ac er y pryd hyny, y mae wedi colli ei henwogrwydd a'i gwychder gynt, yn llethedig dan draed ei gormeswyr Tyrcaidd.

Tua chanol y bymthegfed ganrif, darfu i batrieirch Alexandria, Antiochia, a Ierusalem, alw cynghorfa yn nghyd, yn yr hon y dadganent eu llwyr ymwrthodiad â phob cyssylltiad âg Eglwys Rhufain.

Enw presennol y dref hon yw *Antakia;* ac y mae yn perthyn i raglawiaeth Haleb, neu Aleppo.

Dywedir fod y trigolion yn ugain mil o rifedi cyn y ddaiargryn, yn 1822, yr hon a ddistrywiodd bedair neu bum mil o honynt.

Y mae mynydd-res serth ar yr ochr dde-orllewin i'r dref, lle y mae rhan lled fawr o hen fur Rhufeinig Antiochia yn sefyll eto, o 30 i 50 troedfedd o uchder, a thua 15 o drwch. Y mae tua phedwar cant o dyrau petryal uchel wedi eu cyfodi ynddi, o fewn ychydig bellder i'w gilydd, yn y rhai y mae grisiau, a dwy neu dair o ystafelloedd, at wasanaeth y milwyr pan ar wyliadwriaeth, efallai. Ar derfyn dwyreiniol y bryn gorllewinol, y mae gweddillion hen amddiffynfa, â'i thyrau, ei chromgellau, a'i dyfr-gistiau. Ac y mae rhyw ranau o'r dyfr-ffosydd yn aros yn y mynyddoedd, i'r de-dde-orllewin o'r ddinas. Wedi gwlawogydd trymion, canfyddir hen balmentydd marmor mewn amryw ranau o'r dref, a cheir gemau a modrwyau yn y ddaiar yn aml, fel rhyw weddillion o'r gwychder a fu ynddi yn yr oesoedd gynt.



Dar. 47. ANTIOCHIA.

Y mae y dref bresennol yn gorwedd ar lai nag un rhan o dair o'r rhandir a amgylchynid gan yr hen gaerau, olion pa rai a ellir eu dilyn yn hawdd. Y mae y fynedfa i'r dref o Aleppo, drwy un o'r hen byrth a elwid Bab Bablous, neu Borth Paul; yn agos i ba un y mae aelodau Eglwys Groeg yn ymgynnull i gyflawnu eu hymarferion crefyddol mewn ogof gyssegredig i goffadwriaeth Ioan.

2. ANTIOCHIA: yn, neu ger llaw Pisidia. Gan ei bod yn ddinas ar y cyffiniau, fe'i hystyrid ar wahanol amserau fel yn perthyn i wahanol daleithiau. Y mae Ptolemy yn cyfleu hon yn Pamphylia, a Strabo yn ei darlunio yn perthyn i Phrygia. Fe'i seiliwyd gan Seleucus Nicanor; a'i thrigolion cyntaf oeddynt o Magnesia, ar y Mæander. Wedi i Antiochus III., a gyfenwid "Y Mawr," gael ei orchfygu gan yr Rhufeiniaid, hi a ddaeth i feddiant Eumenes, brenin Pergamos, ac wedi hyny fe'i trosglwyddwyd i Amyntas: ac ar ei farwolaeth ef, y Rhufeiniaid a'i gwnaethant yn eisteddle llywodraeth raglawiaethol, gan ei doniaw âg amryw ragorfreintiau dinesig. Pan ymwelodd Paul a Barnabas â'r ddinas hon, ar eu taith trwy Asia (*Act.* xiii. 14), hwy a gawsant synagog Iuddewig yma, ac amryw broselytiaid crefyddol (*adn.* 16, 43, 50); a bu llwydd mawr ar eu llafur yn mysg y Cenedloedd (*adn.* 48); ond trwy erlidigaeth lemdost yr Iuddewon, bu raid iddynt adael y lle, yr hyn a wnaethant, gan gyflawnu gorchymyn eu Harglwydd yn llythyrenol, trwy ysgwyd y llwch oddi wrth eu traed yn eu herbyn hwynt (*adn.* 51; *Mat.* x. 14; *Luc* ix. 5).

Tybid, hyd yn ddiweddar, fod Antiochia yn gorwedd yn y fan y mae tref *Ak-Sheker* yn gorwedd yn awr: ond trwy ymchwiliadau y Parch. F. Arundell, capelwr Seisonig yn Smyrna, yn y flwyddyn 1833, yr hyn a gadarnhawyd trwy ymchwiliadau diweddarach Mr. Hamilton, ysgrifenydd y Gymdeithas Ddaiaryddol, penderfynwyd mai yn y man lle y mae tref *Yalobatch* y gorweddai yr Antiochia hon: ac o ganlyniad, mai yr hen Philomelion a ddarlunid gan Strabo ydyw Ak-Sheker [xii. 8; cyf. iii., td. 72].

Dywed Pliny, fod Antiochia yn cael ei galw hefyd yn Cesarea; ac yn un o'r cerfiadau Lladinaidd a ddarganfyddwyd yma gan Mr. Hamilton, gallwyd gwneyd allan y geiriau canlynol—ANTIOCHEAE CAESARI. Y mae Mr. Arundell, yn ei "Ddarganfyddiadau yn Asia Leiaf," yn dywedyd iddo sylwi ar olion amryw demlau ac eglwysydd yma, heb law chwareudy, a dyfr-ffos ysblenydd; ac yr oedd un ar ugain o'r bwäau a gynnalient y ddyfr-ffos ddywededig yn aros mewn cywair perffaith.

ANTIOCHIS: gordderch Antiochus Epiphanes: 2 *Mac.* iv. 30. Camargraffwyd yr enw yn y llyfrau Cymraeg a welsom ni, ond argraffiad 1630.

ANTIOCHUS, [*yr hwn sydd yn gwrthsefyll*]: enw cyffredinol a roddid ar y penaduriaid Syro-Groegaidd; ac y mae cyfeiriad at amryw o'r enw yn Ysgrythyrau yr Hen Destament, yn nghyd âg yn yr adroddiad o'r hanes Iuddewig a geir yn llyfrau y Maccabeaid.

Y mae yr enw yn dynodi grym milwraidd, fel amryw enwau Groegaidd ereill. Fe'i dygid gan un o gadlywyddion Philip o Macedonia, mab yr hwn, Seleucus, trwy gynnorthwy Ptolomeus y Cyntaf, a'i sefydlodd ei hun yn llywydd Babilon tua'r flwyddyn 312 cyn Crist; am ba achos, y flwyddyn hono yw y prifnod (*era*) o'r hwn y cyfrifid amseryddiaeth dan y benaduriaeth hono; o'r hyn y cawn anghraifft yn llyfrau y Maccabeaid. Parhaodd yr ymryson yn Asia dros un mlynedd ar ddeg yn hwy, tra yr oedd Antigonus—*yr un llygeidiog*—yn ymestyn at benaduriaeth gyffredinol: ac o'r diwedd, yn y flwyddyn 301 C. C., efe a orchfygwyd, ac a laddwyd yn mrwydr derfynol Ipsus, yn Phrygia. Yn y cyfamser, yr oedd Ptolomeus, mab Lagus, wedi darostwng Syria ddeheuol, ac yr oedd Seleucus yn rhy ddyledus iddo i gynnyg ei fwrw o'r berchenogaeth yma drwy rym arfau: mewn gair, yr oedd y tri Ptolomeus cyntaf yn edrych ar eu tiriogaethau gor-Aiphtaidd hyn fel eu hunig wystl am ddiogelwch yr Aipht ei hunan yn erbyn eu cymmydog galluog; a llwyddasant i gadw yr arglwyddiaeth, nid yn unig ar Palestina a Cœle-Syria, ac amryw drefydd ar yr arfordir hwnw; ond hefyd ar Cyrene, a pharthau ereill o Lybia, ar Cyprus, ac ynysoedd ereill, yn nghyd â lluaws o orsafoedd morawl o amgylch Asia Leiaf. Efallai fod llynges wastadol yn cael ei chadw i fyny yn Samos, fel y cyrhaeddai eu harfau i'r Hellespont, sef y Dardanelles; ac am beth amser, buont yn llywodraethu dros Thracia. [*Polyb.* v. 35. 11; a v. 34. 7; a xviii. 34. 5.] Fel hyn, rhenid Syria rhwng dau allu mawr: y rhan ogleddol a ddisgynodd i Seleucus a'i olynwyr, a'r ddeheuol i Ptolomeus; ac y mae hyn yn egluro yr enwau "brenin y gogledd," a "brenin y deheu," yn *Dan.* xi. Tynid llinell y terfyn rhyngddynt ychydig i'r gogledd o Damascus, prif ddinas Cœle-Syria.

Digitized by Google

Y Seleucus cyntaf a adeiladodd nifer fawr o ddinasoedd a sefydliadau Groegaidd, nid i wasanaeth milwraidd neu drafnidiawl, fel Alexander, ond er porthi ei falchder, neu o gariad at Groeg. A'r hoffder yma at Groeg a barodd iddo sefydlu ei brif ddinas, nid yn Babilon, fel y gwnelsai Alexander, ond yn ngogledd Syria: ac yn ei hen ddyddiau, collodd ei fywyd yn ei orawydd am ail ymweled â'i hoff Facedonia.

Yr oedd poblogi ei ddinasoedd newyddion yn orchwyl anhawdd yn aml; ac arweiniai hyn ef i gynnyg gwobrwyon, neu ragorfreintiau, i'r rhai a fynent fod yn ddinasyddion ynddynt: ac y mae hyn yn rheswm am y rhagorfreintiau arbenig a feddai yr Iuddewon ynddynt oll, y rhai a fwynhäent hawliau cyfartal â'r Macedoniaid ynddynt. Ar yr un pryd, naill ai oddi wrth yr esampl a roddasai Alexander, neu rym amgylchiadau, amlygai yr oes hono dueddiad nodedig at gyfuniad crefyddol yn mhob man; yn gymmaint, fel, os gallwn gyda Josephus ymddiried i'r llythyr yn 1 *Mac.* xii. 21, y dymunai y Lacedæmoniaid gael eu cyfrif megys plant i Abraham. Ond yr oedd achos arall a barai i'r breninoedd Syriaidd fod yn garedig wrth yr Iuddewon; sef, bod cenedl fel hyn, a ymdaenai drwy eu tiriogaethau anghyfunawl, yn ffurfio y rhwymyn mwyaf manteisiol i'w gwregysu yn nghyd. Trwy ennill calonau yr Iuddewon, ennillid brawdoliaeth ddewr-fryd a fyddent yn ffyddlawn i'w noddwr, ac nas cyfranogent byth mewn unrhyw ysbryd o annibyniaeth lleawl; ac am hyny, yr oedd gan Antiochus Fawr a'i ragflaenoriaid, yn ddiau, ymddiried neillduol mewn gwarchodluoedd Iuddewig. Mewn llythyr a grybwyllir gan Josephus, yn ei *Hynafiaethau Iuddewig*, xii. 3, 4, efe a archai symmud dwy fil o Iuddewon o Mesopotamia a Babilon, yn nghyd â'u holl dda, i Lydia a Phrygia, fel y gwasanaethent yn warchodluoedd yno. Er y gellir ammheu cywirdeb y llythyr, y mae o leiaf yn profi y grediniaeth draddodiadol, fod y brenhinoedd cyntaf o dŷ Seleucus wedi mudo lliaws o deuluoedd Iuddewig tua'r gorllewin, i weini mewn gwasanaeth milwraidd.



Dar. 48. Antiochus Fawr.

Drachefn, drwy chwyldroad mawr Asia, yr oedd Hebreaid Palestina yn cyfanneddu yn agos i ffiniau dwy benaduriaeth alluog; a gellid barnu fod y galluoedd hyn yn ymryson â'u gilydd am eu hewyllys da, gan gymmaint y caredigrwydd a dywelltid arnynt gan yr ail Ptolomeus. Ac hyd yn oed pan dorodd rhyfel allan am feddiant o Cœle-Syria, dan Antiochus Fawr, a'r pedwerydd Ptolomeus, c. c. 218 a 217, er fod pobl Iudea, fel rhan o faes y frwydr, a'r tiriogaethau yr ymrysonid yn eu cylch, yn agored i ddyoddefiadau llymion, ni bu yn waeth iddynt yn y canlyniad. O leiaf, pan ennillodd Antiochus arglwyddiaeth Syria ddeheuol o'r diwedd, c. c. 198, ni wnaeth ond cymmeryd y cyfleusdra i bentyru anrhydedd a rhagorfreintiau newyddion ar yr Iuddewon a dinas Ierusalem [*Jos. Hynaf.*, xii. 3, 3]. Mewn gair, nid oedd un genedl mor debyg a'r Hebreaid i fwynhau rhyddid cymdeithasol a chrefyddol anrhydeddus, mewn dyddiau ag nas gallai unrhyw genedl yn y parthau hyny obeithio am fwynhad o annibyniaeth.

Yr oedd yr ymherodraeth Syriaidd, fel ei gadawyd gan Antiochus Fawr i'w fab, yn llawer gwanach na'r un a seiliasid gan Seleucus y cyntaf. Prin yn wir yr oedd yr ail o'r llinach wedi dechreu teyrnasu (c. c. 280), pan y darfu i bedwar o benaduriaid yn Asia Leiaf sefydlu eu hannibyniaeth drwyadl; sef breninoedd Pontus, Bithynia, Cappadocia, a Pergamus. Yn y teyrnasiad nesaf, sef yr eiddo Antiochus Theos, dilynid gwrthryfel y Parthiaid, dan Arsaces (c. c. 250), yn fuan gan wrthryfel talaeth bellenig Bactriana. Dros ddeng mlynedd ar ugain yn olynol, parhaodd y Parthiaid i gynnyddu, ar draul y benaduriaeth Syriaidd. Treuliai Antiochus Fawr oes o ryfela c. c. 223—187. Yn ei ieuenctid, gorfyddai ymladd yn erbyn ei raglaw gwrthryfelgar o Media; ac wedi hyny, yn erbyn ei gâr Achæus, yn Asia leiaf; a chrybwyllasom yn barod am ei ryfeloedd yn Cœle-Syria â'r Ptolemiaid. Heb law hyny, efe a fu saith mlynedd yn ymladd yn llwyddiannus yn erbyn y Parthiaid a brenin Bactriana; ac o'r diwedd, cyfarfu â cholledion annysgwyliadwy yn ei rhyfeloedd â'r Rhufeiniaid, fel yr oedd ei ddyddiau diweddaf yn gymylog, a'i adnoddau yn adfeiliedig. Nis gwyddom nemawr am deyrnasiad ei fab, Seleucus Philopator (c. c. 187—176), heb law ei fod wedi gadael ei deyrnas dan deyrnged i'r Rhufeiniaid. Yn *Dan.* xi. 20, efe a elwir yn gyfodwr trethau; "Ac yn ei le ef y saif un a gyfyd drethau yn ngogoniant ei deyrnas;" wrth yr hyn y dynodir prif gyfeiriad gwladychiaeth yn ei deyrnasiad ef. Wedi i Seleucus gael ei lofruddio gan un o'i bendefigion, ei frawd Antiochus Epiphanes a brysurodd i gymmeryd meddiant o'r orsedd wag, er fod yr etifedd naturiol, Demetrius, mab Seleucus, yn fyw ; ond ei fod ar y pryd yn Rhufain yn wystl. Yn *Dan.* xi. 21, fe awgrymir iddo ef ennill yr orsedd "trwy weniaith;" ac nid all fod un ammheuaeth nad y llwgrwobrwyaeth mwyaf dibrin oedd ei brif offeryn: ac, yn ol y darluniad yn *Livy*, xli. 20, yr oedd helaethrwydd a mawrwychedd ei roddion yn dwyn arnynt arwedd gwallgofrwydd o'r bron. Yr oedd yn naturiol i dywysog o'r fath dymmer, ymherodraeth yr hwn oedd yn eang mewn enw eto, er fod ei gwir nerth a'i golud yn cilio, goledd yr amcan o ysbeilio y deml Iuddewig y fynyd gyntaf y teimlai gyfyngder arianol yn ei wasgu. Ar y cyfryw gyfwng, gallai y fantais drwy y weithred ymddangos yn ddigonol i fantoli y dygasedd a achlysurai; ond gan y byddai iddo, drwy hyny, wneyd pob Iuddew o fewn ei ymherodraeth yn elyn marwol iddo ei hunan, ymddangosai gweithred arall yn angenrheidiol, sef llethu gallu yr Iuddewon, a distrywio eu corfforaeth genedlaethol. Gan hyny, gellid dysgwyl i'r amcan o wahardd enwaediad, a'u holl ddefodau seremonïol, er ei gysylltu â'r bwriad o'u hysbeilio, beidio a dangos fod unrhyw elyniaeth flaenorol yn erbyn y genedl yn ei galon. Ac yn y cyfamser, dacw ymgeisydd am yr archoffeiriadaeth yn rhoddi cefnogaeth grymus i'r cyfryw amgylchiadau, trwy ymgymmeryd âg arddulliau Groegaidd, gan obeithio ennill ffafr y brenin, fel yr adroddir yn Llyfr Cyntaf y Maccabeaid.

Y mae yn hawdd i ni ganfod, oddi wrth y sylwadau blaenorol, mor ddisymmwth ac anghred-

Digitized by Google

adwy, o'r bron, y rhaid fod y cyfnewidiad yn ymddygiad llywodraethwyr Syria tuag at yr Iuddewon: ac mor angerddol raid fod yr elyniaeth a deimlid tuag at Antiochus Epiphanes. Yn lle llethu ei elynion, a ymddangosent mor ddiddym, efe a gyfododd wroniaid yn ei erbyn ei hunan, y rhai, gan gymmeryd y fantais ar ryfeloedd cartrefol ei olynwyr, o'r diwedd a lwyddasant i waredu eu pobl oddi tan yr iau Syriaidd: ac yn y flwyddyn c. c. 143, fe wnaed cydnabyddiaeth ffurfiol o'u hanymddibyniaeth:—"A phobl Israel a ddechreuasant ysgrifenu yn eu hysgrifeniadau a'u cyfnewidiadau, Y flwyddyn gyntaf i Simon yr archoffeiriad mawr, tywysog a chadben yr Iuddewon;" 1 *Mac.* xiii. 42; gan ei gyfrif megys cyfnod adenedigaeth eu cenedl.



Dar. 49. Antiochus Epiphanes.

Gellir ammheu pa un a gyflawnodd Antiochus Epiphanes yr holl ysgelerderau a briodolir iddo yn Ail Lyfr y Maccabeaid: ond wedi cychwyn ar gyfeiliorn, heb unrhyw egwyddor i'w arwain na'i attal, y mae yn ddiau ei fod yn ddigon galluog i chwanegu creulondeb at anwiredd, i ba radd bynag y cymhellid ef gan angenrheidiau y pryd. Hwyrach fod cyfnewidiad ymddygiadau y penaduriaid Syriaidd tuag at yr Iuddewon, o dynerwch a charedigrwydd i erlidigaeth greulawn, yr hyn a gymmerodd le dan deyrnasiad Antiochus Epiphanes, wedi cynnyrchu canlyniadau moesol pwysig a pharhaus. Efallai y buasai parhad yn yr ymddygiad caredig yn gwanhau gafael y grefydd Iuddewig ar y genedl; tra y mae yn sicr fod erlidigaeth wedi ennyn eu sel a sicrhau eu hundeb. Ni wnaeth adfyd Ierusalem namyn ei gwneyd yn fwy cyssegredig yn ngolwg ei dinasyddion absennol, y rhai a ymgystadleuent i wneyd i fyny y golud a gollasai trwy gyssegr-ysbeiliad Epiphanes. Yn 1 *Mac.* vi. 1—16, fe'n hysbysir fod y brenin hwn wedi marw yn fuan ar ol cynnygiad o'i eiddo i ysbeilio teml yn Elymais: yr un adroddiad a gymmeradwyid gan Josephus, yr hwn hefyd a chwanegai ddarfod iddo ei hanrheithio. Ond y mae Strabo a Justin yn priodoli yr hanes i Antiochus Fawr, ac yn dywedyd iddo golli ei fywyd yn yr ymdrech. Nid yw yr ychydig grybwyllion am yr amgylchiad a geir yn ngweithiau Polybius a Diodorus yn penderfynu dim, gan nad ydynt ond yn priodoli y weithred a'r amgylchiad i'r "brenin Antiochus."

Cawn ryw fraslun o weithrediadau breninoedd Syria, mewn heddwch ac mewn rhyfel, i lawr hyd at Antiochus Epiphanes, yn *Dan.* xi; o ba rai, Epiphanes a'i dad yw y ddau brif wrthddrych. Y mae yn rhyfedd fod rhai o esbonwyr y dyddiau diweddaf hyn mor anwybodus a dychymygol a chymhwyso y bennod grybwylledig at amgylchiadau y ddeunawfed ganrif o'r prifnod Cristionogol. Y mae rhyfeloedd a chyfammodau breninoedd Syria a'r Aipht, o'r flwyddyn 280 c. c. hyd 165 c. c., yn cael eu darlunio mor fanwl a chywir, yn *adn.* 6—36, fel y mae yn rhaid i bob sylwedydd craff a goleuedig, naill ai cydnabod eu bod yn rhagfynegiad eglur iawn, neu ddarfod eu hysgrifenu wedi i'r amgylchiadau gymmeryd lle.

Efallai na byddai yn anfuddiol i ni chwanegu darluniad byr o'r gwahanol benaduriaid o'r enw yma, y cyfarfyddwn â'u henwau yn ngweithiau awduron eglwysig.

1. Antiochus Soter: mab Seleucus Nicator. Cafodd yr enw *gwaredwr*, am iddo attal goresgyniad Asia gan y Gâliaid: amgylchiad y tybir fod cyfeiriad ato yn 2 *Mac.* viii. 20. Dechreuodd deyrnasu c. c. 276.

2. Antiochus Theus, neu y duw: oedd fab ac olynydd i Antiochus Soter. Efe a briododd Berenisia, merch Ptolomeus Philadelphus, brenin yr Aipht: ond ei wraig gyntaf, Laodice, gan ei chanfod ei hun yn cael ei diystyru, a wenwynodd Antiochus a Berenisia, a'u mab, yr hwn a fwriedid i etifeddu y freniniaeth. Wedi hyny, Laodice a fynodd gael cyhoeddi Seleucus Callinicus, ei mab ei hun o Antiochus, yn frenin Syria. Rhagfynegid yr amgylchiadau hyn gan Daniel (*Dan.* xi. 6).

3. Antiochus Fawr: mab Seleucus Callinicus. Efe a fu mewn rhyfel â Ptolomeus Philopator, brenin yr Aipht; gan yr hwn ei gorchfygwyd. Eto, ar farwolaeth Ptolomeus, efe a benderfynodd fynu yr Aipht i'w feddiant; ac yn y fan, efe a oresgynodd Cœle-Syria, Phœnicia, a Iudea. Y tiriogaethau hyn a ail gymmerwyd yn fuan gan Scopas, maeslywydd y fyddin Aiphtaidd; ond fe'i goresgynwyd drachefn gan Antiochus yn ebrwydd. Yr Iuddewon a ymostyngent i'w lywodraeth yn rhwydd: am ba achos y bu yntau yn dirion a charedig iawn wrthynt, gan ganiatau symiau mawr o arian tuag at draul eu haddoliad. Cafodd Antiochus ei orchfygu gan y Rhufeiniaid, tua'r flwyddyn o. b. 3815; ac yn mhen dwy flynedd wedi hyny, efe a'i fyddin a dorwyd ymaith yn ddisymmwth, pan yn ceisio anrheithio teml Baal, neu Belus, yn Elymais, a dwyn ymaith ei thrysorau, yn y flwyddyn c. c. 187. Gadawodd ar ei ol ddau fab, Seleucus Philopator, ac Antiochus Epiphanes.

4. Antiochus Epiphanes: mab ac olynydd Antiochus Fawr, ac erlidiwr nodedig ar yr Iuddewon. Efe a gyfrifir yn gyflredinol yn wrthddrych rhagfynegiadau Daniel (*Dan.* xi. 21—29). Geilw y prophwyd ef, yn *adn.* 21, "un dirmygus:" ac y mae Polibius, hanesydd cyfoesol, yn lle Epiphanes "yr ardderchog," yn ei alw Epiphanes "y gorphwyllog." Gosodai Antiochus ei galon ar feddiannu yr Aipht, yr hon oedd y pryd hyny dan lywodraeth ei gâr, Ptolomeus Philometor, mab ei chwaer, Cleopatra. Yn y flwyddyn o. b. 3833, efe a aeth i'r Aipht â byddin gref, ac a ddarostyngodd y rhan fwyaf o honi dan ei arglwyddiaeth: 2 *Mac.* v. 3—5. Yn y flwyddyn ganlynol, efe a ddychwelodd; a thra yr oedd yn gwarchae ar Alexandria, taenwyd chwedl dwyllodrus ar led, ei fod wedi ei ladd. Pan glywodd yr Iuddewon hyny, nis gallent ymattal rhag amlygu eu llawenydd; yr hyn a gyffrodd gynddaredd Antiochus mor fawr fel yr arweiniodd efe fyddin i Ierusalem, ac y parodd lofruddio torfeydd o'r trigolion; ac wedi gwneyd i Menelaus, yr archoffeiriad, ei arwain i'r cyssegr sancteiddiolaf, efe a ddug oddi yno lestri gwerthfawrocaf y deml. Ac o hyn allan, efe a ymddangosai megys yn benderfynol i ddifodi y genedl Iuddewig, gan gyhoeddi gwarafuniad iddynt i gyflawnu eu defodau crefyddol, a pheri dodi delw *Jupiter Olympus*

Digitized by Google

ar allor y deml. Ond Iudas Maccabæus a'i gwrthsafodd â gwrhydri digyffelyb, gan adfeddiannu y deml, ac adsefydlu addoliad ac aberthau Duw ynddi. Pan glybu Antiochus am lwyddiant Iudas, efe a lanwyd o gynddaredd, ac a dyngodd y gwnelai efe Ierusalem yn fedd i'r Iuddewon: ond ni fynai "yr Hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd" iddo fyned yn mhellach; ac felly, gan gwympo o'i gerbyd, efe a gafodd y fath niweidiau trwy y codwm fel y bu farw yn fuan trwy angerddol boenau corff a meddwl, yn y flwyddyn c. c. 164.

5. Antiochus Eupator: mab i Antiochus Epiphanes. Nid oedd efe namyn naw mlwydd oed pan fu farw ei dad. A Lysias, yr hwn a weinyddai y llywodraeth dros y brenin ieuanc, a ddug y rhyfel yn erbyn yr Iuddewon yn mlaen dros beth amser; ond o'r diwedd, efe a wnaeth ammodau heddwch â hwynt, ac a giliodd i Syria. Yn y cyfamser, Demetrius Soter, nai Antiochus Epiphanes, i'r hwn y perthynai y llywodraeth trwy gyfiawnder, wedi dianc o Rufain, a ddaeth i Syria, i'r hwn yr agorai trigolion Antiochia byrth y ddinas, gan roddi Lysias, a'r brenin ieuanc, Antiochus Eupator, i'w dwylaw, y rhai a roddwyd i farwolaeth trwy ei orchymyn, c. c. 162.

6. Antiochus Theus: mab Alexander Balas, brenin Syria. Twyllwr, yr hwn a gymmerai arno mai Antiochus Eupator oedd efe, ac a laddodd Demetrius Soter mewn brwydr. Llofruddiwyd ef yn fradwrus gan ei weinidog, Trypho, wedi teyrnasiad byr, yn y flwyddyn c. c. 139.

7. Antiochus Sidetes: mab i Demetrius Soter. Ar farwolaeth ei dad, efe a aeth i Syria, ac a ysgrifenodd at Simon, yr archoffeiriad, i ddymuno arno ei gynnorthwyo yn erbyn Trypho, yr hwn a drawsfeddiannai y deyrnas: 1 *Mac*. xv. 1—3. Efe a ymlidiodd ar ol Trypho, nes ei orfodi i'w ladd ei hun. Ar ol hyn, efe a gwerylodd â Simon, ac a gynnorthwyodd Ptolomeus i warchae ar Ierusalem, ac a lwyddodd i'w chymmeryd hi yn y flwyddyn c. c. 134. Yn mhen ychydig flyneddoedd ar ol hyn, efe a laddwyd yn y rhyfel â'r Persiaid, neu y Parthiaid, c. c. 130.

ANTIPAS. Gwel Herod.

1. ANTIPATER: Idumead o enedigaeth; tad Herod Fawr; yr hwn, ar gyfrif ei waedoliaeth a'i gyfoeth, oedd yn ŵr mawr yn Idumea. Efe a benodwyd, gan yr ymherawdwr Rhufeinig, yn brwyadur Iudea; a chan gymmeryd mantais ar ei swydd, efe a osododd Phasælus, ei fab hynaf, yn llywydd Ierusalem; a Herod, ei fab ieuengaf, yn llywydd Galilea. O'r diwedd, gwenwynwyd Antipater, trwy frad Malichus; yr hwn, wedi ei farwolaeth, a drawsfeddiannodd lywodraeth Ierusalem.

2. ANTIPATER: mab Herod Fawr, a Doris, ei wraig gyntaf. Efe a gynnygiodd wenwyno ei dad, yr hwn a'i carcharodd, ac wedi hyny a'i rhoddes i farwolaeth.

ANTIPATRIS: tref yn Palestina, yr hon gynt a elwid Caphar-saba, yn ol Josephus; ond Herod Fawr a'i galwodd Antipatris, er anrhydedd i'w dad, Antipater. Barna Buckingham mai yn y fan lle y mae Mukhalid yn awr y gorweddai yr hen Antipatris: ond y mae y Dr. Wilson yn anghytuno â'r golygiad hwn, gan ddadleu y rhaid bod ei gorsaf yn rhai o'r dyffrynoedd, yn agos i darddell y Nahr Arsuf. Yn y darluniad a roddir o'r fan gan Josephus, fe'n hysbysir fod y lle yn ddyfradwy a ffrwythlawn; bod afon yn amgylchu y ddinas, a bod llwyni o goed mawrion yn y gymmydogaeth. Efe a'n hysbysa hefyd fod Caphar-saba yn 120 ystâd o Ioppa, a bod Alexander Balas wedi gwneyd ffos rhwng y ddau le, a chaer a thyrau coed, er amddiffyniad yn erbyn dyfodiad Antiochus. Dywedir hefyd fod Antipatris yn gorwedd rhwng Cesarea a Lydia, chwech ar ugain o filltiroedd Rhufeinaidd o'r flaenaf: ac y mae yr amgylchiadau yma yn rhoddi ar ddeall i ni fod Antipatris yn nghanol gwastadedd, ac nid ger Arsuf, lle y tybiai y Croesgadwyr eu bod wedi ei chanfod.

Ar y ffordd o Ramlah i Nazareth, o'r tu gogleddol i Ras-el Ain, deuai Prokesch i le a elwid Kaffr-Saba, yn y flwyddyn 1831; ac y mae y cyflead a ddyru Brighaus i'r dref hon yn ei ddaiarlen, yn cyfateb yn bur agos i'r sefyllfa a briodolid i Antipatris yn yr *Itin. Hieros.* Yr athraw Raumer, gan sylwi ar hyn, a gasglai mai yr un ydoedd hon a'r hen Caphar-saba; ac y mae y dybiaeth yma wedi ei chadarnhau gan yr athraw Robinson, yn ei ymchwiliadau yn Palestina. Enw presennol y pentref, medd efe, yw Kefr Sâba.—Dygid Paul o Ierusalem i Antipatris, ar hyd nos, ar ei ffordd i Cesarea: *Act.* xxiii. 31.—(*Hynaf. Iudd.*, xiii. 15. 1; a xvi. 5. 2; *Rhyf. Iudd.*, i. 4. 7; *Itin. Hieros.*, td. 600; *Researches in Palestine*, iii. 46—48.)

ANTISABBATHIAID: plaid grefyddol ddiweddar, a wadant yr angenrheidrwydd o gadw y Sabbath. Eu prif resymau dros eu golygiad yw—1. Nad oedd y Sabbath Iuddewig o rwymedigaeth foesol, ond seremonïol yn unig; ac o ganlyniad, ei fod wedi ei ddifodi trwy ddyfodiad Crist. 2. Na phenodwyd unrhyw Sabbath arall i'w gadw gan Grist neu ei apostolion. 3. Nad oes un gair o son am *dori y Sabbath* o fewn y Testament Newydd. 4. Na roddwyd un gorchymyn i Adda, neu Noah, i gadw unrhyw Sabbath. 5. Gan hyny, er y gorchymynir i Gristionogion, nad esgeulusont eu cydgynnulliad eu hunain, eto na ddylent ystyried un dydd yn sancteiddiach na dyddiau ereill.—(*Buck's Theol. Dict.*)

ANTITACTIAID: math o Gnosticiaid, y rhai a addefent fod Duw, yr hwn a greodd y byd, yn dda a chyfiawn; ond, a haerent hefyd fod un o'i greaduriaid wedi creu drwg, a'n rhoddi ninnau ar waith i ddilyn y drwg, er ein cael i wrthwynebu y Creawdwr mawr; ac mai ein dyledswydd ni yw gwrthwynebu awdwr y drwg, er dial Duw ar ei elyn. Oddi ar hyn y deillia yr enw, ystyr yr hwn yw, *yr wyf yn gwrthwynebu.*

ANTONIA. Nid yw y Beibl yn son am yr amddiffynfa hon wrth ei henw priodol, ac eto y mae cyfeiriad ati: *Act.* xxi. 30—40. O'r amddiffynfa hon y daeth y milwyr i lawr, i achub yr apostol Paul o ddwylaw yr Iuddewon; ac ar y grisiau, oedd yn arwain o'r deml i fyny iddi, y cyfarchodd yr apostol y bobl.

Yr oedd yr amddiffynfa hon yn sefyll ar fryn neu graig, o ddeutu 50 cufydd o uchder, y tu gogleddol i'r deml yn Ierusalem. Yr oedd yn gadarn iawn, ac yn dra eang oddi mewn, ac yn cynnwys pob darpariaeth ar gyfer diogelwch a chysur y milwyr. Ar ei phedair congl yr oedd tyrau gorwych a thra uchel; yr oedd tri o honynt yn 50 cufydd, a'r pedwerydd yn 70 cufydd o uchder. O'r olaf hwn, gellid yn hawdd weled yr holl deml a'i

Digitized by Google

chynteddau. Yr oedd grisiau yn disgyn o honi i amgylchoedd y deml, fel y gallai y milwyr ddyfod i lawr yn ebrwydd i rwystro unrhyw ymrafael neu derfysg.

Adeiladwyd hi gan y Maccabeaid, ac ailadeiladwyd hi gan Herod.

Sonia Josephus yn aml am dani yn hanes rhyfeloedd yr Iuddewon.

ANTOSIANDRIAID: plaid o Lutheriaid tra manylaidd, y rhai a wrthwynebent athrawiaeth Osiander ar gyfiawnhad.—(*Rees's Cycl.*)

ANTUR: hwyrach, efallai, odid. "Ond *antur*, efe a dderbyn fy wyneb innau;" *Gen.* xxxii. 20. Hyny yw. *efallai*, neu *ond odid*, efe a dderbyn fy wyneb innau, ar ol derbyn fy anrheg.

ANTURIO: ymroddi, arfeiddio: 1 *Sam.* xiii. 12.

ANTHEM: math o gyfansoddiad cerddorol, ar eiriau cyssegredig, yn gyffredin. Bernir y tardda yr enw hwn o'r geiriau Groeg *antiphonia*, neu ynte, *anti* a *hymnos;* geiriau yn arwyddo gwrthfelodi, gwrthaloni, canu ar gylch, neu bob yn ail. Dywedir mai felly y cenid, gan gôr dyblyg, neu gan y gynnulleidfa yn ddau ddosbarth, yn ngwasanaeth yr eglwysi henafol. Hònai y tadau i'r dull hwn o ganu gael ei ddadguddio i'r tad apostolaidd Ignatius, mewn gweledigaeth, ac iddo ei sefydlu yn ymarferol yn ngwasanaeth yr eglwysi dwyreiniol. Eithr yr oedd y dull hwn o foliannu yr Arglwydd, eisoes, ac er ys oesoedd, mewn ymarferiad yn ngwasanaeth y deml, mewn rhan. [Gwel ALELIWIA.] Dywedir i'r tad Ambrose, archesgob Milan, sefydlu yr un dull o ganu yn yr eglwysi gorllewinol hefyd tua'r flwyddyn 374: ac y mae yn ymarferol yn Eglwys Sefydledig Lloegr, yn enwedig yr eglwysydd cadeiriol, yn bresennol hefyd.

Ar y cyntaf, nid oedd yr hyn a enwid *anthem* ddim amgen na chyfansoddiad byr a syml, cyffelyb i alawon *(psalm tune)*, neu ddygan *(chant)*, ar yr hwn y dygenid "salmau, hymnau, ac odlau ysbrydol," fel y dygenir salmau, neu ranau ereill o'r Ysgrythyr Lân, yn ngwasanaeth Eglwys Sefydledig Lloegr, yn awr. Eithr, yn yr oesoedd diweddaraf, mae y cyfansoddiad a enwir felly yn un celfyddgar a chywrain, ac ar eiriau arbenig o'r Ysgrythyr. Caniatâ ei ffurf a'i derfynau i awdwr ymollwng gyda'i athrylith i greu amrywiaeth o feddylddrychau, eu cynghadwyno a'u dysgyblu wrth farn a chwaeth, i ansawdd ac arddull ei destynau, a defnyddio holl adnoddau ei gelfyddyd i ardumio cyfansoddiad cywrain ac awdurol.

Cyfansoddir anthem i un, dau, tri, pedwar, &c., o leisiau. Dosberthir y cyfansoddiad i dri math; ac a enwir anthem adgorawl (*verse*), anthem gorawl ac adgorawl *(full, with verse)*, ac anthem gorawl *(full)*. Anthem adgorawl sydd gyfansoddiad unlleisiol *(solo)*, deuleisiol *(duetto)*, &c., ac a genir gan leisiau unigol. Anthem gorawl ac adgorawl sydd gyfansoddiad o gydganau *(choruses)*, gan mwyaf; y rhai a genir gan yr holl gôr, ond y dosraniadau adgorawl gan leisiau unigol. Ac anthem gorawl sydd gyfansoddiad o gydganau drwyddo, ac a genir gan yr holl gôr. Arwyddir y gwahanol ddosbarthiadau yna yn y cyfansoddiad â'r enwadau blaenorol.

Cyfansoddiad arferedig yn ngwasanaeth Eglwys Sefydledig Lloegr yn benaf yw yr anthem. Yn nechreuad teyrnasiad y frenines Elizabeth y dygwyd ef i ymarferiad ynddi gyntaf. Y pryd hwnw, nid oedd ond un ffurf iddo, sef y corawl. Dywedir mai Dr. Blow, celgerddor Iago II, a chwanegodd y ffurfiau ereill arno, ac a'u dygodd i ymarferiad yn y gwasanaeth. Cenir yr anthem ar ol darllen y drydedd llith; a rhaid i'r testynau fod yn ddyfynedig o'r rhanau hyny o'r Ysgrythyr Lân fydd i'w darllen yn ol trefn gwasanaeth y diwrnod. Nid yw yr anthem yn rhan o'r hyn, yn arbenig, a enwir "y gwasanaeth."

Mae gan y Cymry luosogrwydd o anthemau, hen a diweddar; ac y mae ychydig nifer o honynt yn anrhydedd i'r awen Gymreig. O ran ffurf, neu gynllun, gellir eu cryuhoi i'r corawl, ac adgorawl, yn gyffredin. Nid ydyw yr enw *anthem* yn briodol i gyfansoddiad ar gynllun tebyg i eiddo alawgan *(cantata)*, fel y mae rhai cyfansoddiadau Cymreig lled ddiweddar. Eithr gan y Seison y mae y nifer luosocaf o anthemau o un genedl adnabyddus, fe ddichon; a gellir ystyried anthemau Tallis, Birde, Farrant, Gibbons, Dr. Blow, Purcell, Wise, Clark, Dr. Croft, Dr. Greene, Dr. Boyce, a'u dilynwyr, yn gynlluniau dihafal honynt. Gwel CERDDORIAETH.

ANTHOLOGION, neu ANTHOLOGIUM: [Gr.]: enw llyfr a ddefnyddir yn Eglwys Groeg, wedi ei ranu yn ddeuddeng mis, yn cynnwys y gwasanaeth a genir trwy gydol y flwyddyn, ar gofwyliau ein Hiachawdwr, y Forwyn Fendigaid, a saint nodedig ereill. Y mae mewn dwy gyfrol: y gyntaf yn cynnwys chwe mis, o'r dydd cyntaf o Fedi hyd y dydd diweddaf o Chwefror; yr ail a gynnwys y chwe mis ereill. Gellir canfod, oddi wrth y llyfr hwn, fod Eglwys Groeg yn cadw y Pasc yr un pryd ag Eglwys Loegr, er ei bod yn amrywio oddi wrthi hi gyda golwg ar gyfrif amser wrth y lleuad. Gellir ystyried yr Anthologion megys Llyfr Gweddi Gyffredin Eglwys Groeg.—*(Buck's Theol. Dict.)*

ANTHONIAID, [*Anthonians*]: sefydliad mynachaidd gan St. Anthony, yr hwn a gasglodd y meudwyaid yn nghyd, ac a'u dysgodd gyntaf i fyw yn gymdeithasau—o ddeutu B. A. 324.

ANTHROPOMORPHIAETH: gair cyfansoddedig o *anthropos* (dyn), a *morphe* (ffurf). Defnyddir ef, mewn ystyr gyffredinol, am yr arddangosiadau a wneir o bethau dan ffurfiau neu briodoliaethau dyn: megys pan y priodolir iaith, teimladau, &c., dyn i geryg, planigion, anifeiliaid, &c.; hefyd, pan briodolir ffurfiau y byd gweledig i syniadau y rheswm, ac y gwisger pethau anadnabyddus ynddynt eu hunain mewn gwedd pethau sydd yn adnabyddus i ni. Felly, defnyddir y gair mewn duwinyddiaeth am yr arddangosiadau a wneir o Dduw fel un yn llenwi lle penodol, neu yn meddu ar ffurf benodol; megys pan y dywedir fod ganddo lygaid, dwylaw, traed, clustiau, calon, &c.; neu pan y dywedir ei fod yn gweithredu megys dyn—yn ystyried, yn ymgynghori, yn petruso, yn ymostwng, yn edifarhau, &c.; neu pan y priodolir teimladau dynol iddo, megys digofaint, eiddigedd, tristwch, tosturi, edifeirwch.

Nid yw yr arbenigrwydd neu y nodwedd hwn, yn arddull yr Ysgrythyr, yn cael ei gyfyngu i unrhyw gyfnod neillduol. Canfyddir ef yn y llyfrau diweddaraf, yn gystal a'r rhai boreuaf. Sylwa rhai fod y ffugr hwn i'w gael yn amlach yn Ysgrythyrau cyntaf y dadguddiad dwyfol: ac oddi ar hyn, rhoddant, fel rheswm am y neillduolrwydd yma yn eu harddull, fod yr ysgrifenwyr

Digitized by Google

sanctaidd yn cyfaddasu y dadguddiad at ffurfiau dynion o feddwl a llefaru y pryd hyny. "Cymmerwyd y dull hwn," medd Pye Smith, "fel yr un mwyaf cydweddol â theimladau bywiog dynolryw yn nghyfnodau boreuaf llenyddiaeth. Yr oedd y dull yr ymostyngodd ysbrydoliaeth i'w ddefnyddio mor helaeth yn yr Hen Destament yn fwy cyfaddas i ddynolryw yn yr oesoedd boreuaf." Y mae yn ddiddadl fod hyn yn wirionedd; ond nid yw yn cynnwys yr holl esboniad ar y ffaith; o blegid, pe felly, ni fuasid yn dysgwyl cyfarfod â'r nodwedd hwn ond yn arddull yr Ysgrythyrau boreuaf yn unig. Yn lle hyny, canfyddwn esamplau o hono yn yr holl Ysgrythyrau. Os cawn yn *Genesis* fod Duw yn "gorphwys" ar y seithfed dydd, cawn ef hefyd yn cael ei ddarlunio gan y diweddaf o brophwydi yr hen Destament fel yn cael ei "flino" gan ei bobl (*Mal.* ii. 17). Y mae yn wir y cyfarfyddwn â nifer fwy o'r cyfryw esamplau yn Llyfr Genesis nag yn un llyfr arall; ond nid gwahaniaeth arddull ydyw yr achos o hyny, ond yn hytrach y ffaith fod rhanau blaenaf y llyfr hwnw yn arddangos yn fwy neillduol weithrediadau Duw ei hunan; megys anadlu anadl einioes yn ffroenau y dyn—rhodio yn yr ardd gydag awel y dydd—gwneuthur i Adda a'i wraig beisiau crwyn—anadlu arogl esmwyth ar aberth Noah—disgyn i weled y ddinas a'r tŵr yn Babel—ac wedi hyny, disgyn i edrych ai yn ol gwaedd Sodom a Gomorrah y gwnaethai eu trigolion—ymddangos yn holl briodoliaethau dynoliaeth i Abraham—ac ymdrechu yn gorfforol â Iacob. Eto, canfyddwn yr un dullwedd trwy yr oll o'r Hen Destament, ac mewn cyfartaledd cyffelyb, os ystyrir y gwahaniaeth sydd yn bod rhwng y materion a'r achlysuron. Yn y Testament Newydd hefyd, ceir fod pob gallu a theimlad corfforol a meddyliol—cynneddfau, ansoddau, ac aelodau dyn—yn cael eu priodoli i Dduw.

Y mae y nodwedd hwn yn yr arddull ysgrythyrol wedi arwain i gasgliadau gwahanol yn meddyliau gwahanol ddarllenwyr. Ystyria yr ammheuwr hyn yn brawf digonol fod y Beibl wedi tarddu o ddyfais ddynol. Gan fod cymmaint o'r dyn yn ei ddullwedd, dadleua mai o ddyn yn hollol y daeth, ac nad yw yn cyfranogi mwy o ysbrydoliaeth uwchnaturiol na gweithiau ereill; nad yw yn cynnwys nid yn unig y syniadau nad ellir eu cael trwy synwyriaeth ac adfyfyriaeth, ond hefyd y rhai nad ydynt yn seiliedig ar y dirnadaethau cyfyngaf a mwyaf plentynaidd o'r Duwdod. Haera mai y syniad ysgrythyrol am Dduw ydyw y syniad am dano fel penaeth daiarol—penaeth anghymharol anrhydeddus yn wir, yr hwn sydd yn preswylio goruwch y nefoedd weledig, o'r hwn le y mae yn anfon allan ei genadon nefol, a'r hwn y mae ei ofal a'i bryder yn glymedig wrth y ddaiar, yr hon nid yw amgen nag ysmotyn yn y bydyssawd diderfyn. Edrycha yr ammheuwr ar y fath ddysgrifiadau gyda yr un teimlad o resyni ag y "gellid meddwl yr edrychasai Socrates neu Cicero ar farn eu cydwladwyr, y rhai a dybient mai cartref eu duwiau oedd copa Olympus."

Mewn atebiad i hyn, dywed rhai, fel y crybwyllwyd eisoes, fod anthropomorphiaeth yr Ysgrythyr yn esampl o ymostyngiad dwyfol at y radd fechan o wybodaeth a dirnadaeth a feddiennid gan ddynolryw yn y cynoesoedd. Haera yr ysgrifenwyr hyn na buasai drychfeddyliau mwy dansoddol o'r Duwdod yn ddealladwy yn mabandod ac anaddfedrwydd y galluoedd dynol yn yr oesoedd boreuaf. Oddi yma y tarddodd y rheol hono mewn eglurhadaeth; sef, Pa beth bynag y mae yr Ysgrythyr yn ei briodoli i Dduw yn ol dull dynol, ein bod ni, y rhai a gyrhaeddasom ddirnadaethau mwy dyrchafedig o barth iddo, i'w deall mewn dull deallawl ac ysbrydol. Yn ol y rheol hon, pan ddarllenir fod Duw yn dywedyd, "Bydded goleuni," nid ydys i ddeall unrhyw orchymyn clywadwy, ond yn unig penderfyniad yr ewyllys ddwyfol. Yn unol â hyn yr ysgrifena Tertullian:—"Y mae teimladau dwyfol," meddai, "yn cael eu priodoli i'r Duwdod trwy gyfrwng ffugrau yn cael eu benthyca oddi wrth agweddau dynol, nid fel pe bai efe yn feddiannol ar ansoddau dynol:—ond pan ddywedir fod ganddo lygaid, yr hyn a feddylir yw, ei fod yn gweled; hyny yw, yn gwybod pob peth: pan ddywedir fod ganddo glustiau, yr hyn a feddylir yw, ei fod yn clywed pob peth. Y mae lleferydd yn dynodi ei ewyllys; ffroenau, ei ganfyddiad o weddi; dwylaw yn arwyddo creadigaeth (gallu creawl); breichiau, ei allu; traed, ei anfeidroldeb. O blegid nid oes ynddo ef ranau, ac nid yw yn cyflawnu un gwaith sydd yn galw am danynt; ond gwna bob peth trwy weithrediad ei ewyllys yn unig. Pa fodd y mae arno ef angen am lygaid, yr hwn ydyw y Goleuni ei hunan? neu draed, yr hwn sydd hollbresennol? pa angen sydd arno ef am ddwylaw, yr hwn yw Crëwr dystaw pob peth? neu am dafod, meddwl yr hwn sydd yn orchymyn? Mae y rhanau hyn yn rheidiol i ddynion, ond nid i Dduw, am y byddai eu cynghorion hwynt yn aneffeithiol oddi eithr fod eu meddyliau yn rhoddi eu haelodau ar waith; ond y mae gweithrediadau Duw yn dilyn ei ewyllysiad, heb un ymdrech yn angenrheidiol tuag at hyny."

Yn gymmaint nas gall dynion fyned tu hwnt i'w cylch eu hunain, a'r pethau a'u hamgylchynant, nid oedd yn bosibl dwyn i gyrhaedd eu hamgyffred unrhyw arddangosiad o natur oruchel y Duwdod mewn un dull arall heb law y dull hwn; sef ei ddwyn i sylw yn llefaru fel pe buasai fod dynol, ac fel pe buasai yn meddwl, yn teimlo, ac yn gweithredu fel dyn. "Trwy y tebygolrwydd neu y cyfatebiaeth sydd rhwng y natur ddynol a dwyfol yn unig y mae yn bosibl i ddyn adnabod Duw, a'i fwynhau."—*Syr W. Hamilton.*

Yr ydym eisoes wedi nodi un casgliad ag y mae anthropomorphiaeth yr Ysgrythyrau wedi bod yn achlysur i arwain rhai meddyliau iddo—sef gwadu dwyfol darddiad yr Ysgrythyrau. Y mae yn mhellach un casgliad arall ag y dylid ei nodi —sef tybiaeth y blaid a elwid wrth enw y ffugr hwn—yr Anthropomorphiaid. Meddyliai y rhai hyn fod y natur ddwyfol yn gorfforawl a gweladwy, a'i bod yn feddiannol ar ffurf ddynol. Tybient fod yr ymadroddion, "gwedd yr Arglwydd" (*Num.* xii. 8); a bod dyn wedi ei wneuthur ar "lun a delw" Duw, yn gwneyd y casgliad hwn yn angenrheidiol. Ond y mae y syniad hwn yn afresymol yn gystal ag yn anysgrythyrol; ac y mae yn rhyfedd fod neb â chanddo y gradd lleiaf o ddealltwriaeth, wedi gallu coledd y syniad, a cheisio ei bleidio âg ymadroddion ysgrythyrol. Y mae y gwirionedd o anfeidroldeb Dduw, i'r hwn y mae rheswm a dadguddiad yn dwyn tystiolaeth, yn gwneyd fod yn anmhosibl fod ffurf yn perthyn iddo. Byddai dywedyd fod ffurf ar anfeidroldeb yn wrthddywediad. Y mae ffurf yn rhagdybied bod rhanau, a bod cyfartaledd rhwng y rhanau hyny a'u gilydd; ond byddai haeru hyn am Fod diderfyn yn gwbl anghydweddol â'i natur. Y mae yr Iuddewon, hyd y dydd hwn, yn cyffesu yn eu haddoliad cyhoeddus, nad yw y

Digitized by Google

Duwdod yn sylweddol, ac nad oes un nodwedd corfforol yn perthyn iddo. Felly y dywedai un o'u hysgrifenwyr mwyaf dysgedig gynt, "Nid oes gan Dduw ffurf ddynol, ac nid yw y corff dynol yn debyg iddo" [*Philo de Opificio Mundi*]. Dywed yn mhellach, "Ni leferir yn briodol am Dduw, pan ddywedir ei fod yn feddiannol ar y pethau sydd ynom ni; ond yn hyny, iselir geiriau ac enwau, er mwyn cynnorthwyo ein gwendid." Yr un modd y barna paganiaid deallgar am y Duwdod. Arferant ymadroddion sydd yn dangos eu bod yn meddwl am dano fel ysbryd pur a pherffaith. Dywed Xenophanes fel hyn:—"Y mae un Duw mawr yn mhlith duwiau a dynion, yr hwn nid yw yn debyg i farwolion mewn na chorff na meddwl." Æschylus hefyd a ysgrifena, gan ddywedyd, "Gwahaniaetha Dduw oddi wrth farwolion, ac na feddwl dy fod dy hun, a thi yn gnawd, yn debyg iddo Ef." A dywed Possidonius "Duw sydd Ysbryd tawel, deallgar, heb fod yn feddiannol ar un ffurf." Gwelir oddi wrth hyn fod yr athrawiaeth o ysbrydolrwydd Duw yn cael ei myntumio, nid yn unig gan Gristionogion, ond hyd yn oed gan Iuddewon a phaganiaid. Felly, y mae yn wirionedd ag y buasai natur a rheswm, yn annibynol ar ddadguddiad, yn ein harwain i wybodaeth o hono.

Pan y mae ansoddau dynol yn cael eu priodoli i Dduw, y mae rhyw ymadrodd neu ymadroddion yn y lleoedd hyny yn gyffredin, sydd yn dangos mai iaith ffugrol a arferir. Pan leferir am ei fraich, dywedir mai nid braich o gnawd ydyw (2 *Cron*. xxxii. 8); ac am ei lygaid, mai nid llygaid o gnawd ydynt, ac mai nid fel y gwel dyn y gwel Efe (*Iob* x. 4). Pan y dywedir mai trwy "fys Duw" yr oedd yr Iesu yn bwrw allan gythreuliaid, esbonir yr aralleg trwy ddyweyd mai trwy Ysbryd Duw yr oedd yn eu bwrw allan (*Mat*. xii. 38; a *Luc* xi. 20). Yr un modd, pan gyfrifir teimladau dynol i Dduw, megys edifeirwch, ymofidiad, digllonedd, ymddial, eiddigedd, &c., nid ydym i feddwl eu bod ynddo Ef fel y maent mewn creadur. Mae yn anghydweddol âg anfeidroldeb, anghyfnewidioldeb, holldddigonolrwydd, a dedwyddwch pur Iehofah, i feddwl eu bod yn perthyn iddo, ac yn dylanwadu arno, fel y maent ar ddyn. Gallai na ddylid meddwl fod Duw yn amddifad o deimladau; ond y mae y rhai hyny yn deimladau Bod perffaith ac anfeidrol. Pa deimladau bynag a briodolir iddo, os gwelir bod y cyfryw yn gydweddol â pherffeithiau ei natur, gellir credu ei fod Ef yn eu meddu yn wirioneddol; ond y rhai a gyfrifir iddo—ymofidiad, er anghraifft—y rhai, pe byddai yn feddiannol arnynt, yn ol ein syniad ni am danynt, fyddent yn anghydweddol â'i berffeithrwydd, yr ydym yn cael ein gorfodi i'w rhestru yn nosbarth yr ymadroddion cyfaddasedig at ein hamgyffredion gweiniaid ni. Fel y mae meddyliau a ffyrdd Duw yn anfeidrol uwch law yr eiddom ni, yr un modd y mae ei deimladau uwch law teimladau bodau meidrol a phechadurus; ac am hyny, yn gyfryw nas gallwn iawn ddirnad am danynt. Yn hyn, fel yn mhob peth perthynol iddo, y mae ein Duw yn annherfynol ac anamgyffredadwy.

Pan gyfrifir nwydau a theimladau ydynt yn arwyddo anmherffeithrwydd i Iehofah, y mae ganddynt ystyr allegawl, a chyfeiriad at weithredoedd allanol, a goruchwyliaethau yn cyfateb i weithrediadau dynion pan ddylanwadir arnynt gan y cyfryw deimladau. Byddai synied fod y teimladau hyn yn Nuw, yn gyffelyb i'r un teimladau yn y dyn, fel yr awgrymwyd o'r blaen, yn milwrio yn erbyn y tystiolaethau ysgrythyrol am Dduw a'i natur. 1. Y mae teimladau, ynddynt eu hunain, yn gyssylltiedig âg ewyllysiad anmherffaith—y maent yn gorwedd rhwng bwriad y meddwl, a chwblhad y bwriad hwnw. 2. Maent yn ymddibynu ar y pethau allanol a'u cynnyrchasant. 3. Maent yn cael eu dilyn yn angenrheidiol gan ansefydlogrwydd a chyfnewidiolrwydd. 4. Y mae amryw o honynt, ïe, amryw o'r rhai a gyfrifir i Dduw, yn dynodi analluogrwydd. Mae y pethau hyn yn dangos, gan hyny, fod yn rhaid deall amryw o honynt, yn eu perthynas â Duw, yn yr ystyr allegawl a chyffelybiaethol.

Er fod digllonedd yn cael ei briodoli i Dduw (*Num*. xxv. 4; *Deut*. xiii. 17, &c.), eto, nid oes i ni feddwl ei fod ynddo yn ol ein syniad ni am ddigllonedd; ond arwydda ei gyfiawnder dialeddol, yn nghyd âg effeithiau ofnadwy y cyfiawnder hwnw. Dywedir fod Duw yn edifarhau (*Gen*. vi. 4; *Exod*. xxxii. 14; *Deut*. xxx. 9): dywedir yn 1 *Sam*. xv. 29, "fod yn edifar ar Dduw wneuthur Saul yn frenin;" ac mewn adnod arall, o'r un bennod, dywedir, "Cadernid Israel ni ddywed gelwydd, ac nid edifarha:" ac y mae y ddwy dystiolaeth yn cyfyngu eu gilydd, ac yn egluro y naill y llall. "Wrth fod Duw yn edifarhau," medd Awstin, "y meddylir, cyfnewidiad mewn ymddygiadau: o blegid fel y mae dyn, pan y mae yn edifarhau, yn gofidio o herwydd y bai a gyflawnodd, felly y mae Duw, pan y mae yn cyfnewid rhywbeth yn annysgwyliadwy—hyny yw, y tu hwnt i ddysgwyliad dyn—yn cael ei osod allan mewn dull ffugrol fel wedi edifarhau am y gosp, pan y mae dyn yn edifarhau am ei fai." Felly hefyd, pan briodolir anwybodaeth i Dduw (*Gen*. iv. 9.), y mae Awstin yn sylwi, "Y mae Efe yn holi (Cain), nid fel pe yn wir anwybodus, ond fel y mae barnwr yn holi carcharor." Yr un modd y gellir dyweyd am yr adnodau sydd yn cyfrif ofn (*Deut*. xxxii. 27) i'r Arglwydd, a'i fod yn chwerthin, ac yn anghofio. Am *gariad*, *trugaredd*, a *gras*, gallwn ddywedyd yn wahanol: y maent hwy yn mhlith ei berffeithiau goruchel, ac yn hynod yn eu plith; y maent yn hanfodol i'w berffeithrwydd—yn ei wneyd yn Fod anfeidrol ddedwydd iddo ei hun, ac anfeidrol hawddgar i'w greadur.—(*Kitto's Cyclopædia: Neander's Church Hist.; Dr. Owen's Vindiciæ Evangelicæ.*)

**ANUB**, [עָנוּב]: mab Cos, o hiliogaeth Iudah: 1 *Cron*. iv. 8.

**ANUDON—IAETH**: gau lw, cam lw, llw twyllodrus.

"Affan genau *anudonawl*."—*Diar.*

Y mae y gair Groeg, ἐπιορκέω, a gyfieithir *tyngu anudon*, yn *Mat*. v. 33, ac yn 1 *Tim*. i. 10, yn arwyddo tyngu llw celwyddog; cymmeryd llw i ddyweyd y gwir, ac eto dyweyd celwydd; neu, beidio â chyflawnu llw. Gosodir anudonwyr allan yn yr Ysgrythyrau yn euog o'r pechod erchyllaf, ac yn agored i'r farn drymaf: *Lef*. vi. 3; xix. 12; *Ier*. vii. 9; xxviii. 10; *Mal*. iii. 5; *Mat*. v. 33; 1 *Tim*. i. 10. Y mae y cyfryw yn cyfeirio at hollwybodaeth Duw am wirionedd yr hyn a dystiolaethir ganddynt; ac er hyny, dywedant yr hyn y gwyddant hwy eu hunain ei fod yn gelwydd. Gwel Llw.

Nid yw yn ymddangos, yn ol hen ddeddfau Prydain, yr edrychid ar neb yn agored i dyngu anudon ond rheithwyr, cyn dyddiau Harri VIII. Y rheswm a roddir am hyn yw, nad oedd rheithwyr ar y cyntaf yn cael eu hystyried ond tystion

Digitized by Google

yn cael eu tyngu i ddywedyd y gwir, yn ol eu gwybodaeth eu hunain o ffeithiau ac amgylchiadau yr achos a fyddai dan sylw y llys; a phan y rhoddent farn wyrog, yr oedd hyny yn cael ei gyfrif yn dyngu anudon. Wedi sefydlu fod i dystion o'r naill ochr a'r llall gael eu galw a'u tyngu, a bod y rheithwyr i roddi eu barn yn ol eu tystiolaethau hwy, edrychir ar unrhyw berson a dderbynio lw gan swyddog awdurdodedig, ac a dystio gelwydd yn wirfoddol am unrhyw ffaith a fyddo yn dwyn perthynas â'r pwnc o dan ymchwiliad, yn euog o dyngu anudon; a chospir ef, trwy ei ddirwyo, neu ei garcharu, yn ol ei ymddygiad. Gynt, gosodid y neb a fyddai yn euog o'r camwedd hwn yn y gwddf-gyffion *(pillory)*, a difreinid ef o hawl i roddi ei dystiolaeth mewn llys gwladol byth mwy.—*(Cycl. of Polit. Know.*, d.g. *Perjury.)*

ANWADAL: ansefydlog, anwastad. "Eneidiau *anwadal;*" sef eneidiau heb eu cadarnhau a'u sefydlu yn y gwirionedd, o ran eu cred; ac heb eu cadarnhau yn eu meddwl yn llwybrau gorchymynion Duw, o ran eu hufudd-dod a'u rhodiad: ac o achos eu hanwadalwch, yn hawdd iddynt gael eu llithio gan athrawon cyfeiliornus oddi wrth y gwirionedd, ac uniawn lwybrau Duw: 2 *Pedr* ii. 14.

ANWE, [*gwe*]: arwe, dafn, bwrw; yr edafedd a fwrir ar draws yr ystôf wrth wau. "Pa un bynag ai yn yr ystôf, ai yn yr anwe;" *Lef.* xiii. 48, 49, &c.

ANWEDDAIDD, [*an—gwedd*]: afreolaidd; anweddus, anhardd, gwrthun, brwnt; anghymhwys. "*Anweddaidd* yw i wragedd lefaru yn yr eglwys;" 1 *Cor.* xiv. 34, 35: hyny yw, anmhriodol, cywilyddus, brwnt *(pen.* xi. 6), croes i'r gostyngeiddrwydd a'r gwylder sydd i fod yn addurn ar y rhyw. Y mae y rheol yn eglur, yn benderfynol, a chyffredinol; ac nis gellir ei throseddu heb ganlyniadau gofidus. Ni pherthyn i'r gwragedd athrawiaethu, neu ddysgu, trwy bregethu, darlithio, areithio, neu holi, a llywyddu, yn gyhoeddus yn y gynnulleidfa. Gwaharddwyd iddynt weddïo yn bennoeth, yn 1 *Cor.* xi. 5, pan y byddent dan ddylanwadau ysbrydoliaeth; ond yma, ac yn 1 *Tim.* ii. 8—15, gwelir mai y rheol gyffredinol a sefydlog yw, fod i'r gwŷr, ac nid y gwragedd, weddïo yn mhob man lle y cyflawnir gwasanaeth crefyddol cyhoeddus: yn y golygiad hwn, trefnwyd i'r wraig sefyllfa is. 1. Y mae trefn creadigaeth dynolryw yn dangos hyn: "Adda a luniwyd yn gyntaf, yna Efa;" ac "Nid yw y gŵr o'r wraig, ond y wraig o'r gŵr." 2. Y mae hyn yn ganlyniad y trosedd cyntaf: "Nid Adda a dwyllwyd; eithr y wraig, wedi ei thwyllo, oedd yn y camwedd." 3. Fel o dan y gyfraith, felly o dan yr efengyl—y gwŷr a ddewisir i swyddau cyhoeddus yn yr eglwys. Ni roddir pwys a chyfrifoldeb y gwaith ar y wraig; "y llestr gwanaf" ydyw hi; i'w pharchu, ac nid i'w llwytho â gorchwylion trymion, nad oes ganddi nerth i'w dwyn. Ond, er fod naturiaeth a chrefydd, yn y pethau hyn, yn gosod y wraig dan radd o ddarostyngiad, eto, ar ystyriaethau ereill, y mae y wraig yn gyfartal, ac mewn rhai pethau yn rhagori ar y gŵr. 1af, Y mae eu hawl yn y Gwaredwr yn gyfartal—y naill ryw fel y llall: "Nid yw na'r gŵr heb y wraig, na'r wraig heb y gŵr, yn yr Arglwydd." 2il, Yn nghnawdoliad y Messiah, rhoddwyd anrhydedd ar y wraig uwch law y gŵr: daeth Efe i'r byd "wedi ei wneuthur o wraig;" *Gal.* iv. 4: yr *Had* a addawwyd iddi *hi* ydoedd: *Gen.* iii. 15. 3ydd, Y mae y rhieni, y tad a'r fam, yn meddu yr un fath hawl yn serchiadau ac ufudd-dod eu plant: "Anrhydedda dy dad a'th fam." 4ydd, Yn addysg y plant, y mae gan y fam fanteision a chyfleusderau nad yw y tad yn eu meddu i'r un graddau; ac y mae addysg y fam, yn fynych, yn gyfraith nad ymadewir â hi: *Diar.* i. 8. 5ed, Mewn gweinyddu ymgeledd i weision yr Arglwydd, ac mewn tosturi a thynerwch at y rhai cystuddiol, y mae y gwragedd yn tra rhagori ar y gwŷr. Gwelir hyn yn hynod yn ymddygiadau y gwragedd sanctaidd oedd yn gweini i'r Arglwydd Iesu, ac i'w apostolion: *Luc* viii. 3, 4; 1 *Tim.* v. 10. 6ed, Y mae yn ddigon gweddaidd i wragedd lefaru, dysgu, a gweddïo, mewn cyfarfodydd o'u rhyw eu hunain, ac yn yr ystafell gyda'u plant; yn y dosbarth yn yr Ysgol Sabbathol, a thrwy y wasg. 7fed, Yn yr adgyfodiad, bydd y gwahaniaeth rhyw wedi ei ddileu; a'r gwragedd, fel y gwŷr, wedi eu dyrchafu yn gydstâd â'r angelion: *Luc* xx. 34—36. Y mae yr ystyriaethau hyn yn tueddu i'w calonogi yn eu sefyllfa bresennol o ddarostyngiad.

ANWELEDIG: cuddiedig, yr hyn nas canfyddir. Nis gellir gweled dim â llygad o gnawd, ond yr hyn sydd yn gyfansoddedig o sylwedd *(matter)*; eithr y mae meddwl dyn, trwy ffydd yn nhystiolaeth gair Duw, yn gallu dirnad, canfod, a chymdeithasu â phethau anweledig. "Efe a ymwrolodd," medd yr apostol, am Moses, "fel un yn gweled yr *anweledig;*" *Heb.* xi. 27. Y mae y Duw yr oedd yn ymddiried ynddo ac yn derbyn ei dystiolaeth, yn wrthddrych nas "gwelodd neb erioed;" *Exod.* xxxiii. 20; *Ioan* i. 18: ac yr oedd y pethau oedd yn gynnwysedig yn ei addewid yn anweledig; eto, yr oeddynt, trwy ffydd, yn cael y fath ddylanwad ar ei feddwl, nes peri iddo adael yr Aipht, "heb ofni llid y brenin;" *Exod.* x. 28, 29; xiii. 17, 18. Y mae Duw, yn ei weithredoedd, yn amlygu ei *anweledig bethau*, "sef ei dragwyddol allu ef, a'i Dduwdod;" *Rhuf.* i. 20. Y mae Crist yn ddelw y Duw anweledig, yn wir lun ei berson Ef; fel, mai yr hwn a'i gwelodd ef, a welodd y Tad: *Ioan* xiv. 7; 2 *Cor.* iv. 4, 5; *Col.* i. 15.

ANWELEDIGION, [*an—gweledig*]: enw gwahaniaethol a roddwyd i ddilynwyr Osiander, Flacius, Illuricus, Swenkfeld, &c. (duwinyddion yn yr Almaen, yn yr unfed ganrif ar bymtheg), am y gwadent fod yr eglwys yn wastadol yn weledig.—[*Buck.*] "Creawdwr nef a daiar, ac ollweledigion ac *anweledigion;*" sef bodau ysbrydol, angelion, &c.—[*Credo Nicea.*] Arferwyd y gair hefyd gan bobl ofergoelus am ryw fodau dychymygol, *y tylwyth anweledig*, "cenedl luosog, mawr eu cyfoeth, yn blith-dra-phlith gyda dynion, heb fod neb yn eu canfod, ond y rhai a ymroddant i fyned i'w cymdeithas."—*(Drych yr Amseroedd*, td. 151, arg. 1af.)

ANWYBOD—AETH—US, [*an-gwybod*]: diffyg gwybodaeth neu addysg; anhyddysgedd. Y mae Mr. Locke yn sylwi, mai achosion anwybodaeth yw y tri hyn, yn benaf:—1. Diffyg syniadau. 2. Diffyg cyssylltiad canfyddadwy rhwng y syniadau a feddwn. 3. Diffyg chwilio a phrofi ein syniadau. Mewn perthynas i grefydd, y mae anwybodaeth yn cael ei wahaniaethu i dri math,

Digitized by Google

1. Anwybodaeth *anorfodadwy*, yn mha un ni feddyr ewyllys ran. Y mae yn sarhad ar gyfiawnder i dybied y bydd iddo gospi dynion o blegid eu bod yn anwybodus o bethau yr oeddynt yn naturiol yn analluog i'w gwybod. 2. Y mae anwybodaeth *gwirfoddol* a *gwrthnysig*. Y cyfryw anwybodaeth, yn lle ei esgusodi, sydd yn gwneuthur troseddau dyn yn waeth. 3. Math o anwybodaeth nad yw yn hollol wirfoddol, nac yn llwyr anorfodadwy; megys pan fyddo gan ddyn foddion gwybodaeth, ac heb eu defnyddio. [Gwel GWYBODAETH].—*Buck*.

1af. Y mae anwybodaeth dyn wrth natur yn brawf amlwg ei fod yn greadur syrthiedig. Cafodd dyn ei greu ar ddelw Duw mewn gwybodaeth; ond trwy bechod, collodd ddelw ei Greawdwr—aeth yn anwybodus am dano, ac yn elynol iddo. Trwy golli gwybodaeth o Dduw, aeth yn anwybodus am bob peth arall perthynol i'w ddedwyddwch: *Preg.* vii. 29; *Rhuf.* i 28; *Iudas* 10; *Eph.* iv. 18. 2il. Y mae anwybodaeth dynion o Dduw yn wirfoddol, ac am hyny yn anesgusodol: 1 *Pedr* iii. 5: "Nid cymmeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth." 3ydd. Y mae cyflwr o anwybodaeth yn beryglus a dinystriol: *Hos.* iv. 6. Pan yn rhodio mewn tywyllwch, ni ŵyr dyn i ba le y mae yn myned, nac wrth ba beth y tramgwydda, na thros ba ddibyn y syrth: *Ioan* xi. 9, 10; xii. 35: felly mewn anwybodaeth, tywyllwch moesol, y mae dyn yn syrthio i bob amryfusedd, cyfeiliornadau, a phechodau: *Act.* xvi. 29; *Mat.* xxii. 29; *Ioan* xv. 21; 1 *Thes.* iv. 5; 2 *Thes.* i. 8. 4ydd. Crist, Haul Cyfiawnder, yw goleuni y byd: *Ioan* i. 4, 5; iii. 19; viii. 12. Y mae gwybodaeth yr efengyl yn gwasgaru anwybodaeth y byd, fel y mae y nos yn cilio o flaen y dydd: *Luc* i. 78, 79; 2 *Cor.* iv. 6: yn agoryd llygaid dynion, ac yn eu troi o dywyllwch i oleuni: *Act.* xxvi. 18. 5ed. Gan fod Duw wedi rhoddi i ni foddion gwybodaeth, dylem eu defnyddio, ac ymdrechu, hyd y byddo modd, i'w gosod o fewn cyrhaedd pob gradd a dosbarth o ddynion: *Heb.* v. 2; 2 *Tim.* ii. 24—26; *Act.* xvii. 23. 6ed. Y mae ei anwybodaeth wedi darostwng dyn yn ddirfawr; ond y mae gwybodaeth achubol yn ei adnewyddu ar ddelw yr Hwn a'i creodd: *Col.* iii. 10. Ac fel y mae anwybodaeth yn arwain i drueni amserol a thragwyddol, felly y mae y rhai a oleuir drwy y gwirionedd yn cynnyddu mewn gwybodaeth o Dduw a phethau mawr yr efengyl, a bydd eu dedwyddwch yn y nefoedd yn gyflwr o wybodaeth berffeithiedig: 1 *Cor.* xiii. 9—12. Am bechodau o anwybod, gwel *Lef.* iv. 2; *Num.* xv. 22. Gwel hefyd *Act.* iii. 17; xiii. 27; *Luc* xxii. 34; 1 *Cor.* ii. 8; 1 *Tim.* i. 13; *Salm* xix. 12.

**ANWYDAU**, [*anwyd*]: yn ei ystyr gyffredinol, y mae yn arwyddo teimladau y meddwl, neu y tymmerau, fel y maent yn cael eu hachlysuro gan achosion allanol: nwydau. Arferir y gair *nwyd*, i ddysgrifio unrhyw ysgogiad cynhyrfus, neu derfysg yn y meddwl; cyffro, dyhewyd, brwdfrydedd, neu hyd yn oed tawelwch, trwy yr hyn y gall dyn orchfygu neu lywodraethu ei flysiau.

Am *nifer* yr anwydau, y mae Le Brun yn eu gwneuthur yn nghylch ugain:—(1.) ystyriaeth; (2.) rhyfeddod; (3.) syndod; (4.) parchedigaeth; (5.) gorfoledd; (6.) llawenydd, gyda thawelwch; (7.) dymuniad; (8.) chwerthin; (9.) poen llym; (10.) poenau, corfforol yn unig; (11.) tristwch; (12.) wylofain; (13.) tosturi; (14.) diystyrwch; (15.) arswyd; (16.) dychryn; (17.) dig; (18.) casineb; (19.) eiddigedd; (20.) anobaith. Gellir arddangos y rhai hyn oll ar lèn gyda phwyntil. Y mae rhai yn gwneuthur eu nifer yn fwy, gan chwanegu ffieiddiad, cariad, cyfymgais, &c.; ond gellir ystyried y rhai hyn fel yn gynnwysedig yn y rhestr uchod. Rhenir hwynt gan rai yn anwydau cyhoedd a neillduedig, priodol ac anmhriodol, cymdeithasol a hunanol.

Y mae *tarddiad* yr holl anwydau oddi wrth argraffiadau a wneir ar y synwyrau; oddi wrth weithrediadau rheswm, trwy yr hyn y mae da neu ddrwg yn cael ei ragweled; ac oddi wrth adgofion y cof.

*Gwrthddrychau* yr anwydau, gan mwyaf, ydynt bethau teimladwy, ar gyfrif eu perthynas agos â'r corff: ond y mae gwrthddrychau o natur ysbrydol, er eu bod yn anweledig, yn meddu tuedd i gyffroi yr anwydau; megys cariad Duw, nefoedd, uffern, tragwyddoldeb, &c.

Am *ddiniweidrwydd* yr anwydau:—ynddynt eu hunain, nid ydynt na da na drwg, ond yn ol y *defnydd* da neu ddrwg a wneir o honynt, ac i'r graddau y cyfodant.

Y mae *defnyddioldeb* yr anwydau o fawr bwys, ac wedi ei roddi yn fath o ysgogydd, neu hydwythedd, i wellau syrthni y rhan gorfforol. Y maent wedi cenedlu prydyddiaeth, gwyddoniaeth, darluniadaeth, cerddoriaeth, a phob celfyddyd ddiwylliedig sydd yn gweinyddu er difyrwch; ac nid ydynt yn llai gwasanaethgar i achos crefydd a gwirionedd. "Wedi eu sancteiddio," medd y Dr. Watts, "y maent yn gosod galluoedd yr enaid ar waith mewn ymchwiliad am y gwirionedd dwyfol a dyledswyddau crefyddol; y maent yn cadw yr enaid yn sefydlog ar bethau dwyfol; y maent yn gwneuthur dyledswyddau sanctaidd yn llawer haws, a hudoliaethau i bechod yn llawer gwanach; ac yn ein gwneuthur yn debycach i Grist, ac yn gymhwysach i'w wyddfod, ac i'w fwynhau yn y nefoedd."

Am *reoleiddiad* yr anwydau:—i wybod a ydynt dan ddyledus lywodraeth, ac yn cael eu cyfeirio at wrthddrychau cymhwys, dylem ymofyn pa un a ydynt yn dylanwadu ar ein tybiau—yn rhedeg o flaen ein deall—yn ymroddi i oferedd—ac yn esgeuluso gwrthddrychau pwysig—yn ymddangos mewn modd anweddaidd—a pha un a ydynt yn peri annhrefn yn ein hymddygiadau. Os felly y mae, y maent allan o'u terfynau priodol, a byddant yn achosion o brofedigaeth yn hytrach nag yn offerynau o ddaioni. Tuag at eu dwyn dan reoleiddiad priodol, dylai fod genym wybodaeth o'n dyledswydd; dylem gymmeryd gair Duw yn rheol; a bod lawer mewn gweddi, ac ymddibyniad ar yr Arglwydd.

Yn ddiweddaf, dylem *astudio* ein hanwydau. Y mae eu chwilio yn gywir, yn ddiau, yn gofyn medrusrwydd, amynedd, ystyriaeth, a barn: ond i ffurfio rhyw feddylddrych priodol am y meddwl dynol, a'i weithrediadau amrywiol; i ddarganfod y cyfeiliornadau sydd yn cyfodi oddi ar frwdfrydedd y tymmerau, a rhysedd dealltwriaethol; a gwybod pa fodd i daraw eu tannau amrywiol, a'u cyfeirio a'u defnyddio i'r gwasanaeth goreu—er cyflawnu y dybenion hyn, y mae astudio yr anwydau o'r canlyniad mwyaf pwysig.

Rhaid fod hyn yn cael dylanwad uniongyrchol ar ein hymchwiliadau, ein nodweddiad, a'n hapusrwydd: o blegid yn ol fel y byddo yr anwydau a'r serchiadau yn cael eu cynhyrfu a'u cyfeirio at wrthddrychau ymofyniad dealltwrus, yr ydym yn dyfod yn ddefnyddiol i ni ein hunain ac i ereill; yn ymddyrchafu i barch, neu yn suddo i ddirmyg; yn taenu ac yn mwynhau hapusrwydd,

Digitized by Google

neu yn gwasgaru ac yn tynu arnom ein hunain drueni. Dyma egwyddorion blaenaf ymarferiad rhesymol; mewn golygiad moesol, difyniad y galon ydyw—y mae yn darganfod pa ham a pha fodd y mae yn curo; yn edrych a yw o ymddangosiad iachus; yn chwilio allan yr anhwylderau a'u hachosion, ac yn cymhwyso meddyginiaeth gyfaddas atynt. — [*Encyclopædia of Religious Knowledge.*]

*Drwg-anwydau (Rhuf.* i. 29) ydynt y tueddiadau anfad a gwrthnysig hyny sydd yn peri i ddynion feddwl y gwaethaf am ereill, a gwneuthur y gwaethaf iddynt—tymmer faleisus; dygasedd.

ANWYL—YD: cu, hoff, cariadus, cymmeradwy, gorhoff. Gelwir Crist yn *anwyl* Fab Duw, a'i *Anwylyd* ef, mewn modd neillduol. Y mae y Tad yn caru y Mab, a'r Mab yn caru y Tad, â'r un cariad dwyfol, anfeidrol, perthynol i'r Duwdod yn unig; y mae y naill yn caru y llall â'r un cariad, a hwnw yn ddwyfol, yn dragwyddol, ac yn anfeidrol. Y mae y Tad yn hoffi Crist, ac yn ymhyfrydu yn annhraethol ynddo, fel ei Fab tragwyddol, a'i was cyfammodol: *Mat.* iii. 17; xvii. 5; *Luc* iii. 22; ix. 25; xx. 13; 2 *Pedr* i. 17; *Col.* i. 13.

Fel y mae Crist yn *anwylyd* ei Dad, felly hefyd y mae yn *anwylyd* ei bobl: *Can.* ii. 16; iv. 16. Y mae yn ddymunol ac yn hawddgar yn eu golwg, ac yn ddewisedig ganddynt fel unig *anwylyd* eu heneidiau. Y maent yn ymfoddloni ac yn ymhyfrydu ynddo; yn glynu wrtho, ac yn pwyso arno; ac yn cyfrif pob peth yn dom ac yn golled, i'w ennill: *Can.* i. 3; *Phil.* iii. 9. Y mae Crist hefyd yn galw ei bobl yn *anwylyd: Deut.* xxxii. 12; *Salm* cxxvii. 2; *Can.* i. 13—16; ii. 13. O gariad atynt y trefnwyd iachawdwriaeth iddynt yn y cyfammod tragwyddol—yr ymostyngodd Mab Duw i gymmeryd ei wneuthur o wraig, a'i wneuthur dan y ddeddf, fel y prynai hwynt oddi tan y ddeddf: ac fel ei *anwylyd* y mae yn eu dwyn yn ei eiriolaeth wastadol yn y gwir gyssegr, yn eu bugeilio yn yr anialwch trwy ei air a'i Ysbryd, ac y myn eu cael yn y diwedd i'r lle y mae efe, fel y gwelont y gogoniant â'r hwn y gogoneddodd y Tad ef.

Yr oedd y deml, i'r Iuddewon, yn ddymuniad eu llygaid, ac yn *anwyldra* eu henaid: *Ezec.* xxiv. 21, 25.

ANWYL-DLWS: "Ceryddwr doeth i'r glust a wrandawo, sydd fel *anwyl-dlws* euraidd, a gwisg o aur rhagorol;" *Diar.* xxv. 12. Pan gyfarfyddo ceryddwr doeth âg un a dderbynio gerydd yn ostyngedig a diolchgar, nis gall fod unrhyw dlws o aur mor weddus ac addurnawl a'r cyfryw ymddygiad.

ANYMDDIBYNWYR: sydd enwad lluosog o Gristionogion gwrthdystiol yn y deyrnas gyfunol hon, ac America, ac mewn gwledydd ereill. Nid yw yn annhebyg fod dynion yn meddwl fod yr enw hwn yn gosod allan eu golygiadau ar gyfansoddiad eglwys Crist, yn gystal ag ydyw yn dangos eu syniadau am ei threfn a'i sefyllfa wahaniaethol, yr hyn sydd yn gamgymmeriad lled fawr: canys y mae yn yr enw uchod fyrdra mawr er gosod allan eu golygiadau yn gyflawn a chywir ar eglwys y Testament Newydd, o ran ei chyfansoddiad; a byddai *Cynnulleidfaolion* yn enw cymhwysach a mwy cynnwysfawr i hyn yma na'r enw uchod. Nid yw y gair *anymddibyniaeth,* ynddo ei hun, yn golygu dim mwy na sefyllfa rhyw beth neu bethau yn eu perthynas â phethau ereill, ac nid cyfansoddiad y pethau hyny; pan y mae y gair *cynnulleidfaoliaeth,* ynddo ei hun, yn dangos cyfansoddiad pethau mewn rhyw sefyllfa neu gilydd. Ymddengys mai golygiad y rhai a enwir yn Anymddibynwyr, am gyfansoddiad eglwys Crist, ydyw, mai pa le bynag y byddo cynnulleidfa o unrhyw nifer o ddynion wedi eu galw allan o'r byd, mewn ystyr ysbrydol a chrefyddol—wedi ymroddi eu hunain yn weithredol ac ewyllysgar i'r Arglwydd, ac i'w gilydd mewn cariad—yn cydymgyfarfod â'u gilydd yn yr un lle, i gydgynnal a chyd-ddwyn yn mlaen waith yr Arglwydd, er eu hadeiladaeth eu hunain, mewn ufudd-dod i gyfreithiau Crist a chydnabyddiaeth o'i awdurdod ef fel eu brenin—fod yno eglwys gyflawn iddo ef. Bod dynion o'r cymmeriad a nodwyd, yn y cydymroddiad a'r cydymgyfarfydd-iad a ddarluniwyd, ac i'r dybenion uchod, mewn ufudd-dod i awdurdod Crist yn ei air, a gyfansodda, yn ol eu barn hwy, ei eglwys, yn yr ystyr yr arferir y gair fynychaf yn y Testament Newydd. Anymddibyniaeth, yn ol eu barn hwy, ydyw y sefyllfa y mae y cyfansoddiad hwn yn bodoli ynddo, trwy y golygant fod y gynnulleidfa hon mewn cyflawn hawl a rhyddid, fel y cyfryw, i farnu drosti ei hun yn ngwyneb gair Duw, pa beth sydd wirionedd; ac i ddwyn y farn hono allan mewn gweithrediadau crefyddol, er llywodraethiad a gweinyddiad ei holl achosion eglwysig, yn anymddibynol ar unrhyw awdurdod a llywodraeth ddynol o'r tu allan iddi ei hun. Y maent yn golygu mai eglwys o'r cyfansoddiad uchod, mai yr orsedd uchod ar y ddaiar, sydd i benderfynu ei hachosion crefyddol tu mewnol ei hunan—o barthed i farnu cymhwysder a derbyniad aelodau i fwynhad o'i breintiau, mewn dewisiad swyddogion ynddi i weini iddi gyfreithiau Crist, ac i ddwyn yn mlaen ddysgyblaeth y gair o'i mewn:—ac am y cyflawniad o'r gorchwylion hyn, nad ydyw yn gyfrifol i un orsedd ar y ddaiar. Pa mor uchel bynag y dichon fod un dyn, neu nifer o ddynion, wedi eu dyrchafu mewn awdurdod, a pha swyddau bynag y dichon iddynt fod wedi ymwisgo ynddynt, neu pa awdurdod bynag y dichon fod yn perthyn iddynt mewn cylchoedd ereill, nid yw egwyddor anymddibyniaeth eglwysig yn caniatau unrhyw awdurdod na llywodraeth ddynol i fod o fewn cylch eglwys o'r cyfansoddiad uchod; ond ei llywodraeth ei hun, fel y cyfryw, ac nid llywodraeth rhyw rai ynddi; nac yn caniatau i neb gyfryngoli rhwng cydwybodau ei haelodau âg awdurdod Crist yn ei air. Nid yw yr egwyddor dan sylw yn caniatau fod y naill eglwys yn awdurdodi ac yn llywodraethu ar y llall; ond fod pob eglwys o'r cyfansoddiad uchod yn gydraddol mewn rhyddid, mewn hawl, mewn breintiau crefyddol, ac mewn awdurdod fel chwiorydd eglwysi, yn nheulu mawr eu Tad nefol, heb fod y naill yn awdurdodi ar y llall: canys ystyriant mai un yw eu Tad hwy oll, yr un yw eu Harglwydd a'u Hathraw oll—sef Crist; a'r un yw eu Harweinydd nefol—sef Ysbryd y gwirionedd; ac un a fydd eu cartref yn mhen ychydig amser. Er nad yw yn hoffus ganddynt un enw ond Cristionogion; ond trwy eu bod yn byw mewn sefyllfa o anmherffeithrwydd, ac yn byw mewn byd anmherffaith, ymddengys iddynt yn lled eglur fod arferiad o ryw enw dynol yn angenrheidiol er eu gwahaniaethu ar ryw amgylchiadau oddi wrth Gristionogion ereill; a'r enw a osodai allan eu hegwyddorion mwyaf cyflawn a fyddai *Cynnull-*

Digitized by Google

ol eu syniadau, a dygasant yn mlaen eu gweinidogaeth a'u hymarferiadau crefyddol yn ol rhyddid eu cydwybodau. Er yr ymddengys fod llawer o ansefydlogrwydd yn Brown, a dichon fod ei frwdaniaeth yn rhy danbaid yn ngwyneb y gwrthwynebiadau a'i cyfarfyddai, ac efallai yn annoeth yn ei ymddygiadau rai gweithiau, ond y mae yn rhaid i ni gofio y fath amser blin yr oedd ef yn byw ynddo; ond eto, er ei holl anmherffeithrwydd, nid oedd yn hyn yn gwneuthur yr egwyddorion a broffesai ac a gyhoeddai fymryn llai eu gwerth, nac yn fwy anysgrythyrol. Cododd yr Arglwydd i fyny ddynion o ddysg a doniau anghyffredin i ddwyn yn mlaen weinidogaeth yr eglwysi Saxonaidd ar y Cyfandir; megys Dr. Arnes dduwiol, Ainsworth ddysgedig, J. Canne, awdwr y nodiadau a'r cyfeiriadau ar ymyl dalenau ein Beiblau, Johnson, a Robinson synwyrlawn, ac ereill, fel yr amlhaodd yr eglwysi yno yn ddirfawr. Ymfudodd ugeiniau lawer o'u haelodau oddi yno i anialwch gwyllt America; a buont yn ddechreuad i'r taleithiau eang yno a adwaenir wrth yr enw Lloegr Newydd, yn mha le y sefydlasant eglwysi yn gysson â'u hegwyddorion; a dygasant yn mlaen grefydd yn ol rhyddid eu cydwybodau, ac y maent yn parhau felly yno hyd y dydd hwn. Parhaodd yr eglwysi Seisonig ar yr egwyddor annibynol yn ninasoedd y Cyfandir am fwy na chan mlynedd. Yr eglwys reolaidd gyntaf y mae genym hanes am dani a sefydlwyd yn Lloegr oedd yr un yn Nghaerludd, o dan ofal un Mr. Jacob, yn y flwyddyn 1616, yr hwn a ddychwelasai yno o'r Cyfandir. Ond nid oes le i ammheu nad oedd yn y deyrnas hon amryw o gymdeithasau crefyddol ar yr egwyddorion uchod o'r blaen, ond bod gorfod arnynt i ddwyn yn mlaen eu gorchwylion mor anghyhoedd ag y medrent, rhag ofn eu herlidwyr. Yn fuan wedi sefydlu yr eglwys uchod, chwanegwyd eu nifer yn fawr trwy wahanol ranau y deyrnas, ac amlhawyd eu haelodau fel y daethant yn fwy cyhoeddus, a chynnyddasant i'r hyn ydynt yn bresennol. Er eu bod yn erbyn gosod unrhyw gyffes ffydd i fod yn awdurdodedig i rwymo cydwybodau dynion wrthi, eto y maent yn unol yn gyffredin yn eu syniadau ar athrawiaethau yr efengyl, o'r dechreuad hyd y pryd hwn, ac yn gysson yn hyn â'r hyn a elwir yn gyffredin yn Galviniaeth gymmedrol. Golygent fod dwy ordinhad grefyddol yn perthyn i weinidogaeth yr efengyl, sef bedydd a Swper yr Arglwydd, i fod mewn awdurdod barhaus. Hefyd, golygant fod dwy restriad swyddol, a dim ond dwy, o osodiad dwyfol, yn perthyn i bob eglwys, sef henuriad neu esgob (dau enw, yn eu golwg hwy, yn golygu un swydd), a diaconiaid; a bod y rhai hyn i fyned i'w swydd trwy ddewisiad a galwad yr eglwys yn mha un y gweinyddant eu swyddau, ac nad oes un eglwys yn ei chyflawn drefn Ysgrythyrol heb fod y rhai hyn ynddi. Er y golygant fod hanfod urddiad i swyddau eglwysig yn gynnwysedig yn newisiad a galwad yr eglwys i'r rhai y byddo yn gweini ynddi, eto y maent yn gyffredin, pan yn gosod eu hesgobion yn eu swydd, yn gwneuthur hyn mewn modd cyhoeddus, ac er mwyn undeb, brawdgarwch, a chydweithrediad chwiorydd-eglwysi ereill, yn galw nifer o weinidogion cymmydogaethol i gyduno â hwy, ac i'w cynnorthwy ar yr achos pwysig.

Y mae yn mhlith yr Anymddibynwyr ddwy blaid grefyddol, yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd yn nghylch deiliaid a'r dull o fedyddio. Y mae un dros fedyddio babanod, ac yn ystyried fod tywalltiad neu daenelliad dwfr ar y bedyddiedig yn fedydd cyflawn; a'r llall yn wrthfedyddwyr babanod, ac yn barnu fod yn rhaid trochi y bedyddiedig, a barnant fod hyn yn hanfodol i fedydd. Mewn pob peth arall, y mae y ddwy blaid yn cydweled yn gyffredin, yn enwedig am drefn a llywodraeth eglwysi y Testament Newydd.

ANNWN, [*an—dwfn*]: annwfn, anoddyfn, anoddyn, affwys, llynclyn; gorddyfnder, pwll diwaelod; anweledigle; uffern. Annwn, yn ol athrawiaeth y beirdd, yw eithafedd dyfnaf Cylch yr Abred. "Tri chyflwr hanfod bywedigion: cyflwr Abred yn *annwn;* cyflwr rhyddid yn nyndod; a chyflwr cariad, sef gwynfyd, yn y nef."—*Trioedd.* Annwn ydyw pwnc isaf pob hanfod byw; lle y caiff pob creadur ei ddechreuad cyntaf a distadlaf; lle y mae "y lleiaf o bob byw, ag o hynny ddechre;" lle y mae "defnydd pob peth, ag o hynny cynnydd, yr hynn nis gellir mewn cyflwr amgen;" ac yn y lle y mae "pob peth yn cael ei lunio o'r marw, ag o hynny gwahanfod" *(individuality).—Trioedd.* Wedi cael "dechre" a "gwahanfod," fel hyn, ymgyfyd y "byw"—yr enaid—yn uwch uwch yn ngraddeg hanfod, trwy dreiglo yn raddol a rheolaidd o'r naill gorff i'r llall (yr hyn yw "treiglo'r Abred"); a phob corff, bid sicr, yn rhagorach ragorach, nes y cyrhaedda "gyflwr rhyddid yn nyndod," yr hyn yw eithafedd uchaf Cylch yr Abred. Yma, "yn nyndod," y mae "drwg a da yn gydbwys; a gallu gan ddyn ymlynu wrth yr un a fynno." Os ymlŷn efe wrth y da; neu, yn ol y meddylddrych a grybwylla Isaac Taylor, yn ei *Saturday Evening,* os bydd y da yr ymlyna dyn wrtho yn drymach yn y glorian na'r drwg sy'n barod i'w amgylchu, caiff ei ddyrchafu ar unwaith o gyflwr dyndod i Gylch y Gwynfyd, lle y mae'r da yn gorbwyso, ac y mae "pob byw, o angenrheidrwydd, yn dda; ac o'r lle nis gall yr enaid syrthio mwyach, ond ymddyrchaif yn uwch uwch yn ngraddeg dedwyddwch a pherffeithrwydd, nes y cyrhaedda ei le amcanedig, yn y lle y bydd pob hanfod yn berffaith ddedwydd i bob tragwyddoldeb, heb fod yn ddichonadwy iddynt syrthio fyth i ddrygioni; a chan y bydd yr enaid yn argyhoeddedig nas gall fod mor ddedwydd mewn un cyflwr arall, ni theimla fyth awydd i adael ei breswylfod wynfydedig."—*Iolo's Poems,* cyf. ii, td. 196. Dysgir yr athrawiaeth hon yn y triad yma:—"Tri angen pob hanfod wrth fywyd: dechre yn *annwn;* treigl yn abred; a chyflawnder yn y nef, sef Cylch y Gwynfyd; ag heb hyn o dripheth, nis gellir unpeth namyn Duw." Ond, "os ymlŷn yr enaid wrth y drwg (ar ol iddo unwaith dreiglo 'r Abred, a chyrhaeddyd cyflwr rhyddid yn nyndod), efe a syrth, yn angeu, i'r fath gyflwr anifeilaidd o hanfod ag a etyb i'w frynti; a dichon i'w frynti fod mor ysgeler ag i'w fwrw eilwaith hyd yn *annwn;* ac os felly, efe a ddychwel drachefn trwy y fath gyfres ddilynol o hanfod anifeilaidd ag a fo'n fwyaf priodol i'w buro oddi wrth ei ddrwg dueddiadau. Ar ol treiglo yr Abred fel hyn, efe a gyfyd eto i gyflwr dyndod, o'r hwn, yn ol ei ddewisiad, y gall ymddyrchafu i Gylch y Gwynfyd, neu syrthio yn ol i'r Abred: ond pe syrthiai felly, efe a godai eilwaith; ie, pe dygwyddai hyny filiwn o weithiau, byddai llwybr y bywyd fyth yn agored o'i flaen, a hyny i bob tragwyddoldeb; canys efe a gyfodai, yn ddiffael, yn hwyr neu hwyrach, i'w le amcanedig o ddedwyddwch, o'r lle ni syrth yn oes oesoedd."—*Iolo's Poems,* cyf. ii, td. 197. "O dripheth y syrth

ryw feddylddrych cymmysglyd am *annwn* ac *abred* Beirdd a Derwyddon y Celtiaid er ys oesoedd cyn cred, er eu bod yn bur bell, fel y mae llawer hyd heddyw, hyd yn oed yn Nghymru, oddi wrth ddeall gwir ystyr duwinyddiaeth ac athroniaeth hen athrawon y Cymry. Gwel ARRED; BARDDONIAETH; BEDD; CEUGANT; DERWYDDIAETH; GWYNFYD; TRAWSENEIDIAD; UFFERN.—(*Iolo's Poems & Mss.; Owen's Llywarch Hen; Jones' Rel. Cæs. Com. de Bell. Gall.; Davies' Celt. Res. & Myth.; Roberts' Pop. Ant.; Borlase's Ant.; Pezron's Ant.; Myv. Arch.*)

ANYSGRYTHYROL: ansoddair a gymhwysir at syniadau na chadarnheir gan ymadroddion pendant, na chan ysbryd ac ystyr Ysgrythyr. Eto, nid yw yn briodol ystyried pob syniad a gwybodaeth na ddygir i sylw yn y Beibl fel yn anysgrythyrol; er nad ydynt Ysgrythyrol, eto, nid ydynt, mewn ystyr, briodol, yn anysgrythyrol, o herwydd eu bod y cyfryw wybodau na ddysgwyliesid y buasai yr Ysgrythyr yn eu hegluro a'u cadarnhau. Pe amcan a honiad y Beibl a fuasai addysgu un o'r gwyddorion, a phe buasai yn cymmeryd arno addysgu yr oll a berthynai i'r wyddor hono, buasai unrhyw wybodaeth chwanegol o barth iddi yn rhwym o gael ei hystyried yn anysgrythyrol. Ond gan mai amcan yr Ysgrythyr ydyw addysgu crefydd, "dangos i ddyn pa beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd ganddo," ei hysbysu o'r *credenda et agenda*, yr holl wirioneddau angenrheidiol i'w credu, a'r dyledswyddau angenrheidiol i'w cyflawnu er iawchawdwriaeth;—gan mai hyn, a hyn yn unig, ydyw amcan yr Ysgrythyr—gan nad yw yn hòni dim ond bod yn safon crefydd—nid yw yn briodol cymhwyso y gair *anysgrythyrol* at ddim ond athrawiaeth neu ymarferiad fyddo yn hòni perthynas â chrefydd:—rhywbeth o ymddangosiad a hòniad crefyddol, ond heb ei warantu gan yr Ysgrythyr, ydyw yr anysgrythyrol mewn ystyr fanwl a phriodol. Y mae y gair *gwrthysgrythyrol* yn cynnwys syniad cryfach nag *anysgrythyrol*. Ni chynnwysa y diweddaf ond y nacaol yn unig, sef athrawiaeth neu rwymedigaeth *na* chadarnheir yn yr Ysgrythyr; ond cynnwysa y cyntaf y cadarnhaol, sef y cyfryw a wrthodir ac a gondemnir ynddynt. Ond er fod rhyw gysgod o wahaniaeth yn y geiriau eu hunain, o herwydd fod *gwrth* fel blaenair yn fwy dwys nag *an*, eto y maent wrth eu holrhain bron, os nad yn gwbl, yn gyfystyr; o blegid y mae yr hyn sydd anysgrythyrol yn wrthysgrythyrol hefyd. Gan fod y Beibl yn cynnwys yr *holl* ddadguddiad ar grefydd, y mae y naill a'r llall yn hanfodol un; fel pa athrawiaeth neu rwymedigaeth bynag a gyssylltir â chrefydd, yr hon ni addysgir yn ngair Duw, y mae hyny yn brawf digonol ei bod, nid yn unig yn anysgrythyrol, ond yn wrthysgrythyrol hefyd. Gwel YSGRYTHYROL.

ANYSTYRIAETH: annarbodaeth; anmhwyll, diofalwch; difyfyrdod. Gwel YSTYRIAETH.

1. APAMEA: dinas o Syria, ar yr Orontes; yr hon a adeiladwyd, fel y bernir, gan Seleucus I, brenin Syria; neu, gan ei fab, Antiochus Soter; er anrhydedd i'r frenines *Apamea*, gwraig Seleucus, a mam Antiochus. Efallai mai yr un ydoedd a Sepham, dinas o Syria: *Num.* xxxiv. 10, 11,

2. APAMEA: dinas o Phrygia, ar yr afon Marsyas; yn agos i'r hon, fel y barna rhai, y gorphwysodd yr arch; am ba achos y cafodd y ddinas y cyfenw *Kibotos*, sef yr *Arch*. Ar fathodyn a wnaed er anrhydedd i Adrian, y mae delw dyn, yn cynnrychioli yr afon Marsyas, yn nghyd â'r argraff ganlynol—"*Bathodyn yr Apameaid;—yr Arch ar afon Marsyas.*" Nid oes nemawr ammheuaeth nad oedd hyn yn un o'r hen gofion am yr arch a'r dylif; nid am fod yr arch ei hunan wedi gorphwyso yma, ond am fod un o hen greirfeydd traddodiadol yr arch yma er yn fore iawn; ac fod rhyw un o'r eirch coffadwriaethol am yr arch gyntefig wedi gorphwyso ac ymsefydlu yma, ar ymfudiad dynolryw o Sinar, Babilon, neu rai o'r gwledydd cyfnesol, yn y cyfeiriad yma. Nyni a gawn fod y cyfryw gofion o'r arch yn Nerwyddiaeth yr hen Gymry. Yn marwnad "Aeddon o Fôn," gan Taliesin, cawn y crybwylliad canlynol:—

"Tristlawn ddëon,
Yr arch Aeddon
Can rychior."

Mewn cyfeiriad at y bathodyn crybwylledig, gellir chwanegu fod Strabo yn cadarnhau mai hen enw Apamea, oedd *Kibotos*, wrth yr hwn y golygid yr arch (arch Noah, dybygid). Nid yw yn ymddangos fod y gair *Kibotos* yn enw Groegaidd; efallai mai enw y deml, yn yr hon y gwnelid y coffadwriaeth am yr arch, a chadwraeth dyn trwyddi, ydoedd. Y mae amryw o fathodau Apamea ar gael, ar y rhai y darlunir yr arch, a dyn ynddi, yn derbyn colomen a ehedfa ato, a rhan o'u hargraff yw y gair "NOE," mewn hen lythyrenau Groegaidd: a chan eu bod o amryfal fathiadau, eto oll yn cyfeirio at Apamea, y mae yn ymddangos fod eu hawdwyr yn gyfarwydd â'r traddodiad o'r coffâd o'r arch a gedwid yn y ddinas hon.

Y mae yn ddiau fod llawer o'r cyfryw goffadwriaethau o'r fath amgylchiad nodedig a'r dylif, wedi cael eu dal i fyny am oesoedd mewn llawer gwlad, er fod yn dra anhawdd eu holrhain erbyn hyn: yn wir, y mae llawer o ddinasoedd a ymffrostiant yn y cyfryw gofarwyddion, fel profion diwâd o'u hynafiaeth.—(*Davies' Mythology and Rites of the British Druids.*)

APELES: gŵr a grybwyllir gan yr apostol Paul, yn *Rhuf.* xvi. 10, fel un "profedig yn Nghrist;" hyny yw, "Cristion profedig." Tybiai Origen ei fod yr un ag Apolos: ond y mae hyny yn annhebyg. Hen draddodiad yr Eglwys Roegaidd yw, ei fod yn un o'r Deg a Thrigain, ac iddo fod yn esgob Smyrna, neu Heracleia.

APELLIAID; oeddynt blaid o gyfeiliornwyr yn yr ail ganrif. Cawsant eu henw oddi wrth un Apelles, yn naliadau yr hwn yr oedd cryn lawer o debygolrwydd i'r eiddo Marcion. Syriad oedd Apelles, o ran cenedl; a bu yn ddysgybl i Marcion. Dywedir fod addysg a syniadau Marcion yn fwy eglur, ac o duedd fwy ymarferol, a bod yr eiddo Apelles yn fwy damcanol a thywyll. Rhydd Tertullian [*De Resurrect. Carn.*, pen. ii] ddysgrifiad anffafriol o gymmeriad moesol Apelles. Yr achlysur o'r ddrwgdybiaeth hon oedd ei gyfeillgarwch â Philumene, yr hon a hònai ei hun yn ddwyfddoethes. Y mae yn dra thebygol na fuasai Tertullian, na neb arall o'r Cristionogion, yn ceisio ei ddifrïo ar seiliau mor weiniaid, oni buasai y duedd oedd ynddynt i gamfarnu holl weithrediadau y dyn a ystyrid yn gyfeiliornwr. Pe yr ystyriasid Apelles yn uniawngred, ni buasai ei gyfeillgarwch â Philumene yn achlysur i greu drwgdybiaeth yn meddwl neb;

Digitized by Google

ond gan ei fod yn heretic, gwnaethant ef yn waeth na heretic, trwy ei ddrwgliwio fel dyn anniwair. Symmudwyd y gwarthnod hwn oddi ar ei gymmeriad gan ddysgawdwr eglwysig yn nechreuad y drydedd ganrif, o'r enw Rhodon; dysgrifia ef fel dyn ag yr oedd ei gymmeriad yn gofyn parch cyffredinol, yn gymmeradwy ar gyfrif ei oedran a'i ddull cymmesur o fyw. Y mae y dystiolaeth hon yn bwysig a chadarn, am ei bod yn dyfod oddi wrth un ag oedd yn wrthwynebydd trwyadl i'w gyfundrefn. Ar y cyntaf, yr oedd cyfundrefn Apelles mor debyg i'r eiddo Marcion, fel ag yr ystyrir y ddwy yn un gan rai; ond, fel yr oedd y cyntaf yn heneiddio, gwahaniaethai a phellhäai fwyfwy oddi wrth syniadau ei hen athraw. Tybia Tertullian y dylid priodoli y cyfnewidiad a gymmerodd le yn ei syniadau i'w arosiad maith yn Alexandria; a chadarnheir gan Origen, Epiphanius, ac Ambrose, eu bod wedi eu tyneru a'u newid drwy ddylanwad y "wybodaeth Alexandriaidd" (*Alexandrian gnosis*). A rhydd hyn gyfrif am ei waith yn dwyn urddau gweledig ac anweledig y bydyssawd, y *Demiurge*, a'r Duw Goruchaf, a'r Hen Destament a'r Newydd, i berthynas agosach a'u gilydd nag y gallasai cyfundrefn ac egwyddorion Marcion oddef. Dechreuai gyda'r egwyddor fod yr Hen Destament wedi dyfod oddi wrth awdwyr gwahanol, mewn rhan dan ysbrydoliaeth y *Soter*, ac mewn rhan dan ysbrydoliaeth y *Demiurge*, ac mewn rhan hefyd dan gynhyrfiad yr ysbryd drwg, yr hwn a lygrodd y dadguddiadau a wnaethpwyd o'r pethau dwyfol; eto, yr oedd yn awyddus am ddal yr hyn sydd dda yn mhob man. "Yr ydwyf," meddai, "yn defnyddio *holl* Ysgrythyrau yr Hen Destament, ac yn casglu o honynt bob peth sydd yn fuddiol." Apeliai at ddywediad a gyfrifir i'n Iachawdwr yn un o'r efengylau ffugiol—"yr Efengyl yn ol yr Hebreaid"—yr hwn a redai fel hyn:—"Byddwch yn gyfnewidwyr arian medrus, bob amser yn barod i wahaniaethu y gwirioneddol oddi wrth y ffuantus." Tra yr oedd Marcion yn derbyn yr holl Hen Destamant fel yn wir o ran y llythyren, ond yn ei briodoli, nid i'r Duw Goruchaf, ond i'r *Demiurge*; yr oedd Apelles, ar y llaw arall, yn gweled ynddo ystoriau cwbl amddifaid o wirionedd. Arddangosir yn agwedd meddwl y diweddaf y nerth sydd yn y duedd hono sydd yn llywodraethu meddyliau unrhyw oes neillduol—yr anhawsder mawr y mae personau yn ei deimlo i ymryddhau oddi wrthi, er eu bod yn dyheu am y rhyddid hwnw. Fel hyn, teimlai Apelles bwys yr egwyddor ddeuol (*dualistic*), er yr addefai ei bod yn anghytunol â Christionogaeth, yr hon a ddylanwadai fwyfwy ar ei feddwl. Yn nherfyn ei oes, penderfynai ei ymchwiliadau a'i ammheuon gyda'r addefiad ei fod yn cael ei orfodi yn gwbl i gredu mewn un tragwyddol Dduw, awdwr pob bod; ond ei fod tu hwnt i'w allu i esbonio yn arddansoddol pa fodd y gellir olrhain pob bodolaeth hyd at un egwyddor wreiddiol. Gwel MARCION.

APELIO, [Gr., *επικαλεω*; Llad., *appello*]: cyffroi hawl; cyfeirio achos at; anfon cwyn; galw am farn. Mewn cyfraith, arwydda, yn 1af. Symmud achos o lys is i un uwch. 2il. Cyhuddiad o drosedd yn cael ei wneyd gan un o ddeiliaid llywodraeth yn erbyn un arall. Yn yr oesoedd boreuaf, y patriarch, neu benaeth y llwyth, a fyddai yn gweinyddu cyfiawnder; a chan nad oedd un awdurdod uwch na'i awdurdod ef, nid oedd un apeliad i'w wneuthur oddi wrth ei benderfyniad at neb arall. Pan oedd Israel yn yr anialwch, barnai Moses bob achos ei hun ar y cyntaf, ond pan welodd fod y gorchwyl yn rhy drwm iddo ei gwblhau, darfu iddo, ar annogaeth Jethro, ei chwegrwn, osod gwŷr grymus o holl Israel yn benaethiaid ar y bobl, yn dywysogion ar filoedd, ar gannoedd, ar ddegau a deugain, ac ar ddegau (*Exod.* xviii. 24—27). Trefnodd yr fod i achosion pwysig ac anhawdd gael eu codi oddi wrth y barnwyr isaf at y rhai uchaf, ac yn ddiweddaf ato ef ei hun. Wedi rhanu y genedl i ddinasoedd a phentrefydd, yr oedd trefniadau ereill yn angenrheidiol; a chyfarwyddwyd y genedl yn flaenorol, mewn rhagolygiad ar eu hangenrheidiau dyfodol (*Deut.* xvii. 8—12), ar fod i farn gael ei gwneuthur gan y prif swyddwyr, sef "yr offeiriaid a'r barnwyr a fyddo yn y dyddiau hyny." Bod gan y bobl hawl i apelio ar unrhyw gynghaws a ymddengys oddi wrth yr hyn a ddywedodd Absalom wrth y rhai a ddygent eu materion ato, "O! na'm gosodid yn flaenor ar y wlad, fel y delai ataf fi bob gŵr a fyddai ganddo hawl neu gynghaws;" 2 *Sam.* xv. 2—5. Barna Salvador, oddi wrth yr anghraifft hon, fod gan un hawl i ddwyn ei achos yn uniongyrchol at y brawdlys uchaf. Ymddengys fod gan y bobl, yn amser ein Iachawdwr, hawl i ddwyn eu hachosion drwy bob llys hyd at y cynghor yn Jerusalem, yr hwn oedd i roddi barn ddiweddaf ar bob achos a ddygid iddo. Olrheinia yr Iuddewon yr arferiad hon mor bell ag amser Moses, a chredant ei bod yn seiliedig ar hen egwyddorion hysbys yn mabandod y genedl; ac fel y cyfryw, y mae yn taflu llawer o oleuni ar yr awgrymiadau a geir yma a thraw yn llyfrau yr Hen Destament o barth i'r hawl a'r arferiad o apelio. Yr anghraifft fwyaf hynod o hyn yn y Testament Newydd ydyw apeliad Paul at Cæsar, mewn canlyniad i ba amgylchiad yr anfonwyd ef yn garcharor i Rufain: *Act.* xxv. 10, 11. Sicrhawyd i'r dinaswyr Rhufeinig, gan gyfraith a wnaed gan Sempronius Gracchus (c. c. 630), nas gellid eu dienyddio heb gydsyniad ac awdurdod y senedd; ac yn mha daleithiau bynag y trigent, os dangosai y llywodraethwr duedd i'w condemnio i farwolaeth, i'w ffangellu, neu i'w hamddifadu o'u meddiannau, yr oedd ganddynt hawl i apelio oddi wrth ei farn ef at farn y bobl. Arosodd y gyfraith hon—a wnaed dan y weriniaeth—mewn grym dan yr ymherodraeth; trosglwyddwyd yr hawl oddi wrth y bobl i'r ymherawdwr; fel, os byddai un o'r dinaswyr yn ammheu ei fod yn derbyn camdriniaeth gan lywydd un o'r taleithiau, y gallai apelio at yr ymherawdwr, a dwyn ei achos i'w benderfynu i Rufain. Dywedir fod nifer o swyddogion wedi eu gosod gan Augustus i dderbyn apeliadau y bobl yn y taleithiau. Felly Paul, pan welodd fod Ffestus yn rhy dueddol at y bobl, yn Iudea, i wneyd cyfiawnder a'i achos ef, a honodd ei hawliau fel dinesydd Rhufeinig, gan apelio at Cæsar, yr ymherawdwr; ac wedi iddo unwaith wneuthur yr apeliad, nid oedd gan y rhaglaw ddim yn chwaneg i'w wneyd â'i achos, er ei fod yn barnu nad oedd yn ddigon pwysfawr i'w anfon (Paul) i Rufain o'i blegid. Fel yr apeliodd Paul o frawdlys is at un uwch, felly y gall dyn, os condemnir ef yn anghyfiawn ar y ddaiar, apelio gyda hyder at frawdle Crist: *Rhuf.* xiv. 10; 1 *Cor.* iv. 3, 4; 2 *Thes.* i. 6—10. Eithr os condemnir y pechadur *yno*, gan gyfiawnder tragwyddol, pa le y gall apelio wedi hyny? 1 *Pedr* iv. 18.

APELITIAID: plaid o gyfeiliornwyr yn yr

Digitized by Google

ail ganrif, y rhai a haerant fod Crist wedi derbyn corff o'r pedair elfen; yr hwn, ar ei farwolaeth, a ddychwelodd efe yn ol i'r byd; ac felly, ei fod wedi esgyn i'r nef heb gorff.

APIS, [*Ἄπιος, pell*]: yr un, fel y tybia rhai, ag Osiris, gŵr Isis, yr hwn a adawodd ei deyrnas yn nhir Groeg i'w frawd, ac aeth i'r Aipht (yr hyn, efallai, a barodd iddo gael ei alw *Ἄπιος, pell*), lle y gwareiddiodd y trigolion, y dysgodd iddynt drin gwinwydd, ac aru tir, ac aeth yn frenin arnynt. Wedi iddo farw, tybiai yr Aiphtiaid i'w enaid fyned i darw nodedig a elwid *Apis*, ac a addolid ganddynt yn benaf yn Memphis. Nid yr un ydoedd a Mnevis, tarw cyssegredig Heliopolis. Adwaenid y gwir Apis, oddi wrth bob teirw ereill, trwy ryw nodau neillduol, y rhai a ddarlunir gan Herodotus a Pliny. Yr oedd ych Heliopolis yn gyssegredig i'r haul, ac un Memphis yn gyssegredig i'r lloer. Darlunir genedigaeth y tarw cyssegredig yma yn wyrthiol: canys er ei gynnyrchu o fuwch, ei genedliad a achosid drwy ddisgyniad mellten, neu ddylanwad pelydr y lloer. Yr oedd nodau arbenig ar y tarw a fyddai yn gymhwys o'r anrhydedd yma—yr holl gorff i fod yn ddu, a thriongl gwyn ar ei dalcen; man gwyn, ar lun hanner lloer, ar yr ochr ddeheu, a math o glwm, fel chwilen, dan ei dafod; ac yr oedd rhawn ei gynffon i fod yn ddwbl. Pan fyddai y tarw Apis farw, neu pan ei rhoddid i farwolaeth, wedi iddo fyw y nifer gosodedig o flyneddoedd, yn ol rhai awduron, ymofynid yn ddyfal am un yn meddu y nodau cyssegredig, i'w olynu; ac wedi ei gael, yr oedd i gael ei borthi am bedwar mis, mewn adeilad yn gwynebu tua'r dwyrain. Ar y newydd loer, yr oedd i gael ei arwain, gyda difrifwch mawr, i long arddercbog, i'w gludo i Heliopolis, lle yr oedd i gael ei borthi am ddeugain niwrnod yn rhagor gan offeiriaid a benywod, y rhai a gyflawnent amryw seremonïau anweddus ger ei fron. Yn y cyfamser, ni oddefid i neb arall nesau ato. O Heliopolis, cludai yr offeiriaid ef i Memphis, lle yr oedd teml odidog iddo, a dau gapel i breswylio ynddynt, a chyntedd eang iddo i gael ymarferiad. Yr oedd Apis yn meddu dawn prophwydoliaeth, yr hon a gyfranai i'r plant o'i amgylch, trwy iddynt arogli ei anadl. Bernid y dynged yn dda neu ddrwg, yn ol fel yr elai i'r naill neu y llall o'r ddau gapel perthynol iddo. Cedwid ei ddydd gŵyl genedigaeth bob blwyddyn, pan fyddai y Nilus yn dechreu ymchwyddo, a pharhäai yr ŵyl am saith niwrnod: yn y cyfamser, teflid cragen euraidd i'r Nilus, a byddai y crocodil bob amser yn ddof tra parhäai yr ŵyl. Ond er yr holl warchedigaeth yma, ni oddefid i'r tarw fyw yn hwy na'r amser penodedig oedd yn eu llyfrau cyssegredig, sef pum mlynedd ar ugain. Canfyddir y rheswm am hyn, efallai, yn nuwinyddiaeth seryddol yr Aiphtiaid. Os byddai yn debyg o fyw dros yr amser cyssegredig, arweinid ef at lanau y Nilus yn dra seremonïol, a boddid ef yn yr afon; yna peraroglid ei gorff, a chleddid ef yn barchus dros ben—mewn ffynnon yn ninas Memphis, medd rhai; yn Nyffryn y Beddau, medd ereill. Ar ol ei farwolaeth, yr hyn a ddygwyddai weithiau yn naturiol, byddai y galar a'r wylofain mor fawr yn yr Aipht a phe buasai Osiris ei hun wedi marw; ac eilliai yr offeiriaid eu penau, yr hyn oedd arwydd o'r galar dwysaf. Parhäai hyn nes yr ymddangosai tarw arall yn meddu y nodau priodol i ddilyn i duwdodyn; yr hyn, pan ddygwyddai, a ddilynid â chymmaint o orfoledd a phe buasai Osiris wedi ail ymddangos. Barna Belzoni iddo ddarganfod beddrod Apis yn un o'r beddau ceryg yn mynyddoedd yr Aipht Uchaf, sy'n amgylchynu Dyffryn y Beddau, neu Byrth y Breninoedd. Yn yr un lle, canfu arch ddirfawr o *alabaster*, tryloew a soniarus (sydd yn awr yn y British Museum), wedi ei haddurno oddi mewn ac allan â batheiniau a ffugrau cerfiedig. Cafwyd corff tarw oddi mewn i'r gafell, wedi ei berarogli âg *asphaltum*.

Ni fwyteid y fuwch yn yr Aipht, ond defnyddid y tarw yn ymborth: eto, ni ellid lladd un tarw, hyd oni cheffid sicrwydd na byddai un o nodau y tarw cyssegredig arno. Pan fyddai sicrwydd boddhaol wedi ei gael ar hyn, yr offeiriaid a ddodient sel, neu nod, ar yr anifail, er arwyddo y gellid ei ladd; ond ni ellid lladd un tarw heb y nod, dan berygl marwolaeth. Y mae yn debyg mai un amcan i'r rheol yma oedd cyfodi cyllid trwy dreth ar anifeiliaid a leddid.

Parhaodd addoliad Apis, o leiaf, mor ddiweddar ag oes Septimius Severus; a darllenwn am Roegiaid a Rhufeiniaid urddasol yn talu parch i darw Memphis, gan gael eu cynhyrfu i hyny gan deimladau cymmysg o chwilfrydedd a choelgrefydd, efallai. Pan ymwelodd Alexander Fawr â Memphis, efe a offrymodd i'r holl dduwiau, ac i Apis yn mysg y lleill, yn yr hyn yr amlygai fwy o gyfrwysdra nag a amlygid gan Cambyses, y Persiad; yr hwn, ddau can mlynedd cyn hyny, a sarhaodd yr Aiphtiaid, trwy wanu eu heiliau. Pan ymwelodd Germanicus Cæsar â'r Aipht, yn nheyrnasiad Tiberius, efe a aeth i Memphis, i weled yr Apis. Os derbyniai y creadur rywbeth o law yr ymwelydd, cyfrifid hyny yn arwydd dda; ond os gwrthodai, cyfrifid hyny yn argoel ddrwg. Gwrthodai y tarw yr hyn a gynnygiai llaw Germanicus iddo; ac yn fuan ar ol hyny, bu y maeslywydd farw yn Antiochia.

Y mae yn debyg fod Apis yn cael ei ystyried yn rhyw arwyddlun o'r Nile, neu o ffrwythlonedd y ddaiar; fel yr oedd y fuwch hefyd yn yr hen gyfriniaeth Aiphtaidd, ac y mae eto yn y gyfriniaeth Hindwaidd. Y mae yn perthyn i'r duw Sivas ei deirw cyssegredig, yn y gyfriniaeth Indiaidd, y rhai a adwaenir wrth ryw nodau neillduol; ac y mae tarw maen cawraidd yn addurno y fynedfa i'w deml yn aml. Yr oedd y tarw-dduw, a'r ych cyssegredig, neu yr "ych bannawg," yn cael lle mawr yn yr hen gyfriniaeth Dderwyddol hefyd.

Gwelir tuedd yr Israeliaid i gydffurfio â defodau eilunaddolgar yr Aiphtiaid, yn enwedig mewn rhoddi parch crefyddol i'r tarw, oddi wrth yr hanes am danynt a gawn ni yn yr Hen Destament:—y llo aur a wnaeth Aaron i'r Israeliaid yn yr anialwch; a'r lloi a osodwyd i fyny gan Ieroboam, i'r deg llwyth addoli o'u blaen yn Dan a Bethel: *Exod.* xxxii; 1 *Bren.* xii; *Hos.* x. Gwel Isis; Osiris.—(*Herod.*. llyfr iii. pen. 38; *Plin.*, llyfr viii. pen. 46; *Strabo*, llyfr xvii; *Æschyl. in Suppl.*; *August. de Civ. Dei.*; *Paus.*, *Apollod.*; *Mela*; *Plut. in Isid. & Osir.*; *Wright*; *Lempr. Smith*; *Pop. Ency.*)

APOCRISIARIAID, [*Apocrisiarii*]—o'r gair *αποκρινομαι*=*ateb*: swyddogion a benodid gynt i ddwyn neu draddodi cenadwriaethau, eirchion, ac atebion tywysog neu ymherawdwr. Wedi hyny, daeth yr apocrisiariad i fod yn ganghellydd yr ymherawdwr, a cheidwad y sêl fawr. Wedi hyny, rhoddwyd yr enw i raglaw neu oruchwyliwr y pab, a drigai yn Nghaer Cystenyn, i dder-

Digitized by Google

hyn eirchion y pab, ac atebion yr ymherawdwr. Yr oedd St. Gregory yn apocrisiariad y pab Pelagius, pan ysgrifenai ei Foesebau ar Lyfr Iob.

Cyflawnai yr apocrisiariaid gynt yr un swyddogaeth ag a gyflawnir yn bresennol gan negesydd (*nuncio*) y pab; a chyfrifid hwynt yn meddu gradd ac urddas cyfatebol.

Ymddengys fod y swyddogaeth hon mor fore a dyddiau Cystenyn, neu yn fuan wedi hyny, pan oedd yr ymherawdwyr wedi dyfod yn Gristionogion; ac felly, yr oedd gan eglwysi tramor fwy o achlysuron i ymwneyd â'r llys nag a feddent o'r blaen; o leiaf, nyni a ganfyddwn y swydd yn osodedig drwy gyfraith, yn amser Justinian; yn un o gyfreithiau yr hwn y dywedir fel hyn—"Yn gymmaint ag nad oes un esgob i fod yn hir yn absennol o'i eglwys heb ganiatad neillduol oddi wrth yr ymherawdwr; os bydd gan neb un achlysur i ddwyn rhyw negeseuon eglwysig o flaen y llys, efe a ddylai anfon ei ddeiseb, naill ai drwy apocrisiariad penodedig i'r perwyl hyny, neu trwy rai o'i lenorion anfonedig i'r perwyl." A chan efelychu yr eglwysi, dechreuai agos i bob mynachlog benodi apocrisiariad, i'w chynnrychioli yn y llys, ac i wylio dros ei rhagorfreintiau.

APOCRYPHA. Argreffir yr Apocrypha yn wastadol rhwng y ddau Destament. Y mae mewn rhan yn hanesyddol, mewn rhan yn foesegol, ac mewn rhan yn farddonol. Y mae y gair o darddiad Groegaidd—naill ai o'r geiriau, *ἀπο της κρυπτης*, o herwydd fod y llyfrau wedi cael eu cymmeryd *o'r crypt*, y guddgell, y blwch, a'r arch, neu rhyw ddaliadur arall, lle yr oedd y llyfrau cyssegredig—awdurdod y rhai ni ammheuwyd erioed;—neu, yn fwy priodol, o'r ferf *αποκρυπτω*, *i guddio*, o herwydd eu bod yn cael eu cuddio oddi wrth y rhan amlaf o ddarllenwyr, am nad yw eu hawdurdod yn cael ei gydnabod gan yr eglwys gyffredinol, ac o herwydd eu bod yn llyfrau ag sydd yn amddifad o dystiolaethau dyladwy; canys y mae eu dechreuad yn dywyll, ac ni wyddys pwy yw eu hawdwyr. Y mae Eglwys Rhufain, yn Nghynghorfa Trent, yn y flwyddyn 1546, wedi rhesu amryw o lyfrau yr Apocrypha yn ganonaidd: gwnaeth hyny am fod llawer o ddywediadau y llyfrau hyny yn cyd-daraw â'i hathrawiaethau a'i harferion ei hun. Y mae yr eglwysi Protestanaidd, modd bynag, yn unfrydol yn gwrthod yr holl lyfrau i'r canon, am nad ydynt yn meddiannu unrhyw awdurdod pa bynag, na mewnol nac allanol, dros eu derbyniad. Nis gellir cymhwyso un o brofion y Beibl at yr Apocrypha.

I. *Dosraniad y llyfrau*. 1. Llyfr cyntaf Esdras. Ni wyddys pwy ysgrifenodd y llyfr hwn, na pha bryd chwaith. Ymddengys mai casgliad ydyw o Ezra a Nehemiah. Y mae ei ddullwedd yn burach na'r rhan fwyaf o ddarlleniad y Deg a Thrigain, ac yn debyg i eiddo Symmachus, y mwyaf dillyn o holl gyfieithwyr y Beibl. Er fod y tadau yn ei ddyfynu yn fynych, nid oes neb yn ei ystyried yn ganonaidd. 2. Ail Lyfr Esdras. Y mae hwn, yn ddiammheu, yn hen iawn. Ni wyddys yn mha iaith nac yn mha amser y cafodd ei ysgrifenu, na chan bwy. Er fod yr ysgrifenydd yn personoli Ezra, y mae yn amlwg, oddi wrth ieithwedd a chynnwysiad y llyfr, ei fod yn byw yn hir ar ol y diwygiwr Iuddewig enwog hwnw. Y mae yn llawn o ffug-chwedlau Rabbinaidd. 3. Llyfr Tobit. Nid oes genym hanes cywir am awdwr y llyfr yma, na'r pryd y blodeuodd efe. Y mae yn syml iawn yn ei adroddiadau, ac yn addysgu gwersi duwiol a moesol iawn; yr hyn sydd yn ei wneuthur yn un o'r llyfrau mwyaf poblogaidd yn yr Apocrypha: ond y mae yn cynnwys cymmaint o chwedlau Rabbinaidd, a chrybwylliadau am gythreuliaeth Fabilonaidd, ag sydd yn arwain y meddwl i gredu mai ffugiol yw y cyfan, wedi ei amcanu i ffurfio tymmer dduwiol, a dysgu dyledswyddau pwysig. Nid yw yn ganonaidd. 4. Llyfr Iudith. Y mae barnau amrywiol iawn am yr awdwr, ac amser ysgrifeniad y llyfr yma. Ysgrifenwyd ef yn y Galdaeg; ond y mae amryw gyfieithiadau o hono mewn ieithoedd ereill. Y mae yn llawn o anhawsderau amseryddol, hanesyddol, ac achyddol. 5. Pennodau chwanegol at Lyfr Esther, &c. Y mae Cynghorfa Trent wedi rhoddi lle i'r chwanegiadau yma yn mhlith y llyfrau canonaidd. Tybir mai casgliad o Josephus ydynt, am y cyd-darawant mewn rhai pethau. Cynnyrch Iuddew Helenistaidd ydynt. 6. Doethineb Solomon. Y mae yn amlwg nad oedd gan frenin diarebaidd Israel un llaw yn nghyfansoddiad y llyfr yma, oddi wrth amryw bethau a welir ynddo, megys coll hanes: *pen.* xv. 14, yr hyn sydd yn croesi 1 *Bren.* iv. 20—25;. a geiriau a fenthycir o'r campau Groegaidd. Barna amryw ddysgedigion mai Philo, yr Iuddew, ydyw ei awdwr. Penderfynodd Trydydd Cynghorfa Carthage, a gynnaliwyd yn y flwyddyn 397, fod y llyfr yn un canonaidd; a chadarnhawyd y penderfyniad gan Gynghorfa Trent: galwant ef, "Pedwerydd Llyfr Solomon." 7. Doethineb Iesu mab Sirach. Barna rhai mai eiddo Solomon ydyw hwn hefyd; a rhestrwyd ef yn ganonaidd gan Gynghorfa Carthage, dan yr enw, "Pummed Llyfr Solomon," a chadarnhawyd hyny gan Gynghorfa Trent. Sonir ynddo am y caethiwed (*pen.* xlvii. 24, 25), yr hyn a brawf fod llaw rhywun heb law Solomon wedi bod wrtho. Ysgrifenwyd ef yn yr Hebraeg, neu, yn hytrach, yn mharthiaith Syro-Galdeaidd Iudea, a chyfieithwyd ef i'r Groeg gan fab arall i Sirach, tua'r flwyddyn B. A. 130. Y mae y llyfr wedi derbyn parch mawr iawn yn yr Eglwys Orllewinol; a dodwyd ef yn y gwasanaeth cyhoeddus gan ddiwygwyr a chasglyddion ffurf-weddi eglwys y senedd. Gelwir ef *Ecclesiasticus* gan y Lladinwyr; sef, llyfr a ddarllenid yn yr eglwysydd, er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth *Ecclesiastes*. Yn nesaf at y Beibl, nid oes un casgliad purach o hyfforddiadau moesol mewn bodolaeth. 8. Llyfr Baruch. Y mae yn anhawdd penderfynu yn mha amser, na chan bwy yr ysgrifenwyd y llyfr yma. Cynnwysa y bennod olaf lythyr ag sydd yn dwyn enw Ieremiah, yr hyn nid yw gywir. Nid ystyriodd yr Iuddewon ef yn ganonaidd erioed; ond yr oedd yn cael ei ddarllen yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth fel llyfr yn haeddu coel. Dywed Grotius mai ffugiant ydyw. 9. Cân y Tri Llanc. Nid yw yn ymddangos fod y gân hon wedi bod yn yr Hebraeg erioed; ac er fod ei syniadau yn dduwiol iawn, nid ystyrid hi yn ganonaidd hyd nes i Gynghorfa Trent ei chydnabod felly. Y mae camsyniad amlwg yn *adn.* 15; ac y mae *adn.* 29, a'r rhai canlynol iddi, yn efelychiad o'r *Salm* cxlviii. Darllenid hi gynt yn Eglwys Lloegr yn dra mynych, ond ambell waith y gwneir hyny yn awr. 10. Hanes Susannah. Ymddygir yn barchus tuag at y llyfr hwn yn wastad, ond nid ystyriwyd ef yn ganonaidd ond gan Gynghorfa Trent. Cymmysgir ef â Llyfr Daniel; ond y mae yn debyg mai rhyw Iuddew Helenistaidd a'i cyfansoddodd. Ystyrir ef yn ffugiol gan esbonwyr diweddar. 11. Hanes Bel a'r Ddraig. Gwrthodid hwn yn wastad gan yr

Digitized by Google

Eglwys Iuddewig. Ni rydd Jerome well enw iddo na "Chwedl Bel a'r Ddraig;" ac nid oes un tô dyfodol wedi dangos parch rhagorach iddo, ond duwinyddion Cynghorfa Trent, y rhai sydd wedi ei ganoneiddio. 12. Gweddi Manasses. Y mae hyd yn oed Eglwys Rhufain wedi methu canoneiddio hwn! Sonir yn 2 *Cron.* xxxiii. 18, 19, am weddi gan y brenin, ond y mae yn sicr mai nid hon yw y weddi hono; er nad oes ynddi ddim anmhriodol i'r amgylchiad ag yr hòna gyssylltiad âg ef, nid oes un crybwylliad am ei bodolaeth hyd y bedwaredd ganrif. 13. Llyfrau y Maccabeaid. Gelwir dau o'r llyfrau yma ar yr enw hwn, am y cynnwysant hanes gweithrediadau gwladgarol a gwrol Iudas Maccabëus, a'i frodyr. Y mae Eglwys Rhufain wedi eu derbyn i'r canon. Dadleuir llawer iawn am yr iaith yn yr hon yr ysgrifenwyd y llyfr *cyntaf.* Dywed Jerome ei fod wedi gweled y gwreiddiol yn Hebraeg. Tybia rhai mai John Hyrcanus, mab Simon, oedd yr awdwr, yr hwn a fu yn dywysog ac yn archoffeiriad i'r Iuddewon am yn agos i ddeng mlynedd ar ugain. Tybia ereill mai un o'r Maccabeaid eu hunain a'i hysgrifenodd. Y mae y llyfr yma yn gofadail hanesyddol o werth mawr, wedi ei ysgrifenu yn ffyddlawn a chywir, ar yr hwn y gellir rhoddi ymddiried mwy nag ar Josephus, yr hwn sydd wedi benthyca yn helaeth o hono, ac wedi camsynied ei feddwl yn aml. Y mae yr *ail* lyfr yn gasgliad o amrywiol ddarnau, gan awdwr anadnabyddus. Nid yw hwn mor gywir yn ei hanesiaeth a'r cyntaf, nid yw wedi ei osod mewn iawn drefn amseryddol, ac y mae mewn rhai manau yn groes i'r ysgrifeniadau ysbrydoledig. Gan hyny, y mae yn rhaid darllen ail lyfr y Maccabeaid gyda gofal arbenig. Heb law y ddau lyfr yma, y mae tri llyfr arall ag sydd yn dwyn yr enw, ond yn anmhriodol iawn, ac nid oes un o'r tri wedi cael eu hystyried yn ganonaidd erioed. Y mae y *trydydd* yn llawn o'r chwedlau ffolaf. Ni argraffwyd ef erioed yn Meibl Eglwys Rhufain, nac yn y cyfieithiad Seisonig—ond eiddo Becke, yr hwn a argraffwyd yn 1551, ac eiddo Curtwell. Ni wyddys pwy yw awdwr y *pedwerydd.* Ei amcan yw helaethu hanes yr hen Eleazar, a'r saith brawd, y rhai, gyda'u mam, a ddyoddefasant ferthyrdod dan Antiochus; yr hyn a fynegir yn fwy cryno yn y chweched a'r seithfed bennod o ail lyfr y Maccabeaid. Y mae y *pummed* llyfr yn gynnyrch ysgrifell rhyw ddyn ag oedd yn oesi wedi cymmeriad Ierusalem gan Titus: meddylir ei fod wedi ei grynhoi o weithredoedd archoffeiriaid olynol, i lawr o amser Heliodorus hyd ddyddiau genedigaeth Crist.

II. *Nid yw yr Apocrypha yn cynnwys unrhyw awdurdod fewnol ag sydd yn hawlio lle canonaidd.* 1. Nid oes un o'r llyfrau ar gael yn yr hen Hebraeg Feiblaidd bur. Y mae pedwerydd llyfr Esdras yn yr iaith Lladin, y llyfrau ereill yn yr iaith Roeg, ac wedi eu hysgrifenu, gan mwyaf, gan Iuddewon Alexandriaidd. Nid oedd yr iaith Roeg yn adnabyddus i'r Iuddewon hyd yn mhell wedi i ysbrydoliaeth ballu, ac fod canon yr Hen Destament wedi ei gau. 2. Y maent oll wedi eu hysgrifenu ar ol i'r ysbryd prophwydoliaethol ballu: *Mal.* iv. 4—6. Cytuna yr Iuddewon yn gyffredinol mai Malachi oedd eu prophwyd diweddaf. 3. Nid yw un o'r ysgrifenwyr, mewn termau uniongyrchol, yn hawlio ei fod yn ysbrydoledig. Yn wir, cawn gyfaddefiadau nad oeddynt; megys yn *Ecclesiasticus;* 1 *Mac.* iv. 46; ix. 27; a xiv. 41; 2 *Mac.* ii. 23; a xv. 38. 4. Cynnwysa y llyfrau amryw bethau ag sydd yn groes i'r Ysgrythyrau canonaidd mewn ffeithiau, athrawiaeth, ac ymarferiad moesol; pethau ag sydd hefyd yn groes i wirionedd hanesiaeth gyffredinol, ac yn hollol ddychymygol: *Esther* x. 6; a xiv. 2; 2 *Mac.* i. 19, 22; a ii. 4; heb son am Iudith, a Bel a'r Ddraig;—*Baruch* i. 1, 2, yn groes i *Ier.* xliii. 6, 7. Y mae dau lyfr y Maccabeaid yn hollol groes i'w gilydd: 1 *Mac.* iv. 4—16; 2 *Mac.* i. 13—16, &c. *Tobit* v. 12; xii. 15; 2 *Mac.* xii. 43, 44; *Bar.* iii. 4; 2 *Esdras* viii. 33; 2 *Mac.* xiv. 41—46; 1 *Mac.* xviii. 16; 1 *Mac.* i. 6. Heb fanylu, darllener y rhanau uchod, a cheir gweled eu bod yn profi ein pedwerydd gosodiad.

III. *Nid yw yr Apocrypha yn meddiannu unrhyw dystiolaeth allanol ag sydd yn hawlio lle canonaidd iddo.* 1. Ni dderbyniwyd ef erioed i'r canon gan yr hen Eglwys Iuddewig; gan hyny, nid oeddynt yn cael eu hawdurdodi gan Iesu Grist na chan ei apostolion ysbrydoledig. Ymddiriedwyd oraclau Duw i'r Iuddewon (*Rhuf.* iii 2); cadwasant hwy: ac yn ol rhif y llythyrenau Hebraeg, adranwyd hwynt i bedwar ar ugain o lyfrau: dyma rifedi canon Ysgrythyrau yr Hen Destament, y rhai yn unig a dderbynir yn awr gan yr holl eglwysi diwygiedig. 2. Y canon yma oedd yn dderbyniedig gan yr Iuddewon yn amser Iesu Grist, yn Palestina a'r Aipht; a'r un ydyw hwnw ag a dderbynir genym ni yn awr, heb ddim o'r Apocrypha: hyn sydd amlwg oddi wrth y ffeithiau canlynol:—(1.) Bu Philo yn Ierusalem yn aberthu yn enw ei gyd-ddinasyddion; gan hyny, nid oedd ymraniad rhwng Iuddewon y ddwy wlad. (2.) Y mae mab Sirach yn siarad yn barchus am yr Ysgrythyrau canonaidd —ei oll yn oll oeddynt. (3.) Y mae Philo a Josephus yn dwyn eu tystiolaeth dros y ffaith dan sylw. Y mae tystiolaeth yr olaf o bwys mawr iawn: nid yn unig y mae yn enwi ac yn dosbarthu llyfrau yr Hen Destament, ond y mae yn mynegu yn bendant nad oedd yr Apocrypha o gyfuwch awdurdod a'r Ysgrythyrau ysbrydoledig. (4.) Nid ydyw Iesu Grist wedi dyfynu un frawddeg o'r Apocrypha, ac nid ydyw ei apostolion wedi gwneuthur hyny chwaith. Y mae rhai Pabyddion diweddar wedi ceisio gwrthbrofi hyn, ond y maent wedi methu; ac y mae yr hen ganon Hebreaidd yn sefyll. 3. Y mae amryw ysgrifenwyr Hebreaidd, ar ol amser Crist, wedi gwrthod awdurdod ganonaidd yr Apocrypha; sef Rabbi Azariah, Rabbi Gedalia, Rabbi D. Gantz, a Manasseh Ben Israel, &c. 4. Nid yw yr Apocrypha wedi ei dderbyn i ganon yr Ysgrythyrau ysbrydoledig mewn unrhyw gyfres o lyfrau cyssegredig a dderbynid gan unrhyw gynghorfa o'r hen Eglwys Gristionogol, nac yn unrhyw gyfres a gyhoeddwyd gan y tadau, neu ysgrifenwyr eglwysig y pedair canrif blaenaf. Cyfaddefir hyn gan awduron diweddar o enwogrwydd yn Eglwys Rhufain; ac y mae yn rhaid cyfaddef hyn, canys byddai ei wrthwynebu yn milwrio yn erbyn mynegiadau a phenderfyniadau cynghorfeydd Laodicea, yn 364; Chalcedon, yn 451; Caer Cystenyn, yn 692; yn nghyd â chynghorfeydd ereill; a holl hanesiaeth eglwysig y cyfnod uchod. Y mae genym sicrwydd hefyd yn nhystiolaeth arbenig ysgrifeniadau y Cristionogion cyntaf, o amser Clement, heibio i Origen ac Athanasius, hyd Rufinus, yr hwn sydd yn hollol benderfynol ar y pwnc. 5. Y mae genym dystiolaethau y prif dduwinyddion diweddaraf yn yr Eglwys Roegaidd, a'r Eglwys Ladinaidd, neu yr Eglwys Orllewinol, o'r bummed i'r bymthegfed ganrif, nad oedd yr Apocrypha yn ffurfio rhan o'r

Digitized by Google

Ysgrythyrau canonaidd ysbrydoledig:—Junilus, esgob Affricanaidd, yn 560; Gregory I, yn 604; Bede, yn 730; Ælfric, esgob Canterbury, yn 994; Hugo, abad St. Victor, Paris, yn 1140; Thomas Aquinas, yn 1260; Nicholas Lyra, yn 1320; St. Antonius, yn 1446; ac amryw ereill, i gyd a dystiolaethant nad oedd yr Iuddewon yn ystyried yr Apocrypha yn ganonaidd, ac na ddylid ei ystyried felly. 6. Gallem chwanegu tystiolaethau Pabyddion dysgedig yn yr unfed ganrif ar bymtheg, y rhai a oesent cyn ac wedi yr hyn a elwid yn Gynghorfa Trent. Cardinal Ximenus, yn ei ragymadrodd i'w argraffiad enwog o'i Feibl Amlieithiawg, yr hwn a argraffwyd yn 1514—17, ac a elwir, *Y Beibl Amlieithiawg Complutensaidd*, a gadarnha ein gosodiad. Gallem nodi amryw ereill cyn son am Cardinal Bellarmin, y mwyaf dysgedig o amddiffynwyr diweddaraf Eglwys Rhufain, yr hwn hefyd sydd yn rhoddi yr un cadarnhad. 7. Y mae yr Apocrypha yn cael ei wrthod, fel yn ganonaidd, gan Eglwys Groeg. Er nad yw cyffes ffydd yr eglwys yma yn nodi yr amrywiol lyfrau canonaidd, y mae gan y Parch. W. Blackmore lyfr a elwir, *The Doctrine of the Russian Church, translated from the Sclavono-Russian Originals* (Aberdeen, 1845); lle y ceir cyfres o'r llyfrau a ystyrir yn ganonaidd ganddi: y mae y gyfres hono yr un fath ag eiddo Athanasius a Cyril. Dyna dystiolaeth unol yr eglwys gyffredinol yn ei holl gangenau wedi cael ei gosod ger bron y darllenydd, ac y mae yn dangos nad yw yr Apocrypha yn ganonaidd.

Ebrill 8fed, 1546, cyfarfu pum cardinal, wyth archesgob, ac un a deugain o esgobion, y rhai oeddynt agos oll yn Italiaid, ac ymhonasant iddynt eu hunain yr enw o "Gynghorfa Gyffredinol Trent:" yn eu pedwerydd eisteddiad, darfu i'r rhai yma, yn ngwyneb y tystiolaethau cadarn uchod yn erbyn y peth, dderbyn rhai o'r llyfrau apocryphaidd i'r canon, gan fygwth anathema ar bawb na chydnabyddent awdurdod eu gosodiad. Gwel CANON.

IV. *Apocrypha y Testament Newydd.* Nid yw yn rhyfeddod fod, heb law llyfrau canonaidd y Testament Newydd, lawer o lyfrau ereill a argymmerant eu bod yn wirioneddol. Gallasai dynion o ddymuniadau ac amcanion da dybied ei bod yn ddyledswydd arnynt i gadw cof mewn ysgrifen am ddynion, ffeithiau, ac athrawiaethau, y rhai a barchent; y rhai, ar yr un pryd, a allent fod yn fyr mewn talentau a defnyddiau angenrheidiol i ysgrifenu y gwirionedd. Awgryma yr ysgrifenwyr ysbrydoledig fod y fath ddynion wedi dechreu ar y gwaith, hyd yn oed yn eu dyddiau hwy; a dywedant y byddai ereill yn cyfodi drachefn, y rhai a fyddent yn llai pur eu hamcanion. Dywed Luc (*pen.* i. 1), fod llawer wedi cymmeryd mewn llaw i ysgrifenu efengylau: rhybuddia Paul y Galatiaid am efengyl arall (*Gal.* i. 6—9); dywed hefyd wrth y Thessaloniaid am iddynt beidio cymmeryd eu siglo, "na chan air, na chan lythyr, megys oddi wrthym ni, fel pe byddai dydd Crist yn gyfagos;" 2 *Thes.* ii. 2. Yn yr oesoedd canlynol i'r apostolion, darfu i'r ysgrifeniadau apocryphaidd, y rhai a gyhoeddwyd yn enw Iesu Grist, ei apostolion, a'u cymdeithion, a'r rhai a grybwyllir gan ysgrifenwyr y pedair canrif cyntaf, dan yr enwau efengylau, epistolau, gweithredoedd, dadguddiedigaethau, &c., amlhau yn gyflym iawn. Y mae y rhan amlaf o honynt wedi myned i ebargofiant, er fod rhai o honynt yn aros hyd heddyw, y rhai a gasglwyd gan J. A. Fabricius, ac a gyhoeddwyd yn Hamburg, yn 1719—43. Y mae y dysgedig Jeremiah Jones wedi cyfieithu y rhan fwyaf o hwn mewn llyfr a elwir ganddo, *Dull newydd a chyflawn o benderfynu awdurdod ganonaidd y Testament Newydd.* Llyfrau Apocrypha y Testament Newydd ydynt *Epistol oddi wrth Grist at Abgarus*—epistol y dywedir iddo syrthio o'r nefoedd i Ierusalem, wedi ei gyfarwyddo i offeiriad a elwir Leopas, yn ninas Eris; hefyd, Sefydliadau yr Apostolion; *Credo yr Apostolion*; hefyd, *Llythyrau Apostolaidd Barnabas, Clemens neu Clement, Ignatius, a Polycarp*; hefyd, *Efengyl Mabandod ein Iachawdwr*; *Efengyl Genedigaeth Mair*; *Efengyl Iago*; *Efengyl Nicodemus*; hefyd, *Merthyrdod Theola*, neu *Weithredoedd Paul*; Hanes y deuddeg Apostol, gan Abdias; *Epistol Paul at y Laodiceaid*; Chwech Epistol Paul at Seneca, &c. O'r amrywiol gynnyrchion yma, y mae y rhai sydd wedi eu hargraffu mewn llythyrenau Italaidd i'w gweled yn y Testament Apocryphaidd, a argraffwyd yn Llundain yn 1820, ac ail argraffiad o hono yn 1821. Ni ddylai yr ysgrifeniadau a briodolir i Barnabas, Ignatius (o'r hyn lleiaf, ei *wir* ysgrifau), Polycarp, a Hermas, gael eu hystyried mewn gwirionedd yn apocryphaidd, gan nad oedd yr awdwyr, y rhai a elwir yn gyffredin "y Tadau apostolaidd," am eu bod wedi cydoesi dros ryw gymmaint o amser âg apostolion Iesu Grist, yn apostolion ysbrydoledig. Derbyniwyd *Epistol cyntaf Clement at y Corinthiaid* yn ganonaidd, dros ychydig amser, mewn rhai eglwysi, ond gadawyd ef allan yn fuan fel cynnyrch anysbrydoledig: y mae y Dr. Lardner wedi profi nad yw y dernyn a elwir *Ail Epistol Clement at y Corinthiaid* wedi cael ei ysgrifenu gan Clement erioed. Gan fod ffurf allanol y Testament Newydd Apocryphaidd mor debyg i'r argraffiadau wythplyg o'r Testament Newydd awdurdodedig, cymmerodd anffyddwyr fantais ar hyn i geisio niweidio gwirionedd a chywirdeb y llyfrau canonaidd; ond buant aflwyddiannus. Y mae digon o resymau cedyrn dros awdurdod y llyfrau canonaidd, ac yn erbyn y llyfrau apocryphaidd a ffugiol. Heb fyned dros y rhesymau yma, goddefer i ni ddyweyd fod yr Apocryphäau yn sefydlu rhagoroldeb llyfrau y Testament Newydd, yn nghyfansoddiad y rhai y mae yr undeb perffeithiaf o fawredd a symlrwydd, yr hyn sydd yn gwrthdaraw yn arbenig yn erbyn plentynrwydd ac afresymoldeb y lleill; eto, y maent o les mawr i chwanegu a chadarnhau tystiolaethau Cristionogaeth. Nid yn unig, gellir dywedyd nad ydynt yn milwrio yn erbyn y llyfrau canonaidd, ond y maent yn benderfynol yn eu cadarnhau; a bod y rhan fwyaf o honynt wedi eu cyfansoddi cyn dechreu yr ail ganrif. Nid heb ymchwil manwl y mae y canon wedi cael ei benderfynu; bu hir ddadleu am rai o'r Epistolau Cyffredinol, y Llythyr at yr Hebreaid, a'r Dadguddiad: gan hyny, nid yw yr Apocrypha yn gallu milwrio dim yn ei erbyn. Fel hen ysgrifeniadau, y mae rhai o lyfrau apocryphaidd yr Hen Destament a'r Newydd yn werthfawr iawn, o herwydd yr hysbysiadau hanesyddol a gynnwysant; ac y maent yn taflu goleuni mawr ar eiryddiaeth yr Ysgrythyrau.—(*Prideaux's Connexion*; *Lowth's Lectures*; *Spectator*, rhif 68; *Christian Remembrancer*, cyf. ix; *Cottage Bible*; *Wheatley on the Common Prayer*; *Kennicott's Dissert. Gener.*; *Dr. Cotton's Five Books of the Maccabees*; *Michaelis' Introd. New. Test.*, cyf. i; *Whitson's Authen. Doc.*; *Prof. Stuart's Def. Old Test. Can.*; *Dick's Essay on the Inspirat. of the Holy Scriptures*; *Perceval's*

Digitized by Google

*Rom. Schism Illust.; Bp. Cosin's Schol. Hist. Can.; Dr. Lardner's Works; Malpy's Illust.; Eclectic Review*, cyf. xv. *new series; Renwell's Proofs of Inspir.; Horne's Introd.*, cyf. i. a iv.)

APOLLINARIUS: yr hwn a gyfenwid, "Yr ieuangaf," oedd yn ddysgybl i Epiphanius; ac a wnaed yn esgob Laodicea yn y bedwaredd ganrif. Yr oedd yn ŵr tra dysgedig a llafurus, megys yr oedd ei dad o'i flaen. Pan gyhoeddodd Julian ei ddeddf orthrymus, yn y flwyddyn 362, yn gwahardd i'r Cristionogion ddefnyddio yr awduron clasurol Groegaidd a Rhufeinaidd yn eu hysgolion, darfu i'w dad, Apollinarius yr hynaf, gyfansoddi ieithadur ar egwyddorion Cristionogol, ac ysgrifenu amryw lyfrau ar ddullwedd yr hynafiaid. Cyfieithodd hefyd lyfrau Moses i arwrgerdd Roegaidd; ac ysgrifenodd holl hanes yr Hebreaid hyd ddyddiau Saul yn yr unrhyw arddull, gan ei ranu, fel *Iliad* Homer, yn bedwar dosbarth ar ugain, wedi eu rhagnodi â llythyren y wyddor: a'i fab, Apollinarius yr ieuangaf, a gyfansoddodd yr Efengylau, ac athrawiaethau yr apostolion, ar ffurf o ymddyddanion, yn ol arddull Plato. Ysgrifenodd hefyd esboniadau ar lyfrau y Salmau, a'r Pregethwr; prophwydoliaethau Esaiah, Daniel, a Hosea; ac amryw o lyfrau y Testament Newydd. Y mae Jerome ac ereill yn crybwyll yn barchus am ei "Ddiffyniad o'r Grefydd Gristionogol," yr hwn a gyfansoddodd efe mewn atebiad i Porphyry, mewn deg ar ugain o lyfrau. Ac y mae Sozomen, yn ei *Hanes Eglwysig*, yn crybwyll cyfansoddiad gwerthfawr o eiddo y gŵr hwn, yr hwn a gyfeirid ganddo at yr ymherawdwr ei hunan, a'r athronwyr Groegaidd, dan y teitl, "Am y Gwirionedd;" yn yr hwn y dangosai, trwy resymau, heb appelio at yr Ysgrythyrau dwyfol, nad oeddynt hwy yn synied yn gywir am y Duwdod. Dywedir fod Julian yn gwneyd y sylw canlynol wrth ysgrifenu o barth i'r llyfr hwn at rai o'r esgobion—"Darllenais, deallais, a chondemniais." I'r hyn y derbyniai yr ateb hwn—"Chwi a ddarllenasoch, ond ni ddeallasoch; canys pe deallasech, ni chondemniasech."

Heb law hyn oll, efe a gyfansoddodd amryw o salmau a hymnau byrion at wasanaeth cynnulleidfaoedd crefyddol ac unigolion.

Dywed Jerome, ei fod wedi marw yn nheyrnasiad Theodosius, tua'r flwyddyn 382, neu yn fuan wedi hyny, yn gyflawn o ddyddiau.

Er mwyn deall safle Apollinarius yn nadleuon ei oes, ac er mwyn i'r darllenydd wybod at ba erthyglau i gyfeirio mewn trefn i gael golwg gyflawn ar yr oll o honynt, ni a nodwn yn fyr y prif gyfeiliornadau a ymosododd ar y wir athrawiaeth am berson yr Arglwydd Iesu Grist yn y canrifoedd cyntaf o Gristionogaeth. Y pedwar gosodiad sydd yn cynnwys yr athrawiaeth uniawngred am hyn ydynt—ei Dduwdod, ei ddyndod, undeb y ddau yn un person, a gwahaniaeth y ddwy natur er yr undeb hwn. Yn erbyn y rhai hyn, cododd pedwar cyfeiliornad o arbenigrwydd neillduol:—eiddo yr Ariaid, y rhai a wadent ei wir Dduwdod; yr Apollinariaid, a'r Docetæ, y rhai a wadent berffeithrwydd ei ddynoliaeth; y Nestoriaid, y rhai a ddadleuent fod Crist yn ddau berson; a'r Eutychiaid, y rhai, wrth ddal unoliaeth ei berson, a gymmysgent briodoliaethau ei ddwy natur. Yn erbyn y rhai hyn, daliwyd pedair cynghorfa gyffredinol:—Cynghorfa Nicaia, yn erbyn yr Ariaid; Cynghorfa Caer Cystenyn, yn erbyn yr Apollinariaid; Cynghorfa Ephesus, yn erbyn y Nestoriaid; a Chynghorfa Calcedon, yn erbyn yr Eutychiaid. Mae ffrwyth ysgrifeniadau a dadleuon y canrifoedd cyntaf o blaid y wir athrawiaeth, ar y pen dan sylw, yn eu credoau a'u hamddiffyniadau, yn gynnwysedig mewn pedwar gair—*αληθως, τελεως, αδιαιρετως, ασυγχυτως*—*yn wir, yn berffaith, yn anrhanadwy, yn wahanredol*—y mae Iesu Grist *yn wir* Dduw, *yn berffaith* ddyn, yn un person *anrhanadwy*, ac yn meddu dwy natur *wahanredol*.

Amddiffynodd Apollinarius y syniadau uniongred am Dduwdod y Gwaredwr, yn erbyn Eunomius a Marcellus, yn unol â chredo Nicaia. Daliai hefyd fod yr athrawiaeth am Grist fel y Duw-ddyn yn hanfodol i Gristionogaeth. Nid oedd yn ddigon ganddo ef i ddyweyd fod Crist yn ddyn mewn undeb â Duw, ac yn gwneuthur gwyrthiau trwy allu dwyfol: gallai yr Iuddewon, ac hyd yn oed y paganiaid, addef hyny: ond neillduolrwydd y Cristion ydyw ei fod yn credu mewn Duw-ddyn. Ond wrth geisio dangos pa fodd y mae y ddwy natur wedi eu huno yn ei un person, arweiniwyd ef i'r syniadau neillduol sydd yn gyssylltiedig â'i enw. Careg sylfaen ei olygiadau ar hyn ydyw—fod yn anmhosibl i berffaith Dduw a pherffaith ddyn fod mewn undeb â'u gilydd mewn un person—"nas gall dau fod, yn meddu ar ddeall ac ewyllys, gael eu huno yn un person." Yr oedd yn angenrheidiol i berffeithrwydd gwaith Crist, fel prynwr, iddo beidio bod yn ddyn perffaith (cyflawn). Ei syniad am ddyn, oedd, fod yn anmhosibl iddo beidio pechu (ὁπου τελειος ανθρωπος, ἐκει αμαρτια). Defnyddiai y dosbarthiad triphlyg o ddyn yn epistolau Paul. 1. *Yr ysbryd* (πνευμα, νους, ψυχη, λογικη), yr hyn sydd yn cyfansoddi ei bersonoliaeth. 2. *Yr enaid* (ψυχη a λογος). 3. *Y corff.* Yr oedd y dosbarthiad hwn yn gyffredin yn amser Apollinarius: dywedent mai yr ysbryd ydyw hanfod dyn; ac mai yr enaid ydyw egwyddor y bywyd anifeilaidd, yn cyfryngu megys rhwng yr ysbryd a'r corff: mai yr enaid yw ffynnonell y chwantau sydd yn gwrthryfela yn erbyn yr ysbryd; bod yr ysbryd yn rhy wan i wrthsefyll a gorchfygu y blysiau hyn; ac o ganlyniad, bod dyn yn myned dan eu harglwyddiaeth. Mewn trefn i brynu dyn oddi wrth yr arglwyddiaeth yma, yr oedd yn angenrheidiol i ysbryd dwyfol—y Gair ei hun—ddyfod i undeb â'r ddwy ran isaf mewn dyn, sef enaid a chorff, ac felly i lywodraethu arnynt, ac adferu undeb rhwng egwyddorion uchaf ac isaf ei natur. Credai fod tair rhan yn Nghrist fel yn mhob dyn; ond gyda hyn o wahaniaeth, fod person dwyfol y mab yn cymmeryd lle yr "ysbryd" dynol ynddo ef. Nis gallai weled y gallasai fod rhinwedd dwyfol yn ei angeu mewn un ffordd ond trwy fod ei natur ddwyfol yn dyoddef mewn undeb â'r rhanau isaf mewn dyn.

Meddyliai hefyd fod ei syniadau ef am natur yr undeb yn mherson y Duw-ddyn yn angenrheidiol, mewn trefn i wneyd gwahaniaeth rhwng preswyliad y Duwdod ynddo ef, a'i breswyliad mewn dynion ereill. Yr oedd yn eiddigeddus dros ddadguddiad cyflawn o Dduw yn y dyn Crist Iesu; ond nis gallai weled pa fodd yr oedd hyny yn bosibl, ond trwy ddiffodd, megys, rhyw gymmaint o'r ddynoliaeth. Ond trwy hyny, yr oedd pob peth yn ymddangos yn glir iddo: sef, pa fodd y gallasai Crist fod yn ddibechod; pa fodd y gallasai ei angeu fod yn iawn; a pha fodd yr oedd yn briodol rhoddi yr addoliad dwyfol iddo ar y ddaiar oedd yn ddyledus iddo fel Duw.

Ysgrifenodd Athanasius yn ei erbyn, ond heb ei enwi, gan fod ganddo barch iddo fel amddi-

Digitized by Google

ffynwr dwyfoldeb Crist yn erbyn yr Ariaid. Rhai o ddadleuon Athanasius yn ei erbyn ydynt:—"Pa fodd y gallasai Crist fod yn esampl i ni, os nad oedd ganddo ein natur ni, fel y mae hi genym ni? Pa fodd y gallasai waredu yr oll o ddyn, os nad oedd natur dyn yn gyflawn ganddo?" Cyfeiria at yr amlygiadau o deimladau a gweithredoedd dynol oedd i'w gweled yn ei fywyd, megys ei dristwch hyd angeu, ei weddiau, &c. Mewn atebiad i'w haeriad na allasai Crist gymmeryd y ddynoliaeth yn gyflawn heb fod yn ddarostyngedig i bechod, y mae yn ateb—fod hyn yn gwneyd pechod yn naturiol i ddyn, a rhyddhad oddi wrtho yn groes, ac uwch law ei natur. Ond yn hollol groes i hyn, yr oedd sefyllfa wreiddiol dyn yn un ddibechod; a llygriad ei natur ydyw yr achos fod pechod wedi ennill yr oruchafiaeth arno. Dyrchafodd Crist ddyn i'w ryddid gwreiddiol. Yr oedd wrth wraidd y ddadl hon syniadau gwahanol am natur rhyddid dyn; ond yn ddiweddarach, yn y dadleuon Pelagiaidd, y daeth y gwahaniaeth i sylw neillduol.

Ateb Gregory o Nazianzen, un arall o wrthwynebwyr Apollinarius, ydyw—"Fod Crist dan angenrheidrwydd i gymmeryd y natur ddynol er mwyn prynu dyn, nid yn unig am ei fod trwy hyny yn dwyn priodoliaethau anweledig Duw mewn dull gweledig i ddyn—pe na buasai dim ond hyny yn ofynol, gwnelsai rhyw natur weledig—ond yr oedd y natur *ddynol* yn angenrheidiol er mwyn prynu *dyn*—o ganlyniad, rhaid oedd iddo gymmeryd yr oll o ddyn.

APOLLINARIAID: sect o gyfeiliornwyr, a gafodd ei henw oddi wrth Apollinarius, esgob Laodicea. Yn y flwyddyn 388, parodd yr ymherawdwr Theodosius gyhoeddi deddf, yn eu gwahardd i gynnal cymmanfaoedd, a chynnulliadau crefyddol, i feddu esgobion na gweinidogion crefyddol o un math, nac i gyfanneddu mewn dinasoedd; a thrwy lymder y gyfraith hon, ac ymosodiad y cynghorau arnynt yn barhaus, fe'u darostyngwyd yn llwyr cyn hir.

APOLLO, [*ἀπόλλων—achubydd*; neu o *ἀπολύω—distrywio*; neu o *ἀεὶ βάλλων—bob amser yn saethu ei belydr*, fel yr *haul*, o'r hwn yr oedd Apollo yn enw prydyddol, neu eilun]. Dywed Cicero fod pedwar o'r enw yma:—Y cyntaf oedd fab Vulcan, a duw amddiffynol yr Atheniaid. Yr un ydoedd hwn, fel y tybir, ag Orus yr Aiphtiaid; a hwn oedd yr hynaf o'r pedwar Apollo, oddi wrth yr hwn y benthyciodd y lleill eu gweithredoedd nerthol. Y mae y tri ereill o darddiad—yn hytrach, o ddychymyg—Groegaidd. Yr ail oedd fab Corybas. Ganwyd yr Apollo yma yn Creta; a dywedir iddo ymryson âg Iau ei hun am lywodraeth y lle. Y trydydd a anwyd yn Arcadia, ac a elwid Nomion, am mai efe a wnaeth gyfreithiau i'r trigolion. A'r pedwerydd oedd fab Seus (Iau) a Latona, yr hwn, ac Artemis (Diana), oeddynt efeilliaid; a daeth efe i Delphi oddi wrth genedl y Gorogleddwys (*Hyperboreans* — Cimmeriaid, Cymry), o'r sawl yr oedd yn hanu. Ganwyd ef a'i chwaer yn ynys nofiedig Delos, i'r lle y ffodd Latona rhag yr eiddigus Hera (Juno). Pan oedd Latona yn feichiog o Iau, cyfododd Hera (yr hon yn wastad oedd eiddigus at anlladrwydd ei gŵr) y sarff Python i'w blino, i'r hon Latona y gwrthodid lle i eni ei phlant, hyd oni ddarfu i Neptune, o wir dosturi at ei thynged, gyfodi yr ynys Delos o waelod y môr, lle y rhoddodd Latona enedigaeth i Apollo ac Artemis. Cymmerwyd y traddodiad, fod mab Latona wedi ei eni yn Delos, o chwedloniaeth yr Aiphtiaid, sydd yn haeru fod mab Vulcan (yr un ag Orus) wedi cael ei achub gan ei fam Isis oddi wrth ymlidiad Typhon; ac iddo gael ei roddi wedi hyny dan ofal Latona, yr hon a'i cuddiodd yn ynys Chemmis. Yr Apollo yma, mab Seus a Latona, oedd un o brif dduwiau y Groegiaid, i'r hwn y priodolid holl gampau y tri ereill. Yr oedd y gweithredoedd a briodolid i hwn gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn bur amrywiol eu natur, ond yr oeddynt oll yn dal cyssylltiad â'u gilydd, fel y dengys y dosbarthiad canlynol:—

1. *Duw y dial:* am hyny, darlunir ef â bwa ac â saeth. Yn y cymmeriad yma y lladdodd efe y sarff Python, ar y pummed dydd ar ol ei enedigaeth; o blegid yr hyn, yn ol barn rhai, y cafodd ei alw Pythius. Ar ol hyny, lladdodd efe a'i chwaer Diana, blant Niobe—ugain o nifer, medd rhai; deuddeg, medd ereill am iddi ddiystyru Latona, o blegid nad oedd ganddi ond dau blentyn—Apollo a Diana. Cynnorthwyodd ei dad Iau mewn rhyfel â'r Tudaniaid, ac â'r cawri. Efe a ddistrywiodd y Cyclopiaid, am iddynt forthwylio y taranfolltau, â'r rhai y lladdodd Iau Æsculapius, mab ac anwylyd Apollo. Tybid mai efllaith saethau Apollo oedd marwolaeth yr holl feehgyn a gymmerid o'r byd yn ddisymmwth ac esmwyth, heb saldra blaenorol. Ei saethau ef hefyd a barasant y pla yn ngwersyll y Groegiaid o flaen dinas Caerdroiau. Pan ymddangosai Apollo fel duw y dial â'r pläau, amgylchynid ef yn wastad â chymylau.

2. *Duw y cynnorthwyon rhag drygau a gofidiau.* Fel yr oedd Apollo yn meddu gallu i gospi dynion, felly hefyd yr oedd yn alluog i'w gwaredu ar delerau priodol. Fel duw y cynnorthwyon, efe oedd tad Æsculapius, y meddyg; a chan mai â'i oraclau ac â'i swyngyfareddwyr ef yr ymofynid fynychaf am gynnorthwyon meddygol, daeth mewn amser lled ddiweddar i gael ei ystyried yn *dduw y cyfferi;* ac ystyrid ef yr un a Paon, duw y gelfyddyd feddygol, yn Homer; a ffugiai y prydyddion mai efe a ddysgodd y gelfyddyd i'r Asclepiadon (*Asclepiades*).

3. *Duw prophwydoliaeth.* Yr oedd Apollo yn arfer y ddawn brophwydol, gan mwyaf, trwy ei aml oraclau, yn enwedig oracl Delphi: o herwydd hyn y tybia rhai iddo gael ei alw yn Apollo Pythianaidd, oddi wrth Python, hen enw Delphi. Yr oedd ganddo allu hefyd i gyfranu dawn prophwydoliaeth i dduwiau ac i ddynion; am hyny, yr oedd yr holl hen ddoethion a phrophwydi yn hòni eu bod yn dal rhyw berthynas âg ef. Efe a ddadguddiodd luaws o ddygwyddiadau dyfodol yn Delphi, Delos, Didyma, Claros, Tenedos, Cyrrha, a Patara; ac efe, fel yr ymddengys, yn *Iliad* Homer, a gyfranodd y ddawn brophwydol i Calchas.

4. *Duw cân a cherddoriaeth.* Canfyddir ef yn yr *Iliad* yn difyru y duwiau anfarwol â'i Pharminx; a chanddo ef neu yr Awenau, y cafodd y prydyddion Homeraidd gelfyddyd y gân. Am hyny, gosodir ef mewn cyssylltiad agos â'r Awenau; a gelwir, am hyny, Apollo yr Awenyddwr (*Musagetes*), megys arweinydd côr yr Awenau. Ei brif breswylfod yn y cymmeriad yma oedd mynydd Parnassus, lle y llywyddai yn mysg yr Awenau, â thelyn yn ei law, a choron o lawryf ar ei ben. Yn ngwyliau y duwiau ar Olympus, efe a chwareuai ac a ganai, tra y dawnsiai yr Awenau o'i amgylch. Dywed rhai mai Apollo a ddyfeisiodd y chwibanogl a'r delyn; pan y tybia

Digitized by Google

ereill iddo dderbyn y delyn gan Hermes (Mercher) yn gyfnewid am y Caduceus enwog, sef gwialen âg un pen iddi wedi ei gordeddu â dwy sarff, ar ffurf dau hanner-gylch cyfartal, â'r hon yr arferai Apollo arwain deadellau Artemis. Rhyfygodd Marsyas ymryson âg Apollo ar y chwibanogl, ar yr ammod i'r buddugwr gael gwneyd a fynai â'r gorchfygedig. Rhoddodd yr Awenau, oedd yn feirniaid ar yr achos, eu dedfryd o blaid Apollo. Yna, rhwymodd Apollo Marsyas wrth bren, a blingodd ef yn fyw am ei ryfyg. O waed hwn y tarddodd yr afon Marsyas; ac er cof am y fuddugoliaeth, crogodd Apollo ei groen yn yr ogof o'r hon y llifai yr afon. Hefyd, bu Apollo mewn cystadleuaeth gerddorol â Pan, yr hwn a chwareuai ar y bib, tra y chwareuai Apollo ar y delyn. Yr oedd Tmolus wedi penderfynu eisioes o blaid Apollo, pan y gwrthwynebai Midas y ddedfryd, yr hwn a gafodd ei addurno gan y duw â phâr o glustiau asyn am ei ffolineb.

5. *Duw yn amddiffyn deadellau ac anifeiliaid.* Nid oes ond ychydig gyfeiriadau at y cymmeriad yma o eiddo Apollo yn Homer; ond mewn ysgrifenwyr diweddarach, y mae hyn yn un o'i brif nodweddau: ac yn hanes Apollo yn gwylio deadellau Admetus, yn Pharæ yn Thessaly, cyrhaedda y meddylddrych yma ei eithafedd. Dywed rhai mai ei orfodi i fod yn fugail a gafodd Apollo, dan yr amgylchiadau canlynol:—Pan laddwyd ei fab Æsculapius gan daranau Iau, am iddo godi y meirw, ffromodd Apollo gymmaint fel y lladdodd yntau y Cyclopiaid a forthwyliasant y taranfolltau. Yna y cythruddodd Iau o blegid y creulondeb yma, ac alltudiodd Apollo o'r nefoedd, ac amddifadodd ef o'i anrhydedd. Ar ol hyn, aeth y duwdodyn alltudiedig at Admetus, brenin Thessaly, a chyflogodd i fod yn fugail iddo, ac arosodd yn y gwasanaeth israddol yma am yr ysbaid o naw mlynedd; yr hyn o roddodd iddo y teitl sydd ar ddechreu y wahanran yma. Yn ei aberthau, fe offrymid blaidd iddo yn gyffredin, am fod y bwystfil hwnw yn elyn hysbys i'r deadellau. Tra yr oedd Apollo yn Thessaly, efe a wobrwyodd Admetus yn helaeth am ei garedigrwydd iddo. Rhoddodd gerbyd iddo, yn cael ei dynu gan lew a tharw, â'r hwn y llwyddodd i gael Alceste, merch Pelias, yn wraig; ac yn fuan ar ol hyn, caniataodd Parcæ, ar ddymuniad Apollo, i Admetus gael ei adferu o farwolaeth, trwy i un arall roi ei fywyd yn ei le. Barna rhai, fel y crybwyllwyd, mai ei orfodi a gafodd Apollo i gymmeryd swydd bugail, tra y tybia ereill iddo ei chymmeryd o'i fodd, er mwyn cael cyfleusdra i ddangos ei wyrthiau.

6. *Duw yn ymhyfrydu yn sylfaeniad dinasoedd, a sefydliad llywodraethau gwladol.* Am hyny, nid adeiledid un ddinas, ac ni sefydlid un drefedigaeth, gan y Groegiaid, heb ymgynghori âg oracl Apollo; fel y daeth, yn mhob amgylchiad o'r fath, i fod megys arweinydd ysbrydol iddynt. Efe a sylfaenodd Cysicum, Cyrene, a Naxos, yn Sicily. Dywed Homer mai efe hefyd, yn nghyd â Neptune, a adeiladodd gaerau Caerdroiau, ac iddo gospi y ddinas wedi hyny â phla, am i Laomedon ei dwyllo o'i gyflog. Yn ol Pausanias, bu ganddo law yn adeiladu caerau Megara; a'r pryd hyny, gosododd ei dwsmel ar gareg, yr hon fyth ar ol hyny, pan gyffyrddir â hi, a gân gainc y dwsmel.

7. *Duw yr haul.* Y mae Apollo a Helios, neu yr Haul, yn hollol wahanol yn Homer; ond mewn ysgrifenwyr diweddarach, gosodir y naill a'r llall allan, yn gyffredinol, fel yn dynodi yr un gwrthddrych; gan hyny bernir nad yw y cymmysgiad yma o'r ddau ond golygiad diweddar, mewn cymhariaeth, wedi ei ddwyn i mewn dan ddylanwad estronol, sef, yn benaf, dylanwad Aiphtaidd. Yr oedd gan Apollo fwy o ddylanwad ar y Groegiaid nag un duw arall; gellir sicrhau yn ddiogel, meddai y Dr. Smith, na buasai y Groegiaid byth yr hyn oeddynt heb addoliad Apollo, canys yndd o ef yr oedd ochr ddysgleiriaf y meddwl Groegaidd yn adlewyrchu. Nid oes dim naws o addoliad Apollo i'w ganfod yn nghrefydd y Rhufeiniaid boreuaf; daethant hwy yn adnabyddus o'r duwdodyn hwn trwy y Groegiaid, gan y rhai y cawsant eu holl syniadau am dano. Yn ystod yr ail ryfel â'r Carthaginiaid (*Punic war*) yn 212, sefydlwyd chwareuon Apollo (*ludi Apollinares*), er anrhydedd i'r duw yn Rhufain, y rhai oedd gynnwysedig o ymladd teirw, a chwareuon areithyddol, campwrol, &c. Darlunir Apollo gan y prydyddion a'r cerflunwyr, yn nghyd â Mawrth, Mercher, a Bacchus, yn perthyn i'r duwiau difarf, yn y rhai y tywyna dyndod boreuol. Y pethau cyssegredig i Apollo oedd bwa, cawell saethau, bwa offer cerdd (*plectrum*), ffon bugail, ystôl drithroed, y llawryf, a'r olewydden; ceiliog, gwalch, bran, alarch, a cheiliog y rhedyn; heb law y sarff, y blaidd, &c. Yn ei aberthau, fe offrymid gweilch, bleiddiau, ychain, ac ŵyn. Yr oedd anlladrwydd y duwiau paganaidd oll braidd yn adgas, ac nid oedd Apollo yn ol iddynt yn y ffieidd-dra, fel y dengys ei hanes mewn cyssylltiad â Leucothoe, Daphne, Issa, Bolina, Coronis, Clymene, Cyrene, Acacallis, Calliope, &c.; er mwyn cyflawnu ei nwydau â'r sawl y cymmerai amryw ffurfiau arno ei hunan. Yr oedd yn bur hoff o Hyacinthus ieuanc, yr hwn a laddwyd ganddo yn ddamweiniol â choetan. Yr oedd Cyparissus hefyd yn un o'i gyfeillion penaf; yr hwn, o blegid iddo ladd carw oedd bur hoff gan Apollo, a ddihoenodd, o wir ofid, hyd farwolaeth, ac a drowd yn gypryswydden. Ei brif deml ydoedd yn Delphi, i'r hon y dygai yr holl genedloedd yr anrhegion gwerthfawrusaf, pan y deuent yno i ymofyn â'r oracl. Ar ol rhyfel Actium, adeiladodd Augustus iddo deml ardderchog ar fynydd Palatine, yr hon a gyfoethogwyd â llyfrgell werthfawr. Hefyd, yr oedd iddo deml ar fynydd Leucas, yr hon welid am bellder mawr yn y môr, ac a wasanaethai i rybuddio y morwyr rhag y creigiau peryglus oedd ar hyd yr arfordir. Yr oedd cawr-ddelw odidog iddo yn Rhodes, yr hon a ystyrid yn un o saith rhyfeddod y byd. O'r holl gerfluniau o Apollo a'n cyrhaeddasant ni, yr hynotaf, ac, yn ol barn y dysgedig Winckelmann, y goreu a'r perffeithiaf a gynnyrchwyd gan gelfyddyd ydyw yr un a elwir Apollo Belvidere, o babell Belvidere, yn y Vatican, yn Rhufain; a elwir hefyd, yr Apollo Pythianaidd, am y tybir mai cynnrychioli y duw fel gorchfygwr y sarff Python oedd amcan y celfyddydwr. Darlunia y duw yn dal darn o fwa yn ei law chwith, o'r hwn yr ymddengys newydd ollwng saeth, ac yntau yn sefyll mewn agwedd attaliol, fel yn dysgwyl iddi ddisgyn ar wrthddrych ei ddigofaint. Y dysgedig Visconti, yn ei draethawd ar deilyngdod godidog y cerflun yma, a'i priodola i gŷn y cerfluniwr Groegaidd, Calamis, a thybia mai darluniad ydyw o'r Apollo Alexiacos—neu gwaredwr rhag drwg—yr Apollo yn distrywio y Python, neu y sarff fawr—a barna iddo gael ei ddysgrifio gan Pliny a Pausanias. Canfyddwyd y cerflun nodedig yma yn ninas Antium, yn niwedd y bymthegfed ganrif. Ar heddwch Tolentino, 1797, cludwyd ef i Paris, gyda chynnyrchion ereill o gelfyddyd; o'r lle y dychwelwyd ef i Rufain yn y flwyddyn

Digitized by Google

1815.—(*Homer; Hesi.; Paus.; Plut.; Lucian; Apollod.; Ovid. Met.; Virg. Æn.; Plin., Winckel, Viscon., Byron, Forsyth, Wright, Lempr., Smith, Pop. Cycl.*)

APOLONIA, [Ἀπολλωνία]: dinas yn Macedonia, yn nhalaeth Mygdonia [*Plin.*, iv. 17], rhwng Amphipolis a Thessalonica, deg ar ugain o filltiroedd Rhufeinig oddi wrth y flaenaf, ac un ar bymtheg ar ugain oddi wrth yr olaf [*Itiner. Anton*]. Aeth Paul drwy Amphipolis ac Apolonia pan ar ei daith i Thessalonica (*Act.* xvii. 1).

APOLONIUS. Cyfarfyddir â thri o bersonau o'r enw hwn yn hanes y Maccabeaid:—

1. APOLONIUS: cadfridog a anfonwyd gan Antiochus Epiphanes i Iudea, ac a gymmerodd Ierusalem, ond a orchfygwyd ac a laddwyd gan Iudas Maccabæus ar ol hyny, c. c. 166 (1 *Mac.* iii. 10, 11).

2. APOLONIUS: llywodraethwr Cœle-Syria, a chadfridog Demetrius Nicanor, yr hwn a orchfygwyd gan Ionathan ar ran Alexander Balas, c. c. 148 (1 *Mac.* x. 69—76).

3. APOLONIUS: un o'r llywodraethwyr a adawyd gan Lysias yn Iudea, ar ol y cytundeb rhwng yr Iuddewon ac Antiochus Eupator (2 *Mac.* xii. 2). Gwel MACCABEAID.

APOLOS, [Ἀπολλώς, talfyriad o Ἀπολλώνιος, *dinystrydd, difrodydd*]: "Alexandriad o genedl" [am bwysigrwydd y ffaith hon, gwel ALEXANDRIA; OES APOSTOLAIDD]. Heb law cael ei ddwyn i fyny mewn dinas yr hon a ddylanwadodd mor rymus ar Gristionogaeth yr oes gyntaf, yr ydoedd yn "ŵr ymadroddus" (ἀνὴρ λόγιος), naill ai *dysgedig* neu *hyawdl*, ond yn fwyaf tebygol yr olaf —"cadarn yn yr Ysgrythyrau," ond "heb ddeall ond bedydd Ioan yn unig;" a "dysgybl," gan fod rhai tebyg iddo yn cael eu galw felly: *Act.* xix. 1 —yr "hwn oedd wedi dechreu dysgu iddo ffordd yr Arglwydd;" *Act.* xviii. 24, 25. Oddi wrth y dysgrifiad hwn, yn nghyd â'r hanes am y deuddeg dysgybl i Ioan yn y bennod nesaf (*Act.* xix. 1—7), ni a allwn gasglu eangder a pharhad dylanwad Ioan Fedyddiwr am Grist, am yr hyn nid oes un awgrymiad yn y Testament Newydd ond a geir yma. Derbyniodd Iuddewon o wledydd ereill eu gwybodaeth am y Messiah oddi wrtho, a chymmerasant y wybodaeth hon gyda hwynt ar eu dychweliad oddi wrth lanau yr Iorddonen. Yr oeddynt wedi eu dysgu am Fessiaeth yr Iesu yn ol syniadau Ioan; gallai llawer o honynt fyned yn mhellach na thystiolaeth Ioan, am eu bod yn gydnabyddus â holl *ffeithiau* bywyd Crist; ond ni wyddent am ei ogoneddiad yn ei adgyfodiad, ei esgyniad, nac am yr *athrawiaethau* seiliedig ar ei fywyd a'i angeu, na chwaith am dywalltiad yr Ysbryd Glân mewn canlyniad i'w esgyniad. Yr ydoedd "Apolos yn wresog yn yr Ysbryd" i ledaenu y wybodaeth a feddai am y Messiah. Fel Ioan wrth yr Iorddonen, yr oedd yntau allan o derfynau Iudea yn esbonio prophwydoliaethau yr Hen Destament, yn cyhoeddi fod amser y Messiah wedi dyfod, ac yn ysbryd Elias yn galw yr Iuddewon i edifeirwch. Daeth i Ephesus ar ol i Paul fyned heibio yno ar ei daith gyntaf o Corinth, a llefarodd yn hyf yn y synagog; yno y cyfarfu âg Acwila a Phriscila, yr hyn fu yn fendithiol er lledaeniad yr efengyl, o herwydd "cymmerasant ef, ac agorasant iddo ffordd Duw yn fanylach." Yr oeddynt hwy wedi dysgu gan Paul yn Corinth lawer mwy am Grist nag a wyddai Ioan, a gallent hwy ddyweyd wrtho am yr arwyddion oedd yn cydfyned â thywalltiad yr Ysbryd. "Athrawiaethodd yn ddiwyd," "yn fanwl" (ἀκριβῶς), ar ei ddyfodiad cyntaf i Ephesus, ond dysgwyd ef ganddynt hwy "yn fanylach" (ἀκριβέστερον): gwel *Act.* xviii. 25, 26. Annogwyd ef gan y brodyr i fyned i Corinth, lle yr oedd Paul wedi bod yn planu, a rhoddasant iddo "lythyrau o gymmeradwyaeth" (*adn.* 27) ar ei fynediad yno: "gorchfygodd yr Iuddewon yn egniol;" "ymresymodd hwynt i lawr" (διακατηλέγχετο); gan ddangos mai yr Iesu a groeshoeliwyd yn Ierusalem, a'r hwn yr oedd Paul yn ei gyhoeddi trwy y byd, oedd yn wir y Crist (*adn.* 28): dyfrhaodd yr hyn a blanodd Paul: 1 *Cor.* iii. 6: ond tyfodd drwg i fyny ochr yn ochr â'r da—yn y ddinas lle yr oedd areithyddiaeth a rhesymeg yn uchel eu bri, cymmerwyd mantais ar hyawdledd Apolos gan rai i'w osod i fyny yn erbyn Paul, a galwasant eu hunain ar ei enw: 1 *Cor.* i. 12; iii. 4, &c. Dychwelodd Apolos i Ephesus tra yr oedd Paul yno: yr ydoedd gyda Paul pan ysgrifenodd ei Epistol Cyntaf at y Corinthiaid; ac fel prawf cryf o'i wrthwynebiad i'r camddefnydd a wnaethpwyd o'i enw, a'i ymlyniad wrth Paul, dywedir, "ac am y brawd Apolos" na ddychwelai atynt y pryd hwnw, er fod Paul "wedi taer ymbil lawer âg ef;" 1 *Cor.* xvi. 12. Y crybwylliad olaf mewn hanes credadwy am dano ydyw *Tit.* iii. 13. Mae yn amlwg nad dim gwahaniaeth yn syniadau Paul ac Apolos oedd yr achos fod eu henwau yn cael eu gosod yn erbyn eu gilydd gan y Corinthiaid ymbleidgar (1 *Cor.* iii. 5, 22; iv. 6); ac mai nid at Apolos y cyfeiria Paul yn ei grybwylliadau am y "ddoethineb" (σοφια) oedd yn groes i'r efengyl (1 *Cor.* i. 20; ii. 1, 5). Ni chaniatâ 1 *Cor.* y dybiaeth yma; ond cymmerwyd mantais o'r hyn oedd yn perthyn i Apolos fel "gŵr ymadroddus," yn nghyd â'r ddullwedd areithyddol a dderbyniasai yn ysgolion Alexandria. Y mae Luther, ac amryw ar ei ol ef, wedi meddwl mai efe a ysgrifenodd yr Epistol at yr Hebreaid [gwel erthygl]. Mae traddodiad yn amrywio am y manau y treuliodd ddiwedd ei oes—enwir Duras, Cesarea, a Corinth.

APOLYON, [Ἀπολλύων, *dinystrydd*]: enw angel y pydew diwaelod, yn ol yr iaith Roeg: *Dad.* ix. 11. Gwel ABADON.

APOSTOL—ION, [Ἀπόστολος=*anfonedig, cenad, cenadwr, cenadwriaethwr*, oddi wrth ἀποστέλλω, *anfon allan*]. Defnyddir fel y canlyn yn y Testament Newydd:—unwaith yn Matthew, am y deuddeg; unwaith yn Marc, am y deuddeg; yn Luc, pum waith am y deuddeg, ac unwaith yn ei ystyr cyffredinol; unwaith yn Ioan yn ei ystyr cyffredinol; deg ar ugain o weithiau yn yr Actau, y cyfan yn y lluosog—wyth waith ar ugain am y deuddeg, a dwy waith am Paul a Barnabas; teirgwaith yn y Rhufeiniaid—dwywaith am Paul, ac unwaith am Andronicus; un ar bymtheg o weithiau yn y Corinthiaid—pedair ar ddeg o weithiau am Paul neu y deuddeg, a dwywaith yn ei ystyr cyffredinol (2 *Cor.* viii. 23; a xi. 13); teirgwaith yn y Galatiaid—am Paul a'r deuddeg; pedair gwaith yn yr Ephesiaid—am Paul a'r deuddeg; unwaith yn y Philippiaid—ystyr cyffredinol; unwaith yn y Thessaloniaid—am Paul; pedair gwaith yn Timotheus—am Paul; unwaith yn Titus—am Paul; unwaith yn yr Hebreaid—am Grist (*pen.* iii. 1); teirgwaith yn Pedr—am y deuddeg; unwaith yn Iudas—am y deuddeg; teirgwaith yn y Dadguddiad—am apostolion gau, neu am y deuddeg.

Digitized by Google

Defnyddir ef unwaith yn y Deg a Thrigain am Ahïah (1 *Bren.* xix. 6).

Gwelir oddi wrth hyn mai y *deuddeg* a elwir yn apostolion mewn modd arbenig yn y Testament Newydd. Dewiswyd hwynt allan o ganlynwyr Crist, a rhoddwyd yr enw arnynt ganddo ef ei hun: *Marc* iii. 14; *Luc* vi. 13; *Ioan* vi. 70. Y mae yn y Testament Newydd bedair rhestr o'u henwau: *Mat.* x. 2—4; *Marc* iii. 16—19; *Luc* vi. 14—16; *Act.* i. 13, &c. Y mae y cwbl yn dangos un cynllun, gydag amrywiaeth yn yr adraniadau, fel y gwelir isod:—

| MATTHEW x. 2. | MARC iii. 16. | LUC vi. 14. | ACTAU i. 13. |
|---|---|---|---|
| 1 Pedr, | Pedr, | Pedr, | Pedr, |
| 2 Andreas, | Iago, | Andreas, | Iago, |
| 3 Iago, | Ioan, | Iago, | Ioan, |
| 4 Ioan, | Andreas, | Ioan, | Andreas, |
| 5 Phylip, | Phylip, | Phylip, | Phylip, |
| 6 Bartholomeus | Bartholomeus, | Bartholomeus, | Thomas, |
| 7 Thomas, | Matthew, | Matthew, | Bartholomeus |
| 8 Matthew, | Thomas, | Thomas, | Matthew, |
| 9 Iago, mab Alpheus, | Iago, mab Alpheus, | Iago, mab Alpheus, | Iago, mab Alpheus, |
| 10 Lebbeus, | Thaddeus, | Simon Zelotes, | Simon Zelotes, |
| 11 Simon y Canaanead, | Simon y Canaanead, | Iudas, brawd Iago, | Iudas, brawd Iago, |
| 12 Iudas Iscariot. | Iudas Iscariot. | Iudas Iscariot. | Iudas Iscariot. |

Oddi wrth hyn, gwelir fod *tri dosbarth* yn y pedwar; a bod yr un dosbarth yn cynnwys yr un enwau yn y pedwar, ond mewn trefn wahanol, gyda'r eithriadau canlynol:—fod Pedr, Phylip, Iago mab Alpheus, a Iudas Iscariot, yn cadw yr un lle yn y cwbl. Yn y dosbarth *cyntaf*, y mae Matthew a Luc (Efengyl) yn debyg: Pedr ac Andreas, brodyr; Iago ac Ioan, brodyr; yn ol trefn eu galwad a'u perthynas, ac mewn cyfeiriad at eu hanfoniad allan bob yn ddau: *Marc* vi. 7:—y mae Marc a Luc (Actau) yn debyg; Pedr, Iago, Ioan (y tri mwyaf arbenig), ac Andreas; yn unol â'u harbenigrwydd personol. Yn yr *ail* ddosbarth, y mae Phylip a Bartholomeus, Matthew a Thomas, yn gyplau yn Matthew, Marc, a Luc:—yn yr Actau, Phylip, Thomas, Bartholomeus, a Matthew (ni wyddys pa ham). Yn y *trydydd* dosbarth, y mae Iago mab Alpheus, a Lebbeus (Thaddeus), Simon y Canaanead, a Iudas Iscariot, yn gyplau yn Matthew a Marc:—ond yn Luc (Efengyl a'r Actau), Iago mab Alpheus, Simon Zelotes, Iudas brawd Iago, a Iudas Iscariot. Felly, y mae yr un enw yn gyntaf yn y tri dosbarth, sef Pedr, Phylip, ac Iago; a Iudas, y bradychwr, yn ddiweddaf ynddynt oll. Ymddengys mai Pedr hefyd ydyw y cyntaf oll yn yr holl restrau hyn. Ar hyn, rhoddwn sylw Bengel:—"Mai efe oedd y cyntaf *yn mhlith* yr apostolion, ond nid *ar* yr apostolion; *yn* yr apostolaeth, ac nid *ar* yr apostolaeth:—a pha fodd y mae hyn yn fantais i'r pab? Nid mwy, ïe, yn hytrach, llai, nag i ryw esgob arall." Cymmerir yn ganiataol, yn yr enwau hyn, fod Lebbeus, Thaddeus, a Iudas brawd Iago, yn dri enw ar yr un person [gwel erthygl, dan y gair].

Nid ydyw Matthew yn rhoddi hanes *dewisiad* yr apostolion; ond yn unig yn cymmeryd mantais, ar achlysur eu hanfoniad allan, i roddi eu henwau. Y mae Marc a Luc yn cytuno yn amser y dewisiad; gan ei roddi yn uniongyrchol ar ol yr iachad ar y Sabbath, heb ddywedyd yn bendant pa bryd yr oedd hyny. Yr oeddynt oll yn Galileaid, fel eu hathraw (os nad oedd Iudas Iscariot o Iudea). Yr oedd hefyd Iago mab Alpheus, a Thaddeus; efallai hefyd, meibion Zebedeus—Iago ac Ioan; yn berthynasau iddo. Cyn dechreuad ei weinidogaeth gyhoeddus, yr oedd Ioan, Andreas, a Phedr; efallai hefyd, Phylip, a Nathanael, yn ddysgyblion i Ioan Fedyddiwr, ac iddynt gael eu cyfarwyddo ganddo ef at Grist. O ran eu galwedigaeth, yr oeddynt yn bysgodwyr; oddi eithr Matthew, yr hwn oedd bublican. Yr oeddynt yn ddynion heb ddysgeidiaeth, ond nid heb ddeffroad meddwl o natur grefyddol; a chan fod yr iaith Roeg mor gyffredinol yn Ngwlad Canaan y pryd hyny ag ydyw y Seisoneg yn Nghymru yn bresennol, efallai nad oeddynt yn hollol ddyeithrol iddi. Cawsant eu parotoi i'w swydd trwy gymdeithas bersonol â Christ. Canlynent ef pan y byddai yn myned oddi amgylch i athrawiaethu; ac yn y gwyliau, gwelent ei weithredoedd nerthol, a chlywent ei ymddyddanion a'i bregethau grasusol (*Mat.* v. 1; xxiii. 1; *Luc* iv. 13; *Mat.* xix. 13; *Luc* x. 25): ymneillduent gydag ef o'r neilldu, yn enwedig y tri blaenaf (*Mat.* xvii. 1): gofynent am addysg (*Mat.* xv. 15; xviii. 1; *Luc* viii. 9; xii. 41; xvii. 5; *Ioan* ix. 2); weithiau am eglurhad ar yr hyn a draddododd yn fwy cyhoeddus, a phryd arall o natur fwy cyffredinol (*Mat.* xiii. 10): anfonwyd hwynt i gyhoeddi efengyl y deyrnas (*Marc* vi. 7; *Luc* ix. 6): gwnaethant wyrthiau, ond nid oeddynt bob amser yn llwyddiannus (*Mat.* xvii. 6): cydnabyddent Iesu fel y Messïah (*Mat.* xvi. 16; *Luc* ix. 20); eto, gan rym rhagfarn, ni wnaethant ond cynnydd araf mewn deall ysbrydolrwydd ei athrawiaeth, a dyben ei waith (*Mat.* xv. 16; xvi. 22; xvii. 20; *Luc* ix. 54; *Ioan* xvi. 12): gofynent ystyr dammegion eglur (*Luc* xii. 41): addefent yn rhwydd wendid eu ffydd (*Luc* xvii. 5): yr oeddynt yn athrist ar yr achlysur o'i farwolaeth (*Marc* xvi. 14; *Luc* xxiv. 13; *Ioan* xx. 9): gadawsant ei gladdedigaeth i wragedd, ac i un oedd heb fod yn apostol; ac ar ol ei adgyfodiad, ail gasglwyd hwynt at eu gilydd. Byddent yn dychwelyd at eu teuluoedd a'u galwedigaethau yn y cyfwng rhwng teithiau yr Iesu: *Luc* v. 1—11; *Mat.* iv. 18. Ar ol cael sicrwydd am ei adgyfodiad, dychwelasant at eu galwedigaeth (*Ioan* xxi); a thrwy orchymyn newydd oddi wrth eu Meistr, y daethant yn ol i Ierusalem (*Mat.* xxviii. 18; *Act.* i. 4). Yma yr arosasant gan ddysgwyl am addewid yr Ysbryd (*Act.* i. 8), yr hwn a roddwyd iddynt gan Grist cyn ei ymadawiad (*Ioan* xiv. 26; xvi. 3). Yn fuan ar ol ymadawiad eu Harglwydd ar ŵyl y Pentecost, yr hon a gyfeiriai at sefydliad yr hen gyfammod, disgynodd yr Ysbryd arnynt (*Act.* ii); ac ar ol ethol Matthïas i lenwi lle Iudas, ac i wneyd i fyny y deuddeg, dechreuasant gyhoeddi efengyl y deyrnas gyda

Digitized by Google

gwroldeb, eglurder, a llwyddiant, yn y ddinas sanctaidd ei hun. Yn awr yr oedd llawer o bethau yn eglur oedd o'r blaen yn dywyll; yr oeddynt yn deall yn well natur y gwaith oedd o'u blaen. Yr oedd yr eglwys yn Ierusalem dan eu gofal personol, mewn undeb mewnol â'u gilydd, er nad mewn ysgariad amlwg oddi wrth yr addoliad Iuddewig (*Act.* iii.—vii). Cyhoeddasant y gair yn mysg y Samariaid, yn mhlith pa rai yr oedd yr Iesu ei hun wedi cael gwrandawiad ewyllysgar; *Act.* viii. 5—14.—Hwn oedd y cyfnod *cyntaf* o lafur yr apostolion. Yn nesaf, aeth Pedr i bregethu hyd lan y môr; a'r canlyniad o hyn fu planu eglwys yn Antiochia, prif ddinas Syria, yr hon yn fuan a gydnabyddodd berthynas â'r eglwys yn Ierusalem; *Act.* x. xi.—Hwn oedd yr *ail* gyfnod. Hanes Paul a fiurtiai y *trydydd* cyfnod.

*Yr oedd cymhwysderau neillduol yn perthyn i'r swyddogion hyn.*

1. Rhaid iddynt fod wedi bod gyda Christ yn bersonol, dros y cyfnod hwnw o ddechreuad ei weinidogaeth hyd ei farwolaeth: *Act.* i. 21, 22. Yr oedd hyn yn angenrheidiol i'w cymhwyso i fod yn dystion iddo o ran y pethau a welsent ac a glywsent; ac nad oeddynt i ddywedyd dim nad oeddynt yn glust a llygad-dystion o hono, am mai crefydd o ffeithiau, a seiliedig ar ffeithiau, yw Cristionogaeth. Felly y dywed yr Arglwydd Iesu wrthynt; "Ac a fyddwch dystion i mi yn Ierusalem, ac yn holl Iudea, a Samaria, a hyd eithaf y ddaiar." Efe a'u galwodd yn gynnar yn ystod ei weinidogaeth gyhoeddus; treuliasant o ddeutu tair blynedd yn ei ganlyn—"yn myned i mewn ac allan gydag ef."

2. Yr oedd yn rhaid iddynt fod wedi ei weled yn bersonol ar ol ei adgyfodiad. Ar ol ei adgyfodiad, nid oedd efe yn ymddangos yn gyhoeddus i bawb, fel yr arferai wneyd cyn ei farwolaeth; ond cafodd amryw ymweliadau â'r apostolion. "Hwn a gyfododd Duw y trydydd dydd, ac a'i rhoddes ef i'w wneuthur yn amlwg (a ganiataodd iddo ddyfod yn amlwg) nid i'r bobl oll, ond i'r tystion a ragbenodwyd o'r blaen gan Dduw, sef i ni, y rhai a fwytasom ac a yfasom gydag ef wedi ei adgyfodi o feirw." Y mae yn wir nad oedd Paul wedi bod "yn cydymdaith â hwynt yr holl amser yr aeth yr Arglwydd Iesu i mewn ac allan yn eu plith," nac wedi ei weled ar ol ei adgyfodiad cyn iddo esgyn i'r nef; eto. fe ymddangosodd yr Arglwydd iddo ar y ffordd i Damascus, a hyny, nid er mwyn ei ddychwelyd, yn benaf, yr hyn y gallasai ei wneuthur trwy y moddion gosodedig, sef pregethiad yr efengyl; ond i'w wneuthur yn apostol, yn gymmaint a bod gweled yr Arglwydd Iesu yn gymhwysder anhebgorol i'r swydd: *Act.* xxvi. 16; 1 *Cor.* ix. 1.

3. Yr oeddynt wedi eu galw a'u danfon gan Grist ei hun yn bersonol. "A phan aeth hi yn ddydd, efe a alwodd ato ei ddysgyblion; ac o honynt efe a etholodd ddeuddeg, y rhai hefyd a enwodd efe yn apostolion;" *Luc* vi. 13—16. "Megys y danfonodd y Tad fi (yn ddigyfrwng); felly yr wyf finnau yn eich anfon chwi." Wedi myned o Iudas "i'w le ei hun," a bod eisieu un i gyflenwi ei le, cafwyd dau yn meddu y cymhwysderau blaenorol; sef Ioseph Barsabas, a Matthïas; a dangosodd yr Arglwydd trwy goelbren pwy yr oedd efe yn ei alw ac yn ei ddewis i'r swydd: *Act.* i. 23—26. Yr oedd Paul hefyd yn meddu y cymhwysder hwn. "I hyn yr ymddangosais i ti," meddai Crist, "i'th osod di yn weinidog ac yn dyst o'r pethau a welaist (eisoes), ac o'r pethau yr ymddangosaf i ti ynddynt (ar ol hyn)." "Paul, apostol, nid o ddynion, na thrwy ddyn; eithr trwy Iesu Grist, a Duw Dad, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw;" *Act.* xxvi. 16–18; *Gal.* i. 1, 15.

4. Yr oedd yn rhaid bod yr apostolion wedi dysgu y grefydd Gristionogol gan yr Arglwydd ei hun yn ddigyfrwng. Pan ddaeth Crist i waered o'r nef, efe a ddaeth yn "ddoethineb Duw." Yr oedd wedi ei lenwi â meddyliau Duw; ac yr oedd yn hyfryd ganddo eu dadguddio i'w apostolion: "Canys y geiriau (yr athrawiaeth) a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy." Yn ngwyneb haeriadau nad oedd yn apostol, dywedai Paul, "Eithr yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, am yr efengyl a bregethwyd genyf fi, nad yw hi ddynol (wedi ei dysgu i mi gan ddyn). Canys nid gan ddyn y derbyniais i hi, nag y'm dysgwyd; eithr trwy ddadguddiad (oddi wrth) Iesu Grist. Pan welodd Duw yn dda ddadguddio o'i Fab ynof fi (i mi), fel y pregethwn ef yn mhlith y Cenedloedd, yn y fan nid ymgynghorais â chig a gwaed (â neb dynion); ac nid aethym yn fy ol i Ierusalem at y rhai oedd o'm blaen yn apostolion; ond mi a aethym i Arabia, a thrachefn y dychwelais i Damascus. Yna ar ol tair blynedd y daethym yn fy ol i Ierusalem, i ymweled â Phedr, ac a arosais gydag ef bymtheng niwrnod; eithr neb arall o'r apostolion nis gwelais, ond Iago brawd yr Arglwydd;" *Gal.* i. 11—19.

5. Yr oedd yr apostolion wedi eu meddiannu a'u llanw â'r Ysbryd Glân i raddau anarferol, ac mewn modd goruwchnaturiol. Addawsai yr Arglwydd Iesu anfon yr Ysbryd Glân i gyflawnu ei absennoldeb wedi ei ymadawiad â'r byd. Ar ol ei adgyfodiad, efe a ymwelodd â hwynt drachefn, yn ol ei addewid; a thra yr ydoedd efe yn bwyta gyda hwynt, efe a orchymynodd iddynt nad ymadawent o'r ddinas, "eithr dysgwyl yn Ierusalem am (gyflawniad o) addewid y Tad, yr hon," medd efe, "a glywsoch genyf fi, canys chwi a fedyddir â'r Ysbryd Glân cyn nemawr o ddyddiau." Yn mhen ychydig o ddyddiau ar ol ei esgyniad i'w orsedd, "pan dderbyniodd roddion i ddynion, fel y cyflawnai bob peth" (fel y cyflawnai bawb â phob cymhwysder i'w haddasu i gyflawnu eu swyddau); efe a ddanfonodd yr Ysbryd Glân mewn helaethrwydd mawr, "ac a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon." Derbyniasant yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau cyffredin ac anghyffredin; y cyntaf mewn gradd uchel o ragoriaeth, a'r olaf mewn modd neillduol iddynt eu hunain.

*Yr oedd gwaith yr apostolion yn gynnwysedig yn y pethau canlynol:—*

(1.) Pregethu yr efengyl. Ar ol ei adgyfodiad, gorchymynodd eu blaenor iddynt fyned i'r holl fyd, a phregethu yr efengyl i bob creadur. Ar ddydd y Pentecost, dechreuasant ar eu gwaith pwysig gyda llwyddiant mawr. Wedi y gwasgariad yn Ierusalem, dechreuodd y Cristionogion gwasgaredig bregethu yn ngwahanol barthau Iudea, Samaria, a Galilea. Aeth Paul, yn fuan ar ol ei ddychweliad, at y Cenedloedd. Yr apostolion ereill a aethant i wahanol barthau y byd; rhai at yr Iuddewon, a rhai at y Cenedloedd. Dywedir gan haneswyr, fod yr efengyl wedi cael ei chyhoeddi yn yr holl fyd adnabyddus, o'r bron, gan yr apostolion a'u cynnorthwywyr; a thrwy hyny, yn cyflawnu prophwydoliaeth Crist yn llythyrenol—"A'r efengyl hon am y deyrnas a bregethir trwy yr holl fyd, er tystiolaeth i'r holl genedloedd; ac yna daw y diwedd;" hyny yw, diwedd dinystr Ierusalem, &c.: *Mat.* xxiv. 14.

Digitized by Google

(2.) Rhan arall o'u gwaith ydoedd, casglu y dychweledigion yn nghyd a'u ffurfio yn eglwysi; yr hyn, nid ymddengys ddarfod i'r Iesu ei wneuthur yn ystod ei weinidogaeth gyhoeddus. Ond wedi planiad Cristionogaeth, estyniad terfynau ei dylanwad a'i gweinyddiaeth, a lluosogiad ei dysgyblion, angenrhaid oedd rhoddi iddynt ffurf gymdeithasol, er mwyn gweinyddu ordinhadau yr efengyl, adeiladu y saint, sicrhau eu cysur, a chadw iawn drefn yn eu plith. A lle bynag yr elai yr apostolion i bregethu, os byddent lwyddiannus—yr hyn, gyda hwy, oedd yn rheol, ac nid yn eithriad—gadawent ar ol gynnulleidfaoedd o ddysgyblion i Grist. Gyda golwg ar hyn, dywedai Paul mai efe a osododd sylfaen, ac a blanodd eglwys Corinth (1 *Cor.* iii. 10).

(3.) Yr oedd yr apostolion hefyd yn cymmeryd gofal a llywodraeth yr holl eglwysi. Derbyniasant yr awdurdod hono gan yr Arglwydd ei hun; neillduwyd hwynt ganddo i fod yn farnwyr ar ei Israel ysbrydol: *Mat.* xix. 28; *Luc* xxii. 30. "A rhoddaf i ti, Pedr," meddai Crist, "agoriadau teyrnas nefoedd, a pha beth bynag a rwymech ar y ddaiar, a fydd rwymedig yn y nefoedd; a pha beth bynag a ryddhaech ar y ddaiar, a fydd wedi ei ryddhau yn y nefoedd;" *Mat.* xvi. 19. Dywedai Paul:—"Heb law y pethau sydd yn dygwydd oddi allan, yr ymosod, yr hwn sydd arnaf beunydd," y mae genyf i'w chwanegu "y gofal dros yr holl eglwysi." Nid swyddogion ar eglwysi unigol, neu esgobion taleithiol, oeddynt;—yr oedd gofal yr holl eglwysi arnynt. Am hyny, galwai Chrysostom hwynt yn "llywiawdwyr yr holl fyd." Yn y sefyllfa yma, canfyddwn hwy yn gwrthwynebu gau athrawon, a ymlusgent i mewn i'r eglwysi (2 *Pedr* ii; *Iudas* iv. 10), yn rhybuddio yr afreolus, yn adferu trefn, yn ordeinio swyddogion yn yr eglwysi, ac yn trefnu maes llafur yr efengylwyr, y rhai oedd i lanw eu lle pan fyddai amgylchiadau yn eu gorfodi hwy eu hunain i fod yn absennol: 1 *Tim.* i. 3; *Titus* i. 5.

(4.) Yn olaf, i'r apostolion y perthynai y gwaith o roddi dadguddiad i'r byd o feddwl ac ewyllys eu Harglwydd. Hwy yn unig ydynt ddysgawdwyr gwreiddiol ac anffaeledig y grefydd Gristionogol. Dywed Ioan am bawb nad ydynt yn gwrandaw arnynt hwy, eu bod yn cyfeiliorni: 1 *Ioan* iv. 6. Yr oedd ganddynt gymhwysderau neillduol i'r gwaith hwn:—"Yr oedd ganddynt feddwl Crist; llefarent 'ddoethineb Duw mewn dirgelwch.'" Y dirgelwch hwn a ddadguddiodd Duw iddynt trwy ei Ysbryd; a thraethent ef, nid â'r geiriau a ddysgir gan ddoethineb ddynol, ond y rhai a ddysgir gan yr Ysbryd Glân. Yr oeddynt yn genadau dros Grist; yn erfyn dros Grist ar ddynion i ddyfod i gymmod â Duw. Dysgent, mewn modd awdurdodedig, athrawiaeth a chyfraith eu Harglwydd. Y mae eu hysgrifeniadau, gan hyny, yn teilyngu lle yn mhlith yr Ysgrythyrau ysbrydoledig ereill; i'w derbyn fel o gymmaint pwys i ni ag oedd Moses a'r prophwydi i Israel; ïe, o gymmaint pwys a derbyn geiriau Crist ei hun (*Luc* x. 16). Hwy ydynt unig ddysgawdwyr athrawiaeth a chyfraith Crist. Nis gall swyddogion yn yr eglwysi hòni hawl i un awdurdod na sefyllfa uwch na bod yn esbonwyr eu hathrawiaethau, a gweinyddwyr y deddfau sydd yn eu hysgrifeniadau hwy.

APOSTOLAETH. Defnyddir *αποστολη* (*apostolê*) apostolaeth, gan ysgrifenwyr Groeg am *anfoniad allan* ryfelgyrch o filwyr neu longau. Yn y Deg a Thrigain a'r Apocrypha, arwydda *rhodd*, neu *anrheg*, yr hyn a anfonir allan: 1 *Bren.* ix. 16: 1 *Mac.* ii. 18. Yn y Testament Newydd, arwydda *swydd* neu *waith* apostol: *Act.* i. 25; *Rhuf.* i. 5; "gras ac apostolaeth;" "gras fel pawb o'r saint, ond yr apostolaeth yn chwanegol."—*Awstin.* Gelwir y swydd apostolaidd yn "ras" (*Eph.* iii. 2), am mai gras a ddewisodd, a gymhwysodd, ac a awdurdododd i'r swydd. Yn *Eph.* iii. 7, 8, gelwir hi hefyd yn "ras," am mai prif amcan yr apostolaeth a ymddiriedwyd i Paul oedd "efengylu yn mysg y Cenedloedd anchwiliadwy olud Crist." "Apostolaeth yr enwaediad;" *Gal.* ii. 8, 9. Crist, trwy ei Ysbryd a gymhwysodd Pedr i swydd apostol yn mysg yr Iuddewon, ac a roddodd i Paul y cymhwysderau angenrheidiol i apostol yn mysg y Cenedloedd. "Canys sel fy apostolaeth i ydych chwi;" 1 *Cor.* ix. 2: gallasai un heb fod yn apostol, megys Phylip ac Epaphras, ennill dynion i'r ffydd trwy yr efengyl; ond yr oedd y Corinthiaid yn sel, nid unrhyw swydd, ond *apostolaeth* Paul, am fod ganddo "arwyddion apostol;" 2 *Cor.* xii. 12; *Rhuf.* xv. 18. Yr oedd y Corinthiaid, nid yn unig wedi derbyn ffydd, ond hefyd cyflawnder o ddoniau gwyrthiol.

APOSTOLAIDD, CANONAU: mewn ystyr gyffredinol, hen reolau eglwysig a drosglwyddid mewn llyfrau, a chan draddodiad. Y mae yr Ysgrythyrau yn cynnwys rhai rheolau a chwanegid atynt gan draddodiad, fel pe buasent yn dyfod oddi wrth yr apostolion. Yn raddol gwnaed amryw gasgliadau o honynt, ac o'r rhai hyn y mae arbenigrwydd yn perthyn i un casgliad, yn cynnwys 85 o reolau, yr hwn oedd mewn rhan yn fath o attodiad i'r hyn a elwid y "Sefydliadau Apostolaidd," ac mewn rhan yn waith annibynol, ac a anrhydeddir â'r enw "Canonau Apostolaidd." Yn gyffredin, dygai yr arysgrif *Κανονες τῶν ἁγιων και πανσεπτων 'Αποστολτν* (canonau y sanctaidd a'r gwir barchus apostolion); *canones q[...] decuntur Apostolorum.*

Y mae rhai ysgrifenwyr wedi camgymmeryd, a meddwl mai at y casgliad hwn y cyfeirir pa bry[...] bynag y defnyddia hen ysgrifenwyr yr ymad[...]roddion "canonau eglwysig,"—*κανονες ἐκκλησιαστικοι*; a "thraddodiadau apostolaidd"—*αποστολικοι παραδοσεις*, &c.; ond y mae yr ymadroddion hyn o ystyr hollol gyffredinol. Ar y dechreu gelwid pob deddf eglwysig *canon, canon apostolaidd, canon eglwysig*, &c. Yn yr ystyr yma y defnyddid yr ymadrodd, *οἱ αποστολικοὶ κανονες*, yn Nghynghorfa Caer Cystenyn, B. A. 394, heb awgrymiad yn y byd fod y casgliad o ganonau mewn bod. Ond wedi hyny, cyfyngwyd yr enw i gasgliad o ddeddfau eglwysig. Nid yw rhif y canonau yn mhob casgliad yr un faint, ac nid yw Eglwys Rhufain yn derbyn cymmaint ag Eglwys Groeg. Derbynia yr olaf 85, tra na dderbynia y flaenaf ond 50. Derbyniodd Ioan, henuriad Antioch, 85 i'w gasgliad. Cymmeradwywyd yr un rhif yn Nghynghorfa Trullan, B. A. 692, ac ystyriai Ioan o Damascus hwy yn ysgrifeniadau cyssegredig. Tua'r flwyddyn 500, cyfieithodd Dionysius Exiguus ddeg a deugain o ganonau yr Eglwys Ddwyreiniol at wasanaeth yr Eglwys Ladinaidd; naill ai am fod yr adysgrif (*copy*) oedd ganddo yn anmherffaith, neu o herwydd fod y 35 ereill wedi eu dwyn i mewn yn ddiweddarach. Dyma yr unig ganonau a ddefnyddir fel awdurdod gan y Pabyddion hyd y dydd heddyw.

Cyfeiriwyd atynt yn Nghynghorfa Caer Cystenyn, B. A. 394, ac yn y Gynghorfa Gyff-

Digitized by Google

redinol, B. A. 381. Ymddengys hefyd fod y canonau yn adnabyddus yn Nghynghorfa Nice, B.A. 325; o blegid yn eu cyfarwyddiadau o berthynas i'r enwaediad, cyfeirient at ganonau eglwysig adnabyddus y pryd hyny; ac yn y casgliad presennol, cyfeirir at yr un peth yn nghanon 20 a 21. Y mae hefyd yn debygol fod Athanasius ac Eusebius yn adnabyddus o honynt; o blegid cyfeirient at ddeddfau eglwysig—y naill er profi anghyfreithlondeb ei ddiswyddiad, heb gael ei brofi gan gynghorfa o esgobion, a'r llall er rhoddi rheswm dros wrthod esgobaeth Antiochia. Cymharer hyn â chanonau 14 a 74, a gellir barnu mai y rhai hyn oedd ganddynt mewn golwg. Fel hyn, canfyddir fod amryw o'r canonau apostolaidd mewn bod mor fore a dechreu y pedwerydd, os nad yn niwedd y trydydd canrif. Barna Beveridge iddynt godi mor fore a'r ail canrif. Ond y mae yn amlwg na chodasant oll mor fore, ac nad oeddynt wedi eu casglu yn nghyd i'r ffurf bresennol hyd amser y sefydliadau, ie, hyd nes yr oedd yr wythfed llyfr wedi ei gyfansoddi; o blegid hyd yn oed mewn ysgriflyfrau (*manuscripts*) gwnant i fyny y bennod olaf o'r wythfed llyfr o'r sefydliadau. Oddi wrth yr hyn y gellir tybied i awdwr yr wythfed llyfr gasglu y canonau gwasgaredig, y rhai oedd ar gael cyn ei amser ef, a'u dodi fel pennod ddiweddol yn yr wythfed llyfr. Cadarnheir hyn yn mhellach, oddi wrth y ffaith fod y ganon olaf yn gosod y sefydliadau yn mhlith y llyfrau cyssegredig perthynol i'r cyfammod newydd; yr hyn, o angenrheidrwydd, a ddengys fod y sefydliadau mewn bod cyn i'r ganon hon gael ei hysgrifenu. Heb law hyny, yn y ganon hon, dodir epistolau i mewn yn mhlith llyfrau cyssegredig y cyfammod newydd, nad oeddynt wedi eu llwyr dderbyn felly hyd amser Jerome. Dywed Eusebius [*Hist. Eccles.*, cyf. iii. pen. 25], fod Epistolau Iago a Judas, Ail Epistol Pedr, ac Ail a Thrydydd Epistol Ioan, yn mhlith y llyfrau y *dywedid yn eu herbyn* yn ei amser ef; ond yn y ganon dan sylw, gosodir hwy yn mhlith llyfrau cyssegredig y cyfammod newydd. Rhaid, gan hyny, fod hon yn lled ddiweddar o ran ei tharddiad. Un prawf ychwanegol dros gasgliad diweddar y canonau, ac hefyd gyfansoddiad diweddar rhai o honynt, sydd i'w gael yn nghanon yr wythfed:—"Os bydd i esgob, neu henuriad, neu ddiacon, gadw dydd sanctaidd y Pasc o flaen y gyhydedd wanwynol (*vernal equinox*) gyda'r Iuddewon, diswydder ef." Wrth sylwi ar yr ychwanegiadau a wnaethpwyd at y saith llyfr cyntaf o'r sefydliadau, nodwyd fod Epiphanius yn gorchymyn cadw y Pasc yr un amser a'r Iuddewon. Rhaid, gan hyny, fod canon yr wythfed yn ddiweddarach o ran ei tharddiad nag amser yr awdwr hwn. Casgliad naturiol, gan hyny, yw, mai casgliad ydyw y canonau sydd ar gael yn awr o ganonau oeddynt wedi codi ar wahanol amserau, mewn gwahanol eglwysi, yn ol fel yr oedd amgylchiadau yn dygwydd; wedi ei wneuthur tua diwedd y pedwerydd neu ddechreu y pummed canrif, mae yn debygol, gan awdwr yr wythfed llyfr o'r sefydliadau.

Mae rhai, megys y Turrianus, wedi dadleu dros eu tarddiad apostolaidd, gan hòni iddynt gael eu cyfansoddi yn y cynghor yn Ierusalem [*Pro Canonibus Apostolorum*], yn erbyn y Magdeburg Centuriati, y rhai a'u gosodent yn y trydydd canrif [*Cent.* pen. 7]. Yn mhlith ysgrifenwyr diweddar, priodola Bichell ac Eichhorn hwy i hanner diweddaf y pedwerydd canrif, y naill tua'i ddechreu, a'r llall tua'i ddiwedd; ond Drey i'r bummed.

Y mae penderfyniad y cwestiwn hwn yn ymddibynu ar hyn,—a ydyw y cytundeb mawr sydd rhwng y canonau, a phenderfyniadau y cynghorfäau hyd y pummed canrif, yn tarddu o fod y cynghorfäau yn dilyn y canonau, ai i'r gwrthwyneb? Nad y canonau ydyw y ffynnonell, a gesglir oddi wrth eu cyfansoddiad, ond yn enwedig oddi wrth gynnydd graddol llywodraeth eglwysig. Mae eu cynnwysiad yn dangos mai yn raddol y ffurfiwyd hwynt. Y maent wedi eu cymmeryd mewn rhan o'r Ysgrythyrau a thraddodiad; mewn rhan o benderfyniadau cynghorfäau, yn enwedig cynghorfäau Antioch, Cesarea Newydd, Nicea, a Laodicea; hefyd o'r Sefydliadau Apostolaidd; ac hefyd, yn ol dangosiad Drey a Bickell, cymmerwyd hwynt o lythyr gan St Basilius, tua'r flwyddyn 370.

*O ran eu dyben*, ni chyfeiriant at foesoldeb cyffredinol; o herwydd ni thraethir am leygion ond mewn pedwar o'r canonau: cynnwysant reolau dysgyblaethol i wŷr llên gyda manylrwydd mawr. Er mwyn ennill awdurdod iddynt, honwyd iddynt darddiad apostolaidd, a chyfansoddwyd hwynt yn unol â'r hòniad. Y mae enw y cyfansoddydd yn anadnabyddus; ond cynnyrch gwlad Syria ydynt.

**APOSTOLAIDD, YR OES.** Fel tymmor cyhoeddiad cyntaf Cristionogaeth, a phlaniad eglwysi Cristionogol, mae yr oes apostolaidd yn un o bwysigrwydd arbenig. Edrychir arni yn ei hamgylchiadau gwladwriaethol a chymdeithasol, fel rhagbarotoad Rhagluniaeth i ledaeniad yr efengyl;—yr anhawsderau a gyfarfu i uno dynion o dueddiadau a dysgeidiaeth wahanol yn un corff yn Nghrist;—a phrif nodweddau yr eglwys apostolaidd, yn nghyd â'i pheryglon.

Oes yr ymherawdwyr Rhufeinig cyntaf oedd oes Iesu Grist a'i apostolion. Yr hyn a dyn ein sylw gyntaf ydyw y tair ffurf o fywyd cenedlaethol, a welir yn rhanu y byd rhyngddynt; sef y ffurf Iuddewig, Groegaidd, a Rhufeinig. Yr oedd sefyllfa allanol Ierusalem ei hun y pryd hyn yn arddangosiad priodol o'r byd gwareiddiedig. Adeiladodd Herod Fawr, nid yn unig deml i'r Iuddewon, ond hefyd chwareudai i'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Argraff Roegaidd oedd ar arian Herod ac Agrippa; ond y darn arian a ddygwyd at Grist oedd yr un Denarius, âg arno ddelw yr ymherawdwr, ac argraff mewn Lladin: ond rhag halogi y deml âg arian y paganiaid, y siel a'r hanner siel, gyda llythyrenau Samariaidd, oedd ar fyrddau y cyfnewidwyr arian. Yr oedd enwau Groeg a Lladin ar luaws o'r Iuddewon a ddeuent i addoli ar y gwyliau blyneddol. Ac er fod Hebraeg y pryd hwnw (y Syro-Caldaeg) yn cael ei siarad gan y lluaws o'r genedl Iuddewig, eto yr oedd yr iaith Roeg yn adnabyddus yn mysg y dosbarth uchaf yn y trefydd mwyaf; a Lladin oedd iaith y llysoedd barn, a gohebiaeth swyddol yr ynadon; *Act.* xxi, &c. Llefarodd Paul wrth y pen-cadben yn Groeg, ac â'i gydwladwyr yn Hebraeg; ond yr oedd llythyr Claudius Lysias, ac araeth Tertulus ar yr achlysur, yn Lladin; *Act.* xxiii. xxiv. Yr oedd y cyhuddiad ar y groes yn ysgrifenedig yn Hebraeg, Groeg, a Lladin. Yr oedd cymmysgedd tebyg o'r tair elfen hyn i'w weled yn gyffredinol y pryd hwnw, ac yr oedd i bob un ei nodweddiad priodol ei hun. Yr oedd sylfaen yr eglwys wedi cael ei pharotoi gan Dduw ei hun, yn ei ddewisiad o, a'i addysg i'r genedl Iuddewig. Mewn adeg pan na allasai y byd (a llefaru yn ddynol) gadw crefydd ysbrydol yn ei

phurdeb, gwnaed dadguddiad iddynt hwy, yr hwn a gadwyd mewn arwyddion a chysgodau hyd amser ei hamlygiad mewn gwedd burach. Prif nodwedd yr Hebreaid oedd eu crefydd. Yr oedd hi yn rhedeg trwy eu holl fywyd cenedlaethol; yr oedd hi hefyd yn sefydlu eu meddwl ar y dyfodol, ac felly yn eu cadw mewn agwedd o *ddysgwyliad.* Tra yr oedd oes euraidd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid wedi myned heibio, yr oedd un yr Hebreaid o'u blaen. Yr oedd eu llyfrau cyssegredig yn cadw o flaen sylw y byd esampl o addoliad i'r unig wir a bywiol Dduw; ac ar ol eu dychweliad o Babilon, yr oedd eu hymarferiad yn gysson â'u proffes. Ac yn yr amseroedd prysur a ragflaenodd ac a ddilynodd enedigaeth Crist, yr oedd y Groegiaid a'r Hebreaid a ymwelent â'r Iuddewon yn eu gwlad eu hunain, a'r proselytiaid a gasglai yr Iuddewon gwasgaredig o'u cwmpas mewn gwledydd ereill, yn cael eu gwneyd yn hyddysg yn addoliad yr un Duw a'r Tad ni oll.

Nid oedd *sefyllfa ddaiaryddol* Gwlad Canaan heb ddylanwad pwysig: dygai ei thrigolion i gyffyrddiad â gwledydd gwareiddiedig y cynoesoedd. Trwy ei hagosrwydd i'r Aipht ar un llaw, ac Assyria ar y llall, nid oedd heb dderbyn oddi wrth, a rhoddi argraff ar, yr hen deyrnasoedd hyny. Yr ydoedd hefyd yn gorwedd yn ffordd ymgyrch dwyreiniol Alexander:—ymwelodd â hi cyn sefydlu ei brif ddinas yn yr Aipht: ac ar ol rhaniad ei ymherodraeth, a sefydliad teyrnasoedd Groegaidd yn Ewrop, Asia, ac Affrica, gorweddai Palestina, rhwng unbenaeth y Ptolemiaid yn Alexandria a'r Seleucidæ yn Antiochia, yn rhy agos i'r ddwy i fod yn rhydd oddi wrth ddylanwad eu harferion a'u hiaith, neu ymgyrch eu harfau. Yr oedd meddiant y wlad fechan ond rhyfedd hon yn sicrhau i'r Rhufeiniaid eu hawdurdod o amgylch glanau Môr y Canoldir.

Prif nodweddiad y Groegiaid oedd, nerth a bywiogrwydd y meddwl a'r dychymyg; yn amlygu ei hun mewn gwahanol ffurfiau celfyddyd, llenyddiaeth, ac athroniaeth;—gweithgarwch diflino mewn meddwl a chorff, i'w ganfod mewn ymgystadleuaeth gampwraidd a dadleuon cywrain;—ymofyniad am newydd-deb, a chariad at brydferthwch. Yr oedd y teithi hyn yn eu cyssylltiad yn enwedig â'u tuedd at fasnach ac ymfudiad, yn wasanaethgar, dan ragluniaeth, i ledaeniad yr efengyl. Yn ngwyneb y nodweddiad hwn o eiddo y Groegiaid, ni a welwn bwysigrwydd buddugoliaethau Alexander. Unodd y dwyrain a'r gorllewin â'u gilydd, ymgorfforodd wahanol lwythau dan un pen, adeiladodd ddinasoedd newyddion, agorodd ffyrdd newyddion i drafnidiaeth ymledaenu, gwnaeth y Tigris a'r Euphrates yn afonydd Groegaidd, clywyd iaith Athen yn mhlith Iuddewon Babilon, a sylfaenwyd Babilon Roegaidd yr Aipht, a galwodd y buddugoliaethwr hi ar ei enw ei hun. Daeth Alexandria ac Antiochia—y gyntaf yn eisteddle breninoedd Groegaidd yn yr Aipht (Ptolemy), a'r ail yn eisteddle breninoedd Groegaidd Syria (Seleucidæ)—yn brif ddinasoedd masnach a gwareiddiad yn y dwyrain. Y mae hanes y ddwy ddinas yma yn bwysig yn hanes boreuol Cristionogaeth, ar lawer cyfrif, ac yn enwedigol o herwydd eu dylanwad i ledaenu yr iaith Roeg. Yr oedd yr iaith hon yn bwysig yn ei chyssylltiad â holl athrawiaethau Cristionogaeth, ac â llawer o ddadleuon ac ymraniadau boreuol yn yr eglwys. Nid damwain oedd ysgrifenu y Testament Newydd yn yr iaith gyfoethocaf a chywreiniaf, yr hon a allai ddadgan y meddyliau puraf a'r teimladau mwyaf dyrchafedig, yn well nag un iaith a welodd y byd; a'r hon hefyd sydd yn gyfrwng dysgeidiaeth i'r holl genedloedd. Ac nid damwain ychwaith oedd ei ysgrifenu yn mhriod-ddull Alexandria o'r iaith hono; o herwydd yno yr oedd elfenau dwyreiniol—Iuddewig, Groegaidd, a Rhufeinig—wedi ymuno â'u gilydd, ac wedi ffurfio iaith dduwinyddol, yr hon oedd yn gyflawn o eiriau cyfaddas i drosglwyddo syniadau Cristionogol i'r holl fyd.

Y mae doethineb y rhagddarpariadau hyn i'w ganfod yn nghynnydd a pherffeithiad y llywodraeth Rufeinig, yn gystal ag yn lledaniad yr iaith Roeg. Am rai canrifoedd, yr oedd y gallu anwrthwynebol hwn yn casglu nerth i'r gorllewin, i'r trum o fynyddoedd sydd yn hollti Italy o ogledd i ddeheu. Yn raddol, ond yn sicr, ymledanai: llanwodd y gwddf Italaidd yn gyntaf, ac yn mhen chwe chan mlynedd ar ol sylfaeniad y ddinas, yr oedd yr eryr Rhufeinig wedi disgyn ar Affrica, yn Carthage; ar Groeg, yn Nghyfyngdir Corinth; a chyn genedigaeth Iesu Grist, yr oedd yr holl lanau, o Ephesus i Tarsus ac Antiochia, ac heibio y Tir Sanctaidd i Alexandria a Cyrene, yn cydnabod ei awdurdod.

Crefydd, a diwylliad cydwybod, oedd prif hynodrwydd yr Iuddew; aflonyddwch meddyliol, a ffrwythlondeb dychymyg, y Groegwr; ond ysbryd cyfraith, nerth, a mawredd gweledig, yr hyn a ganfyddir hyd heddyw yn eu hadfeiliau anferth oedd y nodweddiad Rhufeinig. Ond yr oedd eu ffyrdd, na welwyd eu bath hyd y canrif presennol—eu baddau, eu pontydd, a'u porthladdoedd—yn ffrwyth llafur caethion; adeiladwyd eu chwareufäau er mwyn cael y pleser o edrych ar ddynion yn ymladd âg anifeiliaid ysglyfaethus; codwyd eu palasau gwychfawr, mewn tref a gwlad, â ffrwyth ysbail:—eu prif amcan y pryd hwn oedd casglu arian, a'u gwario ar bleserau anifeilaidd. Yr oedd symlrwydd eu hen arferion wedi colli. Yr oedd sefyllfa Italy, medd Niebuhr, yn druenus annysgrifiadwy, ac yn suddo yn is yn feunyddiol. Nid yn unig hyn oedd sefyllfa Italy; ond yr oedd y taleithiau yn dyoddef yn fwy na hyny oddi wrth y cadfridog a'i fllwyr, ac oddi wrth y rhaglawiaid a'r publicanod. Telid parch dwyfol i'r ymherawdwr, am nad oedd ei ddeiliaid yn well na chaethweision. Cauwyd teml Janus gan Augustus, fel arwydd o heddwch cyffredinol: ond trefn nerth allanol ydoedd—yr oedd yr ymherodraeth o'i mewn yn gymmysgedd o opiniynau a moesau. Yr oedd credoau atlan Groeg a'r dwyrain wedi gorlifo Italy a'r gorllewin; ac yr oedd y Pantheon yn gofadail o'r goddefiad a ganiatäai coelgrefyddau nychlyd i'w gilydd. Mwynhaodd Cristionogaeth fantais y goddefiad hwn am ychydig; eto, creulawn a dibarch i grefydd oedd tymmer yr amseroedd, a buan y teimlodd yr apostolion fin erlidigaeth.

Ond er hyny, yr oedd y gallu Rhufeinig, trwy uno holl ranau y byd gwareiddiedig yn un ymherodraeth, trwy roddi math o unffurfiaeth i sefydliadau llywodraethol, a thrwy agor cyfleusderau i deithio o wlad i wlad, yn gwasanaethu i hyrwyddo lledaeniad y grefydd a erlidiai.

Un o ragbarotoadau Rhagluniaeth i'r un dyben mawr, oedd gwasgariad yr Iuddewon. Dechreuodd y sefydliad Iuddewig yn Babilon, yr hwn a ganfyddir yn yr oes apostolaidd (1 *Pedr* v. 13), mewn caethgludiad, mor fore ag amser adeiladiad Rhufain. Yr oeddynt wedi ymsefydlu yn Syria a Phœnicia cyn amser Alexander. Caniatawyd iddynt yr un rhagorfreintiau gwladwriaethol a dinasyddion ereill Antiochia, gan Seleucus. Ac

un o'i olynwyr—Antiochus Fawr—a gludodd ddwy fil o deuluoedd Iuddewig i Lydia a Phrygia, ac oddi yno ymdaenasant i Pamphylia a Galatia, ac ar hyd y glanau gorllewinol o Ephesus i Troas. Am gyssylltiad yr Iuddewon âg Alexandria, gwel ALEXANDRIA. Gwasanaethai masnach i ledaenu Iuddewaeth drwy y byd. Y mae taith Lydia o Thyatira i Philippi (*Act.* xvi. 14), ac Acwila a Phriscila o Corinth i Ephesus (*Act.* xviii. 18), yn anghreifftiau o deithiau masnachol oedd yn cymmeryd lle yn feunyddiol. Yn yr Actau, gwelwn fod Iuddewon yn Philippi, Thessalonica, Berea, Athen, Corinth, a Rhufain. A chawsant gan Julius Cæsar yn y gorllewin, yr un rhagorfreintiau ag a gawsant gan Alexander yn y dwyrain. Daethant i feddu dylanwad, a gwnaethant broselytiaid. Mewn rhai dinasoedd, megys Damascus, dywedir fod yn mron yr holl wragedd yn broselytiaid:—eglura hyn yr hyn a ddygwyddodd i Paul yn Iconium.

Yr oedd Iuddewon Palestina a Syria, yn nghyd â'r Iuddewon oedd wedi ymsefydlu ar lanau y Tigris a'r Euphrates, yn siarad cangenau o'r un iaith, sef yr Aramaeg [gwel erthygl]. Deonglent yr Ysgrythyrau drwy yr aralleiriad Caldeaidd, neu y Targum: cadwent i fyny gyssylltiad gwastadol â'u gilydd; a gwahaniaethid hwy dan yr enw *Iuddewon Aramaidd.* Am yr Iuddewon a wasgaresid trwy y gwledydd y lleferid yr iaith Roeg ynddynt, defnyddient hwy gyfieithiad y Deg a Thrigain o'r Hen Destament. Alexandria oedd eu prif ddinas: ac adnabyddid hwy fel *Iuddewon Groegaidd.*

Edrychai y ddau ddosbarth hyn o Iuddewon ar eu gilydd gyda theimladau o ddygasedd. Yr oedd hyn yn codi o achosion dyfnach na gwahaniaeth iaith. Ymlynai Iuddewon Iudea, nid yn unig wrth y cwbl sydd yn ysgrifenedig yn nghyfraith Moses, ond lluosogent erthyglau eu credo, a chwanegent at ddefodau eu haddoliad: ond ymdrech y dysgedigion, yn mysg yr Iuddewon Groegaidd neu Alexandriaidd, oedd cyfaddasu Iuddewaeth at feddyliau y Groegiaid yn gyffredinol, trwy ddidoli egwyddorion eu crefydd oddi wrth bob peth lleol a chenedlaethol.

Nid oedd crefydd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, ar y goreu, yn ddim amgen na dwyfoliad o briodoliaethau dynol—yn benaf eu llygredigaethau, a'u galluoedd naturiol. Yr oedd y syniadau cyffredinol am gymmeriad eu duwiau, a seremoniau eu haddoliad, yn gefnogaeth gyhoeddus, dan yr awdurdod uchaf y gwyddent am dano, i'r aflendid ffieiddiaf. Dywedodd Seneca—un o honynt hwy eu hunain—"na allasai addoliad i'r fath dduwiau lai na difodi pob cywilydd am bechod." Dywedai Awstin, "fod Plato, yr hwn a ysgrifenodd yn llym yn erbyn llygredigaethau y duwiau, yn deilyngach o gael ei alw yn dduw na'r fath weinidogion aflendid."

Dengys hyn i ni pa fodd y dechreuodd *anffyddiaeth* yn eu mysg:—yn gyntaf, yn mysg rhai tebyg i Plato; ond wedi hyny, ymledaenodd, nes yr ydoedd yn yr oes apostolaidd yn un o'u nodweddau. Ond fel nas gall dynion ymfoddloni heb wrthddrychau addoliad, ceisient lenwi y gwagle â'u dychymyg; a lluosogid hwy yn ol y teimlad o'u diddymdra; ac felly, teflid hwy i'r eithafion gwrthwynebol o *goelgrefydd,* yr hyn ydoedd nodwedd arall yr oes hono.

Ymddangosai *athroniaeth,* y pryd hwnw, yn benaf, mewn dwy ffurf, yn ei chyssylltiad â Christionogaeth. Yn hanes Paul, ni chyfarfyddir ond â'r Stoiciaid a'r Epicuriaid [gwel erthygl]. Credai y cyntaf nad oes gwahaniaeth rhwng Duw a'r greadigaeth, ac mai y greadigaeth ydyw Duw—yn debyg i anffyddwyr diweddar: eu prif rinwedd oedd balchder. Ni chredai yr olaf mewn un Duw, ond damwain: eu hegwyddor lywodraethol hwy oedd pleser. Yn y dadleuon a gymmerodd le yn Alexandria ychydig yn ddiweddarach, ac hefyd yn ffurfiad duwinyddiaeth y canoloesoedd, yr oedd dylanwad athroniaeth Plato ac Aristotle amlycaf [gwel erthygl].

Yn ol y rhagordeiniad a'r rhagddarpariaeth dwyfol, cododd Cristionogaeth o ganol Iuddewaeth fel perffeithiad o'i hegwyddorion anghyflawn...

Yn ol y rhagordeiniad a'r rhagddarpariaeth dwyfol, cododd Cristionogaeth o ganol Iuddewaeth fel perffeithiad o'i hegwyddorion anghyfnewidiol, ac i ddiddymu yr hyn oedd yn lleol ac am dymmor ynddi. Yr oedd amgylchiadau sefydliad Eglwys Crist yn achlysur i ddynion dybied nad ydoedd yn ddim amgen na chwanegiad o un sect newydd at y rhai oedd eisoes yn mysg yr Iuddewon. Had Abraham, yn ol y cnawd, oedd ei sylfaenydd, Israeliaid hefyd oedd ei hapostolion: pregethwyd yr efengyl, gyntaf, yn Ierusalem, yn ol gorchymyn Crist:—yno y sefydlwyd yr eglwys gyntaf. Ni wnaethant ymwrthodiad âg Iuddewaeth a'r gyfraith Iuddewig; ac er y gwyddent fod y Cenedloedd i gael eu gwahodd i deyrnas Dduw, eto credent eu bod yn gyntaf i gael eu huno â'r genedl sanctaidd fel proselytiaid cyfiawnder, ac i roddi ufudd-dod i'r holl ddeddf. Ond er nad ymwrthodasant â'r gyfraith, eto ymffurfient â'u gilydd yn gymdeithas o frodyr, a dygent yn mlaen ei gwasanaeth yn ol cynllun y synagog, fel y cynllun mwyaf naturiol iddynt.

Yr oedd y gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenedloedd yn amlwg a phenderfynol trwy yr holl ymherodraeth Rufeinig. Yr oedd yr Iuddewon, yn mhob man lle y trigent, yn cael eu hamgylchynu âg eilunaddoliaeth oedd yn ffiaidd ganddynt; âg aflendid o'r gwarthunaf, mewn cyssylltiad â'r hyn a elwid yn grefydd; ac hefyd âg athroniaeth falch a thrahaus.

Heb law y pellder crefyddol oedd rhyngddynt, yr oedd hefyd ddidoliad cymdeithasol yn tarddu o hwnw.

Yn raddol, fel yr oedd dychweledigion o fysg y Cenedloedd yn ymuno â'r eglwys, dechreuodd golli ei gwedd gyntaf o sect Iuddewig, a safai allan yn gymdeithas ar ei phen ei hun yn ngwyneb Iuddewon a Chenhedloedd. Yn Antioch, canolbwynt dwyreiniol paganiaeth Groeg â Rhufain, y planwyd eglwys yn mysg y Cenedloedd gyntaf; ac oddi yno yr anfonwyd cenadon gyntaf i'r anialwch cenedlig; ac yno y derbyniodd canlynwyr Crist eu henw priodol—*Cristionogion.*

Tra yr oedd Cristionogaeth yn ymledaenu o Antiochia, cyfododd perygl, yr hwn a ymddangosai yn debyg o derfynu mewn gosod y ddwy fam eglwys yn erbyn eu gilydd. Cyfnod pwysig oedd hwn yn hanes yr eglwys a'r byd. Pa fodd y gellid uno Iuddewon a Chenedloedd, heb osod iau o ddefodau cnawdol ar ysgwyddau yr olaf? A pha fodd y gellid symmud ymaith y canolfur cymdeithasol oedd rhyngddynt, fel y gallent ymgyfarfod fel plant i'r un Tad? Dygwyd i amlygiad a gweithrediad cryf yr holl elfenau gwrthwynebol a nodwyd, fel y gallai Cristionogaeth eu gorchfygu a'u cymmodi â'u gilydd. "Y cwesttwn," yn ngeiriau Neander, ydoedd, "A allai yr efengyl lwyddo, nid yn unig y pryd hwnw, ond trwy holl oesoedd y byd?" Yr oedd y weledigaeth a gafodd Pedr, a dychweliad Cornelius mewn canlyniad i hyny, yn rhagddarpariad i undeb Iuddewon a Chenedloedd yn Nghrist.

Digitized by Google

Cyhuddwyd Pedr ar y pryd gan Gristionogion Iuddewig ei fod wedi myned i mewn at rai dienwaededig. Ac er iddynt ddystewi a gogoneddu Duw pan glywsant y cwbl mewn trefn, am roddi i'r Cenedloedd hefyd edifeirwch i fywyd, eto dengys amgylchiadau dilynol nad oedd eu rhagfarn a'u centigen at y dychweledigion newydd wedi ei symmud. Efallai eu bod yn anwybodus o wir ystyr geiriau Crist ei hun; megys, "Ni'm danfonwyd ond at ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel;" "Nid gweddus cymmeryd bara y plant a'i fwrw i'r cwn:"—y fath ymlyniad oedd ynddynt at grefydd o sefydliad dwyfol, wedi ei hamddiffyn a'i chadarnhau gan y fath amlygiadau gogoneddus, a'i haddurno gan y fath freninoedd a phrophwydi ag y darllenent am danynt yn eu llyfrau sanctaidd. Cyn i Paul sefyll allan yn ei wir gymmeriad o apostol y dienwaediad, ychydig oedd yn deall fod "deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau" wedi ei dileu yn nghroes Crist. Achlysurodd taith genadol Paul a Barnabas i wlad Asia Leiaf ddygiad y cwestiwn i ryw derfyn; ond ni buasem yn meddwl mai yn Antioch y gwnaethid hyny. Paul a ystyrid fel blaenor yr ymosodiad ar Iuddewaeth; ac yr oedd cofio pa beth a fu pan yn "ddysgybl wrth draed Gamaliel" yn chwerwi eu teimlad tuag ato. Hyd yn hyn yr oedd y frwydr wedi bod rhwng Iuddewon a Christionogion yn y synagogau: ond yn awr symudir y ddadl i'r eglwys, rhwng y ddwy blaid o Gristionogion eu hunain, y rhai Iuddewaidd a Groegaidd. Nid oedd y rhai o Judea yn dysgu llai na'r angenrheidrwydd o gadw y ddeddf mewn trefn *i fod yn gadwedig.* Yn y cynghor yn Ierusalem (*Act.* xv) arweiniwyd yr apostolion gan ddoethineb dwyfol i benderfynu y cwestiwn o *undeb* a *rhyddid* yr eglwys yn unol âg ystyriaeth barchus o ammheuon brodyr gweiniaid. Cydnabyddodd yr apostolion awdurdod y naill y llall—rhoddasant ddeheulaw cymdeithas i'w gilydd—a chytunasant i Iago, Pedr, ac Ioan, lafurio yn benaf yn mysg yr Iuddewon, ac i Paul a Barnabas fyned at y Cenedloedd. Rhoddodd Paul brawf ymarferol mai ymbellhau yn unig oddi wrth ddefodau Iuddewaeth, ac nid oddi wrth Iuddewon, yr ydoedd, trwy fod yn ddiwyd i ofalu am eu tlodion. Nid oedd y gwaharddiad a roddwyd i'r Cenedloedd yn ddim mwy nag oedd yn angenrheidiol rhag tramgwyddo brodyr gweiniaid, fel y gorchymynai Paul i Gristionogion wneyd yr un peth oddi ar gariad brawdol (1 *Cor.* viii. 10; *Rhuf.* xiv. 1—15), tra y gwnai yntau ei hun yn bob peth i bawb. Yr oedd y gwaharddiad hefyd yn llesol i'r Cenedloedd eu hunain, fel y gallent ymryddhau yn rhwyddach oddi wrth y llygredigaethau oedd yn nglyn âg arferion eilunaddolgar: ac felly, yr oedd y ddadl hon mewn cyssylltiad agos âg egwyddorion cyffredinol moesoldeb. Daeth y cynghor i benderfyniad, nid trwy gynghor y mwyafrif, ond yn unfrydol—"wedi i ni ymgynnull yn gytûn;" *adn.* 25. Gosodwyd y ddadl, nid mewn goleu personol am gyfiawnhâd pechadur gyda Duw, yr hyn a wneir yn yr epistolau at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid, ond fel un eglwysig—am berthynas Cenedloedd crediniol â'r eglwys, ac eglwysi â'u gilydd.

Un o'r pethau sydd yn tynu sylw gyntaf, fel yn gwahaniaethu yr eglwys yn yr oes apostolaidd, ydyw—y meddiant o *ddoniau gwyrthiol.* Ymddengys iddynt ddiflanu yn ymadawiad yr apostolion eu hunain; o herwydd nid oes hanes mewn ysgrifeniadau diweddarach na llyfrau y Testament newydd, eu bod yn yr eglwys. Rhydd y ffaith hon arbenigrwydd neillduol ar y crybwylliad mynych o honynt yn ysgrifeniadau yr apostolion, lle yr ymddengys eu gweithrediad yn ddygwyddiadau beunyddiol—yn gymmaint felly fel y rhestrir hwynt yn mysg yr hyn a alwem ni yn ddoniau naturiol [gwel DONIAU GWYRTHIOL].

Yr oedd tri gradd o ddysgawdwyr yn yr eglwys apostolaidd. Yn gyntaf, *apostolion* [gwel erthygl]: yn nesaf, *efengylwyr*—rhai yn myned oddi amgylch i bregethu fel cenadon a chynnorthwywyr i'r apostolion, heb ymyraeth dim â threfniadau a dysgyblaeth eglwysig: yn drydydd, *dysgawdwyr*—rhai wedi eu gosod ar eglwysi neillduol, o'u mysg hwy eu hunain. Yr oedd *bugeiliaid* yr un ag *athrawon:* o blegid, fel y dywed Jerome, "*nemo pastoris sibi nomen assumere debet, nisi possit docere quos pascit*"—ni ddylai neb gymmeryd yr enw bugail oni fydd yn alluog i ddysgu y rhai y mae yn fugeilio. Arwydda y gair *bugail* un yn arwain ac yn llywodraethu yn dyner, yn ofalus, a gwyliadwrus. Defnyddir hefyd *arolygwr* neu *esgob* (επισκοπος), ac hefyd *henadur* (πρεσβυτερος) mewn ystyr tebyg i *fugail.* Defnyddia Paul *esgob* yn benaf wrth gyfarch eglwysi wedi eu casglu o'r byd paganaidd, fel yn Ephesus, Philippi, a Creta (*Act.* xx. 28; *Phil.* i 1; 1 *Tim.* iii. 2; *Tit.* i. 7). Y mae henadur yn dwyn gwedd Iuddewaidd yn hytrach, fel y gwelir mewn llawer man yn yr Actau, ac hefyd yn epistolau Iago, Pedr, ac Ioan. Wrth y *prophwydi,* y meddylir y rhai oedd yn derbyn mor helaeth o ddawn prophwydoliaeth: ac i'w hynodi oddi wrth ereill: a'u gwaith oedd prophwydo i'w brodyr y dadguddiedigaethau a dderbynient oddi wrth yr Ysbryd. Tua diwedd oes Paul y dewiswyd *diaconiaid* gyntaf, i gynnorthwyo y dysgawdwr a'r henuriaid, ar y rhai y disgynai prif ofal llywodraethu (1 *Tim.*). Ni elwir y saith a ddewiswyd i ryddhau yr apostolion oddi wrth y gofal o wasanaethu byrddau, un amser yn ddiaconiaid yn yr Actau.

Yr ydym yn ymwybodus, i fesur mawr, am lywodraeth yr eglwys apostolaidd. Yn raddol y daeth i feddu ffurf sefydlog; ac nid yw yn annhebygol fod trefniadau yn amrywio mewn gwahanol gymdeithasau, fel y gellir casglu wrth gymharu yr epistolau i Rufain, Corinth, Philippi, ac Ephesus. â'u gilydd. Ymddengys fod swyddau yn cael eu henwi yn y naill na chyfeirir atynt yn y llall.

Yr oedd y swyddogion hyn yn cael eu cynnal, mor bell ag y dymunent hyny, gan y rhai y llafurient yn eu mysg. Mae Paul yn gosod i lawr yn y modd cryfaf eu hawl i'r fath gynnaliaeth (1 *Cor.* ix. 7—14), er yn anfynych y derbyniai efe hyny, fel y gallai osod purdeb ei gymhelliadau tu hwnt i ammheuaeth.

Yr oedd y dull o osod rhai yn y gwahanol swyddau hyn yn amrywio yn ol natur y swydd ei hun. Derbyniodd yr apostolion eu hawdurdodiad gan Grist ei hun. Yr ysbrydoliaeth a dderbyniai y prophwydi oddi wrth yr Ysbryd Glân oedd eu hawdurdodiad hwy; ond yr oeddynt hwythau yn cael eu profi gan y rhai a dderbynient ddawn i brofi yr ysbrydoedd. Anfonid yr efengylwyr ar genadaethau neillduol o bryd i bryd gan y Cristionogion y trigent yn eu mysg; fel yr anfonodd eglwys Antioch Paul a Barnabas i efengyleiddio Cyprus, er nad heb ddadguddiad neillduol gan yr Ysbryd i'r dyben hyny. Ordeiniwyd henuriaid gan yr apostolion eu hunain; megys yn Lystra, Iconium, ac Antioch yn Pisidia (*Act.* xiv. 23), mewn cydsyniad, mae yn

Digitized by Google

debygol, â'r holl eglwys. Ac mewn amgylchiadau ereill, nid yw yn annhebygol fod yr eglwys yn dewis swyddogion fel y dewiswyd y saith Groegwr i ofalu am y weinidogaeth feunyddiol (*Act.* vi. 5). Gellir casglu oddi wrth yr Actau fod y rhai a ddewiswyd yn cael eu neillduo yn gyhoeddus, neu eu hordeinio i'w swyddau, pa un bynag ai dros dymmor ai yn barhaus y byddent.

Yr oedd addoliad yr oes hono yn rhydd ac yn syml, yn cael ei lywodraethu yn y gwasanaeth cyhoeddus yn ol y doniau a gyfrenid iddynt. Yn mhlith Cristionogion Palestina, yr oedd llawer o ffurfiau yr addoliad Iuddewig yn cael eu cadw; tra nad oedd yn addoliad y Cristionogion Groegaidd ond y gosodiadau syml sydd i fod yn yr eglwys hyd y diwedd — neillduad dydd yr Arglwydd, a'r sacramentau, sef bedydd a Swper yr Arglwydd. Ond nid oedd addoliad cyhoeddus y Cristionogion cyntaf yn cael ei gyfyngu i un dydd yn yr wythnos—ymgyfarfyddent yn fynych, yn aml bob dydd. Cesglir gan lawer, oddi wrth 1 *Cor.* xi. 20, fod eu haddoliad cyhoeddus yn dybenu yn gyffredin trwy gyfranogi o Swper yr Arglwydd.

*Ymraniadau a chyfeiliornadau yr oes apostolaidd.* Gwnaed yr ymraniad cyntaf yn Eglwys Crist gan y dysgawdwyr Iuddewig; ymdrechiadau pa rai a achlysurodd y cynghor cyntaf yn Ierusalem. Eu dyben oedd troi y dychweledigion Cristionogol yn broselytiaid Iuddewig, y rhai a wahaniaethent oddi wrth Iuddewon ereill trwy gydnabod Iesu yn Fessïah, tra y credent o hyd mai "gwaredwr ei bobl Israel" yn unig ydoedd. Yn y cynghor yn Ierusalem, yr oedd y dysgawdwyr hyn yn dadleu dros yr angenrheidrwydd o gadw deddf Moses fel ammod mynediad i'r eglwys: ond ar ol hyny, yr oedd yn angenrheidiol iddynt newid eu dull; a chan nad oedd penderfyniad y cynghor yn gwahardd i'r Iuddewon gadw y ddeddf, gwnaethant wahaniaeth rhwng y rhai a gadwent y ddeddf a phawb ereill. Ewyllysient gadw y rhai a ymwrthodent âg enwaediad yn broselytiaid y porth, a'r lleill yn broselytiaid cyfiawnder. Yr oedd y cwestiwn mewn dadl yn myned yn ddyfnach na pharch allanol i seremoniau—nid oedd yn ddim llai na phenderfynu pa un ai sect Iuddewig, dan iau gaethiwus deddf seremoniol oedd, ynte eglwys i Grist, yn annibynol ar wahaniaethau cenedlaethol, yn rhydd oddi wrth gaethiwed y llythyren, ac yn dwyn sel eu hetifeddiaeth, nid yn eu cnawd, ond yn eu calon. Paul oedd eu gwrthwynebwr penaf, ac o herwydd hyny yr ymdrechent mor ddiflino i ddadsylfaenu ei ddylanwad yn mhob eglwys a blanwyd ganddo —yn Antioch, yn Galatia, yn Corinth, yn Ierusalem, ac yn Rhufain. Ac nid rhyfedd i blaid wrthwynebol godi yn yr holl eglwysi yma yn erbyn apostol mawr y Cenedloedd, yr hwn oedd wedi ei anfon gan Grist i ddadguddio gwir natur a chyffredinolrwydd ei eglwys, pan gofiwn mai Iuddewon a phroselytiaid dychweledig oedd yr aelodau cyntaf yn yr holl fanau hyny. Yr oedd mân wahaniaethau, fel y gwelwn yn eglwys Corinth, yn perthyn i'r blaid hon, yn ol nerth eu rhagfarnau Iuddewig. Galwai y rhai mwyaf cymmedrol o honynt eu hunain yn ganlynwyr i Pedr, neu yn hytrach i Cephas, gan ddewis ei enw Hebreig. Y rhai mwyaf eiddigeddus o honynt a wnaent gamddefnydd dirfawr o enw y Gwaredwr, gan alw eu hunain yn blaid Grist. Heb law y rhai a elwir yn "frodyr gweiniaid," y rhai oedd heb, ef allai, ymrestru yn un blaid—ond dychweledigion o'r Hebreaid, heb ddeall yn gyflawn ryddid yr efengyl—yr oedd rhai a alwent eu hunain yn blaid Paul, ac a ddirmygent eu brodyr llai goleuedig na hwy eu hunain. Yr oedd ereill yn myned yn mhellach, ac yn edrych ar Gristionogaeth, nid fel crefydd ysbrydol, ond fel cyfundrefn newydd o athroniaeth. Yn y dinasoedd Groegaidd yr oedd y cyfeiliornad hwn yn debyg o godi, ac felly yn Corinth ni a'i gwelwn gyntaf. Efallai i fynediad Apolos, Iuddew o Alexandria, ac wedi ei ddwyn i fyny yn ei hysgolion Groegaidd hi, ac ymgydnabyddu â'i hathroniaeth, roi ffurf a nerth newydd i'r dosbarth hwn: galwent eu hunain yn ganlynwyr Apolos, a chanmolent ei olygiad philosophyddol ef, yn hytrach na'r dull syml diymdrech a briodolent i Paul.

O'r dymmer a amlygir yn y blaid hon y cododd yr hyder anghymmedrol hwn yn ngallu dyn i ymresymu, a roddodd fod i Gnosticiaeth; ac yr oedd rhai o ganlyniadau gwaethaf y cyfeiliornad hwnw yn ganfyddadwy mor fore a hyn, sef amddiffyn godineb oddi ar egwyddor, a gwadu yr adgyfodiad (1 *Cor.* vi. 9—20; a xv. 12). Defnyddiai y blaid hon athrawiaeth yr efengyl am ryddhad y Cristion oddi wrth y ddeddf yn annogaeth i aflendid. Felly yr oedd Antinomiaeth yn un o gyfeiliornadau yr oes apostolaidd.

Yn fore, amlygodd y ddwy elfen gyfeiliornus hyn eu hunain; sef yr un goelgrefyddol a seremonïol, o darddiad Iuddewig; a'r duedd gauathronyddol, o darddiad Groegaidd. Cyn amser carchariad Paul, y gyntaf o'r rhai hyn oedd y fwyaf peryglus; ond yn ei ddyddiau olaf, ac ar ol hyny, yn ystod bywyd Ioan, yr olaf oedd yn achlysuro mwyaf o flinder iddynt. Yr oedd y rhai na ymofynent am ddim mewn Cristionogaeth ond dull newydd o feddwl yn cynnyddu, fel yr oedd yr eglwys yn ennill tir yn mysg y rhai mwy coethedig; ac yn eu mysg yr oedd dysgawdwyr ysgolion Athen, y rhai oedd yn ceisio doethineb yn Corinth, a Rabbiniaid Platonaidd Alexandria.

O fewn pa derfynau y mae yr oes apostolaidd yn cael ei chyfyngu, i'w gwahaniaethu oddi wrth dymmor gweinidogaeth bersonol yr Arglwydd Iesu, ar un ochr, ac oddi wrth yr oes ddilynol, ar y llall?

1. Y mae y cyntaf yn hawdd ei wahaniaethu. Mae yn dechreu pan y mae yr apostolion wedi eu gadael heb arweiniad personol eu Pen—yn cyssegru eu hunain mewn modd annibynol i gyflawniad yr hyn y galwyd hwynt iddo, ac i'r hyn y parotowyd hwy gan dywalltiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost. Felly, y mae yn cyfateb i ddechreuad hanes Actau yr Apostolion.

2. Y mae terfyn yr oes apostolaidd yn cyfateb i'w hymadawiad personol â'r ddaiar, a dybeniad eu dylanwad uniongyrchol. Nis gallasai hyn fod ond yn raddol, gan wahaniaethu mewn gwahanol wledydd, yn ol parhad oes pob un. Y mae Actau yr Apostolion yn cael ei gyfyngu yn benaf i deithiau Paul a Phedr. Nid oes ond traddodiad, ond y mae hwnw yn hen iawn, am rai o honynt, i'n hysbysu am faes llafur yr apostolion ereill. Ond y mae hanesiaeth eglwysig yn ein dysgu gyda mwy neu lai o sicrwydd, fod yr efengyl wedi cael ei phregethu cyn dinystr Ierusalem, ac o fewn deng mlynedd ar ugain ar ol marwolaeth ein Harglwydd, yn Macedonia a Syria, gan Iudas; yn yr Aipht, a rhanau o Affrica, gan Marc, Simon, a Iudas; yn Ethiopia, gan eunuch y frenines Candace, a Matthïas; yn Pontus, gan Pedr; gan Ioan, yn nghymmydogaeth y saith eglwys; yn Parthia, gan Matthew; yn Scythia, gan Phylip ac Andreas; yn Persia, gan Simon a

Digitized by Google

Iudas; yn Parthia a Media, gan Thomas; ac yn Italy a Groeg, gan Paul.

APOSTOLAIDD, Y SEFYDLIADAU [διατάξεις, neu διαταγαὶ ἀποστολικαὶ]. Wrth yr enw hwn y gelwir hen ysgrifeniadau a broffesant gynnwys sefydliadau neu drefniadau a osodwyd gan apostolion Crist, ac a ysgrifenwyd gan Clement o Rufain i fod yn ffurf o lywodraeth i'r Eglwys Gristionogol—ei swyddogion, a'i haelodau cyffredinol. Dechreuant gyda'r anerchiad a ganlyn:—"Yr apostolion a'r henuriaid, at y rhai oll o blith y Cenedloedd a gredasant yn yr Arglwydd Iesu Grist; gras a heddwch oddi wrth yr Hollalluog Dduw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, a amlhäer i chwi trwy ei adnabod ef." Yn agos i'r diwedd, cawn y geiriau a ganlyn:—"Ond ein llyfrau cyssegredig ni, hyny yw, rhai y Cyfammod Newydd, ydynt y rhai hyn — pedair efengyl, Matthew, Marc, Luc, a Ioan; pedwar epistol ar ddeg Paul, dau epistol Pedr, tri Ioan, un Iago, un Iudas, dau epistol Clement; a'r sefydliadau cyflwynedig i chwi, yr esgobion, genyf fi, Clement, mewn wyth llyfr, pa rai nid yw briodol eu cyhoeddi i bawb, o blegid y dirgeledigaethau a gynnwysant; a'n hactau ninnau, yr apostolion."

Y mae y sefydliadau hyn o werth mawr mewn hanes eglwysig, o blegid mewn ymchwiliadau henafiaethol, yn nghyfnod y tair neu bedair canrif cyntaf, ceir yn gyffredin gymhorth oddi wrthynt na cheir mewn un man arall.

Rhenir y sefydliadau yn llyfrau, a'r llyfrau yn bennodau. Cynnwysant wyth o lyfrau, o dan wahanol enwau:—llyfr i. a draetha am wŷr lleyg *(laity)*: llyfr ii. am esgobion, henuriaid, a diaconiaid: llyfr iii. am y gweddwon: llyfr iv. am yr amddifaid: llyfr v. am ferthyron: llyfr vi. am ymraniadau *(schisms)*: llyfr vii. am fuchedd, y cymun, a derbyniad i mewn *(initiation)* i Grist: llyfr viii. am roddion ac ordeiniadau, a'r canonau eglwysig. Cynnwysa y llyfr cyntaf 10 o bennodau; yr ail, 63; y trydydd, 20: y pedwerydd, 14; y pummed, 20: y chweched, 30; y seithfed, 49; a'r wythfed, 47 o bennodau. Yn y bennod olaf o'r wythfed, llyfr, rhoddir "Canonau Eglwysig yr Apostolion Sanctaidd." Nifer y canonau ydyw 85. Mae y llyfr cyntaf, fel yr arwydda ei enw, yn dwyn perthynas âg aelodau cyffredin yr eglwys: gan gynnwys, yn benaf, reolau perthynol i foesoldeb, ac ychydig yn perthyn i ddysgyblaeth:—dyma y lleiaf o'r holl lyfrau. Yr ail yw y mwyaf o lawer:—yn y deunaw pennod cyntaf, gosodir allan y cymhwysderau gofynol mewn esgobion a swyddogion ereill, i'w gwneyd yn deilwng o'u swyddi. Yma gosodir allan yr esgob uwch law yr holl aelodau a swyddogion ereill, ac awgrymir ei fod wedi derbyn ei allu gan Dduw. Darlunir y swyddogion ereill fel rhai teilwng o anrhydedd mawr, eto nid cyfartal i'r esgob; o blegid oddi wrth yr esgob y deillia eu hanrhydedd hwy, ac nid oes ganddynt hawl i ddim heb yr esgob. Yn y pum pennod nesaf, cawn addysgiadau perthynol i holl berthynasau a chyssylltiadau y bywyd eglwysig:—pa fodd i ymddwyn tuag at rai sydd yn yr eglwys, a'r rhai sydd oddi allan, a chyfarwyddiadau o barthed gwyliau ac ymprydiau, &c.: at yr hyn y chwanegir, yn enwedig yn y seithfed a'r wythfed llyfr, gyfarwyddiadau perthynol i ddefodau a ffurf-weddïau.

Mewn trefn i gael rhyw amgyffrediad am natur, dullwedd, ac amcan y sefydliadau apostolaidd, ni a roddwn y dyfyniadau canlynol:—

"*Na ddylai llëygwyr weinyddu gwaith offeiriadol; bedydd, aberth, arddodiad dwylaw, na bendith.* Nid ydym chwaith yn caniatau i wŷr llëyg weinyddu unrhyw swyddau perthynol i'r offeiriadaeth; megys, er anghraifft, nac aberth, na bedydd, nac arddodiad dwylaw, na bendith—pa un bynag ai y lleiaf neu y mwyaf fyddo: 'canys nid yw neb yn cymmeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw.' O blegid y cyfryw swyddi a gyfrenir trwy arddodiad dwylaw yr esgob. Ond y neb nid yw y cyfryw swydd wedi ei chyfranu iddo, ond sydd yn ei chymmeryd arno ei hunan, a dderbynia gospedigaeth Uzziah: 2 *Cron.* xxvi. 16—21."

"*Na chaniateir i raddau iselaf y clerigwyr, na neb ond yr esgob neu yr henuriad, weinyddu swyddau offeiriad; fod ordeinio yn perthyn yn hollol i'r esgob, ac nid i neb arall ond efe.* Ac yn mhellach, nid ydym yn caniatau i'r gweddill o'r clerigwyr i fedyddio; megys er anghraifft, i'r darllenwyr, neu y cantorion, neu y drysorwyr, neu y gweinidogion, ond i'r esgobion a'r henuriaid yn unig; eto yn y fath fodd ag y byddo i'r diaconiaid wasanaethu arnynt ynddo. Ond y rhai a anturiant arno a dderbyniant gospedigaeth cymdeithion Corah: *Num.* xvi. Nid ydym yn caniatau i henuriaid, ond i esgobion yn unig, ordeinio diaconiaid, neu ddiaconesau, neu ddarllenwyr, neu weinidogion, neu gantorion, neu drysorwyr; o blegid hyn yw trefn a chyssondeb eglwysig."

"*O barthed i egwyddoriad dwyfol (divine initiation) bedydd sanctaidd.* Bydded i ti, gan hyny, O esgob! yn ol y cynllun hwnw, eneinio penau y rhai sydd i gael eu bedyddio, pa un bynag ai gwŷr ai gwragedd fyddont, âg olew sanctaidd, yn rhagarwydd o fedydd ysbrydol. Yna bydded i ti, O esgob! neu i henuriad a fyddo danat, gyhoeddi arnynt enw cyssegredig y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, a'u bedyddio; a bydded i ddiacon dderbyn y dyn, y ddiacones dderbyn y wraig, fel y byddo cyflwyniad y sel ddihalog hon felly yn cael ei wneuthur gyda gweddusrwydd priodol. Ac ar ol hyny bydded i'r esgob eneinio y rhai a fedyddiwyd âg enaint."

"*Beth yw ystyr bedydd i Grist, a pha ham y dywedir ac y gwneir pob peth sydd ynddo.* Y mae y bedydd hwn, gan hyny, yn cael ei roddi i farwolaeth Iesu. Y mae y dwfr yn lle y claddiad; yr olew yn lle yr Ysbryd Glân; y sel yn lle y groes; yr enaint yn lle cadarnhad cyffes; y crybwylliad am y Tad, fel yr awdwr a'r anfonydd; y cydgrybwylliad am yr Ysbryd Glân, fel y tyst; y disgyniad i'r dwfr—y marw gyda Christ; yr esgyniad o'r dwfr—y codi i fyny drachefn gydag ef. Y Tad yw y Duw uwch law pawb; Crist yw yr uniganedig Dduw, yr anwyl Fab, Arglwydd y gogoniant; Yr Ysbryd Glân yw y Dyddanydd, yr hwn a anfonir gan Grist, ac a ddysgir ganddo, ac a'i cyhoedda."

"*O ba gymmeriad y dylai yr hwn a ddygir i mewn fod.* A bydded i'r hwn sydd i gael ei fedyddio yn rhydd oddi wrth bob anwiredd, yn un heb duedd i bechu, yn gyfaill Duw, ac yn elyn diafol, yn etifedd Duw Dad, yn gydetifedd â'i Fab ef, yn un sydd wedi ymwrthod â Satan, a'r cythreuliaid, a dichellion Satan; yn ddiwair, pur, sanctaidd, anwyl gan Dduw, yn fab Duw, yn gweddïo fel mab ar ei dad, yn dywedyd, megys o gynnulleidfa y ffyddloniaid, fel hyn—'Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd,'" &c.

"*O ba gymmeriad y dylai diacon fod.* Bydded y diaconiaid yn mhob peth yn ddifrycheulyd, megys y mae yr esgob ei hun i fod, ond yn unig yn fwy gweithgar: mewn rhif yn ol maint yr eglwys, fel

Digitized by Google

y byddo iddynt weini i'r methiantus megys gweithwyr nad oes arnynt gywilydd; a bydded i'r wraig a neillduir i fod yn ddiacones ofalu am y gwragedd.......Gwasanaethwch gan hyny yn serchog, heb rwgnach na therfysgu; o blegid yr ydych yn ei wneyd, nid er mwyn dyn, ond er mwyn Duw; a chwi a dderbyniwch ganddo ef wobr eich gwasanaeth yn nydd yr ymweliad. Gan hyny, dylech chwi, y diaconiaid, ymweled â'r rhai sydd mewn angen ymweled â hwy, a hysbysu eich esgob am bawb sydd mewn cystudd; canys dylech fod yn enaid ac yn deimlad iddo, gan fod yn weithgar a gwyliadwrus iddo ef yn mhob peth, megys eich esgob, eich tad, a'ch arglwydd."

"*Y dylai esgob gael ei ordeinio gan dri neu gan ddau esgob, ond nid gan un; o blegid byddai hyny yn ddirym.* Yr ydym yn gorchymyn fod i esgob gael ei ordeinio gan dri esgob, neu o leiaf gan ddau: ond nid yw yn gyfreithlawn iddo gael ei osod gan un; o blegid y mae tystiolaeth dau neu dri o dystion yn fwy cadarn a sicr. Ond y mae henuriad a diacon, a'r gweddill o'r clerigwyr, i gael eu hordeinio gan un esgob. Nid yw henuriad na diacon i ordeinio o'r gwyr lleyg i'r gwyr llen. Ond y mae henuriad yn unig i ddysgu, i offrymu, i fedyddio, a bendithio y bobl: ac y mae y diacon i wasanaethu i'r esgob a'r henuriaid; hyny yw, i weinyddu swydd diacon gwasanaethol, ac nid i ymyraeth â'r swyddau ereill."

*Cytundeb a gwahaniaeth y sefydliadau o'r canonau.* Cytunant gan mwyaf yn y pynciau y traethant arnynt, ac yn y cyfarwyddiadau a gynnwysant. Rhydd y sefydliadau (llyfr ii. pen. 25) gyfarwyddiadau yn nghylch blaenffrwyth y degymau, a pha fodd y mae yr esgob i gyfranogi o honynt ei hunan, ac i'w rhanu i ereill. Yn canon iii. a'r iv. dangosir pa roddion oeddynt briodol i'w dwyn i'r allor: ac yn canon v. dywedir,—"Anfoner pob ffrwythau ereill i dŷ yr esgob, fel blaenffrwyth iddo ef a'r henuriaid, ac nid i'r allor. Yn awr, amlwg yw fod yr esgob a'r henuriaid i'w rhanu i'r diaconiaid, a hwythau i'r gweddill o'r clerigwyr. Traetha y sefydliadau (llyfr ii. pen. 58) ar yr angenrheidrwydd o lythyrau cymmeradwyaeth i ddyeithriaid, aelodau cyffredin, clerigwyr, ac esgobion. Traetha canon xiii. a'r xiv. ar yr un peth: a dywed canon xxxiv. —"Na dderbyn ddyeithr-ddyn, pa un bynag ai esgob, ai henuriad, ai diacon fyddo, heb lythyrau cymmeradwyaeth." Cymharer hefyd pen. 20, llyfr iii, o'r sefydliadau, â'r canon i. a'r ii.— "Bydded i esgob gael ei ei ordeinio gan ddau neu dri o esgobion; bydded i henuriad gael ei ordeinio gan un esgob, megys hefyd y diacon a'r clerigwyr ereill," a chanfyddir y cytundeb mwyaf rhyngddynt.

Gwahaniaethant oddi wrth eu gilydd, yn mhlith pethau ereill, yn eu dullwedd a'u trefniad. Mae dullwedd y canonau ar ffurf gorchymynion ac archiadau pendant ac awdurdodol; tra y mae y sefydliadau, ar y cyfan, yn dwyn mwy o ddelw annogaethau a chyfarwyddiadau, pa rai a argymhellir trwy amryw resymau a dyfyniadau o'r Ysgrythyrau, yr hyn ni chanfyddir braidd yn un man o'r canonau. O ran cyfansoddiad, y mae y sefydliadau yn fwy trefnus a rheolaidd na'r canonau Yn yr olaf, nid oes ond ychydig neu ddim cyssylltiad i'w ganfod rhwng y naill ganon a'r un dilynol; am hyny, bernir fod y sefydliadau wedi eu cyfansoddi gan un llaw, neu o leiaf gan ychydig o ddwylaw. Beth bynag, y maent yn dwyn mwy o ddelw un cyfansoddiad na'r canonau. Am yr olaf, gellid barnu, oddi wrth absennoldeb perthynas rhwng y naill a'r llall yn y drefn y safant, mai casgliad ydynt o reolau neu gyfreithiau gwasgaredig, ag oeddynt mewn ymarferiad mewn gwahanol eglwysi, wedi eu gosod wrth eu gilydd yn ol fel y dygwyddodd y casglydd ddyfod o hyd iddynt, heb un reol rhagor na hyny yn ei lywodraethu wrth eu gosod yn nghyd.

Y mae amryw o sefydliadau yn llyfr viii. yn cael eu priodoli i apostolion unigol. Gelwir pen. xii, "Sefydliad Iago, brawd Ioan, mab Zebedeus," a dechreua fel y canlyn:—"Yn awr, ninnau, Iago brawd Ioan, mab Zebedeus, hefyd a ddywedaf, fod i'r diaconiaid gyhoeddi yn uniongyrchol, na fydded i neb o'r Catechumeniaid aros yma," &c. Mewn, rhai manau geilw yr awdwyr eu hunain yn *ddeuddeg*, a hònant yr enw apostolion. Yn llyfr vi. pen. xii, lle y cyfeirir at neillduad Matthias i'r swydd apostolaidd, dywedir,—"Nyni y deuddeg, wedi ymgynnull yn Ierusalem, o blegid yr oedd Matthias wedi ei ddewis yn apostol, yn lle y bradychwr." Dechreua llyfr viii, pen iv, yn y geiriau a ganlyn:— "Am hyny, nyni, deuddeg apostol yr Arglwydd, y rhai ydym yn awr yn nghyd, ydym yn rhoddi i'ch gofal ein sefydliadau dwyfol perthynol i bob ffurf eglwysig; a chyda ni, Paul, llestr etholedig, ein cydapostol; a Iago, yr esgob, a'r henuriaid ereill, a'r saith diacon."

Am eu gwerth, y mae dwy wahanol farn wedi bod, hollol groes i'w gilydd. Yn ol y farn fwyaf gyffredinol, ymwrthodir â hwy yn hollol fel ysgrifau o ddim awdurdod; a'u bod yn ysgrifeniadau ffugiol sydd tu hwnt i ammheuaeth. Ymwrthodwyd â hwy mewn cynghor cyhoeddus mor fore a B.A. 692. Ond gwnaed defnydd o honynt fel ysgrifau awdurdodol yn fynych wedi hyny, ond nid yn yr Eglwys Orllewinol. Cyn yr unfed ganrif ar bymtheg, nid oeddynt yn adnabyddus iawn, ond wedi eu mynychu trwy y wasg gwnaed ymchwiliadau manwl i'w hanes. Bovius a Turrianus, y rhai a'u dygasant trwy y wasg yn mhlith y rhai cyntaf, a hònent awdurdod apostolaidd iddynt; ac yn hyn dilynir hwy gan rai ysgrifenwyr esgobaethol. Dadleua Whiston [*Primitive Christianity revived*] eu bod yn cynnwys yr hyn a draddododd Crist i'w apostolion y deugain niwrnod rhwng ei adgyfodiad a'i esgyniad. Ni raid ond darllen y sefydliadau a'r canonau i ddyfod i'r penderfyniad nas gallant fod yn eiddo i'r apostolion, nac yn gynnyrch eu hoes hwy. Mae gwahaniaeth hanfodol rhwng eu dullwedd, heb law fod amryw arferion, defodau, athrawiaethau, swyddau eglwysig, &c., yn cael cyfeirio atynt, yn hollol ddyeithr i'r Testament Newydd. Meddyliai Pearson, eu bod wedi eu hysgrifenu gan yr apostolion, neu wedi eu traddodi ganddynt hwy, a'u hysgrifenu gan ereill. Grabe a hònai iddynt gael eu cymmeryd o enau yr apostolion, a'i rhoi mewn ysgrifen yn yr ail ganrif. Beveridge a'u priodola i Clemens Alexandrinus, yn niwedd yr ail ganrif, ac yn ddiweddarach gosododd hwynt yn y drydedd. Cydnabydda Mosheim eu bod yn hen waith, ond yn perthyn i oes ansicr, wedi eu parotoi gan ddyn llym ac anffafriol i ddiwyg meddyliol, yr hwn ni phetrusai dadogi ei olygiadau i'r apostolion ac i Clement, er mwyn ennill iddynt fwy o dderbyniad. Barna Gieseler fod y pum llyfr cyntaf wedi eu cyfansoddi yn y drydedd ganrif, i ba rai y dygwyd amryw gyfnewidiadau yn ddiweddarach; a thua diwedd y bedwerydd, neu ddechreu y bummed ganrif, chwanegwyd y ddau lyfr diweddaf atynt, yna

Digitized by Google

gwisgasant eu ffurf bresennol. Mae Neander o'r farn i'r sefydliadau godi yn raddol o amrywiol ddarnau yn y rhan ddiweddaf o'r ail ganrif, ac wedi hyny hyd ryw amser yn y bedwaredd. Ittigius (cadeirdraw duwinyddol Leipsic, 1691) a'u priodola i'r bedwaredd ganrif, gyda chwanegiadau ffugiol yn y chweched:—a'r farn hon, gyda mwy neu lai o wahaniaeth, a ddilynir gan yr ysgrifenwyr diweddaraf. Grabe (yr hwn a fu yn gyntaf yn weinidog Lutheraidd, ac wedi hyny a ymunodd âg Eglwys Loegr, ac a fu farw yn 1812), a ddadleuai fod y chwe llyfr cyntaf yn gasgliad o addysgiadau yr apostolion, a bod y ddau olaf yn chwanegiadau diweddarach. Mae Krabbe o'r golygiad, fod y saith llyfr cyntaf, gyda rhyw eithriad ffugiol, wedi eu cyfansoddi yn niwedd y drydedd ganrif, ac i'r wythfed gael ei gasglu yr un amser a'r canonau yn nechreu y bummed ganrif. Ar y llaw arall, y mae rhai yn hòni fod pedair ysgrif annibynol; ac i'r sefydliadau, fel gwaith cyfan, gael ei ffurfio oddi wrthynt oll; sef y chwe llyfr cyntaf yn niwedd y drydedd ganrif, y seithfed yn nechreu y bedwaredd ganrif, a'r wythfed tua'r un amser a'r canonau. [*Ymchwiliad newydd i'r sefydliadau a'r Canonau Apostolaidd, gan Drey Tübingen*, 1832.] Gydag ychydig o wahaniaeth, y mae yr ymchwilwyr diweddaraf yn dilyn y golygiadau uchod; megys Bickell, Rothe, a Baur.

Y penderfyniadau y maent yn dyfod iddynt ydynt,—

*Fod y chwe llyfr cyntaf yn rhan annibynol a gwreiddiol o'r casgliad.* Mae rhesymau mewnol ac allanol dros hyn. Y rheswm allanol cryfaf ydyw, eu bod wedi eu cael dan yr enw, *Addysgiadau yr apostolion*, mewn casgliadau dwyreiniol, yn ysgrifenedig mewn tair iaith—y Syriaeg, yr Arabaeg, a'r Ethiopaeg. Mae y ddau olaf yn cytuno yn llythyrenol â'r casgliad gwreiddiol yn y Groeg. Eu cynnwysiad a brawf yr un peth, a bod y ddau lyfr olaf yn cynnwys adroddiadau o gynnwysiad y cyntaf, ac weithiau pethau anghysson â hwy. Gellir olrhain llawer o honynt i lythyrau Ignatius fel eu ffynnonell. Amser eu cyfansoddiad oedd tua diwedd y drydedd ganrif; a'r wlad yn yr hon yr ysgrifenwyd hwynt oedd Syria. Anhawdd yw penderfynu pa un ai Cristion Iuddewaidd ai Groegaidd oedd eu hawdwr.

Y mae y *seithfed llyfr*, o'r hyn lleiaf ran fawr o hono, yn waith gwreiddiol, wedi ei gyfansoddi cyn Cynghor Nice, yn 325, pa fodd bynag, yn nechreu y bedwaredd ganrif; o herwydd nid ymddangosodd yr arwyddion o Ariaeth sydd yn ganfyddadwy ynddo, nemawr cyn hyny.

*Rhan annibynol, unffurf o ran dull a chynnwysiad, ydyw yr wythfed llyfr.* Y mae y llyfrau cyntaf yn fwy ar ddull llythyrau; ond yn yr wythfed, ymddengys yr apostolion fel yn gorchymyn gydag awdurdod. Nid ydyw ychwaith mor faith ac annyben a'r llyfrau cyntaf; nac mor gwta yn ei ddull a'r seithfed. Cynnwysa yr olaf hefyd ffurfwasanaeth addoliad cyhoeddus; yr hwn, mae yn debygol, a ddefnyddiai yr esgobion. Efallai yr unwyd yr holl ddarnau hyn yn un cyfanwaith gan awdwr yr wythfed llyfr.

*Gellir casglu amcan y sefydliadau oddi wrth eu cynnwysiad* Cynnwysant gyfarwyddiadau a gorchymynion perthynol i holl gyssylltiadau yr eglwys, a'r bywyd eglwysig; ac ychydig a gynnwysant am ddim arall. Dengys y ffaith fod y cyssylltiadau hyn yn cael eu dadleu yn helaeth yn eu gwahanol gangenau, fod yr awdwr yn amcanu gosod i fyny safon i ddysgyblaeth, a holl achosion eglwysig Cristionogaeth. Geilw ei gynnyrch yn "Addysg gyffredinol;" llyfr vi. pen iv. 18. Proffesa eu bod yn "athrawiaeth gatholic," yn "rheol a chyfarwyddyd" er cadarnhad y sawl yr ymddiriedwyd iddynt yr esgobaeth gyffredinol—arolygiaeth yr holl eglwys. Y mae y llyfr cyntaf wedi ei gyfeirio at yr aelodau cyffredin—y *laity;* ac o'r holl lyfrau, dyma y lleiaf: yr hyn a'n harwain i farnu yr ystyrid y *laity* yn israddol, ac mai yr esgobion oedd yn cyfansoddi yr eglwys. Yr ail lyfr, yr hwn a draetha, yn ol ei deitl, "Am Esgobion, Henuriaid, a Diaconiaid," yw y mwyaf o lawer, ac a ffurfia ganolbwynt y gwaith i gyd. Wedi traethu ar y cymhwysderau gofynol mewn esgob, yn nechreu y llyfr, â yr awdwr yn mlaen i ddyrchafu urddas ac anrhydedd yr esgobion uwch pawb, a'u gosod fel cynnyrchiolwyr, nid yr eglwys yn unig, ond Duw hefyd. Gwna i'r apostolion ddywedyd (pen. xi)—"O blegid hyn, gan hyny, O esgob! ymdrecha i fod yn bur yn dy weithredoedd, ac i addurno dy le a'th urddas, fel un yn dal cymmeriad neu ddelw Duw yn mhlith dynion, gan lywodraethu ar bawb—offeiriaid, breninoedd, llywodraethwyr, tadau, meibion, dysgawdwyr—hyd yn oed pawb sydd o danat: ac eistedd felly yn yr eglwys fel un yn meddu awdurdod i farnu troseddwyr." "Gwna di, gan hyny, O esgob! farnu gydag awdurdod fel Duw" (pen. xii). Yn pen. xx. dyweda—"Yr hwn sydd yn gwrandaw yr esgob, sydd yn gwrandaw Crist; yr hwn sydd yn ei wrthod ef, sydd yn gwrthod Crist." Pwy na chenfydd yma ddadleniad o'r egwyddor offeiriadol, ar ba un, mewn oes ddiweddarach, y gorphwysai holl allu penarglwyddiaethol yr offeiriaid? Nid oedd y gallu gwladol i fod yn annibynol mwy: yr eglwys, yn ei hesgobion, oedd i afael yn mhob awdurdod eglwysig a gwladol. Canfyddir yma hefyd yr hòniad o hawl ddwyfol yn dyfod i'r golwg: yr oedd gallu yr esgobion o Dduw, fel pe buasent wedi derbyn hawl ganddo ef i wneuthur fel yr ewyllysient. Gosodir yr esgob allan fel swyddog uchraddol i bawb arall. "Yr esgob ydyw gweinidog y gair, ceidwad gwybodaeth, y cyfryngwr rhwng Duw a chwi yn amrywiol ranau eich haddoliad. Efe yw dysgawdwr duwioldeb; ac yn nesaf at Dduw, efe yw eich tad, yr hwn a'ch adgenedlodd i fabwysiad o ddwfr ac o'r Ysbryd; efe, yn nesaf at Dduw, ydyw eich Duw daiarol, yr hwn sydd ganddo hawl i gael ei anrhydeddu genych......Bydded i'r esgob, gan hyny, lywyddu arnoch fel un wedi ei anrhydeddu âg awdurdod gan Dduw, yr hwn sydd ganddo i lywyddu ar y clerigwyr, a thrwy yr hwn y mae i lywodraethu pawb" (pen. xxvi). Am yr offeiriaid, dywedir—"Perchwch ac anrhydeddwch hwynt â phob parch; o blegid y maent wedi derbyn gan Dduw allu ar fywyd ac angeu, i farnu a chondemnio pechaduriaid i angeu y tân tragwyddol" (pen. xxxiii). Yn pen. xxv, cawn ddarluniad o'r offeiriadaeth yn yr Eglwys Gristionogol, yn ol cynllun yr awdwr:—"Yr ydych chwi, gan hyny, O esgobion! i'ch pobl yn offeiriaid a Lefiaid, yn gwasanaethu i dabernacl sanctaidd yr Eglwys lân Gatholic; y rhai a sefwch wrth allor yr Arglwydd eich Duw, ac a offrymwch aberthau rhesymol a diwaed, trwy Iesu Grist, yr Archoffeiriad mawr......Yr aberthau yn awr ydynt weddïau, eiriolaeth, diolchgarwch. Y degymau, blaenffrwyth, a'r offrymau gynt, yn awr ydynt roddion, pa rai a osodir gan yr esgobion ger bron Duw, trwy Iesu Grist, yr hwn a fu farw drostynt: canys y rhai hyn yw eich archoffeiriaid chwi, megys y mae yr hen-

Digitized by Google

uriaid yn offeiriaid i chwi; a'r diaconiaid presennol sydd yn lle y Lefiaid, megys hefyd eich darllenwyr, eich cantorion, eich drysorwyr, eich diaconesau, eich gweddwon, eich gwyryfon, a'ch amddiffaid. Ond yr hwn sydd uwch law y cyfan ydyw yr archoffeiriaid." Canfyddir uchraddoliad yr esgob yn dyfod i'r golwg hefyd yn y trydydd llyfr. Y mae y gweddwon i fod yn ufudd iddo ef yn mhob peth megys i Dduw (pen. viii); —efe oedd i arddodi dwylaw (pen. x); ordeinio (pen. xi); eneinio âg olew cyn bedyddio, ac âg enaint ar ol bedyddio (pen. xvi), &c. Yr oedd y diacon i fod yn mhob peth yn ddifrycheulyd fel yr esgob, ond yn fwy llafurus (pen. xix).—(*Dr. Chase's Apost. Const. and Canons; Prize Essay on the same, by Dr. O. C. Krabbe; Whiston's Essay on the Apost. Const.; Matthew Henry's Preface to his Expos. New Test; Chevalier Bunsen on Hippolytus; Mosheim's Instit. of Eccles. Hist*, llyfr i, rhan ii, pen. ii, adran 19; *Neander's Gen. Church Hist.*; *Clarke's Lib.*, cyf. i, td. 268, 274, a cyf. ii, td. 442; *Gieseler's Comp. Eccles. Hist.*; *Clarke's Lib.*, cyf. i, td. 259, 260.)

APOSTOLAIDD, Y TADAU. Y mae i'r enw hwn ystyr mwy a llai eang. Defnyddir ef weithiau i ddynodi rhai o ddysgyblion uniongyrchol yr apostolion; ond yn fwyaf cyffredinol, arwydda y rhai hyny yn eu mysg a adawodd ysgrifeniadau ar eu hol. Rhenir hwy i ddau ddosbarth. 1. Dysgyblion Paul:—Barnabas, Clement o Rufain, Hermas, a Dionysius yr Areopagiad. 2. Dysgyblion Ioan:—Ignatius, Polycarp, Papius. Y rhai sydd wedi derbyn mwyaf o arbenigrwydd fel tadau apostolaidd ydynt Clement, Ignatius, a Polycarp. Priodolir yr enw hwn iddynt, nid i arwyddo eu bod yn meddu mwy o'r gwirionedd a'r doethineb yr addurnwyd yr apostolion â hwynt nag ereill a ddaeth ar eu hol, er ei fod weithiau wedi cael ei ddefnyddio yn yr ystyr hwn, ac felly wedi camarwain dynion—ond yn ol yr arfer gyffredin o alw dysgawdwyr cyntaf unrhyw wirionedd yn dadau. Y mae niwed yn fynych wedi tarddu o briodoli iddynt wybodaeth ac awdurdod nad oeddynt yn eu meddu, nac yn eu hòni; etto nis gellir cael ond syniad anmherffaith am Gristionogaeth, heb ryw wybodaeth o'u cymmeriad a'u hysgrifeniadau. Y maent yn sefyll ar wahân, megys, mewn hanes eglwysig. Y mae eu hagosrwydd i'r apostolion yn eu cymhwyso i ddwyn tystiolaeth i'r hyn a welsant ac a glywsant; ond nid oeddynt yn ysbrydoledig, nac yn gwneyd un ymhòniad i hyny. Yr oeddynt yn ddynion mawr mewn ffydd, gweddi, a chariad; ac mewn erlidigaeth, ni wadasant eu Harglwydd a'u Hachubwr. Yr argraffiadau goreu o'r ysgrifeniadau a briodolir iddynt ydynt—1. *S. S. Patrum qui temporibus Apostolicis fluerorunt Opera, ed. J. B. Cotelerius*: Paris, 1672. Daeth allan argraffiad cyflawnach a gwell o'r un gwaith, yn 1724—2 gyf. unpl. 2. *Lives of the most eminent Fathers of the Church, &c., by Dr. Cave.* Argraffiad newydd o'r un gwaith, gan H. Cary, 3 cyf. 8pl.: Rhydychain, 1840. 3. *Patres Apostolici*, gan Mr. Jacobson: Rhydychain, 1844. 4. *Patrum Apostolicorum Opera, C. J. Hefell Tubingæ*, 1842. Gwel yr erthyglau dan enwau y tadau apostolaidd.

APOSTOLIGION, [*apostolici*]: enw a roddid ar bleidiau crefyddol; pa rai, fel y mae yr enw yn arwyddo, a broffesent fod yn ddynwaredwyr yr apostolion. Ymddangosodd un blaid yn dwyn yr enw hwn yn dra bore, efallai yn yr ail hanner o'r drydedd ganrif—nid yn mhell ar ol cyfodiad y Cathariaid. Lle eu dyfodiad, fel y dywed Ioan o Damascus, ydoedd Pisidia, lle y gallem farnu eu bod yn dra lluosog. Oddi yma ymledasant dros amryw o daleithiau Asia Leiaf; o blegid Epiphanius, yr hwn a ysgrifenai o ddeutu can mlynedd ar ol yr amser a nodwyd fel yr adeg debygol iddynt godi, a ddywed eu bod i'w cael yn barhaus yn Phrygia, Cilicia, a Pamphylia. Gellid barnu hefyd eu bod yn dra lluosog yn amser Awstin, yr hwn a ysgrifenai tua deng mlynedd ar ugain yn ddiweddarach; o blegid ysgrifena efe am danynt fel wedi ennill digon o sylw a hynodrwydd i gael eu hystyried yn blaid wahaniaethol. Nid yw eu nodau gwahaniaethol yn eglur iawn ar ddalenau hanesyddiaeth; ond ymddengys iddynt godi pan oedd yr eglwys gyffredinol (*catholic*) yn suddo yn ddyfnach yn barhaus mewn dirywiad, ac mai eu prif amcan oedd attal y llygredigaethau oedd yn codi ac yn ffynu. Yr oeddynt yn amddiffyn y ffydd uniongred yn selog iawn, ac yn nodedig am burdeb cymmeriad a llymder dysgyblaeth. Yn y rhan fwyaf o bethau, ymddengys fod eu golygiadau yr un a'r Cathariaid, ond eu bod yn cael eu dal gyda mwy o erwinder a gofal. Yn wahaniaethol oddi wrth y Cathariaid, dalient yr angenrheidrwydd o lwyr ymwrthod â'r byd, a hyny i'r fath raddau ag ystyried y dylid cadw rhagorfreintiau crefyddol oddi wrth bawb nad ymwrthodent âg ef. Ystyrient anrhydedd, enwogrwydd, a golud daiarol, yn hollol anghydweddol â'r cymmeriad Cristionogol.

Ymddangosodd plaid arall o dan yr un enw yn fore yn y ddeuddegfed canrif, os nad yn niwedd yr unfed canrif ar ddeg, yn nghymmydogaeth Cologne, fel y canfyddir mewn llythyr oddi wrth Evervinus, uchelfaer eglwysig Steinfelden, at Bernard; yr hwn lythyr, medd Dr. Alix, a ysgrifenwyd ryw gymmaint cyn y flwyddyn 1140. Anhawdd gwybod yn gywir beth oedd daliadau y blaid hon, gan mai tystiolaethau eu gelynion sydd genym am danynt. Dywed Evervinus, "eu bod am ddiddymu yr offeiriadaeth; yn condemnio y sacramentau, ond bedydd, a hwn yn unig i rai mewn oedran; ac nad ydynt yn credu bedydd babanod. Galwant bob priodas, ond priodas rhwng gwyryfon, yn odineb. Nid ymddiriedant yn eiriolaeth y saint; daliant fod ympryd io a chystuddio am bechod yn ddiwerth, o blegid pa bryd bynag yr edifarha pechadur am ei bechod, maddeuir iddo; a galwant bob peth arall a gedwir gan yr eglwys, nad yw wedi ei osod gan Grist a'i apostolion, yn ofergoeledd. Ni oddefant fod purdan ar ol angeu; ond fod yr eneidiau, mor fuan ag y gadawant y corff, yn myned i orphwysfa neu i gospedigaeth; ac fel hyn, dirymant weddïau a rhoddion y credinwyr dros y trancedig." Ymddengys oddi wrth yr un llythyr eu bod yn dra lluosog ar y pryd, "wedi ymdaenu bron i bob man, a bod yn eu plith amryw glerigwyr a mynachod." Dywed ysgrifenydd, yn *Buck's Theological Dictionary*, eu bod yn ystyried llwon yn anghyfreithlawn; yn gadael i'w gwallt a'u barfau dyfu yn anferth: yn eu galw eu hunain yn frodyr a chwïorydd diwair; ond fod gan bob dyn, er hyny, chwaer ysbrydol gydag ef yn byw mewn perthynas deuluaidd. Gwir fod Evervinus, a'r abad Bernard, yn awgrymu rhywbeth yn debyg i'r diweddaf; ond tystiolaeth eu gelynion yw hyn. Ac er mor ragfarnllyd oedd Bernard yn eu herbyn, addefa yn ei bregethau yn eu herbyn, eu bod yn ddiargyhoedd yn eu bywyd a'u hymddygiad. Dywedir i amryw o'r blaid hon gael eu

Digitized by Google

dwyn o flaen llys eglwysig archesgob Cologne; ac wedi amddiffyn eu hunain trwy yr Ysgrythyrau, mewn dadl tros dri diwrnod, ac heb gael eu hargyhoeddi, iddynt gael eu llosgi gan y bobl.

Cododd brawdoliaeth apostolaidd arall yn Parma, yn Italy, yn y drydedd ganrif ar ddeg—sefydlydd pa un oedd Gerhard Sagarelli, ganedig o Alzano, yn nhalaeth Parma. Wedi bod yn dilyn rhyw gelfyddyd yn Parma am beth amser, teimlodd awydd i ddilyn yr hyn a dybiai yn esampl apostolaidd, mewn ymwrthod â phethau daiarol. Cynnygiodd ei hun i gyfundeb urdd Francis, ond gwrthodwyd ef. Yn y flwyddyn 1260, gwisgodd ei hun mewn dillad addas, yn ol ei dyb ef, i ddilynwyr yr apostolion, ac aeth allan gan bregethu edifeirwch, gan hòni ei fod wedi ei anfon gan Dduw; ac ymunodd rhif fawr âg ef yn fuan. Parhaodd yn ei ymdrechion am amser heb gael nemawr o rwystrau. Haerai na ddylai Cristionogion ddal meddiannau bydol, ond byw fel y gallont o'r llaw i'r genau. Crwydrai ef a'i ganlynwyr yn droednoeth, gan gardota eu bara. Gwrthwynebent lygredd yr eglwys a'r offeiriadaeth, a haerent fod y pethau hyn i roddi lle i'w cyfundrefn hwy. Cyhoeddodd y pab Honorius y pedwerydd *bull* yn eu herbyn yn y flwyddyn 1286, a Nicholas y Pedwerydd un arall yn 1290. Ond ni roddodd hyn derfyn ar eu gweithrediadau, ond arweiniodd hwy i fod yn fwy gwrthwynebol i Babyddiaeth. Cyhuddent Eglwys Rhufain o fod yn ddaiarol a llygredig, a haerent mai hon oedd Babilon y Datguddiad. Wedi hyn erlidiwyd hwynt fel gelynion yr eglwys, ac fel hereticiaid. Bu amryw o honynt farw wrth stanciau, a thaflwyd Gerhard ei hun i garchar yn y flwyddyn 1294, ac yn 1300 rhoddwyd ef i farwolaeth.

Ond er colli y sylfaenydd, ni roddodd hyn derfyn ar y blaid. Daeth Dolcino yn flaenor yn ei le—dyn a dra ragorai ar Gerhard mewn meddwl, dysg, a dawn. Mab ydoedd i offeiriad mewn pentref yn esgobaeth Novara. Dechreuodd ar ei waith fel diwygiwr yn nhiriogaethau y Tyrol, gan wrthwynebu llygredd yr offeiriaid, a chyrchu at sefydlu cyfundeb o bersonau a ymwrthodent â'r byd, gan foddloni byw mewn tlodi. Wedi ei yru yn fuan oddi yma gan erlidigaeth, sefydlodd yn maes llafur Gerhard Sagarelli; unodd â'i blaid ef, a daeth yn flaenor arni. Ond yr oedd llygaid y chwilys arno yma, a thaflwyd ef i garchar deirgwaith; ond llwyddodd i ennill ei ryddid trwy dwyllo y barnwyr. Wedi hyny, symudodd i Dalmatia, lle y cafodd fwy o lonyddwch. Oddi yma anfonodd dri o gylchlythyrau at y brodyr apostolaidd oedd ar wasgar drwy y gwahanol wledydd. Yn y rhai hyn, honai ei anfoniad dwyfol; cyhoeddai y farn oedd i ddisgyn ar yr eglwys lygredig, a daliai fod y bywyd apostolaidd i gael ei adfer yn eu cyfundeb hwy. Daliai fod y cyfundeb hwn, yr hwn a unid â'u gilydd, nid trwy adduned allanol o ufudd-dod, ond trwy rwymau cariad, wedi ei ddewis a'i ddanfon gan Dduw yn oes ddiweddaf y byd er iachawdwriaeth eneidiau; fod eu holl erlidwyr, a holl esgobion yr eglwys, i ddyfod i derfyniad buan; a'u bod hwy, yr Apostoligion, i gael yr uchafiaeth. Yn y flwyddyn 1304, symudodd Dolcino o Dalmatia i Novara, ei wlad ei hun, ac ennillodd lawer o ganlynwyr. Ond yma cododd ymosodiad arno, a gorfu arno ffoi i fynydd anhygyrch, â dwy fil o'i ganlynwyr gydag ef, lle y buont fyw trwy ysbeilio y gwledydd cymmydogaethol. Yma, yn groes i'w daliadau, gorfu iddynt gymmeryd arfau i'w hamddiffyn eu hunain; o blegid cyhoeddwyd rhyfel yn eu herbyn yn y flwyddyn 1305; ac wedi gwrthsefyll hwn yn fuddugol am ddwy flynedd, gorchfygwyd hwy gan filwyr yr esgob Raynerius; ac yn mhlith y carcharorion a gymmerwyd yr oedd Dolcino ei hun, yr hwn a ddyoddefodd ei losgi gyda gwroldeb mawr. Ni roddodd hyn derfyn ar yr Apostoligion er hyny, canys mor ddiweddar a'r flwyddyn 1368 yr oedd llawer o honynt yn Lombardy ac yn neheubarth Ffrainc. Prif amcan yr Apostoligion, fel y nodwyd mewn rhan, oedd gwrthwynebu llygredd yr offeiriaid, a honiadau y pab; a dalient y dylai Cristionogion lwyrymwrthod â'r byd. Cariai Dolcino yr egwyddor hon mor bell ag i haeru fod priodas yn anghyfreithlawn, ac yn brawf o ddaiaroldeb; a dywedai hefyd y dylai Cristionogion fyw gyda'u gilydd fel brodyr a chwiorydd ysbrydol, a bod uwch law i'r cnawd yn mhob peth. Rhanent gyflwr yr eglwys i bedwar cyfnod:—y cyntaf, y cyfnod apostolaidd, pan oedd yr eglwys yn bur a sanctaidd; yr ail, o amser Cystenyn yn mlaen, pan oedd yr eglwys yn anrhydeddus a chyfoethog, ond yn parhau mewn cyfiawnder; y trydydd, yr eglwys yn eu hamser hwy, pan oedd yn gyfoethog, ac yn cael ei hanrhydeddu, ond yr un pryd yn wrthgiliedig oddi wrth Dduw, ac yn llawn o gybydd-dod, godineb, a balchder; y pedwerydd, yr hwn a gyfatebai i'r cyntaf, ac a gynnwysai gyflawn adferiad o ystâd pethau, fel yr oedd yn amser yr apostolion, yr hwn adferiad oedd eisoes wedi ei ddechreu ganddynt hwy —(*Limborch's Hist. of the Inquis.; Dr. Alix's Remarks upon the Ancient Church of Piedmont; Neander's Church Hist.; Buck's Theol. Dic.*)

**APOSTOOLIAID**: dilynwyr un Samuel Apostool, gweinidog enwog gyda'r Memnoniaid, yn Amsterdam, yn yr ail ganrif ar bymtheg. Ymddengys eu bod yn Galviniaid a Milflwyddiaid o ran eu syniadau, ac yn dra manwl yn eu dysgyblaeth. Gwel GALENIAID; MEMNONIAID.—(*Mosh. Eccles. Hist.*)

**APOTACTIAID**, [*Apotactitæ*]: plaid a ymddangosodd yn yr ail ganrif, yn fwyaf neillduol yn Cilicia a Pamphylia. Yr hynodrwydd mwyaf a berthynai iddynt oedd, eu bod yn fanwl yn dilyn arferion y Cristionogion yn oes yr apostolion, yn enwedig trwy ymwrthod â galwedigaethau bydol, a bod ganddynt bob peth yn gyffredin.—(*Encyc. Brit.*)

**APOTHECARI—ESAU—AID**, [רֹקֵחַ, *cymmysgwr*]: cyffeithydd, neu gyfferiwr, un yn cymmysgu peraroglau neu gyfferi meddygol: *Ecsod.* xxx, 25, 35; xxxvii. 29; 1 *Sam.* viii. 13; 2 *Cron.* xvi. 14; *Neh.* iii. 8; *Preg.* x. 1.

**APPII FORUM**, [Gr., Ἀππίου Φόρον]; *Act.* xxviii. 15. Mae enw y lle hwn yn arwyddo ei fod yn dref marchnad—Appii forum, neu Farchnad Appius. Yr oedd yn sefyll ar y ffordd fawr ag oedd wedi ei phalmantu gan Appius Claudius o Campania i Rufain; ac yr oedd tua deuddeng milltir a deugain o Rufain, a thua deng milltir o'r Tair Tafarn—tref arall a orweddai rhwng Appii forum a'r brif ddinas.

Pan ddygwyd yr apostol Paul yn garcharor i Rufain, daeth amryw o'r brodyr i'w gyfarfod. Arosodd rhai o honynt yn y Tair Tafarn; ond daeth ereill yn y blaen, nes cyfarfod â'r apostol yn Appii forum. Mae gweddillion yr hen dref yn cael eu dangos yn awr i'r teithwyr ar lan

Digitized by Google

Morfa Pontine; ond enw presennol y lle yw Casarillo di Santa Maria.

APPHIA, ['Απφία, *a fyddo yn cynnyrchu*, neu *yn ffrwythlawn*]: enw benywaidd Rhufeinig: *Phil.* 2: a thybiai Chrysostom a Theodoret, mai gwraig Philemon ydoedd hi: ereill a dybient ei bod yn un o'i deulu, ac yn chwaer neu ryw berthynas iddo. Yr oedd yn hynod o ran ei chrefydd, gan fod yr apostol yn cyfeirio ei lythyr ati hi, ac Archippus, yn nghyd â Philemon.

APPWYNTIAD EGLWYSIG. Gwel BYWOLIAETH EGLWYSIG.

APPWYNTIO, [*appoint*]: penodi, gosod, trefnu. "Nid *appwyntiodd* Duw ni i ddigofaint;" 1 *Thes.* v. 9. "Ni *ddarparodd* Duw ni;" *Dr. M.* Amcan yr apostol yw dangos, gan mai eu hiachawdwriaeth, ac nid eu colledigaeth, a ordeiniwyd gan Dduw, y dylasai hyny fod yn gymhelliad i'r Thessaloniaid fod yn effro, yn wyliadwrus, yn sobr, ac ymarfer â phob moddion i gyrhaedd hyny.

APHARSATHCHIAID, neu APHARSACHIAID: enw y genedl i'r hon y perthynai un ran o'r trefedigwyr a gyfleodd brenin Assyria, yn Samaria: *Ezra* iv. 9; a v. 6. Bu y rhai hyn yn wrthwynebwyr pybyr i'r Israeliaid i adeiladu y ddinas Ierusalem, ar eu dychweliad i'w gwlad.

APHEC, [אפק; Deg a Thrigain, 'Αφὲκ]: enw yn dynodi *nerth*—ac am hyny ei rhoddid ar amddiffynfeydd, neu ddinasoedd caerog. Yr oedd tair o ddinasoedd, o leiaf yn cael eu galw felly.

1. APHEC: dinas yn llwyth Aser: *Ios.* xiii. 4; a xix. 30: ac a elwir *Aphic*, yn *Barn.* i. 31; lle hefyd ein hysbysir fod y llwyth yn analluog i'w meddiannu. Y mae yn rhaid fod hon yr un ag *Aphaca*, yr hon a ddarlunir gan Eusebius a Sozomen, yn gorwedd yn Libanus, ar lan yr afon Adonis, lle yr oedd teml enwog i Gwener. Y mae pentref eto o'r enw Afka, yn ngwaelod un o ddyffrynoedd Libanus; ac efallai ei fod yn nodi gorsaf yr hen Aphec hon.

2. APHEC: tref, ger llaw yr hon y gorchfygwyd Benhadad, gan yr Israeliaid: 1 *Bren.* xx. 26—30: yr hon, dybygid, oedd yr un a'r Aphaca a ddarluniai Eusebius, yn gorwedd ar y tu dwyreiniol i Fôr Galilea; a'r hon a grybwyllir gan Burckhardt, Seetzen, ac ereill, dan yr enw Feik.

3. APHEC: dinas yn llwyth Issachar, heb fod yn mhell o Iezreel, lle y gwersyllai y Philistiaid ar ddau achlysur, cyn brwydro â'r Israeliaid: 1 *Sam.* iv. 1; a xxix. 1; cymharer xxviii. 4. Y mae yn debyg mai hon oedd yr Aphec a grybwyllir yn *Ios.* xii. 18, fel un o ddinasoedd breninol y Canaaneaid.

APHEREMAH, ['Αφαίρεμα]: un o'r tair talaeth a chwanegwyd at Iudea, gan freninoedd Syria: 1 *Mac.* xi. 34. Ef allai mai dyma yr Ephraim a grybwyllir yn *Ioan* xi. 54.

APHETOR, [*αφήτωρ=saethwr, picellydd*]: enw ar Apollo, fel duw y bwa: o *αφίμι, saethu*=Apollo y saethydd. Gwel APOLLO.

APHIC: un o'r dinasoedd yn nhiriogaeth Aser, o'r rhai y methodd y llwyth a gyru y Cananeaid: *Barn.* i. 31.

APHRAH, [עפרה, sef *llwch*, ymyl y ddalen: *Micah* i. 10]: dinas yn Beniamin; yr un, y mae yn debygol, ag *Ophrah*: *Ios.* xviii. 23. "Tŷ Aphrah," efallai, oedd deml eilun.

APHRODITE, [*αφροδίτη*, o *αφρός=ewyn, burym*]: enw Groegaidd ar (Venus) Gwener y Rhufeiniaid, duwies cariad a phrydferthwch. Darlunir hi yn *Iliad* Homer fel merch (Seus) Iau a Dioni (benyw Titanaidd, *Titan Female*); ond dywed prydyddion diweddarach yn fynych iddi hanu o ewyn y môr, yr hyn a arwydda ei henw. Yr oedd yn wraig i Hephæstus (Vulcan), ond ymddygodd yn anffyddlawn i'w gŵr, a syrthiodd mewn cariad âg Ares (Mawrth), duw y rhyfel. Hefyd, yr oedd yn caru y duwiau Dionysius (Bacchus), Hermes (Mercher), a Poseidon (Nefydd), yn nghyd â'r marwolion Anchises ac Adonis. Yr oedd yn brydferthach na'r holl dduwiesau ereill; am hyny, cafodd wobr prydferthwch gan Paris. Yr oedd ganddi allu hefyd i roddi prydferthwch a rhiniau anorchfygol i ereill; a phwy bynag a wisgai ei gwregys cyfrinol, yr oedd yn sier o ddyfod yn wrthddrych cariad a dymuniad yn ddioed. Y llysiau cyssegredig iddi oedd y myrtwydd, y rhosyn, yr afal, y pabi, &c. Yr ehediaid cyssegredig iddi, y rhai a grybwyllir yn fynych fel yn tynu ei cherbyd, neu yn gwasanaethu fel ei herodron, oedd aderyn y tô, y golomen, yr alarch, y wenfol, a'r aderyn a elwir *iynx*. Darlunir hi yn gyffredin mewn cerfluniau, gyda'i mab Eros (Cupid).

Prif leoedd ei haddoliad, yn nhir Groeg, oedd ynysoedd Cyprus a Cythera. Yr oedd ei haddoliad o darddiad dwyreiniol; ac y mae yn debyg mai y Phœniciaid a'i dygodd i ynysoedd Cyprus a Cythera, o'r lle yr ymdaenodd iros holl dir Groeg. Ymddengys mai yr un, yn wreiddiol, ydoedd ag Astarte, a elwid gan yr Hebreaid Astoreth. Gwel ASTORETH; GWENER.—*Schrevelius; Wright; Smith; Lempriere.*)

AR, [ער; Gr. ῎Ηρ]: prif ddinas y Moabiaid (*Num.* xxi. 28; *Deut.* ii. 9, 18, 29), yn agos i'r afon Arnon (*Deut.* ii. 18, 24; *Num.* xxi. 13—15). Gelwid hi hefyd Rabbath, neu Rabbath-Moab, er ei gwahaniaethu oddi wrth ddinas o'r un enw yn nhir yr Ammoniaid: a geilw y prophwyd Esaiah (*pen.* xvi. 7, 11) hi, Cir-hareseth a Cirhares, ystyr yr hyn yw, *dinas â muriau o briddfeini llosgedig;* yr hyn a ddengys fod muriau dinasoedd yn y wlad hono yn cael eu hadeiladu yn y dyddiau gynt, fel yn bresennol, o briddfeini wedi eu sychu yn yr haul. Yn amser Eusebius, gelwid hi gan y Groegiaid, Areopolis; gan Ptolemy, Rabmathon; gan Steph. Byzantinus, Rabathmoma; a chan Abulfeda, Rabbath, a Mab. Y mae yn debyg iddi gael ei llosgi gan Sehon, brenin yr Ammoriaid (*Num.* xxi. 28); ac y mae Esaiah (*pen.* xv. 1), wrth ddarlunio adfyd dyfodol y Moabiaid, yn dyweyd, "O herwydd y nos y dinystriwyd Ar, yn nhir Moab, ac a dystawyd hi." Dywed Ierome iddi gael ei dinystrio gan ddaiargryn yn y nos, tua diwedd y drydedd ganrif o'r cyfnod Cristionogol, a thybia fod hyny yn gyflawniad o eiriau Esaiah, a welir uchod; er, o bosibl, mai at ryw amgylchiad arall, o ddyddiau boreuach, y cyfeiria y prophwyd. Saif ei hadfeilion ar fryn isel, oddi ar gopa pa un ceir golwg eang ar hen dir Moab, tua dwy filltir ar bymtheg i'r dwyrain o'r Môr Marw, a chymmaint a hyny i'r gogledd o Kerek. Tua milltir o gwmpas yw yr adfeilion: ac nid oes yn eu mysg ddim o bwys, oddigerth adfeilion

teml neu balas, porth adeilad arall, dwy golofn Gorinthaidd, dwy ddyfrgist, ac allor. Dywed Burckhardt fod muriau y prif adeilad wedi eu hadeiladu o feini pum troedfedd o hyd, a dwy o led. Nid oes un ffynnon yn y lle, ac ymddengys fod y ddinas yn cael ei diwallu â dwfr a dynid i ddau lyn ger llaw. Y mae Irby a Mangles yn siarad yn somedig am adfeilion hen ddinas Moab, wrth eu gweled yn cael eu cynnwys mewn mor lleied o le; ond dylid cofio nas gellir cael gafael yn maintiolaeth dinas sydd yn garnedd er ys cynnifer o oesoedd, heb gloddio, fel y gwnaeth Layard yn Ninefeh. Oddi wrth *Deut.* ii. 9, deallwn fod holl dir Moab yn myned dan yr enw *Ar* ar amserau. Gwel MOAB; MOABIAID —*(Irby and Mangles' Letters; Burckhardt, Seetzen, Legh, and Macmichael's Travels.)*

AR, ARDDU, ARDDWR, [Llad. *aro;* Gr. *αροω*]. Tir âr yw tir arddadwy, tir llafur *(arable land)*, a elwir felly mewn gwrthgyferbyniad i dir porfa.

Hysbysa Joseph i'r Aiphtiaid yn nghylch blynyddoedd y newyn, y byddent heb âr na medi; *h. y.*, heb dymmor hau na chynauaf; *Gen.* xlv. 6. Gorchymynid i'r Israeliaid orphwys ar y Sabbath yn amser aredig, ac yn y cynauaf. Nid oeddynt i esgeuluso addoliad Duw hyd yn oed yn yr amser prysuraf ar y flwyddyn: *Exod.* xxxiv. 21.

Y mae Lemuel, wedi ei hyfforddi gan Dduw, yn dadgan i'r bobl pa bethau oeddynt i'w dysgwyl oddi wrth y brenin a chwennychent, ac yn eu hysbysu y byddai iddo gymmeryd eu meibion "i aredig ei âr, ac i fedi ei gynauaf;" 1 *Sam.* viii. 12.

Arddangosir dyoddefiadau yr eglwys oddi wrth ei gelynion drwy y gymhariaeth o aredig y cefn. "Yr arddwyr a arddasant ar fy nghefn;" *Salm* cxxix. 3. Gwel AREDIG; AMAETHYDDIAETH.

ARABAH, [ערבה; Gr. Ἄραβα]: gair Hebraeg, yn dynodi *rhos*, neu *wastattir anial*. Yn yr iaith Hebreig, ymddengys fod y bannod yn cael ei gyssylltu âg ef yn fwriadol (הערבה, *ha*-Arabah—*yn* Arabah), er dynodi y gwastadedd anial o'r Môr Marw i Forgainc Elath, braich ddwyreiniol y Môr Coch, a elwir yn awr Morgainc Akaba. Y mae y proffeswr Robinson wedi profi i foddlonrwydd, allan o Gesenius, fod yr Hebreaid yn cymhwyso y gair hefyd at ddyffryn yr Iorddonen, fel y gwelir yn yr adnodau canlynol: *Ios.* iii. 16, lle y mae Môr *y rhos*, Môr *yr Arabah* ydyw yr iaith wreiddiol. *Ios.* xii. 3; *Deut.* iv. 49; *Ios.* v. 10; —*Arabah* yw *gwastadedd* yn yr adnodau hyn; yr hyn a brawf fod yr Hebreaid yn rhoddi yr enw *Arabah* i'r holl wastadedd o Lyn Tiberias hyd Forgainc Akaba. Modd bynag, y mae yr enw yn cael ei gyfyngu yn bresennol i'r anialdir o'r Môr Marw i Fôr Elath.

ARABIA, ARABIAID, ARABAEG. Hen wlad enwog, a'r orynys fwyaf yn y byd, ar derfyn de-orllewinol Asia, rhwng 12° 45′ a 34½° lledred gogleddol, a 32½° a 60° hydred dwyreiniol o Greenwich. Terfynir hi ar y gorllewin gan gyfyngdir Suez a'r Môr Coch, yr hwn a'i rhana oddi wrth Affrica; ar y de, gan gulfor Babel-Mandeb *(h. y., porth y dagrau*, a alwyd felly am fod cynnifer o longddrylliadau yno yn yr amser gynt), a'r Môr Indiaidd; ar y dwyrain, gan Forgainc Persia, a'r afon Euphrates; ac ar y gogledd, gan ran o'r Euphrates, a Syria. Pa fodd bynag, nid yw ei therfynau gogleddol wedi eu nodi allan gydag un math o gywirdeb gan ddaiaryddwyr, hen na diweddar. Mesura yn nghylch 1,400 o filltiroedd daiaryddol yn ei hyd mwyaf; ac yn ei lled mwyaf, o benrhyn Ras-el-Hud, i borthladd Jidda, yn nghylch 1,150 o filltiroedd; ond ei lled cyfartal yw o chwech i naw can milltir. Y mae o ran ei harddull yn debyg i driongl, yr hwn sydd bedwar cymmaint a Ffrainc; neu, yn ol Templeman, yn cynnwys 1,182,000 o filltiroedd petryal—tra y dywed Richard, a Weiland, mai 1,005,727 a gynnwysa.

Nid oes un wlad, oddigerth Palestina, â chymmaint o ddyddordeb a chyssegredigrwydd yn gysylltiedig â'i hanes ag Arabia. Yn y wlad hon y bu y patriarch Iob fyw; yma y gwelodd Moses y berth yn llosgi, ac heb ei difa; yma y cafodd Elias loches mewn ogof, rhag llid a chynddaredd Iezebel; yma y dangosodd Duw allu ei fraich mewn gwyrthiau o drugaredd tuag at yr Hebreaid; ac yma y dangosodd Iehofah ei hun mewn gogoniant gweledig i'w bobl. Oddi wrth hyn, yn nghyd âg agosrwydd y wlad i Palestina, a pherthynas trigolion y rhanbarthau gogleddol â'r Iuddewon, mewn gwaed, moesau, ac arferion, ymddengys fod Arabia yn meddu ar y dyddordeb mwyaf i'r efrydydd Beiblaidd. Pan y chwanegom at hyn, fod beirdd a phrophwydi ysbrydoledig y Beibl wedi benthyca rhai o'u ffugrau a'u darluniadau mwyaf tarawiadol ac ysblenydd o'r wlad hon, fe welir yn eglur y pwys o fod yn gyfarwydd â daiaryddiaeth y wlad, ei hanesiaeth naturiol, a moesau a defodau ei thrigolion, mewn trefn i ddeall yr Hen Destament. Y mae cyfeiriadau aml yn yr Hen Destament at bebyll Edom, defaid Cedar, hyrddod Nebaioth, peraroglau Seba, ac aur Ophir (*Salm* lxxii. 10, 15; *Esa.* lx. 6; *Ier.* vi. 20; *Can.* i. 5; *Esa.* xiii. 20). Gan hyny, y mae yr hyn a ddywed y dysgedig Michaelis, yn teilyngu sylw:—"Mewn trefn," medd efe, "i ddeall ysgrifeniadau yr Hen Dastament, y mae yn anhebgorol angenrheidiol i fod yn gyfarwydd â hanesiaeth naturiol, yn gystal ag â defodau y dwyrain." A chadarnha Burckhardt yr un golygiad, yr hwn a ddywed yn arbenig am Arabia, ei fod "yn annichonadwy deall hanesydd (Moses) cyssegredig plant Israel, heb fod yn hollol gyfarwydd â phob peth perthynol i'r Arabiaid Bedouinaidd (bugeiliaid crwydrol), yn gystal ag â'r gwledydd y corlanant ynddynt."

Y mae y geirdarddwyr yn amrywio yn eu barn am ystyr y gair *Arab;* ac ni all daiaryddwyr ddywedyd pa bryd y cafodd yr enw *Arabia* ei roddi i'r holl wlad a adnabyddir yn bresennol wrth yr enw hwn. Y mae Pococke wedi mabwysiadu tyb yr ysgrifenwyr dwyreiniol—fod y wlad wedi cael ei henw oddi wrth *Araba*, yn Yemen, a sylfaenwyd gan, ac a alwyd ar enw, Yarab, mab Ioctan; ond y mae bodolaeth y fath ddynsawd yn ammheus, ond yn nhraddodiadau y brodorion. Tybia Hezel, a Bellermann, ei fod yn deilliaw trwy drawsosod y llythyrenau yn enw Heber. Y mae ereill yn olrhain tarddiad y gair i'r ferf Hebreig, ערב (*Arab*)="machlud," neu "fyned i lawr" (fel yr haul). Yn ol y tarddiad hwn, dynoda y gair *Arab*, yr hwn a gyfarfyddir mor fore ag amser Solomon, "gwlad machlud haul"—*h. y.*, ar y gorllewin i'r Euphrates; a'r parthau cyntaf, y mae yn debyg, a boblogwyd gan y llwythau Semitig. A dywedir, gan ei bod yn arferiad gan yr Hebreaid, er yn fore, i alw y gwledydd a orweddant ar y dwyrain i wlad Canaan, yn קדם (*Kedem*)—"y dwyrain;" ei bod yn hollol naturiol i'r llwythau Semitig, ar y dwyrain i'r Euphrates, i alw y wlad yn *Arab*, yn

Digitized by Google

yna, y mae anialdir tywodlyd yn rhedeg bron yn groes o fôr hyd fôr. Ar y de i'r anialdir hwn, y mae mynyddoedd priodol yr orynys yn dechreu, ac yn codi yn raddol, nes y mae copa St. Catherine yn cyrhaedd 8,168 o droedfeddi o uchder. Y mae y dwfr yma yn rhedeg yn ddwyreiniol i Fôrgainc Akaba, ac yn orllewinol i Fôrgainc Suez.

Wrth ystyried y canrifoedd sydd wedi myned heibio er pan y bu llwythau Israel yn teithio trwy y rhanbarth hwn tua Gwlad yr Addewid, ni ddylid rhyfeddu at yr anhawsdra o nodi allan y lleoedd y buont yn gwersyllu ynddynt. Ac yn yr ystod hirfaith hwn o amser, y mae y gwynt, y gwres, a'r gwlaw, heb son dim am alluoedd cryfach, wedi cyfnewid wyneb y wlad yn hollol —i gymmaint graddau felly, fel y byddai yn orchwyl caled, o bosibl, i Moses ei hunan, pe deuai yn ol, i brofi mai yr un yw y wlad, a nodi allan *y manau* y bu yn gwersyllu ynddynt. Wrth edrych am y fan y croeswyd y Môr Coch, y mae dau neu dri o leoedd yn ymryson am y flaenoriaeth, a llawer i'w ddywedyd dros bob un o honynt; ond y mae traddodiad y wlad yn ei osod ar gyfer y lle a elwir Ayoun Mousa (*h.y.*, Ffynnonau Moses), lle y cafodd Robinson saith o ffynnonau; ond nid oedd rhai o honynt yn ddim amgen na phyllau bychain yn y tywod. Yn nghylch 33 o filltiroedd daiaryddol i'r de o'r fan hon, y mae ffynnon Choew Hawarah (Marah y Beibl, fel y tybir). Wedi teithio tua thair awr yn rhagor, deuir i Wady Ghurundel, yr hwn, meddir, yw Elim y Beibl. Yna y mae y gwastadedd El-kaa yn dyfod i mewn, a dywedir mai efe yw Sin, neu Etham, plant Israel. O hwn, eir rhwng mynyddoedd Sinai, trwy ddyffryn Feiran, a dyffryn yr Esh-Sheikh, a chaiff y teithwyr olwg ar Fynydd Sinai; ac wedi edrych ar y gwahanol gribynau uchel o'i amgylch, caiff benderfynu rhyngddo ag ef ei hun oddi ar ba un y rhoddodd Iehofah y ddeddf i Moses. [Gwel Sinai.]

Anialwch diffrwyth ac anghyfanneddol yw rhanbarth gogleddol Arabia Petræa, yn mron, bob darn o honi; ac nid yw yr orynys Sinaiaidd fawr gwell. Yn y parth olaf, y mae rhai coed, a rhai llysiau yn tyfu; ac yn eu mysg, y balmwydden, yr acacia, a'r tamarisk, o ba un y ceir y cyffeiri meddygol a elwir *manna*. Yn mysg yr anifeiliaid, saif yr afr fynyddig (*beden*), yn y rhes flaenaf. Ceir yno hefyd lewpardiaid, epaod, asynod, ac ambell gamel. Yn mysg yr adar, ceir eryrod, soflieir, durturod, colomenod, &c. Y mae yno seirff, fel yn amser Moses (*Num.* xxi. 4, 6), a rhai o honynt yn dra gwenwynig; a sonia teithwyr am lysard fawr, a elwir *dhob*, fel yn gyffredin yn yr anialwch, ond cyfarfyddir â hi yn fynych iawn yn yr orynynys. Bernir fod tua 4,000 o Arabiaid crwydrol yn yr orynys.

2. Arabia Deserta [a elwid gan y Groegiaid, Σκηνῖτις Ἀραβία=*Arabia Babellawg;* neu Ἔρημος Ἀραβία=*Arabia Anial;* a chan yr Arabiaid, *El-Badiah=yr Anialwch*]. Cylchynir hi ar y de gan Arabia Felix; ar y dwyrain, gan Caldea a Babilonia; ar y gogledd-ddwyrain, gan yr Euphrates, yr hwn a'i rhana oddi wrth Mesopotamia; ar y gogledd-orllewin, gan Syria; ac ar y gorllewin, gan Palestina, ac Arabia Petræa. Rhana yr Arabiaid yr anialwch mawr hwn i dair rhan, sef Anialwch Syria (*Badiah-esh-Sham*): anialwch yr orynys; *h.y.*, Arabia Petræa (*Badiah-el-Ieshirah*): ac Anialwch Babilonia (*Badiah-el-Irak*); a alwyd felly, am eu bod yn agos i'r gwledydd a enwir. Oddi wrth y gair *Badiah* (anialwch), y deilliodd enw y llwythau crwydrol a'i cyfanneddant, sef y *Bedawees*, a ysgrifenir gan y Seison, *Bedouins*, yr hwn sydd lygriad Ffrengeig o'r enw *Bedawees* (Bedouiniaid). Pa fodd bynag, nid yw y Bedouiniaid yn gyfyngedig i'r parth hwn yn unig; ond y maent, fwy neu lai, yn wasgaredig dros yr holl wlad. Ychydig yw nifer y teithwyr a ymwelasant â'r parth hwn hyd yn hyn; o ganlyniad, y mae ein gwybodaeth am dani yn fach; ond mor bell ag y cyrhaedda, ymddengys mai anialdir uchel, sych, a diffrwyth ydyw, yn cael ei fritho yma a thraw gan gadwyni o fynyddoedd a bryniau creigiog a noethlwm. Tywod a halen ydynt y prif elfenau yn nghyfansoddiad y tir, yr hwn sydd yn hollol ddiffrwyth mewn llawer o fanau; ac mewn manau ereill, yn cynnyrchu drain a brysglwyni byrion, neu lysiau halenawg.

Y mae yr awyr yma, gan mwyaf, yn ddigwmmwl; ond cymmedrolir gwres llosgedig yr haul gan wyntoedd cryfion ac oerion, y rhai a godant ystormydd dychrynllyd o lwch a thywod, yr hyn sydd yn angeu i ddyn ac anifail lawer pryd. Yma hefyd, yn gystal ag mewn manau ereill yn y dwyrain, y cyfarfyddir â'r gwynt de-ddwyreiniol, yr hwn sydd yn hynod o losgedig a myglyd, ac a elwir gan y brodorion, *El-Hharur* (y poeth); ond yn fwy cyffredin, *Samum;* a chan y Tyrciaid, *Samyeli*—dau air yn dynodi "gwenwynig." Effeithiau hwn ydynt mygu; ac y mae y corff yn braenu yn uniongyrchol. Y mae hwn yn cael ei ganlyn weithiau gan wynt trymaidd a llaith o'r môr, yr hwn hefyd sydd yn dra dinystriol i bob math o fywyd; ond ymddengys fod effeithiau dinystriol y naill a'r llall wedi eu darlunio gan deithwyr yn fwy nag ydynt mewn gwirionedd. Y mae yn debyg mai y blaenaf ydoedd "gwynt y dwyrain" (*sirocco*, o *sharakiyum*—y dwyrain), a "gwynt yr anialwch," a nodir yn y Beibl. Peth hynod arall a welir yma ydyw, yr hyn a elwir *mirage;* sef ymddangosiad twyllodrus o ddyfroedd, yn cael ei achosi gan y tawch rhithdonog (tebyg i dês), a achosir gan wres mawr yr haul. Y mae yr ymddangosiad twyllodrus hwn yn beth tra chyffredin mewn gwledydd ereill hefyd, ond y mae yn debyg mai yn Arabia y mae berffeithiaf. Gelwir ef *serab* yn yr Arabaeg, ac nid oes ammheuaeth nad yr un ydyw a'r *sarab* Hebreig, yn *Esa.* xxxv. 7, a gyfieithir "crasdir."

Prif ddinas Arabia Deserta ydoedd Thapsacus, a elwir yn awr El-Der, yr hon sydd yn hynod mewn hanesiaeth henafol, am i fyddinoedd Cyrus nofio yr Euphrates ar ei chyfer, pan yn myned yn erbyn ei frawd Artaxerxes; a dyma y lle yr oedd y bont a groeswyd gan Darius, pan yn ffoi o flaen Alexander Fawr, ar ol brwydr Issus.

3. Arabia Felix [Gr. Ἀραβία ἡ Εὐδαίμων =*h.y., Arabia Ddedwydd*], a gylchynir ar y gorllewin, gan y Môr Coch; ar y de, gan y Môr Indiaidd; ar y dwyrain, gan fôrgeinciau Oman a Persia; ac ar y gogledd, gan y parthau a nodwyd yn barod. Cynnwysa hon y rhan fwyaf o'r wlad a adnabyddir genym ni wrth yr enw Arabia; ond y mae, fel Arabia Deserta, yn dra anadnabyddus i Ewropiaid. Tybir iddi gael yr enw "Felix," oddi wrth ei chynnyrchion mwnawl, a'i ffrwythlondeb boreuol. Yn ol rhai, yr oedd ynddi y fath gyflawnder o aur, fel y gwneid esmwythfeinciau a dodrefn ereill o hono, heb son dim am lestri ac addurniadau. Ac yn ol Strabo, rhoddid ei bwysau ddwywaith am haiarn, ei bwysau deirgwaith am bres, a'i bwysau ddengwaith am arian; ond y mae Niebuhr yn

Digitized by Google

canys nid yw y pethau a elwir yn afonydd ond ffrydiau achlysurol yn rhedeg o'r mynyddoedd ar y tymmorau gwlawog, ac yn sychu mor gynted ag yr ä y gwlaw heibio. Y mae hyn yn rhoddi rheswm am y cynhenau aml y darllenwn am danynt yn y Beibl yn achos pydewau yn mysg gweision y patriarchiaid, yn gystal a'r defnydd ffugrol a wneir o ddyfroedd gan y prophwydi. Ac nid darluniad annheg a roddodd Ieremïah o'i hanialdiroedd, pan ddywedodd, "Tir diffaith, a phyllau; tir sychder a chysgod angeu; tir nid aeth gŵr trwyddo, ac ni thrigodd dyn ynddo;" *Ier.* ii. 6.

Y mae yn debyg fod Arabia wedi ei phoblogi mor fore ag amser Noah, a bod yr Arabiaid presennol yn olafiaid i'r llwythau cyssefin; yn y rhai y gwelir arlun lled gywir o ddefodau oes y patriarchiaid, y rhai a fuont yn pabellu yn Arabia a'r gwledydd cylchynol. Gan hyny, y mae o bwys, fel y nodasom yn barod, i ni ddeall defodau, moesau, ac arferion yr Arabiaid, yn neillduol y Bedouiniaid; canys yn y pethau hyn, ac ynddynt yn unig, y cawn esboniad gweithredol ar lawer o bethau tra phwysig a gofnodir yn y Beibl. Yn nyddiau y patriarchiaid, gelwir trigolion rhanbarthau gogleddol Arabia, yn gystal a gwledydd mwy dwyreiniol, dan yr enw anmhenderfynol Beni-Kedem, "meibion y dwyrain"— hyny yw, dwyreinwyr. Ond nid oes un anghraifft yn y Beibl fod preswylwyr Arabia Ffelix yn cael eu galw wrth yr enw hwn; ond gelwid y rhai hyny, yn gystal a'r manau a breswylient, ar enwau y penau teuluoedd cyntaf a ymsefydlasant ynddynt. Ac fel hyn, bu y wlad yn myned dan wahanol enwau, yn ol y llwythau a'i preswyliai, am ganrifoedd lawer. Megys gwlad Edom, tir Moab, gwlad Us neu Hus, Ophir, Sheba, Hafilah, Hasermafeth, Cus, &c., y rhai y gellir eu gweled bob un yn Llyfr Genesis. Tybir yn gyffredin fod holl drigolion Arabia wedi hanu o Ismael; ond wrth ddarllen Genesis, cawn nad oes un cyssylltiad rhwng Ismael a thrigolion y deheubarth, canys gesyd *pen.* xvi. 12, a xxv. 18, ei drigle yn Kedem. Yn y gyntaf o'r adnodau uchod, dywedir, "Ac efe (Ismael) a drig ger bron ei holl frodyr;" yn ol yr Hebraeg, "Efe a drig o *flaen gwyneb* ei holl frodyr;" hyny yw, ar y dwyrain i blant ereill Abraham. Yn yr ail adnod, dywedir, "Yn ngŵydd ei holl frodyr y bu efe (Ismael) farw;" yn ol yr Hebraeg, "Syrthiodd coelbren ei etifeddiaeth iddo o *flaen gwyneb* (ar y dwyrain) ei holl frodyr." Yn ol yr eglurhad uchod, gwelir fod trigle Ismael ar y dwyrain i blant ereill Abraham, pa un bynag ai o Sarah neu Ceturah; a chan y gwyddom na bu neb o'r rhai hyny lawer yn is i'r deheu na Chanaan, yna nis gellir profi fod yr holl Arabiaid wedi hanu o Ismael—dim ond y llwythau gogleddol ar y goreu. Cynnygiwn y daflen ganlynol fel y ddangoseg oreu a ellir roddi o'r llwythau a ymsefydlasant gyntaf yn Arabia, a chan ba rai y mae yn cael ei phreswylio yn bresennol dan yr enw cyffredinol o Arabiaid.

I. Camitiaid, neu Cusiaid, hiliogaeth Cus, mab henaf Cham, ac ŵyr Noah; y rhai a ymsefydlasant yn neheubarth Arabia, ac a anfonasant drefedigaethau dros y Môr Coch i Affrica. Fel hyn, daeth Cus i fod yn enw cyffredin ar y deheu, yn neillduol Ethiopia yn Arabia, ac Ethiopia yn Abyssinia. Yn ol *Gen.* x. 7, meibion Cus oeddynt Seba, Hafilah, Sabtah, Raamah (ei feibion, Seba a Dedan), a Sabteca.

II. Semitiaid, oddi wrth Sem, mab Noah, yn cynnwys y rhai canlynol:—

1. *Ioctaniaid;* sef hiliogaeth Ioctan (a elwir gan yr Arabiaid, *Cachtan*), mab Heber, gorŵyr Sem (*Gen.* x. 25, 26). Yn ol traddodiad Arabaidd, ymsefydlodd Ioctan yn Yemen, wedi cymmysgiad yr ieithoedd yn Babel, a bu yn teyrnasu yno fel brenin am lawer o flynyddoedd. Y mae Ptolemy yn son am lwyth o Arabiaid a elwir *Catanitiaid,* y rhai, yn debyg, a gawsant eu galw felly oddi wrth *Cachtan.* Yr oedd gan Ioctan dri mab ar ddeg (*Gen.* x. 26—29). Eu henwau oeddynt, Almodad, Saleph, Hasarmafeth (sylfaenydd Hhadramaut), Ierah, Hadoram, Usal (yn ol yr Arabiaid, sylfaenydd Sanaa, yn Yemen), Diclah, Obal, Abimael, Seba (tad y Sabeaid, prif ddinas pa rai oedd Mariaba neu Mareb[1]), Ophir (a roddodd enw i wlad enwog am aur), Hafilah, a Iobab.

2. *Abrahamiaid,* a renid i (1.) *Hagariaid,* neu *Hagaritiaid,* oddi wrth Hagar, y fam; a elwir hefyd *Ismaeliaid,* oddi wrth Ismael, y mab: ac eto, mewn amser dyfodol, ymddengys fod yr enwau hyn yn cael eu rhoddi i lwythau gwahanol, o blegid yn *Salm* lxxxiii. 6, y mae yr Hagariaid yn cael eu gwahaniaethu yn benodol oddi wrth yr Ismaeliaid. Cymharer 1 *Cron.* v. 10, 19, 22; a *Bar.* iii. 23; *Iud.* ii. 23, yn yr Apocrypha. Deuddeg mab Ismael (*Gen.* xxv. 13—15), y rhai a roddasant enwau i wahanol lwythau, oeddynt Nebaioth (Nabatheaid Arabia Petræa), Cedar (tad y Cedareniaid, a ddefnyddir weithiau fel enw cyffredin ar y Bedouiniaid; ac oddi wrth hyn hefyd galwai y Rabbiniaid Iuddewig yr iaith Arabaeg, yn *Cedaraeg*), Adbeel, Mibsam, Mismah, Dumah, Massah, Hadar, Themah, Ietur (oddi wrth yr hwn y cafodd Iturea ei henw), Naphis (1 *Cron.* v. 19, 20), a Chedemah. (2.) *Ceturaitiaid.* Hiliogaeth Ceturah, gordderchwraig Abraham, o'r hon y cafodd chwe mab (*Gen.* xxv. 2); sef Zimran, Iocsan (yr hwn, fel Raamah, mab Cus, oedd yn dad i ddau fab a elwid Seba, a Dedan), Medan, Midian (tad y Midianiaid, y rhai a breswylient yn agos i'r Moabiaid; ond ymddengys fod cangen o honynt yn preswylio yn yr orynys Sinaaidd, canys yr oedd Iethro, tad yn nghyfraith Moses, yn offeiriad Midian: *Exod.* iii. 1; xviii. 1; *Num.* x, 29), Isbac, a Suah. Ymddengys fod Bildad, un o dri chyfaill Iob, wedi hanu o'r olaf. (3.) *Edomiaid.* Hiliogaeth Esau, mab Isaac, y rhai a breswylient Fynydd Seir; a'r wlad gylchynol, a alwyd oddi wrthynt Idumea. [Gwel Idumea.]

3. *Nachoriaid:* hiliogaeth i Nachor, brawd Abraham, y rhai, y mae yn debyg, a boblogasant wlad Us—a alwyd felly oddi wrth Hus, ei fab: a gwlad y Buziaid—a alwyd felly oddi wrth Buz, ei fab (*Gen.* xxii. 21—24).

4. *Lotiaid:* sef (1.) y *Moabiaid,* a breswylient yn ngogledd Arabia Petræa; a'r (2.) *Ammoniaid,* a breswylient ar y gogledd iddynt, yn Arabia Deserta.

Dyma y prif lwythau a boblogasant Arabia. Modd bynag, sonia y Beibl am lwythau ereill, na wyddys ddim am eu tarddiad, megys yr Horiaid, y Ceneaid, yr Amaleciaid, trigolion Maon, Hazor, Dedan, a Iafan-Musal (*Ezec.* xxvii. 19). Mewn amser, cymmysgodd rhai o'r llwythau hyn â'r boblogaeth gyffredin, a chafodd rhai o honynt

[1] Tybia rhai mai Balkis, brenines Seba, neu y Sabeaid, a ymwelodd â Solomon: ac y mae ereill yn tybied mai o Abyssinia y daeth: ond o gymmaint a'i bod yn debygol fod Seba yn Ethiopia Affricanaidd, a bod dwy ochr y Môr Coch wedi bod am amserau dan yr un lywodraeth, nid oes dim yn anghytunol yn y ddwy dyb.

Digitized by Google

eu difodi yn llwyr trwy ryfeloedd a'u canlyniadau; ac adwaenir hwynt er's canrifoedd bellach wrth yr enw cyffredin o Arabiaid.

Wedi i'r Rhufeiniaid oresgyn Palestina, dechreuwyd galw yr Arabiaid, gan drigolion y gorllewin, yn Saraceniaid (oddi wrth *Sharakiyum*, "Dwyreinwyr"—o *Sharak*, "y dwyrain," ac nid oddi wrth Sarah, fel y myn rhai); ond ni chafodd ei ddefnyddio fel enw cyffredinol y trigolion hyd yr wythfed ganrif.

Y mae ysgrifenwyr Arabaidd yn rhanu yr ymsefydlwyr yn Arabia i ddau ddosbarth—yr hen lwythau (sydd yn awr allan o fodolaeth ar y ddaiar), a'r trigolion presennol. A rhanant yr olaf eilwaith i ddau ddosbarth, sef "yr Arabiaid pur," a'r "Arabiaid *cymmysg*." Ymffrostia Arabiad pur ei fod wedi hanu o Kachtan (Ioctan y Beibl: *Gen.* x. 29), a geilw ei hun, *Arab al Araba; h. y.*, "Arab o'r Arabiaid"—ymadrodd cyfystyr â "Hebrëwr o'r Hebreaid;" *Phil.* iii. 5. Tybir fod yr Arabiaid cymmysg wedi hanu o Ismael a merch Modad, brenin yr Hedjaz; o herwydd hyny, gelwir hwynt *Mosta-Arabi*, neu *Most-Arabi*.

Y mae y trigolion, ar yr oesoedd boreuol, yn ddau ddosbarth gwahanol; sef Arabiaid y dinasoedd, y trefydd, a'r pentrefydd; ac Arabiaid yr anialwch, neu y Bedouiniaid; y rhai a arweiniant fywyd bugeiliol crwydriaid, gan fyw mewn pebyll. Edrychant gyda dirmyg ar drigolion y trefydd, a thybiant mai hwy yw iawn berchenogion y wlad: o herwydd hyny, dysgwyliant anrhegion gan bawb sydd yn myned trwyddi, ac nid ystyriant ei fod yn bechod i ysbeilio y trefwyr a'r teithwyr, os bydd hyny yn ateb dyben iddynt hwy. Dywedir eu bod yn hynod o garedig i deithwyr fyddont wedi ennill eu ffafr trwy ddigon o anrhegion; ond y maent yn annarluniadwy o greulawn tuag at bawb nad ydynt yn rhyngu eu bodd. Gwel Asia; Saraceniaid.

Yr oedd y llwythau gogleddol yn byw ar grwydr gwastadol gyda'u deadelloedd; ond yr oedd preswylwyr rhan ddeheuol y wlad yn trigiannu mewn dyffrynoedd ffrwythlawn, ac ar lechweddau diwylliedig; ac felly, er yn fore, yn sefydlog eu harferion: a thrwy hyny, daethant i fwynhau cyfoeth a gwychder, yr hyn a brofir yn yr adfeiliau a ddygwyd i oleuni yn ddiweddar. At y rhai hyn y cyfeiria holl grybwylliadau hen awduron am gyfoeth yr Arabiaid. Safent yn uchel fel marchnadyddion: *Ezec.* xxvii. 22; *Esa.* lx. 6; *Ier.* vi. 20; 1 *Bren.* x. 15. Masnachent yn eu cynnyrchion eu hunain, ac Ethiopia; a'r pryd hyny, trwy eu dwylaw hwy yr oedd trafnidiaeth y dwyrain a'r gorllewin yn pasio, i'r hyn yr oedd eu camelod yn hynod wasanaethgar [gwel erthygl]; ac felly, cyrhaeddasant eu cyfoeth: 1 *Bren.* x. 10: 2 *Cron.* ix. 14. Yn gyssylltiedig â'r diwylliad hwn, yr oeddynt hefyd, dan yr enw "meibion y dwyrain," yn glodfawr am eu doethineb: 1 *Bren.* iv. 30. Rhoddir arbenigrwydd ar frenines Seba hefyd yn hyn: 1 *Bren.* x. 1—13. Yn y gogledd, treulient eu bywyd yn debyg fel y gwnant yn bresennol. Eu hunig gyfoeth oedd eu hanifeiliaid. Gwibient yn finteioedd o fan i fan, er mwyn gwneyd ymosodiadau ysbeilgar ar deithwyr (*Ier.* iii. 2; *Iob* i. 15). Enw gwatwarus ar y rhai ydyw, "Y rhai y torwyd cyrau eu gwallt," yn ol darlleniad ymyl y ddalen o *Ier.* ix. 26; xxv. 23; xlix. 32.

Yr oedd yn anmhosibl i'r Hebreaid beidio dyfod i gyffyrddiad âg Arabiaid yr amseroedd boreuaf; ac felly sonir am y Midianiaid yn amser Iacob, Moses, a'r breninoedd (*Barn.* vi. vii. viii). Yn amser Dafydd a Solomon, yr oeddynt mewn heddwch â'r Israeliaid. Yr oedd yr olaf yn masnachu â hwy (1 *Bren.* x. 15); yr ydoedd hefyd yn uchel ei glod yn Seba (1 *Bren.* x. 1). Dan Iehosaphat, ymddengys eu bod yn talu teyrnged iddynt (2 *Cron.* xvii. 11: ond yn amser Ioram, ei fab, daethant, mewn undeb â'r Philistiaid, yn erbyn Iudah, ac a'i gorchfygasant, ac a anrheithiasant Ierusalem (2 *Cron.* xxi. 16, 17); ac Uzziah a lwyddodd gyntaf i'w darostwng (2 *Cron.* xxvi. 7). Cyhoeddir bygythion gan y prophwydi yn erbyn yr Arabiaid (*Esa.* xxi. 13; *Ier.* xxv. 23, 24; xlix. 28—33; *Ezec.* xxxviii. 11—13), y rhai, fe ddichon, a gyflawnwyd yn ymosodiadau yr Assyriaid a'r Babiloniaid ar Palestina, a gwledydd Arabia, oedd yn terfynu ar Mesopotamia. Ar ol y gaethglud, yn amser y Maccabeaid, yr ydym yn cael fod rhai o'r Arabiaid yn gyfeillgar i'r Iuddewon, a rhai i'r Syriaid (1 *Mac.* v. 25; ix. 35; 1 *Mac.* v. 39; 2 *Mac.* xii. 10; 1 *Mac.* xi. 39). Ni ddarostyngwyd yr Arabiaid gan y Rhufeiniaid, ac nid oedd eu hymffrost, eu bod wedi gwneyd Arabia yn rhaglawiaeth, yn ddim ond buddugoliaeth ar ryw un llwyth, wedi ei orliwio gan weniaith i'r ymherawdwr. Nid ellir chwaith edrych ar lywodraeth breninoedd Abyssinia am ddeuddeg a thrigain o flyneddoedd yn Yemen yn ddarostyngiad parhaus arnynt.

Nid oes ond ychydig yn wybyddys am grefydd yr hen Arabiaid. Yn ol eu hysbysiadau hwy eu hunain, ymddengys fod gwahanol lwythau yn addoli gwahanol dduwiau; a bod yr addoliad yn gynnwysedig mewn cydnabyddiaeth o alluoedd natur, yn enwedig y ser. Mabwysiadwyd Iuddewaeth gan rai o'r llwythau, a Christionogaeth gan ereill;—ac o'r tair ffurf yma o grefydd y ffurfiodd Mahomet ei grefydd yntau.

Y mae traddodiad yn cyssylltu mynediad Cristionogaeth i Arabia âg arosiad yr apostol Paul yno (*Gal.* i. 17). Tua dechreu y drydedd ganrif, anfonodd un o dywysogion Arabia at Demetrius, esgob Alexandria, i ofyn iddo anfon Origen i'w mysg, i ddysgu iddynt Gristionogaeth [*Eusebius, Eccl. History*, vi. 19]—yr hyn a wnaeth. Dychwelodd Origen yn fuan, ond nid yw yn annhebygol iddo gymmeryd nifer o ddysgawdwyr gydag ef yno, ac i'r rhai hyny aros [*Mosh., De Rebrs*, c. 448]. Tua'r flwyddyn 250, aeth Origen eilwaith i Arabia, i wrthsefyll cyfeiliornad oedd yn codi yno, yr hwn a ddysgai fod yr enaid yn marw gyda'r corff: ac yn yr adgyfodiad, yr adgyfyd y ddau gyda'u gilydd [*Eusebius, Eccl. History*, vi. 36]. Anfonodd yr ymherawdwr Constantius genadwr yno tua 350, ond heb unrhyw lwyddiant neillduol. Mewn amseroedd diweddarach, ymledaenodd y Nestoriaid yno. Cafodd y Monophysiaid hefyd fynedfa i'w mysg. Ond diflanodd Cristionogaeth pan yr ymddangosodd Mahometiaeth yno. Nid oes dim llwyddiant wedi bod ar ymdrechiadau diweddarach i'w dwyn i dderbyn yr efengyl.

Yr oedd eu hiaith—yr Arabaeg—y gyfoethocaf a mwyaf diwylliedig o'r dosbarth Syro-Arabaidd o ieithoedd, yr hwn a gynnwysai y Galdaeg, y Syriaeg neu Aramaeg [gwel erthygl], yr Hebraeg, a'r Arabaeg. Y mae awgrymiadau Ysgrythyrol yn dangos fod yr Hebraeg a'r Arabaeg yn ddwy gangen o'r un cyff. Yr oedd meibion Iacob yn medru ymddyddan â'r Ismaeliaid (*Gen.* xxxvii. 28); a Moses â Iethro, yr hwn oedd un o'r Midianiaid. Y mae yn wir fod yn bosibl fod y naill wedi dysgu iaith y llall; ac o ganlyniad, nid yw

yr anghreifftiau hyn yn hollol benderfynol. Ond yr hyn sydd yn fwy penderfynol ydyw, fod Gideon a'i lanc wedi myned i wersyll "Midian, Amalec, a holl feibion y dwyrain," i glywed eu hymddyddanion, ac a'u deallodd (*Barn.* vii. 9–14). Ac ni ddarllenwn am ddeonglydd rhwng Solomon a brenines Seba. Y mae y casgliad yn ymddangos yn rymusach, wrth gofio fod y gwahaniaeth rhwng yr Hebraeg a'r Aramaeg yn cael ei nodi yn *Gen.* xxxi. 47. Y mae hyn yn unol â'r hyn y gallasem ddysgwyl i fod oddi wrth yr hanes a roddir yn yr erthygl hon am berthynas y ddwy genedl yn eu henafiaid. Y mae cymhariaeth o'r ddwy hefyd yn profi y tebygolrwydd mawr sydd rhyngddynt yn eu geiriau ac yn eu cystrawen. Y mae nifer y geiriau yn yr Arabaeg yn lluosocach o lawer; a dywedir fod naw o bob deg o wreiddiau yr Hebraeg i'w cael ynddi. Y mae adnabyddiaeth o'r Arabaeg yn fantais fawr i egluro rhanau dyrus o'r Hen Destament. Pan gyfarfyddir âg anhawsderau mewn llyfrau Lladin a Groeg, yn codi o ryw neillduolrwydd yn y gair, neu y dull y defnyddir ef, ceir goleu yn fynych trwy ei gymharu â'r un gair neu gystrawen mewn awduron ereill; ond nis gellir gwneyd hyn â'r Hebraeg, am nad oes ond y Beibl yn unig yn ei chynnwys yn ei phurdeb: ac felly, pan ddaw geiriau nad ydynt i'w cael ond unwaith (ἀπαξ γελομενα) yn yr Hen Destament, neu eiriau tywyll, trwy fyned i'r Arabaeg, gellir yn fynych gael goleu ar yr anhawsder. Y mae rhai wedi myned mor bell a dywedyd mai iaith y Mahometiaid ydyw yr esboniad goreu ar yr Hen Destament yn y byd.—[*Ockley's Preface to an Account of S. W. Barbery.*]

Y mae yr Arabiaid wedi cyflawnu swydd bwysig i ddynolryw, yn y gofal gyda pha un y cadwasant drysorau meddyliol y Groegiaid i'r oesoedd diweddaraf hyn; a hyny trwy yr oesoedd tywyll a ddilynodd ruthriadau dinystriol y gogleddwyr i diriogaethau ffrwythlonaf a mwyaf diwylliedig Ewrop.

Yn nghanolbarth yr orynys Arabaidd, preswyliai llwyth yr Hedschaz, yr hwn oedd yn ddiddysg, ond yn meddu dychymyg, ac yn sylwi ar weithrediadau natur. Ar ol bod am filoedd o flyneddoedd heb ddim cydnabyddiaeth â rhanau ereill y byd, hwy a dorasant yn finteioedd trwy eu hen derfynau, ac a ddaethant i gyffyrddiad â chenedloedd mwy gwareiddiedig. Darostyngasant i'w hawdurdod y gwledydd rhwng colofnau Hercules, hyd at yr Indus; a dygasant yn mlaen fasnach, mor fore a chanol y nawfed ganrif, a gwledydd gogleddol Ewrop, Madagasgar, Affrica ddwyreiniol, India, a China. Yr oedd y Groegiaid yn mysg y cenedloedd gorchfygedig hyn: cymmerasant feddiant o'r trysorau cyfoethog o wybodaeth ag yr oedd y genedl hono trwy ganrifoedd o lafur wedi eu casglu; ac er na chwanegasant lawer atynt trwy ymchwiliadau gwreiddiol, trosglwyddwyd hwy yn ddigolled i orchfygwyr Ewrop orllewinol, ar ol i gariad at wybodaeth a chymhwysder iddi gael eu deffro yn eu meddyliau. Yr oedd y Nestoriaid—sect o gyfeiliornwyr—wedi deffro ymchwiliad yn meddwl yr Arabiaid, cyn iddynt gymmeryd meddiant o Alexandria ddysgedig a dadleugar: ac mor fore ag amser Mahomet, ymsefydlodd yn Mecca feddygon oedd wedi derbyn eu dysg mewn sefydliadau Groegaidd, ac mewn ysgol a sefydlodd y Nestoriaid yn Edessa, yn Messopotamia, yr hon a gyrhaeddodd enwogrwydd mawr fel meithrinfa meddygon.

Ond ar ol i deyrnwialen Asia orllewinol fyned i ddwylaw Caliphs, teulu Abas, un o ewythrod y gau brophwyd (o. c. 749), ac iddynt hwy symmud canolbwnt eu llywodraeth o Damascus i Bagdad, "dinas heddwch," y daeth eu prif ddinas yn enwog am ei nodded i gelfyddyd ac athroniaeth, yn gystal ag am ei chyfoeth a'i gwychder. Tynodd seryddiaeth sylw neillduol y galluog, yn gystal a'r dysgedig, ac ymroddai y tywysogion Saracenaidd i astudio y wyddor eu hunain, yn gystal ag estyn eu nodded i ereill. Almanzor, y buddugol, yr ail Caliph o'r teulu a enwyd, a amlygodd duedd ffafriol i lenoriaeth; a hynododd yr Arabiaid am rai canrifoedd. Yn ei amser ef y casglwyd gweithiau Groeg o bob cwr, a chyfieithwyd llawer o honynt i'r Arabaeg. Gwnaed peiriannau costus, a chynnaliwyd dynion i gyflwyno eu hunain yn hollol i efrydu natur; ac fel y cafwyd allan anmherffeithiau taflenau seryddawl y Groegiaid, gwnaethant rai newyddion. Y mae y mwyaf o'r seryddwyr Arabaidd yn ymddangos tua hanner can mlynedd yn ddiweddarach, sef Albategni: tywysog Syriaidd ydoedd; gwnaeth lawer o'i sylwadau seryddawl yn Antioch; y mae ei waith mewn bod eto yn Lladin. Cyhoeddodd daflenau i'r haul, y lleuad, a'r planedau, y rhai a fu mewn bri yn hir. Ond nid aeth yr Arabiaid ond ychydig pellach na'r Groegiaid yn eu gwybodaeth am y ser. Mewn rhifyddiaeth, gwnaethant wasanaeth mawr trwy ddefnyddio y ffugrau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 0, yn lle y dull Groegaidd o gyfrif, er mai yn yr India y cafodd yr Arabiaid hwynt.

Y mae seryddiaeth yn defnyddio yn bresennol amryw eiriau a ennillodd yn ei hymdaith yn mysg yr Arabiaid hyn; megys *Zenith*, a'r pwynt gwrthgyferbyniol, *Nadir;* y cylchoedd a elwir *Almacantars*, ac *Azimuth.* Y mae enwau Arabaidd ar amryw o'r ser; megys, *Aldebaran*, *Rigel*, *Fomalhaut.* Efallai mai y gair *almanac* ydyw y prawf mwyaf adnabyddus i'r cyffredin o ddylanwad yr Arabiaid ar seryddiaeth.

Ni agorodd yr Arabiaid fwngloddiau newyddion yn nhiriogoeth y meddwl—ni wnaethant nemawr iawn ond cyfieithu y Groegiaid, a'u hesbonio, yn enwedig Aristotle; ni eginodd meddyliau newyddion yn eu mysg; ac ni roddwyd cyfeiriad newydd i'r ymchwiliad am wirionedd. Yr enw a safai uchaf yn ysgol Bagdad ydoedd Alfarabi, yn y ddegfed ganrif Yr oedd ei wybodaeth yn cynnwys meintoniaeth, seryddiaeth, physigwriaeth, ac athroniaeth. Ymroddodd, fel gorchwyl penaf ei oes, i esbonio traethawd Aristotle ar yr enaid. Efallai mai y dyn hynotaf a gododd yn mysg yr Arabiaid oedd Avicenna, yn 1037. Yr oedd ei weithiau, yn enwedig ar physigwriaeth—er nad oes ynddynt memawr ond casgliad o Hippocrates a Galen—yn weithiau o awdurdod yn mhrif ysgolion Ewrop, hyd ddiwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd Averroes, yn y ddeuddegfed ganrif, yn sefyll yn uwch na'i holl gydoeswyr. Daeth yn arweinydd yr ysgolheigion: ystyrient ef mor uchel, os nad yn uwch, nag Aristotle ei hun.

Ond y ddyled fawr sydd ar wybodaeth gelfyddydol i'r Arabiaid, ydyw, am ei chadw, mewn tymmor o dywyllwch, fel y gallai Ewrop ei chael yn ol wedi i'r dyddiau drwg fyned heibio.

Nid oes genym le i ddyweyd fawr am arferion Arabiaid ein dyddiau ni, er fod corff Nomadeaid Arabia wedi parhau o'r amseroedd boreuaf hyd yn awr yn lled debyg; ac felly byddai yn fantais, er egluro cyfeiriadau Ysgrythyrol, i ni fod yn

Digitized by Google

gydnabyddus â hanesion teithwyr diweddar. Y maent o faintioli cymmedrol, yn deneu a bywiog. Mewn bwyta ac yfed, y maent yn gymmedrol.



Dar. 50.

Y mae coffi yn ddiod gyffredin yn eu mysg; nid yfant win, na diodydd meddwol ereill, ond yn ddirgel, o herwydd y gwaharddiad sydd yn y Coran. Y mae ysmocio hefyd yn arferiad gyffredin yn eu plith. Golchant eu dwylaw yn ofalus bob amser cyn bwyta—mae glanweithdra yn rhinwedd uchel ganddynt: ac i hyn, yn nghyd â'u cymmedroldeb, y priodolir llawer o'r iechyd da o fwynhant. Nid oes ond ychydig o glefydau sefydlog yn eu mysg, ond y gwahanglwyf. Y mae y merched, fel yn gyffredin yn y dwyrain, yn byw i fesur ar wahân; ni ddeuant byth i olwg dyeithriaid yn eu tai eu hunain. Y maent yn eiddigeddus iawn o ddiweirdeb y rhyw fenywaidd, ac yn ei amddiffyn drwy alltudio neu gospi â marwolaeth y rhai a geir yn euog o hyny. Hawdd ganddynt ddial, a chadwant i fyny yr hen arferiad o waed am waed. Rhoddir cymmeriad da i'r Bedouiniaid, y rhai a elwir yn bresennol *Tawarahs*, sydd yn preswylio yn nghymmydogaethau Sinai; a dywedir mai ar yr elw a gânt oddi wrth arwain teithwyr at Sinai ac yn ol, y maent gan mwyaf yn byw. Yn gyffredin, llanwant dyllau wedi eu gwneyd yn y tywod â dwfr, er mwyn golchi eu hunain a'u dillad. Crasant eu teisenau teneuon ar y tywod, wedi eu gorchuddio â briwydd mân. Gwisgant sandalau dan eu traed, wedi eu gwneyd o ledr neu groen; a gwregys am eu lwynau, yn yr hon y rhoddant eu cyllyll hirion neu eu gynau mân; gwisgoedd rhydd llydain, a gyrhaeddant at eu gliniau, gan adael eu coesau yn noethion. Bwytânt ymenyn a mel, gan wlychu y bara ynddo ("Ymenyn a mel a fwyty;" *Esa.* vii. 15). Galwant bawb i'r gwersyll y nos, ar fachlud haul, i ymuno mewn gweddi; a chan fod yn anfanteisiol yn fynych iddynt gael dwfr, rhwbiant eu hwynebau â thywod, yr hwn a gadwant yn ymyl y gwersyll i'r perwyl; ac felly, dan bob anfantais, cydymffurfiant hyd y gallant â chyfarwyddiadau y Coran mewn perthynas i'w golchiadau crefyddol. Y mae eu gonestrwydd yn mysg eu gilydd yn hynod—pa mor lleied bynag o barch sydd ganddynt i eiddo ereill. Os dygwydd i gamel un o honynt farw ar y ffordd—os nad all ei symmud, fe dŷn gylch o'i gwmpas yn y tywod, ac fe gaiff aros felly am fisoedd heb i neb gyffwrdd âg ef. Nid oes ddysgeidiaeth yn eu mysg: nid allai y Dr. Robinson, yn ei deithiau i Sinai, er ei holl ymchwiliadau, gael un yn mysg y Bedouiniaid a allai ddarllen. Crefydd Mahomet a broffesant, ond nid yw ond effaith arferiad ganddynt; er eu bod yn ofalus i gadw rhai o'i ddefodau, y mae ereill yn cael eu hollol ddirmygu; ac y mae rhegfeydd mor gyffredin—bron yn anhygoel felly—yn eu mysg, fel y gellir dyweyd "fod eu genau yn llawn melldith."

ARABIGIAID, [*Arabici, Arabii*]: sect o athrawon Cristionogol o syniadau athronyddol gorfanwl, a gyfodasant yn Arabia, fel y mae eu henw yn arwyddo, yn gynnar yn y drydedd ganrif. Eu prif athrawiaeth oedd, fod yr enaid dynol yn gwywo, yn marw, ac yn cyfodi drachefn gyda'r corff. Yn y flwyddyn 246, galwyd Origen o'r Aipht i'w hargyhoeddi; a chan nad ymddengys fod ganddynt neb digon galluog i'w wrthwynebu, bu yn llwyddiannus i gael ganddynt ymadael yn ebrwydd â'u golygiadau neillduol, ac i ddychwelyd i fynwes yr eglwys. Ymddengys i'r cyfeiliornad godi o'r dyb a ffynai yn gyffredin iawn y pryd hyny am sylweddoldeb yr enaid.—(*Mosheim; Pop. Encyc.; Will. all Rel.*)

ARABUS, [Llad.]: mab Apollo a Babilone, yr hwn a ddyfeisiodd feddyginiaeth gyntaf, ac a'i dysgodd yn Arabia—gwlad a elwir ar ei enw.—(*Plin.; Lempr.; Wright.*)

ARAD: hen ddinas, ar dueddau deheuol Palestina, trigolion yr hon a yrasant yr Israeliaid yn eu hol pan geisient fyned o Cades i Ganaan; *Num.* xxi. 1. Ond goresgynwyd Arad gan Iosuah: *Ios.* xii. 14; *Barn.* i. 16. Cyfleïr Arad, gan Eusebius a Jerome, tuag ugain milltir Rhufeinig o Hebron, yr hyn a fyddai yn gyfartal i daith wyth awr gyda chamelod; ac y mae hyn yn cyfateb yn dda i sefyllfa bryn a elwir Tell Arad, ar yr hwn y sylwai y Dr. Robinson ar y ffordd o Petra i Hebron. Efe a'i darlunia fel rhyw fynydd noethlwm, yn ymddyrchafu goruwch y wlad oddi amgylch. Ni chymmerodd efe hamdden i wneyd ymchwiliad yn y lle; ond yr Arabiaid a ddywedent nad oedd dim adfeilion arno, nac yn agos iddo, ond ogof yn unig. Pa fodd bynag y mae yr enw ei hunan yn ei gwneyd yn lled ddiammheuol mai y bryn hwn oedd gorsaf yr hen Arad.

ARAD, [עֲרָד]: enw dyn: 1 *Cron.* viii. 15.

ARADR (neu yn ol y Dr. W. O. Pughe, *arad*); oddi wrth y gair *âr*—tir wedi ei arwynebu. Gŵyr pawb yn y wlad am yr erfyn gwasanaethgar uchod. Y mae yr arferiad o hono mor hen fel nad oes un hanes i'w gael yn dangos pa bryd, neu gan bwy y dyfeisiwyd ef gyntaf: diau iddo gael ei arferyd cyn gynted ag y darfu i ddyn ddwyn yr anifail dan yr iau, i'w gynnorthwyo i drin a gwrteithio y tir, er mwyn "cael bara allan o'r ddaiar." Yn y llyfr hynaf a fedd dynolryw, y mae son am dano megys peth ag oedd yn gyffredin yn cael ei arfer at lafurio y tir: *Deut.* xxii. 10. Y mae Moses yn gorchymyn i Israel "beidio

aredig âg ych ac âg asyn yn nghyd." Yr oedd y llyfr hwn wedi ei ysgrifenu oesoedd cyn bod gwŷr Groeg na Rhufain yn meddu ar lyfr. Nid ellir, ond trwy ddychymyg, feddwl pa fodd y dyfeisiodd dyn y fath offeryn, neu erfyn mor ddefnyddiol. Tybia rhai i'r ddyfais ddyfod trwy lusgo drain dros dir llaith, ar ba un yr oedd had wedi ei hau, ac i gangen dori ymaith, gan adael bôn tra hir, wrth baladr y pren, yr hwn a wnelai rych yn y tir; a'r canlyniad yn sicr a fyddai, i'r had dyfu yn gryfach yno nag ar y tir na chaed cymmaint o ddyfnder daiar iddo. Ac yn wir, y mae yr aradr a arferir gan yr Hindwaid, a'r un a welir yn aml yn gerfiedig yn nghofadeiliau temlau hynaf yr Aipht, yn debyg iawn i hyn, ac i'w gilydd. Dywedir fod y cerfiau hyn dros dair mil o flynyddoedd o oedran. Fel y mae yn mron bob peth arall yn cyfnewid yn y gwledydd gorllewinol, felly y mae cyfnewidiadau mawrion wedi, ac yn cymmeryd lle yn yr aradr, yn enwedig yn y deyrnas hon ac yn America. Y mae erydr o wedd newydd yn dyfod allan bob blwyddyn, fel y mae yn anhawdd rhoddi desgrifiad digonol o honynt. Y mae yr hen aradr Gymreig yn mron i gyd o goed, ac yn awr ar ddiflanu, gan roddi lle i erydr haiarn o wahanol ddull a phwys—o'r un fechan o dynir gan ddyn neu anifail, i wneuthur rhychau erfin, &c., hyd at yr un fawr, yr hon a dyr bump neu chwe chwys ar y tro, ac a dynir drwy y tir âg ager (*steam*), neu gan wyth neu ddeg o geffylau.

ARADUS, [ארוד; Gr. Ἄραδος: 1 *Mac* xv. 23]: dinas Phœniciaidd ydoedd, ar ynys fechan, yn agos i'r làn, o ddeutu hanner can milltir i'r gogledd o Beirut. Yn yr Ysgrythyr, fe'i gelwir yn Arfad: ei henw diweddar ydyw Ruad. Gwel ARFAD.

ARAF—WCH: hwyrfrydig, pwyllog; tirion, esmwyth, llariaidd: *Gen*. xxxiii. 14; *Barn*. v. 28; viii. 3; *Diar*. xv. 1. "Ac a gerddodd yn *araf*;" 1 *Bren*. xxi. 27. Arwydda y gair a gyfieithir yma "cerdded yn araf," neu yn ol y Deg a Thrigain a'r Vulgate, "dan oblygu a chrymu ei ben," ymostyngiad Ahab yn wyneb y farn ag oedd yn cael ei bwgwth arno. Er na ddarfu i genadwri Elias effeithio arno i beri iddo adael ei bechod, a dychwelyd at Dduw mewn gwir edifeirwch, eto, bu yn foddion i liniaru ei wylltineb, ac i attal ei rwysg am ryw dymmor. Parodd arswyd y dialedd a gyhoeddid arno iddo gymmeryd arno ymostwng: *Salm* lxvi. 3.

Y mae y gair arall yn cael ei gyfieithu *cerdded yn araf*, yn *Esa*. xxxviii. 15; "Mi a *gerddaf yn araf* fy holl flyneddoedd yn chwerwedd fy enaid." "Mi a *grwydraf* fy holl flyneddoedd mewn chwerwedd fy enaid."—*Dr. M.* "I shall go softly all my years in the bitterness of my soul."—*Seis.* Tybia rhai mai gosod allan ei benderfyniad i ymostwng yn amyneddgar mewn dysgwyliad hyd oni chaffai gysur oddi wrth Dduw, y mae Hezeciah yn y geiriau. Ond y mae ereill, gyda mwy o debygolrwydd, yn barnu mai amlygiad o'i lawenydd a'i orfoledd, wedi derbyn y waredigaeth a grybwyllir yn flaenorol, ydynt. Wedi iddo gael ei waredu o byrth y bedd ac o bwll llygredigaeth—cael profiad o faddeuant o'i bechodau, ac addewid y cai fyw—y mae yn penderfynu treulio gweddill ei oes mewn diolchgarwch am ei ymwared o'r chwerwedd ag yr oedd ei enaid ynddo gan ofn marwolaeth. "Mi a gerddaf yn *myfyrio* ar chwerwder fy enaid."—*Lowth.* Cyfieithir y gair gan G. Holden. ac ereill, "Mi a rodiaf *mewn llawenydd* fy holl flyneddoedd, o herwydd chwerwder fy enaid;" sef, o herwydd fy ngwaredu o'r afiechyd poenus hwn. "Mi a gerddaf yn *ostyngedig*," &c.—*Henderson.* Cadarnheir yr ystyr yma oddi wrth y modd y defnyddir yr un gair yn *Salm* xlii. 4; "Cerddwn gyda hwynt i dŷ Dduw, mewn sain cân a moliant, fel tyrfa yn cadw gŵyl." "Bydded eich *arafwch* yn hysbys i bob dyn;" *Phil.* iv. 5. Arwydda y gair *τὸ ἐπιεικές*, a gyfieithir yma *arafwch*, gweddusrwydd, gonestrwydd, cymmedroldeb; felly y mae yr apostol yn cynghori na byddai iddynt fod yn rhy awyddus am gyfoeth, anrhydedd, ac esmwythfyd, ond yn hytrach yn ddi bryder yn eu cylch. Y mae yn arwyddo hefyd, *addfwynder* yn wyneb y niweidiau a gânt oddi wrth eu gelynion, y rhai a'u hysbeilient o'r pethau oedd ganddynt; a thrwy hyny, dangosent mor gymmedrol oeddynt, mor lleied oedd y pethau hyn yn ei gael o ddylanwad ar eu meddyliau.

ARAFNAH, neu ORNAN, [ארונה]: y Iebusiad, yn llawr dyrnu yr hwn, ar fynydd Moriah, y parai angel yr Arglwydd i'r prophwyd Gad gyfarwyddo y brenin Dafydd i adeiladu allor i'r Arglwydd: 1 *Cron*. xxi. 18; 2 *Sam*. xxiv. 18. Prynodd Dafydd y llawr dyrnu, a'r tir o'i amgylch, i adeiladu y deml arno: 1 *Cron*. xxi. 25.

ARAIL: areilio, coledd, bugeilio, cynnal. "Rhait i mi *areiliaw* yr ei hyny."—W. S "Y rhai hyny hefyd sydd raid i mi eu cyrchu;" *Ioan* x. 16.

ARALLEG—AWL. Gwel DAMMEG; ESBONIADAETH.

ARALLEIRIAD. Gwel ALLEIRIAD.

ARAM, neu ARAMÆA: yr holl wlad a orweddai rhwng Phœnicia a Palestina yn y gorllewin, Arabia yn y deheu, y Tigris yn y dwyrain, a Mynydd Taurus yn y gogledd, yn yr hon y siaredid yr Aramaeg, y Syriaeg, a'r Galdaeg. Derbyniodd yr enw oddi wrth Aram, mab Sem (*Gen*. x. 22), am mai ei hiliogaeth ef a'i poblogodd, ac felly y maent o'r un cyff a'r Hebreaid. Galwai y Groegiaid a'r Rhufeiniaid hi Syria a Mesopotamia, ond mewn ystyr gyfyngach o'r gair Syria nag a ddefnyddiai y Seleucidæ a'r Rhufeiniaid. Yn ein cyfieithiad ni, Syria ydyw y gair a ddefnyddir am y gair Hebreig Aram. Y tu yma i'r Euphrates, perthynai i Aram,—

1. Aram Damascus (2 *Sam*. viii. 6; *Esa*. vii. 8; *Amos* i. 5): hyny yw, Damascus yn Syria, yn ngogledd-ddwyrain Palestina.

2. Syria-Maachah (1 *Cron*. xix. 6): yr hwn a derfynai ar lwyth Reuben, yn agos i Basan (*Ios*. xiii. 11, 13; *Deut* iii. 14). Yn amser Dafydd, yr oedd brenin yn perthyn i'r diriogaeth yma.

3. Gesur yn Aram neu Syria: 2 *Sam* xv. 8: yn agos i Maachah: *Deut*. iii. 14; *Ios*. xii. 5: a breniniaeth yn amser Solomon: 2 *Sam*. iii. 3.

4. Aram-beth-Rehob: yn cael ei enwi mewn cyssylltiad âg Aram-Sobah a Maachah: tiriogaeth yn gorwedd wrth droed Anti-Libanus, yn agos i Dan neu Lais: *Barn*. xviii. 28.

5. Enwir Hul hefyd fel rhan o Aram: *Gen*. x. 23. Ymddengys fod Sobah, o Syria, yn gorwedd yn wreiddiol i'r dwyrain i'r Euphrates, ond mewn amser diweddarach i'r gorllewin i'r afon: 1 *Sam*. xiv. 47; 2 *Sam*. viii. 3; x. 6, 8.

Digitized by Google

Yn amser Saul a Dafydd, Sobah oedd y mwyaf pwysig o randiroedd Syria; ond gorchfygwyd hi gan Dafydd: 2 *Sam.* viii. 3. Yr oedd manau ereill yn y wlad hon, er na ddywedir yn bendant eu bod yn perthyn iddi, sef Hamath a Thadmor, &c.

Nid oedd y gair Aram yn hollol anadnabyddus i'r Groegiaid, fel y gwelir oddi wrth Αριμοι, yr un ag Αριμαῖοι yn Homer a Hesiod. Nid oedd trigolion Aram o'r dechreu yn y wlad mwy nag yr oedd yr Hebreaid yn Nghanaan. Oddi wrth Amos, gwelir fod y Syriaid wedi dyfod o Cir (*Amos* ix. 7), yr hon a all fod y wlad sydd yn gorwedd wrth droed y Caucasus, ar yr afon Cyrus, un o'r cangenau sydd yn ffurfio y Kur neu y Koula, yr hon sydd yn rhedeg ar ol derbyn dyfroedd yr Arexis i'r Môr Caspian. Mae hyn yn cytuno â'r hyn a wyddom am ymledaeniad hiliogaeth Sem, mab yr hwn ydoedd Aram (*Gen.* x. 22). Mae pob peth yn dangos iddynt ddyfod o gymmydogaeth mynyddoedd Armenia, yr hyn a gadarnheir drwy debygolrwydd yr enw Aram ac Armenia, ac hefyd trwy y daflen genedlaethol (*Gen.* x. 22, 24); yma gwelir mai Aram ydyw pummed mab Sem ar ol Elam, Asur, Arphaxad, Lud; a'i feibion ef ydoedd Us, Hul, Gether, a Mas; a'r pedwar enw yma a ffurfiai derfynau poblogaeth Aram:—Us i'r deheu, ar gyfer yr Edomiaid a'r Arabiaid; Hul i'r gorllewin, ar gyfer Canaan: Gether yn anadnabyddus, ond mae yn debygol i'r dwyrain, tuag Elam ac Assur; Mas i'r gogledd, ar gyfer Armenia Iapheth.

Am hanes y wlad hon, gellir dywedyd iddi gael ei gorchfygu gan yr Assyriaid, dan Tiglath Pileser, yn amser ei brenin diweddaf Resin (c. c. 740); yn ddiweddarach yr ydoedd dan y Babiloniaid Caldeaidd, ac hefyd y Persiaid; ar ol marwolaeth Alexander, sylfaenwyd teyrnas Syria dan y Seleucidæ, yr hon hefyd a gynnwysai Iudea. Ar ol amser Pompey (c.c. 64) daeth dan lywodraeth y Rhufeiniaid. Am eu crefydd, gwel Astoreth.

**ARAMAEG**: Iaeth Aram, yr hon a lefarid gan drigolion Mesopotamia, Babilonia, a Syria. Yr oedd y terfynau o Aram oedd yn gyfagos i Canaan yn uwch na gwlad yr Iuddewon: felly, gelwid yr iaith a siaredid yno, *Aramaeg;* hyny yw, iaith yr ucheldiroedd—mewn cyferbyniad i iaith Canaan, neu iaith yr iseldiroedd. Felly defnyddid enw am yr oll o Aram oedd heb fod yn briodol ond am y manau mynyddig, lle y cyfarfyddai y ddwy wlad â'u gilydd yn agos i fynyddoedd Libanus. Yr oedd dwy gangen-iaith o'r Aramaeg: yr un ddwyreiniol neu Fabilonaidd, a elwir yn gyffredin y Caldaeg, er fod ארמית (*aramith*) yn cael ei gyfieithu yn *Syriaeg* yn 2 *Bren.* xviii. 26; *Ezra* iv. 7; *Dan.* ii. 4, o herwydd nad oedd gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt; a'r Aramaeg Orllewinol, yr hon a elwir yn gyffredin y Syriaeg. Ni leferir un o'r ddwy gangen hyn ond gan ychydig o lwythau yn bresennol:—yr Arabaeg sydd wedi ymdaenu dros y rhan fwyaf o'r parthau hyny.

Pan ymadawodd Abram o Ur y Caldeaid, y Caldaeg (Aramaeg Ddwyreiniol) oedd yr iaith a siaradai; ac efallai nad oedd y Syriaeg (Aramaeg Orllewinol), yr Arabaeg, ac iaith yr Aipht, ddim mor wahanol i'w gilydd fel nad allai ymddyddan â thrigolion Palestina a'r Aipht. Ond y mae yn rhaid fod iaith hiliogaeth Abraham yn Nghanaan, a iaith gwlad Sinar neu Caldea, yn amrywio yn fuan ar ol ei ymadawiad ef: a chan y byddai y cyfnewidiadau yn wahanol yn y ddwy, deuent mewn oesoedd i fod yn ieithoedd i raddau yn wahanol. Nid oes dim gweddillion yn dangos ffurf wreiddiol yr Aramaeg; ni ddiwylliwyd hi fel ag i roi mantais i'w helfenau cyntaf ymagor mewn dull annibynol, fel y gwnaeth yr Arabaeg a'r Hebraeg; ac heb law hyny, yr oedd y gwledydd lle siaredid hi yn terfynu ar bobl a ieithoedd o gyff gwahanol, fel yr oedd yn agored i lygriad graddol; a dygwyd elfenau dyeithrol i mewn trwy oresgyniad y wlad gan ddyeithriaid, megys yr Assyriaid, y Persiaid, a'r Groegiaid. Yr amlygiad cyntaf o hanfodiad annibynol yr Aramaeg ydyw *Gen.* xxxi. 47, lle y mae Laban yn rhoi yr enw Ieger-Sahadutha ar y garnedd—yr hwn sydd yn enw Caldaeg; tra y mae Iacob yn ei galw Galeed—enw Hebreig o'r un ystyr. Yn amser Hezeciah, yr oedd cymmaint o wahaniaeth rhwng yr Hebraeg a'r Aramaeg Fabilonaidd, mewn swm efallai yn benaf, fel yr ymddangosai yr olaf yn iaith ddyeithrol i bobl gyffredin Ierusalem, heb fod yn ddealladwy ond i brif swyddogion y llys. Ymddengys ei bod yn cael ei defnyddio mewn llythyrau swyddol, rhwng llys Persia a'i ddeiliaid yn Palestina: *Ezra* iv. 7; "Ac ysgrifen y llythyr a ysgrifenwyd yn Syriaeg, ac a eglurwyd yn Syriaeg;" hyny yw, y mae yn debygol, o'r Syriaeg i'r Persiaeg. Tra y cadwodd yr Iuddewon eu hannibyniaeth gwladwriaethol, parhaodd yr Hebraeg i fod yn iaith gyffredin y wlad; ond ar ol goresgyniad y wlad gan yr Assyriaid, a llywodraethwyr Caldeaidd Babilon, diflanodd yr Hebraeg yn raddol o flaen yr Aramaeg Fabilonaidd. Yr oedd y gangen ddwyreiniol o'r Aramaeg yn debycach i'r Hebraeg na'r un orllewinol. Cadwodd trigolion Aram, a drosglwyddwyd i ganol Gwlad Canaan yn lle y deg llwyth a gymmerwyd gan Salmanezer i Assyria, eu hiaith eu hunain; ac y mae yn debygol iddi ymledanu ar bob llaw, hyd yn oed cyn dinystr breniniaeth Iudah. Yr oedd caethgludiad y ddau lwyth i Babilon hefyd, lle y dysgasant rhyw gymmaint, mae yn ddiau, o'r iaith, a'u dychweliad i'w gwlad, lle yr oeddynt mewn cyffyrddiad â'r Samariaid—yn foddion pellach i'w hamddifadu o'r Hebraeg wreiddiol. Yr oedd y llywodraethwyr Babilonaidd yn Palestina, a'r milwyr a ddygwyd yno gyda hwynt i gadw heddwch, yn nghyd â'u holl swyddogion, yn effeithio yn fawr i gyfyngu yr Hebraeg, am y byddai pawb o'r Iuddewon a ddaliai swyddau danynt, neu a ddeuai i gyssylltiad agos â hwy, dan orfodaeth i ddysgu eu hiaith. Mae lle i gasglu fod yr Aramaeg yn flaenorol i hyn wedi bod yn iaith y llys yn Ierusalem: 2 *Bren.* xviii. 26.

Mae dyddordeb neillduol yn perthyn i'r iaith hon, o herwydd mai hi oedd iaith gyffredin trigolion Gwlad Canaan o'r caethgludiad i Babilon hyd wasgariad diweddaf a chyffredinol yr Iuddewon gan y Rhufeiniaid. Pan ddywedodd Iesu Grist ar y groes, "Eli, Eli, lama sabachthani," nid defnyddio y geiriau Hebreig, ond Aramaeg—iaith gyffredin y trigolion—yr ydoedd, er mai yn yr Hebraeg yn gyntaf y llefarwyd y geiriau: *Salm* xxii. 1. Hon a elwir "tafod priodol" yr Iuddewon gan Luc; *Act.* i. 19: ac yn hon hefyd y dywedir i Paul gyfarch yr Iuddewon: *Act.* xxi. 40; xxii. 2.

Yr unig anghreifftiau sydd i'w cael o'r Aramaeg sydd trwy gyfrwng ysgrifeniadau yr Iuddewon; ac heb law y geiriau unigol a ddefnyddir, ni a gawn yn (1), y darnau Caldeaidd o'r Hen Destament; *Dan.* ii. 4—7, 28; *Ezra* iv. 8—16, 18;

Digitized by Google

vii. 12—26: ac y mae tebygolrwydd mawr yn y rhai hyn i'r Hebraeg. (2.) Yr aralleiriad Caldaeg o'r Hen Destament, a elwir y *Targum* [gwel erthygl].

Y mae yr Aramaeg yn perthyn i'r un dosbarth o ieithoedd a'r Hebraeg a'r Arabaeg; yr hwn a elwir weithiau y dosbarth Semitaidd, ond yn ddiweddar, ac yn fwy priodol, y dosbarth Syro-Caldeaidd. Yr oeddynt oll yn gangenau o'r un iaith wreiddiol a lefarwyd gan hiliogaeth Sem, yn meddu yr un geiriau gwreiddiol, a'r un gramadeg yn mhob peth hanfodol; ond y mae llawer o'r geiriau sydd yn yr Hebraeg a'r Arabaeg o fwy nag un sill, wedi eu cwtogi i un yn yr Arabaeg; y mae sylweddeiriau hefyd yn fwy lluosog yn yr Hebraeg a'r Arabaeg. Mae geiriau hefyd oedd yn gyffredin iddynt oll yn yr iaith gyntefig wedi eu colli mewn un o'r cangenau, ac wedi eu cadw yn y llall, neu wedi eu cadw ynddynt oll mewn gwahanol ystyr. Mae hyn wedi peri amrywiaeth rhyngddynt. Y mae hefyd amryw wahaniaethau gramadegol rhyngddynt, megys yn nghyflead y fannod, a'r dull y ffurfir rhagddodiadau a therfyniadau geiriau.

O'r gangen arall, sef y Syriaeg, neu yr Aramaeg Orllewinol, nid oes dim ar gael mewn ysgrifen cyn genedigaeth Crist. Yr ysgrifen hynaf a wyddys am dani ynddi ydyw y cyfleithiad Syriaeg o'r Beibl, yr hwn a elwir y *Peshito*. O amser Vespasian hyd y bummed ganrif, yr oedd ysgolion duwinyddol Edessa—tref yn nghwr gogleddol Mesopotamia—yn foddion i ddiwyllio y Syriaeg; a dengys Epiphanius fod yr iaith hon yn cael ei hastudio yn fawr gan y Persiaid: ac y mae yn amlwg mai y dref hon oedd prif eisteddle dysgeidiaeth ddwyreiniol am lawer o flynyddoedd. Y mae ei dysgawdwyr yn adnabyddus mewn hanesiaeth am y rhan a gymmerasant yn y ddadl Nestoraidd. O'r wythfed i'r ddeuddegfed ganrif, yr oedd yr Arabaeg yn ennill tir ar y Syriaeg, nes o'r diwedd i'r olaf ddiflanu.

Yr oedd yn adnabyddus i deithwyr ac ysgolheigion, er's oesoedd bellach, fod trysorau mewn llaw ysgrifen o werth mawr yn guddiedig yn mynachdai Syria — gweddillion ysgrifenwyr Cristionogol o'r amseroedd boreuaf Yn ddiweddar, trwy ymdrechiadau y Dr. Tattam, pwrcasodd llywodraeth Prydain lawer o'r trysorau hyn, ac y maent yn awr yn y British Museum. Yn eu plith, y mae gwaith gan Eusebius o Cesarea, ar y "*Theophania;* neu ymddangosiad ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist." Dywedir fod y gwaith hwn dros bedwar cant ar ddeg o flynyddoedd o oed, ac iddo gael ei gopio oddi wrth un hynach yn 411, yn Edessa. Cafwyd hefyd gasgliad o lythyrau Athanasius ar amser cadwraeth y Pasc, dros un cant ar ddeg o flyneddoedd o oed. Y mae y llawysgrifau hyn wedi bod yn foddion i gyffroi sylw at iaith a llenyddiaeth Syria, a chyfrifir hyn o bwys mawr mewn cysylltiad âg eglurhadaeth y Beibl. Y cyfieithiad Syriaeg o'r Ysgrythyrau ydyw yr un mwyaf pwysig a gadwyd gan Ragluniaeth i'r eglwys o'r holl gyfieithiadau, oddi eithr yn unig y Deg a Thrigain. Gwel Syriaeg.

**ARAN**, [ארן, *arch*, neu *eu melltith*]: mab Disan, un o dduciaid yr Horiaid, ac ŵyr Seir, yr Horiad: *Gen.* xxxvi. 28.


**ARARAT**, [אררט]: y wlad ar fynyddoedd yr hon y gorphwysodd yr arch (*Gen.* viii. 4); i'r hon y ffodd meibion Senacherib ar ol lladd eu tad (2 *Bren.* xix. 37; *Esa.* xxxvii. 38). Yn yr adnodau hyn, cyfleithir y gair *Ararat*, *Armenia:* a gwysiwyd hi gyda theyrnasoedd Minni ac Aschenaz i ymarfogi yn erbyn Ierusalem (*Ier.* li. 27). Gorweddai rhandir Ararat yn nghanol teyrnas Armenia, a dywed eu hanesydd eu hunain, Moses o Chorene [*Hist. Armen.*, ii. pen. 6], y dosberthid hi i ugain o daleithiau. Felly, enw bro yn ucheldiroedd Armenia ydyw, yr hon a berthynai hyd 1828 i dalaeth Bersiaidd Erivan; ond yn awr, ffurfia ran o raglawiaeth Rwssiaidd. Y mae y rhan hon o'r byd wedi tynu sylw neillduol o'r oesoedd boreuaf, fel y man y gorphwysodd yr arch, ac fel canolbwynt ailymledaeniad dynolryw dros y ddaiar. Yn mhob parth o'r dwyrain, o'r bron, lle y mae traddodiad o'r dylif yn nghadw, y mae y trigolion yn arfer cysylltu gorphwysfa y llestr fawr â rhyw fryn neu fynydd uchel yn eu cymmydogaeth eu hunain. O ynys Ceylon, yn nghymmydogaeth y Ganges, i Phrygia, yn Asia Leiaf orllewinol, nid oes odid diriogaeth nad yw y trigolion, neu rywrai drostynt, wedi hòni hawl i'r anrhydedd hwn. Y traddodiad boreuaf a benoda ar un o'r rhes o fynyddoedd sydd yn ysgaru Armenia ar y deheu oddi wrth Mesopotamia; a'r rhai, gan eu bod yn amgylchu Kurdistan, a elwid, y fynydd-res Garduchiaidd; ac o'r diwedd, trwy lygriad, fe'u gelwid y Mynyddoedd Cordyæaniaidd. Y dyb yma a ffynai yn mysg y Caldeaid, os gallwn ymddibynu ar dystiolaeth Berosus, fel ei dyfynir gan Josephus [*Hen.* i. 3, 6]. Dywedir fod rhyw ran o'r llong yma yn aros eto yn Armenia, yn mynydd y Cordyæaniaid, a bod y bobl yn cludo ymaith ddarnau o'r pyg, yr hwn a ddefnyddiant fel swyngyfaredd. Y mae Abydenus yn dwyn tystiolaeth gyffelyb, gan chwanegu eu bod yn defnyddio coed yr arch yn gyfareddion: ac y mae hyn yn naturiol wedi gadael ei argraff ar yr aralleiriadau Caldeaidd, a'r cyfieithiadau Syriaidd; ac felly yn y testynau lle y mae y gair Ararat yn ein cyfieithiadau ni, y mae y gair *Kardu* yn *Nhargum* Onkelos; a dywed Buxtorf bod y gair *Kardyaidd*, yn y Galdaeg, yn gyfystyr âg "Armenaidd." Erpenius, yn ei gyfieithiad Arabaidd o *Gen.* viii. 4, a eilw orphwysle yr arch, *Jibal-el-Karud*, sef "Mynydd y Kurdiaid;" ac y mae yr un enw i'w gael yn *Llyfr Adda* y Sabeaid. Y mae amryw brofion o'r fath yn dangos mai dyna y dyb a ffynai yn yr eglwysi dwyreiniol; ac o'r ffynnonell hon y benthycodd Mahomet ei syniad, y mae yn dra thebyg; yr hwn yn ei Coran, a ddywed ddarfod i'r arch orphwyso ar fynydd Al-Judi—llygriad, dybygid, o'r enw Giordi; *h.y.*, Giordyæanaidd—y darnodiad a wnelid o'r holl fynydd-res unwaith, ond wedi hyny a gyfyngid at y rhan neillduol hono lle y tybid i'r arch orphwyso. Mynydd oedd hwn ychydig i'r dwyrain o Jezirah ibn Omar (yr hen Bezabde) ar y Tigris: wrth ei droed yr oedd pentref a elwid Karya Thaminin, neu "Bentref yr Wythdeg;" gan mai hyny, ac nid *wyth*, oedd y nifer a waredwyd rhag y dylif, yn ol Mahomet.

Y mae yr hanesydd Elmacin yn crybwyll i'r ymherawdwr Heraclius esgyn i fyny, ac ymweled â hwn fel "lle yr arch." Ac yr oedd yn y gymmydogaeth hon fynachdy Nestoraidd enwog unwaith, a elwid Mynachdy yr Arch, yr hwn a ddistrywiwyd gan fellt yn y flwyddyn B. A. 776. Haerai yr Iuddew hygoelus Beniamin o Tudela, fod teml Fahometaidd wedi ei hadeiladu ar fynydd Judi, o weddillion yr arch, gan y Calif Omar. Mae Macdonald Kinneir, wrth ddarlunio ei daith o Jezirah, ar hyd glan y Tigris, i Nahr Van, yn

Digitized by Google

dywedyd, "Yr oedd rhes o fynyddoedd yn ymestyn gyda'r ffordd ar y llaw aswy, yr hon a eilw y Tyrciaid, Juda Dag (sef *y mynydd*); ac fe'm sicrheid gan un o breswylwyr Nahr Van, iddo ef weled gweddillion arch Noah lawer gwaith ar ben clogwyn uchel o'r tu cefn i'r pentref hwnw." Ac y mae Eugene Boré, un o ddysgedigion Ffrainc, yr hwn a ymwelodd â'r parthau hyny yn ddiweddar, yn dywedyd fod y mynachod Tyrcaidd yn cadw lamp yn llosgi yn wastadol mewn crefyddy yn y fan hono.

Wedi i'r mynachdy Nestoraidd gael ei ddinystrio, y mae yn ymddangos i'r traddodiad a nodai fynydd Judi fel gorphwysle yr arch, golli ei ddylanwad yn mysg Cristionogion y gorllewin, er fod y Mahometiaid yn parhau i roddi coel iddo; ond y gred fwyaf cyffredinol yn mysg Cristionogion y canrifoedd diweddar yw, fod yr arch wedi gorphwys ar ryw fynydd mawr yn ngogleddbarth Armenia, a elwir gan y Tyrciaid, *Aghur-dagh;* ac mor gref yr ennillodd y gred yma ddylanwad ar y lluaws, fel o'r diwedd y rhoddid yr enw Ararat i'r mynydd, megys pe na buasai yn ammheuaeth nad hwn oedd Ararat yr Ysgrythyr. Er hyny, y mae digon o brofion fod y traddodiad a neilldua y mynydd hwn fel gorphwysle yr arch yn hen iawn; ac y mae yr holl wlad oddi amgylch yn llawn o chwedlau traddodiadol am arch Noah a'r dylif. Y mae y mynydd hwn yn gorwedd i'r deorllewin o dref Erivan, tua phum milltir oddi wrth lan ddeheuol yr afon Aras, a elwid gynt Araxes. Ymgyfyd yn fawreddog o ganol gwastadedd eang, yn anghydiol â mynyddoedd ereill y wlad, gan ymwahanu yn ddau glogwyn pigfain, un o ba rai sydd yn ymddyrchafu yn mhell uwch law ffiniau yr ia oesol [gwel y darlun]. Dywed Humboldt, ar awdurdod y teithiwr Almaenaidd Parrot, ei fod yn 17,260 troedfedd uwch law lefel



Dar. 52.—Mynydd Ararat.

y môr; felly y mae yn 6,389 uwch nag Etna; 1,528 troedfedd uwch na Mont Blanc, y clogwyn uchaf yn Ewrop; neu yn agos i bum waith uchder y Wyddfa yn Arfon! Ond nid yw yn esgyn i'r uchder mawr yma o'i waelod, canys y mae yn gorwedd ar ucheldir Armenia, yr hwn a gyfrifir gan Ritter yn 7,000 o droedfeddi uwch law lefel y môr. Ysgerir y clogwyn lleiaf oddi wrth y mwyaf gan ddyffryn eang, ac y mae yn llawer is; canys fe fydd yr ia yn diflanu oddi ar ei grib yn yr haf, a gwasanaetha yn lle calaniadur i drigolion yr ardaloedd cyfnesol, y rhai a drefnant eu gweithrediadau amaethyddol yn gyfatebol i doddiant yr eira ar Ararat leiaf.

Y mae Syr R. Ker Porter [*Trav.*, i. td. 182], yn ei ddarluniad o hono, yn dyweyd ei fod yn ymddangos "fel pe buasai mynyddoedd anferthaf y byd wedi eu pentyru ar eu gilydd yn y fan hon, er ffurfio yr un crynswth aruthrol ac ysblenydd yma o ddaiar, creigiau, ac ia. Ei ddau glogwyn gorchuddiedig gan eira a ymddyrchafant yn fawreddog i'r awyr glaer ddigymylau: yr haul a dywynai arnynt gyda'r fath danbeidrwydd nes oedd yr adlewyrchiad oddi arnynt yn pelydru gyda dysgleirdeb cyfartal i heuliau ereill. Fy llygaid, heb allu gorphwys dros unrhyw ysbaid ar ei uchelfanau, a grwydrent ar hyd ei lethrau meithion, hyd nes oeddwn yn methu dilyn ei linellau mwyach gan y pellderau maith; ac yna fe'm cynhyrfid yn anorchfygol drachefn i ddyrchafu fy ngolygon tuag at ei gribau gogoneddus ac ofnadwy." Yn gyffelyb y teimlai Morier hefyd, yr hwn a ddywedai, "Ni all dim fod yn fwy hardd na'i ffurf, nac yn fwy ofnadwy na'i uchder. Mae yr holl fynyddoedd amgylchynol yn suddo allan o sylw pan eu cymherir âg Ararat. Y mae yn berffaith yn ei holl ranau, heb fod ei arwedd yn ysgythrog, nac unrhyw grugau annaturiol arno; ond pob peth yn cydweddu i'w wneyd yn un o'r gwrthddrychau mwyaf arddunol ar y ddaiar."

Fel y crybwyllwyd eisoes, y mae yr holl wlad oddi amgylch yn llawn traddodiadau am y dylif ac arch Noah. Yr Armeniaid a alwant y mynydd hwn Massis-seuser, neu Fynydd yr Arch: y Per-

Digitized by Google

siaid a'i galwant Kuhi-Nuch, neu Fynydd Noah; ac y mae preswylwyr y gwledydd cylchynol yn credu yn gyffredinol fod gweddillion yr arch ar ei gopa eto, a bod y coed wedi ymgaregu. Dangosir croes yn eglwys Nova Schamachia, yn agos i gydiad yr Aras â'r Kur, yr hon, medd traddodiad, a wnaed lawer o ganrifoedd yn ol o astell o'r arch. Y mae rhanau uchaf y mynydd yn orchuddedig gan gymylau fynychaf; a phan wasgerir y cymylau, ac y dadlenir crib y mynydd, cwympa yr Armeniaid crefyddol ar eu hwynebau ar y ddaiar, gan ymgroesi a gweddïo. Dangosir y llanerch yn Erivan lle y planodd Noah y winwydden gyntaf; ac ystyr enw tref arall, Nakhchevan, neu Nakhdjovan, yn ol Chardin, yw *lle y disgyniad*, neu mai yno y dywedir i Noah ymsefydlu gyntaf wedi ei ddyfodiad allan o'r arch. Gwnaed llawer cais i gyrhaedd crib yr Ararat, ond ychydig a lwyddasant i gyrhaedd yn uwch na ffiniau yr ia oesol. Yn y flwyddyn 1700, gwnaeth y teithydd Ffrengig, Tournefort, ymdrechion mawrion i'w gyrhaedd, ond yn aflwyddiannus. Teithydd Almaenaidd, o'r enw Dr. Parrot, yn ngwasanaeth Rwssia, wedi ymdrechu ddwywaith yn aflwyddiannus, a lwyddodd yn ei drydydd cynnyg i gyrhaedd ei gopa, ar y 27ain o Fedi, 1829. Yr oedd agos yn grwn, ac yn lled argrymedig, tua dau can troedfedd ar ei draws, yn orchuddedig gan ia tragwyddol, heb na chraig na chareg yn weledig; ond ar gyfrif y pellder dirfawr, nis gellid gweled dim yn egluro ddi arno. Esgynwyd y mynydd drachefn gan Mr. Antonomoff; ond ni fŷn y brodorion a gyfanneddant amgylchoedd ei odreuon gyfaddef fod y naill na'r llall wedi cyrhaedd ei ben uchaf.

Ond mae rhesymau cryfion yn erbyn credu mai y mynydd hwn—*Aghur dagh*—oedd gorphwysle yr arch. 1. Nid yw yr ymadrodd, "ar fynyddoedd Ararat," yr hwn sydd gyfleithiad llythyrenol o'r Hebraeg, yn dynodi un clogwyn uchel o'r fath a ddysgrifir; ond gellir dyweyd fod dau glogwyn mynydd yn gwneyd yr ymadrodd yn briodol, a bod yr arch wedi gorphwys, fel y tybia Syr R. Ker Porter, ar y gwastadedd rhyngddynt: ond i hyn, yr ateb ydyw, gan mai yn y degfed mis (*Gen.* viii. 5), a'r dydd cyntaf o'r mis, yr oedd penau y mynyddoed i'w gweled, nid allasai yr arch orphwys ar y gwastadedd rhyngddynt, yn llawer is na'u penau, ddau fis yn flaenorol, ar yr ail ddydd ar bymtheg o'r seithfed mis (*adn.* 4). Y ffordd naturiol i ddeall yr ymadrodd, "ar fynyddoedd Ararat," ydyw, yn eu hystyr ramadegol a chyffredin, am diriogaeth fynyddig o fewn talaeth neu wlad o'r enw Ararat; fel y deallir yr ymadroddion cyffelyb, "mynyddoedd Israel," "mynyddoedd Samaria," nid am fynyddoedd o'r enwau Israel a Samaria, ond rhandiroedd mynyddig y gwledydd yna. 2. Yn ol y dysgrifiadau a roddir gan deithwyr am y clogwyni hyn, buasai yn anmhosibl, heb wyrth, i'r holl greaduriaid oedd yn yr arch ddisgyn hyd lethrau mor serth, filoedd o droedfeddi o ddyfnder. Y mae yn wir y gallasai yr Arglwydd wneyd gwyrth, ond pan y gwnai, fe'n hysbysir o hyny; nid yw yn eu cyflawnu yn afreidiol. Ac yn y lle cyntaf ni wnaeth wyrth i ddiogelu Noah a'i deulu, trwy eu hamgylchu â muriau o ddwfr, fel y gwnaed yn y Môr Coch, ond bu raid iddo wneyd arch. 3. Yn unol â'r dybiaeth hon, nid yw yr esboniad ar *Gen.* xi. 2, mor naturiol:—"A bu, a hwy yn ymdaith *o'r dwyrain*, gael o honynt wastadedd yn nhir Sinar; ac yno y trigasant." Gan fod y mynyddoedd dan sylw i'r gogledd o Sinar, neu Babilonia, gallesid dysgwyl mai tua'r deheu, ac nad tua'r gorllewin, y dysgrifid hwy yn teithio. I hyn, atebir yn fynych, fod Moses yn llefaru am y manau hyn mewn modd cyffredinol, gyda golwg ar y wlad o ba un yr oedd efe yn ysgrifenu; a chan fod Sinar yn gorwedd i'r dwyrain o Canaan, a'i fod yntau yn lled dybio y gallasai mynyddoedd Ararat fod yn mhellach yn yr un cyfeiriad, gallasai ddyweyd, heb feddwl am fod yn fanwl, iddynt deithio o'r dwyrain. Ond y mae esboniad arall, sydd yn gwneyd geiriau Moses yn gysson â ffeithiau daiaryddol.

Y mae Armenia yn gynnwysedig o ddau ogwydd neu ddyffryn mawr—un yn edrych tua'r gogledd a'r dwyrain, a'r afon Arexis yn rhedeg trwyddo; a'r llall yn edrych tua'r deheu-orllewin, trwy yr hwn y rhed yr Euphrates. Y mae holl afonydd y wlad yn rhedeg i un o'r ddwy hyn. Y mae yn debygol y buasai Noah a'i feibion, wrth ddisgyn i'r gwastattir, yn cyrhaedd glanau un o'r ddwy afon yma, gan ddilyn ei chwrs nes dyfod i'r wlad yr arosasant. Ond nid yr afon Arexis ydoedd; o herwydd nid o'r dwyrain ond o'r gorllewin y mae hon yn rhedeg; ac wrth ddilyn hon, cawsent eu harwain i wlad fynyddig Azerbigan, ac o'r diwedd, at lanau y Caspian. Y mae yn rhaid, o ganlyniad, mai dilyn yr Euphrates a ddarfu iddynt: ac arweiniai hon hwynt i Sinar. Wrth edrych ar fap, gwelir fod cangen ddwyreiniol yr Euphrates yn rhedeg "o'r dwyrain" i'r pwynt y try i'r deheu, ac oddi yno y mae yn tywallt ei dyfroedd trwy wastattir Mesopotamia. Fel hyn y mae geiriau Moses yn gysson â daiaryddiaeth y wlad. Ond mae Aghur-dagh yn sefyll yn nyffryn Araxis, ac y mae trum o fynyddoedd rhyngddo a'r Euphrates: ac ar y tir yma, nid yw mor debygol mai hwn oedd gorphwysle yr arch, ond yn hytrach rhyw ymgodiad ar y gwastadedd gogwyddedig a ddyfrhëir gan yr Euphrates. Y mae yn anhawdd, os nad yn anmhossibl, penderfynu y fan. Ond y mae yn naturiol casglu yr arweinid yr arch i'r man mwyaf cyfleus i gyrhaedd dyben y Goruchaf yn ail boblogiad y ddaiar. Y mae llawer o resymau dros gredu mai gwastadedd Sinar oedd canolbwynt y gwasgariad hwn: a chan mai dyffryn yr Euphrates a arweiniai yn fwyaf naturiol yno, y mae yr un rhesymau yn ffafriol i'r dybiaeth mai ar ryw lanerch yn nghymmydogaeth y dyffryn hwnw y mae y gwir fan. Ond y mae rhesymau cryfion, o natur ddaiaryddol, yn erbyn credu mai yr Aghur-dagh oedd gorphwysle yr arch.

**ARBA**, neu **CAER ARBA**: hen enw Hebron. Meddylir iddi gael yr enw hwnw oddi wrth ŵr enwog o'r enw Arba, yn mysg yr Arabiaid: *Ios.* xiv. 15; a xv. 13. Ond y Rabbiniaid Iuddewig a ddywedant iddi gael yr enw Arba, ystyr yr hwn yw *pedwar*, oddi wrth yr amgylchiad o fod Abraham, Sarah, Isaac, a Rebeccah, wedi eu claddu yno. Yr oedd yn lle o hynafiaeth tra mawr; canys fe'n hysbysir gan Moses ei bod wedi ei hadeiladu saith mlynedd o flaen Soan, dinas freninol yr Aipht: ac felly, bernir ei bod wedi ei hadeiladu yn fuan ar ol y dylif: *Num.* xiii. 22. Yma yr oedd Anac, a'i dad, a'i feibion, yn cyfanneddu; ond wedi i Caleb ei derbyn yn etifeddiaeth, efe a yrodd y cawri hyn allan o honi, ac a'i galwodd ar enw un o'i feibion ei hun, Hebron: *Ios.* xiv. 6—15.

**ARBACES**: maeslywydd y Mediaid, a rhaglaw talaeth Media, dan Sardanapalus, brenin Assyria; ymherodraeth yr hwn a ddymchwelodd

Digitized by Google

efe, gan seilio ymherodraeth Fediaidd ar adfeilion yr un Assyriaidd, tuag wyth gan mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol. Yr oedd Prideaux o'r farn fod Arbaces yr un a Tiglath-pileser; ond yr archesgob Usher a farnai nad dau enw gwahanol ar yr un dyn oeddynt, ond dau ddyn gwahanol, y rhai a lywodraethent wahanol daleithiau —y naill Media, a'r llall Assyria.

ARBATHIAD: un o drigolion Arabah, neu Beth-Arabah, yn llwyth Beniamin: 2 *Sam.* xxiii. 31. Gwel ARABAH.

ARBELA, neu ARBAH-EL: arwydda yr enw, *gwledydd hyfryd*, neu *gwledydd Duw;* ac ar y cyfrif hwnw y cyfarfyddwn âg amryw leoedd o'r enw hwnw yn Palestina. Y cyntaf, yn ol Eusebius, oedd bentref ar lan yr Iorddonen, a ymddibynai ar Pella. Yr ail, yn ol Josephus, oedd le yn nhalaeth Galilea, yn nghymmydogaeth Sephoris. Y trydydd oedd bentref yn Galilea Uchaf, nodedig am ei ogofeydd, yn y rhai yr ymnoddai lladron yn aml. Gwel BETH-ARBEL.

ARBIAD: un o drigolion dinas yn llwyth Iudah, a elwid Arab: 2 *Sam.* xxiii. 35; *Ios.* xv. 52.

ARBONAI: enw afon yn Asia; *Iudith* ii. 24.

ARCAS, [*ἄρκος*, neu *ἄρκτος—arth, cydser; y saith seren, yr Arth Mawr*]: mab Iau a Calisto. Bu agos iddo ladd ei fam, yr hon a dröes Juno yn arth. Bu yn teyrnasu yn Pelasgia, yr hon dalaeth a alwyd oddi wrtho ef yn Arcadia. Efe a ddysgodd amaethyddiaeth i'w ddeiliaid, yn nghyd â'r gelfyddyd o nyddu gwlân. Pan fu farw, tröes Iau ef yn seren, a gosododd ef yn y cydser gyda'i fam. Dywed rhai mai hi ydyw yr Arth Mawr, ac yntau yr Arth Bach. Fel yr oedd Arcas yn hela un diwrnod, cyfarfu â duwies y coed, yr hon a ddymunodd ei gynnorthwy o blegid fod y pren dros yr hwn y llywyddai hi, ac ar gadwedigaeth yr hwn yr oedd ei bywyd yn dibynu, ar gael ei ysgubo ymaith gan chwyrnlifeiriant afon. Tröes Arcas rediad y dwfr, ac achubodd y pren, a phriododd y dduwies, o'r hon y cafodd dri o feibion, Azan, Aphidas, ac Elatus, rhwng y rhai y rhanodd ei deyrnas. Sefydlodd hiliogaeth Azan drefedigaethau yn Phrygia. Tegea oedd rhandir Aphidas; ac am hyny, galwyd y lle yn etifeddiaeth Aphidas. Daeth Elatus yn arglwydd ar fynydd Cyllene; ac yn mhen ysbaid o amser, aeth i Phocis—(*Paus.; Hygin.; Apollod.; Strab.; Ovid; Lempr.; Wright.; Smith.*)

ARCI: dinas yn nherfynau llwyth Ephraim: *Ios.* xvi. 2.

ARCIAD: un o drigolion Arca, neu Acra, ac yn y rhif unigol am y llwyth o honynt: *Gen.* x. 17; 1 *Cron.* i. 15. Yr oeddynt yn deilliaw o'r Phœniciaid, neu o'r Sidoniaid, o hiliogaeth Canaan. Trefedigaeth o Sidon, efallai, oedd Arca, yn gorwedd rhwng Tripolis ac Antaradus, ar odre gorllewinol Libanus. Mae'n debyg ei bod, yn amser Dafydd a Solomon, dan lywodraeth yr Hebreaid. Gelwir Husai, cyfaill Dafydd, "yr Arciad," efallai am ei fod yn swyddog ar y dalaeth hono dan y brenin, fel yr oedd Baana ei fab, yn amser Solomon, yn Aser ac Aloth: 2 *Sam.* xv. 32; 1 *Bren.* iv. 16. Yn ol Josephus [*Hyn. Iudd.*, viii. 2, 3], yr oedd Baana yn rhaglaw Arca wrth y môr. Mewn oesoedd dilynol, cyfranogodd Arca o'r un helyntion a'r taleithiau bychain ereill cyfagos; ond mewn amseroedd diweddarach, yr oedd yn ffurflo cyfran o freniniaeth Herod Agrippa. Ni bu ei henw na'i sefyllfa yn llwyr anadnabyddus, er iddi fod am ryw ysbaid yn cael ei galw Cesarea Lebani, am ei bod yn lle genedigol Alexander Severus. Yr oedd yn gorwedd o ddeutu deuddeg ar ugain o filltiroedd Rhufeinig o Antaradus, deunaw o Tripoli, ac yn nghylch tair milltir oddi wrth y môr. Ychydig o hen olion ac adfeiliadau, a bryn bychan yn dwyn yr enw Tel-Arca, sydd yn bresennol yn dynodi ei lle.

ARCTURUS, [*αρκτος—arth*, ac *ουρα—cynffon*]: enw seren o'r maintioli mwyaf, yn yr arddrych gogleddol, yn agos i'r pegwn; a dywedir mai hon yw y seren sefydlog agosaf i'n cyfundrefn ni. Perthyna i'r cyfseryddiad a elwir yr Arth Mawr, yr un mae yn debyg ag a elwir gan y Seison, *Charles's Wain* (men Siarl), a chan y Cymry, Llun y Llong. Yn *Iob* ix. 9, am yr enw Groeg, Arcturus, ar ymyl y ddalen, ceir yr enw Hebreig *As*, yr hwn yn gyffredin sydd yn arwyddo *gwyfyn; Iob* iv. 19; xiii. 28; xxvii. 18: ac ef allai i'r Hebreaid ei alw felly oddi ar y dybiaeth fod gan y ser ddylanwad ar y tywydd, a bod yn dilyn ei chyfodiad awel yn peri deiflad, ac yn dwyn pryfed difaol. Neu, ynte, y mae y gair yn deilliaw o'r Arabaeg *nas*, trwy dori ymaith y llythyren gyntaf *n—as*, ac yn arwyddo *arth;* a thebyg ddarfod galw y cyfseryddiad wrth yr enw oddi wrth ryw gyffelybrwydd dychymygol a dybid fod rhwng gweledigad y ser hyn a llun arth, yr un modd ag y tybid fod rhwng ser ereill a llun amryw greaduriaid ereill y galwyd hwynt ar eu henwau. Y cyfryw enwau a roddid yn unig er mwyn cynnorthwyo y cof. Gelwir yr un cyfseryddiad gan yr Arabiaid wrth enw yn arwyddo *eior*, oddi wrth bedair seren yn llunio pedair ongl, cyffelyb i'r offeryn hwnw a ddefnyddir i gludo corff marw; a bod y tair seren sydd yn llunio cynffon yr arth, yn ol y dychymyg arall, yn ol hwn megys tair o alar-wragedd yn dilyn yr elor, neu fel plant galarus yn anfon eu tad tua'r beddrod, yr hyn sydd yn cynnwys syniad tra barddonol ac effeithiol. "Arcturus a'i feibion;" *Iob* xxxviii. 32: lle y golygir y brif seren, a'r rhai a'i cylchynant, megys tad a'i feibion o'i amgylch; neu fel arthes a'i chenawon yn ei dilyn. Nid yw y cyfseryddiad hwn byth yn machludo, ond yn troi yn barhaus o amgylch y seren ogleddol: a gellid meddwl mai hyn a dynodd sylw morwyr Cymreig, y rhai gan dybied eu bod yn canfod yn ngosodiad y ser hyn gyffelybrwydd i lun llong, a'u galwasant ar yr enw hwnw. Yr un ffunud y Seison amaethyddol a'i galwasant Llun y Fen, gan fod un neu ddwy yn ymddangos fel yn arwain y lleill, yn gyffelyb i wedd yn tynu men. Gwel SERYDDIAETH; PLEIADES; ORION, &c.—(*Rel. Encyc.; Kitto's Bib. Cyc.; Charles; Barnes* ar *Iob.*)

ARCH: gweddi, dymuniad, deisyfiad, gofyniad: *Lef.* xxv. 21; 2 *Sam.* xvi. 11; *Mat.* xiv. 28.

"Un *arch* a *erchais* ar Dduw Naf,
A hyny a *archaf* eto."—*Salm* xxvii. 4. *E. Prys.*

Gwel GWEDDI.

ARCH Y CYFAMMOD, [ארון, *aron*; Deg a Thrigain, a'r Testament Newydd, *κιβωτός*]. Y mae y gair Hebreig yma yn wahanol oddi wrth yr un a gymhwysir at arch Noah. Y gair yno

Digitized by Google

yw תבה (*tebah*), yr un a'r gair a ddynoda y cawell y cuddiwyd Moses ynddo (*Exod.* ii. 3). Ni ddefnyddir ef ond y ddwywaith hyn yn yr Ysgrythyrau. Yn yr anghraifft ddiweddaf, cyfieitha y Deg a Thrigain ef, θίβη, llong; yn *Gen.* vi. 14, cyfieithant ef, *κιβωτός*, *cist.* Ymddengys mai y gwir wahaniaeth rhwng y ddau air Hebreig, a gymmerir yn gyfystyr gan y Deg a Thrigain a'r Testament Newydd (sef *κιβωτός*; ond cyfieitha Josephus תבה yn λαρναξ), ydyw, fod *aron* yn dynodi rhyw fath o gist neu goffr; tra y cymhwysir *tebah* at arch Noah a chawell Moses yn unig, yr hyn sydd yn ei gwneyd yn debyg ei fod yn cael ei gyfyngu i'r cistiau hyny a fwriedid i nofio, o ba fath bynag y byddent.

Arch y cyfammod oedd fath o gist, o ffurf hirgul, wedi ei gwneyd o goed sittim, "o ddau gufydd a hanner ei hyd, a chufydd a hanner ei lled, a chufydd a hanner ei huchder, ac wedi ei gwisgo âg aur pur oddi fewn ac oddi allan." Yr oedd wedi ei hadduro ar ei hwyneb â chylch o aur dilin; neu, yn ngeiriau Moses, "gwnaed iddi goron o aur o amgylch." Gwnaed iddi bedair modrwy o aur ar ei phedair congl, "dwy fodrwy ar ei naill ystlys, a dwy fodrwy ar ei hystlys arall:" trwy y modrwyau euraidd hyn, gosodwyd trosolion o goed sittim, o'r un defnydd a'r arch, y rhai a wisgasid âg aur, ac oeddynt i aros yn y modrwyau bob amser: eu hamcan oedd "i ddwyn yr arch;" ac arosent yn nglyn â hi ar ol ei rhoddi i orphwys yn y tabernacl. Yr oedd cauad yr arch—"y drugareddfa" (כפרת, ἱλαστήριον, ἐπίθημα)—o'r un hyd a lled, ac wedi ei gwneyd o aur pur. Uwch ei phen, "ar ddau ben y drugareddfa," yr oedd dau gerub, y rhai oeddynt â'u hesgyll yn gorchuddio y drugareddfa, a'u hwynebau bob un at eu gilydd, ac yn gogwyddo i lawr at y drugareddfa: *Exod.* xxv. 10—22; xxxvii. 1—9. Ar yr arch, neu yn hytrach rhwng y cerubiaid, y gorphwysai y Shecinah, arwyddlun presennoldeb Iehofah, gan ymddangos fel cwmwl, fel pe buasai yn ymsymmud arni: *Lef.* xvi. 2. O herwydd hyn y dywedir fod Duw yn "eistedd rhwng y cerubiaid, ar y drugareddfa;" yno yr oedd ei orseddfa ar y ddaiar: 2 *Bren.* xix. 15; 1 *Cron.* xiii. 6; *Salm* lxxx. 1.



Dar. 53.

Dysgrifir arch y cyfammod gan Josephus (*Hen. Iudd.*, llyfr iii. pen. vii.) yn y geiriau canlynol:—"Gwnaed hefyd arch gyssegredig i Dduw, o goed oedd yn gadarn yn naturiol, ac a barhäai heb lygru. Galwyd hi *eron* yn ein hiaith ni. Ei ffurfiad oedd fel hyn: ei hyd yn bum rhychwant, ond ei lled a'i huchder oeddynt bob un dri rhychwant. Gorchuddid hi âg aur oddi mewn ac oddi allan, fel nad oedd y coed i'w gweled. Yr oedd ganddi hefyd gauad wedi ei gydio â hi gan ddorgolynau aur, mewn modd rhyfeddol; yr hwn gauad oedd bob ffordd wedi ei gymhwyso yn wastad ati; ac heb un anwastadrwydd i rwystro ei chyssylltiad perffeithiaf. Perthynai hefyd i bob un o'r estyll hwyaf ddwy fodrwy aur, ac yn myned trwy y coed; a thrwyddynt hwy yr oedd barau goreuredig yn rhedeg ar hyd pob ystyllen, fel y gallai, drwy hyny, gael ei symmud a'i chludo oddi amgylch fel y byddai achos yn galw; o blegid nid oedd yn cael ei thynu mewn mèn gan ysgrubliaid, ond ei chludo ar ysgwyddau yr offeiriaid. Ar y cauad hwn yr oedd dwy ddelw y rhai a elwir gan yr Hebreaid, *cherubim:* maent yn greaduriaid adeiniog, ond nid yw eu ffurf yn gyffelyb i ffurf un o'r creaduriaid a welwyd gan ddynion, er y dywed Moses ddarfod iddo weled y cyfryw fodau yn ymyl gorseddfainc Duw."

Arch y cyfammod oedd y dodrefnyn mwyaf cyssegredig ac ardderchog yn y cyssegr: y drychfeddwl am yr arch i gadw y llechau a roddes fod i'r tabernacl; ac ni adeiladwyd ef i un dyben arall amgen na bod yn drigfan i arch y cyfammod: *Exod.* xxvi. 33; xl. 21. Fel yr oedd y deml yn sancteiddio yr hwn a elai, a'r hyn a ddygid, i mewn iddi, felly yr oedd yr arch yn sancteiddio y deml ei hun. Yr oedd llestri a dodrefn y deml yn gyssegredig, am mai dodrefn y *deml* oeddynt; ac yr oedd y deml ei hun yn gyssegredig ac yn sanctaidd, am mai hi oedd trigfan yr arch; a'r gafell a gynnwysai yr arch oedd sancteiddiolaf y deml ei hun. Ni oddefid i neb gael golwg arni oddi eithr yr archoffeiriad yn unig; ac yr oedd yr holl amgylchiadau a berthynent i'w ddynesâd yntau ati yn tueddu yn fwy i ddwyshau gwylder ac i gynnyddu parch y genedl ati, na phe buasai hyny yn waharddedig iddo yntau fel ag yr oedd i'r holl genedl. Gosodwyd yr arch yn sancteiddiolaf y tabernacl, ac wedi hyny yn yr un gafell yn y deml. Ynddi y dodwyd llechau y gyfraith, y rhai a elwir "y dystiolaeth" (*Exod.* xxv. 16), a "llechau y cyfammod" (*Heb.* ix. 4). A ddodwyd crochan y manna, a gwialen Aaron, *yn* yr arch, sydd bwnc mewn dadl; ond y mae y tebygolrwydd cryfaf mai felly yr oedd. Ar y naill law, dygir yn mlaen y tystiolaethau hyny, fod Aaron wedi gosod y crochan i'w gadw *ger bron* y dystiolaeth (*Exod.* xvi. 34), ac nad oedd dim yn yr arch yn amser cyssegriad y deml ond y ddwy lech faen a osodasai Moses yno yn Horeb (1 *Bren.* viii. 9), a bod gwialen Aaron wedi ei dodi i'w chadw *ger bron* y dystiolaeth (*Num.* xvii. 10): ar y llaw arall, dygir yn mlaen *Heb.* ix. 4, y lle y dywedir eu bod *yn* (ἐν ῇ) yr arch gyda y llechau. Gellir sylwi nad yw yr hyn a ddywedir yn 1 *Bren.* viii. 9, a 2 *Cron.* v. 10—nad oedd dim yn yr arch ond y llechau—yn un prawf nad oedd gwialen Aaron, a'r crochan aur, ynddi ar y cyntaf, nac yn anghysson âg ymadroddion Paul yn yr Hebreaid; o blegid llefara yr apostol am y *tabernacl*, fel yr adeiladwyd ef gan Moses, ac nid am y *deml*, a adeiladwyd yn nghylch pum cant o flyneddoedd yn ddiweddarach. Nid yw y dywediad eu bod wedi eu dodi "*ger bron* y dystiolaeth" mewn un modd yn penderfynu *nad* oeddynt yn yr arch; o blegid nid *yw y dystiolaeth* (עדת) yn un man yn dynodi *yr arch*, ond bob amser yn arwyddo y *deng air*, neu y llechau, oedd ynddi (*Exod.* xxv. 16, 21; xxxi. 18). Felly, gallasai y crochan aur a gwialen Aaron fod *ger bron* y dystiolaeth, ac ar yr un pryd *yn* yr arch;

Digitized by Google

fe, nid yn hawdd y gallasent fod ger bron y naill heb fod yn y llall. Y mae yn dra thebygol fod y deml gyntaf yn ddiffygiol o'r naill a'r llall—gwialen Aaron a'r crochan aur—fel yr oedd yr ail deml yn ddiffygiol o'r tri, gwialen Aaron, y crochan aur, a llechau y cyfammod. Y tebygolrwydd ydyw, fod yr arch, trwy ei symmudiadau aml gan yr Israeliaid, ac yn neillduol yn ystod ei harosiad yn mysg y Philistiaid, wedi ei hamddifadu o honynt. Y mae y dywediad yn y Breninoedd a'r Cronicl yn hytrach yn cefnogi y golygiad, y buont yn yr arch rywbryd; o blegid pa ham y mae yr hanesydd yn myned i'r drafferth i ddyweyd "nad oedd dim yn yr arch ond y llechau?" Yr atebiad naturiol ydyw, fod rhyw bethau ereill heb law y llechau *yn perthyn iddi yn briodol*, y rhai y gallesid yn rhesymol ddysgwyl crybwylliad am danynt; ac ni allesid dysgwyl y buasai dim arall ynddi oddi gerth y crochan aur a'r manna.—[*Stuart's Excursus*, 17; *Ebrard on the Hebrews*.] Gwel Crochan aur; Gwialen Aaron.

Y mae yr holl hanes a geir am yr arch yn arddangos fod rhyw fawredd cyssegredig ac addurnol yn gyssylltiedig â hi, fel yr oedd yn arwyddlun sylweddol o bresennoldeb Iehofah. Tra y byddai y genedl yn ymdaith, gorchuddid hi â'r "wahanlen orchudd," gosodid "ar hyny dô o grwyn daiarfoch," a thanid "drosti wisg o sidan glas" (*Num.* iv. 5, 6); cludid hi yn orchuddiedig fel hyn gan yr offeiriaid o flaen y lluoedd, gyda gofal ac edmygedd mawr (*Num.* x. 33). Pan oedd yr arch yn "myned o 'flaen" y bobl y ciliodd ac y gwahanodd dyfroedd yr Iorddonen; ac arosodd yn ngwely yr afon gyda'r offeiriaid, a'r rhai oedd yn ei dwyn, nes darfod i'r holl genedl fyned trwodd: a chan gynted ag y dygwyd hi i fyny o ganol yr afon, dychwelodd y dyfroedd i'w gwely, a llifeiriasant megys gynt dros ei holl geulenydd (*Ios.* iii. 4, 7, 10, 11, 17, 18). Nid llai enwog oedd yr arch yn yr orymdaith o amgylch Iericho (*Ios.* vi). Nid ydyw, gan hyny, yn rhyfedd fod y cenedloedd cylchynol, y rhai ni feddent un syniad am addoliad ysbrydol, yn edrych arni fel Duw yr Israeliaid, yr hwn ddychymyg a allasai gael ei gadarnhau gan ddelwau y cerubiaid oedd arni. Pan wybu y Philistiaid ddyfod yr arch i'r gwersyll, hwy a ofnasant, ac a ddywedasant, "Daeth Duw i'r gwersyll;" 1 *Sam.* iv. 6, 7. Wedi y mynediad trwy yr Iorddonen, bu am ryw gymmaint o amser yn Gilgal, ac oddi yno dygwyd hi i Siloh; arosodd yno hyd amser Eli, pryd y dygwyd hi gyda 'r fyddin i'r rhyfel yn erbyn y Philistiaid, dan y dybiaeth ofergoelus y sicrhâai fuddugoliaeth i'r Hebreaid. Ond gorchfygwyd hwynt; a mwy na hyny, "Arch Duw a ddaliwyd!" Ond nid oedd buddugoliaeth y Philistiaid i barhau yn hir; o blegid yn mhen saith mis, "bu llaw yr Arglwydd yn drwm ar yr Asdodiaid:" cwynent fod ei law mor galed arnynt, ac ar Dagon, eu duw, fel yr oedd yn dda ganddynt ei hanfon yn ol (1 *Sam.* v. 7). Wedi hyn, bu yn Ciriath-iearim (1 *Sam.* vii. 1, 2) am ugain mlynedd, sef hyd amser Dafydd, yr hwn a fwriadodd ei symmud i Ierusalem; ond esgeuluswyd y dull a ordeiniwyd gan Moses i'w chludo o fan i fan i'r fath raddau fel ag yr achoswyd marwolaeth Uzzah: y farn ofnadwy hon 'a lanwodd Dafydd âg arswyd, ac a barodd iddo ei gadael yn nhŷ Obed-Edom (2 *Sam.* vi. 1—11); ond yn mhen tri mis, ymwrolodd, a llwyddodd i'w symmud gyda gorymdaith ardderchog i fynydd Sïon (*adn.* 12—19). Pan orphenwyd teml Solomon, dodwyd hi yn ei "lle ei hun, yn nghafell y tŷ, yn y cyssegr sancteiddiolaf;" 1 *Bren.* viii. 6—9. Deallir y geiriau yn 2 *Cron.* xxxv. 3, yn y rhai y mae Iosïah yn gorchymyn y Lefiaid i adferu yr arch i'r sancteiddiolaf, gan rai, fel yn arwyddo ei bod wedi cael ei symmud oddi yno, naill ai gan Amon, yr hwn a ddododd eilun yn ei lle, at yr hyn y bernir y cyfeirir yn 2 *Cron.* xxxiii. 23; neu gan yr offeiriaid eu hunain mewn amser eilunaddolgar, i'r dyben o'i diogelu mewn rhyw le dirgelaidd. Ond ymddengys yn fwy tebyg ddarfod iddi gael ei symmud o'r sancteiddiolaf yn adeg adgyweiriad y deml gan Iosïah; a'i fod ef, yn y geiriau hyn, yn rhoddi gorchymyn ar fod iddi gael ei hail osod yn ei lle. Pa beth a ddaeth o'r arch ar ol dinystr y deml gan y Babiloniaid sydd anhysbys. Yr Iuddewon a gredant iddi gael ei diogelu a'i chuddio rhag yr anrheithwyr; ac ystyriant ei bod yn mysg y pethau cuddiedig a ddadguddir gan y Messïah.

Ymofynir pa un a oedd yr arch yn yr ail deml, ai nid oedd. Barna y Dr. Prideaux, gan fod yr Iuddewon yn gweled yn angenrheidiol, er dwyn yn mlaen eu gwasanaeth crefyddol yn yr ail deml, fod ganddynt allor arogldarth newydd, bwrdd y bara gosod newydd, a chanwyllbren newydd, fod ganddynt hefyd *arch* newydd. Gofyna, Gan fod y sancteiddiolaf, a'r wahanlen a'i cysgodai wedi eu gwneyd yn unig er mwyn yr arch, pa angenrhaid oedd wrth y rhai hyn yn yr ail deml, os nad oedd yr arch yno? Yn erbyn hyn, cadarnheir fod yr holl ysgrifenwyr Iuddewig yn cytuno *nad* oedd yn yr ail deml; ac nad oes un prawf fod un newydd wedi cael ei gwneyd. Dywed *Gemara* Ierusalem (pen. i.), a *Gemara* Babilon, fod yr ail deml heb arch y cyfammod. Ystyrir fod y sancteiddiolaf yn wag yn yr ail deml; neu, fel y bernir gan y Rabbiniaid Iuddewig, ei fod yn cynnwys careg yn unig, i ddangos y lle y dylasai yr arch ei feddiannu. Y mae dystawrwydd Ezra, Nehemïah, ac ereill, am dani, y rhai a grybwyllant fwy nag unwaith am y llestri a'r dodrefn ereill, yn ymddangos yn benderfynol ar hyn, a rhydd Josephus dystiolaeth gadarnhaol nad oedd dim yn y sancteiddiolaf pan gymmerwyd Ierusalem gan Titus. Gellir nodi hefyd, mai absennoldeb yr arch o'r ail deml oedd un o'r neillduolion pwysig, o herwydd pa rai yr ystyrid hi yn llai ei gogoniant na'r gyntaf.

Y mae rhai wedi tybio fod yr hanes ysgrythyrol am wneuthuriad y tabernacl a'i holl ddodrefn yn ffugiol, am ei fod yn cynnwys fod yr Israeliaid yn meddu mwy o wybodaeth nag a allasai fod ganddynt ar eu hymadawiad o'r Aipht, lle na allasent weled dim yn debyg i'r hyn a ddywedir iddynt ei wneyd. I hyn, mae yn ddigon o atebiad i ddyweyd eu bod dan arweiniad Doethineb oedd yn alluog i'w dysgu. Ond gallwn ddyweyd chwaneg. Dygwyd i oleuni yn ddiweddar, gan Syr J. G. Wilkinson, arluniau o dde-



Dar. 54.

odau a dirgelion addoliad yr Aipht, yn y rhai y cawn anghreifftiau o gistiau, byrddau, a chread-

Digitized by Google

uriaid adeiniog, sydd mewn rhai pethau yn dwyn cyfatebolrwydd mawr i arch y cyfammod.




Dar. 55.

Rhoddwn yma ddyfyniad o Wilkinson, gyda darluniau i'w egluro:—"Un o'r defodau mwyaf pwysig," medd efe, "oedd 'gorymdaith y creiriau,' a ddarlunir yn fynych ar barwydydd y deml. Y creiriau oeddynt o ddau fath; y naill yn fath o gysgodlen (*canopy*); y llall yn arch neu gwch cyssegredig, yr hwn y gellir ei alw y crair mwyaf.



Dar. 56.

Cludid hwy gan yr offeiriaid gyda rhwysg mawr —nifer penodol o ba rai oeddynt wedi eu dewis i'r gwasanaeth, ac a'u cludent ar eu hysgwyddau gyda barau hirion, y rhai a aent trwy fodrwyau




Dar. 57.

o fetel ar ochr y càr ar ba un y safai, ac a'i dygent i'r deml, lle y gosodid ef ar fwrdd, er mwyn i'r defodau penodedig gael eu gweinyddu ger ei fron. Dygid y bwrdd hefyd, neu safle y crair, mewn gorymdaith gan ddosbarth arall o offeiriaid, y rhai a ganlynent y crair. Cludid y bwrdd, yr un modd a'r llall, gyda barau neu drosolion; yr hyn oedd yn drefn a arferid yn gyffredin i gludo cerfluniau mawrion, ac arwyddluniau cyssegredig, rhy drymion neu rhy bwysfawr i gael eu cludo gan un person. Dywedir mai yr un oedd arferiad yr Iuddewon yn rhai o'u gorymdeithiau crefyddol (cymharer 1 *Cron.* xv. 2, 15; 2 *Sam.* xv. 24; a *Ios.* iii. 12); megys pan ddygwyd yr arch i'w lle, i gafell y tŷ, i'r sancteiddiolaf, wedi adeiladu y deml gan Solomon (1 *Bren.* viii. 6). Rhai o'r eirch, neu y cistiau, a gynnwysent yr arwyddluniau o Fywyd a Sefydlogrwydd, y rhai, ar ol symmud y llen, a welid mewn rhan: ereill a gyflwynent y chwilen gyssegredig i'r haul, yn cael ei chysgodi gan esgyll dwy ddelw o'r dduwies Thenei, neu Wirionedd—yr hyn sydd yn galw i gof gerubiaid yr Iuddewon."—[*Ancient Egyptians*, v. td. 271, 275.]



Dar. 58.

Yn y dysgrifiad uchod, darnodir tri o wrthddrychau:—1af. Y safle, neu y bwrdd. 2il. Y cwch, neu "yr arch." 3ydd. Y gysgodlen. Nid yw y ddiweddaf, fel y gellid casglu oddi wrth y dyfyniad, yn grair ei hunan, fel yr ail; ond yn fwyaf cyffredin, y mae i'w gweled gyda ac yn y cwch. Dangosir hyn yn y darlun nesaf, lle y gwelir yr holl ranau yn nghyd, ac yn sefydlog.




Dar. 59.

Oddi wrth y tebygolrwydd hwn, y mae ysgrifenwyr wedi dadleu yn gryf mai gan yr Aiphtiaid y derbyniodd Moses y drychfeddwl am arch, ei llun, a'i gwneuthuriad. Oddi wrth y darluniau

Digitized by Google

uchod, a'u hanes, y mae yn fwy na thebyg i Moses weled dodrefn crefyddol yn mysg yr Aiphtiaid, oedd mewn llawer o bethau yn debyg i ddodrefn addoliad Duw Israel; ond etto, yr oedd yr annhebygrwydd yn fwy. 1af. Yr oedd cynnwysiad cistiau yr Aiphtiaid yn hollol wahanol i gynnwysiad yr arch:—arwyddluniau anmhur o alluoedd cynnyrchiol natur oedd yn y cyntaf, y rhai ni ddylid eu cymharu â'r olaf, ond mewn trefn i weled y gwrthwynebiad perffeithiaf sydd rhyngddynt. 2il. Nid oes dim o'r cistiau paganaidd yn dwyn y tebygolrwydd lleiaf i'r drugareddfa oedd ar yr arch: ac y mae hyn yn ddigon, pan gofiom fod y gair "iawn" a "thrugareddfa" yn cael eu defnyddio yn y Testament Newydd mewn cyfeiriad at y "drugareddfa" ar yr arch: *Rhuf.* iii. 25; *Heb.* ix. 5. Y mae y tebygolrwydd rhyngddynt, mor bell ag y cyrhaedda, yn ddamweiniol: yr oedd yr addoliadau Aiphtaidd a Hebreaidd yn gofyn math o gist; ac o hyn y tardd y tebygolrwydd. Ond yr oedd y gyntaf yn cynnrychioli Gwlad yr Aipht, a thywalltiad dwfr iddi, fel arwyddlun tarawiadol mewn gwlad ag y mae ei chynnyrch yn dibynu ar orlifiad ei hafon.



Dar. 60.

Math o long ydyw y peth amlycaf yn y darluniau uchod, ac ar y llong, yr hyn sydd yn debycach i allor nag i arch; ac am y creaduriaid âg adenydd iddynt, nid oes ynddynt un tebygolrwydd i'r cerubiaid ond eu hadenydd; ac yn hyn yr oeddynt yn debyg i arwyddluniau o'r fath yn Persia, India, a Babilonia; ac yn y dull yma yr arddangosant alluoedd dwyfol. Y mae yn annhebygol iawn y buasai Moses yn cymmeryd benthyg dodrefn ac addurniadau addoliad oedd yn ffiaidd gan yr Arglwydd, ac yn enwedig i arddangos egwyddorion mor hollol groes, pan ar yr un pryd yr oedd amcan ei holl drefniadau i'w hennill oddi wrth arferion ac addoliad yr Aiphtiaid. Yr ydym yn synu fod y Dr. Kitto [*Cyc. Bib. Lit.*] yn proffesu gweled cymmaint o debygolrwydd rhyngddynt. Y mae tystiolaeth yr Ysgrythyrau yn bendant; "Ond gwel wneuthur yn ol eu portreiad hwynt a ddangoswyd i ti yn y mynydd;" *Exod.* xxv. 40; *Heb.* viii. 5. Nid Moses ei hun a wnaeth nac a ddyfeisiodd gynllun y tabernacl, ond Duw a'i rhoddes iddo—Duw, yr hwn a wyddai arwyddocâd cysgodol y cyfan.

Gelwir yr arch yn "arch y cyfammod;" yr hyn ydyw yr enw mwyaf cyffredin a roddir arni, o blegid fod llechau y cyfammod wedi eu cuddio ynddi. Yr oedd y cyfammod a wnaeth Duw âg Israel, neu yn hytrach rwymedigaethau y cyfammod o'u tu hwynt, yn ysgrifenedig ar y llechau. Gelwir hi yn "arch y dystiolaeth" (*Exod.* xxvi. 33; xxix. 35; xl. 3, 5), am y gelwid y llechau "y dystiolaeth:"—pa rai a fynegent ewyllys Duw i'r genedl—ac oeddynt i fod, trwy gymmeradwyaeth y genedl o'r rhwymedigaethau, yn dyst parhaus rhwng Duw a hi; *Exod.* xxv. 16; xxxi. 18, &c. Gelwir hi yn "arch Duw" (1 *Sam.* iii. 3; vi. 2), am mai hi oedd yr arwyddlun mwyaf neillduol o'i bresennoldeb ef gyda'i bobl. Gelwir hi yn "nerth" (*Salm* lxxxviii. 61), ac yn "arch cadernid" Iehofah (*Salm* cxxxii. 8), am ei bod yn wystl o gyfryngiad gallu dwyfol o blaid Israel, ac yn eisteddle a ffynnonell y gallu hwnw; o blegid wedi iddynt ei cholli, rhoddwyd hwy i fyny yn ysglyfaeth i'w gelynion. Yr un modd gelwir hi yn "brydferthwch Duw" (*Salm* lxxviii. 61), ac yn "ogoniant Israel" (1 *Sam.* iv. 21), am mai hi oedd gorsedd ei ogoniant, ac mai arni hi y gorphwysai y shecinah: a "phrydferthwch" Duw oedd gwir ogoniant ei bobl.

Mae Jonathan Edwards [*Notes on the Bible*] yn nodi amryw bethau am yr arch, fel yr oedd ynddynt yn gysgod o Grist. Yr oedd hi mewn modd arbenig yn dwyn perthynas agos â'r Duwdod—yn fath o orseddfa iddo ar y ddaiar: rhagddangosiad o undeb y Duwdod â'r dyn Crist Iesu. Perthynai i'r arch waeledd ac ardderchogrwydd, tlodi ac urddas; arch o goed ydoedd, ond wedi ei gwisgo âg aur—portreiad o'r ddynoliaeth isel wedi ei dyrchafu a'i hurddasoli trwy ei hundeb â Mab Duw. Yr arch oedd cyfrinfa Iehofah; yno y gorweddai y llechau a ddarparodd—arddangosiad o'r Cyfryngwr, i'r hwn yr ymddiriedodd Duw ei ogoniant, y trysorodd ynddo bob cyflawnder, y rhoddodd yr Ysbryd nid wrth fesur iddo, a'r hwn yr oedd deddf Duw yn ei galon. Fel hyn, wrth olrhain y cyfaddasrwydd oedd yn yr arch, a dodrefn ereill y gyfraith, fel cysgod y daionus bethau i ddyfod, nid rhyfedd i'r bardd Cymreig ddiweddu ei gyfrifiaeth o honynt gyda'r geiriau.

"Fy Iesu ydyw rhai'n i gyd."

—(*Owen on Hebrews*; *Hengstenberg on the Psalms.*)

ARCH NOAH. Gwel NOAH.

ARCHANGEL, [o'r Gr. Ἀρχάγγελος; ἄρχων, *pen*, *bluenor*, *tywysog*; ac αγγελος, *angel*]: y prif angel; yr angel uchaf mewn gallu ac urddas. Y mae cyfatebiaeth iaith yn ein dysgu fod y gair hwn yn dynodi y prif angel—un goruwch yr angelion ereill; fel ἀρχιερεύς, αρχισυνάγωγος, *arch*offeiriad, *arch*synagogydd. Oddi wrth luosogrwydd dirfawr y bodau goruchel hyn, gallesid yn rhesymol gasglu, ar sail cyfatebiaeth, fod yn eu plith wahanol raddau a dosbarthiadau, os nad naturiaethau, gan fod graddoldeb yn ddeddf sydd yn ffynu trwy bob rhan o'r greadigaeth ag sydd yn ddarostyngedig i'n sylw ni. Ond y mae yr Ysgrythyrau, yn enwedig y Testament Newydd, dybygid, yn penderfynu hyn: *Eph.* i. 21; *Col.* i. 16; 1 *Pedr* iii. 22. Tybia rhai fod "thronau," yn dynodi y dosbarth uchaf; "tywysogaethau," yn enw eang ar y graddau uchaf yn gyffredinol; a "meddiannau," yn gyferbyniol iddo, fel enw cyffredinol ar y graddau isaf; yna, "awdurdodau;" ac yn olaf, "arglwyddiaethau." Yn *Col.* i. 16, ymddengys fod y ddwy radd eithaf yn cael eu nodi yn mlaenaf, yna y ddau enwad cyffredinol, gan fod yr apostol, dybygid, yn yr adnod hon, yn cyferbynu y gwahanol bethau a enwir *bob yn ddau*:—"nefoedd a daiar;" "gweledig ac anweledig;" "thronau ac arglwyddiaethau;" "tywysogaethau a meddiannau." Y mae yn amlwg fod y meddiannedig yn cael ei roddi yma am y meddiannydd, trwy drawsenwad. Tybia ereill, er fod y syniad am wahanol raddau o angelion yn hysbys i'r Cristionogion yn yr oes apostolaidd, yn gystal ag i'r Iuddewon, etto, fod unrhyw ddosbarthiad penodol arnynt yn ol eu

Digitized by Google

graddau yn y gyssegrlywodraeth (*hierarchy*) nefol, yn hollol anadnabyddus yn y cyfnod apostolaidd ac nad yw yr ymadroddion y sylwir arnynt uchod i'w deall am wahanol ddosbarthiadau yn mhlith yr angelion yn neillduol, ond eu bod i'w cymhwyso atynt hwy mewn undeb â phob math arall o fodau, yn ddiwahaniaeth, sydd yn meddu gallu ac awdurdod—*gweledig*, yn gystal ag anweledig—ar y *ddaiar*, yn gystal ag yn y nefoedd. Gwel Angel.

Yn ben ar yr holl "dywysogaethau" nefol, y mae Michael, "un o'r tywysogion penaf," neu "y blaenaf o'r tywysogion" (*Dan.* x. 13); "y tywysog mawr" (xii. 1); "yr *archangel*" (*Iud.* 9; 1 *Thes.* iv. 16). Y mae Llyfr Enoch yn crybwyll am "y pedwar archangel mawr, Michael, Raphael, Gabriel, ac Uriel." Y mae yn dybiaeth led gyffredin fod *saith* o archangelion; a golygai yr Iuddewon Michael y mwyaf o'r saith. Ystyrient hwy yr archangelion yn gyfryw—nid yn syml fel dosbarth wrthynt eu hunain, ond pob un fel blaenor y gwahanol ddosbarthiadau i ba rai y tybient y rhenid yr angelion; ac o'r dosbarthiadau hyn, ystyrient Michael fel pen yr uchaf, ac felly, y mwyaf o'r holl archangelion [*Sepher Othioth*, td. 16, dyfynedig yn *Kitto's Cyc.*]. Ond nid ydym yn canfod unrhyw awdurdod ysgrythyrol dros dybied fod mwy nag *un* archangel: ni cheir crybwylliad ond am un, sef Michael: *Iudas* 9. Nid yw y gair yn dygwydd ond dwywaith yn yr holl Feibl, a hyny yn y Testament Newydd; sef yn 1 *Thes.* iv. 16, a *Iudas* 9: ac yn y naill a'r llall, y mae yn y rhif unigol. Y mae yn wir y sonir yn *Dad.* viii. 2, am "y saith angel sydd yn sefyll ger bron Duw," yr hwn ymadrodd sydd yn ddiau yn dynodi rhagoriaeth urddas; ond nid oes genym sail i dybied fod Michael yn un o'r rhai hyn; a phe byddai, nid yw yn canlyn fod y lleill hefyd yn archangelion. Y mae ysgrifenwyr Iuddewig a Christionogol yn gyffredin yn golygu Gabriel yn archangel. Y mae yn rhaid i ni gredu fod ei sefyllfa ef yn un dra dyrchafedig ac urddasol yn mhlith y "tywysogaethau" nefol, oddi wrth y cenadwriaethau pwysig a ymddiriedid iddo. Ond ar yr un pryd, ni elwir ef mewn un man yn "archangel;" a gallem gasglu fod gwaith Michael yn dyfod i'w gynnorthwyo yn erbyn "tywysog teyrnas Persia," yn penderfynu ei uchafiaeth ef ar Gabriel. Gelwir Michael, yn bennodol, "yr archangel" (*Iudas* 9); ac nid oes un o'r angelion ereill yn cael eu galw felly. Gwel Gabriel.

Y mae yn hen ddadl pwy a feddylir wrth "Michael yr archangel"—pa un ai y penaf o'r angelion crëedig, ai ynte yr Arglwydd Iesu. Tybia y rhai a fabwysiadasant y golygiad olaf, mai at yr un amgylchiad y cyfeirir yn *Iudas* 9, a'r un y cawn ei hanes yn *Zech.* iii; ac y maent yn esbonio y blaenaf wrth yr olaf. Yn *Zech.* iii. 1—5, yr ydym yn cael hanes "Iosuah yr archoffeiriad yn sefyll ger bron angel yr Arglwydd, a Satan yn sefyll ar ei ddeheulaw ef, i'w wrthwynebu ef"—sef yn ei amcan o adferu yr eglwys a'r wladwriaeth Iuddewig, yr hyn a ddangosir dan rith adferiad yr offeiriadaeth i Iosuah. Wrth "angel yr Arglwydd," yn *adn.* 1, golygant yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn hefyd a elwir, yn *adn.* 2, yn "Arglwydd," neu *Iehofah*:—"A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, Cerydded yr Arglwydd dydi, Satan; sef yr Arglwydd yr hwn a ddewisodd Ierusalem, a'th geryddo." Oddi wrth y cyffelybrwydd yn yr ymadroddion hyn i'r hyn a ddywedir am "Michael yr archangel," yn *Iudas* 9, tybiant hwy mai yr un person ydyw "Michael," ag "angel yr Arglwydd," neu Iehofah yn mherson y Mab, yn *Zech.* iii, a bod yr "ymddadleu" a'r "ymresymu yn nghylch corff Moses" yn golygu yr un peth a gwaith Satan yn gwrthwynebu yr amcan mawr o adferiad yr eglwys a'r wladwriaeth Iuddewig—gan ddeall yr ymadrodd "corff Moses" yn arwyddol am y gyfundraeth Foesenaidd, megys ag y mae yr apostol Paul yn galw yr Eglwys Gristionogol yn "*gorff* Crist." Y mae yn amlwg, dybygem ni, mai wrth "angel yr Arglwydd" yn *Zech.* iii. 1, y golygir yr Arglwydd Iesu, gan ei fod yn cael ei alw yn *adn.* 2, yn "Arglwydd," neu "Iehofah;" a chan ei fod hefyd, yn ei berson a'i enw ei hunan yn hysbysu i Iosuah ddarfod iddo "symmud ei anwiredd." Ond nis gallwn weled ar ba sail y gwneir yr hanes yn *Iudas* 9 yr un a'r hanes yn *Zech.* iii. Yr unig gyffelybrwydd rhyngddynt ydyw, yr hyn a geir yn yr atebiad i Satan yn y naill a'r llall—"Cerydded yr Arglwydd dydi;" ac nid oes dim yn erbyn y meddwl y gallasai yr ymadrodd hwn gael ei ddefnyddio ar wahanol achlysuron. Y mae y rhesymau canlynol, i'n tyb ni, yn rhoddi sail gref i farnu mai wrth "Michael yr archangel," y golygir y penaf o'r angelion crëedig, ac nid yr Arglwydd Iesu Grist. 1. Y mae yr enwad "archangel," ar yr olwg gyntaf, yn arwyddo hyn: y mae pob cyfatebiaeth, fel y sylwyd eisoes, yn ein harwain i gyssylltu âg ef yr ystyr syml a llythyrenol, sef *y prif angel*; gan fod y rhagddod *arch*, bob amser, yn golygu y penaf o'r dosbarth a gyssylltir âg ef, megys archoffeiriad, archsynagogydd, &c. 2. Ystyr yr enw *Michael* (מיכאל) ydyw, *pwy fel Duw?* Gellid meddwl na buasai yr enw hwn yn briodol ar berson dwyfol, gan ei fod yn golygu isafiaeth; tra ar yr un pryd, ac am yr un rheswm y mae yn enw tra chymhwys, hyd yn oed ar y *creadur* mwyaf urddasol, i ddangos fod pellder anfeidrol rhwng y graddau eithaf o ogoniant crëedig a Duwdod. 3. Y mae yn dra annhebyg y buasai yr Arglwydd Iesu yn cael ei alw yn y Testament Newydd yn "archangel;" ac nid yw y gair yn dygwydd ond yn y Testament Newydd. Y mae yn wir ei fod yn yr Hen Destament yn fynych yn cael ei alw yn "Angel yr Arglwydd;" ond yr oedd yr enwad hwn yn cyfateb i dywyllwch yr oruchwyliaeth hono, gan mai ar wedd angelaidd yr oedd efe y pryd hwnw yn ymddangos. Ond yn y Testament Newydd, y mae yn "Dduw wedi ymddangos yn y cnawd;" ac nid yw yma byth yn cael ei alw wrth enwau o ystyron tywyll a chyfriniol. 4. Yn *Iudas* 9, dywedir am Michael, "na *feiddiodd* ddwyn barn gablaidd" ar ddiafol. Ni byddai y dull hwn o ymadroddi yn briodol i'w gymhwyso at neb ond creadur: y mae yn wir y gellir cyfieithu *οὐκ ἐτόλμησε* yn "ni chymmerodd arno"—"nid ewyllysiai;" ond wedi hyny, ymddengys i ni fod yr un meddwl yn cael ei gynnwys:—"Nid oedd yn ewyllysio cymmeryd arno ei hun y gorchwyl o ddwyn yn ei erbyn farn, a'i gyhuddo ger bron Duw am ei gabledd (neu o ddwyn yn ei erbyn farn, gan ei gablu); ond y mae yn rhoddi yr achos yn gwbl yn llaw yr Arglwydd—'Cerydded yr Arglwydd dydi.'" 5. Y mae y cyd-darawiad nodedig sydd rhwng *Iudas* 9, a 2 *Pedr* ii. 11, dybygem ni, yn penderfynu hyn. Yn y blaenaf, sonir am ryw "freuddwydwyr yn diystyru llywodraeth, ac yn cablu y rhai sydd mewn awdurdod." Ac mewn gwrthgyferbyniad tarawiadol i'w hymddygiad hwy, dygir yn mlaen ymddyg-

Digitized by Google

iad "Michael yr archangel," yr hwn ydoedd wedi ei foneddigeiddio i'r fath raddau gan foesau y llys nefol, fel na "feiddiodd ddwyn barn gablaidd" hyd yn oed ar ddiafol. Yn awr, y mae y cyd-darawiad rhwng hyn a 2 *Pedr* ii. 10, 11, yn nodedig, ac yn gyfryw ag sydd yn peri i ni dybied fod yn yr olaf gyfeiriad penodol at y blaenaf. Sonir yma am ddosbarth o ddynion, yn hollol o'r un nodweddiad a'r rhai a ddarlunir yn Iudas yn "rhyfygus"—"heb arswydo cablu urddas;" ac mewn cyferbyniad i'r rhai hyn eto, y chwanegir, "Lle nid yw yr *angylion*, y rhai sydd fwy mewn gallu a nerth, yn *rhoddi cablaidd farn* yn eu herbyn hwynt ger bron yr Arglwydd." Os oes yma gyfeiriad at ymddygiad boneddigaidd Michael, fel yr ymddengys i ni fod, y mae efe i'w restru yn mhlith yr "angylion, y rhai ydynt fwy mewn gallu a nerth" na dynion; ac nid i'w ystyried yn berson dwyfol. Y mae yn wir fod cymmaint a hyny o wahaniaeth rhwng y ddau grybwylliad yn Iudas, a 2 *Pedr:* yn y blaenaf, dywedir nad yw y "gablaidd farn" yn cael ei dwyn yn erbyn *diafol;* ac yn yr olaf, nad yw yn cael ei dwyn yn erbyn *dynion*. Ond nid yw hyn yn peri nas gall yr amgylchiad yn Iudas fod yn sail i'r crybwylliad yn 2 *Pedr:*—os ydyw yr angel *uchaf* mewn awdurdod ac urddas yn ymattal rhag dwyn y "gablaidd farn" yn erbyn *diafol*, y bod gwaethaf yn y greadigaeth, gellid ymresymu *à fortiori* fod yr angylion *yn gyffredinol* yn ymddwyn yn gyffelyb yn eu hymdrafod â *dynion*.

Yr holl gyfeiriadau Ysgrythyrol at Michael, erbyn ei enw, ydynt y pum lle canlynol:—*Dan*. x. 13—21; a xii. 1; *Iudas* 9; a *Dad*. xii. 7.

Yn *Dan*. x, gosodir ef allan fel noddwr cenedl Israel—yn un ag yr oedd achosion y genedl wedi eu hymddiried i'w ofal, ac o dan ei arolygiaeth. Gelwir ef yma "Michael, eich tywysog chwi:" ac y mae yn dyfod i gynnorthwyo Gabriel yn erbyn "tywysog teyrnas Persia;" sef yr angel, y mae yn debyg, oedd yn gwylio dros, ac yn arolygu achosion ymherodraeth Persia—angel drwg, fel y tybia rhai, yr hwn oedd yn ceisio gosod rhyw rwystrau ar ffordd yr Iuddewon i ddychwelyd i'w gwlad, ac i adeiladu eu teml. Yn *Dan*. xii. 1, gelwir ef, "Michael y tywysog mawr, yr hwn sydd yn sefyll dros feibion dy bobl."

Y mae yr amgylchiad y cyfeirir ato yn *Iudas* 9 wedi rhoddi achlysur i luaws o farnau gwrthwynebol. Y mae rhai, fel y crybwyllwyd eisoes, megys Vitringa, Lardner, Macknight, ac ereill, yn ei ddeall yn arwyddol, gan ei wneuthur yr un a'r hanes yn *Zech*. iii; ac yn golygu wrth "gorff Moses," y deddfau a'r gosodiadau Moesenaidd. Ereill a'i hystyriant yn hollol ddiberthynas â'r weledigaeth yn Zechariah, gan ddeall yr ymadrodd, "corff Moses," yn ei ystyr priodol. Pan ystyriom y dirgelwch a orweddai dros holl amgylchiadau claddedigaeth Moses, y mae yn hawdd meddwl y gallasai fod rhyw ymgystadliad gwrthwynebol rhwng ysbrydion da a drwg o berthynas iddo. Ni roddir un math o awgrymiad am natur na thestyn uniongyrchol yr ymgystadliad hwn. Tybir fod lle claddedigaeth Moses wedi ei guddio oddi wrth genedl Israel, fel na byddai iddo fod yn un math o achlysur i eilunaddoliaeth; a bod y diafol, oddi ar ei awydd am i'w gorff neu ei feddrod fod yn fagl i'r genedl fel gwrthddrychau addoliad, yn ymddadleu â "Michael, yr archangel" (i'r hwn, efallai, yr ymddiriedasid y gorchwyl o'i gladdu) yn erbyn i le ei gladdedigaeth gael ei gadw yn guddiedig. Y mae golygiad arall yn cael ei grybwyll ar y mater hwn gan y Dr. Eadie, yn ei *Cyclopædia*, yr hwn sydd yn ymddangos i ni â llawer o debygolrwydd ynddo, ar yr hwn y gwneir y sylwadau canlynol, gan ysgrifenydd galluog yn *Kitto's Journal of Sacred Literature*:—

"Am natur y ddadl hon, yr hon y mae geiriau yr apostol yn arwyddo iddi gymmeryd lle yn mhresennoldeb Duw, ofer fyddai siarad gydag un gradd o sicrwydd. Dywed Eadie [*Bibl. Cyc.*], fel y canlyn:—'Y mae yr hyn a ddywedir am ei gladdedigaeth (sef yr eiddo Moses: *Deut*. xxxiv. 6), a'r hyn a ddywed Iudas am yr archangel yn ymddadleu â diafol yn nghylch ei gorff (*Iudas* 9), yn nghyd â'i ymddangosiad gydag Elias ar fynydd y gweddnewidiad (*Mat*. xvii. 3), wedi arwain rhai i dybied ei fod wedi ei gyfodi yn uniongyrchol o feirw, a'i symmud i'r nefoedd; ond yn nystawrwydd yr Ysgrythyrau, y mae pob tybiau o'r fath yn ofer.' Pa fodd bynag, os *cafodd* corff Moses—yr hyn sydd yn dra thebyg—ei arbed rhag tynged gyffredin cyrff marwol, a thrwy gael ei fywhau eilwaith, ei gymmeryd megys trwy drais oddi tan lywodraeth 'yr hwn sydd â nerth marwolaeth ganddo;' a'r hwn, o ganlyniad, a fuasai yn awr yn cael ei amddifadu o'i fuddugoliaeth arferol (er nad yw ond dros dymmor) yn nghanlyniadau cyfreithlawn y pechod ag y bu efe yn foddion i'w ddwyn gyntaf i mewn:—os bu hyn oll, gallwn ddeall pa ham y gwrthwynebai efe y bwriad dwyfol, ac y safai am ei hawlion (pa un bynag ai gwirionedd ai tybiedig)."

Y cyfeiriad olaf at Michael sydd yn *Dad*. xii. 7—9. Darlunir ef yma fel blaenor y llu nefol, yn "rhyfela" o blaid yr eglwys "yn erbyn y ddraig a'i hangylion," y rhai a orchfygir ac a "fwrir allan i'r ddaiar." Y mae yn debyg fod yma gyfeiriad at y cymmeriad a briodolir i Michael yn *Dan*. x. 13; a xii. 1.

Yn 1 *Thes*. iv. 16fed, dywedir y bydd i'r "Arglwydd ei hun ddisgyn o'r nef gyda bloedd, *a llef yr archangel*." Sylwa Macknight ar y lle hwn fel y canlyn:—"Yr archangel y lleferir am dano yma yw efe, yr hwn a lywydda dros y llu aneirif hyny o angylion, y rhai ydynt i weini ar Grist yn ei ddyfodiad i farnu y byd. O flaen ymddangosiad cyntaf Crist ar y ddaiar, anfonwyd Ioan Fedyddiwr i lefain, 'Parotowch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef.' Yn y cyffelyb fodd, o flaen ei ail ymddangosiad fel barnwr, bydd yr archangel yn cyhoeddi ei ddyfodiad, ac yn gwysio y rhai byw i ymbarotoi i'r farn."

**ARCHAU, LLYS YR**: y llys adferu uchelaf yn archesgobaeth Caergaint. Derbynia ei enw Seisonig (o'r hwn nid yw yr un Cymreig ond math o gyfieithiad), *Court of Arches*, oddi wrth yr arferiad gynt o'i gadw yn *Bow Church* (*Sancta Maria de Arcubus*, yn y Lladin), yn ninas Llundain, o'r hwn le y symmudwyd ef o ddeutu y flwyddyn 1567, i Neuadd Gyffredin y Rheithglas, neu Goleg y Rheithofyddion (*Doctors' Commons*), ger llaw eglwys St Paul, lle ei cynnelir yn awr. Y mae y llys hwn yn llys hen iawn, canys y mae profion ar gael ei fod yn hanfodi yn mhell cyn amser y brenin Harri II; ac y mae ei enw Cymreig cyn hened o leiaf a'r *Gosodedigaethau* a'r *Canonau Eglwysig*, a osodwyd allan gyntaf yn y flwyddyn 1603. Barnwr y llys a elwir yn gyffredin *Deon yr Archau*. Rhaglaw archesgob Caergaint ydyw; canys, yn ngolwg y gyfraith, yr archesgob ei hun a gyfrifir yn farnwr.

Y mae gan y llys hwn fraint ac awdurdod

Digitized by Google

gyffredin i drin pob math o gynghaws mewn materion eglwysig a ddygwyddo godi o fewn plwyf *Bow Church*, a deuddeg o blwyfau ereill, y rhai a elwir yn ddeoniaeth; ac y maent yn rhydd oddi wrth awdurdod esgob Llundain, er eu bod yn gorwedd o fewn ei esgobaeth, ac yn ffurfio rhan o honi. Y mae gan Lys yr Archau hefyd hawl i wrandaw cwynion a godir iddo allan o unrhyw lys eglwysig arall o fewn talaeth Caergaint, yr hon a gynnwys un ar ugain o esgobaethau. Y mae ganddo hefyd awdurdod i ddechreu cynghaws ar bob pwnc perthynol i gymynroddion, os bydd yr ewyllysiau wedi cael eu profi yn mreintlys y dalaeth eglwysig hono, er na bo y cwyn wedi ei brofi o'r blaen mewn un llys eglwysig arall.

Deon yr Archau, am yr amser y byddo yn ei swydd, yw penaeth neu lywydd Coleg Doethorion y Gyfraith, y rhai a drinant achosion yn y llysoedd eglwysig a'r morlysoedd, y sawl a gydgorfforwyd yn y flwyddyn 1768; a'r dadleuwyr perthynol i'r llysoedd hyn a dderbyniant eu hawdurdod oddi wrth Lys yr Archau. Dewisir Deon yr Archau bob amser o blith aelodau Coleg y Dadleuwyr. Y mae i'r llys hwn bedwar tymmor, a phedair eisteddfod yn mhob tymmor.

Gellid ympeliaw oddi wrth ddedfryd Llys yr Archau at Lys yr Anfonogion, neu, a llefaru gyda mwy manylder, at y brenin mewn canghell-lys, yr hwn a benodai ddirprwywyr i wrandaw pob cwyn a chynghaws; ond trwy weithred seneddol diweddar, trosglwyddwyd yr hawl i adferu achosion o Lys yr Anfonogion at y brenin mewn cynghor. Cafwyd anghraifft dra chofiadwy o hyn ychydig o flyneddoedd yn ol yn y cynghaws rhwng esgob Exeter a'r Parch. G. G. Gorham, pryd, er gorchfygu o'r esgob yn Llys yr Archau, y collodd efe ei gŵyn pan ddygwyd yr achos o flaen dirprwywyr y cyfrin-gynghor. Y mae awdurdod gan Ddeon yr Archau i eistedd megys cynnorthwywr i farnwr y Morlys, ac os bydd achos yn gofyn am hyny, gall eistedd yn lle y barnwr hwnw.

Y cyfreithiau yn dal mwyaf o berthynas â Llys yr Archau yw, 25 Henry VIII. pen. 19; 2 a 3 William IV. pen. 92; a 3 a 4 Victoria, pen. 65.

**ARCHDDIACON.** Wrth wneuthur sylw ar nodweddiad a swydd esgob yn oesoedd boreuaf yr eglwys, dywedir nad ydym i'w gyfrif fel person unigol, yn gweithredu ei hunan ac heb gynghor. Dywedir fod ganddo gynghorlys gydag ef; sef personau oedd yn byw math o fywyd colegawl, mewn adeiladau cyssylltiedig â'r eglwys gadeiriol, pa rai oeddynt oll, neu y rhan fwyaf, yn meddu ar swyddau gwahanol, megys canghellor, trysorydd, *precentor*, a'r cyffelyb. Gelwir y personau hyn yn bresennol, yn gyffredin, yn ganonau; ond yr enw mwyaf cyffredin wrth yr hwn eu hadnabyddir, fel yr oedd y sefydliad yn bodoli mewn hen amserau, ydyw *diaconiaid:* o'r hwn y mae y gair *deon* yn dalfyriad. Rhoddid blaenoriaeth i un o'r diaconiaid, ac ychydig o arolygiaeth neu awdurdod, ac iddo ef y rhoddid y teitl o *archddiacon*.

Nid yw yr enw yn ein cynnorthwyo i ddeall pa orchwylion neillduol a gyflawnid ganddo. Yr hyn a gyflawnir yn awr gan yr archddiacon, a gyflawnid gynt gan swyddog yn y llys esgobawl, a elwid *chorepiscopus*. Yr oedd y *chorepiscopus* (χωρεπίσκοπος) yn gynnrychiolydd neu ficer yr esgob mewn mân drefydd neu leoedd gwledig, yn mha rai y cyflawnai y gorchwylion lleiaf eu pwys a berthynent i'r esgob. Nid oedd raid i'r archddiacon fod o raddoliaeth esgobyddol [*Ducange's Glossarium*]. Sonir am y *chorepiscopus* gan Justinian [*Cod.* i. *tit.* 3. § 41, 42]. Dywedir mai y modd y bu i'r archddiacon gael y flaenoriaeth ar yr hen swyddog hwn, gan dynu ato ei hun y gorchwylion a berthynent iddo, oedd, yn ol tyb rhai, fel hyn:—gan ei fod yn agos at yr esgob, ac mewn ymddiried mawr ganddo, byddai yr archddiacon yn cael ei anfon yn aml gan yr esgob i ymweled â rhanau pellenig yr esgobaeth, yn enwedig pan y byddai yr esgob yn galw am hysbysiadau manwl a gwirioneddol, fel y gallai ddeall gwir amgylchiadau pethau. O herwydd hyn, sonid am yr archddiacon gan ysgrifenwyr Cristionogol bore fel *llygaid yr esgob:* ac oddi wrth yr appwyntiad yma i wneuthur ymchwiliadau ac adroddiadau, yr oedd yn hawdd i un o'r diaconiaid a wnelai hyny yn fuan feddiannu rhan o'r awdurdod esgobyddol, yr hwn a'i hawdurdodai i ddiwygio a cheryddu, yn gystal ag i sylwi a hysbysu.

Os ydyw hyn yn adroddiad cywir am ddechreuad awdurdod yr archddiacon, y mae yn amlwg fod yr awdurdod ar y cyntaf yn cyrhaedd dros yr holl esgobaeth; ond yn awr y mae yn gyfyngedig i ranau penodol. Yr oedd yn Lloegr, yn ol *Valor Ecclesiasticus Henry* VIII, bedwar ar ddeg a deugain o archddiaconiaethau, neu randiroedd trwy ba rai y cyrhaedd awdurdod ymweliadol a diwygiadol yr archddiaconiaeth. Dywed Godolphin a Blackstone, fod tri ugain o archddiaconiaethau; ond y mae eu nifer wedi eu hychwanegu, fel y mae yn awr dros dri ugain o archddiaconiaethau yn Lloegr a Chymru. Ffurfiwyd saith o archddiaconiaethau newyddion gan 6 a 7 Will. IV, pen. 97. Y rhai hyn ydynt, Bristol, Maidstone, Mynwy, Westmoreland, Manchester, Lancaster, a Craven; a rhoddwyd awdurdod archddiaconawl, trwy yr un ddeddf, i ddeon Rochester yn y rhan hwnw o Kent sydd yn esgobaeth Rochester. Y mae cyfansoddiad rhai o'r archddiaconiaethau newyddion hyn yn ddygwyddiadol: er anghraifft, nid oedd un Manchester i gymmeryd lle hyd nes y gwneid Manchester yn eisteddle esgob, yr hyn oedd i ddygwydd ar farwolaeth esgob Llanelwy neu esgob Bangor.

Ni nodir unrhyw amser penodol fel y pryd y rhanwyd yr esgobaethau i archddiaconiaethau; ond y farn gyffredin ydyw, fod hyny wedi cymmeryd lle ryw amser ar ol y Goncwest. Dywedir mai Stephen Langton, archesgob Caergaint, oedd yr esgob Seisonig cyntaf a sefydlodd archddiaconiaeth yn ei esgobaeth, a ddeutu B. A. 1075. Cyfeirir at y swydd o archddiacon yn mreintlen (*charter*) William y Concwerwr.—[*Philimore.*] Yr oedd gan yr esgobion farwniaethau, a rhwymid hwy gan gyfansoddiadau Clarendon i weini ar y brenin yn ei brif gynghorlys; a chan hyny, yr oeddynt i ddirprwyo eu hawdurdodau esgobyddol. Yr oedd pob un o'r archddiaconiaethau wedi ei phenodi i'w harchddiacon ei hun gyda yr un manylrwydd ag y mae rhandiroedd mwy wedi eu penodi i'r esgobion a'r archesgobion; ac yr oedd gan yr archddiaconiaid hawl i gyflogau blyneddol penodedig, o dan yr enw *procurations*, a'r rhai hyny yn deilliaw oddi wrth fywoliaethau yn eu harchddiaconiaethau. Y mae y ddeddf a nodwyd eisoes [6 a 7 Will. IV. pen. 97] yn gorchymyn trefniad newydd ar yr holl ddeoniaethau a'r archddiaconiaethau oedd yn bodoli, fel y byddai i bob plwyf a bywoliaeth gael eu cynnwys o fewn rhyw ardal-ddeoniaeth (*rural deanery*), a phob deoniaeth o fewn rhyw arch-

Digitized by Google

ddiaconiaeth; ac na bydd un archddiaconiaeth yn cyrhaedd tu allan i derfynau yr esgobaeth lle y byddo.

Megys y bu i'r archddiacon mewn hen amseroedd ormesu ar awdurdod y *chorepiscopus*, felly, mewn amseroedd diweddarach, efe a ddifododd awdurdod, ac yn mron a ddinystriodd yr enw, perthynol i swyddog arall yn yr eglwys, sef yr ardal-ddeon. Y mae yr archddiaconiaethau wedi eu rhanu eto i ddeoniaethau; ac y mae yn arferedig gan yr archddiacon, pan yn cynnal ei ymweliadau, i orchymyn i offeiriaid pob deoniaeth ei gyfarfod yn mhrif dref y ddeoniaeth. Gynt, yr oedd swyddog yn llywyddu dros bob un o'r deoniaethau, yr hwn a elwid yn *ddeon;* dyledswydd yr hwn oedd chwilio i mewn i bethau, a gwneuthur ei adroddiadau, ac efallai cerydda a diwygio: ond y mae y swydd hon wedi ei difodi mewn amryw esgobaethau, er ei bod wedi ei hailsefydlu mewn ereill. Yn yr esgobaethau lle y mae wedi ei diddymu, y mae y dyledswyddau perthynol iddi yn cael eu cyflawnu gan yr archddiacon. Er fod swydd yr ardal-ddeon yn cael ei hystyried yn yr Eglwys Sefydledig fel un hynod o bwysig, nid oes unrhyw elw yn gyssylltiedig â hi.

Rhaid i archddiacon fod wedi bod chwe blynedd llawn mewn urddau offeiriadol [3 & 4 *Vict.*, pen. 27. § 27]; ac appwyntir hwy gan eu hesgobion. Y maent yn cael eu gosod yn eu swydd drwy eu harwain i fan benodedig yn yr eglwys gadeiriol, gan y deon a'r clwysgor. Dyledswydd yr archddiaconiaid yn awr ydyw ymweled â'u harchddiaconiaethau o bryd i bryd; edrych a ydyw pob eglwys, yn enwedig y ganghell, yn cael ei chadw mewn cywair da, a bod pob peth yn cael ei ddwyn yn mlaen yn ol y canonau, ac yn weddus i addoliad cyhoeddus; ac i dderbyn cwynion eglwysig gan y wardeiniaid. Gellir cynnal yr ymweliadau hyn bob blwyddyn, ond rhaid cynnal un ymweliad o leiaf bob tair blynedd. Gall yr archddiaconiaid gynnal llysoedd o fewn eu gwahanol ardaloedd yn mha rai y gallant farnu achosion eglwysig, ac y gellir profi ewyllysiau, &c., ger eu bron; ond gellir appelio oddi yno i lys uwch yr esgob [24 *Henry* VIII. pen. 12]. Yn ol y 3 & 4 *Vict.*, pen. 86. § 3, gellir nodi yr archddiacon yn un i eistedd yn llys yr esgob i wrandaw ar gyhuddiadau yn erbyn offeiriaid. Gelwir barnwr llys yr archddiacon, pan y byddo yn llywyddu ei hunan, yn *Official.* Amser yn ol, yr oedd gan yr archddiacon awdurdod neillduol, yn annibynol ar esgob ei esgobaeth, oddi wrth yr hwn nid ellid appelio ond at yr archesgob: ond drwy y 6 & 7 *Will.* IV. pen. 97. § 19, gwnaed cyfnewidiad ar hyn.

Delid y swydd hon yn gyffredin gan bersonau â chanddynt fywoliaethau neu swyddau ereill yn yr eglwys. Bu archddiaconiaid mewn amseroedd gynt yn dal swydd prebendariaid mewn esgobaethau nad oedd eu harchddiaconiaethau o'u mewn; ac y mae anghreifftiau yn mha rai nad oedd ganddynt swyddau yn yr eglwys. Y mae y 1 & 2 *Vict.*, pen. 106. § 124, yn goddef i archddiaconiaid ddal dwy fywoliaeth gyda'r archddiaconiaeth. Dywedir fod yr archddiaconiaeth yn gorfforaeth. Yn mysg yr amryw ddeddfau diweddar a berthynant i archddiaconiaid, y rhai mwyaf pwysig ydynt y 1 & 2 *Vict.*, pen. 105; y 3 & 4 *Vict.*, pen. 113; a'r 5 *Vict.*, pen. 39.

Y mae archddiaconiaid wedi eu sefydlu mewn rhai, os nad yn yr oll, o'r esgobaethau trefedigaethol.



1. ARCHELAUS, [Ἀρχέλαος]: mab Herod Fawr. Wedi i Herod roddi ei feibion—Alexander, Aristobulus, ac Antipater—i farwolaeth, a difeddiannu Antipas, yr hwn a gyhoeddasai efe yn frenin unwaith, efe a roddes Archelaus yn ei le, gan roddi y teitl o detrarch yn unig i Antipas. Pan fu farw ei dad, Archelaus a'i holynodd yn mreniniaeth Iudea; ac efe oedd yn teyrnasu yno pan ddychwelai Ioseph o'r Aipht gyda'r dyn bach Iesu, a'i fam. A chan farnu y buasai y penadur newydd mor awyddus am ddwyn bywyd ei blentyn ag a fuasai ei dad Herod, ofnai Ioseph fyned yn mlaen: ond wedi ei rybuddio gan Dduw mewn breuddwyd, efe a drodd i dueddau Galilea, ac a arosodd yn ninas Nazareth: *Mat.* ii. 22. Y mae yn ymddangos fod Archelaus yn cyfrannogi yn dra helaeth o deimladau creulawn ei dad. Efe a ymbriododd âg un Glaphyre, merch Archelaus, brenin Macedonia, a gweddw ei frawd Alexander, o'r hwn y buasai iddi blant, ac felly troseddai y deddfau Iuddewig yn uniongyrchol. Llywodraethai Iudea â'r fath drais, fel y darfu i'r Samariaid a'r Iuddewon penaf achwyn arno wrth Augustus: yr hwn yn y fan a'i gwysiodd i Rufain, i roddi cyfrif am ei ymddygiad. Pan gyrhaeddodd i Rufain, archodd yr ymherawdwr i'w gyhuddwyr ymddangos yn ei erbyn, a rhoddodd genad iddo yntau ei amddiffyn ei hun: ond yr oedd ei hunanddiffyniad mor ddiffygiol yn ngolwg Augustus, fel y darfu iddo ei alltudio i Vienne, dinas yn Gâl, lle y gorfu iddo aros dros weddill ei ddyddiau.

2. ARCHELAUS: esgob Carrhae, yn Mesopotamia, yr hwn a hynodwyd trwy ei ddadleuyddiaeth â'r cyfeiliornwr Manes, tua'r flwyddyn 278. Efe a gyhoeddodd y ddadl yn Syriaeg, mewn dau lyfr, ac fe'i cyfieithwyd i'r Groeg gan Hezemonius. Y mae rhyw gyfran o'r gwaith yma ar gael eto yn mysg ysgrifeniadau Valesius, ac yn fwy cyflawn yn nghronfa Zaccagnius, a elwir *Collectanea Monumentorum veterum Ecclesiæ Græcæ.* Rhufain, 1698.

ARCHESGOB, ARCHESGOBAETH. Y mae gan archesgob yn y wlad hon, ac yn gyffredinol trwy holl Ewrop, esgobaeth o'i eiddo ei hun, yn mha un y gweinydda swydd esgob, fel unrhyw esgob arall; er hyny, y mae ganddo nodweddiad gwahanol, yn gymmaint ag y perthyn iddo uchraddoliaeth a llywodraeth ar esgobion ei dalaeth, gyda rhyw freintiau neillduol. Y mae ei uchraddoliaeth yn cael ei arddangos yn yr enw. Y mae y sill *arch* yn dynodi, fel y gwna y sill Groeg *ἀρχ*, *flaenoriaeth* neu *awdurdod.* Arferir ef yn fynych yn nglyn âg amryw swyddogion eglwysig nad ymddangosasant erioed yn Eglwys Sefydledig Lloegr, neu o leiaf a beidiasant a bod er ys talm. Tybir fod y gair hwn yn cael ei arfer i ddynodi swyddogaethau eglwysig, yn hytrach na rhyw air arall a ddynoda uchafiaeth, oddi wrth fod y gair *ἀρχιερευς* yn cael ei arfer am archoffeiriad yn y testyn Groegaidd o'r Ysgrythyrau. Y mae y gair *patriarch* yn air cyfansawdd tebyg iddo, yn golygu *prif dad;* ac arferir ef mewn geirlyfrau eglwysig am esgob â chanddo awdurdod, nid yn unig ar esgobion ereill, ond hefyd ar yr holl esgobion mewn amryw deyrnasoedd neu daleithiau. Y mae yn gyfystyr â'r gair *pab*, yr hwn a arwyddia esgob â chanddo yr uchafiaeth gyffredinol hon. Dywedir fod llythyr swyddol mewn bod o eiddo yr ymherawdwr Justinian, wedi ei gyfeirio at "Ioan archesgob Rhufain, a phatriarch;" ac y mae amryw gyfansoddiadau

ereill o eiddo Justinian wedi eu cyfeirio at "Epiphanius, archesgob Caer Cystenyn, a phatriarch."

Y man cyntaf yr ydym yn cyfarfod â'r gair *esgob*, ydyw yn ysgrifeniadau yr apostol Paul: *Phil.* i. 1; 1 *Tim.* iii. 2, &c.; ond ni chyfarfyddwn â'r gair ἀρχιεπισκοπος, neu *archesgob*, hyd y bedwaredd ganrif, neu yn ddiweddarach. Cyfarfyddwn âg enwau y personau hyn—"*Cyrillus, Archiepiscopus Hierosolymitanorum*," a "*Celestinus, Archiepiscopus Romanorum*," yn ngweithrediadau cynghor a gynnaliwyd yn Ephesus, yn B. A. 431. Adnabyddir yr archesgob weithiau hefyd wrth yr enwau hyn gan y Seison—*primate* a *metropolitan*. Deillia y cyntaf o'r gair Lladin, *primus, y cyntaf;* ac felly arwydda y blaenaf neu y cyntaf yn mysg yr esgobion. Y mae y diweddaf hefyd yn air Lladin wedi ei ffurfio o'r Groeg, cyfieithiad llythyrenol o'r hwn fyddai, *dyn y brif ddinas*, neu *y fam ddinas; h.y.*, yr esgob sydd yn trigo yn y ddinas a gynnwysa fam eglwys yr holl eglwysi ereill o fewn y dalaeth hono. Y gair Groeg ydyw μετροπολίτης (*metropolites*).

Tybir fod y gair *metropolitan* yn dangos dechreuad y gwahaniaeth rhwng esgob ac archesgob, neu mewn geiriau ereill, dechreuad uchafiaeth yr archesgob ar holl esgobion ei dalaeth. Dywedir mai fel hyn yr ymdaenodd Cristionogaeth dros Ewrop:—Ymsefydlodd rhyw bregethwr selog mewn rhyw ddinas; adeiladodd yno eglwys, a gweinyddodd yr ordinhadau Cristionogol ynddi; ac amgylchynid ef gan amryw o wŷr llen, yn gwasanaethu yr un achos, ac yn gweithredu yn ol ei gyfarwyddiadau ef. O'r fan hon, anfonid y personau hyn o bryd i bryd i'r wlad o amgylch, i'r dyben o gymhell Cristionogaeth ar y trigolion; a thrwy hyn sefydlwyd eglwysi ereill, y rhai oeddynt (i ddefnyddio ffugr) blant yr eglwys o ba un yr anfonwyd y cenadau allan. Pan y dygwyddai i un o'r cenadau israddol hyn ymsefydlu mewn rhyw ddinas arall o bwys, yn mhell oddi wrth y ddinas lle y byddai yr eglwys gyntaf ynddi; dywedir fod cyfleusderau yn nglŷn â'i gynnysgaethu â swydd esgob, gan y byddai y prif amcan, sef lledaniad Cristionogaeth, yn cael ei gyrhaedd yn fwy effeithiol na thrwy gadw yr holl awdurdod esgobyddol yn nwylaw y person oedd yn llywyddu yn y fam eglwys. Fel hyn, sefydlwyd esgobaethau ereill: ac megys yr oedd yr esgob a lywyddai yn y gyntaf o'r eglwysi hyn yn un ag yr oedd rhyw radd o flaenoriaeth o'r hyn lleiaf yn ddyledus iddo, a chan ei fod yn parhau i feddu gradd o arolygiaeth ar yr esgobion newyddion, ystyriwyd fod yr enw *arch*esgob yn enw cymhwys arno. Dywedir mai fel hyn y dygwyddodd yn Lloegr, pan ail gychwynodd Cristionogaeth yma yn amser y pab Gregory. Awstin, prif ddyn y genadaeth, a ymsefydlodd yn y flwyddyn 595 yn Nghaergaint (*Canterbury*), prif ddinas teyrnas Caint (*Kent*), drwy ffafr y brenin Ethelbert: ac oddi yno, anfonwyd cenadau allan i ranau deheuol Lloegr. Cafodd Paulinus, ychydig o flyneddoedd yn ddiweddarach, ymsefydlu yn debyg yn nheyrnas Northumbria, drwy sel y brenin Edwin, yr hwn a dderbyniodd Gristionogaeth, ac a adeiladodd eglwys iddo yn Nghaerefrog (*York*), yr hon y gellir ei hystyried fel prif ddinas teyrnas Edwin. Lledaenwyd Cristionogaeth drwy holl ranau gogleddol Lloegr o Gaerefrog, fel y gwnaed drwy y rhanau deheuol o Gaergaint. Ymddengys mai o herwydd ei ddyfalwch a'i fawreddigrwydd y cafodd Paulinus y teitl o archesgob, yn nghyd â meddiant o dalaeth, yn lle cael esgobaeth yn unig, fel y cafodd ereill a berthynent i'r genadaeth Awstinaidd. Gwnaethpwyd hyn drwy weithred neillduol, o dan awdurdod Justus, dilynydd bore i Awstin yn archesgobaeth Caergaint: ond caniateir yr uchafiaeth i archesgob Caergaint. Rhoddid awdurdod i archesgob Caergaint gan y pab mewn amseroedd gynt, yn y ddwy dalaeth; ac y mae gradd o hyny yn parhau eto. Dywed Burn fod gan archesgob Caergaint awdurdod dros yr holl Iwerddon cyn ordeinio esgob yno yn 1152; a chydnabyddid eglwys gadeiriol Caergaint, yn amser William y Concwerwr, a'i ddilynydd, yn fam eglwys holl Loegr, Iwerddon, yr Alban, a'r ynysoedd cylchynol. Gelwid yr archesgob weithiau yn *batriarch* —ac yr oedd ganddo uchafiaeth ar yr holl archesgobion ereill mewn cynghorion cyffredinol yn y gwledydd tramor.

Dichon fod yr hanes hwn am y modd y lledaenwyd Cristionogaeth drwy amryw ranau Ewrop yn wir; ond er ei fod yn eglurhad a roddir ar ystyr y gair Seisonig *metropolitan*—enw yn dynodi urddas y ddau archesgob—nid dyma y gwir eglurhad. Yr oedd yr enw *metropolis* yn cael ei roddi ar amryw ddinasoedd yn Asia, fel teitl o urddas. Rhoddwyd yr enw hwn i Berytus, yn Phœnicia, gan yr ymherawdwyr Theodosius a Valentinian, "o herwydd rhesymau amryw a digonol" [*Cod.* xi. *tit.* 22 (21)]. Felly, gelwid esgob y brif ddinas hono yn *metropolitan (μετροπολίτης);* ac esgob dinas a fyddai is law iddi, a elwid yn unig yn esgob. Ond yr oedd yr holl esgobion—y *metropolitan*, a'r lleill—dan awdurdod archesgob a phatriarch Caer Cystenyn, yr hwn a dderbyniai ei hyfforddiadau mewn achosion eglwysig oddi wrth yr ymherawdwr [*Cod.* i. *tit.* 3, § 42, 43].

Ond yr oedd yn yr ynys hon archesgobaeth cyn archesgobaeth Caergaint. Yr oedd Cristionogaeth wedi ei phlanu yma cyn diwedd y ganrif gyntaf; ac yn y "Trioedd," ni a gawn fel y canlyn:—"Tri Archesgobawd Ynys Prydain: cyntaf, Llan Daf, o ddawn Lleirig ab Coel ab Cyllin, yr hwn a roddes diroedd a braint gwlad gyntaf i'r rhai a gystlynasant â'r ffydd yn Nghrist: ail, Caerefrawg, o ddawn Cystenyn amherawdr, sef oedd ef y cyntaf o'r amherodron yn Rhufain a ymgystlynwys â'r ffydd yn Nghrist: trydydd, Llundain, o ddawn yr amherawdr Macsen Wledig: ac wedi hyny y buont Gaerlleon ar Wysg, a'r Gelliwig yn Nghernyw, a Chaer Rianedd yn y Gogledd; ac yn awr y mae Mynyw, a Chaerefrawg, a Chaer Gaint." Yr oedd Dyfrig yn archesgob Caerlleon yn 490. Dilynwyd ef gan Dewi Sant yn 519; yr hwn a symmudodd yr archesgobaeth o Gaerlleon i Tyddewi. Canlynwyd yntau gan Cynog, ac yntau gan Teilo. Parhaodd yr urddas archesgobawl yn mhlith y Cymry hyd y ddeuddegfed ganrif. Gwel EGLWYS BRYDEINIG.

Nid ymddengys fod graddau arolygiaeth ac awdurdod yr archesgobion ar yr esgobion wedi ei osod allan yn eglur: er hyny, os bydd unrhyw esgob yn dwyn afreoleidd-dra i'w esgobaeth, neu yn euog o anfoesoldeb, gall archesgob y dalaeth ymofyn, galw i gyfrif, a chospi. Dywedir y gall efe hefyd ei ddifeddiannu o'i swydd. Darfu i archesgob Armagh ddiswyddo esgob Clogher, yn 1822. Mewn achosion lle y bydd ymrafael rhwng esgob a'i glerigwyr, gellir appelio at yr archesgob, oddi eithr mewn achosion perthynol i gyflogau y curadiaid [1 & 2 *Vict.*, pen. 106]. Dywed Rolle, yr hwn sydd yn awdurdod da, y gall archesgob benodi cynnorthwywr i un o

Digitized by Google

esgobion ei dalaeth fyddo yn afiachus neu yn analluog; ac y mae yr hawl yma wedi ei gadarnhau gan y 6 & 7 *Vict.*, pen. 62, yr hon a elwir, *Gweithred i ddarparu ar gyfer cyflawniad Swyddogaethau Esgobawl mewn amgylchiad pan y bydd unrhyw esgob neu archesgob yn analluog.*

Y mae gan archesgob hawl i nodi un o'i glerigwyr neu gaplaniaid i gael gofalu am dano gan bob esgob a urddir ganddo. Yr arfer gyffredin yn awr ydyw, fod i'r esgob a urddir gyflwyno i'r archesgob, drwy weithred, y rhodd gyntaf i unrhyw fywoliaeth neu ddyrchafiad o fewn ei esgobaeth, y dewisa yr archesgob ei chael. Nid ydyw y weithred hon yn rhwymo neb ond yr esgob a urddir: felly, os bydd iddo farw cyn y gellir cyflawnu yr addewid, rhaid i'r archesgob wneuthur dewisiad arall pan yr urddo esgob newydd. Os bydd i'r archesgob farw cyn y byddo y fywoliaeth yn wag, y mae y rhodd yn myned i'w gymynweinyddwyr neu ddirprwyon, yn ol telerau y cytundeb. Y mae archesgob yn penodi i fywoliaethau neu ddyrchafiadau eglwysig sydd at drefniad esgobion ei dalaeth, os na byddant wedi eu llenwi o fewn chwe mis i'r amser y daethant yn wag. Iddo ef hefyd yr ymddiriedir esgobaethau ei dalaeth yn ystod yr amser y byddont heb esgobion ynddynt.

Y mae rhai o'r esgobion yn swyddogion mewn enw yn eglwys gadeiriol Caergaint, neu yn nheulu yr archesgob. "Esgob Llundain ydyw ei ddeon taleithiol; esgob Winchester ydyw ei ganghellwr; esgob Salisbury, ei *brecentor*; esgob Worcester, ei gaplan; a byddai esgob Rochester, mewn amser gynt, pan fyddai hyny yn arferiad, yn cario y groes o'i flaen."—[*Burn.*] Y mae gan archesgob hefyd amryw raddau anrhydeddus: arferir yr ymadrodd, "trwy ddarbodaeth ddwyfol," am dano; ond am yr esgobion, "trwy ddwyfol ganiatad:" ac er nad yw esgob ond yn unig yn cael ei osod mewn côr, y mae archesgob yn cael ei orseddu. Y mae y teitl o "Ei rasusaf," a "Thra pharchedig Dad yn Nuw," yn arferedig wrth gyfarch, ac ysgrifenu at, archesgobion; ond teitl yr esgobion yw, "Arglwydd," a "Gwir Barchedig Dad yn Nuw."

Gall yr archesgobion nodi wyth o offeiriaid bob un i fod yn gaplaniaid iddynt, a'r esgobion chwech. Y mae archesgob Caergaint yn hòni yr hawl o ddodi y goron ar ben y brenin ar ei goroniad; ac y mae archesgob Caerefrog yn hawlio yr unrhyw fraint i'r frenines waddolog, ac efe yw ei chaplan parhaus. Archesgob Caergaint yw y prif gyfrwng trwy yr hwn y gall y clerigwyr gyfarch y brenin; ac ymgynghorir âg ef gan weinidogion y brenin mewn achosion perthynol i'r eglwys: ac efe, yn gyffredin, fydd yn cyflwyno i'r senedd, os bydd yn unllais, syniad mainc yr esgobion. Y mae i'r ddau archesgob flaenoriaeth mewn gorymdeithiau ar yr holl arglwyddi tymmorol, oddi eithr y rhai sydd o'r teulu breninol; ond y mae lle yr arglwydd ganghellydd rhwng y ddau archesgob.

Y mae talaeth archesgob Caerefrog yn cynnwys y chwe sir gogleddol, yn nghyd â siroedd Caerlleon a Nottingham; a chwanegwyd Ynys Manaw at y rhai hyn trwy weithred seneddol yn amser Henry VIII. Y mae ganddo, yn y dalaeth hon, bump o esgobion; sef esgob Sodor a Man; esgob Durham—yr unig esgobaeth yn ei dalaeth sydd o sefydliad Saxonaidd; ac esgobion Carlisle, Caerlleon, a Ripon. Y mae y gweddill o Loegr a Chymru yn gwneyd i fyny archesgobaeth Caergaint, yn mha un y mae deuddeg esgobaeth o ffurfiad Saxonaidd; ac esgobaeth Ely, yr hon a ffurfiwyd gan Henry I.; esgobaethau Caerodor, Caerloew, Rhydychain, a Peterborough, y rhai a ffurfiwyd gan Henry VIII.; a'r pedair esgobaeth Gymreig, o ba rai y mae Tyddewi a Llandaff yn cynnwys rhifres o esgobion yn rhedeg yn mhell yn ol cyn amser Awstin. Y deuddeg esgobaeth Seisonig o ffurfiad Saxonaidd, ydynt Llundain, Winchester, Rochester, Chichester, Salisbury, Exeter Bath a Wells, Worcester, Hereford, Lichfield a Coventry, Lincoln, a Norwich.

Ail drefnwyd taleithiau y ddwy archesgobaeth Seisonig, gan y 6 & 7 *Will.* IV. pen. 77. Y mae archesgobaeth Caergaint yn cynnwys y rhan fwyaf o swydd Kent, oddi eithr dinas a deoniaeth Rochester, yn nghyd â rhyw blwyfydd a drosglwyddwyd gan y ddeddf uchod; nifer o blwyfau gwahanol oddi wrth eu gilydd, a elwid *peculiars*, yn swydd Sussex; gyda rhandiroedd bychain mewn esgobaethau ereill, yn neillduol Llundain; yr hon, er ei bod yn perthyn mewn rhyw ystyr i'r archesgob, nid ydyw yn cydnabod unrhyw awdurdod esgobyddol israddol. Y mae talaeth archesgob Caerefrog yn cynnwys swydd Gaerefrog, oddi eithr y rhan hono o honi sydd yn gynnwysedig yn esgobaeth newydd Ripon, holl swydd Nottingham, a rhai rhandiroedd cyfagos.

Y mae llawer o'r rhai a ddaliasant y swydd hon wedi bod yn hynod am eu duwioldeb a'u rhinweddau personol, yn gystal ag am y cyflawniad o orchwylion cyhoeddus yr archesgobaeth ei hun.

Ystyrir St. Andrew, yn yr Alban, fel Caergaint yn Lloegr; ac yno yr oedd llys yr archesgob pan oedd trefn yr Eglwys Esgobawl yn bod yn y wlad hono; er na alwyd ef ond *Episcopus Maximus Scotiæ*, hyd y fl. 1470; sef y pryd y rhoddwyd y teitl o archesgob iddo gan y pab. Yn 1491, cafodd esgob Glasgow y teitl o archesgob, a rhoddwyd tri o esgobion o dan ei lywodraeth. Yr oedd archesgob Caerefrog yn hawlio llywodraeth dros holl esgobion yr Alban, hyd o ddeutu 1466. Y mae dau archesgob yn yr Iwerddon:—un yn Armagh, a'r llall yn Dublin. Darostyngwyd archesgobaethau Tuam a Cashel i esgobaethau, gan y 3 & 4 *Will.* IV. pen. 37.

Ni oddef ein terfynau, gan nad oes angen am hyny, i ni enwi yr holl breladiaid i'r rhai y perthyna urddas a swydd archesgob, drwy holl wledydd cred. Y mae yn egwyddor drwy yr holl wledydd Pabaidd—fod i rai o'r esgobion feddu rhyw uchafiaeth ar y gweddill; pa rai a gyfrifir yn nesaf mewn urddas at fugail mawr holl fugeiliaid yr eglwys, fel y gelwir ef—sef y pab. Mae maint y dalaeth a berthyn i bob i un yn amrywio, o herwydd na wnaed y rhaniadau eglwysig hyn o deyrnasoedd ar gynllun a ffurfiwyd yn mlaen llaw, ond dilynwyd y dygwyddiadau a ganlynent y cyhoeddiad o'r athrawiaeth Gristionogol. Y mae rhai o'r archesgobion yn Germany yn meddu rhan nid bechan o annibyniaeth a llywodraeth wladol. Yr oedd tri o honynt, sef rhai Treves, Cologne, a Mainz, yn etholyddion yr ymherodraeth. Yr oedd deunaw o archesgobion yn Ffrainc gynt; a dywedir fod yr oll o honynt ond Cambray, wedi eu sefydlu yn yr ail, y drydedd, a'r bedwaredd ganrif. Dywedir na ffurfiwyd archesgobaeth Cambray hyd y chweched ganrif. Nifer yr esgobion yn Ffrainc oedd cant a phedwar; er y chwyldroad, y mae naw a deugain o esgobaethau wedi eu diddymu, a dim ond tair esgobaeth newydd wedi eu ffurfio. Y mae llywodraeth eglwysig Ffrainc yn bresennol yn gyn-



Digitized by Google

nwysedig o bedwar ar ddeg o archesgobion, a chwech a thrigain o esgobion.

Dywedir yn *Adroddiad y Dirprwywyr appwyntiedig gan ei Fawrhydi i edrych i mewn i'r Cyllidau Eglwysig yn Lloegr a Chymru*, a gyhoeddwyd yn 1835, fod derbyniadau blyneddol archesgob Caergaint yn 19,182*p.;* a derbyniadau archesgob Caerefrog yn 12,629*p.:* ond trwy awdurdod y gyfraith y cyfeiriasom ati uchod (6 & 7 *Will.* IV. pen. 77), gwnaed cyfnewidiad ar hyn; ac yn bresennol, derbyniadau archesgob Caergaint ydynt 15,000*p.*, ac archesgob Caerefrog 10,000*p.*

Cyn gwneuthur y ddeddf 3 & 4 *Will.* IV. pen. 37; a 4 a 5 *Will.* IV. pen. 90, yr oedd pedair o archesgobaethau, a deunaw o esgobaethau, yn Eglwys Brotestanaidd yr Iwerddon. Bu y pedair talaeth archesgobawl yn cynnwys deuddeg ar ugain o esgobaethau, y rhai a leihawyd cyn gwneuthur y ddeddf hon i ddeunaw.

Yn ol y ddeddf rag-grybwylledig, yr oedd archesgobaeth Tuam i gael ei chyssylltu âg archesgobaeth Armagh, a Cashel gyda Dublin; a chyfrifid y ddwy archesgobaeth hyn, sef Tuam a Cashel, yn esgobaethau yn unig rhag llaw. Nid oes i fod yn yr Iwerddon ond dau archesgob, a deg o esgobion. Derbyniadau archesgobion ac esgobion yr Iwerddon yn 1831 oedd 151,128*p.* a derbyniadau y sefydliad esgobawl, fel y bydd o hyn allan, fydd 82,953*p.;* bydd felly 68,175*p.* yn cael eu harbed yn flyneddol, i fod dan reolaeth Dirprwywyr Eglwysig yr Iwerddon, i'w defnyddio at achosion yr eglwys, ac at addysg. Y mae un archesgob, a thri o esgobion, yn cynnrychioli yr Eglwys Wyddelig yn Nhŷ yr Arglwyddi. Newidir hwy bob eisteddiad; ac y mae y drefn yn ol yr hon y mae pob un yn eistedd yn ei dro, yn cael ei gosod i lawr gan 3 *Will.* IV. pen. 37, § 51. Y mae y ddau archesgob yn eistedd yn Nhŷ yr Arglwyddi bob yn ail eisteddiad. Y mae y llywodraeth eglwysig Babaidd yn yr Iwerddon yn gynnwysedig o bedwar o archesgobion, a dau ar ugain o esgobion.

Y mae yn y trefedigaethau Prydeinig ddeuddeg a deugain o archesgobion, esgobion, esgobion cynnorthwyol, a ficeriaid apostolaidd, perthynol i Eglwys Rhufain. Yn Sydney, Quebec, a Bengal, cyfrifir y preladiaid Pabaidd yn archesgobion.

ARCH-HENURIAD: yr henuriad penaf. Fel y mae y rhai ydynt yn urdd diaconiaid yn unig yn ddarostyngedig i'r henuriaid, yn ol y gyfraith eglwysig, felly y mae yr henuriaid yn ddarostyngedig i'r arch-henuriaid; y rhai, yn absennoldeb yr esgob, a feddant awdurdod ar yr offeiriaid, neu yr henuriaid a'r diaconiaid. Ac yn ol y gyfraith eglwysig, gelwir yr arch-henuriad yn *ddeon* hefyd—(*Burn's Eccles. Law*, 4 plyg, cyf. i. td. 71.)

ARCHIMANDRIAD: gair yn tarddu o ἀρχὸς, *penaeth*, a μάνδρα, *corlan;* ac yn arwyddo prif fynach, neu yr un sydd yn meddu arolygiaeth ar fynachod ereill yn mynachdai Eglwys Groeg. Rhoddir yr enw hwn ar y mynachod yn Sicily, o blegid bod eu mynachdai hwy wedi bod unwaith mewn cyssylltiad âg Eglwys Groeg, a'u bod yn cydffurfio â rheolau St. Basil. Dynodir mynachod y Groegiaid unedig yn Poland, Gallicia, Transylvania, Hungary, a Venice, wrth yr enw hwn.—(*Pop. Cyc.*)

ARCHIPPUS, [Ἄρχιππος, *rheolwr meirch*]: gweinidog Cristionogol. Y mae Paul, yn *Philem.* 2, yn ei alw yn "gydfilwr;" ac yn *Col.* iv. 17, y mae yn ei annog i ymadnewyddu mewn gweithgarwch. Ymddengys oddi wrth y cyfeiriad olaf fod Archippus wedi bod yn cyflawnu swydd efengylwr, weithiau yn Ephesus, ac weithiau mewn lleoedd ereill; a'i fod yn y diwedd wedi ymsefydlu yn Colossa, ac yno yn cyflawnu swydd henadur neu esgob pan oedd Paul yn ysgrifenu at eglwys y Colossiaid. Mae y cynghor a roddir iddo gan yr apostol yn cael ei ystyried gan rai—ond heb seiliau digonol—fel cerydd am esgeulusdra. "Nis gwyddom pa beth a allasai fod mor neillduol yn nodweddiad neu amgylchiadau Archippus, yn gofyn am y fath gynghor difrifol. Ond pa beth bynag oedd yr achlysur, y mae yn gymhelliad tra defnyddiol a phwysig i holl weinidogion yr efengyl. Gan yr Arglwydd Iesu Grist y derbyniasant eu gweinidogaeth, ac iddo ef y rhaid iddynt yn fuan roddi cyfrif manwl am dani. Bydded iddynt oll gan hyny edrych ati, ar fod o honynt yn deimladwy o bwysfawredd yr ymddiried, a bydded iddynt gael gras i fod yn ffyddlawn ynddi, fel y gallont roddi eu cyfrif i fyny gyda llawenydd, fel y goruchwyliwr hwnw, yr hwn, wedi cymmeradwyo ei ffyddlondeb ar y ddaear, a gaiff dderbyn ei wobr yn y nefoedd."—(*Kitto; Doddridge.*)

ARCHOFFEIRIAD: prif offeiriad, yr offeiriad penaf. Yn yr Eglwys Iuddewig, yr archoffeiriad oedd i fod yn ben mewn pob achosion crefyddol, ac efe oedd y barnwr mewn pob peth dyrys a berthynai iddynt, ac i weinyddu cyfiawnder a barn hyd yn oed mewn pethau cyffredin: *Deut.* xvii. 8—12; xix. 17; xxi. 5; xxxiii. 8—11; *Ezec.* xliv. 24. Iddo ef yn unig y perthynai y rhagorfraint o fyned i mewn i'r cyssegr unwaith yn y flwyddyn, ar ŵyl y cymmod, i wneuthur cymmod dros bechodau yr holl bobl: *Lef.* xvi. 2, &c. Rhaid oedd ei fod wedi cael ei eni o wraig yn perthynu i'w lwyth ei hun, sef Lefi, yr hon a briodasai ei dad yn forwyn, ac yr oedd i fod yn rhydd oddi wrth bob anaf corfforol: *Lef.* xxi. 13, &c. Yn gyffredinol, nid oedd i un offeiriad y byddai anaf o ryw fath arno gynnyg ar y gwaith o aberthu, na myned i mewn i'r lle sanctaidd i drefnu y bara gosod: *Lef.* xxi. 17—21. Ond yr oedd i gael ei gynnaliaeth o'r aberthau a offrymid yn y babell: *adn.* 22.

Yr archoffeiriad oedd i ymofyn â Duw dros y bobl: felly, pan fyddai wedi ei wisgo yn y gwisgoedd a'r addurniadau priodol i'w swydd oruchel, atebai eu gofynion, a byddai yr Arglwydd yn dadguddio iddo bethau dirgel a dyfodol. Gwaherddid iddo alaru ar farwolaeth neb o'i berthynasau, hyd yn oed ei dad a'i fam; na myned i le y byddai corff marw yn gorwedd, rhag iddo gyffwrdd âg ef, neu gael ei halogi. Nis gallai briodi gwraig weddw, na gwraig wedi ysgar, na phutain, ond morwyn yn unig o'i bobl ei hun; ac yr oedd i ymgadw mewn diweirdeb manwl dros holl amser ei weinidogaeth.

Gwnaed yr offeiriadaeth yn etifeddol yn nheulu Aaron; a chyntafanedig y gangen hynaf o'r teulu, os yn ddianaf yn ol y gyfraith, bob amser oedd i fod yn archoffeiriad. Cadwyd y drefn ddwyfol hon gyda chryn fanylrwydd, hyd oni syrthiodd yr Iuddewon dan lywodraeth y Rhufeiniaid, ac y llygrwyd eu ffydd gan athroniaeth dwyllodrus. Wedi hyny, byddai yr archoffeiriadaeth yn fynych yn cael ei rhoddi ar werth; ac, yn lle parhau am oes, fel y dylasai, ymddengys oddi wrth rai manau yn y Testament Newydd nad oedd yn ddim amgen na swydd flyneddol. Nid

Digitized by Google

oes reswm digonol, modd bynag, i gredu y byddai un amser yn cael ei rhoddi i neb ond i ryw un a allasai ei chyflawnu, pe buasai cangenau hynaf y llinach wedi pallu.

Aaron oedd y cyntaf a gyssegrwyd i'r swydd, a dilynwyd ef ynddi gan ei fab hynaf Eleazar; ac i Phinees, ei fab hynaf yntau, gwnaeth Duw addewid o'r swydd yn etifeddiaeth barhaus, yn wobr am ei eiddigedd sanctaidd yn achos Zimri a Chozbi: *Num.* xxv. 10—15. O'r blaen nid oedd yr archoffeiriadaeth wedi ei sefydlu drwy gyfraith ar y mab hynaf; o hyny allan, oddi eithr am ryw ysbaid yn amser Eli, yr hwn oedd o deulu Ithaamar, arosodd y swydd yn nheulu Phinees hyd amser y caethiwed: 1 *Cron.* vi. 4—15. Iehosadac oedd yn y swydd y pryd hwnw, yr un a Iosedec, tad Iosuah neu Iesuah, oedd yn archoffeiriad yn amser dychweliad y gaethglud: *Hag.* i. 1. Yn *Neh.* xii. 12, cawn barhad y llinach o hyny hyd Iadua, sef Iadus, yr hwn a gyfarfu âg Alexander Fawr. Felly, fel y sylwa Grotius, "mae hanesiaeth ysgrythyrol yn diweddu yn y man y mae goleuad yr amseroedd, sef helyntion Alexander, yn dechreu; ac o'r pryd hwnw y mae hanesiaeth gyffredin yn dyfod yn eglur." Yn amser Nehemiah, yr oedd Eliasib yn archoffeiriad; yr oedd amryw o'i berthynasau wedi ymgyfathrachu â'r Samariaid, ac yr oedd ef a'i deulu yn dra llygredig, yn camddefnyddio ystafelloedd y deml, yr ystordai cyssegredig, at wasanaeth gelynion yr Iuddewon: *Neh.* xiii. 4, 10, 28, 29: a chyda hyny, y mae yr hysbysiad a geir yn llyfrau canonaidd yr Hen Destament yn terfynu. Parhaodd yr archoffeiriadaeth a llywodraeth Iudea yn llinach Eleazar, mab Aaron (yn ddarostyngedig modd bynag i'r Persiaid), yn nheulu Iosedec, drwy yr hyn y trosglwyddwyd y swydd i waered hyd Onias III. Disodlwyd ef gan Iason ei frawd, a Iason yntau gan ei frawd Meneläus; ar farwolaeth yr hwn, gosodwyd Alcimus, o deulu gwahanol, yn y swydd gan frenin Syria. Yn y flwyddyn c. c. 152, Alexander, brenin Syria, a'i rhoddodd i'r cadlywydd gwrol Ionathan (1 *Mac.* x. 18—20), yr hwn oedd yn perthynu i ddosbarth Ioarib (1 *Mac.* ii. 1.) ac yn y teulu hwn yr ymsefydlodd dros amryw genedlaethau, hyd amser Herod frenin, yr hwn a gymmerodd ei ryddid i symmud y rhai a ddalient y swydd wrth ei ewyllys, yr hyn hefyd a wnai y Rhufeiniaid yn ddirwystr. Yr oedd "yr archoffeiriaid" a grybwyllir yn *Mat.* ii. 4, ac yn fynych mewn lleoedd ereill, yn cynnwys, heb law yr archoffeiriad a elwid yn briodol felly, ac oedd ar y pryd yn y swydd, yr holl rai a fuasent eisoes yn ei dal, y rhai, o herwydd yr achosion a grybwyllwyd, oeddynt yn lluosog; a phenaethiaid y pedwar dosbarth ar ugain, y rhai hefyd a fwynhäent yr enw. Byddai yr archoffeiriad swyddol hefyd yn arfer cymmeryd rhywun dylanwadol hŷn nag ef, ac a fuasai yn llenwi y lle o'i flaen, yn gynnorthwywr iddo. Felly yr ydym yn cael Annas a Chaiaphas yn gydswyddogion: *Luc.* iii. 2. Mae Josephus yn son am lawer o archoffeiriaid yn y swydd ar yr un pryd [*Bywyd Jos.*, § 38], ac yn cyfeirio at y dylanwad a feddent [*Rhyf. Iudd.*, iv. 3, 6, 7, 9], a'u bod hyd yn oed yn gwisgo y wisg archoffeiriadol (10). Yn rhinwedd ei swydd, dywedir i Caiaphas brophwydo: *Ioan* xi. 51: ac ymddengys mai efe oedd cadeirydd y senedd neu y cynghor yn amser prawf ein Harglwydd: *Mat.* xxvi. 57. Mae yr archoffeiriaid yn ymddangos fel cyfeisteddfod y llys: *adn.* 59.

Rhifedi yr holl archoffeiriaid Iuddewig, yn ol Josephus, o Aaron y cyntaf, hyd Phanas yr olaf o honynt, oedd 83: tri ar ddeg o ba rai a weiniasant yn yr ysbaid y bu y babell neu y tabernacl yn sefyll; y deunaw nesaf o amser Solomon hyd losgiad y deml gyntaf; a'r rhan arall o honynt yn amser yr ail deml, hyd ei dinystr gan Titus [*Hyn. Iudd.*, xx. x. 1]. Gosodwyd Phanas neu Phannias yn y swydd o'i anfodd gan y gwrthryfelwyr; yr oedd efe yn hollol anwybodus ac anghymhwys i'w chyflawnu; ac ynddo ef y diweddodd yr oruchwyliaeth hono [*Rhyf. Iudd.*, iv. iii 8].



Dar. 61.

Am wisgoedd yr archoffeiriad, a'i gyssegriad i'w swydd, gwel *Exod.* xxviii. a xxix. Am ei wisgoedd i weini ynddynt ar ŵyl y cymmod, *Lef.* xvi. 4, 24, 32. Yr "ail offeiriad" (2 *Bren.* xxv. 18), mae yn debyg oedd dirprwywr yr archoffeiriad, i weinyddu yn ei le, pan fyddai, o herwydd afiechyd neu ryw achos arall, yn analluog neu yn anghymhwys i gyflawnu ei swydd.

Y mae Crist yn cael ei alw yn "Archoffeiriad mawr" (*Heb.* iv. 14), am fod yr holl bethau cysgodol ac arwyddol a berthynent i offeiriadaeth Aaron wedi eu cyflawnu ynddo ef, y gwrthgysgod a'r sylwedd gogoneddus, at yr hwn yr oeddynt oll yn cyfeirio, gan ragddangos ei gyfryngdod, ei iawn, a'i eiriolaeth, dros ac ar ran ei bobl. Y mae cyfran helaeth o'r Epistol at yr Hebreaid, sef o'r bummed hyd ddiwedd y ddegfed bennod, wedi ei ysgrifenu i egluro natur gysgodol goruchwyliaeth Moses, a'r modd y mae offeiriadaeth sylweddol a thragwyddol Mab Duw yn rhagori ar offeiriadaeth arwyddocaol a therfynol yr oruchwyliaeth hono. Gwel OFFEIRIAD.

ARCHOFFEIRIADAETH: swydd yr archoffeiriad, fel un wedi ei osod "dros ddynion yn y pethau sydd tuag at Dduw, fel yr offrymo roddion ac aberthau dros bechodau;" *Heb.* v. 1. Gellir sylwi yma fod y gair ἱερεύς, bob amser yn arwyddo *un yn offrymu aberthau:* ac nid yw un amser yn cael ei ddefnyddio yn y Testament Newydd am fugeiliaid yr Eglwys Gristionogol. Mae yr holl aberthau gwaedlyd a chysgodol wedi eu dileu trwy offrymiad un aberth perffaith a

holldddigonol yn marwolaeth y Gwaredwr; o ganlyniad, mae yr offeiriadaeth oll wedi terfynu yn Nghrist—"Archoffeiriad ein cyffes ni;" *Heb.* iii. 1: fel nad oes "aberthwyr," neu offeiriaid, yn ol ystyr manwl a swyddol y gair, dan yr oruchwyliaeth newydd.

ARCHOLL—ION—EDIG, [*arch—holl*]: briw, gweli, anaf, toriad. Yn ffugyrol, arferir y gair am flinder neu ofid meddwl o herwydd cosp, cerydd, athrod, neu erlidiau. Y mae weithiau yn arwyddo cystudd corff a meddwl: *Gen.* iv. 23; *Exod.* xxi. 25; *Luc* x. 34; *Deut.* xxxii. 39; *Iob* v. 18; *Salm* lxviii. 21; *Diar.* vi. 33; xxvii. 6; *Esa.* i. 6; liii. 5.

ARCHONTIAID: cangen o'r Valentiniaid, tua diwedd yr ail ganrif, y rhai a dybient mai y graddau uchaf o'r angelion a greasant y byd hwn; ond priodolent greadigaeth gwraig i ysbrydion drwg. Cadarnhäent eu syniadau yn benaf drwy haeru eu bod yn derbyn dadguddiadau goruwchnaturiol eu hunain. Gwadent adgyfodiad y corff, a dadleuent fod Duw y Sabaoth yn gweinyddu llywodraeth greulawn yn y seithfed nef.

ARCHSYNAGOGYDD, [ראש הכנסת; Gr. *ἀρχισυνάγωγος*; gelwir hefyd, *αρχων τῆς συναγωγῆς*; *Luc* viii. 41: hefyd, *αρχων*; *Mat.* ix. 18]: blaenor neu lywodraethwr y synagog: *Luc* xiii. 14; *Act.* xviii. 8, 17; *Marc* v. 22. "Y gweinidog:" *Luc* iv. 20. Ymddengys fod yn perthyn i synagogau mawrion gyfeisteddfod neu gynghor o henuriaid (זקנים=*πρεσβύτεροι*; *Luc* vii. 3), i'r rhai yr ymddiriedid gofal a dysgyblaeth y gynulleidfa, ac i bawb o'r rhai hyn rhoddid yr enw hwn: *Luc* viii. 41; *Act.* xiii. 15. Eu dyledswyddau oedd llywyddu yn y gwasanaeth cyhoeddus, cyfarwyddo darlleniad yr Ysgrythyrau, a galw rhywrai i gyfarch y gynnulleidfa, pan na byddai neb yn cynnyg eu hunain yn wirfoddol; edrych ar ol cyfraniad elusenau; a chospi troseddwyr, naill ai trwy fflangellu neu trwy esgymundod: *Mat.* x. 17; xxiii. 34; *Act.* xxii. 19; *Ioan* ix. 22; xii. 42; xvi. 2. Mewn ystyr gyfyngach, y mae yr enw weithiau yn cael ei roddi i lywydd y cynghor, swydd yr hwn, yn ol Grotius a llawer o ysgrifenwyr ereill, oedd yn wahanol oddi wrth ac uwch law swydd yr henuriaid yn gyffredin. Vitringa, ar y llaw arall, sydd yn dal nad oedd dim o'r fath wahaniaeth swydd, a bod yr enw yn cael ei gymhwyso fel hyn yn unig i ddynodi yr henuriaid llywyddol ar y pryd, yr hwn a weithredai ar ran ac yn enw y lleill oll.—(*Kitto.*) Gwel Synagog.

ARCHWAETH—U, [*chwaeth*]: blas, profi: 1 *Sam.* xiv. 24, 43; 2 *Sam.* iii. 35; xix. 35; *Iob* xii. 11; xxxiv. 3; *Luc* ix. 27; *Col.* ii. 21. Un o synwyrau y corff. Mae wedi ei gyfleu yn benaf yn y tafod, yn nghyd â'r gorchfan, y gwefusau, a rhanau ereill y genau. Mae yr argraff a wna defnyddiau blasus ar beiriannau yr archwaeth yn amrywio mewn amgylchiadau gwahanol, o ran oedran, maint, arferiad, a defnyddiad mwy neu lai mynych o gyfferi cryfion. Y mae yr ymarferiad â'r diodydd meddwol yn tueddu i niweidio yr archwaeth; ac afiechyd y cylla yn ei anhwyluso. Canfyddir ansawdd yr iechyd yn ymddangosiad y tafod a'r gwefusau. Mewn henaint, y mae fel y synwyrau ereill yn adfeilio. Y mae llawer o fwyniant yn tarddu oddi wrth yr archwaeth. Gan fod ymborth yn rheidiol er cynnal bywyd, y mae y Creawdwr wedi trefnu yn ddoeth i hyny fod yn ffynnonell o hyfrydwch i'r creadur; ac yr ydys yn sylwi nad yw poenau yr archwaeth mor lluosog ag eiddo y teimlad. Y cyfryw yn unig ydynt sydd yn rheidiol er peri i ni ochel eithafion, ymarbediad, neu ormodedd; ac er ein cadw rhag defnyddio ymborth anghyfaddas; ac felly yn dybenu ar achosion sydd yn gyffredin dan reolaeth dyn ei hun. Gwel Tafod.

ARDALUS: mab Vulcan. Dywedir mai efe oedd y cyntaf a ddyfeisiodd y bibell, a'i fod wedi ei rhoddi i'r Awenau (*Muses*); y rhai a elwir o herwydd hyny, *Ardalidiaid* ac *Ardaliotidiaid.*—(*Paus.*; *Lempr.*; *Wright.*)

ARDATH: enw maes yn Babilon: 2 *Esdr.* ix. 26.

ARDRETH—OL—U, [*treth*]: cyllid, toll, rhent. "Ardreth y brenin;" y dreth fawr. "Paul a arhoes ddwy flynedd gyfan [yn Rhufain] yn ei dŷ *ardrethol* ei hun, ac a dderbyniodd bawb a'r oedd yn dyfod i mewn ato, gan bregethu teyrnas Dduw, ac athrawiaethu y pethau am yr Arglwydd Iesu Grist, gyda phob hyfder, yn ddiwahardd;" *Act.* xxviii. 30, 31. Pan ddygwyd Paul yn garcharor i Rufain, cenadwyd iddo gael aros wrtho ei hun, gyda milwr oedd yn ei gadw: *adn.* 16. Tebygol iddo gael y ffafr hon o herwydd y gair da a roddwyd iddo gan y canwriad; yr hwn a ymddygasai yn garedig tuag ato ar hyd yr holl fford; a bu cael aros felly wrtho ei hun, "yn ei dŷ ardrethol ei hun," o gysur dirfawr i'r apostol rhagor pe buasai yn gorfod gorwedd yn mysg troseddwyr truenus yn y carchar cyffredin; a bu hefyd o fantais annhraethadwy i eglwys Dduw, yn gymmaint a'i fod yn cael cyflawn ryddid i bregethu yr efengyl i bawb a ddeuent ato, yr hyn a fu yn fendithiol er tröedigaeth llaweroedd, hyd yn oed rhai o deulu Cæsar. Ac yn ei dŷ ardrethol hwn y cafodd seibiant i ysgrifenu amryw o'i epistolau gwerthfawr; sef, at yr Ephesiaid, y Philippiaid, y Colossiaid, a Philemon, a'r un at yr Hebreaid—y rhai a fyddant o ddefnydd anmhrisiadwy i Gristionogion hyd ddiwedd amser. Trefnodd Rhagluniaeth i'w garchariad ar yr adeg hon fod yn lled esmwyth, i'r dybenion pwysig yma.

ARDDERCHOG—RWYDD, [*ar* a *dy—erch*]: dyrchafedig, rhagorol, aruchel, mawreddig; cainwychder, mawredd.

> "Tri ardderchogrwydd cerdd: godidawg talth, godidawg ystyr, a godidawg grebwyll." *Barddas.*

Priodolir ardderchogrwydd i Iehofah. Y mae ei ddeheulaw "yn ardderchog o nerth" (*Exod.* xv. 6), "a'i enw yn ardderchog ar yr holl ddaiar" (*Salm* viii. 1). Gan ei fod "yn ardderchog yn ei waith," yn ei *holl* waith, y mae yn briodol dyweyd fod "mawredd ei ardderchogrwydd" yn ymddangos mewn cyfryngiadau arbenig o'i eiddo; megys pan ddinystriodd Pharaoh a'i luoedd yn y môr. "Yn mawredd ei ardderchogrwydd y tynodd i lawr y rhai a gyfodasant i'w erbyn." Gelwir yr Arglwydd yn "gleddyf ardderchogrwydd" Israel, am y byddai, trwy ymladd o'u plaid, yn eu gwneyd i ragori ar genedloedd ereill; neu am fod ganddo, yn ei holl ymwared iddynt, olwg ar ei gyssegr oedd yn eu plith (*Deut.* xxxiii. 29). Y mae "etifeddiaeth yr Arglwydd," sef Gwlad yr Addewid, a'r sefydliadau dwyfol oedd ynddi, yn cael eu galw yn "ardderchogrwydd Iacob;" neu yn ol Hengstenberg, "balchder

Digitized by Google

Iacob" (cymharer *Salm* xlvii. 4; *Nah.* ii. 2; *Amos* viii. 7)—yr hyn y gallasai Iacob fod yn falch o hono; o blegid y gwnaed Canaan a'i sefydliadau mor ardderchog a gogoneddus trwy gynnifer o brofion o allu a daioni Duw. Y mae ardderchogrwydd Duw yn arwyddo holl berffeithiau gogoneddus ei natur, prydferthwch yr oll mewn undeb a chydgyfarfyddiad ynddo, fel y maent yn ei wneyd yn fod perffaith: ardderchogrwydd ei enw ydyw y cyssondeb a'r gogoniant sydd yn yr holl ddadguddiadau a roddes o hono ei hun i'w greaduriaid.

**ARDDODIAD DWYLAW:** rhoddiad llaw neu y dwylaw gan un neu ragor ar ben un a fendithid neu a neillduid i swydd, neu ynte ar ben anifail a fyddai yn aberth dros bechod.

1. *Wrth fendithio.* Y cyfeiriad cyntaf a gawn at y dull hwn sydd yn hanes Iacob yn bendithio meibion Ioseph: *Gen.* xlviii. 14. Yn yr hanes hwn, cawn fod rhoddiad y llaw ddeheu ar ben yr ieuangaf, yn arwydd ei fod i gael ei fendithio yn helaethach na'r hynaf. Yn *Mat.* xix. 13, cawn hanes dygiad plant bychain at yr Iesu, "fel y rhoddai ei ddwylaw arnynt;" *Marc* x. 16.

2. *Wrth offrymu.* Yr hwn a ddygai offrwm i'r Arglwydd a gyfarwyddir i osod ei law ar ben ei offrwm: *Lef.* i. 4; iii. 2, 8, 13. Pan offrymid aberth dros holl gynnulleidfa Israel, ar ol iddynt bechu mewn anwybod, gosodai henuriaid y gynnulleidfa eu dwylaw ar ben y bustach, ger bron yr Arglwydd: *Lef.* iv. 15. Yr oedd y Lefiaid a'r offeiriaid yn rhoddi eu dwylaw ar ben yr ebyrth ar amser eu cyssegriad i'w swyddau: *Exod.* xxix. 10, 19; *Lef.* viii. 18; *Num.* viii. 10. Meddylia rhai fod cyfeiriad yn *Heb.* vi. 2—"athrawiaeth bedyddiadau, ac arddodiad dwylaw"—at y ddefod hon. Cymhwysa ereill ef at ddodiad dwylaw ar y bedyddiedig yn yr Eglwys Gristionogol, er cyfranu iddynt ddoniau yr Ysbryd Glân. Am arwyddocâd y ddefod hon wrth offrymu, gwel **Aberth.**

3. *Wrth neillduo i swyddau.* "Gosoded meibion Israel eu dwylaw ar y Lefiaid, ac offrymed Aaron y Lefiaid ger bron yr Arglwydd, yn offrwm gan feibion Israel, fel y byddont hwy i wasanaethu gwasanaeth yr Arglwydd;" *Num.* viii. 10, 11. Yn *Num.* xxvii. 18, 23, cawn Moses, yn ol cyfarwyddyd Duw, yn gosod ei law ar ben Iosuah fel un oedd i fod yn olynydd iddo; a chyfeiria at y neillduad yn *Deut.* xxxiv. 9. Dan y Testament Newydd, cawn yr un dull yn arferedig. Dododd yr apostolion eu dwylaw ar y saith diacon: *Act.* vi. 6. Darfu i brophwydi ac athrawon Antioch ddodi eu dwylaw ar Barnabas a Saul: *Act.* xiii. 3. Yr oedd Timotheus wedi derbyn "arddodiad dwylaw yr henuriaeth;" 1 *Tim.* iv. 14: a'r eiddo Paul ei hun: 2 *Tim.* i. 6:—y cyntaf, efallai, yn ei neillduad i'r swydd, a'r llall yn nghyfranogiad doniau neillduol iddo. Ond dichon fod y ddau, pan yn cyfeirio at yr un amgylchiad, a bod Paul, yr hwn oedd gydhenuriad, yn un o'r "henuriaeth" a ddodent eu dwylaw ar Timotheus. Rhydd yr apostol gyfarwyddiadau i Timotheus yn nghylch cymhwysderau esgobion a diaconiaid, a diau ei fod yn dysgwyl iddo osod henuriaid a diaconiaid yn ol fel y byddai eisieu: am hyny, dywed wrtho (1 *Tim.* v. 22), "Na ddod ddwylaw yn ebrwydd ar neb." Ni sonir am osod dwylaw ar Matthias, ac Apollos; ac am hyny, nid yw yn hanfodol i'r hyn a elwir urddiad.

4. *Wrth gyfranu doniau, iachâd naturiol, a doniau ysbrydol:* *Luc* iv. 40; *Marc* xvi. 18; *Act.* ix. 17. Yn amgylchiad Saul, cawn ddoniau yr Ysbryd Glân yn gyssylltiedig â iachâd naturiol. Yr oedd yr apostolion yn arfer cyfranu doniau ysbrydol i'r bedyddiedig: *Act.* viii. 18, 19. Cyfranai Duw y ddawn weithiau heb hyn, megys ar ddydd y Pentecost, ac yn nhŷ Cornelius (*Act.* xi. 15). Ond nid ydym yn cael fod arferiad i ddodi dwylaw ar y bedyddiedig, ond i'r dyben i gyfranu iddynt ddoniau yr Ysbryd Glân; tra yr ydym yn cael rhai a neillduid i swydd newydd, neu gylch newydd, eu bod o'r blaen yn llawn o'r Ysbryd Glân, yn cael gosod dwylaw arnynt fel rhan o'r ddefod urddiadol.

Y mae gwahanol farnau am barhad yr arferiad mewn cyssylltiad â'r bedyddiedig, ac wrth neillduo i swyddau. Y mae y rhai a honant awdurdod apostolaidd, yn arfer â gosod dwylaw, ac yn meddwl ei fod yn hanfodol i urddiad. Yn Eglwys Loegr, arferir "arddodiad dwylaw ar y sawl a fedyddiwyd, ac a ddaethant i oedran pwyll," yr hyn a elwir yn gyffredin "bedydd esgob," neu "gonffirmasiwn." Yn ffurf urddo offeiriaid, esgobion, ac archesgobion, ceir fod yr esgob yn dywedyd, "Derbyn di yr Ysbryd Glân i swydd a gwaith offeiriad o fewn eglwys Dduw, yr hon swydd a roddir i ti yr awrhon trwy arddodiad ein dwylaw ni."

Bu cryn ddadleu yn mysg y Bedyddwyr Cymreig yn nghylch arddodiad dwylaw ar y bedyddiedig, tua chanol, ac o hyny hyd ddiwedd y deunawfed canrif; a bu rhwygiadau eglwysig, er nad ymranodd yr enwad: ond yn bresennol, nid ydyw yn cael ei ystyried yn ddigon pwysig i dori rhwymau cariad a chymundeb. Barna awdwr *Hanes y Bedyddwyr* fod cymmaint o'r eglwysi yn ymwrthod â'r arferiad ag sydd yn ei gynnal (tudal. 72—77). Nid ydym yn gwybod fod un enwad arall o Ymneillduwyr yn arfer arddodiad dwylaw wrth dderbyn rhai bedyddiedig at fwrdd yr Arglwydd.

Y mae amrywiaeth barnau yn mysg Ymneillduwyr o gylch urddo diaconiaid ac esgobion trwy arddodiad dwylaw. Y rhai a ymwrthodant â'i arferiad a dybiant nad yw arddodiad dwylaw bob amser yn arwydd o roddiad doniau yr Ysbryd Glân mewn modd anghyffredin; a chan nad yw yr awdurdod hyny yn meddiant neb dynion yn awr, mai ffolineb yw rhoddi dwylaw gweigion ar neb. Pan arferir arddodiad dwylaw, cymmerir gofal gan y gweinidogion i roddi ar ddeall i'r gynnulleidfa nad ydynt yn y weithred hon yn hawlio un awdurdod i roddi na doniau na grasau, ac nad ydynt yn rhyfygus ddysgwyl dylanwadau anghyffredin, neu ddoniau gwyrthiol; ond nodant yr urddedig yn y rhan hono o'r weddi a gyfeiria at ei neillduad i'r swydd, er mwyn chwanegu difrifoldeb a defosiwn ynddynt eu hunain, yn yr urddedig, ac yn y gynnulleidfa.—(*Calvin's Insti.*, llyfr iv. pen. 3. § 16; *Dialogues on Social Religion, by M. Maurice; Dwight's Theology, sermon* 155; *Davidson's Eccles. Polity of the New Test.; Coleman's Church without a Prelate; Neander's Hist. of the Planting of the Christian Church.*)

**AREDIG:** y weithred o falurio y ddaiar, fel y byddo yn addas i dderbyn unrhyw hadau er cynnaliaeth dyn neu anifail. Am hynafiaeth y gwaith hwn, gwel **Aradr.** Nid oedd swydd y garddwr gynt islaw sylw gwŷr mawrion. Yn 1 *Bren.* xix. 19, yr ydym yn cael fod Eliseus, er yn fab i ŵr mawr yn Israel, yn llafurio wrth y gwaith o aredig; ac yr oedd un aradr ar ddeg o'i flaen, ac yn cydweithio âg ef. Yn Llyfr Iob, dywedir

Digitized by Google

fod ei ychain yn aredig, pan y "rhuthrodd y Sabeaid arnynt, ac a'u dygasant ymaith;" *Iob* i. 14, 15. Arferir y gair weithiau am ddyfais ddofn, neu lafur caled—"Oni fuasai i chwi aredig â'm hanner i, ni chawsech allan fy nychymyg," meddai Samson wrth y Philistiaid: *Barn*. xiv. 18. "Iudah a ardd, a Iacob a lyfna iddo;" *Hos*. x. 11. "Braenerwch i chwi fraenar:—arddasoch i chwi ddrygioni, medasoch anwiredd." "Mewn gobaith y dylai yr arddwr aredig;" 1 *Cor*. ix. 10. Arferir y gair eto am ddyfais dda neu ddrwg:—*Iob* iv. 8; "Y rhai a arddant anwiredd, ac a hauant ddrygioni, a'u medant." Brydiau ereill, arfera yr Ysbryd Glân y gair am greulonder mawr —megys *Salm* cxxix. 3; "Yr arddwyr a arddasant fy nghefn, estynasant eu cwysau yn hirion." Y mae y geiriau yn brophwydoliaeth o'r hyn a wnaeth Pilat i'n Harglwydd bendigedig, cyn iddo ei groeshoelio. Gwel *Ioan* xix. 1. Y mae ein Harglwydd yn arfer y gair *aredig* am broffes o grefydd: *Luc* ix. 62.

AREOPAGUS, [Αρειος παγος; *Collis Martius; Mars Hill*=Bryn Mars]: gelwid Areopagus felly mewn canlyniad i'r prawf a fu ar Mars yno, yn ol chwedlau y Groegiaid [*Paus*. xxviii. 5]. Yn yr ystyr cyntaf, arwydda y bryn calchaidd a adnabyddid wrth yr enw; ond yn y nesaf, y llys hynaf a mwyaf clodfawr yn Athen, yr hwn a gyfansoddid o'r dynion uchaf eu bonedd, eu hannibyniaeth, a'u cymmeriad am uniondeb. Yr oedd eu hawdurdod yn uchel, nid yn unig yn ngwlad Groeg, ond appeliai dyeithriaid at ei ddedfryd. Geilw Tacitus ef yn ei amser ef [*Annal*. ii. 55] *Arcum judicium—llys euraidd;* o herwydd uniondeb ei benderfyniadau. Er yn fore, yr oedd wedi ennill y cymmeriad o fod yn llys tra chrefyddol (*religiosissimum judicium*) a thra cyssegredig (*sanctissimum consilium*). Yr oedd ei awdurdod yn cyrhaedd at achosion gwladol, megys gwarcheidwaeth a chyllidau; troseddau o'r gyfraith; crefydd, a dysgeidiaeth. Yr ydoedd mewn bri mawr yn amseroedd y Testament Newydd; a pha bryd y collodd ei ddylanwad yn llwyr, nid yw yn hollol wybyddus. Ond nid oes gyfeiriad at y llys yn hanes Paul (*Act*. xvii. 19—34), yn yr ymadrodd, "hwy a'i daliasant ef"—nid trwy drais. Cyfieithir yr un gair "cymmeryd" yn *Act*. ix. 27: ac nid oes un cyfeiriad trwy yr holl hanes at brawf cyfreithiol. Buasai y cyfieithiad, "Bryn Mawrth" neu Mars, yn fwy diamwys:—*Mars Hill* ydyw unwaith yn Seisonig (*adn*. 22). Yr oedd rhai o wrandawyr Paul yn dymuno cael eglurhad helaethach ar y materion rhyfedd oedd yn awr am y tro cyntaf yn cael eu dwyn ger eu bron; felly, cymmerasant ef i ben Bryn Mawrth, lle yr oedd y llys uchaf yn arfer eistedd er cyn cof, i gyhoeddi dedfryd ar y troseddwyr mwyaf, a phenderfynu y cwestiynau mwyaf pwysig mewn cyssylltiad â'u crefydd. Eisteddai y barnwyr yn yr awyr agored, ar feinciau wedi eu gweithio o'r graig, ac esgynent o'r ("farchnad;" *adn*. 17) Agora ar hyd risiau wedi eu tori yn y graig. Nid oedd un lle yn Athen mor gymhwys i draethu ar ddirgelion crefydd ynddo a'r lle hwn; yr ydoedd yn lle o ddystawrwydd arswydlawn, yn nghanol dinas wedi ymroddi i oferedd. Wrth ymneillduo o'r farchnad i'r Areopagus, deuent megys i wyddfod gallu uwch. Gallesid dysgwyl y buasai meddwl yr areithiwr yn teimlo oddi wrth orwychder y grefydd y daethai i'w dadsylfaenu. Ar ael y bryn, yr oedd teml i Mars; ac mewn agen yn y graig, ychydig yn is na meinciau y barnwyr, yr oedd adeilad gyssegredig i'r *Furies* (Ellyllon); ar ei gyfer, tua 200 o latheni, yr oedd yr Acropolis—lle llawn o demlau a delwau, fel y gellir dywedyd am dano yn ngeiriau un o honynt hwy eu hunain, ei fod (αντ' αναθηματος) yn un offrwm mawr i'r duwiau. Ymsefydlodd y Persiaid ar yr Areopagus wrth wneyd ymosodiad ar yr Acropolis [*Herod*. viii. 52]. Oddi ar yr un man y gwnaeth yr apostol ymosodiad ar baganiaeth, nerth ac arwydd gweledig o ba un ydoedd yr Acropolis. Llosgodd Xerxes demlau Groeg unwaith yn ei wallgofrwydd; ond yr oedd ymosodiad Cristionogaeth yn fwy unol â'i natur lariaidd ei hun. Ac er nad oedd effaith uniongyrchol araeth yr apostol yn fawr, daeth y Parthenon mewn amser yn lle i Eglwys Gristionogol [*Leake, Athens*, td. 277]. Peidiodd Athen a bod yn ddinas ymroddedig i eilunod fel ag yr oedd yn amser Paul; a daeth gwrthwynebiad y Groegiaid i eilunod mor fawr fel ag i fod yn brif achos yr ymraniad rhwng yr eglwys yn y dwyrain a'r gorllewin, yn yr wythfed ganrif. Gwel ATHEN.

AREITHFA: yn llythyrenol, lle i areithio; ond yn ei ffurf gyfansawdd, y mae llafar gwlad wedi rhoddi ystyr iddo y buasai y gair *pregethfa* yn fwy priodol, os cymmerem ein harwain gan yr elfenau a'i cyfansoddant; ond nid yw llafar gwlad yn ddarostyngedig i awdurdod llythyreniaeth. Fel ail ystyr, gan hyny, y rhaid ystyried *areithfa* yn briodol am y gair Seisonig *pulpit;* ond pe cymmerai yr ieithyddwr, mewn amser dyfodol, ei arwain gan wreiddiau, &c., byddai yn sicr o syrthio i'r camsyniad mai geiriau cyfystyr ydyw *pregethu* ac *areithio*. Nid yw ei fod, rai prydiau, yn cael ei ddefnyddio i areithio yn gwneyd un gwahaniaeth. Pan fyddo lle wedi ei neillduo i areithio yn unig, gelwir ef *areithglwyd, esgynlawr*, &c., ond nid un amser yn *areithfa*. Y mae y gair yn cael ei gyfyngu i ddynodi y lle y bydd y gweinidog, neu yr offeiriad yn gweinyddu yn ein capelau a'n heglwysi.

Bu camsyniad o bwys yn ffynu yn mhlith yr adeiladwyr, a'r bobl yn gyffredinol, o berthynas i'r sefyllfa y dylasai yr areithfa fod ynddi. Gwyddys, os byddai yn ddigon uchel, y byddai felly yn hawdd ei weled o wahanol ranau yr adeilad; a thybid, o herwydd yr un rheswm, ei fod yn fwy manteisiol i lefaru ac i wrandaw. O blegid hyny, ceir fod yr hen areithfaoedd oll yn agos i nen yr adeilad. Ond y mae gwyddor wedi gwneyd y camsyniad yn ddigon amlwg, ac oni bai cyssylltiad yr areithfa âg addoldai, buasai gwelliadau mwy wedi eu gwneyd mewn cydsyniad âg awgrymau seiniadaeth (*acoustics*) ac anianeg (*physiology*). Y mae y cyntaf yn dysgu fod tuedd swn i ymddyrchafu, ac nid ymsuddo; a'r olaf yn sicrhau mai yr ystum fwyaf manteisiol i lefaru ydyw edrych ar i fyny, ac nid plygu i lawr. Bydd yr ysgyfaint felly, yn cael lle priodol i gyflawnu eu swyddogaeth, ni ormesir ar y peiriannau llafar, a bydd y pregethwr yn gwneyd ei waith yn ddiberygl iddo ei hun, a chyda mwy o ddylanwad ar ei wrandawyr. Ymddengys, gan hyny, mai y llefarwr a ddylai fod ar y tir isaf yn yr addoldy, a'r gynnulleidfa yn ymgodi yn raddol, ris uwch gris, oddi wrtho, hyd at y muriau. Ystyrir mai y ffurf amddyrchfaol (*amphitheatre form*) ydyw y fwyaf gydweddol âg awgrymau gwyddoniaeth; ac y mae ystafelloedd areithio, mewn cyssylltiad â sefydliadau llenyddol, yn y

Digitized by Google

trefydd mawrion, yn cael eu gwneyd ar y cynllun hwnw.

ARELI, [אראלי, *goleuni*, neu *weledigaeth yr Arglwydd*]: un o feibion Gad: *Gen.* xlvi. 16: gelwid ei hiliogaeth, "tylwyth yr Areliaid;" *Num.* xxvi. 17.

1. ARES: un o benau cenedl y rhai a ddychwelasant o'r gaethglud, gyda Zorobabel ac ereill, yn amser y brenin Darius: 1 *Esdr.* v. 10.

2. ARES, [Ἄρης=*rhyfel, cleddyf, melldith*]: duw rhyfel yn mysg y Groegiaid, a ystyrir yn gyffredin fel yn cyfateb i Mars yn mysg y Rhufeiniaid. Yr un ag Ἄρευς *(Areus)*, neu Ἄρους *(Arows)*. Gwna Homer ef yn frodor o Thrace; ac ereill a'i hystyriant yn dad lluaws o afonydd a thylwythau yn y wlad hono. Y mae, gan hyny, yn dra thebygol ei fod yn dduw a addolid yn fwyaf neillduol gan ryw genedl ogleddol, er y rhaid addef fod yn anhawdd cael profion ereill dros hyn. Rhydd Herodotus (iv. 62) hanes am addoliad duw o'r enw hwn yn mysg y Scythiaid. "Aberthant," meddai, "i Ares fel y canlyn. Yn mhob dosbarth, yn y lle y mae y barnwyr yn ymgynnull, y cyfodir carnedd neu adeilad gyssegredig i Ares, yn y dull canlynol:—Pentyrir ffagodau ar eu gilydd, a ffurfir arnynt esgynlawr ysgwâr. Bob blwyddyn, gosodant arno gant a hanner o lwythi men o ffagodau, gan eu bod yn lleihau o herwydd y tywydd. Ar y pentwr hwn, gosodir hen gleddyfau neu glaif gan bob llwyth; a hwnw ydyw delw Ares. I'r claif hwn y dygant ebyrth blyneddol o anifeiliaid; ac offrymant i'r cleddyfau ceimion hyn fwy o ebyrth nag i'r duwiau ereill yn nghyd." Yn âch ddiweddaf y duwiau, ystyrid Ares yn fab Iau a Juno; ac fel y cyfryw, cymmerodd ran yn y rhyfel yn erbyn y cawri, ac a laddodd Mimas a Pelorus. Yn yr ymladdfa â Typhon, ffodd gyda'r duwiau ereill i'r Aipht, a throwyd ef yn bysgodyn. Nid oedd yn fwy llwyddiannus yn ei ymladdfeydd âg Othus ac Ephialtes, plant Aloeus, yr hwn a'i carcharodd ef am dri mis ar ddeg. Yn mhen talm o amser, lladdodd Halirrhotius, mab Neptune, am iddo dreisio Alcippe, ei ferch. Gwysiodd Neptune ef i ymddangos o flaen brawdle cyfiawnder, am lofruddiaeth ei fab. Profwyd yr achos yn Athen, mewn man a alwyd oddi wrth hyny yn *Areopagus.* Y diwedd a fu rhyddhau y llofrudd.

Edrychir arno yn beth hynod nad oedd y Groegiaid, er eu bod yn wastadol mewn rhyfel â rhywrai, yn talu ond ychydig o sylw i addoliad Ares. Nid oedd ond ychydig o demlau wedi eu cyfodi iddo yn eu gwlad. Yr oedd yn Geronthræ, pentref yn Laconia, deml a llwyn lle y cynnelid gŵyl flyneddol, i ba un ni chaniateid i un fenyw fyned. Yr oedd un arall ar y ffordd o Amyclæ i Therapne, yn Laconia; ac un arall yn Athen. Er yr ymddengys, fel y dangoswyd, mai duw Thraciaidd oedd Ares, y mae gwreiddyn y gair *Ares* yn rhan gynhenid o'r iaith Roeg; a'r gair sydd yn arwyddo *gwrol*, a *mwyaf gwrol (αριστος)* sydd uwchradd o'r gair *αρης*. Yn yr oesoedd boreuaf, offrymid iddo ebyrth dynol gan y Lacedæmoniaid, cŵn gan y Cariaid, ac asynod gan y Scythiaid. Yn ystod rhyfel Troia, yr oedd Ares yn mhlaid y Troiaid; a chefnogai anwyliaid y dduwies Venus (Gwener) gydag egni mawr. Yn Rhufain, derbyniai addoliad ac anrhydedd mwy helaeth a chyffredinol nag yn un man arall; ac yr oedd y Rhufeiniaid rhyfelgar yn orawyddus i dalu gwarogaeth i dduw a ystyrient fel noddwr eu dinas, a rhiant y cyntaf o'u penaduriaid. Adeiladwyd y deml fwyaf ardderchog iddo yn Rhufain, gan Augustus, ar ol brwydr Philippi.

Nid yw yn hawdd dyweyd pa nodwedd neillduol a roddai arlunwyr i Ares, o blegid ni anrhydeddid ef gan un o daleithiau Groeg fel ei phrif dduw. Am fod ei addoliad, dan yr enw Mars, yn fwy cyffredinol gan y Rhufeiniaid, y mae yn hawdd gwybod y ffurf a roddent hwy iddo fel eu duw. Ond nid yw felly, fel y dywedwyd, gyda'r Groegiaid. Nid oes un hanes neillduol am y cerfluniau oedd o hono yn nheml Athen, gan Alcamenes a Scopas; ond gellir casglu, oddi wrth yr ychydig grybwyllion sydd ar gael, ac oddi wrth arlun ei ben ar emau, mai y nodwedd yn yr hwn yr arddangosid ef, ydyw y canlynol:—Mae y mynegiad yn llym a meddylgar, y cyhyrau yn gryfion, y gwddf yn llawn a chryf, y gwallt yn fyr a garw; y mae y genau yn fychan, y gwefusau yn llawnion, a'r llygaid yn isel a dyfnion. Pan heb fod yn noeth, y mae math o fantell yn crogi dros ei ysgwyddau. Nid yw cyfenwau Ares yn bur luosog. Heb law Mars, gelwid ef hefyd gan y Rhufeiniaid Gradivus, Marvos, Quirinus, Salisubsulus; gan y Sabiaid, Enyalus; gan y Galiaid, Camulus; gan y Carthaginiaid, Mamers. Fel duw y naill neu y llall o'r cenedloedd hyn, yr oedd yn dad i Cupid, Anteros, a Harmonia. Ganwyd iddo Ascalaphus ac Ialmenus o Astyoche; Alcippe o Agraulos; Molus, Pylus, Evenus, a Thestius, o Demonice, merch Agenor. Cyfrifid hefyd Romulus, Œnomaus, Bythis, Thrax, a Diomedes, &c., yn blant iddo. Gwel MAWRTH.—*(Lempriere; Penny Cycl.)*


ARETAS, [Ἀρέτας]: yr oedd amryw o dywysogion Arabia o'r enw yma; ond yr unig un a grybwyllir yn yr Ysgrythyrau yw yr un a gymmerasai feddiant o Damascus, flwyddyn cyn i Paul gael ymosod arno yno gan yr Iuddewon, a'i erlid am bregethu yr efengyl, tua'r flwyddyn B. A. 38: *Act.* ix. 23, 24; 2 *Cor.* xi. 32, 33.

Crybwyllir hefyd yn 2 *Mac.* v. 8, am un o'r enw, yr hwn a gyfoesai â Iason, yr archoffeiriad Iuddewig, ac âg Antiochus Epiphanes, tua'r flwyddyn C. C. 170. "Am hyny, efe (Iason) a gafodd ddiwedd ei ddrwg fuchedd, sef, efe a garcharwyd gydag Aretas, brenin yr Arabiaid."

Y mae Josephus hefyd, yn ei *Hynafiaethau* (xiii. 13, 3), yn crybwyll am Aretas, brenin yr Arabiaid, ac a gyfenwid Obedas. Yr oedd efe yn cyfoesi âg Alexander Jannæus, a bu farw C. C. 79. Wedi gorchfygu Antiochus Dionysus, efe a deyrnasodd ar Cœle-Syria, wedi ei alw i'r llywodraeth gan y rhai a feddiannent Damascus, o herwydd eu casineb at Ptolemeus Mennæus. Cefnogodd Hyrcanus yn ei ymdrech am y benaduriaeth oddi ar ei frawd Aristobulus, a dechreuodd warchae ar Ierusalem; ond ar ddynesiad y Rhufeiniaid dan Scaurus, efe a enciliodd i Philadelphia. Ymlidiodd Aristobulus ar ol Hyrcanus ac Aretas, y rhai a oddiweddwyd ganddo, ac a orchfygwyd ganddo mewn lle a elwid Papyron, a lladdwyd chwe mil o'u gwŷr. Yn mhen tair neu bedair blynedd wedi hyny, Scaurus, i'r hwn yr ymddiriedasai Pompey lywodraethiad Cœle-Syria, a ymosododd ar Petræa; ond wrth ganfod yr anhawsder i gael arlwy i'w fyddin, efe a gydsyniodd â chais Aretas i gilio oddi yno, ar dderbyniad tri chan talent. Cawn ddarlun o fathodyn gan Havercamp, yr hwn a fwriedid i goffau yr amgylchiad yma; ar yr hwn y dysgrifir Aretas mewn ystum ymbilgar, yn cydio â'i law aswy mewn ffrwyn camel, ac â'r llaw ddeheu yn cyf-

Digitized by Google

lwyno cangen o thus â'r argraff ganlynol arno:— M. SCAVRVS. EX. S. C., ac oddi tanodd, REX ARETAS.



Dar. 62.

Yr Aretas a grybwyllir yn nechreu yr erthygl hon, oedd yn dad yn nghyfraith i Herod Antipas. Ond gan i Antipas gynnyg priodi Herodias, gwraig ei hanner brawd, Herod-Phylip, merch Aristobulus, eu brawd, a chwaer Agrippa Fawr, dychwelai merch Aretas at ei thad; a'r canlyniad fu, i ryfel dori allan rhwng Aretas a Herod, y rhai o'r blaen oeddynt yn lled ymrafaelgar yn nghylch ffiniau eu hamrywiol diriogaethau. Llwyr ddistrywiwyd byddin Herod, yr hwn a anfonodd adroddiad o'i aflwydd i Rufain; ac ar hyny, yr ymherawdwr a barodd i'w gadlywydd, Vitellius, ddwyn Aretas yn garcharor o'i flaen ef, os delid ef yn fyw; ond os yn farw y cymmerid ef, am anfon ei ben i Rufain. Ond fel yr oedd Vitellius ar ei gadgyrch i Petra, derbyniai y newydd am farwolaeth Tiberius; ac wedi gweini y llwon o ffyddlondeb i'w filwyr, efe a'u gollyngodd i luestu dros y gauaf, ac a brysurodd i Rufain ei hunan. Nid oes sicrwydd pa bryd y cafodd Aretas feddiant o Damascus. Y syniad cyffredin er amser Heyne [*De Ethnarcha Aretæ Arabum regis*, 1755] ydyw, fod Damascus wedi cael ei gorchfygu gan Aretas pan roddodd Vitellius i fyny yr ymgyrch yn ei erbyn: ond y mae yn annhebygol y goddefai rhaglaw Rhufeinig i un o'i brif ddinasoedd gael ei chymmeryd oddi arno tra yn dysgwyl gorchymyn oddi wrth yr ymherawdwr newydd. Tyb arall ydyw, fod y llywydd yn ymweled y pryd hwnw â Damascus; ond ni allasai fod mewn amgylchiadau manteisiol y pryd hwnw i wylio y ddinas. Yr esboniad arall, yr hwn a roddir gan Wieseler, ac a dderbynir gan Alford [*Greek Testament: Act.* ix. 24], ac hefyd gan Conybeare a Howson [*Life of Paul*], ydyw, fod Caligula, olynwr Tiberius—yr hwn a ymddygai yn groes iddo hefyd mewn llawer o bethau—yr hwn a alltudiodd Herod Antipas, gwrthwynebwr Aretas, ac a gymmerodd Herod Agrippa dan ei nawdd—wedi rhoddi Damascus i Aretas fel rhodd. Y rhesymau dros y farn hon ydynt, 1. Gan fod Antipas wedi cael ei alltudio (B. A. 39) i Lyons, ac i'w deyrnas gael ei rhoddi i Agrippa, ei elyn [*Jos. Hyn.*, xvii. 7], byddai yn naturiol i Aretas, yr hwn oedd wedi cael cam gan Antipas, gael ei dderbyn trwy y cyfnewidiad hwn i ffafr; ac yn fwy felly, am fod hen genfigen rhwng Vitellius ac Antipas [*Jos. Hyn.*, xviii. 4, 5]. 2. Yn y flwyddyn 38, gwnaeth Caligula amryw gyfnewidiadau yn y dwyrain, gan roddi Iturea i Soemus; Armenia Leiaf, a rhanau o Arabia, i Cotys, &c.; ac nid yw yn annhebygol mewn cyssylltiad â phethau ereill, fod Damascus, yr hon a berthynai i'r rhai a'i rhagflaenai, wedi cael ei rhoddi i Aretas. 3. Perthynai y ddinas i raglawiaeth Syria, dan Augustus a Tiberius; ac y mae bathodau ar gael o Damascus yn eu teyrnasiad hwy, ac hefyd o deyrnasiad Nero, a'i olynwyr; ond am y ddau ymherawdwr a lanwodd y cyfwng rhwng Tiberius a Nero, sef Caligula a Claudius, nid oes dim bathodau Damascaidd i'w cael. Y casgliad ydyw, nad oedd Damascus dan lywodraeth y Rhufeiniaid yn y cyfwng.

Lleferir am Aretas mewn cyssylltiad â ffoedigaeth Paul o Damascus, yn mhen tair blynedd ar ol ei dröedigaeth. Y mae llawer wedi defnyddio hwn fel nod amseryddol yn mywyd Paul; ond nid yw yn hollol benderfynol; o herwydd, pa fodd bynag y daeth Aretas i feddiant o Damascus, nis gwyddom *pa flwyddyn* y gosodwyd y llywydd arni.


ARETHUSA, [*Ἀρέθουσα—ffynnon*]: merch Nereus a Doris; ac am hyny, yr oedd yn un o'r Nereidiaid—deg a deugain oll; merched Nereus, a duwiesau llongyddol Môr y Canoldir. Yr oedd Arethusa yn un o gyfeillesau Diana (Artemis), ac yn cael ei charu yn danbaid gan Alpheus, rhag trais yr hwn, pan nas gallai ddianc, troes Diana hi yn ffynnon o'r enw; a rhag i'w dyfroedd ymgymmysgu â ffrwd Alpheus, llifodd dan y ddaiar trwy redleoedd dirgel, a chyfododd eilwaith yn ynys Ortygia, yn agos i Syracuse, yn Sicily; ond parhaodd y duw i'w herlyn yno hefyd dan y môr, a chynnygiodd gymmysgu ei ffrwd â'r ffynnon yn Ortygia.—(*Wright; Smith.*)

ARF—AU—OGAETH; a olygant bob math o offerynau a arferir at waith neu at ryfel. Y mae llawer math o honynt, o ran dull a defnydd eu gwneuthuriad, yn ol y gwahanol ddybenion a fwriedir iddynt. Y mae gan bob cenedl ei harfogaeth o ryw fath neu gilydd. Nid yw dyn, mwy na rhyw greadur arall, wedi ei gynnysgaethu âg unrhyw aelod i wasanaethu fel arf dinystr. Y mae yn rhaid iddo arfer moddion celfyddydol wrth wneyd ei ymosodiad, yn gystal ag wrth amddiffyn ei hun rhag y rhuthriadau y mae yn agored i'w cyfarfod. Yr oedd llunio arfogaeth, gan hyny, yn ddyfais foreuol: efallai, ar y cyntaf, fel amddiffyniad rhag rhuthr yr anifail. Pa fodd bynag, deuwyd yn fuan i'w harfer fel moddion ymornest rhwng dyn a dyn. Fel yr oedd ymrafaelion yn codi, ac wedi treulio nerth corfforol mewn dyrnodio a chodymu, dyfeisid offerynau â pha rai y gallai dynion niweidio eu gilydd o bellder o ffordd. Mewn canlyniad i hyn, daeth medrusrwydd i gymmeryd lle cryfder, a dichell i drechu gwroldeb. Y mae yn debygol mai yr arfau dinystr cyntaf a arferid oedd y pastwn a'r garai, a'r bwa a'r saeth: ond fel yr oedd dynion yn dyfod yn fwy gwybodus, ac yn alluog i drafod y meteloedd, buan y lluniwyd y bicell, y waewffon, y fwyell, a'r cledd. Ar y dechreu, yr oeddynt yn cael eu gwneyd mewn rhan o bren, ac o haiarn; asgwrn, corn, a chareg; ond fel yr oedd celfyddyd yn ymwella, deuwyd i arfer yr haiarn a'r dur yn gwbl oll; ac fel yr oedd angenion a dyfeisiau newyddion yn dyfod i'r golwg, yr oedd y cynlluniau beunydd yn rhagori ar eu gilydd, nes dyfod o'r diwedd i raddau uchel o berffeithrwydd. Yr oedd dyfeisiad pylor yn gyfnod newydd mewn gallu arfogaethol. Cafwyd modd drwyddo i ddinystrio gwrthddrychau o bellder o ffordd, mewn amser byr, gydag ychydig o egni corfforol. Ond â'r arfau boreuol y mae a wnelom yn awr.

Y mae arfau rhyfel o ddau fath, sef y rhai *ymosodol* a'r rhai *diffynol*. I'r dyben o roddi golygiad eglur ar yr arfogaeth foreuol, a arferid yn y dwyrain, rhoddir yma ddarluniad o'r amrywiol fathau, a ddefnyddid at wahanol ddybenion.

Yr offerynau a arferid ar y cyntaf wrth ddal neu wrthwynebu anifeiliaid gwylltion, ond yn


fuan a ddefnyddid gan ddynion i niweidio eu gilydd, oedd y rhai mwyaf cyffredin a syml o ran eu gwneuthuriad; megys y pastwn a'r ffon dafl, o ba rai yr oedd gwahanol fathau, ac yn ol graddau eu cryfder a dull eu hagweddiad, a elwid wrth wahanol enwau. Defnyddid y rhai hyn ar y cyntaf i daraw, fel y gwneir â gordd neu forthwyl.



**Dar. 63.**

1, 2, 3. Pastynau. 8. Cledd pren caled.
4, 5. Tafl-ffyn ceimion. 9. Cledd pysgod-ddant.
6. Byrllysg. 10. Cledd callestr.
7. Cad-fwyall. 11. Llif-gledd.
12, 13. Cad-fwyeill Aiphtaidd.

Yr oedd yr offer hyn mewn arferiad gan yr Hebreaid; o blegid yn amser eu breninoedd yr




**Dar. 64.**

1. Dagr corn. 4, 5. Cleddyfau.
2, 3. Cleddyfau. 6. Picell.

oedd metel wedi dyfod i arferiad yn lle pren. Bernir mai at y cyfryw y cyfeirir yn *Salm* ii. 9, wrth yr ymadrodd *gwialen haiarn*, yr hon ydoedd dra effeithiol, pan yr arferid hi gan fraich nerthol. Yr oedd y tafl-ffyn yn cael eu llunio gan yr Arabiaid brodorol o wahanol ddefnyddiau. Yr oedd rhai o honynt yn debyg i lif, â cheryg callestr, neu ddaint pysgod, wedi eu gosod mewn mân forteisiau ar hyd-ddynt, a'u sicrhau yn eu lle â chyhyrau wedi eu plethu am danynt. Dengys y darluniau blaenorol fathau ereill o honynt.

Y mae y bicell, neu y waewffon, a wneir o gorn yr *antelope*, wedi ei blaenllymu, mewn arferiad hefyd hyd heddyw yn mhob parth o'r dwyrain, lle y gellir cael y defnydd hwnw. Yr oedd yr offeryn hwn yn cael ei wneuthur yn fynych yn yr Aipht, a'i wisgo drwy ei wthio dan y gwregys. Yr oedd, mewn rhan, yn debyg i'r cledd, yn ddaufiniog. Y mae yn amlwg fod y gwir gleddyf yn cael ei grogi wrth wregys yn wastadol. Yr oedd y llafn yn gyffredin yn fyr. Sonir am un yn benodol, oedd yn gufydd o hyd. Yr oedd y wain o fetel wedi ei gaboli. Mewn rhai parthau, y mae cleddyfau o bren trwm yn cael eu harfer hyd heddyw.



**Dar. 65.**

1, 2. Penau gwaewffyn. 3, 4. Picellau.
5. Pen gwaewffon corn yr oryx.


Yr oedd y waewffon yn arf ymosodol adnabyddus i'r holl genedloedd boreuol; yr oedd o wahanol faintioli, a phwys, a hyd. Y mae yn debyg fod y bugeiliaid yn mysg yr Hebreaid, fel trigolion Affrica ogleddol yn gyffredin, yn defnyddio corn yr oryx, yr hwn oedd tua thair troedfedd o hyd, wedi ei unioni mewn dwfr, a'i weinio mewn ffon ddreinen. Pan y byddai hwn wedi ei flaenllymu yn dda, gellid treiddio trwy groen y tarw âg ef, ïe, hyd yn oed trwy groen y cawrfil, yn ol tystiolaeth Strabo. Yr oedd yn ysgafn, eto yn anhawdd ei dori; gwrthsafai ergyd y gadfwyall: ac yr oedd yr anifeiliaid oedd yn ei gynnyrchu yn lluosog yn Arabia, ac yn anialwch dwyreinol Palestina. Mewn amser diweddarach, gwneid y pen o bres; ac wedi hyny, o haiarn. Yr oedd rhai preiffion a thrymion mewn arferiad yn yr Aipht gan y milwyr; ac yn ol pob tebygolrwydd, yr oedd y cadfridogion yn mysg yr Hebreaid yn cael eu hynodi am eu gwaewffyn trymion. Yr oedd un Goliath fel carfan gwehydd (1 *Sam.* xvii. 7), â'i phen yn pwyso chwe chan sicl o haiarn; yr hyn a fernir ei fod yn cyfateb i bum pwys ar ugain. Yr oedd blaen o fetel wrth y bôn, a phellen fawr uwch law iddo, i gydbwyso â'r llafn y bicell. A'r amgarn hwn y lladdodd Abner Asahel (2 *Sam.* ii. 22, 23). Yr oedd dull y pren, a hyd y paladr, yn amrywio yn yr Aipht ac yn Syria, yn ol arferion a defodau y gwahanol genedloedd buddugoliaethus.

Y gwŷr meirch yn gyffredin oedd yn cludo

Digitized by Google

gwaewffyn. Yr oedd gan y gwŷr traed ddwy bicell wahanol—un at ei thaflu yn erbyn y gelyn, wedi dyfod i'w gyrhaedd, a'r llall i'w harfer mewn ymosodiad cyfagos.


Y prif offeryn ymosodol yn yr Aipht, ac yn Palestina, ydoedd y bwa rhyfel. Y mae yn debyg fod pob gwlad wedi meddu yr arf hwn, lle y byddai defnyddiau priodol at ei wneuthuriad. Ar y cyntaf, dechreuid ei ddefnyddio gan yr helwyr, wedi ei wneuthur o'r gorsen, neu gangen o goeden ysgafn; ond buan y daeth i gael ei wneuthur yn hir a nerthol; weithiau, o bren wedi ei gadarnhau â chorn; bryd arall o gorn yn unig, neu o ifori. Yr oedd rhai o hwn tebyg i'r llythyren C; ac eraill yn debyg i gorn y bual gwyllt. Yr oedd llawer ffurf i'w blygu; weithiau â'r troed, bryd arall â'r glin. Rhydd y darlun canlynol olygiad ar y cyfan.



Dar. 66.
1, 2, 3, 4. Bwäau. 5, 6. Cewyll saethau.
7, 8. Saethau.

Yr oedd y llinyn yn gyffredin yn cael ei wneyd o ewynau y carw. Yr oedd y bwa yn cael ei gludo ar yr ysgwyddau, a'r cawell saethau ar yr ysgwydd ddeheu neu yr aswy. Yr oedd y blaen o gareg gallestr, wedi ei blaenllymu; yr oedd rhai wedi eu gosod i fyny â phlu yn dairrhesog ar eu bôn, wedi eu cyfleu fel adenydd iddynt. Yr oeddynt yn gyffredin tua 30 modfedd o hyd.

Offeryn arall oedd y *garai*, yr hon ydoedd yn wellhad ar y dull cyffredin o daflu careg â'r llaw.




Dar. 67.—Y Garai: ac Aiphtiaid yn taflu â hi.

(*Iob* xli. 28.) Hwn oedd hoff offeryn y Beniaminiaid. Yr oeddynt mor fedrus arno â'r naill law a'r llall. Yr oedd wedi ei wneuthur o nifer o gareiau wedi eu plethu yn nghyd, ac yn llydain yn y canol, i gynnal y gareg fyddai i'w thaflu, ac yr oedd dau neu dri thro yn cael eu rhoddi cyn y gollyngid y gareg ymaith.

Yr oedd yr holl offerynau hyn yn cael eu harfer ar wahanol brydiau, nid yn unig yn mhlith yr Hebreaid a'r Aiphtiaid, ond hefyd gan drigolion Assyria, Persia, Groeg, a Macedonia. Nid oedd o'r bron un wlad nad oedd y bwa a'r saeth yn adnabyddus ynddi. Yr oedd eu gwneuthuriad mor hawdd ac mor syml, fel yr oeddynt yn cael eu llunio gan bob cenedl.

Arfau diffynol. Yr arfogaeth hunan-ddiffynol foreuaf oedd y darian, y bwcled, a'r saethnod. Yr oeddynt yn cael eu gwneyd o wahanol ddefnyddiau, ac yn amrywio llawer yn eu maint a'u llun; ac felly yn cael eu dynodi wrth amrywiol enwau, mewn gwahanol wledydd.



Dar. 68.
1. Y Darian fawr. 2. Tarian gyffredin yr Aipht. 3. Y Saeth-nod. 4, 5. Tarianau hynafiaethol llwythau an adnabyddus. 6. Y Gronell.

Yr oedd yr Hebreaid yn arfer yr enw צנה *tsenna*, am darian fawr (*Gen*. xv. 1; *Salm* xlvii. 9; *Diar*. xxx. 5), yr hon a arferid fel diogelwch rhag y saeth a'r waewffon: מגן, *magin*, bwcled, neu darian lai, at wrthsefyll y cledd: a סחרה, *sohairah*, *parma*, cronell; yr hon a ddelid yn erbyn y saethyddion a'r careiwyr: ac yr oedd ganddynt hefyd שלטים *shelatim*, a שלטי *shelti*, yn gyfystyr â *magin*, ond yn gwahaniaethu yn unig mewn addurniad. Mewn oesoedd diweddarach, gwneid y tarianau o bren gwydn, heb fod yn agored i hollti, ac wedi ei orchuddio â phlyg neu ddau, neu chwaneg, o groen tarw, a'u hymylu â metel. Yr oedd ereill wedi eu gwneuthur o wiail wedi eu gwau yn dda, a'u gorchuddio â chroen yr un modd. Yr oedd rhai hefyd wedi eu gwneyd o ledr yn unig, o amryw blygion. Ac yr oedd ereill, o un plyg o groen wedi ei ferwi nes y byddai wedi ysgrebychu yn arw; y rhai a blygent dan yr ergyd; eto, ni ellid treiddio drwyddynt.


Yr oedd tarianau yr Hebreaid yn gyffredin yn hir o ran llun, yn fwaog, ac yn llydain at y cwr uchaf, ond yn wastad yn y gwaelod, wedi eu gorchuddio â chroen blewog, a'u hymylu â metel; a bernid iddynt gymmeryd yr awgrymiad am ddull eu gwneuthuriad oddi wrth yr Aiphtiaid. Yr oedd eu tarianau ysgeifn wedi eu suddo mewn olew, a'u sychu yn y cysgod, er mwyn eu caledu. Yr oedd y rhai a wneid o grwyn y mor-farch, y rhinoceros, a'r elephant, wedi eu dwyn o Ethiopia, a'u prynu yn marchnadoedd

Digitized by Google

y Phœniciaid; ond yr oedd y tarianau bychain, a wneid o grwyn pysgod, yn cael eu dwyn o Fôr Erythræa. Yn ystod amser uchafiaeth Assyria a Persia, dichon fod yr Hebreaid wedi cael eu tarianau pedairongl, hirongl, a chrynion oddi wrth y cenedloedd hyny, a'u bod mewn amser dilynol wedi efelychu yr eiddo Groeg a Rhufain. Yr oedd gan dywysogion Israel darianau o ddefnyddiau drudion; yr oeddynt oll yn cael eu trin â llaw, ac yn cael eu crogi wrth y gwddf. Yr oedd rhengau y byddinoedd ar rai amgylchiadau yn gwasgu eu tarianau ochr yn ochr â'u gilydd, fel yr oeddynt yn ffurfio math o fur cryf.

Yr oedd y darian fawr tua phum troedfedd o uchder, yn wastad yn y gwaelod, ond yn pigfeinio yn y cŵr uchaf, yn debyg i'r arf-beisiau yn ein dyddiau ni, ond wedi eu troi â'u pen uchaf i waered. Gosodid hwy ar werthyr y muriau, ac uwch ben y pyrth. Yn amser heddwch, yr oeddynt yn cael eu gorchuddio, rhag gwres yr haul; ac yn amser rhyfel, yr oeddynt yn cael eu dynoethi drachefn; ac yr oedd yr arwydd hwn, mewn iaith farddonol, yn cael ei ddefnyddio fel rhybudd o ddynesâd rhyfel (*Esa.* xxii. 6). Yn Ewrop, pan oedd rhyfelwyr y groes yn gallu efelychu y Saraceniaid, eto heb allu dwyn eu hinsawdd yma, yr oeddynt yn cerfio llun tarianau mewn meini, ar y tyrau a'r pyrth; megys yn Nghaerefrog, a manau ereill.

O'r holl arfogaeth, yr helm oedd y nesaf mewn pwysigrwydd; ac yn yr oesoedd boreuol, yr oedd yn cael ei gwneuthur o frysglwyni a hesg, yn null cwch gwenyn, neu napcyn penglog. Yr oedd crwyn penau anifeiliaid—llewod, eirth, baeddod gwylltion, teirw, a meirch—yn cael eu defnyddio; ac yr oeddynt yn cael eu haddurno â rhesi o ddannedd, myngau, a gwrych. Yr oedd coed, a lliain, mewn llawer o blygion yn cael eu harfer. Yr oedd rhai o'r cyfryw yn cael eu harfer gan genedloedd Asia mewn rhyfeloedd; a chan frenhoedd buddugoliaethus yr Aipht, cyn ymadawiad Israel oddi yno. Yr oedd ganddynt benguwch o fetel hefyd y pryd hwnw, yn terfynu yn bigfain, yn debyg i agweddiad y sarff *kneph*; ac yr oedd rhai yn gwisgo ar eu helmau pres bâr o gyrn, a chronell ar y canol. Yr oedd eu dulliau yn amrywiol iawn, fel y gwelir wrth y darluniau canlynol.




Dar. 69.

1. Brwyn.
2. Aiphtaidd.
3, 4. Asia orllewinol.
5. Cariaidd.
6, 7. Aiphtaidd.
8. Assyriaidd.
9. Groegaidd.
10. Ioniaidd.
11. Parthiaidd.
12, 13. Llwythau ereill yn Asia.


Yr oedd trigolion Asia bellenig yn gwisgo rhai o wlân, wedi eu pânu. Yr oedd llabedi yn crogi wrthynt dros y clustiau a'r cefn; ac yr oedd gan y tywysogion yn gyffredin goron ar y coryn.

Y mae ffurf helmau Groeg a Rhufain yn dra adnabyddus, y rhai oeddynt o ledr a phres: ac y mae yn debyg i'r Hebreaid a'r Aiphtiaid eu derbyn i arferiad yn ystod eu darostyngiad iddynt.



Dar. 70.
1, 2. Canaan. 3, 4. Yr Aipht.

Arfogaeth y corff. Dengys y darlun uchod y llurig, neu wisg amddiffynol y corff. Yr oedd delwau hynaf y Persiaid wedi eu gwisgo mewn crwyn blewog, megys y bu Ægis, Jupiter, a Minerva; ac yr oedd y cynllun wedi ei gymmeryd oddi wrth fabinogion Cyrenæa, neu Affrica. Yn yr Aipht, yr oeddynt yn cael eu gwneyd o ledr, pres, a chylchau heiyrn, ac yn gorchuddio yr ysgwyddau a'r ymysgaroedd. Yr oedd y rhai cyntaf yn fath o wisg, yn ymagor yn y gwddf i'r pen, ac yn cuddio y fynwes, y cefn, a rhan uchaf y breichiau, fel y gwelir wrth y darlun nesaf.



Dar. 71.
1. Amwisg Aiphtaidd. 2. Llawes fodrwyog Ioniaidd.

Yr oedd darn o'r wisg ddiffynol, tra thebyg i'r un uchod, gan ein hynafiaid, y Brython. Darganfyddwyd un yn y Wyddgrug, sir Fflint, yn mis Hydref, 1833, yn mysg tŵr o benglogau, wrth wneyd rhyw orchwylion amaethyddol mewn lle a elwir Bryn yr Ellyllon. Yr oedd wedi ei gorchuddio â dalen o aur, ac wedi ei haddurno yn dra chywrain. Y mae y dernyn hynafiaethol hwn yn awr yn y British Museum, yn Llundain.

Yr oedd y Cariaid wedi peri syndod mawr i'r Aiphtiaid, yn eu gwaith yn defnyddio metel mewn arfogaeth ddiffynol; ac y mae hyny yn awgrymu yn gryf mai hwy oedd y rhai cyntaf yn y ddyfais yn Asia orllewinol. Er hyn oll, y

Digitized by Google

mae yn hysbys fod amddiffyn-wisgoedd cyffelyb wedi eu cael yn meddrodau rhai o'r breninoedd, yn agos i Thebes.

Yr oedd y wisg lurigol yn cael ei gwneuthur yn gyffredin o fodrwyau heiyrn wedi eu cydio yn nghyd, fel yr ymddangosai yn debyg i wë fras; a boglynau yn cau ac yn agor, yn ol fel y byddai angen wrth ymddiosg. Dyma ydoedd dull gwneuthuriad gwisgoedd rhyfel y cenedloedd gogleddol a dwyreiniol, y Persiaid, y Parthiaid, a'r Sarmatiaid.



Dar. 72.—Marchog Parthiaidd.

Yr oedd rhai cenedloedd yn gwneyd y wisg ddiffynol o frethyn cryf, ac yn pwytho modrwyau o bres neu haiarn yn rhesi rheolaidd arni, heb fod wedi eu cyssylltu yn nghyd. Yr oedd y wisg hon yn arbed yr angenrheidrwydd am wisgo dilledyn gwahanol o dan y llurig. Yr oedd yr un a elwid *techera*, yn anhawdd i'w gwisgo, gan galedwch y defnydd, heb ryw orchudd ar y corff o dani; ac y mae yn debygol mai hon a wisgai Saul am Dafydd, pan y gwrthodai Dafydd ei chymmeryd, o blegid y baich a'r anesmwythder




Dar. 73.

1, 2. Groegaidd boreuol. 4, 5. Rhufeinig.
3. Groegaidd. 6. Barbaraidd.

a barai iddo. Yr oedd yr un a elwid *corslet* wedi ei gwneyd o ledr, ac wedi ei hesmwytho â brethynau panedig; ac yr oedd yn cael ei sicrhau â chareiau dan yr ysgwydd. Y mae yn briodol sylwi yma fod yr enwau a arferir i ddynodi y gwahanol lurigau a wisgid gan yr Hebreaid yn lluosogi fel yr oedd gwelliadau arnynt yn cael eu darganfod. Rhydd y darlun blaenorol eglurhad ar y prif rai oedd mewn ymarferiad.

Gwelir fod yr *helmau* yn amrywio yn y dull o'u gwneuthuriad, a'u bod yn anghyssylltiedig â'r amwisg, yr hon oedd yn cyrhaedd oddi wrth y gwddf, dros y fynwes a'r cefn. Yr oedd gwisgoedd y Rhufeiniaid a'r Groegiaid yn dra thebyg i'w gilydd, wedi eu cydio yn nghyd â chareiau ar yr ochr chwith, ac â boglynau ar yr ysgwyddau. Darganfyddwyd cerflun ar ymyl y Rhine, wrth yr hwn y gwelir y modd yr addurnai y Rhufeiniaid eu llurigau, pan y byddai rhyw arwydd arbenig o barch yn cael ei ddangos i wŷr o urddas; a rhydd y darlun canlynol olygiad ar wneuthuriad y wisg.



Dar. 74.

Y mae y darlun hwn yn dangos dyn mewn cyflawn arfogaeth, gyda choron o lawryf ar ei ben, a chadwen blethedig am ei wddf; ar yr ysgwyddau, y mae dau foglyn, wedi eu haddurno â phenau llewod, oddi wrth ba rai y croga dwy freichled addurnedig; ac oddi danynt, ddibynai, â thri phwynt iddo, wrth ba rai y croga pum bathodyn o anrhydedd—un ar ganol y fynwes, yn debyg i wyneb Medusa, a dau ar bob ochr, y naill o dan y llall, wedi eu haddurno â darluniau o benau llewod. Y mae y dernyn hynafiaethol hwn yn awr yn amgueddfa prif athrofa Bonn.

Yr oedd *glinwisgoedd* yn cael eu harfer mor fore ag amser Dafydd; o blegid yr oedd Goliath yn eu gwisgo. Yr oeddynt wedi eu llunio o ddalenau o bres, neu ledr cryf, wedi eu rhwymo am groth y goes, ac uwch law cymmalau y glin. Nid oedd rhai o honynt yn cuddio ond y glin yn unig; ond yr oedd eiddo y Groegiaid, y rhai oeddynt yn hydwyth o'r tu ol, yn cyrhaedd dros y goes. Yr oedd y fotas rhyfel yn debyg i esgyd ryfel yr Aiphtiaid, wedi ei blaenu â darn o fetel; o blegid hyn, tybia rhai mai cyfeiriad ati yw yr ymadrodd a ellid ei gyfieithu, "trwst *troed* y rhyfelwr, a gwisg wedi ei throchi â gwaed."

Y mae yr apostol Paul, yn ei Lythyr at yr Ephesiaid, mewn iaith rymus, wedi defnyddio yr hen arfogaeth fel ffugr i osod allan ei feddwl cyfoethog—er arddangos fod gwirionedd, cyfiawnder, ufudd-dod i'r efengyl, a ffydd yn y Gwaredwr, yn angenrheidiol i bob Cristion, er gwrthsefyll ymosodiadau ei elynion ysbrydol, rhodio a boddloni Duw, a chyrhaedd bywyd tragwyddol.

Digitized by Google

ARFAD, [ארוד]: tref Phœniciaidd, ar yr arfordir, ar gyfer Tyrus: *Ezec.* xxvii. 8, 11. Y mae ynys garegog, tua milltir o gylchfesur, a dwy filltir o'r cyfandir, gyferbyn â safn yr afon Eleutherus, ar y tu gogleddol i Tripoli, yr hon a elwir Ruad, ond a elwir Aradus gan y Groegiaid; a bernir mai ar yr ynys hon y gorweddai hen ddinas Arfad, tai yr hon, medd Strabo, oeddynt dra uchel; ac o ganlyniad, yr oedd ei phoblogaeth yn fawr iawn mewn cymhariaeth i'w maintiolaeth. Gelwir yr ynys hefyd wrth yr un enw. Nid yr un yw Arfad ag Arpad, neu Arphad, fel y meddyliodd llawer o'r rhai a ysgrifenasant ar ddaiaryddiaeth Feiblaidd.

ARFADIAID, [ארודים; Sept. Ἀράδιοι]: *Gen.* x. 18; 1 *Cron.* i. 16: trigolion ynys Arfad ydynt, a'r goror cyferbyniol hefyd, yn ddiammheu. Yr oedd yr Arfadiaid wedi disgyn o Arfad, un o feibion Canaan. Y mae Strabo yn dysgrifio yr Arfadiaid fel trefedigaeth o Sidon. Yr oeddynt yn hynod fel morwyr a milwyr: *Ezec.* xxvii. 8, 11; ac yn ffurfio gwladwriaeth benodol, ac arni frenin o'r eiddynt eu hunain; eto, ymddengys ei bod i ryw fesur yn ymddibynu ar Tyrus, gan fod y prophwyd yn ei gosod allan fel yn darparu ei chyfran o forwyr a milwyr i'r ddinas hono. Cymmerodd yr Arfadiaid ran helaeth yn marchnadyddiaeth y môr, am yr hyn yr oedd cenedl y Phœniciaid mor enwog, yn enwedig ar ol i Tyrus a Sidon syrthio dan lywodraeth breninoedd Groegaidd Syria. Aethant yn gynnar mewn cynghrair â'r Rhufeiniaid, gan fod Arfad yn cael ei henwi yn mysg y taleithiau at ba rai yr ysgrifenai Lucius, y consul, i hysbysu iddynt am y cytundeb a wnaethid gyda Simon Maccabëus: 1 *Mac.* xv. 23.—*(Kitto.)*

ARFAETH, [*maeth*]: amcan, bwriad, rhagamcan, rhagfwriad, rhagordeiniad. "Arfaethau Duw ydyw ei dragwyddol fwriadau."—*Assembly of Divines.* "Arfaethau Duw ydyw ei dragwyddol fwriadau yn ol cynghor ei ewyllys ei hun, trwy yr hwn, er mwyn ei ogoniant ei hun, y mae wedi rhagbenderfynu pa beth bynag a gymmer le."—*Catecism Byraf.* "Wrth arfaeth Duw yr ydym yn deall, penderfyniad ei ewyllys mewn perthynas i ddygiad y greadigaeth i fod."—*Stapfer.* "Ewyllys Duw i ddwyn peth i fod, neu rydd benderfyniadau Duw mewn perthynas i hanfodiad unrhyw wrthddrych y tu allan iddo ei hun."—*Morus.*

Yr ymadroddion ysgrythyrol i ddynodi bwriadau Duw, ydynt, I. Y geiriau sydd yn arwyddo *llefaru, gorchymyn: Salm* xxxiii. 9. Y mae yr ymadrodd, *Duw a ddywedodd*, yn arwyddo yn fynych ei fod yn ewyllysio, yn penderfynu. II. Y geiriau a arwyddant *meddyliau, cynghorion: Salm* xxxiii. 10, 11; *Esa.* lv. 8. III. *Barnedigaethau, barnau: Salm* xxxvi. 6, 7; *Rhuf.* xi. 33. IV. *Ffyrdd: Salm* cxlv. 17; *Rhuf.* xi. 33. V. Y geiriau a ddefnyddir yn fynych yn y Testament Newydd i osod allan ei fwriadau grasol, ydynt, *ewyllys, boddlonrwydd ei hun*, neu *ei ewyllys da, boddlonrwydd ei ewyllys (Eph.* i. 5, 9), *cynghor ei ewyllys (Eph.* i. 11), *rhagwybodaeth (Act.* ii. 23; 1 *Pedr* i. 2; *Rhuf.* viii. 29; xi. 2), *bwriadu, lluniaethu, terfynu*, mewn ystyr gyffredinol (ὁρίζειν). "A fwriadasant anfon cymhorth;" *Act.* xi. 29. Gelwir bwriad Duw yn "derfynedig gynghor" (ὡρισμένη βουλῇ) yn *Act.* ii. 23; "rhaglunio;" "rhagderfynu;" "nodi allan cyn amser" (προ ορίζειν), "*to mark out beforehand.*" "I wneuthur pa bethau bynag a ragluniodd dy law a'th gynghor di eu gwneuthur;" *Act.* iv. 28. "Wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad;" *Eph.* i. 5. "Wedi ein rhagluniaethu yn ol arfaeth yr hwn sydd yn gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun;" *Eph.* i. 11. Arfaeth (προθεσις), rhagdrefniad, rhagosodiad: *Rhuf.* viii. 28; *Eph.* i. 11; iii. 11; 2 *Tim.* i. 9.

Y mae yr Ysgrythyrau yn dysgu y gwirionedd hwn, yn fwyaf mynych, nid mewn geiriau pendant a chyffredinol, ond mewn cyssylltiad â dygwyddiadau neillduol. Nid fel y dysgir ef mewn llyfrau duwinyddol y gosodir ef allan yn yr Ysgrythyrau; ond bob yn rhan, yn achlysurol, ac mewn cymhwysiad at y mater neillduol mewn llaw. Fel y mae athroniaeth yn tynu casgliadau cyffredinol oddi wrth ffeithiau unigol ac achlysurol, felly y mae duwinyddiaeth yn gwneyd casgliadau cyffredinol oddi wrth gymhwysiadau neillduol o'r gwirionedd. Ni a roddwn gasgliad o gyfeiriadau ysgrythyrol, wedi eu trefnu yn unol â dadguddiad graddol y goruchwyliaethau dwyfol.

Y mae rhagfynegiadau ac addewidion yn *cynnwys* bwriad a gallu i'w cyflawnu: *Gen.* ix. 26, 27; xii. 2, 3; xvii. 1—8. Cynnwysa ymadroddion Ioseph syniadau cryf ac eglur ar hyn: *Gen.* xlv. 5, 7, 8; l. 20. Y mae hanes Pharaoh a Balaam yn ei egluro: *Exod.* ix. 16; *Num.* xxiii. 19, 20.

Y mae ysgrifeniadau Moses, yn nghyd â rhanau ereill o'r Ysgrythyrau, yn dangos fod y genedl Iuddewig wedi ei hethol neu ei rhagordeinio trwy ras, i fwynhau bendithion goruchwyliaeth wyrthiol, dan lywyddiad uniongyrchol Duw ei hun, tra yr aethid heibio i neu y gwrthodid cenedloedd ereill: *Exod.* xix. 5, 6; *Lef.* xx. 26; *Deut.* vii. 6—8; *Salm* xxxiii. 12. Nid ydyw yr adnodau hyn yn cynnwys etholiad personau neillduol i fwynhau bendithion neillduol: ond y maent yn cynnwys, yn 1. Yr *egwyddor* o benarglwyddiaeth Duw, a'i hawl i gyfranu trugareddau i rai o'i ddeiliaid pechadurus, tra y mae ereill yn cael eu gadael hebddynt. 2. Y rhagorfreintiau allanol hyny a gynnwysai yr unig foddion awdurdodedig o ras ac iachawdwriaeth: ac o ganlyniad, yr oedd yr egwyddor oddi ar ba un y cyfrenir bendithion cadwedigol yn cael ei chynnwys yn y dewisiad o Israel i fwynhau bendithion y cyfammod tymmorol hwnw.

Y mae dysgrifiadau godidog Llyfr Iob am lywodraeth Duw yn cynnwys ei arfaethau: *pen.* xxv. 2; xl. 2, 8. Cymhwysir yr athrawiaeth mewn geiriau pendant at amser arosiad dyn ar y ddaiar: *Iob* xiv. 5, 6.

Y mae y gwirionedd i'w weled, er nad mewn geiriau eglur, yn nghân Hannah: 1 *Sam.* ii. 1—10.

Yn sylw yr hanesydd hefyd: 1 *Sam.* ii. 25.

Y mae sylw tebyg yn 2 *Cron.* xxv. 16.

1 *Cron.* xxix. 11, 12; 2 *Cron.* xx. 6.

*Salm* ii. 7; xxxiii. 11; cxv. 3. (=cxxxv. 6).

*Diar.* xvi. 4 (ond gwel y למענהו); xix. 21.

*Esa.* xiv. 24, 26, 27; xxv. 1; xl. 13, 14; xliv. 7; xlvi. 9, 10.

*Dan.* iv. 24 (=iv. 13, 17).

*Zeph.* ii. 2.

*Mat.* xi. 25, 26; xxiv. 22, 24; xxv. 34.

*Luc* x. 20; xxii. 22, 29.

*Ioan* vi. 37, 39; x. 16, 29; xvii. 2, 6, 9, 11, 12, 24.

*Act.* ii. 23; iv. 28; xiii. 48.

*Rhuf.* viii. 28—30, 32; ix. 11, 12, 14—29; xi. 5—7, 33—36.

1 *Cor.* iv. 7.

*Eph.* i. 3—14; ii. 10; iii. 11.

Digitized by Google

1 *Thes.* i. 4; 2 *Thes.* ii. 13, 14; 1 *Thes.* v. 9 (=*Rhuf.* ix. 22; 1 *Pedr* ii. 8; *Iudas* 4).
2 *Tim.* i. 9; ii. 10; *Tit.* i. 1.
1 *Pedr* i. 2; 2 *Pedr* i. 10.
*Dad.* xiii. 8; xvii. 8; xxi. 27.

Heb law yr hyn a ddysgir yn yr Ysgrythyrau ar hyn, yn uniongyrchol, ac mewn ffordd o gasgliad, y mae duwinyddion yn defnyddio ystyriaethau oddi wrth yr hyn a ddysg rheswm ac Ysgrythyr am natur Duw, i brofi ei fwriadau tragwyddol. Gosodwn yr ymresymiad hwn allan yn gyntaf yn ngeiriau y Dr. Pye Smith:—

"I. Mae Duw, fel un sydd â pherffeithiau anfeidrol ganddo, bob amser yn weithgar; yn mhob peth a wna, nis gall ei holl briodoliaethau lai na gwneyd yr hyn sydd fwyaf priodol, gweddus, a gogoneddus. Nid ydyw y gweithgarwch angenrheidiol hwn sydd yn y natur ddwyfol yn codi oddi ar unrhyw gymhelliad neu angenrheidrwydd y tu allan iddo ei hun, ond o'r hyn ydyw fel Duw, sef cydhanfodiad pob perffeithrwydd i raddau anfeidrol mewn bod anfeidrol. Byddai llonyddwch neu segurydd yn anmherffeithrwydd; i'r graddau yr hanfodai, byddai yn lleihad, neu yn attalfa, neu yn ddifodiad mewn rhan, o berffeithrwydd eithaf bywyd.

"II. Nid yw y gweithgarwch perffaith ac angenrheidiol hwn, sydd yn hanfodol i'r Duwdod gogoneddus, yn codi oddi ar reddf ddall, neu ryw gyffroad digyfeiriad, neu deimlad o ansicrwydd ac ammheuaeth yn codi oddi ar derfyniad ammheus rhyw ddygwyddiadau sydd heb fod dan ei lywodraeth, neu ddiffyg gwybodaeth, neu gyfnewidiad bwriad, yn codi oddi ar unrhyw anmherffeithrwydd; ond effaith ydyw o berffeithiau sefydlog a hanfodol ei natur, sef gwybodaeth *o'r hyn sydd oreu*, daioni i'w *ddewis*, doethineb i'w *gyfaddasu* at bob ffurf o greadigaeth, a gallu i'w *gario allan*.

"Mewn geiriau ereill, y mae holl weithredoedd Duw, yn nghread creaduriaid dibynol, neu mewn llywodraethiad byd dibynol, neu mewn unrhyw ffurf o weithrediad y tu allan i gylch ein gwybodaeth ni, yn ffrwyth *bwriad*, penderfyniad, neu arfaeth.

"III. Nis gall gweithrediad ewyllys Duw fod yn achlysurol, am dymmor, neu yn newydd, neu â dechreuad iddo; o herwydd cynnwysai hyn un o dri pheth:—1. Cynnydd mewn gwybodaeth, i ganfod rheswm neu gymhelliad newydd. 2. Cynnydd mewn daioni, i deimlo grym rhesymau oedd heb eu teimlo yn briodol yn flaenorol. 3. Neu gynnydd mewn gallu, i roi peth mewn gweithrediad, oedd heb fod yn alluadwy yn flaenorol, er i'w ddymunoldeb gael ei weled a'i deimlo. Ond nid oes un o'r tri pheth yma yn wir am Dduw. Rhaid fod ei fwriadau, gan hyny, yn *dragwyddol*, ac yn *anghyfnewidiol* (*Esa.* lv. 9—11; *Eph.* iii. 11; 2 *Tim.* i. 9; *Heb.* vi. 17).

"IV. Nis gall bwriadau Duw gael eu diddymu neu eu gwneyd yn aneffeithiol. Nis gall unrhyw fwriad gael ei ddiddymu ond trwy ryw rwystrau sydd yn ormod i'w gorchfygu trwy allu yr hwn sydd yn cynnwys y bwriad. Ond nis gall fod un rhwystr anorfod i wybodaeth, doethineb, daioni, a gallu Duw. Pe byddai y fath beth yn bosibl a diddymiad bwriadau y Goruchaf, ni byddai neb yn fwy truenus—a hyny yn gyfartal i ddoethineb a daioni ei fwriadau; eu eangder, yn cynnwys pob amser a phob byd; eu pwysigrwydd, fel yn llwythog o ganlyniadau i'w holl greaduriaid, am amser a thragwyddoldeb; a grym ei ddymuniad i roi y fath fwriadau mewn gweithrediad. Pe gallai Bod anfeidrol fod yn ddarostyngedig i somedigaethau yn ei fwriadau, nid allai lai na bod ei drueni yn gyfatebol i'w fawredd. Er mwyn osgoi y canlyniad ofnadwy, ond anmhosibl hwn, y mae rhai, sydd yn gwadu yr athrawiaeth am fwriadau Duw, yn cymmeryd nodded yn y dybiaeth fod y Goruchaf yn *gwrthod* gwybod dygwyddiadau a elwir yn gyffredin yn ddamweiniol—yn dewis aros mewn anwybodaeth bwriadol, yn hytrach na gwybod am y somedigaethau y mae yn ddarostyngedig iddynt trwy fwriadau gwrthwynebol ei greaduriaid.—Ond yn 1. Y mae hyn yn darlunio y Duwdod fel un heb ddim cynlluniau (=dim ewyllys) yn y rhan bwysicaf o'i lywodraeth, sef ymddygiadau dyfodol ei greaduriaid rhesymol:—ac felly, er mwyn tybiaeth afresymol, yn gwadu perffeithrwydd y priodoliaethau dwyfol. 2. Nid yw y dybiaeth chwaith yn rhyddhau y Bod Mawr oddi wrth y pryder mwyaf poenus, yn tarddu o ansicrwydd am ddygwyddiadau dyfodol. 3. Er dim a all y dybiaeth hon, y mae y Meddwl Dwyfol yn ddarostyngedig i somedigaethau beunyddiol; nid yw yn symmud ymaith ddim o'r anhawsder sydd yn codi oddi ar wadiad o arfaethau tragwyddol, ac heb law hyny, y mae yn chwanegu anhawsderau newyddion."

Ni a roddwn ychydig o frawddegau o Stapfer, un o'r rhai blaenaf yn mysg y rhai y mae y Dr. Pye Smith yn eu galw y duwinyddion goreu a welodd y byd, er mwyn dangos pa fodd y mae efe yn casglu bwriadau Duw oddi wrth yr hyn a wyddom am ei natur:—"Gan mai arfaeth Duw ydyw penderfyniad ei ewyllys, pa beth bynag a ellir ei ddywedyd am ei ewyllys, gellir ei ddywedyd hefyd am ei arfaeth." "Mae Duw yn gwybod pob peth—posibl ac anmhosibl, er tragwyddoldeb, a hyny yn berffaith; a chan nad yw efe yn ewyllysio dim heb reswm digonol, fe ŵyr a oes rheswm digonol am y cwbl y mae yn ewyllysio; a chan ei fod yn gwybod hyny er tragwyddoldeb, y mae yn rhaid ei fod wedi ewyllysio neu arfaethu er tragwyddoldeb." "Gan fod Duw yn dragwyddol, yn annibynol, ac yn ffynnonell pob peth, nid yw dan orfodaeth dim allanol yn ei weithredoedd, ond y mae yn mhob peth yn penderfynu ei ewyllysiau ei hun." "Y mae Duw mewn un weithred o ewyllysiad yn arfaethu pob peth o dragwyddoldeb; ac felly, nis gall ewyllysio a pheidio ewyllysio yr un peth: o ganlyniad, y mae ewyllys ac arfaeth Duw yn anghyfnewidiol." "Pan y mae Duw yn ewyllysio dim, y mae yn gwneyd hyny yn yr olwg ar, ac yn unol â'i holl berffeithiau, ac yn yr olwg ar, ac yn unol â'i holl weithredoedd ereill; ac felly, nis gall fod dim yn ei arfaeth yn anghysson â'i ddaioni, ei ddoethineb, a'i gyfiawnder." "Ond gan nas gall deall meidrol gynnwys holl gyflawnder y Duwdod, nac ychwaith edrych ar y greadigaeth yn ei chyfanrwydd, fel ag i ddeall gwasanaethgarwch pob rhan i'r cyfan, rhaid i'r arfaethau dwyfol fod yn anamgyffredadwy i ni, o herwydd fod eu lluniaethiad yn cymmeryd i mewn y cwbl." "Mae pob peth yn bosibl sydd heb ymddangos i'r meddwl dwyfol yn wrthddywediad;—ffynnonell posiblrwydd ydyw deall Duw: ond ei arfaeth ydyw penderfyniad ei ewyllys i ddwyn peth i fod, sydd yn ymddangos yn bosibl i'w feddwl; felly, nid yw yr arfaeth yn gwneyd un cyfnewidiad yn y peth arfaethedig, ond yn rhoddi sicrwydd bod iddo."

Yn y geiriau canlynol, y mae y Dr. L. Woods yn gosod allan yr ymresymiad oddi wrth natur

Digitized by Google

Duw. "Yr ydym yn ei ystyried yn wirionedd addefedig fod Duw, a bod ynddo bob perffeithrwydd naturiol a moesol. Oddi wrth hyn y mae yn canlyn fod ganddo fwriad neu gynllun yn cynnwys ei holl weithredoedd, a bod ei gynllun yn anfeidrol ddoeth a da. Rhaid i'r Goruchaf weithredu yn unol â'i gymmeriad; nis gall wadu ei hun. Os ydyw yn ddoeth, fe ddefnyddia ei ddoethineb; ac un ffordd i wneyd hyny ydyw ffurfio bwriadau. Os ydyw yn dda, fe wna dda. Am y greadigaeth, fe wyddai Duw pa gynllun fyddai oreu; a chan ei fod yn anfeidrol dda, byddai yn sicr o'i mabwysiadu. Nis gall fod ammheuaeth am ei allu i roddi y fath gynllun mewn gweithrediad. A chan ei fod yn gyfiawn, fe drefna y greadigaeth yn y fath fodd fel ag y bydd i ddeiliaid ei lywodraeth dderbyn yr hyn sydd yn gyfiawn."

Y mae yr amlygiadau o fwriad a dyben mewn creadigaeth a rhagluniaeth yn brawf fod gan y Creawdwr fwriad neu arfaeth yn cynnwys y cwbl, cyn iddo roddi bod iddynt. Nis gallasai bwriad fod yn weledig yn ei waith oni buasai yn gyntaf yn ei feddwl. Fel prawf o wirionedd y rheswm hwn, gallwn gyfeirio yn laf at yr holl weithiau sydd â'u hamcan i brofi fod yn y greadigaeth amlygiadau o fwriad. [Gwel ACHOS; a DUWINYDDIAETH NATURIOL.] Er mwyn profi bod Duw y defnyddir yr amlygiadau hyn yn y lle cyntaf; ond ymddengys oddi wrth hyn fod yr athrawiaeth am arfaeth Duw yn un mor hanfodol, fel y mae yr un ystyriaethau yn profi y ddau. 2il. Yr hyn a brawf lywodraeth foesol Duw yn y byd; ac hefyd yr hyn a gyfiawnha bob ymdrech i ffurfio athroniaeth o hanes y byd.

Y mae arfaeth Duw yn cynnwys y byd *moesol* yn gystal a'r byd *naturiol*. Ymddengys hyn oddi wrth ragoriaeth y moesol ar y naturiol; ac felly mewn graddau uwch fe deilynga ystyriaeth yn nghynghor anfeidrol ddoethineb: hefyd, oddi wrth yr undeb sydd rhwng y ddau, a'u gwasanaethgarwch i'w gilydd, fel y gwelir yn yr undeb sydd rhwng corff ac enaid—y cyntaf yn perthyn i'r byd naturiol, a'r olaf i'r moesol. Cyssondeb arfaeth â rhydd-ewyllysiau a gweithredoedd cyfrifol dynion ydyw yr anhawsder sydd wedi peri i rai wadu yr athrawiaeth hon yn ei chyssylltiad â'r byd moesol. Ond y mae yr Ysgrythyrau yn dangos yn helaeth berthynas arfaeth Duw ag ewyllysiau dynion. Yn y cyssylltiad hwn y dygir yr athrawiaeth yn mlaen, ac y rhoddir arbenigrwydd iddi:—megys yn yr holl addewidion, bygythion, a rhagddywediadau; cyflawniad pa rai a ymddibynai ar ddewisiad ac ymddygiadau dynion. Er anghraifft, gellir edrych ar waredigaeth Israel o'r Aipht, eu caethgludiad i, a'u gwaredigaeth o Babilon; ac hefyd croeshoeliad Arglwydd y bywyd; wedi cymmeryd lle yn ol terfynedig gynghor Duw, ac eto gan ddynion cyfrifol am eu rhan yn eu cyflawniad. Y mae y rhestr o gyfeiriadau a roddir yn yr erthygl hon, yn cynnwys lluaws o esamplau ereill.

*Y mae Duw wedi arfaethu pa beth bynag y mae yn eu cyflawnu, ac yn cyflawnu pa beth bynag a arfaethodd.* Ond cael gwybod, trwy sylwi ar ei weithredoedd a'i air, pa beth y mae yn ei wneuthur, gallwn ddyfod i benderfyniad boddhaol pa beth a arfaethodd wneuthur. Rhydd cymhwysiad yr egwyddor hon lawer o gymhorth yn ngwyneb yr anhawsderau a godir yn erbyn arfaeth Duw, trwy ddangos mai yn erbyn ei weithredoedd a'i lywodraeth y mae eu grym, os oes grym ynddynt. Pa un a ydyw y Goruchaf wedi *arfaethu* ai peidio gwneyd gwahaniaeth rhwng dynion a'u gilydd mewn cynneddfau corfforol a meddyliol, mewn amgylchiadau bydol, ac mewn manteision crefyddol? Y mae yn *gwneuthur* gwahaniaeth: y mae hyn yn agored i sylw pawb: ac os oes rhyw wrthwynebiad yn erbyn hyny, ar dir daioni neu gyfiawnder, y mae yn amlwg mai yn erbyn gwneyd y gwahaniaeth y maent yn taraw, ac nid yn erbyn arfaethu gwneyd: o herwydd y mae natur yr arfaeth yn dibynu ar natur yr hyn a arfaethir. Pa anhawsderau bynag a ddygir yn erbyn arfaeth Duw, y maent, yn gyntaf oll, yn dyfod yn erbyn ei ragluniaeth; ac os ymwrthodir â'r gyntaf ar gyfrif y pethau anhawdd eu deall sydd ynddi, dylid hefyd ymwrthod â'r ail.

Y mae ei arfaeth hefyd yn gorphwys *ar yr un rhesymau* a'i weithredoedd. Gwnaeth Duw y byd i amlygu ei ogoniant— arfaethodd ei wneyd i'r un dyben. Boddodd yr hen fyd am ei ddrygioni—arfaethodd wneyd hyny am yr un rheswm. Ac felly yn mhob amgylchiad arall. A pha un bynag a allwn ni gael y rheswm neillduol, o herwydd pa un y gwnaed unrhyw beth ai peidio, yr ydym yn gwybod fod rheswm digonol. Y mae ei fwriadau tragwyddol mor gyfiawn a da a'i weithredoedd.

Y mae y bwriadau dwyfol hefyd yn golygu pethau yn *eu trefn briodol.* Y mae cosp yn dilyn trosedd, a gwobr yn dilyn ufudd-dod, ac felly yn ammodol. Ond pan y mae yr Arglwydd yn cyfranu daioni i ddyn, ar yr ammod fod rhyw ddaioni ynddo, neu wedi ei wneyd ganddo, a all yr *ammod* hefyd fod yn wrthddrych bwriad? Yn yr ateb a roddir i'r cwestiwn hwn, yn ei gyssylltiad âg achubiaeth dynion, y mae Arminiaeth a Chalviniaeth yn gwahaniaethu. Yn ngeiriau Arminius ei hun, y cwestiwn yw, "A ydyw dynion yn cael eu harfaethu i gael iachawdwriaeth am eu bod yn credu, ai ynte yn credu o herwydd iddynt gael eu hethol i fywyd." Gwel ETHOLEDIGAETH.

Ond yn eu cyssylltiad â phechod, y mae yr anhawsderau mwyaf yn ein cyfarfod wrth ystyried yr arfaethau dwyfol; ac oddi ar y tir yma y mae y gwrthwynebiad cryfaf yn cael ei wneyd iddynt. Tybir fod arfaeth dragwyddol, yn ol pa un y mae pob peth yn cymmeryd lle mewn amser, yn anghysson â chyfiawnder a daioni Duw, yn enwedigol gan nad ydyw wedi cau allan bechod rhag dyfod i fod. Ond pa faint bynag ydyw grym yr wrthddadl hon, y mae pob cyfundrefn sydd yn dal gafael yn mhriodoliaethau moesol Duw mor agored iddi ag ydyw y gyfundrefn hono sydd yn dal ei fwriadau tragwyddol. Ar hyn, y mae Archesgob Whately, mewn traethawd yn erbyn y golygiadau Calvinaidd am arfaeth, yn dyweyd—"Dylem fod yn wyliadwrus pa fodd y defnyddiom arfau a all droi yn ein herbyn ein hunain...Mae yn wirionedd ofnadwy, ond er hyny, anwadadwy, fod lluaws, hyd yn oed mewn gwledydd Cristionogol, yn cael eu geni a'u magu mewn amgylchiadau sydd yn gwneyd yn anmhosibl iddynt gael eu hyfforddi mewn gwirioneddau crefyddol, a'u dwyn i fyny mewn buchedd rinweddol. Pa ham y goddefir i blant dyfu i fyny mewn drygioni a thrueni, y rhai y mae Duw yn rhagweled am danynt mai felly a fydd: nis gall unrhyw gyfundrefn o grefydd naturiol na dadguddiedig ein galluogi i roddi rheswm boddhaol am dano. Mewn gwirionedd, nid yw y rhai hyn ond cangenau o'r *un* anhawsder mawr, sef *hanfodiad pechod a thrueni*, yr hyn a ellir ei alw



Digitized by Google

yr *unig* anhawsder o'r bron mewn duwinyddiaeth. Ymddengys mewn amryw ffurfiau, ond mae llawer heb ei deimlo yn anhawsder o gwbl; ïe, y mae rhai yn proffesu y gallant ei symmud ymaith yn llwyr, ond y maent yn ei gyfarfod mewn rhyw wedd newydd: fel ffrwd anwrthwynebol, os carcherir ef mewn un man, gwna ddiangfa mewn lle arall. A chan nad yw yr anhawsder yn perthyn yn neillduol i un gyfundrefn mwy na'i gilydd, ond yn cyfarfod pob un, pa un bynag ai natûriol ai dadguddiedig, y mae doethineb a thegwch yn galw arnom i beidio llwytho un yn fwy na'i gilydd â'r canlyniadau. Nid yw yr Ysgrythyrau yn proffesu, fel y mae rhai yn eu byrbwylldra wedi dychymygu, symmud ymaith y tywyllwch sydd yn gorchuddio y dirgelwch ofnadwy hwn: nid ydynt yn rhoi esboniad i ni ar yr *achos* gwreiddiol o bechod; ond y maent yn ein dysgu i osgoi ei *ganlyniadau:* a chan eu bod yn gadael y cwestiwn mawr a dyrys hwn yn y fan y maent yn ei gael, y mae yn well i ni ei adael yn mysg 'y pethau dirgel sydd yn perthyn i'r Arglwydd.'"

Y mae duwinyddion wedi cael eu rhanu yn ddau ddosbarth, sef Uwchgwympedyddion (*Supralapsarians*), ac Isgwympedyddion (*Sub* neu *Infra-lapsarians*), yn ol y berthynas a roddant i bechod ag arfaeth Duw. Yn ol y cyntaf, y mae pechod yn cael ei gynnwys yn yr arfaeth fel rhan o honi, ac yn angenrheidiol mewn trefn i gyflawnu y rhan hono sydd yn dwyn perthynas âg iachawdwriaeth dyn. Y mae yr olaf yn edrych ar y cwymp a cholledigaeth dyn trwyddo fel peth o flaen yr arfaeth mewn trefn natur. Mae Duw yn rhagweled dinystr dyn, ac yn llunio trefn i'w godi. Ond er mwyn cadw y gwahaniaeth hwn yn un gwirioneddol, dylai yr Isgwympedyddion fod yn ofalus i beidio priodoli dylanwad achosawl i ragwybodaeth, er mwyn gwneuthur gwrthddrychau ei rhagwelediad yn sier. Mae Awstin yn cytuno â'r rhai olaf; ac y mae efe yn wyliadwrus rhag difodi y gwahaniaeth, ar ol ei wneyd, trwy ei olygiadau ar ragwybodaeth Duw.

Mae yr athrawiaeth o angenrheidrwydd [gwel erthygl] wedi ei defnyddio yn fynych i brofi pynciau neillduol Calviniaeth, yn enwedig gan Jonathan Edwards, Dr. E. Williams, Dr. Chalmers, ac ereill. Prin yr oedd y ddau gyntaf o'r ysgrifenwyr hyn yn gweled gwahaniaeth rhwng yr egwyddor athronyddol, fod cymhelliad yn *achos* penderfyniad yr ewyllys, ac nid yn *achlysur*, a'r athrawiaeth o arfaeth dragwyddol. Dyben Edwards yn ysgrifenu ei *Draethawd ar yr Ewyllys* oedd, er mwyn y cymhwysiad a wna yn y bennod olaf er profi ac amddiffyn ei gredo fel duwinydd. Mae yn wir fod Chalmers yn dywedyd fod etholedigaeth ac arfaeth yn athrawiaethau neillduol yr Ysgrythyrau, ac nas gellir eu tynu fel casgliadau oddi wrth unrhyw egwyddor a brofir ar dir rheswm, heb mewn effaith eu gwadu fel dirgeledigaethau uchaf ein ffydd: bod yr athrawiaethau hyn i'w credu yn unig ar sail dadguddiad dwyfol. Ond etto gan fod yr holl wrthwynebiadau o'r bron yn erbyn yr esboniad eglur a naturiol o'r tystiolaethau hyn yn cyfarfod yn yr un pwynt hwn, sef angenrheidrwydd, ei fod o'r pwys mwyaf i dduwinyddiaeth ei chwilio yn drwyadl, a dangos ei wirionedd; nid er mwyn eangu sylfaen ein ffydd, ond mewn trefn i godi mur o amddiffyniad yn erbyn ymosodiadau oddi allan. Nid yw yn ddigon i *brofi* athrawiaethau ysgrythyrol, ond y mae yn ddigonol i *wrthbrofi* y gwrthwynebiadau a ddygir yn eu herbyn, ac felly yn gwasanaethu yr un dyben i syniadau Calvinaidd o'r Beibl ag a ddengys Butler fod cyfatebiaeth (*analogy*) yn ateb i egwyddorion sylfaenol crefydd naturiol a dadguddiedig. Ond nid ydyw Edwards mor ofalus i wahaniaethu rhwng grym nacaol a chadarnhaol yr egwyddor o angenrheidrwydd. Defnyddir hi ganddo ef i ateb gwrthddadleuon, ac hefyd i brofi ei osodiadau ei hun. Ei eiriau ydyw, "Mae y pethau a ddywedwyd (sef cynnwysiad ei lyfr) yn ateb y prif wrthddadleuon yn erbyn arfaeth gyffredinol a diammodol, ac hefyd yn profi yn anffaeledig yr athrawiaeth hon, yn gystal a'r athrawiaeth neillduol o etholedigaeth ddiammodol, dragwyddol, a phersonol. Y prif wrthddadleuon yn erbyn y gwirioneddau hyn ydynt —eu bod yn cynnwys fod ewyllysiau dynion yn cael eu penderfynu yn angenrheidiol, ac felly yn anghysson â gwobr a chosp, â didwylledd galwadau yr efengyl, ac â llywodraeth foesol yn gyffredinol; ond dangoswyd yn eglur yn y traethawd blaenorol nad oes dim grym yn y gwrthddadleuon hyn. Ac heb law hyny, gan fod Duw yn trefnu pob peth trwy ei ragluniaeth, y mae yn gwneuthur hyny yn *fwriadol*; ac os felly, yr un peth ydyw hyn a dyweyd fod ganddo ei *fwriad* neu *arfaeth*."

Os cymmerir ochr Edwards yn y ddadl am ryddid yr ewyllys, rhaid mewn cyssondeb dderbyn ei gyfundrefn dduwinyddol; ond os yr ochr arall a fabwysiedir, gellir dal yr athrawiaeth o arfaeth ar dir ysgrythyrol, ond collir mantais yr egwyddor hono yn erbyn gwrthwynebwyr. Mae rhai o bob ochr wedi edrych ar yr egwyddor athronyddol y dadleuai Edwards drosti—ac nid oes neb wedi nac yn debyg o brofi ei ymresymiad ef yn *ddiffygiol*, ond mor bell ag y mae yn *unochrog*—mor hanfodol i Galviniaeth fel nas gall yr olaf hanfodi heb y gyntaf. Ond nid yw hyn yn wir; a digon o brawf o hyn ydyw nad oedd Calvin na Chalviniaid y Diwygiad yn defnyddio yr egwyddor hon i brofi nac amddiffyn eu syniadau. Ac heb law hyny, yn unol âg ymchwiliadau diweddaraf a dyfnaf athroniaeth, nid afresymol, ond rhesymol, ydyw credu mewn arfaeth *a* rhyddid yr ewyllys. Nid yw yn angenrheidiol i ni, er dal gafael yn y naill, i wadu nac i liniaru dim ar y llall; o herwydd yn ol yr egwyddor bwysig a osodir i lawr yn yr erthygl ANFEIDROL, yr unig ammod dan ba un y gall dyn feddwl o gwbl ydyw iddo *gredu yr anamgyffrededwy*.

Er mwyn egluro yn mhellach y gwahaniaeth sydd wedi hanfodi yn mysg duwinyddion, yn ol amrywiaeth eu golygiadau ar gyssylltiad arfaeth a phechod, yn nghyd â'i pherthynas â'r egwyddor o angenrheidrwydd, rhoddwn ddyfyniad o waith Syr James Mackintosh, awdwr y llyfr goreu ar foesddysg yn yr iaith Seisnig :—

"Arweiniwyd ysgrifenydd y traethawd hwn (ef ei hun) ar achlysur blaenorol i edrych ar yr athrawiaeth dduwinyddol o arfaeth dragwyddol yr un peth a'r farn athronyddol, fod yr ewyllys yn cael ei phenderfynu, fel y dygwyddiadau ereill, trwy ddeddf achosiant. Ond y mae ystyriaeth fwy gofalus wedi bod yn foddion i gywiro camsyniad oedd yn gyffredin iddo ef, ac i'r lluaws o ysgrifenwyr ar y mater. Y mae yr hyn a elwir Calviniaeth yr Isgwympedyddion (*Sublapsarian Calvinism*), yr hon oedd athrawiaeth y dynion mwyaf hynod, ac yn eu mysg Awstin a Chalvin, yn priodoli i Dduw, ac i ddyn cyn y cwymp, yr hyn a elwir rhyddid yr ewyllys; yr hyn a addefent sydd yn meddiant dyn yn ngweithredoedd cyffredin bywyd, ond nid mewn crefydd. Mae etholedigaeth, yn ol y cynllun hwn, yn sylfaen-

Digitized by Google

Nid gallu peiriant yn rhwystro pechod i ddyfod i fod trwy orthrech ydyw gallu Duw: ond wedi i ddyn bechu, mae yn mwriadau Duw drefn i'w adferu heb anmharch i'w natur.

Canolbwynt athrawiaeth yr efengyl am Dduw ydyw ei *gariad*, ac nid ei hollalluogrwydd. Ei allu sydd yn sicrhau cyflawniad ei fwriadau; ond ewyllys sanctaidd cariad sydd yn gosod i lawr *ddyben* i'w weithrediad. Rhoddi arbenigrwydd i allu yn hytrach nag i gariad, yn yr ystyriaeth o arfaeth Duw, sydd yn arwain i ymylau dibyn dros ba un y mae meddwl dyn yn edrych gyda dychryn. Felly yr arweiniwyd Calvin, Beza, ac ereill, i ddefnyddio geiriau, os nad i goledd syniadau, am arfaethau Duw, y buasent yn eu hosgoi heb deimlo eu bod yn lleihau dim ar ogoniant y Bod tragwyddol. Mewn atebiad i'r honiad fod dyn wedi ei osod yn Eden i weithio allan ei ddedwyddwch ei hun, yn unol â rhyddid ei ewyllys, ac nad oedd Duw wedi arfaethu gwneyd dim ond ei gospi am anufudd-dod, dywed Calvin, "Os derbynir y ffug haeriad hwn, yn mha le y mae hollalluogrwydd Duw?" Drachefn, wrth sylwi ar y gwahaniaeth a wneir rhwng ewyllysiad daioni a goddefiad drygioni, er mwyn dangos nad yw dinystr yr annuwiol i'w briodoli i Dduw, mae yn gofyn, "Pa ham y dywedwn ei fod yn goddef, ond yn unig am ei fod yn ewyllysio? Nid yw y peth ynddo ei hun yn debygol fod dyn wedi dwyn dinystr arno ei hun trwy oddefiad, ac nid trwy drefniad Duw." "Yr wyf yn addef fod yr arfaeth yn ofnadwy; ac eto y mae yn anmhosibl gwadu fod Duw yn rhagweled pa beth fyddai diwedd dyn cyn iddo greu, a'i fod yn ei ragweled am ei fod wedi ei ordeinio trwy ei arfaeth." "Ni ddylai ymddangos yn afresymol pan ddywedwyf fod Duw, nid yn unig wedi rhagweled cwymp dyn, a dinystr ei hiliogaeth ynddo, ond ei fod hefyd o'i ewyllys ei hun wedi trefnu hyny."—*Instit.*, llyfr iii., pen. xxiii. 7, 8.

Y mae y syniadau hyn yn tarddu yn naturiol ac yn anocheladwy o'r egwyddor a welir, oddi wrth yr anghreifftiau hyn, oedd yn sylfaenol yn syniadau Calvin am fwriadau Duw, sef mai rheol ei arfaeth oedd ei allu. Er mwyn cymmodi ei feddwl â'r casgliadau uchod, mae yn gwadu yn mhob ffurf fod Duw yn awdwr pechod, ac nad yw yn gwneuthur dim sydd yn groes i gyfiawnder, pa un a allwn ni weled hyny ai peidio. Ond dylid cofio mai perthynas gyntaf Duw â dyn ydyw perthynas o ddaioni; ac mewn canlyniad i hyn, y mae perthynas o gyfiawnder yn dechreu, ac nid oes dim lle i gyfiawnder weithredu nes i ddyn wneyd rhyw ddefnydd o ddaioni blaenorol. Felly, nis gall fod dim ystyr i'r gair *cyfiawnder* yn nhrefniadau ac ymddygiadau cyntaf neu ddechreuol Duw tuag at ddyn.

Y mae rhai o'r Ellmyn, yn enwedig Schleiermacher yn mysg y duwinyddion, wedi cyrhaedd syniad lled debyg am berthynas arfaeth â phechod, trwy geisio ymgodi at syniadau am symledd yr Hanfod Ddwyfol (*the Absolute*), sydd yn difodi pob gwahaniaeth rhwng gwybodaeth, gallu, ac ewyllysio, yn Nuw, a'u gwneuthur yn ogyhyd yn eu gweithrediad. Casgliad Schleiermacher ydyw, "Mor bell ag y mae pechod yn beth gwirioneddol, y mae wedi ei drefnu gan Dduw fel yr hyn sydd yn gwneuthur y prynedigaeth yn angenrheidiol: yn amgen nid allasai y prynedigaeth gael ei drefnu gan Dduw." Lle y dylasai ddyweyd, Mor sicr ag y mae y ddeddf sydd yn condemnio pechod, a'r prynedigaeth oddi wrth bechod, wedi tarddu o Dduw, mor sicr a hyny, nis gall pechod fod wedi ei drefnu ganddo. Ond y mae casgliad Schleiermacher yn gasgliad angenrheidiol o'i dybiaeth sylfaenol ef, fod gweithrediadau ewyllys Duw mor eang a'i wybodaeth a'i allu; yr hyn nid yw amgen na gwadu ewyllys yn Nuw.

Gan nad yw pob peth posibl i allu Duw yn gynnwysedig yn ei arfaeth, a ydyw yr arfaeth, mewn perthynas â dynion, yn ogyhyd â'i wybodaeth am danynt? Y mae Calvin yn gofyn, "Pa fodd y gallasai Duw ragweled, oni buasai wedi arfaethu?" Cytuna y Sociniaid â Chalvin yn ei egwyddor, ond gwahaniaethant oddi wrtho yn ei chymhwysiad. Hona ef fod Duw yn rhagwybod gweithredoedd rhydd dynion, am eu bod yn ei arfaeth: gwadant hwy ragwybodaeth o weithredoedd rhydd am nad ydynt yn wrthddrychau arfaeth; a'r prawf o hyny ganddynt ydyw, eu bod yn rhydd. Ond gwna Awstin y gwahaniaeth pwysig hwn, sef fod Duw wedi arfaethu yr hyn a *wna ef ei hun;* ond ei fod yn rhagwybod, heb arfaethu, yr hyn a *wna dynion* trwy ei oddefiad, er nad trwy ei ganiatâd. Er mwyn dal gafael a gwneyd defnydd ymarferol o'r gwahaniaeth hwn, y mae dynion wedi ceisio esbonio pa fodd y mae rhagwybodaeth Duw yn gysson â rhydd-ewyllysiad dynion. Nid oes un anhawsder i weled pa fodd y mae rhagwybodaeth *mor eang* ag arfaeth. Ond os ymwrthodwn â'r anhawsder sydd yn nglyn âg olrhain hyd yn oed gweithredoedd pechadurus dynion i drefniad arfaethol, trwy dderbyn gwahaniaeth Awstin, y mae un arall yn ein cyfarfod yn y wedd yma:—Gan fod gweithredoedd dyn yn rhydd, *gallasent* fod yn wahanol; ond gan fod gwybodaeth Duw o honynt yn anffaeledig, *nis* gallasent fod yn wahanol. Dyma yr anhawsder sydd i'w gyfarfod os nad yw gweithredoedd pechadurus dynion wedi eu harfaethu, ac eto fod gan Dduw wybodaeth dragwyddol o honynt: ac onid yw yn ymddangos yn wrthddywediad eglur? Er mwyn ei symmud, dywed Awstin nad yw rhagwybodaeth o honynt yn eu gwneyd yn angenrheidiol, ond mai eu rhagweled fel gweithredoedd rhydd y mae Duw. At hyn hefyd chwanega Anselm, mai nid yn unig rhagweled y pechai dyn neu na wnai, ond rhagweled y gwnai neu na wnai yn yr ymarferiad o'i ryddid, yr oedd Duw. Y mae hyn yn wir, ond nid yw fawr chwaneg na gosod i lawr y cwestiwn; o herwydd yr hyn sydd yn dywyll ydyw—pa fodd y mae Duw yn rhagweled y bydd peth yn sicr heb ei wneyd yn angenrheidiol? Yr hyn sydd yn dyrysu llawer yma ydyw, cymmeryd gwahanol eiriau yn yr un ystyr, megys *sicr* ac *angenrheidiol*, fel pe byddai yn anmhosibl i beth fod yn sicr, a chael ei ragweled felly, heb fod yn angenrheidiol.

Y mae ymdrechiadau mynych wedi eu gwneuthur i symmud ymaith yr anhawsder hwn, trwy edrych ar wybodaeth Duw yn wybodaeth uwch law amser, heb ei chaethiwo fel gwybodaeth dyn o fewn terfynau olyniad amserol; ond fod y cwbl sydd yn dygwydd mewn amser, ac yn ymwahanu i'r hyn a basiodd, y sydd, ac a ddaw, yn ymddangos i'r meddwl tragwyddol fel cyfanwaith cydhanfodol. Os gwelediad presennol ydyw gwybodaeth Duw, nid oes angenrheidrwydd cyssoni *rhag*wybodaeth â rhyddid dyn—mae yr anhawsder yn diflanu o hono ei hun.

Ond y mae yn ammheus a ydyw y gwahaniaeth rhwng gwybodaeth *dragwyddol*—gan ei bod uwch law terfynau amser, hyn ydyw yr unig air priodol i'w dynodi—a *rhagwybodaeth* yn symmud ymaith ddim o'r anhawsderau hyn. O'r hyn

Digitized by Google

lleiaf, ni ddefnyddiodd Awstin ef, yr hwn yn gyntaf a alwodd sylw at y gwahaniaeth o fewn cylch yr Eglwys Gristionogol, i'r dyben hwn. Barn Julius Müller—yr hwn sydd wedi dangos mwy o dreiddgarwch meddwl i gwestiynau duwinyddiaeth, yn eu cyssylltiad âg athroniaeth, nag un ysgrifenydd, efallai, sydd yn fyw, ar ol ymchwiliad manwl—ydyw, "Os gellir priodoli dylanwad penderfynol i ragwybodaeth ar ei gwrthddrychau, mwy o lawer ynte y mae gwybodaeth dragwyddol yn meddu y fath ddylanwad:...... y mae yn canlyn, o angenrheidrwydd, nad yw gwybodaeth uwch law terfynau amser yn rhoi un cymhorth i osgoi yr anhawsderau sydd yn cyfodi o berthynas i wybodaeth Duw a rhyddid dyn. Y mae llawer wedi meddwl dianc yn y modd yma oddi wrth yr anhawsderau, yn unig am eu bod wedi gwthio yr holl gwestiwn i dywyllwch, lle nad yw mwyach yn eu blino." Gellir rhoi mewn ychydig frawddegau rai o'r rhesymau dros feddwl nad yw y gwahaniaeth rhwng gwybodaeth sydd o fewn terfynau amser, a gwybodaeth dragwyddol, ddim yn gwasanaethu llawer o ddyben yn y cwestiwn presennol. Er addef fod Duw yn ei wybodaeth, yn gystal ag yn ei hanfod, heb ei gyfyngu o fewn terfynau amser na lle, etto, nid yw mor glir er hyny nad yw treigliadau amser yn dyfod o fewn terfynau ei wybodaeth ef, er nad yw ei wybodaeth ef yn cael ei chyfyngu o fewn terfynau amser. Defnyddir amser mewn dau ystyr. *Yn gyntaf*, mewn athroniaeth ddiweddar, er amser Kant, edrychir ar amser heb fod yn ddim amgen na ffurf y meddwl; hyny yw, nis gall dyn lai nag edrych ar ddygwyddiadau yn dilyn eu gilydd; ond ei ddull neillduol ef o edrych ar bethau ydyw blaen ac ol, presennol a dyfodol, ac nid dim tu allan i'w feddwl yn y pethau eu hunain. Yn gysson â hyn, gellir dywedyd fod gwybodaeth Duw uwch law amser; hyny yw, uwch law dull dyn o edrych ar bethau, fel cyfres o bethau dilynol. Ond os yn yr ystyr yma y deallir amser ac uwch law amser, rhaid cymmeryd yr holl ganlyniadau sydd yn perthyn iddo. Rhaid cofio nad oes genym un sicrwydd fod ein gwybodaeth am danom ein hunain, nac am ddim y tu allan i ni ein hunain, nac am ein Creawdwr yn cyfateb i'r gwrthddrychau eu hunain. Nis gall fod genym un dychymyg faint ydyw y gagender sydd rhwng y pethau eu hunain a'n syniadau ni am danynt. Wrth ddyfod i'n meddyliau ni, y maent yn newid i ffurfiau ag y mae yn anmhosibl i ni ddyweyd yn mha berthynas y safant i'r gwrthddrychau eu hunain. Nid oes ond adlewyrchiad o honom ein hunain yn ymrithio i ni yn mhob man. Ond *yn ail*, y syniad cyffredin am amser ydyw, mai dull neu ffurf allanol pethau eu hunain ydyw, yn gystal a'r cyfansoddiad meddyliol trwy ba un yr ydym yn dyfod yn gydnabyddus â phethau, ac yn casglu ein profiad am danynt. Yn yr ystyr yma, y mae treigliad amser yn beth gwirioneddol, ac nid yn unig yn beth ymddangosiadol i ni. Os dywedwn fod gwybodaeth Duw uwch law amser yn yr ystyr yma, yr ydym gystal a dyweyd nad ydyw efe yn adnabod pethau *fel y maent*. Ac os yw ei adnabyddiaeth o'r byd uwch law amser, y mae yn rhaid fod ei weithrediad tuag ato felly, o herwydd rhaid ei fod yn gwybod *fel* y mae yn gweithredu; ac o ganlyniad nid oes un berthynas rhyngddo a'r byd a'i gyfnewidiadau. Rhaid addef mai fel y mae Duw yn adnabod pethau, felly y maent mewn gwirionedd; ac mor bell ag y mae pethau yn ymddangos i ni yn wahanol i'r hyn y maent iddo ef, i'r graddau hyny yr ydym yn cael ein twyllo. Os ydyw y byd hwn, fel y mae yn treiglo mewn amser ac yn ymsymmud mewn lle, wedi dyfod felly o law Duw, y mae yn rhaid ei fod ef yn ei adnabod felly. Nid yw hyn ychwaith yn anghysson â bod ei wybodaeth ef *ynddi ei hun* y tu allan i bob terfynau, a hyny o herwydd ei bod yn cynnwys pob terfynau, ond heb gael ei chynnwys gan ddim. Fel y mae eangder, a'i holl gynnwys, yn bod ynddo, felly y mae amser a'i holl dreigliadau yn bresennol iddo. Y mae ei wybodaeth ef yn cynnwys y cwbl, ac yn treiddio trwy y cwbl *fel y mae*, heb gael ei gyfyngu ganddo. A'r casgliad priodol oddi wrth ei uchafiaeth ef i derfynau amser ydyw, nid fod treigliadau amser yn peidio a bod iddo ef, ond eu bod oll yn cael eu cynnwys yn ei wybodaeth dragwyddol; ac er iddynt oll ymddadlenu a rhedeg i'w terfyn o flaen ei lygad, a hyny yn wirioneddol ac yn eu hyd hwyaf, eto, nid ydynt ond rhan mor fach o gynnwys gwybodaeth dragwyddol, fel y gellir dyweyd fod mil o flyneddoedd iddo ef megys un dydd, ac un dydd megys mil o flyneddoedd.[1]

Ni a welwn oddi wrth y sylwadau hyn nad oes un ffordd o ddiangfa i ddyn oddi wrth yr anhawsderau sydd yn ei gyfarfod o bob ochr ond trwy *ffydd*. A rhoddwn i lawr etto, o herwydd yr hyn a ymddengys i ni eu tra phwysigrwydd, eiriau a ddyfynwyd genym o'r blaen, a chyfeiriwn at yr erthygl ANFEIDROL am y prawf o'r egwyddor athronyddol ar ba un y gorphwysant:—"Dengys y gyfundrefn hon hefyd nad oes un anhawsder mewn duwinyddiaeth, nad yw yr un wedi ymddangos yn flaenorol mewn athroniaeth......... Dangosir yma ei bod mor groes i *ddeall* dynol ag ydyw i *grefydd*, wadu arfaeth, rhagwybodaeth, a rhad ras Duw, neu ar y llaw arall, rydd ewyllys dyn; ond y dylem gredu y ddau, a'r ddau mewn undeb â'u gilydd, er yn analluog i'w hamgyffred ar wahan. Y mae yr athrawiaeth hon yn dysgu, gydag Awstin, Pe na byddai rhad ras yn Duw, pa fodd y gallai achub y byd; a phe na byddai ewyllys rydd mewn dyn, pa fodd y gallai Duw farnu y byd. Neu, fel y mae yr un athrawiaeth yn cael ei geirio, fe ddichon, yn well gan Bernard, 'Pe diddymid ewyllys rydd, ni byddai dim *i'w* achub; pe diddymid rhad ras, ni byddai dim *i* achub.'"

[1] Y mae y dull olaf o edrych ar amser, sef fel ffurf hanfodiad ei wrthddrychau, ac felly, fod *parhad* yn beth gwirioneddol ynddo ei hun, *yn gystal* a bod dyn wedi ei gyfansoddi i edrych ar bethau mewn ffurf amserol, yn un o'n syniadau mwyaf gwreiddiol a chyffredinol. Y mae yn gysson â'n syniad ni am ddoethineb a gwirionedd Duw, i wneyd ein cynneddfau ni i drosglwyddo darluniadau cywir o bethau, ac felly bod yr allanol a'r mewnol yn cyfateb i'w gilydd: hyn hefyd ydyw casgliad yr ymchwiliadau diweddaraf i hyn. Ni a roddwn ddyfyniad o waith Syr W. Hamilton, lle y mae yn cymhwyso yr un egwyddor at eangder (*space*); ac os ydyw yn wir am eangder, y mae felly hefyd am amser.

"That the notion of space is a necessary condition of thought, and that *as such* it is impossible to derive it from experience, has been cogently demonstrated by Kant. But that we may not through sense have empirically an immediate perception of something *extended*, I have yet seen no valid reason to doubt. The *a priori* Conception does not exclude the *a posteriori* Perception; and this latter cannot be rejected without belying the evidence of consciousness, which assures us that we are immediately cognizant, not only of *self*, but of a *not self*, not only of *mind*, but of *matter*; and matter cannot be immediately known, that is, known as existing, except as something extended. In this however I venture a step beyond Reid and Stewart, no less than beyond Kant, though I am convinced that the philosophy of the two former tended to this conclusion, which is in fact that of the common sense of mankind.'

Digitized by Google

â *Marc* ix. 5). (*b*) Fel penarglwydd y trefniant efengylaidd (*Rhuf.* x. 12; *Dad.* xvii. 14). (*c*) Fel penllywydd, a meddiannydd yr holl greadigaeth (*Dad.* xix. 16).

Y mae *Arglwydd*, pan gymhwysir ef at Grist, yn gyfieithiad o air arall yn Groeg, sef δεσποτης. Cymhwysir ef at Dduw yn *Luc* ii. 29; *Act.* iv. 24; *Dad.* vi. 10: ac at Grist yn 2 *Pedr* ii. 1; *Iudas* 4. Mae y gwahaniaeth rhwng κυριος a δεσποτης, yn ol barn rhai o'r gramadegau Groeg, yn gynnwysedig yn hyn,—fod un yn *curios* gyda golwg ar ei deulu, ei wraig a'i blant, y rhai wrth ymddyddan âg ef a'i hanrhydeddant â'r enw hwn; ond ei fod yn *despotes* gyda golwg ar ei gaethweision. Bernir gan Trench fod gradd o wirionedd yn y gwahaniaethiad hwn. Mae i awdurdod y *curios* derfynau, ac y mae yn ei harfer er daioni y rhai sydd yn ddarostyngedig iddo; tra y mae awdurdod y *despotes* yn fwy helaeth a gormesol. Y mae yr hwn sydd yn cyfarch arall fel *despota* yn peri i'w gyfarchiad wisgo gwedd fwy ymostyngol na phe y cyfarchasai ef fel *curie*. Yn gydweddol â hyn, ni roddai y Groegiaid rhyddion y teitl o *despotes* i neb ond y duwiau. Yr un modd y mae *despotes*, hyd yn oed yn fwy na *curios*, pan yn cael ei arfer yn yr Ysgrythyrau, yn dwyn y drychfeddwl o awdurdod oruchel Duw, a hawl i wneuthur fel y myno â llu y nef, ac â thrigolion y ddaiar. Mae yn ddiammheu y byddai y gair yn cludo y syniad hwn i feddwl y Groegiaid, fel yr ymddengys yn eglur oddi wrth adran yn Philo [*Quis Rer. Div. Hær.* 6], y lle y mae yn gweled prawf o dduwiolder Abraham, yn y ffaith ei fod, yn ei ddynesâd at Dduw, yn anghofio yr enw cyffredin *curios*, ac yn arfer *despotes*, yr hyn a arddangosai fwy o ymostyngiad a hunan-ffieiddiad, a mwy o gydnabyddiaeth o hawl a gallu annherfynol Duw.

ARGLWYDDES. "Yr etholedig *arglwyddes*" (Ἐκλεκτη κυρια); 2 *Ioan* i. Mae y frawddeg hon wedi cael ei chyfieithu a'i hesbonio yn amrywiol gan awdwyr hen a diweddar. Y mae rhai wedi barnu mai *Electa* neu *Eclecta* (etholedig) oedd enw priodol yr un yr ysgrifenodd yr apostol ei lythyr ati, ac wedi cyfieithu y frawddeg, "At yr arglwyddes Eclecta." Dywed Clemens Alexandrinus ddarfod i Ioan ysgrifenu ei ail epistol at wraig neu forwyn Fabilonaidd, o'r enw Eclecta. O'r un golygiad y mae Wolfius, Grotius, Wetstein, ac ereill. Y mae Esgob Middleton, yn ei draethawd ar y fannod Groeg, yn amddiffyn yr un golygiad. Dwg yn mlaen i gefnogi hyn amryw anghreifftiau cyffelyb o weithiau Basil, yn y rhai y mae enwau y rhai yr ysgrifena atynt yn dygwydd yn nghyntaf, a sefyllfa neu radd y person yn dyfod ar ol yr enw. Hermann, Benson, Neander, ac ereill, a ddadleuasant mai Κυρια (*Curia*, arglwyddes) oedd ei henw, ac a ddarllenent, "At yr etholedig Curia." Dywed Œcumenius, "Y mae yn ei galw yn *etholedig*, naill ai o herwydd ei henw, neu ragoriaeth ei rhinweddau; ac yn ei esboniad dywed, "Ni phetrusodd Ioan ysgrifenu at wraig dduwiol, o blegid yn Nghrist Iesu nid oes na gwryw na benyw." Ar y llaw arall, barnai Cassiodorus mai rhyw eglwys neillduol a feddyliai yr apostol; a dilynir ef gan Whitby, Whiston, ac ereill. Dywedant nad ysgrifenwyd yr epistol at wraig neillduol, ond at eglwys neillduol; crybwylla Whiston eglwys Philadelphia, a Whitby eglwys Ierusalem, mam yr holl eglwysi. Ond gellir sylwi fod y syniad hwn yn anghytunol â dullwedd yr ysgrifenwyr apostolaidd. Y mae y cyfieithiad awdurdodedig yn gwbl foddhaol gan y nifer fwyaf o'r beirniaid, hen a diweddar. Gellir nodi Castalio, Beza, Mill, Wolfius, Le Clerc, Wall, Lardner, Macknight, &c. Dywed Beza, "Barna rhai mai enw priodol yw *Eclecta*, yr hyn nis gallaf gymmeradwyo; pe felly, buasai trefn y geiriau, κυρια Ἐκλεκτη. Meddylia ereill fod yr ymadrodd yn gosod allan yr eglwys yn gyffredinol. Ond gellir gwrthbrofi hyny, yn gyntaf, trwy ei fod yn ddull hollol anghyffredin o lefaru; yn ail, trwy waith yr apostol yn addaw, yn yr adnodau diweddaf, ddyfod i'w gweled hi a'i phlant; yn drydydd, trwy anfon ati anerchion ei chwaer, yr hon a eilw hefyd yn "etholedig." Gan hyny, yr wyf yn barnu fod yr epistol hwn wedi ei anfon at wraig o urddas, o ba rai yr oedd amryw yma a thraw a gynnalient yr eglwys â'u cyfoeth; a'i fod yn ei galw yn *etholedig*, hyny yw, *rhagorol*, a rhoddi iddi y teitl κυρια—*arglwyddes*, fel y rhoddodd Luc i Theophilus, a Paul i Ffestus, y teitl κρατιστος—*arddderchocaf*. O blegid nid yw y grefydd Gristionogol yn gwahardd y cyfryw deitlau anrhydeddus i'r rhai ydynt deilwng o honynt." Tybir gan rai na ddarfu i Ioan grybwyll enw y foneddiges yr anfonodd yr epistol ati, rhag y buasai i elynion yr efengyl beri blinder iddi; ond buasai yr un rheswm yn ei luddias i enwi Gaius yn y trydydd epistol. Nid yw yn wybyddus yn mha le y preswyliai yr "etholedig arglwyddes;" ond oddi wrth fynegiad yr apostol o'i amcan i ymweled â hi yn fuan, gellir casglu nad oedd yn neppell o Ephesus, o'r lle yr ysgrifenodd Ioan ati.

ARGLWYDDIAETH: llywodraeth, awdurdod, gallu. "Arglwyddiaeth ac ofn sydd gydag ef;" *Iob* xxv. 2. Yma, dwg Bildad ystyriaethau am fawredd Duw ger bron meddwl Iob, i'r dyben o'i lanw âg ofn parchedig tuag ato, a thuag at ei oruchwyliaethau. Dengys mai efe ydyw Penarglwydd pawb a phob peth, a bod mawredd ofnadwy yn perthyn iddo; fod ganddo ef, yr hwn a roddes fod i bob creadur, hawl i roddi deddfau iddynt, a gallu i amddiffyn a grymuso y deddfau hyny. Yr hwn a wnaeth yr oll, a all lywodraethu yr oll yn ol ei ewyllys ei hun. Mae fod arglwyddiaeth gydag ef yn profi mai efe yw meddiannydd a rheolydd pob peth. Ei eiddo ef ydynt, ac wrth ei drefniant ef y maent. Am fod arglwyddiaeth gydag ef, y mae ofn hefyd gydag ef. Y mae yn deilwng o ofn, parch, ac ufudd dod oddi wrth ei holl greaduriaid rhesymol. "Iudah oedd ei sancteiddrwydd, ac Israel ei arglwyddiaeth;" *Sal.* cxiv. 2. "Gelwir Iudah yn sancteiddrwydd, ac Israel yn arglwyddiaeth Duw," medd Calvin, "o blegid i'w fawrhydi sanctaidd, yr hwn ni ddadguddiwyd hyd waredigaeth y genedl o'r Aipht, sicrhau parch ac edmygedd pawb oedd yn llygad-dystion o'r amlygiadau a roddes o'i allu anfeidrol. Trwy waredu ei bobl, dyrchafodd Duw deyrnas iddo ei hun, ac ennillodd barch i'w enw sanctaidd."

Mae yn ddiammheu fod Iudah yn y fan hon yn sefyll am holl bobl Israel, fel y mae Ioseph yn *Salm* lxxxi. 5. Enwir Iudah, efallai, am mai efe oedd y mwyaf galluog a lluosog o'r holl lwythau. Barna amryw yr enwir ef am mai yn y parth a feddiennid gan lwyth Iudah y cedwid yr arch, ac mai o hono ef yr oedd y Messiah i gyfodi. Darllena Hammond, yn lle "Israel ei arglwyddiaeth," "Israel ei allu:" wrth hyn y dealla fod Israel yn esampl o allu Duw: ei fod yn ei gyfryngiadau dros Israel yn amlygu ei hollalluogrwydd yn y modd mwyaf rhyfeddol.

Digitized by Google

iaid. Y Vandaliaid, yn ngogledd Affrica, a fuont ffyddlawn i'w syniadau, drwy erlidigaethau trymion, hyd eu dinystr gan Bellisarius, yn y flwyddyn 534. Y Lombardiaid a fuont ffyddlawn yniddo hyd ddiwedd y seithfed ganrif agos. Yr oedd rhai, efallai, o'r Albigensiaid, o'r syniad hwn yn y ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg; a dichon ei fod yn cael ei goleddu yn mhlith rhai o'r gwrthdrindodwyr yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yn y ganrif ddiweddaf, bu Whiston, Emlyn, a'r Dr. Samuel Clarke, yn ceisio ei gyfodi. Ac o ddyddiau Priestley, y maent wedi ymgolli yn mhlith yr Unitariaid a'r Humanitariaid.

Nid oes dim llai na deunaw o wahanol ffurfiau o Ariaeth mewn bod; ond dosberthir Ariaeth ei hun i dri dosbarth. 1. Yr Ariaid gwreiddiol. 2. Yr Hanner-Ariaid (*Semi-Arians*). 3. Yr Acaciaid, y rhai a adwaenir dan wahanol enwau. Ni a allwn grynoi eu syniadau i ychydig eiriau.

1. Daliadau Ariaeth bur, yn ol dysgrifiad Athanasius, Hilary, Basil, ac Epiphanius, yn nghyd â'r haneswyr Socrates, Zozomen, a Theodoret, ydynt—fod Crist yn Dduw, ond yn is na'r Tad mewn dwyfolaeth, sylwedd, priodoliaethau, ac urddas. Fod Crist yn greadur, i'r hwn yr oedd dechreuad; ond crewyd ef o ddim, cyn sylfaenu y byd. Y mae Crist, o ganlyniad, yn Dduw trwy ewyllys y Tad, nid o natur, ond trwy fabwysiad; er hyny, wedi ei wneuthur yn wir lun delw y Tad. Y mae o hanfod gwahanol; nid yw o gyd-dragwyddol, nac yn gydsylweddol â'r Tad. Nid yw yr Ysbryd Glân yn Dduw, ond creadur y Mab—yn is na'r Mab, ond yn cydweithredu â'r Tad a'r Mab yn nghreadigaeth y byd.


2. Yr Hanner-Ariaid a ddalient fod y Mab yn *homoousios; h.y.*, yn gyffelyb i'r Tad mewn hanfod; nid trwy natur, ond trwy ragorfraint neillduol.

3. Ymfoddlonai ereill ar ddywedyd fod y Mab yn gyffelyb i'r Tad, heb fanylu i ddywedyd dim am ei natur a'i briodoliaethau. Pen y sect hon oedd Acacius, dilynydd Eusebius yn esgobaeth Cesarea; ond dywedir ei fod wedi derbyn y syniadau uniawngred ar ol hyny.

Y mae yr Eunomiaid a'r Exocontiaid yn cael eu cynnwys yn y dosbarth cyntaf. Yr oedd Eunomius yn ddysgybl i Aetius, diacon yn eglwys Antioch; ond a ddiarddelwyd ar gyfrif ei heresi, a gelwir ei ganlynwyr yn Aetiaid. Defnyddid Exocontiaid yn gyfystyr âg Ariaid; o herwydd fod yr Ariaid yn dal fod Crist wedi ei greu ἐξ οὐκ ὄντων, *h.y.*, cyn y dechreuad. Rhoddodd Eusebius, esgob Nicomedia, ei enw i ddosbarth o'r Ariaid. Enw arall ar yr Hanner-Ariaid oedd Duliani, am eu bod yn dywedyd fod y Mab yn δουλος (*doulos*)—gwas y Tad. Ond afreidiol ydyw enwi chwaneg o'r ffurfiau anhysbys hyn o'r heresi dan sylw.—(*Neander's Church Hist.; Mosh. Inst.; Phil. Dic.; Penny Cyc.; Pop. Cyc.; Hanes yr eglwys, gan Morgans.*)

ARIAN: mewn hanesiaeth naturiaethol, a olyga adwyn claerwyn, sydd heb flas nac arogl; ond o ran ei ddysgleirdeb a'i brydferthwch, sydd un o'r defnyddiau mwyaf rhagorol. Nid oes un metel ag y gellir ei gaboli yn uwch na'r arian, ond y dur yn unig. Am ei oddefgarwch, nid yw yn ol i'r meteloedd ereill, ond yr aur a'r platina: goddef ei guro yn ddalenau mor deneu fel y cynnwysid wyth ugain mil o honynt mewn modfedd o drwch. Goddef ei dynu yn wyfyr meinach na gwallt. Y mae mor wydn fel y mae gwyfyr o hono, wedi ei dynu i 0.078 modfedd o dryfesur yn alluog i gynnal 187,13 pwys heb dori. Y mae yn toddi pan y byddo wedi ei boethi yn eiriasrudd; a thra y byddo yn y cyflwr hwnw y mae yn dysgleirio fwyaf. Fel y byddo yn oeri, y mae ei arwyneb yn ymddangos fel y crystal mewn tegwch.

ARIAN BATHOL. Y mae y gair *arian* yn cael ei arfer i osod allan, nid yn unig y mwn a elwir felly, ond yr eiddo bathol hefyd sydd mewn cylchdaeniad, fel cyfrwng trafnidiaeth—yn aur, arian, a phres, yn gystal a nodau yr ariandai. Nid yw yr ymadrodd ysgrythyrol, "Os ceisi hi fel ceisio arian," yn cyfeirio at y metel a elwir felly, ond at y batholion a arfera cenedloedd i gynnrychioli pob gwir werth o bob math. Y mae arian ac aur yn cael eu harfer gan bob cenedl fel prif ddefnyddiau priodol er cortforiad cyfoeth. Nid am nad oes defnyddiau ereill cydwerth o ran maintioli â hwy, ond o blegid eu cyfaddasrwydd i'r perwyl, ac o herwydd fod pob gwlad, o'r bron, yn rheoli gwerth pob eiddo arall wrth werth y defnyddiau hyn. Pan y gofynir pa faint o werth a fyddo dyn, meddylir gwerth pa faint o arian a fyddo. Os bydd yn un chwantus am elw, dywedir ei fod yn *caru arian*. Ariangarwch ydyw yr ymadrodd a ddefnyddir i osod allan wreiddyn pob drwg. Gwrthodir llawer math o eiddo mewn cyfnewidiaeth, ond y mae pawb yn barod i dderbyn y batholion arian. Ar yr olwg gyntaf, gellid tybied nad yw o bwys yn y byd beth fyddo y defnyddiau y cytuna cenedl arnynt fel arwyddlun neu gorfforiad cyfoeth; ond wedi ystyried pob peth yn nghyd, gwelir yn amlwg mai y defnyddiau gwerthfawrocaf, trymaf, a mwyaf goddefgar a pharhaus ydyw y rhai mwyaf priodol. Y mae yn syndod edrych ar y gwahanol ddefnyddiau a arfera gwahanol genedloedd, fel arian, yn eu cyfnewidiaeth â'u gilydd. Bu defaid ac ychain yn cael eu harfer fel y cyfryw yn yr oesoedd gynt; a myn rhai mai ystyr y gair Cymreig *gwartheg*, yw *gwerth teg*, mewn cyfeiriad at hyny. Dywed un awdwr boreuol fod arfogaeth Diomede yn werth naw o ychain; a bod yr eiddo Glaucus yn werth cant o honynt. Bernir, pan y deuwyd i arfer batholion ar y cyntaf, fod argraff a delw o'r creaduriaid a gynnrychiolent wedi eu gosod arnynt. Ac yn y British Museum ceir gweled yr hen As Rhufeinig, o faintioli priddlech, â llun tarw yn argraffedig arno. Dywed rhai mai y cyf-



Dar. 75.


ieithiad llythyrenol o'r ymadrodd sydd yn Llyfr Iob, "A hwy a roddasant iddo bob un ddarn o arian," a fyddai, "A phob un a roddasant iddo ddafad, neu oen;" sef bathodyn â darlun felly arno. Mewn rhai parthau o Affrica, arferir darnau o frethyn, o wahanol liw a maintioli, i ddynodi gwerth, fel arian; mewn lleoedd ereill yno, arferir cregyn a chacenau o halen. Mewn amryw barthau

Digitized by Google

fe arferir pridd-deganau China fel arian; ond fynychaf, gynt, arferid crwyn neu ledr at y perwyl hwn, yr hyn a fynegir yn amlwg yn Llyfr Iob; "Croen am groen (croen ar groen), a phob peth fyddo gan ddyn a rydd efe am ei einioes," er dangos allan ofal pawb am ei fywyd, a bod dynion yn barod i ymadael â'u holl gyfoeth er ei fwyn.

Y mae crybwylliadau mynych yn yr Ysgrythyrau am aur, arian, a phres, symiau o arian, masnachu âg arian, arian treigl, ac arian o bwysau penodol. Yn wir, y mae holl arian y Beibl yn cael eu prisio wrth bwysau. "A phwysodd Abraham i Ephron yr arian, a ddywedasai efe lle y clybu meibion Heth; pedwar can sicl o arian cymmeradwy yn mhlith marchnadwyr;" *Gen.* xxiii. 16. Dygodd brodyr Ioseph yr arian a gawsant yn ngenau eu sachau "yn ei bwys" yn ol i'r Aipht: *Gen.* xliii. 21. Pwysai y clust-dlws aur a roddodd gwas Abraham i Rebeccah hanner sicl, "a dwy freichled i'w dwylaw hi, yn ddeg sicl o aur eu pwys;" *Gen.* xxiv. 22. Wrth dalu am faes Hanameel, pwysodd Ieremīah yr arian iddo, "saith sicl a deg darn o arian;" *Ier.* xxxii. 9. Y mae Amos yn arddangos masnachwyr Israel fel yn "anghyfiawnu y clorianau trwy dwyll;" *Amos* viii. 5. Nid ymddengys fod y sicl a'r dalent, ar y cyntaf, yn ddarnau bathedig penodol o arian, ond yn unig pwysau a ddefnyddid wrth fasnachu. Am hyny, dywedir, "Na fydded genyt yn dy god amryw bwys, mawr a bychan;" *Deut.* xxv. 13. Yr oedd yn arferiad yn mysg yr Iuddewon gario clorianau wrth eu gwregys, er pwyso yr aur a'r arian a dderbynient; ond cariai y Canaaneaid hwynt yn eu dwylaw.

Ond mewn amser diweddarach, gwnaed darnau arian o werth penodol. Ond yr oedd yr Iuddewon yn addolwyr yr unig wir Dduw; gwaherddid eilunaddoliaeth yn gaeth yn eu deddfau; ac felly, ni byddai llun un creadur un amser ar eu sicl, ond yn unig gangen o bren almonau ar un ochr, a'r crochan manna ar y llall.



Dar. 76.

O'r holl ddefnyddiau a arferir fel cyfryngau, neu foddion cyfnewidwriaeth, rhwng cenedloedd gwareiddiedig a'u gilydd, arian ac aur ydyw y rhai mwyaf priodol. Yr hanes cyntaf a gawn am yr arferiad o'r defnyddiau hyn sydd yn yr Ysgrythyrau. Y mae Moses, wrth roddi hanes yr afon Pison, neu yr Euphrates, yn dywedyd ei bod yn cylchynu holl dir Hafilah, "lle mae aur, ac y mae aur y wlad hono yn dda." Dywedir fod Abraham yn gyfoethog mewn gwartheg, ac arian, ac aur. Y mae Iob, yn ei ddarluniad ardderchog o werth doethineb, wrth gyfeirio atynt, yn dywedyd, "Diau fod gwythīen i'r arian, a lle i'r aur, lle y coethant ef." Yr oedd yr aur yn helaeth yn yr Aipht pan yr ymadawodd plant Israel oddi yno. Yr oedd Solomon wedi casglu llawer o hono. Yr oedd yn y deml werth 213,320*p.* o aur pur. Yr oedd yn helaeth yn Palestina: casglodd Solomon werth 300,000*p.* mewn un flwyddyn; a dygodd ei longau werth 190,800*p.* o Ophir. Casglodd Ninius, Semiramis, Darius, Croesus, Pytheus, Tiberius, Vespasian, Cæsar, ac ereill, symiau dirfawr o hono; yr hyn a ddengys fod y defnydd hwn mewn arferiad fel cynnrychiolydd eiddo er yn gynnar, mewn llawer gwlad. Y mae yn lled anhawdd penderfynu o ba leoedd y casglwyd y defnyddiau hyn oll. Myn rhai haneswyr fod alcam o Yspaen, a chopr o Gymru, yn nheml Solomon. Nid oes ond ychydig o'r aur yn ein gwlad ni. Gwyddys i'r Rhufeiniaid fod yn codi aur o gloddfeydd Gogofau, yn sir Gaerfyrddin; ac y mae rhyw gynmaint wedi ei ddarganfod yn ddiweddar yn sir Feirionydd. Ond y mae yn dra thebygol eu bod wedi eu cynnull o wahanol barthau y byd. Dywed Humboldt fod y Phœniciaid wedi dwyn llawer o aur o'r India Orllewinol, ac o derfynau Arabia ac Affrica Ddwyreiniol. Bernir fod toraeth o hono tua glanau y Môr Du, Siberia, Ethiopia, Thraca, Thosux, Italy, yr Alps, Illyria, a manau ereill. Cafwyd ychydig, o bryd i bryd, yn Cornwall, a swyddi Devon, a Derby.

Y mae arian bathol yn gyfleus iawn er hyrwyddo trafnidiaeth y gwahanol wledydd, yn gystal a newidwriaeth cymmydogaethol. Y mae yr amaethwr yn gwneyd ei gyfoeth i fyny, gan mwyaf, mewn gwenith. Yr oedd cludiad y swm gofynol o hono i'r farchnad, i bwrcasu yr eiddo a fyddai yn angenrheidiol, yn anhawdd ac anghyfleus iawn. Yr oedd amgylchiad y bugail yn llawn gan waethed: os byddai arno eisieu rhyw ddilledyn, byddai raid iddo arwain dafad neu eidion i'r farchnad, a phrynu nifer o bethau chwanegol, heb eu heisieu, er mwyn gwneyd y gwerth i fyny. Yr oedd yr anghyfleusdra hwn yn rhwym o weithio diwygiad allan o hono ei hun, yn raddol; ac yr oedd yn arwain dynion i ddyfeisio rhyw foddion i ranu eiddo i symiau mwy cyfartal i'w hangenrheidiau ar y pryd. A'r cyfryngau a gafwyd i gynnrychioli pob graddau o werth ydynt yr *arian bathol.* Gall yr amaethwr yn awr werthu y swm a fyno o gynnyrch ei dyddyn, a derbyn am dano eiddo cyfleus at bwrcasu y peth a fyno, fel y byddo angen yn galw. Gall werthu ei eiddo, a fyddo yn llygru wrth ei gadw, ac felly yn ei golledu, a derbyn am dano eiddo anllygradwy, ac a barhâ heb unrhyw golled arno. Y mae yn llawer mwy cyfleus iddo gario nifer o ddarnau mân o aur, neu arian, yn ei logell, na sachaid o wenith ar ei gefn, neu dywys anifail yn ei law, er ateb gofynion y crefftwr neu y masnachwr!

Y mae dosbarthiad arian yn gyfleus iawn. Cyn trefniad y bathiant, yr oeddid yn gorfod pwyso yr aur a'r arian; ac yr oedd hyny yn anhawdd ac yn drafferthus. Yr oedd Abraham, wrth brynu maes ac ogof Macpelah gan feibion Heth, yn pwyso eu gwerth o arian fel taliad. Y mae y defnyddiau hyn, nid yn unig yn gyfaddas er cynnrychioli gwerth, ond hefyd y maent yn wir werthfawr ynddynt eu hunain. Yn hyn y maent yn gwahaniaethu oddi wrth nodau yr ariandai. Cynnrychioli gwerth y mae nôd yr ariandy yn unig; nid yw o nemawr werth ynddo ei hun. Darfyddai arian-nodau fel cyfryngau masnach ar unwaith, ond fel y maent yn rhwymo y pleidiau a fyddo yn eu rhoddi allan i dalu i'r neb y byddont yn ei feddiant y swm a nodir arnynt mewn gwir werth, pan y gelwir am hyny. Ni olygir y llafnau aur sydd yn nghoffrau Ariandy Lloegr fel arian traul, ond fel symiau mawrion wrth gefn, ar gyfer galwadau a allent gael eu gwneyd yn ddisymmwth. Y mae y Dr. Bowring, ac ereill, wedi dwyn cynllun rheolaidd

Digitized by Google

i'n gwlad yn ddiweddar, i weithredu arno, yn maintioli y batholion, a'u gwerth cyfartal, fel na bydd dim anhawsder i newid y naill am nifer o'r lleill. Pan yr oedd gini mewn arferiad, yr hon oedd yn werth un swllt ar ugain, ni allesid ei newid mewn hanner coronau. Y mae y darnau deuswllt, sydd newydd eu bathu yn ein gwlad ni wedi eu trefnu er symmud ymaith yr anhawsder hwn. Daeth y gwelliant hwn, fel pob darganfyddiad arall, i ymarferiad yn raddol. Ar y cyntaf, nid oedd ar y bathodyn ond argraff i ddynodi ei natur, a gadewid i'r clorian ddangos ei werth; ond yn raddol gwelid yr angen a'r modd o gael trefn rwyddach na hon, drwy sefydlu ar faintioli penodol, a ddangosai ei wir werth ar ei wyneb ei hun. Y mae y trefniant presennol yn dra manteisiol i'r masnachydd, fel y gall dynion yn absennoldeb eu gilydd, drwy genadau, gyflwyno unrhyw swm penodol ar gyfer unrhyw farchnad benodol. Pan y bydd llawer math o fwn yn cael ei fathu, y mae yn ofynol bod rhyw un penodol yn cael ei osod yn safon cyffredinol gwerth. Y mae hyn yn ymddangos yn eglur, pan yr ystyrir fel y mae gwerth y defnyddiau hyny yn sefyll mewn cyferbyniad â phob eiddo arall, yn ol graddau y swm a ellir gloddio o honynt. Pe cynnyddai yr aur yr hanner o ran swm, ar unwaith syrthiai ei werth; yr un modd ag y mae cynnyrch anarferol gwenith yn gostwng ei bris. Pe darganfyddid cloddfa o arian o faintioli y Wyddfa mewn un dydd, gallai y meddiannydd gael mantais annheg ar y wlad, heb fod rhyw reol sefydlog i attal hyny. O blegid hyn, y mae cyfraith Lloegr wedi trefnu bod yr aur yn unig yn daliad cyfreithiol am bob swm dros ddeugain swllt. Aur, gan hyny, yw y safon. Y mae treigliaeth pob gwlad yn cael ei olygu fel y rhan hono o'i heiddo a fwriedir yn unig fel moddion newidwriaeth. Y mae penadur yn ein gwlad ni, nid yn unig yn cynnrychioli gwerth ugain swllt, ond y mae hefyd yn wir werth hyny ynddo ei hun; y mae nid yn unig yn gorfforiad o lafur gweithiwr am wythnos, mwy neu lai, ond y mae y gyfraith wedi ei sefydlu yn wir werth y swm hwnw ynddo ei hun. Trosglwyddai eiddo o'r naill law i'r llall ydyw, ond y mae yn agored i gyfnewidiad, pe canfyddid rhyw foddion gwell eto at y dyben hwn. Os golygir fod treigliaeth Lloegr yn werth 50,000,000*p.* (a diau ei fod yn llawer mwy ar amser cyffredin, heb son am adegau rhyfeloedd, &c.), ei werth blyneddol, yn ol chwe phunt y cant, a fyddai tair miliwn; a gellid golygu y swm hwn fel yr ardreth a delir am drosglwyddiad eiddo rhwng y trigolion a'u gilydd. Ac nid hyny yn unig a delir, o blegid er mor barhaus ydyw defnyddiau y batholion, y maent yn treulio ac yn colli yn eu pwysau. Y mae llawer hefyd yn colli trwy dân a llongddrylliadau ar y môr, fel y bernir fod y golled yn y gwahanol ffyrdd hyn dros hanner miliwn yn flyneddol, yr hyn a ddengys fod y draul mewn darpariad moddion cyfnewidwriaeth o'r mwnau gwerthfawr yn costio i'r deyrnas dros dair miliwn a hanner o bunnau bob blwyddyn. Dywedir fod yr Iuddewon, ac ereill, yn arfer ysgwyd nifer o'r rhai newyddion yn wastadol mewn cydau, er mwyn cael y llwch, a bod llawer yn treulio felly. Adnewyddir y bathiant yn rheolaidd. Un o fanteision arbenig yr ariandai ydyw lleihau y draul yn y treiglaeth, ac eto heb leihau gwerth yr arian. Y mae y rhan fwyaf o'r drafnidiaeth dramor yn cael ei dwyn yn mlaen drwy forwriaeth, a'r cyfrifon yn cael eu talu trwy yr ariandai. Y mae y masnachwr weithiau am hir amser cyn y delo ei gyfrifon yn ddyledus; a byddai bod ei arian yn gorwedd yn segur yn ei goffrau ei hun y pryd hwnw, yn eu gwneyd yn y cyfamser yn ddiles iddo ei hun a phawb ereill; ond trwy drefniant yr ariandai, derbynir sicrwydd am eu had-daliad, pan y delo galwad am danynt, gyda llog, dros yr amser ag y buasent yn llonydd yn ei gistiau ef ei hun. Trwy nodau addewidiol, yn enw personau cyfrifol, gellir dwyn unrhyw swm o fatholion i dreigliad, ond talu y llog priodol am eu benthyg. Trefniant tra manteisiol oedd cael

> "Nod ysgrifen ar ddalenau
> Yn daliadau y dyledion."

Y mae yr ariandai yn sefydliadau boreuol iawn. Y mae ein Iachawdwr yn cyfeirio atynt yn Nammeg y Talentau: wrth feio y gwas drwg, dywed, y dylasai roddi yr arian at y cyfnewidwyr, fel y buasent i'w cael, pan elwid am danynt, gyda llog. Yr oedd rhyw fath o ariandai, gan hyny, yn Iudea. Gwŷr o'r alwedigaeth hon oedd y cyfnewidwyr a fwriwyd allan o'r deml, gyda'u byrddau a'u holl ddodrefn. Ni ddechreuodd yr ariandai yn Lloegr hyd tua chanol yr ail ganrif ar bymtheg. Gofaint aur Llundain a ddechreuodd drafnidio mewn llafnau aur, ac a aethant rhagddynt yn raddol i gymmeryd a rhoddi benthyg ar lôg. Benthycient yn fynych i'r brenin, i aros cael y trethi i mewn. Y sicrhâd a roddent hwy i ereill am arian, oedd dechreuad nodau Ariandy Lloegr; yr hwn, erbyn hyn, yw y sefydliad arianol helaethaf yn yr holl fyd. Pan ei cychwynwyd gyntaf yn 1694, yr oedd yn fath o gymdeithas gydranol, ond buan iawn y daeth yn fath o drefniant cenedlaethol. Yr oedd y llywodraeth wedi ei sefydlu mewn canlyniad i'r chwyldroad, mewn cyfyngder mawr o eisieu arian, fel nad allasai fyned â'i chynlluniau yn mlaen; yr oedd yn hollol dlawd ar y pryd, ac heb fodd i godi arian at yr achosion mwyaf pwysig. Y mae angen wedi bod yn fam i ddyfais lawer gwaith, ac felly y pryd hwn. Cynnygiodd un Mr. William Patterson, o Ysgotland, ar fod i ariandy eang gael ei godi dan nawdd y llywodraeth; a derbyniwyd y cynnygiad yn llawen gan y cyhoedd. Y swm a gyflwynwyd iddo gyntaf oedd 1,200,000*p.*, yr hyn a fenthyciwyd yn uniongyrchol i'r llywodraeth, am lôg o wyth bunt y cant; ac felly y cynnyddodd y sefydliad yn gyflym, nes ymgodi i'r uchder y mae ynddo yn awr. Y mae nodau yr ariandy hwn yn gywrain iawn o ran eu gwneuthuriad. Mor gyfleus ydyw y dalenau teneuon ysgeifn hyn, mewn cyferbyniad i'r llafnau trymion amrosgo a bwysid yn yr amser gynt! Y maent fel eglurhad ar ragoroldeb gwareiddiad ar farbariaeth. Mor deneu a thryloew yw y papyr mewn cymhariaeth i'r papyr ysgrifenu cyffredin! Ond er teneued yw, y mae ynddo rywbeth a deimla bysedd yr arianydd yn union, er ei wahaniaethu oddi wrth y rhai ffugiol, a hyn gan gyflymed ag y gall dynion ereill eu rhifo! Y mae y dyfr-nod sydd yn ei addurno yn cael ei weithio ynddo gan y peiriant wrth eu gwneyd yn y felin bapyr. Nid oes un gelfyddyd eto wedi ei dyfeisio a all ddynwared tair ochr ymylog y ddalen, yr hyn a ddyrysa holl amcanion y ffugiwr twyllodrus. Y mae cryfder a pharhad y ddalen yn destyn syndod. Pe cymmerid darn o bapyr ariandy, o faintioli lythyr cyffredin, er na byddai ond dau *grain* ar bymtheg a hanner o bwysau, eto y mae mor wydn, fel, wedi sicrhau ei ymylon, y deil ddeg pwys ar ugain ar ei wyneb heb rwygo! Tyner glud,

Digitized by Google

fel y mae yn anghyfiawn, yn angharedig, yn greulawn, yn anniolchgar, ac yn annefnyddiol, a diles. Nid oes un pechod ag sydd yn gwneyd dyn mor annefnyddiol mewn cymdeithas, na diles dros grefydd, a chariad gormodol at arian. Tra y mae yr hael yn dychymyg haelioni, y mae yr hwn y byddo ei fryd ar gybydd-dra yn dychymygu trais, ac yn chwennychu budr-elw: y mae yn waeth na gwagnod mewn gwlad: y mae yn cau allan bob teimlad o dosturi o'i galon, fel nas gall wrandaw cwyn yr amddifad a'r angenus pan lefont. Y mae yn ei anaddasu hefyd at bob rhinwedd a dyledswydd grefyddol; ac y mae, o blegid hyny, yn ddiystyrwch ar Dduw, fel y daioni penaf a'r Llywodraethwr goruchaf. Y mae y cymmeriad hwn yn ddieilfydd yn mysg holl rai rhagorol y ddaiar. Y mae yr ariangarwr yn eilunaddolwr, fel y mae yn gwneyd duw o'r mammon anghyfiawn. Y mae yn dysgwyl mwynhad dedwyddwch oddi wrth egwyddor nas gall ei rhoddi; "Y neb a garo arian, ni ddigonir âg arian:" ac nid yw yr hyn a gyrhaeddir yn ddim amgen nag ymborth i drachwant y galon, er awyddu chwaneg. Y mae serch anghymmedrol at olud, a'r moddion a arfera yr hwn fyddo dan ei ddylanwad er ei gyrhaedd, pa un bynag ai er mwyn y cyfoeth ynddo ei hun, ai er mwyn yr hyfrydwch bydol a ddysgwylia oddi wrtho, y byddo yn gweithredu, yn cau allan bob meddwl priodol am Dduw. Nis gall y deall wneyd un math o le teilwng i'r ystyriaeth am dano; y mae mor llawn o gynlluniau bydol, fel nad yw Duw yn ei holl feddyliau ef: y mae y cof wedi ei orlenwi â'i fwriadau trachwantus, fel nad yw gair Duw yn genni ynddo: y mae y serchiadau mor llawnion o bethau y bywyd hwn, fel nad yw yn gallu gwerthfawrogi yr "un peth angenrheidiol." Anfynych yr una yr ariangarwyr mewn arddeliad o grefydd: a phan y gwnant hyny, ni bydd i ddyben amgen nag i geisio twyllo ereill, tra y byddant, mewn gwirionedd, yn eu twyllo eu hunain; ac i'w harfer fel cochl i guddio eu dybenion, er mwyn rhwyddhau y ffordd at gyrhaedd manteision ac elw bydol.

Nid oes un rhinwedd a argymhellir i Gristionogion yn fwy, nac yn fynychach, na haelioni; ac y mae yn amlwg nad yw y rhinwedd hwn wedi cael y lle hwnw yn mynwes eglwys Dduw ag a fwriedid iddo gael hyd yn hyn. Y mae yn rhaid i deimlad newydd o haelfrydedd gael mwy o le yn mysg y Cristionogion, cyn y cyflawnir y rhagddywediadau sydd yn britho dalenau gair Duw am lwyddiant yr efengyl. Ni chydfydd cybydd-dod âg ysbryd llawroddgar y gwirionedd.

Nid oes un cymmeriad yn fwy truenus yn ei ddiwedd na'r "hwn sydd yn trysori iddo ei hun, ac nid yw gyfoethog tuag at Dduw." Y mae y barnedigaethau a dywalltwyd ar y cyfryw, y trueni sydd yn canlyn yr egwyddor, y niwed a wnant mewn cymdeithas, y rhybuddion a'r bygythion a gyhoeddir yn y gwirionedd yn eu herbyn, yn dangos mor ofnadwy fydd eu diwedd a'u dinystr. Oni bai fod dylanwad cariad a haelioni dynion rhinweddol yn gorbwyso gweithrediadau hunanol yr ariangarwyr, buasai cymdeithas wedi ei dyrysu, gwladgarwch wedi ei ymlid o'r byd, elusen wedi ei chloi allan, addysgiaeth wedi ei dileu, gwyddoriaeth heb ei dadblygu, celfyddyd wedi ei hattal, masnach wedi ei llethu, y genadaeth wedi ei hanghofio, ac eglwys yr Iôn ei hun wedi ei nychu yn y byd! Y fath wahaniaeth sydd i'w ganfod rhwng "yr hwn a wasgar ei dda, ac fe chwanegir iddo," yn ei wir fwynhad, rhagor yr hwn hwn sydd â'i hyder mewn "golud anwadal," a thrwy "chwant ymgyfoethogi, yn syrthio i brofedigaeth a magl," ac yn ei wanu ei hun â llawer o ofidiau!

ARIANWEN: un o santesau Ynys Prydain. Dywedir yn gyffredin mai merch Brychan Brycheiniog oedd hi; ond y mae y proffeswr Rees yn barnu mai wyres iddo ydoedd. Hi a briodwyd âg Iorwerth Hirflawdd o Bowys, ab Tegonwy ab Teon ab Gwineu da ei Freuddwyd; ac yr ydoedd yn fam i Caenawg Mawr, i'r hwn y mae eglwys Clocaenog, yn swydd Dinbych, wedi ei chyflwyno.—(*Bonedd y Saint.*)

ARIAS MONTANUS BENEDICTUS, neu fel ei gelwid yn iaith gwlad ei enedigaeth, *Benito Arias Montano*, a anwyd yn 1527, o deulu pendefigol, ond tlodion eu hamgylchiadau, yn mhentref Frexenel de la Sierra, yn nhalaeth Estramadura (ond ar gyffiniau Andalusia) yn yr Yspaen, mewn ardal dra mynyddig; yr hyn a barodd iddo gael y cyfenw Montanus (mynyddig). Astudiodd yn gyntaf yn Seville, ac wedi hyny Alcala de Henarez, lle y graddiwyd ef yn ddoethor duwinyddiaeth. Ymroddodd yn benaf i fyfyrio yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn yr iaith wreiddiol, a chyrhaeddodd wybodaeth helaeth a manwl o'r Hebraeg, yr Arabaeg, y Syriaeg, a'r Galdaeg, yn gystal a'r Groeg a'r Lladin; ac wedi hyny, tra yn ymdeithio trwy Ffrainc, Lloegr, yr Ital, yr Almaen, a'r Iseldiroedd, dysgodd fagad o'r ieithoedd diweddar. Dywed ef ei hun yn gystal ag amryw o'i gyfoeswyr, ei fod yn gwybod deg o ieithoedd, yr hyn oedd beth anghyffredin iawn yn yr oes hono. O herwydd ei fawr ddysgeidiaeth a'i wybodaeth, bu i esgob Segovia, Martin Perez Ayala, ei gymmeryd ef gydag ef i Gynghor Trent, a bu iddo ran yn un o weithrediadau pwysicaf yr eisteddfod eglwysig gofiadwy hono. Pan ddychwelodd i'w adwedd, penderfynodd fyw mewn neillduedd, a chyssegru ei holl amser i lenoriaeth; ac i'r dyben hyn, dewisodd le bychan yn mynyddoedd Andalusia, ger llaw Aracena, i fod yn breswylfod iddo. Pa fodd bynag, nid hir y bu yn yr encilfa hon cyn iddo gael ei wahodd gan Philip II., o'r Yspaen, i olygu argraffiad mawrwych a chostus o'r Beibl Amlieithog, yr hwn oedd i gael ei gyhoeddi yn Antwerp, gan Christopher Plantin, argraffydd dysgedig o'r lle hwnw. Felly Arias a gychwynodd tuag Antwerp, a threuliodd bedair blynedd yn y gorchwyl hwn; a chafodd yr hyfrydwch o gyflwyno y gwaith wedi ei orphen, mewn wyth gyfrol unplyg, i'r Pab Gregory XIII, yn 1572. Ystyrir yr argraffiad hwn o'r Beibl Amlieithog, a elwir yn gyffredin "Beibl Amlieithog Antwerp," yn waith rhagorol dros ben, ac yn cyflawn ateb i'r dysgwyliad oedd gan ddysgedigion yn ei gylch; ond yn anffodus, collwyd yn agos yr holl lyfrau ar y fordaith o'r Iseldiroedd i'r Yspaen. Cydnabu y brenin y golygydd yn wych am ei lafur, a sefydlodd dâl blyneddol arno tra y bu efe byw, heb law ei osod mewn swyddau o elw a chyfrifoldeb. Yr oedd Arias yn Babydd teg, cywir, a lled ddiragfarn, ac yn ŵr gwir ddysgedig. Ysgrifenodd lawer iawn, yn benaf ar bynciau crefyddol; ac y mae arwydd dysg a gwybodaeth drylwyr i'w weled yn ei holl gyfansoddiadau; ond y Beibl Amlieithog yw ei brif waith, a'r gofadail oreu o'i fedrusrwydd fel beirniad ysgrythyrol ac ysgolhaig dwyreiniol. Derbyniodd hwn gymmerad-

Digitized by Google

wyaeth y pab, a'r rhai enwocaf o'r prifysgolion Pabaidd; eto, er hyny, cyhuddwyd ef o fod yn gogwyddo at Iuddewiaeth, ac yn wir o gamgrediniaeth yn gyffredinol: bu mewn perygl o syrthio i afael y chwil-lys; a bu gorfod arno fwy nag unwaith fyned i Rufain i brofi ei ddiniweidrwydd. Wedi ymlanhau oddi wrth y cyhuddiadau hyn, efe a ymroddodd, am y gweddill o'i oes, i achos llenoriaeth, gan fyw weithiau yn Seville, ac weithiau yn Aracena. Bu farw yn Seville yn 1598, yn brior mynachdy St. Iago, yn y ddeuddegfed flwyddyn a thrigain o'i oedran. Trosglwyddwyd ei lyfrgrawn helaeth a gwerthfawr i'r Escurial; a dywedir fod rhai o'i lawysgrifau i'w gweled yno hyd heddyw. Gyda golwg ar ei gymmeriad moesol, yr oedd iddo y gair o fod yn nodedig am ei degwch a'i onestrwydd, a dywedir bod ei ymarweddiad cyffredin yn dra diargyhoedd.—(*Nicolas Antonio Bibliotheca Hispana.*)

1. ARIDAI, neu ARIDÆUS: cydymaith i Cyrus yr ieuangaf. Ar ol marwolaeth Cyrus, ymgymmododd âg Artaxerxes, trwy fradychu y Groegiaid iddo.

2. ARIDAI: mab anghyfreithlawn Philip, yr hwn, ar ol marwolaeth Alexander, a wnaed yn frenin, hyd oni esgorodd Roxane, yr hon oedd yn feichiog gan Alexander, ar olynydd cyfreithlawn. Am nad oedd Aridai yn mwynhau cyflawn synwyr, darfu i Perdiccas, un o gadfridogion Alexander, roddi ei hun fel noddwr iddo, a phriododd ei chwaer i gadarnhau eu cyssylltiad. Bu am saith mlynedd yn y meddiant o'i awdurdod freiniol, ac fe'i rhoddwyd i farwolaeth, yn nghyd â'i wraig Eurydice, gan Olympias.

1. ARIE, neu ARIA: gwlad yn Asia, yn sefyll i'r dwyrain o Parthia.

2. ARIE: gwraig Pætus Cecinna, seneddwr Rhufeinig, a gyhuddwyd o fradwriaeth yn erbyn Claudius. Pan oedd yn cael ei ddwyn i Rufain dros y môr o Padua, ei gartref, a hithau gydag ef, hi a drywanodd ei hunan, ac a gyflwynodd y cleddyf i'w gŵr, gan ddywedyd nad oedd yn teimlo ei chlwyf ei hun, ond y byddai ei giwyf ef yn farwol iddi.

1. ARIEL: gair yn arwyddo "llew Duw"—a gyfieithir "cedyrn," yn 2 *Sam.* xxiii. 20; 1 *Cron.* xi. 22; ac ar ymyl y ddalen, "llewod Duw." Arferid y gair fel teitl o anrhydedd ar ddynion cofn, rhyfelgar, yn mysg yr Arabiaid, megys y cyfenw *Ali*—"Llew Duw."

2. ARIEL: defnyddir yr un gair fel enw lle, yn *Esa.* xxix. 1, 2, er dynodi Ierusalem yn fuddugol dan Dduw: ac yn *Ezec.* xliii. 15, 16, er dynodi allor y poethoffrwm, yr hon oedd yn Ierusalem.

ARIMANES, neu AREIMANIOS: yr ysbryd drwg, neu ddynsoddwedd o'r egwyddor ddrwg, yn chwedloniaeth y Persiaid. Yr enw yn y Persiaeg yw Ahriman neu Aheriman; ac nid yw Arimanes ac Arimanios ond dull y Groegiaid o ysgrifenu y geiriau hyny. Yn ol athrawiaeth Zoroaster, Arimanes yw awdwr pob drwg, a gwrthwynebydd Ormusd, awdwr pob da. Yn ol y Zend-Avesta, Ormusd ac Arimanes oeddynt eppil Zeruane-Akerene, sylwedd dwyfol ac annynsodawl, ac achos pob bodolaeth. Ar y cyntaf, yr oedd gan y naill yr un faint o ddeall a gallu a'r llall; ond yr oedd Ormusd, o'r dechreuad, yn bur, yn dda, ac yn oleu; ond tywyll a drwg oedd Arimanes, â'i fryd bob amser ar ddistryw ac aflwydd. Arddangosir Ormusd megys creawdwr y byd; ond y mae Arimanes yn wastadol yn gwrthladd ei amcanion a'i ddaioni. Ormusd a greodd y chwech Amshaspand, neu angelion yn gweinyddu daioni: Arimanes, yntau, mewn gwrthwynebiad iddo, a greodd y chwech Daruj, i fod yn wasanaethgar i'w ddybenion drygionus ef. Y mae y ddwy egwyddor hyn bob amser yn gwrthwynebu eu gilydd. Y mae Ormusd yn blaenori trwy gynnyrchu pethau pur a daionus; ac Arimanes yn hau hadau drygioni naturiol a moesol yn nghreadau newyddion Ormusd. Yn ol Zoroaster, pery yr ymdrech rhwng y ddau fod hyn am 12,000 o flynyddoedd; a phan gyflawner hyny o amser, Ormusd a orchfyga ei wrthwynebydd, ac Arimanes a ddychwelir at wirionedd, rhinwedd, a daioni; ac yna y crëir byd newydd, llawer rhagorach a dedwyddach na'r byd sydd yr awr hon. Yr oedd athrawiaeth y Persiaid yn nghylch y ddwy egwyddor wrthwynebol yn hysbys i Aristotle; yr hwn, yn ol Diogenes Laertius, a'u galwai hwynt wrth yr enwau *elfod da* (*ἀγαθὸς δαίμων*) ac *elfod drwg* (*κακὸς δαίμων*). Gwel ORMUSD.—(*Anquetil du Perron, Zend-Avesta; Elisæus's History of Vartan, by Neumann; D. Läertius, De Vit. Philos.*)

ARIMATHEA: tref brydferth iawn ar un adeg, yr hon a orweddai rhwng Lydda a Ioppa, tua deng milltir ar ugain i'r gogledd-orllewin o Ierusalem, yn nyffryn Saron. Nid oes yno yn awr namyn pentref tlawd, o'r enw Ramla, neu Ramleh. Bernir mai yr un ydoedd Ramla a Ramah yr Hen Destament, lle y preswyliai y prophwyd Samuel (1 *Sam.* xxv. 1); ac âg Arimathea y Testament Newydd, dinas y pendefig Ioseph, at nodweddiad ardderchog yr hwn y cyfeirir gan yr efengylwyr: *Mat* xxvii. 57; *Marc* xv. 43; *Ioan* xix. 38. Yn *Luc* xxiii. 51, gelwir Arimathea, "dinas yr Iuddewon;" yr hyn a eglurir trwy grybwylliad a wneir yn 1 *Mac.* xi. 34, lle y dywed y brenin Demetrius, "Yr ydym ni wedi sicrhau iddynt (yr Iuddewon) gyffiniau Iudea, â'r tair talaeth, Apherema, Lydda, a Ramathem, y rhai a chwanegwyd o Samaria at Iudea." Ond y mae yr athraw Robinson yn dadleu nad yr un oedd Ramleh, a Ramah, neu Ramathaim, gan ddefnyddio y rhesymau canlynol:—1. Bod Abulfeda yn tystio mai wedi amser Mahomet, neu tua'r flwyddyn O. C. 716, yr adeiladwyd y lle a elwir Ramleh, gan Suleiman Abd-al Malik. 2. Nad yw Ramah a Ramleh yn arwyddo yr un peth. 3. Bod Ramleh mewn gwastadedd, tra y mae Ramah yn arwyddo tref ar fryn. I hyn y gellir ateb, y gallasai nas golygai tystiolaeth Abulfeda ddim mwy na bod Suleiman wedi *ail adeiladu* y dref, yr hon a fuasai o'r blaen yn adfeiliedig, fel y dywedir fod Rehoboam, ac ereill, wedi *adeiladu* amryw drefydd, y rhai oeddynt mewn bod yn mhell cyn eu hamser hwy; ac na byddai y Moslemiaid ond yn anfynych yn adeiladu trefydd yn un man ond ar orsafoedd hen rai, ac o hen ddefnyddiau, fel nad oes dref trwy holl Palestina y gwyddys yn sicr ei seilio ganddynt hwy. Pan ail adeiledid tref felly, rhoddid yr hen enw arni—neu enw cyffelyb mewn sain, os nad mewn ystyr—yr hyn a all fod yn rheswm am y gwahaniaeth rhwng Ramah a Ramleh. Ac ni wiw i ni ddadleu nas gallasai lle a elwid Ramah, fod mewn gwastadedd, oddi eithr ein bod yn barod i brofi bod yr enwau priodol Hebreig bob amser yn arwyddocaol a chyfaddas, yr



Digitized by Google

hyn, y mae yn dra thebyg, nad oeddynt. Yr oeddynt felly yn yr amseroedd boreuaf, pan nad oedd ond ychydig o drefi; ond fel y lluosogai trefi a dinasoedd, ni ofelid cymmaint am i'r enwau a roddid arnynt fod yn ddynodawl o amgylchiadau lleol. Mae yn wir fod y sylwadau hyn yn perthyn yn fwy priodol i eiriau ereill yn y gwaith hwn [gwel RAMAH; RAMATHAIM-SOPHIM]; ond gwnaed y crybwylliadau uchod yn unig er dangos nad yw gwrthddadleuon y Dr. Robinson wedi llwyr ddymchwelyd seiliau y dyb gyffredin, fod yr hen Arimathea yr un a Ramleh.



Dar. 77.

mae Ramleh yn gorwedd yn lledred 31° 59′ gogleddol, a hydred 35° 28′ dwyreiniol; wyth milltir i'r de-ddwyrain o Ioppa, a phedair ar ugain i'r gogledd-orllewin wrth orllewin o Ierusalem. Y mae yn gorwedd yn nyffryn Saron, ar lechwedd dwyreiniol esgynfa o wastadedd bras. Amgylchynir y dref hon, megys Gaza, a Iaffa, âg olewwyddlanoedd a gerddi tra chynnyrchiol; a gwelir ambell i balmwydden a sycamorwydden yn ei chyffiniau hefyd. Y tai ydynt o waith maen, ac amryw o honynt yn adeiladau mawrion a da; ond nid oes yma ond ychydig o heolydd Y mae yma bump o demlau Mahometaidd, o ba rai y bu dwy, neu fwy, meddir, yn addoldai Cristionogol unwaith; ac y mae un o'r mynachlogydd Lladinaidd mwyaf yn Palestina yn y dref hon. Bernir fod y lle yn cynnwys tua 3,000 o drigolion, o ba rai y mae dwy ran o dair yn Foslemiaid, a'r gweddill yn Gristionogion mewn enw, yn benaf o Eglwys Groeg, yn nghyd âg ychydig yn Armeniaid. Prif fasnach y preswylwyr sydd mewn cotwm a sebon. Y mae y brif ffordd o'r Aipht i Damascus, Smyrna, a Chaer Cystenyn, yn myned trwy Ramleh; a'r ffordd a gymmerir fynychaf gan bererinion a theithwyr Ewropaidd o Ioppa i Ierusalem.

Y gwrthddrych mwyaf nodedig yn yr holl ddinas, neu o'i hamgylch, yw y tŵr, o'r hwn y rhoddir y darlun canlynol.

Y mae yn sefyll ar y tu gorllewinol i'r dref, ar fan uchaf y llechwedd, yn nghanol ceufaes petryal; yr hyn a bâr i ni gasglu mai llys neu westty ysblenydd oedd yma gynt. Pa beth bynag a allasai fod dyben y tŵr ar y dechreu, y mae ar ei ben ei hunan yn hollol yn bresennol. Y mae tua 120 troedfedd o uchder; o adeilwaith Saracenaidd; yn adail betryal, o feini wedi eu naddu yn dda. Y ffenestri ydynt o ffurfiau amrywiol; ond yn meddu y bwäau pigfain oll. Y mae grisiau culion yn dirwyn oddi fewn, i oriel sydd oddi allan i'r tŵr, o amgylch, yn agos i'r nen: y mae yn meinhau o'r naill uchder llofft i'r llall, ac attegir ei gonglau â chynnal furiau heirdd.

Y traddodiad yn mysg y Moslemiaid yw, mai i hen deml, sydd yn awr yn adfeiliedig, y perthynai y tŵr crybwylledig. Pa fodd bynag, yr amseriad a geir ynddo ydyw 718 A. H., neu 1310 B. A.; ac y mae un hen awdwr Arabaidd yn dywedyd i Ramleh gael ei gorphen y flwyddyn hono, trwy adeiladiad meindwr (*minaret*) digyffelyb mewn uchder ac ysblander, gan benadur yr Aipht, Nazir Mohammed ibn Kelawan.



Dar. 78.

Cyfarfyddir yn y planfeydd a amgylchynant y dref ar bob llaw, â ffynnonau sychion, dyfrgistiau adfeiliedig, a chronfeydd bwaog anferth, trwy yr hyn y cesglir fod y ddinas gynt yn llawer helaethach nag ydyw yn bresennol.

Y crybwylliad boreuaf a gawn ni o'r dref dan ei henw presennol, sydd gan y mynach Bernard, tua'r flwyddyn 870 B. A. Tua'r flwyddyn 1150, y mae y daiaryddwyr Arabaidd, Edrisi, yn crybwyll Ramleh a Ierusalem fel prif ddinasoedd Palestina. Fel yr oedd y groesgad (*crusade*) gyntaf yn nesau at y ddinas hon, ffodd ei holl drigolion, gan ei gadael yn anghyfannedd; am hyny y rhoddasant Ramleh a Lydda yn waddol-

Digitized by Google

aeth i'r esgobaeth Ladinaidd gyntaf yn Palestina, yr hon a gafodd ei henw oddi wrth y ddinas olaf. Yn 1266, cymmerwyd Ramleh oddi arnynt gan y Sultan Bibars. Crybwyllir hi yn fynych wedi hyn gan deithwyr a phererinion, y rhai a orphwysent yma yn aml ar eu ffordd tua Ierusalem. Y mae yn ymddangos ddarfod iddi adfeilio yn gyflym o'r pryd y daeth i ddwylaw y groesgad. Y mae Beniamin o Tudela, yr hwn a fu yno yn 1173, yn son am dani fel lle a fuasai gynt yn ddinas o fri mawr. Ac yn 1547, y mae Belon yn ei chrybwyll fel yn llwyr anghyfannedd o'r bron, gan mai prin yr oedd deuddeg o dai cyfanneddol ynddi, a bod y meusydd, gan mwyaf, yn cael eu gadael yn anniwylliedig. Erbyn 1674, yr oedd wedi ymadnewyddu i ryw fesur; er nad oedd y pryd hyny chwaith ond pentref lled wael. Can mlynedd yn ddiweddarach, yr oedd yn lled gyffelyb; a dywed Volney mai prin yr oedd ynddi ddau cant o deuluoedd. Felly, y mae yn amlwg fod graddau helaeth o gynnydd a llwyddiant wedi bod arni yn y ganrif bresennol.

1. ARIOCH. [אריוך, *mawr, tal*]: brenin Elasar, yn Mesopotamia: *Gen.* xiv. 1.

2. ARIOCH: dystain y brenin Nebuchodonosor: *Dan.* ii. 15.

ARISTARCHUS, [Ἀρίσταρχος, *y tywysog goreu*]: cydymaith a chydgarcharor Paul: *Col.* iv. 10, 11; *Act.* xix. 29:—Macedoniad o genedl, a phriodor o Thessalonica. Cyd-deithiodd â Phaul i Ephesus, a chyd-drigodd âg ef yno am ddwy flynedd, gan gyd-ddyoddef a chydweithio âg ef yn ei lafur gweinidogaethol, lle y bu agos a cholli ei fywyd: *Act.* xix. 29; xx. 4; a xxvii. 2. Gadawodd Ephesus gyda'r apostol, a chyd-deithiodd âg ef i dir Groeg, ac oddi yno i Asia, Iudea, a Rhufain, lle y dywedir i Paul ac yntau gael tori eu penau yn nghyd. Anfonwyd ef gyda yr apostol yn garcharor i Rufain, neu carcharwyd ef tra yn y ddinas—geilw Paul ef yn "gydgarcharor;" *Col.* iv. 10. Yn ol Eglwys Groeg, yr oedd yn esgob Apamea yn Phrygia; yn ol Rhufain, yn esgob Thessalonica. Ond nid ellir ymddiried i un o'r ddwy, gan eu bod yn ceisio dywedyd fod pawb a enwir yn yr Actau neu'r Epistolau yn esgobion o rywle. Nid yw yn debyg y buasai cydymaith yr apostol yn ei deithiau yn gweinyddu mewn un swydd sefydlog.

1. ARISTEUS: brodor o Argos, a fradychodd ei wlad i Pyrrhus, brenin Epirus, ac a'i cynhyrfodd i ryfel yn ei herbyn.

2. ARISTEUS: un o lysfilwyr Ptolemy Philadelphus, brenin yr Aipht. Gan ei fod yn dra chymmeradwy gan y brenin, ac yn un o'i gyfeillion mwyaf mynwesol, penderfynodd ddeisyf arno ryddhau yr holl Iuddewon a ddygwyd yn gaethion i'w deyrnas. Ennillodd Sosibus o Tarentum, ac Andreas, llywyddion y llysfilwyr, i'w gynnorthwyo yn ei ddeisyfiad gyda'r brenin, a gosododd ei gais ger ei fron mewn araeth sydd yn arddangos doethineb, cymmesuredd, a haelfrydedd mawr. Y mae yr araeth hon ar gael yn Josephus (*Hen. Iudd.*, llyfr xii. pen iii. adr. 2.) Llwyddodd ei ymbiliad gyda'r brenin, yr hwn a wnaeth ddeddf, y rhyddhëid, nid yn unig y rhai a ddygwyd yn gaethion gan ei dad, ond hefyd y rhai oeddynt yn ei deyrnas cyn hyny, ac a ddygwyd wedi hyny. Y mae Josephus wedi cadw copi o'r ddeddf hon, "er mwyn," meddai, "i fawrfrydedd y brenin gael ei wneyd yn hysbys."

Dywedir fod y brenin Ptolemy Philadelphus wedi ei ddanfon at Eleazar, yr archoffeiriad Iuddewig, i ymofyn copi o'r Ysgrythyrau Hebreig, a'i fod yn un oedd yn cynnorthwyo yn Nghyfieithiad y Deg a Thrigain, ac iddo ysgrifenu hanes y cyfieithiad hwnw.

ARISTIDES: un o amddiffynwyr boreuol Cristionogaeth, yn ol tystiolaeth yr hanesydd eglwysig, ydoedd athronydd o Athen, a chydoeswr â Quadratus, un arall o ddiffynwyr yr un achos. Ysgrifenodd ei amddiffyniad o'r Cristionogion o ddeutu B. A. 126, a chyfeiriodd ef at yr ymherawdwr Adrian. Dywed Jerome, yn ei lyfr *Am Enwogion*, rai pethau nodedig am dano. "Yr oedd," medd Jerome, "yn athronydd tra hyawdl; ac ar ol ei dröedigaeth, efe a barhaodd i wisgo ei wisg flaenorol." Yr oedd ei *Amddiffyniad* ef ar gael yn nyddiau Jerome; ond yn awr y mae wedi myned ar goll yn hollol.—(*Eusebius, Hist. Eccles.; Hieronymus de Viribus Illustribus.*)

1. ARISTOBULUS, o dref Cassandrea, yn nheyrnas Macedonia. Gwasanaethodd Alexander fawr yn ei ryfelgyrch i Asia, ac ysgrifenodd hanes ei fywyd. Y mae y llyfr yn awr ar goll; ond hwn oedd un o'r prif awdurdodau a ganlynwyd gan Arrian yn ei *Hanes Alexander*. [Gwel rhagymadrodd Arrian i'w *Anabasis*.]

2. ARISTOBULUS, o Alexandria, yn yr Aipht. Iuddew oedd hwn, ac athronydd crwydrol. Bu fyw C. C. 170, yn nheyrnasiad Ptolemy vi., yr hwn a gyfenwyd "y Mamgarwr," sef Philometor; a dywedir ei fod yn awdwr arnodiadau ar Bum Llyfr Moses, i'r dyben i brofi fod athroniaeth y Groegiaid wedi deilliaw o'r Pentateuch. Ond addefir yn awr i'r gwaith hwn gael ei gyfansoddi gan ysgrifenydd diweddarach, dyben yr hwn oedd ennill parch y Groegiaid i lenyddiaeth yr Iuddewon.—(*Smith's Class. Dict. of Biography and Mythology.*)

Yr oedd chwech o dywysogion Iudea o'r enw hwn, sef y rhai canlynol:—

3. ARISTOBULUS, [Ἀριστόβουλος]: mab henaf Joannes Hyrcanus. Ar farwolaeth ei dad, daeth yn archoffeiriad; ac er fod Hyrcanus wedi ewyllysio ei awdurdod breiniol i'w wraig, rhoddodd Aristobulus ei fam yn ngharchar, a chymmerodd arno y teitl breninol yn 107 C. C., yn gystal a'r dalaeth offeiriadol, er fod hyny yn groes i'r arferiad. Wedi hyny, gwnaeth ryfelgyrch yn erbyn yr Itureaid, a gorchfygodd hwynt, gan ddwyn i'w plith arferion crefyddol ei gydwladwyr. Clafychodd ar yr ymgyrch, a dychwelodd i Ierusalem, gan adael Antigonus, ei frawd anwylaf, i ddybenu y rhyfel. Cymmerodd ei wraig y cyfle hwn i leihau dylanwad Antigonus gyda'i frawd, ac ymdrechodd i gael gan ei gŵr gredu fod llygad Antigonus ar y freniniaeth. Wedi dwyn y rhyfel i ben, dychwelodd Antigonus i Ierusalem i gadw gwledd y pebyll, a danfonwyd am dano i ŵydd y brenin. Yr oedd y mynediad i'r llys trwy ystafell danddaiarol, yn yr hon y gosododd Aristobulus filwyr âg awdurdod i ladd Antigonus os deuai yn arfog, ac i roddi mynediad rhydd iddo os yn anarfog. Yn y cyfamser, danfonodd gwraig y brenin at Antigonus, i ddyweyd y dymunai Aristobulus ei weled yn ei arfau; ac yntau, heb un drwgdybiad, a ddaeth felly, ac a roddwyd i farwolaeth. Edifeirwch y brenin am ladd ei frawd a drymhaodd ei glefyd; ac efe a fu farw yn niwedd y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad.

Digitized by Google

Rhyddhawyd tri o'i frodyr, y rhai a garcharwyd gan Aristobulus; a dilynwyd ef yn ei freniniaeth a'i offeiriadaeth gan yr hynaf o honynt, sef Alexander Janneus, 106 c. c.

4. ARISTOBULUS: mab ieuengaf Alexander Janneus. Ar farwolaeth ei fam, Alexandra, 70 c. c., daeth y llywodraeth i ddwylaw Hyrcanus II., tywysog eiddil a diegni. Ofnodd ei frawd Aristobulus y buasai dylanwad y Phariseaid ar feddwl Hyrcanus yn lleihau yr awdurdod breninol, ac ennillodd geidwaid y prif gaerau i'w blaid; a chan gyhoeddi ei hun yn frenin, cyrchodd tua Ierusalem. Aeth Hyrcanus, yn anewyllysgar, yn ei erbyn; ac wedi ei adael gan ei filwyr yn nghanol y frwydr a gymmerodd le, ymddiriedodd ei hun i drugaredd ei frawd, a chafodd genad i gadw y swydd offeiriadol, yn nghyd â chyflog addas i'w sefyllfa. Cydsyniodd i amddifadu ei hun o'i freniniaeth; ond wedi hyn, trwy gynnorthwy Aretas, brenin Arabia, gwnaeth ymdrech i adfer ei anrhydedd cyntefig. Gwarchaeodd Aretas Ierusalem, a darostyngwyd Aristobulus i lawer o gyfyngderau; ond ennillodd i'w blaid un o isgadbeniaid Pompey, o'r enw Scaurus: a gorfu i Aretas gyfodi y gwarchau i amddiffyn ei diriogaeth ei hun; ac felly y dechreuodd awdurdod y Rhufeiniaid yn Iudea. Nid oedd awdurdod Aristobulus wedi ei gadarnhau trwy y weithred hon: a phan oedd Pompey, ar appeliad Hyrcanus, wedi clywed y ddwy ochr, rhoddodd ei benderfyniad o blaid Hyrcanus, yr hwn a adferwyd i'w freniniaeth dan nawdd y bobl Rufeinig. Caeodd Aristobulus ei hun yn Ierusalem: ac ar ol tri mis o warchau, cymmerodd Pompey y lle, trwy barotoi ei beiriannau ar y Sabbath. Cedwid yn sanctaidd y dydd hwnw gan yr Iuddewon; ac er y diffynent eu hunain, ni chyrchent yn erbyn eu gelynion ar y dydd sanctaidd. Sylwodd Pompey ar hyn, a gorchymynodd i'r Rhufeiniaid beidio ymosod arnynt y dydd hwnw; ac o ganlyniad, cafwyd llonyddwch gan yr Iuddewon, a defnyddiwyd yr amser i osod y peiriant gwarchaeol yn eu lleoedd priodol; a thrwy hyny, syrthiodd Ierusalem. Cludwyd Aristobulus i Rufain, a gorfu iddo ymddangos yn yr orymdaith fuddugol, fel prawf o ddarostyngiad Ierusalem, yn mhlith ereill o orchestion Pompey. Dygwyddodd hyn yn 63 c. c.; ond yn 57 c. c., diangodd o'i garchar yn Rhufain, yn nghyd â'i fab Antigonus. Ar ei ddychweliad i Iudea, adnewyddodd y rhyfel; ond cymmerwyd ef yn garcharor gan y milwr Gabinius, a danfonwyd ef i Rufain yr ail waith. Rhyddhawyd ef yn 49 c. c., gan C. Julius Cæsar, a danfonwyd ef i Iudea i gyhoeddi heddwch ar ei ran ef â'r wlad hono; ond gwenwynwyd ef ar fyr gan bleidwyr Pompey.

5. ARISTOBULUS: mab Alexander, fab Aristobulus yr Ail (yr olaf), a brawd i Mariamne, gwraig Herod Fawr, ac a wnaed yn archoffeiriad pan oedd ond dwy flwydd ar bymtheg oed, gan y trawslywodraethwr hwnw. Ond pan wybu fod llawer o bleidwyr gan yr offeiriad ieuanc, boddwyd Aristobulus yn Iericho, trwy orchymyn Herod, yn 35 c. c.

6. ARISTOBULUS: mab Herod Fawr a Mariamne. Rhoddwyd ef i farwolaeth yn 6 c. c., yn nghyd â'i frawd Alexander, gan Herod eu tad, o herwydd drwgdybiaeth a gynhyrfwyd yn eu herbyn gan eu brawd Antipater.

7. ARISTOBULUS, a gyfenwyd "y Ieuangaf," oedd fab Aristobulus (yr olaf) a Berenice, ac ŵyr Herod Fawr. Cafodd ei addysg ef a'i ddau frawd, Agrippa I., a Herod, brenin Chalcis yn ol llaw; a bu farw, fel y bu fyw, mewn sefyllfa anghyhoedd.

8. ARISTOBULUS: mab Herod, brenin Chalcis. Yn y flwyddyn, B. A. 55, gwnaeth Nero, ymherawdwr Rhufain, ef yn frenin Armenia Leiaf; ac yn B. A. 61, chwanegodd ei diriogaeth, gan roddi iddo y rhan o Armenia Fwyaf a roddwyd cyn hyny i Tigranes. Ymunodd â'r Rhufeiniaid yn B. A. 73, yn y rhyfel a fu rhyngddynt âg Antiochus, brenin Commagene.—(*The Five books of Maccabees, with notes and Illustrations, by Henry Cotton, D. C. L.*; *Josephus's Antiq.*; *Penny Cyclop.*, d. g. *Asmonean Dynasty*, a'r awdurdodau a goffeir yno; *Smith's Class. Dict. of Biography and Mythology.*

9. ARISTOBULUS Y CRISTION. Ysgrifenodd Paul ei Epistol at y Rhufeiniaid naill ai yn niwedd B. A. 57, neu yn nechreu 58; ac yn hwnw (xvi. 10), dywed wrthynt am anerch y "rhai sydd o dylwyth Aristobulus." Yn awr, bernir oddi wrth y ffaith fod yr anerchiad yn gyfeiriedig at *y tylwyth*, fod Aristobulus ei hun yn absennol; a hysbysir i ni yn nhraddodiadau Eglwys Groeg ei fod yn frawd i Barnabas, ac yn un o'r deg apostol a thrigain, ac iddo gael ei ethol yn esgob cenadol i wlad y Brython, sef Ynys Prydain, gan yr apostol Paul. Dysgrifir y Prydeiniaid fel pobl greulawn ac anwaraidd, a dywedir iddynt ei guro lawer gwaith, a'i lusgo fel troseddwr trwy eu marchnadleoedd; ond llwyddodd i ddwyn llawer o honynt at Grist, i sefydlu eglwysi, ac i ordeinio henaduriaid a diaconiaid yn yr ynys; a merthyrwyd ef o herwydd hyny. Y mae lle i gredu fod y traddodiad hwn yn wirioneddol, ac y mae yn cael ei gadarnhau gan draddodiadau Prydeinig. Dywed Cressy, i genadwr o'r enw hwn gael ei ddanfon i'r ynys; mai efe oedd esgob cyntaf y Prydeiniaid, ac iddo farw yn Bangor Wydrin, neu Ynys Afallon (Glastonbury), yn y flwyddyn 99, ar y pymthegfed o Fawrth, os gellir ymddibynu ar ddydd ei goffadwriaeth. Ac y mae cadarnhad arall yn nhraddodiadau yr Eglwys Gymreig. Addefir ar bob llaw mai yr un enw yw Aristobulus ac *Arwistli*, ac mai efe oedd yr "Arwistli Hen" a enwir yn "Achau y Saint:" ond nid oes un sail hanesyddol i'r dywediad mai Bran ab Llyr oedd y cyntaf a ddygodd yr efengyl i Ynys Prydain, ac iddo ddwyn Arwistli, Ilid, Cyndav, a Mawan, gydag ef o Rufain i Fro Morganwg. Gwneir hyn yn eglur yn ol llaw [gwel BRAN AB LLYR]; ond yma, digon yw i ni draethu ein barn mai Aristobulus oedd Arwystli Hen. Nid yw yn hysbys i ni pa fodd y daeth i Ynys Prydain, er nad oedd nemawr o rwystrau ar ei ffordd, gan fod y Rhufeiniaid mewn meddiant o'r rhanau deheuol o'r ynys, ac yn yr amser hwnw heb un gelyniaeth, os nad yn ffafriol i'r Cristionogion (*Act.* xxviii. 30, 31); ac nid yw chwaith yn adnabyddus yn mha ran o'r ynys y llafuriodd. Ond gan fod y traddodiad am dano yn gyfyngedig i Forganwg a Gwlad yr Haf, nid yw yn annichonadwy mai yn y rhanau hyny y bu fyw. Eto, nid oedd un cyssylltiad rhyngddo â Bran ab Llyr, yr hwn oedd yn byw yn Meirionydd tua dechreu y seithfed ganrif. Ac nid oes un sail genym i gredu iddo ymweled â'r ynys hon dan nawdd teulu Caractacus; gan y traetha Dion Cassius yn bendant, i'r blaenor hwnw, yn nghyd â'i wraig a'i blant, aros yn yr Ital ar ol eu rhyddhâd gan yr ymherawdwr Claudius. Ὅς καὶ συγγνώμης ἔτυχε σὺν γαμετῇ καὶ τοῖς παισὶν ἐν Ἰταλίᾳ διάγων. Enwyd amryw o'r seintiau Cymreig oddi wrth Aristobulus, megys Arwystli Gloff; a

bu esgob o'r enw Arwystli, yn y chweched ganrif, yn esgobaeth Llandaf.

Y mae llwyddiant y genadaeth yn perthyn yn hytrach i hanes dyfodiad yr efengyl i Ynys Prydain, nag i fywgraffiad Aristobulus; ond gan fod y Parch. John Williams, archddiacon Ceredigion, yn canfod cadarnhad o draddodiadau Morganwg yn nghylch Bran ab Llyr, yn ngeiriau Gildas, cymmerwn y cyfleusdra hwn i draethu ein barn, nad Tiberius Claudius Cæsar yw y Tiberius Cæsar a enwir gan Gildas, ac nad yw yr hanesydd hwnw yn tystio rhagor na hyn:—"Yn y cyfamser (sef yr amser ar ol gwrthryfel Boadicea, yn nghylch B. A. 60), tywynodd y Gwir Haul, sef Crist (yr hwn a amlygodd ei ddysgleirdeb yn niwedd teyrnasiad Tiberius Cæsar) ar yr ynys hon." Y mae yma naill ai ail adroddiad neu gadarnhad o ddywediad Eusebius, ac ereill, i'r efengyl gael ei phregethu yn Mhrydain yn oes yr apostolion; ond nid yw Gildas yn enwi y person a'i pregethodd gyntaf, ac nid yw yn cyfeirio mewn unrhyw fodd at Bran ab Llyr, yr hwn, fe ddichon, oedd heb ei eni pan oedd Gildas yn traethu y geiriau uchod.—(Gwel *Claudia and Pudens; Rees' Welsh Saints; Myvyrian Archaiology; Calmet; Liber Landavensis; The Greek Menology in the Monumenta Historica Brittanica.*)

ARISTOTLE: ganwyd yr athronydd enwog hwn yn Stageira, trefedigaeth Roegaidd yn Thrace. Yr oedd ei dad yn feddyg yn llys Amyntas II., brenin Macedonia. Dygwyd Aristotle pan yn fachgen i'r llys, ac yno cyfarfyddodd â Philip, mab y brenin, yr hwn oedd ychydig flyneddoedd ieuangach nag ef. Ond pan ydoedd yn ddwy ar bymtheg oed, nis gallai swyn y llys ei attal rhag myned i Athen;—y ddinas lle y preswyliai Plato, a'r hon a dybid yn eisteddle pob doethineb. Hwyrach nad oedd arno lai na chywilydd o wlad a ystyrid gan yr Atheniaid yn hanner barbaraidd. Nis gallasai y mwyaf mursenaidd ei chwaeth, yn y ddinas oedd yn ymgyrhaedd at geinder iaith yn gystal a pherffeithrwydd prydferthwch yn mhob peth, ganfod dim ag oedd yn farbaraidd yn ei aceniad, er fod diffyg yn ei ymadroddiad ag oedd yn codi oddi ar floesgni. Y prif wahaniaeth rhyngddo ag efrydwyr ereill, yn y dechreu, ag oedd ei duedd i fod braidd yn gymhenfalch yn ei wisg. Yr oedd Plato yn absennol ar ei daith i Sicily pan aeth Aristotle i Athen gyntaf: ond ar ei ddychweliad, canfyddodd yn fuan ei fod wedi cael y dysgybl mwyaf gobeithiol fuasai erioed yn ei ysgol; yr hwn, o herwydd ei or-awydd i gasglu yn nghyd holl drysorau hen athroniaeth a llenyddiaeth Groeg, a alwai "y darllenydd;" ac ni bu yn hir heb ddeall ei fod yn sefyll mewn mwy o angen am ei gymmedroli na'i ysbarduno. Arosodd yn Athen am ugain mlynedd, nid yn gwbl, efallai, i wrandaw ar ymddyddanion Plato, ond er mwyn parotoi ar gyfer gweithiau mawr y rhan olaf o'i oes. Gadawodd Athen ar y pryd yr oedd buddugoliaethau Philip yn bygwth rhyddid Groeg. Pum mlynedd ar ol hyn, yr oedd yn llys Philip yn addysgu ei fab Alexander, yr hwn ar ol hyny a elwid yn Alexander Fawr. Rhaid fod dylanwad Aristotle ar feddwl Alexander yn fawr; yr ydoedd dan ei ofal o'i bedwaredd flwydd ar ddeg: a phan esgynodd Alexander i'r orsedd, yn ei ugeinfed flwyddyn, parhaodd Aristotle yn gyfaill a chynghorwr iddo am amryw flyneddoedd; a dibynai ei holl hanes dyfodol i fesur mawr ar y blyneddoedd hyn. A ddarfu i Aristotle ei annog yn ei fwriadau uchelgeisiol, nid yw hysbys; ond nid yw yn annhebygol fod y feithriniaeth meddwl a dderbyniodd ganddo wedi ei alluogi i'w cyflawnu. Fel gwobr am yr addysg a gyfranodd Aristotle iddo yn ei ieuenctyd, galluogodd Alexander ef i gyflawnu un o'i weithiau, sef *Hanes Anifeiliaid*, yr hwn sydd wedi bod yn destyn syndod i bob oes o hyny hyd yn awr. Yr oedd pob teyrnas a ennillai Alexander yn dyfod â rhyw ffeithiau newydd mewn anianaeth i Aristotle—rhoddion a brisiai efe yn fwy na dim arall a allai gorchfygwr y byd roddi iddo. Ond yn Athen yr oedd Aristotle yn astudio cynnyrchion y gwledydd pellenig hyn—yno yr ysgrifenwyd ei holl weithiau pwysig—ac yno y casglodd ddysgyblion ymroddgar o'i gwmpas, y rhai a wrandawent ar ei ddarlithiau poblogaidd, ac ar yr addysg fwy neillduol a rheolaidd a gyfranai. Bu farw Plato yn 347 C. C.; ond Speusippus, nid Aristotle, a'i dilynodd fel dysgawdwr yn yr Academy. Er hyny, yr oedd clod Aristotle fel dysgawdwr yn sugno mwy o ddysgyblion ato ef na'r ddwy ysgol athronyddol ereill oedd ar yr un pryd yn Athen. Dysgai Aristotle yn y Lyceum; yr oedd yr Academy yn meddiant olynwyr Plato, a'r Cynigiaid yn y Cynosarges. Oddi wrth ei arfer o egluro ei olygiadau i'w ddysgyblion wrth rodio ar hyd llwybrau cysgodol y Lyceum, gelwid ei ddysgyblion Peripateticiaid. Ni chyfyngai ei addysg at athroniaeth; ond dygai o fewn cylch ei ddarlithiau bob ymchwiliadau a allai fod o les i ieuenctyd ymofyngar mewn oes oleuedig, ac yn enwedig Rheitheg.

Tra yr ydoedd fel hyn yn dysgu ei ddysgyblion y bore yn nghwestiynau dyfnaf athroniaeth, a'r prydnawn mewn addysg mwy cyffredinol a rhagbarotoawl, ac yn mwynhau y parch a'r poblogrwydd yr oedd wedi ennill iddo ei hun, daeth, fel llawer o ddysgawdwyr eu cyd-ddynion, yn wrthddrych cenfigen ac erlidigaeth. Dyoddefodd oddi wrth ragfarn ei wrthwynebwyr, yr hyn y mae athrylith yn ddarostyngedig iddo bob amser. Cyhuddwyd ef o gabledd gan yr offeiriaid paganaidd, y rhai a ofnent gynnydd gwybodaeth fel prif elyn eu ffydd. Yr oedd nodded Alexander yn ddiogelwch iddo tra y bu efe byw. Ond ar ei farwolaeth, 323 C. C., cyhuddwyd Aristotle o flaen yr Areopagus fel gelyn i grefydd ei wlad; ac er mwyn dianc rhag yr un diwedd ag a gyfarfyddodd Socrates, efe a ffodd i Chalcis, dinas yn Eubœa. Yma y treuliodd y gweddill o'i oes. Wedi treulio ei hun allan, dan galedwaith meddwl a phrofedigaethau ei flyneddoedd olaf, ymollyngodd ei gyfansoddiad, yr hwn nid oedd yn gryf ar y goreu, a bu farw yn 322 C.C., yn y 63 mlwydd o'i oed, o ddeutu blwyddyn ar ol ei ymneillduaeth i Chalcis. Cludwyd ei weddillion i Stageira gan ei gyd-ddinasyddion, ac adeiladwyd teml ac allor uwch ben ei fedd. Sefydlwyd gŵyl, yr hon a elwid Aristotelia, o ddiolchgarwch am ei wasanaeth. Ymwelai dyeithriaid â gardd yr athronydd, gyda'i rhodfeydd a'i deildai, am gannoedd o flyneddoedd. Nid oedd dim neillduol yn ei ymddangosiad personol: yr oedd ei lygaid yn fychain, ond yn ddysglaer; ei lais yn wan, a'i ymadroddiad yn ddiffygiol.

EI DDYLANWAD.

Y mae y rhai mwyaf cymmedrol sydd wedi dadgan eu barn am y dyn hynod hwn, wedi rhoddi lle iddo yn mhlith dysgawdwyr penaf dynolryw. Dywed y Dr. Reid, y byddai yn ddianrhydedd i ddynoliaeth beidio cyfaddef athrylith anghyffredin y dyn, yr hwn a ffurfiodd syn-

Digitized by Google

iadau y rhan fwyaf goleuedig o'r byd am ddwy fil o flyneddoedd.[1] A chydsynia â Bacon, fod ei uchelgais mor annherfynol a'i ddysgybl Alexander—y naill yn ymgyrhaedd at lywodraeth gyffredinol ar eu cyrff a'u meddiannau, a'r llall ar eu hopiniynau. "Ond os hyn oedd ei amcan," medd Syr W. Hamilton, "llwyddodd yn mhell tu hwnt i w ddysgybl. Dybenodd unbenaeth Alexander gyda'i farwolaeth, tra y gellir dyweyd mewn modd arbenig am Aristotle, yr hyn a ddywedwyd, nid yn llai prydferth na gwir, am yr henafiaid yn gyffredinol,—

> 'The great of old!
> The dead but sceptered sovrans, who still rule
> Our spirits from their urns.'

Y mae Aristotle yn llywodraethu opiniynau chwaneg nag sydd yn ymwybodol o'u gwarogaeth i ddinesydd Stageira. Y mae ei sel ef ar yr holl wyddorion, ac y mae ei ymchwiliadau wedi effeithio mwy neu lai ar bawb sydd wedi meddwl ar ei ol. Aristotle a Plato ydynt fel dau begwn dealltwriaeth ddynol, rhwng pa rai y mae gwahanol gyfundraethau athroniaeth yn ysgogi hyd yn awr."

Y mae dylanwad eang Aristotle ar bob dosbarth o feddylwyr—heb law ei fod ef ei hun yn gynnrychiolydd, y cyntaf o ran amser, a'r hynotaf o ran gallu a chyffredinolrwydd, o un duedd o athroniaeth, fel yr oedd Plato o'r duedd gyferbyniol, yn esgusawd dros olrhain i beth manylwch syniadau un oedd yn ceisio rhoi goleu ar y dirgeledigaethau sydd yn cyfarfod dyn ynddo ei hun, ac allan o hono ei hun, er ei fod yn gwneyd hyny yn absennoldeb y *goleuni* sydd yn profi nad oedd ei holl opiniynau mor gywir ag oeddynt gywrain. Y mae yn anmhosibl deall llawer o syniadau Aristotle heb eu cyferbynu â rhai Plato, er mwyn gweled mor bell yr oeddynt yn tarddu o ddullwedd meddwl ei feistr, mor bell y maent yn wrthwynebol iddynt, ac mor bell y mae y naill wedi llenwi y lle mae y llall wedi ei adael yn wag.

Y peth cyntaf sydd yn taraw yr efrydydd wrth droi oddi wrth Plato at Aristotle ydyw, ei fod wedi colli yr ymddyddanion swynol, mor llawn o deimlad a bywyd, o arabedd a hyawdledd. Nid yw mwy yn gweled Protagoras, Prodicus, a Hippias, yn gorweddian ar eu hesmwythfeinciau yn nghanol dysgyblion synedig; nac yn clywed Critias yn adrodd ystoriau a glywodd pan yn fachgen; nac yn cymmeryd ymdaith ar hyd muriau y ddinas, na glanau yr Ilissus; nac, uwch law y cwbl, yn gweled nac yn clywed Socrates, yr hwn ydoedd fywyd pob ymddyddan, a chanolbwynt pob cwmpeini, â'i resymeg ddiarbed yn lladd pob ffug wirionedd, tra yn difyru pawb â'i ddigrifwch. Ond yn lle hyn, y mae yn teimlo ei fod wedi cyfarfod â manylwch y traethawd athronyddol, lle y mae y cwestiynau pwysicaf yn cael eu trin yn y modd difrifolaf, a barn yn cael ei chyhoeddi yn benderfynol, ond yn bwyllog, a chan un sydd yn alluog i bwyso y profion, a rhoddi barn yn unol â'r dystiolaeth.

RHESYMEG (*Dialectics*).

Unig amcan Plato oedd hòni a phrofi fod sylweddau a gwirionedd yn bod, yn erbyn y rhai a honent nad oedd dim ond ymddangosiadau a ffugiau—fod rhywbeth *arosol* i bwyso arno, ac mai nid cysgod yn cilio yw pob peth, fel yr honai lluaws y pryd hyny yn mhob tref yn Groeg. Y peth sylweddol ac arosol hwn ydyw Bod. Teimlad Plato oedd, fod gwrthddrychau yn cael eu cyflwyno i'w feddwl, fe ddichon mai trwy y synwyrau, megys coed—neu efallai mai gwrthddrychau i'r deall yn unig, megys enwau neu eiriau—ond eto eu bod yn wrthddrychau, ac fod rhywbeth ynddynt heb law yr ymddangosiad, a pherffeithiach nag ymddangosiad. Pa beth ydyw? Yr oedd dygwyddiadau mwyaf cyffredin bywyd yn ei ddyrysu. Nid oedd dim a allasai fod o ddyddordeb i ddyn islaw ei sylw; ond ystyr y pethau hyn—yr egwyddor neu y meddwl oedd ynddynt—oedd gwrthddrych ei ymchwiliad. Yr oedd y geiriau mwyaf cyffredin a siaredid, a'r gweithredoedd mwyaf cyffredin a gyflawnid gan ddynion yn aneglur iddo ef, ond fel yr ydoedd yn cael goleu o le uwch na'r byd cyffredin y preswylia dynion ynddo. Ond pa fodd y gwnai hyn? Pa agoriad oedd ganddo i ddadgloi y fath ddirgeledigaethau? Yr enw a roddir arno ydyw Rhesymeg (*Dialectics*). Eto, gallai llawer o ddysgyblion Plato feddwl fod eu dysgawdwr yn afreolus, yn cymmysgu gwahanol bethau â'u gilydd y buasai yn well eu cadw ar wahan. Cymmysgai ymchwiliadau am sylfeini moesoldeb â honiadau am natur athroniaeth. Nid yw yn annhebygol fod Aristotle yn meddwl felly. Edrychai ar ddysgeidiaeth ei athraw yn rhagbarotoad i gylch cyflawn o wybodaeth; ond eto, fod ei ddiffyg trefn a dosbarthiad ar wahanol wrthddrychau ymchwiliad, a'i ddiystyrwch o rai cylchoedd cyfain o wybodaeth, yn nghyd â'i ehediadau dychymygol, yn arwyddion o anmherffeithrwydd. Penderfynai hefyd gyflawnu y diffyg, trwy roddi ei le priodol i efrydiaeth pob dosbarth o wrthddrychau; a rhoddai y flaenoriaeth i resymeg. Dechreuai gyda hon, a gwnai hi yn ganolbwynt ei gyfundrefn ef, fel yr ydoedd yn un Plato. Ffurfiodd holl weithrediadau y meddwl sydd yn sylwi, yn gwahaniaethu, yn barnu, ac yn casglu, i drefn reolaidd—i wyddor (*science*); a hyny heb fod mewn cyssylltiad â chymhwysiadau neillduol, neu y gwirioneddau pendant a gyrhaeddir trwy y gweithrediadau hyn. Ond erbyn hyn, er mai rhesymeg oedd canolbwynt cyfundrefn y ddau, yr oedd rhesymeg wedi myned yn beth arall yn nwylaw Aristotle. Prif ymdrech Plato yn erbyn Protagoras oedd, dangos nad oedd y meddwl yn safon iddo ei hun—ac mai pethau ynddynt eu hunain, ac nid yn eu hymddangosiadau, oedd prif wrthddrychau athroniaeth. Ond ymdrech Aristotle oedd dangos pa fodd yr ymddangosent i ni—pa fodd yr ydym ni yn eu gweled ac yn eu barnu—yn ol pa reolau y mae y meddwl, yn unol â'i gyfansoddiad, yn ystyried pethau, ac yn ymresymu

[1] Dywed Syr W. Hamilton, "This is a very scanty allowance. Others have not been so niggardly. As a specimen:—'Aristotle,' says Johann Von Muller, '*was the clearest intellect that ever illuminated the world.*' His own rival, Campanella, styles him '*Naturæ genius:*' and the Christian rigour of St. Jerome confesses him '*Miraculum Mundi,*' and '*Humani Intellectus Finis.*'" Barn Syr W. H. ei hun ydyw, "If we take circumstances into account, his activity and research, his erudition and universality, have never been equalled."

Yn y geiriau canlynol y gosodir ef allan gan Syr James Stephen, fel un o'r "tri cyntaf" yn mhlith dynolryw:—"Since the creation of our race, three men have only appeared on earth in whom it was not a shameless effrontery to say that they 'took all knowledge for their province.' First among them in time, as in dignity, was that great king who won, by prayer, such wisdom as to exceed all mankind, both in natural and moral philosophy. Next came that Grecian sage, who acquired for himself in the realms of thought a dominion far more universal and enduring than that which he taught his pupil Alexander to acquire over the kingdoms of the world. The throne of Aristotle had continued vacant during long centuries, when it was at length ascended by Francis Bacon."

Digitized by Google

yn eu cylch. Y meddwl ydyw y canolbwynt, ac ato ef y cyfeirir y cwbl. Erbyn hyn, gwelir, er fod y ddau yn proffesu cychwyn yn yr un man, eto y mae gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt. Er hyny, nid ydyw Aristotle yn cytuno â'r rhai y dadleuai Plato yn eu herbyn. Eu hamcan hwy wrth wneyd y *meddwl* yn safon gwirionedd, oedd dadsylfaenu pob ffydd, trwy godi opiniynau personau unigol yn rheol ffydd: ond amcan Aristotle oedd argyhoeddi dynion nad oedd pob peth yn anwadal a chyfnewidiol, ond fod rheol sefydlog i farnau dynion yn nghyfansoddiad eu meddwl, yr hon hefyd sydd yn rhoddi terfynau ar fympwyau ac archwaeth personau unigol.

Oddi wrth hyn y gwelir, er y gallai Aristotle a Plato ddyweyd mai rhesymeg ydyw y wyddor sydd yn gwahaniaethu y gwir oddi wrth y gau; eto, yn ol Plato, y gwir a arwydda ystyr neu sylwedd peth—y mae y gwir yn y *peth;* ond y gwir yn Aristotle ydyw, honiadau cywir *am* bethau—y mae y gwir yn y *meddwl.* Rhesymeg y naill a ddengys pa fodd y mae cael syniadau clir am bethau; ond rhesymeg y llall, pa fodd y mae traethu am bethau.

ATHRONIAETH.

Ond ein hamcan yn benaf fydd rhoi crynodeb o syniadau athronyddol Aristotle, yn ol eu cyssylltiad â'u gilydd; a'r modd yr arweiniai y naill i'r llall. Gosododd Aristotle ei hun i gasglu yn nghyd ffrwyth ymdrechiadau blaenorol dynion, mewn gwyddorion a chelfyddydau; ac hefyd i roddi golwg gryno ar wrthddrychau a deddfau y greadigaeth. Esbonia hyn ar unwaith y ddau beth a'i hynoda fel athronydd; sef cyffredinolrwydd ei lafur, a'i duedd at anianaeth. Y mae ei feirniadaeth ar ymchwiliadau ereill yn cael eu cydwau â'i ymchwiliadau ei hun. Arweiniai hyn ef i osod pwys mawr ar ffeithiau; ond nid ei brif nod, ychwaith, oedd ymofyn *pa beth* a gymmerai le, ond *pa ham* y cymmerent le. Gellid meddwl fod pob gwybodaeth yn gynnwysedig yn y ddau beth hyn: eto, nid yw y naill na'r llall yn cynnwys y wybodaeth yr ymdrechai Plato ei chyrhaedd; sef, nid gwybodaeth *am* bethau neu bersonau, ond *o honynt.*

Aristotle a ddengys fod yr holl wyddorion (*sciences*) yn dechreu gyda eu hegwyddorion neillduol eu hunain; ond eto, fod egwyddorion dyfnach, sydd yn gyffredin i'r cwbl, ac yn gorwedd dan y cwbl, ac wrth ba rai y mae sylfeini pob rhan neillduol o ddysg i gael eu profi. Amcan athroniaeth ydyw cael allan y syniad cyffredinol sydd fel hyn yn gorwedd dan y neillduol; a'r syniad hwn ydyw y syniad o Fod. Gellid meddwl fod Aristotle yn cytuno â Plato yn hyn: ond y mae gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt; o herwydd y mae hyn yn cau allan bob math o weithrediad, — megys celfyddydau, bywyd, ac hefyd gallineb cyffredin, yr hyn sydd yn gynnwysedig mewn amrywio moddion at wahanol ddybenion. Cytunai y ddau mai yr hyn sydd angenrheidiol ac anghyfnewidiol, ydyw gwrthddrychau athroniaeth; ond ni welai Aristotle pa beth a allai fod felly yn yr hyn sydd yn newid i ddilyn amgylchiadau. Yn unol â hyn, cyfynga y ddoethineb sydd yn wrthddrych athroniaeth at weithrediadau angenrheidiol y meddwl, wrth farnu a phrofi, casglu a rhesymu. Nis gall dyn newid deddfau ei feddwl, er newid amgylchiadau; ynddynt hwy, gan hyny, y mae gwrthddrych yr ymofyniad.

Yr oedd syniadau Aristotle am athroniaeth yn cyfodi oddi ar y llwybr goreu i'w chyfranu i ereill; ac eiddo Plato, oddi ar y llwybr goreu i'w dysgu ein hunain. Y mae hwn yn wahaniaeth pwysig; o herwydd nid y ffordd oreu i gasglu gwybodaeth ydyw yr oreu i'w chyfranu. Rhaid i addysg ddechreu gyda'r hyn sydd yn wybyddus yn flaenorol. Er mai ei hamcan ydyw rhoddi peth newydd yn y meddwl, nis gellir gwneyd hyny ond trwy ei fachu ar rywbeth sydd yno eisoes. Mae rhyw egwyddorion sydd heb ddyfod i gylch yr addysg ei hunan, ond y maent yn angenrheidiol i wneyd pob peth arall yn ddealladwy. Bachau ydynt, wrth ba rai y mae pob cadwen o ymresymiad yn crogi; ond nid ydynt eu hunain yn rhan o'r gadwen. Y gadwen oedd y prif beth yn athroniaeth Aristotle; ac am bob peth y tu allan iddi, prin y deuai o fewn cylch ymchwiliad: ond y bachau—yr egwyddorion sydd yn cynnal y cwbl—ydynt brif bethau ystyriaeth Plato.

Yr oedd parch Plato i feintoniaeth (*geometry*) yn fawr. Dywedai, "Na ddeued neb sydd heb gael ei ddysgyblu mewn meintoniaeth i lysoedd athroniaeth." Ond y mae dau beth i'w hystyried yn ngwirioneddau y wyddor hon;—sef y ffordd i'w cael allan, a'r ffordd i'w rhoddi allan —*mathesis* (*μαθησις*), a'r *didascalia* (*διδασκαλια*). Yr olaf a ddysgir yn ein hysgolion; a pheiriant i weithio allan yr olaf ydyw yr holl arwirebau, dosbeniadau, a gosodiadau sydd yn Euclid. Ond er mwyn y blaenaf y gosodai Plato y fath werth arni—y ddysgyblaeth sydd ynddi i ddarganfod gwirioneddau. Ond yr olaf, yr arddangosiad (*demonstration*) a dynai sylw Aristotle; ac egluro gweithrediad a deddfau y meddwl wrth osod allan yr hyn a ddarganfyddwyd eisoes ydyw amcan ei Resymeg ef.

Y RHITHEGRES (*categories*).

Rhesymeg, ynte, ydyw y ddysg sydd yn traethu am egwyddorion prawf. Ond y mae prawf yn cynnwys fod peth yn brofadwy: ond nis gall fod dim felly ond yr hyn a ddywedir am beth arall; *h. y.*, gosodiadau neu haeriadau yn unig a ellir eu profi. Y mae dau beth yn mhob gosodiad; megys yn hwn, "y mae aur yn felyn;" yn gyntaf, y gwrthddrych a wneir yr honiad am dano; yn ail, yr hòniad a wneir am y gwrthddrych. Nid oes dim yn wrthddrychau crediniaeth, na dim yn cynnwys gwirionedd, ond gosodiadau (*propositions*). O hyn y tardd y pwysigrwydd o ddeall natur ac elfenau gosodiadau, yn mha rai y dygir un gair dan air arall; megys aur dan y gair *melyn,* wrth ddyweyd fod aur yn felyn; neu ddyn dan y gair *cyfrifol,* yn y gosodiad "y mae dyn yn gyfrifol." Yn y gair *melyn,* fe dybir fod dosbarthiad wedi ei wneuthur o bob peth sydd yn meddu y lliw a ddynodir wrth y gair; ac fe ddywedir fod aur yn perthyn i'r dosbarth hwnw. Gwelir, ynte, mai ffurfio dosbarthiadau o bethau, a chyfeirio pob peth unigol i'w ddosbarth priodol, yr ydys wrth wneuthur gosodiadau. Felly y mae dosbarthiad o bob peth i benau neillduol, yn rhagbarotoad angenrheidiol i resymeg. Gwnaeth Aristotle y fath ddosbarthiad. Bwriadwyd y traethawd a elwir y *Categories,* yr hwn sydd yn sefyll gyntaf mewn rhai argraffiadau o'i draethodau rhesymegawl, i gynnwys y dosbarthiad eangaf (*summa genera*) y mae yn bosibl ei wneyd o bob peth. Ond rhaid cofio eto mai dosbarthiad o'n syniadau a'n dulliau ni o feddwl am bethau ydyw hwn. Pa lwybr bynag oedd gan Plato i dreiddio i natur a hanfod pethau, nid oes a wnelo y dosbarthiad hwn â'r dyben hwnw. Ond eto, yr oedd eisieu gwneyd y gwaith hwn. Y

Digitized by Google

mae gan ddyn syniadau am bethau, ac yr oedd eisieu dosbarthiad o honynt i'r penau mwyaf cyffredinol, fel y gellid dyfod â phob syniadau ereill dan y rhai mwyaf cyffredinol. Dan y deg pen canlynol y gallwn, yn ol Aristotle, restru yr holl syniadau sydd genym; sef Sylwedd, Maint, Ansawdd, Perthynas, Gweithrediad, Goddefiad, Amser, Lle, Sefyllfa, Agwedd.[1] Enwau ydyw y rhai hyn am y dull mwyaf cyffredinol y gall dyn edrych ar bethau; ond y mae eisieu athroniaeth o *enwau* yn gystal ag o *bethau*. Gan fod terfynau i feddwl dyn—mae yn naturiol iddo ddymuno gwybod pa rai ydynt; a dyben yr enwau hyn ydyw dangos o fewn pa derfynau, a than ba ammodau, y mae yn bosibl i ddyn ddefnyddio ei alluoedd. Nis gallwn feddwl am ddim nad allwn ei ddwyn dan y naill neu y llall o'r penau hyn; *h. y.*, os yw y dosbarthiad yn berffaith. Mae pob dosbarthiad a wneir yn y celfyddydau a'r gwyddorion yn rhagdybied y rhai hyn. Gall y darllenydd gael cymhorth i weled hyn wrth sylwi pa mor bell y mae rheolau gramadeg yn cytuno â, neu yn egluro y dosbarthiad hwn. Y mae yn anmhosibl i ni wneyd ein hunain yn ddealladwy, neu gymmeryd y cam cyntaf mewn dysgu rheolau iaith, heb sylweddeiriau, ansoddeiriau, &c.; ac felly am bob cangen arall o ddysg. Ein hunig ddiogelwch rhag rhaniadau annaturiol a chyfeiliornus o bethau ydyw cael dosbarthiad wedi ei sylfaenu ar natur y meddwl, ac yn unol â'i ddeddfau. At hyn yr amcanai Aristotle.

YR HYN SYDD ADNABYDDUS OREU YNDDO EI HUN, A'R HYN SYDD ADNABYDDUS OREU I NI.

Rhaid i bob ymresymiad orphwys ar argyhoeddiad blaenorol. Mae hyn yn amlwg mewn cyfosiad (*induction*), ac mewn arddangosiad (*demonstration*). Dechreua arddangosiad mewn egwyddor addefedig, a chyfosiad mewn ffeithiau neillduol. Mae y ddau ddull yma yn cychwyn o bwyntiau gwahanol, ac felly yn dybenu yn wahanol. Gesyd yr olaf wrthddrychau neillduol ochr yn ochr (cyfosod) er mwyn yr addysg neu yr egwyddor gyffredinol a geir ynddynt; ond dechreua y blaenaf gyda y gyffredinol, ac arddengys fod casgliadau neillduol yn gynnwysedig ynddi. Yn awr, y mae yr egwyddor gyffredinol sydd yn ddechreuad y naill yn fwy adnabyddus ynddi ei hun; ond y ffeithiau sydd yn sylfaen y llall ydyw y mwyaf hysbys i ni:—gosodai Aristotle bwys mawr ar hyn. Mae un yn nes at ein synwyrau corfforol, ac yn fwy adnabyddus i ni; mae y llall yn mhellach oddi wrth ganfyddiad y synwyrau, ond o herwydd hyny yn fwy ansicr ynddo ei hun. Nis gallwn ddeall dim, hyd nes y gallwn ddangos ei fod yn canlyn o angenrheidrwydd oddi wrth egwyddor uwch. Trwy gasgliad cyfresymol (*syllogism*) yn unig y gallwn wneyd hyn. Y cyfreswm gan hyny, yr hwn sydd yn dechreu gyda gosodiad cyffredinol, ydyw ffurf briodol pob gwyddor. Wedi iddo berffeithio ei Resymeg, ni allasai feddwl am ddim yn gorwedd allan o'i chylch. Teimlai ei fod wedi darganfod pob ffurf yr ydoedd yn bosibl rhoi gosodiadau ynddynt er mwyn cas'lu y naill oddi wrth y llall—a pha beth a allasai fod heb law hyn? Ond nid ellir casglu yr egwyddorion cyntaf o rai uwch, o herwydd y rhai cyntaf neu uchaf ydynt: felly nid oedd ganddo le iddynt yn ei gyfundrefn ef, ac o ganlyniad, gan nad pa mor afresymegol, yr ydoedd dan yr angenrheidrwydd o wadu eu bod.

CANFYDDIAD TRWY Y SYNWYRAU.

Ond os ffurfiau y meddwl ydyw sail ein gwybodaeth, pa fodd yr ydym yn cael ein gwybodaeth o honynt hwy? Mewn atebiad i hyn, yr ydym yn dyfod at ganfyddiad trwy y synwyrau. Yr hyn a wyddom oreu ydyw yr hyn sydd mewn cyffyrddiad â'n synwyrau. Ond nid ydyw yr hysbysiad a gawn trwy y cyfrwng hwn, mewn ystyr briodol, yn wybodaeth; yr hyn sydd yn gyffredinol ydyw gwybodaeth, pa un bynag a ddefnyddir y gair am y gosodiad cyntaf ai yr olaf mewn ymresymiad. Deffro gwybodaeth uwch, yr hon sydd adnabyddus yn unig i'r deall, y mae hysbysiadau y synwyrau. Y mae Aristotle yn olrhain ein gwybodaeth yn ol i'r synwyrau, fel ei dechreuad, ond nid ei ffynnonell.

Yma, cyfarfyddir ni â'r cwestiwn, Pa fodd y mae y wybodaeth uwch hon i'w chael o'r argraffiadau cyfnewidiol a drosglwyddir i'r meddwl trwy yr ymenydd? Gwahaniaethai Aristotle, fel Plato, rhwng canfyddiad allanol a phob peth a berthyn iddo oddi wrth y rheswm neu y deall. Ymddangosai hyn yn eglur iddo ar dir anianaeth, yn y gwahaniaeth sydd rhwng dyn ac anifail; ac hefyd ar dir rhesymeg, oddi wrth hanfodiad cyfeiliornadau. Nid yw y synwyrau yn ein twyllo: trosglwyddo argraffiadau allanol yn unig y maent hwy i'r meddwl; a phe na byddai ynom ond yr argraffiadau goddefol hyn, byddai cyfeiliornad yn anmhosibl. Y mae cyfeiliornad yn gynnwysedig yn y camddefnydd a wneir o'r deall. Yn nghyfundrefn Aristotle, nid yw y gagendor rhwng y wybodaeth is a'r uwch, y synwyr a'r deall, mor fawr ag yn nghyfundrefn Plato. Ymddengys Plato fel pe byddai yn ein hannog weithiau i ymryddhau yn llwyr oddi wrth y corff, ac mai hyn yw y puredigaeth sydd yn angenrheidiol i'n cyfaddasu i fwynhau yr hyn sydd sylweddol a pharhaol. Ar y llaw arall, gellid casglu yn fynych fod Aristotle yn gwneyd y synwyr a'r deall yr un. Ond dylid cofio ei fod yn defnyddio y gair mewn tri ystyr,—gweithrediad synwyr unigol, gweithrediad eisteddle yr holl synwyrau, a gweithrediad y dyn sydd yn defnyddio y synwyrau fel ei offerynau. Mae yr ystyriaeth o hyn yn lleihau y pellder a allai ymddangos rhwng y ddau. Y mae y synwyrau yn ammod gweithrediad y deall: nis gall y meddwl weithredu ond trwy gael ei gynhyrfu trwyddynt hwy; ond wedi derbyn y cynhyrfiad hwn, y mae, trwy rinwedd ei gyfansoddiad ei hun, yn cyrhaedd perffeithrwydd nad allasai byth gael trwy ddim nac oddi wrth ddim gweledig. Ni welodd y llygad erioed gylch perffaith; ond y mae cyfansoddiad meddwl

[1] "The ten Aristotelic Categories may be thus methodically deduced and simplified. They are all divisions of being—*Ens*. Being is divided into *Ens per se* and *Ens per accidens*. *Ens per se* corresponds to *substance*—the first of the Aristotelic Categories. *Ens per accidens* comprises the other nine; for it either denotes something *absolute*, or something *relative*. If something absolute, it either originates in the *matter* of the substance, and is divisible—*Quantity*, Aristotle's second Category; or in the *form*, and is indivisible—*Quality*, Aristotle's third Category. If something relative, it constitutes *Relation*, the fourth Category; and to relation the other six may easily be reduced. For the fifth, *Where*, denotes the relation between different objects in space, or the relation between place and the thing placed. The sixth, *When*, denotes the relation between objects in succession, or the relation between time and a thing in time. The seventh, *Posture*, is the relation of the parts of a body to each other. The eighth, *Having*, is the relation of the thing having and the thing had: while the ninth and tenth, *Action* and *Passion*, are the reciprocal relations between the agent and the patient. There are, on this scheme, one supreme Category—Being:—two at the first descent—*Ens per se*, *Ens per accidens*:—four at the first and second—*Substance*, *Quantity*, *Quality*, *Relation*; and to the dignity of Category, these four are, of Aristotle's ten, pre-eminently, if not exclusively entitled.—*Syr W. Hamilton*.

Digitized by Google

y fath ag i allu ffurfio un perffaith trwy weled un anmherffaith; ac felly trwy holl gylch ei wybodaeth. Mae y deall yn derbyn oddi wrth y synwyrau, ond y mae ynddo ei hun fodd i ad-dalu trwy chwanegu at yr hyn y mae yn fenthyg, ac felly y ffurfir y gwyddorion. Credai Plato fod y fath berthynas rhwng y cynlluniau sylweddol a'u gilydd, fel, ond i ddyn gael gwybodaeth o un, y gallai gael gwybodaeth o'r cwbl: ond Aristotle a ddywed, nas gallwn gael gwybodaeth gyflawn ond trwy brofiad cyflawn. Gwyddai ef gystal a neb nad ffeithiau ydyw egwyddorion, er hyny nas gallwn gyrhaedd yr egwyddorion ond ar hyd grisiau yr ymddangosiadau allanol. Am y gwahaniaeth rhwng Aristotle a Bacon ar hyn, gwel BACON.

MEDDWL A BOD.

Un o'r cwestiynau uchaf sydd yn temtio meddwl dyn ydyw, y berthynas sydd rhwng meddwl a bod: *h. y.*, a ellir cymmeryd yn ganiataol fod y syniad sydd gan ddyn am beth yn ddangosiad cywir o'r peth hwnw. Fe ddichon i hyn ymddangos yn gwestiwn nas gall fod un anhawsder yn ei gylch, ac eto y mae meddylwyr uchaf pob oes wedi teimlo ei swyn a'i anhawsder. Yr ydym wedi crybwyll yn fynych am ddeddfau y meddwl, ond *Pa berthynas sydd rhwng y deddfau hyn a gwrthddrychau a sylweddau allanol?* A ydyw *amser* a *lle* yn hanfodi i'r *greadigaeth* yn gystal ag i *ni?* Ai dychymygol ydyw y rhyfeddodau sydd yn dysgleirio trwy yr eangder, ac yn ymagor gyda threigliadau amser? Yr ydym dan angenrheidrwydd meddwl i edrych ar ddygwyddiadau yn gyfres o *achosion* ac *effeithiau;* eto, ai yn y meddwl yn unig y maent? Onid oes byd o gyfnewidiadau, sydd yn cyfateb yn union iddynt, ac i'n dwyn ni i bresennoldeb pa rai y mae cyfansoddiad ein meddwl yn gyfrwng? I'n *rheswm* y mae y syniad am Dduw yn angenrheidiol; ond ai angenrheidrwydd meddwl ydyw yn unig,—onid ydyw yr angenrheidrwydd hwnw yn ein tywys i bresennoldeb yr unig wir Dduw? Y cwestiynau hyn ydynt brif anhawsder yr athroniaeth bresennol—y cwestiynau athronyddol uchaf sydd yn bosibl i feddwl dyn [gwel ARFAETH, td. 325]. Pa fodd yr edrychai prif athronwyr Groeg arnynt? Yr oedd y tri blaenaf, Socrates, Plato ac Aristotle, yn cytuno yn hyn; sef, i edrych ar syniadau neu ddeddfau y meddwl yn ddarluniad cywir o'r hyn sydd allan o'r meddwl—fod y mewnol a'r allanol yn cyfateb i'w gilydd; ac felly, fod cyfeiliornad neu gamsyniad am hanfod yn anmhosibl, o herwydd ei fod yn wrthddrych *gweledigad* y meddwl (*intuition*), ac nis gall fod ond yr hyn a ymddengys i ddyn.

HANFOD.

Ond er fod Aristotle yn cytuno â Plato ar hyn, eto gwahaniaetha oddi wrtho yn hollol yn yr hyn sydd yn hanfodol i Blatoniaeth; sef fod hanfod yn gynnwysedig yn y *cynlluniau* cyffredinol y dadleuai Plato drostynt.[1] Y mae yr hanes a rydd Aristotle o ddechreuad golygiadau Plato, yn gwasanaethu hefyd i esbonio eu natur. "Plato," meddai, "yr hwn, yn ei ieuengctyd, oedd yn gydnabyddus â Cratylus, a'r syniadau Heraclitaidd, a ddysgrifiai bob peth sydd yn wrthddrych y synwyrau corfforol yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau parhaus, fel nad ydyw yn bosibl ffurfio gwyddor, neu gyrhaedd gwybodaeth sicr o honynt. Coleddai yr un syniadau yn ddiweddarach. Pan, ar ol hyny, y gadawodd Socrates ystyriaethau am y byd naturiol o'r naill du, gan gyfyngu ei hun yn hollol at gwestiynau moesddysg, ac yn y materion hyn a gyrhaeddodd egwyddorion cyffredinol, a chyn i neb arall feddwl am ffurfio dosbeniadau (*definitions*), ymgymmerodd Plato â'r athrawiaeth hon hefyd; ond rhoddodd yr ystyr ganlynol i'r gwirioneddau hyn;—dywedai, rhaid eu bod yn gymhwysiadwy at rywbeth arall, ac nid at bethau gweledig. Gan yr ystyriai yn anmhosibl cael dosbeniad cyffredinol o'r pethau hyn, o herwydd eu bod mewn cyfnewidiad parhaus, y pethau gan hyny sydd yn wrthddrychau gwirioneddau cyffredinol a alwai efe yn *gynlluniau* (ἰδέαι), a bod pethau gweledig yn cael enwau y cynlluniau y cyfranogent o honynt."—*Metaph.*, i. 6.

Y casgliad oddi wrth y golygiad hwn oedd, fod yn angenrheidiol, mewn trefn i gyrhaedd gwybodaeth sicr a gwirioneddol, i ddynion ymddyrchafu gymmaint a allent at *gynlluniau* yr ansoddau y mynent gael gwybodaeth yn eu cylch: a chan fod pethau yn cael eu galw ar ol eu cynlluniau, y mae yn rhaid fod hanfodiad blaenorol ac arbenigol yn perthyn iddynt hwy. Y cynllun o'r da, y pryd-ferth, y doeth, ydyw y "Da cyntaf," y "Pryd-ferth cyntaf," a'r "Doeth cyntaf" ("*first Good*," "*first Beautiful*," "*first Wise*"). Dysgrifiwyd y cynlluniau hyn fel yn meddu ar hanfodiad gwahanol a thragwyddol, ac yn gwneyd i fyny "Fyd y Deall" (*Intelligible World*). Gwrthwynebai Aristotle y gyfundrefn hon yn hollol. Nid yw yn gwadu fod i gynlluniau (*ideas*) hanfodiad yn y meddwl—i'r gwrthwyneb, gwna efe hwy yn wrthddrych athroniaeth. Ond ni chaniata fod iddynt hanfodiad annibynol allan o'r meddwl, mwy nag sydd i droell ymadrodd mewn barddoniaeth. Dwg lawer o wrthwynebiadau yn eu herbyn yn yr ystyr hwn: ond ei brif un ydyw, pe byddent mewn bod annibynol, byddai raid fod llawer cynllun annibynol o'r un peth, gan y gellir rhoddi yr un peth dan wahanol benau. Rhaid fod cynllun annibynol o Socrates fel dyn, fel athronydd, fel cadlywydd, ac felly am bob golygiad gwahanol a ellir ei gymmeryd arno. Dengys hefyd pa fodd y gwreiddiodd y camsyniad hwn. Nid ydyw y cynlluniau hyn yn ddim ond cynnyrch y meddwl yn sylwi ar y gwahanol berthynasau sydd yn hanfodi rhwng pethau; ac yna yn priodoli bod gwahanol i'r perthynasau, heb gofio nad yw y perthynasau yn ddim wedi difodi y gwrthddrychau neillduol sydd yn sefyll yn y perthynasau hyn a'u gilydd. Yn ol Aristotle, nid yw y cwbl yn ddim ond siarad ofer, yn codi o gamgymmeriad o syniadau y deall am wrthddrychau annibynol.

Mewn pa beth ynte y gosodai Aristotle hanfod peth? Ynddo ei hun. Ond yma eto y mae anhawsder. Os ydyw holl hanfod peth ynddo ei hun, a phethau neillduol yn aneirif, pa fodd y mae gwybodaeth athronyddol yn bosibl, gan fod gwrthddrychau hon yn gyffredinol ac un? Mewn atebiad i hyn, fe'n harweinir at yr hyn sydd yn meddu yr un neillduolrwydd mewn Aristoteliaeth ag ydyw y cynlluniau mewn Platoniaeth.

Yn mhob gwrthddrych neillduol a ganfyddir gan y synwyrau, y mae dau beth i'w gwahaniaethu—y *defnydd* (υλη) a'r *ffurf* (μορφη, ειδος, λογος). Mae pob gwrthddrych yn ei gyfanrwydd (συνολον) yn gynnwysedig o'r ddau hyn; fel yn mhob cyfanwaith o gelfyddyd, y mae rhyw ddefnydd, fel y mynor, wedi ei weithio i ryw ffurf,

[1] "'*Cynllun*,' the original form, the model coinciding with the Platonic idea of all real things as pre-existing in the divine mind. '*Llun*,' its material form, and '*ailun*,' or '*eilun*,' the representative of the latter."—*Gomer.*

Digitized by Google

megys delw o ddyn neu o geffyl. Ond pa un o'r tri ydyw yr hanfod—ai y defnydd, y ffurf, neu y ddau yn un? Y mae o werth i ni ofyn i'r darllenydd ymdrechu canlyn Aristotle yma, pe na byddai ond er mwyn gweled pa fodd y mae meddwl dyn, yn ei nerth a'i eglurder mwyaf, yn ceisio treiddio i'r dirgelwch sydd mewn *creu*, neu ddyfodiad peth i fod. Ond ai yn y defnydd y mae yr hanfod? I ateb hyn, rhaid ymofyn pa beth ydyw defnydd. Yn meddwl Aristotle, cyssylltir ef bob amser â'r syniad o ddyfodiad peth i fod (*becoming*). Yn awr, o ddim ni ddaw dim. Yn flaenorol i ddyfodiad peth i fod, rhaid fod rhywbeth yn hanfodi—nid dim sydd yn ganfyddadwy i'r synwyrau, nac yn meddu un ansawdd neillduol—ond rhywbeth a *all* ddyfod yn unrhyw beth, heb yn flaenorol fod yn ddim neillduol. Pa beth a all ddefnydd o'r fath hwn fod? Dim amgen na'r gallu (δυναμις) o fod. Gwahaniaeth pwysig ydyw hwn, rhwng bod mewn *gallu* neu bosiblrwydd, a bod mewn *gweithred*.

Yr hyn a barodd i Aristotle ddyfeisio y fath *ddefnydd* a hwn, oedd ei anallu i esbonio damweiniau. Gwelai bob elfen adnabyddus i ddyn, megys dwfr, awyr, &c., yn gweithredu yn ol rheol, a than angenrheidrwydd; o ba le, gan hyny, y gallai damweiniau, pethau direol, ddyfod, ond o ddefnydd a allai fod yn bob peth, heb fod yn ddim, na than angenrheidrwydd i fod yn ddim neillduol. Yn ol Plato—ac ymledaenodd y syniad yn gyffredinol trwy yr Eglwys Gristionogol, a rhoddodd fod gydag achosion ereill i fywyd mynachaidd—defnydd ydyw ffynnonell drwg; ond yn nghyfundrefn ei ddysgybl, nid yw na drwg na da, ond gall fod y naill neu y llall. Y casgliad ydyw, Os mewn pethau neillduol y mae hanfod yn gynnwysedig, ac nad yw defnydd ond *gallu* i fod, rhaid nad mewn defnydd y mae yr hanfod.

FFURF.

A ydyw ffurf ynte yn meddu gwell hawl i'r anrhydedd? Ac i hyn atebir, Ydyw. Wrth ffurf y meddylir yr un peth a chyfansoddiad. Os gofynir am yr *hyn* sydd yn bod (ὁτι), nis gallwn gael ein camarwain; o herwydd y mae y synwyrau yn ein dysgu pa beth ydyw. Os gofynir, *Pa ham* (διοτι) y mae yn bod fel a'r fel? Yr ateb yw, Yn y ffurf, yr *eidos* (ειδος), neu y cyfansoddiad. Dyma y rheswm eithaf pa ham y mae peth fel y mae. Hyn ddylai fod yn wrthddrych ein hymchwiliad. Gall rhai ofyn, A ydyw yn bosibl fod rhywbeth mewn unrhyw wrthddrych heb law yr elfenau sydd yn ei gyfansoddi? Yr ateb ydyw, Oes. Er i ni ddadgyfansoddi dyferyn o ddwfr, o laeth, o waed, neu unrhyw beth arall i'w holl elfenau cyntaf; ac er i'r cwbl o'r elfenau fod yn ein meddiant, gellir dyweyd fod y peth pwysicaf ar ol eto; nid yw mewn un o'r elfenau ar wahan—y ffurf neu y cyfansoddiad ydyw, yr hyn sydd yn rhwymo y cwbl yn nghyd, ac yn gwneud y peth yr hyn ydyw. Pe casglai fferyllydd yr holl elfenau, y *carbon*, yr *oxygen*, a pha beth bynag arall sydd yn gwneyd i fyny lygad-y dydd, y briallu, neu y rhosyn—i wydrau; a'u pwyso, er mwyn bod yn sicr nad oes un gronynyn wedi dianc o'i afael, a'r oll yn nghyd yn gwneyd i fyny y pwysau oedd yn y blodeuyn a aberthwyd i'n chwilfrydedd—er hyn oll y mae rhywbeth ar ol, nas gellir ei ddal yn y gwydr, na'i bwyso yn y glorian; heb yr hwn ni bydd y rhosyn yn rhosyn, na'r lili ychwaith yn lili. Y *ffurf* ydyw, yr hyn mewn creaduriaid ereill sydd yn cyfateb i'r enaid mewn creadur byw; a'r hyn nis gellir ei adnabod, mwy na'r enaid dynol, ond wrth ei effeithiau. Felly, er cael allan gynniter o elfenau cyntaf ag a fynoch, nid ydych ddwy hyny yn cael allan *egwyddor* (ἀρχη). Gwelir oddi wrth hyn mai nid y ffurf allanol a feddylir, ond y ffurf tu mewnol. Hwn ydyw yr *eidos* y breuddwydiai y Platoniaid a'r Pythagoreaid am dano, heb ei gael:—yr hyn sydd yn hanfodol yn mhob peth ydyw, ac heb yr hyn nis gallai fod o gwbl. Ond nid yw yn hanfodi ar wahan. Ac yn mhob dosbeniad o wrthddrychau, rhaid i hwn fod ynddo, onid e nid yw yn ddosbeniad oll; felly yn y peth hwnw y mae, ac nis gellir edrych arno ond felly. Y mae ffurf, gan hyny, yn nes at feddwl nag ydyw defnydd; ynddo y mae y gallu cynnyrchiol. Edrychwn ar gynnyrchion celfyddyd, y ffurf neu *eidos* yw yr achos effeithiol; ond yn enaid y celfyddydwr y mae celfyddyd y meddyg, a chynllun yr adeiladydd ydyw yr *eidos*, sydd yn cynnyrchu iechyd ac yn rhoi bod i dŷ. Yn ol yr amrywiaeth sydd mewn ffurfiau y dosberthir pethau y greadigaeth i rywogaethau.

YSGOGIAD A DYBEN.

Pa fodd y mae y defnydd a'r ffurf wedi dyfod at eu gilydd? Y mae hyn yn arwain at yr achos ysgogiadol; o herwydd *ysgogiad* y galwai yr hen athronwyr ddyfodiad y posibl i fod yn weithredol. Mewn cyssylltiad â hyn, y mae dyben neu achos terfynol yn dyfod i mewn. Fel y mae defnydd a'r ffurf yn wrthgyferbyniol, felly y mae yr achos ysgogiadol a'r terfynol—y naill yn ddechreuad, a'r llall yn derfyniad neu yn ddyben yr ysgogiad. Dyben pob ysgogiad ydyw ymuno y defnydd a'r ffurf. Dengys hyn y pwysigrwydd, yn mhob ymofyniad i achos peth, o gadw y pedwar cwestiwn hyn mewn golwg. Ai wrth achos y meddylir y posiblrwydd (*δυναμις—capacity, potentiality, possiblity*)? Ai wrth achos y meddylir y nerth ysgogiadol? Ai wrth achos y meddylir y ffurf? Ai, yn ddiweddaf, wrth achos, y meddylir y dyben? Pe cymhwysid hyn at ddelw:—y mae posiblrwydd fod y ddelw yn y mynor—y mae yn bosibl gwneyd mynor yn ddelw; y mae y cynllun neu y ffurf yn meddwl y lluniedydd; yn ei ewyllys y mae y gallu i ddyfod â'r mynor a'r ffurf at eu gilydd; a'r dyben ydyw sicrhau tebygolrwydd o gymmwynaswr i'w wlad. Os gofynir, Pa beth yw yr achos o'r ddelw? Gellir ateb, Dymuniad i anrhydeddu dinesydd enwog; neu y penderfyniad wrth wneyd yr ysgogiad; neu y cynllun sydd yn meddwl y celfyddydwr; neu y defnydd y gwnaed ef o hono. Y mae yn bosibl olrhain tri o'r rhai hyn i un; sef yr achos ysgogiadol, ffurfiol, a therfynol: o herwydd cyfansoddiad neu ffurf peth sydd yn penderfynu ei ddyben, ac hefyd y cynllun—yr ydym yn defnyddio y tri gair yma yn gyfystyr, cyfansoddiad, ffurf, cynllun; yn meddwl y lluniedydd y mae yr achos o'r ysgogiad trwy ba un y dygir y llun i fod. Nid ydynt i'w hystyried ar wahân yn achosion o ddim; ond cyfarfyddant yn mhob gwrthddrych, ac y maent yn codi o'r gwahanol ddull yr edrych y meddwl ar y gwrthddrych hwnw.

EGNI.

Y mae y ffurf yn egni (*ενεργεια—energy*), tra nad yw y defnydd (ὑλη) ond posiblrwydd neu gynneddf (*δυναμις*—gallu; ond yma nid gallu gweithredol, ond goddefol); ac undeb yr egni â'r defnydd, neu bosiblrwydd, sydd yn gwneud sylwedd (οὐσια). Yma y mae gair yn dyfod i mewn sydd yn meddu yr un arbenigrwydd yn nghyfundrefn Aristotle ag ydyw *ideas* yn nghyfundrefn Plato. Y mae daru o bres yn ddelw mewn

Digitized by Google

ydyw hyn: nid yw y dysgybl yn priodoli anmherffeithrwydd y byd i natur pethau gweledig, ond yn addef ar unwaith gydhanfodiad defnydd er tragwyddoldeb â Duw, er ei fod yn ceisio ei wneuthur mor agos i ddim ag y gall. Eto, pa cyn lleied bynag o ddylanwad a briodolir iddo, os ydyw yn rhywbeth yn annibynol ar ewyllys Duw, nid yw efe oll yn oll, yr hyn ydyw athroniaeth y Beibl. Ond pa faint bynag o anmherffeithderau sydd yn ei gyfundrefn, y mae ynddi rywbeth goruchel. Gan gychwyn oddi ar argyhoeddiad clir fod athroniaeth ddynol i orphwys ar brofiad o bethau cyfnewidiol, arweiniwyd ef i ffurfio syniad am Achos Cyntaf pob peth, fel egni, gweithrediad, a bywyd; *h. y.*, bywyd pur, mewn ffurf anghyfnewidiol, bywyd sydd yn hanfod oll. Am Aristotle y gellir dyweyd mai efe oedd y cyntaf o athronwyr Groeg a unodd y syniad o fywyd yn berffaith â'r syniad o fod. Ein hamcan yma oedd codi i fyny rai o brif syniadau Aristotle, er mwyn rhoi mantais i'r darllenydd ddeall ychydig am natur a thuedd ei athroniaeth. Ceir mantais eto dan wahanol eiriau i egluro yr hyn a wnaeth mewn hanesiaeth naturiol, moesddysg, eneideg, gwlad-ddysg, &c.

Y flwyddyn ddiweddaf (1890), darganfyddwyd *The Constitution of Athens*—'Cyfansoddiad Athen'—o waith Aristotle; yr hwn, y mae yn debyg, ydyw yr hen drysor llenyddol pwysicaf a ddaeth i'r golwg yn y ganrif hon. Cyrhaeddodd yma yn mysg nifer o hen ysgrifeniadau o'r Aipht. Cyfeirir ato yn fynych gan awduron hen a diweddar; ond nid oedd neb yn gwybod yn mha le yr oedd. Y mae yn awr yn y British Museum, yn Llundain; a mawr yw llawenydd y dysgedigion ei fod wedi ei ddarganfod.

Yr argraphiad mawr o'i waith ydyw yr un gan Bekker, yr hwn a gyhoeddwyd gan Brifysgol Freiniol Prwssia (Berlin, 1831—1840). Cyfeirir at dudalenau, colofnau, a llinellau yr argraphiad hwn gan ysgolheigion yn gyffredinol. Ail argraphwyd testyn Bekker o'r gwaith yn Rhydychain, yn 1837, mewn 11 cyfrol. Nid oes yn y Saesneg un cyfieithiad da o Aristotle. Am hanes cyffredinol athroniaeth Aristotle gweler *Wallace's Outlines of the Philosophy of Aristotle*, a gweithiau Grant a Grote. Y mae *Zeller's Aristotle*, yr hwn a gyhoeddwyd yn Saesneg yn y flwyddyn 1888, yn bwysig i'r efrydydd feddu arno.

ARLAIS, [*temple*]: neidrwydd. *Barn.* iv. 21; v. 26. "Dy *arleisiau* rhwng dy lawethau sydd fel darn o bomgranad;" *Can.* iv. 3; vi. 7.

**Bernir fod yma gyfeiriad at brydferthwch blodau y pomgranad, neu harddwychedd ei ffrwyth, pan y mae yn ymdori, a lliwiau tyner y grawn mwydionaidd yn dyfod i'r golwg; a'i fod yn arwyddo—naill ai ymostyngiad ger bron Duw o herwydd beiau a diffygion nad oes neb yn adnabyddus o honynt ond efe—neu, y gwyleidd-dra a ddylai fod yn meddiannu gweinidogion crefydd yn eu gwasanaeth—neu ynte, y rhagoriaethau a berthyn i'r eglwys, a gymmeradwyir gan Iesu Grist, ond sydd yn guddiedig o olwg y byd.**

ARLOESI: gwaghau, trefnu tŷ, parotoi: *Lef.* xiv. 36. "Canys coediog yw (y mynydd), *arloesa* ef;" *Ios.* xvii. 18: sef, symmud ymaith y coed, a dwyn y tir o dan drinogaeth. "Efe a *arloesa* y ffordd o'm blaen i; *Mal.* iii. 1:—cyfeiria y geiriau at arferiad yn mysg breninoedd galluog yn y dwyrain o anfon byddin o'u blaenau i gloddio a pharotoi ffordd iddynt, trwy ostwng y bryniau a chodi y pantiau, a symmud ymaith bob rhwystr o'u blaen, pan y byddent ar fedr myned o'r naill wlad i'r llall: *Esa.* xl. 3, 4.

ARLWY—O: darpariaeth o ymborth, parotoi gwledd, ei gosod yn drefnus ar y bwrdd: *Gen.* xliii. 16; 2 *Sam.* xii. 4; 2 *Bren.* vi. 23; *Nah* ii. 3; *Luc* xvii. 8. "Ti a *arlwyi* ford ger fy mron;" *Salm* xxiii. 5. Y mae Dafydd yn dadgan ei hyder yn Nuw, ei amddiffynydd, a'r cyflawnder o gysuron yr oedd yn eu mwynhau hyd yn oed yn nghanol ei elynion "yn ngwydd ei wrthwynebwyr."

ARMAGEDON; *Dad.* xvi. 16. Y mae dynion yn wahanol iawn eu golygiadau o barthed i ystyr y gair hwn, ac ar amgylchiadau y lle yr arferir ef ynddo. Ymddengys sefyllfa y gair, fel yr arferir ef yn yr adnod hon, yn un bwysig iawn; canys y mae yn ddiwedd-glo i dywalltiad y chweched phiol, ac yn rhagymadrodd i dywalltiad y seithfed. Amseriad tywalltiad y seithfed phiol sydd yn debyg o fod yn un o'r adegau pwysicaf ar ein byd ni, o un adeg a fu arno o'i ddechreuad hyd y pryd hwnw. Dyma yr amser y "gorphenir dirgelwch Duw:" "amser diwedd y digter;" "amser y diwedd;" a "chyflawniad ei lid ef." Ni cheir y gair dan sylw yn un rhan arall o'r Ysgrythyrau; a dywedir yma mai yn Hebraeg y mae ei ystyr i'w gael. Y mae genym hanes am ddinas yn Ngwlad Canaan o'r enw Megido, yr hon a berthynai i lwyth Manasseh, ac a safai heb fod yn mhell oddi wrth Fôr y Canoldir, ger llaw yr hon yr ymladdwyd amryw frwydrau ysgeler a gwaedlyd iawn yn yr amseroedd gynt. Dyma y lle yr ennillodd Deborah a Barac fuddugoliaeth ryfedd a phwysig ar frenin Canaan: *Barn.* v. 19; a ger llaw y lle hwn y clwyfwyd Iosiah dduwiol, brenin Iudea, â chlwyf marwol, pan mewn brwydr â Pharaoh, brenin yr Aipht, yr hon frwydr sydd mewn cof galarus gan yr Iuddewon hyd heddyw: 2 *Cron.* xxxv. 22; *Zech.* xii. 11. Rhoddir hanesion ereill, gan haneswyr, am amryw o frwydrau heb law y rhai hyn a gymmerasant le tua'r lle hwn, fel y gellir braidd edrych arno yn lle diarebol am ornestfeydd ac ymladdau. Fe ddywedir i ni yn yr Ysgrythyrau am ddyffryn ac am ddyfroedd Megido, ond ni ddywedir yn un lle am fynydd Megido, fel y myn rhai mai ystyr y gair *Armagedigo* ydyw *mynydd Megido*, neu *fryn afalau.* Dywed Cruden, yn ei *Fynegair Ysgrythyrol*, fod y gair Armagedon yn arwyddo *mynydd yr efengyl*, neu *fryn y ffrwythau*; a chytuna amryw o ddynion dysgedig âg ef ar hyn. Ond y mae amgylchiadau y lle yn milwrio yn lled rymus yn erbyn y dybiaeth hon. Barna ereill, gyda mesur mwy o gyssondeb, fod y gair Armagedon yn dalfyriad o ddau air yn yr iaith Hebreig, sef *Armah-Megido*, a'i fod yn arwyddo *diofrydiad i hollol ddinystr*, neu *gwbl doriad ymaith*, ac mai yr un ydyw ei ystyr a'r gair Groeg *anathema:* â hyn y cytuna Esgob Newton, ac ereill. Y mae yr olwg hwn ar ystyr y gair yn dra chydweddol â'r amgylchiad ar ba un y llefarwyd y gair; canys yr oedd yr Eglwys Babaidd wedi diofrydu saint y Goruchaf i'r dinystr mwyaf ofnadwy, ac wedi cyhoeddi hyny trwy yr holl fyd, fel yr oedd amryw weithiau wedi cynhyrfu, a dwyn holl freninoedd a galluoedd y ddaiar i osod eu diofrydiad mewn grym i ddyfetha a dinystrio y saint oddi ar y ddaiar, hyd ag y medrent. Ond yn awr dyma ei hamser hi a hwythau wedi dyfod, pan y bydd

Digitized by Google

i'r Arglwydd eu diofrydu hwy, a gwneuthur eu cynghrair yn gwbl ddinystr iddynt eu hunain. Ond dichon y bydd ychydig sylwadau chwanegol ar y gair yn foddhaol gan amryw o ddarllenwyr yr ysgrif hon.

Y mae llawer o esbonwyr yn barnu eu bod yn gweled yn y gair, a'i gyssylltiad, nid yn unig y ffaith o lwyr ddymchweliad, dinystr, a dilead yr holl ddrygau sydd wedi ymgyfodi yn erbyn cyfiawnder a theyrnas y Gwaredwr yn y byd hwn, ond hefyd y modd y bydd i hyny gymmeryd lle, a'r lle y cymmer hyny le—yr hyn, efallai, sydd fwy nag y mae y gair a'i gyssylltiadau yn gynnwys. Dywedant eu bod yn golygu wrth frwydr Armagedon, ryw un ornest ofnadwy ac anianyddol, i ba un y cesglir breninoedd y ddaiar, a holl drigolion y byd, gan mwyaf, i ryw un lle neillduol o'r ddaiar. Dywed y rhan fwyaf sydd o'r farn hon, mai y lle a elwir Megido, yn Ngwlad Canaan, fydd hwnw; ac mai yno yr ymleddir y frwydr, er llwyr ddinystr i elynion crefydd.

Ond meddylir gan ereill fod y fath olygiad anianyddol a hwn ar yr ornest a ddarlunir yn y gair, a'i gyssylltiadau, yn olygiad hollol annaturiol, os nad yn annichonadwy i fod, ond ystyried sefyllfa naturiol a moesol y byd y dyddiau presennol, a rhai tebyg i fod. Hefyd, tybiant fod y golygiad hwn yn hollol groes i natur ac amcan yr ornest a ddarlunir i ni yn yr Ysgrythyrau, yr hon sydd i'w therfynu trwy frwydr Armagedon, ac yn anghysson â'r ffrwyth dedwyddol i'r byd sydd i ganlyn y frwydr hono, fel buddugoliaeth o honi: canys fe ddywedir yn eglur y bydd y frwydr hon yn "orpheniad dirgelwch Duw;" sef y dyga i'r amlwg holl amcanion Duw yn ei oruchwyliaethau blaenorol tuag at y byd, er cyhoeddiad addewid Eden, yn ddiwedd y digder, &c.; o ganlyniad, fod yn rhaid y bydd yr ornest ddiweddaf hon o'r un natur ac i'r un amcanion a goruchwyliaethau ereill y Iehofah tuag at y byd hwn, o ran crefydd, rhinwedd, a daioni—ac mai gosod y pethau hyn i fyny mewn gorpheniad gogoneddus, gwir deilwng o hono ei hun, a raid fod yn amcan i'r frwydr dan sylw. Pe buasai y frwydr i fod yn nghylch rhyw ddarn o ddaiar, a sefydlu pwy fydd i'w feddiannu—pe buasai yr ornestfa yn nghylch gosod un genedl i lywodraethu ar holl genedloedd ereill y ddaiar—neu fod y frwydr i sefydlu rhyw un penaeth dynol, neu resiad o ddynion, i lywodraethu ar holl drigolion ereill y byd, yn eu hachosion gwladol a chrefyddol, gallasai rhyw un frwydr, mewn rhyw le neillduol, ateb y dyben hwnw. Ond gofynir, A ydyw yr Ysgrythyrau yn ein dysgu fod y fath beth i gymmeryd lle? Onid ydyw yr Ysgrythyr yn dangos yn eglur fod y fath syniadau cnawdol, anianol, ac iselwael a'r rhai hyn, am natur, egwyddorion, ac amcanion goruchwyliaethau Duw tuag at ddynion, yn annheilwng o deyrnas oruchel ac ysbrydol y Gwaredwr, ac yn anghyssondeb o'r mwyaf â natur, rheolau, ac amcanion gwir Gristionogaeth? Ond os pethau moesol ac ysbrydol ydyw prif bethau yr ymrysonfa rhwng awdurdod y nefoedd ac awdurdodau y ddaiar—os y pethau hyn ydyw y brif ddadl sydd wedi bod rhwng galluoedd tywyllwch y byd hwn â galluoedd y goleuni, yr hon a ddygwyd yn mlaen dros yr holl oesoedd, ac sydd i'w therfynu yn y frwydr dan sylw—y mae yn rhaid mai yr un pethau fydd mewn golwg yn yr ornestfa ddiweddaf ag oedd mewn golwg yn yr ymdrechfa flaenorol. Os yn nghylch natur ac egwyddorion teyrnas y Cyfryngwr y mae y ddadl sydd i'w therfynu yn yr ornest hon, pa un ai ysbrydol ai daiarol yw hi i fod?—Pa un a ydyw efe i'w gydnabod yn ben, a brenin unigol i'w eglwys, ai ynte a ydyw i ranu yr orchwyliaeth â rhywrai ereill?—A ydyw efengyl Crist i'w phregethu trwy y byd yn ddirwystr gan unrhyw awdurdodau dynol?—A ydyw Iesu Grist i lywodraethu yn nghydwybodau ei bobl, neu a ydyw ei awdurdod ef trwy ei air a'i Ysbryd yn unig i'w gydnabod gan ei bobl yn eu holl achosion crefyddol, a hwythau i fod yn ddeiliaid ewyllysgar iddo, yn ymgyflwynedig i'w wasanaeth, ac yn cydymffurfio â'i reolau sanctaidd, heb neb yn eu lluddias—mewn gair, ai prif bethau y ddadl sydd i'w therfynu yn y frwydr hon ydynt, A ydyw Iesu Grist i gael ei orsedd, i feddiannu y deyrnwialen, ac i wisgo ei goron yn ei pherthynas â chrefydd yn y byd; ai ynte a yw y pethau hyn i'w gadael i ereill, fel y maent wedi eu trawsfeddiannu er's oesoedd bellach? Os y pethau hyn yw pethau yr ornestfa fawr, yr hon a orphenir yn mrwydr Armagedon, dywedir fod yn rhaid na bydd hono yn un leol mewn un ran o'r ddaiar, nac i gymmeryd lle trwy rym arfau; ac nad rhyw un frwydr a fydd, ond un ornestfa hirfaith, nes y bydd y pethau uchod wedi eu sefydlu o du y nefoedd; ac nad yw y cyfeiriadau a wneir yn Llyfr y Datguddiad, a phrophwydoliaethau ereill, at leoedd penodol, ac arferion neillduol, oedd wedi cymmeryd lle gynt, i'w cymmeryd mewn ystyr lythyrenol, ond fel ffugr i osod allan ffeithiau moesol sydd i gymmeryd lle trwy ddylanwad Cristionogaeth. Ni ammheuir na bydd rhyfeloedd, a son am ryfeloedd echryslawn, a daiargrynfäau mawrion mewn manau, ac amryw o farnau Duw yn dywalltedig ar wledydd a chenedlaethau: ond na bydd y pethau hyn oll ond pethau achlysurol; nad prif bethau, na hanfodol bethau yr ornestfa fawr a fyddant, o blegid eu bod yn bethau hollol anghysson â natur, ac egwyddorion, ac amcan yr ornest ynddi ei hun. Pan ddywedir yn nghyssylltiad y testyn fod tri ysbryd aflan yn myned allan at freninoedd y ddaiar, a'r holl fyd, i'w casglu i ryfel y dydd hwnw, ni oddef rheswm i ni gymmeryd y geiriau hyn mewn ystyr naturiol a llythyrenol; o blegid pa ran o'r ddaiar a ddichon gynnal y fath dyrfa gyda'u gilydd. Ond dywedir ein bod i ddeall wrth yr ymadroddion, fod dynion, o dan lywodraeth egwyddorion drwg a thwyllodrus yn dyfod i gynghrair, i gytundeb a chydweithrediad, dros ormes mewn llywodraethau gwladol, dros grefydd o osodiad dynion, a thros ymarferiadau paganaidd, er gwrthsefyll llwyddiant teyrnas y Cyfryngwr, megys y dywed Ioan yn *Dad.* xvii. 13, 14: "Yr un meddwl sydd i'r rhai hyn, a hwy a roddant eu nerth a'u hawdurdod i'r bwystfil;" sef y deg brenin y dywed Ioan am danynt o'r blaen. Y cynghrair a'r undeb hwn ydyw eu Harmagedon hwy, yn yr hwn yr ymddiriedant. Ond trwy hwn y daeth eu hollol ddinystr hwy, trwy i'r Arglwydd, drwy ryw oruchwyliaeth, ddiddymu eu cynghrair, a'i wneyd yn lle eu dinystr; o blegid y ddinas fawr a wrthsafai deyrnas Iesu Grist a wneir yn dair rhan, fel y dyfethant eu gilydd:—yn debyg fel y bu yn ninystr y Midianiaid gynt, a'r fuddugoliaeth a ennillodd Gideon â'i dri chan ŵr, heb iddynt wneuthur dim ond dal y goleuni i'r gelynion ddinystrio eu gilydd: *Barn.* vi. Y mae rhai yn tybied fod yr olwg hon ar frwydr Armagedon y gyssonaf a welwyd â'r darluniad a rydd Ioan o honi yn *Dad.* xix. 11—16, ac â dyledswydd yr eglwysi i ledaenu egwyddorion

Digitized by Google

gwir grefydd trwy y byd, ac nid i ymddiried mewn arfau a goruchwyliaethau anianyddol.

Ond pa un bynag o'r golygiadau hyn ar y frwydr hon sydd yn gywir, gallwn fod yn ddigon sicr y bydd i amser—hen esboniwr y proffwydoliaethau—esbonio hon hefyd yn fuan, os nad yw yn dechreu y dyddiau hyn yn y terfysgoedd presennol. Gwel MILFLWYDDIANT; PHIOLAU.

ARMENIA: talaeth eang o Asia, yn cynnwys y wlad a elwir Turcomania, a rhan o Persia; yn cael ei ffinio ar du y gogledd gan Georgia, o du y deheu gan Kurdistan—yr un a hen wlad Assyria—ac ar du y gorllewin gan Asia Leiaf, yr hon yn awr a elwir Natolia. Mae y dalaeth yn cynnwys tarddiadau y Tigris a'r Euphrates, yr Araxes a'r Phasis; ac yma hefyd y tybir y gorweddai gwlad Eden, hen orsaf paradwys.

Camgymmerir Armenia yn aml am Aramæa, tir Aram, neu Syria; ond y maent yn gwbl wahanol. Ysgerir Armenia oddi wrth Aram gan fynydd Taurus; ac fe farnai Bochart iddi gael ei henwi felly oddi wrth Har-Minni, mynydd-dir Meni neu Minni—y bobl y crybwyllir eu gwlad dan yr enw yma gan Ieremïah, pan y gwysiai y Cenedloedd yn erbyn Babilon. Fe'i dosberthid gynt i Armenia Fwyaf ac Armenia Leiaf. Yn y daflen achyddol a ganfyddir yn *Gen.* x., darlunir Thogarmah megys mab ieuengaf Gomer, tad y Cimmeriaid, y rhai a gyfanneddent y Crimea, ar lan y Môr Du, ac o'r rhai, fel y tybir, yr hanodd y Cymry. Ei feibion ereill oeddynt Ascenas a Riphath, henafiaid llwythau gogleddol, yn mysg pa rai hefyd y mae yn briodol ymofyn am hiliogaeth Thogramah: *Gen.* x. 3; 1 *Cron.* i. 6. Y mae Ezeciel hefyd (*pen.* xxxviii. 6) yn cyssylltu "tŷ Thogarmah, o ystlysau y gogledd," â Gomer; ac yn *Ezec.* xxvii. 13, 14, fe'i cyssylltir â "Mesech a Tubal," yr unrhyw, fe allai, a llwythau y Moschi a'r Tibereni. yn y Caucasus. Y mae traddodiadau y wlad hon, a'r gwledydd cymmydogol, yn cadarnhau y golygiad yma mewn modd neillduol. Dywed Moses o Chorene, fod yr Armeniaid, y Georgiaid, y Lesghiaid, y Mingreliaid, a'r Caucasiaid, oll yn hanu o un cyndad cyffredinol, a elwid Thargamos, fab Awanan, fab Iapheth, fab Noah. Wedi y gwasgariad yn Babel, efe a ymsefydlodd yn agos i Ararat; ond ei hiliogaeth a ymwasgarasant rhwng y Môr Du a'r Môr Gwyn. Dyfynir adroddiad cyffelyb o hen Frut Georgiaidd, gan y teithydd Ellmynaidd, Guldenstedt; sef, bod Targamos yn dad i wyth o feibion, yr henaf o ba rai oedd Aos, tad yr Armeniaid. Galwant eu hunain hyd heddyw, "Tŷ Thorgom." Dywedir yn *Ezec.* xxvii. 14, "Y rhai o dŷ Togarmah a farchnatasant yn dy ffeiriau, â meirch, a marchogion, a mulod:" ac y mae yn hysbys fod Armenia yn enwog er yn fore am ei meirch; canys anfonai rhaglaw Armenia ugain mil o ebolion i lys Persia yn flyneddol, i wledd Mithras.

Dywed Herodotus yr arferent farchnata yn helaeth mewn gwin, yr hwn a anfonent i waered ar hyd yr Euphrates i Babilon: ac y mae masnachwyr Armeniaidd i'w canfod yn wasgaredig dros holl Ewrop; ac mor eang y dygent eu hanturiaethau masnachol yn mlaen ar un tymmor, fel yr oedd holl drafnidiaeth y dwyrain o'r bron yn eu llaw. Sylwa Buchanan, fod Armeniaid i'w cael yn holl brif ddinasoedd Asia, lle eu perchir ar gyfrif eu hymddygiadau canmoladwy. Y maent wedi ymsefydlu yn yr holl brif leoedd yn India, lle y gwladychasant amryw ganrifoedd o flaen y Seison.

Nid yw yr Armeniaid yn gwahaniaethu nemawr oddi wrth y Tyrciaid a'r Persiaid yn eu harferion a'u defodau, oddi eithr yn eu hymlyniad wrth amryw ddefodau Iuddewig.

Nid yw yr enw Armenia yn adnabyddus yn y wlad ei hunan; ond gelwir y bobl Haik, a'r wlad Hayotz-zor, sef Dyffryn yr Haikiaid—oddi wrth Haik, y pummed o Noah, yn llinach Iapheth, yn ol achyddiaeth draddodiadol y wlad.

Math o ucheldir ydyw y wlad, oddi ar yr hwn yr ymgyfyd mynyddoedd, y rhai, oddi eithr yr Ararat cawraidd, ydynt o uchelder cymmedrol; ac y mae yn gogwyddo yn raddol tua gwastadedd Iran ar y tu dwyreiniol, ac iseldiroedd Asia Leiaf ar y tu gorllewinol. Mae yr hinsawdd yn y cyffredin yn oer, ond yn iachus; cynnwysa lawer iawn o fynydd-dir coediog, a phorfeydd breision, yn enwedig yn y rhandiroedd agosaf at Persia.

Yr oedd teyrnas gynt, a elwid Breniniaeth Armenia, a'i phrif ddinas a elwid Artaxata. Bu unwaith yn wladwriaeth annibynol, ond yn fwyaf cyffredin dan deyrnged i ryw gymmydog galluocach. Yn wir ni bu yr holl diriogaeth yma ar unrhyw bryd yn llwyr dan yr un llywodraeth; ond byddai Assyria, Media, Syria, a Chappadocia, yn cydhawlio arglwyddiaeth ar ranau o'r wlad, fel y mae yn rhanedig yn bresennol rhwng y Persiaid, y Rwssiaid, y Tyrciaid, a'r Kurdiaid; canys nid oes le i ammheu nad oedd y rhan hono o Kurdistan, lle y mae llynoedd Van ac Oromiah, yn perthyn i Armenia yn yr hen oesoedd.

Darfu i'r teithydd Ellmynaidd, Schulz, yr hwn a lofruddiwyd gan un o'r penaethiaid Kurdaidd, ddarganfod adfeilion tref hen iawn, yn agos i lyn Van, yn y flwyddyn 1827; yr hon y tybiai mai yr un ydoedd ag a alwai yr haneswyr Armeniaidd, Shamiramakert (sef tref Semiramis), am y credid mai gan y frenines Assyriaidd enwog hono ei hadeiladwyd. Y mae yr adfeilion hyn yn orchuddiedig gan gerfiadau mewn hen lythyrenau, a meddyliai St Martin ei fod wedi canfod ar un o honynt y geiriau *Khshéarsha* fab *Dareioush* (Xerxes fab Darius). Mewn oesoedd diweddarach, bu Armenia yn faes brwydrau mynych rhwng y Rhufeiniaid a'r Parthiaid; ac wedi hyny bu mynych ymladdfeydd ar yr ucheldiroedd hyn rhwng y galluoedd cymmydogol. Bernir yn gyffredin nad yw holl nifer yr Armeniaid trwy y byd uwch law 2,000,000.

ARMENIA, EGLWYS. Sefydlwyd Cristionogaeth yn Armenia yn y bedwaredd ganrif, yn benaf trwy lafur Gregory, a gyfenwid "y Goleuadur;" a chyfrifid yr eglwys hon megys cangen o Eglwys Groeg, ac yn ddarostyngedig i esgobaeth Caer Cystenyn, hyd y seithfed ganrif, pan yr ymneillduodd yr Armeniaid o gymmundeb âg Eglwys Groeg, am iddynt gymmeryd i fyny y syniad cyfeiliornus hwnw, nad oes ond un natur yn Nghrist; neu ei fod ef yn Dduw ac yn ddyn, heb fod y naturiaethau hyn yn unedig mewn un person. Collfarnid y syniad yma yn Nghynghorfa Calcedon.

Wedi i'r Armeniaid ffurfio eglwys anymddibynol oddi ar Eglwys Groeg, hwy a barhasant i gadw i fyny y ffurf esgobawl o lywodraeth eglwysig; ond hawlient y rhagorfraint o ethol eu hesgobion eu hunain. Yn y bummed ganrif, dosberthid Armenia yn bymtheg o daleithiau, y rhai a adrenid yn 191 o esgobaethau.

Llywodraethir yr eglwys gan dri phatriarch, preswylfod y penaf o ba rai sydd yn Echmiadzin,

Digitized by Google

neu Errivan; a'i arglwyddiaeth ef a gyrhaeddai Turmania, neu Armenia Fwyaf. Yr ail batriarch a breswyliai yn Armenia Leiaf, a'r trydydd yn Georgia. Er mai yr esgobion a etholant y patriarch penaf, rhaid i'w etholiad gael ei gymmeradwyo a'i gadarnhau gan frenin Persia, cyn y gall weini ei swydd. Y mae yn llywodraethu ar ddau a deugain o archesgobion, pob un o ba rai a allent ofyn ufudd-dod pedwar neu bump o is esgobion.

Yr ail batriarch, yr hwn sydd yn ddarostyngedig i'r cyntaf, a lywodraetha yr eglwys yn Cappadocia, Cilicia, Cyprus, a Syria, ac y mae deuddeg o archesgobion dan ei arglwyddiaeth. Y trydydd, yr hwn a lywodraetha yr eglwys yn Georgia, nis medd namyn wyth neu naw o is esgobion dano.

Mae gan yr Armeniaid batrieirch ereill heb law y tri penaf, a nodwyd uchod, mewn amryw wledydd; felly y mae un yn Nghaer Cystenyn, un arall yn Ierusalem, a thrydydd yn ymherodraeth Rwssia; ond y maent oll yn ddarostyngedig i'r prif batriarch.

Y mae yr Armeniaid yn cydnabod Credo Nice, ac yn gwneyd defnydd beunyddiol o Gredo yr Apostolion. Y maent yn Fonophysiaid, mor bell a'u bod yn dal nad oes dim ond un natur yn Nghrist; ond gwahaniaethant oddi wrth y blaid a elwir felly mewn amrywiol olygiadau pwysig: ac nid oes unrhyw gymmundeb rhyngddynt a'r gangen hono o'r Monophysiaid a elwir y Jacobiaid, nac â'r Coptiaid neu yr Abyssiniaid. A ganlyn sydd grynodeb o ddaliadau yr Eglwys Armenaidd:— Credant fod ein Iachawdwr wedi disgyn i uffern, a rhyddhau holl eneidiau y damnedigion trwy raslonrwydd ei bresennoldeb gogoneddus; ac nad oedd y rhyddhad yma ddim dros byth, na thrwy faddeuant cyflawn, ond hyd ddiwedd y byd yn unig, pan y dychwelant i'w lle blaenorol o boenedigaeth. Maent yn dal nad oes nac eneidiau na chyrff neb o'r saint na'r prophwydi yn y nef, oddi eithr yr eiddo y Wyryf Fair, a'r prophwyd Elias, ac na chant ddyfodfa i'r nef hyd ddydd y farn; er hyny, gan efelychu eglwysi Groeg a Rhufain, y maent yn galw ar y saint hyny yn eu gweddïau; a chan eu tra pharchu, addolant eu delwau a'u lluniau, a llosgant ganwyllau a lampau iddynt. Arferant addoli yn ol dull y dwyreinwyr, trwy ymgrymu ar y ddaiar, a chusanu y llawr dair gwaith. Pan elont gyntaf i'r addoldy, diosgant eu penau, ac ymgroesant dair gwaith, ac wedi hyny gorchuddiant eu penau, ac eisteddant yn drawsgoes ar garpedau. Cyflawnir y rhan fwyaf o'r gwasanaeth crefyddol yn y plygain, cyn toriad y dydd, ac y maent yn dra gofalus am gadw gwyliau yr eglwys; ac ar bob prydnawn Sadwrn, cyrchynt i'r llanau, a pheraroglant eu tai âg arogldarth ar eu dychweliad adref. Y mae holl Salmau Dafydd yn cael eu darllen yn eu mynachlogydd bob pedair awr ar ugain; ond yn y dinasoedd a'r llanau, fe'u dosberthir yn wyth ran, a pbob cyfran i wyth o adranau, ac ar derfyn pob un o honynt y dywedir y *Gloria Patri* ("Gogoniant i'r Tad").

Cydnebydd yr Armeniaid saith sacrament, fel y gwna Eglwys Rhufain; a gweinyddant y bedydd a'r cymun mewn modd tra neillduol. Arferant drochi neu suddo; yr hyn a gyfrifant yn hanfodol i'r sacrament. Wedi bedyddio, cymhwysant y glwysolew, ac eneinir y talcen, y llygaid, y clustiau, cledrau y dwylaw, a gwadnau y traed, âg olew cyssegredig, ar lun y groes. Gweinyddant y cymun i'r baban hefyd, gan rwbio yr elfenau ar ei wefusau. Yna cludir y plentyn adref gan y tad bedydd, yr hwn a ddilynir gan seindorf yn chwareu ar dabyrddau ac udgyrn. Nid ä y fam i'r eglwys dros ddeugain niwrnod wedi esgor o honi. Ar y Sabbathau a'r prif wyliau yn unig y gweinyddant y cymun, yr hyn a wnant drwy wlychu y bara yn y gwin; ac felly mae y cymunwr yn derbyn y ddau yn nghyd: ac yn hyn y maent yn gwahaniaethu oddi wrth eglwysi Groeg a Rhufain a'r eglwysi Protestanaidd. Ar y cyfan, y mae llawer iawn o debygolrwydd rhwng defodau a seremonïau yr Eglwys Armeniaidd a'r eiddo Eglwys Groeg. Y mae ffurfweddïau y ddwy eglwys agos yr unrhyw; ond y mae gwyliau yr Armeniaid yn fwy lluosog, ac fe'u cedwir gyda mwy o fanylrwydd. Y mae eu dysgyblaeth fynachaidd mewn bri mawr, a dygir hi yn mlaen gyda llymder mawr. Caniatânt i'w hoffeiriaid briodi unwaith; ond rhaid i'r patriarchiaid a'r esgobion aros mewn cyflwr o wyryfdod manwl.

ARMENIAEG: iaith Armenia, yn ngorllewin Asia. Nid yw ieithyddwyr yn cytuno yn iawn gyda pha ddosbarth o ieithoedd i'w rhestru, nac i ba deulu y mae yn perthyn. Dywed Cirbied, yr un modd a Severin Vater, ei bod yn iaith wreiddiol; sef ei bod mor wahanol i bob iaith arall o ran ei hansawdd a'i theithi hanfodol, fel nas gellir yn briodol ei gosod yn yr un teulu ag un arall o ieithoedd y byd adnabyddus. Hona Eichhorn, o'r tu arall, fod iaith ddysgedig Armenia yn perthyn tu hwnt i bob dadl i dafodieithoedd Media a Phersia. Ond dywed Pott, er bod ynddi lawer o bethau fel yn arwyddocau perthynas â'r teulu hwnw, nas gellir yn briodol ei hystyried megys cangen o hono; ac aeth I. C. Gatterer, yn ei anwybodaeth, mor afresymol a'i chyfrif yn chwaer i'r Basceg, y Ffinaeg, a'r Gymraeg! fel pe buasai yr ieithoedd hyny, druain, heb un gyfathrach rhyngddynt â neb ereill o ieithoedd y ddaiar. Yn ol Claproth, iaith arw, lawn o gydseiniaid ydyw. Heb law amryw o wreiddiau Ind-Ewropaidd a geir ynddi, y mae yn dwyn cryn berthynas â thafodieithoedd Siberia, ac ereill o ieithoedd gogledd Asia. Y mae ei gramadeg yn dra chymysglyd a dyrys; ac, fel rhai o ieithoedd gogledd Ewrop, y mae yn cyssylltu y bannod wrth ddiwedd y geiriau, yn lle ei osod o'u blaen, fel y gwelir mewn ieithoedd yn gyffredin. Y mae iddi ddeg o gyflyrau neu gwympodau yn y rhif unig ac yn y rhif lluosog; ac yn nghyfymrediad y perwyddiad canfyddir yr un cyflawnder. Dywedir nad oes iddi rif deuol; ac nad yw yn gwahaniaethu rhwng cenedl geiriau; a phan orfydd arni ddynodi yr ystlen, gwna hyny trwy chwanegu gair cyfystyr â *gwr* neu *wraig* at ddiwedd y gair; megys, *prophwyd-wraig* yn lle *prophwydes*, *prydydd-wraig* yn lle *prydyddes*, &c. Y mae ei chystrawen mewn llawer o bethau yn gryn debyg i gystrawen y Groeg, yn enwedig yn y defnyddiad o'r cyfraniad.

Y mae hen iaith lenyddol Armenia mor wahanol yn ei gramadeg a'i chyfansoddiad i Armeniaeg y dydd heddyw, fel y gellir heb un anmhriodoldeb ystyried y flaenaf megys iaith farw. Yn ei hawduron goreu, gan nad o ba oes neu ran o'r wlad y perthynant, nid oes dim amrywiaeth tafodiaeth yn ganfyddadwy. Yn yr Armeniaeg ddiweddar, mae llawer o eiriau o ieithoedd estronol, yn enwedig o'r Dyrcaeg, wedi eu benthycio: y mae y gramadeg wedi ei gyfnewid; ac y mae y cystrawiad, i gryn raddau, wedi ei lunio yn ol dull a rhediad yr iaith Dyrcaidd.

Digitized by Google

Cynnwysa egwyddor yr Armeniaeg ddeunaw ar ugain o lythyrenau, y rhai, meddir, a ddyfeisiwyd gan Mesrob, yn y bummed ganrif, ac a ddygwyd ganddo i arferiad yn ei gyfieithiad o'r Beibl i'r iaith hono. Y mae y llythyrenau, gan mwyaf, wedi eu ffurfio oddi wrth y llythyrenau Groeg; ond gan na chynnwysai yr iaith hono y nifer gofynol, benthyciwyd lluniau rhai o'r llythyrenau o'r Zend, neu hen iaith gyssegredig y Parswys. Darllenir hi o'r llaw aswy i'r llaw dde, yr un modd a'r ieithoedd gorllewinol; ac nid o'r dde i'r aswy, yn ol trefn yr Hebraeg, ac ereill o'r ieithoedd Semitig. Cyn amser Mesrob, llythyrenau Groeg a Syriaeg a ddefnyddid gan yr Armeniaid; ond byth oddi ar ei amser ef daeth ei ddyfais i arferiad cyffredinol, gan wneuthur ei enw yn anfarwol yn mhlith ei gydwladwyr. Dywedir mai mewn breuddwyd neu weledigaeth y canfu Mesrob ar y cyntaf y llythyrenau a gyfansoddant yn awr yr egwyddor Armeniaeg.

Yn mhlith y cynnorthwyon goreu i ddysgu iaith Armenia, cyfrifir y llyfrau canlynol:—*J. J. Schröderi, Thesaurus Linguæ Armenicæ*, 4plyg, 1711; *A Grammar, Armenian and English, by Father Paschal Aucher*, 8plyg, 1819; *Dictionaire abrégé Francais-Armenien, Par Paschal Aucher*, 8plyg, 1812; *Choix de Fables en Armenien et en Francais*, 8plyg, 1825.

ARMENIAEG, CYFIEITHIAD. Cyfieithwyd yr Ysgrythyrau i iaith Armenia mor gynnar a dechreu y bummed ganrif, gan Mesrob neu Miesrob, brodor o Hasecos, yn nhalaeth Taran, yn y wlad hono; a chafodd ei gynnorthwyo yn y gorchwyl gan Ioannes-Ecclensis a Iosephus Palnensis, dau o'i ddysgyblion. Yr hanes yn nghylch y cyfieithiad a red yn debyg i hyn:—Gwedi dyfeisio o Mesrob lythyrenau cyfaddas i osod allan wahanol seiniau yr iaith, efe a frysiodd i fynegu ei ddarganfyddiad i'r brenin oedd y pryd hwnw yn teyrnasu yn Armenia; ac i Isaac neu Sahag, patriarch y wlad hono, yr hwn yn ebrwydd a sefydlodd ysgolion mewn gwahanol barthau, i ddysgu darllen ac ysgrifenu. Gwedi hyn, dygwyddodd i Mesrob fyned i ymdeithio i rai o'r gwledydd cyfagos; a phan ddychwelodd adref, cafodd y patriarch Isaac yn ddiwyd wrth y gorchwyl o gyfieithu y Beibl allan o'r Peshito-Syriaeg, am nad oedd cymmaint ag un lawysgrif o'r testyn Groeg i'w chael yn yr holl wlad, o blegid peri o'r Persiaid, ychydig cyn hyny, losgi yr holl lyfrau yn yr iaith hono. Ymroddodd Mesrob i gynnorthwyo y patriarch, ac yn mhen amser gorphenwyd y cyfieithiad. Yn y flwyddyn 431, anfonwyd y ddau ddysgybl crybwylledig i gynghor eglwysig yn Ephesus; a phan ddychwelasant, dygasant gyda hwynt ysgriflyfr cyflawn a chywir o'r Beibl Groeg. Ar hyn taflodd Mesrob y cyfieithiad o'r Syriaeg o'r neilldu, a dechreuodd gyfieithu o newydd allan o'r testyn Groeg a ddygasid o Ephesus. Eithr cyn myned nemawr yn mlaen gyda'r gorchwyl, canfu fod ei wybodaeth o'r Groeg yn annigonol, ac yn rhy ddiffygiol iddo fyned rhagddo â'r gwaith; a pharodd hyn iddo anfon y ddau ddysgybl i Alexandria, i berffeithio eu hunain yn yr iaith Roeg. Ar eu dychweliad, ymroddodd Mesrob, yn nghyd â'r patriarch Isaac, ar yr un gorchwyl canmoladwy drachefn, ac nid hir y buwyd cyn ei ddwyn i'w ddiweddglo. Dywed Moses Chorenensis, hanesydd Armenia, yr hwn hefyd oedd ddysgybl i Mesrob, ac yn ei gynnorthwyo yn ei lafur llenyddol, i'r gwaith gael ei orphen yn y flwyddyn 410: ond os cywir y cyfeiriad at Gynghor Ephesus, nis gallai gael ei gwblhau cyn B. A. 431. Pa fodd bynag, amlwg yw i'r gwaith gael ei wneuthur yn lled gynnar yn y bummed ganrif.

Nid yw y cyfieithiad boreuol hwn yn aros hyd heddyw yn hollol yr un fath ag y gadawyd ef gan Mesrob; ond diwygiwyd a chyfaddaswyd ef at y Peshito-Syriaeg yn y chweched ganrif, pryd y cymmerodd undeb eglwysig le rhwng y Syriaid a'r Armeniaid. Ac nid hwn, meddir, yw yr unig gyfnewidiad a wnaethpwyd ynddo. Yn ystod y crwysgadau, yn y drydedd ganrif ar ddeg, yr oedd llywodraethwyr Armenia yn bur gydnabyddus â galluoedd gorllewin Ewrop, ac nid oedd yr iaith Ladin yn hollol anhysbys iddynt. Y canlyniad o hyn a fu, troi o un o'u breninoedd, a elwid Hethom neu Haitho, yn Babydd; a chymmaint oedd ei frwdfrydedd o blaid y grefydd hono, fel y bu iddo ymwrthod â'i goron, a myned yn fynach yn ol urdd St. Francis; ac efe a gyfnewidiodd yr hen gyfieithiad Armenaidd, ac a'i gwnaeth i gytuno â'r cyfieithiad Lladin Cyffredin, er mwyn palmantu y ffordd i uno Eglwys Rhufain ac Eglwys Armenia â'u gilydd. Yn olaf, dywedir ddarfod i'r esgob Uscan, yn 1666, lygru y testyn mewn amryw fanau, trwy chwanegu pob peth oedd yn *fwy* yn y Lladin Cyffredin nag oedd yn yr Armeniaeg yn ei amser ef. Y mae y cyfnewidiadau a'r geuddodion diweddar hyn yn gwneuthur y cyfieithiad hynafol hwn i gryn raddau yn ddiwerth mewn golygiad beirniadol.

Sylwa y dysgedigion fod y cyfieithiad dan sylw yn cytuno yn dra manwl â chyfieithiad Groeg y Deg a Thrigain; ond yn Llyfr Daniel, y mae yn dilyn cyfieithiad Theodotion. Nid yw yn canlyn unrhyw adgyweiriad adnabyddus o destyn y Deg a Thrigain. Yn y Testament Newydd hefyd y mae yn dilyn y wreiddiaith gyda'r un manyldeb; a thybir fod y testyn y cymmerwyd ef o hono yn perthyn i'r adgyweiriad Alexandriaidd a'r Gorllewinol. Gwel ADGYWEIRIAD.

Argraffwyd yr holl Feibl yn yr Armeniaeg y tro cyntaf yn Amsterdam, yn y flwyddyn 1666, dan olygiad Uscan, esgob Erivan; ac argraffwyd y Testament Newydd ar ei ben ei hun yn 1668; a dywedir i'r olaf gael ei ail argraffu yn 1698. Cyhoeddwyd argraffiad arall o'r Pedair Efengyl yn 1680. Ymddangosodd amryw argraffiadau diweddarach, o'r sawl gyda'r goreu yr ystyrir eiddo y Dr. Zohrab, yr hwn a argraffwyd yn mynachdy yr Armeniaid yn Venice yn yr Ital, yn y flwyddyn 1789; ail argraffwyd ef yn 1816; ac ymddangosodd argraffiad beirniadol o'r un wasg, yn 1805, a chymharwyd tuag ugain o ysgriflyfrau tuag at ei berffeithio. Cyhoeddwyd llawer o lyfrau Armeniaeg ereill o bryd i bryd o argraffwasg mynachod Armeniaidd San Lazaro yn Venice.—(*Hug's Introduction*, §§ 85 - 89; *Henderson's Biblical Researches; Kitto's Bib. Cyc.*)

ARMINIUS, ARMINIAETH. Iago Armin (Llad. *Jacobus Arminius*) a anwyd yn Oudewater, deheudir Holland, yn 1560. Bu farw ei dad pan oedd efe yn blentyn, ond derbyniodd er hyny bob manteision i ddwyn allan ei gynneddfau cryfion, fel yr enwogodd ei hun mewn dysg. Ar ol dilyn ei efrydiaeth yn Utrecht, Marpurg, Rotterdam, a Leyden, ymwelodd â Beza yn Geneva, fel y gallai gael y fantais helaethaf a feddai yr oes hono i gyrhaedd adnabyddiaeth o olygiadau yr eglwysi Calvinaidd. Ar ol hyn aeth ar daith trwy yr Ital, ac yno y synwyd ef yn fawr gan lygredigaeth Rhufain, yr hyn oedd yn ddyfnach na dim

yr ydoedd wedi ei ddychymygu yn flaenorol. Cofleidiodd Arminius athroniaeth Ramus, yr hwn a osodai ei hun i fyny yn yr oes hono fel gwrthwynebydd Aristotle a'i athroniaeth, yr hon a ystyrid y pryd hwnw yn berffeithrwydd doethineb gan bron bawb. Cafodd yr urdd o D. D. pan yn ddwy ar ugain oed; ac yn chwech ar ugain ordeiniwyd ef yn weinidog yn Amsterdam, lle y pregethodd gyda chymmeradwyaeth mawr. Yma yr amlygodd y syniadau hyny sydd wedi enwogi ei enw, ond a chwerwodd ei oes tra y bu byw. Yn 1603, cafodd y gadair dduwinyddol yn Leyden ar farwolaeth Junius. Dywedir fod Gomar, cadeirdraw enwog mewn duwinyddiaeth yn Leyden, yn wrthwynebol i'w etholiad; ond wedi iddo gael mantais i egluro ei syniadau yn erbyn Pelagiaeth iddo, ei fod wedi ei foddloni. Y flwyddyn ganlynol, traddododd Arminius ddarlith ar Ragluniaethiad Dwyfol, yn yr hon y dywedai fod Duw wedi arfaethu cadw credinwyr, a chospi anghredinwyr. Gwrthwynebodd Gomar y ddarlith hon, ar y tir ei bod yn gwneyd arfaeth yn sylfaenedig ar ragwelediad o ffydd y neb a gredai, ac felly yn ammodol. Dyma ddechreuad y ddadl Arminiaidd. Ymunodd yr efrydwyr, rhai dros Arminius, a rhai dros Gomar. Cynnyddodd y ddadl nes i'r holl wlad gael ei chyffroi ganddi. Yn 1607, cyhoeddodd gweinidogion Gouda holwyddoreg eglur, agos oll yn ngeiriau yr Ysgrythyr; yr hon a wrthwynebwyd gan ereill, am ei bod, meddent, yn agor y porth i bob cyfeiliornad ymlusgo i mewn dan y gochl o eiriau yr Ysgrythyrau. Dywedwyd fod Arminius yn bleidiol i'r holwyddoreg: galwyd Cymmanfa y Taleithiau i roddi cyfleusdra iddo amddiffyn ei hun. Penderfynwyd fod y pynciau mewn dadl ar bethau o ychydig bwys, ac y gallai dyn gredu y naill ochr neu y llall heb wneyd llongddrylliad am ei ffydd, na drygu yr eglwys (*salvâ fide et salvâ ecclesia*). Yn fuan wedi hyn, bu farw Arminius yn 1609, yn 49 ml. oed. Yn ei ewyllys, tystiai, "na phregethodd, ac na chyhoeddodd ddim ond yr hyn, wedi yr ystyriaeth fanylaf, a gredai oedd wir ystyr yr Ysgrythyrau; a bod ganddo, yn yr oll a gyhoeddodd, olwg yn unig ar ledaeniad gwybodaeth o grefydd Iesu Grist, addoliad Duw, yn nghyd â heddwch a sancteiddrwydd pob rhyw ddyn.

Prif nodwedd yr hyn a ddysgai Arminius ei hun, er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth lawer o'i ganlynwyr, oedd—ei fod yn dal fod rhagluniaethiad pechadur i fywyd wedi ei sylfaenu ar ragwelediad o'i ffydd (*ob prævisam fidem*). Mae egwyddorion Arminius i'w cael yn y *Remonstrantia*, sydd yn cynnwys y pum erthygl a gyflwynwyd gan ei ganlynwyr, y flwyddyn ar ol ei farwolaeth, i daleithiau cyffredinol Holland a Friesland gorllewinol, ac o herwydd pa un y galwyd hwynt yn *Remonstrants*.

Gellir dosbarthu hanes Arminiaeth, ar ol marwolaeth Arminius, i dri chyfnod. 1. Hyd Gymmanfa Dort. 2. Oddi yno hyd y goddefiad a ganiatawyd iddynt yn Holland. 3. Hyd yr amser presennol.

1. Y peth cyntaf o bwys, ar ol marwolaeth Arminius, oedd cyflwyniad y pum pwnc, a'r enw newydd a roddwyd iddynt ar yr achlysur, y rhai ydynt fel y canlyn:—(1.) Am ragluniaethiad neu arfaeth:—credent i Dduw er tragwyddoldeb arfaethu rhoddi iachawdwriaeth i'r rhai hyny a barhant hyd y diwedd i gredu yn Iesu Grist, a chospi yn dragwyddol y rhai hyny a barhânt yn eu hanghrediniaeth, ac a wrthwynebant hyd y diwedd ei gynnygiadau grasol; felly fod etholedigaeth yn ammodol, a gwrthodedigaeth yr un modd yn ganlyniad rhagwelediad o anghrediniaeth, a pharhad mewn drygioni. (2.) Am brynedigaeth:—dalient ddarfod i Iesu Grist, trwy ei ddyoddefaint a'i farwolaeth, wneyd iawn dros bechodau holl ddynolryw yn gyffredinol, a phob dyn yn neillduol; ond er hyny nas gall neb gyfranogi o'r lles yn dragwyddol ond a gredo ynddo ef. (3.) Ni all gwir ffydd darddu oddi ar ymarferiad ein synwyrau a'n galluoedd ein hunain, nac oddi wrth rym a gweithrediad ewyllys rydd, gan fod dyn, mewn canlyniad i'r llygredd naturiol, yn analluog i feddwl, nac i wneyd dim daioni; a chan hyny, fod yn angenrheidiol, er ei iachawdwriaeth, iddo gael ei adgenedlu a'i adnewyddu trwy weithrediad yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn rhodd Duw trwy Iesu Grist. (4.) Mai y gras hwn, neu weithrediadau yr Ysbryd Glân, yw dechreuad a pherffeithydd pob peth mawr a daionus mewn dyn; ac o ganlyniad, fod pob gweithredoedd da i'w priodoli i Dduw yn unig: ac er fod y gras hwn yn cael ei gynnyg i bawb, ac nad yw yn gorfodi dynion i weithredu yn groes i'w tueddiadau, eto gellir ei wrthwynebu, a'i wneyd yn aneffeithiol trwy gyndynrwydd pechaduriaid anedifeiriol. (5.) Fod Duw yn rhoddi i'r gwir ffyddloniaid, wedi eu hadgenedlu trwy ei ras, foddion i barhau yn y cyflwr hwn: ond y gall y gwir adgenedledig golli gras, a marw yn eu pechodau.

Cyhoeddodd y blaid arall atebiad [*Contraremonstrantia*] mewn dull llawn mor debyg i chwerwi eu gwrthwynebwyr ag i'w hennill. Yn 1614, cyhoeddodd yr awdurdodau taleithiol fod i'r ddwy blaid roddi eu harfau i lawr, a chyd-ddwyn â'u gilydd mewn cariad. Nid oedd y Gomariaid yn foddlawn i aberthu yr hyn a dybient hwy yn wirionedd ar orchymyn awdurdod daiarol. Cododd hyn y cwestiwn o berthynas yr awdurdod wladol â chrefydd i sylw; a daeth yr hyglod Grotius yn mlaen i amddiffyn iawnderau y blaenaf.

2. Yn 1619, ar ol i bob ymdrechiadau gael eu gwneyd am ddeng mlynedd, neu ragor, i adferu heddwch, cynnaliwyd Cymmanfa Dort [gwel Dort], yn yr hon yr oedd cynnrychiolwyr o wahanol wledydd Protestanaidd Ewrop. Yr oedd penderfyniad y gymmanfa yn erbyn yr Arminiaid; a'r canlyniad fu iddynt gael eu diarddel o swyddi eglwysig, ac o bob cyssylltiad âg ysgolion a cholegau. Yr oedd tua dau cant o leoedd o'r fath yn wag. Ymffurfiasant yn gyfundeb neillduol; a thra yr oeddynt yn dyoddef erlidigaeth, cynnyddent yn gyflym: ond pan dderbyniasant [1630] oddefiad a rhyddid i godi ysgolion ac eglwysi, yr hyn a wnaethant yn Amsterdam a Rotterdam, ac ennill tawelwch trwy holl Holland, dechreuasant leihau mewn rhifedi mor gyflym ag y cynnyddent yn nghanol erlidigaeth. Derbyniasant ganiatâd, yn 1621, i ymsefydlu yn Schleswig, ac y mae yr Eglwys Arminiaidd yn parhau yno hyd yn bresennol.

I'r cyfnod hwn y perthyna Episcopius, yr hwn a'i henwogodd ei hun fwyaf o'r holl ysgrifenwyr Arminaidd, am ei allu i gasglu eu syniadau i gyfundrefn reolaidd. Ond y mae ei olygiadau ef yn gwyro yn mhellach oddi wrth Galviniaeth na'r pum erthygl a gondemniwyd yn Dort. Efe a gyhoeddodd eu cyffes ffydd [*Confessio Remonstrantium*]; cyhoeddodd hefyd gorff o dduwinyddiaeth [*Institutiones Theologicæ*].

3. O hyn allan yr ydym yn eu cael fel plaid dduwinyddol, yn hytrach na sect eglwysig. Ac



Digitized by Google

yn yr ystyr yma cynnyddodd Arminiaeth dros ran fawr o Ewrop Brotestanaidd. Perthynai i'r Arminiaid, fel sect, amryw o ysgrifenwyr dysgedig. Simon Episcopius, yr hwn oedd yn esgob yn eu mysg; ganwyd ef yn y flwyddyn 1583; bu farw 1643, yn Amsterdam: ysgrifenwyd ei fywyd gan Limborch. Safai Hugo Grotius allan drwy holl Ewrop fel ysgolhaig o'r radd uchaf, fel amddiffynydd Cristionogaeth yn ei "lyfr bach euraidd" ar wirionedd y grefydd Gristionogol, heb law fel ysgrifenydd duwinyddol. Courcelles, yr hwn a anwyd yn Geneva, ac olynwr Episcopius yn y gynnulleidfa Arminaidd yn Amsterdam; er nad oedd yn meddu ar yr un athrylith a'i ragflaenor, eto yr ydoedd ei gydnabyddiaeth o hynafiaethau eglwysig yn fwy eang. Ond Limborch, nai Episcopius, a etifeddodd fantell ei ewythr, yn fwy nag un duwinydd Arminaidd arall. Ei brif waith ydyw *Duwinyddiaeth Gristionogol* (*Theologia Christiana*). Y llyfr hwn ydyw y dysgrifiad helaethaf o'r gyfundrefn Arminaidd: ond am eu bod yn proffesu yr egwyddor o ymchwiliad rhydd, ac nid ffyddlondeb i unrhyw gredo penodol, nis gellir cael un llyfr sydd yn gynnrychiolydd perffaith o honynt. Safai Le Clerc yn yr un berthynas i Courcelles ag ydoedd Limborch i Episcopius. Nid amddiffynodd efe Arminiaeth mewn ysgrifeniadau dadleuol; ond y mae ei esboniad ar yr Hen Destament, a mwy felly ei adolygiadau poblogaidd, y *Bibliothèques Universelle*, *Choisie*, a *Ancienne et Moderne*, yn cadw yr ochr hono yn barhaus yn y golwg.

Ni fwynhaodd un sect erioed, mor fach mewn rhifedi, y fath boblogrwydd, a hyny trwy ymdrechiadau llenyddol y dynion hyn. Nid oedd yr Arminiaid yn Holland un amser yn lluosog: nis gallent ennill y bobl; nid oedd ganddynt ond ychydig o eglwysi; ac eto yr oedd eu hysgrifeniadau yn ymledanu dros Ewrop, ac yn gwneyd argraff ar y blaid wrthwynebol. Yr oedd Lutheriaeth eisoes wedi myned yn agos os nad yn hollol Arminaidd. Yn Ffrainc, ennillodd y syniadau hyn lawer o ddylanwad. Ymdrechodd amryw dduwinyddion, megys Cameron, Amyraut, Daille, a Blondel, uno Calviniaeth ac Arminiaeth, yn debyg fel y gwnaeth Baxter yn Lloegr. Yr unig beth hynod yn eu syniadau, medd Hallam, oedd, nad oeddynt yn ymddangos yn wahanol iawn i'r gyfundrefn Awstinaidd, gyda chymmysgedd gwanaidd ac anghelfydd o'r syniadau gwrthwynebol; ond dylanwadasant i ddileu y blaenaf yn raddol, ac ymlithro yn ddiarwybod i'r olaf, fel y daeth Arminiaeth yn lled gyffredin yn yr Eglwys Ddiwygiedig. Blinwyd Eglwys Rhufain hefyd gan y dadleuon hyn. Daliai olygiadau Awstin ei hun, eto condemniai bawb arall a wnai hyny. Syrthiodd Baius dan ei dedfryd am briodoli gormod i ras, a bu agos i Molina syrthio yn aberth am briodoli rhy fach. Y Dominiciaid oedd o blaid Awstiniaeth, a'r Jesuitiaid yn ei herbyn, ac nid oedd ond gwasanaethgarwch a dylanwad yr olaf yn erbyn Protestaniaeth a'i cadwodd hithau rhag cael ei darostwng. Yn amser Calvin yr oedd Eglwys Rhufain yn fwy ffafriol i syniadau Awstin; ond ar ol hyny, ochrai yn fwy at Arminiaeth, a pheryglwyd yr eglwys ei hun trwy y ddadl a gymmerodd le rhwng y ddwy blaid. [Gwel JANSENIUS.]

Ond efallai mai yn Lloegr y cynnyddodd y dduwinyddiaeth Arminaidd fwyaf. Dechreuodd ledaenu yn amser y breninoedd James a Charles, a hyny mewn undeb âg astudiaeth o dadau y bedwaredd a'r bummed ganrif, y rhai a osodwyd i fyny yn safon ffydd uniawngred. Ond efallai mai yr ymosodiad cyntaf o natur gyhoeddus ac amlwg a wnaed ar syniadau y Diwygwyr oedd mewn traethodyn Lladin dienw, yr hwn a elwir, *Fur Prædestinatus* (Lleidr Etholedig), a gyhoeddwyd yn 1651. Ymddyddan ydyw rhwng lleidr dan ddedfryd marwolaeth â'r gweinidog sydd yn ymweled âg ef, yn yr hwn y dadgan y lleidr ei sicrwydd o iachawdwriaeth. Yr archesgob Sancroft, y pryd hwnw yn ddyn ieuanc, oedd ei awdwr. Dyma y prawf goreu o'i allu a roddes yr archesgob: ac eto gelwir ef gan Macaulay [*History of England*] "*a hideous caricature.*" Ei amseriad, fel yr ymosodiad cyntaf ar enwau mawr y Diwygiad, yw yr unig arbenigrwydd a berthyn iddo. Efallai nad oedd i'w ddysgwyl oud i blaid y llys goleddu syniadau Arminaidd, pan yn dyoddef dan Cromwell a'r sectau Calvinaidd. Felly, o'r amser hwn, yr ydym yn gweled fod ysgrifenwyr galluocaf Eglwys Loegr yn amlygu tueddiadau Arminaidd—rhai yn hytrach trwy eu dystawrwydd, megys Barrow, yn ei bregethau; ac ereill yn fwy agored, megys South. Y mae yn wir fod eithriadau yn mysg y dynion blaenaf, megys Sanderson; ond eto fe gododd ysbryd mwy gelynol yn erbyn penderfyniadau Cymmanfa Dort, a chyfnewidiodd Arminiaeth Pelagiaidd y tymmor hwn holl wyneb yr Eglwys Sefydledig. Amlygwyd hyn yn benaf yn mhlith y rhai hyny a alwyd tuag amser yr Adferiad (*Restoration*) yn Latitude-men neu Latitudinarians (*Rhyddymofynwyr*), wedi eu haddysgu yn egwyddorion Episcopius a Chillingworth, yn wrthwynebol i Babyddiaeth—yn fwy eiddigeddus dros Plato a Plotinus, na thros egwyddorion uniawngred. Enwa Burnet [*History of his own Times*] y rhai canlynol fel arweinwyr y duedd hon:—More, Cudworth, Whichcot, Tillotson, a Stillingfleet. Ar ol y Chwyldroad, nid oedd ond ychydig o ddynion o enwogrwydd o fewn cyffiniau yr Eglwys Sefydledig a ymdrechai gadw llwybr canol. Gweithiau duwinyddol Episcopius oedd yn llaw yr efrydwyr yn y ddwy brifysgol—Caergrawnt a Rhydychain—fel y corff goreu o dduwinyddiaeth a ymddangosodd erioed. Can mlynedd yn flaenorol i hyn, *Institutes* Calvin oedd yn gwasanaethu y dyben hwn yn yr un sefydliadau.

Y dull a gymmerwyd i ddadsylfaenu syniadau Awstinaidd yn y deyrnas hon oedd—weithiau, drwy ymosodiad dadleuol yn eu herbyn; bryd arall, drwy esboniadau i roddi lliw gwrthwynebol ar iaith yr Ysgrythyr; ond yn fwy mynych drwy ddyrchafu dyledswyddau moesol a chyfraith natur. O'r rhai blaenaf, y prif waith ydyw *Harmonia Apostolica*, gan Bull—1669. Gwrthwynebwyd ef gan y Lutheriaid; nid oeddynt hwy eto wedi colli yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd. Egwyddor sylfaenol Bull yn ei *Harmonia* ydyw, fod geiriau Paul i gael eu hesbonio yn unol âg ymadroddion Iago, lle y mae gwahaniaeth rhyngddynt. Rhydd esboniad Hammond liw gwahanol ar epistolau Paul i'r hyn a welir yn esboniadau y Diwygiad. Safai enw Hammond hefyd mor uchel gyda gweinidogion yr Eglwys Sefydledig, nes troi ffrwd esboniadaeth yn y cyfeiriad hwnw.

Yn nechreuad y diwygiad Methodistaidd, cymmerodd y Parch. John Wesley i fyny opiniynau Arminius fel ei gredo neu gyfundraeth athrawiaethol, gan ei galw "y gyfundraeth fwyaf ddynol a rhesymol a osodwyd allan gan unrhyw oes na chenedl." Ei fod yn ystyried ei hun yn Arminiad o egwyddorion Arminius sydd amlwg, yn ei waith

Digitized by Google

yn galw ei gyhoeddiad cyfnodol yn *Arminian Magazine.* Yn ei amddiffyniad o hono ei hun ac Arminius, wedi dangos y gwahaniaeth rhwng Arminiaeth ac Ariaeth, a rhoddi crynodeb o hanes Arminius, efe a ddywed—"Y cyfeiliornadau a briodolir iddynt (y rhai a elwir Arminiaid) gan eu gwrthwynebwyr ydynt bump. 1. Eu bod yn gwadu y pechod gwreiddiol. 2. Eu bod yn gwadu cyfiawnhad trwy ffydd. 3. Eu bod yn gwadu rhagluniaethad diammodol. 4. Eu bod yn gwadu fod gras Duw yn anorchfygol. Ac yn 5. Eu bod yn haeru y gall credinwyr syrthio oddi wrth ras. Ni ddarfu un dyn erioed, hyd yn oed John Calvin ei hun, ddal pechod gwreiddiol a chyfiawnhad trwy ffydd yn gryfach, yn eglurach, nac mewn geiriau mwy penderfynol, nag y darfu i Arminius wneyd. Gan hyny, y mae y ddau bwnc hwn i gael eu taflu allan o'r ddadl. Y mae y ddwy blaid yn cytuno ar y ddau. Yn y ddau hyn nid oes drwch blewyn o wahaniaeth rhwng Mr. Wesley a Mr. Whitefield. Ond y mae gwahaniaeth anwadadwy rhwng y Calviniaid a'r Arminiaid ar y tri ereill. Yma y maent yn gwahaniaethu—y cyntaf yn dal rhagluniaethiad diammodol—yr olaf, ammodol. Y mae yr Arminiaid yn dal i Dduw arfaethu er tragwyddoldeb o berthynas i'r rhai sydd ganddynt y gair ysgrifenedig, 'Y neb a gredo a fydd cadwedig; a'r neb ni chredo a ddemnir:' ac mewn trefn i hyn, i Grist farw dros bawb oedd yn feirw mewn camweddau a phechodau: hyny yw, dros bob plentyn i Adda, gan mai yn Adda y mae pawb yn meirw. Y Calviniaid a ddywedant fod gras Duw yn anorchfygol:—yr Arminiaid, mai, er y gall gras Duw weithredu yn anorchfygol, eto, yn gyffredin, y gall unrhyw ddyn wrthwynebu, a hyny i'w ddinystr tragwyddol y gras trwy yr hwn yr oedd ewyllys Duw iddo gael ei achub yn dragwyddol. Dywed y Calviniaid fod yn anmhosibl i wir gredadyn yn Nghrist syrthio oddi wrth ras:—ond dywed yr Arminiaid, y gall gwir gredadyn wneyd llongddrylliad am y ffydd—y gall syrthio nid yn unig yn ol yn mhell, ond yn hollol, fel ag i fod byth yn golledig. Yn wir (meddai efe, yn ebrwydd) y mae y ddau bwnc olaf—gras anorchfygol, a pharhad sicr hyd y diwedd—yn ganlyniad naturiol y cyntaf, sef arfaeth ddiammodol. Cred yr Arminiaid ei bod yn ammodol, a'r Calviniaid ei bod yn ddiammodol."

Y mae Arminiaeth Wesley yn gwahaniaethu yn hanfodol mewn sylwedd ac ysbryd oddi wrth yr hyn a broffeswyd yn Eglwys Loegr y ganrif ddiweddaf gan y rhai a gydsynient â golygiadau Whitby a Tomline. Fel y dywed ef ei hun, cydsyniai yn mron yn mhob peth â'r eiddo Arminius ei hun. Y mae cyfundrefn dduwinyddol y ddau ddyn enwog hyn yn cynnwys yr athrawiaethau a ddysgir gan Galviniaid am hollol lygredd natur dyn, am ailenedigaeth a sancteiddiad trwy nerth yr Ysbryd Glân, ac am gyfiawnhad trwy ffydd yn unig. Ond ymwrthododd canlynwyr Arminius â'r athrawiaethau hyn. Gwadwyd hwynt hefyd, neu esboniwyd hwynt ymaith i fesur mawr gan Arminiaid Eglwys Loegr, y rhai sydd wedi dilyn syniadau Episcopius, Courcelles, a Limborch, yn hytrach. Y syniad cyffredin am Arminiaeth, fel yr ymddengys mewn hanesiaeth dduwinyddol, ydyw — ei bod yn cynnwys yr athrawiaethau o dduwdod ac iawn y Gwaredwr, yn erbyn Sociniaid; a gwadiad o athrawiaethau neillduol Calviniaeth, am etholedigaeth ddiammodol i fywyd tragwyddol, gras anorchfygol mewn dychweliad, a pharhad mewn gras. Ond y mae gwahaniaeth pwysig rhwng dau ddosbarth o dduwinyddion a elwir fel eu gilydd yn Arminiaid, yn ol fel y mabwysiadent olygiadau Calvinaidd, neu Pelagiaidd, am bechod gwreiddiol, ailenedigaeth, a chyfiawnhad. Ni ddylid colli golwg ar y gwahaniaeth hwn: a gwahaniaethir y ddau ddosbarth yn ddigon priodol trwy yr enwau Arminiaid Efengylaidd, ac Arminiaid Pelagiaidd. Y mae yr athrawiaeth a broffesir yn gyffredin gan y Calviniaid a'r Arminiaid Efengylaidd am bechod gwreiddiol, ailenedigaeth, a chyfiawnhad, yn nghyd â duwdod ac iawn y Cyfryngwr, yn cyfansoddi prif athrawiaethau sylfaenol y dadguddiad dwyfol.

Y llyfrau goreu, at y rhai y cyfeiriwyd eisoes, i gael golwg ar hanes Arminiaeth ydynt *Limborch's relatio historica de origine et progressu Controversarium in Fœderato Belgio de Reformatione;* hefyd *Historia reformationis Belgicæ;* yn nghyd â'r rhai canlynol: — *Farrar's Ecclesiastical Dictionary; Geirlyfr O. Williams; Penny Cyclop.; Watson's Instit.; Adam's Dict. of all Rel.; Watson's Theol. Dict.; The Book of Denominations; Nichols' Works of Arminius; Nichols' Arminianism and Calvinism compared; Wesley's Works.*

ARMON, [ערמון; Deg a Thrigain, *πλάτανος;* Vulgate, *platanus*]: pren a enwir dair gwaith yn yr Ysgrythyrau. Yr oedd yn mysg y gwiail a osododd Iacob yn y gwterydd: *Gen.* xxx. 37. Yn y testyn Seisonig, gelwir y pren "*chesnut tree:*" yn y Cymreig, "ffawydd." Awgrymir o barth i'w fawrwychedd yn *Ezec.* xxxi. 8; "A'r ffawydd nid oeddynt fel ei changenau hi." Y mae y dysgrifiad, fe fernir, yn cytuno yn dda â'r pren lledon (*planetree—Platanus Orientalis*), yr hwn a dderbynir gan y Deg a Thrigain, Jerome, a'r holl hen gyfieithwyr, a chan y beirniaid yn gyffredin; ac sydd yn tyfu, medd haneswyr, yn Palestina. Y mae yr enw yn deilliaw o wreiddyn sydd yn arwyddo *noethder;* a sylwir yn fynych am y lledon, fod y rhisgl yn dyfod yn rhydd oddi wrth y boncyff, gan ei adael yn noeth, yr hyn a allasai fod yn achlysur o'r enw Hebreig. Cymmerwyd y ffawydden, y fasarnen (*maple*), a'r bipwydden (*chesnut*), mewn amryw o destynau diweddar am armon: y ffawydden, fel y gwelwyd, sydd yn ein cyfieithiad ni, a'r bipwydden yn y Seisonig; ond nid oes neb yn awr yn ammheu mai y lledon a feddylir. Gellir sylwi fod y pren hwn yn cael ei gyssylltu yn Genesis âg ereill—y poplys a'r helygen—arferion neu ddulliau y rhai ydynt yn cytuno âg ef. Y maent oll yn brenau tir isel, ac yn hoff o dyfu mewn daiar gyfoethog a llaith. Profir hyn gan y ffaith fod Russel [*Nat. Hist. of Aleppo*] yn enwi y lledon, yr helygen, a'r poplys, yn nghyd â'r onwydden, fel prenau oeddynt yn cyd-dyfu yn yr un man, yn agos i Aleppo. Ond collid y cydrediad hwn pe y bipwydden a ddeallir, gan fod y pren hwnw yn cytuno yn well â thiroedd sychion ac uchel.

Y mae y geiriau yn Ezeciel, "A'r *coed armon* nid oeddynt fel ei changenau hi," nid yn unig yn gosod allan wychder y pren, ond yn dra phriodol ar gyfrif y ffaith fod y lledon yn ngwastattiroedd Assyria yn arbenig yn ei faint a'i harddwch; ie, yn rhagori ar un pren yn Palestina yn y pethau hyn.

Dywedir mai parth gorllewinol Asia ydyw mam-wlad y pren armon, er ei fod, medd Proffeswr Royle, yn cyrhaedd mor bell i'r dwyrain a Cashmere.

Yn y lleoedd sydd yn fanteisiol i'w dyfiant,



Digitized by Google

y mae cangenau mawrion yn ymledu yn mhob cyfeiriad, y rhai a wisgir â dail llyfnion a llydain; ac y mae y fath helaethrwydd o ddail, llyfnder y paladr, a chydfesuredd y tyfiant cyffredinol, yn gwneyd y pren yn un o'r gwrthddrychau harddaf yn mysg coed y maes. Y mae ganddo yn awr, fel cynt, y rhagoriaeth o fod y mwyaf cysgodol rhag gwres ac oerni—attalia belydrau yr haul yn yr haf, a derbynia hwynt yn y gauaf yn well nag un pren arall. O herwydd hyn, plenid efyn agos i balasau ac adeiladau cyhoeddus, yr hyn a arferid gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Ystyrid y lledon yn gyssegredig yn y dwyrain, fel y dderwen yn Mhrydain. Y mae y rhagoriaeth hwn yn mhob gwlad braidd yn cael ei roddi ar y mathau mwyaf ardderchog o brenau y maent yn eu cynnyrchu. Yn Palestina, er anghraifft, y lle nid oedd y lledon yn gyffredin, rhoddid y flaenoriaeth i'r llwyfen. Dywedir am Xerxes, ei fod wedi gorchymyn i'w fyddin aros ar ei hymdaith, pan gyfarfu âg armon neu ledon hardd yn Lydia, fel y gallai ei hanrhydeddu, ac addurno ei changenau â chadwyni aur, breichledau ac addurniadau gwerthfawr ereill—yr hwn ymddygiad a gamddeallwyd ac a gamadroddwyd gan Ælian.

Y mae y lledon ddwyreiniol yn goddef ein hinsawdd ni yn dda, ac yn tyfu yn bren hardd, ond nid i'r maint ag y mae yn tyfu yn y dwyrain. Ceir amryw grybwyllion am y pren lledon mewn hen ysgrifeniadau. Sonia Pausanias [llyfr viii, pen. 23] am ledon hardd yn Arcadia, yr hon y dywedir ddarfod ei phlanu gan Menelaus; fel, pe byddai y traddodiad hwn yn haeddu crediniaeth, buasai yn rhaid iddo, pan oedd Pausanias yn ysgrifenu, fod uwch law tri chant ar ddeg o flynyddoedd o oed; a'r pryd hwnw, medd yr hanesydd, mewn sefyllfa dda. Crybwylla Pliny, yn ei bennod ar y pren hwn, am un yn Lycia, yn moncyff yr hwn y ffurfiwyd yn raddol ogof helaeth, yn bedwar ugain o droedfeddi mewn amgylchedd. Byddai y trafnoddwr, L. Mutianus, a deunaw ereill, yn ciniawa ac yn swpera yn fynych o'i mewn. Yr oedd gan Caligula hefyd bren o'r math hwn yn ei faenol, ceuedd yr hwn a gynnwysai bymtheg ar giniaw, yn nghyda nifer priodol o wasanaethwyr. Byddai yr ymherawdwr yn ei alw "ei nyth;" ac y mae yn dra thebygol fod Herod Agrippa yn achlysurol yn un o'r pymtheg aderyn a nythent yno gydag ef. Crybwyllir am brenau cyffelyb gan deithwyr diweddar. Y mae Belon, La Roque, ac ereill, yn son am lwyni o ledon heirdd sydd yn addurno gwastadedd Antiochia; a chrybwylla y diweddaf am noswaith o orphwys a fwynhaodd o dan ledon brydferth yn nyffryn Lebanon. Enwa Buckingham hwynt yn mysg y coedwydd sydd ar lanau yr afon Jabbok. Barna Evelyn ei fod wedi ei gludo i Brydain i'r enwog Arglwydd Bacon, yr hwn a blanodd rai oeddynt yn gryfion ac iachus yn Verulam hyd y flwyddyn 1706; ond ymddengys oddi wrth *Lysieuaeth* Turner (a gyhoeddwyd yn 1551), fod y pren yn adnabyddus, ac yn cael ei dyfu yn y wlad hon cyn genedigaeth y canghellwr. Gwel FFAWYDD.—(*Kitto's Cycl.*)

ARNADDYNT, [*arn*]: arnynt; y lluosrif o *arno*. "Meibion Israel a ymgynnullasant mewn ympryd, ac mewn sachlian, a phridd arnaddynt;" *Neh.* xi. 1.

ARNAN, [ארנן]: un o hiliogaeth Iechoniah, brenin Israel: 1 *Cron.* iii. 17, 21.

ARNAULD, ANTOINE: duwinydd ac athronydd Ffrengig o'r ail ganrif ar bymtheg, a anwyd yn ninas Paris yn 1612. Ei dad, yr hwn hefyd a elwid Antoine Arnauld, ydoedd ddadleuwr nodedig yn ei ddydd, a gelyn anghymmodlawn i'r Jesuitiaid; a dywedir mai efe oedd y prif offeryn i'w gyru allan o Ffrainc yn nheyrnasiad Henry IV. Caniatawyd drachefn i'r Jesuitiaid ddychwelyd i'r deyrnas; ond cyfarfuant â gwrthwynebydd yn Arnauld yr ieuaf mor benderfynol ag y buasai ei dad o'i flaen. Arnauld, wedi ei urddo yn offeiriad, a wnaed yn Ddoctor o'r Sorbonne yn 1641. Dangosodd yn foreuedd at ddadleuon duwinyddol, trwy ysgrifenu *Duwinyddiaeth Foesol y Jesuitiaid* (*Théologie Morale des Jesuites*), lle y dynoethodd y dull peryglus o drin achosion cydwybod a arferid gan amryw foesolwyr perthynol i'r frawdoliaeth hono. Y Jesuitiaid hwythau, y rhai nid anghofiasent elyniaeth Arnauld yr hynaf, a dalasant y pwyth i'r mab, trwy ymosod yn ffyrnig ar ei waith ar *Fynych Gymuno* (*De la Frequente Communion*), yr hwn a gyhoeddasid yn 1643. Yn fuan wedi hyny, rhoddes y dadleuon a dorasant allan yn mhlith offeiriaid Ffrainc yn nghylch Jansenius, esgob Ypres, a'i lyfr a elwir *Augustinus*, gyfle newydd i Arnauld ddangos ei ddawn mewn dadleuon. Cymmerodd Arnauld blaid Jansenius, ac ysgrifenodd ddau lythyr o amddiffyniad iddo, y rhai a gollfarnwyd gan y Sorbonne, a deolwyd yr ysgrifenydd o'r corff dysgedig hwnw. Yna yr ymneillduodd efe i Port Royal des Champs, lleiandy nodedig, nid neppell o Paris, lle yr oedd ei chwaer, Angelique Arnauld, yn abades, a lle yr oedd Pascal, Nicole, ac ereill o ddysgedigion yr amser hwnw, wedi encilio er mwyn dilyn eu myfyrdodau mewn neillduedd a thawelwch. Yn yr encilfa lonydd hon y cyfansoddasant lawer o lyfrau rhagorol ar wahanol gangenau o lenoriaeth, athroniaeth, a duwinyddiaeth. Ysgrifenodd Arnauld ranau o amryw o'r gweithiau hyn; megys y *Gramadeg Cyffredinol ac Athronyddol* (*Grammaire Générale Raisonnée*); *Elfenau Mesuroniaeth* (*Elémens de Géometrie*); a *Meddyleg* (*L'Art de Penser*). Yr oedd ganddo hefyd law yn nghyfansoddiad y llythyrau nodedig a ysgrifenwyd gan Pascal yn erbyn y Jesuitiaid, dan yr enw *Llythyrau Taleithiol* (*Lettres Provinciales*). Ei orchwyl nesaf, yn yr hwn y cynnorthwyid ef gan Nicole, ydoedd draethawd ar *Anghyfnewidioldeb Ffydd yr Eglwys Gatholig yn nghylch y Cymun* (*De la Perpétuité de la Foi d' Eglise Catholique touchant l' Eucharistie*), yr hwn a gafodd ei gyflwyno i'r pab. Parodd y gwaith hwn ddadl frwd rhyngddo â'r hybarch Claude, gweinidog yr Eglwys Ddiwygiedig, yn ystod yr hon ddadl yr ysgrifenodd Arnauld lyfr o'r enw, *Dymchweliad i Foesoldeb Claude, allan o athrawiaeth y Calviniaid yn nghylch cyfiawnhâd* (*Du Renversement de la Morale de J. C. par la Doctrine des Calvinistes touchant la Justification*), yr hwn a ymddangosodd yn 1672. Ar yr un pryd parhaodd Arnauld i ryfela â'r Jesuitiaid, ac ysgrifenodd y rhan fwyaf o waith a elwid, *Moesoldeb ymarferol y Jesuitiaid* (*Morale Pratique des Jésuites*), wyth cyfrol deuddegplyg. Ond ni oddefodd y gymdeithas alluog ac uchelfrydig hono i'r ymosodiad fyned heibio yn ddisylw; ond darluniasant eu gwrthwynebwr fel dyn peryglus, a phenaeth plaid o ysbryd aflonydd a therfysglyd, yn coleddu egwyddorion y Janseniaid. Llwyddodd Harlay, archesgob Paris, i wenwyno meddwl y brenin, Louis XIV., yn ei erbyn, yr hwn a roddes orchymyn i'w ddal.

Digitized by Google

Arnauld ar hyn a ymguddiodd am beth amser; ond wedi hyny meddyliodd mai callineb fuasai iddo beidio aros yn hwy yn Ffrainc, a ffodd i Brussels yn 1679, lle y cafodd dderbyniad ac amgeledd gan Ardalydd Grana, llywodraethwr Yspaenaidd yr Iseldiroedd. Yno y cyhoeddodd efe, yn 1681, ei *Amddiffyniad i'r Pabyddion* (*Apologie pour les Catholiques*). Tra yr ydoedd yn alltud yn Brussels, ymwelodd amryw weithiau â Holland; ac i'r fath raddau yr oedd ei enwogrwydd weithiau wedi ymdaenu, fel y cai dderbyniad o'r mwyaf croesawus pa le bynag yr elai. Yn nghylch yr amser yn awr dan sylw y dechreuodd ar ddadl â'i hen gyfaill, y Tad Mallebranche, yr hwn, yn ei weithiau arddansoddawl, a gyhoeddasai ryw athrawiaethau neillduol yn nghylch gras, arfaeth, yn nghyd â phynciau duwinyddol dyrys ereill. Er mwyn gwrthbrofi y cyfeiliornadau tybiedig hyn, y bu i Arnauld ysgrifenu ei *Draethawd ar Syniadau Gwir a Gau* (*Traité des Vraies et des Fausses Idées*), 1683; ac wedi hyny ei *Fyfyrion Athronyddol a Duwinyddol ar Gyfundrefn Newydd Natur a Gras o eiddo y Tad Mallebranche* (*Réflexions Philosophiques et Théologiques sur le Nouveau Système de la Nature et de la Grace du Père Mallebranche*), 1685. Parhaodd hyd y diwedd, er ei fod dros 80 mlwydd oed, i ddwyn yn mlaen ei wahanol ddadleuon â'r Jesuitiaid, Mallebranche, â'r Calviniaid, ac â'r athronyddion ammheugar, yn mhlith y sawl y gellir enwi Bayle, awdwr y *Geirlyfr Hanesol*. Ei waith olaf ydoedd *Myfyrion ar Hyawdledd Pregethwyr* (*Réflexions sur l' Eloquence des Prédicateurs*), 1694. Bu farw yn Brussels, yn ngwlad ei alltudedd, ar yr 8fed o Awst, 1694, a chladdwyd ef yn Eglwys St. Catherine, yn y ddinas hono; ond peraroglwyd ei galon, a dygwyd hi i Port Royal, lle y gosodwyd hi gyda gweddillion ei fam a'i chwe chwaer, y rhai a fuasent oll yn drigiannyddion o'r lleiandy nodedig hwnw.

Ysgrifenodd Arnauld yn ystod ei oes dros gant o gyfrolau o wahanol faintioli, y rhai a gasglwyd ac a gyhoeddwyd o'r newydd yn Lausanne ac yn Paris, mewn 50 cyfrol 4plyg, yn 1775—83. Y gyfrol ddiweddaf a gynnwys gofiant helaeth o'r awdwr llafurus.

Yr oedd Arnauld yn un o'r dynion dysgedicaf yn ei oes; ac oes lawn o ddysgedigion ydoedd yr oes hono. Yr oedd yn Babydd didwyll, ond nid penboeth; yr oedd yn grefyddol heb ofergoel, yn hardd ei fuchedd, ac yn syml ei foes. Yr oedd ganddo lawer o gyfeillion yn mysg y Protestaniaid yn gystal a'r Pabyddion; ac yr oedd y pab Innocent XI. yn noddwr iddo, pan nad oedd iddo mwyach ryddid i rodio yn rhydd yn ei wlad ei hun. Yr oedd Arnauld hefyd yn un o'r rhai cyntaf a ymroddasant i ryddhau duwinyddiaeth o lyffetheiriau yr Ysgolwyr; triniai bynciau duwinyddol gydag eglurdeb mawr, ac mewn dull rhesymegol; ac attegai ei olygiadau â chyfeiriadau aml at y tadau, ac at gynghorau boreuol yr eglwys, yn hanes y rhai yr ydoedd yn dra chynnefin, yn gystal ag yn yr Ysgrythyrau. Yr oedd ganddo law yn y cyfieithiad Ffrengig o'r Testament Newydd a gyhoeddwyd yn Mons; ac yr oedd yn bleidiol i gyfieithu gwasanaeth yr eglwys i'r iaith gyffredin. Ac ystyried pob peth, gellir ei ystyried yn Babydd gweddol ryddfrydig. Dadleu oedd ei elfen; ac heb ryfel llenyddol ni fedrai fod yn llonydd nac yn ddedwydd: ond yr oedd yn ddadleuwr teg, ac nid oedd digofaint na chwerwedd yn ei ysbryd. Cafodd ei ysgrifeniadau gryn ddylanwad ar ansawdd duwinyddiaeth yn Ffrainc.—(*Lariere, Vie de Antoine Arnauld.*)

ARNDT, IOHANN: duwinydd cyfrifol o'r Almaen, a anwyd yn y flwyddyn 1555, yn Ballenstadt, yn nuciaeth Anhalt. Dechreuodd astudio meddyginiaeth, ond buan y rhoddodd hono i fyny am dduwinyddiaeth; ac nid hir y bu cyn cymmeryd urddau yn yr Eglwys Lutheraidd. Wrth ystyried mor isel oedd agwedd moesoldeb yn mhlith Protestaniaid yr Almaen yn gyffredin, blinwyd ef yn fawr o'r herwydd, a thueddwyd ef i ysgrifenu llyfr ar *Wir Gristionogaeth*, er mwyn dangos y dylai myfyrio egwyddorion ac athrawiaethau crefydd gael dylanwad ymarferol ar y fuchedd a'r ymarweddiad. Efe a ymresymai fel hyn:—"Nid gwybodaeth pen yn unig ydyw duwinyddiaeth, ac nid cangen o geinddysg yn unig mo honi chwaith; ond profiad bywiol, ac ymarferiad bucheddol o eiddo y meddwl. Ni ddylem ymfoddloni ar ffydd farw, ddiffrwyth; ond dylai gwir ffydd gael ei blaenori gan edifeirwch, dylai cariad gydfyned â hi, a dylai gael ei chanlyn gan adnewyddiad yr enaid." Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn gyntaf yn yr Almaeneg, a chyfieithwyd ef wedi hyny i'r Lladin, Ffrancaeg, Daeneg, Ffiemaeg, Bohemiaeg, a'r Seisoneg; ac y mae wedi derbyn uchel ganmoliaeth oddi wrth yr hanesydd eglwysig Mosheim, y Proffeswr Franke o Halle, y Dr. Spener, Wesley, ac amryw dduwinyddion cyfrifol ereill. Ystyrir *Gwir Gristionogaeth* Arndt yn mhlith Protestaniaid yn gyffelyb i'r hyn ydyw *Dilyniad Iesu Grist*, gan Thomas à Kempis, yn mhlith y Pabyddion. Yr oedd Arndt yn bleidiwr gwresog ac egnïol i grefydd ymarferol; ac ystyrir ei lyfr yn un o'r traethodau goreu a gyhoeddwyd erioed ar foesoldeb Cristionogol.

Ymsefydlodd Arndt yn weinidog yn Quedlinburg, ac wedi hyny yn Brunswick. Yn y lle olaf, parodd ei lwyddiant fel pregethwr iddo lawer o elynion llidus, a gorfu arno adael y dref, a chilio i bentref Isleb, lle yr arosodd am rai blyneddoedd. Yn 1611, cyflwynodd Dug Lunenberg ef i eglwys Zell, a phenododd ef wedi hyny yn olygwr ar holl eglwysi y ddugiaeth. Bu farw yn Zell yn 1621. Yr oedd wedi traddodi pregeth y dydd o'r blaen oddi ar *Salm* cxxvi. 5; a phan ddychwelodd adref, dywedodd wrth ei wraig ei fod wedi pregethu ei bregeth angladdol. Dyoddefodd ymosodiadau ac erlidiau ennynol gyda'r addfwynder a'r tawelwch mwyaf; ac yr oedd ei haelioni i'r tlawd—ac ystyried nad oedd ei amgylchiadau ond cyfyng—mor anghyffredin, fel y tybiai y werinos anwybodus ei fod wedi cael gafael ar faen yr athronydd, yr hwn a dry bob peth yn aur. Yr oedd yn hoff iawn ganddo waith ysgrifenwyr duwiolfrydig ac ymarferol; megys St. Bernard, Thomas à Kempis, Tauler, ac ereill o gyffelyb ddelw ac argraff iddynt hwy.

ARNOBIUS: un o dadau yr eglwys ydoedd, ar y cyntaf yn areithydd, ac wedi hyny yn henuriad neu offeiriad, yn Sikka yn Numidia, yn nheyrnasiad yr ymherawdwr Diocletian. Lactantius, yr hwn a elwir "Cicero y Tadau," ydoedd yr enwocaf o ddysgyblion Arnobius, yr hwn yntau a gyfenwir gan rai yn "Varro yr ysgrifenwyr Eglwysig:" ond yr oedd Arnobius yn rhagori cymmaint mewn athrylith ar y dysgybl hwn ag yr oedd Lactantius yn rhagori arno yntau mewn prydferthwch a thlysni ymadrodd. Dywed Hieronymus, yr arferai Arnobius ymosod yn erbyn Cristionogaeth, nes gweled o hono ryw freuddwydion nodedig, y rhai a gawsant effaith ddwys iawn ar ei feddwl; yr hyn a barodd iddo

Digitized by Google

ymweled âg esgob Sikka; ond na roddodd efe fawr o ymddiried ynddo, am y gwyddai ei fod o'r blaen yn elyn i'r efengyl. Arnobius, i argyhoeddi y gŵr eglwysig hwnw o wirionedd ei droedigaeth, a ysgrifenodd saith lyfr o *Ddadleuon yn erbyn y Cenedloedd* (*Disputationes adversus Gentes*). Ond y mae dywediad Hieronymus, yr hwn a esyd yr amgylchiad hwn yn yr ugeinfed flwyddyn i Cystenyn, B. A. 326, yn cynnwys camamseriad amlwg; ac y mae Arnobius yn y *Dadleuon* hyn yn ymddangos, nid fel un newydd ei gyfnewid trwy freuddwydion, nac ychwaith fel newyddian yn y ffydd; ond fel dyn wedi ymsefydlu yn ei grediniaeth, er yn amddifad o'r hyn a ystyrid yn uniongred gan yr eglwys yn yr oes hono. Dichon mai y breuddwydion a roddasant y cychwyniad cyntaf i'r hyn a drodd allan wedi hyny yn dröedigaeth gyflawn; neu, efallai ei fod wedi ei ddirgel argyhoeddi o'r gwirionedd, ond ei fod heb gyffesu hyny yn yr amlwg nes i'r breuddwydion effeithio ar ei feddwl a'i dueddu i ymweled â'r esgob, yr hwn, yn y dyddiau hyny o erlidigaeth, a fyddai yn debyg o fod yn ochelgar yn nghylch derbyn dyn cyhoeddus o'r fath ag oedd Arnobius, yr hwn y gwyddid am dano fel gelyn i'r grefydd Gristionogol, rhag mai ysbïwr ydoedd, ac mai bradychu ei phroffeswyr oedd ei amcan. Gochelgarwch yr esgob a dueddodd Arnobius i gyhoeddi yn y *Dadleuon* nodedig hyn, gyffes o'i ffydd, yn nghyd âg amddiffyniad o honi. Yn y gwaith hwn, dengys Arnobius fod ganddo wybodaeth drwyadl o lenoriaeth yr oes yr oedd yn byw ynddi; ac fel hyn y darlunia efe [llyfr i. pen. 39] ei gyfnewidiad:—"O ddallineb! ychydig amser yn ol yr oeddwn yn addoli delwau yn dyfod allan o'r ffyrnes, a duwiau a wnaed gan y morthwyl ar yr eingion. Pan welwn gareg lefn ac eneiniedig, mi a lefarwn wrthi megys wrth allu bywiol, ac a weddïwn ar y maen dideimlad am fendithion; ac fel hyn, mewn anwybod, y cablwn hyd yn oed y duwiau gau, wrth eu cymmeryd hwynt yn lle creigiau, meini, ac esgyrn, neu ddychymygu eu bod hwy yn preswylio yn y cyfryw bethau. Weithian, gwn beth yw yr holl bethau hyny, gan gael o honof fy arwain gan ddysgawdwr mawr i lwybrau y gwirionedd."

Ymddengys i Arnobius ddyfod i adnabyddiaeth o'r gwirionedd wrth ddarllen yn ofalus y Testament Newydd, yn enwedig yr efengylau, ac nad effeithiwyd ar ei olygiadau gan ddaliadau eglwysi gogledd Affrica. Crybwylla Arnobius ei hunan am yr amser yr oedd efe yn ysgrifenu y *Dadleuon* hyn [llyfr ii. pen. 71], gan ddywedyd fod Rhufain wedi ei hadeiladu y pryd hwnw er ys o ddeutu 1050 o flyneddoedd; yr hyn, yn ol cyfrif Varro, a'n dygai i'r flwyddyn 297 o gyfrif cred. Ond ymddengys fod Arnobius, naill ai yn arfer cyfrif arall, ai ynte yn arfer rhifedi cyfan. Cynnwys ei waith gyfeiriadau at yr erlidiau o dan Diocletian, y rhai a ddechreuasant yn B. A. 303. Gellir dywedyd yr un peth hefyd gyda golwg ar Arnobius, pan y dywed [llyfr i. pen. 13], "Y mae yn agos i dri chant o flyneddoedd wedi myned heibio oddi ar pan ddechreuodd ein cyfundeb Cristionogol hanfodi—efallai ychydig yn fwy neu yn llai." Dichon i Arnobius ysgrifenu ei waith ar wahanol amserau.

Pe na buasai yr amseriadau hyn genym, gallesid yn gyffredin wybod yr amser yr ysgrifenodd Arnobius ei *Ddadleuon* wrth eu cynnwysiad. Y mae efe yn gwrthbrofi y cyhuddiad hwnw a barodd yr erlidigaeth yn amser Diocletian; sef, bod anffodion cyffredin yr ymherodraeth wedi dygwydd o herwydd taeniad yr efengyl, yr hyn a barodd i'r duwiau gael eu hesgeuluso yn gyffredinol. Etyb Arnobius i'r cyhuddiad hwn:—"Pe bai i ddynion, yn lle hyderu ar eu callineb, a chanlyn eu tueddiadau eu hunain, ymdrechu ufuddhau i athrawiaethau Crist, y rhai sydd yn heddwch ac yn iachawdwriaeth, buan y cyfnewidid yr holl fyd, a'r haiarn, wedi ei gymmeryd o wasanaeth rhyfel, a ddefnyddid yn ngorchwylion heddwch" [llyfr iv. pen. 36.]

Fel hyn yr anerch Arnobius y Cenedloedd:—"Pe cynhyrfid chwi gan frwdfrydedd duwiol o blegid eich crefydd, dylasech losgi y llyfrau hyny, a distrywio y chwareudai lle y cyhoeddir ac yr arddangosir pethau anweddus, er dianrhydedd y duwiau. Pa ham y dylid taflu ein llyfrau ni i'r tân, a dinystrio lleoedd ein hymgynnulliad, lle yr addolir y goruchaf Dduw, ac yr erfynir arno roddi gras a thangnefedd i'r penswyddogion, i'r byddinoedd, ac i'r ymherawdwr?—llawenydd a thawelwch i'r byw ac i'r rhai a ryddhawyd oddi wrth rwymau y corff—llyfrau a lleoedd na chlywir ynddynt ddim ond yr hyn sydd yn tueddu at wneuthur dynion yn hynaws, yn dirion, yn wylaidd, yn ddiwair, yn hael i gyfranu eu meddiannau, ac yn geraint i bawb sydd wedi eu huno yn rhwymyn brawdoliaeth."

Heb law y *Dadleuon* y cyfeiriwyd atynt, ysgrifenodd Arnobius waith arall hefyd ar Areitheg [*De Rhetorica Institutione*]; ond y mae wedi myned ar ddifancoll. Dywedir na wyddys am fwy nag un ysgriflyfr o waith Arnobius ar gael y dydd heddyw; ac yn Paris yn bresennol y mae yr un hwnw. Yr argraffiad cyntaf o'r *Dadleuon* a gyhoeddwyd gan Faustus Sabæus, Rhufain, 1542, unplyg; yr argraffiad goreu a diweddaraf yw eiddo Conrad Orelli, mewn dwy gyfrol 8plyg, Leipsig, 1816.—(*Hieronymus, De Vir. Illust.; Neander's Church Hist.; Penny Cycl.*)

2. ARNOBIUS: duwinydd o Gaul, yr hwn oedd yn ei flodau o ddeutu canol y bummed ganrif, a ysgrifenodd esboniad ar Lyfr y Salmau, yr hwn a gyhoeddwyd, gyda rhaglith gan Erasmus, yn Basle, 1537; yn Paris, 1539; a thrachefn yn Basle, 1560. Ei *Arnodiadau ar wahanol fanau o'r Efengylau*, gyda chyweiriadau Andreas Schotti, a argraffwyd yn gyssylltiedig â'r gwaith blaenorol. Efe a ysgrifenodd hefyd *Ymddadl â Serapion yn nghylch athrawiaeth y Drindod*, ac yn nghylch *Cyssondeb Gras â Rhydd Ewyllys*, y rhai, gyda sylwadau Feuardentius arnynt, a argraffwyd yn Nghwlen, yn yr Almaen, yn y flwyddyn 1596. O ran ei olygiadau duwinyddol, ymddengys mai Hanner-Morganiad ydoedd; ond ni wneir ond ychydig gyfrif o'i ysgrifeniadau.

ARNOLD, THOMAS, D. D. Nid oes ond ychydig o amgylchiadau i'w cofnodi yn hanes bywyd y dyn galluog a'r ysgolhaig enwog hwn. Ganwyd ef yn West Cowes, Ynys Wight, Mehefin 13eg, 1795. Derbyniodd ei addysg foreuol dan olygiad modryb iddo. Pan yn wyth oed, anfonwyd ef i Worminster, ac yn mhen pedair blynedd yn ddiweddarach, i goleg Winchester. Prif faterion ei astudiaeth yn yr ysgol oedd hanesiaeth a phrydyddiaeth; darllenodd weithiau Gibbon a Mitford ddwywaith drosodd cyn iddo adael Winchester. Anfonwyd ef yn 1811 i Goleg Corpus Christi, Rhydychain; ac yma, dan ddylanwad cariad at y gwirioneddol yn hytrach na'r dychymygol, yr hyn ydoedd yn nodwedd o'i gymmeriad, trodd ei sylw yn benaf at athronwyr a haneswyr Groeg, o ba rai ei brif awduron oedd-

Digitized by Google

ynt Aristotle a Thucydides. Yr ydoedd yn hoff y pryd hwn o ddadgan ei opiniynau gyda phenderfyniad, ond gwnai hyny heb ddim amlygiad o drahausder. Yn 1815, dewiswyd ef yn aelod o Goleg Oriel, ac ennillodd wobr y canghellydd am y ddau draethawd goreu, Lladin a Seisoneg, am 1815, a 1817. Ennillodd gyfeillgarwch rhai o ddynion blaenaf y brifysgol, megys Whateley, yn awr archesgob Dublin, y rhai a barhasant yn gyfeillion iddo hyd ei farwolaeth. Yn 1819, wedi gorphen ei efrydiaeth athrofaol, neillduwyd ef yn ddiacon; ac yn fuan ar ol hyny sefydlodd yn Lalcham, lle y cyflwynodd ei hun yn benaf, am y naw mlynedd dilynol, i barotoi dynion ieuainc i'r brifysgol. Yn arolygiad y sefydliad hwn, agorodd ei gymmeriad yn brysur — amlygodd weithgarwch diorphwys — a than ddylanwad crefydd, yr hon a deimlodd yn nerthol, dangosodd ei fod wedi cael syniadau am wir amcan bywyd, yn nghyd â phenderfyniad i ymestyn ato, nas gallesid ei ddysgwyl oddi wrth ddiofalwch ei ieuenctyd. Yr oedd dwysder ei argyhoeddiadau crefyddol, a'i enwogrwydd fel ysgolhaig, yn gymhwysderau ynddo fel athraw, a adawsant argraffiadau dwys ar y rhai oedd dan ei ofal. Ymdrechai eu harwain i uno safon uchel mewn ysgolheigdod â rhinweddau mwy gwerthfawr y Cristion. Aeth ei glod ar led: ac yn 1827, dewiswyd ef yn unfrydol i fod yn brif athraw Ysgol Rugby. Er fod y cyfeisteddfod wedi clywed, cyn ei ddewis, "mai dyn oedd a roddai wedd newydd ar ysgolion mawr Lloegr," ni somwyd hwynt yn eu dysgwyliad. Yn fuan wedi hyn derbyniodd y swydd o gaplan i'r ysgol; ac yn nghyflawniad y swydd hono, traddodai bregethau, yn mhlith y rhai mwyaf cymhwys a draddodwyd erioed i gynnulleidfa o ddynion ieuainc dysgedig. Ac yn y modd yma, tra yn cadw i fyny gymmeriad yr ysgol am ysgolheigdod, rhoddodd dôn Gristionogol i'r cwbl. Prif egwyddor y ddysgeidiaeth a gyfranai efe oedd, gwneyd ei ddysgyblion yn ddynion da, yn gystal ag yn ysgolheigion da; ac felly, tra yn trysori eu meddyliau â llenoriaeth, dysgai hwynt i wneyd crefydd yn rheol gyffredin bywyd—nid ei chyfyngu yn unig i'r Sabbath a'r eglwys, ond ei chymmeryd i'w llywodraethu yn yr ysgol, gyda'u chwareuon, ac yn holl ddyledswyddau cyffredin bywyd. Yr oedd effeithiau daionus y dull hwn yn Rugby mor amlwg, fel y mabwysiadwyd ef yn ysgolion mawr ereill y wlad; a chynnyrchodd hyn gefnewidiad amlwg yn nhymmer a syniadau crefyddol y dynion ieuainc a äent i'r prifysgolion. Amcan Arnold yn y cwbl a wnai oedd uno dysgeidiaeth gyffredin a chrefyddol, fel yr oedd wedi llwyddo i wneyd yn ei ysgol. O hyn y cododd ei syniad am undeb yr eglwys â'r wladwriaeth; sef y dylai y wlad, yn ei chyfreithiau, ei sefydliadau, a'i holl fesurau, fod wedi ei sylfaenu ar egwyddorion crefyddol, ac y dylai y trigolion dalu y fath barch iddynt fel na byddai dim gwahaniaeth rhwng y ddwy. Cyhoeddodd ei syniadau ar yr Eglwys Gristionogol mewn traethawd yn 1833, mewn canlyniad i'w ofnau am ddiogelwch yr Eglwys Wladol. Yr oedd tebygolrwydd mawr yn ei syniadau i'r eiddo Hooker. Mewn traethawd anorphenedig, a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth, traetha ei olygiadau drachefn am yr Eglwys; a dengys mai camsyniadau y Tractariaid am yr offeiriadaeth Gristionogol ydyw maen clo eu cyfeiliornad. Buasai efe yn eangu telerau y sefydliad gwladol, er mwyn gollwng i mewn Ymneillduwyr, heb law diwygio llawer o bethau a ystyrid ganddo ef yn feiau ynddi. Gosododd ei hun yn agored, trwy ddadganiad mor gyhoeddus o'i syniadau, i wawd a chamddarluniad; ond buan yr aeth heibio, a gwelodd ei hun yn cael ei gydnabod gan bob plaid yn un o ddynion enwocaf ei oes. Gyda'r un syniadau am undeb yr eglwys â'r wladwriaeth y derbyniodd le yn senedd Prifysgol (*University*) Llundain, yr hon a bleidiai yn egnïol, oddi ar awydd i estyn manteision dysg i bob dosbarth, yn annibynol ar ammodau duwinyddol: ond dymunai ei gwneyd yn sefydliad crefyddol; a chan na lwyddodd yn ei ymdrech i gael arholiad yn y Testament Newydd, mewn trefn i gaffaeliad graddau, rhoddodd ei swydd i fyny. Ymdrechodd yn gyffelyb i gael y *Penny Magazine* yn fwy dan ddylanwad egwyddor Gristionogol; a chan fod ei lafur yn ofer, sefydlodd ar ei gost ei hun *The Englishman's Register.* Ni ddaeth ond ychydig o rifynau allan: yr ydoedd yn ormod o dreth ar ei amser. Yr oedd amgylchiadau cymdeithasol gweithwyr y deyrnas yn cyffroi ei gydymdeimlad: byddai yn ddiorphwys yn dyfeisio rhyw foddion, megys sefydlu *Mechanics Institutes,* ac ysgrifenu i newyddiaduron, i amddiffyn eu hiawnderau a chyffroi cydymdeimlad yn eu hachos. Yn 1841, penodwyd ef yn gadeirdraw hanesiaeth ddiweddar i Brifysgol Rhydychain. Derbyniodd y penodiad hwn gyda boddhad mawr; ond ni bu fyw i draddodi chwaneg na'i ddarlithiau rhagarweiniol. Pan yr ydoedd ei gymmeriad fel dysgawdwr ac fel dyn yn cael ei werthfawrogi yn fwy bob dydd, tarawyd ef gan afiechyd, yr hwn a derfynodd yn angeuol mewn ychydig oriau, Mehefin 11eg, 1842—yn ei seithfed flwydd a deugain oed. Ysgrifenodd y geiriau hyn yn ei ddyddlyfr y nos Sadwrn cyn y cymmerwyd ef ymaith:—"Y dydd ar ol yfory yw fy nydd genedigaeth, os caniateir i mi ei weled—y seithfed a deugain er y'm ganwyd. Gymmaint rhan o'm bywyd ar y ddaiar sydd eisoes wedi pasio! Ac yna, beth sydd i ganlyn y bywyd hwn? Mor amlwg y mae fy ngwaith allanol yn cyfyngu ac yn toddi ymaith i orchwylion llarieiddiach yr oedranus. Mewn un ystyr, mor agos y gallaf ddyweyd yn awr, 'Yr wyf wedi byw.' Ac yr wyf yn diolch i Dduw fod fy uchelgais, mi hyderaf, wedi ei lwyr farweiddio: nid oes genyf ddymuniad yn amgen na chamu yn ol o'm lle presennol yn y byd, heb godi i un uwch. Er hyny, y mae gweithiau, y rhai, trwy ganiatad Duw, y dymunwn eu cyflawnu cyn i'r nos ddyfod; yn enwedig, un gwaith mawr, pe caniateid i mi gymmeryd rhan ynddo. Ond uwch law pob peth, bydded i mi edrych at fy ngwaith presennol fy hun—i gadw fy hun yn bur, yn wresog, ac yn grediniol, gan lafurio i wneuthur ewyllys Duw; eto nid i fod yn awyddus am i mi gael bod yn offerynol yn hytrach nag ereill, os nad yw Duw yn dewis fy nefnyddio felly."

Ceir esboniad ar ran fawr o'i fywyd ef yn y geiriau canlynol, a ddefnyddiodd am lyfrau:—"Nid angen am lyfrau ar grefydd ydyw angen mawr yr oes hon, ond llyfrau ar bethau cyffredinol wedi eu hysgrifenu mewn ysbryd crefyddol." Am ddwysder ei deimladau crefyddol, dywedwyd, a gellir priodoli yr un dywediad at weithrediadau cyffredinol ei ddeall, "Gwyddai ef yr hyn nad oedd ond gwrthddrych crediniaeth gan ereill; a'r hyn y siaradai ereill yn ei gylch, yr oedd efe yn ei weled." Dywedwyd am dano ef gan un a'i adwaenai yn dda—"ei fod yn caru ei deulu fel pe na buasai ganddo gyfeillion, ei gyfeillion fel pe na buasai ganddo deulu, a'i wlad fel pe na buasai ganddo deulu na chyfeillion."

Digitized by Google

Ei brif weithiau ydynt argraffiad newydd o *Thucydides*, gyda nodiadau yn Seisoneg; *Hanes Rhufain*, ar yr hwn y saif ei gymmeriad fel awdwr yn benaf; ac amryw gyfrolau o bregethau. —(*Stanley's Life and Correspondence of Dr. Arnold*, 4ydd argraffiad.)

ARNOLD: un o ddiwygwyr y canoloesoedd, a elwir yn gyffredin Arnaldo da Brescia, neu Arnold o Brescia, a aned yn nhref Brescia, yn yr Ital, o ddeutu dechreu y deuddegfed ganrif. Myfyriodd yn Ffrainc o dan yr enwog Abelard. Gwedi dychwelyd i wlad ei enedigaeth, aeth yn fynach. Yr oedd llygredigaethau yr offeiriaid yn fawr dros ben yn yr oes hono; ac Arnold, yn llawn brwdfrydedd a ffraethineb, a ddechreuodd ddynoethi uchelgais, gallu tymmorol, a gloddest yr abadau, yr esgobion, y cardinaliaid, ac hyd yn oed y pab ei hun. Daliai Arnold y dylai gwŷr eglwysig yn gystal a gwŷr lleyg ymostwng i'r gallu gwladol; nad oedd trefnu achosion teyrnasoedd a thywysogaethau yn perthyn dim i deyrnas Crist; ac y dylai yr offeiriaid ymfoddloni ar eu degymau ac offrymau y ffyddloniaid. Heb law y pethau hyn, dywedir ei fod yn dal athrawiaethau ereill o ansawdd cyfriniol yn nghylch y Drindod, a natur yr enaid. Gafaelai ei elynion yn awyddus yn y pethau hyn, a hwyrach y rhoddent liw gwaeth arnynt. Wrth bregethu yn erbyn tymmorolion yr eglwys, cyffroisai Arnold anwydau y bobl; gwrthryfelodd Brescia yn erbyn ei hesgob; ac ymdaenodd y berw i drefi ereill hefyd. Dywedir gan Otho o Freisingen, ac ereill o hanesyddion yr amseroedd hyny, ddarfod i'r pab Innocent II. fynu collfarnu Arnold, yn nghyd â chyfeiliornwyr ereill, yn Nghynghor y Lateran, a gynnaliwyd yn 1139; ac iddo gael, mewn canlyniad i hyny, ei alltudio o'r Ital; ond nid yw enw Arnold yn dygwydd yn nghanonau y cynghor hwnw. Efe a gefnodd ar yr Ital, ac a giliodd i Ffrainc; ond yno efe a gyfarfu â gelyn o'r mwyaf anhyblyg yn Bernard, abad brwdfrydig Clairvaux, yr hwn yn ebrwydd a ddechreuodd daranu ac ysgrifenu yn ei herbyn; yr hyn a barodd i Arnold geisio nodded yn Zurich, yn ngwlad y Swiss, lle yr arosodd bum mlynedd, yn pregethu fel cynt yn erbyn llygredigaethau a chamarferion yr eglwys. Ond ni chafodd lonydd gan ei wrthwynebwr yno chwaith; canys llwyddodd Bernard i gael gan esgob Constans ei ddeol ef allan o'i esgobaeth. Dychwelodd Arnold i'r Ital; a phan glywodd fod Rhufain wedi gwrthryfela yn erbyn y pab, efe a gychwynodd tuag yno, ac a flaenorodd y gwrthryfelwyr. Buasai Lucius II. farw o'r clwyfau a dderbyniasai mewn terfysg a godasai y bobl, ac yr oedd Eugenius III., dysgybl i Bernard, wedi ei olynu yn y gadair Babaidd, ond gyrasid ef ymaith o'r ddinas gan y senedd a'r bobl. Cynghorodd Arnold y Rhufeiniaid i adsefydlu gweriniaeth Rufeinig, ac adferu y swyddau, yr urddau, a'r graddau a berthynent i'w hynafiaid ardderchog yn yr oesoedd gynt. Cynhyrfodd hyn y werin yn fawr, a chyflawnasant ryseddau nad oedd Arnold ei hun, y mae yn debygol, wedi dychymygu erioed am danynt. Llofruddiasant neu anmharchasant y cardinaliaid, ac ereill o bendefigion y blaid Babaidd, ac ymgyfranogasant o'r ysbail; ond arosodd Arnold ei hun yn dlawd, ac yn ddiargyhoedd o ran ei ymarweddiad.

Ysgrifenodd senedd Rhufain at yr ymherawdwr Conrad III.: tystiasant eu hufudd-dod iddo, a gwahoddasant ef i ddyfod i gael ei goroni yn Rhufain; ond ni thalodd yr ymherawdwr un sylw i'w gwahoddiad. Parhaodd Rhufain ddeng mlynedd mewn cyflwr o derfysg ac aflywodraeth, mewn rhyfel â'r pab a phobl Tibur, ac mewn ymraniad yn ei herbyn ei hun. Bu farw Eugenius III., yn 1153; ac wedi i'w olynwr Anastasius IV. ei ganlyn i'r bedd yn ebrwydd, wedi hyny etholwyd Adrian IV. i fod yn bab, yn y flwyddyn 1154. Yr oedd efe yn ddyn mwy penderfynol na'i ragflaenoriaid: esgymunodd ddinas Rhufain, a pharodd i'r Rhufeiniaid grynu o flaen ei awdurdod ysbrydol. Er mwyn ymgymmodi â'r pab, hwy a alltudiasant Arnold, ac yntau a ffodd am noddfa i dalaeth Campania. Pan ddaeth yr ymherawdwr Frederic I. i Rufain i gael ei goroni, ceisiodd y pab ganddo beri dal Arnold. Yn unol â'i gais, rhoddodd yr ymherawdwr y gorchymyn i gyffinarll Campania; ac yntau a draddododd Arnold i ddwylaw rhaglaw Rhufain: llindagwyd ef; llosgwyd ei gorff, a thaflwyd y lludw i'r afon Tiber, yn 1155. Cyfarfu Arnold â thynged gyffredin y rhan fwyaf o ddiwygwyr yn mhob oes. —(*Mosheim's Eccl. Hist.*, a gyf. gan *Murdock*; *Penny Cycl.*)

ARNOLDIAID: canlynwyr Arnold o Brescia, yn y deuddegfed ganrif. Gwel ARNOLD, o Brescia.

ARNOLDIAID. Gwel WALDENSIAID.

ARNON: afon fechan, yr hon sydd yn codi yn mynyddoedd Gilead, ac yn rhedeg ar hyd terfyn gogleddol y Moabiaid, tua'r deheu-orllewin, nes ymarllwys i'r Môr Marw: *Barn.* xi. 18; *Esa.* xvi. 2; *Num.* xxi. 13. Burckhardt oedd y teithiwr diweddar cyntaf a roddes hanes boddhaol am yr afonig hon, dan yr enw *Wady Modjeb*, yr hwn yw ei henw presennol. Wedi cyfodi yn agos i Katrane, yn mynyddoedd Gilead, y mae yn ymdroelli dros wely caregog hyd y Môr Marw: ei hyd sydd o ddeutu pedwar ugain milldir. Sychir y ffrwd i fyny yn llwyr o'r bron yn yr haf; ond y mae y darnau anferth o greigiau a orweddant yn ngwely yr afon, wedi eu rhwygo o'r ceulanau, yn profi y bydd yno afon chwyddedig a chwyrnwyllt yn y tymmor gwlawog.

Ar lanau yr afon hon yr ymladdodd yr Israeliaid, dan dywysiad Moses, â'r Amoriaid, dan arweiniad eu brenin Sehon; a'r canlyniad fu, llwyr orchfygiad y tywysog paganaidd hwnw, a dymchweliad ei freniniaeth.

AROER, [ערוער]: tref ar ochr ogleddol yr afon Arnon, ac o ganlyniad, ar ffiniau deheuol y diriogaeth a ddygasid oddi ar yr Amoriaid, ac a roddasid i lwythau Reuben a Gad: *Deut.* ii. 36; *Ios.* xii. 2; a xiii. 9. Dygasai yr Amoriaid y diriogaeth hon oddi ar yr Amoniaid o'r blaen; ac er y gellid casglu oddi wrth y testynau a ddyfynwyd iddi gael ei rhoddi i Reuben, fe'i crybwyllir gan Ieremiah (xlviii. 19), fel dinas Foabaidd. Darganfuwyd adfeilion y dref hon gan Burckhardt, dan yr enw Araayr, ar fin diphwys, oddi ar yr afon. Ni wneir ond crybwylliad byr o honynt ganddo ef, ac nid yw yn ymddangos fod teithwyr ereill wedi cymmeryd un sylw o honynt. Crybwyllir Aroer yn wastad mewn cyssylltiad â'r ddinas yn nghanol yr afon, yr hyn a dueddai Dr. Mansford i ddyfalu, yn ei *Ddaiar Fynegai Ysgrythyrol*, fod Aroer, yn gyffelyb i Rabbath Ammon, yn gynnwysedig o ddwy ran, neu ddwy ddinas wahanol—y naill ar lan yr afon, a'r llall yn y dyffryn islaw —yn cael ei hamgylchynu,

Digitized by Google

naill ai yn naturiol neu gelfyddydol, gan ddwfr yr afon.

2. AROER: un o'r trefi a adeiladwyd, neu a ail adeiladwyd yn hytrach, gan lwyth Gad: *Num.* xxxii. 34. Yn *Ios.* xiii. 25, dywedir ei bod "o flaen Rabbah." Gan fod Aroer ar ffiniau dwyreiniol tiriogaeth Gad, rhaid ei bod i'r gorllewinol o Rabbah; gan hyny, gallai un a safai yn Mhalestina Briodol, neu a ddeuai i fyny o'r Iorddonen, ddywedyd yn briodol, fod Aroer o *flaen* Rabbah, yn ol ystyr arferol y gair; ac felly y deallid y crybwylliad gan Burckhardt, yr hwn, ar ei ymdaith o Szalt tua Rabbath Ammon, a sylwai ar hen orsaf adfeiliedig o'r enw Ayra, "yr hon," eb efe, "oedd un o'r trefydd a adeiladwyd gan lwyth Gad." Y mae yn debyg mai yr un oedd yr Ayra hon, yr hon oedd tua saith milltir i'r de-orllewin o Szalt, ag Array-el-Emir, â'r hon yr ymwelodd Legh, ar ei ffordd o Heshbon i Szalt, a'r hon, yn naiarlen Berghaus o Palestina, a gyfleir naw milltir Seisonig i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Rabbah. Crybwyllir Aroer Gad hefyd yn *Barn.* xi. 33; a 2 *Sam.* xxiv. 5.

3. AROER: dinas yn llwyth Iudah: 1 *Sam.* xxx. 28.

4. AROER: dinas yn neheubarth Iudah, i'r hon yr anfonai Dafydd anrhegion, wedi iddo adferu anrhaith Siclag oddi ar yr Amaleciaid: 1 *Sam.* xxx. 26—28. Tuag ugain milltir i'r de-orllewin o Hebron, y daeth y Dr. Robinson i ddyffryn llydan, lle y mae amryw bydewau dwfr, a elwir Ararah, ar yr hwn enw y gelwir y dyffryn hefyd. Y mae olion hen dref neu bentref i'w gweled yn amlwg yn y dyffryn, ac ar lethr y bryn gorllewinol, a chanfyddir malurion llestri pridd yn yr holl amgylchoedd. Casglai y teithydd oddi wrth yr enw, mai dyma lle y gorweddai Aroer Iudah gynt.

**AROGL—I—IAD**; sawriad, arwyntiad; y synwyr sydd mewn dyn ac anifail i wahaniaethu rhwng sawr neu arogl pethau. Ermyg neu beiriannau arogliad yw gïau, yn dyfod o'r ymenydd, ac yn wasgaredig drwy y bilionen dyner a theimladwy sydd oddi mewn i'r ffroenau. Y mae y rhan o'r trwyn sydd yn arogli yn mhell yn ol ynddo; a chedwir y bilionen yn llaith â math o sylwedd gludiog, yn yr hwn y mae y gronynau sydd yn peri sawr yn glynu am ryw ysbaid. Bernir gan rai nad oes un corff nad yw yn bwrw ymaith sawr-hedion (*effluvia*), a bod pob creadur yn arogli y naill beth neu y llall, yn ol ei natur ei hun. Y mae y gronynau aroglaidd, neu y sawr-hedion hyn, yn cael eu gwasgaru drwy yr awyr, weithiau yn mhell iawn, ac yn cael eu derbyn drwy y ffroenau wrth anadlu, ac felly yn cynnyrchu arogliad. Y mae gan bob creadur allu i arogli, priodol iddo ei hun, i ryw fesur; a hyny i ddewis a gwahaniaethu y pethau sydd yn angenrheidiol i'w gynnaliaeth ef yn neillduol. Nid oes gan yr anifeiliaid sydd yn ymborthi ar laswellt mo'r gallu, yn amlwg o leiaf, i arogli y pethau y mae creaduriaid ysglyfaethus, sydd yn byw ar gig, yn eu sawru gyda chyflymder mawr; na chan yr olaf chwaith arogliad y blaenaf: ond y mae y naill a'r llall yn gallu gwahaniaethu a dewis y pethau sydd yn ymborth iddynt eu hunain i fanyldra anghyffredin.

Nid yw y synwyr yma gan ddyn, er ei fod yn gallu arogli amrywiaeth mawr o bethau, yn llym iawn at yr un o honynt. Y mae ef yn meddu ar gynneddfau uwch, ag sydd yn ei alluogi i gyrhaedd gwybodaeth am natur y pethau sydd yn llesol neu yn niweidiol iddo, fel nad oes angen am dano i'r un graddau o berffeithrwydd a chreaduriaid direswm, nad ydynt yn meddu un cyfarwyddyd arall. Pa fodd bynag, dichon fod y synwyr hwn yn llai cyflym mewn dyn, i fesur mawr o ddiffyg arferiad; fel yr ydym yn canfod pan y mae rhai dynion yn cael eu hamddifadu o un synwyr, fod synwyr arall, drwy dalu sylw iddo er gwneyd i fyny am y diffyg o'r un a gollwyd hyd y gellir, yn cael ei ddwyn i raddau helaethach o gyflymdra nag y mae mewn dynion yn gyffredin. Dywedir wrthym fod yr Indiaid Americanaidd, a rhai o lwythau gogledd-barth Asia, y rhai sydd yn byw gan mwyaf ar helwriaeth, wedi cyrhaedd y fath berffeithrwydd mewn arogli fel nad ydynt yn mhell iawn yn ol i'r ci.

Y mae yn rhaid fod y sawr-hedion sydd yn cael eu bwrw ymaith oddi wrth bethau yn fân iawn, er nad ydynt mor fân a'r gronynau goleuni; o blegid os rhoddir blodeuyn o dan wydryn, ni ddaw ei arogl trwodd, ond y mae y goleuni yn treiddio trwyddo. Rhydd tusw o *fusk* ei arogl am flynyddoedd, heb golli dim o'i bwysau i raddau canfyddadwy; ac er golchi llestr, wedi i ryw sylweddau fod ynddo, lawer gwaith drosodd, bydd yn sawru drachefn am ysbaid maith iawn o amser.

Y mae cyflead y synwyr o arogliad yn amlygu doethineb a daioni y Creawdwr yn darpar y fath amddiffyniad i'w greaduriaid rhag defnyddio dim a fyddai yn ddinystr iddynt yn ymborth, yn lle yr hyn sydd yn briodol er eu cynnaliaeth. Wrtho ef y mae llawer o greaduriaid yn chwilio am eu hymborth, ac y mae pob rhywogaeth yn ei ddefnyddio i fesur mwy neu lai yn newisiad yr hyn a fwytânt. Rhoddwyd ef fel chwanegiad at y synwyr o archwaethiad, nid yn unig er diogelwch y creadur, ond er ei ddedwyddwch; o blegid y mae cyssylltiad agos rhyngddynt â'u gilydd, ac y mae rhai pethau na archwaethid eu blas yn y genau pe cauid y ffroenau wrth eu bwyta; megys sylweddau peraroglaidd (*aromatic substances*). Gwel CI; TRWYN.

Dywedir, pan adeiladodd Noah allor, ac offrymu arni boeth offrymau, "A'r Arglwydd a *aroglodd arogl* esmwyth." "*Smelled a sweet savour.*"—*Saes.* "*A savour of rest*"—arogl gorphwysfa.—*Cobbin. Gen.* viii. 21; *Lef.* xxvi. 31; 1 *Sam.* xxvi. 19; *Amos* v. 21. Y mae yr ymadrodd yn dangos fod gwasanaeth ac offrymau ei bobl yn gymmeradwy gan Dduw, pan yn cael eu cyflwyno iddo gyda chalon ddidwyll, fel y mae arogli yr hyn sydd yn ddymunol yn hyfryd i ni. "Efe a flagura oddi wrth *arogl* dyfroedd;" *Iob* xiv. 9. "*Through moisture*"—lleithder.—*Cobbin.* Y mae Duw yn "eglurhau *arogledd* ei wybodaeth" drwy ei weision, trwy ddwyn tystiolaeth i air ei ras, i beri iddo fod yn effeithiol i adnewyddu y saint, ac achub pechaduriaid; ac y maent hwythau, gweinidogion yr efengyl, yn "*perarogl* Crist," yn nghyflawniad ffyddlawn eu swydd yn ofn Duw;" 2 *Cor.* ii. 14, 15. Tybia rhai fod yn yr adnodau hyn gyfeiriad at y modd y byddai y Rhufeiniaid, wedi cael goruchafiaeth, yn gwasgaru blodau yn yr heolydd, a'u mwgdarthu â pheraroglau, i'r orymdaith. "I'r naill (y rhai colledig) yr ydym yn *arogl* marwolaeth i farwolaeth, ac i'r lleill (y rhai cadwedig) yn *arogl* bywyd i fywyd: *adn.* 16. "I'r naill," medd T. Scott, "yr oedd eu hathrawiaeth yn *achlysur* o fod y gollfarnedigaeth yn drymach, o herwydd cyflwr llygredig eu calonau, a'u gelyniaeth tuag ati, neu eu gwyrdroad o honi; fel y mae aroglau drudfawr weithiau yn niweid-

Digitized by Google

iol, ie. yn farwol, i gleifion. Ond i'r lleill yr oedd eu hathrawiaeth fel arogl dymunol, yr hwn sydd yn bywiogi yr ysbryd, yn adnewyddu yr iechyd, ac yn estyn y bywyd; o blegid trwy ei derbyn a'i gwerthfawrogi, hwy a'i cawsant yn genadwri bywyd ac iachawdwriaeth."

AROGLDARTH—U, [*arogl-tarth*]: math o gymmysgedd gwerthfawr yn rhoddi arogl peraidd wrth ei losgi; ac yn neillduol y perarogledd a losgid ar allor yr arogldarth. [Gwel ALLOR; THUSER.] Ymddengys fod llosgi arogldarth yn cael ei ystyried gan yr Hebreaid yn gymmaint fel gweithred o addoliad neu offrwm cyssegredig, fel nad ydym yn darllen fod arogldarth yn cael ei ddefnyddio yn eu plith i un dyben arall. Nid ydym yn canfod yn mhlith yr Aiphtiaid chwaith ddim tebyg i arogldarth llosg, ond yn unig mewn gwasanaeth offeiriadol; ond yn y cerfluniau Persiaidd, yr ydym yn gweled arogldarth yn cael ei losgi o flaen y brenin. Y gwaharddiad i'r Hebreaid, na wnelent iddynt eu hunain arogldarth "i arogli o hono," cyffelyb i'r hyn a ddarperid i'r allor, a gynnwys yn unig, fel y tybir, fod y fath berarogledd neillduol i'r arogldarth cyssegredig cyn ei losgi, yr hwn y gwaherddid gwneuthur ei fath mewn peraroglau cyffredin.

Dynodir yr arogldarth drwy y geiriau מקטר, *mictar* (*Exod.* xxx. 1); קטר, *citter* (*Ier.* xliv. 21); a קטרת, *cituroth* (*Exod.* xxx. 1; xxxi. 11; *Ezec.* xvi. 18); ac oll yn dyfod o'r gwreiddyn קטר, yr hwn, yn Pihel, yn gyffredin, a arwydda *cyfodi arogledd drwy losgi*; ac yn ffurf prifair, fe ei cymhwysir, nid yn unig at offrymu arogldarth, ond hefyd at aberthau, mwg neu sawyr pa rai a ystyrid yn foddhaol, yn arogl peraidd, i Dduw. Dilys yw fod y gair a arwydda arogldarth llysieuol, yn *Exod.* xxx. 1, a xxxvii. 25, yn dysgrifio arogldarth o frasder yn *Salm* lxvi. 15.

Y mae defnyddiau yr arogldarth cyssegredig yn cael eu henwi gyda chryn fanylrwydd yn *Exod.* xxx. 34, 35; "Cymmer i ti lysiau peraidd, sef stacte (נטף, *netaph*), ac onycha (שחלת, *shechel-eph*), a galbanum (חלבנה, *chelbenah*); y llysiau hyn, a thus (לבנה, *lebonah*) pur: yr un faint o bob un. A gwna ef yn arolgdarth aroglber o waith yr apothecari, wedi ei gyd-dymmeru, yn bur ac yn sanctaidd." Am eglurhad ar yr amrywiol ddefnyddiau hyn, edrycher dan y gwahanol eiriau yn y gwaith hwn. Y cyfarwyddyd nesaf oedd, fod i beth o'r cymmysg gwerthfawr hwn gael ei guro yn fân, a'i ddodi yn nghadw yn mhabell y cyfarfod, "ger bron y dystiolaeth," sef yr arch. Gan fod y defnyddiau yn cael eu dynodi mor fanwl, nid oedd dim i luddias y cyfoethogion rhag gwneuthur ei fath at eu gwasanaeth eu hunain: hyn, gan hyny, a waharddwyd dan boen esgymundod: "Pwy bynag a wnel ei fath ef, i arogli o hono, a dorir ymaith oddi wrth ei bobl;" *adn.* 37, 38.

Y mae y gair sydd yn dysgrifio y gwahanol ddefnyddiau megys wedi eu "cyd-dymmeru," yn meddwl yn llythyrenol "halltu" (ממלח, *memullach*), fel ar ymyl y ddalen yn ein Beiblau ni. Y Galdaeg, a'r cyfieithiadau Groegaidd, modd bynag, a'n dysgant i'w gyfieithu drwy y geiriau *cymmysgu* neu *gyd-dymmeru*, fel pe buasent yn meddwl fod y gwahanol ddefnyddiau hyn wedi eu cymmysgu yn nghyd, yn gymhwys fel y bydd halen yn cael ei gymmysgu âg unrhyw ddefnyddiau ei taenir arnynt. Y mae Ainsworth yn dadleu dros yr ystyr llythyrenol, yn gymmaint a bod y gyfraith yn dywedyd yn bendant, "Offryma halen ar bob offrwm i ti;" *Lef.* ii. 13. Yn ol hyn, yr ydys yn tybied, y dywed ein Harglwydd, "Pob aberth a helltir â halen;" *Marc* ix. 49. Y mae Ainsworth yn sylwi yn mhellach, "Os yw ein hymadrodd i fod bob amser yn rasol, wedi ei dymmeru â halen, fel y dywed yr apostol (*Col.* iv. 6), pa faint mwy y dylai ein harogldarth, ein gweddïau at Dduw, fod wedi eu tymmeru felly?" Y mae yn anhawdd, modd bynag, weled pa wedd y gallai defnydd mor anghydryw gymmysgu yn dda yn y fath barotoad; ac os oedd yn cael ei ddefnyddio, fel yr ydym yn tueddu i feddwl ei fod, yr oedd ond odid yn cael ei chwanegu yn y weithred o offrymu.

Haera Maimonides, nad oedd dim yn cael ei offrymu ar yr allor heb ei halltu, oddi eithr gwin y ddiod-offrwm, y gwaed, a'r coed; ac am yr arogldarth, dywed eto yn fwy pendant, "eu bod yn chwanegu cab o halen ato."

Y mae y dyfyniad hwn o eiddo Maimonides yn dwyn ar gof i ni y rheswm a rydd efe dros ddefnyddio arogldarth yn y gwasanaeth Iuddewig:—"I ragflaenu y drygsawr, yr hwn fel arall a achlysurid gan luaws yr anifeiliaid a leddid yn feunyddiol yn y cyssegr, ordeiniodd Duw fod i arogldarth gael ei losgi ynddo fore a hwyr, ac felly, beri i arogl y cyssegr, a gwisgoedd y rhai a weinyddent yno, fod yn dra dymunol. Hyn a achlysurodd ddywediad ein dysgawdwyr (*rabbins*), Fod arogl yr arogldarth yn cyrhaeddyd hyd Iericho. Hyn, gan hyny, sydd orchymyn arall yn tueddu i gynnyrchu yr anrhydedd a'r parchedigaeth a ddylai fod tuag at y cyssegr; canys pe na buasai ei berarogledd yn hyfryd, ond yn y gwrthwyneb, buasai yn cynnyrchu dirmyg yn lle parchedigaeth, gan fod arogl dymunol yn boddhau ac yn denu, tra y mae arogl anhyfryd yn peri ffieiddiad a gwrthwynebiad."

Y mae hyn yn bur dda; a dilys fod arogldarthu, fel yr ydym yn ei gael bob amser yn y crefyddau y byddo yr addoliad yn cael ei roddi drwy aberth, wedi tarddu oddi wrth gyfryw ystyriaethau. Ond ni ddylem golli golwg ar ystyr arwyddocaol yr offrwm boddhaol hwn. Yr oedd yn arwyddlun o *weddi*. Offrymid ef ar yr adeg y byddai y bobl yn agwedd a gweithred gweddi; a thybid fod eu gweddïau yn cael eu cyflwyno i Dduw gan yr offeiriad, a'u bod yn esgyn ato ef yn mwg ac arogl yr offrwm peraidd. Y mae y meddylddrych prydferth am yr arogldarth yn dygwydd yn fynych yn yr Ysgrythyrau: cymharer *Salm* cxli. 2; *Mal.* i. 11; *Zech.* xiv. 16; *Act.* x. 4; *Dad.* v. 8; viii. 3, 4. [*Kitto*, &c.] Amlwg yw fod yr arwyddlun yn gosod allan, heb law gweddïau y saint, deilyngdod aberth ac eiriolaeth Crist—yr Archoffeiriad mawr, Angel y Cyfammod—yn yr hwn y mae gweddïau y saint yn esgyn i fyny yn gymmeradwy ger bron Duw. "Aeth mwg yr arogldarth *gyda* gweddïau y saint, o law yr angel, i fyny ger bron Duw." Gwel EIRIOLAETH.

AROM, neu AROMA: pentref yn Cappadocia.

ARON, neu AARON: un o gynferthyron yr eglwys Brydeinig, a anwyd yn Nghaerlleon ar Wysg, yn rhandir Gwent, o ddeutu canol y drydedd ganrif. Nis gwyddys beth oedd ei enw Cymreig neu gyssefin; ond y mae yn amlwg ddigon nad oedd Aron ddim amgen nag enw a fabwysiadwyd ganddo ar ei waith yn cofleidio Cristionogaeth: ac nid peth anghyffredin ydoedd hyn yn yr oesoedd boreuol hyny; canys yr ydym

Digitized by Google

yn gweled ddarfod i Alban, Amphibalus, a Julius—merthyron fel yntau—wneuthur yr un peth. Cafodd Aron a Julius eu cydosod i farwolaeth, gydag arteithiau o'r creulonaf, yn ystod yr erlidigaeth danllyd o dan yr ymherawdwr Diocletian, yn y flwyddyn 303; sef yn nghylch yr un amser a St. Alban, yn ol tystiolaeth yr hanesydd Matthew o Westminster, er bod rhai yn gosod y dygwyddiadau hyn mor gynnar a'r flwyddyn 286. Yn ol Gwallter, Archiagon Rhydychain, Gruffydd ab Arthur, Giraldus Cambrensis, ac ereill, cyssegrwyd dwy eglwys harddwych er coffadwriaeth am Aron a Julius, yn ninas Caerlleon ar Wysg: i un Aron y perthynai urdd o gynoniaid; ac i un Julius côr o leianod. Y mae yr Entraw Rees braidd yn amnheu hyn; a thueddir ef i edrych ar y cwbl fel un o ofer chwedlau mynachod dyfeisgar y canoloesoedd: ond cadarnheir y peth i raddau yn *Llyfr Teilo*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig; a dywed yr esgob Godwin, yr hwn a fu farw yn 1633, fod olion yr adeiladau hyn i'w gweled yn ei amser ef. Yn Merthyreg Eglwys Rhufain, gosodir cofwyl Aron a Julius ar y dydd cyntaf o Orphenaf. Nid oes sicrwydd fod neb o eglwysi y dydd heddyw yn dwyn enw y sant boreuol hwn; ond tybir yn gyffredin mai iddo ef y mae Eglwys Llanharan, yn Morganwg, wedi ei chyflwyno.

Am rai pethau perthynol i helyntion yr amseroedd yr oedd Aron yn byw ynddynt, gweler yr erthygl ALBAN.—(*Enwogion Cymru; Liber Landavensis*, td. 307, 483; *Rees's Welsh Saints*, td. 96; *Brut Gr. ab Arthur*.)

AROS, [*ar—aws*]: trigo, parhau, dysgwyl. Y mae yn cyfateb i *μενω* yn Groeg, a *maneo* yn Lladin. Arferir ef yn yr Ysgrythyrau mewn cyfeiriad—laf. At le. (*a*) Am bersonau: *Mat.* xxvi. 38; *Luc* vii. 27; *Ioan* ii. 12; 2 *Tim.* iv. 20. Yn yr ystyr o letya; *Luc* xix. 5; *Ioan* iv. 40. (*b*) Am bethau: *Ioan* xix. 31; "Fel nad *arhoai* y cyrff ar y groes." 2 *Cor.* iii. 14; "Y gorchudd yn *aros* heb ei ddadguddio."

2il. Gyda golwg ar gyflwr neu sefyllfa: *Ioan* xii. 46; 1 *Cor.* vii. 8. Aros yn meddiant un: *Act.* v. 4; "Onid i ti yr oedd yn *aros*?" Yn cynnwys y drychfeddwl o barhad, a gymhwysir at y grasau Cristionogol: 1 *Cor.* xiii. 13; *Ioan* xv. 16; "Ac yr *arosai* eich ffrwyth." *Heb.* xii. 27; "Fel yr *aroso* y pethau nid ysgydwir." Yn 2 *Cor.* iii. 11, y mae "yr hyn sydd yn *aros*" yn gyferbyniol i'r "hyn a ddileid."

3ydd. At y berthynas y saif un ynddi tuag at arall: *Ioan* vi. 56; xiv. 10; xv. 4—6; 1 *Ioan* ii. 6; iii. 24; iv. 15, 16. Yn yr enghreifftiau hyn, cymhwysir ef at bersonau—"Aros ynddo ef," sef Crist; yr hyn a arwydda, bod yn un âg ef mewn meddwl, calon, ac ewyllys. Pan gymhwysir ef at bethau, dynoda barhad diysgog yn y pethau hyny: *Ioan* viii. 31; "Aros yn ngair" Crist: xv. 9; 1 *Ioan* iv. 16; "Aros yn nghariad" Crist: 1 *Ioan* ii. 10; "Aros yn y goleuni:" 2 *Ioan* 9; "Aros yn nysgeidiaeth" Crist. Yn yr un ystyr, dywedir fod pethau yn aros yn neu ar y person: megys y gair; *Ioan* v. 38: y gwirionedd; 2 *Ioan* 2: yr Ysbryd Glân; *Ioan* i. 32: bywyd tragwyddol; 1 *Ioan* iii. 15: digofaint Duw; *Ioan* iii. 36. Y mae *aros* yn un o hoff eiriau Ioan yn ei efengyl a'i epistolau. Y mae y frawddeg, "aros ynddo ef," a ddygwydda mor fynych yn ei ysgrifeniadau, wedi ei seilio, y mae yn debygol, ar ymadroddion ein Harglwydd yn *Ioan* xv. 1—10, ac yn enwedigol ar *adn* 10. "Bod yn Nghrist," ydyw bod yn wrthddrych ei gariad; ac "aros yn Nghrist," ydyw parhau yn ei gariad a'i gymdeithas, fel gŵr yn ei gartref. Y mae yn dynodi, nid rhyw deimlad amserol a darfodedig o serch ato ac at ei gymdeithas, ond ymlyniad parhaus a diysgog wrthynt, yn cyfodi oddi ar egwyddor sefydlog o gariad atynt.

ARPAD, neu ARPHAD: dinas a rhandir yn Syria, yn meddu ei brenin ei hunan, ac yn cael ei chrybwyll yn yr Ysgrythyrau yn gyffredin mewn cyssylltiad â Hamath, sef Epiphania y Groegiaid: 2 *Bren.* xviii. 34; a xix. 13; *Esa.* x. 9; a xxxvi. 19. Fe'i camgymmerwyd yn fynych am Arvad, neu Aradus y Phœniciaid. Michaelis, ac ereill, a dybiant mai yr un oedd Arpad a Raphanæ y daiaryddwyr Groegaidd, yr hon oedd daith diwrnod i'r gorllewin o Hamath. Ond y mae ereill yn meddwl mai yr un ydoedd Arpad a'r Arpha a grybwyllir gan Josephus, yn *Hanes y Rhyfeloedd Iuddewig*, fel yn gorwedd ar derfyn gogledd-ddwyreiniol tiriogaethau Herod Agrippa. Ond nid yw y golygiadau hyn oll namyn dyfalion tra disail: a rhaid addef nas gallwn fod yn sicr am y fan y safai Arpad.

ARPHAXAD: trydydd mab Sem, taid Heber (*Gen.* x. 22; xi. 10), a chyff-dad yr Hebreaid. Ganwyd ef flwyddyn ar ol y dylif. Dywedir iddo fyw 438 o flynyddoedd: *Gen.* xi. 12. Pan yn 35 mlwydd oed, cenhedlodd Selah. Gan Josephus, gelwir ef "Tad y Caldead." Meddylir mai efe oedd sylfaenydd talaeth Arrapachitis, yn Assyria Ogleddol, yn unol â'r hyn sydd wedi ei brofi yn foddhaol erbyn hyn, fod yr enwau sydd yn y daflen genedlaethol yn *Gen.* x. yn enwau, nid yn unig ar bersonau, ond ar y cenedloedd a hanasant o honynt, fel y mae Iudah ac Israel yn enwau personau a chenedloedd. Y mae hyn yn amlwg oddi wrth fod llawer o honynt yn y rhif luosog, megys yr holl rai sydd yn terfynu yn *im* (*adn.* 13, 14); ac hefyd oddi wrth fod y terfyniad *iad* (*adn.* 16—18) yn perthyn i *lwythau*, ac nid i bersonau. Y mae hyn yn amlwg hefyd oddi wrth fod brodyr Arphaxad wedi rhoddi enwau i wledydd;—Elam (Elymais), Assur (Assyria), Lud (Lydia), Aram (Aramea neu Syria).

ARSACES: enw sylfaenydd teyrnas Parthia, 250 o flyneddoedd cyn genedigaeth Crist. Parhaodd yr enw ar ei olynwyr, o ba rai y crybwyllir am Arsaces VI. yn 1 *Mac.* xiv. 1—3, yr hwn hefyd a adnabyddir wrth yr enw Mithridates I. Efe a ledodd derfynau teyrnas Parthia i'r dwyrain a'r gorllewin: cymmerodd hefyd Demetrius Nicator, brenin Syria, yn garcharor, yr hwn a wnaeth ymdrech i adfeddiannu rhai o'i daleithiau gorchfygedig, c. c. 140. Gwel PARTHIA.

ARSWYD. Gwel OFN.

ARTAXERXES, neu ARTACHSHAST [ארתחשסתא], ydyw yr enw a roddir ar freninoedd Persia. Y mae y gair yn gyfansawdd: y rhan gyntaf o'r hyn—*arta*—sydd yn fynych yn cyfansoddi y rhan gyntaf o enwau Persiaidd; megys *Arta*-banus, *Arta*-pates, &c. Arwydda *arta*, yn ol Ammianus Marcellinus, *gorchfygwr rhyfeloedd*. Barna ereill ei fod yn tarddu o'r gwreiddair *ar*, neu *er*, neu *ir*, yr hwn, yn mhob iaith, sydd yn cynnwys y drychfeddwl o nerth a gwroldeb. Ymddengys fod *Ares*, *Mars*, *Vir* (gŵr), yn tarddu o'r un gwreiddyn. Felly, bernir yn

Digitized by Google

gyffredin, mai ystyr *arta* yw *mawr*. Ystyrir gan De Sacy fod y rhan ddiweddaf o'r gair yn ddeilliedig o *Khshethro*; gair yn iaith Zend, yn arwyddo *brenin*: â'r hyn y mae Pott a Gesenius yn cytuno. Fel hyn, y mae y drychfeddwl o *arwr*, yr hwn a roddodd Herodotus i'r ffurf Roegaidd, Artaxerxes, yn cydweddu â'r ystyr a gantyddir yn ngweinyddiad y teitl yn iaith Persia.

1. ARTAXERXES LAW HIR, neu Longimanus (yn Groeg, Macrocheir). Gelwid ef felly ar gyfrif eangder ei lywodraeth; neu am fod ei law ddeheu yn hwy na'r llall. Ail fab ydoedd i Xerxes I. Esgynodd yr orsedd ar lofruddiaeth ei dad, a'i frawd Darius, gan Artabanus (c. c. 464). Bu yn agos ei hun â chael ei lofruddio yn ddirgelaidd gan yr un dyn; ond achubodd ei nerth rhagorol ef yn yr ymosodiad, a lladdodd Artabanus â dyrnod ei ddagr. Yn ystod y terfysgoedd cartrefol a ddilynasant yr amgylchiad hwn, a thra yr oedd y brenin yn darostwng talaeth aflonydd Bactria, meddyliodd yr Aiphtiaid fod yr adeg hon yn hynod ffafriol iddynt adennill eu hannibyniaeth, o'r hyn yr amddifadwyd hwynt gan Cambyses; a hwy a ymgyfodasant dan Inaros (c. c. 460), a braidd a ryddhasant eu gwlad o dan iau y Persiaid. Cynnorthwyid hwynt y pryd hyn gan yr Atheniaid. Ceisiodd Artaxerxes eu darostwng trwy ei ewythr neu ei frawd, ond gorchfygwyd a lladdwyd hwnw. Mewn ail ymgyrch, yr hon a lywyddid gan Artabazus a Megabyzus, bu yn fwy llwyddiannus, fel y bu yn rhaid i'r Atheniaid ymadael o'r wlad, gan adael yr Aipht yn nwylaw y Persiaid, ar ol chwe blynedd o wrthwynebiad; yn ystod rhan o'r blyneddoedd hyny, yr oedd yr Atheniaid mewn cwbl feddiant o'r Aipht Isaf. Parhaodd yr Atheniaid y rhyfel, pa fodd bynag, ac anfonasant fintai o filwyr o dan Cimon i gymmeryd meddiant o Cyprus. Gorchfygodd Cimon y Persiaid amryw weithiau; ac yr oedd braidd wedi darostwng yr holl ynys pan y symmudwyd ef ymaith gan glefyd, c. c. 449. Heddychwyd wedi hyny ar yr ammodau canlynol: — 1af. Fod holl ddinasoedd Groegaidd Asia i fwynhau llwyr annibyniaeth. 2il. Na byddai i longau rhyfel Persia fyned i'r môr sydd yn cyrhaedd o gyffiniau Pamphylia mor bell a'r fynedfa i'r Môr Du. 3ydd. Na byddai i fyddin Bersiaidd ddyfod o fewn taith niwrnod marchfilwr i foroedd Groeg, neu daith tridiau. 4ydd. Na byddai i'r Atheniaid ymosod ar un o feddiannau brenin Persia.

Barna Dr. Prideaux fod yr Artaxerxes hwn yr un ag Ahasferus Llyfr Esther, yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad yr hwn y caniatawyd i Ezra a'r Iuddewon ddychwelyd i Iudea: *Ezra* vii. 8. Barna ereill mai nid Artaxerxes Longimanus ydyw yr un a grybwyllir yn Llyfr Esther, ond mai ei dad Xerxes ydyw. Y rhesymau a ddygir yn mlaen dros y diweddaf gan J. D. Michaelis, Jahn, a De Wette, ydynt y rhai canlynol:—Gan fod rhanau blaenaf Llyfr Esther yn perthyn i Darius Hystaspis, ei bod yn fwy naturiol i ddysgwyl fod y rhanau canlynol yn cyfeirio at Xerxes, ei olynwr:—fod, ar y dybiaeth mai Artaxerxes a feddylir yn Esther, anhawsder nid yn unig i esbonio pa fodd y mae teyrnasiad Xerxes, yr hwn oedd mor ffafriol i'r Iuddewon, yn cael ei gadael allan yn gwbl, ond hefyd pa fodd y mae yr hanes yn gwneyd y fath naid ag sydd o'r chweched flwyddyn o Darius hyd y seithfed o Artaxerxes, cyfnod o gylch deunaw a deugain o flyneddoedd:—fod, ar y dybiaeth hono, y cyfwng rhwng y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad, pan aeth Ezra allan, yn caniatau rhy ychydig o amser i amgylchiadau y genedl i fyned i'r ystâd hono o annhrefn ag y cafodd Nehemïah hi pan gyrhaeddodd Ierusalem, yn yr ugeinfed flwyddyn o'i deyrnasiad:—ac, yn ddiweddaf, fod Josephus yn galw y brenin dan sylw yn *Xerxes* [*Hen. Iudd.*, xi. 5.] Y mae pleidwyr y dybiaeth arall — mai Artaxerxes Longimanus ydyw y brenin a olygir: yn mysg y rhai y mae J. H. Michaelis, Eichhorn, a Bertholdt, yn ei seilio ar yr ystyriaethau canlynol:—Nad yw cydlyniad rhwng amryfal ranau Llyfr Esther mor fanwl fel ag i wneyd y ddadl gyntaf yn benderfynol; fel, os cymmerir yn ganiataol mai Xerxes ydyw yr un y cyfeirir ato, y mae cyfwng neu fwlch o un ar bymtheg ar ugain o flyneddoedd rhwng diwedd *pen.* vi. a dechreu *pen.* vii:—fod yr wrthddadl fod y cyfwng rhwng dyfodiad Ezra a dyfodiad Nehemïah i Ierusalem yn rhy fyr (ar y dybiaeth fod y cyntaf wedi gadael Babilon yn nheyrnasiad Artaxerxes) i roddi cyfrif am yr annhrefn oedd yn mysg y genedl pan gafodd y diweddaf hi, yn colli ei grym, wrth ystyried fod y wladwriaeth ieuanc yn myned yn mlaen yn bur araf yn ei sefyllfa anghyfleus, ac wrth ystyried hefyd fod egnïon Ezra yn cael eu cyfeirio yn fwy i ddiwygio sefyllfa grefyddol yr Iuddewon na'u sefyllfa wladwriaethol:—nad yw sylw Josephus mewn un modd i bwyso arno, yn gymmaint a'i fod ef yn galw y brenin, yn nheyrnasiad yr hwn y dychwelodd Nehemïah, yn *Xerxes* hefyd, yr hyn yn ddiammheu sydd yn anghywir, gan fod Nehemïah wedi myned yn ol i Persia yn y ddeuddegfed flwyddyn a deugain o deyrnasiad y brenin (*Neh.* xiii. 6), ac ni theyrnasodd Xerxes ond un mlynedd ar ugain:—fod Esdras, yn yr Apocrypha, yn galw y brenin yn Artaxerxes:—fod genym, wrth gymmeryd Artachshast i fod yn Artaxerxes Longimanus, y ddadl o debygrwydd mawr yn y ddau enw;—yn ddiweddaf, mai os Xerxes ydyw Ahasferus Llyfrau Esther ac Ezra, yr ydym, nid yn unig yn ysgoi anghyssondeb y dybiaeth arall, sef edrych arno dan ddau enw tra amrywiol mewn llyfrau a ysgrifenwyd braidd yr un amser, ond yr ydym yn cael Artaxerxes yn cael son am dano wrth yr un enw yn Llyfrau Ezra a Nehemïah.

2. ARTAXERXES, a elwid Mnemon (Μνημων) o herwydd rhagoriaeth ei gof: oedd fab henaf Darius II. a Parysatis, ac a esgynodd yr orsedd ar farwolaeth ei dad, c. c. 405. Yr oedd ganddo dri o frodyr, Cyrus, Ostanes, ac Oxathres. Ei enw cyntaf oedd Arsaces neu Arsicas, yr hwn a newidiodd i Artaxerxes ar ei esgyniad i'r orsedd. Yr oedd ei frawd Cyrus o'r fath duedd uchelgeisiol, fel y penderfynodd wneuthur ei hun yn frenin mewn gwrthwynebiad i Artaxerxes. Yr oedd Parysatis bob amser yn ffafriol i Cyrus; a phan ymgeisiodd am fywyd Artaxerxes, ennillodd faddeuant ei frawd iddo trwy ddylanwad ei hymbiliau. Gan fod Cyrus wedi ei osod yn llywydd ar Lydia, a'r taleithiau morwrawl, gallodd gynnull byddin gref dan rith esgusion, ac aeth yn erbyn ei frawd gyda chan mil o farbariaid, a thair mil ar ddeg o'r Groegiaid. Hon oedd yr ymgyrch enwog ag y mae ei hanes wedi ei groniclo yn Xenophon. Gwrthwynebwyd ef gan Artaxerxes gyda naw can mil o wŷr, ac ymladdwyd brwydr waedlyd yn Cunaxa, yn nghylch deugain milltir o Babilon, yn yr hon y lladdwyd Cyrus, ac y gwanychwyd ei fyddin yn ddirfawr. O herwydd i'r Spartiaid gymmeryd rhan yn y rhyfel yn erbyn Artaxerxes, aeth i ryfel yn eu herbyn hwythau. O herwydd gwendid llywodraeth Persia, ymwr-

Digitized by Google

olodd y Spartiaid, ac aethant i Asia. Penodwyd Agesilaus yn gadlywydd y fyddin Spartaidd, a throdd ei lwyddiant allan yn gyfartal i'r cymmeriad uchel yr oedd wedi ei ennill yn barod. Buasai yn sicr o ddarostwng Persia, oni buasai i Artaxerxes, trwy lwgrwobrwyaeth, beri i'r Groegiaid ymgyfodi yn erbyn Sparta. Galwyd Agesilaus adref i amddiffyn ei wlad; ac yn fuan wedi hyny, ennillodd y Persiaid fuddugoliaeth forawl yn agos i Cnidus, c. c. 394. Dygwyd y Spartiaid o'r diwedd i arwyddo cytundeb i roddi i fyny bob peth y buont yn ymladd am danynt, yr hwn sydd yn adnabyddus mewn hanesiaeth fel "Heddwch Antalcidas," oddi wrth enw y person a ddefnyddiwyd gan y Spartiaid i'w gwblhau. Yr unig ryfel a lywyddwyd gan Artaxerxes yn bersonol oedd y rhyfel yn erbyn y Cadusiaid, yn yr hon y dangosodd y fath wroldeb ac amynedd ag a synasant ei lyswyr. Priododd ei ferched ei hun, Amestris ac Atossa—yr anghraifft gyntaf a geir yn hanes Persia o'r fath gyssylltiadau annaturiol. O ddeutu y rhan ddiweddaf o'i oes, rhoddes ei fab Darius i farwolaeth mewn canlyniad i fradwriaeth a fwriadasai yn ei erbyn. Bu ymgeisiadau Artaxerxes i ddarostwng yr Aipht yn gwbl aflwyddiannus. Bu farw o dristwch, o herwydd ymddygiadau drygionus ei fab Ochus (c. c. 359), pan yn y bedwaredd flwydd ar ddeg a phedwar ugain o'i oed; a dilynwyd ef gan Ochus.

Y mae ychydig o'r beirniaid yn golygu mai y brenin hwn a feddylir yn *Neh.* ii. 1; v. 14; a xiii. 28. Y maent wedi gwneyd y dybiaeth hon er mwyn cyssoni *Neh.* xiii. 28, â Josephus [*Hyn.* xi. 8]. Ond bernir gan y mwyafrif mai Longimanus a feddylir yn y manau hyn.

3. ARTAXERXES OCHUS: trydydd mab Artaxerxes Mnemon. Y mae yr holl hanesion a geir am dano yn cytuno i'w wneyd y mwyaf creulawn a gwaedlyd o holl freninoedd Persia. Dechreuodd ei deyrnasiad trwy roddi i farwolaeth bawb o'r teulu breninol oddi wrth y rhai yr ofnai berygl. Yr oedd yr Aipht, yr hon nid ymostyngodd erioed i lywodraeth Persia, yr amser hwnw mewn gwrthryfel, ac yn cael ei llywodraethu gan Nectanebus II., y diweddaf o'i thywysogion genedigol. Arweiniodd Artaxerxes fyddin gref yn ei erbyn, ac fe dorodd rym yr Aipht yn hollol – c. c. 354.

Bu ei ymddygiad at y duw Aiphtaidd, Apis, yn achlysur i brysuro ei ddinystr; o blegid cynhyrfodd y fath lid ac eiddigedd yn meddwl Bagoas, ei hoff eunuch, yr hwn oedd yn Aiphtwr, fel, ar ddychweliad y brenin i Persia, y llofruddiodd ef, ac y sefydlodd ei fab ieuangaf, Arses, ar yr orsedd. Os ydyw dyddiad y rhyfel â'r Aipht, c. c. 354, a marwolaeth Ochus, c. c. 338, yn gywir, ymddengys nad oes nemawr o sail i'r hanes hwn.

ARTEMAS: dysgybl tra chymmeradwy, a chyfaill mynwesol yr apostol Paul, a barnai rhai ei fod yn un o ysgrifenyddion yr apostol. Pa fodd bynag, y mae yn rhaid ei fod yn dra chymmeradwy ganddo, pan y bwriadai efe ei anfon i Creta yn lle Titus, yr hwn a wahoddai i ymweled âg ef yn Nicopolis: *Tit.* iii. 12.

ARTEMIS. Gwel DIANA.

ARTIMON, ARTIMONIAID. Gwel GWRTHDRINDODIAID.

ARTOTYRIAID. Gwel MORITANIAID.

ARTH, [Llad. *ursus*; Gr. *αρκτος*]: creadur bronog pedwar-troediog ysglyfaethus. Perthyna i'r dosbarth *Ursus.—Lin.* Pwysa yn gwbl ar wadn y troed wrth gerdded. Y mae yn meddu chwech o ddannedd blaen, a dau o ddannedd llygad, yn mhob gen, deuddeg o gilddannedd yn yr en uchaf, a phedwar ar ddeg yn yr èn isaf. Y mae ganddo bum bys, a phalfau cryfion ar bob un o honynt, ar bob troed. Y mae ei gynffon yn fer. Bwyty bob peth; ond anaml y bwyty gig, oddi eithr o angenrhaid.

Y mae y tylwyth yma o greaduriaid wedi ei ddosbarthu i amryw ranau gan naturiaethwyr. Y penaf o honynt a nodir isod.—

1. Yr arth lwyd (*Ursus Arctos*). Y mae y dosbarth yma yn wasgaredig ar hyd mynyddoedd Ewrop ac Asia, a choedwigoedd America. Y mae cryn wahaniaeth maintioli rhwng rhai ac ereill yn y dosbarth hwn; ond yn gyffredin, byddant o bump i saith troedfedd o hyd.

2. Yr arth ddu (*Ursus Americanus*). Ceir gafael ar y rhai hyn yn nghoedwigoedd yr America Ogleddol gan mwyaf; ond y mae y dosbarth hwn hefyd yn dra gwasgaredig. Y mae yr arth ddu yn llai o faintioli yn gyffredin na'r arth llwyd—ei hyd yw o ddeutu pedair troedfedd.

3. Yr arth frith (*Ursus Ornatus*). Perthyna hwn yn fwyaf i fynyddoedd yr Andes, a hwyrach mai amrywiaeth yw hwn o'r arth ddu.

4. Yr arth gymmysglyd neu ffyrnig (*Ursus ferox*). Y mae y dosbarth yma yn oleuach eu lliw na'r arth lwyd, ac yn gyffredin yn fwy eu maintioli. Y mae y dosbarth hwn hefyd yn dra ffyrnig a chreulawn.

5. Yr arth Siberaidd (*Ursus Collaris*). Y mae hwn yn dra thebyg i'r arth lwyd, ond yn unig fod torch wen o amgylch ei wddf; ac y mae yn agos yr un faintioli a'r arth lwyd.

6. Arth Thibet (*Ursus Thibetanus*). Y mae y dosbarth hwn i'w gael gan mwyaf yn mynyddoedd Nylhet, a manau ereill yn yr India: eu lliw sydd ddu, oddigerth fod yr en isaf yn wen.

7. Arth Syria (*Ursus Syriacus*). Dyma y dosbarth y cyfeirir ato yn y Beibl. Y mae lliw y rhai



Dar. 79. Arth Syria.

hyn yn felyngoch, a meddant fwng o flew cryfion, o ddeutu pedair modfedd o hyd, yn cyrhaedd ar hyd eu cefnau o'r gwddf i'r gynffon.

8. Yr arth wen, neu arth y môr (*Ursus maritimus*). Y mae y rhai hyn yn trigiannu yn y gwledydd oerion o gwmpas pegwn y gogledd. Eu lliw sydd wyn. Y maent i'w cael yn gyffredin ar feusydd o iâ: a chan nad ydynt yn alluog i gael ffrwythydd a gwreiddiau, ymborthant yn hollol ar bysgod a chreaduriaid ereill; ac o blegid hyny, y maent yn ffyrnig a chreulawn iawn.

Digitized by Google

Cyrhaeddant hefyd faintioli mwy nag un dosbarth arall.

Y mae dosbarthiadau ereill o'r creaduririaid hyn, llai eu pwys na'r rhai a nodwyd; ond gan eu bod yn perthyn yn agos i'r rhai hyn, nid angenrhaid eu nodi yma.

Y mae cryn wahaniaeth maintioli yn perthyn i'r gwahanol ddosbarthiadau hyn. Yr arth ddu a'r arth felyngoch ydyw y rhai lleiaf; mesurant yn gyffredin o ddeutu pedair troedfedd o hyd, a dwy droedfedd a hanner o daldra. Y nesaf mewn maintioli yw yr arth lwyd: cyrhaedd hon weithiau chwe throedfedd o hyd, a thaldra a thrwch cyfatebol. Y fwyaf yw yr arth wen: y mae hon yn tyfu i faintioli anferth, sef o ddeutu naw troedfedd o hyd, pump o uchder, ac yn pwyso o gwmpas hanner tynell.

Nid yw y creaduriaid hyn o angenrheidrwydd yn gigysol (*carnivorous*): ymborthant yn aml, ac weithiau yn gwbl, ar wreiddiau, llysiau, a ffrwythydd coed; ac y mae eu palfau yn fwy pwrpasol at dirio yn y ddaiar, a dringo coedydd, na rhwygo creaduriaid, ac y mae eu dannedd yn fwy cymhwys at fwyd cymmysg nag at gig yn unig; ac nid oes o honynt ond yr arth wen yn byw yn gwbl ar gig.

Ar y cyfan nid ydynt mor ffyrnig a gelynol i ddyn, fel yr ymosodant arno heb gael eu cynhyrfu: ond os ymosodir arnynt, ymladdant yn ofnadwy, yn enwedig os y fenyw a erlidir pan fyddo rhai bach ganddi; aberthant eu bywyd i ddiogelu yr eiddo eu cenawon.

Yn nechreu y gauaf, cilia y benywod o honynt o'r neilldu i ogofeydd, ac i mewn i goedydd ceuol; ac mewn gwledydd oerach o dan greigiau a lluwch eira, ac yn y lleoedd hyn gorweddant a chysgant am fisoedd (o Hydref hyd Mai): yn y cyfamser, dygant rai bach, o ddau i bump mewn nifer, a magant hwy yno trwy roddi sugn iddynt, hyd nes y cynheso yr hin, ac y galluogir hwy i fyned allan. Ac yn ystod yr holl amser yma ni fwytant ddim. Byddant yn dew iawn wrth fyned i gysgu—eu bloneg yn aml o chwech i saith modfedd o drwch—ac nid ydynt yn ymddangos yn deneuach wrth ddyfod allan o'u cuddfanau nag wrth fyned iddynt: ond yn mhen ychydig ddyddiau, ymddangosant yn dra theneu a llwm yr olwg arnynt.

Y mae eu crwyn yn werthfawr iawn: ac unwaith yn y wlad hon rhoddid 40*p*. am groen yr arth ddu, ond yn awr nid ydynt yn cyrhaedd ond o ddeutu dwy bunt. Lleddir miloedd lawer o honynt bob blwyddyn er mwyn eu crwyn. Y mae eu bloneg hefyd yn cael ei ystyried yn dra gwerthfawr.

Sonia yr hen haneswyr am eirth yn Mhrydain, a diau eu bod yn lluosog yma unwaith; ond y maent wedi eu hymlid ymaith er's llawer dydd. Y mae enwau amryw leoedd yn Nghymru hefyd, megys Llanarth, Aberarth, &c., yn dangos fod iddynt unwaith lochesau yn y Dywysogaeth.

Y mae cyfeiriadau aml yn yr Ysgrythyrau at y creaduriaid hyn. Y mae Dafydd, wrth ddangos ei barodrwydd i ymladd â Goliath, yn mynegu i Saul pa fodd yr oedd wedi gorchfygu llew ac arth, ac yn dadgan ei hyder yn y Duw hwnw a'i hachubodd, y gwna efe ei waredu o law y Philistiad dienwaededig hefyd: 1 *Sam*. xvii. 34—36. Ac y mae yr Arglwydd yn dangos ei anfoddlonrwydd wrth y plant hyny a watwarasant y prophwyd Eliseus trwy beri i ddwy arth ddyfod allan o'r goedwig, a dryllio o honynt ddau blentyn a deugain: 2 *Bren*. ii. 23, 24. At ffyrnigrwydd a chreulondeb yr arth y cyfeirir yn amlwg yn y Beibl, yn enwedig arthes wedi colli ei chenawon. Gwrthwynebai Husai gynghor Ahitophel i Absalom, trwy ddywedyd, "Ti a wyddost am dy dad a'i wŷr, mai cryfion ydynt hwy, a chreulawn eu meddwl, megys arth wedi colli ei chenawon yn y maes;" 2 *Sam* xvii. 8. Ac y mae y gŵr doeth yn sicrhau i ni mai "gwell yw i ŵr gyfarfod âg arthes wedi colli ei chenawon nag â'r ffôl yn ei ffolineb;" *Diar*. xvii. 12.

Fel y dywedasom o'r blaen, y mae ffyrnigrwydd a dewrder yr arth yn ofnadwy pan fydd ei rhai bach mewn perygl, neu wedi eu dwyn ymaith: ni thry yn ol er y peryglon mwyaf, ac ni phaid eu hamddiffyn nes ei chlwyfo yn farwol. Ac y mae yr Arglwydd yn cyffelybu ei hun i arthes wedi colli ei chenawon, wrth ddyfod allan i gospi ei bobl, yn dangos mor wrthun ac erchyll yw eu gwrthgiliadau yn ei olwg ef: *Hos*. xiii. 8.

Yn *Dan*. vii. 5, y mae ymherodraeth Media a Persia yn cael ei dynodi mewn gweledigaeth i'r prophwyd megys arth; "Ac efe a ymgyfododd ar y naill ystlys, ac yr oedd tair asen yn ei safn ef rhwng ei ddannedd." Dyma yr offeryn a ddefnyddiwyd gan yr Arglwydd i ddinystrio Babilon, Syria, a'r Aipht.

Ioan, wedi hyny, a ganfu mewn gweledigaeth fwystfil cyffelyb i eiddo Daniel; wrth yr hwn yr ydym i ddeall galluoedd bydol gelynol i Dduw a'i bobl; "A'r bwystfil a welais i oedd debyg i lewpard, a'i draed fel traed arth," &c.

ARTHUR, [o *arth*=garw, ffyrnig; Gr. αρκτος =arth; cydser, y saith seren, yr Arth mawr; Llad., *Ursa Major*, *Arcturus*, ἀρκτοῦρος=cynffon yr arth; yr Arth bach; Llad. *Ursa Minor*]. Cymhwysir yr enw yma at dri pherson nodedig yn mysg y Cymry—Arthur Frenin, Arthur y Chwedlau, a'r duw Arthur.

Arthur Frenin: tad hwn, fel y dywedir, oedd Meirig ab Tewdrig, tywysog Dyfed; a chredir fod hyn yn hollol wir. Tuag at wahaniaethu Arthur y Chwedlau, neu y duw Arthur (canys y ddau hyn, ac yn wir, y *tri*, fel y tybir, un ydynt) oddi wrth Arthur frenin, dywedir mai tad y blaenaf oedd Uthr (Uthyr, neu Ythr=rhyfeddol) Bendragon; ac mai ei fam oedd Eigr (Eigyr=*Igerna*), merch Amlawdd Wledig, a gwraig Gwrlais, tywysog Cernyw; "ac nad oedd yn Ynys Prydain na gwraig na morwyn cyn deced a hono." Dywedir i Arthur (y Chwedlau) gael ei genedlu o'r wraig brydweddol hon yn anghyfreithlawn, trwy gelfyddodeu" dewinol Myrddin Emrys, yn rhoddi "ffurf Gwrlais" ar Uthr, yr hwn oedd wedi ynfydu o draserch ati; ac iddo, yn y ffurf hono, fyned at Eigr i Gastell Dindagol, lle yr oedd hi wedi ei diogelu gan ei gŵr rhag Uthr yn y fath fodd, fel nad allai neb fyned ati ond "o arferu celfyddodau newydd ar ni chlywyd erioed" am eu bath, y rhai, fel y dywedent, nad oedd neb ond Myrddin ddewin yn alluog i'w cyflawnu! Wedi i Arthur gael ei genedlu a'i eni fel hyn, megys trwy wyrth, dywedir i Myrddin gynghori ei anfon yn ddirgel i'r wlad at dylwyth pendefigaidd, i'w fagu. Fel hyn yr ymdrechir gwahaniaethu rhwng rhieni a genedigaeth yr Arthuriaid dan sylw. Ond bernir yn sicr ddiammheu nad oedd Uthr Bendragon yn ddim amgen nag enw benthyciol Meirig ab Tewdrig, tad gwirioneddol Arthur frenin; canys nid oedd dim mwy cyffredin gan y Prydeiniaid yn yr oesoedd hyny na chymhwyso enwau benthyciol at ddynion i ddynodi eu prif nodweddau; gan hyny, yr oedd yn ddigon

Digitized by Google

naturiol iddynt gymhwyso yr enw Uthr at Meirig, o blegid ei wrolgampau yn ei ryfeloedd â'r Saxoniaid, â'r enw Pendragon, fel prif lywydd neu benllywiawdwr y Cymry; ac nid o blegid "dichellion sarffaidd" y tywysog Meirig, fel y tybia Camden, nac ychwaith o blegid yr achen (*emblem*) oedd ar ei faneraú. Tybia rhai fod yr enw Arthur hefyd wedi ei fenthyca, efallai, oddi wrth ryw wron oedd yn adnabyddus eisoes ar draddodiad gwlad; a dichon i hyn roddi dechreuad i'r addurniadau estronaidd a fuont yn achos i gymylu cymmaint ar y gwir hanes. Y mae yn nodedig hefyd fod yr enw Arthur, yn y Gymraeg, yn gyfystyr âg enw y cydser, a elwir yn Lladin *Ursa Major*=ARTH—UR; i'r hyn gyddarawiad, y mae yn ddigon tebyg, y gellir olrhain rhai o'r priodoliaethau chwedlonol a gymhwysir at y gwron amwys dan sylw. Y mae cydser arall hefyd yn dwyn enw Lladin un o'r tywysogion Cymreig; sef Lyra=Llyr. Enw Cymreig y cydser yma yw Telyn Arthur: eto, y mae yn dra sicr fod yr enw yma ar arfer yn mhell cyn bod Arthur frenin, a'i fod yn arwyddo, *Telyn yr Arth mawr*, yr hyn yw ystyr llythyrenol y geiriau.

Rhydd hyn gip olwg i'r darllenydd ar rai o'r pethau a ddichon fod yn achlysur o briodoli y gweithredoedd nerthol a "goruwchnaturiol" i Arthur, sy wedi bod yn rhyfeddu ac yn pensynu, nid y Cymry yn unig, ond trigolion yr holl fyd adnabyddus, am oesoedd, fel y tystia Alanus de Insulis, ysgrifenydd o'r cyfandir yn y deuddegfed ganrif, yn y geiriau nodedig yma:—"Canys i ba le ni ddygwyd ac ni chyhoeddwyd enw Arthur y Prydeiniad gan glodforedd hedegog, cyn belled ag y cyrhaedda ymherodraeth Cristionogrwydd? Pwy, meddaf, ni siarada am Arthur y Prydeiniad; gan ei fod yn fwy adnabyddus braidd i genedloedd yn Asia nag i'r Prydeiniaid eu hunain, megys y mynegir i ni gan ein pererinion a ddychwelant o'r ardaloedd dwyreiniol? Y dwyreiniaid a siaradent am dano, ac felly y gwna y gorllewinwyr; er bod lled y ddaiar yn eu gwahanu oddi wrth eu gilydd. Siarad yr Aipht am dano, a'r Bosphorus nid yw ddystaw. Rhufain, arglwyddes y dinasoedd, a gân ei orchestion ef; ac nid yw rhyfeloedd Arthur guddiedig rhag ei chydymgeisydd gynt, Carthage; ie, moliennir ei weithredoedd ef gan Antiochia, Armenia, a Palestina.

Yn awr, er nad yw y beirdd oedd yn cydoesi âg Arthur frenin, ac yn "feirdd llys" iddo, sef Taliesin a Llywarch Hen; ac er nad yw y *Trioedd* hanesol—hen gofion mwyaf credadwy y genedl—yn priodoli dim dwyfol a goruwchnaturiol i Arthur, ond yn hytrach yn dangos yn amlwg mai dyn ffaeledig ydoedd, yn meddu ei wendidau personol, teuluol, a gwladol, fel dynion ereill; er hyn i gyd, ymddengys yn ddiammheuol fod Arthur yn un o'r tywysogion mwyaf clodfawr, ac yn un o'r rhyfelwyr mwyaf beiddgar a llwyddiannus a fu gan y Prydeiniaid erioed; ac yr oedd hyn yn ddigon o achlysur i chwedlonwyr yr oes hono, y penaf o'r sawl, fel yr ymddengys, oedd Gruffydd ap Arthur (*Geoffrey of Monmouth*= Sieffre o Fynwy), i ffurfio yr holl "weithredoedd enrhyfeddawl" a briodolir i Arthur y Chwedlau. Ac wedi i fynachod ofergoelus yr amseroedd hyny gael gafael ar chwedlau Lladin godidog Sieffre, tra yr oedd amryw o'r cyfryw fynachod yn estroniaid, heb wybod dim o wir hanesion y beirdd a'r *Trioedd* am Arthur, yr oedd yn llawn mor hawdd a naturiol i rai fel hyn wneyd *duw* o Arthur, ag ydoedd i Homer wneyd duwiau o wroniaid y Groegiaid a'r Phrygiaid oedd yn rhyfel Caerdroiau. Ac i'r pethau hyn, a'u cyffelyb, y gall yr ysgrifenydd briodoli holl dduwdodaeth Arthur. Ond yn awr am

ARTHUR Y CHWEDLAU. Dangoswyd eisoes fod tadogaeth hwn yn cytuno yn burion â thadogaeth Arthur frenin; ac nad oes dim yn hyny yn tueddu i'w gwneyd yn ddau berson gwahanol, oddigerth y chwedl am "gelfyddodau newydd" y person amwys a elwir Myrddin ddewin. Yn awr, bwrir golwg ar "weithredoedd enrhyfeddolion" yr Arthur hwn—Arthur y Chwedlau. Y mae rhai, yn eu ffrwst, wedi priodoli hyd yn oed hanfod Arthur i "gelwyddau Sieffre o Fynwy," yr hyn sy ddygn gamsyniad, fel y dengys Carnhuanawc yn ddeheuig—cymmaint camsyniad fel nad oedd Sieffre ond ail adroddwr ac addurnwr chwedlonol (godidog hefyd) o hanes awdwr llawer henach; ac yn hytrach na dirmygu Sieffre o Fynwy, dylai y Cymry ei gydnabod yn rhwymedig am wneuthur eu hanes (er yn wisgedig mewn arddunol chwedlau, yn ol arfer yr oes hono) yn hysbys ar y cyfandir, trwy ei gyfieithiad Lladin ysblenydd o'r hen Frutiau Cymreig; canys, meddai Carnhuanawc, "nid allaf lai na rhyfeddu yn fawr ar yr effeithiau nerthol a gafodd ei ysgrifeniadau ar lenyddiaeth y byd." Y cyntaf (y cyrhaeddodd ei waith yr oesoedd hyn) a ysgrifenodd am Arthur oedd Nennius=Nyniaw: Cymro o'r wythfed ganrif, yr hwn, eb efe ei hun, oedd ddysgybl Elfod, a wnaed yn archesgob Bangor Deiniol yn Arfon, D. A. 755. Ysgrifenwyd y gwaith yn Lladin; a chan nad yw yr hanes ond byr, a'i fod, fel y tybir, yn sylfaen yr hyn oll a ddywedwyd am Arthur yn ganlynol, rhoddir alleiriad o hono yma, a gymmerwyd o'r cyfieithiad a geir yn *Hanes Cymru*:—"Y pryd hyny y rhyfelgar Arthur, yn nghyd â milwyr a breninoedd Prydain, a ymladdasant yn erbyn y Saxoniaid. Ac er bod amryw yn ardderchocach nag ef (o ran genedigaeth, fel y tybir), eto bu ddeuddeng ngwaith yn dywysog rhyfel, ac yn fuddugoliaethus yn y brwydrau. Y frwydr gyntaf yn eu herbyn a ymladdodd yn agos i aber yr afon a elwir Glein (y Lawen, fel y tybia rhai, y sonia Llywarch Hen am dani). Yr ail, y drydedd, y bedwaredd, a'r bummed, ar afon arall, a elwir yn y Brytanaeg, Duglas (Dulas), yr hon sydd yn yr ardal a elwir Linnuis. Y chweched frwydr a fu wrth yr afon a elwir Lusus. Y seithfed frwydr a ymladdodd yn eu herbyn yn Nghoed Celidon, yr hon a elwir yn y Brytanaeg, Cad Coed Celyddon. Yr wythfed frwydr a ymladdodd yn erbyn y barbariaid yn agos i Gastell Gwynion (Guinnon=Viniona, Binchester), yn yr hon yr Arthur hwn a gludodd ar ei ysgwydau (ei darianau) ddelw y lân Forwyn Fair, &c.; a'r holl ddiwrnod hwnw, trwy rinwedd ein Harglwydd Iesu Grist, a'r sanctaidd Fair, ei fam, y Saxoniaid a yrwyd ar ffo; a llawer a drengasant trwy ddirfawr alanastra. Y nawfed frwydr a ymladdodd efe yn Ninas y Leng, a elwir yn y Brytanaeg, Caer Lleon (ar Wysg). Y ddegfed frwydr a ymladdodd efe ar lan yr afon a alwn ni Trat Treuroit (Traeth Totnes?). Yr unfed ar ddeg, yn y mynydd a elwir Breguoin (Brigwyn?), yr hon a alwn ni Câd Bregion. Y ddeuddegfed frwydr, o'r fath ffyrnicaf yn erbyn y Saxoniaid, a ymladdodd Arthur yn Mynydd Baddon, yn yr hon y syrthiodd ar yr un amser trwy ei ruthr ef ei hun 940 o wŷr, a neb o'r Prydeiniaid yn glynu wrtho er cynnorthwy, ond efe ei hun yn unig, yr Arglwydd yn ei gyfnerthu. Yn yr holl frwydrau

Digitized by Google

rhagenwedig, mynegir ei fod yn wastad yn fuddugol, megys ag y bu amryw o filwyr Prydeinaidd. Eithr nid oes un dewrder na challineb yn erbyn ewyllys Duw. Pa faint bynag a laddwyd o'r Saxoniaid, yr oedd mwy o Saxoniaid ereill yn dylifo yma yn ddibaid o Sermania; a gwahoddasant atynt freninoedd a blaenoriaid braidd o'r holl ardaloedd cyfagos; a hyn a wnaethant hyd yr amser pan y teyrnasodd Ida."

Dywed Carnhuanawc am y darn Lladin o Nyniaw, o'r hwn y mae yr ymadroddion uchod yn rhydd gyfieithiad, fod pob arwyddion arno i Nyniaw ei gyfieithu o'r Gymraeg: os felly, yr oedd hanes Cymreig am Arthur, hynach fyth na Nyniaw ei hunan. Nid yw yr hen hanes uchod yn cynnwys dim braidd ond adroddiad syml a diaddurn o nifer brwydrau Arthur, y rhai nid oes neb hyd yn oed o'r Seison diragfarn, megys Sharon, Turner, ac ereill, yn eu hammheu. Yr unig beth a ymddengys i ni yn yr hanes yn anghredadwy (er y credid ef yn hawdd yn yr amser gynt) ydyw, fod Arthur wedi lladd 940 o'r Saxoniaid a'u cydgynghreirwyr, yn yr un gâd, â'i law ei hun. Oddigerth hyn, y mae Nyniaw yn eithaf cysson â phob peth a'n cyrhaeddodd ni am y gwir Arthur. Pa fodd bynag, ymddengys yn bur amlwg mai yr hanes yma oedd sylfaen yr holl chwedlau godidog a draethodd Sieffre am Arthur; er bod Sieffre, yn sicr ddiau, yn eithaf adnabyddus o hanesion y beirdd hefyd am dano. Y mae chwedlau Sieffre yn y *Brutiau* am Arthur mor feithion, fel na roddir yma ond y talfyriad lleiaf a'r a ellir o honynt; ac ymdrechir gwneyd hyny, i raddau, yn arddull yr hen *Frutiau*, er difyrwch ac adeiladaeth i'r darllenydd. Dyma sylwedd yr hyn a draethir yno am Arthur:—

Wedi adrodd am ei ddeilliad o Uthr Bendragon, megys yr hysbyswyd eisoes, dywedir,—"Cyssegrwyd Arthur yn frenin pan yn bymtheng mlwydd oed, gan Dyfrig archesgob, yn Nghaer Fuddai. Yr oedd Arthur yn well ei ddefodau a'i gampau nag un dyn arall o'r byd; ac ni wnaeth Duw er pan fu Adda un dyn gwplach nag Arthur, canys daioni anianawl a oedd ynddo. Wedi iddo gynnull llu (yn ebrwydd ar ol ei gyssegriad), a myned hyd yn Nghaer Efrog, daeth Colcrin, tywysog o Sermania, â llu o Seison a Ffichtiaid, yn ei erbyn hyd lan Dulas, pan y gorfu Arthur arno, ac y gyres ef ar ffo hyd yn Nghaer Efrog, gan ei warchae yn y ddinas. Yna Baldwlff, brawd Colcrin, a gynnulles chwe mil o wŷr, er rhyddhau ei frawd o'r carchar gwarchauedig; ac Arthur a yres Cadwr, tywysog Cernyw, gyda'i chwe chan marchog, a'i deirmil petyt (*petit*=is-filwyr) yn ei erbyn; a Chadwr a ysiges ei fyddinoedd, gan eu gyru ar ffo. Yna y daeth Celdric (Cledric) â chwe chan llong ganthaw o Sermania, yn llawn o farchogion arfog, i'r Alban (Ysgotland); a chynnulles Arthur ato i Lundain holl wŷr da'r deyrnas mewn cynghor; a gyrws genadau am borth (cymhorth) gan ei nai, Hywel ap Emyr Llydaw, yr hwn yn ddiannod a ddaeth â llynges o bymtheg mil o farchogion arfog, i Borth Hamwnt (*Northampton*), lle yr arfolles Arthur ef ei hunan. Yna aeth y ddau â'u lluoedd i gyfarfod y Seison yn Nghaer Lwydgoed (*Lincoln*), yn y wlad a elwir Lyndysey, lle y lladdwyd chwe mil o'r Seison; a'r lleill a yrwyd ar ffo hyd yn Nghoed Celyddon (Llwyn Celyddon). Yno, ac Arthur a Hywel yn eu hymlid, bu aerfa (brwydr) greulon, lle y lladdwyd llawer o bob tu: o'r diwedd, gwarchaeodd Arthur ar y Seison yn y llwyn, lle y buont am dridiau a theirnos heb na bwyd na diod, oni ammododd y Seison ddychweled i Sermania, ac i adael eu holl swllt (aur ac arian) i Arthur; ac addaw teyrn-ged bob blwyddyn; a chadarnhau hyny gan roddi gwystlon. Ond, ar y môr bu edifar genthynt; a throi yn ol a wnaethont i Brydain; a glanio yn Mhorth (Traeth) Totnais; ac anrheithio'r gwladoedd hyd Hafren, gan gyrchu hyd yn Nghaer Faddon (*Bath*), ac ymladd â hi. Yna Arthur, gan roi heibio ymlid y Ffichtiaid a'r Ysgotiaid, a gadael Hywel ei nai yn glaf yn Nghaer Alclyd, a ddaeth am ben y Seison yn Nghaer Faddon. Ac wedi ymwisgo mewn lluryg, a helm euraid, a llun draig o dân erni, am ei ben; a chymmeryd tarian a elwir Prydwen, ac erni ddelw yr arglwyddes Fair yn esgythredig; a gwayw yn ei law a elwir Rhongymmyniad; ac ar ei glun Caledfwlch, y cleddyf goreu a wnaed yn Ynys Afallach (Ynys Afallon, Ynys Wydrin, *Glastonbury*—Gwlad y Tylwyth teg), â'r hwn y lladdes ddeg a thrigain a phedwar cant ei hun yn yr aerfa hono. Lladdwyd Colcrin hefyd, a Baldwlff ei frawd, a llawer o filoedd gyda nhwy. Ymladdwyd y frwydr hon ar Fynydd Baddon. Ymlidiodd Cadwr, Iarll Cernyw, y lleill hyd yn Ynys Thanet, a lladdes Celdric (Cledric), a gorfodes y lleill i roi gwystlon. Ar ol brwydr Mynydd Baddon, aeth Arthur tua Chaer Alclyd i ryddhau ei nai Hywel rhag y Ffichtiaid a'r Ysgotiaid; ac wedi gorchfygu 'r Seison, a chrogi eu gwystlon, aeth Cadwr ato. Erbyn i Gadwr fyned i Gaer Alclyd, yn y llongau a gymmerth oddi ar y Seison, yr oedd Arthur a Hywel wedi myned hyd y Moreif, y wlad a elwir Reged, lle yr oeddynt wedi ymladd tair brwydr â'r Ysgotiaid a'r Ffichtiaid; ac wedi eu hymlid hyd y môr; a hwythau wedi ffoi hyd yn Llyn Llumonwy, a chymmeryd nawdd yn y trigain ynys oedd yn y llyn. Yr oedd trigain a thrichant afon yn llithro i'r llyn o fynyddoedd Prydain, ac oddi yno yn un afon a elwir Lleven ("Llawen," Llywarch Hen) i'r môr. Gwarchaues Arthur ar y Ffichtiaid a'r Ysgotiaid, trwy wylio yr holl afonydd, am bymtheg diwarnod, fel y bu farw miloedd o newyn. Yn y cyfamser, daeth Gilamwri, brenin Iwerddon, gyda llynges fawr, yn borth i'r Ffichtiaid a'r Ysgotiaid: yna trodd Arthur ei arfau yn erbyn y Gwyddyl; ac wedi eu gyru ar ffo, dychwelodd drachefn at yr Ysgotiaid a'r Ffichtiaid, gan feddwl eu llwyr ddifa; ond daeth Esgyb ac ysgolheigion y wlad ato, gan erfyn trugaredd ar eu gliniau i'r truan bobl oedd yn ngwarchau, yr hyn a gawsant. Ar ol hyn, aeth Arthur a'i wŷr i Gaer Efrog, i gynnal ei lys erbyn y Nadolig, pan y cafes fod y gwladoedd a'r eglwyseu wedi eu hanrheithio gan y paganiaid Seison; ond trefnes ef bob peth mor ebrwydd ag y galles, gan roddi i'r dyledogion eu tiroedd. Hefyd, cymmyrth Wenhwyfar ferch Gogfran Gawr, o foneddicaf genedl Rhufain, a fagesid yn llys Cadwr, tywysog Cernyw, yn wraig iddo ei hun; a'r deleidiaf oedd hono o holl wragedd Ynys Prydain. Yna, aeth Arthur i'r Iwerddon i'w darostwng; ac wedi gorchfygu Gilamwri, a'i ddal, efe a wrhaodd i Arthur. O'r Iwerddon aeth i Islond (*Iceland*), a darostyngodd hi ar ei hynt. Yna, rhag ei ofn, daeth Dolfan, brenin Godlond (*Gothland*), a Gwynwas, brenin Orc, o'u bodd i wrhau iddo. Wedi hyny, dychweles Arthur i Brydain i adnewyddu ansodd y deyrnas, lle y gorphwysodd ddeuddeng mlynedd. Erbyn hyn, yr oedd ei glod wedi myned tros eithafoedd ymylau 'r byd, fel yr ofnai yr holl freninoedd tramor iddo eu darostwng. Yna cymmyrth yntau yn ei

Digitized by Google

ben gwplau hyny, gan arfaethu goresgyn holl Ewropa, traian yr holl fyd. Yr hynt gyntaf a gymmyrth yn ei lynges i Lychlyn, i'w darostwng i Lew ab Cynfarch, nai fab chwaer i Sychelyn (Assychlym) brenin Llychlyn, a fuasai farw. Lladdes Arthur Riewlff, gwrthwynebydd Llew ap Cynfarch, a gosodes yr olaf yn frenin ar Lychlyn a Denmarc. O Lychlyn, aeth Arthur i Ffrainc; ac wedi gorchfygu Ffrolo, oedd yn dal Ffrainc dan Lew (Leo), ymherawdwr Rhufain, a'i ymlid hyd yn Mharis, gan warchau ar y ddinas am fis o'r untu, fel y bu farw llawer o newyn, cynnygies Ffrolo (gŵr mawr ei dwf, a'i angerdd, a'i lewder) ymladd lawlaw âg Arthur, dan yr ammod i hyny derfynu y rhyfel o blaid y gorchfygwr. Derbynies Arthur yr her, bid sier, yn llawen. Aeth y ddau, a'r lluoedd yn edrych arnynt, i ynys yn yr afon a elwir Sain, a oedd yn llithro drwy ddinas Paris; ac wedi newidio dyrnodiau yn greulon ffyrf â'u gilydd, tarewis Ffrolo Arthur ar ei dalcen onid oedd ei waed yn ffrydio i'r llawr; ond gan nerth penffestin Arthur, nid oedd y dyrnod yn angeuol. Pan weles Arthur ei waed yn cochi ei arfau, ennynu o fflamwychedig lid a wnaeth, a dyrchafael Caledfwlch â'i holl nerth, gan daraw Ffrolo ar ei ben, ac aeth y cleddyf drwy ei helm a'i holl arfau hyd y llawr, ac yntau yn ddau hanner o bob tu'r cleddyf. Yna agorwyd pyrth y ddinas i Arthur yn dangnefeddus. Wedi hyny, rhanes Arthur ei lu yn ddau hanner, a rhoddes y naill ran i Hywel ap Emyr Llydaw i ddarostwng Gwidart, tywysog Peitw, yr hwn a orfodwyd i wrhau i Arthur. Yntau a gymmyrth y rhan arall i oresgyn Gwasgwyn ac Einisso; ac wedi bod naw mlynedd yn llwyr ddarostwng y gwladoedd hyny, daeth i gynnal ei lys i Baris. Yna, ar ol cadarnhau heddwch dros yr holl wlad, efe a roddes Normandi a Fflandrys i Bedwyr ei ben trulliad, ac Angiw a Pheitw i Gai ei ben swyddog. Wedi trefnu 'r cyfan, daeth i Ynys Prydain; ac yn Nghaer Llion ar Wysg y trefnes ei lys. Yno, ar y Sulgwyn, gwnaeth wledd anfeidrol ei maint, i'r hon y gwahoddes holl dywysogion a breninoedd y gwladoedd oedd dan deyrnged iddo, nid amgen Llychlyn, Denmarc, Ffrainc, Yspaen, Iwerddon, Ysgotland, ac ereill luaws. Yn y wledd hon yr oedd prydyddion a cherddorion, ac offer cerdd yn afrifed i ddifyru 'r gwesteion. Ar y wledd yr oedd mil o wŷr mewn gwisg o ermin melyn, yn gwasanaethu y gegin, dan Gai y pen swyddog; a mil o wŷr yn yr un wisg, dan Bedwyr y pen trulliad, yn gwasanaethu y feddgell, mewn amryfal lestri aur ac ariant. Ac i Wenhwyfar y frenines a'i thywysogesau yr oedd gweinyddiaid yn gyfatebol. [Yn y wledd hon, yn ol chwedlau ereill, y trefnes Arthur y "Ford Gron," o amgylch yr hon yr oedd yr holl westeion yn ogyfuwch gyfartal.] Tua therfyn y wledd, wele ddeuddeg cennad o Rufain at Arthur i erchi teyrnged a threth, trwy lythyr oddi wrth Les yr ymmerawdwr. Yna, wedi i Arthur fynegi i'w gynghoriaid, fel y gorchfyges Beli ab Dyfnwal Moelmud, a Bran ei frawd wŷr Rhufain; a bod Cystenyn ab Elen, a Macsen Wledig, ei geraint a'i hynafiaid ef, wedi bod yn ymmerodron Rhufain, dywedai mai teilyngach oedd iddo ef gael teyrnged gan y Rhufeinwyr, na thalu teyrnged iddynt hwy. Ac wedi iddo fwrw cyfrif o'r nifer a allai gasglu o farchogion a phedyt, cafas y byddai yr holl lu amcan dau can marchog a theirmil a phedwar ugain a chan mil (183,200), ac na wyddiad neb rif y pedyt. Yna yr erchis Arthur iddynt oll ei gyfarfod ef a'i lu yn Mhorth Barbefflwfi yn Llydaw, erbyn Calan Awst, yr hyn a wnaethant. Yna Arthur a osodes Wenhwyfar ei wraig a Medrod ei nai ar lywodraeth Prydain; a chyhwynes ar yr amser penodedig o Borth Hamwnt. Erbyn iddo ef a'i wŷr gyrhaeddyd Barbefflwfi yn Llydaw, yr oedd Lles o Rufain a'i lu wedi pebylliaw o'r tu arall i'r afon a elwir Gwen, fel yr oedd y ddau lu o led yr afon i'w gilydd. A holl lu Rhufain oedd gauwr a thrigain mil a phedwar can mil (460,100). Yn ystod y nos, daeth cawr enrhyfedd ei faint o dueddau yr Yspaen i'r gwersyll, a chipiodd Elen, nith Hywel ap Emyr Llydaw, trwy drais oddi ar y gwarcheidwaid, a bu hithau farw rhag ei ofn ar ben mynydd a elwir Michangel. Pan weles Arthur hyny, cynneuodd ei ddigofaint, ac aeth o hyd nos, a Chai a Bedwyr o'i ledol, at y cawr-anghenfil, ffon yr hwn nis gallai deuwr cryfion ei chodi; ac wedi ymladd creulon, Arthur a orchfyges ac a las y cawr. Yna, Arthur a ddanfones Walchmai ab Gwyar, a Boso o Rydychain, a Geraint Carnwys, at Ymmerodr Rhufain i erchi iddo ymadael â Ffrainc, pan y dywedes Gaiws, nai yr Ymmerodr, mai llawer hwy tafodau gwŷr Prydain na'u cleddyfau; ar hyn, tores Gwalchmai ei ben, ac arches iddo ddywedyd wrth ei gyfeillion yn uffern fod yn hwy cleddyfau'r Prydeiniaid na'u tafodau; yna brwydr greulon a fu, pan y gorchfygodd y Prydeiniaid yn absen Arthur, ac y cymmerasant lawer yn garcharorion. Bu brwydr waedlyd drachefn am y carcharorion, yn absen Arthur, pan fu'r Prydeiniaid eilwaith yn orchfygwyr. Yna Lles a symmudes ei lu hyd yn Nafarn, i'r lle a elwir Leigrys; a myned a wnaeth Arthur hyd y lle a elwir Glyn Asnessia, neu Senan, lle y rhanodd ei lu yn wyth byddin. A chȃd ar faes a rodded o bob tu yn y Glyn hwnw; ac wedi lladdfa greulon o bob ochr, pan syrthies Lles Ymmerodr, yn mysg miloedd ereill, Arthur o'r diwedd a orchfyges, wedi colli niferoedd o'i oreugwyr. Wedi i Arthur aros yno y gauaf hwnw i ddarostwng Byrgwyn (Burgundy), efe a drefnes ei lu ar ddechreu yr haf i fyned hyd yn Rhufain i'w darostwng hi; ond tra yr oedd efe ar groesi'r Mynydd Mynnau, daeth cenhadon o Ynys Prydain ato i fynegi fod Medrod ei nai wedi gwisgo coron Llundain, a chymmeryd Gwenhwyfar yn wraig gywely iddo. Yna, wedi gollwng Hywel ab Emyr Llydaw, a llu o Ffrainc, i ostwng gwladoedd y Rhufeiniaid, dychweles Arthur ar frys i Brydain, lle y cafas fod Medrod y twyllwr wedi anfon Selics, tywysog y Saeson, i Sermania am borth, yr hwn a ddychwelwys i Brydain â saith gan llong ganto, yn llawn o baganiaid arfog; a bod y Ffichtiaid, a'r Ysgotiaid, a'r Gwyddyl, a phawb oedd gas gan Arthur, wedi ymuno â Medrod fradwr. Ac erbyn i lynges Arthur ddyfod i Borth Hamwnt, yr oedd Medrod a'i holl lu anwar yno yn ei luddias i dir; ac wedi brwydr greulon, a lladd llawer o bob tu, daeth Arthur i dir, a gyres Medrod a'i lu ar ffo yn wasgaredig hyd yn Nghaer Wynt; a Medrod a gadarnhaes y ddinas. Pan glywes Wenhwyfar y ddamwain, aeth o Gaer Efrog i Gaer Llion ar Wysg, yn fynaches hyd angeu. Yna rhoddes Medrod gad ar faes i Arthur wrth Gaer Wynt; ac wedi lladd niferoedd o bob tu, gyrwyd Medrod a'i lu ar ffo hyd yn Nghernyw. Ymlidies Arthur ef yno, ac wrth afon Gamlan yr arhoes Medrod Arthur, lle bu'r aerfa fwyaf a fu erioed, na chynt na chwedi; ac yn nghanol y frwydr, rhuthres Arthur i'r fyddin lle yr oedd Medrod, ac a'i lladdes, a

miloedd gydag ef; ac yna y brathwyd Arthur, yr ardderchog frenin Arthur, yn angeuol. Ac oddi yno y dygpwyd ef hyd yn Ynys Afallach i'w iachäu; ac ni ddywedir yma a fo hysbysach am angeu Arthur."—*Brutiau.*

Gwelir yma fod Arthur wedi cynnyddu, yn llaw Sieffre, o fod yn frenin ar y Prydeiniaid i fod yn "Benadur goruchel," fel y dywed Carnhuanawc — "anghydmarawl, yn tramwy trwy y gwledydd gyda rhwysg goresgynydd anwrthladdadwy; â'i lys yn ymgynnullfa i ddewrion y byd; a'i farchogion ef yn ddewraf o honynt; ac yntau ei hun yn rhagori arnynt oll, mewn gwrolder a phob camp milwrol;" ac hyd yn oed er iddo gael brathiad angeuol, eto gwelir ef yn cael ei ddwyn i Ynys Afallach i'w iachau! Dyma gam pur bell at wneyd Arthur yn fwy na *dyn;* canys er nad yw Sieffre ddim wedi ei *dduwnodi*, eto y mae efe wedi ei wneyd bron yn *anfarwol*, yn ei gludiad i Ynys Afallach i'w iachau o'i frathiad angeuol: ac yr oedd hyny yn ddigon o ragbarotoad gan yr ysgrifenwyr chwedlonog, mynachaidd, ac estronol, a ddilynasant Sieffre, i wneyd *duw* perffaith o Arthur; canys y rhai hyn, yn sicr ddiammheu, a'i llwyr ddyrchafasant ef o blith dynion, gan ei osod i eistedd ar gadeiriau o ser yn mysg y *duwiau.* Yn awr, rhaid cymmeryd cip olwg arno fel—

Arthur y Duw: ac wrth wneyd hyn, rhaid chwilio am dano, yn benaf, yn mysg estroniaid. Yr ydys yn cofio fod Sieffre wedi dywedyd am dano (ac ar yr hyn a ddywedodd Sieffre y mae holl *dduwdodaeth* Arthur wedi ei seilio) "na wnaeth Duw, er pan fu Adda, un dyn gwplach nag Arthur—fod daioni anianol ynddo." Y mae yn nodedig fod pob un, yn enwedig pob estron a gyffyrddai âg Arthur, ar ol Sieffre o Fynwy, fel wedi cydymdyngu am wneyd iddo gynnyddu yn barhaus dan eu dwylaw; a dechreuwyd ar ei ardderchogrwydd cynnwynol neu "anianol." Gallesid dysgwyl fod Sieffre wedi myned yn ddigon pell dros derfyn *dyn* cyffredin, gyda golwg ar hyn; ond y mae Sioseph o Keseter yn ei adael ef braidd allan o olwg—dywed hwnw, nid yn unig fod "daioni anianol" Arthur yn tra rhagori ar bawb a fu o'i flaen, ond hefyd ar bawb a ddichon ddyfod byth ar ei ol. Dyma ei eiriau:—

——"reges supereminent omnes
Solus præteritis melior *majorque futuris.*"

Dywed Sieffre, i Arthur gael ei gyssegru yn frenin pan yn bymtheg oed, gan yr Archesgob Dyfrig; ac iddo ennill buddugoliaeth yn ebrwydd ar ol hyny ar y Seison ond dywed y Sais, Syr Thomas Maelor, ar ol y mynachod ac ereill, fod Myrddin Ddewin wedi cynghori ar fod i holl bendefigion a marchogion y deyrnas ymgynnull yn Llundain ar ŵyl y Nadolig, yn y brif eglwys: ac erbyn y bore dranoeth, fod yn y fynwent gareg fawr, ac eingion haiarn arni; a bod yn yr eingion gleddyf hardd, noeth, yn graff, â'r ymadrodd canlynol o'i amgylch mewn llythyrenau aur: sef, "Pwy bynag a dyno 'r cleddyf hwn allan o'r maen a'r eingion yma, sydd enedigol frenin Prydain." Yna, wedi i bob tywysog a gwr mawr yn y deyrnas brofi ei fedr i dynu 'r cleddyf allan, a methu, aeth Arthur yno ddydd Calan, a thynodd ef allan heb un anhawsder; trwy yr hyn y gwelwyd yn amlwg mai efe a aned i fod yn frenin Prydain. Hwn oedd y cleddyf Caledfwlch, â'r hwn y gwnaeth Arthur y fath wyrthiau yn ei fywyd cyntaf; a chymmerwyd ef oddi wrtho yn wyrthiol ar ol brwydr Camlan, i'w gadw iddo, yn sicr ddiau, i wneyd gwyrthiau drachefn âg ef, llawer mwy "enrhyfeddawl," ar ei ail ymddangosiad i fod yn frenin y Prydeiniaid, pan y llwyrwaredai hwynt, yn ol prophwydoliaeth Myrddin, oddi tan orthrwm y Saxoniaid. Gwelwyd yn ngwaith Sieffre, pan gafodd Arthur y brathiad angeuol, iddo gael ei ddwyn i Ynys Afallach i'w iachau. Dyma ddechreu gwyrthiau ail oes Arthur—yn hytrach, dyma 'r cyfwng rhwng ei ddwy oes; a gwnaeth y mynachod y cyfwng hwn, yn gystal a'i holl hanes ar ol hyn, yn dra "enrhyfeddawl." Pan ddeallodd Arthur fod y brathiad a gafodd yn angeuol, archodd i Bedwyr, ei ben trulliad, gymmeryd Caledfwlch, a'i daflu i lyn a enwodd efe wrtho; ond Bedwyr a flysiodd y cleddyf, rhag ei ardderchoced, ac a'i cuddiodd dan bren, gan ddychwelyd at Arthur, a dywedyd ddarfod iddo wneuthur fel y gorchymynasai. "Beth a welaist ti?" ebai 'r brenin. "Dim ond y dwfr a'r tonau," oedd yr ateb. Yna canfu 'r brenin iddo ei dwyllo, a gorchymynodd iddo eilwaith gyflawnu ei ddymuniad; ond ni wnaeth Bedwyr y tro hwnw chwaith, gan faint ei awydd i'r cleddyf godidog, a rhoes yr un ateb i'r brenin ar ol dychwelyd ato. Yna cyhuddodd y brenin ef o frad a thwyll; a thynghedodd ef i gyflawnu ei archiad. Y drydedd waith, aeth Bedwyr, a safodd ar lan y llyn, a thaflodd Caledfwlch iddo can belled ag y medrai; a dychwelodd at ei arglwydd, yr hwn a ofynodd iddo y drydedd waith beth a welodd. "Fel yr oedd y cleddyf yn disgyn i'r llyn," ebe Bedwyr, "gwelais fraich a llaw yn ymaflyd yn y carn, ac yn ysgwyd y cleddyf dair gwaith mewn dull milwrol; ac yna disgynodd y cyfan dan y dwfr, ac ni welais ddim mwyach." Gwybu Arthur yn awr gyflawnu ei ddymuniad; ac archodd i Bedwyr ei ddwyn yntau at y llyn; ac erbyn iddynt ddyfod yno, yr oedd bâd bychan wrth y lan, ac amryw rianod ynddo, mewn dillad duon; a phan welsant Arthur, wylasant a llefasant yn uchel. Yna archodd Arthur i Bedwyr ei osod yn y bâd, a derbyniodd tair brenines ef i mewn—un o'r rhai a'i cyfarchodd ef fel brawd, sef Morwyn Mai (*Morguein la Vai*) ei chwaer; y llall oedd frenines Gwynedd; a'r drydedd oedd frenines y Tiroedd Anial. Yr oedd Nimwy (*Nimue*) hefyd yno, prif arglwyddes y llyn, yr hon a briodasai un o farchogion Arthur. Ar ol i Arthur fyned i'r bâd, rhwyfodd y rhianod ef oddi wrth y tir; a dywedodd yntau wrth Bedwyr ei fod yn myned i Ddyffryn Afallon i gael gwellhau ei archoll.

Wedi gyru Arthur fel hyn i "Wlad y Tylwyth Teg," i'w iachau o'i frathiad angeuol, gwnaeth y mynachod i Myrddin Ddewin ddywedyd,—"*Et exitus ejus dubius exit.*"=A'i angeu a fydd ammheus. Yna, yr oedd mor ofer chwilio am ei fedd ag am fedd Moses; am hyny, ceir fod beirdd mynachaidd y canoloesoedd (nid ei gydoeswyr, Taliesin a Llywarch Hen) yn canu, "Anoet bit bet y Artur"=Anhysbys y bydd bedd Arthur. Credai y Llydawiaid mor ddilys, yn oes Analus de Insulis (yn y deuddegfed ganrif), meddai ef, na fu Arthur farw fel dynion ereill, ac y deuai eilwaith i waredu y Prydeiniaid rhag iau y Seison, fel yr oedd yn beryglus i un dyn haeru yn y gwrthwyneb yn Llydaw. Ar ol cael Arthur unwaith i Wlad y Tylwyth Teg, ni fu mynachod ofergoelus Cymru a Llydaw o'r canoloesoedd (gan gael cymhorth estroniaid i barhaus chwyddo eu chwedlau), hwy haiach yn ei amgylchynu â dewinion, ellyllon, a bodau goruwchnaturiol ereill, "fel y ceir ei enw ef," meddai Carnhuanawc, "yn

Digitized by Google

nglŷn â chestyll, mynyddoedd, a meini, yn y fath fodd ag na ddygwyddodd i unrhyw ddyniolyn arall a welwyd erioed ar glawr elfydd; ac mewn rhwysg oesoedd, i'r cyfryw faintioli y tyfodd efe, a chael ei goffau megys cawr anferthol, yn taflu creigiau a meini hirion o benau y bryniau yn miloedd i waelodion y dyffrynoedd isod."

Un hanesydd (yn hytrach, chwedlonydd) o'r *oes bresennol*, a haera fod Arthur yn dduw mawr ac enwog yn mhlith yr hen Gymry, yn cael ei addoli dan amryw enwau—bod yn hawdd canfod ynddo y patriarch Noah (!)—y darlunir ef fel duw wybrenol, wedi ei wregysu â bwa yr arch (!), â'r cydser a elwir Lyra (Telyn Arthur) yn delyn iddo;—ei fod hefyd yn dduw rhyfel, yn ddiogelwr mewn tywyllwch, yn llafurwr, yn amddiffynwr temlau, yn fardd, yn gerddor, ac yn swynwr —ddarfod iddo gael ei osod dan yr iau gydag ychain, iddo oddef ei gaethiwed yn amyneddgar, gorchfygu cawri y dylif, a'i fod yn dad holl ddynolryw (!)—mai y cydser a elwir Ursia (Ursa) major, neu yr Arth fawr, oedd ei gynnrychiolwr yn yr wybren, * * * a bod Coetan Arthur, Buarth Arthur, a Bwrdd Arthur, mewn amryw fanau o Gymru, yn bytholi bodoliad y duw Arthur, ac yn profi fod trigolion ein gwlad yn ei addoli yn yr oes Dderwyddol. Haeriadau noethion (ac nid profion) ydyw hyn oll am y "duw Arthur," heb ddim rhithyn o sail iddynt ond y chwedlau mynachaidd ac estronol mwyaf chwidrog—y cwbl wedi eu cyfansoddi o'r ddeuddegfed hyd y bymthegfed ganrif; canys nid oes un gair o son am y "duw Arthur" yn ngwaith unrhyw fardd na hanesydd, cyn y ddeuddegfed ganrif; ac nid oes unrhyw sail foddhaol yn ngwaith prif awduron Groeg a Rhufain, "fod trigolion ein gwlad" wedi bod yn addoli nac Arthur nac unrhyw wahanfod dynol na dychymygol arall, nac "yn yr oes Dderwyddol" nac ar ol hyny, hyd oni lygrwyd hwynt, "o drais a gorthrech," gan eu gorthrymwyr Rhufeinig eilunaddolgar. Tystiolaetha Cæsar ei hunan mai y "Duwiau Anfarwol" oedd un o brif destynau hyfforddiad y Derwyddon i'w dysgyblion dichlynaidd yn ei amser ef. Yr achosion penaf, fel y gellir casglu oddi wrth seiliau da, i Cæsar feddwl fod y Cymry yn addoli amryw "Dduwiau Anfarwol," oedd, ei syniad amldduwiog ef ei hun, a'i gydwladwyr paganaidd; yn nghyd â'r *amryw enwau* arwyddocaol a ddefnyddiai y Cymry am y "Duw byw;" megys Celi, Dofydd, Duw, Dwyf, Hu, Huon, Heon, Iôn, Ior, Naf, Ner, Peron, Perydd, Peryf, Rhen, &c. Nis gall neb byth brofi (er bod lluaws wedi cynnyg at hyny, megys y Celtig Davies, ac ereill) nad y syniadau a welir yn yr ychydig drioedd canlynol oedd gan y Cymry am Dduw "yn yr oes Dderwyddol," ac "er yn oes oesoedd:" sef,

"Tri Un cyntefig y sydd, ac nis gellir amgen nag *un* o honynt; un Duw, un Gwirionedd, ac un pwnc Rhyddid: sef y bydd lle bo cydbwys pob gwrth.

"Tri pheth tardd o'r Tri Un cyntefig: pob Bywyd, pob Daioni, a phob Gallu.

"O dri angen orfod y mae Duw; sef y mwyaf parth Bywyd, y mwyaf parth Gwybod, a'r mwyaf parth Nerth; ac nis gellir namyn Un o'r mwyaf ar unpeth.

"Tripheth nis dichon Duw lai na bod: a ddylai'r Da cyflawn, a ddymunai'r Da cyflawn, ag a ddichon y Da cyflawn.

"Tri thystion Duw am a wnaeth ag a wna: Gallu anfeidrol, Gwybodaeth anfeidrol, a Chariad anfeidrol; gan nad oes nas dichon, nas gŵyr, ag nas myn y rhai'n.

Dyma wir athrawiaeth y beirdd a'r Derwyddon am Dduw, yn eu geiriad hwy eu hunain, fel y prawf gwaith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid (gan na chredir neb arall ar y pwnc yma), a ddyfynasant amryw o'u Trioedd er's pan ddaethant yn adnabyddus o'r Cymry; a gofynir, heb ofni cael atebiad cadarnhaol a phrofedig, A oes yma rywbeth yn groes i athrawiaeth y patrieirch a'r prophwydi am Dduw? Y gwir yw, nas gellir profi yn foddhaol i'r Cymry cynnwynol erioed addoli neb na dim ond Duw Noah, Iapheth, a Gomer, "Duw Abraham, Isaac, ac Israel," hyd oni ddaeth y creulawn eilunaddolgar Rufeiniaid i'r ynys hon, i'w gorfodi i addoli eu gau dduwiau hwynt; ac hyd yn oed er cael eu dirgymhell i wneyd hyny, mae y cerfiadau sydd ar gof a chadw eto, oedd ar luaws o'r allorau Rhufeinig yn yr ynys hon, yn profi na fedrodd eu gorchfygwyr paganaidd galluog erioed ennill calon yr hen Gymry i addoli eu "heilunod mudion" hwynt—mai mewn rhith yn unig yr ymostyngent iddynt; canys ceir cydnabyddiaeth yn fynych ar yr hen allorau hyny i'r *Genio Loci*—Duwdod y lle (heb ei enwi bid sier)—cystal ag i'r duwiau Rhufeinig. Ac, yn wir, megys y dywedir am y Groegiaid, "Os gorchfygodd arfau Rhufain Groeg, fod gwybodau a chelfyddydau Groeg wedi gorchfygu Rhufain;" felly y gellir dywedyd fod barddoniaeth—dwyfyddiaeth a gwybodau y Cymry—wedi eu gorchfygu i raddau helaeth; canys ceir ar amryw o'r hen allorau crybwylledig, fod y Rhufeiniaid, yn gystal a'r Cymry a orfodid i gydaddoli â hwynt, yn cydnabod "Duwdod y lle." Ni wiw rhoi yma ond un anghraifft o ddegau sydd ar gael, i brofi hyn:—"*Tribunus Cohortis i Cornoviæ......Marti victori Genio Loci et Bono Eventui*=Swyddog o gatrawd (Rhufeinig) Cernyw......i Mawrth y gorchfygwr, i Dduwdod y lle, ac i dynged dda. Gwirir yma yr hyn a ddywedwyd uchod—os oedd y Cymry yn cael eu gorfodi i gydnabod gau dduwiau y Rhufeiniaid, fod eu dyfal-barhad wrth eu haddoliad syml cyntefig wedi denu eu gorchfygwyr o'r diwedd i gydnabod eu Duw hwythau, dan wahanol enwau bid sier, yn gyfartal o leiaf â'u duwiau eu hunain.

Cafodd y Cymry, mae yn wir, brofedigaeth i ymlygru oddi wrth dylwythau ereill, fel y mae yn hawdd casglu oddi wrth y Triad yma:—

"Tair cenedl a lygrasant, a fu ganthynt ar ddysg o Farddoniaeth [Duwinyddiaeth a Gwybodau, cofier] Beirdd ynys Prydain: y Gwyddelod, Cymry Llydaw, a'r Ellmyn."

Ond nid oes un prawf i neb lwyddo i'w troi, hyd yn oed yn ffug eilunaddolwyr, ond eu gorchfygwyr paganaidd o Rufain. Gan hyny, cyn y dylai neb, yn enwedig un Cymro, gyhuddo ei genedl o addoli 'r "Duw Arthur," a'i gyffelyb, dylai seilio ei haeriadau ar rywbeth amgenach na breuddwydion a ffugchwedlau estroniaid a mynachod, a phrydyddion Pabyddol a hygoelus y canoloesoedd.

Am Goetan Arthur, a Buarth Arthur, a Bwrdd Arthur, a Thelyn Arthur, "a geir mewn gwahanol fanau o Gymru," nid ydynt yn profi na mwy na llai na bod y beirdd a'r Derwyddon yn gydnabyddus â seryddiaeth; mewn geiriau ereill mwy cyssegredig, eu bod yn adnabod "Arcturus a'i feibion," er ys oesoedd a chenedlaethau, efallai, cyn Arthur frenin; a'u bod yn medru ac yn arfer hyfforddi eu dysgyblion yn nirgelwch y wybodaeth odidog hono, trwy wahanol drefniad meini.



Digitized by Google

a'r cyffelyb. Bernir fod trefniad celfydd meini Côr y Cawri, yn rhandir Wilts, a gwaith Emrys (Stonehenge), yn dangos yr un peth, heb law fod yno amlygiad o wybodaeth allofyddol nad oedd adnabyddus i un genedl arall y pryd hyny, ond yr Aiphtiaid yn unig.

Hyderir y dangoswyd yn lled amlwg, nad yw Arthur y duw yn ddim amgen nag impyn a darddodd o Arthur y chwedlau; ac mai o Arthur frenin y tyfodd—y gwir Arthur: fod Arthur y duw wedi ei greu gan y chwedlonwyr Mynachaidd Pabyddol, mwyaf hygoel a chwidrog, yn estroniaid â Chymry, o'r 12fed hyd y 15fed ganrif; fod Arthur y chwedlau wedi ei ffurfio gan dad chwedlonwyr y canoloesoedd, sef Sieffre o Fynwy, yn y 12ed ganrif, yn seiliedig ar hanes Nyniaw o'r 9ed ganrif; bod y ddau—Arthur y duw ac Arthur y chwedlau—yn dwyn rhyw faint bach o ddelw y gwir Arthur—Arthur ab Meirig ab Tewfrig, oedd yn bucheddu yn y 6ed ganrif, am yr hwn y ceir crybwyllion credadwy yn ngwaith ei gydoeswyr, y beirdd Taliesin a Llywarch Hen; ac nad oes un prawf boddhaol y bu'r Cymry cynnwynol erioed, nac "yn yr oes Dderwyddaidd," nac mewn un oes arall, yn addoli nac Arthur nac unrhyw wahanfod dynol na dychymygol, hyd oni orfodwyd hwynt i rith addoli duwiau eu paganaidd orchfygwyr Rhufeinig; ond bod y Cymry bob amser, o'u dyfodiad cyntaf i'r ynys hyd ddyfodiad y Rhufeiniaid yma, yn addoli *un Duw*, yr hwn sy'n meddu "gallu anfeidrol, gwybodaeth anfeidrol, a chariad anfeidrol."—Gwel ARCTURUS; ARTHUR, *dos.* iv.—(*Hanes Cymru; Gwladgarwr; Greal; Hu Gadarn, Idrison; Gwyliedydd; Han. Prydain; Drych y Prif.; Prydnawn. y Cymru; Geir. O. W.; Myv. Arch.; Iolo MSS. & Poems; Ll. Hen's Elegies; Williams's (Ab Ithel) Druid; James's Druid; Cambr. Plutarch; Cambro. Brit.; Hor. Brit.; Camden's Brit.; Borlase's Ant.; Rob. Ant. Brit.; Arch. Cambrensis; Gunn's Nenn.; Williams's Biog. Dic.; Maclor's Mort. Arth. Guest's Mabin., &c.*

**ARUBOTH**: dinas, neu oror yn y terfynau, yn perthyn i lwyth Iudah: 1 *Bren.* iv. 10.

**ARUMAH**: dinas yn agos i Sichem, lle y trigai Abimelech: *Barn.* ix. 41. Mae rhai esbonwyr yn ei chyfrif yr un a Rumah, yr hon a grybwyllir yn 2 *Bren.* xxiii. 36.

**ARWISG—O**, (*gwisg*): gwisg uchaf; gwisgo ar. "Yr ydym yn ocheneidio, gan ddeisyfu cael ein *harwisgo* â'n tŷ sydd o'r nef:"—"Nid ym yn chwennych ein diosg, ond ein *harwisgo*." *Saspiramus, expetentes domicilio nostro, quod e cælo est superindui.—Beza.* "Ydd ym yn vcheneidiaw, gan ddeifu cael ein *gwisco* a'n ty, rhwn' sydd o'r nef,—'can nad wyllysem ein diosc, anyd cahel ymwiscaw am danom."—*W. S.* Ystyr gyffredin y gair επενδυω, neu επενδυνω, ydyw yr un a roddir yn y cyfieithiadau uchod. Ceir ef yn yr ystyr hwn yn Josephus (*Hen. Iudd.*, v. 1, 12); ac yn Plutarch (*Pelop.* xi). Yn gydweddol â hyn mae επενδυμα mewn ysgrifeniadau cyffredin, a επενδυτης yn y Testament Newydd, yn arwyddo y wisg uchaf—y χιτων. Rhydd Macknight ystyr arall i'r ferf: gan mai meddwl cyntaf a phriodol δυω, o'r hwn y cyfansoddir y gair dan ein sylw, ydyw *myned;* ac mai meddwl y gair cyfansawdd ενδυομαι, ydyw *myned i mewn* (2 *Tim.* iii. 6); a bod yr arddodiad επι yn gwasanaethu weithiau i ddwyseiddio ystyr y ferf, dadleua y gall επενδυω arwyddo "myned i mewn i le fel ag i aros yno." "Mewn ystyr drawsenwawl," meddai, "mae y geiriau yn dynodi *gwisgo*," &c.; ond nis gallant feddu yr ystyr hwn yn yr adran dan sylw, am y byddai llefaru am "arwisgo â thŷ" yn eirweddiad tra annhriodol. Felly, yn ol ei feirniadaeth ef ar y gair, y mae yn cyfieithu "yr ydym yn ocheneidio, gan ddeisyf yn awyddus am *fyned i mewn yn barhaus* (*to go permanently into*) i'n trigfan, yr hon sydd nefol." Ond y mae y nifer mwyaf o'r beirniaid mwyaf galluog yn cydfarnu â'r testyn awdurdodedig yn y lle hwn. Sylwa Bloomfield, y gallasai gwaith yr apostol yn uno y ddau ffugr yn nghyd, sef "tŷ," a "gwisg"—y cyntaf o'r rhai a arferid gan y Pythagoriaid i ddynodi y corff, a'r diweddaf gan y Platoniaid—fod yn achlysur i feddwl y geiriau gael ei gamddeall gan esbonwyr; ac y mae yn bosibl mai hyn a arweiniodd Macknight i ystyried yr ymadrodd, "arwisgo â thŷ," yn annhriodol a gwrthun. Am y ffugr hwn, dywed Townsend, ei fod—tra yn ymddangos i rai anghyfarwydd â'r ieithoedd dwyreiniol, yn enwedigol yr Hebraeg, yn eu priod-ddulliau, yn anghoeth, yn gwbl gydweddol â chwaeth Iuddewaidd, a bod "tŷ" yn cael ei arfer am ryw ran o wisgiad; megys y gelwir gorchudd yn "dŷ y wyneb." Mae y beirniaid a gydunant am ystyr y ferf yn gwahaniaethu o barth i feddwl y frawddeg. Rhai a farnant fod yr apostol yn golygu y byddai cyrff y saint wedi yr adgyfodiad yn cael eu hamgylchu gan gorff arall, o natur ddysglaer ac awyrawl, yr hwn mewn rhyw fodd dirgelaidd a gyfrana egwyddor o anfarwoldeb i'r corff marwol a orchuddir ganddo. Tybir fod hyn yn cael ei gefnogi gan 1 *Cor.* xv. 53, 54.

Crybwylla Schoettgen olygiad arall, sef "fod yn y geiriau gyfeiriad at opiniwn a fyntumid gan y Rabbiniaid Iuddewig, fod gan yr enaid wisg yn y byd hwn a'r nesaf; fod gan yr enaid orchudd, pan oedd dan orsedd Duw, a chyn ei arwisgo â chorff. Y wisg hon a ddywedent oedd 'delw Duw,' yr hon a gollwyd yn y cwymp. Wedi hyny, dywedant fod Adda a'i hiliogaeth yn cael eu hystyried yn noethion; ac y gwisgir y da yn y byd a ddaw mewn gwisg oleu ac ysblenydd, yr hon nis gall neb ar y ddaiar ei chyrhaedd." Ymddengys y golygiadau uchod, mae yn ddiammheu, yn rhy ddychymygol a disail i bob meddwl sobr. Tybia Locke y cyfeirir yn yr holl adran at y ffaith y newidir y corff ar ail ddyfodiad Crist, heb brofi marwolaeth—bod Paul yn dysgwyl y gallai hyn ddygwydd yn fuan, a'i fod yn orawyddus i fyned o dan y newidiad neu y trawsffurfiad hwn yn hytrach na phrofi loesion marwolaeth. Ac y mae yn aralleirio y geiriau fel y canlyn:—"Canys yn y tabernacl hwn, gan orddeisyfu, heb ddiosg y corff marwol, daiarol hwn, gael y corff nefol hwnw wedi ei roddi yn chwanegol." Ac â hyn y cytuna aralleiriad Bloomfield, yr hwn sydd yn rhedeg fel y canlyn:—"O blegid tra yr ydym yn y babell neu y tabernacl hwn, er yn ocheneidio dan lwyth o flinderau, eto nid ydym yn ewyllysio yn gymmaint rhoddi y corff hwn heibio, a thrwy hyny gael ein rhyddhau oddi wrth ein blinderau, ond yn hytrach cael ein harwisgo â chorff nefol."

**ARWYDDION**, [*ar-gwydd*]: **yr hyn sydd yn ngwydd, rhyw beth amlwg, nôd, argoel, amnaid, lluman, baner.**

**Owain hebawg cynfreinnion—**
**Gwraidd blaidd bliant arwyddion.**
***Hywel Foel.***

Digitized by Google

Arwydd, ac arwyddion (σημειον), a ddynodant 1. Yr hyn a ddarlunir, y gwahaniaethir, neu yr adnabyddir unrhyw beth wrtho. "A rhoddant arwyddion mawrion a rhyfeddodau;" *Mat.* xxiv. 24. Yma y mae yr Arglwydd Iesu yn rhagddywedyd hyn, fel y gallai y gau Gristiau gael eu hadnabod, wedi iddynt ymddangos. "Ac efe a gymmerth arwydd yr enwaediad (*Rhuf.* iv. 11), y lle y mae yn gyfystyr âg "insel"—σφραγις. Dynoda yr hyn yr adnabyddir cymmeriad, ac y cadarnheir gwirionedd unrhyw berson neu beth wrtho yn yr ystyr o *brawf.* "A hyn fydd arwydd i chwi" (*Luc* ii. 12): "Arwyddion apostol;" 2 *Cor.* xii. 12); "Yr hyn sydd arwydd yn mhob epistol." Rhoddes angel Duw arwydd i Gedeon mai efe oedd yn llefaru wrtho, trwy beri i'r tân ddyrchafu o'r graig, ac ysu y cig a'r bara croew (*Barn.* vi. 26). Aeth y cysgod yn ei ol ddeg o raddau ar ddeial Ahaz yn arwydd i Hezecïah yr iachëid ef (2 *Bren.* xx. 8).

2. Yr hyn yr amlygir gallu dwyfol ynddo, neu weithred oruwchnaturiol; yn gyfystyr â "gwyrthiau" a "rhyfeddodau." Yn yr ystyr hwn, ei amcan oedd dangos y sicrwydd y byddai i'r hyn a addawyd neu a ragfynegwyd gymmeryd lle; neu fod prophwyd yn gyfryw o ran ei ddiffuantrwydd ag y proffesai ei fod. Cyssylltir ef yn fynych â "rhyfeddodau;" ac y mae σημεια a τερατα—"arwyddion a rhyfeddodau"—yn gyssylltiedig weithiau mewn ysgrifeniadau paganaidd yn gystal ag yn yr Ysgrythyrau. Er fod pob gwyrth yn rhyfeddod ac yn arwydd;—*h. y.*, er y cymhwysir y geiriau hyn at yr un gweithredoedd—eto, mae yn ddiammheu eu bod yn gwahaniaethu yn eu harwyddocâd. Yn *Heb.* ii. 4, dynodir y gwyrthiau a wnaed ar sefydliad Cristionogaeth dan bedwar o eiriau—*arwyddion, rhyfeddodau, nerthoedd, doniau yr Ysbryd Glân*, y rhai sydd yn eu gosod allan mewn golygiadau gwahanol. Pan edrychir ar wyrthiau (*a*) gyda chyfeiriad at eu *hamcan*, fel y maent yn dwyn tystiolaeth dros unrhyw wirionedd, gelwir hwynt *arwyddion*; (*b*) gyda chyfeiriad at eu *natur*, fel gweithrediadau uwchnaturiol, gelwir hwynt *rhyfeddodau*; (*c*) gyda golwg ar eu ffynnonell, fel y maent yn cael eu heffeithio gan allu goruchel, dynodir hwynt wrth yr enw *nerthoedd;* (*d*) mewn cyfeiriad at eu gwedd Gristionogol, fel yn cael eu gweithredu gan y rhai a gynnysgaethwyd â'r ddawn wyrthiol yn arbenig, dynodir hwynt *doniau yr Ysbryd Glân.*

Yn yr ystyr o weithrediadau goruwchnaturiol, llefarir am "arwyddion" weithiau fel yn cael eu gwneyd gan Dduw: megys 1 *Cor.* xiv. 22; "Am hyny tafodau ydynt *arwydd*, nid i'r rhai sy yn credu, ond i'r rhai digred;" *h. y.*, yn arwydd neu brawf i'r rhai digred o bresennoldeb a gallu Duw. Amcan yr apostol ydyw dangos israddoldeb tafodau i ddawn prophwydoliaeth: tra y mae y cyntaf wedi ei bwriadu yn brawf o wirionedd Cristionogaeth yn fwyaf neillduol i'r rhai digred, y mae prophwydoliaeth wedi ei fwriadu yn benaf i'r credinwyr, yn sel a chadarnhâd i'w ffydd, ac yn foddion i gynnyddu eu gwybodaeth. Yr un modd "arwydd y prophwyd Ionas" (*Mat.* xii. 39, 40); *h. y.*, yr hyn a wnaeth Duw yn achos Ionas. Mewn ystyr drawsfudol, cymhwysir y gair *arwydd* at bersonau anfonedig oddi wrth Dduw, cymmeriad a gweithrediadau y rhai ydynt amlygiadau o'r gallu dwyfol—"Fel y bu Ionas yn arwydd i'r Ninefeaid, felly y bydd Mab y dyn;" *Luc* xi. 30. Brydiau ereill, llefarir am arwyddion fel yn cael eu gwneyd gan Dduw trwy offerynoliaeth creadur—"Gwr profedig gan Dduw, trwy nerthoedd, a rhyfeddodau, ac arwyddion" (*Act.* ii. 22, 43; iv. 30; v. 12; xiv. 3). Edrychir arnynt fel argoelion dygwyddiadau dyfodol—"Arwyddion yr amserau;" *Mat.* xvi. 3; *h. y.*, y gweithredoedd gwyrthiol oeddynt yn rhagddangos nesâd teyrnas y Messïah. "A pha arwydd fydd o'th ddyfodiad" (*Mat.* xxiv. 3, 30; *Marc* xiii. 4; *Luc* xxi. 7, 11; *Act.* ii. 19; *Dad.* xv. 1). Arferir y gair hefyd i ddynodi y gwyrthiau a wnaed gan Grist a'i apostolion, er prawf a hyrwyddiad eu cenadwri: *Mat.* xii. 38; *Marc* viii. 11; *Luc* xi. 16). Dywed Robinson [*Greek Lexicon*] nad yw i'w gael yn Ioan ond yn unig yn yr ystyr hwn: *Ioan* ii. 18, 23; iv. 54; yn nghyd â llawer o anghreifftiau ereill.

ARWYDDLUN—IAU: o *arwydd* a *llun*=llun arwyddol. Groeg, συμβολον, o συμβαλλω=*bwrw yn nghyd.* Arwydda yr arddodiad συμ, *gydfeddiant, cyssylltiad*, neu *gymdeithas*, ac arddangosir ef yn fynych trwy yr ymadrodd, "yn nghyd." Felly, gan fod βαλλω yn arwyddo *taflu, bwrw*, cawn συμβαλλω yn arwyddo *bwrw* neu *daflu yn nghyd:* fel hyn y cawn y meddylrith o ddwyn gwrthddrychau gyferbyn â'u gilydd, er mwyn eu cymharu. O ganlyniad, y gwrthddrych a ddewiser, neu a wneler i'r dyben o ddwyn ger bron y meddwl wrthddrych arall, a elwir *arwyddlun.* Gan hyny, arwyddlun ydyw naill ai gwrthddrych o ryw fath, neu ddarlun, delw, neu gyffelybiaeth o ryw wrthddrych a fwriedir i arddangos gwrthddrych arall, i'r hwn y medda ryw radd o debygolrwydd, naill ai mewn natur, cymmeriad, neu gynneddfau.

Wrth sylwi ar amrywiol ranau o'r Ysgrythyrau, yn enwedig Llyfr y Dadguddiad, lle y mae yr Iesu yn defnyddio cymmaint o arwyddluniau, er amlygu pethau a fyddent, wrth eu hysbysu, trwy ei angel, i'w wasanaethwr Ioan, gwelwn fod mor angenrheidiol cael agoriad i'r arwyddluniau, er deall Llyfr Dadguddiad Iesu Grist, ag ydyw gwybod llythyrenau iaith, er gallu ei darllen. Gelwir y dull cyffelybiaethol hwn o ddefnyddio geiriau, yn *iaith ffugrol:* am fod geiriau, yn yr arferiad hwn, fel dynion mewn chwareufa, yn newid eu gwisgoedd a'u lluniau yn fynych. Er mwyn eglurder, rhoddir enwau priodol ar yr arddulliau hyn; megys, *cymhariaeth, cyffelybiaeth*, &c. Ei Greawdwr a ddysgodd iaith i ddyn. Ar y cyntaf, nid oedd ganddo lawer o feddyliau, na chymdeithion, nac angenion; o ganlyniad, nid oedd ganddo lawer o eiriau. Ond pan luosogodd ei feddylddrychau, dyfeisiodd yntau gyfryngau priodol i'w hamlygu, megys *cynnorthwyon i eiriau;* yn mhlith y rhai blaenaf o ba rai yr oedd *amneidiau, gweithredoedd arwyddol, lluniau.* Cawn esamplau lawer o *weithredoedd arwyddol* yn ysgrifeniadau yr Hen Destament. Er anghraifft, gyrwyd Ieremïah i gladdu gwregys newydd ar lan yr Euphrates, ac yn mhen llawer o ddyddiau, ei ddychwelyd oddi yno wedi cwbl fraenu; i ddangos mewn gweithred mor ddiwerth oedd Israel wedi myned yn ngolwg yr Arglwydd o herwydd eu pechodau (*Ier.* xiii):—i ddinystrio llestr pridd, fel nad oedd modd i'w gyfanu; er dangos llwyr ddinystr Israel (*Ier.* xix):—i wneyd gefynau, a'u dwyn am ei wddf at genadon breninoedd Edom, Moab, &c., a'u rhoddi iddynt i'w cymmeryd i'w meistriaid; er dangos y byddai i'r breninoedd hyny wasanaethu brenin Babilon (*Ier.* xxvii). Gwelwn yr Arglwydd yn defnyddio y ffordd hon o lefaru wrth y gaethglud

Digitized by Google

trwy y prophwyd Ezeciel. Darlunia warchaeedigaeth Ierusalem ar briddlech (*Ezec.* iv):—pwysai flew ei ben a'i farf (*pen.* v):—cariai allan ddodrefn ei dŷ, &c. (*pen.* xii).

Ymddengys mai y ddyfais gyntaf at gofnodi pethau er mwyn oesoedd dyfodol oedd gwneyd lluniau y gwrthddrychau ar lech-feini, neu ryw ddefnyddiau ereill. Pan drosglwyddid hysbysiaeth, mewn ysgrifen, am laddiad dyn gan ddyn arall, gwneid hyny drwy dynu llun dyn ar ei hyd ar y llawr, a dyn uwch ei ben â phastwn anferth ar godiad yn ei ddwylaw. Ni wyddai trigolion Mexico am amgenach ffordd na hon i ysgrifenu. Y gwelliant cyntaf a gafwyd ar hyn oedd gwneyd i brif amgylchiad gweithred sefyll am y cwbl. Wrth ddangos brwydr—tynid llun llaw yn dal bwa, a llaw arall yn dal tarian, neu brif offerynau brwydr. I ddangos terfysg—llun gwr arfog yn bwrw saethau. I ddangos gwarchae—ysgol grog, &c. Yr ail ffordd i wellhau ysgrifen luniadol oedd gwneyd i offeryn y peth sefyll am y peth ei hun; megys, llygad wedi ei lunio mewn lle uchel, i arddangos hollwybodaeth: llygad a theyrnwialen, i arwyddo brenin. Y drydedd oedd gwneyd i un peth sefyll am neu gynnrychioli peth arall, pan fyddai rhyw gyffelybrwydd tarawiadol rhwng y cynnrychiolydd a'r cynnrychioledig. Dyma yr *arwyddlun.* Meddyliai Dr. Warburton mai gweithredoedd arwyddol yr hynafiaid a esgorodd, nid yn unig ar yr arwyddlun, ond hefyd ar y gymhariaeth, y gyffelybiaeth, a'r aralleg, &c. Y gwelliant olaf ar ysgrifenu, ydoedd cael allan amrywiol seiniau iaith, a rhoddi nôd am y gwahanol seiniau, a galw y nodau hyn yn llythyrenau, ac felly ffurfio yr hyn a alwn yn egwyddor iaith.

Y mae tebygolrwydd rhwng *arwyddlun* a *chyffelybiaeth:* eto, y maent yn gwahaniaethu, drwy fod y blaenaf yn sefyll am *wrthddrych*, a'r diweddaf am *feddylddrych.*

Canfyddir gwahaniaeth rhwng *cysgod* ac *arwyddlun.* Y mae cysgod bob amser, fel prophwydoliaeth, yn cyfeirio at beth i ddyfod: ond arwyddlun a gyfeiria at bethau presennol yn gystal a phethau dyfodol: fel y gwelwn yn ordinhadau yr efengyl—bedydd, a Swper yr Arglwydd. Rhaid i ddefnydd cysgod fod o bethau gwirioneddol a chrefyddol: gall defnydd arwyddlun fod o beth dychymygol a naturiol, megys llewpard â phar o adenydd iddo. Yr oedd y deml, yr allor, y canwyllbren, a phethau ereill perthynol i'r gwasanaeth seremoniol, fel gwir wrthddrychau, yn gysgodol o bethau efengylaidd: eithr tebygolrwydd neu ymddangosiad gweledigaethol o honynt, fel y dangosir hwy gan y prophwydi, ydynt arwyddluniau. Y canwyllbren, a safai yn y cyssegr, oedd gysgod; ond pan draethwyd gan Zechariah am dano (*pen.* iv. 2), arwyddlun oedd.

Y mae yn y cysgod ryw debygolrwydd, naill ai yn ei ffurf sylweddol, ei dduil o weithredu, ei gyflwr, neu sefyllfa, i'r gwrthddrych y cyfeirir ato, yr hwn wrthddrych a elwir y gwrthlun: eithr yn yr arwyddlun, arddangosiad o gymmeriad, neu gynneddf, a nodir. Gyda golwg ar y gwahaniaeth rhwng cysgod ac arwyddlun, gellir nodi fod cysgod yn dyfod i'r golwg mewn dwy agwedd; y naturiol a'r cysgodol: ond arwyddlun a ganfyddir mewn un agwedd yn unig, sef gwrthddrych, trwy yr hwn yr amcenir arddangos rhyw wrthddrych arall, a dim mwy. Cysgod sydd gynllun i'w ddilyn: neu anghraifft i'w dynwared: ond y mae arwyddlun yn arddangosiad o rywbeth sydd yn bodoli, neu a fodola ar ol hyn, yr hwn arddangosiad a wneir, yn gyffredin, nid trwy debygolrwydd mewn ffurf allanol, ond trwy debygolrwydd a dybir sydd yn hanfodi rhwng rhyw deithi neu gynneddf a gyflwynir trwy yr arddull arwyddluniol.

Priodol fydd nodi yr amrywia arwyddlun oddi wrth ansoddlun (*emblem*). Ansoddlun a ddengys briodoliaethau neu deithi gwrthddrych, heb un olwg neillduol ar y gwrthddrych ei hun: ond arwyddlun a ddengys wrthddrychau penodol a neillduol. Arwyddlun a gynnwys ynddo y meddylrith o gymhariaeth rhwng dau wrthddrych; tra y mae ansoddlun, bob amser, yn gymhwysedig at deithi neu briodoliaethau dansoddol. Gwneir ansoddlun trwy gyffelybiaeth gwrthddrych yn ei gyflwr naturiol. Ond os bydd i arddull ddangosiadol—pa un bynag ai darlun neu ymddangosiad tybiadol fyddo—rywbeth achlysurol yn nglyn âg ef, arwyddlun ydyw. Ni wna oen, yn ei ffurf naturiol, arddull gymhwys i ddynodi bod neu ddynsawd neillduol, fel ag i arddangos yr holl gymmeriad. Os cymhwysir at oen y meddylrith o fwyneidd-dra neu ddiniweidrwydd, eglur yw na wna un o'r ansoddau hyn, ïe, na'r cyfan yn nghyd, wrth eu cymhwyso at unrhyw ddynsawd, arddangos ei holl gymmeriad. Oud os oen yn meddu cyrn llawn dwf a ffurfia yr arddull, amlwg yw nad ydyw y cyfryw arddull yn un naturiol, gan fod y cyrn yn deithi dafad mewn cyflawn faintiolaeth ac oed. O ganlyniad, y mae yr oen â'r saith llygad, a'r saith corn, yn arddangosiad o ryw fôd cymhwys i arddangos yr Hwn sydd, nid yn unig yn berffaith ddiddrwg, tyner, ac addfwyn, ond hefyd yn feddiannol ar hollwybodaeth a hollalluogrwydd. Fel hyn y mae yn eglur, tra nas gall oen, yn ei ffurf naturiol, ond darlunio rhyw gynneddf neu gynneddfau neillduol, y mae yr arddangosiad y cyfeiriwyd ato yn amlygu yn benodol rhyw fôd neillduol. Fel hyn, daw y gwahaniaeth rhwng ansoddlun ac arwyddlun yn amlwg. Tra y mae yr olaf yn gymhwysiadol at yr arddangosiadau fyddont yn arwyddo cymmeriadau, dynion, gweinyddiaethau, trefniadau, neu wrthddrychau neillduol, nid yw y cyntaf yn gymhwys i'r fath ddarluniadau; eithr i briodoleddau, cynneddfau, ac egwyddorion yn unig mewn ystyr gyffredin. Cofier fod yr ansoddlun a'r arwyddlun yn cael eu huno yn aml yn yr un arddull; er anghraifft, y mae y march a'i farchog, yn *Dad.* vi. 2, yn arwyddluniol. Yr holl ymddangosiad, yn ddiau, sydd wedi ei amcanu i ddynodi rhyw wrthddrych penodol: eithr y mae rhan o'r ymddangosiad yn ansoddluniol, megys y bwa, y goron, a lliw y march. Y mae y ffaith fod mwy nag un ansoddlun yn yr arddull yn profi penodolrwydd ei arwyddocâd; fel y mae y goron, y bwa, a'r march gwyn, gyda ei farchog, wrth eu golygu yn nghyd, yn arddangos goruchafygwr breninol, naill ai yn myned allan mewn achos cyfiawn, neu ynte yn meddu purdeb natur. Trwy ddeall y gwahaniaeth sydd rhwng yr arddull ansoddluniol a'r wir arwyddluniol, cynnorthwyir ni yn fawr i ddeongli yr arwyddluniau prophwydol.

Rhaid i arwyddlun, gan yr amcenir iddo osod allan ryw wrthddrych, feddu rhywbeth a fyddo yn tueddu yn gryf i gynnyrchu yn meddwl yr edrychydd ryw feddylddrych tarawiadol a phenodol, drwy debygoliad, o'r gwrthddrych hwnw: rhaid iddo hefyd wahaniaethu mewn golygiad oddi wrth y gwrthddrych yr amcana ei ddangos: o ganlyniad, nid yw darlun o unrhyw beth yn arwyddlun o'r peth hwnw, o blegid nis gall darlun

Digitized by Google

canwyllbren aur, canfyddir dylanwad goleuol yr Ysbryd Glân. Yn yr esamplau hyn, ac ereill, ymddengys elfenau yr ansoddlun. Yn yr arddangosiad goruchel, â pha un yr agorir gweledigaeth Datguddiad Iesu Grist i Ioan, y mae yr olygfa yn hollol gysgodol. Dangosodd yr Hwn a ddywedodd am dano ei hun, "Myfi yw Alpha ac Omega," ei gymmeriad offeiriadol, trwy ei ymddangosiad yn ei wisgoedd, a'i le, yn nghanol y saith ganwyllbren aur. Amlygodd trwy rodio yma, ei ofal manwl am ei eglwysi, trwy fwrw golwg barhaus drostynt, fel y gwnai yr offeiriaid gyda y canwyllbren yn y cyssegr. Cawn ddangosiad arall o'r cyffelybrwydd cysgodol, yn ngwaith yr angel yn offrymu arogldarth ar yr allor aur (*Dad.* viii. 3). A dysgwn trwy y cyffelybrwydd sydd rhyngddo a'r hen oruchwyliaeth, rywbeth am waith cyfryngol ein Harchoffeiriad mawr yn y gwir gyssegr. Wrth sylwi yn ofalus ar y tebygolrwydd sydd yn bodoli rhwng yr arwyddlun a'r gwrthddrych a ddangosir trwyddo, canfyddwn yn mhob arddull arwyddluniol y cyffelybrwydd *ansoddluniol, cydrywiol*, neu *gysgodol.* Gwel IAITH; RHEITHEG.—(*Mills' Sacred Symbology; Encyclopædia Britannica.*)

ARWYL,—ION, [*ar—gwyl*]: wylofain, galar; defodau claddedigaeth y marw (*funeral obsequies—Dr. Pughe*).

> "*Arwyl* o fedw irion
> Y fory a gaf dan frig ôn;
> Amdo wenwisg am danaf,
> A lliain hoew feillion haf."
>
> *D. ab Gwilym.*

"Yr Aiphtiaid a'i harwylasant ef ddeng niwrnod a thrigain;" *Gen.* l. 3. Gan fod y geiriau *arwyl*, *arwylaw*, *arwyliant*, &c., yn cael eu harfer yn benaf, os nad yn gwbl, at alar ar ol y marw, a'r defodau perthynol i'r galar hwnw, a'i fod yn dynodi hyny yn yr unig anghraifft y dygwydda yn y testyn Cymreig o'r Beibl, cyfyngir yr erthygl hon at y galar hwnw yn unig. Galar Abraham ar ol Sarah ydyw yr anghraifft gyntaf a geir o hyn (*Gen.* xxiii. 2), lle y dywedir ei fod wedi "myned i alaru am Sarah, ac i wylofain am dani" —geiriau a ddynodant arwyliant ffurfiol, yn ol rhyw ddefodau adnabyddus i'r patriarch. Cyfeirir at ddyddiau o arwyliant gyda golwg ar farwolaeth ddysgwyliedig Isaac (*Gen.* xxvii. 41) —"Nesau y mae dyddiau galar fy nhad." Ymddengys mai yr amser cyffredin oedd saith niwrnod; megys ar ol Saul (1 *Sam.* xxxi. 13), pryd "yr ymofidiasant saith niwrnod." Dywed Iesus, mab Sirach (*Eccles.* xxii. 12), "mai saith niwrnod fydd i alar am y marw." Y Rabbiniaid a gyfrifent amryw raddau o dristwch mewn arwylion. Am y tridiau cyntaf, ystyrient ei bod yn oddefol i ymroddi i wylofain uchel, a'r graddau uchaf o dristwch, yr hyn a leihëid yn raddol am y saith niwrnod canlynol. Eithr os estynid yr arwyl i fis o amser, byddai yn cael ei ddwyn yn mlaen gyda phwyll a chymmesuredd. Ymddengys mai galaru oedd prif nodwedd arwyliant—yr hyn a ddangosir yn y gair ei hun. Am hyny, pan gladdwyd Deborah, mammaeth Rebecca, dan dderwen, ger llaw Bethel, galwyd y pren, Allonbachuth; *h. y.*, derwen y wylofain. Yr anghraifft fwyaf arbenig o hyn oedd arwyl yr Aiphtiaid ar ol Iacob, yr hon a ddygid yn mlaen, y mae yn ddiammheu, gan rai wrth eu swydd yn alarwyr, ac a barhaodd "am ddeng niwrnod a thrigain;" er y bernir fod y tymmor hwn, a elwir "dyddiau ei arwyl ef" (*Gen.* l. 4), yn cymmeryd i mewn yr amser a gymmerwyd yn perarogli y corff. Ymddengys fod yr arwyl hon yn cael ei dwyn yn mlaen fel un freiniol, oddi ar barch i Ioseph. Dywed Herodotus y byddai yr Aiphtiaid yn cadw arwyl am y brenin dros ddeuddeg a thrigain o ddiwrnodiau. "Byddai y cynhebrwng," medd Taylor [*Monuments of Egypt*], "yn gyffredin yn dra rhwysgfawr; dilynid ef gan holl gyfeillion a pherthynasau y marw; ac ar gladdedigaeth brenin, neu ŵr o fonedd, byddai holl bendefigion y wlad yn canlyn y corff." Ac fel hyn y darllenwn am gladdedigaeth Iacob:—Pan gyrhaeddodd yr orymdaith i Ganaan, adnewyddwyd y galar, trwy orchymyn Ioseph—"galarasant alar mawr a thrwm iawn," yr hwn a barhaodd am saith niwrnod; yr oedd mor ddwys ac angerddol, fel y tynodd sylw y Cananeaid, ac y galwasant y lle y cedwid ef, Abelmizraim, neu galar yr Aiphtiaid (*adn.* 11). Byddai y galarwyr cyflogedig yn dechreu ar eu gwaith gyda lleisiau cwynfanus hen wragedd; y rhai a geisient, gyda thoniadau trydarus a hiraethlawn, ddwyn y rhai a fyddent bresennol i deimlad cyffelyb i'r eiddynt eu hunain. Byddai y plant yn yr heolydd yr elai yr osgordd ar hyd-ddynt, yn gadael eu chwareuon, er mwyn efelychu y swn; ac yn ymuno â'r galar gydag ymroddiad cyffelyb (*Mat.* xi. 17). Dygid yn ganlynol gerddoriaeth yn mlaen, er cynnorthwyo lleisiau y galarwyr; arferid yr udgorn yn nghladdedigaethau y mawrion, a'r bibell yn nghladdedigaethau y bobl gyffredin. Yr oedd galarwyr cyflogedig mewn arferiad yn mysg y Groegiaid mor fore a rhyfel Caerdroia; ac yn dra thebygol, mewn oesoedd boreuach. Yn *Iliad* Homer, dywedir fod côr o alarwyr yn amgylchynu y glwth y rhoddwyd corff Hector i orwedd arno, y rhai a ganasant ei alareb gydag ocheneidiau a dagrau. Yn y claddedigaethau cyffredin yn yr Aipht, cyflogid gwragedd i ganu



Dar. 80. Wylo wrth fedd—Dyrchafu y dwylaw.

ar y tabwrdd. Byddent yn dilyn y cynhebrwng hyd at y bedd, yn gymmysgedig â chyfeillesau a pherthynasau benywol yr ymadawedig, y rhai yn gyffredin a dynent eu gwallt i'r annhrefn mwyaf, ac a orchuddient eu penau â thom a llwch. Yr oedd yr arferiad ddiweddaf hon yn un gyffredin yn mysg llawer o genedloedd y dwyrain, os nad yr oll o honynt. Ceir ei bod yn arferiad nid yn unig yn mysg yr Aiphtiaid a'r Hebreaid, ond hefyd y Nineveaid (*Ion.* iii. 6) a'r Groegiaid.

Digitized by Google

Dysgrifia Homer (*Iliad* Σ. 23, 24) Achilles yn wylo ar ol Patroclus, ac yn gosod llwch ar ei ben, ac yn gorwedd ynddo. Yr oedd hyn hefyd yn arferol yn mysg y Rhufeiniaid:—"Y perthynasau agosaf," medd Adams [*Roman Antiq.*], "a rwygent eu dillad, ac a orchuddient eu gwallt â llwch, neu a'i tynent ymaith: byddai y merched, yn neillduol y rhai a ddilynent y cynhebrwng, yn curo eu dwyfron, ac yn tori eu hwynebau, er ei fod yn waharddedig gan y deddfau." Byddai galar am y marw yn cael ei ddwyn yn mlaen gyda thrwst dirfawr, fel yr ymddengys oddi wrth amryw eiriau yn yr Ysgrythyr: *Gen.* l. 10: *Marc* v. 38. Byddai hyd yn oed dynion synwyrol a



Dar. 81.—Wylo wrth fedd.

defosiynol yn gwneyd galar mawr ar ol eu cyfeillion a'u perthynasau, fel y gwnaeth y cyfryw rai ar ol Stephen: *Act.* viii. 2. Cadarnheir hyn am yr hen Aiphtiaid gan Herodotus [ii. 85], a Diodorus Siculus [i. 91]; a dywed Lane [*Modern Egyptians*, ii. 286], fod dull yr Aiphtiaid presennol yn Cairo yn hynod debyg i'r eiddynt hwy. Rhodiant yr heolydd gan lefain, "O! fy mlinder!" "O! fy mrawd!" "O! fy meistr!" "O! arglwydd y tŷ!" Mae y tebygolrwydd rhwng y fath lefau a'r rhai canlynol yn dra tharawiadol: "Och! fy merch!" gan Iephthah; "O! Absalom, fy mab; fy mab Absalom!" gan Dafydd; "Och! fy mrawd" (1 *Bren.* xiii. 30); "O fy mrawd! O fy chwaer! O Ior! O ei ogoniant ef!" (*Ier.* xxii. 18). Y mae yn eglur fod wylo mewn arwylion yn fath o gelfyddyd yn mysg yr Hebreaid—"Galwant y neb a *fedro* alaru i gwynfan;" *Amos* v. 16. Y mae galarwyr yn bresennol yn cael eu cyflogi gan yr Hindwaid, a'r Mahometiaid, fel yr oeddynt yn yr hen amseroedd.

Anfonid cenadau gynt i gysuro perthynasau y marw. Anfonwyd y cyfryw gan Dafydd at Hanun, brenin Ammon, ar farwolaeth ei dad (2 *Sam.* x. 1, 2): daeth llawer o'r Iuddewon i gysuro Martha a Mair ar farwolaeth eu brawd (*Ioan* xi. 19): ac yr oedd "bagad o bobl" gyda'r weddw o Nain (*Luc* vii. 12). Os cyfarfyddai un gladdedigaeth, dysgwylid iddo ymuno â'r orymdaith, at yr hwn arferiad y cyfeiria yr apostol, fel y tybir, yn y geiriau, "Wylwch gyda'r rhai sydd yn wylo;" *Rhuf.* xii. 15.

Dywedir am Dafydd, ddarfod iddo, ar ol marwolaeth ei blentyn, "ymolchi, ymeneinio, a newid ei ddillad;" yr hyn sydd yn awgrymu ei fod, yn ystod ei alar, yn gwbl ddiofal am ei wisg a'i ymddangosiad. Hyn hefyd oedd arferiad y Persiaid. Yr hyn a ddangosai i ereill eu bod yn galaru, oedd diofalwch hollol am eu gwisg; a byddai yr Aiphtiaid, medd Herodotus, yn gadael i'w barfau dyfu pan fyddent yn arwylo am eu meirw. Pan fu y plentyn farw, dywedodd Dafydd, "I ba beth yr ymprydiaf?" I eglurhau hyn, dywed Maimonides, na byddai yr Iuddewon yn arwylo am fabanod a fyddent feirw cyn bod yn ddeng niwrnod ar ugain oed, ond yn eu dwyn yn eu breichiau i'r bedd, gydag un ferch a dau ddyn yn eu canlyn, heb adrodd y gweddïau cyffredin uwch eu penau, na'r dyddanion i alarwyr. Ond os byddai y baban uwch law deng niwrnod ar ugain pan fyddai farw, dygent ef ar elor fechan, ac adroddent y gweddïau a'r dyddanion. Barna Gierus, mai yr arfer hon a ddilynai Dafydd yn yr amgylchiad hwn; ond sicrheir gan ereill nad oedd mor hen a'i deyrnasiad ef.

Dros amser yr arwyl, byddai perthynasau agosaf y marw yn eistedd yn barhaus yn y tŷ, ac yn bwyta ar y llawr. Ystyrid y bwyd a fwytäent yn aflan, ac edrychid arnynt hwythau eu hunain felly—"eu haberthau fyddant iddynt fel *bara galarwyr;* pawb a fwytao o hono, a halogir;" *Hos.* ix. 4. Byddai eu hwynebau yn orchuddiedig, ac nis gallent ymarfer âg un gwaith, na darllen y gyfraith, nac adrodd y gweddïau arferol. Ni wnaent eu gwelyau, na dadorchuddio eu penau, nac eillio, na chyfarch neb. Ni ddywedai eu cyfeillion air wrthynt, oni ddywedent hwy yn gyntaf.

Dywed Leo o Modena y byddai perthynasau y marw, ar ol dychwelyd o'r claddedigaeth, yn rhoddi eu hunain i eistedd ar y llawr; ac wedi iddynt dynu eu hesgidiau, dygid bara, gwin, ac wyau caledion ger eu bron. Mewn rhai lleoedd, gwneid darpariaeth i groesawu perthynasau, a'r rhai a gynnorthwyent ar y claddedigaeth. Dywed Josephus (*De bello*, llyfr ii. pen. 1), fod Archelaus, ar ol arwylo dros saith niwrnod am ei dad Herod Fawr, wedi gwneyd gwledd fawr i'w bobl; a'i bod yn beth arferol yn mhlith yr Iuddewon ar yr achlysuron hyn i wneyd y cyfryw wleddoedd i berthynasau. Gwel Claddedigaeth; Wylofain; Galar. (*Calmet; Kitto; Cyc. Rel. Know.; Burder's Oriental Customs; Jenning's Jewish Antiquities.*)

ARWYSTLI GLOFF. Mab oedd i Seithenyn Feddw, arglwydd Cantref y Gwaelod, ac yn ei flodau tua chanol y chweched ganrif. Yr oedd efe yn aelod o Fangor Enlli; cyfrifir ef yn mhlith y saint; a dywedir iddo sylfaenu eglwys mewn rhyw barth o'r Dywysogaeth; ond y mae ei sefyllfa yn anadnabyddus.—(*Rees's Welsh Saints; Williams's Biog. Dict. of Eminent Welshmen.*)

ARWYSTLI HEN, yn ol yr hen gofion Cymreig a elwir *Achau y Saint*, ydoedd un o'r tri (neu yn ol ereill, pedwar) dysgawdwr a ddaethant drosodd gyda Brân ab Llyr Llediaith o Rufain, i bregethu yr efengyl i'r Brythoniaid, yn nghylch B. A. 70. Y ddau arall ydoedd Ilid a Chyndaf; at y sawl y mae ysgrifiyfrau yn chwanegu Mawan, yr hwn, meddir, ydoedd fab i Cyndaf. Tybir gan rai, ac nid heb gryn sail, mai yr un oedd Arwystli ag Aristobulus a grybwyllir gan Paul yn ei Epistol at y Rhufeiniaid (xvi. 10). Ac yn gysson â hyn y mae y Merthyreg Groeg, a ddyfynir gan yr Archesgob Usher, yn crybwyll ddarfod i Aristobulus gael ei urddo gan Paul yn apostol i'r Brythoniaid. Dywed Cressy hefyd, yn *Hanes Eglwysig Llydaw*, fod Aristobulus

Digitized by Google

yn un o ddisgyblion Pedr, neu Paul, yn Rhufain; iddo gael ei anfon yn apostol i'r Brythoniaid, ac mai efe oedd yr esgob cyntaf yn Ynys Prydain; iddo farw yn Ynys Afallon, yn Ngwlad yr Haf, B. A. 99, ac y cedwid ei ŵyl mabsant yn yr Eglwys Sefydledig ar y pymthegfed dydd o fis Mawrth (*Achau y Saint; Rees's Welsh Saints; Williams's Enwogion Cymru; Cressy's Church History; Usher, De Brit. Eccles. Primordus.*)

ARSA, [ארצא]: penteulu yn Tirsah, yn nhŷ yr hwn yr oedd Elah, brenin Israel, "yn yfed yn feddw," pan ei lladdwyd gan Zimri: 1 *Bren.* xvi. 9.

ASA, [אסא]: mab Abïam, brenin Iudah: yr hwn a olynodd ei dad yn y freniniaeth, yn y flwyddyn c. c. 955; ac efe a deyrnasodd ar Iudah un a deugain o flyneddoedd, sef hyd y flwyddyn c. c. 914. Dechreuodd deyrnasu ddwy flynedd cyn marwolaeth Ieroboam, brenin Israel; a chan nad oedd efe ond bachgenyn ieuanc pan fu farw ei dad, cymmerai ei fam Maachah, neu yn ol rhai, ei nain (cymh. 1 *Bren.* xv. 1—10), arni weinyddu y llywodraeth yn ei enw. Bernir fod Maachah yn ŵyres i Absalom; ac y mae yn amlwg ei bod yn dra eiddgar dros eilunaddoliaeth, oddi wrth y gefnogaeth rymus a roddai i gau grefydd yn y wlad tra bu y llywodraeth yn ei llaw. Ond er i Asa gael ei ddwyn i fyny gan rieni annuwiol a gau grefyddol, y mae yn ymddangos iddo gael ei ennill yn lled ieuanc i adnabod y gwir Dduw, ac i ddewis y wir grefydd; canys pan eto yn ieuanc, efe a ddifreiniodd yr hen frenines o'i hawdurdod, o herwydd gwneuthur o honi hi ddelw mewn llwyn, a drylliodd ei delw, ac a'i llosgodd wrth afon Cedron. Gyrodd y gwŷr Sodomaidd hefyd ymaith o'r wlad, ac a fwriodd ymaith yr holl ddelwau a wnaethai ei dadau. Mewn gair, defnyddiodd y moddion mwyaf effeithiol i wellhau cyflwr moesol a chrefyddol ei ddeiliaid; a'r heddwch a fwynhaodd dros y deng mlynedd cyntaf o'i deyrnasiad a fu yn dra manteisiol iddo i gwblhau ei amcan; a than ei reolaeth ddoeth a chyfiawn, cynnyddai ei bobl mor fawr, fel ei galluogid i ddwyn 580,000 o wŷr i'r maes: 2 *Cron.* xiv. 6—8. Gyda'r fyddin gref yma o filwyr wedi eu dysgyblu yn dda, a chan roddi ei ymddiried yn Arglwydd Dduw y lluoedd, efe a aeth allan i gyfarfod Zerah yr Ethiopiad, gan yr hwn yr oedd llu o fil o filoedd, a thri chant o gerbydau; 2 *Cron.* xiv. 9—15: ond Josephus a'i cyfrifai yn 90,000 o draed-filwyr, a 100,000 o feirch-filwyr [*Hen. Iudd.*, viii. 12, 1].

Fel yr oedd Asa a gwyr Iudah yn dychwelyd yn fuddugoliaethus o'r cadgyrchiad yma, cyfarfyddai Azarïah y prophwyd â'r brenin, gan ddadgan ei fod ef a'i wŷr yn ddyledus am y fuddugoliaeth ysblenydd a ennillasant ar yr Ethiopiaid i ymddiried Asa yn y gwir Dduw, a'i ymroad i'w wasanaeth ef; ac annogai ef a'i bobl i barhau yn ffyddlawn i'r Arglwydd. Y brenin duwiol, wedi derbyn y fath gymhelliad, a ymegnïodd i fwrw ymaith weddillion eilunaddoliaeth o'r wlad, ac a barodd i'r bobl adnewyddu eu cyfammod â'r Arglwydd: 2 *Cron.* xv. 1—15. Y gydnabyddiaeth diffuant yma o'i ymddibyniad trwyadl, fel llywodraethwr gwladol, ar Dduw, a'i gyfrifoldeb iddo, a ennillodd y clod uchaf iddo a'r a allai brenin Iuddewig ei gyrhaedd; sef iddo wneuthur yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd, fel Dafydd ei dad: 1 *Bren.* xv. 11. Ond ni pharhaodd efe hyd y diwedd i gynnal y nodweddiad dysglaer a ennillasai efe yn nechreu ei deyrnasiad; canys pan adnewyddodd Baasa, brenin Israel, y rhyfel rhwng y ddwy freniniaeth, gan gymmeryd Ramah, a dechreu ei chadarnhau i fod yn flin-ddiffynfa, ymddygai Asa, gorchfygwr Zerah, mor annheilwng o'i deyrnas, ac yn enwedig o'i Dduw, fel y defnyddiodd drysorau y deml, a thrysorau y llys breninol, i wobrwyo brenin Syria am ymosod ar diriogaethau Baasa, brenin Israel; ac felly rhoddi cyfleusdra manteisiol iddo ef i adennill Ramah. Am hyny y daeth Hanani y gweledydd ato ef, ac a'i ceryddodd yn ddiarbed am amlygu mwy o ymddiried yn mrenin Syria, nag yn y Duw a'i gwaredasai o ddwylaw yr Ethiopiaid a'r Lubiaid: ond, yn lle ymostwng yn wyneb y genadwri hon, digio a wnaeth efe wrth y genad, a'i roddi mewn carchar; ac ymddengys iddo, yn mlyneddoedd olaf ei deyrnasiad, ymddwyn yn lled orthrymus at rai o'i ddeiliaid; y rhai, efallai, a amlygasant y cyffelyb anfoddlonrwydd i'w ymddygiadau: 1 *Bren.* xv. 16—22; 2 *Cron.* xvi. 1—10.

Fe'n hysbysir fod Asa wedi ei gystuddio yn drwm dros y tair blynedd olaf o'i deyrnasiad, â rhyw anhwyldeb yn ei draed; ac fe grybwyllir, i'w anghlod, ei fod yn ymwneyd mwy â'r meddygon nag â'r Arglwydd am wellhad. Er hyn oll, ymddengys fod ei boblogrwydd fel penadur wedi dal i fyny i fesur helaeth hyd y diwedd: canys efe a anrhydeddwyd â chladdedigaeth rhwysgfawr anghyffredin: 1 *Cron.* xvi. 11—14. Ei fab Iehosaphat a'i holynodd ef yn y freniniaeth.

ASADIAS: mab Chelcias, un o hynafiaid Baruch: *Bar.* i. 1.

ASAEL: un o hynafiaid Tobit: *Tob.* i. 1.

ASAF, neu ASAPH: un o seintiau Cymreig y chweched ganrif, ydoedd fab i Sawyl Benuchel ab Pabo Post Prydain, o Gwenaseth, merch Rhufon Rhufoniog. Ganwyd ef yn Ngwynedd yn gynnar yn y ganrif, a llafuriodd yn ddiwyd yn yr Eglwys Brydeinig hyd yn agos i derfyn y cyfnod hwnw. Dysgybl ydoedd i Cyndeyrn, yr hwn a sefydlasai athrofa ac esgobaeth yn Llanelwy, o ddeutu y flwyddyn 545. Pan roddes y sant hwnw yr esgobaeth hono i fyny, a dychwelyd i ogledd Prydain yn 560, Asaf, yr hwn oedd enwog am ei ddysgeidiaeth a'i rinweddau, a ddewiswyd i'w ganlyn ef yn yr esgobaeth ac yn llywyddiaeth yr athrofa hefyd. Dywedir ei fod yn bregethwr tra llafurus yn ei ddydd, a bod y dywediad canlynol yn fynych yn ei enau:—"Y sawl a wrthwynebant air Duw, cenfigenu y maent wrth iachawdwriaeth dyn." Ysgrifenodd Asaf, *Osodiadau ei Eglwys, Buchedd Cyndeyrn,* a rhai pethau ereill. Bu farw Mai 1, 596; a chladdwyd ef yn ei eglwys gadeiriol ei hun: a bu hyny yn foddion lled effeithiol i fagu yn meddyliau pobl yr oes oedd ar ol hyny dyb dda o barth sancteiddrwydd y lle, ac i gadw yr esgobaeth heb gael ei symmud oddi yno. Gwedi ei farwolaeth, galwyd y lle yn Seisonig ar ei enw ef, St. Asaph; ond yn Gymraeg y mae yn cadw ei enw cyssefin, Llanelwy, oddi wrth ei sefyllfa ar lan yr afon Elwy, hyd y pryd hwn. Efe hefyd a sefydlodd Eglwys Llanasa neu Llan Asaf, yn swydd Fflint, ac iddo ef y mae wedi ei chyflwyno. —(*Achau y Saint; Bonedd y Saint; Rees's Welsh Saints; Williams's Biog. Dict. of Eminent Welshmen; Ysgriflyfrau Iolo Morganwg.*)

ASAHEL, [עשהאל]: brawd Ioab, a mab Serfiah, yr hwn oedd yn nodedig am ei fuanrwydd fel rhedegydd. Yn oesoedd bore gwahanol genedl-

oedd, yr oedd y cyfryw alluoedd corfforol, a nerth, a chyflymdra, yn gwneyd eu perchenogion yn dra phobiogaidd; ac fe'u prisid yn llawer mwy na rhagoriaethau meddwl. Fel yr oedd efe yn erlid ar ol Abner, ar ol brwydr Gibeon, yn yr hon y gorchfygasid byddin Isboseth, o dan arweiniad Abner—wedi ei rybuddio unwaith ac eilwaith i droi oddi ar ei ol ef, â'r hyn ni fynai gydsynio er dim—y tywysog Abner, er yn anewyllysgar, a'i lladdodd, er diogelu ei fywyd ei hunan. Claddwyd Asahel yn Methlehem; ac yn fuan wedi hyny, ei frawd Ioab a ddialodd ei waed, trwy lofruddio Abner yn fradwrus. Crybwyllir amryw o'r enw yma yn yr Ysgrythyr, am y rhai nis gwyddom ddim: 2 *Sam.* ii. 18—23; xxiii. 24; 2 *Cron.* xvii. 8; xxxi. 13; *Ezra* x. 15.

ASAIAH: un o weision Iosïah ydoedd, yr hwn a anfonwyd gydag ereill i ymgynghori â Huldah y brophwydes, mewn perthynas i lyfr y gyfraith a gawsid yn y deml, tua c. c. 624; 2 *Cron.* xxxiv. 20. Crybwyllir ereill o'r un enw: 1 *Cron.* iv. 36; vi. 30; ix. 5.

ASAMOGLANIAID, neu AGEMOGLANIAID: plant a gymmerir oddi ar y Tartariaid, neu a godir mewn ffordd o dreth bob tair blynedd oddi ar y Cristionogion yn ymherodraeth Twrci. Enwaedir arnynt, a dysgir hwynt yn y grefydd Fahometaidd, a dygir hwynt i fyny yn filwyr. O honynt hwy y cyflenwid y fyddin a elwid Janisariaid. Gwel JANISARIAID.

1. ASAN: un o lwyth Issachar ydoedd: *Num.* xxxiv. 26.
2. ASAN: dinas yn Iudah: *Ios.* xv. 42: ond a roddwyd wedi hyny, efallai, i Simeon: *Ios.* xix. 7. Dywed Eusebius fod Beth-Asan, yn ei amser ef, un milltir ar bymtheg i'r gorllewin o Ierusalem.—(*Calmet.*)
3. ASAN: ffynnon, a elwid hefyd Clitorius; yr hon oedd yn mynydd-dir Asan; a dywedir fod y fath bereidd-dra yn nyfroedd y ffynnon hon, fel na ddewisai y rhai a ymarferasant â hwy yfed gwin mwyach.

ASANIAS: un o'r prif offeiriaid a neillduai Esdras i gadw y trysorau sanctaidd, hyd onis dygid hwynt i'r deml: 1 *Esdr.* viii. 54.

1. ASAPH, [אסף]: mab Barachïa, o lwyth Lefi; 1 *Cron.* vi. 39; xv. 17: yr hwn oedd yn wr tra enwog fel cerddor, ac a benodwyd gan Dafydd i flaenori yn ngwasanaeth corawl y cyssegr; a'i hiliogaeth neu ei olynwyr a grybwyllir mewn cyssylltiad â cherddoriaeth y deml dan yr enw Meibion Asaph: 1 *Cron.* xxv. 1, 2; 2 *Cron.* xx. 14; xxix. 13; *Ezra* ii. 41; iii. 10; *Neh.* vii. 44; xi. 22: a gellid casglu oddi wrth y crybwylliadau a wneir, bod y swydd yn dreftadol yn y teulu: 1 *Cron.* xxv. 1, 2. Bu Asaph yn enwog mewn amseroedd diweddarach, fel prophwyd a bardd: 2 *Cron.* xxix. 30; *Neh.* xii. 46; ac y mae ei enw yn nheitlau amryw o'r Salmau, sef lxxiii. hyd lxxxiii.; ond nis gellir bod yn sicr pa un a gyfansoddodd efe eiriau neu beroriaeth rhai o honynt; ond y mae yn amlwg am rai o honynt iddynt gael eu cyfansoddi yn ystod y caethiwed Babilonaidd, ac o ganlyniad eu bod yn cael eu cam briodoli iddo ef.
2. ASAPH: cofiadur brenin Hezecïah: 2 *Bren.* xviii. 18; *Esa.* xxxvi. 3.
3. ASAPH: ceidwaid y coedwigoedd breninol dan Artaxerxes: *Neh.* ii. 8.

ASARELAH, [אשראלה]: un o feibion Asaph: 1 *Cron.* xxv. 2: a gelwir ef Iesarelah yn *adn.* 14. Efe oedd blaenor y seithfed dosbarth o'r pedwar ar ugain, i ba rai y dosbarthasai Dafydd y cantorion at wasanaeth y cyssegr.

ASARIA, neu AZARIAH, [עזריה=*a gynnorthwyir gan yr Arglwydd*]: enw cyffredin yn mysg yr Hebreaid; ac felly, crybwyllir amryw o'r enw yma yn yr Ysgrythyrau.
1. ASARIA: yr archoffeiriad: 1 *Cron.* vi. 9; yr un, efallai ag Amarïah, yr hwn oedd yn gweini y swydd yn nheyrnasiad Iehosaphat, brenin Iudah (2 *Cron.* xix. 11), o ddeutu y flwyddyn c. c. 896.
2. ASARIA: fab Iohanan: archoffeiriad: 1 *Cron.* vi. 10; yr hwn, yn ol barn rhai, oedd yr un a Zecharïah, fab Iehoiada, yr hwn a laddwyd tua'r flwyddyn c. c. 840: 2 *Cron.* xxiv. 20—22.
3. ASARIA: yr archoffeiriad a wrthwynebodd y brenin Uzzïah yn ei waith yn cymmyg offrymu arogldarth i'r Arglwydd: 2 *Cron.* xxvi. 17.
4. ASARIA: yr ar archoffeiriad yn amser Hezecïah: 2 *Cron.* xxxi. 10.
5. ASARIA: fab Seraiah: yr archoffeiriad olaf cyn y caethgludiad i Babilon: 1 *Cron.* vi. 14.
6. ASARIA: mab yr archoffeiriad Sadoc; ond nid oes un sicrwydd a olynodd efe ei dad yn y swydd archoffeiriadol ai peidio: 1 *Bren.* iv. 2.
7. ASARIA: fab Nathan, tywysog gosgorddlu Solomon: 1 *Bren.* iv. 5.
8. ASARIA: a elwir hefyd Uzzïah: brenin Iudah. Gwel UZZIAH.
9. ASARIA: prophwyd a gyfarfu y brenin Asa, fel yr oedd efe yn dychwelyd wedi ennill buddugoliaeth fawr ar Zerah, yr Ethiopiad: 2 *Cron.* xv. 1. Gwel ASA.
10. ASARIA: pendefig ffyddlawn, i'r hwn yr ymddiriedodd Iehoiada y gyfrinach o gadwraeth y tywysog ieuanc Ioas, rhwng cyflafan Athaliah, ac a gynnorthwyodd i'w gyfleu ar orsedd ei dadau: 2 *Cron.* xxiii. 1; 2 *Bren.* xi. 1.
11. ASARIA: un o feibion y brenin Iehosaphat: 2 *Cron.* xxi. 2.
12. ASARIA: un o'r gwŷr beilchion a geryddodd y prophwyd Ieremi, am gynghori y bobl a adawsid yn y wlad wedi y caethgludiad i Babilon, i beidio myned i'r Aipht, ac a orfuant y prophwyd ei hunan, a Baruch fab Nerïah, i fyned yno gyda hwy, er rhoddi gwell wyneb ar eu hymfudiad yn ngolwg y bobl gyffredin: *Ier.* xliii. 2—7.
13. ASARIA: enw Caldeaidd Abednego; un o dri chyfaill Daniel, y rhai a fwriwyd i'r ffwrn dân: *Dan.* i. 7; a iii. 19.

ASARIAS: mab Helchïas ydoedd, ac un o hynafiaid Esdras: 2 *Esdr.* i. 1. Sonir am ereill o'r un enw yn yr Apocrypha: gwel *Tobit* v. 12; vi. 6, 13; vii. 8; ix. 2; 1 *Mac.* v. 8.

ASBAZARETH: enw arall ar Esarhaalon, brenin Assyria: 1 *Esdr.* v. 69.

ASBEL, [אשבל]: un o feibion Beniamin: *Gen.* xlvi. 21; 1 *Cron.* viii. 1. Yr un a Iediael yn 1 *Cron.* vii. 6, 10. Gelwid ei hiliogaeth ar ei enw yn Asbeliaid: *Num.* xxvi. 38.

ASCALON, neu ASCELON: un o ddinasoedd y Philistiaid, a phrifddinas un o'u pum tywysogaeth: *Barn.* xiv. 19; 1 *Sam.* vi. 17; 2 *Sam.* i. 20. Yr oedd yn gorwedd rhwng Asdod a Gaza, ar lan Môr y Canoldir, ddeuddeng milltir i'r gogledd

Digitized by Google

o Gaza, a deg i'r de-orllewin o Asdod, ac o ddeutu dwy ar bymtheg ar ugain i'r gorllewin-dde-orllewin o Ierusalem; ac felly, yn nghongl ogledd-orllewinol y diriogaeth a berthynai i lwyth Simeon. Dyma yr unig ddinas, o bum prifddinas y Philistiaid, oedd yn ddinas borthladdol; ac y mae yn sicr ei bod y gryfaf o'r dinasoedd oeddynt ar derfyn Philistia: canys tra yr oedd y môr yn ddiffynfa iddi ar un llaw, yr oedd yn cael ei hamgaeru ar y llaw arall gan fur naturiol o graig, yr hwn oedd fel bwa am dani, tra y gorweddai y ddinas yn y gwastadedd rhwng y creigiau a'r môr. Y mae olion hen amddiffynfeydd y ddinas i'w canfod hyd y dydd hwn ar y greigres grybwylledig. Goresgynodd Iudah Ascelon a'i therfynau, pan aeth efe gyda Simeon ei frawd i feddiannu eu rhandiroedd o'r wlad (*Barn.* i. 18): ond nid yw yn ymddangos iddi fod dros nemawr o ysbaid, ar unrhyw bryd, yn meddiant gwŷr Israel. Fe'n hysbysir ddarfod i Samson, yn un o'i gadgyrchoedd, fyned i waered i Ascelon, ac wedi lladd deg ar ugain o'i gwŷr, eu hysbeilio o'u dillad, fel y caffai fodd i wobrwyo y rhai—trwy frad ei wraig, un o ferched y Philistiaid—a fynegasant ei ddychymyg: *Barn.* xiv. 19.

Yr oedd amgylchoedd Ascelon yn enwog am ei llysiau peraroglaidd, ei wynwyn, ei chypreswydd, a'i gwinllanoedd. Addolid Gwener, dan yr enwau Urania, neu Cœlestis, yn fore yn Ascelon; ac eilun arall, a elwid Derceto, gan Diodorus Siculus, yr hwn a ddarlunir yn gyffelyb i'r darluniadau diweddar o'r fôr-forwyn—y naill hanner yn ferch, a'r hanner arall yn bysgodyn; a chyfrifid pysg llyn cyfagos i'r ddinas yn gyssegredig i'r eilun hwn.

Bu Ascelon unwaith yn meddu ei breninoedd ei hunan; ac wedi hyny, bu yn olynol dan arglwyddiaeth yr Assyriaid, y Persiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid. Ar ol marwolaeth Alexander, cyfranogodd o helynt Phœnicia a Iudea, gan fod yn deyrngedol weithiau i'r Aipht, a phrydiau ereill i Syria: 1 *Mac.* x. 86; xi. 60; a xii. 33. Fe'i crybwyllir gan Dafydd, yn ei alareb am Saul a Ionathan, yn y fath fodd ag a ddengys ei bod yn lle enwog y pryd hyny: 2 *Sam.* i. 20; "Nac adroddwch hyn yn Gath; na fynegwch yn heolydd Ascelon; rhag llawenychu merched y Philistiaid, rhag gorfoleddu o ferched y rhai dienwaededig." Cyhoeddai hen brophwydi yr Arglwydd amryw fygythion yn erbyn Ascelon, y rhai a gwblhawyd arni yn llythyrenol: *Ier.* xlvii. 5, 7; *Zeph.* ii. 4; *Zech.* ix. 5.

Yn y ddinas hon y ganwyd Herod Fawr; ac ar y cyfrif hwnw, efe a elwir gan rai haneswyr, Herod yr Asceloniaid. Ac er nad oedd y ddinas yn perthyn i'w arglwyddiaeth ef, efe a'i haddurnodd â ffynnonau, baddonau, a cholofnresau ysblenydd; ac wedi ei farwolaeth ef, ei chwaer, Salome, a drigodd ynddi mewn llys godidog a roddasai Augustus Cæsar iddi. Goddefodd Ascelon lawer yn ystod y rhyfel a fu rhwng yr Iuddewon a'r Rhufeiniaid; ac yr oedd ei thrigolion yn nodedig am eu dygasedd at yr Iuddewon, o'r rhai y lladdasant ddwy fil a phum cant, y rhai a breswylient yn eu plith. Ar ol i'r terfysgoedd a'r rhyfeloedd anrheithiol hyn fyned heibio, dechreuodd Ascelon ymadnewyddu drachefn; ac erbyn y canoloesoedd, yr oedd nid yn unig yn lle cadarn, ond yn lle tra chyfoethog hefyd; ac felly fe'i cawn yn cymmeryd i fyny le tra nodedig yn hanes y croesgadau. Wedi distrywio ei hamddiffynfeydd a'u hail adeiladu drachefn a thrachefn, laweroedd o weithiau, yn amser Saladin a Richard, llwyr ddistrywiwyd ei hamddiffynfeydd o'r diwedd gan y Sultan Bibars, yn y flwyddyn 1270, a llanwyd y porthladd â cheryg, fel nas gallai y croesgadwyr lanio yno mwyach; ac y mae yn ddiau ddarfod i hyn selio dinystr y lle, canys y mae Sandys, yr hwn a ysgrifenai hanes ei deithiau yn y flwyddyn 1610, yn darlunio y lle fel pentref distadl, yn yr hwn yr oedd gwarchodlu bychan o filwyr Tyrcaidd. Hanner can mlynedd yn ddiweddarach, dywed teithydd arall, o'r enw Von Troilo, fod yno ychydig drigolion; ond y mae wedi dyfod yn llwyr anghyfanneddol er ys talm bellach; ac nid oes nemawr weddillion o honi yn aros erbyn hyn, ond y muriau cryfion a fuont gynt yn ei hamddiffyn, a darnau o golofnau ithfaen a fuant unwaith yn ei haddurno.—(*Plin.*, xix. 32; *Strabo*, xvi. td. 759; *Dioscor.*, i. 124; *Josephus Rhyf. Iudd.*, i. 21, 11; ii. 18, 5; a iii. 2, 1—3; *Gardner; Kitto; Lawson*, d.g.)

**ASCETICIAID**, [ασκηται, o ασκεω—*ymarfer yn ddyfal*]: gair a gymhwysir at ymladdwyr ac ymdrechwyr ereill yn mhlith y Groegiaid, y rhai a barotöent eu hunain trwy ymattaliad gogyfer â'u hymdrechion. Y mae y geiriau ασκησις, ac ασκηται, yn ysgrifeniadau y Groegiaid, yn meddu cyfeiriad at hyn yn dra mynych [*Xen. Mem.*, i. 2, 24; *Plut.* v. 84]. Yn ganlynol, daeth y gair i gael ei ddefnyddio am y rhai a ymattalient oddi wrth fwynderau anianol, ac a arweinient fywyd manwl a gofalus, er mwyn hunanddysgyblaeth a chynnydd mewn ymarferion rhinweddol. Yr oedd dilyn buchedd bur a llymdost yn cael ei alw gan y Stoiciaid, a'r Pythagoriaid yn ασκησις, yr hyn oedd yn gynnwysedig mewn diweirdeb, tlodi, gwyliadwriaethau, ympryd̂iau, a neillduaeth. Ymddengys fod yr Asceticiaid o darddiad dwyreiniol. Y Brachmaniaid, Sarmaniaid, Samaneaid, Hylobiaid, y Gymnosophistiaid, yn Asia, a sectau ereill yn nwyrain Affrica, oeddynt oll yn Asceticiaid, fel y Sangasseaid presennol, ac ereill yn nwyrain Asia, a arferent eu holl fedrusrwydd i ddyfeisio dulliau newyddion o hunanboenedigaeth Yn mhlith yr Iuddewon, yr oedd y Nazareaid, a'r Esseniaid, yn Asceticiaid; ac er nad yw bywyd Asceticaidd neu feudwyol yn gwbl gydweddol âg ystyr ac ysbryd Cristionogaeth, fel y dangosir yn mlaen, eto, ymddengys fod rhyw nodweddau yn perthyn i genedl Israel, ac yn enwedig i oruchwyliaeth yr Hen Destament, y rhai a barent fod yr adduned Nazareaidd yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn cael ei hystyried yn anrhydeddus gan yr Israeliaid eu hunain. Gwel Nazareaid]. Yr oedd daliadau yr Esseniaid [gwel Esseniaid] â chanddynt ddylanwad cryf i wneyd y bywyd Ascetaidd yn anrhydeddus ac angenrheidiol yn eu golwg. Rhoddent arbenigrwydd i duedd fyfyrgar mewn crefydd, mewn gwrthgyferbyniad ar y naill law i ymarferiadau allanol a difywyd y Phariseaid, ac i ammheugarwch ac ysbryd hunanol a bydol y Saduceaid ar y llaw arall. "Ceisiasant roddi bodolaeth i ryw ddylanwad a roddai attalfa ar gynnydd llygredigaeth, ac a gyfranai rinwedd iachusol i wythienau cymdeithas." I'r perwyl hwn, sylfaenasant frawdoliaeth, lluniasant sefydliadau, a daethant yr esamplau cyntaf o'r urddau lluosog a adnabyddir wrth yr enwau meudwyaid, mynachod, lleianod, a'r cyffelyb. Cyfodasant, medd Neander, yn gwbl yn yr un dull ag y cyfododd y gyfundraith fynachaidd mewn cyfnod diweddarach. Dysgrifir hwynt fel y canlyn gan Pliny yr hynaf, yr hwn nas gallasai lai na theimlo gradd o barch iddynt, o herwydd yr annibyniaeth a'r boddlon-

rwydd a arddangosent yn eu plith eu hunain:—"Ar y cwr gorllewinol o'r llyn hwnw (y Môr Marw) y preswyliai yr Esseniaid, yn ddigon pell oddi wrth y traeth i ochelyd ei sawyr heintus. Y maent yn bobl arnynt eu hunain yn gwbl, ac yn wrthddrychau rhyfeddod tu hwnt i un bobl ar y ddaiar:—dynion yn byw mewn cymmundeb â natur, heb wragedd, ac heb arian. Adchwanegir eu nifer bob dydd gan ddyfodiaid newyddion. Fel hyn, dygwydda yr hyn a ymddengys braidd yn anghredadwy, fod brawdoliaeth yn parhau ac yn goroesi treigliad canrifoedd, er nad oes un yn cael ei eni ynddi. Y mae diflasdod ar fywyd mewn ereill mor ffrwythlawn iddynt hwy." [*Nat. Hist.*, llyfr v. pen. 15.] Ymgadwent rhag mwynderau cyffredin bywyd; fel pe buasent ddrygau moesol; a myntumient fod hunanlywodraethiad, a rhyddid oddi wrth gaethiwed y nwydau anianol, yn radd uchel mewn rhinwedd a duwioldeb. Dirmygent briodas; diystyrent gyfoeth. Pa bethau bynag fyddai ganddynt, yr oeddynt yn barod i'w cyfranu rhwng ereill. Parai hyn iddynt fod yn rhydd a diogel oddi wrth y ddau eithaf y gweddïai Agur rhag cael ei ollwng iddynt—cyfoeth, a thlodi. Ni byddai ganddynt byth ormodedd, na phrinder chwaith.

Y mae y geiriau *ασκησις*, ac *ασκηται*, yn dra adnabyddus mewn hanes eglwysig. Dynoda y diweddaf y rhai a arferent fwy o ymattaliad ac ympryd na Christionogion cyffredin, fel y rhai y crybwyllir am danynt gan Origen, a ymgadwent oddi wrth gig, i'r dyben o farwhau a darostwng eu nwydau. Geilw y canonau apostolaidd yr ymattaliad hwn, *ασκησις;* a'r rhai a ymgadwent oddi wrth gig er mwyn marweiddiad, ac nid oddi ar dybiaeth o'i aflendid, fel y gwna rhai hereticiaid, a elwid Asceticiaid. Rhenid yr Asceticiaid i ddau ddosbarth—yr Abstinentiaid, sef y rhai a ymgadwent oddi wrth win, cig, a bwydydd blasus, a'r Continentiaid, sef y rhai a ymgadwent yn ddibriod hefyd, ac a ystyrid fel wedi cyrhaedd gradd uwch o sancteiddrwydd. Cyfododd yr egwyddor Ascetaidd oddi ar syniad a goleddid gan rai dysgawdwyr Cristionogol yn yr ail ganrif—fod Crist wedi sefydlu rheol ddeublyg o rinwedd a sancteiddrwydd, i gael eu hymarfer gan urddau gwahanol o Gristionogion. Yr oedd y naill o'r rheolau hyn yn gyffredin, a'r llall yn anghyffredin: y naill o urddas israddol, y llall yn fwy dyrchafedig; y naill yn gyfaddasedig i bersonau mewn bywyd cyhoeddus a gweithgar, y llall i'r rhai a ymgymmerent â bywyd o neillduaeth, ac a ymestynent am ogoniant y nef ac ystâd o berffeithrwydd. Rhanent yr athrawiaethau a'r cyfarwyddiadau moesol a dderbyniasant trwy draddodiad neu ysgrifen yn ddau ddosbarth. Galwent un o'r dosbeirth hyn "gorchymynion," a'r llall, "cynghorion." Y cyntaf oedd y deddfau hyny ydynt yn rhwymedig yn ddiwahaniaeth ar bob gradd a sefyllfa o ddynion; a'r diweddaf, oeddynt y rhwymedigaethau adchwanegol a dybient y mae Cristionogion o radd uchel—sef Cristionogion a obeithient am ryw freintiau rhagorach na Christionogion cyffredin—wedi eu dwyn danynt. Darfu i'r athrawiaeth ddeublyg hon roddi bod ar unwaith i'r Asceticiaid. Proffesent radd anghyffredin o rinwedd a sancteiddrwydd, a chyhoeddent eu penderfyniad o roddi ufudd-dod i'r "cynghorion," fel y gallent fwynhau cymmundeb agos â Duw yn y byd hwn; ac y gallent, ar ol eu hymddattodiad, esgyn ato gyda mwy o rwyddineb, a chael y ffordd yn rhydd i'w dynesâd at ganolbwynt eu dedwyddwch a'u perffeithrwydd. Ymgadwent oddi wrth gig, gwin, priodas, a marchnadyddiaeth. Cospent eu cyrff trwy wyliadwriaethau, ymattaliaeth, llafur, a newyn. Chwilient am ddedwyddwch mewn unigedd, a neillduaeth mewn anial-leoedd, lle, trwy fyfyriaeth fanwl a chaled, y dyrchafent yr enaid uwch law pob gwrthddrych daiarol, a phob mwyniant anianol. Gosodai gwŷr a gwragedd arnynt eu hunain y rhwymau tynaf, a'r ddysgyblaeth erwinaf, yr hyn a gyfodai, y mae yn ddiammheu, oddi ar ddybenion da a chrefyddol, ond a drodd allan yn y diwedd yn dra niweidiol i wir Gristionogaeth.

Yr oedd y dynion hyny a gyssegrent eu hoes i fyfyriaeth, hyd yn oed yn mysg y paganiaid, o ddeutu yr amser hwn, yn cael eu galw yn Asceticiaid. Yr oedd y geiriau "athronydd," ac "Ascetic," yn gyfystyr; a defnyddid y gair "athroniaeth," i ddynodi yn benaf, duedd ac ardduliad bywyd. Dygwyddai weithiau fod Asceticiaid paganaidd yn cael eu harwain gan eu hymlyniad wrth berffeithrwydd moesol i goffeidio Cristionogaeth; ac wedi dyfod yn Gristionogion, ymlynent yn barhaus wrth yr un dull o fyw ag o'r blaen. Cymmerai ereill, yn y rhai y cynyrchasai Cristionogaeth yn gyntaf duedd mwy difrifol, yr arferion hyn fel prolion gweladwy o'r cyfnewidiad a wnaethpwyd ynddynt. Byddai y sylw a dynent trwy wisgo y *τριβον* (mantell yr athronydd), a'r parch a delid iddynt gan y lluaws ar gyfrif eu dull o fyw, yn cael eu troi ganddynt yn fanteision ac achlysuron i ddwyn athroniaeth a chrefydd i sylw y rhai a ymgasglent atynt. Cyhoeddent iddynt Gristionogaeth, fel "yr athroniaeth newydd a nefol a ddaethai o'r dwyrain." Dywed Justin Ferthyr, ei fod, pan ryw fore yn cerdded yr heolydd cyhoeddus, wedi cael ei amgylchynu gan lawer o bobl, y rhai a'i cyfarchent, "Bore da, athronydd!" tra y sylwai un o honynt ei fod wedi ei addysgu gan ei athraw i beidio edrych yn ddirmygus ar fantell y philosophydd, ond i groesawu y rhai a'i gwisgent, ac i geisio myned i ymddyddan â hwynt.

Y mae yn dra sicr fod gan y parch mawr a deimlai y Cristionogion boreuaf tuag at y Platoniaid a'r Pythagoriaid ran fawr yn nghyfodiad y blaid hon. Yr oedd gan yr athronwyr hyn ddwy reol yn cael eu gorchymyn:—y naill i'r doeth, yr hwn o ymestynai am y radd uchaf mewn rhinwedd; a'r llall i'r bobl gyffredin, y rhai a dreulient eu hoes yn nghanol gofalon a thrafferthion bywyd. Y rheol a argymhellid ar y werin oedd *Ζην κατα φυσιν*—"byw yn ol natur;" a'r rheol a gymmerid gyn yr athronwyr oedd, *Ζηνυπερ φυσιν*—"byw uwch law natur:" ac y mae y rheol ddeublyg a nodwyd eisoes, yr hon a gefnogid gan rai dysgawdwyr Cristionogol, yn dangos fod gan Blatoniaeth ddylanwad nid bychan yn ffurfiad a chyfodiad Asceticiaeth.

Gellir rhoddi cyfrif naturiol hefyd am y duedd hon, oddi wrth nodweddau y bobl a'i coleddasant gyntaf. Y mae yn ddiammheu mai yn yr Aipht y cyfododd; a sylwir fod y wlad hono yn mhob oes, fel pe trwy rym deddf annewidiol, wedi cynyrchu personau o duedd bruddglwyfus, ac ysbrydoedd isel, tu hwnt i un wlad arall ar y ddaiar [*Maillet's Description de l' Egypte, tom.* 2, td. 57]. Yma y trigai yr Esseniaid a'r Therapeutiaid, yn benaf, yn mhell cyn dyfodiad Crist. O'r Aipht, aeth y duedd Asceticaidd i Syria, a'r gwledydd cymmydogaethol, preswylwyr y rhai oeddynt o gyfansoddiad pruddglwyfus yn gystal a'r Aiphtiaid [*Chardin's Voyages en Perse, tom.* 4. td. 197.]

Digitized by Google

tua hanner y ffordd rhwng Gaza a Ioppa, sef tua 18 milltir i'r gogledd-ddwyrain oddi wrth y lle blaenaf, ac 21 i'r deheu o'r lle olaf; ac yn y canol rhwng Ascalon ac Ecron, sef 10 milltir i'r gogledd ddwyrain o'r flaenaf, a'r un faint i'r de-orllewin o'r olaf. Yr oedd Asdod yn brifddinas un o bum arglwyddiaeth y Philistiaid: *Ios.* xiii. 3; 1 *Sam.* vi. 17: ac yr oedd yn orsaf arbenig i'r eilun ddnw Dagon: 1 *Sam.* v. 5; 1 *Mac.* xi. 4. Yn nheml yr eilun hwn, yn Asdod, y dodai y Philistiaid arch Duw Israel wedi ei dwyn, ac o'i blaen y syrthiodd y ddelw trwy gyfryngaeth ddwyfol: 1 *Sam.* v. 1—9. Nid yw yn ymddangos i Asdod fod yn hir yn meddiant gwŷr Iudah ar unrhyw adeg, er i Uzzïah ei dadgaeru, ac adeiladu dinasoedd o fewn ei thiriogaethau: 2 *Cron.* xxvi. 6. Crybwyllir, er gwarth yr Iuddewon, wedi eu dychweliad o Babilon, ddarfod i rai o honynt gymmeryd gwragedd o'r Asdodesau, ac mai y canlyniad oedd fod eu plant, o'r cyfryw briodasau, yn llefaru rhyw gymmysgiaith gyfansoddedig o'r Hebraeg a'r Asdodaeg: *Neh.* xiii. 23, 24. Y mae y ffeithiau hyn yn profi fod Asdod yn lle tra phwysig yn yr hen amseroedd. Y mae yn sicr ei bod yn lle cadarn iawn; a chan ei bod ar y ffordd filwraidd arferol rhwng Syria a'r Aipht, yr oedd y meddiant o honi yn cael ei ystyried o fawr bwys yn ystod y rhyfeloedd rhwng yr Aipht a'r galluoedd gogleddol mawrion; ac am hyny yr ymroddai yr Assyriaid i'w meddiannu cyn goresgyn yr Aipht: *Esa.* xx. 1. Ac ar adeg ddiweddarach, fe'i cymmerwyd gan Psammetichus, brenin yr Aipht, wedi gwarchae arni dros naw mlynedd ar ugain; y gwarchae hynaf y crybwylla hanesiaeth am dano.

Rhagfynegwyd dinystr Asdod gan y prophwydi: *Ier.* xxv. 20; *Amos* i. 8: iii. 9; *Seph.* ii. 4; *Zech.* ix. 6: a chwblhawyd hyny yn llythyrenol gan y Maccabeaid: 1 *Mac.* v. 68; x. 77—84; xi. 4. Fe'i crybwyllir gan Josephus yn mysg y trefydd a unwyd â thalaeth Syria, gan Pompey; ac yn mysg y dinasoedd anrheithiedig gan y rhyfeloedd, y rhai a ailadeiladwyd trwy orchymyn Gabinius [*Hen. Iudd.*, xiv. 4, 4., a v. 3; *Rhyf. Iudd.*, i. 7. 7]. Fe'i cynnwysid o fewn tiriogaethau Herod, ac yr oedd yn un o'r tair tref a gymmun-roddid ganddo ef i'w chwaer Salome [*Rhyf. Iudd.*]. Yn Asdod, neu Azotus, y caed yr efengylwr Philip, wedi iddo fedyddio yr eunuch o Ethiopia: *Act.* viii. 40. Y mae yn ymddangos i Eglwys Gristionogol gref gael ei ffurfio yma yn lled fore; canys yr ydym yn meddu sicrwydd fod esgob o'r ddinas hon yn bresennol yn Nghynghorfeydd Nicea a Chalcedon, tua chanol y bedwaredd ganrif, ac yn Seleucia a Ierusalem yn gynnar yn y chweched ganrif.

Tystia Jerome ei bod yn dref o gryn faintioli yn ei ddyddiau ef; ond yr oedd mewn cyflwr anrheithiedig pan ymwelodd Beniamin o Tudela â Phalestina. Sandys, yn ei deithlyfr, a'i darlunia fel lle disylw; a Zuallart a'i crybwylla fel pentref Arabaidd: a lled gyffelyb yw ei chyflwr hyd heddyw. Y mae lluaws o olion hynafiaethol i'w canfod lle y gorweddai; megys darnau o hen bontydd, ac o golofnau marmor, bron yn guddiedig yn y malurion. Gelwir y lle gan y Tyrciaid yn bresennol Esdud, ond gan ei phreswylwyr Arabaidd, Mezdel; a chynnwysa o gant i gant a hanner o fythynod gwaelion, wedi eu hadeiladu o geryg, a'u gorchuddio â changenau a gwraidd coed, ar y rhai y mae trwch o ddaiar wedi ei ddodi, fel y mae ei holl nenau yn ymddangos yn orchuddiedig gan lysieuaeth, ac yn amgylchynedig gan goed.—(*Reland's Palestine*, td. 609; *Kitto*; *Dr. Gardner.*)

ASDODIAEG: iaith Asdod, un o ddinasoedd y Philistiaid. Sonia Nehemïah (*pen.* xiii. 23, 24), am yr Iuddewon a ddychwelasant o gaethiwed, eu bod wedi ymuno mewn priodas â'r Asdodesau; a bod eppil y priodasau anachaidd hyn yn llefaru iaith gymmysgedig, "y naill hanner o'r Asdodiaeg," a'r hanner arall o iaith yr Iuddewon. Sylwa M. Henry oddi ar y ffaith hon—yn 1af. Fod plant yn eu maboed yn dysgu llawer oddi wrth eu mamau, ac yn dra thueddol i'w hefelychu. 2. Os bydd un o'r rhieni yn ddrygionus, y tueddir y plant, gan lygredigaeth eu calon, i ddilyn hwnw; yr hyn sydd reswm cryf pa ham na ddylai Cristionogion "ieuo yn anghymharus." 3. Y dylid gofalu, yn addysgiaeth plant, am lywodraethiad eu tafodau, na ddysgont yr "Asdodiaeg"—iaith y genedl ddienwaededig—sef ymddyddanion anmhur ac annuwiol.

ASDOTH-PISGAH: dinas yn llwyth Reuben, a elwid Asdoth-Pisgah (*Ios.* xii. 3; xiii. 20), am ei bod yn gorwedd yn y dyffrynoedd, wrth droed mynydd Pisgah, neu yn agos i ffynnonau Pisgah. Gellir cymmeryd *Asdoth*, fel *Shedath*, yn arwyddo ffynnonau, neu ffrydiau; y rhai, gan ddisgyn o leoedd uchel, a ffurfient raiadrau bychain yn eu disgyniad, gan wasgaru eu dyfroedd o amgylch.

ASEBEBIA: mab Moli, mab Lefi, mab Israel; un o'r offeiriaid dan Esdras yn amser Artaxerxes: 1 *Esdr.* viii. 47.

ASEBIA: un o feibion Channuneus; un arall o'r offeiriaid yn amser Artaxerxes: 1 *Esdr.* viii. 48.

ASEN—AU, [*as*]: arwydda y gwreiddair hwn, *as*, wahaniad (*separation*), yr hwn ddrychfeddwl a welir yn amlwg yn y geiriau asant (tarian), asdell, asdyllodi, asedd. 1. Enw yw ar asgwrn yr ystlys, sydd yn ddiogelwch i ranau mewnol dyn. Rhydd Dr. Pughe y lluosrif o *asen* yn *asau* yn gystal ag *asenau*. Lluniwyd Efa o asen Adda, yr hon a gymmerodd yr Arglwydd o'i ystlys; yr hyn a wnaed, y mae yn ddiammheu i fod yn arddangosiad o'r agosrwydd a'r serchogrwydd sydd i fod rhwng y gŵr a'r wraig (*Gen.* ii. 21.)—Gwela Efa. 2. Arferir y gair am y fenyw o'r asynod. Y lluosrif ydyw *asenod*, ac y mae yn debygol nad yw o'r un gwreiddair a'r gair arall.

ASENATH, neu ASNATH: merch Potiphar, offeiriad On, gwraig Joseph (*Gen.* xli. 45), a mam Ephraim a Manasseh. Gallai gwaith Ioseph yn priodi merch i offeiriad eilunaddolgar ymddangos i lawer yn anmhriodol: ac y mae Sharon Turner, yn ei *Sacred History of the World*, yn gwneyd y sylw canlynol er ceisio ei gyfiawnhau:—"Deallwn oddi wrth Juba, y tywysog a'r hanesydd Affricanaidd fod yr Arabiaid wedi poblogi rhan o'r Aipht yn y cynoesoedd, o Meroe i Syene, ac adeiladu On, neu Heliopolis (dinas yr haul). Cadwyd y ffaith nodedig, ond rhy ddisylw hon gan Pliny, yr hwn a ddywed, 'Hysbysai Juba, mai yr Arabiaid a seiliasant Ddinas yr Haul; yr hon nid oedd yn mhell oddi wrth Memphis, yn yr Aipht; ac mai Arabiaid, yn hytrach nag Ethiopiaid, yw preswylwyr y Nil, o Syene hyd Meroe.' Gallwn feddwl fod y ffaith bwysig yma o Juba, yn taflu goleu ar hanes Ioseph, ac yn cynnwys rheswm am ei waith yn dewis priodi merch i offeiriad o On; canys yn gymmaint a'i bod yn dretedigaeth Arabaidd, nid oedd wedi ymsuddo can ddyfned

Digitized by Google

mewn ofergoeledd, dybygid, â'r Aiphtiaid: ond gellid meddwl y buasai cymmaint o argraff y grefydd Abrahamaidd, neu batriarchaidd, yn aros yn eu mysg y pryd hyny, i wneyd benyw grefyddol o'u plith yn fwy cymmhwys i fod yn wraig i Ioseph, nag un a allesid gael o un ran arall o wlad yr Aipht."

1. ASER, [אשר]: un o feibion Iacob, o Zilpah, llawforwyn Leah: *Gen.* xxx. 12, 13; xxxv. 26. Bu iddo bedwar o feibion, ac un ferch: *Gen.* xlvi. 17; *Deut.* xxxiii. 24; a daeth yn ben un o ddeuddeg llwyth Israel.

2. ASER: dinas a orweddai rhwng Scythopolis a Sichem, ac o ganlyniad, yn mhell o diriogaethau llwyth Aser: *Ios.* xvii. 7. Y mae Eusebius yn son am hen dref fawr arall o'r enw yma, yr hon a orweddai rhwng Ascalon ac Asdod.

ASER, LLWYTH. Ar fynediad plant Israel o'r Aipht, yr oedd nifer y gwrywiaid o hiliogaeth Aser, uwchlaw ugain mlwydd oed, yn 41,500; yr hyn a'i gwnelai y nawfed mewn rhif o'r deuddeg llwyth, gan gau Lefi allan:—Ephraim, Mannaseh, a Beniamin yn unig oeddynt yn llai eu rhif nag Aser y pryd hyny. Ond erbyn eu mynediad i Ganaan, yr oedd cynnydd o 11,900 wedi cymmeryd lle yn y llwyth hwn—cynnydd mwy nag a fuasai ar un llwyth arall heb law Mannasseh yn ystod eu crwydriad yn yr anialwch. Eu nifer ar eu mynediad i Ganaan oedd 53,400; ac felly yr oedd y pummed o'r llwythi o ran nifer ei oedolion (cymharer *Num.* i. 40, 41; xxvi. 47.) Yr oedd etifeddiaeth y llwyth hwn yn gorwedd mewn gwlad ffrwythlawn, â Libanus ar ei thu gogleddol; Carmel a thiriogaethau Issachar i'r deheu; a Zabulon a Naphtali i'r dwyrain; ac felly y cyflawnwyd prophwydoliaeth ei dad yndclo, "O Aser bras fydd ei fwyd ef, ac efe a rydd ddanteithion breninol;" *Gen.* xlix. 20. Dywedir yn gyffredin fod yr holl diriogaethau Phœnicaidd, gan gynnwys Sidon, wedi eu trefnu i ran y llwyth hwn. Ond y mae amryw ystyriaethau a filwriant yn erbyn y golygiad hwnw, ac a dueddant yn hytrach i brofi fod llinell y terfyn yn rhedeg i'r môr o'r tu deheuol o Sidon: *Ios.* xix. 24; *Barn.* i. 31. Y testyn cryfaf dros y golygiad fod Sidon yn gynnwysedig yn rhandir Aser, yw yr hwn y dywedir ynddo, mewn ffordd o feio Aser, am na yrasai y Sidoniaid ymaith: *Barn.* i. 31. Y mae Kitto, yn ei sylwadau ar y geiriau yn y *Beibl Darluniadol*, yn dal allan fod y Sidoniaid erbyn hyny wedi ymwthio tua'r deheu, gan drawsfeddiannu rhan o'r diriogaeth a roddasid i lwyth Aser; a bod yr Aseriaid yn analluog i'w gyru o'r wlad hono a drawsfeddiannasent: a chadarnha ei olygiad trwy gyfeirio at eu gwaith, yn mhen ysbaid ar ol hyn, yn adeiladu Tyrus, fel prawf o awydd y Sidoniaid i sicrhau meddiant o'r arfordir tua'r deheu i'w tiriogaethau priodol eu hunain. Bu yr Aseriaid dros ysbaid maith yn analluog i feddiannu y tiriogaethau a drefnasid iddynt; a thrigasant yn mysg y Canaaneaid, trigolion y wlad: *Barn.* i. 32; ac fel nad yw yn arferedig i ddywedyd am y nifer mwyaf eu bod yn trigo yn mysg y nifer lleiaf, y casgliad yw, na yrasant ond ychydig o'r Canaaneaid mewn cymhariaeth, gan eu gadael mewn gwirionedd i wneyd i fyny gorff mwyaf y boblogaeth.

ASGAD, [עזגד *llu cadarn*]: pen cenedl arall a ddychwelodd gyda Zorobabel yn amser Cyrus: *Ezra* ii. 12; viii. 12; 1 *Esd.* v. 13.

ASIA: un o brif randiroedd y ddaiar: o'r lle, fel cryd gwareiddiad, y lledaenid y celfion a'r gwyddorion i bob rhan arall o'r byd; ac i'r efrydydd Cristionogol, y mae y cyfandir hwn y mwyaf dyddorol o holl randiroedd y ddaiar; canys yma y planasai yr Arglwydd Dduw ardd Eden, y llanerch lle y cyflewyd y dyn cyntaf i fwynhau dedwyddwch yn ei gyflwr creëdig, a'r man yr ymosodwyd arno gan ddiafol, ac ei temtiwyd i bechu yn erbyn ei Greawdwr. Yma y cafodd hiliogaeth Noah gartref wedi y dylif, ac oddi yma yr ymwasgarasant i gyfanneddu rhanau ereill o'r ddaiar. Yn y rhan yma o'r byd y dechreuodd yr Arglwydd ddadguddio i ddyn y drefn ddoeth a thrugarog hono o iachawdwriaeth, yn yr hon yr adchwelid gogoniant arbenig i Dduw, ac y gwaredid i fywyd tragwyddol dorfeydd o ddynolryw. Yma y cyfleodd yr Hollalluog ei bobl etholedig, yr Iuddewon, yn mysg y rhai y diosgodd efe ei fraich, ac er gwaredigaeth y rhai yr amlygasai efe ei gadarn allu mewn modd neillduol. Dyma y cenmaes lle y bu prophwydi a gweledyddion dan ddylanwad ysbrydoliaeth dwyfol yn cyhoeddi eu rhagfynegiadau; ac yma y daeth Mab Duw i'w hesbonio, ac i gyflawnu y rhai penaf o honynt. Yma y cyflawnwyd gwaith mawr y prynedigaeth gan y Messiah, ac oddi yma yr ymdaenodd goleuni yr efengyl ogoneddus dros fyd tywyll. Yn Asia y lledaenwyd y ffydd Gristionogol trwy gynnorthwy gwyrthiau, ac ei maethwyd â gwaed merthyron; ac yno y planwyd y prif eglwysi Cristionogol dan gyfarwyddyd apostolion ysbrydoledig.

Y mae yn anhawdd penderfynu tarddiad yr enw, na'i wir ystyr. Ymdrecha Bochart ei ddadogi ar air Hebreig, neu Pheniciaidd, yn arwyddo *y canol;* ond yr oedd yr hen Hebreaid yn llwyr ddyeithr i'r dosbarthiad diweddar ar y ddaiar yn brif ranau, ac ni chyfarfyddwn â'r enw *Asia* mewn unrhyw lyfr Hebreig. Ymddengys eu bod hwy yn penderfynu fod yr holl gryntyd yn gynnwysedig o Asia ac Affrica yn unig; a'r gweddill o'r byd, hyd yn oed Asia Leiaf, a gynnwysid yn achlysurol gan yr hen ysgrifenwyr sanctaidd, dan yr enw cyffredinol, "Ynysoedd y Cenedloedd;" *Gen.* x. 5. Cyfarfyddir â'r enw *Asia* yn llyfrau y Maccabeaid, ac yn y Testament Newydd. Yno y mae yr enw yn cael ei gymmhwyso yn yr ystyr helaethaf at y penrhyn hwnw o Asia, yr hwn, er y bummed ganrif, a adwaenir wrth yr enw Asia Leiaf; ac mewn ystyr gyfyngach, at ran o hono, a adwaenid megys Asia Briodol. Felly, yr ydys yn cyttuno yn gyffredinol yn awr, fod *Asia* yn dynodi yr oll o *Asia Leiaf* yn *Act.* xix. 26, 27; xx. 4, 16, 18; xxvii. 2, &c., ond mai *Asia Briodol* yn unig, neu *Asia Rufeinaidd*, a ddynodir yn *Act.* ii. 9; vi. 9; xix. 10, 22; 2 *Tim.* i. 15; 1 *Pedr* i. 1; *Dad.* i. 4, 11. Y mae yr enw *Asia* yn cael ei gymhwyso gan Homer, Herodotus, ac Euripides, at randir neu daiaeth Lydia yr hon a ddyfrhëid gan y Caystrus—afon droellawg; a ymarllwysai i Fôr Groeg, yn agos i Ephesus: ac y mae rhai daiaryddwyr diweddarach yn nodi llwyth o drigolion yn y rhandir yma, dan yr enw Asioniaid, a dinas a elwid Asia. Y mae yr afon grybwylledig uchod, ar ei hynt, yn llifeirio trwy forfa a elwid y Morfa Asiaidd. Gan hyny, nid yw yn annhebyg fod yr enw *Asia* o darddiad Groegaidd; a bod y Groegiaid, fel yr ymeangai eu hadnabyddiaeth o'r wlad, wedi estyn yr enw yn raddol o'r rhandir neillduol i'r hon y cymhwysid ef ar y cyntaf, hyd oni chynnwysai yr oll o Asia Leiaf, ac o'r diwedd, wledydd eang ereill yn dwyrain.

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

# EGLURHAD AR Y MAP O ASIA.

YSTYR Y TALFYRIADAU A ARFERIR YN Y MAPIAU.

| | |
|---|---|
| *u* Bay ... | Machwy. |
| , Banks ... | Bryn, Bryniau. |
| *u* Cape ... | Penrhyn. |
| e ... ... | Castell. |
| ... ... | Arfordir. |
| *neu* Channel ... | Sianel. |
| , Eastern ... | Dwyrain, Dwyreiniol. |
| ish Miles ... | Milldiroedd Saesnig. |
| tor ... ... | Cyhydedd. |
| , *neu* Frith ... | Morgaingc. |
| *neu* Fort ... | Caerfa, Amddiffynfa. |
| , *neu* Gulf of ... | Llyngclyn. |
| Havn., *neu* Haven | Porthladd, *neu* Fachwy |
| , *neu* Head ... | Penrhyn. |
| ... ... | Bryniau. |
| Isles, *neu* Islands .. | Ynys. |
| Isles, *neu* Islands.. | Ynysoedd. |
| *neu* Lake ... | Llyn. |
| d ... ... | Tir. |
| , *neu* Lough ... | Llwch:—llyn agored i'r môr. |
| Mt., *neu* Mountain ... | Mynydd. |
| Mts., *neu* Mountains.. | Mynyddoedd. |
| New ... ... | Newydd. |
| North, Northern ... | Gogledd, Gogleddol. |
| Ocean ... ... | Cefnfor. |
| P., *neu* Point ... | Porth. |
| Pen., Pena., Peninsula | Gorynys. |
| Plateau ... ... | Gwastadedd uchel. |
| Pt., *neu* Point ... | Pwynt. |
| R., *neu* River ... | Afon. |
| Ruins of ... ... | Adfeilion. |
| S., *neu* Sound ... | Culfor, Culforoedd. |
| St., *neu* Saint ... | Sant. |
| Sea, *neu* Sea of ... | Môr. |
| Shoal, Shoals ... | Bâs-le, Bâs-leoedd. |
| South, Southern ... | Deheu, Deheuol. |
| Str., *neu* Strs., Straits | Culfor. |
| Town ... ... | Tref. |
| Tropic ... ... | Trofan. |
| West, Western ... | Gorllewin, Gorllewinol. |

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD AR Y MAP HWN.

| | |
|---|---|
| ca ... ... | Affrica. |
| tian Is. ... | Ynysoedd Aleutiaidd. |
| uli Hills ... | Bryniau Aravuli. |
| ipelago ... | Ynysfor. |
| tic Ocean ... | Cefnfor y Gogledd. |
| tic Circle ... | Cylch y Gogledd. |
| Minor ... | Asia Leiaf. |
| of Bengal ... | Machwy Bengal. |
| ring Strait ... | Culfor Behring. |
| ck Sea... ... | Y Môr Du. |
| e North ... | Penrhyn y Gogledd. |
| oline Is. ... | Ynysoedd Caroline. |
| pian Sea ... | Y Môr Caspiaidd. |
| nese Empire ... | Ymherodraeth China. |
| nese Sea ... | Môr China. |
| stantinople ... | Caer Cystenyn. |
| Cheliuskin, or the North C. of Asia ... | PenrhynCheliuskin neu Benrhyn Gogleddol Asia. |
| ad Sea... ... | Môr Marw. |
| st Sea ... ... | Môr Dwyreiniol. |
| stern Ghauts ... | Y Gadwen Ddwyreiniol o Fynyddoedd. |
| uator ... | Y Cyhydedd. |
| rope ... ... | Ewrop. |
| ench Cochin China... | Cochin China Ffraingc |
| eat Wall ... | Mur mawr China. |
| ulf of Bothnia ... | Llyngclyn Bothnia. |
| ulf of Siam ... | Llyngclyn Siam |
| . of Tartary ... | Llyngclyn Tartary. |
| Himalaya Mountains.. | Mynydd. yr Himalaya. |
| Indian Ocean ... | Cefnfor India. |
| Khatanga Bay ... | Machwy Khatanga. |
| Knaw Isthmus ... | Gwddfdir Knaw. |
| L. Baikal... ... | Llyn Baikal. |
| Malay Pen. ... | Gvddfdir Malay |
| Mediterranean Sea ... | Môr y Canoldir. |
| Mindoro or Sooloo Sea | Môr Mindoro neu Sooloo |
| Molucca Passage ... | Tramwyfa Molucca. |
| Mt. Everest ... | Mynydd Everest. |
| New Guinea ... | Guinea Newydd. |
| New Siberia ... | Siberia Newydd. |
| Niti Pass ... | Bwlch Niti. |
| Pacific Ocean ... | Y Cefnfor Tawel. |
| Pelew Is.... ... | Ynysoedd Pelew. |
| Petty Lao States ... | Talaethau Petty Lao. |
| Palestine ... ... | Palestina |
| Philippine Islands ... | Ynysoedd Philippine. |
| Red Sea ... ... | Y Môr Coch. |
| Russian Empire ... | Ymherodraeth Rwssia. |
| Sea of Aral ... | Môr Aral. |
| Sea of Japan ... | Môr Japan. |
| Sea of Okotsk ... | Môr Okotsk. |
| Str. of Bab-el-Mandeb | Culfor Bab-el-Mandeb. |
| Strait of Malacca ... | Culfor Malacca. |
| Tropic of Cancer ... | Trofan y Cranc. |
| Turkey ... ... | Twrci. |
| Ural Mountains ... | Mynyddoedd yr Ural. |
| Western Ghauts ... | Y Gadwen Orllewinol o Fynyddoedd. |
| White Sea ... | Y Môr Gwyn. |
| Yellow Sea ... | Y Môr Melyn |

WEDI egluro ystyr tebygol y gair *Asia* yn y tudalen diweddaf, gwnawn rai sylwadau cyffredinol ar y cyfandir mawr hwn. Y mae yn fwy nag Ewrop ac Affrica gyda'u gilydd. Y mae ei arwyneb-edd yn hynod o amrywiol. Mewn rhai manau, ymgyfyd yn fynyddau aruthrol; y rhai a ymffurfiant yn bedair cadwen fawr, gyda changhenau llai yn perthyn iddynt. Ceir yn Asia hefyd wastattiroedd uchel, neu fwrdd-diroedd dyrchafedig, o eangder dirfawr. Mewn lleoedd eraill, nid ydyw y gwastattiroedd hyn ond ychydig uwch nag arwyneb y môr; ac y mae pantleoedd mawrion mewn manau, sydd yn is na gwyneb y Môr Du.

Y mae trefniad cadwyni mynyddoedd Asia yn ddigon syml. Y mae gwastadedd anferth i'w gael yn ymestyn trwy Ewrop ac Asia, yr hwn a geir i'r gogledd o 50° o ledred. Mynyddoedd yr Ural, y rhai sydd yn ysgaru Ewrop ac Asia oddi wrth eu gilydd, sydd yn ffurfio yr unig ucheldir yn yr ardaloedd hyny. Ymestyna y gadwen fynyddig yma o tua lledred 50° mewn cyfeiriad gogleddol, am 1,200 o filldiroedd, gan derfynu ar lenydd Môr y Gogledd. Yn Ngorllewin Asia, y mae y Caucasus, a'r Taurus; a thrumiau eraill o fynyddoedd yn Asia Leiaf; a mynyddoedd Persia, ynghyd â Lebanon yn Syria. Cynnwysa canolbarth Asia bedair cadwen fawr o fynyddoedd; y rhai a redant, o'r bron, yn gyfochrog o'r dwyrain i'r gorllewin.



Digitized by Google

Y mae cadwen yr Altai yn ymgodi tua chanol y cyfandir—ar du y dwyrain i'r ardal lle y mae gwelyau mawr y llynau a'r afonydd; ac yna ymestyna i'r dwyrain, gan ogwyddo i'r gogledd, hyd nes y terfyna yn nghadwyni mynyddoedd Stanovoi, yn Siberia Ddwyreiniol. Ithfaen ydyw y rhan fwyaf o'r mynyddoedd hyn o ran eu ffurfiad; ond ar eu hystlysau y mae haenau o'r ail ffurfiad; ac ambell waith, fe geir creigiau tânol o ffurfiad diweddarach. Y brigyn uchaf yn y gadwen hon a gyfyd 11,500 o droedfeddi uwch law y môr. Ceir aur, arian, plwm, a gemau yn y mynyddoedd hyn.

Y mae cadwen Mooz-tagh neu Thian-shan, neu y Mynyddoedd Nwyfreawl (*Celestial Mountains*), fel y gelwir hwynt, i'r deheu o fynyddoedd yr Altai—y rhan uchaf o ba rai sydd yn 14,000 o droedfeddi uwch law y môr. Ithfaen gan mwyaf ydyw eu defnydd hwythau, gyda haen o'r trydydd ffurfiad ar y bwrdd-dir sydd i'r deheu iddynt. Y mae yr ucheldir hwn yn ffurfio anialwch mawr y Gobi neu Shamo. Yn fwy i'r deheu drachefn ymgyfyd Mynyddoedd y Kuen-lun; y rhai sydd yn ffurfio y gadwen fawr nesaf. Ond Mynyddoedd yr Himalaya ydyw y gadwen uchaf yn ucheldir mawr y canolbarth; y rhai sydd yn ymestyn ar draws yr holl gyfandir, o'r dwyrain i'r gorllewin. Rhoddir enwau gwahanol i'r gadwen fynyddig anferth hon mewn gwahanol ranau o'r cyfandir. Y pwynt uchaf yn y mynyddoedd hyn ydyw Clogwyn Everest, yr hwn sydd yn 29,002 o droedfeddi uwch law y môr! Nid ydyw cadwyni y Sautpoora, y Vindhya, a'r Ghauts, ond rhanau o'r tiroedd uchel sydd yn gwneyd i fyny ranau mewnol gorynys Hindwstan. Ffurfiant, mewn gwirionedd, ymylon allanol yr ucheldiroedd a adwaenir gyda'u gilydd yn naearyddiaeth India wrth yr enw *Deccan*.

Y mae natur wedi rhanu Asia yn chwech o ddosbarthiadau; ac y mae pob un o honynt yn eang iawn, ac yn meddu ei nodweddion arbenig ei hun. Y dosbarthiadau hyn ydynt Asia Ganolbarthol, Orllewinol, Ogleddol, Ddeheuol, Dwyreiniol, a Chefnforawl. Canolbarth Asia ydyw y gwastattir uchaf yn y byd; ac ymestyna rhwng yr Himalaya yn y Deheu, yn ysgaru rhyngddo ag India, a chadwen yr Altai, a Mynyddoedd Daurian, yn y gogledd, tua Siberia. Y terfyn gorllewinol ydyw y Boler Dagh; a'r un dwyreiniol yw China a Mantchuria. Cynnwysa dosbarth gorllewinol Asia Turkestan yn y gogledd; Iram, neu Persia, Affghanistan, a Beloochistan, yn y dwyrain a'r deheu; y Caucasus, bwrdd-dir Armenia, ac Asia Leiaf yn y gorllewin; ac Arabia a Syria yn y gorllewin eithaf a'r de-orllewin. Y mae Asia Ogleddol, neu Siberia, yn cynnwys y diriogaeth fawr sydd rhwng yr Ural a'r Ob, ac yn ymestyn yn ddeheuol dros gyfran o wastattir diffaith y Khirgisea. Un rhan ydoedd o ymherodraeth eang Zinghis Khan; a chafodd ei henw oddi wrth y brifddinas Sibir, o'r hon y mae ychydig olion etto yn aros yn agos i Tobolsk. Yn y dosbarth deheuol, y mae Hindwstan, Burmah, Siam, Laos, a Cambodia; ac er nad dyma y dosbarth mwyaf o ran maintioli, etto y mae, mewn llawer ystyr, yn rhwym o gael ei ystyried fel y rhan bwysicaf o Asia. Cynnwysa Asia Ddwyreiniol Cochin-China, Tunkin, ac ymherodraeth China. Ardal gul fynyddig ydyw Cochin-China, neu China Ddeheuol—yn cael ei therfynu ar du y dwyrain gan y cefnfor, ac ar du y gorllewin gan afon fechan sydd yn ei hysgaru oddi wrth Tunkin. Perthyna i Ymherodraeth China diriogaeth eang, a phoblogaeth liosog. Dosbarth hynod o fynyddig ydyw Tartaria Chineaidd. Y mae trumiau o fynyddoedd ithfaenol yn croesi China mewn amryw gyfeiriadau. Cynnwysa Asia Gefnforawl yr holl ynysoedd Asiaidd a elwir felly yn briodol; a mŷn rhai gynnwys ynddi hefyd New Zealand bell, a chyfandir mawr Awstralia. Ond terfynau priodol y dosbarth hwn ydyw Ceylon, yr Ynysoedd Andamanaidd, a'r gadwen Sumatraidd, yn cynnwys Java, &c., Borneo, Celebes, Ynysoedd y Moluccas; Ynysoedd y Philippine, Formosa, Japan, a Tchoma, &c.

Y mae y nifer mwyaf o'r llynau halen sydd ar y ddaear i'w cael yn Asia. Yr hynotaf o honynt ydyw y Môr Marw. Ni a roddwn yma restr o'r llynau hyn, gan nodi eu maintioli, ac uchder amryw o honynt o wyneb y môr:—Llyn Caspia, neu y Môr Caspiaidd, fel y gelwir ef:—y mae yn 130,000 o filldiroedd ysgwâr; ond y mae ei arwyneb yn 83 o droedfeddi is law arwyneb y môr. Llyn yr Aral:—26,000 o filldiroedd ysgwâr, a'i uchder yn 31 o droedfeddi. Llyn Balkash:—8,500 o filldiroedd ysgwâr, a'i uchder yn 1,000 o droedfeddi. Llyn Ala-kul:—500 o filldiroedd ysgwâr, a'i uchder yn 1,200 o droedfeddi. Llyn Issyk-kul:—3,000 o filldiroedd ysgwâr, a'i uchder yn 5,000 o droedfeddi. Llyn Pangong:—250 o filldiroedd ysgwâr, a'i uchder yn 13,931 o droedfeddi. Llyn Urumiyah:—1,800 o filldiroedd ysgwâr, a'i uchder yn 4,300 o droedfeddi. Llyn Van:—1,600 o filldiroedd ysgwâr, a'i uchder yn 5,647. Llyn Tengri-nor:—1,800 o filldiroedd ysgwâr. Llyn Koko-nor:—1,500 o filldiroedd ysgwâr. Llyn Lop:—1,300 o filldiroedd ysgwâr. Llyn Zurrah:—1,600 o filldiroedd ysgwâr. Llyn Koch-hissar:—570 o filldiroedd ysgwâr, a'i uchder yn 2,850 o droedfeddi. Llyn Baktegaun:—520 o filldiroedd ysgwâr. Y Môr Marw, 360 o filldiroedd ysgwâr; ond y mae hwn yn gorwedd 1,298 o droedfeddi is law arwyneb y môr.

Yn gymmaint a bod Asia yn ymestyn o'r cyhydedd i Fôr y Gogledd, y mae ei hinsawdd o angenrheidrwydd yn hynod o amrywiol. Ond er fod yr hinsawdd yma, fel yn mhob gwlad arall, yn cael ei reoleiddio gan bellder oddi wrth y cyhydedd, y mae y ddeddf gyffredinol hon yn cael effeithio arni yma gan achosion damweiniol. Y mae yn Asia hynodion yn perthyn i'w thymmeredd sydd yn anhawdd eu hesbonio yn eglur.

Oddi wrth ei eangder dirfawr, ac amrywiaeth ei arwynebedd, gellir tybied fod Asia yn tyfu y rhan fwyaf o lawer o gynnyrchion llysieuol gwahanol y ddaear—yn rawn, coed, llysiau, a blodau. Y mae y prysgwydd (*jungle*) tew, a'r coedwigoedd eang, sydd yno yn nawddleoedd i anifeiliaid gwylltion; a cheir lliosawgrwydd o honynt yn y gwahanol wledydd. Ceir y llew yn Persia, Mesopotamia, a glenydd y Tigris a'r Euphrates. Brodor o Asia ydyw y dywalgi; ac i'r cyfandir hwnw yn unig y perthyna, gan nad ydyw efe erioed wedi ei gael mewn unrhyw barth arall o'r ddaear. Yn Asia Ddeheuol hefyd y ceir y llewpard, yr udfil, gwas y llew, y ddywalgath, y baedd gwyllt, y blaidd, yr ewig, y carw, y llwynog, a'r ysgyfarnog, &c.

Yn nechreu yr erthygl hon (td. 384), ceir hanes y wlad yn yr hen oesoedd, tarddiad ei henw, cyfeiriadau ysgrythyrol ati, ac amryw fanylion eraill am ei phoblogaeth ar y pryd yr ysgrifenwyd yr erthygl; ac hefyd, am ei hinsawdd a'i harwynebedd. Gweler hefyd cyf. iii., td. 268—271. Ni a chwanegwn y manylion canlynol atynt, fel y ceir hwynt yn awr [1889].

***Maintioli, a Phoblogaeth.***—Cyfrifir fod y cyfandir mawr hwn yn mesur 17,327,691 mill. pet.

Digitized by Google

Ei boblogaeth yn 1888 ydoedd tua 838,643,097—mwy na hanner poblogaeth y byd. Amcan-gyfrifon yn unig yw amryw o honynt. Y rhanau a boblogir dynaf ydyw China a Dyffryn y Ganges.

*Rhaniadau Gwladol.*—Heb law y rhaniad a welir yn y tudalen o'r blaen, ni a'i rhanwn yn ol y gwahanol wledydd sydd ynddi. Ond nis gellir dyweyd i gywirdeb pa nifer o wledydd annibynol sydd o'i mewn; ond dyma y prif rai. Heb law hyny, y mae amryw o'r gwledydd canlynol yn cynnwys nifer o lywodraethau bychain; y rhai nid ydynt yn cydnabod awdurdod un wlad arall arnynt. Rhenir Asia yn gyffredin i'r talaethau canlynol:—

TEYRNASOEDD YN ASIA.

| Enw. | Arwynebedd mewn milldiroedd petryal Saesnig. | Poblogaeth, yn ol y cyfrifon diweddaf. | Prif ddinasoedd. | Yr Afonydd, &c., y saif y prif ddinasoedd arnynt. |
|---|---|---|---|---|
| Twrci yn Asia ... ... | 672,560 | 16,473,000 | Smyrna, &c. | Môr Ægean. |
| Arabia ... ... ... | 1,000,000 | 6,000,000 | Muscat, &c. | Morgaingc Oman. |
| Persia ... ... ... | 636,000 | 7,653,600 | Teheran. | Deheu o Fynydd Elburz. |
| Affghanistan ... ... | 279,500 | 4,500,000 | Kabul. | Kabul. |
| Beloochistan ... ... | 110,000 | 1,000,000 | Kelat. | Gundava. |
| Hindustan ... ... | 1,475,858 | 257,000,000 | Calcutta, &c. | Hûghli. |
| India Bellaf ... ... | 852,720 | 25,497,500 | Rangoon, &c. | Irawâdy. |
| China—Ymherodraeth ... | 3,981,150 | 440,650,000 | Peking. | Pei-ho. |
| Turkestan—Gorll. ... | 380,000 | 2,500,000 | Bokhâra. | Kohik. |
| Rwssia yn Asia ... ... | 7,000,000 | 10,500,000 | Tobolsk. | Irtish. |
| Japan ... ... ... | 155,697 | 33,868,997 | Tokio. | Ynys Niphon. |
| Ynysoedd ... ... ... | 784,206 | 33,000,000 | | |
| Cyfanrifau ... | 17,327,691 | 838,643,097 | | |

Tybia llawer mai o'r cyfandir mawr yma y poblogwyd America gyntaf; canys nid ydyw y pellder o Benrhyn y Dwyrain, yn Siberia, hyd Benrhyn Tywysog Cymru, yn mharth mwyaf gogledd-orllewinol Gogledd America, oddi ar bedwar ugain milldir; a gellir croesi y cyfyngfor yma ar draed dros ran fawr o'r flwyddyn, pan y mae yn orchuddiedig gan ia cryf; a buasai mor naturiol i boblogaeth gynnyddfawr Asia ymwthio yn mlaen drwy y penrhyn dwyreiniol yn Siberia ag oedd iddynt ymwthio i Affrica trwy Gyfyngdir Suez, neu groesi y Dardanelles i gyfandir Ewrop. Gwelir nad oedd rhyw lawer o fedr morwriaethol yn ofynol i allu croesi Cyfyngfor Behring; canys pe na buasai y cyfyngfor dywededig un amser yn rhewi drosto, y mae amryw ynysoedd ynddo; yr hyn a wnelai y fordwyaeth o Asia i America yn rhwyddach yn yr oesoedd boreuol. Gellir gweled y ddau gyfandir ar yr un pryd o rai o'r ynysoedd hyny; yn enwedig yr un a elwir St. Lawrence. Ac wedi croesi y cyfyngfor, buasai yn naturiol i'r ymfudwyr cyntaf o Asia fyned yn mlaen i hinsoddau mwy tymmherus yn y cyfandir dyeithr; hiliogaeth pa rai a ganfyddwyd gan ddarganfyddwyr diweddar America, yn gwahaniaethu cymmaint oddi wrth y gweddill o ddynolryw fel ag i beri i rai ammheu a oeddynt yn hanu o'r un cyff gwreiddiol, ai peidio. Ond y mae yn ddiau nad oedd y gwahaniaeth yn fwy nag a allasai gael ei gynnyrchu gan yr hinsawdd, ac achosion anianyddol eraill. Ar y pwngc yma, sylwai Dr. Hodson, o Blantyre, fel y canlyn:—"Nid oes un ammheuaeth nas gallasai preswylwyr parthau gogledd-ddwyreiniol Asia, y rhai a ymddibynent yn benaf ar hela a physgota, fyned drosodd yn eu cychod yn yr haf, neu ar y rhew yn y gauaf, o'u gwlad eu hunain i gyfandir America. Neu, fe allai nad oedd y naill na'r llall yn angenrheidiol; canys nid yw yn annhebyg fod culfor Behring, fel y mae yn awr, yn cael ei feddiannu gynt gan dir, yr hwn a orlifid gan y môr yn ystod un o'r chwyldroadau ofnadwy hyny o eiddo anian, trwy ba rai yr ysgydwir cyfandiroedd meithion, ac yr estynir arglwyddiaeth y môr i lanerchau anadnabyddus i'w ddyfroedd yn flaenorol. Ac nid rhyw ddychymyg disail ydyw hyn; canys y mae Julius Cæsar yn sôn am ynysoedd yn gyfagos i Brydain, y rhai nis gwelir yn awr. Yr oedd Naples unwaith yn gydiedig â Sicily, ac Eubœa â Bœotia; ac y mae genym enghreifftiau sicr o ranau ëang o wledydd wedi eu dwyn o bryd i bryd gan y môr. Fe allai mai y mynyddoedd a'r ucheldiroedd a berthynent i'r cyfyngdir a gydiai Asia âg America unwaith yw yr ynysoedd a ganfyddir yn awr yn y cyfyngfor sydd yn ysgaru y ddau gyfandir; a bod yr iseldir wedi ei siglo gan ddaeargryn, a suddo yn îs na'r môr. Os felly y bu; os oedd lleindir unwaith yn cydio y ddau gyfandir, nid ymddengys unrhyw anhawsder i addef y gallasai y byd newydd gael ei boblogi ar y dechreu trwy ymfudiad yn y ffordd a nodwyd o'r hen fyd."

Y mae eraill yn barnu i drigolion anturiaethus gogledd-barth Ewrop gael eu gorfodi yn dra boreu i anfon eu gorboblogaeth i ymofyn am drigleoedd newyddion, ac y gallasai y rhai hyn fyned drosodd i America trwy Greenland, oddi wrth yr hon yr ysgerir hi gan gaingc o fôr cul iawn; ac nis gwyddom yn amgenach nad allasai rhyw rai ëofn anturio croesi y weilgi tua byd y gorllewin cyn amser Columbus, megys ein hysbysir ddarfod i Madog ab Owain, a'i gyfeillion, wneyd. Pa un bynag, fe'n hysbysir fod traddodiad yn ffynu yn mysg trigolion Mexico, y mwyaf goleuedig o genhedloedd America y pryd hyny, sef pan yr ymwelodd Cortes â hwy, fod eu hynafiaid wedi dyfod o'r gogledd ar y dechreu; yr hyn a duedda i gadarnhau y dyb fod trigolion Asia wedi poblogi yr America, gan ymfudo yno trwy Gulfor Behring: ac o bump ar hugain o rywogaethau o flod y tir, a berthynent, yn ol Pennant, i Kamtchatka, canfyddir dau ar bymtheg o honynt yn America.

Y mae llawer o resymau eraill yn cael eu defnyddio dros y dyb flaenorol am boblogiad cyntaf America, rhy faith i'w nodi yn yr erthygl hon; megys y tebygolrwydd sydd yn ffurfiad corphorol a phrydweddiad trigolion gogledd Asia a chyndrigolion America; y cyffelybrwydd

Digitized by Google

neillduol yn nghyfansoddiad eu hamryfal ieithoedd, ac yn amryw o'u harferion a'u defodau—y rhan fwyaf o ba rai a ganfyddir yn ngwaith y Dr. Pritchard, a elwir "*Researches into the Physical History of Man.*"

*Arwynebedd.* — Gwelir moroedd y cyfandir hwn, a'i forgeingciau, ei gulforoedd, ei ynysoedd, a'i benrhynoedd, ar y map sydd yn gysylltiedig â'r erthygl hon. Y mae holl ogleddorllewin Asia yn un gwastadedd isel anferth, tua dwywaith cymmaint a holl Ewrop. Y mae y gweddill o'r cyfandir, gydag ychydig eithriadau, yn ddau wastattir uwch, trionglog o ran eu ffurf—dwyreiniol a gorllewinol—ac yn cyfarfod â'u gilydd yn mynyddoedd Bolor Tagh.

*Mynyddoedd.*—Y mae tair cadwen o fynyddoedd ar yr ochr ddwyreiniol, a thair cadwen ar y tu gorllewinol i'r cyfandir hwn. Yr Himalaya ('cartref yr eira'), rhwng India a Tibet, sydd yn cynnwys y pigynau uchaf ar wyneb y ddaear—sef, Mynydd Everest, neu Gaurisankar, 29,002 tr. uwch law y môr; yr hyn sydd tua phum milldir a hanner. Hefyd, y Kunchinjunga, a'r Dhawalagiri yn Nepaul: y Thian Shan yn Kashgaria; yr Altai, a'r Sayansk yn Siberia Ddeheuol; y Stanovoi a'r Aldan yn Siberia Ddwyreiniol; y Karakorum a'r Kuen-lun yn Tibet; y Pe-ling, Yun-ling, a'r Nan-ling yn China; y Kian-Shan, yr Inshan, a'r Khingan, sydd yn ffurfio mur deheu-ddwyreiniol anialwch Shamo. Ar y tu gorllewinol—yr Hindu Kush, cadwen Paropamisan, cadwen yr Elburz, a'r Caucasus, Mynyddoedd Armenia, yn y rhai y mae Mynydd Ararat yn uchaf; yr hwn sydd yn 17,112 tr. Hefyd, cadwen Libanus ar hyd arfordir Syria, a Mynydd Horeb yn anialwch Sinai, ynghyd âg eraill.

Y mae amryw fynyddoedd tanllyd yn y rhan hwn o'r byd.

*Afonydd.*—Y mae gwahaniaeth mawr rhwng Asia ac America yn hyn—yn ffurf gosodiad eu mynyddoedd, a'u hafonydd. Y mae cadwyni America yn rhedeg ar un ochr i'r cyfandir; ond yn Asia, y mae y mynyddoedd a'r gwastattiroedd uchel yn nghanol y cyfandir, ac yn gyru yr afonydd mewn pump o gyfeiriadau gwahanol, yn cyfatteb i'r pum pantle mawr y maent yn perthyn iddynt; sef, y Môr Du, Môr y Canoldir, Cefnfor India, y Môr Tawelog, a Phantle Ffrydiau y cyfandir. O herwydd hyn, y mae nifer afonydd Asia yn fwy mewn rhifedi nag eiddo un o'r cyfandiroedd eraill, er nad oes un o honynt i'w cymmharu â'r Amazon, na'r Missouri. Y mae saith o'i phrif afonydd yn ymdywallt i'r Môr Du a'r Levant; saith a deugain yn ymdywallt i Gefnfor India; tair ar hugain i'r Môr Tawelog; chwech i Fôr y Gogledd; a chwech i foroedd Caspia ac Aral.

*Llynau.*—Y mae ynddi lawer o lynau mawr, yn enwedig yn Asia Leiaf, Turkestan Orllewinol, a'r Pantle Mawr Canolog. Yma y mae y llyn mwyaf o fewn y byd—a elwir Môr Caspia. Y llyn mwyaf o ddyfroedd croyw yn yr hen fyd ydyw Llyn Baikal. Y llyn halltaf sydd yn adnabyddus ydyw Tûz-Gûl. Y llyn sydd yn gorwedd uchaf yn y byd ydyw Sir-i-Kol; a'r llyn sydd yn gorwedd isaf drwy yr holl ddaear ydyw y Môr Marw.

*Hinsawdd.*—Gellir dosbarthu y wlad, gyda golwg ar ei hinsawdd, yn dri o ddosbarthiadau, neu wregysau. Yn gyntaf, y Gogleddol—yn cynnwys gwastadeddau isel, meithion, Siberia, a Turkestan Orllewinol. Yma y mae y gauaf yn ymestyn dros naw mis o'r flwyddyn, a'r oerni yn annioddefol yn mron; a'r haf yn fyr, ac yn hynod o boeth. Yn ail, y Gwregys Canol—yn cynnwys gwastadeddau y canoldir, anialwch mawr Gobi neu Shamo, rhan fawr o Biluchistan, Persia, Arabia ogleddol, a Syria ddeheuol, ac Iran; gyda'r Sahara, yn ffurfio y Gwregys Canol, sydd yn ymestyn o Fôr y Werydd yn Affrica yn mron i'r arfordir ar y Môr Tawelog yn Asia. Mewn rhai o'r gwledydd eang hyn nid ydyw yn wybyddus fod un dyferyn o wlaw erioed wedi disgyn; ac mewn eraill, y mae adegau meithion rhwng y naill a'r llall, ac ychydig iawn sydd yn disgyn ar y pryd. Yn drydydd, y Gwregys Deheuol—yn cynnwys yr holl wledydd i'r deheu o'r rhai a nodwyd ddiweddaf. Yma, y mae yr haf yn annioddefol o boeth, yn mron; a'r swm o wlaw sydd yn disgyn ar adegau neillduol yn anhawdd i ni ffurfio dychymyg am dano. Er esampl, ar y Chirra Poonjee, yn agos i ben uchaf Machwy Bengal, ar Fryniau Khasia, y mae y swm mwyaf o wlaw yn disgyn mewn blwyddyn sydd yn adnabyddus. Cyrhaeddodd gymmaint a 615¼ modfedd—trwch dros ddwy lath ar bymtheg—yn y fl. 1859-60!

*Mŵnau.*—Y mae cyfandir Asia yn enwog am ei amrywiaeth o drysorau mwnawl; ac y mae metteloedd gwerthfawr i'w cael mewn mwy o gyflawnder yno nag yn Ewrop—yn enwedig yn China, yn Mynyddoedd yr Altai a'r Ural, yn India, a Burmah, yn mha rai hefyd y ceir adamant. Ceir llawer o feini gwerthfawr yn India a Mongolia; haiarn, plwm, platinum, a glô, yn mynyddoedd yr Altai a'r Ural; halen yn nghanolbarth y wlad; petroleum ar lanau Môr Caspia, a bitumen yn y Môr Marw.

*Cynnyrchion.*—Yn ei lysiau, a'i goed, ceir yma amrywiaeth mwy nag a geir mewn un cyfandir arall—ac yn y rhan ddeheuol o hono, y maent yn hynod felly. Nid oes un rhan o'r ddaear tu hwnt i India, ac Indo-China, yn lliosawgrwydd ei ffrwythydd naturiol, a'i lysiau bwytadwy.

*Anifeiliaid.*—Y mae y cyfandir hwn lawn mor hynod am yr amrywiaeth mawr o'i anifeiliaid gwylltion, a'r rhai hyny yn fawr a chryfion iawn. Cynnwysa, er esampl, un ran o dair o'r holl anifeiliaid sydd yn adnabyddus; ac y mae adar, ymlusgiaid, a thrychfilod, yn hynod liosog yno—yn fawrion, ac o liwiau prydferth.

*Poblogaeth.*—Gan adael o'r naill du orynys Malay, yr hon a berthyna yn fwyaf neillduol i Oceania, y mae holl gyfandir Asia yn cael ei boblogi gan ddwy gangen fawr o'r teulu dynol; sef, y Mongoliaid, a'r Caucasiaid. Hen gartref y Mongoliaid ydyw y gwastadedd mawr gogleddol, a'r gwastattir uwch sydd ar yr ochr ddwyreiniol, gan gynnwys India Bellaf, a China hefyd. Y gwastattir uchel gorllewinol, a Hindwstan, sydd wedi bod yr un modd yn gartref y Caucasiaid.

*Ieithoedd.*—Yr ieithoedd a siaredir gan y Mongoliaid a berthynant i ddau ddosbarth gwahanol. Y mae y cyntaf yn Unsillawg—ei holl eiriau yn unsill—a siaredir hi gan y Chineaid. Yr ail ddosbarth ydyw y Turaniaidd; a siaredir hi gan y Tyrciaid, a thrigolion Japan. O ran eu crefydd, addolwyr Buddha ydyw y Mongoliaid, yn mron oll; a Brahminiaid, neu Fahometiaid, ydyw y Caucasiaid. Y mae Caucasiaid y cyfandir hwn yn cael eu his-ddosbarthu i dri o deuluoedd mawr; sef, y Syro-Arabiaid, yn y gorllewin; y Medo-Persiaid, ar wastattir Iran; a'r Hindŵaid, rhwng yr Indus a'r Brahmapootra.

Digitized by Google

Perthyna yr ieithoedd Syro-Arabaidd i'r dosbarth Semitaidd; a pherthynant i'r hen Hebraeg. Y mae y tafodieithoedd Medo-Persiaidd ac Indiaidd wedi tarddu o'r hen Sanscrit—yr hon sydd, erbyn hyn, yn iaith farw. Ond ystyrir mai hi ydyw yr iaith berffeithiaf fu yn adnabyddus erioed ar y ddaear. Mahometaniaid ydyw y Medo-Persiaid, yn mron oll; ac y mae yr Hindŵaid, gan mwyaf, yn Frahminiaid.

TWRCI. Yn cyf. ix., td. 621—628, ceir hanes maith a manwl am y Tyrciaid fel pobl, ac am eu gwlad yn Ewrop ac Asia—eu llaw-weithfeydd, a'u masnach—rhifedi y bobl, ac arwynebedd y wlad—eu llywodraeth, eu crefydd, ac addysg—cyllid, byddin, a llynges y wlad—a hanes y bobl a'u llywodraethwyr, gyda'r tywysogaethau a berthynent iddi yn y fl. 1876. Gan mai un deyrnas ydyw yr hyn sydd yn Ewrop ac Asia; a bod y ffeithiau canlynol wedi dylanwadu mor fawr ar holl ymherodraeth y Twrc, ni a'u rhoddwn yma o flaen ein sylwadau ar Twrci yn Asia.

Yn fuan ar ol 1876, cymmerodd rhyfel fawr ac ofnadwy le rhyngddi a Rwssia, yr hon a gyhoeddwyd gan Rwssia, Ebrill 24, 1877; a pharhaodd hyd Mawrth 3, 1878, pan yr arwyddwyd ammodau heddwch rhwng y ddwy deyrnas. Ond yr oedd prif alluoedd Ewrop yn anfoddlawn i'r ammodau. Yna galwyd cynnadledd yn Berlin, yn yr hon yr oedd y prif alluoedd canlynol yn cael eu cynnrychioli, i ystyried yr achos; sef, Germany, Rwssia, Twrci, Prydain, Awstria, Ffraingc, a'r Ital. Cynnaliasant ugain o gyfarfodydd—y cyntaf Mehefin 13, a'r olaf Gorph. 13, 1878. Yr oedd ymherodraeth Twrci hyd yr amser hwnw yn cynnwys y tywysogaethau canlynol, y rhai oeddynt bron yn annibynol:—Moldavia a Wallachia, Servia a Montenegro, rhaglawiaeth etifeddol yr Aipht, a Tunis. Amddiffynfeydd petryalaidd Twrci oeddynt Shumla, Varna, Silistria, a Rustchuck. Yn ol y cyttundeb uchod a wnaed yn Berlin, dywedir fod Twrci wedi rhoddi i fyny bob hawl oedd ganddi i'r rhanau canlynol o'r gwledydd a enwir isod:—

| | Mill. Pet. | Poblogaeth. | Mahometiaid. |
|---|---|---|---|
| Cafodd Roumania .. | 5,935 .. | 246,000 .. | 142,000 |
| „ Servia .. | 4,326 .. | 264,000 .. | 75,000 |
| „ Montenegro. | 1,549 .. | 40,000 .. | 9,000 |
| „ Awstria .. | 15 .. | 2,000 .. | — |
| „ Groeg (?) .. | 5,300 .. | 750,000 .. | 40,000 |
| I gael eu meddiannu a'u llywodraethu gan Awstria .. | 28,125 .. | 1,061,000 .. | 513,000 |
| Ffurfiwyd yn Dywysogaeth Bulgaria .. | 24,404 .. | 1,773,000 .. | 681,500 |
| Cynnwysid yn Roumelia Ddwyreiniol | 13,646 .. | 746,000 .. | 265,000 |

Yn ol ammodau y cyttundeb hwn, nid oedd gan Twrci yn Ewrop ond 74,790 mill. pet. yn feddiant iddi; a chyfrifir fod ei phoblogaeth yn 1888 tua 4,900,000, o ba rai y mae tua 2,500,000 yn Fahometiaid. Y mae gan Bulgaria, Roumelia Ddwyreiniol, a Bosnia, rhyngddynt, 58,739 mill. pet., gyda phoblogaeth o tua 4,330,000. Yn Armenia, cafodd Rwssia 10,000 mill. pet., gyda thua 350,000 o drigolion. Y mae Cyprus, yr hon a ymddiriedwyd i amddiffyniad Lloegr dan y cyttundeb, yn mesur 2,288 mill. pet., gyda phoblogaeth o 150,000. Rhoddwyd Thessaly i Groeg, trwy gyttundeb a wnaethpwyd Gorph. 2, 1881.

TWRCI YN ASIA. Yn y cyfandir hwn y mae y rhan fwyaf o ymherodraeth y Twrc. Nid ydyw hyny a fedd efe yn Ewrop, fel y dywedwyd uchod, ond tua 74,790 mill. pet.; ond y mae y rhan y mae efe yn llywodraethu arni yn Asia yn mesur 672,560 mill. pet., ac yn cynnwys tua 16,473,000 o drigolion. Mae'n cynnwys Asia Leiaf, Syria, yn yr hon y cyfrifir Palestina, a'r rhan fwyaf o Armenia, Kurdistan, Mesopotamia (dyffryn yr Euphrates a'r Tigris), a'r rhan orllewinol o Arabia yn terfynu ar y Môr Coch, gyda dosbarth El Hasa ar y tu dwyreiniol i Forgaingc Persia. At y rhai hyn y mae yn rhaid chwanegu ynysoedd Samos a Cyprus—y ddiweddaf o ba rai sydd yn talu teyrnged flynyddol i Twrci. O holl boblogaeth yr ymherodraeth y mae tua 7,000,000 yn Dyrciaid, 5,500,000 yn Syriaid ac yn Arabiaid, a thros 1,100,000 yn Roegiaid. Gwneir y gweddill i fynv o genhedloedd eraill. Dywedir fod nifer y Mahometiaid yn y rhan yma o Asia yn 12,500,000.

Yn Affrica, y mae Twrci yn awr yn llywodraethu ar Tripoli a Barka, ac yn codi teyrnged drom ar yr Aipht. Mesurant 399,000 mill. pet., gyda phobl. o 1,100,000.

Mewn enw, gan hyny, y mae arwynebedd Ymherodraeth Twrci yn 1,710,000 mill. pet., gyda phoblogaeth o tua 34,000,000. Ond, o'r tiriogaethau ëang hyn, nid oes ond tua 1,145,500 mill. pet., gyda phoblogaeth o tua 23,000,000, yn uniongyrchol o dan lywodraeth y Tyrciaid. Y mae y rhanau eraill yn talu teyrnged i'r Sultan, neu yn unig yn cydnabod ei uwch-lywodraeth ef arnynt.

Yn y rhan yma o'r byd y mae cryd y ddynoliaeth; ac yr oedd ei boblogaeth yn fawr iawn am lawer o oesoedd. Ond erbyn hyn, y mae y boblogaeth yn deneu, hyd yn oed yn y dinasoedd; ac y mae yr holl wlad gan mwyaf yn ymddangos yn anialwch anghyfanneddol. Yn y rhan yma hefyd y mae mynydd enwog Ararat, yn Mynyddoedd Armenia, yr hwn sydd 17,112 tr. o uchder; a Libanus, yn ngogledd Palestina, yr hwn sydd yn 12,000 tr. o uchder.

Rhenir y wlad yn awr i bum dosbarth—fel y canlyn:—

| Talaethau. | Prif ddinasoedd. |
|---|---|
| ARMENIA DYRCAIDD ... ... | Erzeroum. |
| ASIA LEIAF ... ... ... | Smyrna. |
| SYRIA ... ... ... ... | Damascus. |
| MESOPOTAMIA ... ... ... | Baghdad. |
| ARABISTAN ... ... ... | Mecca. |

*Afonydd.*—Gyda'r eithriad o'r Euphrates a'r Tigris, nid oes ynddi ond afonydd bychain, mewn cymmhariaeth.

*Trefydd.*—Ar yr arfordir gogleddol, a Kizil Irmak:—ceir Trebizond, gyda phobl. o 45,000, lle y cyrhaeddodd Xenophon yr arfordir gyda 10,000 o Roegiaid ar ol brwydr hynod Cunaxa. Kaisarieh a Sivas ydynt drefi yn nghanol y wlad, yn mha rai y gwneir llawer o fasnach. Sinope, lle y rhoddodd y Rwssiaid dân yn llynges Twrci yn 1853, yr hyn a arweiniodd i ryfel y Crimea. Scutari, gyferbyn a Chaer Cystenyn; a gellir ei hystyried yn rhan o honi.

Ar yr arfordir gorllewinol:—Smyrna (pobl. 150,000), un o'r dinasoedd mwyaf a chyfoethocaf yn yr ymherodraeth, a dinas o hynafiaeth mawr, gan yr hon y gwneir masnach dramor helaeth. Dyma lle yr oedd un o'r "saith eglwys" y cyfeirir atynt yn Llyfr y Dadguddiad; ac yma y llafuriodd ac y llofruddiwyd Polycarp.

Ar yr Orontes:—Antioch (pobl. 18,000), lle y

Digitized by Google

cafodd dysgyblion Crist eu galw yn "Gristionogion" gyntaf. Hamah, neu Hamath yr Ysgrythyrau (pobl. 30,000), yr hon y dechreuwyd ei hadeiladu yn fuan ar ol y diluw. Homs (pobl. 50,000), oedd yn enwog am ei theml i'r haul.

Yn nghanolbarth Syria:—Palmyra, sef Tadmor y Beibl, yr hon y dywedir mai Solomon a'i sylfaenodd, yn anialwch Syria. Hen "Ddinas y Palmwydd" ydyw hon; ac y mae yr adfeilion o balasau a themlau sydd ynddi yn dangos ei bod yn enwog yn yr oesoedd boreuol. Aleppo (pobl. 70,000) ydyw y brif ddinas yn Syria ogleddol; ac y mae wedi bod yn hir yn enwog am ei gweithfeydd cotwm a sidan. Damascus (pobl. 150,000), yr hon a ystyrir fel y ddinas hynaf sydd mewn bod; ac y mae hi, er cyn côf, wedi bod yn hynod am ei chyfoeth mawr, a'i masnach. Ierusalem (pobl. 20,000), yr hon yw y ddinas fwyaf enwog a dyddorol, o ran ei hanes, o holl ddinasoedd y byd. Yma y dioddefodd ac yr adgyfododd ein Gwaredwr; ac oddi ar Fynydd yr Olewydd, yn agos ati, yr esgynodd efe i'r nef yn ngolwg ei ddysgyblion. Y mae Iericho a Hebron hefyd yn hen drefydd enwog.

Ar Arfordir Syria.—Iskenderun ydyw porthladd Aleppo. Tripoli, wrth droed Libanus, a allforia sebon ac ysbwng. Beirout (pobl. 60,000) ydyw porthladd Damascus; ac y mae yn ddinas fasnachol lwyddiannus. Tyrus a Sidon—dwy o brif ddinasoedd mwyaf enwog yr hen fyd; cwymp pa rai ydyw cyflawniadau mwyaf hynod prophwydoliaeth sydd i'w cael ar ddalenau hanesyddiaeth y byd. Acre (yr hen Ptolemais) ydyw yr agoriad, mewn ystyr filwraidd, i Syria; ac o'i hamgylch hi y mae yr amddiffynfeydd cryfaf sydd o fewn y wlad, er yr holl gyfnewidiadau, mewn ystyr ryfelgar, sydd wedi myned drosti. Y mae Jaffa a Gaza, trefydd hynod a enwir yn y Beibl, yn borthladdoedd llwyddiannus.

Ar Arfordir dwyreiniol y Môr Coch.—Mecca, gyda phobl. o 45,000. Y ddinas fwyaf enwog yn Arabia ydyw hon; lle genedigaeth Mahomet, a chryd y grefydd Fahometaidd. Jiddah ydyw ei phorthladd. Medina (pobl. 15,000), yn y canoldir, oedd eisteddle ymherodraeth Mahomet. Yma y ffodd efe o Mecca, yn y fl. B. A. 622. Oddi wrth y ffaith hon y mae y flwyddyn a nodwyd, yr hon a adnabyddir fel yr Hegira (neu "y Ffóedigaeth"), wedi ffurfio prifnod amseryddol hynod drwy holl ranau Mahometaidd y byd. Mocha, porthladd caerog; yr hwn sydd yn enwog am ei goffi.

Ar yr Euphrates a'r Tigris.—Bassorah (pobl. 70,000) yw porthladd mawr masnach y wlad âg India. Hillah:—y mae hi oddi fewn, neu yn agos i adfeilion Babylon—cartref cyntaf 'ymherodraeth,' ac un o ddinasoedd mwyaf mawreddog yr hen fyd. Orfah—"Ur y Caldeaid" yn yr Ysgrythyrau—oedd lle genedigaeth Abraham. Erzeroum (pobl. 35,000), gorphwysle y teithluoedd rhwng Teheran a Mecca. Baghdad (pobl. 65,000), dinas enwog arall gyffelyb. Mosul (pobl. 30,000)—yn hynod yn benaf o herwydd ei hagosrwydd i adfeilion yr hen Ninefeh; y rhai a gloddiwyd allan gan Layard, wedi iddynt fod yn gladdedig dan y tywod am tua 3,000 o flynyddoedd. Y mae llawer o'i hadfeilion i'w gweled yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain. Diarbekr (pobl. 14,000)—yn enwog am ei gweithfeydd cotwm, a sidan, ac offerynau copr.

*Llynau.*—Y Van, yn Armenia; y Tûz-Gûl, yn Asia Leiaf—y corph halltaf o ddwfr sydd yn adnabyddus. Llyn Tiberias, neu Fôr Galilea—y mwyaf dyddorol yn y byd, o herwydd fod ein Gwaredwr wedi bod yn ei forio gyda physgotwyr Galilea—y rhai a ddewisodd efe i fod yn apostolion. Ar ei lanau gorllewinol y safai y trefi y byddai efe yn ymweled â hwynt fynychaf yn nhymmor ei weinidogaeth; sef, Tiberias, Bethsaida, Chorazin, a Chapernaum. Y mae yr Iorddonen yn llifo drwy y llyn hwn, o'r gogledd i'r deheu. Y mae dyfroedd Llyn Tiberias yn groyw, ac yn cynnwys llawer o bysgod; ac y mae wedi ei brofi fod ei arwyneb 653 tr. is law arwyneb Môr y Canoldir. Y Môr Marw:—y mae hwn yn mesur 360 mill. pet.; ac yn meddu y nodweddion hynod canlynol:—Dyma y corph halltaf o ddwfr sydd yn adnabyddus, gyda'r eithriad yn unig o Tûz-Gûl yn Asia Leiaf. Dylifa yr Iorddonen iddo; ond nid oes un afon, nac hyd yn oed aber, yn llifo allan o hono; ac nid ymddengys fod ei ddyfroedd yn codi chwaith. Lle y mae y Môr Marw yn awr y safai dinasoedd y gwastadedd; sef, Sodom, Gomorrah, Admah, a Seböim. Y mae ei ddyfroedd mor hynod o hallt fel nad oes un creadur yn gallu byw ynddynt; ac y maent mor gryfion fel pan y bydd dynion yn ymdrochi ynddynt, y cedwir hwynt ar ei wyneb fel cyrc (*corks*). Y mae ei arwyneb yn is nag un corph o ddwfr arall ar y ddaear—yn 1,312 tr. is law gwyneb y môr. Y mae yn eglur, gan hyny, nas gallai yr Iorddonen weithio ei ffordd i'r Môr Coch, hyd yn oed cyn dinystr Sodoma a Gomorrah; os nad oedd y trychineb hwnw wedi ei gyssylltu â chyfnewidiad mawr yn arwyneb yr holl wlad. Y tebygolrwydd yw, fod yno lyn llai yn y llanerch hwnw cyn dinystr y dinasoedd. Gwel PALESTINA, cyf. viii., td. 205–225.

*Hinsawdd, a Chynnyrchion.*—Y mae'r hinsawdd yn oer ac yn llaith yn yr ucheldiroedd; ond yn gynnhes ar y gwastadeddau a'r dyffrynoedd. Yn nyffryn yr Iorddonen, yn enwedig yn ngwastadedd Ierico, a Mesopotamia ddeheuol, y mae gwres yr haf yn angerddol: tra y mae y Tehama, neu arfordir y Môr Coch, yn enwog fel un o'r lleoedd poethaf ar wyneb y ddaear. Ond y mae pigau uchaf Mynydd Ararat wedi eu gwisgo âg eira oesol; ac hefyd y rhanau uchaf o gadwen fynyddig Libanus. Y mae llawer o opium yn cael ei gynnyrchu yma; ac y mae Palestina wedi bod yn hynod yn yr hen oesoedd fel "gwlad ŷd a gwin, gwlad bara a gwinllanoedd, gwlad olew olewydd a mêl," &c.; 2 *Bren.* xviii. 32.

*Gweithfeydd, a Masnach.*—Y mae y Tyrciaid yn hynod am brydferthwch eu llawrleni (*carpets*), a'u gwarleni (*shawls*), ac am eu medr i ddarparu y lledr a elwir morocco. Sychant lawer o ffrwythydd eu gwlad hefyd, i'w hanfon i wledydd tramor.

*Poblogaeth.*—Y mae y Tyrciaid yn ffurfio naw rhan o ddeg o boblogaeth Asia Leiaf, ac yn proffesu y ffydd Fahometaidd. Arabiaid—hiliogaeth Sem—ydyw mwyafrif trigolion Syria ac Arabistan; ac y maent hefyd yn ddilynwyr y Prophwyd. Ond y mae Iuddewon a Groegiaid yn lliosog yn Ngwlad Canaan, ac mewn rhai o'r talaethau eraill. Llywodraethir pob talaeth gan swyddog a elwir *pasha*; yr hwn sydd yn ddarostyngedig i'r Sultan.

Abdul Hamid II., a gyhoeddwyd Awst 31, 1876, yw y Sultan, neu yr ymherawdwr. Ei

Digitized by Google

frawd, Mehemmed Reshad Effendi, yw etifedd nesaf y goron. Caer Cystenyn ydyw y brif ddinas—pobl. yr hon, yn 1885, oedd yn 871,561.

Cyllid Twrci yn y fl. 1883-4 ... 14,736,200*p.*
Treuliadau yr un flwyddyn ... 14,655,500*p.*
Dadforion o'r wlad hon yn 1887 3,344,603*p.*

ARABIA. Y mae erthygl faith yn ymddangos dan y gair hwn yn td. 284—291 yn y gyfrol hon. Yn yr erthygl hono, ceir y cyfeiriadau mynych sydd yn y Beibl at y wlad, yn nghyd âg ystyr ei henw, ei hen raniadau, ei ffurf anianyddol, a'i hinsawdd; yr ymsefydlwyr cyntaf, a'u dull o fyw, eu hiaith, a'u crefydd; a mynediad Cristionogaeth i'w mysg, a'r gwasanaeth y maent wedi bod i oesoedd diweddarach, &c. Yn cyf. iii., td. 265, ceir ei mesuriad, ei phoblogaeth, ei chynnyrch, a'i hallforion, &c., yn y fl. 1861—yr adeg y cyhoeddwyd y gyfrol hono. Nid oes angenrheidrwydd i ni, gan hyny, yma ond yn unig roddi y manylion dilynol yn mherthynas iddi.

Y mae hi yn mesur, yn ol y cyfrifon diweddaraf, tua 1,000,000 mill. pet.; a chyfrifir fod ei phoblogaeth tua 6,000,000. Rhenir hi yn awr yn saith o raniadau gwladol; sef, Arabia Petræa (Garegog), Hedjaz, Yemen, Hadramaut, Oman, Lachsa, a Nedjed. Y mae y wlad, gan hyny, o ddeutu deuddeng waith cymmaint a'r Ynysoedd Prydeinig; ond nid yw ei phoblogaeth ond tuag un ran o chwech o'n poblogaeth ni. Nid oes afonydd ynddi; a chynnwysa wastattir uchel, tuag wyth mil o droedfeddi uwch law y môr, a rhanau maith sydd yn anial, ac yn amddifaid o ffrwythlonrwydd. Ond y mae yr arfordiroedd yn isel; a lle y ceir dwfr, y mae llwyni o goed palmwydd yn tyfu, a ffrwythydd arnynt.

*Rhaniadau, a Phrif drefydd.*—Y mae Arabistan (yn cynnwys Arabia Garegog, Hedjaz, ac Yemen) yn ddarostyngedig i Twrci; a thalaeth Oman i Imam Muscat. Am y tri eraill, sef Hadramaut, Lachsa, a Nedjed, y maent wedi ymffurfio yn nifer o fân deyrnasoedd. Y mae llywodraeth y Bedouiniaid yn hollol batriarchaidd. Y mae Aden yn amddiffynfa gadarn, yn perthyn i Brydain, ar yr arfordir deheuol. Yn Makalla, prif ddinas Hadramaut, ceir ymborth, &c., i longau ar eu mordaith i India. Muscat (pobl. 50,000), yw prif ddinas Oman, ar yr hon y llywodraetha Imam—y teyrn mwyaf galluog yn Arabia; a gwneir masnach fawr yn y porthladd hwn.

*Hinsawdd, a Chynnyrchion.* — Dyma'r hinsawdd sychaf yn y byd; ac ychydig iawn o'r wlad sydd dan driniaeth. Megir nifer mawr o gamelod, defaid, a geifr yno. Y mae meirch y wlad yn hynod am eu prydferthwch a'u cyflymdra. Dywedir mai Ynys Bahrein yw, fe ddichon, y bysgodfa o berlau gyfoethocaf a mwyaf gwerthfawr yn y byd. Y mae gweithfeydd yn brinach yn y wlad hon nag mewn unrhyw wlad arall hanner gwareiddiedig; ond dygir llawer o gynnyrchion masnachol drwyddi er hyny.

*Poblogaeth.*—Y mae trigolion Arabia yn hiliogaeth gymmysgedig, wedi tarddu mewn rhan o Cam, ac mewn rhan o Sem, meibion Noah. Mab hynaf Cam oedd Cus; ac ymddengys mai y Cusiaid oedd trigolion boreuaf Arabia Ddeheuol, ac iddynt anfon gwladychfeydd ar draws y Môr Coch, a phoblogi Ethiopia, sef Abyssinia. Y mae hiliogaeth Sem yn benaf yn cynnwys y Joctaniaid, neu y Cachtaniaid; pa rai, yn ol y daearyddwyr Arabaidd, a ymsefydlasant yn Yemen yn fuan ar ol cymmysgiad yr ieithoedd:—yr Ismaeliaid, y rhai a ymsefydlasant i'r dwyrain a'r de-ddwyrain o Palestina:—y Midianiaid a'r Amaleciaid, pa rai, yn amser Moses, a feddiannasant Orynys Sinai:—yr Edomiaid a'r Nabathiaid, y rhai a boblogasant Idumea, prif ddinas yr hon oedd Petra:—y Nahoriaid, y rhai a drigasant "yn ngwlad Uz:" —a'r Moabiaid a'r Ammoniaid, y rhai a feddiannasant y wlad i'r dwyrain a'r gogledd-ddwyrain o'r Môr Coch. Daeth y bobl hyn, a llawer eraill, cartrefi neillduol pa rai nis gellir eu penderfynu yn awr, yn nghwrs oesoedd, i ymgymmysgu â'u gilydd; ac aethant dan yr enw cyffredinol o 'Arabiaid.'

*Iaith.*—Y mae hi yn enwog am ei chyflawnder a'i phrydferthwch, ac yn cynnrychioli yn fwyaf arbenig yr hen deulu Semaidd o dafodieithoedd. Y mae ei gwreiddiau yn gyffredin yn gwbl yr un ag eiddo yr Hebraeg; ac y mae ei lleddfiadau a'i threigliadau yn meddu tebygolrwydd mawr i'r Hebraeg, er eu bod yn llawer mwy amrywiol a lliosog. Arferir hi yn gyffredin fel iaith crefydd a masnach pa le bynag y mae y ffydd Mahometaidd yn bodoli; ac ynddi yr ysgrifenwyd y Koran—llyfr cyssegredig holl Fahometiaid y byd. Byth er amser Mahomet, Islamiaeth, neu Fahometiaeth, sydd wedi bod yr unig grefydd adnabyddus yn Arabia.

*Llywodraeth.*—Y mae Arabistan, at yr hwn y cyfeiriwyd dan Twrci yn Asia (yr hon sydd yn cynnwys Arabia Garegog, Hedjaz, ac Yemen), yn ddarostyngedig i Twrci; a Thywysogaeth Oman i Imam Muscat. Y mae y rhanau eraill o'r wlad yn ffurfio amryw o fân deyrnasoedd. Llywodraeth batriarchaidd sydd gan y Bedouiniaid: ac y mae ffurf ei llywodraeth heddyw yn debyg fel yr oedd yn nyddiau Abraham—y prif awdurdod yn gorwedd yn mhob llwyth mewn penaeth, a elwir *sheikh*—swydd yr hwn sydd yn etifeddol.

PERSIA. At erthygl ar y wlad hon, a welir yn cyf. iii., td. 265, ac un arall faith sydd yn cyf. viii., td. 339—346—yr hon sydd yn rhoddi y ffeithiau mor ddiweddar ag 1874, ni a chwanegwn y manylion diweddarach canlynol.

Cyfrifir fod ei harwyneb yn awr tua 636,000 mill. pet., gan gynnwys y diriogaeth a ennillwyd yn ddiweddar gan Affghanistan a Beloochistan. Dioddefodd lawer drwy y newyn mawr oedd yno yn y fl. 1870, fel nad oedd ei phoblogaeth yn ddiweddar yn fwy na 7,653,600. Ystyrir Persia fel y deyrnas fwyaf, gyfoethocaf, a galluocaf yn Asia Ddwyreiniol. Gorwedda rhwng 25° 10′ a 39° 50′ lled. gog., a 44° 15′ a 63° hyd. dwyreiniol, ac yn mesur tua 900 o filldiroedd bob ffordd. Ei brenin a elwir *Shah.* Ei enw ydyw Nasir-êd-Din; yr hwn a anwyd Ebrill 24, 1829, ac a esgynodd i'r orsedd Medi 10, 1848. Talodd ddau ymweliad â'r deyrnas hon—un yn 1873; ac un arall yn y flwyddyn 1889. Dywedir fod ei ymweliad cyntaf ef â Phrydain wedi effeithio yn hynod dda arno; a'i fod gryn lawer tynerach wrth ei ddeiliaid, a'i wasanaethyddion, a phawb, ar ol ei ddychweliad adref.

Y mae Persia yn awr yn cael ei rhanu yn dair-ar-ddeg o dalaethau; sef, Astrabad, Mazanderan, Ghilan, Azerbijan, Kourdistan Persiaidd, Luristan, Khuzistan, Fars, Laristan, Kerman, Yezd, Khorassan, ac Irak-Ajemi. Y mae y

Digitized by Google

rhaniadau yn gwahaniaethu yn eu rhif a'u maintioli ar adegau; ond y maent yn gyffredin yn myned dan yr enwau uchod.

*Arwynebedd.*—Y mae canol y wlad yn wastattir uchel, tua 3,000 tr. uwch law y môr, ac y mae amryw gadwyni o fynyddoedd yn rhedeg drwyddi, y rhai sydd yn cyrhaedd uchder o 7,000 neu 8,000 tr. Y mae un pigyn o fynydd tanllyd, sef Demavend, ar y terfyn gogleddol, yn 18,464 tr. o uchder. Yn y rhan orllewinol, y mae darnau cynnyrchiol o dir; ac felly hefyd ar arfordir Môr Caspia; ond y mae y rhan ddwyreiniol o'r wlad yn ammhossibl i'w drin, gan mai anialwch hallt ydyw.

*Hinsawdd, a Chynnyrchion.*—Y mae yr hinsawdd yn hynod o oer yn y gauaf ar y tiroedd uchel, ac yn anniodddefol o boeth yn yr haf ar y gwastadeddau. Ceir eithafion o oerni a gwres yn Persia. Prinder dwfr ydyw anfantais fawr y wlad. Pa le bynag y mae dwfr i'w gael, y mae yr amaethwr yn cael tâl da am ei lafur. Nid oes o'r braidd ddim gwlaw yn disgyn yno; ac y mae coed yn gwrthod tyfu, ond yn agos i ddwfr. Ond i'r gogledd o fynyddoedd Elburz y mae hi yn wahanol. Ceir yno adegau o dywydd sych a gwlyb yn gysson, yn mron fel rhwng y trofanau; ac yno y mae porfeydd a llysiau o bob math yn tyfu yn rhagorol. Ffrwythydd ydyw ei phrif gynnyrchion, gyda gwin, gwenith, haidd, a reis, tybaco, assafœtida, ac amryw o gyfferïau meddygol, llawrleni sidan, peraroglau *(perfumes)*, arfau miniog o wahanol fath, gwydr, lledr, &c.; a gwneir masnach fawr rhyngddi ag India a Rwssia. Ei mŵnau penaf ydyw y *turquoise*, neu *calaite*, a geir yn Nishapoor, a'r marmor gwyn rhagorol sydd i'w gael yn Maragah. Yn mysg ei chreaduriaid gwylltion ceir y llew, y llewpart, yr arth, y baedd gwyllt, y blaidd, a'r ddraenog fawr, &c. Y mae ei hanifeiliaid dôf yn cynnwys y rhan fwyaf o'r rhai a geir yn Ewrop, gyda'r camel.

*Poblogaeth.*—Y mae yn gymmysgedig. Taujiciaid *(Taujiks)* y gelwir y llwythau sefydlog. Siaradant yr iaith Bersiaidd, yr hon sydd yn hynod am ei hystwythdra a'i pherseinedd; tra y mae y teithluoedd, neu yr *Ilyats*, fel y gelwir hwy, yn rhifo tua 2,000,000. Gyda'r eithriad o'r Parseeaid, neu addolwyr y tân, Mahometiaid ydyw y Persiaid oll. Llywodraeth unbenaethol hollol sydd yno, ac y mae hi yn un hynod o orthrymus. Nifer ei milwyr yn 1887 oedd tua 80,500; a'i milwyr cartrefol tua 70,000.

*Afonydd.*—Gan eithrio y Karun, nid oes o'r braidd afon fordwyol drwy yr holl wlad, er bod rhai o honynt yn cynnwys llawer o ddwfr, ac yn rhedeg am amryw gannoedd o filldiroedd.

*Mŵnau.*—Halen, haiarn, a glô; efydd, plwm, antimoni, a sulphur ydynt.

Nid oes ganddi ddyled wladol, gan fod ei chyllid yn fwy na'i threuliadau. Swm y cyllid blynyddol, a dderbynia mewn arian, ydyw tua 2,100,000*p.*; ac y mae ei threuliadau tua'r un faint. Ond derbynia y llywodraeth gyllid chwanegol, yr hwn a delir mewn defnyddiau ac anifeiliaid, &c., yr hwn sydd yn werth tua 330,000*p.* yn y flwyddyn.

| | |
|---|---|
| Ei dadforion blynyddol ydynt. | 3,850,000*p.* |
| Y mae gwerth ei hallforion tua | 2,260,000*p.* |
| Derbynia o India Brydeinig yn unig tua gwerth ... ... | 1,500,000*p.* |
| Derbyniwyd o'r Deyrnas Gyfunol yn 1887 werth ... ... | 162,868*p.* |
| Anfonodd yma yr un flwyddyn | 103,420*p.* |

AFFGHANISTAN. Yn td. 99, a cyf. iii. 266, ymddengys disgrifiad o'r wlad, a'i thrigolion, yn yr adeg yr ysgrifenwyd yr erthyglau hyny; ond ni a roddwn yma y ffeithiau fel y ceir hwynt ar ddechreu 1889.

Cyfrifir fod y wlad yn mesur tua 279,500 mill. pet.; ond nid yw ei phoblogaeth ond tua 4,500,000. Y mae hi wedi bod yn rhan o ymherodraeth Persia, ac ar ol hyny o ymherodraeth Groeg.

*Arwynebedd.*—Y mae rhan fawr o'r gogledd yn wastattir uchel, o 5,000 i 9,000 tr. uwch law y môr, ar draws yr hwn y mae llinellau o fynyddoedd mawr; ac y mae pedair rhan o bump o'r wlad yn greigiau a mynyddoedd. Anialwch tebyg i'r rhai a geir yn Arabia ydyw ei rhan dde-orllewinol; ond yn mysg ei mynyddoedd y mae dyffrynoedd ffrwythlawn. Rhenir hi yn bum talaeth; sef, Kabul, Herat, Kandahar, Balkh, a Kunduz.

*Llynau.*—Dau lyn sydd ynddi; sef, Seistan, neu Hamun, yn y gorllewin, ac Ab-istada yn y dwyrain.

*Hinsawdd.*—Yn yr haf, y mae y gwres yn anniodddefol yn y dyffrynoedd a'r rhanau isel o'r wlad. Gorwedda eira y gauaf yn hir, ac yn ddwfn, ar y rhanau mynyddig; ac y mae yr oerni hefyd yn eithafol. Dyma un o brif achosion dioddefiadau ein byddin ni yn India ar ol ei gorchfygiad yn Ionawr, 1842. Nid oes, o'r braidd, ddim gwlaw yn disgyn yn y rhanau gorllewinol o'r wlad—lle y mae yr hinsawdd yn debyg iawn i'r eiddo Persia.

*Cynnyrchion.*—Fe geir ynddi aur, ac arian, arian byw, haiarn, plwm, efydd, antimoni, glô, brwmstan, naphtha, a chraig halen—ond mewn symiau bychain; hefyd reis, cotwm, corsenau sugr, ŷd India, a turmeric. Y mae llysieuaeth ei rhanau uchel yn debyg i'r eiddo Ewrop; ac ar y tiroedd isel, y maent yn debyg i'r eiddo India.

*Anifeiliaid.*—Ychydig o anifeiliaid gwylltion sydd yno, gyda'r eithriad o fleiddiaid, a llewod bychain a geir yn agos i Kabul. Ar gamelod y cerir masnach y wlad yn mlaen yn benaf. Ceir yno y mul, yr afr, y ci, a'r gath, &c. Y mae defaid y wlad yn hynod am faintioli eu cynffonau; y rhai sydd yn ddarnau o frasder pur, yn pwyso o ddeg i ddeuddeg pwys yr un.

*Trigolion.*- Yr Affghaniaid—neu y Pushtaneh, fel y galwant eu hunain, preswylwyr presennol y wlad—oedd ei brodorion cyntaf, mae'n debyg. Rhyfelwyr, a phobl hanner anwaraidd ydynt. Y mae eu hiaith yn gangen bwysig o'r teulu Medo-Persiaidd, yr hon sydd ei hunan yn aelod o'r teulu Indo-Ewropaidd o ieithoedd. Mahometiaeth ydyw eu crefydd, gan mwyaf.

*Llywodraeth.*—Y mae Affghanistan wedi bod am amser mewn sefyllfa gyffrous. Yn 1868, ennillodd Shere Ali, mab Dost Mohammed enwog, y brif lywodraeth; ond gan ei fod wedi derbyn cenhadwr o Rwssia, ac wedi gwrthod derbyn cenhadwr o Brydain, ymosodwyd ar ei wlad gan fyddin Brydeinig. Ffodd Shere Ali i diriogaeth Rwssiaidd. Yna gosodwyd ei fab, Yakub, mewn awdurdod; ond gan ei fod yn ymddangos yn anffyddlawn i'w wlad, gorfodwyd ef i'w gadael; ac y mae hi yn cael ei llywodraethu yn awr gan Abdurrahman Khan.

*Trefydd.*—Cabul, Herat, Candahar, a Ghuznee ydyw ei phrif drefydd. Y mae poblogaeth Cabul tua 60,000; ac yno yr ymddangosodd anffyddlondeb eu penaethiaid yn 1842, pan laddwyd

Digitized by Google

3,800 o filwyr Prydeinig, a 12,000 o'u canlynwyr. Yr oedd Herat yn hir yn brif ddinas yr ymherodraeth ëang a lywodraethid gan olynwyr Timur; ac etto yn ddinas o bwysigrwydd milwraidd neillduol. Y mae hi yn ganolbwynt o fasnach fawr a wneir rhwng India, China, Tartary, Affghanistan, a Persia; a golygir hi fel yr agoriad, mewn ystyr filwraidd, i India, o'r gorllewin. Dinas gaerog ydyw Candahar, ac yn enwog am fuddugoliaeth fawr a gafodd y Cadfridog Roberts ar Ayoub Khan, Medi 1, 1880, pan y chwalwyd byddin Ayoub.

*Gweithfeydd, a Masnach.*—Defnyddiau gwlân a chotwm a wneir ynddi fwyaf, at wasanaeth ei thrigolion. Anfonir hwynt hefyd i India, Persia, a Turkestan, yn benaf; a throsglwyddir yr eiddo ar gamelod, gan nad ydyw y ffyrdd yn gymmhwys i gerbydau. Y prif allforion ydyw ceffylau, y rhai a fegir mewn niferi mawr yno, ac a anfonir i India; ynghyd â ffwrw, gwarleni, *chintz*, *madder*, assafœtida, tybaco, ffrwythydd, a llawrleni Herat, &c.

BELOOCHISTAN, neu BILUCHISTAN. Terfynir y wlad hon ar y gogl. gan Affghanistan; y gor., gan Persia; de, gan Fôr Arabia; ac ar y dwyr. gan Sindh. Mesura tua 110,000 mill. pet.; ac y mae ei phoblogaeth tua 1,000,000. Y mae hi felly tua thair gwaith gymmaint a'r Iwerddon.

*Arwynebedd.*—Mynyddig, gwyllt, ac uchel, ydyw yr holl wlad, yn mron; oddi eithr yn y gogl-orll., ac ar hyd yr arfordir. Y mae dwfr yn hynod brin; ac y mae hyny o leithder fydd yn yr awyr yn cael ei sugno gan yr anialdiroedd.

*Rhaniadau.*—Cynnwysa saith o dalaethau; sef, Kachh-Gundava, Sarawan, Kelat, Jhalawan, Lus, Mekran, a Kohistan.

*Trefydd.*—Ei phrif drefydd ydynt Kelat, gyda phoblogaeth o 12,000; a Gundava, gyda phoblogaeth o 20,000.

*Hinsawdd.*—Yn y rhanau uchaf o'r wlad, y mae hi yn hynod o oer yn y gauaf; ac y mae eira yn disgyn o Hydref i ddiwedd Chwefror. Mewn rhai manau, erys ar y ddaear am ddau fis. Ar y gwastadeddau a'r dyffrynoedd y mae y gwres yn yr haf yn fawr. Disgyna cryn lawer o wlaw yn misoedd Chwefror a Mawrth; ond parhâ y tymmor sych o hyny hyd fis Medi.

*Mŵnau.*—Y mae y wlad yn gyfoethog ynddynt; a chynnwysant aur, arian, plwm, haiarn, efydd, alcan, antimoni, sulphur, alwm, saltpetre, &c.

*Y Trigolion, a'u Crefydd.*—Y mae dwy hiliogaeth o bobl i'w cael yn Beloochistan; sef, y Beloochiaid, a'r Brahooiaid. Preswylir y rhan orllewinol o'r wlad gan y cyntaf; ac y maent yn bobl annysgedig ac anwybodus. Bugeiliaid ydynt, gan mwyaf; a dywedir eu bod wedi tarddu o'r Tyrciaid Seljucaidd. Mahometiaid ydynt o ran eu crefydd; a siaradant dafodiaith lygredig o'r Bersiaeg—i'r hon y mae rhanau o'r Ysgrythyrau wedi eu cyfieithu gan genhadon sydd yn Serampore. Y mae y Brahooiaid yn preswylio yn benaf yn y talaethau dwyreiniol, ac yn fwyaf yn Jhalawan. Siaradant iaith o darddiad Sanscritaidd; yr hon nid oedd yn ddiweddar, o leiaf, wedi ei gosod mewn ysgrifen. Mahometiaid ydynt o ran eu crefydd.

*Llywodraeth.*—Ar y talaethau dwyreiniol y mae gan y Khan o Kelat ryw fath o awdurdod. Llywodraethir y gweddill gan eu penaethiaid eu hunain, ac ni chydnabyddant un awdurdod arall.

*Masnach.*—Ychydig y mae y tir yn ei gael o sylw y bobl hyn; ac nid oes un rhan o gant o hono dan driniaeth. Megir ganddynt lawer o wartheg duon a geifr. Yr allforion penaf ydynt ymenyn, crwyn, gwlân, cyfleriau meddygol, ffrwythydd wedi eu sychu, pysgod, ŷd, ac olew a geir o lysiau.

TURKESTAN ORLLEWINOL, neu TARTARY ANNIBYNOL (*Independent Tartary*). Yn cyf. ix. 609, &c., ceir erthygl ar y wlad—yr hon sydd yn rhoddi llawer o fanylion yn nghylch ei hanes, ei chynnyrchion, a'i therfynau y pryd hyny. Ni a chwanegwn, gan hyny, y ffeithiau diweddaf y gallesid eu cael yn mherthynas iddi.

*Terfynau.*—Siberia, ar y gogl.; Môr Caspia, ar y gor.; Persia, Affghanistan, a'r Punjaub, ar y dde; a Turkestan Ddwyreiniol ar y dwyr. Gan fod Rwssia, yn ddiweddar, wedi cymmeryd gwastattir diffaeth Kirghiz, gyda Khiva, Khokand, a rhan o Bokhara, tybir mai ei mesur yn awr yw tua 380,000 mill. pet., gyda phoblogaeth o ychydig dros 2,500,000. Y mae hi o ddeutu tair gwaith maintioli y Deyrnas Gyfunol.

*Arwynebedd.*—Cynnwysa wastadedd anferth, gan mwyaf; yr hwn sydd yn gogwyddo ar bob ochr tua moroedd Caspia ac Aral. Y mae rhan fawr o'r gwastadedd yma yn is nag arwyneb y Môr Du; ond y mae Môr Aral 33 tr. uwch law iddo. Mae y rhan dde-ddwyr. o Turkestan yn cynnwys rhan o'r gwastattir uchel a elwir Pamir, yr hwn sydd 15,600 tr. o uchder. Ceir yma lawer o ddyffrynoedd ffrwythlawn sydd yn cael eu dyfrhau yn dda; ond yn gyffredinol, gwlad hynod o ddiffrwyth ydyw.

*Rhaniadau.*—Y mae hi yn raddol wedi colli ei hannibyniaeth. Nis gall Rwssia ganiatau i deyrnas annibynol o unrhyw fath fod yn agos ati. Cymmerodd feddiant o Khiva, Khokand, a diffaeth Kirghiz, a rhan fawr o Bokhara, a thaflodd hwy i grochan fawr ei hymherodraeth ei hun. Y briwsionyn diweddaf a lyngcodd oedd Merv. Y gweddillion yw y rhai canlynol:—Kafiristan, Kunduz, Badakshan, Bokhara, a Balkh.

*Hinsawdd.*—Y mae hi, o angenrheidrwydd, yn amrywio yn fawr, gan fod arwyneb y tir yn gwahaniaethu, o 84 tr. is law arwyneb y Môr Du, i 18,000 tr. uwch law iddo. Dywedir fod hinsawdd Bokhara, yn y deheu, yn sych, yn ddymunol, ac yn iach; ond ei fod yn oer iawn yn y gauaf, pan y mae gwyneb y llyn Amoo wedi ei orchuddio â thrwch tew o ia, fel y gall teithwyr dramwyo drosto yn hawdd. Gorwedda eira yno am tua thri mis bob blwyddyn; ac y mae stormydd mawr yn fynych yn dilyn gwres mawr yr haf.

*Cynnyrchion.*—Ceir hwynt fel y canlyn:—Aur yn nhywod yr Amoo; halen, ceryg gwerthfawr, a ffrwythydd rhagorol mewn cyflawnder; reis, gwenith, haidd, ŷd India, tybaco, a llin. Ond cyfyngir y driniogaeth i ochrau yr afonydd, yn mron yn unig. Ychydig o goed sydd yn tyfu yn y wlad. Y mae llawer o anifeiliaid gwylltion ynddi; megys yr ych, y ceffyl gwyllt, llewpardiaid, bleiddiaid, llwynogod, ysgyfarnogod, scorpionau, locustiaid, &c.

*Poblogaeth.*—Ystyr y gair *Turkestan* ydyw 'gwlad y Tyrciaid;' a gelwir hi felly am mai yno yr oedd pencadlys cenedl y Tyrciaid er cyn côf. Yn mysg y llwythau sefydlog, y mwyaf

Digitized by Google

lliosog ydyw y Taujikiaid *(Taujiks)*, y rhai y tybir eu bod wedi tarddu o'r Persiaid, neu o'r Arabiaid. Siaradant Bersiaeg pur. Eu crefydd yn benaf ydyw Mahometiaeth.

*Masnach.*—Y mae llawer o fasnach yn cael ei gwneyd yn y wlad, yn enwedig yn Khiva a Bokhara, gan fod ei therfynau yn gorwedd yn gyfleus i Rwssia, Persia, Affghanistan, India, ac Ymherodraeth China. Gan finteioedd o deithwyr, neu deithluoedd, yn benaf y cludir y defnyddiau o'r naill fan i'r llall. Sidan a defnyddiau cotwm sydd yn cael eu gwneyd yn benaf yn y trefydd, gyda chleddyfau, cyllyll, ac arfau cyffelyb. Y mae'r allforion yn cynnwys cotwm, gwlân, ffrwythydd, crwyn, a sidan.

*Ffurflywodraeth.*—Y mae y gwahanol lywodraethau sydd i'w cael o fewn y wlad hon yn orthrymus; ond y mae y penaethiaid dan orfodaeth i lywodraethu yn unol âg egwyddorion y *Coran;* ac y maent hefyd dan ddylanwad yr offeiriaid, a'r farn gyhoeddus.

HINDUSTAN, neu INDIA. Yn cyf. iii. 266, ceir erthygl ar y wlad hon; ac felly hefyd, ceir erthygl faith arni yn cyf. v. 455—503. Ni wnawn yma ond nodi maintioli y wlad, a'i phoblogaeth, yn ol y cyfrifon cywiraf sydd wedi eu cael ar yr adeg bresennol (1889). Cyfrifir fod ei mesur tua 1,475,858 mill. pet.; a'i phoblogaeth yn 257,000,000, yn ol y cyfrif diweddaf a wnaed yn hysbys yn y wlad hon.

Ceir manylion diweddarach yn yr erthygl HINDUSTAN, cyf. v.

INDIA BELLAF *(Further India).* Cyfrifir ei bod hi yn mesur 852,720 mill. pet.; a'i phoblogaeth, yn ol y cyfrifiad diweddaf a wnaed, ydyw 25,497,500.

Ceir manylion diweddarach mewn erthygl dan y gair yn cyf. v.

CHINA, YMHERODRAETH. Dywed rhai ei bod yn mesur 3,981,150 mill. pet., a bod ei phoblogaeth, yn ol adroddiadau diweddar, yn 440,650,000. Ammheuir y cyfrif hwn am ei phoblogaeth gan eraill. Gwel d. g. CHINA, yn cyf. ii. 333, &c.

RWSSIA YN ASIA. Y mae y rhan hon o ymherodraeth Rwssia yn cynnwys Siberia; neu, mewn geiriau eraill, holl ogledd Asia, i'r dwyrain o brif gopa mynyddoedd yr Altai, a'r afon Amur; y rhanau sydd yn cynnwys yr arfordir ar y rhan ddeheuol o'r afon a nodwyd, y gwastattiroedd diffaeth *(steppes)* a elwir Kirghiz; ynghyd â'r rhanau o Turkestan y cymmerodd feddiant o honynt yn ddiweddar, y rhai sydd yn gorwedd rhwng 40° 30' a 78° lledred gogleddol, a 50° a 190° hydred dwyreiniol.

Y mae y rhan hon o Rwssia yn cynnwys y llywodraethau canlynol:—

SIBERIA.

| Teyrnasoedd. | Mill. Pet. | Poblogaeth. |
|---|---|---|
| Amoorskaya (1870) ... | 173,552 ... | 44,400 |
| Irkutsk... ... ... | 309,177 ... | 378,244 |
| Primorsk (neu y Goror Morawl) ... ... | 731,910 ... | 45,000 |
| Tobolsk.. ... ... | 531,959 ... | 1,086,848 |
| Tomsk ... ... ... | 329,024 ... | 838,756 |
| Trans-Baikal ... ... | 240,770 ... | 430,780 |
| Yakutsk. ... ... | 1,517,063 ... | 231,977 |
| Yeniseisk ... ... | 992,832 ... | 372,862 |
| Cyfanrif ... ... | 4,826,287 ... | 3,428,867 |

CANOLBARTH ASIA.

| Teyrnasoedd. | Mill. Pet. | Poblogaeth. |
|---|---|---|
| Akmolinsk ... ... | 210,556 ... | 381,900 |
| Zarafshan ... ... | 19,625 ... | 271,000 |
| Semipalatinsk .. ... | 188,291 ... | 510,163 |
| Semiretchinsk .. ... | 155,290 ... | 543,094 |
| Syr-Daria ... ... | 165,996 ... | 848,489 |
| Turgai ... ... ... | 202,183 ... | 289,930 |
| Ural ... ... ... | 141,468 ... | 346,715 |
| Kuldja ... ... ... | 27,457 ... | 114,337 |
| Amu-Daria ... ... | 39,974 ... | 220,000 |
| Cyfanrif ... ... | 1,150,840 ... | 3,525,628 |

Yn y tafleni uchod, ymddengys fod meddiannau Rwssia yn Asia yn mesur 5,977,127 mill. pet.; a'r boblogaeth yn 6,954,495. Yn ol cyfrif arall, dywedir fod y rhanau uchod yn mesur 7,147,000 mill. pet.—yr hyn sydd tua dwywaith cymmaint a holl Ewrop; a bod y boblogaeth yn 14,100,000—neu ddau berson ar gyfer pob mill. pet. Dyna fel y saif y cyfrifon yn 1888; ac fe welir fod cryn wahaniaeth yn ddynt. Pa un sydd yn iawn, nis gwyddom. Nid llawer o wahaniaeth sydd rhyngddynt am fesur y diriogaeth, wrth ystyried ei maintioli; ond y mae y gwahaniaeth yn fawr iawn yn nifer y trigolion. Cyfeiriwn y darllenydd at yr erthygl dan y gair RWSSIA yn cyf. ix., td. 99—yn yr hon y disgwylir y gellir rhoddi manylion diweddarach, a nes hefyd at fod yn gywir.

JAPAN. Er y flwyddyn 1854, at ffeithiau yr hon y cyfeiria yr erthygl yn cyf. vi. 324, y mae cyfnewidiadau mawr wedi cymmeryd lle yn y wlad hono.

Mutsu Hito ydyw yr ymherawdwr presennol; yr hwn a goronwyd Hydref 13, 1868. Dywedir fod yr ynysoedd sydd yn cyfansoddi yr ymherodraeth yn awr yn rhifo 4,223—y benaf o ba rai ydyw Nippon, neu Niphon (yr hon, yn yr iaith hono, sydd yn rhoddi ei henw i'r holl ymherodraeth), Sikoku, Kinsiu, ac Yezzo. Ynysoedd Kurile a Luchu a berthynant i Japan yn awr. Y mae yr ynysoedd yn hynod losgfalaidd *(volcanic)*, ac y mae rhai o'r mynyddoedd yn parhau i fwrw eu llosgwy allan—yn benaf Fuji San, neu Fusi-yama, un o fynyddoedd mwyaf cyssegredig yr ymherodraeth, yr hwn sydd tua thrigain milldir o Tokio, y brif ddinas, ac yn 14,177 tr. o uchder.

*Arwynebedd.* — Dywedir fod yr ynysoedd, gyda'u gilydd, yn mesur 155,697 mill. pet.; a bod y boblogaeth, yn 1885, yn 33,868,997.

*Llywodraeth.*—Er cyn cof neb, y mae Japan wedi bod yn griddfan dan orthrwm o'r math gwaethaf. Heb law fod ganddi ddau benadur —un tymmhorol, ac un arall ysbrydol—yr oedd yno gannoedd o bendefigion a elwid '*Daimios*,' pob un o ba rai oedd yn meddu awdurdod hollol o fewn ei derfynau ei hun. Ni ddioddefid i'r trigolion ymgymmysgu â chenhedloedd eraill; a hyny o wareiddiad oedd yn y wlad, nid oedd wedi newid ei sefyllfa nemawr er gwell. Yn 1877, taflodd y '*Daimios*' eu hawl o'r naill du o herwydd iddynt gael eu gorchfygu gan y Mikado; a chyttunasant i fod, gyda'u deiliaid, yn ddarostyngedig i gyfreithiau y wlad, ac i'r ymherawdwr.

Nid ydyw y pendefigion yn awr ond tenantiaid ar yr etifeddiaethau eang oedd yn feddiannau treftadol ganddynt. Yn ol rhestr a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1862, yr oedd eu nifer yn 266, a'u cyllid yn amrywio o 15,000*p*. hyd 915,500*p*. Yr oedd tiriogaeth pob un yn ffurfio penadur-

Digitized by Google

iaeth ynddi ei hun. Y teitl a roddir yn fynych i'r 'Mikado,' neu y llywodraethwr, ydyw 'y Tenno,' neu Mab y Nefoedd; ac hefyd 'Kwotei,' neu Ymherawdwr.

Y mae cyfansoddiad gwladol presennol Japan yn dyddio o'r fl. 1878; ond y mae cyfansoddiad newydd yn dyfod i rym yn 1890, pan y bydd y senedd gyntaf yn cael ei hagor.

*Masnach.*—Gwneid ychydig o fasnach ganddi â China am ysbaid maith; a chaniateid i'r Ellmyniaid anfon dwy long yn flynyddol i Nagasaki. Parhaodd y sefyllfa hon ar bethau hyd ganol y ganrif bresennol; pan y torodd gwareiddiad rhagorach y gorllewin ar yr ymherodraeth er pob rhwystrau. Yn 1854, caniatawyd manteision masnachol i'r Unol Dalaethau mewn tri o borthladdoedd—Nagasaki, Simoda, a Hakodadi. Y flwyddyn ganlynol, caniatawyd yr un rhagorfreintiau i Brydain, Ffrainge, a Rwssia. Yn 1858, agorwyd y porthladdoedd canlynol i fasnach yr holl wledydd;—Yokohama, Kobe, Osaki, Nagasaki, Hakodadi, a Née-é-gata. Dygodd y cyfnewidiad hwn ffrwythau dymunol. O holl fasnach y wlad, gwneir 26 y cant â'r wlad hon, 24 y cant gyda'r Unol Dalaethau, ac 20 y cant gyda China. Yn wahanol i'r Chinëaid, y mae trigolion Japan wedi dangos parodrwydd i daflu eu hen arferion o'r naill du, ac i efrydu y celfyddydau, fel y dysgir hwynt yn Ewrop, ac yn America.

Yn 1870–71, dygwyd gwelliantau pwysig i mewn i'r wlad, gyda'r amcan o'i gwneuthur yn debyg i wledydd Ewrop. Dechreuwyd gwneyd ffyrdd haiarn, a gosod pellebrau yno. Agorwyd y ffordd haiarn gyntaf yno Mehefin 12, 1872; ac yn Rhagfyr, cynnygiwyd fod y Saesneg yn cael ei hystyried yn iaith y genedl. Erbyn 1877, yr oedd 3,744 o lythyrdai wedi eu sefydlu; ac yn y flwyddyn hono yr oedd 22,053,430 o lythyrau, a 7,372,566 o newyddiaduron cartrefol, wedi eu hanfon drwy y llythyrdai. Yr oedd dwy ffordd haiarn mewn llawn waith; a 34 o oleudai wedi eu hadeiladu ar y glanau. Gyda hyny, yr oedd yno ryddid crefyddol llawn, a masnach rydd. Erbyn canol y fl. 1882, yr oedd 53,760 o ysgolion elfenol mewn gwaith, ac addysg yn orfodol drwy y wlad. Yn Nhachwedd, 1883, cyhoeddwyd fod yr holl deyrnas yn agored i fasnach y byd; ac ar Awst 11, 1884, dadsefydlwyd y grefydd genedlaethol, a chafodd pob crefyddau drwy y wlad yr un rhyddid a'u gilydd.

*Hinsawdd.*—Y mae yr hin yn llawer tynerach nag ar y cyfandir cyferbyniol; a phriodolir hyny i ddylanwad y cefnfor sydd yn ei chylchynu. Ond y mae yr ochr orllewinol yn llawer oerach na'r ddwyreiniol, o achos agosrwydd Asia. Yn ei rhanau gogleddol, y mae hi yn hynod o oer yn y gauaf. Ceir gwlaw yn fynych, ac ymwelir â'r wlad yn aml âg ystormydd enbyd, a daeargrynfäau dychrynllyd.

*Cynnyrchion.*—Mynyddig iawn ydyw Japan; ac nid oes fwy nag un ran o chwech o honi y gellir ei thrin; ond y mae y tir yn hynod gynnyrchiol, yn tyfu pob math o gynnyrch amaethyddol. Amaethyddiaeth ydyw eu prif alwedigaeth; ac y maent yn talu sylw neillduol iddi, ac yn llwyddo drwy hyny i godi symiau anferth o gynnyrch. Y mae aur, arian, ac efydd i'w cael yn y wlad; ond y mae haiarn yn brin. Y mae digonedd o lô yno hefyd; o'r hwn yr anfonir symiau mawr i China. Y mae llaweroedd o lysiau yn blodeuo yn hynod brydferth—coed hefyd o wahanol fathau. Ceir yno dê, cotwm, reis, corsenau sugr, tybaco, llin, gwenith, haidd, a gwenith Ffrainge. Ceir dau gnwd o reis yno yn y flwyddyn; yr hwn, gyda physgod, sydd yn cyfansoddi prif ymborth y trigolion. Yno y mae epäod, eirth, baeddod gwylltion, udfilod, llwynogod, bronwenau, a cheirw. Addolir y llwynog fel creadur dwyfol gan y rhan fwyaf o ddynion deallus y wlad! Y mae yno adar ac ymlusgiaid lawer o wahanol fathau; ond nid llawer o'n hanifeiliaid cartrefol ni. Nid oes yno elephantiaid, camelod, na mulod. Defnyddir y march yn unig dan y cyfrwy. Ychain gwylltion, ac ychain, yw yr anifeiliaid a ddefnyddir i dynu llwythau.

*Trigolion.*—Y mae trigolion Japan wedi tarddu, mae'n debyg, o genedl y Mongoliaid, wedi eu cymmysgu â'r Malayaid; ond nid oes sicrwydd o ba le y daethant yno. Nid ydynt yn debyg i'r Chinëaid, o ran ffurfiad eu cyrph, eu hiaith, na'u crefydd. Y mae iaith y Japaniaid, y Loo-Chooan, a'r Corean, yn debyg iawn i'w gilydd; ond yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth y Chinëaeg.

*Hynafiaeth.*—Dywedir fod y wlad yn meddu hanes ysgrifenedig yn ymestyn yn ol 2,500 o fl.; fod achau ei brenhinoedd yn llinell ddidôr yn dechreu 660 o fl. C. C.; a bod yr ymherawdwr presennol yr unfed teyrn ar hugain ar ol y cant (121) o'i deulu sydd wedi bod yn llywodraethu y wlad. Ond ammheuir a ydyw ei hanes yn un y gellir ymddiried yn ei gywirdeb yn mhellach yn ol na B. A. 400.

Tôkiô (yr hon a elwid gynt Yedo, a Jeddo) ydyw y brif ddinas, lle y preswylia yr ymherawdwr; â'i phoblogaeth tua 1,121,000. Y mae dinasoedd mawr eraill yno; sef, Nagoya, gyda phobl. o 131,000; Osaka, â phobl. o 361,000; a Kiôto, yr hen brif ddinas, gyda phobl. o 24,500.

| | |
|---|---|
| Cyllid tebygol am 1888-89 | *P.* 16,121,124 |
| Treuliau etto ,, ... | 16,149,571 |
| Ei dyled, Mehefin 30, 1887 ... | 49,184,241 |
| Yr holl ddadforion yn 1887 ... | 8,860,850 |
| Ei holl allforion ,, ... | 10,481,536 |
| Derbyniwyd o Brydain yn 1887. | 3,705,393 |
| Allforion iddi yn 1887 ... ... | 489,918 |

YNYSOEDD ASIA. Enwau y prif ynysoedd sydd fel y canlyn:—Cyprus, Mitylene, neu Lesbos, yn Môr Ægea; Rhodes; Samos; Scio; yn y Levant; ac Ynysoedd Kurile. Rhoddwn yma ychydig o'r manylion diweddaf sydd ar gael am danynt o dan eu henwau priodol. Am ynysoedd eraill Asia, gwel d. g. INDIA, CHINA, ac OCEANIA.

CYPRUS. Ynys yn y Canolfor, ar y dde i Asia Leiaf. Mesura 3,678 mill. pet. Poblogaeth, tua 190,000; o ba rai y mae un ran o bedair yn Fahometiaid, a'r gweddill yn perthyn i'r Eglwys Roeg Uniawngred. Tua 300,000 o aceri sydd dan driniaeth—tua'r wythfed ran o'r ynys. Tyfir yno ŷd o wahanol fathau, a chotwm, sidan, gwin, olewydd, rhesin, a thybaco, &c. Yr allforion, yn 1888, oeddynt yn werth 210,266*p.*, a'r dadforion yn werth 356,375*p.* Y brif ddinas ydyw Nikosia; yr hon sydd tua chanol yr ynys, gyda phoblogaeth o tua 13,000. Ar y gwastadeddau, y mae hi yn hynod o boeth yn yr haf—yn benaf yn Gorphenaf, Awst, a Medi.

Y mae yr ynys yn parhau i fod yn rhan o Ymherodraeth Twrci; ond trwy gyttundeb a wnaethpwyd rhwng Lloegr a'r ymherodraeth hono, Mehefin 4, 1878, y mae yr ynys i fod dan

Digitized by Google

lywodraeth Prydain tra y pery Batoum a Kars yn meddiant Rwssia. Rhoddwyd math o ffurflywodraeth iddi gan Brydain; ac agorwyd llysoedd cyfreithiol sydd yn amddiffyn iawnderau y trigolion. Telir gan y deyrnas hon i Twrci 87,800*p*. fel cyllid; a 5,000*p*. fel ad-daliad am diroedd y llywodraeth; a 4,166,220 *okes* o halen —pob *oke* yn 2.83 pwys. Nid ydyw y deyrnged hon yn cael ei thalu, mewn gwirionedd, i'r Sultan; ond yn cael ei chadw fel rhan-dâl o'r golled a ddioddefodd Prydain a Ffrainge, pan dalasant y diffyg yn y swm a fenthyciwyd gan Twrci yn 1855, sef 5,000,000*p*.—yr hyn yr oedd y ddwy deyrnas wedi myned yn gyfrifol am dano.

MITYLENE, neu MYTILENE, yr hon a elwid hefyd yn *Lesbos*. Ynys yn perthyn i Twrci ydyw, yn agos i arfordir Asia Leiaf. Mesura 276 mill. pet.; ac y mae ei phoblogaeth tua 45,000—eu hanner agos yn Roegiaid. Y mae ei mynyddoedd yn cyrhaedd 3,080 tr. o uchder; ac wedi eu gwisgo â phinwydd. Ar ei gwaelod y mae olewydd a gwinwydd yn tyfu. Y prif allforion ydyw olew, coed, grawnwin, ffigys, cotwm, a phûg. Yr oedd yr athronwyr Theophrastus, Pittacus, a Crattipus, yn frodorion o honi. Ar Mawrth 6, 1887, bu yno ddaeargryn; yr hwn a ddinystriodd ei phrif ddinas a'i phentrefydd, a chladdwyd tuag wyth cant o bersonau yn yr adfeilion.

RHODES. Gorwedda yr ynys hon ar y de.-orll. o Asia Leiaf. Ei mesur ydyw 420 mill. pet. Poblogaeth, tua 35,000; o ba rai y mae tua 600 yn Ewropiaid, 6,500 yn Dyrciaid, 22,000 yn Roegiaid, a 2,000 yn Iuddewon. Anfonwyd allan o'r ynys y blynyddoedd diweddaf, o wahanol ddefnyddiau, werth tua 200,000*p*. Ei phrif gynnyrchion yw ysbwngau, valonea, a hen lestri pridd Persiaidd. Dywedir fod yr ysbwngau a geir yno yn werth tua 120,000*p*. yn y flwyddyn; o ba rai y mae gwerth 50,000*p*. yn cael eu hanfon i Loegr. Dadforiwyd i'r ynys, yn 1874, werth 141,900*p*. o ddefnyddiau.

SAMOS. Ynys ar arfordir gorllewinol Asia Leiaf. Mesura 165 mill. pet. Poblogaeth, tua 50,000. Y mae dwy gadwen o fynyddoedd yn rhedeg drwy y wlad, a'u hochrau yn cael eu gorchuddio yn mron gan binwydd, gwinwydd, ac olewydd. Dyma un o'r ynysoedd mwyaf cynnyrchiol yn y rhan hwnw o'r byd; ac anfonir o honi ŷd a gwinoedd. Y mŵnau a geir ydyw marmor, haiarn, plwm, arian, ac *emery*. Yr oedd yn yr ynys yn yr hen amseroedd deml hynod i Juno. Yno y ganwyd Pythagoras, a'r cerfluniwr Theodorus.

SCIO. Gorwedda yr ynys hon ar y tu gorllewinol i Asia Leiaf. Mesura 508 mill. pet. Ynys gyfoethog a phrydferth ydyw; a thyfa olewydd, a rhesin. Anfonir o honi tua gwerth 70,000*p*. yn y flwyddyn; a derbynia o wledydd eraill werth tua 45,000*p*. Yr oedd y bardd, Ion, yr hanesydd Theopompus, a'r athronyddion Theocritus a Metrodorus, yn frodorion o'r ynys; ac y mae hi yn hawlio, yn erbyn Smyrna, mai yno y ganwyd y bardd Groegaidd Homer.

YNYSOEDD KURILE. Y mae y rhai hyn tua 25ain mewn nifer, ac yn ymestyn o Kamtchatka i Japan. Perthyna tair o honynt i Japan, a'r gweddill i Rwssia. Mesurant 3,070 mill. pet. Y mae nifer y boblogaeth yn ansier, ond nid ydynt yn lliosog; ac y maent yn byw, gan mwyaf, ar helwriaeth a physgod. Y prif ynysoedd ydynt Iturup, Kunashir, Peramushir, Urup, ac Amakutan.

TRIGOLION ASIA.—Eu prif nodweddion.

*Eu Crefydd.*—Y mae y grefydd Fahometaidd yn ffynu yn Twrci yn Asia, yn Arabia, Persia, ac mewn rhan yn Hindwstan, ac yn ynysoedd Asia. Yn India y Dwyrain, y mae Brahminiaeth yn ffynu. Yn China, ac ynysoedd Japan, ac yn Tibet, ac yn mysg y Burmesiaid, y mae crefydd Buddha neu Fô yn gyffredin. Y mae yr amrywiol ffurfiau uchod o goelgrefyddau wedi dylanwadu yn dra niweidiol ar foesau cenhedloedd Asia; a thrwy gefnogi amlwreicaeth, ac argymhell penydiau a phererindodau, a'r cyffelyb, yn lle purdeb calon a buchedd, y maent wedi darostwng y bobl i'r cyflwr isaf o anfoesoldeb.


*Cenhedloedd.*—Gellir cynnwys holl genhedloedd y cyfandir hwn yn y dosbarthiadau canlynol:—1. Y Semitiaid—yn cynnwys Syriaid, Iuddewon, Arabiaid, a disgynyddion yr hen Galdeaid neu Aramæaid. 2. Y Kurdiaid Persiaidd, Ossetiaid, Armeniaid, Georgiaid, a'r Mingreliaid. 3. Y Tyrciaid—poblogaeth liosog sydd yn nghanolbarth Asia. 4. Y Samoiediaid, yn ngogledd Asia. 5. Y Mongoliaid, Buriatiaid, Kalmuciaid, Tungoosiaid, a chenhedloedd eraill yn ngogledd-ddwyrain Asia. 6. Y Japaniaid, a'r Chineaid. 7. Y Malayaid—yn trigo yn Malaysia a'r Ynysfor Dwyreiniol (*Eastern Archipelago*).

*Eu Cymmeriad.*—Y mae cymmeriad trigolion Asia, a chymmeryd golwg gyffredinol arnynt, yn cael ei osod mewn goleuni anffafriol iawn gan bob teithwyr; a dywedir fod anfoesoldeb gwarthus yn ffynu yn mysg poblogaeth a gwahanol gylchoedd cymdeithas yr holl genedloedd y mae genym wybodaeth am danynt. O holl drigolion y cyfandir mawr hwn, cyfrifir y Persiaid fel y bobl fwyaf coeth. Er hyny, yn ol Herbert, Chardin, ac eraill, ac yn ddiweddarach yn ol Fraser, Pottinger, a Syr J. Malcolm, y mae llawer o arferion isel y cenhedloedd eraill yn eu mysg. Nid ydyw yr Hindŵaid yn sefyll yn uwch mewn moesoldeb na'r Persiaid; ac yn mysg trigolion Burmah, a rhanau dwyreiniol y cyfandir, y mae eu hymddygiadau tuag at ferched yn farbaraidd. Ystyrir hwynt yn ddosbarth îs na'r dynion, a gwerthir hwynt i gaethiwed gan eu gwŷr, a'u rhieni; ac y mae eu creulonderau mewn rhyfel, a'u harferion annheilwng eraill, yn eu gosod lawer iawn yn is yn ngraddau gwareiddiad na thrigolion unrhyw wlad sydd yn Ewrop. Am sefyllfa isel moesoldeb yn mysg y Chineaid, ni raid edrych am brofion eraill, heb law yr arferiad annynol sydd yn eu holl ddinasoedd poblog, o roddi eu plant newyddanedig allan yn yr ystrydoedd i drengu!

Y mae trigolion y rhan hwn o'r byd yn hynod ddibarch a diofal hefyd am fywydau eu gilydd ar ol tyfu i oedran, fel y gwelir oddi wrth y ffaith ganlynol:—Yr oedd llong o Brydain wrth ei hangor yn agos i Canton. Drwy ryw ddamwain, taflwyd dwylaw cwch Chineaidd i'r dwfr. Gwelwyd y digwyddiad gan liaws o'r Chineaid; ond edrychent yn gwbl ddigyffro ar eu cydddynion yn ymdrechu am eu bywydau, ac ni cheisiasant estyn llaw o ymwared iddynt. Ond y foment y gwelodd swyddogion a morwyr y llong Brydeinig y dynion yn y dwfr, gostyng-

Digitized by Google

Digitized by Google




## ASIA LEIAF, &c.

Y GWLEDYDD CYFAGOS I FÔR Y CANOLDIR,

A GRYBWYLLIR YN

ACTAU YR APOSTOLION,

YR EPISTOLAU, A'R DADGUDDIAD.

Digitized by Google

asant eu cychod yn y fan, a gwnaethant bob ymdrech i achub bywyd y bobl, er eu bod yn ddyeithriaid hollol iddynt. Y mae yn ammhossibl cael prawf sicrach o sefyllfa wareiddiedig pobl na'r graddau o barch sydd ganddynt at fywydau a chysuron eu cyd-ddynion. Ond, dealler, nid ydyw y dideimladrwydd hwn yn gyfyngedig i'r Chineaid. Ymddengys yn mysg corph poblogaeth y cyfandir hwn i gyd. Yn Ewrop, gwelir profion amlwg yn mhob cyfeiriad o gydymdeimlad â dynion mewn afiechyd, damweiniau, ac anghysuron eraill. Ond yn Asia, y mae y cyfoethog a'r dylanwadol yn cydgyfarfod—nid i esmwythau gofidiau y trigolion, ond i ormesu arnynt; a thrwy holl derfynau y cyfandir, ni welir o'r braidd un ysbytty wedi ei sefydlu gan y brodorion, amcan yr hwn ydyw lleddfu gofidiau eu cyd-ddynion. Gadewir y truenus i'w tynged:—yr hyn, yn y cyffredin, ydyw marw o newyn, neu ynte o afiechyd, heb fod neb yn teimlo drostynt! Nid oes un rhan o Asia lle y mae gwybodaeth a llenyddiaeth yn cael ei wasgaru yn mysg y trigolion. Ac nid oes un lywodraeth yn ymddangos fel yn meddu hyd yn oed gysgod o ryddfrydigrwydd. Mewn ffurf, yn gystal ag ymarferiad, y mae y tywysogion yn orthrymwyr, a'r bobl yn gaethion—heb feddu parch i fywyd na meddiannau. Ac yn mysg yr hanner barbariaid, sydd yno heb unrhyw gartrefleoedd sefydlog, ond a drigant mewn pebyll, gan symmud o'r naill ardal i'r llall gyda'u deadellau, y mae pob math o droseddau gwaeth na'u gilydd yn cael eu cyflawni—a hyny heb fod un awdurdod yn eu cadw o fewn terfynau, nac yn eu cospi am eu gweithredoedd.

**ASIA LEIAF.**—Rhenir Asia yn gyffredin i ddau ddosbarth:—sef, Asia Leiaf, ac Asia Fwyaf. Am hanes Asia Fwyaf, gweler td. 384, &c.

Gwlad led fawr, yn gorwedd rhwng y Môr Du, yn y gogl., a Môr y Canoldir, yn y de., oedd Asia Leiaf: neu, fel ei gelwir yn awr, ANATOLIA, neu NATOLIA. Cynnwysai dalaethau Bithynia, Pontus, Galatia, Cappadocia, Cilicia, Lycia, Pamphylia, Pisidia, Lycaonia, Phrygia, Mysia, a Troas, y rhai a grybwyllir oll yn y Testament Newydd; a Lydia, Ionia, ac Æolis (pa rai a gynnwysir weithiau dan yr enw *Lydia*), ynghyd â Caria. Gellir meddwl fod y gair *Asia*, yn y Testament Newydd, weithiau yn cael ei arfer am Lydia, yn ei chymmeriad helaethaf, ac felly yn cynnwys Ionia ac Æolis; canys o fewn y diriogaeth hon y cynnwysid y saith dinas hyny, eglwysi pa rai a elwir yn "Eglwysi Asia." Ac y mae Dr. Paley yn dadleu nad ydyw y gair ASIA, trwy Actau yr Apostolion, yn arwyddo yr oll o Asia Leiaf, neu Anatolia; ond yn hytrach y rhandir yn y berfeddwlad, a elwid 'Asia Lydiaidd,' neu y rhan oedd o fewn terfynau y rhanbarth a elwid Lydia; yr hon a ysgerid oddi wrth y gweddill, yn debyg i'r modd yr ysgerir Portugal oddi wrth Yspaen.

Pan y bu raid i hiliogaeth Noah, o herwydd eu lliosawgrwydd, ymwasgaru dros y byd, tybir mai teulu Lud, un o feibion Sem, a boblogodd gyntaf anialdiroedd Asia Leiaf, gan ymsefydlu ar lenydd yr Hermus. Tybir mai yr un oedd Lydus, brenin y Lydiaid, yn ol hen draddodiadau, a Lud; ac mai yr un oedd ei daid, Manes, a Noah yr Hen Destament. Pa un bynag am hyny, cymmerodd rhai o'r digwyddiadau boreuaf o hynodrwydd le yn Asia Leiaf. Yma yr ennillodd y Persiaid eu buddugoliaethau, ac y dymchwelwyd eu hymherodraeth gan Alexander Fawr, ac yr ymsefydlodd ei ganlynwyr. Ar ol hyny, syrthiodd dan awdurdod Rhufain; ac mewn oesau diweddarach, dioddefodd lawer yn rhyfeloedd y Saraceniaid, y Tyrciaid, a'r Tartariaid, &c. Y mae y wlad hon yn gyssylltiedig hefyd â hanes boreuaf Cristionogaeth. Yma y planwyd yr eglwysi Cristionogol cyntaf:—sef, Ephesus, Smyrna, Pergamus, Thyatira, Sardis, Philadelphia, a Laodicea—hanes pa rai, ynghyd âg eraill, a welir o dan eu henwau priodol yn nghorph y gwaith hwn.

O herwydd sefyllfa ansicr y wlad—yr hon y gellir dywedyd am dani mai hi ydoedd cartref gwareiddiad boreuol, a chryd y celfau breiniol—nid ydym yn meddu ond gwybodaeth ammherffaith am dani, mewn cymmhariaeth; ac heb law hyny, nid ydyw yr hanesion a adawyd i ni gan yr hen ysgrifenwyr ond ammherffaith ac arwynebol. Y mae Asia Leiaf, er hyny, yn meddu dyddordeb mwy i'r daearyddwr, yr hanesydd, a'r hynafiaethydd, nag un wlad arall yn mron ar y ddaear. Ceir ynddi gyflawnder o hen adfeilion; y rhai sydd oll, i raddau mwy neu lai, yn tueddu i daflu goleuni ar hanesyddiaeth yr hil ddynol. Fe ddichon y gellir dywedyd nad oedd Asia Leiaf yn meddu ond pwysigrwydd ailraddol pan yr oedd Assyria a'r Aipht yn eu gogoniant mwyaf—pan yr oedd celfyddyd, llenyddiaeth, a'r celfau yn flodeuog yn Groeg, neu pan yr oedd Rhufain yn eistedd ar ei gorsedd fel meistres y byd. Ond ni chododd y rhai hyn i enwogrwydd ond am dymmhor byr yn unig, ac i ddisgyn drachefn i ddyfnderoedd mwy o anwareidd-dra; tra y mae y wlad hon wedi parhau i feddu graddau mwy neu lai o bwysigrwydd, o doriad allan gwawr cyntaf hanesyddiaeth hyd y dyddiau hyn. Ond yn annibynol ar y dyddordeb hanesyddol a berthyn iddi, y mae y wlad ei hun yn meddu ar lawer o hynodion sydd yn ei gwneyd yn deilwng o sylw. Y mae mawrwychder a phrydferthwch neillduol ei golygfeydd, yn ei gosod, o leiaf, ar dir cyfartal, os nad ar dir uwch, nag un wlad arall yn Ewrop; tra y mae ei ffrwythlonrwydd diarebol, a'r nifer fawr o borthladdoedd rhagorol sydd ganddi, a'i rhagoriaethau eraill, yn dangos yn eglur y gallai fod yn wlad bwysig mewn ystyr fasnachol pe byddai dan lywodraeth well. Ond yn awr, y mae ei dadforion yn cael eu trethu yn drwm, a phob cangen o fasnach yn dioddef, ac yn cael eu nychu gan amgylchiadau anffafriol eraill sydd yn cael eu goddef gan y llywodraeth.

Dywed Leake fod taiogrwydd y gyfundrefn Fahometaidd yn cael ei dymmheru i ryw fesur yn Twrci yn Ewrop drwy ei chyfagosrwydd i deyrnasoedd gwareiddiedig Ewrop, trwy fod y Mahometiaid yn teimlo eu gwendid, a'r Cristionogion mor liosog wrth eu cymmharu â'r boblogaeth Dyrcaidd. Ond yn Asia Leiaf, y mae y Cristion yn gorfod teimlo yn wastad nad ydyw efe ar yr un tir a'r Tyrciaid; gan eu bod yn ystyried eu hunain yn arglwyddi y wlad. Cryfheir y teimlad hwn yn mysg y Tyrciaid, am eu bod gam yn mhellach oddi wrth ddylanwad y cenhedloedd Cristionogol, y rhai y mae cynnydd cyfattebol eu nerth yn wanychdod i'r eiddynt hwy; ac yn peri iddynt ofni yn barhaus fod yr adeg yn nesau pan y bwrir hwynt allan o'r rhandiroedd breision a drawsfeddiannasant oddi ar y Groegiaid, pan yr oedd y gwledydd Cristionogol, mewn cymmhariaeth, yn weiniaid.

Digitized by Google

Y mae y darluniad canlynol o gyflwr presennol Asia Leiaf i'w gael yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan genhadon Eglwys yr Alban, y rhai a anfonwyd i chwilio i mewn i gyflwr yr Iuddewon, yn y flwyddyn 1839:—"Y mae anfoesoldeb wedi cynnyddu yn ofnadwy yn mysg y Tyrciaid, ac yn wir yn mysg pob dosbarth o gymdeithas yn Twrci yn Asia; tra ar yr un pryd y mae poblogaeth yr ymherodraeth wedi lleihau yn gyflym. Profir y nychiant yma trwy y claddfeydd lliosog a ganfyddir ar hyd a lled y wlad, heb fod pentrefi yn agos iddynt yn bresennol. Yn ystod y flwyddyn 1838, darfu i'r pla, y frech wen, ac anhwylderau eraill, ladd agos yr holl blant o dan ddwyflwydd oed drwy holl Asia Leiaf. Mewn un rhan o wastadedd Cayster, lle yr arferai fod tri chan iau o ychain yn llafurio y tir, nid oes ond deuddeg iau ar waith yno yn bresennol. Cynnygid pentref yn agos i Smyrna, gan gynnwys tŷ y rhaglaw, a 1,200 o erwau o dir, ar werth am 20,000 o *piasters*, neu swm cyfartal i tua dau can punt o'n harian ni."

Y mae sefyllfa Asia Leiaf yn lled debyg y dyddiau hyn.

Digwyddiadau.—Rhoddir yma rai o'r prif ddigwyddiadau a gymmerasant le yn Asia Leiaf:—

| | |
|---|---|
| | C. C. |
| Ymsefydliad cyntaf y Groegwyr Ioniaidd, tua. | 1043 |
| Yn cael ei gorchfygu gan y Mediaid, tua .. | 711 |
| Yn cael ei gorchfygu gan Cyrus .. .. | 546 |
| Y cydymdrech rhwng y Groegiaid a'r Persiaid yn dechreu .. .. .. .. .. | 544 |
| Yn cael ei gorchfygu gan Alexander Fawr .. | 332 |
| Ei ddilynwyr yn cydymdrechu am dani, a gwahanol deyrnasoedd yn cael eu sefydlu | 321—278 |
| Yn cael ei hennill yn raddol gan y Rhufeiniaid .. .. .. .. C. C. 188 hyd | B. A. 15 |
| Yn cael ei meddiannu gan y Persiaid . .. | 609 |
| Ei hennill mewn rhan gan yr Ymher. Basil .. | 871 |
| Timour yn ymosod arni .. .. .. | 1402 |
| Ei chymmeryd gan yr ymherawdwr Groegaidd, a'i sefydlu fel ymherodraeth gan y Tyrciaid o dan Mahomet I. .. .. .. .. | 1413 |
| Y Drysorfa Ymchwiliadol i Asia Leiaf yn cael ei sefydlu .. .. .. .. .. | 1882 |
| Darganfyddiadau pwysig yn cael eu gwneyd o Lydia, a chartref boreuol y Groegiaid .. | 1884 |
| Dechreu ffordd haiarn o Mersina, ar yr arfordir i Adana, yn 42ain milldir o hyd, .. | Awst, 1884 |

ASIA, SAITH EGLWYS. Eu henwau, fel y ceir hwynt yn y Dadguddiad, ydynt Ephesus, Smyrna, Pergamus, Thyatira, Sardis, Philadelphia, a Laodicea; y rhai oeddynt gynt o fewn y raglawiaeth Rufeinig a elwid *Asia;* yr hon, meddir, a gynnwysai bum cant o ddinasoedd. Dywed yr esgob Newton eu bod hwy yn gorwedd mewn math o gylch; fel mai y mynediad naturiol iddynt fuasai o Ephesus i Smyrna; yna, o Smyrna i Pergamus; oddi yno i Thyatira; yna i Sardis, Philadelphia, a Laodicea; ac oddi yno i Ephesus drachefn. Dyma y drefn a ddilynodd yr apostol wrth eu cyfarch; ac y mae yn debyg mai yn ol yr un drefn yr ymwelodd efe â hwynt. Am fanylion pellach am danynt, gweler dan enwau y gwahanol eglwysi.

Cyfeiriwn y darllenydd yma, yn nesaf, at yr erthyglau canlynol sydd yn nghorph y gwaith ar hen ddosbarthiadau a threfi, ac ynysoedd, &c., y rhan hwn o Asia. Rhoddir yma hefyd fanylion am wledydd ac ynysoedd eraill sydd ar y map, y rhai nid ydynt o fewn terfynau Asia Leiaf, gan eu bod yn ymddangos ar raddeg fwy yma nag ar y map blaenorol o Asia.

ADRAMYTIUM. Gwel cyf. i., td. 79.
ADRIA. Gwel cyf. i., td. 79.
AIPHT. Gwel cyf. i., td. 133.
ALEXANDRIA. Gwel cyf. i., td. 162.
AMPHIPOLIS. Gwel cyf. i., td. 201.
ANTIOCHIA. Gwel cyf. i., td. 245.
APPII-FORUM. Gwel cyf. i., td. 282.
ARABIA. Gwel cyf. i., td. 284.
ASSOS. Gwel cyf. i., td. 393.
ATALIA. Gwel cyf. i., td. 402.
ATHEN. Gwel cyf. i., td. 413.
BEREA. Gwel cyf. i., td. 710.
BITHYNIA. Gwel cyf. i., td. 731.
CAPPADOCIA. Gwel cyf. ii., td. 216.
CARIA. Gwel cyf. ii., td. 228.
CENCHREA. Gwel cyf. ii., td. 274.
CESAREA. Gwel cyf. ii., td. 315.
CILICIA. Gwel cyf. ii., td. 357.
CLAUDIA. Gwel cyf. ii., td. 371.
CNIDUS. Gwel cyf. ii., td. 405.
COLOSSA. Gwel cyf. ii., td. 435.
COOS. Gwel cyf. ii., td. 495.
CORINTH. Gwel cyf. ii., td. 458.
CRIMEA. Gwel cyf. ii., td. 530.
CYRENE. Gwel cyf. iii., td. 139.
EPEIRUS. Gwel Twrci yn Ewrop.
EPHESUS. Gwel cyf. iv., td. 411.
GALATIA. Gwel cyf. iv., td. 761.
GROEG. Gwel cyf. v., td. 157.
HIEROPOLIS. Gwel cyf. v., td. 450.
ICONIUM. Gwel cyf. v., td. 659.
ITALI. Gwel cyf. vi., td. 248.
LAODICEA. Gwel cyf. vi., td. 492.
LIBYA. Gwel cyf. vi., td. 555.
LYCAONIA. Gwel cyf. vi., td. 670.
LYCIA. Gwel cyf. vi., td. 670.
LYDIA. Gwel cyf. vi., td. 674.
LYSTRA. Gwel cyf. vi., td. 681.
MACEDONIA. Gwel cyf. vii., td. 147, &c.
MELITA. Gwel cyf. i., a cyf. vii., td. 324.
MILETUS. Gwel cyf. vii., td. 410.
MYRA. Gwel cyf. vii., td. 651.
MYSIA. Gwel cyf. vii., td. 653.
NICOPOLIS. Gwel cyf. viii., td. 25.
PALESTINA. Gwel cyf. viii., td. 205.
PAMPHYLIA. Gwel cyf. viii., td. 232.
PAPHUS. Gwel cyf. viii., td. 233.
PATARA. Gwel cyf. viii., td. 260.
PATMOS. Gwel cyf. viii., td. 260.
PERGA. Gwel cyf. viii., td. 335.
PERGAMUS. Gwel cyf. viii., td. 335.
PISIDIA. Gwel cyf. viii., td. 367.
PONTUS. Gwel cyf. viii., td. 431.
PUTEOLI. Gwel cyf. viii., td. 539.

Digitized by Google

PHENICE. Gwel cyf. viii., td. 562.
PHILADELPHIA. Gwel cyf. viii., td. 563.
PHOENICIA. Gwel cyf. viii., td. 603.
PHRYGIA. Gwel cyf. viii., td. 607.
RHEGIUM. Gwel cyf. viii., td. 661.
RHUFAIN. Gwel cyf. viii., td. 685.
SALAMUS. Gwel cyf. ix., td. 159.
SALMONE. Gwel cyf. ix., td. 173.
SAMOTHRACIA. Gwel cyf. ix., td. 181.
SARDIS. Gwel cyf. ix., td. 205.
SELEUCIA. Gwel cyf. ix., td. 262.
SMYRNA. Gwel cyf. ix., td. 359.
SPARTA. Gwel cyf. ix., td. 391.
SYRACUSE. Gwel cyf. ix., td. 461.
SYRIA. Gwel cyf. ix., td. 471.
TARSUS. Gwel cyf. ix., td. 501.
THESSALONICA. Gwel cyf. ix., td. 699.
THRACIA. Gwel TWRCI YN EWROP.
THYATIRA. Gwel cyf. ix., td. 705.
TROGYLIUM. Gwel cyf. ix., td. 602.

ACHAIA—*Groeg.* Dywedir ei bod wedi ei sefydlu gan Achæus, mab Xuthus, tua 1330 C. C. Cafodd y wlad ei huno â Sicyon, neu ei gwneyd yn ddarostyngedig i'r Ætoliaid hyd tua 284 C.C. Yr oedd olynwyr Achæus, ar y dechreu, yn preswylio yn nghymmydogaeth Argos; ond pan ddarfu i'r Heraclidæ eu gyru oddi yno, ymneillduasant i'r ynysoedd Ioniaidd, a gyrasant y brodorion ymaith. Cymmerasant feddiant o dair-ar ddeg o ddinasoedd; sef, Pellene, Ægira, Ægium, Bura, Tritæa, Leontium, Rhypes, Cerynea, Olenos, Helice, Patræ, Dyme, a Pharæ —oll yn ffurfio y Cynghrair Achaiaidd. Gorchfygwyd hi gan y Tyrciaid yn y flwyddyn 1540. Gwel d. g. GROEG.

ÆOLIA. Rhan o Asia Leiaf, a boblogwyd gan y brif gangen o'r genedl Helenaidd, tuag 1,124 C. C. Adeiladodd yr Æoliaid amryw ddinasoedd mawrion ar y tir, ac ar yr ynysoedd cyfagos. Cyfrifwyd Mitylene, yn Lesbos, fel eu prif ddinas.

AMASIA, neu AMASIAYAH. Dinas yn Asia Leiaf, â'i phoblogaeth tua 30,000. Y mae yn y dosbarth boblogaeth o tua 46,000; o ba rai y mae tuag 8,000 yn Gristionogion. Y mae dyfroedd yr afon, ar fangeiau yr hon y mae y ddinas yn sefyll, yn cael eu cario drwy y gerddi a'r planigfeydd merwydd sydd yno am lawer o filldiroedd o ffordd. Tyfir ŷd yn yr ardaloedd, ac allforir sidan a chrwyn geifr.

ANCYRA. Gelwir hi yn awr *Angora*, neu *Engour.* Tref yn hen Galatia, yn Asia Leiaf. Cynnaliwyd tri chynghor yr Eglwys yma-yn B. A. 314, 358, a 375. Cymmerwyd hi gan y Persiaid yn 616; gan y Saraceniaid, yn 1085; a chan y Croesgadwyr, yn y fl. 1102. Yn agos i'r ddinas hon, Gorphenaf 28, 1402, gorchfygodd Timour, neu Tamerlane, y sultan Bajazet, a chymmerodd ef yn garcharor; a dywedir hefyd iddo gael ei ddanfon ganddo i Samarcand mewn cwt adar *(cage).*

CORSICA. Ynys yn Môr y Canoldir, a elwid gan y Groegiaid *Cyrnos.* Y mae hi yn meddiant y Ffrangcod. Yr oedd yr hen drigolion yn hynod fel lladron, anudonwyr, ac atheistiaid, yn ol Seneca. Poblogwyd hi gan y Phocæiaid yn 564 C. C.; a daliwyd hi ar ol hyny gan y Carthageniaid, oddi wrth ba rai y cymmerwyd hi gan y Rhufeiniaid yn 231 C. C. Yr oedd hi yn meddiant y Vandaliaid, 456 B. A.; y Saraceniaid, yn 852; a'r Pisaniaid, yn 1077, B. A. Yr oedd yn dibynu ar Genoa o 1559 hyd 1768—pan y daeth i feddiant Ffrainge.

Ei hyd, o'r gogledd i'r de, ydyw 120 mill.; a'i lled mwyaf 45 mill. Mesura 3,377 mill. pet., a'i phoblogaeth tua 300,000. Ei phrif ddinas ydyw Ajaccio; lle y ganwyd Napoleon Buonaparte, Chwef. 5, 1768, yn ol yr hanesion lleol. Ond dywedir mai camgymmeriad ydyw hyn—mai ar Awst 15, 1769, y ganwyd ef.

Y mae arfordir yr ynys yn benaf yn isel; a chanol yr ynys yn fynyddig; a'r ddaear, gan mwyaf, yn ffrwythlawn: ond ni thelir ond ychydig o sylw i amaethyddiaeth. Magu anifeiliaid a wneir yno yn benaf. Ei chynnyrch ydyw coed, mêl, cŵyr, olew, a'r un ffrwythydd ag a geir yn Itali a'r rhanau deheuol o Ffrainge, a physgod. Swm ei dadforion yn 1888 oedd tua 10,000,000*p.*, a'i hallforion yn 8,000,000*p.*

Y mae yr ynys yn gyfoethog mewn mŵnau; ond ychydig o fŵngloddiau sydd yn cael eu gweithio; a chyfyngir eu gweithfeydd i wneuthuriad gwlaneni breision, defnyddiau haiarn, a lledr, &c. Italiaid ydyw y trigolion yn benaf.

CRETA. CANDIA yn awr. Gwel cyf. ii., td. 525. Mesura 3,327 mill. pet. Tybir fod ei phoblogaeth tua 350,000. Rhenir hi i dair talaeth; Candia, Retimo, a Canea (neu Khania); pa rai ydynt enwau ar ei phrif drefydd a'i phorthladdoedd. Llywodraethir hi gan pasha. Y mae ei hallforion yn werth tua 350,000*p.*, a'i dadforion tua 600,000*p.* yn y flwyddyn. Yn 1866-67, gwrthryfelodd y boblogaeth Gristionogol yn erbyn llywodraeth y Twrc, a pharhaodd y rhyfel gartrefol am tua dwy flynedd a hanner. Ond perthyna yr ynys i Twrci etto.

CHIOS. SCIO ydyw ei henw yn awr. Ynys yn yr Ynysfor Groegaidd. Hi a wrthryfelodd yn erbyn Athens 412 a 357 C. C. Cyfranogodd o lwyddiant ac aflwyddiant Groeg. Cafodd ei gorchfygu gan y Venetiaid yn y flwyddyn 1124 B. A.; gan y Croesgadwyr yn 1204; gan ymherawdwr Groeg yn 1329; gan y Genoaid yn 1346; ac yn ddiweddaf gan y Tyrciaid yn 1594. Dywedir fod cynnifer a deugain mil o'r trigolion wedi cael eu lladd gan y Tyrciaid ar Ebrill 11eg, 1822, yn ystod y Gwrthryfel Groegaidd. Digwyddodd daeargryn mawr yno Ebrill 3ydd, 1881, pan y dinystriwyd y dref, a llawer o dreflanau; a dywedir fod cynnifer a 4,000 wedi trengu ar yr adeg. Digwyddodd ysgydwadau eraill ar y 12fed o'r un mis.

DALMATIA. Talaeth sydd yn ffurfio y rhan fwyaf deheuol o Awstria, ar Fôr Adria. Llain cul o dir, gyda nifer o ynysoedd ar ei harfordir. Mesura 4,940 mill. pet.

Gorchfygwyd hi, a gwnaed hi yn dalaeth gan y Rhufeiniaid, 34 C. C. Adeiladodd yr ymherawdwr Diocletian ei balas yn Spalatro, ac aeth yno i fyw 305 B. A. Bu yn meddiant y Gothiaid, yr Hungariaid, a'r Tyrciaid, hyd nes y

Digitized by Google

rhoddwyd hi i Venice yn 1699. Yn ol cyttundeb Campo Formio, yn 1797, cafodd Awstria feddiant o honi. Yn 1805. unwyd hi âg Itali; ond cafodd Awstria feddiant o honi drachefn yn 1814.

Tybir fod y boblogaeth yn 1888 tua 600,000; a'u bod, gan mwyaf, o darddiad Slafonaidd, ac oll yn Babyddion. Y mae ynddi amryw o fynyddoedd—yr uchaf o ba rai ydyw Orien, Dinara, Pastovo, a Velebich, y rhai ydynt tua 6,000 tr. o uchder. Y prif afonydd ydynt Zermagna, Kerka, Cettina, a Narenta. Y mae y tir yn dda, ac yn cynnyrchu ŷd India, rhŷg, haidd, ffigys, ac olewydd. Gweithir glô, haiarn, ac asphalt; ac y mae llawer o'r trigolion yn cael eu bywoliaeth trwy bysgota. Y mae y wlad yn hynod am nifer ei hadar. Meddianna amryw o borthladdoedd rhagorol; ac y mae ei hinsawdd yn debyg i'r eiddo Naples, ond yn iachach. Chwytha y sirocco am tua chant o ddyddiau yn y flwyddyn; ac ofnir ef yn fawr ar lanau y môr yn y gauaf. Rhenir Dalmatia i bedwar o ddosbarthiadau; sef, Zara, Spalatro, Ragusa, a Cattaro. Y prif drefi ydynt Sign, Imoschi, Knin, Zara, Dernis, Spalatro, a Sebenico. Yr oedd y dalaeth gynt yn rhan o'r hen Illyricum.

DERBE: *Act.* xiv. 20, 21; xvi. 1; xx. 4. Ni wyddys yn fanwl yn mha le y safai y dref hon; ond gwyddys yn lled sicr yn mha ddosbarth yr oedd. Safai yn y rhan ddwyreiniol o ucheldir gwastad Lycaonia, yr hwn sydd yn ymestyn o Iconium tua'r dwyrain, ar hyd ochr gogleddol mynyddoedd Taurus. Rhaid ei bod yn rhywle yn agos i'r lle yr oedd y bwlch a elwid Porth Cilicia yn ffurfio ffordd o wastadedd isel Cilicia i ucheldir y canolbarth; a thybir ei bod yn orsaf ar y ffordd fawr oedd yn pasio yn y cyfeiriad hwnw. Ymddengys fod Cicero wedi myned trwy Derbe, ar ei daith o Cilicia i Iconium. Y ffordd hon a gymmerodd Paul ar ei ail daith genhadol (*Act.* xv. 41; xvi. 1, 2); ac y mae'n debyg hefyd ar y drydedd: *Act.* xviii. 23; xix. 1. Yn ei daith gyntaf (*pen.* xiv. 20, 21), efe a ddaeth o'r ochr arall, sef o Iconium; o herwydd fod erledigaeth yn y lle hwnw, ac yn Lystra. Ni chofnodir unrhyw ddigwyddiadau fel wedi cymmeryd lle yn Derbe. Yn gysson â hyn nid yw yn cael ei chrybwyll yn rhestr yr enwau yn 2 *Tim.* iii. 11. Yn yr hanes apostolaidd, crybwyllir Lystra a Derbe gyda'u gilydd. Yn y dyfyniad o'r epistol, Lystra, ac nid Derbe, a grybwyllir. Y mae y gwahaniaeth yn gywir; canys y mae Paul yma yn rhifo ei erledigaethau. Yn Derbe y ganwyd Gaius—cyfaill a chyddeithiwr Paul: *Act.* xx. 4.

IONIA: hen enw ar un o'r gwledydd mwyaf blodeuog yn Asia Leiaf. Cafodd ei henw oddi wrth yr Ioniaid—un o lwythau mwyaf hynafol Groeg; yr hwn, yn ol yr hanes chwedlofyddol, a gafodd ei enw oddi wrth Ion, mab Apollo, a Creusa, merch brenin Athen. Yn ol traddodiad a dderbynid yn gyffredin, gyrwyd hwynt o'r Peloponnesus gan yr Achæaid; a symmudasant i Attica, o'r hwn le yr aeth minteioedd o honynt allan, c.c. 1050, i ymsefydlu ar ororau Asia. Yr oedd Ionia yn wlad brydferth a ffrwythlawn; ac yn ol disgrifiad Ptolemy, ymestynai o'r afon Hermus i'r afon Meander, ar hyd glenydd Môr Ægea; ond yn ol Herodotus a Strabo, yr oedd hi ryw gymmaint yn fwy. Llwyddodd yn fawr yn fuan; blodeuodd amaethyddiaeth a masnach ynddi, a chyfododd yno ddinasoedd mawrion—yr enwocaf o ba rai oeddynt Ephesus, Smyrna, Clazomenæ, Erythræ, Colophon, a Melitus. Cafodd y dinasoedd rhyddion hyn—cnewyllyn y Cynghrair Ioniaidd—yn raddol eu darostwng gan frenhinoedd Lydia; a dygwyd hwynt trwy Cyrus o dan lywodraeth y Persiaid, c. c. 548; ond caniatawyd iddynt gryn lawer o ryddid er hyny. Yn ystod y rhyfel mawr Persiaidd, darfu i'r gyfran hono o'r fyddin a barotowyd ganddynt hwy i wasanaethu eu meistriaid dwyreiniol, encilio at y Groegiaid yn mrwydr Mycale (c. c. 479). Ar ol buddugoliaethau Cimon, parhaodd Ionia yn annibynol hyd 387 c.c.; pan y darostyngwyd hi drachefn gan Persia; a pharhaodd felly hyd ddyddiau Alexander Fawr. O'r cyfnod hwnw allan, cyfranogodd yr Ioniaid o'r un dynged a'r gwledydd cymmydogaethol; ac yn y flwyddyn 64 c. c., chwanegwyd Ionia at yr ymherodraeth Rufeinig gan Pompey, ar ol y trydydd rhyfel Mithridataidd. Mewn amseroedd diweddarach, anrheithiwyd y wlad i'r fath raddau gan y Tyrciaid, fel na adawyd ond ychydig o olion ei mawredd blaenorol. Yr oedd yr Ioniaid yn gyfoethog a moethus, ac yn enwog am eu beirdd, eu haneswyr, a'u hathronwyr. Diwyllid y celfau breiniol ganddynt yn llawer boreuach na chan eu perthynasau yn y fam-wlad. Rhagorai tafodiaith Ionia ar dafod-ieithoedd Groeg mewn llyfndra ac ystwythder; a hyny yn benaf, dybygid, am fod ynddi fwy o lafariaid.

ILLYRICUM, neu ILLYRIA. Yn chwanegol at yr hyn a welir yn cyf. v., td. 723, gallwn ddyweyd fod Illyricum, gynt, yn awr yn ffurfio y talaethau canlynol:—Carinthia, Carniola, a Göritz, Gradisca, Istria, a Trieste. Mesura tua 10,948 mill. pet., gyda'r ynysoedd sydd yn Môrgainge Quarnero; y penaf o ba rai ydynt Veglia, Cherso, a Lossini. Y mae y boblogaeth yn awr tua 1,600,000. Gorwedda y mynyddoedd o'r gog.-orll. i'r de.-ddwyr. Yr uchaf o honynt ydyw Gross Glockner—uchder yr hwn yw 12,957 tr. Y mae yr hinsawdd yn gwahaniaethu yn ol uchder y rhanau o'r wlad. Tyfir yn y gogledd rŷg, ceirch, a haidd; a megir llawer o wartheg yn Carinthia. Yn y de, tyfir gwinwydd, olewydd, gwenith, ac ŷd India. Yn y mwngloddiau, ceir aur, arian, arian byw, plwm, efydd, a haiarn. Y mae y boblogaeth, gan mwyaf, yn perthyn i'r genedl Slafonaidd.

MALTA—*(Melita yr Ysgrythyrau)*. Yn cyf. vii., td. 214, &c., ceir hanes yr ynys hon i lawr hyd y flwyddyn 1814. Mesura o ddeutu 17 mill. wrth 9. Cymmerwyd hi dan amddiffyniad Prydain yn 1800; ac unwyd hi â'r deyrnas hon, trwy Gyttundeb Paris, yn 1814. Heblaw Malta, y mae ynys Gozo, ac ynysoedd bychain Cumino a Cominotto, ac ychydig eraill, yn ffurfio y swp hwn o ynysoedd. Yn Machwy St. Paul, ar ogledd-ddwyr. yr ynys, y dywedir ddarfod i'r llong dori ar yr apostol Paul.

Y mae yn yr ynys hon un o'r porthladdoedd goreu yn y byd; ac y mae y môr mor ddyfn fel y gall y llestri mwyaf angori yn ymyl y lan. Y mae ystordy arfau fawr yn yr ynys, a lliongorsaf *(dockyard)* bwysig. Malta yw prif orsaf ein llynges yn Môr y Canoldir. O herwydd ei sefyllfa ar y ffordd i'r Aipht ac India, cryfder mawr ei hamddiffynfeydd, a'i phorthladd rhagorol, y mae Malta yn un o'r meddiannau mwyaf gwerthfawr a berthynant i Brydain. Y mae yr

Digitized by Google

hinsawdd yn boeth yn y dydd; ond yn cael ei gymmedroli gan wyntoedd oerion y môr yn y nos. Y misoedd oeraf ydynt Rhagfyr, Ionawr, a Chwefror; a'r misoedd poethaf, Mehefin, Gorphenaf, Awst, a Medi. Y mae y tir yn cael ei drin yn dda; a thyfir arno gotwm, ŷd, eurafalau, gwinwydd, olewydd, pytatw, ffigys, blodau, a mêl mewn cyflawnder. Ceir pysgod mewn amrywiaeth a chyflawnder mawr ar ei glanau. Gelwir Medina, prif ddinas yr ynys gynt, yn awr yn Citta Vecchia. Poblogaeth yr ynys Rhagfyr 31, 1887, oedd 160,679—heb gyfrif y milwyr a'u teuluoedd. Gweinyddir y llywodraeth gan raglaw; yr hwn a gynnorthwyir gan gynghor gweithiol, yn cynnwys deg o aelodau; a chan gynghor llywodraethol—chwech o ba rai sydd yn aelodau wrth eu swydd, a phedwar-ar-ddeg yn etholedig. Y rhaglaw yw y llywydd yn y ddau gynghor. Swm derbyniadau y llywodraeth yn 1887 oedd 219,185*p.*; ac yr oedd y draul yn 239,187*p.* Dadforiwyd o'r Deyrnas Gyfunol, yn 1885, werth 117,333*p.*; ac allforiwyd yma yr un flwyddyn gwerth 8,295*p.*

NICEA, NICE, NICÆA. Tref yn Bithynia, yn Asia Leiaf. Rhoddodd Antigonus yr enw Antigoneia arni; ond newidiwyd ef gan Lysimachus i Nicæa—enw ei wraig. Yno y preswyliai brenhinoedd Bithynia tua 208 C. C. Yn mrwydr Nicea, B. A. 194, gorchfygodd yr ymherawdwr Severus ei wrthymgeisydd Pescennius Niger; a gorchfygwyd ef drachefn yn Issus; ac yn fuan wedi hyny, cymmerwyd ef yn garcharor, a rhoddwyd ef i farwolaeth. Cynnaliwyd Cynghor Cyffredinol cyntaf yr Eglwys yma, o Mehefin 19 hyd Awst 25, yn y fl. 325; yn yr hwn y llywyddodd Cystenyn Fawr, pan y condemniwyd Ariaeth, ac y cyfansoddwyd Credo hynod Nicea *(Nicene Creed)*. Yr oedd ynddo 318 o esgobion o wahanol wledydd; a chyttunasant ar Athrawiaeth y Drindod, ac ar yr amser y dylid cadw y Pasc. Gwnaed chwanegiad at y Credo yn y fl. 381; a gwrthodwyd y chwanegiad yn y fl. 431. Pan gymmerwyd Caer Cystenyn gan y Croesgadwyr, ac y sefydlasant lywodraeth Ladinaidd yno, yn 1204, symmudodd yr ymherawdwyr Groegaidd i Nicea; a theyrnasasant yno hyd y fl. 1261, pan y dychwelasant i Gaer Cystenyn. Cymmerwyd Nicea gan y Tyrciaid yn y fl. 1330.

OLYMPUS. Mynydd yn Thessaly, ar derfynau Macedonia, tua 9,754 tr. o uchder. Gwel CAMPAU, cyf. ii., td. 176.

PAPHLAGONIA. Rhanbarth o Asia Leiaf, yn y gogledd.-ddwyr. Ymsefydlodd trefedigaeth Roegaidd yn Sinope, yn y dalaeth hon; yr hon a orchfygwyd gan Mithridates IV., brenin Pontus; yr hwn a wnaeth Sinope yn brif ddinas iddo. Yma y ganwyd Diogenes, yr athronydd. Tachwedd 30, 1853, ymosodwyd gan Rwssia ar lynges Dyrcaidd dan y llyngesydd Nachimoff; a chafodd ei dinystrio—gyda'r eithriad o un long yn unig, yr hon a gariodd y newydd i Gaer Cystenyn. Collwyd 4,000 o fywydau yn y frwydr hon, drwy gael eu llosgi neu eu boddi. O herwydd yr ymosodiad hwn o eiddo Rwssia, aeth nifer o longau perthynol i Loegr a Ffraingc i'r Môr Du, Ionawr 3, 1854, i amddiffyn Twrci.

PHILIPPI. Tref sydd erbyn heddyw mewn adfeilion yn Nhwrci yn Ewrop, yn nhalaeth Macedonia. Ar y gwastadedd, ar y gorllewin i'r dref, yn y fl. 42 C. C., yr ymladdwyd y ddwy frwydr fawr a gymmerasant le rhwng milwyr Octavius Cæsar a Marc Antony; pan y darfu iddynt orchfygu byddin Brutus a Cassius, a rhoddi terfyn ar lywodraeth werinol Rhufain. Rhoddodd Brutus a Cassius derfyn ar eu bywyd eu hunain hefyd yn mis Hyd., yn y fl. 42 C. C. Pregethodd Paul yn y ddinas hon yn y fl. 48 B. A.; ac ysgrifenodd ei Epistol at y dychweledigion yn y fl. 64.

SARDINIA. Ynys yn Môr y Canoldir, a feddiannwyd gan y Phœniciaid, y Groegiaid, a'r Carthageniaid, tua 500 C. C.; gan y Rhufeiniaid, 238 C. C.; gan y Vandaliaid, 456 B. A.; gan y Saraceniaid, 720—40 B. A.; gan y Genoaid, 1022; y Pisaniaid, 1165; yr Aragoniaid, 1352; a'r Yspaeniaid. O'r gwahanol genhedloedd hyn y mae y trigolion sydd yno yn awr wedi tarddu. Cydnabyddwyd brenin Sardinia fel brenin Italy gan ei senedd yn Chwefror, 1861. Yn nesaf at Sicily, Sardinia ydyw yr ynys fwyaf a phwysicaf yn Môr y Canoldir. Mesura 164 mill. wrth 61 mill. Ei phrif ddinas ydyw Cagliari. Mesura, trwy ynys Capraja, 9,363 mill. pet.; ac y mae ei phoblogaeth tua 700,000. Ei phrif ddyffryn ydyw Campidano. Nid oes lynau mawr yn Sardinia; ond nifer o lynau bychain, a morfeydd. Y mae ei harfordir yn anwastad iawn, ond yn meddu amryw borthladdoedd da. Ystyrir Cagliari yn un o'r porthladdoedd goreu yn Môr y Canoldir. Ceir amryw o ynysoedd bychain ar lanau yr ynys. Mae ei hinsawdd yn hynod gyfnewidiol; a gorwedda eira ar ei mynydd uchaf am o saith i wyth mis yn y flwyddyn. Bydd ysbeidiau o sychder yn fynych yn yr haf yno, drwy yr hyn y gwneir llawer o'r dosbarthiadau yn hynod o afiach, gan yr awyr afiachus a drwg sydd yn codi o'r tir a'r corsydd. Tŷf fforestydd mawr o goed derw, pinwydd, a choed cyrc, a ffawydd yno; ac hefyd gwenith, haidd, a phys. Ond y mae y tir yn cael ei drin yn y modd mwyaf anghelfydd. Telir sylw neillduol gan y trigolion i dyfiant gwinwydd. Ceir eurafalau, tybaco, halen, a sidan yno. Y mae ei hanifeiliaid yn fychain; a gwneir eu caws o laeth defaid a geifr, ac allforir cryn lawer o hono. Ceir aur, arian, a phlwm ynddi; a chafwyd glô yno hefyd yn 1851.

Y mae yr ynys hon yn ddarostyngedig i Italy, ac wedi cael ei rhanu yn ddwy dalaeth; sef, Cagliari yn y deheu, a Sassari yn y gogledd. Llywodraethir hi gan raglaw, yr hwn sydd yn preswylio yn Cagliari. Pabyddion ydyw yr holl drigolion, yn mron. Y mae ganddi brifysgolion yn y ddwy ddinas a enwyd uchod; ac ysgol elfenol yn mhob treflan.

Poblogwyd hi gan y Carthageniaid. Yn 1720, cafodd Savoy yr ynys yn gyfnewid am Sicily.

SICILY. Galwyd yr ynys gynt *Trinacria*—y tair cornel. Gorwedda yn Môr y Canoldir, tua gwaelod Italy, a gwahenir hi oddi wrth Naples gan Gulfor Messina. Mesura o'r dwyr. i'r gor. 185 mill., a'i lled yw 120 mill.—yn gwneyd tua 22,200 mill. pet. Y preswylwyr boreuol oedd y Sicani, neu y Siculi—pobl a ddaethant yno o Yspaen, ac Etrusciaid a ddaethant yno o Italy tua 1,294 C. C. Daeth ail drefedigaeth yno dan Siculus, tua phedwar ugain mlynedd cyn dinystr Caerdroia, yn y fl. 1284 C. C. Sefydlodd y



Digitized by Google

Phœniciaid a'r Groegiaid drefedigaethau ynddi, rhwng 735 a 582. Tybir fod Sicily wedi ei gwahanu oddi wrth Italy gan ddaeargryn; ac mai felly y ffurfiwyd culfor Charybdis—llyn tro, y tu allan i borthladd Messina, yn y culfor sydd rhwng Italy a'r ynys. Gyferbyn, yn Italy, y mae craig Scylla. *Galofaro* y gelwir Charybdis yn awr. Y mae llywodraethiad yr ynys, amryw weithiau, wedi ei gyssylltu, ac yna wedi ei wahanu oddi wrth Naples; ond y mae y ddwy yn awr yn ffurfio rhan o deyrnas Italy. Yr oedd y boblogaeth, yn 1881, yn 2,927,901. Rhanwyd hi, yn 1818, i saith o dalaethau; sef, Caltanisetta, Catania, Girgenti, Messina, Palermo, Syracuse, a Trapani. Yn yr ynys hon y mae y mynydd tanllyd Ætna, yn agos i'r arfordir dwyreiniol. Ei uchder yw 10,874 tr. Y mae y tir yn hynod ffrwythlawn. Mewn rhai ardaloedd, y mae tir rhagorol i'w gael o 20 i 30 tr. o ddyfnder. Ystyrir yr hinsawdd yn un o'r rhai rhagoraf yn Ewrop; oddi eithr yn y tiroedd isel. Y mae gwres yr haf yn lled anhawdd ei ddioddef, tra y pery y poethwynt tanllyd a elwir y sirocco; yr hwn a deimlir fwyaf yn Palermo. Nid yw eira un amser i'w ganfod yno, oddi eithr ar Ætna, a'r rhanau uchaf o fynyddoedd Macedonia; ac nid ydyw oerni y gauaf byth yn effeithio i attal tyfiant porfeydd y wlad. Ffrwytha y papyrus, y gorsen sugr, a'r palmwydd mor uchel a 600 tr.; a thŷf bythwyrddion mor uchel a 2,000 tr. Ceir derw a chastanwydd *(chestnuts)* yn gorchuddio ochrau y mynyddoedd i'r uchder o 4,000 tr.; gwenith yn 4,500 tr.; a ffawydd, 6,000 tr. O dan y Rhufeiniaid, ystyrid Sicily fel ydlan Italy; a thyfir ŷd yno mewn cyflawnder etto, er fod dull y trigolion o drin y tir yn dra hynafol. Dywedir fod eu herydr yn awr yn waelach o ran eu gwneuthuriad nag ceddynt yn amser Virgil—agos i 1,900 o fl. yn ol. Nid oes ffyrdd da o fewn yr holl ynys.

*Cynnyrchion.*—Allforir gwenith a haidd, ond mewn symiau lled fychain; a thyfir yno ffa, ŷd India, reis, olewydd, eurafalau, a llawer o ffrwythydd cyffelyb—pytatw, tybaco, a llin, &c., &c. Dywedir fod pedwar-ar-bymtheg o rywogaethau gwahanol o winwydd yn yr ynys, a bod o 30,000 i 40,000 o dynelli o win yn cael eu gwneyd yn flynyddol ynddi; o ba rai y mae o 15,000 i 25,000 yn cael eu dwyn trosodd i'r wlad hon. Tyfir coed ffrwythydd ynddi ar tuag 80,000 o aceri; yr hyn sydd yn chwanegu yn fawr at ei chyfoeth.

*Mŵnau.*—Y mae gwelyau brwmstan yr ynys o werth mawr, ac y maent i'w cael dan tua 2,600 mill. pet.—ar ba rai y mae tua 150 o fwngloddiau, o ba rai y cloddir tua 150,000 o dynelli yn flynyddol. Ceir yno lawer o rywogaethau o feini gwerthfawr, a marmor; ac hefyd, efydd, plwm, haiarn, aur, antimony, ac arian byw; a thua 500,000 pwys o sidan cri yn flynyddol.

*Ei Llywodraeth.*—Llywodraethir pob talaeth gan raglaw; yr hwn sydd yn gofalu am holl orchwylion ei dalaeth, ac mewn rhan am y fyddin hefyd. Y mae tair cynghorfa yn yr ynys—sef, Cynghorfa yr Arolygiaeth, y Gynghorfa Dalaethol, a'r Gynghorfa Ddosbarthiadol:—aelodau pa rai a bennodir gan y brenin.

*Trigolion, Crefydd.*—Heb law tua 58,000 sydd wedi tarddu o'r genedl Roegaidd, y rhai sydd yn byw gan mwyaf yn agos i Palermo, ac amryw filoedd o Iuddewon, y mae y boblogaeth oll yn Babyddion. Yr oedd yr ynys yn yr hen amseroedd yn gartref i amryw drefedigaethau o Roegiaid, o ba rai yr oedd Syracuse ac Agrigentum yn fwyaf enwog. Ymffrostia fod ganddi rai o'r olion mwyaf mawreddog o gelfyddyd yr hen oesoedd ag sydd o fewn y byd. Y porthladdoedd ydynt, Palermo yn y gog., Trapani yn y gor., a Messina, Agosta, a Syracuse yn y dwyr. Gwna ei masnach yn benaf â Phrydain, Ffrainc, y Baltic, Belgium, Germany, Italy, ac America.

Unwyd yr ynys â Naples yn 1736. Yn 1847, 1848, ac 1849, ymdrechwyd, ond yn aneffeithiol, i ymryddhau o dan y lywodraeth hono. Cododd y Siciliaid mewn gwrthryfel drachefn yn 1860; a chyda Garibaldi yn arweinydd, gorchfygasant y Neapolitiaid yn Calatafimi, Palermo, a Milazzo. Yna, yn Naples, unwyd drwyddo ef y ddwy Sicily, fel y gelwid hwy gynt, â theyrnas newydd Italy, dan Victor Emmanuel.

**TAIR TAFARN.** Tref tua deng-milldir-arhugain o Rufain, ac un-milldir-ar-ddeg o Appii-Forum, yr hon sydd yn gorwedd i'r de-ddwyrain o'r ddinas.

**TAURUS.** Mynydd yn Asia Leiaf.

**TROAS.** Gwastadedd yn Asia Leiaf, ar y rhan uchaf o'r hwn y cafodd hen ddinas enwog Caerdroia *(Troy)* ei hadeiladu [gwel cyf. x., td. 726]. Mesura, yn nghyfeiriad yr Hellespont, neu y Dardanelles, tua 10 mill. o hyd, wrth 3 o led. Dyfrheir y gwastadedd gan dair afon—dwy o ba rai a adwaenid yn yr hen amseroedd dan yr enwau Simois a Scamander.

**Y PORTHLADDOEDD PRYDFERTH.** Ni ellir dyweyd mai porthladd ydoedd; ond machwy—i'r hon y gallai llongau fyned, ac angori, am dymmor, yn y de-ddwyrain o Creta. Y mae Jerome, ac eraill, yn dywedyd mai tref ydoedd, ar lan y môr.

ASIARCH, [Gr., llywydd Asia, "penaeth Asia;" *Act.* xix. 31]: swyddog a ddewiswyd bob blwyddyn yn mhrif ddinasoedd Asia Leiaf, i arolygu y campau a'r gwyliau crefyddol, er anrhydedd i'r duwiau paganaidd, a'r ymherawdwyr Rhufeinig. Nid yw yn annhebygol fod Asiarchiaid gwahanol ddinasoedd yn ffurfio cyfeisteddfod, ac yn dewis un o honynt eu hunain yn ben, i weithredu dan gyfarwyddyd y llywydd Rhufeinaidd. Gallai eu bod, fel yr archoffeiriaid Iuddewig, yn cadw yr enw fel arwydd o barch, ar ol cyflawni y swydd.

ASIDEAID, [*chasidim*; Ἀσιδαῖοι=*duwiolion, cyfiawnion*]. *Asideaid* neu *Chasideaid*, sydd yn deilliaw o'r gwreiddyn חסד=gair a arferir i ddynodi gweithred dda neu ddrwg iawn:—y blaenaf fynychaf. Nid ydyw i'w gael fel disgrifiad o gorph neillduol o bobl yn yr Ysgrythyrau canonaidd, nac yn Josephus. Ond yn Llyfrau y Maccabeaid, rhoddir ef i blaid o bobl ymroddedig ac aiddgar; y rhai a gyfodasant mewn arfogaeth ddiffynol, wrth alwad Mattathias, tad y Maccabeaid; a'r rhai, gydag ef a'i olynwyr, a gynnaliasant, neu a amddiffynasant, drwy y cleddyf, yr athrawiaeth arbenig o Undod y Duwdod, ac a wrthsafasant y llifeiriant o arferion Groegaidd, ac eilunaddoliaeth, oedd yn dylifo dros eu gwlad.

Yr Iuddewon, mewn amser diweddarach, a roddasant yr enw *Chasidim* i'r bobl grefyddol hyny a ymgyflwynent i fuchedd o farwhâd ac

Digitized by Google

ymarferiad crefyddol; gan obeithio, drwy hyny, prysuro dyfodiad y Messïah, a gwneuthur iawn dros eu pechodau eu hunain ac ereill. Cymmerwyd yr enw Chasidim, hefyd, gan blaid Iuddewig a gyfododd yn Poland o ddeutu can mlynedd yn ol, ac sydd eto yn parhau. Y mae eu gwaith yn defnyddio yr enw, yn eu dwyn yn ol, ac yn eu cyssylltu, dybygid, â'r Chasidim, neu yr Asideaid a ymunasant â Mattathïas; y rhai a ystyrir yn gyffredin fel plaid neu gynnulleidfa grefyddol yn hanfodi yn yr amser hwnw. Nid yw Josephus, modd bynag, yn son am un blaid o'r fath wrth drin helyntion yr amser hwnw. Yn 1 *Mac.* ii. 42; vii. 13; 2 *Mac.* xiv. 6, yn unig y cyfeirir atynt, ac nid oes dystiolaeth ddigonol yn y manau hyn fod yr Asideaid yn gwneuthur plaid wahanol oddi wrth yr Iuddewon crefyddol a ffyddlawn ereill. Mae yr enw Hebreig cyfatebol, *Chasidim*, i'w gael mewn amryw fanau o'r Ysgrythyr fel enw ar bobl dda a duwiol, fel yn *Salm* cxlv. 10; cxlix. 1; *Esa.* lvii. 1; *Micah* vii. 2; ond nid yw byth yn cael ei roddi i blaid neu gorff o ddynion. Ar y cyfan, o ddiffyg hysbysiaeth gadarnhaol, ymddengys mai y llwybr diogelaf yw penderfynu mai plaid o bobl aiddgar ragorol, ac ymroddedig i'r ddeddf, oedd yr Asideaid, a ymunasant yn gynnar â Mattathïas, ac a barhasant yn ganlynwyr dianwadal wrtho ef a'i fab Iudas. Tybia rhai mai oddi wrth yr Asideaid y deilliodd y Phariseaid. Cyfodasant yn amser y caethiwed, neu yn fuan ar ol hyny: a thybir eu bod ar y dechreu, ac yn hir wedi hyny, yn gyfran wir grefyddol o'r genedl; ond iddynt yn raddol fyned yn ofergoelus.—*Kitto.*

AGRICOLA, CNÆUS JULIUS: cadfridog Rhufeinaidd enwog. Ganwyd ef yn Provence, B.A. 37; ac yn amser yr ymherawdwr Vespasian pennodwyd ef yn ail i Vettius Belanus, yn y llywyddiaeth yn Mhrydain. Ar ei ddychweliad i Rufain, gwnaed ef yn llywodraethwr Aquitania—swydd a ddaliodd am dair blynedd. Yna galwyd ef yn ol i'r brif ddinas, ac etholwyd ef yn gonsul, a phennodwyd ef yn llywodraethwr Prydain; ac enwogodd ei hun yma yn fawr. Cariodd allan lawer o ddiwygiadau yn y wlad. Ac wedi marw Vespasian, gan fod ei fab Titus yn adnabod gallu Agricola, cadwodd ef yn ei swydd. Gosododd Agricola ei ddoethineb ar waith i ddyfeisio cynlluniau i ddwyn y Brythoniaid i gydymffurfio âg arferion y Rhufeiniaid. Cefnogodd y gwaith o adeiladu temlau gorwych, ac adeiladau heirdd eraill. Ac o'r diwedd, dechreuodd y pendefigion brodorol addysgu eu meibion yn nysgeidiaeth y Rhufeiniaid, a'r rhai a deimlent y gwrthwynebiad mwyaf i iaith yr estroniaid, ei hastudio yn ddyfal, ac i arfer eu gwisgoedd, a dilyn eu harferion. Ac, fel y sylwa Tacitus, dygwyd hwy yn raddol i ystyried arferion y goresgynydd yn arwydd o goethder; er nad oedd hyny, mewn gwirionedd, fe allai, ond amlygiad o'u darostyngiad. Y mae llawer gormod o'r un ysbryd i'w ganfod yn ein mysg ni y dyddiau hyn; ac ymddengys mewn cylchoedd na buasid yn ei ddisgwyl. Ond nid ydyw diystyrwch unrhyw genedl o'i hiaith yn anrhydedd iddi. Yn hytrach na phrophwydo ei thrangcedigaeth, ac ymbarotoi i'w chladdu, a hyny cyn iddi farw, dyledswydd pawb ydyw ceisio ei chadw yn fyw, a helaethu ei dylanwad. Aeth Agricola yn mlaen yn ei drydydd rhyfelgyrch mor bell a'r Tweed; ac yn ei bedwerydd rhyfelgyrch gorchfygodd y cenhedloedd oedd ar ei glanau a morgeingciau y Frith a'r Clyde; ac adeiladodd gaerfeydd er cau i fyny y cenhedloedd oeddynt etto heb eu gorchfygu. Yn ei bummed ymgyrch, aeth y tu hwnt i'r morgeingciau, ac ennillodd diriogaethau newyddion, a gosododd warchodluoedd ar hyd y gororau gorllewinol ar gyfer yr Iwerddon. Yn ei chweched ymgyrch, aeth heibio i'r afon Bodotria; a gorchymynodd i'w lynges, y gyntaf fu gan y Rhufeiniaid erioed yn y parthau hyny, i symmud ar hyd ei glanau, i gymmeryd tro ar y parthau gogleddol. Cyfododd y Brythoniaid fyddin o 30,000 o wŷr yn y gwanwyn dilynol, o dan lywyddiaeth Galgacus, i wrthwynebu y goresgynwyr. Ond ennillodd y Rhufeiniaid y frwydr a ddilynodd, a lladdwyd deng mil o'r Brythoniaid. Digwyddodd hyn yn nheyrnasiad Domitian. Teimlodd yr ymherawdwr yn eiddigus o herwydd llwyddiant Agricola; a galwodd ef adref, dan yr esgus o'i wneuthur yn llywodraethwr Syria. Bu Agricola yn Mhrydain am saith mlynedd, sef o B.A. 78 hyd 85, a bu farw yn mis Awst, 93, yn 55ain mlwydd oed. Y mae yr hanesydd mawr Tacitus, yr hwn a briododd ferch i Agricola, wedi ysgrifenu hanes ei fywyd; ac ystyrir ef yn un o'r bywgraphiadau tlysaf a ysgrifenwyd erioed.

ABBOT, GEORGE: archesgob Caergaint. Ganwyd ef Hydref 29ain, 1562, yn Guildford, swydd Surrey. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychain, a dewiswyd ef yn brif athraw Coleg y Brifysgol yn 1597. Yn y fl. 1599, dyrchafwyd ef yn ddeon Winchester; a'r flwyddyn ddilynol yn is-ganghellydd prifysgol Rhydychain; ac ail etholwyd ef drachefn yn 1603. Dechreuwyd y cyfieithiad o'r Testament Newydd a ddefnyddir yn awr yn yr iaith Saesnig yn 1604, trwy gyfarwyddyd y brenin Iago; a Dr. Abbot oedd yr ail a enwyd o'r wyth ysgolhaig o Rydychain i ba rai y rhoddwyd y gofal o gyfieithu yr oll o'r Testament Newydd, ond yr Epistolau. Yn y fl. 1608, bu efe ac iarll Dunbar yn ceisio sefydlu undeb rhwng eglwysi Ysgotland a Lloegr; ac amlygodd bwyll a doethineb neillduol yn y drafodaeth. Yn fuan ar ol hyny, pennodwyd ef yn esgob Lichfield; ac yna yn mhen mis, sef yn Ionawr, 1610, yn esgob Llundain; ac yn y mis Tachwedd canlynol, dyrchafwyd ef i archesgobaeth Caergaint. Dangosodd Dr. Abbott ei hun yn gyfaill selog i Brotestaniaeth ar hyd ei holl yrfa.

Myn rhai briodoli ei ddyrchafiadau i'w waith yn gwenieithio i'r brenin; a diammheu ei fod ar adegau yn rhy dueddol i hyny, fel eraill o gaplaniaid y llys. Ond beiddiai ar adegau wrthwynebu ewyllys y penadur gyda dewrder a diysgogrwydd: a gwnaeth hyny drwy wrthwynebu Llyfr y Chwareuon, ysgariad priodasol yr Iarlles o Essex, a'r briodas Yspaenaidd. Naw mlynedd yn ddiweddarach, gyda'r un diysgogrwydd, tynodd ŵg Siarl I., trwy ommedd trwydded i bregeth slafaidd o eiddo y Dr. Sibthorpe, yr hon a draddodwyd gyda'r amcan o gyfiawnhau un o weithredoedd anghyfansoddiadol Siarl. Am y weithred anrhydeddus hon, attaliwyd ef i weinyddu ei swydd; ond cafodd ei adferu iddi yn fuan, er nad yn ewyllysgar. Yr oedd Laud a Buckingham yn elynion anghymmodawl iddo. Gofidiwyd ef yn ddirfawr yn ei hen ddyddiau o herwydd iddo, yn ddiammheuol, wrth annelu saeth at garw, saethu un o geidwaid helwriaeth Arglwydd Zouch, fel y bu farw. Tafodd hyn



Digitized by Google

ef i brudd-der mawr; ac o hyny allan ymprydiai un dydd Mawrth o bob mis, a rhoddodd 20*p.* o flwydd-dâl i weddw y gŵr a laddwyd. Bu farw yn 1633, yn 71ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn Guildford, lle y gwaddolodd elusendai i'r tlodion. Cyhoeddodd amryw weithiau llenyddol yn ystod ei fywyd.

AINSWORTH, HENRY, D. D.: duwinydd Anghydffurfiol o enwogrwydd mawr yn yr unfed a'r eilfed ganrif ar bymtheg. Y mae amser a lle ei enedigaeth yn anhysbys. Yn y flwyddyn 1590, hynododd ei hun yn mhlith y sect a elwid y Browniaid; a phan yn ieuangc, meddai gymmeriad uchel am ei hyddysgrwydd yn yr ieithoedd dysgedig, ac yn enwedig yr Hebraeg. Gwnaed y Browniaid yn wrthddrychau erledigaeth yn Lloegr; a gorfodwyd Ainsworth, fel llawer eraill, i adael ei wlad enedigol am Amsterdam yn Holland; ac yno y bu hyd ddydd ei farwolaeth. Nis gallai neb ei berswadio i ddyfod adref i'w wlad ei hun. Colled i achos Protestaniaeth oedd i'r dyn mawr a galluog hwn gael ei attal rhag pregethu yn ei wlad enedigol.

Ychydig o awduron a ddyfynir yn amlach nag Ainsworth gan ddysgedigion y gwledydd, o bob sect a phlaid. Yr oedd yn ŵr o ddysg mawr, yn hynod gyfarwydd yn yr Ysgrythyrau, ac wedi darllen yn fanwl weithiau y rabbiniaid Iuddewig. Cyhoeddodd lawer o draethodau, a chynnyrchodd amryw o honynt gryn ddyddordeb; ac yn enwedig ei "*Counter Poison against Bernard and Crashaw.*" Mawr edmygir ei "*Annotations on several Books of the Bible.*" Yn yr "*Annotations*" hyn ar Bum Llyfr Moses, y Caniadau, a'r Salmau, y mae y geiriau Hebraeg yn cael eu cymmharu a'u hegluro gyda'r hen gyfieithiadau Groegaidd a Chaldeaidd, ac â chofnodion Hebreaidd eraill.

Bu farw Ainsworth yn sydyn, naill ai yn 1622 neu 1623; ac amheuir mai ei wenwyno a gafodd gan Iuddew. Trosglwyddir ei enw i oesau dyfodol, nid yn unig fel dyn teilwng o glod ar gyfrif ei alluoedd a'i ddysg, ond hefyd o efelychiad ar gyfrif purdeb ei fywyd, a'i ymlyniad diysgog wrth ei egwyddorion. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau gwerthfawr eraill nad ydynt wedi eu henwi uchod; megys, "*Fellowship of the Faithful,*" "*Communion of the Saints,*" "*An Arrow against Idolatry,*" &c.

ALARIC I.: cadfridog Visigothaidd enwog, a ddeilliodd o deulu pendefigaidd. Etholwyd ef yn frenin. Y crybwylliad cyntaf a geir am dano mewn hanesyddiaeth sydd fel arweinydd cynnorthwyol Theodosius Fawr. Bu farw yn Cosenza yn 411. Disgrifir y seremoniau a gymmerasant le ar ei gladdedigaeth mewn modd hyawdl gan yr hanesydd Gibbon.

ALBERT, FRANCIS AUGUSTUS-CHARLES-EMMANUEL: tywysog Saxe-Coburg-Gotha, priod Victoria, brenhines Prydain Fawr. Ganwyd ef Awst 26ain, 1819. Ail fab ydoedd efe i'r diweddar duc o Saxe-Coburg-Gotha, o'i briodas gyntaf gyda Louisa, merch i'r duc o Saxe-Gotha-Altenberg. Addysgwyd ef yn y castell o dan arolygiaeth ei dad, gan athrawon a ddewiswyd o goleg Coburg, hyd fis Mai, 1837, pan yr aeth i brifysgol Bonn, fel efrydydd y gyfraith. Arosodd yno hyd fis Medi, 1838; ac yn y cyfamser yr oedd wedi ennill iddo ei hun enw uchel am ei gyrhaeddiadau mewn gwyddor a chelf, ac wedi sicrhau serch ac edmygedd preswylwyr Bonn o herwydd ei fywyd diargyhoedd a'i garedigrwydd i'r tlodion. Heb law ei efrydiau mewn rheithofyddiaeth a hanesyddiaeth, astudiai gerddoriaeth ac arluniaeth yn ei oriau hamddenol, nes dyfod yn gerddor ac yn arlunydd da. Yr oedd y Count Beust a'r proffeswr Welcker yn mysg ei gyfeillion penaf yn Bonn. Perchid ef yn fawr gan Schlegel, er nad oedd y gŵr hwnw, fel rheol, yn proffesu ond ychydig o barch i dywysogion fel y cyfryw. Yn 1838, talodd y tywysog Albert ymweliad â Phrydain yn nghwmni ei dad, er bod yn bresennol ar goroniad y frenhines Victoria, ac arosodd yn Llundain yn hwy na gwahoddedigion eraill o'r radd uchaf a ddaethant yma ar yr achlysur hwnw. Daeth ar ymweliad â'r wlad hon drachefn yn 1839; ac ar ol hyny amlygodd y frenhines i'r cyfringynghor ei bwriad i ymuno mewn priodas âg ef. Gwnaed hyn yn hysbys hefyd i'r senedd yn araeth y frenhines Ionawr 16eg, 1840. Ar ei briodas cafodd y tywysog y teitl o 'Uchelder Brenhinol,' a gwnaed ef yn ddeiliad dinesig o deyrnas Prydain Fawr, a rhoddwyd iddo y gradd o gadlywydd, urdd marchogol y Baddon, a llywyddiaeth ar gatrawd o feirchfilwyr. Pasiwyd deddf hefyd yn ei bennodi yn rhaglaw y deyrnas pe y digwyddasai i'r frenhines farw cyn i etifedd cyfreithlawn i'r goron gyrhaedd deunaw mlwydd oed.

Gan i'r uniad priodasol hwn fod yn un hynod o ddedwydd, gorlwythwyd y tywysog âg arwyddion o anrhydedd gan y frenhines a'r wlad. Cymmerodd yntau fantais ar bob cyfleusdra i wellhau sefyllfa y tlodion, yn gystal ag i gefnogi a gwellhau dysg a chelfyddyd yn gyffredinol. Yn 1847, derbyniodd gan brifysgol Caergrawnt —ar ol i hyny gael ei gadarnhau gan etholiad— y swydd o ganghellydd; yr hon ar y cyntaf a wrthodwyd ganddo. Yn 1859, dewiswyd ef yn llywydd y Gymdeithas Wyddonol Brydeinig. Teimlai ddyddordeb mewn amaethyddiaeth hefyd, fel y gwelir, nid yn unig gan ei areithiau yn nghyfarfodydd y Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol yn Nghaerefrog yn 1848, a manau eraill, ond yn y gafael a amlygai yn arolygiaeth ei fferm (*model farm*) yn Windsor. Sefyllfa y dosbarthiadau gweithiol oedd pwngc yr araeth bwysig gyntaf a draddododd efe yn gyhoeddus, yn yr un flwyddyn (1848); a'r mater hwn yn ddiammheu a orweddai wrth wraidd y cynllun doeth o gario allan Arddangosfa Fawr 1851, yr hwn y teimlai y tywysog y fath ddyddordeb ynddo. Ni throdd y cynllun hwn yn fethiant yn ei amcan; a pharodd llwyddiant y gyntaf i ail arddangosfa gyffelyb gael ei hagor yn 1862; ond nid oedd y tywysog ar dir y byw pan agorwyd hono. Ar y 25ain o Fehefin, 1857, galwyd ef, mewn canlyniad i drwydded frenhinol, yn *Dywysog Cydweddog* (*Prince Consort*), er ei ddyrchafu i sefyllfa uwch; a byddai felly yn meddu lle mwy dyrchafedig yn mysg aelodau llysoedd tramor na phe buasai yn meddu ar y teitl o 'uchelder brenhinol' (*royal highness*), yr hwn a roddwyd iddo ar ei briodas. Yn gynnar yn Rhagfyr, 1861, amlygodd arwyddion o afiechyd; ond ni thybiwyd fod dim yn ddifrifol wedi ymaflyd ynddo hyd o fewn tridiau neu bedwar i'w farwolaeth. Dydd Sadwrn, Rhagfyr 14eg, ar ol ychydig o arwyddion o wellhâd, y cyhoeddiad o'r hyn a groesawid yn fawr gan y bobl yn gyffredinol, bu farw yn hynod ddiboen er galar dwys a dwfn i'w deulu, a'r wlad

Digitized by Google

yn gyffredinol. Bu farw yn y 43ain mlwydd o'i oedran, a chladdwyd ef yn Nghapel St. Sior, yn Windsor. Symmudwyd ei weddillion wedi hyny i'r beddrod yn Frogmore, lle y cododd y frenhines feddadail ardderchog yn arddangosiad o'i pharch i'w goffadwriaeth.

Ystyrid marwolaeth y tywysog rhagorol hwn yn drychineb cenedlaethol, ac amlygwyd gofid dwys o'i herwydd, nid yn unig yn y tiriogaethau Prydeinig, ond drwy yr holl fyd gwareiddiedig. Gwnaed tanysgrifiad cyhoeddus helaeth ar unwaith er cyfodi cofadail ardderchog i'w goffadwriaeth yn Hyde Park, ar y lle y safai Arddangosfa Fawr 1851. Y mae tair cyfrol wedi eu cyhoeddi, yn rhoddi hanes ei fywyd; a bwriedir cyhoeddi pedwaredd gyfrol. Yr awdwr ydyw Mr. Theodore Martin, ac y mae yn preswylio yn awr yn agos i Langollen. Y mae trigolion Prydain wedi bod hyd yn ddiweddar yn coledd meddyliau tra charedig am y Tywysog Albert, gan eu bod yn credu ei fod wedi ymgadw heb ymyraeth âg achosion y wladwriaeth yn mhellach nag yr oedd y cyfansoddiad yn caniatau: a'r un modd y frenhines hefyd. Ond y mae cyhoeddiad y cyfrolau uchod, ac yn enwedig y drydedd gyfrol, wedi newid y syniad hwn; a barna llawer yn awr ei fod ef a'r frenhines wedi cymmeryd gormod arnynt eu hunain, ac wedi ymyraeth mewn modd tra annoeth ac anweddus âg aelodau amryw o weinyddiaethau, ac wedi pleidio rhyfel y Crimea i raddau llawer rhy bell. Y mae cyhoeddiad y gwaith hwn, y mae lle i ofni, wedi darostwng y tywysog yn ngolwg llaweroedd, ac wedi oeri teimladau nifer fawr iawn o'r deiliaid tuag at y frenhines hefyd, a'r teulu brenhinol.

ASKEW, ANNE. Merthyr Protestanaidd, a anwyd yn Grimsby, yn swydd Lincoln, yn 1521. Cymmerwyd hi i fyny am heresi; ac wedi dioddef creulonderau erchyll, llosgwyd hi wrth yr ystanc yn Llundain, Gor. 18fed, 1546.

ASIEL, [עשיאל]: un o hiliogaeth Simeon: 1 *Cron.* iv. 35.

ASIMA, neu ASIMATH: eilun dduw yr Hamathiaid, y rhai a ymsefydlasant yn Samaria: 2 *Bren.* xvii. 30. Y mae rhai o'r Rabbiniaid, megys Rabbi Solomon, a Kimchi, yn dyweyd mai ar lun epa yr oedd yr eilun yma: ereill a ddywedant mai ar lun oen, neu afr, neu wŷddan (*satyr*) yr oedd. Yr oedd yr epa a'r afr yn cael eu haddoli yn yr Aipht, ac mewn amryw o wledydd y dwyrain. Y mae yn debyg fod y rhai a ddadleuant mai ar lun epa yr oedd yr eilun yma wedi casglu hyny oddi wrth sain y gair *sima*, yr hwn sydd yn meddu rhyw berthynas â'r gair Groeg am epa, *simia:* ond yr oedd gan yr Hebreaid air arall am yr epa, fel y gwelir yn *Lef.* xvii. 7.

ASIO, [*as*]: cyssylltu, uno, cydio, ias-gydio. "Asio celwydd;" *Iob* xiii. 4: *h.y.*, clytio, llunio, neu ddyfeisio celwydd. "Y mae yn barod i'w asio;" sef yr haiarn gwynias ar yr einion, yn barod i'r mortnwyliwr i'w weithio. Ymyl y ddalen—"Da yw yr asiad:" ymfoddlonent felly yn eu gwaith.

ASIPHA, HASUPHA: un o'r Nethiniaid, neu weinidogion y deml: 1 *Esd.* v. 29. Cymharer *Ezra* x. 27.

1. ASMAFETH, neu AZMAFETH: y Barhumiad: un o gedyrn Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 31; 1 *Cron.* xi. 33.

2. ASMAFETH: mab Iehoadah, o hiliogaeth Ionathan, mab y brenin Saul: 1 *Cron.* viii. 33—36.

3. ASMAFETH; mab Adiel, pen trysorydd y brenin Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 25.

4. ASMAFETH: a elwid hefyd Azmoth, neu Beth-asmafeth, neu Beth-asmoth: dinas, a orweddai, fel y bernir, yn llwyth Iudah, rhwng Ierusalem ac Anathoth: *Ezra.* ii. 24; *Neh.* vii. 28; a xii. 29.

ASMODEUS: enw yr ysbryd drwg, a grybwyllir yn Llyfr Tobit, fel un a wyliasai ar Sarah, ferch Raguel, gan ladd saith o wŷr, y rhai a briodosai hi o flaen Tobit: *Tobit* iii. 8; vi. 14; viii. 2, 3. Y mae gan y Rabbiniaid Iuddewig luaws mawr o draddodiadau dychymygol a thra disail am yr Asmodëus yma; a galwant ef, gystal a Beelzebub, yn dywysog y cythreuliaid; a rhoddant yr un teitl hefyd i angel marwolaeth, fel dinystrydd holl ddynolryw. Am hyny y casglai rhai fod yr enw Asmodëus yn deilliaw o'r Hebraeg *Shamad*=difodi; yr hyn a'i gwnelai yr unrhyw âg Ashmodai, ac âg Abbadon hefyd: os felly, nid yw yr hanes yn golygu dim mwy na bod y seithwyr wedi meirw yn olynol, yn y fan, wedi ymbriodi o honynt â Sarah.—(*Calmet's Dictionary; Lightfoot; Hor. Heb., ad Luc* xi. 15.)

ASMON: y ddinas nesaf i'r Aipht o Wlad yr Addewid: *Num.* xxxiv. 4, 5; *Ios.* 15. 4. Yr oedd yn gorwedd tua therfyn eithaf rhandir Simeon, ac fe'i gelwir hefyd dan yr enw Asem: *Ios.* xix. 3.

ASMONEAID: enw a roddwyd ar y Maccabeaid. Nid ydys yn cytuno o barth i darddiad yr enw. Y mae rhai, ac yn eu plith Drusus [*Rhagym.* i 1 *Mac.*]. yn barnu ei fod wedi dyfod oddi wrth bentref Asamon, yn nhir Iudah; o'r lle y gallasai y tylwyth ddyfod. Tybiodd Noldius eu bod wedi cymmeryd yr enw oddi wrth fynydd Asamon, y crybwyllir am dano gan Josephus [*De Bello*, llyfr ii. pen. 23]. Y mae Kimchi, ar *Salm* lxviii. 32, yn dadleu mai enw o anrhydedd a roddwyd ar Mattathïas, tad y Maccabeaid, ydyw; ac oddi wrtho ef a roddwyd arnynt hwythau. Ond dilynir barn Josephus [*Hen.*, llyfr xii. pen. 8] yn fwyaf cyffredin: dywed fod Mattathïas yn fab Ioan, yn ŵyr Simon, ac yn orŵyr Asmonëus. Ymddengys fod gan yr enw Asmonëus, fel enwau Hebreig ereill, ei ystyr arwyddol. Ni ddygwydda y gair חשמנים (*Chahsmanim*) ond unwaith yn yr Hen Destament, sef *Salm* lxviii. 32—arwydda yno *breision;* sef pendefigion, tywysogion. Felly, dynoda yr enw Asmoneaid, *ddynion pendefigaidd.*

Buasai yr Iuddewon am lawer o flynyddoedd yn ddarostyngedig i awdurdod Syria, pan y dechreuodd Mattathïas a'i feibion wrthsefyll ymgais Antiochus Epiphanes i orfodi yr Iuddewon i newid addoliad "Duw eu tadau," am eilunaddoliaeth eu gorthrymwyr. Am lwyddiant Mattathïas, gwel Lyfrau y Maccabeaid, yn yr Apocrypha, a *Hen. Jos.* [o lyfr xii. hyd llyfr xvii.]

Parhaodd nerth yr Asmoneaid am gant a naw ar ugain o flyneddoedd, sef o 166 c. c. hyd 37 c. c. Ond parhaodd y tylwyth ar ol i'r deyrnach ymadael o hono. Llywodraethai y disgynyddion cyntaf heb deitl brenin, ond gydag awdurdod freninol; unent yn eu personau eu hunain swyddau yr archoffeiriad, y prif farnwr gwladol, a phrif lywydd y fyddin. Gorphwysai eu dylanwad ar

Digitized by Google

barch diolchus y genedl Iuddewig, i'r hon yr adferasant ei hannibyniaeth. Hwy oeddynt attegion eu crefydd a'u rhyddid. Darfu i'r llywiawdwyr diweddaraf o'r Asmoneaid gymmeryd y teitl *brenin:* ond gan eu bod yn ol i'w hynafiaid mewn rhinwedd a daioni, collasant serch y genedl; ac yn ganlynol, trwy ymrafaelion teuluaidd, collasant y deyrnas ei hun.

Ni ddywedir yn un man a oedd yr Asmoneaid o deulu Iosedec, yn yr hwn y parhäai yr archoffeiriadaeth mewn disgyniad rheolaidd, hyd oni roddwyd yr anrhydedd i Alcimus, neu Ioacim; ond cadarnheir eu bod o ddyddgylch Iehoiarib, ar yr hwn y syrthiodd y coelbren gyntaf o holl deulu Aaron; ac felly, yn niffyg y teulu archoffeiriadol blaenorol, yr hwn a barwyd trwy i Onïas, fab Onïas, ffoi i'r Aipht, yr oedd ganddynt fwy o hawl nag un teulu arall i'r swydd anrhydeddus hono. Ar gyfrif yr hawl hono y cymmerodd Ionathan y swydd, pan benodwyd ef gan frenin Syria, ac yr etholwyd ef iddi gan bleidlais gyffredinol y genedl.

ACHYDDIAETH YR ASMONEAID.

Asmoneus.
Simon.
Ioan.
Mattathïas.

Ioan. | Simon. | Iudas Maccabæus. | Eleasar. | Ionathan.

(Simon:)
Iudas. | Mattathïas. | Ioan Hyrcanus. | merch, a briododd Ptolemus, llywodraethwr Castell Docus.

(Ioan Hyrcanus:)
Aristobulus, a briododd Salome. | Alexander Jannæus, a briododd Alexandria. | Antigonus, a dau o feibion ereill.

(Alexander Jannæus:)
Hyrcanus II. | Aristobulus.

(Hyrcanus II.:)
Alexandra.

(Aristobulus:)
Alexander. | Antigonus.

(Alexandra:)
Mariamne, a briodwyd â Herod Fawr. | Aristobulus III.

Ymadawodd y llywodraeth o deulu yr Asmoneaid ar esgyniad Herod Fawr i'r orsedd. Ymosodwyd ar Antigonus gan Marc Antony, ac wedi tair blynedd o'i deyrnasiad, rhoddwyd ef i farwolaeth gan y Rhufeiniaid (c. c. 37) i wneyd y ffordd yn rhydd i Herod. Yr oedd Herod wedi ennill ffafr Julius Cæsar, Marc Antony, a'r Rhufeiniaid yn gyffredinol, fel y gallodd, trwy eu cynnorthwy hwy, disodli yr Asmoneaid, a ffurfio teyrnach newydd. I gadarnhau ei awdurdod, priododd Mariamne, ŵyres i Hyrcanus II.; a gwnaeth ei brawd Aristobulus yn archoffeiriad, gan feddiannu y gallu breninol ei hun. Pan welodd fod gan Aristobulus lawer o bleidwyr, rhoddes orchymyn am ei foddi; yr hyn a wnaed, c. c. 35. "Fel hyn," medd Josephus [*Hen.* xiv. 16, 4], "y dybenodd llywodraeth yr Asmoneaid, yn mhen cant a chwech ar ugain o flyneddoedd ar ol ei sefydlu. Yr oeddynt yn deulu ardderchog ac anrhydeddus, a hyny ar gyfrif urddasoldeb eu llinach, ac ardduniant yr archoffeiriadaeth, ac hefyd yn gystal ar gyfrif y gweithredoedd gogoneddus a gyflawnwyd gan eu hynafiaid dros ein cenedl. Ond collasant y llywodraeth drwy eu hymrafaelion yn eu plith eu hunain; a daeth i law Herod, mab Antipater, yr hwn nid oedd o deulu amgen na chyffredin. A hyn y mae hanesiaeth yn ei adrodd a fu diwedd yr Asmoneaid."

Llofruddiwyd Mariamne, trwy orchymyn Herod, oddi ar dybiaeth ddisail ei bod yn euog o fradwriaeth a phuteindra; a rhoddwyd ei meibion i farwolaeth dan y cyhuddiad eu bod yn bwriadu gwrthryfela yn erbyn eu tad.

Ond ni therfynodd y teulu Asmoneaidd yn yr un dydd ag y diweddodd eu hawdurdod. Y mae yn deilwng o sylw fod yr hanesydd Iuddewig, Josephus, wedi tarddu o hono.

Yn y British Museum, y mae nifer o fatholion a berthynent i'r Asmoneaid. Y mae y batholion mwyaf yn arian, a'r rhai lleiaf yn bres. Yr arysgrifau sy ar y rhai cyntaf ydynt—"Shimeon," ac "I ryddid Ierusalem." Ar y rhai diweddaf, y mae yr ysgrifau—"Rhyddid Sion," a "Yr ail Flwyddyn." Gwel Alexander Jannæus; Aristobulus; Ioan Hyrcanus; Iudas Maccabæus; Maccabeaid.—(*Josephus; Prid. Connec. Penny Cycl.*)

**ASNA**, neu **ESNA**: tref yn yr Aipht Uchaf, yn sefyll ar lan yr afon Nilus. Credir gan rai ei bod yr un a Syena, er bod ereill yn cadarnhau fod ei hadfeilion i'w gweled yn bresennol, yn agos i Asshan. Y mae mor agos i raiadrau yr afon, fel y gellir eu clywed o honi. Cynnwysa lawer o gofadeiliau er y cyn-amseroedd—ac yn eu plith hen deml Aiphtaidd, yr hon sydd bron yn gyfan, ac mewn gwedd lled dda—oddigerth rhai manau yr effeithiwyd arnynt gan amser. Y mae y colofnau yn llawn o ffugrau arwyddluniol. Defnyddir yr hen adeilad ardderchog yn awr yn ystabl, yn yr hon y dodant ychain, camelod, ac anifeiliaid ereill. Nid yn neppell oddi wrthi, y mae

Digitized by Google

adfeilion hen wyryfdŷ, a adeiladwyd, fel y dywedir, gan St. Helena, ac a amgylchynir gan feddrodau. Asna ydyw y briddinas yn y parthau hyny; ac y mae ei thrigolion yn dra chyfoethog mewn ŷd ac anifeiliaid. Y maent oll yn Arabiaid, oddi eithr yn nghylch dau cant o'r Coptiaid, y preswylwyr cyntefig. Y maent dan lywodraeth y Tyrciaid, gan y rhai y mae swyddog yno yn arosol.

**ASNAPPAR**: enw brenin neu lywydd enwog ar Syria, yr hwn a gyfleodd ddyeithriaid i drefedigaethau Samaria: *Ezra* iv. 10. Y mae y dysgedigion yn methu cytuno pa un o'r breninoedd Assyriaidd oedd hwn. Myn rhai mai Salmaneser ydoedd; ond ereill, gyda mwy o debygrwydd eu bod yn gywir, a farnant mai Ezarhadon ydoedd.

**ASOR**, [Αζορ=*yr hwn a gynnorthwya*]: mab Eliacim, yn llinach yr Iachawdwr: *Mat.* i. 13.

**ASP.** Gwel Neidr; Sarff.

**ASPATHA**, [אספתא]: un o feibion Haman, a laddwyd gan yr Iuddewon yn Susan, y breninllys: *Esth.* ix. 7.

**ASPENAZ**: pen ystafellydd y brenin Nebuchodonosor, dan ofal yr hwn y rhoddid Daniel a'i dri chyfaill; a'r hwn a newidiodd eu henwau: *Dan.* i. 3—7.

**ASPHAR**: llyn o ddwfr yn anialwch Tecoa, i lanau yr hwn yr enciliodd Ionathan a Simon Maccabæus rhag llu Bacchides, wedi lladd eu brawd Iudas: 1 *Mac.* ix. 33.

**ASSASSINIAID**: plaid o ryw fath o Fahometiaid, yn y dwyrain: dilynwyr Hassan ben-Sabah. Tybia rhai fod yr enw Assassiniaid wedi ei roddi arnynt oddi wrth eu sylfaenydd: ond dywed M. De Sacy, mai llygriad o'r gair *hashisheen* ydyw, am eu bod yn defnyddio y llysiau a elwir *hashish* i wneyd math o ddiod feddwol, yr hon a yfent cyn ymgymmeryd â rhyw anturiaethau beiddgar, neu er cynnyrchu ynddynt deimladau a gweledigaethau hyfryd o'r baradwys a addawyd iddynt gan eu blaenor. Yr oedd y Mahometiaid wedi ymranu er's amser maith cyn hyn yn ddwy blaid, y rhai a adnabyddid wrth yr enwau Sonnitiaid=uniongred; a Shiitiaid neu Sheähiaid=hereticiaid. Perthynai Ali, tad Hassan, i'r olaf; ond gan ei fod yn canfod gwell gobeithion i'w fab mewn cyssylltiad â'r blaid arall, celai ei egwyddorion, ac anfonodd ef i dderbyn ei addysg yn eu mysg. Wedi myned trwy y cylch o addysg, nid oedd Hassan yn gweled cyfleusdra am ddyrchafiad hyd oni ddaeth Melek Shah, y trydydd brenin o dŷ Seljook, i'r orsedd. Y pryd hwn, ymddangosodd yn y llys, lle yr oedd un a fu yn gydysgolor âg ef yn brif weinidog. Ar ddyrchafiad y brenin ieuanc i'r orsedd, gorchymynodd fod i gyfrifon y deyrnas gael eu gwneuthur i fyny i'w gosod ger ei fron. Mynai y prif weinidog flwyddyn o amser i'w darparu; ond daeth Hassan yn mlaen a chyflawnodd y gorchwyl mewn deugain niwrnod. Modd bynag, yn lle cael ei wobrwyo, gorfu arno ffoi oddi yno, naill ai o herwydd ei gamymddygiadau ei hun, neu o herwydd bradwriaeth y prif weinidog. Yr oedd hyn ryw bryd tua'r flwyddyn 1078. Wedi crwydro am gryn ysbaid, daeth i'r Aipht, a chafodd dderbyniad croesawus. Yno, ymunodd â phlaid o Fahometiaid a elwid Ismaeliaid, ac ymgymmerodd â'u syniadau gyda gwresogrwydd. [Gwel Ismaeliaid.] Ond yn mhen ennyd wedi ei ddyfodiad yno, bu farw y brenin, a chododd ymrafael am yr orsedd rhwng ail fab y brenin a phenaeth y fyddin. Ennillodd yr olaf yr oruchafiaeth, a thraddodwyd Hassan i garchar am ei fod yn pleidio y blaenaf. Wedi hyny, rhoddwyd ef mewn llong i'w alltudio; ond ar y fordaith, cododd tymmestl, a chwythwyd y llestr i dueddau Syria, a chafodd yntau gyfleusdra i ddianc. O'r diwedd, dychwelodd i Persia, a bu yn teithio yno yn llafurus fel cenadwr Ismaeliaidd, ac ennillodd luaws mawr o ddysgyblion. Yr oedd ei fryd o'r dechreu ar ddyfod i awdurdod fel penaeth gwladol, a defnyddiai ei grefydd fel llwybr i gael digon o'i blaid. Yr oedd un o'i genadon mwyaf ymroddgar wedi bod yn dra llwyddiannus yn Alamoot, yr hwn oedd wedi troi y rhan fwyaf o'r preswylwyr; ond gwrthodai llywydd yr amddiffynfa gydnabod ei grefydd, nac ymostwng i neb fel llywydd gwladol ond Melek Shah. Bu Hassan yn llwyddiannus, trwy ei ddichellion, i gynhyrfu ymrafael rhyngddo a'r penaeth; a chan ei fod wedi ennill y rhan luosocaf o'i blaid, gorchfygodd ei wrthwynebwr, a meddiannodd yr amddiffynfa. Yn awr, dyma ef wedi cael llywyddiaeth y lle hwn, yn wladol a chrefyddol, i'w ddwylaw, ac mewn cyfleusdra i wneuthur cais i ddwyn i gynlluniau a fu yn hir yn ei feddwl i weithrediad, yr hyn a fu yn fflangell drom yn y dwyrain am amser maith.

Daeth Alamoot dan ei awdurdod yn y flwyddyn 1090, a llwyddodd i'w chadw yn ei feddiant er pob gwrthwynebiad. Yn mhen deng mlynedd, yr oedd wedi ennill y prif amddiffynfeydd yn nhalaeth Irak. Yr oedd ei gynnydd yn gyflym; ac nid oedd un ddichell, bradwriaeth, na llofruddiaeth, yn rhy ofnadwy ganddynt gyflawnu er cyrhaedd eu hamcanion. Tyngai ei ddysgyblion lw o ffyddlondeb iddo; ac addysgid hwy mor fanwl, fel nad oedd unrhyw anturiaeth yn ormod ganddynt. Rhoddent eu heinioes i lawr gyda'r parodrwydd mwyaf, ar yr amnaid leiaf o eiddo eu huchafiaid. Ymddangosai ei genadon o dan bob ffurf, ac yn mhob gwedd a fyddai yn fanteisiol iddynt gael dyfodfa at y gwrthddrych y bwriadent ei lofruddio, a hyny dan amgylchiadau na byddai iddynt y gobaith lleiaf i ddianc eu hunain yn y canlyniad. Weithiau, llwyddai un o honynt i gael dyfodfa at dywysog neu benaeth a fwriadent ei ddyfetha, mewn trefn, wedi hyny, i gymmeriad meddiant o'i lywodraeth; bryd arall, deuent yn heidiau ar warthaf minteioedd o fasnachwyr (*caravans*), gan eu llofruddio, a dwyn ymaith eu holl eiddo yn ysbail. Nid oedd dim llai mewn golwg ganddynt na chael holl Asia i'w meddiant; ond ni buont yn llwyddiannus i gyrhaedd eu hamcan, er fod eu dychryn wedi disgyn i raddau mawr ar yr holl genedloedd o'u hamgylch. Edrychai ei ganlynwyr ar Hassan fel eu prif benaeth, crefyddol a gwladol, o dan yr enw Sheikh-al-Jebel=penaeth y mynydd; neu, fel y cyfieitha rhai haneswyr y gair, "Hen ŵr y mynydd." Yn mhen o ddeg i bymtheng mlynedd ar ugain wedi cymmeryd Alamoot, yr oedd ganddo tua deng mil a thrigain o ganlynwyr yn barod i roddi yr ufudd-dod llwyraf iddo yn mhob peth. Ni byddai ef ei hun byth yn myned allan o'i amddiffynfa; ond yn ei ymneillduaeth yn ffurfio ei gynlluniau, ac yn anfon allan ei orchymynion, y rhai a dderbynid ac a gyflawnid mewn ffyddlondeb.

Wedi marwolaeth Hassan, cymmerwyd y flaenoriaeth gan ddau o'i genadon ffyddlonaf, y rhai a benodwyd ganddo ef—un i fod yn llywydd y byddinoedd, a'r llall i'w harwain a'u dysgu yn y pethau a berthynent i'w crefydd. Nid oedd ganddo fab i gymmeryd yr awdurdod yn ei le; o blegid un a fu ganddo, a rhoddodd hwnw i farwolaeth am droseddu rheolau y Coran, drwy yfed gwin. Parhaodd yr Assassiniaid am gryn amser i gadw meddiant o'r hyn a ennillwyd gan Hassan o dan lywyddiaeth ei olynwyr, er na bu neb o honynt yn gyffelyb iddo ef mewn penderfyniad a gwrolfrydedd, ac na buont yn llwyddiannus i estyn llawer ar eu terfynau. Mewn amser, collwyd y penboethni hwnw ag oedd yn ei hynodi ef ei hun a'i genadon cyntaf, ac aethant yn fwy rhydd yn eu moesau, nes o'r diwedd y dygwyd awdurdod y blaid hon i'w derfyn. Tua'r flwyddyn 1253, casglodd y Mongoliaid fyddin gyda bwriad i'w darostwng; ac yn mhen tua dwy flynedd wedi hyn, yr ydym yn cael hanes fod Alamoot, a phrif amddiffynfeydd yr Assassiniaid, wedi syrthio i'w dwylaw. Llosgwyd llyfrgell ag oedd yn cynnwys lluaws mawr o gyfrolau, wedi eu casglu yn nghyd gan Hassan a'i olynwyr, heb arbed dim ond y Coran, ac ychydig ereill. Ymddygai y Mongoliaid yn dyner tuag atynt ar y cyntaf, gan ddysgwyl, dybygid, y buasent yn ymostwng yn ddiwrthwynebiad: ond wedi cael eu cyffroi gan ymddygiadau twyllodrus Roken-eddeen, penaeth yr Assassiniaid, penderfynwyd eu dyfetha oll oddi ar y ddaiar; ac yn fuan iawn, dinystriwyd deuddeng mil o honynt â'r cleddyf. Pa le bynag y cyfarfyddent âg Ismaeliad, gorchymynent iddo syrthio ar ei liniau ar y ddaiar, a thorid ymaith ei ben yn y fan. Ond er yr holl gyflafan yma, ac er fod eu hawdurdod wladol wedi ei chymmeryd oddi arnynt, ni ddiflanodd eu hegwyddorion o'r byd. Y mae eto rai yn eu proffesu yn Persia a Syria—yn mhen chwe chan mlynedd wedi darostwng eu gallu gwladol. Y mae Ismaeliaid Syria yn preswylio mewn pentrefydd o amgylch Massyad, ac yn talu swm blynyddol fel teyrnged i lywydd Hama, yr hwn sydd yn meddu hawl i nodi eu penaeth. Y maent wedi ymranu yn ddwy blaid—y Soonweidanee a'r Khisrewee. Preswylia Ismaeliaid Persia yn Roodbar yn benaf, ond cyfarfyddir â hwynt braidd yn mhob parth o'r dwyrain, hyd yn oed mor bell a'r Ganges. Edrychant ar eu blaenor neu eu harchoffeiriad, fel yn gyfranog mewn rhyw fodd o raddau o'r natur ddwyfol; dangosant iddo y parch mwyaf, a gwnant lawer taith bell o bererindod i'w breswylfod, i'r dyben o dderbyn ei fendith.

Gyda golwg ar syniadau yr Assassiniaid, nid yw yn hawdd penderfynu pa beth oeddynt, heb law eu bod yn proffesu eu bod yn sylfaenedig ar y Coran. Yr oeddynt yn cael eu cadw yn ddirgelwch, ond yn unig i'r rhai a ddygid drwy amrywiol raddau yr urdd, i wasanaethu fel cenadon. Rhoddent y gyffes ganlynol fel mynegiad o egwyddorion sylfaenol eu cred:—"Yr ydym yn credu yn undod Duw; ac yn cydnabod, fel gwir ddoethineb a chredo uniawn, yn unig yr hyn sydd yn cytuno â gair Duw (y Coran), ac â gorchymynion y Prophwyd. Yr ydym yn dal y pethau hyn fel y maent wedi eu traddodi yn yr ysgrif sanctaidd, y Coran; ac yn credu yn yr holl bethau a ddysgodd y Prophwyd am y greadigaeth a diwedd y byd, am wobrwyon a chospau, am y farn ddiweddaf a'r adgyfodiad, Y mae credu hyn yn angenrheidiol; ac nid oes neb wedi ei awdurdodi i farnu am orchymynion Duw drosto ei hun, neu i newid un lythyren o honynt. Dyma ydyw athrawiaethau sylfaenol ein plaid." Ond er yr awdurdod a hònir yma i'r Coran, yr oedd y rhai a ddygid i fyny yn holl ddirgeledigaethau y blaid yn cael eu llenwi âg ammheuon ac anhawsderau, trwy ddangos iddynt ynfydrwydd llawer o bethau yn y Coran, ac mewn crefydd gadarnhaol—mai egwyddorion y gymdeithas ydoedd yr eiddo y dynion mwyaf yn yr eglwys a'r wladwriaeth, ac y gallent esbonio y Coran mewn unrhyw ystyr a atebai y dyben i ddwyn eu hamcanion eu hunain yn mlaen oreu.

Y mae y gofal a gymmerasai Hassan yn meithriniad ac addysgiad y rhai a ddarperid i fod yn gwbl ymroddedig i'w ewyllys (y Fedaveeaid) yn rhoddi cyfrif am y ffyddlondeb a ddangosent iddo, hyd yn oed er gorfod anturio y peryglon mwyaf; ie, i roddi eu hunain i farwolaeth, os byddai iddo ef orchymyn hyny. Mynai gael plant cryfion ac iachus, trwy eu prynu, neu eu cymmeryd ymaith oddi wrth eu rhieni. Wedi hyny, dygid hwy i fyny mewn lleoedd hyfryd, yn y mwynhâd o bob pleserau. Addysgid hwy mewn gwahanol ieithoedd, er eu parotoi i'w swydd, ac arferid hwy i roddi yr ufudd-dod llwyraf i'w penaeth. Addewid iddynt fwynhâd o baradwys nefol, lle y derbynid pawb a roddai ei fywyd i lawr yn achos neu ar orchymyn y Sheikh. Trwy arfer y ddiod a nodwyd, cynnyrchid ynddynt deimladau hyfryd, a'r dychymygion mwyaf bywiog am y dedwyddwch hwnw, nes y byddent yn dyheu am awr marwolaeth, mewn ufudd-dod i'w orchymyn, er mwyn iddynt gael mynediad i ddedwyddwch diddiwedd.

Dywed teithwyr hefyd ddarfod i Hassan wneuthur gardd mewn dyffryn hyfryd, yn llawn o bob ffrwythau a blodau prydferth ac aroglaidd, lle yr oedd palasau o amrywiol faintioli a ffurf wedi eu dodrefnu yn y modd gwychaf, yn y rhai yr oedd ffrydiau o win, llaeth, a mel, yn rhedeg yn mhob cyfeiriad. Yn y rhai hyn yr oedd morwynion prydferth yn preswylio, y rhai oeddynt yn fedrus mewn canu a dawnsio, a chwareu ar bob math o offer cerdd, ac yn mwynhau pob math o ddedwyddwch. Hònai y penaeth mai dyma y baradwys a adawodd Mahoment i'r ffyddloniaid. Ac mewn trefn i berffeithio y rhai a fyddent dan addysg, caniatëid iddynt gael golwg ar y lle dedwydd hwn. Rhoddid iddynt ddiod gwsg yn gyntaf, a phan fyddent o dan ei dylanwad, dygid hwynt yno. Pan ddeffröent, yr oedd prydferthwch a gogoniant y lle yn eu taraw â'r fath syndod; a'r hyfrydwch a fwynhäent yn nghanol digonedd o winoedd, ffrwythau, caniadau, a chwarëyddiaethau, yn cynnyrchu y fath hapusrwydd, fel y credent yn ddibetrus mai dyma y baradwys mewn gwirionedd. Ond ar ol bod yno fel hyn, yn nghanol pob llawenydd, am dridiau neu bedwar, teflid hwy i gysgadrwydd eilwaith, a dygid hwy oddi yno. Wedi hyn, deuent ger bron y penaeth yn mhresennoldeb yr holl lys, pryd y gofynai iddynt yn mha le y buont. Atebent hwythau mai yn mharadwys; ac adroddent yr hyn oll a welsent ac a fwynhasent, er mawr syndod y llys. Yna cyfarchai y penaeth hwynt fel y canlyn:—"Y mae genym sicrwydd oddi wrth ein Prophwyd, y bydd iddo ef, yr hwn a amddiffyna ei arglwydd, gael etifeddu paradwys; ac os bydd i chwi ddangos eich hunain yn llwyr ymroddedig i ufuddhau i fy ngorchymynion, y mae y rhan ddedwydd hono yn eich aros chwithau." Wedi eu haddysgu a'u perffeithio fel hyn, yr oeddynt yn barod i anturio i bob perygl,

Digitized by Google

ac i gyflawnu pob dichell, ystryw, a chreulondeb sydd yn hynodi yr Assassiniaid.—(*Brit. and For. Evan. Rev.*, erth. *Sec. Soc.; Secret Societies of the Middle Ages.*)

**ASSEMANI**: enw sydd wedi ennill clod mawr, mewn cyssylltiad â llenyddiaeth gyssegredig y dwyrain, yn enwedig yn mherson yr hwn a'i cododd i sylw gyntaf—Joseph Simonius. Y mae efe wedi gwneyd gwasanaeth pwysig. Yr oedd y pedwar sydd yn adnabyddus wrth yr enw yn Faroniaid; ganwyd hwynt yn Syria, yn agos i fynydd Lebanon, ac y mae eu llafurwaith o fewn y ddeunawfed ganrif.

1. JOSEPH SIMONIUS: dechreu y ddeunawfed ganrif, daeth i Rufain, lle y gwnaed ef yn archesgob Tyrus, ac yn llyfrgellydd y Vatican, gan Clement XI. Anfonwyd ef gan yr un pab ar genadwri lenorawl i'r Aipht a Syria, yn y blynyddoedd 1715—16, a dygodd gydag ef yn ol i Rufain lawer o lawysgrifau gwerthfawr. Gwedi hyny, dechreuodd ar gyfansoddi ei *Lyfrgell Ddwyreiniol* (*Bibliotheca Orientalis Clementino Vaticana*), yr hwn a gyhoeddwyd mewn pedair cyfrol unplyg, yn Rhufain, 1719—28. Cynnwysa y gwaith dysgedig hwn hanes bywgraffiadol o'r ysgrifenwyr Syriaidd, wedi eu rhanu yn dri dosbarth; sef yr Uniongred, y Jacobiaid, a'r Nestoriaid, gyda dyfyniadau helaeth o'r testyn Syriaeg, a chyfieithiad i'r Lladin, cofrestri o'u gweithiau, yn nghyd âg esboniadau ar yr unrhyw. Yn y bedwaredd gyfrol, ceir traethawd dysgedig yn nghylch y Nestoriaid. Ei orchwyl nesaf ydoedd argraffiad cyflawn o waith St. Ephraem, un o'r hen dadau Syriaidd, mewn chwe cyfrol unplyg (Rhufain, 1732—46), yn cynnwys y testyn Syriaeg a chyfieithiad Lladin, yr hwn a ddechreuasid gan Ambarach, Maroniad dysgedig arall yn byw yn Rhufain, ond a adwaenir yn well wrth yr enw "y tad Benedetti." Yn 1755—57, ymddangosodd yn Rhufain mewn chwe cyfrol 4plyg, ei waith o'r enw *Calaniadur yr Eglwys Gyffredinol* (*Kalendaria Ecclesiæ Universæ*); ac yn yr un lle, yn 1762 –64, ei *Lyfrgell o Gyfraith Ddwyreiniol Lên a Lleyg* (*Bibliotheca Juris Orientalis Canonici et Civilis*), mewn pedair cyfrol 4plyg. Cyhoeddodd hefyd *Draethawd ar Ddechreuad a Chrefydd yr Arabiaid cyn amser Mahomet;* a gadawodd ar ei ol mewn llawysgrifen amryw fân draethodau a darnau, yn benaf yn nghylch helyntion Cristionogion y dwyrain, y rhai a argraffwyd yn ddiweddar dan olygiad y llyfrgellydd Maï. Bu farw Assemani yn Rhufain yn y flwyddyn 1768, yn bedwar ugain oed.

2. STEPHANUS EVODIUS: nai i'r diweddaf, ydoedd esgob Apamea, ac olynwr ei ewythr yn llyfrgellyddiaeth y Vatican, yn Rhufain. Cyhoeddodd, yn mhlith pethau ereill, y gweithiau canlynol:—*Cofrestr o Lawysgrifau Dwyreiniol* (*Bibliothecæ Mediceo-Laurentianæ et Palatinæ Codicum MSS. Orientalium Catalogus*), 2 gyfrol unplyg, 1742, gyda nodiadau gan Gori: a *Gweithredoedd y Merthyron Sanctaidd, Dwyreiniol a Gorllewinol* (*Acta Sanctorum Martyrum Orientalium et Occidentalium*), 2 gyfrol unplyg, Rhufain, 1748.

3. JOSEPH LEWIS, ydoedd aelod o'r un teulu. Efe a gyhoeddodd y *Llithlyfr Alexandriaidd* (*Missale Alexandrinum*), gyda ffurfwasanaeth gwahanol eglwysi yr Aipht, hen a diweddar, 4plyg, Rhufain, 1734: ac hefyd *Amseryddiaeth Patriarchiaid Caldea.*

4. SIMONE: gornai i J. S. Assemani, ac fel yntau, a anwyd yn Syria. Daeth i'r Ital, a bu dros lawer o flyneddoedd yn entraw yr ieithoedd dwyreiniol yn mhrifysgol Padua. Cyhoeddodd amryw lyfrau yn Lladin ac yn Italaeg ar hanes a llenyddiaeth Arabia. Simone Assemani oedd y cyntaf a ddynoethodd dwyll y Maltead Vella, yr hwn a ffugiasai iddo gael, mewn llawysgrifen Arabaeg yn Mynachdy St. Martin, yn Palermo, ryw reithlyfr perthynol i Saraceniaid Sicily. Gwnaeth Vella gyfieithiad o hono, a chyhoeddwyd ef yn Palermo, yn 1789; a chyflwynwyd y gwaith i frenin Naples. Assemani, yr hwn y gyrasid iddo amryw o'r profleni, a ddywedodd fod y testyn, yr hwn a ddywedid fod y gwaith yn gyfieithiad o hono, yn annealladwy, oddi eithr rhyw ychydig o linellau, y rhai oeddynt Faltaeg yn lle Arabaeg. O'r diwedd, gyrwyd am Joseph Hager o brifysgol Vienna i Palermo; ac efe a gafodd mai cynnwysiad y llawysgrif ydoedd hanes o fywyd Mahomet, yn gymmysgedig â lluaws mawr o eiriau Maltaeg, y rhai, yn debygol, a wthiasid i mewn er mwyn gwneuthur y testyn gwreiddiol yn annealladwy. Weithiau yr oedd twyll Vella yn amlwg i bawb a dedfrydwyd ef i gael ei garcharu am ei ddichell.

Yr oedd gan yr Assemaniaid gasgliad helaeth iawn o lawysgrifau Syriaeg ac Arabaeg, y sawl a brynodd y pab Clement XIII., i'r dyben o'u gosod yn llyfrgell y Vatican, ac o'r sawl y mae wedi cyhoeddi cofres gyflawn. Dywedir fod y llawysgrifau Syriaeg yn unig dros ddau gant.

**ASSER**, [אשי]: neu yn fwy priodol ASHI (neu RAV ASHE, fel ei geilw yr Iuddewon), ydoedd awdwr penaf *Talmud Babilon*, yr hwn a elwir felly oddi wrth y lle yr oedd efe yn byw ynddo. Ganed ef yn Babilon, B. A. 353, a bu farw yn 426, yn 74 mlwydd oed. Dywed ei fywgraffyddion Iuddewig iddo gael ei benodi yn benaeth athrofa Sora, yn Babilon, pan nad oedd efe eto ond pedair ar ddeg oed. Y mae hyn yn ymddangos yn bur anhygoel; ond os gwir ydyw, y mae yn anghraifft ddigyffelyb o ragaddfedrwydd meddwl. Ond beth bynag a dybir am wirionedd yr haeriad hwn, diammheu i Asser, pan yn dra ieuanc, hynodi ei hun yn fawr mewn galluoedd cynneddfol a dysgeidiaeth oruchel. Saif y dysgawdwr hwn yn uchel iawn yn nghyfrif yr Iuddewon; a hona y Rabbi Abraham Ben Dior, na bu er dyddiau y Rabbi Iehuda Hannasi, neu Rabbenu Haccadosh, neb ond Asser, yn yr hwn yr oedd gwybodaeth o'r gyfraith, duwioldeb, gostyngeiddrwydd, a mawredd, oll wedi cydgyfarfod. Casgliad o esboniadau Asser ar y *Mishna*, fel eu traddodid yn ei ddarlithiau i'r myfyrwyr dan ei ofal, yw sylfaen *Talmud Babilon*, yr hwn yw y gwerthfawrocaf o'r holl Dalmudau yn ngolwg yr Iuddewon; a hwn yw y gwaith a olygir ganddynt pan soniant am y Talmud yn gyffredinol. Ar ol ei farwolaeth ef, dygwyd y gwaith yn mlaen gan ei ddysgyblion—y rhai, meddir, oeddynt amryw filoedd o rifedi; a gwnaed talfyriad o hono gan Maimonides yn y ddeuddegfed ganrif, yr hwn a adawodd allan rai o'r pethau mwyaf gwrthun yn y gwaith gwreiddiol. Ceir hanes helaeth am y Rabbi Asser a'i ysgrifeniadau yn *Bartolocii, Bibliotheca Magna Rabbinica* (cyf. i., td. 484), ac yn *Wolfii Bibliotheca Hebraica* (cyf. i., td. 224).

**ASSER**, neu fel y gelwir ef gan ysgrifenwyr Lladin, ASKER, neu ASSERIUS MENEVENSIS, *Asser o Fynwy*, ydoedd fynach dysgedig o Dyddewi, yn Nyfed, yn y rhan ddiweddaf o'r nawfed a dechreu y ddegfed ganrif. Yn ol yr achau Cymreig, mab

Digitized by Google

ydoedd i Tudwal ab Rhodri Mawr. Ei athraw mewn dysgeidiaeth yn Nhyddewi oedd yr enwog Ioan Erigena; a noddid ef hefyd yn ei ddyddiau boreuol gan Novis, archesgob y lle hwnw o'r flwyddyn 841 hyd ei farwolaeth yn 863; a dywed Asser ei hun wrthym ei fod yn berthynas iddo.

Cymmaint oedd enwogrwydd Asser o herwydd ei ddysg a'i wybodaeth, fel y bu iddo gael ei wahodd i lys y brenin Alfred, o ddeutu y flwyddyn 880. Ei hanes ef ei hun o'r amgylchiad ydyw, ddarfod i'r rhai a ddanfonasid i'w gyrchu ef o Dyddewi, ei ddwyn ef at y brenin, yr hwn ar y pryd oedd yn aros yn Dene, yn swydd Wilts. Derbyniodd Alfred ef, nid yn unig yn rhadlawn a chroesawgar, ond ceisiodd ganddo yn daer, a hyny ar eu cyfarfod cyntaf, wneuthur ei drigfan yn wastadol yn ei lys ef. Awgrymodd Asser wrth y brenin mai nid gwych y gallasai dderbyn y cynnyg rhagorol hwnw, gan mai anaddas fuasai iddo ef adael y fan lle y cawsai ei ddwyn i fyny, ac yr urddasid ef ynddo i'r offeiriadaeth, er mwyn cael dyrchafiad mewn man arall. Ar hyny, ceisiodd y brenin ganddo ranu ei amser, a threulio chwe mis yn y llys, a'r chwe mis arall yn Nhyddewi: ond nid cwbl foddlawn oedd Asser i gydsynio â hyn chwaith, nes cael o hono yn gyntaf ymgynghori âg aelodau y mynachdy yr oedd yn perthyn iddo. Yna efe a gychwynodd tua Thyddewi; ond ar ei daith, syrthiodd yn glaf yn Nghaerwynt, ac arosodd yno fwy na blwyddyn. Gwedi hyny, efe a brysurodd rhagddo, ac a gyrhaeddodd ben ei daith, a chafodd gydsyniad ei gyd-fynachod i dderbyn cynnygiad Alfred; a hyny yn fwy, am y gobeithient am lawer o fanteision oddi wrth ewyllys da y brenin, yn enwedig ei amddiffyniad rhag trais a gormes Hyfaidd, tywysog Dyfed, yr hwn yn fynych a anrheithiai y mynachdy, a rhanau ereill o diriogaeth Dewi. Ond dymunasant ar Asser geisio caniatâd y brenin i aros bob yn ail dri mis yn y llys ac yn y mynachdy, yn hytrach na bod o hono yn absennol am chwe mis cyfan ar unwaith.

Pan ddychwelodd, efe a gafodd y brenin mewn lle a elwid Leonaford, gan yr hwn y derbyniwyd ef gyda'r croesaw a'r rhagorbarch mwyaf, a chyda'r hwn yr arosodd am wyth mis, gan ddarllen gydag ef y cyfryw lyfrau ag a ddygwyddent fod yn meddiant y brenin. Ar noswyl y Nadolig canlynol, dywed Asser wrthym i'r brenin ei anrhegu ef â mynachdai Amgresbyri (Amesbury, yn swydd Wilts, fel yr ydys yn tybied) a Banuwille (Banwell, yn Ngwlad yr Haf), yn nghyd â phall aur gwerthfawr, a chymmaint o arogldarth ag a allai dyn cryf ei gario; ac addawyd iddo fod pethau mwy yn ei aros. Yn mhen ychydig wedi hyn, rhoddwyd iddo eglwys Caerwysg neu Exeter, a chyn hir drachefn, gwnaethpwyd ef yn esgob Sherburn, yn swydd Dorset; ond dywedir iddo ymadael â'r esgobaeth hono yn y flwyddyn 883, er parhau o hono i ddwyn yr enw. O'r pryd hwnw allan, hyd farwolaeth Alfred, ymddengys i Asser dreulio ei amser yn wastadol yn y llys, yn ol y dull a'r drefn a grybwyllwyd eisoes; a sonir am dano gan y brenin, yn ei ewyllys ddiweddaf, fel un yr oedd ganddo ymddiried neillduol ynddo; a chymunodd y penadur hwnw iddo yn nghylch cant a hanner o bunnau, yr hyn oedd swm nid anghyfrifol yn yr oesoedd hyny. Crybwyllir hefyd ganddo am Asser yn y cyflwyniad o'i gyfieithiad o *Lythyr Bugeiliol* Gregorius i Wlfsig, esgob Llundain; lle y mae y brenin yn cydnabod y cynnorthwy a gawsai efe gan Asser, ac ereill, yn y cyfieithiad hwnw.

Ymddengys mai tebygolrwydd chwaeth ac athrylith Asser i eiddo Alfred oedd yr hyn a'i gwnaeth mor hoff gan y brenin; a hyny, tebygol, a'i tueddodd ef i ysgrifenu *Hanes Bywyd Alfred*, yr hwn sydd eto ar gael, ac a gynnwys adroddiad tra dyddorol o'r dull y treuliai y brenin ac yntau eu hamser gyda'u gilydd.

Meddylir i Asser aros yn y llys am y gweddill o deyrnasiad Alfred, ac efallai rai blynyddoedd wedi hyny. Ond pa le y bu efe farw, nid yw hysbys. Dywed Caradog Llancarfan, mai yn y flwyddyn 906 y cymmerodd ei farwolaeth le; ond gesyd y *Cronicl Saxony* yr amgylchiad hwnw yn 910; yn ol ereill, yn 906 y bu; a barna Carnhuanawc mai o ddeutu y flwyddyn 909 y dygwyddodd. Ond pa fodd bynag am hyny, y mae yn amlwg ddigon iddo fyw amryw flynyddoedd ar ol ei gyfaill a'i noddwr Alfred, yr hwn a derfynodd ei oes yn 901.

Dywedwyd weithiau mai dylanwad Asser gyda'r brenin a fu yr achos o sylfaenu prifysgol Rhydychain; ond gellir barnu wrth ei lyfr ar *Fywyd Alfred*, mai yr achos o'i hadfywiad yn hytrach nag o'i sefydliad ar y cyntaf, ydoedd ef. Eithr y mae yn ddilys ddigon fod y pryd hwnw dair neuadd yn Rhydychain, yn enw y Drindod sanctaidd, yn unol â syniadau crefyddol yr oes hono. Rhenid y gwybodau a ddysgid ynddynt yn dri dosbarth, sef Gramadeg, Celfyddydau, a Duwinyddiaeth. Mynach â'i enw Asser a bennodwyd y darlithiwr cyntaf ar Ramadeg ac Areitheg; Ioan Fynach a gymmerai arno gadair Serydd-iaeth a Meidrofyddiaeth; Ioan Fynach o Fynyw a ddysgai Resymeg, Cerddoriaeth, a Rhifyddiaeth; a Neotus a Grimbald oeddynt athrawon Duwinyddiaeth. Ond tybia rhai fod Asser, darlithiwr Rhydychain, ac Asser, esgob Sherburn, yn ddau ddyn gwahanol.

Bernir hefyd fod Asser wedi bod yn cynnorthwyo Alfred i ddiwygio cyfreithiau y deyrnas. Nid oes sicrwydd am hyn, mwy nag am rai pethau ereill a honir yn nghylch Asser; ond eto, pan ystyriom y cyfeillgarwch diffuant oedd rhyngddo ef a'r brenin, a'r parch a delid iddo yn y llys, gellir bod yn lled benderfynol na chyflawnodd Alfred un gorchwyl llenyddol o bwys heb ei gynghor a'i gynnorthwy ef.

Yr oedd, yr amser sy genym yn awr dan sylw, archesgob yn Nhyddewi, o'r enw Asser, yr hwn a benodwyd i'w swydd yn 905; ond y mae dadl yn bod pa un ai Asser y mynach ydoedd, ai ynte gŵr arall o'r un enw. Tybia Carnhuanawc, mai nid yr un oeddynt, ac mai naill ai gwall yn y llawysgrif, ai bod rhywun arall yn dwyn yr un enw wedi bod yn llanw y sefyllfa hono, a fu yn achos i'r naill gael ei gymmeryd yn lle y llall. Y mae Dr. Powell yn lled agos o'r un farn a Charnhuanawc, ac yn hòni, er na wyddys ar ba sail, mai ewythr i'r mynach ydoedd yr archesgob. Ond y mae bywgraffydd Asser yn y *Biographia Britannica* yn tybied yn wahanol, ac yn dwyn yn mlaen resymau digonol i brofi nad oedd Asser esgob Sherburn, Asser fynach o Rydychain, ac Asser archesgob Tyddewi, ddim amgen na'r un a'r unrhyw ddyn. Y mae awdwr *Enwogion Cymru* o'r un farn; ac ymddengys nad oedd dadl yn nghylch y peth yn meddwl yr hen hanesydd Cymreig, Caradog Llancarfan, pan yn cofnodi marwolaeth "Asser ddoeth, *archesgob* y Brython," ar gyfer y flwyddyn 906, yn *Mrut y Tywysogion*. Ar farwolaeth Alfred, neu yn mhen tipyn ar ol hyny, gallwn dybied i Asser ddychwelyd i ardal ei enedigaeth; a phan ddaeth yr urddas arches-

Digitized by Google

gobawl yn wag yn Nhyddewi, naturiol iawn oedd i ŵr mor nodedig ag esgob Sherburn gael ei ethol i lenwi y gwagle. Gwada awduron *Hanes a Hynafiaethau Tyddewi*, fod un o'r enw Asser wedi bod erioed yn archesgob yn Nhyddewi; ond anghofiasant roddi awdurdod dros eu haeriad.

Dychymyga rhai—ac yn eu plith y Dr. Owen Pughe—mai yr un ydoedd Asser Fynach a Geraint Fardd Glas: a sylfaenir y dyb yn benaf ar gyffelybrwydd yr enwau o ran eu harwyddocâd; sef *Asser* (*azure*), ystyr yr hwn ydyw *glas*; ond barna Carnhuanawc nad oes yma ddim yn chwaneg na chyd-darawiad damweiniol yn unig.

Y mae amryw ysgrifeniadau yn myned dan yr enw Asser; ond y mae ammheuaeth yn perthyn i rai o honynt. Yn mhlith y rhai a gyfansoddwyd yn ddiammheuol ganddo ef, y mae *Hanes bywyd a Gweithredoedd Alfred Fawr* (*Annales Rerum Gestarum Ælfredi Magni*) y cyfeiriwyd ato eisoes. Argraffwyd y gwaith hwn y tro cyntaf gan yr archesgob Parker, yn 1574; ac wedi hyny gan Camden, yn 1603; ond yr argraffiad goreu yw yr un a gyhoeddwyd yn Rhydychain, yn 1772. Y gweithiau ereill a briodolir iddo yw y rhai canlynol:—***Esboniadau ar Boethius; Hanesion Prydain*** (***Annales Brittanicæ***), yr hwn waith a gyhoeddwyd gan Gale, yn Rhydychain, 1691; ***Llawlyfr o Ymadroddion Euraid*** (***Aurearum Sententiarum Enchiridion***); ***Llyfr o Homiliau; a Chyfrol o Lythyrau.*** Dywedir hefyd i amryw o lyfrau ereill gael eu cyfieithu ganddo i'r Saxoneg.—(*Biographia Britannica, edit. Kippis*, i. 410; *Penny Cycl.*; *Williams's Enwogion Cymru; T. Price's Hanes Cymru*, td. 400, 464; *Tanner's Bibliotheca Britannico-Hibernica*, td. 53; *Jones and Freeman's History and Antiquities of St. David's*, td. 264; *Mon. Hist. Brit.*)

**ASSIDEAID.** Gwel ASIDEAID.

**ASSIDIAID:** plaid o Iuddewon a ymddangosodd yn Czarkow yn Poland, tua chanol y ddeunawfed ganrif; dilynwyr Israel Baalschem Tybia rhai mai yr un oedd a'r Asideaid [gwel dan y gair]; ond barna ereill nad oedd un berthynas rhyngddynt â hwynt, ond yn unig eu bod yn dewis cael eu dynodi wrth yr un enw (חסידים = *y duwiolion*) ag a roddid ar y rhai hyny er mwyn gosod allan eu rhagoriaeth. Yr oedd Israel Baalschem yn byw yn nhref Vlussy. Honai ei ddilynwyr ddarfod i'w dad dderbyn rhagfynegiad am ei enedigaeth gan y prophwyd Eliseus; fod ei fam yn llawn can mlwydd oed pan aned ef, a'i dad yn hynach na hithau; a'i fod, pan yn dra ieuanc, yn gorchfygu ysbrydion aflan. Aeth o Vlussy i Medziboze, yn Podolia, o'r lle y taenodd ei egwyddorion. Rhoddir hanes ei enedigaeth a'i wyrthiau gan ei ddysgybl, R. Bär Linez, mewn llyfr a elwir שבחי הבעש״ט = *Preswylfeydd Besht*. Cyfansoddir y gair *Besht* o lythyrenau cyntaf geiriau Hebreig sydd yn arwyddo *Arglwydd yr enw da*, neu *Arglwydd yr enw Duw*—cyfenw a honai Israel iddo ei hun: ac ar y cyfrif yma gelwir ei ganlynwyr yn Beshtiaid.

Bu y blaid hon yn dra llwyddiannus yn fuan yn Wallachia, Moldavia, Hungary, a Gallicia, er holl wrthwynebiadau y Rabbiniaid uniongred; ond ni dderbyniwyd eu syniadau gan Iuddewon yr Almaen, Ffrainc, a'r Ital. Ar y cyntaf, lledaenent eu hegwyddorion mewn modd dirgelaidd, ac ni cheid gafael arnynt ond mewn llawysgrifen yn unig, hyd y flwyddyn 1817; er hyny y maent wedi argraffu a lledaenu llawer o gyfrolau.

Rhoddid yr enw צדיק (*tsadic*) = *cyfiawn* neu *dduwiol*, i Baalschem, mewn ffordd o ragoriaeth, fel eu penaeth neu eu blaenor; ac wedi ei farw (1760), honai tri o'i ddysgyblion penaf yr anrhydedd hwn bob un iddo ei hun, a gwnaethant ymdrech i lywodraethu y blaid, ac i amddiffyn yr hawl i'r rhagorfraint o ddal cymdeithas âg ysbrydoedd. Nid oes i'r *tsadic*, neu y blaenor, un cyflog penodol; ond cynnelir ef trwy roddion gwirfoddol. Y mae yntau yn barod i gynghori ei ddeiliaid gyda golwg ar holl bethau y bywyd hwn; ac os na bydd i'w gyfarwyddyd droi allan er daioni, priodolir hyny i bechadurusrwydd y derbynydd, ac nid i anghyfaddasrwydd y cynghor.

Sylfaenai Baalschem ei athrawiaethau ar lyfr cabalaidd Zohar, yr hwn a gymhellai fywyd llonydd, myfyrgar, a meudwyol, a mynych ymdrochi mewn dwfr ffynnon. Dysgent fod undeb dyn â Duw yn cael ei ddwyn oddi amgylch trwy fyfyrdod, a bod yn angenrheidiol i'r synwyrau gael eu bywiogi trwy fwynhad o bleserau cyfreithlawn mewn trefn i sefydlu y meddwl ar Dduw; fod marwhau y cnawd yn anfanteisiol i'r tangnefedd meddwl hwnw sydd yn angenrheidiol i fyfyrdod am Dduw; ac nad yw undeb rhwng crefyddwyr cyffredin â Duw yn hanfodi ond yn unig pan y byddant yn gweddïo. Y mae eu penaeth (*tsadic*) yn dal cymundeb gwastadol â Duw. Dysgent hefyd y dylid gwneuthur yr ymdrech mwyaf mewn gweddi, a bod holl alluoedd y meddwl wedi eu sefydlu ar yr un gwrthddrych, mewn trefn i undeb yr ysbryd â Duw fod y fath fel y byddo iddo gael awdurdod ar bob bôd daiarol a nefol, ac felly sylweddoli ei holl ddymuniadau. Rhaid llefain â llef uchel wrth weddïo, curo y dwylaw yn nghyd, neu guro y pared â'r dwylaw, a neidio oddi amgylch; ac ystyrir fod yr hwn fyddo yn cadw llawer o drwst fel hyn, tra yn gweddïo, yn troi ymaith ddigofaint Duw, ac yn cryfhau ei gof ei hun. Mewn amseroedd diweddar, ymwrthodasant â llyfrau gweddi ar ddull yr Almaeniaid a'r Pwyliaid, a chymmeradwyasant yr eiddo Yspaen a'r gorllewin, wedi eu cymmysgu â'u hegwyddorion cabalaidd eu hunain.

Ystyrir ffyddlondeb i ddynion doethion, a chariad at eu penaeth, ymlyniad wrth y Shechinah, a gwroldeb, fel eu prif egwyddorion: ac y mae y gwroldeb yma i fod y fath, fel y gellir sefyll yn erbyn egwyddorion gwirionedd, cyfiawnder, uniondeb, cymmedroldeb, a gweddeidd-dra, pan y byddont yn groes i ewyllys eu blaenor a'i blaid.

Nid yw yr Assidiaid yn hoffi ymgynnull mewn synagogau cyffredin. Yn mhob lle y byddo deg o honynt yn preswylio, y mae ganddynt ystafell i weddïo ac i ymddyddan am bethau cyssegredig a chyffredin.—(*Penny Cycl.*)

ASSOS, [*Ἄσσος, dyncsiad*]: dinas yn Asia Leiaf: *Act.* xx. 13, 14. Yr oedd amryw ddinasoedd o'r enw hwn:—1af, yn Lycia; 2il, yn nhiriogaeth Eolis; 3ydd, yn Mysia; 4ydd, yn Lydia; 5ed, yn Epirus Leiaf. At yr olaf y cyfeirir yn Llyfr yr Actau. Aeth Paul yno o Troas ar ei draed, am ei bod yn nes hyd y tir na myned hyd y môr—fel yr aethai Luc, a chyfeillion ereill, y rhai a gyfarfuant âg ef yn Assos. Yr oedd yn gyfagos i Adramyttium, a chyferbyn âg ynys Lesbos, a dinas Mitylene, i'r lle yr hwyliodd Paul a'i gymdeithion oddi yno. Pentref gwael, o'r enw Beiram, sydd yn sefyll yno yn bresennol, wedi ei adeiladu yn uchel ar y creigiau, yr ochr nesaf i'r tir. Y mae yr adfeiliau sydd i'w canfod yno yn dangos ei fod yn lle o bwys gynt.—(*Calmet; Kitto; Imp. Gazetteer.*)

Digitized by Google

ASSUR. Gwel ASSYRIA.

ASSURIAID: llwyth Aser, medd rhai: preswylwyr gwlad o'r enw Assur, medd ereill. Yr oeddynt yn mhlith y rhai y gosododd Abner, tywysog y filwriaeth, Isboseth, mab Saul, yn frenin arnynt. Gelwir hwynt yn y cyfieithiad Seisonig *Ashurites*: 2 *Sam*. ii. 9.

ASSYRIA: un o'r hen wledydd dwyreiniol, yn cyfateb yn lled agos i'r wlad a elwir yn bresennol Kurdistan (cyfran o ymherodraeth Twrci yn Asia)—yn cael ei therfynu tua'r gogledd gan Armenia, tua'r deheu gan Babilonia a Susiana, tua'r gorllewin gan yr afon Tigris, yn gwahanu rhyngddi a Mesopotamia, a thua'r dwyrain gan Media. Yn 2 *Bren*. xvi. 9; *Amos* i. 5; a ix. 7; gelwir hi Cir—i'r hwn enw y gellir olrhain ei henw presennol, Kurdistan, yn nghyd âg, hwyrach, enwau rhai o'i mynyddoedd a'i threfydd, megys Carduchian, Ciar, Cerhoof, &c. Galwyd y wlad yn Assyria oddi wrth ei phreswylwyr, yr Assuriaid, hiliogaeth Assur, mab Sem: *Gen*. x. 11. Assyria hefyd oedd y gyntaf o'r pedair ymherodraeth fawr, yr hon, ar wahanol amserau, a gynnwysai, heblaw Assyria Briodol, fel ei dysgrifiwyd uchod, lawer o'r gwledydd o'i chwmpas; sef, Media, Persia, Babilonia, Mesopotamia, Syria, Palestina, Armenia, yn nghyd â rhan o Asia Leiaf, &c. Y mae hen haneswyr, yn nghyd âg ysgrifenwyr dwyfol weithiau, yn galw amryw o'r gwledydd uchod wrth yr enw Assyria, am eu bod ar y pryd yn rhan o'r ymherodraeth. Geilw Homer breswylwyr y wlad ogleddol i Palestina (sef y Syriaid) yn Assyriaid; a'r haneswyr Groegaidd, yn ddiweddarach, a alwant y wlad Assyria—a thrwy dalfyriad, Syria—am ei bod ar y pryd yn rhan o ymherodraeth Assyria. Yn yr ystyr yma y gellir cyssoni yr adnodau a ganlyn: *Gen*. ii. 14; 2 *Bren*. xxiii. 29. Yn Llyfr y Maccabeaid, dywedir i'r Iuddewon gael eu caethgludo i Persia, am fod Babilon ar y pryd yn rhan o'r ymherodraeth Persiaidd. Felly hefyd y geilw Ezra Darius y Mediad yn "frenin Assyria;" *Ezra* vi. 22.

Yn ddiweddarach, cyfyngwyd yr enw Assyria, neu Atyria, Aturia, i Assyria Briodol, o fewn y terfynau a nodwyd uchod [gwel Strabo a Pliny], i ba un, hwyrach, y gellir treiglo y gair Athur, enw presennol tref yn agos i Mosul.

Y mae haneswyr ysgrythyrol a chyffredinol yn dysgrifio Assyria fel gwlad ffrwythlawn ragorol. "Assyria," medd Ainsworth, yn ei *Researches in Assyria*, 1838, "sydd wlad o goedwigoedd a ffrwythau olewydd, gwlad yn dwyn mel, ŷd, a gwin, yn gystal a gwlad o fynyddoedd moelion; gwlad yn dwyn merwydd, manna, cotwm, gwenith, rhis, a gobalwydd (*date trees*), yn gystal a gwlad o glai diffrwyth, tywodlyd, a charegog. Y mae y rhan ogleddol o honi yn cael ei chroesi gan fynyddoedd cribog y Taurus, ond y rhan ddeheuol sydd yn fwy gwastad; ceir y gwastad-diroedd yn aml wedi eu llwyr losgi gan wres gwynt poethlyd ar yr un adeg ag y bydd y mynyddoedd yn orchuddiedig gan eira. Ar ei mynyddoedd y ceir yr arth, y panther, y blaidd, y llwynog, yr antelope, y carw, a'r afr; yn ei dyffrynoedd y ceir y llew, y tiger, y camel, yr hyæna, y llostlydan, a'r mochyn gwyllt," &c. Y mae y dysgrifiad uchod o'r wlad yn cydfyned â geiriau Rabsaceh (*Esa*. xxvi. 17), yr hwn a'i geilw yn "wlad ŷd a gwin, gwlad bara a gwinllanoedd," gwlad megys gwlad Israel. Diammheuol yw, er nas gellir yn benderfynol nodi y fan, mai rhyw gyfran o'r gwastadedd ffrwythlawn hwn, a ddyfrhëid gan y Tigris a'r Euphrates, a neillduodd Duw yn baradwys i'n rhieni cyntaf: *Gen*. ii. 14. Ond er's dros ddwy fil o flynyddoedd, bellach, y mae yn mawr ddirywio; ac erbyn hyn, o herwydd gwael driniaeth ei phreswylwyr, nid yw rhanau helaeth o honi yn amgen nag anialwch diffrwyth, sathrfa anifeiliaid y Tyrciaid a'r Arabiaid crwydrol. Glanau y Tigris, a'r Euphrates-unwaith yn eisteddle gorseddfeinciau galluocaf y byd—ydynt yn awr yn ddiffaethdir anrheithiedig; a gweddillion y tyrau, yr amddiffynfeydd, a'r llynau, fu unwaith yn eu britho, ac yn ymherio rhyfeddodau y ddaiar, ydynt yn awr yn ddim amgen na cholofnau o fawredd wedi gwywo, a thystion i wirionedd hanesyddiaeth a dwyfoldeb yr Ysgrythyrau. Y mae ei phrif afon, y Tigris, yn tarddu yn mynydd Taurus, ac ar ol taith chwyrn am 854 o filltiroedd, ymarllwysa i Gyfyngfor Persia. Gelwir yr afon hon yn yr Ysgrythyrau yn Hidecel: *Gen*. ii. 14; *Dan*. x. 4: a dywed teithwyr diweddar fod llawer o breswylwyr y wlad yn ei galw Digel a Decel hyd y dydd hwn. Y mae y dinasoedd enwog, Mosul a Bagdad, yn eistedd arni. Y gyntaf sydd yn agos i adfeilion yr hen ddinas Ninifeh (Ninos y Groegiaid: *Herod*. i. 102), —a'r olaf a fu yn brif ddinas yr ymherodraeth Fahometaidd, neu Saracenaidd, am 600 o flynyddoedd.—[*Layard's Nineveh*.]

Hen ddinasoedd y wlad, y crybwyllir am danynt yn yr Ysgrythyrau ydynt Resen, Calah, Rehoboth, Erech, Accad, a Ninifeh: *Gen*. x. 10, 11, 12. Gelwir tref ogleddol i Mosul, Al Kosh, i'r hon y mae lluoedd o Iuddewon yn myned yn flyneddol ar bererindod, i ymweled â bedd y prophwyd Nahum, am y gelwir ef, yn *Nah*. i. 1, yn Elcosiad; amlwg yw, er hyny, mai yn Palestina y dadganodd efe ei fygythion yn erbyn Assyria a Ninifeh, er nad yw yn anmhosibl mai yn Assyria y ganwyd ef, yn nghaethiwed y deg llwyth. Y mae y rhan fwyaf o'r wlad yn bresennol dan lywodraeth y Tyrciaid, y rhai sydd yn gwneyd i fyny gyfran helaeth o'r trigolion yn y trefydd a'r pentrefydd, ac yn llanw yr oll o'r swyddi gwladol; ond nid ydynt yn alluog i ddiogelu eiddo; ac felly, y mae y wlad, o angenrheidrwydd, yn cael ei hesgeuluso; ond cyndrigolion y wlad yw y Kurdiaid (Carduchii y Groegiaid), y rhai sydd eto, fel yn yr oesoedd gynt, yn genedl farbaraidd a rhyfelgar Preswylir y mynyddoedd rhwng y wlad a Persia ganddynt hwy yn unig. Nid ydynt yn ddarostyngedig i'r Tyrciaid o'r tu gorllewinol, nac i'r Persiaid o'r tu dwyreiniol; ni ddarostyngwyd hwynt yn hollol erioed. Eu crefydd ydyw Mahometiaeth, o'r blaid Sooneeaidd. Y mae poblogaeth o Gristionogion hefyd yn wasgaredig dros y wlad, yn benaf yn y rhan ogleddol; gan mwyaf, Nestoriaid ydynt [gwel NESTORIAID], yn dal math o gyssylltiad âg Eglwys Rhufain; "y rhai," meddai Layard, "drwy gyfres o ystrywiau, yn nghyd â chyfundrefn o erlidigaeth a thrais, a orfodwyd gan ddirgel genadau y pab i ymwrthod â'u ffydd gyntefig, ac i ymuno âg Eglwys Rhufain: er hyny, yr oedd y cyfnewidiad yn fwy mewn enw nag mewn gwirionedd; ac hyd y dydd hwn, y mae y bobl yn dal eu hen ffurfiau, eu seremoniau, eu gŵyliau, eu hamseryddiaeth, a'u hen iaith yn eu gweddïau a'u llyfrau sanctaidd, ac y maent hyd yn oed yn awr mewn ymryson âg Eglwys Rhufain am gadwraeth yr olion olaf hyn o'u hynafiaeth a'u ffydd." Ceir yn y wlad hefyd blaid o Jacobiaid Syriaidd (*Monophysites*) ac Armeniaid. Ond y gyfran fwyaf ddyddorol yw yr hen

Digitized by Google

Eglwys Nestoriaidd, neu, yn fwy priodol, yr hen Eglwys Galdeaidd, yr hon sydd wedi ennill y fath sylw trwy y byd crefyddol yn ddiweddar, mewn canlyniad i gyhoeddiad papyrau y cenadau Americanaidd, a ymwelasant â'r wlad. [*Grant's Nestorians*, Murray, Llundain, 1844.] Y maent yn preswylio rhandir mynyddig, ar y terfyn rhwng Persia a Thwrci, yn ngogledd y wlad, tua'r un pellder oddi wrth lyn Van (neu Arsisa), a llyn Ooroomiah, a Mosul. Ni chydnabyddant eu hunain yn ddarostyngedig i'r Tyrciaid nac i'r Persiaid. Y maent yn ymwrthod yn hollol â Phabyddiaeth, ac hefyd â'r enw Nestoriaid, gan ei ystyried yn enw o ddirmyg a roddwyd arnynt gan Eglwys Rhufain. Teimlant gryn oerfelgarwch at Nestoriaid y gwastadedd, am iddynt wyro at Babyddiaeth. Eu gofyniad cyntaf i Dr. Grant—yr hwn a ddechreuodd lafurio yn eu plith fel meddyg, yn 1835, ac a fu farw yn 1844—oedd, a oedd efe yn *Gatoleik*—gan hysbysu iddo na adawent i'r bleiddiaid hyny mewn crwyn defaid ddyfod i'w gwlad.

Yr oedd Cristionogaeth wedi treiddio i'r wlad yn fore iawn—mor fore, hwyrach, a'r oes apostolaidd. Esgob llywyddol y Caldeaid ydyw "Patriarch mawr y Dwyrain," olynwr archesgobion Seleucia a Chesiphon. Gelwir ef y Catholicus, ac ystyrir ef yn ben y corff, lle bynag y mae yn wasgaredig. Llafuriodd yr Eglwys Galdeaidd yn ddiflino i ledaenu ei hathrawiaethau dros gyfandir Asia, gyda llwyddiant mawr; a dywedir fod ei phrif esgobion wedi treiddio hyd yn oed i China mor fore a'r bummed ganrif; ac iddynt gael dylanwad mawr ar y llwythau Tartaraidd. Ar ol llawer o gyfnewidiadau, symmudodd y patriarch o Bagdad i Mosul, ac oddi yno i fynachdy yn agos i Al Kosh, er mwyn diogelwch. Y pryd hwnw yr oedd yn ben ar 25 o archesgobion, a 200 o esgobion. Dyoddefasant erlidigaethau lawer dan y penaduriaid Tartaraidd, yn enwedig y creulawn Timur—yr hwn, gyda ffyrnigrwydd didosturi, a'u dilynodd, gan roddi i'r cleddyf bawb ag oedd yn analluog i ddianc i noddfeydd mynyddig y Carduchian. Oddi ar 1413, nid yw y coffadwriaethau Caldeaidd yn cynnwys ond ychydig grybwylliad am eu heglwys allan o derfynau Kurdistan. Y mae y Dr. Grant yn ceisio profi, ond ar seiliau annigonol, mai hiliogaeth y deg llwyth ydynt.

**ASSYRIA, YMHERODRAETH.** Y mae cryn amrywiaeth barn mewn perthynas i sylfaenydd, amser cyfodiad, a pharhad yr ymherodraeth Assyriaidd. Mae hen hanesion, a thraddodiad, yn ddieithriad, yn priodoli sylfaeniad yr ymherodraeth i Nimrod (Ninus I, Belus) ŵyr Cam; ac mai efe a adeiladodd Ninifeh, ei phrif ddinas, ac iddi barhau mewn gwychder a mawredd anghymharol, yn ol taflen Dr. Hales, am tua naw cant o flyneddoedd, sef hyd ei dymchweliad gan y Mediaid a'r Babiloniaid (c. c. 606); ond yn ol ereill, tua deuddeg cant. Y naill fel y llall a ganiatâ amryw gannoedd o ryngdeyrnasiad (*interregnum*). Gelwir un o'i threfydd yn bresennol, "tref Nimroud," ac un o'r hen gestyll, "castell Nimroud." Mae hyn yn cydfyned â thystiolaeth y prophwyd Micah (*pen.* v. 6), lle y gelwir y wlad "tir Nimrod;" ond wrth gymharu y pethau hyn â'r dystiolaeth ddwyfol yn *Gen.* x. 11, yr ydym yn cyfarfod â dyryswch. Dywedir yno mai Assur a aeth allan o wlad Sinar, ac a adeiladodd Ninefeh; ond wrth ystyried mai teulu Cam, ac yn neillduol gorchestion Nimrod, a ddysgrifir gan yr ysgrifenydd, ac nid hiliogaeth Sem, na'i fab Assur, y mae yn debycach mai yr aralleiriad ar ymyl y ddalen yw y cywiraf; sef "o'r wlad hono yr aeth efe (sef Nimrod) allan i wlad Assur, ac a adeiladodd Ninefeh." Y mae y geiriau olaf hyn mor gydfynedol â'r testyn gwreiddiol ag ydyw y llall." Er fod yr ymherodraeth yn cynnwys gwlad Sinar a gwlad Assur, etto gadewir ni yn hollol mewn tywyllwch pa un ai Babilon ai Ninefeh oedd y brif ddinas. Am rai oesoedd wedi hyn, nid ydym yn cael hanes am dani. Yn nyddiau Abraham, cawn bedwar o freninoedd y gwledydd hyny yn rhyfela yn erbyn pump. Dywed Josephus fod gan yr Assyriaid lywodraeth dros Asia y pryd hyn, ac mai rhaglawiaid oedd y breninoedd hyn oddi tan ymherawdwr Assyria: *Esa.* x. 8. Tybia ereill, fod breniniaeth Nimrod wedi diflanu cyn hyn, a bod eisteddle y llywodraeth wedi ei symmud. Pa un bynag, ni chlywn am Assyria fel teyrnas annibynol hyd amser Moses. Yn mhrophwydoliaeth Balaam, dywedir y bydd i Assur anrheithio y Ceneaid, &c.; *Num.* xxiv. 22. Yn amser y barnwyr eto, fe ddaeth Israel yn ddarostyngedig am wyth mlynedd i Cusan-risathaim: *Barn.* iii. 8. Geilw Josephus ef "brenin yr Assyriaid." Crybwyllir eto yn *Salm* lxxxiii. fod Assur yn mhlith y cenhedloedd oedd wedi ymgyplysu yn erbyn Israel. Ond y brenin cyntaf y cyfeirir ato yn y Beibl yw y brenin oedd yn teyrnasu ar Ninifeh pan anfonwyd Ionah yno i bregethu: *Ionah* iii. 6. Tybia Hales mai efe oedd y tad Pul, y brenin cyntaf a enwir yn yr Ysgrythyrau; ac iddo ddechreu teyrnasu yn y flwyddyn 821 c. c. Yr oedd Ninefeh erbyn hyn yn ddinas fawr, aml ei phoblogaeth, a hynod ei drygioni: *Ionah* i. 2; iii. 3; a iv. 11.

Y waith gyntaf a nodir yn y Beibl i'r gallu Assyriaidd ymddangos y tu yma i'r afon Euphrates, yw yn amser Menahem, brenin Israel; yn erbyn yr hwn y dywedir i'r Arglwydd annog ysbryd Pul, brenin Assyria, "yr hwn a ymosododd ar y wlad, ac a osododd arni deyrnged o fil o dalentau o arian;" 2 *Bren.* xv. 19 (c. c. 769). Ar ol marwolaeth Pul, tybia Newton a Hales i'r deyrnas gael ei rhanu rhwng ei ddau fab, Tiglath-pileser a Nabonassar; ac i Nabonassar gael ei osod ar raglawiaeth Babilon. Yr oedd Tiglath-pileser ar yr orsedd cyn marwolaeth Pecah, brenin Israel (c. c. 738); ennillodd Syria a chaethgludodd ei thrigolion i Assyria: 2 *Bren.* xv. 29; a xvi. 5, 10; 1 *Cron.* v. 26; 2 *Cron.* xxviii. 16; *Esa.* vii. 1—11. Gwel *Amos* i. 5; a ix. 7. Ei olynydd, Salmanezer, a wnaeth Hosea brenin Israel yn was iddo: 2 *Bren.* xvii. 3; ac am i frenin Israel ymddwyn yn anffyddlawn, trwy ddirgel gynnadlu â So, brenin yr Aipht, efe a ymosododd ar Samaria; ac ar ol tair blynedd o warchae a'i hennillodd, ac a ddug y deg llwyth yn gaethion i Assyria (2 *Bren.* xvii. 3, 6; xviii. 9—11), ac a sefydlodd Assyriaid yn y wlad yn eu lle, y rhai, ar ol cymmysgu â'r gweddill o'r deg llwyth a adawyd yn y wlad, yw Samariaid y Testament Newydd. Ymddengys hefyd iddo gymmeryd yr oll o Phœnicia, oddi eithr Tyrus, yr hon a wrthsafodd yn llwyddiannus bob ymosodiad o'i eiddo am bum mlynedd. Gallwn gasglu (oddi wrth *Esa.* xxx. 2; a xxxi. 1; a xx. 5, 6) fod yn Israel blaid gref yn ymddiried am gynnorthwy oddi wrth frenin yr Aipht, ac nid oddi wrth yr Arglwydd. Senacherib, y brenin nesaf, a ddaeth i fyny yn erbyn Iudah, ac a ennillodd ei holl ddinasoedd caerog (c. c. 711). Hezeciah a ymostyngodd iddo, ac

Digitized by Google

a roddodd iddo yr holl arian a gafodd yn nhŷ yr Arglwydd, ac yn nhrysorau tŷ y brenin; ond ni bu hyn yn ddigon i'w attal rhag gwarchae ar Ierusalem: 2 *Bren.* xviii. 11—16. Ond yr Arglwydd a'i gwaredodd o'i law ef: 2 *Bren.* xix; *Esa.* xxxvi. a xxxvii. Dilynwyd Senacherib gan ei fab Esarhadon: 2 *Bren.* xix. 37; yr hwn a fu yn islywydd dan ei dad yn Babilon: *Ezra* iv. 2. Y mae yn debyg mai yn ystod ei deyrnasiad ef y dygwyd Manasseh i Babilon (c. c. 674); ac yn un o'r rhyfeloedd rhwng Assyria a'r Aipht y lladdwyd y brenin Iosiah: 2 *Bren.* xxiii. 29. Priodol iawn oedd i'r Arglwydd alw Assur yn "wialen ei lid:" *Esa.* x. 5. Tair gwaith y daethant i fyny yn erbyn y deg llwyth, nes iddynt eu llwyr ddyfetha a'u gwneyd yn gaethion. Parhasant hefyd o frenin i frenin i ymosod ar Iudah, nes o'r diwedd ei ddwyn yntau hefyd i gaethiwed. Mae y rhan olaf o hanes yr ymherodraeth yn agos mor dywyll a'r rhan gyntaf. Cawn fod Ninus III., Nebuchodonosor, a Sarac neu Sardanapalus II, y brenin olaf, wedi bod yn teyrnasu ar ol Esarhadon; ond ychydig o ymddiried a ellir ei roddi ar yr hyn a geir am danynt [*Llyfr Iudith*]. Yn y flwyddyn 606 c. c., Cyaxares, rhaglaw Media, a Nabopolasser, rhaglaw Babilon, a wrthryfelasant yn erbyn eu meistr, Sarac, brenin Assyria; ac a gymmerasant Ninifeh, ac a'i llosgasant. Symmudwyd eisteddle yr ymherodraeth i Babilon, ac ennillodd y Mediaid eu hannibyniaeth. Gwel BABILON; NINEFEH.

FFURFLYWODRAETH. Ymddengys mai etifeddol oedd y goron, ac mai unbenol hollol oedd y llywodraeth—bywyd a marwolaeth yn crogi ar air y brenin: *Dan.* iii; a ii. 13. Cawn hefyd fod brenhinoedd Ninifeh a Babilon yn hòni iddynt eu hunain addoliad dwyfol:—gwel araeth chwyddedig Rabsaceh: 2 *Bren.* xviii. 33—35. Dywed Llyfr Iudith fod Nebuchodonosor "wedi dedfrydu i ddystryw holl dduwiau y ddaiar, fel y byddai i'r holl genedloedd ei addoli ef yn unig, a galw arno ef fel Duw." Mynai yr ymherawdwr gael ei alw bob amser "brenin brenhinoedd:" *Dan.* ii. 37. Ni feiddiai neb ymddangos o'i flaen ond yn yr agwedd o ymdreiglo ar y ddaiar. Bob amser lle y mae y llywodraeth yn hollol ddarostyngedig i'r brenin, ychydig ac ansefydlog yw y cyfreithiau: ond dywed Herodotus, fod un gyfraith yn mhlith yr Assyriaid yn hollol sefydlog a digyfnewid; sef fod pawb, yn enwedig y dosbarth isaf, yn rhwym o briodi. Mor fuan ag y deuai y merched i oedran priodi, cyrchid hwy i le cyhoeddus i'w priodi, neu yn hytrach i'w gwerthu. Y rhai mwyaf prydweddol a werthid i'r rhai a roddai fwyaf o bris am danynt; a rhoddid yr arian a gynnyrchai yr arwerthiad yn gynnysgaeth gyda'r rhai oedd yn fwy amddifad o dlysni natur; a'r rhai a'u cymmerai gyda lleiaf o arian, oedd yn dyfod yn feddiannwyr. Fel hyn yr oedd eu holl ferched yn priodi. Amcan y ddeddf greulawn hon oedd amlhau deiliaid y llywodraeth.

Yr hen ysgrifenwyr sydd wedi manylu ar hanes yr ymherodraeth Assyriaidd, yw Ctesias a Herodotus, yn byw tua'r bummed ganrif cyn Crist: ond y mae yr anghyssondeb mawr sydd rhwng y naill a'r llall, yn nghyd â bod yr hanes yn cynnwys cymmaint o chwedlau dychymygol a disail (megys am Semiramis, a'r cyffelyb), yn ei gwneyd yn angenrheidiol i fod yn dra gochelgar wrth dderbyn dim oddi wrthynt, ond yr hyn sydd yn cael ei gadarnhau yn yr hanes dwyfol.

ASTALCH: neu yn hytrach AESTALCH, medd Dr. Davies: a olyga fath o darian ysgafn a arferid mewn brwydrau, fel offeryn amddiffyn a diogelwch rhag saethau y gelyn. Yr oedd yr astalch yn llai o faintioli ac yn ysgafnach na'r darian gyffredin; ac o blegid hyny yn haws ei throi gyda chyflymder i gyfarfod cyfeiriad y saeth. Ni ystyrid yr arfogaeth gynt yn gyflawn heb offerynau diffynol yn gystal a rhai ymosodol. Cymhara y Salmydd air y gwirionedd i astalch, o blegid ei fod yn amddiffynol i'r Cristion er troi ymaith saethau y gelyn, yn gystal ag fel cleddyf i ymosod arno. Gwel ARFOGAETH.

ASTAROTH, ac ASTEROTH-CARNAIM: dinas tu hwnt i'r Iorddonen, chwe milltir o Adraa, neu Edrei. Yr oedd o fewn rhandir llwyth Manasseh (*Ios.* xiii. 31), a rhoddwyd hi i'r Lefiaid (1 *Cron.* vi. 71). Yr oedd dau le yn cael eu galw yn Astaroth, yn y Batanea, yn nghylch naw milltir oddi wrth eu gilydd. Yr oedd hefyd, medd Eusebius, le o'r enw Carnaim, heb fod yn neppell oddi wrth Ierusalem. Yr oedd y ddinas mewn bod mor fore ag amser Abraham (*Gen.* xiv. 5). Gan fod yr enw Astaroth wedi ei gymmeryd oddi wrth addoliad y lloer dan yr enw hwnw, y mae y chwanegiad Carnaim yn ymddangos yn dra naturiol—ystyr yr hwn yw *cornioq*, oddi wrth gilgant y lloer. Sonir yn 2 *Mac.* xii. 26, am deml Atergatis [gwel ATERGATIS] yn Carnion, yr hwn le a ddysgrifir fel "yn anhawdd i'w gwmpasu, a myned i mewn iddo, o achos y cyfyng-leoedd o bob tu:" ond cymmerwyd ef er hyny gan Judas Maccabæus, yr hwn a laddodd bum mil ar ugain yno. Gelwir Asteroth-Carnaim yn bresennol yn Mezarcib, sefyllfa pa un sydd yn cydweddu yn berffaith â sefyllfa Asteroth Carnaim, ac â'i phellder oddi wrth drefydd, a manau ereill, yn ol dysgrifiad Eusebius o honi. Yma y mae y castell cyntaf ar ffordd fawr y pererinion o Damascus i Mecca. Adeiladwyd y castell hwn gan y Sultan Selim, 340 y flynedd-oedd yn ol: y mae yn adeilad ysgwâr, yn nghylch cant o droedfeddi bob ochr, gyda thyrau ysgwâr yn y conglau, ac yn nghanol pob wyneb; uchder y muriau ydynt ddeugain o droedfeddi.—(*Calmet; Kitto; Burckhardt's Travels.*)

ASTATH: un o benau cenedl y blaenoriaid a aethant o Babilon gydag Esdras i Ierusalem, yn nheyrnasiad Artaxerxes: 1 *Esd.* viii. 38.

ASTORETH, ASTAROTH, neu ASTARTE. Duwies y Sidoniaid ydoedd: 1 *Bren.* xi. 5, 33; 2 *Bren.* xxiii. 13. Yr oedd teml iddi gan y Philistiaid, yn yr hon y gosodwyd arfau Saul: 1 *Sam.* xxxi. 10. Yr ydoedd yn wrthddrych addoliad gan yr Israeliaid eilunaddolgar dan y Barnwyr: *Barn.* ii. 13; x. 6; 1 *Sam.* vii. 3; xii. 10:—hefyd, yn amser Solomon: 1 *Bren.* xi. 33; yn ol ei esampl ef ei hun. Crybwyllir yn fynych am dani mewn cyssylltiad â Baal (*Barn.* ii. 13; a x. 61; 1 *Sam.* vii. 3), fel y dduwies gyfatebol. Perthyna y gair Astoreth i'r un gwreiddyn ag *aster* (αστηρ), yn Groeg; ac *astera* yn y Bersiaeg, am seren; ac hefyd, y mae yn debygol, â'r enw priodol Esther. Dynoda yn arbenig Astroarche, brenhines y ser, fel y galwai y Phœniciaid hi; yr un a "brenines y nef," yn *Ier.* vii. 8; a lxiv. 17. Yn nheyrnasiad Ahab, yr oedd ei haddoliad yn rhwysgfawr dan ddylanwad Iezebel. Gelwir hi weithiau Ashera; ond cyfieithir y gair hwn gan y Deg a Thrigain, fel yn testyn Cymreig, *llwyn*: *Exod.* xxxiv. 13; *Deut.* vii. 5; xii. 3; xvi. 21;

Digitized by Google

*Barn.* iii. 7; vi. 25, 26, 28, 30; 1 *Bren.* xiv. 15, 23; xviii. 19; 2 *Bren.* xiii. 6; xvii. 10, 16; xviii. 4; xxi. 3, 7; xxiii. 4, 6, 7, 15; 2 *Cron.* xiv. 3; xv. 16; xvii. 6; xix. 3; xxiv. 18; xxxi. 1; xxxiv. 3, 3, 7; *Esa.* xvii. 8; *Ier.* xvii. 2; *Micah* v. 13, 14. Ond nid llwyn o goed a feddylir, fel y gellid casglu oddi wrth ein cyfleithiad ni, ond delw y dduwies. Esbonia hyn ymadrodd fel y canlynol—"gwasanaethu Baalim a'r llwyni." Galwai y Groegiaid a'r Rhufeiniaid hi, Astarte. Golygent mai yr un ydoedd a Venus Urania, neu Aphrodite. Sicrha Awstin fod yr Affricaniaid yn edrych arni yr un â Juno, prif dduwies y Groegiaid a'r Rhufeiniaid; yr hyn oedd Iau a Juno yn eu chwedloniaeth hwy, oedd Baal, ac Astaroth, neu Astarte, yn mysg y Sidoniaid. Golygid Baal, fel yr haul, yn brif allu bywiocaol natur; ac Astarte a gynnrychiolai nerth ffrwythlonawl neu gynnyrchiol natur, fel y gwnai y lleuad. Addolid hi gan yr Arabiaid, dan yr enw Alitta: gan yr Armeniaid, Anâhîd: gan y Persiaid, Mitra: a chan yr Assyriaid a'r Babiloniaid, wrth yr enw Mylitta. Tybir fod yr enwau hyn yn perthyn i'r geiriau am y lloer yn yr ieithoedd hyny. Yr oedd ei haddoliad yn aflan a ffiaidd, yn gynnwysedig yn benaf mewn gloddestau nosawl, y rhai a ddarlunir gydag adgasedd gan Awstin, yr hwn a fu yn llygad-dyst o honynt yn Carthage. Ei hoffeiriaid oeddynt eunuchiaid mewn gwisgoedd merch: gelwir hwynt "gwŷr Sodomaidd;" 1 *Bren.* xiv. 24; xv. 12; 2 *Bren.* xxiii. 7: "rhai cyssegredig neu neillduedig." Yr oedd amryw erddi a phrenau gwyrddleision yn gyssegredig iddi: *Esa.* i. 29; 1 *Bren.* xiv 23; *Hosea* iv. 13; *Ier.* ii. 20.

Yr oedd y ffurfiau a'r nodweddau yn y rhai yr arddangosid Astoreth, yn amrywio mewn gwahanol oesau a lleoedd: y ddelw o honi yn Paphos, yr hon a ystyrir yr henaf, oedd careg wen hirgron. Yn Palestina, dangosid hi ar lun buwch. Yn Phœnicia, yr oedd ganddi ben buwch neu darw, fel y gwelir ar fathion. Dywed Sanchoniathon, fod "Astarte wedi cymmeryd pen tarw fel arwyddlun o arglwyddiaeth." O'r diwedd arddangoswyd hi ar ffurf ddynol; ac y mae i'w gweled felly ar fathion Severus, â'i phen yn cael ei amgylchu gan belydrau, yn eistedd ar lew, ac yn lluchio mellt o un llaw, ac yn dal teyrnwialen yn y llaw arall. Weithiau, arddangosir hi mewn gwisg laes; brydiau ereill, mewn un gwta. Ar fathodyn o Cesarea Palestina, gosodir hi allan, medd Calmet, mewn gwisg gwta, wedi ei choroni â thŵr, â phen dyn yn ei llaw ddeheu, a ffon yn ei llaw aswy. Onid yw yn debyg mai yr un arddangosiad yw hwn a'r un blaenorol, yr hwn a'i gesyd allan yn dal mellten yn y naill law, a theyrnwialen yn y llall?



Dar. 82.

Y mae Milton, yn ei *Goll Gwynfa* [llyfr i. llin. 437], yn ei dysgrifio. Gwel BAALIM; ATERGATIS.—(*Herodotus; Lempr. Class. Dict.; Parker's Lexicon; Gibbon's Roman Empire; Penny Cycl.; Kitto's Cycl.; Cycl. Rel. Knowledge.*)

ASTRONOMYDDIAETH. Gwel SERYDDIAETH.

ASTRONOMYDDION. Gwel SERYDDWYR.

ASTUD—RWYDD: diwyd, dyfal; diwydrwydd, dyfalwch: 2 *Cor.* vii. 11; viii. 7; 1 *Thes.* ii. 17. Y geiriau gwreiddiol yn y lleoedd hyn ydynt, *σπουδη*, *σπουδαζω*. Ystyr yr enw yw *cyflymder*, *brys*. Yn *Marc* vi. 25, a *Luc* i. 39, cyfieithir *μετα σπουδης*, "ar frys:" *εν σπουδη*, yn *Rhuf.* xii. 8, "mewn diwydrwydd." Cyfieithir y ferf yn *Gal.* ii. 10, "bod yn ddiwyd;" yn *Eph.* iv. 3, "bod yn ddyfal;" a'r un modd yn 2 *Tim.* ii. 15, a *Heb.* iv. 11. "Pa *astudrwydd* ei faint a weithiodd ynoch;" neu, fel y darllena Macknight, "pa ofal a weithiodd ynoch;" sef gofal i gydffurfio â gorchymyn Paul o barth i'r gŵr godinebus, ei "draddodi i Satan, i ddinystr y cnawd." Y mae yr apostol, wrth ddysgrifio effeithiau "tristwch duwiol" y Corinthiaid, yn llefaru am deimladau eu calonau, heb nodi gwrthddrychau y teimladau hyn. Y mae yn gwneyd hyn, fel y barna Locke, oddi ar wylder, yn nghyd â pharch i deimladau y Corinthiaid. Tybia Calvin ac ereill fod y neillduolion a enwir, y rhai ydynt saith mewn rhifedi, yn nodweddau gwir edifeirwch; a'u bod i'w cael yn mhob dyn edifeiriol. Ond barna ereill ei fod yn dysgrifio edifeirwch gwahanol ddosbeirth yn yr eglwys, yn ol y rhan a gymmerasant yn yr achos.

ASTYLLEN, neu ESTYLLEN: neu, yn ol y Dr. Pughe, ASDELL; o'r gwreiddiau *as*, a *dell*, yr hyn a arwydda *gwahaniad*, *holltiad*. Geiriau lled gyfystyr i astyllen ydynt, bwrdd, planc, asgloden, asen (o'r un gwreiddair—*as*), peithynen. Cyfarfyddir â'r gair yn fynych yn hanes gwneuthuriad y tabernacl: *Exod.* xxvi. a xxvii. Am nifer, maint, sefyllfa, &c., yr estyll, gwel TABERNACL. Ar ddrylliau ac "ystyllod" y llong yr aeth rhai o gydforwyr Paul yn ddiangol i dir. Y gair Groeg yn yr anghraifft hon ydyw *σανις* (*sanis*), yr hwn, yn y Deg a Thrigain, sydd gyfieithiad o לוח: *Can. Sol.* viii. 9; *Ezec.* xxvii. 5:—yn y testyn Cymreig, "ystyllod."

ASUPPIM, [האספים, *casgliadau*]. Y mae y gair i'w weled yn 1 *Cron.* xxvi. 15, "tŷ Asuppim," yn arwyddo *trysordy*, lle y cesglid ac y cedwid y pethau gwerthfawr a berthynant i'r deml a'i gwasanaeth. "Cynnullfan," yw y cyfieithiad ar ymyl y ddalen; a barna rhai ei fod yn arwyddo y lle yr ymgyfarfyddai y Lefiaid ar achosion o bwys, i gydymgynghori. Yn *Neh.* xii. 25, mae y gair yn cael ei gyfieithu *trothwyau*, ac ar ymyl y ddalen, *trysorau* neu *gymmanfäau*.

ASURAN: tad pedwar cant a deuddeg ar ugain o'r rhai a aethant o Babilon i Ierusalem gyda Zorobabel: 1 *Esd.* v. 15.

ASURITIAID: cangen o'r Donatiaid, a gyhuddid o Ariaeth. Gwel DONATIAID.

ASWY. Gwel LLAW.

ASYMIAID: enw a roddwyd ar yr Eglwys Ladinaidd, am ei bod yn arfer bara croew yn y

Digitized by Google

cymun. Tardda yr enw o'r gair Groeg αζυμος= *dilefeinllyd, croew; sine fermento.* Achlysurodd yr arferiad hon lawer o ddadleu rhwng yr eglwysi dwyreiniol a gorllewinol; yr hyn, yn nghyd â dadleuon ereill, a barodd yn y diwedd ymrwygiad ynddynt. Gelwid y blaid arall ganddynt hwy Prosymiaid neu Termentariaid. Arweiniodd y ddadl rhyngddynt i ymchwiliadau dyddorawl o bob tu. Ymdrechai Pedr, patriarch Antiochia, brofi fod ein Iachawdwr, yr hwn a wyddai yn mlaen llaw y cymmerai ei farwolaeth le ar y diwrnod appwyntiedig i gadw y pasc, o herwydd fod ei farwolaeth yn cyfateb i offrymiad oen y pasc, wedi bwyta y pasc gyda'i ddysgyblion un diwrnod yn gynnarach, sef ar y trydydd ar ddeg yn lle y pedwerydd ar ddeg o fis Nisan; ac am hyny, nis gallasai y pryd hwnw ddefnyddio bara croew. Llwyddodd i wneyd y pwnc hwn yn gysson âg Efengyl Ioan; ond nid oedd mor lwyddiannus i ddwyn y ffeithiau a gynnwysir yn yr efengylau ereill i gytuno âg ef: ac yn ngwyneb hyn, haera fod Ioan, yr hwn a ysgrifenodd ddiweddaf, yn fwy cywir a manwl yn ei adroddiadau na'r efengylwyr ereill; ei fod ef yn ymdrin yn fanwl â'r hyn y mae y lleill yn eu hadrodd yn anmhenodol; ac am hyny, y dylent hwy gael eu hesbonio, a phrofi cywirdeb eu hadroddiadau, yn ol ei hanes manylach ef. Ymddangosai y golygiad hwn yn anweddaidd, yn ol barn Theophylact, archesgob Achrida. Credai ef fod Crist yn cadw y pasc mewn modd priodol, ac yn ol y drefn sefydledig, a'i fod yn arfer bara croew; ond myntumiai nad yw yn canlyn oddi wrth hyny fod yn *rhaid* i'r eglwys ddefnyddio bara croew yn mhob gweinyddiad o'r sacrament, o blegid fod cwbl unffurfiaeth â dull Iesu Grist, nid yn unig yn ddiangenrhaid, ond hefyd yn angyrhaeddadwy Ar y dybiaeth hon, byddai yn angenrheidol defnyddio bara cwbl yr un fath, a'r un gwin ag a arferwyd gan Grist; a byddai yn angenrheidiol i'r cymun gael ei ragflaenu gan wledd arall, a chael cyfranogi o hono ar led-orwedd. Ond dangosai Theophylact fod y Cristionogion, trwy rym y rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist hwynt, wedi eu symmud oddi tan rwymedigaeth i fod yn unffurf yn y pethau hyn; ac am hyny, na ddylent ystyried eu hunain dan rwymau i arfer bara croew.


Y mae y Dr. Bingham yn sylwi nad oedd bara croew yn adnabyddus yn yr eglwys hyd yr unfed ar ddeg neu y deuddegfed ganrif, pryd y dechreuodd yr arferiad o offrymu bara cyffredin laesu. Cyhyd ag y parhaodd y bobl i offrymu bara a gwin, byddai elfenau y cymun yn cael eu cymmeryd yn fwyaf cyffredin o honynt—yr hyn a brawf mai bara lefeinllyd ydoedd. Dywed yr hanes canlynol i gadarnhau hyn:—Pan oedd Gregory Fawr yn estyn y bara i ryw ferch, gan fyned dros y ffurf arferol, "Corff ein Harglwydd Iesu Grist," &c., hi a chwarddodd; a phan ofynwyd iddi y rheswm am ei hymddygiad, dywedodd mai am ei fod ef yn galw y bara a barotôdd hi â'i llaw ei hun yn gorff Iesu Grist. Cadarnheir hefyd gan yr hynafiaid mai bara cyffredin oedd y bara; ac y mae yn deilwng o sylw nad yw Photius, nac un awdwr Groegaidd arall, yn flaenorol i Michael Cerularius (B. A. 105), yn gwneyd un wrthddadl yn erbyn yr arferiad o fara croew yn Eglwys Rhufain; yr hyn, y mae yn ddiammheu, a wnaethent, pe buasai yr arferiad mewn bod yn eu hamser hwy.

Ar y llaw arall, y dosbarth hwnw o dduwinyddion, yn y canoloesoedd, a elwir *Schoolmen*, a farnent na arferid yn ystod yr oesoedd boreuaf ond bara croew yn unig yn y cymun; a bod yr eglwysi cyntefig yn gwneyd hyny mewn cydffurfiad âg esampl Crist ei hun: ond pan gyfododd yr Ebioniaid, y rhai a ddalient fod yr holl ddefodau a argymhellid yn nghyfraith Moses yn barhaus mewn grym, darfu i'r eglwysi dwyreiniol a gorllewinol ymgymmeryd â bara lefeinllyd; ond ar ol diddymiad yr heresi hono, dychwelodd yr eglwys orllewinol at y bara croew, tra yr ymlynai yr eglwys ddwyreiniol yn gyndyn wrth yr arferiad blaenorol. Dylid cofio fod holl ymchwiliadau y duwinyddion a fyntumiant hyn yn cael eu cyfeirio er cadarnhau egwyddorion y Babaeth. —(*Neander's Church History; Cycl. Rel. Know.*)

ASYN, [*syn—Dr. Pughe*]: anifail tra adnabyddus a gwasanaethgar. Ceir crybwylliadau lluosog am dano yn yr Ysgrythyrau. Yr oedd prif urddasolion Palestina yn marchogaeth ar asynod. Dysgrifia Deborah, yn ei chân, wŷr mawrion Israel yn "rhai yn marchogaeth ar asenod gwynion:" *Barn.* v. 10; yr oedd gan Iair, y Gileadiad, "ddeng mab ar ugain yn marchogaeth ar ddeg ar ugain o ebolion asynod;" *Barn.* x. 4; ac yr oedd i Abadon, un o farnwyr Israel, "ddeugain o feibion, a deg ar ugain o ŵyrion, yn marchogaeth ar ddeg a thrigain o ebolion asynod;" *Barn.* xii. 14.

Yr enw Hebreig mwyaf cyffredin am asyn ydyw חמור, *chamor;* ond heb law yr enw hwn, cynnwysa yr Hebraeg enwau ereill; אתון, *athon;* עירים, *oirim;* פרא, *para;* ערוד, *orud.* Bernir fod yr enwau hyn yn dynodi gwahanol fathau o asynod, yn nghyd â'u gwahaniaeth o ran rhyw ac oedran, er nad, efallai, gyda manylwch mawr.

Cymmerir *chamor* yn enw ar asyn cyffredin Asia Orllewinol, yr hwn sydd yn anifail o faintioli lled fychan, o liw braidd yn goch, ac a arddangosir yn fynych ar gofadeilian Aiphtaidd



Dar. 83. Asyn cyffredin Asia Orllewinol.

gyda chewyll ar ei gefn. Ymddengys ei fod yn rhywogaeth gwâr o asyn gwyllt Arabia, Mesopotamia, a Phersia Ddeheuol, y lle y gelwir ef *gour.* Yn yr Ysgrythyr, dynodir ef wrth yr enw *orud* (*Iob* xxxix. 5="asyn gwyllt"), ac yn y Galdaeg, yn *Daniel* v. 21, *oredia*=asynod gwylltion. Rhoddwyd yr enw Hebreig hwn arno, medd Parkhurst, ar gyfrif ei ddrygnad groch ac annymunol.

Yn ei ystâd anwaraidd, y mae yn hoffi y mynydd-dir yn well na'r dyffryndir coediog; arfera sefyll ar ymylon creigiau peryglus; ymddengys fel yn ardremio y tiroedd oddi tanodd; ac yn y

Digitized by Google

diwedd, drygnada fel mewn arswyd a chynhyrfiad dirfawr. Dysgrifir ei arfer o drigo mewn lleoedd uchel ac anial gan Ieremīah (*pen.* xvii. 6; xlviii. 6), y lle y dylid darllen "*asyn* yn y diffaethwch," ac nid *grug;* am mai nid *oror*=grug, ond *orud*=asyn, yw y gair gwreiddiol.

Dynoda *oirim*, weithiau, *lwdn asyn*. Y mae yr enw hwn yn cael ei ffurfio o ferf sydd yn cynnwys y drychfeddwl o "gynhyrfiad bywiog;" a gelwir y llwdn asyn wrth yr enw hwn, medd Bochart, "am ei fod yn fwy bywiog a chynhyrfus (*exitatior*) na'i rieni." Ond dywedir nad yw hyn yn wahaniaethiad cywir; yr hyn a ymddengys yn ebrwydd wrth weled fod yr *ourim* yn cario beichiau, ac yn llafurio y tir. Yn *Esa.* xxx. 6, dywedir y dygir "golud ar gefnau asynod," sef yr *ourim;* ac yn *adn.* 24, dywedir fod "yr ychain a'r asynod (*ourim*) yn llafurio y tir."


Cyfleithir y gair *aton* yn *asen*. Ond dywed Kitto ei fod yn gyfieithiad anfoddhaol, oddi eithr ei fod yn arwyddo rhywogaeth mwy prydferth a gwerthfawr na'r asyn cyffredin, sef rhywogaeth lwyd Affrica: a chan fod y rhai hyn yn fawrion ac anhydrin, dewisid y benywod o honynt gynt i'w marchogaeth; ac o herwydd hyny, ystyrid hwynt yn rhan werthfawr o gyfoeth. Cyfodid rhywogaeth o honynt er's llawer o oesoedd yn Zobeir, prif ddinas Orcheni; ac oddi yno y mae urddasolion gwladol yn cael mulod ac asenod gwynion hyd yn bresennol.

Ystyrid yr asyn yn aflan gan ddeddf Moses, am nad oedd yn cnoi ei gil: am hyny, ni fwytëid ef, oddi eithr, fel yr ymddengys, ar amser newyn trwm. Cesglir hyn, pa fodd bynag, oddi wrth y gair "pen asyn;" yr hwn, meddir, a all fod yn arwyddo rhyw fesur a elwid felly; fel y dywedir yn 1 *Sam.* xvi. 20, fod Iesse wedi anfon i Saul "asyn o fara;" o blegid nid yw "llwythog" yn ein cyfieithiad ni ond chwanegiad o eiddo y cyfieithwyr. Er y gallasai y newyn yn Samaria orfodi y bobl i fwyta asynod, a gwneyd pen asyn yn uchelbris yn eu plith, eto, gall y gair ddynodi y mesur neu y pwysau a elwid wrth yr enw hwnw.

Gan fod yr anifail hwn yn dra gwasanaethgar, edrychid arno gynt gyda gradd mawr o barch, a dangosid llawer o ofal am dano. Nid ymddengys fod y gwarthnod a deflid gan y Rhufeiniaid ar yr Iuddewon (at yr hyn y cyfeirir eto), eu bod yn addoli pen asyn, yn un prawf eu bod yn edrych gyda diystyrwch ar yr anifail hwn. Y mae y ffaith fod y gair Arabaeg yn arwyddo "asyn gwyllt Mesopotamia" yn un o enwau urddasol Mirvan II, penaeth Mahometaidd, yn ddigon o brawf nad oedd dim diystyrwch yn nglyn â'r asyn yn Arabia a'r gwledydd cymmydogaethol.

Esgeulusir a diystyrir ef yn ein plith ni, am ein bod yn meddu anifail arall harddach a chryfach, sef y march; ond pe buasai y diweddaf yn anadnabyddus i ni, a phe buasai y gofal a arferir tuag ato yn cael ei arfer tuag at yr asyn, mae yn ddiammheu, medd Buffon, yr effeithiasai hyny i gynnyddu ei faintioli ac i wellhau yr ansoddion hyny sydd yn perthyn iddo, y rhai nad ydynt yn cael manteision cyfaddas yn ein plith ni i arddangos eu hunain. Yn Persia, Arabia, a gwledydd dwyreiniol ereill, y mae yn cael triniaeth dra gwahanol i'r hyn a dderbynia yn ngwledydd gorllewinol Ewrop. Yn lle ei esgeuluso, ac arfer y creulondeb mwyaf tuag ato, cymmer y dwyreinwyr y gofal mwyaf i wellhau y rhywogaeth, ac i'w chymmysgu â'r rhywogaethau ereill goreu a harddaf; pwrcasant yr asyn gwyllt i'r dyben hwn; cofnodant achau y gwahanol dylwythau o honynt; a gofalant gymmaint am danynt, fel y maent yn ateb i amryw amcanion yn gystal a meirch, ac i amcanion ereill yn well. "Asynod Arabia," medd Chardin, "ydynt, efallai, yr anifeiliaid harddaf yn y byd. Y mae eu gwisg yn esmwyth a glân; cariant eu penau yn uchel; ac y mae eu haelodau yn brydferth a llunaidd, y rhai a daflant yn drefnus wrth gerdded neu redeg."

Y gair Hebreig, פרד, *pered*, ychydig yn wahanol i'r gair arall, *para*=asyn gwyllt, a gyfieithir yn yr Ysgrythyrau *mul* neu *mules:* 2 *Sam.* xiii. 29; 1 *Bren.* i. 33; x. 25. Y mae yr anifail hwn mor



Dar. 84.
Mulod, oddi wrth ddarlun Aiphtaidd yn y British Museum.

adnabyddus, fel y mae rhoddi dysgrifiad o hono yn ddiangenrhaid. Er na wyddys pa bryd nac yn mha le y dechreuwyd magu mulod; ar yr un pryd, dywedir fod amryw amgylchiadau yn ei gwneyd yn debygol mai Asia Orllewinol oedd y wlad, ac mai amser breninoedd cyntaf Israel oedd y pryd y bu hyn. Yn amser Dafydd, ystyrid fod rhoddi caniatad i un farchogaeth ar ful y brenin, yn gydnabyddiaeth o urddas ac awdurdod uchel. Nid ymddengys fod yr Israeliaid yn magu mulod yr amser bore hwn, ond derbynient hwy o Armenia. Dywedir yn *Gen.* xxxvi. 24, fod "Anah, mab Sibeon, wedi cael y mulod yn yr anialwch, wrth borthi asynod ei dad;" a dywed y Talmud, mai efe a ddyfeisiodd eu magu. Ni raid dyweyd na ddylid rhoddi nemawr ymddiried i dystiolaeth y Talmud; er fod rhai beirniaid, y mae yn wir, yn barnu mai ystyr yr ymadrodd yn Genesis, a gyfieithir yn Gymraeg, "a gafodd y mulod," ydyw "a gafodd allan y dull o fagu mulod." Dadleuir yn erbyn hyn, na oddef y gair מצא ei gyfieithu "a ddyfeisiodd," ond, "a gyfarfyddodd â." Y mae y mwyafrif o'r beirniaid yn ymwrthod yn hollol â'r cyfieithiad "mulod"—rhai o honynt gan haeru mai y cyfieithiad cywir ydyw, "Yr Emiaid, gyda'r rhai yr ymladdodd Anah," gan feddwl rhyw gawri ysbeilgar (cymharer *Deut.* ii. 10—12). Dadleua ereill, "Efe a gafodd ddwfr yn yr anialwch." Fel hyn, gwelir fod hawl Anah, mab Sibeon, i ddarganfyddiad y mulod yn gorphwys ar sail rhy sigledig.

Yn y geiriau (*Barn.* v. 10) "y rhai sydd yn marchogaeth ar asenod gwynion," y mae Deborah yn anerch y rhai a eisteddent mewn barn. Barna rhai eu bod yn cael eu galw "asynod gwynion" oddi wrth liw y dillad a osodid arnynt; gan na wisgai yr Hebreaid, yn ystod eu gwyliau arbenig, ddillad o un lliw ond rhai gwynion. Dywed Josephus [*Hen.* xi. 8], fod Alexander Fawr, ar ei ddyfodiad i Ierusalem, wedi cyfarfod â'r bobl mewn dillad gwynion, a'r offeiriaid yn myned o'u blaen. A dywed Hurdis [*Diss.* td. 62], ei bod yn arferiad yn eu plith i daflu y dillad gwynion a

Digitized by Google

wisgent ar yr anifeiliaid a farchogid gan wŷr o urddas, yr hon oedd mewn bod yn amser mynediad ein Iachawdwr i Ierusalem. Dadleua ereill mai "asynod gwynion" mewn gwirionedd oeddynt; a chrybwylla Dr. Gill am deithiwr a welodd bob dydd finteioedd o anifeiliaid gwylltion ar lanau yr Euphrates, ac yn eu mysg, asynod, oll yn wynion. Darllena Adam Clarke y frawddeg, "asynod porthiannus;" a Boothroyd, "asynod tlysion brithresog." Y mae y gair a gyfieithir yma "gwyn," yn dygwydd yn *Ezec.* xxvii. 18; a darllenir ef yno yr un modd ag yn yr adnod dan sylw.

Yn ol rhagfynegiad Zechariah, marchogodd Iesu Grist ar asyn i Ierusalem: *Mat.* xxi. 4. Gwawdiwyd yr ymddygiad hwn gan rai, fel pe buasai yn annheilwng o urddas un a hònai ei hun yn frenin; ond dylid cofio, nid yn unig fod y gwŷr mwyaf yn Israel yn y cynamseroedd yn arfer marchogaeth ar asynod, ond hefyd fod yr Arglwydd wedi gwahardd i Israel arfer meirch; fod Dafydd yn marchogaeth ar fules, a'i fod wedi gorchymyn i Solomon eistedd arni ar ddydd ei goroniad; fod yr Arglwydd wedi dannod eu harferiad o feirch i freninoedd Israel; a'i fod yn arfer llefaru am feirch a cherbydau fel pethau anghymmeradwy ganddo. Felly, gwelir fod ymddygiad yr Iesu yn marchogaeth i Ierusalem ar asyn, nid yn unig yn gyflawniad o brophwydoliaeth a gerddasai o'r blaen, ond hefyd yn adferiad ar un o hen arferion anrhydeddus yr Hebreaid. Ni fuasai, ychwaith, iddo farchogaeth ar farch yn gydweddol â'i genadwriaeth ar y ddaiar fel "brenin heddwch," gan ei fod yn gyssylltiedig mewn hanesiaeth â cherbydau ac offer rhyfel—yn gymmaint felly fel y gallwn edrych arno, braidd fel arwyddlun o ryfel; o blegid y mae "tori ymaith y cerbyd a'r march," "rhoddi y cerbyd a'r march i gysgu," ac ymadroddion cyffelyb, mor ddealladwy a phe yr arferid y geiriau "gwneyd i ryfeloedd beidio." Ond y mae ymddangosiad isel yr asyn, ei duedd foddlawn, mewn cymhariaeth â'r march, a chyssylltiad ei hanes â hanesiaeth dynolryw yn amser eu symledd patriarchaidd a chyntefig, yn peri ei fod yn fwy cyfaddas i'n Iachawdwr farchogaeth arno i Ierusalem, heb i ni edrych ar y brophwydoliaeth am hyny. Ni chydffurfiodd ef â rhwysg breninoedd Israel, nac âg ymddangosiad bostfawr yr ymherawdwyr Rhufeinig, ond dewisodd yn hytrach arferion syml a heddychol yr oesoedd boreuaf—"marchogodd ar asyn;" yr hyn a wnaeth fel math o arwyddlun o heddychlonder dystaw ei freniniaeth, fel yr ymddengys oddi wrth y brophwydoliaeth; o blegid ar ol y geiriau a ddywedant ei fod yn marchogaeth ar asyn, mynega y prophwyd, y "torir ymaith y cerbyd oddi wrth Ephraim, a'r march oddi wrth Ierusalem;" *Zech.* ix. 9, 10.

Cyhuddwyd yr Iuddewon gan y paganiaid o addoli pen asyn. Ymddengys oddi wrth Josephus [*Yn erbyn Apion*, llyfr ii. ad. 7], mai Posidonius ac Apollonius oedd cynllunwyr y chwedl hon, a bod Apion wedi ei chyhoeddi mewn modd maleisus. "Y mae gan Apion," medd yr hanesydd, "y digywilydd-dra mwyaf i hòni fod yr Iuddewon wedi dodi pen asyn yn y cyssegr; a haera ei fod wedi ei ganfod yno pan anrheithiodd Antiochus Epiphanes y deml; a'i fod wedi cael yno ben asyn wedi ei wneyd o aur, yn werth llawer o arian. I hyn, fy atebiad cyntaf ydyw—Pe buasai y fath beth yn ein plith, ni ddylai Aiphtwr ei ddannod yn faleisus i ni, o blegid nid yw yr asyn yn anifail mwy diystyredig na'r *furones* (rhyw anifeiliaid anhysbys yn awr) a'r geifr, y rhai a addolir megys duwiau ganddynt hwy." Ac ā Josephus yn mlaen i wrthwynebu celwydd Apion gyda rhesymau tra boddlonol. Ond ymddengys mai nid i Apion yn unig y dylid priodoli lledaeniad y chwedl anwireddus hon; o blegid dywed Suidas fod Democritus, yr hanesydd, yn cadarnhau fod yr Iuddewon yn addoli llun pen asyn wedi ei wneuthur o aur, ac yn aberthu dyn iddo bob tair neu bob saith mlynedd: a chawn fod Plutarch a Tacitus yn ceisio rhoddi cyfrif boddlonol am yr hyn a dybient hwy oedd yn ffaith, sef, fod asyn wedi canfod ffynnon o ddwfr yn yr anialwch mewn adeg pan oedd byddin y genedl wedi dihoeni gan flinder a syched. Cyhuddid y Cristionogion cyntefig o'r un peth gan y paganiaid; a dywed Tertullian yn ei *Ddiffyniadau*, fod rhai o elynion y Cristionogion, efallai rhai a berthynent i blaid y Gwybedyddion, yn arddangos darlun, ar yr hwn yr arddangosid dyn cyflawn, gyda phen a thraed asyn, wedi ymwisgo mewn gwisg laes, ac yn dal llyfr agored yn ei law, ac arno yn argraff, "Y mae gan Dduw y Cristionogion garnau asyn."

Y mae yn lled anhawdd penderfynu yn mha beth y gwreiddiodd y gwarthnod hwn; a pha un a ydyw cyhuddiad Apion o barth i'r Iuddewon, ac eiddo y paganiaid o barth i'r Cristionogion, yr un, ynte a darddasant o amgylchiadau gwahanol. Dywed Epiphanius [*De Hær.*] am y Gwybedyddion, eu bod yn dysgu fod gan y Duw Sabbaoth ffurf asyn, ond fod ereill yn ei ddysgrifio fel mochyn; ac adroddir ffaith debyg gan Kitto am sect yr Ophitiaid. Pe buasai rheswm Plutarch a Tacitus yn wirionedd, buasai yn lled hawdd ei dderbyn fel esboniad ar y peth; ond nid oes dim yn hanes yr Iuddewon yn ei ffafrio. Ceisiodd Tanaquil Faber brofi fod y cyhuddiad wedi tarddu oddi wrth deml yn yr Aipht, a elwid Onion, yr hwn enw a fernir sydd wedi deilliaw o *onos*= asyn; ar yr un pryd, gallasai yr Alexandriaid, medd Calmet, ddeall yn hawdd fod teml Onion yn Heliopolis wedi ei galw felly, nid oddi wrth *ones*, ond oddi wrth Onïas, archoffeiriad yr Iuddewon, yr hwn a'i hadeiladodd. Ond er yr holl geisiadau i esbonio tarddiad y gwarthnod hwn, addefir nad yw yn debygol y llwyddir i wneyd hyny; am, efallai, ei fod wedi ei achlysuro gan ryw wawdair neu amgylchiad anhysbys. Edrychir ar dybiaeth Le Moine y fwyaf naturiol; sef fod y thuser aur wedi cael ei gamgymmeryd yn fwriadol am ben asyn; a bod yr *omer* o fanna wedi cael ei gymmeryd yn lle yr Hebraeg, *hamor*, neu yn hytrach *chamor*, yr hyn a arwydda asyn. Pa un bynag a ellir profi hyn yn wirionedd, hawdd y gallasai malais y paganiaid wneuthur a llunio y cyhuddiad oddi wrth yr ychydig debygrwydd a dybient oedd rhwng y pethau crybwylledig a'u gilydd.


Y mae amrywiol farnau am yr hanes a gynnwysir yn *Num.* xxii. 22—35, o barth i asen Balaam, hyd yn oed yn mysg y rhai a dderbyniant yr hanes fel un awdurdodedig. Y mae Awstin, a'r nifer fwyaf o'r beirniaid, yn deall yr hanes yn llythyrenol. Nid yw ef yn gweled dim yn yr hanes yn fwy rhyfedd nag ystyfnigrwydd Balaam ei hun. Y mae yn barnu fod y dewin yn gynnefin âg aruthr-bethau fel hyn; neu ei fod wedi ei ddallu yn ddirfawr gan gybydd-dra, pan na fynai ei attal gan ddygwyddiad mor anghyffredin. Chwanega hefyd, fel ei farn, na roddes yr Arglwydd i'r asen enaid rhesymol, ond yn unig ei goddef i adrodd rhai geiriau "i geryddu ynfydrwydd y prophwyd." Barna Gregory, o Nyssa (*in vitâ Moysis*), na adroddodd yr asen

Digitized by Google

eiriau, ond ei bod wedi drygnadu fel arferol, neu yn fwy nag arferol; a chan fod y dewin yn gyfarwydd â daroganau trwy leisiau creaduriaid direswm, ei fod yn deall meddwl yr asen yn ebrwydd. Cadarnha Maimonides nad oedd yr holl ymddyddan ond math o ffugwaith neu alegori; trwy yr hyn y mae Moses yn adrodd yr hyn a gymmerodd le yn unig yn meddwl Balaam. Y mae Philo yn gadael yr hanes allan yn gwbl yn ei *Vitâ Moysis.* Yn wir, y mae y nifer mwyaf o'r awdwyr Iuddewig yn ei ystyried, nid fel ffaith neu hanes gwirioneddol, ond fel math o weledigaeth. Y mae Le Clerc yn ceisio esbonio yr anhawsder pa fodd yr oedd Balaam yn ateb yr anifail, fel pe buasai nid yn unig yn greadur rhesymol, ond hefyd yn feddiannol ar lafar, trwy ddyweyd fod y prophwyd yn credu athrawiaeth trawseneidiad—fod yr enaid yn ymfudo o'r naill gorff i'r llall, ac hyd yn oed o gorff dyn i gorff anifail; am hyny, ni tharewid ef â syndod wrth glywed cwynfan yr asen; ond ymddyddanai â hi fel pe buasai resymol. Cefnogir y dybiaeth mai mewn gweledigaeth y bu yr hyn a gofnodir yn yr hanes, gan yr ystyriaethau canlynol: — Mai breuddwydion a gweledigaethau oeddynt y dulliau arferol i Dduw ddadguddio ei hun i'r prophwydi (*Num.* xii. 6)—a sylwant fod Balaam, yn y rhagarweiniad i'w brophwydoliaethau, yn edrych arno ei hun fel un y buasai ei lygaid yn gauedig, ond yr agorwyd hwynt wrth iddo syrthio mewn math o lewyg brophwydol—na ddadganodd syndod wrth glywed yr asen yn llefain—ac nad ymddengys oddi wrth yr hanes, fod ei weision, na thywysogion Moab, a elent gydag ef, yn wybyddus fod un dygwyddiad uchnaturiol wedi cymmeryd lle. Tybia Dr. Jostin nad ymddangosodd yr angel i Balaam, ond i'r asen yn unig—fod yr anifail yn llawn arswyd—a bod Balaam wedi ei tharaw, ac yna iddo syrthio mewn llewyg—ac yn y sefyllfa hono iddo ymddyddan â'r asen, ac wedi hyny â'r angel.

Ond y mae pleidwyr y deongliad llythyrenol a roddir am yr hanes, yr hwn a ymddengys, er yr holl anhawsderau, y mwyaf naturiol, yn dwyn yn mlaen y rhesymau canlynol:—Y byddai yn annaturiol ac anghydweddol âg ysgrifeniadau hanesiol, fel llyfrau Moses, ac â hanes yn cydsefyll o ran ei nodwedd â'r ysgrifeniadau hyny, i ystyried y dygwyddiadau fel yn cymmeryd lle mewn gweledigaeth, oddi eithr fod hyny yn cael ei ddyweyd yn benodol—y byddai yn anhawdd penderfynu yn mha le y mae yn diweddu—fod gwaith yr Arglwydd yn "agor safn yr asen" yn rhwym o fod yn weithred allanol a gwirioneddol—ac yn benaf, fod adroddiad Pedr (2 *Pedr* ii. 16) o'r hanes yn hynod ffafriol i'r ystyr lythyrenol—"Asen fud arferol â'r iau, gan ddywedyd â llef ddynol, a waharddodd ynfydrwydd y prophwyd." Sylwa Macknight ar yr adnod hon fel y canlyn:—"Fod asen Balaam wedi llefaru ar yr amgylchiad hwn, nis gellir mewn un modd ei ystyried yn anghredadwy. 'Agorodd yr Arglwydd ei safn;' hyny yw, gwnaeth y fath gyfnewidiad yn ei rhanau ag a'i cyfaddasai i ddyweyd geiriau croew; a thrwy ei weithrediad ei hun, neu eiddo yr angel, cyfarwyddodd yr asen pa beth i'w ddywedyd. Nid oes, felly, un angenrheidrwydd i dybied fod yr asen wedi ei chynnysgaethu am ychydig fynydau â rheswm; neu fod y pethau a briodolir i'w llafar hi wedi eu gosod ger bron meddwl Balaam mewn breuddwyd, fel y credai Maimonides; neu ei bod, yn ol syniad y trawsfudiad, wedi ei gwneyd yn feddiannol ar enaid dynol. Y mae yr holl drafodaeth, ar y dybiaeth ei fod yn wyrthiol, yn ymddangos yn rhesymol a chysson." A gallwn chwanegu, nad yw yn ymddangos felly ar un dybiaeth arall; hyny yw, trwy ei esbonio mewn unrhyw ddull heb law y llythyrenol, a cheisio gwneyd i ffordd â'r gwyrthiol a'r goruchnaturiol. Gwel BALAAM.

*Asyn Gwyllt:* anifail tra adnabyddus ydyw yn y dwyrain, y ceir crybwylliadau aml am dano yn yr Ysgrythyrau. Y mae yn anifail llawer harddach na'r asyn cyffredin. Gelwir ef yn yr Hebraeg *para*, ac yn y Groeg *onager*; talfyriad o'r ddau air *ονος=asyn*, ac *αγριος=gwyllt.* Y mae yr Hebraeg, *para*, yn deilliaw o air sydd yn arwyddo yn y ferf *rhedeg*; ac y mae o'r un gwreiddair ag a ffurfiodd y geiriau פרש (*paras*), march; פרשים (*parasim*), marchogion, Persiaid, a Parthiaid. Triga yn y diffaethwch, ac yn enwedig mewn lleoedd uchel; y mae yn eiddigeddus am ei ryddid; nis gall oddef syched: *Iob.* xi. 12; xxxix. 5; *Ier.* xiv. 6; *Salm* civ. 11. Dywed Josephus, fod Herod Fawr wedi lladd deugain o honynt mewn un helwriaeth. Ceir amryw grybwylliadau am dano mewn awdwyr cyffredin. Dywed Aristotle am dano [*Hist.* vi. 36] ei fod yn gyflymach na'r march; a dywed Xenophon [*Cyrop.* 1] fod ganddo aelodau hirion, ei fod yn hynod o gyflym wrth redeg, yn chwyrn fel y corwynt, a bod ganddo



Dar. 87. Yr Asyn Gwyllt.

garnau cryfion. Adrodda Ælian yr un peth, ond ar yr un pryd ei fod yn hawdd i'w flino; a phan ddelir ef, ei fod mor hydrin fel y gellir ei arwain fel y mynir. Rhydd Martial yr ansoddair *prydferth* iddo—"*Pulcher adest onager.*" Dysgrifia Oppian ef fel "yn hardd, yn fawr, a chryf, o gerddediad uchelwych, a bod ei flew o liw ariannaidd, a rhes ddu ar hyd asgwrn ei gefn, ac ar ei denewyn ysmotiau mor wyned a'r eira." Dywed Mr. Morier—"Ni a ymlidiasom ar ol dau asyn gwyllt, y rhai oeddynt gymmaint cyflymach na'n ceffylau ni, fel, ar ol iddynt fyned i dipyn o bellder oddi wrthym, yr edrychasant yn ol arnom, ac y safasant, gan chwythu â'u penau i fyny fel mewn diystyrwch o'n hymdrech ni i'w dal! Y dull o'u herlyn ydyw cymmeryd llawer o geffylau ar ol eu gilydd, fel ag yn y diwedd i lwyr flino yr un a erlynir."—(*Kitto; Calmet; Burder's Oriental Customs,* &c.)

ATAD, [אטד, *draen*]: Canaanead, mae'n debyg; perchenog y llawr-dyrnu, lle y gwnaeth meibion Iacob, a'r Aiphtiaid a ddaethant gyda hwynt i'w gladdedigaeth, alar mawr am eu tad; ar gyfrif yr hyn galwyd y lle wedi hyny Abel-Mizraim, set *galar yr Aiphtiaid*: *Gen.* l. 10, 11. Safai o du




Digitized by Google

gorllewinol yr Iorddonen, rhwng yr afon a Ierieho; dwy filltir o'r naill, a thair oddi wrth y llall.

ATALIA, ATTALEIA, [ατταλεια, *cynnydd, maeth*]: dinas arforawl o Pamphylia, yn Asia Leiaf, yn agos i geg yr afon Catarrhactes. Cafodd ei henw oddi wrth ei sylfaenydd, Attalus Philadelphus, brenin Pergamos. Ymwelodd Paul a Barnabas â'r ddinas hon, B. A. 45. Y mae y ddinas yn aros eto, dan yr enw Adalia; ac y mae ei hadfeilion helaeth yn dangos iddi fod yn lle pwysig yn yr amser gynt.

ATARGATIS, neu ATERGATIS, ['Ατεργάτης, 'Αταργάτις]: enw duwies Syriaidd, am deml yr hon y crybwyllir yn 2 *Mac.* xii. 26; "Yna yr aeth Maccabeus yn erbyn Carnion, a theml Atargatis." Yr oedd y deml hon, fel yr ymddengys wrth gymharu 1 *Mac.* v. 43, â 2 *Mac.* xii. 26, yn sefyll yn Carnaim, neu Astaroth Carnaim. Yr oedd ei haddoliad yn flodeuog hefyd yn Mabûg, a alwyd wedi hyny Hierapolis (*Plin. Hist. Nat.* v. 19) Tybir yn gyffredin mai yr un ydoedd a Derceto. Yr ydym yn cael fod Derceto yn cael ei haddoli yn Phœnicia, ac yn Ascalon, yn ffurf merch gyda chynffon pysgodyn, neu gyda gwyneb merch yn



Dar. 86.

unig, a'r holl gorff ar lun corff pysgodyn—fod pysgod yn gyssegredig iddi, a bod y trigolion yn ymgadw oddi wrth fwyta pysgod o anrhydedd iddi.

Ymddengys fod Atargatis yn rhyw arddulliad o'r gallu a addolid yn ffurf Astoreth. Mae y ffaith mai yn Astaroth-Carnaim yr oedd teml Atargatis yn sefyll, yn arddangos fod rhyngddi rhyw gyssylltiad âg Astoreth. Pa un a oedd fel y gyntaf yn dwyn unrhyw berthynas neillduol â'r lleuad, neu â'r blaned Gwener, nid yw yn hysbys. Dywed Macrobius ei bod yn dal perthynas â'r ddaiar, yn hytrach nag un blaned arall. Myntumiai Creuzer mai yr arddangosiadau hyny o'r dduwies a gynnwysant gorff pysgodyn, ydynt y rhai henaf; a cheisia gyssoni adroddiad Strabo, mai duwies Syriaidd Hierapolis oedd Atargatis, â dywediad Lucian am y gyntaf, sef ei bod yn cael ei harddangos yn ffurf merch gyflawn—trwy wahaniaethu rhwng ffurfiau cyfnodau gwahanol. Y mae y ffurf pysgodyn a roddir iddi, yn dangos fod y dduwies yn dal rhyw gyssylltiad â Dagon, efallai ei wrthran fenywaidd.

Nis gellir rhoddi tarddiad y gair Atargatis gyda boddlonrwydd. Barna rhai ei fod yn dyfod o air Hebreig am bysgodyn. Barna Michaelis, oddi ar fod enw Syriaidd rhyw eilun-dduw yn Haran yn arwyddo *agen, adwy*, mai ffurf Syriaidd y gair Derceto ydyw; a'i fod yn cyfeirio at yr agen fawr yn y ddaiar a grybwyllir gan Lucian, yr hon a lyncodd ddyfroedd y diluw. Ond y mae Gesenius yn ystyried Derceto yn ffurf o'r gair Syriaidd am bysgodyn.

ATARIAID: enw teulu o hiliogaeth Caleb, mab Hur. "*Atariaid*, neu *goronau tŷ Ioab;*" 1 *Cron.* ii. 54—ymyl y ddalen, yn ol yr Hebraeg. Gwel ATAROTH.

ATAROTH, [*coronau*]. Y mae amryw leoedd o'r enw yma yn cael eu crybwyll yn yr Ysgrythyrau:—

1. ATAROTH: dinas yn nhiriogaethau llwyth Gad, o'r tu hwnt i'r Iorddonen: *Num.* xxxii. 3, 34.

2. ATAROTH-SOPHAN: dinas arall yn yr un llwyth: *Num.* xxxii. 35; yr hon yn ein cyfieithiad ni a elwir Atroth.

3. ATAROTH: dinas ar gyffiniau llwyth Ephraim: *Ios.* xvi. 2, 7: a elwir *Ataroth-adar: Ios.* xvi. 5; xviii. 13.

4. ATAROTH-TY-IOAB: yn llwyth Iudah: 1 *Cron.* ii. 54. Crybwyllai Eusebius a Jerome ddau le o'r enw yma yn llwyth Beniamin; ond ni sonir am danynt yn yr Ysgrythyrau. Darganfu yr athraw Robinson orsaf un o'r lleoedd hyn, dan yr enw Atara [*Biblical Researches*, ii. 314]: ac efe a ganfu le arall o'r un enw, tua chwe milltir i'r gogledd orllewinol o Bethel; yr un, efallai, ag Ataroth Ephraim: *Ios.* xvi. 2, 7.

ATEB. Dywedyd yr hyn a ofynir: *Diar.* xxvi. 4. Caniatau yr hyn a ofynir mewn gweddi: *Salm* xxvii. 7; *Esa.* lxv. 24. Rhoddi cyfrif: *Iob* ix. 3. Dechreu llefaru: *Dan.* ii 26, 27. Gwneuthur amddiffyniad o flaen brawdle: 2 *Tim.* iv. 16. Talu y pwyth i un: *Ezec.* xiv. 7. Ymdebygu: *Diar.* xxvii. 19; *Gal.* iv. 25.

ATEB CYDWYBOD DDA: ymarferiad goleuedig, cydwybodol, o ddyledswyddau yr efengyl: 1 *Pedr* iii. 21; "Cyffelybiaeth gyfatebol i'r hwn sydd yr awr hon yn ein hachub ninnau, sef bedydd (nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd, eithr ymateb cydwybod dda tuag at Dduw) trwy adgyfodiad Iesu Grist." Yr oedd yr Iuddewon yn rhoddi pwys mawr ar eu golchiadau crefyddol: am hyny y mae yr apostol yn dra phriodol yn eu rhybuddio i ochel y cyfryw gyfeiliornad; ac yn dangos iddynt fod ymroddiad calonog i gyflawnu eu holl ddyledswyddau, ac hyd yn oed i ddyoddef erlidigaeth er mwyn y gwirionedd, yn anhebgorol angenrheidiol er cadw y gydwybod dda hono, i'r hon y proffesent y fath barch yn eu bedydd, ac i gadw yr hon yr aethant dan y fath ymrwymiadau difrifol. Y mae yr archesgob Leighton, yn ei sylwadau ar y rhan hon, yn dyweyd fod y gair a gyfieithir *ymateb*, yn air arferedig mewn cyssylltiad â brawdlysoedd, ac yn golygu ymholiadau a arferid er dwyn yn mlaen gynghaws cyfreithiol: ac y mae Cyprian, ac ereill o'r hen dadau, yn ein hysbysu y byddai rhyw holiadau yn cael eu rhoddi i'r ymgeisydd am fedydd, o barth i'w ffydd yn Nghrist, ei ymwrthodiad â'r diafol, a holl weithredoedd y tywyllwch, a gwagedd y byd: ac nid yw yn annhebyg bod yr apostol yn y geiriau hyn yn cyfeirio at y gyfryw ddefod.

ATER, [אטר, *cauedig*]: dichon mai enw dinas yn Iudah ydoedd, a bod y teulu a ddychwelodd gyda Zorobabel o gaethiwed Babilon, ac a elwir "meibion Ater o Hezeciah," yn hiliogaeth gŵr o'r enw—priodor gynt o'r ddinas hono: *Ezra* ii. 16; *Neh.* vii. 21.

ATOLWG—YGU, [*dy—olwg*]: deisyfu; erfyniaw. "Dywedwch, *atolwg*, pa gyfraith yr ydych chwi yn ei hystyried?"—Seis., Declare, *we pray you*, what law do you respect? Y gair Groeg am dano ydyw *αιτεω*; yr hwn hefyd, yn gystal a'r Cymraeg, sydd yn cynnwys y drychfeddwl o erfyn yn *ostyngedig*. Y mae y gair *αιτεω*, fel y

Digitized by Google

adgas o blegid ei greulondeb at ei berthynasau, a'i ofer ymarferiad o'i allu. Yr oedd yn dra hoff o'r Rhufeiniaid. Bu farw heb hiliogaeth o'i wraig Berenice; ac yn ei ewyllys yr oedd y geiriau hyn; "*P. R. meorum hæres esto:*" y rhai yr haerai y Rhufeiniaid eu bod yn cyfeirio atynt hwy eu hunain, ac am hyny, a gymmerasant feddiant o'i deyrnas c. c. 133. Ond Aristonicus, mab cyfreithlawn Eumenes II., a honodd ei hawl i'r goron ar farwolaeth ei frawd Attalus; ac yn y flwyddyn c. c. 131, efe a orchfygodd y consul P. Licinius Crassus. Ond yn 130, gorchfygwyd yntau, a chymmerwyd ef yn garcharor gan M. Perperna; ac yn 129, dygwyd ef i Rufain gan M. Aquillius, lle y rhoddwyd ef i farwolaeth. Yna, gwnaed Pergamus yn dalaeth Rufeinig, yr hon a elwid yn Attalicus. Yr oedd Attalus III. yn noddwr gwresog i lenyddiaeth; a chasglodd ef a'i hynafiaid lyfrfaoedd godidog yn Pergamus; a chai y talentog a'r teilwng nawdd haelionus bob amser yn ei lys.—(*Liv.; Polyb.; Strabo.; Plin.; Justin.*)

**ATTERBURY, FRANCIS**: esgob Rochester yn nheyrnasiad y frenines Ann a Sior I.; a anwyd yn Milton, ger llaw Newport Pagnel, yn swydd Buckingham, ar y 6ed o Fawrth, 1662. Mab ydoedd i beriglor y plwyf hwnw. Derbyniodd ei addysg yn ysgol Westminster, ac etholwyd ef yn fyfyriwr o Eglwys Crist yn mhrif ysgol Rhydychain, yn 1680. Cymmerodd radd baglor y celfyddydau yn y flwyddyn 1684, a gwnaed ef yn athraw y celfyddydau yn 1687.

Ymddangosodd fel awdwr y tro cyntaf yn 1687, pryd y cyhoeddodd waith dan yr enw, *Ystyriaethau ar ysbryd Martin Luther, a dechreu y Diwygiad.* Nid hir y bu ei ragoroldeb yn yr areithfa cyn dyfod yn adnabyddus, a buan y cafodd ei benodi yn un o gaplaniaid cyffredinol y brenin, ac etholwyd ef yn bregethwr Bridewell, ac yn ddarlithwr St. Bride's.

Yn y flwyddyn 1700, dechreuodd Atterbury ar ddadl hirfaith â'r Dr. Wake, archesgob Caergaint, ac ereill, yn nghylch hawliau, galluoedd, a breintiau cymmanfaoedd eglwysig. Am y rhan a gymmerodd, a'r brwdfrydedd a ddangosodd yn y ddadl hon, efe a dderbyniodd ddiolch tŷ isaf y gymmanfa, a chafodd ei wneuthur yn ddoethawr duwinyddiaeth gan brif ysgol Rhydychain, heb fyned drwy y ffurfiau, a thalu y talion arferol ar yr achlysur hwnw.

Pan yr esgynodd Ann i'r orsedd yn 1702, penodwyd Atterbury yn un o'i chaplaniaid; ac yn 1704, dyrchafwyd ef i ddeoniaeth Carlisle. Yn 1707, gwnaed ef yn ganon yn eglwys gadeiriol Exeter; ac yn 1709, penodwyd ef yn bregethwr i Gapel y Rholau. Yn 1712, gwnaed ef yn ddeon Eglwys Crist, Rhydychain. O herwydd afrywiogrwydd ei dymmer, a thrahausder ei ysbryd, buan y torodd y fath anghydfod allan yn y coleg hwnw fel y tybiwyd yn angenrheidiol ei symmud ef o'i swydd, er mwyn adferu heddwch. Yn y flwyddyn 1713, ar gymmeradwyaeth Arglwydd Rhydychain, dyrchafwyd ef i esgobaeth Rochester, a deoniaeth Westminster. Ar farwolaeth Ann, yn 1714, darfu gobeithion Atterbury am gyrhaedd un dyrchafiad pellach. Ymdrechodd ennill ewyllys da Sior I., ond yn aflwyddiannus; gwrthodwyd ei gynnygion gydag arwyddion o gasineb personol tuag ato. Yna y dechreuodd Atterbury ymderfysgu, a gwrthododd lofnodi y traethiad o ffyddlondeb o eiddo yr esgobion, yn ystod y gwrthryfel yn 1715. Yn Nhŷ yr Arglwyddi, gwnaeth y gwrthdystiadau mwyaf angerddol yn erbyn mesurau y llys a'r weinyddiaeth. Yn mhen amser, tybiwyd ei fod yn gyfrin o fradwriaeth er adfer teulu deoledig Stuart i'r orsedd; eisteddodd cyfeisteddfod dirgel o Dŷ y Cyffredin i chwilio i'r achos; a chyhuddwyd ef o ddwyn yn mlaen ohebiaeth fradwrus er mwyn codi terfysg yn y deyrnas, a dwyn gelynion i ymosod arni. Ystyrid y prawf yn ei erbyn yn gyfryw ag oedd yn cyfreithloni ei ddal, a thraddodwyd ef yn garcharor i'r tŵr, yn Awst, 1722. Yn ystod y mis Mawrth ar ol hyny, dygwyd cwyn yn ei erbyn i Dŷ y Cyffredin. Y gosp gynnwysedig yn y cwyn oedd, bod iddo gael ei ddiosg o'i holl swyddau eglwysig, a bod byth yn analluog i ddal unrhyw swydd wladol o fewn y deyrnas neu gyflawnu unrhyw swyddogaeth ysbrydol; bod iddo gael ei alltudio dros ei oes; ac os ceid ef o fewn y deyrnas wedi y dydd a'r dydd, fod iddo gael ei drin fel drwgweithredwr, ac nad oedd i do gael un budd oddi wrth y freninfraint o faddeu troseddau. Amddiffynodd yr esgob ei hun yn erbyn y cyhuddiad yn gymhwylliadol ac yn hyawdl; ac yr oedd ei ymddygiad yn ystod y prawf yn wrol ac yn dawel. Gwedi dadl hirfaith a gwresog, cymmeradwywyd y cwyn yn ei erbyn gan 83 yn erbyn 43. Nid oes bellach nemawr o ddadl nad oedd yr esgob yn euog o'r trosedd y cyhuddid ef o hono; ond caniateir ar yr un pryd fod dull ei brawf yn hollol annheg, os nid yn anghysson â'r ffurflywodraeth. Er iddo gael ei gollfarnu, prin y gellir dywedyd fod profion cyfreithiol yn sylfaen i'r ddedfryd a roddwyd arno.

Yn mis Mehefin, 1723, cefnodd yr esgob ar Loegr, ac ni ddychwelodd iddi mwyach yn fyw. Tiriodd yn Calais, ac wedi aros gronyn yn Brussels, ymsefydlodd yn Paris; a difyrodd ei amser yno yn benaf wrth ymohebu â'i gyfeillion yn Lloegr, yn mhlith y sawl yr oedd Pope, y bardd, yn un o'r rhai mwyf nodedig. Oddi wrth ei lythyrau, o'r rhai y cyhoeddwyd casgliad yn Edinburgh, yn 1768, ymddengys yn amlwg ddigon fod ganddo law fawr yn y cynlluniau aflwyddiannus a wnaed i godi gwrthryfel arall yn Ucheldiroedd yr Alban. Bu farw yn Paris ar y 15fed o Chwefror, 1731, a chladdwyd ef yn gyfrinachol yn Abatty Westminister.

Oddi wrth y crybwyllion blaenorol, gwelir fod Atterbury wedi hynodi ei hun yn fwy fel gwladwriaethwr a therfysgwr nag fel ysgolhaig a duwinydd, a'i fod yn fwy awyddus am hau hadau anghydfod nag am daenu heddwch ar y ddaiar. Yr oedd yn ddyn aflonydd, ac yn fawr ei uchelgais; a hawdd canfod nad oedd egwyddorion uniondeb yn llywodraethu fawr ar ei ymddygiadau. Yr oedd yn bleidiwr i deulu breninol y Stuartiaid; ac yn ei frwdfrydedd drostynt, dywedir iddo, ar farwolaeth y frenines Ann, fyned at yr Arglwyddi Harcourt a Bollingbroke, a dywedyd wrthynt nad oedd dim bellach i'w wneuthur ond cyhoeddi y brenin Iago; a chynnygiodd yn mhellach, os rhoddent hwy nawddosgordd iddo, roi am dano ei wenwisg esgobawl, a blaenori yr orymdaith.

Fel ysgrifenydd, saif ei enwogrwydd ar ei bregethau, y rhai a ystyrir yn gedyrn mewn rhesymau, ac ar yr un pryd yn hyawdl ddiaddurn; ac ar ei lythyrau at ei gyfaill Pope, y rhai sy nodedig am lithrigrwydd a thlysni ymadrodd. Ystyrid nad oedd neb yn ei amser yn deall yn well y gwahaniaeth rhwng Eglwys Loegr ac Eglwys Rufain, yn gystal a'r Ymneillduwyr o bob enwadau.—(*Stackhouse's Memoirs of*

Digitized by Google

*Atterbury; Burnet's Hist. of his own Times: Biog. Britannica; Pen. Cycl.*)

**ATTWF**, [*twf*]: ail dwf, ail gnwd, peth yn tyfu heb ei hau; "ac yn yr ail flwyddyn yr *attwf*:"—Seis., "And in the second year *that which groweth from the same;*" *Esa.* xxxvii. 30.

**ATHALIAH**, [Γοθολια, Deg a Thrigain; עתליה, *amser yr Arglwydd*, neu *un a gofiwyd gan yr Arglwydd*]: merch Ahab brenin Israel, a Iezebel ei wraig eilunaddolgar. Gelwir hi hefyd merch Omri (2 *Cron.* xxii. 2), yr hwn ydoedd dad Ahab; ond wrth gymharu yr holl adnodau, ymddengys mai ei ŵyres ef ydoedd. Daeth yn wraig i Iehoram, mab Iehosaphat, brenin Iudah: 2 *Bren.* viii. 18; a bu yn foddion i ennill ei gŵr a'i mab i addoli Baal: 2 *Bren.* viii. 18, 27. Dywedir am Iehoram, "Ac efe a rodiodd yn ffordd breninoedd Israel, fel y gwnai tŷ Ahab: canys merch Ahab oedd yn wraig iddo."

Bu farw Iehoram c. c. 885, a dilynwyd ef ar yr orsedd gan Ahazïah ei fab ieuangaf, yr hwn a deyrnasodd am un flwyddyn. Defnyddiodd Athaliah y dylanwad mawr oedd ganddi ar ei mab i ddybenion drwg. Cymhellwyd ef i ymuno â'r deg llwyth, a rhyfela yn erbyn Syria: 2 *Cron.* xxii. 4, 5. Cymmerodd Athalïah feddiant o orsedd Iudah ar ol marwolaeth Ahazïah a'i frodyr, mewn canlyniad i'r rhyfelgyrch anffodus hwn: 2 *Bren.* ix. 27; x. 13, 14; ac er mwyn sierhau ei hun yn yr awdurdod a drawsfeddiannodd, rhoddodd yr holl had breninol i farwolaeth: 2 *Bren.* xi. 1; 2 *Cron.* xxii. 10. Ond trwy ofal Iosabea, gwraig yr archoffeiriad Iehoiada, y diogelwyd y tywysog ieuanc Ioas, mab Ahazïah, a'i famaeth; a bu am chwe blynedd dan nawdd yr archoffeiriad yn y deml, a chadwyd ef mor ddirgelaidd, fel na wyddai Athalïah ei fod yn fyw. Yn mhen chwe blynedd, pan oedd Ioas yn saith mlwydd oed, barnodd Iehoiada fod yr amser yn addfed i roddi terfyn ar lywodraeth y wraig greulawn hon, ac i'w gyhoeddi ef yn wir berchenog yr orsedd. Llwyddodd cynghrair yr offeiriaid â gwarchodlu y frenines, a rhoddwyd hi i farwolaeth; dilëwyd addoliad Baal, a chydnabyddwyd Ioas yn frenin. Hi ydoedd yr unig ferch a deyrnasodd yn Ierusalem: 2 *Bren.* xi; 2 *Cron.* xxi. 5, 7—12; xxii. 2—10; xxiii.

**ATHANASIUS.** Ni ennillodd neb erioed y cyfenwad o Fawr yn deilyngach nag ef. Rhagora yn mhell ar ei holl gydoeswyr o ran treiddgarwch meddwl, penderfyniad ewyllys, diysgogrwydd dros ddaioni a gwirionedd, neu yr hyn a dybiodd efe felly, penderfyniad i amddiffyn yr ymddiried a roddwyd iddo trwy ddoethineb, gwyliadwriaeth, a hynawsedd, yn gystal a thrwy wroldeb, sel, a ffyddlondeb. Trwy y cymhwysderau hyn yr ennillodd ei enwogrwydd mewn hanesiaeth eglwysig. Yr hyn ydoedd Cystenyn Fawr, mewn cyssylltiad âg amgylchiadau allanol yr eglwys, a'i pherthynas âg ymherodraeth ddaiarol, hyny ydoedd Athanasius yn ei berthynas â'r dadleuon dros ei hathrawiaethau, a'i bywyd tu mewnol. O'i amgylch ef yr oedd gwahanol bleidiau fel yn troi; efe oedd amddiffynydd y gwirionedd a rhyddid, yn erbyn athroniaeth baganaidd a gormes ymherodrol. Yr oedd ei enw fel baner fuddugol gan y rhai oedd yn ymladd dros iawnderau a ffydd yr eglwys, ac ar ei ben ef yr ymarllwysai holl ystryw a malais y gelynion. Yr oedd ei holl fywyd, wedi iddo gyrhaedd lle amlwg yn yr eglwys, yn ddarostyngedig i'r cyfnewidiadau mwyaf diorphwys, o anrhydedd i warth, o lawenydd i dristwch, o ryddid i alltudiaeth, yn ei ymlyniad wrth y gwirionedd a'i gyflawniad o'r hyn a dybiai yn ddyledswydd. Ond cafodd y fraint o weled y gwirionedd y dyoddefodd gymmaint drosto—i amddiffyniad yr hwn y cyflwynodd ei fywyd yn ngwyneb gwrthwynebiadau, dirmyg, erlidigaeth, ac alltudiaeth—yn cael ei gydnabod fel gwirionedd y Testament Newydd.

Ganwyd Athanasius yn Alexandria, tua'r flwyddyn B. A. 296. Ymddangosodd mewn adeg bwysig, sef yn yr adeg pan oedd yr Eglwys Gristionogol, ar ol oesoedd o erlidigaeth, a goddefiad ar y goreu, yn cael ei chymmeryd dan nawdd y llywodraeth ymherodrol, a mawrion y ddaiar yn cymmeryd Cristionogaeth megys erbyn ei llaw; a chan broffesu eu bod yn weision i Grist, yn cymmeryd mantais i ymyraeth yn ei holl achosion allanol ar y dechreu; ond o herwydd cyssylltiad y rhai hyn â'i hathrawiaethau a'i bywyd mewnol, yr oedd ymdrechiadau parhaus yn cael eu gwneuthur i ddarostwng yr oll dan lywodraeth gormesol yr ymherawdwyr. Achosodd hyn ymryson a barhaodd am ganrifoedd rhwng yr awdurdodau eglwysig a gwladol; ac yn yr ymrysonfa hon, enwogodd Athanasius ei hun o ochr yr eglwys yn mhell tu hwnt i neb o'i gydoeswyr. Tynodd Athanasius sylw Alexander, esgob Alexandria, yn fore; ac yn y ddinas hono cafodd foddion dysgeidiaeth a diwylliad meddyliol tu hwnt i ddim a allesid gael mewn un man arall y pryd hwnw. Yr hyn oedd Athen dair canrif cyn genedigaeth Grist, hyny oedd Alexandria yr un ysbaid ar ol hyny. Yr oedd Eglwys Alexandria hefyd yn uwch mewn cyssylltiad â duwinyddiaeth Gristionogol nag un eglwys arall: yno yr oedd Clemens ac Origen wedi llafurio. Ni esgeulusodd Athanasius y manteision hyn, ac yn fuan rhoddes brawf ei fod wedi treiddio yn ddyfnach i athroniaeth a duwinyddiaeth na neb o'i gyfoedion. Pan eto yn ddyn ieuanc, cyhoeddodd ddau draethawd—un o natur amddiffynol (λογος κατα τῶν 'Ελλημνωυ) *Traethawd yn erbyn y Groegiaid*; a'r llall ar *Ymgnawdoliad y Gair* (περι τῆς ενανθρωπησεως του Λογου)—yn y rhai y mae yn amddiffyn Cristionogaeth oddi wrth ymosodiadau athronwyr paganaidd, yn profi mai hi ydyw yr unig grefydd berffaith a dwyfol, ac yn parotoi y ffordd i gyfarfod angen y tymmor hwnw, sef i osod allan athrawiaethau Cristionogol mewn gwisg na allasai athronwyr na hereticiaid ei defnyddio yn gochl i guddio syniadau cyfeiliornus danynt. Yn y rhai hyn, fe ddengys ei fod wedi treiddio i olygiadau dyfnaf athronwyr Alexandria, ond wedi ymwrthod yn hollol â'i dychymygion disail. Yr oedd hyn yn hollol angenrheidiol i'w alluogi i wrthsefyll unrhyw drosglwyddiad o syniadau paganiaeth i Gristionogaeth. Ymgais at hyny oedd Ariaeth. Yr oedd holl ddadleuon yr oesoedd hyny yn ysgolion Alexandria yn troi ar y berthynas sydd rhwng y Bod Goruchaf â galluoedd neu fodau islaw iddo, ac mewn perthynas nes â dyn. Pe gofynid, Pa beth oedd syniadau Cystenyn yr ymherawdwr ar hyn? A'i gymmeryd fel cynnrychiolydd ei oes, gellid ateb, Ei fod yn credu fod un Duw goruwch pawb a phob peth; ond ei fod hefyd yn credu fod is-dduwiau neu ddemoniaid, trwy ba rai yr oedd yn ei amlygu ei hun i ddynion, ac yn dwyn yn mlaen ei holl amcanion tuag atynt. Yr oedd yr hen syniadau paganaidd am luosogrwydd o dduwiau wedi colli eu dylanwad ar ddynion: eto, nid ar unwaith,

Digitized by Google

hyd yn oed dan ddylanwad Cristionogaeth, y cawsant eu codi yn hollol uwch law iddynt. Felly yr oedd llawer o'r rhai oedd yn cael eu hennill i gofleidio Cristionogaeth yn edrych ar Grist yn unig fel anfonedig y Tad, ac felly yn is nag ef. Yr oedd Athanasius wedi ei gymhwyso trwy ei ddysgeidiaeth bersonol i ddeall y cwestiynau oedd yn codi o'r syniadau hyn. Ac er y dywedir ei fod yn llai ei ddiwylliad meddyliol na Basil a Gregory, eto, dengys ei ysgrifeniadau ei fod yn berffaith gyfarwydd ar y briod-ddull Alexandriaidd o draethu ar y materion dyfnaf.

Yr oedd Athanasius yn ddyn o feddwl treiddgar, ac o amgyffred eang, yn un a edrychai ar bob peth yn ei gyssylltiad â'r gyfundrefn y perthynai iddo, ac â'r egwyddor sylfaenol a'i cynnwysai; ac felly nid am bethau dibwys y dadleuai efe, ond cymmerai i fyny y materion pwysicaf—megys Duw, dyn, y byd, drwg, da, pechod, prynedigaeth —a gosodai hwynt mewn goleuni ysgrythyrol, ar gyfer cyfeiliornadau ei oes. Cynnwysa ychydig o frawddegau fraslun o'i syniadau yn ei amddiffyniad o Gristionogaeth:—"Nid oes un hanfodiad sylweddol i bechod, ond twyll neu amddifadrwydd gwirionedd ydyw, ac felly nis gall fod yn ddeilliedig o Dduw, yr hwn yw yr unig sylwedd pur, sef cariad a gwirionedd—ac nid oes ond yr hyn sydd yn sylweddol neu wirioneddol yn deilliaw oddi wrtho ef.—Mae pob peth yn deilliaw o Dduw trwy ei Air, yr hwn yw ei ddelw dragwyddol a pherffaith; trwy yr hwn y creodd bob peth, a thrwy yr hwn y mae yn cynnal ac yn llywodraethu pob peth yn eu holl amrywiaeth a'u hannhrefn ymddangosiadol, fel ag i amlygu ei ddoethineb yn y diwedd trwy y cydgordiad perffeithiaf. —Y Gair, y *Logos*, ydyw cyfrwng gwybodaeth a chymdeithas dyn â Duw.—Mae dyn wedi ei greu ar ddelw Duw; ond gan mai y Gair ydyw delw hanfodol a thragwyddol Duw, crewyd ef ar ddelw y Gair; ac felly wrth edrych iddo ei hun yr oedd yn gweled y Gair, a thrwyddo ef yn gweled Duw, o'r hwn y mae y Gair yn ddadguddiad. Trwy hyn y mae yn cyfranogi o fywyd duwiol a thragwyddol. Ond trwy bechod collodd y ddau, a suddodd i anwybodaeth a chyfeiliornad, i oferedd a llygredigaeth.—Ni adawyd dyn yn hollol gan Dduw: mae ei fod yn meddu enaid anfarwol a rhesymol yn brawf o hyn.

"Mae y greadigaeth, y byd, yn cynnwys amlygiadau o Dduw; ond gan fod dyn wedi ei halogi gan bechod, nid yw yn ddigonol i'w arwain i wybodaeth o Dduw; ond y mae dyn yn camgymmeryd y greadigaeth am y Creawdwr, ac yn eu cymmysgu â'u gilydd, ac felly yn syrthio i amldduwiaeth ac oldduwiaeth.—Nid oes un llwybr i adferu dyn i wybodaeth o Dduw, a chymdeithas âg ef, ond trwy i'r Gair ei hun ddyfod yn ddyn, a dyoddef marwolaeth, yr hyn yr oedd y ddeddf yn ofyn fel cosp pechod. Felly, aberthodd efe, yr hwn sydd yn cynnal pob peth, ef ei hun yn aberth dros ddyn; cyflawnodd ofynion y ddeddf, ac adgyfodiad oddi wrth y meirw, ac felly dygodd fywyd yn ol i ddyn.—Y Creawdwr yn unig a allasai fod yn Brynwr i ddyn; a thrwy ei dderbyn ef, gwneir ni yn blant i Dduw, a rhoddir ysbryd y Mab yn ein calonau, fel ein dysger i lefain Abba Dad. Trwy ei breswyliad ef ynom y mae pechod a marwolaeth yn colli eu hawdurdod arnom, a bywyd a chyfiawnder yn teyrnasu yn eu lle.—Nid oes dim yn afresymol yn ymddangosiad y Gair mewn cnawd: gan fod y *Logos* yn preswylio yr holl fyd, megys pe byddai yn gorff iddo, felly gall gymmeryd rhyw ran, a phreswylio hono fel ei gorff gwirioneddol, heb i hyny fod yn anghysson â'i lywodraeth ar bob peth. Dyma drefn i ddynion na fynent ei adnabod trwy ei weithredoedd i'w adnabod yn eu natur eu hunain, a thrwyddo ef i ddyfod i adnabyddiaeth o'r Tad."

Rhoddir yma ddyfyniad o'i araeth yn erbyn y Cenedloedd, yr hwn a ystyria Maurice yn anghraifft briodol o'i athroniaeth; a chyfrifa ef yn mysg athronwyr penaf ei oes, yn gystal a'r blaenaf o'i duwinyddion:—"Nid oedd hanfodiad i bechod yn y dechreuad, megys nad oes hanfodiad gwirioneddol iddo yn awr yn y saint; ond dyn wedi ei ymddwyn a roes fod iddo. Yn yr un modd arweiniwyd ef at eilunod, gan gyfrif y pethau nid ydynt megys pe byddent. Duw, lluniwr a brenin pob peth, yr hwn sydd uwch law hanfodiad a gwybodaeth ddynol, trwy ei Air ei hun, ein Harglwydd Iesu Grist, a wnaeth y natur ddynol ar ei lun a'i ddelw ei hun; a thrwy y ddelw hon a'i cymhwysodd i weled ac adnabod y pethau sydd, gan roddi iddo ef ganfyddiad a gwybodaeth o'i dragwyddoldeb ei hun; a thrwy gadw y ddelw neu yr unoliaeth hon ni chollai un amser yr olwg ar Dduw na chymdeithas ei saint; ond trwy ddal gafael yn ngras Duw, y gallai ymhyfrydu ynddo, a chymdeithasu âg ef, a byw bywyd dibechod, dedwydd, ac anfarwol. A chan ei fod heb ddim i attal ei wybodaeth o Dduw, y mae yn canfod, trwy ei burdeb ei hun, ddelw ei Dad nefol, yr hwn a'i creodd ar ei ddelw. Wrth sylu ar y rhagluniaeth sydd ar bob peth, llenwir ef â syndod, gan ei fod wedi ei wneuthur yn mhell uwch law pob peth teimladwy a dychymygol; a thrwy y gynneddf sydd yn ei alluogi i adnabod pethau uwch law y ddaiar, y mae mewn cymdeithas neu gyffyrddiad â phethau uchddaiarol. Pan ddyrchafer rheswm dyn uwch law y cnawd, yna ni aflonyddir ef â chwantau cnawdol; y mae yn un âg ef ei hun. Yna, gan esgyn trwy bethau corfforol a dynol, dyrchefir ef fel ag i weled y Gair, ac ynddo ef y Tad; a thrwy adnewyddiad parhaus o'r syched am dano, ac ymhyfrydiad ynddo, cedwir ei feddwl mewn hyder tuag ato; ac fel y dywed yr Ysgrythyrau Sanctaidd nad oedd ar ddyn (yr hwn a elwir yn Hebraeg, *Adda*) gywilydd, a'i fod yn cydgymdeithasu â'r saint, mewn cymundeb â phethau goruchddaiarol, yn y lle a elwir gan Moses 'paradwys;' o herwydd y mae purdeb yr enaid y fath fel y gall, megys y dywed yr Arglwydd, weled Duw. Fel hyn y crewyd dyn, ac fel hyn y dymunodd ei Greawdwr iddo barhau. Ond dirmygodd dyn y pethau godidocaf, blinodd yn eu ceisio, a throdd ei sylw at bethau nes ato. Y pethau nes hyn ydynt y corff a'i deimladau; a than ddylanwad y rhai hyn, collodd dynion eu hymhyfrydiad yn mhethau Duw. Wedi eu twyllo, megys, gan yr hyn a berthynai iddynt eu hunain, syrthiasant mewn cariad â hwy eu hunain, a'u pethau, gan eu dewis yn lle Duw. Fel hyn y mae yr enaid megys wedi ei gau i mewn gan bleserau y corff, ac yn cael ei aflonyddu gan bob math o chwantau. O'r diwedd, anghofiasant fod ganddynt gynneddf i gymdeithasu â Duw."

Yr oedd Athanasius yn ddiacon yn Eglwys Alexandria pan ddechreuodd y ddadl rhwng yr esgob Alexander a'r henadur Arius. Yn meddwl Arius yr ymffurfiodd y syniadau am ddeilliad y Mab oddi wrth y Tad yn gyfundrefn anghysson â gwir Dduwdod y Mab. A phan wnaed y syniadau hyn yn hysbys i Cystenyn, dichon nad oedd ganddo wrthwynebiad cryf yn eu herbyn, er nad oedd yn dewis iddynt gael eu gwneyd yn destyn

Digitized by Google

dadl. Ond ni oddefai brwdfrydedd y dadleuwyr i'r cwestiwn gael ei gladdu mewn dystawrwydd; yr oedd syniad ag oedd yn taflu y fath ddirmyg ar ogoniant y Ceidwad, ac yn tynu careg sylfaen yr efengyl fel trefn i achub pechadur, yn cyffroi yr eiddigedd a'r gwrthwynebiad cryfaf. Galwodd gynghor cyffredinol i ymgyfarfod yn Nice (B. A. 325): yn hon enwogodd Athanasius ei hun, er nad oedd ond ieuanc, trwy rym ei ymresymiad, a chraffder ei olygiadau.

Ni a roddwn anghraifft o'r modd yr ymresymai Athanasius yn erbyn y ddau osodiad Ariaidd a gondemniwyd gyntaf yn y cynghor; sef, *fod amser pan nad oedd y Mab:* ac *nad oedd y Mab cyn iddo gael ei genedlu.* Dadleuai yr Ariaid fod y berthynas rhwng Duw a'r Gair yn cael ei gosod allan fel perthynas rhwng Tad a Mab; a bod y fath berthynas yn cynnwys blaenoriaeth amserol yn y Tad; ac o ganlyniad, amser pryd nad oedd y Mab. I hyn atebai Athanasius fod cyfeiliornad yr Ariaid yn gynnwysedig mewn ymresymu oddi wrth y crëedig at yr anghrëedig; ac mewn tybied fod geiriau sydd yn briodol am genedliad dynol, yn briodol hefyd am genedliad dwyfol. Heriai hwynt i ddangos un adnod sydd yn cynnwys fod amser pryd nad oedd Mab. Llefara yr Ysgrythyr i'r gwrthwyneb am y Mab—fel yn cydhanfodi â'r Tad erioed: *Ioan* i. 1; *Dad.* i. 4; *Rhuf.* ix. 5; *Esa.* xl. 28; *Heb.* i. 3; *Salm* c.; &c. Y mae Athanasius yn tynu yr un casgliad oddi wrth ymadroddion Crist ei hun—"*Yr ydwyf*, Wirionedd, Oleuni," &c.; geiriau yn dynodi hanfodiad tragwyddol. Am bethau crëedig, llefara yr Ysgrythyr am adeg pryd nad oeddynt: *Gen.* ii. 5; *Diar.* viii. 23; *Ioan* viii. 38; *Salm* cx. 1. Y mae y gwahaniaeth yn null yr Ysgrythyr yn llefaru am y Mab rhagor pethau crëedig, yn brawf o'i dragwyddol hanfodiad. Pa fodd y gallasai fod amser pryd nad oedd yr hwn a wnaeth y bydoedd, yr oesoedd (τους αιῶνας)? Dengys hefyd afresymoldeb Ariaeth:—Os yw Duw yn Wneuthurwr a Chreawdwr pob peth, a phob peth, fel yr addefent hwy, yn cael eu creu trwy y Mab, y mae dywedyd fod amser pryd nad oedd y Gair crëedigol, yr un peth a dywedyd mai nid Duw ydyw Creawdwr pob peth. Drachefn, Os nad oedd y Mab gyda'r Tad er tragwyddoldeb, ac o'r un hanfod, nid yw y Drindod yn dragwyddol; ond y mae y Crëedig yn ffurfio rhan o'r Drindod gyda'r Anghrëedig. Un arall o wrthddadleuon yr Ariaid oedd—Os yw y Mab yn ddelw y Tad, ac yn mhob peth yn gyffelyb iddo; gan fod y Tad wedi ei genedlu ef, rhaid ei fod yntau yn gyffelyb iddo yn hyn, a chenedlu un arall. Mae yr wrthddadl hon, medd Athanasius, yn anghraifft arall o ymresymu oddi wrth anmherffeithrwydd y natur ddynol at berffeithrwydd y natur ddwyfol. Y mae olyniad yn brawf o anmherffeithrwydd. Y mae tad dynol yn cenedlu mab, yr hwn yn ei dro sydd yn cenedlu un arall, ac felly yn myned yn dad ei hun. Nid yw yr enw *tad*, o ganlyniad, yn briodoledd neillduol yr un dyn; ond ymdreigla o'r naill i'r llall, a rhed trwy genedlaeth o ddynion. Ond y mae y Mab yn genedledig y Tad, yr hwn ei hun sydd anghenedledig: nid yw, o ganlyniad, yn gyffelyb i feibion dyn, sydd yn cenedlu yn eu tro, ac yn myned yn dadau. Nid oes olyniad yn y Duwdod: y mae y Tad yn Dad tragwyddol, a'r Mab yn Fab tragwyddol. Y mae gofyn, Pa ham na chenedlodd y Mab fab arall? mor afresymol a gofyn pa ham nad oedd tad i'r Tad. Mewn atebiad i wrthddadl a ddefnyddiai yr Ariaid i geisio gwneyd gwawd o dragwyddol genedliad y Mab—sef, fod yn anmhosibl fod i wraig fab cyn iddo gael ei eni o honi—dywedai Athanasius, "fod hyn yn hytrach yn brawf fod y Mab o'r un sylwedd a'r Tad.[1] Nid yw rhieni naturiol yn cael mab, fel y maent yn cael tŷ neu ryw feddiant allanol arall; ond y mae yn rhan o honynt; o'r un hanfod:—mor bell a hyn y gellir ymresymu oddi wrth bethau dynol at bethau dwyfol. Ond nis gallwn gasglu, gan fod cenedliad yn cymmeryd lle mewn amser, a thrwy ymraniad, fod yr un peth yn wir am genedliad dwyfol. Ac mewn natur gellir cael cysgodau gweiniaid o bethau a genedlir, yn hanfodi mewn undeb â'r hyn sydd yn eu cenedlu; megys, dysgleirdeb gyda'r haul, a'r ffrwd gyda'r ffynnonell; pa ham, gan hyny, nas gallasai y Gair, trwy yr hwn y gwnaed yr haul a'r ffynnon, gydhanfodi yn dragwyddol â'r Tad." Ond y mae yn angenrheidiol cofio fod pob cymhariaeth yn ddiffygiol; ac felly os cymmerir hwynt, a'u dilyn allan bob yn un ac un, arweiniant i ryw gyfeiliornad. Y mae pob cyfeiliornad yn olwg mewn rhan o'r gwirionedd, ac yn fynych yn fwy gwallus yn yr hyn a adawant heb ei ddywedyd, nag yn yr hyn a ddywedant.

Ennillodd y blaid uniongred, a chadarnhaodd y cynghor, fod y Mab o'r un sylwedd a'r Tad; yr hyn a osodwyd allan yn y gair *homoousion*—cydsylweddiad. Ond er fod Cystenyn yn gosod penderfyniad y cynghor mewn grym, eto nid oedd ei gydsyniad yn gorphwys ar argyhoeddiad meddwl, ac edifarhaodd pan welodd nad oedd y ddadl wedi ei phenderfynu. Effeithiodd ddylanwad teuluaidd hefyd i'w ennill i fod yn fwy ffafriol i Ariaeth, a galwodd yn ol y rhai a alltudiasai o herwydd nacau cydsynio â phenderfyniadau Cynghor Nice. Dychwelodd Eusebius i Nicomedia, ac Arius i Alexandria; ac er ei fod yn dychwelyd gyda gorchymyn oddi wrth yr ymherawdwr am ei dderbyn, gwrthododd Athanasius, yr hwn oedd erbyn hyn yn esgob ar ol marwolaeth Alexander. Anfonwyd y llythyr bygythiol canlynol oddi wrth yr ymherawdwr at Athanasius:—"Wedi i ti dderbyn gwybodaeth o'm hewyllys, dyro dderbyniad croesawgar i bawb a ewyllysia ymuno â'r eglwys; o blegid os clywaf dy fod yn gwrthod rhywun i gymundeb eglwysig, myfi a anfonaf swyddog yn ebrwydd i'th symmud o'th le, ac i'th alltudio o'r wlad."

Safodd Athanasius yn ddiysgog yn ngwyneb y bygythion: ac effeithiodd y gommeddiad hwn o eiddo dyn a weithredai oddi ar ymwybyddiaeth o rwymedigaeth ei swydd yn y fath fodd ar feddwl yr ymherawdwr, fel na cheisiodd mwyach dder-

[1] "It is from expressions such as this (the relation of a son to its human parent) that the Greek fathers have been accused of Tritheism. The truth is, every illustration, as being incomplete upon one or other side of it, taken by itself, tends to heresy. The title Son, by itself, suggests a second God; and the title Word, a mere attribute; and the title Instrument, a creature. All heresies are partial views of the truth, and are wrong—not so much in what they say as in what they deny. The truth, on the other hand, is a positive and comprehensive doctrine, and in consequence necessarily mysterious, and open to misconception."—*Dr. Newman.*

Ar hyn, gwna Esgob Kaye y sylwadau canlynol:—"These are reflections to which we would draw the consideration of all thoughtful men. I think, however, we may draw two very useful practical inferences from Dr. Newman's remark—That we ought to be cautious in using illustrations on points connected with the relation of the three Persons in the Holy Trinity, lest we should unconsciously be betrayed into heresy; and that we should not, in theological controversy, ascribe to our adversaries conclusions which to us appear to flow logically from their statements, but which they themselves disavow."

Digitized by Google

byniad i'r Ariaid. Dangosodd Eusebius ei gyfrwysder, trwy gynnyg newid un lythyren, yr hyn fuasai yn newid y gair *homoousios*=YR UN SYLWEDD, i *homoiousios*=Y CYFFELYB SYLWEDD. Yr oedd y cyfnewidiad wrth fodd Cystenyn; gan y tybiai y buasai pob plaid yn cydsynio â chyfnewidiad mewn un lythyren, ac y buasai hyny yn fantais i adferu heddwch i'r eglwys a'r ymherodraeth. Ond yr oedd digon o wroldeb yn Athanasius i wrthsefyll y cynnygiad; gan y credai y byddai hyny yn agoriad i holl ddemoniaeth, neu fodau israddol Platoniaeth, a chyda hyny, o'r oll o Baganiaeth. Credai ef fod hanfod Cristionogaeth, a hanfodiad yr eglwys, yn gorphwys ar undeb Duwdod â dyndod perffaith mewn un person. Ac o herwydd hyn, ymddygai yr ymherawdwr, a'i fab Constantius, tuag ato fel gelyn ac aflonyddwr y byd. Cydsyniai mwyafrif esgobion y dwyrain â hwy yn hyn. Ffynodd Ariaeth yn mhalasau y Cæsariaid, a chynghorfäau yr eglwys—yn mhob man ond yn anialwch Thebais, ac yn mysg rhai o esgobion y gorllewin.

Ffurfiwyd bradwriaeth gan ei elynion yn ei erbyn—cyhuddwyd ef o orthrwm, o fradwriaeth, ac annhrefn eglwysig; ac er iddo ar y cyntaf gael ei gyhoeddi yn rhydd gan yr ymherawdwr ei hun oddi wrth y cyhuddiadau hyn, eto, mor gryf a diorphwys oedd malais ei elynion, fel yr ail fywhawyd rhai o'r cyhuddiadau, a chwanegwyd atynt rai erchyllach fyth. Ac er fod rhagluniaeth yn taflu ei nawdd drosto, ac yn profi ei ddiniweidrwydd yn ngwyneb y cwbl, ennillwyd Cystenyn o'r diwedd i'w alltudio i Treres, yn B. A. 336.

Teimlai yr ymherawdwr ei fod wedi gwneyd cam âg Athanasius, trwy ei gondemnio heb ei gael yn euog; ac oddi ar y teimlad hwn, y mae yn debygol, y gwrthododd osod neb yn esgobaeth Alexandria. Derbyniwyd yr esgob yn groesawgar yn Treres, gan Cystenyn yr ieuengaf, a chan yr esgob clodadwy Maximin. Ond yn y flwyddyn ganlynol (337) bu farw yr ymherawdwr, Cystenyn Fawr. Ychydig o amser cyn ei farwolaeth, bedyddiwyd ef gan Eusebius o Nicomedia, yr hwn oedd yn berthynas iddo: ond nid oedd gan yr esgob ystrywgar hwnw ddigon o ddylanwad arno i'w attal i roddi i mewn yn ei ewyllys ei fod yn dymuno ar fod i Athanasius gael ei alw yn ol o'i alltudiaeth, a'i adsefydlu yn esgobaeth Alexandria: ac yn unol â phenderfyniad ei dad, anfonodd Cystenyn yr ieuengaf ef yn ol, gyda llythyr o ganmoliaeth, yn y flwyddyn 338.

Parhaodd Eusebius o Nicomedia, a'i ganlynwyr, i ffurfio bradfwriadau yn ei erbyn; a llwyddasant gyda Constantius, mab arall Cystenyn, i'w ddiswyddo yn B. A. 341.

Llofruddiwyd Cystenyn yr Ieuangaf gan ei ddau frawd, Constantius a Constans, a rhanwyd yr ymherodraeth. Llywodraethodd Constantius yn Caer Cystenyn ar y dwyrain, a Constans yn Rhufain ar y gorllewin. Yr oedd Constantius mor selog dros Ariaeth, fel y taflwyd yr holl ymherodraeth i gythrwfl trwy ei amddiffyniad ymyrgar a phenboeth. Ymguddiodd Athanasius ar y cyntaf yn nghymmydogaeth Alexandria. O'i ymguddfa, anfonodd gylchlythyr at yr holl esgobion, yn yr hwn y dysgrifiai anghyfreithlondeb yr holl weithrediadau a ddybenasant yn ei ddiswyddiad. Yn ganlynol, mewn ufudd-dod i wahoddiad yr esgob Julius, aeth i Rufain, a chroesawyd ef yno gan yr ymherawdwr Constans. Ysbaid arosiad Athanasius yn Rhufain oedd tair blynedd, ond nid tair blynedd ofer fuont: dysgodd yr iaith Ladin, ac eglurodd ei syniadau gyda'r fath rym, fel y parhaodd y gorllewin i fesur mawr yn ffyddlawn iddo ac i'r gwirionedd yr oedd mor wrol yn brwydro drosto. Galwodd Constans gynghor yn Sardica (B. A. 347), lle y dangosodd y gorllewin ei ymlyniad wrth y gwirionedd, a chadarnhawyd penderfyniadau Nice. Gellir galw hwn yr ail gyfnod yn y ddadl bwysig hon. Effeithiodd y cynghor hwn ar Constantius, fel y cydsyniodd i alw Athanasius yn ol i'w esgobaeth. Ar ol marwolaeth ei noddwr, Constans, deffrôdd erlidigaeth yn ei erbyn drachefn. Yr oedd erlidigaeth yr ymherawdwr ar bleidwyr Athanasius yn un gyffredinol; ond yr oedd ei gynddaredd tuag ato ef heb derfynau. Bu raid iddo ffoi drachefn i ddiffaethleoedd, ac arosodd yno dros chwe blynedd. Yn y cyfnod hwn o'i oes y cyfansoddodd lawer o'i weithiau rhagorol; y rhai, trwy gael eu hamlhau a'u lledaenu gan fynachod yr anialwch, a ddylanwadent ar yr eglwys gyda'r fath rym, fel nas gallasai awdurdod a grym milwrol yr ymherawdwr ei lesteirio.

Wedi marwolaeth yr ymherawdwr Constantius, yn B. A. 361, newidiodd gwedd pethau. Gwyddai Julian, a gyfenwir "y gwrthgiliwr," yr hwn a ddilynodd Constantius i'r orsedd ymherodrol, fod yn anmhosibl diwreiddio Cristionogaeth drwy drais; ac arferodd foddion ereill llai trystfawr ond mwy peryglus; sef gweithio yn llechwraidd oddi tani, trwy fagu ymbleidiau. Gyda'r bwriad hwn, galwodd yr esgobion alltudiedig yn eu holau. ac ymdrechodd drwy bob moddion i ennyn yr eiddigedd oedd rhyngddynt hwy a'r Ariaid. Adferwyd Athanasius unwaith eto, a chyfododd yr holl Aipht mewn llawenydd i'w gyfarfod. Fel yr oedd yn myned rhyngddo ag Alexandria, yr oedd glanau y Nile wedi eu gorchuddio gan edrychwyr—pob tref yr elai drwyddi wedi ei goleuo, a'r awyr yn adsain y salmau o fawl a genid gan y bobl.

Ond nid oedd nodweddau cymmeriad Athanasius yn gyfryw ag y dymunai Julian gael mewn esgob; a buan y ceisiodd gyfleusderau i gael ymwared o hono. Nid hir y bu heb i'r cyfleusdra ymddangos. Yr oedd Julian yn dra chefnogaethol i ofergoelion paganiaeth: ond nis gallai Athanasius lai na gwrthwynebu y defodau eilunaddolgar—yn benddifaddeu, yr arfer waedlyd a barbaraidd o ladd babanod, er mwyn dewinio, trwy edrych i mewn i'r coluddion a blas yr afu. Cwynai y dewiniaid wrth Julian o herwydd ei ddylanwad. "Os goddefir i Athanasius fyw," meddent, "ni bydd neb yn fuan yn baganiaid." Rhoddes Julian orchymyn ar fod i Athanasius gael ei roddi i farwolaeth yn ebrwydd. Bu raid i'r esgob eto ffoi am ei fywyd i'r diffaethwch, lle, yn mysg canlynwyr Anthony a Pachomius—y rhai a edrychent gyda dirmyg ar ddeddf ymherodrol a wrthwynebai ewyllys uchafiaid eglwysig—y trigodd mewn diogelwch, hyd, yn B. A. 363, y galwyd Julian i roddi cyfrif ger bron y Duw a ddiystyrodd, a'r Iesu a waradwyddodd. Ei olynwr, Jovian, a alwodd Athanasius yn ol gyda phob dangosiad o barch; ac hyd yn oed ceisiodd ei berswadio i ymsefydlu yn Antiochia, fel y gallai gael adeiladaeth trwy ei ymarweddiad a'i gyfarwyddiadau. Ond ni chaniatawyd i'r tywysog ieuanc hwn eistedd yn hir ar yr orsedd Rufeinig: bu farw yn Chwefror, 364, y flwyddyn ganlynol i'w goroniad. Llywyddwyd yr ymherodraeth yn awr gan Valentinian a Valens; a chyhoeddodd y diweddaf—i ran yr hwn yr ymddiriedwyd y parth dwyreiniol, a'r hwn oedd wedi yfed daliadau ac ysbryd yr Ariaid—ddeddf, ar fod i'r esgobion

Digitized by Google

hyny a alltudiwyd gan Constantius, ac a adferwyd gan Julian a Jovian, gael eu symmud o'u lleoedd. Gwnaed Athanasius yn wrthddrych arbenig yr erlidigaeth, ac ymosodwyd ar ei eglwys gan y milwyr. Chwiliwyd am dano yn yr holl fanau yr arferai eu mynychu, ond ni chafwyd ef. Yr oedd ei gallineb anghyffredin yn rhagweled eu holl gynllwynion, a chuddiodd ei hun yn meddrod ei dad. Ond yr oedd yn ormod gan drigolion Alexandria weled eu bugail ffyddlawn a charedig yn cael ei flino yn ei hen ddyddiau. Cymmerasant arfau gyda'r fath barodrwydd ac awyddfryd, fel yr ofnodd y llywydd fyned rhagddo; a rhoddodd Valens orchymyn na byddai iddo gael ei flino mwyach. Wedi hyny, gadawodd feddrod ei dad, y lle yr ymguddiasai am bedwar mis, ac adgymmerodd y gadair esgobawl. Am weddill ei oes lafurus a blinderus, llywodraethodd ei eglwys mewn tangnefedd.

Yn y tawelwch byr hwn, nesaodd ei ddyddiau i farw. Ar yr 2fed o Fai, B.A. 373, ymadawodd â'r byd yn y 78 flwydd o'i oedran, wedi bod yn yr esgobaeth am chwech a deugain o flynyddoedd, ugain o ba rai a dreuliodd mewn alltudiaeth.

Cyflawnodd Athanasius wasanaeth i'r Eglwys Gristionogol sydd yn parhau hyd yn awr:—trwy ymresymu Ariaeth allan o'i holl lochesau, ac amddiffyn y gwirionedd yn fuddugoliaethus yn erbyn ei holl wrthwynebiadau—trwy ddynoethi camddarluniadau Iuddewon a phaganiaid o Gristionogaeth—trwy ganfod yn eglur fod pob cymmysgedd o athroniaeth baganaidd ag oedd yn tueddu i fychanu gogoniant y Gwaredwr, yn myned dan sylfaen gwiwdeb y prynedigaeth, ac yn newid yn hollol natur Cristionogaeth—trwy ddysgu gydag eglurder a grym, Drindod wirioneddol, gyda gwahaniaethiad personol a thragwyddol, yn erbyn cymmysgedd y Sabeliaid; ac Undod mor wirioneddol y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, mewn un hanfod, yn erbyn pob ymgais at raniad neu ddarostyngiad—trwy brofi fod Trindod ogyfuwch a chydsylweddol (τριας ομοουσιος), a hyn yn unig, yn gysson â'r Ysgrythyrau, yn yn unol â phrofiad y Cristion, ac yn gysson âg adnabyddiaeth wirioneddol o natur yr efengyl—a thrwy ddysgu gwir ddynoliaeth y Ceidwad yn erbyn Apollinaris. Y mae ei ysgrifeniadau yn cynnwys llawer ar y materion hyn, sydd wedi addysgu pob oes er amser eu hysgrifeniad; ac oddi wrth ba rai y gall yr eglwys barhau i ddysgu am oesoedd i ddyfod.

Y mae yr holl ddyn—fel y gweithiodd, yr ymladdodd, ac y dyoddefodd—yn cael ei ddarlunio yn ei waith. Yr argraffiad goreu ydyw un Montfaucon, Paris, 1698—1706. Ei brif weithiau ydynt, dau draethawd yn erbyn y Cenedloedd, y diweddaf o ba rai a elwir *De Incarnatione Verbi*; ei *Homili ar Mat.* xi. 27; *Llythyr at Adelphius*, ac un at Maximus yr athronydd; *Araeth i Serapion, yn erbyn y rhai a ddalient mai creadur ydyw y Mab; Llythyr at yr un yn erbyn y rhai a ddalient yr un peth o barth i'r Ysbryd Glân; Esboniad byr ar y Ffydd; Llythyr at Jovian; Sylwadau ar Gynghor Nice; Pum Araeth yn erbyn yr Ariaid; Diffyniad o iawngrededd Dionysius o Alexandria; Llythyr at yr Antiochiaid; Llythyr at Epictetus; Traethawd ar y Gair ymgnawdoledig; Traethawd ar yr Ymgnawdoliad, yn erbyn Apollinaris*; yr araeth, *De Salutari adventu, I. C.*; *Traethawd ar dragwyddoldeb Hanfod y Mab, yn erbyn y Sabelliaid; Llythyr at Serapion, ar farwolaeth Arius; Yr Esgusodion* (*Apologies*) *at Constantius; Yr Esgusodion o barth i'w Ffoad, cyflwynedig i Constantius; Llythyr at yr Unigolion; Cylchlythyr oddi wrth Athanasius, a deg a phedwar ugain o Esgobion yr Aipht a Lybia, at Esgobion holl Affrica*: y cylchlythyr *Ad Orthodoxes: Llythyrau at Ioan, Antiochus, Palladius, a Dracontius, ac at Marcellinus: Esboniad ar Lyfr y Salmau; Traethawd ar y Sabbath, a'r Enwaediad; Homiliau ar Mat.* xii. 32; a xxi. 2; y rhai a ystyrir yn ammheuol. Y mae y nifer mwyaf o'r gweithiau ereill a geir mewn argraffiadau o honynt, yn cael eu cyfrif gan y beirniaid galluocaf yn weithiau rhyw rai ereill.—(*Neander's Church History; Ritter's Gesch. der Christl. Philos.; Dorner on the Person of Christ; Dr. Newman's History of Arianism; Dr. Kaye on the Council of Nice, and Athanasius; Gibbon's Decline and Fall of Rom. Emp.*)

ATHANASIUS, CREDO. Priodolwyd y gyffes hon, yr hon a elwir weithiau, oddi wrth y geiriau cyntaf ynddi (*Quicunque vult salvus esse*, &c.), y *Quicunque*, i Athanasius, am yr un rheswm ag y priodolid Credo yr Apostolion iddynt hwy. Fel y mae yr olaf yn cynnwys prif ffeithiau tystiolaeth yr apostolion, o barth Crist a'i grefydd. y mae y cyntaf yn cynnwys ei phrif egwyddorion athrawiaethol o barth y Drindod yn Undod, a dyndod a Duwdod perffaith y Ceidwad, fel eu ffurfiwyd yn gredo i gyfarfod y cyfeiliornadau gwrthwynebol, ac i fod yn amlygiad o ffydd yr eglwys ar y pynciau hyny, ar ol i'r angenrheidrwydd godi i fod yn fwy manwl yn y dull o'i geirio. Yn yr eglwys orllewinol, yn fwyaf neillduol, o amser Awstin yn mlaen, y priodolir deilliad yr Ysbryd Glân i'r Mab yn gystal ag i'r Tad; ac a ddangosir perthynas a chydraddoldeb tri pherson yr hanfod dwyfol yn y modd gofalus y gwneir yn y Credo hwn. Tybir fod hyn yn rheswm digonol yn erbyn priodoli ei awduriaeth i Athanasius: o herwydd er fod Cynghor Nice wedi penderfynu fod yr *un sylwedd* yn gyffredin i'r tri pherson; eto, yn raddol y daeth duwinyddion i ddefnyddio ymadroddion hollol benderfynol a chlir am ogyfuwch uchafiaeth yr Ysbryd â'r Tad a'r Mab. Awstin yw y cyntaf sydd yn llefaru yn hollol ddibetrus ar hyn, ac yn ymresymu arno fel pe na byddai ammheuaeth yn ei gylch. Ond pa *bryd*, neu gan *bwy*, neu yn *mha le* yr ysgrifenwyd ef—y mae yr amrywiaeth barn wedi bod yn fawr. Cyfrifwyd ef gan rai beirniaid galluog yn waith awdwr Lladinaidd—Virgilius Tapsenis, esgob Affricaidd, yr hwn oedd yn byw o ddeutu diwedd y bummed ganrif. Ysgrifenodd Vossius a Quesnel draethodau er amddiffyn y golygiad hwn. Rhai o'u rhesymau ydynt fel y canlyn:—1. Am nad yw y credo hwn i'w gael ond mewn ychydig o lawysgrifau Athanasius. 2. Am fod ei arddull a'i gyfansoddiad drwyddo yn bradychu awdwr Lladinaidd, ac nid un Groegaidd. 3. Am nad yw Cyril, o Alexandria, na Chynghor Ephesus; y Pab Leo, na Chynghor Chalcedon; yn gwneyd un crybwylliad am dano yn y cyfan a ddywedant yn erbyn y Nestoriaid a'r Eutychiaid. 4. Am fod yn hysbys fod Virgilius Tapsenis wedi cyhoeddi gweithiau ereill o dan yr enw benthyciol "Athanasius." Ond y mae ammheuaeth am ddilysrwydd rhai o ysgrifeniadau Virgilius. Ac am y tebygolrwydd sydd yn yr ysgrifeniadau a briodolir iddo, nid oes sicrwydd a gymmerwyd y Credo oddi wrthynt hwy, ai i'r gwrthwyneb; neu, ai nid agosrwydd amser, a lle cyfansoddiad y ddau ydyw yr achos o'r tebygolrwydd. Tybia Giesler iddo gael ei gyfansoddi yn y seithfed neu yr wythfed ganrif; ac efallai

Digitized by Google

deithas gyffredinol; fod cydwybod yn ofergoeledd, a theimladau teuluaidd a pherthynasol yn effaith dygiad i fyny. O herwydd y cyfnewidiadau hyn yr amcana Owen a'i gyffelyb atynt, y gelwir hwynt yn Atheistiaid Politicaidd.

III. Y mae y trydydd dosbarth, heb law eu bod yn cytuno â'r ddau flaenorol yn eu hegwyddorion sylfaenol, yn gwneyd defnydd o amryw dybiau anianyddol (*physical hypothesis*) i esbonio ymaith yr amlygiadau o allu a rhagluniaeth Duw yn y greadigaeth.

Geilir dosbarthu y tybiau hyn i—yn 1af. Y dybiaeth nifwlog (*nebular hypothesis*), yr hon a ddefnyddiai Laplace, y seryddwr Ffrengig enwog, i geisio esbonio pa fodd y daeth y byd i fod heb allu a doethineb creawdwr. Profodd y seryddwr enwog hwn, fod maintioli, cylchoedd, ysgogiadau, a chyfatebolrwydd yr haul, y planedau, a'r lleuadau, y fath ag i sicrhau diogelwch y gyfundrefn, a phrofodd hefyd yn benderfynol mai nid o ddamwain y mae hyn; o ganlyniad, gellid casglu mai effaith bwriad ydoedd y fath drefniant, er mwyn sicrhau ei chadernid. Ei eiriau ef ydynt, fod "*achos gwreiddiol* wedi llywodraethu ysgogiadau y planedau." Ond eto ni chydsynia â'r casgliad sydd yn ymddangos yn anwrthwynebol oddi wrth hyn, ac a roddir yn y geiriau canlynol gan Syr I. Newton, "fod trefniant rhagorol y gyfundrefn heulawg o angenrheidrwydd yn waith Bod o ddoethineb a gallu annherfynol." Ac yn lle y casgliad rhesymol ac anocheladwy hwn, dyg Laplace yn mlaen y dybiaeth ganlynol; sef fod yr haul, yn ansawdd wreiddiol y gyfundrefn, wedi ei amgylchu âg awyrgylch, yr hwn, trwy rinwedd ei wres mawr, a ymestynai yn mhell tu hwnt i gylchoedd y planedau pellaf, y rhai nad oeddynt eto mewn bod. Yr oedd yr awyrgylch hwn yn troi gyda throad yr haul ar ei echel; a chan ei fod yn raddol yn colli ei wres, ymgrynhoai i lai lle; ond parai hyny i'w ysgogiad fod yn gymmaint cyflymach, fel nad oedd attyniad yr haul yn ddigon cryf bellach i'w gadw rhag ymddidoli yn gylch o niwl annibynol mewn ystyr. Parhäai yn gylch dan rai amgylchiadau, megys cylch Sadwrn; ond, fynychaf, ymdorai y cylch niwl yn wahanol bentyrau o niwl, a rhedai y pentyrau hyn at eu gilydd, ac ymffurfient yn un pentwr—ac felly, gwnaent blaned o niwl. Ond gan y byddai yr un peth yn myned yn mlaen yn y blaned newydd—sef y niwl yn oeri, yn crebachu, ac yn ymddidoli—felly y cai hi, yn ei thro, nifer o leuadau o'i chwmpas. A chan na chollodd yr haul ei holl niwl yn yr ymddidoliad cyntaf, yr oedd defnyddiau planedau newydd eto yn aros; ac felly, ymddangosasant, yn amser priodol deddfau gwres ac ysgogiad, hyd eu nifer presennol. Yn ol y dybiaeth hon, buasai ysgogiadau y planedau yn debyg mewn llawer ystyr i'r hyn ydynt yn bresennol—mewn cylchoedd heb wyro ond ychydig oddi wrth fod yn grwn—troasant i gyd yn yr un cyfeiriad, ac yn agos yn yr un gwastadedd (*plane*)—troasai y lleuadau yn yr un cyfeiriad a'r planedau—a buasai ffynnonell gwres a goleuni yn nghanol y gyfundrefn. Fel hyn y maent yn bresennol, ac ar hyn y mae eu sefydlogrwydd yn ymddibynu. Pa beth bynag a feddylir o'r dybiaeth uchod fel dychymyg anianyddol—nad oedd yn meddu ond ei chywreinrwydd i'w harganmawl i ffafr ei hawdwr, ac na dderbyniwyd ond gan y rhai sydd yn dda ganddynt gael rhyw lwybr i gau allan feddwl a'i briodoliaethau o'r greadigaeth—eto, pe addefid hi, nid yw ond yn symmud ein golwg i gwr arall o waith y Creawdwr er mwyn gweled ei ddoethineb. Pa fodd y daeth yr haul a'i awyrgylch, eu hysgogiadau a'u cyfansoddiad, i fod yn y fath fodd fel y dilynodd y canlyniadau hyn oddi wrthynt? Pa fodd y daeth y fam niwl i fedru glynu yn nghyd, ymddidoli, crebachu, a chaledu yn blanedau? Pa fodd y daeth deddfau ei ysgogiad, ei attyniad, a'i dewychiad, i gael eu sefydlu yn y fath fodd ag i esgor ar y fath drefn brydferth a chymmesur? Pa fodd na buasai yn rhy denau neu yn rhy dew i ymgasglu yn gyfangorff caled—yn rhy gyflym neu yn rhy araf er ffurfiad olynol y gwahanol blanedau? Pa fodd y daeth yr hyn oedd yn niwl i fod yn sylweddau celyd a hylifol, o naturiaeth mor amrywiol? Pa beth ond dyfais a doethineb allasai barotoi a nawseiddio y fath elfen i ymffurfio, drwy ei chyfnewidiadau naturiol, yn gyfundrefn mor brydferth? Ond pe y tybiem i fyd ddyfod i fod fel hyn, pa fodd y gwnaed ef yn gartrefle bywyd a hapusrwydd? Pa fodd y gwisgwyd ef â phlanigion, ac ei llanwyd âg anifeiliaid—mor gywrain eu cyfansoddiad, mor gyfaddas eu rhanau y naill i'r llall, ac i'r amgylchiadau y maent ynddynt? A gynnyrchwyd dyn hefyd gyda ei feddyliau a'i deimladau, ei alluoedd a'i obeithion, ei ewyllys a'i gydwybod—drwy dewychiad yr awyrgylch heulaidd? Gellid gofyn aneirif o'r cyffelyb gwestiynau, nad oes un lle i ddewis wrth eu hateb rhwng yr afresymoldeb gwrthunaf, neu yr addefiad o Greawdwr holl-ddoeth a hollalluog. Pe yr addefid mai niwl goleu oedd y peth cyntaf a ddaeth i fod, ac mai hwn, trwy weithrediad deddfau ysgogiad ac attyniad, a ymffurfiodd yn bob peth arall trwy weithrediad naturiol, eto y mae ein rheswm naturiol yn ein harwain i gasglu nas gallasai y goleu ddyfod i fod cyn i Dduw ddyweyd "Bydded goleuni," na deddfau i'w llywodraethu, cyn iddo ef "orchymyn, ac i hyny sefyll."

2il, Tybiaeth arall sydd wedi cael ei defnyddio i'r un dyben ydyw yr hyn a elwir y *development hypothesis*, neu yr *hypothesis of progressive tendencies*—yr hon sydd yn gynnwysedig mewn ymgais i ddangos pa fodd y daeth dyn, a phob creadur arall, i fod, heb gael eu creu y peth ydynt, drwy hòni fod tuedd yn mhob anifail a llysieuyn i ymgodi yn ol amgylchiadau i radd uwch, yn ol gweithrediad angenrheidiol deddfau eu natur. Y mae y dybiaeth, yn ei gwedd fwyaf gyffredinol, yn dyfod i hyn—Pa fodd y mae rhywogaethau o lysiau ac anifeiliaid yn dechreu bod, fel y mae daiareg yn dangos iddynt wneyd cyn i brofiad dyn ddechreu, ac fel y mae rheswm a sylwadaeth yn profi iddynt wneyd yn y rhywogaethau yr ydym ni yn gydnabyddus â hwynt? Nid yw y mater a osodir ger ein bron yn y cwestiwn hwn ddim llai na dull creadigaeth creaduriaid byw. Er addef fod hyn yn ddirgelwch, ac nad yw ond ofer i ni ddysgwyl cael ein hateb oddi wrth y gwyddorion yn unig, eto, gellir caniatau nad yw yn annhriodol i ni ymwthio mor bell ag y gallwn yn ein hymchwiliadau anianyddol. Nid yw yn un anmharch i'r dadguddiad dwyfol i ofyn, Pa fodd y mae i ni wybod pa rywogaethau a grewyd yn wahaniaethol yn y dechreu? ac a ydyw yn bosibl i'r creaduriaid a boblogent y ddaiar mewn un cyfnod daiaregol ddyfod, trwy weithrediad achosion naturiol, i fod y creaduriaid sydd ynddi yn y cyfnod nesaf? Y mae y cwestiynau hyn yn rhai o ddyddordeb a phwysigrwydd mewn ystyr anianyddol; ac y mae anianyddwyr o'r galluoedd a'r cyrhaeddiadau uchaf wedi rhoddi sylw mawr iddynt, yn fwyaf neillduol yn y wedd hon—A yw yn bosibl i rywogaeth newid ei natur, a myned

Digitized by Google

yn rhywogaeth arall, trwy achosion naturiol. Yr hyn sydd wedi rhoddi lliw o debygolrwydd i'r ochr gadarnhaol o'r cwestiwn ydyw, y cyfnewidiadau a welir yn cymmeryd lle mewn llysiau ac anifeiliaid, trwy ddylanwad amgylchiadau allanol. Pa mor bell y mae y cyfnewidiad hwn yn myned ynte? Y mae yr *un* rhywogaeth yn newid, fel y gwelir wrth gymharu y tri-lliw sydd yn tyfu ar ben mynydd â llysieuyn o'r un rhywogaeth yn tyfu mewn gardd wrth ei droed; neu y rhosyn gwyllt, â'r un blodeuyn dan ofal y garddwr. Ond a oes rhyw gyfnewidiad a all beri i'r naill beidio a bod yn dri-lliw, ac a all drosglwyddo y llall i rywogaeth y lili? Mae amryw dybiau eto mwy disail na hon yn angenrheidiol eu cymmeryd yn ganiataol, cyn y gwasanaetha hon y dyben o esbonio ymaith yr amlygiadau o ddoethineb. Er anghraifft, mewn trefn i esbonio y cyfaddasiad sydd rhwng cynneddfau anifeiliaid a'u hangenion, haerir fod y cynneddfau yn tarddu o'r angen, ac nid yn drefniad doethineb i gyfarfod yr angen —fod pawenau a dannedd y llew, trwnc yr elephant, a gwddf hir y camel, adenydd cryfion yr eryr, coesau hirfeinion y milgi, oll wedi cael eu cynnyrchu yn raddol trwy ymdrech y creaduriaid i gymmeryd meddiant o'r hyn nad oedd eu cyfansoddiad blaenorol yn eu galluogi i'w gyrhaedd —fod dymuniadau yr eryr i ehedeg wedi magu adenydd, a'r llew i ysglyfaethu wedi ei wneyd yn frenin y goedwig. Fel hyn y tybir y daeth anifeiliaid i feddu yr ansoddau hyny, y rhai a briodolir gan synwyr cyffredin dynolryw i ragddarpariaeth ddwyfol. Yn ol y dybiaeth hon, y mae y creaduriaid cywreiniaf eu cyfansoddiad—yn bysg, adar, a phedwar-carnolion—wedi tyfu yn raddol y peth ydynt o ryw fân delpynau gludiog diffurf, yn meddu rhyw fath o fywyd a chymhwysder i esgyn graddiant bodolaeth. Yn unol â hyn, cyndadau dyn, gyda'i holl ragoriaethau corfforol a meddyliol, ydynt yr epaod; a chenedlaeth bellach yn ol y pysg; yn mhellach wed'yn, y trychfilod, nes o'r diwedd i ni gyrhaedd y telpynau gludiog cyntaf. Dyma yr esboniad Atheistaidd o greadigaeth dyn, fel ei ceir yn y *Vestiges of Creation*. Heb i ni gymharu hyn â'r modd y terfynir llinach dynolryw yn ol yr Ysgrythyrau — "fab Adda, fab Duw"—y mae genym benderfyniad yr ymchwilwyr mwyaf trwyadl a phwyllog o barth i drawsffurfiad rhywogaethau (*transmutation of species*); sef fod cyfaddasrwydd yn mhob rhywogaeth i newid yn ol amgylchiadau, ac mai fel hyn y mae cyfnewidiadau yn cymmeryd lle mewn anifeiliaid, ac yn cael eu trosglwyddo i'w hiliogaeth; fod y cyfnewidiadau hyn yn cael eu llywodraethu gan ddeddfau pendant, a'u cyfyngu i ryw derfynau penodedig; a bod rhywogaethau gwirioneddol yn bod mewn natur, ac nad oes y fath beth a thrawsffurfiad o'r naill i'r llall. Dywed Cuvier, er anghraifft—ac nid oes enw uwch, os oes un yn ogyfuwch fel anianydd—er yr holl amrywiaeth sydd yn maintioli ac ymddangosiad cŵn gwahanol wledydd, ac er fod esgyrn cŵn fel yr oeddynt dair mil o flynyddoedd yn ol i'w cael yn bresennol yn *mummies* yr Aipht, eto y mae perthynas yr esgyrn â'u gilydd yr un ynddynt oll; ac er yr holl amrywiaeth, y mae rhyw nodau ynddynt sydd yn gwrthsefyll pob dylanwad. Y mae anianyddwyr cyntaf y byd yn cytuno yn hyn.

Ond cyn y gellir defnyddio y dybiaeth hon i esbonio pa fodd y daeth poblogaeth bresennol y byd i fod, rhaid gofyn, Pwy a roddodd ynddynt y duedd i ymgeisio at gynneddfau a galluoedd uwch? Pwy a drefnodd amgylchiadau allanol fel ag i fod yn ffafriol i'r cynnydd dychymygol hwn? Ac er mwyn cael creaduriaid yn mhob gradd a ffurf, fel y gwelir yn y byd, rhaid i ni dybied fod natur yn cynnyrchu yn barhaus y telpynau tybiedig. Ond yn mha le y maent? Felly gwelir mor ddychymygol ydyw pob rhan o'r ymgais hwn, ac nid yw yn ateb ei ddyben wedi y cwbl. Nid yn unig y maent yn dybiau disail, ond y maent yn groes i ffeithiau anwadadwy. Tuedd naturiol llysiau ac anifeiliaid, dan ddylanwad amgylchiadau, ydyw dirywio, ac nid gwella. Ac nid oes gymmaint ag un anghraifft o rywogaeth yn ennill synwyr neu gynneddf, neu aelod newydd, yn chwanegol at, neu yn lle, y rhai oedd ganddi yn flaenorol.

IV. Yr ymgais eangaf, lwyraf, a mwyaf penderfynol a wnaed, efallai, erioed gan un dyn, sydd yn cael ei wneyd yn bresennol gan Auguste Comte, yn Ffrainge, i sefydlu Atheistiaeth. Y mae Comte yn ddyn o ddysgeidiaeth ac athrylith fawr. Y mae wedi dangos ymroddiad anarferol i weithio allan ei syniadau athronyddol a chymdeithasol Mae ei gyrhaeddiadau yn y gwyddorion yn eang. Gelwir ei athroniaeth yn *Positivism*:—gair sydd yn dyfod i ymarferiad lled gyffredin y dyddiau hyn, i ddynodi ei syniadau athronyddol ef. Ond athroniaeth unochrog ac arwynebol ydyw. Nid yn unig y mae yn cau allan y byd ysbrydol yn gyfan, ond ni wyr efe ddim ond am un hanner o'r byd hwn. Y mae yn ymwrthod â phob peth ond ffeithiau a deddfau, y rhai nid ydynt amgen na dosbarthiad o ffeithiau yn ol ei feddwl ei hun. Ni fyn fod achosion na galluoedd, y rhai sydd o dan y ffeithiau, ac yn rhoddi bod iddynt. Dan arweiniad y fath gyfundrefn ddall a hon, nid oedd yn anhawdd syrthio i bwll Atheistiaeth—yn hytrach yr oedd yn anhawdd peidio. Ac eto fe wâd ei fod yn Atheist—yr hyn sydd yn gwneyd ysgrifeniadau dynion o'r fath yn fwy peryglus. Ymresyma yn erbyn Atheistiaeth y ganrif ddiweddaf. Ymwrthyd â'r ffurfiau blaenorol a nodwyd am darddiad y byd, a tharddiad anifeiliaid: dywed, "fod ysbryd ei gyfundrefn ef yn gynnwysedig mewn rhoddi y cwestiwn *pa fodd* yn lle *pa ham*; ac o ganlyniad, ei bod yn anghysson â breuddwydion o barth i ddechreuad y byd." Felly y mae y ffurfiau hyny o Atheistiaeth sydd yn ceisio rhoddi unrhyw esboniad ar ddechreuad pethau, er gwadu fod Creawdwr iddynt, yn wrthodedig ganddo. Fe ä yn mhellach, a dywed, "fod ceisio egluro dechreuad pethau yn dduwinyddol, trwy ei briodoli i *ewyllys* neb pwy bynag, yn groes i natur athroniaeth; yr hon sydd yn gynnwysedig mewn ymchwiliad i ddeddfau, ac nid i achosion." A'i benderfyniad am Atheistiaid o'r natur a ddysgrifiwyd yn flaenorol ydyw—" eu bod y fath fwyaf afresymol o dduwinyddion; o gymmaint a'u bod yn cymyg at gwestiynau duwinyddol, tra ar yr un pryd yn ymwrthod â'r unig lwybr i wneyd hyny;" sef, trwy eu priodoli i ewyllys. Ond nid yw ef ei hun yn colli un fantais i wadu fod yr amlygiadau lleiaf o ewyllys a doethineb yn y greadigaeth. Y mae Rhagluniaeth yn wrthddrych ei wawd. Y mae pob ffurf y bu dynion erioed yn credu am Dduw a'i briodoliaethau, yn afresymol yn ei olwg. Nid oes un ffurf flaenorol o Atheistiaeth yn ddigon amddifad o Dduw ganddo ef. Ac eto, haera fod rhyw fath o fod goruchel i'w garu a'i addoli:—a'r bod goruchel hwn yw y *ddynoliaeth*. Yr holl hiliogaeth ddynol, o ddechreu hyd ddiwedd y byd, a'i hystyried fel un cyfanswm, ydyw y duwdod:—*dyn*, yr hwn sydd wedi darganfod ffeithiau, ac wedi creu deddfau—

Digitized by Google

o herwydd ei dybiau a'i drefniadau ef ei hun ydynt—ac wedi gwella ei amgylchiadau yn y byd. Ond pa fodd y mae addoli y ddynoliaeth? Trwy addoli y dynion goreu, y rhai sydd wedi cymmeryd y blaen yn nghynnydd y ddynoliaeth, ac wedi cynnrychioli ei gwahanol ddiwygiadau, neu gamrau yn y blaen. Ac i'r dyben hwn, yn ei waith mwyaf poblogaidd [*Calendrier Positiviste*], y mae wedi gwneyd adraniad o amser, gan roddi ar y Suliau enwau y dynion sydd wedi ateb y dyben uchaf oreu, fel y byddo i bob un fod yn sicr o'i gyfran briodol o addoliad. Y mae yn cadw y dosbarthiad triphlyg—duwiau, gwroniaid, a seintiau. Ei dduwiau ydynt, Moses, Homer, Aristotle, Archimedes, Cæsar, Paul, Charlemagne, Dante, Guttemberg, Shakespeare, Descartes, Frederic Fawr, a Bichat. Y mae Budhah a Confucius yn mhlith ei wroniaid:—a Hercules, Ovid, a Marius yn mhlith ei seintiau.

V. Mae y ffurf ddiweddaf o Atheistiaeth a noddwn yn gwisgo gwedd athronyddol; ond athroniaeth hollol wrthgyferbyniol o ran ei hegwyddorion a'i chanlyniadau i'r un y cyfeiriwyd ati ddiweddaf. Yn yr Almaen, ei gwlad enedigol, yr oedd hon yn ffynu am ychydig, ac yn cael ei dysgu mewn athrofeydd duwinyddol. Nid yw y fath yma eto o dduwinyddiaeth yn hoffi cael ei chydnabod dan yr enw o Atheistiaeth—ond i'r gwrthwyneb; haera ei bod wedi cyrhaedd y syniadau mwyaf teilwng am Dduw sydd yn gyrhaeddadwy. Y mae yn seiliedig ar athroniaeth Hegel, yr hon sydd yn gwadu fod y byd naturiol, gweledig, yn bod o gwbl, ond fel cysgod, neu adlewyrchiad o feddwl dyn. Careg sylfaen, a'r hyn yr ymffrostir ynddo fel y cam uchaf y mae meddwl dyn wedi ei gymmeryd erioed, ydyw—*fod yr hyn sydd yn gweled ac yn meddwl yr un a'r peth a welir.* Gosodir hyn allan mewn llyfrau Seisonig mewn geiriau dysgedig ac ymffrostgar; megys, *The absolute identity of subject and object.* Y syniadau am Dduw a gesglir oddi wrth yr egwyddor sylfaenol hon, ydyw, eu geiriau hwy eu hunain, fel y canlyn:—"Nid yw y bod goruchel ond Bod dyn ei hun. Gan nad ydyw Duw ond ni ein hunain, nid oes gan ddim allu arnom ond ni ein hunain; ac felly wrth ewyllysio, caru, &c., dylanwadu yr ydym arnom ein hunain. Ymwybyddiaeth o'r anfeidrol ydyw crefydd; ond nid yw, ac nis gall fod ond ymwybyddiaeth o honom ein hunain. Duw ydyw natur mewnol dyn ei hun, a chrefydd ydyw y dadleniad o drysorau y ddynoliaeth, ac amlygiad o'i meddyliau dirgel." Nid gwawd, na gormodiaith, na chamddarluniad, yw y geiriau hyn; ond eu syniadau eu hunain yn cael eu dadgan gyda phob difrifwch.

Rhoddwn grynodeb o'r erthygl ar Atheistiaeth yn y *Real Encyclopadie*, a gyhoeddwyd yn yr Almaen yn 1853, gan nad yw yn golygu un math o Atheistiaeth fel yn ffynu yno ond yr un dan sylw. —"Mai Ysbryd yw Duw, ydyw egwyddor gyntaf pob un sydd yn credu mewn ystyr wirioneddol fod Duw. Ond nid oes un Atheist nad yw yn hòni mai defnydd cyntaf pob peth ydyw ysbryd; ac mor bell a hyn, nis gellir gwahaniaethu rhyngddynt. Ond wrth ymofyn i ystyr y gair, y mae gwahaniaeth hanfodol yn ymddangos yn union; a'r cyntaf ydyw, fod y naill yn credu fod hanfod neu natur Duw yn gynnwysedig mewn hunan-ymwybyddiaeth neu bersonoliaeth, ac nas gall fod ystyr arall i'r gair *ysbryd;* tra y mae yr Atheist yn addef math o dduw dan yr enw ysbryd—ond y cwbl a feddylia wrth hyny ydyw, math o esboniad dychymygol ar y byd a'r cwbl sydd ynddo (*ideal basis, world idea*); felly nid yw ysbryd yr Atheist yn ysbryd gwirioneddol, personol, meddylgar, bywiog, ond un anmhersonol, goddefol; nid un yn gallu meddwl ei hun, ond ffrwyth meddwl un arall. Y mae ysbryd yn hanfodol fywiog a gweithgar; ond nid yw cynllun y byd (*the absolute idea*) yn ysbryd, ond yr hwn a all ffurfio y cynllun. Yr ail wahaniaeth ydyw—proffesa yr Atheist athronyddol ei fod yn credu mewn Rheswm hollddigonol, sydd yn cynnwys pob peth. Gellid cymhwyso geiriau fel hyn at y Duw byw; ond byddai eu hystyr yn dra gwahanol. Yn yr ystyr gyntaf, y cwbl a ddynodant ydyw, y meddylddrych neu y dosbarthiad eangaf y gall meddwl dyn ei wneyd o bob peth; tra yn yr ystyr ddiweddaf, cynnwysant Hanfodiad personol gwirioneddol yr hwn a greodd bob peth, ac a drefnodd trwy weithrediad ei ewyllys yr hyn a fu, y sydd, ac a ddaw, yn ol cynlluniau tragwyddol ei feddwl ei hun. Y trydydd gwahaniaeth ydyw—fod duwiau yr Atheist yn ffrwyth ei feddwl ei hun, ac mor lluosog ac mor anmherffaith a'r cynlluniau bach y mae pawb yn ceisio eu gwneyd i esbonio y pethau sydd yn dyfod dan eu sylw."

Byddai yn anfri ar synwyr cyffredin i feddwl fod eisieu dywedyd gair yn erbyn y syniadau a addolygwyd: y mae eu harddangos, a hyny yn y geiriau mwyaf cymmedrol, yn ddigon o ddynoethiad arnynt. Y mae y naill yn dadsylfaenu y llall; ac y mae y cwbl yn dangos i ba eithafion afresymol yr ä dynion dan lywodraeth gelyniaeth at Dduw, a balchder doethineb ddynol. Y mae y dynion uchaf eu hathrylith ac eangaf eu cyrhaeddiadau yn y gwahanol wyddorau, wedi dangos mor ddisail ydyw eu holl honiadau anianyddol. Y mae llawer wedi hòni fod Atheistiaeth wirioneddol yn anmhosibl; er y rhaid addef fod dynion o gyrhaeddiadau mawr, mewn rhyw ystyr, wedi dadleu dros y syniadau Atheistaidd a osodir ger bron yn yr erthygl hon; eto, y mae eu hafresymoldeb yn ddigon i beri i un ammheu a oeddynt yn eu credu eu hunain. Gwel ACHOS; DUWINYDDIAETH NATURIOL; CREADIGAETH, &c.—(*Indications of the Creator, by W. Whewell; Footprints of the Creator, by Hugh Miller; Lyell's Geology,* llyfr ii. pen. iv., a llyfr iii. pen. i.; *Lawrence on Physiology; Dr. Prichard's Natural History of Man.*)

ATHEN, [Αθηναι]: 2 *Mac.* ix. 15; *Act.* xvii. 15; 1 *Thes.* iii. 1. "Llygad Groeg, mam y celfyddydau a hyawdledd;" *Paradise Regained,* iv. 240. Prif ddinas Attica, a lle genedigol prif feirdd, athronwyr, areithwyr, haneswyr, a chelfyddydwyr y cyn-oesoedd. Sylfaenwyd hi gan Cecrops, o ddeutu 1550 c. c.; ac yn yr amseroedd boreuaf, gelwid hi ar ei enw. Y mae Attica yn llain o dir trionglog, ochrau deheuol a dwyreiniol pa un sydd yn cyfarfod mewn trwyn sydd yn rhedeg allan i'r môr (Sunium); ac ar hyd yr ochr ogleddol y rhed trum o fynyddoedd uchel sydd yn ei gwahaniaethu ac yn ei hamddiffyn oddi wrth Roeg ogleddol. Cyssylltir y bryniau hyn (Cithæron a Parnes) trwy fryniau is âg ucheldiroedd mynyddig y dwyrain ddeheuol. Y mae y gwastadedd o Attica yn wastattir. O ddeutu pum milltir oddi wrth y môr, fe ymgyfyd craig serth, ac yn terfynu arni i'r deheu y mae creigiau is, ac i'r gogledd iddi y mae craig ysgythrog yn edrych i lawr arni. Y graig hon ydyw Acropolis Athen. Y bryniau is ydynt yr Areopagus, y Pnyx, a'r Museum. Y grib uchaf

Digitized by Google

ydyw bryn Lycabettus, oddi ar ben yr hwn y gwel yr edrychydd yr oll o Athen yn gorwedd wrth ei draed; a'r gwastadedd oddi yno i'r Piræus, a'r môr, yn glir o'i flaen. Y Piræus oedd porthladd Athen, ac y mae i'w hystyried yn un â hi. Pe buasai Paul wedi myned i Athen bedwar can mlynedd yn gynt, buasai yn Athen mor fuan ag y glaniasai yn y Piræus. Cyssylltid y ddau le â'u gilydd gan ddau fur amddiffynol, y rhai sydd yn dra adnabyddus wrth yr enw "y muriau hir;" a gellid ystyried y ddwy fraich hyn o geryg, y rhai a ffurfient heol am bum milltir o hyd, yn fath o drydedd dinas. Yno y torodd y pla allan yn nechreu y rhyfel Peloponnesiaidd (*Thucid.* ii. 17). Er mwyn rhoddi darluniad cyffredinol o Athen, efallai y byddai yn fanteisiol i ni dybied ein hunain yn cerdded drwyddi gyda Paul; ac y mae genym ddysgrifiad manwl o honi gan Pausanius, yr hwn a ymwelodd â hi yn mhen tua hanner can mlynedd ar ei ol ef. Wrth ddilyn dysgrifiad Pausanius, y mae yn debyg y byddwn yn edrych ar y gwrthddrychau a dynodd sylw yr apostol mawr, ac a gyffroasant ynddo y fath gymmysgedd o deimladau. Yn union wedi myned i mewn i'r porth sydd yn arwain oddi wrth y Piræus, ni gawn esampl o duedd yr Atheniaid i luosogi gwrthddrychau celfyddyd ac addoliad. Yn ymyl yr adeilad (Pompeium)—lle y cedwid y gwisgoedd a ddefnyddid yn ngorymdeithiau blynyddol duwies ddiffynol y ddinas, sef Minerva—y mae ei chydymgeisydd Neptune yn eistedd ar geffyl, ac yn hyrddio ei deyrndryfedd. Wrth fyned yn mlaen, yr ydym yn gadael teml i Ceres (duwies ŷd), âg arni hen argraff yn hysbysu fod y delwau sydd ynddi wedi eu cerfio gan Praxiteles. Mor fuan ag yr awn drwy y porth sydd yn y pen arall i'r heol hir hon i'r ddinas, y mae y llygad yn union yn syrthio ar ddelwau cerfiedig o Minerva, Iau, Apollo, Mercury, a'r Awenau, yn sefyll yn agos i deml Bacchus. Arweinir ni yn ddioed i ganol golygfa fywiog, lle y mae temlau a delwau ac allorau ar bob llaw: yr Atheniaid a ymhyfrydent mewn bod yn yr awyr agored yn mwynhau ei hinsawdd, yn ymofyn am, ac yn adrodd rhywbeth hynod a newydd. Y mae heol hir o'n blaen, a rhodfeydd colofnog ar bob llaw. Wrth droi i'r dde, wedi cyrhaedd ei phen draw, yr ydym yn myned i'r Agora—a elwir "marchnad" (*Act.* xvii. 17);—ond tebycach i'r pedronglau (*squares*) prydferth a geir mewn rhai dinasoedd Italaidd, megys Verona a Florence, ac wedi ei phoblogi â lluniau darluniadol cerfiadaeth. Yn nyddiau uchaf Athen, yno yr oedd ei hareithwyr, ei beirdd, a'i chelfyddwyr yn cael mantais i gyffroi a difyru y gwrandawyr a'r edrychwyr; ac yn barhaus, yno yr oedd canolbwynt dadleuon, ymddyddanion, a masnach. Yr oedd yr Agora yn llawn o adgofion o hanesiaeth wirioneddol: yno yr oedd delwau dynion mwyaf Athen—Solon, y deddfroddwr; Conon, y llyngesydd; a Demosthenes, yr Areithiwr: ond yn eu mysg yr oedd Hercules a Theseus—cynnrychiolwyr ei chwedloniaeth: ac o'u duwiau, Mercuriaid luaws, y rhoi a roddent eu henw i'r heol yn yr hon y safent; Apollo, noddwr y ddinas, a'i gwaredwr rhag y pla: ac yn nghanol y cwbl yr oedd Allor y Deuddeg Duw. Os edrychwn i fyny tua'r Areopagus, ni a welwn deml y duw hwnw a roddodd iddo ei enw, Bryn Mawrth: a thafliad allan o'r graig yn unig sydd yn cuddio o'n golwg gyssegrfa yr Ellyllon. Os edrychwn yn mlaen tua'r Acropolis, addurnir ymyl y graig â themlau mân i Bacchus, Æsculapius, Gwener, y Ddaiar, a Ceres. Ond yr oedd crefyddolder yr Atheniaid yn myned yn mhellach na hyn: yr oedd pob adeilad gyhoeddus yn gyssegredig i ryw dduw; eu chwareudy, wrth droed yr Acropolis, i Bacchus; y Pnyx, sydd yn gyfagos i'r fynedfa i'r Agora, lle y gwrandawent ar eu hareithwyr, i Iau, &c. Yr oedd yno allorau hyd yn oed i deimladau—Tosturi, Gwylder, Clod, a Darbwylliad.

Ond y mae yr Acropolis yn gronfa fwy cyflawn o eilunod yr Atheniaid hyd yn oed na'r Agora. Teimlent tuag ati fel y llanerch fwyaf cyssegredig yn y byd; a'r cylchoedd a'i hamgylchai, yn ol trefn eu pellder oddi wrthi, ydoedd, yn gyntaf, Athen, yna Attica, Groeg, a'r byd. Yr oedd wedi ei gorchuddio âg adeiladau a cherfddelwau cyssegredig i'w gogoniant gwladol, ac i addoliad y duwiau. Gem dihafal Groeg ydoedd, a thestyn syndod a chenfigen y byd. Yr oedd nifer gorchestion uchaf celfyddyd—rhai yn darlunio cyfnodau ei hanes, ac ereill yn gyssegredig i'w chrefydd—a gasglwyd ar drwyn o graig mor fach, bron yn anhygoel. Yn amser Pliny, er iddi yn flaenorol gael ei hysbeilio gan Tiberias Nero, yr oedd tair mil o gerfddelwau yno. Ni a edrychwn ar ei hadeiladau gwychaf. Ar lethrau y bryn, yr oedd muriau mawrion, y rhai nas gellid lai na theimlo parch tuag atynt ar gyfrif eu hynafiaeth mawr. Yr oedd cyfran o honynt yn aros er amser Cecrops. Tua'r ochr orllewinol, yr oedd yr amddiffynfa, yr hon, yn amser Pericles, a addurnwyd â grisres nodedig o hardd. Yma hefyd yr oedd y Propylæa, i'r hwn yr oedd pum cyntedd ardderchog, a dwy deml odidog, a adeiladwyd ar draul o 2012 o dalentau. Eu defnydd oedd maen mynor hardd, a'r adeil-



Dar. 87.


adydd oedd Mnesicles. Ar yr ochr ddeheuol i'r Propylæa yr oedd teml Buddug Ddi-edyn (*Wingless Victory*), yr hon a adeiladwyd fel cofadail o fuddugoliaeth bwysig a ennillasai yr Atheniaid ar y Persiaid; a gelwid y dduwies ar yr enw hwn, am y tybid ei bod bellach am drigo yn Athen, ac na chymmerai ei ehedfa i un man arall, yn ol yr arferiad a briodolid iddi cyn hyny. Ar y man uchaf o'r Acropolis (A) y safai y Parthenon, yr hwn a gynnwysai gampweithiau cerfiadol Phidias:—adeilad oedd mewn bri haeddiannol drwy yr holl fyd. Y mae gweddillion o honi yn aros hyd yn awr, ac y mae yn odidog hyd yn oed yn ei hadfeilion. Yn gyfagos i'r Parthenon yr oedd yr Erechtheum, lle yr oedd teml Minerva (y Cecropium), a'r Pandroseum. Yn y gyssegrfa hon (canys felly yr ystyrid hi), yr oedd yr olewydden sanctaidd, &c.; ac yma hefyd y cyflawnid y defodau hynaf a mwyaf parchus oedd yn nhraddodiadau a choffadwriaeth yr Atheniaid. Yn agos i'r lle hwn yr oedd cerfddelw Pallas, o wneuthuriad yr archgerfiedydd Phidias, yr hon oedd yn un o'r rhyfeddodau mwyaf ac amlycaf yn Athen. Yn fyr, yr oedd

Digitized by Google

yr Acropolis yn un gronfa fawr o ryfeddodau celfyddyd, fel yr ydys yn rhyfeddu at y cywreinrwydd a allodd bentyru cynnifer i mor lleied o le.

Athen hefyd ydoedd eisteddle doethineb y byd paganaidd, ac yno yr oedd ysgolion Aristotle a Plato, dau ddysgybl Socrates, y rhai sydd wedi gadael eu delw ar lenyddiaeth pob oes ddilynol. Ac wrth edrych allan oddi ar ben yr Acropolis ar y ddinas a'i hamgylchoedd, gwelir y manau hyny sydd wedi eu cyssylltu yn anwahanol âg enwau dau ddysgawdwr penaf y cynoesoedd cenedlig. Ar gyfarfyddiad penrhyn a ffurfid gan y ddwy afon enwog, yr Ilissus a'r Cephisus, yr oedd y ddinas. Ar lan yr Ilissus, yr hon a redai mewn cyfeiriad deheu orllewinol, y tu allan i gylch y ddinas, yr oedd y Lyceum, a enwid felly oddi wrth ddelw i Apollo Lycius oedd yn y lle. Yn rhodfeydd deiliog y Lyceum, yr oedd athronydd Stagira, dysgawdwr Alexander Fawr, yn dysgu ei ddysgyblion; ac yma y sylfaenodd ysgol athronyddol y Peripatetiaid. [Gwel ARISTOTLE.] Ar lan y Cephisus, yr ochr wrthwynebol i'r ddinas, yr oedd yr Academia, lle yr ymneillduai Socrates i gydymddyddan â'i ddysgyblion; a'r fan a enwogwyd gan Plato, fel eisteddle athroniaeth. [Gwel ACADEMIAID.] Ond yn y ddinas y dysgai y Stoiciaid, mewn adeilad golofnog a elwid y Stoa, yr hwn a safai yn yr Agora. Nid yw yn hysbys yn bresennol yn mha le yr oedd gardd Epicurus, yr hon a adawodd yn gymunrodd i'w ddysgyblion, ar yr ammod y parhäent i ddysgu athroniaeth yno, ac y cadwent goffadwriaeth blyneddol am dano ef ei hun.

Er mwyn rhoddi syniad eglurach i'r darllenydd am sefyllfa y lleoedd o hynodrwydd yn y ddinas, rhoddwn yma gerflen o honi; lle y gwelir sefyllfa yr holl adeiladau, &c., o bwys wedi eu darnodi â llythyrenau, yn nghyd âg eglurhâd arnynt.



Dar. 88.

| | |
|---|---|
| A. Yr Acropolis. | N. Adeil-fwa Hadrian. |
| B. Yr Areopagus. | O. Heol y Tripodiaid. |
| C. Y Museum. | P. Cofadail Philopappus. |
| D. Yr Hadrianopolis. | Q. Teml Tyngedfen. |
| E. Teml Jupiter. | R. Stadium Panathenaidd. |
| F. Chwareufa Bacchus. | S. Bedd Herodes. |
| G. Odeium Regilla. | T. Porth Diochares. |
| H. Y Pnyx. | U. Porth Acharnæ. |
| I. Teml Theseus. | V. Dipylum. |
| J. Campfa Ptolemeus. | W. Porth Hippades. |
| K. Stoa Hadrian. | X. Lycabettus. |
| L. Porth yr Agora. | Y. Y Porth Peiräaidd. |
| M. Twr Andronicus. | Z. Y Prytaneium. |
| a. Y Beddau. | i. Porth. |
| b. Y ffordd i'r Academia. | k. Pont. |
| c. Y Cerameicus allanol. | l. Gerddi. |
| d. Bryn Anchesmus. | m. Y Porth Itoniaidd. |
| e. Yr hen furiau. | n. Afon Ilissus. |
| f. Y muriau newyddion. | o. Callirhoë. |
| g. Y ffordd i Marathon. | p. Mesuriad yn ol hanner milltir Seisonig. |
| h. Y ffordd i'r Mesogæa. | |

Yr oedd Attica yn gyfansoddedig o bedwar o diriogaethau annibynol; ac i un Theseus, tua 1230 c. c., y priodolir y gwaith o'u cyssylltu â'u gilydd yn un wladwriaeth, a phenodi Athen yn brif ddinas iddi. Bu gwroldeb Codrus yn wasanaethgar i godi Athen i raddau uchel o enwogrwydd, trwy ei ymdrechion llwyddiannus yn erbyn ymosodiadau y Doriaid. Ar ei ddymuniad, ni ddilynwyd ef yn y llywyddiaeth gan un gŵr yn dwyn yr urddenw brenin: ond cymmerwyd y llywodraeth gan yr *Archon*, neu lywodraethwyr; yn nwylaw pa rai y bu yr awdurdod, gydag ychydig o gyfnewidiadau, hyd amser Solon. Ymgymmerodd Dracon â'r gorchwyl o ffurfio cyfreithiau, &c., tua 623 c. c.; y rhai oeddynt mor greulawn yn eu tueddiad, fel y dywedwyd eu bod wedi eu hysgrifenu mewn gwaed. Yn ei berthynas â chosp, yr oedd pob trosedd yn gyfartal; ac egwyddor lywodraethol y cyfreithiau oedd—"Fod y trosedd lleiaf yn haeddu angeu, ac nas gellid rhoddi cospedigaeth fwy ar droseddau pwysicach." Ond y mae sefydliadau o'r natur yma yn meddu ynddynt eu hunain elfenau eu dinystr; ac nid hir y bu nes iddynt golli eu pwysigrwydd a'u hawdurdod, drwy i Solon eu darostwng dan yr Areopagus. Yr oedd efe yn ŵr doeth; ac ymddiriedwyd iddo dynu allan ffurflywodraeth newydd i'r wladwriaeth. Ond bu yn ei amser ymdynu am y flaenoriaeth a'r awdurdod lywodraethol, gan dair o bleidiau gwahanol, yn cael eu harwain gan dri o flaenoriaid fel ymhonwyr; ond o blegid ei fod yn ddisgynyddydd o achres Codrus, a'i fedrusrwydd diammheuol, a'i ymddygiadau dichellgar a thwyllodrus, Pisistratus a orfu: a thra bu yn y llywyddiaeth, ennillodd iddo ei hun y cyfenwad adgas—"Gormesdeyrn Athen." Ond er gorchfygu o hono i raddau trwy dwyll, rhaid cydnabod iddo wneyd defnydd rhagorol o'r adnoddau oedd ganddo at ei wasanaeth. Iddo ef a'i fab yr ydym yn ddyledus am y casgliad cyntaf o weithiau Homer; a than eu llywyddiaeth cafodd Athen fwynhau tawelwch, a hamdden i gasglu nerth a chwanegu anrhydedd. Pisistratus oedd y cyntaf a ddechreuodd addurno Athen; ond dan lywyddiad Themistocles, Cimon, a Pericles, y cyrhaeddodd y gwychder ysblenydd a roddodd y flaenoriaeth iddi ar holl ddinasoedd Groeg. Ond ni bu ei huchafiaeth o hir barhad, eithr bu yn foddion i ennyn eiddigedd y Persiaid, y rhai a ymosodasant ar y ddinas, gan ddinystrio ei hadeiladau, a darostwng y cyfan, bron, yn un adfail anrheithiedig. Yn ymladdfa Salamis a Platæa, fodd bynag, trodd y fantol yn ffafr Groeg; ac o'r adfeilion, i'r rhai yr oedd Athen wedi ei darostwng, ymgododd i'r enwogrwydd a'r anrhydedd anogyfuwch hwnw, â pha rai y mae ei henw, ar ol hyny, mewn cyssylltiad mor anwahanol. Ond ni lwyddodd i gyrhaedd y ris uchaf yn ngradd ei gogoniant, nes iddi ddyfod yn werinol o ran ei chyfansoddiad gwladwriaethol—mewn gwirionedd, yn gystal ag mewn ffurf. Y mae yn debyg, mai yn amser Antonines y cyrhaeddodd i nawn ei gorwychedd, pryd yr oedd cynnyrch a chywreinrwydd deuddeg o ganrifau yn cyfoethogi yr olygfa ysblenydd, ac adeiladau godidog Pericles mewn perffaith gadwraeth. Ond wedi i Athen ymarfer âg awdurdod am beth amser, dirywiodd nes dyfod o'r diwedd yn orthrymus ac annyoddefol—yr hyn fu yn achlysur i uno amryw o'i gelynion yn ei herbyn; y rhai, ar wahan, ni allasent wneyd un niwed iddi. Daliodd gwroldeb dihafal ei morwyr a'i milwyr ei hanrhydedd i fyny am amser maith; ac achoswyd ei chwymp yn fwy gan anffyddlondeb a bradwriaeth ei chyfeillion proffesedig, a'i hym-

Digitized by Google

rafaelion cartrefol, na chan rym arfau Sparta, a dylanwad hudoliaethus aur y Persiaid.

Yr ydym yn awr yn gorfod troi oddi wrth ei chyfodiad, at ei chwymp; a rhoddi braslun hanesyddol o'i dirywiad i'w chyflwr presennol. Yr oedd un o elfenau ei dinystr mewn gweithrediad mor fore ag amser Pericles. Bu ei gorwychedd, yr hwn a gynnygiodd, ac yn yr hwn yr ymhyfrydai gymmaint, yn foddion i dreulio, neu yn hytrach wastraffu, adnoddau y wladwriaeth mor lwyr, fel yr arweiniodd hyny i chwanegu a thrymhau y trethi er ei gynnal i fyny; a bu hyny, fel y gallesid yn hawdd rhagweled, yn foddion i greu anfoddlonrwydd ac anghydfod yn mhlith y trigolion. Nis gallasai dim fod yn fwy boddhaol na hyny i lygaid eiddigeddus Sparta, a chymmerodd fantais ar yr amgylchiad i ymosod arni; ac wedi hir ymgyrch, fe'i gorchfygodd. Y mae yn wir iddi wneyd egnïon rhyfeddol i ymadfer i'r cyflwr uchafol yr oedd ynddo cyn y rhyfel Peloponnesaidd; ond nid oeddynt o ran effaith ond cyffelyb i egnïon dyn ar foddi—yn



Dar. 89. ATHEN.

ymgodi megys am fynyd, i suddo yn ddyfnach drachefn. Bu dylanwad grymus athrylith, ac yn enwedig taranau hyawdledd Demosthenes, yn effeithiol i wroli yr Atheniaid am ennyd; ond nis gallasai greu bywyd yn y lle yr oedd yn prysur ddiflanu. Yn rhyfel Chaeronea, rhoddwyd ergyd farwol i'w huchafiaeth a'i rhyddid; ac ni fu ymdrechion Alexander Fawr a'i ddilynwyr yn ddigon grymus i'w hadfer iddi yn ol. Yn fuan gwelwyd baner eryraidd Rhufain yn chwifio yn falch ar uchel leoedd yr Acropolis; ond er ei gorchfygu a'i darostwng felly, cafodd gwareiddiad, dysgeidiaeth, a chwaeth Athen warogaeth deilwng oddi ar law ei gorchfygwyr. Yn y drydedd ganrif, cymmerwyd hi gan y Gothiaid; ac mewn canlyniad, gwywodd ei holl ogoniant. Am y saith ganrif ddilynol, y mae ei hanes mor amddifad o ddyddordeb ag un o'r pentrefydd mwyaf anhynod rhwng mynyddau Cymru, er ei bod o'r blaen, mewn ystyr bwysig o'r gair, yn brif ddinas y byd. Yn y drydydd ganrif ar ddeg, cododd drachefn i ryw fesur o sylw, dan lywyddiaeth Baldwin, cadflaenor un o Ryfeloedd y Groes; ond yn fuan aeth o'r golwg fel cysgod yn cilio. Bu cryn ymdrech yn ei chylch, o'r bymthegfed hyd yr ail ganrif ar bymtheg, pryd y syrthiodd, am y drydedd waith, i ddwylaw y Tyrciaid. Nid oes ond ychydig o ddyddordeb yn ei hanes o hyny hyd y flwyddyn 1821; pan y cododd y Groegiaid yn erbyn y ddinas, ac ar ol deuddeng mis o warchae, llwyddasant i gymmeryd meddiant o honi. Ond yn y flwyddyn 1826, bu y Tyrciaid drachefn yn fuddugol: ac yn 1827 ymyrodd y galluoedd unedig; ac ar derfyniad rhyfel Navarino, sefydlwyd drachefn annibyniaeth Groeg. O barch i draddodiadau Athen, yn hytrach nag i angen yr amseroedd, y ffurflywodraeth a sefydlwyd gyntaf oedd yr un werinol; ond o blegid anghyfaddasrwydd y trigolion i fwynhau a defnyddio sefydliadau felly, methodd yn gwbl yn ei amcan. Newidiwyd hi wedi hyny am yr un benadurol, a rhoddwyd y freniniaeth i Otho, ail fab brenin Bavaria y pryd hyny, a brawd i'r brenin presennol; ac o barch i ogoniant cyntefig Athen, sefydlodd y ddinas yn eisteddle ei llywodraeth.

O'r holl orwychedd fu yn synu trigolion y ddaiar am gynnifer o oesoedd, dywed Lamartine—

"The Parthenon's Turk-guarded wall
And Theseus' ruined fane—is all
That's left of Athen's now."

—(*Wordsworth's Athens and Attica; Topography of Athens, by Col. Leake; Smith's Greek & Roman Geography; Howson & Conybeare's Life of Paul.*)

ATHENAGORAS. Dysgawdwr athroniaeth baganaidd yn Athen, ei le genedigol, ychydig ar ol canol yr ail ganrif. Gyda'r bwriad o ysgrifenu yn erbyn Cristionogaeth, yr oedd yn ei barotoi ei hun trwy ddarllen yr Ysgrythyrau; ond yn y gorchwyl, argyhoeddwyd ef o'u gwirionedd, a chymmerodd ei fedyddio. Parhaodd i wisgo mantell yr athronydd, a daeth yn athraw Platonaidd yn ysgol holwyddorawl Alexandria.

Digitized by Google

Ysgrifenodd amddiffyniad (*πρεσβεια=erfyniad*), a chyflwynodd ef i'r ymherawdwr Marcus Aurelius, a'i fab Commodus, yn y flwyddyn B. A. 177. Y mae yr awdwr yn gofyn am oddefiad i'r Cristionogion, ac yn amddiffyn eu hathrawiaethau a'u buchedd. Wrth gyfarfod yr wrthddadl oedd yn cael ei gwneyd yn erbyn y Cristionogion, eu bod yn Atheistiaid, am nad oedd ganddynt dduwiau gweledig, nac yn codi temlau nac allorau, dengys pa beth yw y gwir syniad am Dduw fel bod anweledig, hollddigonol, tragwyddol, ac ysbrydol; ac er mwyn profi hyn, defnyddia ysgrifeniadau Plato, Aristotle, a Zeno. Yn ei syniadau am Fab Duw, a'r Ysbryd Glân, defnyddia ymadroddion lled debyg i'r rhai a ddefnyddiai yr athronwyr hyn—*αλλ' ἐστιν ὁ υἱος του Θεου λογος του πατρος ἐν ἰδεα και ἐνεργεια*. Dengys hefyd ddiddymdra eu duwiau oddi wrth chwedloniaeth y paganiaid. Trwy gyfarfod gwrthddadleuon paganiaid, ceisiai ddangos Cristionogaeth mewn gwedd mor debyg ag y gallai i syniadau eu hathronwyr eu hunain; a hyn a arweiniodd i'r dybiaeth mai efe oedd yn mhlith y cyntaf a gymmysgasant Gristionogaeth ac athroniaeth. Ysgrifenodd draethawd hefyd ar adgyfodiad y meirw; a dengys ei wirionedd oddi wrth ddoethineb, gallu, a chyfiawnder Duw, yn gystal ag oddi wrth dynged dyn. Creodd Duw ddyn i'w adnabod, ac i syllu ar ei weithredoedd, er mwyn canfod y doethineb a'r daioni sydd ynddynt; er mwyn hyn, cynnysgaethwyd ef â deall a rheswm: gan hyny, os ydyw priodoliaethau a gweithredoedd Duw i barhau, onid yw yn rhesymol y pery dyn i syllu arnynt a'u rhyfeddu. Nid yw Eusebius yr hanesydd, na Jerome, yn dywedyd dim am dano. Philippus Sidetus, ysgrifenydd yn bywyn nechreu y bummed ganrif, ydyw y prif awdurdod am fleithiau ei hanes.

Yr argraffiad goreu o waith Athenagoras y cyfrifir eiddo y Benedictiaid, unplyg, Paris, 1742, yr hwn a gynnwys hefyd waith Justin Ferthyr, ac ereill. Cyfieithwyd y ddau draethawd i'r Seisoneg gan Dafydd Humphreys, 8plyg, Llundain, 1714; a cheir amryw ddyfyniadau o honynt yn ngwaith rhagorol y Dr. Lardner, a elwir *The Credibility of the Gospel History*.

**ATHIAS, JOSEPH**: rabbi Iuddewig, ac argraffydd dysgedig o Amsterdam, yr hwn a fu farw o'r pla yn y flwyddyn 1700. Hynododd ei hun, yn benaf, fel cyhoeddwr yr Ysgrythyrau yn yr iaith Hebraeg. Gyda chynnorthwy ysgolheigion dysgedicaf Amsterdam, ymosododd ar gymharu yr hen argraffiadau â'r ysgrifyfrau o'r Beibl Hebraeg; a chyhoeddodd, yn y flwyddyn 1661, argraffiad newydd a diwygiedig, i'r hwn yr ysgrifenodd John Lensden y cynnwysiad a'r rhagymadrodd. Yr ail argraffiad o'r Beibl hwn a ymddangosodd yn 1667, gyda chyweiriadau chwanegol.

Yr oedd y Beiblau Hebraeg a gyhoeddwyd gan Athias yn gywirach nag un o'r argraffiadau o'r blaen: er hyny, dywedir eu bod yn cynnwys amryw bethau anghywir, yn enwedig yn y llafarnodau, ac yn fwy byth yn yr acenion. Hôna David Clodius, yn ei ragymadrodd i'w argraffiad ei hun (1677), iddo et ddarganfod dim llai na chwe chant o wallau; a dywed Dan. Ern. Jablonski, yn ei raglith i'w argraffiad yntau o'r Beibl (1699), iddo ef ddiwygio dwy fil o wallau yn Meibl y rabbi Athias. Ymosodwyd hefyd yn chwerw ar argraffiad Athias gan Samuel Maresius, mewn llythyr a argraffwyd yn 1669. Atebwyd y gwaith hwn gan Athias; eithr tybia rhai mai Lensden oedd gwir awdwr yr amddiffyniad. Ond er ei wallau a'i ddiffygion, cyfrifir Beibl Hebraeg Athias yn waith o deilyngdod mawr; ac nid prawf gwael o hyn ydyw, mai arno ef y mae yr holl argraffiadau diweddarach wedi eu sylfaenu. Argraffiadau beirniadol Clodius, Jablonski, Van der Hooght (y mwyaf nodedig o'r cwbl), J. H. Michaelis, Houbigant, Reineccius, Schmidius, Prop, Simonis Kennicott, Hahn, Halm, Hurwitz, Frey, Boothroyd, ac ereill, nid ydynt oll ond gwelliadau, i raddau mwy neu lai, ar eiddo Athias. Yn Meibl Hebraeg Athias y dynodwyd yr adnodau â rhifnodau Arabig am y tro cyntaf; canys yn yr holl argraffiadau blaenorol, dull yr Iuddewon o rifnodi a ddilynid.

Argraffodd Athias y Beibl hefyd yn yr Yspaenaeg, yr Almaenaeg Iuddewig (neu y friwiaith gymmysg â'r Hebraeg a lefarir gan Iuddewon Rwssia, Poland, a rhai manau o'r Almaen), a'r Seisoneg. Arferai gadw llythyrenau y Beibl Seisonig yn barod yn eu lle; a dywed iddo argraffu a gwerthu dros filiwn o hono: eithr digon prin y gellir coelio hyn, o blegid nid mynych y cyfarfyddir â chyfargraff o Feibl Seisoneg Athias. —(*Wolfii Bibliotheca Hebraica*, i. td. 552; *Le Long, Bibliotheca Sacra*, i. td. 116; *Eichhorn, Einleitung; Penny Cyclopædia*.)

ATHOCIAID: pleidiau o hereticiaid yn y drydedd ganrif, y rhai o ddalient farwoldeb yr enaid, a chyfeiliornadau ereill.

ATHOS: mynydd ar ben eithaf goronys hir sydd yn rhedeg o Chalcidice, gan wahanu culforoedd Contessa a Monte Santo, ar gyffiniau Macedonia. Yr oedd yr enw Athos yn briodol yn cael ei roddi i'r holl orynys fynyddig, yr hon a gyssylltir â'r cyfandir gan lain o dir isel, yn agos i'r fan lle y safai Acanthus [*Herod.* vii. 22]. Gelwir y lle hwn Monte Santo gan y Ffrancod, ac Ayion-oros gan y Groegiaid; y ddau yn gyfystyr â "mynydd sanctaidd." Y mae hynodrwydd y lle hwn i'w briodoli i rifedi mawr o fynachdai, capelau, adeiladau, a lleoedd cyssegredig ereill sydd arno. Y mae rhai o'r mynachlogydd—o ba rai y mae chwech ar hugain—yn amgauedig â muriau uchel a chaerog, yn ymddangos yn debycach i drefydd amgaerog nag i drigfanau wedi eu neillduo i ymarferiadau crefyddol; ac y maent wedi darparu amddiffynfeydd ynddynt. Gellir enwi, fel y rhai mwyaf o'r mynachlogydd hyn, Xenophon, Iveron, Vatopaidi, Panto-Cratera, Ayia Laura, St. Anne, a St. Paul. Tybir fod nifer y mynachod yn y rhai hyn yn unig yn fwy nag wyth mil, gyda brodyr lleygol, crefftwyr, a llafurwyr. Y mae Ayia Laura ei hun yn cynnwys mwy na chwe chant o fynachod, ac y mae yn ddarostyngedig i reolau tra hynod; sef hollol waharddiad o unrhyw fenyw, hyd yn oed o anifail, tu mewn i'r muriau. Dywed amryw deithwyr, fod hyn yn gyffredin trwy yr holl orynys. Y mae Herodotus [vii. 22] yn cyfrif pum trei yn holl orynys Athos.

Dywedir fod yr adeiladau hyn mor hen ag amser Cystenyn; ac y mae profion dilys ysgrifenedig mewn bod yn profi eu bodolaeth yn amser Nicephorus Phocas, B. A. 961. Y mae yr addunedau neu lwon gofynedig gan y mynachod, yn ddifrifol a syml: sef i ymwrthod am byth â'r byd a'i ofalon; tybied eu hunain yn feirw i achosion daiarol, ac i neillduo eu hunain i fyfyrdod, amryweddiaeth, neillduedd, a thlodi. Er eu bod



Digitized by Google

yn dlodion fel dynion unigol, nid oes un ammheuaeth nad ydyw y frawdoliaeth yn gyfoethog; ond y maent yn ymdrechgar i guddio eu cyfoeth, er gochel ymgeisiadau gwancus y Porte. Y mae eu prif gyfoeth yn deilliaw oddi wrth ffynnonell ysbrydol crefydd; ac yn cynnwys offrymau y pererinion; pa rai, yn eu pererindod i'r capel sydd ar ben copa uchaf y mynydd, a ddysgwylir i ymweled â, a chyfranu i bob mynachdy ar eu ffordd. Derbynient hefyd lawer o gyfoeth drwy drafnidiaeth a ddygid yn mlaen yn benaf â Salonica a Smyrna. Y mae y fasnach yn gynnwysedig braidd yn hollol o ffrwythydd, o ba rai y mae yr amrywiol fathau o gnau yn cynnwys y rhan fwyaf. Y mae gerddi mawrion y mynachlogydd yn dwyn ffrwythydd a llysiau o bob math; a chedwir hwynt, yn nghyd â'r tyddynod a elwir *metochi*, yn y cyflwr goreu o ran trinogaeth, pa rai sydd yn gyssylltiedig â'r amrywiol fynachlogydd. Y mae y rhai hyn wedi eu chwalu dros yr holl ranau mwyaf ffrwythlawn o'r orynys.

Y mae gan y Rwssiaid, y Bulgariaid, a'r Serviaid, eu mynachlogydd gwahanol; ac y mae minteioedd o ddau i bum cant o bererinion yn cyrhaedd ar gylch o'r gwledydd hyn, gan ddifa pob peth yn y pentrefydd ar eu ffordd. Y mae pererindod i'r lle cyssegredig hwn o gymmaint pwys gan aelodau Eglwys Groeg, ag ydyw pererindod i Mecca gan y Mahometiaid. Ni chyrhaeddir y capel ar y copa ond gan y rhai mwyaf selog; y mae y ffordd iddo yn anhawdd iawn ei theithio, ac yn gofyn arferiad o'r dwylaw a'r traed cyn y gellir ei gyrhaedd. Nid oes un o'r mynachod yn trigo yn barhaus yn y capel hwn.

Er fod y mynachod eu hunain yn hynod o anwybodus, y mae y mynachlogydd hyn yn feddiannol ar lyfrgelloedd yn cynnwys llawysgrifau anghyffredin a gwerthfawr; pa rai, o herwydd esgeulusdra a diofalwch, sydd yn myned yn gyflym yn anrhaith i bryfed a lleithder.—(*Penny Cyclopædia.*)

**ATHRAW**: defnyddir y gair hwn yn gyfieithiad am διδασκαλος (*didascalos*)=*dysgawdwr*; ond yn y cyfieithiad Saesoneg, ni ddefnyddir *teacher* yn gyfieithiad o hono, pan y defnyddir ef am Ioan Fedyddiwr a Iesu Grist, ond *master*. Cymharer y ddau gyfieithiad yn y manau canlynol:—*Rhuf.* ii. 20; *Heb.* v. 12; *Mat.* ix. 11; x. 24, 25; *Luc* ii. 46; vi. 40; iii. 12; *Mat.* viii. 19; xii. 38; xvii. 24; *Marc* v. 35; xiv. 14; *Ioan.* xi. 28, &c. Gwel Dysgawdwr; Meistr; Rabbi.

**ATHRAWIAETH**: defnyddir y gair *athrawiaeth* i osod allan yr egwyddorion neillduol hyny a ddysgir gan unrhyw athraw, neu a osodir allan mewn unrhyw gyfundrefn. O ganlyniad, wrth athrawiaethau Cristionogaeth, yr ydym i ddeall y pethau hyny a ddysgir ganddi. Medda pob cyfundrefn athrawiaethau priodol iddi ei hun, yn gystal ag athrawiaethau yn gyffredin â chyfundraethau ereill. Er anghraifft; dysg Cristionogaeth mai un Duw sydd: ond nid yw yr athrawiaeth yma yn perthyn yn neillduol i Gristionogaeth, o blegid dysg Mahometiaeth ac Iuddewiaeth yr un peth. Ond y mae athrawiaethau ereill yn perthyn yn neillduol i Gristionogaeth, heb fod i'w gael mewn un gyfundrefn arall. Y Beibl yw yr unig awdurdod trwy ba un yr ydym i ddyfod yn gydnabyddus âg athrawiaethau Cristionogaeth. Rhenir yr athrawiaethau yma i ddau ddosbarth, sef pur a chymmysg. Wrth athrawiaethau pur y meddylir y pethau hyny a ddysgir i ni gan ddadguddiad dwyfol yn unig. Wrth athrawiaethau cymmysg, neu naturiol, y meddylir yr athrawiaethau hyny a ddysgir i ni yn yr Ysgrythyrau, tra y gallwn ar yr un pryd brofi eu gwirionedd wrth oleuni rheswm. Oddi ar ddechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg, y mae y duwinyddion yn arfer rhanu athrawiaethau hefyd i rai anhebgorol, a rhai llai angenrheidiol. Wrth rai anhebgorol, y golygir y rhai hyny nad all y gyfundrefn Gristionogol fodoli hebddynt. Y mae y gair *sylfaenol*, yr hwn a arferir yn gyffredin i osod allan athrawiaethau anhebgorol, wedi cael ei gymmeryd o 1 *Cor.* iii. 10, 11. Yno y mae Paul yn cymharu ei hun a'i frodyr i adeiladwyr; a'r Eglwys Gristionogol i adeilad; athrawiaethau Cristionogaeth ydynt ddefnyddiau yr adeilad; a gelwir gwirioneddau cyntaf Cristionogaeth yn sylfaen. Athrawiaethau sylfaenol, ynte, yn ystyr Paul, ydynt y gwirioneddau hyny sydd raid eu dysgu i bob un fyddo am dderbyn y grefydd Gristionogol. Am athrawiaethau sylfaenol Cristionogaeth, gwel Cristionogaeth.

Y mae Hampden, esgob Henffordd, wedi dangos yn bur helaeth, yn ei waith ar *Scholastic Philosophy*, nad yw llawer o'r enwau wrth ba rai yr adwaenir athrawiaethau Cristionogaeth yn bresennol i'w cael yn y Beibl; ond ar yr un pryd, nad yw hyny yn lleihau dim ar eu gwirionedd, nac yn eu diraddio i'r mesur lleiaf; ac nad yw chwilio i darddiad y fath enwau, fel y gwneir mewn hanes athrawiaethau, yn niweidio dim ar y gwirioneddau eu hunain. Y mae o bwys i ni wahaniaethu rhwng y geiriau, y rhai ydynt yn cyfnewid, a'r athrawiaethau a ddysgir drwyddynt, y rhai ydynt yn anghyfnewidiol.

**ATHRAWIAETHAU, HANES.** Y mae ysgrifenwyr cyffredinol ar hanes eglwysig yn gwneuthur cynnydd a chyfnewidiadau mewn golygiadau athrawiaethol yn rhan o'u gwaith; gwahaniaethant yn unig yn y pwysigrwydd a'r lle a briodolant iddo. Os edrychir arno ynddo ei hun, y rhan bwysicaf o hanes eglwysig ydyw yr hyn y mae pob dosbarth arall yn dibynu arno am ei fod. Y mae hyn yn cynnwys fod hanes yn perthyn iddynt, ac o ganlyniad nad ydynt yn yr ystyr y defnyddir y gair yma yn anghyfnewidiol. Ond er mwyn egluro hyn, y mae yn angenrheidiol gwneyd y sylwadau canlynol:—

1. Fod Cristionogaeth, fel cyfundrefn o athrawiaethau goruchnaturiol, yn berffaith, ac wedi ei dadguddio yn y Beibl. Nis gellir chwanegu un athrawiaeth newydd at yr hyn sydd yn gynnwysedig yn yr Ysgrythyrau. Y mae holl ddadguddiad Duw i ddyn, sydd yn angenrheidiol er ei iachawdwriaeth, yn gyflawn ac yn eglur ynddynt hwy: ac y mae ateb i'r ymofyniad, Pa beth ydyw athrawiaethau Cristionogaeth? i'w gael trwy chwilio pa beth y maent hwy yn ei ddysgu. Nid oes un gymhariaeth, gan hyny, rhwng duwinyddiaeth a'r gwyddorion; o herwydd nid oes dim cynnydd ar ddefnyddiau duwinyddiaeth—y maent wedi eu dadguddio, ac wedi eu dadguddio yn berffaith: ond y mae defnyddiau y gwyddorion yn cynnyddu yn barhaus, fel y mae ffeithiau newydd yn cael eu dadguddio neu eu dwyn i'r goleu.

2. Er fod Cristionogaeth, fel dadguddiad dwyfol, yn gyflawn ac anghyfnewidiol, eto y mae gwybodaeth Cristionogion unigol, yn gystal a chorff y Cristionogion sydd yn gwneyd i fyny yr eglwys ar unrhyw adeg, yn agored i gynnydd, ac yn cynnyddu. Nid yw pob un sydd yn derbyn y

gwirionedd, yn deall ond rhan; ac y mae hono yn cael ei chymmysgu â chynnwys blaenorol ei feddwl—rhagfarn, camsyniadau, ac anwybodaeth. Po agosaf y dygir yr eglwys hefyd i gydymffurfiad â'r gwirionedd, trwy nerth yr Ysbryd Glân, eangaf a chywiraf y bydd ei syniadau am bethau dwyfol. Nid yw y cynnydd hwn, ychwaith, yn gysson:—Weithiau, y mae hi yn colli tir, ac yn myned yn ol mewn gwybodaeth, ffydd, ac ufudddod. Pan ennillwyd yr Iuddewon i gofleidio Cristionogaeth, dygasant lawer o'u rhagfarnau Iuddewig gyda hwynt: yr oedd y Cenedloedd, ar y llaw arall, i fesur helaeth, dan ddylanwad athroniaeth baganaidd. Y mae hanes yr eglwys am y pedair canrif cyntaf yn gynnwysedig i raddau mawr yn hanes yr ymdrechion oedd yn cael eu gwneyd yn erbyn cyfeiliornadau oedd yn codi o'r naill neu o'r llall o'r ddwy elfen hyn. Gwaith yr eglwys yn y cyfamser oedd astudio y Beibl yn fwy manwl, i ddeall yr athrawiaethau sydd ynddo, ac i'w gosod allan yn y fath fodd ag i gyfarfod y cyfeiliornadau hyny. Fel hyn, yr oedd cynnydd parhaus mewn gwybodaeth o air Duw, ac mewn golygiadau clir a chysson o'i wahanol athrawiaethau. Yr oedd y cynnydd hwn yn cymmeryd lle o barth i wahanol wirioneddau, mewn gwahanol oesoedd, yn ol yr ymosodiadau a fyddai arnynt. Ond wedi i Gristionogion ddyfod i feddu syniadau eang a chysson ar dystiolaeth y Beibl ar unrhyw athrawiaeth, gorphwysent yn y golygiadau hyny; yr oedd cynnydd, bellach, yn anmhosibl, gan fod holl hysbysiadau y Beibl ar y mater mewn dadl wedi eu chwilio allan, a'u cyssylltu â'u gilydd.

Heb fanylu, y mae yn amlwg fod pedwar cyfnod pwysig yn hanes athrawiaethau, yn mha rai yr oedd athrawiaethau penodol yn cael y sylw blaenaf. Yn y cyfnod *cyntaf*, yr oedd y duwinyddion Groegaidd yn astudio, yn egluro, yn amddiffyn, ac yn geirio yn y modd goreu, i gyfarfod y cyfeiliornadau gwrthwynebol, yr athrawiaethau am fod a phriodoliaethau Duw, a dull ei hanfodiad; person Crist, ei Dduwdod a'i ddynoliaeth; a Duwdod a phersonoliaeth yr Ysbryd Glân. Y mae penderfyniadau y chwe cynghor cyffredinol cyntaf am y Drindod, a pherson Crist, yn parhau hyd yn awr heb gyfnewidiad. Nid ydyw yr eglwys wedi gwyro oddi wrthynt nac wedi myned y tu hwnt iddynt mewn dim. Ar ol penderfynu y rhai hyn, dechreuodd yr *ail* gyfnod. Galwyd ar yr Eglwys Ladinaidd i amddiffyn a gosod allan athrawiaethau y Beibl am bechod a gras, natur a chwymp dyn, pechod gwreiddiol, ewyllys rydd, &c. Ac nid oes un egwyddor am sefyllfa naturiol dyn, ei anallu, yr angenrheidrwydd am ras Duw, a natur ei weithrediad, yn gynnwysedig yn nghredoau y Diwygiad, nad oedd yr eglwys yn amser Awstin yn ei dysgu. A chadarnhau yr un golygiadau ddarfu cymmanfaoedd Dort a Westminster. Yn nghyfnod y Diwygiad, sef y *trydydd*, yr athrawiaethau oeddynt yn destynau ymchwiliad a dadleuaeth fwyaf oedd, trefn cadwedigaeth, yr iawn, a chyfiawnhâd. Ac y mae y penderfyniadau y cytunwyd arnynt y pryd hwnw yn cael eu derbyn gan bob plaid uniongred hyd yn awr. Y mae llawer o ysgrifenu, a dadleu, a gwahaniaeth barn, wedi bod rhwng personau unigol a dosbarthiadau o ddynion; ond y mae ffrwyth ymdrechion y diwygwyr, a'r rhai a lafuriodd yn benaf mewn cyrau ereill o faes y gwirionedd, yn aros yn drysor parhaus yn yr eglwys. Ond nid ar awdurdod yr eglwys y dysgir yr athrawiaethau hyn, ond ar awdurdod yr Ysgrythyrau. Y cwbl a wnaeth dynion fel Athanasius, Awstin, Luther, Melancthon, Calvin, Hooker, Dr. Owen, a chynghorau a chymmanfaoedd, oedd casglu ac uno yr hyn a ddysgir yn yr Ysgrythyrau. Tybia rhai ein bod yn awr yn nechreuad y *pedwerydd* cyfnod, ac mai testyn neillduol ymchwiliad y cyfnod hwn fydd yr athrawiaethau am yr eglwys. Y mae ymddangosiadau presennol yn cadarnhau y dybiaeth. Dengys y dosbarthiad hwn fod athrawiaethau Cristionogaeth wedi cael eu gwneyd yn destyn ymchwiliad mewn dull rheolaidd; yn gyntaf, am Dduw, y Drindod, a pherson Crist; yn ail, am ddyn yn ei bechod, a'r angenrheidrwydd am ras; yn drydydd, am gyfiawnhâd; yn bedwerydd, os ydyw y dybiaeth yn gywir, am ymgorfforiad y saint mewn undeb eglwysig.

Ond heblaw y cynnydd sydd yn cymmeryd lle ar adegau penodol, y mae cynnydd graddol a cyffredinol i'w weled mewn treigliad oesoedd. Mae eglwysi efengylaidd yn fwy rhydd yn awr oddi wrth lefain ofergoelion a phaganiaeth nag mewn un tymmor blaenorol yn eu hanes. Yr oedd cymmaint o Iuddewiaeth yn gymmysgedig â Christionogaeth yn yr eglwysi apostolaidd, fel o'r braidd yr oedd Paul yn ddiogel yn eglwys Ierusalem, ac ni feiddiai Pedr fwyta gyda'r Cenedloedd yn Antiochia. Wrth gymharu ysgrifeniadau y tadau apostolaidd, Clemens, Barnabas, Hermas, Ignatius, Polycarp, a Papias, â'r eiddo y Diwygwyr, ymddengys cymmaint o wahaniaeth rhyngddynt ag sydd rhwng llyfrau ystoriawl plant a chynnyrch uchaf athrylith a dysgeidiaeth. Ac yn ystod y pymtheg canrif o flaen y Diwygiad, ni chyfansoddwyd un llyfr, i'w gystadlu o ran eglurdeb, cywirdeb, ac eangder, â rhai o gredoau y cyfnod hwnw. Ond y mae eglwysi y dyddiau hyn yn mhell o flaen eglwysi y Diwygiad; yn mhellach oddi wrth ysbryd a rhai o gamsyniadau Pabyddiaeth. Ni ddylid cymharu gau Gristionogion un tymmor â gwir Gristionogion tymmor arall. Yr oedd y Lutheriaid cyntaf yn mhell o flaen llawer sydd yn galw eu hunain yn ganlynwyr iddynt yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond wrth gymharu ein heglwysi puraf â hwy, y mae y rhagoriaeth yn amlwg o blaid y tymmor presennol. Yn yr hen eglwysi Lutheraidd, yr oedd delwau, a chroesau, ac allorau; o'r braidd y cydnabyddai Luther ganlynwyr Zwinglius a Calvin yn frodyr; am nad oeddynt yn dal cydsylweddiad: ac nid oes neb o ganlynwyr Calvin a Beza yn awr yn dysgu yr hyn a ddysgent hwy am awdurdod llywodraethwyr daiarol mewn pethau crefyddol.

3. Sylw arall sydd yn gwneyd fod hanes athrawiaethau yn bosibl ac yn ddymunol, a'r hyn sydd ar yr un pryd yn gysson â'r sylw blaenorol, ydyw, fod yn bosibl i oes ddiweddarach fod yn is mewn gwybodaeth a phurdeb nag oes flaenorol. Yr oedd sefyllfa Eglwys Rhufain yn annhraethol is o flaen y Diwygiad nag ydoedd yn amser ei hesgobion cyntaf; yr oedd y degfed ganrif yn llawer is na'r ail; y mae sefyllfa grefyddol yr Almaen yn bresennol yn llawer is nag ydoedd yn amser Luther. Felly, gellir casglu oddi wrth hyn, er fod y wir eglwys yn cynnyddu yn barhaus mewn gwybodaeth o'r Ysgrythyrau, eto, y gall yr eglwys allanol fod yn fynych mewn cyflwr dirywiedig, fel ag i fod yn is nag ydoedd mewn oesoedd blaenorol.

4. Y mae hanes athrawiaethau yn fuddiol i'n dysgu yn natur yr ymosodiadau sydd wedi eu gwneuthur ar wirioneddau crefydd, mewn gwa-

hanol oesau, yn nghyd â'r arfau a ddefnyddiwyd i'w gwrthsefyll. Y mae cyfeiliornadau fel yn troi mewn cylch, fel pe byddai y naill yn cenedlu y llall. Y mae yr anffyddiaeth sydd yn ymosod ar Gristionogaeth yn awr yn dwyn delw yr anffyddiaeth athronyddol a ymddangosodd yn Alexandria yn yr ail a'r drydedd ganrif. Ac nid yw Deistiaeth Mr. Newman ond ail ymddangosiad o Blatoniaeth newydd Julian y gwrthgiliwr.

5. I ragflaenu unrhyw gamsyniad a all godi oddi ar yr hyn a ddywedir am y cyfnewidiadau a'r cynnydd sydd yn ngolygiadau yr eglwys, mewn gwahanol oesoedd, rhaid dyweyd mai nid derbyn ei bywyd y mae eglwys y naill oes oddi wrth y llall: y mae y naill mor agos a'r llall at Grist a'r Ysgrythyrau fel ffynnonell bywyd a gwybodaeth. Nid fel ffrwd sydd yn lihau yn barhaus oddi wrth ei ffynnonell, ac nad oes un cyssylltiad rhwng ei tharddiad a'i harllwysiad ond y dyfroedd sydd rhyngddynt, y mae yr eglwys. Nid ychwaith fel y mae y ddeilen ar frig uchaf y goeden mewn undeb â'r gwreiddyn trwy gyfrwng y cangenau a'r boncyff, fel os tynir y ddeilen oddi ar y brigyn y mae ei undeb â'r gwreiddyn yn darfod o angenrheidrwydd. Ac nid ychwaith fel yr ydym yn derbyn y natur ddynol oddi wrth Adda trwy gyfrwng lluaws o ddolenau, fel os torir un y mae y gadwen yn tori. Ond y mae Crist a'i air yn bresennol i'r eglwys yn mhob oes, fel y mae yr enaid i'r corff, mewn undeb mor agos a chyfartal y naill ran â'r llall. Nis gall y naill oes fod yn annibynol ar y llall am y ffurf neillduol y mae eu syniadau hwy am yr Ysgrythyrau yn gymmeryd: ond nid yw hyn yn anghysson â'r gwirionedd pwysig mai Crist ei hun ydyw ffynnonell bywyd; a'r Beibl ydyw rheol ffydd pob oes fel ei gilydd. Ond fel y mae crefydd yn cyfaddasu ei hun i'r amrywiaeth sydd yn nghyfansoddiad meddwl a manteision boreuol addysg mewn gwahanol ddynion, felly y mae y bywyd ysbrydol a dderbynir yn uniongyrchol oddi wrth Grist, a'r wybodaeth a geir o'r Ysgrythyrau fel unig reol anffaeledig ffydd, yn ymddangos mewn gwahanol ffurfiau, yn ol amrywiaeth crefyddau, arferion, ac athroniaeth flaenorol gwahanol wledydd ac oesoedd. Er fod trysorau pob oes yn cael eu trosglwyddo i oesoedd dilynol, i'w galluogi i ddeall y dadguddiad gwreiddiol yn well; eto, ar hwnw y mae eu ffydd yn pwyso.

Ond er mor ddeniadol ac addysgiadol y gellid meddwl y byddai cylch ymchwiliad o'r fath a nodwyd allan, eto nid oes cymmaint ag un llyfr gwreiddiol yn Gymraeg nag yn Seisoneg wedi ei gymmeryd i fyny fel unig wrthddrych ymdrafodaeth. Y mae yn wir y gellir cyfarfod â sylwadau o'r natur yma yn fynych yn Dr. Owen, Baxter, &c.; ac yn fwy proffesedig felly yn Dr. Doddridge, a Dr. Pye Smith, &c.; ond fel maes gwahanol o efrydiaeth, nid oes neb eto ond yr Ellmyn wedi ei lafurio. Y mae llawer o honynt hwy wedi dangos diwydrwydd, llafur, a dysgeidiaeth mawr. Ni fu, ac nid oes, mewn un man y tu allan i'r Almaen, y fath ddosbarthiad ar lafur llenorol, a'r fath ymroad hunanymwadol i ddyhysbyddu pob gorchwyl a gymmerant mewn llaw. Y mae yn wir fod eu hathroniaeth yn fynych yn gwisgo y ffurfiau mwyaf mympwyol a dychymygol, heb un cyssylltiad rhyngddi â ffeithiau yn natur dyn na Duw; ond pan ymguddient yn nghloddfeydd hanesiaeth, nid oes neb eto wedi dangos yr un cariad at y gwaith, na'r un amynedd i'w gyflawnu yn drwyadl.

Nid amcenir yn yr erthygl hon namyn galw sylw at hanesiaeth mewn cyssylltiad âg athrawiaethau duwinyddol. Ceir manteision mynych dan wahanol eiriau i ddefnyddio ffrwyth y llafur hwn. Yn mhob cangen o wybodaeth, y mae hanesiaeth yn myned yn fwyfwy pwysig fel dyben a moddion addysgiad. Nid ystyrir fod genym wybodaeth gyflawn o ddim, nes yr eir yn ol i edrych pa beth oedd ansawdd y wybodaeth hono mewn amseroedd a basiodd—pa fodd, trwy ba ymdrechion, camsyniadau, a chamddarluniadau, y tyfodd o'i babandod i'w chyflwr presennol. Y mae hyn nid yn unig yn foddion i gyffroi teimlad newydd o blaid yr hyn a dybiasid yn hen a diffrwyth, ond y mae hefyd yn dwyn gwahanol rahau gwybodaeth i undeb a chydgordiad â'u gilydd. Y mae i bob cangen o wybodaeth ei hanesiaeth ei hun, tra ar yr un pryd y mae y cwbl yn cymmeryd eu lle mewn hanesiaeth gyffredinol. Y mae i dduwinyddiaeth ei hanes:—gellid ei galw Duwinyddiaeth Hanesiol. Efallai mai hyn fuasai yr enw goreu i wneyd y sylwadau hyn dano, ac nad yr un a ddewiswyd. Os ydyw testynau duwinyddiaeth yn fwy pwysig na thestynau pob gwyddor neu wybodaeth arall, y mae yn rhaid fod hanes eu derbyniad, eu ffurfiad i gredoau, eu llygriad, a'u gweithrediad, yn fwy pwysig nag un hanes arall. Yr oedd cyffyrddiad gwirioneddau yr efengyl â phob ffurf newydd o fywyd cymdeithasol, ofergoelion crefyddol, a dullwedd meddyliol, yn cynnyrchu ffeithiau newyddion yn hanes cynnydd a lledaeniad yr efengyl. Ac y mae rhan fawr o'r ffeithiau hyn yn nosbarth Duwinyddiaeth Hanesiol.

Efallai y byddai hysbysu y prif lyfrau sydd wedi eu cyhoeddi ar y gangen yma o dduwinyddiaeth, er nad oes ond un neu ddau o honynt wedi eu cyfieithu i'r Seisoneg, yn llwybr mor fuddiol ag un i hysbysu yr hyn a wyddys am ei dechreuad a'i chynnydd i'w ffurf bresennol. Fel y dywedwyd o'r blaen, nid oes gymmaint ag un llyfr gwreiddiol yn Seisoneg ar hyn; ac ymddengys eu bod mewn petrusder pa enw i'w roi ar y rhan hon o ddysgeidiaeth. Gelwir hi gan rai *Dogmatic History;* ond nid llawer fuasai yn gwybod pa beth i ddysgwyl mewn llyfr yn dwyn y fath enw. Y mae yr enw *Historical Theology* yn fwy arwyddocaol o'r hyn a olygir, ac yn cyfateb i Dduwinyddiaeth Hanesiol, fel y mae enw arall a ddefnyddir, *History of Doctrines*, yn cyfateb i Hanes Athrawiaethau, a hwn yn cyfateb i ddynodiad yr Ellmyn, ond ei fod mewn un gair ganddynt hwy (*Dogmengeschichte*). Y llyfr cyntaf rheolaidd a gyhoeddwyd yn Germany oedd gan W. Münscher, cadeirdraw yn Marburg, yn 1797, ac oddi yno i 1809, mewn pedair cyfrol, er na ddygwyd yr hanes i lawr ond at amser Gregory Fawr. Ei enw ydyw, *Llawlyfr hanes Athrawiaethau Cristionogol.* Y mae y llyfr hwn mewn cymmeradwyaeth hyd yn bresennol. Yn y lle cyntaf, cymhara fanteision ac anfanteision y ddau ddull y gallesid eu cymmeryd yn nygiad ei ymchwiliad yn mlaen; sef yr un amseryddol, a'r un pynciol. Y mae efe yn uno y ddau, gan ddosranu yr holl ysbaid o derfyniad yr oes apostolaidd yn mlaen i saith cyfnod, ac yn mhob cyfnod ymgymmera â'r gwaith o roddi hanes cyffredinol o'r cyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle mewn duwinyddiaeth; ac yna hanes rheolaidd o bob athrawiaeth yn unol â threfn benodedig ganddo ei hun. Ni ddaeth hwn allan ond hyd amser Gregory; ond yn 1811, cyhoeddodd lyfr llai, yn cynnwys dosraniad mwy syml, i dri chyfnod, hen

(o B. A. 1 hyd 600), canol (600—1517, a diweddar (1517—1811). Y mae y llyfr hwn wedi ei gyfieithu i'r Seisoneg. Dilynwyd hwn yn fuan gan amryw o rai ereill, yn amrywio ychydig yn y rhaniad a wnaent o'r amser yr ymestyn eu hanes drostynt. Yn 1805, cyhoeddodd Augusti lyfr. Dilyna ef yr hanes cyffredinol trwy ddeg cyfnod cyn rhoddi yr athrawiaethau neillduol. Daeth argraffiadau newydd allan o lyfr lleiaf Münscher, gyda chwanegiadau, yn 1832 a 1838. Cyhoeddodd Lentz lyfr yn 1834, yn yr hwn y defnyddir cynllun newydd; sef, cymmeryd i fyny hanes athrawiaethau, yr adeg y bydd yn dyfod gyntaf i sylw neillduol mewn hanesiaeth eglwysig: ond ei raniad amseryddol o'r cwbl sydd i wyth cyfnod. Yn 1832, cyhoeddodd Baumgarten Crusius lyfr mewn dwy gyfrol, sydd yn uchel ei glod am ddysgeidiaeth a threiddgarwch. Y mae hwn yn rhanedig yn gyntaf i hanes cyffredinol a neillduol athrawiaethau: rhenir y cyntaf drachefn i allanol a mewnol; a rhenir yr amser i ddeuddeg ysbaid. Heb grybwyll rhai ereill, un o'r rhai diweddaf ydyw gwaith Hagenbach, yr hwn sydd yn Seisoneg yn ffurfio rhan o *Theological Library* Clark.

Gan fod taflen yn foddion i drosglwyddo llawer o wybodaeth am ddechreuad gwahanol athrawiaethau yn y geiriad a arferir yn gyffredin, am ddechreuad cyfeiliornadau, ac adegau ymosodiad ar wahanol athrawiaethau, yn nghyd â gwasanaethu yn well na dysgrifiad i ddangos natur yr ymchwiliadau sydd yn dyfod dan y dosbarth yma o dduwinyddiaeth, ni a roddwn daflen Hagenbach, heb gaethiwo ein hunain yn fanwl i'w ddilyn, ond yn ei brif raniadau. Y mae ei raniad ef i bum dosbarth. 1. O ddiwedd yr oes apostolaidd hyd farwolaeth Origen (B.A. 86 – 254): gelwir hon yn oes yr Amddiffyniad, am fod Cristionogion yn cael eu galw i amddiffyn eu hunain yn erbyn cyhuddiadau paganaidd, ac i brofi dwyfoldeb eu crefydd, yn nghyd â gwirionedd eu hathrawiaethau neillduol.

**HANES NEILLDUOL ATHRAWIAETHAU AM Y CYFNOD CYNTAF.**

**I.**

***Profion Cristionogaeth, yr Ysgrythyr, a Thraddodiad.***

**1. Gwirionedd a dwyfoldeb Cristionogaeth yn gyffredinol. 2. Canon yr Ysgrythyr. 3. Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyr. 4. Esboniadaeth Feiblaidd. 5. Traddodiad.**

**II.**

***Duwinyddiaeth;—yr athrawiaeth am Dduw a'i weithredoedd, am angelion a demoniaid.***

**1. Hanfodiad Duw. 2. Ei unoliaeth. 3. Pa mor bell y gellir ei amgyffred a'i adnabod. 4. Ei ysbrydolrwydd (Idealiaeth ac Anthropomorphiaeth). 5. Priodoliaethau Duw. 6. Athrawiaeth y *Logos*, neu y Gair;—awgrymiadau o hono mewn Iuddewiaeth, a chrefyddau paganaidd:—athrawiaeth Ioan am y Gair;—duwinyddiaeth yr eglwys am y Gair hyd amser Origen;—syniadau Origen mai yr un ydyw y Gair a Mab Duw. 7. Yr Ysbryd Glân. 8. Athrawiaeth y Drindod. 9. Am greadigaeth y byd. 10. Rhagluniaeth a llywodraethiad y byd. 11. Am angelion, Satan, a demoniaid.**

**III.**

***Am ddyn.***

**1. Tarddiad yr enaid. 2. Delw Duw. 3. Rhyddid, ac anfarwoldeb. 4. Am bechod—cwymp y dyn cyntaf, a'i ganlyniadau. 5. Am athrawiaeth pechod yn gyffredinol.**

**IV.**

***Iesu Grist, ac iachawdwriaeth.***

**1. Am y Duw-ddyn. 2. Fod Crist yn ddibechod. 3. Am y prynedigaeth a'r iawn. 4. Y disgyniad i uffern. 5. Athrawiaeth ammodau iachawdwriaeth.**

**V.**

***Yr eglwys, a moddion gras.***

**1. Yr eglwys. 2. Bedydd. 3. Swper yr Arglwydd. 4. Y gair *sacrament*.**

**VI.**

***Athrawiaeth y pethau diweddaf.***

**1. Ail ddyfodiad Crist;—Milflwyddiaeth. 2. Yr adgyfodiad. 3. Y farn gyffredinol;—Hades;—purdan;—llosgiad y byd. 4. Cyflwr y gwynfydedigion a'r colledigion;—adferiad pob peth.**

---

**YR AIL GYFNOD.—OES DADLEUAETH.**

***O farwolaeth Origen hyd John Damascenus. O'r flwyddyn 254 hyd 730.***

Ar ol sylwadau cyffredinol ar nodweddiad athrawiaethol yr ysbaid—ei duwinyddion, diwedd syniadau Origen—yr Eglwys Ddwyreiniol o'r bedwaredd i'r chweched ganrif (ysgolion Alexandria ac Antiochia)—yr Eglwys Orllewinol ac Awstiniaeth—heresiau—dosrana y cyfnod yn

**I.**

***Am Dduw a Christ.***

1. Perthynas y Tad â'r Mab; Lactantius, Dionysius o Alexandria, canlynwyr Origen;—Sabelliaeth;—Ariaeth;—Cynghor Nice, a'r dadleuon hyd Gynghor Caer Cystenyn.

2. Deilliad yr Ysbryd Glân;—y Drindod;—Credo Athanasius, neu y *Quicunque*.

3. Gwir ddynoliaeth Crist, y gwahanol ffurfiau a gymmerodd y ddadl yma;—y Docetiaid, Apolinaris, Nestor.

4. Yr athrawiaeth am ddwy natur yn Nghrist (Eutychian, *Monophysite controversy*, &c.).

5. Yr athrawiaeth am ddwy ewyllys yn Nghrist (Monotheliaid).

**II.**

***Am ddyn (Anthropology).***

1. Am ddyn yn gyffredinol;—am bechod;—canlyniadau y cwymp, a rhyddid yr ewyllys, yn ol duwinyddion Eglwys Groeg.

2. Syniadau y duwinyddion gorllewinol cyn amser Awstin, a syniadau Awstin ei hun cyn dechreuad y ddadl Belagiaidd.

3. Pelagiaeth. Pwnc cyntaf y ddadl—pechod, pechod gwreiddiol, a'i ganlyniadau; yr ail, rhyddid a gras; y trydydd, arfaeth.

4. Ond yn y cyfnod hwn eto yr oedd llawer o ddadleuon oedd heb ddwyn perthynas â heresiau yr oes, ac yn gyffelyb i lawer o ddadleuon y cyfnod cyntaf; megys amddiffyniadau o blaid Cristionogaeth;—gwyrthiau a phrophwydoliaethau;—y canon;—ysbrydoliaeth y deongliad;—hanfodiad a phriodoliaethau Duw;—am angelion, cythreuliaid;—yr eglwys a'r sacramentau;—y milflwyddiaeth;—adgyfodiad y corff;—llosgiad y byd;—a chyflwr duwiolion ac annuwiolion yn y byd arall.

---

**Y TRYDYDD CYFNOD.—OES Y CYFUNDRAETHAU DUWINYDDOL.**

***O amser John Damascenus hyd y Diwygiad.* (730—1517.)**

1. Sylwadau cyffredinol;—perthynas y duedd

Digitized by Google

amddiffynol â'r un gyfundraethol;—dadleuon â hereticiaid;—Eglwys Groeg;—yr Eglwys Orllewinol.

2. Prif gyfundraethau ysgoloriaeth (*scholastic systems*). Ysgoloriaeth hyd amser Peter Lombard;—ysgoloriaeth hyd ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg;—adfeiliad ysgoloriaeth yn y ddwy ganrif ganlynol;—gwrthwynebiad i ysgoloriaeth, a rhagflaenorion y Diwygiad.

3. Hanes neillduol pob athrawiaeth; ac yn *gyntaf*, am wirionedd Cristionogaeth;—perthynas rheswm â dadguddiad, ffydd â gwybodaeth, yr Ysgrythyr â thraddodiad. Yn *ail*, am Dduw, ei natur (Panthëistiaeth a Theistiaeth), a'i briodoliaethau;—perthynas Duw âg amser, lle, a rhif; yr hyn sydd yn arwain at ei dragwyddoldeb, hollbresennoldeb, a'i unoliaeth;—ei berthynas â bodau ereill; arweinia hyn at hollalluogrwydd a hollwybodaeth;—priodoliaethau moesol Duw;—deilliad yr Ysbryd Glân;—y Drindod;—creadigaeth, rhagluniaethiad, a llywodraethiad y byd. Yn *drydydd*, am ddyn; anfarwoldeb yr enaid; dyn cyn y cwymp, yn ei gwymp, ac wedi ei gwymp;—gwrthwynebiadau i lygriad cyffredinol dynolryw;—purdeb natur y forwyn Fair (*the immaculate conception of the Virgin*). Yn *bedwerydd*, am Grist, a'r iachawdwriaeth;—syniadau Eglwys Groeg am Grist;—prynedigaeth ac iawn;—y berthynas rhwng yr athrawiaeth am Grist ac athrawiaeth yr iachawdwriaeth;—arfaeth, a dadl Gottschalk;— ffydd a gweithredoedd, yn nghyd â theilyngdod yr olaf. Yn *bummed*, am yr eglwys;—addoliad seintiau;—y sacramentau; conffirmasiwn, trawssylweddiad, aberth yr offeren, cadw y cwpan oddi wrth lëygwyr, sacrament penyd, sacrament yr eneiniad diweddaf, sacrament yr urddiad sanctaidd, a sacrament priodas. Yn *chweched*, milflwyddiaeth;—nesâd diwedd y byd; anghrist; purdan; cwsg yr enaid; tragwyddoldeb cosp uffern; adferiad pob peth.

---

### Y PEDWERYDD CYFNOD.—OES Y CREDOAU.

*O amser y Diwygiad hyd godiad athroniaeth Wolf.* (1517—1720)

1. Sylwadau cyffredinol. Am yr Eglwys Lutheraidd, y credoau Lutheraidd; yr Eglwys Ddiwygiedig, dan Zwinglius a Calvin, ei chredoau, dylanwad Calvin arnynt; Pabyddiaeth, Cynghor Trent, cyfundrefn dduwinyddol yr Eglwys Babaidd; sectau llai, Ailfedyddwyr, Sociniaid, Arminiaid, Crynwyr; dylanwad athroniaeth; Deistiaeth; amddiffyniadau.

2. Hanes neillduol athrawiaethau yn y cyfnod hwn. Yn *gyntaf*, ffynnonell gwybodaeth; Pabyddiaeth a Phrotestaniaeth; cyfriniaeth (*mysticism*); rheswm, yn arwain i Sociniaeth; yr Ysgrythyrau, ysbrydoliaeth, ac esboniadaeth. Yn *ail*, am ddyn cyn y cwymp, a'r cwymp a'i ganlyniadau; amrywiaeth barn am hyn. Yn *drydydd*, am yr iachawdwriaeth; rhyddid a gras, arfaeth, cyfiawnhad, sancteiddhad, ffydd, gweithredoedd, trefn y prynedigaeth. Yn *bedwaredd*, am yr eglwys; yr awdurdod eglwysig, addoliad seintiau a delwau, y sacramentau; yr offeren, Swper yr Arglwydd, y purdan. Yn *bummed*, y pynciau hyny ar ba rai yr oedd Pabyddion a Phrotestaniaid yn cytuno i raddau yn erbyn amryw sectau mân, Trindodiaid a Gwrthdrindodiaid; creadigaeth, cynnaliaeth, a llywodraethiad y byd. Yn *chweched*, y gwahaniaethau rhwng Lutheriaeth a Chalviniaeth;—bedydd.

### Y PUMMED CYFNOD.—OES BEIRNIADAETH A DAMCANIAETH.

*O'r flwyddyn 1720 hyd yn bresennol.*

Y cyferbyniad rhwng ffydd a gwybodaeth, athroniaeth a Christionogaeth, rheswm a dadguddiad.

1. Sylwadau cyffredinol. Dylanwad athroniaeth ar dduwinyddiaeth; athroniaeth Wolf; dylanwad Deistiaeth a Naturoliaeth (*Naturalism*); ysgrifenwyr amddiffyniadol; cyfundraethau diweddar, Zinzendorff, a'r brodyr unedig; Wesley a'r Methodistiaid; Swedenborg; athroniaeth Kant; Rhesymoliaeth, a Goruchnaturoliaeth (*Rationalism and Supranaturalism*); athroniaeth ddamcanol ddiweddar (*modern speculative philosophy*); Fichte, Schelling, Herder a Jacobi, De Wette, a Schleiermacher. Dylanwad gwrthweithiol duwioldeb ymarferol, a duwinyddiaeth ddiweddar; athroniaeth Hegel; yr Eglwys Brotestanaidd a'i hathrawiaeth allan o'r Almaen; yr Eglwys Babaidd; Eglwys Groeg yn Rwssia.

2. Hanes neillduol athrawiaethau. Gwirionedd a dwyfoldeb Cristionogaeth; gair Duw; yr Ysgrythyrau a thraddodiad; ysbrydoliaeth, ac esboniadaeth ysgrythyrol; gwyrth a phrophwydoliaeth; Deistiaeth, Theistiaeth, Panthëistiaeth; hanfodiad a phriodoliaethau Duw; y Drindod; creadigaeth a chynnaliaeth y byd; rhagluniaeth; amddiffyniad o'i chyfiawnder (*Theadicy*); angelion a demoniaid. Am ddyn, yn ei bechod a'i ryddid; Crist, ei berson a'i iawn; trefn y prynedigaeth — cyfiawnhad a sancteiddhad, ffydd a gweithredoedd da, gras a rhyddid, arfaethiad; yr athrawiaeth am yr eglwys, moddion gras, y sacramentau, y pethau diweddaf. (*Eschatology*).

Cofied y darllenydd fod Hagenbach yn ysgrifenwr Almaenig; ac felly, fe wel am y cyfnod diweddaf, yn enwedigol, pa ham y mae rhyw bethau yn cael lle yn yr hanes na buasai yn eu dysgwyl, a phethau ereill heb fod.

**ATHRIST**; prudd, galarus, trist: *Gen.* xl. 6; 1 *Bren.* xxi. 4, 5; *Marc* x. 22; *Phil.* ii. 26.

**ATHROD—WR**: absenwr, enllibiwr. Y mae y gair a gyfieithir *athrodwr*, yn yr Hen Destament, yn arwyddo un yn myned o dŷ i dŷ i fasnachu mewn mân nwyddau. Ei nodweddiad yw, "gwenieithio â'i wefusau," a "dadguddio cyfrinach;" *Lef.* xix. 16; *Diar.* xi. 13; xx. 19; xxv. 23; xxvi. 20, 22. Arwydda y gair a gyfieithir *athrodwyr*, yn *Rhuf.* i. 30, *dyweyd yn ddrwg yn erbyn*. Cyfieithir ffurfiau ereill o hono yn 2 *Cor.* xii. 20, *goganau*; yn 1 *Pedr* ii. 1, *gogan-air*; yn *Iago* iv. 11, *dyweyd yn erbyn*; ac yn 1 *Pedr* ii. 12; a iii. 16, *goganu*. Gwel ENLLIB.

**ATHROFA**=*Academy*. Am ystyr gyntaf y gair *Academia*, am yr hwn y defnyddiwn y gair Cymreig *athrofa*, gwel ACADEMIAID. Y mae y gair wedi dyfod i arferiad mewn ystyr ychydig yn wahanol ar ol adferiad dysgeidiaeth yn y bymthegfed ganrif. Defnyddid ef, nid am ysgol yn yr hon y dysgid athroniaeth gan athraw i'w ysgolheigion, yn ol ei ystyr gyntaf; ond am gymdeithas o bersonau wedi ymffurfio yn sefydliad i ddiwyllio dysgeidiaeth neu y gwyddorion, a hyny yn fynych dan nawdd y llywodraeth. Yn yr ystyr hwn y defnyddir yn bresennol yr ymadroddion Athrofa Gwyddorion (*Academy of Sciences*), Athrofa Celfau (*Academy of Arts*), Athrofa Frenhinol (*Royal Academy*), Athrofa Arysgrifion (*Academy of Inscriptions*). Dywedir fod Charlemagne

Digitized by Google

wedi sefydlu athrofa o'r natur yma yn Paris yn yr wythfed ganrif, yn nghyfarfodydd yr hon y byddai yr aelodau yn rhoddi hanes y llyfrau a ddarllenent, ac yn talu sylw neillduol, meddir, i ffurfiad a choethiad iaith y wlad. Ond wrth y gair *athrofa* y meddylir yn bresennol, yn fwyaf cyffredinol, math o sefydliad colegawl, weithiau, o'r radd uchaf, neu brifysgol, ond yn fwyaf neillduol am sefydliadau rhwng ysgolion cyffredin a'r prifysgolion. Gelwir colegau yr Ymneillduwyr yn athrofäau. Mae gan y llywodraeth sefydliadau o'r fath i barotoi ymgeiswyr milwraidd, megys yr Athrofa Freninol Filwraidd (*Royal Military Academy*) yn Woolwich, a'r Athrofa Freninol Forwraidd, i ddysgu morwriaeth, yn Portsmouth. Gan fod genym y geiriau ysgolion, colegau, a phrifysgolion, am sefydliadau i gyfranu addysg o wahanol natur a graddau, ni wneir yma ond ychydig o sylwadau am athrofäau, fel cymdeithasau a sefydlwyd i gymmeryd dysgeidiaeth neu y gwyddorion, neu ryw gangen o'r naill neu y llall, dan eu nawdd.

Yn yr Ital y sefydlwyd yr athrofäau hyn gyntaf; ac er na chyfyngwyd hwynt yn hollol iddi hi, eto ni fuont mor luosog nac mor amlwg mewn un wlad arall. Llenoriaeth yr henafiaid oedd gwrthddrych eu sylw gyntaf; cymharent lawgsgrifau gwahanol o'r hen awduron; lle y byddai amrywiaeth, cynnygient ddarlleniadau neu esboniadau newyddion; deonglent hen fatholion ac arysgrifion, eisteddent mewn barn ar awdl Ladinaidd, ac ymostyngent i ddadleu am briodoldeb ymadrodd. Y gyntaf o ddim enwogrwydd a sefydlwyd oedd gan Lorenzo de Medici, tua 1474, i'r dyben o astudio gweithiau Plato; gan hyny fe'i galwyd yr Athrofa Blatonaidd. Ei phrif ddysgawdwr oedd Marsilius Facinius, yr hwn a gyhoeddodd gyfundrefn o dduwinyddiaeth Blatonaidd [*Theologica Platonica*, 1482], wedi ei chymmeryd yn benaf oddi wrth y Platoniaid Alexandriaidd. Ar ol alltudiaeth Medici o Florence, yn 1494, diflanodd yr athrofa hon, ac ni chafodd yr athroniaeth hono dderbyniad croesawgar byth wed'yn yn yr Ital. Sefydlwyd amryw athrofäau hefyd i arolygu a pherffeithio eu hiaith a'u llenoriaeth eu hunain. Hanfodai y pryd hyny amrywiaeth mawr yn mhriod-ddull yr Italaeg. Yr oedd hyd yn oed enw yr iaith yn hir yn anmhenderfynol: mynai rhai mai y Fflorentaeg, ereill mai y Tuscanaeg, oedd yr enw mwyaf priodol; ac er mai yn Tuscany y siaredir yr iaith oreu, eto Italaeg ydyw yr enw mwyaf priodol, am ei bod yn gyffredin i'r wlad oll. Yn 1540, sefydlwyd athrofa Florence i egluro a pherffeithio y Tuscanaeg, yn enwedig trwy astudiaeth fanylach o brydyddiaeth Petrarch: a thrwy y gofal bron ofergoelus hwn, cyrhaeddodd yr iaith, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, goethder a phrydferthwch uchel. Ond yr oedd y sefydliadau hyn yn rhy luosog i'w henwi yma, pe atebai hyny ryw ddyben: cyfrifwyd hwynt yn 1725 yn chwe chant o nifer. Ni lwyddasant i eangu terfynau y gwyddorion nemawr, nac ychwaith i feithrin athrylith wreiddiol; ond trwy fagu ysbryd beirniadol, rhoddent derfyn ar ffoledd a chwaeth ddrwg. Nid yn hir y buwyd heb sefydlu rhai tebyg yn yr Almaen. Tua'r amser yr oedd Luther yn dechreu cyffroi y gwledydd trwy ei daranau bygythiol yn erbyn y pab, darllenir am athrofa yn Strasburgh, ac un arall yn Augsburgh; ond ni chaniataodd yr ysgogiad crefyddol a ddilynodd i ddynion feddwl am nemawr ddim ond testynau y ddadl hono. Sefydlwyd Athrofa Ffrainc (*French Academy*) gan Richelieu, gweinidog gwladwriaethol galluog, yr hwn a garai ei ogoniant ei hun a gogoniant ei wlad, a'r hwn a deimlai fod dysgeidiaeth yn rhoi urddas ar genedl. Tarddodd o gymdeithas fechan o ddynion a ymhyfrydent mewn llenoriaeth, y rhai a gytunasant i gyfarfod yn wythnosol i ymddyddan, ar faterion cyffredinol, ac yn enwedig ar brif destynau eu hefrydiaeth. Yn 1635, derbyniodd fraintysgrif, yr hyn a'i rhoddes dan nawdd y llywodraeth. Amcan proffesedig yr athrofa oedd puro yr iaith, trwy feirniadaeth ar eiriau, dullwedd, a chystrawen y llyfrau a gyfansoddid gan ei haelodau: ond yr hyn a osodai yn brif nod ei llafur oedd cyfansoddi geiriadur a gramadeg, y rhai a fyddent rhagllaw yn safon purdeb geiriadaeth a chystrawen yr iaith. Yn raddol y cyflawnwyd y gorchwyl hwn; ond erbyn 1700, yr oedd yr ail argraffiad o'r geiriadur yn barod, yr hwn a ystyrid bellach yn rheol y Ffrancaeg.

Tua chanol yr eilfed ganrif ar bymtheg yr ennillodd athroniaeth Bacon gymmeradwyaeth gyffredinol, a chydnabyddwyd hi fel yr unig lwybr diogel i ddeongli natur; ond yr ydoedd yn ddyledus, i fesur mawr, am y derbyniad hwn, i dair cymdeithas o'r natur a ddysgrifir yn yr erthygl hon. Ni pharhaodd yr henaf, sef Athrofa del Cimento, yn Florence, ond ychydig flynyddoedd, er y cydnabyddir hyd yn awr wasanaethgarwch yr hyn a wnaeth i athroniaeth naturiol. Mae y ddwy ereill wedi parhau hyd yn bresennol, fel dwy brif ffynonell gwyddoriaeth, sef Cymdeithas Freniniol Llundain (*Royal Society of London*), ac Athrofa y Gwyddorion yn Paris (*Academy of Sciences in Paris*). Olrheinir y Royal Society i'r flwyddyn 1645, pan y cytunodd Wallis, Wilkins, a rhai ereill llai adnabyddus, i gyfarfod â'u gilydd yn wythnosol i ymdrafod â chwestiynau athroniaeth naturiol. Ffurfiwyd cymdeithas fechan gyffelyb yn Rhydychain, ac unwyd y ddwy yn Llundain, yn 1662; ac ymgorfforasant yn gymdeithas reolaidd dan yr enw presennol, yn unol â breinlen a dderbyniasant oddi wrth y brenin. Yr enwau cyntaf o hynodrwydd yn y cynghor llywodraethol ydynt, Boyle, Digby, Wilkins, Wren, Evelyn, ac Oldenburgh. Sefydlwyd Athrofa y Gwyddorion yn Paris yn 1666, gyda chymmeradwyaeth a than nawdd y brenin. Y gwyddorion rhifyddol a meintonaidd a ffurfiasant ran arbenig o astudiaeth aelodau yr athrofa hon. Mae sefydliadau o'r fath yn mhob prif ddinas o'r bron yn Ewrop ac America, y rhai a elwir yn fwyaf cyffredinol *societies* (cymdeithasau). Rhoddir yr enw *academy* (athrofa) yn Lloegr, ac ar y cyfandir, ar sefydliadau wedi eu sylfaenu i feithrin y celfyddydau breiniol; megys arliwiaeth, cerfladaeth, adeiladaeth, a cherddoriaeth. Am sefydliadau dysgeidiaeth, gwel COLEG; YSGOLION; PRIFYSGOLION.

ATHRONIAETH, (*athrawn*, cydnabyddiaeth â phethau dyeithr; oddi wrth *traw*, *tra*, yn arwyddo hwnt, goruwch, uwch ben, draw). Defnyddir ef yn gyfystyr a *philosophy* (Llad. *philosophia;* Gr. *φιλοσοφια; φιλια*=cariad, *σοφια*=doethineb), "cariad at ddoethineb." Mae y gair *philosophy* yn llai ymhongar, ond *athroniaeth* sydd yn dynodi oreu pa beth a feddylir yn gyffredin wrth y ddau. Gan fod doethineb yn drysor cuddiedig, y mae y ddau air yn arwyddo yn eithaf priodol, ymchwiliad am ddoethineb—y Groeg yn dangos ei natur, a'r Gymraeg yn arwyddo mai nid peth y gellir ei gweled a'i theimlo, ei mesur a'i phwyso yw

—ei bod *draw*, heibio y pethau hyn. Mewn arferiad gyffredin, arwydda *athroniaeth* esboniad ar reswm pethau, neu ymchwiliad i achosion pob peth a ganfyddir yn y byd oddi allan neu yn y meddwl. Pan ddefnyddir y gair am ryw gangen benodol o wybodaeth, arwydda gasgliad o'r deddfau a'r egwyddorion cyffredinol hyny dan ba rai y gellir dosbarthu neu drefnu yr holl ffeithiau perthynol iddi. Y gangen hono o athroniaeth sydd yn trafod egwyddorion, neu ddeddfau natur neu anian, a elwir *anianaeth*, neu *athroniaeth naturiol* (*physics, or natural philosophy*): yr hon sydd yn ein dysgu am y meddwl, ac am yr hyn sydd uwch law deddfau anian, ac o natur wahanol iddynt, a elwir *athroniaeth y meddwl*, neu *uchanianaeth* (*mental philosophy, or metaphysics*): ond y mae ymchwiliad i ddyledswyddau neu rinweddau moesol —yr hyn a ddylai dyn fod, yn ei deimladau a'i weithredoedd—yn perthynu i athroniaeth foesol, *moeseg* (*moral philosophy, or ethics*). Defnyddir y geiriau *athroniaeth*, *athronyddol*, *athronydd*, mewn ystyr anmhenderfynol yn fynych, er na bydd yn anhawdd casglu oddi wrth ddull eu defnyddiad pa syniad a fwriedir iddynt drosglwyddo. Pan ddefnyddir y gair heb un ansoddair yn nglŷn âg ef, saif yn gyffredin am athroniaeth y meddwl neu uchanianaeth, am y tybir fod y gangen hon o wybodaeth yn teilyngu yr enw yn well nag un arall. Am bob math arall o athroniaeth, defnyddir ansoddair gydag ef, wedi ei gymmeryd oddi wrth wrthddrych yr ymchwiliad, megys athroniaeth natur, athroniaeth hanesiaeth, athroniaeth trafnidiaeth, athroniaeth gallofyddiaeth, &c. Yr hyn a feddylir yn yr holl anghreifftiau hyn ydyw casgliad o'r egwyddorion a ddarganfyddir mewn natur, hanesiaeth, trafnidiaeth, a gallofyddiaeth. Yn yr un ystyr cyfarfyddir âg ef yn fynych mewn cyssylltiad â bron bob peth y byddis yn ceisio ei ddeall neu ei egluro, megys *Athroniaeth Trefn yr Iachawdwriaeth*, athroniaeth y tymmorau, athroniaeth pethau cyffredin (*philosophy of common things*), &c. Y mae pob peth gan hyny a all fod yn wrthddrych meddwl dyn yn meddu rhyw beth sydd yn gyffredin iddynt oll, yr hyn a elwir eu hathroniaeth; yr hyn athroniaeth nid yw amgen na dynodiad cyffredinol am yr egni meddwl hwnw, trwy ba un, yn unol â'i ddeddfau ei hun, yr ymdrecha olrhain ei holl wybodaeth i egwyddorion neu wirioneddau eithaf, a chanfod y cyssylltiad sydd rhwng pethau a'u gilydd yn ol y wybodaeth a fedd efe am danynt. Yr athroniaeth sydd yn cynnwys ynddi ei hun bob athroniaeth arall ydyw yr hon sydd yn ceisio penderfynu y deddfau a'r egwyddorion yn ol pa rai y mae y meddwl ei hun yn gweithredu. Y mae i bob math o wybodaeth sydd â'i gwrthddrychau allan o'r meddwl, ei chorff o egwyddorion neu athroniaeth; a'r rhai hyny wedi eu darganfod a'u ffurfio i gyfundrefn ydyw gwyddawr y pethau y perthynant iddynt. Ond, gan fod y meddwl, wrth ymgeisio at y gwyddorion, pa mor wahanol bynag yn eu gwrthddrychau, yn gweithredu yn ol ei ddeddfau a'i alluoedd ei hun, a chan fod y rhai'n yr un, er yr amrywiaeth mwyaf yn y gwrthddrychau y gweithreda arnynt, rhaid fod yn ddichonadwy cael allan y deddfau hyny trwy sylwi ar ei weithrediadau, yr un modd ag y ceir allan trwy sylwadaeth y deddfau a'r egwyddorion sydd yn llywodraethu y pethau sydd tu allan i'r meddwl. Y mae y meddwl, gan hyny, yn ol natur ei gyfansoddiad, dan fath o angenrheidrwydd i chwilio am sylfaen isaf ei holl wybodaeth, trwy ymofyn yn ol pa ddeddfau y mae yn casglu ei wybodaeth, pa beth ydyw ef ei hun yr hwn sydd yn gwybod, a pha beth ydyw ei berthynas â phob peth arall? O ganlyniad, amcana y meddwl ffurfio cyfundrefn o'r holl egwyddorion a'r deddfau isaf ac eangaf hyn. Y cyfryw gyfundrefn ydyw athroniaeth, yn ystyr briodol a hollol y gair. Ac yn yr ystyr hwn eto y mae gwahanol athronau, a wahaniaethir oddi wrth eu gilydd weithiau wrth enwau eu hawduron neu brif ddysgawdwyr; megys, Athroniaeth Pythagoras, Athroniaeth Aristotle, Plato, yr Epicuriaid, y Stoiciaid, ac mewn amseroedd diweddarach, Athroniaeth Bacon, Descartes, Locke, Reid, a Kant:—weithiau oddi wrth enwau y gwledydd neu y dinasoedd lle y derbynient eu prif feithriniad; megys, athroniaeth Groeg, Alexandria, yr Almaen, Ysgotland:—ac weithiau oddi wrth eu prif egwyddorion, neu yr elfenau hyny a roddant arbenigrwydd neillduol iddynt, a'u tueddiadau gwahaniaethol.

Wrth gymmeryd natur yr athronau eu hunain yn egwyddor y dosbarthiad, ceir fod athroniaeth pob gwlad ac oes yn disgyn i un o'r pum dosbarth canlynol:—1. Synwyroliaeth (*Sensationalism*); neu yr athroniaeth sydd yn dyrchafu y rhan hono o wybodaeth a geir trwy y synwyrau a phrofiad, gan esgeuluso y gyfran hono sydd yn wreiddiol i'r meddwl ei hun. 2. Delfrydigiaeth (*Idealism*); neu yr athroniaeth hono sydd yn dyrchafu y meddwl fel yr unig sylwedd arosol, gan ddysgrifio ffeithiau y byd allanol fel ymddangosiadau ein meddwl ein hunain. Yn y cyntaf o'r rhai hyn, gwneir ymdrech i olrhain y meddwl a'i weithrediadau i'r un dosbarth a'r corff a'i wahanol gyfnewidiadau; ac yn yr ail, ymdrechir dangos nad oes dim ond meddwl yn bod, ac mai gwahanol ffurfiau o feddwl ydyw pob peth y byd anianol. 3. Ammheuyddiaeth (*Scepticism*); neu yr athroniaeth sydd yn gwadu fod gwirionedd yn gyrhaeddadwy o gwbl i ddyn, a thrwy wadu pob sylfaen gwybodaeth, yn dwyn i mewn ammheuaeth cyffredinol. 4. Cyfrinyddiaeth (*Mysticism*); sydd air anmhenderfynol ei ystyr mewn crefydd ac athroniaeth, ond a ddefnyddir i ddynodi y golygiadau a'r tueddiadau hyny i ymddyrchafu i gymdeithas uniongyrchol â sylweddau, pa un bynag ai crefyddol ai athronyddol, yn annibynol ar ddadguddiad yn y blaenaf, a thrwy weledigaeth uwch law ac annibynol ar ymresymiad yn yr olaf. 5. Detholigiaeth (*Eclecticism*); sydd gyfundrefn yn proffesu dewis hyny o wirionedd sydd yn perthyn i bob cyfundrefn arall.[1]

Cousin, yr hwn a gyfrifir yn un o athronwyr blaenaf Ewrop yn awr—ac os nad yw yn meddu y gwreiddiolder hwnw sydd yn hynodi athronwyr mwyaf y byd, mae yn ddiau nad yw yn ail i neb am ei lwyddiant fel dysgawdwr athroniaeth—a wnaeth y dosbarthiad yma gyntaf fel prif raniadau hanes athroniaeth [*Cours de l'Histoire de la Philosophie*]: a dywedir eu bod yn dilyn eu gilydd yn rheolaidd yn mhob gwlad lle y mae egni meddyliol wedi cael ei gyffroi, ac amgylchiadau wedi ffafrio ei barhad. Addefa beirniaid galluocaf y dosbarthiad hwn fod rhyw gymmaint o wirionedd ynddo, a bod llawer o gyfundraethau philosophaidd yn tueddu i ymrestru ynddo; ond mai *tueddiadau* yn unig i redeg i'r ffurfiau hyn a ganfyddir, ac nid y ffurfiau eu hunain yn eu dull perffeithiedig a gwahaniaethol. Ac y mae ceisio gwasgu holl weithgarwch athronyddol y byd iddynt wedi arwain yr awdwr, a'i ganlynwyr, megys Morell [*History of Philosophy*], i wneuthur cam âg ysgrifenwyr. Eto, gall dos-

barthiad o'r fath fod yn fanteisiol i astudiaeth lwyr o dueddiadau a phrif elfenau unrhyw gyfnod.

DOSBARTHIAD ATHRONIAETH.

Byddai yn fanteisiol, er mwyn galluogi y darllenydd i droi yn rhwyddach at erthyglau yn y gwaith hwn lle y gallai ddysgwyl cael hysbysiaeth o barth i athroniaeth unrhyw oes neu wlad, heb law y byddai ynddo ei hunan yn fuddiol, i ddynodi prif wledydd a thymmorau ei diwylliad i roddi braslun o ddosbarthiad F. D. Maurice, yn yr *Encyclopædia Metropolitana* (*Moral and Metaphysical Philosophy*, argraff. 1854), yr hwn eilwaith sydd yn lled debyg i ddosbarthiad Ritter.

Athroniaeth *cyn* ac ar *ol* dyfodiad Crist.—Yn y rhan gyntaf, y mae, yn 1, athroniaeth yr Hebreaid; 2, yr Hindwaid; 3, y Chineaid; 4, y Persiaid; 5, y Groegiaid; 6, athroniaeth Alexandria. Yn yr ail ran ni a gawn, yn 1, athroniaeth y chwe canrif cyntaf; 2, y canoloesoedd; 3, o'r drydedd ganrif ar ddeg hyd yn bresennol.

Efallai y tybia rhai y byddai yn anmhriodol rhoddi athroniaeth yr Hebreaid yn yr un rhestr ag athroniaeth cenedloedd ereill, hyd yn oed pe byddai yn briodol dyweyd fod ganddynt athroniaeth o gwbl yn yr ystyr y lleferir am athronau cenedloedd ereill. Ac eto, yn ol ystyr eang y gair a nodwyd yn y dechreu—ymchwiliad am ddoethineb, yn ei wedd Roegaidd; neu ymchwiliad am yr hyn sydd draw, heibio i bethau y llygaid a'r glust, yn ei wedd Gymreig, y mae yn amlwg mai llyfrau yr Hebreaid yn unig a gynnwysai wir a phur athroniaeth o holl gyfundraethau y byd cyn dyfodiad y Messïah. Yr oedd ei hathroniaeth hwy, fel amryw o gyngenedloedd y ddaiar, yr un â'u crefydd; ond yn eu mysg hwy yn unig yr oedd y ddwy yn bur. Y mae holl hanes yr Iuddewon yn foesol ac yn athronyddol. Mae yn foesol am ei fod o'i ddechreu i'w ddiwedd yn cyfeirio yn uniongyrchol at ddyn, ei gyflwr, ei ffyrdd, a'i arferion: y mae yn athronyddol am ei fod yn dangos fod dyn yn wahaniaethol oddi wrth bethau anianyddol, y pethau sydd yn tyfu ac yn dadfeilio, ac er fod rhan o hono dan ddeddfau anian, fod rhan arall sydd yn arosol, ac uwch law y deddfau hyn; dengys hefyd fod Bod personol â bywyd ynddo ei hun, yr hwn sydd uwch law natur, a'r hwn a osododd ei deddfau. Y ddau lyfr sydd yn gwisgo gwedd athronyddol yn benaf yn yr Hen Destament ydynt Llyfr y Diarebion, a Llyfr y Pregethwr. Ond er fod y Beibl yn llawn o athroniaeth, yn ystyr uchaf ac eithaf y gair, athroniaeth ddwyfol ydyw—esboniad anffaeledig ar gwestiynau uchaf athroniaeth, megys, pa beth ydyw dyn? pa beth ydyw ei berthynas â'r byd y mae ei deimladau corfforol yn ei gyssylltu âg ef? a pha beth ydyw ei berthynas â'r byd y mae ei reswm a'i gydwybod, ei obaith a'i ofn, yn cyfeirio ato fel ei gartrefle bythol? Eto, daw ei gynnwysiad yn fwy dan sylw yn ei wedd grefyddol a duwinyddol; er, dywedwn eto, nad yw duwinyddiaeth ond athroniaeth ddwyfol.

ATHRONIAETH HINDWAIDD.

Y mae wedi bod yn gwestiwn y dadleuwyd llawer yn ei gylch, pa un ai yr Aipht ai India sydd i gael ei hystyried fel mam y gwyddorion a llenyddiaeth: ond y mae y tystiolaethau yn lluosogi o blaid India fel ffynnonell wreiddiol athroniaeth, ac oddi wrth yr hon y derbyniodd yr Aiphtiaid a'r Groegiaid eu diwylliad meddyliol. Yn wir, nid oes un lle i feddwl fod yr Aiptiaid erioed wedi cael deffro eu sylw at athroniaeth y meddwl. Ymorphwysasant yn eu hofergoeledd, fel na chyrhaeddodd meddwl erioed ei ffurf philosophaidd. Y mae Mr. Mill wedi sylwi, a Syr W. Hamilton wedi cymmeradwyo y sylw fel un dwfn, nad yw fod cenedl yn ymboeni uwch ben cwestiynau tywyll uchanianaeth yn un prawf o ddiwylliad cyffredinol eang, am fod y fath ymofyniadau yn sefyll ar drothwy gwybodaeth ddynol, ac yn codi o'r syniadau mwyaf aneglur am grefydd. Gellir olrhain yn ol, i wawr hanesiaeth gredadwy, ymchwiliadwy i natur yr egwyddor ymofyngar o'n mewn, ei pherthynas â'r corff, ei hanfodiad dyfodol, ei chyfrifoldeb am a basiodd; y maent wedi eu cydwau âg ymofyniadau a chredo crefyddol. Felly yr oeddynt yn yr India. Trwy eu hesboniadau o'r Vedas, y rhai a dybient eu bod yn cynnwys ewyllys y Duwdod, arweiniwyd yr Hindwaid i ffurfio math o atebion iddynt, ac felly i roi dechreuad a meithriniaeth i athroniaeth. Y mae M. Cousin yn olrhain pedwar o'r pum ffurf neu duedd athronyddol a enwyd i India fel y man y daethant gyntaf i amlygrwydd. Yr ymofyniad gyntaf ac eangaf ei gyssylltiadau, mewn trefn i gael atebiad i'r hyn a nodwyd uchod fel amcan yr ymchwiliadau hyn, ydyw yr ymofyniad am *ffynnonell* gwybodaeth, neu gyfrwng ei chaffaeliad, yn gyfansoddiad dyn: ac y mae tuedd unrhyw gyfundrefn i'w chanfod yn y modd yr atebir ef. Y mae yr egwyddor hon mor bwysig fel y gellid ei chymmeryd yn sylfaen dosbarthiad athroniaeth pob gwlad ac oes; ac ymrestrai pob ysgrifenydd, o ddim gwreiddiolder meddwl, ei hun yn ei le priodol yn ol yr ateb a roddai i'r holiad cyntaf hwn. Yn wir, hon yw yr egwyddor sydd yn rhoddi bod i'r dynodiadau gwahaniaethol a enwyd; o herwydd os golygir y synwyrau, a phrofiad wedi ei sylfaenu arnynt, yn unig ffynnonell neu gyfrwng gwybodaeth, y byd gweledig yn unig fydd gwrthddrych ymchwiliad, ac ymdrechir olrhain gweithrediadau y meddwl i ddeddfau gallofyddiaeth a fferylliaeth. Ond os golygir y meddwl fel yn meddu ei drysorau ynddo ei hun, yna cyfyngir y sylw i ddrychau neu ddelweddau y meddwl, a cheisir dangos nad yw y cwbl a glywir ac a welir pan yn effro, ond y delweddau hyn yn sefyll allan megys ychydig oddi wrthym, yr un modd ag y gwnant mewn breuddwyd. Nid yw athroniaeth India heb amlygiadau o'r tueddiadau gwahaniaethol hyn. Yn ol esboniadau Mr. Colebrook o honi [*Asiatic Researches*], mae Capila, un o'r enwau yn eu llenyddiaeth, yn gosod i lawr dair ffynnonell gwybodaeth; canfyddiad trwy y synwyrau, casgliad, a haeriad: ond yn ei gasgliadau, cyfynga ei hun at y perthynasau a hanfodent rhwng gwrthddrychau allanol; a chwanega haeriad yn unig er mwyn peidio ymddangos yn groes i honiadau y Vedas. Egwyddor gyntaf pob peth hefyd ydyw defnydd tragwyddol a digreedig, ac nid yw deall ond cynnyrch defnydd, ac felly yn llenwi ail le yn y gyfundrefn hon. Eto, nid oedd yr ochr wrthwynebol heb gynnrychiolwyr. Priodolir i un Gotoma athroniaeth feddyliol, sydd yn gosod y lle blaenaf i'r enaid, fel sylwedd gwahaniaethol oddi wrth y corff. Yn y gyfundrefn hon, yr enaid sydd yn cael y lle cyntaf. Ië, mewn rhai o'u llyfrau cyssegredig, dysgir olldduwiaeth yn ei ystyr eangaf: ni olygir fod Duw uwch law y byd, ac yn annibynol arno; ond efe ydyw enaid y byd. A thynir casgliadau oddi wrth y Vedas, sydd yn myned mor bell a gwadu y byd naturiol; ac felly, ffurfir yr athroniaeth ddelfrydig yn ei hystyr lwyraf. Er nad oes ond ychydig o

Digitized by Google

broflon o duedd ammheugar yn mabandod hanesiaeth Hindwaidd, eto cyrhaeddodd y bedwaredd ffurf athronawl, sef yr un gyfrinol, i ffurf bendant a dylanwad cyffredinol. Mae perthynas agos rhwng cyfriniaeth mewn crefydd ac athroniaeth; cryfha y naill y llall, ac y mae y ddau yn gydnaws â'r dull dychymygol a goddefol y treulia trigolion y dwyrain ran fawr o'u hoes dan ddylanwad hinsawdd boeth. Tybiant mai y ffordd i gyrhaedd dedwyddwch ydyw trwy fyfyrdod dwys: gan ddifodi, hyd y gellir, bob teimlad o ymwybyddiaeth personol, a chof o ddim a'u cyfarfyddodd: ac i'r dyben hwn i attal yr anadl, a rhoddi gorfodaeth ar holl synwyrau y corff. Yn y modd hwn tybygant y llyncir hwy i fyny yn y Duwdod.

ATHRONIAETH GROEG.

Yn Groeg y gwelir gwahanol dueddiadau athroniaeth wedi cyrhaedd eu cyflawn faintioli. Yno yr oedd pob peth—sefydliadau gwladol a chymdeithasol, manteision y tir a'r hinsawdd—yn cydweithio i gyffroi egni meddyliol, a'i symbylu nes iddo dreulio ei egni allan yn mhob gwedd y gall meddwl ymffurfio ynddo. Er pob ymchwiliad, nid oes un sicrwydd wedi ei gyrhaeddyd a oedd, neu pa beth oedd y gwirioneddau athronyddol a gysgodwyd yn eu dirgeledigaethau; ac felly, yr Ysgolion Ioniaidd a Phythagoraidd sydd yn ein cyfarfod gyntaf fel amlygiadau diammheuol o ymdrech y Groegiaid i dreiddio i mewn i ystyr pethau. Cyfyngai y ddwy ysgol hyn eu hunain i'r gweledig; ond y mae dwy ffordd i edrych ar y pethau hyn—yn gyntaf ynddynt eu hunain fel gwrthddrychau y synwyrau; ac yn ail, yn eu perthynasau. Edrychai Thales, a sylfaenwyr yr ysgol Ioniaidd, arnynt yn yr ystyr gyntaf; ac felly sylfaenasant gyfundrefn o anianaeth neu athroniaeth naturiol: ond dewisodd Pythagoras berthynasau bethau fel gwrthddrychau ei efrydiaeth, ac felly yr arweiniodd at feintoniaeth a rhifyddiaeth, y rhai sydd yn gogwyddo i'r ochr gyferbyniol. Ond yn Athen y cyrhaeddodd athrylith y Groegiaid nawn ei thywyniad. Yma y cyffrowyd ysbryd athronyddol a ymgodai uwch law terfynau cyfyng anian, a chyssegrodd ei hun i gylch y meddwl, ei berthynasau, ei deimladau moesol, a'i ddyledswyddau cymdeithasol. Socrates a arweiniodd i mewn y cynhyrfiad hwn; ond yn ngweithiau ei ddysgyblion, Plato ac Aristotle, y cyrhaeddodd ei addfedrwydd; ac ynddynt hwy y gwelwn y ddwy gyfundrefn gyferbyniol wedi eu gweithio allan mor bell ag y goddefai dylanwad sobr a gochelgar Socrates iddynt. Y mae Platoniaeth bron yn hollol yn gadael allan y synwyrau fel cyfrwng neu ffynnonell gwybodaeth, am fod y gwrthddrychau yn unigol a chyfnewidiol, ac felly yn anghyfaddas i fod yn feini yn nheml athroniaeth. Cynlluniau cyffredinol yn unig ydynt wrthddrychau myfyrdod ganddo ef; ac y maent hwy o flaen y lluniau crëedig, a pharhant yn anghyfnewidiol trwy holl gyfnewidiadau a dilyniad diorphwys y cysgodau sydd yn ymrithio o flaen y synwyrau. Y cynlluniau hyn ydynt wir wrthddrychau y meddwl, neu yn hytrach y rheswm; ond eto nid y rheswm sydd yn eu cyfansoddi, neu yn eu creu; ond y mae iddynt hanfodiad annibynol, a golygir hwynt fel priodoliaethau y rheswm Dwyfol. Addefa Aristotle fod tri dosbarth o wirioneddau;—y rhai a dderbynir trwy ymresymiad—gwirioneddau cyffredinol, sydd â'u ffynnonell yn nghyfansoddiad meddwl dyn—a gwirioneddau neillduol, sydd yn dyfod i'n meddiant trwy ein synwyrau. *Didoliad* (*abstraction*), ydyw egwyddor sylfaenol yr athroniaeth Blatonaidd; *h.y.* didoli y cynlluniau anghyfnewidiol oddi wrth y ffeithiau neu y geiriau sydd yn wisg dreuliadwy o'u hamgylch; ond *dosbarthiad* o'r ffeithiau hyn ydyw prif nodwedd yr un Aristotelaidd. Ond eto y mae addefiad o wirioneddau cyffredinol sydd â'u preswylfa yn y rheswm yn peri nad oes yn Aristotle ond tuedd at synwyroliaeth, a hyny am ei fod yn rhoddi mwy o le i ffeithiau nag i egwyddorion. Ond yn ymdrafodiaeth ei ddysgyblion cyrhaeddodd eithafion y duedd hon. Rhedodd athroniaeth Groeg trwy bob gradd oddi wrth yr ammheuyddiaeth llwyraf hyd at yr haeriadaeth (*dogmatism*) mwyaf ymhongar. Weithiau, ymwrthodai yn hollol âg argraffiadau y synwyrau fel elfen gwybodaeth: bryd arall, y rhai hyn oedd y cwbl, a rhedai i bob ffurf rhwng y ddau. Pe rhoddem mewn cynnifer o frawddegau eto brif ymegnïadau y genedl fwyaf athrylithgar yn hanes y byd i geisio esbonio dirgeledigaethau bywyd, ceid gweled fel yr oedd y naill yn achlysuro y llall; a phrin y byddai yn ormod i ddyweyd y cynnwysai hyny grynodeb o hanes athroniaeth y byd. Credai yr ysgol Ioniaidd fod pob gwirionedd a sylwedd mewn ysgogiad parhaus; ond wrth weithio allan y syniad, deuir yn fwy i'r penderfyniad mai rheswm ydyw yr egwyddor sydd yn trefnu holl ysgogiadau y greadigaeth. Cymmerodd y Pythagoriad, y nesaf mewn trefn, i fyny yr efrydiaeth o gydgordiad a chyfartaledd pethau cyfnewidiol, gan fod y rhai hyn yn arosol a digyfnewid; addefent bethau cyfnewidiol, a hônent hefyd eu bod mewn perthynas anghyfnewidiol â'u gilydd; esgeulusent y blaenaf, a gwnaent gyfundrefn o'r olaf. Gwrthodai yr Eleaticiaid, y drydedd ysgol athronyddol cyn Socrates, gydnabod dim yn wir ond a gydnabyddid gan reswm; a dadleuent yn erbyn rhoi dim ymddiried i hysbysiadau y synwyrau: ac yn unol â hyn, yn eu mysg hwy yr ymddangosodd y duedd ammheugar gyntaf; ac ar eu syniadau hwy yr ymreddfodd y twyllresymwyr (*Sophists*) yr ammheuyddiaeth mwyaf pendant, pa rai y treuliodd Socrates ei oes i'w gwneyd yn wrthddrychau ei wawdiaith, ei ymresymiadau, a'i ocheliadau. Yn nghanol y cymmysgedd o dwyll resymau a berw o opiniynau, cododd Socrates hawl y gydwybod i lywodraethu dynion, gan ddadgan mai hi oedd unig reol gwirionedd, rhinwedd, a dedwyddwch. Ac ymgasglodd o'i gwmpas hen ac ieuanc oedd yn awyddus am wybodaeth. Ond eto, parhaodd Socrates i ofyn pa beth oedd hanfod pethau, a chanolbwynt undeb yn nghanol amrywiaeth dirfawr y greadigaeth. Plato oedd y cyntaf a gymmerodd i fyny y cwestiwn hwn; ac ymgynnygiai at ei ateb trwy sefydlu cyfundrefn o gynlluniau neu ddelweddau ysbrydol a'i galluogai i gyrhaedd gwybodaeth o'r perffaith a'r da. Yn y fath gyfundrefn, tybiai efe y cyfarfyddai gwyddoniaeth a bodolaeth, rheswm a gwirionedd. Gosodai Aristotle yr un amcan ger ei fron, sef cyrhaedd yr hyn sydd wir a sylweddol; ond ymddiriedai efe ar ddigonolrwydd profiad a'r deall ymarferol i ganfod yr hanfodol yn y damweiniol, a'r egwyddor yn ei harddangosiadau anmherffaith. O'r fan yma nid oedd eisieu ond un cam i suddo dyn yn ol mewn argraffiadau a theimladau anianol. Cytunent oll mai chwilio yr oeddynt am *y da*:—gosodai Plato ef yn myd y meddwl; tybiai Aristotle y gellid ei gael mewn egni bywyd, a than rhyw ammodau penodol yn mhethau y corff. Dilynwyd ef gan

Digitized by Google

Epicurus, yr hwn a gymmerodd y cam pellach, ac a gredai fod daioni i'w gael yn y byd anianol, a'i fod yn gynnwysedig mewn defnyddiad doeth o bleserau cnawdol. Nid oedd Plato nac Aristotle wedi rhoddi boddlonrwydd yn eu hesboniadau o'r cyssylltiad sydd rhwng Duw a'r greadigaeth;—pa beth ydyw egwyddor y berthynas sydd rhwng yr Anfeidrol a'r Anweledig â'r meidrol a'r gweledig. Ymdrechodd y Stoiciaid lanw y diffyg hwn; ond i'r dyben yma, gwnaethant y Bod Goruchaf yn Dduw corfforol, yr hwn, ar yr un pryd, sydd yn llawn o fywiogrwydd. Ynddo ef y mae pob sylweddau a chynlluniau yn hanfodi, ac efe ydyw gwrthddrych athroniaeth; ond eto y mae efe a phob peth yn gorfforol a theimladwy. Dyledswydd uchaf dyn ydyw ymostwng i'r deddfau sydd yn ei amgylchynu, a chydnabod nad oes dyben uwch i fywyd nag aberthu ein hunain yn ddeallus iddynt. Ac yn hyn y terfynodd athroniaeth y Groegiaid, gan ddysgu nad oes dim mewn bod ond y byd, ond fod y byd gyda'i ddeddfau yn Dduw; ac mai dyledswydd a doethineb dyn ydyw gorwedd i lawr yn ddigyffro, i'w holwynion fyned drosto, fel y gwna yr Hindoo o flaen cerbyd Juggernaut: a phan y syrthio pawb yn aberth i ddeddfau y greadigaeth, y cyfyd byd newydd o lwch ac ar gynllun yr hen fyd, i ddybenu yr un modd.

ATHRONIAETH RHUFAIN.

Yn y wedd hon yr aeth athroniaeth Groeg i blith y Rhufeiniaid; ond dirywiodd yn eu dwylaw hwy i fath o ddetholedigaeth ddysgedig, yr hon nid oedd amgen na rhyw gymmysgedd o elfenau dewisedig, o duedd ammheugar, a'r cwbl yn cael eu cymhwyso at amgylchiadau bywyd gyda'r dyben o feithrin gwrolder annhyblyg yn nghanol yr amseroedd enbyd hyny. A hyn oedd athroniaeth y Rhufeiniaid, yn ei dyddiau goreu, fel ei harddangosir yn Marcus Aurelius, yr "ymherawdwr philosophaidd," fel y gelwir ef gan Gibbon. Rhoddwyd i fyny o'r diwedd yr ymchwiliad am wirionedd gan sectau Rhufain; a daeth eu hamcan i fod, nid cael allan ddeddfau pob peth, ond amddiffyn eu hunain yn erbyn pob peth, pawb yn ei lwybr ei hun, ac felly gwneyd eu hunain yn hunanddigonol.

ATHRONIAETH ALEXANDRIA, A'R CANOLOESOEDD.

Trosglwyddwyd trysorau Athen a Groeg i Alexandria, dinas newydd Alexander Fawr. Ymsefydlodd yno, gallwn ddywedyd, dair ysgol athronyddol—un Iuddewig, un baganaidd, ac un Gristionogol—y tair yn cytuno i roi gwarogaeth i Plato, ond yn gwahaniaethu yn yr elfenau a gymmysgent â'i syniadau ef.

Philo, Iuddew Alexandriaidd, dysgybl i Aristotle a Plato, oedd canolbwynt y gyntaf, tua dechreu y cyfnod Cristionogol. Honai efe ei fod wedi darganfod yn llyfrau cysseggredig ei genedl yr hyn oedd yn cytuno â syniadau dyfnaf athroniaeth Groeg—yr hyn oedd yn eu hesbonio a'u cadarnhau. Pa mor anghywir bynag oedd yr honiad hwn, cafodd ddylanwad dirfawr; a Philo yr Iuddew oedd tad y cynhyrfiad a barhaodd am rai canrifoedd dan yr enw "y Blatoniaeth Newydd." Dyma y pryd y daeth Alexandria i feddu athroniaeth ei hun. Prif ddysgawdwyr yr ysgol baganaidd oedd Plotinus a Proclus; a Chlement ac Origen oeddynt addurniadau penaf yr un Gristionogol. Yr oedd Paganiaid a Christionogion Alexandria yn cytuno yn hyn; sef fod y pethau a welwn, natur â'i holl ymddangosiadau, wedi eu geni i farw, cysgodau yn unig o sylweddau anweledig: tra y mae pethau tragwyddol yn hanfodi heb gynnydd, gwywdra, na chyfnewidiad; a hwynthwy yw yr unig bethau sydd â gwirionedd yn perthyn iddynt; y maent yn anweledig i'r synwyr, y deall, a'r dychymyg, nid oes yn eu canfod ond y rheswm a'r gydwybod. Y mae y geiriau a briodolir i Plotinus, tad addefedig y Blatoniaeth Newydd, pan ar fin marw, yn cynnwys yr oll o'i athroniaeth:—"Yr ydwyf yn ceisio dwyn y Duw sydd o'n mewn i gydgordiad â'r Duw sydd yn y byd." Cynnwysa hefyd bwynt ymadawiad y ddwy ysgol hyn oddi wrth eu gilydd. Buasai Pantænus, Origen, Clement, ac Awstin yn ateb—"Yr ydym ni ar y llaw arall yn tystio fod y Duw sydd yn y greadigaeth yr un a'r Duw sydd ynom ni, a'i fod ef yn ymdrechu ein dwyn ni i gydgordiad âg ef ei hun. Dyna y gagendor mawr rhwng yr athroniaeth baganaidd a'r athroniaeth Gristionogol; ac i'r dyn sydd wedi neidio drosti, y mae cwestiynau tywyll y byd wedi newid. Yn ol Plotinus a'i ysgol ef, y mae dyn yn chwilio am Dduw; ond yn ol Clemens a'i ddysgyblion, y mae Duw yn chwilio am ddyn. Gyda y cyntaf, y mae Duw yn oddefol: ond gyda yr olaf, y mae Duw yn weithgar, a dyn yn oddefol; hyny yw, yn oddefol mor bell ag mai ei ddyledswydd ef ydyw gwrandaw pan lefarir wrtho, edrych tua'r goleu sydd wedi ei godi o'i flaen, ac ymostwng i'r awdurdod sydd yn ei alw i ufudd-dod.

Y canoloesoedd sydd yn cyfansoddi y cyfnod pwysig nesaf mewn gwyddoriaeth feddyliol, pryd y dygwyd Aristoteliaeth i'r un berthynas â Christionogaeth ag yr oedd Platoniaeth yn yr adeg flaenorol: am hyn, gwel YSGOLORIAETH. Yn yr eilfed ganrif a'r bymtheg y dechreuodd athroniaeth ddiweddar mewn ystyr briodol—athroniaeth annibynol ar ddylanwad eglwysig, ac hefyd ar hynafiaeth clasurol. Edryched y darllenydd am brif nodweddau athroniaeth Bacon, Descartes, Locke, &c., dan eu henwau priodol.

DULLIAU ATHRONYDDOL.

Gan fod gwahanol athronwyr, nid yn unig wedi dechreu mewn gwahanol ragosodiadau neu egwyddorion, ac hefyd wedi cyrhaedd gwahanol benderfyniadau fel ffrwyth eu llafur, y mae gwahaniaeth hefyd i'w ganfod yn y DULL (*method*) a ddefnyddient i drafaelio oddi wrth y naill i'r llall. Cyhoeddodd Descartes, yr hwn a gyfrifir yn dad athroniaeth ddiweddar, draethawd ar y *Dull o iawn ddefnyddio y Rheswm, a chwilio am y Gwirionedd yn y Gwyddorion:* a'r dull a esbonia efe yn y traethawd hwn, a elwir DULL DESCARTES. Yr hyn a feddylir wrth *ddull,* yn yr ystyr hwn, ydyw corff o reolau i'n cynnorthwyo i gyrhaedd dyben penodol: a chan ei fod yn amlwg fod natur a nodweddiad y rheolau sydd yn cyfansoddi dull yn dibynu ar natur a nodweddiad y dyben mewn golwg; o ganlyniad, gwahaniaetha dulliau yn ol eu dyben, a phenderfynir nodweddiad dull athronyddol wrth natur neu ddyben yr athroniaeth.

Cyfarfyddir â thri dull amlwg wahaniaethol yn hanes athroniaeth. Yn 1. Dull Sylwadaeth. I gyfansoddi unrhyw wyddor yn ol y dull hwn, y mae dau beth yn angenrheidiol—ffeithiau a syniadau (*facts and ideas*); sylwadaeth ar bethau allanol, ac egnïad mewnol o eiddo y meddwl; neu, mewn geiriau ereill, synwyr a rheswm. Yn unol â'r dull hwn, y mae gwir wybodaeth yn gynnwysedig mewn deongli natur; ac mewn unrhyw weithred o ddeongliad, rhaid cael yr ysgrif, a medr i'w darllen. Nid yw ffeithiau eu hunain ond pentwr o geryg—cynllun y meddwl a all ffurfio teml o honynt; ond nodweddiad y dull

Digitized by Google

hwn, fel y cyfarfyddir âg ef mewn hanes athroniaeth, ydyw, *rhoddi mwy o arbenigrwydd i'ffeithiau nag i syniadau y meddwl.* Ac yn y wedd unochrog yma, yr esboniadau goreu arno ydyw ysgrifeniadau Mill [*System of Logic, by J. S. Mill*]: ac oddi ar y safle synwyryddol hon y mae Lewes wedi ysgrifenu hanes athroniaeth [*Biographical History of Philosophy, by G. H. Lewes*]: ond yr hwn sydd wedi cario allan yr ochr hon bellaf, heb gael ei ddychrynu gan y casgliadau sydd yn tarddu yn angenrheidiol o honi, ydyw Comte, yn yr hyn a elwir *The Positive Philosophy; Positivism.*

2. Dull Adfyfyriaeth (*Reflective Method*); trwy yr hwn y mae y meddwl yn ymdrechu gweithio ei hun, neu ymwthio megys, i natur, gwreiddyn, ac undeb sylfaenol pob peth. Y mae deddfau y meddwl fel yn ffurfio pob peth ar ei ddelw ei hun. Y mae y dull cyntaf yn rhedeg i'r ail, os rhoddir arbenigrwydd neillduol i'r syniadau neu y cynlluniau meddyliol. Yr anghreifftiau goreu a geir o'r dull hwn ydyw Plato, yr Academy newydd, Descartes, Leibnitz, Kant, Jacobi. Hefyd, yr ysgrifenwyr ar foesddysg, sydd yn dechreu gyda rhyw syniadau penodol o'r hyn sydd *dda*, ac yn ceisio gwasgu yr holl ffeithiau i ffurfiau rhesymegyddol. Ac yn mhlith duwinyddion, ni gawn Schleiermacher a'i ganlynwyr, yn yr Almaen, sydd yn ffurfio eu cyfundrefn ar brofiad y Cristion, wedi ei esbonio gan nerth adfyfyriol y meddwl.

3. Dull Rheswm pur (*Method of pure Reason*); yr hwn sydd yn amcanu at ddarganfod a geirio deddfau rheswm, fel pe hwy yn unig fyddai sylweddau tragwyddol. Nid yw ymddangosiadau allanol ond cysgodau o ddeddfau ac egnion y meddwl, ac adlewyrchiad diflanawl o'i yni cynnyrchiol yn y byd. Yn y dosbarth hwn, rhaid rhoi Esgob Berkeley, Malebranche, Fichte, a Hegel. Gwel CREFYDD; DUWINYDDIAETH; UCHANIANAETH, &c.—(*Ritter's History of Philosophy; Encyclopædia Metropolitana; Alexandria and her Schools; Sir W. Hamilton's Reviews.*

ATHRYWYNWR, (*trywyn*): dyhuddwr; heddychwr; un yn ysgaru rhwng ymrafaelwyr. "Nid oedd athrywynwr rhyngddynt." Yn ol yr Hebraeg, "Nid oedd gwaredwr rhyngddynt:" "And there was none to part them."—*Seis.* "Ac a athrywyn rhwng cedyrn:" "And parteth between the mighty."—*Seis.* Dywedir hyn am y coelbren:—"Gellir," medd M. Henry, "roddi terfyn hyd yn oed ar gynhenau y cedyrn trwy goelbren, os nad allant ddyfod i gytundeb trwy ryw ffordd arall, a gellir gwneyd hyn weithiau trwy goelbren yn well na thrwy resymau, y rhai ydynt ddiddiwedd; neu oddefiadau i'r rhai ni foddlonant i ymostwng: ond nid yw yn iselhad ar ddyn i ymostwng wrth benderfyniad y coelbren, wedi unwaith yr eir i benderfynu unrhyw achos gydag ef. Rhanwyd Canaan trwy goelbren er mwyn rhagflaenu cwerylon: a phe na buasai y dull hwn wedi cael ei halogi gan chwareyddiaethau, gallesid ei arfer yn fuddiol er penderfynu llawer o ddadleuon, i ogoniant Duw, a boddlonrwydd y pleidiau, a chaniatau fod hyny yn cael ei wneyd gyda gweddi a difrifwch dyladwy;" *Act.* i. 26.

AUDEAID, neu AUDIAID: plaid o ymneillduwyr, dilynwyr Audæus. Yr oedd Audæus, neu fel y gelwid ef yn Syriaeg, Udo, yn byw yn Mesopotamia, tua dechreu y bedwaredd ganrif. Yr oedd yn ddyn o fywyd duwiol a dichlynaidd, trwy yr hyn yr ennillodd gryn ddylanwad yn mysg y bobl gyffredin. Er mai lleygwr oedd ei hun, eto, wrth weled bydolrwydd ac anfoesoldeb y gweinidogion a'r esgobion, ceryddai hwynt yn llym; yr hyn a barodd iddynt ei erlid, ac o'r diwedd ei esgymuno yn hollol o'r eglwys. Eithr nid oedd y camwri hwn ond yn peri iddo ef, a'r rhai a ymunasant âg ef, fyned yn mhellach, ac ymffurfio yn blaid ar eu penau eu hunain, a gwneuthur mwy o ymdrech i daenu eu hegwyddorion. Ordeiniwyd ef yn esgob arnynt, ac yn fuan ymunodd amryw esgobion â hwynt. Ymwrthodent â phob cymdeithas â'r blaid eglwysig, hyd yn oed gyduno â hwy mewn gweddi. Dywedai eu gwrthwynebwyr eu bod yn dal Anthropomorphiaeth [gwel dan y gair], yn nghyd â chyfeiliornadau ereill. Ond y cyhuddiad mwyaf pwysig a roddid yn eu herbyn ydoedd, eu bod yn cynnal eu Pasc ar amser Pasc yr Iuddewon, yn groes i benderfyniad Cynghor Nice. Dywedid mai o weniaith i'r ymherawdwr Cystenyn y gwnaent hyny, am fod y pryd hwnw yn cyfateb i adeg ei enedigaeth ef. Wedi myned Audæus yn hen mewn dyddiau, alltudiwyd ef i Scythia, lle yr ennillodd amryw ganlynwyr yn mhlith Cristionogion y wlad hono, ac y bu yn offerynol i ennill amryw o'r Gothiaid oddi wrth baganiaeth. Pa fodd bynag, o dipyn i beth, diflanodd y blaid hon yn hollol erbyn diwedd y bedwaredd ganrif. — (*Neander's Church Hist.; Mosheim's Eccl. Hist.*)

AUDIENTIAID, [*audio=gwrandaw*]. Yn yr oesoedd dilynol i'r apostolion, trefnwyd fod i'r rhai a ddychwelent at Gristionogaeth gael eu gosod dan addysg, mewn ffordd o ragbarotoad i fedydd a chymmundeb eglwysig. Yr oeddynt oll, ar y cyntaf, yn un dosbarth; sef y rhai a addysgid o'r neilldu, a'r rhai y caniatëid iddynt ddyfod i'r eglwys i wrandaw y gair yn cael ei ddarllen a'i bregethu. Yr olaf yn unig, yn ol tyb rhai, a elwid yn Audientiaid; ond dywed Neander, fod yr enw yn cymmeryd i mewn y naill a'r llall.—(*Bingham's Antiquities; Neander's Church Hist.*)

AUGUSTI, CHRISTIAN JOHANN WILHELM: duwinydd nodedig o'r Almaen, a anwyd Hydref 27ain, 1771, yn mhentref Eschenberge, ger llaw Gotha, lle yr oedd ei dad yn weinidog eglwys. Gwedi derbyn o hono elfenau dysg yn arysgol Gotha, yn 1790 aeth i brifysgol Jena, lle, o dan y dysgedig Griesbach, yr ymroddodd i fyfyrio duwinyddiaeth ac ieithyddiaeth. Yn 1789, dechreuodd ei yrfa fel athraw athrofaol yn Jena. Yn 1800, gwnaed ef yn broffeswr anghyffredin yn y brifysgol hono; ac yn 1803, efe a olynodd Ilgen yn nghadair llenyddiaeth ddwyreiniol, yr hon, yn 1807, a gyfnewidiodd efe am yr un dduwinyddol. Yn 1811, gwahoddwyd ef gan lywodraeth Prwssia i gadair duwinyddiaeth yn mhrifysgol Breslau, ac anrhydeddwyd ef hefyd âg eisteddle yn llys eglwysig talaeth Silesia. Yr oedd ei ddylanwad ar brifysgol Breslau, ac ar bob sefydliadau addysg yn Silesia, yn fawr dros ben. Yn 1819, penodwyd Augusti i fod yn brif broffeswr duwinyddiaeth yn mhrifysgol newydd Bonn, a gwnaethpwyd ef ar yr un pryd yn gynghorwr y llys eglwysig yn Nghwlen. Yn ysbaid ei arosiad yn Bonn, cynnyddodd ei ddylanwad ar yr Eglwys Brotestanaidd yn nhalaeth y Rhine yn dra chyflym, a phenodwyd ef yn 1833 yn gyfarwyddwr llys eglwysig Coblentz. Er amled ei orchwylion ereill, parhaodd i draddodi ei ddarlithiau yn y brifysgol hyd ei farwolaeth, Ebrill 28ain, 1841.

Digitized by Google

Yr oedd Augusti yn ysgrifenwr mawr, a chyhoeddodd gynnifer o gyfrolau ag ond odid neb o dduwinyddion toreithiog yr Almaen. Ar y cyntaf arweiniwyd ef gan ddylanwad Griesbach i ymuno â'r blaid feirniadol neu athronyddol mewn duwinyddiaeth: ond yn ystod y deugain mlynedd diweddaf o'i oes, yr oedd yn amddiffynydd gwresog i'r ffurf sefydledig o grefydd, ac ar yr un pryd yr oedd yn gwbl rydd oddi wrth ysbryd dallbleidiaeth. Gyda golwg ar ei olygiadau duwinyddol, gellir ei ystyried ef yn Lutheriad uniongred. Y rhan fwyaf o'i ysgrifeniadau sydd o ansawdd hanesiol neu hynafiaethol; ac y maent yn dra defnyddiol fel gweithiau i gyfeirio atynt; ond ystyrir hwynt yn ddiffygiol o ran teleidrwydd a symledd ffurf; a chynnwysant fwy o broflon o ddysg a diwydrwydd nag o wir ysbryd hanesydd. Ond dylid crybwyll fod y nodwedd yma, i raddau mwy neu lai, yn perthyn i'r rhan fwyaf o gyfansoddiadau yr Ellmyn. Y mae gwaith Augusti wedi ei ysgrifenu agos oll yn yr Almaeneg.

**AUGUSTUS**, sydd enw a roddwyd fel nod o anrhydedd gan senedd Rhufain i Caius Octavius, neu Caius Julius Cæsar Octavianus, fel y gelwid ef ar ol llofruddiad ei ewythr; ac a gymmerwyd wedi hyny gan ei ddilynwyr yn yr ymherodraeth. Ystyr y gair yw *sanctaidd;* a deillia oddi wrth *Augur*, enw y swynwr neu offeiriad a roddai nawdd y duwiau i'r ynadon Rhufeinig, fel y deillia *robustus*=grymus, oddi wrth *robur*=grym. Yr oedd yn gyfystyr â'r gair Groeg *sebastos*, neu barchedig; a defnyddiwyd ef i ddynodi y swydd ymherodrol, gan fod ymherawdwyr cyntaf Rhufain yn llywodraethu yr eglwys yn gystal a'r wladwriaeth. Ond er fod y teitl hwn yn cael ei gymmeryd gan yr ymherawdwyr ereill, y mae yn awr wedi ei neillduoli i Augustus, yr hwn a'i derbyniodd gyntaf; a chan hyny bydd yn fwy cyfleus i ni draethu ei hanes dan yr enw hwn, na than un o'i enwau ereill.

Yr oedd yn fab i Caius Octavius; a'i fam oedd Atia, merch Julia, chwaer Julius Cæsar; neu Wl Caisar, fel y gelwid ef gan y Cymry. Deilliai o deuluoedd anrhydeddus, o'r ddwy ochr; a ganwyd ef ar y 23ain o Fedi, c. c. 63, pan oedd Cicero y rheithydd yn un o brif swyddogion (*consul*) Rhufain. Collodd ei dad pan oedd yn bedair blwydd, ond gofalwyd am ei addysg gan ei famgu, ei fam, a'i lysdad, L. Marcius Philippus, yr hwn a briododd ei fam: a dangosodd C. Julius Cæsar, gan nad oedd iddo fab, gariad gwresog tuag at ei nai. Pan yn ddeuddeng mlwydd oed, traddododd araeth angladdol ar farwolaeth ei fam; a derbyniodd y *toga virilis*, neu y twyg gwrol, yn ei unfed flwydd ar bymtheg. Mor fore a c. c. 46, gwelwn ef yn wrthddrych parch Cæsar, yr hwn a roddodd iddo ran o'r gwobrwyon milwrol a roddwyd i'w fyddin ar achlysur ei fuddugoliaethau Affricaidd, er nad oedd Octavius yn y rhyfel hono. Y flwyddyn ganlynol (c. c. 45), dilynodd ei ewythr i'r Yspaen, i'r rhyfel yn erbyn meibion Pompey, ac yr oedd yn gyd-ddrychiol yn muddugoliaeth Munda; ac yn ystod yr un flwyddyn danfonwyd ef i Apollonia, yn Illyricum, lle yr oedd amryw lengoedd yn sefydledig, i'r dyben iddo gael adnabyddiaeth fwy trwyadl o filwrddysg ei wlad, i barhau ei efrydiau dan Apollodorus a Pergamus, ac i fod yn barod i hebrwng ei ewythr yn ei ymgyrch bwriadol yn erbyn Daciaid a Pharthiaid. Heblaw y nodau hyn o ewyllys da, yr oedd eisoes wedi ei benodi yn un o'r un ar bymtheg uwch-offeiriaid (*pontifex*), trwy ddylanwad Cæsar; ac wedi derbyn yr anrhydedd o gael ei raddio yn foneddwr yn ol y gyfraith Cassiaidd: ond cyn bod chwe mis yn Apollonia, clywodd (Mawrth, c. c. 44) am lofruddiad ei ewythr. Nid oedd y pryd hyny ond deunaw oed, a chynghorid ef gan ei lysdad i ymwrthod â gorchwylion gwleidiadol; ond, ar ol ychydig ystyriaeth, gwrthododd gynghorion Philippus, a chroesodd y môr i'r Ital, yn nghyd â Vipsanius Agrippa, ac ychydig o gyfeillion ereill. Cafodd dderbyniad croesawus gan y llengoedd yn Brundusium, yn nechreu Ebrill; a phan glywodd yno fod Cæsar wedi ei fabwysiadu yn ei ewyllys, ac wedi ei wneyd yn etifedd iddo, cymmerodd arno yr enw Cæsar, a chyfarchwyd ef felly gan y milwyr. Ar yr 18fed, yr oedd eisoes wedi cyrhaedd Naples; ac yno, ddau neu dri diwrnod wedi hyny, cyfarfu â Cicero yn nhŷ ei lysdad. Cyrhaeddodd Rhufain o ddeutu canol mis Mai, a chyhoeddodd ei benderfyniad i ddial llofruddiad ei ewythr: ond ni ofynodd am ddim ond y cyfoeth personol a adawid iddo gan Cæsar; ac ni hònodd un awdurdod gwleidiadol.

Yn y cyfamser, yr oedd sefyllfa y pleidiau gwleidiadol yn dra chymmysglyd; ond nid allwn beidio rhyfeddu o herwydd y cyfrwysdra a'r callineb anarferol a ddangosodd Octavius, a'r deheurwydd a arferai dyn ieuanc dan ugain oed i dwyllo y gwladweinyddwyr mwyaf profiadol yn Rhufain, ac yn ystod amser, i ddwyn ei holl amcanion i ben. Yr oedd dwy blaid yn y ddinas; sef pleidwyr Marc Antony, a'r blaid weriniaethol. Yr oedd Antony yn dechreu dangos ei ddybenion: ac oni buasai dyfodiad Octavius, yr oedd y ddwy blaid yn bur debyg i anturio i faes y gwaed; ond gohiriwyd hyny am ychydig; ac ar ymddangosiad Octavius, ffurfiwyd rhes o gynllwyniadau, nad yw yr hanesydd wedi eu llwyr ddeall hyd y dydd heddyw. Fel dialydd ei ewythr, tueddid ef i gyssylltu ei hun âg Antony; ac fel llysfab i Philippus, tueddid ef at y blaid weriniaethol: ond canfu yn eglur fod yn rhaid iddo orthrechu y ddwy blaid; ac yna ymroddodd at y gorchwyl, gan wrthwynebu y mwyaf peryglus, sef Antony, yn mlaenaf, ac ymuno â'r llall. Yr oedd eisoes, yn Naples, wedi dodi Cicero i gredu y rhodiai yn ol ei gynghorion; ac wrth gymmeryd arno enw mawr ei ewythr, rhoddodd awgrym i'r llengoedd a ddeallwyd yn drwyadl. Ymdrechodd Antony ei rwystro i dderbyn etifeddiaeth ei ewythr, ond methodd yn ei amcan; ac ar gynnygiad Octavius i ymuno â'r gweriniaethwyr, rhoddwyd iddo yr enw anrhydeddus Prætor gan y senedd, a phenodwyd ef, yn enwedig pan drodd dwy leng o'i blaid, yn nghyd â'r ddau brif swyddog am y flwyddyn hono, sef C. Vibius Pansa ac A. Hirtius, i fyned yn erbyn Antony, yr hwn oedd yn gwarchae D. Brutus yn Mutina. Gorchfygwyd Antony, a gyrwyd ef ar ffo dros yr Alpau; a rhoddodd marwolaeth y prif swyddogion yr awdurdod oll yn nwylaw Octavius. Ofnodd y seneddwyr, wrth weled y ffeithiau hyn, a phenderfynwyd ei rwystro rhag ennill rhagor o awdurdod: ond dangosodd efe yn fuan nad oedd ar fedr bod yn was i'r senedd; a chyrchodd ei fyddin tua Rhufain. Hawliodd y gonsuliaeth; a chydsyniodd y senedd frawychus â'r cais. Etholwyd ef, yn nghyd â Q. Pedius; a chyhoeddwyd fod llofruddwyr Cæsar allan o nawdd y gyfraith. Cyrchodd yn awr tua gogledd yr Ital, mewn enw o wrthwynebiad i Antony, yr hwn oedd wedi uno â Lepidus, ac yn disgyn o'r Alpau, a chanddynt ddwy leng ar bymtheg o filwyr: ond unasant â'u gilydd; a rhan-

Digitized by Google

wyd yr ymherodraeth rhyngddynt, dan yr enw *Triumviri rei publicæ constituendæ*. Y tri wŷr hyn a gymmerasant arnynt y gorchwyl o gydlywodraethu; ac yr oedd y cytundeb i barhau pum mlynedd. Cyhoeddasant gyfres o'u gelynion, y rhai oeddynt i golli eu bywydau a'u cyfoeth: a rhoddwyd dwy fil o farchogion, a thri chant o seneddwyr, i farwolaeth; yn mhlith ereill, y rheithydd Cicero. Yn fuan wedi hyny, croesodd Octavius ac Antony i wlad Groeg, a gorchfygasant Brutus a Cassius yn mrwydr Philippi, c. c. 42. Trwy y frwydr hon, diddymwyd y blaid weriniaethol; ac yna, rhanwyd yr ymherodraeth unwaith eto. Rhoddwyd Affrica i Lepidus, a chymmerwyd y gweddill rhwng y ddau arall; ond ar ddychweliad Octavius i'r Ital, i wobrwyo ei filwyr â'r tiroedd a addawodd iddynt, codwyd gwrthryfel yn ei erbyn gan Fulvia, gwraig Antony. Cefnogwyd hi gan frawd ei gŵr, sef L. Antonius, y consul, yr hwn a amddiffynodd ei hun yn ninas gaerog Perusia, nes i Octavius gymmeryd y lle, c. c. 40. Parotodd Antony yn awr at ryfel; ond bu farw Fulvia; a heddychwyd rhwng y ddau flaenor yn Brundusium. Rhanwyd yr ymherodraeth eto; cymmerodd Octavius gymmaint ag oedd y tu gorllewinol i dref Scodra, yn Illyricum; a chafodd Antony y rhanau dwyreiniol; tra yr oedd yr Ital i fod yn eiddo pob un o'r ddau: ac i gadarnhau y cynghrair, priododd Antony chwaer i Augustus o'r enw Octavia.

Ymroddodd pob un yn awr i lywio ei dalaeth ei hun; ac yn c. c. 39, cymmododd Octavius â Sextus Pompey, llynges yr hwn a roddodd iddo fanteision ar y môr i rwystro ŷd rhag dyfod i Rufain. Ond nid oedd yr heddwch i barhau; canys nid oedd ddichonadwy i Octavius gael holl lywodraeth y gorllewin tra yr oedd Pompey yn annibynol; ac am hyny cyhoeddodd ryfel yn ei erbyn dan yr esgus ei fod yn goddef môr-ladrad i gymmeryd lle yn Môr y Canoldir. Terfynwyd yr ymryson yn c. c. 36; gorchfygwyd ef gan Agrippa, llyngesydd Octavius; a gorfu arno adael Sicily a ffoi i Asia. Tiriodd Lepidus yn Sicily i gefnogi Octavius; a chan ei fod yn anesmwyth o herwydd ei sefyllfa ddianrhydeddus, hawliodd yr ynys iddo ei hun: ond darostyngodd Octavius ef yn fuan, cymmerodd ei awdurdod oddi wrtho, a danfonodd ef i Rufain, lle y treuliodd y gweddill o'i einioes heb un anrhydedd ond y brif offeiriadaeth.

Wedi diswyddo Lepidus, ymosododd Octavius ar yr Illyriaid a'r Dalmatiaid, neu yn hytrach ar y Iapydiaid (disgyniaid Iaphet?), y Liburniaid neu Liguriaid (Lloegrwys), a'r Dalmatiaid; a darostyngodd hwynt i'w awdurdod, c. c. 35 a 34: ond yn y cyfamser yr oedd Antony wedi ysgaru Octavia, ac wedi anfoddloni y Rhufeiniaid, trwy ei weithredoedd trahaus ac anghyfreithlawn yn y dwyrain. Canfyddodd Octavius fod y Rhufeiniaid yn barod i adael Antony, ac yna (c. c. 32) cyhoeddodd y senedd ryfel yn erbyn Cleopatra, brenines yr Aipht, gan nad ystyrid Antony ond fel offeryn yn ei dwylaw hi. Treuliwyd y flwyddyn mewn parotoad o bob ochr. Y gwanwyn, c. c. 31, aeth Augustus drosodd i Epirus; ac yn mis Medi ennillodd ei lynges fuddugoliaeth Actium. Yn y flwyddyn ganlynol, hwyliodd Octavius tua'r Aipht; a gosododd Cleopatra ac Antony derfyn ar eu bywydau. Dychwelodd Octavius yn awr yn unig lywodraethwr yr ymherodraeth i Rufain, yn y flwyddyn 29; ac wedi adferu trefn yn mhob rhan o'r llywodraeth, cynnygiodd yn y senedd i osod terfyn ar ei awdurdod; ond deisyfodd y senedd arno gadw y llywodraeth am ddeng mlynedd: ac yntau, gan ffugio anfoddlonrwydd a gydsyniodd â'r cais. Gwnaeth yr un peth amryw weithiau wedi hyny; ac ar bob achlysur bu Augustus mor fwyn a chydsynio i gymmeryd y drafferth o lywodraethu oddi ar ysgwyddau y seneddwyr. Gwrthododd bob anrhydedd a rhagoriaeth a dueddai i ddwyn y Rhufeiniaid mewn cof o'r awdurdod breninol; ond c. c. 33, derbyniodd yr hen deitl *imperium proconsulare*, trwy yr hwn y gwnaed ef yr awdurdod uchaf yn Rhufain; ac hefyd yr enw Augustus, c. c. 27; a'r *tribunitia potestas* dros ei fywyd, trwy yr hwn y cafodd sicrhad cyfreithlawn o'i ddihalogrwydd. Ar farwolaeth Lepidus, c. c. 12, aeth yn uwch-offeiriad (*pontifex maximus*); ond er fod yr holl brif swyddau yn awr yn ei feddiant, yr oedd yn rhy gall i ddangos i'r Rhufeiniaid, trwy un trawsweithrediad, mai efe oedd eu hunig feistr. Yr oedd heb neb gweinyddwyr yn yr ystyr presennol; ond pan ddeuai pethau pwysig ger ei fron, dewisai iddynt gael eu trin yn gyhoeddus; ymgynghorai â'i gyfeillion personol—C. Clinius Mæcenas, M. Vipsanius Agrippa, M. Valerius Messalla Corvinus, ac Asinius Pollio. Parhaodd y bobl i feddiannu eu breintiau gweriniaethol, er nad oeddynt ond ffug bethau; cyfarfyddent yn gyhoeddus fel arfer, ac etholent y consuliaid a'r ynadon; ond nid oedd neb yn cael eu hethol ond y sawl a benodwyd neu a noddwyd gan fyr ymherawdwr. Gwnaeth gwyliau a champau aneirif i'r bobl anghofio eu rhyddid cyntefig; ac o herwydd cyfraniadau o ŷd a phethau cyffelyb, ufuddhäent yn ddirwgnach i'w rheolydd newydd. Yn ei ryfeloedd yn erbyn cenedloedd ereill, nid oedd yn awyddus i eangu terfynau yr ymherodraeth, ond yn hytrach i gadarnhau yr hyn oedd ganddo eisoes. Dygodd rai o honynt yn mlaen yn bersonol; ond ei gyfeillion a'i berthynasau oedd y blaenoriaid yn y rhan fwyaf. Felly, c. c. 27, ymosododd ar y Cantabriaid a'r Asturiaid, pobloedd ryfelgar yn Yspaen; ond ni ddarostyngwyd hwynt hyd c. c. 19, dan lywyddiad Agrippa. Yn c. c. 21, tramwyodd Sicily a gwlad Groeg, a threuliodd y gauaf yn Samos. Yn y flwyddyn olynol, aeth i Syria, a derbyniodd oddi wrth Phraates, brenin Parthia, y llumanau a'r carcharorion a gymmerwyd oddi wrth Crassus ac Antony. Yn c. c. 16, gorchfygwyd y Rhufeiniaid dan Varus, gan yr Ellmyn, ar yr afon Rhine; ac yna aeth Augustus yn eu herbyn yn bersonol; a threuliodd bedair blynedd yn nhalaeth Gaul, i drefnu y llywodraeth, ac mewn parotoadau i ymosod ar yr Ellmyn. Yn y flwyddyn c. c. 9, aeth i Gaul eilwaith, ac yno y cyfarfu genadon Ellmynaidd yn deisyf heddwch. Heddychwyd rhyngddynt am ychydig. Ni chymmerodd Augustus un ran bersonol yn y Rhyfeloedd Rhufeinig wedi hyny. Yn B. A. 14, aeth o Rufain i Beneventum, i hebrwng ei lysfab Tiberius, ar ei ffordd i Illyricum; ond ar ei ddychweliad, bu farw yn Nola, yn yr un ystafell a'i dad, B. A. 14, yn un ar bymtheg a thrigain mlwydd oed. Dygwyd y corff i Rufain, a chladdwyd ef gyda pob anrhydedd yn y Wyddfa (*Mausoleum*), yn maes Mawrth. Bu yn briod ddwywaith, a thrafferthodd lawer o blegid etifedd, ond yn aflwyddiannus; a gorfu arno fabwysiadu ei lysfab Tiberius i fod yn etifedd iddo, ac yn ymherawdwr ar ei ol.

Yn ei gorffolaeth yr oedd yn gymmedrol o ran hyd; ac yr oedd ei berson yn hynod am ei hardd-

Digitized by Google

wch, er na chymmerai nemawr o drafferth i'w addurno; ond carai weniaith y rhai a hònent ddysgleirdeb dwyfol i'w lygaid, y rhai oeddynt yn dra hynodol o herwydd eu harddwch a'u tanbeidrwydd. Noddai lenyddwyr ei oes; ac yr oedd ei hun yn awdwr. Defnyddiwyd gweithiau hanesyddol o'i gyfansoddiad ef gan Plutarch ac Appian; ac er fod y gwaith ar goll, bernir fod Suetonius yn cyfeirio at yr un ysgrif, pan sonia am hunan-fywgraffiad yr awdwr mewn tri llyfr ar ddeg; yr hwn a ddisgynai hyd amser y rhyfel Gantabriaidd. Cyfansoddodd bryddest dan yr enw *Sicilia*, ac amryw bennillion: ac ysgrifenodd ddien-chwedl (*tragedy*) dan yr enw *Ajax;* ond gan nad oedd yn ei foddio, ni chafodd yr ysgrif ei chyhoeddi. Cyhoeddwyd gweithiau Augustus gan Fabricius, yn 1724; ond nid yw ei lewyrch llenyddol yn tarddu oddi ar ei weithiau ei hun. Dangosodd lawer o garedigrwydd i'r beirdd Rhufeinig, Virgil a Horace; cyfeillachodd â hwynt, a chymmerodd y ddau dan ei nawdd: ac o herwydd hyn yn fwyaf neillduol yr enwyd ei deyrnasiad ef yn "oes Augustaidd llenyddiaeth y Rhufeiniaid." Enwyd mis Awst oddi wrtho ef; a dygwyd hwn gan y Cymry, yn nghyd âg enwau Ionawr, Chwefror, Mawrth, Ebrill, a Mai, tra y bu Prydain dan lywodraeth Rhufain.—(*Cicero; Horace; Virgil; Ovid; Velleius; Tacitus; Plutarch; Appian; Suetonius; Dion Cassius; Clinton's Fasti: Smith's Classical Dictionary: Penny Cyclopædia*).

**AUR**: Seis. *gold;* oddi wrth *golud.* Y defnydd pwysicaf, dwysaf, mwyaf cyfan, goddefgar, pur, a pharhaus o'r holl fetteloedd. Dywed Boerhaave, oddi ar brawf, ei fod mor sefydlog, fel y goddefai wns o hono ei gadw yn y ffwrnais boethaf am ddau fis o amser heb golli un gronyn o'i bwysau. Ystyrir yr aur y gwerthfawrocaf o bob adwyn. Pan y byddo yn ei gyflwr pur a digymmysg, y mae o liw melyn dysglaer. Efe yw y trymaf o'r holl feteloedd, oddigerth platina yn unig. Y mae ei bwysiant yn 19·640 gradd, mewn cyferbyniad â 1,000 o ddwfr pur, o ran swm neu faintiolaeth. Gofyna 5,237 gradd o wres, yn ol gwresfesurydd Fahrenheit, er ei doddi. Goddef ei guro rhwng dalenau o grwyn, priodol at y perwyl, i eangder dirfawr. Y mae mor dringar fel y gellir estyn un grain o hono i wisgo gwyfyr arian dros 63 o latheni o hyd. Goddefa gwyfyr o hono, na byddo dros y ddegfed ran o fodfedd o dryfesur, grogi 500 pwys wrthi heb dori. Y mae yr aur i'w gael yn dalpiau cyfain yn Hungary, Transylvania, a Peru; mewn gronynau bychain yn yr India Orllewinol; ac yn ddalenau teneuon yn Siberia. Y mae i'w gael yn y cloddfeydd a ddarganfyddwyd yn ddiweddar yn Califfornia ac Awstralia, yn mhob dull a modd. Y mae ychydig o hono wedi ei gael yn wasgaredig trwy yr yspâr cyffredin mewn amryw barthau o sir Feirionydd.

Yr oedd yr adwyn hwn yn adnabyddus, ac yn cael ei werthfawrogi yn oesoedd boreuol y byd. Yr oedd yr afon Pison, sef yr Euphrates, "yn amgylchu holl wlad Hafilah, lle y mae yr aur. Ac aur y wlad hono sydd dda." Yr oedd Abraham yn gyfoethog iawn o aur (*Gen.* xiii. 2). Ac y mae Iob yn dechreu ei sylwadau ardderchog ar ragoroldeb gwir ddoethineb, trwy ddyweyd fod "gwythen i'r arian, a lle i'r aur, lle y coethant ef." Y mae yn amlwg fod cyflawnder o hono yn adeiladaeth y deml: dywed y Dr. Kitto fod yno o leiaf werth 213,320 o bunnau. Yr oedd trigolion boreuol Asia yn gyfoethog iawn o hono; o blegid yr oeddynt wedi cyrchu symiau dirfawr i'w gwlad o wahanol barthau o Affrica a Iudea.

Yr oedd yr aur yn cael ei godi yn ein gwlad ni yn fuan wedi, os nad cyn, dyfodiad y Rhufeiniaid yma. Yr oedd y genedl hono wedi talu sylw uchel yn fore i fwnyddiaeth. Gwybyddir, trwy hanesion credadwy, ei fod yn cael ei godi yn lled helaeth yn nghloddfeydd Gogofau, yn sir Gaerfyrddin, yn neheubarth Cymru. Y mae cryn raddau o hono wedi ei gael, o bryd i bryd, yn Nghernyw, er yr amserau boreuaf. Yr oedd gweithydd lled helaeth o hono yn cael eu dwyn yn mlaen yn amser Iorwerth I., yn Comb Martin, swydd Devon: bu y cynnyrch yno yn gynnorthwy mawr i Iorwerth, y Tywysog Du, er dwyn yn mlaen ei ryfeloedd yn erbyn Ffrainc. Yn y flwyddyn 1390, rhoddodd Richard II. yr hawl i un John Younge, eurych medrus y pryd hwnw, ar yr holl fwn aur ac arian a geffid drwy holl diroedd Lloegr, ar yr ammodau canlynol; sef, bod y nawfed ran o hono yn cael ei dalu i'r goron, y ddegfed i'r eglwys, a'r unfed ar ddeg i feddiannydd y tir lle y byddo yn cael ei gloddio.

Y mae y mwnyddion diweddar yn barnu fod rhyw raddau o hono i'w gael yn mhob gwlad, ond fod y swm yn rhy fychan i dalu y draul am ei gloddio a'i lanhau. Gwelir nodiadau arno yn ei gyssylltiad â threiglaeth a bathiant gwahanol genedloedd y byd mewn manau ereill o'r gwaith hwn. Gwel ARIAN; MWNYDDIAETH.

**AVATAR**, neu **AVATARA**, y gelwir ymgnawdoliaeth y duwiau, yn nuwinyddiaeth yr Hindwaid. Ystyr y gair Sanscrit, *Avatâra,* yw disgyniad; ond cyfyngir yr arferiad o hono, fynychaf, at ymddangosiad y duwiau mewn rhyw ddull gweledig yn mhlith dynion ar y ddaiar. Y mae gwybodaeth Ewropiaid i raddau yn anmhenderfynol gyda golwg ar amryw bethau yn nghrefydd a chwedloniaeth trigolion boreuol Hindwstan; ond bernir yn gyffredin fod athrawiaeth yr Avatâr yn perthyn i gyfnod diweddar mewn cymhariaeth yn nghyfundrefn dduwinyddol y bobl nodedig hyny; gan nad ydys yn medru canfod dim crybwyllion am dani, na chyfeiriadau ati, yn eu hysgrifeniadau henaf. Elfenau natur, a'r rhai hyny yn aml wedi eu dwyfoli, yw y pethau y sonir am danynt fel gwrthddrychau addoliad crefyddol yn y cyfansoddiadau boreuol hyn.

Y mae y *Pwrana*, neu gerddi ffughanesiol yr Hindwaid, yn crybwyll am lawer iawn o'r ymgnawdoliadau hyn o eiddo y duwiau; ïe, dywedir fod ymgnawdoliadau Vishnw ei hun agos yn aneirif. Brahma, Vishnw, a Siva, yw y tri duw a ffurfiant drindod yr Hindwaid; ond i Vishnw (y duwdod fel cynnaliwr) yn benaf y perthyn Avatârau, neu ymgnawdoliadau. Cyfrifir hwynt yn wahanol; ond ymddengys fod pawb yn cytuno mai y deg canlynol yw y rhai mwyaf pwysfawr a nodedig:—

1. *Matsya,*—y Pysgodyn. Ar yr agwedd hon y bu i Vishnw gadw Manw, tad yr hiliogaeth bresennol o ddynolryw, yn ystod dylif cyffredinol.

2. *Kûrma,*—y Crwban. Yr ymgnawdoliad hwn a gymmerth Vishnw arno er mwyn cynnal mynydd Mandara, neu yn hytrach yr holl ddaiar, pan oedd y duwiau nefol, yn nghyd â'u gwrthwynebwyr, yr Asuras, neu y Daityas, yn corddi y môr i wneuthur diod anfarwoldeb o hono.

3. *Varâha,*—y Baedd. Yn yr ymgnawdoliad hwn, arddangosir Vishnw â phen baedd anferthol, yn lladd Hiranyâcsha, penaeth yr Asurus, yr hwn

Digitized by Google

a gymmerasai feddiant o'r bröydd nefol, ac yn codi y ddaiar, yr hon a suddasid i eigion y môr.

4. Yn ei ymgnawdoliad fel *Narasinha*—hanner dyn a hanner llew—y lladdodd Vishnw Hiranyacasipw, brawd Hiranyâcsha.

5. Ar lun *Vâmana*, y Corach, y darostyngodd Vishnw falchder y brenin Bali. Efe a aeth i aberth yr oedd y brenin yn ei offrymu, a cheisiodd ganddo roddi iddo gymmaint o dir ag a allai fesur â thri cham. Caniatawyd ei ddymuniad; ac wele, prifiodd y corach yn ddisymmwth i'r fath faintioli dirfawr, fel y mesurodd y ddaiar, canolfro yr awyr, a'r wybren, â'i dri cham.

6. Ymddangosodd Vishnw ar wedd ddynol, megys *Parasurâma*, mab Iamadagni a Renwcâ, er mwyn gwaredu dynolryw, yn enwedig y Brahminiaid, oddi wrth ormes llwyth milwraidd y Cshatriyas.

7. Ganed Vishnw megys mab Dasaratha frenin, ac o dan yr enw *Râma*, er mwyn dinystrio Râvana, penadur Ceylon, ac ysbrydion drwg ereill, y rhai oedd y pryd hwnw yn blino y ddaiar. Ar orchestion Râma y mae yr hanesgerdd Sanscrit nodedig, a elwir Râmâyana, wedi ei sylfaenu. Cyhoeddwyd y gân hon yn y wreiddiaith, gyda chyfieithiad Lladin rhagorol, gan A. W. Schlegel, yn 1829.

8. Yr ymgnawdoliad mwyaf nodedig o eiddo Vishnw yw ei ymddangosiad ar wedd ddynol *Krishna*. Tybir iddo, ar yr agwedd hon, ymgnawdoli yn hollol ac yn wirioneddol, tra na chyfrifir ei ymgnawdoliaethau ereill ond haniadau neu ffrydiau o'i hanfod. Krishna oedd ran o Vishnw, yr hwn a gydsyniasai i gael ei eni o Devaki, gwraig Vaswdeva. Pan gymmerodd y gyfran hon o Vishnw ei lle yn mru gwraig, dechreuodd y planedau osgoi mewn trefn ddysgleirwych yn y ffurfafen; yr oedd y tymmorau yn dirion ac yn rheolaidd; teimlai y rhinweddol fwynderau newyddion; dystawodd y gwyntoedd cryfion; peidiodd yr afonydd â'u twrf, ond rhedasant yn dawel tua'r cyfanfor. Cynnorthwyodd Krishna deulu y Pandavas yn eu rhyfeloedd â'r Kwrwys, a thrwyddynt hwy efe a waredodd y ddaiar oddi wrth y dynion drwg a'i gorthryment. Adroddir gorchestion ac anturiaethau Krishna, yn yr ymgyrch hwn, mewn hanesgerdd hirfaith arall yn y Sanscrit, a elwir Mahâbhârata. Y mae y rhan fwyaf o'r testyn gwreiddiol wedi ei argraffu; ac y mae y cyfieithiad Seisonig o amryw ddarnau o'r gwaith wedi ymddangos.

9. *Bwddha*, a gyfrifir gan ddilynwyr crefydd y Brahminiaid yn ymgnawdoliad gau neu dwyllodrus o eiddo Vishnw, yr hwn, yn eu tyb hwy, a gymmerth efe arno er mwyn tueddu yr Asuras i ymwrthod â gosodiadau cyssegredig y Vedas (ysgrythyrau yr Hindwaid), trwy yr hyn y collasant eu grym a'u huchafiaeth.

10. *Kalki* y gelwir yr ymgnawdoliad sydd eto i ddyfod. Y mae naw wedi myned heibio, ond y mae y degfed a'r olaf eto yn ol. Ar yr agwedd hon yr ymddengys Vishnw ar ddiwedd y Kali Ywga (oes ymrafael a diffeithder), neu gyllwr presennol y byd, i ddystrywio pob drwg ac anfoes, ac i adferu rhinwedd a phurdeb ar y ddaiar. Yr ymgnawdoliad yma fydd dechreu y Satya Ywga, neu oes euraidd y byd.

Byddai yn anhawdd cyfrif gwahanol ymgnawdoliadau y mân dduwiau, y rhai y mae chwedloniaeth yr Hindwaid yn dryfrith o gyfeiriadau atynt. Ni wyddys fod son yn unlle am Brahma neu Siva wedi ymgnawdoli; ond ymddengys y cyfyngir hyny, yn mhlith y prif dduwiau, i Vishnw yn unig.

Gyda golwg ar yr Avatârau hyn, y mae un o'r ysgrifenwyr boreuaf ar hynafion India yn traethu ei feddwl yn yr ystyr ganlynol:—"Digon yw sylwi fod yr ymgnawdoliadau hyn yn arddangos y duwiau fel yn disgyn ar agwedd ddynol—naill ai i gyflawnu rhyw weithredoedd pwysfawr ac arswydus, megys yn y tri ymgnawdoliad cyntaf; ai i ddyrysu dynion yn eu hamcanion drwg a chableddus, dymchwelyd trais a gormes, a dial am ddiniweidrwydd gorthrymedig, megys yn y pump sydd yn canlyn; ai yn olaf, megys yn y degfed, i sefydlu cyfundrefn ogoneddus o sefydliadau daionus ar adfeilion coelgrefydd dywyll a gwaedlyd. Gweithredoedd ardderchog yn ddiau yw y gweithredoedd hyn; y maent yn deilwng o dduw; ac at y gwahanol ddisgyniadau hyn i Vishnw yn benaf y mae y rhan fwyaf o gerfiadau ac arluniau yr Hindwaid yn cyfeirio." Ond tybia ereill nad ydyw ymgnawdoliadau Vishnw, oddi eithr y tri chyntaf, ac hefyd y degfed, ddim amgen na gwroniaid, y rhai, mewn amser o berygl a chyfyngder mewn gwlad, a enwogasant eu hunain yn y fath fodd ag i haeddu eu dwyfoli. Os cywir y golygiad hwn, y mae yn amlwg ddigon nad yw duwiau amryfath Hindwstan, o ran eu hach a'u dechreuad, yn gwahaniaethu nemawr oddi wrth dduwiau Groeg a Rhufain, ac ereill o wledydd cenedlig y cynamseroedd.

Gwelir fod yr athrawiaeth yn nghylch ymgnawdoliaeth y Duwdod wedi ymdaenu yn mhlith cenedloedd hynaf a dysgedicaf y byd, ac hyd yn oed yn mhlith y rhai hyny na chaniatawyd iddynt lythyren y dadguddiad dwyfol. Y mae yn debygol mai rhyw dyb nid annhebyg i hyn oedd gan drigolion eilunaddolgar Lycaonia, pan y dywedasant gyda golwg ar Paul a Barnabas, "Y duwiau yn rhith dynion a ddisgynasant atom" (*Act.* xiv. 11). Tybiai y paganiaid yn gyffredin fod y bodau nefol yn cymmeryd arnynt agweddau dynol i ymweled â thrigolion y ddaiar, i gospi y drwg ac i wobrwyo y da. Y mae *Metamorphosis* Ovid yn llawn crybwyllion am y cyfryw ymweliadau; ac felly y mae Homer, Virgil, a beirdd cenedlig ereill. Hwyrach mai gwaith angelion yn ymweled âg Abraham, Lot, Iacob, ac ereill o saint y Goruchaf, a roddes sail i adeiladu y chwedlau hyn arni. Fel y canlyn y sonia Homer am y gofwyon a delid gan yr anfarwolion i breswylwyr y llawr:—

"*Και τε Θεοι, ξεινοισιν εοικοτες αλλοδαποισι,*
*Παντοιοι τελεθοντες επιστρωφωσι ποληας,*
*Ανθρωπων ὑβριν τε και ευνομιην εφορωντες.*"

*Odyss.* xvii. 485.

Yn rhith dyeithriaid yn gorfforol
Y disgyna'r duwiau nefol,
Yn fynych i'r dinasoedd mawrion,
I weled anfad fuchedd dynion.

Yr oedd gan Ovid dyb gyffelyb, lle y mae yn darlunio Iau fel yn disgyn i ymweled â'r ddaiar, yr hyn, fel yr ymddengys, a fenthyciwyd o *Gen.* xviii. 20, 21; "Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd, Am fod gwaedd Sodom a Gomorrah yn ddirfawr, a'u pechod hwynt yn drwm iawn; disgynaf yn awr, ac edrychaf, ai yn ol eu gwaedd a ddaeth ataf fi y gwnaethant yn hollol: ac onid e, mynaf wybod."

"Contigerat nostras infamia temporis aures:
Quam cupiens falsam, summo delabor Olympo.
Et deus humanâ lustro sub imagine terras.
Longa mora est, quantum noxæ sit ubique repertum
Enumerare: minor fuit ipsa infamia vero."

*Metam.* i. 211.

Croch ddadwrdd y ddiryw oes wyrgam ddigrefydd,
Dolefus gri'r baban, a llid y gorthrymydd,
I'r nef a gyrhaeddodd: dywedais, "Disgynaf,
I brofi yr achwyn yn gelwydd os gallaf:
Ar agwedd gorfforol o gylch y byd teithiais;
Er cymmaint a glybum, mwy ganwaith a welais."

Digitized by Google

Yr oedd yn gred sefydlog yn mhlith yr hen Aiphtiaid fod eu duwiau, weithiau yn rhith dynion, ac weithiau yn rhith anifeiliaid a gyfrifent hwy yn gyssegredig, yn disgyn ar brydiau i'r ddaiar, ac yn teithio trwy wahanol daleithiau, i gospi y drygionus, i wobrwyo y rhinweddol, ac i amddiffyn y diniwed. Gwel BRAHMA; BWDDHA; CHRISHNA; MANW; PWRANA; RAMA; SIVA; VISHNW.—(*Vans Kennedy's Researches into Hindu Mythology; Wilson's Vishnw-Purâna; Maurice's Indian Antiquities; Rigveda*, argraffiad Rosen; *Asiatic Researches*, cyf. xii. xv. xvii; *Hamilton's Description of Hindostan; Penny Cycl.*)

**AUDEAID**, [*Audæans, Audiani*]: dilynwyr Audæus (a elwir gan Mosheim, Ardæus), yr hwn, yn ol pob hanes am dano, ydoedd ddyn o fuchedd ddichlynaidd, o'r bedwaredd ganrif. Ar ol iddo gael ei esgymuno yn Syria, o blegid ei wrthwynebiad rhydd a dyfal i ymddygiadau llygredig a halogedig y clerigwyr, a cael ei alltudio i Scythia, efe a sefydlodd gymdeithas grefyddol yno, ac a wnaed yn esgob neu arolygwr arni, yn ol y cynllun cyntefig, gan weithio â'i ddwylaw, yn ol cyfarwyddyd Paul i esgobion Ephesus (*Act.* xx. 17, 18, 28—35), i'w gynnal ei hun, ac i "gynnorthwyo y gweiniaid" a fyddent mewn eisieu. Cyhuddir ef o fod yn Anthropomorphiad [gwel ANTHROPOMORPHIAETH], gan yr arferai egluro yr Ysgrythyrau, fel y dywedir, yn rhy lythyrenol. Seilid y cyhuddiad yma, efallai, ar ei waith yn gwrthod esboniadau cyfriniol a choelgrefyddol rhai o'r tadau uniongred Pabyddol; ond ei brif gyfeiliornad oedd cadw y Pasc yr un amser a Phasc yr Iuddewon, yn groes i ganon Cymmanfa Nice; yr hyn a wnaed, fel y dywedir, i foddio Cystenyn, trwy gadw y Pasc ar ddydd genedigaeth yr ymherawdwr.—(*Mosh.; Turner; Bell; Williams.*)

AUDIENTIAID, [*audientes*=gwrandawyr]: dosbarth o egwyddoriaid a oddefid i wrandaw darllen pregethau a'r Ysgrythyrau yn yr eglwys, mewn rhyw oesoedd a gamenwid yn gyntefig! Fe ymddengys wrth hyn y bu "gwrandaw *darllen* pregethau a'r Ysgrythyrau yn yr eglwys" yn gryn gyfeiliornad unwaith—yn ddim amgen na pheth i'w oddef. Pe buasai yr Audientiaid yn byw yn Lloegr ar hyn o bryd, canfuasent fod pethau wedi newid yn dra boddhaol i'w harchwaeth hwy; canys yn lle bod "darllen pregethau a'r Ysgrythyrau yn yr Eglwys" yn beth i'w oddef, cawsent ei fod wedi ei sefydlu yma trwy rym defod a chanon, os nad drwy rym cyfraith hefyd.—(*Bingham's Ant. Will.*)

AVE MARIA, [*Hail Mary*=Henffych well, Mair]: sydd un o weddiau mynychaf Eglwys Rhufain ar Mair. Gelwir y weddi yn "*Ave Maria*," am mai dyna y ddau air cyntaf o honi yn Lladin; megys hefyd y gelwir Gweddi yr Arglwydd yn "Pader;" a'r Salm "Ti, Dduw, a folwn," &c., yn "*Te Deum*," &c.

Rhenir *Ave Maria* gan y Pabyddion yn dair rhan:—1. Yr hyn a lefarodd yr angel Gabriel: *Luc* i. 28: "Henffych well, Mair, cyflawn wyt ti o ras; mae ein Harglwydd gyda thi; bendigedig wyt ti yn mysg merched." 2. Yr hyn a lefarwyd gan Elizabeth: *Luc* i. 42: "A bendigedig yw ffrwyth dy groth di, Iesu." 3. Yr hyn a "gyfansoddodd eglwys Dduw (yr Eglwys Rufeinig) yn erbyn y rhai a wadent fod y forwyn Fair yn fam Duw;" "Sancteiddiol Fair, Mam Duw, gweddïa drosom ni, bechaduriaid, yr awr hon, ac yn awr ein hangeu. Amen."

Bu cryn ddadl rhwng dynion a barchent air Duw, ac a deimlent dros ei burdeb, yn erbyn Eglwys Rhufain am ei chyfieithiad uchod o ciriau yr angel. Teimlir yn gyffredin gan y Protestaniaid nad yw y frawddeg, "cyflawn wyt ti o ras," yn addas i'w chymhwyso at greadur, pwy bynag. Dadleua lluaws o'r dysgedigion blaenaf nad yw *gratia plena*="cyflawn o ras," yn gyfieithiad cywir o'r gwreiddiol (κεχαριτωμένη); ond y dylid ei gyfieithu, "yr hon a gefaist ras," neu "a dra ffafrwyd." Cadarnha Eglwys Rhufain ei chyfieithiad drwy ddwyn i'r ddadl mai "cyflawn wyt o ras" yw y cyfieithiad Syriaidd hynaf, &c., ac mai felly y deallai y tadau yr ymadrodd.

Ond nid ydys yn gweled bod un gwir achos i'r pleidiau gyndynu ar hyn: nid ydyw y naill yn ennill dim drwy ei chyfieithiad neillduol, na'r llall yn colli dim; o herwydd os myn Eglwys Rhufain gyfieithu κεχαριτωμένη yn *gratia plena* (cyflawn o ras), yn *Luc* i. 28, ceir hi drachefn dan orfod, yn *Ioan* i. 14, i gyfieithu πλήρη χάριτος yn *plenum gratiæ* (cyflawn o ras); *Act.* ii. 13, γλεύκους μεμεστωμενοι yn *musto pleni* (cyflawn o win melus); *Act.* ii. 4, πληρεις Πνεύματος ἁγίου yn *plenos Spiritu Sancto* (cyflawn o'r Ysbryd Glân), &c. Lluaws ereill o esamplau ellid gael o'r Testament Newydd: felly hefyd y gallesid dilyn yr hynafol gyfieithiad Syriaidd, yr hwn a arfera ei *mello* am *gyflawnder*, pa un bynag ai yn hanfodol ai yn gyfraniadol y byddo. Felly, yr hyn a ellir ei ddysgu oddi wrth y cyntaf am Mair, oddi wrth yr ymadrodd *gratia plena*, ellir hefyd ei ddysgu am yr apostolion a Stephan, oddi wrth yr ymadroddion *musto pleni*, a *plenos Spiritu Sancto*.

AWDURDOD—AU, [ἐξουσία]. Arwydda—1. Llywodraeth, arglwyddiaeth, rheolaeth: *Mat.* xxviii. 18; *Ioan* v. 27; xvii. 2. 2. Cenad, rhyddid i wneuthur yn ol fel y byddo un yn ewyllysio: *Rhuf.* ix. 21; 1 *Cor.* ix. 4, 5, 6, 12, 18; 2 *Thes.* iii. 9: yn yr ystyr yma y cyfieithir y gair yn *Act.* i. 7; v. 4: yn 1 *Cor.* vii. 37, *meddiant:* yn 1 *Cor.* viii. 9, *rhyddid:* ac yn *Dad.* xxii. 14, *braint.* 3. Gallu i wneuthur unrhyw beth; nerth, grym, effeithioldeb: *Mat.* vii. 29; ix. 8; *Marc* i. 22. 27; *Luc* iv. 32, 36; x. 19; xii. 5; xix. 10, 11; *Act.* viii. 19; *Dad.* ix. 3, 19: yn *Ioan* x. 18, *meddiant:* ac yn *Dad.* ix. 10, a xiii. 12, *gallu.* 4. Dirprwyaeth, hawl, llawn allu: *Mat.* ix. 6; xxi. 23, 84, 27; *Marc* ii. 10; iii. 15; xi. 28, 29, 33; *Luc* v. 24; xx. 2, 8; *Act.* ix. 14; xxvi. 10, 12; 2 *Cor.* x. 8; xiii. 10; *Heb.* xiii. 10; *Dad.* xiii. 5. 5. Rhaglawiaeth, llywyddiaeth: *Luc* iv. 6: yn *Luc* xxiii. 7, *llywodraeth.* Gelwir swyddogion gwladol yn *awdurdodau*, fel y maent wedi derbyn penodiad i weinyddu y deddfau: *Luc* xii. 11; *Rhuf.* xiii. 1, 2, 3; *Tit.* iii. 1. A chyda golwg ar ryw raddau, y naill uwch law y llall, yn mysg yr angelion sanctaidd a'r cythreuliaid, y cyfeirir atynt o dan y cymmeriad o *awdurdod* ac *awdurdodau: Eph.* i. 21; iii. 10; *Col.* ii. 15; 1 *Pedr* iii. 22. Yn *Col.* i. 16, cyfieithir ef *meddiannau* yn yr ystyr yma. "Dylai y wraig fod ganddi awdurdod ar ei phen;" 1 *Cor.* xi. 10:—cyfeiriad at arferiad yn mysg gwragedd o wisgo gorchudd ar eu gwynebau i ddangos eu hymostyngiad i'w gŵyr. "For this reason ought the woman to have a *veil* on her head."—*Macknight.* "Wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad: wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob *awdurdod*, a nerth;" 1 *Cor.* xv. 24:—holl elynion ei eglwys.



Digitized by Google

AWEL: chwa, gwynt. "Gydag *awel* y dydd;" *Gen.* iii. 8:—Seis., "In the *cool* of the day;"—Deg a Thrigain, "Yn *mhrydnawn* y dydd"=τὸ δειλινόν. Tybia rhai mai at fore y dydd y cyfeirir; ond dywed ereill mai at yr hwyr, gyda'r awel hyfryd a gyfodai gyda machludiad yr haul. Pa fodd bynag, y mae yn cyfeirio at adeg yr oedd Duw yn arfer rhoddi ei bresennoldeb mewn rhyw ddull i'w greadur gymdeithasu âg ef. "*Awel* dysgeidiaeth" (*Eph.* iv. 14), a arwydda gyfeiliornadau, y rhai sydd yn cyfnewid yn ol amgylchiadau a mympwyon dynion, mewn cyferbyniad i wirionedd, yr hwn sydd yn anghyfnewidiol:—cyfeiriad ydyw at darth yn cael ei ysgubo ymaith pa ffordd bynag y byddo y gwynt yn chwythu ar y pryd; neu at long, heb na llyw na llywydd, yn cael ei gyru gan yr ystorm pa le bynag y dygwyddo iddi fyned.

AWENAU, [Llad., *Aonides, Musæ;* Gr., Μοῦσαι; Heb., מצא=*dychymygu*, neu מוסר=*dysgeidiaeth;* Seis., *Muses*]: a ystyrid, yn ol yr ysgrifenwyr boreuaf, megys duwiesau bywiocaol y gân; ac yn ol syniadau diweddarach, megys duwdodau yn llywyddu dros wahanol fathau o brydyddiaeth, a thros y gwybodau a'r celfyddydau. Darlunir hwynt yn gyffredin fel merched Iau (Zëus) a Mnemosyne; a dywedir iddynt gael eu geni yn Pieria, wrth droed Mynydd Olympus. Ymddengys mai tair oedd eu nifer cyntefig; ond yn ddiweddarach, lleferir am danynt yn wastad fel naw o nifer. Dyma eu henwau a'u cynneddfau:—

1. Clio: awen hanesyddiaeth, yr hon a ddarlunir mewn agwedd eisteddol neu safol, â rhol agored o bapyr, neu goffr o lyfrau, yn ei llaw.

2. Euterpe: awen prydyddiaeth delynol, yn dal chwibanogl yn ei llaw.

3. Thalia: awen cymawd neu ogusgerdd (*comedy*), a phrydyddiaeth ddigrifol neu gellweiriol, a ddarlunir gydag arabfwgwd, ffon bugail, a choronbleth o eiddew.

4. Melpomene: awen pruddgerdd neu dreiswawd (*tragedy*), yn dwyn mwgwd treiswawd, clwpa Hercules, neu gleddyf. Amgylchynir ei phen â dail gwinwydd; a gwisga 'r cwran (*cothurnus*) am dani.

5. Terpsichore: awen dawn a chanu corawl, a ddarlunir yn dwyn telyn a chyweirgorn.

6. Erato: awen serchbrydyddiaeth neu gariadeg (*erotic*), a digrif ddynwarediad, yr hon a ddarlunir weithiau yn dwyn telyn.

7. Polymnia neu Polyhymnia: awen yr emyn odidog, a ddarlunir yn gyffredin mewn agwedd syn a myfyriol, ac heb unrhyw addurn.

8. Urania: awen seryddiaeth, yn dwyn gwialen gyfeiriedig at gronell (*globe*).

9. Calliope, neu Calliopea: awen prydyddiaeth arwrol neu hanesol, a ddarlunir mewn cerfiadaeth yn dwyn llechen a phin cerfio, ac weithiau, gyda rhol o bapyr neu lyfr.

Dygwyd addoliad yr awenau o Thrace a Pieria i Bœotia; a'u hoff gyrchfa yn Bœotia oedd Mynydd Helicon, lle yr oedd y ffynnonau cyssegredig Aganippe a Hippocrene. Yr oedd Mynydd Parnassus hefyd, a'r ffynnonell Gastalianaidd yn gyssegredig iddynt. Prif aberthau yr awenau oedd diodoffrymau o ddwfr neu laeth, yn nghyd â mel. Pwy bynag a feiddiai ymgystadlu â'r duwiesau hyn mewn prydyddiaeth, fe'i cospid yn chwerw dost. Fe amddifadwyd y Sireniaid am wneyd hyny o bluf eu hedyn, y rhai a wisgwyd gan yr awenau fel addurniadau; a thrawsnewidiwyd naw merch Pierus yn adar, am ryfygu gwneyd yr un peth. Gan fod yr awenau yn dduwiesau y gân, yr oeddynt mewn cyssylltiad, yn naturiol, âg Apollo, duw y delyn, yr hwn a ddarlunir hyd yn oed fel arweinydd côr yr awenau, dan yr enw Musagetes=yr awenyddwr. Darlunid yr Awenau, yn gyffredin, fel gwyryfon ieuainc, prydferth, a boneddigaidd. Yr oeddynt yn hoff o unigedd, ac ymddangosent mewn gwahanol wisgoedd, yn ol y gwybodau a'r celfyddydau a lywyddent. Darlunir hwynt fel yn dawnsio yn un côr, i arwyddo'r un cyssylltiad agos ac anwahanadwy sydd rhwng y gwybodau a'r celfyddydau breiniol. Hefyd, yr oeddynt yn ymddangos weithiau âg adenydd ganddynt, trwy gymhorth y rhai yr osgöent ymosodion anllad Pyrenäus. Sefydlwyd addoliad yr Awenau braidd yn gyffredinol yn ngwahanol barthau tir Groeg, Thessaly, ac Italy. Trefnwyd gwyliau hefyd, er anrhydedd iddynt, bob pum mlynedd, mewn amryw barthau o Groeg, yn enwedig yn mysg y Thespiaid. Yr oedd y Macedoniaid hefyd yn cadw gŵyl er anrhydedd i Iau a'r Awenau. Anrhydeddwyd yr ŵyl hon gan y brenin Archelaus â chwareuon, campau, ac amryw arddangosiadau ereill, y rhai a barhäent am naw niwrnod, yn ol nifer yr Awenau.

Ni fyddai hen brydyddion paganaidd Groeg a Rhufain byth yn dechreu cerdd o bwys, heb daer erfyn cymhorth yr Awenau, fel duwiesau'r gân; ac er bod rhai prydyddion Cymreig, yn enwedig rhai o'r canoloesoedd hyd yn lled ddiweddar, wedi efelychu gormod, efallai, ar y paganiaid, yn eu herfyniadau am gymhorth yr Awen, wrth ddechreu eu cerddi; ac er bod y rhan fwyaf o'r beirdd wedi bod yn ei hystyried fel dawn neu rodd arbenig, os nad goruwchnaturiol, i rai personau neillduol i ganu; eto, nid oes un sail, yn ysgrifeniadau y prifawduron estronol nac yn yr hen gofion Cymreig, i gredu fod y Cymry erioed wedi bod yn edrych ar Awen fel *duwies*, nac erioed wedi bod yn cynnyg ei haddoli. Tybir fod y dyfyniadau canlynol yn cynnwys darluniad cywir o farn gyffredinol y Cymry gynt am Awen:—"Deuryw Awen y sydd; sef un o Dduw, ag un arall o Ddiawl a gafwyd yng Nghastell Bablon, pan gollwyd yr Awen a'r iaith oedd o Dduw, ag y cawyd yr Awen o Ddiawl, a chyda hi yr holl ieithoedd lledryw, a phob lledbwyll; a hon yw'r Awen a wed gelwydd mewn cerdd; ag a fwyha bechodau, a gwydiau, ag annysg, ag aflenogaeth, a phob annoethineb ac annedwyddwch, trwy ymarfer â gwrthwir, a chelwydd, a gwrthfarn, a gwrthryw, a gwrthbwyll, a gwrthfodd ar bob peth; yn lleihau pob daioni, a gwybodau, a champau daionus; a gwae fyth i ŵr yn berchen yr Awen hon! a gwyn ei fyd fyth y gŵr yn berchen yr Awen o Dduw." "Rhodd yr Ysbryd Glân yw Awen; ag nis dichon yr Ysbryd Glan, ys ef y Duw sanctaidd, wedyd celwydd; ac am hyny o bydd Awen gelwyddog, nid o Dduw y mae, eithr o gythraul." Syniad cyffelyb, fel y tybir, sydd yn yr englyn buddugol yma, ar yr holiad—"Pa beth yw Awen?"

"Gwên, a rhywiog lên Rhagluniaeth—awyddiant
O nefawl wybodaeth,—
Dylif o ysbrydoliaeth
Yw dawn a ffrwd Awen ffraeth."

Tybir, pa fodd bynag, mai y syniad mwyaf cyffredinol, erbyn hyn, a chywiraf hefyd, ydyw, fel y dengys y Dr. Watts, Buffon, Burns, ac ereill, nad yw awen yn ddim amgen nag athrylith, crebwyll, neu ddychymyg, cyfystyr â *genius*,

Digitized by Google

*fancy*, ac *imagination* y Seison; ac y gall pob dyn, i raddau mwy neu lai, fabwyso englyn prydferth Dewi Wyn, a dywedyd—

> "O! f' Awen, addien iawn wyd,—iawn oeddit
> Yn Adda pan grewyd;
> Rhesymol, eneidiol nwyd,
> Dawn natur pob dyn ytwyd."

Gwel Apollo; Barddoniaeth; Ceridwen.—(*Smith's Encycl. Brit.*; *Lempr.*; *Wright & Chis.*; *Cyfr. y Beirdd*, &c.)

**AWR**: o'r gwreiddair *aw*; o'r hwn, medd Dr. Pughe, y deillir pob gair sydd yn dynodi hylifedd, neu symmudiad llifnoddau; yn gystal hefyd y geiriau a ddynodant ansoddau annefnyddiol (*immaterial*); megys cymhelliad yr ewyllys, neu gynhyrfiad o eiddo y meddwl.

*Yr awr hon*, neu *yn awr*, a arwydda, yn bresennol; *yr awr hyn*, allan o law; *yn awr fach yr aeth*, y mae newydd fyned.

Ni ranai yr Hebreaid, yn yr hen amseroedd, eu diwrnod yn oriau; ond yn bedair o ranau; sef bore, anterth, nawn, echwydd. Rhenid y nos yn dri dosbarth, sef nos, hanner nos, a'r wyliadwriaeth fore. Neu, dosbarthent y diwrnod i'w ranau naturiol, o fore, canolddydd neu brydnawn, cyfnos, a nos (*Gen.* xv. 12; xviii. 1; xix. 1, 15, 23). Y crybwylliad cyntaf am *awr* neu *oriau*, a geir yn Daniel (iii. 15; iv. 19; v. 5); ac hyd yn oed yn y Deg a Thrigain, mae y gair ὥρα (*ôra*), bob amser yn arwyddo tymmor neu adeg o'r flwyddyn, mewn cydffurfiad âg ysgrifeniadau Groegaidd ereill. Yn Josephus [*Hen.* iv. 5, 2], arwydda ὥρα τοῦ θερους, y tymmor haf; a [*Rhyf. Iudd.* iii. 4. 2] ὥρα χειμῶνος, y tymmor gauaf. Ceir anghreifftiau cyffelyb o'r gair yn cael ei gymhwyso at wahanol dymmorau y flwyddyn yn Ælian, Thucydides, Xenophon, ac amryw awdwyr Groegaidd ereill. Arferir y gair *ôra* hefyd i ddynodi unrhyw adeg ar fywyd, megys adeg hoew ieuenctyd, neu addfedrwydd canol-oedran. Arwydda ὥρα του σωματος, yn Josephus [*Hen.* iv. 6, 8], brydferthwch corff; sef yr hoewder a'r harddwch a berthyn iddo yn nhymmor ieuenctyd. Yn Llyfr Daniel, a'r llyfrau Apocryphaidd, Tobit a Iudith, y ceir y gair yn cael ei arfer gyntaf am ran o'r dydd neu y nos. Dywedir (*Dan.* iv. 19) fod Daniel wedi bod "dros un awr" yn ystyried gweledigaeth Nebuchodonozor: a cheir amryw ymadroddion yn y llyfrau Apocryphaidd yn dynodi yr un peth; sef fod awr yn cael ei chymmeryd fel rhyw adran fechan o amser. Ni wyddai y Groegiaid ddim am ddechreuad y dull o ddosbarthu y dydd i oriau yn mysg cenedloedd ereill, ac nid olrheinient yr arferiad hwn yn eu plith eu hunain yn mhellach nag amser Aniximenes, yr hwn oedd yn byw yn amser teyrnasiad Cyrus, ac o ddeutu diwedd y caethgludiad Babilonaidd. Teithiodd yr awdwr hwn i Caldea, a gallasai ddwyn oddi yno y dull o ranu y diwrnod i oriau; a dywed Herodotus yn bendant [*Euterpe* 109], "fod y polyn (πολως=math o ddeial wrthgrynol wedi ei ffurfio fel yr entrych) a'r haul-ddeial, a dosbarthiad y dydd i ddeuddeg o ranau, wedi eu cymmeryd neu eu dysgu gan y Groegiaid oddi wrth y Babiloniaid." Ac y mae Xenophon yn dwyn Euthydemus yn mlaen, yr hwn a ddywed "fod yr haul yn dangos i ni oriau y dydd, a'r ser oriau y nos." Crybwylla Aristophanes hefyd am y mynegydd, ac am oriau. Gwna i un o'i gymmeriadau ofyn, Pa amser ydyw ar y ddeial? Dywed Jennings [*Jewish Ant.*] fod "yn anhawdd gwybod yn bresennol pa un ai yr Hebreaid a gafodd yr arferiad oddi wrth y Babiloniaid, ynte y Babiloniaid oddi wrthynt hwy;" ond y mae yn fwy tebygol mai i'r Babiloniaid y perthyn yr anrhydedd hwn, ac mai yn ystod eu harosiad yn Babilon y daeth yr Iuddewon yn gydnabyddus â'r dosbarthiad hwn ar amser. Y mae y ffaith na welir un arwydd eu bod yn gydnabyddus â hyn cyn eu caethgludiad o Babilon, yn ddadl gref yn erbyn eu hawl hwy i'r ddyfais; tra, ar ol eu dychweliad, y ceir crybwylliadau aml eu bod wedi ei chymmeryd; ac yn nyddiau ein Iachawdwr, ei bod yn arferiad sefydlog i ddosbarthu y dydd a'r nos i ddeuddeg awr bob un: *Mat.* xx. 3—5; *Ioan* xi. 9; *Act.* v. 7. Y mae yr awgrym cyntaf yn yr Hen Destament am ddosbarthiad ar y dydd, yn ffafriol i'r dybiaeth mai oddi wrth y Caldeaid y cafwyd ef, yn gystal a'r deial a arddangosai y dosbarthiad hwnw; o blegid adroddir fod Ahaz wedi ffurfio cynghrair â Tiglath-pileser, brenin Assyria (2 *Bren.* xvi. 7, 9); a chan ei fod yn ddyn o chwaeth, ac yn barod i dderbyn addysg hyd yn oed oddi wrth ddyeithriaid, fel yr ymddengys oddi wrth ei waith yn chwennychu allor gyffelyb i'r hon a welsai yn Damascus, y mae yn dra thebygol fod y ddeial a ddygai ei enw wedi ei dwyn o Caldea. Ymddengys felly fod awrfesuriaeth wedi ei gymmeryd gan y Groegiaid a'r Hebreaid oddi wrth y Caldeaid; fel yr adroddir am y naill gan yr hanesydd Herodotus; ac y gellir casglu am y llall oddi wrth amrywiol ddygwyddiadau a gofnodir yn yr Ysgrythyr.

Yr oedd yr holl genedloedd hynafol hyn yn gwneuthur un diffyg mawr yn eu dosbarthiad o oriau: gan fod eu diwrnod yn cael ei gyfrif o godiad hyd fachludiad haul, ac nid o adeg sefydlog canolddydd, fel y mae gyda ni, yr oedd y deuddeng awr i ba rai y dosberthid y diwrnod yn rhwym o amrywio yn eu parhâd, yn ol cyfnewidiad haf a gauaf. Cyfrifai yr Iuddewon hanner dydd (y ddeuddegfed awr gyda ni) y chweched awr; a machlud haul y deuddegfed. Pan fyddai yr haul ar y cyhydedd, yr oedd eu horiau hwy o'r un hyd a'n horiau ni, ac yr oedd yr adeg y dechreuent gyfrif eu diwrnod ar y tymmor hwnw yn cyfateb yn gwbl i chwech o'r gloch y bore; eu hawr gyntaf yr un amser a saith y bore gyda ni, a'u trydedd awr (*Act.* ii. 15) yn cyfateb i naw; eu nawfed awr (*Act.* iii. 1) i dri o'r gloch y prydnawn.

Ond yr oedd y cyfartaledd hwn yn mharhad eu horiau, a'u cyfatebrwydd i'r eiddom ni, yn cael eu dyrysu fel y nesäai y tymmor at Alban Hefin neu Alban Arthan (*summer and winter solstices*). Yn nghanol yr haf, pan gyfodai yr haul yn Iudea am bump o'r gloch y bore, ac y machludai am saith yn y prydnawn, yr oedd yr oriau Iuddewig ychydig yn hwy na'r eiddom ni; a'r unig un o'u horiau a atebai i'r eiddom ni oedd y chweched, tra yr oedd cryn wahaniaeth rhwng yr oll o'r lleill. Yr oedd eu trydedd awr ychydig cyn ein naw ni, a'u nawfed ychydig yn ddiweddarach na thri gyda ni. Yr un modd yn y gauaf, pan gyfodai yr haul am saith, a machludo am bump, yr oedd eu hawr, yn gyfatebol i hyny, yn ferach na'n hawr ni. Felly, gwelir fod yn angenrheidiol—mewn trefn i wybod yn fanwl pa hyd oedd yr awr y bu Daniel yn synedig (*Dan.* iv. 19), neu pa bryd yn gymhwys y dybenodd y tywyllwch yn amser croeshoeliad ein Iachawdwr—gwybod hefyd pa dymmor o'r flwyddyn y cymmerodd y pethau hyny le.

Mewn hen amseroedd, yr unig ffordd i wybod yr amser o'r dydd oedd sylwi ar hyd y cysgod, at



Digitized by Google

yr hyn y cyfeiria Iob yn y geiriau (*Iob* vii. 2), "megys y dyheua gwas am gysgod"—cysgod i ddangos iddo pa bryd i noswylio. Arferid math o awrfesurydd wedi ei wneyd rywfodd gyda dwfr, a elwid *clepsydra:* yr hwn, mewn oesoedd mwy diweddar, oedd yn adnabyddus gan yr hen Roegiaid a'r Rhufeiniaid. Ordeiniwyd gan y gyfraith Rufeinig, a elwir *The Pompeian Law*, i'r dyben o rwystro dadleuwyr mewn llysoedd barn i barhau yn hir, nes blino y gwrandawyr, ar fod iddynt, yr un modd a'r Groegiaid, lefaru wrth yr awrwydr [*ut ad clepsydram dicerent: Cic. Or.* iii], yr hwn oedd, meddir, yn ddwfr-wydr, ac yn dra thebyg i'r un a gynnwysa dywod yn ein plith ni. Arferir hwn hyd y dydd heddyw yn yr India [*Asiat. Res.* v. 88]. Ond y mae yn rhy anhawdd gwybod pa ddyfais a arferai yr Iuddewon: ar yr un pryd, gallwn dybied mai y ddeial, yn hytrach nag un offeryn arall. Ond y mae Kitto yn tybied fod y gair Hebraeg, yn *Dan.* iv. 16, yr hwn a arwydda *hysbysydd*, yn arwyddo fod ganddynt rywbeth gwahanol; fel y bernir hefyd fod gan y Persiaid, oddi wrth y crybwylliad a wna Josephus [*Hen.* vi. 6, 10] am Ahasferus, ei fod ar y noswaith yr ymadawodd ei gwsg âg ef, pan yn chwilio croniclau yr ymherodraeth, wedi ymofyn â'i eunuchiaid "pa awr o'r nos ydoedd."

Heblaw y dosbarthiad o ddeuddeg o oriau, yr oedd rhaniad ar y dydd i oriau meithach, gyda chyfeiriad at yr amserau penodedig i weddïo. Gelwid yr oriau hyn, y drydedd, y chweched, a'r nawfed. Geilw Godwin y rhai hyn "yr oriau hwyaf," ac a gynnwysent dair o'r oriau lleiaf bob un. Y mae Jennings yn ammheu a fu y dosbarthiad hwn erioed yn mysg yr Iuddewon, ac yn dadleu nad yw y geiriau a ddygir yn mlaen gan Godwin er profi hyny mewn un modd yn sefydlu ei wirionedd. Ceisia Meyer brofi bodolaeth y dosbarthiad hwn oddi wrth *Neh.* ix. 3, y lle y dywedir fod meibion Israel yn darllen llyfr y gyfraith "bedair gwaith yn y dydd." Pa un bynag a oedd yr oriau hyn yn ddosbarthiadau gosodedig ai peidio, y mae yn gwbl eglur fod yr oriau gweddi yn cyfansoddi dosbarthiad tebyg i'r un a elwir "yr oriau hwyaf." Dywedir fod Pedr ac Ioan (*Act.* iii. 1) wedi myned i'r deml ar yr awr weddi, sef y nawfed. Nid oes genym yn yr Ysgrythyrau un crybwylliad am sefydliad yr oriau gweddi: ond yr Iuddewon a honant eu bod wedi eu cael oddi wrth y patrieirch—yr awr gyntaf oddi wrth Abraham; yr ail, oddi wrth Isaac; a'r drydedd, oddi wrth Iacob.

Oddi wrth "yr awr weddi" yn mhlith yr Iuddewon y cymmerodd y Pabyddion eu horiau canonaidd. Dychymygodd Cardinal Baronius eu bod wedi eu penodi gan yr apostolion—fod gwaith Pedr ac Ioan yn myned i fyny i'r deml ar y nawfed awr yn brawf digonol. Rhaid addef, os anghredwn Baronius am amser ac awdurdod eu sefydliad, na chawn neb arall i'w tadogi arno ond Hatto, esgob Basil, yn y nawfed ganrif.

Y mae *awr*, yn yr Ysgrythyrau, weithiau, yn arwyddo unrhyw amser penodedig; megys yn y geiriau, "Ni ddaeth fy awr i eto;" "Hon yw eich awr chwi, a gallu y tywyllwch;" "Daeth yr awr;" "Y mae yr awr yn dyfod." Gwel DEIAL AHAZ; DIWRNOD.

AWSTIN [yr hwn hefyd a elwid AURELIUS AUGUSTINUS]: un o'r dynion mwyaf yn nghyfoeth, eangder, a ffrwythlondeb ei feddwl, o'r holl ddynion enwog sydd yn perthyn i hanes eglwysig. Yn niwedd y bedwaredd ganrif, ac o fewn y deng mlynedd gyntaf o'r bummed, y cododd tri o'r enwau mwyaf, mewn cyssylltiad â Christionogaeth yr Eglwys Ladinaidd, y rhai oeddynt sylfaenwyr ei chyfundrefn athrawiaethol a dysgyblaethol—Jerome, Ambrose, ac Awstin. Jerome oedd amddiffynydd ffyddlawn a diflino, os nad tad ei mynachaeth: Ambrose oedd sylfaenydd ei hawdurdod offeiriadol: ac Awstin ei duwinyddiaeth. Rhagorai Jerome ar Awstin fel ysgolhaig; ond fel duwinydd athrawiaethol ac ymarferol yr oedd yn mhell islaw iddo. Er y gellid ystyried Ambrose fel ei dad ysbrydol; eto yn eangder, dyfnder, a bywiogrwydd ei feddwl, nid oedd i'w gystadlu âg ef. Ac os cymharwn Awstin eto â Gregory Fawr—y pedwerydd a'r olaf o dadau yr Eglwys Orllewinol, yr hwn a ddechreuodd ei yrfa tua diwedd y chweched ganrif, pan oedd gweddillion a sefydliadau y cynoesoedd yn cael eu rhwygo i fyny, a sylfeini teyrnasoedd presennol Ewrop yn cael eu gosod i lawr—pa faint bynag oedd dylanwad Gregory ar oesoedd dilynol fel gwir sylfaenydd Pabaeth y canoloesoedd, eto ei brif wasanaeth duwinyddol oedd gweithio allan, egluro, a chymhwyso meddyliau Awstin; ac felly yr ennillodd y dylanwad pwysig a barhaodd yn ei rym am ganrifoedd. Ysgrifeniadau Awstin hefyd oedd prif ffynnonell duwinyddiaeth y canoloesoedd, nid yn unig yn y ffurf ysgoloraidd a wisgasai, ond hefyd yn y wedd wrthgyferbyniol, sef yr un gyfriniol (*mystic*). Y mae hyn yn gysson â'r honiadau o barch a wnaed iddo ef yn ddiweddarach gan y ddwy blaid eglwysig a wrthwynebent eu gilydd. Anrhydeddid ef gan y Pabyddion fel eu tad, ac fel yr hwn oedd wedi rhoddi gwedd athronyddol ar eu duwinyddiaeth: ymffrostiai y rhai a godent o bryd i bryd i ymdrechu dwyn rhyw ddiwygiadau i mewn i'r eglwys, mai eu hamcan oedd adferu difrifoldeb, aiddgarwch, a phurdeb Awstin yn ol i'r bywyd Cristionogol. Yr oedd ei ddylanwad ef yn fawr ar y gwahanol urddau o fynachod, y rhai a ymsefydlent i'r dyben o ddwyn yn mlaen rhyw ddiwygiadau: galwai un o honynt ei hunan ar ei enw, o fynwes yr hwn y cododd y diwygiadau mwyaf penderfynol a thrwyadl o honynt oll—y Diwygiad Protestanaidd. Perthynai Martin Luther i'r urdd Awstinaidd; ac yr oedd Luther a'r holl ddiwygwyr yn teimlo yn gryf ddylanwad ei ysgrifeniadau trwy eu hoes, er eu bod hwy wedi ymddidoli yn fwy llwyr nag ef oddi wrth lygredigaethau y Babaeth, ac wedi gosod eu hunain yn benderfynol yn erbyn rhai o'i syniadau. Nid yw nifer y dyfyniadau o'i ysgrifeniadau sydd yn *Institutes* Calvin yn unig ddim llai na dau cant. I ddylanwad Awstin hefyd yn benaf y dylid olrhain Janseniaeth—ymdrech a wnaed yn mynwes yr Eglwys Babaidd, ychydig yn rhagor na chan mlynedd ar ol i'r Diwygiad dori allan, i wrthsefyll Arminiaeth mewn athrawiaeth, a Jesuitiaeth mewn moesau. Y mae enw Awstin yn awr yn un o'r enwau a ddyrchefir uchaf gan Babyddion a Phrotestaniaid, gan athronwyr a duwinyddion.

Dilynodd Aurelius Augustinus, o ran amser, y ddau ddysgawdwr enwog a ymddangosasant yn Eglwys Ogleddol Affrica (Tertulian a Cyprian), ac unodd ragoriaethau y ddau. At fwy nag egni meddyliol y cyntaf, chwanegodd eiddigedd a doethineb yr ail. Ganwyd ef yn Tagasta, yn Numidia, Tachwedd 13eg, 354. Etifeddodd oddi wrth ei dad, Patricius, nwydau cryfion, a thueddiadau anianol; ond ni welodd ddim yn ei fam, Monica, ond y mwyneidd-dra a'r duwiolfrydedd mwyaf didwyll; y rhai a adawsant argraff ddofn

Digitized by Google

arno tra y bu byw. Dyoddefodd Monica lawer oddi wrth fywyd afreolaidd a thymmerau digofus ei gwr; ond trwy ei hymddygiadau doeth a charuaidd, adferai heddwch yn ol i'r teulu, a thua blwyddyn cyn ei farwolaeth, caniatawyd ei dymuniad cryfaf iddi, sef ei weled wedi ei ddarostwng mewn ufudd-dod i groes Crist. Yr oedd ennill ei bachgen dan ddylanwad yr un cariad yn destyn ei phryder parhaus; ond ymddangosai ei holl ofal yn ofer am ysbaid maith. Tra eto yn fachgen, yr ydoedd dan lywodraeth nwydau cryfion: uchelgais, chwant at bleserau cnawdol, awyddfryd at chwarëyddiaethau, a lanwai ei holl enaid, ac a luddiai iddo gael hyfrydwch mewn dysgeidiaeth sych yn more cyntaf ei oes; ac er gwaethaf cyffroadau crefyddol a deimlai yn fynych, er mwyn sicrhau ei hoff bleserau, ymostyngai at bob twyll a rhysedd. Ond buan y swynwyd ei ddychymyg fywiog gan ei efrydiau llenorol, yn enwedig gan ysgrifeniadau barddonol y Rhufeiniaid, ac amlygodd yn y canlyniad y fath dalentau dysglaer fel yr ymgymmerodd ei dad—yr hwn nid oedd mewn moddion eang—â'r gost o'i ddwyn i fyny i'r alwedigaeth glodfawr ac ennillfawr o areithiwr; ac ar ol marwolaeth ei dad, ymdrechai ei fam sicrhau y manteision angenrheidiol iddo gyrhaedd ei ddyben. Ond yn y tymmor hwn, pan yr ydoedd ei feddwl yn ymagor gyda'r fath fywiogrwydd a nerth, syrthiodd dan lywodraeth chwantau anianol, er holl ofal ei fam i'w rybuddio rhag afradlonedd ac anniweirdeb. Yr oedd gloddestau nosawl y dduwies Astarte, y rhai a fynychai Awstin yn Carthage, a'r rhai a ddarlunir ganddo yn ddiweddarach gyda theimladau o adgasedd, yn gwanychu pob argraffiadau da, ac yn ei hyrddio yn ddyfnach i anfoesoldeb. Pan yn bedair ar bymtheg oed, ganed mab iddo, yr hwn, mewn tymmor o dduwiolfrydedd a alwai yn Adeodatus (un wedi ei roddi gan Dduw), yr hwn hefyd a wnaed yn blentyn i Dduw mewn gwirionedd. Er ei holl ymroddiad i bleserau cnawdol a'i wammalrwydd anystyriol, ei duedd naturiol oedd cymmeryd yr olwg bruddglwyfus ar bethau, ac ymhyfrydai yn fwy yn y bruddgerdd na'r gymwawd. Ac yn nghanol y cwbl ni adawodd y dymuniadau am Dduw, ac am bethau tragwyddol, a brofodd dan addysgiadau cyntaf ei fam, mo hono yn llwyr: ac yn ei 19eg flwydd, deffrôdd i ystyriaethau mwy difrifol nag a feddiannasai ei feddwl er's blyneddoedd o'r blaen; yr hyn a fu yn foddion i hyn oedd darllen llyfr o waith Cicero, a elwid *Hortensius*, ond sydd yn awr ar goll; yn yr hwn y dengys fod gwirionedd nid yn unig yn beth i feddwl am dano, ond ei fod hefyd i lywodraethu ein bywyd; ac mai yr unig lwybr i fwynhau tangnefedd, a chyrhaedd hapusrwydd a nefoedd, ydyw ymwrthod â llywodraeth tueddiadau anianol, ac ymostwng i lywodraeth y gwirionedd. Dywed ei fod dan gynhyrfiad y llyfr hwn yn ymlosgi i ehedeg yn ol oddi wrth bethau daiarol at Dduw, am mai yn Nuw y mae doethineb, a'i fod dan ddylanwad cymhelliadau Cicero yn sychedu am ddoethineb. Yn yr agwedd meddwl hwn y dechreuodd chwilio yr Ysgrythyrau, y rhai a berchid gymmaint gan ei fam, ac a argymhellid mor serchog ar ei sylw ef. Ond yr oedd yn llyfr seliedig iddo eto, o herwydd er y dymunai yn gryf ymgodi uwch law y caethiwed yr ydoedd ynddo i chwantau cnawdol, a chyrhaedd rhyw brydferthwch meddyliol a alwai yn ddoethineb, nid ydoedd hyd yn hyn yn deimladwy o'i euogrwydd ger bron Duw, nac yn meddu y tlodi ysbryd hwnw sydd yn gymhwysder i ddeall a derbyn trysorau yr efengyl. I'w gymhwyso i ddeall symlrwydd y Beibl, yr oedd yn rhaid iddo gael ei ddwyn ato ei hun, trwy gael ei adael i fyned yn mhellach ar ddisperod, ac ymladd brwydrau celyd yn ei nerth ei hun â gwahanol ffurfiau cyfeiliornadau a thwyll. Syrthiodd yn gyntaf i fagl y Manicheaid—y rhai a broffesent eu bod wedi cyrhaedd gwybodaeth glir am natur a holl gyssylltiadau gwirionedd, fel nad oedd raid dibynu ar dystiolaeth am ddim, ac addawent agor o flaen ei feddwl holl ddirgeledigaethau Duwdod a dyndod. Yr oedd eu hymhoniadau ymffrostgar—eu bod yn meddu gwirionedd, gwybodaeth, a rheswm—yn abwyd dengar i un gymmaint dan ddylanwad balchder ysbrydol ag oedd Awstin y pryd hyn. Ond yn ei 29ain flwydd, wedi bod gyda hwynt am naw mlynedd, yr oedd ei adnabyddiaeth fanylach o anfoesoldeb y rhai a elwid yn *etholedigion* ac yn rhai *perffaith* yn eu mysg, a'i efrydiaeth ddyfnach o athroniaeth, wedi ei argyhoeddi o anghyssonderau llawer o'u hathrawiaethau: ac ymddyddan a gafodd gydag esgob enwog yn eu mysg, o'r enw Faustus, oddi wrth yr hyn y dysgwyliasid llawer mewn ffordd o symmud ymaith ei ammheuon cynnyddol, a ddybenodd mewn perswadio ei feddwl mai twyll oedd y cwbl; ac felly gadawodd hwynt. Ar hyn dechreuodd ammheu a oedd y fath beth a gwirionedd a sicrwydd yn gyrhaeddadwy oll. Y lloches gyntaf a ymgynnygiai iddo rhag curfeydd oerion ammheuyddiaeth cyffredinol, oedd Platoniaeth newydd; yr hon a addawai agor o'i flaen fyd pur y deall, a hyny hefyd mewn cyssondeb â'r syniadau a dderbyniasai o'i Feibl dan addysg foreuol ei fam. Ymddangosai Crist iddo yn awr fel prophwyd mawr wedi ei anfon oddi wrth Dduw i ddysgu mewn modd awdurdodol, ac fel y gallai pawb yn ddiwahaniaeth ei dderbyn ar ei dystiolaeth ef, yr hyn ni allasai ond ychydig ei gyrhaedd ar lwybr uchel rheswm ac athroniaeth. Ond bu raid iddo ddyfod i lawr o'r uchelderau beirniadol hyn. Nid oedd cynlluniau prydferth Plato yn rhoi iddo nerth i orchfygu chwantau y cnawd—cadwent berffeithrwydd o flaen ei feddwl, ond nis gallent roi nerth iddo i'w gyrhaedd. Gwyddai yn dda am un mlwydd ar ddeg am y profiad a ddysgrifir mor fywiog yn *Rhuf.* vii. 7, 8; ac o'r diwedd daeth at yr ymofyniad yn *adn.* 24; "Ys truan o ddyn wyf fi! pwy a'm gwared i oddi wrth gorff y farwolaeth hon?" Wedi gweled fod Crist yn Waredwr, daeth ar lwybr profiad i deimlad o wirionedd Cristionogaeth, a chafodd oleu newydd ar ei thrysorau cyfoethog. Cafodd ddiangfa oddi wrth ammheuyddiaeth yr Academy, ac hefyd oddi wrth ddychymygion prydferth, ond siomedig, y Platoniaid. Ei brif efrydiaeth oedd epistolau Paul, —darllenai hwynt drachefn a thrachefn gyda'r syndod mwyaf; ac ynddynt cafodd y cwbl oedd yn swyno ei feddwl mewn Platoniaeth, wedi ei gyflawnu yn y Duw-ddyn, yn yr hwn y mae trysorau doethineb, a gwybodaeth, a llawer mwy nag a ddaeth erioed o flaen dychymygion euraidd yr hen athronydd na'i ganlynwyr. Ond er rhoddi ymostyngiad diammodol ei ddeall i'r Dadguddiad dwyfol, eto ymdrechai, trwy adfyfyriad, ei ddeall, a'i wneuthur mewn ystyr yn eiddo iddo ei hun, trwy geisio cyssylltu ac uno ei wirioneddau âg egwyddorion cyntefig ei reswm, ac felly cyssoni ffydd a gwybodaeth, dadguddiad a rheswm. Prif ymdrech dysgawdwyr Alexandriaidd yr ail a'r drydedd ganrif oedd gwneyd hyn; ond yn anmherffaith iawn y cyflawnwyd ef ganddynt, o herwydd y caethiwed yr oeddynt ynddo i

ffurfiau Platonaidd o feddwl; ond yr oedd yr addysg ymarferol yr aeth Awstin drwyddo wedi ei barotoi yn well na neb o'i ragflaenwyr i ymgynnyg ato; o herwydd yr oedd wedi cael goruchafiaeth nid yn unig ar gyfeiliornadau oedd yn perthyn i Gnosticiaeth a Manicheaeth, fel eu gilydd, ond hefyd wedi dianc rhag y duedd Bantheïstaidd sydd mewn Platoniaeth, yr hon sydd wedi esgor ar lawer o gamsyniadau; ac er gwaethaf yr ammheuyddiaeth lwyraf, o natur athrawiaethol a moesol, ennillodd deimlad o sicrwydd a thawelwch drwy ymchwiliadau diorphwys a phrofiadau chwerwon. Ni pharotôdd Awstin un gyfundrefn o dduwinyddiaeth: nid oedd yr amser wedi dyfod eto i wneuthur y fath gynnyg yn yr Eglwys Ddwyreiniol na'r Orllewinol: ond eto ni wnaeth neb gymmaint o ddarpariaeth at y fath gyfanwaith, trwy ymchwiliadau manwl i wahanol athrawiaethau, a'u cyssylltiadau â'u gilydd, a thrwy amddiffyniadau o'r gwirionedd yn erbyn cyfeiliornadau.

Yr oedd dylanwad Ambrose, esgob enwog Milan, yn fawr ar Awstin. Yn yr adeg yr ymadawodd â'r Manicheaid, aeth i Rufain, yn groes i ewyllys ei fam, er mwyn cael y fantais oreu i enwogi ei hun fel dysgawdwr rheitheg. Ar ol bod yn Rhufain prin flwyddyn, lle y cyfeiriai ei sylw yn benaf at athroniaeth yr Academy, ar wahoddiad, aeth i Milan—yr ail ddinas yn Italy, lle y trigiannai yr ymherawdwr yn fynych—i ddilyn ei alwedigaeth; ac yno, daeth yn wrandawr cysson i Ambrose, yr hwn oedd y pryd hwnw yn nghanol ei yrfa weithgar, ac yn sefyll yn uwch ei glod na neb arall o weinidogion yr eglwys am nerth ei hyawdledd. Ar y cyntaf, nid oedd dim ond ei ddull a'i enwogrwydd fel areithiwr yn ei swyno; ond yn raddol daeth y gwirionedd yn bwysig yn ei olwg; ac yn enwedigol, cafodd oleuni mawr ar yr Hen Destament, trwy ddull cyffelybiaethol Ambrose yn ei egluro, ac ar ei gyssylltiad â'r Newydd. Gwasanaethodd hyn hefyd i'w ennill yn llwyr oddi wrth y Manicheaid, y rhai a wnaent ymosodiad penderfynol yn erbyn llyfrau yr Hen Destament; ac er na ymunodd â'r eglwys, eto cyflwynodd ei hun fel ymgeisydd am addysg grefyddol, yn debyg fel yr ydoedd gartref pan yn fachgen. Y pryd hyn, yr ydoedd yn mron suddo gan ludded corff a meddwl—yr oedd y temtasiynau cryfion i chwantau cnawdol, i ba rai yr ydoedd wedi bod cyhyd yn gaethwas; hudoliaethau twyllodrus uchelgais, y rhai oeddynt yn ei lusgo ymaith yn erbyn llais ei gydwybod; ac ymdrech ei ysbryd i dreiddio y dirgelwch sydd mewn pechod a'i ganlyniadau—y cwbl yn nghyd yn rhwygo ei fynwes nes ei yru mewn gweddi at Dduw, oddi wrth yr hwn nid allai yn awr ymgadw yn hwy. "Po mwyaf truenus yr oeddwn," meddai wrth Dduw, "agosaf oeddit ti i mi. Pan feddyliwn, yr oeddit ti gyda mi; pan ocheneidiwn, yr oeddit ti yn gwrandaw; pan gurwyd fi o ochr i ochr gan y tymmestloedd, yr oeddit ti wrth y llyw; a phan grwydrwn ar y ffordd fawr agored, eto ni wrthodit ti fi." Ymddangosai yr efengyl y cwbl a ddymunai ei galon a'i ddeall, eto yr oedd ei gariad at ei chwant yn peri iddo betruso ei derbyn. "Yr oeddwn wedi caffael y perl gwerthfawr; dylaswn werthu y cwbl a feddwn i'w brynu, ac eto yr oeddwn yn petruso." Hiraethai am unigrwydd, ac ymneillduai i dŷ cyfaill, lle y treuliodd ysbaid byr gyda'i fam, ac amryw o'i hen gyfeillion oedd wedi dyfod drosodd o Affrica; ac yma y daeth i hollol benderfyniad i aberthu pob peth er mwyn Crist. Trwy astudiaeth feunyddiol o epistolau Paul y daeth i ddeall yn well ddyfnder ei drueni fel caethwas pechod, a'r aberth a wnaed dros euogrwydd dyn trwy ufudd-dod Mab Duw hyd angeu, ïe, angeu y groes." Annogai hen weinidog o'r enw Simplicianus ef i roi ei hun yn llwyr, gan adrodd hanes tröedigaeth athronydd Platonaidd i'r ffydd, yr hwn a wnaeth aberth mawr er mwyn Crist. Addawai Awstin wneyd yr un modd, ond er hyny oedai: gweddïai am waredigaeth oddi wrth bechod, ond dywedai yn ddirgel, "Nid eto, Arglwydd." Cyfaill arall a adroddodd iddo hanes Anthony, y mynach Aiphtaidd, yr hwn a ddilynodd yn llythyrenol eiriau Crist i'r gŵr ieuanc (*Mat.* xix. 21),—a werthodd y cwbl oll a feddai. Ar hyn, torodd y storm allan o newydd yn mynwes Awstin. "Pa beth sydd wedi dygwydd i mi," meddai, wrth Alypius, yr hwn oedd mewn cyflwr lled debyg; "y mae yr annysgedig yn codi i fyny ac yn cymmeryd gafael ar deyrnas Dduw; ac wele ni, gyda'n holl wybodaeth ddiffrwyth, yn ymdreiglo mewn pleserau cig a gwaed." Rhuthrodd allan i'r ardd, gydag epistolau Paul yn ei law, i ofyn i'r Arglwydd ei waredu. Dywedai, "Y mae yr ysbryd yn gorchymyn y corff, ac yn cael ufudd-dod yn y fan; y mae yr ysbryd yn ei orchymyn ei hun, ond y mae yn gwrthsefyll. Y mae y llaw yn ysgogi yn y fan ar orchymyn yr enaid; ond pan y bydd yr enaid yn ei orchymyn ei hun i ewyllysio, er mai yr un ydyw, eto nis gwna. O ba le y mae y fath anghrediniaeth? Y mae yr ewyllys wedi ei rhanu—mae ynof ddwy ewyllys; un dros y da, a'r llall dros y drwg." Pan yr oedd yn gorwedd ar y ddaiar, yn gweddïo ac yn gofyn, "Pa hyd? pa hyd? na chofia yn fy erbyn bechodau fy ieuenctyd," clywai lais yn gwaeddi, "*Tolle lege, tolle lege*"=Cymmer a darllen, cymmer a darllen. Agorodd ei Destament ar *Rhuf.* xiii. 13, 14: penderfynodd y geiriau hyn ei fywyd dyfodol, chwalodd ei ofnau a'i ammheuon, a ffrydiodd tangnefedd yr efengyl i'w fynwes. Pan glywodd Monica, ei fam, hi a wylodd o lawenydd; ac â chalon lawn, diolchodd i'r Arglwydd am i'w gweddïau o'r diwedd gael eu hateb. Cymmerodd hyn le yn mis Medi yn y flwyddyn 386, yn y drydedd flwydd ar ddeg ar ugain o'i oed.

Rhoddodd Awstin i fyny ei swydd fel dysgawdwr rheitheg, i gyflwyno ei hun yn hollol i Dduw. Am ychydig fisoedd, arosodd yn nghymmydogaeth Milan gyda'i fam, ei fab, ac ychydig gyfeillion; ac wrth ddarllen ei Feibl, cafodd fod profiadau a gweddïau y Salmau yn cyfateb i'w deimladau ei hun, a rhoddodd lawer o'i amser i'w myfyrio. Ar ol y rhagbarotoad yma, cymmerodd ei fedyddio; ond yn y cyfamser, ymgymmerodd ei ysbryd ymchwilgar âg amryw o'r cwestiynau pwysicaf mewn athroniaeth a duwinyddiaeth, yn enwedig y rhai hyny oeddynt wedi bod yn fagl iddo ei hun, er mwyn edrych arnynt yn ngwyneb y goleuni newydd yr ydoedd wedi ei dderbyn, a chyfansoddodd amryw draethodau, fel blaenffrwyth y cynnyrch mawr a adawodd ar ei ol. Y cyntaf o'r rhai hyn ydyw y llyfr, *Contra Academicos*=*Yn erbyn yr Academiaid;* sef ammheuwyr yr oes hono, neu y rhai a haerent fod gwybodaeth sicr yn beth anmhosibl. Yr oedd y duedd hon wedi bod yn rhwystr mawr iddo ei hun, fel yr ydoedd i lawer ereill, i sefydlogrwydd meddwl. Y mae ymfoddloniad mewn ammheuaeth yn dwyn dyn dan lywodraeth y cnawd; o herwydd os na bydd gan y meddwl ddim sicr i gymmeryd gafael arno, y mae y corff yn ennill yr oruchafiaeth, am fod ei bleserau ef yn

Digitized by Google

sicr. Yma, gan hyny, y teimlai fod y frwydr gyntaf i'w hymladd dros y gwirionedd. Dengys fod ammheuwyr yn anghysson â hwy eu hunain; ac hefyd eu bod, wrth ddadleu nad oes dim ond tebygolrwydd yn bod, yn dwyn tystiolaeth i'r gwirionedd, gan fod y tebygol yn rhagdybied y gwir. Ei draethawd nesaf ydyw *De Vitâ Beata =Am Fywyd Dedwydd.* Yr ymofyniad sydd yn dechreu yr ymddyddan hwn ydyw, "Pa beth a foddlona yr enaid?" Dangosir nad oes dim ond yr Anfeidrol a'r Tragwyddol; o ganlyniad, nad oes dim ond Duw. Ond am bwy y gellir dyweyd fod Duw ganddo? Ateba Licentius, mai "efe sydd yn meddu Duw, yr hwn sydd yn byw yn dda." Trygetius a etyb, mai "efe sydd yn meddu Duw, yr hwn sydd yn gwneuthur ei ewyllys." Ond bachgen Awstin a etyb, mai "gan y pur o galon y mae Duw. Cymmeradwyodd Monica y syniadau hyn oll, ond yn enwedig yr olaf. Egwyddor y llyfr hwn ydyw—fod yn rhaid i ddyn, mewn trefn i fod yn ddedwydd, fwynhau daioni tragwyddol; yr hyn yw Duw. Trwy hyn y mae dyn yn cael doethineb. Ond nis gall neb gael Duw, heb gael Mab Duw, yr hwn sydd yn dywedyd am dano ei hun, "Myfi yw y gwirionedd." Y gwirionedd ydyw egwyddor y drefn fawr sydd yn cynnwys pob peth ynddi ei hun, a'r hon, gan ei bod yn sylfaenedig ar y gwirionedd, nis gall lai na dwyn tystiolaeth ymarferol i'r gwirionedd, a hyny yn hanfodol a thragwyddol. Bywyd dedwydd, gan hyny, ydyw cofleidio y gwirionedd, a thrwy hyny dyfod i undeb â'r drefn sydd yn cynnwys holl amgylchiadau amser, a holl ganlyniadau tragwyddoldeb. Yr hyn oedd wedi blino llawer ar ei ysbryd oedd cyssondeb rhagluniaeth Duw â dyfodiad pechod a thrueni i'r byd; a'r pryd hwn fe ysgrifenodd ei draethawd [*De Ordine*] am drefn gyffredinol Duw ar y byd, ac i ddangos mai nid i hon y mae hanfodiad drwg i'w briodoli. Yn ei ddau lyfr o ymddyddanion âg ef ei hun [*Soliloquies*], canfyddir argyhoeddiad dwys ei feddwl fod cyssylltiad agos rhwng adnabyddiaeth o'r gwirionedd a bywyd tragwyddol yr enaid. Yn niwedd yr ail lyfr o'r ymddyddanion hyn, treiddia i ganol athroniaeth Plato, ac efallai nad oes i'w gael yn yr iaith Lladin ddim cystal esboniad ar athroniaeth Plato, yn enwedig am y cof—sef fod yn y meddwl ymwybyddiaeth o hanfodiad o flaen y sefyllfa bresennol, ac nad yw dysgu unrhyw beth ond adferiad o'r hyn oedd eisoes yn ein meddiant, ond ei fod megys dan len. Ysgrifenodd hefyd yn y cyfnod hwn am anfarwoldeb yr enaid [*De Immortalitate Animæ*], ac am faintioli yr enaid [*De Quantitate Animæ*]. Dywed ei hun am yr olaf, "fod ynddo lawer o gwestiynau am yr enaid —ei darddiad, ei natur, ei faintioli, pa ham yr unwyd ef â chorff, pa beth yw effaith y corff arno, a pha beth yw effaith ei ymadawiad o'r corff. Ond gan fod yma lawer ar faintioli yr enaid, mewn trefn i ddangos mai nid maintioli corfforol sydd yn perthyn iddo, ond eto fod iddo faintioli priodol iddo ei hun—oddi wrth hyn y mae yr holl draethawd yn derbyn ei enw." Amcan y llyfr ydyw dangos pa fodd y mae cyssylltu y syniadau am hyd, lled, ac uchder, sef ansoddau lleol, â sylwedd ysbrydol. Y mae iaith gyffredin yn dangos fod cyssylltiad rhwng y ddau fyd; ond pa beth ydyw ei natur, sydd wedi, ac y mae yn, dyrysu dynion; ac yn eu mysg yr oedd Awstin. Yn y traethodau hyn, y mae yn cyfarfod cwestiynau ereill y mae dynion yn dadleu yn eu cylch y dyddiau hyn gyda'r un awch a phe byddent yn hollol newydd; sef y gwahaniaeth rhwng rheswm ac ymresymiad—rhwng synwyr a gwybodaeth (*sense and science*)—pa mor bell y mae rheswm gan yr anifail—a ydyw yr enaid yn cynnyddu yn wirioneddol, ynte yn ffugrol? Llawn o Blatoniaeth uchel ac ymresymiadau cywrain ydyw y traethodau hyn, wedi eu cyssegru gan ysbryd Cristionogol; ond ymwrthododd âg amryw o'r syniadau a gynnwysant yn ei ddyddiau olaf. Ar Sabbath y Pasc, 387, pan yn dair ar ddeg ar ugain oed, bedyddiwyd ef, a'i fab, Adeodatus, yr hwn oedd yn bymtheg oed, a'i gyfaill Alypius, gan Ambrose. Ar ol arosiad o ddeng mis yn Rhufain, yr hyn a achlysurwyd gan farwolaeth Monica yn Ostia, porthladd Rhufain, lle y dechreuodd ysgrifenu yn ddioed yn erbyn y Manicheaid [*De Moribus Manichæorum*, a *De Moribus Ecclesiæ Catholicæ*], dychwelodd y flwyddyn ganlynol adref i Affrica; ac yno am dair blynedd y bu yn byw mewn neillduedd gydag ychydig gyfeillion, yn ymroddi i fyfyrdod, astudiaeth, a gweddi. Gwerthodd yr hyn a etifeddodd oddi wrth ei dad i'w roddi i'r tlodion, fel nad oedd ganddo mwyach ond yn unig yr hyn oedd yn ddigonol i fyw arno. Yn mhen tair blynedd, gwahoddwyd ef i Hippo Regius, ac yno rhoddwyd math o orfodaeth arno gan yr eglwys a'r esgob yn nghyd i ymgymmeryd â'r weinidogaeth; ond caniatawyd iddo fyw i fesur mewn unigrwydd fel o'r blaen. Ymgasglodd amryw ddynion ieuainc gobeithiol o'i gwmpas, sefydlodd fath o athrofa dduwinyddol, yr hon a ddaeth yn sefydliad pwysig, ac o ba un y cododd amryw esgobion, heb law lluaws o isweinidogion. Yn 395, bu farw Valerius yr esgob, ac Awstin a ddewiswyd yn ganlynwr iddo, ac a barhaodd yn yr esgobaeth hyd ddydd ei farwolaeth. Ac o'r adeg hon yn mlaen, am bymtheg ar ugain o flyneddoedd, yr ysgrifenodd y gweithiau sydd wedi rhoddi y fath arbenigrwydd iddo yn Eglwys Crist; ac hyd ystod yr amser hwn, yr oedd ei lafur gweinidogaethol ac awdurol yn myned yn mlaen law yn llaw. Yr oedd yr hyn y galluogwyd ef i'w gyflawnu yn yr ail gyfnod hwn o'i fywyd, i'w briodoli i'r rhagbarotoad trwyadl a chaled a brofodd i gael tawelwch i'w galon, a boddlonrwydd i'w ddeall; gwasanaethodd yr anhawsderau oedd yn ymgodi o flaen ei feddwl i'w wreiddio yn y gwirionedd, i'w gymhwyso i arwain ereill ar hyd y llwybr cul yr arweiniwyd ef ei hun, ac i gyfarfod gelynion y gwirionedd yn eu holl gynllwynion, am y gwyddai am danynt trwy brofiad personol. Y mae ef ei hun yn rhoddi hanes ei fywyd hyd ei fedydd yn ei *Gyffesiadau*, pa rai sydd wedi eu hysgrifenu gyda'r gonestrwydd a'r hunangondemniad llymaf: ynddynt y mae yn cyfaddef wrth Dduw mewn gostyngeiddrwydd hunanffieiddiol ei bechodau a'i grwydriadau, gan ddiolch gyda serchogrwydd a syndod fod llaw nefol wedi ei arwain drwyddynt oll. Dyma y llyfr hunan-gofiannol mwyaf adeiladol a ysgrifenwyd erioed, o ran dyfnder y meddyliau a thanbeidrwydd y teimlad sydd yn rhedeg drwyddo. Y mae o'r un duedd ymarferol a duwiolfrydig ag *Efelychiad Crist*, gan Thomas à Kempis; *Taith y Pererin*; a *Theomemphus* Williams, Pant y celyn. ac er nad yw yn cynnwys cyfundraeth o athroniaeth a duwinyddiaeth, eto y mae yr athroniaeth a'r dduwinyddiaeth ddyfnaf yn gweithio drwyddo mewn profiadau fel fflamau o dân.

Ei amcan cyntaf oedd agor trysorau a gogoniant y Beibl o flaen y rhai oedd wedi eu hymddiried yn fwyaf neillduol i'w ofal. Fel ffrwyth y llafur yma, y mae wedi gadael esboniadau a phregethau, mwy neu lai cyflawn, ar Lyfr Genesis,

Digitized by Google

y Salmau, Pregeth Crist ar y mynydd, yr epistolau at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid, efengylau Matthew a Ioan, ac hefyd *Cyssondeb yr Efengylau*, yn nghyd â *Thraethawd ar Athrawiaeth Cristionogaeth* [*De Doctrina Christiana*]. Nid mewn gwybodaeth feirniadol, a manylrwydd gramadegol, yr oedd nerth Awstin yn gynnwysedig—yn hyn, rhagorid arno gan Jerome yn Lladin, a Chrysostom yn Groeg—ond yn ei allu i dreiddio i ystyr ddyfnaf a dirgelaf y gwirionedd, a dwyn i fyny ei gyfoeth mewn meddyliau mawrion ac adeiladol i ereill. Arweiniwyd ef gan amgylchiadau ei sefyllfa i gyfansoddi lluaws o ysgrifeniadau, cylch-lythyrau ar bynciau penodol, a llythyrau personol o gynnwysiad cymmysg, yn mha rai y mae yn egluro ac yn rhoi ei farn, weithiau yn faith iawn, bryd arall yn fyrach, ar wahanol faterion—athroniaeth, duwinyddiaeth, esboniadaeth, moesddysg, a llywod-ddysg eglwysig. Yr oedd perthynas Cristionogaeth â phaganiaeth yn galw am ei sylw neillduol. Er fod crefydd Crist yn cynnyddu, a phaganiaeth yn cilio o'i blaen, eto yn raddol yr ydoedd yn gollwng ei gafael o aneirif berthynasau dynion â'u gilydd mewn cymdeithas, gan achosi anhawsderau athrawiaethol ac ymarferol; galwai yr amgylchiadau hyn am ddyn yn meddu argydnabyddiaeth drwyadl o'r hen athroniaeth, yn nghyd â chryfder a bywiogrwydd meddwl i ddirnad a dynoethi gwagder paganiaeth, er ei holl ymhoniadau; ac hefyd, yr hyn sydd yn gyssylltiol â hyn, i gyflawnu diffyg a hanfodai yn yr eglwys ei hun, sef gosod allan gyssylltiad mewnol ac undeb bywiol athrawiaethau yr efengyl, fel ag i wrthsefyll oreu yr ymosodiadau a wnaed arnynt, ac i arwain dynion i adnabyddiaeth o'u gwirionedd. Cyfarfyddodd Awstin yr angen yma mewn cyfres o ysgrifeniadau amddiffynol, athrawiaethol, a holwyddorol. Yn mysg y rhai, heblaw y traethodau *Am y buddioldeb o Gredu* [*De utilitate Credendi*], a *Gwir Grefydd* [*De vera Religione*], ei brif waith ydyw ei draethawd helaethaf a mwyaf adnabyddus, mewn dau ar ugain o lyfrau, ar *Ddinas Duw* [*De Civitate Dei contra Paganos*], yr hwn a ddechreuwyd ganddo yn 413, ac a orphenwyd yn 426, yn y ddeuddegfed flwyddyn a thrigain o'i oed. Ymgymmerodd â chyfansoddi y traethawd hwn mewn canlyniad i ymdrechion y paganiaid i brofi fod y dinystr oedd yn bygwth ymherodraeth Rhufain, trwy ruthriadau difaol y barbariaid gogleddol i ddeheudir Ewrop ac Affrica, i'w briodoli i'r gwrthgiliad oedd wedi cymmeryd lle oddi wrth eu temlau a'u duwiau, a chynnydd Cristionogaeth yn eu lle; ac y mae natur, rhediad, ac amcan y traethawd drwyddo yn cyfateb i'r dechreuad hwn. Dengys Awstin mai barn Duw ar baganiaeth, a chanlyniadau naturiol hadau oedd wedi eu hau y pryd hwnw, oedd yr holl alanasdra hyny; eu bod yn galw ar y paganiaid i ddeffroi ac edifarhau, a'u bod yn brofiad iachus i ffydd y Cristionogion; ac mewn cyferbyniad i ddinystr Rhufain, cynnrychiolydd galluocaf y byd hwn, y mae yn dangos fod "dinas Duw" wedi ei sylfaenu ar y graig, ac y bydd iddi hi oroesi holl gyfnewidiadau a chwyldroadau amser, ac ymgodi allan ac uwch law iddynt oll mewn purdeb anllygredig i fwynhau Sabbath tragwyddol. Yn ei *Law-lyfr* [*Encheiridion*], rhydd grynodeb o athrawiaeth yr efengyl dan y tri phen cyffredinol—ffydd, cariad, gobaith. Mewn traethawd a elwir *Am Ffydd a'r Credo* [*De Fide et Symbolum*], cawn esboniad ar Gredo yr Apostolion· ac mewn arweiniad i *Holwyddori yr anwybodus* [*De Catechizendis rudibus*], cyfaddasa wirioneddau yr efengyl i wahanol gynneddfau dysgyblion ieuainc. Er mwyn cyfarfod cyfeiliornadau ei oes, cyfansoddodd luaws o lyfrau dadleuol; y rhai y gellir eu rhanu i dri dosbarth. *Yn gyntaf*, yn erbyn y Manicheaid:—***Am Foesau y Manicheaid; Am Foesau yr Eglwys; Ar Ryddid yr Ewyllys; Am y ddau Enaid***, &c.:—ac o'r llyfrau hyn, yn benaf, yr ydym yn cael ein gwybodaeth am y cyfeiliornadau hyn, a'r modd eu cyfarfyddwyd. *Yn ail*, ei ysgrifeniadau yn erbyn y Donatistiaid. Y mae y rhai hyn yn dwyn perthynas â'r eglwys—ei hanfod, ei phriodoliaethau, a'i pherthynas â'r byd; ac am y pechod o ymraniadau a schismaticiaeth:—o'r rhai hyn y mae y traethodau *Ar Fedydd; Yn erbyn y Donatistiaid; Yn erbyn Petilianus*, &c. *Yn drydydd*, yn erbyn y Pelagiaid, a'r Hanner-Pelagiaid:—o'r rhai hyn y gellir enwi ei lyfrau ***Am Natur a Gras; Am Haeddiant a Maddeuant; Am Ras a rhyddid yr Ewyllys; Am yr Ysbryd a'r Llythyren; Am Bechod gwreiddiol; Am Etholedigaeth; Am barhad y Saint; Yn erbyn Pelagius a Celestius; Yn erbyn Julian.***

Yn erbyn y Manicheaid—sect a alwyd felly oddi wrth ei sylfaenydd, Mani neu Manichæus (B. A. 277), yr hwn a ddysgai fath o gymmysgedd o Iuddewiaeth, paganiaeth, gydag ychydig o elfenau Cristionogaeth, ac a gymmerodd brif egwyddorion ei gyfundrefn oddi wrth Zoroaster, yr hen ddysgawdwr Persiaidd; o ba rai, y prif oeddynt, fod defnydd yn dragwyddol fel Duw ei hun, a'i fod yn hanfodol ddrwg, ac o ganlyniad, fod gwrthwynebiad angenrheidiol rhwng Duw a defnydd; yr oedd hyn yn y dwyrain yn ffordd gyffredin i geisio esbonio hanfodiad drwg [gwel MANICHEAID]—profai Awstin, yn erbyn y syniad o ddwy egwyddor dragwyddol, fod y byd dan lywodraeth Duw yn unig, a bod yr un nodweddiad moesol yn rhedeg drwy ei holl drefniadau (nodweddiad moesol drwg a da), yn erbyn y syniad eu bod yn ddiddrwg a didda, trwy eu gwneyd yn sylweddau defnyddiol:—rhesymoldeb ffydd, a'i bod o angenrheidrwydd o flaen gwybodaeth, ac o ganlyniad, yr angenrheidrwydd am ddadguddiad yn erbyn yr ymhoniad balch i wybodaeth ddigyfrwng:—undeb a chyssondeb yr Ysgrythyrau er eu cyfansoddi i gyfarfod gwahanol amserau ac amgylchiadau (*distingue tempora et concordabit Scriptura*=gwahaniaethwch amserau, ac fe gydgordia yr Ysgrythyrau), yn erbyn y flaenoriaeth a roddid i'r naill ran ar y llall; honai yr angenrheidrwydd am eu hesbonio yn deg ac yn ddiduedd, ac nid yn unol â chyfundrefn neu osodiadau blaenorol:—ac hefyd, cyferbyniai dduwioldeb a moesoldeb Cristionogion â sancteiddrwydd a pherffeithrwydd dychymygol a rhagrithiol y sect hon. Yr oedd amgylchiadau neillduol ei gynnydd ef ei hun mewn gwybodaeth Gristionogol yn ei gymhwyso o flaen pawb ereill i gyfarfod y cyfeiliornadau hyn; ac efe a wnaeth hyny gyda dirnadaeth glir ac effeithioldeb amlwg. Nid oes eisieu chwanegu dim at yr hyn a ysgrifenodd ef i ddangos afresymoldeb y dybiaeth o ddwy egwyddor dragwyddol a gwrthwynebol (deuoliaeth, *dualism*): ac y mae yr hyn a adawodd ar berthynas llywodraeth Duw â hanfodiad pechod; ffydd a gwybodaeth; unoliaeth a chyssylltiad hanfodol yr holl Ysgrythyrau â'u gilydd; a gwir natur bywyd duwiol; yn drysorau i bob oes ddilynol.

Yn ei wrthwynebiad i Belagiaeth, yr oedd Awstin yn cyfarfod ymhoniadau hollol wahanol. Proffesai Pelagius ei fod yn sefyll dros iachus-

Digitized by Google

rwydd y ffydd, ac yn amddiffyn moesoldeb Cristionogaeth, yn erbyn athrawiaeth oedd yn ei beryglu; os nad oedd yn rhoi y cymhelliadau cryfaf i anfoesoldeb, trwy gyhoeddi maddeuant rhad heb un teilyngdod personol. Yr oedd profiad personol Awstin o hollol lygredigaeth ei natur, a'i frwydrau celyd, ond ofer, i'w ryddhau ei hun o'i gaethiwed yn ei nerth ei hun, a'i astudiaeth fanwl o'r Ysgrythyrau, yn enwedig epistolau Paul, wedi gwasanaethu i roi iddo olygiadau clir, dwfn, a sicr am wirionedd yr efengyl, ac wedi ei gymhwyso i'w amddiffyn yn erbyn y syniadau arwynebol ac unochrog—y cyfryw sydd yn rhoddi maeth i hunan-gyfiawnder a balchder, ac felly yn dattroi efengyl Crist. Arweiniwyd ef i'r syniadau hyn cyn i'r ddadl rhyngddo a Pelagius dori allan. Am ddechreuad y ddadl hon, yr ydoedd, fel pob amrywiaeth mawr mewn crefydd, lle y mae dynion yn wirioneddol grefyddol neu gydwybodol (ac fe addefir hyn am Pelagius ei hun, ac yn fwy felly am rai o'i ganlynwyr Hanner-Pelagiaidd), yn tarddu o'r duedd i gyfyngu sylw gormodol at un elfen neu egwyddor yn ein natur. Nid yw teimlad dwys o natur grefyddol yn foddlawn heb brofiad o weithred uniongyrchol Duw ar yr enaid. Ymddengys hyn yn annattodol â phenarglwyddiaeth Duw, ac hyd yn oed â'i lywodraeth ragluniaethol, yr hon y mae yn rhyfyg i geisio ei chyfyngu, ac nis gallwn amgyffred pa fodd y mae yn cyfyngu ei hun. Rhaid i ras Duw o angenrheidrwydd fod yn anwrthwynebol. Pa beth a all roddi terfyn i hollalluogrwydd? Ymddengys mai hon ydyw yr egwyddor gyntaf ac uchaf a ganiateir mewn gweddi—yn mhob cymundeb rhwng enaid dyn â'r Anfeidrol. Ond y mae ochr arall:—y mae dyn yn teimlo ei fod yn rhydd, a bod ganddo ddigon o awdurdod ar benderfyniadau ei ewyllys i gyflawnhau ei gyfrifoldeb. Ar hyn y mae pob moesoldeb yn dibynu, a thrwy hyn yr ydym yn ennill syniadau am gyfiawnder a thrugaredd yn Nuw. Hyn ydyw dyryswch athroniaeth, sef graddau darostyngiad ewyllys dyn i ddylanwadau y tu allan iddo ei hun, ac yn annibynol arno ei hun yn eu tarddiad a'u mesur. Ond mewn Cristionogaeth, y mae y cwestiwn hwn nid yn unig yn cynnwys gwir natur dyn fel creadur rhesymol ac anfarwol, ond ei holl hanes ysgrythyrol—y cwymp a'i ganlyniadau, mewn euogrwydd a llygredd i holl hiliogaeth Adda; y prynedigaeth trwy Grist, a'r cyfiawnder y mae pechadur yn ei dderbyn ganddo. Cyssegrodd Awstin bron y gweddill o'i oes i amddiffyn, ac egluro, a chymhwyso yr ochr gyntaf o'r ddwy, heb allu, i foddlonrwydd rheswm, ei gyssoni â'r ail. Olrheiniai Pelagius yr ail i'w holl ganlyniadau, heb ofalu cymmaint a oedd ei gasgliadau yn gysson â'r cyntaf. Amddiffynai Awstin "efengyl gras Duw," pa beth bynag a ddeuai o athroniaeth dyn, er ei fod trwy hyny lawn mor debyg, os nad yn debycach, o sicrhau athroniaeth gywir; ond aberthodd Pelagius yr efengyl, fel trefn i gadw dyn euog ac analluog, am athroniaeth fas a moesoldeb dienaid. Wrth ysgrifenu yn erbyn y Manicheaid, i amddiffyn rhyddid yr ewyllys a chyfrifoldeb dyn, gwnai hyny yn debyg fel y gwnai y cyffredin o ddysgawdwyr eglwysig yn flaenorol i hyny, yn enwedig yn mysg y Cristionogion Groegaidd, gan ddysgrifio ffydd fel gweithred o eiddo yr ewyllys, trwy yr hon y mae dyn trwy ei allu ei hun megys yn cyfarfod y gras sydd yn ei adnewyddu ac yn ei achub, ac felly yn ymddangos yn gydweithiwr â Duw yn ei dröedigaeth; ond ymddangosai iddo yn ddiweddarach fod hyn yn lleihau gogoniant gras fel yr achos cyntaf o bob daioni mewn dyn cwympiedig, ac yn anghysson â'r Ysgrythyr, yr hon sydd yn priodoli yr ewyllysio a'r cyflawnu i Dduw, ac yn dysgrifio ffydd fel ffrwyth ei weithrediad ef (1 *Cor.* iv. 7; *Ioan* vii. 29; *Phil.* ii. 12). Y mae ysbryd a hanfod athrawiaeth Awstin ar hyn wedi cael ei broffesu yn nghyffesiadau yr eglwys yn mhob oes;—sef fod adnewyddiad dyn ar ddelw Duw, o'i ddechreu i'w ddiwedd, i gael ei briodoli i ras, yr hwn yn unig sydd yn ei greu o hewydd, ac yn perffeithio ei sancteiddiad: ac mai nid i alluoedd naturiol dyn, yn y mesur lleiaf, y mae edrych am yr achos o hono; o herwydd mewn canlyniad i gwymp ein natur ni yn ein tad cyntaf y mae yr holl hiliogaeth wedi cilio oddi wrth Dduw, ac nid oes modd eu hadferu ond trwy ei weithrediad dwyfol a chreadigol ef. Yr hyn y mae gwahaniaeth wedi bod arno ydyw, a oedd yn angenrheidiol, er mwyn dal y syniadau uchod yn gysson, i briodoli yr oll i weithrediad anorchfygol, a dysgrifio trugaredd fel yn gweithio mewn modd anianyddol: ac oni allesid, er priodoli cyfnewidiad dyn i ddylanwad y gwirionedd, a'r Ysbryd yn cydweithio â'r gwirionedd, eto bod yn fwy gofalus i beidio pylu y teimlad o gyfrifoldeb mewn dyn, trwy ei ddysgrifio fel un wedi ei amddifadu o ryddid; ac yn enwedig gan fod y rhyddid hwn yn ddirgelwch yn ein natur nas galli athronwyr ei amgyffred yn ei weithrediad cyntaf, cyn ei ddwyn dan ddylanwad pechod na gras. Ond arweinid Awstin i osod yr ochr a amddiffynai efe yn y goleu cryfaf, mewn cyferbyniad i'r syniadau arwynebol ac anwadal a goleddid yn gyffredin ar gyflwr naturiol dyn, ac hefyd i lwyr ddiwreiddio balchder hunan-gyfiawn.

Yn ei wrthwynebiad i'r Donatistiaid—ymneillduwyr oddi wrth eglwysi Affrica [gwel DONATISTIAID]—amddiffynai Awstin y gyfundrefn esgobawl, gan osod ei chanolbwynt yn Esgob Rhufain, fel olynydd Pedr, ac o fewn cylch yr hon yr oedd gwirionedd ac iachawdwriaeth yn gyrhaeddadwy. Yr oedd ei syniadau ar hyn yn hollol wrth-Brotestanaidd; a'i ysgrifeniadau ef a berffeithiodd y ffurf eglwysig a gyssylltir yn gyffredin âg enw Cyprian fel ei phrif adeiladydd. Cymmeradwyai hefyd orfodi dynion i ymuno â'r eglwys; a defnyddiai yn rheswm dros hyny, mai ynddi hi yn unig yr oedd iachawdwriaeth i'w chael, a bod Iesu Grist wedi dywedyd, "Cymhellwch hwynt i ddyfod i mewn." Ië, yn ei wrthwynebiad i'r sectariaid hyn, efe, trwy ei ddadleuon a'i resymau, a balmantodd y ffordd i'r holl erlidigaethau sydd yn anffurfio tu dalenau hanes eglwysig am y canrifoedd dilynol; o herwydd yr oedd yn dda gan ddynion appelio at lais Awstin, y tad eglwysig enwog, o blaid yr hyn oedd yn sarhad ar ysbryd yr efengyl, yn gystal ag o blaid yr hyn oedd yn unol â hi. Yr oedd ei ddylanwad ef yn nerthol dros dda a drwg; a rhaid, yn ngwyneb yr anfantais oedd yn codi o'i syniadau eglwysig, fod ei wasanaeth o blaid y gwirionedd yn fawr i ennill dylanwad ar Ddiwygwyr yr unfed ganrif ar bymtheg, yn enwedig ar Luther, Melancthon, a Calfin—y fath na chafodd dim ysgrifeniadau ereill o gyfansoddiad dynol.

Heb law ei wasanaeth i gywiro, eangu, a chadarnhau syniadau athrawiaethol ei oes a chanrifoedd dilynol, gwnaeth lawer i ddyfnhau a phuro ei MOESOLDEB—trwy gyfeirio sylw arbenig at y pwysigrwydd o *egwyddor* iawn yn yr hyn a gyflawnid, yn erbyn llymder a chulni mynach-

Digitized by Google

aidd ar un llaw; ac ar y llaw arall, tra yn dangos mai mewn anian dduwiol y mae bywyd sancteiddrwydd yn gynnwysedig, eto gwrthsafai yn egnïol arferion llygredig paganiaid, yn enwedig anniweirdeb, celwydd, a hunanleiddiad, oedd mor gyffredin. Yr oedd ei syniadau am Dduw yn fwy clir nag ydoedd syniadau duwinyddion cyn hyny. Y duedd gyffredin oedd, i edrych ar y Creawdwr a'r greadigaeth fel un, ac felly rhedeg i'r hyn a elwir Panthëistiaeth (Duw yn oll, a'r oll yn Dduw): ond cadwai Awstin y ddau yn ofalus ar wahan, tra ar yr un pryd y dysgai fod presennoldeb Duw yn yr holl greadigaeth, a bod pob peth sydd yn cymmeryd lle—cyffredin ac anghyffredin—o fewn ei drefn dragwyddol ef. Ond o gymmaint a hyny y byddai yn fwy gofalus i beidio cymmysgu y syniad am Dduw gyda'r syniad am y byd, neu y creadur, yr hyn ar unwaith sydd yn arwain i ddyfodiad crefydd a moesoldeb. Am RAGLUNIAETH, dysgai fod pob peth sydd wedi dygwydd, ac a ddygwydd, dan lywodraeth ddwyfol; eto, nad yw sancteiddrwydd Duw yn cael ei gymylu trwy ddyfodiad pechod i'r byd, am ei fod yn tarddu yn unig o ewyllys y creadur fel ei unig ffynnonell, ac mai ei wir natur ydyw *amddifadiad* (*negation*) ac *annhrefn*, yr hwn a oruwchlywodraethir er daioni.

Rhoddwn eto, mewn ychydig o frawddegau, ei olygiadau ar yr hyn y treuliodd gymmaint o'i amser a nerth ei feddwl i'w ddeall, ei ddysgu, a'i amddiffyn, sef *perthynas dyn â threfn gadwedigol Duw, ac â'i fwriadau tragwyddol.* Dygai yn mlaen yma ei syniadau yn erbyn y Manicheaid; sef fod pechod â'i wreiddyn yn hollol ac yn gwbl yn ewyllys dyn: a chyda hyny mor benderfynol, ei wrth-Belagiaeth—fod llygredd mewn dyn o'r groth; yr hyn y credai efe y gallai bedydd ei symmud ymaith. Er mwyn cyssoni y ddau hyn â'u gilydd, credai fod Adda a'i hiliogaeth yn un—nas gallasai y natur ddynol, sydd yn gyffredin iddo ef a hwy, lai na syrthio neu sefyll ynddo ef. Trwy weithred wirfoddol o eiddo ein tad cyffredinol, syrthiodd yr holl natur ynddo ef oddi wrth Dduw, a daeth pob un sydd yn cyfranogi o'r natur hon yn gyfranog o'r un canlyniadau. Wrth gilio mewn balchder anghrediniol oddi wrth Dduw, collodd ei ddelw, ei gymdeithas, a chydgordiad ei natur resymol âg ef; ac er fod delw naturiol ei Greawdwr i'w chanfod yn ei gydwybod a'i reswm, fel y mae yn ei ddyfnder isaf, yn greadur cymhwys i ras cadwedigol weithio arno—eto, y mae mor hollol lygredig, nes bod yn analluog i gyflawnu unrhyw weithred, yn fewnol nac yn allanol, i ryngu bodd Duw, ond fel y galluoger ef, trwy ddadguddiad dwyfol iddo, ac Ysbryd Duw yn gweithio ynddo—yn goleuo ei ddeall, ac yn nerthu ei ewyllys. Yn y rhanau hyny o'r byd lle nad yw y dadguddiad, sef yn mysg paganiaid, nid yw yr ymddangosiadau allanol mwyaf rhinweddol ond pechodau lliwiedig (*splendidia vitia*). Y mae y natur gwympedig ac euog hon yn cael ei throsglwyddo trwy genedliad naturiol o dad i fab (*peccatum originis hæreditarium*): penderfynodd yr Arglwydd amlygu ei drugaredd a'i gyfiawnder tuag at ddyn—ei drugaredd, trwy ei waredu oddi wrth bechod a chondemniad; a'i gyfiawnder, trwy gospi euogrwydd. Trwy etholedigaeth, neu arfaethiad diammodol, dewisodd trugaredd dyrfa o'r rhai oedd ynddynt eu hunain yn gyfiawn agored i gosp, i fwynhau bywyd tragwyddol. Dygir yr etholedigaeth hon i weithrediad yn rhinwedd aberth Crist—yr hwn a gyhoeddir yn sylfaen bywyd i bwy bynag a'i derbynio—trwy weithrediad Ysbryd Duw yn dwyn y rhai a etholwyd yn Nghrist yn anffaeledig i edifeirwch a ffydd i'r gwirionedd, a thrwy ras cynnorthwyol (*gratia cooperans*) yn cynnal y bywyd newydd yn ei wendid mewn cymdeithas â Christ ac ar hyd ffyrdd sancteiddrwydd, nes eu cwbl berffeithio mewn gogoniant. Amlygir cyfiawnder trwy adael y gweddill i'w haeddiant eu hunain; ac er eu cynnal yn y gweithrediad o'u galluoedd rhesymol a chyfrifol, a'u cynnysgaethu â moddion a chymhelliadau allanol digonol i'w dwyn i edifeirwch, eto heb roddi iddynt y gweithrediad grasol hwnw sydd yn adnewyddu yr ewyllys, ac yn sicrhau eu parhad hyd y diwedd (*donum perseverantia*). Y traethodau yn mha rai y mae yn egluro ei syniadau ar y materion hyn, sydd wedi rhoddi iddo y fath ddylanwad yn mysg Protestaniaid, ac a werthfawrogir fwyaf o ddim a wnaeth neu a ysgrifenodd.

Yn ei flyneddoedd olaf, cyfansoddodd Awstin ei waith yn erbyn Julianus, y Pelagiad. Ac hefyd, cyfansoddodd adolygiad beirniadol [*Retractiones*] o'i holl waith; yn yr hwn, gyda'i wybodaeth eangach a'i brofiad addfetach, y noda bob peth a ystyriai yn gyfeiliornus neu yn dywyll, ac y gwnai ymdrechion rhai o'i ganlynwyr i gyssoni ei ysgrifeniadau boreuol a diweddar, yn enwedig ar y ddadl Belagiaidd, yn afreidiol; ac hefyd, noda allan yr hyn y tybiai ei fod wedi cael goleuni newydd arno. Yn ystod y difrod a wnaed ar ogledd Affrica trwy ruthrgyrch dinystriol y Vandaliaid, dan Genseric, eu brenin; yr hwn a ddaeth drosodd gyda hanner can mil o filwyr o'r Yspaen i Affrica; ac yn eu cynddaredd, a anrheithiasant drefydd a phentrefydd, heb arbed nac oed na rhyw:—yn y trydydd mis o'r gwarchae a fu ar Hippo, y dref y preswyliai, y galwyd Awstin o'i lafur i'w wobr, yn unol â'i ddymuniad ef ei hun, yn y flwyddyn 76 o'i oed, ac yn y flwyddyn 429 O. C. Yn fuan ar ol hyny, cymmerwyd Hippo—collodd y Rhufeiniaid eu meddiannau yn Affrica — a chyda marwolaeth ei dysgawdwr mwyaf, diflanodd Eglwys Affrica; ac nid ydym yn ei chyfarfod mwy ar faes hanes eglwysig. Ond y mae ei ffrwythau addfetaf, sef duwinyddiaeth Awstin, yn parhau hyd yn awr yn etifeddiaeth i bob gwlad ac eglwys sydd yn prisio ymchwiliadau trwyadl i'r cwestiynau tywyllaf, ond er hyny mwyaf dyddorol i feddwl dyn, a'r golygiadau dyfnaf ac eangaf ar wirioneddau y dadguddiad dwyfol.

Rhoddwn yma ychydig o ddyfyniadau o *Gyffesiadau* Awstin—yr hwn sydd yn rhoddi hanes ei fywyd a'i ymdrechion am wirionedd hyd amser ei fedydd, ar ddull o weddi—er mwyn rhoddi ychydig anghreifftiau o'r anhawsderau oedd yn aflonyddu dynion meddylgar ar y pryd, ac er mwyn hefyd rhoddi i'r darllenydd fantais i wybod ychydig o natur *Cyffesiadau* Awstin—y llyfr mwyaf poblogaidd trwy holl Ewrop am yn agos i fil o flyneddoedd. Y mae y Dr. Owen, yn ei waith ar yr Ysbryd, yn gwneyd dyfyniadau mynych o'r *Cyffesiadau*, er mwyn dangos natur argyhoeddiad o bechod: felly, ychydig o ddyfyniadau o natur fwy athronyddol a roddir yma.

DRWG YN DDEFNYDD.

"Credwn fod drwg yn rhyw fath o ddefnydd, a bod iddo ei faintioli aflan a hagr ei hun, pa un ai braisg yn debyg i'r ddaiar, ai ynte teneu fel yr awyr, ai fel ysbryd gwenwynig yn rhedeg trwy y ddaiar, nis gwyddwn. A chan fod fy mharch i

Dduw y fath ag ydoedd, yn fy attal rhag credu fod Duw da wedi bod yn awdwr dim sydd yn ddrwg yn ei natur, meddyliwn fod dau fath o ddefnydd croes i'w gilydd, y ddau yn ddiderfynau, ond y da yr eangaf. Oddi wrth y dechreuad heintus hwn y dilynodd fy holl gamsyniadau. Tybiwn mai mwy parchus i ti, O fy Nuw! oedd credu dy fod yn annherfynol o bob tu—er fy mod yn gorfod credu dy fod yn derfynol ar ochr drwg—na phe buaswn yn meddwl am danat fel un wedi ei derfynu gan ffurf corfforol. Ac ymddangosai i mi yn well i gredu nad oeddit ti wedi creu dim drwg—yr hyn a ymddangosai i mi yn fy anwybodaeth ei fod yn ddefnydd, ac yn ddefnydd corfforol; o herwydd nis gallwn ffurfio syniad am feddwl ond fel corff teneu anweledig, yn llenwi rhyw le—na chredu fod drwg, fel yr ymddangosai i mi, wedi dyfod oddi wrthyt ti. Ac am ein Ceidwad ei hun, dy uniganedig Fab, credwn ei fod wedi ei estyn allan, mewn dull o ddyweyd, o dy ddefnydd goleu di, er ein iachawdwriaeth; a chan fod ei natur y gyfryw nas gallasai gael ei eni o Fair y Forwyn, heb ymgymmysgu â chnawd—pa fodd y gallasai y fath gymmysgiad gymmeryd lle heb lygriad nis gallaswn weled."

EI SYNIADAU PANTHEISTAIDD.

"Ymgeisiwn, er yn ddyn, ac yn fath ddyn ag ydwyf, i dy amgyffred di, yr unig wir Dduw, a phen Arglwydd pob peth; a chredwn yn fy enaid dy fod yn anllygredig, anghyfnewidiol, ac allan o gyrhaedd pob niwed; ac er nas gwyddwn o ba le, na pha fodd y daeth llygredigaeth, eto gwelwn yn eglur a theimlwn yn sicr fod yr hwn sydd yn ddarostyngedig i lygredigaeth o natur is na'r hwn sydd heb fod, a dewiswn yn ddibetrus yr hyn sydd uwch law niwed o flaen yr hyn sydd yn agored i niwed—yr anghyfnewidiol o flaen y cyfnewidiol. Crochlefai fy nghalon yn erbyn y dychymygion am danat a ymffurfiai yn fy meddwl; a chyda'r un ergyd hwn o uchafiaeth yr anghyfnewidiol ar y cyfnewidiol, yr ymlidiwn ymaith y fintai aflan a dywyllai lygaid fy meddwl. Ond mewn amrantiad, wele hwynt yn curo yn fy wyneb eilwaith, ac yn cymylu fy ngolwg, fel nas gallaswn lai na meddwl am danat ti—yr anllygredig, yr anghyfnewidiol, a'r hwn sydd uwch law pob niwed, a'r hwn a ddewiswn o flaen y cyfnewidiol a'r llygredig—er nad ar lun corfforol, eto yn llenwi rhyw le, yn wasgarog trwy y byd hwn, neu yn ymestyn yn annherfynol y tu hwnt iddo. O herwydd pa beth bynag y meddyliwn am dano heb fod mewn lle, ymddangosai i mi yn ddim, ïe, yn ddim hollol, ac nid cymmaint a lle gwag wedi i ryw gorff gael ei gymmeryd o hono, yr hwn wedi hyny a fyddai yn lle gwag. Gan fy mod fel hyn o galon mor gnawdol, tybiwn nad allasai dim hanfodi oni ymledai dros ryw faint o le, oni ellid ei wasgu neu ei chwyddo, ei dewychu neu ei deneuhau. Ni ddeallai fy nghalon y pryd hyny ond y ffurfiau hyny a ganfyddai fy llygaid; ac nid oeddwn eto yn deall nad allasai fy meddwl amgyffred a chanfod y ffurfiau hyny, heb fod o natur uwch na hwynt. Felly yr ymdrechais feddwl am danat Ti, yr hwn wyt yn Fywyd fy mywyd, fel un tra mawr, yn ymestyn trwy eangderau annherfynol, ar bob llaw yn treiddio trwy yr holl fydyssawd, a thu hwnt iddo yn mhob cyfeiriad, fel y byddai i'r ddaiar dy gael Di, i'r nefoedd dy gael Di, i bob peth dy gael Di, a chael eu terfynu hefyd ynot Ti, heb i Ti gael dy derfynu gan ddim. O herwydd fel nad yw corff yr awyr yn rhwystr i'r goleuni ymdaenu drwyddo, nid trwy ei dreiddio na'i bollti, ond trwy ei lenwi yn gyflawn, felly meddyliwn innau, fod nid yn unig y nefoedd, yr awyr, a'r môr, ond hefyd y ddaiar, yn dreiddiadwy i Ti, fel yn ei holl ranau, y mwyaf a'r lleiaf, y byddai dy bresennoldeb Di, trwy ryw ysbrydoliaeth ddirgelaidd i mewn ac i faes, yn llywodraethu pob peth a greaist. Felly y dychymygwn, am nas gallwn ymgodi at ddim uwch; ond cyfeiliornus ydoedd. O herwydd, pe felly, cynnwysai ran fawr o'r ddaiar gyfran helaeth o honot Ti, a rhan lai a gynnwysai gyfran lai: a llanwai dy bresennoldeb Di bob peth yn y fath fodd fel y cynnwysai corff yr elephant fwy o honot nag a wnai corff aderyn y to, o gymmaint ag y mae y naill yn llenwi mwy o le na'r llall, ac felly byddit Ti yn bresennol i'r byd bob yn rhan a rhan—rhan fawr o honot Ti i ran fawr o'r byd, a rhan fach i ran fach—ac nid fel yr wyt Ti mewn gwirionedd, yr oll o honot yn bresennol i bob rhan o'r byd, pa mor lleied bynag."

DRWG YN EI BERTHYNAS AG EF EI HUN.

"Pa beth bynag ydoedd, yr oeddwn yn deall y dylaswn feddwl am dano yn y fath fodd ag i osgoi gwneyd y Duw anghyfnewidiol yn gyfnewidiol, rhag i mi fy hun ddyfod y drwg hwnw wrth chwilio pa beth ydoedd, ac o ba le y mae yn tarddu. Mor bell a hyn yr oeddwn yn rhydd oddi wrth bryder yn fy ymchwiliadau, gan fy mod yn sicr fod y Manicheaid yn cyfeiliorni; a chiliwn oddi wrthynt â fy holl galon, o herwydd gwelwn eu bod hwy wrth chwilio i darddiad drwg yn cael eu llenwi â drwg, gan eu bod yn dewis meddwl fod dy sylwedd di yn dyoddef drwg yn hytrach na'u bod hwy eu hunain yn ei gyflawnu.

"Gwnaethym bob ymdrech i ddeall yr hyn a glywais yn awr; sef mai ewyllys rydd dyn ydyw yr achos ei fod yn gwneuthur drwg, ac mai dy farn gyfiawn di ydyw yr achos eu bod yn dyoddef drwg. Ond nis gallwn ei ddeall. Felly ymdrechwn dynu, yn ol golwg fy enaid, allan o'r pydew dwfn hwnw; ond mor aml bynag y gwnawn hyny, tynid fi yn ol eilwaith. Ond coddodd hyn fi ryw raddau i'r goleuni, gan fy mod wedi dyfod drwyddo i wybod cystal fod genyf ewyllys, a fy mod yn fyw. Felly pan ewyllysiwn, neu pan wrthodwn rywbeth, teimlwn yn sicr mai fi fy hun oedd yn ewyllysio ac yn gwrthod; ac o'r braidd na welwn mai yn hyn yr oedd achos fy mhechod. Ond pa beth bynag a wnawn yn groes i fy ewyllys, teimlwn fy mod yn ei ddyoddef yn hytrach na'i wneuthur, a'i fod yn gosp arnaf yn hytrach nag yn fai ynof; ond eto gan fy mod yn credu dy fod di yn gyfiawn, addefwn nad oeddwn yn cael fy nghospi yn anghyfiawn. Ond eto dywedwn, Pwy a'm gwnaeth? Onid Tydi, fy Nuw, yr hwn wyt nid yn unig yn dda ond hefyd yn ddaioni! Pa fodd gan hyny y daethym i ddewis y drwg a gwrthod y da, fel ag i gael fy anghyfiawn gospi? Pwy a blanodd ynof y gwreiddyn chwerw hwn, gan fy mod yn cael fy nghreu genyt Ti? Cefais fy ffurfio yn hollol gan fy Nuw da; os y diafol gan hyny ydyw awdwr y drwg sydd ynof, o ba le gan hyny y mae y diafol hwn? Os trwy ei ewyllys gyndyn ei hun y daeth i fod yn ddiafol o fod yn angel, o ba le gan hyny y daeth yr ewyllys gyndyn hono trwy ba un y daeth yn ddiafol, gan fod yr holl natur angelaidd wedi ei chreu gan y Creawdwr da hwnw. Tywy y meddyliau hyn suddwn i lawr eilwaith; ond eto nid mor ddwfn a'r uffern hono o gyfeiliornad—lle nad oes neb yn cyffesu i Ti—ag i feddwl dy fod Ti yn gwneuthur drwg yn hytrach na bod dyn yn ei wneuthur.

"Ymofynwn o ba le y mae drwg, a chwiliwn am dano mewn ffordd ddrwg, heb weled nad oedd fy

Digitized by Google

ymchwiliad yn dda. Gosodais yn awr o flaen golwg fy ysbryd yr holl greadigaeth, pa beth bynag a ganfyddir o'i mewn—y môr, y ddaiar, yr awyr, y ser, y coed, a chreaduriaid marwol—ie, a pha beth bynag ynddi nas gallwn ei weled, megys ffurfafen y nefoedd, yr angelion, a holl breswylwyr ysbrydol y nefoedd; a threfnais y cwbl yn fy nychymyg yn ol eu rhywogaethau, gan briodoli lle a sylweddau corfforol iddynt oll, ac yn derfynol a meidrol: ond Tydi, O Arglwydd! dychymygwn dy fod yn amgylchynu y cwbl, ac yn treiddio drwy y cwbl, er dy fod yn mhob ystyr yn anfeidrol—fel pe byddai yr eangder yn un môr mawr diderfyn, yn mhob man ac yn mhob lle yn fôr, a'i fod yn cynnwys sylweddau ysbwngaidd o faintioli mawr, ond terfynol—llenwid hwynt o angenrheidrwydd gan y môr annherfynol. Felly y meddyliwn am dy greadigaeth—ynddi ei hun yn feidrol, ond yn llawn o honot ti, yr Anfeidrol! a dywedwn, Wele Dduw, a'r greadigaeth a greodd! Yr wyt Ti yn dda, ac y mae y cwbl a greaist yn dda; ac yr wyt ti yn amgylchynu ac yn amgyffred pob peth;—o ba le, gan hyny, yr ymlusgodd drwg i mewn? Pa beth yw ei wreiddyn, a pha beth ei hedyn? Neu ai peth heb fod ydyw? Pa ham ynte yr ydym yn ei ofni, ac yn ceisio cilio rhagddo? Os yn ddiachos, y mae yr ofn hwnw yn ddrwg; ac o gymmaint a hyny yn fwy drwg, o herwydd ei fod yn ddiachos—y mae y drwg hwnw yn bod, yr hwn yr ydym yn ei ofni, neu y mae ein hofn yn ddrwg. O ba le, gan hyny, y mae yn dyfod, gan fod y Duw da wedi creu pob peth yn dda? A oedd rhyw ddefnydd drwg yn bod erioed, o'r hwn y creodd bob peth? Os felly, pa ham na wnaeth y cwbl yn dda, er fod y defnydd yn ddrwg? Onid oedd ei allu yn ddigon? A pha ham hefyd na buasai yn ei ddifodi, os oedd yn ddrwg?......Meddyliau fel hyn oedd yn llethu fy ysbryd, ac yn difa fy nghysur; ac ofnwn na chawn afael ar y gwirionedd cyn fy marw."

PA FODD Y DAETH I FWYNHAU HEDDWCH.

Dysgrifia y modd y daeth i fwynhau tangnefedd, ar ol yr ymdrechfeydd hyn, trwy y goleu newydd a gafodd ar y Beibl, yn y dyfyniad canlynol:—

"Wedi fy rhybuddio i ddychwelyd ataf fy hun, aethym i mewn i mi fy hunan, dan dy arweiniad Di—yr hyn a allaswn wneyd, gan dy fod Di wedi dyfod yn gynnorthwywr i mi. A gwelwn â llygaid fy meddwl (y cyfryw ag ydoedd) oleuni anghyfnewidiol yn tywynu uwch law, ac ar fy meddwl. Nid goleuni naturiol ydoedd, y fath ag y gall pob enaid ei ganfod; ac nid o'r un natur, ond o ddysgleirdeb annaturiol, a thra, tra gwahanol; ac nid uwch law fy enaid, fel y mae olew uwch law dwfr, nac fel y mae y ffurfafen uwch law y ddaiar; ond uwch law fy enaid, am mai efe a'm gwnaeth; a minnau is law iddo, am fy mod wedi fy ngwneyd ganddo. Y mae yr hwn sydd yn adnabod y gwirionedd, yn gwybod pa beth yw y goleuni hwn, ac y mae yr hwn sydd yn ei adnabod yn gwybod pa beth yw tragwyddoldeb. Y mae cariad yn ei adnabod. O wirionedd! yr hwn wyt dragwyddoldeb! a thragwyddoldeb, yr hwn wyt gariad! Tydi wyt fy Nuw, ac atat Ti yr wyf yn ocheneidio nos a dydd. Pan y'th adnabum gyntaf, codaist fi i fyny, fel y gallwn weled yr hyn sydd i'w adnabod, ac mor analluog oeddwn eto i'w ddeall. Tywalltaist belydrau dy oleuni arnaf yn nerthol, a chrynais gan gariad ac arswyd; a gwelwn fy hun yn mhell oddi wrthyt mewn annhebygolrwydd. A phan glywais dy lais megys yn dywedyd, 'Myfi ydwyf ymborth i'r rhai cryfion, cynnydda a thi a gei ymborthi arnaf fi, a thi a newidir ar fy nelw i, ac nid fel ymborth naturiol yn cael ei droi i dy natur di.' Ac mi a ddeallais mai am anwiredd yr wyt Ti yn cospi dynion; a gofynais, 'ai nid yw gwirionedd yn ddim, am nad yw yn llenwi lle meidrol neu anfeidrol? A Thi a ddywedaist wrthyf o bell, 'Yn wir, Ydwyf yr hwn Ydwyf;' a gwrandewais, fel y mae y galon yn gwrandaw, ac nis gallwn ammheu; a byddai mor anhawdd genyf ammheu yn awr, a fy mod yn fyw, fod gwirionedd yn bod. A chanfyddais y pethau sydd is law i Ti, a gwelais nad ydynt mewn rhan, a'u bod mewn rhan—fel y maent o honot Ti, y maent yn bod; ond nid ydynt, am nad ydynt fel yr wyt Ti: o herwydd hyny sydd yn bod mewn gwirionedd, sydd yn anghyfnewidiol......

"Ac edrychais yn ol, a gwelais fod pob peth yn ddyledus i Ti am fod, a'u bod oll yn cael eu cynnwys ynot Ti; ond nid fel y mae pethau yn cael eu cynnwys mewn lle, ond yr wyt Ti yn cynnwys pob peth yn dy law—yn dy wirionedd.........A gwelwn fod pob peth yn cydrodio, nid o ran lle yn unig, ond hefyd o ran tymmorau; ac na ddarfu i Ti, yr hwn yn unig wyt dragwyddol, ddechreu gweithio ar ol treigliad aneirif oesoedd: o herwydd nid yw amser a fu, neu a ddaw, yn treiglo ond trwot Ti—yn parhau ac yn gweithio."

Yr argraffiad cyntaf o holl waith Awstin a gyhoeddwyd gan Amerbach, mewn naw cyfrol, yn Basle, 1506; ond nid oedd hwn yn cynnwys ei lythyrau, ei bregethau, a'i esboniadau ar y Salmau. Adolygodd Erasmus hefyd argraffiad o'i waith, yr hwn a gyhoeddwyd amryw weithiau. Yn 1577, parotodd duwinyddion Louvaine argraffiad mwy cywir nag un a gyhoeddwyd yn flaenorol: ond yr argraffiad goreu ydyw yr un Benedictine, mewn un ar ddeg o gyfrolau unplyg, yr hwn a ddaeth allan yn Paris, 1679—1700. Y prif awdurdod am ffeithiau ei fywyd, ydynt ei *Gyffesiadau*, ei *Adolygiadau*, a'i *Lythyrau* ei hun [*Confessiones, Retractiones, Epistolæ,*], a'i fywgraffiad gan ei ddysgybl Possidius. Y rhai diweddarach, ydynt Tillemont (mewn 13 cyf.), a'i fywyd yn yr argraffiad Benedictine (cyf. 11).—(Yr haneswyr eglwysig, megys *Milner, Mosheim, Neander*, &c., &c.; *Ritter Geschichte der Christ, Philos.* I. 153—443; *Hertzog R. Encyklopadie.*)

**AWSTIN**, [a elwid AUGUSTINE]. archesgob cyntaf Caergaint. Mynach ydoedd yn ei ddyddiau boreuaf yn mynachdy St. Andrew yn Rhufain, lle y derbyniodd addysg dan Gregory—yr hwn a adnabyddir fel y pab Gregory. Anfonwyd Awstin, gyda deuddeg o fynachod ereill, i ymdrechu dychwelyd trigolion yr ynys hon at y grefydd Gristionogol yn y flwyddyn 596 O. C., dan ofal Gregory, yr hwn oedd wedi gosod ei fryd ar hyn cyn ei ddyrchafiad i'r gadair Babaidd. Wedi i Awstin a'i ganlynwyr gychwyn ar eu taith, digalonwyd hwynt wrth feddwl am eu dyeithrwch i arferion ac iaith trigolion y wlad. Dymunasant ddychwelyd yn ol, ac aeth Awstin i Rufain i ymofyn caniatâd y pab i hyny; ond dychwelodd gyda llythyr annogaethol i'r cenadon, a daethant rhagddynt yn fwy calonog, wedi derbyn hefyd o garedigrwydd breni na brenines y Ffrancod, a chael gyda hwynt gyfieithwyr.

Wedi dyfod drwy Ffrainc, goddefwyd iddynt drigo yn ynys Thanet, o ba le yr anfonasant genadon at Ethelbert, brenin Caint (Kent), i wneyd yn hysbys iddo eu bod wedi dyfod o

Digitized by Google

Rufain, a bod ganddynt y newyddion goreu yn y byd—y mwynhad o fywyd tragwyddol i bawb a'u derbynient. Dewiswyd tiriogaethau Ethelbert, o herwydd fod ei wraig, Bertha, merch Cherebert, yn Gristion; yr hon, yn ol gweithred ei phriodas, oedd i fwynhau rhyddid gyda chrefydd. Yr oedd ganddi esgob—ei enw oedd Luidhard—ac arferai addoli yn eglwys fechan St. Martin, y tu allan i gaerau dinas Caergaint. Gorchymynodd Ethelbert i Awstin a'i ganlynwyr aros lle yr oeddynt; ond yn fuan efe a aeth yno, gan eu gwahodd i'w gyfarfod yn yr awyr agored. Gwrthododd ar unwaith newid ei grefydd am un ddyeithr ac anadnabyddus; ond gan fod eu bwriadau yn ymddangos yn garedig, goddefodd iddynt bregethu yn mhlith ei bobl, a rhoddodd le iddynt i breswylio yn Nghaergaint, a elwid y pryd hyny Dorobernia. Aethant yno yn orymdaith, gan ganu hymnau, a phregethent yn Eglwys St. Martin, lle y byddent yn cydaddoli â'r rhai a arferent gyfarfod yno o'r blaen. Cyfyngwyd hwynt i'r llanerch yma hyd dröedigaeth a bedydd y brenin ei hun, pan y cawsant ryddid i bregethu drwy ei holl diriogaethau.

Yn 597, aeth Awstin, ar orchymyn y pab Gregory, i Arles, yn Ffrainc, lle yr ordeiniwyd ef gan esgob y fan hono yn archesgob a phrif esgob cenedl y Seison. Ar ol hyn, dychwelodd i Brydain, ac anfonodd Lawrence yr henadur, a Phedr y mynach, i Rufain, i amlygu eu llwyddiant i'r pab, ac i ddymuno eglurhad ar amrywiol gwestiynau perthynol i gynnaliaeth yr offeiriaid a defodau yr eglwys. Atebodd Gregory fod y rhoddion i'r eglwys, yn ol arfer esgobaeth Rhufain, i'w ddosbarthu yn bedair rhan—un i'r esgob a'i deulu, fel y gallent fod yn llettygar,—un arall i'r offeiriaid—un arall i'r tlodion—ac un arall i adgyweirio yr eglwysi:—gan fod yr offeiriaid yn fynachod, y dylent fyw gyda'u gilydd; ond y dylai trysorfa y mynachdy gynnal pa rai bynag o honynt a briodent. Am arferiad, defodau, a gwasanaeth eu heglwys, goddefodd Gregory i Awstin ddewis pa ranau neu reolau bynag a ymddangosent yn fwyaf ffafriol i lwyddiant yr Eglwys Seisonig, ac iddi eu defnyddio felly at ei gwasanaeth ei hun. Anfonodd Gregory hefyd, ar ddymuniad Awstin, nifer o genadon yn chwanegol, gan orchymyn iddo ordeinio esgob yn Nghaerefrog, dan yr hwn y byddai esgobion ereill; ond i hyn gael ei wneyd yn y fath fodd ag i adael Awstin o Gaergaint yn brifesgob ar holl Loegr. Anfonodd Gregory iddo hefyd rodd o lyfrau, gwisgoedd, gweddillion seintiau, ac offerynau cymhwys i wasanaeth eu crefydd. Cynghorodd Awstin i beidio dinystrio temlau y Seison, ond i symmud ymaith eu delwau; i olchi muriau eu temlau â dwfr sanctaidd, i godi allorau, i osod gweddillion y seintiau ynddynt, a thrwy hyny, yn raddol, eu llwyr gyfnewid i fod yn eglwysi Cristionogol. Gwnaed hyn, nid yn unig i arbed y draul o adeiladu, ond gan dybied y byddai y trigolion yn fwy parod i fynychu y lleoedd yr arferent addoli ynddynt. Annogodd ef hefyd i ofalu fod y seremonïau mor debyg ag y byddai yn bosibl i'r rhai paganaidd, rhag dychrynu y Seison wrth weled y cyfnewidiad yn fawr: ac yn arbenig cynghorodd ef hefyd i oddef i'r dychweledigion, ar rai o'r dyddiau gwyliau, i ladd a bwyta llawer o ychain, er gogoniant Duw, fel y gwnaethent o'r blaen er gogoniant y diafol.

Wedi i Awstin sefydlu ei esgobaeth yn Nghaergaint, cyssegrodd eglwys, a adeiladwyd o'r blaen gan rai Cristionogion Rhufeinig, i'r Gwaredwr; a sefydlodd y brenin Ethelbert fynachdy yno, yr hwn a gyssegrwyd i Pedr a Phaul, ond yr hwn a adnabyddir wrth yr enw Awstin.

Wedi llwyddo mor bell a hyn, gwnaeth Awstin ymdrech i sefydlu unffurfiaeth mewn arferion a dysgyblaeth drwy yr holl ynys; ac mewn trefn i gyrhaedd hyn, ymdrechodd i ennill yr esgobion Prydeinig; hyny yw, esgobion y Cymry. Ond bu yn gwbl aflwyddiannus. [Gwel BANGOR; EGLWYS BRYDEINIG.]

Bu farw yn Caergaint, Mai 26, 604; a chladdwyd ef yn nghladdfa y mynachdy sydd yn dwyn ei enw; gan nad oedd yr eglwys gadeiriol wedi ei hadeiladu. Ar ol ei gorphen, codwyd ei weddillion, a dodwyd hwynt i orwedd yn y porth gogleddol; ac yn 1091, symmudwyd hwynt i'r eglwys gan Wido, mynach o Gaergaint, a dododd yr argraff hwn ar ei fedd,—

> "Inclitus Anglorum presul, pius, et decus altum,
> Hic AUGUSTINUS requiescit corpore Sanctus."

—(*Penny Cycl.; Biog. Brit.* cyf. i. td. 361; *Henry's Hist. Brit.; Lingard,* cyf. i. td. 83.)

AWSTINIAID: urdd o fynachod, yn perthyn i Eglwys Rhufain. Ar ol i Awstin gael ei fedyddio, ymunodd âg amryw o gyfflelyb feddwl ag ef ei hun, i fyw bywyd crefyddol yn nghymmydogaeth Tagasta, ac yr oedd pob peth gandddynt yn gyffredin. Euodius, Alipius, a Severus, a ddaeth gydag ef o Italy; ac ymunodd âg ef yn ddiweddarach, Profuturus, Fortunatus, Possidius, Urbanus, Bonifacius, a Peregrinus. Sefydlwyd y gymdeithas hon tua'r flwyddyn 388; a thrwy ffafr Valerius, esgob Hippo, a dyrchafiad Awstin i'r esgobaeth, dygwyd hi i sylw arbenig; a'i hunig amcan yn y dechreu oedd parotoi dynion cymhwys i bregethu yr efengyl. Ond nid oedd un cyssylltiad rhwng yr urdd Awstinaidd âg Awstin ei hun; ac nid yw yn sicr iawn pa bryd y sylfaenwyd hi. Cyfeillion Awstin oedd y canoniaid rheolaidd cyntaf; a bwriadwyd dilyn ei gynllun yn sefydliad yr urdd a elwir ar ei enw, er fod ei sefydliad mor ddiweddar a'r deuddegfed ganrif. Ymddangosodd amryw sefydliadau mynachaidd yn Italy, ar gynllun Awstin; ond yn 1244, rhoddodd y Pab Innocent IV. iddynt fraint a ffurf urdd, trwy warant Babawl; ac ychydig o flyneddoedd ar ol hyny, sef yn 1256, cyhoeddodd Alexander IV. warant yn awdurdodi amryw drefniadau newyddion, ac yn cyhoeddi yr urdd yn rhydd oddi wrth awdurdod deddfau cyffredin y wlad lle y preswylient. Cymmerodd amryw o babau diweddarach yr urdd hon dan eu gofal neillduol, megys Gregory XIII. Du oedd yr unig liw a ganiatawyd i'r aelodau wisgo; gwlan oedd yr unig ddefnydd y caniatawyd iddynt wneyd crysau o hono, a'i roddi yn orchudd ar eu gwelyau; ni chaent ddefnyddio llian o gwbl. Cynnyddasant trwy yr oll o Ewrop, ac hyd at yr India, fel yr oedd ganddynt ddwy fil o fynachlogydd, a deng mil ar ugain o fynachod. Sylfaenwyd prif fynachdy yr urdd yn Rhufain, yn 1483, i'r hwn y perthynai llyfrgell helaeth.

Yr oedd sefydliad mynachaidd o'r enw hwn, i fenywod, gyntaf yn Hippo, dan ofal Perpetua, chwaer Awstin ei hun. Y mae Awstin yn rhoi cyfarwyddiadau iddynt yn un o'i lythyrau, sef yn y 211eg o'r argraffiad Benedictaidd. Sefydlwyd gwyryfdy yn Venice, ar yr un enw, gan Alexander III. yn 1177, yn ystod ei arosiad yn y ddinas hono. Gwnaed y dywysoges Julia, merch yr ymherawdwr Frederic I., yn abades. Sefydlwyd urdd o fynachesau troednoeth, ar yr un

Digitized by Google

enw, yn Madrid, yn 1589, y rhai a gospent eu hunain drwy dlodi a mynych ymprydiau.

Gwisgent wisg wen, gyda gwregys lledr; ac ar wyliau, wisg ddu, gyda mantell laes, a gorchudd (*veil*) du uwch ben un gwyn, ac yn hwy nag ef. Ni chaniateir iddynt ymddyddan â'u perthynasau agosaf, ac ymguddiant yn eu gorchudd ar ymweliad meddyg â hwynt. Perthynai Luther i'r urdd Awstinaidd, cyn iddo ymwrthod â Phabyddiaeth; a Staupitz, yr hwn a'i harweiniodd ef gyntaf at gariad Crist, oedd yn rhaglaw cyffredinol arnynt yn Germany. Yn amser y Diwygiad, yr oedd yn perthyn i'r Awstiniaid yn Mhrydain ddeg ar ugain o fynachdai.

AWYDD—FRYD—US, (*aw*): tuedd gref, chwant, dymuniad. Yn *Rhuf.* i. 27, mae y gair "awydd" yn gyfieithiad o ὄρεξις, o'r ferf ορεγω, yr hon a ddynodai ymestyniad at ryw wrthddrych, a gyfieithir yn *Heb.* xi. 16, "chwennych;" yn 1 *Tim.* iii. 1, "chwennych;" yn 1 *Tim.* vi. 10, "bod yn chwannog." Yn *Eccles.* xxiii. 6, y mae ὄρεξις yn cael ei ddarllen "awydd," fel yn *Rhuf.* i. 27. Yn yr adnod hon, dynoda chwant anifeilaidd o'r radd fwyaf anorchfygadwy—trachwant wedi llwyr ennill bryd y meddwl sydd yn ddarostyngedig i'w ddylanwad. "Yn hyd y dydd y mae yn fawr ei awydd"—(Seis., "All the day long he *coveteth* greedily);" *Diar.* xxi. 26. Dywedir hyn am y diog. Mae ei awydd a'i ddeisyfiad yn angerddol, ac anhawdd i'w boddloni. Dysgwylia i bawb wneyd cymmwynasau erddo, tra na wna ddim iddo ei hun, llawer llai i ereill. Ac y mae y deisyfiad hwn yn ei ladd, medd y gwr doeth. Y mae ei awydd angerddol yn boenedigaeth barhaus iddo, ac, efallai, yn ei osod ar lwybrau mor beryglus, er mwyn boddloni y trachwant dirfawr, fel ag i'w brysuro tua diwedd anamserol. Mor darawiadol ydyw y cyferbyniad a wneir rhwng y diog trachwantus a'r diwyd haelionus—"Y cyfiawn a rydd, ac nid arbed!" Gellir gweled yma mai nodwedd i'w ddysgwyl yn nghymmeriad y diwyd ydyw haelioni. Nis gall y diog fod felly, ac ni fynai fod felly; y mae ei awydd yn lladd pob teimlad haelfrydig yn ei fynwes.

Y gair Groeg am *awyddfryd*, yn *Rhuf.* viii. 19, ydyw *αποκαραδοκια;* yr hwn a arwydda, medd Robinson, "edrych yn mlaen at ryw wrthddrych gyda'r pen yn gogwyddo yn mlaen;" neu fel y sylwa Blackwall, dynoda un "yn cyfodi ei ben, ac yn estyn ei gorff mor bell ag y gall, er mwyn clywed a gweled rhywbeth hynod ddymunol, neu dra phwysig." Y mae yn hawdd gweled fod y gair yn cynnwys syniad tra grymus; ac y mae y grymusder sydd yn y gwreiddiol wedi ei gadw yn y testyn Cymreig trwy gyssylltu y ddau air, "awydd" a "bryd." Seis—*earnest expectation*=dysgwyliad pryderus. Yn nghyfieithiad Macknight, *earnest desire*=deisyfiad pryderus. Y mae Beza yn darllen fel Robinson, *exserto capite observans*=yn edrych â phen estynedig. "Yma," medd Calvin (yn y fan), "y mae yr apostol yn ein dysgu fod esampl o amynedd, i'r hyn y cymhellodd ni, yn cael ei osod ger ein bron hyd yn oed mewn creaduriaid mud. O blegid, a gadael heibio amryw ddeongliadau, yr wyf yn deall yr adran yn yr ystyr hwn—nad oes un elfen, nac un ran o'r byd, y rhai a gyffyrddwyd megys â theimlad o'i drueni presennol, nad ydynt yn gobeithio yn y modd dwysaf am yr adgyfodiad. Y mae yn wir yn gosod i lawr ddau beth—fod pob creadur mewn oferedd neu flinder, ac ar yr un pryd eu bod yn cael eu cynnal gan obaith. Ymddengys hefyd pa mor ddirfawr ydyw gwerth gogoniant tragwyddol, am ei fod yn gallu cyffroi pob peth i ddymuno ac i ddysgwyl am dano."

Yn 2 *Cor.* vii. 11, mae "awyddfryd" yn sefyll am επιποθησις (*epipothesis*), yr hwn a arwydda ddymuniad dwys, serchogrwydd cryf. Ond nid ymddengys ei fod yn air llawn mor gryfed a'r gair yn *Rhuf.* viii. 19. "Awyddus i ddoniau ysbrydol;" 1 *Cor.* xiv. 12:—"awyddus i draddodiadau;" *Gal.* i. 14:—"awyddus i weithredoedd da;" *Titus* ii. 14. Yn y manau hyn, y gair Groeg ydyw ζηλωτης=bod yn dra selog gydag unrhyw beth.

AWYR. O bob peth cyffredin, awyr ydyw y mwyaf cyffredin. Nis gall dyn fyned i unrhyw le sydd heb fod yn llawn o awyr. Ac o bob eisieu, nid oes un sydd mor ddibaid yn ei weithrediad er cynnaliaeth ein bywyd ag ydyw yr elfen hon. Mae ymborth yn angen achlysurol; gellir gwneyd mewn rhai amgylchiadau heb ddillad, ac y mae arferiad yn ein dysgu i wneyd ar brinder o honynt. Rhaid i'r diffyg o gynhesrwydd fod yn fawr cyn y bydd yn farwol. Ond y mae yr amddifadrwydd o awyr am ysbaid byr yn cael ei ddilyn gan angeu sicr a phrysur. Ac yn annhebyg i angenion naturiol ereill, nid yw ein defnyddiad o awyr yn ymddibynu ar ein hewyllys. Mae gweithrediad yr ysgyfaint yn debyg i ysgogiad y pendil;—mae yn ddibaid, yn nghwsg ac yn effro, mewn iechyd ac afiechyd, yn eistedd, yn sefyll, ac yn symmud, ac y mae ei attaliad yn attaliad ar fywyd ei hun. Y mae yn naturiol gan hyny i ddyn fod yn awyddus i ddeall ansoddau elfen sydd mor gyffredinol ac mor anhebgorol i'n bywyd.

Awyr ydyw yr hylif teneu tryloew, anweledig, a goleu, sydd yn ein hamgylchynu yn wastadol. Sugnir ef i'r ysgyfaint; ac wedi iddo aros yno am foment, gwesgir ef allan drachefn drwy y genau a'r ffroenau. Mae y cylchnewidiad hwn, o gymmeryd yr awyr i'r ysgyfaint, a'i anfon allan drachefn, yn cael ei alw yn anadliad. Tra yn aros yn yr ysgyfaint, y mae yn myned trwy gyfnewidiad a ddeallir yn well ar ol yr eglurhad a roddwn—trwy yr hwn nid yw yr awyr a dderbynir i mewn o'r un natur a'r hwn sydd yn cael ei anadlu allan. Mae yr effaith a wneir ar y gwaed trwy y cyfnewidiad hwn yn angenrheidiol i fywyd. Y mae yr awyr a anedlir allan yn anghymhwys i'w dderbyn i mewn eilwaith; ac o ganlyniad, os anedlir yr un awyr amryw weithiau drosodd fe rydd derfyn ar fywyd. Mae yr awyr o'n hamgylch gan hyny yn gofyn cael ei newid yn barhaus. Ac mewn *natur*, y mae mewn ysgogiad parhaus; ac yn ol cyflymder yr ysgogiad hwn yr ydym yn cael awelon hyfryd, gwyntoedd nerthol, neu gorwyntoedd dinystriol.

Mae yr awyr yn rhyfeddol ynddo ei hun, ac yn y dybenion a ateba. Er mor anmherffaith oedd gwybodaeth yr hynafiaid o'i natur, eto cydnabyddent ei bwysigrwydd trwy ei restru yn mhlith pedair elfen natur—tân, awyr, daiar, a dwfr; ond gŵyr dynion yn awr nad yw nac awyr, dwfr, na daiar, yn elfenau digymmysg, ac nad yw tân yn sylwedd o gwbl, cymmysg na digymmysg, ond effaith naturiol y gwres mawr a gynnyrchir pan y bydd rhyw sylweddau yn ymuno â'u gilydd.

Gan fod amryw fathau o awyr o ansoddau a phriodoliaethau hollol wahanol i'w gilydd, er yn debyg mewn ymddangosiad—yn anweledig, tryloew, goleu, heb liw, yn wasgadwy a hydwyth—

Digitized by Google

gelwir hwynt oll wrth yr enw cyffredin, *nwy* (*gas* yn y Seisoneg); a chyfyngir y gair awyr (*air*) i'r cymmysgedd neillduol hwnw o nwyon sydd yn cyfansoddi yr awyr yr ydym yn anadlu, yn gweled yr wybren drwyddo, yr awyr y mae ei awelon yn cludo ein trafnidaeth dros y moroedd, o wlad i wlad, a'r hwn a elwir, pan y meddylir am dano yn ei grynswth, yn AWYRGYLCH.

Mae yr awyr yn gymmysgedd o amryw sylweddau, pob un o ba rai sydd yn ateb dyben prydferth a doeth mewn cyssylltiad â bywyd llysieuol ac anifeilaidd. Mae pedwar sylwedd o'r hyn lleiaf yn angenrheidiol i'w gyfansoddiad. Dau o'r rhai hyn sydd yn gwneyd y rhan fwyaf o hono, sef *oxygen* (ufelai) a *nitrogen* (blorai); nid oes ond cyfran fechan o'r ddau ereill, sef *carbonic acid* (sur carbonig), a tharth dyfrol (*watery vapour*).

Y mae *oxygen* yn fath o awyr neu *gas* sydd yn debyg i'r awyrgylch ei hun, heb liw, na blas, nac arogl. Canwyll a lysg ynddo yn llawer cyflymach ac yn fwy dysglaer nag mewn awyr cyffredin. Anifeiliaid a anadlant ynddo gyda phleser mawr; ond y mae yn eu cyffroi yn annaturiol, yn cyflymu y gwaed, yn eu taflu i dwymyn poeth, ac o'r diwedd yn eu lladd gan ormod cyffroad.[1]

Mae *nitrogen* hefyd yn fath o awyr, yr hwn sydd, fel *oxygen*, heb na lliw na blas nac arogl; ond diffoddir canwyll ynddo yn union, ac nis gall anifeiliaid ana lu ynddo.[2] Mae *oxygen* yn drymach o'r nawfed ran o'i bwysau, a *nitrogen* yn ysgafnach o'r unfed ran ar bymtheg o'i bwysau, nag awyr cyffr din.


Hefyd, y mae *carbonic acid* yn fath o awyr, yr hwn, fel *oxygen* a *nitrogen*, sydd heb liw; ond yn annhebyg iddynt hwy yn hyn,—y mae yn arogli rhyw gymmaint, ac o flas sur, fel y dengys ei enw. Diffoddir tân yn y nwy hwn, ac fe rydd derfyn buan ar fywyd anifeilaidd. Y mae yn drymach o hanner ei bwysau na'r awyr cyffredin, o ganlyniad gellir ei dywallt o lestr i lestr yn yr awyr agored fel tywallt dwfr.

Yn mhob man a phob amser, y mae yr awyr yn cynnwys y pedwar sylwedd hyn—*oxygen*, *nitrogen*, *carbonic acid*, a tharth dyfrol. Y maent oll yn angenrheidiol i angenion beunyddiol bywyd anifeilaidd a llysieuol. Ond y mae y ddau nwy cyntaf, *oxygen* a *nitrogen*, yn ffurfio rhan mor fawr o'r holl awyr, fel y dywedir yn fynych fod awyr sych yn gynnwysedig o honynt hwy yn unig, yn y cyfartaledd o bedwar galwyn o *nitrogen*, ac un o *oxygen*. ond yn fwy cywir, mae awyr, wedi ei amddifadu o'i darth dyfrol a'i *garbonic acid*, yn gynnwysedig o 79 galwyn o *nitrogen* wedi ei gymmysgu â 21 o *oxygen* yn mhob 100 o alwyni.

| | |
|---|---|
| *Nitrogen* | 79 |
| *Oxygen* | 21 |
| | 100 |

Bychan iawn yw y cyfartaledd o *carbonic acid* yn yr awyr. Mewn uchder cyffredin, nid oes ond 2 alwyn mewn 5000 o awyr; ond fel yr eir i fyny, y mae yn cynnyddu nes bod yn gymmaint arall 10,000 o droedfeddi uwch na'r ddaiar; ond nid yw hyn ond cyfartaledd bach iawn, ac eto y mae yn angenrheidiol i fywyd llysieuol ar wyneb y ddaiar.

[1] Gellir cael *oxygen* ar ei ben ei hun, yn sylwedd gwahanol oddi wrth sylweddau ereill, ac nid fel y mae yn yr awyr yn gymmysgedig â rhai ereill; ac yn y cyflwr didoledig yma, gellir gwneyd prawfiadau arno ac ynddo, er mwyn deall ei ansoddau neillduol. Y ffordd rwyddaf i wneuthur *oxygen gas*, ydyw cymmeryd pwysau cyfartal o *oxide of manganese*, a *chlorate of potash*, a'u gwneyd yn fân, yna doder y cymmysgedd mewn costrelan (*Florence flask*), a gosoder lamp a thân dani, yn ol dar. 90.



Dar. 90.

Gellir golchi yr *oxide of manganese* a ddefnyddiwyd yn y prawfiad allan o gostrelau, a'i ddefnyddio drachefn mor aml ag y mynir.

Pan barotöir ef yn y modd yma, ymddengys priodoleddau y nwy o fewn y gostrelan ei hun, drwy roddi i mewn ynddi ganwyll oleu, neu delpyn o olosg (*charcoal*) wedi ei roddi yn gyntaf yn y tân ar flaen gwifr. Neu, os teimlir



Dar. 91.

awydd casglu potelaid o'r nwy, gellir gwneyd hyny drwy ddodi y cymmysgiad uchod mewn fferyllwydryn (*retort*), a'i gasglu dros wyneb dwfr, yn ol dar 91; neu trwy roddi corcyn a phibell yn y gostrelan, &c., yn ol dar. 92.



Dar. 92.

Modd ragorwych o barotoi y nwy hwn ydyw rhoi ychydig ronynau o *red oxide of mercury* (egrid coch arian byw) yn ngwaelod prawfbibell, a rhoddi gwres y lamp dani. Trwy hyn, teflir *oxygen* allan—fel y gellir gweled wrth ddodi yn y bibell babwyren (*match*) wedi hanner cynneu, a dangos mor gyflym yr ysir hi—tra y dyfera arian byw metelaidd yn fân belenau dysglaer.

[2] Gellir cael y nwy hwn mewn cyflwr didoledig trwy roi wns o gopras gwyrdd (a elwir hefyd *green vitriol*, neu *sulphate of iron*) mewn pedair neu bum wns o ddwfr, a thywallter y toddion i botel peint neu chwart, yn ol dar. 93. Tywallter hefyd i'r botel lonaid llwy fwrdd neu ddwy o *hartshorn* y siopau, sef *liquid ammonia*: corcier hi yn dyn, ac ysgydwer hi yn dda o bryd i bryd am hanner awr. Wrth lacau y corcyn yn araf ar bob ysgydwad, awyr a ruthra i mewn; a'r gwaith fydd ar ben, pan na chanfyddir mynedfa yr awyr i mewn. Yr awyr yn y gostrelan erbyn hyn fydd *nitrogen gas*, yr hwn a fydd o fewn ychydig yn bur —fe ddiffydd ganwyll neu babwyren, os doder i mewn.



Digitized by Google

Gan ei fod yn drymach na'r awyr cyffredin, gallesid dysgwyl iddo suddo tua'r ddaiar, ac nid i'r gwrthwyneb, ac felly ffurfio gwregys o awyr marwol yn agos i'r ddaiar, yn yr hon nas gallai anifail na llysieuyn fyw.[1] Mae gwyntoedd ac awelon awyrol yn cymmysgu y gwahanol sylweddau neu nwyau sydd yn gwneyd i fyny yr awyr; ond heb law hyn, y maent yn ymwasgaru ac yn ymgymmysgu â'u gilydd pan y bydd yr awyr lonyddaf, a hyny trwy ddeddf eu natur. Felly, nid yw nwy ysgafn fel *hydrogen*, y sylwedd ysgafnaf y gwyddys am dano, yn ymgodi yn hollol i ororau uchaf yr awyr, yno i nofio ar wyneb y nwyau sydd yn drymach nag ef: ac nid yw nwy trwm ychwaith, fel *carbonic acid*, yn suddo i lawr fel ag i orwedd yn barhaus islaw y nwyau ysgafnach: ond i'r gwrthwyneb, y maent yn raddol yn ymgymmysgu, yn rhedeg trwy eu gilydd, ac yn ffurfio un corff o awyr o gyfansoddiad tebyg trwyddo, fel y mae yr holl nwyau a gynnyrchir gan natur i'w cael yn mhob man trwy yr holl awyrgylch yn gymmysgedd lled debyg. Mewn ufudd-dod i'r ddeddf hon, y mae *carbonic acid* yn ymgodi neu yn suddo yn raddol, ac felly y mae yr awyr a anadlwn yn cael ei gadw yn bur. Yr achos fod mwy o hono ar benau mynyddoedd ydyw, fod dail, llysiau, a dyfroedd y môr, yn ei sugno yn yr haenau isaf yn gyflymach nag y gall ddisgyn i gyfarfod eu gofyn hwy.

Y mae y tarth dyfrawl yn amrywio o ran ei gyflawnder yn ol hinsawdd a gwres y lle. Y mae llai o hono mewn tymmorau a hinsoddau oerion nag mewn rhai cynhes. Nid oes mwy o hono un amser, yn mron, nag un ran o drigain, na llai nag un ran o ddau cant o gyfanswm yr awyr. Os rhoddir dwfr calch yn yr awyr agored, ymffurfia croenen wen ar ei wyneb (*carbonate of lime*) os bydd *carbonic acid* yn yr awyr, ac y mae hyn yn brawf o'i bresennoldeb. Gellir dangos fod tarth dyfrawl yn yr awyr ar y diwrnod poethaf yn yr haf, drwy roddi dwfr mor oer a rhew mewn gwydr yn yr awyr; o herwydd fe ymgasgla y tarth yn wlith ar y tu allan i'r gwydr, am fod y gwydr yn gymmaint oerach nag ef.


Y mae y dybenion a atebir trwy yr elfenau gwahanol hyn yn dangos eu bod oll yn angenrheidiol i gyfansoddiad yr awyr, a'u bod wedi eu cyfansoddi i natur, angenion, a swyddau anifeiliaid a llysiau, o ran eu rhyw a'u graddau. Fel hyn am *oxygen*:—o bob anadliad o awyr y mae yr anifail yn ei dynu i'w ysgyfaint, y mae yn sugno allan ryw gymmaint o *oxygen*. Y mae yr *oxygen* a geir yn y modd hyn yn rhan o ymborth naturiol yr anifail, na ddichon iddo ei gael un ffordd arall, a chyfran o ba un y mae yn rhaid iddo gael bob moment. Y mae yr elfen hon, gan hyny, yn hanfodol i fywyd anifeiliaid o'r graddau uchaf. Y mae y ganwyll yn llosgi, a phob llosgiadau yn cynneu, yn unig am fod *oxygen* yn yr awyr. Y mae y nwy hwn yn fath o ymborth naturiol i bob peth sydd yn llosgi ac yn fflamio; a phe byddai yr awyr hebddo, nis gallem gael na goleuni na gwres oddi wrth na glo, na choed, nac unrhyw gynnud arall. Y mae ei gyfartaledd hefyd wedi ei gymhwyso i gyflwr presennol pethau. Pe byddai yr awyrgylch oll yn *oxygen*, ni byddai bywyd anifeilaidd ond o fyr barhad; a llosgai bob peth; wedi unwaith ei danio, gyda'r fath gynddaredd ag i fod yn hollol ddilywodraeth. Am hyny, y mae yr *oxygen* wedi ei gymmysgu â chyfartaledd helaeth o *nitrogen*, yr hwn nid yw yn wenwynig fel *carbonic acid*; ac y mae y *nitrogen* hwn yn gwanhau yn ddiberygl yr *oxygen*, sydd ynddo ei hun yn rhy gryf, yn debyg fel y mae dwfr yn gwanhau gwin neu wirodydd, ac yn lliniaru eu dylanwad poethlyd ar y cyfansoddiad.

Drachefn, am y *carbonic acid*. Y mae pob deilen werdd yn y maes, neu ar y coed, yn sugno y nwy hwn tra y bydd yr haul yn tywynu; ac y mae mor angenrheidiol i fywyd y llysieuyn ag yw *oxygen* i fywyd yr anifail. Pe symmudid hwn o'r awyr, darfyddai pob tyfiant llysieuol ar y ddaiar. Nis gallesid ei hebgor, gan hyny, o'r awyr. Ond y mae *carbonic acid* yn wenwynig i anifeiliaid; ac o herwydd hyn, y mae y gyfran o hono sydd yn yr awyr mor fechan. Pe byddai y cyfartaledd o hono yn llawer mwy nag ydyw, nis gallai anifeiliaid anadlu heb niwed i'w hiechyd. Ac ar y llaw arall, fel y gall planigion tyfadwy gael digonedd er eu tyfiant o gymmysgedd o awyr sydd yn cynnwys cyn lleied o'r hyn sydd yn fath o ymborth naturiol iddynt, y mae ganddynt gynnifer o ddail, ac y mae y rhai hyn wedi eu crogi allan er mwyn cael cymmaint o arwyneb yn yr awyr ag sydd ddichonadwy. Ar wyneb y dail hyn, y mae aneirif fân dyllau, neu safnau, sydd yn didoli ac yn yfed i mewn y *carbonic acid* yn ddiorphwys. Y mae y myrddiynau o ddail y mae pob coeden yn ymledu, ac ysgogiad parhaus yr awyr rhyngddynt, yn galluogi y llysieuyn i gael digonedd i'w angen, o awyrgylch sydd wedi ei gyfaddasu yn flaenorol i gyfansoddiad anifeilaidd. Gweithrediad parhaus y dail hyn ydyw un o'r moddion a ddefnyddir gan natur i gadw cyfartaledd y nwy hwn yn llai yn mharthau isaf yr awyrgylch nag ydyw yn yr uchaf.

Nid yw y tarth dyfrawl sydd yn yr awyr yn llai angenrheidiol i gadwraeth bywyd. Mae y llysieuyn byw yn cynnwys cymmaint o ddwfr a thair rhan o bedair o'i bwysau; ac oddi wrth wyneb ei ddail y mae dwfr yn codi yn barhaus mewn

[1] *Carbonic acid* yw yr achos fod *soda water* yn berwi, a chwrw yn ewynu; ac y mae yn cyfansoddi agos i hanner y pwysau o bob craig galch. Gellir ei gynnyrchu trwy dywallt *diluted muriatic acid* (sur halig) ar ddarnau mân o gareg galch, neu winegr ar *soda* (halod) cyffredin y siopau, mewn gwydryn cwrw hir â rhyw beth ar ei wyneb (dar. 94), neu mewn potel (dar. 92). Gwelir drwy hyn;—

1. Y diffoddir canwyll oleu gan y nwy hwn; ond nad yw ef ei hun yn tanio fel *hydrogen*.
2. Ei fod mor drwm fel y gellir ei dywallt o un gwydryn i wydryn arall.
3. Y gellir diffoddi canwyll âg ef wrth ei dywallt o wydryn mawr arni, fel y gwelir yn y darlun hwn.



Dar. 94.

4. Pan yrir ef trwy drwyth o fresych cochion (dar. 92), neu *litmus*, ei fod yn ei gochi, ac o ganlyniad, ei fod yn sur (*acid*).
5. Pan yrir ef trwy ddwfr calch clir (dar. 92), ei fod yn ei droi yn llaethaidd, gan ffurfio *carbonate of lime*.

Digitized by Google

tarth anweledig. Pe byddai yr awyr yn hollol sych, tarthai y dwfr hwn ymaith oddi wrth y dail yn gyflymach nag y gallent ei gael drwy y gwreiddiau o'r tir; a buan y nychai, y gwywai, ac y byddai y llysieuyn farw. Y mae rhan fawr o gyfansoddiad anifail byw hefyd yn gynnwysedig o ddwfr. Yn nghorff dyn sydd yn pwyso saith ugain a phedwar ar ddeg o bwysau, y mae cant ac un ar bymtheg o hono yn ddwfr, ac felly nid oes ond deunaw ar hugain yn ddefnydd sych. Oddi wrth ei groen, ac o'i ysgyfaint, y mae dwfr yn tarthio yn barhaus. Pe byddai yr awyr o'i gwmpas yn hollol sych, crasai a chrebachai ei groen, a dihoenai dan arteithiau syched. Mae yr awyr a anadla allan yn llawn tarth; a phe byddai yr awyr y mae yn sugno i mewn yn amddifad o darth, anadlai allan yr holl hylifau sydd yn llenwi mân lestri ei gorff, a sychai i fyny yn *fummy* gwywedig a hagr. Sychder annaturiol y Simoom, a gwyntoedd poethlyd y diffaethwch, ydyw yr achos eu bod mor farwol i'r rhai sydd yn teithio yr anialdiroedd poethion hyny. Fel hyn y mae y tarth sydd yn yr awyr yn angenrheidiol i fywyd anifeilaidd a llysieuol; treiddia drwy ddail a chwys-dyllau y llysieuyn, a thrwy ysgyfaint a holl gyfansoddiad yr anifail.

Y tarth hwn a etyb ddybenion prydferth ereill. Wedi i'r haul ddisgyn is law y terfyngylch, yn misoedd yr haf, ac i'r oerfel ddadebru y ddaiar a'r llysiau, y mae tarth anweledig yr awyr yn tewychu y niwl, ac yn disgyn yn berlau gwlithog ar bob peth oer. Mor ddiolchgar y mae natur yn ymddangos yn mhob man, a phob amser, am y gwlith adfywiol sydd yn disgyn bob nos—mor fynych y defnyddir ef yn nghymhariaethau yr Ysgrythyrau, ac y cenir am ei brydferthwch gan feirdd pob gwlad!

Edrychwn am fynyd ar y modd y mae gwlith yn disgyn, ac fel yr ymddengys yn dewis y manau ar ba rai y mae yn disgyn. Y mae pob peth ar wyneb y ddaiar yn pelydru gwres; neu, mewn geiriau ereill, yn taflu allan wres mewn llinynau unionsyth oddi wrtho—pob corff cynhes i bob corff oerach—ac y mae yr holl ddaiar yn anfon allan wres i fyny trwy yr awyr clir i'r eangder oer agored. Felly, y mae pob peth ar wyneb y ddaiar yn ymgais at gyfartalu y gwres —y sylweddau cynhesaf drwy ei golli, a'r oeraf drwy ei dderbyn—tra y mae arwyneb y cyfan yn tueddu at fod yn oerach. Ond tra y mae yr haul yn tywynu ar unrhyw fan, nid yw yn oeri, am ei fod yn derbyn ar y pryd fwy o wres nag y mae yn ei anfon allan; ac ar ol i'r haul fachludo, os bydd y ffurfafen yn cael ei chau allan â gorchudd o gymmylau, rhwystra hyn i'r gwres ddianc o'r ddaiar, a'r hyn a belydrir allan a deflir yn ol. Yn y nos, pan y bydd yr haul yn absennol, y mae y ddaiar yn oeri fwyaf; ac ar nosweithiau clir, yn fwy na nosweithiau cymylog: a phan na bydd y ddaiar wedi ei gorchuddio ond mewn rhan â chymylau, y rhanau hyny sydd dan yr awyr gliria sydd yn oeri fwyaf.

Drachefn, y mae gallu yr awyr i ddal tarth ynddo, heb ei ollwng yn wlith neu yn wlaw, yn ymddibynu ar ei dymmeredd. Mewn hinsoddau cynhes, ar hin gynhes, y mae yr awyr yn dal mwy o wlybwr neu darth nag mewn hin oer. O ganlyniad, pan ddaw awel lled gynhes, yn llawn o darth, i gyffyrddiad â phen mynydd, y mae yn cael ei oeri, ac felly yn analluog i ddal cymmaint o darth ag o'r blaen; a gadewir ar ol, mewn niwl neu gwmmwl ar ben y mynydd, ran o'i lwyth dyfrawl. Ymddengys y gronynau dwfr sydd yn y niwl drachefn ar y gwastadedd is law, yn ffynnonau neu aberoedd, gan ddwyn maeth ac adfywiad i'r tir sychedig. Felly, pan y bydd rhan o wyneb y ddaiar yn oeri gan belydriad ei wres, y mae yr awyr sydd mewn cyffyrddiad âg ef yn oeri hefyd; ac fel yr awelon cynhes ar ochr neu ben y mynydd, rhaid iddo adael cyfran o'r tarth oedd yn ei fynwes o'r blaen, yr hyn a ddaw i lawr mewn gronynau o ddwfr rhy fân i'w canfod. Ymgasgl y gronynau hyn ar bob deilen, ac ymgrogant oddi wrth bob llefnyn o laswellt yn "wlith perlaidd."

Yma eto canfyddwn gyfaddasiad prydferth:—Y mae gwahanol sylweddau wedi eu gwneyd i belydru neu golli eu gwres yn rhwyddach y naill i'r llall. Y mae y defnyddiau sydd yn oeri gyntaf, yn tynu gyntaf a helaethaf ronynau y gwlith. Hyn yw yr achos fod y clwt glaswelltog, yn yr hwyr, hirddydd haf, yn wlyb, tra y mae y rhodfa fanro yn sych: y mae y porfeydd sychedig, a phob deilen werdd, yn yfed i mewn y gwlybaniaeth, tra nad yw y ffordd fawr, a'r graig noethlwm, yn gwybod dim am dano. O'r un trysorau awyrawl o darth y mae y cawodydd adfywiol yn disgyn yn ein hinsawdd ni, a'r gwlawogydd sydd yn ymdywallt yn gefullifoedd yn y gororau trofanawl; ond yn unig fod y dull y gwneir iddynt ddisgyn ychydig yn wahanol. Yn mharthau uchaf yr awyrgylch, y mae ffrydiau o awyr oer yn rhuthro yn barhaus o'r gogledd, a ffrydiau o awyr cynhes yn dyfod o'r deheu. Pan gyferfydd dwy ffrwd o dymmeredd anghyfartal—y ddwy wedi eu llwytho â tharth—ymgymmysgant; ac y mae y tymmeredd yn y canol rhwng y ddau: ond y mae awyr o dymmeredd felly yn analluog i ddal cymmaint o wlybaniaeth ag oedd yn y ddwy ffrwd: o ganlyniad fel ar ochr y mynydd, ymffurfia cwmwl; ac y mae gweddill y gwlybaniaeth, dros ben yr hyn y gall awyr o'r tymmeredd hwnw ei gynnal, yn ymgasglu yn fân ronynau, ac yn syrthio i'r ddaiar yn wlaw.

Pan ystyriom can lleied o darth sydd yn yr awyr—pe deuai y cwbl i lawr ar unwaith dros yr holl ddaiar, ni byddai ei ddyfnder ond pum modfedd—y mae yn destyn rhyfeddod, mor fawr ydyw yr effeithiau a gynnyrchir drwyddo. Pe disgynai yr holl wlaw sydd yn syrthio mewn blwyddyn yn ein ynysoedd ni i gyd ar unwaith, gorchuddiai y ddaiar i ddyfnder o bump i ddeg ar ugain o fodfeddi; ac y mae yr holl wlaw yma yn disgyn o awyrgylch nad yw yn cynnwys, efallai, mwy o darth ar unwaith nag sydd yn syrthio mewn blwyddyn dros yr holl ddaiar. Wrth ddisgyn hefyd, y mae y gwlaw yn golchi yr awyr, ac yn dwyn i lawr y nwyau a'r tarth sydd yn afiachus i ddyn, er eu bod yn cynnorthwyo tyfiant llysiau. Ac fel hyn, y mae yn ateb dyben deublyg eto, at y rhai a nodwyd; sef puro yr awyr yr ydym yn ei anadlu, a dwyn ymborth i'r llysiau ar ba rai yr ydym yn byw.

Mor fuan drachefn ag y mae y gwlaw yn peidio a disgyn, a phelydrau yr haul unwaith eto yn cynhesu wyneb y ddaiar, y mae y tarth yn dechreu esgyn o newydd, a'r gwyntoedd yn sychu ymaith y gwlaw a'r gwlith oddi ar ei hwyneb. Mewn manau ar y glôb, y mae haf gwastadol yn chwareu ar y moroedd eang yn achosi fod dwfr yn esgyn yn barhaus i'r awyr mewn tarth. Cludir hwn eilwaith gan y gwynt i ororau pell; ac felly, y mae y gwlybaniaeth sydd yn disgyn mewn gwlaw a gwlith mewn un man yn cael ei adgyflenwi gan yr hyn sydd yn esgyn yn darth mewn man arall. A hyn oll i gadw yn ddifwlch



Digitized by Google

y cyfaddasiad manwl sydd yn gwneyd cyfansoddiad yr awyr yn gymhwys i angenion creaduriaid byw.

Mor brydferth ydyw y drefn trwy yr hon y mae dwfr yn cael ei ddistyllio neu ei darthio i'r awyr —yn fwy helaeth o rai manau, ond mwy prin o fanau ereill—yna yn cael ei wasgaru trwy yr awyr eangfaith ac aflonydd; ac yna yn disgyn eilwaith mewn cawodydd maethlawn, sydd yn puro yr awyr; neu yn y gwlith, yr oedd dynion mor hir cyn deall pa fodd y disgynai! Ond mor dra phrydferth y ddyfais—ïe, o'r braidd nad ellir dyweyd, y duedd fywydol—drwy ba un y mae y gwlith yn dewis y gwrthddrychau y mae yn ymhyfrydu syrthio arnynt!—disgyna yn gyntaf ar bob planigyn byw, gan weinyddu yn helaeth i'w angenion, heb roddi ond yr hyn sydd dros ben hyny i'r diffaethle diffrwyth. Fel hyn y mae natur yn ei holl weithrediadau yn gymmwynasgar a doeth, heb wastraffu na defnyddiau na dyfeisiau; ac eto yn gweinyddu ei chymmwynasau yn ddifesur, gan ddarostwng defnyddiau meirw i ddeddfau sydd yn eu gorfodi i wasanaethu, a hyny gyda'r parodrwydd mwyaf, i angenion a chysuron pob peth byw.

Pedwar o sylweddau, gan hyny, sydd yn hanfodol i gyfansoddiad yr awyr—*oxygen, nitrogen, carbonic acid*, a tharth dyfrawl: ond y mae y rhai hyn wedi eu cyfaddasu o ran natur a graddau i gyflwr presennol pethau. Ond heb law y rhai hyn, y mae yr awyr yn cynnwys rhyw ddefnyddiau ereill mewn cyfartaledd pur fach ac anmhenderfynol. O'r rhai hyn, y mae rhai yn cael eu ffurfio yn yr awyr ei hun, y mae rhai yn ymgodi mewn tarth oddi ar y ddaiar, ac y mae rhai yn esgyn o ddyfroedd y môr. O'r rhai a ffurfir yn yr awr ei hun, y mae dau yn teilyngu sylw neillduol—*ozone* a *nitric acid*. Nid yw y cyntaf o'r ddau hyn ond *oxygen* wedi ei ddyrchafu i gyflwr fferyllaidd uwch na'i gyflwr naturiol. Dygir ef i'r cyflwr hwn trwy wres yr haul, a gwefriaeth, yn benaf; ac yn y cyflwr hwn y mae y gweithredu yn gryfach, ac yn ymuno yn rhwyddach â sylweddau ereill. Un o'i brif ddybenion ydyw ymuno â sylweddau niweidiol sydd yn ymgodi i'r awyr, ac â llysiau a phethau ereill, yn y tir: ar hyn y mae ei ffrwythlondeb cyffredinol, a digonedd o ymborth llysiau, yn dibynu.

Am y sylwedd arall a ffurfir yn yr awyr, sef *nitric acid*, yr hwn a adnabyddir yn fwyaf cyffredin wrth yr enw *aqua fortis;* y mae yn gynnwysedig o *oxygen* a *nitrogen*. Y mae pob llucheden o fellt sydd yn saethu trwy yr awyr, a phob gwreichionen wefrol, yn peri fod graddau bach o'r ddau nwy hyn yn ymuno â'u gilydd ar hyd y llinell y saethant, gan ymffurfio yn *nitric acid*. Y sylwedd hwn sydd yn suro llaeth ar amser mellt; ac y mae gwlaw weithiau yn sur, gan faint y nwy yma sydd ynddo. Y mae yn sylwedd ffafriol i dyfiant llysiau; ac y mae yn un o'r defnyddiau y mae gwlaw a gwlith yn eu golchi i lawr o'r awyr; ac wrth wneuthur felly, y mae yr hyn sydd yn cael ei barotoi i fyny yn yr awyr yn cael ei ddwyn i lawr yn ymborth i lysiau.

Oddi ar wyneb y ddaiar y mae gwahanol ddefnyddiau yn esgyn mewn tarth a nwyau o wahanol fathau. Y mae llysiau ac anifeiliaid wrth fraenu a phydru, a defnyddiau llosgadwy, yn gollwng yn rhydd y cyfryw nwyau, y rhai sydd yn esgyn ac yn ymgymmysgu â'r awyr cyffredinol. Y mae rhai yn amlwg i'r arogl, megys *ammonia*, a *sulphureted hydrogen;* y mae rhai heb fod, megys y nwyau heintus (*miasmata*) sydd yn ymgodi o siglenydd yn ngwres yr haul mewn rhai gwledydd. Fel hyn, y mae yn yr awyr luaws o ddefnyddiau sydd heb fod yn angenrheidiol i'w gyfansoddiad, y rhai sydd yn ymgodi i'r môr awyrawl, o herwydd eu hysgafnder —fel y mae anmhuredd yn disgyn i lawr mewn dyfroedd o hono ei hun, neu yn cael ei olchi gan afonydd i'r môr mawr.

O'r sylweddau sydd yn esgyn i'r awyr, y mae *ammonia* yn teilyngu sylw neillduol; o herwydd y pwysigrwydd a briodolir iddo, mewn llyfrau ar amaethyddiaeth, i dyfiant llysiau. Ffurfir y nwy hwn, yr hwn sydd yn adnabyddus i bawb yn yr arogl sydd yn perthyn i *hartshorn* cyffredin, trwy lygriad sylweddau llysieuol ac anfeilaidd, pan y bydd dwfr ac awyr yn bresennol: a hwn ydyw y prif achos o'r arogl cryf a roddir allan gan bentwr o ddefnyddiau o'r fath. Y mae yn ymgodi gan hyny yn barhaus i'r awyr, ac y mae rhai wedi meddwl ei fod yn rhan o'i gyfansoddiad; pa fodd bynag, y mae yn wasanaethgar i dyfiant llysiau.

Fel na byddo ymgasgliad yr holl ddefnyddiau hyn yn niweidiol i fywyd anifeilaidd, os nad yn afiachus hefyd i lysiau, y mae dyfroedd y nefoedd yn esgyn ac yn disgyn yn barhaus i'w golchi a'u puro; ac felly y maent yn amddiffyniad naturiol rhag hyny.

Y mae yn hawdd dangos fod *pwysau* yn perthyn i'r awyr, er mor ysgafn y mae yn ymddangos, ac er mor hawdd yr ydym yn gallu ymsymmud drwyddo. Oddi wrth ei ysgafnder ymddangosiadol, meddyliai yr hynafiaid nad oedd yn meddu ar ansoddau corff neu ddefnydd, ond ei fod yn hytrach yn ysbryd, neu yn debyg i ysbryd: ac oddi wrth hyn y daeth yr enaid i gael ei alw yn *spirit*=ysbryd; oddi wrth y gair *spiritus*, yr hwn sydd yn arwyddo *awyr*. Y mae yn ysgafn mewn cymhariaeth i gareg, i ddaiar, neu ddwfr: ond er mor ysgafn, y mae iddo bwysau penodol; a gellir dyweyd pa faint o hono a bwysai dunelli lawer. Ac o herwydd ei bwysau, y mae y fath nerth ynddo mewn ysgogiad i rwygo coed i fyny oddi wrth eu gwraidd, i daflu i lawr yr adeiladau mwyaf sylweddol, ac i wasgaru dinystr ar draws gwlad.

Gellir yn hawdd ei bwyso, a dangos pa faint o bwysau sydd yn perthyn iddo:—Pe ceisid fflasc, neu gostrelan wydr, yn cynnwys troedfedd gubig, gyda gwddf priodol, a thwsel ynddo, gellir, gyda chwistrell, neu sugnbib, dynu yr holl awyr allan o honi; a thrwy gau y twsel, a thynu ymaith y chwistrell, byddai y gostrelan genym yn wag o awyr. Pwyser hi yn awr mewn clorian dda: yna, agored y twsel drachefn, fel ag i ganiatau i'r awyr fyned i mewn, a phwyser hi eilwaith. Ceir ei bod yn pwyso dros wns (1·291 *wns*), neu dros bum cant (564·8 *gr.*) o ronynau yn chwaneg na phan ydoedd heb awyr ynddi. Felly, y mae troedfedd gubig o awyr yn pwyso 564·8 o ronynau. Y mae troedfedd gubig o ddwfr yn pwyso yn agos i fil o wnsau (997·125 *wns*): y mae yn canlyn fod swm o ddwfr yn pwyso yn drymach na'r un swm o awyr, yn ol fel y mae 997·125 yn fwy na 1·291; neu yn y cyfartaledd o 777½ i 1: *h. y.*, y mae dwfr dros saith gant a hanner o weithiau yn drymach nag awyr. Gan fod un ar bymtheg ar ugain o droedfeddi cubig o ddwfr yn pwyso tynell, y mae yn rhaid y bydd i 772½ o weithiau 36 o droedfeddi cubig o awyr bwyso tynell. Ymddengys gan hyny fod 27,810 o droedfeddi cubig o awyr yn pwyso tynell.

Pan yr ystyrir fod yr awyr, yr hwn, a'i gym-

Digitized by Google

meryd i gyd gyda'i gilydd, a elwir yr *awyrgylch*, yn cyrhaedd tua hanner cant o filltiroedd i fyny, rhaid fod ei bwysau ar bob peth y mae yn gwasgu arno yn fawr. Pe cymmerem fodfedd ysgwar o wyneb gwastad, y mae yn amlwg fod yn rhaid i'r fodfedd ysgwar hono gynnal pwysau colofn o awyr yn ymestyn oddi ar y gwyneb gwastad hyd gŵr uchaf yr awyr. Mae y prawfiadau egluraf, y rhai a eglurwn mewn man arall, wedi dangos fod y pwysau sydd ar fodfedd ysgwar yn bymtheg pwys, ac nad ydyw yn amrywio oddi wrth hyn ar wahanol dymmorau dros dri chwarter pwys.

Un o ansoddau adnabyddus pob elfen redegol, megys dwfr neu awyr, y rhai y gellir eu dynodi yn Gymraeg drwy y gair *awon (fluids)*, ydyw eu bod yn effeithio yn gydradd *bob ffordd*. Fel hyn, os gollyngir rhyw gorff i lawr i'r môr, y mae pwys y dwfr sydd arno yn gwasgu yn gyfartal ar ei dop, ei waelod, a'i ochrau. Gellir profi hyn yn hawdd fel hyn:—gollynger nifer o boteli wedi eu corcio yn dda i'r môr, gyda phwysau wrthynt, er mwyn eu suddo, a chyfeirier gwddf un tuag i lawr, un arall tuag i fyny, a rhai ereill yn mhob cyfeiriad rhwng y ddau hyn; a cheir, wedi eu suddo i ryw ddyfnder penodol, y bydd y corciau wedi eu gwthio i mewn, a'r poteli wedi eu llenwi â dwfr, a hyny yr un fath, ac ar yr un amser, pa fodd bynag y cyfeirir eu gyddfau. Mae yn amlwg gan hyny fod pwys colofn o ddwfr ar gorff pysgodyn neu ddyn yn ymsuddo dan y dwfr yn gweithredu bob ffordd; nid fel y gallesid meddwl ar y cyntaf, i lawr yn unig, ond i fyny, ac ar ei ochrau, ac ar bob rhan o'r corff sydd mewn cyffyrddiad â'r dwfr. Y mae y briodoledd hon yn perthyn i awyr yn gystal ag i ddwfr; *ac unrhyw wasgiad neu bwysau a deimla mewn un man, fe drosglwydda yn ddiwahaniaeth yn mhob cyfeiriad.*

Y mae yr haen neu y gwely o awyr yn mha un yr ydym ni yn byw yn gorwedd dan bwysau yr holl awyr i gŵr uchaf yr awyrgylch, ac y mae y gwasgiad hwn, fel y dywedwyd, yn bymtheg pwys ar bob modfedd ysgwar. Mae pob corff sydd mewn cyffyrddiad â'r awyr hwn gan hyny yn cael ei wasgu yn y cyfartaledd hwn i fyny, i lawr, ac ar ei ochrau; a gellir cyfrif cyfanswm y pwysau sydd yn gwasgu arno trwy luosogi nifer y modfeddi ysgwar sydd ynddo â 15. Mae arwyneb dyn, o faintioli cyffredin, yn cynnwys tua dwy fil o fodfeddi ysgwar. Mae yr holl bwysau gan hyny sydd arno, oddi wrth bwysau yr awyr amgylchynol, yn 15 wedi ei luosogi â 2,000; sef deng mil ar ugain o bwysau (30,000 lb.), neu yn agos i bedair tynell ar ddeg.

Gall ymddangos yn rhyfedd pa fodd na byddai y fath bwysau yn malurio defnyddiau mor dyner ag sydd yn cyfansoddi y corff dynol. Ond y mae hyn yn cael ei ragflaenu drwy y cyfartaledd perffaith gyda pha un y mae awyr yn gwasgu yn mhob cyfeiriad, oddi allan ac oddi mewn; ac yn codi o'r briodoledd a enwyd uchod, sef fod awon yn trosglwyddo gwasgiad heb ei leihau bob ffordd. Mae yr holl hylifau sydd yn llenwi mân lestri y corff, yn gystal ag oddi allan i'r corff, yn teimlo pwysau yr awyr, yr hwn sydd yn myned i'r ysgyfaint, ac i holl agoriadau y corff. Y canlyniad ydyw fod y pwysau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r holl ranau tu mewnol, a gwesgir ar y croen tuag allan gyda'r un pwysau yn gymhwys ag y gwneir ar y croen oddi allan gan yr awyr agored. Am effaith yr awyr ar y *goleuni*, ac am dano fel cyfrwng *sŵn*, &c., gwel yr erthyglau dan y geiriau hyny; hefyd HINSAWDD &c.

"TYWYSOG LLYWODRAETH YR AWYR;" *Eph.* ii. 2. 1af. Deallai y tadau Groegaidd y gair *awyr* yma am ansawdd—"tywysog y galluoedd awyrol." Fel hyn, Chrysostom,—"Trachefn, fe ddywed fod yr isnefolion fanau yn meddiant Satan, a bod yr ysbrydion awyrol yn ysbrydion digorff dan ei lywodraeth." Ymresymai Œcumenius fel hyn am y tywysog hwn,—"fod ei dywysogaeth dan y nefoedd, ac nid uwch law iddi; ac os dan y nefoedd, rhaid ei bod naill ai ar y ddaiar neu yn yr awyr. Ond gan ei fod yn ysbryd, y mae yn yr awyr, o herwydd y maent hwy yn meddu ar natur awyrol." Dysgrifia Cajetan y llu hwn yn fwy manwl, fel yn meddu ar "gorff teneu anweledig i'n synwyrau ni, yn syml ei gyfansoddiad, ac yn anllygredig." Cyfeiria Ignatius, yn ei lythyr at yr Ephesiaid, at yr "ysbrydion awyrol." Y mae amryw esbonwyr diweddar yn cytuno â'r esboniad hwn, megys Olshausen,—"Nid yw y galluoedd drwg hyn yn ddaiarol, ac nid ydynt ychwaith yn nefol; am hyny, dynodir hwy drwy air sydd heb arwyddo y naill neu y llall, a gelwir hwynt yn awyrol." A hyn y cydsynia Moses Stuart, Stier, &c. Mae golygiad a-Lapide a Calixtus, fod y diafliaid awyrol hyn yn codi ystormydd a gwyntoedd dinystriol, mor blentynaidd ar un llaw ag ydyw esboniad Calvin a Beza yn ffugrol ar y llaw arall; sef fod dyn mewn cymmaint perygl oddi wrth y cythreuliaid a phe preswylient yr awyr yn wirioneddol. Esbonia ereill yr ymadrodd yn hollol ffugrol. Dywed Rieger fod gallu yr ysbrydion drwg hyn yn debyg i nerth yr awyr—yn anweledig, yn gyflym, yn nerthol. Barn Bucer ydoedd, fod Paul wedi cael dadguddiad neillduol i hysbysu iddo mai yn yr awyr y mae trigfa ysbrydion cwympiedig. Ond, 2il. Y mae ereill yn meddwl fod Paul wedi cymmeryd benthyg y syniad oddi wrth ddemoniaeth y Pythagoriaid, neu y Gnosticiaid. Sicrha Wetstein fod Paul yn llefaru felly yn unol âg egwyddorion yr athroniaeth Bythagoraidd, â pha un yr oedd y rhai yr ysgrifenai atynt, sef yr Ephesiaid, yn gyfarwydd. Ac y mae yn wir fod Pythagoras a'i ganlynwyr yn credu fod yr awyr yn llawn o ysbrydion (πάντα τὸν ἀέρα ψυχῶν ἔμπλεον). Dysga Philo yr un peth; ïe, credai Awstin fod y demoniaid yn cael eu carcharu yn yr awyr (*damnatum ad aerem tanquam ad carcerem*). Meddylia Boyd fod y diafol wedi cael llywodraeth yr awyr, am fod yr awyr mor hanfodol i fywyd a chysur dyn, a bod ei lywodraeth ar ddyn i'w gweled yn ei lywodraeth ar yr elfen y mae dyn yn byw ynddi. I hyn gellir gofyn, A ydyw yn debyg y buasai Paul yn rhoi lledaeniad i freuddwydion a syniadau dychymygol philosophi wag? ac heb law hyny, gwrthbrofi Gnosticiaeth y bydd yr apostol yn ei holl gyfeiriadau ati.

Y mae ereill drachefn, megys Meyer, a Conybeare, a dybient fod yr apostol yn defnyddio iaith y Rabbiniaid Iuddewig: ond sicrheir yn benderfynol gan ereill fod hyn yn hollol ddisail; ac fel prawf o hyny, dyma eiriau Rabbi Bechai —"Y mae y demoniaid, sydd yn peri i ddynion freuddwydio, yn preswylio yn yr awyr; ond y mae y rhai sydd yn temtio dynion i bechu yn preswylio yn ngwaelodion y môr. Ond y rhai sydd yn temtio i ddrwg y mae yr apostol yn dyweyd sydd â'u llywodraeth yn yr *awyr*. Ond y mae yr holl syniadau hyn mor blentynaidd fel y mae yn anhawdd meddwl iddynt gael eu defnyddio gan yr apostol.

Nis gellir meddwl fod un o'r golygiadau

Digitized by Google

uchod yn foddhaol. Nis gellir meddwl fod yr awyrgylch naturiol mewn unrhyw fodd yn angenrheidiol i drigias ysbrydion. Ni raid i gythreuliaid, wrth symmud o fan i fan, wneyd yr awyr yn gyfrwng eu hysgogiad; o herwydd nid yw galluoedd *naturiol*, megys attyniad, gwefr-iaeth, &c., yn gofyn awyr fel cyfrwng eu hysgog-iad, ond tramwyant trwy y sylweddau caletaf; llawer llai ynte y rhaid i alluoedd *ysbrydol* wrth y fath gyfrwng. Nid oes un awgrymiad yn yr Ysgrythyr chwaith eu bod yn cael eu carcharu yn yr awyr, na chwaith eu bod wedi ei ddewis yn drigfa iddynt eu hunain o herwydd ei gyd-nawsedd â'u natur, neu o herwydd y fantais a gaent trwy hyny i ymosod ar ddynion, fel pe byddent yn ymlithro yn ddirgelaidd i galonau dynion, fel y mae nwyau heintus yn myned i'w hysgyfaint. Yr esboniad mwyaf naturiol a rhesymol ydyw un Dr. Eadie, yr hwn sydd wedi casglu y crynodeb uchod o wahanol olygiadau. [*Commentary on the Ephes.*] Y mae y "byd" a'r "awyr" yn cyfateb yn eu perthynas i'w gilydd. Fel y mae awyrgylch o gwmpas y byd naturiol, felly y mae "awyr" (αηρ) yn amgylchu y "byd" moesol (κοσμος). Yn yr adnod hon, *byd* ys-brydol a feddylir, sef byd dymuniadau pech-adurus—y cylch yn mha un y mae yr annuw-iol yn ymsymmud ac yn byw. Mewn ystyr tebyg y defnyddir y gair "byd" yn yr ymad-roddion, "y byd llenyddol," "y byd crefyddol." Felly y mae *byd* y Testament Newydd yn wrthwyneb i Dduw, yn casau Duw; nid yw y credadyn yn perthyn iddo, y mae wedi ei groes-hoelio i'r byd, ac yntau i'r credadyn. Cylch an-weledig ydyw y byd hwn, yn cynnwys pob peth sydd yn bechadurus mewn meddwl a gweithred—cylch sydd ar y glôb naturiol, eto heb derfynau daiaryddol yn perthyn iddo—yr holl diriogaeth foesol hono sydd yn gorwedd 'y tu allan i eglwys ddirgeledig Crist. Ac fel y byd naturiol, y mae gan hwn ei awyrgylch sydd yn cyfateb iddo mewn carictor—awyrgylch yn mha un y mae yn an-adlu ac yn byw. Gellir galw pob peth sydd yn rhoi yr un gwasanaeth iddo ag ydyw yr awyr naturiol i'r byd naturiol—pob peth sydd yn gyf-rwng cymdeithas, yn ei alluogi i anadlu, ac yn rhoi bywiogrwydd ynddo—yn "awyr."

**AZAZEL**: y bwch diangol a arweinid i'r anial-wch ar ddydd mawr y cymmod: *Lef.* xvi. 8, ymyl y ddalen. Gwel BWCH DIANGOL.

**AZECAH**, [עֲזֵקָה, *cadernid muriau*]: dinas gaerog yn iseldir Iudah, tua deuddeng milltir i'r de-orllewin o Ierusalem: *Ios.* xv. 35. Sonir am dani mewn cyssylltiad â brwydr Gibeon: *Ios.* x. 10, 11; gwersyllfa y Philistiaid, pryd y lladd-wyd Goliath: 1 *Sam.* xvii. 1; un o'r dinasoedd a gadarnhaodd Rehoboam; 2 *Cron.* xi. 9; ac yr oedd yn mysg y dinasoedd a orchfygwyd ddiweddaf gan Nebuchodonosor: *Ier.* xxxiv. 7.

**AZIZA**, [עֲזִיזָא]: Lefiad o feibion Zattu, ac un o'r rhai a gyttaliasant â gwragedd dyeithr, ac a'u bwriasant ymaith: *Ezra* x. 27.

**AZNOTH TABOR**: dinas o Naphtali, yr hon y dywed Eusebius ei bod ar y gwastadedd, heb fod yn neppell o Dioccsarea: *Ios.* xix. 34.

**AZOTUS**. Gwel ASDOD.

**AZZA**, [עַזָּה]: dull o sillebu yr enw Hebreig a ddodir yn gyffredin yn Gaza. Y mae y gwahan-iaeth yn cyfodi oddi ar annilysrwydd grym y llythyren gyntaf ע, yr hon, mewn enwau priod. a ddefnyddir gan rai fel y gydsain G; ond ereill a ddaliant yn unig ar sain y llafariad cyssylltiedig â hi, a hono yn yr amgylchiad yma yw A. Y mae yr enw yn y ffurf hon i'w gael yn *Deut.* ii. 23: *Ier.* xxv. 20; ac y mae yr olaf yn eglur ddangos mai Gaza a feddylir. [*Kitto's Bib. Cyc.*] Gwel hefyd *Gen.* x. 19, ymyl y ddalen. Gwel GAZA.

Digitized by Google

# B.



**BAAL, BEL**: dau ffurf o'r un gair, yn cynnwys yr un ystyr, gyda gwahaniaeth yn unig yn y briod-ddull *(idiom)*; y mae Baal בעל yn perthyn i'r priod-ddull Hebreaidd, neu Ganaaneaidd, a'r ffurf hynaf o'r gair. Y mae Bel (בעל) yn Syriaidd ei darddiad; a defnyddid ef yn fynych gan y Groegiaid mewn geiriau cyfansawdd, megys Beelzebub, Beelzebul, Beelphegor, Beelsamen. Ei ffurf Chaldeaidd ydyw Bel (בל), a defnyddid ef yn yr amseroedd Caldeaidd: *Esa.* xlvi. 1; *Ier.* li. 44; ac yn Llyfr Bel. Cyfieitha y Deg a Thrigain ef yn Bel (Βήλ) neu Belos (Βηλος), yr hwn a ddefnyddir yn gyffredin gan Josephus. Y ffurf olaf ydyw yr un gyffredin yn mhlith y Caldeaid a'r Persiaid; a defnyddir ef yn fynych gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn lle Baal, y ffurf fwyaf arferedig yn mhlith y Canaaneaid. Ei ystyr cyntaf ydyw yr un âg Arglwydd neu Duw (*Adonis, Deus*); eto y mae iddo ystyr gulach am dduw y Pheniciaid, y Carthaginiaid, y Numidiaid, a'r gwahanol drefedigaethau Pheniciaidd; ac am Dduw y Babiloniaid, dan yr enw Bel. Defnyddir y lluosog, Baalim (בעלים), naill ai am y gwahanol allorau neu golofnau a godid iddo, neu ynte i arwyddo gwahanol dduwiau penodol, megys Baal-Berith, &c. Dengys y lluaws dinasoedd a adnabyddid wrth yr enw Baal gyda rhyw attodiad gwahaniaethol, megys Baal-Gad, &c., fod addoliad y duw hwn yn gyffredinol iawn. Fod y gair yn cael ei ddefnyddio yn enw rhyw dduw penodol sydd eglur oddi wrth yr anghreifftiau o'r gair gyda'r banod o'i flaen, yn dynodi duw neu Baal neillduol: *Barn.* ii. 13 (ὁ Βααλ, ac ἡ Βααλ; *Ier.* xix. 5; xxxii. 35; *Rhuf.* xi. 4). Yn ol y gwahanol ansoddau a briodolai yr hynafiaid i'r duw hwn, yr ystyrid ef yn dduw yr Haul, Zeus, Jupiter, Heracles, Cronos, a Mars; neu ynte rhyw frenin wedi ei ddwyfoli. Yr oedd llawer o elfenau addoliad Baal yn gyffredin iddo, a hen addoliadau paganaidd yn gyffredinol, fel y mae yn anhawdd casglu oddi wrth ddefodau ei addoliad pa fath dduw yr ystyrid ef. Offrymid aberthau iddo, rhai diwaed: *Hos.* ii. 8, 13, 17; ac hefyd rhai gwaedlyd: 1 *Bren.* xviii. 23; arogldarthid iddo hefyd: *Ier.* vii. 9; xi. 13; xxxii. 29: anrhydeddid ef hefyd trwy blygu ger ei fron a'i gusanu (1 *Bren.* xix. 18), yr hyn oedd yn arferiad cyffredin iawn mewn addoliad gau dduwiau, fel y gellir casglu oddi wrth y geiriau a ddefnyddir am addoli; sef *προσκυνειν=cusanu tuag at; ac adorare=cyffwrdd â'r gwefusau.*

Gellir dosbarthu addoliad Baal i bedwar cyfnod; *Y cyntaf*, fel yr hanfodai yn mysg y Pheniciaid, y Sidoniaid, a'r Carthaginiaid. Cyfateba y cyfnod hwn âg amser arosiad yr Israeliaid yn yr Aipht. Prif nodwedd ei wasanaeth y pryd hwn oedd absennoldeb delwau, ac addoliad natur, yn yr hyn y cyssylltid Baal âg Astarte. Yn nechreu y cyfnod nesaf yr ydym yn eu cael yn gyssylltiedig â'u gilydd: *Barn.* ii. 13; x. 6; 1 *Sam.* vii. 4; xii. 10. Nid oedd delwau yn ngwasanaeth addoliadol hen drigolion Tyrus, Carthage, Gades, nac ychwaith yn Babilon [*Herodotus* i. 181]. Yr ydoedd eu haddoliad yn bur, o'i gymharu âg oesoedd diweddarach, heb ei halogi gan y fath anniweirdeb. I symlrwydd y tymmor yma y perthyna yn benaf yr arferiad o aberthu ar yr uchelfeydd: *Num.* xxii. 41; xxiii. 28, 29, 30. Yn ddiweddarach, codwyd allorau i Baal: 2 *Cron.* xxxiv. 4; *Ier.* xi. 13. Aberthid dynion iddo yn awr, a pharhaodd yr arferiad hwn yn rhai o drefedigaethau y Pheniciaid, megys Carthage, am dymmor maith: yn enwedigol, aberthid plant iddo: *Ier.* xix. 5; a dywed Eusebius [*De laud Const.* i. 4] fod y Pheniciaid yn aberthu eu cyntafanedig i Cronos bob blwyddyn. Yr un duw oedd Cronos a Baal. Galwai y Canaaneaid y Baal hwn, yr aberthent blant iddo, Moloch (brenin) neu Baal Moloch: 2 *Bren.* xxv. 10; *Ier.* xxxii. 35. Gwnai yr offeiriaid doriadau yn eu cyrff er anrhydedd eu duwiau, fel peth a wasanaethai yn lle aberthu dynion: 1 *Bren.* xviii. 28. Aberthent waed dynol i'w duw. Er nad oedd delwau cerfiedig yn arferedig yn y tymmor boreuol hwn, eto yr oedd colofnau; a thybir mai yn yr ystyr hwn y mae deall y gair *delwau* (*matsefoth*) yn y manau canlynol:—1 *Bren.* xiv. 23; 2 *Bren.* iii. 2; x. 26; xviii. 4; xxiii. 14; *Micah* v. 13; 2 *Cron.* xiv. 3; xxxi. 1. Felly y cyfieithir ef yn y manau canlynol—*Gen.* xxviii. 18; xxxi. 13; *Exod.* xxiv. 4; i arwyddo colofnau coffadwriaethol. Y mae y gair hefyd yn gyfystyr â'r gair a gyfieithir yn y manau canlynol, ar ymyl y ddalen, "haul-ddelwau" (*chemonim*); *Esa.* xvii. 8; xxvii. 9; ac sydd yn "haul-ddelwau" yn y testyn. *Ezec.* vi. 4, 6. Gwelir hefyd, wrth gymharu yr adnodau canlynol, fod y ddau air o'r un ystyr: 2 *Bren.* xxiii. 14; 2 *Cron.* xxxiv. 4; 2 *Cron.* xiv. 5.

Mae *ail* gyfnod addoliad Baal yn ymestyn o amser Iosuah hyd amser Hiram. Yn yr adeg yma, unwyd Baal âg Astoreth: *Barn.* iii. 7. Yr hynodrwydd a berthynai i addoliad y tymmor hwn oedd ei anniweirdeb a'i odineb. Yr oedd hyn yn enwedig yn addoliad Astoreth; yr ydoedd hefyd yn nglŷn âg addoliad Baal, dan yr enw Baal-Peor: *Num.* xxv. 1; xxxi. 16: *Ios.* xxii. 17. Yr oedd anniweirdeb hefyd yn rhan o wasanaeth Bel yn Babilon: *Herod.* i. 181. Hyn hefyd oedd nodweddiad yr addoliad yn Carthage, fel y tystia Awstin [*De Civ. Dei*, iv. 10].

Cyrhaedda y *trydydd* tymmor o wasanaeth Baal, o amser Hiram yn Syria, o amser Ahab yn Israel, ac o amser Ahaz yn Iudah, hyd amser ei ddinystr yn Israel trwy y prophwydi, a thrwy y Lefiaid yn Iudah: 2 *Cron.* xxix. 5. Nodweddiad y cyfnod hwn oedd cyfundrefn o ddelwaddoliaeth

Digitized by Google

orwych a mawreddus. Yr oedd ei phrif eisteddle yn Tyrus. Yma yr oedd Bal, Belus, Beelsamen, y prif dduw. [*Josephus Ant.* viii. 13, 1; ix. 6. 6.] Ar ol i ddylanwad yr addoliad hwn yn ei wedd bresennol gyrhaedd Israel, yr ydym yn cyfarfod âg offeiriadaeth luosog yn ngwasanaeth Baal. Yr oedd pedwar cant a hanner o offeiriaid yn Israel yn unig, a phedwar cant yn Astaroth: 1 *Bren.* xviii. 17; gyda y rhai hyn yr oedd llawer o brophwydi a gweision: 2 *Bren.* x. 19; yn chwanegol at y rhai hyn, yr oedd y rhai a ymgyssegrent i halogrwydd, ac a elwir "gwŷr Sodomaidd;" 1 *Bren.* xiv. 24; xv. 12; *Deut* xxiii. 17, 18. Crybwyllir hefyd am demlau i Baal: 1 *Bren.* x. 32; 2 *Bren.* x. 21. Yr oedd temlau i'r duw hwn er yn fore yn Tyrus a Babilon, &c.; ond cododd Hiram rai yn meddu mwy o wychder a newydd-deb yn eu lle [*Jos. Ap.* i. 18].

Nodwedd neillduol y *pedwerydd* cyfnod, sef y Caldeaidd, oedd y delwau cerfiedig a wnaed i Baal. Talpiau anghelfydd a ddefnyddiwyd gyntaf i'w gynnrychioli; ac mewn gwahanol oesoedd, mae yn debyg fod delwau o wahanol ffurf a gwneuthuriad: — dywed Diodorus, fod delw o ddeugain troedfedd o uchder, a mil o dalentau o bwysau. Mae awgrymiadau hen awduron yn cyssylltu delwau o Baal â llun y tarw, o'r hyn lleiaf fod ei ben felly, ac felly gellid casglu mai dan y ffurf hwn yr addolid ef. Yr oedd y ddelw o hono yn Carthage yn meddu breichiau estynedig i dderbyn y plant a fwriedid yn aberth iddo [*Diod.* 26. 14]. Yr oedd gan y Numidiaid ddelw o hono â'i ben yn pelydru goleuni o'i amgylch. Y rhai hyn ydynt brif nodweddiadau addoliad Baal.

Y mae ymdrechion mynych wedi eu gwneyd i ddangos fod y duw a adnabyddid wrth yr enw hwn yr un ag un o dduwiau y Groegiaid. Cyfieithid ef, weithiau, yn Cronos neu Sadwrn; bryd arall, yn Heracles, neu Hercules y Tyriaid, duw amddiffynol y fam ddinas, a'i holl drefedigaethau, ac a elwid yn iaith y Tyriaid eu hunain, Melcarth=brenin y ddinas; weithiau, yn Zeus neu Jupiter, sef Iau; ac hefyd, cyfieithir ef weithiau yn Mars, neu Mawrth. Ond y syniad mwyaf cyffredinol ydyw, mai duw yr haul, neu y duw o ba un y mae yr haul yn amlygiad, fel prif allu y greadigaeth ydyw; ac mai yn raddol y daeth i arwyddo Iau, neu Sadwrn—ar ol i'r ser ddyfod yn wrthddrychau mwy amlwg yn addoliad y bobl. Felly, nid y syniad cyntaf am Aschera, y dduwies Sidonaidd, oedd ei bod yr un a'r blaned Gwener; ond yr un a'r lleuad, ac a Gwener yn nesaf. Efallai fod y gair Baal, yn unol â'i ystyr wreiddiol, yn enw ar y gwir Dduw, yn meddyliau y rhai oedd yn glynu wrth grefydd y patriarchiaid cyntaf, megys Noah; ond yn absennoldeb dadguddiad, a than ddylanwad elfenau llygredigaeth, oedd yn peri eu bod yn gwyro fwyfwy yn eu syniadau am dano, trosglwyddwyd yr enw i wrthddrychau gweledig; ac yn gyntaf oll i'r haul, fel y mwyaf gogoneddus, ac arglwydd y dydd a'r flwyddyn. Nid yw yn annhebyg fod y Derwyddon yn ystyried yr haul yn gynnrychiolydd y Creawdwr, ac y cynnalient eu gorseddau ar ei albanau. Dywed Sanchoniathon, fod y Pheniciaid yn addoli yr haul fel *unig arglwydd y nefoedd*, yr hwn a alwent Beelsamen, a'i fod yr un a Zeus y Groegiaid; ac yn ol Awstin, yr ydoedd yr un a Baal. Yn y dinasoedd Tyriaidd, Heliopolis, Palmyra, Edessa, &c., cyfieithai y Groegiaid y Baal a berthynai iddynt wrth yr enw Helios=*haul.* Yr oedd cyssylltiad Baal ac Astaroth â'u gilydd yn cynnrychioli yr haul a'r lleuad, fel dau brif allu llywyddol y greadigaeth. Yr oedd yr "haul-ddelwau," sef y colofnau a godwyd i'r haul, yn fath o fynegbyst i ddangos, trwy gysgod yr haul, oriau y dydd, ac felly yn gyssegredig i'w wasanaeth. Yr oedd hyn hefyd yn arferiad yn yr Aipht, ac yn yr America. Yr oedd y ddelw o Baal a ddysgrifir fel yn pelydru goleuni oddi wrth ei ben, fel yr un a grybwyllasom o Numidia, yn arwyddlun priodol a chyffredin am yr haul; a dangosai y ddelw a ddaliai rawnwin a phomgranadau yn ei dwylaw, ei nerth ffrwythlonawl.

Nid yn unig cyfansoddid enwau dinasoedd o'r gair Baal, megys y gwelir uchod, ond enwau dynion hefyd; gan hyny, y mae genym Ethbaal =*gyda Baal*, enw un o freninoedd y Sidoniaid (1 *Bren.* xvi. 31), yr hwn a eilw Josephus, Ἰθόβαλος: Ierubaal=*Baal a'i gwel:* Hannibal=*gras Baal:* Hasdrubaal=*cymhorth Baal*, &c. Cyfansoddai y Groegiaid hefyd enwau dynion a Duw yn gymmysg, megys Theophilus, Theodorus, Timotheus, &c; ac y mae ei olion yn mhlith yr Ellmynwyr—Gottlieb, Gotthoed, Fürchtegott; ac felly agos yn mhlith pob cenedl ar y ddaiar.

Yr oedd temlau ac allorau Baal yn cael eu hadeiladu yn gyffredinol ar benau y bryniau, mewn coedwigoedd, ac ambell waith ar benau tai: *Ier.* xxxii. 35; 2 *Bren.* xvi. 16; xxiii. 12; *Hos.* iv. 14; yr oedd muriau oddi amgylch iddynt, lle yr oedd tân parhaus yn llosgi, ac yr oedd delwau yn rhai o honynt, y rhai a elwir yn yr ysgrifeniadau cyssegredig yn *chemonim.* Cymmerodd Balac Baalam i "fyny i uchelfeydd Baal, fel y gwelai oddi yno gŵr eithaf y bobl;" *Num.* xxii. 41. Dywed Maundrel, yn ei daith o Aleppo i Ierusalem, ei fod wedi gweled rhai olion o'r allorau cauedig yma yn Syria. Yr oedd addoliad Baal yn gofyn am rifedi mawr iawn o offeiriaid, y rhai a ddawnsient o gylch yr allor fel gwilliaid, gan dori eu hunain â chyllyll; cymmerent arnynt hefyd fod yn brophwydi, fel pe buasent yn feddiannol ar ryw allu anweledig. Y mae tori â chyllyll yn arferiad cyffredinol gan offeiriaid y gau dduwiau. Dywed Plutarch [*De Superstitione*] fod offeiriaid Bellona yn gwneuthur hyn. Dywed Herodotus hefyd fod y Magi Persiaidd yn cymmeryd arnynt ostegu ystormydd, drwy wneuthur toriadau yn eu cnawd. Cawn yr un arferiad gan ganlynwyr Astarte neu Astaroth, ac yn nefodau Isis a Cybele. Ac hyd yn oed yn y dyddiau presennol, dywed haneswyr fod penboethiaid yn Twrci, Persia, &c., y rhai a gredant ei bod yn weithred gymmeradwy gan Dduw iddynt ddryllio eu cyrff fel offeiriaid Baal, tra y mae Duw yn bendant yn gwahardd hyn i'r offeiriaid Iuddewig: *Lef.* xxxi. 5; *Deut.* xiv. 1.

Y mae genym hanes cywir o addoliad Baal yn 1 *Bren.* xviii; lle y cawn i Dduw ateb Elias trwy dân, er gwarthrudd a dinystr i brophwydi Baal, ar ben Carmel, nid yn mhell o Fôr y Canoldir. Yr oedd prophwydi Baal yn bedwar cant a hanner mewn nifer. Un o'r hanesion mwyaf dyddorol yn llyfr Duw ydyw yr hanes yma. Yn ngwyneb gelyniaeth Ahab a Iezebel, y mae mawredd gwroldeb Elias yn deffro ein parch diledryw, a'i hyder yn Nuw ei dadau yn ei gyflwyno i'n serch mwyaf calonog. Er holl anfanteision gŵr Duw, cafodd ateb, wedi hir a llwyr fethu o brophwydi Baal:—

"Ar eres air yr Ion seirian—rhwygid
 Awyrgylch pedryfan;
Disgynai, melltenai tân,
 A ffrydiai 'n gorff eiriasdan.

Gan y tân a'i egnïad terth—dryllid
Yr allor a'r aberth;
Lluchid oll y lluwch diwerth
I'r entyrch ar yr anterth."

Y mae y wyrth effeithiol yma, er nad arddangoswyd ei bath i neb ond yr Iuddewon, yn cael ei chrybwyll gan lawer o'r hen awdwyr clasurol; yr hyn sydd yn un o'r enghreifftiau lluosog i gadarnhau yr undeb agos a fodola rhwng hanesiaeth baganaidd a chyssegredig. Y mae Homer yn dangos Iau fel yn sicrhau llwyddiant i'r Groegiaid yn y dull yma, pan yr oeddynt yn cychwyn i ryfel Caerdroia: ac yn ei *Æneid*, y mae Virgil yn rhoddi y geiriau canlynol yn ngenau Latinus:—"Bydded i'r Tad nefol, yr hwn sydd yn sefydlu cyfammodau â tharan, glywed yr hyn a ddywedir genyf." Dywed Pausanius wrthym, pan yr oedd Seleucus, yr hwn a aeth gydag Alexander Fawr yn ei ruthrgyrch i Macedonia yn aberthu i Iau yn Pella, i'r coed ddyfod at y ddelw o honynt eu hunain, ac iddynt gynneu heb dân. Y mae haneswyr hefyd, medd Calmet, yn dywedyd, i Vespasian, pan yn Iudea, fyned i ymgynghori â *Duw Carmel*, ac nad oedd yno y pryd hwnw ond un allor syml a hen iawn. Er fod y wyrth ryfeddol yma wedi gadael argraff ddofn ar draddodiadau eilunol yr oesoedd, ni chafodd ond argraff amserol a byr ar Israel—ymhalogasant gydag eilunaddoliaeth Baal o bryd i bryd, nes iddynt gael eu cario i gaethiwed.

1. BAALAH, [*ei deulu*, neu *yr hon a lywodraethir*, *priodasferch*]: Ciriath-Baal, neu Ciriath-iearim: *Ios*. xv. 9.

2. BAALAH: dinas a ranwyd i lwyth Iudah, ond a gymmerwyd oddi wrtho, i'w rhoddi i'r Simeoniaid: *Ios*. xv. 29; xix. 3.

BAALATH, [בעלת; Deg a Thrigain Γεβεελάν]: dinas yn llwyth Dan (*Ios*. xix. 44), yr hon a ymddengys yr un a'r hon a ail adeiladwyd gan Solomon: 1 *Bren*. ix. 18. Llawer a dybiasant fod y Baalath hon yr un a Baalbek: os felly, dylasai fod yn rhandir gogleddol Dan; tra y dywedir ei bod yn meddiant llwyth Dan pan nad oedd ganddynt ond rhandir yn neheudir Iudah yn unig, ac yn mhell cyn eu mynediad i chwilio am feddiannau chwanegol y sonir am dani yn *Barn*. xviii. Y mae Josephus hefyd yn nodi sefyllfa Baalath Solomon, yr hon a eilw efe Baleth, fel yn neheudir Palestina, yn agos i Gazara [*Hen*. viii. 2], o fewn y rhandir a berthynai i Dan, pe buasai mewn meddiant o'r tiroedd a nodwyd gyntaf i'r llwyth hwnw. Y mae y Talmud yn cadarnhau fod Baalath yn sefyll mor agos i linell terfyn rhandiroedd Iudah a Dan, fel nad oedd ond y meusydd yn unig yn Dan, a'r adeiladau yn Iudah.—(*Kitto's Cycl.*)

BAALATH-BEER: lle a enwir fel terfyn llwyth Simeon i'r deheu: efallai mai yr un ydyw a'r ddinas flaenorol: *Ios*. xix. 8; 1 *Cron*. iv. 33. Rhai a dybiant mai yr un yw a Ramoth: 1 *Sam*. xxx. 27.

BAAL-BEK, neu BALBEK. Gwel BAAL-GAD.

BAAL-BERITH, neu BAAL-B'RITH, [*arlwydd y cytundebau*, neu *y cyfammodau*]: yr un, o ran ei ystyr, a Ζευς ὅρκιος y Groegiaid, a *Deus Fidius*, neu *Dduw Ffyddlawn*, y Rhufeiniaid: efallai mai yr un ydyw hefyd a *Beryth*, neu *Beroe*, y Pheniciaid, mab eu Adonis hwynt. Nid yw yn sicr pa un ai yr un yw hwn a Baal, ai peidio, neu ynte rhyw dduwdeb israddol. Gan nad beth am hyny, yr oedd yn dduw a gydnabyddid dan yr enw hwn gan y Carthaginiaid a'r Pheniciaid yn eu cytundebau; ac oddi yma y mae yn cael ei enw, *arlwydd y cyfammod*. Dyma yr eilun a addolid yn Sichem, wedi marwolaeth Gideon: *Barn*. viii. 33, lle yr ymddengys mai duw newydd ydoedd, a'i fod yn un o'r Baalim. Barna yr esgob Patrick, fod Baal-Berith yn cael ei alw felly, naill ai o herwydd mai efe oedd y Duw a dybid oedd yn cospi y rhai a dorent eu cyfammodau, neu ynte, o herwydd fod ei addolwyr yn cytuno yn eu plith eu hunain i gynnal ei addoliad. Ymddengys unoliaeth rhwng y golygiad olaf yma a *Barn*. ix. 4. Tybir hefyd mai yr un yw Baal-Berith, a Ham, neu Cronos, yr hwn a addolid gynt yn Berytus. Y mae Bryant, yn ei *Gyfriniaeth Hynafiaethol*, yn dywedyd mai un o dduwiau y Canaaneaid ydoedd, addoliad yr hwn yn fuan a gymmerwyd i fyny gan Israel wedi ei sefydlu yn Nghanaan.

BAAL-GAD, [בעל גד: Gr. Βαλαγάδ]: dinas "yn nglyn Libanus, dan Fynydd Hermon;" *Ios*. xi. 17; xii. 7). Hysbysir ni hefyd fod "holl Libanus, tua chyfodiad haul, o Baal-Gad, dan Fynydd Hermon, nes dyfod i Hamath" (*Ios*. xiii. 5), yn mysg y rhanau hyny o Palestina, y rhai na orchfygwyd gan yr Iuddewon ar farwolaeth Iosuah. Gellir tybio oddi wrth y sefyllfa yma a roddir i Baal-Gad, y gallai mai yr un ydoedd a'r lle hwnw a alwyd gan y Groegiaid yn Heliopolis =*dinas yr haul*, oddi wrth deml oedd yno wedi ei chyssegru i'r haul; a'r hon a alwyd, ac a elwir eto gan y preswylwyr, Baalbek—gair a ymddengys o'r un ystyr. Ceisiwyd profi gan rai mai yr un oedd Baalbek a Baalath, yr hon a adeiladwyd ac a amgaerwyd gan Solomon; ond dangoswyd eisoes mai nad ê [gwel BAALATH]: ac nis gellir dodi unrhyw bwys ar y traddodiadau lleol, y rhai sydd yn hòni fod Baalbek wedi ei sylfaenu gan Solomon; canys yr oedd yn arferiad gan y trigolion i briodoli pob gwaith hynafol a nodedig, nad oes gyfrif am ei ddechreuad yn yr holl wlad, i Solomon. Y mae hyd yn oed y rhai a haerant mai yr un yw Baal-hamon y Caniadau (viii. 11), a Baalbek, yn tybio mai enw diweddar ydyw am Baal-Gad; a chan hyny, yr unig ymofyniad a all fod yw yr un canlynol;—Ai nid yw Baal-Gad yn enw hynach ar y lle hwn, ac iddo gael ei alw wedi hyny yn Heliopolis, a Baalbek?


Y mae Baalbek, yn yr iaith Syriaidd, yn arwyddo *dinas Baal* neu *yr haul*; ac yn gymmaint nad yw y Syriaid un amser yn benthyca enwau gan y Groegiaid, nac yn cyfieithu enwau Groegaidd, y mae yn amlwg felly i'r Groegwyr, ar eu dyfodiad i Syria, gael y lle yn dwyn yr enw hwn neu enw arall yn arwyddo "dinas yr haul," yn gymmaint ag iddynt hwy ei galw yn Heliopolis, yr hwn, y mae yn debyg, sydd gyfieithiad o'r arwyddocâd brodorol. Nid ydym yn ammheu na elwid hi y pryd hwnw yn Baalbek gan y trigolion. Yn awr, yr ymofyniad ydyw—A oes yr un ystyr i'w roddi i'r gair hwn ag i Baal-Gad? ac os nad oes, a ellir nodi rhai amgylchiadau a allent beri cyfnewidiad yn yr enw? Os cymmerir Baal fel enw eilun, yna, fel yn Baalbek, y mae rhan olaf y gair i'w gymmeryd fel gair dysgrifiadol, ac nid fel enw cadarn: ac yn gymmaint a bod Gad yn arwyddo *llu*, *tyrfa*, neu *haid o bobl*, yna, Baal-Gad a arwydda *llu Baal*, pa un bynag a arferir ef gan

Digitized by Google

y preswylwyr, ynte am y lle fel cynnullfa pererinion. Y mae i'r sill *bek* yr un ystyr yn gymhwys yn yr Arabaeg.

Os nad ymddengys hyn yn foddhaol, gellir penderfynu fod y gair *Baal* yn rhan mor fynych yn nghyfansoddiad enwau priodol, fel nad yw yn ddigon penodol i oddef y cyfryw ddeongliad; ond y gellir yn hytrach ei gymmeryd i arwyddo (fel y dywed Gesenius et fod bob amser pan mewn undeb â gair arall) y lle, neu y fan y cyfarfyddir â pheth; felly, arwydda Baal-Gad, *lle* Gad. Yn awr, yr oedd Gad yn eilun (*Esa.* lxv. 11, *llu, niferi*), duw neu dduwies tynged, yn ol fel y tybir (cymharer y Deg a Thrigain, Τύχη; *Vulg.*, *Fortuna*); ac fe sonir am dano gan yr esbonwyr Iuddewig fel yr un a'r blaned Iau [GAD]. Ond y mae yn ddigon hysbys fod Baal yn cael ei gyfrif yr un a Iau yn gystal a'r haul; ac nid yw yn anhawdd cyssylltu Baalbek gydag addoliad Iau. Y mae Ioan o Antiochia yn dywedyd yn gadarn fod teml fawr Baalbek wedi ei neillduo i Iau; ac yn yr adran nodedig o Macrobius (*Saturnal* i. 23), yn mha un yr adroddai fod addoliad yr haul wedi ei ddwyn gan offeiriaid Aiphtaidd i Heliopolis yn Syria, y mae yn dywedyd eu bod yn ei gyflwyno dan enw Iau (*sub nomine Iovis*). Y mae hyn yn arddangos fod addoliad Iau wedi ei sefydlu, ac yn boblogaidd yn y lle, ac nad oedd hauladdoliaeth yno cyn hyn; gan hyny, gallem ddysgwyl yn hytrach, i enw blaenorol y dref ddwyn rhyw berthynas âg Iau nag â'r haul; a gallwn fod yn sicr fod enw arwyddol o hauladdoliaeth yn ganlynol i gyflwyniad yr addoliad hwnw gan yr Aiphtiaid. Ac yn gymmaint nad oes genym unrhyw sail i dybied fod hyn wedi cymmeryd lle cyn, nac hyd yn oed yn mhell ar ol amser Iosuah, ni elwid y fan felly y pryd hwnw wrth un enw oedd yn cyfateb i Heliopolis.

Cyffyrddasom â'r mater hwn, gan ei fod yn dwyn perthynas â'r pwnc yn ei gyssylltiadau ysgrythyrol; yr hyn nid yw yn cael ond ychydig



Dar. 95.

o sylw mewn llyfrau cyffredin o natur y llyfr hwn. A chyfeiriwn ein darllenwyr at y rhestr o lyfrau a nodir ar ddiwedd yr erthygl hon am ddarluniadau a hysbysiadau boddhaol am yr adfeilion, &c., pa rai ni ofynant ond am sylw byr yma, yn gymmaint ag nad yw yn debygol fod hyd yn oed sefyllfa y lle yn cael ei enwi yn yr Ysgrythyrau.

Y mae Baalbek yn sefyll ar le hyfryd, ar ddisgyniad isaf Anti-Libanus, wrth y fan lle y mae dyffryn bychan yn ymagor i wastadedd El-Bakaa. Rhed afon fechan trwy y dyffryn hwn, yr hon sydd wedi ei rhanu yn aberoedd dirifedi, er dyfrhau y tiroedd. Y mae sefyllfa y lle yn lledred gogleddol, 34° 1′ 30″, a hydred dwyreiniol, 36° 11′—109 o filltiroedd daiaryddol o Palmyra, a 38¾ o Tripoli.

Y mae yr hanes am ddechreuad Baalbek wedi ei lwyr golli, ac y mae y crybwyllion hanesiol am dani yn dra phrin: hefyd, y mae dystawrwydd yr ysgrifenwyr clasurol am y lle yn peri tybiaeth ei bod yn flaenorol yn adnabyddus dan enw arall. Yn gymmaint ag na cheir unrhyw hysbysrwydd mwy penderfynol, gellir tybied, yn gymmaint a bod sefyllfa y lle ar brif-ffordd trafnidiaeth rhwng Tyrus, Palmyra, a'r Dwyrain draw, fod hyny wedi gweini yn fawr tuag at ennill ei chyfoeth a'i gwychder. Crybwyllir am dani, o dan yr enw Heliopolis, gan Josephus [*Hynaf.* xiv. 3, 2], ac hefyd gan Pliny [*Hist. Nat.* x. 22]. Y mae cerfiadau Rhufeinig, er amser Antoninus Pius, yn cadarnhau adroddiad Ioan o Antiochia, yr hwn sydd yn hòni fod yr ymherawdwr hwn wedi adeiladu teml fawr i Iau yn Heliopolis, pa un a gyfrifid yn un o ryfeddodau y byd —[*Hist. Chron.* llyfr xi.] Yr ydym yn deall oddi wrth rai bathau Rhufeinig, fod Heliopolis wedi ei gwneuthur yn drefedigaeth gan Julius Cæsar, a'i bod yn safle gwarchodlu Rhufeinig yn amser Augustus; a chafodd yr enw o *Jus Italicum*

gan Severus. Y mae lluniau hynod o'r deml hon wedi eu hargraffu ar fatholion o amser diweddarach.

Tybir fod temlau hardd Baalbek wedi eu gadael i ddirywio ac adfeilio ar ol amser Cystenyn, oddi wrth, fel yr ymddengys oddi wrth rai pethau, eu bod y pryd hwnw wedi eu cyssegru i addoliad Cristionogol. Ymddengys oddi wrth ysgrifeniadau dwyreiniol, fod Baalbek wedi parhau yn lle o enwogrwydd hyd yr ymosodiad ar Syria gan y Mahometiaid. Y maent yn ei darlunio fel un o'r dinasoedd prydferthaf yn Syria, wedi ei chyfoethogi â phalasau harddwych, a'i phrydferthu â chofadeiliau o'r cynoesoedd, ac yn orlawn o goedydd, ffynnonau, a phethau hyfryd ereill. Ar ddyfodiad y Mahometiaid, hysbyswyd yr ymherawdwr Heraclius, fod y ddinas yn cael ei hamddiffyn gan gastell neu amddiffynfa o nerth mawr, galluog i wrthsefyll gwarchae. Wedi cymmeryd Damascus, ymosodwyd arni gan y Mahometiaid; ond gan ei bod yn cynnwys poblogaeth heb rifedi, a chanddynt ddigonddd o ymborth ac arfau milwrol, gwnaeth amddiffyniad gwrol; ond rhoddodd i fyny yn mhen amser. Y mae pwysigrwydd y lle ar y pryd hwn i'w weled yn y swm a ofynwyd oddi wrth ei phreswylwyr gan ei gorchfygwyr am ei rhyddid; sef dwy fil o wnsau o aur, pedair mil o arian, dwy fil o wasgodau sidan, mil o gleddyfau, yn nghyd âg arfau y gwarchodlu. Daeth wedi hyn yn farchnad lle y gwerthid ysbail gwerthfawr Syria; ond difethwyd hi yn llwyr eilwaith gan Khalif Damascus, yr hwn a'i dinystriodd, ac a'i hysbeiliodd, ac a laddodd ei phrif breswylwyr â'r cleddyf (o.c. 748). Yn ystod y Crwysgadau, gan ei bod yn analluog i wneuthur un amddiffyniad, ymddengys ei bod wedi ymostwng i'r cryfaf. Yn y flwyddyn 1400, ysbeiliwyd hi gan Timour Beg, wrth fyned yn erbyn Damascus, wedi iddo gymmeryd Aleppo. Wedi hyn, daeth i feddiant y Metaweli – llwyth barbaraidd, ysbeilgar; pa rai oeddynt bron wedi eu difodi pan lwyr ddarostyngodd Djezzar Pasha yr holl ran yma o'r wlad dan lywodraeth Twrci.

Y mae adfeilion Heliopolis yn sefyll ar y rhan ddwyreiniol o'r mynydd; a gelwir hwy, mewn



Dar 96.

ffordd o enwogrwydd, y Castell. Y gwrthddrychau a ganfyddir egluraf o'r gwastadedd, ydynt, adeilad uchel o chwe cholofn—rhan o'r deml fawr; a muriau a cholofnau teml fechan arall, yn is i lawr wedi ei hamgylchu â choed. Y mae yno hefyd deml gron, hardd, a phrydferth, os priodol ei galw yn deml [dar. 96]. Y rhai hyn, gyda cholofn ar y pinacl uchaf o fewn y muriau, yr hon, efallai, oedd yn ddwfr-ddeial, ydynt yr unig adeiladau safadwy o'r adfeilion. Y mae adfeilion Baalbek yn y cyfangorff, yn eglur yn perthyn i dri chyfnod dilynol:—Yn gyntaf, y meini naddedig aruthrfawr, o flaen safle y deml, pa rai a ymddangosant yn weddillion adeiladau hynach—efallai, mai o deml oedd yn sefyll yno o'r blaen. Yn mysg y rhai hyn, y mae o'r hyn lleiaf ugain yn sefyll ar sylfaen o geryg geirwon, pa rai a elwid yn anferthol o faint pe byddent mewn rhyw le arall. Y mae y talpiau anferth hyn, pa rai a gyfansoddant brif hynodrwydd y lle, yn amrywio o ddeg ar ugain i ddeugain troedfedd o hyd; ond y mae yno dri, y rhai a gyfansoddant haen o ugain troedfedd o uchder o'r llawr, y rhai a fesurant rhyngddynt gant a phedwar ugain a deg o droedfeddi. Y mae y rhai hyn yn dair neu bedair troedfedd a thrigain o hyd, wrth ddeuddeg mewn lled a dyfnder. "Dyma," medd Richter, "y ceryg mwyaf a welais erioed, a gallasent o honynt eu hunain fod yn achlysur o'r traddodiad poblogaidd fod Baalbek wedi ei hadeiladu gan angelion wrth orchymyn Solomon. Y mae yr holl fur, mewn gwirionedd, yn gyfansoddedig o geryg anferth; ac y mae eu cyffelybrwydd i weddillion teml Solomon, pa rai a ganfyddir yn seiliau teml Fahometaidd Es-Sakkara, ar fynydd Moriah, yn tynu sylw pawb." Sylwai y Dr. Richardson hefyd ar hyn. Yn y cloddfeydd yn agos yno, o ba rai eu naddwyd, canfyddir un gareg wedi ei thori allan, ond heb ei chymmeryd ymaith, yr hon a fesura hyd yn oed lawer mwy na'r rhai a nodwyd. Y mae y temlau Rhufeinig yn perthyn i'r ail a'r trydydd cyfnod; pa rai a adeiladwyd o ddeutu amser Antonius Pius, ac a ddangosant rai o'r esamplau mwyaf prydferth o adeilyddiaeth Gorinthaidd mewn bod; ac y maent yn feddiannol ar ardderchogrwydd a mawrhydi rhyfeddol, o herwydd eu sefyllfa uchel a dyrchafedig.

Y mae Richter yn canfod cadarnhad ar y dywediad canlynol o eiddo Macrobius, yn mysg y prydferthion:—"Y mae Isis a Horris yn ymddangos yn eglur. Y mae y cronellau adeiniog, amgylchynedig gan seirff, yn dangos fod offeiriaid Baalbek wedi derbyn eu syniadau am ddwyfolaeth o On — Heliopolis yr Aipht." Wrth son mewn dull cyffredinol am y gweddillion hyn, dywed Burckhardt, fod "golygfa ar holl adfeilion Palmyra, wrth edrych arnynt o bellder, yn anfeidrol fwy mawreddog nag adfeilion Baalbek; ond nid oes un rhan o adfeilion Tadmor mor ardderchog a'r olygfa fewnol ar deml Baalbek." Sylwa hefyd fod adeilyddiaeth Baalbek yn goethach nag adeilyddiaeth Tadmor. Y mae Mr. Addison yn sylwi, "fod yr adfeilion, er eu bod mor nodedig a hardd, yn sier yn waelach, mewn cymhariaeth, nag adfeilion Athen; ac ni ddangosant yn eu haddurniadau y ddirnadaeth a'r athrylith fawreddog a hynodant yr adeilyddiaeth Athenaidd."

Y mae y Baalbek bresennol yn gynnwysedig oll mewn pentref bychan, o'r tu dwyreiniol i'r adfeilion, mewn cyflwr hynod o druenus ac adfeiliedig. Nid yw ond pentwr o adeiladau hynod o wael, wedi eu gwneyd o laid, a phriddfeini wedi eu sychu yn yr haul. Y mae y boblogaeth, y dywedir ei bod yn bum mil yn y flwyddyn 1751, yn awr yn llai o nifer na dwy fil. Ni chan-

Digitized by Google

fyddir yno yn awr y ddwy deml Fahometaidd hardd, a *serai* hardd yr Emir, pa rai y sonia Burckhardt am danynt; ac yn ofer y chwilia y teithiwr am y gwinwryf, y pomgranadau, a'r cyflawnder o ffrwythau ereill oedd yno mewn amseroedd a aethant heibio. Am chwaneg o wybodaeth am Baalbek, gweler *Iken. Dissert. de Baal-Hamon et Baal-Gad. in Dis. Philologico-Theolog.* cyf. i. td. 136; *Wood and Dawkins' Ruins of Baalbek*, Llundain 1757; *Pocock's Description of the East; Maundrell's Journey from Aleppo to Damascus; Teithiau Volney, Burckhart, Richardson, Hogg, Addison, Lord Lindsay; Richter's Wallfahrten ein Morgenlande; Schubert's Reise in das Morgenland*, Erlangen, 1841; *Rosenmüller's Biblical Geography*, ii. td. 252—257.

BAAL-HAMON, [בעל המון, *un sydd yn meddiannu* neu *yn llywyddu tyrfa*]: enw gwinllan oedd yn perthyn i Solomon: *Can.* viii. 11. Yr oedd yr etifeddiaeth yma yn cael ei hardrethu gan nifer o ddeiliaid, y rhai a dalent eu hardreth i wraig Aiphtaidd Solomon—sef mil o siclau arian yr un, yr hyn sydd o ddeutu 122*p.* bathol—gan mai y winllan oedd ei chyfran briodasol. Y mae rhai yn meddwl fod Baal-hamon yn sefyll yn nyffryn Bocat, lle y mae adfeilion enwog Baalbek; un o'r dyffrynoedd prydferthaf a mwyaf ffrwythlawn yn Syria, yn rhagori ar ddyffryn Damascus, ac yn cael ei ddyfrhau yn well na gwastattiroedd toreithiog Esdraelon a Ramah. Gesyd yr esgob Patrick y winllan hon yn agos i Ierusalem, "lle y mae llawer o winllanoedd gan amryw bobl, ac un fawr iawn gan Solomon."

BAAL-HANAN, [*gras Baal*]: mab Achbor, a seithfed brenin yr Edomiaid, yr hwn a esgynodd i'r orsedd ar ol Saul, neu Shaul. Oddi wrth ei enw, y mae yn bur debyg fod addoliad Baal yn ffynu yn mhlith yr Edomiaid yn gystal a'r Canaaneaid: *Gen.* xxxvi. 38; 1 *Cron.* i. 49.

BAAL-HAZOR: enw dinas a berthynai i lwyth Ephraim, yn agos i Ierusalem, rhwng Bethel a Iericho. Yma y cadwai Absalom ei ddeadelloedd: 2 *Sam.* xiii. 23. Meddylia rhai mai yr un a Hazor ydyw, yn rhandir Iudah: *Ios.* xv. 25; ond nid ydyw yn ddigon pell i'r deheu i sefyll am y lle hwnw.

BAAL-HERMON, [בעל הרמון *meddiannydd dinystr*]: enw dinas y dywedir ei bod yn sefyll i'r gogledd o feddiant rhandirol Issachar, yn agos i fynydd Hermon. Gelwir y mynydd yma hefyd Mynydd Baal-Hermon: *Barn.* iii. 3. Tybia Bryant fod teml Baal-hermon yn Libanus wedi ei sefydlu, efallai, gan y Caduciaid, y rhai a ffurfient un o'r llwythau Hefiaidd yn y parthau hyny.

BAALI, [*fy meistr*]: *Hos.* ii. 16.

BAALIM. Gwel Baal.

BAALIS, [בעלים: brenin o'r Ammoniaid, yr hwn a anfonodd Ismael, mab Nethaniah, i ladd Gedaliah, is-lywydd Nebuchodonosor yn Nghanaan, gyda'r amcan o gymmeryd oddi yno yr Iuddewon a adawyd yn y tir: *Ier.* xl. 14.

BAAL-MEON, neu BETH-BAAL-MEON, neu BETH-MEON, [*yr eilun, meistr y ty*]: dinas o eiddo y Canaaneaid, i'r dwyrain o'r Iorddonen, yr hon a adgyweiriwyd gan lwyth Reuben: *Num.* xxxii. 38; 1 *Cron.* v. 8. Cymmerwyd hi wedi hyny gan y Moabiaid, y rhai a breswylient ynddi yn nyddiau Ezeciel: *Ezec.* xxv. 9. Dywed traddodiad iddi gael ei dinystrio gan y Caldeaid: ond os gwir hyn, ail adeiladwyd hi wedi hyny, canys yr oedd yn lle o bwys mawr yn amser y Maccabeaid. Yr oedd yn sefyll ar derfynau Moab, ac o herwydd hyny, yn agored iawn i ymosodiadau rhyfelgar. Dywed Jerome ei bod yn bentref mawr yn ei amser ef, a gesyd hi o ddeutu naw milltir o Esebon, wrth droed Mynydd Baaru, un o gribau Abarim.

1. BAAL-PEOR, BAAL-PHEGOR: duwdeb o eiddo y Moabiaid a'r Midianiaid, enw cyfansawdd yr hwn a olyga *meistr yr agoriad*—naill ai yr eilun Baal, neu ynte rhyw ddyn enwog o'r enw Peor a ddwyfolwyd wedi angeu, gan roddi iddo y teitl hwn: *Num.* xxv. 3; *Salm* cvi. 28. Lledgrybwylla Selden ddysgedig mai yr un yw y duw hwn a Pluto, a sylfaena ei dybiaeth ar y salm a nodir uchod, gan sylwi fod yr aberthau a grybwyllir yn yr adnod wedi eu rhoddi er tawelu ysbrydion y meirw. Ereill a dybiant mai yr un ydyw a Misraim neu Osiris yr Aiphtiaid, neu Priapus y Groegiaid, addoliad yr hwn a ddygid yn mlaen gyda'r penrhyddid mwyaf: ereill, mai Adonis ydoedd: ac ereill, mai Sadwrn ydoedd, yr hwn a addolid dan yr enw yma gan yr Arabiaid mewn rhai parthau. Y mae Mede, pa fodd bynag, yn meddwl nad yw ond enw arall ar Baal, a'i fod yn cael ei alw yn Baal-Peor oddi wrth yr amgylchiad o fod ei deml ar fynydd Peor: y mae hyn yn bur rhesymol hefyd, canys y mae Jupiter yn cael ei alw yn Olympius, oddi wrth y ffaith o'i fod yn cael ei addoli ar fynydd Olympus.

2. BAAL-PEOR, neu Fynydd Peor: ydoedd un o gribau yr Abarim, yn ol y Dr. Wells, ar yr hwn grib yr oedd teml y duw Baal-Peor. Gwel Peor.

BAAL-PERAZIM, [בעל פרצים, *meistr*, neu *duw y rhaniad*]: enw mynydd ychydig o filltiroedd i'r deheu o Ierusalem, lle y gorchfygodd Dafydd y Philistiaid yn llwyr, ac y llosgodd eu heilunod: 2 *Sam.* 5. 20. Wrth ei droed y mae dyffryn Rephaim, neu *Ddyffryn y Cawri*, drwy yr hwn y mae y ffordd o Ierusalem i Bethlehem yn myned.

BAAL-SALISA, [בעל שלישה, *y trydydd meistr awdurdod*]: pentref, yn ol Eusebius a Jerome, o ddeutu pymtheg milltir Rufeinig o Diospolis. Brodor o'r lle yma oedd y gŵr haelfrydig hwnw a ddygodd ymborth i Eliseus pan yr aeth i Gilgal: 2 *Bren.* iv. 38, 42.

BAAL-SAMEN, neu yn ol y dull Hebreaidd o gynanu, *Baal-Shemaim=arglwydd y nefoedd*: duwdeb o eiddo y Pheniciaid a'r Carthaginiaid, i'r hwn y taient anrhydedd dwyfol, gan ei anerch â breichiau estynedig.

1. BAAL-SEPHON, neu BAAL-TSEPHON: *duw y gogledd* yw ystyr y gair cyfansawdd yma, ac un o dduwdebau yr hen Aiphtiaid ydoedd. Meddylia rhai mai ystyr Baal-Sephon yw *duw y gwyliwr*, neu *y duw gwarchodol*—yr un fath a Hermus neu Terminus y Rhufeiniaid.

2. BAAL-SEPHON: ystyr arall i'r gair yw *cuddiedig* neu *dirgel*, un o orphwysleoedd Israel wedi eu hymadawiad o'r Aipht, cyn iddynt gyrhaedd y Môr Coch. Y mae rhai yn meddwl mai tref ar gyfer Pihahiroth oedd, a hynodid naill ai

Digitized by Google

gan wyldŵr a theml i'r eilun o'r un enw, neu ynte gan ei sefyllfa ogleddol. "Yn lle myned o Etham," meddai y Dr Hales, "o gylch pen y Môr Coch, ac ar hyd ei lan ddwyreiniol, gwnaeth yr Arglwydd i Israel droi i'r deheu ar hyd ei lan orllewinol; ac wedi taith o ugain neu ddeg ar ugain o filltiroedd (yr hyn nis gellir yn iawn ei benderfynu, gan fod y Môr Coch gynt yn cyrhaedd yn mhell i'r gogledd o Suez), pabellasant yn nyffryn Bedae, lle yr oedd bwlch yn y gadwen fawr o fynyddoedd ag sydd yn rhedeg ar y lan orllewinol a elwir Pihahiroth (*mynydd y grib*), rhwng Migdol (*y castell*) i'r gorllewin, a'r môr i'r dwyrain, ar gyfer Baal-Sephon, ar y lan ddwyreiniol—er temtio Pharaoh, calon yr hwn a galedodd Efe, i erlid ar eu hol, pan yr oeddynt wedi eu rhwystro yn y tir, a'r anialwch wedi cau arnynt, ar eu holres a'u hystlysau, a'r môr ar eu blaenres." Dywed Shaw fod Baal-Sephon yn nhen eithaf dwyreiniol mynyddoedd Suez, neu Attaca; y rhai ydynt yn dra amlwg yn y diffaethwch yma, ac yn edrych dros ranau helaeth o Thebais Isaf, yn gystal a'r anialwch sydd yn ffurfio dosran o wlad y Philistiaid. Yn ol y dywediad yma, byddai Migdol yn gorwedd i'r deheu, a Baal-Sephon i'r gogledd o Pihahiroth; a chan fod hynt yr Israeliaid tua'r môr ar y de-ddwyreinol, nis gallasai eu pabelliad rhwng Migdol a'r môr braidd fod mewn un man arall: *Exod.* xiv. 2, 9. Y mae Eusebius yn dyfynu traddodiad i'r Israeliaid fyned drwy y Môr Coch yn Clysma, yr hwn a elwir Kolsoum yn awr gan yr Arabiaid; ond y mae y ddau enw, hen a newydd, yn golygu *dinystr* neu *drochiad*—cyfenwau tra hynod, os ydynt wedi eu tynu oddi wrth ddinystr y fyddin Aiphtaidd. Y mae Kolsoum yn agos i Suez; gan hyny y mae rhai wedi meddwl mai yn Suez yr oedd Baal-Sephon, tra y mae yn cael ei rhoddi yn mhellach i'r deheu gan Pocock, Shaw, a Bruce. "Baal-Sephon," ebe Bruce, "ydoedd deml eilun, y mae yn debyg, a wasanaethai yn arwydd-dŷ ar y penrhyn sydd yn ffurfio y mynediad gogleddol i'r gilfach, ar gyfer Libbel-Attaca, lle y mae beddrod rhyw sant. Efallai mai goleudŷ ydoedd, i arwain llongau oedd yn myned i waelod y cullôr, er peidio ei gamsynied am gilfach greigiog arall sydd dan y tir uchel, lle hefyd y mae beddrod sant a elwir Abon Desage." Yn y mapiau goreu, y mae Pihahiroth yn cael ei gosod ar bwynt ag sydd yn estyn allan i'r Môr Coch, wrth droed mynyddoedd Attaca; ac y mae Baal-Sephon yn sefyll ar y lan gyferbyniol, yn mhellach i'r gogledd; yr hyn sydd yn cyd-daraw yn gywir â'r hanes a rydd Moses yn Llyfr Exodus. Y mae traddodiad wedi ei gofnodi yn Nhargum Ierusalem, ddarfod i Pharaoh, pan yn erlid plant Israel, wrth weled eu cyfyngder, a'u bod yn eithaf diogel i'w dinystrio, ohirio ei ymosodiad arnynt, er addoli a diolch i'w dduw am eu rhoddi yn ei ddwylaw; ond tra yr oedd efe wrth y gwaith, diangodd Israel drwy y Môr Coch. Gwel EXODUS; MOR COCH; PIHAHIROTH.

BAAL-TAMAR, [*duw, neu feistr y palmwydd*]: lle yn agos i Gibeah, yn nhiriogaeth llwyth Beniamin, lle y lladdodd y llwythau ereill 125,100 o'r Beniaminiaid: *Barn.* xix. xx. Yr oedd y Canaaneaid wedi bod yn addoli Baal yma mewn llwyn o balmwydd.

BAALTIS: duwies Pheniciaidd—yr un, efallai, a Diana y Groegiaid. Addolid hi yn benaf yn Byblos.

BAAL-ZEBUB, neu BEELZEBUB, [*duw y gwybed*]: yr oedd ganddo deml yn Ecron, un o ddinasoedd y Philistiaid, yn rhandir llwyth Iudah, wedi hyny yn eiddo Dan. Y mae yn debyg fod yma oracl yn y deml hon, canys yr ydym yn cael Ahasïah, brenin Israel, yr hwn a gyfarfyddodd â damwain yn mhalas Samaria, yn danfon cenadau i ymofyn â Baal-zebub, pa un a fyddai iddo wella ai peidio: 2 *Bren.* i. 2. Y mae yn eglur, oddi wrth hyn, mai nid enw o ddiystyrwch oedd Beelzebub, neu dduw y gwybed; canys wrth yr enw yma yr oedd Ahasïah yn cydnabod ei dduwdebiaeth pan oedd yn glaf iawn. Y mae yn eithaf hysbys fod y rhai hyny a breswyliant mewn hinsoddau poethion, lle y mae y tir yn llaith, yn cael eu blino yn enbyd gan wybed; ac yr oedd Ecron, a saif ar ororau Môr y Canoldir mewn tir llaith a phoeth, yn lle o'r dysgrifiad uchod, lle y blinir y trigolion yn fawr gan drychfilod; a chredant eu bod yn magu clefydau heintiol, yn gystal a rhai croenaidd (*cutaneous*). Yr oedd yn arferiad hefyd gan hen eilunaddolwyr i enwi eu duwiau yn ol enwau y trychfilod hyny oddi wrth ba rai y tybient y gwaredid yr addolwyr; ac oddi yma y mae genym Μυιωδης, *duw y gwybed*, a Μυιαγρος, *y gwybed heliwr*, yn enwau er Hercules a Jupiter. Yr oedd yr enw Baal-zebub, gan hyny, yn arferedig yn mhlith y Philistiaid yn gystal a'r Iuddewon; ac yr oedd yr olaf wedi cael eu dysgu gan eu cymmydogion paganaidd i ystyried y gallu o erlid gwybed ymaith fel rhagorfraint ddwyfol, ac yn dal nad oedd un gwybedyn, er cymmaint oedd rhifedi yr aberthau yn nheml Solomon, byth yn myned i mewn yno; ac fel hyn, efelychent y chwedleuwyr cyfriniol, y rhai a ddywedent nas gallasai gwybed fyned i mewn i'w temlau. Dywed rhai fod Baal-zebub yn cael yr enw yma am ei fod yn cael ei baentio ar lun gwybedyn, er y dywed ereill ei fod yn cael ei arlunio megys brenin ar ei orsedd: efallai mai yr un ydyw ag Achor, y gau dduw oedd yn Cyrene, yr hwn a ystyrid yn amddiffynydd rhag gwybed. Yr ydys wedi bod yn ammheu pa un ai yr un ydyw y Beelzebub, am yr hwn y sonir gan ein Iachawdwr yn y Testament Newydd, a Baal-zebub, duw yr Ecroniaid; ond wrth chwilio y pwnc, nis gall ond ychydig ammheuaeth fod yn nghylch hyny. Y mae rhai ysgrifenwyr yn dal mai nid *Beelzebub* oedd y gair Groeg a ddefnyddid yn y Testament Newydd, ond *Beelzebul*, yr hyn sydd yn arwyddo *arlwydd y domen*. Newidiodd Jerome y darlleniad cyffredin i Beelzebub, yr hwn sydd wedi cael ei fabwysiadu gan y *Vulgate*, a'i gymmeradwyo gan lawer o feirniaid; ond mewn hen ieithoedd, nid peth anghyffredin oedd newid *b* i *l*, ac y mae Bochart a Grotius yn rhoddi anghreifftiau o'r fath gyfnewidiadau. Yn yr olwg yma, cytuna y gair Groeg â'r un Hebreig. Y mae y gair Hebreig, *zebel*, yn arwyddo yn briodol *trigle*; gan hyny, gall fod yn perthyn i Deml yr eilun: ac yn y modd hyny y mae yn gyfystyr â Beel neu Baal Samen, enw prif dduw y Pheniciaid.

1. BAANAH, [בענה, *mewn trallod*]: un o'r ddau frawd, meibion Rimmon y Beerothiad, o lwyth Beniamin, y rhai oeddynt dywysogion yn myddin Isboseth, mab Saul, ac a'i lladdasant ef yn fradwrus; am yr hon weithred ysgeler, y brenin Dafydd a'u cospodd hwynt, trwy dori ymaith eu dwylaw a'u traed, a'u crogi uwch ben y llyn yn Hebron: 2 *Sam.* iv. 2, 5, 12.

2. BAANAH: tad Heleb, un o gedyrn Dafydd; 2 *Sam.* xxiii. 29; 2 *Cron.* xi. 30.

Digitized by Google

3. BAANAH: un o'r penaethiaid a ddychwelasant o gaethiwed gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 2; *Neh.* vii. 7.

4. BAANAH: penaeth, un o'r rhai a seliasant y cyfammod yn amser Nehemïah (x. 27); ond tybia rhai y gallai fod yr un a'r blaenorol.

BAANIAS: ffurf Roegaidd yr enw Hebreig, Benaiah. Cymharer 1 *Esd.* ix. 26, âg *Ezra* x. 25.

BAARA, [בערא, *llosgiad, ystyfnigrwydd, bwystfil*]: un o wragedd Ehud, o lwyth Beniamin: 1 *Cron.* viii. 8.

BAASA: mab Ahïah, o dŷ Issachar. Yr oedd efe yn un o faeslywyddion Nadab, brenin Israel; a thra yr oedd y penadur hwnw yn gwarchae ar Gibbethon, efe a ymunodd mewn bradwriaeth yn ei erbyn, ac a'i lladdodd ef, gan gymmeryd meddiant o'r llywodraeth, y hon a gadwodd efe dros bedair blynedd ar hugain. Efe a laddodd holl dŷ Ieroboam, ac felly a gyflawnodd fygythiad yr Arglwydd yn erbyn y tylwyth annuwiol hwnw: 1 *Bren.* xv. 27—30. Digiodd Duw wrth Baasa yn ddirfawr o herwydd iddo ymroddi i gefnogi eilunaddoliaeth ar ol ei ddyrchafu i'r orsedd; ac efe a anfonodd Iehu, fab Hanani y prophwyd, i'w geryddu a'i fygwth o herwydd ei ymddygiad anniolchgar a phechadurus; ond, yn lle derbyn y cynghor, ac ymostwng, ymlenwi o gynddaredd a wnaeth efe, a lladd cenad y Goruchaf: 1 *Bren.* xvi. 1—7.

BABAN—OD: plentyn sugno, plentyn ieuanc: *Exod* ii. 6; *Luc* i. 41, 44; *Heb.* v. 13. Defnyddir yr ymadrodd gan yr apostol i ddynodi rhai bach eu gwybodaeth: *Heb.* v. 12, 13. Gweler hefyd *Mat.* xi. 25; *Luc* x. 21.

BABEL, TWR. Ystyr y gair Babel yw *cymmysgedd;* "o blegid yno y cymmysgodd yr Arglwydd iaith yr holl ddaiar." Yn *Gen.* xi, yr ydym yn cael hanes fod yr holl ddaiar "o un iaith ac o un ymadrodd. A bu a hwy yn ymdaith o'r dwyrain, gael o honynt wastadedd yn nhir Sinar; ac yno y trigasant." Penderfynasant adeiladu yno "ddinas a thŵr, â'i nen hyd y nefoedd;" a thrwy hyny, wneyd enw iddynt eu hunain, ac fel na byddai iddynt gael eu "gwasgaru ar hyd wyneb yr holl ddaiar." Ond yn lle hyny, dyrysodd yr Arglwydd eu hamcan; gwasgarodd hwynt oddi yno trwy gymmysgu eu hiaith, fel na ddeallent eu gilydd; ac felly, "peidiasant âg adeiladu y ddinas." Ymddengys mai Nimrod oedd yn cymmeryd y blaen yn y bwriad hwn; o blegid dywedir ei fod yn "heliwr cadarn ger bron yr Arglwydd," ac mai "dechreuad ei freniniaeth ef ydoedd Babel, ac Erech, ac Accad, a Chalneh, yn ngwlad Sinar;" *Gen.* x. 9, 10. Y mae yn debyg ei fod ef yn ddyn cryf a nerthol, gwrol, a phenderfynol, a thrwy hyny, yn dra llwyddiannus yn ei hyntiau helwriaethol yn erbyn gwylltfilod ysglyfaethus a pheryglus ag oeddynt yn amlhau. Ac nid yw yn annaturiol i ni gasglu fod llawer ereill yn ei gynnorthwyo yn yr ymgyrchoedd hyn; ond ei fod ef yn cael y llywyddiaeth arnynt ar gyfrif ei fedr a'i wroldeb, a'i fod drwy hyny wedi ennill y fath ddylanwad yn eu mysg ag i gael ei gydnabod ganddynt o'r diwedd fel brenin. A thybir mai dan ei arweiniad ef fel hyn yr ymdeithiasant i dir Sinar, ac y dechreuasant adeiladu yno y ddinas a'r tŵr, gyda'r bwriad iddi fod yn eisteddle ei lywodraeth gyffredinol ef arnynt. Dywed Josephus [*Hen. yr Iudd.*, llyfr i. pen. 4] fod Nimrod yn "ŵr hyf, ac â llaw gadarn mewn llywodraeth," a darfod iddo hudo y bobl i droi eu cefnau ar Dduw, ac "ymddibynu yn gwbl ar ei alluogrwydd ef ei hun. Dywedodd hefyd, 'yr ymddialai ef ar Dduw, os amcanai foddi y byd drachefn; o herwydd yr adeiladai efe dŵr rhy uchel i'r dyfroedd ei orchuddio; ac y mynai ddangos ei ddial ar Dduw am ddyfetha eu cyndeidiau." Ond nid yw yn debygol, pe hyny a fuasai yr amcan mewn golwg, y buasent yn ei adeiladu ar wastadedd, yn hytrach nag ar ben mynydd. "Nid oedd y rhai a adeiladasant dŵr Babel," medd Aben Ezra, "mor ynfyd a thybied y gallasent, drwy unrhyw lwybr o'r fath, gyrhaedd y nefoedd, nid oeddynt chwaith yn ofni dylif arall, o blegid fod ganddynt addewid Duw i'r gwrthwyneb; ond eu bod yn dymuno dinas i fod yn breswylfa ac yn gyrchfan gyffredinol, ac yn wasanaethgar yn ngwastattiroedd eang ac agored Babilonia i rwystro i'r teithiwr golli y ffordd; fel, tra yr oeddynt yn cael cyfleusdra a manteision iddynt eu hunain trwy hyny, y gwnaent enw iddynt eu hunain mewn oesoedd dyfodol."

Tybia ereill fod y geiriau, "â'i nen hyd y (neu *i'r*) nefoedd," yn lled arwyddo eu bod yn amcanu gwasanaethu y cyrff nefol, a'u bod yn llunio gwneuthur teml gyssegredig ar ei nen i'r dyben hwnw. Y mae hyn eto yn lled annhebyg; o blegid, gan eu bod eto heb eu gwasgaru, a Noah yn eu mysg, nid oes genym le i gasglu fod gwybodaeth o'r gwir Dduw wedi colli mor llwyr o'u plith. Ac er fod Nimrod, a llawer gydag ef, yn ol pob tebyg, yn hynod mewn annuwioldeb, fel yr awgryma y geiriau, "heliwr cadarn ger bron (neu *yn erbyn*, fel y cyfieitha rhai) yr Arglwydd;" a bod Babilon, ar ol hyn, wedi dyfod yn un o'r lleoedd mwyaf eilunaddolgar; nid yw yn ymddangos fod sefydlu eilunaddoliaeth yn amcan gan y rhai a ddechreuasant adeiladu y tŵr: ond yn hytrach fel y sylwyd, eu bod yn ei fwriadu yn ganolbarth ymherodraeth eang arnynt oll yn nghyd, fel na byddai iddynt ymwahanu oddi wrth eu gilydd. Ar yr un pryd, rhoddir amnaid—pan y dywedir ddarfod i'r Arglwydd ddisgyn "i weled y ddinas a'r tŵr a adeiladai meibion dynion," a'i fod wedi "cymmysgu yno eu hiaith," mewn trefn i'w gwasgaru—fod y gorchwyl wedi ei gychwyn gyda bwriad gwrthryfelgar: *Gen.* xi. 5, 6. Pa fodd bynag, dyryswyd eu hamcan, a rhoddasant i fyny adeiladu, gan nad oeddynt yn deall eu gilydd; ac felly nis gallasent ddwyn y gwaith yn mlaen. Yr oedd eu bod oll o un iaith yn rhwymyn cryf i'w cadw yn nghyd, ac felly, wrth luosogi, buasent yn gorthrymu ac yn dyfetha eu gilydd. A phe buasai rhyw ddosbarth o honynt yn ewyllysio ymwahanu, ni buasai hyny ond cyffroi cynddaredd y lleill i'w herlid a'u dinystrio oddi ar y ddaiar. Wedi iddynt fyned i fethu deall eu gilydd, trwy gyfryngiad neillduol o eiddo Duw, yr oedd y gwahanol deuluoedd neu ddosbarthiadau o honynt ag oedd yn siarad yr un iaith, yn ymddidoli oddi wrth ereill, ac yn ymgasglu at eu gilydd yn naturiol; yn cyfeirio eu hwynebau tua'r parthau hyny a ranwyd iddynt gan Dduw; ac felly yn cyflawnu ei orchymyn ef o ffrwytho ac amlhau, eppilio a lluosogi, ar y ddaiar yn fwy cyflym: *Gen.* ix. 7. [Gwel IAITH.] Y mae Scott yn sylwi—er eu bod yn bwriadu gwneuthur enw iddynt eu hunain ar y ddaiar, na chofnodir enwau neb o honynt, oddi eithr y crybwylliad byr sydd am Nimrod.

Digitized by Google

ddeugain troedfedd o uchder, ac yn pwyso mil o dalentau Babilonaidd. Y mae ychydig o wahaniaeth rhwng hen haneswyr, yn eu cyfrif am y delwau oedd yno o ran eu maint a'u pwysau, ond y maent yn cytuno eu bod yn anferth o faintioli; a bernir gan amryw ei bod yn dra thebyg mai hon a gyssegrwyd gan Nebuchodonosor ar wastadedd Dura: *Dan.* iii. Rhoddir hanes am ddwy ddelw arall fawr iawn. Un oedd yr eiddo Rhea, yr hon hefyd a bwysai fil o dalentau: eisteddai ar orsedd aur, â llew wrth bob glin, a dwy sarff arian. Darlunir un arall, yr eiddo Juno, a bwysai wyth gan talent: yr oedd yn sefyll ac yn cydio yn mhen sarff â'i llaw ddeheu, a theyrnwialen wedi ei haddurno â gemau gwerthfawr yn ei llaw aswy. Dywedir fod ar y bwrdd aur, yr hwn oedd ei hun yn pwyso pum can talent, ddwy o phialau aur, yn ddeg talent ar ugain bob un, a dwy thuser aur, yn pwyso pum can talent bob un. Yr oedd yno hefyd gawgiau aur anferth o faintioli. Cyfrifir gan rai fod y trysorau hyn yn werth un filiwn ar ugain o bunnau o'n harian ni; ond dywed ereill eu bod yn werth llawer iawn chwaneg—uwch law cant ac ugain o filiynau o bunnau.

Yr oedd amryw o byrth pres yn arwain i'r deml hon, y rhai a wnaethpwyd, y mae yn bur debyg, gan Nebuchodonosor, o'r ysbail a gafodd yn y deml yn Ierusalem; o blegid dywedir ddarfod iddo ddwyn y môr tawdd a'r colofnau pres, yn nghyd â'r holl offer, a'r llestri pres, arian, ac aur, a wnaethai Solomon, i Babilon: 2 *Bren.* xxv. 13—17; *Ier.* lii. 17—20. Ac y mae yn ymddangos hefyd fod y llestri aur ac arian a ddygasid o'r deml yn cael eu defnyddio yn ngwleddoedd a gwyliau y duw Bel: *Dan.* v. 2—4. Ond o'r diwedd, daeth dydd ei gofwy hithau, ac "amser ei dyrnu hi a ddaeth," pryd yr ymwelodd yr Arglwydd â "Bel yn Babilon," ac y "tynodd o'i safn yr hyn a lyncodd." Ar ei ddychweliad o'i ymgyrch o dir Groeg, ysbeiliodd Xerxes y deml o'i delwau, ei llestri, a'i chyfoeth anferth, a dinystriodd y tŵr yn garnedd. Bwriadodd Alexander Fawr ei ail adeiladu; ond wedi ychydig o ragbarotoad, rhoddodd angeu derfyn ar ei einioes, a rhoddwyd i fyny yr amcan, ac ni chynnygiodd neb arno byth mwy.

Y mae yn ddiammheu fod y tŵr hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio fel arsyllfa; o blegid yr ydym yn cael fod seryddiaeth mewn bri mawr yn mysg y Caldeaid. Ac y mae yn dra thebyg mai un o orchwylion y dysgedigion hyny a eilw Herodotus yn offeiriaid, ydoedd syllu ar, ac ymofyn hyny o wybodaeth a allent am y nefoedd serenog. Yr oeddynt mewn sefyllfa fanteisiol i hyny, ar safle mor uchel yn awyr ddigymylau gwastadedd gwlad Sinar. Dywed Dr. Prideaux, fod Calisthenes, yr athronydd, yr hwn oedd yn canlyn Alexander pan y cymmerodd feddiant o Babilon, wedi canfod nodiadau seryddol yn cyrhaedd uwch law pedwar cant ar bymtheg o flyneddoedd.

Ond yn mha le y mae tŵr Babel erbyn heddyw? A oes rhyw olion o hono i'w canfod, y gellir penderfynu y fan yr oedd yn sefyll? Y mae teithwyr lawer wedi bod yn ddiwyd a llafurus i gael y dirgelwch hwn allan, ond eto heb gyrhaedd sicrwydd dibetrus ac unfrydol yn ei gylch; er bod y fan yr oedd y ddinas yn sefyll yn adnabyddus. Tybiwyd unwaith gan rai mai yn y lle a elwir Tel Nimrood gan yr Arabiaid, a Nimrood Tepassè gan y Tyrciaid, yr hwn sydd yn arwyddo "Bryn Nimrod," y safai. Y mae y lle hwn yn Akerkoof, tua naw milltir i'r gorllewin o'r Tigris, yn y fan y mae yr afon hono yn dyfod agosaf at yr Euphrates. Ond ymddengys fod y rhai a ffurfient y farn yn cael eu tueddu i dybied felly yn fwy oddi ar fod yr enw Nimrood arno na dim arall. Barna rhai teithwyr diweddar mai



DAR. 98. BIRS NIMROOD.

gweddillion o'r tŵr yw y crug a elwir Birs Nimrood, yn y gorllewin i'r afon Euphrates, a thua chwe milltir i'r de-orllewin o Hillah. Barna ereill mai yn y fan a elwir Mujelibe y safai, tua naw cant a hanner o latheni i'r dwyrain o'r Euphrates, a phum milltir uwch law Hillah. Am sylwadau helaethach ar y ddau le olaf, gwel BABILON. Nid oes neb a all ymweled â'r lle yn bresennol heb ganfod gwirionedd y brophwydoliaeth, y byddai "Babilon yn garneddau, yn drigfa dreigiau, yn syndra, ac yn chwibaniad, heb breswylydd;" a chael ei orfodi i amlygu ei deimlad mewn geiriau cyffelyb ag a orchymynai Ieremïah i Seraiah adrodd, wedi iddo fyned yno a'i gweled, a darllen yr "holl aflwydd" a ysgrifenasai y prophwyd yn ei herbyn, "O Arglwydd! ti a leferaist yn erbyn y lle hwn, am ei ddinystrio, fel na byddai ynddo breswylydd, na dyn nac anifail, eithr ei fod yn anghyfannedd tragwyddol." Gwel *Ier.* li.—(*Cycl. of Bib. Lit.; Illus. Com.; Amserydd. Ysgryth. Lloyd; Rollin's Anc. Hist.; Prideaux's Con.*)

**BABILON**: un o ddinasoedd mwyaf ac enwocaf yr hen oesoedd, a phrif ddinas yr ymherodraeth Galdaeg. Gelwir hi yn "brydferthwch y teyrnasoedd, gogoniant godidogrwydd y Caldeaid;" *Esa.* xiii. 19: "Y dref aur;" *Esa.* xiv. 4: ac yn "arglwyddes y teyrnasoedd;" *Esa.* xlvii. 5. Mewn cyfeiriad at yr afon Euphrates, yr hon a'i hamgylchai, ac a redai drwy ran o honi, gan ei gwneuthur, i bob ymddangosiad, yn ddiogel ac anorchfygol, dysgrifir hi fel yn "aros ar ddyfroedd lawer," ac yn aml ei "thlysau;" ac mor anghymharol ydoedd mewn maint, nerth, prydferthwch a gwychder, fel ei gelwid yn "ogoniant yr holl ddaiar;" *Ier.* li. 41. Defnyddir llawer o ymadroddion ereill am dani, y rhai, yn nghyd â'r dysgrifiadau o honi sydd wedi dyfod i waered i'n dyddiau ni, a'r hanesion a gawn am ddylanwad ei breninoedd ar dynged y teyrnasoedd o'i hamgylch, a brofant ei bod unwaith yn ddinas anferthol ei maint, aml ei thrigolion, a mawr ei chadernid a'i chyfoeth.

Enw Groegaidd yw Babilon, neu o leiaf ffurf

Roegaidd wedi ei roddi i'r enw Hebreig Babel, yr hwn sydd yn arwyddo *cymmysgedd*, am mai yno y cymmysgwyd yr ieithoedd. Ond y mae rhai yn olrhain yr enw i'r gair באב בל=*llys neu ddinas Belus*. Mewn amseroedd diweddarach, gelwir hi ar yr un enw a'r dalaeth i ba un yr oedd yn brif ddinas, sef Babilonia.—[*Justin* i. 2; *Solin* c. 37; *Eth.* Βαβυλώνιος.]

Safai ar wastadedd mawr a llydan yr Euphrates, yr hon a lifai drwyddi, gan ei gwahanu i ddwy ran agos gyfartal, tua lledred 32° 25′ gog., a hydred 44 dwyreiniol. Y mae Mr. Rich, yr hwn sydd yn cytuno â Rennell yn ei *Geography of Herodotus*, yn barnu fod sefyllfa Babilon ger llaw Hillah, tref ar lan ddwyreiniol yr Euphrates, yr hon a adeiladwyd o adfeilion yr hen ddinas tuag c. c. 1101, a'r hon sydd tua 48 o filltiroedd i'r deheu o Bagdad.

Y mae hanes boreuol y ddinas fawr hon yn amgauedig â chaddug o dywyllwch ac ansicrwydd, ac nid yw chwedlau y rhan fwyaf o'r hen haneswyr yn gwneyd nemawr heb law tywyllu y tywyllwch, a gwneyd y gymmysgfa yn fwy cymmysglyd fyth. I Nimrod y priodolir sylfaeniad Babilon: *Gen.* x. 8—10. Adeiladwyd y ddinas, y mae yn debyg, o amgylch y fan y dechreuwyd y twr. Dywed Berossus, i dŵr gael ei adeiladu ar y fan y safai Babilon, fod ei adfeilion i'w weled yn ei ddyddiau ef, a bod y gwyntoedd wedi cynnorthwyo y duwiau i'w ddymchwelyd. Y mae Eupolemus hefyd yn priodoli sylfaeniad Babilon i'r rhai a ddiangasant rhag eu boddi yn y dylif, ac yn son am y twr a'i ddymchweliad. Y mae hefyd yn chwanegu fod Abraham yn preswylio mewn dinas o Babilonia o'r enw Camerina, yr hon a elwid gan rai Elrie.

Nid ydym yn cael un hanes am Babilon mwy yn y Beibl, nac un cyfeiriad ati, hyd amser teyrnasiad Hosea, c. c. 730, pan y darfu i'r deg llwyth gael eu caethgludo i Assyria: 2 *Bren.* ii. 24. O ddechreu teyrnasiad Nimrod hyd gaethgludiad y deg llwyth y mae yr Ysgrythyr yn gwbl ddystaw am Babilon. Nid oedd dim i dynu sylw ysgrifenwyr Iuddewig ati; o blegid nid oedd gyfathrach rhyngddynt hwy a'r Babiloniaid. Nid yw Herodotus yn dywedyd pwy a sylfaenodd Babilon; ond dywed ddarfod i ddwy o'i breninesau—Semiramus a Nitocris—gadarnhau muriau y ddinas, gyfodi gwrthgloddiau i'w hamddiffyn rhag gorlifiadau yr afon, yn gystal a chwanegu yn ddirfawr at ei haddurniadau. Dywed Eusebius i Babilon gael ei sylfaenu gan Nimrod, ei helaethu gan Belus a'r frenines Semiramis, a'i pherffeithio gan Nebuchodonosor, yr hwn a'i gwnaeth yn un o brif ryfeddodau y byd.

Y mae yn amlwg, pwy bynag a'i seiliodd gyntaf, a pha faint bynag a chwanegwyd ati gan freninoedd a breninesau dilynol, mai i Nebuchodonosor yr oedd yn ddyledus am y mawredd a'r gwychder a'i gwnaeth yn ben ar holl ddinasoedd y dwyrain. Efe a'i helaethodd, a'i cadarnhaodd, ac a'i haddurnodd i'r fath raddau, fel y gellid yn briodol ddywedyd mai efe a'i hadeiladodd. Efe a roddes iddi y cymmeriad uchel a feddai yn mlynyddoedd diweddaf ei deyrnasiad ef. Cafodd hi yn ddinas ail raddol, yn gorfod plygu ei phen i "Ninefeh y ddinas fawr;" ond gadawodd hi yn arglwyddes y teyrnasoedd, ac yn brif ryfeddod y ddaiar. Nid peth anghyffredin yw dywedyd am un a gadarnhaodd neu a helaethodd ddinas ag oedd yn bod eisoes, mai efe a'i hadeiladodd; ond yn 2 *Cron.* ii. 5—10, dywedir i Rehoboam adeiladu Bethlehem, ac amryw ddinasoedd ereill, y rhai oeddynt yn sefyll er ys oesoedd. Yn malchder ei galon, llefarodd Nebuchodonosor, a dywedodd, "Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i yn frenin-dy yn nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi?" Pa faint bynag, gan hyny, a ddarllenwn am sylfaeniad Babilon gan Nimrod neu Belus, a'i helaethiad gan Semiramis, nid yw yn ymddangos ei fod o nemawr bwys; nid oedd wedi cyrhaedd fawr o enwogrwydd nes i'w muriau anferthol, ei phyrth lliosog, teml Belus, palas mawrwrych y brenin, a'r gerddi crogedig, gael eu chwanegu ati gan y teyrn balch a nerthol hwnw, am yr hwn y gellir gyda phriodoldeb ddywedyd iddo adeiladu Babilon.

Gellir casglu oddi wrth *Gen.* x. 10—11, i Babilon a Ninefeh gael eu sylfaenu tua'r un amser, ond cadwodd Ninefeh y blaen am oesoedd lawer. Yn nyddiau y prophwyd Ionah, ryw 140 o flynyddoedd cyn bod son am Babilon, cawn Ninefeh yn "ddinas fawr iawn, o daith tri diwrnod," ac yn cynnwys ynddi fwy na deuddeng myrdd o ddynion, y rhai ni wyddent ragor rhwng eu llaw ddeheu a'u llaw aswy." Buasai Babilon yn brif ddinas teyrnas annibynol; ond yn amser caethgludiad y deg llwyth, yr oedd o dan lywodraeth brenin Assyria, fel yr ymddengys yn amlwg oddi wrth ei waith ef yn dwyn dynion "o Babilon i breswylio yn nhrefydd Samaria."

Yn 2 *Bren.* xx. 12, y cawn y cyfeiriad cyntaf yn yr Ysgrythyr, ar ol y crybwylliad byr yn Genesis, am frenin ar Babilon: Berodach-Baladan ydoedd hwn. "Anfonodd lythyrau ac anrheg at Hezeciah; canys efe a glywsai fod Hezeciah yn glaf." Ond bernir nad oedd hwn namyn rhaglaw o dan frenin Assyria, a dywedir mai diben ei genadwri at Hezeciah ydoedd cael ei gymhorth ef i fwrw ymaith iau Ninefeh. Y mae yn rhesymol casglu na buasai y trahaus-falch a'r nerthol Senacherib, yr hwn oedd yn ymladd yn erbyn, ac yn goresgyn gwledydd yn mhellder y byd, yn gadael i frenin annibynol deyrnasu mewn llwyddiant mor agos i'w gartref ei hun a Babilon. Ymddengys i Babilon wneyd amryw gynnygion aflwyddiannus i fwrw ymaith iau Ninefeh: ond yn nheyrnasiad Sarac, brenin diweddaf Assyria, pan oedd yr ymherodraeth wedi gwanhau yn ddirfawr, ymunodd Nabopolassar, rhaglaw Babilon, tad Nebuchodonosor, â Cyaxares, llywodraethwr Media yn ei erbyn—lladdwyd Sarac, dymchwelwyd yr ymherodraeth fawr, dinystriwyd Ninefeh, trosglwyddwyd sedd y llywodraeth i Babilon; a daeth Babilon yn "arglwyddes teyrnasoedd," a'i brenin hi yn "frenin breninoedd." Teyrnasodd Nabopolassar ar Babilon ac Assyria am 21 o flyneddoedd, a dilynwyd ef gan ei fab Nebuchodonosor; yr hwn, fel y crybwyllwyd eisoes, a helaethodd ac a gadarnhaodd ei ddinas freninol, ac a'i llanwodd â'r fath adeiladau gorwych nes ei gwneyd yn brif ryfeddod y byd.

Dywed Herodotus, y cyntaf o'r hen ysgrifenwyr sydd yn rhoddi dysgrifiad o Babilon, a'r hwn a fu yno ei hunan, fod muriau y ddinas yn drigain milltir o amgylchedd, wedi eu hadeiladu o briddfeini mawrion, y rhai a gydid wrth eu gilydd â llosglur (*bitumen*), yr hwn a gafwyd yn mhentref Is—yn awr Hit. Yr oedd y muriau wedi eu gosod o amgylch y ddinas ar ffurf berffaith betryal. Dywed eu bod yn dri chant a hanner o droedfeddi o uchder, ac yn bedwar ugain a saith o droedfeddi o drwch. Dywed Quintus Curtius, y gallai pedwar o gerbydau redeg ochr yn achr ar eu nen yn ddiberygl. Ond dywed Diodorus Siculus, eu bod

Digitized by Google

yn ddigon llydain i chwech o gerbydau redeg arnynt yn gyfochrog. Amddiffynid y muriau o'r tu allan gan ffos ddofn, yr hon mewn dyfnder a lled ydoedd yn gyfartal i uchder y mur. Defnyddiwyd y clai a gyfodid wrth gloddio y ffos i wneyd priddfeini o hono i adeiladu y muriau. Yr oedd cant o byrth yn arwain i'r ddinas, pump ar ugain ar bob tu i'r muriau, oll o bres: safai y pyrth yn union ar gyfer eu gilydd; hyny yw, yr oedd holl byrth y muriau gogleddol yn union ar gyfer pyrth y mur deheuol; ac arweiniai heolydd union o byrth y naill fur i byrth y mur arall. Fel hyn, croesid Babilon gan bump ar ugain o heolydd o'r gogledd i'r deheu, a chan bump ar ugain ereill o'r dwyrain i'r gorllewin; ac felly y torid y ddinas i fyny i 676 o betryalau (*squares*), y rhai oeddynt bob un yn ddwy filltir a chwarter o amgylchedd. Cadarnheid y ddinas hefyd gan dyrau o nerth ac uchder mawr, pedwar o ba rai a safent rhwng pob dau borth, a phedwar arall ar bedair congl y ddinas. Llifai yr afon drwyddi o'r gogledd i'r deheu, ac o bob tu i'r afon yr oedd porthfa (*quay*), o'r un trwch a muriau y ddinas, a rhwng naw a deng milltir o hyd. Yn y porthfeydd hyn yr oedd pyrth pres, o ba rai yr oedd grisiau yn disgyn i'r afon. Gan fod yr Euphrates yn cyfodi dros ei glanau yn yr haf, o blegid toddiad yr eira ar fynyddoedd Armenia, gwnaed dwy gamlas fawr i droi ei dyfroedd i'r Tigris, a chyfodwyd gwrthgloddiau mawrion ar ddau tu yr afon. Ar du gorllewinol y ddinas, cloddiwyd llyn anferthol, deugain milltir ysgwar, a phymtheg ar ugain o droedfeddi o ddyfnder, i ba un y trowyd dyfroedd yr afon tra y buwyd yn gwneyd y gorchwylion pwysig uchod. Croesid yr afon gan bont brydferth, yn hanner chwarter milltir o hyd, a deg troedfedd ar ugain o led. Safai dau balas ardderchog un ar bob pen i'r bont, a dywedir fod llwybr tanddaiarol o'r naill i'r llall.

Gofynwyd i Wyddyl, yr hwn oedd wedi bod yn y brif ddinas, pa fath dref oedd Llundain; "Tref?" meddai,—"nid tref mo honi, ond gwlad lawn o dai." Ond yn ol Herodotus, safai Babilon ar yn agos i wyth cymmaint o dir ag y saif Llundain arno yn awr. Ar yr un pryd, ni thâl i ni ffurfio barn am boblogaeth dinasoedd dwyreiniol wrth helaethder y tir y safent arno: nid oedd y tai yn rhesi cyssylltiedig â'u gilydd, fel eiddo ein dinasoedd ni; safai pob tŷ ar ei ben ei hun, a pherthynai iddo ddarn o dir er cynnaliaeth ei breswylwyr.

Yr oedd y palas newydd, yr hwn a adeiladwyd gan Nebuchodonosor, yn aruthrol ei faint, a godidog ac aml ei addurniadau. Amgylchid ef â mur yn chwe milltir o gwmpas, ac o fewn y cylch hwn yr oedd dau fur gwalciog ereill, heblaw tŵr o faint ac uchder dirfawr. Arweinid iddo gan dri o byrth pres. Addurnid y palas hwn yn ogoneddus â cherfluniau dynion ac anifeiliaid, a llestri aur ac arian. Yr oedd o'i fewn bob math o ddodrefn gwych—ysbail yr Aipht, Palestina, a gwledydd ereill. Ond ei brif ogoniant ydoedd y gerddi crogedig, y rhai a alwai y Groegiaid yn un o brif ryfeddodau y byd. Dywedir i Nebuchodonosor osod y rhai hyn i fyny o barch i'w wraig Amytis. Yr oedd hi yn enedigol o Ecbatana, yn ngwlad fynyddig Media. Yno yr oedd wedi cael y pleser o rodio mewn coedwigoedd ar fryniau uchel; ond yr oedd Babilon yn sefyll ar wastadedd mawr, nid oedd na mynydd na bryn o'i mewn, nag yn agos ati; hiraethai hithau am olygfeydd gwlad ei genedigaeth. Gwnaeth Nebuchodonosor i nerth a chelfyddyd wneyd i fyny mewn rhan ddiffyg natur. Cyfodwyd mynydd celfyddydol yn bedwar cant o droedfeddi o hyd a lled. Safai yn sarnau (*terraces*), y naill uwch law y llall, i'r fath uchder nes y gellid edrych oddi ar yr uchaf oll dros furiau y ddinas. Safai yr uchsarnau hyn ar resi o golofnau cedyrn; y rhai a weithid i ffurf fwaog, ac a ymgodent y naill uwch y llall i uchder gofynol yr uchsarn. Ymddangosai y cwbl yn lled debyg i bont wedi ei chyfodi ar bont, ac un arall ar hyny, &c., i uchder tri chant o droedfeddi; tra y rhwymid y cwbl yn nghyd â mur mawr, pedair ar ugain o droedfeddi o drwch. Ffurfid arwyneb pob un o'r uchsarnau yma yn y dull a ganlyn:—yn gyntaf oll, gosodid llechfeini mawrion, un ar bymtheg o droedfeddi o hyd, a phedair o led, ar ben y colofnau; ar y llechau hyn, gosodid gwely o ddefnydd matiau; ac ar hyny haen o *bitumen;* wedi hyny, gosodid dau gwrs o briddfeini, y rhai a orchuddid â lleni mawrion o blwm; ar ben hyn oll, gosodid dyfnder o bridd; ac er mwyn cael lle i goed mawrion i wreiddio, adeiledid tyrau gweigion, y rhai a lanwyd â phridd. Llifai yr Euphrates heibio i'r gerddi hyn, braidd yn eu hymyl, a thynid dwfr o honi i'w dyfrhau â sugnbeiriant, yr hwn a safai ar y rhodle uchaf. Ymddangosai y cwbl, medd Quintus Curtius, yr hwn a'u gwelodd, o bell, yn debyg i elltydd o goed ar fynyddoedd. Tebygol yw mai ar ben yr uchaf o'r rhodleoedd prydferth a mawreddog yma y rhodiai y brenin Nebuchodonosor, mewn man cyfleus i weled y ddinas fawreddog a gyfodasai, ei hadeiladau mawrion, a'i haddurniadau godidog, pan ymddyrchafodd ei galon o'i fewn, ac y llefarodd mewn balchder, "Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiledais i?"

Y mae rhai gwledydd a dinasoedd yn parhau mewn mawredd yn hwy nag ereill. Byr fu rhwysg Babilon. Pan yn uchder ei gogoniant, rhagddywedai ysbrydoliaeth ei haruthr gwymp; ac fel y rhagddywedwyd, a thrwy y moddion a ragddywedwyd, cwympo a wnaeth, a'i chwymp a fu fawr.

Yn nyddiau Belsassar, ŵyr i sylfaenydd mawr y freniniaeth, Nebuchodonosor, daeth Cyrus, y Persiad, a Darius, y Mediad, â llu mawr yn erbyn Babilon. Dywedasai yr Arglwydd er's blynyddoedd lawer, y "galwai efe aderyn o'r dwyrain, y gŵr a wnai ei ewyllys o wlad bell"—ac fe ddaeth. Clywodd Belsassar fod Cyrus yn dyfod â llu dirfawr yn ei erbyn. Aeth allan i'w gyfarfod: bu brwydr fer rhwng y ddau lu, ond collodd Belsassar y dydd, ac enciliodd ef a'i wŷr o fewn muriau y ddinas.

Rhwng fod llawer o'r tir o fewn muriau Babilon, fel yr awgrymwyd eisoes, yn gynnyrchiol, a'r darpariadau oedd wedi eu gwneyd gan y trigolion drwy ddwyn angenrheidiau bywyd i mewn i'r ddinas, dywedir y gallasai ddal gwarchae o ugain mlynedd cyn y buasai newyn yn cymhell ei phobl i ymostwng i'r ymosodwr; pa fodd bynag, gwarchaeodd Cyrus yn ei herbyn ddwy flynedd, ac nid yw yn ymddangos fod yno yr arwydd lleiaf am newyn, o blegid yn niwedd y ddwy flynedd hyny, "gwnaeth y brenin Belsassar wledd i fil o'i dywysogion." Nis gallai Cyrus gymmeryd y ddinas trwy orthrech, gan yr amddiffynid hi gan ei muriau uchel a chedyrn, ac nis gellid effeithio ar y rhai hyny trwy beiriannau, na gosod ysgolion yn eu herbyn i ddringo drostynt i'r ddinas, o blegid y ffos ddofn a llydan a'u hamgylchynai. Fel hyn, ymddangosai rhwystrau anorfod ar ffordd Cyrus i gymmeryd Babilon. Ond "Fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth ei

Digitized by Google

eneiniog, wrth Cyrus, yr hwn yr ymaflais i yn ei ddeheulaw, i ddarostwng cenedloedd o'i flaen ef: a mi a ddattodaf lwynau breninoedd; i agoryd y dorau o'i flaen ef, a'r pyrth ni chauir: mi a äf o'th flaen di, ac a unionaf y gŵyrgeimion; y dorau pres a doraf, a'r barau heiyrn a ddrylliaf." "A chynghor yr Arglwydd, hwnw a saif."

Y peth nas gallai Cyrus ei wneyd trwy nerth, a gwblhawyd drwy ddyfais. Llifai yr Euphrates, fel y crybwyllwyd eisoes, drwy y ddinas; äi i mewn y tu gogleddol iddi, a deuai allan y tu deheuol; yn y manau hyn, yr oedd ei lled yn fawr, a dyfnder ei dwfr yn ddeuddeg troedfedd. Pe gallesid sychu yr afon, neu o leiaf ei gwneyd yn rhydiol, yn y ddau fan yma, buasai dwy ffordd drwy ba rai y gallasai milwyr ymdywallt i'r ddinas. Penderfynodd Cyrus gynnyg y cynllun hwn, a llwyddodd. Dywedasid wrtho fod gŵyl flyneddol yn cael ei chynnal gan y Babiloniaid, a'u bod yn treulio nos yr ŵyl hono mewn meddwdod a glythineb, a phenderfynodd ar y noswaith hono i osod ei gynllun mewn gweithrediad. Gosododd fintai o wŷr i sefyll wrth y fan yr äi yr afon i mewn i'r ddinas, ac un arall wrth y fan y deuai allan, gan orchymyn iddynt, gan gynted ag y caent yr afon yn rhydiol, am fyned rhag eu blaen i'r ddinas. Anfonodd fintai arall at ben y camlas, yr hwn oedd yn arwain i'r llyn mawr a wnaethai Nebuchodonosor i dderbyn dyfroedd yr afon tra y gwnaed y porthfeydd y soniasom am danynt eisoes. Gorchymynwyd i'r rhai hyn, ar fod iddynt, gan gynted ag yr elai yn dywyll, dori i lawr y clawdd oedd rhwng yr afon a'r camlas, fel y byddai i'r dyfroedd, yn lle rhedeg i'r ddinas, fyned i'r llyn. Gwnaethai Cyrus hefyd ffos fawr yn ystod y gwarchae, a gwnaed amryw agoriadau o'r afon i hono. Erbyn hanner nos, yr oedd y cynllun mewn llawn waith. Tra yr oedd Belsassar yn llawen yn nghanol ei dywysogion, yr oedd ei ddistryw yn cyflym brysuro; a thra yr ysgrifenai y darn llaw ar galchiad y pared, Mene, Tecel, Upharsin," yr oedd cyflawnydd y brophwydoliaeth arswydol a gynnwysent wedi taraw, ac yn prysur weithredu, ar y cynllun i'w gwireiddio. Buan y sychwyd yr afon: ymarllwysai y milwyr i'r ddinas trwy y ddau agoriad a adawsai ei dyfroedd iddynt. Aethant rhag eu blaen tua'r palas breninol; cyfarfu y ddwy fintai â'u gilydd yno. Er syndod iddynt, cawsant y "pyrth pres," yn mur allanol y palas, wedi eu gadael yn esgeulus yn agored gan y gosgorddlu breninol, y rhai oeddynt wedi ymollwng i feddwdod a rhialtwch y nos. Daeth Cyrus i mewn, â'i holl lu, "a'r noswaith hono, lladdwyd y brenin Belsassar."

Ni ddarfu i Cyrus ddinystrio y ddinas—gadawodd ei hadeiladau gwychion yn eu gogoniant. Cymmerwyd y freniniaeth gan ei berthynas, Darius, y Mediad, fel rhaglaw, efallai, dan Cyrus, yr hwn a deyrnasodd am ddwy flynedd. Dilynwyd ef gan Cyrus. Sefydlodd ef ei freninllys yn Susiana, ac felly syrthiodd Babilon o'i mawredd —peidiodd a bod yn ddinas freninol mwy. Yr oedd hyn yn ormod o ergyd i falchder y Babiloniaid; goddefasant yr iselhad am ychydig flyneddoedd, ond yn nheyrnasiad Darius Hystaspis, gwrthryfelasant. Yr oeddynt eisoes wedi dwyn cyflawnder mawr o angenrheidiau bywyd yn lladradaidd i'r ddinas; darparasant ar gyfer gwarchae maith: cauasant eu hunain i fyny o'i mewn, gan herio holl allu yr ymherodraeth Bersiaidd. Aeth Darius â'i luoedd yn erbyn Babilon· gwarchaeodd yn ei herbyn am ugain mis, a chymmerodd hi yn y diwedd; nid trwy orthrech, mwy na Cyrus, ond trwy ystryw o eiddo Zopyrus, pendefig Persiaidd, a chyfaill mynwesol i Darius. Torodd hwn ymaith ei glustiau a'i drwyn ei hun, a maeddodd ei gorff yn y modd mwyaf truenus, ac yna aeth at un o byrth y ddinas, gan achwyn ar Darius, yr hwn, meddai, oedd wedi ei drin fel yma am iddo ei gynghori i dynu ei fyddin oddi wrth y ddinas, o blegid ei fod yn beth hollol anmhosibl ei chymmeryd. Gollyngwyd ef i mewn i'r ddinas, a chymmerwyd ef o flaen yr awdurdodau. Yno adroddai yr un chwedl, gan fygwth y dial mwyaf arswydol ar Darius; a'r cwbl a geisiai oedd cael rhan o'r fyddin o dan ei lywyddiaeth, er mwyn ei alluogi i ddial ar ei elyn. Bu y Babiloniaid mor ffol a gwrandaw ar ei chwedl, a chydsynio â'i gais; ac nid hir y bu yntau cyn cael cyfle i fradychu y ddinas i ddwylaw Darius.

Wedi y dymchweliad hwn, nid oes dim nodedig i'w ddyweyd am Babilon, heb law fod breninoedd Persia yn preswylio yn y gauaf yno, tra y treulient yr haf yn Ecbatana, a'r rhan fwyaf o'r gwanwyn yn Susiana, hyd ddychweliad Xerxes o'i hynt adfydus i wlad Groeg. Darfu iddo y pryd hwnw, er mwyn digolledu ei hun, mae yn debyg, mor bell ag y medrai, losgi temlau Babilon, wedi eu hanrheithio yn gyntaf o'u delwau aur, am y rhai y dywedir eu bod yn pwyso mwy na chwe mil o dalentau, ac yn werth un filiwn ar ugain o bunnau o arian Prydain. Yn nghylch cant a hanner o flyneddoedd wedi hyny, syrthiodd ymherodraeth Persia o flaen Alexander Fawr; aeth ef a'i luoedd i Babilon, a chymmerodd feddiant o honi heb gael un gwrthwynebiad, a phenderfynodd ei hadferu i'w gwychder boreuol. Gosododd ddeng mil o ddynion i garthu ymaith yr adfeilion oedd o amgylch teml Belus, a dechreuodd orchwylion pwysig ereill tuag at ei hadferu; ond yn ddisymwth, rhoddodd angeu derfyn ar ei holl amcanion.

Wedi marwolaeth Alexander, syrthiodd Babilon i ran Seleucus, un o gadfridogion y gorchfygwr, rhwng pa rai y rhanwyd ei ymherodraeth fawr. Adeiladodd hwn Seleucia, ar lan y Tigris, o ddeutu pump a deugain o filltiroedd o Babilon; ac nid yw yn annhebyg i lawer o'i defnyddiau gael eu cludo yno; pa fodd bynag, bu cyfodiad Seleucia yn gwymp pellach i Babilon. Y gyntaf oedd y ddinas freninol; o ganlyniad, yno yr ymgasglai y bobl, ac y gwnaeth trafnidiaeth ei chartref; ac felly, yn is is y syrthiodd Babilon fawr. Cymmerwyd hi wedi hyny gan Antigonus; drachefn gan Demetrius; wedi hyny, gan Antiochus Fawr; a thrachefn gan y Parthiaid. Yn ei hanes hi gwiriwyd geiriau prophwydoliaeth, na chai y rhai a ymfyddinent yn ei herbyn hi "ddychwelyd yn ofer." Adfeiliodd o radd i radd; a bellach, er's canrifoedd lawer, y mae wedi ei cholli oddi ar wyneb y ddaiar. Yr oedd dedfryd ysbrydoliaeth wedi ei chyhoeddi yn ei herbyn tra yr oedd eto yn ei gogoniant. Dywedasai yr Arglwydd, "A Babilon, prydferthwch y teyrnasoedd, gogoniant godidogrwydd y Caldeaid, fydd megys dinystr Duw ar Sodom a Gomorrah;" *Esa*. xiii. 19—22.

Ceir gweddillion palas Nebuchodonosor yn y crug, neu fryn mawr, yr hwn a eilw preswylwyr y wlad o amgylch, "y Kasr." Y mae o ffurf annhrefnus, ac yn 800 o latheni o hyd wrth 600 o led. Y mae ei ymddangosiad yn myned o dan gyfnewidiadau parhaus, o blegid fod pobl y gwledydd o amgylch yn cloddio i'w ymysgar-



Digitized by Google


oedd am y priddfeini rhagorol sydd ynddo. Fel hyn y mae wedi ei rychio a'i aredig, nes y mae yn greigyllau a phantiau dyfnion ar draws ac ar hyd yn mhob rhan o hono. Y mae yr holl olion a geir ynddo yn dangos tu hwnt i bob ammheuaeth ei fod wedi ei adeiladu o ddefnyddiau rhagorach na dim a geir yn y parth dwyreiniol o'r byd. Wrth gloddio yn y pentwr, hwn y mae gwagleoedd wedi cael eu gadael, yn mha rai y mae amryw wedi colli eu bywydau. Y mae darnau helaeth o'r muriau yn parhau i sefyll yn gyfan, tra y mae clampiau gwahanedig wedi syrthio ar



Dar. 99.

draws eu gilydd, y rhai sydd gyfansoddedig o briddfeini o ymddangosiad mor newydd a phrydferth a phe buasent wedi dyfod yn ddiweddar o'r ffwrnais. Ymddengys mai priddfeini wedi eu llosgi mewn ffwrneisiau, yn hytrach na rhai wedi eu crasu yn ngwres yr haul, a ddefnyddiwyd yn hollol yn yr adeilad hon. Y mae yr holl briddfeini wedi eu gosod wyneb i waered. Ymddengys na bydd diffyg defnyddiau adeiladu, a'r defnyddiau hyny o'r fath oreu, yn y parthau hyn am oesoedd eto i ddyfod.

Darfu Mr. Rich, trafnidydd Prydeinig yn Bagdad, wrth gloddio yn y pentwr yma yn 1811, ddyfod o hyd i lew o faintioli anferthol, yn sefyll ar golofn o ithfaen llwyd, ac o wneuthuriad anghelfydd; yn ei safn yr oedd twll crwn, i'r hwn y gallasai dyn wthio ei ddwrn.



Dar. 100.

Wrth chwilio a chloddio yn y pentyrau mawrion a geir lle safai Babilon, yn enwedig ar lan ddwyreiniol yr Euphrates, deuir o hyd i nifer afrifed o weddillion cywrain a dyddorol yr amseroedd pan oedd hi yn arglwyddes teyrnasoedd. Ni a enwn ychydig o honynt yma: - Cafwyd rholyn (*cylinder*) mawr o glai llosgedig, wedi ei guddio âg ysgrifen fel y gwelir isod; hefyd sel agat wedi ei thori yn gelfyddgar, ar yr hon yr oedd



Dar. 101.

llun offeiriad, wedi ei amgylchu âg amryw o arwyddluniau yr addoliad Sabïaidd; hefyd ci bychan o bres, o ddeutu tair modfedd o uchder, â choler o aur pur am ei wddf. Ceir llawer o gerfluniau bychain, rhai mewn clai, ereill o bres, yma a thraw yn mysg holl weddillion Babilon. Mae'n sicr fod yno lawer o gerfiadau, a phethau ereill tra ardderchog, gynt; ond nid yw yn rhyfedd yn y byd fod cyn lleied o honynt, mewn cymhariaeth, i'w cael yn mysg ei hadfeilion; o blegid fel y darfu i Babilon ysbeilio yr Aipht, Assyria, Iudea, a gwledydd ereill, o'u cerfluniau, ac addurniadau eu temlau a'u palasau, daeth ei thro hithau i gael ei hysbeilio o'r diwedd. Aeth yn ysglyfaeth i'r naill orchfygwr ar ol y llall; aeth ei delwau o aur ac o arian i gyfoethogi ei hanrheithwyr, a'i haddurniadau gwerthfawrocaf i addurno dinasoedd ereill; a'r hyn a adawyd gan orchfygwyr mawrion a ysbeiliwyd gan heidiau o fân ysbeilwyr o bryd i bryd. Rhoddwn ddau neu dri o arluniau o weddillion a gafwyd yno. Y mae y cyntaf yn ffurf



Dar. 102.

rholyn, ar wyneb yr hwn y mae nifer o bersonau nodedig, ac arysgrifen mewn llythyrenau fel yn darlun 101. Ymddengys oddi wrth y lluniau hyn eu bod yn cymmeryd rhan yn addoliad y lleuad; a'u bod ar ganol seremoni o bwys cyssylltiedig âg addoliad y dduwies hono, yr hon a addolid gan y Persiaid a'r Caldeaid o dan yr enwau Mylitta ac Abytta, neu Araites ac Aranus. Dywed Maimonides, fod gan y dduwies hon finteioedd lawer o ferched ieuainc wedi eu cyssegru i'w gwasanaeth. Dengys ein darlun offeiriades yn dwyn morwyn i'r deml i dderbyn bendith offeiriadol. Eisteddai pob un o'r morwynion hyn unwaith yn ei bywyd, medd Herodotus, yn nghreirfa Venus,

Digitized by Google

ei phen wedi ei rwymo â garlantau, a'i chorff â chortynau; ac os deuai rhyw ddyeithrddyn yno, a thaflu swm o arian i'w harffed, byddai yn rhaid iddi fyned gydag ef i'r deml, lle y peidiai a bod yn forwyn mwy. Yno gosodid yr arian ar yr allor, i'w cyssegru i'r dduwies ffiaidd i ba un yr aberthasai y forwyn ei phurdeb. Mae'n debyg mai at arferion aflan o'r fath yma y cyfeirir yn nghyfraith Moses, pan y dywedir, "Na ddwg wobr putain i dŷ yr Arglwydd dy Dduw."

Cafwyd yr arlun isod ar rolyn o agat gwyn. Y mae y cerfiad yn nodedig o gelfyddgar. Yr arwyddluniau arno ydynt yr haul, y lleuad, y pum planed, a'r hyn a elwir yr *archaspand*, neu y saith belen—yn arwyddo y saith gallu nefolaidd a wasanaethent bob amser ar dduw mawr y Caldeaid a'r Persiaid. Saif un ddelw yn union dan yr haul, a deil yn ei llaw aswy dorch wedi ei gwneyd i fyny o ryw bethau crynion; ar ei gefn, ymddengys bwa a chawell saethau; o'i flaen, ymddengys rhywbeth nid annhebyg i flodeuyn, fel pe byddai yn tarddu o'r ddaiar; ac yn fwy yn mlaen fyth saif llun dyn yn bennoeth a diaddurn, yr hwn sydd yn cyfodi ei ddwylaw, ac yn ymddangos fel pe byddai yn cyfarch bod anrhydeddusach nag un arall o honynt, yr hwn a sai o'i flaen ar gefn unicorn. Ymddengys person awyrol, dyeithrol yr olwg arno, uwch ben y llun pennoeth a diaddurn hwn. Y mae y bod mawreddog, yr hwn y mae yn ei gyfarch, yn dal yn ei ddwylaw, ac o'i amgylch, y pethau a ystyrid megys arwyddluniau dwyfoldeb yn mhlith y Caldeaid; megys teyrnwiail, bwyeill, ac arfau ac offerynau ereill. Dengys y cwbl fod perthynas agos rhwng cyfundraeth grefyddol y Caldeaid ac eiddo y Persiaid; dangosir y defnyddient yr un arwyddluniau. Efallai mai yr unig wahaniaeth rhyngddynt ydoedd, fel y naill yn addoli *arwyddluniau* o'r haul, a'r lleuad, &c., tra y cyfyngai y lleill eu haddoliad i'r llu nefolaidd eu hunain.



Dar. 103.

Rhoddwn y ddau ddarlun canlynol, er galluogi ein darllenwyr i ffurfio drychfeddwl am y dull yr arferai y Babiloniaid ymwisgo. Y maent wedi eu cymmeryd oddi ar roliau cerfiedig a gemau, ac yn trosglwyddo, efallai, lawn cymmaint o wybodaeth ar y pwnc hwn a dim a ellir dyfod o hyd iddo ar hyn o bryd.



Dar. 104.



Dar. 105.

Saif enw Dr. Layard yn mlaenaf yn rhes darganfyddwyr gweddillion dinasoedd ac adeiladau yr hen oesoedd. Y mae ei lafur wedi bod, yn benaf, yn mysg y banciau a guddiant weddillion Ninefeh: oddi yno y mae wedi cloddio tystion na feiddia neb eu hammheu i wirionedd y gair dwyfol. Ond y mae wedi bod yn cloddio yn Babilon. Ceir ffrwyth ei ymchwiliad yno yn ei lyfr a elwir, *Discoveries in the ruins of Nineveh and Babilon*, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1853.

Am y Kasr, yr adeilad fawr o'r hon yr ydym wedi rhoddi dysgrifiad byr eisoes, dywed, "Y mae y darn rhyfeddol hwn o faensaernïaeth mor berffaith ac mor newydd yr olwg arno, fel yr ymddengys fel pe buasai wedi ei adeiladu ddoe—tra, mewn gwirionedd, nid oes le i goleddu yr ammheuaeth leiaf nad ydyw yn rhan o adeilad a safai yn nghanol yr hen Fabilon. Y mae enw a theitlau Nebuchodonosor wedi eu hargraffu yn eglur ac yn ddwfn ar yn agos bob priddfaen a llech, ac y mae yr holl briddfeini wedi eu gosod â'r wyneb argraffedig i waered. Y mae yr adfail yma wedi bod am oesoedd yn faengloddfa, lle y mae adeiladwyr dinasoedd a gyfodasant ar ol cwymp Babilon wedi cael eu defnyddiau. Hyd y dydd heddyw, y mae dynion y rhai nad oes ganddynt un alwedigaeth arall ond casglu priddfeini yn y pentwr mawr yma, a'u dwyn i'w gwerthu i'r trefydd a'r pentrefydd cymmydogaethol, ac hyd yn oed mor bell a Bagdad. Prin y mae tŷ i'w gael yn Hillah nad yw wedi ei adeiladu yn hollol o honynt. Fel y bydd y teithiwr yn gwneyd ei ffordd drwy yr heolydd culion, gall weled yn argraffedig ar bob bwthyn goffadwriaeth am fawredd a chadernid Nebuchodonosor."

Cafodd Dr. Layard yn y pentwr yma amryw ddarnau o briddfaen wedi eu gwisgo âg emliwiad tew a llyfn fel gwydr. Gellid olrhain arnynt ddarnau o luniau ac addurniadau o lâs dysglaer, coch, melyn cryf, gwyn, a du; yr oedd y lliwiau oll mor loew ag y buont erioed. Bernir, ac nid heb reswm, mai y defnydd a wnaed o'r rhai yma ydoedd wynebu muriau y palas, am y rhai y dywedir eu bod wedi eu haddurno â lluniau dynion ac anifeiliaid. Gyrodd Layard yn y blaen rai o'r ffyrdd tanddaiarol a ddechreuwyd gan Mr. Rich, ond buan y gorfuwyd eu rhoddi i fyny, gan fod yr ochrau a'r nen yn cwympo yn nghyd. Modd bynag, cyn ildio, bu mor ffodus a dyfod o hyd i ddarn o gareg galch, ar yr hon yr oedd dau lun, am ba rai nid oedd ganddo yr ammheuaeth leiaf nad duwiau oeddynt. Y mae enw un duw mewn llythyrenau Babilonaidd yn ymyl ei ddelw gerfiedig. Tybiai mai darn ydoedd hwn o faen

Digitized by Google

mawr, ar ba un yr oedd rhes o gerfluniau o'r fath; ond er chwilio yn fanwl ac yn faith, methodd a dyfod o hyd i chwaneg. Y mae y dernyn hwn, pa fodd bynag, yn ddyddorol, gan ei fod yn profi fod y Babiloniaid yn portreiadu eu duwiau yn yr un modd a'r Assyriaid. Meddent yr un penwisg uchel ac addurnedig â phlu a rhosynau; y gwallt a'r farf laes a chrychedig, a'r gwisgoedd brodiog; a dalient yr un ffon a modrwy a'r duwiesau yn maen-gerfluniau Bavian.

I'r deheu o'r Kasr y saif pentwr o adfeilion, 1,100 o latheni o hyd, ac 800 o latheni yn ei led mwyaf; ac o 50 i 60 o droedfeddi o uchder uwchlaw arwyneb y gwastadedd. Y mae trum o gryn uchder, yr hwn sydd yn agos i gan llathen ar ei draws, ac yn cyssylltu ei ongl ogledd-orllewinol â'r palas; ond oddi yno tua'r dwyrain, y mae yn cael ei wahanu oddi wrth y palas gan bantle dwfn, tua phum cant o latheni o hyd, yr hwn a orchuddir â glaswellt garw, ac a groesir yma a thraw gan resi o adfeilion isel. Gelwir y crug deheuol hwn *Jumjuma*, oddi wrth bentref cyfagos; ac weithiau, *Amram Hu Ali*, oddi wrth feddrod bychan sydd ar ei gopa. Dywed y Dr. Layard, nad oes dim maen-saernïaeth wedi ei gael yn y pentwr hwn, fel yn y Kasr; ac os oes yno adeiladau o gwbl, eu bod wedi eu claddu yn ddyfnach nag y maent hyd yn hyn wedi cloddio. Croesir ef gan grigyllau heb rif, ac y mae ei ffurf a'i arwyneb mor annhrefnus ac anwastad y naill a'r llall. Ymddengys fod hwn, fel yn agos yr holl grugiau ereill yn Babilonia, wedi bod yn cael ei ddefnyddio yn lle claddu yn hir wedi i'r adeiladau y mae yn eu cuddio gael eu dinystrio. Cloddiwyd allan rai darnau o wydr, amryw gerfladau o'r defnydd a elwir terra-cotta, lampau, a chostrelau, y rhai a berthynent i'r cyfnod Seluciaidd, neu yr amser yr oedd Babilon dan lywodraeth y Groegiaid. Cafwyd hyd i bump o gwpanau pridd, o'r tu mewn i ba rai yr oedd ysgrifen yn Hebraeg a Chaldaeg, wedi eu hysgrifenu âg inc mewn llythyrenau hen iawn. Deonglwyd yr ysgrifen hon gan Mr. T. Ellis, o'r British Museum. Ymddengys nad oeddynt amgen swyngyfareddion i fwrw allan ysbrydion drwg, ac iachau clefydau; ac nid oes un ammheuaeth nad ysgrifenwyd hwy gan Iuddewon ychydig cyn, neu ychydig wedi, genedigaeth Crist. Meddylia Mr. Ellis y bwriedid golchi ymaith yr ysgrif â'r dwfr yn y cwpan, ac yna ei yfed er mwyn diogelwch rhag rheibiaeth a dewiniaeth. Gan eu bod wedi eu cael mewn dyfnder mawr, ac mewn crugiau, y rhai oeddynt tu hwnt i bob ammheuaeth wedi cael eu defnyddio yn lleoedd claddu, tuedda Dr. Layard i feddwl mai swynion oeddynt, a gladdesid gyda'r meirw; neu eu bod yn cael eu defnyddio mewn rhyw ddull ac i ryw ddyben ar y claddedigaeth, ac yna eu gadael yn y beddau.


Milltir i'r gogledd o'r Kasr, pum milltir o Hillah, a thua naw cant a hanner o latheni oddi wrth lan ddwyreiniol yr afon, y saif adfail a elwir Mujelibe, yr hyn o'i gyfieithu yw *dymchweledig*. Barna Dr. Layard mai dyma weddillion tŵr Babel: y mae ei ffurf yn hirgul, a mesuriad ei ochrau yn gystal a'i uchder yn anghyfartal. Mesura ei ochr ogleddol 200, ei ochr ddeheuol 219, ei ochr ddwyreiniol 182, a'i ochr orllewinol 186 o latheni o hyd. Yn y gongl ddeheu-ddwyreiniol, lle y mae gulaf, y mae yn 141 o droedfeddi. Ei wyneb gorllewinol yw y mwyaf dyddorol, er mai hwn yw yr iselaf, o blegid yr arwyddion o adeiladau y mae yn eu dangos. Yn agos i'r gopa, ar yr ochr yma, ymddengys mur isel, bylchog, wedi ei adeiladu â phriddfeini crasedig drwy wres yr haul, yn gymmwysedig â gwellt neu gyrs drylliedig, y rhai a gydlydir â mortar clai, o dewder anghyffredin; rhwng pob dwy haen o briddfeini y mae haen o gyrs, ac y mae olion adeiladaeth debyg ar yr ochr ogleddol. Coronir yr ongl ddeheu-orllewinol â rhywbeth tebyg i dŵr bychan, neu oleuddal. Y mae yr onglau ereill mewn gwedd lai perffaith, ond dichon eu bod hwythau unwaith yn meddu yr unrhyw addurn. Wrth gloddio i mewn i'r pentwr yma yr ydys wedi cael hyd i lestri pridd, a chyflawnder o briddfeini llosgedig a heb eu llosgi. Ymddengys fod y priddfeini llosgedig wedi eu defnyddio i wynebu y muriau, tra y mae corff yr adeilad yn gyfansoddedig o rai heb eu llosgi. Cloddiodd Mr. Rich yma nes dyfod o hyd i dramwyfa (*passage*) yn ddeg troedfedd o uchder, ac yn wastad ar ei nen; ei hochrau yn dangos priddfeini llosgedig a heb eu llosgi: y cyntaf âg ysgrifen arnynt, a'r olaf wedi eu gosod bob yn ail haen â chyrs, oddi eithr haen neu ddwy yn agos i'r gwaelod, y rhai sydd wedi eu cydlydu â *bitumen*. Ymestyn y fynedfa yma tua'r dwyrain, ond yn y diwedd fe'i cauir i fyny gan yr adfeilion syrthiedig. Yma cafodd Mr. Rich arch o goed yn cynnwys corff dynol mewn cadwraeth rhagorol. O dan ben yr arch yr oedd carreg gron, ac yn gyssylltiedig â hi o'r tu faes yr oedd llun aderyn o bres, ac o'r tu mewn yr oedd addurn o'r un defnydd, yr hwn, y mae yn bur debygol, a fuasai unwaith yn gyssylltiedig â rhan o'r corff. Ychydig yn mhellach yn mlaen cafwyd corff plentyn; a barna Mr. Rich fod yr holl fynedfa wedi ei defnyddio yn lle claddu. Yn wir y mae lle i dybio nad oedd y Mujelibe ond pyramid mawr i'r werin.

Dilynodd Dr. Layard ol Mr. Rich, a gyrodd ei ymchwiliadau yn mhellach yn y blaen nag efe. Tu hwnt i'r ystafell dan-ddaiarol, yn mha un y cawsai Mr. Rich yr arch, cafwyd mynedfa i ystafelloedd ereill, y rhai nis darganfyddesid o'r blaen. Yr oedd y rhai hyn yn gauedig â phriddfeini mawrion llosgedig, yn mysg pa rai yr oedd ychydig o lechau pedeirongl, ar ymyl pa rai yr oedd dwy linell wedi eu hysgrifenu mewn llythyren fel yn dar. 101, yn cynnwys enwau a theitlau Nebuchodonosor. Ymddengys eu bod yn perthyn i adeilad a gyfodasid ganddo ef, a'u bod wedi eu dwyn yma i guddio y beddau â hwynt. Cafwyd amryw eirch yr un fath a'r un a gaed gan Mr. Rich, â chyrff ynddynt, ac yr oedd rhai mewn gwell cadwraeth na'u gilydd, ond y cwbl a aent yn ulw mor fuan ag y dygid i'r awyr agored. Yr oedd arogl anhyfryd yn cyfodi oddi ar y gweddillion hyn, yn gystal ag o'r ystafelloedd, pa rai oeddynt wedi myned yn ffauau i fwystfilod gwylltion, y rhai oeddynt wedi gweithio eu ffordd iddynt oddi fry. Barna y Dr. Layard fod yr eirch hyn yn ddiweddarach na thymmor y Seleuciaid. "Y mae yn amlwg," medd efe, "iddynt gael eu claddu ar ol i'r adeiladaeth sydd yn cael ei chuddio gan y crug gael ei distrywio." Cafwyd amryw fân bethau, megys costrelau gwydr, blaenau saethau o bres a haiarn, &c., yn debyg i'r pethau a gaed yn yr adfeilion ereill. Caed yma golofnau cedyrn, rhai o honynt yn geuol, ac arwyddion fod yno ranau uwch wedi bod unwaith ar eu penau, yn debyg i'r dysgrifiad a roddasom o'r gerddi crogedig. Dywed Benjamin, o Tudela, yr hwn a ymwelodd â Babilon yn y ddeuddegfed ganrif, fod traddodiad yn mysg yr Iuddewon yn ei amser ef, mai hwn (yn hytrach na'r Kasr, yr hwn sydd yn gyffredin

Digitized by Google

yn cael yr anrhydedd hwnw yn awr) ydoedd palas Nebuchodonosor; a ger llaw iddo, dangosid y fan lle y safai y ffwrnais i ba un y bwriwyd y tri llanc. Gan nad pa beth a fuasai yma cyn dyddiau Nebuchodonosor, a pha faint bynag a wnaed yma wedi i'r gorchfygwr anghymharol hwnw syrthio i fro dystawrwydd, y mae y ffaith fod enw Nebuchodonosor yn argraffedig ar y priddfeini sydd yn cyfansoddi rhanau mwyaf cedyrn a rheolaidd y pentwr, yn brawf diammheuol fod corff yr adeilad wedi ei gyfodi yn ei amser ef. Ond pa beth ydoedd? ai palas? ai tŵr? ai teml? sydd gwestiwn nad oes digon o oleuni ar gael yn awr i'w ateb yn foddhaol. Awgrymir yn yr Ysgrythyrau, a dywedir wrthym gan hen haneswyr, fod adeiladau anferthol yn Babilon gynt—fod yno balasau, a thyrau, a themlau; cuddir y rhai hyny yn awr gan y crugiau mawrion ac anghyfannedd y soniwn am danynt. Ond nis gellir penderfynu o dan ba grug y mae teml Belus, nac o dan ba un y mae y palas a'r gerddi crogedig. Dichon fod yn aros yn nghrombiliau y crugiau broflon penderfynol o'r hyn a fuont unwaith; ac efallai, fel y bydd ymchwiliadau a darganfyddiadau newyddion yn myned yn mlaen, a dynion yn dyfod yn fwy cyfarwydd â'r ysgrifau ar y llechau a'r priddfeini a gloddir o berfeddion y pentyrau anghyfanneddol, y deuir yn y diwedd yn abl i alw pob pentwr wrth ei enw priodol ei hun.[1]

Ar ochr orllewinol yr afon, a thua chwe milltir i'r de-orllewin o Hillah, y saif y pentwr a eilw yr Arabiaid, Birs Nimrood, neu Palas Nimrod, [dar. 98]; ond gelwir ef gan yr Iuddewon, "Carchar Nebuchodonosor." Y mae hwn yn un o'r ymgeiswyr mwyaf poblogaidd am yr anrhydedd o gael ei ystyried yn adfeilion tŵr Babel. Ond myn rhai nad ydyw namyn adfeilion yr hen ddinas enwog Borsippa, lle y cynnelid gwyliau crefyddol y Caldeaid—fel Ierusalem i'r Iuddewon, a Mecca i'r Mahometiaid. Gan nad oes un synwyr yn awr i'r gair *Birs*, yn yr iaith Arabaeg, penderfyna rhai nad yw ond llygriad o lythyrenau cyntaf yr enw *Borsippa*.—[*Rich's Babylon and Persepolis*; td. 73.] Yn ol y Major Rawlinson, esboniwr enwog yr hen ysgrifau, ceir enw Borsippa ar golofn a gaed yn Nimrood, yr hon oedd mewn bod, tu hwnt i bob dadl, ddau cant a hanner o flyneddoedd cyn dyddiau Nebuchodonosor. Y mae y pentwr hwn yn 198 o droedfeddi o uchder; ac ar ei ben, y mae adeilad o waith priddfaen, 37 troedfedd o uchder, a 28 troedfedd o led: fel hyn, ei uchder o'r gwaelod i'r copa eithaf, yw 235 o droedfeddi. Nid ydys wedi gallu penderfynu eto pa beth ydoedd ffurf ddechreuol, na dyben yr adeilad hwn. Nid ydoedd, yn ol pob tebyg, nac yn balas nac yn deml, ac nid yw chwaith yn debyg i dŵr. Y mae twnelau bychain, pedair ongl, trwyddo, fel pe buasent wedi eu gwneuthur i ollwng awyr, ond nid ydys eto wedi cael hyd i



Dar. 106. Y lle y safai Babilon.

ystafelloedd. Y mae golwg wydrog a grisialaidd y priddfeini, y rhai sydd wedi rhyw ymdoddi i'w gilydd nes y maent yn debyg i ddarnau o greigiau, yn rhoddi rhywfaint o le i gasglu eu bod wedi cael eu dryllio gan fellt; ac y mae fod yr holl bentwr o'r pen i'r gwaelod wedi ei rwygo yn y modd yma, wedi peri i deithwyr Cristionogol boreuol, yn gystal a rhai diweddar, benderfynu mai Tŵr Babel yn ddiau yw hwn; yr hwn, yn ol hen draddodiad, ar ol cymmysgiad yr ieithoedd, a gwasgariad ei adeiladwyr, a chwalwyd yn chwilfriw gan fellt a tharanau. Y mae yr holl briddfeini ysgrifenedig, pa fodd bynag, a geir yr adeilad yma, yn dwyn enw Nebuchodonosor arnynt—y mae hyny yn profi o leiaf ei fod ef wedi gosod ei law ar y Birs Nimrood: os nad efe oedd ei adeiladydd gwreiddiol, gwnaeth rai chwanegiadau ato, neu gyfnewidiadau ynddo.

Tuedda rhai i farnu, fel yr awgrymwyd eisoes, nad oedd y Birs Nimrood yn perthyn i Babilon o gwbl; ond y mae yn anhawdd cyssoni y farn hon â'r hanesion a gawn am ei maintioli anferthol.

[1] Wedi i'r sylwadau uchod gael eu hanfon i'r wasg, y maent i fesur wedi eu gwireddu drwy ddarganfyddiad o bwys a wnaed gan y Milwriad Rawlinson. Cafodd hyd i "rol goffadwriaethol," yn orchuddiedig gan gerfiadau. Yn y dechreuad rhydd enwau a theitlau Nebuchodonosor, a rhydd grynodeb o'r adeiladau a gyfodasid neu a adgyweiriasid ganddo ef. Wrth yr ysgrifen ar y rhol hon ymddengys mai adeilad a gyfodasid i ddybenion seryddol gan un o ragflaenwyr Nebuchodonosor ydoedd y Birs Nimrood, ond ei fod wedi ei adgyweirio a'i helaethu ganddo ef.

Safai yr hen ddinas o ddau tu yr afon—y mae hyny yn ddigon amlwg; ac os dychymygir darn petryal o dir yn cynnwys yr holl fân grugiau gwasgaredig, o Mohanille hyd is law Hillah ar y naill lan i'r afon, a'i ongl dde-orllewinol yn cyrhaedd Birs Nimrood y tu arall i'r afon, bydd hyny yn cyfateb yn agos iawn i'r maintioli ag y mae haneswyr boreuol yn ei roddi i Babilon Fawr. Ar yr un pryd, rhaid dywedyd nad oes olion muriau wedi eu cael y tu allan i'r cylch hwn; ond nid yw hyny yn beth dyeithr, o blegid dywed Herodotus, i Darius lwyr dynu i lawr y muriau, a'u "cymmeryd hwy oll ymaith." Y mae yn ddigon tebyg nad oeddynt ond muriau pridd, cymmysgedig â brysgwydd; a phe na buasai neb yn eu haflonyddu, ond iddynt gael eu hesgeuluso am ychydig ganrifoedd, buasent yn malurio yn llwch, yn syrthio i'r ffos ddofn wrth eu troed, ac felly, buasai pob olion o honynt hwy ac o'r ffos hefyd yn cyd-ddiflanu.

Y cyfryw yn awr yw agwedd yr hon a fu unwaith yn arglwyddes teyrnasoedd y dwyrain! Ffynnonell aflonyddwch, terfysg, rhyfel, a darostyngiad i'r gwledydd o amgylch—y mae hi yn awr yn dystaw orphwys yn y pentyrau! Dryllir ei hymysgaroedd gan blant "y rhai nid oeddynt bobl" yn amser ei hargiwyddiaeth hi, a dynoethir yr ychydig arwyddion o'i mawredd cyntefig sydd wedi eu gadael gan ysglyfwyr oesoedd a difrodau amser.

Yn *pachalic* Dyrciaidd Bagdad, yn plygu ei phen i deyrnwialen y Sultan, y mae "y forwyn merch Babilon yn eistedd yn ddystaw"—peidiodd y gorthrymwr, peidiodd y dref aur, yr Arglwydd a ddrylliodd ffon yr anwiriaid, a theyrnwialen y llywiawdwyr.—(*Lawson's Bib. Cyclo.; Dict. of Greek and Roman Geography; Calmet's Bib Dic.; Kitto's Bib. Cyc.; English Cyc.; Layard's Nineveh and Babylon; Rich's First and Second Memoirs on the Ruins of Babylon,* 1815 *and* 1818.)

**BABILONIA**: enw y wlad i ba un yr oedd Babilon yn brif ddinas. Y mae yn debyg ei fod yn perthyn ar y cyntaf i'r ardal, yn nghymmydogaeth uniongyrchol Babilon; ond cynnwysai mewn amseroedd diweddarach yn agos holl Mesopotamia. Cafodd y wlad ei henw oddi wrth y ddinas, fel ag y cafodd y ddinas ei henw oddi wrth enw y twr yr amcanwyd ei adeiladu yn rhywle ar y gwastadedd lle y safai hi. Y mae hen haneswyr Groegaidd a Rhufeinig yn cymmysgu Babilonia, Assyria, a Mesopotamia, â'u gilydd—galwant yr un wlad wrth bob un o'r enwau yma. Cynnwysai ymherodraeth Assyria wlad Mesopotamia; a phan syrthiodd hi o flaen Babilon, cynnwysai yr ymherodraeth olaf y cwbl: o blegid hyny, efallai, y galwent hwy Babilonia ar y cwbl, neu y rhan fwyaf o ymherodraeth Babilon. Ond cynnwysir y wlad a ddynodir yn briodol wrth yr enw Babilonia o fewn cylch llawer cyfyngach na hyny.

Yn yr Hen Destament, gelwir hi "gwlad y Caldeaid," a "thir Sinar;" ac fe sonir am "Amrathael, brenin Sinar," mor fore a dyddiau Abraham. Tybia rhai fod yr enw Sinar, neu lygriad o hono, yn awr mewn bodolaeth yn enw Sinjar—dosbarth mynyddig yn ngogledd Mesopotamia, a breswylir yn awr gan lwyth o bobl a elwir Yezedes—mai hwn, mewn gwirionedd, oedd y "tir Sinar" gwreiddiol, ond i'r enw ymeangu, nes cymmeryd i mewn y gwastadedd helaeth tua'r deheu. Yn ol Strabo, a Ptolemy, terfynid Babilonia tua'r gogledd gan y mur Mediaidd a ymestynai o'r afon Tigris, y tu gogleddol i Sitace, hyd yr Euphrates, ac a'i gwahanai oddi wrth Mesopotamia; tua'r dwyrain, gan y Tigris; tua'r deheu, gan y llynclyn Persiaidd; a thua'r gorllewin, gan Arabia Deserta. Estynai felly o 29° i 35° o ledred gogleddol.

Mewn hanesiaeth, gelwir trigolion y wlad yma weithiau yn Babiloniaid, ac weithiau Caldeaid. Ond ystyria rhai y Caldeaid yn genedl hollol wahanol oddi wrth y Babiloniaid. Dywedir i'r cyntaf ymarllwys i waered i'r gwastadedd o'r mynyddoedd Carduchiaidd, rhwng Armenia ac Adrabene, gorchfygu y Babiloniaid, a chymmeryd y feistrolaeth i'w dwylaw eu hunain. Ond y mae ereill yn gwadu y goresgyniad hwn, ac yn honi nad oedd yr enw *Caldeaid* ond dynodiad o ddosbarth, neu *caste*, yn mysg y boblogaeth frodorol—y perthynai ar y cyntaf i'r offeiriaid, y doethion, y dewiniaid, a'r astronomyddion; ond iddo, o radd i radd, o herwydd enwogrwydd y wlad am y dosbarthiadau uchod, gael ei gymhwyso at holl gorff y bobl. Y mae yn amlwg, pa fodd bynag, fod rhanau deheuol y wlad weithiau yn cael eu dynodi wrth yr enw Caldea.

Safai Babilonia briodol rhwng y ddwy afon enwog, yr Euphrates a'r Tigris: terfynai y gyntaf hi tua'r gorllewn, a'r olaf, tua'r dwyrain. Cyfyd y ddwy afon hyn yn Armenia; ac ar ol llifo ffordd faith o'r gogledd tua'r deheu, ymarllwysant i'r llynclyn Persiaidd. Ond gan fod y gwastadedd eang rhwng y ddwy afon yma yn disgyn yn ddirfawr tua'r dwyrain, yr oedd gwely yr Euphrates yn sefyll yn llawer uwch nag eiddo y Tigris. Yr oedd glanau gwastad yr Euphrates yn cael eu gorlifo fyth gan bob chwanegiad a ddygwyddai at ei dyfroedd hi. Y mae glanau y Tigris yn uchel ac yn serth; ac anfynych iawn y mae yn llifo drostynt, er ei bod yn rhedeg yn llawer mwy chwyrn na'r Euphrates. Ni buasai gwastadedd yr olaf ond corsleoedd anial, oni buasai fod cloddiau uchel a chedyrn wedi eu cyfodi ar ei glenydd, a chamlesydd mawrion wedi eu cloddio ar hyd a lled y gwastad-diroedd. Gwasanaethai y camlesydd hyn amryw ddybenion:—Yn amser y llifogydd blyneddol, derbynient ddyfroedd yr afon, fel na orlifent y wlad; dyfrhäent y tir yn amser sychder; a defnyddid hwy i ddybenion trafnidiol, trwy gludo nwyddau ar hyd-ddynt o'r naill fan i'r llall. Gosodid sugnbeiriannau i fyny ar eu glenydd, i dynu dwfr o honynt i ddyfrhau y ddaiar. Yr oedd holl Babilonia yn llawn o gamlesydd—rhai yn fawrion, a rhai yn fychain: croesent y naill y llall yn mhob rhan o'r wlad, a llifai llawer o honynt o'r naill afon i'r llall. Dechreuent yn uwch i fyny na'r hyn a elwir yn briodol, Babilonia. Yr oedd pedair o'r rhai mwyaf yn arwain o'r Euphrates i'r Tigris, y tu gogleddol i'r mur Mediaidd, yr hwn a enwasom eisoes fel terfyn Babilonia tua'r gogledd. Yr oedd tua dwy filltir a hanner rhwng pob un o'r rhai hyn a'r un nesaf ati, ac yr oeddynt mor llydan a dwfn, fel yr oeddynt yn fordwyol i longau o gryn faint. Yr oedd y camlesydd yma yn ysbeilio yr Euphrates o yn agos ei holl ddyfroedd, cyn y cyrhaeddai y môr: yn lle cynnyddu, fel yr oedd yn myned yn y blaen, lleihau yn ddirfawr yr ydoedd; yn lle bod afonydd naturiol yn ymarllwys iddi, fel y gwnant i afonydd mawrion yn gyffredin, llifai peth afrifed o rai celfyddydol o honi; ac yr oedd amryw o'i llyriau (*channels*) yn myned ar goll yn y tywod, a'i gwddf mor fas fel yr oedd yn gwbl anfordwyol. Y mae yn awr yn colli ei hun yn

Digitized by Google

y Tigris, ryw drigain milltir cyn cyrhaedd y môr, mewn lle o'r enw Corna; ond yn yr hen amseroedd, yr oedd ganddi ei cheg briodol ei hun.

Yr oedd daiar Babilonia yn dra chynnyrchiol. Gan fod y camlesydd yn ei chadw rhag ireidddra gormodol ar y naill law, a sychder gormodol ar y llaw arall, cynnyrchai y fath gnydau toreithiog fel yr ofnai hen awdwyr eu desgrifio, rhag y buasent yn cael eu drwgdybio o arfer gormodiaith. Y mae Herodotus yn ei chymharu mewn ffrwythlonder i wlad yr Aipht; a dywed ei bod, yn ei chynnyrch o ŷd, yn gyfartal i un ran o dair o'r holl ymherodraeth Bersiaidd; ac y byddai y cynnyrch yn fynych yn ddau cant, a rhai prydiau, hyd yn oed yn dri chant o weithiau, gymmaint a'r had. Gan ei bod yn wlad isel, wastad, a dyfradwy, meddai gyflawnder o helyg. Tyfai yno hefyd lawer o balmwydd, o daldra mawr, y rhai a gynnyrchent win a mel. Mewn coed ffrwythlawn ereill, yr oedd yn gwbl ddiffygiol—ni cheid yn yr holl wastadedd na ffigyswydd, nac olewydd, na gwinwydd; ac am goed gwaith, nid oedd yno ddim i'w cael, yr hyn nis gallai lai na bod yn anghyfleusdra mawr i'r trigolion gyda golwg ar eu hadeiladau a'u morwriaeth. Yr oedd hefyd mor ddiffygiol o geryg ag ydoedd o goed; ond gwnai i fyny y diffyg hwnw â phriddfeini, i wneuthur pa rai yr oedd yno gyflawnder o'r clai rhagoraf, a chaent fortar parod yn y llosglws (*bitumen*), o ba un yr oedd digonedd yn yr afonydd Is, a'r Tigris; a dygid meini melinau i waered gyda'r Euphrates, o le a elwid Corsote, yr hwn oedd y tu gogleddol i'r mur Mediaidd.

Yr oedd sefyllfa y wlad yn dra manteisiol i fasnach:—gan orwedd rhwng yr Indus a Môr y Canoldir, yr oedd yn farchnadfa gyfleus, yn mha un y cai trigolion y gorllewin hyd i nwyddau gwerthfawr y dwyrain. Mantais arall oedd, ei hagosrwydd i'r llynclyn Persiaidd—prif-ffordd masnach y dyddiau hyny, yr hwn a ymddangosai fel pe byddai wedi ei wneyd er mwyn i genedloedd mordwyol India gael ffordd rydd i berfeddion Asia; tra yr oedd y ddwy afon fawr a lifent drwyddi yn agor ffordd o gyfathrach â thrigolion glanau y Môr Du, a'r Caspian. O herwydd y manteision hyn, bu yn ganolbwynt i farsiandwyr holl wledydd gwareiddiedig y byd, hyd nes y darfu i Ewropiaid gael ffordd i India ar hyd y môr—pryd hyny, dechreuodd ddiflanu, a diflanu yn gyflym a wnaeth. Pan gollodd ei masnach, syrthiodd yn ysglyfaeth i ormes ac aflywodraeth, gwywodd ei dinasoedd, tagwyd i fyny ei chamlesydd, ac aeth y wlad, a fuasai unwaith yn baradwys, yn wlad corsydd ac anialdir anghyfanneddol.

Cludai trigolion Armenia, yr hon a orweddai i'r gogledd o Babilonia, eu nwyddau ar hyd yr Euphrates i waered i'r wlad olaf, mewn badau a wnaed yn y dull a ganlyn:—Plygent bolion o helyg, a chuddient hwy â chrwyn: gosodid y wyneb noeth i'r crwyn allan, a gwnaent hwy mor dyn, fel yr ymddangosent yn debyg i fyrddau. Gosodid cyflawnder o wellt yn y gwaelod, a rhwyfid hwy i waered ar hyd yr afon gan ddau ddyn. Yr oedd rhai o'r badau hyn yn ddigon mawr i gludo llwyth o bum cant o dalentau—tua 62,500 pwys, neu 28 o dynelli—tra yr oedd ereill gryn lawer yn llai. Ond cludid asyn bob amser yn y lleiaf, heb law y nwyfau a ddygid i'w gwerthu; a dygid amryw o'r creaduriaid hyny yn y rhai mwyaf. Ar ol cyrhaedd Babilon, a dadlwytho yno, gan nas gallent na hwylio na rhwyfo eu badau yn ol yn erbyn y llif, gwerthent yr helyg a'r gwellt i'r Babiloniaid, a dygent y crwyn adref ar gefnau yr asynod.

Y mae yn debyg fod llongau y Babiloniaid eu hunain yn helaethach o ran maint a chadarnach o ran gwneuthuriad. Pa fodd bynag, sonia yr Ysgrythyr am y Caldeaid fel rhai â'u "bloedd mewn llongau;" a dywed Æschylus, fod Babilon yn anfon allan "dyrfa gymmysglyd, y rhai a forient mewn llongau.

Ymestynai trafnidiaeth y Babiloniaid ar hyd y môr, y tu draw i'r llynclyn Persiaidd; ac ar hyd y tir, dros Persia, i Bucharey Leiaf, ac efallai, mor bell a China.

Addurnai y pendefigion Persiaidd a Mediaidd eu penau a'u preswylfeydd â chynnyrchion gwerthfawr a thlws llafur a chywreinrwydd y Babiloniaid. Mewn gwybodaeth a gwareiddiad, yn ystyr gyffredinol y gair, yr oeddynt yn ddiau yn mhell iawn ar ol sefyllfa bresennol y rhan orllewinol o'r byd; ond mewn gwneuthuriad heirdd wisgoedd ac addurniadau, mewn lliwio defnyddiau, a cherfio lluniau o bob math ar feini gwerthfawr a seliau, yr oeddynt wedi cyrhaedd y fath berffeithrwydd, fel mai prin y gellir dywedyd fod crefftwyr un wlad, hyd yn hyn, wedi myned heibio iddynt.

Eilunaddoliaeth o'r fath ffieiddiaf oedd eu crefydd. Crybwyllir yn fynych am danynt fel addolwyr i Baal. Safai teml ardderchog i Belus yn eu dinas fawr, a bernir mai yr un oedd eu Baal, neu Belus hwy, a Moloch yr Ammoniaid, a Chronus y Groegiaid, a Sadwrn y Lladiniaid. Addolid yr haul hefyd, o dan yr enw hwn; ac yr oedd y Babiloniaid yn addoli llu y nefoedd. Golygent fod y cyrff nefol yn llywodraethu amgylchiadau y ddaiar, fod dylanwad gan y planedau ar dynged plant dynion: o ganlyniad, cawn astronomyddion yn ddosbarth mwyaf pwysig yn eu plith, a serddewiniaeth yn gwneyd i fyny eu prif efrydiaeth. Yn eu gwyliau crefyddol, ymollyngent i'r arferion mwyaf ffiaidd—gwnaent ddefodau crefyddol o gyflawniadau a eilw crefydd bur yn bechodau ysgeler; ymroddent i feddwdod, glythineb, ac anlladrwydd; a rhoddent y ffrwyn i dueddiadau mwyaf llygredig y natur ddynol.

Yn mysg eu harferion cymdeithasol, dywed Herodotus eu bod, fel yr Assyriaid, yn gwneyd arwerthfa gyhoeddus o'u merched, pan ddelent i oedran cyfaddas i briodi. Ymgynnullai nifer o honynt i fan bennodol, ar amser gosodedig, a chyfarfyddid â hwy yno gan nifer o ŵyr ieuainc a fyddent yn edrych allan am wragedd. Dechreuai yr arwerthwr cyhoeddus gyda'r rhai glanaf a mwyaf prydweddol, y rhai, un ar ol y llall, a syrthient i ran y rhai a fyddent yn foddlawn a galluog i roddi mwyaf o arian am danynt; a rhoddid rhyw gymmaint o arian gyda'r rhai mwyaf hagr, i'r sawl a fyddent yn foddlawn i'w cymmeryd.

Crybwylla yr un hanesydd arferiad arall, tra rhyfedd, a ffynai yn eu mysg. Nid oedd ganddynt feddygon; ond dygent eu cleifion i fan cyhoeddus, fel y gallai pawb a elent heibio eu gweled, a rhoddi iddynt help eu gwybodaeth a'u profiad eu hunain. Odid y byddai neb yn dyoddef dan un anhwyldeb, nad oedd rhywun a ddelai y ffordd hono, naill ai wedi bod ei hunan, neu wedi gweled ereill felly; ac o ganlyniad, byddai ganddo fantais i gyfeirio y claf at y moddion mwyaf tebyg i sicrhau ei wellhâd.

Yr oedd eu llywodraeth yn etifeddol—disgynai o dad i fab—ac yn gwbl unbenol (*despotic*). Am Nebuchodonosor y dywedir—"Y neb a fynai a

Digitized by Google

laddai, a'r neb a fynai a gadwai yn fyw." Ac ar yr egwyddor hono y llywodraethai eu holl freninoedd—ewyllys y brenin oedd cyfraith y wlad. Yr oedd swyddogion dano i gario allan ei ewyllys yn ngwahanol daleithiau ei freniniaeth, yn gystal ag i edrych ar ol casgliad ei drethi. Safai cunuchiad yn uchel, a dalient swyddau pwysig yn y llywodraeth. Yr oedd ganddynt hefyd offeiriadaeth—y doethion, a'r Caldeaid; gwaith penaf pa rai, y mae yn debygol, oedd gwneyd y brenin, trwy eu gwybodaeth o symmudiadau y ser, yn gyfarwydd â dirgelion yr amseroedd dyfodol.

Y cyfryw ydoedd Babilonia, unwaith y wlad fwyaf ffrwythlawn ar wyneb y ddaiar, a marchnadfa fawr Asia Orllewinol. Y cyfryw oedd rhai o arferion ei hen drigolion hi. Bellach, y mae wedi syrthio i'r iselderau, yn sathrfa i fwystfilod gwylltion, ac i heidiau crwydraidd o ddynion, y rhai nid ydynt fawr well—sef yr Arabiaid Bedouinaidd. "Yn y manau lle y bu llafurwyr, o dan gysgod palmwydd can troedfedd o uchder, yn tynu dwfr o'u camlesydd afrifed i ffrwythloni eu tir, nis gall y teithiwr weled yn awr ond manwydd gwael a hanner crinion; prin y gall osod ei droed i lawr heb boen, ar ol gwres canol dydd, ar y crindir cras, fel y mae yn prysuro ei ffordd drwy y wlad sych ac anial; lle yr oedd ffyrdd yn llawn o deithwyr, yn arwain o ddinas i ddinas, y mae y cwbl yn unigedd a dystawrwydd; o blegid y mae hen ddinasoedd Caldea wedi myned yn anghyfannedd-dra."

BACA, [בכא], a BECAIM, [בכאים]. Y mae y gair cyntaf i'w weled yn *Salm* lxxxiv. 6; "Y rhai yn myned drwy ddyffryn Baca, a'i gwnant yn ffynnon; a'r gwlaw a leinw y llynau." Y mae yr ail yn 2 *Sam.* v. 23, 24; ac yn 1 *Cron.* xiv. 14, 15; "A phan glywech drwst cerddediad yn *mrig y morwydd,* yna dos allan i ryfel."

Nid yw y *morwydd* na'r *pren gellaig,* a ystyrir fel baca yr Ysgrythyr, yn boddloni cyfieithwyr ac esbonwyr; o blegid nad ydynt yn cyfateb i'r darluniad a roddir o'r pren yn yr adnodau crybwylledig. Gyda golwg ar y morwydd (*mulberry*), sylwa Rosenmüller, nad yw y cyfieithiad hwn yn cael ei gefnogi gan yr hen gyfieithwyr, na chan enw cyffelyb yn yr ieithoedd perthynasol. Dysgwyliasem, pa fodd bynag, ryw grybwylliad yn yr Ysgrythyr am bren a fuasai yn gyffredin ac yn enwog am ei ffrwyth. Dewisa Rosenmüller *pren gellaig* yn yr adnodau blaenorol, fel ystyr henaf y geiriau. Ond nid yw cywirdeb y cyfieithiad hwn yn cael ei gadarnhau gan un o'r ieithoedd perthynasol; ac nid yw y pren gellaig yn fwy priodol na'r morwydd.

Rhaid i'r pren y cyfeirir ato yn yr Ysgrythyr, pa un bynag yw, fod yn gyffredin yn Palestina; a rhaid iddo hefyd dyfu yn nghymmydogaeth dwfr, fod â'i ddail yn ysgwyd yn rhwydd, ac iddo enw cyffelyb i'r baca Hebreaidd mewn rhai o'r ieithoedd perthynasol. Yr unig un y gwyddom ni am dano sydd yn ateb i hyn yw yr un a elwir *bak* gan yr Arabiaid, neu yn hytrach *shajrat-al-bak;* hyny yw, *pren y gwybedyn.* Ymddengys ei fod yn cael ei alw felly oddi wrth ei hadau, y rhai a ehedant o amgylch fel gwybed ar ol eu rhyddhau oddi wrth y pren, o blegid eu bod wedi eu gwisgo â blew gwynion sidanaidd, megys hadau yr helygen. Yn *Ngeiriadur Arabaidd* Richardson, ystyrir mai y llwyfanen yw y pren *bak,* ond ymddengys i ni mai y poplar ydyw; o blegid ymddengys mai rhyw fath arall o'r pren bak ydyw *dirdar* yr Arabiaid, efallai mai *arbor culicum* cyfieithwyr Lladinaidd Avicenna ydyw.

Gan ei fod yn ymddangos i ni yn eithaf eglur mai math o boplar yw y pren *bak,* a chan fod y gair Arabaidd, *bak,* yn dra thebyg i'r gair Hebreig, *baca,* y mae yn debyg ei fod yn un o'r mathau o boplar a olygir yn yr adnodau crybwylledig. Rhaid nodi hefyd fod y poplar mor briodol ag y gall unrhyw bren fod tuag at egluro yr adnodau, yn mha rai y dygwydda y gair *baca;* o blegid y mae yn eithaf adnabyddus fod y poplar yn ymhyfrydu mewn lleoedd llaith; ac y mae yr esgob Horne, yn ei *Esboniad ar Salm* lxxxiv, yn casglu ddarfod i'r Israeliaid, yn nyffryn Baca, gael eu digoni â dwfr, pan ar eu ffordd i Ierusalem. Y mae yn dra phriodol hefyd, yn 2 *Sam.* v. 23, 24, a 1 *Cron.* xiv. 14, 15, gan nad oes un pren yn fwy hynod na'r poplar am y rhwyddineb gyda pha un yr ysgydwa ei ddail ar gynhyrfiad lleiaf yr awyr—yr hyn a ellid ei achosi, ar noswaith dawel, hyd yn oed gan ysgogiad torf o bobl, pan ymosodid arnynt yn annysgwyliadwy. Y mae Kitto, yn ei *Palestine,* td. 114, yn profi fod y poplar yn gyffredin yn Palestina: "Am y poplar, ni wyddom, i sicrwydd, ond fod y poplar du, yr aethnen (*aspen*), a phoplar Lombardy, yn tyfu yn Palestina. Yr aethnen, dail yr hon sydd yn ymysgwyd gyda'r awel dyneraf, sydd yn ymuno â'r helygen a'r dderwen i gysgodi ffrydiau Lebanon isaf, ac â'r oleander a draenen yr Aipht (*acacia*) i addurno aberoedd Palestina ddeheuol. Ni wyddom am neb wedi sylwi ar boplar Lombardy ond yr Arglwydd Lindsay, yr hwn a'i darlunia fel yn cyd-dyfu â'r pren cnau ffreinig a'r helygen o dan ffrydiau dyfnion Lebanon uchaf." —(*Kitto's Cycl.*)

BACA: enw dyffryn, yr hwn a grybwyllir yn unig yn *Salm* lxxxiv. 6; "Y rhai yn myned trwy ddyffryn Baca, a'i gwnant yn ffynnon; a'r gwlaw a leinw y llynau." Yr oedd yr esgob Horne yn barnu fod yr enw yn dynodi rhyw ddyffryn oedd ar y ffordd i Ierusalem: ond Taylor, yn ei chwanegiadau at *Eirlyfr Calmet,* a'i cyfleai yn mysg mynyddoedd Libanus, ar y tu gogleddol i Iudea. Ond gallai y gair ddynodi dyffryn y dagrau, neu y wylo, yr un ag a elwir Bochim mewn man arall: *Barn.* ii. 1; 2 *Sam.* v. 23. Nid yw yn ymddangos fod rhyw angenrheidrwydd neillduol i ni olygu y geiriau yn meddu cyfeiriad arbenig at unrhyw ddyffryn neillduol a elwid felly. Ond y mae y Salmydd, mewn rhyw sefyllfa ddcoledig o Ierusalem, yn cael ei ddarlunio yn llefaru am ragorfreintiau a dedwyddwch y rhai oeddynt yn cael myned ar y pererindodau arferol i'r ddinas hono i addoli Duw yn ei deml. Hwy a adwaenent y ffyrdd a arweinient yno; ac er eu bod yn arwain trwy fröydd tra diffaeth, nes gorfod wylo dagrau yn hidl, gan arwed a blined y daith, eto y fath yw eu gobaith a'u llawenydd calon, fel y mae hyn oll iddynt hwy megys gwlad ddyfradwy, tir wedi ei goroni â bendithion y cynnarwlaw. Mewn ychydig iawn o gyfieithiadau y golygid y gair yn enw priodol.

BACBACCAR, [בקבקר, *ofer, gwag*]: un o lwyth Lefi: 1 *Cron.* ix. 15.

BACBUC, [בקבוק, *costrel wag*]: un o benau cenedl y Nethiniaid: *Ezra* ii. 51.

BACBUCIAH, [בקבקיה]: un o'r porthorion oedd Bacbuciah, o lwyth Lefi, oedd yn cadw

Digitized by Google

gwyliadwriaeth wrth drothwyau pyrth y deml: *Neh.* xi. 17; xii. 9, 25.

**BACCHUS**, [Βάκχος, *meddwi*]: duw ieuanc, prydferth, ond masweddol, y gwin. Y mae ei enw hefyd yn arwyddo *bloeddgar, terfysgus,* ac *afradlawn.* Y mae rhai yn meddwl mai cyfenw oedd Bacchus, a roddwyd gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid i Dionysus; pan y barna ereill, mai cyfenw oedd Dionysus a roddwyd i Bacchus. Bydded hyn fel y byddo, y mae yr un gweithredoedd a phriodoliaethau yn cael eu cymhwyso i'r naill a'r llall; ac y mae yn hollol amlwg mai yr un person a olygir wrth y ddau enw. Mab oedd Bacchus (Dionysus) i Zeus (Iau), a Semele, merch Cadmus o Thebes. Cyn geni Bacchus, ymrithiodd Hera (Juno) i Semela, i'w darbwyllo i erfyn ar dad y duwiau (Iau) am ymddangos iddi hi yn yr un gogoniant ag yr ymddangosai pan yn dynesu at ei wraig ei hun, Hera. Cydsyniodd Iau yn anewyllysgar â'r cais, ac ymddangosodd iddi mewn mellt a tharanau. Cipiodd y fflamau afael yn ei pherson, ganwyd y plentyn yn anamserol iddi, a llosgwyd hi yn ulw, fel y cafodd Iau gryn fyd i achub y plentyn, yr hwn nid oedd wedi bod yn nghroth ei fam ond am saith mis yn unig; ac wedi ei gipio o'r oddaith, gwnïodd Iau ef i fyny yn ei forddwyd, ac yno y cadwyd ef, hyd oni ddaeth cyflawn amser ei enedigaeth i ben. Ar ol genedigaeth Bacchus, dygwyd ef i fyny gan dduwiesau mynydd Nysa, y rhai a obrwywyd gan Iau, trwy eu gosod fel Hyades yn mysg y ser. Pan y tyfodd i fyny, gyrwyd ef yn wallgof gan Hera; ac yn y cyflwr hwnw, crwydrodd drwy amryw barthau o'r ddaiar. Aeth yn gyntaf i'r Aipht, ac oddi yno aeth trwy Syria, a theithiodd holl Asia, gan ddysgu trigolion gwahanol wledydd Asia i amaethu y winwydden, a'u hyfforddi yn elfenau gwareiddiad. [Pe byddai hyn yn wir, yr oedd yn fendith i drigolion Asia ddarfod i'r duwdodyn hwn gael ei yru yn wallgof!] Y rhan benaf o'i grwydriadau yn Asia yw ei hynt i'r India, yr hyn a barhaodd, meddent hwy, dros amryw flynyddoedd. Ar ei ddychweliad i Ewrop, aeth trwy Thracia; ond derbyniad anghroesawus a gafodd gan Lycurgus, brenin yr Edoniaid. Yna, dychwelodd i Thebes, lle y gorfododd y gwragedd i adael eu tai, i gadw gwyliau Bacchusaidd ar fynydd Cithaeron; a chospodd Pentheus yn dost am gynnyg rhwystro ei addoliad. Yn nesaf, aeth Bacchus i Argos, lle y gwrthododd y bobl ar y cyntaf ei gydnabod; ond wedi cospi y gwragedd â gorphwylledd, efe a dderbyniwyd fel duw. Ei orchest olaf a gyflawnwyd ar fordaith o Icaria i Naxos. Llogodd long oedd yn perthyn i'r môr-ladron Tyrrheniaidd; ond y dynion, yn lle ei dirio yn Naxos, a hwyliasant tuag Asia, er mwyn ei werthu yno fel caethwas. Ar hyny, trodd y duw yr hwylbren a'r rhwyfau yn seirff, ac ymnewidiodd yntau yn llew; tyfodd eiddew o amgylch y llong, a chlywid sain chwibanoglau ar bob llaw; aeth y morwyr yn wallgof wyllt, a neidiasant i'r môr, a thrawsnewydiwyd hwynt yn y fan yn ddolffiniaid. Ar ol iddo fel hyn yn raddol sefydlu ei dduwdodaeth drwy yr holl fyd, efe a gymmerodd ei fam o Gylch yr Abred (*Hades*), ac a'i galwodd Thyone, ac efe a ymgododd gyda hi i Olympus.

Darlunir amryw fodau chwedlonol fel hiliogaeth Bacchus; ond yn mysg y gwragedd a ennillasant ei gariad, nid oes un enwocach nag Ariadne. Nid oedd addoliad Bacchus yn rhan o grefydd gyntefig Groeg; canys nid ymddengys yn Homer fel un o'r duwdodau marwion, ond yn unig fel duw a ddysgai ddynion i ddarparu gwin. Fel yr oedd amaethiad y winwydden yn ymledaenu yn Groeg, yr oedd addoliad Bacchus yn cynnyddu; ac ar ol cadgyrchiad Alexander i'r India, cynnyddodd mawrygiad gwyliau Bacchus fwyfwy, nes cyrhaeddyd eu heithafoedd gorwyllt ac aflywodraethus. Gellir ystyried Bacchus fel cynnrychiolydd gallu cynnyrchiol a brwysgol natur; a chan mai gwin yw arwyddlun y gallu hwn, fe'i gelwir "ffrwyth Bacchus." O blegid y cyssylltiad oedd rhwng amaethiad y ddaiar â graddau boreuaf gwareiddiad, yr oedd Bacchus yn cael ei ystyried yn ddeddfroddwr ac yn hoffwr heddwch. Gan mai o'r cyngherddi nwyfus yn ngwyliau Bacchus y tarddodd y chwareÿddiaeth Roegaidd, edrychid arno ef hefyd megys duw y gelfyddyd dreisganol (*tragic*), ac megys noddydd y chwareufäau. Dygwyd gwyliau Bacchus, y rhai a elwid yn gyffredin *Origies, Bachannalia*, neu *Dionysia*, i Groeg o'r Aipht gan Danaüs a'i ferched. Am y trythyllwch anfad a gynnyrchwyd drwy y gwyliau hyn, gwel Dionysia. Cymdeithion Bacchus, yn yr amseroedd boreuaf, oedd y Zeleidesau a'r Lladesau; ond yn ddiweddarach, canfyddir ef yn cael ei ddilyn yn ei hyntiau a'i deithiau gan wragedd Bachannalaidd, a elwid Leniaid, Maenadiaid, Thyiadiaid, Mimalloniaid, Clodoniaid, Bassaraeaid, neu Bassaridiaid, y rhai a gynnrychiolir mewn cerfluniau megys yn ymwylltio gan orphwylledd a phenboethder, â'u penau wedi eu taflu yn ol, a'u gwallt yn ddyryslyd, ac yn cario brwysgffyn (wedi eu cyrdeddu âg eiddew, a'u penau o bren pinwydd), symbalau, cleddyfau, neu seirff yn eu dwylaw. Hefyd, ceir fod Sileniaid, Paniaid, ellyllon, cantoriaid, a bodach cyffelyb, yn gymdeithion gwastadol i'r duw. Dywed rhai mai Bacchus oedd tad Hymen, yr hwn a wnaeth yr Atheniaid yn dduw priodas. Yn mysg yr anifeiliaid a aberthid i Bacchus, yr oedd y myharen, a'r afr—yr olaf, o blegid ei thuedd i ddifa y winwydden. Yr oedd yr Aiphtiaid yn aberthu moch iddo o flaen drysau eu tai. Yn mhlith y pethau cyssegredig iddo, yr oedd y ffawydden, yr ywen, y ffigyswydd, yr eiddew, a'r winwydden. Dywed Pliny, mai efe oedd y cyntaf i wisgo coron. Cymherir ei brydferthwch i Apollo, ac, fel yntau, yr oedd yn meddu gwallt telain, yn disgyn yn rhydd dros ei ysgwyddau; a dywedir ei fod yn dragwyddol ieuanc. Darlunir ef weithiau gyda chyrn, am iddo ddysgu trin y ddaiar gydag ychain, neu o blegid i'w dad Iau ymddangos iddo yn niffaethwch Libya, dan rith myharen, i dori ei syched ef a'i fyddin â dwfr. Darlunir ffurf ei gorff yn wrol, ond yn dynesu at ffurf fenywaidd, o ran lledneisrwydd a chrynder. Ymddengys gwedd ei wyneb yn dyner a boddhaus — yn debyg i ddyn wedi ei lyncu i fyny gan feddyliau hyfryd, neu dan radd o effaith meddwdod.—(*Smith; Wright & Chis.;* a'u hawdurdodau.)

**BACH**, [*hook*]: offeryn cam; bach pysgota; *Esa.* xix. 8; *Hab.* i. 15; *Mat.* xvii. 27. "Gosodaf fy *mach* yn dy ffroen;" 2 *Bren.* xix. 28; *Vulgate*, "*Circulum in naribus tuis*"="Modrwy yn dy ffroen." Cyfieitha y Deg a Thrigain yr un geiriau yn *Esa.* xxxvii. 29, *καὶ ἐμβαλῶ φιμὸν εἰς τὴν ῥῖνά σου*=rhwymyn; *band, muzzle.* Bernir fod yma gyfeiriad at y modd yr arweinid camelod a theirw gwylltion oddi amgylch â chortyn, neu trwy gylymu cortyn wrth fodrwy wedi ei rhoddi trwy ffroenau y creaduriaid hyny; a'u bod yn

Digitized by Google

dangos mor hawdd y dyrysai yr Arglwydd holl amcanion Senacherib, gan ei fod yn hollol wrth ei ewyllys i'w arwain y ffordd y mynai. "A dylla neb ei drwyn ef â *bachau?*" *Iob* xl. 24:= *Seis.*, "His nose pierceth through snares." "When taken in snares, who can pierce his nose?" *Barnes.* "Pan ei cymmerir mewn maglau, pwy a all dyllu ei drwyn ef?" Y mae yn rhy aflywodraethus i neb allu rhoddi modrwy neu raff yn ei drwyn i'w dywys yn ol y dull cyffredin gydag anifeiliaid gwylltion [gwel BEHEMOTH]. "A dyni di y lefiathan allan â *bach?* neu a rwymi di ei dafod ef â rhaff? A osodi di *fach* yn ei drwyn ef? neu a dylli di asgwrn ei ên ef â mynawyd?" *Iob* xli. 1, 2.

"Canst thou draw forth Leviathan with an hook,
Or press down his tongue with a cord?
Canst thou put a rope into his nose?
Or pierce his jaw with a ring?"—*Barnes.*

"A elli di dynu allan Lefiathan â bach,
Neu wasgu i lawr ei dafod ef â llinyn?
A elli di roddi rhaff yn ei drwyn ef?
Neu dyllu ei ên ef â modrwy?"

"*Ἄξεις δὲ δράκοντα ἐν ἀγκίστρῳ, περιθήσεις δὲ φορβαίαν περὶ ῥῖνα αὐτοῦ; ἢ δήσεις κρίκον ἐν τῷ μυκτῆρι αὐτοῦ, ψελλίῳ δὲ τρυπήσεις τὸ χεῖλος αὐτοῦ:*="A dyni di allan ddraig â bach? A gylymi di rwymyn o amgylch ei drwyn ef? A sicrhei di fodrwy yn ei drwyn ef, neu a dylli ei wefus ef â breichled?" Vulgate: "*An extrahere poteris Leviathan hamo, et fune ligabis linguam ejus? Nunquid pones circulum in naribus ejus, aut armilla perforabis maxillam ejus?*" Y mae yr adnod gyntaf fel yn y cyfieithiad Cymreig; ond y mae yr ail ychydig yn wahanol, fel y Deg a Thrigain: "A osodi di fodrwy yn ei ffroenau ef, neu a dylli drwy ei fochgern ef â breichled?" Y mae yr anhawsder yn y geiriau hyn, i raddau, yn codi oddi ar nad ydys yn gallu penderfynu yn ddibetrus pa greadur a feddylir wrth y lefiathan. Barnai yr hen esbonwyr braidd oll, mai y morfil (*whale*) a olygir; ond gwrthddadleuir yn awr yn erbyn y dyb hon, am nad yw y morfil byth i'w ganfod yn Môr y Canoldir, ac am nad yw yn cyfateb mewn amryw bethau i'r dysgrifiad a roddir yma o'r lefiathan. Myn Bochart, â'r hwn y cytuna y rhan fwyaf o esbonwyr diweddar, mai yr afanc (*crocodile*) a feddylir. Gwel LEFIATHAN. I gadarnhau y dyb hon, dyfynir Herodotus, yr hwn a ddywed [*Eurterpe*, 69], fod yr Aiphtiaid a breswylient Thebes, ac o amgylch llyn Mœris, yn gallu dofi yr afanc, ac yn ei addurno â gemau aur yn ei glustiau, ac â chadwynau neu *freichledau* am ei draed blaen. Oddi wrth hyn, cesglir fod y geiriau yn Iob yn cyfeirio at beth fel yma oedd yn adnabyddus iddo, a bod cyfieithiad y Deg a Thrigain, a'r Vulgate, yn nghyd â dysgrifiad a roddir yn yr adnodau canlynol o hon fel yn ymbil ac yn ymostyngar, yn tueddu i gadarnhau y golygiad yma. Yn awr, os cymmerwn ni y geiriau mewn ffordd o fynegiad neu hysbysiad, y mae y casgliad uchod yn bur naturiol: ond os edrychir arnynt mewn ffurf o holiadau, y mae y casgliad yn hollol i'r gwrthwyneb; naill ai nad oedd ffeithiau o'r natur yma yn adnabyddus i Iob, neu ynte mai rhyw greadur arall a olygir. Dyfynir yn mhellach yr hanes a ddyry Herodotus [*Euter.*, 70] am y modd y daliai yr Aiphtiaid yr afanc. Yn y lle cyntaf, rhoddid darn o gig moch ar fach, a theflid ef i ganol yr afon; wedi hyny curid mochyn byw ar y lan, fel y byddai iddo waeddi; yna, pan glywai yr afanc y swn, cyfeiriai ato; ar ei lwybr, deuai at y darn cig, ac wedi iddo ei lyncu, tynid ef wrth y bach i'r lan. Ond nid yw yr anhawsder yn cael ei symmud eto ar y dybiaeth fod y lefiathan yn cael ei osod allan y fath nas gellir ei ddal a'i drin fel hyn. Dadleuir drachefn [*Illus. Com.*, d.g.], fod y rhan gyntaf yn cyfeirio at y modd y delid ac y dofid yr afanc, neu ynte fod yr anhawsder i hyny yn cael ei osod allan, eithr heb benderfynu ei fod yn beth annichonadwy. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg, dybygid, fod y dull yma o'i ddal yn anadnabyddus i Iob, os yr afanc a feddylir; ac mai yr amcan oedd dangos ei fod mor gryf ac aflywodraethus, fel nas gellid, yn hawdd o leiaf, roddi *bach*, neu yn hytrach *fodrwy* neu *raff*, yn ei drwyn, i'w arwain oddi amgylch; ac nid dangos fel yr addurnid ac yr anrhydeddid ef. Gwel CROCODIL; DRAIG; MORFIL. Bernir mai mewn cyfeiriad at y dull uchod o ddal yr afanc y rhagfynegir dinystr Pharaoh-hophra, brenin yr Aipht, "y ddraig fawr, yr hwn sydd yn gorwedd yn nghanol ei afonydd." yn *Ezec.* xxix. 3, 4; "Gosodaf *fachau* yn dy fochgernau.........a chodaf di o ganol dy afonydd." Ceir yr un cyfeiriad yn *pen.* xxxviii. 4. "Hefyd yr oedd *bachau* o un dyrnfedd," &c.; *Ezec.* xl. 43. Ymddengys mai bachau oedd y rhai hyn, lle y crogid yr aberthau arnynt i'w blingo. Dywed y Rabbiniaid Iuddewig fod yn yr ail deml, o du y gogledd i'r allor, wyth o golofnau ceryg, wedi eu byrddu â chedrwydd; a thair rhes o fachau heiyrn yn mhob un, y naill uwch law y llall. Ar y rhes uchaf y rhoddid y ychain a ddarperid yn aberthau, i'w blingo; ar yr ail, yr hyrddod; ac ar y drydedd, rhoddid yr ŵyn. "Y dwg efe chwi ymaith â drain, a'ch hiliogaeth â *bachau* pysgota;" *Amos* iv. 2:=*Seis.*, "That he will take you away with hooks, and your posterity with fish-hooks:" ="Y dwg efe chwi ymaith â *bachau*," &c. Mewn un cyfieithiad a welsom—

"That he will take you away with boats,
And your posterity with fishing boats."

Y mae y geiriau gwreiddiol yn arwyddo bachau, neu offer pysgota, ac yn y golygiad yma y cymmerai y cyfieithwyr Cymreig a Seisonig ef. "Tyngodd yr Arglwydd i'w sancteiddrwydd y llusgid hwy a'u hiliogaeth allan o'u preswylfeydd, fel y tynir pysgod digymhorth allan o'r dwfr â bach i'w dystrywio."—*Scott.* Deg a Thrigain, "A drain" (*ἐν ὅπλοις*)=â'u harfau, gwaewffyn, neu bicellau; ac y mae y Deg a Thrigain a'r Vulgate yn cymmeryd y gair a gyfieithir "bachau pysgota," yn arwyddo llestr, pair, neu ffwrnes —*καὶ λήψονται ὑμᾶς ἐν ὅπλοις, καὶ τοὺς μεθ' ὑμῶν εἰς λέβητας ὑποκαιομένους ἐμβαλοῦσιν, ἔμπυροι λοιμοί*=*et reliquias vestras in ollis ferventibus.* "A heintiau tanllyd a'ch cymmerant â'u gwaewffyn, ac a fwriant eich hiliogaeth i beiriau poethion," neu wedi cynneu tân danynt. Amcan y geiriau yw dangos erchryslonrwydd y farn a ddeuai ar "wartheg Basan," y rhai oedd "yn mynydd Samaria," am eu gwaith "yn gorthrymu y tlawd, yn ysigo yr angenog, ac yn dywedyd wrth eu meistriaid, Dygwch, ac yfwn."

BACH [mewn maintioli]: dyn bach—plentyn. Y mae yn cael ei arfer i ddynodi anwyldeb a serchogrwydd: 1 *Sam.* xxii. 19; *Luc* ii. 21. 27. Arferir ef am gredinwyr ieuainc: 1 *Cor.* iii. 1: ac am rai anwybodus: *Rhuf.* ii. 20. "Rhai bach yn Nghrist," a ddynoda rai newydd eu geni yn ysbrydol i'w deyrnas, neu rai tra anmherffaith mewn gwybodaeth a phrofiad ysbrydol. Y mae y gair *νήπιοι* =*rhai bach*, yn cael ei gyfieithu yn *Heb.* v. 13, *baban.*

Digitized by Google

BACHGEN: mab ieuanc, llanc, herlod: *Gen.* xxi. 14, 15; *Iob* xxxiii. 25; *Esa.* iii. 5. Cymhwysir yr enw at yr Arglwydd Iesu gan y prophwyd Esaiah: *Esa.* ix. 6, 7; "Bachgen a aned i ni:" yr hyn sydd brophwydoliaeth amlwg am ymddangosiad Mab Duw yn y cnawd—"ei gael mewn dull fel dyn." O ran ei berson rhyfeddol, y mae yn "fachgen," ac yn "Dduw cadarn;" o ran ei swydd, y mae yn frenin, a'r "llywodraeth ar ei ysgwydd ef." Y mae Duw, trwy y prophwyd, yn arfer y gair yma am Israel, pan nad oeddynt eto ond ychydig o rifedi yn yr Aipht: "Pan oedd Israel yn *fachgen*, mi a'i cerais ef;" *Hos.* xi. 1:—pan oedd Israel yn mebyd ei gyflwr gwladol ac eglwysig, amlygodd Duw gariad ato, a gofal am dano, gan ei waredu oddi tan orthrymder Pharaoh, â llaw uchel, ac â braich estynedig, ei arwain, ei borthi, a'i ddysgu yn yr anialwch, fel tad ei blentyn; a'i gyfleu dan ymgeleddwyr yn Ngwlad yr Addewid.

BACHGENAIDD: plentynaidd. "Ond pan aethum yn wr, mi a roddais heibio bethau bachgenaidd;"—neu, yn ol W. Salesbury, "vachgeneiddrwydd;"—1 *Cor.* xiii. 11.

BACHGENES: geneth, "Rhoddasant fachgen er putain, a gwerthasant *fachgenes* er gwin, fel yr yfent;" *Ioel* iii. 3. Caethgludwyd 97,000 o'r Iuddewon gan y Rhufeiniaid, y rhai a ranent eu carcharorion wrth goelbren: ac a'u gwerthent i'w gilydd am foddion i borthi eu trachwantau aflan ac anghymmedrol.

BACHIGYN: bychan iawn. "O blegid ychydig bachigyn eto; a'r hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda;" *Heb.* x. 37. "O blegid ychydigyn *bychan* bach, ac fo ddaw yr hwn sydd yn dyfod, ac ni thrig."—W. S. Y mae y gair yn arwyddo bod dyfodiad Crist i ddinystrio Ierusalem a'r wladwriaeth Iuddewig, gerllaw, wrth y drws.

BACON, ROGER: ydoedd un o'r dynion hynotaf a ymddangosodd yn y canoloesoedd. Cyfenwyd ef gan ei gydoeswyr, ar gyfrif ei dalentau anghyffredin, ei wybodaeth eang, a'i gydnabyddiaeth â dirgelion natur, y *doethawr rhyfeddol* (*doctor mirabilis*). Nid oes ammheuaeth nad yr athronydd mwyaf a ymddangosodd yn Lloegr ydoedd, cyn yr hyglod Francis Bacon. Ganwyd ef yn Ilchester yn 1214, a bu farw yn 78 mlwydd oed. Yn Rhydychain, astudiodd ramadeg, rheitheg, a rhesymeg; ac yna, yn ol arferiad yr oes hono, aeth i Paris, lle yr oedd y brif ysgol enwocaf yn y byd. Ond mewn oes nad oedd dim meithriniaeth i annibyniaeth meddwl, yr oedd efe yn fwy dyledus i rym ei athrylith ei hun nag i ddim dysgeidiaeth athrofaol; darllenai hanesiaeth, dysgai yr ieithoedd dwyreiniol a gorllewinol, ac astudiai lawer ar faterion cyfreithiol a meddygol—efrydiau na chaent ond ychydig o sylw yn yr oesoedd hyny. A'r wybodaeth nad allai gael gan ddysgawdwyr byw a gloddiai efe drwy ddirfawr lafur allan o fwngloddiau Groegaidd ac Arabaidd. Ar ol ei ddychweliad i Loegr, cyflwynodd ei hun i fywyd mynachaidd yn urdd St. Francis, fel y gallai gael ei holl amser i ddilyn ei duedd efrydol. Daeth yn argyhoeddedig yn fuan o ddiffygion mawr y wybodaeth a'r addysg a ffynai y pryd hwnw, ac ymdrechai â'i holl egni i'w gwrthsefyll. Yr oedd ei fywyd yn wrthryfel yn erbyn y dull cul, ffurfiol, diffrwyth, trwy ba un y dilynai dynion eu hunain yn y gwyddorion, a'r duedd at ymddangosiad yn unig, a chywrain ddadleuon, trwy yr hyn yr esgeulusid ac yr anghofid gwir wrthddrychau gwybodaeth. Nid oedd astudiaeth drwyadl o ddim i'w chael y pryd hwnw—y cyfnod ydoedd rhwng diflaniad yr hen a chyfodiad y newydd. Yr oedd iaith Cicero, Virgil, a Horace, wedi anghofio ei hystwythder a'i choethni yn eu dwylaw, ac yr oedd elfenau ieithoedd diweddar yn eu cyflwr afluniaidd ac anelwig eto. Yn eu hymchwiliadau i natur, ni agorent dudalenau byw y greadigaeth ei hun, ond hen gyfieithiadau anghywir a llygredig o Aristotle, ac ni chloddient ddim is nag awdurdod ddynol am sail gwirionedd dwyfol ac achubol. Yr oedd y duedd Brotestanaidd i'w chanfod yn fynych yn y canoloesoedd mewn anfoddlonrwydd i ymostwng i awdurdod ddynol ac eglwysig; ond ni amlygwyd cymmaint o honi yn neb cyn amser Wickliffe, yr hwn a fu byw yn y ganrif nesaf, ag yn Roger Bacon. A chymmeryd holl faes ymchwiliadau dynol, mewn athroniaeth a duwinyddiaeth, efe oedd yr amlycaf o'r diwygwyr cyn y Diwygiad. Yn mhlith y rhwystrau a safent ar ffordd ymchwiliad i'r gwirionedd, y mae yn enwi, fel y cyntaf a'r trymaf, awdurdod ddynol, pan y mae hono yn annheilwng, a hen arferiad. "Yr wyf yn llefaru," meddai, "nid am awdurdod wedi ei sylfaenu ar wirionedd neu deilyngdod, y fath y mae yr Arglwydd wedi ei hymddiried i'w eglwys, neu y fath ag sydd yn ddyledus i'w sanctaidd brophwydi, neu y fath ag sydd yn deilwng i athronwyr wedi ymwthio mor bell ag y mae yn bosibl i ddynion wneyd i drysorau gwirionedd; ond am awdurdod gau, ymhongar, träarglwyddaidd, yn tarddu o anwybodaeth y werin ddall." Ymdrechai yn mhob modd i ddattroi yr awdurdod hon. Dengys hefyd y brawddegau canlynol, sydd wedi eu cymmeryd yma ac acw allan o'i brif waith, yr ysbryd oedd yn ei ysgogi, a'r syniadau a arferai draethu.—"Y mae pedwar prif rwystr ar ffordd gwybodaeth,—awdurdod, arferiad, ymddangosiadau cyntaf pethau i lygaid y werin, ac ymdrech i guddio anwybodaeth dan glog ymffrost balch. Pe gellid symmud ymaith y tri cyntaf drwy ryw ymdrech o eiddo rheswm, eto arosai y pedwerydd. Y mae dynion yn rhyfygu dysgu ereill cyn dysgu eu hunain, ac felly yn syrthio i lawer o gamsyniadau; nid rhyfedd gan hyny ein bod yn cyfarfod â mil o gyfeiliornadau am un gwirionedd mewn gwyddoriaeth a bywyd cyffredin. A chan mai fel hyn y mae, ni ddylem dderbyn pob peth a ddarllenom ac a glywom; ond dylem chwilio i syniadau yr henafiaid fel y gallom gywiro yr hyn sydd gyfeiliornus, a chyflenwi yr hyn sydd yn wallus, ond gyda phob gostyngeiddrwydd. Dylem gyda'n holl nerth ddewis rheswm o flaen arferiad, a syniadau y doeth o flaen rhagfarn y lluaws; ac ni ddylem ddewis y rheswm triphlyg, a dywedyd, Y mae hyn wedi ei osod i lawr gan hwn a hwn, y mae yn arferedig, y mae yn gyffredinol, ac o ganlyniad dylem ei dderbyn:—o herwydd mewn gwirionedd y mae y casgliad gwrthwynebol yn canlyn yn well oddi wrth y fath resymau. Ac er i'r holl fyd fod o dan y fath achosion cyfeiliorni, bydded i ni wrando yn rhydd ar opiniynau croes i arferiad cyffredin."

Dywed fel y canlyn am dadau yr eglwys, ac am athronwyr,—"Y maent nid yn unig wedi rhoddi caniatad a chynghor i ni newid yr hyn sydd anmherffaith mewn syniadau dynol, ond y maent hwy eu hunain yn gwneyd yr un fath; a

Digitized by Google

gallwn benderfynu pe byddent yn awr yn fyw y diwygient ac y cyfnewidient lawer o bethau er gwell." Yr oedd parodrwydd dynion i lyffetheirio eu hunain âg awdurdod Aristotle yn peri iddo ddyweyd, "Pe byddai holl lyfrau Aristotle yn fy meddiant mi a'u llosgwn, o herwydd nid yw ond coll amser i'w darllen, ac y maent yn achos o gamsyniadau a chyfeiliornadau aneirif." Ond dywedai felly, yn benaf, o herwydd llygriad y testyn yn ngwaith yr hen athronydd, ac anghywirdeb y cyfieithiadau o hono. Priodolai i'r Ysgrythyrau y prif awdurdod mewn achosion ffydd, ac yn nghyfansoddiad yr eglwys, er nad oedd efe ei hun wedi cyrhaedd eglurder boddhaol am berthynas yr Ysgrythyrau â'r gyfundrefn eglwysig a hanfodai y pryd hwnw:—"Y mae pob doethineb," meddai, "yn yr Ysgrythyrau, o ran egwyddor a tharddiad; ond perthyna i'r eglwys ac athroniaeth eu hegluro." Olrheiniai brif ddrygau yr oes i anwybodaeth o air Duw, ac argymhellai ddarlleniad diwyd o'r gyfrol sanctaidd ar leygwyr, a hyny hefyd yn yr iaith wreiddiol, gan roi fel rheswm, nad yw yn bosibl ei ddeall yn iawn ond felly. I'r dyben hyn, ymdrechai ei hun i rwyddhau y ffordd i ddealltwriaeth o'r Ysgrythyrau, a galwai sylw neillduol at ramadeg, yr hyn oedd yn cael ei hollol esgeuluso; ac yn ei frwdfrydedd, addawai i bwy bynag a wnelai yr ymdrech, y dysgent ddigon o'r ieithoedd gwreiddiol mewn ychydig ddyddiau i ddeall y Beibl. Nodai allan hefyd wallau yn y Vulgate—cyfieithiad awdurdodedig Eglwys Rhufain—a thrwy hyny, achlysurwyd yn ddiweddarach i gael argraffiad diwygiedig o hono. Trwy y syniadau a'r ymdrechiadau rhyddfrydig hyn, gosododd ei hun yn agored i'r cyhuddiad o heresi; eto, ni chododd mewn gwrthryfel addefedig yn erbyn yr Eglwys Babaidd—yn hytrach, y mae ei holl ysgrifeniadau yn dangos ei fod yn cydnabod ei hawdurdod. Ond bernid ef gan ei frodyr mynachaidd wrth duedd yr hyn a ddysgai, ac ymddygwyd ato yn gyfatebol.

Nid oedd un gangen o ddysgeidiaeth na chelfyddyd nad oedd efe yn myned yn mhell heibio i bawb yn ei oes yn ei wybodaeth o honynt, ac y mae yn edrych ar bob beth yn ei gyssylltiad â duwinyddiaeth. Yn ei farn ef, y gwybodaethau rhif a mesur ydynt y cyntaf o'r gwyddorion, y rhai sydd o ran trefn yn myned o flaen pob un arall, ac yn parotoi y ffordd i bob un arall, am nas gallwn ddeall yr hyn sydd yn ysbrydol a thragwyddol ond trwy yr hyn sydd gorfforol ac amserol. Rhoddodd symiau mawr ei hun tuag at addysgu dynion ieuainc talentog, ac argymhellai yn barhaus yr angenrheidrwydd am ddiwylliad meddyliol, yn enwedig i genadon, i ba rai yr oedd adnabyddiaeth o'r ddaiar a'i thrigolion yn hollol angenrheidiol.

Pan gofia y darllenydd mai dysgrifio dyn a fu byw yn nghanol y drydedd ganrif ar ddeg yr ydym, fe seinia y crybwylliad hwn am genadon yn ddyeithrol iddo, ac yn enwedig y cynghor ar iddynt wneyd eu hunain yn gydnabyddus â daiaryddiaeth: ond nid manteision y dyddiau hyn oedd gan ddynion y pryd hyny. Ond at y gwyddorion anianyddol yr oedd tuedd neillduol ei feddwl. Amlygodd Roger Bacon yr hyn sydd yn nodwedd gwahaniaethol Sais, sef ei ogwydd at yr ymarferol, ac ni ystyriai ddim o werth ond mor bell ag y gwasanaethai y dyben hwn; a phrofiad oedd maen prawf penderfynol a diweddaf y gwirionedd ganddo ef. Y mae rhestr ei weithiau yn dangos ei fod ef yn ymgymmeryd â phob gwybodaeth. Y mae y rhan fwyaf o honynt heb eu hargraffu, ond i'w cael mewn llawysgrifau mewn gwahanol fanau. Argraffwyd y rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi myned trwy y wasg yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Yn eu mysg, y mae traethodau ar ramadeg, meintoniaeth, tremyddiaeth, anianyddiaeth, daiaryddiaeth, seryddiaeth, amseryddiaeth, fferylliaeth, physygwriaeth, dewiniaeth, rhesymeg, uchanianaeth, moesddysg, ieithyddiaeth, a duwinyddiaeth; yn nghyd âg ysgrifeniadau cymmysg.

Y mae ei brif waith, *Opus Majus*, yn cynnwys crynodeb neu gasgliad o'i holl ysgrifeniadau blaenorol, yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1733, mewn un gyfrol bedwarplyg, gan y Dr Jebb, oddi wrth lawysgrif a gafodd yn llyfrgell Trinity College, Dublin. Hwn ydyw yr unig lyfr mewn bod yn awr y gellid cyfeirio ato i ddangos fod athroniaeth yn cael ei diwyllio mewn prif ysgol Seisonig yn y drydedd ganrif ar ddeg. Y mae wedi ei ysgrifenu mewn Lladin, ond mewn Lladin mor hawdd nad oes un llyfr a ysgrifenwyd yn y canoloesoedd yn haws i'w ddarllen. Y mae yn eithriad hollol i ddull anystwyth a barbaraidd yr oes hono, ac amseroedd diweddarach.

Yn byw mewn oes o farweidd-dra meddyliol, ac anwybodaeth dygn, ac yn cael ei amgylchynu gan ddynion heb eu haddysgu, ac heb ofalu am gael addysg, y cwestiwn cyntaf a ymosododd i'w ateb oedd yr un a dynodd sylw y canghellydd Bacon, a Descartes—y ddau feddyliwr mawr sydd wedi gadael eu delw ar ymchwiliadau y ddau can mlynedd diweddaf—sef, Pa ham y mae y fath anwybodaeth? Pa ham y mae rheswm dyn yn gaethwas ewyllysgar? Y mae ei ateb i hyn yn cynnwys rhan fawr o'r *Opus Majus;* ac fel y gwelir oddi wrth y dyfyniadau uchod, yr un ateb yw ag a roddir gan bob meddyliwr gwreiddiol yn mhob oes; sef, mai ymostyngiad afresymol i awdurdod, parchedigaeth gwasaidd i arferiad, cydsyniad dall â rhagfarnau poblogaidd, a balchder disynwyr, sydd yn arwain dynion i ymwrthod â gwybodaeth nad ydynt hwy yn ei meddu, fel peth peryglus, neu ynte i'w diystyru fel peth islaw iddynt. Y rhai hyn oeddynt achosion anwybodaeth yr oesoedd tywyll hyny, a'r rhai hyn ydynt achosion anwybodaeth pob oes; ac nis gellir eu gorchfygu ond trwy addef awdurdod rheswm yn erbyn dylanwad awdurdod, arferiad, a rhagfarn, a chwilio am y gwirionedd, mewn duwinyddiaeth yn llyfr Duw, ac mewn athroniaeth yn ngweithredoedd Duw. Yn ei fynachdy dystaw cyfagos i Rydychain, dilynodd allan yr egwyddorion hyn i'w canlyniadau. Ac er mai nid Roger Bacon y drydedd ganrif ar ddeg, ond Francis Bacon yr eilfed ganrif ar bymtheg a gyfrifir yn dad athroniaeth brawfiadol (*experimental philosophy*), eto efe, yn ddiau, oedd y cyntaf yn Lloegr a wnaeth brawfiadau er mwyn cael allan ddirgelion natur. Yr oedd y fantais yma ganddo ar Francis:—tra y cydnabyddai mor llwyr ag ef bwysigrwydd prawfiadau mewn gwrthgyferbyniad i gasgliadau rhesymegyddol, gosodai ef y dull hwn mewn gweithrediad, a chwanegai esampl at addysg. Gwobrwywyd ei lafur â llawer o ddarganfyddiadau pwysig. Gwyddai am anghywirdeb y calendar; esboniai yr achos o hono, a dangosai pa fodd i'w gywiro. Yr ydoedd yn gydnabyddus âg egwyddorion arlunyddiaeth; gwnai losg-wydrau; ac yr oedd yn gydnabyddus âg egwyddor y *telescope*. Meddylir mai efe hefyd a wnaeth yspectol gyntaf: pa un bynag, efe a'i dysgrifiodd gyntaf, a dywed am danynt, "eu bod

yn fuddiol i hen bobl, ac i rai â llygaid gweiniaid." Yr ydoedd yn fferyllydd da; ac yn ol pob tebygolrwydd, efe a ddarganfyddodd gyntaf bylor gŵn; o'r hyn lleiaf, yr ydoedd yn hysbys o'i gyfansoddiad a'i effaith: ie, awgrymai y gellid gwneuthur agerlongau ac agergerbydau; yr hyn ni wnaethpwyd, er hyny, hyd yr oes bresennol. Yn y bedwerydd bennod o'i *Draethawd ar Ddirgeledigaethau Celfyddyd a Natur* [*De Secretis Operibus Artis et Naturæ*] dywed," y gellid gwneyd peiriannau i yru yn mlaen y llongau mwyaf heb gymhorth dynion, ond yn unig ychydig i'w llywio, a hyny gyda chymmaint cyflymder a phe byddai yn llawn o ddynion yn rhwyfo. Hefyd, y gellid gwneyd cerbydau, y rhai, heb anifeiliaid i'w llusgo, a ellid eu rhoi mewn ysgogiad anhygoel."

Ond er y darganfyddiadau hyn, fe ddichon mai ei glod uchaf fel athronydd ydyw ei ganfyddiad o wir *ddull* ymchwiliadau athronyddol.

Ond er cymmaint y cododd athrylith Bacon ef uwch law ei oes, eto, mewn un ystyr, nis gallai wadu ei berthynas â hi, sef ei duedd at Alchemy, a Serddewiniaeth. Credai y gellid troi meteloedd diwerth yn rhai gwerthfawr, ac hefyd yn aur: a dysgrifiai y ser fel yn meddu dylanwad effeithiol ar weithrediadau dynol, a hyny mor bell ag y gellid rhagddyweyd hanes dyfodol dyn drwy y ser; ac y dylanwadent ar ei ewyllys, er drwg neu dda, a hyny heb niweidio ei ryddid:—fod y llywydd mawr wedi trefnu cwrs natur yn y fath fodd, fel y gall yr ychydig sydd yn deall, ddarllen ei ysgrifeniadau yn y planedau. Ni ddylai dyn ymgymmeryd â dim, os na bydd y ser yn ffafriol. Er mwyn hyn, gwnai daflenau seryddol, i ddangos ysgogiadau y cyrff wybrenol o ddechreuad y byd hyd ei ddiwedd, yn y rhai y gallai dynion weled achosion pob peth yn y nefoedd uwch ben. Gall hyn oll ymddangos yn wendid mawr ynddo; ac eto, y cwbl y gallai oes fel yr un bresennol—sydd heb benderfynu pa beth ydyw dylanwad y lloer ar y rhai lloerig, ac heb wrthbrofi y fleithiau sydd yn cyssylltu ei dylanwad ar lysiau, mewn rhai amgylchiadau—ddysgwyl gan athronydd yn yr oesoedd tywyll hyny ydyw, peidio bod yn rhy benderfynol. Yr oedd yr urdd y perthynai Bacon iddi yn condemnio y fath grediniaeth; ond condemnient yr un modd rifyddiaeth, meintoniaeth, ac athroniaeth, fel yn sawru o heresi, ac fe ddichon fod hyn yn ei gryfhau ef yn ei grediniaeth yn nylanwad y planedau. Ac addefai hyd yn oed y rhai a wadent gyfreithlondeb serddewiniaeth, fod y fath wybodaeth mewn bod. Nid oes brawf ychwaith fod yr eglwys yn ymwadu â hyn. Ar ol iddo ymuno â'r urdd Franciscaidd, gwaharddwyd iddo, dan boen cosp, i wneyd dim yn hysbys drwy ei ysgrifeniadau: ond ar etholiad Clement IV. yn bab, yr hwn oedd, cyn ei etholiad, yn gydnabyddus â rhai o ddarganfyddiadau Bacon, a'r hwn oedd wedi ceisio, pan yn Lloegr, i gael adnabyddiaeth bellach, meddyliodd na byddai niwed iddo dori rheolau yr urdd. Ar orchymyn y pab, felly y gwnaeth. Cyfansoddwyd yr *Opus Majus* o ddefnyddiau oedd eisoes yn barod, ac anfonodd, mor ddirgelaidd ag y gallai, un o'i ysgolheigion â'r llyfr a pheiriannau celfyddydol i Rufain. Tybir mai ei amcan dirgelaidd ef oedd ysgogi y pab yn erbyn cyfeiliornadau oedd yn ffynu yn gyffredin yn yr eglwys, a'i alluogi i wrthsefyll gallu cynnyddol Anghrist. Ar ol marwolaeth ei noddwr, Clement, a phan yr oedd efe ei hun yn chwech a thrigain oed, cyhuddwyd ef gan ei urdd-frodyr o fod mewn cynghrair â'r diafol, ac o fod yn swynwr: a thaflwyd ef i garchar yn Paris. Bu yn y carchar am ddeng mlynedd, heb allu cael ei ryddid oddi wrth Nicholas, canlynydd Clement. Ond o'r diwedd, ar gais ychydig o fawrion, rhyddhawyd ef. Dychwelodd yn ol i Loegr, a bu farw yn 1294, yn Rhydychain, ar ol gorphen ei yrfa awdurol, drwy ysgrifenu crynodeb o efrydiaeth dduwinyddol.—(*Hanes Eglwysig Neander*, cyf. x; *Hanes Athroniaeth Gristionogol, gan Ritter; Penny Cyc.; Real Encyc.*)

BACON, FRANCIS. Wrth edrych ar y dyn enwog hwn mewn cyssylltiad âg athroniaeth a llenyddiaeth Prydain, nid oes neb cymhwys i farnu a betrusai roddi iddo y lle blaenaf oll. Ni byddai yn anhawdd casglu pleidleisiau rhestr hir o'r dynion enwocaf dros roddi iddo y flaenoriaeth am athrylith, a chymmeryd i mewn y byd i gyd. "Arglwydd Bacon," meddai Pope, yr hwn oedd yn ddysgybl i Locke, a ysgrifenodd feddargraff adnabyddus i Newton, ac fel bardd gallesid dysgwyl iddo ochri at Shakspeare neu Milton, "ydyw y dyn mwyaf ei athrylith a gododd erioed yn Lloegr, neu efallai mewn un wlad arall." Barn ei oes ei hun—a'r oes gyfoethocaf o athrylith wreiddiol a welodd Prydain na chynt nac wed'yn—oedd mai efe ydoedd y dyn cyntaf a mwyaf fel gwladwr, areithiwr, ac athronydd. Mae y farn hon wedi ymledaenu a chynnyddu gyda threigliad amser. Tyst cymhwys i lefaru dros y Cyfandir ydyw D'Alembert, un o athronwyr cyntaf Efrainc: dywed mai Bacon ydyw "y mwyaf, y mwyaf cyffredinol, a'r hyawdlaf o athronwyr." Ac ni phetrusai Hallam ei osod yn mhlith y dynion mwyaf a gynnyrchodd y wlad hon, pe na buasai wedi cyfansoddi ond ei ysgrifeniadau gwleidiadol neu boliticaidd, er na ŵyr dynion yn gyffredin fawr am y rhai hyn. Ond fel un a berffeithiodd chwyldroad mewn ymchwiliadau athronyddol—a roddes ogwydd newydd i feddyliau dynion, gan eu dwyn i ymgais am yr hyn sydd yn gyrhaeddadwy, a rhoddi *offeryn* [*Organum*] yn eu dwylaw i'w galluogi i sicrhau eu hamcan, a hyny nid mewn un maes o ymchwiliad, neu mewn un gangen o wybodaeth, ond offeryn cymhwys i bob un sydd yn chwilio am wirionedd yn unig ac nid dychymygion, am ffrwyth ac nid am ddail, yn mha le bynag—y mae cof-golofn Bacon mor uchel. Ond heb law ei fod wedi dwyn athroniaeth o'r nefoedd i'r ddaiar, a dysgu dynion i beidio colli eu hamser mewn efelychu y pryf copyn, trwy wau gweoedd dychymygol o'u hymenydd eu hunain, y mae ei ysgrifeniadau ef yn cynnwys perlau o feddyliau trymach a gloewach nag a geir gan odid un ysgrifenydd arall. Hyn gaiff fod ein hymesgusodiad, os estynir yr erthygl hon ychydig yn ei hyd trwy geisio rhoddi cymmaint ag a allwn o'i drysorau, yn enwedig wrth ystyried nad oes gan ddarllenwyr Cymreig ddim mantais i gael adnabyddiaeth o hono.

Mae hanes bywyd ambell un yn well na'r cwbl a ysgrifenodd, er iddo ysgrifenu llawer, ac ysgrifenu yn dda; megys Thomas Arnold yn Lloegr, Thomas Charles yn Nghymru, neu Thomas Chalmers yn yr Alban; ond yma rhaid cyfaddef, ac y mae yn gyfaddefiad poenus, mai hanes bywyd Bacon ydyw yr hyn y buasai yn dda genym allu ei newid neu ei anghofio. Ond y mae ei fywyd yn cynnwys y prawf amlycaf a fedd y byd, nas gall dyn o'r talentau dysgleiriaf—a hwnw heb fod yn ddyn drwg ychwaith, eto heb fod yn ddigon da i'r amgylchiadau yr oedd ynddynt—wasanaethu dau arglwydd.

Ganwyd Francis Bacon yn York place, yn y

Digitized by Google

Strand, yn Llundain, ar yr 22ain o Ionawr, 1560. Yr oedd ei dad, Syr Nicholas Bacon, yn un o brif gynghorwyr y frenines Elizabeth, ac arglwydd geidwad sel fawr y deyrnas, ac yn adnabyddus am ei ddoethineb, ei gymmedroldeb, a'i uniondeb. Ei fam ydoedd Ann Cook, merch i Syr Anthony Cook, i'r hwn yr ymddiriedid addysgiad Edward VI. Yr ydoedd yn foneddiges enwog am dduwioldeb, rhinwedd, a dysgeidiaeth. Dan ofal y fath rieni cafodd Bacon bob mantais i ffurfio nodweddiad rhinweddol a dysgedig. Pan yn fachgen tynodd sylw y frenines trwy ffraethder ei atebion, a galwai ef ei Harglwydd Geidwad ieuanc. Pan yn dair ar ddeg oed, anfonwyd ef i Goleg y Drindod, Caergrawnt, lle y gosodwyd ef dan ofal Whitgift, yr hwn wedi hyny a ddaeth i fod yn archesgob.

Tra yr ydoedd yn y brif ysgol, ac heb fod ond un ar bymtheg oed, dywedir ei fod yn anfoddlawn i'r trefniant arferol o ddysgu a ffynai yn y sefydliadau hyn. Daeth Bacon i oedran gŵr pan yr oedd hyn yn myned yn deimlad cyffredin, a phan yr oedd Lloegr yn brysur ymryddhau oddi wrth hen ddulliau o efrydiaeth, ac mewn oes lawn o feddyliau galluog—neb llai na Shakspeare, Ben. Jonson, Raleigh, Hooker, a Spenser, ac yntau ei hun mor llawn o uchelgais, hyder, ac egni, a neb o honynt. Yr oedd ymdrech mawr yr unfed ganrif ar bymtheg drosodd, sef rhwng Protestaniaeth a Phabyddiaeth, ac ymdrech mawr yr eilfed ganrif ar bymtheg, rhwng y llys a'r senedd, heb ddechreu. Yr oedd y Pabyddion wedi colli pob awdurdod yn y llywodraeth, a'r Puritaniaid, eto, ond yn dechreu teimlo eu nerth. Yr oedd elfenau cyfnewidiadau mawr yn ymweithio yn ddystaw, o natur grefyddol, boliticaidd, ac athronyddol; ac yn meddwl y dyn ieuanc hwn yr oedd yr olaf yn raddol ymffurfio yn amcan i ymestyn ato, ac yn gynllun i'w gorffoli mewn cyfundrefn.

Ond nid bywyd o ymneillduaeth oddi wrth ymdrechion a somedigaethau y byd, er mwyn sicrhau seibiant dirwystr i weithio allan ei gynlluniau mawreddog, oedd ei fywyd ef. Mewn canlyniad i farwolaeth annysgwyliadwy ei dad, yr hyn a adawodd Francis, ei fab ieuangaf, heb y ddarpariaeth ar gyfer ei gynnaliaeth ddyfodol yr ydoedd wedi ei llunio iddo, bu raid i'r athronydd ieuanc feddwl am gymhwyso ei hun i ennill annibyniaeth a safle anrhydeddus mewn cymdeithas drwy lafur caled, os mynai eu cael. Ar ol ei ddychweliad o Gaergrawnt, ymroddodd, er yn ddigon anewyllysgar, i astudio y gyfraith; ac yn fuan anfonwyd ef, fel yr arferid gwneyd gyda boneddigion ieuainc o'i fath, i'r Cyfandir, fel y gallai ddyfod yn gydnabyddus â chyfreithiau a chyfansoddiadau teyrnasoedd ereill. Tra yr ydoedd yn Ffrainc, cyrhaeddodd y newydd galarus ef fod ei dad wedi marw. Ychydig ar ol ei ddychweliad adref, cyhoeddodd y wybodaeth a gasglodd, mewn traethodyn ar Sefyllfa Ewrop, yr hwn a ddengys dreiddgarwch meddwl, a sobrwydd barn anghyffredin, mewn un nad oedd ond yn bedair ar bymtheg oed. Galwyd ef at y bar yn 1582, a dringodd holl risiau yr alwedigaeth gyfreithiol drwy ymdrech caled, heb y cynnorthwy a allasai ddysgwyl gael, wrth ystyried fod y prif weinidog, Burleigh, yn ewythr iddo, a'i fod wedi ennill sylw y frenines er yn ieuanc. Gwnaeth Bacon bob ymdrech a allasai, trwy ymbiliau taer a gostyngedig, i ennill ffafr y llys; ond yr oedd gan weinidog galluog Elizabeth fab, Robert Cecil, ychydig yn ieuangach nag ef, yr hwn, er pob gofal a gymmerwyd gyda'i ddysgeidiaeth, ac er ei holl allnoedd, ni allasai ei dad lai na gweled ei fod yn ddigon is law ei gefnder Francis; a phenderfynodd wneyd i fyny am yr anghyfartaledd oedd rhyngddynt drwy wrthod pob cymhorth i'w nai, a gwenwynodd feddwl y frenines yn ei erbyn drwy ei ddysgrifio yn un anghymhwys i roddi unrhyw ymddiried pwysig iddo. Ond er awgrymiadau cenfigenllyd ei berthynasau, a gwrthwynebiad trahaus Syr Edward Coke, yr hwn oedd yn orael cyfraith gyffredin y wlad, yr oedd gwybodaeth a hyawdledd Bacon yn sicrhau ei ddyrchafiad. Yn 1593, eisteddodd yn aelod dros swydd Middlesex yn Nhŷ y Cyffredin, a buan y cyrhaeddodd enwogrwydd fel dadleuwr. Dysgrifiai Ben. Jonson ei hyawdledd yn y geiriau canlynol:—"Dygwyddodd yn fy amser i un siaradwr urddasol, yr hwn yn ei areithiau oedd yn llawn pwysigrwydd. Ni siaradodd neb erioed gyda mwy o ddillynder, priodoldeb, a phwysigrwydd, neu a oddefai lai o wagder, neu o'r hyn ni pherthynai i'w fater, yn yr hyn a ddywedai. Nid oedd un cymmal o'i araeth nad oedd yn meddu ar ei brydferthwch ei hun. Nis gallai ei wrandawyr besychu na throi eu golwg oddi wrtho heb fod yn golledwyr. Gorchymynai lle y siaradai, a chyffroai ddigofaint neu ewyllys da ei farnwyr fel y mynai. Nid oedd gan neb eu teimladau mor lwyr dan ei awdurdod: ofn pawb a'i gwrandawai oedd rhag iddo ddarfod." Yn 1592, cyhoeddodd gyfrol fechan o draethodau, yr hon yn fuan a gyfieithwyd i amryw ieithoedd y Cyfandir, ac a sefydlodd yn fuan ei gymmeriad llenyddol. Ond er fod ei glod yn cynnyddu, yr oedd ei amgylchiadau yn parhau yn isel; ac ar un achlysur, cymmerwyd ef i fyny ar yr heol am ddyled o dri chant o bunnau.

Ar ol esgyniad James I. i'r orsedd, gwnaeth y cwbl a allasai i ennill ei sylw, a llwyddodd. Cafodd dderbyniad croesawus i'r llys; a chynnyddodd yn gyflym mewn cymmeradwyaeth a chyfoeth. Penodwyd ef yn erlynydd cyffredinol (*solicitor general*) yn 1607; ac yn gyfreithiwr y goron (*attorney general*), yn 1612. Parhaodd i'w enwogi ei hun yn y senedd, yn enwedig trwy ei ymdrechion i ddwyn oddi amgylch undeb Lloegr â'r Alban—mesur ag yr ydoedd bryd y brenin wedi ei roddi arno. Yn 1605, cyhoeddodd ei draethawd ardderchog ar *Ddyrchafiad Dysgeidiaeth* (*The Advancement of Learning*); yr hwn a gynnwysai hadau y diwygiad a dybiai efe yn anghenrheidiol i wneyd ymchwiliadau athronyddol yn llwyddiannus. Argraffwyd *Doethineb yr Henafiaid*, yn 1609; gwaith a wnaethai gymmeriad am arabedd a dysgeidiaeth i ryw un arall; ond ni allasai chwanegu llawer at glod Bacon. Yn y cyfamser yr oedd *Offeryn Newydd y Gwyddorion* (*Novum Organum*), yn myned rhagddo yn araf deg. Caniateid i amryw ddynion dysgedig weled rhanau didoledig, neu fraslun o hono; a llefarent gyda'r rhyfeddod mwyaf am alluoedd yr awdwr; er fod ambell un fel Syr Thomas Bodley, sylfaenydd y llyfrgell ardderchocaf a feddai Prydain, yn meddwl fod dysgwyliadau Bacon oddi wrtho yn hollol ddychymygol. Yn 1612, cyhoeddodd argraffiad newydd o'r *Traethodau*, gyda chwanegiadau, yr hyn a wnaeth y gyfrol yn gymmaint arall. Nid oedd hyn oll yn rhwystr iddo ymgymmeryd â gwaith arall o'r natur mwyaf gorchestfawr a mawreddog; sef, *Casgliad a Threfniad o Gyfreithiau Lloegr*.

Ar yr adeg ar ei fywyd, pryd yr oedd ganddo fwyaf o seibiant, nid oedd athroniaeth yn ymddangos ond ei ddifyrwch. Trwy iawn ddefnydd-

iad o'i oriau segur, trwy yr amser a ennillai oddi wrth astudiaeth a gweinyddiad y gyfraith, ac oddi wrth y dyfalwch angenrheidiol i ennill a chadw gwen y llys, y daeth yn dad gwyddoriaeth ddiweddar. Ymffrostiai rhai o'r hynafiaid eu bod yn uno bywyd o fyfyrdod a gweithgarwch, megys Cicero ac Antonine; ond pa gymhariaeth rhwng gwreiddioldeb eu hymchwiliadau hwy âg eiddo Bacon?

Yn y flwyddyn 1618, cyrhaeddodd y swydd uchaf oedd gan y brenin i'w hymddiried iddo, sef sel y deyrnas; a gwnaed ef yn Arglwydd Uchel Ganghellydd Lloegr. Dewisodd Bacon yr adeg yma i gyhoeddi y gwaith yr ydoedd wedi rhoddi ei fryd yn benaf arno, ac ar yr hwn y mae ei glod fel diwygiwr y gwyddorion yn dibynu; sef, y *Novum Organum;* yr hwn y bu yn llafurio wrtho am ddeng mlynedd ar ugain, gan ei newid a'i ddiwygio o flwyddyn i flwyddyn, a'i ysgrifenu drosodd ddeuddeng waith â'i law ei hun: ac nid yw, wedi y cwbl, ond tua'r un faintioli a geiriadur bychan T. Jones, Dinbych. Fel *Analogy Butler*, a phob cynnyrch mawr o eiddo meddwl dyn, yr ydoedd yn ffrwyth llafur oes; felly y dysgwyliai gyfiawnhau ei ymffrost ieuangaidd, pan y dywedai y byddai ei waith "yn enedigaeth mwyaf amser."

Pan oedd ei enw yn tynu sylw cyffredinol, a'i glod megys yn ei nawn, wele gwmwl yn gorchuddio ei gymmeriad. Y mae cyhuddiadau i'w clywed, fod dyn mwyaf ei oes, a barnwr uchaf y deyrnas, wedi derbyn gwobrwyon er mwyn gwyro barn.

Nid oes un oes yn hanes Prydain yn dduach am lygredigaeth swyddol na theyrnasiad Iago I. Penderfynodd y senedd—y senedd oreu, medd Macaulay, erioed a ymgyfarfyddodd—i chwilio i mewn i'r cyhuddiadau hyn, a gwneyd i'r rhai a brofid yn euog deimlo eu cyfrifoldeb, trwy ddyoddef y canlyniadau. Syrthiodd rhai o lai enwogrwydd yn aberthau i benderfyniad digofus cynnrychiolwyr y bobl yn gyntaf. Ond yn mhen ychydig wythnosau, cododd cadeirydd y cyfeisteddfod a benderfynwyd i chwilio i mewn i ansawdd y llysoedd barn, a dywedodd — "Y dyn yn erbyn yr hwn y dygir yr achwyniadau hyn ydyw neb llai na'r Arglwydd Ganghellydd —dyn wedi ei gynnysgaethu gan natur a dysgeidiaeth â'r fath gynneddfau, nas dywedaf chwaneg am dano, gan nas gallaf ddyweyd digon." Profwyd ef yn euog o dderbyn can punt gan un, a phedwar cant gan un arall, ac felly yn y blaen, nes y chwyddwyd nifer y cyhuddiadau yn ei erbyn i bedwar ar ugain. Cafodd Bacon brofiad yn awr nad oedd ffafr breninoedd—yr hyn, a dywedyd y lleiaf, a barodd iddo roi ei hun mewn llawer ystum ammheus—ond somedig. Rhoddwyd ef i fyny gan Iago a'r llys i gynddaredd ei farnwyr, er y gwyddai pob un o honynt fod y ddyrnod yn dyfod o gymmaint a hyny yn nes ato ei hun. Fel y dywedodd Bacon ei hun wrth appelio at Iago, am iddo sefyll rhyngddo a digofaint y senedd—"Y rhai hyny sydd yn awr yn gwneyd ergyd yn erbyn y canghellydd, a gyfeiriant yn fuan yn erbyn y goron. Myfi ydyw yr aberth cyntaf—dedwydd fydd, os myfi fydd yr olaf." Yr oedd y frwydr yn awr yn dechreu rhwng y llys a'r senedd, a rhwygwyd y deyrnas ddwy blaid, ac fe'u harfogwyd mewn ymdrech marwol yn erbyn eu gilydd. Parhaodd yr ymdrech hon am dair oes, a bu yn un chwerw i deulu Iago:—collodd un mab, Charles I., ei fywyd, a mab arall, Iago II., ei goron; a dybenodd mewn alltudio ei deulu yn llwyr oddi wrth yr olyniad breninol.

Gorchuddiwyd Bacon gan gywilydd, ac ymguddiodd yn ei ystafell o wydd dynion. Effeithiodd ei feddwl ar ei iechyd—prin y dymunai fyw. Gorchymynodd i'w wasanaethyddion ei adael iddo ei hun, ei anghofio—peidio byth a chofio fod y fath un wedi bod yn y byd. Perswadiwyd ef gan y brenin i beidio gwneyd amddiffyniad, ond i gyfaddef ei euogrwydd, ac y gwnai yntau a allai i liniaru neu i ddadwneyd y ddedfryd. Ysgrifenodd ei gyfaddefiad:—"Wrth ystyried y cyhuddiadau, a myned i lawr i fy nghydwybod, a galw fy nghof i gyfrif fel y gallwyf, yr wyf yn cyfaddef yn ddirgel fy mod wedi bod yn euog o dderbyn gwobrwyon, a fy mod yn ymwrthod â phob ymgais at amddiffyniad." Mewn atebiad i'r rhai a anfonwyd i gael sicrwydd ai efe oedd wedi llawnodi y cyfaddefiad, dywedai—"Fy ngweithred, fy llaw, a fy nghalon i ydyw; a dymunaf ar eich arglwyddi i fod yn drugarog wrth gorsen ysig." Dedfrydwyd ef i dalu deugain mil o bunnau, i gael ei garcharu yn y Twr wrth ewyllys y brenin, i beidio byth mwy na bod yn swyddog yn y llywodraeth, nac eistedd yn y senedd, na chael derbyniad i'r llys. Yr oedd y ddedfryd yn drymach, am y gwyddai y senedd na roddid mo honi oll mewn gweithrediad. Ni bu yn y Twr ond am ddeuddydd; rhyddhawyd ef oddi wrth y ddirwy; ac yn 1624, maddeuwyd y gweddill o'r gosp, a chafodd ei alw i eistedd i Dŷ yr Arglwydd, drachefn; a chaniatawyd iddo gan y llywodraeth gyflog o ddeuddeg cant yn y flwyddyn. Nid ymddangosodd ond ychydig yn gyhoeddus ar ol ei ddiraddiad. Ymroddodd yn hollol i astudiaeth ac athroniaeth: cyfansoddodd *Hanes Teyrnasiad Harri* VII.; *Hanesiaeth Naturiol; Alegori Athronyddol;* a'r traethawd anmhrisiadwy am gynnydd y gwyddorion, *De Augmentis Scientiorum*—yn ystod y pum mlynedd diweddaf o'i fywyd, yn nghanol mil o drallodion. Y mae hyn yn chwanegu y gofid fod, yn ngeiriau Sir Thomas Bodley, "y fath efrydydd wedi treilio cymmaint o amser ar efrydiaeth nad oedd yn deilwng o hono."

Bu farw tad athroniaeth brawfiadol yn ferthyr i'w athroniaeth ei hun. Meddyliodd y gallai eira fod yn ddefnyddiol i attal sylweddau anifeiliaidd rhag llygru. Un diwrnod oer yn y gwanwyn, disgynodd o'i gerbyd yn agos i Highgate, i wneyd y prawf. Aeth i fwthyn, prynodd iâr, a llanwodd hi âg eira â'i ddwylaw ei hun. Cymmerwyd ef â rhyndod sydyn, fel nad allai gyrhaedd adref yn Gray's Inn; cludwyd ef i dŷ cydnabod iddo, yn yr hwn, ar ol wythnos o afiechyd, y bu farw, bore y Pasc, 1626. Yn y llythyr olaf a ysgrifenodd, dywed fod y prawf a wnaeth gyda'r iâr a'r eira wedi bod yn llwyddiannus. Yn ei ewyllys diweddaf, ymddengys fod ynddo ymwybyddiaeth o ddybenion gwell nag a allesid gasglu oddi wrth y llymdoster gyda pha un yr ymddygid tuag ato, a bod ei ysgrifeniadau wedi sicrhau lle uchel iddo yn mysg cymmwynaswyr dynolryw. Ei eiriau ydynt—"Fy enw, a fy nghoffadwriaeth, yr ydwyf yn eu gadael i eiriau diragfarn dynion, i genedloedd tramor, ac i'r oes a ddel."

Efallai na bu erioed fwy o wahaniaeth yn marn dynion am nodweddiad moesol neb. Barn Macaulay ydyw, gan fenthyca cymhariaeth Bacon ei hun — fod cymmaint o wahaniaeth rhwng Bacon yr athronydd, a Bacon cyfreithiwr y goron, ag sydd rhwng angel a neidr yn ymlusgo ar ei thor. Gan i ni roi barn Pope am ei athrylith, nid yw ond teg i ni roi ei farn hefyd

Digitized by Google

am ei gymmeriad fel dyn, er, fe ddichon, ei fod wedi ei demtio gan gyferbyniad y geiriau yn llawn cymmaint a chan feddwl diragfarn wrth ei alw "*the meanest of mankind*"=y mwyaf dirmygus o ddynion. Ond o'r ochr arall, y mae ereill yn cymmeryd arnynt ei amddiffyn yn yr holl gyhuddiadau a roddir yn ei erbyn, megys Montagu, ei fywgraffydd galluog. Y mae ysgrifenydd ei fywyd, yn yr *Encyclopædia Britannica*, yn cymmeryd golwg ffafriol, ac yn dyweyd, pe cymmerid yr holl gyhuddiadau bob yn un ac un, yn nghyd â'r profion drostynt, a'u cymharu âg atebion Bacon, am gywirdeb pa rai nis gallwn ammheu, a chaniatau am yr aneglurder sydd yn amgylchynu llawer o'r amgylchiadau, nid oes un anghyssondeb rhyngddynt a thystiolaeth ddifrifol y canghellydd ei hun:—"Am y llwgrwobrwyon a'r rhoddion y'm cyhuddir o fod wedi eu derbyn—pan y bydd llyfr calonau yn cael ei agor, yr wyf yn gobeithio na'm ceir yn euog o fod wedi derbyn rhoddion i ŵyrdroi cyfiawnder yn fwriadol, trwy arferiad llygredig, neu o ffynnonell lygredig y galon, pa mor euog bynag yr ydwyf o gydsynio â chamarferion yr oes."

Y mae llawer o'r rhai sydd heb fyned mor bell a Macaulay ar un llaw, nac a Montagu ar y llaw arall, yn dadleu mai y cwbl a ellir brofi yn erbyn Bacon ydyw—cydymffurfiad âg arferion cyffredin yr oes, am eu bod yn arferion, heb ystyriaeth o'u natur, a bod dynion yn gwneyd y pethau sydd yn cael eu gwneyd gan bawb o'u cwmpas heb feddwl, ac mai hyn sydd yn cyssylltu y goreu a'r doethaf o ddynion â'r oes y maent yn byw ynddi. A'u casgliad ydyw, fod Bacon fel yr oedd, y fath na welodd Lloegr ar ei ol yr un mwy nag ef, ac mai anfynych y gwelodd hi un gwell nag ef.

GWEITHIAU BACON.

Nid dyn sydd wedi ennill enwogrwydd mewn un dosbarth o ddysgeidiaeth neu wybodaeth ydyw; ond y mae wedi gadael ar ei ol gyfansoddiadau fel DUWINYDD, MOES ATHRAW, CYFREITHIWR, AREITHIWR, HANESYDD, PRYDYDD, ac ATHRONYDD, a'r cwbl yn dwyn nodwedd ei feddwl mawreddog ei hun; ond yn yr olaf y mae yn sefyll allan mor dra rhagorol, os nad yn anghymharol. Gan nad oes dim o'r ysgrifeniadau yn Gymraeg, tueddir ni i feddwl y byddai yn fantais i ddarllenwyr y gwaith hwn gael ychydig frawddegau yn yr erthygl hon, er mwyn teilyngdod y dyfyniadau eu hunain, ac hefyd fel y byddo ganddynt ychydig ger eu bron o'r hyn a werthfawrogir mor uchel gan y Seison. Rhoddwn yn gyntaf un neu ddau o natur dduwinyddol.

GWYRTHIAU YR IACHAWDWR.

"'Efe a wnaeth bob peth yn dda.' Cyfaddef iad a chanmoliaeth wir! Pan greodd Duw bob peth, efe a welodd fod pob peth yn neillduol a phob peth yn gyffredinol yn dda iawn. Ni wnai Duw y Gair, yn y gwyrthiau a gyflawnodd efe (ac y mae gwyrthiau yn greadigaeth newydd, ac nid yn unol a'r greadigaeth gyntaf), ddim nad anadlai ewyllys da a thrugaredd i ddyn. Cyflawnodd Moses wyrthiau, a fflangellodd yr Aiphtiaid â llawer o bläau. Cyflawnodd Elias wyrthiau, a chauodd y nefoedd fel na ddisgynai dim gwlaw ar y ddaiar; a thrachefn efe a ddygodd i lawr dân Duw ar y cadbeniaid a'u milwyr. Dygodd Eliseus eirth o'r anialwch i ddifa plant ieuainc. Tarawodd Pedr Ananias, y rhagrithiwr cyssegr-ysbeilgar, â marwolaeth ddisymwth. Ond ni wnaeth yr Iesu ddim felly: disgynodd yr Ysbryd Glân arno ef mewn rhith colomen. Y mae ysbryd yr Iesu yn ysbryd colomen. Yr oedd y gweision hyny o eiddo Duw fel ychain yn dyrnu yr ŷd, ac yn sathru y gwellt dan eu traed; ond Oen Duw ydyw yr Iesu, heb ddigllonedd na barnau. Y mae cyrff dynion yn sefyll mewn angen am gynnaliaeth, amddiffyniad rhag cam, a meddyginiaeth: efe a barodd yr helfa fawr o bysgod er mwyn darpar lluniaeth helaeth i ddyn. Trodd efe y dwfr yn win i lawenhau calon dyn. Melldithiodd efe y ffigysbren am beidio gwneyd yr hyn yr ordeiniwyd ef iddo, sef dwyn ffrwyth er cynnaliaeth dyn. Lluosogodd efe ychydig fara a physgod i fod yn ddigon i borthi tyrfa fawr. Ceryddodd efe y gwynt oedd yn bygwth dinystr i'r rhai oedd ar y môr. Gwnaeth i'r cloff gerdded, i'r dall weled, i'r mud lefaru; adferodd iechyd i'r claf, glanhad i'r gwahanglwyfus, iawn bwyll i'r rhai a feddiennid âg ysbrydion aflan, a bywyd i feirw. Nid oes un wyrth o'i eiddo ef yn wyrth o ddial nac o farn, ond y cyfan o ddaioni a thrugaredd i gyrff dynion; ond am gyfoeth, ni wnaeth un wyrth i'w chwanegu, ond yn unig er mwyn rhoi teyrnged."

CYMMERIAD Y CRISTION MEWN GWRTHGYFERBYNIAD YMDDANGOSIADOL.

1. Y mae'r Cristion yn un sydd yn credu yr hyn nis gall ei reswm ei amgyffred; y mae yn gobeithio am yr hyn na welodd ef na neb arall; y mae yn ymdrechu am yr hyn y gŵyr na chyrhaedda byth; ac eto, yn y diwedd, ni thry ei ffydd allan yn ddisail—ni chywilyddir ef gan ei obaith, ac ni bydd ei lafur yn ofer.

2. Y mae yn credu fod tri yn un, ac un yn dri; fod tad heb fod yn hynach na'i fab, a mab yn ogyfuwch â'i dad; ac un yn deilliaw o'r ddau yn ogyfuwch â'r ddau; fod tri pherson mewn un natur, a dwy natur mewn un person.

3. Y mae yn credu fod gwyryf wedi bod yn fam i fab, ac mai y mab hwnw oedd ei gwneuthurwr; fod yr hwn nas gall nefoedd a daiar ei gynnwys wedi cael ei gau i fyny mewn ystafell gul; fod yr hwn sydd yn dragwyddol wedi ei eni mewn amser; fod yr hwn sydd Hollalluog wedi cael ei ddwyn yn faban gwan ar freichiau; a bod yr hwn sydd yn meddu bywyd ac anfarwoldeb ynddo ei hun wedi marw ar y groes.

4. Y mae yn credu fod Duw pob gras wedi amlygu ei ddigofaint yn erbyn un na throseddodd erioed yn ei erbyn; a bod y Duw sydd yn casau pechod wedi ei gymmodi â'r hwn sydd yn pechu yn barhaus yn ei erbyn, yr hwn hefyd ni wnaeth, ac nis gall byth wneyd iawn iddo: fod Duw perffaith gyfiawn wedi cospi un perffaith gyfiawn, ac wedi cyfiawnhau yr annuwiol. Y mae yn credu ei fod ef yn derbyn maddeuant, ac eto fod boddlonrwydd wedi ei wneyd drosto.

5. Y mae yn credu ei fod yn werthfawr yn ngolwg Duw, er ei fod yn ffiaidd yn ei olwg ei hun. Ni faidd ei gyfiawnhau ei hun, hyd yn oed yn yr hyn nas gall feio ei hun o'i herwydd; ac eto y mae yn credu fod Duw yn ei gymmeradwyo yn y cyflawniadau y gall efe ei hun weled llawer o wallau ynddynt.

6. Y mae yn clodfori Duw am ei gyfiawnder, ac eto yn ei ofni am ei drugaredd; er nas gall agor ei enau gan gywilydd ger bron Duw, eto y mae yn nesau ato gyda hyder, ac yn gofyn ganddo bob peth y mae mewn angen am dano. Y mae mor ostyngedig ag i gyfaddef nad yw yn haeddu dim ond drwg, ac eto y mae yn credu fod Duw yn bwriadu pob da iddo; y mae yn un sydd yn ofni yn barhaus, ac eto y mae yn hyf fel llew; y mae yn drist yn fynych, ac eto yn llawenhau yn wastadol; yn cwyno yn fynych, eto

Digitized by Google

yn mhob dim yn rhoddi diolch. Nid oes neb yn myned i lawr mor isel, ac eto neb yn ymgodi mor uchel; yn mhob dim yn foddlawn, ac eto yn wastad yn ymbil; y mae yn gyfoethog mewn tlodi, ac eto yn dlawd mewn cyfoeth; er ei fod yn credu fod pob peth yn eiddo iddo, eto nis baidd gymmeryd dim heb ganiatad Duw. Nid yw yn gwneyd ammod â Duw am ddim, ac eto y mae yn dysgwyl gwobr mawr iawn; y mae yn colli ei fywyd, ac yn ennill trwy hyny; ac wrth ei golli, y mae yn ei gadw.

7. Nid yw yn byw iddo ei hun, ac eto o bawb efe ydyw y doethaf iddo ei hun; y mae yn ymwadu âg ef ei hun yn fynych, ac eto nid oes neb yn caru ei hun mor fawr ag ef; y mae ei warthrudd yn fwy na gwarthrudd neb, a'i anrhydedd yn fwy nag anrhydedd neb; nid oes neb yn cael cymmaint o gystuddiau, na neb gymmaint o gysuron.

8. Y mae yn byw yn fwy cymmedrol na phawb, ac eto yn ymborthi ar fwy o ddanteithion na phawb. Efe yw y plentyn, y gŵr, y brawd, a'r cyfaill goreu; ac eto y mae yn casau tad, a mam, a brawd, a chwaer.

9. Y mae yn dymuno am fwy o ras na neb, ac eto yn tristau wrth weled neb yn meddu llai nag ef ei hun; nid yw yn adnabod neb yn ol y cnawd, ac eto yn rhoi parch dyladwy i bawb: gŵyr os rhynga fodd dynion nas gall fod yn was i Grist, ac eto er mwyn Crist y mae yn bob peth i bawb, Y mae yn dangnefeddwr, ac eto yn ymladdwr parhaus, ac yn elyn anghymmodlawn.

10. Y mae yn credu fod yr angelion yn ardderchocach nag ef ei hun, ac eto y mae yn credu eu bod yn weision iddo. Y mae yn credu ei fod yn derbyn llawer o bethau da drwyddynt, ac eto nid yw yn gweddïo am eu cynnorthwy, nac ychwaith yn diolch iddynt, yr hyn nid yw yn ormod ganddo wneyd i'r Cristion distadlaf.

11. Y mae yn credu ei fod yn frenin, pa mor dlawd bynag; a pha mor fawr bynag, nid yw yn tybied ei fod yn rhy dda i fod yn was i'r saint tlotaf. Y mae mewn carcharau yn fynych, eto yn wastad mewn rhyddid; yn ŵr rhydd, ac eto yn was. Nid yw yn caru anrhydedd yn mysg dynion, eto efe a uchel brisia enw da.

12. Efe a dwng i'w niwed ei hun, ac ni newidia, ac eto efe a ŵyr nas gall ei lw ei rwymo i bechu.

13. Y mae yn crynu wrth air Duw, ac eto yn ei gyfrif yn felusach na'r mel, ac na dyferiad y diliau mel, ac yn werthfawrocach na miloedd o aur ac arian.

14. Gŵyr fod rhagluniaeth Duw yn mhob peth, ac eto y mae mor ddiwyd yn ei alwedigaeth a phe byddai nyddu allan edau ei hapusrwydd yn ymddibynu arno ef ei hun. Y mae yn credu fod Duw wedi rhagordeinio pa beth bynag a fydd, ac nas gall dim beri iddo newid ei fwriad, ac eto gweddïa ac ymdrecha fel pe mynai gymhell Duw i'w achub byth.

15. Gŵyr nas gall wneuthur dim o hono ei hun eto efe a ymdrecha weithio allan ei iachawdwriaeth: efe a ŵyr nas gall cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw, eto efe a gred y caiff fwynhau nefoedd mewn corff ac enaid.

EI DRAETHODAU.

Y mae yn anhawdd enwi llyfr o gyfansoddiad dynol sydd yn cael ei ganmawl yn uwch na'r gyfrol fach o draethodau a gyhoeddodd Bacon. Dywed ef ei hun yn y cyflwyniad o honynt i'r tywysog Henry, mab Charles I., mai "nodiadau byrion ydynt, wedi eu gosod i lawr yn hytrach er mwyn y *meddwl* sydd ynddynt nag er mwyn unrhyw ymddangosiad a wrant. Yr wyf wedi eu galw yn draethodau (*essays*): ac er fod y gair yn ddiweddar, y mae y peth yn hen, o herwydd nid yw llythyrau Seneca at Lucilius ond traethodau; hyny yw, myfyrdodau gwasgaredig, wedi eu hysgrifenu ar ffurf llythyrau." Barn Dugald Stewart am danynt ydyw—"Er y gellir eu darllen o'u dechreu i'w diwedd mewn ychydig oriau, eto ar ol eu darllen ugain gwaith drosodd, nid yn fynych yr ydym yn methu cael rhywbeth newydd ynddynt drachefn; a bod hyn yn nodwedd o holl ysgrifeniadau Bacon, nad oes rheswm i'w roddi am dano ond y cyflawnder dihysbydd o faeth sydd ynddynt i'n meddyliau ein hunain." Dengys Syr J. Mackintosh ei farn am danynt trwy ddyweyd fod dysgeidiaeth dyn ieuanc sydd wedi cael manteision y prif athrofäau yn anorphenedig nes iddo drysori cyfoeth traethodau Bacon yn ei feddyliau. Dywed Hallam, eu bod yn cynnwys sylwadau dyfnach a mwy detholedig nag un llyfr yn yr iaith Seisonig yn flaenorol iddynt, ac nac odid un ar eu hol; nid oes ond ychydig o lyfrau yn cael cyfeirio atynt mor fynych, yn cael eu darllen mor gyffredinol, ac y byddai eu defnyddio gydag ychydig o rai ereill mewn cynllun o ddysgeidiaeth i ddysgu i ddynion ddoethineb, mewn cyferbyniad i wybodaeth, yn wellhad mawr.

Nis gallwn lai na meddwl ein bod yn cyfoethogi y gwaith hwn wrth roddi ychydig ddyfyniadau o honynt, gan fod pob brawddeg yn mron yn berl, ac yn werth ei drysori yn y cof.

AM WIRIONEDD.

Pa beth yw gwirionedd? gofynai Pilat gellweirus; ond nid arosai am ateb. Y mae rhyw ysgafnder sydd yn ei chyfrif yn gaethiwed i feddu barn benderfynol; gan ddychymygu fod ewyllys rhydd i fod mewn meddwl yn gystal ag mewn gweithred. Ond nid yn unig y llafur a'r anhawsder sydd i gyrhaedd y gwirionedd, nac ychwaith ei fod, pan y ceir ef, yn sefydlu y farn, ydyw yr achos fod dynion yn coffeidio anwiredd, ond cariad naturiol a llygredig at yr anwiredd ei hun. Y mae y gwirionedd, yr hwn yn unig a all ei farnu ei hun, yn ein dysgu mai ymchwiliad am wirionedd, yr hyn ydyw y garwriaeth o hono—gwybodaeth o'r gwirionedd, yr hyn ydyw ei bresennoldeb—a'r grediniaeth ynddo, yr hyn ydyw ei fwynhad—yw prif ddaioni natur dyn. Creadur cyntaf Duw yn ngwaith y chwe diwrnod oedd goleuni y llygad: a'r diweddaf oedd goleuni y rheswm; a'i waith ar y Sabbath o hyny hyd yn awr yw goleuo â'i Ysbryd. Yn gyntaf, anadlodd oleuni i wyneb defnydd neu y tryblith cymmysg, yn nesaf anadlodd oleuni i wyneb dyn; ac y mae yn parhau i anadlu goleuni i wyneb ei bobl ddewisedig. Nefoedd ar y ddaiar ydyw i ddyn fod â'i feddwl yn ysgogi mewn cariad, yn gorphwys ar ragluniaeth, ac yn troi ar begynau y gwirionedd.

UNDEB MEWN CREFYDD.

Gan fod crefydd yn brif rwymyn y gymdeithas ddynol, y mae yn beth dedwydd pan y mae hi ei hun yn cael ei chynnwys mewn gwir rwymyn undeb. Yr oedd ymraniadau yn nghylch crefydd yn beth anadnabyddus i'r paganiaid. Y rheswm ydoedd, am fod crefydd y paganiaid yn gynnwysedig yn hytrach mewn seremonïau a defodau nag mewn crediniaeth sefydlog. Ond y mae y gwir Dduw yn Dduw eiddigus, ac ni oddef un gymmysgedd yn ei addoliad a'i grefydd ef. Mae gwir rwymyn undeb yn gynnwysedig yn ngeiriau Crist, "Yr hwn nid yw gyda ni sydd yn

ein herbyn:" a thrachefn, "A'r hwn nid yw yn ein herbyn, o'n plaid ni y mae;" hyny yw, yn y gwahaniaeth rhwng pethau sylfaenol a hanfodol crefydd, a'r pethau nad ydynt ond opiniynau dynion, ac yn tueddu at iawn drefn. Dylai dynion ofalu rhag rhwygo eglwys Crist â dau fath o ddadleuon. Un ydyw gwneyd pethau dibwys yn destyn ymraniad. Fel y sylwodd un o'r tadau, y mae gwisg yr eglwys i fod fel yr eiddo Crist, yn ddiwnïad; ond gall fod er hyny yn fraith neu o amrywiol liwiau, fel yr eiddo Ioseph, o herwydd dau beth gwahanol ydyw undeb ac unffurfiaeth. Y llall ydyw, pan y bydd testyn y ddadl yn bwysig, ond yn cael ei olrhain i eithafion cywrain a difudd. Mae dynion yn creu gwahaniaethau lle nad ydynt, ac yn eu gosod mewn geiriau newyddion mor benderfynol, fel lle y dylai yr ystyr eu llywodraethu hwy, y maent hwy yn llywodraethu yr ystyr. Y mae dau fath o undeb twyllodrus: un ydyw yr un sydd wedi ei sylfaenu ar anwybodaeth; o herwydd y mae pob lliwiau yn cytuno yn y tywyllwch: a'r llall ydyw un sydd yn sylfaenedig ar oddefiad pethau hollol groes i'w gilydd mewn hanfodion crefydd; o herwydd y mae gwirionedd a chyfeiliornad fel yr haiarn a'r pridd yn mysedd delw Nebuchodonosor —er iddynt lynu wrth eu gilydd, nid ymgorfforant yn un.

ATHEISTIAETH.

Byddai yn haws genyf gredu holl chwedlau y Talmud a'r Alcoran na chredu fod yr holl adeilad ardderchog hon (y greadigaeth) heb arddangos meddwl. Ac ni chyflawnodd yr Arglwydd un wyrth i wrthbrofi atheistiaeth, am fod ei weithredoedd cyffredin yn gwneyd hyny. Y mae yn wir fod ychydig athroniaeth yn gogwyddo meddyliau dynion at atheistiaeth: ond y mae dyfnder mewn athroniaeth yn dwyn meddyliau dynion yn ol at grefydd; o blegid tra y mae yn edrych ar ail achosion yn wasgaredig, gall weithiau ymorphwys ynddynt heb fyned ddim pellach; ond pan yr edrych ar y gadwen o honynt yn ei chyfanrwydd, y mae o angenrheidrwydd yn ehedeg at ragluniaeth a Duw. Dywed yr Ysgrythyr, "Yr ynfyd a ddywedodd yn ei galon, Nid oes un Duw." Ni ddywedir, "yr ynfyd a feddyliodd yn ei galon;" y mae yn ei ddyweyd fel peth a ewyllysiai fod, yn hytrach nag fel yr hyn y mae efe yn ei feddwl, neu yn gallu perswadio ei hun sydd. O herwydd nid oes neb yn gwadu fod Duw ond y rhai y byddai yn well ganddynt na byddai un. Mae y rhai sydd yn gwadu fod Duw yn dinystrio urddasolrwydd dyn: o herwydd y mae yn sicr fod dyn o ran ei gorff yn perthyn i'r anifail, ac os nad ydyw o ran ei enaid yn perthyn i Dduw y mae yn greadur gwael. Mae yn dinystrio mawrfrydedd, ac yn gwneyd yn anmhosibl i ddyrchafu dyn: os edrychir ar gi, y fath wroldeb y mae yn amlygu pan y teimla fod dyn yn sefyll tu cefn iddo, yr hwn sydd iddo ef yn fath o dduw neu natur uwch. Felly y mae dyn pan yn gorphwys ar, ac yn ymnerthu yn ffafr a nodded dwyfol, yn casglu nerth a hyder, yr hyn nid allai y natur ddynol o honi ei hun byth gyrhaedd. Y mae atheistiaeth yn ffiaidd yn mhob golwg arno; felly yn yr ystyr yma hefyd, ei fod yn difeddiannu y natur ddynol o'i gallu i ymddyrchafu uwch law ei gwendidau.

ADFYD.

Dywediad uchel o eiddo Seneca, y Stoiciad, oedd, fod pethau da hawddfyd i'w dymuno, ond pethau da adfyd i'w rhyfeddu. Yn sicr, os goruchafiaeth ar natur ydyw gwyrthiau, ymddangosant yn benaf mewn adfyd. Dywediad uwch na'r llall, llawer rhy uchel i bagan, ydyw hwn—fod gwir fawredd yn gynnwysedig mewn meddu breuolder dyn a diogelwch Duw. Gellid meddwl fod y beirdd paganaidd wedi ymgeisio at ddysgrifio rhyw ddirgelwch cyffelyb pan yn darlunio Hercules yn myned i ryddhau Prometheus; sef arddangosiad o'r natur ddynol yn rhwyfo dros y môr mewn piser priddlyd. Y mae yn gyffelybiaeth fywiog o benderfyniad Cristion sydd yn rhwyfo mewn cwch breulyd o gnawd drwy dymmestloedd y byd. Ond i lefaru yn fwy cymmedrol, rhinwedd hawddfyd ydyw cymmedroldeb, a rhinwedd adfyd ydyw goddefgarwch. Llwyddiant ydyw bendith yr Hen Destament: ond cystudd ydyw bendith y Testament Newydd, ac yn gyssylltiedig â'r amlygiadau helaethaf o ffafr Duw. Ac eto hyd yn oed dan yr Hen Destament—ond i ni ymwrandaw ar Delyn Dafydd, ni a glywn bruddgerddi mor fynych a charolau: ac y mae adfyd Iob wedi ei ddysgrifio gan bwyntil yr Ysbryd Glân yn fwy cyflawn na llwyddiant Solomon. Nid oes lwyddiant heb lawer o ofnau a mân groesau; ac y mae cysuron a gobaith yn melysu adfyd. Y mae rhinwedd yn debyg i beraroglau, yn arogli yn felusach wrth ei wasgu; y mae hawddfyd yn well am ddangos drygioni, ond adfyd yw y goreu i amlygu rhinwedd.

EFRYDIAU.

Y mae efrydiau yn gwasanaethu er hyfrydwch, addurn, a grym. Eu prif ddefnydd er hyfrydwch sydd mewn unigrwydd ac ymneillduedd; eu prif ddefnydd er addurn sydd mewn ymddyddan; a'u prif ddefnydd er gallu sydd mewn barn a threfniad gorchwylion bywyd. Mae dynion dichellgar yn eu diystyru, dynion diniwed yn eu rhyfeddu, a dynion doeth yn eu defnyddio. Darllen, nid i wrthwynebu a gwrthbrofi, nac i gredu a chymmeryd yn ganiataol, nac i ymddyddan a thrafod, ond i bwyso ac ystyried. Mae rhai llyfrau i'w harchwaethu, ereill i'w llyncu, ac ereill i'w cnoi a'u treulio: hyny yw, mae rhai llyfrau i'w darllen mewn rhan, mae ereill i'w darllen oll, ond nid yn fanwl, ac y mae rhyw ychydig i'w darllen gyda manyldra a dyfalwch. Darllen a wna ddyn llawn, ymddyddan a wna ddyn parod, ac ysgrifenu a wna ddyn manwl.

AM SEFYLLFAOEDD UCHEL.

Mae dynion mewn sefyllfaoedd uchel yn weision triphlyg:—yn weision i'r brenin neu y llywodraeth; yn weision i glod; ac yn weision i'w gorchwylion: felly nid oes ganddynt ddim rhyddid, ar eu personau, ar eu gweithredoedd, nac ar eu hamser. Dymuniad rhyfedd ydyw chwennychu awdurdod, a cholli rhyddid; neu chwennych awdurdod ar ereill, a cholli yr awdurdod arnom ein hunain. Mae angen ar y cyfryw ddynion am opiniynau dynion ereill i feddwl eu hunain yn ddedwydd: o herwydd os barnant wrth eu teimladau eu hunain, nid ydynt fellly; ond pan feddyliant pa beth y mae ereill yn ei feddwl am danynt, a'r awydd sydd i fod yn debyg iddynt, tybiant eu bod yn ddedwydd, er y teimlant yn wahanol oddi mewn. Hwynt hwy yw y cyntaf i ymdeimlo â'u gofidiau, ond yr olaf i weled eu beiau. Gallu i wneuthur daioni ydyw y nod cywir a chyfreithlawn i ddynion ymgais ato. Nid yw meddyliau da, er eu bod yn gymmeradwy gan Dduw, yn fawr gwell na breuddwydion da os na roddir hwynt mewn gweithrediad; ac i hyn y mae mantais amgylchiadau yn angenrheidiol. Teilyngdod a gweithredoedd da

Digitized by Google

a ddylai fod yn amcan ymdrech dyn, ac ymwybodolrwydd o hyn fydd ei orphwysfa. Os medr dyn edrych ar ei weithredoedd fel yr edrychodd Duw ar ei weithredoedd yntau, bydd yn gyfranog hefyd o orphwysfa Duw. Yn y cyflawniad o dy ddyledswydd, gosod o dy flaen yr esamplau goreu, ac yn mhen ennyd gosod o dy flaen dy esampl dy hun, a hola dy hun onid oedd dy esampl gyntaf yn oreu.

IEUENCTID A HENAINT.

Fe all y dyn sydd yn ieuanc mewn blynyddoedd fod yn hen mewn oriau, os nad ydyw wedi colli amser. Ond anfynych y mae hyn yn dygwydd. Yn fynych y mae ieuenctid yn gyffelyb i feddyliau cyntaf, heb fod mor ddoeth a'r ail. Y mae ieuenctid mewn meddyliau yn gystal ag mewn oedran. Mae dynion sydd â gwres mawr yn eu natur, ac yn ddarostyngedig i ddymuniadau a chyffroadau cryfion, yn anaddfed i weithredu hyd brydnawn eu hoes. Felly yr oedd Julius Cæsar; yr hwn a dreuliodd ei ieuenctid mewn math o wallgofrwydd, ond a wnaeth y llywydd galluocaf o'r holl gyfres. Ond y mae dynion mwy tawel yn gwneyd yn dda mewn ieuenctid. O'r tu arall, y mae bywiogrwydd a gwres mewn henaint yn gyfansoddiad da i ddwyn yn mlaen orchwylion. Y mae dynion ieuainc yn gymhwysach i gynllunio nag i farnu, i gyflawnu nag i gynghori. Mae profiad yr oedranus yn gyfarwyddyd iddynt yn y pethau hyny sydd yn syrthio o fewn cylch eu profiad; ond mewn pethau dyeithrol, y mae yn eu camarwain. Mae dynion ieuainc yn cofleidio mwy nag a allant gynnwys; yn ehedeg at y nod, heb ystyried y moddion na'r graddau; yn dilyn yn afresymol ychydig o egwyddorion y maent wedi dygwydd glywed; ni phetrusant wneyd cyfnewidiadau sydd yn tynu anghyfleusderau anadnabyddus; defnyddiant feddyginiaethau cryfion ar y cyntaf; a'r hyn sydd yn dyblu pob camsyniad, ni chydnabyddant ac nis gadawant hwynt. Mae dynion mewn oed yn gwrthwynebu gormod; yn ymgynghori yn rhy hir, yn anturio rhy fach, yn edifarhau yn rhy fuan, ac yn fynych yn anniben yn gyru adref unrhyw orchwyl i'w gyflawniad. Ond goreu ydyw uno y ddau: bydd hyny yn well am yr adeg bresennol, o herwydd fe gyflawna ragoriaethau pob un ddiffygion y ddau; bydd yn well i'r amser dyfodol, o herwydd felly y bydd dynion ieuainc yn dysgu tra y bydd yr hen yn gweithredu; bydd yn well i gyfarfod dygwyddiadau anffodus, o herwydd y mae awdurdod yn dilyn yr hen, a ffafr a phoblogrwydd yn dilyn yr ieuanc.

GWEITHIAU ATHRONYDDOL BACON.

Cyhoeddwyd y braslun cyntaf o'i gyfundrefn mewn traethawd Seisoneg, yn 1605, ar Gynnydd Dysgeidiaeth=*The Advancement of Learning.* Y llwybr goreu i astudio athroniaeth Bacon ydyw dechreu gyda'r traethawd hwn, yr hwn sydd yn cynnwys hadau yr oll a ysgrifenodd ar athroniaeth, oddi eithr yr ail lyfr o'r *Novum Organum.* Yn 1620, cyhoeddodd ei WAITH MAWR [*Instauratio Magna*], cyflwynedig i'r brenin Iago, ac wedi ei ysgrifenu yn yr iaith Lladin. Dosberthir ef i chwe rhan:—

1. "Dosbarthiad y Gwyddorion" (*Partitiones Scientiarum*).
2. "Yr Organ Newydd, neu Gyfarwyddiadau i Ddeongli Natur" (*Novum Organum*).
3. "Ffeithiau y Greadigaeth, neu Hanesiaeth Naturiol a Phrawfiadol, mewn trefn i godi Adeilad Athroniaeth" (*Phænomena Universi*).
4. "Ysgol y Deall" (*Scala Intellectus*).
5. "Rhagbarotoadau yr Ail Athroniaeth" (*Prodromi, Sive Anticipationes Philosophiæ Secundæ*).
6. "Yr Ail Athroniaeth, neu y Wyddoriaeth Ymarferol" (*Philosophia Secunda*).

Dan y pen cyntaf, y mae yn cynnwys crynodeb o'r wybodaeth oedd yn meddiant dynolryw y pryd hwnw, gyda'r dyben, yn benaf, i ddangos ei diffygion neu anmherffeithrwydd; ac weithiau yn cyflenwi y diffygion, trwy gyfarwyddiadau neu eglurhadau.

Ar ol dangos ansawdd gwybodaeth hyd at ei oes ef, y mae yn dyfod at ei *ail* ddyben, sef dangos llwybr gwell a mwy perffaith i ddefnyddio rheswm mewn ymchwiliadau i bethau. Ond ei amcan oedd, nid yn unig dangos y ffordd, a'i phalmantu i ereill, ond ei cherdded ei hunan, i raddau; ac felly, yr oedd y drydedd ran o'i waith i gynnwys hanesiaeth gyflawn o ffeithiau y greadigaeth. Wrth yr hanesiaeth naturiol hon y golygai bob peth sydd yn gynnyrch cymhwysiad o allu neu gelfyddyd dyn at sylweddau naturiol. Yr oedd rhoi y fath hanesiaeth a hwn, nid yn unig yn anmhosibl i Bacon, ond yn anmhosibl o gwbl, yn ei oes ef. Y mae ef ei hun yn rhifo cant a deg ar ugain o wahanol hanesion fyddai yn angenrheidiol i gyflawnu y fath waith, a rhydd anghreifftiau o'r dull o gasglu ffeithiau, yn hytrach nag o'r ffeithiau eu hunain, yn ei Hanes am Wyntoedd, Bywyd, Marwolaeth, Swn, &c.; a chyhoeddwyd, ar ol ei farwolaeth, *Mil o Ffeithiau*, a gasglodd ef ei hun.

Ni chyhoeddodd Bacon ddim tuag at egluro y bedwaredd ran o'i waith, sef Ysgol y Deall; ond tybir mai yr hyn oedd ganddo mewn golwg oedd, esboniad ar weithrediadau y meddwl mewn ymchwiliad am wirionedd, trwy egluro camrau y meddwl wrth esgyn oddi wrth wirioneddau neillduol at rai cyffredinol, ac oddi wrth ffeithiau at osodiadau, neu ddeddfau. Buasai hwn yn fath o draethawd ar athroniaeth y meddwl.

Yr oedd y bummed ran i fod yn fath o ragymadrodd, ac anghraifft o'r athroniaeth newydd y dymunai ac yr amcanai ei chodi, trwy ddefnydd priodol o'i Hanesiaeth Naturiol, a'i ddull newydd o ymresymu; sef y dull cyfosiadol (*inductive method*). Yn ei iaith ffugrol ei hun, yr oedd hwn i fod yn fath o lôg, nes y gellid codi corff yr hawl.

Ni obeithiai allu cyflawnu y chweched ran, yr hon oedd i fod yn gyfundraeth berffaith o athroniaeth, wedi ei chasglu a'i chodi yn ol y dull rheolaidd a chywir a osodasid i lawr ganddo ef ei hun: —"Y mae perffeithio y rhan olaf hon uwch law ein gallu, ac uwch law ein gobaith. Ni a allwn wneuthur rhyw ddechreuad, ond cynnydd parhaus y natur ddynol yn unig a all ei chwblhau; a hyny mewn modd, efallai, na ddychymygai dynion wrth edrych ar ansawdd bresennol pethau. Ac ar hyn y dibyna, nid yn unig lwyddiant dynion mewn ymresymiadau, ond holl dynged a gallu dynolryw." Ac yna dybena y bennod ragarweiniol, yn yr hon yr eglura ddosbarthiad ei waith, drwy y weddi fawreddus a ganlyn:—

GWEDDI YR AWDWR.

Tydi, O Dad! yr hwn a roddaist y goleuni gweledig, blaenffrwyth dy greaduriaid, ac a anadlaist i wyneb dyn—gris uchaf, a pherffeithiad dy greaduriaid—oleuni deall; diogela a llywodraetha y gwaith hwn, sydd yn deilliaw o dy ddaioni, ac yn dychwelyd i dy ogoniant. Tydi, ar ol arolygu yr hyn a wnaeth dy ddwylaw, a welaist fod pob peth yn dda iawn, a gorphwysaist mewn

Digitized by Google

ymhyfrydiad ynddynt. Ond dyn, wrth syllu ar yr hyn a wnaeth efe, a welodd fod y cwbl yn wag-edd a gorthrymder ysbryd, ac nid allai mewn modd yn y byd orphwyso ynddynt. O ganlyniad, os llafuriwn yn dy weithredoedd di â chwys ein wyneb, ti a'n gwnei yn gyfranogion o dy weledigaeth a dy Sabbath di. Nyni a ostyngedig ddymunwn arnat i'r un meddwl barhau ynom; a bydded i ti, trwy ein dwylaw ni, a dwylaw ereill, sef y rhai a anrhegi â'r unrhyw ysbryd, gyfranu cynnysgaeth o elusenau newyddion i ddynolryw. Y pethau hyn a orchymynwn i dy dragwyddol gariad, trwy ein Iesu ni, dy Grist dithau, a Duw gyda ni. Amen.

Y mae wedi gadael hefyd—

GWEDDI YR EFRYDYDD.

"I Dduw y Tad, Duw y Mab, Duw yr Ysbryd, yr ydym yn tywallt ein ymbiliau gostyngedig a dwys, ar iddo ef, o'i ewyllys da, gan gofio gofidiau dynolryw, yn y rhai yr ydym yn treulio allan ein dyddiau sydd yn ychydig a drwg, agor i ni o ffynnonell ei ddaioni ryw gysuron newyddion i liniaru ein trueni. Hyn hefyd ni a ymbiliwn yn ostyngedig a thaer—na byddo i bethau dynol guddio oddi wrthym ogoniant pethau dwyfol; ac na byddo i agoriad pyrth y synwyrau, a chynneuad o'n mewn oleuni naturiol mwy dysglaer, beri fod anghrediniaeth a thywyllwch yn cyfodi yn ein meddyliau tuag at ddirgeledigaethau dwyfol. Ond yn hytrach, fod ein meddyliau wedi eu llwyr lanhau oddi wrth ddychymygion ac oferedd, wedi eu hollol ddarostwng a'u cysegru i'r oraclau dwyfol, fel y byddo eiddo ffydd yn cael eu rhoddi i ffydd. Amen."

Y mae bron y cyfan a adawodd Bacon tuag at gyflawnu y cynllun ardderchog a ffurfiodd yn ei feddwl, yn gynnwysedig yn y traethawd ar "Gynnydd y Gwyddorion" (*De Augmentis Scientiarum*), a'r "Organ," neu yr "Offeryn Newydd" (*Novum Organum*). Rhoddwn fraslun byr o'r ddau draethawd nodedig hyn.

Y mae yr oll o'i draethawd athronyddol cyntaf, sef "Cynydd Dysgeidiaeth" (*The Advancement of Learning*), yn gynnwysedig yn yr olaf sydd yn Lladin, sef "Cynnydd y Gwyddorion;" ond chwanegodd lawer ato. Nid yw y cyntaf o'r rhai hyn ond mewn dau lyfr—y mae yr olaf mewn naw. Yn yr ail lyfr, y mae yn gwneyd y dosbarthiad o holl feusydd gwybodaeth i Hanesiaeth, Prydyddiaeth, ac Athroniaeth—yn gyfatebol i gynneddfau yr enaid sydd yn benaf i'w canfod ynddynt, sef y Cof, y Dychymyg, a'r Rheswm. Y mae y dosbarthiad enwog hwn, sydd yn ymddangos yn swynol gan ei symledd, eto, fel y mae Jeremy Bentham ac ereill yn dangos, yn wallus, o gymmaint ag nad oes un gynneddf yn cael ei chyfyngu yn hollol i un peth; ond yn mhob cangen o wybodaeth, y mae holl gynneddfau yr enaid, mewn rhyw ffordd neu gilydd, yn gweithredu.

PRYDYDDIAETH.

Cyfyngai y gair *prydyddiaeth* i hanesiaeth, neu adroddiadau ffugrol; ac felly, cymmerai olwg gul ar y dosbarth yma o lenyddiaeth, hyd yn oed pe buasai—yr hyn nid yw—y dychymyg yn unig gyfrwng teimlad prydyddol. Mewn un frawddeg fer, ond brydferth, y mae wedi dyweyd y cwbl fu gan athroniaeth a synwyr da i'w ddyweyd, o'i amser ef hyd yn awr, medd Dugald Stuart, am wir brydferthwch dychymygol (*y beau ideal*) yn holl gynnyrchion dychymyg, yn gystal ag mewn prydyddiaeth:—"Dyben Prydyddiaeth ydyw rhoddi boddhad i'r meddwl yn y pethau hyny y mae natur yn analluog i wneyd, gan fod enaid rhesymol gymmaint uwch law y byd gweledig mewn urddas. Ac felly, yn unol âg ysbryd dyn, cyflwynir iddo ryw fawredd eangach, trefn brydferthach, amrywiaeth cyflawnach, a daioni uwch nag y gellir ei gael mewn natur ei hun ar ol y cwymp. O ganlyniad, gan nad oes yn ngweithrediadau a dygwyddiadau hanesiaeth y mawredd hwnw sydd yn boddhau y meddwl, y mae prydyddiaeth yn dychymygu rhai mwy; a chan fod hanesiaeth yn hysbysu am lwyddiant a chanlyniadau gweithredoedd, heb fod yn unol â theilyngdod rhinwedd a bai, y mae prydyddiaeth yn ffurfio rhai ereill yn fwy unol â theilyngdod personol, ac â rhagluniaeth ddadguddiedig; a chan fod hanesiaeth yn darlunio dygwyddiadau mwy cyffredin, yn dwyn llawer o debygolrwydd i'w gilydd, y mae prydyddiaeth yn dychymygu rhai mwy dyeithrol, annysgwyliadwy, ac amrywiol. Ac felly, y mae prydyddiaeth yn gwasanaethu, nid yn unig er hyfrydwch, ond hefyd er mawrfrydigrwydd a moesoldeb. Felly y tybid erioed, ei bod yn cyfranogi o elfen ddwyfol, o herwydd ei bod yn dyrchafu y meddwl trwy ddarostwng ymddangosiadau pethau i ddymuniadau yr enaid; tra y mae rheswm yn darostwng y meddwl i natur pethau."

DUWINYDDIAETH AC ATHRONIAETH.

Yn y trydydd llyfr, y mae yn dosbarthu gwyddoniaeth i dduwinyddiaeth ac athroniaeth. Am y cyntaf, neu grefydd ddadguddiedig, nid yw yn dywedyd dim yn y lle hwn; ond dywed mai gwrthddrych pob athroniaeth ydyw Duw, natur, a dyn. Y mae athroniaeth naturiol yn ymresymiadol ac ymarferol; rhenir y gyntaf i anianaeth ac uchanianaeth. "Amcan y flaenaf ydyw ymofyn i ddefnydd peth, a'i achos effeithiol; ac amcan yr olaf ydyw ymwneyd â *ffurf* peth, ac â'i ddyben" (*formal and final causes*). Y mae y gair hwn, *ffurf*, yn air pwysig yn ysgrifeniadau Bacon, ac wedi ei gymmeryd ganddo ef o ysgrifeniadau yr Aristoteliaid. Chwilio am *ffurf* peth ydyw amcan uchanianaeth (*metaphysics*), yn ol yr ystyr a roddai efe i'r gair, yr hyn oedd yn wahanol i'r ystyr a roddid iddo yn flaenorol, ac hefyd i'w ystyr presennol. Mewn un man, dywed "ei fod yn hen syniad, nad yw meddwl dyn yn alluog i gael allan ffurfiau hanfodol pethau, neu eu gwir wahaniaeth;" ac mewn man arall, "fod darganfyddiad ffurf yn cael ei ystyried yn anobeithiol." "Yn ystyr Bacon," medd Playfair, "nid yw *ffurf* yn gwahaniaethu oddi wrth *achos* ond trwy fod yn arosol. Nid ydym yn defnyddio y gair *achos* ond am yr hyn sydd yn hanfodi mewn trefn amser; ond *ffurf* ydyw achos sydd yn parhau, ac heb fod yn ddarostyngedig i gyfnewidiad amserol." Ffurf (*natura naturans*=achos achosol, yn ol geiriad yr ysgolorion) ydyw deddf neu ammod hanfodiad mewn unrhyw sylwedd neu ansawdd (*natura naturata*=achos achosedig). Ffurf, gan hyny, yn ysgrifeniadau Bacon, ydyw deddf;[1] neu, i ddefnyddio iaith fwy unol â'r syniadau a'r dullwedd presennol o lefaru, gallwn ddyweyd mai y casgliad hwnw o ddylanwadau neu alluoedd yw sydd yn rhoi argraff benodol ar y defnydd yr effeithiant arno. Y mae rhyw allu neu ddy-

[1] "Er nad oes dim yn hanfodi mewn natur ond pethau neillduol, yn amlygu effeithiau neillduol, yn ol deddfau pendant; eto yn mhob cangen o wybodaeth, y ddeddf benodol hon, ei darganfyddiad, yr ymchwiliad i'w natur, a'r amlygiadau o honi, ydyw sylfaen pob gwybodaeth wyddorol a chelfyddydol. Y ddeddf hon, gan hynny, ydyw yr hyn a ddeallwn wrth *ffurf*: yr ydym yn defnyddio y gair am ei fod mewn arferiad cyffredin."—[*Novum Organum*, ii. 2.]

Digitized by Google

lanwad, neu gydgyfarfyddiad amryw o alluoedd neu ddylanwadau, yn peri i bob peth fod y peth ydyw: hyny a ystyriai Bacon yn *hanfod* y peth, a'r hyn a'i gwahaniaetha oddi wrth bob peth arall. Felly, wrth ddyweyd mai ffurf peth ydyw gwrthddrych uchanianaeth, y mae yn angenrheidiol cofio mai nid y llun neu y ffurf allanol a feddylir, ond yr hyn sydd yn peri iddo wisgo y ffurf hono.

Yr oedd hyder Bacon yn peri iddo obeithio y gallasai dyn gyrhaedd, drwy ei athroniaeth ef, y ffurfiau hyn, neu ddeddfau hanfod a hanfodiad y peth:—nid, y mae yn wir, y pethau hyny sydd yn gyfansoddedig o amrywiaeth mawr, ac yn aneirif mewn rhifedi, ond y pethau hyny sydd yn syml a chyntefig eu natur. "Y mae ymofyn am ffurf llew, derwen, aur, ie, dwfr neu awyr, yn ofer; ond gwneyd ymchwiliadau i ffurfiau synwyr, ysgogiad gwirfoddol, tyfiant llysieuol, gwres ac oerni, a phob sylweddau ac ansoddau sydd fel llythyrenau yr egwyddor heb fod yn lluosog, ac o ba rai y mae hanfod pob peth arall yn gynnwysedig—y mae ymofyn i'r ffurfiau hyn yn rhan o'r uchanianaeth yr ydym yn ei hegluro." Dywed drachefn, "Am athroniaeth naturiol, y sylfaen ydyw hanesiaeth naturiol; y radd nesaf ydyw anianaeth; y radd olaf, neu y pwynt uchaf, ydyw uchanianaeth:" ac am hwn, y pwynt uchaf, fe ddywed, "y gwaith y mae Duw yn ei wneuthur o'r dechreuad hyd y diwedd ydyw, sef deddf naturiaeth, y peth nis gwyddom a all ymchwiliad dyn ei gael allan."

Yr ail ddyben i uchanianaeth, fel yr oedd efe yn deall y gair, ydyw chwilio i ddybenion pethau, neu fel y dywedir yn gyffredin, i'w hachosion terfynol. Gwel ACHOS.

Y mae gwahanol ysgrifenwyr wedi gwahaniaethu am y lle priodol i roi dyn, mewn dosbarthiad o wybodaeth gyffredinol—pa un ai dan y pen anianaeth, ai ynte uchanianaeth. Y mae Bacon yn ei roi dan yr olaf; ac y mae rhai beirniaid, nid anenwog, yn cymmeradwyo hyn. Yr ochr arall, teimlir mai nid priodol ydyw gosod cyfansoddiad creaduriaid direswm dan anianaeth, fel y gwna pawb, heb hefyd ddwyn corff dyn dan yr un dosraniad; ac eto, os gwneir hyn, y mae cyssylltiad yr enaid â'r corff yn peri dyryswch.

SYLWEDD YR ENAID.

Nid yw Bacon yn dywedyd ond ychydig am sylwedd yr enaid, heb law "fod dynion hyd yma wedi ymsymmud mewn cylch, yn hytrach na myned yn union yn eu blaen yn eu dadleuon yn ei gylch; ac er y gellir chwilio yn fwy manwl i'w ansawdd yn ngoleuni natur nag yr ydys wedi gwneyd, eto rhaid i bob ymchwiliad iddo gael ei derfynu gan oleuni crefydd, i'w ddiogelu oddi wrth dwyll a chyfeiliornad. O herwydd fel na chymmerwyd sylwedd yr enaid, yn y greadigaeth, o ddefnyddiau y nefoedd a'r ddaiar trwy y gorchymyn bendithfawr, 'dyged' neu 'heigied,' ond iddo gael ei anadlu yn uniongyrchol oddi wrth Dduw; felly, nid yw yn bosibl iddo fod yn ddarostyngedig i ddeddfau y nefoedd a'r ddaiar, y rhai ydynt wrthddrychau athroniaeth. Rhaid i'n gwybodaeth ni, gan hyny, am yr enaid, gael ei dwyn atom drwy yr un ysbrydoliaeth ag a roddes fod iddo."

RHESYMEG A MOESEG.

Y mae y pedwar llyfr canlynol yn cael eu rhoddi i ymdriniaethau am gynneddfau deallol a moesol yr enaid, a'r gwyddorion hyny sydd yn dibynu arnynt. Rhesymeg a moeseg ydyw y rhaniad sydd yn cyfateb i'r rheswm a'r ewyllys. Deallai Bacon y gwyddorion hyny mewn ystyr ychydig yn eangach nag y gwneir yn gyffredin. Y mae pob peth sydd yn perthyn i ddeall a rheswm dyn yn dyfod dan resymeg; ond mewn arferiad gyffredin, y gweithrediadau hyny o eiddo y deall sydd yn chwilio am wirionedd yn unig a feddylir wrth y gair. Ac y mae pob peth sydd yn dwyn perthynas âg ewyllys a serchiadau dyn yn dyfod dan foeseg. Y modd y mynai efe i foeseg (*ethics*) gael ei thrin ydyw, trwy ddyfod â thymmerau a nodweddau dynion yn gyntaf dan ystyriaeth; yna, eu nwydau a'u serchiadau; ac yn ddiweddaf, y gwahanol ffyrdd i gyfnewid ac effeithio ar yr ewyllys a'r chwantau, drwy arferiad, addysgiad, efelychiad, a chymdeithas. Dosbartha wybodaeth foesol i ddwy ran. Yn gyntaf, natur daioni, neu yr hyn sydd yn dda; yr hyn a esyd mewn ymgais at lesâd y cyffredin, yn hytrach nag at lesâd personol. Ac yn ail, y rheolau neu gyfarwyddiadau i ddwyn y meddwl i gofleidio y da.

GRAMADEG.

Y mae sylwadau gan Bacon ar ddylanwad iaith ar feddwl, a dylanwad meddwl ar iaith; ac hefyd ar yr hyn a elwir yn bresennol, "gramadeg gyffredinol," nad yw dynion ond yn ddiweddar wedi dyfod i ddeall eu gwerth. Sylwa "fod gramadeg o ddau fath—llythyrenol ac athronyddol; neu i roi yr un gwahaniaeth mewn geiriau ereill, neillduol a chyffredinol. Amcan y cyntaf, y llythyrenol, ydyw olrhain y tebygolrwydd sydd yn rhedeg drwy iaith benodol, er mwyn galluogi un anadnabyddus o honi i'w dysgu a'i defnyddio yn gywir. Amcan yr olaf ydyw, nid y tebygolrwydd neu gyfatebiad sydd rhwng gair a gair, ond y cyfatebiad sydd rhwng geiriau a phethau; hyny yw, gramadeg athronyddol ydyw yr ystyriaeth o iaith fel drych gweledig neu bortread o weithrediadau y meddwl. Wrth edrych ar ieithoedd yn yr ystyr yma, ni a allwn ddysgu tuedd neu arferion cenedl oddi wrth ei hiaith. Gwelwn fod tuedd y Groegiaid at ddiwyllio y celfyddydau; o herwydd fod y fath ddiwylliad yn dysgu dynion i wahaniaethu yn fwy manwl rhwng pethau, ac yn gofyn am luaws o eiriau cyfansawdd i ddangos y gwahaniaethau hyn, o ba rai y mae yn yr iaith Roeg gyflawnder. Oddi wrth yr iaith Ladin, gallwn weled, yr hyn hefyd a ddysg hanesiaeth, fod y Rhufeiniaid yn ymroddi yn hollol at orchwylion ymarferol, y rhai a ellir eu dwyn yn mlaen heb iaith wedi ei chaboli yn uchel."

GWLADEIDDIAETH A CHYFREITHIAU.

Y mae yr wythfed llyfr o'r *De Augmentis* yn cynnwys trwyddo y sylwadau mwyaf gwreiddiol a chywir ar y materion hyn. Yr oedd ei awgrymiadau tuag at ffurfio athroniaeth boliticaidd gymmaint uwch law syniadau gwladeiddwyr yr oes hono, ag oedd ei *Resymeg Newydd* uwch law rheolau cul yr ysgolion.

"*Hapusrwydd y deiliaid* a ddylai fod yn brif nod deddf-wneuthurwyr. Ac er mwyn cyrhaedd yr amcan yma, dylai eu holl ymdrechion gael eu cyfeirio i sicrhau iddynt ddysgeidiaeth dda a chrefyddol; eu meithrin mewn moesau da; eu diogelu oddi wrth elynion tramor, trwy sefydliad milwraidd; eu diogelu oddi wrth gamwri personol trwy warchodaeth effeithiol; a dylent fod yn ufudd i'r llywodraeth a'r awdurdodau; yn olaf, dylai fod ganddynt bob manteision i gynnyddu mewn llawnder a chyfoeth." Byddai yn anhawdd rhoi gwell rhestr o ddybenion llywodraeth wladol na hon. Y mae gwirebau byrion fel y rhai canlynol, yn dangos doethineb mawr, yn enwedig wrth eu cymharu âg ysbryd yr oes hono, ac â

Digitized by Google

syniadau cant a hanner o flynyddoedd wed'yn.

"Amcan cyfundrefn athronyddol o ddeddfau ydyw chwilio allan *ddeddfau deddfau* (*leges legum*), oddi wrth ba rai y mae hysbysrwydd i'w gael a ydyw deddfau penodol yn uniawn, ai nad ydynt."

"Y mae ymlyniad ystyfnig wrth hen arferion yn beth sydd yn peri cymmaint o derfysg ag ydyw dygiad i mewn rai newyddion."

"Amser sydd yn dwyn i mewn y cyfnewidiadau mwyaf; ond gwna hyny mor ddystaw, fel mai prin y mae yn cyffroi sylw. Oni ddylem ninnau ei efelychu yn hyn?"

"Yn amser Harri VII., yr oedd prisiau nwyddau, a chyflogau gweithwyr, yn cael eu llywodraethu gan gyfraith, y rhai *y mae yn amlwg y dylid eu gadael yn rhydd* i weithrediad cyffredin trafnidiaeth a masnach."

Y NOVUM ORGANUM.

Y mae y traethawd hwn yn gynnwysedig mewn dau lyfr, wedi eu hysgrifenu gan mwyaf mewn arwirebau annibynol. Y mae

*Y Llyfr Cyntaf,*

Os nad yn fwy adnabyddus nag un arall o'i weithiau, yn cynnwys mwy o'r brawddegau tarawiadol sydd yn cael eu dyfynu a'u gosod i ddysgleirio mewn llyfrau ereill. Anrhegwn y darllenydd âg ychydig o honynt; nid yn unig o herwydd eu dylanwad ar ymchwiliadau athronyddol er's dau cant o flynyddoedd, ond hefyd o herwydd y golygiadau eang y maent yn agor i fyny i feddwl ymchwilgar yn awr.

1. Y mae dyn, fel gweinidog a deonglydd natur, yn gwneuthur ac yn deall gymmaint am bethau, ac am y meddwl, ag y mae ei sylwadaeth ar drefn natur yn ganiatau iddo, ac nis gall wybod na gwneuthur chwaneg.

2. Nis gall y llaw na'r deall wneuthur llawer wedi eu gadael iddynt eu hunain. Cynnyrchir effeithiau trwy gynnorthwy offerynau, y rhai y mae y deall yn sefyll mewn angen am danynt ddim llai na'r llaw. Ac fel y mae offerynau yn cynnorthwyo neu yn rheoli y llaw, felly y mae y deall yn cael ei ddiogelu neu ei gynnorthwyo drwy gymhwyso offerynau priodol at y meddwl.

3. Y mae gwybodaeth a gallu mewn dyn yn ogyhyd, gan fod anwybodaeth o'r achos yn analluogi dyn i sicrhau yr effaith; o herwydd nid oes un llwybr i ddarostwng natur ond drwy ymostwng iddi, ac y mae yr hyn sydd mewn athroniaeth yn cyfateb i'r achos mewn ymarferiad yn dyfod yn *rheol.*

4. Nis gall dyn, wrth wneuthur prawfiadau, ond cymhwyso pethau at eu gilydd, neu eu hysgaru oddi wrth eu gilydd; natur, yn du fewnol, sydd yn cyflawnu y gweddill.

5. Gwir achos a gwreiddyn pob diffyg yn y gwyddorion hyd yn hyn ydyw—tra yr ydym yn gorganmawl galluoedd y meddwl, nid ydym yn chwilio am y cynnorthwyon priodol iddo.

6 Y mae cywreinrwydd natur yn mhell tu hwnt i gywreinrwydd synwyr neu ddeall dyn, ac nid yw ein tybiau am dani ond math o wallgofrwydd, ond fel nad oes neb yn sefyll wrth law i sylwi arnom.

7. Fel nad yw y gwyddorion presennol yn ein galluogi ni i ddarganfod effeithiau, felly nid yw ein rhesymeg bresennol yn ein galluogi i ddarganfod gwyddorion.

8. Y mae y cyfreswm (*syllogism*) yn gynnwysedig o osodiadau, gosodiadau o eiriau, ac y mae geiriau yn arwyddion o syniadau. Os bydd ein syniadau (sydd yn sylfaen y cwbl) yn gymmysglyd, ac heb fod yn unol â phethau, nid oes gadernid yn yr adeilad. Ein hunig obaith, gan hyny, ydyw mewn cyfosiad gwirioneddol (*vera inductio* =*genuine induction*).

9. Nid oes genym syniadau eglur am sylwedd, ansawdd, gweithrediad, dyoddefiad; llawer llai am bwysau, ysgafnder, sychder, gwlybaniaeth, cenedliad, llygredigaeth, attyniad, defnydd, ffurf, a'r cyffelyb.

10. Y mae ein syniadau am wrthddrychau uniongyrchol y synwyrau—megys gwres, oerni, gwyn, du—yn gywirach; eto y mae y rhai hyn weithiau yn gymmysglyd, o herwydd y cymmysgedd a'r cyfnewidiadau y mae yr elfenau crybwylledig yn agored iddynt.

11. Y mae darganfyddiadau presennol yn y gwyddorion, y cyfryw ag sydd yn gorwedd dan ein syniadau cyffredin. Y mae yn angenrheidiol, gan hyny, i dreiddio yn mhellach i ranau pellach a mwy dirgelaidd natur, mewn trefn i gyrhaedd syniadau a gosodiadau am bethau mewn dull mwy diogel a gwyliadwrus.

12. Nid oes, ac nis gall fod, ond dwy ffordd i chwilio am, a darganfod gwirionedd. Y mae un yn prysuro oddi wrth y synwyrau a ffeithiau neillduol at y gosodiadau mwyaf cyffredinol; ac oddi wrth y gosodiadau hyn, fel egwyddorion cyntaf, yn casglu rhai llai cyffredinol na hwy. Hwn yw y llwybr sydd yn awr mewn arferiad. Y mae y llall yn cychwyn gyda'r synwyrau a ffeithiau neillduol, ac yn ymgodi yn raddol a pharhaus oddi wrth osodiadau llai cyffredinol at rai mwy felly, nes cyrhaedd y rhai mwyaf cyffredinol oll. Hwn yw y dull cywir, ond yr un sydd hyd yma heb ei gynnyg.

13. Y mae y ddwy ffordd yma yn cychwyn gyda'r synwyrau a ffeithiau neillduol, ac yn dybenu yn y gosodiadau mwyaf cyffredinol; ond y mae gwahaniaeth annhraethol rhyngddynt. Nid yw y naill ond yn cyffwrdd yn ysgafn â phrawfiadau, tra y mae y llall yn rhedeg yn rheolaidd drwyddynt; y mae y cyntaf o'r dechreu yn gosod i lawr ryw syniadau cyffredinol diwerth, sydd wedi eu dychymygu yn hytrach na'u cael, o ffeithiau; y mae yr ail yn ymgodi yn raddol at yr egwyddorion hyny sydd fwyaf cyffredinol mewn natur.

14. Y mae y gwahaniaeth rhwng *eilunod* meddwl dyn a *chynlluniau* y meddwl dwyfol yn un pwysig; hyny yw, rhwng tybiau disail dyn, a gwir ddelw ac argraff pethau crëedig, fel y ceir hwynt mewn natur.

15. Y mae yr eilunod, neu y syniadau cyfeiliornus sydd wedi cymmeryd meddiant blaenorol o ddeall dyn, ac wedi gwreiddio yn ddwfn ynddo, nid yn unig yn gwneyd mynediad i'w feddwl yn anhawdd, ond wedi cael lle ynddo i'r gwirionedd, yn gwneyd yn anhawdd ei gadw ond trwy y gwyliadwriaeth mwyaf.

16. Y mae pedwar math o eilunod yn amgylchynu meddwl dyn, i'r rhai y rhoddwn enwau penodol, er mwyn eu gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd. Y cyntaf ydyw eilunod y llwyth; yr ail, eilunod y ffau; y trydydd, eilunod y farchnad; y pedwerydd, eilunod y chwareufa.

17. Y mae eilunod y llwyth yn perthyn yn wreiddiol i natur dyn. O herwydd haerir yn gamsyniol fod synwyr dyn yn safon neu fesur pethau: ond i'r gwrthwyneb, y mae holl ganfyddiadau dyn, drwy ei synwyrau a'i feddwl, yn dwyn perthynas âg ef ei hun, yn hytrach nag â'r bydyssawd, ac y mae meddwl dyn, fel drychau anwastad, heb adlewyrchu pethau fel y maent ynddynt eu hunain, ond yn eu gwyrgamu a'u han-

Digitized by Google

urddo, drwy gymmysgu ei lun ei hun â llun priodol y gwrthddrych.

18. Eilunod y ffau ydynt y rhai sydd yn perthyn i bob dyn yn neillduol. Y mae i bob un—yn chwanegol at y rhagfarnau a'r cyfeiliornadau sydd yn perthyn i ddyn yn gyffredinol—ei ffau ei hun, sydd yn attal goleuni natur, yn codi naill ai oddi wrth ei duedd neillduol, neu ei addysgiad a'i gymdeithas â dynion ereill, neu y llyfrau y mae yn eu darllen, neu y gwahanol argraffiadau a wnaed ar ei feddwl, yn ol ei ansawdd, ar adegau gwahanol, ac oddi wrth amgylchiadau cyffelyb y gall dynion amrywio ynddynt oddi wrth eu gilydd.

19. Y mae eilunod y farchnad yn cael eu ffurfio gan gymdeithas dynion â'u gilydd, ac yn enwedig drwy ddylanwad iaith—yr hon sydd yn dibynu ar ewyllys y lluaws—ar y meddwl. Y mae dynion yn credu fod eu meddyliau yn llywodraethu eu geiriau; ond mewn gwirionedd, y mae y geiriau yn effeithio yn ol ar y meddwl, ac yn aml yn ei gymmeryd yn gaeth, ac yn arwain dynion i ddadleuon a thwyllresymau aneirif.

20. Wrth eilunod y chwareufa y deallir y rhagfarnau a feithrinir gan wahanol gyfundraethau, enwau o ddylanwad, ac ysgolion sydd yn dysgu syniadau neillduol. Y mae pob cyfundrefn newydd wedi dyfod â dysgrifiad dychymygol, anadnabyddus o'r blaen, o'r greadigaeth, ar y chwareufwrdd; ac oddi wrth hyn y gelwir hwynt yn *eilunod y chwareufa*. Nid ydynt yn cymmeryd meddiant o'r meddwl mewn modd lladradaidd, fel y tri ereill; ond rhaid i ddyn ymdrechu eu hennill; ac y maent yn fynych yn ffrwyth dysgeidiaeth ac efrydiaeth mawr.

*Yr Ail Lyfr o'r Novum Organum.*

Yn hwn yr ydym yn cael ei resymeg newydd, neu y rheolau wrth ba rai y mae deongli natur. Cyfran yn unig ydyw o'i gyfundrefn, ac yn cael ei gyfyngu yn benaf i ddysgrifio pa fath ffeithiau sydd yn fwyaf tebyg o'n harwain at derfyn llwyddiannus ein hymchwiliad. Rhydd enwau ffugrol ar yr *anghreifftiau* sydd yn meddu y *rhagorfraint* (*prerogative instances*) hon. Y mae pymtheg o'r anghreifftiau hyn i gynnorthwyo y deall, pump i arwain y synwyrau, a saith i fod yn rheolau mewn ymarferiad. Rhoddwn yma ddwy neu dair, fel eglurhad o'u dull a'u hamcan.

Wrth chwilio am yr achos o liw peth, y mae yn casglu nifer o bethau sydd weithiau yn lliwiedig, megys darnau o wydr, crisialau, defnyn o wlith, ac yna nifer o bethau sydd yn wastad yn lliwiedig, megys gwahanol fathau o geryg, meteloedd, a blodau; ac eto, heb fod â dim ynddynt yn debyg i'r gwrthddrychau cyntaf, ond eu lliw. Yna y mae yn casglu nad yw lliw yn hanfodol i ansoddau naturiol y pethau dan sylw, o blegid fod pethau hollol wahanol eu hansoddau yn cael eu lliwio yn gyffelyb, ac nad yw lliw ond yr effaith y mae y sylweddau hyn yn gynnyrchu ar y goleuni sydd yn syrthio arnynt. Trwy esamplau tebyg i hyn, y profodd Newton fod goleuni gwyn yn gyfansoddedig o wahanol liwiau. Geilw Bacon yr anghraifft hon yn *anghraifft unigol* (*instantia solitaria*), am nad oedd y pethau a gymherid yn debyg ond yn unig mewn lliw.

Rhoddwn yn nesaf esampl gan Syr J. Herschel, o'r hyn a eilw Bacon yn *anghraifft gasgliadol* (*collective instance*). Y rhwystr cryfaf ar ffordd derbyniad cyfundrefn Copernicus am y planedau yn troi o gwmpas yr haul, oedd yr anhawsder sydd i ffurfio syniad clir am hyny, gan nad ydym yn gallu eu gweled felly, o herwydd ein bod yn nghanol y gyfundrefn, ac nid y tu allan iddi, fel ag i weled eu hysgogiadau yn rheolaidd a chyflawn. Ond pan ddarganfyddwyd lleuadau Iau a Sadwrn, cafwyd anghraifft gyflawn o flaen y llygad o'r hyn yr oedd dynion yn petruso ei dderbyn am yr haul a'r planedau, am nad allent ei weled; a hyny a ysgogodd feddyliau dynion, efallai, yn benaf ar y pryd, i gredu mai yr haul ydyw y canolbwynt.

*Yr anghraifft groesol* (*crucial instance*)—oddi wrth fynegbyst sydd ar *groes*ffyrdd, i ddyweyd pa un o'r ddwy ffordd i gymmeryd—ydyw yr un bwysicaf o'r cwbl a enwir ganddo; o herwydd y mae yn rhoddi terfyn ar bob ammheuaeth, pan nad oes ond un o ddau beth i'w ddewis, drwy ddangos pa un o'r ddau. Y prawf cyntaf o'r natur yma a wnaed erioed, yn ol pob hanes, ydyw, un a wnaeth yr enwog Pascal. Yr ydoedd yn destyn dadl pa beth oedd yr achos fod dwfr yn ymgodi mewn sugndynydd (*pump*) tair droedfedd ar ddeg ar ugain, o hono ei hun, pan symmudir yr awyr sydd ar ei wyneb—ac hefyd, pa ham y mae arian byw yn sefyll mewn pibell wydr, wyth modfedd ar ugain, pan y bydd y pen agored tuag i waered, mewn cwpan yn cynnwys arian byw. Yr hen esboniad ydoedd, fod natur yn casau gwagle: ond dywedai Torricelli, mai pwysau yr awyr oddi amgylch sydd yn gwasgu y dwfr a'r arian byw i fyny, pan symmudid ymaith bwysau yr awyr oddi ar y golofn ddwfr ac arian byw. Ond i benderfynu pa un o'r ddau esboniad oedd yn iawn, dywedai Pascal—os pwysau yr awyr ar arwyneb yr arian byw yn y cwpan, ydyw yr achos fod yr arian byw yn y bib yn ymgodi, y mae yn rhaid, wrth esgyn mynydd uchel, a gwneyd y prawf yno, y bydd yr arian byw yn is yn y bib; o herwydd byddys yn nes i gwr uchaf yr awyr, ac felly, llai o'i bwysau yn uwch na'r arian byw. Gwnaed y prawf: yr oedd yr arian byw yn is ar ben y mynydd nag ar y gwastadedd. Yr oedd hon yn anghraifft benderfynol mai pwysau yr awyr oedd yr achos; o herwydd nid oes un rheswm pa ham y mae natur yn casau gwagle ychydig fodfeddi yn hwy ar y gwastadedd nag ar y mynydd.

Rhydd yr anghreifftiau hyn syniad am amcan a dull yr ail lyfr o'r traethawd clodwiw hwn.

Y DULL BACONAIDD O YMRESYMU (*Induction*).

Yr ydym wedi defnyddio y gair *cyfosiad* amryw weithiau yn y gwaith hwn am *induction*, a *chasgliad* am *deduction*—yr unig ddau ddull o ymresymu y gallwn eu defnyddio; ac eto, nis gall y geiriau eu hunain greu un drychfeddwl pendant o'r hyn a feddylir wrthynt, nac o'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt. Yn mhob ymresymiad y mae peth cyfan (*a whole*) yn cael edrych arno yn ei gyssylltiad â'r rhanau sydd yn ei wneyd i fyny. Gallwn ddechreu gyda'r oll yn gyntaf, a myned at y rhanau; neu gyda'r rhanau yn gyntaf, ac esgyn oddi wrthynt hwy at yr oll. Y cyntaf, sef myned oddi wrth yr oll at y rhanau, ydyw *deduction;* a'r egwyddor ar ba un y mae y dull yma o ymresymu wedi ei sylfaenu ydyw—"Pa beth bynag sydd yn perthyn i'r oll, sydd hefyd yn perthyn i'r rhanau sydd yn ei wneyd i fyny." Gallwn ddechreu hefyd gyda'r rhanau, ac esgyn at yr oll, a hyn ydyw *induction;* a'r egwyddor ar ba un y mae yr ymresymiad hwn wedi ei sylfaenu ydyw—"Pa beth bynag sydd yn perthyn i'r rhanau, sydd yn perthyn hefyd i'r oll a wnant i fyny." Mewn *deduction*, y mae yr oll yn cael ei enwi gyntaf, a pha beth bynag a honir am dano ef, a briodolir hefyd i'r hyn a gynnwysa. Neu, mewn geiriau ereill, gosodir deddf neu osodiad

Digitized by Google

cyffredinol i lawr; ac yna, cymhwysir ef at y gwrthddrychau unigol sydd yn dyfod o fewn cylch ei gymhwysiad. Mewn ymresymiad cyfosiadol (*inductive*), enwir y rhanau yn gyntaf; a pha beth bynag a briodolir iddynt hwy, a briodolir hefyd i'r hyn a wnant i fyny. Neu, mewn geiriau ereill, y mae y ffeithiau unigol yn cael eu gosod i lawr yn gyntaf, yna enwir y ddeddf neu y gosodiad y maent oll yn cytuno ynddo.

Defnyddiwn yr anghraifft ganlynol i osod allan y gwahaniaeth:—

"Y mae dyn, neu ddynolryw, yn meddu ar reswm:"—dyna yr oll, sef dyn, yn cael ei enwi yn gyntaf. "Y mae Ewropaid, Asiaid, Affricaniaid, ac Americaniaid, yn gwneyd i fyny yr oll o ddynolryw:"—dyna y rhanau sydd yn gwneyd i fyny yr oll. Yn olaf, yn unol â'r egwyddor sylfaenol a enwyd, yr ydym yn priodoli yr hyn sydd yn wir am yr oll at y rhanau, ac yn dywedyd—"Y mae Ewropeaid, Asiaid, Affricaniaid, ac Americaniaid, yn meddu ar reswm.

Gallwn ddefnyddio yr un anghraifft eto i egluro *induction*:—

"Ewropiaid, Asiaid, Affricaniaid,' ac Americaniaid, sydd yn gwneyd i fyny yr oll o ddynolryw"—dyna y rhanau yn cael eu henwi yn gyntaf. "Y mae yr Ewropeaid, yr Asiaid, yr Affricaniaid, a'r Americaniaid, yn meddu ar reswm." Yn olaf, yn unol â'r egwyddor sylfaenol, yr ydym yn priodoli i'r oll yr hyn sydd yn perthyn i'r rhanau, ac yn dywedyd—"Y mae yr oll o ddynolryw yn meddu ar reswm."

Y mae y ddau ddull yma o ymresymu, fel y gwel pob dyn a rydd ychydig o fynydau o ystyriaeth iddynt, mor gyfreithlawn ac mor benderfynol y naill a'r llall. Ond nid ydynt yn gymhwysiadwy yn yr un amgylchiadau. Weithiau, y mae yr oll yn ein meddiant, megys mewn celfyddydau rhif a mesur, a rhaid ymresymu i lawr at y rhanau; bryd arall, y rhanau yn unig sydd genym, megys wrth astudio y greadigaeth, a'r dyben ydyw ymresymu i fyny at y deddfau a'r achosion mwyaf cyffredinol. Gwelir, gan hyny, mai *induction* ydyw y dull i ddechreu astudio gweithredoedd natur. Y mae yn wir, wedi i ni, drwy y dull yma, gyrhaedd rhyw osodiadau cyffredinol, gallwn eu defnyddio i ymresymu i lawr oddi wrthynt at ffeithiau unigol. Fel cyfundrefn berffaith o Resymeg, i chwilio allan ddeddfau ac achosion y greadigaeth, y mae y ddau yn angenrheidiol. Pe buasai Torricelli a Pascal yn gwybod fod pwysau yn perthyn i'r awyr, gallasent ymresymu i lawr oddi wrth y ddeddf at y ffaith, a dyweyd yn bendant, heb wneyd y prawf ar y mynydd ac ar y gwastadedd, mai pwysau yr awyr oedd yr achos o ymgodiad yr arian byw yn y bibell. Ond nid oedd y byd y pryd hwnw yn hysbys o'r ddeddf fod awyr yn meddu pwysau, fel ag i fedru cychwyn gyda hi; felly, nid oedd dim i'w wneyd ond esgyn at y ddeddf drwy ffeithiau a phrawfiadau yn gyntaf; ond wedi ei chyrhaedd, gellir disgyn oddi wrthi at ffeithiau ereill.

I egluro y rhan gyntaf o'r ymresymiad hwn, sef oddi wrth y ffeithiau at y deddfau, ac oddi wrth yr effeithiau at yr achosion (*induction*), y cyfeiriodd Bacon ei ymdrechion yn benaf. Ac yma, yn mhellach, nis gallwn roddi ond crynodeb byr o'r hyn a wnaeth:—Yn y lle cyntaf, y mae yn adolygu y gwahanol ffyrdd i wneyd sylwadau manwl a chyflawn, a phrawfiadau o bob natur; a pha fodd, a chyda pha ofal, yr ydym i gasglu yr holl ffeithiau sydd mewn unrhyw fodd yn dwyn perthynas âg amcan yr ymchwiliad. Yn ail, dengys i ni pa fodd y mae casglu y gwir achos o unrhyw effaith oddi wrth y pentwr o ffeithiau fydd wedi eu casglu yn nghyd; o'r hyn y rhoddwyd amryw anghreifftiau ychydig o'r blaen. Wedi casglu yr holl ffeithiau sydd yn myned o'r blaen ac yn dilyn unrhyw ddygwyddiad, y mae yn angenrheidiol *cau allan* y rhai y gall yr effaith gymmeryd lle yn eu habsennoldeb—a sylwi ar, a chasglu at eu gilydd, y rhai y cynnyrchir yr effaith yn wastad yn eu presennoldeb; ac yn ddiweddaf, i ddethol o blith y rhai olaf y cyfryw ffeithiau ag sydd yn amrywio mewn grym, yn ol fel y mae yr effaith yn amrywio—hyny yw, sydd yn cynnyddu neu yn lleihau yn ol cynnydd neu leihad yn ngrym yr effaith. Fel hyn, medd Bacon, y mae cael allan wir achos peth. Ond y mae i bob achos, achos uwch, nes y cyrhaeddir yr Achos Cyntaf; ac y mae eisieu cymhwyso y rheolau hyn at bob ail achos, nes y cyrhaeddir yr achosion a'r deddfau mwyaf cyffredinol oll.

Mae *induction* yn berffaith neu yn anmherffaith. Fel hyn, Os bydd i ryw rywogaeth, G, dywedwn, yn cynnwys ynddo y dosraniadau A, B, C, D, ymresyma *induction* perffaith fel hyn—Pa beth bynag a allwn brofi yn wir am A, B, C, D, sydd hefyd yn wir am G, neu yr holl rywogaeth. Mae yr ymresymiad hwn yn hollol benderfynol, gymmaint felly ag ydyw *deduction* neu y cyfreswm (*syllogism*) sydd yn casglu i'r gwrthwyneb, Pa beth bynag sydd yn wir am G, sydd hefyd yn wir am A, B, C, D. Ond mewn *induction* anmherffaith neu reithegol, fel y dywedir weithiau, efallai na bydd y prawf yn cyrhaedd ond at dri o'r rhanau, A, B, C, ac eto fe dynir y casgliad oddi wrth y tri yna, ac fe ddywedir, Pa beth bynag sydd wir am danynt hwy sydd hefyd yn wir am G, tra mewn gwirionedd nad oes sicrwydd ond am y tri; ac fe ddywedir ei fod yn wir am D hefyd, wrth ddyweyd ei fod yn wir am G, o herwydd fod D yn gynnwysedig yn G yn gystal a'r tri ereill. Y cwbl a ellir ddywedyd yn yr amgylchiad olaf ydyw, Os oes sicrwydd ei fod yn wir am y tri, fe *all* fod yn wir am y pedwar; *h. y.*, am G. Er anghraifft, pe dywedem, Y mae llawer o seirff yn wenwynig: mae y creadur anadnabyddus hwn yn sarff; o ganlyniad y mae yn wenwynig. Mae yn amlwg fod yma dwyll-reswm. Y cwbl a ellir gasglu ydyw, fe *all* hwn fod yn wenwynig. Fe fydd y tebygolrwydd yn fwy neu yn llai yn ol nifer y gwrthddrychau yn y dosbarth y bydd genym sicrwydd am danynt eu bod yn meddu rhyw briodoledd, cyn casglu fod y gweddill yn meddu yr un briodoledd.

Yn mha ystyr, gan hyny, y mae *induction* i'w ddeall yn athroniaeth Bacon? Nid yn yr ystyr cyntaf—yr *induction* perffaith; o herwydd yn anfynych iawn y gellir cael y fath gyfres berffaith o wrthddrychau mewn natur. Nid yr ail ddull chwaith, yr hyn a fyddai yr hyn y mae Bacon yn tystio mor egniol yn ei erbyn yn yr hynafiaid; sef derbyn pob gosodiad fel gwirionedd cyffredinol, os bydd yn wir yn mhob anghraifft y dygwyd i ni fod yn gydnabyddus â hi, heb ymofyn *ai nid oes anghreifftiau i'r gwrthwyneb*. Y mae dull Bacon yn gorphwys ar yr un egwyddor sylfaenol, sef unffurfiaeth deddfau natur; neu mewn geiriau ereill, y gellir casglu yr un effeithiau neu yr un achosion mewn amgylchiadau tebyg. Ond amcan Bacon ydyw sefydlu y deddfau hyn yn y fath fodd ag i roddi sicrwydd na bydd dim anghreifftiau i'r gwrthwyneb. Cymmerai yr hynafiaid yn ganiataol, a dyna ydyw tuedd gyffredinol ac arferiad gyffredinol pawb sydd heb eu

Digitized by Google

dysgu yn ofalus i'r gwrthwyneb, os bydd dau beth yn cydfyned â'u gilydd, mor bell ag y mae eu profiad hwy yn cyrhaedd, fod y naill yn achos o'r llall. Yn y modd yma y mae dynion yn ymresymu bron yn wastad am bob peth sydd yn dwyn perthynas â dyn ac â chymdeithas, a haerant hefyd fod ganddynt brofiad o'u plaid—yn erbyn profiad o'r fath hwn y mae tuedd uniongyrchol rhesymeg Bacon. Er fod ei ddull ef wedi ei sylfaenu ar sylwadaeth a phrawfiadau, eto nid ar brofiad o'r natur yma; sef, fod peth yn hollol wir, os yw yn wir *mor bell ag yr ydym ni yn yn gwybod am dano.* Mae mynych weled pethau gyda'u gilydd yn rhoi tebygolrwydd cryf fod cyssylltiad angenrheidiol rhyngddynt a'u gilydd; ond nid yw yn *brawf* o hyn: ac o ganlyniad nis gallwn ddywedyd fod dilyniad y naill y llall yn ddeddf mewn natur, *os nad allwn ̦au allan* bob ammodau ereill a allasai beri iddynt ddilyn eu gilydd. Amcan rheolau Bacon ydyw chwilio allan yr anghreifftiau gwrthwynebol, os ydynt i'w cael, a chau allan *bob peth arall a allai* fod yn achos o'r dygwyddiad dan sylw, er mwyn cael y sicrwydd llwyraf mai yr achos tybiedig ydyw y gwir achos.

Dyma rai o anghreifftiau o ymresymu drwy appelio at brofiad, ond nid profiad wedi ei cangu na'i buro yn ol rheolau Bacon.—Ni wareiddiwyd y Negroaid erioed fel rhai cenedloedd o bobl wynion; o ganlyniad, nis gellir byth wneyd hyny.—Nid ydyw merched eto fel dosbarth wedi amlygu yr un nerth meddyliol a meibion; o ganlyniad, y maent o gyfansoddiad meddyliol gwanach.—Mae cymdeithas wedi llwyddo gyda'r sefydliad hwn neu arall; ac felly nis gallant lwyddo hebddynt. [Ymresymai dynion felly am gaethwasanaeth yn amser Aristotle; mewn dyddiau diweddarach, ymresymid felly am offeiriadaeth sefydledig, deddfau ŷd, &c.]—Y mae un dyn tlawd o fil wedi ymgodi uwch law ei sefyllfa gyntaf drwy ddysgeidiaeth: o ganlyniad, y mae dysg yn gwneyd dynion yn anfoddlawn i'w hamgylchiadau.

Y mae yn wir fod ambell un, heb glywed erioed am enw Bacon, yn gweled trwy dwyll-resymau fel y rhai hyn; ond y mae bod y lluaws yn parhau i ymresymu yn y modd hwn am lawer o gyffelyb bethau, yn profi mai ambell un sydd. Felly, nid yw bod ambell un, fel yr anfarwol Galileo, wedi ymresymu yn gywir heb ddarllen y *Novum Organum*, ac wedi cael allan lawer o'i ddeddfau, ddim yn brawf nad oedd y byd yn sefyll mewn mawr angen am dano.

Y mae pob dull o ymresymu wedi ei sylfaenu ar alluoedd naturiol meddwl dyn, ac y maent wedi cael eu harfer er y greadigaeth, yn well neu yn waeth, mewn gwahaniaethu y gwir oddi wrth y gau, ac mewn casglu yr anadnabyddus oddi wrth yr adnabyddus. Y gallasai dynion wneyd hyn yn well, sydd amlwg oddi wrth y pentwr o gyfeiliornadau y maent wedi syrthio iddynt o ddiffyg ymresymu yn gywir ar yr hyn oedd yn dyfod ger eu bron. Mewn athroniaeth naturiol, ar yr hon, yn benaf, yr oedd Bacon â'i lygaid, yr oedd angen dirfawr am y dull o ymresymu y mae efe wedi ei argymhell i sylw dynion. I gael prawf o hyn, ni raid ond cymharu

BACON A DESCARTES.

Ysgrifenodd Descartes tua deugain mlynedd ar ol Bacon, eto ni ymddengys ei fod yn gydnabyddus â'i ysgrifeniadau. Eto, yr oedd efe yn teimlo diffygion yr hen athroniaeth, ac anghymhwysder yr hen ddulliau o ymresymu, mewn ymchwiliadau anianyddol; ac fel Bacon, ymgymmerodd â'r gwaith o'u diwygio:—ond yma y mae y gymhariaeth rhyngddynt yn darfod. Nid allasai dau ddyn amcanu at yr un nod drwy ddulliau mwy croes i'w gilydd.

Ni chynnygiodd Descartes wneyd dim oedd yn dwyn tebygolrwydd i *gyfesiad*, ond dechreuodd gydag egwyddorion cyffredinol; ac oddi wrth Fod Duw a'i briodoliaethau, cynnygiai esbonio y greadigaeth, yn lle defnyddio y greadigaeth yn amlygiad o ogoniant Duw. Y dull y profai cyfosiad ddeddf gyntaf ysgogiad (*the first law of motion*)—sef, pan roddid ysgogiad unwaith i unrhyw beth, y parha y peth hwnw i fyned yn dragywydd mewn llinell unionsyth, heb gyflymu nac arafu, oni bydd i ryw gorff arall, megys y ddaiar neu yr haul, ei dynu ato ei hun—ydyw, os cymmerir careg, a'i thaflu ar hyd ffordd wastad, hi a ä am ryw bellder ac yna hi beidia; os teflir hi ar hyd palmant o geryg, hi a ä yn mhellach nag o'r blaen cyn peidio; ond os teflir hi ar hyd palmant o rew, hi a ä yn mhellach fyth. Ac oddi wrth ffeithiau fel hyn, a'u cyffelyb, fe ymresymai—Po mwyaf y symmudir ymaith yr attalfeydd, pellaf oll yr ysgoga y gareg; o ganlyniad, pe gellid eu symmud ymaith o gwbl, ni pheidiai y gareg a myned yn ei blaen.

Ond y prawf a rydd Descartes o'r ddeddf hon ydyw symledd ac anghyfnewidioldeb Duw. Gan fod y Creawdwr yn anghyfnewidiol, byddai ysgogiad y gareg neu ryw gorff arall felly oni byddai i ryw gorff arall agos ato ei dynu ato ei hun. Rheswm cyffelyb oedd gan yr hynafiaid dros ddyweyd mai mewn cylchoedd crynion yr oedd y cyrff wybrenol yn troi, ac nid, fel y gwyddys yn awr, mewn cylchoedd hirgrwn; o herwydd, meddent, y mae cylchoedd crynion yn berffaith, ac o ganlyniad, yn debyg i'r Duw perffaith. Gwelir fod rhesymau o'r natur yma yn profi y gau yn gystal a'r gwir. "Dichon," medd Bacon, "fod ymresymiadau o'r natur yma yn gyfaddas i ddealltwriaethau o radd uwch na'r eiddo dyn, ond i ddyn y maent yn anghyfaddas. O ffrwyth y pren hwn y mae ei Greawdwr wedi gwahardd iddo ef fwyta, gan ordeinio mai trwy chwys ei wyneb a gwaith ei ddwylaw y mae iddo ef ennill ei wybodaeth yn gystal a'i fara."—Am gymhwysiad y dull Baconaidd o ymresymu at dduwinyddiaeth, gwel Duwinyddiaeth.—(*Montagu's edition of Lord Bacon; Hallam's Literature of Europe; Stewart's Playfair's Preliminary Dissertation; Mill's Logic.*)

**BAD.** Gwel Llong.

**BAEDD:** y gwryw o'r moch; mochyn heb ei ddyspaddu. Y mae y baedd gwyllt yn llai o faintioli na'r cyffredin o rai dofion, ac nid oes ychwaith amrywiaeth lliwiau o honynt; ond y mae bob amser o liw llwyd-dywyll, a'i glustiau, ei gynffon, a'i goesau, yn hytrach yn dduach na'i gorff. Y mae ei drwyn yn hwy, a'i glustiau yn llai a chrynach, na moch cyffredin. Tyfa ysgythrddannedd o'r ên uchaf a'r isaf, y naill a'r llall yn troi i fyny, ac yn dra llymion, ac weithiau yn tyfu yn ddeng modfedd o hyd neu ragor; â'r rhai yr amddiffyna ei hun yn ofnadwy rhag ei elynion. Y mae i'w ganfod yn y rhan fwyaf o wledydd lle nad yw y boblogaeth wedi cynnyddu fel ag i ddinystrio y rhywogaeth hon, yn gystal a phob math arall o fwystfilod rheibus, allan o honi; ond y mae yn gwahaniaethu ychydig o ran ei faint a'i lun mewn gwahanol wledydd. Canfyddir, weithiau, haid o honynt gyda'u gilydd, yn enwedig pan y byddant yn ieuainc; ac felly y maent yn fwy diogel rhag bleiddiaid, a chreaduriaid ysglyfaethus ereill. Ond wedi y delont i'w

Digitized by Google

maintioli a'u cryfder cyffredin, y maent i'w canfod yr un mor fynych ar eu penau eu hunain.

Er y gwneir defnydd o gig y baedd gwyllt, eto ystyrir ei hela yn fwy fel difyrwch gan y mawrion nag o ran ei werth. Yn y cyffredin, y mae yn ddifyrwch lled beryglus, gan mor greulawn a didroi yn ol yr amddiffyna ei hun. Cwn bychain, araf, trymion, a ddefnyddir; ac wedi iddo redeg



Dar. 107.

hanner milltir, mwy neu lai, o'u blaen, y mae yn troi yn ol ac yn eu haros, ond ni faidd un o honynt ymosod arno yn y cychwyn, oddi eithr ambell un ieuanc anadnabyddus o'i elyn; ac anfynych y gall un o'r rhai a ryfygant i'w gyrhaedd fyned ddim yn mhellach. Saif ef gan rochian, a safant hwythau gan gyfarth, nes daw yr helwyr yn agos; yna rhed o'u blaen drachefn yr un modd am hanner milltir, nes o'r diwedd y bydd wedi llwyr flino, ac yn gommedd myned yn mhellach. Wedi dyfod o'r helwyr hyd ato, ymosodant arno â'u gwaewffyn nes ei ladd. Dywed un gŵr (Mr. Johnson), wrth adrodd hanes hyntiau helwriaethol yn yr India, pan oedd ef, gydag amryw foneddwyr ereill, yn dychwelyd o hela yn agos i ddinas Patna, ar lanau yr afon Soane, ddarfod iddynt ganfod baedd gwyllt; ond am nad oedd ganddynt waewffyn, ni ddarfu iddynt fyned ar ei ol y diwrnod hwnw. Dranoeth aethant yno, a chanfuant ef yn agos i'r lle yr oedd y diwrnod o'r blaen; ond trwy ryw ddygwyddiad, dyrysodd rhai o'u meirch, a thaflwyd rhai o'r marchogion, fel y gorfu arnynt roddi y goreu iddo y pryd hwnw. Pa fodd bynag, "yn mhen ychydig ddyddiau," meddai, "nyni a aethom yn bur fore mewn ymchwiliad am yr un baedd, a gwelsom ef ychydig yn mhellach, mewn cae ŷd-bys (*rhurfield*), o'r hwn y llwyddasom, wedi cryn drafferth, i'w gael allan i le amlwg: yno y safai yn feiddgar gan wynebu y lluaws oll oedd yn ei erbyn, a gwneuthur cais milain at bob ceffyl a ddeuai o fewn hanner can llath iddo, gan rochi yn greulawn wrth nesu yn mlaen. Yr oeddwn i y pryd hwnw yn newyddian yn y gorchwyl; ond ni welais byth drachefn un mochyn yn ymladd mor ffyrnig. Nid ai fy ngheffyl yn agos ato; a phan oeddwn gryn bellder oddi wrtho, rhuthrodd at geffyl arall gyda'r fath gynddaredd, fel y darfu i'r eiddof fi godi ar ei draed ol a disgyn mor frawychus fel y taflwyd fi oddi ar ei gefn; taflwyd dau neu dri ereill agos ar yr un pryd; ac er fod yno amryw o'r ceffylau wedi cynnefino â'r gorchwyl, ni safai un o honynt yn ei erbyn; efe a yrodd ei holl wrthwynebwyr yn deg o'r maes, ac wedi hyny tuthiodd, gan ewynu a rhygnu ei ysgythrddannedd yn eu gilydd, tua'r gwrysglwyni, lle yr oedd yn annichonadwy ei ddilyn na'i yru ymaith. Y baedd mwyaf a welais erioed yn cael ei ladd oedd un hen iawn a theneu; yr oedd yn mesur tair modfedd a deugain o uchder i ben yr ysgwydd, ac yr oedd ei ysgythrddannedd yn ddeng modfedd o hyd. Yr oedd yn dra ffyrnig, ond ni chafwyd llawer o chwareu gydag ef, gan ei fod wedi llechu mewn maes ŷd-bys tew, o'r hwn nis gallem ei yru ymaith. Anfonwyd dau fythenad mawr i mewn ato; lladdodd un o honynt yn y fan, ac archollodd y llall yn dost. Tarawyd ef yn ei ben gan waewffon a daflwyd ar antur gan foneddwr nad oedd yn ei ganfod yn eglur ar y pryd, fel y syrthiodd i lawr yn farw heb dderbyn un archoll arall."

Nid yw yn ymddangos fod dim o rywogaeth y baedd gwyllt yn Mhrydain yn bresennol heb eu dyfetha. Dywedir fod amryw mewn coedwigoedd o amgylch Llundain, yn gystal a manau ereill, tua'r ddeuddegfed ganrif. Gelwir un parthran o swydd Fife, yn yr Alban, yn Muckross (Moch rôs?), yn arwyddo *penrhyn baedd;* ac y mae traddodiad ei fod yn lle hynod am y creaduriaid hyny. Y mae cyfeiriad at yr arferiad o'u hela yn nghyfreithiau Hywel Dda, y deddfroddwr Cymreig; a gorfodai William y Gorchfygwr y neb a gaid yn euog o ladd y baedd gwyllt i golli ei lygaid yn gospedigaeth arno. Yr oedd rhywogaeth o honynt yn lled gyffredin yn ddiweddar yn Ffrainc, mewn parthau lle y mae planigfeydd eang; ac mewn rhai manau yn yr Almaen. Y maent i'w canfod yn lled fynych yn Syria a Palestina yn bresennol. Yn fwyaf cyffredin yn Ngwlad Canaan, gwelir hwynt ar fynydd Carmel, dyffryn Ajalah, ac o amgylch yr Iorddonen.

Turia moch cyffredin ddarn yma ac acw; ond turia y baedd gwyllt yn fwy tebyg i agor y tir yn gwysau, a hyny i ddyfnder a fyddo yn codi y gwinwydd a phlanigion ereill o'r gwraidd. Yn wyneb hyn, ymddengys prydferthwch dysgrifiad y Salmydd o Israel fel gwinllan, a phriodoldeb ei gyfeiriad at ddinystr y gelyn; naill ai Senacherib, brenin Assyria, neu Nebuchodonosor, brenin Babilon;—"Mudaist winwydden o'r Aipht: bwriaist y cenedloedd allan, a phlenaist hi. Arloesaist o'i blaen, a pheraist i'w gwraidd wreiddio, a hi a lanwodd y tir. Cuddiwyd y mynyddoedd gan ei chysgod; a'i changenau oedd fel cedrwydd rhagorol. Hi a estynodd ei changau hyd y môr, a'i blagur hyd yr afon. Pa ham y rhwygaist ei chaeau, fel y tyno pawb a ël heibio ar hyd y ffordd ei grawn hi? Y *baedd* o'r coed a'i turia, a bwystfil y maes a'i pawr;" *Salm* lxxx. 8—13. Gwel Hwch; Mochyn.—(*Goldsmith's Hist. of the Earth and Anim. Nat.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

**BAGLOG**, [*bagl*]: crwbachog. Defnyddir y gair hwn, y mae yn amlwg, yn anmhriodol yn y cyfieithiad Cymreig, yn *Ios.* ix. 5; "A hen esgidiau baglog." Y meddwl yw, eu bod wedi eu trwsio, neu yn glytiog, fel yn y cyfieithiad Seisonig, "*Old shoes and clouted*"—yn arwyddo eu bod braidd wedi eu gwisgo allan. "Hen esgidiau maglog."—*Dr. Morgan.* "Hen ac wedi eu trwsio."—Deg a Thrigain.

**BAGNOLENIAID**: enw ar blaid o'r Manicheaid. Gwel Manicheaid.

**BAGOAS=BAGOUS**: eunuch, yr hwn yr ymddiriedid iddo, ac a berchid yn fawr gan Artaxerxes III. (Ochus), yr hwn a wenwynodd Bagoas, C. C. 338. Rhoddwyd ef i farwolaeth gan Darius III., Codomanus, am gynnyg ei wenwyno yntau, C. C. 356. Cyfarfyddir yn fynych â'r enw Bagoas mewn hanesiaeth Bersiaidd; a defnyddid ef gan ysgrifenwyr Lladin yn gyfystyr âg eunuch.

Digitized by Google

**BAHARUMIAD, a BARHUMIAD**: "Azmafeth y Baharumiad," a elwid felly, efallai, am ei fod yn trigo yn Bahurim: 2 *Sam.* xxiii. 31; 1 *Cron.* xi. 33.

**BAHURIM**: pentref yn llwyth Beniamin: 2 *Sam.* iii. 16; a xvi. 5; a xix. 16. Efallai i'r lle gael ei adeiladu gan y gwŷr ieuainc a ddiangasant o gyflafan eu llwyth, ac mai yr un lle ydyw ag a elwir Almon: *Ios.* xxi 18: ac Alemeth: 1 *Cron.* vi. 60. Dilynai Phaltiel ei wraig Michal, merch Saul, gan wylo, hyd Bahurim, pan ei cymmerwyd oddi arno gan Isboseth, yr hwn a'i hanfonodd i Dafydd: 2 *Sam.* iii. 16. Aeth Dafydd drwy Bahurim yn ei ffoedigaeth rhag Absalom; ac yma y melldithid ef gan Simei. Y mae yn gorwedd ychydig o'r tu hwnt i Fynydd yr Olewwydd, ar y ffordd o Ierusalem i'r Iorddonen.

**BAI, BEIAU—O—US**: gwall, diffyg; camwedd, trosedd; pechod; toriad neu drosedd o reol osodedig. "Dim bai," dim achos, neu ddim yn haeddu marwolaeth: *Luc* xxiii. 4, 14, 15; *Ioan* xviii. 38. Prawf o'r fath egluraf mai "Oen difeius a difrycheulyd" oedd y Cyfiawn hwnw a ddyoddefodd yn lle yr anghyfiawn: 1 *Pedr* i. 18. "Ar y bai," sef i'w beio: *Exod.* v. 16. "Beiau cuddiedig;" *h.y.*, pechodau o anwybod: *Sal.* xix. 12. Dylid argyhoeddi brawd a droseddo o'i fai: *Gal.* ii. 11; *Mat.* xviii. 15: pan oddiwedder dyn gan ryw fai, dyledswydd y rhai ysbrydol yw adgyweirio y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder: *Gal.* vi. 1. Gweddus i ni gofio ein beiau: *Gen.* xli. 9; eu cydnabod yn edifeiriol ger bron Duw: *Hos.* x. 2; a'u cyffesu hefyd i'n gilydd: *Iago* v. 16. Bydd y gwaredigion yn y diwedd yn *ddifai* ger bron gorsedd Duw, drwy haeddiant y Gwaredwr, a rhinwedd ei aberth: *Dad.* xiv. 5; *Eph.* v. 27.

**BAICH**: llwyth, pwn pwys. Pan orchymynir i feibion Israel beidio dwyn *baich* o'u tai ar y dydd Sabbath (*Ier.* xvii. 22), arwydda y gair Hebreig unrhyw beth y gallesid yn hawdd ei gludo. Wrth feichiau yr Hebreaid yn yr Aipht (*Exod.* ii. 11), y meddylir llafur a gwasanaeth caled. mwy nag y gallasai natur ei oddef. Arwydda y baich yr annogir ni i'w fwrw ar yr Arglwydd (*Salm* lv. 22), ofnau a phryder meddwl. "Dwyn beichiau" y naill y llall (*Gal.* vi. 2), a gynnwysa gydymdeimlad âg ereill yn eu trallodau, ac yn benddifaddeu yn eu gwendidau. Yn hytrach nag arfer llymder gormodol at un wedi ei oddiweddyd gan fai, cyfarwydda yr apostol y Cristionogion i ddwyn beichiau y naill y llall, fel trwy y cydymddygiad hwn y cyflawnent gyfraith Crist, yr hon sydd yn dysgu ac yn argymhell tynerwch at anmherffeithiau ereill, cyhyd ag y gellir edrych arnynt fel gwendidau amryfus, ac nid fel pechodau gwirfoddol a maleisus. Cyfeirir yn y gair hwn at arferiad teithwyr, y rhai, pan wedi eu llwytho yn rhy drwm â chlud, a gynnorthwyant eu gilydd drwy gymmeryd beichiau y gweiniaid a'r rhai blinedig. Darlunia y Salmydd ei bechod fel baich trwm yn ei orlethu: *Sal.* xxxviii. 4. Y mae y "ceiliog rhedyn yn faich" pan y mae y gallu i'w ddwyn wedi myned yn brin: *Preg.* xii. 5. Yr oedd defodau gwasanaeth y gyfraith yn faich ar yr Iuddewon (*Mat.* xxiii. 4), a buasai argymhell y Cristionogion i enwaedu yn faich arnynt hwythau (*Act.* xv. 28). Y mae addoliad ffurfiol a rhagrithiol yn faich ar Dduw: *Esa* i. 14. Wrth y baich (*Mat.* xi. 30) y mae Crist yn ei roddi ar warau ei ddysgyblion, y meddylir holl rwymedigaethau ei grefydd; yr holl ufudd-dod y mae yn ei ofyn oddi wrth ddyn. Y mae y baich hwn ynddo ei hun, ac yn mhrofiad y gwir ddysgyblion, yn faich ysgafn. Y mae ei wasanaeth yn gyfiawn a rhesymol, ac yn ymddangos felly i bob enaid sydd wedi ei oleuo. Gelwir ef yn *faich*, am ei fod yn rhwymedigaeth ar ddyn; ac am fod llygredigaeth y natur yn peri ei fod yn ei berthynas â'r dyn yn wahanol i'r hyn ydyw ynddo ei hun: ond gelwir ef yn faich *ysgafn* ar gyfrif ei resymoldeb, a'i gyfaddasder at feddwl a natur dyn fel creadur; o blegid fel y "mae ffordd y troseddwyr yn galed," felly y mae llwybr crefydd a rhinwedd yn hyfryd ac esmwyth. Cyferbyna Crist yn yr ymadrodd hwn ei ddull ef o addysgu dynion âg eiddo y Phariseaid: ac efallai y golyga gymhariaeth neu gyferbyniad pellach a mwy cyffredinol; sef rhwng ei drefn ef o iachawdwriaeth a deddfolrwydd yn gyffredinol.

Defnyddir y gair *baich* gan y prophwydi am unrhyw ragfynegiad alaethus; megys baich Babilon, Ninefeh, Moab, yr Aipht, &c. Pan ofynai yr Iuddewon i Ieremïah, "Beth yw baich yr Arglwydd?" efe a'u hatebai, "Chwi yw y baich hwnw; yr ydych megys yn rhy drwm iddo i'ch dwyn; teifl chwi i lawr, a llwyr ddryllia chwi, a gwneir chwi yn warthrudd i'r bobl;" *Ier.* xxiii. 33—40. "Baich anialwch y môr" sydd brophwydoliaeth yn erbyn Babilon, yr hon oedd ar yr Euphrates, ac a olchid megys gan y môr; ac o fod yn fawr a phoblog, a wneid yn fuan yn anialwch.

**BAITH**: un o drefydd Moab, a grybwyllir yn *Esa.* xv. 2. lle yr oedd teml enwog i Baal, yr un, fel y bernir, a Baal-Meon. Felly, darlunir brenin Moab yn myned hyd yno i erfyn am gynnorthwy ei eilun yn erbyn yr Assyriaid. "Aeth i fyny i Baith ac i Dibon, i'r uchelfeydd i wylo." Y mae yr Esgob Lowth yn cydio y ddau enw, gan ddarllen y geiriau fel hyn, "Aeth i fyny i Beth-dibon i'r uchelfeydd i wylo." Ein cydwladwr, y Parch. Thomas Briscoe, a'i darllena fel hyn, "Efe a aiff i fyny i Beth-Dibon, i'r uchelfeydd i wylo." Ond Tegid a geidw yn nes i'r cyfieithiad arferol. "Efe a ä i fyny i Baith a Debon, yr uchelfeydd, i wylo." Fe ddichon fod y gair *Baith* yn arwyddocau tŷ neu deml eilun.

**BALAAM**: dewin nodedig o Mesopotamia, a mab i Beor. Enw ei drigfa oedd Pethor, am yr hon y dywedir ei bod "wrth afon tir meibion ei bobl;" *Num.* xxii. 5. Dinas oedd Pethor ar lan yr Euphrates. Galwa yr Iuddewon hi Pethura; a'r enw a roddir arni gan Eusebius yw Pathara, a dywed ei bod yn sefyll yn Mesopotamia Uchaf. Bernir fod yr enw Pethor yn tarddu o'r ferf *pâthar*, ystyr yr hon yw *deongli breuddwydion;* ac fod dinas Balaam yn dwyn yr enw hwn am ei bod yn drigle meddiannwyr y gelfyddyd ddirgelaidd. Y mae yn amlwg fod doethion Babilon mewn amseroedd diweddarach yn cyd-drigo mewn dinasoedd [gwel *Pliny*, *H. N.*, vi. 25; a *Strabo*, xvi. 1]. Dywed Gesenius, fod yr enw Balaam yn tarddu o בל ac עם=*nid pobl*, yn golygu nad oedd yn perthyn i'r bobl. Yn erbyn hyn, dywed Hengstenberg—1af, Nad oedd בל yn cael ei ddefnyddio mor fore yn ysgrifeniadau Moses; mai hyd yma בלי a ddefnyddid. 2il, Nas gall *nid pobl* sefyll am "yr hwn ni pherthyn i'r bobl." Dywed yr olaf ei fod yn tarddu o בלע=*dinystr*, ac עם=*pobl*, a bod yr ystyr yma yn cytuno â golygiadau Balac am Balaam: *Num.* xxii. 6. Cydsynia

Digitized by Google

y proffeswr Robinson â'r un tarddiad [gwel *Greek Lexicon*, d. g. Νικολαΐτης]. Dichon iddo gael yr enw hwn o herwydd ei fod yn cael ei ofni gan y bobl fel dewin a swynwr, gan yr ystyrid ef yn gymmeriad peryglus: o blegid nid peth anarferol yn y dwyreintyd oedd rhoddi ar bersonau enwau a osodent allan eu nodweddau, a'r golygiadau a goleddid am danynt. Defnyddid enwau cyfystyr â hwn gan y Groegiaid; megys Andronicus, Nicodemus, a Nicolas. Cytuna geiriau yr Iesu yn y llythyr at eglwys Pergamus â'r ystyr hwn o'r enw: *Dad*. i. 14, 15. Y mae yr adnodau hyn o bwys, gan y dangosir ynddynt yn mha beth y mae y gymhariaeth rhwng gau athrawon yr oes hono a Balaam yn gynnwysedig; o herwydd yr hyn y gelwir hwy Nicolaiaid, hyny yw, Balaamiaid, gorchfygwyr neu ddinystrwyr y bobl. Peth dinystriol i'r eglwys yw yr athrawiaeth y gall Cristionogion ddilyn bywyd paganaidd, cyfranogi o'u gwleddoedd aberthol a'r eithafion cyssylltiedig â hwy—cyfeiliornad sydd yn gorphwys ar gamddeongliad uffernol o ryddid Cristionogol. Fel Balaam, profodd gau athrawon yr oes hono eu bod eu hunain yn ddinystrwyr yr eglwysi; ac nid hyny yn unig, ond hefyd tynasant lid dwyfol ar yr eglwysi trwy eu hathrawiaeth.

Cawn hanes Balaam a'i brophwydoliaethau yn *Num*. xxii—xxiv; oddi wrth yr hyn y gallwn ffurfio barn am ei gymmeriad a'i safle grefyddol. Y mae dau olygiad wedi bod yn cael eu coleddu am Balaam. Yn ol y cyntaf, gau brophwyd a swynwr ydoedd, heb un berthynas yn y byd rhyngddo a'r gwir Dduw, ond wedi ymroddi i eilunaddoliaeth; ac nid oedd ei brophwydoliaethau a'r bendithion a gyhoeddodd i Israel yn dibynu dim ar ei dueddiadau ei hun, ond yn cael eu rhoddi ganddo heb ei gydsyniad, ac hyd yn oed yn groes i'w ewyllys personol, o dan ddylanwad gorfodaeth ddwyfol ag oedd yn gweithredu arno ar y pryd. Dyma fel y dysgai Philo, Ambrose, Awstin, Origen, Gregory o Nyss, a Theodoret. Yn ol y dyb arall, yr oedd Balaam, ar y cyntaf, yn ddyn hollol dduwiol, ac yn wir brophwyd; ond iddo, wedi hyny, drwy hudoliaeth cybydd-dod, wrthgilio. Dyma y dyb a goleddir gan Tertullian, Jerome, a Buddeus; a geilw y diweddaf ef yn esampl echryslawn o wrthgiliad.

Gwrthoda Hengstenberg y ddau olygiad, a dadleua fod gwir safle Balaam rhwng y ddau. Yn erbyn y rhai a haerant nad oedd Balaam yn meddu dim ofn Duw, dadleua fod hyny yn groes i'r dybiaeth a goleddid yn gyffredin yn ei oes am dano, o herwydd pa un yr anfonodd Balac ato. Hona Balaam berthynas â Duw yn *Num*. xxii. 18, gan ei alw "yr Arglwydd fy Nuw;" a dengys yr adnodau cyssylltiadol ei fod yn arfer myned at Dduw mewn achosion dyrus. Dangosodd barch nid bychan i'r Arglwydd trwy wrthod cydsynio â chais Balac, er ei holl gynnygion deniadol; ac mai nid ffugio ymofyn â'r Arglwydd a wnaeth sydd amlwg, o blegid yna gallasai ffugio atebiad ffafriol. Nad gorfodaeth anianyddol (*physical*), ond un foesol, oedd arno i lefaru fel y dywedodd yr Arglwydd, sydd amlwg oddi wrth ei amddiffyniad ger bron Balac; "Onid yr hyn a osododd yr Arglwydd yn fy ngenau sydd raid i mi *edrych* ar ei ddywedyd;" *Num*. xxiii. 12. Mae ei ddymuniad, "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau" (*Num*. xxiii. 10), yn anghysson â'r dyb mai dyn hollol annuwiol ydoedd. Gwel hefyd *Num*. xxiv. 2—4, 15, 16. Yn erbyn y dyb fod Balaam, ar y cyntaf, yn ddyn hollol dduwiol, ac yn wir brophwyd, dadleua yr un awdwr fod yr enw *dewin*, a roddir iddo yn *Ios*. xiii. 22, yn profi y gwrthwyneb, yr hwn air ni ddefnyddir mewn ystyr dda yn llyfrau hanesiol yr Hen Destament. Y mae'n amlwg hefyd ei fod yn arfer dewiniaeth: *Num*. xxiv. 1. Yr oedd hefyd dan ddylanwad cybydd-dod i'r fath raddau, fel, wedi iddo gael gommeddiad gan Dduw i fyned gyda'r cenadau, y cadwodd hwynt heb eu hanfon ymaith nes myned i ymofyn â'r Arglwydd yr ail waith. Pan ddaeth cenadon ato yr ail waith, ac iddo gael cenad i fyned gyda hwy, aeth yn uniongyrchol, er fod yr Arglwydd yn gorchymyn iddo na lefarai ddim ond y genadwri a roddai efe iddo; gan ddysgwyl, mae'n debyg, er y cyfan, y cawsai ei fydolrwydd ryw ffordd ei foddhau.

Gan farnu fod y golygiad cywir am Balaam i'w gael rhwng y ddau uchod, dyweda yr awdwr crybwylledig, "Sicr yw fod yn Balaam elfenau gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd; ond yr oedd wedi aros gyda'r elfenau—nid oedd wedi cyrhaedd dychweliad sylfaenol gydag ef. Cynnysgaethwyd ef yn ddiau â llewyrchiadau unigol eglur o oleuni gan ysbryd Duw; ond nid ymddengys y ddawn brophwydoliaethol hon fel un gyflawn a sicr, fel nas meiddiwn ei gyfrif yn mhlith y gwir brophwydi." Dilys yw ei fod wedi derbyn gwybodaeth am Dduw ryw ffordd oddi wrth yr Israeliaid eu hunain, ac nid oddi wrth y traddodiadau a ffynent yn y byd cenedlig; o blegid, 1af, Defnyddia yr enw Iehofah, yr hwn ni ddefnyddid lle nad oedd goleuni dadguddiad ryw ffordd wedi cyrhaedd. 2il, Geilw ef yn Dduw Israel, a dangosa ei fod yn hysbys o'r hyn a wnaeth ac a wnai Iehofah ar eu rhan (*Num*. xxiii. 21, 22). 3ydd, Gorphwysa ei brophwydoliaethau ar addewidion Duw i'r genedl. Cymharer *Num*. xxiii. 10, â *Gen*. xiii. 16; a *Num*. xxiii. 24, a xxiv. 9, 17, â *Gen*. xlix. 9, 10. 4ydd, Cytuna y golygiad hwn â'r darluniadau a roddir mewn lleoedd ereill o'r teimladau grymus a gynnyrchodd gweithredoedd Duw dros Israel ar y cenedloedd amgylchynol: *Exod*. xv. 14; *Ios*. v. 1; ac yn enwedig âg amgylchiad Iethro a Rahab, y rhai a dderbyniasant eu hadnabyddiaeth o Dduw Israel drwy yr un moddion: *Exod*. xviii. 1—11; *Ios*. ii. 9—11.

Diau nad oedd Balaam, ar y cyntaf, ond dewin neu ddaroganwr paganaidd, yn llafurio dan ddylanwad bydolrwydd. Canfu, trwy brofiad, wendid ac ansicrwydd ei gelfyddyd. Ar y pryd, daeth gweithredoedd rhyfeddol Duw Israel i'w glustiau; derbyniodd hwy gyda sylw mawr, a gwnaeth ymdrech i gyrhaedd gwybodaeth berffeithiach am Dduw a'i ddadguddiedigaethau. O hyn allan, cyssegrodd ei hun i'w wasanaeth, gan alw Iehofah yn Dduw iddo, a sefyll i fyny yn ei enw fel prophwyd. Ni adawodd Duw ef yn ddidyst—heb lefaru wrtho; a daeth i gael ei gyfrif, mewn canlyniad, yn brophwyd i Dduw Israel, fel y dengys cenhadaeth Balac ato, a'r geiriau â pha rai yr anerchodd ef: *Num*. xxii. 6. Cariodd wybodaeth gynnyddol am Dduw ddylanwad foesol ar ei galon er ei ddwyn i'w ofni a'i barchu. O leiaf, y mae y golygiad yma am dano yn gysson â'i ymddygiad mewn canlyniad—yr ofn a'r parch a ddangosodd tuag at Dduw Israel; a'i anmharodrwydd i ddyfod at Balac, ac wedi dyfod, i wneuthur dim ond a orchymynai Duw iddo, er cynnyg o Balac iddo anrhegion mawrion am ddyfod a melldigo Israel. Dangosai mai ofer yw melldithio y rhai a fendithiodd yr Arglwydd, ac mai ei ddymuniad oedd cael marw fel hwynt: *Num*. xxiii. 7—10: fod y rhai a ymdrechant yn

Digitized by Google

erbyn Israel yn ymdrechu yn erbyn Duw, yr hyn sydd beth ofer: *adn.* 18—24; fod Duw yn gadarn yn Israel, ac y byddai iddo droi pob melldith yn eu herbyn ar ben y melldithiwr: *pen.* xxiv. 3—9: ac fod Israel i gael buddugoliaeth ar eu holl elynion: *adn.* 15—24.

Ond er hyn oll, yr oedd Balaam, fel Simon Magus, yn llafurio dan ddylanwad bydolrwydd a chybydd-dod. Nis gallai gael llonydd gan y teimlad hwn wedi dychwelyd yn ol i'w wlad. Aeth i chwilio am ryw ffordd i foddhau ei nwyd lywodraethol, a meddyliodd mai y ffordd debycaf o lwyddo yn erbyn Israel oedd eu harwain at eilunaddoliaeth, a'r pechodau gwarthus cyssylltiedig âg ef. Dychwelodd yn ol at y Moabiaid, a gosododd ei gynllun ger eu bron. Yn ol ei gynghor, gosododd y Moabiaid ferched Midian ger bron meibion Israel, i'w hudo i eilunaddoliaeth a godineb gyda hwy, a buant lwyddiannus i ddwyn digofaint Duw arnynt: *Num.* xxv. 1—5. Fod gan Balaam law yn y gwaith o arwain Israel i'r pechodau ysgeler hyn, sydd amlwg oddi wrth *Num.* xxxi. 16. Mewn canlyniad, gorchymynodd Duw i'r Israeliaid ymosod ar y Midianiaid, a bu lladdfa fawr. "Balaam hefyd, mab Beor, a laddasant â'r cleddyf;" *Num.* xxxi. 1—12. Dyma ddiwedd y prophwyd hwn, yr hwn a feddai wybodaeth am y Duw byw, ac a deimlai barch helaeth tuag ato; ond o herwydd caru gwobr anwiredd, a ddysgodd i Balac fwrw rhwystr ger bron meibion Israel i fwyta pethau wedi eu haberthu i eilunod ac i odinebu, ac a gafodd gerydd am ei gamwedd: 2 *Pedr* ii. 15, 16; *Iud.* 11; *Dad.* ii. 14. "Gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch: yr hon a rhai yn chwannog iddi, hwy a gyfeiliornasant oddi wrth y ffydd, ac a'u gwanasant eu hunain â llawer o ofidiau."—(*Hengstenberg's Hist. of Bal. and Pro.*; *Hengstenberg's Intro. to Pent.*, cyf. i.; *Havernick's Intro. to Pent.*; *Encycl. of Rel. Know.*, d.g. *Balaam*; *Stuart*; *Hengstenberg*; *Barnes' Notes on Rev.* ii. 14, &c.)

**BALAC**, [בלק]: mab Sippor, brenin Moab: *Num.* xxii. 2, 4; yr hwn a ddychrynodd gymmaint ar ddynesiad byddin luosog Israel at ei gyffiniau, ar eu taith drwy yr anialwch, fel yr anfonodd efe am Balaam, dewin enwog o Pethor, ar lanau yr Euphrates, i'w rhegu. Ond ofer yw bwriadau dyn pan yn croesi cynghor yr Hollalluog. Bendithiodd Duw ei bobl drwy enau y prophwyd a gyrchwyd i'w melldithio: *Num.* xxiv. 9; "Bendigedig fydd dy fendithwyr, a melldigedig dy felldithwyr." Gallem gasglu oddi wrth *Barn.* xi. 25, i Balac gael ei argyhoeddi drwy y drafodaeth o'i eiddo â Balaam, mai ofer iddo byth gynnyg ymladd â'r Israeliaid; canys felly y dywedai cenadon Israel wrth Sehon brenin yr Amoriaid, "Ac yn awr, a wyt ti yn well na Balac, mab Sippor, brenin Moab? a ymrysonodd efe erioed âg Israel, neu gan ymladd, a ymladdodd efe i'w herbyn hwy?" Ond trwy gynghor Balaam, y mae yn ymddangos ddarfod iddo wneyd niwed mawr iddynt drwy ddylanwad hudolus merched Midian: *Num.* xxxi. 16. Gwel Balaam.

**BALADAN**: yr un a Belesis, a Nabonassar yr haneswyr cenedlig, seilydd yr ymherodraeth Fabilonaidd. Y mae cyfnod y penadur yma, yr hwn a adwaenir yn dda dan yr enw Cyfnod Nabonassar, yn hynod mewn seryddiaeth, gan mai dyma yr un a ddilynid yn gyffredin gan Hipparchus a Ptolemy. Deuir i benderfyniad manwl am yr adeg o'r hwn ei cyfrifir drwy luaws o arwyddion wybrenol a gofnodir gan Ptolemy, ac y mae yn cyfateb i ganol dydd Mercher, y 26ain o Chwefror, yn y flwyddyn 747 c. c.

**BALAH**: un o'r dinasoedd a ddisgynodd wrth goelbren i etifeddiaeth llwyth Simeon: *Ios.* xix. 3. Yr un a Soar, lle y cafodd Lot loches, medd rhai.

**BALANUS**: tywysog Galiaidd, yr hwn a gynnorthwyodd y Rhufeiniaid yn eu rhyfel Facedonaidd.

**BALCHDER.** Gwel Gostyngeiddrwydd.

**BALM**, (צרי=*tzeri*): sudd per yn dyferu oddi wrth goedydd a dyfent er yn fore iawn yn Gilead, neu ranau gogleddol Syria: y tyfiant yno sydd debyg i'r tyfiant yn mharthau Ewrop a fliniant ar Fôr y Canoldir, heb nemawr o debygolrwydd i dyfiant Asia ac Affrica. Ceid y balm goreu pan y byddai y sudd yn ei gylchrediad cryfaf trwy y pren, yn Gorphenaf, Awst, a dechreu Medi. Torid y rhisgl er mwyn i'r sudd ddyferu o hono. Gwerthid am ei bwys ddwywaith o arian. Cawn yn *Gen.* xxxvii. 25, fod mintai o Ismaeliaid yn dyfod o Gilead, ac yn myned i waered i'r Aipht, a'u camelod yn dwyn llysiau, a balm, a myrr. Anfonai Israel yn anrheg i Ioseph ei fab, pan yn llywydd yr Aipht, yn mysg pethau ereill, "ychydig falm;" *Gen.* xliii. 11. Yr oedd balm yn cael ei ddefnyddio yn helaeth yn yr Aipht i berarogli cyrff meirw. Gwerthfawrogid ef fel tlwsolch, a defnyddid ef at glwyfau allanol, a brathiadau creaduriaid gwenwynig. Mewn cyfeiriad at ei rinweddau meddygol y gofyna y prophwyd, "Onid oes balm (a gyfieithir *triagl* yn *Ier.* viii. 22; xlvi. 11; a li. 8; hefyd yn *Ezec.* xxvii, 17) yn Gilead;" y dywedir wrth yr Aipht, "Dos i fyny i Gilead, a chymmer falm;" ac y dywedir am Babilon, "Cymmerwch falm i'w dolur hi, i edrych a iacha hi." Nid ydys yn gwybod yn hollol o ba rywogaeth o bren y ceid balm yr Hen Destament o hono. Noda



Dar. 108.

llysieuwyr bum rhywogaeth o'r pren balsam, dau o ba rai a ddygant fydr. Meddylia ysgrifenydd yr erthygl "Basam," yn *Kitto's Cycl.*, fod y gair בשם (*basam* neu *bosem*) yn *Exod.* xxxv. 8, 28; 1 *Bren.* x. 10; *Can. Sol.* iv. 14, 16; v. 13; vi. 2; a viii. 14, &c., er ei gyfieithu *perlysiau* a *pheraroglau*, yn arwyddo y pren *balsam*.

Hwn sydd bren gwastadwyrdd, a tyfa i tua

Digitized by Google

phedair troedfedd ar ddeg o uchder o hono ei hun heb wrtaith. Torir hwynt i lawr weithiau yn danwydd fel coed cyffredin y wlad; ac y mae yn nghylch wyth neu ddeg modfedd o dryfesur. Ei flodau ydynt fychain a gwynion. Ei gangenau a ymwasgarant; y mae ei risgl yn llyfn, o liw yr onen, ond yn arw yn y rhanau hynaf, fel y darlunir gan Bruce. Y mae ei goed yn gaboladwy, a'i sudd yn rhoddi y math goreu o berarogl. Dywed Horne [*Introd.* cyf. ii., t.d. 67] fod y balsam hwn mewn bodolaeth yn amser rhyfel olaf yr Iuddewon â'r Rhufeiniaid, ond nad yw yn cael ei wrteithio yn Palestina er pan y mae y Tyrciaid yn arglwyddiaethu yno. Dywed y *National Cyclopædia* nad yw cynnyrch y *Balsamodendron Gileadense*, fel y gelwir balsam Mecca neu balsam Gilead, yn teilyngu yr enw, am ei fod yn sylwedd olewaidd ystoraidd (*oleoresinous*). Y gair a arfera y Deg a Thrigain am *tzeri* yw ρετινη, a'r gair yn y Vulgate yw *resina*. Efallai ei fod yn air cyffredin am y gwahanol wlybyroedd olewaidd per a geid o brenau yn ngwledydd y dwyrain.—(*Kitto's Cyc.; National Cyc.*)

BALTHASAR: mab Nebuchodonosor: *Bar.* i. 12; yr un ag a elwir Belsassar: *Dan.* v. 1, &c.

BALLEGRWYD, [*ball* a *rhwyd*]: math o rwyd neu gawell pysgota; rhwyd dynu, neu yn hytrach, rhwyd cored, ballaweg, balleg. "Gwnei ddynion fel pysgod y môr......cyfodant hwynt oll â'r bach; casglant hwynt yn eu rhwyd, a chynnullant hwynt yn eu ballegrwyd," &c. "Llosgant arogldarth i'w ballegrwyd;" *Hab.* i 15. 16. Cyfeirir yn yr adnodau hyn at dri dull o ddal pysgod; sef, yn 1af, â bach, gyda gwialen bysgota; yn 2il, â rhwyd weuedig neu blethedig; yn 3ydd, â ballegrwyd, neu rwyd wedi ei llunio yn y fath fodd ag i ymgau am yr helfa; neu un y byddo eu myned iad i mewn iddi yn hawdd, ond wedi eu myned i mewn, nas gallant ddianc o honi. Dengys y prophwyd, drwy y gymhariaeth briodol a phrydferth hon, y modd yr ymddyga treiswyr a gorthrymwyr tuag at y gweiniaid gorthrymedig, a'u hanystyriaeth gwallgof a didduw yn eu llwyddiant pechadurus. Gwel RHWYD.

BAMA, neu BAMAH: uchelfa, lle yr addolai yr Iuddewon eu heilunod: *Ezec.* xx. 29 Y mae y gair yn cael ei gyfieithu *uchelfa* yn mhob man arall, ac yn cael ei ddefnyddio yn gyffredin i ddynodi y bryniau hyny ar ba rai y byddai y cenedloedd, ac yn rhy fynych yr Hebreaid hefyd, yn cyflawnu eu defodau eilunaddolgar.

BAMOTH: uchelfeydd: *Num.* xxi. 19, 20. Yn *Esa.* xv. 2, cyfieithir ef yn "uchelfeydd." Bernir yn gyffredin mai yr uchelfeydd ger llaw afon Arnon oedd y lle; ac efallai fod yno ddinas, a theml i Baal; canys yn *Ios.* xiii. 17, sonir am Bamoth-Baal.

BANER [*banner, flag; ensign, standard*—Seis.]: arwydd llu, lluman. Y mae yn eglur nad yw y geiriau baner na lluman i'w deall yn yr Ysgrythyrau fel yn arwyddo yr un fath beth ag a ddeallir wrthynt yn gyffredin yn ein dyddiau ni, neu *flag* yn Seisoneg; ond yn hytrach eu bod yn golygu unrhyw beth a godid i fyny yn amlwg i fod yn gyfarwyddyd i filwyr yn y frwydr, neu i ddynodi y wersyllfan. Gellir casglu yn naturiol nad oedd unrhyw arwyddocâd neillduol yn perthyn i faner ar y cyntaf, ond yn unig i ddangos i bawb pa le y byddai eu cydfilwyr, fel y byddai iddynt ymgadw gyda'u gilydd yn eu hymosodiad ar eu gelynion. Cymmerid rhywbeth nesaf i law, a chodid ef ar drostan i'r dyben yma; ond yrydym yn cael fod rhai cenedloedd, beth bynag, wedi iddynt gael yr oruchafiaeth ar eu gelynion, yn priodoli hyny i'r lluman, ac yn edrych arno yn y canlyniad â rhyw gyssegredigrwydd yn perthyn iddo fel nad elent i frwydr drachefn heb y faner y cawsant fuddugoliaeth o dan ei nodded o'r blaen. Fel hyn y darfu i'r Persiaid unwaith mewn brys, pan mewn ymgyrch, godi i fyny arffedog groen gof ar bawl; a chan eu bod wedi bod yn llwyddiannus i yru eu gwrthwynebwyr i ffoi, bu arffedog groen yn lluman cenedlaethol yn Persia am lawer o ganrifoedd. Yn y modd yma y dechreuodd yr arfer o roddi cynffonau meirch ar eu baneräu gan y Tyrciaid; a'r un modd hefyd y daeth tusw o wair wedi ei rwymo ar ben pawl i fod yn lluman yn mysg y Rhufeiniaid. O'r diwedd cerfid lluniau arni gyda chyfeiriad at ryw beth a gyfrifid ganddynt yn dduw neu dduwiau, ar gymhorth ac amddiffyniad y rhai yr oeddynt yn tybied fod eu llwyddiant mewn rhyfel yn ymddibynu. Dywed rhai teithwyr fod y minteioedd masnachol (*caravans*) yn y dwyrain, gan eu bod yn gorfod trafaelio yn y nos o herwydd poethder y dydd, yn dwyn baner gyda hwynt—math o drostan hir ac arni amryw oleuadau, i'r dyben i'w cadw yn nghyd, a'u galluogi i wahaniaethu y naill ddosbarth oddi wrth y llall.

Y mae yn anhawdd gwybod pa fath oedd y banerau neu y llumanau oedd gan feibion Israel y cyfeirir atynt yn yr Hen Destament. Lled debyg yw nad oeddynt yn gwybod am fath yn y byd o honynt pan aethant gyntaf i'r Aipht; ond yn yr anialwch, wedi eu dyfodiad allan oddi yno, yr ydym yn cael eu bod yn gwersyllu ac yn symmud "bob un yn ei wersyll ei hun, a phob un wrth ei luman ei hun, trwy eu lluoedd;" *Num.* i. 52; ii. 17, 34. Tybir yn gyffredinol mai gan yr Aiphtiaid y dechreuwyd dwyn banerau yn eu rhyfeloedd, o blegid mai yn eu mysg hwy yr oedd y byddinoedd rheolaidd cyntaf ag y ceir hanes am danynt. Ac y mae yn ddiammheu ddarfod i Moses, gan ei fod yn "ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aiphtiaid," wneuthur defnydd o honi yn mhob peth oedd yn fanteisiol iddo i drefnu y gwersyll yn yr anialwch yn y modd mwyaf cyfleus i deithio. Nid un o'r pethau lleiaf eu pwys gyda mintai mor luosog o bob rhyw, gradd, ac oedran, oedd cael rhywbeth i ateb dybenion banerau mewn trefn i gadw pob rhan, llwyth, a theulu, yn y gwersyll gyda'u gilydd, a chadw pawb yn ei le priodol ei hun. Yr oedd y gwersyll wedi ei ddosbarthu yn bedair rhan; a thri yn mhob rhan: a bernir fod un faner gyffredinol yn perthyn i bob rhan, un arall yn perthyn i bob llwyth, ac un drachefn i bob teulu; *Num.* ii. [Gwel GWERSYLL.] Ar ol iddynt ymsefydlu yn Ngwlad Canaan, nid yw yn hawdd penderfynu pa fodd y cerddent i'r frwydr. Nid yw yn annhebyg pa fodd bynag, fod ganddynt fanerau i ddosbarthiadau llai, heb law llumanau cyffredinol yn perthyn i bob llwyth. Gellid casglu hefyd fod ganddynt ryw fathau ereill yn cael eu gosod ar benau y mynyddoedd, a lleoedd amlwg, i fod yn arwyddion o berygl, ac i roddi rhybudd cyflym trwy yr holl wlad i ymbarotoi i ryfel: *Esa.* xiii. 2; *Ier.* li. 27.

Y mae yr un mor anhawdd eto cael allan pa fath ydoedd banerau yr Hebreaid. Myn y Rabbiniaid Iuddewig, y rhai sydd yn honi eu bod yn

Digitized by Google

ddigon dysgedig i wybod pob peth braidd, eu bod yn debyg i fanerau y dyddiau hyn, ac arnynt ddarluniau mewn cyfeiriad at fendith Iacob i'w feibion; megys llew ar yr eiddo Iudah, sarff ar yr eiddo Dan, blaidd ar yr eiddo Beniamin, &c.; *Gen.* xlix. Ond nid yw eu dychymygion yn cytuno â'r dysgrifiad yn y brophwydoliaeth. Barna rhai o'r Iuddewon hefyd fod baner felly yn perthyn i bob un o'r pedwar prif ddosbarth, ac ar faner y dosbarth a gynnrychiolid gan Iudah, llew; ar yr eiddo Reuben, dyn; ar yr eiddo Ioseph, ych; ar yr eiddo Dan, eryr: ond yr hyn a roddodd sail i'r dychymyg hwn eto, yn ol pob tebyg, ydoedd gweledigaeth Ezeciel; *pen.* i. 10. Dywed y Targum drachefn fod eu banerau yn gwahaniaethu yn eu lliwiau, yn debyg fel yr oedd y meini yn nwyfroneg yr archoffeiriad, a bod y brif faner oedd yn perthyn i'r tri llwyth oedd yn nghyd yn y dosbarthiad hwnw, yn cynnwys y tri lliw oedd ar fanerau neilldual pob un o'r llwythau hyny; a bod enw pob llwyth ar ei faner, a rhyw ran o'r gyfraith, yn nghyd â'r arwyddion neillduol a berthynai iddynt, megys llew ar yr eiddo Iudah, &c. Dychymyga y Cabbaliaid wedi hyny mai arwyddion y sidydd (*zodiac*) oedd arnynt, yn cyfateb i fisoedd y flwyddyn, yr hwrdd, y cranc, yr afr, &c. Ond wedi yr holl wastraff yma ar gywreinrwydd, nid ydym wedi cael dim y gellir ei alw yn oleuni ar y pwnc. Ac y mae y dysgrifiad o honi yn gyffelyb i fanerau (*flags*) diweddar yn milwrio yn erbyn pob casgliad a ellir ei wneyd oddi wrth hen gerfluniau o honi yn mhlith cenedloedd y dwyrain.

Ymddengys oddi wrth y cofgolofnau fod llumanau yr Aiphtiaid yn amrywio er yr amser boreuaf, fel y canfyddir oddi wrth y darluniad canlynol. Ceir ar y colofnau hyn—1. Gorseddau neu gludgadeiriau, yn arwyddo prif ganolbarth gyssegredig byddin. 2. Gwyntyll freninol yn y ganolfan gyssegredig, yn cael ei dwyn bob amser gan dywysogion neu feibion brenin, ar bawl hir, yn fwy fel arwydd o anrhydedd nag fel cysgodlen; dyma ydyw *efthoudehs* India. 3. Trostan hir yn cael ei dwyn ar ysgwyddau, ac arni belen gron, a phluen ddwbl anferth o tua deuddeg neu bedair ar ddeg o droedfeddi o hyd, a phedair neu bump o led, wedi ei liwio yn las, gwyn, a choch. Gelwid hwn yn lluman Sesostris; ac yn ol fel y tybir ei fod yn arwydd o wersylliad, yr hwn a osodid o flaen y babell freninol, ac yn weledig i bawb uwch law pob lluman arall. 4. Banerau llai gyda dwy bluen mewn pelen gron, a'i throed wedi ei osod mewn math o ystôl i'w dal i fyny. Tybir fod y rhai hyn yn cael eu defnyddio yn gyfarwyddyd i'r gwersyll fel mynegbyst, i ddangos ffynnonau, llinellau yn mlaen y gwersyll, &c. 5. Canfyddwyd amrywiol dafleni ar bawliau wedi eu sierhau yn gyffelyb, ond yn meddu rhyw arwyddion penodol; a dwy, tair, neu bedair o ddwylaw yn dal rhyw bethau a ellid eu tynu a'u rhoddi ynddynt, ac yn debyg y gellid symmud y breichiau hefyd; fel y mae yr oll o hono yn nghyd yn dangos y tebygolrwydd mawr i fath o bellebyr. 6. Gryn lawer o fathau o fanerau yn meddu arwyddluniau, gyda, ac heb leni oddi tanynt, yn perthynu i demlau, cilunod, dinasoedd, &c. 7. Tafleni pedair onglog ar bawl, yn cael eu dwyn gan arweinydd llwyth. 8. Banerau o bluf yr estrys, yn cael eu dwyn gan dywysogion fel arwydd o anrhydedd, ac weithiau plenid hwy ar y cefn mewn gwregys llydan. Bernir fod y mathau o fanerau a nodwyd, neu o leiaf y rhan fwyaf o honynt, i'w cael yn mysg yr Aiphtiaid mor fore a'r adeg yr aeth Israel allan o'u gwlad "â llaw gadarn, ac a braich estynedig," a bod Moses, yn ol pob tebyg, wedi gorchymyn rhai lled gyffelyb i fod yn arwyddion ac yn gyfarwyddiadau i'r gwersyll yn yr anialwch. Noda Jahn dri math o fanerau gan Israel:—1. דגל (*degel*), yr hwn oedd yn perthyn i bob dosbarth pedwar-ran o'r llwythau, fel y nodwyd uchod. 2. אות (*oth* neu *aoth*), yr hwn a berthynai i ddosbarthiadau llai, neu deuluoedd. Tybia nad oedd ar y cyntaf ond tusw o ddail, neu rywbeth cyffelyb, wedi ei gylymu ar bawl neu waewffon; ond y dichon mai tarian a grogid felly mewn amser diweddarach, fel yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. 3. נס (*nes*), pawl hir yn cael ei osod ar leoedd amlwg i gylymu rhywbeth yn ei ben, yn arwydd o berygl, fel y gwelid ef o bell i gasglu y milwyr yn nghyd. Dywed ysgrifenydd arall, y gall fod rhyw ddarluniau arwyddocaol ar eu banerau, ac y dichon mai llun y rhai a ddefnyddid yn Ierusalem a osodir allan yn yr orymdaith fuddugoliaethus sydd wedi ei cherfio ar fwa Titus, lle y mae y canwyllyr aur, a phethau ereill a ddygwyd o Ierusalem, yn cael eu dysgrifio. Ond nid yw yn debyg fod unrhyw arwyddlun arwyddocaol felly yn cael ei oddef yn mysg yr Iuddewon, a fuasai yn rhoddi unrhyw achlysur iddynt briodoli eu llwyddiant mewn rhyfel i'r faner ac nid i'w Duw.

Pa fodd bynag, yr ydym yn cael hanes am genedloedd ereill, fod y faner yn gyssegredig ganddynt, ac yn fwyaf cyffredin yn arwyddlunïol. Dywed Homer mai gorchudd cochlas oedd gan Agamemnon yn cyffroi ei filwyr, ac yn arwydd iddynt. Mewn amseroedd diweddarach, ceir hanes fod yr Atheniaid yn cerfio dylluan ar eu llumanau, fel aderyn oedd yn gyssegredig i Minerva—y dduwies a ystyrid ganddynt oedd yn amddiffyn eu dinasoedd. Gosodai y Thebiaid sphinx ar yr eiddynt hwy, mewn cyfeiriad at oruchafiaeth Œdipus ar yr anghenfil hwnw. Rhoddai llwythau ereill o'r Groegiaid arnynt naill ai cerfluniau o'u duwiau diffynol, neu ryw arwyddion neillduol mewn cyfeiriad atynt; ac weithiau heb ddim yn chwaneg na llythyren gyntaf eu henw cenedlaethol. Y faner oedd gan Cyrus, brenin Persia, yn ol tystiolaeth Xenophon, ydoedd eryr aur ar darian wedi ei roddi ar waewffon. Dywedir hefyd eu bod, mewn amgylchiadau anghyffredin o leiaf, pan y byddai y brenin ei hun gyda'i luoedd, yn meddu darlun o'r haul wedi ei weithio mewn crisial, yr hwn a ddysgleiriai yn y modd mwyaf ysblenydd uwch ben y babell freninol. Yr oedd ganddynt gerflun o groes, â phum clobyn crwn arni, yn cyfeirio, y mae yn lled ddiammheuol, at y cyrff nefol, y rhai a ystyrid gan y Persiaid, yn yr hen oesoedd, yn wrthddrychau o addoliad. Yr oedd pen baner oedd ganddynt fel sarff wedi ei gwneuthur o fetel, â'r geg yn agored, wrth yr hwn y cylymid math o gŵd main hir, ir dyben i'r gwynt chwythu iddo fel y byddai yn gyffelyb i sarff yn chwifio ei chynffon yn yr awyr. Yr oedd amryw fathau o fanerau gan y Rhufeiniaid, yn ol amrywiol ddosbarthiadau y fyddin. Nid oedd gan y dosbarthiadau lleiaf gynt ond tusw o wair ar waewffon yn faner, a gelwid y dosbarth hwnw, *manipulus*, ar y cyfrif yma. Wedi hyny, rhoddid croes ar ei phen, ac weithiau law â tharian oddi tani. Ond y brif faner oedd eryr arian neu aur, â'i adenydd ar led ar ben gwaewffon, ac weithiau â tharanfollt yn ei grafangau, fel yn barod i'w gollwng i ganol y gelynion. Gelwid y lleng weithiau yn *aquila* (eryr), oddi wrth eu baner.

Digitized by Google

Dygid y faner yn y dwyrain weithiau ar ysgwyddau dynion penodol; cludid hi hefyd mewn cerbyd, a dywedir fod y Saraceniaid yn ei dwyn mewn pedrolfen, ac wyth o feirch yn ei llusgo; ac yr oedd ei dylanwad ar y milwyr mor fawr fel na adawai neb y maes tra y safai y faner goch i fyny. Ceir hanes ei bod yn cael ei dwyn mewn cerbyd pedair olwyn yn Lloegr yn amser y brenin Stephen. Ac fel hyn y dygid lluman Harry v., yn mrwydr Agincourt, mewn cerbyd, gan ei bod yn rhy drom i'w dwyn un modd arall. Ystyrid colli y faner yn golli y frwydr; rhag y fath ddarostyngiad cyffröid y milwyr i'r eithaf pan y gwelent berygl iddi syrthio i ddwylaw y gelynion. Pan oedd milwyr Rhufain yn dyfod drosodd i Brydain dan Cæsar; wedi dyfod yn agos i'r lan, yr oeddynt yn hwyrfrydig i fyned o'u llongau; ond gwaeddai y neb oedd yn dwyn y faner arnynt i fyned yn mlaen, os nad oeddynt yn ewyllysio traddodi yr eryr i ddwylaw eu gelynion. Ar ol dywedyd hyny, efe a roddodd naid o'i long gan gyfeirio tua'r lan; ac ar hyn, pan welsant hwythau y perygl i golli y faner, ymdaflodd pawb o'u llongau ar ei ol i'w hamddiffyn. Dywedai un ysgrifenydd Ffrengig, yn amser Siarl ix., y dylai y neb a fyddai yn dwyn y faner ei defnyddio yn amdo, yn hytrach na'i gollwng i ddwylaw y gelyn; ac y mae amgylchiadau wedi dygwydd ag y darfu banerwr, wedi derbyn archoll marwol rwygo ei luman oddi ar y pawl ac ymdroi ynddi a marw. Adroddir dygwyddiad fel hyn am Don Sebastian, brenin Portugal, yn mrwydr Alcazar, ac am swyddog ieuanc o'r enw Chatelier wrth gymmeryd Taillebourg, yn amser rhyfeloedd yr Huguenotiaid.

Dygir baneran ar hwylbrenau llongau i ddangos i ba wlad y byddant yn perthyn: gosodir rhai i fyny hefyd i ddynodi gradd y swyddog a fyddo yn llywyddu y llestr. Prif faner Lloegr yw y lluman breninol; ni roddir hono i fyny un amser ond pan fyddo rhai o'r teulu breninol ar y bwrdd. Yr ail yw yr un sydd yn dynodi yr Arglwydd Brif Lyngesydd, neu Arglwyddi Dirprwywyr y Morlys. A'r drydedd yw y faner undeb, yn yr hon y mae croesau Sant Sior, Sant Andrew a Sant Patrick yn nghyd: perthyna hon i lywydd y llynges. Y mae y tair baner yn goch, gwyn, a glas. Yn nheyrnasiad William iv., gwnaed deddf na byddai i un llestr yn perthyn i ddeiliaid ei fawrhydi godi baner o'r un lliw a'r eiddo llongau y brenin, o dan berygl dirwy heb fod uwch law pum cant o bunnau. [Gwel Lluman; Llynges.]—(*Cyc. Bib. Lit; Rel. Cyc.; Illus. Com.; Jahn's Bib. Ant.; Potter's Arch. Gr.; Kennet's Rom. Ant.; Cæsar de Bell. Gall.; Pop. Cyc.*)

BANGOR, [*ban=high* **or** *superior*, **a** *côr=a circle or choir*]: a ysgrifenid hefyd mewn hen lawysgrifau yn Banchor, yr hyn oedd gynt yn enwad cyffredinol ar fynachlog. Gellir casglu oddi wrth Drioedd Dyfnwal Moelmud, a hen gofion ereill, mai yr enw cyntaf ar leoedd addoliad yn mysg y Cymry oedd *llan*; a'r hen enw am addoliad oedd *golychwyd*. Wedi hyny, pan ddygwyd Cristionogaeth i Brydain, yn amser Eurgain, merch Caradog, neu ei dad, Bran ab Llyr Llediaith, o'r flwyddyn B. A. 52 i 58, tybir y dechreuwyd galw cymmundebau crefyddol yn *gorau*; ac o dipyn i beth, aed i alw y manau lle yr ymsefydlent dan yr un enw. Ymddengys i ryw adnewyddiad pwysig ar grefydd gymmeryd lle yn amser Lles ab Coel, Lleirwg, neu Lleufer Mawr =*the great luminary* (Lucius), tua'r flwyddyn B. A. 183, neu, yn ol Bede, B. A. 156; canys dywedir "Lleufer Mawr ab Meyryc, ydoedd frenin ar Ynys Prydain, ac yn byw yn Llandaf; ac ef a wnaeth esgobaeth yno gyntaf; ac a roddes gyfoeth i *Gôr Eurgen*, i gant o Saint; ac a wnaeth gôr yng Ngwynedd, y lle a elwid wedi hyny, *Bangor Is y Coed*. Ac Arthur wedi hyny (amcan B. A. 520) a roddes gyfoeth i Gôr is y Coed; ac a wnaeth yno saith mintai, yn ol y cynghorwyd ef gan Ylltyd=Illtyd. A Lleufer ab Coel a bu'r brenin cyntaf a wnaeth drefn gwlad a chyfraith ar y ffydd yn Nghrist; ac a wnaeth dair esgobaeth, nid amgen Llandaf, a Chaerwyryl, a Chaerfelyn; a'r tair esgobaeth a fuant y rhai cyntaf yn Ynys Prydain."

Ymddengys oddi wrth y dyfyniad yma, gystal a lluaws ereill y gellid eu dwyn ger bron, fod *côr* ac *esgobaeth*, gynt, bron o'r un ystyr; ac nad oedd esgobaeth Llandaf, yn amser Lleirwg, ddim yn llawn mor eang ag ydyw yn bresennol—dim ond rhyw "gant o saint," fel yr ymddengys, oedd yn yr holl esgobaeth. Diau fod y gair *côr*, ac *esgobaeth*, ar y dechreu, yr un ystyr a'r gair *eglwys;* sef "cynnulleidfa neillduol o gredinwyr," fel y dywed Syr Peter King, "yn ymgynnull yn nghyd ar yr un amser, ac yn yr un lle, i gydgyfranogi o holl osodiadau ac ordinhadau Iesu Grist, gyda'u bugeiliaid priodol, a'u gweinidogion"= diaconiaid. Yn wir, defnyddid y gair *eglwys* hefyd, yn yr un ystyr, yn bur fore, yn yr hen gofion Cymreig; canys yn y Trioedd, dywedir, "Ail, Lleirwg ab Coel ab Cyllin Sant" [ai yr un oedd Cyllin a Meyryc, nis gwyddom] "a elwir Lleufer Mawr, a wnaeth yr eglwys gyntaf yn Llandaf, a hono a fu'r gyntaf yn Ynys Prydain; ac a ddodes fraint gwlad a chenedl, a brawd a briduw (*civil and ecclesiastical jurisdiction*) ar a fyddaint (fyddent) o'r ffydd yn Nghrist."

Yn mhen tua dau gant a hanner o flyneddoedd ar ol Lleirwg, o gylch canol y bummed ganrif, pan ddaeth y ddau genad Pabyddol yma o Ffrainc, sef Garmon, esgob Antisiodor (Auxerre), a Bleiddian, esgob Trecasse (Troyes), dechreuodd sefydliadau crefyddol, trwy annogaeth y ddau ddyn hyn, gymmeryd rheolaeth dros ereill; a dechreuwyd galw'r corau a ddyrchefid fel hyn i lywodraethu y lleill, yn *Bangorau*, sef *prif* neu *uchel* gorau; ac o gylch y flwyddyn B. A. 755, canfyddir Nyniaw (*Nennius*) yn cyfieithu y gair yn *Magnum Monasterium*=y Fonachlog Fawr; ac yn cymhwyso yr enw at Fangor is y Coed, neu "Fangor Fawr yn Maelor." Y pryd hyn, fel y bernir, y dechreuwyd cymhwyso y gair *Bangor*, oedd o'r blaen yn enw cyffredinol ar wahanol gorau, at le neillduol, yr hyn ar y dechreu, a barodd gryn ddyryswch yn arferiad yr enw. Ymddengys fod y gair *Bangor*, gydag ychydig o amrywiaeth yn y llythyreniad, yn cael ei arfer yn yr un ystyr mewn gwledydd ereill; canys y mae lle yn agos i Belleisle, yn Llydaw, yn dwyn yr enw; ac y mae hen grefydd-dŷ a elwir *Bannchor*, yn nhalaeth Ulster, yn yr Iwerddon, cyflwynedig i Sant Patrick; heb law fod dau blwyf yn yr Alban, a elwir *Banchory*—enwau o'r un tarddiad ac ystyr, yn sicr ddiau, a'r gair Cymraeg. Tua'r un amser hefyd y sefydlwyd y Gwyndai (*Chapter Houses*), y ceir eu henwau hyd heddyw yn ngwahanol barthau Cymru. Ond daliodd yr hen enw *côr* ei dir fyth yn y dywysogaeth; ac arferid ef weithiau, yn yr amseroedd dan sylw, yn gyfystyr â *Bangor*. Ceir eglurhad ar gynnwysiad y wahanran yma yn y dyfyniad canlynol:—"Am welygordd (*lineage*) Emyr Llydaw

Digitized by Google

a ddanfoned i Ynys Prydain i adnewyddu cred a bedydd, yn ddwy gôr y daethant y welygordd honno i Ynys Prydain. * * * * Cyntaf a ddaeth i'r Ynys honn o'r ddwy Gôr, un Garmon, Sant ac Esgob, mab Rhedyw Sant, o dir Gâl, ag ewythr brawd mam i Emyr Llydaw; ag yn amser Cystenin Llydaw (B. A. 427) y daeth yma, lle ydd aroses ef hyd yn amser Gwrtheyrn Gwrtheneu (B. A. 454), ag yna myned i wlad Ffraingc, lle y bu farw. Ag efe a wnaeth ddwy Gôr o saint, ag a ddodes escyb a dwyfolion ynddynt, fal y gellynt ddysgu 'r ffydd yng Nghrist i genedl y Cymry, lle ydd oeddynt wedi ymgammau yn eu ffydd a'u cred. Un Gôr a wnaeth ef yn Llancarfan, dodi Dyfrig Sant yno yn Ben rhaith, ag efe ei hun (Garmon) yn Escob yno. Un arall yn emyl Caerworgorn, lle dodes Illtyd Sant yn Ben rhaith, a Bleiddian Sant yn Ben escob yno. Gwedi hyny y dodes ef escobion yn Llan Daf, ac a wnaeth Dyfrig yn Archesgob yno [hwn, dybygid, oedd yr *arch*esgob cyntaf y clywyd son am dano yn Ynys Prydain], a dodi Cattwg Sant, ab Gwynlliw, yn y Gôr yn Llancarfan yn ei le, ag i'r Archescob Llandaf fod yn Escob iddaw yno." Y mae y Trioedd yn profi mai Llandaf oedd yr "archescobawt" cyntaf yn Nghymru; a diau mai Dyfrig oedd yr archesgob cyntaf. Dyma y dystiolaeth:—"Tri Archescobawt Ynys Prydain: cyntaf, Llan Daf, o ddawn Lleurwg ap Coel ap Cyllin, yr hwn a roddes diroedd a braint gwlad gyntaf i'r rhai a gystlynant gyntaf â'r ffydd yng Nghrist; ail, Caerefrawc, o ddawn Cystenin amherawdr, sef oedd efe, y cyntaf o'r amherodron yn Rhufain a ymgystlynwys â'r ffydd yng Nghrist; trydydd, Llundain, o ddawn yr amherawdwr Macsen Wledig; a gwedi hyny y buant Gaerllion ar Wysg, a'r Gelliwig [Callington? yng Nghernyw, a Chaer Rianedd [Edinburgh?] yn y Gogledd; ac yn awr y mae Mynwy, a Chaerefrawc, a Chaer Gaint." Prin y mae achos dywedyd mai eglwys (côr) Llandaf ydoedd o ddawn neu rodd Lleurwg, fel y dengys y triad a ddyfnywyd eisoes, ac nid yr "archescobawt;" canys Garmon a wnaeth yr olaf, fel y dywedwyd, tua'r un amser ag y dechreuodd ddyrchafu y naill gôr uwch law y llall, ac y daeth *Bangor* i ymarweriad, sef *goruchel* gôr—côr yn honi math o uchafiaeth, neu lywodraeth, ar y corau ereill—math o ben-fynachlog, neu brif ysgol lywodraethol yr oesoedd hyny. Yn awr, sylwir mor fyr ag y mae modd ar y prif fanau a gawsant yr enw yma (Bangor), gan ddechreu, hyd y gellir, gyda'r hynaf, a diweddu gyda'r diweddaraf.

BANGOR CATWG=Côr Catwg, neu Cadog (Catwg Ddoeth), a elwid hefyd BANGOR GARMON, COR GARMON, a BANGOR LLAN CARFAN; ac mewn rhai hen ysgrifau Cymreig, fe'i gelwir, MYNACHLOG LLANFEITHIN neu LANCARFAN. Hon ydyw yr henaf o'r holl Fangorau, yr hon a sefydlwyd gan "un Garmon (Germanus), Sant ac Escob, mab Rhedyw Sant, o dir Gâl, ag ewythr brawd mam i Emyr Llydaw;" canys, meddai, yr hen ysgrif, "Cyntaf oedd y Gôr honno ag un Illtyd, a wnaethpwyd gan Armon Sant a Bleiddian (Lupus) Sant yng Nghymru, pan ddaethant i'r Ynys hon i adnewyddu Cred a Bedydd," B. A. 427. Ac mewn lle arall, dywedir, "Bangor Gattwg a wnaethpwyd gan Ddyfrig Sant a Garmon Sant, a Pheriglawr Garmon oedd Dyfrig yn hono." Priodolir sefydliad y lle hefyd i Cystenyn Llydaw a Meirig ab Tewdrig. Fe'i gelwid yn Fangor Catwg a Chôr Catwg, oddi wrth y Catwg a grybwyllwyd eisoes, sef "Catwg Sant ab Gwynlliw, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg," a fu yn ben rhaith (*principal*) ar y gôr hyd ddiwedd ei oes (lle y bu farw, meddir, yn 120 mlwydd oed) ar ol Dyfrig, pan wnaethpwyd hwnw yn archesgob Llandaf. Gelwid y sefydliad yn Fangor, neu Gôr Garmon, oddi wrth y Garmon Sant crybwylledig, yr hwn a wnaeth "ei hun yn Escob yno;" ac yn Fangor Llancarfan, am fod y llan neu yr eglwys wedi ei chyssegru i Carfan Sant, ar enw yr hwn y gelwir y lle, hyd y dydd heddyw, yn Llancarfan. Ymddengys i'r sefydliad yma gael ei waddoli yn haelionus gan rywun, rywbryd; canys "y mae'r dreflan yn cynnwys pedwar tyddyn, heb law rhandiroedd didoledig, a gyfrifid yn werth 600*p*. y flwyddyn, heb dalu na threth eglwys, na threth y tlawd, na threth y wlad." Dywedir ddarfod i Hywgi neu Bugi, brawd Catwg, roddi ei holl diroedd tuag at gynnysgaethu y coleg. Efallai, beth bynag, mai Emyr Llydaw, ab Meyric ab Tewdric (Tewdwr), brenin Morganwg, a theulu Cadell Deyrnllwg, oedd prif waddolwyr y gôr; canys dywedir yn yr *Achau*, "Ceinmyged (prif sefydliad) Emyr Llydaw a Meyric ab Tewdric, brenin Morganwc, Côr Garmon a Chattwg yn Llancarfan; a gwedi hyny, teulu Cadell Deyrnllwg." Y mae y lle yn sefyll ychydig filltiroedd i'r de-ddwyrain o'r Bont Faen (*Cowbridge*), yn Morganwg.

MYNACHOD BANGOR CATWG. Dywed y Parch. P. B. Williams, Llanrug, "y dywedir i Gatwg Sant adeiladu mynachlog yma o gylch B. A. 500; ond coleg neu ysgol ydoedd," eb efe, "yn ol pob tebygoldeb, gan fod sefydliadau mynachol yn anadnabyddus yn y wlad yma yn yr amseroedd boreuol hyny." Diammheu fod yn rhaid gwahaniaethu oddi wrth yr awdwr parchedig gyda golwg ar adnabyddiaeth y wlad hon o sefydliadau mynachol yn y flwyddyn B. A. 500; canys yr oedd y sefydliad wedi ei gychwyn er mor fore ag oes Anthoni Sant, "at yr hwn yr ymgynnullodd amryw feudwyaid, ac yr ymffurfiasant yn gymmundeb o fynachod, yn B. A. 305." Fe ddengys *Achau Saint Ynys Prydain*, fod mynachod, a elwid yn saint, yn dra lluosog yn Mangor Catwg: dyma fel y dywedir;—"Cattwg ap Cynlais [adgyfieithiad yw hwn o'r cyfieithiad Lladin *Gunleius* =Gwynlliw] ap Glywis ap Tegid, brenin Morganwg; ef oedd gâr Illtyd, ag a wnaeth Gôr o *fil o saint* yn Llancarfan: a'r lle hyny a fu enwog iawn am dduwioldeb a phob dysg er a fedrir: a Chattwg yn Benraith ar oll o naddynt." Eto—"Côr Cattwg yn Llancarfan, a thair Cell, a *mil o saint;* a dwy Gell yng Nglyn Nedd iddo.' Dyma enwau y rhai penaf o honynt, a goffeir yn *Achau'r Saint:*—Catwg; Peirio, Gallo, Maelawc, Gildas y Coed Aur, Eugrad, Caffo, meibion Caw, arglwydd Cwm Cawlwyd, a fuant hefyd yng Nghor Illtyd; Ceidiaw ab Ynyr Gwent, Mydan ab Pasgen, ab Urien Rheged; Cynan, Degwy, Mael, Sulien, Ethrias, Llywyn, Llyfab=Llynab, a Docheu, "a ddaethant gyda Chadfan, gan Armon i'r Ynys hon, ag a fuant Saint ym Mangor Illtyd, ac yn Mangor Cattwg yn Llancarfan, ag a aethant i gyd gyda Chadfan yn saint i Ynys Enlli, namyn Docheu, yr hwn a ddodes Deilaw yn ei le ef yn Escob yn Llan Dâf;" Dingad ab Nudd Hael; Urien ab Cynfarch; Cynwyd Cynwydion ab Cynfelyn; Clydno Eiddyn ab Cynwyd Cynwydion; Cynan Genir ab Cynwyd Cynwydion; Cynfelyn Drwsgl ab Cynwyd Cynwydion;



Digitized by Google

Cadrod Calchfynydd ab Cynwyd Cynwydion; Hywgi ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg; Gwrhir, gwas Teilo; Dogfael ab Ithel Hael; Beuno ab Hywgi, ab Gwynlliw, &c.: Cyfyw ab Gwynlliw, &c., Cofedydd (*registrar*) Catwg Sant, yn Mangor Catwg; Llidnerth ab Nudd Hael; Baglon, Lleuddad, Gwytherin, Tegwyn, a Tefriawg, meibion Dingad ab Nudd Hael, ac Eleri 'ch Dingad. "Saint oeddynt yng Nghôr Cattwg, ag a aethant gyda Dyfric i Fangor Gadfan yn Enlli." Cyngar, Selef, Iestin, Caw Cawlwyd, meibion Geraint ab Erbin; Aneuryn y Coed Aur (Gwawdrydd?) ab Caw Cawlwyd; Cyhelyn Fardd; Cewydd ab y Caw; Huail ab y Caw; Cannau, Gwenabwy, Peillan, Cwyllawc, merched y Caw; "plant y Caw a fuant saint yng Nghorau Garmon Sant, sef un Illtyd ag un Cattwg; a rhai o honynt a aethant yn Benrheithiau, lle y gwnaethant Eglwysydd a Chorau mewn Gwledydd ereill." Nwythan, Doglan, Cennydd, Gwynnaw, meibion Gildas ab y Caw—"saint oeddynt yng Nghôr Illtyd, ac yng Nghôr Cattwg." Cybi ab Selef, ab Geraint ab Erbin; Cadell ab Urien Foeddawc, ab Rhun Rhion, ab Llywarch Hen; "Godlovw Sant, mab Glywis Cernyw, a fu'n escob yn Llan Daf, a chyn no hyny, Periglawr i'r saint yng Nghôr Cattwg;" Cynfyw ab Gwynlliw, brawd arall Catwg; Gwyddlew a Chyflewyr, meib Gwynlliw, brodyr eto i Gatwg; Teilaw ab Eusyssyllt, ab Rhiddyn Ddu, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig; a dyma'r cyfan, hyd y gallwyd canfod, y mae eu henwau yn yr *Achau*, fel "saint" neu fynachod o Fangor Catwg.

Efallai mai nid anfuddiol fyddai rhoddi anghreifftiau o'r dull o gyfranu addysg a ddefnyddid yn y Fangor hon, dan lywyddiad Catwg, fel y maent wedi eu cofnodi yn y *Myvyrian Archaiology*.

"Y saith holion a ddodes Catwg Ddoeth i saith o wŷr doethion o'i gôr yn Llanveithin, ac atteb y gwŷr hyny.

*Hawl.* Pa ddaioni sydd vwyav ar ddyn?
*Atteb.* Cyviawnder.
*Talhaiarn vardd a'i dywawd.*

*Hawl.* Pa ddoethineb y sydd oruchav ar ddyn?
*Atteb.* Gallu drwg i arall ac heb ei wneuthur.
*Teilo Sant a'i dywawd.*

*Hawl.* Pa ddireidi sy vwyav ar ddyn?
*Atteb.* Anniweirdeb.
*Arawn ab Cynvarch a'i dywawd.*

*Hawl.* Pwy sydd dylotav?
*Atteb.* Y neb ni chreto gymmeryd ei eiddo ei hun.
*Taliesin Ben Beirdd a'i dywawd.*

*Hawl.* Pwy sydd gyvoethocav?
*Atteb.* Y neb ni chwennycho ddim o eiddo arall.
*Gildas y Coed Aur a'i dywawd.*

*Hawl.* Pa gamp decav ar ddyn?
*Atteb.* Cywirdeb.
*Cynan ab Clydno Eiddin a'i dywawd.*

*Hawl.* Pa ynvydrwydd vwyav ar ddyn?
*Atteb.* Dymuno drwg i arall heb allu ei wneuthur.
*Ystyfarc fardd Teilo a'i dywawd."*

Yn ol darlleniad arall, rhoddir "Celwydd" fel yr ateb i'r gofyniad, "Pa ddireidi sy vwyav ar ddyn?" a phriodolir ef i Taliesin. Ac ystyrir Arawn fel wedi ateb i'r gofyniad, "Pwy sydd dylotav?"

"Llyma ddeuddeg govynion a ddodes Catwg Ddoeth ar ei Vebiniaid.

1. Pwy sy ddoeth?
*Atteb.* Y neb ni ddigia er ei oganu, ac ni ymvalchia er ei ganmawl.
2. Pwy sy gall?
*Atteb.* Y neb a ystyr yn dda cyn y gweto ei veddwl.
3. Pwy sy gryv?
*Atteb.* Y neb a allo veistroli ei anwydau.
4. Pwy sy gadarn?
*Atteb.* Y neb a allo guddio ei dylodi.
5 Pwy sy ddiffaith?
*Atteb.* Y neb ni chelo ei gyvrinach ei hunan.
6. Pwy sy gymmeradwy yn mysg y bobyl?
*Atteb.* Y neb a allo ymgynnal arno ei hunan.
7. Pwy sy lawen?
*Atteb.* Y neb ni chlywo ei gydwybod yn ei geryddu.
8 Pwy sy rydd?
*Atteb.* Perchen crefft a chelvyddyd, a vedyr ymgynnal arni yn y man o'r byd y myno.
9. Pwy sy dda ei arver?
*Atteb.* Y neb a vedyr ymoddev â dyn llediawg drygarverus a vo gydag ev.
10. Pwy sy ddaionus?
*Atteb.* Y neb a gospo ei hun er lles i arall.
11. Pwy sy ddedwydd?
*Atteb.* Y neb y bo ynddo gâs o gynneddyv at y drwg, a serch o gynneddyv at a vo da
12. Pwy sy ddwyvawl?
*Atteb.* Y neb a gred yn Nuw ac a'i caro, ac a wel mai goreu ar bob dim ei ewyllys a'i weithred ev."

"Llyma gynghorion a roddes Catwg Ddoeth i Daliesin Ben Beirdd, pan oedd yn ysgolaig iddo.

Meddylia cyn y gwetych—
Yn gyntav, beth y gwetych.
Yn ail, pa ham y gwetych.
Yn drydy,' wrth bwy y gwetych.
Yn bedwerydd, am bwy y gwetych.
Yn bummed, beth a ddaw o'r peth a wetych.
Yn chweched, pa les o'r peth a wetych.
Yn seithved, pwy a vo'n gwrandaw ar a wetych.

Dod dy air ar ben dy vys cyn a'i gwetych,
A threigla ev y saith fordd hyn cyn a'i gwetych,
Ac ni ddaw drwg vyth o'r hyn a wetych.

*Catwg Ddoeth a'i cant, wrth Daliesin Ben Beirdd, yn dodi arno ei vendith."*

"Llyma gynghorion y rhoddes Gatwg Ddoeth i Arawn vab Cynvarch, Brenin y Gogledd, pan ai gollynges ev o'i vebindawd.

Tro y clust byddar at bob drygiaith,
Tro dy gevyn ar bob drygwaith,
Tro y llygad cauad at bob anverth,
Tro 'th olwg a'th galon at bob prydverth,
Tro dy law egor at bob tylodi,
Tro dy veddwl at bob haelioni,
Tro dy bwyll at gynghorau doethion,
Tro dy serch at bethau dwyvolion,
Tro 'th ddyhewyd ar bob daioni,
Tro 'th holl awen ar ymragori,
Tro dy ddeall i ddeall dy hunan,
Tro 'th holl wybodau y'nghyngyd anian,
Tro 'th holl gynneddvau ar a vo dedwydd,
Tro 'th galondid a'th nerthoedd oll ar Dduw Ddovydd."

BANGOR ILLTYD: COR ILLTYD, a elwid hefyd COR neu FANGOR TEWDWS (*Theodosius*), COR EURGAIN, BANGOR LLEUFER SANT, CAER WORGORN, a LLANILLTYD FAWR (*Lantwit Major*) YN MORGANWG; a dyma yr enw sydd i'r lle yn bresennol. Trefnwyd hon yn Fangor gan

Digitized by Google

Garmon, tua'r un amser (o ddeutu B. A. 427) ag y sefydlwyd Bangor Catwg; canys fel hyn y dywedir:—"Cyntaf oedd y Gôr hono (Bangor Cattwg) ag un Illtyd, a wnaethpwyd gan Armon Sant a Bleiddian yng Nghymru, pan ddaethant i'r Ynys hon i adnewyddu Cred a Bedydd;" ac ar y gôr hon, "Garmon a ddodes Illtyd yn Ben rhaith, a Bleiddian Sant yn Ben Escob yno." Dengys yr hen gofion fod rhyw fath o sefydliad crefyddol yn y lle hwn er amser Caradog ab Bran, ab Llyr Llediaeth, o B. A. 52 i 58, a sefydlwyd yno gan "Eurgain (Eurgen neu Eigen) Santes, ferch Garadog, brenin Morganwg" (Essyllwg?); ac oddi wrth y santes hon, galwyd y sefydliad yn Gôr Eurgain; canys, meddai yr *Achau*, "Eigen ferch Caradawc ab Bran, ab Llyr Llediaith, a briodes bendefig a elwid Sarllawc, yr hwn oedd arglwydd Caer Sarllawc (Caer Caradog=*Old Sarum*); a hi a fu'r Santes gyntaf yn Ynys Prydain." Hi a wnaeth "Gôr Eurgain yn Llanilltyd, i bedwar sant ar hugain ['i ddeuddeg o saint' mewn man arall]; a hon a fu'r Gôr gyntaf yn y byd i ddysgu 'r efengyl, a'r ffydd yng Nghrist." Gwaddolwyd y lle gan Owain, fab Cyllin, â chyfoeth a meddiannau. Agos i gan mlynedd ar ol hyn, "Lleurwg Sant, a elwir Lleufer Mawr ap Coel, ap Cyllin, ap Caradawc, ab Bran, ap Llyr Llediaith, a roddes gyfoeth i Gôr Eurgen, i gant o saint;" ac oddi wrtho ef, galwyd y sefydliad yn "Fangor Lleufer Sant." Drachefn, o ddeutu B. A. 390, gwnaeth yr ymherawdwr Tewdws ryw adnewyddiad ar y côr nodedig hon; ac am hyny, fe'i galwyd ar ei enw yntau yn Gôr neu Fangor Tewdws. O'r diwedd, tua'r flwyddyn a nodwyd (B. A. 427, neu yn fuan ar ol hyny), gwnaeth "Illtyd Farchawc ab Bicanus, cefnder Emyr Llydaw ('*nai* Emyr Llydaw,' medd Carnhuanawc), a ddaeth drwodd gyda Garmon," y gôr yma yn Fangor dra nodedig; a galwyd y lle ar ei enw ef hyd y dydd hwn, yn Llan Illtyd Fawr. Eglurir hyn oll yn y dyfyniad isod, yr hwn sydd yn dra dyddorol o ran cynnwysiad ac ieithwedd:—"Ylltyd Farchog ab Bicanws, o dir Llydaw, a'i fam ef oedd ferch brenin Morganwg; a Phenraith oedd ef ar holl farchogion Arthur. Ag ymryson a fu rhwng Ylltyd a'r Ymherodr Martianys (*Marcian*), a dau ŵr a fynnai ei ladd o benswyddwyr yr Ymherodr; ag a ddaliasant Ylltyd Sant ar weddi, ac ni allasant sytlyd y dim lleiaf; eithr Ylltyd o'i weddïau a'u hadferawdd. A phan wybu 'r Ymherodr hyn am ei swyddwyr, ef a'u difreiniawdd, ag a roddes gyfoeth i Ylltyd i wneuthur Côr Saint yn y man y bu Côr Eurgain Santes, ferch Caradawc, brenin Morganwg, yr hwn, wedi ei ddwyn yn gaeth i Rufain, a ddygwyd, ef a'i ferch Eurgain, i'r ffydd yng Nghrist, gan Ilid Sant, gŵr o'r Israel; yr hwn Ilid a ddaeth o Rufain i'r Ynys hon gyda Charadoc ac Eurgen; a hwy a ddygasant y Cymry gyntaf i'r ffydd yn Nghrist. Ag Eurgen a wnaeth Gôr i ddeuddeg sant; a Lles ap Coel a roddes gyfoeth i'r Gôr honno, a chwedi hyny hi a aeth yn benna Côr yn y byd; ag yn y man hyny y gwnaeth Illtyd dair Cell fawr newyddion yno o ddawn Martianws, ag a aeth yn Sant yno, ag yn Benraith ar yr holl Gelloedd a Meinteioedd yno; y rhain oedd Gell Eurgen, tair Cell Ylltyd, Cell Arthur, Cell Gildas, a Chell Dyfrig. A'r lle a elwid cyn no hynny Bangor Lleufer Sant, a chwedy hyny Bangor Ylltyd, a Llanylltyd; ag enwocaf ar Gorau'r byd ydoedd am ddwyfoldeb a phob dysgeidiaeth; a dwyfil o saint yno. Ag Arthur a roddes gyfoeth a rhenti mawrion i'r Celloedd hyn. A Thewdric (Tewdwr) frenin a sant a roddes gyfoeth iddynt, ag a wnaeth bedair Cell newyddion yn lle'r saith Gell gyntaf, a phedair Llan y sydd iddo (sef i Ylltyd) ym Morganwg, nid amgen Llanylltyd Fawr, Llanylltyd Gŵyr, Llanylltyd Faerdre, a Llanylltyd Glyn Nedd."

Am "Gôr Tewdws, a Chaer Worgorn," meddai Carnhuanawc, "er mai yr un Côr y gallasai fod, nid boddhaol i mi, mai yr un lle oedd Caer Worgorn a Llanilltyd Fawr." Rhoddir yma ar hyn, gan ei fod yn anmhenderfynol, dalfyriad o farnau ereill, yn nghyd â'r hen gofion Cymreig, fel y gallo'r darllenydd farnu drosto ei hun. "Sefydlwyd Côr Illtyd, ar y dechreu," medd P. B. Williams, "yn Nghaer Worgorn, yn Ngwent, ac a alwyd Côr Tewdws, o barch i'r ymherodr hwnw, yr hwn oedd ei noddwr."——O. Williams, arfer yr hwn yw penderfynu pethau fel hyn rhag blaen, a ddywed, "Caer Worgorn, neu Bangor Illtyd, yn Morganwg, lle y sefydlwyd athrofa gan Theodosius. * * * Aeth yr athrofa yma rhagddi gan Tewdrig, brenin Morganwg, pan y gosodwyd ynddi Illtyd yn athraw, oddi wrth yr hwn ei galwyd Bangor Illtyd, ac wedi hyny, megys yn bresennol, Llanilltyd Fawr."——Yr hen Gofion a ddywedant fel hyn:—"Meibion y Caw Cawlwyd a fuant iddaw yn saint yn Nghôr Cattwg, ac yng Nghôr Illtyd yng Nghaer Worgorn." "Illtyd Farchawc,—ei Eglwys ef, Bangor Ylltyd yn Ngwent, lle y mae ef yn Sant, man y bu Bangor Dewdws yng Nghaer Worgorn, a dorrasid gan y Paganiaid anghred." "Illtud Farchawg......a ddoded yn Ben rhaith ar y Gôr a wnaeth yr Amherawdr Tewdws yng Nghaerworgorn, lle y bu Badric ap Mawon yn dysgu cred a chrefydd cyn no thorri'r Gôr honno gan y Gwyddyl, a dwyn Padric yn ysbail i'r Werddon." Ymddengys fod gwaddolion y Fangor yma yn dra lluosog, canys dywedir i Owain ap Cyllin, Lles ap Coel, a Thewdws, a Marianys, ac Arthur, a Thewdric, oll yn freninoedd ac ymherawdwyr, roddi cyfoeth a rhenti mawrion iddi. Y mae Caer Worgorn yn sefyll ar uchelfa, medd O. Williams, o ddeutu dwy filltir o Hafren, a phum milltir i'r deheu o'r Bont Faen (*Cowbridge*).

Mynachod Bangor Illtyd. Y mae'r hanesion sydd yn yr *Achau* am rif mynachod neu saint Bangor Illtyd yn amrywiol: efallai y golygir yno eu rhif ar wahanol amserau: pa fodd bynag, dyma fel yr hysbysir:—"Ylltud a wnaeth wyth ugain ac wyth dŷ cylfar (*hall*, neu *college*), ag yndynt *ddwy fil* o saint yn cynnal gwybodau Cristionogolion a daionus, fal y dywed y Prydydd,

Gwnaeth Illtud Sant
Ar lan Hodnant
Wyth ugain Côr
Ag wyth ragor,
Lle 'dd anneddaint
*Ddwyfil* o saint,
Yn bucheddu
Wrth ffydd Iesu;
Cedwaint o neb
Coel duwioldeb,
Dirwest, unpryd,
Gweddi, penyd,
Elusenau,
A chardodau;
Ag yn eu mysg
Cynnal addysg."

Mewn lle arall, dywedir,—"Illtud a wnaeth saith Eglwys, ac a ddodes saith mintai at bob Eglwys, a saith cylfar yn mhob mintai, a saith sant yn mhob cylfar. Al, 7 Eglwys; $7\times7=49$ mintai; $49\times7=343$ cylfar; $343\times7=2401$ sant. A chynnal mawl i Dduw a gweddi yn ddiorphwys, ddydd a nos, gan ddeuddeg sant o leenogion o

Digitized by Google

MYNACHOD BANGOR TEILO. Er y dywedir fod "Côr Teilo yn Llandaf i *fil o saint;*" eto, ni chofnodir yn yr *Achau* ond enwau rhyw bump neu chwech o'r mil, a'r rhai hyny oll yn esgobion; sef "Gwythelin (Gwyddelan?) Sant ac Escob, ap Teithfallt, ap Nyniaw, o wehelyth Bran Fendigaid," yr hwn a fu yn esgob yn Llandaf, yn ol Iolo Morganwg, o flaen Dyfrig. Dyfrig Beneurog, ab Pebiau=Pabiaii, ab Brychan Brycheiniog, a wnaed yn archesgob Llandaf, gan Garmon o Lydaw. "Docheu Sant, a ddaeth gyda Chadfan gan Armon i'r Ynys hon * * * yr hwn a ddodes Deilaw yn ei le ef yn Escob yn Llan Daf;" ac mewn lle arall, "Dochdwy, &c.; a fu yn Enlli, a gwedi hyny y bu'n Escob yn Eglwys Deilaw yn Llandaf, tra bu Deilaw yn Enlli gyda'r saint yno, yn arllwybraw y Gôr, wedi marw Cadfan." "Ufelwyn ap Cenydd, ap Gildas, ap y Caw o Gwm Cawlwyd, escob yn Llan Daf." Teilo Sant ac Esgob, ar enw yr hwn y galwyd y Fangor; a "Cyfelach Sant, a fu Escawb yn Llandaf, ag a las (laddwyd) gan y paganiaid," B. A. 756, meddai *Brut y Tywysogion.*

BANGOR DYFRIG: COR DYFRIG, neu FANGOR CAERLLION AR WYSG. Mae Caerllïon, fel prif ddinas Gymreig Arthur, ac ereill o dywysogion Cymru, yn bur adnabyddus; ond fel *Bangor*, y mae ei hanes mor brin ag ydyw hanes Bangor Teilo, os nad prinach. Yn yr *Achau*, dywedir, "Caerllïon ar Wysg. Macsen Wledig a'i gwnaeth:" os felly, rhaid fod y crefydd-dŷ yn Nghaerllïon wedi ei sefydlu o'r flwyddyn 383 B. A., pan y cyhoeddwyd Macsen yn ymherawdwr Prydain, &c., i B. A. 388, pan y dienyddiwyd ef gan yr ymherawdwr Tewdws, fel y dengys Carnhuanawc. Dywed yr un awdwr hybarch, mai yn y flwyddyn 490 y cafodd Dyfrig ei wneyd yn archesgob Caerlleon ar Wysg: ond os gwir a ddywed yr *Achau,* iddo gael ei wneyd yn archesgob gan Garmon; ac os gwir na fu'r "sant" hwnw yn Ynys Prydain ond hyd amser Gwrtheyrn Gwrthenau (B. A. 454), nis gall yr amseriad uchod am ddyrchafiad Dyfrig i archesgobaeth Caerllïon, fod yn gywir. Pa fodd bynag, Dyfrig a roddodd ei enw i'r sefydliad yma, fel *Bangor.* Yn ei hen ddyddiau, dywedir i Ddyfrig roi archesgobaeth Caerllïon i fyny i Dewi Sant, ac ymneillduodd i Fangor Enlli, lle y bu farw yn dangnefeddus a llawn o ddyddiau; ac yno y claddwyd ef. Cafodd ei weddillion orphwys yno yn dawel hyd y flwyddyn 1120, pan y cythryblwyd hwynt gan un Gwrfan (Urban), oedd yn esgob yn Llandaf ar y pryd, yr hwn a'u symmudodd i'w esgobaeth ei hun yn Llandaf gyda rhwysg a seremoniau cydweddol âg archwaeth yr esgob a'r oes yr oedd yn byw ynddi Yn mhen ysbaid ar ol marwolaeth Dyfrig, symmudodd Dewi yr archesgobaeth o Gaerllïon i Fynyw, yn Mhenfro, pryd y tybir i'r sefydliad ddarfod, fel *Bangor*, ac i'r lle adgymmeryd ei hen enw, *Caerllïon ar Wysg*, yr hwn a geidw hyd heddyw.

MYNACHOD BANGOR DYFRIG. Y mae yn anhawdd gwybod pa nifer o fynachod neu "saint" oedd yn Mangor Dyfrig, yn arbenigol; ond dywedir yn yr *Achau*—"Yng Nghôr Dyfrig yr oedd y Corau hyn; sef, Côr Dyfrig, Côr Arthur, Côr Iliws (Iolo=Julius), Côr Aran; a'r rhai'n oll yn Nghaer Lleon ar Wysg: a Chôr Dyfrig a Chôr Meugant ar lan Gwy; a Chôr Llandaf; a Dyfrig yn Benraith arnynt oll, a *dwy fil o saint.*" Yn ol rhai copïau o'r *Brut*, cynnwysai y lle ddau cant o philosophyddion, y rhai a astudient seryddiaeth a chelfyddydau ereill. Swyddogion y Fangor yma yn unig, megys Bangor Teilo, a nodir yn yr *Achau*, hyd y gallwyd canfod; sef, Dyfrig, y sefydlydd. "Dewi ap Sanddef, ap Cedig, ap Ceredig, ap Cynedduf Wledig. Mam Dewi, Non Fendigaid, merch Ynyr o Gaer Gawch ym Mynyw; a'r Ynyr hwnw a roddes diroedd i Ddewi, lle y gwnaeth ef Fonachlawc, a symmud o honno yr Archesgobaeth o Gaerllïon ar Wysg, lle y bu Dewi cyn no hynny yn Archesgob." "Rhystyd Hen, Escob o Gaerllïon ar Wysg." "Gwyndaf ap Emyr Llydaw, a fu Beriglawr yn Nghôr Illtyd, a gwedi hynny efe a wnaethpwyd yn Ben rhaith ar Gôr Dyfrig yng Nghaerllïon ar Wysg." Gwrddyly ap Gaw. "Cadwr ap Ednyfed, ap Macsen Wledig, a fu Escob yn Ynys Prydain; a brawd Dyfnwal Hen ydoedd, ac yn byw yng Nghaerllïon ar Wysg."

BANGOR CADFAN: a elwid hefyd, BANGOR ENLLI, a CHOR ENLLI. Gelwir hon yn Fangor Cadfan, oddi wrth "Cadfan Sant ab Eneas Ledwic o Lydaw, a Gwen Teirbron, ferch Hywel ap Emyr Llydaw;" yr hwn Gadfan, medd yr *Achau*, "a wnaeth Fangor Enlli, lle y mae y Fynachlog yn awr." Mewn lle arall o'r *Achau*, dywedir "Cadfan Sant o Lydaw, a Dewi, a wnaeth Fangor Enlli." Daeth Cadfan, yn ol yr un awdurdod, i'r ynys hon yn amser Gwrtheyrn Gwrtheneu; a hyny, fel yr ymddengys, cyn i Garmon Sant ab Rhidicys ymadael oddi yma yn ol i dir Gâl. Yna, cafodd y Fangor yma ei gwneuthur gan Gadfan rywbryd o gylch B.A. 449.

Y mae traddodiad yn hysbysu mai Dyfrig Sant a wnaeth Fangor Enlli, yn ei hen ddyddiau, pan roddodd esgobaeth Caerllïon i fyny i Dewi Sant, yn fuan ar ol "senedd Frefi" (*synod of Brevi*) o gylch B. A. 490; ond yr ydys wedi methu a chael sail i hyn yn yr hen ysgrifau Cymraeg; ac am hyny, yn penderfynu mai i Gadfan y perthyn yr anrhydedd o seilio y nodedig Fangor Enlli. Efallai i'r traddodiad am Dyfrig fel seilydd y Fangor hon gael ei achlysuro gan ei ymneillduad ef, a lluaws o fynachod (saint) ereill, i Fangor Cadfan yn Enlli, o gylch yr amser a nodwyd, am y rhai y dywed yr *Achau*, "Saint oeddynt yng Nghôr Cattwg, ag a aethant gyda Dyfrig i Fangor Cadfan yn Enlli." Y mae cân dra nodedig ar yr achlysur yma o ymfudiad y saint i Enlli, o waith Catwg Doeth, yn *Hynafiaint Cymru*, yr hon, o blegid ei hynafiaeth, ac amryw hynodion, nis gall lai na bod yn ddyddorol i'r darllenydd; a chan ei bod yn fer ac i'r pwrpas, fe'i cyflëir yma. "Tua diwedd oes Catwg," ebai Tomos ab Iefan, o Dre Bryn, "fe ddarfu i rai o'r duwiolion fwriadu myned i Ynys Enlli, fal y gallent fod oddi ar flyrdd y terfysg ag oedd yr amser hyny yn ein gwlad, o achos brad a gwrthryfel y Saeson. Dymunasant gael cynghor Catwg ar yr achos hyny, ac efe a'i rhoddes iddynt ar fesur cerdd: sef a ganlyn:—

'Pan oedd saint senedd Frefi
Yn ol gwiw bregeth Dewi,
Wrth arch pryffwn prophwydi
Yn myned i Ynys Enlli,
Er ymwared o bob rhwystri
A hir gymhell cymhelri:
Yna dywedes Gybi
Pa fyd a geir yng ngweilgi,
Pa fwyd yn ymborth ini
Yng nghanol y môr heli?
Catwg a ddywaid wrth Ddewi
Fal y gwnai y prophwyd Eli,
Duw a ro gynghor ichwi
Ar foroedd a deieri:
Goddefwch bob caledi,
Nid ellir lles o ddiogi.

Trech doethineb no gwegi,
Trech llafur no direidi,
Dirwest a chred a gweddi
A orfydd ar bob cyfyngi,
Mil canhaws gan Dduw roddi
Na chan ddyn diddim erchi,
O chredir llyfr Generi,
Yr hwn a wiria ini
Ni chafas ddyn ei eni
Heb gael gan Dduw ei borthi:
Gwellwell Duw o'i addoli,
Gwaethwaeth y diawl o'i berchi;
Nag ofnwch a ddaw ichwi
Fwy no'r fwyalch yng nghelli
Nid ardd nid erddir iddi,
Nid llawenach neb no hi.
Archwn bawb i Dduw Celi,
Arglwydd yr holl Arglwyddi,
Er Iesu a'i bum weli,
Ein dwyn o bob cyfrwystri,
A'i gael yn ganllaw ini,
Ac ni raid i neb ofni.
*Catwg Sant a'i cant."*

Gelwir y Fangor yma yn Fangor Enlli, oddi wrth Ynys Enlli (*Bardsey Island*), yn yr hon y seiliwyd hi gan Cadfan; a'r hon ynys sydd i'r de-orllewin o derfyn eithaf sir Gaernarfon, ac yn nghylch tair gwennod (*league*), sef naw milltir, o Aberdaron, pentref bychan sydd ar drwyn Lleyn, lle y byddai pererinion ac ymddiofrydwyr coelgrefyddol, yn gyffredin cyn y Diwygiad, yn cymmeryd cychod i fyned i Enlli. Y mae yr ynys tua milltir o hyd, a thros ddwy filltir o amgylchiad. Y mae ei holl arwyneb braidd yn wastadedd ffrwythlawn; a dywedir y cynnyrcha haidd godidog. Y mae bryncyn neu uchafedd bychan ar ei hochr ddwyreiniol, lle yr adeiladwyd goleudy yn ddiweddar, er mantais i forwriaeth. Y mae yr hen abatty wedi ei droi yn anneddau i'r brodorion; ac ychydig oddi wrtho y mae gweddillion hen gapel neu gafell weddi dra nodedig, wedi bod, fel yr ymddengys, yn adeilad fwaog odidog; ac, ar y tu dwyrain y mae allor geryg unigol. Chwanegwyd poblogaeth yr ynys hon yn fawr, meddai Pennant, ac ereill, gan lofruddiad mynachod Bangor Is y Coed, neu Fangor Maelor, tua'r flwyddyn 607. Tybia Pennant fod yn dra thebyg i Enlli fod yn un o ddirgelfanau y Cyldwys (*Culdees=Colidei*); sef hen fynachod Albanaidd a Gwyddelig, ymneillduent i ynysoedd a chonglau dirgel a phellenig, gyda'r amcan proffesedig o gael mwy o hamdden i weddïo a myfyrio; ac i hyfforddio yr ieuenctyd a ymgyrchent atynt: a dichon mai hyn a gymhellodd Dyfrig a'i gyfeillion, a'r mynachod a ddiangasant wedi hyny o gyflafan Bangor Maelor, i ddewis Enlli fel lle o ddiogelwch ac ymneillduad crefyddol. "Y Cyldwys," meddai Pennant, "oedd feudwyaid crefyddol cyntaf Ynys Prydain, y rhai a gyrchent i ynysoedd a llenyrch anial, lle y gallent addoli y gwir Dduw mewn tawelwch." Y mae yn ddiammheu y cyrchid i'r ynys hon yn bur fore; canys crybwyllir yn hanesion Cymru, fod y fynachlog yno yn ei blodeu mor fore ag amser Cadfan ab Iago, brenin Prydain, tua'r flwyddyn 603. Adeiladwyd abatty yma ar ol dyfodiad y Normaniaid i Brydain, B. A. 1272; neu, efallai, ar ol i Edward I. ddarostwng Cymru (B. A. 1284); canys ymddengys oddi wrth rai o'r Llawysgrifau Sefryddol, i ddeiseb gael ei chyflwyno gan Abad Enlli i Edward II., yn achwyn fod sirydd Caernarfon wedi honi yn anghyfiawn oddi arno ef y tâl o wyth swllt a thrigain a chwecheiniog, yn groes i feddiant-roddeb (*deed of feoffment*) oedd ganddo. Ar hyn, archodd y Brenin i Rosser ab Mortimer, prifynad Cymru, chwilio i'r mater, yr hwn a hysbysodd fod yr abad yn dal ei dir yn sir Gaernarfon, fel elusen pur a pharhaus (*in puram et perpetuam eleemosynam*), heb unrhyw wasanaeth na chydnabyddiad lleol. "Am hyny, archodd y brenin, o'i neillduol rad, a thrwy gyfarwyddyd ei gynghor, ar i'r dywededig swm, a phob olddyledion, gael eu talu yn ol am byth, a chyfarwyddodd no fo i neb, nac yn ei enw ef nac yn enw ei etifeddion, aflonyddu 'r fonachlog byth mwyach."

Ymddengys i'r Fangor hon gael ei gwaddoli yn haelionus gan amryw dywysogion a gwŷr mawr; canys dywedir yn yr *Achau*, "Ceinmyged (=prif sefydliad) Emyr Llydaw, ag Einion ap Owain Danwyn, a Dewi Sant, Bangor Enlli." Cyfeirir at amryw o freintiau perthynol i'r lle yn yr hanes rhagorol a ysgrifenodd y Parch. H. L. Jones. (Gwel *Archæologia Cambrensis;* cyf. ii. td. 53, &c.) Ardrethion y sefydliad yma, ar ei ddadgorfforiad, yn ol Dugdale, oedd 46*p.* 1*s.* 4*c.;* ac yn ol Speed, 58*p.* 6*s.* 2*c.* Gelwir trwyn eithafol y tir gyferbyn ag Enlli yn Fraich y pwll, a'r pentir bychan arall sy ger llaw iddo yn Faen melyn Lleyn, yn agos i'r hwn y mae gweddillion hen gapel cyflwynedig i Mair Santes, a elwir Eglwys Fair. Tybia Mr. Pennant i'r capel hwn gael ei osod yn y fan hyny, er rhoi cyfleusdra i forwyr erfyn nawdd y sant gwarcheidiol yn eu mynediad drwy y draethell beryglus sydd yno. Yr oedd ffynnon ar ochr Craig y Maen melyn, tua hanner y ffordd i lawr y traeth, a elwid Ffynnon Fair, yr hon oedd mewn sefyllfa dra pheryglus, a'r esgynfa iddi yn hynod enbyd; ac os llwyddai y pererin neu yr ymddiofrydwr i ddwyn llonaid ei enau o ddwfr, ar hyd y llwybr, neu y grisiau cul, peryglus i ben y graig, ystyrid y caffai hwnw ei holl ddymuniad, pa beth bynag a fyddai. Pan fyddo y tywydd yn rhy dymmestlog i groesi Frydiau Caswennau (*Bardsey race*), arosai'r pererinion yn Aberdaron, a chyflwynent eu defosiynau i Hywyn neu Hewnyn, y sant gwarcheidiol; ac ystyrid y lle yma, fel Enlli, yn llanerch cyssegredig. Y mae môr-gilfach fechan yn agos i Aberdaron, a elwir Porth y Meudwy (yn llygredig, Porth y Neudwy, a Porth Neigwl), o'r lle y tybir y mordwyai y pererinion i Enlli, fel y dywed y prydydd—

"Mudais i Borth y Meudwy,
Aber mawr heb arhoi mwy."

Dywedir yn y *Bywgraffydd Cymraeg* (*Cambrian Biog.*), mai Einion Frenin, ab Owain Danwyn, mewn cyssylltiad âg Emyr Llydaw, a seiliodd Fangor Enlli; ond nid yw yr awdwr (y Dr. Pughe) yn nodi ei awdurdod dros y fath dyb; ac y mae yr hen *Achau* yn gwbl wrthwyneb iddo, y rhai a briodolant yr anrhydedd, fel y dangoswyd eisoes i Gadfan Sant. Dengys yr *Achau* fod Einion yn dra hoff o Fangor Enlli, ac mai hon oedd ei "geinmyged"—ei brif sefydliad; ac efallai mai hyn a barodd i rai feddwl mai efe oedd ei sylfaenydd. Y mae hen eglwys hardd yn Lleyn yn gyflwynedig i'r Einion hwn, a elwir Llan Engan Frenin; ac ymddengys wrth gywydd sydd ar gael, o waith prydydd coelgrefyddol o'r enw Hywel ab Rheinallt (tua B. A. 1470), fod rhai yn ddigon eilunaddolgar yn ei oes ef, ac yntau yn eu plith, i addoli delw Einion Frenin; canys, eb efe, am Einion, yn mysg pethau ereill tra choelgrefyddol—

"Y crefyddwr cryf addwyn
Aur yw dy fedd er dy fwyn
Einion Fawr Einion Freiniol
Frenin a'th werin i'th ol
Dawnus fab Owain Danwyn
D'wysog llaw eurog yn Ll'yn
Llwyr awn â chwŷr i'n iachau
Einion Yrth yr un wyrthiau
* * * * * *

Mawr a theg i'th anrhegwyd
Wrth Fôr Udd mor werthfawr wyd
Gwnaethost yn dy wlad adail
Gorsedd ar Wynedd yw'r ail
Mae Tudwal yn d' ardal di
A'th wenllaw im' wrth ENLLI
Gorphenaist Gaer y Ffynnon
A thir rhydd i wneuthur hon
* * * * *
Dy LUN a dalai Wynedd
Iechyd i fil *uwch dy fedd*
* * * * *
DY DDELW *di addolant*
Ac yn y Côr y cân cant
Dy goron deg a eurwyd
Dy glôg mor drugarog wyd
Dy rad gyd a'th wlad a'th lu
Dy ras ger bron Duw'r Iesu."

Ond y mae yn gysur nad oedd pawb, hyd yn oed yn yr oesoedd tywyll hyn, yn coleddu syniadau eithafol yr hen brydydd coelgrefyddol yma; canys y mae cywydd byr o waith un Gruffydd ab Ieuan ab Llywelyn Fychan, ar yr un pwnc, yn dangos golygiadau llawer amgen a mwy union-gred; a thybir yn sicr y bydd yn falch gan y darllenydd ei gael yma, i wrthbwyso y "surdoes" uchod, fel y dywedai Sion Dafydd Rhys. Dyma fel y dywedai Gruffydd:—

"Beth a dâl i'r diofala
Bod yn ddall a'r byd yn dda
Nid yn ddall ffol heb olwg
Ond yn ddall trwy ddeall drwg
Dyma'r dallder arferwyd
Delwau yn well na Duw lwyd
Mab Mair ei 'sgluso 'm mhob modd
Mawrhau diawl mawr hudoludd
Rhoi urddoliant ar ddeulin
A ddylai Grist i'r ddelw grin
Ffyniant Gwenfrewi ffynnon
Ffaidd a hyll yw'r ffydd hon
I Elian offrymid eilwaith
A'r Grog o Gaer[1] gorawg waith
Gwelwn cymmerwn g'wilydd
Mor ffol yr aethom o'r ffydd
Ffydd dduwiol 'r apostolion
E hoffai Dduw y ffydd hon
Trown ninnau i gyd byd bedydd
O ran ei pharch i'r un ffydd
A rhown heibio tro trymddig
*Ganhwyllau a delwau dig*
A'r tyrs cwyr a'r llaswyrau
A'r gleiniau o breniau brau
Ni all angel penfelyn
Na llu o saint ddim lles yn
Na dyn byw wedi ei eni
Is y nef ond IESU i ni."

MYNACHOD BANGOR CADFAN. Am rif mynachod neu saint y Fangor yma, dywedir yn yr *Achau*, "Côr Gadfan yn Enlli i *ugain mil* o saint, ac nid oedd yno gellau, eithr pob un fel y mynai. A gwedi ugain mil saint, e fu Enlli yn Gor o gell i bumcant sant." "Cadfan Sant o Lydaw, a Dewi, a wnaeth Fangor Enlli, a mwya rhif o saint yn hono." Er y dywedir yma yn bennodol, fel y gwelir, fod *ugain mil* o saint yn Enlli; eto, y mae braidd yn anhawdd credu i gynnifer fod yno erioed *ar unwaith*. Tybia rhai mai ugain mil a gladdwyd yno; ac, ar y cyfan, y mae hyn yn fwy tebygol. Y mae dau gywydd ar gael ar yr ugain mil saint a gladdwyd yn Enlli; un o waith Tomas Celli, a'r llall o waith Hywel ab Ieuan ab Dafydd ab Rhys. Dechreu un T. Celli fel hyn:—

"Awn i Enlli rhi yn rhod,
O nwyf bur i Nef barod."

A'r llall fel yma:—

"Mi äf i luniaw fy medd
I'r ynys oddi ar Wynedd."

Y mae yn sicr ddiau, pa fodd bynag, i Enlli fod yn breswylfod i luaws o fynachod; ac y mae enwau llawer iawn o honynt ar gof a chadw hyd y dydd hwn, y rhai a restrir yma fel y dygwyddant yn yr *Achau*:—Cadfan, y sylfaenydd; Henwyn ab Gwrdaf Hen o Lydaw, periglor Cadfan yn Enlli; Cynan, Degwy, Mael, Sulien, Eithras, Llywyn, Llyfab, "saint a dysgedigion oeddynt a ddaethant gyda Chadfan gan Armon i'r Ynys hon, ac a fuant saint yn Mangor Illtyd, ac ym Mangor Cattwg o Lancarfan, ac a aethant i gyd gyda Chadfan yn saint i ynys Enlli; Triniaw ab Diwg ap Emyr Llydaw: Maelieric ab Gwyddno, ap Emyr Llydaw; Tygai Glasawc, ap Ithel o Lydaw; Trillo ap Ithel o Lydaw; Tanwg ap Ithel Hael o Lydaw; Bodfan, Brothen, Ernin, Brenda, meibion Helic ap Glannawc, o Faes Gwyddnaw; Tegwyn Sant o Dir Gâl; Hefin ab Gwyndaf Hen o Lydaw; Tyfrydawc ap Arwystli Gloff; Arwystli Gloff ap Saethenin Frenin o Faes Gwyddnaw." "Plant Caw o Brydyn, arglwydd Cwm Cawlwyd, a aethant yn seintiau yn y Bangorau ag oeddynt yr amseroedd hyny, nid amgen nag un Illtyd, ag un Cattwg, ag un Dunawd, ag un Deiniol, ag un Badarn, ag un Gadfan yn Enlli, sef y rhai hyn—Peirio, Gallgof, Eugrad, Cennydd, Aneurin, Caffo, Dirinic, Cewydd, Maelawc, Gwrddyly, Cilydd, Huail, Eirgrawn, Cyhelyn Fardd, Cyngar, Samson, Canna ferch y Caw." "Gwelygordd Emyr Llydaw a ddaethant i'r Ynys hon gyda Chadfan a Garmon Sant ap Rhidigys, i adnewyddu cred a bedydd, ag ymgytgori yn Ynys Enlli a wnaethant: sef oeddynt, Padarn ap Pedredin, Tydecho ap Amwn Ddu, Maelryd, Llewin (Llywyn?), Baglan ap Ithel Hael, Derfael ap Howel, Dwywal ap Hywel, Lloniaw Lawhir ap Alan Firgain, Gwen Teirbron'ch Emyr Llydaw. Owain Finddu, Ednyfed, Peblic, Cystenin, meibion Magsen Wledig; Nudd Hael ap Senyllt; Dingad ab Nudd Hael, Llidnerth ab Nudd Hael, Baglan, Lleuddad, Gwytherin, Tegwyn, Tefriawc, meibion Dingad ab Nudd, ac Eleri'ch Dingad ab Nudd; Melangell'ch Cyfwlch Addwyn; Madawc ap Owain ap Magsen Wledig. Gwyar, Celynin, Euryn y Coed Helic, Gwynwyn, Boda, Bedwas, Rhychwyn, Elgyfarch, Peris, meibion Helic ab Glanac o Dyno Helic. Tegonwy ap Teon; Llywelyn ap Tegonwy: Fflewin ap Ithel Hael; Llechid 'ch Ithel Hael; Gredifel ap Ithel Hael; Twrog ap Ithel Hael; Arthfael ap Hywel ap Emyr Llydaw; Dochwy, a Tecewyn o Lydaw; Meiryn ab Meiryni ap Seithenin o Faes Gwyddno. Tyneio, Tyrawc, Tydiaw, Tefrydawc, Tudur, Dihaer, Marchell, "plant Arwystl Gloff, ap Seithenin frenin, a fuant gyda Deinioel ym Mangor Maelawr, a gwedi torri'r Gôr hono hwy a aethant ym Mangor Gadfan yn Enlli." "Cybi Sant, ap Selef, ap Geraint, ap Erbin, a fu yn Nghôr Garmon, ag a aeth yn un Enlli." "Gwerthan fab Dunawd, fab Pabo Post Prydain, a fu beriglawr Cattwg yng Nghôr Garmon; a Chattwg a'i danfones ef a'i frodyr, Deinioel a Chynwyl, i arllwybraw Bangor ym Maelor, yng nglann Dyfrdwy; ag o ddoethineb a dwyfoldeb y tri brodyr hynn ydd aeth honno yn urddasolaf ac amlaf ei saint o holl Fangorau Ynys Prydain; a hi a dorrwyd gan y Saeson Paganiaid yng Ngwaith Perllan Fangor; ac yno y llas [lladdwyd] llawer o'r saint, ag eraill a ddianghasant a aethant yn saint ym Mangor Enlli, ag o hyny ydd aeth Enlli yn amlaf ei saint, a chlodforusaf ei gwybodau o'r holl Fangorau a geid yng Ngwynedd; a rhoddion breninoedd, a phendefigion, a boneddigion iddi yn amgen a mwy nag i un arall. Gwarthan a las gan y paganiaid Saeson yn rhyfela yng Ngwynedd." Ac felly y terfyna yr hanes sydd yn yr *Achau* am y Fangor nodedig hon.

[1] Caerlliou Gawr.

Digitized by Google

Parhaodd y Fangor yma yn grefydd-dy am lawer cant o flynyddoedd: dyma enwau rhai o'r abadau a fuont ynddi yn y canoloesau—Idwal, mab Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, Cadwallon ap Owain Gwynedd, dywysog; Llywelyn, mab Cadwallon, Robert ab Meredydd, o deulu Owain Gwynedd; Madog y Caws, o gylch 1480. Ioan Conwy oedd yr abad diweddaf ynddi, efe oedd etifedd Bodnithoedd, yn Mylltcyrn.

**BANGOR Y TY GWYN AR DAF.** "Bangor y Tŷ Gwyn ar Daf a wnaethpwyd gan Bawl Sant o Gôr Illtyd, a Fflewin, a Gredifel, meibion Ithel Hael," o gylch B. A. 480. Mewn man arall o'r *Achau*, dywedir—"Pawl Sant ac Escob o Gor Illtyd ap Meiric ap Tewdric, efe a wnaeth Gôr lle mae y Tŷ Gwynn ar Daf yn Nyfed." Gelwir seilydd y Fangor yma mewn rhai llawysgrifau yn Pawl Hen, Pawl Hen o Fanaw, a Paleen o Fanaw, yr hyn a arwydda mai brodor o Ynys Manaw (*Isle of Man*) ydoedd.

Nid oes ond ychydig iawn o hanes y Fangor yma yn yr *Achau*, nac mewn un man arall, ar gof a chadw; ond ymddengys fod y seilydd, Pawl Hen, yn ddyn tra gwybodus a dysgedig yn yr Ysgrythyrau, canys mynegir i Ddewi, Teilo, a rhai personau hynod ereill, ymsymmud i'r Fangor hon er mwyn cael ei hyfforddiant.

Hefyd, hynodwyd y Tŷ Gwyn yn fawr trwy i Hywel Dda alw ei senedd yn nghyd yno (B. A. 926) i arolygu a gwellhau cyfreithiau Cymru, y rhai sydd ar gof a chadw hyd y dydd hwn, dan yr enw, "Cyfreithiau Hywel Dda." Yma hefyd y sefydlodd ac y gwaddololdd Bernard esgob Normanaidd cyntaf Tŷ Ddewi, abatty, tua B. A. 1143, i frawdoliaeth o Ciserciaid, neu yn ol Leland, i fynachod Gwynion, a elwid hefyd ar enw y sefydlydd yn Bernardiaid, yr hwn abbatty a gyssegrwyd i Mair Santes.

Saif y Tŷ Gwyn, medd P. B. Williams, yn mhlwyf Llangan, yn agos i'r afon Taf, heb fod yn mhell oddi wrth gyffiniau sir Benfro a sir Gaerfyrddin.

Gwaddolwyd Bangor neu Fynachlog y Tŷ Gwyn yn haelionus, ar wahanol amserau; canys cyfrifwyd gwerth blyneddol y sefydliad ar ei ddadgorfforiad, yn amser Harri VIII., yn ol Dugdale, yn 135*p.* 3*s.* 6*c.*; ac yn ol Speed, yn 153*p.* 17*s.* 2*c.*

**MYNACHOD BANGOR Y TY GWYN AR DAF.** Nid yw yr *Achau*, hyd y canfuwyd, yn crybwyll ond am dri sant, fel aelodau penodol o'r Fangor yma, a phob un o'r tri, fel yr ymddengys, yn swyddogion y lle; sef Pawl Hen, y sylfaenydd, a Fflewin, a Gredifael, "meibion Ithel Hael o Lydaw, saint o Gôr y Tŷ Gwynn ar Daf, yn Nyfed, lle y buant gyda Phawl, sant o Gôr Illtyd, yn arllwybraw Bangor." Dywedir i un Cadwgan, abad y Tŷ Gwyn, gael ei wneyd yn esgob Bangor Deiniol tua'r flwyddyn 1212; a bod rhai mynachod wedi ymadael oddi yno, o gylch 1229, i le a elwid Gwyndir yn yr Iwerddon. Pan ddadgorfforwyd y sefydliad, wyth mynach yn unig oedd yn y lle; ac nid oes enw un o honynt, hyd y gwyddys, mewn coffadwriaeth.

**BANGOR DUNAWD:** a elwid hefyd BANGOR MAELOR, BANGOR FAWR YM MAELOR, BANGOR MAELOR YNG NGLAN DYFRDWY, a BANGOR IS Y COED; ac wrth yr enw olaf hwn y gelwir y lle hyd y dydd heddyw. Galwyd y lle enwog yma yn Fangor Dunawd, oddi wrth Dunawd Fawr (a elwir hefyd Dunawd Ffŷr—llygriad, yn y llawysgrif, y mae yn dra thebyg, o Fawr) ap Pabo Post Prydain, ap Arthwys, ap Mor, ap Ceneu, ap Coel Godebawc. Y mae amryw yn meddwl mai Dunawd a sefydlodd y Fangor hon gyntaf: dyma farn awdwr yr *Horæ Britannicæ*, golygydd y *Cambro Briton*, ac awdwr *Enwogion Cymru*; ond y mae yr *Achau* yn dywedyd yn bendant mai "Deinioel ap Dunawd, ap Pabo Post Prydain, a wnaeth Fangor Maelawr yng Nglann Dyfrdwy, lle bu yn ogoneddus o'r holl Fangorau cyn ei thorri gan y Saeson digred yn Ngwaith Perllan Fangor." Ac mewn lle arall dywedir—"Gwarthan fab Dunawd, fab Pabo Post Prydain, a fu beriglawr Cattwg yng Nghôr Garmon; a Chattwg a'i danfones efe a'i frodyr, Deinioel a Chynwyl, i arllwybraw Bangor ym Maelor, yn Nglann Dyfrdwy; ag o ddoethineb a dwyfoldeb, y tri brodyr hynn ydd aeth honno yn urddasolaf ag amlaf ei saint o holl Fangorau Ynys Prydain; a hi a dorwyd gan y Saeson Paganaidd, yng ngwaith Perllan Fangor; ac yno y llas llawer o'r saint, ag eraill a ddiangasant a aethant yn saint ym Mangor Enlli." Dywedir eto—"Deinioel, Cynwyl, a Gwarthan, meibion Dunawd Fawr, ap Pabo Post Prydain; a cheinmyged y tri brodyr hynn, yn nawdd Gwehelyth Cadell Deyrnllwg, Bangor Fawr ym Maelor, yn Nglann Dyfrdwy; ag yno y buont yn Benrheithiau." Y mae y tystiolaethau hyn yn ddigon o awdurdod i benderfynu, fel y tybir, gyda Charnhuanawc, mai "Deinioel Wyn, mab Dunawd ab Pabo Post Prydain, a sefydlodd Fonachlog Bangor Iscoed, yn swydd Callestr."

Pa fodd bynag, y mae yr *Achau*, cystal ag amryw awdwyr, yn dangos mor amlwg mai ar enw Dunawd y gelwid Bangor Maelor, canys fel hyn y dywedir—"Tutclud, Geneddyl, &c., meibion Seithenin o Faes Gwyddno yng Ngheredigion a oresgynes y môr eu tiroedd, myned yn saint Bangor Dunawd." "Dynawd, Carwyd, a Sawyl Benuchel, meibion Pabo Post Prydain oeddynt, a saint Bangor Dynawd." Heb law hyn, y mae *Brut y Breninoedd* yn dywedyd fod Dunawd yn "Abad Monachlog Fangor Fawr y Maelor," heb son fod rhai, fel y dangoswyd, yn tybied mai efe a'i sefydlodd.

Yn awr, tuag at gynnyg cyssoni hyn, sef mai Deinioel ab Dunawd oedd y sefydlydd, er y dichon i'r olaf fod yn abad yno yn mhen ysbaid ar ol ei sefydlu, gellir sylwi, yn fyr, mai rhyfelwr cadarn oedd Dunawd yn moreu ei oes, fel y dengys y *Trioedd*, lle y dywedir—"Tri Phost Cad Ynys Prydain; Dunawd Ffur fab Pabo Post Prydain, Gwallawc fab Llenawg, a Chynfelyn Drwsgl: sef y medrynt dosparth ar gad a chatteyrnedd yn oreuon o bawb oll ar a fuant erioed." Hefyd, y mae marwnad Urien Reged, gan Llywarch Hen, yn dangos ddarfod i Ddunawd ryfela yn erbyn meibion Urien. Ond er mor fedrus ydoedd fel cadwr, bu orfod iddo ymadael â'i diriogaethau o'r diwedd, a rhoddi ei hun dan nawdd Cyngan ap Cadell, tywysog Powys, yr hwn a'i derbyniodd ef a'i deulu yn groesawgar. Yn y sefyllfa yma, dichon ddarfod i'r meibion, Deinioel a'i frodyr, gofleidio crefydd o flaen yr hen ryfelwr, eu tad; ac ymddengys mai felly fu, ac iddynt roddi eu hunain yn "saint yng Nghôr Cattwg," fel y dangoswyd yn barod, yr hwn, wrth weled eu talentau a'u buchedd dda, a "ddanfones y tri brawd i arllwybraw Bangor Maelor." Dichon i esampl ei blant effeithio yn dda ar feddwl yr hen ryfelwr; pa fodd bynag, y mae yn amlwg ddarfod iddo yntau gofleidio crefydd yr oes yn fuan ar ol dyfod i

Bowys, ac ymroddi yn sant neu fynach yn Mangor Maelor, gyda'i feibion; ac o blegid ei oedran, a chymhwysderau ereill a ddichon fod ganddo, yr oedd yn ddigon naturiol i'r plant wneyd eu tad yn "abad" ar y Fangor, a rhoddi iddo yr anrhydedd o'i galw ar ei enw.

Y mae un anhawsder eto gyda golwg ar sefydliad Bangor Maelor; a chan fod y Fangor hon mor bwysig, yn anad un arall, yn hanes yr Eglwys Brydeinig, dylid cynnyg symmud hwnw hefyd oddi ar ffordd y darllenwyr. "Dywedir," meddai Carnhuanawc, "i Fangor Dunawd gael ei sylfaenu gan Lles ap Coel;" ac y mae sail gadarn i'r dywediad hefyd yn yr *Achau*, lle yr hysbysir fel hyn:—"Lleufer Mawr (neu Lles) ab Coel, ab Meyryc, ydoedd frenin ar Ynys Prydain, ag yn byw yn Llandaf, ag ef a wnaeth Esgobaeth yno gyntaf; ag a roddes gyfoeth i Gôr Eurgen i gant o saint, ag a wnaeth Gôr yn Ngwynedd, y lle a elwid wedi hyny Bangor Is y Coed. Ag Arthur wedi hyny a roddes gyfoeth i Gôr Is y Coed, ag a wnaeth yno saith mintai, yn ol y cynghorwyd ef gan Ylldud." Yr oedd Lleufer Mawr yn byw cyn Deinioel fwy na thri chan mlynedd; a pha fodd y gallasai y naill a'r llall fod yn sefydlydd Bangor Is y Coed, fel yr hysbysa yr *Achau*, ac y tybia ereill? Os sylwa y darllenydd mai *Côr* a wnaeth Lleufer Mawr "yng Ngwynedd" (o gylch B. A. 183), ac mai "*wedi hyny*" (tua'r flwyddyn 505, neu ddiweddarach) y gwnaed y sefydliad yn *Fan*-gor, gan Deinioel ab Dunawd—os ceidw y darllenydd hyn mewn cof, fe fydd yn hawdd iddo gyssoni yr hen hysbysiadau crybwylledig.

Gwelir, weithion, i Fangor Is y Coed fod yn sefydliad crefyddol am lawer cant o flyneddoedd, set o amser Lleufer Mawr, a nodwyd uchod, hyd amser Brochwel Ysgythrog, tua B. A. 607; ac os ystyrir i'r lle gael ei waddoli mor haelionus gan Lleufer Mawr, ac Arthur, a Cyngen ap Cadell Deyrnllwg, ac ereill, nid rhyfedd i'r sefydliad fod mor odidog a llwyddiannus. Y lle yma yn unig, yn nghyda Bangor Fawr yn Arfon, o'r holl Fangorau a fuont gynt yn Nghymru, sydd wedi cadw yr enw cyssegredig hwn; canys adnabyddir y llanerch dan sylw, hyd heddyw, wrth yr enw Bangor Is y Coed.

**Mynachod Bangor Dunawd, neu Bangor Is y Coed** "Saith Cangell oeddynt ym Mangor Is y Coed," medd yr *Achau*, "a thri chant o wŷr golychwydol (crefyddol) o fyneich, gwŷr llên, ymhob Cangell, a moli Duw ddydd a nos heb orphwys." Yn unol â hyny y dywed Beda a'r *Brut* fod nifer y mynachod y cyfryw, fel pan ddosberthid hwynt yn saith dosbarth dan eu gwahanol lywyddion, ni chynnwysai yr un ddim llai na thri chant o bobl. Yn ol hyn, yr oedd yno *ddwy fil a chant* o fynachod; ond yn ol y Trioedd, ac amryw ysgrifenwyr, yr oedd yno *ddwy fil a phedwar cant*. Fel hyn y dywedir:—"Tri dyfal gyfangan (*cyfangor*, yn ol Triad arall) Ynys Prydain: un oedd yn Ynys Afallach, yr ail yng Nghaer Garadawc, a'r trydydd y Mangor; ymhob un o'r tri lle hynny yr oedd 2400 o wyr crefyddol; ac o'r rheini 100 cyfnewidiol bob awr o'r 24 yn y dydd a'r nos, yn parhau mewn gweddiau a gwasanaeth i Dduw yn ddidranc ddiorphwys."

Dyma enwau y rhai sydd ar gof a chadw yn yr *Achau*:—"Dunawd Fawr ap Pabo Post Prydain; Cybi ap Selyf, ap Geraint, ap Erbin; Llwchhaearn ap Rygarn; Tutclud, Geneddyl, Myrini, Tydnot, Senewyr, meibion Seithenin o Faes Gwyddno; Teyrnawc ap Arwystli Gloff o Ddyffryn Clwyd; Carwyd, Sawyl Benuchel, meibion Pabo Post Prydain; **Deinioel ap Dunawd**, ap Pabo; Gwyar, Celynin, Euryn y Coed Aur; Gwynnwn, Boda, Bodwan, Bedwas, Brendaf, Rhychwyn, Brothen, Elgyfarch, Peris, "deuddeng mab Helic ap Glanawc, o Dyno Helic yn y Gogledd;" Cynwyl, Gwarthan, meibion Dunawd Fawr, ap Pabo; Deinioel ap Deinioel Ail (yn hytrach, Deinioel Ail ap Deinioel) ap Dunawd, ap Pabo; Cyngen ap Cadell Deyrnllwg; Brochwel Ysgithrawc, ap Cyngen, ap Cadell; Gwyndeg, Arwystli Gloff, Llibio, Gwynhoedl, Hoedloyw, Tudur, Ynyr, meibion Seithenin ap Seithin frenin, o Faes Gwyddno; Meirin ap Meiryni, ap Seithenin; Tyneio, Tyrawc, Tydiaw, Tefrydawc, Tudur, Dihaer, Marchell, plant Arwystli Gloff, ap Seithenin frenin. A hyn a gafwyd yn yr *Achau* o'r ddwy fil a phedwar cant. Y mae rhai yn tybied mai mynach o'r Fangor hon oedd Morgan, a elwir yn Lladin *Pelagius*; ond nid oes digon o sail i hyn i ymddibynu arni. Y mae Bale ac ereill yn priodoli i'r cymundeb hwn y teitl o "Drefn Apostolaidd," efallai mai o herwydd i'w reolau gael eu dwyn yn mlaen yn ol cynllun yr apostolion, y rhai "oeddynt yn wastadol yn y deml, yn moli ac yn bendithio Duw," a'r rhai "oedd yn parhau yn gytûn mewn gweddi ac ymbil, gyda'r gwragedd, a Mair mam yr Iesu, a chyda'i frodyr ef." Gŵr priod ydoedd yr abad, a rhestrir ei wraig ef, Dwywe, yn mhlith y saint.

**Llofruddiad Mynachod Bangor Dunawd, neu Is y Coed.** Dechreuwyd y gynhen a derfynodd yn y llofruddiad erchyll dan sylw, gan Awstin Fynach, y cenad uchelfrydig a ddanfonodd y Pab Gregory o Rufain i'r Ynys hon, i droi "y Seison paganaidd" i ffydd yr "Eglwys Gatholig." Wedi iddo lwyddo i broselytio Edelffled (*Ethelbert*), brenin Caint, medd y *Brut* a Beda, efe a roddes ei fryd ar ddwyn y Cymry hefyd i goflleidio ei grefydd ef; ac i ddwyn ei amcan i ben, gan y gwyddai eu bod hwy eisoes yn Gristionogion brwdfrydig, efe a ddanfonodd at "Dunawd, Abad Bangor Fawr ym Maelor," i ofyn ei gymhorth i droi y Seison; a phan gafodd ei somi, efe a fygythiodd y Cymry, gan ddywedyd, medd Beda, "os na dderbynient gymmod ganddo ef a'r Seison fel brodyr, y caent ryfel ganddynt fel gelynion;" neu, yn ngeiriau *Brut y Seison*—"Os na chymmer y Cymry heddwch genym ni, cânt eu dyfetha trwy ddwylaw y Saesoniaid." Bu yr Awstin waedlyd hwn gystal a'i air; canys yn ebrwydd ar ol hyn, fel y dengys *Brut y Breninoedd*, anfonodd Edelffled at Aetholfryd (*Ethelfrith*), brenin y Gogledd, yr hwn yn ddiannod a ddaeth gyda llu mawr am ben Dunawd a'i Fynachlog i ddial arno ei anufudddod; a chyn i Frochwel Ysgythrog, tywysog y rhandir hono gael amser i gynnull ond ychydig wyr yn nghyd, rhuthrodd y ddau lu ar eu gilydd, a'r paganiaid Seison a orfuant, o blegid eu tra nifer, fel y bu orfod i Frochwel ffoi o'r maes, wedi colli y rhan fwyaf o'i wŷr. Yr oedd ar y pryd, "anifer mawr o grefyddwyr o bob monachlog; a phan weles Aetholfryd hwynt, a gwybod y byddai laddfa fawr o'u plegid, y peris ef ladd yn Mangor ddau gant a mil o grefyddwyr;" ac efe a lwyr ddyfethodd y lle, gan losgi a dinystrio y cyfan, ac yn eu plith, y llyfrgell odidog a gwerthfawr a berthynai i'r Fangor. Wedi ymchwyddo trwy y fuddugoliaeth annheilwng yma, meddyliodd Aetholfryd ddarostwng chwaneg o Gymru; ond cyn iddo gafael dim o'i amcan, cyfarfu â'r gospedigaeth a haeddai mor gyfiawn; canys tra yr

Digitized by Google

ydoedd yn croesi yr afon Dyfrdwy ger llaw Bangor, "daeth o dywysogion Cymru yn borth i Frochwel hyd y Mangor, nid amgen Bledric, tywysog Cerniw, a Mredydd, frenin Dyfed, a Chadfan, frenin Gwynedd. Ac yno y bu ymladd croylon rhyngthynt a'r Saeson, a lladd llawer o bob tu; ac yn y diwedd y gorfu y Prydeiniaid; a brathu Aetholfryd, a'i gymhell i ffo, ac a ddiengys, a'r Saeson gydag ef; sef rhifedi a las (laddwyd) o'r Saeson yno, chwegwyr a thrigain a dengmil."—*Brut y Breninoedd.*

Ar ol y galanasdra a'r difflaethiad barbaraidd yma, a gymmerodd le tua'r flwyddyn 607, ymddengys na chynnygiwyd adferu Bangor Maelor fel mynachlog byth mwyach; canys "y saint a ddiangasant a aethant yn saint yn Mangor Enlli," a gorfu arnynt gefnu am byth ar eu hen Fangor odidog yn Is y Coed, gan ei gadael yn ddiffaethle anghyfanneddol! "Diammheu," meddai Carnhuanawc, yn dra phriodol, "fod dinystr y fath athrofa odidog yn golled annhraethadwy i Gymru, trwy ei hamddifadu o'r dysgedigion a'r llyfrau gwerthfawr, yn nghyd â'r holl foddion llenyddiaeth y rhai a hanfodent yn y fath sefydliad helaeth a threfnus."

Safai Bangor Is y Coed ar lan y Dyfrdwy, yn agos i Wrtyn Fadog (*Overton*), yn sir Fflint; ac mor llwyr oedd y difflaethiad, medd William o Malmsbri, fel nad oedd yn ei amser ef ond gweddillion yn unig i'w canfod o arddderchogrwydd cyntefig y lle; ac yn awr, medd Carnhuanawc, nid oes hyd yn oed gweddill i'w weled.

BANGOR DEINIOL: a elwid hefyd, BANGOR FAWR YN ARLLECHWEDD, BANGOR FAWR UWCH CONWY, BANGOR DEINIOL YNG NGWYNEDD, BANGOR DEINIOL YN NGWYNEDD UWCH CONWY, BANGOR FAWR YN NGWYNEDD, BANGOR ELBOD (Elfod) YN ARFON; ac yn awr fe'i gelwir BANGOR SIR GAERNARFON; ac yn fynych, dim ond BANGOR; a hon ydyw yr unig un o'r hen Fangorau a gadwodd yr enw, fel y crybwyllwyd o'r blaen, heb law Bangor Is y Coed.

Credir yn gyffredin i Fangor Deiniol gael ei sefydlu yn gynnar yn y chweched ganrif, tua'r fl. 525, medd golygydd y *Cambro. Briton*, ac ereill, gan Deiniol ab Dunawd Fawr (Ffŷr), ap Pabo Post Prydain. Dyma fel y dywed y gofalus Carnhuanawc:—"Deiniol Wyn, mab Dunawd ab Pabo Post Prydain. Efe a sefydlodd Fonachlog Bangor Iscoed yn swydd Callestr; ac wedi hyny, sefydlodd Bangor Deiniol, neu Bangor Fawr, yn Arfon." Yr *Achau* a ddywedant fel hyn:—"Deiniol ap Dynawd Ffŷr, ap Pabo Post Prydain, a Dwywe ferch Lynawc ei fam; ei Eglwys, Bangor Deiniol yng Ngwynedd, a Chôr Saint yno." Dywedir i'r Deiniol hwn gael ei gyssegru yn esgob y Fangor yma, gan Ddyfrig Beneurog, archesgob Caerlliion ar Wysg, tua B. A. 550; ac yn yr *Achau*, ceir fod Deiniol ap Deiniol Ail, ei fab, yn arllwybraw yr un Fangor yn amser Cadwaladr Fendigaid (o gylch B. A. 634), yn mhen tua 80 mlynedd ar ol ei dad—ar y mwyaf o amser rhwng tad a mab—pa fodd bynag, fel hyn y dywedir:—"Deinioel ap Deinioel ail, ap Dunawd, ap Pabo Post Prydain, sant o Fangor Maelawr; a gwedi torri honno, efe a aeth i Wynedd uwch Conwy lle y bu yn arllwybraw Côr Bangor Fawr yn Arllechwedd, a elwir Bangor Deinioel, yn amser Cadwaladr fendigaid, yr hwn a roddes diroedd at y Gôr hono; a gwedi hynny, symmudawdd Elfod Sant, ac esgob Caer Gybi, y Gwyndy i Fangor Deinioel, lle ydd aeth ef yn Archesgob ar holl Wynedd." [Gwel ESGOBAETH BANGOR DEINIOL.]

Yn mysg hen waddolwyr y Fangor yma, cyfrifir Cadwaladr Fendigaid, Maelgwn Gwynedd, Rhodri Mawr, Iago ab Beli, a Gruffydd ap Cynan.—Saif y Fangor hon mewn dyffryn rhwng dau fryn, yn agos i'r afonig Cegin, a elwir yn awr Porth y Penrhyn; ac o fewn tua thair milltir iddi, i'r de-orllewin, y mae pontydd godidog Menai a Britannia, y rhai a gydiant Fon ac Arfon yn nghyd, gan wneyd i fyny, i raddau helaeth, yr adwyth a wnaeth yr hen afon Menai, pan yr ymwthiodd ryw bryd yn y cynoesoedd, fel y bernir, rhwng y ddwy randir. Ger llaw i'r Fangor yma, tua'r gogledd, y safai Tyno Helig, iseldir prydferth Helig Foel ab Glanawg, ab Gwgan Gleddyfrudd, ap Caradog Friehtras, ap Llyr Merini, ap Einion Yrth, ap Cunedda Wledig; tros yr hwn iselder y gorlifodd y mor yn y seithfed ganrif; o herwydd pa ham y galwyd y lle fyth wedi hyny yn Draeth y Llefain (yn werinol, Traeth y Lafan =*Lavan Sands*). Dywedir y cyrhaeddai rhandir Helig o ymyl Bangor, rhwng Mon ac Arfon, cyn belled a'r Penmon Mawr; ac y mae hen forwyr y gymmydogaeth yn cyfeirio yn draddodiadol at lanerch tua chanol y Garth, a ystyriant fel safle Llys Helig; a chredant y gallant olrhain ei furiau ar dywydd hyfryd, pan fyddo'r morllanw yn bur isel. Ar ol y trychineb ofnadwy hwn, aeth y rhan fwyaf o feibion Helig, fel y dangoswyd eisoes mewn rhan, yn "Saint ym Mangor Fawr ym Maelawr; ac wedi hyny ydd aethant rai o honynt i Gor Cadfan yn Enlli; ac yn amser Rhun ab Maelgwn Gwynedd y buant," o gylch B. A. 560.

Yn y flwyddyn 973, darfu i Iolo, Brenin Gwynedd, yr hwn a yrasid o'i diriogaethau gan Hywel ab Ieuaf geisio cynnorthwy Edgar, brenin Lloegr, i adfeddiannu ei wlad; a hwnw, yn falch o'r cyfle, a arweiniodd fyddin gref hyd yn Mangor; a thra y bu yn aros yn y ddinas hono, efe a gadarnhaodd hen ragorfreintiau yr eglwys, a rhoddes chwaneg o diroedd at ei gwasanaeth, ac a barodd adeiladu eglwys newydd ar du deheuol yr eglwys gadeiriol, yr hon a gyflwynid i'r Forwyn Fair; a hono a fu eglwys plwyf Bangor dros o ddeutu tri chan mlynedd.

Dywed Leland, fod yn Mangor Briordy i Fynachod Gwynion, wedi ei gyssegru i'r Iesu; ond Willis a'u geilw yn Fynachod Duon, tra y dywed Tanner mai Mynachod Pregethol oeddynt. Y mae'r ddau olaf yn tybied iddo gael ei adeiladu mor fore a 1276. Hefyd, adeiladodd Tudur ab Goronwy, a elwid Tudur Hen o Ben mynydd, Mon, fynachdy ar y tu dwyrain i Fangor, ac yno y claddwyd ef, yn y flwyddyn 1311: yno hefyd y claddwyd ei fab Goronwy, a'i ŵyr Tudur, hynafiaid Harri VII., a'i olynwyr ar orsedd Prydain.

MYNACHOD BANGOR DEINIOL. Er mor enwog oedd y Fangor hon ar ei dechreuad, ac er ei bod wedi cadw ei henwogrwydd hyd y dydd hwn yn well na'r holl Fangorau, eto nid oes ond ychydig iawn o'i "saint," neu ei mynachod, mewn cymhariaeth i rai o'i chwiorydd, yn cael eu coffa yn yr *Achau*. Ymddengys eu bod yn lled luosog yn amser Elfod; canys dywedir, "Côr Elbod, ym Mangor Elbod yn Arfon, ag Elbod yn Benraith ar *bum cant* o saint." Dyma enwau y rhai a goffëir yn yr *Achau*:—"Deiniol ap Dunawd Ffŷr, ap Pabo Post Prydain." Y Deiniol hwn oedd y *sael faenydd*, fel yr awgrymwyd eisoes. Yn B. A. "542, bu farw Deinioel Escob Bangor," medd yr *Achau*; ond Gruffydd ab Arthur (Sieffre o Fynwy) a ddywed, mai yn y flwyddyn 544 y bu farw, pan

Digitized by Google

y rhydd ereill ei farwolaeth yn ddiweddarach fyth; ond, fel y sylwa P. B. Williams yn bur briodol, "nid hawdd cael cywirdeb dyddiadau mewn amseroedd mor hynafol." "Deinioel ap Deinioel ail, ap Dunawd;" "Glassawc ap Glassar, ap Geraint, ap Nyniaw, ap Cynddylic, ap Nwython, ap Gildas Broffwyd, ap Caw o Gwm Cawlwyd; ei eglwys ef yn Arllechwedd: efe a fu 'n Escob yng Nghaer Gybi, ag a roddes diroedd at Fangor Deinioel yng Ngwynedd uwch Conwy. Gwrai Sant o Benystrawd yn Arustli; Dwna Sant, ap Selyf, ap Cynan Garwyn; Cynfelyn ap Bleiddyd ap Meirchion; Eleri ap Dingad, ap Nudd Hael, ym Mhenant; Elfod Sant, ac Archesgob Bangor Deiniol, o wehelyth Caw o Gwm Cawlwyd;" ac felly terfyna'r gofrestr.

Esgobaeth Bangor Deiniol. **Yn** fuan ar ol sefydlu y Fangor hon gan Deiniol Wyn ab Dunawd, gwnaethpwyd y lle hwn yn esgobaeth gan Maelgwn Gwynedd, yr hwn a'i cynnysgaethodd â thiroedd a breintiau helaeth; a chyssegrwyd y dywededig Ddeiniol yn esgob arni trwy law Dyfrig Beneurog, archesgob Caerlleon ar Wysg, B. A. 550. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn, bu farw Deiniol, a chladdwyd ef yn ynys Enlli. Yn yr unrhyw flwyddyn, gwnaeth Maelgwn y lle yn ddinas, yr hon a gymmerodd ei henw oddi wrth yr athrofa a sylfaenasid ynddi.

Nid oes genym hanes am helynt yr esgobaeth wedi marwolaeth Deiniol hyd ganol yr wythfed ganrif, pryd y canfyddwn Elfod yn arwedd y meitr. Un o deulu Caw, arglwydd Cwm Cawlwyd, yn ngogledd Lloegr, ydoedd Elfod; a chyn ei drosglwyddiad i Fangor, yr oedd efe yn esgob Caergybi, yn Mon. Penodwyd ef i Fangor yn B. A. 755. Ymddengys ei fod o duedd lled uchelfrydig, o blegid honai hawl archesgobawl, a chymmerodd arno newid amser y Pasc dros holl Gymru. Parodd hyn gynhwrf nid bychan drwy y wlad; ac er bod trigolion Gwynedd yn gyffredin wedi ymostwng i'w gyfraith, nid ellid perswadio pobl y Deheubarth i ddilyn ei esampl. Dywedir fod helynt mawr wedi bod yno yn 777, mewn perthynas i'r cyfnewidiad, a bod y trigolion wrth ganfod eu tywysog yn bleidiol i'r arfer newydd, wedi codi yn ei erbyn, a'i roddi i farwolaeth. Bu terfysg mawr hefyd yn Nghymru ar farwolaeth Elfod, yn y flwyddyn 809, o herwydd yr un ddadl; o blegid ni fynai esgobion Llandaf a Mynwy ymostwng i ddiwygiadau esgob Bangor, am y dywedent eu bod hwy eu hunain yn esgobion hŷn o fraint.

Pwy a ddilynodd Elfod yn yr esgobaeth, nid yw yn hysbys; ond mynegir i ni, yn *Mrut y Tywysogion*, bod brwydr wedi cymmeryd lle yn Mangor yn y flwyddyn 870, "lle y lladdwyd y Seison wrth y niferoedd â cheryg a dreiglwyd arnynt oddi ar y bryniau, ac yn mhlith y rhai hyny, escob Bangor."

Y nesaf y clywn son am dano ydyw Mordaf, yr hwn a ddewiswyd gyda Marchlwys a Blegwryd i fyned gyda Hywel Dda i Rufain, i ymgynghori yn nghylch diwygiad cyfreithiau Cymru. Dygwyddodd hyn o ddeutu B. A. 926. Yn *Mrut Ieuan Brechfa*, dywedir mai Marc oedd ei enw, ac mai esgob Mynwy oedd Mordaf; ond yn *Mrut y Tywysogion*, ac yn y rhaglith i'r cyfreithiau yn ol dull Dyfed, fel arall yr oedd.

Ni wyddys pwy a ddaeth nesaf ar ei ol; ond ymddengys i'r esgobaeth ddyoddef yn lled erwin oddi wrth y rhyfeloedd oedd ar gerdded; ac yn y flwyddyn 1071, dymchwelwyd yr eglwys gadeiriol gan y Normaniaid, y rhai oedd newydd ymosod ar y wlad hon dan Wilym y Goresgynydd. Cyn bo hir, beth bynag, yr ydym yn darllen am Herwallt yn esgob ar Fangor; ond digon tebyg mai nid Cymro oedd efe, o blegid dywedir ei fod ef a'i ddeiliaid yn methu cyd-ddwyn â'u gilydd, fel ag y gorfu arno ffoi dan nawdd y brenin Harri I., yr hwn a'i gosododd yn esgobaeth Ely, lle y bu farw B. A. 1131.

Dilynwyd ef gan Urban, neu Gwrfan, fel y gelwid ef gan y Cymry, yr hwn, wedi aros yma tua deuddeng mlynedd, a symmudodd i Landaf.

Yna daeth Dafydd, gwr o'r Alban, i'w le, ac a fu yma hyd 1139. Dywedir iddo roddi cenad i Gwrfan, trwy gydsyniad Ralph, archesgob Caergaint, a Gruffydd, tywysog Gwynedd, i symmud gweddillion Dyfrig o ynys Enlli i Landaf, yr hyn a gymmerodd le y 7fed o Fai, 1120.

Ei olynwr ydoedd Meurig, yr hwn yn ddiddadl ydoedd Gymro gonest, gan y dywedir mai cyndyn iawn yr ymroddai i dyngu ffyddlondeb i frenin Lloegr. Bu farw yn 1161, a dilynwyd ef gan

Gwilym, yr hwn a fuasai Brior Caer Odor, ac a gyfrifid yn ŵr nodedig ei ddysg a'i dduwiolwyd.

Ar ei ol ef y bu Guy Ruffus, yr hwn, fel y gellid casglu oddi wrth ei enw, ydoedd o waed estronol. Bu hwn farw yn 1190.

Yna penodwyd ar ei ol ef yr enwog Giraldus Cambrensis, priodor o Ddimbych y Pysgod, yn swydd Benfro, ac o waedoliaeth Ffleminaidd. Cafodd Giraldus ei ddwyn i fyny yn mhrif athrofa Paris, ac ar ei ddychweliad oddi yno, cynnygiwyd iddo esgobaeth Ty Ddewi; ond gwrthododd hi, gan fyned gyda Baldwyn, archesgob Caergaint, i bregethu rhyfel y groes. Wedi hyny, cynnygiwyd iddo esgobaeth Bangor ac un Ty Ddewi; ond gan nad oedd y Cymry yn ei ystyried yn un o'u cenedl, gwrthwynebwyd ei etholiad, a bu farw yn 1215.

Dywedir i'r Baldwyn uchod, pan ar ei daith trwy Gymru, ddarllen y gwasanaeth un diwrnod yn Eglwys Bangor, a chymmeryd ymaith yr esgob trwy drais; ond ni fynegir enw yr esgob. Y mae ei amseriad, beth bynag, yn ateb i eiddo Guy Ruffus.

Pan wrthodwyd Giraldus Cambrensis, etholwyd Alan, neu Albanus, prior o frawdoliaeth St. Ioan o Ierusalem, yn ei le, ar yr 16eg o Ebrill, 1195; ond bu farw cyn pen blwyddyn.

Yna dilynodd Rhobert o'r Amwythig ar y gadair esgobawl. Yn ei adeg ef bu yma gryn helynt a chythrwfl. Pan y gwnaeth y brenin Ioan yn 1210 ymgyrch yn erbyn y Cymry, croesodd afon Gonwy, ac anfonodd fintai o'i filwyr yn mlaen i losgi Bangor, yr hyn hefyd a wnaethant, a daliasant yr esgob dan sylw; a chan ei gymmeryd oddi ger bron yr allor, dygasant ef yn garcharor i wersyll y Seison, lle y bu ryw hyd mewn dalfa nes y pwrcaswyd ei ryddid â dau cant o hebogiaid. Bu Rhobert farw yn 1213, ac ar ei ddymuniad ei hun claddwyd ef yn marchnadfa yr Amwythig.

O herwydd yr ymryson rhwng ein tywysog Llywelyn ab Iorwerth a'r brenin Ioan, bu y sedd esgobawl yn wag am flwyddyn neu ddwy.

Yr esgob nesaf a gofnodir ydyw Cadwgan, Cymro; gwr o ddysg mawr, ac awdwr amrywiol lyfrau: ond blinodd ar ei le, rhoddodd yr esgobaeth i fyny, ac yn 1235 aeth yn abad i ryw le yn swydd Henffordd.

Ar ei ymadawiad, daeth yma un o'r enw Hywel, am yr hwn ni fynegir dim, ond ei fod wedi cyssegru mynachdy Llanfaes, yn Mon, yr hwn a adeiladasid gan Llywelyn ab Iorwerth ar fedd ei

Digitized by Google

wraig, y dywysoges Ioan, merch brenin Lloegr, yn y flwyddyn 1240. Ymddengys nad arosodd yma oddi ar ddwy flynedd.

Dilynwyd ef gan Risiart, yr hwn a esgymunodd Dafydd ab Llywelyn, tywysog Cymru, tua'r flwyddyn 1241, yr hon weithred a ddug arno wg a chynddaredd y genedl, fel ag y gorfu arno adael y wlad, a myned i fyw ar elusenau y mynachdai hyd Loegr dros weddill ei oes. Tua'r flwyddyn 1247, llosgwyd yr eglwys gadeiriol gan y Seison.

Cymmerwyd lle Risiart gan Anian, archddiacon Mon, yn 1268. O herwydd dygwydd iddo fod yn esgob yma pan y ganwyd mab i'r brenin Iorwerth I., yn nghastell Caernarfon, efe a ddewiswyd i fedyddio y tywysog ieuanc, ac ar yr achlysur hwnw ennillodd ffafr fawr yn ngolwg y brenin, a chwanegwyd llawer iawn o freintiau a meddiannau at yr esgobaeth, megys porthfaoedd Borthwen a Chanant, maenorau Bangor, Castellmai, a Garthgogo, yn Arfon; creigiau calch Abergele; a maenorau Cantred a Threffos, yn Mon. Bu y prelad hwn yn hynod o'r llafurus a hewydus yn ei swydd, ac yn offerynol i ddiwygio a threfnu materion tymmorol ac ysbrydol ei esgobaeth i raddau helaeth. I'r dyben hwn gwysiodd gymmanfa'o Eglwyswyr yn Mangor, yn y flwyddyn 1291, lle y penderfynwyd ar y cyfryw ordinhadau, a thrwy gefnogaeth y brenin cadarnhawyd y cwbl. Y mae *Pontifical* Anian yn nghadw fyth yn yr eglwys gadeiriol. Bu yr esgob fyw hyd henaint teg, sef hyd y flwyddyn 1305, pryd y bu farw, ac y claddwyd ef yn Mangor.

Dilynwyd ef gan Gruffydd ab Iorwerth, yr hwn a fu farw yn 1309.

Yn nesaf, daeth Anian, Sais, yr hwn a gyssegrwyd yn esgob ar y 9fed o Dachwedd, 1309. Yn 1313, cadarnhaodd Iorwerth II. iddo yr holl freintiau a roddasai ei dad i'r cyntaf o'r enw. Dywedir iddo gael ei gladdu yn yr eglwys gadeiriol, rhwng y gangell a r allor, yn 1327.

Ar ei ol ef y daeth Matthew ab Rhirid, yr hwn a gyssegrwyd ar y 12fed o Fehefin, 1328, pan oedd yn ddeugain oed. Moliennid ef yn fawr gan feirdd ei oes.

Yna Thomas Ringstead, gwr helaeth ei ddysg a'i wybodaeth: ond dangosai ragfarn anhygar tuag at y Cymry, fel y gellir casglu oddi wrth ei lythyr cymyn, yn yr hwn y darparai na chaent hwy na'i gorff na'i gyfoeth. Claddwyd ef yn Llundain yn 1365.

Er na cheir mo'i enw yn y gofrestr gyffredin, y mae Gronw Gyrriog, o ddeutu canol y ganrif hon, yn canu clod i un Madawg ab Iorwerth ab Rhithid ab Iorwerth ab Madawg esgob Bangor. Oddi wrth y gân, ymddengys fod yr esgob yn ŵr dysgedig a chroesawgar iawn, a chyffelybir ef o ran gwahanol rinweddau i Dyfrig Beneurog, Peblig, Curig, Padrig, a Theoderig, y rhai oll oeddynt Saint perthynol i hen eglwys Prydain. Dyma rai pennillion o honi:—

"Duw byw a'n rhoes llyw llen bendefig,
Dwyfawl yw'r urddawl canmawl ceinmyg:
Diafyrddawl feddwl, feddyg pechodau,
A lles eneidiau, llys enwedig.

Dor ac Ior Bangor, cor catholig,
Dar i lu daiar car caredig,
Dogyn gymmaint deufraint Dyfrig Beneurawg,
Yw heuwin Fadawg, hawl wynfydig.

Dyn dan nef ag ef ni chaf debyg,
O gwbl bwyll didwyll, dadl brofedig,
O haelder Ener unig yn nghyfraith,
I gyfryw benrhaith Bibl-iaith Beblig.

Gwynedd anrhydedd rhadau Curig,
Gwanas pob urddas eurddull Padrig,
Gwyn i fyd bod gwledig clodbwyll,
Mewn cnif didwyll cynnefodedig.

Lluniaf gant moliant mawl haledig,
I Fangor rhagor rhag Celliwig,
Llys, llu a'i dengys dawn gaeledig gwyrdd,
Lle diwallwyd myrdd, llu diwedig.

Lle mae arglwydd rhwydd yn rhoddedig,
Heb dynnu pallu pwyll Teoderig,
Lle deheuaf budd lle deheuig glwys,
Lle a gwin da dwys llu gwyndodig."

Yr hwn a ddodir yn nesaf ar ol Thomas Ringstead yn y rhestr arferol ydyw Gervase de Castro, Dominic fel ei ragflaenor. Tybir iddo gael ei ddwyn i fyny yn mynachdy Bangor, lle hefyd y cyfarwyddodd ar i'w gorff gael ei gladdu. Bu farw yn 1370.

Llanwyd ei le gan Gymro o'r enw Hywel ab Gronw, ond cyn dal y swydd am flwyddyn o amser, bu farw yn Rhufain, lle yr aethai i ymgynghori ar ryw faterion eglwysig.

Ei ddilynwr ydoedd Ioan Gilbert. Cafodd hwn gadarnhad adnewyddol o freintiau yr esgobaeth. Ond ar ol bod yma tua phedair blynedd, symmudwyd ef i Henffordd yn 1375, ac oddi yno yn 1389 i Dŷ Ddewi. Claddwyd ef yn 1397 yn mynachdy Hwlffordd, yn swydd Benfro.

Ar ei symmudiad ef i Henffordd, trosglwyddwyd Ioan Swaffham, esgob Cloyne, yn yr Iwerddon, yma. Darfu iddo ysgrifenu llyfr yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgid gan Wicliff a'i ganlynwyr; ac am yr orchest hono, efe a ddyrchafwyd i gadair esgobawl Bangor. Ond dros ba hyd yr arosodd, na pha le y diweddodd ei fywyd, nid yw hysbys. Beth bynag, mynegir ddarfod ethol i'r esgobaeth hon yn yr Hydref, 1399, ŵr o'r enw Richard Younge.

O herwydd bod amgylchiadau y Dywysogaeth mor derfysglyd ar yr amser yma, pryd y diorseddwyd y brenin Richard II., i roddi lle i Harri y IV., antonwyd Richard Younge i'r Almaen, cyn dyfod o hono i lawn feddiant o'r esgobaeth, i roddi cyfrif am helyntion y ddau frenin dan sylw; ac o herwydd iddo aros yn lled hir yn y wlad hono, cymmerodd archesgob Caergaint yr esgobaeth i'w ddwylaw ei hun, ac antonodd Younge i esgobaeth Rochester, lle y bu hyd ddydd ei farwolaeth yn 1419. Yn y cyfamser, beth bynag, ni oddefid i'r archesgob arfer ei awdurdod yma, o herwydd bod Owen Glyndwr wedi cymmeryd meddiant o'r esgobaeth hon ac un Llanelwy hefyd, ac wedi dodi y ddwy brif eglwys ar dân, gan benodi yma esgob o'i ddewisiad ei hun. Yr esgob yma ydoedd Llywelyn Byford, ond ni chymmeradwywyd ef gan yr archesgob na chan y brenin; eithr dodwyd ef heibio fel gormesydd, ac nid oes gwybod yn iawn beth a ddaeth o hono; ond bernir iddo farw tua 1410.

Yn y cyfamser, cytunodd y brenin a'r pab i benodi William Barrow, canon Caer Lwydcoed, yr hwn wedi hyny, yn 1423, a symmudwyd i Gaer Alclyd, lle y bu farw yn 1429.

Ar ei ol ef daeth Ioan Cliderow, un, fel y dywedir, o Romney, yn swydd Kent. Yr oedd efe yn ŵr o gymmeriad mawr yn y llys, ac o herwydd hyny cafodd gadarnhad a chwanegiad ar freintiau yr esgobaeth. Bu farw yn Llundain yn 1435.

Dilynwyd ef gan Thomas Cheryton, yr hwn a lanwodd y gadair hyd y flwyddyn 1448.

Yna daeth John Stanbery i'r swydd a'r lle. Gŵr o Rydychain oedd efe, yn cael ei gyfrif yn dra dysgedig. Ar ol meddiannu Bangor am bum mlynedd, rhoddwyd iddo esgobaeth Henffordd, lle y bu hyd ddydd ei farwolaeth yn 1474.

Digitized by Google

Ar ei ymadawiad o Fangor rhoddwyd ei swydd i Iago Blakedon, esgob o'r Iwerddon, yr hwn a fu yma hyd ei farwolaeth yn 1464.

Yna penodwyd Richard Ednam o Norfolk. Yn y flwyddyn 1468, anfonodd ei gwyn at y pab am chwanegiad at elw ei esgobaeth, yr hon, meddai, ni thalai dros gan punt yn y flwyddyn; a rhoddodd y pab iddo genad i gymmeryd rhyw fywoliaethau yn ei esgobaeth i'w dal iddo ei hun a'i olynwyr. Bu yma hyd ei farwolaeth yn 1496.

Ei olynwr ydoedd Henry Dean, o swydd Gaerloew. Yr oedd efe mewn cymmeriad mawr gyda'n cydwladwr Harry VII., yr hwn a'i trosglwyddodd oddi yma i esgobaeth Caer Caradog yn 1500, ac yn y flwyddyn ganlynol a'i gwnaeth yn archesgob Caergaint. Dangosodd hefyd nid bychan i wellhau Bangor. Ar ol y difrod a wnaethai Owen Glyndwr, yr oedd yr eglwys gadeiriol wedi bod hyd yn hyn yn adfeiliedig; ond adgyweiriodd yr esgob Dean y gafell ei hun, ac ar ei symmudiad i Gaer Caradog, gadawodd ei ffon fugail a'i feitr, y rhai oeddynt dra gwerthfawr, i'w olynwr yn Mangor, ar yr ammod o fod iddo ymrwymo i ddwyn yn mlaen a chwbl orphen yr adgyweiriadau a ddechreuasai efe. Tebyg, beth bynag, mai gwaith go serfyll a wnaed yma y pryd hyn, gan y tybiwyd yn angenrheidiol ei adnewyddu yn mhen tua deng mlynedd ar ugain ar ol hyny.

Ar ol Henry Dean, daeth Thomas Pigot yn esgob. Un o swydd Ddinbych ydoedd efe, ond preswyliai yn abatty Chertsey, yn swydd Surrey, lle y bu efe farw, ac y claddwyd ef yn 1504.

Dilynwyd ef gan John Penny, abad Caer Llur, lle y bu efe farw, ac y claddwyd, er iddo gael ei wneyd yn esgob Caer Alclyd, yn 1508, pryd y rhoddwyd Bangor i Thomas Skeffington.

Yn 1532, set yn amser Skeffington, adeiladwyd corff yr eglwys a'i chlochdy drachefn. Dywedir ei fod wedi bwriadu gwneuthur y clochdy cyn uched arall ag ydyw, oni bai i angeu attal ei amcan. Y mae yr hyn a wnaeth wedi ei gofnodi fel hyn ar y tu gorllewinol i'r clochdy.

THOMAS SKIFFINGTON EPISCOPUS
BANGORENSIS,
HOC CAMPANILE ET HANC ECCLESIAM
FIERI FECIT,
ANNO PARTUS VIRGINIS MCCCCCXXXII.

Rhoddodd yr esgob hwn hefyd dair o glychau i'r lle, a gadawodd un arall yn ei lythyr cymun.

Ei olynwr oedd John Salcot, cyfaill mawr i Harry VIII., o herwydd ei gynnorthwyo i ysgar a'i wraig, yn nghyd â chymmwynasau ereill. Am y cyfryw wasanaeth y penodwyd ef i'r esgobaeth hon yn 1533, ac un Caer Caradog yn 1539, lle y bu farw yn 1557.

Ar ei symmudiad o Fangor, daeth John Bird i'w le; priodor o Gaerwenbur. Nid hir y bu yma; ond yn ystod ei arosiad, atradlonodd feddiannau yr esgobaeth yn fawr, a thruthiodd lawer i wyr y llys. Symmudodd Harry VIII. ef yn 1541 i esgobaeth Caerlleon, lle yr arosodd hyd amser y frenines Mary, yr hon a'i tröes allan am briodi yn 1554.

Ar ei ymadawiad o Fangor, penodwyd Arthur Bulkeley yn ei le. Y mae traddodiad am hwn, ei fod wedi trosi a maeliera llawer o diroedd yr esgobawd, a gwerthu pump o glychau yr eglwys; a'i fod wedi ei daraw â dallineb barnol am ei ymddygiadau. Ond y mae awduron lled ddiweddar wedi arfer cryn lawer o boen i'w ddeheuraw o'r fath gyhuddiad, gan brofi anwirdeb y chwedl oddi wrth law ysgrifau yr esgob ei hun hyd o fewn ychydig ddyddiau i'w farwolaeth. Ac am y daoedd y cyhuddid ef o'u trawsfeddiannu, efe a drefnodd eu hadferiad yn ei lythyr cymun, gan adael hefyd foddion chwanegol tuag at adgyweirio yr eglwys, a lleihau dyledion yr esgobaeth.

Wedi marw Bulkeley, yn 1552, bu yr esgobaeth yn wag am ddwy flynedd, pryd yr etholwyd William Glynn, o'r Hen Eglwys, yn Mon, i fod yn esgob. Y mae hanesion yn rhoddi canmoliaeth mawr i hwn am ei ddysg a'i dduwioldeb. Arferai gynnull yn nghyd holl offeiriaid ei esgobaeth ddwy waith yn y flwyddyn, i'r dyben o'u hannog a'u cyfarwyddo yn eu dyledswyddau. Ond ni bu ei ysbaid ond byr; bu farw yn 1558, ac y mae ei fedd yn agos i'r allor.

Ar ei ol ef penodwyd Morys Clynog, o Arfon; ond cyn iddo gael ei gyssegru, bu farw y frenines Mary; a chan i Elizabeth ddyfod i'r orsedd, rhoddwyd ei le i Rowland Meurig.

Yr oedd Rowland Meurig o deulu Bodorgan, yn Mon, ac yn un o ganghellwyr Tŷ Ddewi. Bu yma am chwe blynedd, pryd y bu farw, ac y claddwyd ef ger llaw yr allor yn 1565.

Yn y flwyddyn ganlynol, cyssegrwyd Nicholas Robinson, deon Bangor, ac archddiacon Meirionydd, yn esgob. Gŵr o'i enedigaeth o Aber Conwy oedd efe, ac wedi cael ei ddwyn i fyny yn Nghaergrawnt, a'i wneuthur yn gaplan i Dr. Parker, archesgob Caergaint. Bu farw a chladdwyd ef yma yn 1585.

Ei olynwr ydoedd Hugh Belot, mab i Thomas Belot, o Morton, yn swydd Gaerlleon, ac uchelwr cyfrifol yn swydd Fflint. Ar ol bod yma ddeng mlynedd, trosglwyddwyd ef i Gaerlleon; eithr cyn bod yno flwyddyn, bu farw, a chladdwyd ef yn Ngwrecsam.

Ar ei ol, yn 1595, daeth Richard Vaughan neu Vychan, o Ddyffryn yn Lleyn, ond symmudwyd ef yn 1597 i esgobaeth Caerlleon. Gŵr hardd iawn o bryd a gwedd ydoedd, yn gymmaint felly fel ag yr arferai y brenin Iago I. ei alw yn "brydferthwch sancteiddrwydd."

Y nesaf ato ef oedd Henry Rowlands, yr hwn a fu farw yn 1616.

Yna daeth Lewis Bayley, awdwr y llyfr nodedig a elwir *Ymarfer Duwioldeb*. Bu yntau farw yn 1631, a chladdwyd ef o'r tu deheuol i'r allor.

Dilynwyd ef gan David Dolben, o'r Segrwyd, ger llaw Dinbych. Etholwyd ef yn esgob y lle hwn yn 1631. Bu farw yn Llundain yn 1633.

Yna disgynodd yr esgobaeth i Edmund Gruffydd, yr hwn a anwyd yn Nghefn Amwlch, Lleyn. Llanwodd y swydd hyd 1637, a chladdwyd ef yn agos i'r allor, yn ymyl bedd yr esgob Rowlands.

Ei ddilynwr ef oedd William Roberts, priodor o swydd Dinbych. Daeth yn esgob Bangor yn 1637. Yr oedd ei ddyddiau ef yn rhai terfysglyd iawn, a dyoddefodd yntau lawer o orthrymder o herwydd ei ffyddlondeb i'w frenin. Ond cyn diwedd ei oes, adferwyd iddo ei holl freintiau, a bu yn haelionus ac elusengar, drwy gyweirio y gaughell, a chyfranu at angenrheidiau y tlodion yn Llundain yn amser y pla mawr a ddygwyddodd yn ei amser ef. Bu farw yn mhersondŷ Llandyrnog, a chladdwyd ef yn nghangell Bangor, yn 1665.

Ar ei farwolaeth ef, penodwyd Robert Price, un o deulu y Rhiwlas, yn ymyl y Bala, yn esgob. Yr oedd efe ar y pryd yn esgob Fern, yn yr Iwerddon; ond cyn cymmeryd meddiant o Fangor, bu farw, a chladdwyd ef yn Dublin.

Ei ddilynwr oedd Robert Morgan, o Landysilio,

Digitized by Google

yn swydd Drefaldwyn. Ar ol bod o hono yn gaplan i'r esgob Dolben, a chael amryw ddyrchafiadau eglwysig, rhoddwyd yr esgobaeth iddo yn 1666, yr hon a ddaliodd efe hyd 1673, pryd y bu farw.

Ar ei ol, daeth Humphrey Llwyd, o Fod-y-fuddai, yn mhlwyf Trawsfynydd, yr hwn a ddeilliai oddi wrth Dafydd Goch o Benmachno, mab naturiol Dafydd, brawd Llywelyn, tywysog olaf y Cymru. Yn ystod y rhyfel cartrefol, yn amser Siarl I., defnyddiwyd cadeirlan Bangor yn ystabl i feirch milwyr y senedd, a chafodd llawer o addurniadau yr hen adeilad eu hanurddo; a chyllid yr esgobaeth a ddefnyddid at wasanaeth y senedd; ond adferwyd y cyllid i'w amcan cyntefig ar adferiad y benaduriaeth yn Siarl II.; ac yn y flwyddyn gyntaf i Iago II., llwyddodd yr esgob Humphrey Llwyd i gael gweithred seneddol er chwanegu cyllid yr esgobaeth, darbod er adgyweiriad y gadeirlan, a chynnaliad y côr. Bu hwn yn ddiwyd a haelionus i ddiwygio a helaethu breintiau yr esgobaeth. Claddwyd ef yn medd yr esgob Rowlands yn 1689.

Yr esgob nesaf ydoedd Humphrey Humphreys, o Benrhyn-deudraeth, yn swydd Feirionydd, o ran ei enedigaeth. Cyssegrwyd ef yn 1689; a throsglwyddwyd ef i esgobaeth Caerllawydd yn 1701, lle y bu farw yn 1712.

Ar ei symmudiad o Fangor, cymmerwyd ei le gan John Evans, o'r Plas du, yn mhlwyf Llanarmon; ond symmudwyd hwnw, yn 1715, i esgobaeth Meath, yn yr Iwerddon.

Yna daeth Benjamin Hoadley, priodor o swydd Caint, i'w le. Yn ei amser, ac o'i achos ef, y rhoddwyd taw ar y Gymmanfa Eglwysig; am ail weithrediad pa un y gwneir cymmaint o ymdrechiadau yn y dyddiau hyn. Symmudwyd Hoadley yn 1721 i Gaerllawydd, a phenodwyd Richard Reynolds yn esgob Bangor yn ei le.

Ond ni bu Reynolds yma ond hyd 1723, pryd y symmudwyd ef i Gaer Lwydcoed.

Ar ei ol y daeth William Baker; ond yn 1727, symmudwyd yntau oddi yma i esgobaeth Caer Cynan.

Cymmerwyd ei le gan Thomas Sherlock, gŵr tra dysgedig a doniol; ond symmudwyd ef yn 1734 i Gaer Caradog.

Yna daeth Charles Cecil yn esgob yma, yr hwn o'r blaen oedd yn esgob Caer Baddon. Dechreuodd adgyweirio yr esgob-dŷ; eithr gan farw yn 1737, o'r gwst yn ei gylla, rhoddwyd ei le i Thomas Herring, deon Rochester.

Yn 1743, trosglwyddwyd Herring i Gaerefrawg, ac oddi yno i archesgobaeth Caergaint, lle y bu farw yn 1757.

Ar ei ymadawiad o Fangor, rhoddwyd ei le i Matthew Hutton.

Yn nesaf ato ef y daeth Zachary Pearce yn esgob yn 1747; ond symmudodd oddi yma, yn 1856, i Rochester.

Ei ddilynydd ydoedd John Egerton, brawd i ddug cyntaf Bridgewater, yr hwn, yn 1769, a drosglwyddwyd i Gaerwenbur.

Gadawodd hwn ei le i John Ewer, yr hwn ydoedd o'r blaen yn esgob Llandaf. Bu farw yn 1775.

Dilynwyd ef gan John Moore; yr hwn, wedi hyny, a fu yn archesgob Caergaint.

Yn 1784, daeth John Warren, yr hwn a lanwodd y gadair esgobawl yma hyd 1800.

Y pryd hyny, disgynodd i William Cleaver, esgob Caerlleon, yr hwn a symmudodd i Lanelwy yn 1806.

Yna penodwyd John Randolph, esgob Rhydychain, i Fangor.

Yn 1810, cymmerwyd ei le ef gan H. W. Majendie, esgob Caerlleon, yr hwn a fu farw yn 1830.

Yna rhoddwyd y meitr i Christopher Bethel, esgob Caerfynydd, yr hwn yn bresennol sydd yn llenwi cadair esgobawl Bangor. Un o eppil Ednowain Bendew yw efe; ac felly, o ran gwaedoliaeth, y mae yn Gymro. Gobeithio y bydd ei ddilynydd yn deall yr iaith hefyd.

Y mae yr esgobaeth hon yn cynnwys holl diriogaeth hen dywysogion Gwynedd, ac yn cymmeryd i mewn swydd Gaernarfon yn gyfan, a holl swydd Môn, gyda rhanau o swyddi Dinbych, Meirion a Threfaldwyn; ac ynddynt hwy 107 o blwyfydd. Hyd amser yr esgob Humphrey Llwyd, yr oedd ynddi dair o archddiaconiaethau yn cael eu dal ar wahân; eithr parodd efe, yn 1685, gyssylltu archddiaconiaethau Bangor a Môn wrth yr esgobaeth. Sylfaenasid y gyntaf yn 1166, ac un Meirionydd yn 1327.

Y mae yr offeiriaid-gôr yn awr yn gynnwysedig o ddeuddeg o urddasolion. 1. Y deon. 2. Yr esgob, fel archddiacon Bangor. 3. Yr esgob, fel archddiacon Môn, 4. Archddiacon Meirionydd. 5 Prebendwr Llanfair. 6. Prebendwr Pen Mynydd. 7. Y trysorydd. 8. Y canghellwr. 9. Y prif gantor. 10. Canonicus primus. 11. Canonicus secundus. 12. Canonicus tertius. Y mae y tri olaf heb gynnysgaeth. Heb law hyn, y mae dau ficer corawl, pedwar o gantorion lleygol, a deg o blant, mewn gwenwisgoedd, yn cynnorthwyo y côr.

Prisir yr esgobaeth yn llyfrau'r brenin yn werth 131*p.* 16*s.* 4*c.*; a degau yr offeiriaid yn 151*p.* 14*s.* 3*c.*

Arfau yr esgobawd ydynt—*Maes coch, camedd aur, Gutty de Poix, rhwng dau fullet arian.*

Cyn ail gyfansoddi y *Llyfr Gweddi*, yr oedd gan Fangor "arfer" o'r eiddo ei hun. Felly y dywedir yn nechreuad y llyfr hwnw [gwel *Am Wasanaeth yr Eglwys*]—"A lle bu cyn hyn amrywiaeth mawr wrth ddywedyd a chanu yn yr eglwysi o fewn y deyrnas hon, rhai yn canlyn arfer Salisbury, rhai arfer Henffordd, rhai arfer Bangor, rhai arfer Efrawg, a rhai ereill arfer Lincoln; yn awr o hyn allan ni bydd i'r holl deyrnas ond un arfer." Y mae gwasanaeth y Cymun, yn ol arfer Bangor, wedi cael ei gyhoeddi yn ddiweddar gan Mr. W. Pickering, allan o ysgrif yn perthyn i o ddeutu y flwyddyn 1400. Cyfeiriasom eisoes at *Lyfr Anian.* Y mae hwnw yn ol "Arfer Bangor." Gelwir ef *Liber Pontificalis Domini. Aniani Bangor Episcopi.* Y mae yn cynnwys 32 o dreftau. Collwyd hwn am ryw amser allan o'r eglwys gadeiriol; ond gyda lwc mwy nag arferol, cafwyd hyd iddo drachefn, ac adferwyd ef i'r llyfrgell gan yr esgob Humphreys, yn 1701.—(*Brown Willis; Evan's Description; Powel's Wales; Pennant's Tour; Myvyrian Archaiology; Godwin's de Presulibus; Ecclesiastical Antiquities of the Cymry; Essay on the Welsh Saints; &c. &c.*)

Dadl Bangor Deiniol: a achlysurwyd trwy bregeth nodedig a draddodwyd gan Dr. Hoadley, esgob Bangor, o flaen ei fawrhydi Sior I., yn nghapel breninol St. Iago, ar y Sul, Mawrth 31, 1717. Testyn y bregeth hon oedd, dadganiad Crist wrth Pilat, "Fy mreniniaeth i nid yw o'r byd hwn;" *Ioan* xviii. 36: ac amcan uniongyrchol a digêl y bregeth oedd profi fod breniniaeth Crist, a'r awdurdodau drwy ba rai ei cynnelir, o natur hollol ysbrydol; nad oedd yr

Digitized by Google

eglwys, a chymmeryd yr enw yn ei ystyr eangaf, yn meddu, ac nas gallai feddu, un radd o awdurdod dan unrhyw allu swyddol deilliedig oddi wrth ddyn; nad oedd Eglwys Loegr, a phob eglwys wladol arall, yn ddim amgen na sefydliadau dynol neu wladol, wedi eu ffurfio er lledaeniad a chadwraeth gwybodaeth a chrediniaeth o Gristionogaeth. Y mae yn anmhosibl i ni ddirnad y fath derfysg a chyffro ofnadwy a barodd cyhoeddi yr egwyddorion uchod yn ngwersyll y rhai a bleidient sefydliadau eglwysig. Ar gyfarfyddiad y gymmanfa eglwysig (*convocation*), penodwyd pwyllgor i ystyried y cyhoeddiad hynod hwn; a chyfansoddwyd adroddiad ar frys, yn yr hwn y dyfernid yr athrawiaeth a gynnwysai fel un yn tueddu i ddymchwelyd pob llywodraeth a dysgyblaeth yn eglwys Crist, 'i daflu ei deyrnas ef i gyflwr o aflywodraeth ac annhrefn, ac i ymosod ar, a beio uchafiaeth yr orsedd mewn pethau eglwysig, ac awdurdod y llywodraeth i orfodi ufudd-dod mewn pethau crefyddol, &c. Ond rhoddwyd attalfa ddisymmwth ar y gorchwylion gwarthus hyn, trwy addoediad breninol ar y gymmanfa. Ac er y pryd hyny hyd yn awr, ni chafodd y gymmanfa eglwysig ei galw yn nghyd i drafod unrhyw achos—dim ond o ran ffurf yn unig, i gael ei gohirio yn ebrwydd drachefn.

Cafodd y ddadl a ddechreuwyd fel hyn ei dwyn yn mlaen yn boethlyd dros amryw flyneddoedd, a chymmerodd llawer o wŷr galluocaf yr oes ran ynddi. Un o brif wrthwynebwyr Dr. Hoadley oedd Dr. T. Sherlock, yr hwn yn 1727 a gafodd esgobaeth Bangor, ar symmudiad Baker i Gaer Cynan. Gwel Esgobaeth Bangor Deiniol.

BANGOR PADARN: a sefydlwyd gan Padarn Sant, ab Pedrwn, neu Pedredin, ab Emyr Llydaw, rywbryd yn ysbaid yr un mlynedd ar ugain y trigiannodd yn Ynys Prydain; sef o'r flwyddyn 517 hyd 538, neu o 524 hyd 545: a gelwir y lle ar ei enw hyd heddyw, yn Llanbadarn Fawr. "Padarn," &c., medd yr *Achau*, "a ddaeth i'r Ynys honn gyda Garmon ab Ridicys, ag a fu yn sant ym Mangor Illdud, a gwedi hyny Escob a Sant y bu yn Llanbadarn fawr yn Ngheredigion. Cefnder oedd ef i Gadfan, a chefnderydd eill dau i Ylldud Farchawg, lle y buant yn saint yn ei Gôr ef yng Nghaerworgorn." Mewn manau ereill o'r *Achau*, dywedir mai Escob o Gôr Illtud oedd Padarn, "a gwedi hynny Archesgob Llanbadarn fawr." Mewn un lle, dywedir fod Dewi gyda Phadarn yn seilio y Fangor hon—"Bangor Badarn a wnaethpwyd gan Badarn Sant o Gôr Illtud, a Dewi, lle ydd aeth Badarn yn Archescob moliannus."

Ychydig iawn sydd o hanes y Fangor henafol hon ar gof a chadw; ond dywed golygydd *Buchedddau 'r Saint*, yr ymddengys wrth enwau 'r gwahanol blwyfau ac eglwysi sy'n dwyn enw Padarn arnynt, mewn gwahanol randiroedd, fod yr archesgobaeth, neu yn hytrach yr esgobaeth, oedd yn nglŷn â'r sefydliad, yn bur eang yn yr oesoedd gynt; canys, ebai yr ysgrifenydd, "Efe oedd sefydlydd eglwysi Llanbadarn Trefeglwys, neu Lanbadarn Fach, a Llanbadarn Odin, yn Ngheredigion; ac y mae eglwys Llanbadarn Fawr, a chapelau Llanbadarn Fynydd, a Llanbadarn y Gareg yn sir Faesyfed, yn dwyn ei enw; a dichon fod rhai o'r lleoedd hyn yn dynodi eangder ei esgobaeth tua'r Deheubarth, ar hyd y cyffiniau a benodwyd i esgobaeth Dewi Sant. Y mae ei heangder tua'r gogledd yn anmhenderfynol; ond y mae'n debyg ei bod yn cynnwys rhan helaeth o sir Drefaldwyn." O blegid prinder hanesion am y Fangor hon, fel llawer un o'i chwiorydd, y mae yn bur anhawdd gwybod pa hyd y parhaodd hi na'r esgobaeth berthynol iddi: y cyfeiriad diweddaf ati, yn yr hen hanesion, a geir yn *Brut y Tywysogion*, wedi ei amseru B. A. 720, lle y dywedir—"Yr un flwyddyn y bu farw Beli ab Elphin, ac y torres y Saeson di gred lawer o Eglwysydd Llandaf, a Mynyw, a Llanbadarn; ac y lladdasant Aidan, Escob Llandaf, a llawer o ddoethion ei blwyf."

Mynachod Bangor Padarn. Dangoswyd eisoes mai brodor o Lydaw oedd Padarn Sant: yr oedd ysbryd cenadol cyffredinol braidd wedi disgyn ar y Llydawiaid yn yr amser hyny; yr oedd Pedrwn, tad Padarn, wedi myned i'r Iwerddon, "i adnewyddu cred a bedydd" yno; a thua'r un amser, fel y tybir, yr oedd Garmon, a Chadfan, a Thydecho, &c., wedi dyfod i Ynys Prydain i'r un perwyl. Yn fuan ar ol hyn, tra nad oedd Padarn ond pur ieuanc, fel y dengys ei fuchdraith chwedleuol sydd yn *Bucheddau y Saint*, cynhyrfwyd ysbryd mynach arall, o'r enw Corus, i gasglu cynnifer ag a allai o "saint" i ddyfod ar ol y lleill i'r wlad yma, "o'r hon yr hanoeddynt." Am hyny, meddai 'r chwedl, "cynhyrfodd yr ysgogiad yma 'r gŵr ieuanc santaidd Padarn, ac efe a ymwregyses i fyned dros y môr gydag ereill, ac nid arafach ydoedd na'r rhai oedd hynach nag ef, ond po ieuengaf ydoedd, mwyaf oll ei yni i lafurio, ac yr oedd ei wasanaeth crefyddol yn tra rhagori ar ei oedran. Am hyny, daeth yr holl frodyr yng nghyd, ac wedi cytuno o unfryd forio i Brydain, buan y gwnaed Padarn yn bedwerydd arweinydd brawdoliaeth, nid o'i ewyllys ei hun, ond ei gefnderwydd yn ei weled yn ymestyn at eithaf perffeithrwydd, a'i hetholasant, gan ddywedyd, 'Yn gymmaint ag i Dduw beri i ti ragori mewn cynneddfau, iawn dy osod ar ddynion fel y byddit esampl o fuchedd dda." Am hyny yr holl wyr llên, ar ol dyddanus fordaith, a diriasant yn Mhrydain. Dilynodd *saith mynach a deugain ac wyth gant Badarn; a chymmerodd ef a'i saint le yn yr eglwys a alwyd Mawritana* (=Llanbadarn Fawr, wrth Aberystwyth, yn Ngheredigion), lle yr ymenwogodd Padarn Sant wedi hyny trwy wyrth enrhyfeddol."

Y mae yn bur debyg fod y chwedl yma, fel ei chydoesolion, megys y sylwa Carnhuanawc ar chwedlau o'r fath, wedi ei seilio ar ryw wirionedd; am hyny, gellir casglu, hyd yn oed oddi wrth hon, fod Padarn, brodor o Lydaw, wedi dyfod drosodd yma yn oes Garmon a'i gyfeillion, neu rywfaint yn fwy diweddar, gyda nifer luosog o fynachod, ac wedi ymsefydlu yn y lle a elwir hyd heddyw ar ei enw, a ffurfio *Bangor* yno. Ceir eglurhad boddhaol a helaeth ar hyn—nifer, y saint, a phob peth—yn yr *Achau*, yr hen gofion mwyaf cywir ar a feddwn yn y materion yma, y rhai a hysbysant, "Padarn fab Pedrwn, * * * sant ag escob o Gôr Illtud, a gwedi hyny Archescob Llanbadarn fawr yng Ngheredigion, lle y gwnaeth ef Gôr i *chweugain saint.*" O'r "chweugain" hyn, ni chofrestrir yn yr *Achau*, hyd y cantuwyd, fel saint o Fangor Padarn, ond efe ei hun, Cenwyn Sant, a "Chynydyn ap Bleiddyd, ap Meirion Meirionydd, ap Tybiawn, ap Cuneddat Wledig, a fu'n Beriglawr yng Nghôr Padarn, escob yn Llanbadarnfawr, yng Ngheredigion, lle y gorwedd." Dywed *Brut y Tywysogion*, fod Sulien Ddoeth, esgob Mynwy, yn "fab maeth Padarn" (dysgybl Padarn), yr hyn a ar-

Digitized by Google

wyddа iddo gael ei addysg yn Mangor Padarn; a bu Sulien, ŵyr yr archesgob, hefyd, yn benrhaith yn y Fangor; a chrybwyll y *Bywgraffydd Cymraeg* (*Cambr. Biog.*), i Loniaw ab Alan, ab Emyr Llydaw, fod yn benrhaith i Badarn Sant yn Llanbadarn Fawr.

BANGOR CYBI: a elwid hefyd, COR CYBI, ac a elwir hyd y dydd hwn yn GAERGYBI, yn Mon. "Caswallon Law hir," medd yr *Achau*, "ap Einion Yrth, ap Cynnedda Wledig, a wnaeth Eglwys i Dduw yn y lle y cafas y fuddugoliaeth ar ei elynion; ag ai gelwis Llan y Gwyddyl, ag ym Mon y mae honno; ag yn awr ei gelwir Cerrig y Gwyddyl." Cymmerodd y frwydr rhwng Caswallon a Serigi Wyddel le mor fore a'r flwyddyn 443; ond nid ydys sicr a ydyw y Fangor, os ydyw yr eglwys, cyn hyned a hyny. Mewn un man, dywed yr *Achau*, "Cybi Sant, ap Selef, ap Geraint, ap Erbin, a fu yng Nghôr Garmon, ag a aeth yn un Enlli; a *gwedi hyny* ef a ddoded yn Esgob ym Mon, yn y lle a elwir Caergybi; lle y gwnaeth ef Gôr; ag yn y Gôr honno y byddai Archesgobion Gwynedd, hyd pan symmudes Elfod Sant y lle, a myned ym Mangor fawr uwch Conwy." Dywed y *Bywgraffydd Cymraeg*, ac ereill, mai yn ddiweddar yn y chweched ganrif yr oedd y sant yma yn bucheddu; ac mai y pryd hyny y gwnaeth efe y Fangor dan sylw; ond Wsier a ddywed fod un Cybi ab Selyf, dug Cernyw, wedi cael ei gyssegru yn esgob yn Mon gan Hilar o Beitw (*Poictiers*); a bod ganddo esgoblan yno o gylch B. A. 364. Pa fodd bynag, y mae amryw amgylchiadau yn gwneuthur hyn yn bur annbebygol. Yn un peth, fe ddywedir yn bendant yn yr *Achau*, fel y gwelir uchod, mai *ar ol* bod "yng Nghôr Garmon" ac "un Enlli," y doded Cybi "yn Esgob ym Mon;" ac yr ydys yn gwybod nad oedd hyd yn oed y rhai hyny yn hynach nag o ddeutu dechreu y bummed ganrif. Heb law hyny, yr ydys yn gwybod fod Cybi yn gydoesydd â Seiriol ab Owain Dunwyn, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig, yr hwn yntau oedd wedi bod yn Nghôr Garmon, cyn iddo ymsefydlu yn Ynys Seiriol a Phenmon; ac y mae traddodiad yn Mon hyd heddyw, fod y ddau sant, Cybi a Seiriol, yn arfer cydgyfarfod, unwaith yn yr wythnos, neu amlach, tua hanner y ffordd o Gaergybi i Benmon, mewn lle a elwir Clorach, yn agos i Lanerchymedd; a dywedir fod yno ddwy ffynnon gynt, os nad ydynt yno eto, yn dwyn enwau y ddau sant; ac o blegid y byddai Cybi â'i wyneb at yr haul wrth fyned o Gaergybi tua Chlorach, yn y bore, a'i wyneb ato drachefn, wrth ddychwelyd yn y prydnawn, pan y byddai Seiriol yn y gwrthwyneb, a'i gefn ato wrth fyned a dychwelyd, galwyd y ddau, yn ol eu golygwedd, yn "Seiriol Wyn a Chybi Felyn;" ac wrth yr enwau hyn yr adnabyddir hwynt yn Nghymru hyd y dydd hwn. Wrth ystyried pob peth, tybir y gellir penderfynu, ar y cyfan, os adeiladodd Caswallon fath o grefydd-dŷ yn Llan y Gwyddyl mor fore a dechreu y bummed ganrif, nad aeth Cybi yno i sefydlu Bangor hyd rywbryd yn y chweched ganrif. Y mae y Fangor yma yn ymddangos yn bwysig, wedi dechreu chwilio i'w hanesion, gan y cantyddir fod amryw bethau tra nodedig a hynafol yn perthyn iddi. Dywed Rowlands mai penaeth y Fangor yma, a phrior Penmon, ac archddeon yr ynys, oedd tri arglwydd ysbrydol Mon. Tuag at brofi fod yr ynys fechan hon—Ynys Gybi—wedi bod yn gyrchfa lluaws o grefyddwyr yn y dyddiau gynt, ac wedi bod yn lle tra phwysig yn yr ystyr hyny, ni raid ond crybwyll y gall rhai o'r trigolion, hyd heddyw, gyfeirio at adfeilion pump o hen gapelydd oedd yn yr ynys yn yr amser gynt; sef, Capel y Llochwyd, Capel y Golles, Capel Ffraid Santes, Capel Gwyn-geneu, a Chapel Gwenfaen Santes; ac y mae yn yr ynys un "capel," neu yn hytrach, grug neu bonc uchel o dywod, fel gwaith llaw dyn, tua dwy filltir i'r deheu o Gaergybi, mewn lle a elwir "Tywyn y Capel," yn llawn o esgyrn dynion, yn mhob cyfeiriad. Y mae y "capel" neu y crug mawr, tywodlyd, esgyrnog yma, yn arwydd pur amlwg, fel y tybir, fod ein hen dadau, y Beirdd a'r Derwyddon, wedi bod yn addoli ac yn claddu yn Ynys Gybi, er's llawer oes cyn bod son am Fangor Cybi, nac Eglwys Caswallon chwaith, yn Llan y Gwyddyl.

Gellid tybio, oddi wrth sefyllfa bellafol a goynysol Ynys Cybi, yr ystyrid hi gynt yn lle o gryn ddiogelwch yn amser terfysg ac ymladdau; pa fodd bynag, y mae yn amlwg y dyoddefai y gornel anghysbell ac unigol hon weithiau yn dost oddi wrth ysbeilwyr; canys pan ruthrgyrchodd y Gwyddelod i Ynys Môn i'w hanrheithio, nid arbedasant Ynys Gybi chwaith; o blegid yno, fel yr awgrymwyd eisoes, y bytholodd Caswallon Lawhir ei enw, trwy ladd Serigi Wyddel, penaeth y rhuthrgyrchwyr, â'i law ei hun, yn y llannerch y gwnaeth efe eglwys fel cydnabyddiaeth am y fuddugoliaeth.

Yr oedd Cybi yn un o'r saith sant neu noddwr eglwysig, a feddent hawl i ddal tir yn Ynys Môn fel pendodwyr, ac am hyny yr oedd Bangor Cybi yn cael ei hystyried yn *noddfa*. Y fath, yn wir, meddai P. B. Williams, oedd cynllun ein gorchfygwyr Saxonaidd a Normanaidd, i ddenu y Cymry i ymostwng dan iau estronol, ac i ymgymmodi â hi, fel y gwnaent ryw fan gymmwynasau fel hyn yn fynych iddynt; canys megys ag yr oedd coffadwriaeth Dewi, Padarn, a Theilo, yn cael eu hystyried gyda chymmyredd a pharch rhyfeddol yn y Deheubarth, felly hefyd yr oedd coffadwriaeth Cybi, Deiniol, a Beuno, yn Ngwynedd; am hyny cynlluniodd ein gorchfygwyr ar i'r pab ganiatau fod dau bererindod i Dŷ Ddewi yn gyfartal ag un i Rufain; a chan yr un awdurdod caniatawyd fod yr eglwysi a gyssegrid i'r seintiau uchod yn sancteiddiach nag ereill, ac am hyny daethant i gaeleu hystyried yr hyn a alwent yn *noddfäau*: o ganlyniad, os attafaelid rhyw ddyn, hyd yn oed y troseddwr penaf, ar ol iddo fod mor ffodus a chael ei dderbyn i'r noddfäau hyn, yn enwedig os cyrhaeddai yr allor, cyfrifid yr ymosodwr y pechadur mwyaf ysgeler, ac hyd yn oed yn gyssegrysbeiliwr o'r fath mwyaf anfad. Ystyrid fod gweddïau Cybi Sant o bwys mawr pan adeiladwyd yr eglwys bresennol, fel y dengys y cerfiad sydd ar y tu gogleddol iddi, mewn llythyrenau Gothaidd; sef, "*Sancte Kybi ora pro nobis*"=Cybi Sant, gweddïa trosom!

MYNACHOD BANGOR CYBI. "Côr Cybi ym Mon a *phumcant* o saint, a Chybi 'n Benrhaith." Dyma enwau rhai o'r cyfryw seintiau:—Caswallon Lawhir, Cybi, "Mygnach ap Mydnaw o Gaer Sion, Cofedydd Côr Cybi, Sant ef yng Nghaer Gybi Mon, a gwedi hyny, Penrhaith y Gor honno ef." Y mae "ymddiddan rhwng Ugnach ab Mydno, o Gaer Seon, a Thaliesin, o Gaer Deganwy," yn y *Myv. Arch.*, cyf. i., td. 46. "Tegfan Sant, ym Mon ei eglwys ef; periglawr ym Mangor Cybi;" "Elfod Sant o wehelyth y Cawlwyd, esgob ef Caergybi Mon;" "Padric ab Alfryd, ap Goronwy o Wareddawc yn Arfon, yn amser

Digitized by Google

Elfod Sant o Gor Cybi Mon, a sant o'r Gor honno;" "Gwyddfarch ap Llywelyn o'r Trallwng, sant ef Bangor Cybi Mon;" "Glassawc ap Glassar, ap Geraint, ap Nyniaw, ap Cynddylic, ap Nwython, ap Gildas Brophwyd, ap Caw o Gawlwyd, ei eglwys ef yn Arllechwedd; efe a fu'n Escob yn Nghaer Gybi."

BANGOR ASAF; LLANELWY; ST. ASAPH: a seiliwyd gan Cyndeyrn Garthwys, a elwid hefyd Cyndeyrn Mwyn-gu ab Owain, ab Urien Rheged, ab Cynfarch, ab Meirchion Gul, ab Gorwst Ledlwm, ab Ceneu, ab Coel Godhebog, o gylch B. A. 543, ar lan yr afon Elwy, yn Ngwynedd, is Conwy (sir Fflint); ac "efe a fu'r Escob cyntaf ym Mangor Asaf, a elwir yn awr Llanelwy." Fel esgob Penrhyn Rhionydd (*Glasgow*) y ceir yr hanes cyntaf am Gyndeyrn, yn y *Trioedd*, lle y dywedir, "Arthur yn benteyrnedd ym Mhenryn Rhionydd, yn y gogledd, a Chyndeyrn Garthwys yn benescub, a Gwrthwmwl Wledig yn benhynaif." O blegid hynawsedd Cyndeyrn, galwyd ef gan ei athraw, Sergin Wyddel, yn Gyndeyrn Mwyn-gu, yr hyn yw gwreiddyn yr enw estronol *St. Mungo*=Mwyngu Sant. Iddo ef y cyssegrwyd Esgoblan Penrhyn Rhionydd, a elwir yn awr yr Uch Eglwys =*High Kirk*. Ymlidiwyd Cyndeyrn o'i annedd a'i esgobaeth gan ei elynion paganaidd y Ffichtiaid; a gorfodwyd ef i geisio nawdd yn Nyffryn Clwyd. Wedi cael ei dderbyn yno trwy ganiatâd Maelgwn Gwynedd, sefydlodd fynachlog neu Fangor ar lan yr Elwy. Gwrthwynebwyd y cynnyg ar y dechreu gan y tywysog Maelgwn; ond wedi hyny ennillwyd ei ffafr, ac efe a ddaeth yn noddwr haelionus i'r Fangor, fel y dywedir iddi ddyfod yn fuan yn un o'r Bangorau enwocaf yn Ngwynedd; ac o hon y deilliodd esgobaeth bresennol Llanelwy. Ar ol aros yn y Fangor yma dros rai blyneddau, galwyd Cyndeyrn yn ol gan Rhydderch Hael, tywysog Brython y Coed Celyddon, i'w esgobaeth gyntefig yn Mhenrhyn Rhionydd; ac o blegid mai Asaf ab Sawyl Benuchel, ab Pabo Post Prydain, a ystyriai Cyndeyrn yn rhagori ar ei holl ddysgyblion, o ran gwybodaeth, moesau, a duwioldeb, iddo ef y cyflwynodd yr esgobaeth, yr hon a alwyd ar ei enw yn Fangor Asaf, ac a adnabyddir hyd y dydd hwn, yn mysg y Saeson, dan yr enw St. Asaph, ond a elwir gan y Cymry yn Llanelwy. Dewiswyd Asaf yn benrhaith neu esgob y Fangor hon o gylch y flwyddyn 560, a bu yn y swydd hyd derfyn ei oes, yr hyn a ddygwyddodd Mai 1af, 596.

MYNACHOD BANGOR ASAF. Dywedir fod y Fangor hon unwaith yn cynnwys pump a thrigain a naw can mynach; o'r sawl y trefnid tri chant o honynt, nad oeddynt dueddol at efrydiaeth, i drin y tir ac i borthi yr anifeiliaid a berthynent i'r Fangor; a thri chant arall i ddarparu lluniaeth, a phethau ereill angenrheidiol at wasanaeth y frawdoliaeth; tra y trefnid y lleill yn ddosbarthau i fyfyrio ac i gyflawnu gwasanaeth crefyddol, a hyny ar gylch, trwy'r dydd a'r nos yn wastadol, yn ol arfer amryw Fangorau yn y dyddiau hyny. Ond pa faint bynag o saint neu fynachod a fuant yn y Fangor hon o bryd i bryd, ni chafwyd enwau neb o honynt yn yr *Achau*, namyn yr eiddo Cyndeyrn, ac Asaf, a "Sadwrn Sant, Dyfed a Mon, Sant ef, Bangor Asaf, o Berielawr."

ESGOBAETH BANGOR ASAF. Sylfaenwyd yr esgobawd gan Cyndeyrn, esgob Glasgow. O ddeutu B. A. 543, gyrwyd ef o'r Gogledd, a ffodd at Dewi Sant, yn Mynwy; ac wedi iddo aros yno rywfaint o amser, rhoddodd Cadwallawn, tywysog Cymru, iddo le i adeiladu Bangor yn ymyl yr afon Elwy; a'r lle a wnaeth efe yn esgobawd. Dywedir i'r eglwys gael ei hadeiladu ar y cyntaf o goed, ac wedi hyny o geryg; a rhoddodd Maelgwn Gwynedd awdurdodiad i'r sefydliad, yn nghyd â thiroedd, a breintiau lawer, er iddo yn y dechreu ei wrthwynebu. Bu Cyndeyrn yn llywyddu yma hyd 560, pryd y galwyd ef yn ol i Scotland gan Rhydderch, brenin Glasgow. Dywedir iddo gyrhaedd yr oedran mawr o 185. Gadawodd esgobaeth Llanelwy i'w ddysgybl Asaf, ar ol yr hwn y gelwir y ddinas a'r esgobaeth gan y Seison yn St. Asaph hyd y dydd hwn; ac mewn ysgrifau Lladin, cyfarfyddir yn wastad âg *Ecclesia Assaphensis*.

Yr oedd Asaf yn ŵr o rinwedd, dysg, a duwioldeb mawr, ac yn hynod am adrodd yr ymadrodd hwnw—"Y mae pwy bynag a wrthwynebo air Duw yn cenfigenu wrth iachawdwriaeth dynion." Bu farw Mai 1af, 596, a chladdwyd ef yn yr eglwys gadeiriol.

Gan fod sefyllfa Llanelwy ar gyffiniau Lloegr, ac yn ymyl y terfyn rhwng taleithiau Gwynedd a Phowys, anrheithiwyd hi yn fynych; o ganlyniad, nid yw enwau olynwyr Asaf, dros agos i bum can mlynedd, ar gof a chadw. Yr ydym, beth bynag, yn cael bod un Chebur, esgob Llanelwy, wedi myned gyda Hywel Dda, yn y ddegfed ganrif, i Rufain, i ymgynghori o barth hen gyfreithiau Prydain: ond ni wyddys ddim chwaneg yn ei gylch.

O ddeutu 1055 neu 1063, yr oedd yr esgobawd yn wag, fel y deallwn oddi wrth y *Chronicon Saxonicum:* hefyd yn 1125, yn amser Harri I., yn ol adroddiad Stubbs.

Yn 1143, cyssegrwyd Gilbert, gan Theobald, archesgob Caergaint. Efe ydoedd esgob cyntaf Llanelwy a gafodd ei gyssegru gan archesgob Caergaint. Nid yw efe, beth bynag, yn rhestrau Godwin a Heylin.

Yn 1150, cyssegrwyd Geffrey ab Arthur yn esgob y lle hwn gan y dywededig Theobald. Bu farw yn 1152, a dilynwyd ef gan

Richard, yr hwn a gyssegrwyd gan Theobald yn 1154. Bu yntau farw yn 1155.

Godffrey: y mae ei hanes ef yn lled dywyll, gan y bernir gan lawer mai yr un ydoedd a Geffrey ab Arthur.

Cyssegrwyd Adam yn esgob Llanelwy, Hydref, 13eg, 1175. Yr oedd yn Nghymmanfa Westminster, yn 1177, a Chymmanfa Lateran, yn 1179; a bu farw yn Rhydychain, B. A. 1181. Bu ganddo ddadl fawr yn 1776 o barth eglwys Ceri, yn swydd Trefaldwyn, yr hon a fynai efe ei thynu oddi wrth esgobaeth Tŷ Ddewi, a'i chynnwys yn ei esgobaeth ei hun.

Ymddengys i'r esgobawd fod yn wag o 1181 hyd 1183, pryd y llanwyd hi gan

John, yr hwn a gyssegrwyd yn Caen, Normandy, Mehefin 25ain, 1183, ac a fu farw yn 1186.

Reyner a gyssegrwyd gan Baldwin, archesgob Caergaint. Pan yr ymwelodd Baldwin â Chymru yn 1188, daeth at "sedd dlodaidd Llanelwy," ac aeth yr esgob gydag ef trwy yr esgobaeth, ar fedr perswadio llawer i gymmeryd y groes arnynt yn erbyn y Saraceniaid. O leiaf, dyna yr hyn a ddywedai Baldwin ydoedd prif ddyben ei daith; ond ymddengys mai y gwir achos oedd, i ddwyn yr Eglwys Gymreig dan lywodraeth Caergaint. Tra yr oedd Reyner yn llywio yr esgobaeth yma, preswyliai gan mwyaf yn neu ger llaw Croesoswallt. Rhoddodd hanner degwm Gwrecsam i fynachlog Llanegwest, yn ymyl Llangollen. Bu farw yn 1224, a dilynwyd ef gan



Digitized by Google

Abraham, yr hwn a gyssegrwyd yn 1225. Conffirmiodd hwnw rodd ei ragflaenor, a chyfranodd yn 1227 yr hanner arall i'r fynachlog ddywededig. Bu farw yn 1234.

Cyssegrwyd Hugh, Mehefin 17eg, 1235, yn mynachlog Reading. Efe a neillduodd Langollen i fynachlog Llanegwest, yn 1236. Yn 1239, rhoddodd ddegym au Llanfaircaereinion i leianod Llanllugan, sir Trefaldwyn; ac yn yr un flwyddyn, neillduodd Llanasa tuag at adgyweirio yr eglwys gadeiriol. Bu farw yn 1240.

Ar ei ol, daeth Hywel ab Ednyfed, un o brif foneddion Cymru. Bu yntau farw yn 1247, yn Rhydychain, lle yr aethai ychydig o'r blaen, o herwydd y rhyfeloedd yn ei wlad ei hun; am y rhai y dywed Prynn fel hyn:—"Wedi i'r brenin Harri III. goncro holl Gymru yn 1247, a dwyn y Cymry dan gyfreithiau Lloegr, gan ddarfod i'r esgobion Cymreig ochri yn erbyn y brenin o blaid eu cydwladwyr, ysbeiliwyd a dyfethwyd eu hesgobaethau a'u heglwysi gymmaint, fel ag y gorfu arnynt gardota eu bara, a byw ar elusenau ereill."

Wedi bod yr esgobaeth yn wag am ddwy flynedd, cyssegrwyd Anian, neu Einion, yn esgob yn 1249. Yn 1263, neillduodd Llanllwchaiarn i leianod Llanllugan; ac yn 1265, Aber-rhiw i fynachlog y Trallwm; a chonffirmiodd rai o roddion ei ragflaenwyr, Hywel ac Abraham, i fynachlog Llanegwest; ac yn 1250, caniataodd faddeueb (*indulgence*) am dri diwrnod ar ddeg i'r sawl a weddïent neu a offryment yn nghapel Bruere. Hysbysir i ni ddarfod i Anian roddi pen ar ddadl fawr oedd rhwng Richard, esgob Bangor, a Llywelyn ab Gruffydd, tywysog Cymru. Bu farw Anian, Gŵyl Mihangel, 1266, a dilynwyd ef gan

John yr Ail, yr hwn a gyssegrwyd yn 1267, gan Boniface, archesgob Caergaint. Ni fu yn esgob yma fwy na blwyddyn, cyn gwneyd lle i

Anian yr Ail, a gyfenwid de Schonaw, "y brawd du o Nannau," cyffeswr Iorwerth I. Yn 1269, derbyniodd amryw freintiau gan Llywelyn, tywysog Cymru. Yn 1276, cafodd gan Iorwerth I. gadarnhad o holl iawnderau a breintiau ei eglwys; ac yn 1271, cafodd gan John Fitzallen, iarll Arundel, ac arglwydd Croesoswallt a Chlune, rodd o dros gan erw o dir, yn ymyl St. Martin, i'w eglwys, ond iddo ef dalu yn flyneddol un par o ysbardynau goreurog, a pheidio byth a'i neillduo oddi wrth yr esgobaeth. Cadarnhawyd y rhodd wedi hyny gan Richard, mab y dywededig John Fitzallen, yr hwn hefyd a roddodd bedair erw a deugain yn chwaneg, yn nghyd â'r maenordŷ perthynol iddo. Yn 1278, cafodd gan Gruffydd Fychan ab Gruffydd Madog, arglwydd Iâl, sefydlu maenor Llandegla iddo ef a'i olynwyr. Bu dadl rhyngddo a mynachlog Llanegwest, yn nghylch tadogaeth ebrwyadfuddau (*vicarages*) Llangollen, Gwrecsam, Rhiwabon, y Waen, Llansantffraid, a Llandegla; yr hon a benderfynwyd o ochr yr esgob. Rhoddodd ddwy ran o dair o ddegwm Bryn Eglwys i Lanegwest.

Yn 1282, llosgwyd yr eglwys gadeiriol, a thai y canonwyr, gan y Seison, yn eu rhyfeloedd yn erbyn y Cymry. Mynai Anian anfon ei geryddon allan yn eu herbyn, ond attaliwyd ef gan Peckham. Beth bynag, darluniwyd materion i'r brenin Iorwerth yn y fath fodd, fel ag yr amddifadwyd Anian o'i esgobaeth. Cymmerodd y brenin afael ar y meddiannau, a thraddodwyd y gorchwyl o drefnu yr esgobaeth i Robert Burnel, esgob Wells. Ond cyn bo hir, adferwyd Anian ar gais Peckham, ar yr ammod i'r esgob roddi degwm arberiglor (*rectoral*) Eglwys Fach i fynachlog Aberconwy, tra y rhoddai y brenin yr hawl o benodi i Ruddlan yn nwylaw Anian a'i olynwyr am byth.

Ar losgiad yr eglwys gadeiriol, teimlodd Anian yn awyddus am symmud yr esgobawd i Ruddlan, am mai pentref gwladaidd ydoedd Llanelwy, lle nad allai y canonwyr fyw yn ddiogel o herwydd y rhyfeloedd. Addawodd y brenin dir i adeiladu eglwys arno, a mil o *farciau* tuag at ei hadeiladu, ac anfonwyd llythyrau at y pab i ofyn cenad. Ond rywfodd neu gilydd, ni ddygwyd y cynllun byth i ben. Bu farw Anian, Chwefror 5ed, 1292—3, a dilynwyd ef gan

Leoline de Bromfield, un o'r canonwyr. Yn 1295, esgymunodd Madog, mab Llywelyn, tywysog Cymru, am wrthwynebu brenin Lloegr, drwy orchymyn yr archesgob; a thrachefn yn 1305. Yn 1310, rhoddodd bedair rhan o ddegwm Llanelwy i'r pedwar ficer corawl; priodolodd hefyd berigloriaethau Llansilin a Rhuddlan i'w ganonwyr. Ychydig cyn ei farwolaeth, cafodd iddo ei hun a'i olynwyr dadogaeth perigloriaeth Dinbych, gan Philip, iarll March. Yn ei ewyllys, gadawodd lawer o dda ac addurniadau i'w eglwys, ei ganonwyr, a'i gapelwyr. Bu farw tua diwedd 1313, neu ddechreu 1314, a dilynwyd ef gan

Dafydd ab Bleddyn, canon Llanelwy. Yn ei amser ef y casglwyd y *Llyfr Coch*, y cyfeirir mor aml ato gan Mr. Wharton, ac ereill. Cafodd Dafydd i'r rhodd o lawer o diroedd ag oeddynt yn Nyserth, o werth 20*p*. yn y flwyddyn, gael ei chadarnhau iddo ei hun a'i olynwyr; hefyd, cafodd gadarnhad a neillduoliad eglwys Nantglyn i'r ficeriaid corawl. Ni wyddys yn iawn pa bryd y bu efe farw; ond y mae yn sicr ei fod yn fyw yn 1346; a diammheu iddo ddal yr esgobaeth dros rywfaint o flyneddoedd wedi hyny—yn ol pob tebygolrwydd hyd etholiad John Trefor.

John Trefor y Cyntaf, canon Llanelwy a Bangor, a arddelwodd ufudd-dod i Gaergaint, Mawrth 24ain, 1352. Ymddengys iddo farw hefyd o fewn corff yr un flwyddyn.

Yr esgob nesaf ydoedd Leoline ab Madog ab Ellis, deon Llanelwy. Yn ystod ei lywyddiaeth, derbyniodd gan Iorwerth, tywysog Cymru, rodd i'w eglwys o lawer o diroedd yn mhlwyf Llanasa; a chafodd i Lanyblodwel gael ei neillduoli, yr hyn a gonffirmiwyd yn amser ei olynwr. Bu farw yn 1375.

Ar ei ol daeth William de Spridlington, deon yr eglwys. Cafodd gadarnhad i rodd ei ragflaenor, sef Llanyblodwel; hefyd, yn 1380, neillduolwyd perigloriaeth Llanrhaiadr tuag at gynnaliaeth y ficeriaid. Trefnodd ar fod i eglwysi a chapeli y Trallwm, a Cegidfa, gael eu huno â'r fam eglwys Meifod, a'u dal gan yr esgob, o herwydd tlodi yr esgobaeth. Yn ei amser ef hefyd y penodwyd ardreth y Gareg Goch, yn lle y gwaith a ofynid ar law y tenantiaid o'r blaen. Bu farw Ebrill 9fed, 1382, a chladdwyd ef yn yr eglwys gadeiriol.

Etholwyd Lawrence Child, L. L. B., yn esgob Llanelwy, yn 1382. Cadarnhawyd Llanasa iddo yn 1385, i'r dyben o gael canwyllau i'w eglwys. Bu farw Rhagfyr 27ain, 1389.

Ar ei ol daeth Alexander Bache, S. T. P., yr hwn a fu yntau farw Awst, 1394.

Daeth John Trefor yr Ail i feddiant o'r esgobaeth yn 1395. Yn 1397, cafodd gan y brenin ostwng ardreth Gronant is y Môr, yn ol swllt yr erw, am bob erw a ddinystrid gan y môr, yn nghyd â chymmwynasau ereill. Ond er hyn oll trodd allan yn anniolchgar i'r brenin, Richard II.,

o blegid yn 1399, pan oedd hwnw yn garcharor o fewn ei esgobaeth, sef yn nghastell Callestr, darbwyllwyd ef i gyhoeddi y ddedfryd o ddiorseddiad yn ei erbyn; ac anfonwyd ef fel cenad i'r Yspaen i'r dyben o gyfiawnhau ymddygiad Harri IV. Ond ar ei ddychweliad yn 1402, wrth weled fod y Cymry yn llwyddo dan wrthryfel Owain Glyndwr, yr hwn a losgasai ei eglwys a'i balas ef, a thai y canonwyr, efe a aeth drosodd at y blaid hono; o herwydd pa ham, gyrwyd ef allan o'i esgobaeth. Tybir i'r esgob Trefor farw yn Paris, lle yr aethai yn genad dros Owain Glyndwr i ofyn cymhorth gan frenin Ffrainc.

Dywedir i Dafydd ei ddilyn ar y sedd esgobawl, ac eistedd arni hyd 1411; ond y mae ei hanes a'i gyflwr ef yn lled aneglur, yn gymmaint felly fel yr haera rhai mai olynwr John Trefor ydoedd.

Robert de Lancaster, yr hwn a gyssegrwyd yn Lincoln, gan archesgob Caergaint, Mehefin 28, 1411. Yn 1414, cafodd rylês o ardreth Gronant is y Môr, i'r dyben o ail adeiladu yr eglwys gadeiriol; ond nid ymddengys iddo gwblhau yr amcan hwnw, na neb o'i olynwyr, hyd yr esgob Redman. Bu farw yn 1433.

Dilynwyd ef gan John Lowe, S. T. P., yn yr un flwyddyn. Ysgrifenodd lawer o waith da: a chwiliai yn astud am lyfrau da, yn gymmaint felly fel y dywedir y buasai amryw gopïau o'r hen dadau wedi myned ar ddifancoll oni bai ei ddiwydrwydd ef. Trosglwyddwyd ef i Rochester yn 1443, a bu farw yno yn 1467.

Daeth Reginald Peacock, S. T. B., priodor o swydd Gaerfyrddin, yn esgob yma, 1444, a symmudwyd ef i Chichester yn 1449.

Ar ei ol ef, yn 1450, daeth Thomas Knight. Yr oedd efe yn bleidiwr gwresog i dŷ Lancaster, ac yn wrthwynebwr tost i Harri IV., yr hwn, wedi dyfod i'r orsedd, a'i dododd ef o'r neilldu, neu o leiaf a gymmerodd y meddiannau i'w ddwylaw ei hun.

Yr esgob nesaf oedd Richard Redman, S.T.P., yr hwn yntau oedd yn fawr o ochr tŷ Caerefrawg. Cyssegrwyd ef yn 1471. Efe, fel y sylwyd, a ail adeiladodd yr eglwys gadeiriol, wedi iddi fod yn adfeiliedig dros bedwar ugain mlynedd. Yr oedd efe yn ŵr dysgedig a chall iawn, a hynod am ei fedrusrwydd yn trefnu materion gwladol; ac am hyny dewiswyd ef gan Iorwerth IV. a Richard III. fel cenad at lysoedd ereill. Ar ddyfodiad Harri VII, i'r orsedd, o herwydd fod y tywysog hwnw yn wrthwynehol i dŷ Caerefrawg, syrthiodd yr esgob dan ei anfoddlonrwydd; yr hyn a barodd iddo yntau ymuno i'w erbyn, a chydag esgobion yr Iwerddon i geisio gosod i fyny y ffug dduc Caerefrawg, Lambert Simnel. Dygodd hyn ef dan gerydd y pab, a buasai yn colli ei esgobaeth oni bai iddo ymostwng: ac felly derbyniwyd ef i ffafr y brenin, yr hwn, yn 1493, a'i hanfonodd yn genad i'r Ysgotland, ac yn mhen dwy flynedd yn mhellach, a'i symmudodd i esgobaeth Caerwysg.

Daeth Michael Diacon, cyffeswr y brenin, yn esgob yn 1495. Bu farw, a chladdwyd ef yn nghapel St. Paul, yn mynachlog Westminster.

Ei olynwr ydoedd Dafydd ab Iorwerth, abad Llanegwest. Cafodd ei gyssegru, Ebrill 26, 1500, a thybir iddo breswylio yn y fynachlog, am fod ei balas ar lawr, wedi cael ei ddistrywio yn amser Harri IV. Bu farw yn 1503.

Yr esgob nesaf ydoedd Dafydd ab Owen, neu Ieuan, Cymro. Penodwyd ef i'r esgobaeth, Rhagfyr 18, lle y dechreuodd ail adeiladu y palas, wedi iddo fod yn adfeiliedig dros gan mlynedd. Dywedir ei fod yn ŵr haelionus iawn. Bu farw Chwefror 12fed, 1512, a chladdwyd ef o du y gogledd i'r allor, yn eglwys gadeiriol Llanelwy.

Ei olynwr ydoedd Edmund Birkhead, S.T.P., yr hwn a benodwyd yn 1513. Hyrwyddodd lawer ar adeiladu eglwys Gwrecsam, lle yr ymddengys iddo gael ei gladdu yn 1518.

Yna daeth Henry Standish, S.T.P., yr hwn a benodwyd yr un flwyddyn. Yn 1523, anfonwyd ef, a Syr J. Barker, yn genadon i Denmark; ac yn 1530, yr oedd efe yn un o'r esgobion a gynnorthwyasant Catherine yn y gwaith o geisio ymysgaru oddi wrth Harri VIII. Yr oedd efe yn ŵr dysgedig a thra hael. Bu farw Gorphenaf 9fed, 1535.

Ar ei ol ef y daeth William Barlow, S.T.P. Tua diwedd 1535, anfonwyd ef i'r Ysgotland efo un Holcroft mewn perthynas i ryw faterion crefyddol yn erbyn y pab. Ebrill 10fed, 1536, symmudwyd ef i Dŷ Ddewi.

Robert Warton, neu Parfew, a benodwyd yn esgob yma yn 1536. Ei brif breswylfeydd oeddynt Dinbych a Gwrecsam, ac ni thrigai braidd un amser yn Llanelwy. Symmudwyd ef, yn 1554, i esgobawd Caerffawydd.

Daeth Thomas Goldwell, S.T.P., i feddiant o'r esgobaeth yn 1555. Darbwyllodd efe y pab i adnewyddu y maddeuebau a ganiatawyd i'r sawl a elent ar bererindod i ffynnon Treffynnon. Yn fuan wedi hyny, arfaethwyd ei drosglwyddo i Rydychain; ond cyn i hyny gymmeryd lle, bu farw y frenines Mari. Ar ddyfodiad Elizabeth i'r orsedd, gorfu arno roi y cwbl i fyny, a ffoi dros y môr. Yr oedd yn bresennol yn Nghymmanfa Trent, 1562; ac wedi hyny penodwyd ef gan y pab yn Rhufain i fedyddio Iuddewon yno ac i urddo y Seison a adawent eu gwlad o achos eu crefydd.

Thomas Wood, S.T.P., a benodwyd yn 1558; ond darfu i farwolaeth Mari roddi terfyn sydyn ar ei lywyddiaeth; o blegid ar esgyniad Elizabeth, nid yn unig amddifadwyd ef o'i esgobaeth, ond o'i holl fywiolaethau ereill hefyd.

Enwodd Elizabeth Richard Davies yn ei le, yr hwn a etholwyd Rhag. 4, 1559, ac a gyssegrwyd Ionawr 31, y flwyddyn ganlynol. Mai 21, 1561, symmudwyd ef i Dŷ Ddewi.

Ar ei drosglwyddiad, daeth Thomas Davies, D.D., o sir Gaernarfon, yn esgob Llanelwy yn ei le. Bu farw o ddeutu gwyl Mihangel, 1573.

Ei olynwr ydoedd William Hughes, S.T.P., mab i Hugh ab Cenric, o sir Gaernarfon. Daliodd lawer o fywiolaethau yn ei law ei hun; ond yr oedd efe er hyny yn gymmwynaswr hael i'w eglwys, fel y gallwn gasglu oddi wrth ei waith yn gadael tiroedd a chyllid tuag at sefydlu ysgol rad yn Llanelwy. Bu farw Hydref, 1600, a chladdwyd ef yn nghôr Llanelwy.

Y nesaf ydoedd William Morgan, S.T.P., o blwyf Penmachno, yn sir Gaernarfon. Pan oedd efe yn ficer Llanrhaiadr yn Mochnant, gwnaethpwyd ef yn gaplan i'r archesgob, yr hwn hefyd a'i darbwyllodd i gymmeryd mewn llaw y gorchwyl o gyfieithu y Beibl i'r Gymraeg. Diwygio y Testament Newydd a wnaeth efe, o gyfieithiad blaenorol gan William Salesbury a'r esgob Risiart Davies. Gwobrwyodd y frenines Elizabeth y Dr. Morgan âg esgobaeth Llandaf, yn 1595, a symmudwyd ef i Lanelwy yn 1601. Bu farw Medi 10, 1604, a chladdwyd ef yn nghôr yr eglwys gadeiriol.

Dilynwyd ef gan Risiart Parry, S.T.P., mab ac etifedd John Parry, Ysw., o Bwllhalog; yr



Digitized by Google

hwn a gyssegrwyd Rhagfyr 30ain, 1604. Yr oedd efe yn ŵr dysgedig a duwiol, ac efe a gynnorthwyodd ei ragflaenor yn y gwaith o gyfieithu y Beibl i'r Gymraeg. Bu farw Medi 26ain, 1623.

Enwyd John Hanmer, S.T.P., yn esgob Llanelwy, o ddeutu y Nadolig, 1623, a chyssegrwyd ef ar y 15fed o'r Chwefror canlynol. Bu farw yn ei anneddle, Pentre Pant, yn mhlwyf Selattyn, Mehefin 23ain, 1629.

Ei olynwr ydoedd John Owens, S.T.P., o deulu Bodsilin, yn sir Gaernarfon. Dyrchafwyd ef i'r esgobaeth gan y brenin Siarl I., i'r hwn y buasai yn gaplan pan oedd efe yn Dywysog Cymru. Ar ei ddyfodiad i Lanelwy, yn 1630, dechreuodd gymmeryd mewn llaw lawer gorchwyl pwysig: sefydlodd bregethu Cymraeg yn eglwys y plwyf, ac y mae'n debyg, mewn amryw fanau yn ei esgobaeth; gwnaeth lawer o adgyweiriadau tu mewn i'w eglwys; adeiladodd adeilad newydd yn ymyl ei balas o du y dwyrain; gosododd organ newydd yn yr eglwys; palmantodd y ffordd rhwng yr eglwys gadeiriol ag eglwys y plwyf; adgyweiriodd y clochdy; yn nghyd âg amryw bethau ereill. Yr oedd yr esgob Owens yn fawr ei fri gyda'r archesgob Laud, yr hwn a fu yn offerynol iddo gael Llanelwy. Cyhoeddodd lyfr a elwid *Herod a Phontius Pilat wedi ymgymmodi.* Bu farw Hydref 16eg, 1651, yn Aberkinsey, gerllaw Rhuddlan, a chladdwyd ef dan y sedd esgobawl yn yr eglwys gadeiriol.

Wedi bod yr esgobawd yn wag am naw mlynedd, penodwyd George Griffith, S.T.P., o Benrhyn, sir Gaernarfon, i'r lle. Ysgrifenodd draethawd ar Swper yr Arglwydd yn 1684. Cymmerodd arno y gwaith o gyfieithu y *Llyfr Gweddi Gyffredin* newydd i'r Gymraeg; ond ni wyddys a orphenodd efe hwnw ai peidio. Mewn cymmanfa o Eglwyswyr, yn 1640, gwnaeth gynnygiad ar gael argraffiad newydd o'r Beibl Cymraeg. O'r diwedd, wedi llwyddo i amddiffyn y gwirionedd, ac achos Eglwys Loegr yn Nghymru, gwnaethpwyd ef yn esgob Llanelwy, yn 1660. Mewn cymmanfa o eglwyswyr, yn 1662, cydweithredodd i gyfansoddi Gweithred yr Unffurfiad, ac i wneyd rhai cyfnewidiadau yn y *Llyfr Gweddi*, a thybir mai ei waith ef ydyw y drefn er bedyddio rhai mewn oedran a synwyr. Dilynodd gamrau ei ragflaenor yn y gwaith o drefnu ei esgobaeth, a sefydlu pregethau Cymraeg yn eglwys y plwyf. Bu farw Tachwedd 28ain, 1666, a chladdwyd ef yn nghôr yr eglwys gadeiriol.

Cyssegrwyd Henry Glenham yn esgob Llanelwy ar y 13eg o Hydref, 1661, a bu farw Ionawr 17eg, 1669.

Ei olynwr ydoedd Isaac Barrow, S.T.P. esgob Manaw, yr hwn a benodwyd i Lanelwy Mawrth 21ain, 1669. Efe a adgyweiriodd amryw ranau o'r eglwys gadeiriol, a gwariodd lawer o arian yn adeiladu ac yn trwsio ei balas yn Llanelwy, a'r felin berthynol iddo. Yn 1678, adeiladodd elusendŷ yn Llanelwy i wyth o wragedd gweddwon: gadawodd hefyd yn ei ewyllys 200*p*. tuag at ysgol rad yn yr un lle. Yn wir, dywedir iddo briodoli ei holl eiddo at ddybenion o elusen a haelioni. Bu farw, er galar cyffredinol, yn yr Amwythig, Mehefin 24ain, 1680.

Ar ei ol ef, daeth William Llwyd, D.D., ŵyr D. Llwyd, Ysw., o'r Henblas, sir Fon. Ar yr 8fed o Mehefin, 1688, efe ydoedd un o'r chwech esgob a draddodwyd i'r tŵr, am arwyddnodi a chyflwyno deiseb i Iago II., yn yr hon y dangosent eu hunain yn wrthwynebol i ddosbarthu a chyhoeddi yn eu heglwysi ddadganiad ei Fawrhydi o barth rhyddid cydwybod, ond a gawsant eu rhyddhau ar y 30ain o'r un mis. Tua diwedd 1688, cydsyniodd yr esgob Llwyd yn galonog â'r chwyldroad, ac ar yr 20fed o Hydref, 1692, trosglwyddwyd ef i Lichfield a Coventry. Cyhoeddodd lawer o lyfrau ar amrywiol destynau; ac y mae clod mawr iddo o herwydd helaethrwydd ei ddysgeidiaeth a chywirdeb ei farn a'i grebwyll.

Wedi ei symmud, gwnaethpwyd Edward Jones, D.D., o Lwynririd, ger llaw Trefaldwyn, yn esgob ar Lanelwy. Bu farw Mai 10fed, 1703.

Enwyd George Hooper, D.D., yn esgob ar Lanelwy gan y frenines Ann, a derbyniodd yntau y swydd, er yn erbyn ei ewyllys. Yn mhen hanner blwyddyn wedi hyny, penodwyd ef i Bath a Wells, ond erfyniodd ar i'r gorchymyn gael ei alw yn ol, ac i'r esgobaeth gael ei hadferu i'w gyfaill yr esgob Ken—â'r hyn y cydsyniwyd. Ond ni fynai Ken mo honi: ac ar daer ddymuniad hwnw, derbyniwyd hi eilwaith gan Hooper. Yr oedd Hooper yn enwog am ei ddysg a'i ddawn, a'i gywirdeb yn trefnu ei esgobaeth.

Ar ei drosglwyddiad ef i Bath a Wells, gwnaethpwyd William Beveridge, D.D., yn esgob Llanelwy. Yr oedd efe mor hyddysg yn yr holl ieithoedd dysgedig, fel ag yr ysgrifenodd efe draethawd, pan ond deunaw oed, ar ragoroldeb a llesad yr ieithoedd dwyreiniol, yn enwedig yr Hebraeg, y Chaldaeg, y Syriaeg, yr Arabaeg, a'r Samaritanaeg. Yr oedd efe hefyd, er yn ieuanc, yn hynod am ei dduwioldeb a difrifoldeb ei feddwl. Wedi dyfod i'w esgobawd, ysgrifenodd lythyr caredig at ei offeiriaid, i'w hannog i gateceisio a dysgu y bobl yn egwyddorion Cristionogaeth; a chyfansoddodd, er gwasanaeth ei esgobaeth, esboniad syml a hawdd o *Gatecism yr Eglwys*. Ni fwynhaodd y gŵr duwiol hwn ei urddas esgobawl ond am dair blynedd, saith mis, ac ugain niwrnod. Bu farw Mawrth 5ed, 1707—8.

Ar ol Beveridge, daeth William Fleetwood, D.D. Dyn doeth, difalch, diwyd, a glân ei fuchedd, ydoedd. Yr oedd yn awyddus iawn am lenwi eglwysi ei esgobaeth âg offeiriaid duwiol a theilwng, a da gan ei galon oedd ganddo eu canfod yn gofalu yn gydwybodol am les eu praidd. Gwariodd 100*p*. yn addurno a lliwio côr yr eglwys; a rhoddodd 100*p*. tuag at gynnal ysgol i blant tlodion yn Abergele. Yn 1714, symmudwyd ef i esgobawd Ely.

Yn yr un flwyddyn, penodwyd John Wynne, D.D., o Faes y Coed, Caerwys, yn esgob Llanelwy. Bu yn gymmwynaswr mawr i'w eglwys a'i balas: ar y flaenaf, gwariodd dros 600*p*. yn fuan wedi dyfod i feddiant o honi. Trosglwyddwyd ef i Bath a Wells ar farwolaeth yr esgob Hooper, yn 1727, a bu yntau ei hun farw Gorphenaf 15fed, 1743.

Yna rhoddwyd yr esgobaeth i Francis Hare, D.D., mab i farsiandwr o Lundain, yr hwn a ddyoddefodd golledion dwys oddi wrth y tân mawr a fu yn y ddinas. Yr oedd yn ŵr tra dysgedig, ac mewn ffafr mawr â'r frenines. Symmudwyd ef yn 1731 i Chichester.

Ar hyn, llanwyd y sedd esgobawl yn Llanelwy gan Thomas Tanner, D.D. Ond nid hir y bu hwnw mewn mwynhad o'i urddas, o blegid bu farw Rhagfyr 14eg, 1735. Efe ydoedd awdwr y *Notitia Monastica.*

Daeth Isaac Madox, D.D., ar ei ol, sef yn 1736, a bu yma hyd 1743, pryd y symmudwyd ef i Gaerwrangon.

Dilynwyd ef yn Llanelwy gan John Thomas, D.D.—gŵr difyr ac arab, ond lled drwm ei glyw.

Digitized by Google

Yr oedd ganddo law yn y cyhoeddiad nodedig hwnw, y *Patriot*.

Yr esgob nesaf ydoedd Samuel Lisle, D.D., yr hwn a benodwyd yn 1743—4. Ond yn 1748, symmudwyd ef i Gaercynan. Yr oedd efe wedi bod yn drafaeliwr mawr yn ei ddydd.

Ar ei ol ef, daeth yr anrhydeddus Robert Hay Drummond, D.D., yn esgob Llanelwy, a chafodd ei drosglwyddo i Gaercaradawg, Mai 3ydd, 1761.

Dilynwyd ef gan Richard Newcome, D.D., yr hwn a drosglwyddwyd yma o Landaf. Bu farw yn Nghaer Baddon y 4ydd o Fehefin, 1769.

Y nesaf ato ydoedd Jonathan Shipley, D.D. Yn ei amser ef ail adeiladwyd agos o'r newydd gôr Llanelwy. Cyssegrodd hefyd gapel Trefor, yn mhlwyf Llangollen. Am yr esgob hwn, iawn y dywedwyd ei fod yn "meddu ar ddysg heb hunandyb, gwladgarwch heb bleidiaeth, a moesgarwch heb fursendod." Bu farw Rhagfyr, 1737.

Daeth Samuel Hallifax, L.L.D., a D.D., i'r esgobawd ar farwolaeth Shipley, wedi cael ei symmud o Ely—gŵr o wybodaeth a medrusrwydd eang.

Dilynwyd ef gan Lewis Bagot, L.L.D., yn 1790.

Wedi hyny y daeth Samuel Horsley yma, yn 1802—gŵr o ddawn a dysg anghyffredin, yr hwn a enwogodd ei hun yn benaf fel amddiffynydd y ffydd yn erbyn golygiadau y Dr. Priestley. Bu farw yn 1806.

Dilynwyd ef gan William Cleaver, D.D., yn yr un flwyddyn.

Ar ei farwolaeth ef, yn 1815, daeth Dr. Luxmoore i'r lle.

Yna William Carey, D.D., yn 1830.

Ac ar ei farwolaeth yntau, yr esgob presennol, Thomas Vowler Short, D.D.; yr hwn, cyn hyny, oedd yn esgob Sodor a Man.

Arfau yr esgobawd ydynt.—*Maes du, dau agoriad gwyn yn groes.*

BANGOR DEWI; St. David's: a elwid hefyd "Bangor Mynyw, a wnaethpwyd gan Ddewi ag Ynyr o Gaer Gawch, lle ai symudwyd o Gaerllïon ar Wysg, mann ai gwnaethpwyd gan yr Amherawdr Tewdws." Mewn lle arall o'r *Achau*, dywedir, "Dewi mab Sandef, mab Ceredig, mab Cyneddaf Wledig, Mam Dewi oedd Nonn Fendigaid ferch Ynyr o Gaer Gawch ym Mynwy; a'r Ynyr hwnw a roddes diroedd i Ddewi ym Mynyw, y lle y gwnaeth ef Fonachlawc; a symud i honno yr Archesgobaeth o Gaerllïon ar Wysg, lle y bu Dewi cyn no hynny yn Archescob." Galwyd y sefydliad yma hefyd, ar enw Dewi, yn Llanddewi: ac er mwyn gwahaniaethu y lle hwn oddi wrth fanau ereill cyssegredig i'r un sant, fe'i galwyd yn Llanddewi Brefi, oddi wrth afonig a elwir Brefi, sydd yn agos i'r lle. Cymmerodd mynach dichellgar, o'r canol oesoedd, achlysur oddi wrth yr enw yma, Brefi, neu Brefu, i wneyd chwedl nodedig, i gofnodi gwyrth enrhyfeddol, eb efe, a wnaed yn y lle; ac er mwyn twyllo y werin hygoel yn fwy effeithiol, efe a bwrcasodd ddau gorn aruthrol eu maint, y rhai yr honai efe iddo eu cael yn y ddaiar yn agos i'r lle, ar ol dyfal ymchwiliad, wedi iddo ddarllen hanes y wyrth mewn rhyw hen lawysgrifen. Dywedai fod angenfil erchyll ei faint gynt, mewn llyn cyfagos, yr hwn a ddeuai allan yn y nos, i wneyd difrod anhygoel yn yr holl gymmydogaethau; fod Dewi Sant, trwy gymhorth rhai o'r trigolion, wedi picellu a bachu yr anghenfil â thryfer addas i'r perwyl, yr hon a rwymasid wrth raff gadarn; yna, iddo geisio dau ych o faintioli gwyrthiol, a elwid "Ychain Bannog" (=ychain nodedig neu uchel), ac iddo rwymo y rhaff wrth iau yr ychain, y rhai, ar ol i Ddewi weddïo am lwyddiant, a dynasant yr anghenfil i dir ar unwaith, yr hwn a laddwyd yn y fan gan y trigolion; ond ddarfod i un o'r ychain syrthio yn farw ar y llanerch, gan dra gormod lludded, ar ol cyflawnu y fath wrolgamp; a bod yr ych arall wedi *brefu* mor ofnadwy o blegid colli ei gydymaith, fel yr holltodd y mynydd yn ddau hanner gan nerth ei lais; ac mai yn yr hollt hwnw y gwnaethpwyd y Fangor a'r Fynachlog; ac y galwyd y lle fyth wedi hyny yn *Llanddewi Brefu*. Cedwid dau gorn anferthol o faint yn eglwys Llanddewi, hyd yn ddiweddar, a haerid mai cyrn un o'r ychain bannog crybwylledig oeddynt! Pa fodd bynag, curodd y sant chwedl yr ychain a phob peth, canys wrth ei enw ef yr adnabyddir y lle a'r esgobaeth yn bresennol; sef Ty Ddewi.

Yr amgylchiad boreuol a hynododd y lle hwn fwyaf, oedd y gymmanfa nodedig a gynnaliwyd yno yn B. A. 519, a elwid "Senedd Frefi," yr hon a wysiwyd gan Dyfrig Beneurog, archesgob Caerllïon ar Wysg. Amcan y gymmanfa hono oedd gwrthwynebu Morganiaeth, oedd eisoes wedi dechreu ennill tir yn y wlad, a darparu moddion effeithiol, os dichonadwy, i'w llwyr ymlid o'r dywysogaeth. Dywedir i Dewi lefaru mor hyawdl a phriodol ar yr amgylchiad yma, fel y rhoddodd daw effeithiol ar y Morganiaid ar y pryd, ac i'w hathrawiaeth a'u daliadau gael y fath ergyd, fel nas gallasant byth mwyach ymadferu i'w rhwysg blaenorol. Mewn canlyniad i hyn, rhoddodd Dyfrig, yr hwn weithian oedd mewn gwth o oedran, archesgobaeth Caerllïon ar Wysg i fyny i Ddewi: ac urddodd ef, yr un pryd, i'r swydd oruchel. Ar ol hyn, ymneillduodd yr hen Ddyfrig grefyddol, ac amryw ereill gydag ef, i Fangor Cadfan yn Enlli, pan y canodd Catwg y gân nodedig a ddyfynwyd eisoes, wrth draethu ar Bangor Cadfan, ar yr achlysur, sef—

"Pan oedd saint senedd Frefi
Yn ol gwiw bregeth Dewi,
Wrth arch pryffwn prophwydi
Yn myned i Ynys Enlli, &c."

Dywedir fod Dewi yn bur hwyrfrydig, ar y dechreu, i ymaflyd yn yr archesgobaeth; ond wedi iddo ei derbyn, ddarfod iddo gyflawnu y swydd yn egnïol a llwyddiannus dros ben. Galwodd gymmanfa yn nghyd yn fuan ar ol derbyn y swydd, yn Nghaerllïon ar Wysg, yn yr hon y dywedir iddo, nid yn unig ddarostwng Morganiaeth, ond ei llwyr ddiffodd; ac am hyny, galwyd y gymmanfa hono, "Y Cynghor Buddugol."

Ymddengys nad arosodd Dewi yn hir yn Nghaerllïon ar Wysg, ond iddo symmud yr archesgobaeth, yn gyntaf, medd rhai, i Landaf, ac wedi hyny i Fynwy, a elwir hyd y dydd hwn ar ei enw, fel y dywedwyd eisoes, yn Dŷ Ddewi (*St David's*). Tybia Carnhuanawc iddo symmud i'r llanerch anghysbell hon, er mwyn cael mwy o lonyddwch i efrydio a hyfforddi ei ddysgyblion, gan fod Caerllïon "y pryd hwnw, yn ddinas boblogaidd, yn llawn o hudoliaethau bydol; ac hefyd, yr oedd ganddo yn yr ardal yma, yn Mhenfro, feddiannau helaeth o diriogaethau." Cadarnheir y syniad olaf hwn yn yr *Achau*, lle y dywedir—"Nonn mam Dewi, merch Gynyr o Gaer Gawch ym Mynyw hi; a'r Gynnyr hwnnw a roddes ei gyfoeth i Dduw a Dewi, mal y gellit Eglwys ym Mynyw; ag yno y daeth Dewi o

Digitized by Google

Gaerllïon ar Wysg, wedi marw Arthur Amherawdr; a'r Eglwys hono a aeth yn Ben rhaith ar Eglwysi Cymru."

Bernir ddarfod i Dewi, ar ol ymsefydlu yn yr archesgobaeth, ffurfio deddflyfr i eglwysi Cymru oll; a chredir yn gyffredinol mai yn ei amser ef y rhanwyd Cymru gyntaf yn esgobaethau. "Yn yr amseroedd hyny," meddai Gerallt o Gymru, "blodeuodd eglwys Dduw yn nhiriogaeth Cymru (*Cambria*) yn odidog ragorol, ac yr oedd ei hadd-fed ffrwyth yn amlhau bob dydd. Adeiladwyd mynachlogydd yn mhob lle; a lluosog oedd cynnulleidfaoedd y ffyddloniaid o bob gradd a ymgasglent yn wir ddefosiynol i fawrhau aberth Crist. Ond yr oedd y Tad Dewi wedi ei osod ar uchelfan ddyrchafedig, yn ddrych ac anghraifft bywyd iddynt oll. Efe a'u hyfforddiai hwynt â geiriau, ac a'u cyfarwyddai hwynt drwy esampl; fel pregethwr, yr oedd yn nerthol gan wir hyawdledd, tra y rhagorai ar hyny mewn gweithredoedd. Yr oedd efe yn athrawiaeth i'w wrandawyr, yn arweinydd i'r crefyddol, yn fywyd i'r tlawd, yn gymhorth i'r diamddiffyn, yn noddwr i'r gweddwon, yn dad i'r addifaid, yn rheol i'r mynachod, ac yn llwybr i'r fforddolion, gan ei wneyd ei hun yn bob peth i bawb, fel y gallai ennill y cyfan at Dduw." Rhoddir nodwedd cyffelyb i Dewi yn y *Trioedd;* lle y gelwir ef, a Phadarn, a Theilaw, yn "Dri gwesteion gwynfydedig Ynys Prydain;......sef au gelwid felly am ydd elynt yn westeiodd i dai bonedd, a gwreng, a brodor, ac aillt, heb gymmeryd na rhodd na gobr, na bwyd na llyn, eithr dysgu 'r ffydd yng Nghrist a wnaent i bawb heb na thâl na diolch, eithr i dlawd ac anghenus y rhoddynt roddion o'u haur a'u harian, a'u gwisgoedd a'u bwydydd."

Bu farw y "sant" enwog hwn yn ei hoff Fangor ei hunan, yn Mynyw, o gylch y flwyddyn 544, fel y tybir, pan yn 82 oed; ac yno y claddwyd ef trwy orchymyn Maelgwn Gwynedd. Seintiwyd ef gan y pab Calyston (*Calixtus*), tua B. A. 1120; chedwid ei ŵyl ar y dydd cyntaf o Fawrth—y diwrnod, meddai Gerallt, y bu farw. Nid yw ei ddyrchafiad fel "Sant Gwarcheidiol Cymru" ond peth diweddar, ebai Dr. Pugh; ac y mae casglyddion y rhamantau (*romances*), a elwir "Saith Wron Cristionogaeth" yn cadarnhau y syniad. "Er fod rhwysg goleuni," meddai Carnhuanawc, "gwedi peri diflaniad yr ofergoelion, eto y mae enw Dewi yn barchus yn mhlith ein cenedl, megys un a fu yn ymdrechgar ac yn llesiol yn ei oes: ac y mae y diwrnod a ddewiswyd i gynnal coffadwriaeth am dano yn cynnyg achlysur i'r Cymry ymgynnull yn nghyd er meithriniad gwladgarwch, ac er cynnaliad o'r cyfryw sefydliadau ac arferion ag a dueddant tuag at anrhydedd eu cenedl a'u gwlad gynhenid."

MYNACHOD BANGOR DEWI. Dywedir yn yr *Achau* fod "Cor Dewi ym Mynwy i bum cant o saint:" ond nid oes enw odid un o honynt, fel y cyfryw, ar gof a chadw, hyd yr ydys yn gwybod.

ESGOBAETH BANGOR DEWI neu DY DDEWI. Dinystriwyd yr eglwys gadeiriol gan y Daniaid, dan Uthr a Rhahallt, y rhai a laddasant eu noddwr, Peredur Gam, B.A 911. Ymddengys iddi gael ei hail adeiladu yn fuan, ond dinystriwyd hi drachefn gan Yswyn ap Harallt, yn y flwyddyn 993, yr hwn hefyd a laddodd yr esgob, Morgeneu. Yn y flwyddyn 1079, daeth Gwilym y Goresgynydd i Gymru, gyda llu cadarn, ac aeth cyn belled a Thy Ddewi, ar ddull pererindod; ac wedi offrymu yno, a chydnabod y sant, derbyniodd wriogaeth gan freninoedd a thywysogion y wlad. Yn y flwyddyn 1087, ysbeiliwyd eglwys Tŷ Ddewi yn ysgeler o'r holl lestri aur ac arian oedd o'i mewn. Yr ydym eisoes wedi son am ddechreuad yr esgobaeth hon. Yn amser Awstin Fynach, yr oedd hi yn ben ar saith o esgobaethau; sef yn ol Iolo MSS., yr eiddo Caerflawydd neu Henffordd, Teilaw, Padarn, Bangor, Elwy, y Wig, a Morganwg. Bu ganddi chwech ar ugain o archesgobion o 519 hyd 841, ac un ar ugain o esgobion yn meddu ar allu archesgobawl hyd 1115, pryd y gwnaethpwyd hi yn ddarostyngedig i archesgobaeth Caergaint. O gylch y flwyddyn 1110, adeiladwyd yr eglwys bresennol, yr hon sydd yn adeilad wych a destlus. Yn y flwyddyn 1187, gwnaeth Thomas Bec, yr esgob, Dŷ Ddewi yn eglwys golegol, yn cynnwys prif gantor, a deuddeg o brebenduriaid; a threfnodd ddegwm pedwar plwyf ar ddeg, mewn rhan neu yn gyflawn, at eu cynnaliaeth, o'r sawl yr enwir y rhai canlynol:—Llanfair Clydogau, Blaenporth, Llanerchaeron, Dihewid, Llanwenog, Ystrad, Llangybi, Llanddeiniol y Gareg, Llan Sadwrn Odyn, Llanbadarn Tref Eglwys, yn Ngheredigion; a Threlech a'r Bettws yn Nghaerfyrddin. Yn y flwyddyn 1213, claddwyd Gerallt o Gymru, archddeon dysgedig Brycheiniog, yn Nhy Ddewi. Yn amser Harri VIII., gwnaeth yr esgob Fychan gapel godidog yn nglŷn â'r Eglwys, o'r tu ol i'r gafell. Yn y gafell y mae beddadeiliau Owain Tudur, Rhys ap Tudur, yr esgob Iorwerth, a'r esgob Ansler, o'r drydydd ganrif ar ddeg; yn nghyd â'r eiddo Edmwnt, iarll Richmond. Cynnwysa yr esgobaeth holl siroedd Penfro, Aberteifi, Caerfyrddin, Brycheiniog, a rhan o Faesyfed, a rhyw fanau o Fynwy, Caerffawydd, Trefaldwyn, a Morganwg, yn y rhai oll nid oes oddi gerth 300 o blwyfydd. Y mae sefydliad esgobol diweddar Tŷ Ddewi yn cynnwys yr esgob, chwech o ganonwyr trigiannol, pedwar o archddeoniaid, ac amryw adganonwyr. Pris yr esgobaeth, yn ol y *Liber Regis* yw 426*p.* 2*s.* 1*c.;* ond cyfrifir ei gwir werth yn 2,400*p.*

Ei harfau—*Maes du, ar groes aur* 5 *cinquefoils* o'r lliw cyntaf.

BANGOR WYDRIN; a eiwid hefyd BANGOR ELFAN, a CHOR ELFAN. Fe'i gelwid yn Fangor Wydrin, oddi wrth Ynys Wydrin, neu Ynys Wydir (dyfrdir), medd Carnhuanawc, a gamgyfieithwyd gan y mynachod yn *Insula Vitrea*, yr hyn a adgyfieithwyd drachefn, gan rai heb ddeall yr enw cyntefig, yn Ynys Wydrin (*Glastonbury*). Hen enw arall y lle yw Ynys Afallach neu Afallon; a than yr enwau hyn yr hynodir hi fel Bangor, yn y *Trioedd,* lle y dywedir—'Tair prif Gyfangor Ynys Prydain: Bangor Illtud Farchawg yng Nghaer Worgorn, Côr Emrys yng Nghaer Caradawg, a Bangor Wydrin yn Ynys Afallen; ac ym mhob un o'r tair Bangor hynny ydd oedd pedwar cant ar hugain o saint: sef oedd cant ar bob awr o'r dydd a'r nos yn eu cylch, yn cynnal mawl a gwasanaeth Duw heb orphwys heb yspaid." Gelwid y sefydliad yn Fangor Elfan, oddi wrth Elfan Sant, medd yr *Achau*, "a fu'n genad dros Leurwg Sant, at y pab Elidur, ag a wnaethpwyd yn escob yn Rhufain; ei eglwys ef, Ynys y Fallon." Ymddengys oddi wrth y dystiolaeth yma, yn gystal ag oddi wrth amryw ereill o'r hen *Gofion*, fod "Elfan Sant, a fu'n esgob yn Ynys y Fallen, lle mae ei eglwys a'i Gôr ef," yn bucheddu yn yr eilfed ganrif, "yn amser Lleurwg Sant, ap Coel, ap Cyllin;" tra y tybia rhai mai gan fynachod y canoloesoedd y galwyd

Digitized by Google

y sefydliad yn Fangor Wydrin; gan hyny, fod Bangor Elfan yn llawer henach enw: ac yn wir, barna rhai mai oddi wrth Elfan y galwyd y lle yn Ynys Afallach, ac nid oddi wrth "amledd y coed *afalau*" oedd yno, fel y mae ereill yn meddwl; tra y tybia ereill drachefn iddo gael yr enw oddi wrth Glasteing ap Cunedda Wledig. Pa fodd bynag, ymddengys fod Ynys Afallach yn lle cyssegredig cyn dyfodiad y Seison i Ynys Prydain; y rhai, ar ol buddugoliaethau Cerdig, a wasgarasant y crefyddwyr oddi yno. Adnewyddwyd y lle wedi hyny gan Ifor ap Alan o Lydaw, meddai Caradog o Lancarfan, "yr hwn wedi gorfod ychydig ar y Saeson, B. A. 683, a wnaeth y Broddordy mawr yn Ynys y Fallen, er diolch i Dduw am ei gyfnerth yn erbyn y Saeson." Dywedir i Ina brenin y Seison, wneyd mynachdy godidog yno, yn 721, gan waddoli y lle yn dra haelionus; o blegid hyn, clodforai y mynachod Normanaidd fynachdy Ynys Afallach, fel "mameglwys holl Ynys Prydain." Ystyrid y sefydliad yma o gymmaint pwys ac ardderchogrwydd yn y ganrif ganlynol, fel y gwnaeth Aelfryd Fawr (*Alfred the Great*), ei gyfaill a'i athraw, Aser o Fynyw (Geraint Fardd Glas) yn abad y mynachdy.

Chwanegodd y brenin Edgar drachefn lawer at waddolion Bangor Wydrin; a rhyddhaodd ei mynachod oddi tan lywodraeth esgob Caerhwch (*Wells*), gan ddadgan, "Yn gymmaint a bod yr eglwys yn Ynys Wydrin, oedd wedi ei chyssegru i'r Forwyn Fendigaid, yn cael ei hystyried bob amser yn deilwng o'r radd uchaf yn y deyrnas, ei fod ef yn dymuno ei hanrhydeddu mewn modd arbenig trwy ei rhyddhau oddi wrth bob llywodraeth allanol."

O blegid y breintiau mawrion hyn, a'u cyffelyb, yr oedd Bangor Wydrin yn dra chyfoethog o ran meddiannau a llyfrau; a chadwodd ei rhagoriaeth i fyny hyd mor ddiweddar ag amser Leland, yr hwn a roddai yr arganmoliaeth odidog a ganlyn iddi:—"Ychydig flyneddoedd yn ol," ebe fe, "mi aethym i Ynys Wydrin, lle yr oedd yr abatty hynaf ac ardderchocaf yn ein holl ynys; a thrwy garedigrwydd yr abad, adferwyd fy meddwl, yr hwn, ar ol y fath hir flinder a llafur llenyddol, oedd yn gofyn rhyw yni newydd i'w ennyn at ddarllen a llenoriaeth. Cyfarfum â'r cyfryw yni yn gynt nag y dysgwyliwn: am hyny, aethym yn ddiymaros i'r llenorfa (yr hon nid oedd agored ond i ambell un), fel y gallwn ofalus olrhain gweddillion yr hynafiaith fwyaf cyssegredig, y rhai oedd luosocach yno nag mewn odid un lle arall yn Ynys Prydain. Prin y sengais y trothwy, pan y tarawyd fi â pharchedig ofn gan yr olygfa yn unig ar y fath lyfrau tra hynafol: neu, yn hytrach, dyrchafwyd fy meddwl mewn syn ryfeddod, fel y sefais am ennyd, heb syflyd o'r unlle. Yna, wedi talu gwarogaeth i angel yr ystafell, trychwiliais yr astelloedd am rai dyddiau, mewn awyddfryd cywreiniol." Nis gallesid dyrchafu'r Bodleian a'r Vatican yn uwch na hyn, meddai Whitaker, a hyny gan ddyn gwir athrylithgar a dysgedig.

Er mwyn dyrchafu digon ar y Fangor yma, dywedodd rhai o'r mynachod mai Ioseph o Arimathea a'i sefydlodd; ond ni chlywyd gair o son am hyn yn Nghymru, meddai yr archesgob Usher, hyd ar ol y fuddugoliaeth Normanaidd. Y mae yn bur debyg mai i'r Fangor odidog hon yr aeth Arthur i farw, ar ol cael ei frathu yn angeuol yn y "Gad Gamlan;" ac mai yno y claddwyd ef. Gwel ARTHUR.

MYNACHOD BANGOR WYDRIN. Er y dywed y *Trioedd*, fel y gwelwyd eisoes, fod "pedwar cant ar ugain o saint" yno, nid yw yr *Achau* wedi cofnodi enwau un o honynt, fel y cyfryw, namyn Elfan, y sylfaenwr. Cymmaint ag a ddywedir yn yr *Achau* ar hyn ydyw, "Côr Elfan yn Ynys Wydrin i *fil* o saint." Crybwylla awdwyr ereill am un Dunstan oedd yn fynach yno rywbryd ar ol B. A. 925—blwyddyn ei enedigaeth; ac a fu wedi hyny yn archesgob Caergrawnt. Ymroddodd hwn, pan yn Mangor Wydrin, i goleddu llenoriaeth â'i holl egni; a da fuasai i'r Seison, meddai awdwr yr *Hor. Brit.*, pe yr ymfoddlonasai ar ragori fel llenor. Yr oedd Dunstan nid yn unig yn hysbys yn ysgrifeniadau goreu yr hynaflaid, ond ymroddodd i efrydio mesuroniaeth a seryddiaeth, efrydion pur anghyffredin yn yr oes hono. Yr oedd yn ddyn o athrylith fywiog a threiddgar, o ymroddiad tanbaid at efrydiaeth, ac yn meddu yr hyawdledd fwyaf nerthol a choethedig. Tynir darlun destlus gan Mr. Turner o'r dyn anghyffredin hwn, a ddyrchafwyd i binacl uchaf yr eglwys, fel hyn:—"Treuliodd y rhan gyntaf o'i oes i goethi ei feddwl yn y modd mwyaf egniol; ac ymddengys iddo gyrhaedd pob gwybodaeth oedd ddichonadwy iddo ei chael yn yr oes hono. Meistrolodd yr holl wybodau mesuronol adnabyddus ar y pryd, yn y rhai yr ymarddercbogodd; gwnaeth ei hun yn gampwr mewn ysgrifenu, paentio, a cherfio; ac yr oedd yn rhagori ar bawb yn ei oes fel gof aur, arian, efydd, a haiarn. Y mae yn wir nad oedd y celfyddydau hyn wedi cyrhaedd perffeithrwydd arbenig yn y dyddiau hyny; ond yr oedd yn beth pur anghyffredin, er hyny, gweled un dyn yn feistr ar y cyfan fel yr oeddynt. Yr oedd tra rhagori fel hyn ar ei gydoeswyr, mewn ymchwiliadau meddyliol, yn y coethgelfyddydau, ac mewn llawofyddiaeth, yn amlygrwydd diymwad o fywiogrwydd meddwl, yni cortlorol, a rhagoroldeb ei meddiannydd—talentau yr hwn a allasent fod yn fendith i'r byd."

Y fath oedd y dyn, yr hwn ar ol hyny, er mwyn ymddyrchafu i eithafedd gallu, fel rheolwr gweithredol ar yr eglwys a'r llywodraeth, a ddaeth yn ennynwr gwrthryfel! Gan Dunstan yr oedd y llaw benaf yn niraddiad y brenin Edwin; a thrwy ddylanwad yr abad yma a'i gydbleidiwr, Edgar, y dyrchafwyd brawd y penadur diorseddedig i'r orsedd; a buan wedi hyny y cyrhaeddodd Dunstan eithafedd ei uchelgais, sef y brif archesgobaeth. Yn awr, cyrhaeddodd y mynachod yr oruchafiaeth a gadwasant fyth wedi hyny yn ofalus hyd amser y Diwygiad. Y fath ydoedd un o fynachod Bangor Wydrin!

**BANGOR BEUNO**; a elwid hefyd CLYNOG FAWR YN ARFON: wrth yr hwn enw yr adnabyddir y lle hyd heddyw, a wnaethpwyd gan "Beuno ap Hywgi, ab Gwynlliw, ap Cedig, ap Ceredig, ap Cyneddaf Wledig." Mewn lle arall o'r *Achau*—"Beuno Sant ap Hywgi, ab Gwynlliw, a wnaeth Fangor Clynog; a mawr honno am ddysg a chelfyddydau." Eto, "Beuno ap Hywgi, ab Gwynlliw, *ut supra*, a wnaeth Fangor Beuno, yng Nghlynog fawr yn Arfon; a honno a fu'n glodforusaf o'r holl Fangorau yng Ngwynedd, am wybodau a dwyfoldeb; a gwedi hyny y gwnaethpwyd hi yn Fonachlog fal ag y mae yn awr." Bernir yn gyffredinol i'r Fangor yma gael ei seilio o gylch B. A. 616.

Y mae "Buchedd Beuno Sant," o gryn wyth dudalen wythblyg breninol, yn *Mucheddau Saint Ynys Prydain*, wedi ei ysgrifenu yn Nghymraeg y canoloesoedd; ac er ei fod y cytansoddiad

Digitized by Google

mwyaf chwedlonol a'r a ellid ei ffurfio, eto, y mae yn bur ddyddorol fel dernyn tra hynafol. Terfyna fel hyn:—"Ac fal yr oedd hoedyl Beuno yn darfod, y seithfed dydd gwedi Pasc, efe a welai y nef yn agored, ac engylion yn gogostwng ac yn dyrchafel i fynydd drachefn. Ac yna y dywed Beuno, 'Mi a welaf,' heb ef, 'y Trindawd, y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân, a Pheder, a Phawl, a Diwdefirion (Derwyddon?), a Deinioel, a'r Seint, a'r Prophwydi, a'r Ebystyl, a'r Merthyri, yn ymddangos im. A mi a welaf ym mhlith hyny seith angel yn sefyll ger bron cadeir y goruchel Dad; a holl dadeu y nef, ar ganiadau yn dywedyd, 'Gwynfydedig yw yr hyn a etholeisti, ac a gymeraist, ac a breswyla ynghyd yn dragwyddawl.' 'Mi a glywaf,' heb ef, 'llef corn y goruchel Dad yn gwahawdd, ac yn dywedyd wrthyf, 'Fy mab i, bwrw di oreilid (llwyth) dy gnawd i wrthyt, llyma yr amser yn dyfod, ac yr ydys ith wahawdd i gymryd y wledd ni dderfydd, ynghyd ath frodyr: triged yntau dy gorff di yn y ddaiar; dy eneid dithau, byddinoedd nef a'r engylion ai harwedd i deyrnas nef, yr hyn a heiddeist ti yma drwy dy weithredoedd: yr awr hon mae fydd dyddbrawst (=byddi di bresennol) pan ddyweto yr Arglwydd wrth y seint, 'Meibion bendigedig fy Nhad i, dewch chwi i feddu y deyrnas a baratoed ych yn nechreu byd,' lle bydd buchedd heb ddolur, a llawenydd heb dristyd: y seint yn y fydd uchaf y gyda Duw Dad yn unoliaeth a'r angylion a'r archengylion, yn unoliaeth y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân. Amen.

"Archwn ninheu drugaredd Duw hollgyfoethawg, drwy gynnhorthwy Beuno Sant, fal y gallom ninheu gaffel, y gydag efo, fuchedd dragywydd yn yr oes oesoedd. Amen."

Ac i goroni y cwbl,

"Llyma Ach Beuno."

"Beuno fab Bugi, fab Gwnlliw, fab Tegit, fab Cadell Deyrnllwc, fab Gortegyrun, fab Gorthefyn, fab Gorthgeyrun, fab Rutegyrn, fab Deheuwynt, fab Eudegan, fab Eudegern, fab Elud, fab Endos, fab Endolen, fab Afallad, fab Amalech, fab Belim, fab Anna, honno oedd gytnitherw i Feir Wyry, Mam Grist."

Ar fyr, y mae pob peth yn yr hen *Gofion* yn dangos fod Beuno, seilydd y Fangor dan sylw, yn "rhywun mawr" yn ei oes.

Gwaddolwyd y Fangor yma yn haelionus, o bryd i bryd, gan dywysogion Gwynedd. Dywed Rowlands, ar awdurdod Robert Fychan, mai Gwytheint oedd y cyntaf a roddes Glynog Fawr i Dduw a Beuno Sant, drosto ei hun a'i gefnder Cadfan (yn hytrach, Cadwallon), heb na threth na rhent, pan oedd Beuno yn abad yn mynachlog Clynog. Hefyd, rhoddwyd Graianog gan y brenin Cadwaladr, Porthamel gan Tegwared, Carn Gawch gan y tywysog Merfyn, Bodweilion a Bodfel, yn Lleyn, gan Cadwgan ab Cynfelyn, Deneio gan Rhodri ab Merfyn, y drydedd ran o Maestref a Neigwl gan Gruffydd ab Tangwyn, Penrhos gan Idwal, a Chlynog Fechan wrth y Rhos Hir (Newborough), yn Mon, meddai H. Rowlands, heb law amryw waddolion ereill gan Idwal Foel ac Idwal Iwrch. Cadfan, brenin Gwynedd, oedd prif noddwr Beuno, ac addawodd lawer o dir i'w Fangor: cyflawnodd Cadwallon ei fab yr addewid, a chafodd yntau deyrnwialen aur, gwerth trigain muwch, gan y sant, fel cydnabyddiaeth o'r anrheg. Yn mhen amser wedi hyny, honwyd y tir ar ran plentyn bychan, a phrofwyd ei hawl iddo; a gwrthododd y brenin roddi tir yn ei le, na dychwelyd y deyrnwialen chwaith. Melldithiodd Beuno ef, ac aeth ymaith; ond tangnefeddodd Gwytheint ef, cefnder y brenin, trwy redeg ar ei ol, a rhoddi tref Clynog am byth i Dduw a Beuno Sant, fel y crybwyllwyd o'r blaen, er mwyn ei enaid ei hun, ac enaid y drygionus Gadwallon. Yr oedd trigolion Clynog, a'r cyffiniau, yn yr amseroedd gynt, yn arfer offrymu lloi ac wyn at wasanaeth y Fangor yma, pan ddygwyddent ddyfod i'r byd â "nod Beuno" arnynt; sef math o hollt yn y glust. Dygid yr offrymau i'r eglwys ar Sul y Drindod, sef dydd gŵyl y sant, a chyflwynid hwynt i wardeiniaid yr eglwys, y rhai a'u gwerthent, yn gyffredin, ac a roddent gyfrif am danynt, gan roddi yr arian mewn cist dderw gadarn, a elwid "Cyff Beuno," wedi ei gwneyd o un pren, a'i rhoi yn yr eglwys.wedi ei sicrhau â thri o gloion, yr hon yr arferid ei hagor unwaith yn y flwyddyn, gan y gŵr eglwysig a'r wardeiniaid; a rhoddid y cynnwysiad i'r tlodion, neu at ryw wasanaeth plwyfol. O blegid mawr nerth yr hen gist yma, yr oedd gan drigolion parthau Clynog ddiareb, pan y cynnygid gwneyd rhywbeth pur anhawdd ei gyflawnu; sef, "Cystal i chwi geisio tori cyff Beuno."

Mynachod Bangor Beuno. Ychydig o fynachod neu saint y Fangor yma eto sydd yn yr *Achau*. Nodir y rhai canlynol:—Meigan, Padrig, Cyflylog, a Garmon, meibion Goronwy o Wareddawg. Dywedir hefyd mai dysgybles i Beuno oedd Gwenfrewi; ac efallai mai santes o'r Fangor yma oedd Ceinwen.

Fel hyn y terfyna yr hanes am y prif Fangorau. Crybwyllir am rai Bangorau ereill yn yr hen *Gofion*; ond nid oes odid ddim o'u hanes ar gael ond eu henwau, ac enwau eu seilwyr; megys,

BANGOR DATHAN, yn Nghaer Went, a wnaethpwyd gan Dathan Sant o Gôr Illtud, a nai iddo. "Tathan Sant o Fangor Illtud, ap Amwn Ddu, brenin Grawec, ac Anna ferch Meyric ap Tewdric ei fam: efe a wnaeth Eglwys Llandathan yn Morganwg; ac oddi yno ydd aeth at Ynyr Gwent, i arllwybraw Bangor yng Nghaer Went, lle y bu efe yn benrhaith; ag yn ei henaint efe a ddaeth yn ei ol i'r Eglwys a rywnaethoedd ef yn Llandathan, lle y gorwedd." Seiliwyd y Fangor yma rywbryd yn y chweched ganrif, yn oes Ynyr Gwent.

Mynachod Bangor Dathan. "Côr Tathan yng Nghaer Went ar bum cant o Saint;" ond nid oes enw un o honynt, hyd y gwyddys, ar gof a chadw.

BANGOR GYNGAR: "a wnaethpwyd gan Gyngar ap Geraint ap Ermin; a hi a dorred gan y paganiaid o Saeson; a gwedi hynny a wnaethpwyd o'r newydd gan Dochan Sant o Gôr Illtud, ag a elwid Bangor Dochan." Yn y chweched ganrif y gwnaethpwyd y Fangor yma hefyd. "Caffaw Sant o Gôr Cyngar," medd yr *Achau*.

BANGOR SEIRIOL, a elwid hefyd Bangor Penmon, Côr Penmon, a Chor Seiriol. "Seirioel mab Owain Danwyn, mab Einion Yrth, mab Cynneddaf Wledig, a wnaeth Gôr Seirioel ym Mhenmon." "Seirioel ap Owain Danwyn, *ut supra*, efe a fu'n sant yn Nghôr Garmon, a gwedi hyny y gwnaeth Einiawn Frenin o Leyn Gôr ym Mhenmon, lle y dodes ef ei frawd [ei *nai*, medd Iolo Morganwg] Seirioel yn Ben rhaith ar y Gôr honno; a dodi tiroedd a da tuag ati; a gwŷr Llychlyn a gyrchynt Gôr Seirioel er dysgu gwy-

Digitized by Google

bodau daionus a dwyfolion; a goreu am wybodau Côr Seirioel a Chôr Beuno o'r holl Gorau yng ngwlad Wynedd." Yr oedd y Seiriol yma yn gydoeswr a chyfaill mynwesol i Gybi, fel y dangoswyd eisoes dan Fangor Cybi; am hyny rhaid fod y ddwy Fangor, sef hon ac un Cybi, yn agos yr un oed, sef rywbryd yn y chweched ganrif. Y mae hen draddodiad fod gan Seiriol grefydd-dŷ yn Ynys Glanach, a elwid hefyd ar enw y sant yn Ynys Seiriol, wrth yr hwn enw yr adnabyddir yr ynys gan y Cymry hyd heddyw; ac y mae yno arwyddion fod y traddodiad yn gywir; canys er nad oes yno adfeilion yn awr y gellir penderfynu eu bod can hyned a'r chweched ganrif, eto y mae yno luaws o esgyrn dynion yn wasgaredig ar hyd yr ynys, yr hyn sy'n arwydd sicr iawn o sefyllfa rhyw grefydd-dŷ hynafol. Y mae'n bur sicr mai yn Mhenmon yr oedd prif Gôr Seiriol; ac y mae'n dra thebyg fod ganddo ryw gell grefyddol yn Ynys Seiriol hefyd, i'r lle yr arferai efe ei hun, ac ereill o'i saint, efallai, ymneillduo i fyfyrio ac addoli; neu ynte, efallai fod ganddo ddosbarth detholedig o'i ddysgyblion yno yn wastadol, â'r hwn yr arferai ymweled bob wythnos.

Y mae Ynys Seiriol yn sefyll yn y môr, tua milltir i'r dwyrain o Benmon.

Mynachod Bangor Seiriol. Enwau ychydig o saint neu fynachod y Fangor yma eto sydd yn yr *Achau*. Yr oedd Seiriol, bid sicr, yn un, ac Einion, frenin Lleyn, noddwr cyntaf y Fangor. Hefyd, "Elaeth frenin, ap Meyric, ap Idno, ap Meirchion Gul, ap Gorwst Ledlwm, ap Ceneu, ap Coel Godhebog, sant ym Mangor Seirioel;" a "Nidan ap Gwrfyw, ap Pasgen, ap Cynfarch, ap Meirchion Gul, periglawr y saint ym Mangor Benmon, ei eglwys ef ym Môn;" a dyna'r cyfan.

**BANGOR CENNYDD.** Ymddengys fod gan Gennydd ddwy Fangor bwysig yn eu dydd; canys "Cennydd Sant, ap Gildas y Coed Aur, a wnaeth Fangor yn Llangennydd yng Ngwyr, ag un arall yn Sainghennydd, lle au torred gan y paganiaid o Saeson." Yr oedd y sant yma yn bucheddu yn y chweched ganrif, "a bu'n sant yng Nghor Cattwg yn Llancarfan." Ychydig sydd o hanes y sant yma a'i Fangorau, heb law yr hyn sydd ar gof a chadw yn nglŷn â hanes aelodau y sefydliad, y ceir eu henwau yn yr *Achau*.

Mynachod Bangor Cennydd. "Cennydd ap Gildas y Coed Aur, ap y Caw Cawlwyd; ei Eglwysi Sainghennydd ym Morganwg, lle y gwnaeth ef Gôr, lle y gwnaethpwyd Castell Sainghennydd wedi hynny; Eglwys arall iddaw, Llangennydd yng Ngwyr." "Cyngar ab Arthwg, ab Ceredig, ab Cynneddaf Wledig, ei Gôr ef Morganwg, Llangenys heddiw." "Tudwg Sant o Gôr Cennydd yng Ngwyr, ei Eglwys ef Morganwg." "Rhidian Sant o Gôr Cennydd yng Ngwyr." "Mydawc Sant o Gôr Cennydd yng Ngwyr;" a dyna'r cwbl a ganfuwyd yn yr *Achau*.

**BANGOR AIDAN.** "Bangor Aidan a saith Gôr a dwyfil, ar enwau 'r saith niwarnod yr wythnos;" a dyma y cwbl o hanes y Fangor luosog hon. Aidan oedd ddysgybl i Ddyfrig yn Henllan, ar lanau yr afon Wy, medd *Llyfr Llandaf* (*Lib. Land*). Yr oedd yn bucheddu yn y bummed ganrif.

**BANGOR EURDEYRN.** "Cor Eurdeyrn ab Gwrtheyrn, yn Llaneurdeyrn ym Morganwg, ag Eurdeyrn yn Benrhaith, a Mil o Saint." Bucheddai Eurdeyrn (a elwid hefyd Edeyrn), fel y tybir, yn y bummed ganrif; a thybia Gunn, mai mab ydoedd i Wrtheyrn, a eilw Nyniaw (*Nennius*) yn Faustus; ac iddo gael ei eni pan oedd ei dad mewn gwth o oedran. Ond dyma fel y dywed yr *Achau*:—"Aurdeyrn ap Gwrtheyrn Gwrthenau o'i ferch ei hun, a fu'n sant yn Llan Edeyrn yng Nghibwyr, lle y mae ei Eglwys ef, ag yno y gorwedd: ag ef a wnaeth Gôr yno i drichant Seint; a'r Saeson a'i torres yn amser Cadwaladr Fendigaid." Y mae gwahaniaeth mawr rhwng y rhif yma a'r "mil o saint," fel y gwelir uchod, a geir mewn man arall o'r *Achau*. Efallai fod y cyfrif yn cael ei wneyd ar wahanol amserau. Pa fodd bynag, dyma y cwbl a geir o hanes y Fangor hon yn yr hen *Gofion*.

Gwelir yn awr, wrth derfynu hanes y sefydliadau pwysig a hynafol hyn, er bod *Bangor*, fel y dangoswyd ar y dechreu, yn cael ei hystyried, yn gyffredin, yn uwch na *Chôr;* eto, bod y ddau air yn cael eu defnyddio yn fynych iawn yn yr hen ysgrifau yn gyfystyr; a bod y Bangorau mwyaf pwysig, megys yr eiddo Catwg, Illtyd, Dyfrig, ac ereill, yn cael eu galw yn *Gorau* ac yn *Fangorau*, heb wahaniaeth.

"A'r Bangorau a fuant cyn cael y Monachlogydd, a gwedi hyny fe ddarfu am danynt, namyn y rhai o honynt a aethant yn Fonachlogydd." Ac felly y terfyna hanes Bangorau saint Ynys Prydain.—(*Iolo MSS.; Myv. Arch.: Rees' Welsh Saints ; Cambro British Saints; Lib. Landav.; Dugdale's Monas. ; Leland's Itin.; Gunn's Nen.; Wil. Malms. Chron.; Asser's Alf.; Gildas' Chron.; Bede's Chron.; Girald. Cambr. Itin.; Rich. of Dev. & Geoff. de Vins. Chron.; Whitaker's Corn. & Manch.; Powel's Hist.; Hanes Cym. Carn.; Wil. Biog. Dict.; Cambro-Briton; Cym. Trans.; Cambr. Plut.; Borlase's Ant.; Davies' Celtic Res. & Myth.; Cambr. Reg.; Cambr. Biog., &c.*)

1. **BANI**: un o gedyrn byddin Dafydd, o lwyth Gad; 2 *Sam.* xxiii. 36.

2. **BANI**: fab Samer, Lefiad, o dylwyth Merari: 1 *Cron.* vi. 46.

3. **BANI**: un o benau cenedl y gaethglud ar adeg y dychweliad o Babilon: *Ezra* ii. 10.

**BANNOD** Groeg. Gwel Groeg.

**BAR**, [בר]: gair Hebreig yn arwyddo *mab*, ond yn cael ei ddefnyddio yn farddonol yn unig yn yr iaith hono: *Salm* ii. 12; *Diar.* xxxi. 2. Yn y Syriaeg, modd bynag, y mae y gair *bar* yn cyfateb i'r gair Hebreig mwy cyffredin am fab, sef ben (בן); ac felly, mewn amseroedd diweddarach, yn y Testament Newydd, y mae yn cymmeryd yr un sefyllfa yn ffurfiad enwau priod ag a lanwai *en* gynt yn yr Hen Destament.—(*Kitto.*)

**BARA**: a arwydda yn yr Ysgrythyrau:—1. Pob math o ymborth angenrheidiol at gynnaliaeth dyn yn gyffredinol: *Gen.* iii. 19; xxviii. 20; *Exod.* xvi. 3; *Salm* cv. 16; *Amos* iv. 6; *Mat.* xi. 11. 2. Defnydd ymborth, neu y grawn o ba un y gwneir bara: *Gen.* xlvii. 19; *Preg.* xi. 1. 3. Yr ymborth a wneir o ŷd trwy ei falu, ei bobi, a'i grasu: *Exod.* xii. 15; *Lef.* xxviii. 31; *Esa.* xxviii. 28; *Mat.* xxvi. 26. *Bara croew* (*Exod.* xii. 8), yw bara heb ei lefeinio:—yn arwyddo purdeb a gwirionedd: 1 *Cor.* v. 8. *Bara lefeinllyd* (*Exod.* xiii. 3), yw bara wedi ei suro:—yn arwyddo cyfeiliornad mewn athrawiaeth: a

Digitized by Google

rhagrith, cenfigen, malais, a drygioni yn y galon; *Luc* xvi. 11, 12; 1 *Cor*. v. 7, 8. Gelwir y manna yn *fara o'r nefoedd*: *Exod*. xvi. 4: *Neh*. ix. 15: *bara angelion*: *Salm* lxxviii. 25: ac yn *fara nefol*: *Salm* cv. 40—am ei fod yn ymborth oedd yn cael ei wlawio o'r nef mewn modd goruwchnaturiol. Bara cystudd, bara dagrau, bara gofidiau, a bara ing (1 *Bren*. xxii. 27; 2 *Cron*. xviii. 26; *Salm* lxxx. 5; cxxvii. 2; *Esa*. xxx. 20), a arwydda garchariad, trallod, gorthrymder, caethiwed, a siomedigaethau. Bara annuwioldeb, bara cudd, a bara seguryd (*Diar*. iv. 17; ix. 17; xxxi 27), a ddynoda fywyd o anghyfiawnder, gorthrymder, trais, lladrad, a diogi. Bwyta bara halogedig (*Ezec*. iv. 13), a gyfeiria at gaethiwed, pryd nas gellid gwneuthur gwahaniaeth rhwng glân ac aflan yn ol y gyfraith. Bwyta bara dan bwys (*Ezec*. iv. 16), a esyd allan newyn, pryd na cheid ond dogn penodol, yr hyn ni byddai yn ddigonol i ddiwallu yr angen. Bara dynion, a bara galarwyr (*Ezec*. xxiv. 17; *Hos*. iv. 4), a gyfeiria at yr arferiad, pan fyddai rhyw un farw mewn teulu, i'w gyfeillion ddwyn gyda hwynt fara i'w cysuro ac i gynnal eu meddyliau yn eu trallod: *Ier*. xvi. 5—8. Bara blasus (*Dan*. x. 3) yw darpariaeth hyfryd i'r archwaeth. Bara beunyddiol (*Mat*. vi. 11; *Luc* xi. 3), a arwydda holl angenrheidiau natur. Geilw Crist ei hun yn "fara y bywyd" (*Ioan* vi. 35, 48, 51), am fod bywyd tragwyddol i'w feddu trwy gredu ynddo, a bod byw yn ei gymdeithas yn angenrheidiol er cysur a chynnaliaeth, ac ymroddiad i fywyd sanctaidd yn y byd.

Ymddengys fod defnyddioldeb grawn ŷd, a rhyw ddull o'i falu a'i bobi, i wneuthur bara yn ymborth i ddyn, wedi ei gael allan yn fore ar y byd; ond nid oedd y modd o'i ddarparu ond tra anghelfydd mewn cymhariaeth i'r peth ydyw erbyn hyn yn mysg cenedloedd gwareiddiedig. Arferid malu a phobi yn y dwyrain bob dydd yr hyn a fyddai yn angenrheidiol'yn ol nifer y teulu, gan na byddai y bara mor flasus wedi ei gadw ddiwrnod neu ddau. Ac yr ydym yn cael fod pobi yn orchwyl a gyflawnid gan wragedd penaethiaid galluog yn gystal a rhai islaw iddynt; *Gen*. xviii. 6. Yn mysg llwythau symmudol, mae yn rhaid fod hyny yn cael ei gyflawnu mewn ffordd bur rwydd ar gyfrif yr anghyfleusderau yr oeddynt yn ddarostyngedig iddynt. Ac hyd yn oed mewn parthau ag yr oedd y preswylwyr yn fwy sefydlog, er fod bara yn rhan arbenig o gynnaliaeth, ac er y gallesid dysgwyl i'r hyn oedd yn dwyn cyssylltiad mor benodol â phawb bob dydd fod wedi dyfod i raddau helaeth o berffeithrwydd, eto nid yw yn ymddangos ei fod felly, yn enwedig lle y byddai y trigolion i raddau yn wasgaredig, neu yn byw mewn pentrefydd bychain. Mewn gwledydd wedi cynnyddu i raddau o wareiddiad, ac i'r trigolion adeiladu dinasoedd lled boblog, lle y byddai penaethiaid arnynt, a gwahanol raddau yn eu mysg, ceir fod mwy o sylw yn cael ei dalu i foethau, a bod y gorchwyl o'u darparu yn disgyn ar y gweision a'r morwynion; 1 *Sam*. viii. 13. Crybwyllir am bobydd gan frenin yr Aipht mor fore ag amser Ioseph: *Gen*. xl. 1, 2, 5, 17. Yr ydym yn cael lle i gasglu hefyd fod gan Dafydd a Solomon luaws o weision yn "parotoi lluniaeth" iddynt: 2 *Sam*. vi. 19; 1 *Bren*. iv. 22, 27. Ac y mae yn amlwg fod mewn dinasoedd poblog dai pobi cyhoeddus, a rhai yn masnachu mewn bara: *Hos*. vii. 4—7. Gorchymynai Zedecïah, wedi iddynt roddi Ieremïah yn nghyntedd y carchardy, "roddi iddo ef deisen o fara beunydd o *heol y pobyddion*;" *Ier*. xxxvii. 21; neu fel y myn rhai, "*o farchnad y pobyddion*"—yn cyfeirio at borth penodol, wedi ei neillduo i'w masnach hwy.

Gan na byddai y swm angenrheidiol at wasanaeth un teulu am ddiwrnod yn fawr, nid oedd y cafnau tylino ond bychain. Math o gawgiau coed a ddefnyddid i'r dyben hwnw. Cymmysgid y blawd â dwfr, a gadewid ef felly am ryw ysbaid cyn rhoddi lefain ato. Yn y wedd yma yr oedd toes yr Israeliaid pan y derbyniasant orchymyn i fyned "ar ffrwst" allan o'r Aipht. "A'r bobl a gymmerodd eu toes cyn ei lefeinio, a'u toes (ymyl y ddalen—*a'u cafnau tylino*) oedd wedi ei rwymo yn eu dillad ar eu hysgwyddau: *Exod*. xii. 34. Dywedir y defnyddia yr Arabiaid crwydredig fath o gwd lledr, yn cael ei grychu â llinyn, yn yr hwn y tylinant eu toes ac y dygant ef gyda hwynt felly weithiau heb ei grasu. Pan y byddai angenrheidrwydd yn galw am arlwy gyda brys, cresid y toes heb ei lefeinio; *Gen*. xviii. 6; xix. 3; *Barn*. vi. 19. Ymddengys fod y bara yn gyffredin yn cael ei lefeinio, ac na ddefnyddid ef yn groew ond pan nad ellid aros am dano. Yn wyneb hyn, gorchymynid i'r Israeliaid fwyta bara croew yn ngwledd y Pasc, mewn coffadwriaeth am y modd y daethant o dŷ y caethiwed, gan gymmeryd eu toes gyda hwynt "cyn ei lefeinio;" *Exod*. xiii. 3, 6, 7; *Deut* xvi. 3. Gwneid teisenau y bara croew bob amser yn bur deneuon, ond gwneid rhai o surdoes cyn dewed a llaw dyn. Gwaherddid bara lefeinllyd yn offrwm i'r Arglwydd; am ei fod drwy hyny, dybygid, i'w ystyried i ryw raddau wedi ei lygru.

Nodir amrywiol fathau o fara yn yr Ysgrythyrau, gyda chyfeiriad yn fwyaf penodol at y modd y cresid ef. Ar y cyntaf, dybygid, cynneuid tân ar y llawr noeth; ac wedi iddo boethi digon, symmudid y marwor o'r neilldu, a gosodid y deisen ar y lle, gan ei throi amryw weithiau, a'i chuddio â'r marwor. At fara o'r fath yma y cyfeirir yn *Gen*. xviii. 6; 1 *Bren*. xvii. 13; *Ezec*. iv. 12: yr hyn a roddir yn 1 *Bren*. xix. 6, yn "deisen wedi ei chrasu ar farwor." Y gair a ddefnyddir gan y Deg a Thrigain, yn mhob un o'r manau uchod yw *ἐγκρυφίας*, *panis subcinericius*, yn arwyddo bara wedi ei grasu dan farwor. Y mae y dull hwn yn cael ei arfer eto yn y dwyrain yn mysg llwythau symmudol a theithwyr, ac weithiau mewn pentrefi. Mewn cyfeiriad at deisenau wedi eu crasu yn y dull yma y dywedir fod Ephraim "fel teisen heb ei throi;" *Hos*. vii. 8. Weithiau, rhoddir ceryg mân o dan y tân, ac wedi eu twymno yn ddigonol, rhoddir y toes arnynt, gan ei orchuddio â'r marwor. Bryd arall, torir twll yn y llawr tua chwe modfedd o ddyfn, a thwymnir ef â phrysgwydd, a gadewir y bara ynddo dros y nos. Bernir fod y dull yma o grasu yn cael ei arfer yn mysg yr Iuddewon; ac aralleiria un gŵr yr ymadrodd "rhwyd-dyllog," yn *Gen*. xl. 16, "cawell yn llawn o fara wedi eu crasu mewn tyllau," yn cyfeirio at ffyrnau fel hyn. Weithiau, mewn pentrefi, torir twll o bedair i bum troedfedd o ddyfn, a thua thair troedfedd o dryfesur, ar ganol llawr y brif ystafell mewn tŷ, a dwbir ef â chymmrwd. Wedi ei dwymno yn ddigonol, tarewir teisenau teneuon ar ei ystlysau, y rhai a lynant yno nes y byddant wedi crasu digon, a chymmerir hwynt ymaith yn mhen ychydig fynydau cyn iddynt syrthio ar y marwor a fyddo yn ei waelod. Gellir plygu y bara a wneir fel hyn yn rhol fel papyr; ac ond iddo gael ei adael heb ei ddefnyddio am ychydig, y mae yn caledu, yn enwedig yr ochr a fydd wedi

Digitized by Google


bod ar y ffwrn. Dyma ydyw y lle tân yn yr ystafell mewn rhai manau, yn enwedig yn Persia. Crybwyllir am fara wedi ei grasu mewn ffwrn yn *Lef.* ii. 4; vii. 9; ond pa mor bell yr oeddynt yn tebygu i'r rhai hyn, efallai nad yw yn hawdd penderfynu. Mewn rhai parthau yn y dwyrain defnyddir math o lestr pridd weithiau, tua thair troedfedd o uchder, a phymtheg modfedd o dryfesur, yn agored yn y pen uchaf, a thwll yn y gwaelod i dynu y lludw allan. Cresid teisenau teneuon yn fynych tu allan iddo; ond pan y defnyddir y tu mewn iddo, dwbir ef oddi amgylch â chlai, mewn trefn i gadw y gwres oddi mewn iddo yn fwy effeithiol.

Yr oedd bara a bobid mewn ffwrn i gael ei roddi yn fwyd-offrwm: *Lef.* ii. 4: "Hefyd pan offrymech fwyd-offrwm, wedi ei bobi mewn ffwrn, teisen beilliaid groew, wedi ei chymmysgu trwy olew, neu afrllad croew wedi ei heneinio âg olew, a fydd." Yr oedd yr afrlladen (*wafer*) yn deneuach na'r deisen (*cake*); ac wrth ei "heneinio âg olew," fe olygir, dybygid, fod yr olew yn cael ei daenu arni yn debyg fel y taenir ymenyn ar fara; yr hyn oedd yn rhoddi iddi flas yn debyg fel y mae yr ymenyn, tra yr oedd y deisen yn cael ei "chymmysgu trwy olew."

Math arall o fara a nodir yw yr hyn a wneid ar radell; *Lef.* ii. 5: "*Baked in a pan*"—Seis.: τηγάνου—Deg a Thrigain. Math o badell bridd neu haiarn, âg ychydig o grynedd ynddi, oedd hon, a ddefnyddir eto gan lwythau crwydredig a bugeiliol i ddarparu eu hymborth. Rhoddir hi ar dair neu bedair o geryg, a chynneuir tân araf dani i'w thwymno, ar yr hon y cresir y teisenau bara.

Crybwyllir hefyd, yn *Lef.* ii. 7, am "fwyd-offrwm padell:" "*Baken in the frying-pan*"—Seis.; a bernir nad oedd y llestr hwn yn gwahaniaethu nemawr oddi wrth yr un blaenorol.—(*Cyc. of Bib. Lit.; Jahn's Bib. Ant.: Illus. Com.*)

BARA GOSOD: 1 *Sam.* xxi. 6; 1 *Bren.* vii. 48; 1 *Cron.* ix. 32; 2 *Cron.* xiii. 11; *Neh.* x. 33; *Mat.* xii. 4; *Heb.* ix. 2. Bara dangos: *Exod.* xxv. 30; *Num.* iv. 7. Cyfleitha rhai y gair yn fwy llythyrenol, "bara wynebau," neu "bara y presennoldeb," am ei fod bob amser ger bron, neu yn mhresennoldeb Duw. Yr oedd bwrdd y bara gosod wedi ei wneuthur "o goed sittim, o ddau gufydd ei hyd, a chufydd ei led, a chufydd a hanner ei uchder," ac wedi ei wisgo "âg aur coeth drosto." Yr oedd y gwregys yn gwasanaethu rhag i ddim a roddid ar y bwrdd syrthio oddi



Dar. 109.

arno. Wrth bob congl iddo yr oedd modrwy i roddi y trosolion i'w ddwyn: *Exod.* xxv. 23—27. Nid ydyw yn ymddangos fod modrwyau yn perthyn i'r bwrdd oedd yn y deml, ac nid oedd eu heisieu chwaith, gan ei fod yn sefydlog; tra yr oedd yr un a berthynai i'r tabernacl i gael ei ddwyn ar ysgwyddau. Ar y bwrdd hwn yr oedd y bara gosod. "A chymmer beilliaid, a phoba ef yn ddeuddeg teisen: dwy ddegfed ran fydd pob teisen. A gosod hwynt yn ddwy res, chwech yn y rhes, ar y bwrdd pur, ger bron yr Arglwydd;" *Lef.* xxiv. 5, 6. Dywed y Rabbiniaid Iuddewig fod y teisenau yn bedeirongl, wedi eu gorchuddio â dalenau aur. Dywedant hefyd fod math o bibellau aur yn cael eu gosod rhyngddynt, mewn trefn i dderbyn awyr, fel y byddai iddynt gadw rhag llygru a llwydo. Ond ni sonir dim am y pethau hyn yn yr Ysgrythyr. Yr oeddynt yn ddeuddeg o rifedi, i gynnrychioli deuddeg llwyth Israel. Ni leihawyd hwynt chwaith wedi gwrthgiliad y deg llwyth oddi wrth wasanaeth y deml; am nad oedd yr Arglwydd wedi diddymu ei gyfammod âg Abraham, a bod yn mysg y deg llwyth rai ag oeddynt yn parhau yn ffyddlawn iddo. Yr oedd y bara gosod yn cael ei newid bob Sabbath, ac nid oedd yn gyfreithlawn i neb fwyta y bara a gymmerid oddi ar y bwrdd, pan y byddai y newydd yn cael ei osod yn ei le, ond yr offeiriaid yn unig, a hyny "yn y lle sanctaidd;" *Lef.* xxiv. 8, 9. Er hyny yr ydym yn cael un eithriad yn yr hanes a gawn ni am Dafydd, "pan oedd chwant bwyd arno ef a'r rhai oedd gydag ef, pa fodd yr aeth efe i mewn i dŷ Dduw, ac y bwytaodd y bara gosod, yr hwn nid oedd rydd iddo ei fwyta, nac i'r rhai oedd gydag ef, ond yn unig i'r offeiriaid;" 1 *Sam.* xxii. 6. Ac ymddengys fod Iesu Grist yn cyfiawnhau yr ymddygiad o dan yr amgylchiadau yr oedd Dafydd a'i wŷr ynddynt, pan y mae yn amddiffyn ei ddysgyblion yn wyneb cyhuddiad y Phariseaid yn eu herbyn wedi iddynt dynu tywys, a'u bwyta, wrth fyned drwy yr ŷd ar y dydd Sabbath: *Mat.* xii. 1—4. "A dod thus pur ar bob rhes, fel y byddo y bara yn goffadwriaeth ac yn aberth tanllyd i'r Arglwydd;" *Lef.* xxiv. 7. Ymddengys fod y thus yn cael ei losgi ar yr allor aur bob wythnos pan y newidid y bara. Yr oedd ar y bwrdd hefyd "ddysglau," "llwyau," a "phiolau," "o aur coeth;" *Exod.* xxv. 29. Barna rhai mai ar y dysglau hyn y gosodid y bara. Wrth y "llwyau" y meddylir, dybygid, y thuserau ag oedd ar bob un o ddwy res y bara gosod. Dywed traddodiad Iuddewig fod gwin hefyd ar y bwrdd; ac nid yw yn annhebyg nad all hyny fod yn gywir, er nad ydym yn darllen am hyny yn benodol: o blegid yr oedd diod-offrwm yn cael ei dywallt ger bron yr Arglwydd yn y lle sanctaidd, a gallai mai gwasanaeth y phiolau oedd ar y bwrdd oedd dal gwin i'r dyben hwnw.—(*Jahn's Bib. Ant.; Cyc. of Bib. Lit.: Illus. Com.*)

BARABBAS: ysbeilydd nodedig, yr hwn hefyd oedd yn euog o derfysg a llofruddiaeth. Er hyny, pan ofynodd Pilat i'r Iuddewon cyn gŵyl y Pasc, pa un a fynent iddo ei ollwng yn rhydd iddynt, yn ol y ddefod, hwy a ddewisasant Barabbas, yn hytrach na'r Iesu: *Ioan* xviii. 40. Y mae Origen yn dywedyd fod Barabbas hefyd yn cael ei alw "Iesu" yn amryw o'r hen gyfysgrifau; ac y mae yr Armeniaeg yn darllen *Mat* xxvii. 17, "Pa un a fynwch i mi ei ollwng yn rhydd i chwi, Iesu Barabbas, ai yr Iesu, yr hwn a elwir Crist?"

BARAC: mab Abinoam, brodor o Cades Naphtali. Dewisodd Duw ef i fod yn offeryn yn ei law i waredu ei bobl oddi wrth ormes Iabin,

Digitized by Google

brenin y Canaaneaid. Anfonodd Deborah y brophwydes am dano i ddyfod a chymmeryd arno lywyddiaeth byddin Israel i fyned i'r maes yn erbyn Iabin; efe a ymddangosai yn wylaidd, ac etto efe a ufuddhaodd ar yr ammod y deuai y brophwydes gydag ef; "A Barac a ddywedodd wrthi, Od äi di gyda mi, minnau a äf; ac onid äi di gyda mi, nid äf;" *Barn.* iv. 8. Felly hwy a aethent yn nghyd i Cedes, a Barac a gynnullodd o Zabulon a Naphtali ddeng mil o ŵyr, y rhai a arweiniodd efe i fynydd Tabor; ac yno yr arweiniodd Sisera, tywysog llu Iabin, ei fyddin fawr, i'r hon y perthynai, heb law gwŷr traed, naw can cerbyd haiarn. Ond Barac a meibion Israel a ddisgynasant arnynt o'r mynydd, ac a lwyr orchfygasant y Canaaneaid. Ar yr achlysur o'r fuddugoliaeth nodedig yma, canodd Debora a Barac gân nodedig o fawl i Arglwydd Dduw Israel.

**BARACHIAH, neu BARACHIAS**; tad Zechariah y prophwyd: *Zech.* i. 1; *Mat.* xxiii. 35. Y mae llawer iawn o amrywiaeth barn wedi bod yn ffynu o barth i'r Barachïas a grybwyllir yn *Mat.* xxiii. 35. Myn rhai mai Barachïah tad Zecharïah y prophwyd ydoedd; ond nis meddwn un prawf i'r Zecharïah hwnw gael ei ladd yn y deml. Barna ereill mai Zecharïah fab Iehoiada yr offeiriad ydoedd, yr hwn a labyddiwyd yn nghyntedd tŷ yr Arglwydd, yn ol gorchymyn y brenin Ioas: 2 *Cron.* xxiv. 21: a chan nad oedd yn beth anghyffredin i'r Iuddewon feddu dau enw, nid yw yn annhebyg fod Iehoiada yn cael ei gyfenwi Barachïah.

Barna ereill mai yr un ydoedd a Baruch, tad Zecharïah, yr hwn a grybwyllir gan Josephus yn *Hanes rhyfeloedd yr Iuddewon* fel un a laddwyd rhwng y porth a'r allor, ychydig o ysbaid cyn i'r Rhufeiniaid gymmeryd Ierusalem.

**BARALOTIAID**: sect grefyddol yn yr Ital gynt, y rhai oeddynt yn dra hoff o'u gilydd, ond yn neillduol o lygredig.

**BARBARIAD** [Βάρβαρος]. Arferir y gair hwn yn y Testament Newydd, a chan yr ysgrifenwyr clasurol, i ddynodi holl genedloedd y ddaiar, ar wahan oddi wrth y Groegiaid. "Dyledwr ydwyf i'r Groegiaid ac i'r barbariaid hefyd" —"Ἑλλησί τε καὶ βαρβάροις (*Rhuf.* i. 14): "der Griechen und der Ungriechen"—*Luther*: "To the Grekes and to them which are no Grekes"—*Tyndale*, 1534, a Geneva, 1557: "To the Grekes and to the Ungrekes"—*Cranmer*, 1539. "Groegwr nac Iuddew......Barbariad na Scythiad;" *Col.* iii. 11. "Ymddengys fod y gair *Barbaros* (Βάρβαρος) yn y fan hon yn cyfeirio at y cenedloedd hyny yn yr ymherodraeth Rufeinig nad oeddynt yn siarad Groeg; a'r gair *Scuthês* (Σκύθης) at y cenedloedd hyny nad oeddynt o dan y llywodraeth Rufeinig."—*Dr. Robinson.* Arferir y gair yn 1 *Cor.* xiv. 11, i ddynodi gwahaniaeth mewn iaith: "Am hyny, oni wn i rym y llais, myfi a fyddaf farbariad ('fel o iaith arall'—*Cyf. Geneva*) i'r hwn sydd yn llefaru, a'r hwn sydd yn llefaru a fydd i mi yn farbariad" ("fel o iaith arall"—*Cyf Geneva*). Felly yr arferir y gair gan Ovid,— "Barbarus hic ego sum, quia non intelligor ulli;" *Trist.* v. 10. 37. Gelwir preswylwyr Malta (*Act* xxviii.) yn *barbaroi*, o herwydd eu bod, yn wreiddiol, yn drefedigaeth Garthagenaidd, ac yn siarad yr iaith Punic yn benaf. Arferir *barbaros* yn y Deg a Thrigain fel cyfieithiad o'r gair Hebraeg לעז, "bobl anghyfiaith" (*Salm* cxiv. 1); yn yr aralleiriad Caldeaidd, מעמא ברבראי. Arferir y gair לעז yn yr ysgrifeniadau Rabbinaidd i ddynodi cenedloedd ereill gwahanol i'r Iuddewon; ac eglurir ef yn Nhalmud Ierusalem drwy יונית; hyny yw, "yr iaith Roeg." Y mae Rabbi Solomon yn sylwi, fod pob peth nad yw yn yr "iaith sanctaidd" yn cael ei alw yn לעז [*Buxt. Lex. Talm.*]. Yn ol Herodotus, galwai yr Aiphtiaid bawb yn farbariaid na fyddent yn siarad yr un iaith a hwy; *μὴ σφίσι ὁμογλώσσους*: ii. 158. Y mae Clement o Alexandria yn arfer y gair mewn perthynas â'r Aiphtiaid a chenedloedd ereill, hyd yn oed pan yn son am eu cynnydd mewn gwareiddiad; megys yn ei *Strom.* i. *pen.* 16, § 74:— *Οὐ μόνης δὲ φιλοσοφίας ἀλλὰ καὶ πάσης σχεδὸν τέχνης εὑρεταὶ* Βάρβαροι. *Αἰγύπτιοι γοῦν πρῶτοι ἀστρολογίαν εἰς ἀνθρώπους ἐξήνεγκαν, ὁμοίως δὲ καὶ* Χαλδαῖοι=Y mae barbariaid nid yn unig wedi bod yn ddarganfyddwyr o athroniaeth, ond hefyd o bron bob celfyddyd. Yr Aiphtiaid, ac hefyd y Caldeaid yr un modd, oedd y rhai a ddygasant y wybodaeth o serddewiniaeth gyntaf i blith dynion. Y mae Strabo [xiv. 2] yn tybied fod y gair *bar-bar-os*, yn ei ystyr gyntefig, yn sain ddynwaredol, wedi ei bwriadu i ddynodi iaith galed, anghydsain; neu weithiau o'r dull anghroew y siaredir yr iaith Roeg gan estroniaid; ac y mae yn nodi y Cariaid fel esampl, y rhai o herwydd hyny a alwyd gan Homer yn *barbarophônai* (*βαρβαρόφωνοι*); *Iliad* ii, 867. Ymddengys fod y gair yn cael ei arfer fel gwawdair yn ystod y rhyfel gyda'r Persiaid; gelwid eu gwlad *é Barbaros* (*ἡ βάρβαρος*) (*γῆ*).—(*Kitto's Bib. Cycl*).

**BARCER**: cyffeithydd crwyn, lledrwr: *Act.* ix. 43; a x. 6, 32. Yr oedd yr alwedigaeth yma yn dra dirmygedig yn ngolwg yr Iuddewon; ac y mae yn ymddangos fod yr alwedigaeth yn cael ei chyfrif yn aflan yn Ioppa, yr hyn efallai yw y rheswm fod Simon yn gorfod cyfanneddu allan o'r ddinas, ar lan y môr.

**BARCLAY, ROBERT**: disgyniedydd o hen deulu parchus yn yr Alban; ganwyd ef yn Gordonstown, swydd Moray, a derbyniodd dan arolygiaeth ewythr iddo ddysgeidiaeth fanwl, yr hon a gafodd gan fwyaf yn Paris. Ofnodd ei rieni rhag i'w arosiad yn y ddinas hono ogwyddo ei feddwl at Babyddiaeth, ac felly galwyd ef adref, lle yr enwogodd ei hun yn fuan trwy ei dalentau cryfion a'i ddysgeidiaeth eang. Ennillwyd ef i ddilyn esampl ei deulu, y rhai oeddynt ychydig yn flaenorol wedi ymuno â'r Crynwyr. Cofleidiodd Barclay eu hegwyddorion gyda phenderfyniad, ac yn fuan cyhoeddodd amryw lyfrau o amddiffyniad iddynt. Y cyntaf (1670)), *Truth Cleared of Calumnies*, ydoedd draethodyn mewn atebiad i ymosodiad a wnaed gan weinidog o Eglwys yr Alban. Yn 1673, cyhoeddodd *Holwyddoreg* a *Chyffes Ffydd*, yn cynnwys eglurhad ar ddaliadau ei gyfundeb. Yn nesaf, daeth allan ei *Theses Theologicæ=Gosodiadau duwinyddol.* Yn 1670, ymunodd â William Penn i gymmeryd taith trwy Loegr, Holland, a'r Almaen, i ennill dysgyblion newydd i'w hegwyddorion. Tra y bu yn Amsterdam ar y daith hon y cyhoeddodd ei brif waith, ar yr hwn y mae ei enwogrwydd yn gorphwys—*An Apology for the true Christian Divinity, as the same is preached and held forth by the people in scorn called Quakers*:="Amddiffyniad i'r wir Dduwinyddiaeth Gristionogol, fel y pregethir ac y cyhoeddir hi gan y bobl a elwir

Digitized by Google

mewn dirmyg *Quakers.* Cyhoeddwyd y traethawd hwn yn gyntaf yn Lladin, a chyfieithwyd ef yn fuan i amryw o ieithoedd Ewrop. Mae yn cynnwys pymtheg o osodiadau, yn nghyd âg eglurhad lled helaeth arnynt. Yr amcan ydyw egluro y dadguddiad dwyfol, a threfn yr efengyl, yn ngoleu yr egwyddor o ysbrydoliaeth gyfriniol, neu ddadguddiad digyfrwng yr Ysbryd i'r meddwl. Daeth egwyddorion y llyfr hwn yn destynau dadl faith a phoeth. Ar ol ei ddychweliad adref, carcharwyd ef bum mis yn Aberdeen, yn unol â'r cyfreithiau a wnaed yn erbyn Anghydffurfwyr. Ond yn fuan, mewn canlyniad i'w gymmeriad uchel, ei gywirdeb, a'i ddysgeidiaeth, fe gododd, nid yn unig uwch law yr erlidigaethau a ddyoddefodd yn foreuach, ond hefyd i ffafr ac anrhydedd. Cafodd fynediad i lys Charles II., a Iago II., ei ganlynwr. Derbyniodd swydd hefyd am ei oes fel llywydd Jersey Ddwyreiniol; ac ar ymweliad a wnaeth â'i wlad enedigol oddi yno yn 1680 y bu farw, yn nghanol ei berthynasau, yn yr ail flwyddyn a deugain o'i oes. Cyhoeddodd W. Penn argraffiad cyflawn o'i waith yn 1682. Am olygiadau Barclay, gwel CRYNWYR.

BARCOS: un o benau teuluoedd y Nethinlaid ar y dychweliad o gaethiwed Babilon: *Ezra* ii. 53; *Neh.* vii. 55.

BARCUD: aderyn tra adnabyddus yn Mhrydain, yn enwedig mewn rhai parthau. Wedi esgyn i fyny yn lled uchel yn yr awyr, y mae yn gallu sefyll ar ei adenydd heb unrhyw ysgogiad canfyddadwy, fel pe byddai yn sylwi yn fanwl ar ei ysglyfaeth, yna disgyna arno gyda chyflymder anarferol. Ymbortha ar furgunod, pysgod, trychfilod, llygod, ac adar bychain. Y mae y barcud yn aderyn pur gyffredin mewn rhai parthau yn yr Aipht o ddeutu Cairo, ac yn Ngwlad Canaan; ond nid ydys yn hollol benderfynol pa un a ydyw yr un rhywogaeth yn gwbl a'r un a ganfyddir yn Ewrop. Y mae amrywiaeth o honynt, a gwahaniaethant yn eu lliw.



Dar. 109.

Y mae y darlun uchod yn dangos y barcud du. No lir y barcud yn aderyn aflan yn nghyfraith Moses: *Lef.* xi. 14; *Deut.* xiv. 12. Cyfeirir ato gan Iob gyda golwg ar gyflymder a threiddgarwch ei olwg: *Iob* xxviii. 7.

BARDESANIAID: y rhai a ddalient egwyddorion Bardesanes, un o'r hen gyfeiliornwyr, priodor o Edessa, yn Mesopotamia, a flodeuodd yn nghylch y flwyddyn 170. Dywed Eusebius ei fod yn dra chydnabyddus âg athroniaeth y Caldeaid, a dywedir hefyd ei fod yn gyfarwydd iawn yn yr ieithoedd Groeg a Syriaeg. Ysgrifenodd yn erbyn Marcion, a chyfeiliornwyr ereill; ond ar ol hyny syrthiodd i rai o gyfeiliornadau y Valentiniaid. Er hyny, nid teg fyddai rhestru ei ddaliadau yn ddiwahaniaeth fel yr eiddo Valentinus. Yr oedd efe yn derbyn y cwbl o'r Hen Destament. Credai mai Duw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, ydoedd Creawdwr y byd; a daliai hefyd fod Gair Duw, sef ei Fab, yn cydweithredu yn y creadwriaeth hwn. Ond daliai, modd bynag, mai delw hudol a ddisgynasai o'r nef oedd corff yr Iesu. Ar y pwynt hwn, a thrwy wadu adgyfodiad y corff, yr oedd efe yn cytuno â Valentinus. Un o'i dybiau hefyd, meddir, oedd, na ddarfu i Dduw greu y diafol. Ymddengys iddo gael byw i alw yn ol rai o'i gyfeiliornadau, ac iddo wadu athrawiaethau Valentinus. Mae Eusebius wedi cadw nodiad tra gwerthfawr allan o'i ysgrifeniadau, sydd ar unwaith yn dangos dirfawr gynnydd a nerthol yni Cristionogaeth. "Yn Parthia," medd efe, "mae amlwreiciaeth yn cael ei oddef a'i ymarfer; ond nid yw Cristionogion Parthia yn ei arfer. Yn Persia, gellir dywedyd yr un peth am losgach. Yn Bactria ac yn Galia, halogir iawnderau priodas yn ddiwarafun. Nid yw y Cristionogion yno yn gwneuthur felly. Mewn gwirionedd, pa le bynag y byddant hwy yn preswylio, maent yn buddugoliaethu yn eu hymarweddiad ar y cyfreithiau ac ar yr arferion gwaethaf." Mae y ganmoliaeth hon yn deilwng o sylw. Yn mha oes y bu i unrhyw ddyfais ddynol, mewn athroniaeth neu mewn crefydd, gynnyrchu ffrwythau o'r fath hyn?—(*Buck; Hist. of the Church*, cyf. i., td. 181.)

BARDD; *llu.* Beirdd. Gwreiddyn y gair *bardd*, yn ol y Dr. Pughe, ydyw, *bar;* sef *pen, copa, top, crib.* Ac os oes gwreiddyn is i'r gair nag ef ei hun, hwyrach fod yr un uchod yn ddigon cysson â syniad cyffredin yr hen Gymry am eu beirdd. Y gair a ddefnyddiai Strabo, ac ereill o'r Groegiaid, wrth son am feirdd y Cymry, oedd βαρδος, ond nid yw hwn yn ddim ond y dull Groeg o'r gair Cymraeg *bardd*, fel y mae Pedr yn ddull Cymraeg o'r gair Groeg Πετρος. Dull Lladinaidd hefyd o'r gair Cymraeg ydyw *bardus.*

Dywed Iolo Morganwg mai ystyr gwreiddiol y gair *bardd* ydyw *offeiriad* (*priest*); ond nid yw efe yn dwyn awdurdod o blaid ei honiad: ac y mae braidd yn groes i'r hyn a ddywed Strabo, ac ereill o'r uchawduron estronol, ar y mater. Dywed Strabo mai *ofyddion* oedd yr offeiriaid, ac mai *cantorion* oedd y beirdd, ac â hyn y cytuna Ammianus Marcellinus, yr hwn a ddarlunia'r beirdd fel cerddorion—rhai "yn canu cyfansoddiadau gwych ar eu telynau;" ond dylid cofio mai am Dderwyddon Gâl y mae y rhai hyn, fel pob estroniaid ereill, a ysgrifenasant ar y pwnc, yn son.

Barna H. Rowlands (awdwr y *Mona Antiqua*) mai ystyr y gair *bardd* yw *gwahaniad*, a'i fod yn deilliaw "o'r gair gwreiddiol *paradd*, sef rhanu a gwahanu; hyny yw, rhai wedi eu dethol a'u gwahanu oddi wrth ereill, o blegid eu talentau a'u cof rhagorol at y gwaith penodol o gyfranu ac adrodd, ar amserau, amryw wirebau ac egluriadau gwybodaeth y sefydliad, mewn *cof-weithie*, neu *gof-wydde* [cofwaith neu gywydd]. Yr ydym yn cadw y gair *parad*, sef gwal, neu wahaniad," eb efe, "o hyd yn yr iaith." Y mae sylwadau cyfachyddol Rowlands braidd yn gyffredin yn cynhyrfu mwy o londid yn meddwl y darllenydd

Digitized by Google

ystyriol o blegid eu pertrwydd, nag o edmygedd o blegid eu cywirdeb. Wrth y "gair gwreiddiol, *paradd*," y meddylai Rowlands, mae yn debyg, y gair Hebraeg פרד, sy'n arwyddo *gwahanu* neu *ranu;* ond yn ol y rheolau cyffredin i gynanu yr Hebraeg heb y mân-nodau (*points*), nid "paradd" na "parad" ydyw seiniad priodol y gair, ond *pered* neu *pheredd:* a ŵyr pawb mai *pared* ydyw'r gair Cymraeg am wal neu furf, ac nid "parad." Ymddengys mai *parwyd* (*lluos.* parwydydd), oedd yr hen air Cymraeg am yr hyn a elwir yn awr pared.

"Py beris *parwyd*
Rhwng dyn ac anwyd,"

ebe Taliesin, neu rywun yn ei enw. Ofnir, wedi y cyfan, nad yw'r cwbl a ddywedir am wraidd y gair *bardd*, mwy na'r hyn a ddywedir am wraidd aml air Cymraeg arall, nemawr well na dychymyg; gan hyny, rhaid edrych i rywle arall am ystyr cyntefig y gair *bardd;* a diau nad oes le addasach i ganfod hyny nag yn hen *Gofion* y Cymry.

Os chwilir y rhai hyn, tybir fod yn hawdd canfod mai gair Cymraeg gwreiddiol ydyw *bardd*, a arferid gan y Cymry er cyn cof, fel enw cyffredinol (*generic term*) am aelod o hen sefydliad llenorol ac addysgiadol Ynys Prydain, a elwid *Barddoniaeth.*

*Bardd* y galwai y Cymry bob un o aelodau proffesedig y sefydliad barddonol, o ba natur bynag y byddai y wybodaeth a ddilynai; sef pa un bynag a fyddai ai gwybodaeth grefyddol, wladol, ai celfyddydol. Y mae y defnydd a wnai y prif awduron estronol o'r gair *derwydd*, yr hwn a arferent hwy yn gyfystyr â'r gair *bardd*, a arferid gan y prif awduron Cymreig, yn profi y gosodiad uchod, fel y tybir, yn ddiammheuol. Hyderir y gwneir hyn yn ddigon amlwg wrth fyned yn mlaen: ond sylwir yn awr ar brif nodau neu amsernodau (*epochs*) y beirdd.

PRIFNOD I. Dechreua y prifnod yma gyda Thydain Tad Awen, yr hwn a fucheddai, medd yr hen *Gofion* Cymreig, yn amser Prydain ap Aedd Mawr, o gylch y flwyddyn c. c. 750: sef yn mhen tua 849 mlynedd ar ol i "Hu Gadarn ddyfod â chenedl y Cymry gyntaf i Ynys Prydain, o Wlad yr Haf, a elwid Deffrobani, sef y lle mae Constinoblis;" "a chynn no hynny nid oedd neb o ddynion yn byw ynddi, eithr llawn o eirth, a bleiddiau, ac efeinc, ac ychain bannog ydoedd:" a therfynodd y prifnod yn "nghyflafan y beirdd," a wnaed yn Ynys Môn, gan yr hwn a alwai y Cymry yn Yswidw Palion (Suetonius Paulinus), cadlywydd Rhufeinig, yr hwn, o gylch B. A. 60, a roddodd y fath ddyrnod i farddoniaeth Ynys Prydain, a elwid gan estroniaid yn Dderwyddiaeth, fel nad ymadferodd byth mwyach i'w rhwysg, nac yn wir i'w hansawdd cyntefig.

Felly, os yw yr amseriadau uchod yn gywir (a phwy a all brofi nad ydynt?) parhaodd sefydliad cyntefig y beirdd am yr ysbaid parchus o ddeng mlynedd ac wyth gant! Nid oes dim llawer o enwau beirdd y prifnod hynafol yma ar gof a chadw; ond y mae campau a gwybodau" y rhai sydd ar gael, fel y coffodir hwynt yn y *Trioedd*. a'r hen *Gofion* Cymreig ereill, yn hynod o "foliannus." Dyma enwau cynnifer ag a ganfuwyd o honynt, ac amcan o'r amser y buchedd-ent, yn nghyd â byrgofion o'u prif gampau:—

Tydain Tad Awen, c. c. 750, "a wnaeth drefn a dosbarth gyntaf ar gof a chadw cerdd dafawd; ac o'r drefn honno y dychymygwyd breiniau, a defodau dosparthus ar feirdd a barddoniaeth Ynys Prydain gyntaf."

Enir ab Ithel, a elwir Enir Fardd, c. c. 550, "a fu frenin doeth iawn, a bardd da: efe a wnaeth drefn dda ar ddoethineb, ag a roddes fawr barch i feirdd a Derwyddon, fel yr aeth ef a hwynt yn ben ar y byd am ddoethineb a gwybodaeth. Derwyddon yn yr amser hynny y gelwid gwyr wrth ddysg a ffydd."

Dyfnwal Moelmud, c. c. 430, "a wnaeth ddosparth gyntaf ar gyfreithiau, a breiniau, a defodau gwlad a chenedl."

Plenydd, Alawn, a Gwron, c. c. 430, "Tri Chyntefigion Beirdd Ynys Prydain; sef oddynt y rhai hyny a ddychymygasant y breiniau a'r defodau sydd ar feirdd a barddoniaeth; ac nid oedd arnynt ddosparth drwyddedawg, ac nid oedd iddynt na breiniau na defodau, namyn a geid o addwynder a syberwyd, yn nawdd gwlad a chenedl, cyn nog amser y tri hyn: a rhai a ddywedant mai yn amser Prydain ap Aedd Mawr y buant, ac ereill a ddywedant mai yn amser Dyfnwal Moelmud ei fab ef y buant; ac yn rhai o'r hen lyfrau y gelwir ef Dyfnfarth ap Prydain." Gwelir mai yn amser Dyfnwal Moelmud yr ydym ni yn cyfleu y tri "Chyntefigion" hyn; a thybir fod y dyfyniad isod (ac amryw o'r cyffelyb sydd ar gael) yn pleidio y cyflead, heb law yr eglura yn mhellach yr hyn a wnaeth y tri bardd hyny:—"A gwedi marw Tydain, ni chaed ei ail am awen o Dduw a gwybodau; yma chwiliaw ei gerdd ef, a myned yng nghyngor a gaed ynddi: gwedi hyny dodi gwaedd yn ngwlad, dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, a nawdd a braint i bob perchen awen o Dduw, gyrchu cyfnod o le ag amser er myned yn Nghadair a Gorsedd, gan addysg a gaffed yng ngherdd Tydain Tad Awen, a chann bwyll a chymmwyll gwlad a chenedl, gan ben cenedlau a doethion cyfaddef cenedl y Cymry. A hyny a fu, a llawer a gafed yn berchen awen o Dduw, ag yn gadarn eu pwyll, ag yn hygred eu gwared; yna bwrw am y goreuron dri o naddynt; a'r tri a gafed yn oreuron, herwydd enw a gair am danynt, Plenydd, ag Alawn, a Gwron; ag ni chaid cystal ag wynt am gof cadwedig, yn gystal cerdd dafawd, a rhin llythyr, ag arwydd. A gwedi cael gwarant a chadernyd gwir ar hynny, doded arnynt drefnu dosparthau daionus ar wlad a chenedl, ag ar gof a gwybodau (*sciences*), ag ar bob achwain ceudawd [damwain hanes]. A'r tri doethion hynn a drefnasant ddosbarth ar deyrnedd, a brawd [ynadaeth], a chynmrawd rwng dyn a dyn, yn nawdd Duw a'i dangnef; a dodi celfyddyd ddosparthus [trefn reolaidd] ar feirdd a phrydyddion, ag ar eu cerdd dafawd; ag ar y Gymraeg rhag ei myned ar ledryw a llediaith; a'r cwbl yn nawdd Duw a'i dangnef; celfyddyd ddosbarthus hefyd ar gof a chadw pob gwybodau a dosparthau cenedl y Cymry. A gwedi dangos a wnaethant y tri hynn ger bron gwlad a chenedl, yng Ngorsedd; myned gan farn a drechai o nifer, a threch o lawer a gaid a gaeai ar ddosparthau y tri doethion hynn nag a gaid yn eu herbyn; yna, doded ar a wnaed fraint a chadernyd gwlad a chenedl, dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, gan waedd gwlad, hyd yn mhen y tair blynedd; ag ym mhob Gorsedd, cadarnhau gan a drechaint o nifer; ag mal hyny y catwyd gwarant, a braint, a chadernyd ar y dosparthau a feddyliwyd gan y tri doethion enwedigion; a Chyntefigion Beirdd Ynys Prydain, gan ddefod a dosparth gwarantedig, y buaint hwy."

Gwrgant Farfdrwch ab Beli, ab Dyfnwal, c. c. 375 [medd y *Greal*, td. 5; ond 350, medd O. W.]

"a fu frenin ar holl Ynys Prydain." "Yr oedd efe wedi ysgrifenu hanesiaeth Gymreig ar gynghanedd," ebai O. W.; ond ni wyddys beth oedd sail ei hysbysiad, eithr gwyddys yn dda ddigon nad oedd "cynghanedd" yn hysbys i'r Cymry am yn agos i fil a hanner o flyneddoedd ar ol Gwrgant Farfdrwch. Os ysgrifenodd efe hanes Gymreig o gwbl, y mae yn bur debyg mai *ar gân* yr ysgrifenodd efe hi, ac nid "*ar gynghanedd*."

Brywlais ab Ceraint, c. c. 160, "a fu frenin da, a bardd peraidd, a chantor blasber; ag ni wyddys amgen am ei gampau."

Alafon ab Brywlais, c. c. 130, "a fu frenin serchog iawn, ar lafar a gweithred; ag efe oedd fardd godidogwaith."

Rhuddlwm Gawr, c. c. 100, un o "driwyr Hud a Lledrith [chwareugerdd, cynchwareugerdd= *incipient drama; illusion and phantasm*] Ynys Prydain."

Morddal Gwr Gweilgi, saer Ceraint ab Greidiawl, c. c. 90, "a ddysges waith maen a chalch gyntaf i genedl y Cymry." Dywedir yn y *Triad* yma, mai "yn yr amser y bu Alecsander ammherawdr yn dwyn y byd y danaw" (c. c. 335) y bu hyn; ond gan yr ymddengys yn dra thebyg nad yw'r sylw yma ond gwaith rhyw adysgrifenydd, neu eglurwr y *Trioedd*, a chan ei fod yn groes i'r amseriad a roddir yn gyffredin i gofres "Gwehelyth Iestyn ab Gwrgan," tybiwyd nad cymmesur ei ddilyn.

Cofrfiniwr, Bardd Ceri Hir Lyngwyn, c. c. 50, "a wnaeth long hwyl a llyw gyntaf i genedl y Cymry."

Tegid ab Baran, c. c. 20, "a fu frenin call, a bardd da: efe a wnaeth drefn dda ar ddysg a gwybodaeth, ag a barodd adferiant o'r hen ddysg a gwybodaeth oedd wedi myned ar ledgoll, ag a wnaeth Gynghorfa Beirdd a Derwyddon, fal y buasai gynt."

Manawydan ab Llyr Llediaith, B. A. 20, oedd un o "dri Lleddf Unben Ynys Prydain," am y rhai y dywed y *Trioedd*—"a meib o feirdd oeddynt y tri."

Caradawg ab Bran ab Llyr Llediaith, B. A. 43, oedd un o "dri Chynweisiaid (uchel weision= *supreme servants*) Ynys Prydain, * * * a thri meib beirdd oeddynt."

Coel ab Cyllin ab Caradawg ab Bran, B. A. 51, "a wnaeth melin rhod ac olwyn gyntaf i genedl y Cymry;" a dywedir am dano ef, Corfiniwr, a Morddal—"a thri meib beirdd oeddynt."

Er meithed oedd y prifnod hwn, ac er lluosoced y rhaid fod y beirdd a'i haddurnasant ef, eto, methwyd a chael enwau mwy o honynt yn yr hen *Gofion;* a phan ystyrir fod y sefydliad, yn ei ddull cynnwynol, cyntefig, wedi llwyr ddarfod er's yn agos i *ddeunaw can mlynedd*, nis gellir llai na rhyfeddu yn fawr fod cynnifer o enwau ei aelodau ar gael, a chymmaint o hanes eu "campau" ar gof a chadw.

Y syniad cyffredin yn y dyddiau hyn ydyw, mai yr un person yn hollol a olygid erioed, megys yr awr hon, wrth *fardd* a *phrydydd*, neu ddyn yn meddu dawn a medr i osod ei feddyliau allan ar gân; ond y mae hyn yn gamsyniad dirfawr gyda golwg ar y prifnod yr ydys yn son am dano yn bresennol. Yr oedd cymmaint o wahaniaeth rhwng bardd a phrydydd, y pryd hyny, ag sydd yn awr rhwng doethawr mewn duwinyddiaeth, neu archesgob, a phregethwr di-urddau; neu rhwng prif ynad y deyrnas a gwerinwr a ddichon fod yn deall iaith y gyfraith wladol. Ar fyr, *aelod o'r sefydliad llenorol Prydeinig oedd bardd;* am hyny, y mae yn amlwg y gallasai dyn fod yn brydydd heb fod yn fardd; ac yr ydys yn tybied y gallasai dyn fod yn fardd hefyd heb fod yn brydydd, canys y mae yr ymadrodd, "Bardd o brydydd;" fel y tybir, sydd yn lled fynych yn yr hen *Gofion* Cymreig, yn arwyddo hyny. Pa fodd bynag, ymddengys mai y rheol gyffredin oedd, fod y beirdd yn brydyddion, er nad oedd pob prydyddion ddim yn feirdd.

Y mae yn dra nodedig nad yw *Trioedd Ynys Prydain* y cofion hynaf a mwyaf awdurdodol a'r a feddwn ni, yn y rhai y ceir hanes y rhan fwyaf o feirdd y prifnod cyntaf, ddim cymmaint ag yn crybwyll prydyddiaeth o gwbl fel prif gamp un o'r beirdd a gofnodant. Nid fel *prydydd* y cofnodant hyd yn oed Tydain Tad Awen ei hun; ond fel un "a ddodes *gelfyddyd* gyntaf ar gerdd dafod, a *dosparth* ar geudawd;" hyny yw, a roddodd gelfyddyd gyntaf ar gân, a threfn ar hanes—efe a wnaeth gân yn gyfrwng celfyddyd, a hanes (ar ddull trioedd, y mae yn dra thebyg) yn gyfrwng trefn (*system*), megys y dywed y *Trioedd*—"Tri modd addysg Beirdd Ynys Prydain; addysg llafar, cân, a defod, wrth fraint Gorsedd." Cadarnheir ac eglurir y syniadau hyn, gyda golwg ar Tydain a'r pwnc mewn llaw, yn y dyfyniad isod o'r hen *Gofion*:—"Yna, gŵr doeth, a elwid Tydain Tad Awen, a ddug ar feddwl a phwyll yn y modd y gellid dosparth, ag yna deddf gadarn, ar wybodau ag awen o Dduw; ag ai dangoses i ereill o genedl y Cymry, ag a gafas eu bodd hwynt yn warantedig; a chyntaf o beth a wnaethpwyd, trefnu teyrnedd, nid amgen no dodi ar ben cenedloedd y Cymry gynnal brawd a chymmrawd [cyfiawnder a threfn gymdeithasol]; ag ar a gaid yn ben bonedd dodi hynafiaeth teyrnedd; sef a gaid yn ben bonedd, Prydain ap Aedd Mawr, gwr doeth, a gwrol, a chyfiawn, a brawdgar oedd ef, ag ym mraint hynny, doded arnaw Unbenaeth Ynys Prydain, yn gyfrwym teyrnedd. Ag wedi dosparthu, a threfnu, a chadarnhau teyrnedd a goresgynnaeth Prydain ap Aedd Mawr, a goreu am awen o Dduw y cafwyd Tydain Tad Awen; yna doded arno yrru cyngor ag addysg, yn ddangosedig, ar genedl y Cymry, a hynny a orug [wnaeth] ef, ai dodi ar gerdd dafawd [cân], yn warantedig o gof a chadw." Prif gampau Tydain, fel y gosodir hwynt allan yn y dyfyniad yma yw, cynllunio trefn a dosbarth ar wybodau dwyfol, a elwir "awen o Dduw;" ac ar wybodau gwladol, sef trefnu cyfreithiau cyffredinol a chymdeithasol, er cynnal cyfiawnder rhwng gŵr a gŵr; a threfnu amherodr (unbenaeth) i'w gweinyddu; a threfnu cân="cerdd dafawd," fel y cyfrwng cymhwysaf y pryd hyny (cyn bod argraffu, na nemawr o ysgrifenu), i gadw, a chofio, a chyfranu, y gwybodau a gynlluniodd; megys y dywed yr hen ysgrif ei hun—"Yna dechreuwyd cerdd dafawd; a dodi arni pob cof a gwirionedd yn gadwedig, y modd y byddai hawsaf cofiaw, a difyrraf myfyrriaw, a diddanaf y pwyll." Cynllun doeth dros ben oedd hwn i ateb y dyben mewn golwg. Yr oedd eu "cerdd dafod" mor syml a diaddurn fel nad oedd fodd iddi fod yn haws i'w chofio, yn ddifyrach i'w myfyrio, nac yn ddyddanach i gael y "pwyll," neu y rheswm a gynnwysai. Cafodd Pomponius Mela afael ar un o bennillion Derwyddon y Cyfandir, meddai ef, yr hwn oedd fel hyn:—

> "Ut forent ad bella meliores;
> Æternas esse animas
> Vitamque alteram ad manes."

Hyny yw,

Rhagori mewn rhyfel;
Bod yr eneidiau yn anfarwol,
A bod iddynt fuchedd arall.

Y mae Diogenes Laertius hefyd wedi cadw un arall o'u pennillion hwy, ar y Cyfandir; sef—

Σεϐειν Θεους
Και μηδεν κακον δραν
Και ανδρειαν ασκειν.

Hyny yw,

Addoli 'r *duwiau*
Peidio gwneuthur drwg,
Ac ymarfer glewineb,

Y mae 'r pennill hwn genym yn wreiddiol, fel y mae goreu' r ffawd, yr hwn sydd fel hyn:—

"Tri chynnorion doethineb;
Ufuddhâd i ddeddfau Duw,
Ymgais â lles dyn,
A dioddef yn lew pob digwydd bywyd.'

Rhydd hwn fantais i ni weled amryw bethau, pur bwysig hefyd. Yn un peth (ac nid y lleiaf mo hono chwaith), dengys y gwahaniaeth pwysig oedd rhwng athrawiaeth Derwyddon y Cyfandir ac athrawiaeth bur Beirdd Ynys Prydain: "Addoli 'r *duwiau*," meddai gwyr y Cyfandir; ond "Ufuddhâd i ddeddfau Duw," ebai Beirdd Ynys Prydain:—mor union-gred, yn hyn, o leiaf, a phe buasai yr holl "Ysgrythyr lân" yn eu meddiant, os nad ydoedd cymmaint ag oedd ysgrifenedig o honi.

Helpa pennill llygredig D. Laertius i ni weled peth arall tra phwysig hefyd; sef, fod ein *Trioedd* yn wirionedd, y rhai sydd yn dywedyd—

"Tair cenedl a *lygrasant* a fu ganthynt ar ddysg o Farddoniaeth Ynys Prydain, trwy gymmysg oferbwyll, ag o hyny ai collasant—

Y Gwyddelod,
Cymry Llydaw,
A'r Ellmyn."

"Am dri achos y gelwir y Beirdd, yn Feirdd wrth Fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain:—

Yn gyntaf, am mai yn Ynys Prydain y cafwyd Barddoniaeth gyntaf;
Yn ail, am na chafwys un gwlad arall erioed ddeall cyfiawn ar Farddoniaeth;
Yn drydydd, am nas gellir cynnal Barddoniaeth gyfiawn, eithr ym mraint Defodau a Llafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain;

Ac am hynn, o ba wlad bynnag y bônt, Beirdd wrth Fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain a'u gelwir."

Peth arall hefyd y cynnorthwya pennillion Pompon Mela a Diogenes i ni ei ganfod yw, dull yr hen Feirdd a Derwyddon o gyfranu addysg, sef mewn mesur ar ddull trioedd, a elwir "Englyn Milwr;" ond hwyrach y ceir cyfle eto i sylwi ychydig ar hyn yma. Rhaid dychwelyd yn awr at y pwnc oedd mewn llaw—nad yw'r *Trioedd* yn dangos mai prydyddiaeth neu gân, a elwid "Cerdd dafod," oedd prif gamp y beirdd a gofnodant.

Y bardd nesaf o'r prifnod yma a gofnoda y *Trioedd*, yw Dyfnwal Moelmud, prif gampau yr hwn oedd gwneyd "gwellâd a mwyhâd ar ddefodau, a chyfreithiau, a breiniau cenedl y Cymry, mal bâi iawn a chyfiawn i bawb yn Ynys Prydain a faent yn nawdd Duw a'i dangnef, ac yn nawdd gwlad a chenedl."

Campau Plenydd, Alawn, a Gwron, fel y dangoswyd yn lled helaeth eisoes, oedd dychymygu y "Breiniau a'r Defodau y sydd ar Feirdd a Barddoniaeth," a "dodi arnynt ddosparth drwyddedawg;" hyny yw, hwynt-hwy a wnaethant gyfundrefn o reolau a threfniadau i'r sefydliad barddonol, ac a gawsant awdurdod neu drwydded cyfreithiau y wlad o'u plaid; neu yn hytrach, hwy a wnaethant "Freiniau a Defodau Barddoniaeth" yn rhan a chyfran o gyfreithiau y wlad, pan nad oeddynt, cyn eu hamser hwy, ond dan nawdd "addwynder a syberwyd" (moesgarwch a hynawsedd) gwlad a chenedl: ar fyr, fel barnwyr a chyfreithwyr y Cymry y cofnodir Plenydd, Alawn, a Gwron, cystal a Dyfnwal Moelmud.

Fel dychymygwr "Hud a Lledrith," sef chwareugerdd, y rhagorai Rhuddlwm Gawr; a dyma y peth tebycaf i *brydyddiaeth*, yn ol ystyr gyffredin y gair, y ceir hanes am dano yn y *Trioedd*.

Fel "saer ceryg" y cofnodir Morddal Gwr Gweilgi, yr hwn "a ddysges waith *maen a chalch* gyntaf i genedl y Cymry."

Saer llongau oedd "Corfiniwr, Bardd Ceri Hir Lyngwyn," yr hwn "a wnaeth Long hwyl a llyw gyntaf i genedl y Cymry."

Saer melinau oedd Coel ab Cyllin Fardd, yr hwn "a wnaeth Melin rhod ac olwyn gyntaf i genedl y Cymry."

Manawydan ab Llyr, Fardd, a gofnodir fel un o "dri Lleddf Unben (*humble princes*) Ynys Prydain)" a Charadog ab Bran, Fardd, fel un o "dri Chynweisiaid (*supreme servants*) Ynys Prydain."

Yn awr, tybir fod yn gwbl amlwg mai fel duwinyddion—rhai yn perchen "awen (athrylith) o Dduw"—fel cyfreithwyr a barnwyr gwladol a chrefyddol; ac fel seronyddion, athronwyr, celfyddydwyr, ac athrawon y bobl a'r ieuenctyd, ac nid fel prydyddion yn unig, y mae yr hen *Gofion* Cymreig yn darlunio aelodau sefydliad barddonol cyntefig Beirdd Ynys Prydain.

Pur debyg hefyd ydyw y darluniad a rydd Cæsar o aelodau sefydliad llenorol ac addysgiadol Gâl, ond ei fod ef yn galw yr aelodau yn Dderwyddon yn lle Beirdd, a'r sefydliad yn Dderwyddiaeth yn lle Barddoniaeth; ond y mae y rhesymau a roddir dros hyn yn ddigon boddhaol, fel y ceir gweled rhag llaw.

"Hwynt-hwy," meddai Cæsar, am Dderwyddon Gâl, "syn trefnu pethau cyssegredig, yn llywyddu yn yr aberthau cyhoeddus a chyfrinachol, ac yn egluro holl bynciau crefydd. Y mae lluaws o ieuenctyd yn cyrchu atynt i gael eu hyfforddi ganddynt, ac yn eu parchu yn fawr. Hwynt-hwy sydd yn penderfynu bron bob dadleuon, cyhoeddus a chyfrinachol. Os cyflawnir trosedd, os lleddir dyn, os bydd dadl yn nghylch etifeddiaeth, neu yn nghylch terfynau, hwy sy'n penderfynu, a hwynt-hwy sy'n dedfrydu y gwobrau a'r cospedigaethau. Os gwrthyd rhywun âg ymostwng i'w dedfryd, pa un bynag ai boneddig ai gwreng a fyddo yr anufudd, y maent yn ei esgymuno o'u haberthau, yr hyn yw eu cospedigaeth benaf; canys edrychir ar y rhai diarddeledig fel dyhirod annuwiol ac esgymun; a bydd pawb yn cilio oddi wrthynt, ac yn gochel eu cyfeillach a'u cymdeithas, rhag ofn cael eu halogi wrth gyfrwrdd ynddynt; ac ni weinyddir cyfiawnder iddynt pan y ceisiont hyny; ac ni roddir iddynt unrhyw barch na chyfrifoldeb. * * * * * Eu prif egwyddorion ydynt, nad yw yr enaid yn diflanu; ond ei fod, yn angeu, yn myned o'r naill gorff i'r llall; a tybiant fod y gred yma, i raddau golidog, yn cynhyrfu i wroldeb, ac yn tueddu i ddileu ofn angeu. Y maent hefyd yn dadleu, ac yn dysgu llawer o bethau i'r ieuenctyd am y ser a'u symmudiadau, am eangder y greadigaeth a'u

Digitized by Google

daiar ni, am natur pethau, ac am allu a mawredd y duwiau anfarwol."

Y mae y darluniad yma, a rydd Cæsar o Dderwyddon Gâl, yn cyfateb yn nodedig o fanwl i'r hyn a ddywed y *Trioedd* a'r hen *Gofion* Cymreig am Feirdd Ynys Prydain. Yma gwelir fod Derwyddon Gâl, fel ein Beirdd ninnau, yn ddysgawdwyr crefyddol, yn ynadon a barnwyr gwladol, yn seronyddion, yn ddaiaryddwyr, yn anianyddion, yn athronwyr, ac yn athrawon ieuenctyd. Ac nid rhyfedd fod Derwyddon Gâl mor debyg, o ran eu prif nodweddau, i Feirdd Ynys Prydain, canys "tybir," meddai Cæsar, "i'r sefydliad gael ei gynllunio yn Mhrydain, ac iddo gael ei ddwyn drosodd oddi yno i Gâl; ac y mae y rhai sydd yn dymuno cael gwybodaeth gywir yn awr o'r gyfundrefn hono, yn myned i Brydain i'w myfyrio." Cystal a dywedyd nad oedd "gwybodaeth gywir o'r gyfundrefn" i'w chael yn Gâl; yr hyn a wiria y *Trioedd*, sy'n dywedyd fod yr "Ellmyn," fel y galwai y Cymry holl drigolion y Cyfandir, yn un o'r "tair cenedl a *lygrasant* a fu ganthynt ar ddysg o Farddoniaeth Ynys Prydain, trwy gymmysg oferbwyll, ag o hyny ai collasant."

Yn awr, tybir fod yn ddigon amlwg yn ngwaith Cæsar, a *Thrioedd Ynys Prydain*, nad oedd Prydyddiaeth, neu "Gerdd Dafod," yn unig, yn cael ei ystyried fel cymhwysder digonol i neb i fod yn aelod o Dderwyddiaeth Gâl nac o Farddoniaeth Prydain. Y cymhwysderau i fod yn aelodau o'r sefydliadau hyny oedd bod yn dduwinyddion, yn athronyddion, ac yn gelfyddydwyr. Er hyny, ymddengys yn amlwg iawn mai prydyddiaeth, cân, neu "Gerdd Dafod," oedd y prif gyfrwng, os nad yr unig gyfrwng, a ddefnyddiai Beirdd Prydain a Derwyddon Gâl, i drosglwyddo eu hyfforddiadau: canys dywed Cæsar, "fod yr efrydwyr i ddysgu nifer mawr o *bennillion* ar dafod leferydd; ac am hyny, fod rhai dan ddysgyblaeth yno am ugain mlynedd."

Gellir casglu oddi wrth hyn, ac amryw bethau ereill, fod yr holl feirdd, fel yr awgrymwyd eisoes, yn brydyddion neu yn medru gosod eu "gwybodau a'u celfyddydau" allan ar gân; er nas gallwyd canfod, mewn un man, fod medr i wneyd cân neu brydyddiaeth yn rhoi hawl i ddyn i fod yn fardd, neu yn aelod o sefydliad llenorol Ynys Prydain. Ymddengys fod prydyddiaeth yn cael ei ystyried gynt, mewn cyssylltiad â barddoniaeth, yn bur debyg ag yr ystyrir gramadeg yn awr, mewn cyssylltiad â cholegau yr oes bresennol; canys er nad oes neb yn cael ei raddio yn y colegau yn awr, hyd y gwyddys, yn B. A., M. A., na D. D., am ei fod yn deall gramadeg; eto, chwith fyddai gweled neb o'r graddogion yna (er bod lle i feddwl fod cannoedd o honynt) yn analluog i ysgrifenu yn ramadegol. Felly hefyd, er nad ymddengys y graddid neb o'r beirdd yn P. F. (Prif-fardd), O. (Ofydd), a D. F. (Derwydd-fardd), am ei fod yn brydydd; eto, tybir nas goddefasid i neb o'r graddogion hyny fod yn analluog i osod ei "wybodau a'i gelfyddydau" ar gân.

Gwelir hefyd fod gwahaniaeth annhraethol—yn wir, gwahaniaeth hanfodol, rhwng y rhai a elwir yn awr yn feirdd, a gwir feirdd cynnwynol Ynys Prydain. Y beirdd hyn, fel y dangoswyd yn fynych, oedd prif, os nad unig farnwyr gwladol a chrefyddol y genedl, yn y pethau mwyaf pwysig oll i'r deiliaid, o'r brenin i'r cardotyn—eu dedfryd hwynt oedd i benderfynu etifeddiaethau, terfynau, gwobrau, a chospedigaethau: ar air, yr oedd crefftau, a chyfoeth, ac addysg, a chrefydd, a chyfraith, a bywyd, ac angeu, yr holl genedl wrth eu hewyllys. "Fel barnwyr," meddai un o esbonwyr Cæsar, "nid yn unig yn yr achosion gwladol mwyaf pwysig, ond yn meddu gweinyddiad eithaf cyfiawnder; fel offeiriaid yn mysg pobl, fel yr addef pawb fod y Gâliaid wedi ymroi i ddefodau a seremonïau; fel rhai oedd yn meddu hyfforddiad meibion y gwŷr mawr, nid yn unig yn nghyfrinion crefydd, ond hefyd yn egwyddorion y llywodraeth wladol, ac yn y gwybodau a'r celfyddydau—yr oedd y Derwyddon yn meddu dylanwad annherfynol. 'Hwynt-hwy,' ebai Chrysostom, 'mewn gwirionedd, oedd yn teyrnasu: canys er fod y breninoedd yn eistedd ar orseddfeinciau aur, ac yn preswylio mewn palasau ysblenydd, ac yn cyfranogi o wleddoedd danteithiol, yr oeddynt yn ddarostyngedig i'r Derwyddon yn mhob peth." Byddai yn bur briodol i'r rhai sydd yn hôni eu hunain yn awr yn feirdd, ddeall hyn yn drwyadl, a'i ystyried yn sobr a diduedd, cyn bostio mwyach eu bod yn cynnal i fyny sefydliad, a breiniau, a defodau, ac arferion Beirdd Ynys Prydain a Derwyddon Gâl. Cyn y gallant byth fod felly, rhaid iddynt fod yn unig dduwinyddion, yn unig farnwyr gwladol a chrefyddol, yn unig athronwyr, seronyddion, anianyddion, daiaryddwyr, a chelfyddydwyr y genedl; a rhaid iddynt, meddai Pliny, fod yn feddygon ac yn serddewinwyr! Rhaid iddynt gael "pum erwi rhyddion o dir, yn mraint eu celfyddyd," fel beirdd, heb law a berthyn iddynt "fel Cymry cynnwynawl;" rhaid iddynt gael "trwyddedogaeth lle ydd elont" (*maintenance wherever they go*); rhaid peidio eu gorfodi i fyned i ryfel, meddai Cæsar, nac i dalu na theyrnged na threth, fel ereill, ond bod "yn mhob peth yn rhydd a breintiedig;" rhaid peidio "dwyn noeth arf yn eu gwydd;" a phed elent i'r Crimea yfory nesaf (fel y dylent fyned, yn ddilys ddiammheu, os ydynt yn wir "Feirdd Ynys Prydain"), a "sefyll rhwng y byddinoedd gelynol, rhoddai y ddwy blaid eu harfau i lawr," meddai Tacitus, o barch iddynt; canys "gair eu gair hwy ar bawb," "a phen a phont rhag pawb ereill; sef y modd y maent yn Ben ar bawb, yw deddf bod gair eu gair hwy ar bob gair o anfardd; can nid rhyw na bo mwy gwir, na gwybodus, a chadarn a ddywetto Bardd nac a ddywetto anfardd: a'r modd dylynt fod yn bont i bawb, yw'r ddyled y sydd arnynt addysgu pawb o gywiriaid gwlad, a gwerin byd, gan eu dwyn dros gors anwybodaeth, a bod yn hyny yn lwybr a phont iddynt." Y gwir ydyw, nad oes dim cymmaint a chysgod o Farddoniaeth gyssefin Prydain, a Derwyddiaeth Gâl, mewn hanfod er's mwy na *mil a hanner o flynyddau* bellach; a phrawf rhy amlwg o anwybodaeth neu anystyriaeth ydyw hôni yn y gwrthwyneb. Ond daw hyn yn amlycach eto, pan ddelir i ymdrin â prifnod presennol Barddoniaeth Cymru.

Tybir fod yn eithaf amlwg, bellach, mai enw ar sefydliad llenorol ac addysgiadol Ynys Prydain oedd Barddoniaeth; ac mai enw cyffredinol a dynodol ar aelodau proffesedig y sefydliad hwnw oedd Beirdd: a dichon fod gwahaniaeth rhwng bardd a phrydydd yr un mor amlwg; sef, mai prydydd yw dyn galluog i wneyd cân, neu "gerdd dafod," heb fod yn aelod o'r sefydliad barddonol. Cedwir y gwahaniaeth yma i fyny yn Nghymru, i raddau dibwys, hyd y dydd hwn.

Bernir mai un achos i Cæsar, a'r ysgrifenwyr estronol ereill a'i dilynasant, alw sefydliad llenorol Gâl yn Dderwyddiaeth, a'i haelodau yn



Digitized by Google

Dderwyddon, oedd, am fod swydd y derwyddfardd, fel goluchwydwr, neu weinyddwr penaf y gwasanaeth crefyddol, yn fwy amlwg i estroniaid na swydd y ddwy radd arall o'r sefydliad, sef Bardd ac Ofydd. Yr oedd yn anhawdd i estroniaid ochel y camsyniad yma, meddai y Dr. Pughe, gan y rhaid yr ymddangosai y Derwyddon iddynt, fel dosbarth o offeiriaid, yn annibynol ar bob dosbarth arall; ac fel y cyfryw, gwisgent wisg wen, yn lle gwisg las unlliw, yn ol arfer gyffredin y beirdd. Efallai hefyd fod swydd y Derwyddfardd yn fwy amlwg a phwysig yn Gâl, lle yr oedd barddoniaeth wedi ei llygru, nag ydoedd yn Ynys Prydain—ffynnonell loew, gyntefig, gwir farddoniaeth; canys fe wyr pob hynafiaethydd, mai sefydliad Gâl, ac nid sefydliad Prydain, a ddarlunia yr holl uchawduron, o Cæsar hyd Marcellinus, y rhai a ddall ddilynwyd gan yr ysgrifenwyr Seisonig, a'r rhan fwyaf o'r rhai Cymreig hefyd. Pa fodd bynag, y mae yr holl hen *Gofion* Cymreig, megys *Trioedd Ynys Prydain, Trioedd Dyfnwal Moelmud, Ysgriflyfrau Iolo,* ac ereill, yn dangos yn amlwg mai Barddoniaeth oedd enw cyntefig a gwirioneddol y Cymry cynnwynol, ar eu hen sefydliad llenorol; ac yn wir, y mae hyd yn oed Borlase o Gernyw yn dangos fod Sammes, awdwr estronol pur hynafol, yn dywedyd fod Beirdd cyn bod Derwyddon. Dengys *Trioedd Ynys Prydain* mai dan yr enw Barddoniaeth y gwnaed "trefn a dosbarth gyntaf" ar y sefydliad, gan y "tri bardd cyntefigion, nid amgen Plenydd, Alawn, a Gwron," y rhai a seiliasant eu cyfundrefn ar "a wnaethant y tri deifnogion (dychymygwyr) cerdd a cheudawd cenedl y Cymry, sef Gwyddon Ganhebon, Hu Gadarn, a Thydain Tad Awen." Ar fyr, nid yw *Trioedd Ynys Prydain,* y cofion Cymreig mwyaf hynafol ac awdurol ar a fedd y genedl, yn son un gair am Dderwyddon na Derwyddiaeth, pan y maent yn frith o'r enwau Beirdd a Barddoniaeth; yr hyn sydd yn dangos yn ddigon boddhaol, fel y tybir, ac ystyried hynafiaeth y pwnc, mai dan yr enw Barddoniaeth y trefnwyd y sefydliad gyntaf, ac nid dan yr enw Derwyddiaeth; gan nad oedd Derwyddon, mewn gwirionedd, ond enw gradd neu ddosbarth o'r Beirdd, a Derwyddiaeth ond enw ar y radd hono. Y pwnc nesaf a ddaw dan sylw, yw—

GORSEDDAU Y BEIRDD.

"Y maent yn cynnal Gorsedd ar dymmor penodol o'r flwyddyn," meddai Cæsar am Dderwyddon Gâl, "mewn lle cyssygredig a ystyrir yn ganolbarth Gâl, sef yn ardal y Carneddau. Yno y cyrcha pawb, o bob parth, y byddo ganddynt ryw ddadleuon neu gwynion, ac ymostyngant i'w dedfrydau a'u penderfyniadau."

Y mae yr hysbysiad yma o'r eiddo Cæsar am Orsedd Derwyddon Gâl, mor gysson a'r hysbysiadau a geir yn yr hen *Gofion* am Orsedd Beirdd Ynys Prydain, ag y gellid dysgwyl i hysbysiad estron fod, pan yn traethu ar sefydliad llygredig, fel y gwelir yn y dyfyniadau isod am Orsedd y Beirdd.

"Tri lle breiniol ni bydd noeth arf yn erbynu: gorsedd gwlad ac arglwydd; gorsedd cynghyd cynnal, sef yw hono, gorsedd ddygynnull; a Gorsedd Beirdd."

"Tair gorsedd freiniawl Ynys Prydain, yn nawdd cenedl y Cymry: Gorsedd Beirdd, a hono yn hynaf ei bonedd; gorsedd gwlad ac arglwydd; * * * a gorsedd cynghyd cynnal; * * * ac nis dylid noethi arf rhag y rhyw orseddau o fewn ei swyddau, na rhag eu hamseroedd."

"Tair gorsedd freiniawl y sydd; ac iawn iddynt warogaeth y gan y neb a fythont parth nawdd neu swydd, neu urddas, neu dda wrth gelfyddyd a gwybodau, yn mraint a brawd (barn) un ac arall o'r gorseddau hyny, a'r warogaeth fydd herwydd braint, ac a ddylid i'r orsedd yng nghysbwyll: Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, ac wrth ei barn y bydd pob un o warogaeth a geisio dda wrth gerdd a chelfyddyd Barddoniaeth, a phawb a fythont yn nawdd yr orsedd hono dan derfynau ei swydd a'i breiniau; gorsedd brenin neu arglwydd cyfoeth; * * * a gorsedd cynghyd cynnal." * * *

"Tair gorsedd yn mraint gwlad a chenedl y Cymry y sydd: cyntaf, Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, a'i bonedd a'i braint a fydd o bwyll, ansawdd, a gorfod; neu herwydd ereill athrawon a doethion, o bwyll, ansawdd, a dichwain: a braint a swydd noddedigion Gorsedd Beirdd yw, cynnal, a chadw, a dodi addysg warantedig ar wybodau dwyfoldeb [crefydd], a doethineb, a syberwyd [moesoldeb=*morality*]; a chof a chadw ar bob moliannus ar wr a chenedl; a phob dichwain amserau, a phob rhyfeddawd anianawl; a rhyfeloedd, a dosbarthau gwlad a chenedl; a dialeddau, a gorfodaethau moliannus; a chadw cof gwarantedig ar achau, a phriodasau, a bonedd, a breiniau, a defodau cenedl y Cymry; a bod wrth raid gorseddau ereill yn darogan a orffer ac a ddyfawr [*h. y.*, a bod at alwad gorseddau ereill yn cyhoeddi a fo angenrheidiol a dyladwy] dan osteg a rhybudd cyfreithiawl. Ac yn amgen na hyn, nid oes nac o swydd nac o fraint ar Orsedd Beirdd; sef ydynt y Beirdd, athrawon gwarantedig gwlad, a chenedl y Cymry; a thrwydded iddynt o'u swydd, yn amgen noc a ddylaint yn Gymry [fel Cymry] cynnwynawl; sef i bob un ei bum erwi rhyddion, a rhoddion celfyddyd yn warantedig i bob un.—Ail, Gorsedd Gwlad a Chyfoeth. * * Trydydd, Gorsedd Cynghyd Cynnal."

"Tri pheth nis dylid eu gwneuthur ond o ddyundeb gwlad a chywlad a chenedl benbaladr: symmud cyfraith y brenin; diarglwyddiaethu y brenin; a dysgu gwybodau newyddion yng Ngorsedd Beirdd; canys nis dylid hyny cyn y gwypo wlad a chenedl eu rhywiau, a'u cynneddfau, a'u dosparthau, o farn a dangos gyfreithiawl dysgedigion a doethion o athrawon gwarantedig yng Ngorsedd Gyfallwy [effeithiol] Beirdd Ynys Prydain, yng ngwlad a chywlad [rhandir=*district*]. A lle ydd eler yn erbyn hyny o bwyll a chysbwyll, oferion y gelwir y gwybodau hyny; ac nis dylid braint a da wrth gelfyddyd arnynt; ac nid oes i na chyfraith, na dosbarth, na chelfyddyd, nac i unrhyw bwyll ar wybodau, fraint yn y byd onis caffawr ar ddangaws ac addysg; ac o hyny barn athrawon a doethion gwarantedig o ddysg, a gwybodau, ac awdurdawd, ym mraint dosparthau gwlad a chenedl." * * *

"Cyn nog amser Prydain ap Aedd Mawr, nid oedd namyn Gwyddoniaid [gwŷr gwybodus= *men possessed of knowledge, men of science and learning*] yn wyr o ddysg ac athrawiaeth gwlad a chenedl; a chan nad oedd na dedd na llafar Gorsedd ar a wyddai 'r Gwyddoniaid, ef a ddigwyddwys coll ar lawer o wybodaeth, a chof, ac ysbysrwydd cenedl y Cymry. A gwedi gwladychu o'r Cymry yn nawdd gwladwriaeth Prydain, ac ymroddi 'n hollol i fod wrth y deddfau daionus, a'r drefn ddoeth a wnaeth efe, fe gafwyd lonyddwch ac yspaid anrhaith. Yna y mynnwys Brydain chwilio 'r holl Ynys, i weled a geffid neb a wyddai am a fu gynt o ddysg ac ysbysrwydd cenedl y Cymry, fel y gellid ei roddi ar gof a

Digitized by Google

yn un o'r 'pedwargwyr ar hugain,' a elwid 'swyddogion llys.'"

"Pan yr oedd holl Brydain yn cydnabod y sefydliad barddonol," meddai y Dr. Pughe, "cynnelid y dygynnull yn y parth mwyaf cyfleus a chanolbarthol o'r ynys, sef Meusydd Caer Caradog; ac yno, fel y gellid dysgwyl, y canfyddir y cofadeiliau mwyaf aruthrol a'r a adawyd yn dystion o allu cyntefig y beirdd, yn enwedig Gorsedd Bryn Gwyddon—Cludair Gyfrangon (*Silbury*), a Chôr Gawr—Gwaith Emrys (*Stonehenge*). Y mae yn dra hynod fod Rowlands, o bleidgarwch at ei lanerch enedigol, efallai, wedi gwneyd Ynys Mon yn fan dygynnull cyffredinol, pan ystyrir pa mor eiddil a dinôd yw'r olion a ganfyddir yno, heb son am anghyfleusdra y sefyllfa. Y mae yn ddigon rhesymol meddwl fod Yswidw Polion wedi cyfarfod â nifer anarferol o Feirdd a Derwyddon yn Ynys Môn, o blegid gallasai fod [fel yr oedd yn ddilys ddiammheu] luaws o ffoaduriaid o fanau ereill, a aflonyddwyd gan y Rhufeiniaid, y rhai a ffoisant i Fôn, gan dybied ei bod allan o gyrhaedd y gelynion hyny." Pwy bynag a ystyrio y pethau hyn, a'u cyffelyb, yn ddiduedd, hyd yn oed er iddo fod yn Fonwysiad genedigol, ac yn enwedig a gymhara weddillion barddonol eiddil Ynys Môn â chofadeiliau mawrion ac aruthrol Gorsedd Bryn Gwyddon, Côr Gawr, a'r Maen Cetti, c'r sawl y rhoddir darluniad byr rhag llaw, nis gall lai na gwenu wrth feddwl ddarfod i neb erioed ddychymygu fod Ynys Mon yn brif orsaf y beirdd, pan ydoedd Barddoniaeth yn ei rhwysg yn Ynys Prydain.

Bernir yn gyffredinol mai at brif Orseddau 'r Beirdd cyntefig y cyfeiria y triad canlynol:—"Tair Gorchwyl gadarn Ynys Prydain—codi Maen Cetti, adeiliaw Gwaith Emrys, a thyru Cludair Gyfrangon."

Y mae dwy, o leiaf, o'r "tair gorchwyl gadarn" hyn yn swydd Wilts, meddai Carnhuanawc; sef Gwaith Emrys, a Chludair Gyfrangon: ac y mae yn bur debyg mai yno hefyd yr oedd y drydedd, a elwir "Maen Cetti;" sef, efallai, y maen mawr oedd ar ben y "Gludair Gyfrangon."

"Gorsedd Bryn Gwyddon, neu *Abury*," meddai y Dr. Pughe, "oedd un o dri phrif le dygynnull Beirdd Ynys Prydain;" ac yno hefyd, mae yn dra thebyg, meddai golygydd y *Cambro Briton*, y cyrchai Derwyddon Gâl. "Y mae hynafiaethwyr a theithwyr," ebe yr un Cymro dysgedig, "wedi camsynied yn ddirfawr, trwy ystyried Gwaith Emrys (*Stonehenge*), bron bob amser, fel y gweddillion penaf o'r natur yma, pan na ddygir gwaith aruthrol Gorsedd Bryn Gwyddon, oedd wedi ei ffurfio yn fanwl yn ol y drefn farddonol, braidd un amser i sylw. Eto, ymddengys oddi wrth ddarluniad Stukley o'r gwaith, ei fod yn 1,400 troedfedd o drawsfesur, tra nad yw Gwaith Emrys ond 99 troedfedd, Yr oedd cylch Gorsedd Bryn Gwyddon bron yn gyfan yn amser Stukley, yn 22 erw o arwynebedd, fel y mae yn debygol fod digon o le o amgylch yr amgeufa (*vallum*) ei hunan i 200,000 o edrychwyr. O'r tu allan i hyn, drachefn, cwyd amddyrchfa brydferth o fryniau, lle y gallasai miliynau sefyll i edrych ar gyflawniad y seremoniau yn y cylch. Hefyd, yr oedd dwy rodfa geryg, tua hanner milltir bob un, yn arwain i'r un cylch o'r ochrau gwrthgyferbyniol, y rhai a ystyriai Stukley yn ben a chynffon sarff, tra y ffurfiai y cylch ei hunan ei thorchau yn y canol. Yr oedd rhai o feini yr Orsedd yma o gylch can tynell o bwysau, tra nad oedd y rhai trymaf yn Ngwaith Emrys dros ddeg tynell ar ugain." Rhydd y dyfyniad byr isod, o *Chwanegiadau Gough* eglurhad manylach ar yr Orsedd fawreddog yma:—"Y mae pentref o'r un enw [*Abury*=Caer Caradog] wedi ei adeiladu o geryg yr hen Gylch, oddi fewn ei amgeufa; ac y mae'r gerddi a'r perllanau, ac amgaeau ereill, wedi dirfawr anffurfio a chuddio 'r cynllun mawr cyntefig. Amgylchynir y cyfan gan amgaer, neu uchel rodfa o ddaear, o 60 troedfedd o led, a ffos oddi mewn iddi o'r un lled, tra y mae y trawsfesur yn 1400 o droedfeddi, yr amgylchedd yn 4,800, a'r arwynebedd yn 22 erw o dir......Y mae y cylch ceryg cyntaf sydd oddi mewn i'r llanerch yma yn 1,300 troedfedd o drawsfesur, ac yn cynnwys 100 o feini, o 15 i 17 troedfedd ysgwar, a leihawyd yn y flwyddyn 1742 i 40, o'r sawl nid oedd ond 17 yn unig yn sefyll, ac o gylch 43 troedfedd oddi wrth eu gilydd, wrth fesur o ganol y naill faen i ganol y llall. Y mae dau gylch llai oddi mewn i'r cylch mawr yma—pob un o honynt yn cynnwys dau gylch cymherfeddol (*concentric circles*), yr allanol yn 30, a'r mewnol yn 12 o feini, o'r un maint, ac yn yr un pellder oddi wrth eu gilydd a'r lleill. Yr oedd un maen yn nghanol y cylch deheuol o'r temlau cylchog hyn yn 21 troedfedd o uchder, a chell neu gafell yn nghanol y gogleddol, wedi ei ffurfio o dri maen, yn bolongl (*obtuse angle*) tua phob un o'r agoriadau, i'r gogledd-ddwyrain, o flaen yr hon gell yr oedd yr allor, megys yn Ngwaith Emrys." Yr adeilad aruthrol yma, yn ddiammheuol, oedd "Cludair Gyfrangon"=Crug y Cynnulliadau — Gorsedd Bryn Gwyddon=Bryn Gwybyddiad Beirdd Ynys Prydain; i'r man y cyrchai pawb o bob parth, ar dymmor penodol o'r flwyddyn, pan oedd Barddoniaeth yn ei rhwysg a'i gogoniant cyntaf, i gael eu hyfforddi, eu dysgyblu, a'u dedfrydu, yn ol eu gwahanol amgylchiadau, gan y Beirdd oeddynt brif ynadon ac "athrawon gwarantedig cenedl y Cymry."

Y mae y darluniad manwl a rydd Stukley o "Waith Emrys" (*Stonehenge*), yn dangos ei fod yn bur debyg ei adeilad i Gludair Gyfrangon y Bryn Gwyddon, a'i fod hefyd bron mor aruthrol a mawreddog; ond gan fod Stukley mor faith, a bod y naill "Waith" neu Orsedd mor debyg i'r llall, rhaid boddloni yma ar ddarluniad byr a gymmerir o Camden:—"Canys o fewn rhawd y ffos," eb efe, "y mae rhai meini mawrion anweithiedig, wedi eu hadeilio ar lun coron, yn dair rhes, y naill o fewn y llall, o'r sawl y mae rhai yn 28 troedfedd o uchder, a 7 troedfedd o led; ar benau y rhai y mae ereill fel darnau lledorweddog, yn cynnal ac yn gorphwys yn groeswedd, gyda thynoau a morteisiau bychain, fel y mae yr holl adeilwaith yn ymddangos yn hongian, o blegid yr hyn yr ydys yn ei alw yn *Stone-hang*"=maen chwyf. "Y mae ymddangosiad Gwaith Emrys," ebe y Dr. Stukley, "yn wir fawreddog, arswydus, ac aruthrol. Pan eir i'r adeilad, ar draed neu ar geffyl, gan daflu y golygon o amgylch yr adfeilion safnrwth, tarewir dyn â syndod perlewygol, y fath âg nas gellir ei ddarlunio, ac nas gall neb gael syniad am dano ond a'i teimlodd. Y mae parth tywyll yr ardlodfa bwysfawr uwch ben, lled ymddangosiad darniog yr awyr rhwng agenau y gafell, adeilad nodedig y cyfan, a mawredd aruthrol pob rhan yn dra rhyfeddol. Os edrychir ar y rhan, berffaith, dychymmygir fod cloddfäau cyfain wedi eu dyrchafu i entrych awyr—os ar y difrod gerwin is law, gwelir crombil y mynydd megys wedi ei droi y

Digitized by Google

tu gwrthwyneb allan." "Gall pwy bynag a ddarllenodd, neu a dueddir i ddarllen, fy hanes i am adeilwaith dwyreiniol," ebe Mr. Maurice, awdwr yr *Hynafiaethau Indiaidd*—"gall pwy bynag a wnelo hyny," ebe fe, "mewn cyssylltiad megys â syniadau seryddol a chwedlonol yr hynafiaid, weled y rhan fwyaf o'r haeriadau yn cael eu gwirio yn ffurf a threfniad *yr hen Deml Dderwyddol yma* [sef Gwaith Emrys, neu Gor Gawr]. Canys, yn y lle cyntaf, y mae yn gylchog, fel y profir yno fod yr holl demlau henafol. Yn yr ail lle, y mae'r ddirgelfa, neu 'r sanctaidd sancteiddiolaf, ar ffurf hirgrwn, yn cynnrychioli 'r bydolwy (*mundane egg*), yn ol y dull yr arferid adeiliaw yr holl ddirgelfäau yn y rhai y byddai y tân sanctaidd yn parhaus gynneu. Yn y trydydd lle, y mae y sefyllfa wedi ei threfnu yn seronyddol, a phrif fynedfäau y deml hon a Gorsedd Bryn Gwyddon wedi eu gosod yn fanwl tua'r gogledd-ddwyrain, megys ag yr oedd holl byrth neu fynedfäau y cylchau hynafol, a'r hen gylchdemlau. Yn y pedwerydd lle, y mae rhif y meini a'r sythogion (*uprights*), yn y cylch allanol, sydd gyda'u gilydd yn gwneyd trigain union, yn cyfeirio yn amlwg at y neillduolrwydd penodol ac arbenig hwnw perthynol i'r seryddiaeth Asiaidd, sef y *cylch trigeiniol*; tra y mae nifer y meini a ffurfiant gylch lleiaf y gilfa, sydd *bedwar ar bymtheg* union, yn dangos yr hynod *gylch Metonig*, neu yn hytrach, y *cylch Indiaidd*; a'r *deg ar ugain* sydd yn mynych gyfarfod, a gyfeiriant at enwog *oes neu genedlaeth y Derwyddon*. Yn bummed, y mae fod y deml [gwaith Emrys] yn *benagored* yn profi iddi gael ei hadeiladu dan ddylanwad syniadau cyffelyb i'r rhai a lywodraethent yr hen Bersiaid, y rhai a wrthodent y syniad annuwiol o gyfyngu y Duwdod o fewn creirfa gauedig, pa mor ardderchog bynag fyddo; am hyny, rhaid ei bod wedi ei hadeiladu cyn oes Zoroaster, beth bynag, yr hwn a flucheddai bum can mlynedd cyn Cred; ac efe oedd y cyntaf a amddodd y temlau Persiaidd. Ac yn olaf, y mae y penau a'r cyrn ychain, ac anifeiliaid ereill a ganfyddir yn gladdedig yn y lle, yn profi fod defodau aberthol wedi bod yn cael eu cyflawnu o fewn terfynau arswydus y cylch cafnol hwn."

Hy lerir y rhydd y darluniadau byrion yna, y rhai y buasai yn hawdd eu chwyddo yn llawer mwy, ryw amgyffred i'r darllenydd am fawredd, yn gystal a ffurf dwy brif Orsedd Beirdd Ynys Prydain, y rhai nas canfuwyd eu cyffelyb, hyd yn hyn, yn yr holl fyd, o ran eangder y cynllun, a maint aruthrol y meini a'u cyfansoddent. Y mae lluaws o rai cyffelyb o ran ffurf ac adail i'w canfod yn ngwahanol barthau Cymru, a Chernyw, a'r Alban, ac hyd yn oed ar y Cyfandir, ac yn yr India; ond nid oes un o honynt yn deilwng i'w cymharu, o ran ardderchogrwydd a rhwysgfawredd, i Waith Emrys a Chludair Gyfrangon; y rhai, yr oedd yn briodol mewn gwirionedd eu galw, fel y gwna'r *Trioedd*, yn "orchwyl gadarn Ynys Prydain."

Am y mân orseddau ereill (mân, mewn cymhariaeth i'r ddwy a nodwyd, er fod rhai o honynt yn fawrion ac aruthrol mewn ystyriaethau ereill), y rhai sydd yn ngwahanol barthau y deyrnas gyfunol, y mae yn sier nad oeddynt oll ond gorseddau *lleol* neu *daleithiol*, pan oedd holl Ynys Prydain dan lywodraeth y sefydliad barddonol; ac mai y brif orsedd genedlaethol, fel y dywedwyd, oedd CLUDAIR GYFRANGON.

Am y "Maen Cetti," ymddengys y barnai y Celtig Ddavies, mai prif faen yr orsedd, a alwai efe yn gromlech, ydoedd, pa le bynag y byddai y cyfryw faen yn cael ei "godi;" canys, eb efe, "pa drydydd math o gofweithiau Prydeinig y sydd yn dangos effaith y llafur mawr o '*godi y maen*,' oddigerth iddo fod yn faen y gromlech?" Nid ystyrir fod ei eglurhad ef ar ystyr y "Maen Cetti," yn ymddangos mor foddhaol, canys yr oedd efe yn gweled y dylif ac arch Noah yn mhob peth a wnelai yr hen Gymry: pa fodd bynag, dyma fel y dywedai:—"*Cetti* a ddeillia o *cet;* a rhaid yr arwyddai hyn *arch* neu *gist;* canys yr ydys fyth yn cadw y ffurf bychanigol *cetten* i ddynodi cistan neu gafell *fechan*. Am hyny, arwyddai *Maen Cetti* y gareg arch, ac nis gallai fod yn ddim amgen na'r maen aruthrol bwysig a orchuddiai y gell a gynddrychiolai yr arch."—"Hysbysir ni," meddai golygydd y *Cambro-Briton*, "fod maen dirfawr, yn gorphwys ar rai ereill, yn y parth hwnw o Forganwg, sy'n ffurfio gorynys Gwyr (Gower), a elwir hyd y dydd hwn yn Faen Cetti." Yna gofyn y golygydd ar i rywun o'i ddarllenwyr cyfagos i'r maen hwnw roddi darluniad o hono; ond ymddengys na wnaed sylw o'r erfyniad. Beth bynag am y maen hwnw sydd yn Morganwg, sy'n cael ei alw yn "Faen Cetti" (lle y dichon fod gorsedd daleithiol gynt), credir fel Davies, yn hyn o beth, mai y "Maen Gorsedd"=(maen y gymmanfa=*the stone of assembly*), lle bynag y byddai, a olygir wrth "Faen Cetti"=(maen y gafell). Yr oedd y Beirdd yn galw hwn, weithiau, yn "Faen Llog"=(maen y cyfammod), ac yn "Grair Gorsedd"=(lle cyfammod y gymmanfa); "ond nis gelwid ef fyth yn gromlech," meddai y Dr. Pughe; "ac nid yw yr enw yma i'w ganfod mewn unrhyw hen lawysgrifau;" am hyny yr oedd yn annheg gwthio y fath enw i sylw y cyffredin. Fe ddichon i'r allor hon gael ei galw yn gromlech o blegid yr un rhesymau ag y geilw y werin feini ereill o gyffelyb ffurf a sefyllfa yn gromlech; ond nid oes iddi y cyfeiriad lleiaf at y defnydd a wnai y Beirdd o honi. Yr oedd maen gorsedd y Gludair Gyfrangon, yr hwn y cyfeiria y *Trioedd* ato, fel y tybir, dan yr enw "Maen Cetti," o gylch *can tynell o bwysau;* gan hyny, yr oedd yn eithaf priodol i'r *Trioedd* gofnodi "codi" y fath "faen" aruthrol, fel un o "dair gorchwyl gadarn Ynys Prydain."

### AMSER CYNNAL YR ORSEDD.

Am amser cynnal yr Orsedd, fe ddywed Cæsar y cynnaliai Derwyddon Gâl eu Gorsedd "ar dymmor penodol o'r flwyddyn." Diau i'r Galiaid gael y ddefod yma, yn gystal a holl brif ddefodau eu sefydliad, "o Brydain," fel y tystia Cæsar; canys felly y gwnai y Beirdd hefyd:—"Ar bedwar amser arbenigion o'r flwyddyn," meddai yr hen *Gofion*, "y mae cadw a chynnal Gorsedd a Chadair, wrth Fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain, nac (neu) ym mraint unrhyw Gadair Ardal (daleithiol) ba bynag, sef yw'r amseroedd hynny, pedwar ban haul; sef,

1. "Y cyntaf yw 'r Alban Arthan (*Winter Solstice*), a'i syrth ar y ddegfed ddydd o fis Rhagfyr, pan y byddo dydd byraf y Gauaf; a'r dydd hynny y cyntaf o'r flwyddyn a'r Gauaf, herwydd defod yr hen Gymry, a chyfrif y Beirdd herwydd hen gof a chadw.

2. "Yr ail yw'r Alban Eilir (*Vernal Equinox*), a'i syrth ar y ddegfed ddydd o fis Mawrth; a'r dydd cyntaf o'r Gwanwyn yw.

3. "Y trydydd yw'r Alban Hefin (*Summer Solstice*), a'i syrth ar y ddegfed ddydd o fis Mehefin; a dydd cyntaf yr Haf, a dydd hwyaf yr Haf.

Digitized by Google

Pliny, Richard, Rowlands, a'u dysgyblion, nis gwyddom ni; ond gwyddom yn dda ddigon, na phrofasant hwy, ac nas gall neb arall brofi, byth bellach, fod dim gwir yn y cyhuddiad gyda golwg ar Feirdd Ynys Prydain; ac eithaf annheg, fel y dywed Carnhuanawc, a phrawf rhy amlwg o analluogrwydd yr ysgrifenwyr i wahaniaethu rhwng Derwyddiaeth Gâl, a Barddoniaeth Prydain, ydyw eu gwaith yn cymhwyso yr hyn a ddywed y prif awduron estronol am Dderwyddon Gâl, at Feirdd Ynys Prydain. Y gwir ydyw, nad ysgrifenodd neb o'r cyfryw estroniaid hynafol ddim cymmaint a pharagraph na llinell am ein Beirdd cyntefig ni; am hyny, y maent i sefyll neu syrthio, yn unig a chyfangwbl, yn wyneb yr hanesion Cymreig, a'r gweddillion barddonol a adawsant yn eu Gorseddau Ceryg (a gamenwir Cromlechau, &c.), ar hyd a lled holl Ynys Prydain. O herwydd hyn, ni phetrusir hòni fod pawb yn gwbl analluog i brofi fod gan ein Beirdd cyntefig ni unrhyw barch coelgrefyddol i dderw, nac uchelwydd, nac unrhyw goed na llysiau ereill; a hònir hefyd, am hyny, mai cwbl afreidiol ydyw i neb geisio esgusodi Beirdd Ynys Prydain am addoli mewn llwyni derw, a'r cyffelyb, o blegid fod Abraham ac ereill yn gwneyd hyny. Cyn myned i'r drafferth i'w hesgusodi, *profer* eu bod yn euog o'r weithred, os tybir fod euogrwydd yn perthyn iddi.

Dichon fod y Beirdd, fel meddygon, yn gwneyd defnydd o'r derw, yr uchelwydd, a llysiau ereill, mewn meddyginiaeth; ac y mae hyn yn *dra thebyg*, er ei fod yn amddifad o unrhyw brawf boddhaol.

Yr oedd R. o Cirencester, Rowlands, ac ereill, yn meddwl yn sicr mai *derw* yw gwreiddyn y gair *Derwydd;* ac mai o barch i'r pren hwnw y cymmerodd y Derwyddon yr enw; ac aeth rhai o'r ysgol yma cyn belled a thir Groeg i chwilio am wreiddyn yr enw yn δρῦς, neu δρυὸς—*derw!* Llawer tebycach ydyw mai gwreiddyn yr enw yw y gair Cymraeg *gwydd=presennoldeb*, neu *wybodaeth*, yn cael ei rymuso gan y blaenddod *dar*—dar-gwydd=*derwydd;* ac y mae yr ystyr sydd i'r gair, yn ol y tarddiad yma, yn cwbl gytuno â'r darluniad a roddir o Dderwyddfardd yn y *Trioedd*, fel gradd neu ddosbarth o Feirdd Ynys Prydain, fel y ceir gweled eto. Ond *Gorseddau* y Beirdd sydd dan sylw yn bresennol.

Y FFURF O AGOR A CHAU YR ORSEDD.

Am y ffurf o agor a chau yr orsedd, yn y prifnod cyntefig, yr ydys yn sylwi arno yn awr, ofnir nad oes odid ddim ar gof a chadw y gellir ymddiried iddo. Nid yw'r *Trioedd* yn cofnodi unrhyw ffurf neillduol; ac nid oes awgrymau at y peth yn y prif awduron estronol, wrth egluro Derwyddiaeth Gâl, y gellir tynu casgliadau priodol ar y pwnc oddi wrthynt. Cymmaint ag a ddywedir yn y *Trioedd*, gyda golwg ar yr Orsedd ydyw, nad oedd "noeth arf yn erbynu" ynddi; ei bod i'w chynnal "yn heddwch Duw a'i dangnef;" "dan nawdd gwlad ac arglwyddd;" "yn wyneb haul a llygad goleuni;" mai ei harwyddair oedd, "Y gwir yn erbyn y byd," a'r cyffelyb bethau, fel y gwelir yn y dyfyniadau a wnaed yn barod. Os oedd rhyw seremoniau yn cael eu harfer, fel y mae'n bur debyg fod, credir eu bod yn bur syml yn yr amseroedd cyntefig, fel y byddai yn ddigon gweddus iddynt fod eto. A oedd cleddyf yn cael ei ddwyn i'r Orsedd, ac yn cael ei weinio gan y beirdd gwyddfodol ar y "Maen Crair," yn droednoeth ben-noeth—sydd braidd yn rhy anhysbys ar hyn o bryd. Ac am y cangau derw a ddygir yn mlaen y dyddiau hyn, credir yn ddiau nad ydynt ond arferion diweddar mewn cymhariaeth, a ddygwyd i mewn ar awdurdod chwedlau'r prif awduron a ddyfynwyd eisoes, am barch Derwyddon Gâl i'r pren hwnw, gan rai heb ddeall y gwahaniaeth rhwng "oferbwyll" yr Ellmyn, a barddoniaeth gynnwynol Beirdd Ynys Prydain. Ac am y defodau a soniwyd, dywed ysgriflyfrau Iolo, —"Eithr nis bernir yn gynneddfawl wrth anian, am y gellir pob gwir a gwybod, a phob cof a chadw, a phob celfyddyd ac addysg, hebddynt." Am hyny, gadewir y "pethau defodawl" hyn, weithion, fel arferion prifnodau dyfodol, gan nas gellir penderfynu a oeddynt ar arfer gan gyssefin feirdd Ynys Prydain ai peidio.

BARDD YR ORSEDD.

Yr oedd gwybod "Barn Gorsedd Beirdd Ynys Prydain" o bwys mawr yn y prifnod dan sylw; a'r unig hanes am y modd y ceffid hyny, hyd yr ydys yn gwybod, a welir yn y dyfyniadau hyn: —"Barn Gorsedd Beirdd Ynys Prydain a fydd ym mraint y trechaf o nifer, wrth fwrw coelbren, neu ryw ffordd arall a wypper y trechaf o rif, neu y gorfodrif, ac a'i cynnullier; a gwneuthur pob gorchwyl yn mraint barn Gorsedd.

"Modd y gwypper barn Gorsedd yw hyn: yn ol barn a nawdd Gorsedd a ddangoser ar a fo cais ac achos; yna ei roddi wrth gyrch ail Orsedd; ac o gael barn a nawdd yr ail Orsedd, ei roddi ar gyrch y drydedd Orsedd; ac o gaffael barn a nawdd honno, cadarn y bernir a ddangoswyd, a chyfallwy [effeithiol]; ac nid oes barn Gorsedd amgen na hyny.

"Yr Orsedd gyntaf i bob cais a dangos, a elwir Gorsedd Gyfarch; ac o gael nawdd a barn honno, myned ar gyrch Gorsedd yr ail waith, a'r Orsedd honno a elwir Gorsedd Hawl; ac o gael nawdd a barn yn honno, cyrchu 'r drydedd, a galw honno Gorsedd Gyfallwy; a chyfallwy y gelwir o hynny i maes a fu wrth gais neu achos gorsedd; ac heb farn a nawdd y tair gorsedd hynn, nid â unpeth, ai cân, ai beth bynag y bo, ym mraint Gorsedd Beirdd Ynys Prydain. Nid oes bwys na deddf ar na chân, nac un peth arall, ai cof, ai addysg, ai hysbysrwydd y bo, na pha bynag, onid el wrth farn a nawdd Gorsedd gyfallwy Beirdd Ynys Prydain; yna gorsedd a chyfallwy y byddant.

"Ef a ellir cynnal Cyfarch a Hawl yng Nghadair Beirdd gwlad a chyfoeth [cadair daleithiol], na fo wrth fraint unbenaeth Prydain; megys pei cynnelid yng Nghadair Morganwg, neu Gadair Gwynedd, neu unrhyw Gadair arall; eithr nis gellir cyfallwy ond yng Ngorsedd Beirdd Ynys Prydain.

"Nid oes cadarn ar wir eithr ym mraint a llafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain; ac ar lafar Gorsedd y dylid pob gwybod a el yn Ngorsedd, oni bo cyfallwy; ac nid oes o air nac o ddefod yn y byd a el yn erbyn llafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain. Sef hyny y gelwir, y dadgan a wneir yng Ngorsedd ar a wypper gan Feirdd Ynys Prydain, ar gof a chadw o'r pethau a'r celfyddydau a wiriwyd yng Ngorsedd, onid aethant yn gyfallwy a chadarn; ac nis gellir barnu yn wir cadarn, namyn a ddangoswyd yn yd [onid] aeth yn gyfallwy a chadarn yn Ngorsedd Beirdd Ynys Prydain; ac o hynny, ei fyned ar lafar Gorsedd, ac ar gerdd dafawd gyfallwy. Nis gellir braint ar na cherdd, na llafar, na defod yng Ngorsedd, a fo anwir, ac annhangnef, ac anneddf; ac nis gellir derbyn nac anwiredd neu annhangnefedd, nac anneddfoldeb, ar gerdd nac ar lafar, nac ar gof, nac ar ymddwyn, gan Feirdd ynys Prydain yng Ngorsedd; canys anghenneddyl [priodol]

Digitized by Google

iddynt gynnal a chadarnhau gwir, a heddwch, a deddf, a gwrthod pob peth a el yn erbyn y pethau hynny."

Gwelir yn y dyfyniadau hyn nad oedd un math o gyfansoddiad lleynddol—na chân, na chof, nac addysg, na hysbysrwydd—nac un peth arall i gael ei ddwyn i'r sefydliad, na'i draddodi er addysg y genedl, heb gael barn a nawdd *tair Gorsedd* ddilynol arno; sef Gorsedd Gyfarch, Hawl, a Chyfallwy, yn mhob un o'r rhai yr oedd raid dadgan y cynnyrch yn gyhoeddus, a chael y trechaf o nifer, sef y gorfodrif, o'i blaid yn mhob gorsedd olynol. Wedi cael ei gymmeradwyo fel hyn, fe'i dadgenid, yn nghyd â holl ddefodau ac arferion y sefydliad, yn gyhoeddus, yn mhob Gorsedd Gyfallwy o hyny allan. Yr oeddynt yn ystyried defodau y sefydliad, o'u dadgan fel hyn, yn wastadol, yn fwy diogel (os nad oeddynt felly mewn gwirionedd) na phe yr ysgrifenasid hwynt, heb law ei fod yn rhoddi ymarferiad godidog i gof aelodau y sefydliad; am hyny, medd Cæsar, nid oeddynt yn ystyried fod yn gyfreithlawn ysgrifenu trefniadau'r sefydliad, er eu bod yn ysgrifenu pob peth arall perthynol i'w gorchwylion cyfrinachol a chyhoeddus, â llythyrenau Groeg—neu yn hytrach, meddai'r Celtig Davies, â llythyrenau Coelbren y Beirdd, y rhai oedd mor debyg i'r hen lythyrenau Groeg, fel y camgymmerodd Cæsar, ac yntau yn Lladinwr, y naill lythyrenau am y lleill. I'r manylwch gofalus crybwylledig, a arferid yn yr Orsedd, yn un peth, yn ddiau, y gellir priodoli cadwraeth ddilwgr Barddoniaeth Ynys Prydain, i raddau rhagorach nag a geir gyda golwg ar ddefodau odid un genedl arall dan haul sy'n adnabyddus, oddi gerth yr Israeliaid yn unig—arfer y rhai o ddadgan y gyfraith i'r bobl ar amserau gosodedig, ydoedd dra thebyg i arfer Beirdd Ynys Prydain. Ond ceir achlysur i grybwyll hyn yn mhellach eto wrth ymdrin ag athrawiaeth y Beirdd.—Y pwnc nesaf a ddaw dan sylw ydyw,

GRADDAU BEIRDD YNYS PRYDAIN.

Dywedwyd eisoes mai enw cyffredinol a dynodol aelodau y sefydliad barddonol oedd *Beirdd;* ac yr oedd y rhai hyn o dair gradd—*Prif-fardd, Ofydd,* a *Derwyddfardd.* Ond cyn egluro yr amryw raddau hyn, ar wahan, dylid dywedyd ychydig am ddosbarth arall, a elwid

*Awenyddion*; sef dysgyblion anurddedig y Beirdd. Gyda golwg ar y rhai hyn yn Gâl, dywed Cæsar,—"O blegid y fath freintiau mawrion" ag a berthynai i Dderwyddon Gâl, "y mae lluaws yn dewis y broffes o'u bodd eu hunain, ac amryw yn cael eu rhoddi ynddi gan eu rhieni a'u perthynasau. Dywedir fod yr efrydwyr [Awenyddion] i ddysgu nifer mawr o bennillion ar dafod leferydd yn y sefydliad; ac am hyny, fod rhai dan ddysgyblaeth yno am ugain mlynedd. Nid ystyrient fod yn gyfreithlawn ysgrifenu trefniadau eu sefydliad, er eu bod agos yn mhob peth arall yn eu gorchwylion cyfrinachol a chyhoeddus yn defnyddio llythyrenau Groeg. Ymddengys i mi," meddai Cæsar, "y dewisasant y drefn yma o blegid dau beth; sef, am nad ydynt yn hoffi dadguddio eu cyfrinion i'r werin bobl, ac am fod y dysgyblion [Awenyddion], os pwysant ar ysgrifen, yn ymroddi llai i gofio; gan y dygwydd yn gyffredinol fod y rhai a ymddiriedant mewn ysgrifen, yn pallu yn eu diwydrwydd i ddysgu yn drwyadl, ac yn eu hymarferiad o'r cof."

Bernir mai y pethau cyntaf a ddysgid i'r Awenyddion hyn, medd y Dr. Pughe (a chefnogir y dyb gan Cæsar), oedd traddodiadau y sefydliad, ieithyddiaeth, yn cynnwys gramadeg, rhesymeg, areitheg, mydryddiaeth, a'r cyffelyb bethau oedd angenrheidiol i'w cymhwyso i fod yn athrawon y bobl. Bernir hefyd mai hwynt-hwy oedd y *Dadgeiniaid;* ac mai y pethau a ddadganent yn mhob Gorsedd oedd y gwirebau a'r diarebion angenrheidiol i'w gwneyd yn hysbys i'r genedl; ac er mwyn iddynt fod yn haws i'w cofio, ac yn ddifyrach i'r pwyll, yr oeddynt oll wedi eu cyfansoddi yn "bennillion," fel y dywed Cæsar, ar ddull *Trioedd,* neu Englynion Milwr; megys yr anghreifftiau a ddyfynwyd eisoes o *Pompon. Mela,* a *Diog. Laertius,* a'r rhai sydd gadwedig yn yr iaith Gymraeg. Yr oedd y rhai hyn, a ddadgenid yn mhob Gorsedd, er addysg y bobl, mor bell o fod yn ddychymygol neu amwys, megys yr haera rhai, fel mai prin y canfyddir unrhyw ffugr ieithyddol ynddynt braidd un amser, fel y ceir gweled yn fuan. Yr oeddynt mor eiddigus, mewn gwirionedd, ar i'r "pennillion" hyn gynnwys *gwir,* a dim ond gwir, fel nas goddefent i gymmaint ag un pennill gael ei ddadgan byth yn gyhoeddus mewn Gorsedd, cyn cael y gorfodrif o'i blaid mewn tair Gorsedd flyneddol cyn ei ddadgan.

Dau reswm a rydd Cæsar dros waith Derwyddom Gâl yn peidio ysgrifenu eu pennillion: sef cadw eu cyfrinion, a minio cof yr Awenyddion. Ond yr oedd gan Feirdd Prydain resymau ereill, llawn mor bwysig; sef planu yr egwyddorion cyfreithlawn i'w dadgan yn meddyliau y genedl, a'u cadw rhag llygredigaeth. Wedi i bawb eu cofio, a thra yn cael cyfleusdra cysson, yn y Gorseddau, i'w hail glywed, yr oedd yn llawer anhaws eu llygru na phe buasent yn ysgrifenedig ar hyd a lled yr ynys, heb fod yn nghof y genedl.

Gyda golwg ar yr Awenyddion, yr oeddynt dan y ddysgyblaeth fanylaf yn ystod eu holl "drofedigaeth" (*apprenticeship*); ac yr oedd yr ysbaid mor faith—"ugain mlynedd"—fel yr oedd yr athrawon yn cael cyfleusdra i'w hadnabod yn berffaith; ac nid oedd dim o bwys yn cael ei ymddiried iddynt cyn i'w dealltwriaeth, eu serchiadau, eu moesau, a'u hegwyddorion fyned dan y prawf manylaf. Yr oedd llygad craffus yn cael ei ddal arnynt, ebai y Dr. Pughe, yn mhob man, bob amser—ïe, pan na byddent hwy yn meddwl hyny; ac ni chaent byth eu hurddo, cyn i'r gorfodrif o'r frawdoliaeth gael perffaith foddlonrwydd yn eu holl ymddygiadau a'u hegwyddorion, ac yn enwedig o'u cymhwysder diammheuol i gadw cyfrinach.

Y tri Bardd a gymmerasant atynt Awenyddion gyntaf, oedd, Plenydd, Alawn, a Gwron. "Gwedi trefnu y pethau hyn" (sef trefnu unbenaeth Prydain, a Chwilio Cerdd Tydain Tad Awen, a graddu y tri Bardd yn Ngorsedd), "fe gymmerwys y tri Phrifardd hynny, nid amgen na Phlenydd, Alawn, a Gwron, Awenyddion atynt yn drofedigion (efrydwyr ar brawf=*students in progression*), iddeu dysgu a'u hathrawiaethu yng nghelfyddyd Barddoniaeth; a thrwydded (*endowments*) a rodded i'r Beirdd a'u Hawenyddion; am hyny, gelwir y Beirdd yn drwyddedigion braint (*endowed Bards by right*), a'r Awenyddion, trwyddedigion hawl neu nawdd (*endowed disciples by claim, or protection*); a gwneuthur hyny oll yn mraint rhaith gwlad ac Arglwydd."

"Dau rhyw Awenyddion y sydd, nid amgen *trofedig nawdd* a *throfedig braint.* Trofedig nawdd yw yr un a gymmero benceirdd o brydydd gorseddog atto iddei ddysgu a'i athrawiaethu yng

Digitized by Google

nghelfyddyd Barddoniaeth a chyfrinach Barddas, ac yng nghof breiniau a defodau Beirdd Ynys Prydain; ac fel hynn y bydd oni ddysgo'r cwbl. Ag yna myned yng nghyfarch Gorsedd am ei radd; ac o fyned hynny yn nawdd Gorsedd, *trofedig braint* y gelwir ef, ac o enw a galw arall, *trwyddedog nawdd;* can y bydd iddo drwydded prydydd yn nawdd Gorsedd; sef yw hynny, trwydded mab aillt [cyfran estron=*the portion of an alien's son*], a syberwyd Cymro cynhenid [braint Cymro genedigol, o foesgarwch = *the immunities, by courtsey, of a native Cambrian*]; a bod wrth hynn ynnydd el [onid el] yn orseddog, sef yn brydydd wrth farn a rhaith Gorsedd Gyfallwy; a sef yw hynny, prydydd gorseddog, neu Brifardd cyssefin.

"Dau ryw *nawdd* y sydd; y cyntaf a elwir nawdd Beirdd Ynys Prydain, ac yn hwn y mae pob Cymro cynhenid a fytho wrth addysg Beirdd a Barddoniaeth, ac o hynny yn gywiriaid gwlad [hyny yw, y mae iddo hawl i fod yn mysg gwladgarwyr=*he is entitled to rank among loyal patriots*"]; a phob un na fytho felly, gwr wrth ddifrod ac anraith y gelwir ef. Y ddwyfed nawdd, yw nawdd Gorsedd; sef yw hynny, o fyned yng nghyfarch Gorsedd, a chaffael nawdd; sef yw'r nawdd honno, barn wrth raith Gorsedd y gellir a geisier: megis ac y mae trofedig nawdd yn myned yng nghyfarch Gorsedd am ei radd, a chaffael barn defodawl Gorsedd y gellir prydydd o honaw, yna trofedig braint y bydd efe. A *nawdd Gorsedd* y gelwir a fo braint wrth y farn honno: ac yn nawdd honn y mae pob arglwydd gwlad a chyfoeth, a phob gwr wrth raith gwlad, a phob ynad, a phob dysgawdr, a phob golychwydwr [addolwr], a phob mab aillt [estron] wrth swydd a chennadaeth ei wlad a'i arglwydd, a phob gwr wrth gennad gwlad a gorwlad, a phob gwr wrth gennad heddwch a brawd [heddwch a chyfiawnder=*peace and justice*] a phob gwr a ddangoso wellâd ac amlhâd ar nebryw gelfyddyd a gwybodaeth, a fo er lles byd a bywyd. Nawdd Bardd graddedig yw iddo, am radd amgen nac a fo'n barod arnaw, myned wrth gyfarch hyd yn nawdd, ac yna cadarn y bydd a gais, a chyfallwy. Nawdd *trwyddedawg nawdd,* neu *drofedig braint* yw, o'i fyned wrth gyfarch Gorsedd hyd yn nawdd rhoi cadair iddaw; ac yna myned wrth hawl Gorsedd dros flwyddyn, ac o gael nawdd ail Orsedd, y rhoddir cadair arall iddaw; ac ym mhen y flwyddyn, myned yng Ngorsedd wrth arddelw, hyd yn nawdd yr Orsedd honno, yna cadair iddo, a gorseddog a chyfallwy y bydd ef, ac wrth Fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain. O chaiff brydydd o drwyddedog nawdd gadair mewn tair gwlad yn yr un flwyddyn, a dangos hynny yng Ngorsedd Beirdd Ynys Prydain, gynted ag y mynno, bernir y prydydd hwnnw yn Fardd gorseddog o Brifardd cyssefin."

Yn y dyfyniadau hyn, gwelir "trofedigaeth" (cynnydd) yr Awenydd, trwy ystod holl amser ei ddysgyblaeth—o'i ymgyflwyniad cyntaf i'r swydd farddol, hyd ei urddiad yn "brifardd cyssefin."

Yn awr, sylwir, mor fyr ag y gellir, heb wneyd cam â'r pwnc, ar y tair gradd gyntefig, ***Prif-fardd, Ofydd***, a ***Derwyddfardd.***

Er nad yw Cæsar, yr hwn a ysgrifenodd helaethaf o neb ar Dderwyddiaeth Gâl, yn crybwyll dim am swydd bardd ac ofydd, eto y mae Strabo, oedd yn bucheddu yn ebrwydd ar ei ol (sef yn y ganrif gyntaf), yn crybwyll y tair gradd, er nad yn yr un drefn a'n *Trioedd* ni yn hollol: ei drefn ef yw Δρυΐδαι, Οὐατεῖς, Βαρδοὶ=Derwyddon, Ofyddion, Beirdd. [*Strab.*, llyfr iv.] Crybwylla Ammianus Marcellinus (o'r bedwaredd ganrif) am danynt yn yr un drefn a'r *Trioedd:*—"*Post hæc loci hominibus parum exculti inguêre studia liberalium doctrinarum, inchoata per Bardos, Euvates, & Druidas*"=Yna cynnyddodd gwybodaeth o'r celfyddydau a'r gwybodau yn mysg y werin bobl, a ddechreuwyd gan y Beirdd, yr Ofyddion, a'r Derwyddon. [*Amm. Marc.*, llyfr xv.]

Y mae hyn yn profi, tu hwnt i ddadl, fod y tair gradd mewn hanfod, yn sefydliad Gâl, mor fore, o leiaf, ag amser Strabo; ac y mae yn hawdd canfod yn ei waith ef, ac ereill o'r uchawduron estronol, nad rhyw drefn ddiweddar ydoedd; yr hyn a brawf yn ddiammheuol nad "chwedlau gwneuthur" ydyw yr hyn a ddywed *Trioedd Dyfnwal Moelmud* ar y pwnc yma, fel y myn rhai i ni gredu. Y mae Marcellinus yn rhoddi darluniad byr o swydd pob gradd o Dderwyddon Gâl; a chan ei fod yn fyr, rhoddir sylwedd ei eglurhad yma, cyn dwyn tystiolaeth awdurdodol y *Trioedd* ger bron:—"Y *Beirdd,*" eb efe, "a ganent gyfansoddiadau gwych ar eu telynau am weithredoedd nerthol eu gwroniaid: yr *Ofyddion* a edrychent yn ddyfnach i natur, gan gynnyg canfod ei chyfrinion uchaf, a'i gweithrediadau mwyaf dirgelaidd; ac yn mysg y rhai hyn y mae y *Derwyddon,* yn ddynion mwy coethedig, ac yn hôni ffurfio cymdeithas yn ol rheolau Pythagoras, yn cwbl ymroddi i fyfyrio pethau dwyfol a chuddiedig, gan ddiystyru pob mwyniant daiarol, a sicrhau yn hyderus fod eneidiau dynion yn anfarwol." Yn eithaf cysson â hyn, ond yn llawer helaethach ac eglurach, dengys y Trioedd fod i Feirdd Ynys Prydain, gystal a Derwyddon Gâl, *dair gradd:*—

I. "*Prif-fardd,* neu Fardd trwyddedog o fraint [*a bard of full privilege*], ac iddo ei radd a'i fraint o drofedigaeth [dysgyblaeth reolaidd=*regular instruction*] gan athraw gwarantedig o Fardd gorseddawg. Ac arno y mae pob cof celfyddyd a gwybodau hyd y bônt yn ei swydd ef o Fardd gwarantedig o radd a braint; a hefyd, pob cof a chadw gwlad a chenedl ar briodasau, ac achau, ac arfau, a rhandiroedd, a breiniau gwlad a chenedl."

Ymddengys y gweddai i'r Prif-fardd fod yn hyddysbys yn y "Tair cangen llenoriaeth, nid amgen—1. Tafodawg [cyfieithiad] cyfraith, sef hyny a fytho yn dafodawg [llafaredig] y rwng Cymro ac alltud anghyfiaith. 2. A fetro arwyddaw [arlunio] arfau, a gweithredoedd moliannus, a dichweiniau rhyfeddolion, yn a'u dealler [fel y dealler *yr arluniadau*] gan a'u gwelont: ac ef a elwir y rhyw un a hwnw [y fath arluniwr], Arwyddfardd [*Emblem Bard*]. 3. A fedro ar lyfyr a llythyr, ac ysgrifenu a darllen y Gymraeg yn gyfiawn, a dodi addysg ar hyny, a chadw cof llythyr ar dri chof Beirdd Ynys Prydain; sef ydynt, achau bonedd o briodasau, a rhandiroedd, a gweithredoedd a gwybodau moliannus. * * * Ac efe a fydd yn wr llys gwlad ac arglwydd, ac yn ewyllys y llys, a'i hyngnaid, a'i brawdwyr, yn nyddiau llys a gorsedd gan ddosbarth cyfraith."—"Tair celfyddyd llys y sydd: (1.) Yngneidiaeth [gweinyddiad cyfiawnder]. (2.) Cyfarwyddyd ar ddosparthau a threfnau gwlad a chyfraith; a chof cadwedig arnynt. (3.) Cenadwriaeth [*embassage*] gorwlad" [gwlad gymmydogol].—Hefyd, "celfyddydau doethineb, ac ar Feirdd gorseddogion y cof, a'r cadw, a'r addysg, gan athrawon gwarantedig, o swydd wrth gelfyddyd barddoniaeth."

Digitized by Google

Prydain, ym mraint Prifeirdd, a Phrifeirdd y gelwir bob un o'r tri, am eu bod o gyssefin hanfod, wrth ddeddf, a defod, a braint Gorsedd gyssefin Beirdd Ynys Prydain, yn amser Prydain ap Aedd Mawr.

"*Cyntaf* yw prydydd, sef Prifardd pendant, neu Brifardd cyssefin; ac nis gellir hwn onid o wr a fo prydydd o awen, a chelfyddyd, a throfedigaeth; a'i ddyled yw prydu, a chynnal cof braint a defod, a chadw barddas rhag myned ar gam a choll.

"*Ail* yw Ofydd, ac nis [gofyner] arno drofedigaeth, eithr yn ol ei gradder yn Ngorsedd; sef yw Ofydd, gwr wrth awen, ymgais, a dichwain; a'i ddyled yw, gwelläu ac amlhau dysg a gwybodaeth, a rhoddi wrth farn Gorsedd, a wnelo, onid el yn gyfallwy.

"*Trydydd* yw Derwydd, ac nis gellir hwn onid o un o'r ddau arall, sef y naill ai prydydd [Prif-fardd] ai Ofydd, gan farn a rhaith Gorsedd: a gwr wrth bwyll, ac ansawdd, a gorfod y bydd; a'i ddyled yw athrawiaethu, a chynnal rhagorsedd, a rhaccadair, a golychwyd ar fannau ac adfannau lleuad; ac ef a ddysg gyfrinach barddas, a dwyfoldeb, a doethineb, a moesau daionus; a braint ac enw Prifardd a berthyn ar bob un o'r tri hynn, ac yn ogyfuwch braint a bonedd y naill a'r llall o honynt."

"Tri rhyw Prifeirdd y sydd: Bardd Braint, neu Brifardd pendant, wrth fraint a defod a llafar gorsedd; a'i swydd yw llywodraethu:—Ofydd, wrth awen, ymgais, a dichwain; a'i swydd yw awenyddu:—Derwydd, wrth bwyll, ansawdd, a gorfod; a'i swydd yw athrawiaethu."

Dyma sylwedd yr hyn oll sydd ar gof a chadw, o ddim pwys ac awdurdod, am raddau, a'r modd y greddid Beirdd Ynys Prydain: lle gwelir yn amlwg, yn un peth, nad oedd y tair achen neu radd hyn—Prif-fardd, Ofydd, a Derwyddfardd—yn ddim amgen nag enwau tair urdd y Bardd; sef aelod o'r sefydliad barddonol: ac am hynny, y gallasai yr un bardd gymmeryd y tair gradd; *h. y.*, gallasai yr *un person* fod yn Brif-fardd, Ofydd, a Derwyddfardd (ac yr oedd lluaws felly), yn hollol yr un fath ag y gall yr un person yn y dyddiau hyn fod yn B. A., M. A., a D. D; sef *Bachelor of Arts*=Baglor y Celfyddydau; *Master of Arts*=Athraw y Celfyddydau; a *Doctor of Divinity*=Doethawr Duwinyddiaeth.

Peth arall a welir yn gwbl ddiammheuol yn y dyfyniadau hyn, ydyw, fod pob un o dair achen neu radd y Beirdd, yn cael eu hystyried ganddynt hwy yn *berffaith gyfartal*; sef, yn eu geiriad prydferth hwy eu hunain, "yn ogyfuwch urddas a'u gilydd, sef y naill a'r llall, eithr cyfurddas, cyfunbwys, cyfunbarch a'u bernir," "ac yn ogyfuwch braint a bonedd y naill a'r llall o honynt."

Hefyd, gwelir yn ddigon amlwg y gallasai Bardd, yn meddu un o'r tair gradd—Prif-fardd, Ofydd, neu Dderwyddfardd—wasanaethu swydd y ddwy radd arall yn ddiwahaniaeth, ac yn hollol ddiseremoni, pan na byddai rhai yn meddu y graddau hyny yn bresennol: a bod yr hwn a wnelai hyny "yn ennill iddo ei hun radd dda (sef y radd y gwasanaethai y swydd berthynol iddi), a hyfder mawr" mewn Barddoniaeth, heb fod dim chwaneg yn ofynol, ond ei gyhoeddi yn yr Orsedd ddilynol, fel y cyfryw, yn mraint y swydd a wasanaethodd. Byddai yn burion peth, efallai, i'r ymhonwyr sy'n taeru nad oes i neb gael y radd ddibwys o Dderwyddiaeth bresennol, heb fod yn "weinidog crefydd," ystyried hyn; ac ymostwng i gydnabod eu hanwybodaeth o'r hen ddefodau.

Y mae un peth arall nas canfyddir yn y dyfyniadau blaenorol, nac mewn unrhyw hanes warantedig arall am Feirdd Prydain, yn teilyngu sylw neillduol yn y fan yma; sef, yr oedd y bod dychymygol hwnw sydd yn ymrithio yn mysg beirdd goddiweddar Cymru, er's nas gwyddys yn iawn pa hyd, a elwir *arch-dderwydd*—erthyl na wyddai hen feirdd cynnwynol Ynys Prydain ddim am dano, yn ei berthynas â'u sefydliad hwy; yn wir, y mae yn fod cwbl estronol i farddoniaeth Prydain, a hollol groes i egwyddorion mwyaf cyssegredig y beirdd—yn fod a hanfodai yn unig yn mysg "y Gwyddelod, Cymry Llydaw, a'r Ellmyn," y rhai "a lygrasant a fu ganthynt ar ddysg o farddoniaeth Beirdd Ynys Prydain, trwy gymmysg oferbwyll, ac o hyny a'i collasant." Cwbl gyfartalwch tair achen y Beirdd, fel y gwelir uchod, oedd un o'u syniadau penaf hwy: canys, meddynt, "Y mae goruchafiaeth awdurdod gwahanfodol yn beth nas dichon berthyn i neb ond Duw yn unig; achaws y goruwch allu a roddes hanfod i bawb, ydyw yr unig allu a fedd hawl gyfiawn i reoli dros bawb. Nis perthyn i neb dyn awdurdod dros arall; can os dichon dros un, dichon dros fyrddiwn, a thros fyd cyfan. Y mae pob dyn, wrth raid ac angen yn ogyfuwch gyfartal a chyfurddas: y mae y pedair elfen sydd yn hanfod pob dyn, neu ba beth bynag ar nad yw waith llaw, yn eiddo priodol i'r naill fel y llall."

Y mae yn ddiammheu fod "arch-dderwydd" yn deitl a arferwyd gan Eglwys Rhufain yn lled agos i'r un amser ag y daeth y teitl o "archesgob" i arferiad yn yr eglwys hono. Tybir braidd fod y diweddaf yn hynach na'r cyntaf: pa fodd bynag, yr oedd y naill a'r llall yn gwbl ddyeithr yn Ynys Prydain hyd o gylch dechreu y bummed ganrif, pan y daeth Garmon a Bleiddian yma—dau Babydd o Lydaw, ac y gwnaethant "archesgob yn Llan Daf." Ar ol hyny byth, cawsant sweraeth a pharch yn Ynys Prydain—y naill gan yr Eglwys a'r llall gan y Beirdd; ond gan mai â'r teitl o arch-dderwydd y mae a fynom yma, ni phetruswn ddywedyd ei fod yn gwbl estronol a chroes i "Farddoniaeth gyfiawn Ynys Prydain"—"oferbwyll" Beirdd diweddar ydyw: a goreu fyth po cyntaf y teflir heibio yr eilun archyddol yma, ac y denir i gofleidio egwyddorion pur a syml y sefydliad cyntefig.

Dichon y cyfeiria pleidwyr selog y llwyth archyddol ni at Cæsar, am awdurdod hynafiaeth o blaid eu syniadau gwrthfarddonol, yr hwn a ddywedodd—"Y mae un yn llywyddu y Derwyddon hyn [Derwyddon Gâl], yr hwn sy'n meddu goruchlywodraeth yn eu plith. Wedi iddo ef farw, os bydd rhywun yn rhagori ar y lleill, hwnw a gaiff ei ddilyn; ond os bydd amryw yn gyfartal, gwneir etholiad drwy bleidlais y Derwyddon; ac weithiau, ymrysonir am y llywyddiaeth âg arfau."

Digon o ateb i hyn ydyw, a ddywedwyd lawer gwaith eisoes, yr hyn hefyd a ddywedodd Cæsar ei hunan yn bendant; sef, mai darluniad o Dderwyddon Gâl yn unig a roddai efe, ac nid o Farddoniaeth Prydain; ac y mae'r geiriau—"ymrysonir am y llywyddiaeth âg arfau," yn profi tu hwnt i ddadl fod yr "Ellmyn," fel y galwai y Cymry gynt bob estroniaid o'r cyfandir, wedi "llygru cymmaint ar a fu ganthynt ar ddysg o farddoniaeth Ynys Prydain," fel yr oeddynt wedi ei llwyr golli erbyn amser Cæsar; canys dengys

Digitized by Google

pob peth a ysgrifenwyd erioed ar Farddoniaeth Ynys Prydain, mai "heddwch a thangnef" cyffredinol oedd gwir sylfaen y sefydliad; o blegid yr oedd Bardd i fod yn ymroddwr mor llwyr i "heddwch a thangnef," fel nad oedd efe byth, ar unrhyw achlysur, i "ddwyn arfau," nac i fod yn rhanog mewn un math o "ymryson," na gwladol na chrefyddol. Yn wir, un o'i "dair braint" et oedd, "nas dyger arf noeth yn ei erbyn," nac hyd yn oed "yn ei wydd." Yr oedd yr enw "Bardd Ynys Prydain," y pryd hyny, yn gyfystyr i *genad heddwch* yn awr; am hyny, gallai ef, yn ei "wisg las unlliw" (arwydd o heddwch a gwirionedd) fyned yn "genad gorwlad" i fysg gelynion, yn hollol ddiberygl—wrth yr hon wisg yr adnabyddid ac y perchid ef yn mhob man, ar bob amgylchiad. Os ymddangosai efe fel hyn, hyd yn oed rhwng dwy fyddin elynol, meddai Diodorus Siculus, wrth son am Dderwyddon Gâl, tra ar ganol ymladd, rhoddai y naill a'r llall eu harfau i lawr, i wrandaw ei genadwri. Yr oedd ymddangosiad Bardd yn y fath amgylchiad, yr un y pryd hyny, mewn gwirionedd, ag ydyw cyfodiad baner heddwch yn awr; ac yn nglŷn â'r amgylchiad yma yn benodol, dywedir am Feirdd Ynys Prydain, "A gair eu gair hwy ar bawb." Meddyliodd Diodorus Siculus mai yr achos o'r fath effaith o ymddangosiad Bardd, ar y fath amgylchiad, oedd, hyawdledd y cânau a chwareuai gyda'i delyn. Dichon fod effaith yn hyny hefyd, yn enwedig yn mysg y Gâliaid llygredig, a ddarlunia Siculus. Ond yr achos o'r fath effaith yn Ynys Prydain oedd, fod pob llwyth yn yr ynys yn cydnabod y Bardd fel cenad "heddwch a thangnef."

Hyderir fod yn ddigon amlwg bellach nad oedd yr "un" y soniai Cæsar am dano, a lywyddai holl Dderwyddon Gâl—am swydd yr hwn yr "ymrysonid âg arfau;" yr hwn a alwyd gan Richard o Cirencester, yn "benaeth," a chan Rowlands a Pennant, ac ereill o'r un ysgol, yn "arch-dderwydd"—nad oedd hwn ond ffrwyth llygredigaeth a "chymmysg oferbwyll" Derwyddon Gâl; heb fod iddo na rhan, na chyfran, na swydd, na chymmaint a hanfod erioed, yn Marddoniaeth Beirdd Ynys Prydain. Y peth nesaf a ddaw dan sylw ydyw,

DULL Y BEIRDD O GYFRANU ADDYSG.

Gan nad oedd y Beirdd yn ysgrifenu dim o'u haddysg nac i'w dysgyblion nac i'r werin, fel y dangoswyd eisoes o Cæsar ac o'r *Trioedd*, er eu bod yn ysgrifenu pob peth perthynol i'w gorchwylion cyfrinachol a chyhoeddus, yr oeddynt yn ymroi i wellâu y cof i'r fath raddau godidog, fel y rhagorai'r Cymry yn hyn ar bob cenedl arall adnabyddus; o blegid mai trwy gyfrwng y cof y dewisasant hwy drosglwyddo eu hegwyddorion mwyaf cyssegredig, o genedlaeth i genedlaeth. Tuag at wneyd hyn yn effeithiol, canfuasant fod yn angenrheidiol iddynt drefnu eu haddysg yn y dull mwyaf cryno a hygof, i'r hyn y rhoddasant y sylw manylaf. Yr egwyddor a gymmerasant fel arweinydd yn hyn yma oedd y rhif *tri*, "yr hwn," fel y sylwa un athronydd, meddai E. S. A., "sydd fath o derfyn adgyfnerthol i'r galluoedd naturiol; a chyn belled a hyny, o leiaf, y mae yn seiliedig ar natur, ac yn cael y bri mwyaf gan brydyddion pob oes." Ymddengys mai yr un egwyddor a ddilynai y beirdd yn eu cyfansoddiadau rhyddieithol a phrydyddol—os nad prydyddol, yn wir, oedd y cyfan yn gyntefig: pa fodd bynag, er mwyn eu gwahaniaethu, gelwir hwynt yma yn rhyddieithol a phrydyddol. Yr olaf, a elwir yn awr prydyddol, a gyfansoddid yn driban, ac a elwid er's cyn cof yn "Englyn Milwr," fel yr awgrymwyd eisoes. Nid oedd y llinell gyntaf i hwn, fel yr ymddengys wrth yr anghreifftiau a gyrhaeddasant yr oesoedd hyn, ond math o agoriad yn unig, neu arweiniad. Yr ail linell a ddwg i sylw ryw amgylchiad mewn anianyddiaeth, neu ryw wybodaeth gyffredinol, neu deuluol; a'r drydedd a gynnwysai ryw addysg foesol mewn dull diarebol. Y penillion hynaf sydd ar gael yn awr, o'r dull yma, yw yr eiddo Llywarch Hen; a thybir ei fod ef wedi cymmeryd y cynllun, os nad llawer o'r meddyliau hefyd, o gyfansoddiadau llawer hynach, a drosglwyddwyd o athraw i ddysgybl hyd ei oes ef; fel y dichon, medd Carnhuanawc, fod ambell fan sydd ar gael eto yn wir waith Beirdd cyntefig Ynys Prydain. Dyma 'r dull:—

"Gorwyn blaen derw, chwerw brig on;
Chweg efwr: chwerthiniad ton,
Ni chel grudd cystudd calon."

Dyma un arall diweddarach:—

"Eiry mynydd, gwancus iar,
Gochwiban gwynt ar dalar,
Yn yr ing, goreu yw'r câr."

Fel hyn, meddai'r Celtig Ddavies, "pa ddalen bynag o natur a ymgynnygiai i'w sylw, cynlluniodd eu hathrawon, y Derwyddon [Derwyddon y galwai efe y Beirdd, yn ol cynllun Cæsar, &c.], i'w gwneyd yn ddalen doethineb."

Y cyfansoddiadau barddonol cyntefig, a elwir yma yn rhyddieithol, a alwyd yn *Drioedd;* a bernir yn gyffredin eu bod wedi tarddu o gyfansoddiadau prydyddol, tribanog, megys yr anghreifftiau uchod. Yn wir, credir gan rai gwŷr galluog, yn bur gadarn, fod y *Trioedd* yn cael eu hystyried, gynt, yn brydyddol, gystal a'r "Englyn Milwr."

Yr oedd cyfansoddiad fel yr isod yn cael ei ystyried yn brydyddiaeth, mor ddiweddar ag amser Catwg Ddoeth, yn y bummed ganrif:—

"Heb serch heb synwyr,
Heb synwyr heb ddeall,
Heb ddeall heb ystyr,
Heb ystyr heb wybod,
Heb wybod heb bwyll,
Heb bwyll heb ddysg,
Heb ddysg heb ddawn,
Heb ddawn heb Dduw,
Heb Dduw heb ddim."
"*Catwg Ddoeth a'i cant.*"

O blegid hyn, ac amryw bethau ereill y gellid eu crybwyll, bernir gan amryw fod yr hen *Drioedd* oll yn cael eu hystyried gynt, ar ddull pennillion; megys—

"Tri cheinmyged Beirdd Ynys Prydain:
Gorfod dysg ar annysg,
Gorfod pwyll ar anmhwyll,
A gorfod heddwch ar ddifrod ac anrhaith."

Y mae y *Trioedd* hyn, fel y cyrhaeddasant ni, wedi eu dosbarthu ar wahanol bynciau; megys, *Trioedd hanesol*=Trioedd Ynys Prydain; *Trioedd Cerdd*, a *Thrioedd Awen*, a *Thrioedd Braint a Defod* (*Institutional Triads*); *Trioedd Cyfraith* =Trioedd Dyfnwal Moelmud; *Trioedd Barddas* (*Theological Triads*); *Trioedd Doethineb* (*Ethical Triads*), &c. Nis gall neb benderfynu, erbyn hyn, trwy ba faint o gyfnewidiadau y mae y *Trioedd* yma wedi myned er pan draddodwyd hwynt gan y Beirdd cyntefig; ond y mae un peth yn sicr ddiogel—fod sylwedd rhai o honynt, beth

Digitized by Google

bynag, cyn hyned a Diogenes Laertius, a Pompon Mela—nis gall neb wadu hyn ar dir teg a chadarn. Pan ddechreuodd Barddoniaeth fyned ar gil, ac y dechreuwyd llaesu yn niwylliad y cof, teimlodd rhai o weddillion gwladgarol yr hen frawdoliaeth fod yn bryd dechreu ysgrifenu yr hyn oedd ar gael o draddodiad y tadau—yr hyn a wnaethant. Pa bryd y gwnaed hyn gyntaf, sydd anhysbys yn bresennol; ond dywed Fychan o'r Hen-gwrt, fod y llawysgrif hynaf oedd ar gael yn ei oes ef mor fore a'r seithfed ganrif; a dichon (ac y mae yn dra sicr hefyd) mai copi o lawysgrif hynach fyth oedd hono. Gwnaed copïau drachefn o honynt yn y ddeuddegfed, y drydydd ar ddeg, a'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn y *Trioedd* hyn, yn benaf, y ceir eglurhad tra boddhaol ar y pwnc nesaf yr oeddys yn meddwl sylwi yn tyr arno. sef

ATHRAWIAETH Y BEIRDD.

Yr oedd athrawiaeth y beirdd yn ddwy ran;—yr hyn a ddysgent i'w dysgyblion; a'r hyn a ddysgent i'r werin. Ymddengys mai yr unig weddillion a'n cyrhaeddasant ni o'r hyn a ddysgent i'w dysgyblion ydyw, y *Trioedd Cerdd ac Awen*, a *Thrioedd Braint a Defod.* Rhoddir anghreifftiau o'r naill a'r llall; ac y maent mor ddyddorol, fel nad oes dim perygl y blina y darllenydd ymofyngar arnynt.

TRIOEDD CERDD.

1. Tri prif anhebgor Awen: llygad yn gweled anian; calon yn teimlo anian; a glewder a faidd gydfyned âg anian.

2. Tair diben barddoniaeth: cynnydd daioni; cynnydd dyall; a chynnydd diddanwch.

3. Tair cynneddf myfyrdod cyfiawn: a ddichon fod; a ddylai fod; ag y sy hardd ei fod.

4. Tri anhebgor iaithcerdd: purdeb; amledd; a hyweddiant.

5 Tri pheth a ddylid eu dyall yn iawn ar gerdd: y mawr; y bach; a'r cyfyngid (*superfluous.*)

6. Tri gochel cerdd: distadl, tywyll, a gormodd.

7. Tri phen ystyr dyfalu: a welir yn amlwg; a serchir yn hyfrys; ag a fo brifnod teithi (*strikingly characteristic*).

8. Tri arderchogion cerdd: gwir a rhyfedd yn un; hardd a doeth yn un; a gorchest ag anian yn un.

9. Tri buddioldeb cerdd: mawl y daionus; cof am hynod; ag arialu (*invigorate*) serch.

10. Tri phurdeb cerdd: gwirionedd pur; iaith bur; ag ymddwyn pur.

11. Tri thrwyogaeth (*thoroughly things*) cerdd: trylen (*thoroughly erudite*); trynwyf (*thoroughly animated*); a thrynaws (*thoroughly naturul*).

Y mae lluaws ereill o *Drioedd Cerdd ac Awen*; ond ni wiw eu dyfynu yma, er eu godidoced. Dengys y rhai uchod rediad y cyfan.

TRIOEDD BRAINT A DEFOD.

1. Tri chyntefigion Beirdd gorseddog Ynys Prydain: Plenydd; Alawn; a Gwron.

2. Am dri achos y gelwir y Beirdd yn Feirdd wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain: yn gyntaf, am mai yn Ynys Prydain y cafwyd Barddoniaeth gyntaf; yn ail, am na chafwys un wlad arall erioed ddeall cyfiawn ar Farddoniaeth; yn drydydd, am nas gellir cynnal Barddoniaeth gyfiawn, eithr ym mraint defodau a llafar gorsedd Beirdd Ynys Prydain; ac am hyn, o ba wlad bynag y bônt, Beirdd wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain a'u gelwir.

3. Tri chof Beirdd Ynys Prydain: cof cân; cof llafar gorsedd; a chof defod.

4. Tri rhyw Beirdd Ynys Prydain: Prifeirdd er cyn Cred a gwedi Cred; Beirdd Beli; a'r Oferfeirdd.

5. Tri rhyw Prifeirdd y sydd: Bardd braint, neu Brifardd pendant, a'i swydd yw llywodraethu; Ofydd, wrth awen, ymgais, a dichwain, a'i swydd yw awenyddu; a Derwydd wrth bwyll, ansawdd, a gorfod, a'i swydd yw athrawiaethu.

6. Tair braint Beirdd Ynys Prydain: trwyddedogaeth lle 'r elont; nas dycer arf noeth yn eu herbyn; a gair eu gair hwy ar bawb.

7. Tair diben Barddoniaeth: gwellâu moes a defod; cynnal heddwch; a moli pob daionus a rhagor.

8. Tripheth a waherddir i Fardd: dwyn anfawl; dwyn anfoes; a dwyn arfau.

9. Tri modd addysg Beirdd Ynys Prydain: addysg llafar; cân; a defod, wrth fraint gorsedd.

10. Tri llawenydd Beirdd Ynys Prydain: llwydd gwybodaeth; gwellad moes; a gorfod heddwch ar ddifrod ac anraith.

11. Tair cheinmyged (*splendid triumphs*) Beirdd Ynys Prydain: gorfod dysg ar annysg; gorfod pwyll ar amhwyll; a gorfod heddwch ar ddifrod ac anraith.

12. Tri angenddyl (*congeniality*) Beirdd Ynys Prydain: amlygu gwir a'i ddosparth; cynnal cof mawl am a fo daionus a rhagor; a gyru heddwch ar ddifrod ac anraith.

13. Tri angenwrthun Beirdd Ynys Prydain: cel, gan orfod, er heddwch a lles; cwyn anfawl gan raid cyfiawnder; a noethi cledd ar ddifrod ag anraith.

14. Tri pheth nid oes a el yn eu herbyn: defod gorsedd; cân gorsedd; a llafar gorsedd.

15. Tri pheth a ddylai Bardd eu cynnal: y iaith Gymraeg; y brif Farddoniaeth; a chof am bob daionus a rhagor.

16. Tri pheth nis gellir Bardd hebddynt, awen wrth gerdd; gwybod cyfrinach Barddas; a chynneddfau da.

17. Tair deddf-ochel y sydd ar Fardd: gochel diogi, can mai gwr wrth ymgais ydyw; gochel cynen, can mai gwr wrth heddwch ydyw; a gochel ffolineb, can mai gwr wrth bwyll ydyw.

18. Tair cenedl a lygrasant a fu ganthynt ar ddysg o Farddoniaeth Beirdd Ynys Prydain, ag o hyny a'i collasant: y Gwyddelod, Cymry Llydaw, a'r Ellmyn.

Y rhan arall o'r hyn a elwir yma yn *Athrawiaeth y Beirdd*, fel y tybir, ydyw cynnwysiad y trioedd ereill a nodwyd. Rhoddwyd amryw anghreifftiau eisoes o'r *Trioedd Hanesol*, a'r *Trioedd Cyfraith;* gan hyny, ymgyfyngir yn awr at y ddeufath arall, gan ddechreu gyda'r

TRIOEDD BARDDAS (*Theological Triads*).

1. Tri un cyntefig y sydd, ag nis gellir amgen nag un o honynt: un Duw; un gwirionedd; ac un pwngc rhyddyd; sef y bydd lle bo cydbwys pob gwrth.

2. Tripheth tardd o'r tri un cyntefig: pob bywyd; pob daioni; a phob gallu.

3. O dri angenfod y mae Duw: sef y mwyaf parth bywyd; y mwyaf parth gwybod; a'r mwyaf parth nerth; ag nis gellir namyn un o'r mwyaf ar unpeth.

4. Tripheth nis dichon Duw lai na bod: a ddylai 'r da cyflawn; a ddymunai 'r da cyflawn; ag a ddichon y da cyflawn.

5. Tri thystion Duw ar a wnaeth ag a wna: gallu anfeidrol; gwybodaeth anfeidrol; a chariad anfeidrol; gan nad oes nas dichon, nas gwyr, ag nas gwna y rhain.

Digitized by Google

6. Tri phendod gwaith Duw, er peri pob peth: dirymu 'r drwg; nerthu 'r da; ag amlygu pob gwahaniaeth; fal y gwyper a ddylai, oddi wrth na ddylai fod.

7. Tri pheth nis gall Duw lai na'u gwneuthur: y mwyaf ei les; y mwyaf ei eisiau; a'r mwyaf cr harddwch pob peth.

8. Tri chadernyd hanfod: nis gellir amgen; nid rhaid amgen; ag nis gellir gwell gan feddwl; ag yn hyn y diwedd pob peth.

9. Tri pheth dir y byddant: eitha gallu; eitha deall: ag eitha cariad Duw.

10. Tri bannogion Duw: bywyd cyfoll; gwybodaeth cyfoll; a chadernyd cyfoll.

11. Tri achos bywedigion: cariad Duw gan eitha deall cyflawn: deall Duw yn gwybod eitha moddion; a nerth Duw gan eitha myn cariad a deall.

12. Tri chylch hanfod y sydd; cylch y ceugant [*the immense void beyond the bounds of the material creation*], ag nid oes namyn Duw a eill ei dreiglo; cylch yr abred [gwel ABRED], lle pob ansawdd-hanfod o'r marw, a dyn a'i treiglwys; a chylch y gwynfyd, lle pob ansawdd-hanfod o'r byw, a dyn a'i treigla yn y nef.

13. Tri chyflwr hanfod bywedigion: cyflwr abred yn annwn [gwel ANNWN]; cyflwr rhyddyd yn nyndod; a chyflwr cariad, sef gwynfyd yn y nef.

14. Tri angen pob hanfod wrth fywyd: dechre yn annwn: treigl yn abred; a chyflawnder yn y nef, sef cylch y gwynfyd; ag heb hyn o dripheth, nis gellir unpeth namyn Duw.

15. Tripheth angen yn abred: y lleiaf o bob byw, ag o hyny dechre; defnydd pob peth, ag o hyny cynnydd, yr hyn nis gellir mewn cyflwr amgen; a llunio pob peth o'r marw, ag o hyny gwahanfod [*individuality*].

16. Tripheth nis gellir amgen na'u bod ar bob byw, gan gyfiawnder Duw: cydymoddef yn abred, can heb hyny, ni cheylai [chaffai] neb gyflawn wybod ar ddim; cydran cydfraint yng nghariad Duw; a chyttiwedd, gan allu Duw wrth a fo cyfiawn a thrugar.

17. Tri achos angen abred: cynnull defnydd pob ansawdd; cynnull gwybodaeth pob peth; a chynnull nerth er gorfod pob gwrth a chythraul, ag ymddiosg â'r drwg; ag heb hyn o dreiglo pob cyflwr byw, nis gellir cyflawn ar un byw na bod.

18. Tri phrif anffawd abred; angen; anghof; ag angau.

19. Tri pheth angen y sydd cyn cyflwyr wybodaeth: treiglo 'r abred; treiglo 'r gwynfyd; a chof o'r cyfan hyd yn annwn.

20. Tri chynghyd anhebgor abred: anghyfraith, gan nas gellir amgen; diangc angau rhag drwg a chythraul [difrodiad=*devastation*]; a chynnydd bywyd a daioni, gan ymddiosg â'r drwg yn niangc angau; a hyn o gariad Duw yn gafaelu ar bob peth.

21. Tri pheiriant Duw yn abred er gorfod drwg a chythraul, a diangc oddi wrthynt at wynfyd: angen; anghof; ag angau.

22. Tri chynghyfoedion y sydd: dyn; rhyddyd; a goleuni.

23. Tri angenorfod dyn: dioddef; newid; a dewis; a chan allu dewis, ni wyper am y ddau arall cyn dygwydd.

24. Tri chydgyfran [*equiportions*] dyn: abred a gwynfyd; angen a rhyddyd; a drwg a da; ag oll yn gydbwys, a gallu gan ddyn ymlynu wrth yr un a fyno.

25. O dripheth y syrth angen abred ar ddyn: anymgais â gwybodaeth; anymlyn â'r da; ag ymlyn â'r drwg; sef y syrth, gan hyn o bethau, hyd ei gydryw yn abred; a threiglo yn ei ol fal y bu gyntaf.

26. O dripheth y syrthir yn abred gan angen, er ymlynu ym mhob peth arall â'r da: o falchder hyd annwn; o anwiredd hyd obryn; ag o annhrugaredd hyd gydfil; a threiglo yn ol at ddyndod fal o'r blaen.

27. Tri chyntefigaeth cyflwr dyn: cynnull cyntaf ar wybodaeth; cariad; a nerth, heb angau; ag nis gellir hyn ym mraint rhydd a dewis cyn dyndod; a'r tri hyn a elwir y tri gortrech [*the three victories*].

28. Tri gortrech ar ddrwg a chythraul y sydd: gwybodaeth; cariad; a gallu; gan y gŵyr, y myn, ag y dichon y rhain, yn eu cynghyd, y pethau a fynont; ac yng nghyflwr dyn eu dechre, a pharhau dros fyth.

29. Tri braint cyflwr dyn: cydbwys drwg a da, ag yna, cymhariaeth; rhyddyd wrth ddewis, ag o hyny, barn a dewis; a chynnechre gallu, ym mraint barn a dewis; gan eu rhaid cyn dim arall o wneuthur.

30. Tri gwahaniaeth angenorfod rhwng dyn (a phob byw arall) a Duw: ing ar ddyn, ag nis gellir ar Dduw; dechre ar ddyn, ag nis gellir ar Dduw; ag angen newid cyflwr olynol yn nghylch y gwynfyd ar ddyn, o anoddef y ceugant, ag nis gellir ar Dduw, gan allu pob dioddef [gan y gall ef gydymddwyn â phob peth], a hyny gan wynfyd.

31. Tri chyntefigaeth gwynfyd: annrwg; aneisiau; ag annarfod.

32. Tri adfer cylch y gwynfyd: awen gyssefin [*original genius and character*]; agared gyssefin [*restoration of all that was primevally beloved*]; a chof cyssefin, am nas gellir gwynfyd hebddynt.

33. Tri gwahanfod pob byw gwrth arall: awen; cof; a chanfod; sef y bydd cyflawn ar bob un; ag nis gellir cyfun y rhain ar un byw arall, a phob un yn gyflawn, ag nis gellir dau cyflawn ar ddim.

34. Tri pheth a roddwys Duw ar bob byw: sef cyflawnder ei ryw; gwahander pen ei hun; a bannogaeth awen gyssefin rhag arall; yna hunan cyfoll pob un gwrtharall.

35. O ddeall tripheth y bydd difant a gortrech ar bob drwg a marw: ansawdd; achos; a pheiriant; a hyn a geir yn y gwynfyd.

36. Tri chadernyd gwybodaeth: darfod treiglo pob cyflwr bywyd; cofio treiglo pob cyflwr a'i ddamwain; a gallu treiglo pob cyflwr fal y myner er prawf a barn; a hyn a geir yn nghylch y gwynfyd.

37. Tri bannogion pob byw yng nghylch y gwynfyd: swydd; braint; ag awen; ag nis gellir dau 'n bod un-gyfun ym mhob peth, gan y bydd cyflawn pob un yn y bo bannog arno; ag nid oes cyflawn ar ddim heb y maint oll a ddichon fod arno.

38. Tripheth nis gall namyn Duw: dioddef bythoedd y ceugant; cynghyd â phob cyflwr heb newidiaw; a rhoi gwell a newydd ar bob peth, heb ei roi ar goll.

39. Tripheth nis gellir darfod byth arnynt, gan angen eu galledigaeth: dull hanfod; ansawdd hanfod; a lles hanfod; gan hyn, byddant hyd fyth yn eu hanrwg, ai byw ai marw ydynt, yn amrytael hardd a daionus cylch y gwynfyd.

40. Tri rhagor newid cyflwr yn y gwynfyd: addysg; harddwch; a gorphwys, rhag anallu dioddef y ceugant a'r tragwyddol.

Digitized by Google

41. Tripheth sydd ar eu cynnydd: tân, sef goleuni; deall, sef gwirionedd; ag enaid, sef bywyd; a gorfod a wnânt ar bob peth; ag yna, diwedd abred.

42. Tripheth sydd ar eu difant: tywyll; anwir; a marw.

43. Tripheth sy'n ymgadarnhau beynydd, gan fod mwyaf yr ymgais attynt: cariad; gwybodaeth; a chyfiawnder.

44. Tripheth sy'n ymwanhau beynydd, gan faint penaf yr ymgais yn eu gwrth: cas; camwedd; ag anwybodaeth.

45. Tri chyflawnder gwynfyd: cyfran ym mhob ansawdd, ag Un cyflawn yn penu; cyfymddwyn â phob awen, ag yn Un rhagori; cariad at bob byw a bod, a thuag Un, sef Duw, yn benaf: ag yn y tri Un yma y saif cyflawnder nef a gwynfyd.

46. Tri angen Duw: anfeidrol ger ei hun; meidrol ger meidrol; a chyfun â phob cyflwr bywydolion yn nghylch y gwynfyd.

Y mae *Trioedd Doethineb* yn gannoedd o nifer: ni roddir yma ond anghraifft yn unig o honynt.

TRIOEDD DOETHINEB [*Ethical Triads*].

1. Tri chynnorion (*primary principles*) doethineb: ufuddhâd i ddeddfau Duw; ymgais â lles dyn; a dioddef yn lew pob digwydd bywyd.

2. Tair deddf gweithredoedd dyn: a waharddo yn arall; a geisio yn arall; ag ni waeth gantho ba wedd y bo gan arall.

3. Tri pheth o'u deall a barant heddwch: syrth anian; hawl cyfiawnder; a llafar gwirionedd.

4. Tair ffordd y sydd i chwilio calon dyn: sef, yn y peth nas tybio; yn y modd nas tybio; ag ar y pryd nas tybio.

5. Tri pheth y sydd nis câr Duw a'u caro: gweled ymladd; gweled anghynfil; a gweled rhodres balchder.

6. O dri pheth y mae doethineb: gwirionedd; ystyr; a goddef.

7. Tri diben gwybodaeth: dyled; budd; a phrydferthwch.

8. Tri dyn y dylai pawb edrych yn serchog arnynt: sef, a ddisgwyl yn serchog ar wyneb y ddaear; ar ymbwyll celfydd; ag ar blant bychain.

9. Tri dyn ni charant eu gwlad: a garo ei fol; a garo gyfoeth; ag a garo esmwythder.

10. Tri pheth y sydd, a'r wraig a garo weled y cyntaf, nis anghar weled y ddau arall: wyneb ei hun mewn drych; cefn ei gwr o bell; a gordderchwr yn ei gwely.

11. Tri chwerthin ffol: am ben y da; am ben y drwg; ag am ben nas gwyr beth.

12. Tri pheth sy'n llygru 'r byd: balchder; afraid; a seguryd.

13. Tri dyn y sydd: dyn i Dduw, a wna dda dros ddrwg; dyn i ddyn, a wna dda dros dda; a dyn i ddiawl, a wna ddrwg dros dda.

14. Tri nodau plant Duw: ymddwyn difalch; cydwybod lân; a dioddef camwedd yn amyneddgar.

15. Tri phrif ofynion Duw: cariad; cyfiawnder; ag ufudd-dod.

Y mae rhai Cymry wedi dyfod yn mlaen yn ddiweddar i wadu hynafiaeth y *Trioedd*, yn enwedig *Trioedd Dyfnwal Moelmud*, o blegid y *llythyraeth* y cyhoeddwyd hwynt ynddi yn *Henafiant Cymry* (*Archaiology of Wales*). I fod yn gysson, dylent wadu hynafiaeth *Iliad* Homer, *Æneids* Virgil, a *Chofnodion* Cæsar; canys y mae y llythyraeth yr hon y cyrhaeddasant ni ynddi mor wahanol i'r un yr ysgrifenwyd hwynt ynddi gan yr awdwyr, ag ydyw llythyraeth y *Trioedd* uchod i lythyraeth *Coelbren y Beirdd*. Ofnir mai blys ymhynodi sydd wrth wraidd y fath ymhoniad disail. Y mae yn hawdd i bob dyn diduedd a chraffus weled ar unwaith, mai yn llythyraeth y Dr. Pughe, a Iolo Morganwg, y mae y rhan fwyaf o lawer o gynnwysiad yr *ail* a'r *trydydd* llyfr o *Henafiant Cymru;* ac y maent yn llawer mwy buddiol felly, na phe buasent yn llythyraeth y *Llyfr Coch o Hergest*, a'i gyfoedion: ac nid llawer o niwed fyddai eu cael mewn llythyraeth fwy arferedig fyth. Cyn y gall neb byth wadu hynafiaeth yr hen *Drioedd* Cymreig oll, rhaid iddynt brofi diweddarwch gwaith Diogenes Laertius, a Phompon Mela!

Ond at y pethau canlynol yr oeddys am alw sylw arbenig ar hyn o bryd:—Os creffir ar y *Trioedd* blaenorol, gwelir, yn

1af. Fod yr hen feirdd yn credu yn hanfod *Un Duw Goruchaf;* yr hwn a alwent, fel y dengys yr hen *Gofion*, dan wahanol enwau, yn ol eu syniad am ei briodoliaethau, yn Dduw, Deon, Dofydd, Celi, Ior, &c.

2il. Eu bod yn credu fod Duw yn llywodraethu y byd, yn ei ragluniaeth. Ystyr yr enw Dofydd, ydyw Llywodraethwr, Rheolwr, Arglwydd.

3ydd. Eu bod yn credu cyfrifoldeb moesol dyn; a'i fod, tra yn "nghyflwr dyndod," mewn sefyllfa o ddysgyblaeth a phrawf.

4ydd. Fod ganddynt olygiadau tra chywir ar "dda a drwg" moesol.

5ed. Eu bod yn credu anfarwoldeb yr enaid; a sefyllfa o wobr a chosp ar ol angeu. Y mae yn wir nad oedd eu syniadau ar gosp yn hollol gyfystyr â golygiadau cyffredin Cristionogion y dyddiau hyn—yr oeddynt hwy yn credu mai prif ac unig ddyben cosp oedd gwellau pob byw a bod, a'u hadferu yn y diwedd i ddedwyddwch di dranc.

6ed. Eu bod yn credu trawsymfudiad yr enaid o'r naill gorff i'r llall. Yr oedd iddynt lawer o ddilynwyr yn hyn o beth; megys Gymnosophiaid yr Aipht, Brahminiaid India, Magiaid Persia, yr Esseniaid Iuddewig; a dyma oedd cred prif athronwyr Groeg a Rhufain. Fel hyn hefyd y credai Origen, ac amryw o'r cyn-Gristionogion; ac ysgrifenodd Soame Jenyns, awdwr Seisoneg pur fedrus, ac amddiffynwr selog Cristionogaeth, yn yr oes ddiweddaf, draethawd hyawdl a nerthol o blaid y golygiad.

7fed. Dengys y *Trioedd* hyn a rhai Dyfnwal Moelmud, fod gan yr hen Feirdd a'r Cymry barch arbenig i briodas a chymdeithas deuluaidd ddihalog—yn wir, un o orchwylion penodol Bardd a llenor oedd "cadw cof am arfau, ac achau, a *phriodasau* teilyngion."

Y mae yn ddiau y gellir gweled amryw bethau ereill gwerth eu sylwi yn y *Trioedd* blaenorol; ond rhaid prysuro yn mlaen, i wneyd sylw byr ar y peth nesaf; sef

BREINTIAU Y BEIRDD CYNTEFIG.

Mae mynegiadau Cæsar ar hyn, gyda golwg ar Dderwyddon Gâl, o flaen y darllenydd eisoes: ac o barth Beirdd Ynys Prydain, dywed yr hen *Gofion*—

"Trwyddedogaeth Bardd gorseddog yw hynn; sef, heb law y pumerwi rhyddion a ddylid iddo, ym mraint Cymro cynhenid, pumerwi rhyddion eraill, neu eu dogn a'u gwerth, a dogni hynny yn y maint a fo raid ar yr eraid [erydr], gan raith barn gwlad a chyfoeth (*by national and professional suffrage*). A dogn hefyd a fydd i Fardd am ei gerdd, yn ol y bernir yng ngorsedd gwlad ac arglwydd, neu gan raith gwlad. A dogn, yn yr un modd, i Fardd wrth addysg a golychwyd

Digitized by Google

Dogn hefyd a fydd i Brydydd [=Arwyddfardd] o bob neithior frenhinawl, ac o bob neithior fonheddig; sef yw hyny, o Gymro a Chymraes, am gynnal cof, a dwyn eu hachau, fal y bo diogel eu breiniau cynhenid. Dogn hefyd y sydd am bob gweithred foliannus a wnelir. Ac os o un-gwr y bydd y weithred honno, dogn o ddefod gadarn a fydd i'r Prydydd; ac [os] o wlad a chenedl y bydd, yna braint cylch clera a fydd i'r Prydydd a wnelo gof a cherdd yn y wlad a'r genedl honno. A rhoddion o syberwyd a fydd iddo; a lle ni chaffer syberwyd, ceiniog o bob arad. A rhaid yw rhoddi y cerddi cof hynny wrth farn gorsedd, fal y gwelir eu gwired a'u celfyddyd, cyn gallu braint cylch clera. Braint yw hefyd cylch clera i Feirdd a Throfedigion braint, unwaith yn y tair blynedd; a rhoddion o syberwyd a fydd iddynt, ac nid oes na deddf na defod ar hynny, namyn, cariad, a pharch, a syberwyd" [=ewyllys da].

AM WISG Y BEIRDD.

"Gwisg bardd a fydd yn unlliw parth y wisg honno; eithr lliw priawdbwyll y sydd i bob un o'r trirhyw Prifardd, yn wahanred, herwydd yr achen [gradd] y bo'r Bardd.

"Sef, y gwisg brydydd o Brifardd cyssefin, a wisg ŵn o liw glas yr wybren, gan haf a hinon, yn nod ac arwydd o heddwch a thangnef; ac mai trwy hynny o liw y gwelir yn oreu y goleuni, a phob gweledig arall. A'r wisg yn oleulas gyfunlliw, yn nod ac arwydd gwirionedd, canys cyfunlliw trwyddaw a throstaw oll, o fann ac o beth bwy gilydd y bydd gwirionedd, heb o'r lleiaf yn wahanred, un man na pheth, ar y llall.

"Gwisg Derwydd yw gwynn cyfunlliw, am lendid buchedd, moes, ac addysg, a dwyfoldeb; sef cyfunlliw gwynn â goleuni, a'i nod arwydd ef. A gwynn cyfunlliw hefyd y bydd gwisg Derwydd, yn nod ac arwydd gwirionedd.

"Gwisg Ofydd a fydd o'r gwyrdd, yn nod ac arwydd twf a chynnydd ar ddysg a gwybodaeth; ac yn werdd cyfunlliw y bydd, yn nod ac arwydd gwirionedd.

"Pob bardd gorseddog, o bwy achen y bo bynag, a ddwg yn ei law, yn ngorsedd, frysyll, neu ffon grair, yn gyfunlliw â'i wisg, ac yn wryd ei hyd; a'r trofedigion [dysgyblion ar gynnydd] a ddygant bob un ei frysyll o'r trilliw barddonïaidd, yn frithgymmysg, ac yn nod arwydd trofedigaeth; ac a wisgant ar y fraich ddeau freichrwy (*bandlet*) o'r un lliwiau. Ac os yn nawdd y bydd yr awenydd, brysyll hanner gwryd; ac os ym mraint y bydd, sef trwyddedog nawdd, gwryd y bydd hyd ei frysyll.

"Lle na bo gwisg gyfan, na'i hachos, y Beirdd gorseddogion a wisgant bob un freichrwy, ar ei fraich ddeau, o'r lliw a ddeiryd iddei achen a'i radd; a hyn yw'r mynychaf o arfer gan y Beirdd er pan y collasant eu trwydded."

Nid oes yma, nac yn y *Trioedd*, nac mewn un hen ysgrif awdurdodol arall, hyd y canfuwyd, un gair o grybwylliad fod un o'r Beirdd, o'r Prif-fardd i'r Derwyddfardd, yn gwisgo "coron o ddail derw ar ei ben," nac "yn dwyn cilgant, neu chwarter cyntaf y lleuad yn ei law ddeau," na "gleindorch o wydr gwyn, a elwid Glain, am ei wddf," na dim o'r fath bethau — yn wir, y mae'n bur amheus a oedd gwydr mewn hanfod pan oedd barddoniaeth Ynys Prydain yn ei gogoniant. Am hyny, credir nad yw'r pethau hyn a'u cyffelyb, a dadogwyd ar y Beirdd, ond dyfeisiau diweddar mewn cymhariaeth, a wthiwyd i ddefodau y beirdd diweddar, yn ol pob tebygrwydd gan y mynachod Pabaidd. Cadarnheir y dyb yma gan y ffaith fod *glass beads* yn cael eu galw gan yr hen Gymru yn "*baderau*" cystal a "gleiniau,"—arwydd anffaeledig o ddiweddgarwch y cyfryw bethau. Rhaid terfynu y prifnod hynafol yma — y mwyaf dyddorol o holl brifnodau y Beirdd—ar ol dyfynu ychydig o'r hen *Gofion* ar

FFURFIAU LLWON YR HEN FEIRDD.

"Tair tystiolaeth gadarn: llw drwy berfedd [*upon the entrails*. Arwydda hyn, ac amryw bethau ereill, fod yr hen feirdd yn arfer *aberthu*; a dywed Iolo Morganwg, mai anifeiliaid glân a aberthent, fel yr Israeliaid]; cydgyfaddef; a dichweiniau anesgorawl [*chain of circumstantial evidence*] nas gellir petrusder arnynt.

"Tri chrair [*sacred objects*] twng y sydd: brysyll golchwydwr [ffon Derwyddfardd]; enw Duw; a llaw yn llaw a dynger iddo; a llaw greiriau a'u gelwir. Tri thwng arall y sydd; nid amgen, gair ar gydwybod; gair yn wyneb haul; a chadarnau yn nawdd Duw a'i wirionedd."

Ystyriai yr hen feirdd fod llw mor gyssegredig, fel na chredent anudonwr byth am ddim a'r a ddywedai.

"Tri dyn nid gair eu gair ar ddim yn y byd: golchwydwr wedi y toro ei gynghrair; tyst a gafwyd yn anudon a ddywaid yn llys; neu yn arall o fan, ar grair; a lleidr cynnefodig cyhoeddgwbl" [=*a notorious habitual thief*]. Felly y terfyn *Prifnod cyntaf Beirdd Ynys Prydain.*

PRIFNOD II. Dechreua y prifnod yma, wrth gwrs, lle yr oedd y llall yn diweddu; sef ar wasgariad y Beirdd gan Yswidw Polion, B. A. 60; a diwedda yn y flwyddyn 1681, gydag eisteddfod Castell y Bewpyr, "dan nawdd a dawn Syr Rhisiart Bassed, Farchog, arglwydd y lle." Felly, parhaodd y prifnod yma am 1621 o flyneddau. Dylid sylwi nad prifnodau *Prydyddiaeth*, neu "gerdd dafod," sy'n cael eu holrhain yma, ond prifnodau y *sefydliad Barddonol*, a elwir hefyd *Barddoniaeth*. Gan na chanfuwyd unrhyw newidiad o bwys yn nhrefnau a rheolau y sefydliad, yn yr ysbaid yna, yr ydys yn ei ystyried yn un prifnod.

Gwedi i'r Beirdd gael eu gwasgaru gan y Rhufeiniaid, fel y nodwyd, nid ymddengys iddynt byth mwyach allu ymgorffoli yn un frawdoliaeth reolaidd, fel cynt—o leiaf, nis gallasant byth adnewyddu yr hen sefydliad Barddonol cyntefig; canys gwelodd y Rhufeiniaid yn amlwg nad oedd fodd i lywodraeth Rhufain a llywodraeth y Beirdd gyd-fyw yn Ynys Prydain: ac yr oedd y Beirdd yn deall hyny cystal a hwythau, ac yn gwneyd pob egni i gynhyrfu y bobl i wrthryfel yn erbyn y Rhufeiniaid, ac i'w hymlid allan o'r wlad, yr hyn, yn wir, oedd yn naturiol ac yn wladgarol hefyd ynddynt. O blegid hyn, gwnaeth y Rhufeiniaid ddilead Barddoniaeth allan o Ynys Prydain, ac os dichonadwy, o'r byd hefyd, yn brif amcan drwy ystod yr holl bedwar can mlynedd y buont yn llywodraethu yr ynys; a llwyddasant yn eu hamcan i raddau anhygoel: a'r hyn a adawsant hwy o'r gwaith heb ei gyflawnu, daeth Cristionogaeth yn mlaen i'w orphen yn effeithiol a therfynol; canys, os gwir ydyw (yr hyn sydd dra ammheus) fod yr ychydig Feirdd a ddiangasant o gyflafan Yswidw Polion, i dueddau yr Alban, wedi codi math o sefydliad Barddonol yno—a bod yr ychydig Feirdd a weddillwyd yn Nghymru, fel y tybir (ar ba sail, nis gwyddys), yn cyrchu yno, i'r gwyliau arbenig—nid atebodd hyny ddim o'r dyben i adsefydlu Barddoniaeth yn y wlad, nac byd yn oed i'w chadw yn fyw, mewn un modd. Canys y gwir ydyw, fod hen



Digitized by Google

Farddoniaeth gyntefig Beirdd Ynys Prydain, wedi marw a diflanu yn hollol ac am byth, rywbryd rhwng oes Yswidw Polion ac oes Aneurin Gwawdrydd a'i gyfoedion. Y peth tebycaf o lawer ydyw, i'r ychydig Feirdd a ddiangasant o'r gyflafan grybwylledig, os diangodd rhai hefyd, ymlechu yn nhai pendefigion y genedl a allent eu noddi; canys yr olwg nesaf a geir ar y Beirdd ydyw, fel *prydyddion* i dywysogion y genedl, ac fel athrawon i'w plant: ac fel effaith naturiol o hyn, ceir aml un o'r tywysogion eu hunain yn brydyddion godidog, megys Aneurin Gwawdrydd, Llywarch Hen, ac i waered hyd Owain Cyfeiliog—y goreu o honynt; ac ereill, diweddarach fyth.

Felly, pan ddechreuodd awen ac athrylith y Cymry ail ymddeffro ac ymwroli, tuag oes Arthur, ar ol yn agos i bedwar can mlynedd o gwsg bron mor ddystaw a'r bedd, yn lle yr hen Farddoniaeth rwysgfawr gyntefig—yn lle y sefydliad gwladwriaethol godidog, oedd yn ganolbwynt arbenigol holl wybodau, a chelfyddydau, a chyfreithiau, a chrefydd y genedl, ceir *Prydyddiaeth*, sef gwisg yr hen farddoniaeth, dan yr enw Barddoniaeth; yn lle cael y Beirdd yn un cyfan-gorff rheolaidd, fel prif farnwyr gwladol a chrefyddol, ac athrawon cyffredinol y genedl yn mhob peth arall, ceir prydyddion dan yr enw Beirdd, un yma ac un acw, yn llysoedd y tywysogion, yn canu eu clod, ac yn dysgu eu plant—sefyllfa gyfrifol, bid sicr, ond dim tebyg i sefyllfa y gwir Feirdd cyntefig: ac yn lle y Beirdd, prif bwnc y rhai oedd "heddwch a thangnef," y rhai nid oedd gyfreithlawn "dwyn noeth arf yn eu gwydd," ceir prydyddion dan yr enw Beirdd, yn annog eu noddwyr â'u holl egni i ryfel, yn canu eu clod rhyfelgar yn uwch na dim arall, yn eu dilyn i faes y gwaed, a'r rhan fwyaf o honynt yn rhyfelwyr o'r fath lewaf eu hunain, fel y tystia y *Trioedd*, a hen *Gofion* ereill, yn ddiammheuol. Y cyfryw oedd Llywarch Hen, Aneurin Gwawdrydd, Arthur, Tristfardd, Cawrdaf ab Caradawg, Urien ab Cynfarch, Elmur Eil Cibddar, Dygynnelw, Afan Ferddig, Afaon ab Taliesin, Golyddan Fardd Gall ab Dysgyfeddawg, Diffedel ab Dysgyfeddawg, Ysgafnell ab Dysgyfeddawg, a Chynhafal ab Argad, prif ryfelwyr, cystal a phrif feirdd, y bummed, y chweched, a'r seithfed ganrif. Nid beio y prydyddion am gymmeryd i fyny arfau gyda'u cydwladwyr, yn erbyn gelynion rhyddid eu cenedl, pan oedd hyny yn anocheladwy, ydyw yr amcan, mewn un modd, wrth adrodd y ffeithiau hyn, ond dangos fod yr hen sefydliad, a elwid "Barddoniaeth Beirdd Ynys Prydain" wedi marw, ac nas adgyfododd byth mwyach; a bod y sefydliad cyntaf a gyfododd ar ei ol, er ei fod yn dwyn ei enw (Barddoniaeth), eto yn gwbl wahanol iddo o ran ei ansawdd a'i ddybenion.

Yr ydys yn awyddus i wneyd hyn mor eglur ag y mae modd, gan y tybir mai y syniad cyffredin, yr hwn yn wir a gefnogir gan awduron cyfrifol, ydyw, fod Barddoniaeth gyssefin Beirdd Ynys Prydain yn cyrhaedd yn un llinell ddidor a digyfnewid, yn ei dull cynnwynol, o Hu Gadarn, os nad o'r dylif, hyd atom ni! Ni fu erioed gamsyniad mwy dybryd; canys y gwir yw, nad oedd gan y "Tri Phrifardd Bedydd Ynys Prydain, Merddin Emrys, Taliesin Ben Beirdd, a Merddin ab Madog Morfryn," y rhai, fel Plenydd, Alawn, a Gwron, dan yr hen oruchwyliaeth, a ystyrir fel cynllunwyr a threfnwyr cyntaf yr oruchwyliaeth farddonol newydd, ar ol tranc yr hen—y gwir yw, nad oedd gan y "Tri Phrifardd Bedydd" ddim braidd ond *enw* yr hen Farddoniaeth, a'i *gwisg* yn unig, sef Prydyddiaeth. Yr oedd yr hen Farddoniaeth gyntefig, fel y dangoswyd yn helaeth, yr unig sefydliad gwladol, a chrefyddol, a chelfyddydol, a feddai y genedl. pan nad oedd Barddoniaeth y "Tri Phrifardd Bedydd," yn ol pob hanesion ar y pwngc a'n cyrhaeddasant ni, ond sefydliad prydyddol yn unig, os nad oedd cerddoriaeth hefyd yn gynnwysedig ynddo—beth bynag, yr oedd wedi llwyr golli ei agwedd wladwriaethol, a chrefyddol, a chelfyddydol, cyntefig; a dyma yr achos, yn ddiau, i'r geiriau *bardd* a *phrydydd*, a *barddoniaeth* a *phrydyddiaeth*, ddechreu dyfod yn gyfystyr, fel y maent hyd y dydd hwn. Yna, wrth *Fardd*, y golygid, dan oruchwyliaeth gyntefig Beirdd Ynys Prydain, aelod o'r sefydliad Barddonol, pa un bynag ai cyfreithiwr, ai celfyddydwr, ai athraw crefyddol, a fyddai; ond yn awr, o amser y "Tri Phrifardd Bedydd" hyd yn bresennol, nis golygir dim mwy wrth Fardd, na phrydydd neu gerddor.

CADEIRIAU AC EISTEDDFODAU.

Yn gytunol â hyn, ceir fod cynnulliadau y beirdd hefyd wedi newid eu henwau a'u dybenion. Gorseddau a Chadeiriau y gelwid cynnulliadau y Beirdd cyntefig, fel y dangoswyd eisoes; ond o amser y "Tri Phrifardd Bedydd" hyd yn awr, Eisteddfodau a Chadeiriau eu gelwir. Prif ddybenion Gorseddau y prifnod Barddonol cyntaf oedd barnu achosion gwladol, a chrefyddol, a chelfyddydol, y genedl yn gyffredinol: a phrif ddybenion eu Cadeiriau a'u Rhac-cadeiriau oedd dysgu Beirdd ieuainc, a gwerin lleol a thaleithiol y genedl. Ond prif ddybenion Eisteddfodau yr ail brifnod, a'r trydydd hefyd, oedd diwyllio prydyddiaeth a cherddoriaeth y genedl; a dybenion eu Cadeiriau (a elwid weithiau yn Orseddau) oedd urddo eu prydyddion. Heb law hyn, ymddengys i feirdd (prydyddion) y prifnod yma wneyd egni gwladgarol a chlodwiw i gadw cof o gymmaint ag a'u cyrhaeddasant, tros yr agendor llydan o yn agos i bedwar can mlynedd, o ddefodau ac arferion y prifnod cyntaf; er yr ofnir eu bod wedi chwanegu cryn lawer o'r eiddynt eu hunain at y defodau cyntefig: pa fodd bynag, mae yn rhy ddiweddar bellach i neb allu didol yr us oddi wrth y gwenith yn llwyddiannus.

Am gadeiriau ac eisteddfodau y prifnod yma, yr ydys yn methu canfod fod gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt, ar y dechreu, o leiaf; ar y cyfan, tybir mai y gair *cadair* a arferid foreuaf, ac weithiau arferid y gair *gorsedd* hefyd.

"Pedair Cadair wrth Gerdd a Barddoniaeth y sydd yng Nghymru," meddâi yr hen *Gofion*, sef

1. "Cadair Morganwg, a Gwent, ac Ergain, ac Euas, ac Ystradyw: a'i gair cyfarch a chyswyn [*motto*] yw, 'Duw a phob daioni.'

2. "Cadair Deheubarth, a Dyfed, a Cheredigion: a'i gair cyfarch a chyswyn yw, 'Calon wrth galon.'

3. "Cadair Powys a Gwynedd uch ac is Gonwy: a'i gair cyfarch a chyswyn yw, 'A laddo a leddir.'

4. "Cadair Gwynedd, a Môn, a Manaw: a'i gair cyfarch a chyswyn yw, 'Iesu,' neu 'O! Iesu, nad gamwaith,' medd hen gof llythyr.

"A'r pedair Cadair hyn a ellir eu cynnal yn un man y bo achos, yn Ynys Prydain; eithr trefnusaf yw eu cynnal yn eu hardaloedd eu hunain, lle ni raid wrth rybudd un dydd a blwyddyn; a rhaid yw hyny lle bo amgen," hyny yw, rhaid rhybudd un dydd a blwyddyn os cynnelir y Gadair mewn rhyw le heb law yn ei hardaloedd ei hun.

Digitized by Google

Y mae ysgriflyfrau Iolo, a'r hanesion Cymraeg, yn crybwyll am luaws o Gadeiriau ac Eisteddfodau a gynnaliwyd yn y prifnod yma, o amser Arthur, o gylch B. A. 512, hyd amser Syr Rhisiart Bassed, B. A. 1681; ond nid oes hanes manwl am weithrediadau ond ychydig iawn o honynt ar gof a chadw—dim ond awgrymau yn unig. Dengys yr awgrymau hyny yn ddigon amlwg mai prif ddyben holl gynnulliadau y prifnod oedd diwyllio prydyddiaeth, fel y dywedwyd eisoes, a phethau ereill cyssylltiedig â phrydyddiaeth, yn neillduol yr iaith Gymraeg. Gwnaeth amryw o honynt hefyd, yn enwedig Eisteddfodau y Deheubarth, egnïon canmoladwy at gasglu a chadw yr hyn oedd ar gof o ddefodau yr hen sefydliad Barddonol cyntefig. Dylid sylwi yn fanwl, gan hyny, mai yr hyn oll a olygid, yn y prifnod yma, wrth "Gelfyddyd Barddoniaeth," oedd, y gelfyddyd o brydyddu; am hyny, fod natur a dybenion Barddoniaeth y prifnod cyntaf a'r ail yn hanfodol wahanol.

Y Gadair hynaf y mae son am dani oedd Cadair Urien Rheged, B. A. 517, yn Nghaer Gwyroswydd, sef Ystum Llwynarth, lle yr oedd Talhaiarn, tad Tangwn, yn Bencerdd; ac wedi marw Talhaiarn, "Taliesin a fu'n arwain tair Cadair, nid amgen Cadair Caerllïon ar Wysg," dan nawdd Arthur, "a Chadair Rheged [hen gadair Talhaiarn] yng Ngwyroswydd," dan nawdd Urien, "a Chadair y Gorllewin, ym Mangor Deifi, yn nawdd Cedig ap Ceredig ap Cyneddaf Wledig. Ymddengys i Taliesin, tua'r un amser, sefydlu Cadair "yng nghyfoeth Gwyddnyw ap Gwydion, yn Arllechwedd Arfon, a chael braint yno ar dir a daiar."

Yn un o'r Cadeiriau hyn, trefnodd Taliesin i ugain llythyren fod yn yr egwyddor Gymraeg, pan nad oedd cyn hyny ond deunaw. Deg llythyren oedd yn yr egwyddor gysscfin; yna deuddeg; wedi hyny un ar bymtheg; ac yn nechreu oes Taliesin, deunaw.

Tua'r un amser, neu yn foreuach, fel y tybia rhai, sef o gylch B. A. 267—300, "Gwdion ab Don a fu yn enwog dros ben am wybodau a chelfyddydau; ac a ddysgodd gware [chwareu] Hud a Lledrith gyntaf i'r Cymry." "Cerdd Hud a Lledrith [*illusion and phantasm*], 'a fydd honno, lle bo ymryson a chyfariaeth nifer o ddyniadon [*characters*] ynddi, dan ledrithoedd amgen o fraint a gradd, a chyflwr nag y byddont herwydd gwirionedd; a phob un yn ei radd a'i gyflwr lledrith, yn ymryson âg arall, yng ngwrth, neu ym mhlaid yr hyn a ddodir yn gyff ymryson rhyddynt [rhyngddynt]; er dangos a fo cyfiawn ag anghyfiawn, a diddan ag anniddan, ar a fo rhyddynt, parth digwydd a gwrthddigwydd, a rhyw a gwrthryw, a rhaid a gwrthraid; fal y dyddylai er anrhydedd a gobr i bob iawn, a gwaradwydd, a cholled, a chosp i bob amgen na iawn; ag aflwydd i bob drwg o gamp, a gweithred, a chynneddf, a llwydd i bob daionus arnynt. Ag arddull hawl ag atteb y trefnir y gerdd; gwrth a phlaid, plaid a phlaid, a gwrth ag yngwrth; modd y bo ar lun a chyfrith gwir, parth y bod a'r digwydd; yn y cânt [fel y caffont] eu hudo, a welont o ddechreu hyd ddiwedd, yn y bônt yn credu mai gwir y cwbl o'r arddangos dan ledrith. Ag am hynny, Cerdd Hud a Lledrith, a gware Hud a Lledrith, ag ymryson Hud a Lledrith, a'i gelwid yn yr hen amser; a Thwmpath Hud a Lledrith, y lle a'r gwyr a'i dangoso a'i gelwir yn awr; a gware miragl [*play of miracles*]."

Os ydyw yr amseriad uchod yn gywir, yr oedd y dull yma o ganu yn hynach hyd yn oed na Thaliesin a'i gydoeswyr, a elwir yn "Gynfeirdd." Y prif gampwyr, yn y dull yma o ganu, yn yr hen amseroedd, oedd y rhai a nodir yn y triad yma:—"Triwyr Hud a Lledrith Ynys Prydain; Math ab Mathonwy, ac efe a'i dangoses i Wydion ab Don; a Menyw fab Teirgwaedd a ddysges ei hud i Uthyr Bendragon; a Rhuddlwm Gawr, ac efe a ddysges ei hud y gan Eiddic Gorr, a Choll mab Collfrewi."

Y mae amryw ganiadau o'r dull yma yn henaflant Cymry, dan enw Taliesin, Merddin, ac ereill; ond bernir nad oes un o honynt yn henach na'r deuddegfed ganrif; megys, ymddyddan rhwng Ugnach a Thaliesin; rhwng Arthur a Gwenhwyfar; rhwng Merddin a Gwenddydd; rhwng Llewelyn a Gwrnerth, &c. Y prif brydyddion diweddar o'r rhyw yma oedd Huw Morus a Thwm o'r Nant.

Yr Eisteddfod nesaf y sonir am dani ydyw un yn Nghonwy, dan nawdd Maelgwn Gwynedd, o gylch B. A. 540, fel y tybir. Yr unig gof hynafol (a hwnw yn un dibwys) am hon sy mewn cywydd o waith Iorwerth Beli, o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn dangos ddarfod i Faelgwyn gynnyg gwobrau i'r prydyddion a'r cerddorion [=telynwyr], am nofio dros afon Gonwy; a hyny, fel y tybir, o blegid ei fod yn fwy pleidiol i'r beirdd na'r telynorion: canys, erbyn iddynt gyrhaedd y lan, ni thalai y telynau ddimai goch, pan y canai y beirdd mor beraidd ag o'r blaen; am hyny, hwynt-hwy a gawsant y gwobrau.

Ar ol hyn ni cheir hanes am un Eisteddfod, oddigerth yr un dan nawdd Cadwaladr, am yr hon nid oes ond crybwylliad, hyd amser Morgan Hen, tywysog Morganwg, yn y degfed ganrif, pan oedd Geraint Fardd Glas, brawd y tywysog, yn bencerdd. Hysbysir y cynnelid Eisteddfodau, yn oes y tywysog hwnw, unwaith yn y tair blynedd yn llys y tywysog; ac mai y pryd hyny y dygodd Geraint "gynghanedd gydsain" gyntaf i brydyddiaeth, pan nad oedd "cyn no hynny eithr cynghanedd unodl yn unig; sef gair yng nghanol yr hanner olaf o'r bann yn unodl â gair gyferbyn ag ef yng nghanol yr hanner cyntaf, fal y dodai Daliesin Ben Beirdd ar ei gerdd ef."

Yn yr unfed ganrif ar ddeg, coffeir enwau amryw Eisteddfodau dan nawdd Rhys ap Tewdwr, Bleddyn ap Cynfyn, Cadwgan ab Bleddyn, a Gruffydd ap Cydan, yr hwn a gynnaliai Eisteddfod yn gysson, unwaith yn y tair blynedd, yn ei lys yn Aberffraw, heb law yr Eisteddfodau a gynnaliwyd dan ei nawdd yn Nghaerwys, ac yn Nglyn Achlach yn y Werddon, o gylch 1100. Y mae y trefniadau eisteddfodol a ffurfiwyd, fel y dywedir, gan Gruffydd ab Cynan, yn ol cynllun Cadwaladr, ar gof a chadw hyd y dydd hwn; a cheir achlysur i grybwyll rhai o honynt yn ebrwydd.

Dywedir i amryw Eisteddfodau gael eu cynnal yn y ganrif yma (y ddeuddegfed), dan nawdd Robert a William, ieirll Caerloew, pan y mabwyswyd y gair cysswyn,—"Da'r maen gyda'r efengyl;" ac y mae'r *Brut* yn cofnodi un yn neillduol, yn Nghastell Aberteifi, dan nawdd Rhys ab Gruffydd, B. A. 1166.

Sonir hefyd am Gadair dan arweiniad Ieuan Fawr ap y Diwlith, o gylch B. A. 1170. Ni chanfyddir un mwyach, hyd y gwyddys, hyd oes Dafydd ab Gwilym, o 1300 hyd 1368. Crybwyllir am un Eisteddfod, heb amseriad wrthi, a gynnaliwyd yn Llanfihangel Afan, lle yr oedd Dafydd ab Gwilym yn gyff cler, pan y canodd Rhys



Digitized by Google

Meigen dduchan genfigenus iddo, yr hyn a barodd i Dafydd ganu mor chwerw iddo yntau erbyn yr eisteddfod ganlynol, fel y syrthiodd Rhys i lawr yn farw wrth ei wrandaw!

O gylch y pryd hyn y cynnaliwyd y "tair Eisteddfod Dadeni," sef y gyntaf yn Ngwern y Clepa, dan nawdd Ifor Hael, lle yr oedd Llywelyn ab Gwilym yn athraw, a Dafydd ab Gwilym, a'r tri brodyr Marchwiail, nid amgen Ednyfed ab Gruffydd, Madawg ab Gruffydd (=Madog Benfras), a Llywelyn ab Gruffydd (=Llewelyn Llogell Rhison) yn ddysgyblion iddo. Yma y rhoddwyd Cadair i D. ab Gwilym, am ganu Cywydd Deuair Hirion, sef o gylch B. A. 1360.

"Gwedi hynny bu Eisteddfod, dan nawdd Llywelyn ab Gwilym (uchod), yn y Ddol Goch, yn Emlyn; ag i honno y daeth Sion y Cent, a Rhys Goch o Eryri, yng Ngwynedd; a thyfu ymryson rhwng Sion y Cent a Rhys Goch: goreu ar wen-gerdd (*sacred poetry*) Sion Cent a goreu ar folian-gerdd Rhys Goch; a rhodd y blaen a'r Gadair i'r wen-gerdd. Wedi hynny dodes Llywelyn ab Gwilym ganu er Cadair Ceredigion y goreu am riein-gerdd (*amatory song*); a barnu D. ab Gwilym yn oreu; a'i wisgo â'r Cae Bedw, ys ef addurn rhien-gerdd. Yna Llywelyn ab Gruffydd a ganodd Englynion Marchwiail Bedw Briglas, ar hen ganiad.

"Gwedi hynny, y tri brodyr a ddodasant, dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, Eisteddfod ym Maelor, ym Mhowys, yn nawdd Iarll Mortimer, dan goron y brenin Edwart y Trydydd; ac yno y canwyd am Gadeiriau. Ac Ednyfed ab Gruffydd a gafas [gadair] am Gywydd Gwr, ac am englynion byraf Eiry Mynydd; a Madog, y trydydd brawd, a gafas Gadair a Chae Bedw am Riein-gerdd; a Dafydd ab Gwilym a ganodd yn garedig i Fadog am ei gerdd. Ac yn yr Eisteddfod honno ydd addurnwyd Iolo Goch âg addurn Cadair am ei wybodau a ddysgws Ednyfed ab Gruffydd, parth gwybodau Cerdd Dafod a'i pherthynasau. Ac o'r tair Eisteddfod hyn y cafad gwellâd ar Gerdd Dafod a Chynghanedd."

Ymddengys i gyffro llenyddol a manteision eisteddfodol y ganrif yma fagu beirdd, ac yn neillduol, clerwyr, nes yr aethant, yn enwedig y clerwyr, yn faich gorthrwm ar foneddigion a thywysogion y genedl; y rhai oeddynt, fel yr ymddengys, dan fath o orfodogaeth gyfreithiol i'w cynnal; o blegid hyn, ceir i Harri y Pedwerydd, B. A. 1403, lunio cyfraith i attal y clera yma, gan ddarbod "*Que les Ministrelx, Bardes, Reymours et Westours, et autres Vagabundez Galeys deinz Northgales ne soient deformes seoffrez de surcharger le paiis, come ad este devant; mais soiant ils outrement deffenduz sur peine d' Emprisonment d' un an*"=Nas goddefir o hyn allan i delynorion, a beirdd, a dadgeiniaid, ac Eillon, a chlerwyr Cymreig ereill, yn Ngogledd Cymru, fod yn faich ar y wlad fel y buant; ond eu bod mwyach i gael eu gwahardd, dan boen ffin a charchar o un flwyddyn.

"Ar ol y gwaharddiad yma o'r eiddo Harri, ymgyfarfu 'r beirdd mwyaf cyfrifol a dysgedig mewn Gorseddau ac Eisteddfodau yn y Deheubarth, dan nawdd y Barwniaid; ac yn Ngwynedd a Phowys, trwy genad breninol."

Yn unol â hyn, ceir rhestr o Feirdd Morganwg a'u hawenyddion, ac amserau eu heisteddfodau, yn yr arweiniad i *Farwnadau Llywarch Hen*, ac yn *Jones' Hist. of Wales*, o Ieuan Hen, yn B. A. 1370, hyd Sion Bradfford, B. A. 1760, lle y coffeir hefyd am Trahaiarn Brydydd Mawr, 1300; Hywel Bwr Bach, 1330; Dafydd ab Gwilym, 1360; ac Edwart Ifan, 1780; a Iolo Morganwg, 1824. Ond fel beirdd lleol Morganwg y dylid ystyried y rhai hyn, ac nid fel beirdd cyffredinol Cymru benbaladr.

Yr Eisteddfod genedlaethol nesaf, a elwir "Eisteddfod Fawr gyntaf Caerfyrddin," a gynnaliwyd dan nawdd Gruffydd ab Nicolas, yr hwn "a gafas Warant a Braint diogelwch dyfod a dychwel, dann nawdd Llythyr cynnwys y brenin, ys ef, Harri Sant o Winsor [Harri VI.], a'r unfed flwyddyn ar ugain o'i goroniad ef. Ac ar Lawdden y doded chwilio a dangos y Cynghaneddau; a modd y gellid eu gwelläu lle gwelid achos i hynny; ys ef, goreu o Gynghaneddwr yng Nghymru y bernid Llawdden; goreu am hen ddefodau y bernid Gwilym Tew, ag am hen gelfyddyd ar Gerdd Dafod; a mwyaf ei orchest ar Gerdd Dafod y bernid Dafydd Nanmor. Ag wedi 'r dangos, dodwyd yr Eisteddfod ar osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, o flwyddyn i flwyddyn, hyd penn y tair; ac o dair blynedd i dair blynedd, hyd ym mhenn y naw mlynedd, ag yn hynny, cyrchu cyfallwy: a'r ddegfed flwyddyn [B. A. 1451], cynnal ail Eisteddfod fawr Caerfyrddin, lle ennillodd Dafydd ap Edmwnt y Gadair Arian, am ei orchestion a fernid yn oferbwyll celfyddyd gan feirdd Morganwg; a Llawdden yn Bencerdd Cadeiriog, a gafodd y Fwyall Aur, am ei wellhâd ar y cynghaneddion; ys ef, ni bu achos gwelläu ernynt ym mhellach fyth wedi hynny." Y mae hanes manwl o weithrediadau a threfniadau yr Eisteddfod yma ar gof a chadw.

Yn y flwyddyn 1460, cynnaliwyd Eisteddfod, a "Gorsedd wrth gerdd ar fynydd Garth Maelwg," dan nawdd "Rhisiart Nefel, ag efe yn benn arglwydd Morganwg: ag yn yr Orsedd honno y rhoddasant feirdd Morganwg, a Gwent, ag Euas, warafun, a gommedd, a gwrthfarn, ym mraint Beirdd Ynys Prydain, ar Ddosbarth Cerdd Caerfyrddin; ag o hynny i maes y cynneiliodd y tair gwlad hynn farn yn unraith un-gamp ar Gerdd, a Gorsedd wrth Gerdd." Ymddengys mai prif ddyben yr Eisteddfod; yma oedd gwrthsefyll mesurau Dafydd ab Edmwnt, am ddyfeisio y rhai y cafodd efe y Gadair Arian yn Eisteddfod Caerfyrddin; a bernir hefyd i gasgliad o'r hen *Gofion* gael ei gynnyg i sylw yr Eisteddfod.

"Gwedi hynny y cafwyd awdurdod Gorsedd" [ymddengys fod beirdd yr oes dan sylw ar fedr adferu yr hen air *gorsedd*] "ar y teirgwlad hyn (Morganwg, Gwent, ac Euas), drwy ddawn Harri y Seithfed (o 1485 i 1509). Ag yn y Gorseddau a gysseiliwyd ym mraint yr awdurdod hynn, y rhoddwyd ar farn a defod, y dylid gynnal yr hen Drefn, a Dosparth, a phwyll ar Gerdd; ag o hynny hyd ein awr, y mae ym Morganwg lawn ymwrthod â Dosparth Caerfyrddin; a deddf ernynt y beirdd chwilio i maes yr hen Bwyll a Dosparth wrth Gerdd: eithr nid oedd yr amser hynny agos y sydd ein awr ar arfer o fesurau cerdd, am nad oeddynt hyd yn hynn ar gaffaeliad ag adfer."

Yr Eisteddfod genedlaethol nesaf, fel yr ymddengys, oedd yr un a gynnaliwyd yn Nghaerwys, dan nawdd Rhisiart ab Howel ab Ieuan Fychan, &c., B. A. 1524, trwy ganiatad ac awdurdod y brenin Harri VIII, lle yr oedd Tudur Aled yn bencerdd, neu fardd cadeiriog.

O gylch yr amser, neu yn ychydig yn foreuach, yn ol barn rhai (tua'r flwyddyn 1520), "gwysiwyd Beirdd y teirgwlad (Morganwg, Gwent, ac Euas, fyth) yn nghyd i Gastell Caer

Digitized by Google

Dydd, dan nodded o ddawn yr arglwydd Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a phenn arglwydd Morganwg. lle bu Gorsedd wrth Gerdd, ag yno y gwnaethpwyd barn, a threfn, a dosbarth ar Gerdd Dafod, er barnu braint ag adfer ar y cyssefin bwyll wrth Gerdd a'r hen fesurau, a'r gelfyddyd o brydyddu, fel y bu gynt, yr hon farn a dosparth ni fynnaint Beirdd Gwynedd ei derbyn ar arfer." Ymddengys fod hon yn fath o "Orsedd hawl," gyda golwg ar yr hen *Gofion* oedd wedi cael eu cynnyg eisoes mewn "Gorsedd gyfarch," dan nawdd Syr Rhisiart Nefel; ond tybir nad oedd ond Eisteddfod leol neu daleithiol, megys hono; a dyfalir mai Lewys Morganwg oedd y pencerdd ynddi.

Yn y flwyddyn 1567, meddai *Cyfrinach y Beirdd*, (1568, ebai Pennant), y cynnaliwyd yr "Eisteddfod Fawr," yn Nghaerwys, dan nawdd Syr Rhisiart Bwcle, &c., a than awdurdod "llythyr cynnwys" y frenines Elizabeth, yr hwn a ddechreu fel hyn:—"ELIZABETH, by the grace of God, of England, France, and Ireland Quene, defendor of the fayth, &c., to our trustie and ryght wel beloved Sr Richard Bulkley knight, Sir Rees Griffith knight, Ellice Price esquior, Doctor in cyvill lawe, and one of our counsail in our marches of Wales, William Mostyn, Ievan Lloyd of Yale, Jhn Salusbury of Ruge, Rees Thomas, Maurice Wynne, Willm Lewis, Peres Mostyn, Owen Jhn ap Hou Vaughan, John Willm ap John, John Lewis Owen, Moris Gruffydd, Symound Thelvall, Ellice ap Willm Lloyd, Robt Pulcrton, Harry Aparry, William Glynne, and Rees Hughes, esquiors, and to every of them, greating. Wheras it is come to the knowledge of the lorde president and other or said counsail in or marches of Wales, that vagraunt and idle persons, naming themselves mynstrells, rithmors, and barthes, are lately growen into such an intollerable multitude wth in the principalitee of Northwales, that not only gentlemen and others, by theire shameles disorders, are oftentimes disquieted in theire habitacons; but also thexpert mynstrells and mucisions in toune and country therby much discouraged to travail in thexercise and practize of their knowledge; and also not a litle hyndred in theire lyvings and pferm ts The reformacon wherof, and the putting of these people in ordr, the said lorde president & counsail have thought very necessarye, and knowing you to be men both of wysdome and upright dealing, and also of experience and good knowledge in the scyence have apointed and authorized you to be comissioners for that purpose." * * * Terfyna y "llythyr cynnwys" hynafol yma fel hyn:—"Geven under or signet at or citie of Chester the xxiiith of October, the nynth yeare of or raigne."

"Signed her Highnes Counsail in the mrches of WALES."

Y mae enwau y beirdd a'r cerddorion oedd yn yr Eisteddfod hon ar gof a chadw; ac yn mhlith ereill yr oedd "Simwnt Fychan Bencerdd" yno.

Yn y flwyddyn 1580, cynnaliwyd Eisteddfod drachefn, yn Morganwg, dan nawdd Syr Edward Lewys o'r Fann; ond ni wyddys yn benodol beth a wnaed ynddi, heb law y bu yno ryw ymdriniad pellach â'r hen *Gofion;* ac ymddengys yr ystyrid hon megys "Gorsedd gyfallwy" i Eisteddfodau cyfarch a hawl Nefel a Herbert.

Dangosir y cynnaliwyd amryw Eisteddfodau lleol yn Morganwg ar ol Eisteddfod y Fann, dan nawdd boneddigion y dalaeth hono; megys, yn 1620, pan oedd Watcyn Powel yn bencerdd; 1660, pan oedd Edward Dafydd yn bencerdd, &c. Ond tybir mai yr Eisteddfod genedlaethol olaf o'r prifnod yma oedd yr un a gynnaliwyd "yn Nghastell y Bewpyr, ym Morganwg, ar ddydd Llun, a dydd Mawrth, a dydd Mercher y Sulgwyn, yn y flwyddyn 1681, dan nawdd a dawn Syr Rhisiart Bassed, Farchog, arglwydd y lle; a than osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn drwy Forganwg, a Gwent, ag Euas; ag yn bencerddiaid yno, Charles Bwttwn, Ysgweier, a Dafydd o'r Nant, ag Edward Dafydd o Fargam," a chyda hwynt dri ar ddeg ereill, oll "yn Brydyddion a Beirdd wrth fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain, ac yn athrawon cyfiawn-farn."

Yn awr, os cymharir y braslun iad hanesol yma, am Eisteddfodau y prifnod hwn, â'r hyn a ddywedwyd am Orseddau y prifnod cyntaf, fe ganfyddir fod gwahaniaeth amlwg a hanfodol rhyngddynt, cystal a rhwng pob peth arall, braidd, perthynol i'r ddau brifnod. Fe atebodd Eisteddfodau yr ail brifnod, fel yr ymddengys, yn lled wych, y dyben i gadw cof am swrn o hen ddefodau ac arferion y Beirdd cyntefig, ac i gadw cryn lawer o'u gwaith llenorol hefyd rhag myned i lwyr ebargofiant, a hyny am yr ysbaid hirfaith o un ganrif ar bymtheg; ond y mae yn gwbl amlwg mai prif ddyben yr Eisteddfodau, trwy ystod yr holl amser, oedd gwelläu a choethi prydyddiaeth a cherddoriaeth y genedl; pan yr oedd hen Orseddau y prifnod cyntaf o natur llawer uwch a mwy mawreddog, nid amgen na gwelläu defodau ac arferion y genedl, amddiffyn ei hen freiniau, cadw cof o "ddichweiniau enrhyfeddawl," "cynnal heddwch a thangnef" gwladwriaethol a chymdeithasol y genedl, a choethi ei gwybodau, a'i chelfyddydau, a'i chyfreithiau, a'i moesau, a'i chrefydd. Yr oedd hen Orseddau y prifnod cyntaf, gan hyny, yn dal cyssylltiad cyflwyr â llwyddiant cyhoeddus y wlad. Yr Orsedd Farddol oedd peiriant mawr gwladyddol a chrefyddol y genedl; yr hon oedd yn cynnal ac yn sicrhau llwyddiant cyffredinol y llywodraeth wladol, cystal a chywirdeb ei hamryw berthynasau cymdeithasol. Y fath, mewn gwirionedd, oedd natur a dybenion Barddoniaeth gyntefig Beirdd Ynys Prydain, fel y canfu Beirdd yr ail brifnod nad oedd yn ddichonadwy, pe buasai yn llesol, gynnal yr hen sefydliad, neu y Farddoniaeth gynnwynol rhagddi. Am hyny, pan ail ymddangosodd Barddoniaeth, o gylch oes Arthur ac Urien Rheged, dan arweiniad Taliesin a'i frodyr, ac o hyny hyd amser Gruffydd ap Cynan, ac yn ddiweddarach, ceir hi mewn sefyllfa hollol wahanol i sefyllfa Barddoniaeth y prifnod cyntaf, heb gadw dim o'r nodweddau ond yr enw a'r wisg (pryddiaeth) yn unig, fel y dywedwyd o'r blaen; ie, collodd ddwy o'i graddau (*degrees*) hefyd yn y ffwndwr Rhufeinaidd a Saxonaidd; sef Ofydd a Derwyddfardd, canys nid oes odid air o son am y rhai hyn yn "Ystatudau" yr ail brifnod, yr hyn a'n dwg ar unwaith at y pwnc, sef,

GRADDAU BEIRDD YR AIL BRIFNOD.

Yr hanes hynaf am hyn, hyd yr ydys yn gwybod, a geir yn Ngramadeg Ioan Dafydd Rhys, td. 295, a elwir, "Braint arr wyr wrth Gerdd drwy waith Tywysogion Cymry a oeddent ynn cynnal gwir Ddefodau y Brytanniaid."

Dangosir yn yr adran o'r hen ysgrif yma, a elwir, "Swyddâu priôdawl gwyr Cerdd Dafawd, pawb yn herwydd 'i 'Radd," fod i Feirdd y prifnod yma bedair gradd; lle y dangosir hefyd yr hyn oedd yn ofynol iddynt wybod er cael eu graddu.

I. "Dyscybl yspâs (*probationary pupil*=dysg-

Digitized by Google

ybl ar brawf) Cerdd Dafawd,' a ddyly 'wybod y syllâfeu, a' phump mesur englyn; hyd amgen, Unawdl Uniawn, ac Unawdl Crwcca, ac Unawdl Cyrch, a' Phrôst Cyfnewidiawc, a' Phrôst Cadwynawc: a' mesur Cywydd Deuair Hirion: a' e' canu yn awenyddgar ym marn Pencerdd, a' ddywetto arr 'i gydwybod a 'ellir Prydydd o honaw.

2. "Dyscybl dyscyblaidd (*disciplined pupil*), a ddyly 'wybod y deuddec mesur; nyd amgen, pump mesur englyn, a' phedwar mesur cywydd; sef, Cywydd Deuair Hirion, a' Chywydd Deuair Fyrrion, ac Owdl Gywydd, a' Chywydd Llosgyrniawc; a' thri mesur Owdl, nid amgen Toddaid, Gwawdodyn Byrr, a' Gwawdodyn Hir; a' gochel y pymthec bai cyffredin: a dangos (o'i 'waith 'ihûn) bôb un o'r deuddec mesur, yn ddyscyblaidd ac yn awenyddawl.

3. "Dyscybl Pencerddaidd (*master pupil*), a ddyly 'wybod ei holl syllâfau, a' Rhêol yr ymadroddion yn ôl y Grammâdec, a' Dosparth y Cynghaneddion, a' gochel yr holl feieu; a' chanu yn gytsain neu yn gyfawchrgerdd ar un mesur arr hûgeint.

4. "Pencerdd (*chief minstrel*) a ddyly 'wybod y cwbl, a' chanu yn gyfochr ag yn gytsain, ag yn groes gynghanêddawl arr gymmeriâdau, ac yn destyngar arr ddigrifwch, ac yn ffrwythlawn o synwyr, ac yn ddeunyddfawr o Gerddwriaeth, ag yn warantedig o awdurdawt, ac yn awenyddawl o ddechymyc, fal i bo hawsaf 'i ddyscu neu ddatcânu y Gerdd, a' difyr o'i gwraudaw neu ei darllein, a' hwyaf gallu dala rôf arr foliant boneddigion."

Dengys "Swyddau priôdawl Gwyr Cerdd Dant," fod i'r dosbarth hwnw o feirdd, *bum gradd* yn y prifnod yma; nid amgen,

2. "Dysgybl Yspâs heb 'Râdd, nyd oes arr 'i Gerdd, nac arr 'i 'Râdd, nac arr 'iRôdd; onyd barn Pencerdd a 'ellir Gwr wrth Gerdd o honaw.

2. "Dysgybl Yspâs Graddawl, a ddyly wybod dêc Cwlwm (*concord*), a' Cholofn (*fundamental*), a' phump Cwlwm o Gytgerdd (*concord of accompaniment*), a' Chadair (*presidence*), ac wyta o Ganiadau (*tunes*).

3. "Dysgybl Dysgyblaidd, a ddyly 'wybod ugein Cwlwm, a' dwy Golofn, a dêc Cwlwm Cytgerdd, a' dwy Gadair, ac un arr bymthec o Ganiâdau, a''r pedwar Mesur arr hugeint, a' e' canu trwy rêol.

4. "Dysgybl Pencerddaidd, a ddyly 'wybod dêc Cwlwm arr hugein, a' thair Colofn, a' phymtheg o Glymmeu Cytgerdd, a' thair Cadair, a' phedwar arr hugeint o Ganiâdau, a''r pedair Gostec (*prelude*); a medru eu mesuraw a' e' dosparthu, ac adnâbod gwahan rhwng pôb un a''i gilydd.

5. "Pencerdd, a ddyly 'wybod deugaint Cwlwm, a' phedair Colofn, ac ugein Cwlwm Cytgerdd, a' phedair Cadair, a' deuddec arr hugein o Ganiâdau, a phedair Gostec; a' gwybod i holl Fesureu 'i gyd a' e' Rheôlaeth; a gwybod pedair ar hugeint o Ddeifreu (*metres*); a' Dosparth y Mesurau (*system of canons*), megis y mae y llyfr Dosparth (*book of the science*) ynn dangos: a' medru gwneuthur cerdd 'ihûnan yn ddifai ym marn Pencerddiaid; a' medru 'i holl Ddosparthau; a' phôb Gwân a Rhacwan (*division and subdivision*), a' phôb Cymhwyssiad r' Gorphwyssiad (*quantity and rest*), a' phôb symudfa arr Dynniadau a' Chywerdannau (*key-notes*) cuddiêdic ac anghuddiêdic; a'e' dangos yn 'warantêdic o'i 'waith 'ihûn, yn bencerddiaid ac yn athrâwaidd; fel y bo cytwybôdus i Bencerddiaid a' doethion, 'i farnu ef a''i ddewis yn awdur ac yn athro arr 'i Gelfyddyd.

"Ni ddyly nêb ddyscu, onyd gan Athro Pencerddiaidd; a fettro 'osod yn iawn a ddyscer gann arall; ac os Telynior fydd y Cerddawr. rhaid iddo 'wybod y tri Mwchwl odidawc (*superlative symphony*), yr hwn a raddiwyd yn gyfuwch â'r pedair Colofn: a' phôb Colofn o'r pedair, a raddiwyd yn ddêc Cwlwm bôb un; y tri Mwchwl newydd, a raddiwyd yn gyfuwch o râdd a'r pedair Cadair; a'r pedair Cadair yn bump Cwlwm bob un."

Ymddengys, ar y cyfan, mai y graddau yma oedd graddau hanfodol beirdd y prifnod yma; ond y mae yr un hen ystatud yn dangos fod amryw raddau ereill yn eu plith, y rhai, fel yr ymddengys, a ystyrid megys graddau mygedol (*degrees of honor*); canys dan "Lywiau Cerddorion," ceir y dosbarthiad canlynol o raddau y beirdd:—

"Wyth ryw Gerddawr 'yssydd, nyd amgen. pedwar Cerddawr Graddol a phedwar Oferderddawr.

"Y pedwar Cerddawr Graddawl, nyd amgen,

1. "Prydydd, neu Fardd Caw [bardd yn gwisgo breichrwy=*the band of the order*], a' hwnw o dri rhyw;

(1.) "Prifardd:" hyny yw, Pen Beirdd=Tywysog y Beirdd, cyfystyr â Doctor, ebai Jones, yn ei ateb i Mr. Tate; a elwid felly, o blegid ei fod i ddychymygu ac i ddysgu gwybodau a chelfyddydau a'r nas clybuwyd am danynt gan neb o'r blaen.

(2.) "Posfardd," a elwid hefyd, prydydd, ebai Jones; "a'i swydd ef oedd efelychu a dysgu yr hyn a gyfansoddai y Prifeirdd; ac yr oedd yn rhaid iddo gymmeryd ei awdurdod oddi wrth un o honynt hwy; canys nid oedd efe i fod yn awdwr, ond i gadw cof o'r ddysg a gyfansoddid gan ereill, ac athrawiaethu arni."

(3.) "Arwyddfardd. Pwybynnac a ddywetto 'i fod yn Arwyddfardd, gwybydded achoedd brenhinoedd, a' thywysogion, a' chyfarwyddyd oddi wrth y tri Phrifardd Ynys Prydain, nyd amgen, Myrddin 'ab Morfryn, a' Myrddin Emrys, a' Thaliessin Benn Beirdd. Ac yn nghelfyddyd Arwyddfarddoniaeth, o rann gwybod yn berphaith 'wir achoedd, ac arwyddion, a' theilyngdawt, ac odidogion 'weithrêdoedd pendefigion, a' boneddigion Cymry." Byddai yr Arwyddfardd, meddai Jones, yn dilyn y breninoedd a'r tywysogion i faes y gwaed.

2. "Telynior." Byddai hwn yn cael ei alw weithiau yn Fardd Telyn (*Doctor of the musicians of the harp*), meddai Jones; a byddai yn trigo yn llys y brenin neu y tywysog. Yr oedd hwn, fel y prifardd, i ddychymygu cyfansoddiadau newyddion a'r nas dygwyd o'r blaen.

3. "Crythawr." Bardd Crwth (*Doctor of the musicians of the violin*) oedd hwn; ac yr oedd iddo yr un dyledswyddau, yn ei alwad ag i'r Bardd Telyn.

4. "Dâtceiniad (*vocalist*). Ac, yn gyntaf, ef a ddyly datceiniad 'wybod cyweiriaw Telyn neu Grwth, a' chanu amcan o brofiâdau (*musical lessons*) drwy blethiâdau (*regular parts*) yn 'warantedic; a' dwy 'osteg, a' chlwm, a' chaniad; a'i dair ar ddêc o brifgeingciau (*primary tunes*) a'e' cessailweision (*variations*); a''i dri phrif accan arr ddêc, a' chanu gyda hwy ac amcan o geincieu a' Phuroriaeth (*tunes with their harmonies*); a''i bedwar mesur ar hugeint Cerdd Dant, a'e' dosparth yn iawn. Hefyd, ef a ddyly medru darllen

Digitized by Google

Cymrâec yn berphaith, a'i yscrifenu yn gyfiawn; ac a ddyly 'wybod ei bedwar mesur arr hûgaint Cerdd Dafawd, a'e' dosparth, a'e' cynghanéddeu; ac a ddyly 'wybod canu o honaw 'ihûn englyn Unawdl Uniawn, ac Englyn Prôst, a' Chywydd Deuair Hirion; a' medru gossod yn iawn bob Hengerdd, a'r a gapho yn gamm gann arall. Hefyd, ef a ddyly 'wybod, a' medru gwasanaethu oddi wrth gegin i fôrt [bwrdd] gwr o urddas ac enrhydedd; a' thorri pôb rhyw ederyn a'r a ddelo ger 'i fronn. A'i swydd oedd mywn priôdas frenhinawl, 'wasanaethu i fôrt y ferch. A chôd 'wenn a ddyly bôd yn nghylch ei grwth neu ei delyn, a fo ef yn ei dwyn.

"Ac o'r hai uchod, hwnnw a elwir yn Cadeirfardd, a fo yn dwyn y Gadair aur neu arian arr ei yscwydd, i ddangos 'i fôd yn athro cadeirioc.

"Pedwâr ofergerddawr yssydd, nyd amgen,

1. "Pibydd (*piper*)

2. "Hudawl (*juggler*).

3. "Tabter (*drummer*).

4. "Phidler *fiddler*), sef crythawr crwth tri-thant."

Yr oedd gradd arall hefyd yn eu plith, a elwid "Datceiniad Penn Pastwn."

"Datceiniad Penn Pastwn (*club-head vocalist*), a elwir yr un a fo yn datcânu heb fredu dim canu sant 'ihunan; a' hwnnw a ddyly sefyll yn nghenawl [canol] y neuadd, a' churo 'i phonn, a' chanu 'i gywydd neu 'i odl gyd â'r dyrnodieu. Ac or bydd gwr Gerdd Tant lle y delo, ny ddyly y datceiniad hwnw gynnyc na beiddiaw cymryd arnaw ganu na chywydd nac owdl, heb ddeisyf cennad i'r gwrth wrth Gerdd Tant i ganu. Ac hefyd, efo a ddyly bôd megys gwas i'r gwr wrth Gerdd Tant, ac i Brydydd ym mhôb lle ac y delo."

Yr oedd tair gradd neu bedair ereill yn eu mysg, neu yn hytrach, efallai, enwau ereill ar rai o'r graddau a nodwyd; sef,

1. "Pencerdd Gwlad," yr un, fel yr ymddengys, ag a elwir yn Nghyfreithiau Hywel Dda yn "Fardd Cadeiriawg." "Pan fynno y brenhin 'wrandaw canu cerdd," ebai Ystatud Gr. ap Cynan, "caned y Pencerdd [=pencerdd gwlad] ddau ganu iddaw ynghyntedd y neuadd; un o Dduw ac arall o'r brenhin. Canys efe a ddyly dechreu cerdd ynn y llys; a'r Bardd Teulu a ddyly canu y trydydd canu îs cyntef y neuadd." Ac yn nghyfreithiau Hywel, dywedir,—"Pan fyner canu cerdd [hyny yw, yn y llys], y Bardd Cadeiriawc a ddechreu; a'r canu cyntaf o Dduw, a'r ail o'r brenin bieufô y llŷs: neu oni bydd iddo ef a ganer, caned o frenin arall. Gwedi y Bardd Cadeiriawg, y Bardd Teulu biau ganu tri chanu o gerdd amgen." Dengys hyn yn bur amlwg mai yr un oedd y Pencerdd, y Pencerdd Gwlad, a'r Bardd Cadeiriawg; a'i fod yn wahanol i'r nesaf; sef,

2 Y Bardd Teulu=Teulûwr. Gorchwyl hwn oedd difyru ei nodawr a'i deulu; a dengys cyfreithiau Hywel, fel y ceir gweled yn ebrwydd, fod ei freiniau yn llysoedd y tywysogion, ac ereill a'i cadwent, yn dra lluosog. Ymddengys nad oedd swydd hwn, yn y prifnod yma, yn bur annhebyg i swydd yr un a alwai'r werin gynt yn "Bili Ffwl." "Ac am y Teulûwr," ebe yr *Ystatud*, "ir oedd tystyniaw, a digrifhâu, a' phrydu gordderchgerdd, ac erfynneid da yn deulûeidd, heb neb ryw ymbil am danynt."

3. Prydydd. Gorchwyl hwn, ebe Jones, oedd traethu ar randiroedd, a champau, a moliant y brenin, neu'r tywysog, neu'r boneddwr a'i noddai. Yn ol y darluniad a roddir o hwn, tybir mai yr un ydoedd ag Arwyddfardd.

4. Clerwr. "Ac arr y Clerwr ir oedd ymsennu, a' dyfalu, a' dynwâred, ac ymbil drwy 'wradwydd: a' hynny ar eulun Cerdd Dafawd."

Dyma holl raddau a goraddau beirdd y prifnod yma, hyd y canfuwyd; a gwel y darllenydd nad oes yma air o son am Ofydd na Derwyddfardd y prifnod cyntaf, nac am ddyfeisbeth y canoloesoedd, a elwid Arch-dderwydd, yr hwn hefyd a ddyrchefir mor egniol gan feirdd yr oes bresennol, trwy yr hyn yr amlwg ddangosant eu hanwybodaeth o hen "Farddoniaeth Beirdd Ynys Prydain." Fe lyncwyd Ofydd y prifnod cyntaf i fyny, yn ystod yr ail brifnod, gan gelfyddydwyr cyffredinol y genedl; ac fe lyncwyd yr hen Dderwyddfardd i fyny, yn ysbaid y prifnod yma, gan offeiriaid ac athrawon crefyddol cyffredinol ereill y genedl; ac am yr Arch-dderwydd, lledrithiwr (*impostor*) ydyw, na chafodd le erioed yn ngwir Farddoniaeth Ynys Prydain, nac yn y prifnod cyntaf nac yn yr ail; mewn gwirionedd, dychymyg y canoloesoedd ydyw, fel y dywedwyd eisoes, ac "oferbwyll" y trydydd prifnod. Y peth nesaf y rhaid ymdrin ychydig mor fyr ag y gellir âg ef, ydyw,

BREINIAU BEIRDD YR AIL BRIFNOD.

"Rhoddion gwyr wrth Gerdd Dafawd, ar bob un o'r tair gwyl arbenig; nid amgen y Nadolig, y Pasg, a'r Sulgwyn, ac yn mhob Neithiawr Rïawl, a phob gwledd Gwylmabsant.

1. "Disgybl Yspas. Rhodd nid oes i ddisgybl yspas heb radd namyn syberwyd [ewyllys da], lle y dyweto Pencerdd o athraw, ar ei gydwybod, y gellir prydydd o hono.

2. "Disgybl Yspas Graddawl. Rhodd disgybl yspas graddawl am ei gywydd yw deuswllt, o bydd gwarantedig ei gerdd o dan law ei athraw." Ystatud Caerfyrddin ydyw hon: nid yw y radd yma yn mysg Beirdd Cerdd Dafod, yn ol Ystadud Gr. ap Cynan.

3. "Disgybl Disgyblaidd. Rhodd disgybl disgyblaidd am ei gywydd yw triswllt a grôd= ('*dècrot*'), a'i bod yn warantedig ei gerdd.

4. "Disgybl Pencerddaidd. Rhodd disgybl Pencerddaidd yw chweswllt ac wyth geiniog ['chweswllt a' naw ceiniawc'—*Cynan*], o bydd gwarantedig ei radd.

5. "Pencerdd. Rhodd pencerdd yr un faint; eithyr o syberwyd rhodder iddo fwy nog i ddisgybl; mal pei rhoddid iddo ryw ddilledyn, neu ryw dlws arall."

"Rhoddion i wyr wrth Gerdd Dant, yn ol graddau eu celfyddyd :—

1. "Disgybl Yspâs cerdd dant, ei rodd yw xii^c.

2. "Disgybl Disgyblaidd, xx^c. [Deuswllt yn ol Ystadud Cynan.]

3. "Disgybl Pencerddaidd, xl^c.

4. "Pencerdd, xl^c., namyn y rhoddir iddo ef o syberwyd yn amgen nog i ddisgybl, ac yntau yn bencerdd.

"Cylch clera unwaith bob tair blynedd yn llysoedd arglwyddi, a thai pendefigion a boneddigion.

"Rhodd cylch clera disgybl yspas cerdd dafod, ii^c.

"Un cerdd dant, i^c.

"Rhodd Disgybl Disgyblaidd cerdd dafawd, vi^c.

"Un cerdd dant, ii^c. [vi^c.

"Rhodd Disgybl Pencerddaidd cerdd dafawd,

"Un cerdd dant, iii^c.

"Rhodd Pencerdd cerdd dafawd yr un peth, vi^c., namyn y rhodder iddo yn amgen nag i ddysgybl o syberwyd.

Digitized by Google

"Rhodd Pencerdd cerdd dant yr un peth herwydd yr un modd; sef yn ol rhodd dysgybl pencerddaidd cerdd dant, iii[c].

"Llyma y sawl sydd rydd iddynt glera; nid amgen, gwr wrth gerdd anafus; megys dall, neu gloff, disgybl ysbas, disgybl disgybiaidd, disgybl pencerddaidd, a phencerdd o athraw.

"Pencerdd Gwlad=Bardd Cadeiriawg, a geiph gobreu (*marriage fines*) merched y cerddorion a feynt ynddi. Ef a geiph gyfarwys (*presents*) morynnion iefeingc pann wrhaont (*when they marry*); nyd amgen, pedair arr hûgeint [ceiniog]."

"Wythfed yw Bardd Teulu [*h. y.*, yr wythfed o swyddogion y brenin]. Ef a ddyly ei dir yn rhydd, a'i farch breswyl; a'i lieinwisg y gan y frenines, a'i frethynwisg y gan y brenin. Ef a ddyly eistedd yn nesaf i'r penteulu yn y teirgwyl wrth roddi ei delyn yn ei law. Ef a ddyly ddillad y dystain yn y teirgwyl. * * * Ef a ddyly fuwch neu ych o'r anrhaith a wnel y teulu yn ngorwlad, gwedi yr el i'r brenin y traian. * * * Ei wely y gyd â'r penteulu. Ei nawdd yw hyd ar y penteulu. Yn y cerddo y gyd â Beirdd ereill, ef a ddyly ran deuwr."—(*Cyfr. Hywel.*)

"Rhodded i'r Clerwyr geiniawc a gofram (*gibe*) o bôb aradr, a dimmeu o bôb hanner aradr; a lle ny chephynt arian dwyn gafael [cymmeryd yr hyn a allent gael]. Ac nad elei y Clerwr i dŷ yr uchelwr, na'r pencerdd i dŷ y gwreng; ac od elei, na chaphei onyd rhôdd y Clerwr. * * * A'r geiniawc a rhoddyd i'r Clerwr, er mwyn 'i fôd yn arddel 'i hunfod (megys chwynn) o 'wyr wrth gerdd; a gofram a roddyd iddaw er mwyn dirmygu y cythreul a'i tynnawdd mywn diogi, a' glythineb, a' llesgedd."

"Pedair Ariandlws y sydd; nid amgen, Cadair aur neu arian, ac i Brydydd. sef gwr wrth gerdd dafawd, y perthyn: Telyn aur neu arian, a Thelyniawr a'i harweinia: Crwth aur neu arian, a Chrythawr a'i harweinia: a Thafawd aur neu arian, a'i arwain gan y goreu o Ddadgeiniaid.

"Sef yw Pencerdd, a fo gwr wrth gerdd dafawd, neu wr wrth gerdd dant, a fo yn arwain y tlws a ddirpero ei gelfyddyd ar ei ysgwydd, yn arwydd ei fod yn athraw o Bencerdd yn warantedig o farn Eisteddfod. Cadair Prydydd a ddengys ei awdurdawd o gyfeistedd ac yngnadaeth; a phob tlws arall a ddengys gelfyddyd a'i harweinio.

"Gorphwysle pob Ariandlws yw llŷs arglwydd y cyfoeth y bo ynddo yr Eisteddfod; ac yno a'i dychweler pan fo marw y pencerdd a'i harweinio.

"O bydd Ariandlws yn gorwedd yn segur yn ei gorphwysle perthynasawl, pa le bynag y bo, herwydd gorchymyn ar yr athraw a'r dygiawdyr diweddaf a fu yn ei harwain; a bod pencerdd yn clywed ei hunan yn abl iddei dwyn wrth fraint ei gelfyddyd, ac i atteb drosto ei hun, ei chymmeryd a all oddiyno, dan rybudd cyflawn undydd a blwyddyn, ym mhob ffair, a marchnad, a llŷs gyfreithiawl, o fewn ei dalaith, i ddangos ei fod yn cymmeryd yr ariandlws dan ei berygl, ac yn ymadneu o hono (*to pledge himself*). Ac o bydd neb yn ymglywed â rhoi gwrthryn (*resistance*) arno, o fewn yr undydd a blwyddyn, rhodded hyny dan ei berygl yntau; sef yw hyny, llawnwerth yr ariandlws o aur neu arian, ac heblaw hyny, ei rádd hefyd yn warantedig o Eisteddfod, neu neithiawr rïawl. Ac ni cheiff neb wrthryn a *sialensio* arweiniawdyr yr ariandlws, ond a gafas gradd disgybl pencerddiaidd yn y blaen; ac os rhoi *sialens*, neu wrthryn, a wna, neu ymadneu, a heb allu dwyn i ben hyny, colli ei radd a chywerthydd yr ariandlws; ac os gallu cadw yr ariandlws a wna yr ymddiffynwyr y *term* a ddywetpwyd eisoes, drwy atteb i bawb a'i *sialensio*, ni ellir mwyach ei dwyn oddiarno yn ei oes ef a'i harweinio; ond rhaid i'w iddo gyrchu yr Eisteddfod nesaf a fytho, i ddangos ei fod yn abl ei *hadneu* ac *i'w chadw*, o nerth celfyddyd a gwybodau awen. Ac ar bawb o'r pendefigion y mae ei gynnal, a'i gadarnhau, a dodi iddo awdurdawd i wneuthur disgyblion wrth yr *ystatud*, a braint y gelfyddyd; ac o hyny allan i'r dalaith ei gymmeryd yn athraw ar ei gelfyddyd ef; a bydd yn nawdd pendefigion y dalaith hôno, mal y dywetpwyd o'r blaen, wrth ragorfraint y gelfyddyd; ac nid achos i neb geisiaw gradd a gawsant hyn o ragorfraint; ond lle bâi dau Bencerdd yn ymryson am ariandlws, neu ymryson arall am flaen, a gosawd, a chadw, a rhagoriaeth rhwng pencerddiaid a disgyblion, gwedi cael grâdd yn y blaen mewn Eisteddfodau neu neithiorau rhiawl.

"Nis gellir Ariandlws Datgeiniaid eithyr mewn Eisteddfod, ac yno ei farnu i'r gorau o ddatgan a gwybodau; a dodi y blaen i wybodau parth celfyddyd cerdd dafawd: ac yn llyn y bydd arno wybod yr holl bethau a ddywetpwyd eisoes am Ddatgeiniaid."

TREFN A DYSGYBLAETH GWYR WRTH GERDD DAFOD A CHERDD DANT.

"Gruphydd 'ab Cynan Tywysawg Aberphraw, a' Bleddyn 'ab Cynfyn Tywysawg Mathrâfael, a 'wnaethant fraint a threfn arr 'wyr wrth gerdd: nyd amgen, rhag myned nêb yn 'wyr wrth Gerdd, namyn y rhai a ddylei fyned drwy Eisteddfod, a' honno unwaith bôb tair blynedd yngoruchel-llys y Tywysawg yn Aberphraw ym Mon; ac ym Mathrâfael ym Mhowys. A' nawdd a' gorchymyn, hyd nad elei nêb yn 'wyr wrth gerdd o'r dydd hwnw allan; onyd a elai drwy gennad yr arglwydd, a' thrwy rodd cenedliad yr athraw: ag i'r athraw hwnw atteb o hono yn 'wr wrth gerdd abl, erbyn dydd cyfreithiawl gossodedic.

"Ac hefyd, na bai i nêb gynnal dwy gelfyddyd, megys Prydyddiaeth, a' chanu Telyn neu Grwth, neu gynnal crepht a' chelfyddyd pabynnac oddieithr ei gelfyddyd ei hun. Ac hefyd, na bai i 'wyr wrth gerdd erchi dros ben chweigent (deg swllt) o ddim ynn y byd; megys meirch, neu ychen, neu 'wisgoedd enrhydeddus; a' hynny dann boen colli eu da wrth gerdd hyd benn y tair blynedd, a'r rhôdd yn phorphet i'r brenin."

"Gyda hyny y trefnwyd i'r athrawon a'r pencerddiaid gymmeryd attynt ddisgyblion wrth reolaeth dosbarth y gelfyddyd a'r deddfau darparedig; nid amgen nag un ar unwaith, herwydd y tair gradd disgyblaeth, mewn dogned, neu brentisiaeth; ac na bai rydd i un disgybl wneuthur disgybl arall, heb genad ei athraw yn warantedig; a doded ar bob disgybl bod y Grawys gyd â'i athraw, dan boen colli ei radd, oni byddai achaws cyfreithiawl yn ei attal; megys clefyd, neu swydd a gorchymyn gwlad ac arglwydd, neu garchar, neu y cyfryw achaws cyfreithlawn.

"Hefyd, na bai prydydd a ganai gerdd i erchi march, neu walch, neu filgi, neu unrhyw arall anwyldlws, ei chanu heb genad y perchenawg; ac nas danfonai â'r gerdd hôno wr wrth gerdd dant, dan boen ffin, a cholli ei rodd.

"Hefyd, na bai i neb ddynwared na gwatwar un athraw am ei feddwl a'i fyfyrdawd, nag am unpeth a wnai herwydd ei gerddwriaeth, a'i gelfyddyd, a'i awen, dan boen ffin, a cholli cylch clera. Hefyd, na wnelai disgybl gerdd heb ei dangaws iddei athraw; a gwybod, a chael ei farn ei bod yn iawn, cyn ei chanu allan.

Digitized by Google

"Hefyd, gorchymyn i bawb nag ymwnelont âg arferoedd rhodiaid, neu grwydriaid; ac nad elont i dafarnau, a chornelau cuddiedig diarffordd, i ymddiota, nag i chware cardiau, neu ddisiau, neu unrhyw chware anghyfreithiawl arall, am arian, nag am dda yn y byd; ac o gwnânt, pawb yn swyddawg arnynt, a dwyn a fo yn eu pyrsau, a'i roi yn ngoleuad (at wasanaeth) yr eglwys.

"Hefyd, na ddysgont ac na chanont na senau na rhigymau gwaradwyddus, nag un cyfryw â hyny; na gwatwar, na chablu, na dychymyg celwydd, na'i ddywedyd ar ol arall; nag ysbïau, na dwyn athrawd, a chwedlau argyweddus (*painful*), dan boen ffin a charchar, a cholli pob da wrth gerdd.

"Hefyd, na wnelont gynhen, na ffraeau, na thwyll, na lladrad, na murn (*murder*), nag un anllywodraeth arall, * * * dan boen ffin a charchar.

"Hefyd, mis ym mlaen pob gwyl, ymorol â'i athraw, i wybod i ba le ydd elai, rhag myned gormodd i'r un tŷ. Ac nad elai ond un at wr o ddegpunt o fywyd; dau at wr o ugeinpunt o fywyd; ac wrth y radd hôno at a fai uwch o rent. A bod i'r athraw gadw copi o'r ddosbarth hon, er ei dangaws iddynt, a'i choffâu pan ddelont i gymmeryd eu dysg y Grawys.

"Hefyd, nad elai ar wyl na gwylmabsant o'r tŷ y delai iddo gyntaf tra parhai y wledd yno, heb genad gwr y tŷ, neu wahoddiad gan arall, dan boen colli ei rodd a'i glera; ac od âi o dŷ i dŷ, ei ddal fel crwydriad, a dwyn ei glera, a'i roi wrth oleuad yr eglwys; ac o brwysga (meddwa) yn y wledd, colli ei rodd. Ac o gwna lateiaeth, neu unrhyw ansyberwyd arall, am wraig, neu forwyn, lle del, neu ymganlyn â phuteiniaid a benywaid anllywodraethus, dwyn ffin a charchar, a cholli ei glera hyd yn mhen saith mlynedd.

"Llyma y diraddu y sydd ar wyr wrth gerdd:—

"Disgybl ysbas graddawl, oni ddysg fod yn ddisgybl disgyblaidd erbyn pen y tair blynedd, colli ei radd a orfydd iddaw, hyd na bo un radd iddaw o hyny i maes.

"Disgybl disgyblaidd, oni ddysg fod yn ddisgybl pencerddaidd erbyn pen y tair blynedd, colli ei radd disgyblaidd, a syrthiaw i radd ysbas.]

"Disgybl Pencerddaidd, oni ddysg fod yn bencerdd erbyn pen y tair blynedd, colli ei radd pencerddaidd, a syrthiaw i radd disgyblaidd.

"Pencerdd, oni ddysgo a fo ef ei athraw yn gyflawn a dosbarthus, colli ei radd o bencerdd, a syrthiaw i radd pencerddaidd; ac od ymddug ef yn anllywodraethus yn erbyn y drefn a'r defodau y sydd ar wyr wrth gerdd dafawd, colli ei dda wrth gerdd hyd yn mhen y saith mlynedd; ac o gwna efe yr unrhyw anllywodraeth yr ail waith, colli ei dda wrth gerdd tra fo byw, a dwyn heblaw hyny y cospau a ddyly cyfraith.

"Gwybydder mai yr un drefn a dosbarth parth llywodraeth a defodau y sydd ar wyr wrth gerdd dant ag a ddangoswyd ar y prydyddion; ac nid oes iddynt raddau ond mewn Eisteddfodau gwyr wrth gerdd dafawd, sef y prydyddion; canys yn nawdd y gwyr hyny y doded y gwyr wrth gerdd dant."

"Ac yn y gwleddoedd enrhydeddus hynny [a wnaed gan Gr. ap Cynan, a Bleddyn ap Cynfyn, a'r Arglwydd Rhys, a Gr. ap Nicolas], y gwnaethpwyd ac y cadarnhawyd braint a' statûteu celfyddodeu gwyr wrth gerdd, nyd amgen Prydyddiaeth, Teuluwriaeth, a Chlerwriaeth; a rhoddion i bawb wrth 'i fraint o'r cerddorion gyd â'r tywyssogion, arr bôb un o'r tair gwyl arbennic. Ac 'wedi meirw o'r tywyssogion y cymerth gwyr bonheddigion (a hanoeddynt o 'waed y tywyssogion) y gwyr wrth gerdd attynt, ac i rhoesent iddynt gylchwy (*the privelege of circuit*) yn ôl pôb un o'r tair gwyl arbennic, o fywn eu talaith e'hun; ac unwaith bôb teir blynedd drwy y tair talaith. A' chyda hynny, hwy a roesont iddynt neithiôrau (*marriage feasts*) morynnion iefeingc; ag yn ammod i'r Prydyddion gynnal Iaith y Brytannieid, a' e' hachoedd, a' e' gweithredoedd."

Yn awr, y mae gan y darllenydd faintais i weled natur a dybenion Barddoniaeth y prifnod yma, cystal a graddau, breintiau, dyledswyddau, dysgyblaeth, a chospau yr aelodau. Fe wel hefyd fod y sefydliad yn y prifnod hwn, yn gwbl wahanol, yn mhob ystyr braidd, i'r hyn ydoedd yn y prifnod cyntaf, fel mai prin y gellid meddwl ei fod yr un sefydliad, oddigerth fod yr aelodau yn dwyn yr un enw, sef Beirdd. Hefyd, yr oedd aelodau y sefydliad yma, fel aelodau y llall, yn cael eu cynnal wrth eu celfyddyd; ac yr oedd dysgyblaeth y ddau sefydliad, er eu clod, yn bur llym, manwl, a dichlynaidd. Yr oedd aelodau y ddau sefydliad yn rhwym hefyd i gynnal a diwyllio llenoriaeth genedlaethol y Cymry; ac o blegid hyn, y mae coffadwriaeth y naill a'r llall yn sicr o fod yn anwyl gan bob Cymro gwladgarol, "tra môr tra Brython." Dwg hyn ni at y trydydd prifnod; a chanfyddir fod y newidiad yn para yn ei rwysg, ac yn gwaethygu.

PRIFNOD III. O amser Syr Rhisiart Bassed, yn y flwyddyn 1681, hyd 1819, pan y cynnaliwyd cyfarfod cyntaf "y Gymdeithas Gymroaidd yn Nyfed," dan yr enw "Eisteddfod Caerfyrddin," dan lywyddiaeth "y Pendefig tra chlodfawr Arglwydd Dynefwr, un o gyndadau yr hwn, Gruffydd ap Nicolas, ymgeleddwr enwog y Beirdd, a flaenorodd yn yr Eisteddfod fawr a gynhaliwyd yn Nghaerfyrddin, yn y flwyddyn 1451"—o amser Syr Rhisiart Bassed hyd yr Arglwydd Dynefwr uchod, yn y flwyddyn a nodwyd, ymddengys mai yr unig ymdrech i adnewyddu hen ddefodau cenedlaethol y Cymry oedd, yr hyn a wnaethpwyd dan nawdd "Gwyneddigion Llundain," mewn gwahanol barthau o Wynedd, lle y cyflwynwyd arobrynau (*prizes*) penodol i'r ymgeiswyr llwyddiannus mewn cerddoriaeth a phrydyddiaeth. Gan na wnaed dim o bwys, o amser Syr R. Bassed hyd yn awr, yn wahanol i'r hyn a wnaethpwyd yn "yr Eisteddfod a gynhaliwyd yn Nghaerfyrddin, yr 8fed, 9fed, a'r 10fed o Orphenaf, 1819," gellir ystyried gweithrediadau, a graddau, ac amcanion y beirdd yn yr Eisteddfod hôno, fel cynllun teg o'r holl brifnod presennol, oddigerth ambell sism dibwys a ddygwyddodd, draw ac yma, yn ystod yr un mlynedd ar bymtheg ar ugain diweddaf. Rhydd ymgyfyngu fel hyn, at un pwynt, gyfleusdra i fod yn fyr (yr hyn, bellach, sydd anhebgorol angenrheidiol), gan y byddai hyntio ar ol y beirdd i'r holl gyfarfodydd a elwir Eisteddfodau, o'r Eisteddfod uchod hyd yr un annhymig a gynnaliwyd yn Llundain y 25ain o Orphenaf, 1855, yn orchwyl pur annyben, ac, ar y cyfan, digon annyddorol.

Yr oedd Iolo Morganwg yn cydnabod, yn ei araeth yn Eisteddfod Caerfyrddin, 1819, mai hono oedd "sylfaen" sefydliad Barddonol y prifnod yma. Fel hyn y dywedodd:—"Yn y flwyddyn 1451, cynnaliwyd Eisteddfod mawrwych yn Nghaerfyrddin, dan nawdd y Gwir odidog Gruffydd ap Nicolas; un o'i hiliogaeth pendefigol [yr Arglwydd Dynefwr], a charwr ei wlad, a ymddengys yn awr yn gydweithiwr â'n

Digitized by Google

teilyngaf Arglwydd Esgob Tŷ Ddewi; ei law a gynnorthwya yn ngosodiad sylfaen ein sefydliad harddwych." Yr oedd syniad Iolo, mai yr Eisteddfod hono oedd "gosodiad sylfaen sefydliad" barddonol y prifnod yma, yn hollol gywir; canys y mae yr oruchadeiladaeth, o hyny hyd yn awr, yn profi cywirdeb y syniad yn ddiammheuol; er fod rhai, hyd yn oed yn yr oes hon, yn ddigon hygoel i gredu, ac yn ddigon diniwed i haeru, fod ei sylfaen wedi ei gosod i lawr gan Plenydd, Alawn, a Gwron, os nad gan Gwyddon Ganhebon ei hunan! Pa fodd bynag, y gwirionedd yw, mai sefydliad newydd tanlli ydyw barddoniaeth y trydydd prifnod, o gynlluniad Iolo Morganwg, o drefniad Idrison, ac o addurniad Gwallter Mechain—tri o wladgarwŷr mor frwdfrydig a neb a fu erioed yn anadlu yn awyr Cymru. Mae y *Trioedd* canlynol, a ddaethant i'r meddwl wrth ysgrifenu hyn, mor wir a dim a ddywedodd Catwg Ddoeth erioed; sef,

Tair Barddoniaeth wahanol y sydd: Barddoniaeth gyntefig Beirdd Ynys Prydain y prifnod cyntaf, o amser Tydain Tad Awen hyd Yswidw Polion, ac o drefniad Plenydd, Alawn, a Gwron; Barddoniaeth cerdd dafod a cherdd dant yr ail brifnod, o amser Arthur hyd Syr Rhisiart Bassed, ac o drefniad Taliesin ben Beirdd, Merddin Emrys, a Merddin ab Madog Morfryn; a Barddoniaeth gymmysg y trydydd prifnod, o amser yr Arglwydd Dynefwr hyd Syr Benjamin Hall, ac o drefniad Iolo Morganwg, Idrison, a Gwallter Mechain; ac y mae'r tair Barddoniaeth hyn mor wahanol i'w gilydd ag y dichon i dri pheth o'r un rhyw fod.

Tri phrifardd Barddoniaeth y trydydd prifnod: Iolo Morganwg y cynlluniwr; Idrison y trefnwr; a Gwallter Mechain yr awenydd.

Ond, at yr Eisteddfod 1819. Mewn "cyfarfod cyhoeddedig yn Nghaerfyrddin, ar y 25ain o Hydref" [1817, mae yn debyg] "dan amgeledd y gwir Anrhydeddus Arglwydd Dynefwr, y Llywydd o hono, a'r gwir Barchedig Arglwydd Esgob Tŷ-Ddewi (Dr. T. Burgess), lle yr oedd llawer o Foneddigion eraill, ac Offeiriaid nodedig, hybarch am eu dysg, eu dawn, a'u cyfrifoldeb, * * * y cyd-unwyd i gadw Eisteddfod yn Nghaerfyrddin ar yr 8fed o Orphenaf, 1819."

Ymddengys oddi wrth hyn, i'r Eisteddfod hon, mam beirdd a barddoniaeth y prifnod presennol, gael ei chynnal yn bur ddiseremoni, yn mhen naw mis ar ol cytuno i wneyd hyny, heb ei rhoi "dan osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn," nac un ddefod arall; ac heb ei chyhoeddi yn ffurfiol chwaith, fel yr Eisteddfodau a'i dilynasant hi. Am y ffurf a arferwyd ar ol hyn, ceir copi o'r un a ddefnyddiwyd wrth gyhoeddi Eisteddfod Caerdydd, 1834, yn *Hanes Cymru* Carnhuanawc; yr hon ffurf sydd fel hyn:—

/|\

"Gwir yn erbyn y Byd.

"Yn enw Duw a phob Daioni.

"Gwaedd uwch Adwaedd.

"Tri bann Lleuad ym mlaenred Gwyl yr Alban Elfed, 1833.

"Bydded yn hysbys.

"Pann y bydd oed Crist yn 1834, a chyfnod Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, yng ngwyl yr Alban Elfed, sef cyfnod cyhydedd Haul y Mesuryd, ar ol y Gwys a'r Gwahawdd hynn, i Gymru oll gann gorn Gwlad, o'r amlwg yng ngolwg; yng nghlyw Gwlad a Theyrnedd, dann Osteg a Rhybudd un-dydd a Blwyddyn, cynhelir Eisteddfod a Gorsedd wrth Gerdd, yn nhref Caerdydd, ym Mro Morganwg, ag hawl i bawb a geisiont Fraint a Thrwydded wrth Gerdd Dafawd a Barddoniaeth i gyrchu y Dref honno, yn awr cyntefin Anterth, a chynnal gann Haul; lle ni bydd noeth arf yn eu herbyn, ac yno yn erwynebol y Tri Chyntefigion Beirdd Ynys Prydain, nid amgen, Plennydd, Alawn, a Gwron; a chyda nhwy Daniel Ddu, Gwallter Mechain, Taliesin Ab Iolo, Gwilym Morganwg, Gwilym Ddu, Glann Cynon, ac ereill; a hwynt oll yn Feirdd a Thrwyddedigion, wrth Fraint a Defawd Beirdd Ynys Prydain; ac yno cynnal Barn Cadair a Gorsedd, ar Gerdd a Barddoniaeth, ac ar bawb parth Awen a buchedd, a Gwybodau, a geisiont Fraint, ac Urddas, a Thrwyddedogaeth; yn nawdd Cadair Morganwg a Gwent, ac Euas, ac Erging, ac Ystrad Yw, ac wrth Fraint a Defawd Beirdd Ynys Prydain Yn wyneb Haul a llygad Goleuni.

"Llafar bid lafar.

"Gwir yn erbyn y Byd.

"Duw a phob Daioni."

Pan ddelir at yr ymadrodd, "Lle ni bydd noeth arf yn eu herbyn," bydd yr holl feirdd presennol yn myned at y cleddyf a orwedd yn noeth ar gareg yr Orsedd, ac yn ei gydwthio i'r wain, gan ochelyd cyffwrdd â'r carn, gan nad yw hyny gyfreithlawn i arwyddo mai gwyr wrth heddwch a thangnef ydyw y beirdd i fod.

Ni wyddom pa mor hen ydyw y cyfansoddiad uchod, ond credwn nad yw eto yn llawn deugain mlwydd oed; canys methwyd ei ganfod yn un o'r hen *Gofion* Cymreig; ond y mae ei sylwedd yn arweiniad y Dr. Pughe i *Farwnadau Llywarch Hen.*

Agorwyd Eisteddfod 1819 yr un mor ddiseremoni ag y cytunwyd i'w chynnal, gan y "Llywydd gweinyddawl," sef yr Arglwydd Esgob Tŷ Ddewi, mewn araith fer i'r perwyl; a hyny, fel yr ymddengys, dan do, "yn rhandŷ mawr Gwesdŷ y Llwyn Eiddew," lle yr oedd "y Gadair Farddonol, neu Gadair Teilyngdod, yr hon a saernïwyd erbyn yr achlysur, o dderw brodorol, mewn agwedd hen-ddulliog (*gothic*) pur, wedi ei gosod ar y bwrdd, i'r dyben i foddhau cywreingarwch y Gymdeithas, yn gystal ag i gynhyrfu awydd cyd-ymgystadliad y rhai a allent fod yn chwenychu i'w meddiannu."

Y dull presennol o agor Eisteddfod yw myned, yn gyntaf oll, i'r Orsedd (yr hon a ddarlunir eto), a darllen cyfansoddiad byr, henddulliog, i'r perwyl, uwchben cleddyf, megys ag y gwneir wrth gyhoeddi Eisteddfod, fel yr awgrymwyd eisoes. Dyma y cyfansoddiad a ddarllenwyd wrth agor Eisteddfod Aberffraw, 1849:—

"Y Gwir yn erbyn y Byd.

"Yn y flwyddyn 1849, pan yw yr huan yn nesäu at Alban Elfed, yn awr anterth, ar y 14eg o fis Awst, gwedi cyhoeddiad teilwng o un dydd a blwyddyn, agorir yr Orsedd hon ar Fryn Llywelyn, yn nhref Aberffraw, yn Ngwynedd, i roddi gwys a gwahawdd i bawb a gyrchont" [hyn o le], "lle nad oes noeth arf yn eu herbyn" [gan fyned drwy seremoni y cleddyf], "ac y cyhoeddir barn Gorsedd ar bob awenydd a barddoni a roddir dan ystyriaeth, yn llygad haul, ac yn ngwyneb goleuni.

"Y Gwir yn erbyn y Byd."

Y mae rhogleuaeth cryn ddiweddarwch ac

Digitized by Google

anghelfydd-dra ar y cyfansoddiad uchod. Dyma un arall a ddefnyddiwyd ar agoriad un Orsedd, meddai y Dr. Pughe:—

"Y GWIR YN ERBYN Y BYD; ac yn nawdd Beirdd Ynys Prydain pawb a gyrchont hyn o le, lle nid oes noeth arf yn eu herbyn; a phawb a geisiont Urddas a Thrwyddedogaeth wrth Gerdd a Barddoniaeth, ceisiant gan Iolo Morganwg, W. Mechain, Hywel Eryri, a D. Ddu Eryri; a hwynt oll yn Feirdd Trwyddedawg, yn mraint Beirdd Ynys Prydain.—Y Gwir yn erbyn y Byd."

"Os byddai rhywun i gael ei urddo, newidid terfyn y wers i'r ffurf yma:—'Ym mraint Cadair (Beirdd) Cyfoeth Morganwg, a Gwent, ac Erging ac Ystrad Yw.—Yn enw Duw a phob daioni.'

"Yr oedd hyn yn gwneuthur y Gadair yn dal-eithiol neu leol; a gelwid hi Cadair Morganwg. Os byddai Ofydd i gael ei urddo, terfynai'r ffurf fel hyn:—'Ymgeisiant â Iolo Morganwg, W. Mechain, Hywel Eryri, a D. Ddu Eryri, Beirdd ac Ofyddion ym mraint Beirdd Ynys Prydain. Sef y dywed D. Ddu Eryri ar air a chydwybod y gellid Beirdd o honynt; ac yna barnasant y Beirdd yng ngorsedd, y dylid Beirdd o honynt yng ngradd Ofyddion, ym mraint Beirdd a Chadair Gwynedd.—Yn enw Iesu.'

"Ac wrth derfynu neu gau yr Orsedd, fel hyn: —'Iolo Morganwg, W. Mechain, Hywel Eryri, a D. Ddu Eryri, Beirdd ac Ofyddion, wrth fraint a defod Beirdd Gwynedd, yn ymddal wrth brif ddefod Beirdd Ynys Prydain; ni noethant arf yn erbyn neb, ac ni bydd noeth arf yn eu herbyn.—Yn enw Iesu.'

"Wrth gau yr Orsedd, cymmerai y Bardd gweinyddol i fyny 'r cleddyf, ac enwai 'r Beirdd crybwylledig yn yr agoriad, os na byddai rhywun i gael ei wrthod, neu ei attal: yna sylwent fel hyn:—'Iolo Morganwg, W. Mechain, Beirdd Trwyddedogion ym mraint Beirdd Ynys Prydain; a D. Ddu Eryri, Bardd wrth hawl ac arddel ym mraint Cadair Dyfed.—Calon wrth galon.'

"Y cyfnewidiad yma yn null enwi y Beirdd yn wahanol i'r modd y gwnaed wrth agor yr Orsedd, a arwydda fod D. Ddu Eryri i gael ei attal, a Hywel Eryri ei wrthod; ac am hyny, nas rhoddid iddynt y graddau a geisient.

"Pan y profid ger bron Gorsedd fod Bardd wedi bod yn euog o ryw gamymddygiad, efe a attelid, a ddireddid, neu a wrthodid, yn ol yr achos. Gwnelid y cyntaf trwy gyhoeddiad, yn yr hwn y gelwid ef—'Bardd hawl ac arddel,' fel y crybwyllwyd eisoes. Yr oedd diraddio Bardd yn orchwyl penodol Gorsedd, cyn iddi gael ei chau, yr hyn a elwid—'Dwyn cyrch cyflawn yn ei erbyn.' Ar ol y penderfyniad, gwisgai yr holl Feirdd am eu penau [yr hyn a ddengys eu bod o'r blaen yn bennoeth], a dadweiniai un o honynt y cleddyf, gan enwi y person dedfrydedig dair gwaith ar gyhoedd, â'r cleddyf ar godiad yn ei law, gan chwanegu wrth ei enwi y tro diweddaf, —'Noeth yw cleddyf yn ei erbyn.' Terfynai hyn y seremoni, ac nis gellid ei dderbyn byth mwyach i'r urdd, a gelwid ef, 'Gwr wrth ddifrawd ac anrhaith.'

"Ystyrid yn angenrheidiol cynnal Gorsedd benodol, weithiau, i ddiraddu Bardd, trwy gyhoeddiad, yn yr hwn y nodid yr amgylchiad yn y dull arbenig yma:—'Lle ni bydd noeth arf yn erbyn neb ond Madog Min, gwr wrth ddifrawd ac anrhaith.' * * * * Ar ol cyhoeddi fel hyn, ni bydd yn angenrheidiol cynnal yr Orsedd yn weithredol a gyhoeddir, am ei bod mewn hanfod gwirioneddol; a'r cwbl a fydd yn angenrheidiol ar yr amgylchiad, fydd gwneyd diraddiad y fath Fardd yn gyhoeddus."

Gwelir yma, nid yn unig y gwahanol ddulliau o agor a chau "yr Orsedd," ond hefyd, pa fath ydyw—o leiaf, pa fath ydoedd, dysgyblaeth y prifnod yma, ar ei gychwyniad. A oedd rhyw ffurfiau fel yna yn cael eu harfer wrth agor a chau Gorseddau y prifnod cyntaf a'r ail, ac wrth dderbyn a diarddel Beirdd, nid ydys yn gwybod —digon tebyg fod; canys yr oedd y Cymry, fel pob hen genedloedd ereill, yn nodedig am seremoniau.

Agorwyd Rhag-Eisteddfod Dinas Mawddwy, ar yr 2fed dydd o Awst, 1855, gan Ab Ithel [un o hynafiaethwyr penaf yr oes hon], trwy ddarllen y weddi ganlynol:—

"Duw rho nerth;
Ac o nerth, pwyll;
Ac o bwyll, gwybod;
Ac o wybod, y cyfiawn;
Ac o'r cyfiawn, ei garu;
Ac o garu, caru pob peth;
Ac yngharu pob peth, caru Duw."
*Talhaearn Tad Tanwyn a'i cânt.*

Y mae rhai gweddïau ereill i'r un perwyl yn ysgriflyfrau Iolo; megys—

"Dyro Dduw dy nawdd;
Ag yn nawdd, nerth;
Ag yn nerth, deall;
Ag yn neall, gwybod;
Ag yngwybod, gwybod y cyfiawn;
Ag yngwybod y cyfiawn, ei garu;
Ag o garu, caru pob hanfod;
Ag ymhob hanfod, caru Duw."

"Llyma weddi 'r Orsedd o lyfr Trehaearn Brydydd Mawr:—

"Dyro Dduw dy nawdd;
Ag yn nawdd, pwyll;
Ag ymhwyll, goleuni;
Ag yngoleuni, gwirionedd;
Ag yngwirionedd, cyfiawnder;
Ag ynghyfiawnder, cariad;
Ag yngháriad, cariad Duw;
Ag yngháriad Duw, pob gwynfyd.
Duw a phob Daioni."

"Llyma weddi 'r Orsedd, a elwir Gweddi 'r Gwyddoniaid:—

"Dyw dy nerth, ag yn nerth dioddef;
A dioddef dros y gwir, ag yn y gwir pob goleuni;
Ag yngoleuni pob gwynfyd, ag yngwynfyd cariad,
Ag yngháriad Dyw, ag yn Nuw pob daioni."
*O Lyfr Mawr Margam.*

"Llyma Bennill Cadair Gorsedd yr Alban Arthan:—

"Pan fo cwyn cynllwyn bro Gwrthenin
Dan ysgar gwiail y gilbant werin,
Gwyn fyd y genau yn gyfrwydd gyfrin,
A lefair Tri gair o'r heniaith gyssefin."
*Merddin Emrys a'i cânt (?).*

Ond, agorwyd Mam-Eisteddfod y prifnod yma, yn 1819, heb arfer yr un o'r seremonïau hyn, namyn "mewn araith fer a thra pherthynasol, gan yr esgob;" ac yna, traddododd Iolo Morganwg araith ar yr amgylchiad, yn Seisoneg! Yna, wedi i'r "Llywydd Gweinyddawl" ddarllen llythyr oddi wrth yr arglwydd Dynefwr, o Lundain; ac amryw brydyddion gwyddfodol adrodd englynion er yr Eisteddfod; ac i'r telynorion chwareu amryw donau; "cyhoeddodd yr esgob

Digitized by Google

[y llywydd] enw benthycol awdwr yr englyn goreu 'ar y Delyn wedi thantio o'r newydd.' "

Dylid sylwi yma, fod pedwar o feirniaid wedi eu hethol yn mlaen llaw, i farnu rhwng yr ymgystadlwyr; sef, "y Parch. Elieser Williams, Mr. Edward Williams [Iolo Morganwg], y Parch. D. Richards, a Mr. Robert Davies [Nantglyn]." Yr oedd hyn, fel pob peth arall perthynol i'r prifnod yma yn ddull hollol newydd o farnu teilyngdod cystadleuol mewn Eisteddfod—nid beio y dull yr ydys ond adrodd ffaith; canys y llywydd oedd y prif feirniad bob amser yn Eisteddfodau yr ail brifnod; a byddai yn ffurfio ei farn, ac yn ei thraddodi yn y fan a'r lle, ar goedd yr holl Eisteddfod. Y mae hyn yn hollol amlwg yn Ystatud Gr. ab Cynan ac Ystatud Llawdden:—

"Ynn amser brenhin Pennbeirdd a'i heneidieu (*their fathers*), ynn yr amser yr oedd Gydwaladr yn frenhin arr holl Dalaith y teyrnasoedd; yna hwy a aethant i eistedd, ac i *farnu ar bob rhyw beth o'r a gymrei Prydyddion y Dalaith ynn llaw*, nyd amgen ar geingciau telyn a'i chaniâdeu." * * *—*Yst. Gr. ab Cynan.*

"A gwedi ciniawa [yn yr Eisteddfod], Gruffydd ab Nicolas a ddodes y pwnc yma o flaen y prydyddion, a gofyn ei atteb:

"Pa beth yw achos, a defnydd, a dyben Eisteddfod ?

"Ac ni chlywai neb ar ei galon ei atteb. Yna y dywed Gr. ab Nicolas, 'Y gwr bach â'r gŵn llwyd, dod ateb.' Ac ateb a wnaeth Dafydd [ap Edmwnt] fal hyn:—

"'Cof am a fu—ystyr am y sydd—a barn am a fydd. * * * Am a fu, nis gellir ei wellâu; am y sydd, nis gellir amgen nog y mae; am a fydd, gellir amcanu gwellâad. Am a fu, y mae ger bron ar gof; am y sydd, y mae yn ngolwg; am a fydd, nid oes ond barn. Nis gellir gwellâu a fu, cyd gellir ei well; rhyhwyr ceisiaw gwellâu y sydd, eithyr gellir ei well; eithyr am a fydd, gellir ei amcanu yn well. A chan mai felly y mae o dwng, rhodder ar yr arian-dlws, ac ar a'i cais wellâu ar fesurau cerdd dafawd; a gadael ar ol a fo gwaethaf, gan osawd gwell o newydd yn ei le, a chadw a fernir yn orau, onis delo amser a gwŷr a'i gwellâo.'

"'Ti a ddywedaist yn gall,' ebe Gruffydd ab Nicolas; a chan alw ar y prydyddion, efe a ddywed wrthynt fal hyn:—'Nid da lle gellir ei well. Llyma yr ariandlws—y gorau ar ganu, y gorau ar wybodau canu, a'r gorau yn gwellâu gwybodau a chelfyddyd canu a'i ceiff. Gwiliwch chwi y prydyddion, y mae awen gan y Llwyd Bach o Degeingl; y mae deall gan y Bâch o Wynedd; y mae dychymygion yn mhen y dyeithr yma—ymrodded pob un o honoch i amcanu y gorau er gwellâu cerdd dafod a'i pherthynasau; a chedwch, os gellwch, y gadair arian [nid cadair dderw, fel oedd Nghaerfyrddin yn 1819] yn eich plith yn Neheubarth, lle ei cadwed hyd yn awr, er yn amser yr amherawdyr Arthur. Os Gwynedd a'i dwg, bydd hyny er cywilydd a cholled i chwi; eithyr *myfi a'i dodaf i'r prydydd a'i dirper yn gyfiawn:* bydd hyny er clod ac anrhydedd i mi: nid i myfi y mae y golled; nid i myfi y cywilydd, ond i'r prydyddion a'i cyll.'"

Ardderchog! Safodd Nicolas at ei air; Dafydd ap Edmwnt a ennillodd y gadair arian yn deg, er gwaethaf holl feirdd y Deheubarth oedd yn bresennol; a D. ap Edmwnt a'i cafodd. Nid cadair i eistedd ynddi ydoedd, bid sicr, ond ariandlws, ar lun cadair, i'w "chludo ar ei ysgwydd."

Ond, dengys y dyfyniadau uchod yn amlwg mai y llywydd oedd yn barnu yn Eisteddfodau yr ail prifnod; a'i fod yn ffurfio ei farn, ac yn ei thraddodi, ger bron pawb, yn y fan a'r lle. Gan hyny, *dull newydd* o farnu a gymmerwyd yn Eisteddfod 1819, y cyntaf o'r prifnod yma, yr hyn a ddilynir hyd y dydd hwn. Nid ydys yn dadleu dros deilyngdod nac annheilyngdod y naill ddull na'r llall; ond dangos yr ydys fod pob peth wedi ei wneuthur o newydd yn y trydydd prifnod hwn, megys ag y gwnaethpwyd yn yr ail; a pha ddyben i neb hôni mwyach fod beirdd yr oes bresennol yn dilyn "Braint a defod Beirdd Ynys Prydain?" Nid ydym ni yn dilyn, nac yn meddu, "braint a defod" beirdd yr ail prifnod, chwaithach y cyntaf; ac yn hytrach na bwhwman fel plantos, gan wag-ymhoni ein bod yn dilyn hen arferion a defodau ein cyndadau—pethau y gallai pawb wybod nad ydym, ac nas gallwn byth, ac na fyddai yn ddymunol chwaith i ni eu dilyn—yn lle bwhwman fel hyn i geisio dal cysgod, llawer addasach fyddai i ni fel cenedl ystyried gwirair Gr. ap Nicolas—"Nid da lle gellir ei well;" ac ymroddi, bob un o honom, yn ol annogaeth y pendefig goleubwyll hwnw i'w gyd-daleithwyr, "i amcanu y goreu er gwellâu cerdd dafawd a'i pherthynasau," ac er diwygio ein hen sefydliad adfeiliedig, i ateb yn well i ansawdd ac angen yr oes a'r genedl.

Y peth nesaf a wnaed gan y llywydd yn Eisteddfod 1819, oedd cyhoeddi "mai yr un gwr boneddig [Gwallter Mechain] oedd awdwr yr awdl goreu ar (rai o'r) 24ain mesur, er 'Coffadwriaeth am y gwron Cymreig, Syr Thomas Picton;' ac ar hyny efe [G. Mechain] a dywyswyd gyda bloddest i'r gadair farddonol." Dyma beth newydd eto, o ran dim a ganfuwyd yn yr hen *Gofion*, sydd ar gof a chadw. Yna, "dringodd hen Fardd Morganwg [Iolo] i fyny a chylymodd ysnoden (*riband*) las am ei fraich ddeheu [breichrwy], sef arwydd Bardd. Wedi hyny, disgynodd Mr. Edward Williams, a nesaodd at yr esgob, gan ddywedyd wrtho, ei fod ef wedi cael ei awdurdodi i wisgo ei arglwyddiaeth âg urdd Derwydd; * * * yna rhwymodd y bardd ysnoden wen am fraich ddeheu yr esgob."

Dyma y Derwydd cyntaf a urddwyd, mewn Eisteddfod genedlaethol, yn ddilys ddiammheu, er's cyn oes Yswidw Polion, tua deunaw can mlynedd cyn Eisteddfod Caerfyrddin! Fe ddichon fod Iolo Morganwg wedi cymmeryd arno urddo rhywrai yn Dderwyddon mewn rhyw gyfarfodydd lleol, dinôd, cyn yr Eisteddfod yma; canys y mae un cyhoeddiad (*proclamation*) o un cyfarfod o'r fath, o leiaf, ar gael, wedi ei amseru yn 1792, yn rhoddi "gwys a gwahawdd * * * i bawb a geisiont Urddas a Thrwyddedogaeth wrth Gerdd a Barddoniaeth, gyrchu pen Pumlimon!" A urddodd yr hen fardd selog ryw rai yn Dderwyddon ar ben y mynydd hwnw, nid ydys yn gwybod; ond hyn a wyddys yn dda ddigon, mai yr Esgob Burgess oedd y cyntaf o'r rhywogaeth Dderwyddol sydd yn awr, a urddwyd mewn Eisteddfod Genedlaethol, fel y dywedwyd eisoes; am hyny, i'r Esgob Burgess y mae holl Dderwyddon mawreddig a hynafol (?) yr oes bresennol i olrhain eu hachau. Ond y drwg ydyw, er hyny, fod awdurdod urddiad, hyd yn oed yr esgob, yn ammheus; canys fe honir yn awr nad oes neb yn Dderwydd o'r iawn ryw ond gweinidog yr efengyl; ac am hyny, nad oes gan neb hawl i urddo Derwydd ond y cyfryw Dderwydd a fo yn weinidog yr efengyl. Os felly, tarddodd hyd yn oed urddiad Derwyddol yr Esgob

Digitized by Google

Burgess o ffynnonell anghyssegredig a diawdurdod; o blegid nid gweinidog yr efengyl oedd Iolo Morganwg, namyn saer ceryg; yna, dyna'r holl urdd yn ofer, a holl Dderwyddon yr oes yn hiliogaeth anwarantedig.

Fe dybiodd rhai, megys y Celtig Ddavies, ac ereill, fod Derwyddon gwirioneddol, ac addoliad Derwyddol yn bod mor ddiweddar a'r ddeuddegfed ganrif, o blegid fod beirdd yr oes hono, megys Cynddelw, a'i gydoeswyr, yn baldordd cymmaint am Dderwyddon a Derwyddiaeth; ond y gwir yw, fel y profa Mr. Stephens yn foddhaol, nad oedd Derwyddiaeth y ddeuddegfed ganrif yn amgen na "ffug barddonol," a ddyfeisiwyd yn y ganrif hono gan y beirdd, er ceisio rhoi mwy o bwys i'w cymmeriad yn ngolwg y bobl, o blegid y parch traddodiadol oedd fyth yn nghof y genedl am eu hen Feirdd a Derwyddon gwirioneddol. Ffug noeth hefyd, fel y mae yn hawdd i bawb wybod, ydyw Derwyddiaeth Iolo Morganwg a'i olynwyr; ac os nad yr un amcan sydd gan feirdd yr oes hon yn dal i fyny ffug Dderwyddiaeth Iolo, ag oedd gan feirdd y ddeuddegfed ganrif yn cynnal ffug Dderwyddiaeth Cynddelw, y mae yn dra anhawdd gwybod pa ddyben sydd iddi. Pa fodd bynag, y mae cymmaint o wahaniaeth, fel y sylwa Stephens yn briodol, rhwng "Derwydd Gwerinol Iolo Morganwg, a Derwydd boneddig oes y marchogion," yn y ddeuddegfed ganrif, ac ar ol hyny, "ag oedd rhwng hwnw a Derwydd gwirioneddol, anfoddog, a thra-arglwyddiaethol" y prifnod cyntaf.

Y gorchwyl nesaf yn yr Eisteddfod dan sylw a wnaed gan y llywydd, ar ol rhwymo ysnoden las am fraich y bardd, ac ysnoden wen am fraich yr esgob, a chwareu tôn ar y delyn, oedd cyhoeddi "enw benthycol awdwr yr Awdl oreu ar 'Farwolaeth y Frenhines;' a chanfuwyd, ar doriad y sel, mai Mr. Griffith Williams [Gutyn Peris], Llandegai, sir Gaernarfon, oedd y bardd llwyddiannus."

Yna, ar ol darllen awdl Gutyn, a chwareu tôn eto ar y delyn, a chanu rhyw bethau ereill, "adroddodd y Parch W. Davies [Gwallter Mechain] rai pennillion a gyfansoddwyd ganddo ar Dafydd ap Edmwnt, ei ragflaenor yn y gadair farddonol, yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn y flwyddyn 1451." Ac, meddai yr hanes, "Os oedd rhai o gyfeillion trefniant barddonol D. ap Edmwnt yn bresennol, rhaid oedd iddynt deimlo cyfnewidiad, neu loeson trymion yn eu meddwl."

"Wedi hyny, dygwyd y campdraethiadau yn mlaen. Pan ofynodd y llywydd a oedd neb yno yn arddel enw benthycol awdwr y traethawd goreu 'Ar gymmeriad penodol, a manteision cymharol sefydliadau barddonol Caerfyrddin a Morganwg,' er syndod bawb, cyfododd y Parch. Walter Davies, yr hwn a ennillasai gymmaint anrhydedd eisoes, ac wele ef yn bencampwr y drydedd waith."

Traethawd Saesneg, o deilyngdod mawr at lawer cyfrif, ydyw hwn, yn yr hwn, meddai hanesydd yr Eisteddfod, y "triniwyd rhai o'r mesurau perthynol i'r pedwar mesur ar hugain [yr eiddo D. ab Edmwnt] gyda llymdostedd teilyngol (?). Rhoddwyd clod dyladwy i feirdd Morganwg, a dynoethwyd sefydliad barddonol Caerfyrddin hyd y sylfaen; dirmygwyd 'Gorchest y Beirdd,' &c., yn dra chyflawn; a dyrchafwyd eu dirmygwyr gyda phriodoldeb mawr.

Prin iawn yr ydys yn gallu coleddu y syniad sy'n ymwthio i'r meddwl yn anghroesawus; sef, fod gwr o ddysg, a chraffineb, a gonestrwydd cyhoeddus Gwallter Mechain, wedi ymroi, fel hyn, yn ei "bennillion" a'i "draethawd" i "ddirmygu" gwaith gorchestol Dafydd ap Edmwnt, er mwyn boddio Beirdd Morganwg, ac yn neillduol un o honynt, oedd feirniad yn yr Eisteddfod dan sylw, sef Iolo; er hyny, yr ydys yn methu â chanfod un rheswm arall dros y fath ymddygiad. Gwyddai Gwallter Mechain, o leiaf gallasai wybod cystal ag undyn, fod Gruffydd ab Nicolas wedi rhoi yr un chware teg i feirdd Morganwg, y rhai oeddynt dra lluosog yn yr Eisteddfod hono, ag a roddes i Dafydd ap Edmwnt (gyda'r hwn nid oedd neb o Wynedd, hyd y gwyddys, ond Gutyn Owain), i ddwyn eu gwelliant ar y mesurau yn mlaen erbyn yr amser gosodedig. Ië, rhoddodd Nicolas rybudd hyawdl i feirdd Morganwg, fel y dangoswyd eisoes, ar iddynt gydymdrechu yn erbyn y "Bach o Wynedd," i "wellâu cerdd dafod a'i pherthynasau," yn ystod yr amser a benododd, "a chedwch," medd efe, "os medrwch, y gadair arian yn eich plith yn Neheubarth;" a rhoddodd yr un faint o amser iddynt hwy, sef "naw diwrnod," a hwynt-hwy yn llawer, i wneyd hyny, ag a roddodd i Dafydd ap Edmwnt ei hunan. Ac os oedd "y pedwar ansawdd ar hugain," fel y maent yn eu galw, ganddynt yn Morganwg, er's na ŵyr neb ond hwy eu hunain pa hyd, fel y bostiant, pa fodd na buasai cynnifer o honynt ag oedd yn yr Eisteddfod hono, a'r godidog Lawdden yn eu plith, yn gallu eu casglu yn nghyd mewn "naw diwrnod," gystal ag y medrodd Dafydd ap Edmwnt ei hunan lunio ei "bedwar mesur ar hugain," a chanu pennillion cynnyrch gyda hyny ar bob un o'r mesurau hyn! Y peth tebycaf o lawer i wir, ag sydd yn ymddangos yn ddiammheuol ydyw, nad oedd gan feirdd Morganwg fath yn y byd o ddosbarth reolaidd, yn y flwyddyn 1451; ac nad oedd ganddynt oll yn nghyd ddim digon o awen i lunio dosbarth yn yr amser gosodedig, fel y profodd Dafydd ap Edmwnt fod ganddo ef, yr hyn hefyd a ragwelai y craffus Gruffydd ap Nicolas. Y mae yn wir ddiau, o ran hyny, mai Dafydd a roddodd swmbwl yn nghnawd beirdd Morganwg i ffurfio y dosbarth sydd ganddynt, yr hon y buant dros ddau can mlynedd (nid "naw diwarnod," fel D. ap Edmwnt) yn ei gwneuthur; canys Edward Dafydd o Fargam a'i gorphenodd; fel y tystia efe ei hun yn *Nghyfrinach y Beirdd*, ac a gafodd farn Eisteddfod arni yn Nghastell y Bewpyr, 1681, dan nawdd Syr Rhisiart Bassed.

Profir y ffeithiau canlynol o ysgrifeniadau beirdd Morganwg eu hunain. Yn mhen rhyw ysbaid o amser ar ol Eisteddfod Caerfyrddin, 1451, rhoddodd Gwilym Tew, a Ieuan ab Hywel Swrdwal, a Ieuan Gethin ab Ieuan ab Lleision, "warafun a gwrthfarn" ar Ddosbarth Caerfyrddin, neu Ddosbarth D. ap Edmwnt; ac yn mhen *naw mlynedd*, cawsant farn Eisteddfod ar eu gwrthfarn, a gynnaliwyd ar fynydd Garth Maelwg, 1460, dan nawdd Syr Rhisiart Nefel; ond ni ddygasant ger bron un math o ddosbarth eu hunain. Wedi hyny, cawsant Eisteddfod "drwy ddawn y brenin Harri 'r seithfed," o 1485 i 1509, lle y daliasant at eu "gwrthfarn," heb ddwyn dosbarth eu hunain fyth ger bron; canys, meddai Edwart Dafydd, "nid oedd yr amser hyny [yn amser Harri VII.] agos y sydd ein awr ar arfer o fesurau cerdd; am nad oeddynt hyd yn hynn ar gaffaeliad ag adfer." Meurig Dafydd, yn mhen yn agos i gan mlynedd ar ol D. ap Edmwnt, sef o gylch 1540, neu ddiweddarach, "a wnaeth *Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain* yn un llyfr gyntaf." Yn mhen hir a hwyr ar ol hyn

Digitized by Google

drachefn, o gylch 1580, gwnaeth Llywelyn Sion "adysgrifenu llyfr *Cyfrinach y Beirdd*, a *chwanegu* yn helaeth at y *syniadau egwyddorol* a'r *pennillion cynnyrch;* ag a wnaeth Drefn a Dosparth ar fesurau Cerdd, a'r peth oedd berthyniad iddynt:" eithr "nid oedd wrth raid ag achos ym mhob mann [yn y llyfr] *hanner digon o fesurau a phennillion cynnyrch*, a golygwel i ddysgu 'r mesurau." Ond, o'r diwedd, yn mhen o gylch 230 o flynyddoedd ar ol D. ap Edmwnt, fe gododd Edwart Dafydd, y soniwyd eisoes yn fynych am dano, ac a *orphenodd* Ddosbarth Morganwg, fel y mae yn awr yn *Nghyfrinach y Beirdd*, am yr hon ddosbarth y dywed—"a chann un arall o'r Beirdd yn yr Orsedd honno [Gorsedd y Bewpyr, 1681] y cefais y pennillion cynnyrch ag oedd yn ddiffyg yn Llyfr Llywelyn Sion; ambell pennill yn wir a dynnais o waith Beirdd y ddwy oes ddiweddaf, a rhai a welir o henynt a wnaethym fy hun."

Y gwir ydyw hyn (fel y gall pwy bynag a chwilio *Gyfrinach y Beirdd* weled), nad oes dim un o'r "pennillion cynnyrch" sydd ar fesurau gwir wahanol i fesurau D. ap Edmwnt, yn Nosbarth Morganwg, ddim cyn hyned ag Eisteddfod Caerfyrddin, 1451; a bod y rhan fwyaf o honynt yn ieuengach o ugeiniau, ac ereill, o gannoedd o flyneddau; yr hyn sy brawf diammheuol nad oedd y cyfryw fesurau mewn bod yn amser D. ap Edmwnt, er maint a fostir ac a haerir yn wahanol. Gan hyny, pa ragoriaeth bynag sydd i Ddosbarth Morganwg ar Ddosbarth Caerfyrddin, y mae llawer o'r diolch yn deilwng i Dafydd ap Edmwnt, yr hwn a roddes y cynllun i feirdd Morganwg, ac o eiddigedd at yr hwn yr ymroisant, am gannoedd o flyneddau ar ei ol, i ffurfio a gwelläu eu dosbarth. O blegid hyn, cwbl annheg ydyw "dirmygu" D. ap Edmwnt, yr hwn a wnaeth y fath gampwaith mewn "naw diwarnod" ag a roddodd feirdd y Deheubarth ar eu hyd i ddyfod i fyny âg ef mewn dau gan mlynedd! Pe gallasai beirdd Morganwg ddwyn eu dosbarth yn gryno, ger bron Eisteddfod, yn oes D. ap Edmwnt, y mae yn bur debyg y cymmeradwyasai yr hyn sydd ynddi yn rhagori ar ei ddosbarth ef yn llawen; canys tystiodd yn gyhoeddus ger eu bron oll, nad oedd efe yn cynnyg ei waith "naw diwarnod" i gael ei "gadw" yn hwy nag "onis delo amser a gwyr a'i gwellâo."

Gwedi i "Awenwyr Morganwg, nid cael eu dyrchafu uwchlaw beirdd swydd Gaerfyrddin yn unig, ond eu cyhoeddi yn fuddugoliaethwyr ar holl feirdd De a Gogledd" [pa le y mae eu *gwaith* sy'n teilyngu y fath orddyrchafiad, nis gwyddys], trwy ddarlleniad traethawd G. Mechain yn yr Eisteddfod, 1819, cyhoeddwyd enw benthycol awdwr y campdraethawd ar "*Iaith a dysgeidiaeth y Brytaniaid, tra fuont dan y llywodraeth Rufeinig;*" a chafwyd allan mai *Gwyneddwr* oedd hwn eto, nid amgen y Parch. I. Jones, Usgaer, swydd Gaernarfon.

"Digrif afrifed" oedd clywed beirdd Gwynedd yn gorfoliannu beirdd Morganwg yn yr Eisteddfod hon, ac eto, yn ysgubo yr holl ariandlysau oddi arnynt i'r Gogledd, heb adael cymmaint a gwobr am englyn yn Morganwg uchelawenawg i ymffrostio yndda! Ymddengys i Gwallter ganfod y gwnai *mawl* y tro yn Morganwg, ond y byddai yr *ariandlysau* yn fwy o les yn Ngwynedd. Ymddygodd Gwallter ychydig yn fwy haelfrydig at y Morganwysion na'i ragflaenor Dafydd; canys aeth yr olaf â'r mawl a'r gadair arian o'u plith yn hollol ddiseremoni; am hyny, y mae pedwar can mlynedd wedi bod ar eu goreu i ddiffodd eu heiddigedd tuag ato!

Terfynwyd gorchwylion dydd cyntaf Eisteddfod 1819, trwy i ryw Seison o Gaerbaddon roddi "cydgerdd (*concert*) leisiawg ac offerynol (*vocal and instrumental*) yn Llysdŷ'r dref, er bydd telynorion methedig."

Treuliwyd ail ddydd yr Eisteddfod hon i ymryson canu telynau, i farnu pwy oedd y goreuon, ac i'w gwobrwyo; a'r nos, rhoddwyd ail "gydgerdd" gan y Seison i'r un perwyl a'r noson gyntaf.

"Dydd Sadwrn," sef trydydd dydd yr Eisteddfod, "cymmerodd y ddefod o roddi urddau cynnydd le; ac am ei bod yn angenrheidiol i hyn gael ei wneuthur allan, dewiswyd gardd gwestdŷ y Llwyn Eiddew."

Ni ddywedir yn yr hanes beth a olygid wrth yr "urddau cynnydd" uchod. "Urddau cynnydd" yr ail prifnod, mewn cerdd dafod, oedd, Dysgybl Yspâs, Dysgybl Dysgyblaidd, a Dysgybl Pencerddaidd; ac unig urdd cynnydd y prifnod cyntaf oedd Awenydd: ond nid oes air o son am un o'r graddau hyn yn hanes Eisteddfod 1819, yr hyn a ddengys fod yr hen bethau wedi myned heibio erbyn yr Eisteddfod hon yn llwyr.

"Wedi i wyth Bardd wrth fraint a defod [nid 'wrth fraint a defod Beirdd Ynys Prydain,' yn ol defod y prifnod cyntaf, na'r ail, beth bynag], sef, Mr. Edward Williams, y Parch. Walter Davies, Parch. Eliezer Williams, Parch. Dafydd Richards, Parch. Daniel Evans, Mr. Robert Davies, a Mr. Taliesin Williams, ddewis Mr. Edward Williams [*Iolo Morganwg*] yn fardd gweinyddol ar yr achos, efe a ddechreuodd y ddefod trwy nodi allan gylch â cheryg bychain, gan osod un fawr yn nghanol y cylch; nid oedd neb ond beirdd i ryfygu myned o'r tu fewn i'r cylch."

Rhoddir darluniad o'r cyfryw gylch yn ysgriflyfrau Iolo, fel hyn:—"Defod yw gwneuthur cylch cynghrair ar ben bryn amlwg, a hwnn a wneir â meini, a'u gosod yn gylch y maint a fo achos o donn (*area of greensward*); a lle gwr o leiaf, rhwng maen a maen: ac yn wyneb haul y dwyr, lle trigwr, o leiaf, fal y bo hawdd myned yn y cylch. A hwnn a elwir y cyntedd neu y porth; ag yn ei gyfer, ymhellach hyd trigwryd, neu dri thrigwryd, gosod maen, a elwir maen gorsaf, a hwnnw ymhrif bwngc y dwyrain; ag o'r tu gogledd i hwnnw, maen arall, yn llygad pwngc haul dydd hwyaf yr haf; a'r tu deheu i'r maen gorsaf, maen arall yn llygad pwngc codiad haul ddydd byraf y gauaf. A'r tri maen hynny a elwir meini gorsaf: ac ynghanol y cylch, maen arall, o faint mwy na'r lleill, ar gyferyd cywir y tri maen gorsaf, a'u llygaid haul y bore;" neu, yn ol y Seisnigiad,—"a'u cyseiriad, bob un o honynt, yn gywir, tua thair sefyllfa benodol codiad haul, yr hyn a arwyddant.

"A meini'r cylch a elwir meini gwynion (*sacred stones*), a meini crair (*stones of testimony*); a'r maen canol a elwir, y Maen Gorsedd, a'r Crair Gorsedd, a'r Maen Llôg, a'r Maen Armerth. A'r cylch hynny a wnelir, fal a dywedwyd, a elwir Cylch Ambawr (*Greensward enclosing circle*), a Chylch Gorsedd, a Chylch Gwyn-gil (*circle of sacred refuge*); y cylch hwnn hefyd a elwid y Trwn (*circle*) mewn rhai wledydd. Ac ym mewn y cylch hwnn y cyrchent y Beirdd yng Ngorsedd; ac nid defod na syberwyd i neb, namyn y Beirdd, fyned o fewn y cylch, onis ceisier gan Fardd."

Digitized by Google

Y mae yn anhawdd gwybod yn benodol pa bryd y dechreuwyd arfer cylch o fath yr uchod. Y mae yn bur amlwg nad oedd ei eisieu yn y prifnod cyntaf; canys yr oedd cylchau, neu yn hytrach gorseddau Beirdd cyntefig Ynys Prydain, yn cael eu hadeiladu yn waith mawr, sefydlog, yn mhob parth o'r ynys, ar gynllun gwaith Emrys a Chludair Gyfrangon, fel nad oedd achos am silod o gylchau fel hyn ar y Beirdd cyntefig mewn un man.

Am yr ail brifnod, cynnelid Eisteddfodau a chadeiriau hwnw, bron bob amser, yn nghestyll a phalasau tywysogion a phendefigion Cymru; ac nid oes air o son am y ffug-gylchoedd hyn yn un o Ystatudau y prifnod. Y peth tebycaf o lawer ydyw, i'r cylchyn yma gael ei ddyfeisio gan feirdd lleol Morganwg, oddi wrth y darluniad a gawsant oddi wrth Orseddau cyntefig y Beirdd; a hwyrach iddynt ffurfio cylch fel hyn ar fynydd Garth Maelwg, a manau ereill. Pa fodd bynag, fe ŵyr pob dyn pwyllog nad yw ond oferbeth dieffaith a chwerthinus yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe ddywed Iolo Morganwg y gellir ffurfio "Cylch Cydgrair" i urddo beirdd ynddo yn awr â deuddeg o geryg mor fychain fel y gellir eu cario mewn poced! a dilys ddiammheu fod cymmaint o effaith mewn un felly, o ran hyny, a phe gwnelid Gorsedd mor aruthrol a Chludair Gyfrangon; hyny ydyw—dim!

Ar ol i Iolo ffurfio cylch â cheryg mawrion neu fychain, yn yr Eisteddfod dan sylw, "efe a gymmerodd gleddyf yn ei wain o law y cledd-gludydd, Mr. T Williams [Gwilym Morganwg], yr hwn hefyd oedd fardd wrth fraint a defod; diweiniwyd y cleddyf gan yr holl feirdd o fewn y cylch, oll yn cydio yr un pryd yn ngharn y cleddyf, a'r bardd gweinyddol yn mlaen y wain. Aeth yr olaf rhagddo i fynegu y cymmhwysderau gofynol mewn ymgeisydd i radd bardd; gan sylwi na allesid derbyn neb ond trwy ganmoliaeth rhyw fardd ag oedd yn bresennol, neu brawf o'i fedrusrwydd mewn cyfansoddiadau barddonol, trwy ei holi. Y ddefod o dderbyniad, wedi canmoliaeth dyladwy, a chymmeradwyaeth unfrydig, oedd gynnwysedig yn ngwaith y bardd gweinyddol yn dal y cleddyf â'i flaen tuag ato ei hun, a'r ymgeisydd yn cydio yn ei garn; a'r blaenaf yn sylwi wrth yr olaf, mai wedi ei dderbyn i'r gradd hwn, ei fod dan ymrwymiad i beidio gwneuthur trais â neb â'r cleddyf." Da iawn, ond cwbl groes i arfer gyffredin beirdd yr ail brifnod, fel y dangoswyd eisoes; yr hyn a ddengys fod barddoniaeth Iolo yn hollol wahanol i hono, ac mor wahanol i Farddoniaeth y prifnod cyntaf. Ar fyr, yr oedd Barddoniaeth y ddau brifnod cyntaf yn drefn reolaidd, sylweddol, dan nawdd cyfreithiau y wlad, pan nad oes i farddoniaeth Iolo—y sefydliad barddonol presennol, na threfn, na dosbarth, na rheolau, na chyfraith, na dim ond twr o seremonïau gwag a dieffaith i'w ddal yn nghyd. Wedi trin y cleddyf, fel y dangoswyd, a derbyn yr ymgeisydd i'r urdd fawreddog, "cylymodd y bardd gweinyddol (Iolo) ysnoden las am ei fraich ddeheu. Wedi derbyn yr holl feirdd, gosodwyd y cleddyf ar y gareg yn nghanol y cylch."

Darlunir seremoni y cleddyf yn ysgriflyfrau Iolo fel hyn:—"Defod gyssefin yw dwyn cledd o un o'r beirdd gorseddog, a'i ddal yngwain gerfydd ei flaen; ac nid rhydd i fardd ei ddal gerfydd ei garn: sef y bernir, tra delir ef gerfydd ei flaen, ai noeth ai annoeth y bo, nis delir, ac nis dygir, ac nis noethir yn erbyn na dyn, na byw, na bod, o'r holl fyd. A phan ddeler yn ngorsedd, y gyrrer y cleddyf â llaw, yngwrth ei drafn, onid el o'i wain; a chael craff a gafael arnaw, gerfydd ei flaen, a'i osod ar y maen gorsedd, yna dadgan gwaedd uwch 'adwaedd (*super-proclamation*); a [phan] ddeler gan lafar hyd y lle y dywedir, 'ni bydd noeth arf yn eu herbyn,' ymmod [symmud] o bob un o'r beirdd hyd y maen gorsedd, a rhoddi o bob un o honynt ei law ar y naill ai 'r cleddyf a'i wain, a gafaelu o'r bardd a fo gan Orsedd neu Gadair, ymlaen y cleddyf, a'i osod yn y wain, lle a'i gyrrer yn gwbl gan y beirdd ereill, o gydgynnorthwy llaw ac amcan. A hynny yn arwydd honnaid mai gwyr wrth heddwch a thangnef yw Beirdd Ynys Prydain; ac nis dygant arf noeth yn erbyn un dyn. A gwedi darfod hynny o ddatgan y waedd, myned wrth achos a gorchwylion yr Orsedd; sef datgan a dangos y tri chof a llafar Gorsedd; a datgan hengerdd; a dangos cerddi newyddion, a roddir wrth farn, a'u datgan ynghlyw Gorsedd; a dangos cais wrth gyfarch, a hawl, a chyfallwy; a dwyn graddau ar a'u dylynt; a gwrandaw, a gwneuthur, a llefaru a fo rhaid, herwydd braint a defod, a herwydd pwyll, ansawdd, a gorfod. A phan ddarfo achos yr Orsedd, neu 'r Gadair, yna datgan yr Argae-gosteg (*terminating proclamation*), a darfod yr Orsedd, ac ymadael pob un iddei fann."

Gwelir mai *pethau prydyddol* oedd y cwbl a wnelid dan gysgod yr holl bentwr seremonïau disylwedd yma; am hyny, ni ddylai neb feddwl mai hen Orsedd gyntefig Beirdd Ynys Prydain a ddarlunir uchod; canys prif orchwylion yr hen Orsedd oedd rhoi barn a dosbarth ar achosion gwladol, a chelfyddydol, a chrefyddol, y genedl; ac nid chwareu yn gyfan-gwbl, fel hyn, efo 'i phrydyddiaeth.

Er mwyn ceisio rhoddi mwy o bwys iddynt eu hunain yn ngolwg yr ofergoelus, arferai y beirdd, o gylch yr un amser, y defodau pwysig canlynol:—"Defod yw i feirdd yng Ngorsedd sefyll yn ddiarchen (*uncovered*) ben a thraed, o barch, a dyled, a gwarogaeth i Dduw.—Briduw (llw= *asseveration*) Gorsedd, gan ddefod, yw sefyll gan Orsedd a brysyll (ffon) prydydd yn llaw, ac edrych yn wyneb haul a llygad goleuni, a dywedyd ar air a chydwybod: neu o fodd arall, rhoi llaw yn llaw y bardd wrth Orsedd, sef y pencerdd, neu'r cadeirfardd, a dywedyd ar air a chydwybod, gan edrych yn wyneb haul a llygad goleuni."

Nid oes fodd sicrhau, yn ddilys, nad yw y seremonïau hyn yn hynach na gorseddau lleol Morganwg, o un Mynydd Garth Maelwg i waered; ond nid oes dim son am danynt, na chyfeiriad atynt, hyd y gwyddys, nac yn ngwaith y prif awduron, nac yn y *Trioedd*.

Gwedi i Iolo Morganwg fyned drwy y seremoni o urddo beirdd, aeth i urddo derwyddon; ac, meddai hanes yr Eisteddfod dan sylw [1819],—"Tra yr oedd ymgeiswyr yn cael eu derbyn i radd Derwyddon, gorphwysai y cleddyf ar gareg yn nghanol y cylch, ac wedi derbyn canmoliaeth ddyladwy i'r ymgeisydd, adrodd ei gymmeriad, a neb yn gwrthddadlu, efe a dderbynid gan y bardd gweinyddol, yr hwn a gylymodd ysnoden wen am ei fraich ddehau. Sylwyd fod gwyr llên yn dderwyddon, o herwydd eu galwad, ac nad oedd dim yn eisieu er eu derbyniad i'r gradd hwn, ond eu haddurno â'r ysnoden wen."

Y mae yn anhawdd peidio gwenu wrth ddarllen y sylwadau diniwed yma—eiddo yr hen Iolo. Os ydyw gwyr llên yn dderwyddon wrth eu galwad, beth chwaneg sydd eisieu? Pa rinwedd

Digitized by Google

a drosglwyddir iddynt drwy "eu haddurno âg ysnoden wen?" Ond yr ydym wedi adrodd ein syniadau ar hyn eisoes, wrth sylwi ar urddiad Derwyddol yr esgob.

"Yr oedd derbyniad ereill i radd Ofyddion yn gyffelyb i'r olaf [yn Nghaerfyrddin, cofier], ond bod y rhai hyn yn cael eu haddurno âg ysnodeni gwyrddion. Yn ol derbyn yr holl ymgeiswyr, cymmerwyd y cleddyf i fyny, a'r holl feirdd yn cydio yn ei garn tra yr oedd y bardd gweinyddol yn dala'r wain, i'r hon y gyrwyd ef, ac ar hyn terfynodd y ddefod. Yr *ysnoden las*, yr hyn a berthyn i'r *beirdd*, sydd arwyddlun o *wirionedd; y wen, diniweidrwydd;* a'r *werdd*, y *celfyddydau*."

"Derbyniwyd Elisabeth Jones i radd Ofydd, ar gyfrif ei theilyngdod llëenawl."

Tybia rhai fod Derwyddesau yn bod yn y prifnod cyntaf; ond os buant, y mae yn sicr mai yn mysg y "Gwyddelod, Cymry Llydaw, neu yr Ellmyn," yr oeddynt; canys nid oes air o son am danynt yn hen *Gofion* y Cymry. Pa fodd bynag, ni chlywsom erioed o'r blaen son am fenyw yn cael ei gwneyd yn Ofydd; ac efallai mai yr Elizabeth Jones uchod oedd y gyntaf a wnaed er amser y dylif!

Ni wnaed dim arall o bwys yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn y flwyddyn 1819, heb law yr hyn a ddywedir yn y *Powysion*, llyfr ii., rhagdr. td. vii., lle y dywedir—"Ac yn yr Eisteddfod hon, y'mhlith pethau eraill a ddarweiniwyd dan ystyriaeth, y barnwyd yn unfryd unllais, heb nâg na gwrtheb na llaw na thafawd,—Bod y Rheithiadau Cerdd a freinniwyd yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn y flwyddyn 1451, dan enw y *pedwar mesur ar hugain*, yn cyfyngu Awen Bardd o fewn llyffetheiriau rhy gaethion; a Bod, yn rhy fynych o yr achaws, synwyr a rhwyddineb iaith yn cael eu hoffrwm ar allawr gwagorchest egwanbwyll a diansawdd. Herwydd hyn—Barn yr Eisteddfod hon ydyw—Bod o hyn allan Ryddid i Feirdd Ynys Prydain gyfansoddi caniadau ar y mesurau mwyaf teilwng a chyfaddas iddeu testunau; ac na byddo rhagllaw wahaniaeth o barth teilyngdawd i ei roddi i fesurau yr un *Dosparth*, na'r Hen na'r Newydd, ragor neu uwch eu gilydd; ond bod Urddiant Cerdd neu Awdl i gael ei farnu wrth gymhwylliadau synwyr a phwyll, a chynghanedd rywiawg a diledryw, yn hytrach nac wrth amrywiaeth mesurau."

"Calon wrth Galon."

Bu agos i ni anghofio un gorchwyl pwysig iawn a wnaed yn yr eisteddfod hon, yr hon a ddilynir yn bur fanwl yn hyn o beth, gan ei merched—yr Eisteddfodau a'i dilynodd—sef, "canu gyd â'r tannau!" Fe ddywedir yn hanes yr Eisteddfod hon, y gwnaed hyn "ar gylch, yn ol yr hen arfer Gymreig." Ond, wedi darllen pob peth y gallwyd cael gafael ynddo, ar y pynciau hyn, y mae'n rhaid cydnabod nas gallwyd olrhain yr "hen arfer" wag a diles yma mewn Eisteddfod ddim pellach yn ol nag i hon, yn Nghaerfyrddin yn y flwyddyn 1819. Fe dybir yn gyffredin mai swydd datgeiniaid ydyw "canu gyd â'r tanau" mewn Eisteddfod; ond os trydd y darllenydd yn ol at yr hyn a ysgrifenwyd eisoes o'r hen ystadudau, am "Ddatceiniad," a "Datceiniad Penn Pastwn," yn mysg graddau yr ail brifnod, fe wel nad oes yno air o son am "ganu gyda'r tannau," eithr yn hytrach, *canu gyda'r pastwn!* a hyny "yng nghenawl y Neuadd," mewn palas gwr boneddig, ac nid *yn nghanol Eisteddfod*, yr hyn a wneir yn gyffredin—braidd heb eithriad, er gwarth oesol ac annileadwy i Eisteddfodau y prifnod yma, gan ddynsodach y bydd yn hawdd gwybod wrth eu gwedd alarllyd, eu moes clogyrnaidd, eu gwisgoedd annillyn, ac, yn enwedig, wrth y "rhigymau gwaradwyddus" a ddatganant, iddynt ddysgu eu holl grefft ddrygsawrus mewn "tafarnau, a chornelau cuddiedig diarffordd."

Yn awr, dyma ni wedi myned drwy hanes Eisteddfod 1819 yn lled fanwl; ac y mae hanes hon, o ran sylwedd, yn hanes yr holl Eisteddfodau a'i dilynodd; a'r Eisteddfodau, fel y mae yn amlwg i bawb, ydyw yr unig bethau sylweddol sy'n perthyn i'r prifnod yma; ac, ysywaeth, y mae y rhai hyny wedi bod y fath, fel na fyddai fawr o golled i'r genedl pe nas cynnelid Eisteddfod ar yr un cynllun a hwynt byth mwyach. Yn wir, byddai eu rhoi heibio yn ennill mawr i'r Cymry, pe cytunai eu llenorion i ffurfio sefydliad newydd, cydweddol âg ansawdd ac angen yr oes. Ni fyddai o bwys yn y byd pa un a elwid y sefydliad yn "Farddoniaeth" ai peidio, os atebai y dyben i goethi llenoriaeth y Cymry fel cenedl.

Urddau neu raddau (*degrees*) barddonol y prifnod yma, fel y gellir casglu oddi wrth hanes Eisteddfod 1819, yw bardd, derwydd, ac ofydd—yr olaf yn wryw a benyw; ac yr ydys yn meddwl fod dwy radd arall (os dwy hefyd) bwysig iawn wedi ymrithio yn ein plith yn ddiweddar, sef "Arch-dderwydd Gwynedd," ac "Arch-Dderwydd Ynys Prydain!" Pa fodd bynag, y gwir am holl raddau y prifnod presennol ydyw, nad ydynt ond enwau gweigion a disylwedd, fel y mae yn hawdd i bawb wybod, heb na rheolau, na dyledswyddau, na dysgyblaeth, na breiniau o fath yn y byd yn gyssylltiedig â hwynt; am hyny, nid yw o ddim pwys i lenoriaeth y genedl pa un ai ychydig ai llawer a fyddo y cyfryw raddau dychymygol, na pha un a gedwir hwynt neu beidio.

Y mae yn wir resynus na fuasai dynion o wladgarwch, a galluoedd, a manteision Iolo Morganwg, ac Idrison, a Gwallter Mechain, yn cymmeryd addysg oddi wrth waith eu rhagflaenoriaid barddonol, a geir yn Ystadudau [Gruffydd ab Cynan, a Gruffydd ab Nicolas, gan ymdrechu, fel y gwnaeth y gwyr hyny yn effeithiol, i drefnu sefydliad llenorol cydnaws âg amgylchiadau, ac ansawdd, ac angen yr oes yr oeddynt yn byw ynddi, yn lle rhedeg, fel y gwnaeth Iolo a'i gyfeillion, i geisio dal cysgod yr hen sefydliadau hyny, sydd wedi diflanu am byth—yn anadferadwy.

Ond, fel y dywedodd Dafydd ap Edmwnt yn briodol—"Nis gellir gwellâu a fu, cyd gellir ei well; rhyhwyr ceisiaw gwellâu y sydd, eithyr [er y] gellir ei well; eithyr am a fydd, gellir amcanu ei well. A chan mai felly y mae o dwng, rhodder ar yr ariandlws," yn yr Eisteddfod genedlaethol nesaf, "ac ar a'i cais," gasglu y mesurau prydyddol, caethion a rhyddion, y byddai addasaf i brydyddion yr oes hon ganu arnynt: a gwneler hwynt yn ddwy ddosbarth drefnus, yn cynnwys rheolau a chyfarwyddiadau ymarferol, i ddysgu pa fodd i'w deall a'u defnyddio.

Hefyd, rhodder ar ariandlws arall, "ac ar a'i cais," yn yr un Eisteddfod, gasglu a ffurfio Ystadud, yn cynnwys "trefn a dosbarth ar wyr wrth Gerdd" a llenoriaeth Gymreig, a fyddo gymhwys i ansawdd ac amgylchiadau yr oes bresennol. Rhodder blwyddyn, o leiaf, o amser i'r perwylion yma; a bydded yr ariandlysau, neu y gwobrau y fath, ag y byddo yn werth i wyr o dalent a manteision ymdrechu am danynt. Na rodder barn derfynol ar y cyfryw ddosbarthau,

Digitized by Google

hyd ym mhen blwyddyn drachefn, mewn ail Eisteddfod genedlaethol, fel y caffo gwlad a chenedl gyfleusdra ac amser i'w cymmeradwyo neu eu gwrthod.

Efallai y dylid dywedyd gair yma ar brif sism barddonol y prifnod yma, yr hwn sy newydd ymrithio yn Morganwg. Y mae Morganwg yn enwog am sismau barddonol; canys yno, fel y gwelodd y darllenydd, y torodd y sism mawr allan yn yr ail prifnod, ar ol Eisteddfod Caerfyrddin, yn 1451. Yr un y cyfeirir ato yn awr yw sism "Beirdd Gorsedd y Maen Chwyf a'r Sarff Dorchog ar Lan y Taf," yr hon a alwant hefyd yn "Orsedd Beirdd Ynys Prydain." Tybir y gallai fod yn eithaf amlwg i bob dyn diragfarn — a ddarlleno y llythyrau annosbarthus, a elwir *Amddiffyniad y Bardd Cyfrin*, &c.—nad yw y "Farddoniaeth" newydd hon ddim amgen na "chymmysg oferbwyll" o'r fath fwyaf ddisail, coeg, a dychymygol, wedi ei chasglu yn ddiweddar o'r chwedlau mwyaf disylwedd am hen Farddoniaeth Ynys Prydain, a Phaganiaeth India, a'u clytio yn gymmysg drachymmysg â Deistiaeth a Sosiniaeth, a hyny yn y modd mwyaf annosbarthus a mympwyol. Am hyny, dywedwn, "ar air a chydwybod," wrth feirdd yr oes hon, am y "Farddoniaeth" newydd ryfedd yma, fel y dywedodd Gwilym Ganoldref am "Owdl Fair a gânt Gwilym Tew"—"Gochelwch y surdoes."

Terfynir yr erthygl ar Feirdd a Barddoniaeth Ynys Prydain, gan obeithio fod PEDWERYDD PRIFNOD y Beirdd wrth y drws, yn yr hwn y bydd llenyddiaeth, a moesau, a chrefydd, cenedl y Cymry yn cael eu cyd-ddiwyllio.—(*Myv. Arch.; Llwyd's Arch. Brit.; Rhes. Ling. Cym. Inst.; Gram. I. Rhydd.; Greal; Iolo MSS.; Cambro-Brit.; Cambr. Reg.; Rich. Druids; James' Druids; Wil. Druids; Cyf. y Beirdd; Eleaz. Wil. Engl. Works; Iolo's Poems; Coel. y Beirdd; Walt. Dav. Essay on the Bard. Inst.; Han. Cym. Carnh.; Rowl. Mon. Ant.; Angh. Llwyd's Mona; Owen's Ll. Hen and Hu Gad., and Dict; Cym. Trans.; Cambr. Biog.; Wil. En. Cym.; Powel's Hist.; Shar. Turn. Hist. & Def.; Woodw. Hist.; Dav. Celt. Res. & Myth.; Powysion*, i. a ii.; *Pryd. Lew. Glyn Cothi; Par. Cam. Pint.; Lib. Land.; Steph. Lit. Kym.; Jones' Bard. & Mus. Rel.; Jones' Hist. Wal.; Tol. Druids; Borl. Ant. Corn.; Ser. Gom.; Gwyliedydd; Traethodydd; Taf. Beirdd; Awen Dyfed; Can. Hiraethog*, erth. *Beirdd a Barddon.; Penn. Tours; Cæs. Comm.; Strab.; Diod. Sic.; Plin.; Plut.; Diog. Laer.; Amm. Marc.; Pomp. Mela; Gildas; Nennius; Rich. of Ciren.; Bede's Eccl.; Wil. Malm.; Rog. Wend., &c.*)

BARDDAS, [*bardd*]. Ymddengys, oddi wrth yr hen *Gofion Cymreig*, fod y gair hwn, weithiau, yn arwyddo *dwwinyddiaeth*, neu *dwwinyddol*; megys yn yr ymadrodd, "Trioedd Barddas" (*theological triads*): ond ymddengys y defnyddid y gair gynt, fynychaf, i arwyddo dosbarth brydyddol (*system of poetry*) y beirdd, yn cynnwys eu dysg a'u gwirebau ar prydyddiaeth, megys y mae yn *Nghyfrinach y Beirdd*. Yr ystyr yma, yn ddiau, sydd i'r gair yn y llinellau canlynol, o waith Iorwerth Fynglwyd:—

"Medd y *Barddas* urddasawl,
Byd bach yw dyn iach dan wawl."

Yn yr ystyr yma y defnyddia y Dr. Pughe y gair drwy gorff ei *Eiriadur*. Y mae Barddas, yn yr ystyr yma, fel y mae yn arwyddo dosbarth neu gyfundrefn o brydyddiaeth, yn perthyn yn fwy priodol i ddosbarth arall; yr hwn yr ymdrinir âg ef d.g. BARDD.

BARDDONIAETH, [*bardd*]. Dengys yr holl hen ysgrifau Cymreig y defnyddid y gair hwn gan hynafiaid y Cymry, i arwyddo yr un peth ag a olygai y prif awduron estronol wrth y gair *Derwyddiaeth*; sef, sefydliad mawr y beirdd cyntefig, yn cynnwys llenoriaeth, celfyddydau, gwladyddiaeth, crefydd, a holl wybodau y genedl, y rhai a osodid allan gan mwyaf ar gân. Dyma yr ystyr sydd i'r gair yn yr hen ymadrodd—"*Barddoniaeth* Beirdd Ynys Prydain."

Wedi i farddoniaeth gyntefig Ynys Prydain gael ei ddileu gan Yswidw Polion (o gylch B. A. 60), ac i'r "yspaid anrhaith" barhau am yn agos i bedwar can mlynedd, tra nas beiddiai y Cymry odid gymmaint a son am eu hen sefydliad barddonol mawrwych, trwy gydol yr holl amser ag y parhaodd yr ormes Rufeinig—wedi i'r genedl gael ei gwynt ati am ennyd, ar ol yr anrhaith anghyfanneddol hono, ymddangosodd yr awen Gymreig eilwaith ar y maes, ac ymennynodd yn mynwes Aneurin Gwawdrydd, Taliesin, Llywarch Hen, y ddau Fyrddin, ac ereill o'u cyfoeswyr; a chynnyddodd yn odidog dan nawdd Arthur, ac Urien Rheged, a thywysogion Cymreig ereill, egnïol a gwladgarol, o'r oes hono. Yna, ymddengys i'r awenwyr hyny ymroi i ffurfio barddoniaeth, neu sefydliad barddonol, cyfatebol i ansawdd ac archwaeth yr oes yr oeddynt yn byw ynddi: ac erbyn i'r sefydliad ymddangos yn un cyfanwaith gorphenedig—o leiaf, fel y mae yn yr ystadudau barddonol hynaf a'r y sydd ar gof a chadw—canfyddir ei fod yn sefydliad hollol newydd, tra gwahanol i'r sefydliad cyntefig, sef barddoniaeth y beirdd cyn cred. Canys, tra yr oedd gan hwn—yr hen sefydliad cyntefig—i ofalu dros holl wybodau y genedl yn gyffredinol—dros ei chelfyddydau, ei chyfreithiau, ei breiniau, ei moesau, a'i chrefydd—cystal a thros ei llenoriaeth, fel y dywedwyd eisoes, ymddengys mai y prif beth oedd mewn golwg yn y farddoniaeth newydd, a ffurfiwyd yn oes Arthur, oedd prydyddiaeth a'i pherthynasau, megys cerddoriaeth a'r iaith Gymraeg; ac fel hyn y parhaodd, heb broffesu dim o bwys yn amgenach, am yn agos i ddau gant ar bymtheg o flyneddau. Am hyny, gan mai prydyddiaeth oedd prif elfen y farddoniaeth yma, aeth y werin i edrych ar fardd a phrydydd, a barddoniaeth a phrydyddiaeth, yn gyfystyr. Ac, er maint a honir gan rai, yn yr oes bresennol, eu bod hwy yn "Feirdd wrth fraint a defawd Beirdd Ynys Prydain:" a'u bod yn cynnal defodau a barddoniaeth gyntefig cyn cred! eto, y mae y werin yn deall yn burion nad yw hyn oll ond gwagymhoniadau disail; ac mai prydyddiaeth, mewn gwirionedd, ydyw prif elfen barddoniaeth yr oes hon, gystal ag oes Taliesin a'i olafiaid; am hyny, y mae y geiriau *bardd* a *phrydydd*, a *barddoniaeth* a *phrydyddiaeth*, yn parhau i fod yr un ystyr, yn marn y wlad; ac efallai mai felly y parhant i fod bellach, hyd yn oed pe byddai "oes y byd i'r Iaith Gymraeg."—Gwel BARDD.

BARDDONIAETH Y BEIBL. Nid oes un gair cyffredinol yn Hebraeg yr Hen Destament yn cyfateb i'r gair "barddoniaeth." Ond nid yw fod yr enw yn absennol yn cynnwys nad yw y peth yno: ac nid allasai barddoniaeth lai na blodeuo yn mysg yr Hebreaid, gan eu bod yn gangen o'r cyff Semitaidd—galluoedd prydyddol pa rai sydd i'w canfod mor fywiog mewn llenyddiaeth



Digitized by Google

*Salm* i; xxxii; xxxvii; xlix; l; lxxiii; cxxxii. Yn Llyfr Iob, cawn draethawd athronyddol mewn prydyddiaeth. Ynddo, traethir ar y cwestiynau dyfnaf a mwyaf anhawdd; a dygir yn mlaen y materion mwyaf goruchel, a hyny mewn iaith sydd wedi ei chyfoethogi â holl rym y deall, holl ddysgleirdeb y dychymyg dwyreiniol, a holl drysorau dysgeidiaeth, doethineb, profiad, a duwioldeb, tra y mae dygwyddiadau bywyd yn cael eu defnyddio i amrywio a bywiogi y myfyrdodau dyfnaf. Yn y dosbarth addysgiadol y mae y cywyddau prophwydoliaethol i'w rhestru; yn mha rai y mae prif neillduolrwydd yr awen Hebreaidd o ran ei ffurf yn gynnwysedig; o herwydd nid oes mewn llenyddiaeth un wlad arall y fath undeb o addysg grefyddol â gwirioneddau moesol, yn nghyd â'r fath brydferthwch awenyddol.

Nid yw barddoniaeth yn cyfyngu ei hun i gylch penodol o faterion, ac eto y mae ganddi ei dewis destynau, yn mhlith pa rai nid oes dim mor gydnaws â'i hanian a'r meddyliau uchel a'r teimladau dwfn a thyner y mae crefydd yn eu cenedlu ac yn eu meithrin. Y mae crefydd yn farddonol yn ei natur; ac fel y cyfryw, y mae yn gwisgo y farddoniaeth uchaf mewn rhyddiaith. Y mae yr adnodau cyntaf yn y gyfrol sanctaidd yn llawn o'r farddoniaeth uchaf. Ac o amser Longinus (B.A. 210), un o feirniaid blaenaf y Groegiaid, hyd yn awr, y mae y geiriau diaddurn, ond mawreddus, "A Duw a ddywedodd, Bydded goleuni, a goleuni a fu," wedi cael eu teimlo fel un o'r anghreifftiau uchaf o'r arddunawl. Y mae pob peth mawr yn cyfranogi o natur farddonol—meddyliau mawr, gweithredoedd mawr, a dynion mawr. Felly yn yr ystyr yma, y mae y Beibl yn llawn o farddoniaeth.

Ond fel y deallir barddoniaeth yn gyffredin, y mae elfen arall yn perthyn iddi, a hono heb fod yn ddibwys, sef y wisg allanol; y mae hono yn ddarostyngedig i amrywiaeth mawr, ac yn gysylltiol yn fwy â swn nag â'r meddwl. Ond gan fod y gwahaniaeth rhwng prydyddiaeth a rhyddiaith yn tarddu o'r mesur neu y gynghanedd, a'r iaith, naturiol ydyw gofyn, A oes ryw angenrheidrwydd yn codi o natur teimlad barddonol iddo redeg i ffurfiau mesuredig. A ydyw y wisg allanol mewn barddoniaeth yn tyfu o'r bywyd sydd yn gweithio oddi mewn, fel y mae ffurfiau naturiol y byd gweledig o'r galluoedd anweledig sydd yn ymagor ynddynt a thrwyddynt? Yr ydys wedi dyweyd eisoes fod y farddoniaeth uchaf i'w chael yn y Beibl, yn rhydd oddi wrth ddeddfau cynghanedd. Ac y mae barddoniaeth y Beibl o natur mor uchel a pharhaol, fel y mae yn fwy rhydd oddi wrthynt nag unrhyw farddoniaeth arall. Hyn ydyw yr achos y gellir ei gyfieithu i holl ieithoedd y byd, heb iddo golli nemawr ddim o'i fawredd a'i brydferthwch. Y mae y rheol hon yn un na ddeil ond cynnyrchion uchaf yr awen iddi gael ei chymhwyso atynt. Eto, ysgrifenwyd yr oll o'r Hen Destament, ond yr adroddiadau mwyaf syml, uniongyrchol, a diaddurn, mewn llinellau mydraidd (*verse*); a chanmoliaeth nid bychan i'n cyfieithiad ni o'r rhanau prydyddol ydyw, fod ysgogiad mesuredig neu gynghaneddol wedi ei gadw ynddynt. Ond yr ymofyniad sydd genym ydyw, A oes ryw angenrheidrwydd naturiol am hyn?—a pha beth ydyw? Ar ba ddeddfau o eiddo y meddwl y mae yn dybynu am ei fod a'i effaith? Y mae pob prydferthwch, o'r uchaf hyd yr isaf, o "brydferthwch sancteiddrwydd" hyd at lun dalen y meillion, *yn fywyd wedi ei amlygu mewn deddf;* ac y mae pob gwrthuni yn fywyd wedi gwyro oddi wrth ddeddf. Yn y Testament Newydd, yr ydym yn dysgu fod pob bywyd yn cyfarfod â deddf o eangder cyfatebol, a bod y bywyd uchaf a phuraf a fu ar y ddaiar erioed yn gyflawnder y ddeddf. Felly y mae rheolau celfyddyd, a barddoniaeth, mor bell ag y mae hi yn perthyn i gelfyddyd, yn codi o natur y bywyd sydd yn briodol iddi. Ond y mae hyn o wahaniaeth rhwng deddfau celfyddyd, a rheolau bywyd moesol—y gellir amrywio y blaenaf, ac yn achlysurol eu tori. Nid ydyw cyfansoddiadau mewn rhyddiaith yn ddarostyngedig ond i ychydig o ddeddfau cyffredinol, y rhai sydd yn llywodraethu bywyd moesol dynion—sef symlrwydd, cymmedroldeb, a chyflawniad ffyddlawn o'r hyn sydd yn angenrheidiol yn yr amgylchiadau. Y mae teimlad cryf yn ymestyn at ymgorfforiad mewn dull mesuredig. Y mae cymmedroldeb iaith gyffredin yn annigonol iddo, ac y mae y rhyddid hwnw a ddymunai yn cael ei deimlo yn ddireol ac aflywodraethus, heb ei ddarostwng i lyffetheiriau ffurfiau celfyddyd. Ond wrth ddosbarthu barddoniaeth i wahanol rywogaethau, y mae math o gynghanedd yn fwy hanfodol i'r naill nag i'r llall. Mewn barddoniaeth ddysgrifiadol, y mae y bardd yn adrodd, yn dysgrifio rhywbeth a ymddangos odd o flaen ei feddwl, gan ei liwio yn ei deimlad a'i ddychymyg ei hun; ond wrth wneyd hyn, y mae yn teimlo cymhelliad i ddefnyddio pob dyfais gyfreithlawn i chwanegu at y mwynhad y mae yn ei drosglwyddo—yn mhlith y rhai hyn y mae mydryddiaeth a chynghanedd. Trwy y dyfeisiau hyn, y mae y bardd yn dyferu pleser yn annibynol ar y defnyddiau a drosglwyddir drwyddynt. Y mae ffrwd y meddwl a'r ystyr yn cael eu cymmedroli a'u melysu ganddynt. Pa mor naturiol bynag yr oedd mydryddiaeth yn ei darddiad, y mae wedi dyfod yn awr yn gyfundrefn o reolau, â pha rai y mae y prydydd, dan arweiniad clust i gynghanedd, yn gwneyd ymdrech i gydymffurfio. Ond nid felly y mae gyda y dosbarth o farddoniaeth a elwir yn delynol, yn yr hwn y cynnwysir pob cyfansoddiadau, hen a diweddar, a elwir salmau, odlau, hymnau, a chaniadau. Y mae cynghanedd yn fwy hanfodol iddynt hwy—caniadau ydynt, a dylent ddyfod allan o galon lawn o beroriaeth.

Ond nid yw mesurau barddonol yn cael eu llywodraethu gan yr un egwyddor yn mhob llenyddiaeth. Ni chymmerodd cyfnewidiad mwy le erioed mewn iaith na'r hwn trwy ba un y mae mydryddiaeth Groeg a Rhufain hynafol wedi rhoddi lle i fydryddiaeth presennol gwledydd Ewrop. Derbyniai yr hen wledydd hyny eu pleserau cynghaneddol oddi wrth olyniad penodol sillafau hirion a byrion; gan ystyried y rhai hyny yn hirion a gynnwysai ddeuseiniaid (*diphthongs*), a llafariad o flaen dwy gydsain, ac felly yn y blaen. Ond y mydryddiaeth sydd yn ffynu yn Ewrop yn awr sydd sylfaenedig, nid ar olyniad sillafau hir a byr, ond ar olyniad sillafau acenedig a diacenedig. Y mae y cyfnewidiad hwn yn un mor fawr, fel mai o'r braidd, os o gwbl, y gallwn ni ffurfio dychymyg am gynghanedd sydd yn ymddibynu ar hyd, ac nid aceniad. Er mwyn gwneyd mydryddiaeth Homer a Virgil yn gynghanedd i ni, rhaid rhoi aceniad ar eu sillafau hirion hwy, a gadael y rhai byrion heb yr acen.[1] Ond nid yw

[1] Rhaid darllen y llinell gyntaf yn yr *Æneid*,—

"Arma virumque cano Trojæ qui primus ab oris,"

i'w gwneyd yn gynghanedd i ni:—er y dywedwn ni "cano," a "Trojæ," mewn rhyddiaith.

barddoniaeth Hebreig yn cael ei gwahaniaethu oddi wrth ryddiaith yn ol olyniad rheolaidd *seiniau* nac *aceniad;* ac o ganlyniad, y mae yn dilyn egwyddor nas gall fod mor ddealladwy i ni. O'r braidd y mae yn ormod dyweyd fod barddoniaeth a rhyddiaith yr Hebreaid yn rhedeg i'w gilydd yn fynych; ond pe gofynid am ei neillduolrwydd mewn gair, gallwn ddyweyd ei fod yn ymddibynu ar olyniad rheolaidd y *meddwl.*

O ran ei ffurf allanol, y mae yn gynnwysedig o adranau cyfochrog, yn dibynu yn gyntaf oll, ac yn wreiddiol, ar y meddwl (*parallelismus membrorum*). Y mae ysgrifenwyr wedi cytuno i alw y neillduolrwydd hwn yn *gyfochraeth* (*parallelism*); yn yr hwn y mae dau, neu chwaneg, o aelodau brawddeg yn cael eu cyfartalu yn y fath fodd fel y mae y naill yn cyfateb mewn meddwl ac ymadrodd i'r llall. Hyn sydd yn gwahaniaethu barddoniaeth Hebreig drwyddi oll, ac yn rhoddi gwedd amlwg farddonol ar y Salmau, hyd yn oed yn y cyfieithiad Cymreig a Seisonig. Y mae y cystrawiaeth hwn yn cael ei ddosbarthu i dri math:—

1. *Y cyfystyr.* Yn hwn, y mae yr un meddwl yn cael ei gyfleu yn y ddau aelod, ond mewn geiriau gwahanol:—fel yn *Deut.* xxxii. 1, 2, yn ol y drefn gyfochrol:—

"Gwrandewch, y nefoedd, a llefaraf;
A chlywed y ddaiar eiriau fy ngenau.

Fy athrawiaeth a ddefnyna fel gwlaw:
Fy ymadrodd a ddyfera fel gwlith;
Fel gwlith-wlaw ar ir-welit,
Ac fel cawodydd ar laswellt."

Y mae rhai wedi meddwl fod y dull hwn o gyfansoddi wedi tarddu o'r arferiad o ganu mewn corau dwbl yn ngwasanaeth y cyssegr:—fod pob côr yn canu yr un meddwl, ac yn cyflwyno yr un addoliad i Dduw. Canfyddir hyn yn eglurach wrth gyfleu y pedair adnod olaf yn *Salm* xxxiv. fel y cenid hwynt ar yr achlysur, dybygid, o ddygiad i fyny yr arch i'r tabernacl a godwyd iddi gan Dafydd ar fynydd Sïon:—

*Côr* 1*af.* O byrth! dyrchefwch eich penau;
*Côr* 2*il.* Ac ymddyrchefwch, ddrysau tragywyddol;
*Y ddau.* A Brenin y gogoniant a ddaw i mewn.

*Côr* 1af. Pwy yw'r Brenin gogoniant hwn?
*Côr* 2*il.* Yr Arglwydd nerthol a chadarn,
*Y ddau.* Yr Arglwydd cadarn mewn rhyfel.

*Côr* 1*af.* O byrth! dyrchefwch eich penau;
*Côr* 2*il.* Ac ymddyrchefwch, ddrysau tragywyddol;
*Y ddau.* A Brenin y gogoniant a ddaw i mewn.

*Côr* 1*af.* Pwy yw'r Brenin gogoniant hwn?
*Côr* 2*il.* Arglwydd y lluoedd,
*Y ddau.* Efe yw brenin y gogoniant.

Am anghreifftiau ereill o gyfochraeth gyfystyr, gwel *Gen.* iv. 23; *Barn.* xiv. 14; *Salm* ii. 10, &c.

2. *Y gwrthwynebol* (*antithetic*); yn y rhai y mae yr adranau gwahanol yn cynnwys synwyr gwrthwynebol, megys yn *Esa.* i. 3; *Salm* xx. 7, 8. Yn y Diarebion y mae y math yma i'w gael fynychaf, megys yn *Diar.* xxvii. 6:—

"Ffyddlawn yw archollion y caredig:
Ond cusanau y dygasog ydynt dwyllodrus."

3. *Y cyfosodol* (*synthetic*). Wrth hyn y meddylir y math hwnw, lle y mae rhyw amrywiaeth yn y meddwl, a chwanegiad ato, heb fod yn uniawn yr un meddwl, fel yn y math cyntaf, nac ychwaith yn hollol wrthwynebol, fel yn yr ail (*varia*, nid *diversa*), megys *Salm* xix. 8:—

"Deddfau yr Arglwydd sydd uniawn,
Yn llawenhau y galon:
Gorchymynion yr Arglwydd sydd bur,
Yn goleuo y llygaid."

Y mae yr amrywiaethau hyn o gyfochraeth yn cael eu hamrywio eu hunain yn fynych, fel nad oes gymmaint unffurfiaeth ag a fuasai heb hyny. Ond fod y neillduolrwydd yma yn agos gyssylltiedig â hanfod barddoniaeth Hebreig sydd amlwg oddi wrth hyn—ei fod i'w gael yn yr anghreifftiau boreuaf yn gystal a'r diweddaraf o hono.

Gwelir oddi wrth hyn fod ffurf allanol barddoniaeth Hebreig yn fwy rhydd oddi wrth lyffetheiriau celfyddyd na barddoniaeth Groeg a Lladin, Cymraeg a Seisoneg. Y mae yn amrywio yn nifer yr aelodau neu linellau, a nifer y sillafau yn mhob aelod, yn unig yn ol yr ystyr neu ysgogiad y teimlad. Y mae y gynghanedd yn ymddibynu yn hollol ar ysgogiad prydferth y meddwl, yn ei godiad a'i ostyngiad, ei arafwch a'i gyflymdra. Po mwyaf darostyngedig ydyw barddoniaeth i gynghanedd seiniau a llythyrenau, mwyaf oll ydyw yr anhawsder i gadw cynghanedd tu mewnol y meddwl yn ei rym naturiol; a mwyaf ydyw y perygl i'r olaf ddiflanu, o herwydd fod llafur a chelfyddyd y mydryddiaeth yn cymmeryd cyfeiriad arall.

Mae meithriniaeth y ddawn farddonol yn dibynu llawer ar ansawdd gwlad a'i golygfeydd. Ychydig o honi yn gymhariaethol a welir mewn gwlad wastad, ddyeithr i greigiau, clogwyni, mynyddau, bryniau, rhaiadrau, ac afonydd; ond yn y gwledydd lle ceir y pethau hyn, ceir y beirdd yn aml, ac yn feirdd o'r radd oreu. Rhaid i'r bardd gael rhywbeth i'w gyffroi a'i gynhyrfu cyn y gall osod allan ei feddylddrychau yn fywiog, yn swynol, ac yn nerthol. Gan nad ydyw efe yn edrych ar wrthddrychau gyda llygad cyffredin, nid ydyw yn syn fod y fath newydd-deb yn ngwaith y bardd wrth ymdrin â gwrthddrychau sydd yn ddigon adnabyddus i bawb o'i gwmpas. Yr oedd gan feirdd yr Ysgrythyrau fanteision tu hwnt i'r cyffredin i feithrin yr athrylith farddonol. Yr oedd pob peth oedd yn dal perthynas â chenedl Israel, o alwad Abraham o Ur y Caldeaid hyd groeshoeliad y Gwaredwr, yn farddonol. Yr oedd creadigaeth y byd, yr arch, a'r dylif, yn destynau hoff gan yr awen ddwyfol cyn hyny; ac yr oedd neillduad y genedl, a'r gofal a ddangosodd y Goruchaf am ei bobl yn yr Aipht, yn nghyd â'u gwaredigaeth wyrthiol oddi yno; agoriad y môr; mynediad Israel yn ddiogel drwy waelod y dyfnder mawr, megys ar hyd y tir sych; dymchweliad Pharaoh a'i fyddin; y bara o'r nef; y dwfr o'r graig; y golofn a'r cwmwl; yr ymddangosiad ar Sinai; y deugain mlynedd yn yr anialwch; yr Iorddonen yn rhedeg yn ei hol; Israel yn myned drwodd; caerau Iericho yn cwympo; sefydliad y genedl yn ngwlad yr addewid; adeiladaeth y deml; y gwasanaeth; genedigaeth Ceidwad; ei fywyd hardd; ei ddyoddefaint poenus; ei farwolaeth ar y groes; ei adgyfodiad; ei esgyniad; yn nghyd â channoedd o bethau ereill—i gyd yn destynau hoff gan y beirdd ysbrydoledig. Y mae canu wedi bod mewn arferiad ar bob cyfnod hynod yn amgylchiadau gwahanol y byd, gan angelion a dynion ysbrydoledig. Cydganodd sêr y bore, a gorfoleddodd meibion Duw, pan osodwyd sylfaeni y ddaiar, y mesurwyd

Digitized by Google

hi, yr estynwyd llinyn arni, y gosodwyd ei chonglfaen hi, ac y cauwyd y môr â dorau. Yr oedd gan Moses, Deborah, Hannah, a Dafydd, eu caniadau; a thrwy gân y mynegwyd am enedigaeth Ceidwad gan yr angelion, uwch ben y maes lle yr oedd y bugeiliaid yn gwylio eu praidd liw nos. Canwyd emyn cyn i'r Gwaredwr fyned dros afon Cedron y nos y bradychwyd ef; a dyrchafodd i'r uchelder yn nghanol caniadau miltil o angelion ddydd ei esgyniad; ac un o brif orchwylion y gwaredigion yw canu mawl i Dduw ac i'r Oen ar fynydd Sion.

Y mae y beirdd sanctaidd yn cymmeryd benthyg eu cyffelybiaethau oddi wrth—1af. Wrthddrychau naturiol. 2il. Arferion, celfyddydau, ac amgylchiadau bywyd cyffredin. 3ydd. Pethau sanctaidd. 4ydd. Y ffeithiau mwyaf nodedig a gofféir yn y gyfrol ysbrydoledig.

Y mae goleuni a thywyllwch yn cael eu defnyddio yn fynych iawn yn mhob iaith i osod allan hawddfyd ac adfyd; ond defnyddir y cyffelybiaethau hyn yn fynychach gan feirdd y Beibl na chan neb arall. Wrth i'r bardd ysbrydoledig addaw adnewyddiad o ffafr Duw i'r llwythau etholedig, ac adferiad llwyddiant cyffredinol, darlunia hyny yn y lliwiau cryfaf ac ardderchocaf. Defnyddir llewyrch y lleuad, a llewyrch yr haul, a llewyrch yr haul yn saith mwy nag arferol (*Esa.* xxx. 26). Ac er fod y bardd ysbrydoledig wedi ysbeilio natur o'i phrif ogoniant, nid ydyw yn ystyried hyny yn ddigon i ddangos gogoniant y llwyddiant sydd ar dori allan; ond efe a ddywed na fydd yr haul yn oleuni i'r genedl y dydd, na'r lleuad i'w goleuo y nos, ond y bydd yr Arglwydd, neu y Iehofah, iddi yn oleuni tragwyddol, a'i Duw yn ogoniant iddi:—na fachluda ei haul, ac na phalla ei lleuad; canys yr Arglwydd, neu y Iehofah, fydd iddi yn oleuni tragwyddol; ac y bydd i ddyddiau ei galar ddarfod (*Esa.* lx. 19. 20).

Dywed Ezeciel, ar yr ochr arall, pan gyhoeddir dinystr yn erbyn brenin balch yr Aipht, y bydd i'r Arglwydd guddio y nefoedd wrth ei ddifodi, a thywyllu eu ser hwynt; y bydd iddo guddio yr haul â chwmwl, ac na fydd i'r lleuad wneyd i'w goleuni oleuo; y bydd i holl lewyrch goleuadau y nefoedd gael eu tywyllu arno, neu uwch ei ben; ac y byddai i dywyllwch gael ei roddi ar ei dir (*Ezec.* xxxii. 7, 8).

Y mae ffynnonydd ac afonydd hefyd yn cael eu defnyddio yn gyffelybiaethau yn fynych; a sonir am y ddaiar yn cael ei hadnewyddu gan y gwlaw; arferir y cyffelybiaethau hyn gan feirdd anysbrydoledig, y mae yn wir, ond nid mor fynych a chan y dwyreinwyr, y rhai a wyddent yn well, drwy brofiad, drugaredd mor fawr oedd cael gwlaw ar ol sychder mawr. Os parha gwynt y dwyrain, yn y wlad hono, i chwythu dros ychydig ddyddiau yn y gwanwyn, neu yr haf, deifir y meusydd mor lwyr fel na bydd arnynt prin laswelltyn heb ei ddyfetha; bydd rhai ffrydiau ac afonydd yn sychu yn hollol, ac ereill yn ymddangos yn lleiaidd, a natur ei hunan yn ymddangos megys pe byddai yn mron ymddattod. Ond pan ddel y cawodydd trymion o wlaw, bydd y meusydd yn adfywio, y ffynnonydd yn tywallt ffrydiau iachusol, a'r afonydd yn ail redeg; mewn gair, bydd holl wyneb anian yn newid;—yr hyn a grea feddyliau uwch am adnewyddiad a hyfrydwch nag a ddichon i ddim yn ein gwlad ni ein hunain ei ddangos i ni. Oddi wrth yr amgylchiadau a grybwyllwyd, y mae cyfeiriadau yn cael eu gwneyd mor fynych at dir cras sychedig, i ddangos cyfyngder a gwasgfa; ac er gosod allan y cyfnewidiad o wasgfa i lwyddiant, defnyddir cyffelybiaethau o ddisgyniad cawodydd, a ffynnonau yn tori allan yn y diffaethwch. Sonia y prophwyd am yr anialwch a'r anghyfanneddle yn llawenychu, a'r diffaethwch hefyd yn gorfoleddu ac yn blodeuo fel rhosyn.

Arferai beirdd Palestina fynyddoedd Gwlad yr Addewid yn gyffelybiaethau. Yr oedd Libanus a Charmel yn cael lle mawr yn eu myfyrdodau; un yn nodedig am ei uchder, ac oerder ei benau, ei oed, ei faint, ac amlder y coedwigoedd a'i haddurnent, yr hyn a ddangosai gadernid a mawreddogrwydd mewn modd tarawiadol a nerthol; y llall yn nodedig am ei ffrwythlonrwydd, a'i gyfoeth—yn llawn gwinwydd, olewydd a ffrwythau danteithiol, ac yn y cyflwr mwyaf blodeuog a chynnyrchiog, megys yr oedd yn ei gyflwr naturiol a diwylliadol, yn dangos arwyddion hyfryd o ffrwythlondeb, harddwch, a thlysni (*Can.* v. 15; vii. 5; *Esa.* xxxiii. 9; xxxv. 2: xxxvii. 24; *Ier.* xxii. 6, 23; *Zech.* xi. 1; *Esa.* x. 34; *Mic.* vii. 14).

Defnyddir cyffelybiaethau oddi wrth ffyrnigrwydd yr elfenau hefyd, a chynhyrfiadau natur, y rhai oeddynt mor adnabyddus iddynt o herwydd eu hinsawdd neillduol, pan fyddent am osod allan yr arswydus a'r dychrynllyd: *Salm* xlvi; *Salm* cxiv. 6. Darlunia y prophwyd Esaiah olygfa fel hyn gydag arucheledd mawr, pan ddyweda fod y ddaiar yn ymsymmud yn ol ac yn mlaen fel meddwyn, ac yn ymsiglo fel bwth; neu fel y gellir darllen, yn symmud y ffordd yma a'r ffordd acw, fel lletty dros noswaith: *Esa.* xxiv. 20.

Yr oedd y corwyntoedd, y tywyllwch, y mellt, a'r taranau, y gwlaw a'r cenllysg, yn Iudea ac Arabia, yn y tymmor gauafol, yn mhell tu hwnt i ddim allwn ni amgyffred yn y wlad yma. Y mae y beirdd sanctaidd wedi cymmeryd llawer iawn o'u cyffelybiaethau oddi wrth y pethau hyn. Darlunia un, Mr. Morier, gorwyntoedd Persia yn rhuthro ar hyd y wlad mewn amryw ffyrdd dychrynllyd:—eu bod yn cludo ymaith dywod, ceineiau o'r coed, a sofl y maes, a'u bod yn ymddangos fel pe buasent yn gyfrwng trosglwyddiad rhwng y ddaiar a'r cymylau. Gwelir cywirdeb y prophwyd Esaiah pan y cyfeiria at hyn yn eglur iawn:—"A chorwynt a'u dwg hwynt ymaith fel sofl;" *Esa.* xl. 24: "A erlidir fel peiswyn mynydd o flaen y gwynt, ac fel peth yn treiglo yn mlaen corwynt;" *Esa.* xvii. 13. Darllenwn yn y Salm, "Gosod hwynt, O fy Nuw! fel olwyn; fel sofl o flaen gwynt" (*Salm* lxxxiii. 13); yr hyn sydd yn cael ei egluro yn rhagorol drwy gylchdro y corwynt, yr hwn a yr y sofl dros yr anialwch yn debyg i olwyn ar ei chwyrn dro. Yn yr amgylchiadau arswydus hyn y darlunir ymddangosiad y Iehofah pan wnaeth efe dywyllwch yn ddirgelfa iddo: a phan oedd ei babell o'i amgylch yn dywyllwch dyfroedd, ac yn dew gymylau yr awyr; pan oedd ei lef yn genllysg ac yn farwor tanllyd; a phan ddynoethwyd gwaelodion y dyfroedd wrth ei gerydd, ac y gwelwyd seiliau y bryniau: *Salm* xviii. Er y dichon fod yn y geiriau hyn gyfeiriad at ddisgyniad Duw ar Sinai, eto, ymddengys yn amlwg fod y ffugrau wedi eu cymmeryd oddi wrth y cynhyrfiadau hyny mewn natur yr oedd y bardd ysbrydoledig mor gyfarwydd â hwynt.

Yr oedd y beirdd sanctaidd hefyd yn tynu eu cyffelybiaethau oddi wrth arferion, celfyddydau, ac amgylchiadau bywyd cyffredin. Pan yr ystyriom ddull yr Hebreaid o fyw yn yr amseroedd boreuaf, sef ei ddirodresrwydd a'i unffurfiaeth,

Digitized by Google


Myn Gilfillan mai cân yw y Testament Newydd oll drwyddo, er nad ydyw y pethau sydd ynddo yn cael eu harfer mewn ffordd farddonol: fod y radd uchaf o brydyddiaeth y Testament newydd naill ai yn hyfforddiadol yn ei chymmeriad, megys y bregeth ar y mynydd, a chanmoliaeth Paul i gariad; neu, ei bod yn cael ei hennyn i fyny gan weledigaethau o bethau sydd i ddyfod, a drychiolaethau o'r orsedd wen fawr drwy y tywyllwch presennol:—mai yr adgyfodiad oddi wrth y meirw yw yr amgylchiad sydd wedi rhoddi mwyaf o liw ar brydyddiaeth y Testament Newydd.

Y mae y prif ysgrifenwyr ar farddoniaeth y Beibl wedi ei dosbarthu i wahanol rywogaethau. Dosbarthiad Lowth, yn ei ddarlithiau ar farddoniaeth yr Hebreaid, ydyw—i farddoniaeth brophwydoliaethol, farwnadol, addysgiadol, telynol, y bugeilgerdd, a'r chwareyddol (*prophetic, elegiac, didactic, lyric, idyllic, dramatic*). Yn erbyn y dosbarthiad hwn, dywedir nad yw yn un naturiol, o gymmaint ag mai prydyddiaeth delynol neu ganau gyda thelyn ydyw y math cyntaf o ran amser. Yn ail, dywedir hefyd nad yw yn ddosbarthiad rheolaidd; o herwydd, *yn gyntaf*, y mae yn anhawdd gwahaniaethu y bugeilgerdd oddi wrth brydyddiaeth delynol, gan nad yw y naill ond math o'r llall; ac *yn ail*, y mae y brophwydol mor bell oddi wrth fod yn fath gwahaniaethol oddi wrth y lleill, fel y mae cyfansoddiadau y prophwydi yn rhedeg yn eu tro i bob math o brydyddiaeth. Y mae J. S. Herder (ar ysbryd barddoniaeth Hebreig) wedi olrhain, mewn ysbryd mwy barddonol na Lowth, ffynnonell prydyddiaeth y Beibl—y syniadau am Dduw, am natur, am ddyn, ac am fyd arall, a arddangosir ynddo; dylanwad hinsawdd Canaan, a thymmerau bywiog yr Hebreaid arno. Mae ei raniad ef yn un pur gyffredinol. Y mae prydyddiaeth y Beibl yn gynnwysedig mewn dwy brif ffurf—mewn iaith ffugrol, ac mewn cân. Yr ysgrifenwyr a ragorai yn y cyntaf ydyw y prophwydi, a'r ehediadau uchaf o natur delynol ydyw caniadau y deml.

Yr hwn sydd wedi ymdrin â'r testyn ddiweddaraf a llwyraf ydyw y Dr Ewald. (Gwel *Dr. Lowth; Biblical Companion; Dr. Watts; Campbell; Blair; Gilfillan; Ewald's Essay in the Journal of Sacred Literature; Winer's Real Wörterbuch*)

BARF, [Seis., *beard;* Lladin, *barba*]: blew yr ên. Y mae syniadau gwahanol genedloedd mewn gwahanol oesoedd am ddefnyddioldeb, a'r dull o drin eu barfau, wedi bod yn dra amrywiol. Weithiau, cymmerid gofal na ddelai ellyn ar unrhyw ran o honi; bryd arall, eillid rhyw gŵr o'r wyneb; ac yn mysg rhai llwythau, gwneid ymdrech i'w diwreiddio yn llwyr. Yn y cyffredin, yn mysg cenedloedd y dwyrain, ystyrid barf dew, hir, yn anrhydedd mawr i ddyn, ac yn arwydd o fawrfrydigrwydd: ac o'r ochr arall, cyfrifid yr amddifadrwydd o honi yn gryn radd o warth ar ddyn. Y mae yr amrywiol gyfeiriadau a wneir at y farf mewn ymddyddanion cyffredin, yn dangos y bri a roddir arni yn eu mysg. Mewn trefn i gadarnhau geirwiredd dyn, dywedir, "Edrychwch ar ei farf, a gwna yr olwg arni eich boddloni am gywirdeb ac uniondeb ei meddiannydd." Os ceryddu am fai a wneir, yr ymadrodd fydd, "Cywilydd i'ch barf chwi." Ni phallir a gwneuthur deisyfiadau, "Er mwyn eich barf;" "Er mwyn bywyd eich barf;" a "Bydded i Dduw gadw eich barf fendigedig." "Y mae yn werth mwy na barf dyn," meddir, os bydd eisieu gosod allan werthfawrogrwydd unrhyw beth. Cyfrifir i un gael ei amddifadu o'i farf yn ddarostyngiad mawr, yn mysg yr Arabiaid. Edrychir ar y cyfryw, mewn rhai parthau, wedi cael eu dwyn i'r un gradd a'r caethwaesion. Ac os byddai i neb eillio ei farf mewn nwyd yn ei feddwdod, neu oddi ar unrhyw gymhelliad pa bynag, edrychid arno gyda'r fath ddirmyg ag i beri na byddai yn ddymunol i'w deimladau fod yn mysg dynion. Crybwylla D'Arvieux am un gŵr, fod yn well ganddo i'w fywyd fod mewn perygl, na goddef i'r meddyg ei eillio, mewn trefn i wella archoll ar ei wyneb. Ystyrir tynu yn y farf, neu boeri arni, yr anmharch mwyaf a ellir ei ainlygu; ac ni oddefir i neb gyffwrdd â hi ond y gwragedd, wrth nesau at eu gwŷr, y plant gyda'u rhieni, neu y cyfeillion mwyaf anwyl a hoff, a hyny trwy gydio yn dyner yn ei blaen yn y modd mwyaf parchus a serchiadol, i roddi cusan iddi. Cyfrifai Achis, brenin Gath, Dafydd yn wallgof, pan y gollyngai "ei boeryn i lawr ar ei farf" ger ei fron, gan mor fawr yr anmharchai ei hun yn ei olwg drwy hyny. "Ai eisieu ynfydion sydd arnaf fi, pan ddygasoch hwn i ynfydu o'm blaen i?" 1 *Sam.* xxi. 13–15.

Ymddengys oddi wrth hen gerfluniau, y byddai yr Aiphtiaid gynt yn eillio eu barfau; er hyny, gosodent fath o farf ddynwaredol ar eu hwynebau, yr hon a orchuddid weithiau mewn amwisg. Gwahaniaethai hefyd o ran ei hyd a'i ffurf, yn ol gradd a sefyllfa y neb a'i gwisgai. Prin y byddai yr eiddo dynion cyffredin dros ddwy fodfedd o hyd, tra y byddai barfau brenhinoedd gryn lawer yn hwy, a gosodid yr eiddo eu duwiau allan trwy fath o dro yn ei blaen, fel y gwelir oddi wrth y darlun isod.




Dar. 110.—2, 3, 5, 11, Duwiau. 1, 4, 6, 9, 10, Breninoedd. 7, 8, Personau neillduol.

Gellir cael rhyw ddrychfeddwl hefyd oddi wrth y darlun canlynol, a gymmerwyd oddi wrth y cofgolofnau Aiphtaidd, o bryd, penwisgoedd, a barfau y cenedloedd ag oedd yn preswylio ar gyffiniau yr Aipht, a Gwlad Canaan.



Dar. 111.

Y maent oll braidd wedi eillio rhanau uchaf y farf, yn enwedig y wefus uchaf.

Gesyd y cyntaf allan, yn y darlun nesaf, ben a

Digitized by Google

barf Fabilonaidd [gwel td. 467, dar. 104]; yr ail, barf freninol Bersiaidd; y trydydd, un gyffelyb, oddi wrth gerfluniau Xanthus, a ganfyddwyd yn ddiweddar yn Asia Leiaf; y pedwerydd, barf Roeg-Syriaidd, oddi wrth gerfluniau Palmyra.

1 2



3 4

Dar. 112.

Gosodai y Tartariaid lawer iawn o bwys ar driniaeth eu barfau fel rhan o'u crefydd, yr hyn a fu yn achos o ryfel blin a gwaedlyd rhyngddynt a'r Persiaid am amser maith, er nad oeddynt yn gwahaniaethu nemawr oddi wrthynt mewn dim arall. Yn wir, bu dadl faith a chwerylgar am dymmor hir rhwng eglwysi Groeg a Rhufain ar y pwnc pwysig o drinaeth y farf. Gorchymynodd Alexander i'r Groegiaid, y rhai oeddynt yn gadael i'w barfau dyfu cyn ei amser ef, eu heillio, fel na byddent yn fanteisiol i'w gelynion gymmeryd gafael ynddynt wrth ymladd. Arferai y Rhufeiniaid adael i'w barfau dyfu yn hirion hyd tua'r flwyddyn 454 o sylfaeniad y ddinas, pryd y cyrchodd P. Ticinius Mænas eillwyr o Sicily; a pharhaodd yr arferiad o eillio hyd amser Hadrian, yr hwn a adawodd i'w farf dyfu i guddio creithiau oedd ar ei wyneb. Ond nid hir y buwyd heb droi i eillio eilwaith. Nid oes braidd un dirmyg mwy a ellir ei roddi ar y Tyrciaid na thori eu barfau. Oddi wrth y darlun canlynol, canfyddir y modd y mae preswylwyr y dwyrain yn gwisgo eu barfau mewn amseroedd diweddar.



1 2



3 4

Dar. 113.

Y mae y cyntaf yn dangos yr eiddo Coptiad diweddar; yr ail, yr eiddo Persiad; y trydydd, yr eiddo penaeth Arabaidd; a'r pedwerydd, yr eiddo Iuddew Syriaidd.

Cyfrifid y farf yn addurn mawr gan yr Hebreaid bob amser. Yr ydym yn cael fod yr Arglwydd yn gorchymyn drwy Moses na byddai iddynt dori cyrau eu barfau (*Lef.* xix. 27), mewn cyfeiriad, dybygid, at genedloedd ereill a wnelent felly, yn enwedig yr Aiphtiaid, y rhai y daethent o'u mysg, oddi ar ryw syniadau crefyddol, ac fel y byddai iddynt ymgadw yn genedl wahanol yn hyn oddi wrth bawb arall. Barna rhai fod yma gyfeiriad at ddefod goelgrefyddol oedd yn mysg llwythau Arabaidd, y rhai a eillient gyrau eu barfau, neu eu cyssylltiad â'r gwallt, er anrhydedd rhyw dduw yn eu mysg ag oedd yn sefyll yn yr un cyfrif ganddynt a Bacchus yn mysg y Groegiaid. Gwel hefyd *Ier.* ix. 26; xxv. 23; xlix. 32. Ar lanhad y gwahanglwyfus, gorchymynid iddo "ar y seithfed dydd, eilio ei holl flew, sef ei ben, a'i farf, ac aeliau ei lygaid, ïe, eillied ei holl flew;" *Lef.* xiv. 9. Ac yr oedd y Lefiaid hefyd, ar eu glanhad a'u cyssegriad, i wneyd "i ellyn fyned dros eu holl gnawd;" *Num.* viii. 7. Trwy hyn, mewn rhan, yr oedd y naill a'r llall yn cael eu puredigaeth; y cyntaf, mewn trefn i fod yn rhydd yn y gwersyll fel o'r blaen; a'r olaf, i fod yn gyssegredig i'w swydd. Ystyriai Dafydd fod brenin yr Ammoniaid yn taflu dirmyg mawr arno ef, ac ar ei genadau, wrth eu gollwng ymaith wedi "eillio hanner eu barfau" (2 *Sam.* x. 4); ac anfonodd i'w cyfarfod, i beri iddynt droi i Iericho, hyd oni thyfent eilwaith, fel na byddent yn wrthddrychau gwawd. Tybia rhai mai at y gofal a gymmerid i drefnu ac eneinio y farf, mewn trefn iddi ymddangos yn fwy prydferth, y cyfeirir yn *Salm* cxxxiii. 2. Pa fodd bynag, dywed teithwyr ei bod yn arferiad yn mysg y Persiaid, er cyn cof, i gymmeryd llawer o drafferth i drefnu, eneinio, ac i addurno eu barfau âg amrywiol liwiau Yr oedd ei gadael heb ei thrin yn daclus yn cael ei ystyried yn arwydd o drallod a galar dwys, fel yr ydym yn cael hanes am Mephiboseth: 2 *Sam.* xix. 24. Felly hefyd yr oedd eillio y farf: *Esa.* xv. 2; *Ier.* xli. 5. Dangosir llymdoster barnedigaethau Duw ar Israel, yn nghyd â'r gwaradwydd a'r dinystr a ddeuai arnynt o herwydd eu pechodau, yn *Ezec.* v. 1—5, trwy y gorchymyn a roddir i'r prophwyd, "Cymmer i ti gyllell lem, cymmer i ti ellyn eillio, ac eillia dy ben a'th farf," &c.:—yr hyn oedd yn arddangos nad arbedai ei lygaid, ac na thosturiai chwaith, ac y byddai y "gwaradwydd a'r gwarthrudd" a ddeuai arnynt yn "ddysg ac yn syndod i'r cenedloedd oedd o'u

Digitized by Google

yn ebrwydd, tra yr adnabyddir ereill ar ol cydnabyddiaeth faith o'u personau." Y mae Whitby, Macknight, ac ereill, yn rhoddi alleiriad cyffelyb. Y mae eglurhad Olshausen a Wiesinger yn wahanol. "A ydyw y geiriau hyn yn perthyn i'r gocheliad rhag bod 'yn gyfranog o bechodau rhai ereill,' ynte i'r annogaeth a roddir i Timothëus i 'gadw ei hun yn bur?' Nid oes genym ddim i benderfynu y cwestiwn oddi eithr yr ystyriaeth fod yr apostol yn ymddangos yn y gair *σεαυτόν=dy hun*, fel pe byddai yn cyfeirio at Timothëus yn bersonol. Dynoda yr apostol, yn *adn.* 24, ddau fath o bechodau:—y rhai ydynt *eglur*, a'r rhai sydd yn *canlyn*. Y mae y rhai ydynt eglur yn cael eu hesbonio yn mhellach yn y geiriau 'rhagflaenu i farn.' Y mae y cyferbyniad yma, felly, rhwng pechodau ydynt amlwg —rhai yn myned o'r blaen, a'r rhai cuddiedig—rhai yn canlyn. Y mae hyn yn eglur oddi wrth *adn.* 25; y lle, 'yr un ffunud,' y mae 'gweithredoedd da' yn cael eu dosbarthu i'r rhai 'ydynt amlwg,' a'r rhai ydynt 'amgenach;' wrth y rhai y deallir nid y rhai ydynt wrthwyneb i'r rhai da, ond i'r rhai eglur; ac am y ddau fath, dywedir y dygir hwy i oleuni: y mae y rhai 'amlwg' felly eisoes, 'a'r rhai sydd amgenach nis gellir eu cuddio.' Yr ystyr, gan hyny, ydyw hyn—nis gall pechodau na rhinweddau aros yn guddiedig mewn barn, yr unig wahaniaeth ydyw fod rhai pechodau, yn gystal a gweithredoedd da yn rhagflaenu –ereill yn canlyn y farn: neu y mae rhai eisoes yn ngwydd pawb; nid yw ereill felly; ond gwneir hwy yn amlwg. Pa beth yw y farn yn yr hon y gwneir pechodau a rhinweddau amlwg a chuddiedig, yn gyhoeddus? Nis gall feddlw dim ond 'cyfiawn farn Duw;' 2 *Thes.* i. 5. Y mae y dybiaeth ei fod yn golygu y prawf sydd yn rhagflaenu sefydliad dynion mewn swyddau eglwysig, heb sail ddigon cadarn i orphwys arni. Dylid dangos fod y gair *κρισις* yn cael ei arfer mewn ystyr felly yn y Testament Newydd. Heb law hyny, y mae y ffurf gyffredinol yr adroddir y gwirionedd yn anghysson â'r eglurhad hwn. Am bechodau a rhinweddau yn gyffredinol y lleferir; ac nis gellir dyweyd fod pob pechod a phob gweithred dda yn cael eu dwyn i'r amlwg yn y prawf sydd yn blaenori gosodiad person mewn swydd eglwysig. Y mae y geiriau i'w deall yn hytrach fel yn cyfeirio at Timothëus ei hun. Cynghorwyd ef yn y geiriau o'r blaen i gadw ei hun oddi wrth feiau ereill, yn gystal ag oddi wrth yr eiddo ei hunan. Yna y mae y cynghor hwn yn cael ei egluro a'i argymhell yn *adn.* 24, 25; yn y rhai y dywedir, fod nid yn unig pechodau eglur, ond hefyd rhai cuddiedig, a'r un ffunud weithredoedd da, amlwg a chuddiedig; ond y mae y naill ddosbarth fel y llall yn cael ei wneyd yn amlwg yn ngoleuni y farn—yn unig fod un yn rhagflaenu fel tystion uchel, a'r llall yn dilyn fel rhai dystaw." Alleiria Robinson [*Greek. Lex.*, d.g. *κρισις*] y geiriau ychydig yn wahanol i'r naill a'r llall o'r golygiadau uchod. "Gyda rhyw ddynion y mae eu pechodau yn rhagflaenu condemniad; *h. y.*, y maent yn eu cyhuddo, ac yn llefain am gondemniad, nes y maent yn cael edifarhau o'u plegid: gydag ereill, y mae eu pechodau yn canlyn; *h.y.*, y maent yn glynu wrthynt er eu bod yn ymwybodol o euogrwydd presennol a chondemniad dyfodol."

"Canys barn ddidrugaredd fydd i'r hwn ni wnaeth drugaredd; ac y mae trugaredd yn gorfoleddu yn erbyn barn;" *Iago* ii. 13. Y mae cryn anhawsdra yn cael ei deimlo yn y frawddeg ddiweddaf, ac yn enwedig yn ei chyssylltiad â'r gyntaf. Y mae rhai yn deall "trugaredd," am drugaredd Duw; ac ereill am yr eiddo dyn. "Er y trinir dynion annhrugarog yn chwerw; eto, gyda golwg ar ereill, y mae trugaredd yn gorfoleddu yn erbyn barn. Y mae trugaredd yn ennill goruchafiaeth ar ddialedd, ac yn llawenychu fel y gwna gorchfygwyr wrth ranu ysbail." —*Gregory.* Darllena Piscater fel y canlyn:— "Er y dymunai trugaredd ymorfoleddu yn erbyn dialedd; eto, yn yr olwg ar annhrugarogrwydd y mae hyd yn oed calon wresog trugaredd yn oeri." Rhydd Macknight yr alleiriad a ganlyn: —"Dysga yr efengyl y bydd barn ddidrugaredd, yn ol manylder y gyfraith, ar yr hwn ni wnaeth drugaredd, yn y dydd diweddaf; eithr yn y dydd hwnw, buddugoliaetha trugaredd ar farn i'r hwn a ddangosodd drugaredd." Dealla Robinson y gair "trugaredd" yn drawsfudol am "y trugarog;" ac esbonia yr ymadrodd fel y canlyn:—"Y dyn trugarog a ymorfoledda uwch law barn;" neu, nid ofna gondemniad.

BARN, DYDD: y cyfnod pwysig hwnw a rydd derfyn ar yr oruchwyliaeth bresennol o ras, a esyd ddiwedd ar amser a'i amgylchiadau, a ddwg i mewn oruchwyliaeth dragwyddol, a benderfyna dynged a sefyllfa angelion a dynion: *Act.* xvii. 31; 1 *Thes.* iv. 14–17; *Mat.* xxv. 31–46. Am y profion o farn ddyfodol a geir oddi wrth reswm a chydwybod, gwel yr erthyglau ar ANFARWOLDEB; BYD A DDAW; COSP; CYFRIFOLDEB DYN; GWOBR. Ni a edrychwn ar y testyn fel y mae yn un o wirioneddau arbenig dadguddiad. Er fod gan rai o'r paganiaid syniadau aneglur am farn ddyfodol, eto y mae goleuni natur a rheswm, heb ei gynnorthwyo gan ddadguddiad, yn gwbl annigonol i addysgu dynolryw yn yr athrawiaeth. Y mae yn wir nad oedd y pynciau pwysig o gyfrifoldeb dyn, sefyllfa ddyfodol, gwobr a chosp y sefyllfa hono, yn ddyeithr hollol iddynt hwy. Yr oedd argraffiadau gweiniaid o honynt ar eu meddyliau. Yr oedd y farn, yr hunan-gondemniad a'r hunan-gymmeradwyaeth, a gymmerent le yn eu cydwybodau, yn cyfeirio eu meddyliau at farn a dedfryd arall a weinyddid mewn brawdlys uwch. Ond y mae y syniadau am *farn gyffredinol*, a *dydd* o farn—yr amgylchiadau rhagflaenol i'r farn, megys adgyfodiad y corff—natur ac amgylchiadau y farn ei hun—a'i chanlyniadau di-alw yn ol, yn syniadau a berthynant, nid i natur, i reswm neu oleuni cydwybod, ond yn arbenig i ddadguddiad.

Gwrandawai yr Atheniaid gydag astudrwydd ar Paul, a chyd-dystiolaethai eu meddyliau â gwirionedd ei athrawiaeth, tra yr oedd yn llefaru am y pynciau cyffredinol o rwymedigaeth a chyfrifoldeb dyn; ond pan aeth rhagddo i draethu am yr adgyfodiad—am ddiwrnod wedi ei osod i farnu y byd gan un o'r natur ddynol—dangosent eu hanghymmeradwyaeth yn ebrwydd. Tra yr oedd y gwirionedd cyffredinol am y farn, yn nghyd â seiliau y gwirionedd hwn, yn ennill eu cydsyniad, yr oedd dydd y farn, yn ei neillduolion, fel y mae yn un o wirioneddau dadguddiad, yn destyn eu hammheuaeth a'u gwawd: *Act.* xvii.

"Ni ymddiriedodd Duw brofion a chadwraeth y gwirionedd pwysig hwn i'r gweddillion hyny o oleuni cynhenid sydd yn meddyliau a chydwybodau dynion, yr hwn a ellir ei dywyllu i'r fath raddau nes ei ddiffodd braidd yn llwyr; nac i weithrediad rheswm yn yr ystyriaeth o wein-

Digitized by Google

yddiad presennol rhagluniaeth yn y byd, yr hwn sydd yn fynych yn cael ei lygru, a'i wneyd yn ddiddefnydd; nac ychwaith i'r dylanwad a ddichon barnedigaethau anghyffredin gael ar feddyliau dynion; ond dygodd dystiolaeth yn helaeth iddo drwy ddadguddiad neillduol o ddechreu y byd, yr hon sydd wedi ei rhoddi yn ei air. Nis gellir ammheu fod Adda wedi cael hysbysiad o'r gwirionedd hwn yn ddigyfrwng oddi wrth Dduw ei hun. Yr oedd yn cael ei ddeall ganddo yn y bygythiad a roddwyd am bechod ar y cyntaf, yn enwedig fel yr esboniwyd ef yn y felldith ar ol iddo bechu yn weithredol. Pan agorwyd ei lygaid wedi y cwymp, llanwyd ei feddwl gan arswyd Duw fel ei farnwr. Ac nis gellir ammheu ei fod wedi trosglwyddo y wybodaeth am y gwirionedd i'w hiliogaeth." Y mae dau o'r *Targums* yn chwanegu, fel adgyflenwad at y geiriau yn *Gen.* iv. 8, "A Chain a ddywedodd wrth Abel ei frawd," y rhai a dybir yn ddiffygiol, "yn nghylch barn dragwyddol;" a barant fod yr athrawiaeth yn cael ei chredu gan Abel, a'i gwadu gan Cain. Ymddengys yn ddiammheuol ei bod yn mhlith egwyddorion sylfaenol ffydd yr eglwys cyn y dylif; a'i bod yn cael ei gwrthwynebu a'i gwawdio gan y genedlaeth ddrygionus a ddyfethwyd gan y farn ofnadwy hono. Prophwydodd Enoch (*Judas* 14, 15) am y dydd, er mwyn cadarnhau ffydd y credinwyr ynddo. Ac nid yw yn annhebyg mai "y geiriau caledion" a ddynodir fel y rhai a ddielid gan yr Arglwydd yn ei ddyfodiad, oeddynt yr ammheuon gwawdus a lefarent o barth i'r athrawiaeth, fel yr awgrymir yn 2 *Pedr* iii. 3—5. A fydd barn, ai na fydd, oedd y ddadl fawr oedd rhwng "meibion Duw" a'r byd annuwiol, "yn y dyddiau yn mlaen y dylif;" a'r anghrediniaeth dygn, a'r gwawd annuwiol a ddangosid tuag at y gwirionedd, a agorodd yr argae i'r fath genllif o lygredigaeth orlifo dros y byd ag a brysurodd y dinystr hwnw oedd yn rhagarwydd a gwystl i ddynolryw o ddinystr mwy ofnadwy a wneir ar y byd yn y dydd diweddaf. Daeth y geiriau pwysfawr, "Y mae yr Arglwydd yn dyfod," yn fath o appeliad gan yr eglwys drwy yr holl oesoedd. Dygid athrawiaeth y farn ger bron sylw ei oes gan Noah, pregethwr cyfiawnder. Y mae yr enw hwn a gyssylltir âg ef yn awgrymu fod rhwymedigaeth a chyfrifoldeb dyn, a dyfodiad Duw i farn, yn gwneyd i fyny ran fawr o'i genadwri. Y mae llawer o ymadroddion yn yr Hen Destament yn profi yn eglur fod barn a sefyllfa ddyfodol yn wirioneddau a gredid yn ddiammheuol gan y saint drwy yr holl oesoedd. Credent y "dwg Duw bob gweithred i farn, a phob peth dirgel;" *Preg.* xii. 14. Dygir yr athrawiaeth i sylw fel un o'r cymhelliadau cryfaf i sobrwydd a difrifwch: *Preg.* xi. 9. Yr oedd y patrieirch yn byw ac yn marw mewn ffydd yn y gwirionedd. Ymgysurai Iob yn y cynfyd yn yr ystyriaeth y "cai weled Duw yn ei gnawd." Edrycha prophwydoliaethau Duw, am ddinystr gelynion ei eglwys, a'i gwaredigaeth hithau, am eu cyflawniad llawn at y dydd diweddaf: *Joel* iii. 12. Ar yr un pryd, derbyniodd yr athrawiaeth y fath adchwanegiadau, a'r fath eglurhad, yn mywyd a gweinidogaeth Mab Duw, fel y gellir edrych arni fel dadguddiad newydd. Cynnwysai braidd yr oll o wybodaeth saint yr Hen Destament yn y ffaith syml fod byd arall, ac y bydd barn. Yr oedd y fath dywyllwch ar y byd a ddaw, fel nas gallasai dim ond ffydd ddwyn gradd o sicrwydd am ei fod; ac nid oedd gan y lluaws ond syniadau gwag ac ammhenodol am dano—syniadau rhy weiniaid i beri un argraff ddifrifol ar eu meddyliau, ac i ffurfio cymhelliad iddynt i fywyd sanctaidd. Ac am fod y syniad am y byd dyfodol a'i amgylchiadau, fel un rheswm, mor anmherffaith ac aneffeithiol, y gwelodd yr Arglwydd yn dda gefnogi rhinwedd, ac anghymmeradwyo drygioni, trwy gyssylltu â'r naill ffafrau, ac â'r llall gospedigaethau tymmorol a phresennol. Gan na chyrhaeddai gwybodaeth y cenedlaethau hyny am y farn a'i chanlyniadau yn mhellach na'u bod yn bod, yr oedd y dylanwad a feddai yr un syniad hwn yn cael ei golli, a'i wisgo ymaith yn raddol o genedlaeth i genedlaeth, fel erbyn diwedd yr oruchwyliaeth, nad oedd ond nifer fechan o ddynolryw, ie, o'r genedl Iuddewig, yn teimlo nemawr oddi wrth bwysfawredd y gwirionedd. Ond yn ymddangosiad Mab Duw, dygwyd bywyd ac anllygredigaeth i oleuni. Egluro y byd a ddaw yn ei fawredd a'i ddifrifwch oedd un o amcanion ei genadwriaeth. Gwnai ddadguddiadau mawrion am y dyfodol. Rhoddodd y fath arbenigrwydd ac eglurder i ddydd y farn yn ei ymadroddion, fel y daeth "y dydd *hwnw*" yn ddynodiad dealladwy o hono yn oes yr apostolion. Dangosodd fod barn, nid yn unig wedi angeu, ond hefyd wedi yr adgyfodiad —y bydd y farn yn gyhoeddus a chyffredinol—y dygir ei orchwylion yn mlaen mewn rhyw ysbaid gosodedig o amser—mai iddo Ef yr ymddiriedwyd yr uchel swydd o fod yn Farnwr byw a meirw—rhoddes y fath ddarluniad o amgylchiadau ac arwyddion rhagflaenorol y dydd, o natur a gweithrediadau y dydd, ac o'i ganlyniadau annewidiol, fel nad yw y wybodaeth a feddai y patrieirch a'r prophwydi am dano braidd yn deilwng o'r enw, mewn cymhariaeth i'r dadguddiad eglur a feddai y rhai lleiaf yn nheyrnas nefoedd.

Er fod y farn, yn ei neillduolion megys—y bydd yn farn gyhoeddus a chyffredinol—yn gyfryw nas gallasai dim ond dadguddiad roddi hysbysrwydd am dani, eto. *ar ol* cael yr hysbysrwydd hwn, y mae yn ymddangos yn gwbl gydweddol â rheswm, ac yn cael ei gadarnhau ganddo. Nis gallasai rheswm ei ddarganfod; ond wedi i Dduw ei ddadguddio, y mae rheswm yn ei adnabod a'i gymmeradwyo. Y mae y meddwl yn ebrwydd yn syrthio i mewn â phriodoldeb y dadguddiad y bydd adeg cyn ymddattodiad y bydysawd, pan y saif pob creadur rhesymol ger bron Duw—yr holl ddeiliaid yn ngwyddfod eu Brenin—ac y gwneir ymchwiliad manwl i'w cymmeriadau — ac y gwneir hyny yn gyhoeddus, ac arnynt yn gynnulledig. Bydd barn gyffredinol yn arddangosiad mwy gogoneddus o fawrhydi Iehofah. Bydd yn fwy gogoneddus, am y bydd yn fwy agored, yn fwy cyhoeddus a difrifol. Er ei fod yn awr yn llywodraethu ar bawb a phob peth—er ei fod yn awr yn Farnwr yr holl ddaiar, ac yn rhoddi i bawb yn ol eu gweithred; eto, y mae yn dwyn yn mlaen ei lywodraeth mewn dull mor ddirgelaidd, fel y mae yn beth cyffredin yn mhlith dynion i ammheu a gwadu ei lywodraeth arnynt. Y mae yn "Dduw nid adwaenir" fel Llywydd moesol gan y nifer fwyaf o'r rhai sydd yn ddeiliaid ei lywodraeth. Gan hyny, pa mor gydweddol â rheswm ydyw meddwl y bydd i Iehofah, wrth ddirwyn pob peth i fyny—pan ddaw sefyllfa bresennol dynolryw i'w diweddglo—amlygu ei arglwyddiaeth ar breswylwyr y ddaiar, drwy eu dwyn oll, fawrion a bychain, freninoedd a deiliaid, yn nghyd ger ei fron, i gael eu barnu am yr oll a wnaethant yn y byd!—y bydd iddo arddangos

yn gyhoeddus ei fawrhydi fel Llywydd yn yr un byd ag yr ammheuwyd, y gwadwyd, y gwrthwynebwyd ei awdurdod yn gymmaint! Atebir hefyd amcanion barn yn fwy cyflawn drwy farn gyffredinol a chyhoeddus, nag a wneid drwy farn neillduol a dirgelaidd yn unig. Amcan pob barn ydyw gwneyd cyfiawnder Duw yn hysbys ac yn ogoneddus; yr hyn, fel y mae yn eglur, a gyrhaeddir drwy farn gyffredinol. Y mae hefyd yn dra rhesymol fod i'r afreoleidd-dra sydd mor eglur a hysbys yn y byd gael ei drefnu yr un mor gyhoeddus gan y Llywydd Goruchaf. Cyflawna Duw hefyd yn fwy effeithiol ei amcanion tuag at y duwiol a'r annuwiol. Anrhydedda y naill yn gyhoeddus ger bron eu caseion; a bydd cyhoeddusrwydd y farn a'i hamgylchiadau yn un o'r elfenau mwyaf annyoddefadwy yn y trueni a brofir gan annuwiolion yn y dydd hwnw.—[*J. Edwards on the Final Judgement.*]

I. *Y mae yr Ysgrythyrau yn llefaru am ddyfodiad Crist i farn fel yn ymyl—wrth y drws.* Yn *Mat.* xxiv. *Marc* xiii. *Luc* xxi., y mae dygwyddiadau ag y mae oesoedd lawer rhyngddynt a'u gilydd, yn cael eu dwyn ger bron fel yn cymmeryd lle yn gyfamserol. Y mae dinystr Ierusalem a'r farn ddiweddaf yn cael eu golygu fel pe byddent un dygwyddiad. Mae yn wir fod rhai beirniaid yn edrych ar rai rhanau yn y penodau uchod fel dysgrifiad o'r naill amgylchiad yn unig; ac ar ranau ereill fel dysgrifiad o'r llall. Y mae Schott, er anghraifft, yn tybied fod y dysgrifiad o ail ddyfodiad Crist yn dechreu yn *adn.* 29 yn *Mat.* xxiv., ac yn cymhwyso y rhan flaenorol yn unig at ddinystr Ierusalem. Ond bernir yn fwyaf cyffredin fod yn anmhosibl gwneyd gwahaniaethiad fel hyn. Dadleua Olshausen fod yn y rhanau diweddaf ddysgrifiad o ddinystr Ierusalem mor arbenig ag yn y rhanau cyntaf; a bod yn y rhanau cyntaf o'r bennod ymadroddion na chyflawnir eu hystyr yn llawn, ond yn ail ddyfodiad Crist. Y mae cymmeryd golwg ar unwaith ar ddygwyddiadau pell o ran amser oddi wrth eu gilydd, neu edrych arnynt fel yn gyfamserol, yn beth a geir mewn amryw fanau o'r Beibl heb law yn y fan hon: 1 *Cor.* x. 11; *Phil.* iv. 5; 2 *Thes.* ii. 7; 1 *Pedr* iv. 7; 1 *Ioan* ii. 18. Y mae yn eglur, oddi wrth yr adnodau uchod y cyfeirir atynt, fod yr apostolion yn dysgwyl dyfodiad Crist yn eu dyddiau hwy. Y mae yr un drychfeddwl hefyd yn yr Hen Destament—y mae dyfodiad yr Arglwydd yn cael llefaru am dano fel yn agos: *Ezec.* xxx. 3; *Esa.* xiii. 6; *Obad.* 15. Nid oes un gair yn yr Ysgrythyrau yn dangos yr *hir* oedir y dydd; ie, y mae y syniad ei fod yn cael ei hir oedi yn cael ei gondemnio: *Mat.* xxiv. 49. Mae y dull hwn o osod allan ddydd y farn fel yn agos yn un o nodweddau prophwydoliaeth. Y mae yn fath o weledigaeth ysbrydol. Y mae yr anweledig yn dyfod yn weledig, a'r dyfodol pell yn cael ei sylweddu fel peth presennol ger bron y meddwl. Yr oedd ysbrydoliaeth y prophwydi yn dyddymu amser a lle iddynt, ac yn eu dyrchafu i edrych arnynt fel Duw ei hun. Esbonia hyn y ffaith fod y prophwydi yn edrych ar ddau ymddangosiad Mab Duw fel yn agos i'w gilydd. Y mae cyfnodau meithion sydd rhyngddynt yn diflanu; *Esa.* xi. 1—6; liii; *Ier.* xxiii. 5. [*Hengstenberg's Christology of the Old Test.*] Gwel PROPHWYDOLIAETH.

Nid yw y dull hwn o osod allan ddydd y farn fel yn agos yn cynnwys cyfeiliornad, er nad yw yn ymddangos yn mhob ystyr fel gwirionedd; o blegid y mae yn elfen hanfodol yn athrawiaeth y farn ei bod i gael ei hystyried bob moment yn *bosibl*, ac y dylai credinwyr edrych arni bob moment yn *debygol*. Buasai addysgu am y farn, a'i dwyn i sylw dynion fel yn mhell, yn ysbeilio yr athrawiaeth o'r ystyr neu y pwysfawredd moesol sydd yn perthyn iddi. Y mae y disgwyliad parhaus am y farn yn cael ei wirio hefyd gan yr ystyriaeth fod Crist *yn dyfod* yn barhaus yn ei deyrnas. Y mae hanes y byd mewn un ystyr yn farn ar y byd; a'r farn ddiweddaf fydd y weithred berffeithiol. O herwydd hyn y mae dygwyddiadau pwysig mewn rhagluniaeth—dygwyddiadau sydd yn effeithiol i arddangos rhai o berffeithiau y Duwdod mewn gradd anarferol—yn cael edrych arnynt fel dyfodiad Crist, a chysgod o'i ddyfodiad yn y dydd diweddaf.

Mae Olshausen yn cymmeryd golwg ar y cwestiwn hwn fel y mae yn dwyn perthynas â rhyddid ac angenrheidrwydd. Ar un llaw, y mae amser cyflawniad unrhyw ragfynegiad yn cael ei osod allan fel yn sefydlog yn nghynghor Duw (*Dan.* xi. 39; *Act.* i. 7). Ar y llaw arall, ymddengys yr amser yn ansicr, ac yn agored i gael ei addoedi neu ei brysuro gan ffyddlondeb neu ddrygioni dynion. Y mae y dull hwn o fynegu digwyddiad, er yn amrywiol, ac yn ymddangos yn wrthwyneb, yn cytateb yn berffaith i berthynas rhyddid ac angenrheidrwydd, yn ol y golygiad a gymmerir ar y berthynas hono gyda chyfeiriad at y mater hwn. Fel y mae pob peth dyfodol, hyd yn oed yr hyn sydd yn deilliaw o ryddid y creadur, pan yn cael ei olygu mewn perthynas â'r wybodaeth ddwyfol, yn cael edrych arno yn unig fel yn *angenrheidiol;* felly y mae pob peth dyfodol, yn ei gyssylltiad â dyn, yn cael edrych arno yn unig fel yn *ddamweiniol*, neu ammodol ar ei ymarferiad ef o'i ryddid. Fel y mae glynu mewn pechod yn prysuro dinystr felly y mae edifeirwch yn ei attal. Ac yn 2 *Pedr* iii. 9, edrychir ar waith Duw yn oedi ei ddyfodiad fel gweithrediad hiramynedd, yn cael ei fwriadu i roddi cyfleusdra i ddynion edifarhau. Felly pan y mae yr Iachawdwr yn mynegu agosrwydd ei ddyfodiad, y mae y mynegiad i'w gymmeryd gyda'r cyfyngiad sydd yn ddealledig mewn cyssylltiad â'r holl ragfynegiadau am farnau—"Bydd i'r holl bethau hyn gymmeryd lle, oddi eithr i ddynion attal digofaint Duw drwy wir edifeirwch."—*Olshausen ar Mat.* xxiv.

II. *Yr arwyddion a ddynodant ddynesâd dydd y farn.* Mae geiriau ein Iachawdwr o barth i adeg ei ddyfodiad i farnu y byd, fel ei holl ymadroddion, yn arddangos ei ddoethineb anghymharol fel dysgawdwr. Pe buasai yn rhoddi awgrymau mor eglur fel ag i alluogi dynion i gael allan "y dydd a'r awr," neu i gynhyrfu chwiltrydedd felly ynddynt; neu, ar y llaw arall, pe gadawsai amser ei ddyfodiad heb fynegu un arwydd o'i ddynesad, buasai yr athrawiaeth yn colli llawer o'i mawredd a'i phwysigrwydd moesol, fel y mae yn ffurfio y cymhelliad cryfaf i bob rhinwedd. Ond trwy gadw yn ei ddysgrifiad rhwng y ddau eithafedd, y mae yr athrawiaeth yn cadw ei grym a'i phwysigrwydd. Cedwir o flaen y meddwl bosiblrwydd parhaus ei ddyfodiad (*Mat.* xxiv. 34); a dangosir hefyd yr anmhosiblrwydd i benodi unrhyw adeg neillduol (*adn.* 36); ac y mae cyfarfyddiad y naill ystyriaeth â'r llall yn rhoddi grym mawr yn yr annogaethau i fod bob amser yn barod, yn sobr, ac yn wyliadwrus. Nid oedd yr Arglwydd Iesu yn amcanu rhoddi golygiad cyflawn i'w ddysgyblion ar helynt ei deyrnas, a'i mynediad yn mlaen yn y byd hyd ei diwedd

Digitized by Google

ond cyfranu y wybodaeth hono iddynt, a thrwyddynt i gredinwyr yr holl oesoedd, ag sydd yn angenrheidiol er eu gosod ar eu gwyliadwriaeth rhag twyll, ac er eu cadarnhau yn sierwydd ei ddyfodiad. Addefa nad yw yr adeg yn hysbys "nac i angelion y nef, nac i'r Mab [yn sefyllfa ei ddarostyngiad, fel un peth cynnwysedig yn ei ymwaghâd – ei hunan-ddibrisdod; ac fel prophwyd, nid oedd gwybod a dadguddio yr amserau a'r prydiau yn rhan o'i genadwriaeth] ond i'r Tad yn unig (*Mat.* xxiv. 36; *Marc* xiii. 32). Gan fod gwybod yr amserau yn rhagdybied gwybodaeth o achosion cuddiedig dygwyddiadau, ac o ewyllysiadau creaduriaid rhydd a rhesymol, y mae yn gyfryw wybodaeth nas gall neb ond Duw fod yn feddiannol arni. Eto, er fod y Tad wedi "gosod yr amserau a'r prydiau yn ei feddiant ei hun," y mae yr Iachawdwr wedi mynegu am yr arwyddion drwy y rhai y gellir gweled sierwydd, ac adnabod dynesad ei ddyfodiad mor sier ag y gellir deall wrth doriad allan ddail y ffigysbren fod yr haf yn agos. Y mae y mynegiadau am danynt i'w cael yn benaf yn *Mat.* xxiv., a *Marc* xiii. Er y gellir eu cymhwyso i fesur at y dygwyddiadau a gymmerasant le yn flaenorol i ddinystr Ierusalem, a diweddiad y wladwriaeth Iuddewig; eto y maent, fel y crybwyllwyd eisoes, yn ddarluniadau mor gryfion na sylweddolir hwy yn llawn ond yn y dygwyddiadau a ddygant i mewn ddydd y farn a diwedd y byd. Ac fel y mae pob cyfnod pwysig yn hanes y byd—pob cyfnod sydd yn dinystrio hen bethau a sefydliadau, ac yn dwyn i fod rai newyddion—yn debyg i'w gilydd, a chyda'u gilydd yn fath o ragddangosiadau o'r chwyldroad, ac o'r greadigaeth a elleithir yn nydd y farn; felly hefyd y mae yr arwyddion a elent o flaen, ac a rybuddient ddynesad y cyfnodau hyny yn dwyn llawer o debygolrwydd i'r arwyddion a ragflaenant y cyfnod diweddaf a phwysicaf; ac felly, er y cyflawnwyd geiriau Crist cyn i'r genedlaeth yr oedd yn cydoesi â hi fyned heibio, eto y mae yn rhesymol dysgwyl cyflawniad mwy gwirioneddol a llythyrenol o honynt cyn ail ddyfodiad Crist. Y mae yr amgylchiadau a nodir fel arwyddion ei ddyfodiad yn perthyn i'r holl oesoedd; nid ydynt yn gyfyngedig i'r oes nesaf i ddydd y farn; ond y maent yn, ac i gymmeryd lle, y naill neu y llall o honynt, dros holl ystod dyddiau yr efengyl. Mae yr arwydd yma yn hysbys yn yr oes hon, a'r arwydd arall yn yr oes arall; fel nad oes un oes, nac un genedlaeth, heb fod rhyw amgylchiad yn ei chyflwr gwladol neu eglwysig yn dwyn ar gof iddi fod yr Arglwydd yn dyfod, a'r "Barnwr yn sefyll wrth y drws."

Yn atebiad i'r cwestiwn, "Pa arwydd fydd o'th ddyfodiad, ac o ddiwedd y byd?" y mae Iesu Grist yn hysbysu y dysgyblion—(1.) Y cyfodai dynion, y rhai a honent mai hwy yw y Crist, ac y twyllent lawer: *Mat.* xxiv. 4, 5, 11, 23, 24; *Marc* xiii. 21, 22; *Luc* xvii. 23. Cymmera hyn le, nid mewn rhyw oes neillduol, ond yn fynych drwy yr oesoedd, hyd oni ennilla teyrnas Duw fuddugoliaeth lwyr ar deyrnas y tywyllwch. Mae yr ystyriaeth nad oes hanes am neb wedi rhoddi ei hun allan fel Messïah *yn flaenorol* i ddinystr Ierusalem yn cael ei chymmeryd gan Olshausen (yn y fan) yn brawf na chyflawnwyd yr holl brophwydoliaeth yn amser y dinystr. O blegid nid oedd Theudas (*Act.* v. 36) a'r Aiphtwr (*Act.* xxi. 38) yn ymhoni bod yn fwy na phrophwydi. Ond y mae yn hysbys fod amryw bersonau wedi bod yn au Gristiau, ac wedi twyllo lluaws o ddynion chud ac ofergoelus, *ar ol* y dinystr; megys Barchochba, yn yr hen oesoedd; a Sabbatai Zebhi yn yr ail ganrif ar bymtheg. (2.) Y bydd cyfnewidiadau a dygwyddiadau ofnadwy yn y byd elfenol a gwladol: *Mat.* xxiv. 6, 8, 29. Y mae dyfodiad yr Arglwydd yn cael ei osod allan fel adeg o addfedrwydd mewn drygioni yn gystal a daioni (*Mat.* xiii. 30); dygwydda pob peth o natur annymunol a gymmerodd le yn ystod hanes y byd, y pryd hyny yn ei ffurf fwyaf nerthol ac ofnadwy. Mae y Rabbiniaid yn dynodi y gofidiau a'r terfysgoedd a ragflaenant ddyfodiad yr Arglwydd, fel gofidiau esgor y Messïah; a diammheu y cyfeirir at hyn yn y gair, "Dechreuad gofidiau." Edrychent ar y greadigaeth fel yn feichiog, ac yn esgor ar ystâd a goruchwyliaeth mwy ardderchog, mewn poen a llafur. Dadleuir fod y cais a wneir i gael allan esamplau o bob math o'r cyfyngder a nodir yn y geiriau hyn fel yn bod yn yr adeg flaenorol i ddinystr Ierusalem yn dra anghysson. Os ceir amgylchiadau cyfatebol mewn rhan iddynt, ni sylweddir y dysgrifiad yn ei lawn ystyr hyd ddyfodiad yr Arglwydd. (3) Cyfyd erlidiau ar y saint, yr hyn a dry allan yn dramgwydd iddynt, ac a'u harweinia i adfeiliad a gwrthgiliad (*Mat.* xxiv. 9–13. Nis gellir dangos, medd Olshausen, fod yr amgylchiadau a ragfynegir yn y geiriau uchod wedi dygwydd yn flaenorol i ddinystr Ierusalem. Nid oedd erlidiau y cyfnod hwnw mor lymion fel ag i droi llawer ymaith oddi wrth ffyrdd yr efengyl, ac i "oeri cariad llawer." Os dygwyddodd pethau o'r un natur, nid oeddynt mewn graddau ond cysgod gwan o'r adfeiliad a ragfynegir yma, yr hwn adfeiliad a ddynodir gan Paul *αποστασια=yr ymadawiad.* Bu amgylchiadau ar ol y dinystr hwnw—chwyldroad cyntaf Ffrainc, er esampl—pan y cyflawnwyd y darluniad yn annhraethol fwy helaeth; yr hyn sydd yn brawf y bydd y cyflawniad o hono yn yr oes flaenorol i'r farn, pan ollyngir Satan yn rhydd, wedi y gorphener y milflwyddiant, mor arbenig, na bydd un cyflawniad blaenorol yn werth i'w gofio mewn cymhariaeth iddo. (4) Pregethir yr efengyl drwy yr holl fyd: *adn.* 14. Nis gellir chwaith edrych ar hyn wedi cymmeryd lle cyn cwymp Ierusalem. Y mae y geiriau *παντα τα εφνη=yr holl genedloedd*, yn gwahardd cymhwyso *οικουμενη=byd*, at y wladwriaeth Iuddewig, ac at ymherodraeth Rhufain. Ac nis gellir dyweyd fod yr efengyl wedi ei phregethu yn mhlith yr holl genedloedd cyn y cyfnod hwnw. Ond y mae pregethiad yr efengyl drwy yr holl fyd (fel y mynegir gan y prophwyd y deuai gair Duw i'r "ynysoedd pellenig") yn wir arwydd o ddynesâd dyfodiad yr Arglwydd. Wedi y gwneir hyn—"yna y bydd y diwedd." Ar yr un pryd, nid yw y geiriau yn rhoddi ar ddeall y dychwelir pawb o bob cenedl i eglwys Crist: y mae y geiriau, "er tystiolaeth i'r holl genedloedd" yn gwrthwynebu y syniad. Yr oll a olygir yw, y bydd i'r efengyl, fel y dadguddiad puraf a pherffeithiaf o Dduw, gael ei gwneyd yn hysbys i bawb, fel ag y dygir pawb dan yr angenrheidrwydd o benderfynu naill ai o'i phlaid neu yn ei herbyn. (5) Yn y geiriau sydd yn dechreu *adn.* 29, y mae y darluniad mawreddog yn cyrhaedd i'w uchder mwyaf. "Ac yn y fan wedi gorthrymder y dyddiau hyny, y tywyllir yr haul, a'r lleuad ni rydd ei goleuni, a'r ser a syrth o'r nef, a nerthoedd y nefoedd a ysgydwir. Ac yna yr ymddengys arwydd Mab y dyn yn y nef," &c. Mae yn eglur nas gall yr arwyddion yn yr haul,

Digitized by Google

trefn i weinyddu cyfiawnder tuag atynt mewn modd dyladwy; "Efe a farn y tlodion mewn cyfiawnder, ac a argyhoedda dros rai llariaidd y ddaiar mewn uniondeb."

IV. *Amgylchiadau a gwaith dydd y farn.* Pan fydd ansawdd pethau yn y byd a'r eglwys wedi dyfod i argyfwng mor bwysig na welodd y byd ei fath o'r blaen—drygioni wedi cyrhaedd i'w bwynt uchaf—gwrthgiliad dynolryw yn gwisgo gwedd fwy caled a beiddgar—annuwioldeb yn mhob ffurf yn fwy cyffredinol nag y buasai erioed—eglwys Dduw yn nghanol y peryglon mwyaf—gwersyll y saint, a'r ddinas anwyl, wedi eu hamgylchynu gan y gelydion (*Luc* xvii. 26, 27; *Dad.* xx.)—ymddengys Mab y Dyn ar gymmylau y nef gyda nerth a gogoniant mawr, yn ngogoniant ei Dad, a chyda'r angelion sanctaidd (*Mat.* xxiv. 36, 37; xxvi. 64; *Dad.* i. 7). Y mae yn ddiammheu nas gellir, gyda phriodoldeb, gymhwyso y darluniadau hyn at un dyfodiad o eiddo Mab y Dyn, oddigerth ei ddyfodiad personol a gweledig. Y mae cydnabyddiaeth â'r dosbarth o ddrychfeddyliau oedd yn hysbys i wrandawyr yr Iesu yn ei gwneyd yn anmhosibl i'w cyfrif yn ddysgrifiadau o ryw ddyfodiad ysbrydol ac anweledig o'i eiddo, ac yn dangos mai cymylau elfenol o oleuni y rhaid fod ystyr y dysgrifiad. Er fod y gair "dyfodiad" yn abl i'w esbonio mewn dull ffugrol, eto y mae y frawddeg, "dyfod gyda chymylau y nef gyda nerth a gogoniant mawr," yn rhwym o olygu dyfodiad llythyrenol, ac ymddangosiad gwirioneddol a gweledig. Cymharer *Mat.* xxvi. 64; *Marc* xiv. 62; 1 *Thes.* iv. 16, 17; 2 *Pedr* iii. 10. Edrychir ar y cymylau fel y lle y gorphwysa y Barnwr arno yn ei ddisgyniad o'r nef; arnynt hwy y saif yr orsedd; ymddangosant fel oddi dan, ac yn cynnal yr arddangosiad gogoneddus; ac edrychir ar y "gogoniant" (δοξα) fel y dysgleirdeb tanbeidiol a fydd yn amgylchu yr holl ymddangosiad. Nis gall y meddwl dynol, yn mha ystad bynag, synied am Dduw wrth un ffugr neu arwyddlun oddi gerth y *goleuni;* ac yn gydweddol â hyn, y mae pob ymddangosiad o eiddo Duw dan yr Hen Destament a'r Newydd yn cael ei osod allan fel yn gylchynedig gan gymylau o oleuni. Y mae y ffaith hefyd fod yr Iachawdwr yn llefaru am dano ei hun yn ei ddyfodiad, dan yr enw "Mab y Dyn," ac nid "Mab Duw," yn brawf y bydd ei ddyfodiad yn un gwirioneddol a phersonol. Trwy ei fod yn arfer y gair sydd yn dynodi yn arbenig ei ddyndod—am yr ymddengys *fel* Mab y Dyn—y mae genym y sicrwydd mwyaf o'i ymddangosiad corfforol a gweledig. Felly, y mae yn gwbl gydweddol â geirweddiad y Testament Newydd i gyssylltu ystyr hollol lythyrenol â'r ymadroddion, "dyfodiad," "ymddangosiad," 'gogoniant," "nerth," "angelion," "cymylau," a'r cyffelyb. Rhydd yr efengylwyr ddarluniad bywiog o effaith ei ymddangosiad ar breswylwyr y ddaiar; "Galara holl dylwythau y ddaiar;" *Mat.* xxiv. 30. Adrodda Luc yr effaith a gaiff ar y credinwyr: *pen.* xxi 28. I'r cenedloedd, bydd yn cynnwys pob peth ofnadwy; bydd y rhagddarpariadau yn eu dwyn i ing, o herwydd y farn sydd ar ddechreu; ond i'r credinwyr, bydd yn cynnwys pob peth dymunol a gwerthfawr, am y bydd yn arwain i mewn ddechreuad y dedwyddwch hwnw sydd wedi ei addaw i'r credinwyr: gallant gyfodi eu penau, am y bydd eu hymwared wedi nesau.

Rhydd yr apostol Paul (1 *Thes.* iv. 14—18) ddysgrifiad manwl o ddyfodiad yr Arglwydd, yr hwn a gawsai, y mae yn debygol, gan Grist ei hun, trwy ddadguddiad uniongyrchol (*adn.* 15). Y mae yr holl ddysgrifiad hwn gan Paul, fel dysgrifiadau Iesu Grist o'r un dygwyddiad, yn rhwym o ymddangos i bob meddwl diragfarn fel un i'w ddeall yn llythyrenol, ac fel rhagtynegiad syml o ddyfodiad gwirioneddol a phersonol o eiddo Crist. Y mae yr ymadrodd "yr Arglwydd ei hun" (αυτος ο Κυριος), yn cau allan bob dyfodiad o'i eiddo mewn rhyw ddylanwadau; gosodir allan ei ddisgyniad o'r nef mor wirioneddol a'i esgyniad i'r nef yn ei natur ddynol; a barna Olshausen fod *Act.* i. 7, yn ngolwg yr apostol wrth ysgrifenu y geiriau.

Y mae y dysgrifiad yn meddu cyfeiriad amlwg at ymdaith byddin i ryfel. Y mae yr Arglwydd yn disgyn gyda "bloedd," yr hwn air a arwydda "galwad y cadfridog ar y lluoedd i gychwyn, ac i ymosod ar y gelynion." Y mae "llef yr archangel, ac udgorn Duw," yn fath o chwanegiad eglurhaol at "bloedd," ond heb arwyddo gweithrediadau gwahanol. Gan fod yr holl arwyddion a'r rhybuddion mewn rhyfel yn cael eu rhoddi drwy udgorn, dewisir y gair yma er mwyn dynodi y gweithrediad nerthol a dreiddia drwy y bydysawd ar ymddangosiad yr Arglwydd. Effeithia drwy yr holl fyd elfenol—cynnulla y ffyddloniaid o bedwar gwynt y nefoedd—cyfoda y meirw, a newidia y byw.

Wedi y casgler yn nghyd yr holl genedloedd ger bron, didolir hwy yn ddwy dyrfa, gosodir y cyfiawnion ar ddeheulaw, a'r anghyfiawnion ar aswy, y Barnwr. Er, efallai, mai y drychfeddwl penaf a osodir allan yn y geiriau hyn (*Mat.* xxv. 33), ydyw, y dengys y Barnwr ryw ffafrau neillduol i'r cyfiawnion, ac y bydd hyny yn amlwg a chyhoeddus; eto nid yw yn anghytunol â'r syniad am farn gyffredinol i ystyried y dysgrifiad fod yn gwbl lythyrenol. Y mae ffafr ac anrhydedd yn syniadau cyssylltiedig â'r *ddeheulaw* gan ddynolryw; a chan y dygir y farn yn mlaen mewn dull allanol a chyhoeddus, nid yw yn annaturiol meddwl y gweithredir yn ol y syniad hwn gan y Barnwr. Y mae yn wir nad yw yr ymadrodd, "deheulaw Duw," i'w ddeall yn llythyrenol; ond gan y lleferir am y Barnwr fel "Mab y dyn"—gan y bydd ei ddynoliaeth yn weledig, nis gellir yn briodol edrych ar yr ymadrodd mewn un ystyr amgen na'r ystyr llythyrenol.

Cynnwysa y farn y ffeithiau canlynol:—1. Dadguddir holl feddyliau, honiadau, geiriau, a gweithredoedd pawb: 1 *Cor.* iv. 5; *Rhuf.* ii. 29; *Mat.* xii. 36; xxv. 18.

2. Cyhoeddir dedfryd gyfiawn ar bawb yn ol ei gymmeriad ac ansawdd ei weithredoedd, drwy yr hon y rhyddheir ac y cyfiawnheir, neu y condemnir, pob dyn: *Rhuf.* ii. 7, 8.

3. Gwneir hyn ar bob dyn yn gyhoeddus: *Luc* xii. 3; *Iudas* 13.

4. Gwneir y cwbl er llwyr argyhoeddiad i bawb. Bydd y dydd "yn ddadguddiad cyfiawn farn Duw;" *Dad.* xvi. 7; xix. 2.

5. Gweinyddir y ddedfryd drwy fwrw yr anghyfiawnion i'r tân tragwyddol, a dwyn yr etholedigion i feddiannu a mwynhau y deyrnas a barotowyd iddynt er cyn seiliad y byd: *Mat.* xxv. 46.

Y mae "dydd y farn" yn athrawiaeth a gredwyd ac a amddiffynwyd gan yr eglwys drwy yr oesoedd; er na cheir unfrydedd hollol yn marnau y dynion mwyaf ynddi. Tuedda rhai, efallai, yn ormodol i roddi eglurhad cyfriniol ar y darlun-

Digitized by Google

iadau ysgrythyrol o'r dydd; tra y tuedda ereill i roddi pwys ar holl neillduolion y dysgrifiadau, gan eu hystyried yn llythyrenol. Priodolai rhai yn y canrifoedd boreuaf y swydd o Farnwr i'r Tad, ereill i'r Mab. Credai y tadau yn gyffredin y llosgid y byd yn nydd y farn, a chyfrifent i'r golosgiad allu parhaol. Rhybuddir dynolryw o agoshad y dydd diweddaf, medd Basil, gan arwyddion yn yr haul, y lloer, a'r ser; ac yn ol Cyril, o Ierusalem, gan ymddangosiad croes yn yr awyr, yr hyn a dybia a feddylir wrth "arwydd Mab y Dyn." Tybid gan rai mai yn nyffryn Iehosaphat y bydd lle gweinyddiad y farn; tra yr esbonia ereill hyn mewn dull cyfriniol. Wrth deimlo yr anhawsder i gyssoni pob darluniad o'r dydd, a'u casglu oll yn nghyd fel ag i wneud un disgrifiad cywir a chyflawn, aeth Thomas Aquinas i haeru mai yn y meddwl y cymmer y cwbl le, "am y cymmerai prawf a diffyniad pob dyn ormod o amser."

Nid oes dim yn yr holl ddarluniadau ysgrythyrol o'r farn yn tueddu i foddhau cywreinrwydd a chwilgarwch; a phan y mae y meddwl yn ufuddhau i'r teimladau hyn yn ei ymchwiliadau ar y matur, y mae yn rhwym o arwain ei hun i ddyryswch. Y mae pob darluniad wedi ei roddi yn y modd mwyaf tueddol i ddwyshau yr annogaethau ymarferol i ddifrifwch, sobrwydd, a gwyliadwriaeth.—(*Edwards' Works; Usher's Body of Divinity; Olshausen on the New. Test.; Hengstenberg on the Revelation; Bloomfield on the New Test; Hagenbach's History of Doctrines.*)

BARN DUW, [*Judicium Dei*]: ymadrodd a arferid gynt i osod allan arbrofion anghyffredinol a wneid ar droseddau dirgelaidd; megys, gornest ymladd tan brawf; gwneud i'r ammheuedig drochi ei fraich mewn dwfr neu olew berwedig; cymhwyso haiarn eiriasboeth at ei gnawd, &c., yn yr hyder y gwnelai Duw wyrth er attal unrhyw niwed i'r dieuog; ac os, o'r tu arall, y profai niwed yn y prawf, cymmerid hyny yn arwydd o'i euogrwydd. Bu y ddefod greulawn a rhyfygus hon yn hir mewn arferiad yn mysg Cristionogion; ac y mae etto yn ddefod arferedig yn mysg rhai cenedloedd. Cynnelid profion o'r fath hyn yn gyffredin yn yr eglwysi, yn mhresennoldeb yr esgobion a'r barnwyr, wedi tri diwrnod o ympryd a chyffesu, a chyfranogi o'r sacrament, a lluaws o ddefodau ereill. Pa beth oedd hyn oll ond temtio Duw, a'i watwar, gan nad oes y rhithyn lleiaf o sail i'r fath beth yn yr Ysgrythyrau?—(*Buck's Theological Dictionary.*)

BARNABAS [בר נכואה; Βαρναβας]: dysgybl i Iesu Grist, a chydymaith Paul yn ei lafur a'i deithiau. Ei enw cyntefig oedd Ioses, neu Ioseph (*Act.* iv. 36); ond rhoddodd yr apostolion y cyfenw Barnabas arno, yr hwn a arwydda *υιος παρακλησεως*=*mab dyddanwch*. Cyfansoddir yr enw o ddau air Hebreig בר (*bar*)=*mab*, a נבי (*nabi*)=*prophwyd*. Felly ei ystyr yw, *mab y prophwyd*, neu *mab prophwydoliaeth*. Pa ham ynte y cyfieithwyd ef yn *fab dyddanwch?* Y mae y gair נבי, a'i berthynasau, yn cael eu defnyddio yn yr Hen Destament mewn ystyr helaeth. Nid ydynt yn gyfyngedig at ragfynegiad o ddygwyddiadau dyfodol yn unig. "Arwydda," medd Parkhurst, "nid yn unig ragfynegiad o ddygwyddiadau dyfodol, ond hefyd adroddiad o rywbeth mewn modd rhagorol a hynod. Cymhwysir yr enw at Abraham (*Gen.* xx. 7), ac at Aaron (*Exod.* vii. 1), yn yr ystyr o lefarydd; ac at y cantorion a'r cerddorion a osodwyd gan Dafydd (1 *Cron.* xxv. 1, 2, 3).

Yr un modd y mae *προφητεια* yn y Testament Newydd. Arwydda adrodd, annog, rhybuddio, yn gystal a rhagfynegu: 1 *Cor.* xiv. 3. Felly gwelir fod y geiriau Hebraeg a Groeg am brophwydoliaeth yn cymmeryd i mewn adroddiad rhagorol o wirioneddau amlygedig; ac nid oes un gair yn cynnwys y drychfeddwl hwn yn well na'r un a gyfieithir *dyddanwch*. Dywed Robinson yn ei eiriadur ei fod yn gyfystyr a *προφητεια*, pan y mae y diweddaf yn cael ei arfer yn yr ystyr eangaf. Gan hyny, ystyr yr enw Barnabas ydyw *mab prophwydoliaeth*, neu *fab cynghor*, yn fwy priodol, efallai, na *mab dyddanwch*. Rhoddwyd yr enw hwn arno ar gyfrif ei ragoriaeth fel dysgawdwr Cristionogol. Y mae Chrysostom yn deall ystyr yr enw fel y mae yn y testyn Cymreig, ac yn barnu ddarfod ei roddi arno o herwydd ei fod yn feddiannol ar dymmer hynaws ac arafaidd; ond tybia y nifer mwyaf o'r beirniaid mai yr achos iddo gael yr enw hwn oedd rhagoroldeb ei ddoniau gweinidogaethol, a'i lwyddiant mawr yn y gwaith, yr hyn sydd yn hawdd ei gasglu oddi wrth ei hanes. Gellir nodi yn mhellach mai ystyr cyntaf *παρακλησις* ydyw cynghor, deisyfiad, neu ymbiliad; ac nad yw "dyddanwch" ond ystyr ail raddog o hono.

Barnabas ydoedd frodor o Cyprus; yn yr hon, medd Dion Cassius, yr oedd lluaws o Iuddewon yn trigiannu yn y cyfamser. Ei rieni oeddynt Iuddewon, o lwyth Lefi: *Act.* iv. 36. Defnyddir y ffaith mai Lefiad ydoedd yn rheswm gan rai dros gyfrif awduriaeth yr Epistol at yr Hebreaid iddo. Yn "Molawd yr Apostol Barnabas" (*Laudatio St. Barnabæ Apostoli*) gan Alexander, mynach o Cyprus, dywedir ddarfod i'w rieni ei ddwyn yn ei faboed i Ierusalem at Gamaliel, i'w addysgu yn y gyfraith a'r prophwydi; ac mai y pryd hyny y daeth gyntaf yn gydnabyddus â Saul o Tarsus. A rhaid addef fod y ffeithiau mai efe a ddygodd Saul at yr apostolion, a'u cyfeillgarwch â'u gilydd yn ganlynol i hyny, yn cryfhau gwiredd y traddodiad hwn.

Yr oedd yn feddiannol ar dir, naill ai yn Cyprus neu Iudea; ac wedi iddo ei "werthu," efe a ddug yr arian ac a'u gosododd wrth draed yr apostolion: *Act.* iv. 37. Pan y cymmerodd hyn le yn fuan ar ol dydd y Pentecost, y mae yn rhaid ei fod yn ddisgybl lled gynnar i'r ffydd Gristionogol; a sicrheir gan Clement, Eusebius, Epiphanius, ac ereill, ei fod yn nifer y deg a thrigain. Tybiodd rhai mai yr un oedd Barnabas a Ioseph Barsabas, am yr hwn y sonir yn *Act.* i. 23; ond ymddengys y dybiaeth hon yn gwbl ddisail; ac ni roddir pwys arni ond gan ychydig. Mae y modd y dygir hanes Barnabas i mewn, a'r gwahaniaeth sydd rhwng ystyr yr enwau, yn cael eu dwyn yn mlaen fel rhesymau yn erbyn y dyb.

Am gymmeriad Barnabas, dywed Luc (*Act.* xi. 24) ei "fod yn ŵr da, llawn o'r Ysbryd Glân ac o ffydd;" ac am ei ddefnyddioldeb a'i lwyddiant, "fod llawer o bobl wedi eu chwanegu i'r Arglwydd" trwyddo. O herwydd ei gymhwysderau uchel, a'r llwyddiant a goronai ei ymdrechion, gelwir ef gan y tadau eglwysig, yn gystal a chan Luc, yn *apostol;* a barna amryw, ac yn eu plith yr enwog Hooker [*Eccles. Polity*, ll. vii., td. 4; ad. 2] ei fod yn apostol mewn gwirionedd, ac wedi ei osod yn y swydd yn lle Iago, fel ag y gosodwyd Saul yn lle Iudas, er mwyn gwneud i fyny nifer y deuddeg. Ond mwy rhesymol ydyw credu y gelwid ef yn apostol ar



Digitized by Google

gyfrif ei urddas a'i gyfrifiad uchel yn yr eglwys apostolaidd; ei fod yn adnabod Crist yn ol y cnawd; yn gydymaith i Paul, ac yn fwy ei barch a'i ddylanwad nag ef am dymmor yn yr eglwysi. Anfonwyd Paul, a sefydlwyd ef yn yr apostolaeth, gan Iesu Grist yn ddigyfrwng; ond am y neillduad y cyfeiria Hooker ato, nid oedd namyn ffurf o anfoniad arnynt ar daith genadol.

Fel yr oedd Cristionogaeth yn llwyddo yn mysg y Cenedloedd yn Antiochia trwy ymdrechion dysgawdwyr Groegaidd, parodd son am hyny gryn gyffro yn mysg y Cristionogion yn Ierusalem. Darfu i dröedigaeth Cornelius, a'r amgylchiadau cyfamserol, leddfu llawer ar ragfarnau a fuasent yn cyfodi yn naturiol yn erbyn y llwyddiant hwn yn Antiochia. Ar yr un pryd, yr oedd mesur o anymddiried yn cael ei deimlo tuag at y dysgyblion cenedlig a beidient a chadw cyfraith Moses, yr hwn deimlad a lynodd am amser maith yn meddyliau y Cristionogion Iuddewig, er yr holl amlygiadau grymus o ddwyfol ddylanwad yr efengyl a welid yn mhlith y Cenedloedd. Penderfynodd y cynghor yn Ierusalem i anfon un oddi yno i ymweled â hwynt, a'u cadarnhau yn yr efengyl. Dewiswyd Barnabas. Dewiswyd ef, y mae yn debygol, am ei fod yn sefyll yn uchel yn nghyfrifiad yr holl eglwysi; am, efallai, fod ei bwyll yn arbenig; ac am ei fod yn Iuddew Groegaidd, ac fel y cyfryw, yn gymhwysach i ymdrin â dynion o'r un dosbarth ag ef ei hun. Wedi cyrhaedd Antiochia, "a gweled gras Duw, bu lawen ganddo," ac ymdrechodd â'i holl allu i hyrwyddo y gwaith; "a chwanegwyd llawer o bobl i'r Arglwydd," fel ffrwyth ei ymweliad. Gan fod "drws mawr" yn agored o'i flaen, aeth i Tarsus i geisio Saul; ac a'i dygodd ef i Antiochia. Arosasant yno am flwyddyn gyfan, "gan gymhell yr eglwys yn nghyd, a dysgu pobl lawer;" *Act.* xi. 22, 26. Pan brophwydodd Agabus am y newyn a ddeuai ar y gwledydd, yr hwn a deimlid yn dost gan y saint tlodion yn Iudea, gwnaeth y dysgyblion yn Antiochia gymhorth iddynt, ac anfonasant eu rhoddion yn brydlawn i Ierusalem trwy law Barnabas a Saul. Dychwelasant oddi yno yn fuan, gan ddwyn i'w canlyn Ioan Marc, nai Barnabas. Yn fuan wedi eu dychweliad i Antiochia, aflonyddwyd ar heddwch yr eglwys gan benboethiaid o Iudea, y rhai a gymhellent yr enwaediad fel yn angenrheidiol ar y dychweledigion cenedlig. Er penderfynu y ddadl, anfonwyd Paul a Barnabas i ymgynghori â'r apostolion a'r henuriaid yn Ierusalem (*Act.* xv. 1, 2); a dychwelasant i adrodd penderfyniad y cynghor gyda Iudas Barsabas a Silas.

Pan yn ymbarotoi i gychwyn i ail daith, cyfodid dadl rhwng y ddau gydymaith o barth i Ioan Marc, yr hon a ddybenodd yn eu hymadawiad oddi wrth eu gilydd. Darfu i'r ymrafael hon yn nghylch Ioan Marc wahanu y ddau weithiwr difefl hyn oddi wrth eu gilydd; ond trodd allan yn y diwedd yn fantais i achos yr efengyl. Aeth Paul gyda Silas trwy Syria a Cilicia; ac ymwelodd Barnabas a Marc â Cyprus, a phregethasant mewn parthau ereill. Nis gellir meddwl fod Barnabas wedi treulio gweddill ei fywyd yn ddilafur. Y mae yr ymadroddion a arfera Paul am dano ar ol eu gwahaniad yn gwneyd hyn yn gwbl annhebyg. Y mae y sylw hwn yn angenrheidiol am fod Barnabas yn colli o hanes Luc mewn amgylchiad lled anffafriol, sef ei ymrafael â Paul.

Ceir y gweddill o'i hanes mewn ychydig o awgrymau yn epistolau Paul, y rhai yn unig a ellir eu hystyried yn gredadwy o barth iddo. Yn *Col.* iv. 10, a *Philemon* 24, llefara Paul am Marc fel ei gydweithiwr; ond am Barnabas, ni wneir un crybwylliad oddi eithr ei berthynas â Marc. Y casgliad naturiol oddi wrth hyn ydyw, ei fod wedi marw, a bod Marc mewn canlyniad wedi ymuno â Paul. Am flyneddoedd diweddaf Barnabas, nid oes genym well arweinyddion nag *Acta et Passio Barnabæ in Cypro*—ffugysgrif yn enw Ioan Marc; a flugchwedlau Alexander; ac eiddo Theodore y darllenydd (*Lector*) o Gaer Cystenyn. Perthynai y diweddaf i'r chweched ganrif.

Rhoddwn y dyfyniad canlynol am ran ddiweddaf oes Barnabas, allan o *Wake's Apostolical Fathers*. "Dywed rhai ei fod wedi myned o Cyprus i Rufain, a phregethu yr efengyl yno, hyd yn oed cyn mynediad Pedr yno. Ond er nad yw Baronius yn caniatau hyn, eto barna y gallasai ddyfod yno ar ei ol. O leiaf, barna yn ddiddadl fod Barnabas wedi myned i'r Ital, a phregethu yn Liguria, y lle y sylfaenodd eglwys enwog Milan, fel y gellir gweled oddi wrth lawer o gofadeiliau a hen ysgrifeniadau. Eto nid yw yn dwyn un prawf dros hyn. Gan hyny, casglaf, hyd oni'm hargyhoeddir yn wahanol, fod Barnabas wedi treulio y gweddill o'i oes i lafurio gyda'i gydwladwyr yn Cyprus; neu os barnwn ei fod wedi myned yn mhellach, tybiwyf nad aeth ond yn unig i barthau cymmydogaethol Asia Leiaf a Iudea, neu o bellaf, i'r Aipht; y lle, medd rhai, yr ordeiniodd ei nai yn esgob cyntaf yn Eglwys Alexandria. Os rhoddwn grediniaeth i adroddiad y mynach Sirius, bu farw trwy ddwylaw yr Iuddewon. Cauwyd ef i fyny mewn synagog, a llabyddiwyd ef ganddynt yn y nos. A yw hyn yn wirionedd, nis gellir penderfynu; ond nid oes dim i'r perwyl hwn i'w gael mewn un hen awdwr, ac nid yw Eusebius na Jerome, wrth lefaru am dano, yn rhoddi cymmaint ag enw merthyr arno." Ceir traddodiad am dano, fod yr Iuddewon ar ol ei labyddio wedi ceisio llosgi ei gorff, ond ei fod yn gwrthweithio effaith y fflamau. Dywedir hefyd mai efe oedd yr esgob cyntaf yn Milan; ond ystyrir dystawrwydd Ambrose ar hyn yn ddigon o wrthddywediad i'r traddodiad. Gwel PAUL; IOAN MARC; CYPRUS.

**BARNABAS, EFENGYL**: ysgrif ffugiol a gyfrifir i Barnabas. Cyfansoddwydd hi, fel y bernir, gan ryw Gristionogion hereticaidd; ac wedi hyny, chwanegodd y Mahometiaid lawer o bethau ati, i'r dyben o gefnogi honiadau eu prophwyd. Y mae yr ysgrif ganddynt hwy yn yr Arabaeg. Cynnwysa hanes ein Iachawdwr mewn modd pur wahanol i'r hanes a rydd yr efengylwyr, ac yn dra chydweddol â'r traddodiadau a geir yn y Coran. Y mae gan y Morisciaid yn Affrica gyfieithiad Yspaenaidd o honi; ac yr oedd yn llyfrgell tywysog Savoy gyfieithiad Italaidd o honi, wedi ei ddarparu i wrthgilwyr, fel y tybir. Er na fernir ei bod yn ffugiaeth gwreiddiol o eiddo y Mahometiaid, eto, chwanegasant lawer ati, a chyfnewidiasant amryw bethau arni. Yn lle y gair *Paraclete*=Dyddanydd, rhoddasant i fewn *Periclyte*=yr hynod, neu, yr ardderchog; drwy yr hyn yr honant fod eu prophwyd wedi cael rhagfynegu am dano dan ei enw, gan mai hyn ydyw ystyr y gair *Mahomet* yn yr Arabaeg. Dywedant hyn i gyfiawnhau yr adran sydd yn y Coran yn hòni fod Iesu Grist wedi rhagfynegu ei ddyfodiad wrth enw arall a roddir arno — Ahmed: gair o'r un gwreiddyn

Digitized by Google

ac arwyddocad a Mahomet. Y mae y Dr. White wedi rhoddi dyfyniadau helaeth o Efengyl Barnabas yn ei *Bampton Lectures*, 1784. Rhestrir hi yn mysg y llyfrau apocryphaidd gan Coteler-ius yn ei argraffiad o'r *Apostolical Constitutions*. Condemniwyd hi gan y pab Gelasius I.

BARNABAS, EPISTOL. Y mae teitl yr hen ysgrif hon i'w gael yn rhestr llyfrau crefyddol y nawfed ganrif; ond o'r cyfnod hwnw hyd yr ail ganrif ar bymtheg, yr oedd y gwaith ei hun yn gwbl anadnabyddus. Cafwyd hi gan un Jacob Sirmont, yn gyssylltiedig â llawysgrif o eiddo Polycarp. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o honi yn Paris, yn 1645. Ymddangosodd amryw gyfieithiadau o honi, yn nghyd â nodiadau, yn yr Almaen, yn y ganrif ddiweddaf; a throwyd hi i'r iaith Seisoneg gan y Dr. Wake, archesgob Caer-gaint, yn 1693 a 1710.

Cynnwysa yr epistol un ar hugain o bennodau. Ymdrinir yn y rhan flaenaf am yr oruchwyliaeth Foesenaidd, a'r cysgodau a'r prophwydoliaethau a berthynent i'r Iachawdwr. Dangosir aflesoldeb y gyfraith, a'r angenrheidrwydd am ymgnawd-oliad a marwolaeth Mab Duw. Cynnwysa yr ail ran addysgiadau moesol ac ymarferol. Argy-mhellir y rhai hyn dan y ffugrau o *ddwy ffordd*, y naill yn ffordd goleuni, a'r llall yn ffordd tywyll-wch; y gyntaf o dan arolygiaeth angelion Duw, a'r ddiweddaf dan arweiniad angelion Satan. Y mae ffordd y goleuni yn grynoad o holl ddyled-swyddau dyn mewn trefn i gyrhaedd bywyd tra-gwyddol; ac y mae ffordd y tywyllwch yn ddys-grifiad o'r pechodau hyny sydd yn lluddias dyn-ion i deyrnas Dduw. Rhoddir cynnwysiad y pennodau yn y modd canlynol gan yr archesgob Wake. 1. Y cyfarchiad, a'r rhagymadrodd i'r epistol: *pen*. i. 2. Fod Duw wedi dileu aberthau y gyfraith, i ddwyn i mewn gyfiawnder ysbrydol yr efengyl: *pen*. ii. a'r iii. 3. Prophwydoliaethau Daniel am y deg brenin, a dyfodiad Crist: *pen*. iv. 4. Yr angenrheidrwydd am ddyoddefaint Crist yn cael ei brofi oddi wrth y prophwydoliaethau am dano: *pen*. v. a'r vi. 5. Y bwch diangol yn gysgod eglur o hyn: *pen*. vii. 6. Yr anner goch yn gysgod arall o Grist: *pen*. viii. 7. Am en-waediad y clustiau; a pha fodd, ar sefydliad cyn-taf yr enwaediad, y darfu i Abraham mewn dull cyfriniol (*mystically*) ragfynegu am Grist wrth ei enw: *pen*. ix. 8. Fod gorchymynion Moses, o barth i'r anifeiliaid glân ac aflan, &c., wedi eu bwriadu oll i arddangos gwirioneddau ysbrydol: *pen*. x. 9. Fod bedydd, a chroes Crist, wedi eu rhagddangos trwy ffugrau dan y gyfraith: *pen*. xi. a'r xii. 10. Fod addewid Duw wedi ei gwneyd, nid i'r Iuddewon yn unig, ond i'r Cenedloedd hefyd: *pen*. xiii. 11. Fod yr addewid hon wedi ei chyflawnu i ni gan Iesu Grist: *pen*. xiv. 12. Nad oedd Sabbath yr Iuddewon ond cysgod o Sabbath mwy gogoneddus · ddyfod: *pen*. xv. 13. Nad oedd eu teml ond portread o demlau ysbrydol Duw: *pen*. xvi. Y mae y pennodau canlynol yn gasgliadau oddi wrth y rhai hyn—am ffordd y goleuni, a ffordd y tywyllwch, fel y crybwyllwyd eisoes.

Nid yw enwau na phreswylfod y rhai y cyfeiria yr epistol hwn atynt yn cael eu nodi; a dyma yr achos, y mae yn debygol, y gelwid ef yn Επιστολη καθολικη=epistol cyffredinol; sef llythyr yn cael ei fwriadu i gylchrediad cyffredinol, ac yn cyn-nwys materion o ddyddordeb cyffredinol.

Ond y cwestiwn pwysicaf o barth i'r epistol hwn ydyw ei ddilysrwydd; ac y mae wedi bod yn gwestiwn o ddadl braidd yr holl amser ar ol ei ymddangosiad yn yr ail ganrif ar bymtheg. Cymmerodd ei gyhoeddwyr cyntaf, Usher, a Me-nard, yr ochr nacaol, a Vossius yr ochr gadarn-haol i'r ddadl. Y mae Hug, Ullman, Mosheim, Neander, ac amryw ereill, yn gwadu ei ddilys-rwydd; a Rosenmüller, Gieseler, yr archesgob Wake, ac ereill, yn dadleu o'i blaid. Dywedir fod y profion allanol braidd yn mantoli o blaid ei gyfrif i Barnabas; ond fod y profion a geir yn yr epistol ei hun yn pwyso yn drymach yn erbyn.

Yr awdwr cyntaf sydd yn cyfeirio at yr epis-tol hwn, ac yn ei gyfrif i Barnabas, ydyw Clement o Alexandria. Gwna ddyfyniadau o hono yn ei *Stromata*, yr hwn sydd ar gael yn bresennol, ac yn ei *Hypotyposes*, yr hwn sydd ar ddifancoll. Cadarnheir am y ddiweddaf gan Eusebius [*Eccl. Hist.*, llyfr 6, pen. 13, 14]. Ceir ymadroddion yn y cyntaf fel hyn, "Y pethau hyn a ddywed Bar-nabas." "Y mae Barnabas yn wir yn llefaru yn gyfriniol." Dyfyna ymadroddion o'r chweched bennod o'r epistol, gyda 'r geiriau arweiniol— "Ond y mae Barnabas hefyd, yr hwn a bregeth-odd yr efengyl gyda'r apostol, yn ei weinidogaeth yn mhlith y Cenedloedd, yn dywedyd." Y mae Origen hefyd yn ei alw yn "Epistol Cyffredinol Barnabas" [*Contra Celsum*, llyfr i], ac nid aw-gryma un radd o ammheuaeth o barth i'w ddilys-rwydd, fel yr arfera wneyd wrth ddyfynu gweith-iau apocryphaidd;—yr eiddo Hermas, er esampl.

Yn ngwyneb y tystiolaethau hyn o eiddo y tadau Alexandriaidd, gwrthddadleuir eu bod wedi dyfynu gweithiau ereill a addefir yn gyffredin yn annilys, ond heb ddangos un ammheuaeth o barth hyny. "Y mae Clement," medd Eusebius [*Eccl. Hist.*, llyfr 6, pen. 13], "yn gwneyd defnydd o dystiolaethau wedi eu cymmeryd o ysgrifeniadau ammheuol," ac yn eu plith, noda epistolau Cle-ment o Rufain, a Barnabas. Fel hyn yr ydys yn gweled mai y tadau Alexandriaidd yn benaf a ddiffynent ddilysrwydd yr epistol hwn, ac y mae yn bosibl y gellir rhoddi cyfrif am hyny wrth ystyried fod y naws Alexandriaidd yn rhedeg drwyddo; a'i fod yn fantais i'w golygiadau hwy dadogi yr epistol ar y fath ddyn a Barnabas. Yr oedd ei awduriaeth yn cael ei ddadleu gan ereill o'r tadau. Cyfrifa Eusebius ef yn mysg yr ys-grifeniadau apocryphaidd—hyny yw, yn mysg y rhai a dderbynid gan rai, ac a wrthodid gan ereill. Nid aeth mor bell a'i ystyried yn ffug-waith, ond yn νοθα=dadleuedig. Cyfrifa Jerome ef [*Catalog. Scriptor.*] yn mhlith y llyfrau apo-cryphaidd, y rhai ni roddid yn nghanon yr Ys-grythyrau Sanctaidd, ar gyfrif ansicrwydd eu hawdwyr a'u hawdurdod anffaeledig.

Dygir yn erbyn hawl Barnabas i awduriaeth yr epistol, yr ystyriaethau canlynol:—y gellid casglu oddi wrth y crybwyllion a geir yn epis-tolau Paul am Ioan Marc [gwel BARNABAS] fod Barnabas wedi marw cyn merthyrdod Paul; yr hyn a gymmerodd le yn 64 B. A. Ond y mae yr epistol (*pen*. xvi.) yn llefaru am deml Ierusalem fel wedi ei dinystrio; ac felly, ysgrifenwyd ef ar ol y flwyddyn 70 B. A. Y mae Wake yn gwrthod yr ystyriaeth hon, ac yn barnu y gallasai ei fod yn fyw, fel Ioan, ar ol y dinystr; ond rhaid addef fod y tebygolrwydd cryfaf dros gredu ei fod wedi marw lawer o flyneddoedd cyn hyny. Heblaw hyn, y mae tôn yr epistol drwyddo yn gyfryw ag y mae yn rhy anhawdd edrych arno yn gyd-weddol â'r dysgrifiad a roddir o gymmeriad Bar-nabas. Y mae y darluniad a geir o hono yn yr Actau yn ei osod allan fel un o deimladau serchog,

Digitized by Google

ac ymlyniad cryf ynddo at ei wlad, ei genedl, a'i berthynasau. Ond ni amlygir dim tebyg i hyny yn yr epistol; y mae yn gwbl amddifad o barch tuag at, a chydymdeimlad â'r, genedl Iuddewig, yn meddwl yr ysgrifenydd; ïe y mae ei ymadroddion o barth iddi yn ymylu ar ddirmyg. Llefara am yr Iuddewon fel "y dynion *truenus* hyny a dwyllwyd, gan eu bod wedi rhoddi eu hymddiried yn y deml, ac nid yn y Duw a'u gwnaeth!" Y fath wrthgyferbyniad oedd rhwng y meddwl a lefarodd hyn, a'r cyffelyb, a Paul yn *Rhuf.* ix. 2! [*Kitto's Cycl.*]

Ond y ddadl gryfaf yn erbyn cyfrif awduriaeth yr epistol hwn i Barnabas ydyw, cynnwysiad yr epistol ei hunan. Arddengys ddirnadaeth dra thywyll ac anmherffaith, ac hyd yn oed anghywir, am gyfraith Moses, a'i pherthynas â goruchwyliaeth yr efengyl; a thuedd at ddeongliadau cyfriniol, na cheir yn yr ysgrifenwyr ysbrydoledig un esampl o honi—tuedd gwbl groes i holl egwyddorion beirniadaeth deg; ac a arweiniodd awdwr yr epistol hwn i wneyd llawer o sylwadau plentynaidd ac anmhriodol. "Nis gallwn, mewn un modd," medd Neander, "gyfrif y gwaith hwn i Barnabas, yr hwn a dybid yn gydymaith teilwng i Paul yn ei lafur, a'r hwn a gafodd ei enw oddi wrth ddylanwad ei ymadroddion yn yr eglwysi. Y mae yn amlygu tuedd gwbl wahanol i duedd y fath ddyn apostolaidd." Y mae y ffaith hefyd ei fod yn Iuddew, ac yn Lefiad, yn nghyd â'r hyn a adroddir yn yr Actau am y rhan a gymmerodd i benderfynu y ddadl rhwng yr Iuddewon a'r Cenedloedd o barth yr enwaediad, yn ein gosod dan angenrhaid i briodoli ei awduriaeth i rywun heblaw Barnabas. Bernir, gan hyny, mai rhyw Iuddew o'r ysgol Alexandriaidd oedd ei awdwr—rhyw un a ddygwyd trwy ei addysgiaeth yn yr ysgol hono i roddi gwedd rhy gyfriniol ar Gristionogaeth; un wedi ei addysgu yn fwy yn ysgol Philo, nag yn ysgol Paul. Ni cheir trwy yr holl epistol y golygiadau hyny am y grefydd Iuddewig, fel yr oedd yn oruchwyliaeth gyfaddas i ddynolryw mewn rhyw gyfnod neillduol, fel y ceir yn ysgrifeniadau Paul; ond golygiadau a arddangosant fod meddwl yr awdwr wedi ei lefeinio gan wybodaeth ysgol Alexandria. Dywed fod Moses wedi llefaru pob peth "yn yr ysbryd;" sef ei fod wedi arddangos gwirioneddau ysbrydol a chyffredinol mewn ffurf arwyddluniol; ond fod yr Iuddewon cnawdol, yn lle treiddio i mewn i ystyr yr arwyddluniau hyn, wedi deall a chredu pob peth yn yr ystyr lythyrenol, gan dybied y dylasent gadw y gyfraith o ran y llythyren o honi. Fel hyn, cyfododd yr holl grefydd seremonïol allan o gamddirnadaeth a chamddeongliad y lluaws. Arweiniwyd hwynt i'r amryfusedd hyn gan angel drwg.

Y mae awdwr yr epistol hwn yn anewyllysgar i addef fod yr enwaediad yn insel neu yn arwydd y cyfammod; ac yn dwyn yn mlaen, fel prawf i'r gwrthwyneb, fod yr enwaediad yn beth arferedig yn mhlith yr Arabiaid, y Syriaid, ac offeiriaid eilunaddolgar yr Aipht. Pa fodd bynag, dadleuir fod gwaith Abraham yn enwaedu holl "ddynion ei dŷ," y rhai oeddynt 318 mewn nifer (*Gen.* xiv. 14; xvii), yn rhagddangos croeshoeliad Crist, gan mai IH (=18) ydynt lythyrenau cyntaf yr enw *Iesu*, ac mai T (=300) ydyw arwydd y *grog*. Y mae yn eglur na buasai neb ond Iuddew Alexandriaidd yn dychymygu hyn, ac un cwbl anghyfarwydd â'r iaith Hebraeg. Ac y mae yn eglurach, na fuasai y fath ddyn a Barnabas byth yn gallu ymostwng mor isel ag i ysgrifenu y fath ffoledd. Ond y mae yr awdwr ei hun, pwy bynag ydoedd, yn edrych ar hyn yn ddarganfyddiad o bwys, ac yn udganu yn uchel wrth ei hysbysu; "Ni ddysgodd neb genyf," meddai, "wybodaeth fwy dilys; ond gwn eich bod chwi yn deilwng o honi." Y mae llawer o'r sylwadau ar y bwch diangol, yr anner goch, ei ysbrydoliad o'r anifeiliaid glân ac aflan, yr un modd, yn dra anghywir, ac yn ffrwyth meddwl heb ei sobri, a dychymyg heb ei ddwyn dan ddysgyblaeth.—(*Neander's Planting and Training of the Christian Church*, cyf ii; *Mosheim's Eccl. Hist.*; *Wake's Apostolical Epistles*; *Kitto's Cycl.*; *Lardner's Credibility*; *Jeremiah Jones on the Canonical Authority of the New Testament.*)

BARNABIAID: offeiriaid rheolaidd St. Paul. Gelwid yr urdd wrth enw Paul am ei bod wedi ei ddewis ef fel ei noddwr; ond gelwid hi fynychaf wrth enw Barnabas, oddi wrth Eglwys St. Barnabas yn Milan, yr hon a gyssegrwyd iddi yn y flwyddyn 1545. Sylfaenwyd yr urdd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, gan dri phendefig, Antonio Mavia Zackarias, o Cremona; Bartholomew Terrar, a Jacob Antonio Borgia, o Milan. Yr urdd hon oedd yr ail o'r fath. Yr oedd urdd y Theatiniaid wedi cyfodi o'r blaen. Cymmeradwywyd hi gan y pab Clement VII., ac adgadarnhawyd hi dair blynedd wedi hyny gan Paul III. Yr oedd ei haelodau, ar y cyntaf, yn rhwym i fyw yn ol cynllun y Theatiniaid, gan ymwrthod â phob meddiannau bydol, ac ymddibynu am eu cynnaliaeth ar roddion gwirfoddol y rhai rhyddfrydig. Ond blinasant yn fuan ar y dull hwn; gwelsant nad oeddynt hwy a'r dull apostolaidd yn cytuno â'u gilydd; a sicrhasant feddiannau a chyllid rheolaidd iddynt eu hunain. Eu gwaith neillduol oedd myned o fan i fan i gynghori dynion; galwent eu tai yn athrofeydd. Gosodwyd hwynt yn Ffrainc ac Awstria i droi y Protestaniaid at y grefydd Babaidd. Nid yw yr urdd i'w chael yn bresennol ond yn Yspaen, a rhai parthau o'r Ital.—(*Mosheim.*)

BARNAU TYMMOROL. Gwel RHAGLUNIAETH.

BARNWR, (שׁפט, κρῐτής). Barnwr, yn yr ystyr gyffredin, yw yr hwn a awdurdodir gan frenin neu lywodraeth i benderfynu achosion gwladol a chospawl yn ol y gyfraith. Ceir y fath swyddog yn mhob cenedl wareiddiedig, ac ni ellir cael na chyfiawnder, na diogelwch, na thangnefedd cyfeillachol hebddo. Gofynir ei fod yn gyfiawn, yn ofni Duw, ac yn casäu cybydd-dod: a chas gan yr Arglwydd y barnwr anghyfiawn, yr hwn nad ofna Duw ac na pharcha ddyn.

Yn yr Ysgrythyr, y mae'r gair *barnwr* yn aml yn dynodi penllywydd gwlad, fel prif ynad y bobl, gan fod gweinyddu cyfiawnder yn ol y gyfraith yn rhan fawr o'i waith ef. Felly yr oedd Moses, er yn gyfryngwr cyfammod Sinai, yn brif farnwr, ac am beth amser yn unig farnwr cenedl Israel: *Exod.* xviii. 13—17. Yr oedd breninoedd Israel hefyd yn brif ynadon i farnu y bobl yn ol egwyddorion cyfraith y Iehofah: 1 *Sam.* viii. 5, 6; 1 *Bren.* iii. 9, 28. Ond rhoddir yr urddenw *barnwr* mewn modd neillduol i bob un o brif swyddogion Israel, o farwolaeth Iosuah hyd sefydliad y ffurflywodraeth freiniol yn etholiad Saul fab Cis: *Barn.* ii. 19. [Gwel BARNWYR]. Yn yr ystyr uchaf, "Duw ei hun sydd farnwr;" *Salm* l. 6: "Y barnwr cyfiawn;" 2 *Tim.*

Digitized by Google

iv. 8; "Barnydd yr holl ddaear;" *Gen.* xviii. 25; "Barnwr y byd;" *Salm.* xciv. 2: "Duw, barnwr pawb;" *Heb.* xii. 23: "Barnwr byw a meirw;" *Act.* x. 42. Fel penllywodraethwr y greadigaeth, y mae efe yn barnu yn awr yn ngweithrediadau ei ragluniaeth—"Efe a ostwng y naill ac a gyfyd y llall;" *Salm.* lxxv. 7: ond, ar ddiwedd amser, "efe a farna y byd mewn cyfiawnder drwy y gŵr a ordeiniodd efe;" *Act.* xvii. 31.—Gwel BARN.

BARNWYR, (שופטים, κριταί). Pan oedd Israel yn yr anialwch, a chyn iddynt ymadael â mynydd Sinai, Moses, ar gynghor ei chwegrwn, ac yn unol âg ewyllys Duw, a osododd fath o is-farnwyr ar yr holl bobl, sef tywysogion ar filoedd, cannoedd, a hanner cannoedd, a degau, i'r diben i ysgafnhau ei lafur ei hun, a gwneud mwy o gyfiawnder â'r lluaws yn eu hachosion cyffredin: "A hwy a farnasant y bobl bob amser; y pethau caled a ddygent at Moses, a phob peth bychan a farnent hwy eu hunain: *Exod.* xviii. 17—26; *Deut.* i. 9—18; *Num.* xxv. 5.

Yr oedd y gyfraith yn gofyn fod barnwyr yn yr holl ddinasoedd wedi sefydliad y bobl yn eu gwlad eu hunain: *Deut.* xvi. 18—20; xvii. 9; xxi. 2, 4, 6; xxv. 2, 7. Diammheu fod y cyfryw swyddogion yn y dinasoedd wedi marw Iosuah a'r "henuriaid, y rhai a fu byw ar ei ol ef," a'u bod yn cynnal rhyw radd o lywodraeth a threfn yn y gwahanol lwythau; pe amgen, buasai terfysg gorwyllt a dinystr cyffredinol yn cymmeryd lle trwy yr holl wlad; canys anhyall i genedl fodoli heb rhyw fath o lywodraethwyr a swyddogion. Nid yw hyn yn anghysson â'r hyn a ddywedir amryw weithiau; sef "nad oedd brenin yn Israel yn y dyddiau hyny, ond y gwnai pob un yr hyn oedd uniawn yn ei olwg ei hun;" *Barn.* xvii. 6; xviii. 1; xxi. 25. Gwir nad oedd brenin yn Israel y pryd hwnw, nac am oesoedd wedi hyny. Gwir hefyd nad oedd gan y llwythau un llywiawdwr cyffredinol, fel Moses, yr hwn oedd "frenin yn Israel;" *Deut.* xxxiii. 5; neu, Iosuah, yr hwn oedd benaeth gwladol yn gystal a chadfridog y llu: *Ios.* i. 10, 16—18; neu y rhes o farnwyr a godwyd i'w gwaredu a'u llywodraethu o Othniel hyd Samuel. Ond eto yr oedd Phinees yr archoffeiriad yn fyw, ac yn gweinyddu yn ei swydd urddasol yn yr amser gwaethaf a mwyaf annhrefnus: *Barn.* xx. 28; ac yr oedd henuriaid i'r gynnulleidfa wedi y galanasdra dychrynllyd a wnaed ar lwyth Beniamin: *Barn.* xxi. 16. A phan nad oedd barnwr arall, yr oedd yr archoffeiriad yn llywydd cyffredinol; yr hwn oedd yn rhwym, fel prif lywydd y Brenin anweledig, i weinyddu y gyfraith ddwyfol, ac ymgynghori â Duw trwy gyfrwng yr ephod a'r Urim a Thummim. Ond y barnwyr dan sylw yma oeddynt y llywodraethwyr rhyfeddol a alwodd Duw i fugeilio ei bobl yn y cyfnod rhwng Iosuah a Saul. Rhai ysgrifenwyr a feddyliant fod cryn debygolrwydd rhwng yr enwogion hyn a'r *suffetes* yn Ngharthage, yr *archontes* yn Athen, a'r *dictatores* yn Rhufain. Eithr, a chaniatau fod rhywfaint o gyffelybrwydd rhyngddynt, etto os chwilir yn fanwl, ymddengys cymmaint efallai o wahaniaeth ag o debygolrwydd. Rhai hefyd a dybiant fod llywodraeth y barnwyr yn gyffelyb i eiddo yr Almaen, Gâl, a Phrydain, cyn ei newid gan y Rhufeiniaid. Ond ofer chwilio am un ffurflywodraeth ddynol ar gynllun y Ddwyflywiaeth Israelaidd, neu am lywyddion mewn un wlad o'r un fath a'r rhai a osododd Duw Israel yn Ngwlad yr Addewid. Nifer y barnwyr oedd pymtheg, a'u henwau oeddynt Othniel, Ehwd, Samgar Deborah, Gideon, Abimelech, Tola, Iair, Iephthah, Ibsan, Elon, Abdon, Samson, Eli, a Samuel. Yr enwogion hyn a lywodraethasant yn gwbl yn nghylch 360 o flyneddoedd, a chyfrif un mlynedd ar ugain i Samuel wedi marwolaeth Eli, a chyn etholiad Saul yn frenin. Ond, a pheidio cyfrif gweinidogaeth Samuel, a chwanegu cant ac un ar ddeg o flyneddoedd, y cyfanswm o'r amseroedd y bu Israel dan ormes eu gwahanol elynion, cawn yr ysbaid o gylch "pedwar cant a deng mlynedd a deugain y rhoddodd Duw farnwyr iddynt hyd Samuel y prophwyd" yn ol *Act.* xiii. 20.[1] Nis gellir yn ddiau gyssoni hyn â 1 *Bren.* vi. 1, lle y rhoddir pedwar cant a phedwar ugain o flynyddoedd fel yr holl amser o fynediad Israel o'r Aipht hyd y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Solomon. Nid ydym yn canfod un ffordd i gymmodi hyn â ffeithiau eglur yr amseroedd hyny, oddi eithr cymmeryd yn ganiataol fod amryw o'r barnwyr yn cydfyw ac yn cydlywodraethu—o'r hyn ni rydd yr Ysgrythyr un awgrym.

Y mae yn ffaith nodedig na ddarfu i Iosuah, fel Moses, ordeinio llywydd i'r genedl cyn ei farw. Y rheswm oedd, na chafodd gyfarwyddyd gan yr Arglwydd i wneyd felly. Yr oedd ynddo ddigon o'r "ysbryd arall," am yr hwn y canmolwyd ac yr anrhydeddwyd ef, i beidio gwneuthur dim gyda golwg ar sefydliad swydd heb ddadguddiad o ewyllys Duw a Brenin Israel. Pe buasai y bobl a'u swyddwyr cyffredin trwy y wlad yn glynu wrth yr Arglwydd, ac yn cadw ei gyfraith, efe a'u hamddiffynasai hwynt rhag eu gelynion, ac a roddasai iddynt bob llwyddiant ac anrhydedd. Ond gadawodd iddynt ddysgu, trwy eu gwrthgiliadau a'u hadfyd, yr angen am farnwyr anghyffredin o'i osodiad ei hun i'w gwaredu a'u diogelu. "Hwy a wrthodasant yr Arglwydd, ac a wasanaethasant Baal ac Astaroth;......eto yr Arglwydd a gododd farnwyr, y rhai a'u hachubodd hwynt o law eu hanrheithwyr;" *Barn.* ii. 13, 16. Amryw o honynt a alwyd mewn modd gwyrthiol, ac a gyfarwyddwyd ac a gyfnerthwyd trwy ysbrydoliaeth yr Hollalluog. Felly Othniel: *Barn.* iii. 9, 10; Deborah y brophwydes: *Barn.* iv. 4, 6; Gideon: *Barn.* vi. 11, 42; Samson: *Barn.* xiii. 25; a Samuel: 1 *Sam.* iii. Os cafodd ereill o honynt eu dewis gan y bobl, nid oes achos ammheu fod eu dewisiad yn unol âg ewyllys yr Arglwydd, oddi eithr etholiad Abimelech, yr hwn oedd ormeswr creulawn ac annuwiol. Nid oedd eu swydd yn etifeddiaethol, megys y gwnaed y freniniaeth wedi hyny, yn llwyth Iudah ac yn nhŷ Dafydd. Cadwent eu swydd dros eu bywyd: ond ar farwolaeth barnwr, nid oedd canlyniedydd yn cael ei ethol i lanw ei le ef yn uniongyrchol: byddai weithiau gryn amser rhwng y naill a'r llall. Yr oedd yr anrhydedd yn agored i bob llwyth i gael barnwr o hono ei hun, a chafodd amryw o'r llwythau y rhagorfraint hon.

[1] A hyn y cytuna cyfrif Josephus [*Hynaf.*, viii. 3. 1]:—rhydd 592 o flyneddoedd o'r mynediad o'r Aipht hyd gyfodiad y deml; gan eu dosbarthu fel y canlyn:—1. Deugain mlynedd yn yr anialwch. 2. Ugain mlynedd dan Iosuah. 3. Y Barnwyr (fel isod). 4. Deugain mlynedd dan Saul. 5. Deugain mlynedd dan Dafydd. 6. Pedair blynedd o deyrnasiad Solomon ei hun. Y mae hyn yn rhoi 592; a thynu yr amser yn yr anialwch, dan Iosuah, dan Saul, Dafydd, a Solomon, sef 149, ni gawn 443 o flyneddoedd (yn nghylch 450) am gyfnod y barnwyr, yn cynnwys Samuel. Ymddengys, gan hyny, fod Paul yn dilyn amseryddiaeth oedd yn ffynu yn mysg yr Iuddewon eu hunain, yr hyn a gytunai â Llyfr y Barnwyr (wrth roddi y ffugrau ynddo at eu gilydd, gwnant 450), a Josephus; ond nid â'r testyn Hebreig yn 1 *Bren.* vi. 1.

Digitized by Google

Yr oedd Othniel ac Ibsan o lwyth Iudah; Deborah ac Abdon o Ephraim; Samson, o Dan; Tolah, o Issachar; Elon, o Zabulon; Iair, Iephthah, a Gideon, o Fanasseh; ac Eli a Samuel o Lefi. Nid oedd ganddynt awdurdod i newid un rhan o'r gyfraith, na rhoddi deddfau newyddion, oddi eithr cybelled ag yr oeddynt yn gweithredu dan ysbrydoliaeth y Deddfroddwr. Ond yr oedd ganddynt hawl i alw y bobl i ryfel, i fod yn gadfridogion y llu, i ranu yr ysbail, ac i weini cyfiawnder a barn yn mhob achosion pwysig. Ystyrid hwynt yn llywiawdwyr cyffredinol dros y wlad, er nad oedd eu dylanwad weithiau yn cyrhaedd yn weithredol ond dros ryw ranau o'r llwythau a ddygid gan amgylchiadau dan eu gofal neillduol. Ni dderbynient nac ardreth, na thal, na gwobr am eu gwasanaeth swyddol; oddi eithr rhan o'r ysbail mewn rhyfel, neu roddion gwirfoddol oddi wrth y bobl fel arwyddion o barch: *Barn.* vii. 24—26. Yr oedd rhai o honynt yn gyfoethog iawn, ond ni wnaent ymddangosiad rhwysgfawr fel y breninoedd. Nid oedd yn perthyn i'w swydd na phalas, na gorsedd, na theyrnwialen, na choron, na gosgordd, na gwisgoedd gwychion. Ymddibynai eu dylanwad a'u defnyddioldeb ar bethau hollol wahanol a rhagorach. Eu gwobr hwynt oedd yr anrhydedd o wasanaethu y brenin Iehofah fel ei brif weinidogion ef, a gwaredu, diogelu, a llwyddo y genedl etholedig.—(Gwel *Jahn's Heb. Com.* pen. iii. § 22; *Kitto's Hist. of Palestine*, llyfr iii.; *Kitto's Cyc.; Michaelis' Com. on the Laws of Moses*, erth. 53).

**BARNWYR, LLYFR Y.** Y mae i hwn ddwy ran: y gyntaf yn cynnwys *pen.* i.—xvi.; a'r ail, *pen.* xvii.—xxi. Amlwg yw nad ydyw yr ail ran ond attodiad i'w gyssylltu â *pen.* ii., ac yn rhoddi golwg helaethach ar yr aflywodraeth a'r annhrefn oedd yn y wlad rhwng Iosuah ac Othniel.

AWDWR Y LLYFR.

Ar y pen hwn y mae anghytundeb mawr yn mhlith dysgedigion, ac nid yw perffaith sicrwydd yn gyrhaeddadwy. Priodolir y llyfr i Phinëes, Eli, Samuel, Ieremïah, Ezeciel, Ezra, &c.; a barna rhai iddo gael ei gasglu gan ryw un o honynt allan o hanesion a ysgrifenwyd gan y barnwyr eu hunain yn eu hamseroedd. Nid oes un sail i'r dyb olaf: ac nid oes un ffaith hanesyddol, na dim yn y llyfr ei hun, i brofi iddo gael ei gyfansoddi gan Ieremïah, Ezeciel, nac Ezra, na neb arall mor ddiweddar a hwynt. Yr unig reswm dros y dyb iddo gael ei ysgrifenu yn, neu wedi, amser caethiwed Babilon, neu Assyria, ydyw y cyfeiriad sydd yn *Barn.* xviii. 30, at "ddydd caethgludiad y wlad." Ond nid caethgludiad Israel gan Salmaneser, na Iudah gan Nebuchodonosor, a feddylir; ond rhyw gaethiwed yn amseroedd y barnwyr, at yr hwn y cyfeirir yn *Salm* lxxviii. 61. Byddai yr ymadrodd yn ddigon cymhwysiadol at gyflwr y llwythau gogleddol a dwyreiniol dan ormes Iabin, brenin Canaan; neu oresgyniad dinystriol y Midianiaid; neu, yn enwedig, caethiwed y wlad dan ordrais y Philistiaid, y rhai a gymmerasant ymaith arch Duw, a ddinystriasant Siloh, ac a anrheithiasant y wlad: *Salm* lxxviii. 60; 1 *Sam.* iv.—vii. Yr oedd Phinëes yn rhy gynnar i ysgrifenu ond ychydig o'r hanes, gan ei fod o'r un genedlaeth a Iosuah, a'i gydoesolion. Gallasai Eli gyfansoddi un bennod ar bymtheg, sef hyd at farwolaeth Samson, ei ragflaenor, lle nad oes un cyfeiriad at y breninoedd; ond nis gallasai efe fod yn awdwr y pum pennod olaf, lle y sonir am *frenin* yn Israel fel yn bodoli yr amser hwnw. Priodolir y llyfr gan yr Iuddewon yn gyffredin i Samuel, yr olaf o'r barnwyr; a llawer o feirniaid Cristionogol a gydsyniant â hwynt. Medrai Samuel son am "frenin yn Israel," gan ei fod yn cydfyw amryw flyneddoedd â Saul, y brenin cyntaf; ac yr oedd yn byw cyn teyrnasiad Dafydd, yr hwn a gymmerodd ddinas Ierusalem, ac a yrodd o honi y Iebusiaid, y rhai oeddynt yn preswylio ynddi pan yr ysgrifenwyd hanes y barnwyr: *Barn.* i. 21; 2 *Sam.* v. 6—9; a xi. 21. Y ffeithiau hyn a arweiniant at Samuel y prophwyd, fel y tebycaf i fod yn awdwr y llyfr.

AMSERYDDIAETH Y LLYFR.

Y mae hwn yn bwnc dyrus ac aneglur iawn. Y mae Usher wedi cwtogi yr amser mewn modd hollol anghysson â'r hanes. Y mae Hales yn ddiau yn llawer agosach at y gwirionedd; ac eto wrth gymharu ei oesrestriad ef âg eiddo Usher, Jackson, Josephus, Theophilus, ac Eusebius, ymddengys yr anghytundeb rhyngddynt mor fawr, a'r anhawsderau mor anferth, fel nad oes obaith hyd yn hyn am gyflawn foddlonrwydd ar y pwnc.

Nis gwyddom yn sicr pa hyd y parhaodd yr annhrefn wedi marwolaeth Iosuah; ond cawn yn y llyfr 111 o flyneddoedd o gaethwasanaeth i'w gelynion, ac agos i 300 o flyneddoedd o heddwch a llwyddiant dan eu barnwyr, o Othniel hyd ddiwedd gweinidogaeth Samson.

Gorthrymwyd Israel—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gan Cusan-Risathaim, brenin Mesopotamia, | 8 | mlynedd; | *Barn.* | iii. | 8. |
| Gan Eglon, brenin Moab,........................... | 18 | „ | „ | iii. | 14. |
| Gan Iabin, brenin Canaan,......................... | 20 | „ | „ | iv. | 3. |
| Gan y Midianiaid,.................................... | 7 | „ | „ | vi. | 1. |
| Gan y Philistiaid a'r Ammoniaid,.............. | 18 | „ | „ | x. | 8. |
| Gan y Philistiaid,...................................... | 40 | „ | „ | xiii. | 1. |
| | 111 | | | | |

Llywodraethodd y barnwyr fel y canlyn:—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Othniel,...................... | 40 | mlynedd: | *Barn.* | iii. | 11. |
| Ehwd,.......................... | 80 | „ | „ | iii. | 30. |
| Deborah,...................... | 40 | „ | „ | v. | 31. |
| Gideon,........................ | 49 | „ | „ | viii. | 28. |
| Abimelech,................... | 3 | „ | „ | ix. | 22. |
| Tola,............................ | 23 | „ | „ | x. | 2. |
| Iair,............................. | 22 | „ | „ | x. | 3. |
| Iephthah,..................... | 6 | „ | „ | xii. | 7. |
| Ibsan,.......................... | 7 | „ | „ | xii. | 9. |
| Elon,............................ | 10 | „ | „ | xii. | 11. |
| Abdon,......................... | 8 | „ | „ | xii. | 14. |
| Samson,....................... | 20 | „ | „ | xvi. | 21. |



Digitized by Google

Y cyfan yw 410 o flyneddoedd. Nid yw hanes gweinyddiaeth Eli a Samuel, y ddau farnwr olaf, yn gynnwysedig yn y llyfr hwn; ond dylid sylwi fod y pethau a adroddir yn Llyfr Ruth yn perthyn i'r "dyddiau yr oedd y brawdwyr yn barnu;" *Ruth* i. 1; a chyfrifid y Barnwyr a Ruth yn un llyfr gan yr Hebreaid, meddai Origen, yn ol tystiolaeth Eusebius. Dywed Josephus mai yn amser Eli y dygwyddodd y pethau a adroddir yn Ruth; ond Patrick, Hales, a Townsend, a farnant, yn fwy cywir, mai yn y cyfnod pan yr anrheithiwyd y genedl gan y Midianiaid a'r Amaleciaid y bu y newyn, yr hwn a yrodd Elimelech a'i deulu i wlad Moab: *Barn.* vi. 3—6.

DILYSRWYDD A DWYFOL AWDURDOD Y LLYFR.

Y mae y pethau a draethir ynddo yn hollol gydweddol â'r oll a wyddys, neu a ellid ei ddysgwyl, o barth i arferion crefyddol, gwladol, a chyfeillachol Israel, a chenedloedd ereill, a nodweddau naturiol y gwledydd a gyfanneddent yn yr oesoedd a sonir am danynt. Hefyd, ceir mewn rhanau ereill o'r gyfrol ddwyfol lawer o gyfeiriadau at y ffeithiau nodedig a hysbysir, a'r personau enwocaf a grybwyllir yn y llyfr hwn. Yn *Salm* lxviii. 8, 9; a xcvii, 5, ceir ymadroddion dyfynedig o *Barn.* v. 4, 5. Yn 1 *Sam.* xii. 9—12; 2 *Sam.* xi. 21; *Salm* lxxxiii. 9—11; *Esa.* ix. 4; x. 26, gwneir coffa am bechodau, gau-dduwiau, gelynion, gwaredigaethau, a phrif farnwyr Israel, yn nghyd â marwolaeth y gormeswr Abimelech, mewn modd llawn cysson â hanesion y llyfr. Yn y Testament Newydd hefyd, dywedir am y barnwyr fel swyddwyr rhoddedig gan Dduw: *Act.* xiii. 20; ac enwir Gideon, Barac, Samson, a Iephthah, yn mhlith y gwroniaid a enwogwyd trwy ffydd: *Heb.* xi. 32. Yr Iuddewon a dderbyniasant y llyfr hwn bob amser heb ddadl nac ammheuaeth fel un o'r rhai canonaidd a chredadwy; a chydnabyddwyd ef fel y cyfryw gan Philo a Josephus yn eu hysgrifeniadau. A gellir chwanegu, fod rhai o'r ffeithiau hynotaf yn hysbys i hynafiaid y cenedloedd, y rhai a wnaethant ddefnydd o honynt fel seiliau rhai o'u chwedlau poblogaidd. Nid yw yr ystori am aberthiad Iphigenia gan ei thad Agamemnon namyn llygriad o hanes merch Iephthah. Samson ydyw Ercwl y paganiaid. Dalilah yn tori gwallt y Nazaread, a thrwy hyny yn ei fradychu i'r Philistiaid, oedd gwreiddyn y chwedl am Nisus, brenin Megara, yr hwn a amddifadwyd gan ei ferch Scyla o'r cydyn gwallt ar yr hwn yr oedd ei fuddugoliaeth a'i lwyddiant yn ymddibynu. A thebygol yw, mai oddi ar hanes llosgiad meusydd, gwinllanoedd, a theisi y Philistiaid, drwy ddodi ffaglau wrth gynffonau llwynogod, y tarddodd yr ŵyl Vulpinaria, sef gŵyl y Llwynogod, yn mysg y Rhufeiniaid.

CYNNWYSIAD Y LLYFR.

Amcanwn roddi i'r darllenydd ond cipolwg ar hanes Israel fel y mae yn gynnwysedig yn Llyfr y Barnwyr mewn cyssylltiad â llyfr Ruth. Dywedir i'r bobl wasanaethu yr Arglwydd, eu Brenin a'u Duw, holl ddyddiau Iosuah, a'r henuriaid a fuant fyw ar ei ol ef. Ond yn fuan llaesent yn eu hymdrechion i orthrechu a dinystrio y Canaaneaid, ac ymfoddlonent yn ormodol mewn heddwch ac esmwythdra. O herwydd hyn, gadawyd llawer o'u gelynion nerthol yn y wlad, i'w profi a'u poeni am amser maith. Cyfyngwyd yn neillduol ar lwyth Dan, yr hwn a gawsai ei etifeddiaeth yn y de-orllewin, rhwng Beniamin a'r Môr. "Yr Amoriaid a yrasant feibion Dan i'r mynydd, canys ni adawsant iddynt ddyfod i waered i'r dyffryn," &c.: *Barn.* i. 34, 35. Tua'r amser hwnw, ymddangosodd eilunaddoliaeth yn gyhoeddus yn y wlad. Dechreuwyd y drygioni hwn gan Micah, gŵr o fynydd Ephraim, yr hwn a osododd ddelw gerfiedig mewn tŷ duwiau, a urddodd Lefiad yn offeiriad iddo, ac a wnaeth ephod a theraphim o arian ei fam: *Barn.* xvii. Wedi hyn, y Daniaid a anfonasant bump o wŷr i ysbïo'r wlad am etifeddiaeth gyfaddas. Y gwŷr hyn ar eu taith a lettyasant yn nhy Micah, a chawsant annogaeth gan ei offeiriad i fyned rhagddynt yn obeithiol. Aethant cybelled a Läis yn y gogledd, lle y gwelsant bobl yn trigo yn llonydd a diofal mewn gwlad dda a thoreithiog. Wedi dychwelyd adref, a rhoi hanes eu taith i'w brodyr, arweiniasant chwe chanwr yn arfog tua Läis. Ar y ffordd yno, ysbeiliasant Micah o'i offeiriad, ei ddelw, &c.; ac wedi iddynt gymmeryd y ddinas, yr hon a alwasant wrth enw eu llwyth eu hunain, Dan, hwy a osodasant i fyny ynddi y gwrthddrychau eilunaddolgar lle y buant "yr holl ddyddiau y bu tŷ Dduw yn Siloh." Wedi y pethau hyn y gwnaed y trais dychrynllyd a marwol ar wraig Lefiad yn Gibeah; ac y cynhyrfwyd y llwythau oll, o Dan i Beer-seba, i ryfela yn erbyn Beniamin, yr hwn a fu agos a chael ei lwyr ddiddymu fel llwyth drwy ei ystyfnigrwydd drygionus ei hun, a llidiogrwydd creulawn ei frodyr: *Barn.* xix. xx. xxi. Ond meibion Israel a aethant waeth-waeth—gwnaethant ddrygioni yn ngolwg yr Arglwydd; gwrthodasant, a digiasant ef; aethant ar ol duwiau dyeithr, Baalim ac Astaroth; a rhuthrasant i bob annhrefn, halogrwydd, ac annuwioldeb. O ganlyniad, cawsant brofi "mai drwg a chwerw oedd gwrthod o honynt yr Arglwydd eu Duw." Daeth cenad oddi wrth yr Arglwydd i Bochim, yr hwn a'u hargyhoeddodd o'u pechodau, ac a'u dygodd i edifeirwch: *Barn.* ii. 1—5. Eithr gwrthgiliasant eto yn fuan. Digiodd Duw wrthynt, a gwerthodd hwynt i law Cusan-risathaim, brenin Mesopotamia, yr hwn a wasanaethasant wyth mlynedd. Othniel, y cyntaf o'r barnwyr, a'u hachubodd hwynt, ac a lywodraethodd ar y wlad, mewn llonyddwch, ddeugain mlynedd. Yn nesaf, dygwyd hwynt dan ormes Eglon, brenin Moab. Cododd Duw Ehwd, yr hwn, dan ddwyfol gynhyrfiad, a laddodd y gormeswr, a ddarostyngodd y Moabiaid, ac a ddygodd lonyddwch i'r wlad am bedwar ugain mlynedd. Dilynwyd ef gan Samgar, yr hwn a waredodd Israel o law y Philistiaid; ond gan na nodir yr amser y bu yn farnwr, efallai na bu yn ei swydd gymmaint a blwyddyn gyfan. Ar ol hyn, rhoddwyd Israel, am eu mawr ddrygioni, yn llaw Iabin, brenin y Canaaneaid, yr hwn oedd yn teyrnasu yn Hazor, yn y gogledd, ger llaw Libanus. Efe a orthrymodd Israel yn dost ugain mlynedd. "Y llwybrau a aeth yn anhygyrch, a'r fforddolion a gerddasant lwybrau ceimion," rhag ofn lladron a gelynion. "Y maesdrefi a ddarfuant yn Israel—rhyfel oedd yn y pyrth, trwst y saethyddion" a ddychrynai y rhai a aent i'r ffynnonau i dynu dwfr, ac o braidd y "gwelwyd tarian a gwaewffon yn mysg deugain mil yn Israel;" *Barn.* iv. 1—3; v. 6, 7, 8, 11. Duw o'i dosturi a gododd Deborah y brophwydes yn fam yn Israel. Hi oedd yn barnu Israel yr amser peryglus hwnw, ac, ar orchymyn Duw, hi a alwodd Barac o Cedes Naphtali, i gasglu yn nghyd ddeng mil o wŷr traed o lwythau Zabulon a Naphtali, i ryfel yn erbyn Sisera, tywysog llu anferthol Iabin, â'i naw cant o gerbydau heiyrn. Y ddwy fyddin a ymgyrchasant tua mynydd

Digitized by Google

Tabor. "A'r Arglwydd a ddrylliodd Sisera, a'r holl gerbydau, a'i holl fyddin, â min y cleddyf o flaen Barac." Ser y nefoedd yn eu graddau a ymladdasant o ochr Israel; sathrwyd cadernid y gelyn dan draed yn nyffryn Iezreel; llifeiriant afon Cison a ysgubodd y lladdedigion i'r môr, carnau y meirch a ddrylliwyd gan ffyrnig garlamau y cryfion yn eu ffoedigaeth; a'r tywysog Sisera a syrthiodd yn farw dan law Iael, gwraig Heber y Cenead. Wedi y fuddugoliaeth ryfedd hon, y "wlad a gafodd lonydd ddeugain mlynedd." Ond eto ni fu pechod yn llonydd. Meibion Israel eto a wnaethant ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, a llaw Midian a'u gorthrechodd hwynt saith mlynedd. Ni fuasent erioed mewn gwaeth cyflwr na'r pryd hwnw. Y Midianiaid, yr Amaleciaid, a meibion y dwyrain, yn nghyd, a ddaethant i fyny yn lluaws aneirif, "fel locustiaid o amldra; a hwy a ddinystriasant gnwd y ddaiar, ac ni adawsant ddim ymborth i Israel, na dafad, nac eidion, nac asyn. Ac Israel a aeth yn dlawd iawn." Yn y cyfyngder hwn, y mae yn debygol, yr ymadawodd Elimelech a Naomi gyda eu dau fab â Bethlehem Iudah, i breswylio yn ngwlad Moab, lle y buont ddeng mlynedd. Yno yr aeth Naomi yn amddifad o'i dau fab ac o'i gwr. Ond wedi clywed ddarfod i'r Arglwydd ymweled â'i bobl, a rhoddi iddynt fara, hi a ddychwelodd, a Ruth gyda hi, i Bethlehem. Yn mhen ychydig amser, rhyddhaodd Boaz etifeddiaeth Naomi, a phriododd ei gwaudd, Ruth y Moabees, yr hon a ymddug ar fab, sef Obed, yr hwn oedd dad Iesse, tad Dafydd.

Ond cyn gorphen hyn oll, meibion Israel a lefasant ar yr Arglwydd, o blegid y Midianiaid; ac efe a anfonodd atynt brophwyd i'w ceryddu am eu pechodau. Yna daeth angel yr Arglwydd, sef Angel y cyfammod, ei hun, i alw, awdurdodi, a chyfnerthu Gideon, er achub y genedl o law greulawn Midian. Wedi i Gideon gael amryw brofion gwyrthiol o'i alwedigaeth i fod yn waredwr i Israel, a'i annog â gorchymynion ac addewidion, Ysbryd yr Arglwydd a ddaeth arno, ac efe a gasglodd yn nghyd fyddin o Fanasseh, Aser Zabulon, a Naphtali. Yr oedd y llu, ar y cyntaf, yn ddeuddeg mil ar ugain a thri chant; ond ymadawsant oll trwy ganiatâd, oddi eithr tri chanwr, y rhai, â chleddyf yr Arglwydd a Gideon, gydag udgyrn, piserau, a lampau, a derfysgasant ac a ddinystriasant holl wersyll y gelyn. Yna milwyr gwasgaredig Israel a ymgasglasant, ac a erlidiasant ar ol y Midianiaid. Gwyr Ephraim a ddaliasant ac a laddasant Oreb a Zeeb, dau o dywysogion y Midianiaid, wrth yr Iorddonen. Ymlidiodd Gideon a'i dri chanwr y ffoaduriaid y tu hwnt i'r Iorddonen, daliodd a lladdodd y ddau frenin, Zeba a Zalmuna; llonyddodd eiddigedd yr Ephraimiaid, a dialodd ar ddinasoedd Penuel a Succoth. Yn y frwydr ofnadwy hon, lladdwyd "cant ac ugain mil o wyr yn tynu 'r cleddyf," a tharfuwyd y gweddill o'r llu anferthol. Felly y darostyngwyd Midian; a'r wlad a gafodd lonydd ddeugain mlynedd yn nyddiau Gideon. Gwrthododd y gwron gwladgarol hwn yr awdurdod a gynnygiwyd iddo i arglwyddiaethu ar y genedl; ond cyfeiliornodd trwy wneyd ephod â rhan o'r ysbail, yr hon a fu yn fagl i'r bobl, ac yn dramgwydd iddo ef a'i dŷ. Wedi marw y barnwr enwog hwn, yr Israeliaid a ddychwelasant at eu hen bechodau. Anghofiasant eu Duw, yr hwn a'u gwaredasai hwynt o law eu holl elynion o amgylch; aethant ar ol gau dduwiau y cenedloedd, ac ni wnaethant garedigrwydd â thŷ Ierubbaal, sef Gideon, yn ol yr holl ddaioni a wnaeth efe i Israel (*Barn.* viii). Daeth dial arnynt ar frys yn y trallodion dirfawr a ddyoddefasant dair blynedd dan draws-lywodraeth Abimelech, mab gordderchwraig Gideon. Y gormeswr twyllodrus a chreulawn hwn a laddodd ei holl frodyr, dengwr a thrigain, oddieithr Iotham, yr ieuengaf, yr hwn a ddiangodd. Efe a urddwyd yn frenin gan wŷr Sichem; dygodd ddinystr ar y ddinas hono yn y gwrthryfel a gynhyrfodd Gaal; a lladdwyd ef gan wraig â darn o faen melin, yn ei ymosodiad ar dŵr Thebez. Yna cafodd y wlad heddwch a llwyddiant am bum mlynedd a deugain, dan lywyddiaeth Tola a Iair. Ond ar hyny, gwrthgiliodd y bobl eto oddi wrth eu Duw, a gwasanaethasant Baalim ac Astaroth, duwiau Syria, a duwiau Sidon, a duwiau Moab, a duwiau meibion Ammon, a duwiau y Philistiaid. O ganlyniad, y Philistiaid a'r Ammoniaid a oresgynasant ran helaeth o'r wlad, sef Gilead, Iudah, Beniamin, ac Ephraim, "fel y bu gyfyng iawn ar Israel." Eto Duw, er iddo eu ceryddu a'u bygwth yn llymdost, a dosturiodd wrth eu hadfyd, a edrychodd ar ei hedifeirwch, ac a wrandawodd ar eu gweddïau. Dewiswyd Iephthah, y Gileadiad, yn flaenor. Daeth Ysbryd yr Arglwydd arno i'w dywys a'i gyfnerthu. Efe a addunedodd adduned, yr hon a'i hamddifadodd o'i unig ferch; ac fe lwyr ddarostyngodd yr Ammoniaid, gan daraw ugain dinas â lladdfa fawr iawn. Yr Ephraimiaid uchelfrydig, y rhai o'r blaen a rwgnachasant yn erbyn Gideon, a lidiasant yn fawr yn erbyn Iephthah, am na chawsant eu rhan yn yr anrhydedd o'r frwydr a'r fuddugoliaeth. Achosodd hyn ryfel waedlyd rhyngddynt a llu Iephthah, yn yr hon y cwympodd dwy fil a deugain o'r Ephraimiaid.

Ni ddiweddodd trueni na thrallodion y genedl yma. Chwanegasant wneuthur yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, ac efe a'u rhoddodd hwynt yn llaw y Philistiaid ddeugain mlynedd (*Barn.* xiii. 1). Ganed Samson, yr enwog Nazaread, dan amgylchiadau rhyfeddol. Yr Ysbryd am amseroedd a'i cynhyrfodd yn ngwersyll Dan: a'r gwron a ddechreuodd waredu Israel o law y Philistiaid. Yr oedd ei gymmeriad a'i weithrediadau yn anghyffredin. Nis gellir yma olrhain ei ymddygiadau ar wahanol brydiau; ond y mae yn deilwng o sylw ei fod ef yn gwahaniaethu oddi wrth yr holl farnwyr ereill yn hyn; sef, mai trwy ei ymdrechion unigol a nerthol ei hunan, heb gynnorthwy ei gydwladwyr, y gorchfygodd ei elynion, ac y cododd ei wlad i ryw raddau o'r dyfnder i'r hwn yr oedd wedi syrthio. Wedi iddo farnu Israel ugain mlynedd, bu farw yn ninystr teml Dagon, pan y lladdodd fwy o'r Philistiaid nag a laddasai efe yn ei fywyd.

Dyma sylwedd hanes Llyfr y Barnwyr; ac nid oes un rhan o'r Ysgrythyr yn rhoddi golygiadau eglurach i ni ar halogrwydd ac anwadalwch dynoliaeth, a chyfiawnder a thrugaredd y Duwdod anfeidrol. Ond dylid cofio mai hanes yw o oruchwyliaethau rhagluniaeth neillduol tuag at bobl etholedig, ac o ffurflywodraeth ddwyfol nas gellir ei hefelychu gan freninoedd a chenedloedd y byd.

**BARONIUS, CÆSAR**: cardinal, ac awdwr enwog mewn hanes eglwysig: efe a anwyd yn Sora, yn Naples, 1538; a addysgwyd yn gyntaf yn Veroli, ac yn ganlynol yn Naples. Gan fod terfysgoedd ei wlad yn gosod ei dad dan orfodaeth i ymadael am Rufain, cafodd Baronius ei osod dan addysgiaeth Cæsar Costa, wedi hyny arch-

Digitized by Google

esgob Capua. Yn 1560, rhoddodd ei hun dan ddysgyblaeth St. Philip de Neri, sylfaenydd Cynnulleidfa yr Areithgell (*Congregation of the Oratory*); a gosodwyd ef am dymmor i addysgu plant. Ar ol derbyn urdd offeiriad, daeth i gysylltiad â chynnulleidfa Eglwys Ioan Fedyddiwr, yn ninas Rhufain. Pan roddodd Philip de Neri ei swydd i fyny fel arglwydd Cynnulleidfa yr Areithgell, daeth Baronius yn olynydd iddo. Yn fuan gwnaed ef yn gyffeswr i'r pab Clement VIII; ac yn 1596, cyfodwyd ef i'r gardinaliaeth. Appwyntiwyd ef yn ganlynol yn llyfrgellydd y Vatican. Ar farwolaeth Clement, cafodd Baronius ddeg ar ugain o bleidleisiau am y babaeth; ond gwrthwynebwyd ei etholiad gan yr Yspaeniaid o herwydd ei draethawd *Monarchia Siciliæ*, yn yr hwn y dadleuai yn erbyn hawl Yspaen i'r deyrnas hono. Gwanychwyd ei gyfansoddiad trwy ymroddiad gormodol i astudiaeth; a bu farw yn Rhufain, Mehefin 30ain, 1607, yn 68 mlwydd oed; a chladdwyd ef yn eglwys Santa Maria della Vallicella.

Yr oedd Baronius yn ddyn o rinweddau uchel, a galluoedd a chyrhaeddiadau mawrion. Yr oedd ei dduwioldeb yn ddwfn, a'i dueddiadau a'i dymmer naturiol o'r fath fwyaf dymunol. Pan yn ddeg ar ugain oed, dechreuodd ar y gwaith a fu yn brif lafur ei oes—ei *Annales Ecclesiastici.* Bu fyw i gyhoeddi 12 cyfrol unplyg o honynt; y gyntaf yn 1588, a'r ddiweddaf yn 1607, yn yr hon y dygodd hanes yr eglwys i lawr at 1198. Achlysurwyd y gwaith hwn gan y casgliad Protestanaidd ar yr un testyn, gan haneswyr Magdeburgh; amcan y rhai oedd dangos beiau ac anghyssonderau Eglwys Rhufain. Tybid yn angenrheidiol cael gwaith mor ddysgedig a helaeth o ochr y Pabyddion; ac felly, gwnaed gwirionedd hanesyddol yn ail beth i bynciau plaid. Ymddengys na chollodd Baronius ei olwg am unwaith oddi ar amcan dechreuol ei ymgymmeriad â'r gwaith; ond y mae yn wastadol yn dyfod i'r golwg fel pleidiwr rhagfarnllyd Eglwys Rhufain; ac y mae yn amddiffyn ei honiadau uchel ac anysgrythyrol drwy bob moddion, byddent deg neu annheg. Heblaw y camsyniadau bwriadol y mae yn eu gwneyd, y mae ei wybodaeth anmherffaith o'r iaith Roeg wedi ei arwain i gyfeiliornadau afrifed; ac y mae ei hygoeledd a'i draserch at y rhyfeddol wedi peri iddo dderbyn ac amddiffyn fel gwirioneddau lawer o chwedlau ofer, y rhai a wrthodid gan ysgrifenwyr mwy sobr, hyd yn oed o'r un blaid ag ef ei hun. Dywed Mosheim am y gwaith hwn fel y canlyn:—"Ceisiodd Baronius daflu goleuni ar hanes crefydd drwy ei *Annales Ecclesiastici;* ond nid yw y goleuni nodedig hwn braidd yn ddim gwell na dyryswch a thywyllwch." Ar yr un pryd, nid yw yn amddifad o ragoriaethau. Saif yn gofadail o ddiwydrwydd ac ymroddiad braidd yn ddigyffelyb; y mae y gwaith hefyd wedi ei drefnu yn dda, ac wedi bod yn gymhorth mawr i roddi chwaneg o oleuni ar drefn amseryddol digwyddiadau dan deyrnasiad ymherawdwyr Rhufain. Nid yw ei arddull yn dlws, ond y mae yn meddu y rhagoriaeth o fod yn eglur a dealladwy. Ysgrifenwyd yn erbyn yr *Annales* gan Isaac Casaubon, Holstenius, Comber, ac ereill. Ystyrir gwaith y cyntaf yn wrthbrawf llwyddiannus o hono; ac er na ddaeth yn mhellach na'r flwyddyn 34 o'r cyfnod Cristionogol, profa anghywirdeb golygiadau Baronius gyda deheurwydd mawr. A thrwy fod anghyssonderau y gwaith yn dyfod yn fwy amlwg, darfu i Pagi, Norris, a Tillemont —llenorion a berthynant i'r Eglwys Babaidd—ymgymmeryd i'w wella a'i gywiro.—(*Mosheim; Moreri's Gen. Biog.*)

BARROW, ISAAC: duwinydd a meintonydd enwog—oedd fab Thomas Barrow, llieinydd yn ninas Llundain, y lle y ganwyd Isaac yn 1630. Nid ydys yn gwbl sicr pa fis o'r flwyddyn y ganwyd ef; bernir yn gyffredin mai yn Hydref; ond tybir yn gyffredin oddi ar ryw eiriau a ddywedodd ef ei hun, mai yn mis Chwefror. Yr oedd ganddo ewythr o du ei dad o'r un enw, yr hwn oedd gymrawd o goleg Peterhouse, Caergrawnt; ac a fwriwyd allan oddi yno gan y Presbyteriaid, o ddeutu 1644; ond ar ol yr Adferiad, sefydlwyd ef yn esgobawd Manaw, ac yn ganlynol yn Llanelwy. Rhoddwyd Isaac yn ei flynyddoedd boreuaf yn ysgol y Chaterhouse yn ninas Llundain; wedi hyny anfonwyd ef i Felstead, yn swydd Essex. Pan yn yr ysgol gyntaf, ni ddangosodd un argoel ei fod yn feddiannol ar dalentau a'i dygai i enwogrwydd mewn blynyddoedd addfetach; ei brif fwyniant oedd ymladd â'i gydysgolheigion; ac yn ei arferion cyffredin yr oedd yn dra esgeulus a diofal. Adroddir y byddai ei dad yn arfer dyweyd, y gobeithiai, os galwai yr Arglwydd un o'i blant ymaith, mai Issac a fuasai hwnw. Yn yr ysgol yn Felstead, ffurfiodd well cymmeriad; ac yn Rhagfyr, 1643, derbyniwyd ef yn aelod o goleg Peterhouse, yr hwn oedd dan arolygiaeth ei ewythr. Ond ar ymadawiad ei ewythr o'r coleg hwn, symmudodd yntau i goleg y Drindod. O herwydd ymadawiad ei ewythr â'i goleg, a'r colledion a ddyoddefodd ei dad o herwydd ei ymlyniad wrth achos Siarl I., gadawyd Isaac mewn sefyllfa dra digymhorth, ac nid oedd ganddo ond caredigrwydd yr enwog Dr. Hammond i ymddibynu arno. O herwydd ei dymmer wastad ac addfwyn, a'i gyrhaeddiadau uchel mewn dysgeidiaeth, ennillodd yn rhwydd ffafr ei uchafiaid; eto, glynodd yn ddiysgog wrth egwyddorion ei deulu, a pharhaodd yn freninwr (*royalist*) ffyddlawn. Yn 1647, gwnaed ef yn ysgolor o'r coleg; yn 1648, yn wyryf yn y celfau; yn 1649, yn gymrawd o'r coleg; yn 1652, yn athraw yn y celfau; yn 1661, yn wyryf mewn duwinyddiaeth; ac yn 1670, yn ddoethawr mewn duwinyddiaeth. Yn fuan ar ol ei ddewis yn gymrawd, pan welodd fod egwyddorion gwladol ac eglwysig oeddynt yn wrthwyneb i'w egwyddorion ef yn ennill tir, meddyliodd am ddilyn y gelfyddyd feddygol; ac i'r perwyl hwn gwnaeth gynnydd mawr mewn difyniaeth, llysieuaeth, a chyfferiaeth. Dygwyd ef yn ol, pa fodd bynag, at dduwinyddiaeth; a theimlodd fod yn rhaid i'r duwinydd fod yn amserydd, i'r amserydd fod yn astronomydd, ac i'r astronomydd fod yn feintonydd; ac felly cyssylltodd y gwyddorion o feintoniaeth a seryddiaeth âg astudio duwinyddiaeth. Ymroddodd hefyd gyda gradd o ddyhewyd at farddoniaeth, at yr hyn y teimlai dueddiad cryf drwy ei oes. Yr oedd yn y cyfamser yn dra chyfarwydd yn yr ieithoedd dysgedig; a phan roddes Dr. Duport broffeswriaeth yr iaith Roeg yn Caergrawnt i fyny, arganmolwyd Barrow ganddo fel un cymhwys i lanw ei le; ond gwrthodwyd ef ar y dybiaeth ei fod yn coledd syniadau Arminaidd. O herwydd y siomiant hwn, yn nghyd âg ansawdd aflonydd y wladwriaeth yn y cyfamser, penderfynodd fyned ar daith drwy wledydd tramor. Teithiodd o 1655 hyd 1659, drwy Ffrainc a'r Ital i Smyrna a Chaer Cystenyn; oddi yno i Venice, a thrwy Germany

Digitized by Google

a Holland adref. Yn ei absennoldeb, yn 1655, cyhoeddwyd ei waith cyntaf, argraffiad o *Elfenau Euclid*. Pan ar ei fordaith o'r Ital a Smyrna, dangosodd raddau helaeth o wroldeb trwy ymladd â haid o forladron. Treuliodd flwyddyn yn Caer Cystenyn, a mwynhaodd yno bleser mawr wrth astudio gweithiau Chrysostom yn y fan y cyfansoddwyd hwynt. Wedi ei ddychweliad, ordeiniwyd ef gan yr esgob Browning. Parhaodd Barrow am dymmor ar ol yr adferiad heb dderbyn dim chwaneg o urddas eglwysig; a dangosodd yn y ddwy linell ganlynol y teimlai oddi wrth yr esgeulusdra hwn:—

> "Te magis optavit rediturum, Carole, nemo;
> Et nemo sensit te rediisse minus."

Ni ddymunodd neb, O Siarl! dy arferiad yn fwy; ac ni theimlodd neb dy adferiad yn llai.

Yn 1660, pa fodd bynag, dewiswyd ef yn broffeswr Groeg yn Nghaergrawnt, heb un cydymgeisydd. Darllenodd yn awr luaws o ddarlithoedd ar *Areitheg Aristotle*. Trwy arganmoliaeth Dr. Wilkins, cafodd hefyd broffeswriaeth meintoniaeth yn ngholeg Gresham. Rhoddodd brawf o ddeutu yr amser hwn o dynerwch ei gydwybod trwy wrthod bywoliaeth fras, am fod y noddwr yn ei chynnyg iddo ar yr ammod iddo gymmeryd ei fab dan ei addysgiaeth, yr hyn a ymddangosai i Barrow yn gyssegr-fasnach a budrelw. Yn 1663, dewiswyd ef yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol, ac yn nghorff yr un flwyddyn dewiswyd ef yn brif broffeswr meintoniaeth yn Nghaergrawnt; ac ar yr achlysur o'i ddewisiad, traddododd araeth ragarweiniol gampus ar "ddefnydd, a rhagoriaeth y wyddor feintonawl." Rhoddodd ei broffeswriaeth Groeg i fyny ar ei ddewisiad i'r gadair hon. Ond er iddo gyrhaedd i enwogrwydd mawr yn y wyddor o feintoniaeth, penderfynodd, yn 1669, roddi i fyny ei efrydiau yn y wyddor hono, ac ymroddi i efrydu duwinyddiaeth; ac wedi cyhoeddi ei draethodau ar dremwyddeg (*optics*), rhoddodd y gadair i fyny i ŵr ieuanc a dybiai yn olynydd teilwng iddo, yr hwn a brofodd ei hun yn neb llai na Syr Isaac Newton. Yn 1672, enwodd y brenin ef i lywyddiaeth Coleg y Drindod, gan wneyd y sylw, "ei fod wedi ymddiried y swydd i'r ysgolhaig goreu yn y deyrnas." Yn 1675, dewiswyd ef yn isganghellydd y brifysgol; ond rhoddwyd terfyn ar ei lafur a'i ddefnyddioldeb gan glefyd, pan oedd yn yr oedran ieuanc (mewn cymhariaeth i ddyn a gyrhaeddodd y fath enwogrwydd) o saith a deugain, Mai, 1677. Claddwyd ef yn Westminster Abbey; a chyfodwyd colofn goffadwriaethol iddo gan ei gyfeillion.

Pa le y mae Barrow yn deilwng o hono fel meintonydd, nid yw yn hawdd penderfynu. Dywedir gan rai beirniaid fod ei weithiau mewn gwyddoniaeth, yn gystal ag mewn duwinyddiaeth, yn perthyn i'r dosbarth uchaf. Dywedir am ei argraffiad o *Euclid*, ei fod yn rhagorol o ran byrdra a chymhwysder ei arbrofiadau. Ac am ei draethodau ar dremwyddeg, yr oedd yn wiw gan Newton roddi argraffiad o honynt allan gyda gwelliadau a chwanegiadau. Pan ofynwyd copi o'r gwaith hwn i James Gregory, o St. Andrews, dywedodd am ei awdwr, "Y mae Mr. Barrow yn profi ei hun yn ei *dremwyddeg* yn feintonydd manylaidd; ac yr wyf yn barnu y gwaith hwn y goreu a welais erioed." Rhoddir canmoliaethau cyffelyb i'w weithiau gwyddonawl ereill, megys ei draethodau ar feintoniaeth (*Lectiones Geometricæ*); a'i argraffiad o Archimedes, Apollonius, a Theodosius. "Gellir ystyried," medd un beirniad galluog, "ei fod wedi dangos y fath eangder dyfais, sydd yn gyfartal i, os nad yn rhagori ar, bawb yn yr oesoedd diweddaf, oddi gerth Newton yn unig:" a gwyddai yr ysgrifenydd hwn mai yn yr oesoedd diweddaf yr oedd Descartes, Leibnitz, ac ereill yn byw. Dywed un arall, "na ragorwyd arno mewn meintoniaeth gan neb ond ei olynydd Newton." A llefara un arall am dano, "fel athrylith a anwyd i ddwyn gwirioneddau cuddiedig i oleuni." Y mae y canmoliaethau a roddir iddo gan ddysgedigion gwledydd tramor yn llawer mwy cymmesur. Tra y maent yn dangos eu bod yn gwerthfawrogi cynnyrchion ei efrydiaeth, y maent yn mhell oddi wrth ei gymharu â Newton, ac hyd yn oed âg enwau llawer llai dysglaer nag ef. Y mae yr *Encyclopedists* Ffrengig yn myned mor bell a'i alw yn "feintonydd a duwinydd anenwog." Yn hytrach, y mae yn debygol, mai rhwng y naill eithafoedd a'r llall y mae gwir sefyllfa Barrow. Tra nad oedd yn feintonydd mwy na duwinydd anenwog; nid oedd chwaith yn gyfartal â, nac yn ail i, Syr Isaac Newton. Diammheu y rhaid, ar ol enwi Syr Isaac, enwi hefyd amryw ereill cyn y deuir at Barrow. Dywed awdwr yr erthygl ar Barrow yn y *Penny Cyclopædia*, mai yr achos iddo gael ei ddiraddio ar y naill law, a'i arganmawl ar y llaw arall, oedd ei fod yn Gristion a duwinydd; a hawdd yw genym dybied fod hyn yn effeitho ar farn y gwyddonwyr Ffrengig (*French Encyclopedists*); ac y mae tuedd hefyd mewn Cristionogion, er mwyn gwneyd y ddadl hono yn gryfach o blaid Cristionogaeth, sef bod y meddyliau cryfaf wedi ymrestru dan ei baner, i gyssylltu pob mawredd â'i dilynwyr a'i phleidwyr hi. Dywedir gan ysgrifenwyr mwy cymmedrol mai rhagoriaethau Barrow fel meintonydd oedd ei fod yn gyfarwydd â phrydferthion yn gystal a phethau dwfn y wyddor; y gallai gymhwyso ei hegwyddorion gyda medrusrwydd mawr, ond nas gallai ei heglurhau gyda chymmaint o ddeheurwydd.

Y mae ei ragoriaethau fel duwinydd yn fwy eglur a diddadl. A diammheu mai yn ei ysgrifeniadau ar grefydd y mae yn sefyll uchaf. O ran eangder a chyfoeth meddwl, gellir ei ystyried heb ei ragorach; yn hyn y mae Dr. Owen ac yntau yn dwyn cryn debygolrwydd i'w gilydd. Yr oedd eu meddyliau yn gynnyrchiol mewn oes a nodweddid gan hyny. Arferai Siarl II. alw Barrow yn bregethwr annheg; am y tybiai y byddai wedi dyhysbyddu y mater yr ymdriniai âg ef. Y mae ei bregethau yn draethodau meithion a gorphenol, y rhai a ysgrifenai bedair gwaith drosodd. Bu yr enwog Richard Baxter yn ei wrandaw unwaith yn pregethu, a dywedai y gallai aros i'w wrandaw am ddiwrnod cyfan. Ond yr hyn sydd ryfedd i'w adrodd—y tro y bu Baxter yn ei wrandaw, yr oedd yr eglwys bron yn wag, gan fod golwg gyffredin ac aflerw Barrow, pan esgynodd y pulpud, wedi tarfu y gynnulleidfa ymaith. Pan ofynwyd i Barrow pa beth yr oedd yn ei feddwl wrth weled y bobl yn dianc allan, attebodd gyda'i symledd arferol, "Yr oeddwn yn meddwl nad oeddynt yn hoffi na mi na fy mhregeth, ac nid oedd genyf achos i fod yn ddig wrthynt am hyny." Cyhoeddwyd ei weithiau duwinyddol gan Dr. Tillotson, yn ganlynol archesgob Caergaint, a pharotowyd ei fywgraffiad gan Abraham Hill. Cyhoeddwyd dau argraffiad yn ddiweddar o'i weithiau, y naill gan y Dr. James Hamilton, yn dair o gyfrolau; ac argraffiad arall mewn wyth o gyfrolau. Cynnwysa nifer

Digitized by Google

fawr o bregethau, gan mwyaf ar ddyledswyddau moesol, esboniad ar y Credo, Gweddi yr Arglwydd, y Deg Gorchymyn, ar athrawiaeth y sacramentau, uchafiaeth y pab, ac undeb yr eglwys. Cynnwysa ei *Opuscula*, draethodau, areithiau, a chaneuon.—(*Barrow's Works, with life, by J. Hamilton*,)

1\. **BARSABAS**, [Βαρσαβᾶς, *mab dychweliad*]: Ioseph, a enwid Barsabas=*mab Sabas*, ac a gyfenwid Iustus=*cyfiawn*, oedd yn mysg dysgyblion cyntaf Iesu Grist, ac y mae yn debyg ei fod yn un o'r deg-a-thrigain. Pan gynnygiodd Pedr ar fod i'r dysgyblion yn Ierusalem lenwi lle Iudas fradwr, trwy ddewis apostol arall, yr oedd Barsabas yn un o'r ddau a osodwyd ger bron; ond y coelbren a syrthiodd ar Matthias, yr hwn a gyfrifwyd gyda'r un apostol ar ddeg: *Act.* i. 23. Dywed Eusebius, ar awdurdod Papias, ddarfod i Ioseph y cyfiawn, yn amser erlidigaeth, "yfed gwenwyn marwol, a thrwy rad Duw, nas cafodd ddim niwed." Y mae yn debyg mai nid yr un yw a Ioses, a gyfenwid Barnabas, y sonir am dano yn *Act.* iv. 36. Gwel BARNABAS.

2\. **BARSABAS**: Iudas, a gyfenwir Barsabas. Athraw Cristionogol a ddanfonwyd o Ierusalem i Antiochia, gyda Paul a Barnabas: *Act.* xv. 22, 27, 32. Tybir ei fod yntau yn un o'r deg dysgybl a thrigain, a'i fod yn frawd i Ioseph Barsabas. Gelwir ef a'i gydymaith Silas, yn "wŷr etholedig yn mhlith y brodyr," ac "yn brophwydi."

**BARTIMEUS**: cardotyn dall o'Iericho, yr hwn a iachawyd gan yr Iesu pan ar ei ffordd tua Ierusalem: *Marc* x. 46—52. Crybwyllir *dau ddeillion* gan Matthew, wrth adrodd yr hanes am yr un wyrth: *Math.* xx. 30: ond ni chrybwyllai Marc a Luc namyn yr hynotaf. Efallai fod Timëus ei dad yn ddinesydd cyfrifol o Iericho; ac felly fod ei fab, yr hwn trwy ei ddallineb a ddarostyngasid i ymddibynu ar elusen am ei gynnaliaeth, yn wrthddrych o sylw y dinasyddion yn y cyffredin.

**BARTHOLOMEUS**: un o'r deuddeg apostol: *Math.* x. 3; *Act.* i. 13. Barna rhai mai yr un person ydoedd a Nathanael, un o ddysgyblion cyntaf Crist; a'u rheswm penaf dros farnu felly ydyw, nad yw Ioan yn son am Bartholomeus yn mysg yr apostolion; ond yn cydio Nathanael â Phylip; tra y mae y tri efengylwr ereill yn cydio Bartholomeus â Phylip, ond heb wneyd unrhyw grybwylliad am Nathanael: felly, tybir mai ei wir enw ydoedd Nathanael, tra yr arferid yr enw arall yn unig i ddynodi pwy oedd ei dad. Y mae y tebygolrwydd o hyn yn cael ei chwanegu pan adgofiom fod Nathanael yn cael ei grybwyll yn neillduol yn mysg yr apostolion i'r rhai yr ymddangosodd yr Iesu ar ol ei adgyfodiad wrth fôr Tiberias: *Ioan* xxi. 2: yr oedd efe hefyd yn dyst o'i esgyniad ef, ac efe a ddychwelodd gyda'r apostolion ereill i Ierusalem. Dadleuodd rhai mai Syriad, yn hanu o dylwyth urddasol Ptolemiaid yr Aipht oedd y Bartholomeus yma; ond, os yr un a Nathanael, fel y mae y fath seiliau cryfion i gredu, fe'n hysbysir yn eglur mai brodor o Cana o Galilea ydoedd. Nis meddwn unrhyw hysbysrwydd o barth ei alwedigaeth: digon tebyg yw mai pysgodwr ydoedd. Yr oedd traddodiad boreu yn yr Eglwys Gristionogol ei fod ef wedi dwyn efengyl Crist i'r Indiaid, a'r rhanau mwyaf gogleddol a gorllewinol o Asia hefyd, ac iddo o'r diwedd oddef merthyrdod yn Abanopolis yn Armenia. Ond y mae ansicrwydd mawr yn gorwedd ar bob crybwylliadau a gawn ni am fywyd a llafur yr apostolion, ar nad ydynt yn cael eu mynegu yn y Testament Newydd.

**BARTHOLOMEUS, DYDD ST**: gŵyl grefyddol a gynnelid gan Eglwys Rhufain, fel cofwyl yr apostol Bartholomeus, ar y 24ain o Awst. Ac fe'i hynodwyd mewn hanesyddiaeth, yn gymmaint ag mai ar y dydd hwn yn y flwyddyn 1572, y bu cyflafan y Protestaniaid, neu yr Huguenotiaid yn Ffrainc, gan y Pabyddion: a chyfrifir na chafodd dim llai na deng mil ar ugain o Brotestaniaid diniwed eu llofruddio y pryd hyny.

Yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng dygiad y diwygiad Protestanaidd yn mlaen yn Ffrainc, a'i ddygiad yn mlaen yn Mhrydain. Yma, fe'i dygid yn mlaen dan nawdd y brenin a'r swyddogion gwladol, y rhai a gefnogent y diwygiad, nid yn gymmaint o herwydd eu bod wedi eu hargyhoeddi o dwyll y grefydd Babaidd, ag o blegid rhyw gweryl personol a dorasai allan rhyngddynt hwy a'r pab; ac am hyny yr oedd yr ysgogiad yn dra chynnil ac anmherffaith. Ond yn Ffrainc yr oedd yr awdurdodau gwladol yn hollol wrthwynebol i'r diwygiad, yr hwn a ddygid yn mlaen trwy zel ac eondra unigolion. Gan hyny, yr oedd Protestaniaeth Ffrainc yn llawer purach na'r eiddo Lloegr, gan ei fod yn cynnwys, nid yn unig ymwrthodiad âg iau yr awdurdod Pabaidd, ond y cyhoeddiad am y pab mai yr anghrist ydoedd, ac am ddefodau Eglwys Rhufain, mai addoliad Belial oeddynt.

Yr oedd yr Huguenotiaid, fel y gelwid Protestaniaid Ffrainc, yn tebygu llawer yn eu daliadau a'u cyflwr gwladyddol i Buritaniaid Lloegr yn yr ail ganrif ar bymtheg. Edrychai y llys yn gilwgus arnynt, ac erlidiai hwynt; eu cyd-ddeiliaid Pabaidd a'u casäent, ac a gasëid ganddynt; yr hyn a'u gwnelai megys pobl wahaniaethol yn ngwlad eu genedigaeth, ac a'u cyfrwymai yn fwy trylwyr â'u gilydd, gan eu gwneyd yn fwy ufudd i'w blaenoriaid eu hunain, mewn heddwch ac mewn rhyfel. Ac megys y gallesid dysgwyl, bu rhyfeloedd mynych a gwaedlyd rhwng y pleidiau anghymmodlawn hyn.

Yn Awst, 1570, gwnaed cyfammod heddwch rhwng y brenin Charles y nawfed, a'i ddeiliaid Protestanaidd, yr hwn oedd y trydydd cyfammod o'r fath a wnelsid rhwng y pleidiau hyny o fewn ysbaid wyth mlynedd—y ddau gyntaf a dorasid mewn modd cywilyddus wrth gyfleusdra plaid y llys. Gan hyny, yr oedd yn dra naturiol i'r arweinwyr Protestanaidd fod yn dra ammheus o amcanion y llys yn cynnyg ammodau heddwch y tro hwn eto; a hyny yn fwy, am fod yr ammodau a gynnygid yn fwy ffafriol nag y gallasai y Protestaniaid ddysgwyl yn rhesymol oddi wrth y llys. Ond yr oedd yr enwog Coligny, llyngesydd Ffrainge, yn rhoddi ei holl ddylanwad, fel prif arweinydd y Protestaniaid, i ddwyn yr heddychiad yma yn mlaen. Cymhellid ef yn daer i ddyfod i'r llys; ond gan ei fod yn ddrwgdybus o fam y brenin, yr hynod Catherine dè Medici, a phlaid y Duc o Guise, efe a wrthododd y gwahoddiad, ac a enciliodd i amddiffynfa gadarn y Protestaniaid yn Rochelle; a'r tywysog ieuanc, Harry o Navarre (wedi hyny, Harry y Pedwerydd), Conde, ac ereill o'r blaenoriaid Protestanaidd, a'i canlynasant. Ond cyn pen y ddwy flynedd, yr oedd y llyngesydd wedi colli yr anymddiried yma yn llwyr, wrth sylwi ar y gofal a gymmerai y brenin

Digitized by Google

ieuangc i gadw at ammodau yr heddychiad, ac i gospi pawb a'u troseddent. Yn gynnar yn y flwyddyn 1571, cynnygiai Charles ei chwaer yn briod i Dywysog Navarre, blaenor addefedig y Protestaniaid; ac er fod y pab yn gommedd rhoddi ei ganiatâd, a bod llys Yspaen a thylwyth y Guisiaid yn dra gwrthwynebol i'r briodas ddywededig, parhäai y brenin i barotoi ar ei chyfer, a bygythiai genadwr y pab y mynai ei chyflawnu yn ol defodau y Protestaniaid, os gommeddai y pab roddi ei gydsyniad iddi. Heb law hyny, cynnygiai anfon byddin dan lywyddiaeth Coligny i gynnorthwyo y Tywysog Orange yn erbyn brenin Yspaen.

O'r diwedd, trwy weniaith a thwyll, llwyddwyd i symmud ymaith ddrwgdybiaeth y llyngesydd mor llwyr, fel y caed ganddo fyned i Blois, yn mis Medi, 1571, lle y cynnaliai Charles ei lys y pryd hyny; a rhoddid derbyniad croesawus ac anrhydeddus iawn iddo, yn ol pob ymddangosiad. Y brenin a'i galwai "Tad," ac mewn rhith serchogrwydd a ddywedai, "Dyma ni wedi eich cael o'r diwedd, ac ni ddiengwch oddi arnom mwyach." Yr oedd hyn yn wirionedd mewn ystyr amgenach nag y bwriedid i'r ymadrodd ei gludo ar y pryd —yr oedd y llyngesydd yn dechreu ymgymmeryd â'r abwyd a fwriedid i'w lithio i ddinystr o'r diwedd. Parhaodd Coligny yn y mwynhâd didor o ffafr ymddangosiadol y brenin dros fisoedd lawer; a phan y byddai yn absennol o'r llys, cynnaliai y brenin ohebiaeth gyfeillgar âg ef trwy lythyrau; ac mewn ymddiddanion personol, cymmerai arno fynegu ei holl gyfrinach iddo, fel y gwnelai gŵr i'w gyfaill mwyaf mynwesol, gan erchi iddo fod ar ei wyliadwriaeth rhag ystrywiau yr hen frenines, ei fam, a'i hanwyliaid Italaidd. Siaradai yn lled ddirmygus am ei frawd, y Duc o Anjou; ac wrth ddarlunio ei faeslywyddion, nodai eu beiau, a chwynai o herwydd eu drygfoesau. Ac fel hyn, llwyddodd y brenin ieuangc yma, dan addysg y Jesuitiaid, i ennill ymddiried Coligny yn drwyadl, yr hwn a roddes ei holl ddylanwad ar waith i gymhell pendefigion Protestanaidd ereill i ddyfod i'r llys, yn yr hyn y bu yn rhy lwyddiannus.

Cymmerai priodas Harri o Navarre, gyda Margaret, chwaer y brenin, le yn nghanol rhwysgfawredd anghyffredin, ar y 18fed o Awst, 1572. Yr oedd y rhan fwyaf o'r pendefigion a'r bonedd Protestanaidd, yn nghyd â'u blaenor, y llyngesydd, yn bresennol ar yr achlysur; a chan nas goddefai eu rhagfarn crefyddol iddynt fyned i eglwys yn yr hon y cyflawnid gwasanaeth yr offeren, cyflawnid y ddefod briodasol mewn adail a gyfodasid i'r perwyl yn agos i'r brif eglwys, Nôtre Dame. Treulid dyddiau Mawrth, Mercher, a Iau, mewn gwleddoedd, a phob difyrwch a llawenydd. Ac ar ddydd Gwener, yr 22ain, aeth Coligny i'r cynghorlys, a gynnelid yn y Louvre, ac oddi yno, efe a aeth gyda'r brenin i'r bêl-faes, lle y chwareuai y brenin a'r Duc o Guise, yn erbyn dau foneddwr Protestanaidd. Fel yr oedd efe yn rhodio yn araf tuag at adref, gan ddarllen rhyw bapuryn, saethwyd ef o ffenestr llofft tŷ, lle yr oedd un o weinidogion y Duc o Guise—un belen a rwygai ei law, ac elai y llall i mewn i'w fraich ddeheu. Yn y cyfamser, yr oedd y brenin yn chwareu gyda'r Duc o Guise; a phan fynegwyd iddo am yr ymosodiad yma, efe a daflodd ei belgip o'i law, gan ddywedyd, "A gaf fi byth heddwch ?" ac a ymneillduodd, mewn agwedd athrist, i'w ystafell. Yna efe a ddeuai at frenin Navarre, a Thywysog Condè, wrth y rhai yr addawai ddwyn y dyhiryn a fuasai yn euog o'r fath ysgelerder i afael cosp gyfiawn. Ar y 23ain, hysbysai y meddygon nad oedd archollion y llyngesydd o natur beryglus. Elai y brenin, a'i fam, a lluaws o'i bendefigion i ymweled âg ef; a'r llyngesydd, wedi deisyf cael ymddiddan â'r brenin yn bersonol, a'i cynghorai yn ddifrifol i beidio caniatau cymmaint o awdurdod i'w fam a'i frawd; a'r frenines, yn ofni y canlyniadau, a orfodai ei mab, y brenin ieuangc, i ddyfod ymaith, dan yr esgus bod dystawrwydd a llonyddwch yn anhebgorol er adferiad iechyd y llyngesydd.

Can gynted ag yr aeth y gair ar led am yr ymosodiad ar y llyngesydd, ymgynnullai y Protestaniaid yn dorfeydd tua'i drigle, gan gynnyg eu gwasanaeth iddo; a chyfleid gwarchodlu breninol ar ei dŷ, dan yr esgus o'i ddiogelu rhag trais y lluaws; ac o dan yr unrhyw rith o ofalu am ei ddiogelwch, gorchymynid i'r Pabyddion encilio o'r parth hwnw o'r ddinas, ac i'r Protestaniaid gyrchu i gymmydogaeth trigias eu blaenor enwog.

Boreu dydd Sadwrn, y 23ain, cynnaliai y cydfradwyr gynnadledd gyfrinachol; ac wedi ciniaw, gwelid y frenines waddolog yn myned i ystafell y brenin, lle hefyd y cyrchai y Duc o Anjou, a rhai o'r arglwyddi Pabaidd yn fuan ar ei hol: a pha beth a gymmerodd le yno ar y pryd, nis meddwn un dystiolaeth ddiduedd ar yr hon y gallwn ymddibynu. Ond wrth geisio esgusodi y gyflafan a ddilynodd, addefai Charles ei hunan, bod ei fam, a'r pendefigion a'i canlynai, wedi ei hysbysu fod cydfradwriaeth ar droed yn mysg y Protestaniaid, o dan arweiniad Coligny, i'w ddyfetha ef a'i deulu, ac iddo, dan yr argraff a adawai y fath hysbysiad ar ei feddwl, erchi iddynt gael eu lladd yn ddiarbed. Ychydig cyn dau o'r gloch y boreu, clywid trwst ergyd llawddryll, a dechreuid canu cloch eglwys gyfagos i'r llys, yr hyn oedd yn arwydd i ddechreu ar y gyflafan; ac erbyn pump o'r gloch y bore, yr oedd y llyngesydd a'i gyfeillion wedi eu llofruddio, a'u cyrff wedi eu hanmharchu yn y modd mwyaf annynol. Gwysid gwerin Paris i gynnorthwyo yn y gyflafan, ac i amddiffyn eu crefydd a'u brenin yn erbyn bradwriaeth yr Huguenotiaid. Bloeddiadau y blaenoriaid Pabaidd, fel y carlament trwy yr heolydd, oedd—"Angeu i'r Huguenotiaid! Lleddwch bob un o honynt! Dyna orchymyn y brenin—Lleddwch! Lleddwch, nac arbedwch!" &c. Fel hyn, trwy dwyll a chreulondeb o'r fath fwyaf ysgeler, y llofruddiwyd holl flaenoriaid Protestanaidd Ffraingc!

**BARTHOLOMIAID:** urdd grefyddol, a ffurfiwyd yn Genoa, yn y flwyddyn 1307; ond trwy fod y mynachod perthynol iddi yn nodedig o afreolaidd eu buchedd, diddymwyd yr urdd gan y Pab Innocent x, yn y flwyddyn 1560, a dirwywyd eu holl feddiannau. Y mae delw yn nghadw yn eglwys y fynachlog a berthynai i'r urdd yma, am yr hon y dywedir iddi gael ei hanfon gan Grist i'r brenin Abgarus.

1. **BARUC,** neu **BARUCH,** [ברוך, *un bendigedig;* Gr. Βαρουχ]. Y mae yr enw Hebreig, *Baruch*, yn gyfystyr â'r enwau *Macarius* (Μακαριος) yn y Groeg, a *Benedictus* yn y Lladin. Galwai Baruch Spinosa ei hun yn *Benedictus* yn ei weithiau Lladin]: mab Sabbai, a adgyweiriodd ranau o gaerau Ierusalem: *Neh.* iii. 20.

2. **BARUCH:** mab i Neriah, fab Maaseiah. Hwn ydyw y mwyaf adnabyddus o'r enw. Yr

Digitized by Google

oedd yn gyfaill a dysgybl ffyddlawn i'r prophwyd Ieremïah; a gwasanaethodd ef fel ei ysgrifenydd hyd ei farwolaeth. Y crybwylliad cyntaf a geir am dano yw, fod Ieremïah, yn nhymmor y gwarchae ar Ierusalem, pan brynodd etifeddiaeth Hanameel, wedi rhoddi llyfr y pryniad iddo i'w gadw, ac i wneyd âg ef fel y gorchymynasai y prophwyd iddo: *Ier.* xxxii. 12. Yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Iehoiacim, brenin Iudah, o ddeutu 607 c. c., pan oedd Ieremïah yn rhwym yn y carchar, derbyniodd orchymyn oddi wrth yr Arglwydd i ysgrifenu yr holl brophwydoliaethau a draddodasai hyd yr amser hwnw. Anfonodd, gan hyny, am Baruch, yr hwn a ysgrifenodd o'i enau ei holl ragfynegiadau blaenorol; ac yn mhen ychydig amser, a ddarllenodd gynnwysiad y llyfr ar ddau achlysur difrifol yn y deml. Pan fynegwyd i'r tywysogion ystyr y genadwri a gynnwysid yn y llyfr, galwasant am Baruch, yr hwn a'i darllenodd iddynt yn ystafell yr ysgrifenydd, yn nhŷ y brenin: *pen.* xxxvi. Ofnodd y swyddogion rhag geiriau y llyfr; dywedasant am dano wrth y brenin, gan ar yr un pryd gynghori Ieremïah a Baruch i ymguddio mewn rhyw fan diogel. Wedi clywed darllen rhanau cyntaf y rhol, cynhyrfodd y brenin, torodd y llyfr â chyllell ysgrifenydd, ac er holl ymbiliau y tywysogion, taflodd ef i'r tân yr eisteddai wrtho yn ei auafdy. Yna, rhoddes orchymyn am ddal Ieremïah a Baruch; ond nis gallesid eu cael, o blegid "Iehofah a'u cuddiodd hwynt." Y mae llosgiad y rhol yn cael ei gadw mewn coffadwriaeth gan yr Iuddewon mewn ympryd blyneddol hyd y dydd hwn. Gorchymynodd yr Arglwydd i Ieremïah adysgrifenu ei brophwydoliaethau: ac ysgrifenodd Baruch hwynt fel o'r blaen; a chynnwysa yr ail rol brophwydoliaethau chwanegol, y benaf o ba rai yw y brophwydoliaeth am gwymp Iehoiacim a'i dŷ, fel cosp am ei weithred annuwiol yn tori ac yn llosgi y rhol gyntaf. Y llyfr diweddaf a ysgrifenodd Baruch ydyw Prophwydoliaeth Ieremïah, sydd yn nghanon yr Ysgrythyrau hyd heddyw. Pan oedd Baruch yn nyfnder tristwch—yr hwn a achosid mewn rhan gan yr erlidigaeth a ddyoddefai o herwydd ei ymlyniad wrth y prophwyd, ond yn fwyaf neillduol gan ystyriaeth o'r bygythion ofnadwy a ysgrifenasai o enau Ieremïah—derbyniodd sicrhâd drwy y prophwyd y rhoddai yr Arglwydd ei einioes yn ysglyfaeth iddo yn nghanol y dinystr a ddygid ar Iudah a Ierusalem. Ar ol dinystr Ierusalem, pan arweiniodd Nebuchodonosor yr Iuddewon yn gaeth i Babilon, cafodd Baruch a Ieremïah ganiatâd i aros yn Palestina, ac i ddewis lle i drigo; ond dygwyd y ddau wedi hyny i'r Aipht, gan Iochanan Ben Careach, c. c. 588. Gellir casglu oddi wrth rai geiriau yn Ieremïah fod Baruch yn bresennol yn Ierusalem ar adeg ei dinystr. Y mae amrywiaeth barnau am ddiwedd ei oes. Yn ol un traddodiad, bu farw yn yr Aipht; ond sicrha y Rabbiniaid iddo farw yn Babilon yn mhen deuddeng mlynedd wedi dinystr Ierusalem, gan adael ar ei ol ddysgybl enwog, yn mherson Ezra yr ysgrifenydd, ac arweinydd y genedl yn ddilynol i hyn. Dywed Josephus am Baruch, "ei fod wedi deilliaw o un o'r teuluoedd mwyaf urddasol, a'i fod yn hynod gyfarwydd yn iaith ei wlad."—(*Hynaf.* x ; ix. 1, 2.)

**BARUCH, LLYFR.** Y mae yr ysgrifau hynaf o'r llyfr hwn yn yr iaith Roeg, ac nid yn yr Hebraeg; ac yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, y mae yn nesaf i Lyfr Ieremïah. Efe ydyw yr unig un o'r llyfrau ail-ganonaidd a enwir yn nghanon Cynghor Laodicea. Os cyfaill Baruch, ac ysgrifenydd Ieremïah, oedd awdwr y llyfr sydd ar ei enw, dywedir y rhaid mai cyfieithiad ydyw o'r Hebraeg neu y Galdaeg: ac nid ymddengys hyn yn annhebygol, o blegid y mae yn llawn o nodweddau priodol i'r ieithoedd hyny, yn enwedig yr Hebraeg. Dywed Jahn, y gallasai y nodweddau Hebreig hyn sydd yn y llyfr gael eu cynnyrchu gan Iuddew yn ysgrifenu Groeg; eto, tuedda i feddwl fod y llyfr wedi ei gyfansoddi yn yr Hebraeg, ac na pherthyna i'r oes yr arferid yr iaith Roeg gan yr Iuddewon. Hyn hefyd yw barn Calmet, Huet, ac ereill; tra y mae y beirniaid Almaenaidd, yn y cyffredin, yn eddu i feddwl mai yn y Groeg y cyfansodddwyd y gwreiddiol, a chan rywun anadnabyddus yn amser teyrnasiad Ptolemy Lagos. Barnant mai i hyrwyddo ei amcan, sef sefydlu yr Iuddewon a drigent yn yr Aipht yn nghrefydd ac addoliad y gwir Dduw, y priodolodd yr awdwr y llyfr i Baruch yr ysgrifenydd. Ond gwrthodir y tybiau hyn gan y mwyafrif fel yn ddisail. Y mae y ffaith fod Llyfr Baruch wedi ei gymmeradwyo fel un canonaidd gan Gynghor Laodicea, wedi rhoddi bod i amryw dybiau gwahanol. Barna Prideaux nad yw geiriau y cynghor, y rhai ydynt fel y canlyn—"Ieremïah, gyda Baruch, y Galarnad, a'r Epistol"—yn golygu dim mwy na "Prophwydoliaeth a Galarnad Ieremïah;" mai wrth "yr Epistol" y meddylir y llythyr sydd yn *Ier.* xxix; a bod enw Baruch yn cael ei roddi i mewn, am mai efe a'i casglodd ac a chwanegodd y bennod ddiweddaf. Ond wrth chwilio y llawysgrif Alexandriaidd, sydd yn y British Museum, gwelir fod trefn y llyfrau hyn yr un ffunud a chanon Cynghor Laodicea—Ieremïah yn gyntaf, yna Baruch, yna y Galarnad, ac yn ddiweddaf yr Epistol. Y mae Llyfr Baruch yn cael ei ddyfynu gan y tadau yn gyffredin fel rhan o Lyfr Ieremïah. Dyfynir ef fel y cyfryw gan Irenæus, Cyprian, Clement o Alexandria, Eusebius, Ambrose, Awstin, Chrysostom, Basil, ac ereill. Y mae Awstin [*Civ. Dei.* pen. 33], ar ol dyfynu rhan o Lyfr Baruch, dan enw Ieremïah, yn sylwi fel hyn—"Y mae rhai yn priodoli y dywediad hwn i Baruch, ac nid i Ieremïah, ond y mae yn awr yn adnabyddus dan enw Ieremïah." A cheir amryw anghreifftiau cyffelyb o'r un peth. Ond yn Nghynghor Florence, ac wedi hyny yn Nghynghor Trent, trwy lawer o anhawsder, cafodd ei ddyfynu fel llyfr gwahanol. Dadleua Whiston yn gryf dros ganoneidd-dra y llyfr hwn; ac yn mysg ei resymau, y mae y rhai canlynol:—Fod Origen yn ei ddyfynu gyda'r ffurf arferol wrth ddyfynu yr Ysgrythyrau—"Ysgrifenwyd;" fod tystiolaeth Origen wedi ei chofrestru gan Eusebius, yr hon sydd i'r perwyl fod yr epistol sydd yn *Baruch* vi. yn cael ei gydnabod gan yr Iuddewon; ac y cadarnheir yn y "Sefydliadau Apostolaidd" fod Llyfr Baruch yn cael ei ddarllen yn y synagogau, ar y degfed dydd o fis Gorpioeus. Dywed Calmet, ar y llaw arall, fod ei ganoneidd-dra wedi cael ei wadu, nid yn unig gan Brotestaniaid, ond hyd yn oed gan luaws o'r Pabyddion. Ystyria fod Jerome yn trin y llyfr gyda gradd o anmharch, pan y dywed yn ei "Ragymadrodd i Ieremïah"—"Ni feddyliais ei bod yn werth fy nhrafferth i gyfieithu Llyfr Baruch, yr hwn a gyssylltir yn nhestyn y Deg a Thrigain â Ieremïah, na chwaith epistol annilys Ieremïah." Y mae y rhai a ystyriant Lyfr Baruch yn ddilys, yn ystyried yr epistol yn gau.

Digitized by Google

Y mae y nifer mwyaf o ysgrifenwyr Eglwys Rhufain—ac yn eu plith, Du Pin, a Calmet—yn ystyried yr epistol yn eiddo Ieremïah. Y mae Jahn yn barnu yr un modd a Jerome, ac yn ystyried y gwahaniaeth sydd rhwng ei arddull ag eiddo y prophwyd, yn nghyd â'i fod yn rhydd oddi wrth nodweddau Hebreig, yn rhesymau cryfion o blaid ei olygiad.

Dechreua y llyfr gyda rhagymadrodd hanesyddol, yn yr hwn y dywedir ddarfod i Baruch ddarllen y llyfr i'r alltudion yn Babilon, ac yn nghlywediġaeth Leconias, brenin Iudah, yr holl gedyrn, yr henuriaid, a meibion y brenin. Wedi clywed y llyfr, wylasant ac ymprydiasant ger bron yr Arglwydd, a gwnaethant gasgliad, ac anfonasant ef i Ierusalem, at Ioachim yr offeiriad, i brynu offrymau, a'u haberthu i'r Arglwydd. Dechreua llythyr yr alltudion at eu brodyr yn Ierusalem yn y ddegfed adnod o'r bennod gyntaf. Cynnwysa annogaeth iddynt weddïo dros frenin Babilon, a'r gaethglud—i gyfaddef eu pechodau, a gweddïo yn ol y ffurf a anfonasant iddynt. Nid yw yn eglur yn mha le y mae llythyr y gaethglud yn terfynu; ond gellid tybied mai yn *pen*. iii. 9:—yma, pa fodd bynag, y dechreua yr ymliwiad â'r genedl o herwydd eu hymadawiad â Duw. Yn y bedwaredd bennod, annogir y genedl i amynedd a dyoddefgarwch, ac i ymddiried yn ei Duw am ymwared. Yn ganlynol, annogir Ierusalem i lawenychu mewn ragolygiad ar ei gwaredigaeth a'i hadferiad, a chynnwysa *pen.* vi. "Epistol Ieremi."

1. BARZILAI, [ברזלי, *a wnaed o haiarn*]: brodor o Regolim, yn Gilead, yr hwn a ddangosodd garedigrwydd a ffyddlondeb mawr i'r brenin Dafydd, pan ffodd efe rhag Absalom ei fab, gan ddarparu lluniaeth a chyfreidiau i'r brenin a'i ganlynwyr: 2 *Sam*. xvii. 27, 28. Pan oedd Dafydd yn dychwelyd, wedi darostwng y gwrthryfel, Barzilai a'i hebryngodd dros yr Iorddonen; ond ni dderbyniai gynnygiad caredig y brenin, o fyned i aros gydag ef yn Ierusalem, eithr ymesgusodai o herwydd ei henaint, gan ei fod yn bedwar ugain mlwydd oed—ond cyflwynodd ei fab, Chimham, i sylw y brenin. Pan oedd yn troi adref, ymadawodd y brenin â'i hen gyfaill gyda'r serchogrwydd mwyaf; 2 *Sam*. xix. 31—41. Cofiodd Dafydd yn ei ddyddiau olaf am feibion ei hen gymmwynaswr, trwy orchymyn i Solomon wneuthur caredigrwydd iddynt: 1 *Bren*. ii. 7.

2. BARZILAI, y Meholathiad: a elwir felly, i'w wahaniaethu oddi wrth y Gileadiad: tad Adriel, gŵr Merab, merch Saul, plant y rhai a fabwysiadwyd ac a ddygwyd i fyny, ar ol marw eu mam, fel y tybir, gan Michal, merch Saul, gwraig Dafydd. Cymharer 2 *Sam*. xxi. 8, â 1 *Sam*. xviii. 19.

3. BARZILAI: offeiriad a briododd ferch i Barzilai y Gileadiad, neu un o'i hiliogaeth, "ac a alwyd ar eu henw hwynt," gan fod y teulu yn dra anrhydeddus, o herwydd yr hen garedigrwydd a ddangosasid gan eu tad i'r brenin Dafydd yn ei drallod; ond drwy ryw anffawd neu esgeulusdra, collodd y gangen offeiriadol o'r teulu eu hachau, fel nas gellid eu derbyn i'r offeiriadaeth ar ddychweliad y genedl o gaethiwed Babilon: *Ezra* ii. 61—63; *Neh*. vii. 63—65.

BASAMATH, neu BASEMATH: merch Ismael, chwaer Nebaioth, a gwraig Esau: *Gen*. xxxvi. 3, 4, 13, 17. Efallai mai yr un ydoedd a Mahalath: *Gen*. xxviii. 9.

BASAN; a elwir hefyd gan rai awdwyr *Batanæa:* rhandir dra ffrwythlawn o Wlad Canaan, yr hwn a ddug Moses oddi ar Og, ac a roddwyd i hanner llwyth Manasseh: *Num*. xxxii. Cafodd yr enw oddi wrth fryn sydd yn ei ganol, yr hwn oedd yn enwog am ei dderw a'i borfeydd breision. Cynnwysai y rhandir hwn drigain o ddinasoedd caerog, heb law pentrefydd. Y crybwylliad cyntaf a gawn ni o'r wlad sydd yn *Gen*. xiv. 5. Wedi y caethgludiad, cafodd rhan o'r wlad yma ei galw *Batanæa*, tra y gelwid rhanau ereill, Trachonitis, Auranitis, a Gaulonitis; ac fe'n hysbysir gan Dr. Wilson, fod rhan o honi yn cael ei galw eto *Bathaniza*. Gwneir cyfeiriadau mynych yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd at y rhandir yma, a hyny yn neillduol ar gyfrif uchder ei fryniau, nerth a harddwch ei dderw, a brasder ei borfeydd: *Salm* lxviii 15; *Zech*. xi. 2, &c.

Rhydd Mr. Buckingham y darluniad canlynol o'r wlad, fel yr ymddangosai iddo ef a'i gydymdeithwyr:—"Parhäem i deithio dros yr ucheldir yma, gan ymlenwi o syndod wrth edrych ar y wlad odidog o'n hamgylch; ei dyffrynoedd breision a chynnyrchiol, a'i bryniau yn orchuddiedig gan goedwigoedd, yn cyflwyno ar bob llaw y golygfeydd mwyaf ardderchog y gellir dychymygu am danynt. Yn mysg y coed, gwelid y dderwen yn fynych; ac yr ydym yn gwybod eu bod yn cael eu cynnyrchu yn yr ardal yma yn yr hen oesoedd, canys fe'u crybwyllir mewn cyssylltiad â mawr gyfoeth Tyrus, a'i gogoniant morwriaethol—"Gweithiasant dy rwyfau o dderw o Basan;' *Ezec*. xxvii. 6. Y mae yn wir fod rhai esbonwyr dysgedig, gan farnu na thyfai derw yn y parthau hyn, a gyfrifid ganddynt hwy yn ddiffaethwch, wedi cyfieithu y gair yn *wern*, er attal ymddangosiad o anghywirdeb yn yr ysgrifenydd sanctaidd. Heb law hyny, ymddangosai yr ymadrodd, "gwrdd-deirw Basan," yr hwn a ddefnyddir yn yr Ysgrythyrau, yn llawn mor anghymhwys i'w arfer am anifeiliaid gwlad a gyfrifir yn gyffredin yn anialwch, megys y darlunir yr holl randir rhwng yr Iorddonen a'r Euphrates, yn y mapiau diweddar; ond y gallai eu perchenogion hefyd fod yn enwog am nerth a phrydferthwch personol. Yr oedd arwyneb cyffredinol y fro yma yn gwelläu fel yr elem iddi, a phob cyfeiriad newydd i'n llwybr yn agor arnom olygfeydd a'n synent ac a'n swynent gan eu godidogrwydd," &c.

BASCA, BASCAMA: tref oedd bon yn agos i Bethsan, lle y lladdwyd Jonathan Maccabeus: 1 *Mac*. xiii. 23

BASDARDD, neu BASTARDD [*bas—tardd*]: yr hyn sydd o darddiad isel, dirmygus; un wedi ei eni allan o'r ystâd briodasol. Gellid meddwl mai o'r Gymraeg y cafwyd y gair Seisoneg, *bastard*. Yn *Deut*. xiii. 2, y mae "basterddyn" yn gyfieithiad o ממזר (*mamser*), yr hwn a arwydda "un wedi ei eni yn llygredig," medd Parkhurst; hyny yw, yn anghyfreithlawn—εκ πορνης, yn ol y Deg a Thrigain. Mae Michaelis yn gwneyd y gair Hebraeg yn ddau air, ac yn gwneyd i'w hystyr fod yn *ystaen*, neu *ddiffyg*, gan feddwl yr anfri a deflid ar y genedl trwy ganiatau yr un breintiau i ddyeithrddyn ag iddynt eu hunain. Bernir yn fwy cysson i gymhwyso y gair at hiliogaeth y puteiniaid eilunaddolgar a drigent yn nherfynau Palestina, y rhai oeddynt fath o offeiriadesau i'r dduwies Astoreth (*Num*. xxv. 1; *Hos*. iv. 14, &c.) Y mae y gair Hebraeg uchod yn cael ei gyfieithu


Digitized by Google

yn *Zech.* ix. 6, "estron;" yn y Deg a Thrigain, *αλλογενεῖς*.

Yr oedd bastardiaid yn mhlith y Groegiaid yn cael edrych arnynt yn ddirmygus, ac yn agored i waradwydd cyhoeddus, ar gyfrif eu tarddiad anghyfreithlawn. Ac yn Persia, nid oedd mab yr ordderchwraig yn cael ei olygu yn gydradd â phlentyn cyfreithlawn: buasai unrhyw ymgais oddi wrth y tad i wneyd hyny yn cyffroi teimladau holl berthynasau y wraig gyfreithlawn. Y mae y rhagor gofal a ddangosid yn gyffredin at blant cyfreithlawn yn cael ei dybied gan yr apostol yn *Heb.* xii. 7, 8; "Os heb gerydd yr ydych, o'r hwn y mae pawb yn gyfranog, yna bastardiaid ydych, ac nid meibion."

BASGED, [*basg*=rhwydwead, plethwaith]: cawell; llestr wedi ei wneuthur o wiail neu ddellt, trwy eu plethu yn nghyd. "Basged cleddyf" a arwydda y dodir y cleddyf ynddi. Ceir amryw eiriau yn yr Hen Destament yn gosod allan wahanol fathau o fasgedau; megys, yn

1af. דוד (*dud*). Dygwydda y gair hwn yn 2 *Bren.* x. 7, lle y dywedir fod penau meibion Ahab wedi eu hanfon o Samaria i Iezreel mewn basgedau: yn *Ier.* xxiv. 2, lle y cyfieithir ef "cawell," yr hwn a ddaliai ffigys: ac yn *Salm* lxxxi. 6, lle y darllenir ef "crochanau"—Saes., *pots;* "ei ddwylaw a ymadawsant â'r crochanau;" mewn cyfeiriad at wasanaeth caled meibion Israel yn yr Aipht. Wrth y "crochanau" hyn y deallai Horsley, y llestri mawrion a ddefnyddient i gymmysgu y clai; ond barna Michaelis a Parean, mai y cawellau a arferent i gario clai i wneuthur y priddfeini oeddynt. Ac y mae yn fwy tebyg mai rhyw fasgedau i'w cludo oeddynt, ac nid llestri i aros yn yr un man. Darllena y Deg a Thrigain y gair Hebreig yn *κοφινω*, a'r Vulgate, *cophino;* y rhai sydd yn y ddwy iaith yn arwyddo yn ddiwahaniaeth y fasged a gludid gan deithwyr. Dywed Diodati fod yr ymadrodd, "Ei ddwylaw a ymadawsant â'r crochanau," yn gyfystyr â phe dywedasid, "Rhyddhawyd ei ddwylaw oddi wrth gludo clai." Sicrheir fod y beichiau a gludid yn yr Aipht yn gyffredin yn bur drymion. Cludid yd mewn cawellau mawrion, o'r maes i'r llawr dyrnu, ac o'r llawr dyrnu i'r ysguboriau. Dygid hwy rhwng dau o ddynion, dan bolyn ar eu hysgwyddau, fel y dangosir ar gerfluniau Aiphtaidd.




Dar. 114.

Cytuna hyn â'r frawddeg flaenorol i'r un a ddyfynwyd; "Tynais ei ysgwydd oddi wrth y baich." Y mae ffurf y fasged hon yn cytuno yn gwbl âg ystyr yr enw Hebreig דוד, yr hwn, yn lle y cyntaf, medd Parkhurst, a arwydda "bronau merch," fel yn *Ezec.* xxiii. 3, 8, 21; ac yna, "math o lestr ar ffurf ledgrwn, neu yn taflu allan," fel yr arddangosir y fasged yn y darlun uchod.

2il. טבא (*teba*), a ddygwydda mewn cyssylltiad â llafur amaethyddol; megys, "dy gawell a'th does," a'r cawell blaenffrwyth (*Deut.* xxvi. 2—4; xxviii. 5—17), ac ydoedd, y mae yn debygol, yn gyffelyb i'r un uchod.

3ydd. כלוב (*celub*). Arwydda y gair hwn, pan yn ferf, "uno neu wau pethau â'u gilydd;" ac yn yr Arabaeg, arferir ef am wnïo dau groen yn nghyd gyda chareiau; ac yn gydweddol âg ystyr y ferf, pan y mae yn enw, arwydda fasged wedi ei phlethu o ddail neu wiail. Yn *Amos* viii. 1, 2, dynoda fasged wedi ei gwau o wiail tyner. Ceir darluniau o'r rhai hyn yn hen gerfiadau yr Aiphtiaid, ac a arddangosir yn ffugrau 2 a 4 o'r darlun hwn. Yn *Ier.* v. 27, cyfieithir ef "cawell"



Dar. 115. Basgedau Aiphtaidd henafol.

=adardy, yr hwn oedd yn rhwydwaith agored, nid annhebyg i'r cawellau gwiail a ddefnyddir genym ni i'r un pwrpas. Gellir tybied, pa fodd bynag, wrth gymhariaeth y prophwyd yn y lle hwn, fod y gair yn gosod allan fath o gawell i ddenu a rhwydo adar, ac nid un wedi ei fwriadu yn adardy parhaus; "fel cawell yn llawn o adar, felly y mae eu tai hwy yn llawn o dwyll." Cyfeirir yma, medd Blaney, at yr hud-gawell, yn yr hwn y gosodai adarwyr amryw adar dofion, er mwyn denu y lleill i'r rhwyd a ddarparesid iddynt.


4ydd. סלסלות (*salsiloth*), a ddynoda fasgedau mawrion, yn y rhai y pentyrid amryw bethau ar eu gilydd. Y rhai hyn a arferid gan gasglwyr grawnwin. Ceir y gair yn *Ier.* vi. 9; y lle yr arwydda y basgedau y rhoddid y grawnwin ynddynt, pan y byddent yn eu casglu hwynt. Y gair סל (*sal*), o'r un gwreiddyn a *salsiloth*, a gyfieithir "cawell" yn *Gen.* xl. 16, 17, 18. Arddangosir ffurf y rhai hyn ar gofadeiliau yr Aiphtiaid, ac y maent yn lled debyg i'r ffugr 4, dar. 115. Yn yr holl fanau ereill, lle y cyfarfyddir â'r gair *basged*, yr ydys i feddwl math o fasged wedi ei gwneuthur o frwyn neu hesg; yn gyffelyb, medd Kitto, i'r rhai a ddefnyddir gan seiri yn y wlad hon i gario eu harfau. Y fasged hon a arferir yn gyffredin hyd yn hyn yn Asia Orllewinol; ac y mae un o honynt, yn yr hon yr oedd arfau saer, yn nghadw yn y British Museum: dygwyd hi o feddrod yn Thebes, No yr hen Aipht, yr hyn a brawf ei bod yn adnabyddus gan yr Aiphtiaid yn y cyn-amseroedd (ffugr 1, dar. 115).

Gellir gweled, hefyd, fod yr Aiphtiaid yn hynod o fedrus yn y gelfyddyd o weithio basgedau. Arddengys y ffugrau 3 a 5, o'r dar. 115; a 2 a 7 o'r dar. canlynol, rai o honynt wedi eu lliwio yn dra phrydferth.

Yn *Math.* xvi. 9, 10, y mae y geiriau *κοφινος* a *σπυρις* yn cael eu cyfieithu "basgedaid" a "chawellaid," yn y testyn Cymreig:—*cophinus* a *sporta*,

Digitized by Google

yn nghyfieithiad Lladin Beza: a chedwir y gwahaniaeth rhwng y ddau air gwreiddiol yn mhob cyfieithiad braidd, oddigerth y Seisoneg—*basket*



Dar. 116. Basgedau dwyreiniol diweddar.

ydyw yno yn y naill a'r llall. Darllena y Dr. Campbell, yn ei gyfieithiad ef o'r Efengylau, *basket and maund*=basged a llawfasged. Y mae yn sicr fod gwahaniaeth rhwng y basgedau yn y ddwy wyrth, er fod yn dra anhawdd dyweyd pa beth oedd. Y mae y ddau air yn cael eu defnyddio mor ofalus gan yr hanesydd (*Mat.* xiv. 20; xv. 37) ag ydynt yma gan Grist. Y mae y gair *κοφινος* wedi achlysuro mwy o ddadl nag a feddyliasid; dyrysir y beirniaid gan y ffaith a adrodda Juvenal [*Sat.* iii. 14] fod y *cophini* wedi eu bwriadu i gario gwair. Y mae yn debygol fod y gair *κοφινος* mewn cyssylltiad â'r wyrth, naill ai fel y tybia Buxtorf, y cyfryw fasgedau ag oeddynt er yr amseroedd boreuaf yn rhan o lestri teuluaidd yr Iuddewon (*Deut.* xxviii. 5); neu, fel y tybia Reland a Schleusner, y cyfryw fasgedau ag a ddygid gan yr Iuddewon i'w canlyn pan yn teithio gwlad genedlig, i gario eu bwyd, rhag eu haflanhau â bwyd aflan. Carient wair gyda hwynt, fel y tybir, i wneyd gwely. Ond nid yw yn debyg y gallai y basgedau hyn gynnwys digon o wair i'r perwyl hwnw; a bod y rhai a grybwylla Juvenal yn gawellau mawrion, fel a arferid gan rai o'r Iuddewon y pryd hyny i gario amryw nwyddau gwerthadwy.

Yn adroddiad Luc am ollyngiad Paul dros, neu drwy agen yn y mur (*Act.* ix. 25), defnyddir y gair *σπυρις*=basged; ond arfera Paul (2 *Cor.* xi. 33) air arall—*σαργανη*. Arwydda y cyntaf, y basgedau a arferid i gadw grawn, neu fwyd; defnyddid hi hefyd, medd Herodotus, i ddal pysgod. Y mae y gair diweddaf yn gosod allan mai basged wedi ei gwau o reffynau oedd.—(*Parkhurst; Campbell; Bloomfield; Kitto, &c.*)

1. **BASIL**, a enwir yn gyffredinol St. Basil, a Basil Fawr, oedd un o'r tadau eglwysig. Ganwyd ef yn y flwyddyn 326, yn ol rhai, yn 329, yn Cesarea, yn Cappadocia. Enw ei dad oedd Basil a'i fam Emmelcia. Addysgwyd ef gan ei dad mewn llenyddiaeth yn ei flyneddoedd boreuaf; ac anfonwyd ef wedi hyny i Antiochia a Chaer Cystenyn, i astudio dan arolygiaeth Libanius. Barna rhai, pa fodd bynag, oddi wrth lythyrau Basil a Libanius, mai cydysgolorion oeddynt, ac nid dysgybl ac athraw. Gorphenodd Basil ei efrydiau yn Athen, y lle y daeth yn gydnabyddus â Gregory Nazianzum, a Julian, ar ol hyny yr ymherawdwr. Dychwelodd i'w wlad enedigol yn B. A. 355, y lle yr ymddengys iddo dreulio rhan o'i amser fel athraw areitheg, a dadleuydd. Yn lled fuan, tueddwyd ei feddwl gan awydd-fryd crefyddol, i ymweled â mynachlogydd diffaethleoedd Syria, yr Aipht, a Lybia. Gwnaeth dulliau y meudwyaid o fyw argraff mor ddwys ar feddwl Basil, fel ar ei ddychweliad, er ei fod wedi ei neillduo gan yr esgob i fod yn "ddarllenydd," yr ymddidolodd i fan neillduedig yn rhalaeth Pontus, ac yr ymgymmerodd â bywyd meudwyaidd. Ymunodd ei frodyr, ac amryw gyfeilllon, ág ef yn fuan, a dilynasant ei esampl, a rhoddodd yntau iddynt amryw reolau i'w cyfarwyddo pa fodd i ddilyn y bywyd mynachaidd. Sefydlwyd amryw drefedigaethau crefyddol ganddo ar derfynau y Mor Du, ac edrychir arno fel tad pob sefydliad cyffelyb oedd yn Pontus a Cappadocia. Parhaodd ei fywyd mynachaidd am o ddeutu deuddeng mlynedd, ond torid ar ei dawelwch yn fynych gan ryw alwadau neu gilydd. Ymneillduodd o gymmundeb â'r esgob Dianius, am yr ammheuid cywirdeb ei olygiadau athrawiaethol. Ordeiniwyd ef yn offeiriad gan Eusebius, olynydd Dianius yn yr esgobaeth; ond o herwydd rhyw anghydwelediad rhyngddynt, aeth Basil drachefn i'w hen fynachlog. Ymheddychodd, pa fodd bynag, yn mhen o ddeutu tair blynedd, ág Eusebius; ac ennillodd y fath barch a dylanwad, fel, ar farwolaeth Eusebius, y dewiswyd ef yn olynydd iddo. Gan gynted ag y cyfodwyd ef i'r esgobaeth, arferwyd pob moddion gan Valens, yr ymherawdwr, i'w gael i gofleidio daliadau yr Ariaid, i'r rhai yr oedd ef a Gregory Nazianzum yn cael eu hystyried yn brif wrthwynebwyr; ond gwnaed ei holl geisiadau yn an effeithiol gan ddiysgogrwydd yr esgob. O ddeutu yr amser hwn yr arferodd ei holl ddylanwad i geisio rhoddi terfyn ar y ddadl oedd yn blino yr eglwys o barth i'r *Tres Hypostases*=y Tri Pherson; ond yn aflwyddiannus y trôdd ei ymyriad. Bu ganddo law hefyd yn y dadleuon a'r ymrafaelion a gyfodasant oddi wrth y rhaniad a wnaed gan yr ymherawdwr ar Cappadocia i ddwy dalaeth. Ceisiai Anthimus, esgob Tyana, prifddinas y dalaeth newydd, helaethu ei therfynau, yr hyn a wrthwynebid gan Basil; ac mewn trefn i sicrhau terfynau ei esgobawd ei hun, gwnaeth dref fechan Zazime yn esgobawd, a rhoddodd hi i'w gyfaill Gregory Nazianzum. Ond cymmerodd Anthimus feddiant o honi o'i flaen, ac nid oedd Gregory yn hoffi y lle; a phe buasai yn ei hoffi, ni buasai ei dymmer hynaws a heddychol yn goddef iddo ymrafaelio am dani. Llanwyd y gweddill o'i fywyd gan ddadleuon; cymmerodd ran fawr yn mhrif ddadleuon ei oes. Bu farw yn nechreu y flwyddyn 379. Yr oedd ganddo bedwar o frodyr—Gregory, esgob Nyssa; Pedr, yr hwn oedd hefyd yn esgob; a'r ddau ereill oeddynt fynachod.

Y mae enwau Basil, Gregory Nyssa, ei frawd, a Gregory Nazianzum, yn gyssylltiedig mewn hanesiaeth eglwysig, o herwydd eu hundeb â'u gilydd yn erbyn Ariaeth. Yr oeddynt eu tri yn ganlynwyr i Origen ac Athanasius: pleidient ddull ysbrydol y cyntaf o feddwl, a gwnaent eu goreu i hyrwyddo ei egwyddorion o barth i feirniadaeth ysgrythyrol. Y mae enw Basil, fel y sylwyd, yn adnabyddus yn ei gyssylltiad â mynachaeth. Y mae y rheolau a ffurfiodd mewn grym, ac yn cael eu cadw yn ofalus hyd yn bresennol. Y mae Eglwys Groeg yn ei anrhydeddu fel un o'i seintiau noddawl mwyaf enwog, ac yn cadw gŵyl goffadwriaethol iddo ar y cyntaf o Ionawr, sef y diwrnod o'r flwyddyn y bu farw. Y mae ei ganlynwyr yn lluosog yn y dyddiau presennol. Y maent yn dilyn bywyd llym a

Digitized by Google

manwl; a'r addunedau o ufudd-dod, diweirdeb, a thlodi, a ffurfiwyd ganddo ef, ydynt y rhai sydd mewn bri yn barhaus gan holl urddau yr Eglwys Babaidd; ond edrychir arno ef yn fwy arbenig fel tad yr urddau sydd yn y dwyrain, yr un modd ag ar Benedict fel sylfaenydd yr urddau sydd yn y gorllewin. Ond er ei fod yn un o sylfaenwyr mynachaeth, y mae ei olygiadau ar hyny yn cael eu nodweddu gan sobrwydd a synwyr, a chan ysbryd tra efengylaidd. Nid yw yn arganmawl pob ffurf o fynachaeth yn ddiwahaniaeth. Rhydd y flaenoriaeth, er esampl, i fywyd cyffredin a chyfeillgar y Cenobiaid ar fywyd neillduedig yr Anchoriaid. "Y mae bywyd cwbl feudwyaidd," meddai, "yn milwrio yn erbyn nodweddiad hanfodol y cariad a berthyn i Gristionogaeth; o blegid yma (yn mywyd yr Anchoriaid) y mae pob un yn gofalu yn unig am yr hyn sydd yn dal cyssylltiad â'i fuddioldeb ei hun; tra y mae hanfod cariad Cristionogol yn cymhell dyn i geisio, nid yn unig yr hyn a wasanaetha i'w fantais ei hun, ond hefyd daioni ereill. Ychwaith, nis gall y cyfryw un yn hawdd ddyfod i wybodaeth am ei wendidau a'i ddiffygion ei hun, o blegid nid oes ganddo neb i'w argyhoeddi gyda chariad a boneddigeiddrwydd. Y mae yr hyn sydd ysgrifenedig yn *Preg.* iv. 10, yn dra phriodol at achos y cyfryw un; 'Gwae yr unig, canys pan syrthio efe, nid oes ganddo ail i'w gyfodi.'" Ac y mae y rheolau mynachaidd a ffurfiodd yn gwbl unol â'r egwyddor hon. Caniateir a chanmolir ynddynt y swyddau hyny na osodent y mynachod dan orfodaeth i fyw yn rhy ddyeithr i'w gilydd; ac ar y llaw arall, yr oeddynt i ymgadw rhag y pethau a'u tueddai at afradlonedd, neu a gynhyrfai eiddigedd ynddynt at eu gilydd. Yr egwyddor y mae y rheolau yn arwain ati ydyw tawelwch, neu seibiant—yn rhydd ar y naill law oddi wrth unigedd, ac ar y llaw arall oddi wrth y drafferth, y cynhwrf, a'r eiddigedd y mae ysbryd y byd yn naturiol yn eu cynnyrchu. Y mae y rheolau hefyd yn cynnwys fod gweddi, darlleniad yr Ysgrythyrau, a chanu mawl, i gael eu cymmysgu â llafur corfforol.

Cymmerodd Basil ran yn y dadleuon yn erbyn yr Ariaid, a dysgyblion Macedonius, o barth i'r Drindod, personoliaeth yr Ysbryd, &c. Am yr Ysbryd, myntumiai Arius ei fod yn dal yr un berthynas â'r Mab ag y mae y Mab yn ei ddal â'r Tad; sef mai efe ydyw y creadur cyntaf a wnaed gan y Mab. Gwrthwynebwyd yr heresi hon yn gyntaf gan Athanasius, ac yn ganlynol gan Basil, a'r ddau Gregory. Ac ymddengys mai bychan iawn oedd nifer y dysgawdwyr eglwysig yn eu hoes hwy a feddent syniadau eglur a chywir am y gwirionedd hwn. Ni phenderfynodd Cynghor Nice ddim o barth natur yr Ysbryd Glân. Yr oedd Lactantius yn gwneyd y Mab a'r Ysbryd yn un person. Ystyriai ereill yr Ysbryd yn feddiannol ar bersonoliaeth, ond barnent ei fod islaw y Tad a'r Mab. Yr oedd rhai yn galw yr Ysbryd yn ενεργεια=gweithrediad neu allu; ereill yn ei ystyried yn ddim ond gras; ereill, yn greadur; "ac ereill," medd Gregory Nazianzum, "yn anmhenderfynol pa olygiad i'w dderbyn, yn unig oddi ar barch i'r Ysgrythyrau, am nad ydynt hwy yn addysgu dim yn eglur ar y mater." Dywed Eusebius o Cesarea am yr Ysbryd, "mai efe yw y cyntaf o'r bodau rhesymol, ond ei fod, er hyny, yn perthyn i'r Drindod." Dygwyd yr athrawiaeth hon i oleuni gan Athanasius, yr hwn a wrthwynebodd yn llwyddiannus y dychymygion a gynnygiwyd yn flaenorol i'w heglurhau; a chyfansoddodd Basil draethawd ar "Yr Ysbryd Glân," a chyfeiriodd ef i Amphilochius, esgob Iconium. Yn y traethawd hwn, dadleua y dylid galw yr Ysbryd yn Dduw; a dug brofion dros hyn o'r Ysgrythyrau, ac appelia yn neillduol at y ffurf o fedydd, yn yr hon y mae yr Ysbryd yn cael ei enwi gyda'r Tad a'r Mab. Llefara yn hyawdl am bwysigrwydd ymarferol yr athrawiaeth am yr Ysbryd fel sancteiddydd y galon. Yn atebiad i'r wrthddadl fod yr Ysbryd yn cael ei alw yn "rhodd," a "dawn," y mae yn sylwi fod y Mab hefyd yn cael ei alw yn "rhodd Duw." Nid yw golygiadau y ddau Gregory yn wrthwyneb ar yr athrawiaeth hon i'r eiddo Basil; eto y maent yn cynnwys rhai rhesymau ac eglurhadau na ddywedwyd ganddo ef. Y mae Gregory o Nyssa yn chwilio am berthynas y Mab a'r Ysbryd oddi wrth berthynas "gair" âg "anadl" mewn dyn; eto, nid yw fel Lactantius, yn gwneyd y Gair a'r Ysbryd yr un person. Y mae Gregory Nazianzum yn myned mor bell, fel ag i addef nad yw Duwdod yr Ysbryd yn cael ei ddysgu yn eglur yn yr Ysgrythyrau; ac yn ngwyneb hyny, y mae yn profi yr athrawiaeth gyda'r drychfeddwl o ddadguddiad graddol:—"Y mae yr Hen Destament," meddai, "yn gosod allan berson y Tad mewn goleuni eglur, ond y Mab mewn goleuni aneglur: y mae y Newydd yn dadguddio y Mab, ond nid yw ond yn awgrymu Duwdod yr Ysbryd; ond yn awr y mae yr Ysbryd yn preswylio yn ein mysg, ac yn dadguddio ei hun yn fwy eglur."

Yr oedd deilliad yr Ysbryd, yr un modd a'i Dduwdod a'i bersonoliaeth, yn destyn dadl yn oes Basil. Gadawodd canonau Cynghor Caer Cystenyn y cwestiwn yn anmhenderfynol. Dywedir yn fynych yn ngweithiau rhai o'r tadau, fod yr Ysbryd yn deilliaw o'r Tad; ond ni wneir un crybwylliad am ei berthynas a'r Mab. Yr oedd y tadau Lladinaidd yn addef y naill a'r llall, ac yn enwedig Awstin. Yr oedd Theodore o Mopmetia, a Theodoret, ar y llaw arall, yn gwadu deilliad yr Ysbryd o'r Mab. Y mae y tadau Groegaidd, a Basil yn eu mysg, yn dadgan eu crediniaeth yn neilliad yr Ysbryd o'r Tad, ac yn gadael ei ddeilliaid o'r Mab heb ei addef na'i wadu.

Gellir hefyd ystyried Basil yn un o'r tadau a ddygodd athrawiaeth y Drindod i fwy o oleuni a threfn nag y buasai o'r blaen yn yr eglwys er dyddiau yr apostolion; yr hyn a wnaeth efe, yn nghyd âg Athanasius, y ddau Gregory, Awstin, Leo Fawr, ac ereill, drwy chwilio i'r berthynas y mae y personau yn ei dal â'r Duwdod, ac â'u gilydd; a thrwy chwilio i mewn i ystyr y geiriau a arferid yn y ddadl, megys *ουσια, υποστασις*, ac ereill.

Yr oedd Basil, fel y mwyafrif o'r dysgawdwyr Groegaidd oeddynt yn cydoesi âg ef, yn myntumio golygiadau lled rydd am y pynciau o lygredigaeth y natur, rhyddid yr ewyllys, a'r cyffelyb. Credent fod y pechod cyntaf wedi effeithio er niwed dirfawr ar yr hil ddynol, mewn ystyr naturiol a moesol; ond yr oeddynt yn mhell oddi wrth gredu yn llwyr lygredigaeth y natur, a chaethiwed yr ewyllys gan bechod. Daliai hyd yn oed Athanasius, yr hwn a elwid yn dad iawngrededd, fod gan ddyn allu i ddewis rhwng da a drwg; ac yn hytrach na chredu llwgr cyffredinol y natur ddynol, edrychai ar luaws o bersonau oeddynt yn byw cyn dyfodiad Crist fel rhai cyfiawn. Ni ddiangodd Basil, mwy nag ereill, oddi wrth y lefain hwn; ac yr oedd yn naturiol iddo ddilyn Athanasius yn hyn fel mewn pynciau ereill. Dywedir ddarfod iddo draddodi araeth "ar rydd-



Digitized by Google

ewyllys" (*περι του αυτε ξουσιου.* Y mae rhai, y mae yn wir, yn ammheu hyn, a Garnier yn ei wadu a'i wrthod fel yn gwbl ddisail; ond y mae y rhai a chwiliasant y rhesymau o blaid ac yn erbyn, yn ddiweddar—megys Pelta Rheinwald—yn amddiffyn y golygiad. Y mae yn yr araeth hon, tra yn addef llygredigaeth dyn, yn cadarnhau fod yn rhaid i rydd-ewyllys y creadur a rhydd ras Duw gyd-weithredu â'u gilydd.

Yr oedd Basil, yn ol yr hanes a geir am dano, yn feddiannol ar y rhinweddau a'r cyrhaeddiadau oedd yn gydweddol â'r swydd y gosodwyd ef ynddi. Dywed un bywgraffydd iddo, mai yr unig frycheuyn oedd ar ei gymmeriad fel Cristion ac esgob, oedd y brycheuyn a anurddai esgobion y dyddiau hyny yn arbenig, ac sydd bob amser yn dueddol i swyddwyr uchel—sef balchder ysbryd. Yr oedd ei ddiysgogrwydd yn ngwyneb ceisiadau a bygythion Valens, pan orchymynodd iddo dderbyn yr Ariaid i gymundeb yr eglwys, yn arddangos ei gymmeriad mewn goleuni tra dysglaer. "Nid oes arnaf," meddai, "ofn dim. Nid oes genyf feddiannau i'm hysbeilio o honynt, oddi eithr fy llyfrau a fy mantell. Ni byddai alltudiaeth yn alltudiaeth i mi, am fod yr holl ddaiar yn eiddo yr Arglwydd. Os bygythir fy arteithio, syrth fy nghorff gwan dan y tarawiad cyntaf; ac os lleddir fi, dwg hyny fi yn nes at fy Nuw, am yr hwn yr wyf yn dyheu a hiraethu." Yr oedd Valens yn teimlo ei hun yn cael ei orfodi i ddangos parch iddo; a bu lawer gwaith ar fin ei gondemnio i alltudiaeth: ond nis gallasai, ac ni fynasai wneyd. Yr oedd crefydd, mawrfrydigrwydd, a dylanwad Basil yn rhoddi iddo awdurdod ar yr ymherawdwr ei hun. Dywedir ei fod, yn ei ragoriaethau fel awdwr, heb nemawr o'r tadau yn rhagori arno. Y mae ei arddull yn bur, tlws, a dyrchafedig; ac nid ydyw Erasmus yn petruso cyffelybu, ïe, rhoddi y flaenoriaeth, i'w hyawdledd ar yr eiddo Demosthenes ac areithwyr enwocaf Groeg. Yr oedd ei ddysgeidiaeth yn dra eang, yn cynnwys beirdd ac ysgrifenwyr rhyddieithol yr oesoedd boreuaf, yn gystal ag awdwyr ar athrawiaeth a dysgyblaeth Cristionogaeth. Ymresymai gyda mwy o fanylwch a grym na'r tadau yn gyffredin; ac y mae ei eglurhadau ysgrythyrol yn fwy naturiol a rhydd oddi wrth ddychymygion nag eiddo llawer o'i gydoeswyr.—(*Neander's Eccl. Hist.; Hagenbach's History of Doctrines.*)

2. BASIL: esgob Ancyra, a osodwyd yn yr esgobawd hono yn 336, gan yr esgobion oeddynt o blaid Eusebius, yn lle Marcellus, yr hwn a ddiswyddwyd ganddynt. Yn Nghynghor Sardica, esgymunwyd yntau, a chyhoeddwyd ei alwad i'r esgobawd yn ddirym; eithr daliodd ei afael ynddi er hyny. Yr oedd yn bresennol yn Nghynghor Sirmium, yn 351, a chymmerodd ran fawr yn y ddadl yno yn erbyn y cyfeiliornwr Photinus. Yr oedd yn wrthwynebwr cadarn i'r blaid hono o'r Ariaid (neu yr Ariaid Priodol) a wadai fod y Mab yn ddelw y Tad; ond ystyrir ef, a'r esgob Gergus o Laodicea, yn brif bleidwyr Hanner-Ariaeth; prif bwngc yr hon blaid oedd fod y Mab yn *ὁμοιουσιος*, neu yn gyffelyb i'r Tad yn ei hanfod; nid trwy, neu ar gyfrif naturiaeth, ond trwy ryw ragorfraint neillduol. Llwyddodd Basil i'r pwnc hwn gael ei sefydlu trwy awdurdod cynghor a gynnaliwyd yn Ancyra, yn 358. Bu llawer dadl o barth i'r pwngc hwn rhyngddo a'r Eudoxiaid a'r Acaciaid, yn mhresennoldeb yr ymherawdwr Constans, yr hwn a gymmerai gryn ddyddordeb mewn dadleuon cyffelyb. O'r diwedd, llwyddodd yr Acaciaid i'w ddiswyddo yn Nghynghor Caer Cystenyn, yn 360, ar ol dwyn lluaws o gyhuddiadau yn ei erbyn. Cadwodd ei esgobawd, pa fodd bynag, wedi y cwbl; a chyd-nabyddid ef yn esgob cyfreithlawn gan y dosbarth uniawngred. Ac yn wir, y mae athrawiaeth yr Hanner-Ariaid wedi cael eu hystyried gan amryw o'r beirniaid manylaf, heb fod yn gwahaniaethu ond yn unig mewn geiriau oddi wrth yr athrawiaeth a ystyrid gan yr eglwys yn uniongred. Nid yw yn sier pa bryd y bu Basil farw, ond tybir yn gyffredin mai o ddeutu diwedd teyrnasiad Irvian neu ddechreuad yr eiddo Valens. Hysbysa Jerome ddarfod iddo ysgrifenu llyfr yn erbyn Marcellus ei ragflaenor, *Ar Forwyndod*, ac amryw draethodau ereill; ond nid oes dim o'i awduriaeth ar gael yn bresennol. Gellir tybied oddi wrth ei hanes ei fod yn ddadleuwr medrus, a thra ymbleidgar.

BASILIDIAID, oeddynt ddilynwyr Basilides, yr hwn oedd yn byw yn hanner cyntaf yr ail ganrif. Prif faes ei lafur oedd Alexandria. Cadarnha Epiphanius mai brodor oedd efe o Syria—prif gartrefle y Gnosticiaid. Egwyddorion mawrion ei gyfundraeth oedd deilliadaeth a deuolaeth (*emanation and dualism*). Ystyriai y "Duw annadguddiedig, yr hwn sydd o reidrwydd goruwch amgyffrediad creadur" fel y Bod uchaf yn myd y deilliadau. Gan fod y rhif saith yn gyssegredig yn ei olwg, dychymygai fod y Goruchaf yn cenedlu neu yn cynnyrchu o'i hanfod ei hun, saith o fodau—*aions*—o'r naturiaeth fwyaf ardderchog a dyrchafedig; a chyfansoddai y deilliadau hyn, yn nghyd â'u hanfod wreiddiol, o ba un y tarddasant yr hyn a alwai *πρωτη ογδοας*, yr wythawd cyntaf, neu wreiddyn pob bodolaeth. Crewyd yr angelion uchaf gan allu a doethineb—y rhai oeddynt ddau o'r deilliadau; a'r angelion hyny, drachefn, a ffurfiasant bob un o honynt nef yn breswylfod iddo ei hun; a rhoddasant fodolaeth i angelion ereill o natur israddol i'r eiddynt eu hunain. Rhif yr angelion israddol ydyw 365, yn ol dyddiau y flwyddyn; ac enw eu penaeth ydyw Abracas. Tebyg i hyn ydyw yr adroddiad a rydd Irenæus, ac ereill: ond tybir nad oedd y tadau yn deall iaith allegawl Basilides; ac nad oedd yn meddwl dim amgenach wrth hyn na bod angelion diffynol wedi eu gosod ar holl ddyddiau y flwyddyn. Cadarnheir hyn drwy ddwyn yn mlaen y ffaith fod Basilides yn dra hyddysg mewn astronomyddiaeth, a gwyddorion ereill. Hyn oedd barn y Dr. Lardner, yr hwn a ddangosodd lawer o amynedd a medrusrwydd yn ei ymchwiliad i'r mater hwn. Ond nid yw Neander yn dangos dim petrusder o barth i adroddiad Irenæus, nac yn ei gyhuddo o esbonio yn llythyrenol yr hyn a fwriadodd Basilides i'w ddeall yn allegawl. Dywed am dano, "ei fod yn tybied fod 365 o raddau yn perthyn i'r byd ysbrydol."

Wrth y gair *aion*, yr oedd y Basilidiaid yn deall *bod;* ac felly, o fod yn gosod allan barhad bodau, daeth i gael ei arfer i ddynodi y bodau eu hunain. Gelwid y Bod Goruchaf *aion;* ac anrhydeddid yr angelion â'r un cyfenwad. Arweinia hyn i iawn ddealltwriaeth o'r gair yn yr ystyr y defnyddid ef gan y Gnosticiaid; o'r rhai nid oedd y blaid dan sylw ond un gangen. Dychymygasant, fel y sylwyd, am y byd anweledig fel yn cael ei gyfansoddi o ddeilliadau o'r Goruchaf, y rhai a ddilynant eu gilydd ar amserau penodol, fel ag i ffurfio cadwen dragwyddol—y ddolen ddiweddaf o'r hon yw ein byd ni. I'r bodau a ffurfient

Digitized by Google

y gadwen dragwyddol hon o fodolaeth, rhoddent dymmor penodol o barhad, a chylch neu sefyllfa neillduol o wasanaeth. Ar y cyntaf, gelwid y tymmor penodedig hwn yn *aion;* ond wedi hyny, mewn ystyr drawsfudol, rhoddwyd yr enw hwn ar y bodau eu hunain.

Y bodau, neu y deilliadau hyn, i'r rhai yr ymddiriedwyd llywodraeth y byd a grewyd ganddynt, a syrthiasant yn raddol o'u purdeb cyntaf, ac a arddangosasant arwyddion o adfeiliad a llygredigaeth; neu, yn ngeiriau un awdwr, cyfododd anghytundeb drwy gymmysgiad yr elfen dduwiaidd a'r un annuwiaidd â'u gilydd. Pa fodd y bu hyn, addefir fod cyfundraeth Basilides yn ddystaw yn ei gylch; neu fod y rhanau hyny o honi a gynnwysent ei syniadau ar y dirgelwch hwn yn anhysbys erbyn hyn, trwy fod amryw o'i ysgrifeniadau ar goll. Ar yr un pryd, y mae yn debyg fod yr un dychymygion, neu rai cyffelyb, yn cael eu coledd ganddo ef o barth i'r mater hwn, a chan y Gnosticiaid yn gyffredin: ond gan nad pa beth a allasai fod yr achos o'r gymmysgfa hon o oleuni a thywyllwch—o'r elfen dduwiaidd a'r un annuwiaidd—dysgai fod yn rhaid i'r tywyllwch fod yn wasanaethgar i'r goleuni, a chyflawnu cynlluniau y doethineb dwyfol; "o blegid nid yw teyrnas y tywyllwch yn ddim ynddi ei hun—y dwyfol sydd yn meddu bodolaeth wirioneddol; ac a fydd, o angenrheidrwydd, yn fuddugol."

Y mae elfenau gwrthwyneb i'w gilydd i'w cael yn nghyfundraeth Basilides. Ar y naill law, y mae y ddeuolaeth, a chymmysgiad y ddwy egwyddor, sydd yn athrawiaethau arbenig ynddi, yn cefnogi y meddylddrych am angenrheidrwydd naturiol yn penderfynu tynged dyn. Ar y llaw arall, cymmera drafferth fawr i roddi arbenigrwydd i'r syniad am gyfiawnder fel yn manwlbwyso haeddiant a drwghaeddiant; a phleidia y syniad am ewyllys rydd, yr hon sydd yn penderfynu cymmeriad a thynged dyn. Fel, yn mywyd dyn ar y ddaiar, y mae pob moment yn gyssylltiedig â'r un blaenorol, ac yn cael ei reoli ganddo yn ol y moddau gwahanol yr ymddyga ynddo yn ol ei rydd ewyllysiad ei hun; felly hefyd, medd Basilides, y mae bywyd pob dyn ar y ddaiar yn gyssylltiedig, yn nghwrs mawr y bydysawd (yr un peth a'r gadwen dragwyddol), â'r tymmorau blaenorol o fodolaeth, ac yn cael ei benderfynu ganddynt. Y mae pob dyn yn dwyn drygioni i'w ganlyn o ryw ystad flaenorol o fodolaeth: a rhaid iddo wneyd iawn am dano, a phuro ei hun oddi wrtho yn y bywyd presennol. Ac ar ei ymddygiadau yn ei fywyd daiarol y dibyna ei sefyllfa mewn ystad arall. At hyn, cymhwysai Basilides eiriau Moses am "ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant hyd y drydedd a'r bedwaredd genedlaeth." Gwelir felly fod trawsfudiad eneidiau yn cymmeryd lle mawr yn nghyfundraeth Basilides.

Yn ei syniadau ar lywodraethiad y byd, rhydd y lle uchaf i'r Goruchaf ei hun: o hono ef y tardd yr oll; efe yw yr achos cyntaf; ac arno ef y dibyna pob peth; ond dibynant arno, nid yn uniongyrchol, ond drwy gyfrwng dolenau afrifed cadwen bodolaeth. Oddi wrtho ef y mae y ddeddf sydd wedi ei phlanu yn naturiaethau pob bod yn dyfod; ac yn ol y ddeddf hon y mae cynnyddiant a dadblygiad pob peth yn y bydysawd yn cael ei effeithio; ac y mae yr *archon*, neu yr angel penaf, yn rhoddi cynbyrfiad i bob peth, ac yn eu dwyn i weithredu yn ol y ddeddf wreiddiol hon. Yr oedd Basilides yn amcanu, meddir, yn nghynlluniad ei gyfundraeth, i roddi arbenigrwydd parchus i ddaioni, sancteiddrwydd, ac uniondeb Duw mewn rhagluniaeth. Pa bryd bynag yr amgylchynid ei feddwl gan anhawsderau, wrth ymchwilio i drefn naturiaeth, byddai yn arfer dywedyd, "Dywedaf unrhyw beth yn gynt nag ammheu daioni rhagluniaeth."

Yr oedd syniadau y Basilidiaid am oruchwyliaeth yr Hen Destament yn mhell o fod yn arddangos y parch dyladwy iddi fel sefydliad dwyfol. "Yr oedd corff y genedl, yn ol eu tyb hwy, yn ystyried yr *archon* fel yr unig a'r goruchaf Dduw. Nid oedd neb yn eu mysg ond yr Israel ysbrydol yn gallu ymddyrchafu goruwch y bod hwn at y Duw mawr, yr hwn a ddadguddiai ei hun drwy y llall fel ei gyfrwng anymwybodol." Yr oedd eu golygiadau ar berson a gwaith prynedigol Mab Duw, yr un modd yn dra chymmysglyd a chyfeiliornus. Yr oedd adnabyddiaeth ddofn Basilides o ystad ysbrydol dynolryw, yn nghyd â'r ymwybyddiaeth a feddai ei hun o'i angen am ryddid i'r dyn oddi mewn, yn ei osod dan angenrhaid i roddi arbenigrwydd i athrawiaeth y prynedigaeth yn ei gyfundraeth. Ond deallodd hi yn dra anmherffaith. Selid ei ddamcaniaeth ar y mater hwn, medd Neander, ar honiad o'r Duwdod noeth yn Bryniawdwr, ac nid o "Dduw wedi ymddangos yn y cnawd." Nid oedd Iesu Grist yn wahanol oddi wrth ddynion ereill ond mewn gradd yn unig; ac ni chyfrifai Basilides fod sancteiddrwydd neu anmhechadurusrwydd yn perthyn o angenrheidrwydd i'w natur. Nid oedd "y dyn Crist Iesu" ond yn unig y cyfrwng a ddefnyddiodd y Goruchaf, yn ei gymmeriad fel Pryniawdwr, i ddadguddio ei hun i'r natur ddynol. Nid oedd un berthynas rhwng dyoddefaint Iesu Grist a gwaith y prynedigaeth, am na oddefa cyfiawnder i un ddyoddef dros arall. Ceisiodd rhai ddangos fod Basilides yn gwadu gwirioneddolrwydd dyoddefaint Crist: ond y mae dadleuon Clement o Alexandria yn ei erbyn yn gwneyd hyny yn gwbl annhebyg; a dywed yn bendant ei fod yn addef y dyoddefiadau mewn ystyr wirioneddol; a'i fod yn ystyried Crist yn llygredig, i'r dyben o amddiffyn y syniad nad yw Duw yn cospi neb ond pechadur.

Yr oedd Basilides yn gwahaniaethu oddi wrth y Gnosticiaid ereill yn ei olygiadau ar ffydd a gwybodaeth—*pistis* a *gnosis*. Tra yr edrychent hwy ar wybodaeth fel y radd uchaf o grefydd, ac yn wrthwynebol i ffydd, edrychai ef ar ffydd fel ansawdd uchaf y meddwl: hi ydyw sylfaen cymmundeb y saint; y mae yn ddarbwylliad neu argyhoeddiad yn cyfodi oddi wrth gymmundeb yr ysbryd â'r ysbrydol.

Yr oedd golygiadau Basilides am wyryfdod neu annyweddïaeth yn gymmedrol. Tra yr arganmolai fywyd asceticaidd a dibriod fel moddion; ni argymhellai y bywyd hwnw ar neb. Am briodas, syniai yn rhy isel a chnawdol. Dysgrifir ef gan yr haneswyr mwyaf credadwy fel cetnogydd grymus o bob rhinwedd; a dywedir y condemniai, nid yn unig gyflawniad allanol o un rhyw bechod, ond pob tuedd du mewnol at lygredigaeth. Addefir, er hyny, fod yn perthyn i'w reolau moesol amryw a roddai dramgwydd mawr i'r Cristionogion.

Ni feddyliai yn uchel am ferthyrdod nac am y merthyron. Ystyriai y cyntaf fel cosp am bechod; a'r diweddaf yn fwy pechaduriaid na dynolryw yn gyffredin. Haerai hefyd fod yn gyfreithlawn i ddyn guddio ei grefydd, a gwadu Crist, pan fyddai ei fywyd mewn perygl, ac i gyfranogi o'r

Digitized by Google

bwydydd a aberthid i eilunod. Gwel GWYBEDYDDION; ABRACAS.—(*Mosheim's Eccl. History; Neander's Hist. of the Christ. Church*, cyf. ii.; *Lardner's Heretics; Williams's Dict. of all Rel.*)

1. BASMATH, neu BASEMATH, [בשמת]: merch Elon yr Hethiad, a gwraig Esau: *Gen.* xxvi. 34.
2. Merch Solomon, a gwraig Ahimäas, un o swyddogion y llys: 1 *Bren.* iv. 15.

BATANIAID: enw a roddid weithiau ar yr Assassiniaid, oddi wrth y gair *batiniyeh=mewnol* neu *ddirgel*, am eu bod yn rhoddi meddwl dirgelaidd i destyn Coran. Gwel ASSASSINIAID.

BATES, WILLIAM, D.D: un o'r duwinyddion anghydffurfiol; mab i feddyg enwog ydoedd. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1625. Derbyniodd ei addysg yn mhrif ysgol Caergrawnt. Urddwyd ef o ddeutu y flwyddyn 1647, yn ol trefn yr Henaduriaid, a phenodwyd ef yn weinidog plwyf St. Dunstan in the West, Llundain. Yr oedd Dr. Bates, fel y rhan fwyaf o'i frodyr Henadurol, yn frwdfrydig dros adferiad Siarl II., am y credai, ar sail addewidion teg y tywysog ffoedig y cawsai y fath gyfnewidiadau eu gwneud yn nghyfansoddiad yr Eglwys Sefydledig, fel y gallasai yr Henaduriaid yn gystal a'r Esgobyddion gydymffurfio â'i rheolau, heb dreisio eu cydwybodau: ond wedi dwy flynedd o ymgynghori, cynnadleddu, a deisebu, cafwyd fod y brenin wedi troi yn anffyddlawn i'w addewidion, ac mai Esgobyddiaeth yn unig oedd i fod yn grefydd sefydledig, a bod ammodau cydffurfiaeth i gael eu gwneud yn gaethach, pe buasai lle, nag yr oeddynt yn nheyrnasiad Siarl I. Y canlyniad o hyn fu, i fwy na dwy fil o weinidogion anghydffurfio, a chael eu troi allan o'u heglwysi. Yn mysg y gweinidogion hyn, yr oedd llawer o'r dynion mwyaf dysgedig, doniol, a duwiol, yn y deyrnas; yn y rhes flaenaf o ba rai y cyfrifid Dr. Bates. Dywedir ei fod, o ran ei berson yn nodedig o brydferth; fel ysgolhaig, yn un o'r rhai rhagoraf; fel pregethwr, yr oedd yn alluog iawn, yn rhyfeddol o beraidd ei lais, yn medru egluro ei faterion â chyflawnder o gymhariaethau tarawiadol, ac yn gwisgo y cwbl a ddywedai yn yr iaith fwyaf pur a choethedig; fel Cristion, yr oedd ei dduwioldeb yn amlwg i bawb, a'i ysbryd rhydd a diragfarn yn ei wneyd yn anwyl gan bawb o blant Duw o bob enwad. Pe buasai yn cydffurfio, gallasai gael un o'r esgobaethau cyfoethocaf; ond dewisodd, yn hytrach na halogi ei gydwybod, fwrw ei goelbren yn mysg yr Anghydffurfwyr erlidiedig, a threuliodd weddill ei oes i weinidogaethu i gynnulleidfa o Ymneillduwyr Protestanaidd, yn heol Mary, Hackney, Llundain. Bu farw ar y 14eg o Gorphenaf, yn y flwyddyn 1699, yn y 74 flwyddyn o'i oed; a thraddodwyd ei bregeth angladdol gan yr enwog John Howe. Cyhoeddwyd ei holl weithiau duwinyddol yn un gyfrol unplyg yn y flwyddyn 1700, a thrachefn yn 1723, ac yn bedair cyfrol wythplyg yn 1815; ond dywedir fod yr argraffiad wythplyg yn hynod o wallus, a bod y golygydd wedi cymmeryd rhyddid anghyfreithlawn i gyfnewid llawer o frawddegau. Dywed y Parch. S. Palmer y byddai yn ddymunol i bob gweinidog ddarllen gweithiau Dr. Bates.

BATH, BATHIANT: metel wedi ei fathu, fel cyfrwng treiglaeth masnachol. Dywed rhai, fod y gair Seisoneg, *coin*, wedi tarddu oddi wrth y Groeg, κοινος; a myn ereill iddo gael ei foneid yn y gair Lladin, *cuneus;* ond y mae yn llawn mor debygol iddo darddu oddi wrth y Cymraeg, *cun*, neu *cain*, fel y deilliodd y gair *ceiniog*. Dywedir fod y defnyddiau hyn ar y cyntaf yn cael eu llunio ar agweddiad *cun*, drwy arferiad wedi ei gymmeryd oddi wrth y gair *cun* neu *dlws*.

Y mae yn amlwg fod trafnidiaeth yn cael ei dwyn yn mlaen yn oesoedd boreuol y byd trwy gyfnewidwriaeth eiddo, ac y mae yn nodedig i'w sylwi, nad oes yn rhanau cyntaf yr Ysgrythyr, nac yn nghaniadau Homer, ddim son am arian argraffol. Daeth darnau o fetelau, neu adwyn, o wahanol faintioli, i arferiad yn fore iawn mewn newidwriaeth. Dywed Herodotus mai y Lydiaid oedd y rhai a fathasant arian ac aur gyntaf. Dywed y Pariaid mai yr Æginetiaid, dan Pheidon, brenin Argos, 895 o flyneddoedd cyn Crist, oedd y rhai blaenaf yn y gwaith. Yr oedd breninoedd Persia, mor fore a Darius, yn bathu mwnau o aur ac arian.

Y mae y batholion o bob math yn gynnorthwyol iawn i hanesiaeth y byd, fel y mae y dyddiad sydd arnynt, a hanesion y breninoedd a gofnodant, yn llawer o eglurhad ar amseryddiaeth. Y maent mor wasanaethgar i'r hanesydd ag ydynt i'r hynafiaethydd. Y mae rhestr y rhan Rufeinig yn penderfynu dyddiad llawer o ddygwyddiadau sydd ar gof a chadw. Dywed Gibbon, pe collid yr holl haneswyr o'r byd, eto y byddai y batholion, y cerfiadau, a'r cofgolofnau sydd ar gael, yn gofnodion digon safadwy am deithiau Hadrian. Gellid ysgrifenu hanes teyrnasiad Probus oddi wrth ei fatholion yn unig, pe na buasai dim arall i'w goffa. Wrth egluro hanesyddiaeth cerfiadau, y mae batholion yn cynnorthwyo yr ysgolhaig i nodi allan newidiad eu hamserau a gwahanol ddulliau eu harferiad. Y mae batholion hefyd, mewn llawer amgylchiad, wedi taflu goleuni boddhaol iawn ar lawer o ymadroddion aneglur sydd yn ysgrifau amryw o'r athronwyr boreuol; ac yn cadw mewn hysbysiaeth, agweddiadau lliaws o adeiladau arddderchog sydd yn awr wedi adfeilio ac wedi malurio yn llwch. Y mae Addison yn ei *Ymddyddan ar Ddefnyddioldeb Batholion boreuol*, wedi dangos cyssylltiad agos y wyddoriaeth hon â barddoniaeth. Fel cangen o'r celfyddydau boreuol, yr oedd y gwaith hwn yn Sicily wedi cyrhaedd i raddau uchel o berffeithrwydd er yn fore iawn.

Dosberthir y batholion yn gyffredin gan ysgrifenwyr i rai boreuol a diweddar. Dosbarthant y rhai boreuol i'r rhai Groegaidd, Rhufeinaidd, a barbaraidd. Y mae y rhai Groegaidd yn goffadwriaethol am freninoedd ac am ddinasoedd. Y maent yn dechreu gydag Alexander Fawr, ac yn perthyn i bedair rhan ei ymherodraeth, yn nghyd â theyrnas Epirus. Y mae y rhai Rhufeinaidd yn cael eu dosbarthu yn dair rhan, neu dri math, yn perthyn i wahanol daleithiau. Dechreuodd y Rhufeiniaid fathu copr mor gynnar a thua phum can mlynedd cyn cred, yn nheyrnasiad Servius Tullius. Bernir iddynt hwy gael y gelfyddyd oddi wrth eu cymmydogion, yr Etrusciaid. Dechreuodd y Rhufeiniaid fathu arian yn y flwyddyn 266 cyn Crist. Cynnwysa y dosbarth barbaraidd fatholion Lydia, Persia, Iudea, Phœnicia, Numidea, Mauritania, Carthage, Yspaen, Gaul, a Phrydain. Dechreuodd yr Hebreaid fathu eu mwnau dan lywodraeth teulu y Maccabeaid, ac yn benaf yn amser Simon

Digitized by Google

yr archoffeiriad, tua'r flwyddyn 150 cyn Crist. Y maent gan mwyaf o gopr, ac o wneuthuriad anghelfydd iawn. Y mae batholion boreuol iawn wedi eu cael yn ein parthau ni, y rhai a briodolir i'r Rhufeiniaid yn gyffredin; rhai o aur ac arian, ac ereill o ddefnyddiau mwy cyffredin. Bernir i welliant ar y moldiau gael ei wneyd yn y wlad hon ar ol ail diriad Cæsar yma. Y mae ar y bathodyn hynaf y gwyddys am dano y gair SEGO yn argraffedig arno. Y mae enw Cynfelyn wedi ei fyrhau i CVN a CVNO, a CVNOBELI, ar rai boreuol iawn. Y mae batholyn i Buddug ar gael, brenines yr Iceni, a'r gair BODVO arno. Y mae batholion Caraucius ac Allectus o wneuthuriad hollol Frutanaidd.

Batholion Lloegr ydynt y rhai cyflawnaf a thecaf o'r holl rai diweddarol. Nid yw yn hawdd penderfynu pa bryd y darfu treigliad y batholion Rhufeinig yn y wlad hon. Y mae y rhai sydd ar gael o wahanol fathau o wneuthuriad ac o werth, a'r rhai hynaf yn dyddio o 500 i 700 O. C. Dywedir fod dimai Edward yr Hynaf yn nghasgliad y Bodleian yn Rhydychain yn awr. Y mae rhyw nifer ar gael, o'r bron, o bob oes a chyfnod, y rhai sydd wedi bod yn werthfawr iawn er profi a chyssoni hanes ac amseryddiaeth ein gwlad. Darganfyddwyd bathodyn o'r Gwaredwr yn Nhre'r Dryw, yn Mon, yn y flwyddyn 1702. Bernir iddo gael ei ddwyn o Rufain gan rai o deulu Bran Fendigaid, y rhai a anfonwyd yn garcharorion i Rufain, ac a ddychwelasant wedi eu rhyddhad. Anfonodd Rowlands, awdwr y *Mona Antiqua*, y dernyn hwn i Llwyd, ceidwad un o lyfrgelloedd Rhydychain. Y mae darlun o ben y Gwaredwr ar un tu; a'r geiriau, "Hwn y Iesu, y Gwaredwr," ar y tu arall. Y mae nifer o fatholion breninoedd Lloegr, bron o bob oes ar gael. Ar geiniogau Edward I. y mae EDW. yn argraffedig; ar yr eiddo Edward II., EDWA, ac EDWAR, ac EDWARD; ac ar rai Edward III., EDWARDVS—wrth yr hyn eu gwahaniaethir. Y mae nifer o'r rhai hyn oll wedi eu darganfod o bryd i bryd yn Nghymru. Y mae dull gwneuthuriad y batholion yn gwella yn barhaus, fel y mae y dyddiad yn dyfod yn ddiweddarach. Henry III. a orchymynodd i ddarnau grôt gael eu bathu gyntaf; Henry VII. a drefnodd y swllt gyntaf yn 1503. Y mae y bathiant yr aur a'r arian wedi bod yn sefydlog, o ran eu pwysau, er amser y frenines Elizabeth.

Y mae y deddfau perthynol i arian wedi bod yn mhob oes yn amddiffynol i'w purdeb; a chadwyd yr hawl o wneyd meteloedd yn foddion treiglaeth mewn masnach yn fraint berthynol i'r goron yn unig. Yn ol y ddeddf 2 William IV., yr oedd pob un a brofid yn euog o wneyd arian drwg i gael ei alltudio o'i wlad am ei oes, neu o leiaf am ysbaid heb fod yn fyrach na saith mlynedd. Yr oedd cosp benodol hefyd ar y neb a liwiai neu a olchai rai o fatholion y deyrnas, megys euro rhai copr neu arian, i basio fel aur; sef cael eu halltudio am bedair blynedd ar ddeg, neu eu carcharu am dair blynedd; ac yr oedd cosp gyffelyb ar y neb a grafai ddim o'r defnydd, er ei ysgafnhau, i'r dyben o elwa ar y llwch aur. Trwy ddarpariad yr un ddeddf yr oedd cosp gyffelyb am gynnyg neu basio arian drwg; a'r un modd am feddiannu tri neu chwaneg o ddarnau drwg ar yr un pryd. Yr oedd hefyd yn gosod cosp benodol ar y neb y byddai yn ei feddiant y moldiau neu yr offerynau arferol yn ngwneuthuriad yr arian bathol. Gan mai cynnrychioli eiddo neu feddiannau y mae batholion y deyrnas, y mae y gofal mwyaf, a'r cospau llymaf, yn cael eu gweinyddu yn mhob teyrnas ar y troseddwyr a'u ffugiant, ac a dwyllant ereill drwy roddi rhai anghywir ac anawdurdodol i redeg mewn newidwriaeth masnachol. Gwel ARIAN.

**BATH KOL.** Y mae yn anhawdd penderfynu pa un ai dyfais ddynol, ai ynte rhodd ddwyfol, oedd y Bath kol, neu merch y llais. Gesyd rhai ysgrifenwyr hi yn olaf o'r dulliau a gymmerodd Duw i amlygu ei feddwl i ddyn. Ond dywed Henderson fod yn dyb gyffredinol yn mhlith yr Iuddewon, ar ol i Ysbryd prophwydoliaeth beidio, i ddull arall o ddadguddiad gael ei arferyd, sef y Bath kol. Y mae Godwyn yn rhanu gwahanol ddulliau dadguddiad i bedwar; sef, Prophwydoliaeth; Ruach hakkodesh, neu yr Ysbryd Glân; Urim a Thummim; a Bath kol: â'r olaf yn unig y mae a fyno yr erthygl hon. Defnyddir *kol* yn yr Ysgrythyrau mewn cyssylltiad âg enw Duw, i arwyddo *taran* (*Salm* xxix); yr oedd llef bob amser yn cydfyned â'r daran, a hon a elwid Bath kol, merch y llais, neu adsain y daran. Barnai Schrevelius mai dyma y fath ddadguddiad a gafodd Elias yn yr ogof (1 *Bren.* xix. 11): pan ddaeth yn gyntaf wynt nerthol yn rhwygo y mynyddoedd a'r creigiau; ar ol y gwynt, daiargryn; ac ar ol y ddaiargryn, tân; ac ar ol y tân, llais dystaw main—a hwn oedd Bath kol, dadguddiad Duw iddo ef. Felly y mae yr un awdwr dysgedig yn deall *Iob* iv. 16; lle y dywed Eliphaz, iddo, ar ol y weledigaeth, glywed llais yn y dystawrwydd. Y mae Godwyn, hefyd, yn esbonio y lleisiau y sonir am danynt yn y Testament Newydd, drwy Bath kol; megys *Mat.* iii. 17; xvii. 5; *Ioan* xii. Pan fyddai y daran wrthi ei hun, gelwid hi *kol;* ond pan fyddai llais yn canlyn y daran, gelwid ef *Bath kol.* Pa fodd bynag, nid yw syniadau Dr. Henderson mor uchel am Bath kol. Dywed ef fod y cyfryw o'r Iuddewon sydd yn arfer yr ymadrodd am ddadguddiad dwyfol, yn ei ddyrchafu yn mhell uwch law Ruach hakkodesh fel cyfrwng dadguddiad. Dywedant mai llais goruwchnaturiol ydyw, yn dyfod yn uniongyrchol o'r nefoedd, ac yn rhoddi dadguddiad o'r ewyllys dwyfol mewn geiriau eglur. Ond y mae yr enghreifftiau a ddygant yn mlaen mor blentynaidd a Thalmudaidd ag i brofi ar unwaith ei anghyssondeb â phob peth dwyfol. Gellir barnu oddi wrth rai o'r Rabbiniaid, nad oedd Bath kol, mewn gwirionedd, ddim ond rhyw sŵn anghyffredin; yr hwn, oddi wrth neillduolrwydd yr amgylchiadau yn mha rai ei clywid, a ellid ei gymmeryd fel yn dynodi da neu ddrwg. Diau na olygai yr Iuddewon ar y cyntaf ddim wrtho ond yr adsain sydd yn canlyn y daran. Ceir y sylw canlynol arno yn y *Codex Sanhedrim*—"Bath kol sydd pan y mae sŵn yn dyfod o'r nefoedd, a sŵn arall yn deilliaw oddi wrtho."

Byddent arferol o briodoli arwyddion addysgiadol i'r fath adsain; ac mor bell y darfu iddynt fyned yn eu coelgredo, nes o'r diwedd y byddent yn arferol o gymmeryd unrhyw eiriau a ddygwyddent glywed, pan fyddent yn myfyrio ar rywbeth, fel llais dwyfol neu oracl sanctaidd, i'r hon yr oeddynt yn rhwym o ufuddhau. Dywed Henderson, na ddylid mewn un modd gynnyg esbonio y Testament Newydd trwy syniadau yr Iuddewon am Bath kol, o blegid nad oes y tebygolrwydd lleiaf rhyngddynt a'r ffeithiau a adroddir yn y rhan hono o'r gyfrol sanctaidd. Gan yr ymddengys na ddaeth yr ymadrodd i arferiad hyd o fewn i lawer o amser wedi oes yr apostolion,

Digitized by Google

nid oes un rheswm dros feddwl eu bod hwy yn ei ddefnyddio i ddynodi llais o'r nef. O ganlyniad, ymddengys nad yw Bath kol ond dyfais Rabbinaidd i geisio gwneyd i fyny am golli ysbryd prophwydoliaeth; os nad, hefyd, er perswadio y bobl i dderbyn eu traddodiadau a'u dychymygion hwy fel dadguddiad dwyfol.—(*Moses and Aaron, or Rites of the Hebrews, by Thomas Godwyn, B. D.; Henderson on Inspiration.*)

BATHFA, (Seisoneg, *mint*; o'r Saxonaeg, *minetian*=bathu): ydyw y swyddfa lle y gwneir yr arian bathol. Yr oedd bathfäau gynt, o'r bron, yn mhob gwlad yn Lloegr; ond yr unig fathfa yn awr yn nherfynau Prydain ydyw yr un sydd yn Nhŵr Llundain. Swyddogion y bathfa ydynt y rhai canlynol:—1. Y llywydd, yr hwn yw y prif arolygydd; ac efe sydd yn cyfarwyddo y swyddogion ereill yn eu holl wasanaeth, ac yn derbyn y cunion. 2. Y prif weithydd, yr hwn sydd yn derbyn y cunion oddi wrth y llywydd, yn eu toddi, yn eu cyflwyno i'r bathwyr, ac wedi hyny yn eu derbyn yn ol yn fatholion. 3. Y rheolydd, yr hwn sydd yn arolygu yr is-swyddogion yn fwyaf neillduol, ac yn edrych ar fod y batholion yn eu pwysau priodol. 4. Y pwysydd, yr hwn sydd yn golygu dros yr aur a'r arian, ac yn edrych ar fod y cyfan yn cyfateb i'r safon cyfreithlawn. 5. Y ddau adolygydd, sydd yn cymmeryd gofal yr holl gyfrifon. 6. Yr olrheinydd, yr hwn sydd yn arolygu y toddiant; yr hwn, wedi i'r pwysydd wneyd prawf o'r cunion, sydd yn gofalu am eu cyflwyniad i'r ffwrnes, ac na byddo iddynt gael eu newid wedi eu rhoddi i ddwylaw y toddydd. 7. Y cerflwr, yr hwn sydd yn cerfio argraff-lafnau a moldiau y bathiant. 8. Golygydd yr heiyrn, yr hwn sydd i ofalu am gadw yr heiyrn perthynol i'r gorchwylion yn lân ac yn gymhwys i weithio â hwy. 9. Y toddydd, sydd yn toddi y cunion cyn eu bathu. 10. Golygydd yr arianwyr, yr hwn sydd yn darparu dros, ac yn arolygu gorchwylion yr arianwyr. 11. Y glanhawyr, y rhai sydd yn gofalu ar fod gwneuthuriad y batholion yn lân, a chyfan, a chywir. 12. Yr arianwyr, y rhai sydd yn tori allan y darnau, yn eu dirwasgu, yn eu crynhoi, ac yn eu bathu. 13. Y porthorion, sydd yn gofalu am y ddor. Mae y dosbarthiad manwl hwn ar swyddfa y bathfa yn arddangos y gofal mawr sydd yn ofynol yn rheolaeth y gwaith, ac yn niogeliad y lle. Nid oes un trefniant yn fwy manteisiol er hyrwyddo masnach a newidwriaeth pob gwlad, na'r cydnabyddiad cyffredinol hwn o gynnrychiolaeth eiddo, mewn darnau mor fanteisiol i'w cyflwyno oddi wrth y naill i'r llall. Gwel ARIAN.

BATH-RABBIM, [*lluaws merched*]: porth yn Hesbon, yn arwain, efallai, tua Rabbath, dinas arall gyfagos: *Can.* vii. 4. Gwel HESBON.

BATHSEBA: merch ydoedd i Elīam. Yr oedd o deulu Israel, o lwyth Iudah. Priodasai Urīas yr Hethiad: cenedlddyn oedd efe, ond yr oedd yn gyfeillgar â phobl yr Arglwydd, canys yr oedd yn un o gedyrn Dafydd, neu yn gadben o'i fyddin. Preswyliai Dafydd y pryd hyn yn Ierusalem; ac ar ol bod yn cysgu ganol dydd, äi i nen ei dŷ i ymddifyru. Byddent yn y dwyrain yn gwneyd rhodfeydd ar benau eu tai, â chanllawiau o'u hamgylch i attal syrthio. Diau fod palas y brenin yn uchel, ac efallai y safai ar fryn. Gwelai o'i nen dros dai, ac i erddi ei gymmydogion: wrth edrych, canfyddai Bathseba mewn gardd yn ymolchi. Yr oedd yn wraig ieuanc lân, a hynod o hardd. Ymofynodd pwy ydoedd, a chafodd wybod. Deallodd fod ei gwr yn y rhyfel yn ngwlad yr Ammoniaid, tu draw i'r Môr Marw. Mynodd ei chael hi ato, a phechasant. Yr oedd yr anwiredd yn dyfod i'r golwg, a gwnai hyny Bathseba yn agored i farwolaeth: ac i'r dyben o guddio eu drwg, anfonodd Dafydd am i Urīas ddyfod adref o'r rhyfel. Daeth, ac wedi i'r brenin holi ychydig arno, parodd iddo fyned adref at ei deulu. Aeth Urīas o'r palas, ond arosodd gyda gweision y brenin. Deallodd Dafydd hyny. Tranoeth, y mae yn ei wahodd i ddyfod ato ef i fwyta—yn ei feddwi, ac yn ei annog wedi hyny i fyned adref at ei deulu. Ond y mae yn rhy ffyddlawn i'w frenin i fyned hyd yn oed dan ddylanwad gwin. Dadleuai na ddylai fyned, am fod yr arch, ac Israel, a Iudah, yn aros mewn pebyll, a Ioab a'r gweision ereill yn gwersyllu ar hyd wyneb y maes: 2 *Sam.* xi.

Methodd Dafydd wneyd clôg o Urias i guddio y pechod; ac am hyny y mae yn cynllunio i'w lofruddio, er mwyn priodi Bathseba, ac y mae yn lled debyg ei bod hithau yn cydsynio. Anfonodd Dafydd lythyr seliedig yn llaw Urīas at Ioab y maeslywydd. Yr oedd hwn yn cynnwys gorchymyn i roddi y dygiedydd yn mau poethaf y trwydr, fel y byddai iddo gael ei ladd. Felly y gwnaed, a llwyddwyd. Anfonodd Ioab genad at Dafydd i ddyweyd fod y dydd wedi troi yn eu herbyn, a bod un o'r cedyrn, sef Urias, wedi ei ladd. Cymmer Dafydd arno deimlo, a gyr y genad yn ol at Ioab i'w annog i ymdawelu ac ymwroli, am mai "y naill fel y llall a ladd y cleddyf." Y mae gweddw ieuanc Urīas yn clywed, a chymmer hono arni alaru dros yr amser penodedig. Yna y mae Dafydd a hithau yn priodi. Mae Nathan yn arfer dammeg yr oenig i gael Dafydd i'w gollfarnu ei hun. I ddechreu drwg, y mae y plentyn hwn yn marw: ac ymddengys i Dafydd a'i briod gael llawer iawn o ofidiau teuluaidd.

Darfu i Bathseba, ar gais Nathan, ddymuno ar Dafydd, pan oedd ar ei wely angeu, gyhoeddi Solomon yn frenin yn lle ei frawd Adonīah: heblaw hyn, efallai mai ychydig ddarfu iddi ymyraeth âg achosion y llywodraeth. Nid oes ond ychydig son am ei henw yn y Breninoedd a'r Croniclau. Y mae Solomon yn son llawer am ei fam, ond nid yw byth yn enwi Bathseba. Yr oedd ganddi dri o feibion heblaw Solomon; ond ymddengys mai efe oedd prif wrthddrych ei gofal. Efe oedd yr hynaf, a gobeithid mai efe fyddai yn teyrnasu ar ol ei dad. Geilw Bathseba ef, "Mab fy addunedau;" sef y mab ag y byddai mewn modd neillduol drwy weddi yn ei gyflwyno i Dduw ac i'w wasanaeth.

Gwyddom i Bathseba oroesi Dafydd; ond nis gwyddom pa hyd y bu fyw wedi i Solomon ddechreu teyrnasu. Wedi marwolaeth ei fam, efallai, y dechreuodd ei mab ymlygru.

BAXTER, RICHARD. Ganwyd y gwr hwn yn Eaton-Constantine, yn sir Amwythig, Tachwedd, 1615. Nid ydym yn gwybod pa ddiwrnod; camgymmerodd ei hunan rywfodd: dywed ef mai ar y 12fed y ganwyd ef; ond dywed llyfr y cofrestrydd ei fod wedi ei fedyddio ar y 6ed. Ychydig wyddom am ei rieni. Yr oedd ei dad, o ran ei amgylchiadau bydol, yn dra chysurus; yn dirfeddiannwr bychan; ac yn un o Buritaniaid goleuedig a gwrol yr oes hono. Bu farw ei fam pan oedd efe yn un ar bymtheg oed;

Digitized by Google

yr oedd ynddi ragoriaethau neillduol. Ail briododd ei dad â Mary, merch Syr Thomas Hunks, llywydd y brenin yn yr Amwythig yn nyddiau y rhyfeloedd. Yn y wraig hon, cafodd ei dad ymgeledd gymhwys, ac yntau fam dirion a hynaws. Yr oedd y wraig hon yn nodedig am ei duwioldeb. Blinwyd hi er yn ieuanc gan y *cancer*, yr hyn a ddyoddefodd yn dawel am ddeng mlynedd ar ugain. Dangosodd yr ymroddiad mwyaf boddlawn i ewyllys Duw, a hiraeth didor am fod gyda Christ. Y mae yn sicr i'w haddysgiadau crefyddol, ei hesamplau da, a'i phrofiad nefol, ddylanwadu yn bwysig ar feddwl Baxter.

Ychydig iawn o addysg a gafodd yn nyddiau ei ieuenctyd; esgeuluswyd hyny yn fawr; ond gwnaeth y diffyg i fyny, i raddau, drwy ymroddiad diflino mewn blyneddoedd dyfodol; casglodd gronfa fawr o wybodaeth gyffredinol. Nid oedd wedi cael manteision i fod yn ysgolhaig clasurol; ond er ei holl anfanteision, cyflawnodd orchestion teilwng o gawri dysgedig ei oes. Yr oedd yn dduwinydd craff, ac yn rhesymwr manwl; ond fel ysgrifenydd cymhwysiadol yr hynodid ef. Y mae ei ysgrifeniadau yn gwasgu yn dŷn ar gydwybodau ei ddarllenwyr, fel yr oedd ei bregethau ar ei wrandawyr. Pan yr ysgrifenai Anthony Wood ato yn nghylch ei addysg, dywedai. "Am danaf fy hun, nid yw fy ffaeleddau o un gwarth i unrhyw athrofa, o blegid ni bum mewn un. Nid oes genyf ond ychydig heb law yr hyn a ddysgais o lyfrau, a thrwy gymhorth athrawon gwlad. Y mae gwendid a phoen wedi fy nghynnorthwyo i fyfyrio pa fodd i farw, ac y mae hyny yn fy nghyffroi i fyfyrio pa fodd i fyw." Yr oedd sefyllfa y plwyf lle y dygwyd ef i fyny, yn gystal a'r wlad oll yn yr oes hono, yn druenus yn wir, mewn gwybodaeth a moesau. Yr oedd darllenwr ei blwyf genedigol, Syr William Rogers, yn 80 mlwydd oed; yr oedd ganddo ddwy fywoliaeth—y naill ugain milltir oddi wrth y llall. Gan fod ei olygon yn pallu, adroddai y gweddïau heb lyfr; ond i ddarllen y gwersi, cyflogai rywun neillduol—llafurwr cyffredin am un flwyddyn, gwiredydd am flwyddyn arall; ac o'r diwedd, ei fab ei hun, yr hwn oedd yn chwareuwr cyhoedd, a'r arheliwr mwyaf yn y wlad, a gafodd urddau, ac a wasanaethai yn un o'r lleoedd. Ymddengys fod yr offeiriadaeth yn llygredig iawn, ac yn anwybodus hollol. Heb law yr addysgiadau crefyddol a dderbyniodd gartref, gweithiwyd argraffiadau dwys ar feddwl Baxter, drwy ddarllen llyfr bychan a elwid *Penderfyniad Bunny.* Dywedir mai Jesuit oedd yr awdwr. Pa fodd bynag, effeithiodd gyfnewidiad dwys yn ei feddwl;—daeth rhyw dda iddo ef o'r Nazareth hono.

Gogwyddodd meddwl Baxter yn lled ieuanc at y weinidogaeth; ond ymddengys nad oedd ei dad yn ffafriol i'w gynllun. Gall fod y gwrthwynebiad yma yn cyfodi oddi ar sefyllfa isel ac annheilwng y weinidogaeth yn y dyddiau hyny; yn gystal, hwyrach, a'i fod am i'w fab ddewis rhyw alwedigaeth a ddygai fwy o elw iddo: ac i'r perwyl hyny, llwyddodd ei dad i'w gael i mewn i Ludlow Castle, lle yr oedd rhai o aelodau llywodraeth y brenin yn trigiannu. Nid arosodd yno ond ychydig amser, wedi diogelu un peth da pa fodd bynag yn y lle; sef, casineb greddfol at chwareuon o bob math. Un mis, yn nghanol golygfeydd annuwiol y palas, oedd yn ddigon i lenwi Baxter â dygasedd at yr arferion. Am bedair blynedd ar ol hyn, arosodd dan gronglwyd ei dad, i ddilyn ei efrydiau ac amaethu ei feddwl yn y duwiolfrydedd hwnw a ddysgleiriodd mor nodedig mewn blyneddoedd dyfodol, ac a hynododd ei gymmeriad âg enwogrwydd anfarwol. Dechreuodd bregethu yn 1638, yn eglwys uchaf Dudley. Yr oedd ei feddwl yn hir cyn hyn yn addfedu i'r weinidogaeth; a dygwyd oddi amgylch amgylchiadau ffafriol iddo roi ei fwriadau mewn gweithrediad. Llwyddodd un Mr. Thomas Foley, Stourbridge, i adferu meddiant o ryw diroedd a adawyd i ddybenion elusengar; a thrwy ryw chwanegiad o'i eiddo ei hun, adeiladodd a gwaddolodd ysgoldy newydd. Cynnygiodd y swydd o brif athraw i Baxter. Derbyniodd y cynnyg yn llawen; o blegid gwelai gyfleusdra iddo bregethu mewn lleoedd amddifaid o foddion addysg grefyddol, heb rwymo ei hun i fugeiliaeth eglwysig, i'r hyn yr oedd ynddo ar y pryd hwnw radd o wrthwynebiad. Cychwynodd gyda Mr. Foley a Mr. James Berry, cyfaill anwyl iddo, tua Worcester, i gael ei urddo gan yr Esgob Thornborough; a derbyniodd drwydded i addysgu yr ysgol yn Dudley. Y mae llawer iawn o'r rhai a ddysgleiriasant yn y weinidogaeth, wedi eu harwain iddi yn ddamweiniol i olwg ddynol; felly y bu drwy yr amgylchiad hwn, a arweiniodd i'r fath fywyd o lafur a defnyddioldeb mewn canlyniad. Arosodd Baxter yn Dudley o gylch blwyddyn; ac yna symmudodd oddi yno i Bridgenorth, yn sir Amwythig, lle y mae llawer o draddodiadau am ei fywyd sanctaidd a'i weinidogaeth lafurus ar gof a chadw yn mysg y bobl; er fod dros ddau can mlynedd wedi myned heibio. Yma, ymroddodd gyda difrifwch i fyfyrio y cwestiynau gwladol ac eglwysig oedd yn cynhyrfu Brydain yn y dyddiau hyny;—canlyniad ei fyfyrdodau ydoedd lleihad ei gariad at yr Eglwys Sefydiedig ar y pryd. Ar ol iddo lafurio tua dwy flynedd yn Bridgenorth, aeth pobl Kidderminster yn anesmwyth i'r ficer, a deisebasant yr awdurdodau yn ei erbyn; ac nid heb reswm, os ydyw yr hyn a ddywedent am dano yn wir—Ei fod yn anwybodus, ac yn amddifad o synwyr cyffredin; na phregethai ond unwaith bob chwarter; yn fynychwr y tafarnau, ac yn aml yn feddw; a bod y curad yn ddiotwr a meddwyn, ac yn ymollwng i annuwioldeb cyhoeddus. Deallodd y ficer ei berygl, a chynnygiodd ammodau i ddyfod i gytundeb:—yn lle y curad oedd ganddo, cynnygiai ganiatau 60p. bob blwyddyn i'r pregethwr a ddewisid gan bwyllgor cynnwysedig o bedwar ar ddeg o honynt hwy; ac y cai hwnw bregethu y pryd y mynai, ac y darllenai yntau y gwasanaeth. Sefydlodd y pwyllgor ar Baxter, a chydsyniodd yntau â'u cais; arosodd yno ddwy flynedd, nes y gyrwyd ef ymaith yn y rhyfel cartrefol. Yr oedd yr amser hwnw, yn wladol ac eglwysig, yn ddyddiau terfysglyd iawn. Yr oedd y rhyfel cartrefol yn awr wedi tori allan, ac Oliver Cromwell wedi esgyn i'r awdurdod fel amddiffynydd rhyddwladwriaeth Prydain. Er fod Baxter yn gyfaill ffyddlawn i'r llywodraeth, ac wedi tynu gwg ei gyfeillion wrth siarad yn rhy bleidiol i'r eglwys, yr esgobion, a threfnu eu gwasanaeth; eto yr oedd yn mhell o gymmeradwyo holl weithrediadau y naill blaid na'r llall. Y mae yn bur eglur, yn ol tystiolaeth Mr. Orme, ei fywgraffydd, nad oedd gan Baxter olygiadau clir ar natur a therfynau rhyddid gwladol a chrefyddol. Yr oedd yn wresog dros ryddid yr Eglwyswyr a'r Presbyteriaid; ond brawychai wrth feddwl am i'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr fwynhau yr un rhagorfreintiau. Anfonodd Cromwell unwaith am Baxter er clywed ei farn ar ryddid cydwybod; ond nid mewn egluro

Digitized by Google

testynau dyrus felly yr oedd ei wir nerth ef. Yr oedd gan Cromwell ei hun olygiadau llawer iawn cywirach, ac ymddygai yn llawer gwell tuag at yr Eglwyswyr a'r Presbyteriaid nag yr ymddygent hwy tuag at ereill pan yn yr awdurdod. Yn yr amser yma dyoddefodd Baxter erlidigaethau chwerwon yn Kidderminster, a gorfodwyd ef ar un amgylchiad i encilio am ddiangfa i Gaerloew. Arosodd yno am fis, a derbyniodd garedigrwydd mawr gan gyfeillion crefyddol y lle. Yr oedd traethodau yn cael eu hysgrifenu o bob tu ar y testynau gwladyddol oedd yn rhanu y bobl yn flaenorol i'r rhyfel. Ar daer ddymuniad y bobl, dychwelodd yn ol i Kidderminster, lle yr arosodd am bedair blynedd ar ddeg: yn y lle hwn y mae ei enw wedi ei anfarwoli; ac yma yr ymunodd â byddin y Milwriad Whalley i fod yn gapelwr, ac yr oedd yn bresennol mewn amryw ymosodiadau. Gadawodd y fyddin yn 1657, o blegid iddo gael ei oddiweddyd gan afiechyd trwm. Daeth i Lundain i ymofyn iachad; ac wedi ymweliad â Tunbridge Wells, adferwyd ei iechyd, a dychwelodd i'r brif ddinas, a phregethodd i'r senedd y dydd cyn iddynt bleidleisio adferiad y brenin. Pregethodd yn achlysurol o gylch y ddinas wedi derbyn trwydded gan yr esgob Sheldon. Yr oedd yn un o'r darlithwyr ar ddydd Mawrth, yn Pinner's Hall, a chanddo hefyd ddarlith ar ddydd Gwener yn Fetter Lane. Wedi i adeg gynhyrfus y werinlywodraeth fyned heibio—i'r Stuarts gael adferiad i'r awdurdod—ac i Eglwysyddiaeth ddyfod yn grefydd sefydledig y llywodraeth, cynnygiwyd esgobaeth i Baxter; ond gwrthododd y cynnygiad. Yn 1662 y pregethodd ei bregeth ymadawol yn Blackfriars. Dyma y flwyddyn gymylog y trowyd dwy fil o'r dynion goreu allan o'r Eglwys Sefydledig. Ar ol hyn aeth Baxter i Acton yn Middlesex. Adeiladwyd capel iddo yn Llundain yn 1676, ond ni chafodd bregethu ynddo ond unwaith—aflonyddwyd y gynnulleidfa, a charcharwyd Mr. Gatehouse, yr hwn oedd yn pregethu yno yn lle Baxter. O hyn allan, daeth yn gyfarwydd âg erlidiau—dygid ef ger bron brawdlysoedd—ysbeiliwyd ef o'i feddiannau—taflwyd ef i garcharau dro ar ol tro, nes yr anmharwyd ei iechyd yn fawr. Yn 1682, daliwyd ef â gwarant am ddyfod i bregethu o fewn milltir i fwrdeisdref, a gwerthwyd ei bregethau a'i lyfrau i dalu y dirwy. Arbedwyd ef rhag carchar y tro hwn; o blegid yr ofnid am ei fywyd, os bwrid ef yno. O'r diwedd, dygwyd ef ger bron y fainc, drwy warant oddi wrth y prif farnwr Jefferies. Yr oedd yr olygfa yn y llys ar y pryd yn ddychrynllyd. Yr oedd y lle wedi ei lenwi gan gyfeillion Baxter. Safai y Dr. W. Bates wrth ei ochr. Ymddangosai Pollexfen a Wallop fel amddiffynwyr iddo. O'r braidd y dechreuodd Pollexfen ei anerchiad i'r rheithwyr yn ei ffafr, cyn i'r prif farnwr dori allan yn nwydwyllt i waeddi—"Pollexfen! yr wyf yn eich adnabod chwi yn dda, yr wyf wedi eich nodi, yr ydych yn amddiffynydd i'r twyll. Dyma yr adyn sydd wedi gwenwyno y byd â'i athrawiaeth—yr hen gnaf heresiaidd!" Yna dechreuai wawdio, gan gynnyg gwatwar dull Baxter o weddïo; a phan yr adgofiwyd ef fod ei fawrhydi Charles II. wedi cynnyg esgobaeth i Baxter, cyfododd ei gynddaredd yn fwy; galwai Baxter yn gi, ac na byddai ond cyfiawnder ei ddiosg, a'i chwipio drwy yr holl ddinas. Gwnaed llawer cynnyg gan y ddau ddadleuydd i'w amddiffyn, ond y cwbl yn ofer. Cynnygiodd Baxter amddiffyn ei hun, ond galwai y barnwr ef ar yr enwau mwyaf dirmygedig;—dywedai "Richard Richard, paid ti a meddwl y cei di wenwyno y llys. Richard, hen gnaf wyt ti! Yr wyt ti wedi ysgrifenu llyfrau ddigon o lwyth trol, a phob llyfr yn llawn o gyfeiliornad. Trwy ras Duw, mi edrychaf fi ar dy ol di! Yr wyf yn gweled llawer iawn o'th frawdoliaeth yn dysgwyl gweled beth fydd dy dynged di; ond trwy ras Duw Hollalluog, yr wyf yn penderfynu eich ymlid ymaith oll." Daliodd Baxter mewn hunanfeddiant perffaith, tra y clywid ocheneidiau, ac y gwelid dagrau ei gyfeillion, wrth wrandaw ei dynged. Dedfrydwyd ef i dalu 334*p*. o ddirwy—i gael ei gadw yn y carchar nes talu—a'i rwymo i iawn ymddwyn am saith mlynedd. Ond yn ffodus, yn mhen dwy flynedd, trwy ganiatad oddi wrth y brenin James, derbyniodd ei ryddhad heb orfod talu y ddirwy, er, yn ol pob tebygolrwydd, mai nid caredigrwydd tuag at Baxter oedd yn cymhell y brenin i wneyd hyn, ond ennill yr Anghydffurfwyr i'w ffafr ef yn ei ymdrech ar y pryd i gyfodi Pabyddiaeth yn grefydd sefydledig y wlad: pa fodd bynag, bu hyny yn waredigaeth i Baxter, ac yn gaffaeliad gwerthfawr i Anghydffurfwyr erlidiedig yr oes hono. Rhyddhawyd ef o'r carchar yn 1687; pregethodd yn achlysurol ar ol hyn lle y cai gyfle; ac o'r diwedd, gorphenodd ei yrfa, Rhagfyr 8fed, 1691.

Nid amcanwn dynu darlun o gymmeriad y gŵr enwog hwn yn mhellach na chrybwyll ei fod, fel Cristion, yn ddiarebol am ei dduwiolfrydedd; fel pregethwr, yn nodedig am ei ddifrifoldeb; fel gweinidog, yn ddiflino yn ei lafur; ac fel awdwr, wedi gadael ar ei ol gant a thrigain o gyfrolau ar wahanol destynau, sydd yn sicr o drosglwyddo ei enw gyda choffa bendigedig i oesoedd dyfodol. Yr oedd ei galon yn deml i grefydd, a'i holl fywyd yn aberth yn ngwasanaeth ei Dduw.

Yr argraffiad goreu o'i weithiau ydyw yr un gan Orme, Llundain, 1830, gyda hanes ei fywyd—*Calamy's Life of R. Baxter*, *Lond.* 1713. Ei fywgraffiad ei hun [*Narrative of the most Remarkable Passages of his Life and Times*], yr hwn, am ddysgrifiad cywir am yr amseroedd hyny, sydd yn meddu gwerth cyffelyb i'r eiddo *Burnet's History of his own Times*. Cyhoeddodd ei gyfaill, Math. Sylvester, ef dan yr enw *Reliquiæ Baxterianæ*, Llundain, 1696.—(*Buck's Theological Dict.; T. B. Macaulay's History of England.*)

**BAXTERIAETH**: a elwir felly ar enw Baxter. Nid ymddangosodd y Baxteriaid erioed yn blaid neillduol wahaniaethol oddi wrth ereill. Amcan Baxter oedd ffurfio rhyw gyfundraeth ganolaidd rhwng Arminiaeth a Chalviniaeth, gan amcanu trwy hyny derfynu y dadleuon oedd yn ffynu, a dwyn y pleidiau i gydgyfarfod. Baxteriaeth, neu y syniadau a gyhoeddodd Baxter ydyw,—Fod Duw wedi ethol y rhai y penderfynodd eu cadw, heb un rhagweledïad ar eu ffydd; a bod ereill, y rhai y mae yr efengyl yn cael ei phregethu iddynt, wedi derbyn gras cyffredin, trwy yr hwn, os iawn ddefnyddiant ef, y gallant gyrhaedd gras cadwedigol. Daliai fod haeddiant marwolaeth Crist yn cael ei gynnyg i'r credinwyr yn unig, ond golygai hefyd fod pob dyn mewn sefyllfa o bosiblrwydd am iachawdwriaeth.

Er prawf fod pob dyn mewn sefyllfa o bosiblrwydd am iachawdwriaeth, dygir y rhesymau canlynol yn mlaen ganddo:—1. Mai natur holl ddynolryw a gymmerodd Crist arno yn ei ymgnawdoliad, ac mai pechodau holl ddynolryw a achosodd ei farwolaeth. 2. Mai i Adda, fel tad

cyffredin dynoliaeth, y gwnaeth Duw yr addewid; a bod ammodau y cyfammod newydd yn cynnyg maddeuant a bywyd tragwyddol i bawb a'i derbynio. 3. Mai nid i'r etholedigion yn unig, ond i'r holl fyd, y gorchymynodd Crist i'w weision bregethu yr efengyl, a chynnyg bendithion ei angeu.

Ac etto, golygai fod ffrwythau neillduol yn deilliaw o farwolaeth Crist, sydd yn briodol i'r etholedigion yn unig—1. Fod gras yn gweithio ynddynt argyhoeddiad, edifeirwch, ffydd, undeb â Christ, a bywyd ysbrydol. 2. Gweithredol faddeuant pechodau, rhag cospedigaeth dragwyddol. 3. Eu heddychiad â Duw, eu mabwysiad i berthynas âg ef, a'u hawl i'r etifeddiaeth yn y nefoedd. 4. Preswyliad yr Ysbryd ynddynt, fel eu sancteiddydd, gwrandawiad o'u gweddïau, a derbyniad cymmeradwy o'u gwasanaeth gyda Duw trwy Grist. 5. Sylfaen gadarn i'w gobaith am iachawdwriaeth, heddwch cydwybod, cymmundeb ysbrydol â'r eglwys, adgyfodiad i fywyd, a gogoneddiad corff ac enaid ar ol yr adgyfodiad. —Fod gweithred ammodol o gynnygiad o'r rhai hyn i gael ei gwneud i holl ddynolryw, ond mai yr etholedigion yn unig sydd yn eu derbyn a'u meddiannu.

Anturiodd Baxter yn foreu i ganol cefnfor dadleuaeth ar faterion duwinyddol; ac er y rhaid, mae'n debyg, i bawb a ddarllenodd ei weithiau ar y testynau hyn gydnabod fod ynddynt lawer iawn o gywreinrwydd a chraffder, eto, nid ymddengys ynddynt yr ymostyngiad meddwl hwnw sydd yn briodol i ddyn wrth ymdrin â dyfnion bethau Duw. Y mae yn dangos gormod o awyddfryd i ddarostwng y gwirionedd dan lywodraeth trefniant o'i eiddo ei hun. Y mae yn eglur mai ei amcan oedd, fel y crybwyllasom eisoes, gwneud un gyfundraeth o Arminiaeth a Chalviniaeth, a hyny heb i'r naill na'r llall ymadael yn mhell o'u syniadau gwreiddiol; ac eto, pan y gwesgir arno fe'i ceir yn y diwedd yn llawer mwy o Galvin nag o Armin. Er nad ydym yn canfod dim yn peryglu iachawdwriaeth yn syniadau Baxter, eto, fel y cydnebydd ei fywgraffydd, Mr. Orme, arweiniodd ei ddull ef ac ereill o ymdrin â'r gwirionedd i ganlyniadau alaethus. Pan ddechreuwyd ymollwng mewn syniadau duwinyddol yn mysg y Presbyteriaid yn Lloegr a Chymru, galwasant eu hunain yn Baxteriaid, gogwyddasant yn raddol i Arminiaeth, ac yn mlaen i Ariaeth; ac ni orphwysasant nes dybenu mewn Sosiniaeth. Hyd yn oed yn nyddiau Baxter, pan y cyhuddid yr Annibynwyr gan y Presbyteriaid o fod yn Antinomiaid, taflai yr Annibynwyr yn ol atynt hwythau eu bod yn ymollwng i Sosiniaeth. Er na fynem er dim awgrymu fod Baxter yn dal golygiadau felly, nac yn ymwybodol fod dim yn ei syniadau yn gogwyddo i'r cyfeiriad hwnw—mae'n sicr nad oedd dim yn mhellach oddi wrth ei feddwl ef na hyny; ond y mae rhywbeth yn ei ddull yn ymdrin â rhai gwirioneddau yn tueddu at ddwyn meddyliau cnawdol i ymhyfhau ar wirioneddau dwyfol. Nid yw ei ddull ysgoleigaidd ac arddansoddol bob amser yn gydweddol â symlrwydd yr efengyl—y mae yn tueddu rywfodd i osod gwirioneddau dwyfol yn ormod ar yr un tir a gwyddorau dynol. Pwy bynag a fyno weled priodoldeb ein sylwadau, darllened ei *Methodus; Catholic Theology; End of Doctrinal Controversy; Orme's Life and Times of Baxter.*

BDELIWM, [ברלה=*bedolach*]: *Gen.* ii. 12; *Num.* xi. 7. Nid yw beirniaid yn gallu cytuno pa un ai math o lyd tryloew ac arogiaidd, a geir ar bren yn Arabia, neu ynte math o faen gwerthfawr, a feddylir wrth y gair *bedolach.* Dadleua y rhai a farnant mai maen ydyw, y dylid deall hyny, am ei fod yn cael ei grybwyll, yn y lle cyntaf, mewn cyssylltiad â'r "maen onix," a bod y ddau yn cael eu nodi fel cynnyrchion gwlad Hafilah. Ond dywed ereill nad yw y darlleniad Hebreig yn rhoddi un sail i'r dybiaeth mai sylwedd mwnaidd o un math ydyw, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Cyfieitha y Rabbinaid Iuddewig, yn nghyd â lluaws o esbonwyr Arabaidd, ac amryw ereill, y gair yn *perl,* gan olygu mai y rhan hono o Arabia lle y ceir perlau, a feddylir wrth Hafilah. Ond gwrthwynebir y dyb hon eto, am nad yw yn debyg fod y *perl* yn adnabyddus yn amser Moses, onide y buasem yn cael crybwylliad am dano yn yr offrymau at y babell, neu fel un o addurniadau y gwisgoedd offeiriadol, tra yr ydym yn cael cyfeiriadau mynych at yr onix, yr hwn nad oedd mor werthfawr yn mysg yr addurniadau a'r pethau cyssegredig: *Exod.* xxv. 7; xxviii. 20; xxxv. 9, 27; xxxix. 13. Ac ni cheir un crybwylliad chwaith am y perl yn amser Dafydd a Solomon; ac ammheua rhai pa un a gyfeirir ato o gwbl yn yr Hen Destament fel yn golygu yr un peth ag yn y Testament Newydd. Gwel PERL.

Cyfieitha y Deg a Thrigain y gair, yn *Gen.* ii. 12, *ανθραξ*; ac yn *Num.* xi. 7, *κρυσταλλος*; a'r naill a'r llall yn arwyddo math o faen, er, y mae yn ddiammheu, mai yn yr ystyr o rew y cymmerir ef yn y lle olaf, mewn cyfeiriad at y manna. Ond y mae y Vulgate, yn nghyd âg amryw ereill, yn ei gyfieithu yn *bdeliwm,* yn arwyddo glyd, fel y crybwyllwyd. Yn gysson â'r golygiad yma y rhydd Josephus ddysgrifiad o'r manna—*ὅμοιον τῃ τῶν ἀρωμάτων βδέλλῃ*=yn debyg i'r bdeliwm un o'r perlysiau. Ceir yr un ystyr hefyd mewn amryw o hen gyfleithiadau o'r Ysgrythyrau. Y mae dau fath o sylweddau gludiog yn cael eu galw yn *bdeliwm.* Un math ydyw y *bdeliwm Indiaidd,* yr hwn a geir oddi wrth y pren *Amyris Commiphora,* a thybir mai at hwn y cyfeiria yr Ysgrythyrau. Dywedir fod corff y pren yn orchuddiedig â philionen deneu, o liw goleu, yn debyg i'r eiddo bedwen gyffredin, ac yn gwisgo ymaith, ac oddi tani y mae rhisglyn tyner o liw glas. Y mae yn gwasgaru yn mhell arogl dymunol, tebyg i'r myrrh, i'r hwn y mae y bdeliwm Indiaidd yn meddu cryn debygolrwydd. Math arall yw y *bdeliwm Affricanaidd,* yr hwn a geir oddi wrth yr *Heudolotia Africana.* Y mae yn gynnyrch naturioi Senegal, ac i'w gael fel dyferion lled grynion, tua dwy fodfedd o dryfesur. O ran ei arogliad, nid yw ond gwanaidd, er yn hynod, a'i flas yn chwerw. Cynnwysa, medd Johnstone, *carbon* 40, *hydrogen* 31, *oxygen* 5.—(*Cycl. of Bib. Lit.*)

BEBAI, [בבי]: enwir meibion Bebai yn mhlith y rhai a ddychwelasant o gaethiwed Babilon: *Ezra* ii. 11; viii. 11; x. 28; a'u tad neu eu penaeth yn selio y cyfammod: *Neh.* x. 15.

BECAH: hanner sicl: *Exod.* xxxviii. 26; xxx. 11—16. [GWEL PWYSAU; MESURAU.] Yr oedd y becah yn pwyso pum pwys ceiniog (5 *dwts.*), ac yn werth tua phymtheg ceiniog o'n harian ni.

BEDAD, [*unig*]: tad Hadad, un o freninoedd Edom: *Gen.* xxxvi. 35.

Digitized by Google

BEDE, (a gyfenwid "the Venerable Bede"); awdwr enwog, a mynach Seisonig. Ganwyd ef gerllaw Wearmouth a Jarrow, yn esgobaeth Durham, yn y flwyddyn 672. Pan yn chwe blwydd oed, anfonwyd ef i fynachlog St. Pedr, yn Wearmouth, o dan arolygiaeth yr abad Benedict, gan yr hwn, a'i ddilynwr, Ceolfrid, yr addysgwyd ef am ddeuddeng mlynedd. Pan yn bedair ar bymtheg oed, ordeiniwyd ef yn ddiacon gan yr esgob Beverley. Mewn ychydig amser, drwy ddiwydrwydd ac ymdrechion, cynnyddodd yn fawr mewn gwybodaeth gyffredinol, ac mewn llenyddiaeth glasurol. Yr oedd ei serch mor gryf at fywyd mynachol, fel, pan ysgrifenodd y pab Sergius at yr abad Ceolfrid, i erfyn ar iddo ei anfon i Rufain i roddi ei farn ar ryw bynciau pwysig mewn dysgyblaeth eglwysig, y gwrthododd Bede y cynnygiad. Treuliodd amryw flyneddoedd i gasglu defnyddiau at ei waith enwog ar hanes eglwysig; y rhai a gasglwyd ganddo o fywydau enwogion, hanesion mewn mynachlogydd, ac o'r croniclau ag oeddynt wedi eu hysgrifenu cyn ei amser ef. Y mae yr holl wybodaeth a feddwn, o'r braidd, am sefyllfa foreuol Cristionogaeth yn y wlad hon, wedi deilliaw o'r gwaith hwn. Cyhoeddwyd ef yn y flwyddyn 731, pan yr oedd yn 59 mlwydd oed. Ennillodd y fath gymmeradwyaeth gyffredinol drwy y gwaith hwn, fel yr ymddyddanai yr esgobion mwyaf dysgedig âg ef, ac y gofynent ei gynghorion ar y materion pwysicaf; yn enwedig Egbert, archesgob York—gŵr o ddysg mawr; ac at yr hwn yr ysgrifenodd lythyr maith, medrus, a dysgedig, yr hwn a roddodd i'r byd y fath hanes am sefyllfa yr eglwys y pryd hyny, na cheir ei gyffelyb mewn un hanes arall. Yr oedd arwyddion y darfodedigaeth i'w canfod arno y pryd hyn, yr hwn a dorodd allan yn eglur cyn hir. Dyoddefodd yr afiechyd hwn gyda nerth meddwl anghredadwy; ac er fod diffyg anadl, yn nghyd â'r clefyd hirbarhaol hwn yn ei boeni, ni chlywid ef byth yn grwgnach, ond byddai bob amser yn dawel a boddlawn. Er fod ei gorff mewn poenau dirfawr, yr oedd ei feddwl yn fywiog a gweithgar; a pharhaodd, gyda diwydrwydd mawr, i gyfieithu Efengyl Ioan i'r Saxonaeg, ac hefyd ryw ddarnau ag yr oedd yn eu dyfynu ar y pryd o weithiau Isidore. Gorphenodd ei gyfieithiad y dydd, ïe, yr awr y bu farw. Wedi iddo ei gyflawnu, dymunodd gael ei ddodi i eistedd gyferbyn â'r lle yr arferasai weddïo; ac yn y sefyllfa hono bu farw, gan ddywedyd, "Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân." Parhäai hefyd i ddysgu y mynachod ieuainc oeddynt dan ei ofal. Ni chynnyrchodd Lloegr, o'r braidd, ysgolhaig a duwinydd rhagorach. Dywed Bale, "nad oes unrhyw beth, o'r braidd, mewn hynafiaeth, gwerth ei ddarllen, nad ydyw i'w ganfod yn ngweithiau Bede, er na theithiodd tu allan i derfynau ei wlad ei hun:" dywed hefyd, "pe buasai yn byw yn amser Awstin, Jerome, neu Chrysostom, y buasai yn ddiammheu yn ogyfuwch â hwythau, gan ei fod wedi cyfansoddi cymmaint o draethodau penigamp, hyd yn oed mewn oes ofergoelus." Bu farw Bede, Mai 26ain, 735, yn 63 mlwydd oed.

Y rhestr gyntaf a geir o weithiau Bede sydd wedi ei rhoddi ganddo ef ei hun yn niwedd ei *Hanes Eglwysig*, yr hon a gynnwys yr oll a ysgrifenodd cyn y flwyddyn 731. Y mae Bale, yn ei waith ar yr ysgrifenwyr Prydeinig [4plyg, Gippesw. 1548, td. 50], yn crybwyll 96 o draethodau wedi eu hysgrifenu ganddo; ac yn ei argraffiad diweddaraf [1559, td. 94], y mae yn chwyddo eu rhifedi i 145; ac yn hysbysu yn niwedd pob un o'r rhestrau, fod nifer mawr nad oedd efe wedi eu gweled. Y mae Pits hyd yn oed wedi chwanegu at y rhestr hon.

Argraffwyd y casgliad cyffredinol cyntaf o weithiau Bede yn Paris, yn 1544, mewn tair cyfrol unplyg. Argraffwyd hwynt drachefn yn yr un man mewn wyth o gyfrolau unplyg, yn 1554; a thrachefn yn yr un dull yn Basle, yn 1563; ail argraffwyd hwynt yn Cologne, yn 1612; ac yn ddiweddaf yn yr un man, 1688.

Cyhoeddwyd y traethodau sydd yn rhestr Bede ei hunan, gan y dysgedig Mr. Wharton, oddi wrth dair llawysgrif, yn llyfrgell werthfawr palas archesgobawl Lambeth. Llundain, 4plyg, 1693.—(*Symeon of Durham's Hist. Eccl. Dan.; Tanner's Bibliotheca Britannico-Hibernica; Biog. Brit.: Henry's Hist. of Brit.; Buck's Theol. Dict.; Penny Cyclopædia*).

BEDYDD: (Gr., *βαπτισμα*, *βαπτισμος*; Llad., *baptismus*; Ffr., *batême*; Ysp., *bautismo*; Llyd., *badiziant*). Un o'r ordinhadau arwyddol, a sefydlwyd gan Iesu Grist ar ol ei adgyfodiad. "Bedydd sydd sacrament yn perthyn i'r Testament Newydd, wedi ei ordeinio gan Iesu Grist." —*Presbyterian Confession of Faith*, pen. xxviii. 1. Gweinyddir hi yn gyffredin, naill ai trwy soddi yr holl gorff mewn dwfr, neu dywallt dwfr ar y deiliaid. "Os hwy a hysbysant iddo y gall y plentyn ddyoddef hyny yn dda, efe a'i trocha ef yn y dwfr yn ddiesgeulus a darbodus; ac os hysbysant fod y plentyn yn wan, digon fydd bwrw dwfr arno."—*Llyfr Gweddi Gyffredin*.

Nid yw y gair Groeg am *bedydd* wedi cael ei gyfieithu, eithr ei drosglwyddo, yn y rhan amlaf o gyfieithiadau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Yn y cyfieithiadau Lladin, y Vulgate, Beza, ac Arias Montanus, *baptismus* ydyw; yr un modd y Ffrengig, *batême*; a'r Yspaeneg, *bautismo*; a'r Seisoneg, *baptism*. Tybia rhai ysgolheigion Cymreig, fod y gair *bedydd* â'i wreiddyn yn y Frythoneg; ond y dyb sydd â mwyaf o resymau o'i phlaid yw, ei fod wedi derbyn ei ffurf bresennol yn raddol o'r enw Groeg, *baptisma*, neu y ferf, *baptizo*, yr un modd a'r gair cyfystyrol mewn ieithoedd ereill. Y mae yr iaith Gymreig, megys ieithoedd ereill, yn llawer hynach na sefydliad y grefydd Gristionogol, a llawer mwy ei chyhoeddiad a'i derbyniad gan y Cymry; ac o ganlyniad, rhaid fod y Geiriadaeth Cristionogol yn wreiddiol ddyeithr iddi, ac wedi cael ei ddwyn i mewn iddi, a'i gydgorffori â hi, a hyny yn raddol, fel yr oedd gwybodaeth ac addysg grefyddol yn cynnyddu, ac ysgrifeniadau Cristionogol yn amlhau. Yn y Llydawaeg, y mae y gair wedi cadw ffurf y gwreiddiol yn well; fel y dengys y ferf *badezet*, a'r enwau *badiziant*=bedydd, a *badezour*=bedyddiwr; ac yn nghyfieithiad William Salesbury, yr enw *baptisma* a gyfieithir *batydd*, neu *betydd*; a'r ferf *baptizo*, *batyddio* neu *betyddio*; a hawdd y gallasai *baptizo* ddyfod yn *batyddio*, trwy gyfnewid y *z* i *dd*, fel y gwneir yn fynych, a gadael allan y *p*, er mwyn gwneuthur y gair yn fwy hysain ac esmwyth. Perthyn i'r un dosbarth, yn ddiau, y mae y geiriau *efengyl*, *eglwys*, *esgob*, a llu aws ereill; y rhai, yn yr hen gyfieithiadau ydynt *evangel* neu *evangelon*, *eccles*, ac *episcop*; ac yn raddol y derbyniasant eu ffurf bresennol, *efengyl*, *eglwys*, *esgob*, &c.

Yn gyffelybiaethol, defnyddir y gair i ddynodi dyoddefiadau neu gystuddiau mawrion. "Y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef, ac mor gyfyng

Digitized by Google

yw arnaf hyd oni orphener!" "A ellwch chwi yfed o'r cwpan yr ydwyf fi ar yfed o hono, a'ch bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi?" *Luc* xii. 50; *Mat.* xx. 22.

HEN ENWAU AR FEDYDD.

Sonir am fedydd gan hen ysgrifenwyr dan amrywiol enwau, sef, *παλιγγινεσια*=*adenedigaeth*; *salus*=iachawdwriaeth; *σφραγις*=sêl: *signaculum Domini*, neu *signaculum fidei*=sel yr Arglwydd, neu sel ffydd; *mysterium*=dirgelwch; *sacramentum fidei*=sacrament ffydd, &c. Weithiau, gelwir ef *viaticum*=teith-ddarpar, am ei fod yn cael ei weinyddu i rai ar ymadaw â'r fuchedd hon; weithiau, *sacerdotium laici*=offeiriadaeth y lleygion, am ei fod, ar achlysuron o angenrheidwydd, yn cael ei weinyddu gan wŷr lleyg; weithiau, gelwid ef *yr enwaediad mawr*, am ei fod wedi dyfod yn lle enwaediad, ac yn sel cyfammod Cristionogol, megys yr oedd yr enwaediad yn sel y cyfammod a wnaed âg Abraham. Yn gymmaint ag mai ei sefydlydd yw Crist, gelwid ef gynt, *δωρον* neu *χαρισμα Κυριου*=rhodd yr Arglwydd. A chan ei fod yn sefydliad trwy yr hwn y derbynid rhai i mewn fel aelodau o'r eglwys, rhoddid iddo yr enwad, *τελειωσις*=y cyssegriad, neu y perffeithiad, am ei fod yn rhoddi i ddynion gyflawn Gristionogaeth, ac yn rhoddi hawl iddynt i gyfranogi o'r *τὸ τελειον*=y perffaith, sef Swper yr Arglwydd. Gelwid ef hefyd *μυησις* a *μυσταγογια* =y derbyniad i mewn (*initiation*), am ei fod yn rhoddi derbyniad i holl ragorfreintiau y grefydd Gristionogol.

TARDDIAD YR ARFERIAD O FEDYDDIO.

Y mae dynion yn gwahaniaethu yn fawr mewn perthynas i ddechreuad yr aferiad o fedyddio. Tybia Grotius iddo ddechreu yn fuan wedi y dylif, er coffa am buro y ddaiar trwy ddwfr. Yn mhlith yr Iuddewon, pa fodd bynag, a'r holl genedloedd dwyreiniol, yr oedd golchiadau lluosog fel arwyddion o buredigaeth oddi wrth aflendid moesol. Gorchymynai cyfraith Moses rai: nid oedd ereill ond traddodiadau. Y mae lluaws o ysgrifenwyr yn dadleu, mai yn yr Eglwys Iuddewig y dechreuodd yr arferiad o fedyddio, wrth dderbyn proselytiaid neu ddychweledigion i'w ffydd hwy. Gellid casglu fod y cwestiwn hwn wedi cael ei ystyried yn un pwysig, oddi wrth nifer yr ysgrifenwyr sydd wedi ymrestru o bob ochr. Rhai a wadant neu 'a ammheuant a oedd y fath arferiad a bedyddio proselytiaid yn mysg yr Iuddewon, yn amser Iesu Grist; megys y Dr. Owen, Lardner, Doddridge, Van Dale, Ernesti, Paulus, De Wette, Stuart, ac ereill. Y mae enwau mor bwysig a'r rhai hyn o blaid yr honiad, fod bedydd proselytaidd mewn arferiad yn amser Crist; megys Ainsworth, Selden, Buxtorf, Lightfoot, Jahn, Michaelis, Mosheim, Neander, Giescler: ac efallai mai nid gormod yw dyweyd mai hwn yw y syniad cyffredin yn mysg duwinyddion. Bernir, pe buasai yr arferiad yn hollol newydd yn amser Ioan, ac mai efe oedd y cyntaf a ddechreuodd fedyddio, na buasai pleidiau gwrthwynebol, fel y Phariseaid a'r Saduceaid, yn nghyd â holl luaws y bobl, yn cyrchu ato, heb awdurdod traddodiad na chyfraith. Tybir hefyd fod yr ymofyniad i Ioan, "Pa ham yr wyt ti yn bedyddio, onid wyt ti na'r Crist, nag Elias, na'r prophwyd?" yn dangos cydnabyddiaeth flaenorol â'r ddefod. Defnyddir ymddyddan Crist â Nicodemus yn brawf o hyn. Y mae yr Arglwydd Iesu yn dadgan ei syndod fod dysgawdwr yn Israel heb ddeall pa beth oedd cael ei eni o ddwfr ac o'r Ysbryd. Os nad oedd bedydd yn arferedig yn eu mysg, pa ham y gallesid dysgwyl i Nicodemus ddeall ymadrodd mor ddieithriol o *geni o ddwfr*. Nid oes dim yn nghyfraith Moses, nac yn ymadroddion yr Hen Destament, a allasai roddi cymhorth iddo i hyny.

Y mae yr hanes am yr Iuddewon yn dadleu â dysgyblion Ioan yn nghylch puredigaeth (*Ioan* iii. 25, 26) hyny yw, yn nghylch bedydd, dybygid, yn dangos fod ganddynt hwy syniadau blaenorol am hyny. Yr oeddynt hwy, sef y Phariseaid, yn deall bedydd Crist a bedydd Ioan yn fedyddiadau proselytaidd; hyny yw, fod y naill a'r llall yn gwneud dysgyblion trwy fedyddio, ac felly eu bod yn gydnabyddus â'r dull hwnw o wneud dysgyblion. Y mae Pedr hefyd ar ddydd y Pentecost, yn cymmeryd yn ganiataol fod y lluaws oedd wedi ymgasglu yn nghyd yn deall pa beth oedd bedyddio—"Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch." Nid oedd yn angenrheidiol oedi dim er mwyn egluro natur y ddefod; "A chwanegwyd atynt y dwthwn (diwrnod) hwnw yn nghylch tair mil o eneidiau."

Y mae tystiolaethau ysgrifenwyr Iuddewig er yn fore yn y cyfnod Cristionogol yn bendant dros yr arferiad, yn eu hamser hwy, o dderbyn dychweledigion i'w crefydd hwy trwy fedydd, a phriodolant yr arferiad i'w hynafiaid. Y mae casgliad o'r tystiolaethau hyn i'w gael yn Selden, Lightfoot, Hammond, &c. Yn ol y tystiolaethau hyn, bedyddient wŷr a gwragedd, a'u teuluoedd. Nid yw Josephus yn dwyn tystiolaeth o hyn—am fedyddiad rhai heb fod yn Iuddewon; ac eto, y mae yntau yn dyweyd fod yr Iuddewon eu hunain yn cael eu bedyddio wrth newid o'r naill sect i'r llall.

Y mae rhai yn myned yn mhellach, ac yn dadleu fod yr arferiad o fedyddio proselytiaid i'r grefydd Iuddewig yn codi o angenrheidrwydd o'r gyfraith ddwyfol ei hunan. Yr oedd y Cenedloedd yn aflan yn wyneb y gyfraith, ac nid oedd caniatad iddynt ddyfod i gymmundeb a chyfeillach â'r Iuddewon, ond drwy yn gyntaf gael eu puro â dwfr:—yr oedd hyn fel yn awdurdodi yr arferiad o'u bedyddio.

Y geiriai a ddefnyddiai yr Iuddewon eu hunain dros fedydd proselytiaid ydynt *Num.* xv. 15, 16; "Yr un ddeddf fydd i chwi ag i'r ymdeithydd dyeithr: megys yr ydych chwi, felly y bydd y dyeithr ger bron yr Arglwydd." Eglura Maimonides, yr hwn a gyfrifir yn dywysog eu duwinyddion gan yr Iuddewon, y geiriau "megys yr ydych chwi, felly y bydd y dyeithr," fel hyn, "Pa fodd yr ydych chwi? trwy enwaediad, a bedydd, ac aberth: felly hefyd y dyeithr trwy yr holl genhedlaethau, drwy enwaediad, a bedydd, ac aberth." Yma y mae yr ymofyniad yn codi—Pa fodd y bedyddiwyd yr Iuddewon? Dywed Maimonides, "Mai trwy dri pheth yr aeth Israel i gyfammod—drwy enwaediad, bedydd, ac aberth. Yr oedd enwaediad yn yr Aipht; bedydd yn yr anialwch cyn rhoddiad y ddeddf, megys yr ysgrifenwyd, 'Sancteiddia hwynt heddyw ac yfory, a golchant eu dillad.'"

Dysgai yr ysgrifenyddion, fod yr holl genedl wedi cael eu bedyddio i Moses: ac fel yr oedd iddynt hwy, felly fod i'r dyeithr hefyd gael ei fedyddio; hyny yw, pob un o'r Cenedloedd a gofleidiai y grefydd Iuddewig. Eglura hyn eiriau Paul yn 1 *Cor.* x. 1, 2, lle y gosodir pwys ar y bedydd a dderbyniasant i Moses yn y cwmwl a thrwy y môr.

Ystyriai yr Iuddewon fod y cenedlddyn a dderbyniai fedydd ac felly a ymunai â'u crefydd, hwy.

Digitized by Google

fel un wedi ei eni drachefn—wedi ei aileni. Dywed y Talmud, "fod yr hwn a ddeuai yn broselyt, fel plentyn newydd eni." Geiriau Maimonides ydynt, "Y mae y cenedlddyn a wneir yn broselyt fel plentyn newydd eni." Ystyrid ef fel wedi ei ddwyn i sefyllfa newydd, yn meddu rhieni newyddion, ac yn perthyn i wladwriaeth newydd. Deuai, mor bell ag yr oedd manteision allanol yn myned, yn blentyn i Abraham drwy enwaediad a bedydd. Y mae hyn yn egluro geiriau Crist wrth Nicodemus, "Oddi eithr geni o ddwfr ac o'r Ysbryd." Daeth Nicodemus ato liw nos i gyffesu ei ffydd ynddo, ond nid oedd derbyniad iddo felly i deyrnas nefoedd; yr oedd yn rhaid iddo, drwy broffes allanol mewn bedydd, ddyfod i mewn i fwynhad o'i rhagorfreintiau allanol, a thrwy gyfnewidiad yr Ysbryd ddyfod i fwynhad o'u bendithion ysbrydol. Yr hyn oedd yn creu syndod yn meddwl Nicodemus, oedd clywed fod yn angenrheidiol iddo ef, oedd yn blentyn i Abraham yn ol y cnawd, gael ei ddwyn i deyrnas a chyfammod Duw trwy fedydd ac ailenedigaeth, a'r deyrnas yn ol ei dyb yn perthyn i Israel eisoes.

Ymddengys, yn ol y dyfyniadau a rydd Lightfoot, Selden, Hammond, ac ereill, o'r hen ysgrifeniadau Iuddewig, fod plant yn cael eu proselytio i'r grefydd Iuddewig trwy enwaediad a bedydd. Geiriau Lightfoot ydynt—"Yr oedd bedydd babanod mor gydnabyddus ac mor arferedig yn mhlith yr Iuddewon cyn amser Ioan Fedyddiwr, ac hyd at ei amser ef, ag unrhyw ddefod sanctaidd yn eu mysg, ac yr oeddynt mor gydnabyddus â bedydd babanod ag oeddynt âg enwaediad babanod" [*Harmony on John* i. 25] Dadleuir hefyd, os oedd y fath beth a bedydd proselytiaid yn amser Crist, fod yn rhaid eu bod yn bedyddio babanod yn gystal a'u henwaedu. Yr oedd plant yn cael eu proselytio, ac yr oedd yn angenrheidiol eu puro hwythau fel eu rhieni oddi wrth yr aflendid oedd yn nglyn â byw yn mysg y cenedloedd.

Y mae rhai yn ceisio esbonio y cyfeiriadau yn y Testament Newydd at fedydd, trwy ddyweyd fod dysgwyliad cyffredinol yn mysg y genedl Iuddewig yn amser ymddangosiad Ioan Fedyddiwr, y byddai i ragflaenor y Messïah buro yr holl genedl trwy fedydd, i'w pharotoi i'w deyrnasiad ef. Yn y modd yma yr esbonia y rhai sydd yn gwadu hynafiaeth bedydd proselytiaid y cyfeiriadau hyny. Ond os oedd hyn yn bod, y mae yn debygol eu bod yn golygu fod y ddefod yn perthyn fel eu holl osodiadau hwy i'r holl genedl.

BEDYDD IOAN.

Mae dau beth yn amlwg am natur y bedydd a weinyddwyd gan Ioan, ac a addefir yn gyffredinol; sef yn un peth, fod pawb a ddeuai ato i ymofyn am hyny yn ei dderbyn—nid oes hanes ei fod yn gwrthod neb; ac yn nesaf, nad oedd ei fedydd ef yn gyssylltiedig â chyfnewidiad moesol ac ysbrydol ar feddwl y derbynydd. Yr oedd Ioan wrth fedyddio yn hysbysu dyfodiad un a fedyddiai â'r Ysbryd Glân ac â thân. Syniad cyffredin yn mysg ysgrifenwyr yr oesoedd boreuaf oedd, yn ngeiriau Chrysostom, "fod bedydd Ioan o natur uwch na bedydd Iuddewig, ond fod bedydd Cristionogol o natur uwch na bedydd Ioan." A barn gyffredin y rhai sydd yn dadleu fod ailenedigaeth yn gyssylltiedig â bedydd Cristionogol ydyw, nad oedd bedydd Ioan yn meddu y cyssylltiad hwn; fod bedydd Ioan yn anmherffaith, am nad oedd ond bedydd dwfr; ond fod y bedydd Cristionogol yn berffaith am ei fod yn fedydd dwfr a bedydd yr Ysbryd. Yn amser y Diwygiad, ystyrid hyn yn gwestiwn o gryn bwys; sef, a oedd bedydd Ioan yr un a bedydd Crist? Myntumiai y Pabyddion, fel y gwna ysgrifenwyr hynafol, eu bod yn hollol wahanol yn eu natur. Yr oedd Zwingle, Calvin, Beza, a'r holl Galviniaid yn gwadu y gwahaniaeth rhyngddynt; tueddai Luther hefyd at yr un ochr. Cyhoeddodd Cynghor Trent anathema uwch ben y rhai a ddaliai fod bedydd Ioan o'r un natur a bedydd Crist. Y rheswm pa ham y priodolid cymmaint o bwys i hyn gan y ddwy blaid oedd, am yr addefid o bob ochr nad oedd dim rhinwedd achubol yn perthyn i fedydd Ioan, ac o ganlyniad yr oedd yn angenrheidiol i Babyddion wadu ei fod yr un a'r bedydd Cristionogol, i'r hwn y priodolent gymmaint o rinwedd. Ar y llaw arall yr oedd y Diwygwyr yn gorchfygu y Pabyddion, yn ol eu haddefiad eu hunain, os gallent brofi fod bedydd Ioan a bedydd Crist yr un o ran natur.

Honai y Diwygwyr, a hona llawer eto, fod y tri bedydd, sef bedydd Ioan, y bedydd a weinyddid gan ddysgyblion Crist cyn ei adgyfodiad, a'r bedydd a orchymynid ar ol ei adgyfodiad, yr un o ran dyben, os yn gwahaniaethu o ran ffurf. Dywed Zwingle—"Nid oedd bedydd Ioan yn effeithio dim, ac nid yw bedydd Crist yn effeithio dim; o herwydd ymfoddlonai Crist ar fedydd Ioan iddo ei hun a'i ddysgyblion. Ond pe buasai rhywbeth mwy yn ei fedydd ef, ail fedyddiasai ei ddysgyblion." Yr adnod a ddyfynir i brofi eu bod yn wahanol, yw *Mat.* iii. 2. Ond yr ateb i hyn ydyw, mai nid cyferbynu bedydd Ioan â'r bedydd dwfr a orchymynodd Crist, ond â bedydd yr Ysbryd Glân. Y mae Robert Hall hefyd yn dadleu eu bod yn wahanol yn ei *Draethawd ar Gymundeb Rhydd;* ond nid i'r un dyben, wrth gŵrs, ag y gwna y Pabyddion a'r Puseyaid.

Ei resymau ef ydynt, fod effeithiau uwch yn cael eu priodoli i fedydd Crist. Yr oedd bedydd Ioan yn cyfeirio at Fessïah i ddyfod; ond yr un Cristionogol yn arwydd o broffes mewn un wedi dyfod; gweinyddir y bedydd Cristionogol yn enw Iesu, ond nid oes prawf fod Ioan yn bedyddio felly. Ond yr unig reswm y teimla y blaid arall fod dim grym ynddo ydyw, fod genym hanes fod rhai ag oedd wedi derbyn bedydd Ioan, yn cael eu bedyddio eilwaith: *Act.* xix. 3, 4. O herwydd wrth ymofyn a oeddynt o'r un natur, y meddwl yw, a oedd un yn ateb dyben nad oedd y llall, fel yr oedd yn angenrheidiol i fedyddio eilwaith y neb a dderbyniasai fedydd Ioan. Addefir fod y deuddeg dyn hyn wedi cael eu hail fedyddio.

Y mae amryw esboniadau wedi cael eu rhoddi i ddangos nad oedd y rhai a dderbyniasai fedydd Ioan yn cael eu bedyddio eilwaith, ond fod y bedydd hwnw yn cael ei ystyried yn ddigonol, ac felly o'r un dyben a bedydd Crist. Wrth fedydd Ioan, tybia Zwingle, y mae i ni ddeall, yn yr hanes dan sylw, athrawiaeth Ioan; I ba beth gan hyny y'ch haddysgwyd chwi? Hwythau a atebasant, I athrawiaeth Ioan. Esboniad Calvin ar y geiriau "hwy a fedyddiwyd yn enw yr Arglwydd Iesu," ydyw, eu bod wedi eu bedyddio â'r Ysbryd Glân pan roddodd Paul ei ddwylaw arnynt. Myn Beza fod y geiriau, "a phan glywsant hwy," &c., yn eiriau Paul, ac nid hanesydd yr Actau; ac mai y meddwl ydyw, "pan glywodd y bobl ef (Ioan), hwy a fedyddiwyd yn enw yr Arglwydd Iesu." Esboniad y Dr. Halley ydyw, fod yn debygol fod y dynion hyn wedi eu bedyddio â bedydd Ioan gan Apolos; o blegid nid oedd efe

Digitized by Google

yn deall, nac o ganlyniad yn gweinyddu, ond bedydd Ioan (*Act.* xviii. 25), a hyny ar ol marwolaeth ac adgyfodiad Iesu Grist. Gan fod Apolos yn byw yn mhell o Ganaan, nid allasai yn fuan glywed am hyny. Fel yr oedd bedydd Ioan yn ddigonol cyn adgyfodiad Crist, o herwydd ni chafodd yr apostolion a'r credinwyr cyntaf yr un arall, yr ydoedd yn annhriodol wedi hyny; o herwydd bedydd *i Fessïah i ddyfod* ydoedd, ac nid i *un wedi dyfod.* Pa beth bynag a ddywedir am yr esboniadau hyn, y mae yn annhebygol fod y lluaws o'r dysgyblion cyntaf a fedyddiwyd gan Ioan wedi eu hailfedyddio. Bedyddiwyd Crist â bedydd Ioan; onid yw yn debygol fod y bedydd a dderbyniodd ef, a bedydd ei bobl, yr un?

GOLYGIADAU GWAHANOL AR NATUR A DYBEN BEDYDD.

Y mae gwahanol olygiadau wedi ffynu, ac yn ffynu yn bresennol, o barth i natur a dyben bedydd.

I. *Ailenedigaeth mewn bedydd.*

Syniad a amddiffynir gan lawer ydyw, fod bedydd ac ailenedigaeth yn anwahanol gyssylltiedig â'u gilydd. Y mae yr athrawiaeth o AILENEDIGAETH MEWN BEDYDD yn ymddangos yn y pedwar ffurf canlynol:—

1. Fod bedydd yn rhoddi hawl i holl freintiau allanol yr efengyl, drwy iawn ddefnydd o ba rai y mae pechadur yn ennill hawl i fywyd tragwyddol.

2. Fod bedydd yn newid cyflwr dyn, fel ag i roddi hawl uniongyrchol iddo i fywyd tragwyddol, yr hwn fydd yn eiddo iddo hyd nes y cyll ef trwy bechod.

3. Fod bedydd yn cynnyrchu cyfnewidiad moesol ac ysbrydol yn yr enaid mewn undeb â chyfnewidiad cyflwr sydd yn rhoddi hawl iddo i fywyd tragwyddol.

4. Fod bedydd yn gyfrwng trwy ba un y cynnyrchir cyfnewidiad moesol ac ysbrydol, er nad bob tro y gweinyddir ef, eto mor fynych fel ag i gyfiawnhau yr eglwys i ddyweyd mewn barn cariad fod y bedyddiedig yn ailenedig.

Y mae AILENEDIGAETH MEWN BEDYDD wedi cael ei ddal yn y pedwar ffurf yma. Yn ol y ffurf cyntaf, y cwbl a feddylir wrth ailenedigaeth ydyw dyfod i hawl o fanteision allanol yr efengyl, ac mai bedydd sydd yn rhoddi yr hawl ac felly yn ei osod mewn cyflwr achubadwy. Yn erbyn y dybiaeth hon, gellir dyweyd nad yw yr Ysgrythyrau yn dangos fod un cyflwr canol rhwng y diogelwch sydd yn perthyn i gredinwyr a'r hawl i dderbyn gwahoddiadau yr efengyl sydd yn cael eu cyfeirio at bawb fel pechaduriaid, ac nid fel rhai bedyddiedig. Yn ol yr ail a'r drydedd dybiaeth, y mae y bedyddiedig yn cael ei osod mewn cyflwr diogel, ac hefyd ei wneyd yn wir Gristion. Y mae y rhai sydd yn dal ailenedigaeth mewn bedydd yn ol y trydydd ffurf, yn fwy cysson âg iaith yr Ysgrythyr na'r rhai sydd yn gorphwys yn yr ail yn unig; o herwydd y mae diogelwch cyflwr a chyfnewidiad calon bob amser yn cydfyned. Ac yn ol y trydydd ffurf y dysgir yr athrawiaeth hon yn gyffredin gan y Tractariaid neu y Puseyaid. Y mae y pedwerydd ffurf yn cael ei dderbyn a'i amddiffyn gan lawer o wrthwynebwyr y Tractariaid yn Eglwys Loegr; a chyfyngir ef bron yn hollol i'r blaid efengylaidd yn yr eglwys. Yn y modd yma yr esboniant hwy y *Catecism,* a'r *Llyfr Gweddi Gyffredin* ar fedydd. Y mae pob gweinyddwr yn gweddïo, "Sancteiddia y dwfr hwn," ac yna, y mae yn diolch "am i ti weled yn dda aileni y plentyn hwn â'th Ysbryd Glân." Mae y Tractariaid yn dal fod y geiriau hyn yn dysgu fod "adnewyddiad yr Ysbryd Glân" yn anwahanol gyssylltiedig â gweinyddiad priodol a chanonaidd o fedydd. Dywed y blaid efengylaidd nad yw y cyssylltiad yn anwahanol, ond bod ailenedigaeth yn cymmeryd lle yn fynych mewn bedydd; ac felly y mae yr eglwys mewn barn cariad yn dadgan fod pob bedyddiedig yn ailenedig. "Ni chyfarfyddais," medd Mr. Faber, yr hwn sydd yn amddiffyn y syniadau hyn [*Primitive Doctrine of Regeneration*], "âg un gweinidog o Eglwys Loegr a lwyddodd i berswadio ei hun nad oedd ei eglwys ef yn ystyried fod y gras o ailenedigaeth yn cael ei gyfranu mewn bedydd." Mae y pedwerydd ffurf o ailenedigaeth mewn bedydd yn ddarostyngedig i wrthwynebiadau nad yw y lleill yn agored iddynt. "Mae ailenedigaeth yn cymmeryd lle cyn bedydd, mewn bedydd, ac ar ol bedydd."—*Faber.* Y rheswm pa ham y mae yn cymmeryd lle weithiau, ac nid yn wastad ydyw, am nad ydyw yn cael ei dderbyn yn deilwng yn wastad. Y teilyngdod gofynol, yn ol y dybiaeth dan sylw ydyw, tuedd gywir ac ymateb cydwybod dda i'r gofyniad—a ydyw yn ymwrthod â'r byd, y cnawd, a'r diafol? Ond os yw yr ymgeisydd am fedydd yn meddu y cymhwysderau hyn, onid yw yn ailanedig eisoes cyn cael ei fedyddio? Ac felly dylid dywedyd fod ailenedigaeth bob amser yn blaenori bedydd, os yw y teilyngdod gofynol mewn bedydd. Ac os nad ydyw y teilyngdod gofynol yn meddiant y bedyddiedig, nad yw yn ailanedig er ei fedyddio. Nid yw gan hyny yn briodol yn y naill amgylchiad na'r llall i ddiolch fod y gras o ailenedigaeth yn cael ei gyfranu mewn bedydd. Os dywedir nad yw y cymhwysder blaenorol yn beth mor fawr ag ailenedigaeth, ac nad yw ond dymuniadau da ar wahan oddi wrth yr enedigaeth sydd o Dduw, onid yw hyn yn hen athrawiaeth Pelegiaidd sydd yn gwneyd ailenedigaeth yn ddibynol ar barotoad blaenorol, yr hyn sydd yn hanfodol, medd y Dr. Pusey, gyda phriodoldeb, i bob dull o ddysgu fod ailenedigaeth mewn bedydd yn dibynu ar gymhwysderau blaenorol.

Ond yn chwanegol at hyn, gellir gofyn pa brawf sydd fod bedydd yn effeithio yn wahanol ar wahanol ddeiliaid iddo? Nid yw yn ymddangos yn beth hawdd i'w gredu heb brawf, fod, o ddau faban sydd mor analluog i feddwl a theimlo a'u gilydd, y dwfr mewn bedydd yn foddion ailenedigaeth i'r naill, ac heb fod felly i'r llall. Ceisir weithiau gyfarfod yr anhawsder trwy ddyweyd fod y rhai sydd yn ateb dros y plentyn yn fwy cywir yn y naill amgylchiad na'r llall, ac hefyd y gall fod yn y baban a ailenir ryw barotoad meddwl, yn gwneyd fod rhai babanod yn dderbynwyr teilwng o fedydd, a'r lleill heb fod. Ond gofynir eto, yn mha le yn yr Ysgrythyr y mae yr awgrymiad lleiaf o blaid y gwahaniaethau hyn? O'r ddau ffurf dan sylw o ailenedigaeth mewn bedydd—sef y ffurf sydd yn cyssylltu y gras bob amser â'r ddefod allanol, a'r ffurf sydd yn ei gyssylltu yn fynych, ond nid bob amser—onid yw yr olaf mor ddarostyngedig i wrthwynebiadau a'r blaenaf?

Yr adnodau a ddefnyddir i brofi ailenedigaeth mewn bedydd, yn mhob ffurf o hono, ydyw y rhai canlynol: *Ioan* iii. 5; "Oddi eithr geni dyn o ddwfr ac o'r ysbryd." Dywed y Dr. Pusey ei fod ef yn foddlawn i adael i'r holl ddadl gael ei phenderfynu yn ngwyneb yr adnod hon. Yr hyn sydd i'w benderfynu, er mwyn deall y geiriau

Digitized by Google

ydyw, A ydyw genedigaeth o ddwfr, a genedigaeth o'r Ysbryd yn ddau beth gwahanol, ai ynte dwy ran wahanol o'r un peth? A ydyw y neb a enir o ddwfr, o angenrheidrwydd yn cael ei eni o'r Ysbryd? Neu ynte, A yw yn bosibl i'r hwn sydd wedi ei eni o ddwfr, neu ei fedyddio, fod heb yr enedigaeth o'r Ysbryd? A oes prawf yn y geiriau eu hunain fod y ddau beth hyn yn canlyn eu gilydd? Os oes, y mae y geiriau yn profi ailenedigaeth mewn bedydd. Addefa y rhai sydd yn dal ailenedigaeth mewn bedydd, a'r rhai sydd yn ei wrthwynebu, mai golchiad allanol â dwfr yn y bedydd ydyw geni o ddwfr, ac mai cyfnewidiad ysbrydol ydyw geni o'r Ysbryd. Yr hyn sydd i'w benderfynu gan hyny ydyw, a oes yn y geiriau rywbeth yn dysgu fod undeb annattodol rhyngddynt? Gair arall a ddefnyddir dros ailenedigaeth mewn bedydd ydyw *Titus* iii. 5; "golchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân." Mae y ddwy blaid yn foddlawn i gymmeryd y penderfyniad ar yr adnod flaenorol i benderfynu ystyr hon—geiriau Crist i ddeongli ystyr geiriau Paul. Y mae geni o ddwfr yn cyfateb i adenedigaeth trwy olchiad—genedigaeth o'r Ysbryd, i adnewyddiad yr Ysbryd Glân. Pa fodd bynag y deallir y naill, deallir y llall hefyd. Os ydyw geni o ddwfr, yn ngeiriau Crist, yn arwydd allanol o gyfnewidiad tu mewnol, y mae golchiad yr adenedigaeth, yn ngeiriau Paul, yn arwydd o'r un peth. Ac os oedd, neu os nad oedd y naill yn anwahanol â'r llall yn y geiriau wrth Nicodemus, dysg hyn ni i ddeall eu cysylltiad yn amser Paul. Dywed amddiffynwyr ailenedigaeth mewn bedydd, fod geiriau Crist yn eglur o blaid yr angenrheidrwydd am enedigaeth o ddwfr, yn gystal a genedigaeth o'r Ysbryd, i fyned i deyrnas Dduw; ac hefyd fod Paul mor benderfynol yn priodoli achubiaeth i olchiad yr adenedigaeth, yn gystal ag i adnewyddiad yr Ysbryd Glan. Yr ateb a roddir i hyn ydyw—fod geiriau Crist yn dysgu i Nicodemus nad oedd gwneyd proffes o gyfnewidiad meddwl, fel y gwnai y rhai a dderbynient fedydd Ioan, ddim yn ddigon; ond fod yn rhaid cael y cyfnewidiad hwnw ei hun trwy weithrediad yr Ysbryd Glân. Ac yn yr un modd y mae deall geiriau Paul. Dadleuir hefyd fod y geiriau canlynol yn cadarnhau y golygiad hwn. *Marc* xvi. 16; "Y neb a gredo ac a fedyddier, a fydd cadwedig; eithr y neb ni chredo, a gondemnir." Nid oes neb a honai oddi wrth y geiriau hyn nad all credu fyned o flaen bedydd, nac ychwaith fod bedydd yn cynnyrchu neu yn annattodol â chredu. Hefyd, *Rhuf.* x. 9; "Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi." Yma, dangosir fod cyffesu â'r genau, yr un modd a chredu â'r galon, yn angenrheidiol er iachawdwriaeth. Dangosir yn y Llythyr at y Rhufeiniaid, mai trwy gyffes, a ffydd, yr achubir; yn y Llythyr at Titus, mai trwy fedydd ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân. Gan nad oes neb yn dal fod cyffes allanol yn cadw, onid ar yr un tir y gellir dyweyd nad yw bedydd yn cadw. Mae y ddau o werth fel arwyddion allanol o ffydd yn y galon.

Adnod arall a ddefnyddir o blaid ailenedigaeth mewn bedydd ydyw 1 *Pedr* iii. 21; "Cyffelybiaeth gyfatebol i'r hwn sydd yr awr hon yn ein hachub ni, sef bedydd." Sylwir yn flaenorol mai wyth enaid a achubwyd yn amser y dylif; "cyffelybiaeth cyfatebol i'r hwn" ddwfr, sef dwfr y dylif, "sydd yn ein hachub ni." Fe ddangosir dwfr y dylif fel y cysgod, a bedydd fel y gwrthgysgod. Dywedir fod yr adnod hon yn profi fod dwfr y bedydd yn achub, neu ei fod yn offeryn yn llaw Duw i achub. Y mae yr adnod yn dywedyd mai fel yr achubodd dwfr y dylif Noah a'i deulu, felly y mae bedydd yn ein hachub ni. Ond ni achubodd y dylif neb, er fod wyth enaid wedi eu hachub yn nghanol ei ddyfroedd—yr arch a'u hachubodd; felly ar sail y gymhariaeth, nid yw bedydd yn achub, er fod credinwyr yn Nghrist wedi eu bedyddio yn cael eu hachub. Yn chwanegol, y mae yr apostol ei hun yn egluro pa fodd y mae bedydd yn achub. "Nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd." Hyn ydyw effaith cymhwysiad yr elfen ddwfr. Ond rhaid i effeithiau moesol gael achosion moesol. Nis gall elfen ddifywyd gynnyrchu bywyd yn y llysiau neu yn yr anifail, llawer llai bywyd yn yr enaid. Y mae bedydd yn achub fel y mae yn "ymateb cydwybod dda tuag at Dduw drwy Iesu Grist."

Yr adnodau a grybwyllwyd ydynt y profion ysgrythyrol a ddefnyddir yn brawf o ailenedigaeth mewn bedydd yn ei wahanol ffurfiau.

Bod yr athrawiaeth hon yn ymddangos yn fore yn hanes Cristionogaeth sydd amlwg. Am syniadau y tadau apostolaidd, sef canlynwyr cyntaf yr apostolion, nis gwyddom ddim; ond nid oes ammheuaeth nad oes yn amddiffyniad Justin Ferthyr, a ysgrifenwyd tua o. c. 140 neu 150, ymadroddion sydd yn ffafriol i'r dybiaeth ei fod ef yn ei chredu. Geilw bedydd yn ailenedigaeth, a dywedir ganddo ef, fel gan lawer o'r hen dadau eglwysig, fod y bedyddiedig wedi ei *oleuo*. Ac eto, y mae Justin yn gwahaniaethu rhwng bedydd ac ailenedigaeth; yr hyn sydd yn rhoddi lle i gymhwyso ato ef, fel at ereill o ysgrifenwyr yr oesoedd hyny, eiriau Awstin, "Oni byddai rhyw debygolrwydd yn y sacramentau i'r hyn y maent yn sacramentau (arwyddion) o honynt, ni byddent yn sacramentau oll. Ac oddi wrth hyn y maent yn fynych yn derbyn enwau y pethau hyn eu hunain." Eto ni wedir nad oedd Justin yn dal ailenedigaeth mewn bedydd, er nad yn y dull pendant, noeth, a dieithriad, y daeth i gael ei dderbyn bron yn gyffredinol. Y mae ysgrifenwyr dechreu y drydedd ganrif, megys Tertullian, Clement o Alexandria, ac Origen, er yn defnyddio ymadroddion anghysson â'u gilydd yn fynych, eto yn dal yr athrawiaeth hon. Eto nid oedd un dull unffurf i osod hyn allan, ac nid oedd natur y sacramentau yn cael llawer o le yn eu credoau. Dylid cofio hefyd nad oedd dim dadleuon y pryd hwnw am natur y sacramentau o natur dadleuon yr oes hon, i beri i ddynion feddwl gyda dim manylwch, nac o ganlyniad, i eirio eu syniadau gyda dim gofal a chywirdeb. Y mae yn hawdd codi ymadroddion o'r tadau i brofi nad oeddynt yn credu ailenedigaeth mewn bedydd. Y mae Simon Magus yn cael ei ddefnyddio gan Jerome, Awstin, a Cyril o Ierusalem, i ddangos nad oedd bedydd corff yn ddigon er glanhad yr enaid. Eto mewn manau ereill, defnyddient y gormodiaith mwyaf. "Mawr yn wir yw y bedydd a gynnygir i chwi," medd Cyril; "y mae yn bridwerth i gaethion.........yn farwolaeth pechod, yn ailenedigaeth yr enaid, gwisg y goleuni, y sel sanctaidd ac anghyfnewidiol, y cerbyd i'r nefoedd," &c. Y mae Chrysostom, a'r ysgrifenwyr Groegaidd, yn llawn o'r chwyddiaith hon; ond yn Awstin, a'r ysgrifenwyr Affricanaidd, ni gawn fwy o amgyffred o wahaniaeth pethau, ac o symlrwydd yr Ysgrythyrau. Nid oes neb yn gwahaniaethu yn fwy clir rhwng y gras tu mewnol a'r arwydd

Digitized by Google

allanol, nag Awstin, mewn ymadroddion cyffelyb i'r canlynol:—"Y mae golchiad yr adenedigaeth yn perthyn i bawb sydd yn cael eu bedyddio, ond nid yw gras yr adenedigaeth yn gyffredin i bawb."—"Mae bedydd yn un peth, y mae troedigaeth y galon yn beth arall."—"Nid yw fod y naill yn absennol yn brawf fod y llall yn absennol hefyd; gall plentyn gael ei fedyddio heb ei gyfnewid; ac fe gyfnewidiwyd y lleidr heb fedydd." Y mae ynddo hefyd ymadroddion sydd yn dadgan cyssylltiad annattodol rhwng bedydd ac ailenedigaeth. Yn y manau hyn y mae naill ai yn anghysson âg ef ei hun, neu ynte yn defnyddio y gair *ailenedigaeth* am freintiau allanol Cristionogion, y rhai eu dygir iddynt trwy fedydd.

Yn unol â syniadau uchel y tadau eglwysig am fedydd, credent fod yr elfen ddwfr wedi derbyn rhyw gymhwysder yn ei chreadigaeth, drwy fod Ysbryd Duw yn ymsymmud arni i buro a golchi yr enaid. Nid ymboenent hwy gyda'r anhawsderau sydd mewn fod cymhwysiad o ddwfr at y corff yn foddion sancteiddiad i'r enaid. Eu syniad, medd y Dr. Pusey, oedd, gan fod dwfr wedi ei drefnu i'w ddefnyddio mewn bedydd, fod ynddo gymhwysder i hyny; ac hefyd, fod y Creawdwr wedi rhoddi i'r elfen anianol ansoddau yn cyfateb i'w ddybenion moesol. Iaith Tertullian, ydyw, "gan fod y dwfr wedi ei sancteiddio gan yr Ysbryd Glân, fod ynddo gymhwysder i sancteiddio." Etto nid oedd y sancteiddiad cyntefig hwn yn ddigonol; a chredent, gan hyny, fod Iesu Grist wedi cymmeryd ei fedyddio i roddi rhinwedd yn y dwfr i lanhau yr enaid. Dywed St. Ambrose, "fod y dyfroedd wedi eu golchi gan gnawd Crist er mwyn rhoddi iddynt y rhinwedd i olchi oddi wrth bechod." Y mae cyfeiriad at hyn yn ngwasanaeth bedydd Eglwys Loegr—"Hollalluog a thragwyddol Dduw, yr hwn...... trwy fedydd dy Fab yn yr Iorddonen, a sancteiddiaist y dwfr er glanhad cyfriniol oddi wrth bechod." Yn chwanegol at hyn hefyd, yr oedd cyssegriad offeiriadol yn angenrheidiol i berffeithio y rhinwedd glanhaol hwn. Un o benderfyniadau Cynghor Carthage ydoedd, "Fod y dwfr, wedi ei gyssegru trwy weddi yr offeiriad, yn glanhau oddi wrth bechod."

II. *Bedydd yn sel.*

Syniad arall am natur bedydd ydyw, ei fod yn *sel*, yn unol âg esboniad cyffredin ar y sacramentau. Yn ngeiriau *Catecism Heidelberg*, a ddefnyddir gan Galviniaid Germany—"y sacramentau ydynt arwyddion gweledig a *seliau*......i selio i ni addewidion yr efengyl, ac nid yn unig i gredinwyr yn gyffredinol, ond i bob un yn neillduol." Yn ol *Catecism byraf Cymmanfa Westminster*, a ddefnyddir yn gyffredinol gan Brotestaniaid Ysgotland—"Sacrament ydyw ordinhad sanctaidd, yn yr hon, trwy arwyddion gweledig, y mae bendithion y cyfammod newydd yn cael eu harddangos, eu *selio*, a'u cymhwyso at bechaduriaid." Yn ol *Catecism Eglwys Loegr*, "sacrament ydyw arwydd allanol a gweledig o ras tufewnol ac ysbrydol a gyfrenir i ni, wedi ei ordeinio gan Grist i fod yn foddion trwy ba un yr ydym i dderbyn yr unrhyw, ac fel gwystl i'n sicrhau ni o'r unrhyw."

Iaith gyffelyb a ddefnyddir gan luaws mawr o dduwinyddion o bob enwad uniawngred. Yn unol â syniad yr ysgrifenwyr hyn, y mae bedydd yn fwy na gosodiad neu ordinhad arwyddol, ac hefyd na nod gwahaniaethol o broffes—y mae yn *sel*. Yr hyn a feddylir wrth ddyweyd ei fod yn sel ydyw, ei fod yn sicrhau y bydd y bendithion a ddangosir drwyddo yn eiddo i'r rhai sydd yn ei dderbyn yn iawn. Mae llawer o ysgrifenwyr yn eu dangos fel seliau o gyfammod Duw i ni, ac hefyd o'n hymrwymiad ni i Dduw. Mae seliau y cyfammod yr un fath, a'r bendithion sydd ynddo yn *ammodol*. I'r rhai sydd yn credu y mae y bendithion, ac hefyd i'r rhai sydd yn credu y mae y seliau yn sicrwydd o'u cadwedigaeth. Pe byddent yn sicrwydd o faddeuant a bywyd tragwyddol i ryw rai heb law credinwyr, byddent yn anghysson âg addewidion yr efengyl. Nid yw seliau y cyfammod newydd yn sicrhau y bendithion i bawb sydd yn eu derbyn, mwy nag ydyw yr addewidion i bawb sydd yn eu darllen a'u gwrandaw. Mae yr addewidion yn rhoddi sicrwydd o faddeuant i'r rhai sydd yn eu derbyn trwy ffydd. A seliau o'r addewidion ydyw bedydd a Swper yr Arglwydd. Dywedir fod enwaediad i Abraham yn "insel cyfiawnder y ffydd;" *Rhuf.* iv. 11. Yr ydoedd yn arwydd neu wystl iddo ef fod y fendith o gyfiawnhad yn eiddo iddo ef, fel un yn credu yn Nuw. I had Abraham yr ydoedd yn sel neu sicrwydd o'r addewid y caent hwy eu cyfiawnhau fel Abraham, os byddai ganddynt ffydd Abraham. Yr ydoedd yn selio rhagorfreintiau pwysig i had Abraham yn hollol ddiammodol; ond nid ydoedd yn selio iddynt fendithion ysbrydol ond ar yr ammod y byddai iddynt eu derbyn drwy ffydd. Geiriau Calvin ar hyn ydynt—"Y mae rhai sydd yn edrych ar fedydd yn ddim ond arwydd o broffes, fel y mae milwyr yn gwisgo arwyddion eu llywydd, heb sylwi ar y prif beth mewn bedydd; *h. y.*, ein bod i'w dderbyn mewn cyssylltiad â'r addewid, 'Yr hwn a gredo ac a fedyddier, a fydd cadwedig;' *Marc* xvi. 16. Amcan cyntaf bedydd ydyw i fod yn arwydd neu brawf o'n puredigaeth. Neu i egluro fy meddwl yn well—y mae yn fath o weithred seliedig, drwy yr hon y sicrha i ni fod ein pechodau wedi eu maddeu." Yr adnodau a ddefnyddir gan y rhai sydd yn dal ailenedigaeth mewn bedydd, fel prawf fod bedydd yn *achos* neu yn *foddion* y cyfnewidiad hwnw, a esbonir gan Calvin ac ereill, drwy ddyweyd fod bedydd yn *sel*:—megys yr adnodau canlynol: *Eph.* v. 25, 26; *Titus* iii. 5; 1 *Pedr* iii. 21. Tybir fod y cyssylltiad agos sydd rhwng golchiad ac ailenedigaeth, yn y manau hyn, yn dangos fod bedydd yn sicrhau neu yn selio y bendithion crybwylledig.

Yn erbyn y syniad yma am natur y sacramentau, dygir y gwrthwynebiad canlynol:—Fod edrych ar fedydd yn sel personol o ras ysbrydol yn anghysson â'r athrawiaeth o gyfiawnhâd drwy ffydd, ond nid mewn modd mor beryglus, nac mor amlwg, ag ydyw gwneud bedydd yn achos neu yn foddion ailenedigaeth. Nid yw sacrament, ynddi *ei hun* yn sel o faddeuant, yn annibynol ar y dull o'i derbyn:—gellir ei derbyn yn annheilwng. Os nad yw y sacrament ynddi ei hun yn sel neu sicrwydd, pa beth sydd? Os dywedir, derbyniad teilwng o hono—onid yw hyn yn gwneuthur gweithred dda o'n heiddo ein hunain yn sicrwydd neu sel o ffyddlondeb Crist i'w addewid? Nid yw y sacrament yn sicrhau maddeuant i neb sydd heb gredu; ac i'r credadyn, nid y sacrament, ond y dystiolaeth, sydd yn sicrwydd i ffydd. Y mae gan yr hwn sydd yn credu y dystiolaeth ynddo ei hun—y mae derbyn y gair drwy ffydd yn dwyn sicrwydd i'r meddwl; ac nis gall un arwydd allanol ddwyn tystiolaeth chwanegol o wirionedd yr addewid, na chwaith fod yn sel bersonol o'i chymhwysiad. Heb law hyny, nis gall sel ammodol fod o un gwerth, o

Digitized by Google

herwydd nid yw yn sel, oni bydd y gras eisoes yn ein meddiant. Rhaid i ni wybod trwy ryw foddion ereill fod y gras genym, cyn y gallwn wybod fod yr arwydd allanol yn sel neu sicrwydd o hono. Os amcan sel ydyw dwyn sicrwydd i'r meddwl, y mae yn afreidiol, os rhaid i ni feddu y sicrwydd hwnw cyn y gallwn ei dderbyn trwy y sel. Yn ol y syniad yma, y mae yr arwydd allanol yn sel o ras tu mewnol, ac y mae y gras tu mewnol yn brawf fod yr arwydd allanol yn ateb ei amcan. I'r penderfyniad afresymol hwn y'n harweinir gan y golygiad sydd yn gwneuthur y sacramentau yn seliau o ffafr Duw i'r rhai sydd yn eu derbyn yn deilwng. Yr unig sel neu sicrwydd i ni o gariad Duw, ydyw rhoddiad ei Fab; ac nid oes un sicrwydd llai a all chwanegu at hyn—yn hytrach, y mae cyfeirio y meddwl at ddim arall fel cyfrwng sicrwydd yn cymylu gwrthddrych mawr ffydd pechadur. Mor bell hefyd ag y mae yn iawn i ni edrych i ni ein hunain, y mae mor hawdd i ni benderfynu ein hawl personol yn yr efengyl, ag ydyw i ni benderfynu a ydym yn dderbynwyr teilwng o'r ordinhad. Y mae y ffydd sydd yn derbyn yr efengyl yn ei phrofi ei hun, a'i thystion ydyw ei ffrwythau.

Os dywedir, o'r ochr arall, mai y sacramentau ydyw y seliau trwy ba rai yr ydym ni yn tystio ein derbyniad o gyfammod Duw, yr ateb ydyw, mai ffydd ei hun sydd yn derbyn y cyfammod:—wrth gredu yr ydym yn selio mai geirwir ydyw Duw. Pan gredom, y mae y cyfammod wedi ei selio—y mae y pechadur yn ymwneyd â Duw. Os nad yw y cyfammod wedi ei selio hyd nes y gweinyddir sacrament, y mae ein cyfiawnhad yn cael ei berffeithio trwy yr ordinhad hono, ac nid trwy ffydd yn unig.

Am dystiolaeth Paul fod "arwydd yr enwaediad yn insel cyfiawnder y ffydd," yr ateb yw, mai i Abraham ei hun yr ydoedd yn sel neu yn dystiolaeth ei fod wedi ei gyfiawnhau trwy ffydd. Fel arwydd o gymmeradwyaeth Duw o'i ffydd yn y dienwaediad, gwnaeth Duw âg ef gyfammod yr enwaediad. I Abraham yn bersonol yr ydoedd yn dystiolaeth o'i ffydd, neu sel—i'w hiliogaeth, nid ydoedd ond arwydd, neu goffadwriaeth.

III. *Bedydd yn arwydd o wirioneddau dwyfol.*

Golygiad arall am amcan a dyben bedydd ydyw, ei fod yn osodiad arwyddocaol, wedi ei ordeinio i arddangos, trwy arwyddion gweledig, wirioneddau yr efengyl—eu hegluro, eu hargymhell, a'u cadw mewn coffadwriaeth. Y mae y rhai sydd yn dal fod bedydd yn sel, yn dyweyd hefyd ei fod yn arwydd; ond y mae llawer sydd yn hòni ei fod yn arwydd, yn gwadu ei fod yn sel, ond mewn rhyw ystyr gyffredinol, pan na feddylir dim mwy wrtho nag y gwneir wrth y gair *arwydd.* Y prif wirioneddau a arddangosir mewn bedydd ydynt, euogrwydd a llygredigaeth; yr angenrheidrwydd am lanhad oddi wrth y ddau; a'r moddion a drefnwyd er glanhad, sef gwaed ac Ysbryd Crist. Y mae y rhai sydd yn dal bedydd babanod, yn credu hefyd fod llygredd *gwreiddiol* ein natur yn cael ei arddangos—ac hefyd, cymhwysder babanod i fod yn ddeiliaid teyrnas Crist.

Fel prawf mai hyn ydyw natur sacramentau yr efengyl, cyfeirir at sefydliadau seremoniol goruchwyliaethau blaenorol, y rhai oeddynt yn arwyddion, arddangosiadau, neu gysgodau o wirioneddau dwyfol. Yr oedd enwaediad yn arwydd o burdeb, ond nid oedd yn sel neu brawf o burdeb neb person neillduol: *Rhuf.* ii. 28, 29. Y mae y sacramentau wedi newid o ran ffurf, tra y maent yn parhau yr un o ran hanfod—yn mhob oes y maent wedi bod yn arwyddocaol o wirioneddau dwyfol. Yn ol y syniad hwn nid yw bedydd i'w olygu yn achos, yn foddion, nac yn sel o ailenedigaeth—dim ond arwydd o'r gwirioneddau a nodwyd uchod. Addefir gan bleidwyr y golygiad hwn, fod y gwirionedd a arddangosir yn y sacrament, fel pan ei cyflwynir mewn geiriau—ond ei gredu—ei fod yn foddion i gyfranu gras: ond y gwirionedd, nid yr arwydd—yr athrawiaeth, nid y sacrament—sydd yn cyflwyno y fendith i'r derbynydd.

IV. *Bedydd yn arwydd o broffes Gristionogol.*

Yn unol â'r golygiadau blaenorol, syniad arall am ddyben bedydd ydyw, ei fod yn arwydd neu nod gwahaniaethol o broffes Gristionogol. Ond y mae gwahaniaeth barn eto o barth i hyn. Y mae y Bedyddwyr yn gyffredinol, a lluaws mawr o amddiffynwyr bedydd babanod, yn dal fod bedydd yn arwydd allanol o aelodaeth eglwysig—yn nod gwahaniaethol o dderbyniad i gymundeb yr eglwys. Yn ol y golygiad hwn, credinwyr, neu gredinwyr a'u plant yn unig, sydd yn ddeiliaid yr ordinhad hon.

Hona ereill mai arwydd allanol o dderbyniad dan addysg Gristionogol, yn rhagbarotoawl i aelodaeth eglwysig, ydyw bedydd. Amddiffynir y golygiad hwn gan y Dr. Halley, yn ei *Draethawd ar y Sacramentau*, dan y pen, *Baptism, the designation of persons under religious instructions*=fod bedydd yn ddynodiad rhai dan addysg grefyddol. Ei resymau dros y farn hon, ydynt—1. Fod hyn yn esbonio y ffaith a sylwir arni gan haneswyr eglwysig; fod bedydd yn cael ei weinyddu yn rhwyddach yn yr oes apostolaidd nag yn fuan wedi hyny, pan yr oedd cylch o addysg grefyddol yn cael ei ofyn yn rhagbarotoawl i fedydd. 2. Nid oes hanes yn y Testament Newydd fod neb yn cael gwrthod bedydd iddynt o herwydd unrhyw anghymhwysder yn eu cymhwysderau blaenorol, er fod llawer o honynt o angenrheidrwydd yn anwybodus iawn. 3. Esbonia hyn pa fodd yr oedd dyn mor anwybodus a Simon Magus yn cael ei fedyddio. 4. Y mae hyn yn gysson â geiriau gorchymyn Crist i weinyddu bedydd, "Ewch i'r holl fyd a *dysgyblwch* (gwnewch ddysgyblion) o'r holl genedloedd, gan eu bedyddio," &c. Nid yn ol y cyfieithiad Cymreig, "Ewch......a *dysgwch,*" ond "gwnewch ddysgyblion" (μαθητευσατε)—a hyny drwy fedyddio a dysgu. Nid gwneud dysgyblion yn gyntaf; ond eu gwneyd drwy fedyddio a dysgu. 5. Y mae hyn yn gysson â'r hyn a ddysgrifir fel amcan bedydd. Yr oedd bedydd Ioan "â dwfr *i* edifeirwch;" nid *ar ol* edifeirwch, nac *ar gyfrif* edifeirwch, ond *i* edifeirwch, fel amcan i'w gyrhaedd. "Bedyddier pob un o honoch *er* maddeuant;" yr un gair *eis* (εις) a gyfieithir *i* yn yr adnod flaenorol ag yn hon *er.* Y mae edifeirwch a bedydd yn cael eu cyssylltu yn yr un modd â maddeuant trwy y gair hwn, *er.* Y mae bedydd, fel edifeirwch, er maddeuant; ac o ganlyniad, y maent o flaen maddeuant. Ond pa fodd y gall bedydd fod *er* maddeuant?—ond fel y dywed y Puseyaid, mewn trefn i sicrhau maddeuant, neu ynte mewn trefn i roddi derbyniad i gylch o addysg am drefn maddeuant. 6. Y mae hyn yn gysson â'r modd y defnyddir y geiriau "dysgyblion" a "chredu," yn y Testament Newydd, am rai nad oeddynt yn wir gredinwyr: *Ioan* vi. 53—66; viii. 31, 32; ii. 23, 24. 7. Nid yw yn ymddangos fod y bedyddiadau a grybwyllir am danynt yn y Testament Newydd yn cael eu cys-

Digitized by Google

sylltu â chymmeradwyaeth yr eglwysi. Bedyddiwyd Paul gan Ananïas heb ymofyn â'r dysgyblion ereill, &c. 8. Yr oedd yr arferiad o fedyddio cyn planu eglwysi neillduol, ac yn hollol annibynol arnynt, yn dangos nad oedd bedydd yn nôd gwahaniaethol ar aelodau eglwysig.

Am yr hyn sydd i'w ddyweyd yn erbyn hyn, ac o blaid y golygiad arall, "mai credinwyr yn unig ydynt ddeiliaid cymhwys bedydd," traethir mewn rhanau ereill o'r erthygl hon.

BEDYDD RHAI MEWN OED.[1]

**Y** mae plaid luosog o Gristionogion yn Nghymru, Lloegr, yr Alban, America, a manau ereill, y rhai a gyfyngant fedydd yn unig i rai mewn oedran cyfaddas, ac yn alluog i wneuthur proffes bersonol o ffydd yn yr efengyl. Y blaid hon, o herwydd neillduolrwydd eu golygiadau ar yr ordinhad o fedydd, a alwant eu hunain, ac a elwir, mewn ffordd o wahaniaeth gan ereill, y *Bedyddwyr.* Y maent yn derbyn yr enw hwn gan eu brodyr Cristionogol, nid o herwydd fod yr olaf yn tybied mai hwynthwy yn unig sydd fedyddwyr, eithr mewn rhan oddi ar deimladau brawdol a charedig, ac mewn rhan o herwydd mai eu hymarferiad a'u golygiadau o berthynas i'r ordinhad hono yw y prif beth sydd yn eu gwahaniaethu oddi wrth bleidiau uniongred ereill. Gellir dyweyd yn gyffredinol fod pedair o elfenau yn hanfodol i'r sefydliad o fedydd, gyda golwg ar y sawl y mae y Bedyddwyr yn gwahaniaethu yn gwbl neu mewn rhan oddi wrth Gristionogion ereill; nid amgen, y weithred sydd i'w chyflawnu, y deiliad neu y derbyniedydd, y gweinyddwr, a'r dyben mewn golwg; neu, mewn geiriau ereill, pa beth, ar neu i bwy, gan bwy, ac i ba beth.

I. Y weithred. Y weithred o fedyddio, yn ol eu barn hwy, yw *trochiad* yn unig; a gweinyddant yr ordinhad trwy drochi neu suddo yr holl gorff mewn dwfr "yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân." Rhai a arferant y ffurf o eiriau – "*i* enw y Tad," &c., gan gyfnewid yr arddodiad o *yn*, i *i*. Eu rheswm dros hyn yw, fod y geiriau *εἰς τὸ ὄνομα* yn arwyddocau *i enw*, yn hytrach nag *yn enw*, yr hyn sydd yn cael ei fynegu yn wreiddiol yn y geiriau *ἐν τῷ ονοματι* (*Mat.* xxi. 9; xxiii. 39; *Ioan* v. 43; x. 25; *Marc* xvi. 17; *Luc* x. 17; xxiv. 47; *Act.* iii. 6; ix. 27, 29; 1 *Cor.* v. 4; 2 *Thes.* iii. 6); neu *ἐπι τῷ ὀνοματι* (*Marc* ix. 39; *Act.* iv. 17, 18; v. 28, 40). At hyn chwanegant, nad oes dim mewn cyssylltiad âg unrhyw wasanaeth crefyddol i'w wneuthur yn enw neb ond yr eiddo Crist (*Mat.* xxviii. 18; *Phil.* ii. 9, 10). Nid yw y blaid hon yn arddel yr enwad Ailfedyddwyr, neu *Anabaptists;* gan eu bod yn credu nad oes dim perthynas rhwng taenellu, neu dywallt dwfr, â'r ordinhad o fedydd, fel ei gweinyddid yn y dechreu gan Ioan Fedyddiwr, ac apostolion Iesu Grist. Nid ydynt yn tybied mai rhyw un dull o fedyddio yw trochi, ond myntumiant mai yr *unig* ddull ydyw. A ganlyn sydd yn mhlith rhai o'u rhesymau dros yr ymarferiad uchod:—

Honant mai ystyr priodol y gair *βαπτισμα* yw *trochiad*, neu *suddiad*, fel yr ymddengys oddi wrth y rhesymau canlynol:—

1. Dyna yw tystiolaeth y geiriadurwyr yn gyffredin. Fel y canlyn y dywed Henry Stephen:—

"*Βαπτιζω*=*suddo*, neu *drochi;* megys yr ydym yn trochi pethau mewn dwfr, i'r dyben o liwio neu lanhau [*Plutarch*]. Ac (*βαπτισον*) ymsuddo i'r môr. *Βεβαπτισμενος*, a feddylia *trochedig* neu *soddedig* mewn.

"*Βαπτιζω*=*suddo;* hyny yw, suddo dan, neu orchuddio mewn dwfr. *Βαπτιζομαι*=bod wedi ei suddo, bod yn soddedig. Gan ddyoddef gyda y sawl *a suddid*, neu *a soddid* (*βαπτιζομενοις*) yn y môr [*Basil*, 256]. 'Fel na'n *trocher*, neu *sodder* (*βαπτισθωμεν*), gyda'r llong a'r dwylaw' [*Greg. Naz.*].

"Eithr megys y mae y Lladinwyr yn arfer y gair *obruo*=gorchuddio, mewn ystyr ffugrol, fel pan soniant am ddyn wedi ei *orchuddio* mewn gorchwylion, neu wedi ei *orchuddio* (dros ei ben a'i glustiau) mewn dyled; felly yr wyf yn canfod yr ysgrifenwyr Groegaidd yn arfer *βαπτιζεσθαι* yn ffugrol. Plato a ddywed, "A minnau yn gwybod fod y gŵr ieuanc wedi ei *orchuddio* (*βαπτιζομενον*) mewn gau resymeg.' Plutarch, wrth son am Otho, a ddywed ei fod wedi ei *suddo* neu ei *orchuddio* mewn dyledion o ddeng miliwn a deugain o ddrachmau.

"*Βαπτιζω*=golchi ymaith, golchi: *Marc* vii. 4; *Luc* xi. 38.

"Yn mhlith Cristionogion, nid yw y gair *βαπτιζω*, pan ei defnyddir i ddynodi y ddefod sanctaidd trwy yr hon yr ydym yn cael ein hegwyddori (*initiate*) i Grist, yn cael ei gyfieithu; o blegid dywedwn, *baptizare* (bedyddio); a chafodd y rhai hyny yn gyfiawn eu hanghymmeradwyo—y sawl a ryfygent ddywedyd *lavare* (golchi) yn lle *baptizare* (bedyddio), neu *olchi* am *fedyddio.* Y mae Cyprian, mewn amryw fanau yn ei ysgrifeniadau, yn cyfieithu *βαπτιζοντες* i *tingentes*=gan drochi; megys yn *Mat.* xxviii. 19, efe a ddywed, 'Dysgwch yr holl genedloedd, *gan eu trochi* (*tingentes eos*) yn enw,' &c. Yn hyn y mae yn dilyn deongliad ei feistr, Tertullian, yr hwn a eglura *βαπτιζειν* (*baptizein*) trwy y gair *intingere*=trochi. Tybiwyd gan rai y byddai yn well cyfieithu y gair Groeg hwn, hyd yn oed pan ei defnyddir gyda chyfeiriad at y ddefod hon, i *mergere*=suddo. Ac y mae Tertullian wedi ei ddeongli yn fwy priodol â'r ferf fynychol, *mergitare*=trochi drachefn a thrachefn, o achos y trochiad deirgwaith (*trine immersion*) mewn bedydd; yn yr un modd ag yr ymddengys fod *βαπτιζω* o *βαπτω* yn meddu ffurf berf fynychol."—*Stephani Thesaurus Ling. Græc.*

"*Βαπτιζω* ( o *βαπτω*=trochi): *trochi*, neu *suddo mewn dwfr*=bedyddio, trochi mewn, neu olchi â dwfr. *Βαπτιζομαι*=ymolchi, bod wedi ei olchi, golchi, hyny yw, dwylaw, trwy drochiad mewn dwfr. Yn ffugrol, bod wedi ei fedyddio, ei drochi, neu ei soddi mewn llifeiriant neu fôr, megys o gystuddiau blinion a dyoddefiadau."—*Parkhurst's Greek and English Lexicon to the New Testament.*

"*Βαπτιζω;* berf fynychol mewn ffurf, ond nid mewn ffaith—*trochi, soddi;* er enghraifft, pan sonir am longau, rhwyflongau, &c. *Polyb.* i. 51. 6; *και πολλα τῶν σκαφων εβαπτιζον*=a llawer o'r llongau a suddasant. *Jos. Rhyf. Iudd.*, iii. 8. 5; "Y llywydd, yr hwn, rhag ofn tymmestl, a suddai (*εβαπτισεν*) ei long o'i wirfodd.

"*Golchi, glanhau drwy olchi*, ymolchi. *Marc* vii. 4; "Oni bydd iddynt ymolchi" (*βαπτιζωνται*). *Luc* xi. 38; "A rhyfeddodd nad ymolchasai (*εβαπτισθη*) efe yn gyntaf o flaen ciniaw. Deg a Thrigain am טבל, yn 2 *Bren.* v. 14, "Ac a *ymdrochodd* (*εβαπτισατο*) saith waith yn yr Iorddonen."—*Robinson's Greek and English Lexicon of the New Testament.*

[1] Y mae y tudalenau canlynol, hyd ddechreu tudal. 613, yn rhoddi golygiadau y Bedyddwyr ar Fedydd, yn ngeiriau un sydd yn proffesu y golygiadau hyny ei hun.



Digitized by Google

gwaed ger bron yr Arglwydd;" *Lef.* iv. 6. "A chymmered yr offeiriad o'r log olew, a thywallted (*επιχεει*) ar gledr ei law aswy ei hun. A gwlyched (*βαψει*) yr offeiriad ei fys deheu yn yr olew fyddo ar ei law aswy, a thaenelled (*ῥανει*) o'r olew â'i fys seithwaith ger bron yr Arglwydd;" *Lef.* xiv. 15, 16. "A'r neb a gyffyrddo â'i wely ef, golched (*πλυνει*) ei ddillad, ac ymdroched (*λουσεται*) mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr;" *Lef.* xv. 6. "A phwy bynag y cyffyrddo y diferllyd âg ef heb olchi (*νενιπται*) ei ddwylaw mewn dwfr, golched (*πλυνει*) ei ddillad, ac ymolched (*λουσεται*) mewn dwfr, a bydd aflan hyd yr hwyr;" *Lef.* xv. 11. Gwel Lef. *passim*, yn y Deg a Thrigain.

4. Am nas gwnelai yr ymadrodd lle y dygwydda y gair hwn ddim synwyr pe gosodid rhyw air arall ond *trochi* megys yn gyfystyr âg ef, barna y Bedyddwyr mai dyna y rhaid fod ei arwyddocâd. Er anghraifft, "Yr oedd Ioan yn *tywallt* yn Ainon, yn agos i Salim, canys dyfroedd lawer oedd yno." "Claddwyd ni, gan hyny, gydag ef trwy *daenelliad* i farwolaeth." "Wedi eich cydgladdu âg ef yn y taenelliad."

(1.) Barnant fod y lleoedd y gweinyddid yr ordinhad ynddynt, yn rhoddi prawf amgylchiadol mai *trochiad* oedd y weithred. Ioan Fedyddiwr a fedyddiodd yr Iesu a'r Iuddewon *yn afon yr Iorddonen.* "Yr oedd Ioan yn bedyddio yn Ainon, yn agos i Salim, *canys dyfroedd lawer* oedd yno;" *Ioan* iii. 23. Y mae y geiriau "dyfroedd lawer" (*ὑδατα πολλα*), yn gyfystyr â'r geiriau Hebreig מים רבים; ac y maent yn dygwydd mewn amrywiol fanau. Yn ffugrol, megys "Tynodd fi allan o *ddyfroedd lawer;*" *Salm* xviii. 16: "*Dyfroedd lawer* ni allant ddiffoddi cariad;" *Can.* viii. 7: "A'i lais fel sŵn *llawer o ddyfroedd;*" *Dad.* i. 15: y rhai oll sydd yn cyfleu y syniad o helaethrwydd a mawredd. Y mae yn deilwng o sylw fod yr afon Euphrates yn Babilon, a'r Iorddonen yn Palestina, yn cael eu dysgrifio trwy "ddyfroedd lawer." Ieremiah a ddarlunia y gyntaf; a chan gyfarch Babilon, efe a ddywed, "Tydi yr hon ydwyt yn aros *ar ddyfroedd lawer;*" *Ier.* li. 13 Yr efengylwr Ioan sydd yn dysgrifio Babilon ysbrydol, gan ddywedyd, "Y butain fawr sydd yn eistedd ar ddyfroedd lawer;" *Dad.* xvii. 1. Oddi yma y canlyn y tebygolrwydd mai trochiad yw y weithred o fedyddio.

(2.) Y mae defnyddio y geiriau *taenellu*, neu *dywallt*, yn *lle trochi*, fel yn gyfystyr â bedyddio, yn cyfnewid gwrthddrych y weithred; o blegid *personau* a fedyddir, ond *dwfr* a daenellir neu a dywelltir; yr hyn sydd yn gofyn cystrawiaeth hollol wahanol. "Myfi a'ch taenellaf â dwfr glân," medd Duw; neu fel y mae yn y cyfieithiad Seisoneg (a Chymraeg) yn llythyrenol o'r Hebraeg; "A thaenellaf *arnoch* ddwfr glân," sydd yn y Deg a Thrigain—*ῥανω ἐφ ὑμας καθαρον ὑδωρ*; ac nid fel y cystrawiaethir *βαπτιζω* yn wastad, *ῥανω ὑμας εν καθαρω ὑδατι*=Myfi a'ch taenellaf chwi mewn dwfr glân. Gwel hefyd *Exod.* xxix. 21; *Lef.* vi. 27; xvi. 14. Pe buasai *βαπτιζω* yn cael ei ddefnyddio yn yr un ystyr a *ῥαινω*=yr wyf yn taenellu (yr hyn nid yw byth cyn belled ag y gwn i, mewn unrhyw arferiad cyssegredig neu glasurol), yr ymadrodd yn ddiau fuasai Εγω μεν βαπτιζω ἐφ ὑμας ὑδωρ, neu ἀπο τοῦ ὑδατος=Myfi yn wir ydwyf yn bedyddio dwfr arnoch chwi."—*Campbell.*

(3.) Cesglir oddi wrth yr arddodiaid a arferir mewn cystrawiaeth â'r gair, y dylai gael ei gyfieithu yn *drochiad*—"*Mewn* dwfr," "*yn* yr Ysbryd Glân" ((*εν ὑδατι—εν Πνευματι ἁγιω*). Yn y cyfieithiad Cymreig, "*â* dwfr," "*â'r* Ysbryd Glan," ydyw. *In âqua, in Spiritu sancto,* ydyw yn y *Vulgate;* ac felly hefyd yn y Syriaeg, a hen gyfieithiadau ereill. "Y mae yr holl gyfieithiadau diweddar o'r Groeg, a welais i," medd y Dr. Campbell, "yn troi y gair yr un modd a'r cyfieithiad cyffredin, oddi eithr Le Clerc, yr hwn a ddywed, *dans l'eau—dans le Saint Esprit.*" Y mae yn ddrwg genyf sylwi fod y cyfieithwyr Pabyddol o'r *Vulgate*, wedi dangos mwy o barch i ddullwedd y cyfieithiad hwnw, nag y mae y rhan fwyaf o gyfieithwyr Protestanaidd wedi ei ddangos â'r eiddo y gwreiddiol. O blegid yn hyn nid yw y Lladin yn fwy eglur na'r Groeg; eto, mor anghysson yw y deonglwyr Protestanaidd, fel na ddarfu i neb o honynt betruso troi *ἐν τω Ιορδανῃ* yn y chweched adnod, "*yn yr Iorddonen,*" er nad oes dim yn amlycach nag os oes unrhyw anghyssonder yn yr ymadrodd *mewn dwfr*, rhaid fod *yn yr Iorddonen* yr un mor annghysson. Eithr gwelsant nas gallesid gochelyd yr arddodiad *εν=yn* yn yr ymadrodd hwn, heb arferyd amgylchiaith, a dywedyd, *â dwfr yr Iorddonen;* yr hyn a fuasai yn gwneuthur gwyrad oddi wrth y testyn yn rhy amlwg. Ond ni buaswn yn gosod llawer o bwys ar yr arddodiad *εν*, yr hwn yn cyfateb i'r Hebraeg ב, a all ddynodi *â* yn gystal ag *yn*, oni bai fod yr holl eirweddiad o berthynas i'r ddefod hon yn cyduno i brofi yr un peth. Yn ganlynol, dywedir fod y rhai bedyddiedig *ἀναβαινειν, yn cyfodi, yn dadsuddo*, neu *yn myned i fyny απο του ὑδατος*, ac *εκ του ὑδατος* "*o'r* neu *allan o'r dwfr;*" *Act.* viii. 39.

(4.) Y mae y cyfeiriadau athrawiaethol at y weithred o fedyddio, yn rhagdybio trochiad. Dywedir fod Cristionogion, yn eu bedydd, yn cydffurfio â Christ yn ei gladdedigaeth a'i adgyfodiad. "Claddwyd ni, gan hyny, gydag ef trwy fedydd i farwolaeth, fel megys ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau (y rhai a gyfodasom) gydag ef mewn newydd-deb buchedd;" *Rhuf.* vi. 3, 4.

II. O berthynas i ddeiliaid yr ordinhad, honant mai yr unig dderbyniedydd cymhwys o fedydd yw y sawl sydd yn alluog i wneuthur proffes bersonol o ffydd yn yr efengyl. Y maent yn credu cadwedigaeth babanod mor ddilys a dysgog a neb; ond gwadant fod unrhyw berthynas achubol rhwng bedydd fel y cyfryw â neb, ond lle y byddo ffydd yn bresennol yn y derbyniedydd. Bod unrhyw rinwedd cadwedigol yn y weithred neu yr *opus operatum* ei hun, gan bwy bynag neu ar bwy bynag ei gweinyddir, y maent yn ei wadu yn y modd mwyaf penderfynol, gan fyntumio mai ffydd sydd yn uno â Christ yn wirioneddol a gweithredol, er y gall bedydd effeithio undeb gweledig a ffurfiol rhwng dysgyblion a Christ, neu âg eglwys Crist. Rhai o'u rhesymau dros gyfyngu bedydd i rai mewn oedran cyfaddas i broffesu ffydd bersonol, yw y rhai canlynol:—

1. Honant nad yw *deddf* bedydd—y genadwriaeth a roddes Crist i'r dysgyblion—yn awdurdodi bedyddio neb arall. "Rhoddwyd i mi," medd Iesu, "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaiar; am hyny, ewch a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân; gan ddysgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymynais i chwi, ac wele yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd;" *Mat.* xxviii. 19, 20. Neu, fel y mae yr un genadwriaeth yn ol Marc—"Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur; y neb a gredo ac a

Digitized by Google

fedyddier, a fydd cadwedig," &c.; *Marc* xvi. 15, 16. Yn y genadwriaeth yn Matthew, ni a ganfyddwn dair gweithred wahanredol a dilynol, y rhai y gorchymynir i'r apostolion eu cyflawnu; ac er fod dwy o honynt yn cael eu galw wrth yr un enw yn y cyfieithiad Cymreig a Seisoneg, y *Vulgate*, Beza, ac ereill; eto y mae gan y gwreiddiol dri gair; nid amgen, *μαθητευω*, *βαπτιζω* a *διδασκω*: y cyntaf yn arwyddo *gwneuthur dysgyblion* (trwy gyfranu addysg neu bregethu iddynt); yr ail yw gorchymyn bedyddio y cyfryw; a'r olaf, eu hyfforddi drachefn yn holl athrawiaethau a deddfau y grefydd Gristionogol. Y genadwriaeth hon oedd y ddeddf yn ol pa un yr oedd yr apostolion i weithredu, ac nid ydyw yn awdurdodi gweinyddu bedydd ond i'r sawl fyddo yn gyntaf wedi eu dysgyblu.

2. Nad oedd yr apostolion, pan yn gweithio allan yr unrhyw genadwraeth yn Ierusalem, Iudea, Samaria, ac hyd eithaf y ddaiar, yn bedyddio neb ond credinwyr, neu rai yn proffesu ffydd yn Iesu fel y Messïah, Mab y Duw byw. Cyn ei esgyniad i orsedd y cyfanfyd, dywedai y Messïah wrth brif weinidogion ei deyrnas, y byddent yn dystion iddo yn Ierusalem, Iudea, Samaria, ac hyd eithaf y ddaiar; ac os dilynir hwynt i'r lleoedd hyn, gwelir mai dysgyblion a fedyddient. Yn Ierusalem, mam-ddinas Iudea, wedi i Pedr bregethu i'r Iuddewon, dywedir, mai "*y rhai a dderbyniasant ei air ef yn ewyllysgar a fedyddiwyd;*" *Act.* ii. 41. Am Samaria, ni a ddarllenwn (*Act.* viii. 12), "Pan *gredasant* i Phylip yn pregethu y pethau a berthynent i deyrnas Dduw, ac enw Iesu Grist, hwy a fedyddiwyd, *yn wŷr ac yn wragedd.*" Y Cenedloedd yn nhŷ Cornelius, wedi credu o honynt dan bregeth Pedr, a derbyn yr Ysbryd Glân, "a fedyddiwyd yn enw yr Arglwydd Iesu;" *Act.* x. 47. Yn Philippi, wedi i'r Arglwydd agor calon Lydia, "hi a ddaliodd ar y pethau a leferid gan Paul, ac a fedyddiwyd a'i holl deulu;" *Act.* xvi. 14. Yn yr un lle, ceidwad y carchar, wedi gofyn o hono, "Pa beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?" a atebwyd, "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi, ti a'th deulu. A hwy a draethasant iddo air yr Arglwydd, ac i bawb oedd yn ei dŷ ef. Ac efe a'u cymmerth hwy yr awr hono o'r nos, ac a olchodd eu briwiau, ac efe a fedyddiwyd, a'r eiddo oll yn y man;" *Act.* xvi. 29—33. Yn Corinth, "Crispus yr archsynagogydd a gredodd yn yr Arglwydd, a'i holl dŷ; a llawer o'r Corinthiaid wrth wrandaw (wedi gwrandaw), a gredasant ac a fedyddiwyd;" *Act.* xviii. 8.

3. Nad yw natur a dyben bedydd yn gymhwys i neb ond credinwyr. I'r dysgyblion ar ddydd y Pentecost, y rhai a dderbyniasant ei air ef yn ewyllysgar, rhoddes yr apostol y gorchymyn hwn; "Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch yn enw Iesu Grist, *er maddeuant pechodau*, a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glân." Yn awr, gan fod *maddeuant pechodau* yn gyssylltiedig â bedydd, mae yn canlyn, mai bedydd rhai "mewn oedran cyfaddas" yw y bedydd Cristionogol; o blegid rhagarwyddir fod y sawl a'i derbyniant wedi cyflawnu pechodau; ac yn gymmaint ag nad oes maddeuant pechodau i neb ond credinwyr, ymddengys mai credinwyr yw ei briodol ddeiliaid. Y mae "ymateb cydwybod dda tuag at Dduw" yn gyssylltiedig â bedydd: ac yn gymmaint nad oes dim ond gwaed Crist a ddichon buro cydwybod euog (*Heb.* ix. 14), ac mai trwy ffydd y cymhwysir y gwaed hwnw, y mae yn canlyn mai i rai yn ymarfer ffydd yn Iesu Grist y mae bedydd wedi ei fwriadu, gan nad yw ei ddyben yn gyfaddas i neb arall.

4. Bod yr addewidion cyssylltiedig â bedydd yn cael eu gwneuthur i gredinwyr yn unig. I'r sawl a fedyddid i Grist Iesu, yr oedd y bendithion o faddeuant pechodau, cadwedigaeth, derbyn yr Ysbryd Glân, yn nghyd â chyfranogiad yn marwolaeth, claddedigaeth, ac adgyfodiad Iesu Grist yn cael eu haddaw. "Oni wyddoch chwi, am gynnifer o honom ag a fedyddiwyd i Grist Iesu, ein bedyddio ni i'w farwolaeth ef (i farwolaeth gydag ef)? Claddwyd ni gan hyny gydag ef trwy fedydd i farwolaeth (i'r farwolaeth hono); fel megys ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd. Canys os gwnaed ni yn gydblanigion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef (yr hon farwolaeth a ddilynid âg adgyfodiad i fyw i Dduw), felly y byddwn i gyffelybiaeth ei adgyfodiad ef (fel y byddem ninnau byw, 'yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol,' gan ddwyn ffrwythau yr ysbryd)." Wrth y Colossiaid y mae yr unrhyw apostol yn arfer iaith gyffelyb, "Wedi eich cydgladdu âg ef yn y bedydd, yn yr hwn hefyd y'ch cydgyfodwyd trwy ffydd gweithrediad Duw, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw."

5. Bod y gweithredoedd a briodolir i'r rhai bedyddiedig ar amser eu bedydd, ac yn ddilynol iddo, yn gyfryw nas gallasai babanod eu cyflawnu. Dywedir eu bod yn derbyn y gair yn ewyllysgar—yn clywed y gair, yn llawenhau, yn cael eu chwanegu at yr eglwys; yn parhau yn athrawiaeth yr apostolion, yn tori bara, mewn gweddïau, ac yn moli Duw. Dywedir eu bod yn gwisgo Crist, yn diosg yr hen ddyn; wedi croeshoelio y cnawd, ac wedi cyfodi gyda Christ. Y mae yr holl bethau hyn yn gyfryw nas dichon neb ond Cristionogion crediniol eu cyflawnu a'u perchenogi.

III. Gyda golwg ar y gweinyddwr o'r ordinhad o fedydd, barn y rhan luosocaf a mwyaf goleuedig o'r Bedyddwyr yw, nad yw urddau neu ordeiniad, fel yr arferir ef yn eu plith hwy, yn gymhwysder hanfodol i weinyddu yr ordinhadau arwyddol, mwy nag i bregethu yr efengyl, neu athrawiaethu yn yr Ysgol Sabbathol, er mai yn anfynych, os byth, y gweinyddir yr ordinhad gan neb ond gweinidog ordeiniedig, lle y gellir ei gael; eto, nid ydynt yn golygu fod hyny yn anhebgorol angenrheidiol i iawn weinyddiad (*validity*) yr ordinhad. 1. Am yr ymddengys fod yr Ysgrythyr yn gosod mwy o bwys ar bregethu yr efengyl na gweinyddu yr ordinhadau. 2. Am yr ymddengys nad oedd yr apostolion yn ystyried gweinyddu yr ordinhadau yn rhan hanfodol o'u swydd neu o'u cenadwriaeth; er y byddent yn bedyddio yn achlysurol, eto gorchymyn i ereill wneuthur y byddent yn gyffredin (*Act.* x. 48; 1 *Cor.* i. 17).

IV. Ystyriant yr ordinhad o fedydd fel drws i'r eglwys, ac fel y cyfryw yn effeithio cyfnewidiad cyflwr neu sefyllfa, ac nid unrhyw gyfnewidiad ysbrydol gyda golwg ar y galon. Megys yr oedd bedydd yr Israeliaid yn y Môr Coch yn waredigaeth neu iachawdwriaeth rhag yr Aiphtiaid (*Exod.* xiv. 13), felly y mae bedydd, megys y mae yn arweiniad i mewn i'r Eglwys Gristionogol, ac yn dwyn y credadyn i gyfranogi o'i holl freintiau, yn ei ddwyn i "stât iachawdwriaeth" (1 *Pedr* iii. 21). Nid ydynt yn golygu bedydd yn *ailenedigaeth*, yn yr ystyr o gyfnewidiad ysbrydol y galon, er nad oes ganddynt ar yr un pryd,

Digitized by Google

ddim gwrthwynebiad i'w ystyried felly yn gyffelybiaethol, fel y mae yn gyfnewidiad o ran cyflwr, neu stât y person; megys y mae genedigaeth yn arwain i mewn i fyd natur, felly y mae bedydd, fel ailenedigaeth, yn arweiniad i mewn i fyd gras. Yr ysgrifenwyr goreu ar y pwnc hwn ydynt, yn Gymraeg, *Christmas Evans*, *Joseph Harris*, *Dr. Richards*; yn Seisoneg, *Dr. Gill*, *A. Booth*, *Dr. Gale*, *Dr. Carson*, *ac Alexander Campbell.*

Yr ydym yn hyderus fod y sylwadau uchod yn cynnwys crynodeb, o'r hyn lleiaf, o olygiadau y Bedyddwyr, yn nghyd â'u prif resymau dros eu myntumio.

BEDYDD BABANOD.

Er mwyn egluro syniadau y rhai sydd yn bedyddio babanod, a'u rhesymau dros hyny, y mae yn angenrheidiol sylwi ar y *dull* o fedyddio a arferant, yn gystal ag ar y *deiliaid.*

Gellir dosbarthu y golygiadau sydd wedi cael eu hamddiffyn o barth i *ddull* bedydd i bum dosbarth.

1. Y rhai sydd yn dadleu fod i'r gair *βαπτιζω* (*baptizo*) yn ei holl eangder, wahanol ystyriaethau; ac oddi wrth hyn yn casglu y gellir gweinyddu yr ordinhad mewn gwahanol ffyrdd.

2. Y rhai sydd yn dal fod i'r gair un ystyr penodol, sef, *trochi;* ac eto yn dadleu nad oes un dull penodol yn hanfodol i iawn weinyddiad yr ordinhad.

3. Y rhai sydd yn edrych ar ddyben amlwg yr ordinhad; ac ar y tir yma yn hòni mai bedyddio ydyw cymhwyso dwfr mewn unrhyw ddull sydd yn arwyddo puredigaeth neu lanhad, heb ymdrechu profi gwirionedd eu golygiad trwy unrhyw ymresymiad oddi wrth ystyr y gair *baptizo.*

4. Y rhai sydd yn dadleu nad oes i'r gair ond un ystyr yn mhob man, sef *trochi;* a bod y dull penodol hwn o gymhwyso y dwfr yn hanfodol i iawn weinyddiad yr ordinhad. Y mae y golygiad hwn wedi cael ei amddiffyn yn y rhan flaenorol o'r erthygl hon.

5. Nid yw y gair yn ei ystyr grefyddol neu dduwinyddol, yn dynodi unrhyw ffurf penodol o gymhwyso dwfr at y corff, neu y corff at y dwfr, ond ei fod mewn crefydd yn arwyddo puro, glanhau—geiriau o ystyr mor gyffredinol nas gellir eu cyfyngu at ddull, neu foddion, neu ddyben penodol, naturiol, neu ysbrydol—ac o ganlyniad ei fod yn gadael perffaith ryddid am y dull, a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn hollol gyfystyr â'r gair *puro.*

Oddi wrth y dosbarthiad hwn, fe welir pa ham y mae rhai sydd yn dyweyd mai trochi ydyw ystyr y gair *bedyddio*, er hyny yn taenellu. Honant nad yw y *dull* o bwys yn y byd. Y mae ereill o amddiffynwyr bedydd babanod yn myned yn mhellach, ac yn dadleu nad yw y gair bedyddio yn arwyddo trochi yn unig, ond ei fod o ystyr gyffredinol, yn dynodi unrhyw gymhwysiad o ddwfr trwy ba ddull bynag. Nis gwadant nad yw yn arwyddo trochi; ac o ganlyniad, nad oes a wnelo yr anghreifftiau o'r gair yn yr ystyr o drochi ddim â'r ddadl. Pe gwadent hwy fod y gair yn arwyddo trochi, byddai i bwrpas i ddyfod â dyfyniadau o awduron i ddangos ei fod yn arwyddo hyny. Ond hònant nad yw y gair yn arwyddo trochi yn *unig*, ond ei fod hefyd yn arwyddo golchi, gorchuddio, taenellu, &c.: a thros yr honiad hwn dygir yn mlaen brofion o awduron clasurol, yr Ysgrythyrau, ac ysgrifeniadau y tadau eglwysig.

Y mae dau air Groeg am fedyddio—*bapto*, y ffurf hynaf; a *baptizo*, ffurf mwy diweddar. Priodol ystyr *bapto* ydyw *trochi*, ac hefyd *lliwio.* Y mae Dr. Carson, un o ysgrifenwyr y Bedyddwyr, wedi *profi* fod y gair yn arwyddo *lliwio* yn gystal a throchi, a lliwio hefyd mewn *unrhyw ddull.* Hwn yw y gair a ddefnyddir, pan ddywedir fod corff Nebuchodonozor wedi ei wlychu â gwlith y nefoedd: *Dan.* v. 21. Y mae yn sicr nad oedd wedi ei drochi yn y gwlith. *Baptizo* ydyw y ffurf a ddefnyddir bob amser yn y Testament Newydd. Gwahaniaetha Ast, un o brif eiriadurwyr yr Almaen—yn ei eiriadur i ysgrifeniadau Plato, ac felly yn hollol annibynol ar y ddadl hon—y ddau air, *bapto* a *baptizo*, fel hyn:—*bapto* a arwydda *trochi* a *lliwio; baptizo* a arwydda *gorchuddio* a *golchi.* Y mae y geiriadurwyr goreu, hen a diweddar, yn cytuno i roddi i'r geiriau hyn ystyr *eangach* na throchi. Fel prawf o hyn, gellir cyfeirio at Stephanus, Scapula, Passow, Suidas, Hedericus, Coulon, Parkhurst, Ainsworth, Schleusner, a Robinson. Ni ddywedir yma fod y rhai hyn yn gwadu fod bedyddio yn arwyddo trochi, ond ei fod yn arwyddo chwaneg na throchi; sef golchi, gorchuddio, glanhau, taenellu, &c. Dywed Dr. Carson ei hun, ar ol rhoddi i lawr ei osodiad fod *baptizo* "bob amser yn arwyddo trochi," "fod yr holl eiriadurwyr yn ei erbyn." —td. 79.

Gellir dyweyd yr un fath am y prif esbonwyr a duwinyddion, eu bod hwythau hefyd yn cytuno â'r geiriadurwyr, nad yw trochi yn *hanfodol* i fedydd—y gall fod trwy drochi, neu trwy rhyw ddull arall. Yn wir, cyn y Diwygiad Protestanaidd, nid oedd neb yn dal fod trochi yn *hanfodol.* Yr ydym yn dyweyd *hanfodol;* o herwydd hyn, cofier, ydyw y pwnc mewn dadl. Nid oes un lle i ammheu nad oedd trochi yn arferedig yn yr eglwys gynt; ond ystyrid bedydd trwy daenellu yn safadwy hyd yn oed pan oedd trochi uchaf mewn bri. Gofynwyd i Cyprian, tua chanol y drydedd ganrif, "A oedd bedyddio trwy daenellu yn safadwy?" Ei ateb oedd, "Nid oes gwahaniaeth rhyngddynt" [*Op.*, llyfr ii. epis. 7]. Yr ymofyniad, gan hyny, ydyw, nid a oedd trochi mewn arferiad yn oesoedd cyntaf Cristionogaeth, ond a edrychid ar hyny mor hanfodol fel nas gallasai bedydd fod hebddo?

Mewn trefn i ddeall ystyr y gair *baptizo*, y mae yn angenrheidiol cofio y gwahaniaeth rhwng *bapto* a *baptizo.* Gwahaniaetha y Dr. Halley rhyngddynt fel hyn:—fod *bapto* yn arwyddo y *dull* o roi y naill beth yn y llall; ond nad yw *baptizo* yn arwyddo unrhyw ddull neillduol, ond gwneuthuriad y peth, ac felly defnyddir ef weithiau am bob dull. Rhoddwn yma ychydig anghreifftiau o awduron clasurol a ddefnyddir i brofi fod *baptizo* yn cael ei ddefnyddio yn y modd cyffredinol hwn, naill ai trwy drochiad neu orchuddiad, neu heb olygu ar un dull penodol. Dyma un o linellau y Sibyl am Athen:—

"*Ασκος βαπτιζῃ, δῦναι δε τοι οὐ θεμις εστι.*"

Yn y llinell hon y mae y brophwydes yn dyweyd fod Athen fel chwysigen ar wyneb y dwfr, y gall hi gael ei bedyddio, ond nid ei suddo dan y dwfr. Pa beth yw ystyr y gair *bedyddio* yma? Cyfieithir y llinell gan un ochr, "Gelli gael dy drochi, ond ni suddi. "Cyfieithir ef gan yr ochr arall, "Gall y tonau luchio drosot (*h. y.*, gelli gael dy fedyddio), ond nid äi dan y dwfr (*h. y.*, parhei i nofio ar y wyneb). Yn erbyn y cyfieithiad cyntaf dywedir nad yw y gair *δῦναι* (*dunai*) yn arwyddo suddo, ond myned dan y dwfr, neu i'r dwfr; ac felly, mai y cyfieithiad olaf yn unig a all fod yn

Digitized by Google

gywir. Honir, gan hyny, fod y gair bedyddio yn yr anghraifft hon yn esbonio dosbarth o ymadroddion yn y rhai y sonir am fedyddio â thònau; megys, "Yr ydwyf yn un o'r rhai hyny sydd yn cael fy medyddio (*h. y.*, fy ngorchuddio) â'r dòn fawr hono."

Dosbarth arall o anghreifftiau o ystyr y gair *baptizo* ydyw y rhai sydd yn dynodi y weithred trwy ddwyn dwfr dros y peth bedyddiedig, ac nid trwy ei roddi yn y dwfr. Dyma frawddeg o eiddo Aristotle. "Dywedir am y Phœniciaid sydd yn trigiannu yn y wlad, a elwir Gadeira, eu bod trwy hwylio heibio i golofnau Hercules am bedwar diwrnod, gyda gwynt dwyreiniol, yn dyfod i leoedd anial, lle y mae cyflawnder o frwyn, y rhai, pan y bydd y llanw allan ni *fedyddir*, ond pan y bydd y llanw i mewn a orchuddir â dwfr." Tybir nas gall y gair "fedyddir" yma arwyddo ond cuddio â dwfr, o herwydd ni allasai y brwyn fyned i'r dwfr. Yn yr ystyr yma yr esbonir y gair mewn llawer o ymadroddion ffugrol; megys bedyddio â threthi, bedyddio â gofalon, bedyddio â dyledion, bedyddio â thrallod.

Gellir cael esamplau o'r gair *bedyddio* yn ysgrifeniadau Plato, sydd heb ddynodi rhoddi peth yn y dwfr, na chwaith rhoddi dwfr arno; ond yn unig fod y naill yn y llall, heb arwyddo pa fodd y cymmerodd hyny le. Sonia yn fynych am yr enaid wedi ei fedyddio yn y corff; *h. y.*, wedi ei amgau yn y corff, trwy fynediad yr enaid i'r corff, neu trwy fod y corff yn ymgasglu ac yn amgau am yr enaid.

Oddi wrth yr enghreifftiau hyn, fe gesglir nad yw *baptizo* yn arwyddo *dull*—am ei fod yn cael ei wahaniaethu oddi wrth ferf sydd yn arwyddo trochi—am y defnyddir ef pan ddygir y sylwedd bedyddiol ar y bedyddiedig—ac am y defnyddir ef mewn amgylchiadau nad oes ynddo gyfeiriad at ddull. Fel hyn yr esbonir y gwahaniaeth sydd yn y dull o ddefnyddio y gair mewn brawddeg; megys, weithiau, bedyddio *i*, pan yn arwyddo yn gyffredin trochi; bedyddio *â*, yr hyn a arwydda orchuddio; a bedyddio *yn* neu *mewn*, heb gyfeiriad oll at ddull. Ac os nad yw y gair ei hun yn arwyddo dull, gellir defnyddio unrhyw ddull, a'i ddynodi trwy gystrawen y frawddeg, neu mewn ffyrdd ereill sydd mor luosog yn yr iaith Roeg.

Wedi ymofyn pa beth yw ystyr y gair yn mhlith ysgrifenwyr cyffredin yr iaith, yr ymofyniad nesaf ydyw, A oes genym sail i feddwl fod y gair *baptizo* yn cael ei ddefnyddio yn y Testament Newydd heb law am drochi? Mewn atebiad, cyfeirir at 1 *Cor.* x. 2; "A'u bedyddio hwynt oll i Moses yn y cwmwl ac yn y môr." Gwneir dau sylw ar yr adnod hon; yn gyntaf, y mae Paul yn dyweyd yn bendant fod y tadau wedi eu bedyddio yn y mor; ac yn ail, y mae Moses yn dyweyd mor benderfynol na throchwyd yr un o honynt yn y môr; "Aethant drwy ganol y môr ar dir sych;" *Exod.* xiv. 22. Y casgliad ydyw—dyma fedydd heb drochiad. Pa fodd y bedyddiwyd hwy, sydd heb ei hysbysu—pa un ai trwy dywalltiad dwfr o'r cwmwl, yn ol geiriau y Salmydd, "Y cymylau a dywalltasant ddwfr," ai ryw ffordd arall: ond y ddau beth a hysbysir ydynt, eu bod wedi eu bedyddio, a'u bod heb eu trochi.

*Mat.* iii. 11; "Myfi yn ddiau ydwyf yn eich bedyddio â dwfr...eithr yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i...a'ch bedyddia chwi â'r Ysbryd Glân ac a thân." Nid oes un ffaith yn yr efengylwyr, nac un athrawiaeth yn yr efengyl, yn cyfiawnhau y fath ymadrodd a throchi *mewn* tân. Ar ddydd y Pentecost fe gyflawnwyd hyn (*Act.* xi. 15, 16); a pha fodd y gwnaed hyny? "Ac yn ddisymmwth y daeth swn o'r nef, megys gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eistedd. Ac ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig megys o dân, ac efe a eisteddodd ar bob un o honynt;" *Act.* ii. 2, 3. Disgynodd rhywbeth i'w weled a'i glywed arnynt, fel arwyddion o'r Ysbryd Glân—"efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awrhon yn ei weled ac yn ei glywed." Nid eu trochi yn yr arwyddion gweledig a gawsant, ond disgynodd arnynt dafodau gwahanedig megys o dân. Dyma eto fedydd â thân, ond nid trochiad mewn tân.

*Marc* vii. 4; "A phan ddelont o'r farchnad, oni bydd iddynt *fedyddio* eu hunain, ni fwytânt. A llawer o bethau ereill y sydd, y rhai a gymmerasant i'w cadw; megys *bedyddio* cwpanau, ac ystenau, ac efyddynau, a *byrddau*." Yma y mae bedyddio yn arwyddo *golchi* eu dwylaw a'u traed, ac nid trochi yr holl gorff. Ac wrth ei gymhwyso at fyrddau a ddefnyddid i fwyta arnynt (κλινοι =*trinclinia*), nis gellir ei ddeall ond am eu golchi, neu daflu dwfr arnynt.

*Luc* xi. 39; "A'r Pharisead pan welodd, a ryfeddodd na *fedyddiasai* ei hun yn gyntaf o flaen ciniaw." Y dwylaw yn unig a arferai y Phariseaid eu golchi cyn bwyta; o ganlyniad, nid yw yma yn arwyddo trochi yr holl gorff.

*Heb.* ix. 10—14; "Y rhai oedd yn sefyll yn unig ar fwydydd, a diodydd, ac *amryw fedyddiadau*, a defodau cnawdol," &c. Yr oedd y bedyddiadau hyn yn cynnwys taenelliad gwaed geifr a lloi ar yr allor, a thaenelliad yr aflan â dwfr neillduaeth, wedi ei gymmysgu â lludw anner; "O blegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw anner wedi ei *daenellu* ar y rhai a halogwyd, yn sancteiddio i bureiddiad y cnawd," &c. Y mae yn rhaid, gan hyny, fod taenelliad yn gynnwysedig yn y gair *bedyddiadau*.

Ond os edrychir oddi wrth y dull y defnyddir y gair at enghreifftiau o fedydd yn y Testament Newydd, fe'n harweinir i'r un penderfyniad.

*Act.* x. 47; "A all neb luddias dwfr, fel na fedyddier y rhai hyn, &c. "Y mae y gair *lluddias*= gwahardd (κωλῦσαι), yn ei gyssylltiad â dwfr, yn bwysig, fel y mae yn dangos mai yr arferiad ydoedd *dwyn y dwfr at y bedyddiedig, ac nid y bedyddiedig at y dwfr.* Fe ddangosai y gair ei hun hyn mewn unrhyw amgylchiad; ond y mae hyn yn cael ei wneyd yn hollol sicr wrth gofio mai mewn tŷ yr oeddynt."—*Alford's Greek Testament.*

*Act.* ii. 41; "Yna y rhai a dderbyniasant ei air ef yn ewyllysgar a fedyddiwyd; a chwanegwyd atynt y dwthwn hwnw yn nghylch tair mil o eneidiau." Y mae bron yn sicr fod y bedydd cyntaf hwn wedi ei weinyddu fel bedydd cyntaf y dychweledigion cenedlig (*Act.* x. 47), trwy *daenelliad* neu *dywalltiad*, ac nid trwy *drochiad*. Y mae bron yn anghredadwy fod *tair mil* wedi cael eu trochi yn Ierusalem—dinas lle yr oedd cyn lleied o ddwfr; ac hefyd mor anghredadwy eu bod wedi ymffurfio yn orymdaith, a myned y tu allan i'r muriau i Cedron, yr hon nad oedd ond ffrwd fechan, sech yn yr haf, ac yn hawdd ei chroesi bob amser heb bont; neu i lyn Siloam, yr hwn ni chynnwysai ond digon o ddwfr i ferched olchi lliain [*Chateaubriand's Travels*, cyf. ii., td. 34, 36], yr hwn, medd Josephus, oedd yn fynych yn sych, yn nghyd â'r holl ffynnonydd oedd o amgylch Ierusalem.

*Act.* viii. 5, 12. Tybir yn gyffredin mai y ddinas lle y bedyddiodd Phylip wŷr a gwragedd.

Digitized by Google

a gellid meddwl eu bod yn llawer, gan fod "llawenydd mawr yn y ddinas hono," oedd Sichem: ac er mwyn cael gweled pa fanteision oedd yno i drochi trigolion y ddinas, gellir darllen hanes Crist a'r wraig o Samaria yn *Ioan* iv. Yr oedd ffynnon Iacob yno, ond ni allesid cael dwfr o honi heb rywbeth i'w dynu, ac nid yw yn ymddangos fod un casgliad arall o ddwfr yn y gymmydogaeth—yno yr oedd yr holl gymmydogaeth yn cael dwfr iddynt eu hunain a'u hanifeiliaid. Ac os nad Sichem oedd y ddinas hono, yr oedd llawer o ddinasoedd y dwyrain mewn amgylchiad cyffelyb gyda golwg ar y cyfleusderau i drochi lluaws o bobl. Nid yw yn debygol fod trochiad yn arferiad cyffredin mewn gwlad lle yr oedd dwfr mor brin, fel yr oedd cwpanaid o ddwfr oer yn gymmwynas fawr.

*Act.* xvi. 14, 15. Y mae yn debygol, oddi wrth arferiad cyffredin yr apostolion, fod Lydia a'i theulu wedi cael eu bedyddio yn y fan, wrth yr afon. A ydyw yn debygol fod gwraig o'i sefyllfa hi wedi cael ei throchi gan ddyn mewn lle cyhoeddus, heb ddim parotoad blaenorol, ryw bellder oddi wrth ei thŷ—yr hyn fuasai mor groes i holl arferion y dwyrain.

Tybir, gan fod Ioan yn bedyddio yn yr Iorddonen ac yn Ainon, lle y dywedir fod llawer o ddyfroedd yno (*Ioan* iii. 23), fod hyn yn hollol benderfynol o blaid trochiad. Er nad yw llawer o amddiffynwyr taenellu yn eiddigeddus dros brofi nad trochi yr oedd Ioan, os gellir ei brofi; eto myntumiant nad yw yn rhyfedd ei fod yn dewis yr Iorddonen neu Ainon i gael digon o ddwfr, hyd yn oed i daenellu y miloedd oedd yn dyfod ato. Nis gall y geiriau—"Ierusalem a holl Iudea, a'r holl wlad o amgylch yr Iorddonen," arwyddo llai na bod lluoedd mawr iawn—y rhan fwyaf o bobiogaeth y tiriogaethau hyny—yn cael eu bedyddio gan Ioan. A fuasai yn bosibl i fedyddio y fath nifer hyd yn oed trwy daenellu wrth ffynnon Iacob? Yn ol pob gwybodaeth sydd genym am y gwledydd hyny, nis gallwn gasglu fod yno fawr chwaneg o ddwfr nag i gyfarfod angenion y gymmydogaeth. Ni allasai daenellu y fath luaws ychwaith yn nghymmydogaeth Ierusalem, lle y dywedir gan Josephus [*De Bello*, lib. v., c. 9, 4] fod y dwfr yn cael ei werthu i'r bobl cyn y gwelliadau a wnaeth Titus. Yn mha le, gan hyny, ond mewn man lle yr oedd llawer o ddwfr, megys yr Iorddonen neu Ainon, y gallesid cael digon o ddwfr i daenellu y torfeydd oedd yn cyrchu ato. Yn mha le, hyd yn oed yn Nghymru, lle y mae cymmaint o wlaw yn disgyn, y gellid cael lle digon cyfleus i daenellu y rhan fwyaf o drigolion sir, ond ar fin afon sydd yn rhedeg trwyddi, neu wrth gyfarfyddiad nifer o ffynnonydd neu aberoedd tebyg i'r hyn oedd yn Ainon. Mor bell, gan hyny, y mae y manau hyn oddi wrth brofi mai yr arferiad oedd trochi, fel y mae yn anhawdd dychymygu pa fodd y gallesid cael digon o ddwfr i dywallt ar y fath nifer ond mewn lleoedd o'r fath.

Mae ysgrifenwyr eglwysig boreuol yn dystion difai i *ystyr geiriau*, er nad i *wirionedd athrawiaethau*. Ac y mae eu tystiolaeth hwy i ystyr y gair *bedydd* yn gynnwysedig yn y pedwar peth canlynol:—

1. Addefant fod bedyddiadau lle nad oedd trochi yn safadwy.

2. Galwant olchiadau ereill yn fedydd er nad oeddynt yn cael eu cyflawnu trwy drochi.

3. Cymhwysant adnodau o'r Ysgrythyrau at fedydd sydd yn amlwg gau allan y syniad o drochi. Megys, "Taenellaf arnoch ddwfr glân fel y byddoch lân;" *Ezec.* xxxvi. 25. Cymhwysir yr adnod hon yn fynych ganddynt at fedydd. Y cwestiwn yw, nid a oedd hyn yn gywir, ond a oeddynt hwy yn deall y gair *bedydd* yn gyfystyr â throchi. Rhaid fod taenellu yn gyssylltiedig yn eu meddyliau hwy â bedydd cyn y gallasent ddefnyddio yr adnod a'r cyffelyb am fedydd.

4. Llefarant am olchiadau y paganiaid, yn y rhai nid oedd trochiad, fel eu bedyddiadau hwy, neu eu hefelychiad o fedydd.

Addefir fod y dynion hyn yn trochi gan amlaf eu hunain, a'u bod yn trochi deirgwaith hefyd fel arwydd o'r Drindod, ac yn trochi y bedyddiedig hefyd yn fynych yn noethion, fel arwydd o ddodiad ymaith yr hen ddyn. Ond cryfaf oll ydyw y dystiolaeth a ddygant yn y gosodiadau uchod dros ystyr y gair fel yn cynnwys taenellu yn gystal a throchi.

Crynodeb o'r hyn a ddywedir yma mewn gwrthwynebiad i'r dybiaeth fod y gorchymyn i fedyddio yn gyfystyr â gorchymyn i drochi, ac nad oes bedyddio o gwbl os na chyflawnir ef trwy drochi, ydyw—yn 1af. Fod ysgrifenwyr clasurol yn crybwyll am fedyddio drwy orchuddio â dwfr. 2il. Fod bedyddiadau yn y Testament Newydd heb drochi. 3ydd. Y cyfeirir yn fynych at fedydd Cristionogol mewn iaith sydd yn anffafriol i'r dybiaeth o drochi. 4ydd. Mewn llawer o amgylchiadau lle y crybwyllir am fedydd yn cael ei weinyddu, fod trochi yn bur annhebygol, os nad yn hollol anmhosibl. 5ed. Nad oes ysgrifenwyr eglwysig yn deall bedyddio yn gyfystyr â throchi. Ni ddefnyddir y rhesymau hyn i'r dyben i geisio profi nad yw trochi yn fedyddio, ond nad yr *unig* ddull ydyw.

Ond y mae amddiffynwyr bedydd trwy daenellu yn myned yn mhellach na hyn, ac yn dadleu, pe gellid dangos (yr hyn ni addefant, am y rhesymau uchod) mai ystyr y gair Groeg am fedyddio ydyw trochi, a throchi yn unig, eto nad yw hyny yn benderfynol yn erbyn bedydd trwy daenellu neu dywallt; a hyny o herwydd y rheswm canlynol—ein bod, yn unol âg egwyddorion y Testament Newydd, wrth esbonio geiriau gosodiadau pendant, i ystyried eu natur a'u dyben; ac ond dal y gwirionedd a arwyddoceir, y gellir defnyddio unrhyw ddull sydd yn unol â'u natur, ac yn meddu cymhwysder i gyrhaedd y dyben. Neu, mewn geiriau ereill, fod yr arwydd er mwyn yr hyn a arwyddoceir, ac nid yr hyn a arwyddoceir er mwyn yr arwydd. Nid yw yr arwydd o un pwys ond fel y mae yn gosod allan y gwirionedd. Ysbryd y ddeddf foesol ydyw cydweddiad y weithred â natur pethau; ond ysbryd gosodiad neu orchymyn pendant ydyw cydweddiad yr arwyddion â'r gwirionedd a arwyddoceir. Yn unol â hyn, y mae rhwymedigaeth foesol yn anghyfnewidiol, ac yn annibynol ar amgylchiadau; ond gall yr arwydd mewn gosodiadau pendant newid yn ei gymhwysder gydag amgylchiadau, ac felly fod yn bosibl cadw yr ysbryd pan y mae y llythyren wedi colli ei grym. Y mae llythyren y gyfraith am y Sabbath wedi diflanu, ond y mae ei hysbryd yn parhau yn neillduad y dydd cyntaf o'r wythnos. Gorchymynid yn y geiriau mwyaf pendant i'r Israeliaid "rwymo y geiriau yn arwydd ar eu llaw, yn rhagtalau rhwng eu llygaid, eu hysgrifenu hwynt ar byst eu tai, ac ar eu pyrth;" *Deut.* vi. 8, 9: ac o'r gorchymyn hwn y cododd yr arferiad o wisgo phylacterau a gondemniwyd gan Grist ei hun. Wrth hyn y gwelir y gellir cadw

Digitized by Google

llythyren y gosodiad o ran yr arwydd, ac eto troseddu ei ysbryd.

Yn y Testament Newydd y mae gorchymyn i'r saint gyfarch eu gilydd â chusan sancteiddiol. Dyma osodiad apostolaidd i ddefnyddio dull penodol o gyfarchiad fel arwydd o frawdgarwch a chariad Cristionogol. Mae y gorchymyn hwn mor bendant, ac yn cael ei roddi yn amlach na'r gorchymyn i fedyddio. Defnyddir yr ymadrodd cusan *sancteiddiol* pan na chyssylltir y gair â bedydd na Swper yr Arglwydd. Pa ham nad yw Cristionogion yr oesoedd hyn yn teimlo fod llythyren y gorchymyn hwn yn orphwysedig arnynt yn awr? Onid yr ateb ydyw, nad yw y cusan ond arwydd, er y gorchymynir ef yn y geiriau mwyaf pendant, o'r hyn y gellir ei ddangos mewn dull mwy cyfaddas i'r oesoedd hyn trwy roddi deheulaw cymdeithas.

Nid yw y sacrament, trwy yr hwn y cedwir cof am angeu Crist, sy'n cael ei alw yn Swper yr Arglwydd (δειπνον), yn brawf nas gellir ei weinyddu yn briodol ond yn yr hwyr. Cadw yn hollol at lythyren y gair fyddai dal fod yr amser yn hanfodol i'w iawn weinyddiad. Os dywedir nad yw taenellu yn fedyddio, am mai ystyr y gair ydyw trochi, oni ellir dywedyd yr un modd nad yw cofio am angeu Crist y boreu yn Swper yr Arglwydd, am mai ystyr y gair *swper* ydyw pryd a gymmerir yn yr hwyr. Am nad yw y gair *swper* yn brawf nas gellir gweinyddu Swper yr Arglwydd ond yn yr hwyr yn unig, felly nid yw y gair *bedyddio* (pe caniateid mai trochi yn unig ydyw ei ystyr) yn brawf nas gellir ei weinyddu drwy ryw gymhwysiad arall o ddwfr.

Pe caniateid mai trochi ydyw ystyr y gair *bedyddio*, gellir amddiffyn bedyddio trwy daenellu ar yr un egwyddor ag yr amddiffynodd Iesu Grist ei ddysgyblion wrth dynu tywys ar y Sabbath. Cyhuddid y dysgyblion o wneyd math o waith ar y Sabbath yn groes, y mae yn ddiau, i lythyren y ddeddf. Nid yw Crist yn eu hamddiffyn drwy wadu fod tynu y tywys a'u bwyta yn waith—y mae yn ddiau ei fod felly; a phe buasent wedi treulio yr holl ddydd i wneyd hyny, buasent yn euog o halogi y Sabbath. Ond amddiffynid hwy trwy gyfeirio at waith Dafydd yn bwyta y bara gosod, yr hyn nid oedd gyfreithlawn i neb ei fwyta ond i'r offeiriaid yn unig. Yr oedd deddf y Sabbath a deddf y bara gosod yn benderfynol. Ar ba egwyddor, gan hyny, y mae Crist yn amddiffyn gwyro oddi wrth lythyren y ddeddf? Ar yr egwyddor, nad yw o bwys fod dyn yn ymattal oddi wrth fwyd i gyfarfod y llythyren, os bydd i amcanion crefyddol a thrugarog y Sabbath gael eu diogelu. Yr un modd y dadleuwn, y gellid tywallt neu daenellu dwfr wrth fedyddio, pe byddai pob sicrwydd mai trochi oedd y gorchymyn gwreiddiol, os byddai hinsawdd gwlad yn anffafriol, neu mewn amgylchiadau y byddai iechyd yn gwneyd hyny yn beryglus, neu anghyfleusderau ereill. Y mae ystyriaethau fel hyn yn gorbwyso llythyren y ddeddf. Yn Mhrydain, gellid hòni rhyddid i daenellu, am fod bedydd er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn bedydd.

Mewn atebiad i hyn, dywedir fod trochi yn rhan hanfodol o'r gosodiad, fel ordinhad arwyddocaol. Addefa taenellwyr fod *dwfr* yn hanfodol, ac hefyd ei gymhwysiad trwy *ryw ddull*, ac mai hyn ydyw y cwbl sydd yn angenrheidiol i osod allan lanhad yr enaid oddi wrth bechod drwy waed Crist.

Rhinwedd glanhaol y dwfr a'i gymhwysiad yn unig sydd yn arwyddocaol yn yr ordinhad hon: *Act.* xxii. 16; *Eph.* v. 25, 26; *Tit.* iii. 5. Tybia rhai fod dull y cymhwysiad yn arwyddocaol hefyd, gan gyfeirio at *Rhuf.* vi. 4; "Claddwyd ni gan hyny gydag ef trwy fedydd." Ond yn *gyntaf*, nid yw y dyb fod yma gyfeiriad at y dull yn gysson â'r ymresymiad. Amcan yr apostol ydyw annog i sancteiddrwydd: er mwyn hyn y mae yn dwyn llawer o resymau yn *pennodau* vi, vii, ac viii. Yn yr adnod dan sylw, ei reswm ydyw, ein bod mewn bedydd wedi gwneyd proffes o fod yn eiddo i Grist—bu ef farw, claddwyd ef, ac adgyfododd drachefn i'n gwaredu oddi wrth bechod: o ganlyniad, dylem ni, medd yr apostol, brofi yn y *meddwl* a'r *teimlad* rywbeth sydd yn meddu *tebygolrwydd* i'r gweithredoedd allanol hyn—rhaid i ni farw, a chael ein claddu, a chyfodi drachefn. Y mae y *marw* a'r *cyfodi* yn ymadroddion ffugrol; rhaid, o ganlyniad, bod y *claddu* felly. Felly yn iaith yr Ysgrythyr y mae credinwyr yn cael eu *croeshoelio* (*Rhuf.* vi. 6); eu *planu* (*Rhuf.* vi. 5); ac yn *gwisgo* Crist (*Gal.* iii. 27). Nid yw sacramentau yn arwyddion o ymadroddion ffugrol, ond o wirioneddau. Yn *ail*, y mae diffyg tebygolrwydd. Y mae dwfr yn y bedydd yn arwyddo *puredigaeth;* ond y syniad sydd yn gyssylltiedig â chladdu ydyw *llygredigaeth.* Hefyd, y mae y tebygolrwydd a ddychymygir rhwng trochi a rhoi mewn bedd, yn orphwysedig ar y dull presennol o gladdu, ac nid ar y dull Iuddewig, yn ol yr hwn y claddwyd Crist. Yr arferiad yn mhlith y Rhufeiniaid yr ysgrifenwyd atynt oedd, ar y pryd, llosgi y corff; i'r Rhufeiniaid, gan hyny, nid oedd ynddo gysgod o debygolrwydd.

DEILIAID BEDYDD.

Y prif orchymyn, os nad yr unig un, i fedyddio, ydyw geiriau Crist yn *Mat* xxviii. 19; ac ar sail y gorchymyn hwn, yn benaf, y gweinyddir bedydd yn yr Eglwys Gristionogol. Naturiol, gan hyny, ydyw gofyn, Pwy ydyw deiliaid bedydd, yn ol awdurdodiad Crist? Y mae yr ateb yn eglur, "Yr holl genedloedd." Ond erbyn ceisio eu hesbonio, y mae tri dosbarth yn gwahaniaethu yn eu barn am eangder yr ymadrodd. *Yn gyntaf,* Y rhai sydd yn credu nad oes gan neb hawl i fedydd ond y rhai sydd yn gwneuthur proffes gredadwy o'u ffydd yn Nghrist. *Yn ail,* Y rhai sydd yn bedyddio credinwyr proffesedig a'u teuluoedd. *Yn drydydd,* Y rhai sydd yn bedyddio pawb sydd yn gofyn am hyny iddynt eu hunain, neu i'w plant, neu i unrhyw blant dan eu gofal, os bydd y cais yn cael ei wneyd gyda difrifwch.

Y mae y cyntaf yn dal mai rhagorfraint credinwyr yn unig ydyw bedydd;—yr ail, ei fod yn perthyn i blant credinwyr, trwy rinwedd perthynas gyfammodol rhyngddynt a'u rhieni;—a'r trydydd, gan nad yw geiriau Crist yn rhoddi dim terfynau ar "yr holl genedloedd," fod y rhagorfraint yn perthyn i bawb.

Y mae y rhesymau dros y farn gyntaf yn cael eu henwi mewn rhan arall o'r erthygl hon. Y mae amddiffynwyr y ddau olygiad olaf yn cytuno i fedyddio babanod; ond nid ar yr un tir, nac ychwaith i'r un terfynau. Felly, y mae bedyddwyr babanod yn gwahaniaethu yn mysg eu gilydd am resymau yr arferiad, ac hefyd am ei heangder. Ond tybiant nad yw eu hanghytundeb am resymau yr arferiad yn un gwanhad i'r hyn a amddiffynant, ond yn hytrach yn gryfhad, gan eu bod yn cyrhaedd yr un nod ar hyd dau lwybr gwahanol. Pe dangosid fod gwendid yn rhesymau y naill, byddai rhesymau y llall wed' yn, i ddal ymosodiad. Y mae yn wir fod y ddwy blaid

Digitized by Google

sydd yn amddiffyn bedydd babanod yn cytuno mewn rhai rhesymau. Dadleua y naill fod Paul wedi bedyddio teulu Lydia, am ei bod hi ei hun wedi credu; ond y llall, am mai dyna y pryd y cafodd gyfle i wneyd. Ond os ydyw yr hanes yn profi bedydd babanod o gwbl, y mae yn ei brofi i'r naill yn gystal ag i'r llall, pa beth bynag a all fod y rheswm dros hyny.

Cymmerwn yn gyntaf brif reswm y rhai sydd yn bedyddio babanod, ac yn ei gyfyngu at fabanod credinwyr. Yn ngeiriau Dr. Wardlaw, y mae fel y canlyn:—"Fod y cyfammod gras wedi ei ddadguddio cyn ymddangosiad Crist yn y cnawd, ac o dan y cyfammod hwnw yr oedd perthynas wedi ei sefydlu gan Dduw rhwng rhieni a'u plant; fod arwydd a sel bendithion y cyfammod, drwy drefniad dwyfol, yn cael eu gweinyddu i blant; ac nis gellir dwyn prawf boddhaol fod y berthynas hono wedi ei difodi." Er mwyn egluro a chadarnhau yr ymresymiad hwn, dangosir yn

1. Fod cyfammod yr addewid a wnaethpwyd gan Dduw âg Abraham, yr un cyfammod ag a ddadguddir yn yr efengyl; sef y cyfammod gras. Gelwir ef cyfammod yr *addewid*, mewn gwrthgyferbyniad i'r *ddeddf*, "yr hwn a gadarnhawyd o'r blaen gan *Dduw yn Nghrist*;" *Gal.* iii. 17, 18. Y mae deiliaid y cyfammod yn "*etifeddion yn ol yr addewid*;" *adn.* 29. Y mae yr un peth yn eglur oddi wrth *Rhuf.* iv. 13, 14; "Daeth yr addewid... trwy gyfiawnder ffydd."

2. Fod yr enwaediad a'r cyfammod hwn, fel cyfammod o fendithion ysbrydol neu o ras, wedi eu cyssylltu. Y mae hyn o bwys yn yr ymresymiad dan sylw. Gwelir oddi wrth hanes sefydliad yr enwaediad, mai wrth y cyfammod yn yr hwn y mae Duw yn addaw bod yn Dduw i Abraham ac i'w had y cyssylltir yr enwaediad: *Gen.* xvii. 1—11. Yr ateb a roddir i hyn yn gyffredin ydyw, fod y cyfammod a wnaethpwyd âg Abraham yn cynnwys dau gyfammod, un yn dymmorol a'r llall yn ysbrydol, ac mai â'r cyntaf y cyssylltir enwaediad. Ond ar hyn, gellir sylwi, yn *gyntaf*, nad oes dim gwahaniaeth o'r fath yn yr hanes. Gorchymynir enwaedu, fel arwydd *y* cyfammod, fel yn cynnwys yr holl fendithion sydd yno, ac nid rhan o honynt. Yn *ail*, nid yw yr apostol, yn ei ymresymiad ar yr addewidion a wnaethpwyd âg Abraham, yn gwneuthur un gwahaniaeth o'r fath. Y mae holl fendithion y cyfammod, y tymmorol a'r ysbrydol, yn enwedig y ddwy etifeddiaeth—y gysgodol a'r sylweddol, y ddaiarol a'r nefol—yn cael eu gwneuthur i'r *un had* ar yr *un tir* drwy yr addewid: *Gal.* iii. 15, 16.

3. Addefir gan bawb fod yr enwaediad yn arddangos bendithion ysbrydol. Gyda pha briodoldeb, gan hyny, y gwnaed ef yn arwydd o gyfammod o fendithion tymmorol.

4. Dywedir yn bendant fod yr enwaediad yn arwydd a sel bendithion ysbrydol: *Rhuf.* iv.

Ar sail y tri gosodiad hyn—sef, mai yr un cyfammod ag a ddadguddir yn yr efengyl oedd yr hwn a wnaethpwyd âg Abraham; fod yr enwaediad yn arwydd y cyfammod hwnw fel yn gynnwysedig o fendithion ysbrydol; ac hefyd, fod yn y cyfammod âg Abraham gyssylltiad neillduol wedi ei sefydlu rhwng rhieni a'u plant—y tynir y casgliad, fod y berthynas hono rhwng plant a'u rhieni yn parhau yn awr; a bod i blant yn awr hawl i arwydd y cyfammod drwy rinwedd y cyssylltiad cyfammodol â'u rhieni, fel yr oedd iddynt cyn i Grist ymddangos yn y cnawd, gan mai yr un cyfammod ydyw yr addewid i Abraham a'r addewid yn yr efengyl. Pe dau gyfammod gwahanol fuasent, ni allesid ymresymu oddi wrth y naill i'r llall. Ond gan mai yr *un* ydynt—gyda y gwahaniaeth pwysig yma, fod goruchwyliaeth allanol y cyfammod dan yr efengyl yn fwy *rhydd*, *galw*, ac *eang* — o ganlyniad, yn lle diddymu rhagorfreintiau plant, gallesid dysgwyl iddi yn hytrach eu cadarnhau. Hyn ydyw yr ymresymiad oddi wrth y cyfammod Abrahamaidd dros dderbyniad babanod, a babanod credinwyr yn unig, i'r eglwys, drwy weinyddiad o arwydd y cyfammod iddynt.

Yr oedd y cyssylltiad dan sylw rhwng rhieni a'u plant yn rhedeg drwy yr oll o'r hen oruchwyliaeth, wedi ei gydwau â'u holl deimladau, i'w ganfod drwy eu holl ysgrifeniadau, ac yn eu llywodraethu wrth dderbyn proselytiaid. Yr oedd cenedlddyn a ymunai â chymundeb Israel yn cael ei dderbyn, a'i *deulu*.

Y mae iaith y prophwydi, wrth edrych yn mlaen at amseroedd y Testament Newydd, yn cymmeryd yn ganiatäol yr hanfodai yr un berthynas ag oedd er cynt: *Ier.* xxxii. 37—40; *Ezec.* xxxvii. 25; *Esa.* lxv. 23. "Canys *had rhai bendigedig yr Arglwydd ydynt hwy, a'u heppil gyda hwynt.*"

Y mae y Testament Newydd yn awgrymu parhad yr un cyssylltiad rhwng rhieni a phlant, a hyny yn yr unig lwybr ag y gallesid dysgwyl yn yr amgylchiadau. Gwelir y cyssylltiad hwn yn rhedeg drwy yr Hen Destament;—plant pobl broffesedig yr Arglwydd yn cael eu henwaedu gyda'u rhieni; a phlant proselytiaid cenedlig yn cael derbyniad trwy yr un arwydd a'u rhieni. Erbyn dyfod i'r Testament Newydd, pe buasai ansawdd blaenorol pethau yn anghysson â'i ysbrydolrwydd, gallesid dysgwyl tystiolaeth bendant yn ei erbyn. Ond yn lle hyny, yr ydym yn cyfarfod âg iaith sydd yn hollol gydweddol â'r berthynas a hanfodai rhwng rhieni a phlant yn flaenorol *Marc* x. 13—16; *Luc* xix. 9; *Act.* ii. 39; xvi. 14, 15, 31, 33; 1 *Cor.* i. 16; vii. 14. Y casgliad oddi wrth yr adnodau hyn gyda'u gilydd, ydyw, fod ystad pethau yn parhau fel cynt gyda golwg ar deuluoedd.

Y mae yn hollol annhebygol, pe buasai cyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn ngosodiad i fyny oruchwyliaeth yr efengyl gyda golwg ar dderbyniad plant, na buasai amlygiadau o wrthwynebiad ac anfoddlonrwydd i hyny yn mysg rhai oedd yn dangos cymmaint o eiddigedd dros y gyfraith ag oedd yr Iuddewon. Oni fuasai yr Iuddewon, oedd yn amlygu y fath barodrwydd i wrthwynebu yr efengyl, yn sicr o fod wedi defnyddio hyn yn un rheswm yn ei herbyn? Ond nid oes un awgrymiad iddynt wneyd dim o'r fath beth. Onid yw y casgliad yn anocheladwy—nad oedd cyfnewidiad?

Nid oes un esampl yn y Testament Newydd o neb yn cael ei fedyddio wedi tyfu i oedran ag oedd o deulu Cristionogol, Iuddewon neu Genedloedd. Ni gawn hanes bedydd rhai mewn oed, ond nid un o'r *fath yma*, sef un wedi ei fagu mewn teulu crefyddol. Buasai bedydd un mewn oed o'r cyfryw yn dangos nad oedd plant crefyddwyr yn cael eu bedyddio. Nid oes chwaith un cyfeiriad yn yr epistolau mewn ffordd o ocheliad, neu gynghor, neu gyfarwyddyd, pa fodd i dderbyn plant i'r eglwys trwy fedydd. Ar y dybiaeth fod yr un berthynas rhwng rhieni a phlant dan yr efengyl ag oedd dan y gyfraith, y mae hyn oll yn naturiol; ond ar y dybiaeth arall, y mae y cwbl mor annaturiol, fel y buasai hyn ynddo ei hunan

Digitized by Google

yn brawf cryf na wnaeth yr efengyl ddim gwahaniaeth yn rhagorfreintiau had credinwyr. Y mae y cyfarchiadau a'r cynghorion i blant yn yr epistolau at eglwysi yn gysson â'r syniad am eu parhad yn yr eglwys.

Amcan yr ystyriaethau uchod ydyw profi dau beth. Yn *gyntaf*, fod plant y rhai sydd yn proffesu ffydd yn nghyfammod Duw yn ddeiliaid bedydd; ac yn *ail*, i ddangos y rheswm pa ham y maent;—i brofi y *ffaith*, ac i egluro y *rheswm*.

Ond y mae y rhai sydd yn bedyddio *plant pawb* yn gosod sail yr arferiad ar reswm gwahanol i'r un a eglurwyd uchod. Sylfaenant hwy eu harferiad yn benaf ar eiriau Crist: "Ewch i'r holl fyd, a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio;" neu yn hytrach, "gwnewch ddysgyblion o'r holl genedloedd, *gan* eu bedyddio......a chan ddysgu iddynt gadw pob peth a'r a orchymynais i chwi." Y mae y *mathêtuein*="gwnewch ddysgyblion" i gael ei gyfiawnu trwy *fedyddio* a thrwy *ddysgu*. Gan nad oes dim terfynau i fod ar "wneyd dysgyblion," ni ddylai fod dim ar fedyddio. Y mae y naill mor eang a'r llall yn y gorchymyn. A gofynir, Yn mha le y mae yr awdurdod i'w ddeall yn wahanol?

Gofynir, Yn mha le y mae yr Ysgrythyr yn cyfyngu bedydd i gredinwyr? nid oes un ddadl na ddylai credinwyr gael eu bedyddio. Ond y cwestiwn yw, Ai ni ddylai neb arall gael eu bedyddio? Ai bedyddio pawb a ddeuai atynt yr oedd yr apostolion, ai ynte y rhai yr oedd ganddynt hyder eu bod yn wir gredinwyr?

Ac os defnyddir trefn y geiriau mewn ymadroddion fel y rhai canlynol—"Pwy bynag a gredo ac a fedyddir a fydd cadwedig," "Edifarhewch, a bedyddier chwi"—fel rheswm fod ffydd ac edifeirwch i flaenori bedydd, onid ellir defnyddio trefn y geiriau i brofi y gwrthwyneb yn yr adnod, "Cyfod, a bedyddier di, a golch ymaith dy bechodau?"

Defnyddir *Marc* xvi. 15, 16, fel pe byddai yn rhan o'r awdurdodiad i fedyddio, ac iddo gael ei lefaru gan Grist yn union ar ol y geiriau yn Matthew. Pe felly, nid dangos y maent pwy sydd i gael eu bedyddio, ond pwy achubir; a'r ateb ydyw, "yr hwn a gredo ac a fedyddier." Y mae y rhai a ddadleuant dros fedydd credinwyr, oddi wrth y geiriau, yn gwadu fod bedydd yn hanfodol i achubiaeth, er fod bedyddio o flaen achub yn yr adnod; ac eto, hònant fod credu yn hanfodol i fedydd, am fod y gair *credu* i lawr o flaen y gair *bedyddio*. Oni ddylent naill ai addef fod bedydd yn hanfodol i iachawdwriaeth, neu wadu fod credu yn hanfodol i fedydd? Os ydyw trefn y geiriau *credu* ac *achub* o bwys, onid oes yr un pwys yn nhrefn y geiriau *bedyddio* ac *achub*. Ac heb law hyny, os gwedir ail enedigaeth mewn bedydd, a oes un esboniad arall yn bosibl o'r geiriau ond sydd yn myned ar yr egwyddor fod bedydd i gael ei weinyddu i bawb a ofynai am hyny? Os oedd, yna ni allasai neb fod hebddo ond y sawl a'i dirmygai; ac felly, y mae credu a derbyn bedydd yr un peth a chredu ac ymostwng i ordinhadau yr efengyl, yr hyn sydd yn gyssylltiedig âg iachawdwriaeth. Os nad oedd, yna yr oedd attal i un gael ei fedyddio yn llaw y gweinyddwr, ac y mae yn anhawdd meddwl y buasai yr hyn sydd i ryw fesur yn dibynu ar ewyllys arall yn cael ei gyssylltu oll âg iachawdwriaeth.

Adnod arall a ddefnyddir i brofi fod ffydd yn angenrheidiol i fedydd, ydyw *Act.* viii. 37. Ond digon yw dyweyd nad yw yr adnod hon yn cael ei derbyn fel rhan ddilys o'r Ysgrythyr.[1] [Gwel BEIRNIADAETH YSGRYTHYROL.] Felly ni ddylid ymresymu oddi wrthi o gwbl. Y mae yr anghreifftiau Ysgrythyrol o fedydd yn dangos nad oedd ffydd yn cael ei gofyn fel ammod bedydd. Yr oedd Ioan yn bedyddio pawb a ddeuai ato er edifeirwch—nid am ei fod ef wedi cael prawf eu bod wedi edifarhau. Yr oedd dysgyblion Crist, hefyd, ar un adeg, yn bedyddio mwy o ddysgyblion nag Ioan, ac ni awgrymir fod un ammod yn cael ei gofyn: ac os ar broffes o ffydd yr oeddynt yn derbyn bedydd, y mae ymddygiadau y lluaws, yn amser croeshoeliad y Messiah yn dangos mai twyll ydoedd bron yn hollol. Hefyd, nid oes un esampl o fedydd yn cael ei wrthod i neb yn yr efengylwyr. Y mae yr anghreifftiau o fedydd yn yr *Actau* yn gyffredinol. *Act.* ii. 38; "Edifarhewch a bedyddier pob un o honoch." Y mae Pedr yn annog y lluaws i dderbyn bedydd yn gystal ag edifarhau, yn ddioedi; ac nid ar ol prawf o gywirdeb eu hedifeirwch. *Act.* viii. 12, 13. Ymddengys oddi wrth yr hanes dilynol, fod Simon y swynwr yn hollol anwybodus o egwyddorion cyntaf crefydd, ac eto bedyddiwyd ef. Bedyddiwyd yr eunuch ar ol awr neu ddwy o addysg. Derbyniodd Saul o Tarsus fedydd yn ddioed ar ol i Annanïas fyned i'r tŷ; hyny yw, mor fuan ag y gallasai ar ol bod yn foddlawn i'w dderbyn. Bedyddiwyd Cornelius a'i gyfeillion y diwrnod cyntaf y clywsant bregethu yr efengyl. Felly hefyd, Lydia, cyn iddi gymmaint a dychwelyd i'r tŷ ar ol clywed Paul. Ni arosodd yr apostol chwaith am un prawf o gywirdeb dychweliad ceidwad y carchar; ond yr awr hono o'r nos, "efe a fedyddiwyd a'r eiddo oll yn y man;" ac wedi hyny y dywedir iddo gredu yn Nuw. Bedyddiodd Paul ddeuddeg o ddysgyblion na chlywsant gymmaint a oes Ysbryd Glân, ar ol egluro iddynt natur y dystiolaeth a ddygodd Ioan am Grist: *Act.* xix. 5.

Y casgliad a wneir oddi wrth yr anghreifftiau hyn o fedydd, yw—Gan nad oedd ffydd yn cael ei gofyn fel ammod angenrheidiol bedydd rhai mewn oed, nis gall anallu naturiol babanod i gredu fod yn un anghymhwysder ynddynt i fod yn ddeiliaid bedydd. Dangosant hefyd fod geiriau Crist i'w deall yn eu hystyr eangaf, "Ewch i'r holl fyd, a gwnewch ddysgyblion o'r *holl genedloedd*, gan eu bedyddio," &c. Barn y rhai sydd yn amddiffyn y golygiadau a osodir allan yma, ydyw, fod y geiriau hyn yn eu hawdurdodi i wneuthur dysgyblion o gynnifer ag a allont, drwy eu bedyddio a'u dysgu. Nid ydynt yn cyfyngu bedydd i'r rhai sydd wedi eu dysgu, na dysg chwaith i'r rhai sydd wedi eu bedyddio; ond teimlant mai eu dyledswydd ydyw bedyddio a dysgu pawb yn ddieithriad, hyd y gallont, a hyny ar sail yr unig awdurdodiad pendant i fedyddio o gwbl; a bod Actau yr Apostolion yn brawf mai yn yr ystyr eang a dieithriad hwn yr oedd yr apostolion yn eu deall.

Dadleuant hefyd fod yr ymresymiad oddi wrth gyfammod Abraham yn eu harwain i fedyddio, nid plant credinwyr yn unig, ond plant pawb. Mae y gwahaniaeth yn troi ar hyn—a weinyddwyd enwaediad ar blant o herwydd eu perthynas a'u rhieni, ai ynte o herwydd eu cyssylltiad âg Abraham? Os o herwydd eu perthynas â'u rhieni, y mae yr ymresymiad ar y cyfammod

[1] "The insertion appears to have been to suit the formularies of the baptismal liturgies—it being considered strange that the eunuch should have been baptized without some such confession."—*Alford's Greek Testament.*

Digitized by Google

hwnw yn arwain at fedydd credinwyr yn unig; ond os o herwydd eu disgyniad oddi wrth Abraham, y mae yn arwain at fedydd plant yn ddiwahaniaeth. Ceir uchod yr hyn a ddywedir yn gyffredin dros y blaenaf. Dros yr olaf, y mae Dr. Halley yn ymresymu fel y canlyn:—Yr oedd hiliogaeth Abraham yn derbyn bendithion a sel y cyfammod, nid ar gyfrif y personau *trwy ba rai yr oeddynt yn disgyn*, ond ar gyfrif y personau *oddi wrth ba rai yr oeddynt yn disgyn*.

Mae y rhagorfraint yn dibynu ar y berthynas rhwng Abraham a'i hiliogaeth, ac ni chydnabyddir un berthynas arall yn y cyfammod. Gallasai y tad trwy anghrediniaeth dori ei gyssylltiad â'r genedl ddewisedig, a fforffetio ei holl ragorfreintiau; ond ni allasai trwy hyny amddifadu ei fab o'r hawl i ofyn am adferiad fel plentyn i Abraham. Nid oedd perthynas gyfammodol y plant yn ymddibynu ar gymmeriad eu rhieni uniongyrchol—gallasent hwy fod yn enwaededig neu yn ddienwaededig, nid oedd o bwys i'w plant. Mae geiriau y cyfammod ei hun yn cynnwys hyn—"a'th had ar dy ol yn eu cenedlaethau." Yr oedd pawb oedd yn dwyn cyssylltiad âg Abraham, heb fod yn blant iddo, "yr hwn a aner yn dy dŷ, neu a bryner âg arian," yn derbyn sel y cyfammod. Y gwahaniaeth rhwng y golygiad hwn a'r un blaenorol ydyw, fod y cyntaf yn edrych ar hawl plentyn yn gorphwys ar berthynas ei *rieni* â'r cyfammod; ond yn ol yr un dan sylw, yr oedd hawl y plentyn yn dibynu ar ei berthynas ei *hun* â'r cyfammod. Ac yn y cymhwysiad o'r gwahaniaeth at y cyfammod newydd y mae y naill yn sylfaenu hawl y plant yn mherthynas eu rhieni âg ef, ond y llall yn hawl bersonol y plentyn yn annibynol ar ffydd ei rieni. Y cyfnewidiad mwyaf a wnaeth angeu Crist yn y cyfammod dan sylw ydoedd gosod yr holl genedloedd yn y lle a berthynai o'r blaen i hiliogaeth Abraham. Cyn ymddangosiad y Messïah, un genedl a fendithiwyd yn Abraham, ond ar ol hyny, holl genedloedd y ddaiar. Cyn hyny yr oedd Abraham yn etifedd Canaan, ond wedi hyny gwnaed ef yn etifedd y byd. Impiwyd yr holl genedloedd yn ngwreiddyn Abraham, nid trwy ffydd; nid trwy ffydd yr impiwyd yr Iuddewon. Mae y berthynas gan hyny yn allanol, fel eiddo Israel, ac yn cyfeirio at ragorfreintiau allanol.

Ar gyfrif y berthynas hono, nid oes neb yn aflan neu yn gyffredin. Mae pob cenedl-ddyn yn meddu hawl i ragorfreintiau allanol yr efengyl yn awr fel yr Iuddew gynt. Os bydd marw yn ei fabandod cedwir ef trwy angeu Crist; os bydd byw i oedran, nis gall golli yr hawl hon i iachawdwriaeth trwy angeu Crist ond trwy anghrediniaeth neu dywyllwch paganaidd sydd yn ei adael yn ddiesgus.

Dywed Dr. Owen, yn ei draethawd ar fedydd babanod, "fod gan yr hwn sydd yn meddu y peth a arwyddoceir hawl i'r arwydd, neu fod gan yr hwn sydd yn gyfranog o ras bedydd hawl i'r gweinyddiad o hono." Yn mhellach dywed, "fod plant yn eu babandod yn cael eu cyfrif yn yr un cyfammod a'u rhieni." Yn unol â hyn bedyddiai ef blant credinwyr, o herwydd eu bod yn yr un cyfammod a'u rhieni; a gwrthodai fedydd i blant anghredinwyr, am eu bod fel eu rhieni allan o'r cyfammod gras. Yr oedd Owen yn gysson yn gweinyddu yr arwydd lle y tybiai fod y peth a arwyddoceir yn cael ei feddu, ac yn ei nacäu lle y tybiai nad oedd y peth a arwyddoceir. Ond cwestiwn arall yw, a oedd ganddo sail Ysgrythyrol i hòni fod gwahaniaeth yn sefyllfa a chyflwr ysbrydol babanod. Os ydyw *Rhuf.* v. 14, yn brawf fod babanod yn meirw yn Adda, onid yw yr adnod nesaf yn dangos eu bod yn derbyn bywyd trwy Grist. Os yn Adda y mae babanod yn meirw, mwy o lawer yn Nghrist y gwaredir babanod oddi wrth farwolaeth. Yr oedd Dr. Owen yn cyfyngu y gras a'r arwydd. Nid yw Dr. Wardlaw yn cyfyngu gras y cyfammod i un dosbarth o fabanod, ond y mae yn cyfyngu yr arwydd. Y mae Dr. Halley ar yr egwyddorion uchod yn dadleu dros gyffredinolrwydd y gras a'r arwydd, gan ddadleu nad yw plant yn yr un cyfammod a'u rhieni, ond eu bod yn meirw trwy eu hundeb â'r Adda cyntaf, a'u bod yn cael eu dwyn i ddiogelwch trwy Adda yr ail.

Bernir mai â'r golygiad hwn y cytuna ymresymiad Paul yn *Rhuf.* xi; "Canys os sanctaidd y blaenffrwyth, y mae y clamp toes hefyd yn sanctaidd," &c. Mae ystyr y geiriau hyn yn amlwg yn eu cymhwysiad at Israel. Yr oedd hiliogaeth Abraham yn derbyn manteision allanol ar gyfrif y patriarch hwnw. Yn yr ystyr yr oedd efe yn sanctaidd trwy berthynas gyfammodol, ac nid trwy sancteiddrwydd personol, yr oeddynt hwythau hefyd, gan eu bod yn derbyn fel yntau arwydd yr hen ffurf o'r cyfammod gras. Ond pa beth yw athrawiaeth yr apostol am y Cenedloedd? "Ac os rhai o'r cangenau a dorwyd ymaith, a thydi yn olewydden wyllt a impiwyd i mewn yn eu plith hwy, ac a'th wnaethpwyd yn gyfranog o'r gwreiddyn, ac o frasder yr olewydden." Onid yw yn amlwg fod y Cenedloedd a impiwyd i mewn yn dyfod i'r un berthynas a'r Iuddewon a dorwyd ymaith, sef yn cael eu gwneyd yn gyfranogion o sancteiddrwydd perthynasol? Y mae'n amlwg nad sancteiddrwydd personol y gwneir y Cenedloedd yn gyfranogion o hono, drwy eu gwneyd "yn gyfranog o'r gwreiddyn ac o frasder yr olewydden." Byddai dyweyd hyny yr un peth a dywedyd fod Israel a dorwyd ymaith drwy anghrediniaeth yn gyfranog o sancteiddrwydd personol, o herwydd y mae y Cenedloedd yn dyfod i'r un berthynas a'r rhai a dorwyd ymaith. A ydyw babanod y Cenedloedd yn meddu hawl i ragorfreintiau y cyfammod? Dywedir yn ddiau eu bod. Yn ol yr addewid i Abraham, y maent yn gydetifeddion â had y genedl etholedig, o herwydd nid oes yn hwy ddim gwahaniaeth rhwng Iuddew a chenedl-ddyn. Ni ddiddymwyd y cyfammod âg Abraham: ond eangwyd ef trwy dderbyniad y Cenedloedd. Mae babanod Israel, sydd yn meirw yn eu babandod, i gyd yn gadwedig: nid ydynt hwy fel eu tadau yn fforfedu eu hawl trwy anghrediniaeth. Mae baban y cenedl-ddyn, wedi ei impio i wreiddyn Abraham, yn gyfranog yn yr un modd o bob rhagorfraint gyffelyb.

Ceir prawf fod yr arwydd, a hawl i ragorfreintiau allanol, yn gyssylltiedig â'u gilydd: *Act.* ii. 38, 39; "Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch...... canys i chwi y mae yr addewid, ac i'ch plant." Cyfeirir y geiriau hyn gan Pedr at rai diedifeiriol: y mae galwedigaeth yr efengyl gan hyny yn rhagorfraint allanol i'r anedifeiriol, a'u plant i gyfranogi o honi. Y rheswm dros eu bedyddio, yn gystal a thros eu hedifeirwch, ydyw, "canys i chwi y mae yr addewid." Ond os oedd yr addewid yn rheswm dros eu bedydd hwy, yr oedd felly dros fedydd eu plant, ac hefyd y mae bod yr addewid i bawb yn mhell yn rheswm dros eu bedydd hwy. Y casgliad ydyw, fod gan bawb y mae yr addewid iddynt yr un rheswm dros gael eu bedyddio a'r rhai y cyfeiria Pedr atynt.

Yr ymresymiad cyffredin dros fedydd babanod

Digitized by Google

oddi wrth eiriau Crist (*Mat.* xix. 14), "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi, ac na waherddwch iddynt, canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd," sydd fel y canlyn:—Fod i fabanod hawl i'r nefoedd, eu bod wedi eu pwrcasu â gwaed Crist; ac os nad allant gredu, nid yw hyny yn angenrheidiol iddynt hwy; os nad allant edifarhau, ni ofynir hyny ganddynt. Pwy, gan hyny, a all luddias iddynt gael eu bedyddio, gan fod iddynt hawl i ras yr efengyl? Fel yr oedd baban yr Iuddew yn cael ei gydnabod yn ddeiliad teyrnas Israel, felly y mae Crist ei hun yn cydnabod hawl babanod yn ddiwahaniaeth i deyrnas nefoedd. A phwy a all wahardd y dwfr, gan fod Crist yn dyweyd eu bod yn gyfranog o'r cwbl a arwyddoceir trwyddo. Rhoddodd Crist ei ddwylaw arnynt, i'w cydnabod yn gyhoeddus yr hyn oeddynt mewn gwirionedd—yn ddeiliaid teyrnas nefoedd. Nid yw bedydd ond yr un peth o ran sylwedd, er ei fod yn wahanol o ran ffurf.

Wrth gydnabod grym yr ymresymiad hwn, y mae Dr. Halley yn gofyn yn mhellach, A oes genym le i feddwl y buasai neb yn cael eu cydnabod fel yn perthyn i deyrnas nefoedd oni buasent wedi eu bedyddio? Ac er mwyn profi fod y rhai sydd yn cael eu cydnabod fel yn perthyn i'r deyrnas wedi eu bedyddio, cyfeiria at eiriau Crist, "Oddi eithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw." Mae yn perthyn i'r deyrnas y gras tu mewnol, sef genedigaeth yr Ysbryd; a'r arwydd allanol, sef genedigaeth o ddwfr. Heb y cyntaf, nid oes neb yn ddeiliad ysbrydol; ac heb yr olaf, nid oes neb yn cael ei gydnabod fel yn perthyn i weinyddiad allanol y deyrnas. Ni chydnabyddai Crist Nicodemus fel yn perthyn i'w deyrnas, am nad oedd yn arddel ei berthynas âg ef trwy fedydd; ac o'r ochr arall, gellir casglu, gan ei fod yn dadgan fod y plant a ddygid ato yn perthyn i'w deyrnas, nad oeddynt hwy heb eu bedyddio. Os oedd y gras ganddynt, pwy allai luddias yr arwydd? Os oedd yr arwydd ganddynt, ni ddadleuir am chwaneg. Ac os nad oedd y naill neu y llall yn perthyn iddynt, pa fodd yr oeddynt yn perthyn i'r deyrnas?

TYSTIOLAETH HANES EGLWYSIG DROS FEDYDD BABANOD.

Yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth nid oes un anghraifft wedi ei chael, o blentyn o rieni Cristionogol pan aned ef, yn cael ei fedyddio wedi dyfod i oedran. Er fod yr hanes yn Actau yr Apostolion yn cyrhaedd hyd y flwyddyn dwy a thrigain o oed Crist, eto nid oes esampl o un o'r cyfryw wedi ei fedyddio mewn oedran. Wrth gymharu ysgrifeniadau y Testament Newydd âg ysgrifeniadau yr oesoedd dilynol, nid oes dim yn tynu sylw yn fwy nag absennoldeb pob cyfeiriad at rai heb eu bedyddio yn y Testament Newydd, a'r cyfeiriadau gwastadol a geir atynt yn ysgrifeniadau y tadau. Pa fodd y mae esbonio hyn? Ar y dybiaeth fod bedydd yn cael ei oedi hyd y ceir arwyddion boddhaol o ddychweliad, rhaid fod y rhai oedd dan addysg rhagbarotoawl i fedydd yn lluosocach yn yr oes apostolaidd; o herwydd yn chwanegol at y dychweledigion newydd o'r byd yr oedd holl blant credinwyr; ac eto y mae hanesiaeth ac epistolau y Testament Newydd yn hollol ddystaw am danynt. Yn y Testament Newydd, nid oes un awgrymiad fod bedydd yn cael ei wrthod na'i oedi i neb, nac unrhyw betrusder yn ei gylch. Bedyddir pawb y mae genym hanes am eu bedydd y cyfle cyntaf ar ol iddynt glywed yr efengyl. Gwelir rhai yn dwyn eu teuluoedd gyda hwynt, a hwy a'u teuluoedd yn cael eu bedyddio y diwrnod cyntaf y credasant. Felly nis gallasai fod rhai dan addysg yn cael eu parotoi i'w bedyddio; ac felly yr esbonir pa ham nad oes un cyfeiriad at y cyfryw yn ysgrifeniadau yr apostolion.

Heb law hyn, nid oes un esampl yn mhlith yr holl amrywiaeth a geir yn y canrifoedd cyntaf, a'r gwahaniaeth rhwng yr eglwys ddwyreiniol a gorllewinol, yr eglwys gatholic a hereticiaid, y Novatiaid a'r Donatiaid, yr Awstiniaid a'r Pelagiaid, yr Homoousiaid a'r Homoiousiaid:—yn eu plith, nid yn unig ni cheir un esampl o blaid o Fedyddwyr yn ystyr bresennol y gair, ond ni cheir un anghraifft hollol benderfynol a dyimwad o gymmaint ag un person lleyg neu llên yn proffesu eu hegwyddorion ar fedydd babanod.

Y mae rhai wedi haeru fod yr Eglwys Brydeinig yn y canrifoedd cyntaf wedi gwrthod bedyddio babanod; ond tybir fod tystiolaeth Pelagius, ac yntau yn un o Brydain, yn benderfynol ar y mater, o herwydd mewn llythyr o amddiffyniad, wedi ei gyfeirio at y pab Innocent I., wrth wadu y cyhuddiad a ddygid yn ei erbyn, o wrthod bedyddio babanod, dywed na chlywodd erioed am un heretic a wadodd fedydd babanod.

Wrth edrych i'r ysgrifenwyr Cristionogol cyntaf ar ol yr apostolion, ymddengys yn hollol benderfynol fod yr arferiad o fedyddio babanod yn yr eglwys er yr oes apostolaidd. Y mae *Hanes Bedydd Babanod*, gan Wall, a llyfrau ereill, yn cynnwys y profion o hyn yn gyflawn. Rhoddir yma ychydig o anghreifftiau:—

Dywed Justin Ferthyr, yr hwn a ysgrifenodd tua chanol yr ail ganrif, fod yn mysg aelodau yr eglwys lawer, rhai yn drigain, ac ereill yn ddeg a thrigain oed, a wnaed yn ddysgyblion i Grist o'u *babandod* neu eu *mebyd* (εκ παιδων). Mae y gair a ddefnyddir ganddo yma yr un ag sydd yn awdurdod diweddaf Crist, sef εμαθητευδησαν=*gwnaed hwy yn ddysgyblion*. Onid yw, gan hyny, bron yn sicr mai at eu derbyniad i'r eglwys trwy *fedydd* y cyfeirir.

Ganwyd Irenæus, dysgybl Polycarp, yr hwn oedd yn ddysgybl i Ioan yr apostol, yn agos i ddiwedd y ganrif gyntaf. Efe a ddywed, "Daeth Crist i achub pawb o'r rhai a enir i Dduw trwyddo ef—*babanod* a rhai *bach*, plant ac ieuenctyd, a rhai mewn oed." Ar y gair *geni drachefn* yn y frawddeg hon (*renasci*), dywed Wall, "fod pob dyn sydd yn hyddysg yn ngweithiau y tadau yn teimlo yn hollol benderfynol eu bod yn defnyddio y gair *aileni*, a *geni drachefn*, am *fedydd*—fel y dywedir yn Seisoneg fod y bedyddiedig yn *christened.*

Ganwyd Origen B. A. 185; hyny yw, pump a phedwar ugain o flyneddoedd ar ol yr apostolion. Rhaid fod ei hendaid, os nad ei daid, yn byw yn yr oes apostolaidd. Ac fel na allasai fod yn anwybodus pa un a fedyddiwyd ef ei hun yn ei fabandod, felly nid oedd raid iddo fyned allan o'i deulu ei hun i gael hysbysiaeth am arferiad yr apostolion. Hefyd, yr oedd yn ddyn dysgedig; nis gallasai fod yn anwybodus am arferion yr eglwysi. Yr ydoedd hefyd wedi teithio llawer; ganed ef yn Alexandria, bu fyw yn Groeg, Rhufain, Cappadocia, Arabia, Syria, a Phalestina. Ac fel hyn y llefara efe am fedydd babanod, yn *Homili* 8fed; *Levit.* pen. xii.—"Yn ol *arferiad yr eglwys*, gweinyddir bedydd hyd yn oed i fabanod: felly, os nad oes mewn babanod yr hyn sydd yn eu gwneyd yn wrthddrychau maddeuant a thrugaredd, byddai y gras o fedydd yn afreidiol."

Digitized by Google

*Homili ar Luc* xiv.—"Bedyddir babanod er maddeuant pechodau. Pa bechodau? neu, pa bryd y pechasant? A all fod unrhyw reswm dros eu bedyddio hwy ond hyn—nad oes neb yn rhydd oddi wrth halogedigaeth, pe na byddai ond diwrnod oed. A chan fod llygredd gwreiddiol yn cael ei gymmeryd ymaith trwy fedydd, am hyny y *bedyddir babanod*."

Y mae y darllenydd yn deall mai nid er mwyn barn y tadau am ddylanwad bedydd yr ydym yn eu dyfynu, ond er mwyn eu tystiolaeth o blaid y *ffaith* o arferiad boreuol bedydd babanod.

*Esboniad ar y Rhufeiniaid;* llyfr v.—"O herwydd hyn y derbyniodd yr eglwys orchymyn oddi wrth yr apostolion i weinyddu bedydd ar fabanod." Ymddengys oddi wrth hyn mai y farn yn amser Origen oedd, fod yr arferiad yn ddeilliedig oddi wrth yr apostolion. Am ddilysrwydd y dyfyniadau hyn, gwel *Wall's History*, pen. v. Gwrthddadleuir yn eu herbyn gan Fedyddwyr am eu bod yn gyfieithiadau Lladin o'r llyfrau gwreiddiol, sef Groeg, y rhai sydd wedi myned ar goll. Ond mewn atebiad, gellir dyweyd eu bod yn gysson â'u gilydd ac â'r cyssylltiadau y maent yn sefyll ynddynt; ac ni allasai fod un demtasiwn i'w rhoddi i mewn na'u llygru gan y cyfieithydd, o herwydd nid oedd y cwestiwn mewn dadl y pryd hwnw. Y mae y ddau gyfieithiad, un Rufinus ac un Jerome, yn cytuno. Ac ar bob materion ereill, derbynir y cyfieithiadau hyn yn ddibetrus.

Tystiolaeth Cyprian, esgob Carthage, 150 o flynyddoedd ar ol yr apostolion. Yn y flwyddyn 253, ymgyfarfyddodd chwech a thrigain o esgobion mewn cynghor yn Carthage. Anfonwyd llythyr gan un Fidus, yn gofyn eu barn ar ddau fater; un oedd, a ellid bedyddio baban cyn iddo fod yn wyth niwrnod oed. Y rhan o lythyr yr esgobion sydd yn dwyn perthynas â'r pwnc dan sylw sydd fel y canlyn:—

"Cyprian, a'r esgobion ereill, ymgynnulledig mewn cynghor, chwech a thrigain o nifer, at Fidus, ein brawd, yn anfon anerch.

* * "Ac am achos y babanod; tra mai eich barn chwi yw na ddylid eu bedyddio am rai dyddiau ar ol eu geni, ac y dylid sylwi ar reol yr enwaediad, a pheidio eu bedyddio na'u cyssegru cyn bod yn wyth niwrnod oed; yr ydym ni oll yn y cynghor o farn tra gwahanol. Hyn, gan hyny, ydyw ein barn ni—na ddylem attal neb oddi wrth fedydd a gras Duw. A chan fod y rheol hon yn gymhwysiadol at bawb, y mae felly yn enwedigol at *fabanod*, ïe, at rai newydd eni."

Yma eto, pa beth bynag oedd sail yr esgobion hyn dros fedyddio babanod, y mae eu tystiolaeth i'r ffaith yn amlwg. Yr oedd Fidus, a ofynodd y cwestiwn, a'r esgobion a'i atebodd, yn cymmeryd yn ganiataol fod babanod i'w bedyddio, ond fod Fidus yn meddwl y dylesid ei oedi tan yr wythfed dydd. Y mae y dystiolaeth hefyd o bwys arbenig, gan fod yn anmhosibl meddwl na buasai un o chwech a thrigain o esgobion, yn byw o fewn 150 o flynyddoedd i'r apostolion, ac yn cael eu llywyddu gan y dyn enwocaf yn yr eglwys ar y pryd, yn ammheu y priodoldeb o fedyddio babanod, oni buasai hyd hyny yn arferiad cyffredinol yr eglwys. Mae y llythyr hwn yn cynnwys prawf tu hwnt i ammheuaeth am gyffredinolrwydd yr arferiad yn amser Cyprian ei hun, ac o angenrheidrwydd mewn amseroedd boreuach. Pe buasai yr arferiad yn newydd, neu pe buasai unrhyw ymraniad neu ddadl o bwys am ei ddechreuad pa fodd y gallesid ei anghofio, neu fyned heibio iddo yn ddisylw.—[*Wall's History,* cyf. i. pen. 6.]

Gellid myned yn mlaen i chwanegu tystiolaethau i'r un perwyl. Y mae iaith Ambrose yn yr Ital, Chrysostom yn Groeg, Jerome yn Palestina, Awstin yn Affrica, yn nghyd â llawer o dadau ereill, a chynghorfäau, yn glir ac yn benderfynol yn profi yr arferiad o fedyddio babanod trwy holl wledydd cred.

Y mae yr addefiad cyffredinol o fedydd babanod, fel arferiad yn deilliaw o'r oes apostolaidd, i'w ganfod yn amlwg iawn yn y ddadl rhwng Awstin a'r Pelagiaid. Dygid bedydd babanod yn mlaen fel dadl yn erbyn y Pelagiaid, y rhai a wadent y pechod gwreiddiol. Buasai yn fantais iddynt hwy allu dangos nad oedd yr arferiad yn gyffredinol, neu nad oedd yn seiliedig ar awdurdod Crist a'r apostolion, pe gallasent. Ond ni wnaethant ddim o'r fath beth. Addefa Celestias fod babanod i'w bedyddio yn unol âg arferiad cyffredinol yr eglwys, a chwanegai Pelagius fod rhai yn ei ddifrïo ef am wadu bedydd babanod; ond tystiai na chlywodd ef am neb, hyd yn oed am un heretic annuwiol, a wadodd fedydd babanod.

Y mae Neander yn cymmeryd golygiad arall. Eto y mae yn amlwg nad oes dim grym yn ei resymau ar hyn yn un o'i ddau waith [*Planiad yr Eglwys*, na'i *Hanes Eglwysig*] Y mae efe ei hun yn addef fod yr egwyddorion a osodir i lawr gan Paul yn 1 *Cor.* vii. 14, yn cynnwys amddiffyniad o fedydd babanod, ac addefa hefyd ei fod mewn arferiad yn amser Irenæus. Ei brif reswm yn erbyn meddwl fod bedydd babanod yn arferiad apostolaidd, ydyw [*Church History*, adran 3], fod Tertullian yn ei wrthwynebu. Ysgrifenodd Tertullian tua chan mlynedd ar ol yr apostolion. Yr ydoedd mewn llawer ystyr yn Stoic, yn hytrach na Christion; ond pa beth bynag oedd ei farn am athrawiaethau, y mae ei dystiolaeth dros ffaith yn deilwng o dderbyniad. Ac y mae hyn yn wahaniaeth sydd eisieu ei gofio yn barhaus wrth ddarllen yr hen dadau eglwysig. Y mae y lle sydd wedi achosi cymmaint o ddadl yn Tertullian, yn ei draethawd ar fedydd [*De Baptismo*, c. 18], fel y canlyn:—Ar ol cyfeirio at fedydd yr eunuch, a bedydd Saul, er mwyn esbonio pa ham y gweinyddwyd bedydd arnynt mor ebrwydd, y mae yn myned rhagddo i ddyweyd—"Y mae oedi bedydd yn ol cyflwr, a thueddiad, ac oed pob person, yn fwy llesol, ac yn enwedig felly i blant. Pa ham y dygir i berygl y rhai sydd yn attebol drostynt? Mae yr Arglwydd wedi dyweyd yn wir, 'na waherddwch iddynt ddyfod ataf fi.' Gadewch iddynt ddyfod wedi tyfu i fyny—gadewch iddynt ddyfod wedi iddynt ddysgu i ba le y maent yn myned—gadawer iddynt ddyfod yn Gristionogion pan y delont i adnabod Crist. Pa ham yn eu hoed diniwed hwy y maent yn brysio at faddeuant pechod? Am reswm nid llai pwysig y dylai y rhai sydd heb briodi oedi cael eu bedyddio, y rhai sydd yn agored i demtasiwn hefyd, hyd nes y priodant, neu y cadarnheir hwy mewn bywyd diwair. Dewisai y rhai sydd yn deall pwysigrwydd bedydd yn hytrach oedi na gwneyd brys. Y mae ffydd gyflawn yn sicrhau iachawdwriaeth."

Oddi wrth y frawddeg hon, gwelir mai rhoi gocheliad yn erbyn gweinyddu bedydd yn frysiog y mae, a'i resymau yn flaenorol ydynt, "Na ddyro y peth sydd sanctaidd i'r cŵn;" "Na fydd gyfranog o bechodau rhai ereill." Y mae yn annog oedi bedydd, yn enwedig i *fabanod.* Ac y mae yn amlwg mai babanod a feddyliai, o

Digitized by Google

herwydd onid e pa ham y byddai raid iddynt wrth rai i ateb drostynt. Dangosir hefyd fod bedydd yn cael ei weinyddu i fabanod yn oes Tertullian; *h. y.*, can mlynedd ar ol yr oes apostolaidd. Mae yn amlwg oddi wrth yr holl frawddeg mai gosod ei hun y mae yn erbyn yr arferiad cyffredin o fedyddio plant cyn iddynt ddangos pa fath fyddai eu tuedd. Edrychai ef ar rwymedigaethau bedydd mor bwysig, a'r cyfrifoldeb mor fawr, a'r pechodau a gyflawnid ar ol hyny mor ysgeler, fel, yn ei farn ef, yr oedd yr oediad yn llai peryglus na'r derbyniad o hono. Yr oedd bedydd, heb ei halogi gan bechod dilynol—y *fides integra*, y ffydd gyflawn neu ddianaf—yn sicr o iachawdwriaeth, yn ei olwg ef. Yn moreu ei oes, hònai nad oedd maddeuant ond unwaith i'r rhai wedi pechu ar ol eu bedyddio, ac ar ol hyny nad oedd maddeuant iddynt oll [*De Pœnitentia*, c. 7, 8, 9]; ond fel yr heneiddiai, yr oedd ei dymmer yn myned yn fwy llymdost, a'i syniadau yn gaethach, fel y gwadai fod maddeuant o gwbl am droseddau erchyll [*De Pudicitia*, c. 5]. Y mae yn amlwg oddi wrth y dyfyniad uchod, fod bedydd babanod yn ei oes ef, a'r amser yr ysgrifenodd y traethawd ar fedydd, yr hwn oedd yn un o'i ysgrifeniadau boreuaf, a thua diwedd yr ail ganrif, yn arferiad cyffredin yn yr eglwys. Ac nid yw yn dyst llai credadwy dros y ffaith gan ei fod ei hun yn erbyn yr arferiad. Pe buasai yn arferiad newydd yn ei amser ef—ac nid oedd hyny ond can mlynedd oddi wrth yr apostolion—yn ei wrthwynebiad digofus iddi, buasai yn sicr o fod wedi dynoethi ei newydd-deb. Y mae tystiolaeth Tertullian mor benderfynol, os nad yn fwy felly, na dim a ellir ei ddyfynu o ysgrifeniadau y tadau ar y pwnc mewn llaw. Eto, er ei wrthwynebiad, ni ellir dyweyd ei fod o'r un syniadau a'r rhai sydd yn gwrthod bedydd babanod yn awr. Yn ei dyb ef, nid oedd bedydd babanod yn ddefod wag; ond ei bwysigrwydd oedd ei reswm dros ei oediad. Byddai bedydd yn fendith fawr, ond i'r plentyn gadw ei ffydd yn ddihalog.

Yn wyneb y tystiolaethau uchod, gan hyny, oni ellir gofyn, Pe na buasai bedyddio babanod yn arferiad wedi ei awdurdodi gan yr apostolion eu hunain, onid yw yn dra thebygol y clywsem am un, o leiaf, o blith holl eglwysi y cynoesoedd yn gwrthsefyll ei ddygiad i mewn. Ysgrifenodd Irenæus, Epiphanius, Philastrius, Awstin, a Theodoret. restrau o'r gwahanol sectau Cristionogol y gwyddent am danynt, eto ni chrybwyllant am neb yn gwadu bedydd babanod ond y rhai sydd yn gwadu bedydd o gwbl. Ac yn ol tystiolaeth Wall, y cyntaf o ddynion a ddarllenwn am danynt yn gwrthod bedydd i fabanod oedd y Petrobrusiaid, B. A. 1150.—(*Antipædobaptism Examined, by Dr. Williams; Dr. Halcyon the Sacraments; Wardlaw's Dissertation on Baptism; Dr. Wood's Theological Lectures; Ewing's Greek Lexicon*, dg. Baptizo; *Mode of Christian Baptism, by Moses Stuart; Wall's History of Infant Baptism; Dr. Owen on Infant Baptism; Henry; Dwight, &c., &c.*)

BEDYDD ESGOB, yn ol Eglwys Loegr, yw y ddefod "o arddodiad dwylaw ar y sawl a fedyddiwyd, ac a ddaethant i oedran pwyll." Ni farnant neb yn ddeiliaid cymhwys, "ond y cyfryw a fedro adrodd y Credo, Gweddi'r Arglwydd, y Deng Air Deddf," a Chatecism yr Eglwys; fel y gallont, wedi iddynt ddysgu a deall yr hyn a addawodd eu tadau a'u mamau bedydd wrth eu bedyddio, sicrhau y pethau hyny eu hunain, gan gydnabod eu hunain yn "rhwymedig i gredu a gwneuthur" yr oll a ymgymmerodd y personau hyny drostynt. Dywedir yn nhrigeinfed canon Eglwys Loegr, fod bedydd esgob yn "arferiad ddifrifol, hynafol, a chanmoladwy yn eglwys Dduw, yn barhaol o'r oes apostolaidd." Ar y llaw arall, nid ystyrir hi yn mysg Ymneillduwyr Protestanaidd, ond gweddillion o arferiad Pabyddol; pa rai a haerant nad oes mwy o awdurdod dros yr hyn a gedwir, nag sydd dros yr hyn a wrthodir o'r arferiad. Y rhanau o'r Ysgrythyr a ddyfynir er cadarnhau yr arferiad hon ydynt y rhai canlynol:—*Act.* vii. 14—17; xix. 6; ac yn neillduol, *Heb.* vi. 2, oddi wrth yr hon y deallir, fod ἐπίθεσις χειρῶν (*epithesis cheirôn*="arddodiad dwylaw)"—yn ddefod bwysig o'r grefydd Gristionogol. Ond y mae yr Ymneillduwyr yn gwrthod y llwybr hwn i brofi y priodoldeb o arddodiad dwylaw esgobyddol. Gwadant ei fod yn gasgliad teg oddi wrth weithred wyrthiol apostolion ysbrydoledig i weithred esgobion diweddar. Gofynant, Pa awdurdod sydd gan esgob i gyhoeddi fod Duw wedi rhoddi i gymdeithas o gannoedd o bersonau "faddeuant o'u holl bechodau," o herwydd eu bod yn gallu adrodd Catecism yr Eglwys? [Gwel ar hyn, *Towgood's Letters on Dissent; De Laune's Plea for the Nonconformists*, &c.] Sylwa Dr. Whitby, oddi eithr bod yr apostolion wedi rhoddi dwylaw ar yr oll a fedyddiwyd, nad ydyw hyn yn un ddadl o blaid bedydd esgob; ac os gwnaethant, yna, fod Simon Magus wedi derbyn yr Ysbryd Glân. Yr oedd y tadau boreuol yn credu yn ddiammheu fod yr Ysbryd Glân yn cael ei drosglwyddo trwy arddodiad dwylaw. "Pan y deuwn allan o'r dwfr," medd Tertullian [*De Baptismo*; pen. 7, 8], "eneinir ni â'r *chrism* sanctaidd (*perunquimur benedicta unctione*); yna, ni gawn arddodiad dwylaw, yr hyn a ddwg yr Ysbryd Glân i waered (*tradit Spiritum Sanctum Paracletum*)." [" *De Resurrec. Carnis*, pen 8; *Hieron. advers. Lucif.*, llyfr ii. td. 47; *Cyprian's Epis.*, 73, 74, *ad. Jub.*, a 72 *ad Steph.*] Yr oedd bedydd esgob, yn wreiddiol, yn cael ei weinyddu fel hyn yn ebrwydd ar ol bedydd; pa ddefod a ystyrid yn cael ei chwblhau drwyddi, a gelwid hon, βεβαίωσις (*bebaiôsis*, hyny yw, conffirmasiwn); ac nid oedd un eithriad i'r amseriad hwn o'i gweinyddu ar ol bedydd mewn babandod. Y mae yn awr yn Eglwys Groeg, ac yn Asia, yn dilyn bedydd. Bu gwrthdystiad y Protestaniaid yn amser y Diwygiad, yn achos i'r ddefod hon gael ei hattal oddi wrth fabanod, a'i gweinyddu yn unig ar rai mewn oed; a darfu i Gynghor Trent, wedi hyny, newid yr amser i'r seithfed flwyddyn.

Tybir fod y crybwylliad cyntaf gan y tadau, am arferiad y *chrism*, neu yr olew cyssegredig, mewn bedydd esgob, i'w gael yn yr adran a dalfyrwyd eisoes o Tertullian [*De Baptismo*]; ond y mae Eglwys Rhufain yn casglu yr awdurdod oddi wrth *Iago* v. 14. Y weithred gyntaf yn y seremoni hon oedd eneinio y talcen â'r olew sanctaidd, yr hwn a wneid o olew a balsam. Y nodi âg arwydd y groes oedd yr ail: a'r olaf oedd arddodiad dwylaw yr esgob, a'r deisyfiad am yr Ysbryd Glân. Wedi hyn, yr oedd y person yn addas i dderbyn y cymun. Y mae y ddefod hon yn un o saith sacrament Eglwys Rhufain, ac yn gynnwysedig yn ngwaith yr esgob yn eneinio talcen y person, gan ddywedyd, "Yr wyf fi yn dy nodi di âg arwydd y groes, ac yn dy gadarnhau di â *chrism* iachawdwriaeth, yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân." Yna yr esgob a dery y

Digitized by Google

foch yn ysgafn, ac a derfyna trwy adrodd y geiriau, *Pax tecum*=Tangnefedd fyddo gyda thi.

Y mae yr arglwydd King [*Hist. of the Primitive Church*, td. 91] wedi dangos fod bedydd esgob yn wreiddiol yr un peth a gollyngdod (*absolution*), a'i fod yn cael ei wneuthur yn fynych ar yr un person.

Yr oedd y Puritaniaid yn diystyru y llywodraeth eglwysig, yr hyn a fu yn achos i'r ddefod gael ei hesgeuluso yn fawr wedi y Diwygiad Protestanaidd yn Lloegr [*Hooker*, llyfr v. td. 66; *Hall's χειροθεσια*]; ond wedi yr amser hwnw, cadwodd Eglwys Loegr y ddefod gyda mwy o fanylder na'r Eglwys Lutheraidd, ac nag un eglwys arall.—(*Bingham's Origenes Ecclesiasticæ*, cyf. iii. td. 286, &c.; *Hammond de Confirmatione; Bishop Parker on Confirmation: Gour's Euchologia*, td. 368; *Gratian's Concordantia Discordantium*, rhan iii; *Penny Cyclopædia*.)

BEDYDD AR WELY CYSTUDD. Y rhai a fedyddid ar eu gwelyau, o herwydd afiechyd, a elwid **κλινικοι** (*clinici*)=gwelyfiaid, a'u bedydd yn *βαπτισμα κλινικον* (*clinic baptism*)=bedydd gwely. Yr oedd y gwelyfiaid, neu y gwely fedyddiedigion, yn cael edrych arnynt gan rai gyda diystyrwch, ac heb gael eu cyfrif yn wir neu gyflawn Gristionogion; ac nid oedd y cyfryw fedydd, mewn achosion o adferiad iechyd, yn cael ei ystyried fel cymhwysder i dderbyn ordeiniad neu urddau i swyddogaeth eglwysig.

BEDYDD DROS Y MEIRW. Math dirprwyol o fedydd oedd hwn, a arferid gynt. Pan fyddai un farw yn ddifedydd, un arall a fedyddid yn ei le. Dywed Chrysostom yr arferid y ddefod hon yn mhlith y Marcionitiaid gyda llawer o rwysg a seremoni ynfyd. Pan fyddai farw unrhyw un dan addysg (*catechumen*), neu ymgeisydd am fedydd, cuddient ddyn byw dan wely y marw; ac yna, wedi dyfod at y dyn marw, gofynent iddo, A fynai ef ei fedyddio? Yntau heb ateb, y llall a atebai drosto, gan ddywedyd, y cymmerai efe ei fedyddio drosto; ac felly, hwy a fedyddient y byw yn lle y marw. Seilient yr arferiad hon ar eiriau yr apostol; "Beth a wna y rhai a fedyddir dros y meirw, os y meirw ni chyfodir ddim? Pa ham ynte y bedyddir hwy dros y meirw?" 1 *Cor*. xv. 29. Y mae y testyn hwn wedi bod yn achlysur o amrywiaeth mawr o ddeongliadau, a defodau seiliedig arnynt. Rhai a dybiant fod yr apostol yn cyfeirio at arferiad o'r fath oedd yn hanfodi y pryd hwnw. Bellarmine, Menochius, ac ereill, yn mhlith y Pabyddion, a'i deallant am fedydd dagrau, gweddïau, a phenyd, y rhai y mae y byw yn eu harfer dros y meirw, gan ei gymmeryd fel prawf fod y gredíniaeth mewn purdan yn hanfodi yn amser yr apostol. Eithr deonglwyr diweddar yn mhlith y Protestaniaid a eglurant y geiriau yn wahanol.

1. Rhai a ystyriant yr ymadrodd yn gyfystyr â *bedyddio i farwolaeth*; ac a'i heglurant drwy yr ymadrodd, "Claddwyd ni gydag ef trwy fedydd i farwolaeth." Y mae Paul, meddant, yn profi adgyfodiad y meirw oddi wrth adgyfodiad Crist, a'i ddadl (1 *Cor*. xv. 16, 17, 29) yw, "Os na chyfodwyd Crist, i ba beth y bu efe farw? ac os na chyfodir y meirw, beth a wna y rhai a fedyddir i'w farwolaeth ef, neu i farwolaeth gydag ef?"

2. Ereill a ddeonglant y geiriau yn debyg i hyn:—"Y mae Crist wedi adgyfodi yn gystal a marw dros ei bobl, ac yr oedd ei adgyfodiad ef yn wystl, yn arwydd, ac yn brawf y cyfodir hwythau; ond y mae y rhai a fedyddir, gan eu bod yn cydffurfio â marwolaeth ac adgyfodiad Crist, yn arwyddo ac yn proffesu eu cred yn yr athrawiaeth o adgyfodiad y meirw." A chan wneuthur defnydd hapus o'r ddadl a elwir *ad hominem*, y mae yn appelio at y Corinthiaid eu hunain, gan ddywedyd, "Beth a wna y rhai a fedyddir dros y meirw? a beth a wnaethoch chwi eich hunain yn eich bedydd? Oni adgyfodir y meirw, yr oedd eich ymostyngiad i fedydd yn anghysson â'r honiad na bydd adgyfodiad y meirw."

3. Barna ereill mai bedydd ffugrol neu gyffelybiaethol a olygir, sef bedydd dyoddefiadau a chystuddiau dros yr efengyl a Christionogaeth, yr hon y mae adgyfodiad Crist ac adgyfodiad y meirw yn un o'i hathrawiaethau arbenig a gwahaniaethol; a thybiant fod y cyd-destyn, yn enwedig y geiriau sydd yn dilyn yn uniongyrchol, yn cefnogi y golygiad hwn. "Pa ham y mae dynion yn gosod eu hunain yn agored i ddyoddefiadau ac enbydrwydd, a hyny o achos eu hymlyniad wrth grefydd sydd yn myntumio yr athrawiaeth o adgyfodiad Crist, yr hwn sydd yn cynnwys ynddo yn rhinweddol adgyfodiad y meirw, os nad ydynt yn credu yr athrawiaeth hono; a pha ham yr ydym ninnau mewn perygl bob awr?"

BEDYDD TYBIADOL (*hypothetical baptism*). Gweinyddid bedydd gynt, mewn rhai achosion ammheus, gyda'r ffurf hwn o eiriau—"Os bedyddiwyd di, nid wyf fi yn ail fedyddio; os na ddo, yr wyf yn dy fedyddio yn enw y Tad," &c. Nid yw y dull hwn o fedyddio mewn arferiad yn bresennol.

BEDYDD YR YSBRYD GLAN. Bedydd ffugrol yw hwn hefyd, ac y mae yn arwyddocau y tywalltiad helaethfawr o'r Ysbryd ar yr Iuddewon yn gyntaf (*Act*. xi. 15; *Rhuf*. viii. 23), ac wedi hyny, ar y Cenedloedd (*Act*. x. 44; xi. 17). Hyn oedd yn gwneuthur y prif wahaniaeth rhwng bedydd Crist a'r eiddo Ioan—nid oedd derbyn yr Ysbryd Glân yn gyssylltiedig â'r olaf, tra yr oedd yn dilyn y blaenaf: *Mat*. iii. 11. Y tywalltiad hwn o'r Ysbryd a elwir "addewid y Tad" (*Act*. i. 4); ni chymmerodd le hyd oni esgynodd Crist i'w orsedd; a dyma y rhodd gyntaf a gyfranodd ar ol ei goroniad: *Ioan* vii. 39; *Eph*. iv. 8—11.


BEDD, BEDDROD. Ymddengys fod y ddau air hyn wedi eu defnyddio megys yn gyfystyr yn y Beibl Cymreig, fel y gwelir yn neillduol mewn manau lle y byddo y naill wedi ei ddodi am y llall wrth son am yr un amgylchiad (cymharer *Gen*. xxiii. 20, âg *Act*. vii. 16; a *Gen*. xxxvii. 35, â xlii. 38, &c.); er y dywed beirniaid fod *beddrod* yn arwyddo lle y galler gwneyd amryw feddau ynddo, yn hytrach na beddau unigol; megys pan oedd Abraham yn ymbil â meibion Heth am faes Macpelah yn "feddiant beddrod" (*Gen*. xxiii). Y darlleniad yn y Seisoneg yw, "*possession of a burying-place.*" Ac y mae yn amlwg mai yn yr ystyr yma y mae y gair *beddrod* i'w ddeall mewn llawer o fanau. Gwel 2 *Sam*. xix 37; 1 *Bren*. xiii. 22; 2 *Cron*. xxi. 20; *Neh*. ii. 3, 5, &c.

Mewn llawer o leoedd yn y cyfieithiadau Cymreig a Seisoneg, y mae y gair *bedd* (*grave*) wedi ei roi (weithiau yn y testyn, ac weithiau ar ymyl y ddalen) yn gyfieithiad o'r gair Hebraeg שאול (*sheol*), a'r gair Groeg, ᾅδης (*hades*), megys *Iob* xxiv. 19; 1 *Sam*. ii. 6; *Salm* xlix. 14; lv. 15;

Digitized by Google

a lxxxvi. 13; *Esa.* v. 14; xiv. 9; *Hos.* xiii. 14; *Ionah* ii. 2; *Dad.* xx. 13, &c. I gael eglurhad mewn perthynas i'r hyn a achlysurodd y cyfryw gyfieithiadau, gwel SHEOL, a HADES.


Y beddau mwyaf dysyml a chyffredin yn y cynoesoedd, ac yn fynychaf hyd heddyw, a wneid ac a wneir drwy gloddio ceudwll yn y ddaiar, a gorchuddio y corff ynddo â phridd, gan ei bentyru rhyw gymmaint yn uwch na gwyneb y tir. Ond y mae yn dra thebygol mai ogofeydd mewn mynyddoedd neu greigiau oedd y lleoedd a ddefnyddiwyd gyntaf gan ddynolryw i gladdu eu meirw ynddynt; sef weithiau ogofeydd naturiol, a phrydiau ereill ogofeydd neu gelloedd wedi eu cloddio yn y cyfryw leoedd trwy lafur dynol. Gwel *Gen.* xxiii. 22, &c.; *Ios.* x. 27; *Esa.* xxii. 16; *Mat.* xxvii. 60; *Luc* xxiii. 53; *Ioan* xi. 38. Ymddengys y byddai rhai o'r Iuddewon yn hoffi gwneyd eu beddau yn gyfagos i'w preswylfeydd treftadol eu hunain; ac felly sonir am feddau mewn gerddi: 2 *Bren.* xxi. 18; *Ioan* xix. 41: Ar rai o'r cyfryw feddau, byddid weithiau yn codi cofadeiliau harddwych, a lampau crogedig uwch ben, i'w goleuo ar achlysuron neillduol, yn enwedig lle byddid wedi claddu rhyw un neu rhyw rai mwy urddasol na chyffredin. Y darlun isod a ddengys ddull y cyfryw feddau.



Dar. 117. Bedd mewn gardd.

Yn ngwledydd y dwyrain yr oedd ac y mae y claddfeydd yn gyffredinol yn cael eu gwneyd oddi allan i gyffiniau y dinasoedd. Ac yn mhlith yr Iuddewon yr oedd yn ofynol bod cryn bellder, dim llai na 2,000 cufydd, rhwng y claddfeydd a'r dinasoedd, yn enwedig y rhai perthynol i'r offeiriaid a'r Lefiaid. Ni oddefid i neb gael ei gladdu o fewn muriau un o'r dinasoedd oddi eithr Ierusalem, nac yno chwaith neb ond gwŷr o deulu breninol Dafydd, a rhyw ychydig o bersonau o nodweddiad mwy dyrchafedig na chyffredin: 1 *Bren.* ii. 10; 2 *Bren.* xiv. 20. Yn gyfagos i'r brif ddinas hono yr oedd claddfeydd cyhoeddus at wasanaeth cyffredinol y trigolion, ac hefyd rhyw faes wedi ei neillduo yn "gladdfa dyeithriaid;" *Mat.* xxvii. 7. Gwel ACELDAMA.

Yn ymyl Ierusalem, o'r tu dwyreiniol iddi, ar ael dyffryn Iehosaphat, drwy ba un y rhed afon Cedron, y mae y gladdfa nodedig a elwir "Beddau y breninoedd, "y rhai y mae Maundrell wedi




**Dar. 118. Golygfa dufewnol o feddau y breninoedd.**

eu dysgrifio fel y canlyn:—"Y lle nesaf y daethom ydoedd yr ogof-gelloedd hynod a elwir Beddau y breninoedd:' ond am ba reswm y rhoddwyd iddynt y cyfryw enwau nid yw yn hawdd dirnad; canys y mae yn sicr na chladdwyd yno un o freninoedd Israel na Iudah, gan fod yr Ysgrythyr Lân yn dynodi eu claddfeydd mewn lleoedd ereill: oddigerth y gellid tybio ddarfod claddu y brenin Hezeciah yno, ac mai y rhai hyn oedd "beddau meibion Dafydd," am y rhai y crybwyllir yn 2 *Cron.* xxxiii. 33. Pwy bynag a gladdwyd yno, hyn sydd sicr; sef bod gwaith o'r fath draul a llafur wedi ei wneyd yn y lle dan sylw, fel y gallwn gasglu yn ddibetrus mai gwaith breninoedd ydoedd. Wedi nesau at y gladdfa ceir mynedfa i mewn o'r tu dwyreiniol, wedi ei thori yn y graig naturiol, ac yn arwain i gyntedd agored o tua deugain o gamrau ysgwâr, a'r graig fel mur iddo o amgylch ogylch. O'r tu deheuol i'r cyntedd hwn y mae pendist (*portico*) naw o gamrau o hyd, a phedwar o led, wedi ei drychu yr un modd yn y graig naturiol. Ac i'r pendist hwnw y mae math o swmer yn ymestyn ar draws y tu wyneb, ac wedi ei gerfio ar y cyntaf â lluniau gwahanol ffrwythydd a blodau. Yn mhen draw yr unrhyw bendist, ar y llaw aswy, eir i lawr y fynedfa sydd yn arwain i'r beddgelloedd. Y mae y drws yn awr wedi ei gyfyngu gymmaint gan geryg a malurion fel nad ydyw yn hawdd ymwthio drwyddo. Ond wedi llwyddo yn hyny, yr ydys yn dyfod i ystafell ragorwych, yn nghylch saith neu wyth llath ysgwar, wedi ei chloddio allan o'r graig. Ac y mae ochrau a nen yr ystafell hon mor gywrain bedrongl fel nas gallai un adeiladydd, er meddu yr offerynau mwyaf celfydd, wneyd ystafell fwy rheolaidd. Ac y mae y cwbl o honi mor gyfanffurf a durfing a phe byddai yn ystafell wedi ei chafnu mewn un darn o farmor. O'r ystafell hon y mae mynedfa drachefn i chwech neu chwaneg o ystafelloedd ereill, y naill o fewn y llall, a'r cwbl o'r un fath wneuthuriad a'r gyntaf. Y ddwy bellaf i mewn o'r rhai hyn ydynt ddyfnach na'r lleill, â disgynfa o chwech neu saith o risiau i fyned i lawr iddynt. Yn mhob un o'r ystafelloedd crybwylledig, oddi eithr y gyntaf, yr oedd eirch o geryg wedi eu gosod mewn cloerau (*niches*) yn ochrau yr ystafelloedd. Yr oedd yn amlwg hefyd fod pob un o'r eirch hyny ar y cyntaf âg iddi gauad hardd, wedi ei gerfio âg addurniadau ar lun dail a blodau; ond yr oedd y rhai hyny erbyn hyn wedi eu dymchwelyd a'u chwilfriwio gan ddwylaw dibris."—*Travels*, td. 76.


Digitized by Google

Dichon y darlun isod fod yn gynnorthwy i ddirnad trefn yr ystafelloedd yn yr ogof-gladdfa grybwylledig; ac y mae y dysgrifiad yn taflu cryn radd o oleuni ar ymadroddion hedegog y




Dar. 119. Trefn du mewnol bedd yn agos i Ierusalem.

prophwyd Esaiah, pan megys yn rhoddi cynnrychiad o holl freninoedd y ddaiar fel yn gorwedd mewn rhwysg beddrodawl, ac yn ymgyfodi o'u celloedd neu orseddau ar ddyfodiad gormesdeyrn uchelfrydig Assyria i'w plith, gan ei gyfarch, "A wanhawyd tithau fel ninnau? a aethost ti yn gyffelyb i ni? disgynwyd dy falchder i'r bedd," &c.; *Esa.* xiv. 9, &c. Po uchaf fyddai sefyllfa y cyfryw gelloedd yn y creigiau, mwyaf yn y byd o sylw a ennillent, a mwyaf anrhydeddus y cyfrifid y claddedigion ynddynt; ac oddi ar yr ystyriaeth yma y canfyddid uchelfrydedd Sebna y trysorydd, am yr hyn y cyfarwyddid y prophwyd i'w senu, a dywedyd wrtho, "Beth sydd i ti yma?......pan drychaist i ti yma fedd, fel yr hwn a drychai ei fedd yn uchel, ac a naddai iddo ei hun drigfa mewn craig?" *Esa.* xxii. 15.



Dar. 120. Golwg allanol ar Feddau y Breninoedd

Byddid weithiau yn diogelu yr ogof-gladdfeydd drwy osod maen mawr ar enau y fynedfa i mewn iddynt: *Mat.* xxvii. 60; *Marc* xv. 46; *Ioan* xi. 38. Ond byddai y porth oedd yn arwain i mewn i'r ogof mor eang fel y gallai amryw bersonau sefyll ynddo ar unwaith i edrych i mewn: felly dywedir am y gwragedd a aethant i edrych bedd ein Harglwydd, ddarfod iddynt fyned i mewn a gweled mab ieuanc yn eistedd, wedi ei ddilladu â gwisg wenllaes (*Marc* xvi. 5): a chyda chyfeiriad at y grisiau tu mewnol y crybwyllwyd am danynt yn flaenorol, dywedir ddarfod i Pedr grymu, a chanfod y llieiniau wedi eu gosod, &c.: *Ioan* xx. 5. Eithr lle y byddai y cyfryw feddau yn cael eu gwneuthur ar ddull mwy gorwych, ni ddefnyddid y fath feini mawrion, ond addurnid y pyrth oddi arnodd â maenwaith celfydd, yn cael ei gynnal gan amryw golofnau hardd-deg. Fel arddangosiad o'r cyfryw gladdfeydd, gellir golygu y darlun nesaf, ac hefyd yr un diweddaf, o Feddau y Breninoedd.




Dar. 121. Golwg allanol ar fedd yn agos i Ierusalem.

Trwy fod y pyrth crybwylledig yn cael eu gadael yn gyffredin yn agored ac yn ddiwarchodaeth, byddent gynt, ac y maent hyd heddyw, yn cael eu defnyddio gan ddyeithriaid a chrwydriaid fel lleoedd i gymmeryd achles ynddynt, yn yr un modd ag y dywedir am y diefligion yn yr efengyl eu bod yn trigiannu yn y mynyddoedd ac yn mhlith y beddau (*Mat.* viii. 28; *Marc* v. 2—5). Sonir hefyd am feddau arbenig wedi eu gwneyd i'r prophwydi a duwiolion nodedig ereill; ac ymddengys fod y prophwydi yn oes ddirywiedig ein Iachawdwr, yn cyfrif yn weithred rinweddol iawn adgyweirio ac addurno y cyfryw feddau (*Mat.* xxiii. 29.) Yr oedd hefyd ryw radd o ofal yn cael ei ddangos tuag at feddau mwy distadl, o'r hyn lleiaf y rhai o amgylch Ierusalem; canys dywedir y byddid yn *gwynu* yr holl rai hyny ar ryw dymmor o'r flwyddyn (*Mat.* xxiii. 27). Yr arferiad yma a achlysurwyd ar y cyntaf, nid yn gymmaint er mwyn gwneuthur gwahanol wrthddrychau o amgylch Ierusalem yn fwy boddhaol i'r llygaid, eithr yn hytrach fel y byddai i'r beddau fod yn fwy canfodadwy, ac felly rhagflaenu y perygl o ymhalogi wrthynt yn ddamweiniol neu yn ddiarwybod; canys yn ol y gyfraith seremonïol, yr oedd y sawl a gyffyrddai â bedd yn cael ei gyfrif yn aflan saith niwrnod (*Num.* xix. 16), yr hyn a barai rwystr nid bychan i'r cyfryw, yn enwedig ar amser yr uchelwyliau blyneddol, pryd y byddai llaweroedd o bobl anghydnabyddus â'r lleoedd yn cyrchu i Ierusalem. Felly y mae yn rhesymol meddwl y byddai gwynu y beddau yn un o'r moddion tebycaf er attal yr anffawd. Dywed Lightfoot mai y pymthegfed dydd o'n Chwefror ni oedd y diwrnod penodedig gan yr Iuddewon i wynu y beddau; yr hon ydoedd adeg briodol iawn, gan y byddai gwlawogydd y gauaf wedi myned heibio, ac ysbaid maith o sychder yn arferol o ddilyn yn Ngwlad Canaan. Ac ymddengys hefyd mai ychydig ddyddiau cyn y Pasc y darfu ein Iachawdwr gymmeryd achlysur i ddefnyddio yr arferiad dan sylw fel cymhariaeth i argyhoeddi rhagrith yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid: ar y gyfryw adeg, byddai yr holl feddau yn y glynoedd a'r llechweddi o amgylch Ierusalem i'w canfod yn amlwg iawn newydd eu gwynu fel y crybwyllwyd.

Y mae rhai beddau eang a ddarganfuwyd yn agos i Tyrus, ac ereill yn Alexandria, wedi eu gwneyd ar ddull crwn, fel rhif 1 yn y darlun nesaf; ond ymddengys nad yw y cyfryw ond megys eithriadau damweiniol: canys y rhai o amgylch Ierusalem, a'r rhai yn Asia Leiaf, yn yr Aipht, a'r Dwyrain, yn gyffredin ydynt o ffurfiad tebycach i rhif 2. Mewn un o'r beddrodau ger llaw Tyrus, cafwyd ystafell eang, yn cynnwys




Digitized by Google



Dar. 122. Gwahanol ddulliau tu mewnol beddau.


tair o gloerau (*niches*) helaeth, ar ddull y darlun isod, yn y rhai y dodasid cyrff i orwedd.



Dar. 123. Y tu mewn i fedd yn Tyrus.

Ond yr Iuddewon, yn eu cyflwr gwasgaredig ar hyd amrywiol wledydd y ddaiar, nid ydynt yn gallu, nac ond odid yn ystyried yn gyfaddas, gwneyd iddynt eu hunain gladdfeydd cyffelyb i eiddo eu hynafiaid, pan yn eu gwlad dreftadol eu hunain. Mewn cyhoeddiad diweddar o eiddo y Parch. Mr. Gleig, yn cynnwys hanes ei deithiau yn Germany, Hungary, a Bohemia, y mae efe wedi rhoddi y dysgrifiad coethedig a ganlyn o gladdfa Iuddewaidd yn ninas Prague:—"O'r synagog, rhodiais allan i'r hen gladdfa, yr hon sydd gyfagos; a chan edrych o amgylch, canfyddwn olygfa o anghyfannedd-dra mwy dyeithr ond odid nag a allodd dychymyg un prydydd erioed ei delweddu. Er mor eang oedd y clwt tir hwn, nid oedd o fewn ei gylch gymmaint ag un droedfedd o lawr gwastad—dim ond beddau; rhai wedi eu mathru mewn rhan, ereill âg iddynt feddfeini pigfeinion, ar ogwydd neu wedi syrthio. Yr oedd y beddau hyn, yn nghyd â pherthlwyn o goed gwern, planedig gan ddwylaw dynol, neu wedi eu hau gan awelon y gwynt, i gysgodi y beddau maluriedig, yn gwasanaethu fel arwyddluniau cyfaddasol o gyflwr anrheithiedig ac adfeiliedig y genedl Hebreig. Yr oeddynt er's rhyw ysbaid o amser wedi rhoi heibio gladdu yn yr hen bentwr hwn o lwch dynol; canys yr oedd wedi ei lenwi, a'i lenwi mor llawn, fel nas gallai gynnwys dim yn chwaneg: felly yr oeddid wedi cael mynwent newydd, ryw encyd y tu allan i furiau y ddinas." Gwel Claddu.

**BEDD-ADEILADAU**: sef yr amrywiol gofarwyddion ac addurniadau allanol a wneid i ddarnodi, i harddwychu, ac i ddiogelu gorweddleoedd cyrff personau neu deuluoedd nodedig. Y crybwylliad boreuaf sydd ar gael am y cyfryw gofarwyddion yw yr hyn a ddywedir am Iacob (*Gen.* xxxv. 20); sef ddarfod iddo, ar ol claddu ei hoff Rahel yn y ffordd i Ephrath, sef Bethlehem, osod colofn ar ei bedd hi: a dywedai Moses fod y cyfryw golofn yn adnabyddus yn ei ddyddiau ef; ac ymddengys ei bod felly hefyd yn nyddiau Samuel y prophwyd, sef ysbaid o tua chwe chan mlynedd yn ddiweddarach (1 *Sam.* x. 2). Am ddull a maintioli y golofn hòno, nid oes wybodaeth, nac ychwaith am ba ysbaid o amser y safodd yn yr un dull ag y ffurfiwyd hi gan Iacob. Ond yn ol yr hyn a fynegir gan deithwyr diweddar, ymddengys fod y Tyrciaid, er pan ddaeth Gwlad Canaan i'w meddiant hwy, wedi amgau o fewn adeiladau o'r eiddynt eu hunain yn mron yr holl gofarwyddion beddrodawl mwyaf arbenig y cyfeirir atynt yn yr Hen Destament.




Dar. 124. Bedd Rahel.

Yr adeiladwaith a wnaed i amgylchu bedd Rahel nid yw ond distadl iawn, dim ond bwthyn bychan pedairongl, â chromen (*cupola*) ar ei ben, o'r dull a ddeallir oddi wrth y darlun uchod. Am y bwthyn hwn, y mae Mr. Buckingham, yr ymdeithydd, yn adrodd:—"Aethom i mewn iddo trwy dwll yn y mur o'r tu deheuol, drwy ba un nid oedd yn hawdd i ni ymgribo, gan nad oedd un drws i'r adeilad. Ac oddi mewn gwelem bentwr o faenwaith pedairongl yn y canol, wedi ei adeiladu i fyny o'r llawr hyd yn agos i'r gronglwyd, ac mor helaeth fel nad oedd ond prin digon o le rhyngddo a'r mur cylchynol i allu rhodio o'i gwmpas. Yr oedd gwyneb allanol y maenwaith tu mewnol hwn wedi ei blastro â morter gwyn puredig; ac yr oedd yn ddigon helaeth ac uchel i amgau o'i fewn yr hen golofn gyntaf, os oedd hono yn aros ar fedd Rahel pan aed i wneyd yr adeilad yma." Y mae amryw ddysgedigion yn cytuno â thyb Mr. Buckingham, sef fod yr adeilad a grybwyllwyd wedi amgau hen golofn Iacob, neu ryw weddill o honi, yr hyn trwy draddodiad a nodwyd allan i'r Mahometiaid fel cofarwydd o fedd Rahel; a chan nad yw y bobl hyny ddim yn ol i Iuddewon na Christionogion mewn sel dros y cyfryw hynafiaethau, felly cymmerasant y llafur o wneyd yr adeilad uchod. A dywed Mr. Carne fod y llanerch o amgylch yr adeilad yn orlawn o feddau y Mahometiaid, a'r rhai hyny heb gymmaint ag un o honynt yn meddu na darlleniad nac arwyddfynag o un math i wahaniaethu y naill oddi wrth y llall; fel pe d ystyrient yn ddigon o fraint cael gorwedd dan yr un dywarchen a'r brydferth Rahel. Y mae gwahanol deithwyr yn son am amryw fedd-adeiladau yn nghymmydogaeth Ierusalem. Gwel Absalom.

Y mae yn debyg iawn fod golygfeydd y mynwentau yn Ngwlad Canaan gynt yn gyffelyb iawn i'r rhai presennol yn ngwledydd y dwyrain, o ba rai y ceir y dysgrifiad byr a ganlyn gan y Dr. Shaw:—"Y maent (sef y mynwentau) yn cymmeryd i fyny ddarn helaeth o dir, a rhyw gyfran o hono wedi ei neillduo i wahanol deuluoedd, a chyfran pob teulu wedi ei murio o amgylch fel gardd, lle y mae esgyrn eu hynafiaid yn gorwedd mewn llonyddwch er's llawer o genedlaethau:


Digitized by Google

canys yn y dosbarthiadau hyny y mae pob bedd ar ei ben ei hun, ac ar wahan oddi wrth eu gilydd; pob un âg iddo gareg syth wedi ei gosod wrth ben y marw, ac un arall wrth y traed; a darllen-iad ar y ceryg yn hysbysu enw a theitl y cladd-edig; a'r gwagle rhwng y ceryg hyny a blenir â



Dar. 125. Beddau diweddar yn Syria.


blodau, neu a balmentir â phriddlechau; ac weith-iau, addurnir y bedd âg ymylwaith o geryg man o amgylch." Yn y claddfeydd perthynol i deulu-oedd o fonedd, y mae y bedd-adeiladau yn cael eu gwneyd ar ddulliau mwy gorwych, megys amgau y bedd â maenwaith pedairongl, ac yna gosod cofgolofn ar hyny, a phlanu manwydd gwyrddion neu flodeuog o amgylch, gan eu meithrin yn ddyfal a pharhaus. Deallir gwahanol ddulliau y cyfryw fedd-adeiladau oddi wrth dar. 125, yn nghyd â'r un isod.




Dar. 126. Beddau diweddar yn Syria.

Crybwyllwyd yn flaenorol am adeiladau yn cael eu gwneyd uwchben beddau teuluol mewn gerddi; ac o'r cyfryw rhoddwyd darlun dan y gair BEDD. Ac weithiau, ar feddau mewn lleoedd mwy cyffredin, byddai pobl o foddion yn codi ad-eiladau bychain o faenwaith ar ddull tai, a chrom-enau (*cupolas*) iddynt, y rhai a wasanaethent fel claddfeydd teuluol. Byddent yn fynychaf â'u hochrau yn agored, fel y canfyddir oddi wrth y darluniau 127 a 128.

Eto, mewn rhai amgylchiadau, byddai y cyf-ryw fedd-adeiladau yn cael eu murio o amgylch, yn gyffelyb i fedd crybwylledig Rahel; yna, byddai yn angenrheidiol agor mynedfa i mewn iddynt ar bob achlysur o gladdiad chwanegol. "Arferion o'r fath yma," medd Mr. Carne, "ydynt hynafol iawn, ac i'w gweled yn fynych hyd hedd-yw yn ardaloedd annhramwyol mynydd Liba-nus, ac y maent yn taflu cryn oleu ar amrywiol ymadroddion ysgrythyrol; megys lle y dywedir ddarfod claddu Samuel yn ei dŷ yn Ramah (1 *Sam.* xxv. 1); a chladdu Iacob yn ei dŷ ei hun yn yr anialwch (1 *Bren.* ii. 34). Diau nad ydys i ddeall mai yn eu tai anneddol y claddwyd hwynt, eithr mewn bedd-adeiladau teuluol a wnaethant ar dir o'u heiddo eu hunain."



Dar. 127.—Bedd-adail cromenawg.



Dar. 128. Bedd-adail cromenawg.

Peth cyffredin iawn yn ngwledydd y dwyrain yw gweled nifer o wragedd, am rai wythnosau ar ol claddedigaeth, yn cyrchu yn fynych at y gladd-fa i wylo uwch ben eu perthynas ymadawedig, ac i addurno yr orweddfa â phlanigion blodeuog [gwel dar. 81]. Ac yn gysson â hyn y mae yr hyn a adroddir am Mair, chwaer Lazarus, pan gyfododd yn ddisymmwth i fyned i gyfarfod yr Iesu, ddarfod i'w chyfeillion dybied ei bod yn myned at fedd ei brawd i wylo yno (*Ioan* xi. 29—31).

**BEDDARGRAFF**: y mae yn hysbys fod cy-fodi cofgolofnau o ddygwyddiadau o hynodrwydd yn beth arferedig er oesoedd boreuol iawn; ond gellir casglu nad oedd y cofarwyddion hyny, o'r hyn lleiaf bob amser, yn dwyn hysbysrwydd llythyrenol o achlysur a dyben eu gosodiad i fyny; ond y byddai hyny yn cael ei adael i'w drosglwyddo o'r naill genedlaeth i'r llall trwy draddodiad: *Ios.* iv. 6, 7.

Digitized by Google

Er mor ddystaw ydyw yr Ysgrythyrau mewn perthynas i ddarlleniadau ar gofarwyddion, yn enwedig ar feddfeini, eto, rhoddir un anghraifft arbenig o'r cyfryw arferiad; sef, megys yr adroddir pan oedd y brenin Iosiah yn dystrywio allor ac uchelfa eilunol Ieroboam yn Bethel, ac yn codi esgyrn offeiriaid yr uchelfa o'r beddau i'w llosgi ar yr allor, dywedir ddarfod iddo, wrth edrych y beddau, ofyn i'r bobl o'i amgylch, "Pa deitl yw hwn yr ydwyf fi yn ei weled? A gwŷr y ddinas a ddywedasant wrtho, Bedd gŵr Duw, yr hwn a ddaeth o Iudah, ac a gyhoeddodd y pethau hyn a wnaethost ti i allor Bethel, ydyw;" 2 *Bren.* xxiii. 15—18. Oddi wrth hyn, dangosir fod rhyw fath o ddarlleniad llythyrenol ar fedd y gŵr Duw hwnw: ac y mae yr anghraifft nodedig yma, er yn unigol, yn rhoddi sail resymol i gasglu nad ydoedd y cyfryw ddull yn beth dyeithrol, os nad oedd hefyd mewn arferiad cyffredinol er oesoedd lled foreuol.

Ac heb law darlleniadau llythyrenol, ymddengys hefyd y byddai yr Iuddewon yn arfer addurno bedd-adeiladau eu henwogion â rhyw arwyddluniau, megys arf-beisiau (*coats of arms*) priodol i nodweddiad y marw, neu ei darddiad tylwythol. Canys fel y mae y genedl drwy yr holl oesoedd, ac hyd y pryd hwn, yn ddiarebol am fanwl lynu wrth arferion eu hynafiaid; felly, prawf nid egwan o fod y ddefod uchod yn arferedig ganddynt yn y cynoesoedd yw, fod eu hiliogaeth yn yr oesoedd diweddarol hyn yn parhau i gynnal y cyffelyb arferiad, megys yr adroddir gan Mr. Gleig yn ei ddysgrifiad o'r hen fynwent Iuddewig yn Prague, y soniwyd am dani yn flaenorol. "Y mae yn hawdd," medd efe, "dirnad o ba ddosbarth a graddoliaeth yr oedd y rhai sydd yn gorwedd yma, a hyny oddi wrth yr arwyddluniau sydd yn gerfiedig ar eu beddfeini; megys llew llwyth Iudah, dwylaw dyrchafedig tylwyth Aaron, a grawn sypiau y Nazareaid; a phob rabbi âg iddo fath o feddgist wag (*cenotaph*) ar ei orweddfa." I'r un perwyl y mae yr hyn a adroddir yn un o lyfrau yr Apocrypha, am yr addurniadau a wnaeth Simon Maccabæus ar fedd-adeilad ei dad a'i frodyr, lle y dywedir, "A Simon a yrodd, ac a gymmerodd esgyrn ei frawd Ionathan, a hwy a'i claddasant yn Modin, dinas ei hynafiaid......A Simon a wnaeth adeiladaeth ar fedd ei dad a'i frodyr, ac a'i gwnaeth yn uchel mewn golwg, â cheryg nadd yn ol ac yn mlaen. Ac efe a osododd heb law hyny saith Pyramides, y naill ar gyfer y llall, i'w dad a'i fam, a'i bedwar brawd. Ac yn y rhai hyn efe a wnaeth ddychymygion celfydd, ac a osododd golofnau mawrion o amgylch, ac ar y colofnau efe a wnaeth arfau yn goffadwriaeth tragwyddol, a chyda'r arfau longau cerfiedig i'w gweled gan bawb a fordwyent y môr. Dyma y bedd a wnaeth efe yn Modin, ac y mae yn sefyll hyd y dydd hwn;" 1 *Mac.* xiii. 25—30.

Ffurf beddargraffiadau Iuddewon yr oesoedd diweddar sydd yn fynychaf yn debyg i'r hyn a ganlyn:—"Y mae y gareg hon wedi ei gosod wrth ben ———, mab ———, yr hwn a gladdwyd y ———, yn y flwyddyn ———. Gorphwysed yn ngardd Eden, gyda'r holl gyfiawnion sydd wedi bod yno o'r dechreuad. Amen, Amen. Selah." Neu ynte fel hyn: "Y gofadail yma, neu y golofn hon, a osodwyd yn agos i ben yr odidocaf, y sancteiddiaf, a'r ddiweireiddiaf wyryf,———, merch ———, yr hon a fu farw mewn cymmeriad da, yn y ———, o'r flwyddyn ———. Gorphwysed ei henaid yn ngardd Eden. Amen, Amen."

BEELZEBUB, neu BAAL-ZEBUB, ydoedd enw a roddid i un o eilun-dduwiau y Philistiaid. Gwel BAAL-ZEBUB. Yn y Testament Newydd, y mae yn enw a roddir i'r penaf o'r angelion syrthiedig: *Mat.* x. 25; xii. 24; *Marc* iii. 22; *Luc* xi. 15. Megys ag yr ydym yn cael fod graddau yn mhlith yr angelion sanctaidd, ymddengys fod graddau hefyd yn mysg yr angelion gwrthryfelgar; megys ag y sonir am yr archangel, neu y prif angel, yn y dosbarth blaenaf, felly gelwir Beelzebub yn "benaeth y cythreuliaid." Cyhuddai yr Iuddewon ein Iachawdwr o fwrw allan gythreuliaid trwy "Beelzebub, penaeth y cythreuliaid;" sef, "tywysog llywodraeth yr awyr," neu "Satan," fel yr ymddengys oddi wrth atebiad Crist iddynt:—"Ac os Satan a fwrw allan Satan, efe a ymranodd yn ei erbyn ei hun;" *Mat.* xii. 24.

Mewn perthynas i darddiad ac arwyddocâd y gair fel enw ar eilun-dduw y Philistiaid, yn nghyd â'r rhesymau dros ei drosglwyddiad gan yr Iuddewon yn enw ar "benaeth y cythreuliaid," ymddengys fod cryn amrywiaeth barn. Ystyr yr enw yn ei ffurf gyntefig, fel y ceir ef yn yr Hen Destament (Baal-zebub), ydyw, *duw gwybed.* Tybia rhai y gelwid ef felly, am y bernid fod ganddo lywodraeth ar fath o wybed (*fire-flies or cincinnellæ*), colyniad y rhai a barai chwydd llosgedig a thra phoenus ar ryw dymmorau o'r flwyddyn; a chan y rhai yr ymddengys y blinid preswylwyr Ecron a'i hamgylchoedd yn fawr. Tybia ereill fod y "gwybedyn" neu y "chwilen" (*beetle*), yn gyssylltiedig â delw Baalzebub, ac felly wedi rhoddi ei enw iddo (er efallai y byddai yn fwy rhesymol ystyried hyn fel effaith yn hytrach nag achos o'r enw)—"Baal gyda'r gwybedyn" (*Baal with the fly*); ac y mae yn hysbys fod yr Aiphtiaid, y rhai oeddynt yn byw yn gyfagos i'r Philistiaid, yn talu anrhydedd dwyfol i'r chwilen. Yn Llyfr Doethineb, yn yr Apocrypha (*pen.* xii. 8), dywedir fod Duw wedi anfon gwybed a chacynod i ymlid y Canaaneaid a'r Ammoniaid o Wlad Canaan; a'i fod, drwy hyny, wedi troi y pethau hyny ag yr oeddynt hwy yn talu anrhydedd dwyfol iddynt, yn offerynau eu cospedigaeth; oddi wrth yr hyn y gellid casglu eu bod yn addoli gwybed a chacynod. Y mae ereill yn barnu mai y gwir enw a roddai y Philistiaid eu hunain i'r duw hwn, ydoedd, *Beel-zebach*=duw aberth; ereill, *Beel-zabaoth*=duw y lluoedd; neu *Belsamin*=duw y nefoedd: a bod yr Iuddewon, er mwyn taflu dirmyg arno, drwy ychydig gyfnewidiad yn y llythyrenau, wedi rhoddi iddo yr enw *Baal-zebub*=duw gwybed. Y ffurf sydd ar yr enw yn y Testament Newydd, yn ei gymhwysiad at "benaeth y cythreuliaid," ydyw, Βεελζεβοὺλ=*Beelzeboul.* Ystyr yr enw hwn ydyw, *duw tom.* Y mae yn dybiaeth dra thebygol, fod hwn eto yn llygriad gwirfoddol ar yr enw, er mwyn ei wneuthur yn ddirmygus. Y mae yn ffaith fod yr Iuddewon yn dra hoff o chwareu â geiriau a'u troi i wawd, drwy wneuthur y cyfryw gyfnewidiadau yn y llythyrenau ag a'u troent i fod yn eiriau o ystyr ddirmygedig;—rhywbeth yn lled debyg i'r hyn a elwir yn ein dyddiau ni yn *puns.* Rhydd Lightfoot luaws o anghreifftiau o'r arferiad hon. Y mae Beelzebul (*Be'el*—y cynaniad Aramäaidd o *Ba'al*), gan hyny yn arwyddo *dominus stercoris*=arglwydd y dom. Dywedir, pa fodd bynag, fod yr holl eiriau sydd yn tarddu o wreiddyn Hebreig y gair *zebul*, yn cael eu defnyddio yn yr Hen Destament yn unig yn yr ystyr o *drigo* neu *drigfa*; a myn rhai dysged-

Digitized by Google

iv. 2, dywedir "canys Beeroth hefyd a gyfrifid i Beniamin." Ei henw presennol, yn ol barn Dr. Robinson, yw Bireh, neu el Bireh. Gellir tybied mai dyma y lle a elwir Bera gan Eusebius [gwel BEER 2] ond iddo trwy gamgymmeriad ysgrifenu Eleutheropolis yn lle Ierusalem; o blegid dyweda fod Bera yn dyfod i'r golwg tua'r seithfed filltir o'r ffordd o Nicopolis (Emmaus yr Ysgrythyr) i Ierusalem; yr hyn ni byddai wir pe buasai yn sefyll saith milltir i'r gogledd o Eleutheropolis; o blegid y mae hono, fel y nodwyd dan y gair BEER 2, ugain milltir i'r deheu-orllewin i Ierusalem; a Nicopolis tua thair milltir ar ddeg i'r gogledd o Ierusalem. Ond cytuna y darluniad hwn âg el Bireh, yr hon, er amser Maundrell, a ystyrir yr un a Beer neu Beeroth yr Ysgrythyrau. Safa y lle hwn ar gefnen uchel, a red o orllewin i ddwyrain; ac o blegid hyn nis gellir gweled tu hwnt iddo o Ierusalem a'i chymmydogaeth; ond y mae y lle ei hun yn weledig bellder mawr o'r gogledd ac o'r deheu. Y pentref a saif yma yn awr sydd led helaeth, ond o adeiladaeth wael. Y tai ydynt isel ac o ymddangosiad adfeiliedig, tua chant a hanner mewn nifer; a'r boblogaeth tua saith gant, pa rai ydynt Fahometiaid. Y mae yno lawer o weddillion hynafiaethol; megys ceryg mawrion naddedig, rhai wedi eu gosod yn muriau y tai, ac ereill ar wasgar ar y llawr; muriau ac adeiladau tanddaiarol; a chrugau maluriedig. Cynnwysa hefyd eglwys adfeiliedig, muriau a bwäau cedyrn, pa rai yw y gwrthddrychau harddaf a mwyaf deniadol yn y lle. Priodolir ei hadeiladiad yn gyffredin i Elen, mam Cystenyn Fawr; ond dadleua ei bwäau pigfain (*pointed arches*) dros amser rhyfeloedd y groes, a thebyg iddi gael ei hadeiladu gan y marchogion temlaidd (*knight's temples*), i ba rai y perthynai y lle. Cynnwysa furddyn mawr arall, yr hwn a fernir oedd unwaith yn westfa (*khan*) helaeth. Y mae yno ger llaw, i'r gorllewin o'r pentref, ffynnon ardderchog a helaeth, un o'r rhai godidocaf yn y wlad; a diau mai oddi wrth hon y gelwir y lle wrth yr enw Beer a Bireh. Ychydig is law y ffynnon y mae hen gronfa fawr, yr hon gynt a dderbyniai ei dyfroedd. Gwasanaetha cafn careg, yr hwn sydd ger llaw y ffynnon, yn awr i ddyfrhau anifail y teithiwr, yn gystal ag i'r Mahometiaid defosiynol i weinyddu eu golchiadau; ac y mae yno gapel bychan neu gafell weddi ger llaw, lle y maent yn offrymu eu gweddïau.

BEERSEBA, [באר שבע, *ffynnon y llw*]: enw lle yn y cwr mwyaf deheuol i Ganaan, a enwogwyd fel lle y bu amryw o'r patriarchiaid yn fynych yn preswylio ynddo. Cymmerodd ei enw oddi wrth ffynnon a gloddiwyd yno gan Abraham, a'r llw a wnaed rhyngddo ef ag Abimelech, brenin Gerar: "Am hyny efe a alwodd enw y lle hwnw Beerseba; o blegid yno y tyngasant ill dau;" *Gen.* xxi. 31. Bu Abraham yn preswylio yma am beth amser, o blegid dywedir iddo blanu llwyn yno. Cyfodwyd tref yn y lle mewn amser dyfodol, yr hon a enwid ar yr un enw. Gan fod y dref hon yn eithaf y deheu i'r wlad, dygwydda y gair yn fynych mewn cyssylltiad â Dan, yr hon oedd dref yn eithaf y gogledd, pan y darlunid yr holl wlad; megys, "o Dan hyd Beerseba," ac "o Beerseba hyd Dan;" *Barn.* xx. 1; 2 *Sam.* xvii. 11; 1 *Cron.* xxi. 2; 2 *Cron.* xxx. 5. Pan ranwyd y wlad yn ddwy deyrnas, gosodid allan holl deyrnas Iudah mewn modd cyffelyb, megys "o Beerseba hyd fynydd Ephraim;" 2 *Cron.* xix. 4. Perthynai Beerseba ar y cyntaf i lwyth Iudah: *Ios.* xv. 28. Wedi hyny, rhoddwyd hi i lwyth Simeon: *Ios.* xix. 2; ond yn mhlith y cyffredin, priodolid hi eto i lwyth Iudah: 2 *Sam.* xxiv. 7. Nid oes un crybwylliad am dani yn y Testament Newydd, na chan neb arall yn foreuach nag Eusebius a Ierome, y rhai a'i galwent yn bentref mawr. Sonir am dani cyn y goresgyniad Mahometaidd fel un o ddinasoedd esgobaethol Canaan. Ychydig o son am dani a gawn wedi hyn hyd onid aeth y teithiwr dysgedig, Dr. Robinson, ar daith o ymchwiliad i'r wlad, ac y daeth i'r lle ar ei fynediad o Abakak i Ierusalem. Gelwir y lle y gorwedd Beerseba ynddo yn awr yn Wady-es-Leba, a Beerseba ei hun yn Bir-es-Leba. Yma y canfu y teithiwr ddwy ffynnon helaeth, cryn bellder oddi wrth eu gilydd. Y maent yn grynion o ran ffurf, wedi eu hadeiladu yn hardd o faenwaith cadarn, ac o amseriad hen iawn. Y mae y fwyaf yn ddeuddeg troedfedd a hanner o led, pedair troedfedd a deugain o ddyfnder i wyneb y dwfr, un droedfedd ar bymtheg o ba rai o'r gwaelod sydd wedi eu naddu yn y graig. Y mae y llall yn bum troedfedd o led, a dwy a deugain o ddyfnder. Y mae dwfr y ddwy yn bur a blasus, a llawer o hono. Amgylchir y ffynnonau gan gafnau ceryg, i'r camelod a'r praidd yfed o honynt; pa rai, y mae yn ddiammheu, a ddefnyddid gynt i ddyfrhau y praidd a borent ar y bryniau cyfagos. Y mae ceryg y canllawiau wedi eu gwisgo yn ddwfn trwy rygniad y rhaffau wrth godi dwfr â llaw. Yn nghymmydogaeth y ffynnonau, ar y bryniau a'r cafndiroedd, y mae olion sylfeini i'w canfod, er nad oes yn awr gareg ar gareg braidd i'w cael. Ymddengys fod y tai gan mwyaf wedi eu hadeiladu o geryg crynion; eto y mae yma rai ceryg wedi eu naddu i'w cael. Y mae yr adfeiliau yn wasgaredig dros ddarn o dir tua hanner milltir wrth chwarter milltir. Y mae darnau o briddlestri wedi eu gwasgaru dros y cyfan.

Gyda golwg ar y lle hwn, dywed Dr. Robinson, "Dyma, gan hyny, y fan lle y bu y patriarchiaid, Abraham, Isaac, a Iacob, yn aml yn preswylio. Yma y cloddiodd Abraham, fe ddichon, y ffynnon hon; ac oddi yma y cychwynodd gydag Isaac i ben Moriah, i'w offrymu yn aberth. Oddi yma y ffodd Iacob i Padan-Aram, wedi ennill yr enedigaeth-fraint a'r fendith oddi ar ei frawd: ac yma hefyd y bu yn aberthu i'r Arglwydd cyn cychwyn i gyfarfod Ioseph ei fab i'r Aipht. Yma y gwnaeth Samuel ei feibion yn farnwyr; ac oddi yma y crwydrodd Elias i'r anialwch deheuol, ac a eisteddodd dan y ferywen, yr un modd ag yr eistedda yr Arabiaid dani bob dydd a phob nos yn awr. Dyma derfyn Palestina Briodol, yr hon a estynai o Dan hyd Beerseba. Dros y bryniau ymchwyddol hyn y crwydrai praidd y patriarchiaid wrth y miloedd, lle ni chanfyddwn yn awr ond ychydig gamelod, asynod, a geifr;" *Gen.* xxi. 31; xxii. 19; xxvi. 23; xxviii. 10; xlvi. 1; 1 *Sam.* viii. 2; 1 *Bren.* xix. 3; 2 *Sam.* xvii. 11.

BEGHARDIAID. Y mae y gwahanol eiriau, Beghardiaid, Begguhardiaid, Beggutiaid, Beguiniaid, o'r un gwreiddyn, ac yn arwyddocau yr un dosbarth. Gan yr Almaeniaid, arferir Beghard, a Begutte; a chan y Ffrancod, Beguins, a Begina. Y mae lluaws o wahanol dybiau o barth i darddiad ac ystyr y geiriau hyn, y rhai ydynt yn rhy ddibwys i'w hadrodd. Y mae Mosheim wedi ysgrifenu traethawd maith ar y cwestiwn, yn nghyd â'r amrywiol sectau y cymhwysaid yr

Digitized by Google

enwau atynt. Ei gasgliad ef, ar ol ymchwiliad manwl a llafurus, ydyw, fod y geiriau wedi deilliaw o'r hen air Almaenaidd *beggen, beggeren*, yr hwn a arwydda, ymofyn am unrhyw beth gyda thaerineb—yr un meddwl a'r gair Seisoneg, *to beg*. Y mae yr olddodiad *hard*, a gyssylltir âg ef, yn dwyshau ei ystyr. Y mae Begutta yn dynodi y fenyw o'r dosbarth. Pan ddygwyd Cristionogaeth i'r Almaen, yr oedd y gair *beggen* yn cael ei arfer mewn ystyr grefyddol, ac yn dynodi y weithred o weddio gyda difrifwch ac ymroad mawr. Am hyny, pan hynodai rhyw un ei hun trwy luosogrwydd a difrifwch ei ymarferiadau crefyddol, rhoddid yr enw Beghardiad arno; *h.y.*, dyn defosiynol: ac mewn amser, daeth y gair i gael ei arfer am bawb a honent iddynt eu hunain fwy o dduwioldeb nag ereill; ac fel gair o ddiystyrwch (fel Methodist, a Puritan, yn fwy diweddar), gelwid y Waldensiaid, yn Piedmont, a'r Lollardiaid, a chanlynwyr Wicliff, yn Mhrydain, wrtho.

Cymhwysid yr enw hefyd at y rhai, dan rith crefyddolder, a ymwadent â phleserau cyfreithlawn bywyd, ac a ddewisent yn wirfoddol, y sefyllfaoedd isaf, gan gardota eu bara beunyddiol o ddrws i ddrws. Ymgymmerodd y sect a elwir Apostoliciaid â'r dull isel hwn o fyw: ac er fod gwahaniaeth dirfawr rhwng amrywiol gangenau yr urdd hon, eto gelwid hwynt oll yn ddiwahaniaeth gan yr Almaeniaid yn Feghardiaid; o blegid, tra yr oeddynt yn gwahaniaethu yn eu barnau, yr oedd pob cangen o honynt yn diystyru cyfoeth ac esmwythyd, ac yn dilyn yr un dull isel o fyw. Sicrha Mosheim fod o leiaf ddeg ar ugain o sectau gwahanol yn myned dan yr enw Beghardiaid. Y mae Mosheim a Neander yn llefaru yn ffafriol am danynt yn eu dechreuad, ac yn cymmeradwyo yr egwyddorion a'r tueddiadau a roddasant fod iddynt fel dosbarth. "Mewn gwrthwynebiad i'r dosbarth lluosocaf o Gristionogion," medd y diweddaf—"y dosbarth a ymarferai âg ordinhadau crefydd, ond a lywodraethid gan egwyddorion y byd, y cyfododd dosbarth arall, llai ei nifer, gyda'r hwn yr oedd crefydd yn bwnc o ddyddordeb diffuant a difrifol. Yr oedd y rhai hyn wedi yfed llawer o ysbryd neillduol Cristionogaeth; ond o herwydd fod tuedd y cyffredin yn ddaiarol ac anianol, aethant hwythau yn ormod i'r cyfeiriad gwrthwyneb, sef mynachaeth. Fel hyn, cyfododd o blith y lleygion gymdeithasau crefyddol, wedi eu ffurfio i'r dyben o feithrin bywyd ysbrydol a myfyrgar, neu i gyrhaedd rhyw amcanion crefyddol ereill, o duedd mwy ymarferol. Yr ydym yn gweled ynddynt y gogwydd cryf hwnw at undeb cymdeithasol, yr hyn a nodweddai y ddeuddegfed ganrif—yn nerthol, y drychfeddwl o dlodi crefyddol, yr hwn a osodai ei hun i fyny mewn gwrthwynebiad i'r duedd o ddwyn pethau eglwysig yn ddarostyngedig i amcanion bydol." Yn mysg cymdeithasau y Beghardiaid, gellir crybwyll y rhai a ffurfiwyd gan Vicelin, Raymund Palmari, gan yr Apostoliciaid, a chan y Waldensiaid.

**BEGWINIAID:** ydyw y benywaidd o Beghardiaid. Tybir eu bod wedi dechreu yn yr unfed ganrif ar ddeg; ond ni dderbyniasant yr enw hwn hyd oni ddaethant yn dra lluosog ac i sylw y byd, yr hyn a gymmerodd le o ddeutu dau can mlynedd ar ol eu dechreuad. Barna rhai mai oddi wrth St. Begge, duces Brabant, y cawsant ei henw; ond y mae yn fwy tebyg mai yr un oedd a'r Beghardiaid, oddi wrth y gair *beggen*; o leiaf, y mae yn ddiammheu fod y naill enw a'r llall wedi deilliaw o'r un tarddiad, ac y mae rhesymau Mosheim dros y diweddaf yn fwy boddlonol na'r rhai a ddygir yn gyffredin dros y cyntaf. Adeiladwyd amryw o leiandai iddynt yn yr Almaen, Holland, Ffrainc, a Fflanders: a llenwid hwynt gan wragedd gweddwon, a morwynion, y rhai a ymffurfient yn gymdeithasau i'r dyben o ymgadw yn bur oddi wrth y llygredigaethau a ffynent mor gyffredinol yn yr oesoedd hyny. Rhanent eu hamser rhwng ymarferiadau o ddefosiwn a gorchwylion cyffredin. Ni wnaent ammod o annyweddïaeth; ond dalient yr hawl i briodi, ac i ymadael â'r lleiandy, pryd bynag y dewisent. Y gyntaf o'r cymdeithasau hyn a ffurfiwyd yn Neville, yn Brabant, yn 1226; ond erbyn canol y drydedd ganrif ar ddeg, yr oeddynt wedi cynnyddu yn gymmaint, fel nad oedd braidd un dref o enwogrwydd heb ei Begwindy, neu "winllan," fel y gelwid hi weithiau, mewn cyfeiriad at arddull Caniadau Solomon. Wedi dechreuad y Diwygiad Protestanaidd, cymhwysid yr enw at fenywod crefyddol ac ymroddgar i ddefosiwn, er nad oedd eu dull o fyw yn gyffelyb i'r Begwiniaid priodol.

**BEHMENIAID:** dilynwyr Jacob Behmen, y rhai a fyntumiant ei olygiadau cyfriniol ar natur a gras. Ganwyd Jacob Behmen, neu Böhme, o rieni tlodion, mewn pentref yn Lusatia uchaf, o'r enw Seidenburgh, yn 1575. Yr oedd ynddo dueddiad cryf yn naturiol at ymchwiliadau cyfriniol, ac ymbleserai yn fawr mewn cwestiynau dyrus o bob math. Yn y flwyddyn 1600, pan yn myfyrio ar ymadroddion Iesu Grist o barth i'r Dyddanydd, llanwyd ei feddwl âg awydd angerddol am ddylanwadau neillduol yr Ysbryd Glân—y dylanwadau a'r cynnorthwyon a addawai Iesu Grist i'w apostolion yn unig; ac yn y teimlad hwn syrthiodd, medd ef ei hun, "i berlewyg ysbrydol, yn yr hon y parhaodd dros saith niwrnod, pryd yr amgylchynid ef gan oleuni dwyfol, ac yr arosodd yn sefydlog yn y myfyrdod uchaf yn nheyrnas llawenydd." Yn y flwyddyn 1610, syrthiodd eilwaith i lewyg o'r un natur, ac arweiniwyd ei feddwl i adnabyddiaeth o ddirgelion natur a gras; a rhag i'r dadguddiadau a gawsai fyned i ebargofiant, ysgrifenodd lyfr o honynt, yr hwn a deitlodd, *Aurora*; arddull a syniadau yr hwn, fel y gellid dysgwyl, sydd yn dra aneglur a chymmysglyd. Y gwaith nesaf a wnaeth a elwir *Y Tair Gwyddor*; wrth y rhai y meddylia, y byd tywyll, neu uffern; y byd goleu, neu y nef; a'r byd allanol a gweledig, neu y ddaiar. Yn y llyfr hwn, esbonia egwyddorion y llyfr cyntaf, a chyflenwa yr hyn a adawsid yn ddiffygiol yn hwnw. Dengys, 1. Pa fodd y deilliodd pob peth o ewyllys weithiol y Duw anamgyffredadwy, yr hwn sydd Dri yn Un, ac sydd yn egluro ei hun fel Tad, Mab, ac Ysbryd Glân, trwy weithrediad y gallu tri-un o dân, goleuni, ac ysbryd, yn nheyrnas y nef. 2. Pa beth oedd angelion a dynion yn eu creadigaeth. Eu bod yn ac o Dduw, yn hiliogaeth gwirioneddol iddo; fod eu bywyd wedi cael ei ddechreuad yn ac o'r tân dwyfol hwn; mai y tân hwn ydyw tad y goleuni, a'i fod yn cynnyrchu goleuni yn eu heneidiau; a bod yr Ysbryd Glân yn deilliaw oddi wrth y ddau hyn (tân a goleuni) yn y creadur tri-un. 3. Pa fodd y darfu i'r angelion, a holl ddynolryw syrthio oddi wrth Dduw, ac o'u sefyllfa o fywyd dwyfol ynddo; pa beth ydynt yn eu sefyllfa gwympedig, a pha beth yw y gwahaniaeth rhwng eu sefyllfa gwympedig

Digitized by Google

hwy ac eiddo yr angelion. 4. Pa fodd y crewyd y ddaiar, y ser, a'r elfenau, mewn canlyniad i gwymp yr angelion. 5. O ba le y mae da a drwg yn y byd hwn; a pha beth yw y felldith sydd yn trigo ynddo. 6. Am deyrnas Crist, a pha fodd y gosodir hi i fyny mewn gwrthwynebiad i deyrnas Satan ac uffern. 7. Pa fodd y mae dyn trwy ffydd yn Nghrist yn cael ei alluogi i orchfygu teyrnas uffern, a thrwy hyny ennill bywyd tragwyddol. 8. Pa fodd, a pha ham, na bydd i bechod a thrueni deyrnasu ond dros ychydig, sef hyd oni chyfyd Duw ddyn cwympedig mewn modd goruchnaturiol i ogoniant yr angelion, ac y bydd i'r gyfundraeth elfenol hon ysgwyd ymaith ei melldith, a gwneyd undeb tragwyddol rhyngddi a'r nef, o ba un y syrthiodd.


Y flwyddyn ganlynol, dygodd Behmen allan ei draethawd ar "Fywyd triphlyg dyn, yn ol y tair egwyddor" a enwyd. Yn y llyfr hwn, sylwa yn fwy helaeth ar sefyllfa dyn yn y byd hwn. Dywed fod ganddo y wreichionen anfarwol o fywyd, yr hwn sydd gan angelion a chythreuliaid fel eu gilydd; fod ganddo hefyd y bywyd dwyfol o oleuni ac Ysbryd Duw, yr hyn sydd yn gwneyd y gwahaniaeth hanfodol sydd rhwng yr angel a'r cythraul; a bod ganddo, yn drydedd, fywyd y byd allanol a gweledig. Y mae y bywydau cyntaf a diweddaf gan bob dyn; ond nid oes neb yn feddiannol ar yr ail, ond y gwir Gristion, neu blentyn Duw.

Er mai âg enw Behmen 'y cyssylltir y gyfundraeth gymmysglyd hon, ac er mai efe oedd y penaf, os nad yr unig berson a honai i ysbrydoliaeth, ac a gymmerai arno ei fod yn derbyn datguddiadau oddi wrth Dduw, eto, ymddengys mai nid iddo ef yn unig y dylid cyfrif sylfaeniad y blaid, na lluniad y gyfundraeth. Yr oedd yn gynnyrch naturiol syniadau yr oes—yn un o amryw o ymddangosiadau cyffelyb—a chynnwysai yn mysg ei phleidwyr ddynion o fwy o ddysgeidiaeth ac ymchwiliad na Behmen ei hun. Yn y ganrif hon, yr oedd holl athronwyr Ewrop, o'r bron, yn perthyn i'r naill neu y llall o ddau wahanol ddosbarth, un o'r rhai oedd y Peripatetiaid, a'r llall oedd yr Elfenwyr (*Chemists*), neu y Tân-athronwyr. Ymrysonai y ddau ddosbarth hyn yn wresog, am flyneddoedd, am yr oruchafiaeth; a chyhoeddwyd llawer o lyfrau, a ddangosent lafur a chywreinrwydd mawr, yn ystod amser yr ymrysonfa athronyddol a fu rhyngddynt. Ymdaenodd yr Elfenwyr trwy braidd holl Ewrop, a chymmerasant yr enw amwys hwnw, *Rosecrusiaid*; yr hwn enw a ennillai ar y cyntaf gryn barch iddynt, am y tybid ei fod wedi ei gymmeryd o achen Luther, yr hwn oedd, croes wedi ei dodi ar rosyn. Yr oeddynt yn llawn chwerwder a dygasedd at y Peripatetiaid, a drwgliwient hwy fel rhai yn llygru crefydd ac athroniaeth. Cyhoeddasant hefyd luaws o draethodau yn eu herbyn, y rhai ni hynodid gan ddim yn fwy na malais a ffolineb. Ac yn mysg y rhai hyn y daeth Behmen i hynodrwydd; ac un arall, Robert Fludd, brodor o Loegr, yr hwn oedd yn tra rhagori mewn athrylith a gwybodaeth ar Behmen. Ac ymddengys mai athrawiaeth Fludd oedd sylfaen ei gyfundraeth; a thrwy gymdeithasu â physygwyr ac elfenwyr, daeth i feddiant ar radd o wybodaeth wyddonol na chawsai fantais i'w chyrhaedd yn ei ieuenctyd. Dilynwyd Behmen a Fludd gan John Baptist Helmont, a'i fab Fransis, Christian de Rosenroth, Nollius, Sperber, ac ereill. Nis gallesid dysgwyl unffurfiaeth yn eu golygiadau, yn gymmaint a bod y rhan fwyaf o'u cyfundraeth yn cael ei seilio ar deimladau ac ar ehediadau dychymyg, y rhai nas gellir eu deall na'u gosod allan yn eglur. Ac felly, nid oes gynnifer a dau o'r ysgrifenwyr mwyaf enwog o'r blaid yn myntumio yr un golygiadau. Y mae, pa fodd bynag, rai egwyddorion cyffredin yn eu mysg, sydd yn gwasanaethu fel canolbwynt eu hundeb mewn un gymdeithas. Barnant oll mai dadansoddi cyrff elfenol trwy nerth tân ydyw yr unig ffordd i gyrhaedd gwir ddoethineb ac i gael gafael ar egwyddorion cyntaf pethau. Cytunant oll fod rhyw gyfatebiad rhwng elfenau natur ac athrawiaethau crefydd, a bod Duw yn llywodraethu teyrnas gras a theyrnas natur trwy yr un deddfau; a hyn ydyw yr achos eu bod yn defnyddio termau Elfenaeth i osod allan wirioneddau crefydd. Dywedant oll fod math o yni dwyfol yn wasgaredig trwy y bydysawd; yr hwn a elwir Archaeus, gan rai, a'r Ysbryd Cyffredinol, gan ereill. Mewn gair, cytunant oll i lunio y syniadau mwyaf cymmysglyd ac anamgyffredadwy yn yr iaith fwyaf digrifol ac anghyffredin. Ac yn hyn nid ydynt yn annhebyg i'r Gnosticiaid, neu y Manicheaid, neu y Basilidiaid, yn y canrifoedd cyntaf. Gesyd Mosheim egwyddor sylfaenol eu cyfundraeth mewn ychydig eiriau:—"Fod dwyfol ras yn gweithredu wrth yr un deddfau ag y mae rhagluniaeth ddwyfol yn y byd naturiol; a bod meddyliau dynion yn cael eu puro oddi wrth eu llygredigaethau yn yr un dull ag y mae meteloedd yn cael eu puro oddi wrth eu sothach."

Y mae rhai yn gorfoli Behmen, ar gyfrif y doethineb dwfn y maent yn cymmeryd arnynt ei weled yn ei weithiau; ond cytuna pawb o feddwl iachus, mai y prif, os nad yr unig hynodrwydd sydd ynddynt ydyw, eu cyfrinolrwydd, a'u tywyllwch. Y mae y syniadau eu hunain yn dryblith "afluniaidd a gwag," a'r arddull fel tywyllwch dudew yn gorchuddio y tryblith hwnw. Ceisiodd rhai brofi oddi wrth ei ysgrifeniadau, nad oedd Behmen yn credu y Bod o Dduw: ac yn eu plith, Von Müller, mewn llyfr o'r enw *Yr Atheist Penboeth*. Dywedir fod ymarweddiad Behmen yn fwy rheolaidd na'i syniadau. Bu farw yn y flwyddyn 1624, wedi derbyn y sacrament o law Elias Dietrich. Ei eiriau diweddaf oeddynt, "Yn awr, yr wyf fi yn myned ymaith i Baradwys." Bu ganddo ganlynwyr yn y deyrnas hon, y mwyaf o ba rai oedd W. Law, awdwr y *Christian Perfection*.

BEHEMOTH, (בהמות) ydyw y lluosrif o ragoriaeth (*pluralis majestatis*) o בהמה, *behemah*= anifail. Tybia Gesenius mai llygriad Hebreig ydyw o'r gair Aiphtaeg *pehenoid—bos marinus seu aquaticus*=yr afonych; neu a elwir mewn cydffurfiad â'r enw Groeg, ἱπποποτάμος (*hippopotamos*)=yr afonfarch. Gwelir y gair yn *Iob* xl. 15, fel enw, fel y gellid meddwl, ar greadur o faintioli a nerth anferth, o'r hwn y rhoddir dysgrifiad manwl, ond mewn iaith farddonol, yn yr adnodau canlynol. Yn niwedd ei ymresymiad â Iob, y mae yr anfeidrol yn cyfeirio ei sylw at y behemoth a'r lefiathan, fel y rhai penaf yn mysg ei greaduriaid, ac fel arddangosiadau tra arbenig o'i allu a'i fawrhydi. Mae cryn amrywiaeth yn y golygiadau a roddwyd o barth i'r anifail y cyfeirir ato; er mai y prif ymchwiliad ydyw yr un o barth i'r cwestiwn, Pa un ai yr elephant ynte yr afonfarch a feddylir? Er amser Bochart, yr hwn a wnaeth ymchwiliad mawr i'r cwestiwn, y dyb gyffredin ydyw, mai at y diweddaf y mae y

cyfeiriad. Rhydd Schultens (yn y lle) grynodeb o'r amrywiol dybiau a wnaed o bryd i bryd ar y mater; ac yn eu mysg y mae yr hyn a ganlyn:—mai gwylltfilod yn gyffredinol a feddylir. Hyn, mae yn ymddangos, oedd barn y Deg a Thrigain. Tybia rhai o'r Rabbiniaid, mai rhyw anghenfil aruthrol fawr, yr hwn a fwytäai yn feunyddiol laswellt mil o fynyddoedd, ydoedd! Meddylia rhai mai y tarw gwyllt y cyfeirir ato. Y dyb gyffredin cyn amser Bochart oedd, mai yr elephant ydyw. Tybia rhai mai "rhyw anghenfil arwyddluniol," neu ryw arddangosiad ffugrol, heb fod un creadur byw gwirioneddol yn cyfateb iddo, ydyw: ac yn mysg y rhai a roddent i'r gair yr ystyr yma, barnodd rhai ei fod yn arwyddlun o'r "hen sarff;" ereill, o natur lygredig dyn; ereill, o ddynion beilchion, creulawn, a gwaedlyd. Amryw o'r tadau a dybient fod y diafol yn cael ei arddangos yn arwyddluniol yn y lefiathan a'r behemoth; a chrybwyllir am un a allodd weled y dysgrifiad yn gyfaddas i'w gymhwyso at Iesu Grist! Barna Dr. Good fod y creadur a ddysgrifir yn rhywogaeth nad yw yn bod yn bresennol, yn debyg i'r mammoth, a chreaduriaid ereill a ddarganfuwyd mewn sylweddau mwnawl. Cefnogir y dyb hon gan awdwr yr erthygl ar *Mazology* yn yr *Edinburgh Encyclopædia*, yn benaf, am nad yw y dysgrifiad a roddir o gynffon behemoth yn cytuno yn dda, yn ol ei farn ef, â'r afonfarch. Barna y Dr. Clarke mai y mammoth oedd, o'r hwn y rhydd ddysgrifiad yn ei esboniad ar *Gen.* i. 24. Am dano dywed, "fod Duw wedi ei greu fel prawf o'i allu; a phe buasai yn amlhau, yn lle peidio a bod, buasai yn diboblogi y ddaiar. Rhaid fod creaduriaid o'r rhywogaeth yma yn bod yn amser Iob; cyfeiria at y behemoth fel pe buasai yn gwbl adnabyddus." Ond, fel y crybwyllwyd, mae y nifer mwyaf o ymchwilwyr presennol yn dilyn Bochart a Calmet, y rhai a gymmerasant gryn drafferth i brofi fod y dysgrifiad yn Iob mor gywir am yr afonfarch, ag y gellid dysgwyl i un



Dar. 129 Yr Afonfarch.

dysgrifiad a nodweddir yn fwy gan iaith gref barddoniaeth, na chan iaith fanwl gwyddoniaeth fod. Y mae'n wir y gellid cymhwyso rhai rhanau o'r dysgrifiad at yr elephant yn llawn cystal, ond y mae cymhwyso y cyfan ato yn anmhosibl. Nid oes nemawr gymhorth i'w gael tuag at benderfynu y mater oddi wrth wahanol gyfieithiadau. Rhydd y Deg a Thrigain ef θηρια=gwylltfilod: mae Jerome, a'r testyn Syriaeg, yn cadw y gair *behemoth*; y Caldaeg yn rhoddi *bwystfil*; Coverdale yn darllen, "y bwystfil creulawn;" y Proffeswr Lee, "y bwystfilod;" Umbreit, "march y Nile;" a Noyes, "yr afonfarch." Yr unig ffordd, felly, tuag at ddyfod o hyd i'r gwirionedd ar hyn ydyw, cyferbynu y creaduriaid y dadleuir drostynt â'r ansoddau a ddynodir yn y dysgrifiad. Gellir tybied oddi wrth nodwedd ymresymiad yr Arglwydd â Iob, medd Barnes, y rhaid ei fod yn anifail dyfrol. Cyfeirir yn yr ymresymiad at ymddangosiadau natur a'i helfenau; yna at anifeiliaid y ddaiar, yn mysg y rhai yr enwir yr estrys; yna at adar yr awyr; ac yn ddiweddaf, dilyna y dysgrifiad o'r behemoth a'r lefiathan. Ymddengys na buasai ymresymiad o'r fath yn cael ei lunio heb fod ynddo ryw grybwyllion am ryfeddodau y dyfnder; y mae y *lle* yn yr ymresymiad, sef fod behemoth yn nesaf i'r lefiathan, yn ffafrio y dybiaeth fod y cyntaf, fel y diweddaf, yn anifail dyfrol. Gan fod y ddau anifail yn cael eu cyssylltu yn yr ymresymiad, y mae yn debygol eu bod yn perthyn i'r un dosbarth; ac os yr afanc (*crocodile*) a feddylir wrth y lefiathan, y mae y tebygrwydd yn gryf mai yr afonfarch ydyw y behemoth. Mae Taylor, golygydd *Calmet*, yn ymholi pa rai ydyw y creaduriaid y byddai yn fwyaf tebyg iddynt gael eu cyssylltu â'u gilydd mewn llyfr fel yr eiddo Iob, yn yr hwn y mae dygwyddiadau yn cymmeryd lle mewn gwlad heb fod yn neppell o'r Aipht; ac oddi wrth "Hynafiaethau Herculaneum," a'r cerflun o'r Nile sydd yn awr ar gael, y mae yn casglu mai yr afanc a'r afonfarch ydynt. Cydgrybwyllir am danynt yn gyffredin gan hen ysgrifenwyr, megys Herodotus, Diodorus Siculus, Pliny, ac ereill. Yr oeddynt ar gyfrif eu maintioli yn greaduriaid ag yr ymfalchïai yr Aiphtiaid ynddynt; a chyfrifir y buasai yn beth anhawdd rhoddi rheswm am dano pe buasent yn cael eu gadael allan yn y rhan hon o Lyfr Iob, lle y mae y Creawdwr yn cyfeirio sylw y patriarch at ei greaduriaid i gael profion o'i allu a'i fawredd. Gosodir y behemoth allan fel anifail sydd yn byw yn y dwfr ac ar y tir. "Efe a orwedd dan goedydd cysgodfawr, mewn lloches o gyrs a siglenydd; helyg yr afon a'i hamgylchant;" ac ar amserau ereill, "efe a fwyty laswellt y mynyddoedd fel ych (*adn.* 15, 20, 21, 22). Mae y rhan hon o'r dysgrifiad yn cytuno yn dda â'r afonfarch, ond nid yw â'r elephant, yr hwn nid yw byth yn trigo mewn corsydd a siglenydd, ond bob amser ar dir caled. Gwelir hefyd nad yw yn greadur cig-ysglyfaethus (*carnivorous*). Dywedir ei fod yn bwyta glaswellt, ond ni sonir ei fod yn ysglyfaethu cig: *adn.* 15, 20. Cytuna y rhan hon o'r dysgrifiad â'r elephant yn gystal a'r afonfarch. Y mae cryfder y behemoth "yn ei lwynau, a'i nerth yn mogel ei fol;" *adn.* 16. Mae hyn yn berffaith gywir am yr afonfarch, yr hwn y mae croen tew yn amddiffyn ei fol, fel ei holl gorff; ond nid yw yn wir am yr elephant. Mae ei nerth ef yn ei ben a'i wddf, a'r man gwanaf arno, a'r lle y gellir ymosod arno yn fwyaf llwyddiannus ydyw ei fol; y mae y croen yno yn dyner a theneu; a blinir ef hyd yn oed gan bryfed. Dynodir y behemoth gan symmudiad ei gynffon: "Efe a gyfyd ei gynffon fel cedrwydden;" *adn.* 17. Addefir fod yn anhawdd cymhwyso hyn at yr afonfarch. Mae Rosenmüller, pa fodd bynag, yn dyweyd ei fod yn gyffelyb i'r gedrwydden, trwy ei bod yn llyfn, yn drwchus, a chadarn. Dywed Barnes, mai nid rhwng maint a ffurf y gynffon y mae y tebygolrwydd i'r gedrwydden, ond rhwng ysgogiad y naill a'r llall. Y mae awdwr yr erthygl ar BEHEMOTH, yn *Kitto's Cyclopædia*, yn barnu nad yw hyn yn gyfaddas i un creadur ond yr elephant, ac mai y duryn a ddeallir wrth y gair זנב, a gyfieithir *cynffon*. Drachefn, mae y rhai sydd yn erbyn cyfieithu y gair Hebreig yn *dduryn*, ac felly yn barnu mai nid y naill na'r llall a feddylir, yn dadleu fod y dysgrifiad hwn yn ateb yn well i rywogaethau

nad ydynt mewn bod yn bresennol, gweddillion y rhai a ddarganfuwyd gan Cuvier. Cytunai yn dda â'r *ichthyosaurus* [*Buckland's Geology*] yn hyn, er nad ydyw rhanau ereill y dysgrifiad yn ateb i'r creadur hwnw. Dynodir y behemoth hefyd am gryfder ei esgyrn; am y swm mawr o ddwfr hefyd a all yfed; ac am ei allu i wneuthur ei ffordd, yn benaf trwy nerth ei drwyn, trwy rwydau â pha rai yr amcenir ei ddal ef. A dywed Barnes fod y nodweddau hyn yn cytuno yn well â'r afonfarch nag âg un creadur adnabyddus arall. Mae rhai, ar yr un pryd, yn cymmeryd y dysgrifiad uchod yn fwy nodweddiadol o'r elephant; megys, "efe a obeithiai y tynai yr Iorddonen i'w safn," yr hon afon nis gallasai ond yr elephant yn unig gyrhaedd ati. Cymmerir hefyd y darlleniad Seisoneg o ddiwedd *adn.* 24—"*his nose pierceth through snares*"—fel yn fwy dysgrifiadol o dduryn yr elephant, yr hwn sydd yn arbenig o ran cyflymder a manylwch ei arogliad. Ond y mae y darlleniad Cymraeg, "a dylla neb ei drwyn ef â bachau"—yr hwn, y mae yn debygol, ydyw y darluniad cywiraf—yn cludo drychfeddwl gwahanol. "Ar ol ei ddal mewn rhwyd, a all yr heliwr dyllu ei ffroen â bach?" Dyma y dull arferol o sicrhau anifail gwyllt ar ol ei gael i'r rhwyd: ond arwyddir fod yr anifail hwn mor gryf fel nas gellir gwneyd hyny âg ef. —(*Barnes' Notes on Job; Kitto's Cycl.; Cycl. of Rel. Knowledge*).

BEIBL CYMRAEG. Oddi wrth lythyr esgob Tŷ Ddewi, yr hwn a ragddodwyd yn y Testament Newydd Cymraeg, o gyfieithiad William Salesbury, a argraffwyd yn 1567, deallwn fod cyfieithiad Cymraeg o Bum Llyfr Moses, mewn ysgrifen, yn bod yn nheyrnasiad y brenin Harry VIII, os nad yn nheyrnasiad Edward VI. "Pan oeddwn fachgen," meddai yr esgob, "cof yw genyf weled Pum Llyfr Moses[1] yn Gymraeg, o fewn tŷ ewythr im', oed dŵr dysgedig," Os tybiwn fod yr awdwr yn drigain oed pan ysgrifenodd yr epistol hwn; ac os tynwn allan o hyny ddeugain mlynedd, fel ag i'n dwyn at yr amser y mae yn cyfeirio ato, cawn fod yn rhaid fod y cyfieithiad uchod yn bod mor foreu a 1527—o ddeutu canol teyrnasiad y brenin Harri VIII; a bod yn rhaid ei fod wedi cael ei wneuthur beth amser cyn hyny. Yr oedd yn bod felly gwrs o amser cyn bod un rhan o'r Beibl yn argraffedig yn y Gymraeg, ac hyd yn oed o flaen un argraffiad o hono yn y Seisoneg. Ni ddywedir pwy wnaeth yr hen gyfieithiad hwn, ac nid yw o un budd na dyben dychymygu; pa fodd bynag, nis gellir peidio sylwi fod Tyndal, y cyfieithydd Protestanaidd cyntaf o'r Beibl i'r Seisoneg, yn frodor o Gymru, ac yn byw o ddeutu yr amser hwnw.

Ymddengys fod rhanau bychain a gwahanedig ereill o'r Ysgrythyrau wedi cael eu cyfieithu i'r iaith hon yn nyddiau y brenin Edward VI, a'r rhai a argraffwyd, efallai, at wasanaeth ei *Lyfr Gweddi Cyffredin*. Cyhoeddwyd llyfryn bychan o'r dull hwn, yn 1551, yn nheyrnasiad y brenin hwnw, a chrybwyllir am dano gan y diweddar Mr. J. Ames, ysgrifenydd y Gymdeithas Hynafiaethol. Y mae ei deitl, fel y cafodd ei argraffu gan Ames, yn hynod o anghywir; arwydda, *Rhanau o'r Ysgrythyr*—hwyrach yr epistolau a'r efengylau—*appwyntiedig i'w darllen mewn eglwysi yn amser y cymun, a gwasanaeth cyhoeddus*, &c. *Gan W. S.*

Ymddengys mai hyn, er mor fychan a disylw y meddylir ei fod, ydoedd yr holl effaith a gafodd y Diwygiad, yn y dull hwn, ar y Dywysogaeth, hyd amser y frenines Elizabeth; ond addawyd a chyflawnwyd rhyw bethau amgenach y pryd hwnw. Yn y flwyddyn 1562—yn hytrach, 1563—ordeiniwyd gan y senedd—

"Fod y Beibl, yn cynnwys y Testament Newydd a'r Hen, yn nghyd â'r *Llyfr Gweddi Cyffredin, a Gweinyddiad y Sacramentau*, i gael eu cyfieithu i'r iaith Frytanaidd, neu Gymraeg; fod iddynt gael eu chwilio, eu harolygu, a'u cymmeradwyo, gan esgobion Llanelwy, Bangor, Tŷ Ddewi, Llandaf, a Henffordd; fod iddynt gael eu hargraffu a'u defnyddio yn yr eglwysi erbyn y cyntaf o Fawrth, 1566, o dan ddirwy, os methid cyflawnu, o ddeugain punt ar bob un o'r esgobion uchod.

Fod un copi argraffedig, o leiaf, o'r cyfieithiad hwn, i fod ar gyfer pob eglwys gadeiriol, colegol, a phlwyfol, a phob capel, trwy Gymru, at gael eu darllen gan yr offeiriaid yn amser y gwasanaeth dwyfol, ac ar amserau ereill, er budd a defnydd pob un fydd â meddwl ganddo i fyned i'r eglwys i'r dyben hwnw.

"Fod offeiriaid y wlad hono i ddarllen, hyd oni bydd yr argraffiad hwn o'r Beibl, a'r *Llyfr Gweddi Cyffredin*, wedi ei orphen, a'i gyhoeddi, ar amser addoliad cyhoeddus, yr Epistolau a'r Efengylau, Gweddi yr Arglwydd, Erthyglau y Ffydd Gristionogol, y Litani, a chyfryw ranau ereill o'r *Llyfr Gweddi Cyffredin*, yn yr iaith Gymraeg, yn ol fel y byddo yr esgobion uchod yn cyfarwyddo ac yn appwyntio." Ac—

"Fod, nid yn unig yn y cyfamser, ond dros byth wedi hyny, Feiblau, a Llyfrau Gweddi Cyffredin Seisoneg, i'w cael, ac i fod yn arosol yn mhob eglwys a chapel drwy y wlad hono."

Ni pherthyn i ni, yn bresennol, ymholi yn mha ddull y cyflawnwyd y rhan ddiweddaf o'r gorchymyn. O berthynas i'r rhan flaenaf, yn mhen blwyddyn ar ol yr amser a benodasid gan y senedd, yr oedd y Testament Newydd wedi ei gyfieithu i'r iaith Gymraeg, wedi ei argraffu mewn dull pedwarplyg hylaw, o 399 o dudalenau, â llythyrenau blewog, fel y gelwir hwynt; y llyfrau a'r pennodau wedi eu trefnu a'u rhanu, yn debyg i'n Testamentau presennol ni, gydag *argument*, a chynnwysiad i bob llyfr a phob pennod; gydag eglurhadau ar eiriau dyrys ar ymyl y ddalen, ond heb gyfeiriadau at adranau cyfystyrol—fel, yn wir nid allasai fod, gan nad ydoedd wedi ei ranu yn adnodau, oddi eithr mewn rhai llyfrau tua'r diwedd; yr hyn sydd yn fwy hynod, gan fod y gwahaniaeth hwnw yn mhell cyn hyn mewn argraffiadau Seisoneg o'r Beibl.

O'r argraffiad hwn, cyfieithwyd Llyfr y Datguddiad gan T. H. C. M.—hwyrach mai Thomas Huet, Cantor Menew, hyny yw, Tŷ Ddewi. Yr Ail Epistol at Timotheus, yr Epistol at yr Hebreaid, Epistol Iago, yn nghyd â dau Epistol Pedr, a gyfieithwyd gan D. R. D. M.; hyny yw, y Dr. Richard Davies, Menevensis, neu esgob Tŷ Ddewi. Yr oedd yr oll o'r gweddill o'r cyfieithiad hwn yn waith W. S.; hyny yw, William

[1] Yr oedd cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl, mewn ysgrifen, yn Nghelydd Ifan, yn agos i Ben y bont ar Ogwr, yn sir Forganwg. Ymddengys ei fod wedi cael ei wneyd o'r Lladin, gan un o hynafiaid y teulu oedd yn byw yn y fan hono o ddeutu y flwyddyn 1470. Yr oedd cyfran helaeth o'r gyfrol hon ar gael ychydig flyneddoedd yn ol; ond er pob ymchwiliad, nid oes hanes am dani yn bresennol. Dichon mai ysgrif o Bum Llyfr Moses ydoedd, at yr hwn y mae y Dr. Davies yn cyfeirio. Gallwn hefyd grybwyll ei fod wedi cael ei ddyweyd mai cyfieithiad Seisoneg o Bum Llyfr Moses, a wnaed gan William Tyndal, oedd yr un y gwnaed y cyfieithiad Cymraeg o hono.

Digitized by Google

Salesbury, gŵr tra enwog yn ei ddydd, ac yn mysg ei genedl ei hun, am ei fawr ddiwydrwydd, ei ddysgeidiaeth, a'i dduwioldeb.

Y Testament hwn a argraffwyd yn Llundain, yn y flwyddyn 1567, gan Henry Denham, trwy gost a thraul Humphrey Toy. Dodwyd Calendar o'i flaen, yn nghyd â chyflwyniad "I'r Tywysog rhinweddolaf ac ardderchocaf Elizabeth," &c., gan y prif gyfieithydd; ac epistol maith, yn Gymraeg, at ei gydwladwyr, gan esgob Tŷ Ddewi. Oddi wrth y ddau ddernyn hyn, a'r wynebddalen, deallwn fod y cyfieithiad hwn wedi cael ei wneyd o'r Groeg, wedi ei gymharu â'r Lladin; ei fod wedi cael ei wneyd gyda ffyddlondeb a diwydrwydd, ac mai Salesbury a arolygodd y cwbl, yn enwedig y cyhoeddiad o hono, "trwy benodiad," meddai, "ein Bugeiliaid ffyddlonaf, Esgobion Cymru."

Ond nid oedd un argraphiad neu gyfieithiad o'r Hen Destament yn yr iaith Gymreig am dros ugain mlynedd ar ol y cyhoeddiad hwn o'r Testament Newydd. Ymddengys hyn yn dra hynod; ac nis gellir ond rhyfeddu at y fath oediad, a'r fath anghraifft o anghydsyniad â deddf y senedd.

Y person nesaf oedd â rhan ganddo yn nghyflawniad y gwasanaeth hwn i'w wlad ydoedd, William Morgan, D. D., ficer Llanrhaiadr yn Mochnant, sir Ddinbych. Y boneddwr hwn, am y waith gyntaf er y Diwygiad, a gyfieithodd—o leiaf, oedd â'r llaw benaf mewn cyfieithu—yr oll o'r Hen Destament, ac hefyd yr Apocrypha, i'r Gymraeg. Efe hefyd a adolygodd ac a ddiwygiodd y cyfieithiad blaenorol o'r Testament Newydd; a chafodd eu hargraffu hwynt yn nghyd, yn dda, ac yn hardd, gan Cristopher a Robert Barker, yn y flwyddyn fyth-gofiadwy, 1588. Cyflwynodd un copi o hono i ddeon a glwysgor Westminster, yn gydnabyddiaeth am y caredigrwydd a dderbyniasai gan y corff dysgedig hwnw, yn enwedig gan y deon Goodman. Y mae ar gael eto yn eu llyfrgell. Argraffwyd ef mewn unplyg mawr, â llythyrenau blewog. Cynnwysa yr Hen Destament, yr Apocrypha, a'r Testament Newydd. Y mae iddo gynnwysiad o flaen pob pennod, ac wedi ei ranu yn adnodau drwyddo; y mae iddo rai nodau cyfeiriol; y mae hefyd gyflwyniad Lladin i'r frenines Elizabeth o'i flaen, calendar, ac un neu ddau o dablau ereill, ac wedi ei rifo fel y Testament rhagflaenorol—nid yn du dalenau, ond yn ddalenau, y rhai a wnant 555.

Nid yw yn hysbys pa fodd y daeth y Dr. Morgan i ymgymmeryd â'r gorchwyl. Nid ymddengys ei fod wedi cael ei roddi ar waith gan yr awdurdodau gwladol; nid ymddengys chwaith ei fod wedi cael ei enwi gan yr esgobion—y dirprwywyr yn yr achos hwn. Ond ymddengys yn fwy tebygol ei fod wedi ymaflyd ynddo yn wirfoddol, neu gael ei dueddu yn unig gan ddefnyddioldeb neu yr angen oedd am y gwaith, a chan ddymuniadau a gweddiau pobl dda y wlad. Tybygir y gellir casglu hyn oddi wrth ei ragymadrodd, neu ei gyflwyniad i'w Feibl. Y mae yn hollol ddystaw o berthynas fod un gosodiad neu orchymyn wedi cael ei roddi i'r perwyl; ni chrybwyllir ei fod wedi cael ei benodi gan yr esgobion—ei uchafion, fel y dywed Salesbury yn ei gyflwyniad ef i'r frenines.

Nid ymddengys pa bryd—hyny yw, yn mha flwyddyn, yr ymgymmerodd ac y dechreuodd y cyfieithiad hwn. Nid oes genym un rheswm i dybied ei fod wedi dechreu yn fuan ar ol cyhoeddiad gorchymyn y frenines Elizabeth, neu ei fod wedi dechreu ar unwaith â chyfieithwyr y Testament Newydd. Y mae yn debyg nad oedd wedi gwneuthur dim o hono am hir amser ar ol cyhoeddiad eu cyfieithiad hwy. Nid ydoedd wedi gwneuthur llawer, os dim, cyn gwneuthur Whitgifft yn archesgob Caergaint. Gellir casglu hyn oddi wrth y cyflwyniad uchod. Buasai wedi suddo, meddai, o dan ei anhawsderau a'i anghefnogaethau; buasai wedi gadael a thaflu y cwbl ymaith; neu, ni fuasai wedi dwyn i'r wasg a chyhoeddi ond Pum Llyfr Moses yn unig, oni buasai cynnorthwy a chefnogaeth yr archesgob. Nid iaith person yn cael ei gyflogi a'i gynnal gan ddynion mewn awdurdod yw hon. Iaith un ydyw a ymaflodd yn y gorchwyl o hono ei hunan, a pharhad yr hwn yn y gwaith ydoedd yn dibynu ar ei ewyllys ei hun. Ac y mae yn dangos hefyd nad ydoedd wedi gwneuthur llawer cyn 1583, pan ddyrchafwyd Whitgifft i fod yn archesgob.

Nid ymddengys yn eglur chwaith pa gynnorthwy neu gynnorthwywyr a gafodd yn y gwaith. Diammheu ei fod yn ormod gorchwyl, ac yn rhy lafurus i un dyn. Yr oedd tri o bersonau ar waith yn cyfieithu y Testament Newydd, er fod rhanau o hono wedi cael eu cyfieithu o'r blaen; sef yr epistolau a'r efengylau, y rhai a argraffwyd yn nheyrnasiad Edward VI.; y rhai, fel y mae yn dra thebyg, a ddodwyd yn yr argraffiad cyntaf o'r Testament Newydd, ac efallai, mai y gyfran o hono na ddosrenir yn adnodau ydyw. Y mae gan yr Hen Destament yr Apocrypha yn gysylltiedig âg ef; ac wrtho ei hunan y mae yn llyfr llawer mwy, a'r iaith yn mha un yr ysgrifenwyd ef yn gyffredinol yn llai dealladwy. Y mae yn rhaid fod y gwaith o'i gyfieithu yn fwy anhawdd, ac yn gofyn mwy o amser: gan hyny, mae yn debyg mai y penaf yn y gwaith oedd Dr. Morgan, i ba un yr oedd cynnorthwywyr yn bod: ond pwy ydoedd y cynnorthwywyr hyn sydd anhysbys, ac y mae yr hyn a wnaethant yn fwy anhysbys fyth.

Dywed Wood wrthym ei fod yn cael ei gynnorthwyo gan y Dr. Parry, yr hwn wedi hyny a wnaed yn esgob Llanelwy. Ond meddyliwn fod hyny yn gamgymmeriad, yr hwn a achoswyd o herwydd y rhan a gymmerodd Parry, yn mhen deng mlynedd ar ugain wedi hyny, mewn ail gyfieithiad neu argraffiad o'r Beibl Cymraeg. Pa fodd bynag am hyny, nid yw Morgan ei hun yn son dim am Parry; er ei fod wedi bod yn ofalus i enwi a gwneuthur cydnabyddiaethau dyledus i amryw foneddigion—ei noddwyr teilwng, neu gynnorthwywyr. Y rhai hyn oeddynt archesgob Caergaint, a enwyd o'r blaen; esgobion Llanelwy a Bangor (Dr. Hughes, a Dr. Bellot, y mae yn debyg); Dr. Gabriel Goodman, deon Westminster; Dr. Dafydd Powell, gŵr urddasol, meddai Wood, yn un o'r eglwysi cadeiriol yn Nghymru; Mr. Edmund Prys, archddiacon Meirionydd, awdwr y Salmau Cân yn Gymraeg; a Mr. R. Vaughan, y pryd hyny yn beriglor Lutterworth, ond wedi hyny yn esgob Bangor, a Chaer, ac yn y diwedd yn esgob Lundain.

Y boneddigion hyn a gefnogasant ac a gynnaliasant y cyfieithydd yn ei waith. Rhoddasant iddo ryddfynediad i'w llyfrgelloedd, yr hyn oedd o fawr fantais iddo. Chwiliasant a phrofasant ei gyfieithiad; adolygasant a diwygiasant ef iddo. Tra yr oedd yn arolygu y wasg, yr oedd yn byw gyda deon Westminster. Y mae y pethau hyn yn hysbys oddi wrth gyflwyniad Dr. Morgan i'w lyfr, yn yr hwn y mae yn gwneyd y crybwylliad mwyaf anrhydeddus am ei brif noddwyr a'i

Digitized by Google

gyfeillion. Buasid yn dysgwyl gweled yn y rhestr hon enw Salesbury; efallai ei fod ef wedi marw erbyn hyn, fel ag yr oedd yr esgob Davies hefyd. Gwyddom fod gan y Dr. John Davies ryw law yn y cyfieithiad; ac felly y dichon fod gan bersonau ereill, enwau y rhai, o herwydd rhesymau anhysbys i ni, na roddwyd i lawr.

Fel hyn, ar ol oediad maith o ddeng mlynedd ar ugain, y cyfieithwyd y Beibl Sanctaidd i'r iaith Gymraeg; fel hyn yr argraffwyd ac y cyhoeddwyd ef am y waith gyntaf yn yr iaith hono; ac o'r diwedd y cyflawnwyd dyben y ddeddf a wnaed i'r perwyl hwnw; yr hwn ddyben, ar ol y cwbl, ni wna un ddarpariaeth ond ar gyfer y capeli a'r eglwysi trwy Gymru. Bernir fod nifer yr eglwysi plwyfol yn y Dywysogaeth o ddeutu wyth cant. Chwanegwn at y rhai hyn ar antur y capeli a'r eglwysi cadeiriol a cholegol; a dichon y gall yr holl nifer gyrhaedd naw cant neu fil. Ond y mae yn anhawdd genym feddwl fod yr argraffiad hwn yn ddigon helaeth i gyflenwi cymmaint a hyny o leoedd. Gallasai yr un achosion ag a rwystrasant ac a oedasant y cyfieithiad, grebachu a lleihau nifer yr argraffiad hefyd, a'i wneyd yn rhy fychan, yn rhy brin, ac yn rhy anghyfartal i gyflenwi hyd yn oed angen cyhoeddus y wlad.

Yn gyffredin, ni byddai y nifer a argreffid y pryd hwnw mor helaeth ag y maent yn bresennol, pan y mae darllen wedi dyfod i arferiad cyffredin. Dywedir am Grafton, yr argraffydd, pan yn ceisio braint-ysgrif iddo ei hun i werthu Beiblau Seisoneg, iddo ddefnyddio y rheswm hwn;—ei fod wedi argraffu, trwy draul fawr, nifer lluosog o'r llyfr hwnw, yn cynnwys 1,500 cant o gopïau. Os ystyrid pymtheg cant o gopïau yn nifer mawr yn Lloegr, buasai hanner, neu chwarter hyny, yn cael ei ystyried yn nifer helaeth iawn ar gyfer Cymru; ac felly, os na byddai ond pump neu chwe chant o gopïau yn cael eu hargraffu ar unwaith, gallasai fod, er y cyflenwad hwn, lawer o gapeli ac eglwysi yn y wlad hon eto yn amddifaid o Feiblau. Gallwn farnu fod y ddarpariaeth a wnaed yn awr yn gyfartal â nifer y lleoedd y bwriedid eu diwallu; canys felly yr ymddengys fod y gyfraith yn gofyn; ac o herwydd ei fod yn iawn, mai felly y dylasai fod. Ond nid yw yn canlyn ei fod felly, mwy nag ydoedd fod y cyfieithiad a'r argraffiad i gael eu gorphen erbyn y 1af o Fawrth, 1566, am fod y senedd wedi gorchymyn hyny. Ond pa fodd bynag yr oedd y pethau hyn yn bod, pa un bynag a ydoedd y ddarpariaeth y pryd hwn yn gyfartal neu beidio, y mae y cyfieithiad hwn wedi myned trwy gyfnewidiadau mawrion wedi hyny.

Gwnaed y cyfieithiad o'r Testament Newydd, a gyhoeddwyd yn argraffiad 1588, fel y gwelsom, gan Salesbury a Davies, ac ni wnaeth Morgan ond ei arolygu a'i ddiwygio yn unig. O herwydd rhyw reswm neu gilydd, arolygodd a diwygiodd Morgan ef drachefn, ac yr ydoedd yn barod i'r wasg pan y bu efe farw, yn 1604. Pa un a ydoedd yn bwriadu ail-argraffu yr holl Feibl (a diammheu mai hyny oedd ei amcan)—pa un a ydoedd am gael ond cyflawnder pellach i'r eglwysi yn unig, neu ynte ddarpariaeth helaethach ar gyfer y wlad—sydd, ac y mae yn debyg raid fod, dros byth yn anhysbys; ac y mae hefyd yn anhysbys pa un a gyhoeddwyd y cyfieithiad diwygiedig hwn o'r Testament Newydd erioed ai peidio.

Ond yn nheyrnasiad Iago y Cyntaf, aeth cyfieithiad y Testament Newydd, yn gystal a chyfieithiad yr Hen Destament, o dan arolygiaeth a diwygiad y Dr. Richard Parry, olynydd y Dr. Morgan yn esgobaeth Llanelwy. Ymddengys fod y cyfnewidiadau a wnaed o herwydd yr arolygiad hwn gymmaint, fel ag i'n galluogi ni, pe dewisem, i alw yr hyn a gyhoeddwyd y pryd hwnw yn gyfieithiad newydd o'r Beibl i'r Gymraeg; fel y darfu i'r brenin Iago, a'r personau a ddefnyddiwyd ganddo ef, o ddeutu yr un amser, yn nghyhoeddiad y Beibl Seisoneg, alw eu diwygiadau a'u cyfnewidiadau hwy yn gyfieithiad newydd o'r Beibl i'r iaith Seisoneg.

Y mae y cyfieithiad diwygiedig neu newydd hwn o'r Beibl Cymraeg yn dra thebyg i'r un a ddefnyddir yn bresennol. Gellir ei ystyried fel y prif gyfieithiad yn yr iaith hono, fel yr ystyrir cyfieithiad y brenin Iago yn yr iaith Seisoneg. Argraffwyd ef yn Llundain gan Norton a Bill, argraffwyr i'w fawrhydi, yn y flwyddyn 1620. Y mae y copi o'r argraffiad hwn, a gyflwynwyd i'r brenin, yn bresennol yn y British Museum. Argraffiad mawr unplyg ydyw, wedi ei argraffu â llythyrenau blewog, ac wedi ei ddosranu fel yr argraffiad blaenorol. Y mae ynddo gynnwysiad helaeth i'r pennodau, a nodau cyfeiriol Beibl y brenin Iago ar ymyl y ddalen; ac y mae o'i flaen *galendar* a chyflwyniad Lladinaidd *sacro-sanctæ et individuæ Trinitati*, &c., ac i'r brenin Iago; yn mha un y mae y golygydd yn rhoddi i ni ychydig o hanes yr argraffiad, ac o'i gymhelliadau i'w gyflawnu.

Dywed wrthym yn hwnw, ei fod wedi cymmeryd cryn ryddid ar y cyfieithiad blaenorol, gan ei gyfnewid a'i ddiwygio yn y fath fodd fel y gallai ymddangos yn ammheus pa un a ystyrid y cyfieithiad a gyhoeddid ganddo ef yn awr yn un Parry neu yn un ei ragflaenwyr.

Ei annogaethau neu gymhelliadau er ymaflyd yn y gorchwyl a chwanega yn y geiriau hynod canlynol:—"Fod yr argraffiad blaenorol o'r Beibl wedi darfod; a llawer, os nad y rhan fwyaf o'n heglwysi, un ai heb yr un, neu heb fod ganddynt ond copïau anmherffaith, ac wedi eu treulio allan; a neb, can belled ag yr wyf yn gwybod, yn meddwl am ail argraffiad. Yn yr olwg yma ar y mater, ac yn cael fy nghymhell gan yr ystyriaethau hyn, ymgymmerais â'r gwaith o ddiwygio ein cyfieithiad; ac fel y gwnaethpwyd yn ddiweddar ar ran Lloegr, aethym i barotoi cyflenwad ar gyfer angen fy ngwlad, trwy wneyd argraffiad newydd o'r Beibl Cymraeg, mewn gwell a chywirach cyfieithiad."

Yr oedd y Dr. John Davies, awdwr dysgedig y *Geirlyfr Lladin a Chymraeg*, yn gaplan i'r esgob uchod. Cyhoeddodd Davies ei *Ramadeg o'r iaith Gymraeg*, yn Lladin, yn 1621, y flwyddyn ar ol dyddiad Beibl Parry. Cyflwynodd ei lyfr i'w esgob, ei noddwr. Yn y rhagymadrodd i'r llyfr hwnw, dywed wrthym, ei fod am ddeng mlynedd ar ugain wedi treulio rhan fawr o'i amser yn efrydu iaith ei gydwladwyr, a bod ganddo ryw ran yn y ddau gyfieithiad a wnaed o'r Beibl iddi.

Yr ydoedd felly yn cynnorthwyo ein dau brif gyfieithwyr o'r Beibl. Yr oedd ganddo ran helaeth yn yr ail gyfieithiad a'r argraffiad o'r Beibl Cymraeg; ac ni ddylid ei adael heb ei grybwyll, mewn cais i waredu rhag syrthio i ddifancoll a thywyllwch, goffadwriaeth ac enwau y personau oedd â rhan yn y gorchwyl. Ymddengys ei fod ef yn neillduol o gymhwys i'r fath waith. Yr ydoedd yn hollol hyddysg yn yr iaith Gymraeg. "Ystyrid ef," meddai Wood, "yn dra

Digitized by Google

hyddysg yn hanes a hynafiaethau ei genedl ei hun, yn dra chydnabyddus â'r ieithoedd Groeg a Hebraeg, yn feirniad manwl, yn ddyn llafurus, ac yn hysbys o awdwyr hynod ac anghyffredin."

Y mae yr holl argraffiadau diweddarach, ar y cyfan, yn cytuno â'r argraffiad hwn a wnaed yn 1620. Dichon fod ychydig o wahaniaeth, ond nid ydynt o fawr bwys; y maent, o berthynas i'r maintioli, y llythyren, neu y papyr, ac o berthynas i'r llythyreniad, neu y newidiad yn llythyrenau blaenaf rhai geiriau; y maent hefyd o berthynas i eiriau chwanegol, neu i ddodi mewn priflythyrenau y cyfryw eiriau ag sydd yn cyfateb i Iehofah, Arglwydd, Duw, &c., y rhai a argreffir mewn priflythyrenau yn Seisoneg; neu y maent o berthynas i ddarlleniadau a chyfeiriadau ar ymyl y ddalen, neu i ddosraniad y pennodau yn adranau. Mewn rhai argraffiadau, y mae blwyddyn oed y byd wedi ei argraffu ar ben neu ar ochr y tudalen; chwanega rhai fapiau, taflenau amseryddol, a thablau arian, pwysau a mesurau Iuddewig, Groegaidd, a Rhufeinaidd. Er mwyn addasu y llyfr at wasanaeth eglwysig, noda rhai y Salmau am y dydd o'r mis, a'r gwasanaeth boreuol a phrydnawnol, a'r pennodau yr un fath a osodwyd yn llithoedd boreuol a phrydnawnol trwy yr Hen Destament. Yn y pethau hyn a'u cyffelyb, dichon fod ychydig o wahaniaeth: ond mewn ystyr arall, ac yn gyffredinol, nid ydyw yr oll a gyhoeddwyd wedi hyny ond adargraffiadau o gyfieithiad ac argraffiad 1620.

Nid oes ond un argraffiad unplyg arall wedi bod o hono. Daeth allan yn mhen deng mlynedd a thrigain ar ol hyn, yn 1690. Argraffwyd ef yn Rhydychain, nid â llythyrenau blewog, ond â llythyrenau Rhufeinaidd cyffredin; yn mhob peth arall y mae mor debyg fel nad yw yn gofyn un darluniad neillduol. Gelwir hwn weithiau yn Feibl yr esgob Llwyd, am y bernir fod ganddo ef ryw ran yn ei gyhoeddiad. Efe, fel yr ydym yn canfod, yw awdwr yr amseryddiaeth, a llawer o'r cyfeiriadau, sydd yn y rhan fwyaf o'n Beiblau Seisoneg, yn enwedig y rhai pedwarplyg. Dywedwyd wrthym fod yr amseryddiaeth a'r cyfeiriadau hyn wedi cael eu chwanegu at yr argraffiad hwn o'r Beibl Cymraeg. Pa beth arall o waith yr esgob dysgedig sydd ynddo, nid ydym yn gwybod. Yr oedd dygiad yr argraffiad yn mlaen wedi ei ymddiried i ofal Mr. Pierce Lewis, beneddwr o sir Fon, ag oedd y pryd hwnw yn Ngholeg Iesu, Rhydychain, yr hwn a gyflawnodd ei orchwyl yn gywir ac yn dda.

Nid yw nifer y copïau a gyhoeddwyd yn yr argraffiadau unplyg hyn yn wybyddus. Yr oeddynt yn benaf, os nad yn hollol, wedi eu bwriadu ar gyfer yr addoliad cyhoeddus; ac o herwydd amryw resymau, gallwn farnu na byddai nifer y copïau a argreffid byth yn cyrhaedd dros, os byddai cymmaint a nifer yr eglwysi.

Am dros ddeng mlynedd a thrigain, o amser cadarnhad y Diwygiad gan y frenines Elizabeth, am yn agos i gan mlynedd er ysgariad Prydain oddi wrth Eglwys Rhufain, nid oedd dim Beiblau yn Nghymru, ond yn unig yn yr eglwysi plwyfol, a'r capeli perthynol iddynt.

Y mae yr anrhydedd o barotoi, am y waith gyntaf, ddarpariaeth o'r natur yma ar gyfer trigolion Cymru yn ddyledus i un neu chwaneg o ddinasyddion Llundain, y rhai, oddi ar ofal anrhydeddus a haelionus am les eu cyd-ddeiliaid, a ddygasant allan argraffiad wythplyg o'r Beibl Cymraeg yn y flwyddyn 1630, yn nheyrnasiad Siarl I., ar eu traul eu hunain.

Y mae yn hyfrydwch neillduol genym enwi rhai o'r personau hyn. Yr ydym yn ei wneyd gyda diolchgarwch a pharchedigaeth mawr i'w coffadwriaeth; a dymunem fod enwau yr oll oedd â rhan yn nygiad yn mlaen y gwaith hwn yn cael eu coffau gyda pharch, a'u cadw mewn coffadwriaeth parhaus.

Dywed Mr. Strype wrthym, fod Mr. Rowland Heylin, un o henaduriaid Llundain, ond a darddasai o Gymru, yn nechreu teyrnasiad Siarl I., wedi peri gwneuthur yn haelionus ac anrhydeddus, ar ei draul ei hun, argraffiad o'r Beibl Cymraeg mewn plygiad mwy hylaw, gan mai mewn plygiad mawr yn unig yr ydoedd cyn hyn, at wasanaeth yr eglwysi. Yr argraffiad cyntaf mewn plygiad hylaw yw un 1630, ac felly a raid fod yr argraffiad y mae Mr. Strype yn cyfeirio ato, ac a ystyrid ganddo ef fel wedi cael ei argraffu yn hollol ar draul a chost yr henadur teilwng hwnw. Yr oedd Mr. Strype yn camsynied wrth briodoli y mater hwn yn gwbl i Mr. Heylin. Yr oedd Syr Thomas Middleton, brodor o Gymru, yr hwn oedd ynad yr heddwch hefyd, ac yn un o henaduriaid Llundain, yn gynnorthwywr ag yn gyfranwr haelionus at y gwaith da hwn. At y ddau henadur hyn, y mae y diweddar Barch. Griffith Jones, o Landdowror, yn chwanegu ereill o ddinaswyr Llundain, enwau y rhai y dymunasai eu cael, ond nid oedd yn alluog i'w henwi. I gaređigrwydd a haelfrydedd unedig y boneddigion hyn y mae Cymru yn ddyledus am yr argraffiad cyntaf o'r Beibl mewn plygiad hylaw ac am bris isel.

Yn y flwyddyn 1654, gwnaed ail argraffiad o'r Beibl hwn mewn wythplyg, yn gynnwysedig o chwe mil o gopïau. Hon ydyw y waith gyntaf yr ydym yn cyfarfod â nifer y copïau oedd yn gynnwysedig mewn un argraffiad. Yr ydym yn ddyledus am hyn i Mr. Charles Edwards, awdwr *Hanes y Ffydd*. Nid yw Edwards yn ein hysbysu i bwy yn neillduol yr ydym yn ddyledus am y cyflenwad helaeth hwn, fel y rhaid ei fod yn cael ei ystyried y pryd hyny.

Y Beibl hwn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1654; sef y flwyddyn gyntaf o lywyddiaeth Oliver Cromwell. Yn y cyfnod hwn, yr oedd gwedd yr amseroedd, a thueddiad y bobl—y bobl mewn awdurdod, a'r bobl hefyd yn gyffredinol—yn grefyddol. Ymlyniad at yr Ysgrythyrau oedd y broffes gyffredinol. Gwybodaeth ysgrythyrol oedd mewn bri, ac iaith ysgrythyrol oedd yr iaith mewn ymarferiad. Cymmerid brawddegau ysgrythyrol i fyny, a chymhwysid hwynt ar bob achlysur a dygwyddiad. "Arglwydd y lluoedd," "Duw gyda ni," &c., oeddynt arwydd-eiriau yr amseroedd, gair y frwydr, cri byddinoedd, ac arddelw arian, bathodau, ac ysgrifau. Yr amseroedd hyn a ddygasant allan Feibl amlieithawg Llundain. Parodd y dymmer a'r duedd hon o eiddo y bobl Ddeddf er Lledaeniad yr Efengyl yn Nghymru, ac amryw reolau o berthynas i grefydd. Nid rhyfedd, gan hyny, os parai gyhoeddiad o'r Beibl Cymraeg, fel yn briodol ac yn angenrheidiol at rymuso a sefydlu eu deddf a'u cyfarwyddiadau eu hunain.

Yn mhen ychydig amser, yr oedd yr argraffiad hwn wedi darfod, a daeth Beiblau yn brin ac yn ddrud. Wedi ymholi yn 1674, nid oedd dros ugain o gopïau i'w cael ar werth yn ninas Llundain, ac nid oedd dros ddeuddeg ar ugain ar werth trwy Loegr a Chymru. Achlysurodd hyn argraffiad wythplyg arall, yr hwn a ddaeth allan

Digitized by Google

yn 1678, yn cynnwys wyth mil o gopiau—y nifer mwyaf a gyhoeddwyd mewn un argraffiad eto o lawer—mil o ba rai a roddwyd ymaith yn union yn mysg y tlodion, a'r lleill a gadwyd ac a roddwyd mewn lleoedd priodol i'w gwerthu yn ol pedwar swllt yr un yn rhwym.

Y mae hanes yr argraffiad hwn, nifer y llyfrau a gynnwysai, a'r dull o'u gwerthu, yn fwy hysbys, ac hwyrach y pery felly, nag un argraffiad arall o'r unrhyw lyfr. Mae hyn yn ddyledus i'r archesgob Tillotson, yn mysg gweithiau yr hwn y mae pregeth ar farwolaeth Mr. Thomas Gouge, yr hwn a gymmerodd ran helaeth yn ei gyhoeddiad.

Cafodd yr argraffiad blaenorol (Beibl Cromwell, os gellir ei alw felly), ei argraffu yn dra gwallus. Yr oedd geiriau cyfain, a rhanau o ymadroddion, wedi cael eu gadael allan. Er diwygio y gwallau hyn, ac er attal ereill yn yr argraffiad presennol, ymgymmerodd y Parch. Stephen Hughes, o Abertawy, sir Forganwg, y gofal o arolygu y wasg: a chan ei fod yn ŵr o ddysg, ac yn berffaith hyddysg yn yr iaith Gymraeg, cafodd yr argraffiad hwn ei wneuthur yn dda, a daeth allan yn dra chywir.

Y mae yn rhaid fod yr ymdrechiadau duwiol a haelionus hyn o eiddo Gouge, Hughes, ac ereill, yn cael dylanwad helaeth ar Gymru. Y mae yn rhaid fod yr ysgolion a osodwyd i fyny ac a gynnaliwyd yn ngwahanol ranau y wlad, a'r llyfrau a gyfieithwyd ac a gyhoeddwyd at wasanaeth y trigolion, wedi taenu gwybodaeth yn eu mysg, a rhoddi iddynt archwaeth at ddarllen. Y canlyniad o hyn ydoedd, i'r argraffiad helaeth hwn o'r Beibl ddarfod yn mhen ychydig flyneddau, a daeth y llyfr eto yn brin ac yn ddrud. Bu Mr. Gouge farw yn 1681, yn mhen dwy neu dair blynedd ar ol i'r argraffiad uchod ddyfod allan, ac felly cyn i'r angen am un arall gael ei deimlo; ond bu Mr. Hughes fyw yn ddigon hir i'w ganfod, ac i ymegnio yr ail waith yn y gorchwyl hwn. Gosododd ar droed argraffiad arall, ond ni bu fyw i weled ei orphen. Bu farw o ddeutu y flwyddyn 1687, ond ni chyhoeddwyd yr argraffiad wythplyg nesaf o'r Beibl hyd 1690.

Yr oedd yr argraffiad hwn yn lluosocach ei nifer nag un rhai blaenorol. Nis gellir dyfod o hyd i wir nifer y copïau a gynnwysai; ond dywedir wrthym gan y Dr. Calamy, fod o ddeutu deng mil o gopïau wedi cael eu dosbarthu yn Nghymru gan y golygydd, y Parch. David Jones (offeiriad a ddeolwyd o Landysilio, sir Gaerfyrddin, o herwydd Deddf yr Unffurfiad), yr hwn, fel y dywedir, a gymmerodd fawr boen i argraffu a lledaenu y Beibl Cymraeg. Ymddengys mai prif noddwr yr argraffiad hwn oedd arglwydd anrhydeddus o deulu Wharton; meddylir mai Thomas, barwn Wharton, wedi hyny is-iarll Winchendon, iarll ac ardalydd Wharton yw; yr hwn ydoedd Brotestant selog, ac yn gefnogwr y Chwyldroad, yn was ffyddlawn i'r brenin William, ac yn un o weinidogion y frenines Anne yn y rhan fwyaf enwog o'i theyrnasiad. Yr oedd Jones yn cael ei noddi yn y gorchwyl hwn gan bersonau anrhydeddus ereill heb law arglwydd Wharton, a chafodd ei gynnorthwyo yn haelionus gan rai o weinidogion a dinaswyr Llundain.

Argraffiad 1690 oedd y diweddaf yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Hwn oedd y pedwerydd argraffiad mewn wythplyg, a'r seithfed o gwbl o'r llyfr cyn y cyfnod hwnw. Nid yw wedi cael ei argraffu mor drefnus, nid yw ar gystal papyr, na chyda llythyren mor dlws a'r un blaenorol; onid e, o ran maint, a nifer y lleni, y maent yn lled gyffelyb, ac yn debyg i amryw argraffiadau Seisoneg o'r Beibl o ddeutu yr un amser.

O fewn yr hanner canrif ganlynol, y mae pedwar o argraffiadau wedi bod o'r Beibl Sanctaidd. Y cyntaf a gyhoeddwyd yn 1718, yr ail yn 1727, y nesaf yn 1746, a'r diweddaf yn 1752. Y maent oll mewn wythplyg. Y mae yr ail braidd yn llai na'r lleill; y mae hefyd heb gynnwysiad i'r penodau, ac heb gyfeiriadau ar ymyl y ddalen; ac o herwydd hyny ni chafodd erioed ei brisio gymmaint gan y bobl, er mwyn pa rai y cyhoeddwyd ef. Y tri argraffiad arall ydynt mewn wythplyg mawr a hardd, ar bapyr a llythyren dda. Mae ynddynt yr Apocrypha, y cynnwysiadau, a'r cyfeiriadau. Y mae blwyddyn oed y byd ar ben y ddalen; a llithoedd yr Eglwys wedi eu nodi yn yr Hen Destament, a'r Salmau, ar gyfer y gwasanaeth boreuol a phrydnawnol am bob dydd yn y mis. Y mae ynddynt hefyd yn chwanegol fynegai neu amseryddiaeth ysgrythyrol, taflenau o bwysau a mesurau, y Salmau cân, rhai hymnau, a ffurf o weddïau.

Y mae y Beibl a argraffwyd yn 1718 yn gyffredin yn cael ei alw yn "Feibl Moses Williams," o herwydd mai y Parch. Moses Williams a arolygodd y wasg i'r argraffiad hwnw. Yr oedd y gwr hwn yn ficer Dyfynog, yn sir Frycheiniog, yn foneddwr o ddysg, a deallai y Gymraeg a'r ieithoedd dysgedig yn dda. Cyfieithodd amryw lyfrau i'r Gymraeg. Cynnorthwyodd y Dr. Wotton yn nghyhoeddiad ei *Leges Wallicæ*. Rhoddodd yn niwedd ei Feibl, egluriadur, neu gyfieithiad o enwau Hebreaidd a Groegaidd; ac ystyrir fod ei argraffiad ef wedi cael ei wneyd yn gywir ac yn dda.

Gellir galw Beiblau y ddau argraffiad diweddaf hyn, o herwydd yr un rheswm, yn Feiblau Mr. Morris, oddi wrth enw y boneddwr a arolygodd y wasg i'r ddau—boneddwr ag oedd yn dra hyddysg yn iaith a hanes ei wlad, ac mor barod i gyfranu ei wybodaeth ag ydoedd helaeth o honi. Gwnaed argraffiad 1746 yn Nghaergrawnt; ac y mae ynddo amryw wallau argraffyddol, a achlysurwyd o herwydd fod arolygydd y wasg yn byw yn Llundain, mewn pellder oddi wrth y wasg. Yr oedd argraffiad 1752 yn fwy o dan sylw yr arolygydd, o herwydd ei fod yn cael ei wneyd yn Llundain (lle y gwnaed yr holl argraffiadau ereill, oddi eithr yr un uchod, ac un unplyg 1690); ac y mae mor gywir ag unrhyw argraffiad a wnaed o'r llyfr sanctaidd.

Y mae Cymru yn fwy neu lai dyledus i'r Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol am bob argraffiad a wnaed a fewn y ganrif diweddaf. Hwynthwy oeddynt brif gynnorthwywyr argraffiad 1718. Goddefwyd i ereill danysgrifio, ac i gael, am bris penodol, unrhyw nifer o lyfrau, mewn cyfartaledd i'w tanysgrifiadau. Y mae hyn yn ymddangos oddi wrth y rhaghysbysiadau a roddwyd o'r argraffiad a wnaed gan y gymdeithas yn 1714, ac yn ymddangos yn dra theg, ac yn debyg o fod yn wir. O berthynas i argraffiad 1727, nid oes genym un hysbysiad neillduol. Yr ydym yn ei briodoli i'r gymdeithas, o herwydd ei bod yn cynnwys y personau mwyaf tebyg y gellir meddwl am danynt i fod yn noddwyr ac yn annogwyr iddo. Y mae yn eithaf hysbys fod y ddau argraffiad arall wedi cael eu gwneyd ar eu traul. Yr oeddynt yn gynnwysedig o ddeng mil ar ugain o Feiblau, a chostiasant i'r gymdeithas o ddeutu chwe mil o bunnau, a galluogwyd hi i

ddwyn y draul fawr hon trwy gyfraniadau haelionus lliaws o bersonau mewn gwlad a thref. Dosbarthwyd y llyfrau yn Nghymru gan mwyaf gan aelodau y gymdeithas, neu ei chefnogwyr; a gorchymynwyd fod iddynt gael eu gwerthu am bedwar swllt a chwe cheiniog y Beibl, yn rhwym. Ac am y cyflenwad mawr a haelionus hwn, fe ddylai y gymdeithas gael cydnabyddiaeth diolchgar pob Cymro.

Diehon y byddai yn fanteisiol rhoddi mewn trefn amseryddol yr holl argraffiadau o'r Beiblau a'r Testamentau, &c., a gyhoeddwyd yn Gymraeg, hyd oni sefydlwyd y Feibl Gymdeithas, ac o'r pryd hwnw hyd yr amser presennol.

Y crybwylliad cyntaf am gyfieithiad Cymraeg o unrhyw ran o'r Beibl a wneir, fel yr hysbyswyd yn flaenorol, gan y Dr. R. Davies, esgob Tŷ Ddewi, yr hwn a ddywed fod cyfieithiad mewn llawysgrifen o Bum Llyfr Moses yn bod o ddeutu y flwyddyn 1527.

Cafodd amryw ranau o'r Beibl eu cyfieithu i'r Gymraeg yn ystod teyrnasiad Edward VI., at wasanaeth y *Llyfr Gweddi* a wnaed y pryd hwnw.

1551.—Argraffwyd yr Efengylau a'r Epistolau, o gyfieithiad W. Salesbury.

O ddeutu yr un flwyddyn, cyhoeddwyd y Credo, Gweddi yr Arglwydd, a'r Deg Gorchymyn, gan Syr John Price.

1567.—Y Testament Newydd, mewn pedwarplyg bychan, o gyfieithiad W. Salesbury.

1588.—Yr holl Feibl yn cynnwys yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyd â'r Apocrypha, mewn unplyg, o gyfieithiad y Dr. Morgan. Bernir fod nifer y copïau a argraffwyd o ddeutu 500, ond nid oes sicrwydd am hyny.

1603.—Y Salmau ar gân, gan y cadben Gwilym Canoldref. Cyhoeddwyd hwynt yn Llundain, gan Thomas Salesbury.

1620.—Yr holl Feibl, yn cynnwys yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyd â'r Apocrypha, o gyfeithiad y Dr. R. Parry. Nifer y copïau a argraffwyd ydoedd 500; ac yr oeddynt yr un fath o ran plygiad a llythyren a Beibl y Dr. Morgan.

1630.—Yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyd â'r Apocrypha, Llyfr Gweddi Gyffredin, a'r Salmau Cân, mewn wythplyg bychan. Yr argraffiad hwn a gyhoeddwyd trwy haelioni rhai o ddinaswyr Llundain ac ereill, at wasanaeth y Cymry. Nid yw nifer y copïau a argraffwyd yn wybyddus.

1647.—Y Testament Newydd, mewn deuddegplyg, heb gynnwysiad i'r pennodau—1,000 o gopïau.

1648.—Ail argraffiad o'r Salmau Cân, gan yr archddiacon Prys, mewn deuddegplyg,

1654.—Yr holl Feibl, mewn wythplyg bychan—6,000 o gopïau. Gelwir hwn, weithiau, yn Feibl Cromwell.

1654.—Argraffiad ar wahan o'r Testament Newydd, mewn wythplyg—1,000 o gopïau; wedi ei argraffu â llythyren frasach na'r Beibl, o'r un dyddiad.

1672.—Y Testament Newydd, gyda'r Salmau, mewn rhyddiaith ac ar gân. Yr argraffiad hwn a gyhoeddwyd o herwydd tanysgrifiadau a wnaed at hyny yn Nghymru a Lloegr. Argraffwyd ef mewn wythplyg, a chynnwysai 2,000 o gopïau.

1678.—Yr holl Feibl, yn nghyd â'r Llyfr Gweddi Gyffredin, mewn wythplyg—8,000 o gopïau, argraffedig yn Llundain.

1690.—Y Beibl, mewn wythplyg—10,000 o gopïau Yr argraffiad hwn a gyhoeddwyd gan y Parch. D. Jones, o Landysilo, trwy gynnorthwy arglwydd Wharton, ac ereill.

1690.—Y Beibl, mewn wythplyg—1,000 o gopïau; argraffedig yn Rhydychain at wasanaeth yr eglwysi. Gelwir ef yn "Feibl yr esgob Llwyd."

1718.—Y Beibl, mewn wythplyg—10,000 o gopïau; argraffedig yn Llundain. Hwn yw yr argraffiad cyntaf a gyhoeddwyd o dan nawdd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, ac a arolygwyd gan y Parch Moses Williams. Y mae yn cynnwys yr Apocrypha, y Salmau Cân, ychydig hymnau, a ffurf o weddïau; hefyd, cyfeiriadau ar ymyl y ddalen, a chynnwysiad i'r pennodau.

1727.—Y Beibl, mewn wythplyg—5,000 o gopïau; argraffedig yn Llundain. Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn dan yr un nawdd a'r un diweddaf. Nid oes ynddo gyfeiriadau na chynnwysiad i'r pennodau; ac o herwydd hyny, ni chafodd ei brisio nac ymofyn ar ei ol gymmaint gan y bobl.

1746.—Y Beibl, mewn wythplyg—15,000 o gopïau; Caergrawnt. Hwn oedd y trydydd argraffiad a ddygwyd allan o dan nawdd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Y mae yn cynnwys yn agos yr oll a gyhoeddwyd yn argraffiad 1718; a dygwyd ef drwy y wasg o dan arolygiaeth Mr. R. Morris, o'r Swyddfa Forawl, yr hwn ydoedd ysgolhaig Cymraeg enwog. Yn yr argraffiad hwn, a'r un dilynol, mabwysiadwyd yr un llythyreniad ag a wnaed yn Meibl yr esgob Llwyd.

1752.—Y Beibl, mewn wythplyg—15,000 o gopïau; Llundain. Yr argraffiad hwn, yr un fath a'r un a wnaed yn 1746, a gyhoeddwyd dan arolygiaeth Mr. Morris, ar draul y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol.

1752.—Y Testament Newydd, gyda'r Salmau, mewn wythplyg—2,000 o gopïau; Llundain. Argraffwyd hwn oddi wrth yr un a wnaed yn 1672 gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Gwnaed amryw adargraffiadau o hono yn yr Amwythig.

1769.—Y Beibl, mewn wythplyg—20,000 o gopïau; Llundain. Cyhoeddedig gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Yr un llythyreniad ag sydd yn Meibl yr esgob Llwyd.

1770.—Y Beibl, mewn pedwarplyg, Caerfyrddin, gyda sylwadau gan y Parch. Peter Williams. Y mae hwn wedi cael ei adargraffu, o leiaf ddeuddeg o weithiau, yn Nghaerfyrddin, ac argraffiadau cyffelyb a wnaed mewn manau ereill o Gymru. Y mae yr un Beibl wedi cael ei argraffu mewn unplyg, gyda cherfluniau, gan Fisher a'i gyf., Llundain.

1779.—Y Testament Newydd.

1789.—Y Beibl, mewn unplyg, Llundain. Argraffiad o ychydig nifer oedd hwn, wedi ei wneuthur at wasanaeth yr eglwysi gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol.

1790.—Y Beibl, mewn deuddegplyg, gyda chyfeiriadau Mr. John Canne; argraffedig yn Nhrefecca, yn sir Frycheiniog, o dan arolygiaeth Mr. Peter Williams Gwnaed argraffiad o'r un Beibl wedi hyny yn Nghaerfyrddin.

1799.—Y Beibl mewn wythplyg—10,000 o gopïau; a'r Testament Newydd wedi ei argraffu ar wahan (hefyd wythplyg)—2,000 gopïau. Yr argraffiadau hyn a wnaed o dan arolygiaeth y Parch. John Roberts, yn Rhydychain, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol.

1800.—Y Testament Newydd, mewn wythplyg, a argraffwyd yn Rhydychain, heb gynnwysiad i'r pennodau cyfeiriol.

Yr argraffiadau a nodwyd uchod—oddi eithr 10,000 o gopïau o'r Testament Newydd mewn gwahanol blygiadau, a argraffwyd yn yr Amwythig yn y flwyddyn 1800—oedd yr oll a wnaed cyn ffurfiad y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor. Yr argraffiad helaeth a wnaed yn 1799, a werthwyd mor fuan ag y cyhoeddwyd ef; ac nid oedd y bedwaredd ran o'r wlad wedi ei diwallu. Fel mai prinder Beiblau yn Nghymru a arweiniodd i sefydliad y gymdeithas, felly un o'i gweithredoedd cyntaf, wedi cael ei sefydlu, ydoedd cais i gyfarfod â'r angen hwn oedd ar y Cymry am Feibl. Penderfynodd y gymdeithas, yn 1804, wneyd argraffiad o'r Beibl a'r Testament Cymraeg. Y nifer a orchymynwyd

Digitized by Google

ydoedd 20,000 o Feiblau deuddegplyg, gyda 5,000 o Destamentau yn chwanegol mewn llythyren frasach. Yr argraffiad a ddewiswyd yn gynllun ydoedd yr un a wnaed yn Rhydychain yn 1799; a derbyniwyd gwasanaeth y Parch. T. Charles, o'r Bala, i barotoi copi i fyned i'r wasg. Yn y flwyddyn 1805, amlygodd y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol ei bwriad o wneyd argraffiad o 20,000 o gopïau o'r Beibl Cymraeg, yn unol â llythyreniad yr un a wnaed yn 1746, ond rhoddodd y flaenoriaeth wedi hyny i argraffiad 1752. Er mwyn gochel yr anghyfleusdra o anghyssondeb rhwng eu hargraffiadau, penderfynodd y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor y gwnai hithau hefyd fabwysiadu yr un testyn; a daeth ei hargraffiad, wedi ei barotoi oddi wrth y safon hon, drwy y wasg yn 1806. Y mae nifer y copïau a ddosbarthwyd ar wahanol amserau gan y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, gan gynnwys hwn eu hargraffiad cyntaf, o'r flwyddyn 1806 hyd fis Mawrth, 1855, fel y canlyn:—

| | |
|---|---|
| Beiblau | 417,489 |
| Testamentau | 479,567 |
| Dwy-ieithawg, Cymraeg a Seisoneg | 36,166 |
| Y cyfanswm | 933,222 |

Y mae argraffiadau helaeth ereill wedi cael eu cyhoeddi gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol o fewn yr hanner canrif ddiweddaf; ond er pob ymdrech, methwyd cael cyfrif o'r rhifedi. Y mae y cynnydd yn lledaeniad yr Ysgrythyrau yn Nghymru, er y pryd hyny, yn hynod o galonogol. Gan chwanegu nifer y copïau a ddosbarthwyd gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, a'r rhai a wnaed gan bersonau unigol, at y nifer a ddosbarthwyd gan y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, y mae cyfanrif nifer y copïau a argraffwyd o'r Beiblau a'r Testamentau Cymreig mewn gwahanol fanau, ac ar wahanol amserau, yn fwy na *miliwn* o gopïau. Nid oes un genedl arall ar wyneb yr holl ddaiar wedi cael y fath gyflenwad o'r Ysgrythyrau Sanctaidd yn eu tafodiaith eu hunain.

BEIBL GYMDEITHAS FRYTANAIDD A THRAMOR [*The British and Foreign Bible Society*]: a sefydlwyd y 7fed o Fawrth, 1804. Yr oedd cymdeithasau wedi eu sefydlu yn flaenorol, i'r dyben o ledaenu yr Ysgrythyrau, yn hollol neu mewn rhan. 1af. Y *Society for Promoting Christian Knowledge*, a sefydlwyd yn 1698, oedd y gyntaf o'r rhai hyn. Gosodai hon o'i blaen, fel ei hamcan, sefydlu ysgolion rhad, lledaenu y Beibl, y *Llyfr Gweddi Cyffredin*, a thraethodau crefyddol, ac hefyd cynnorthwyo cenadaeth at y paganiaid yn yr India Ddwyreiniol. Argraffodd a lledaenodd y Beibl mewn pedair iaith, sef y Seisoneg, Cymraeg, y Manaeg, a'r Arabaeg. O hon, yn 2il, y tarddodd y *Society for the Propagation of the Gospel in Foreign Parts*, 1701, i'r dyben o anfon cenadau, ysgolfeistriaid, Beiblau, y *Llyfr Gweddi*, a thraethodau crefyddol i drefedigaethau Prydain, yn enwedig yn yr America. Hefyd, yn Scotland, ymffurfiodd yn 3ydd, y *Society for Promoting Christian Knowledge*, 1709, i ddiwallu ucheldiroedd ac ynysoedd Scotland, yn nghyd â rhan o Ogledd America, â llyfrau buddiol, ac â'r Beibl yn yr iaith Gaeleg. 4ydd. Y *Society for Promoting Christian Knowledge among the Poor*, 1750, oedd er mwyn lledaenu llyfrau crefyddol, a'r Beibl, yn mysg y tlodion. 5ed. Yn 1792, sefydlwyd cymdeithas a alwyd yn gyntaf y *Bible Society*, ond yn ddiweddarach, y *Naval and Military Bible Society*, er mwyn dosbarthu yr Ysgrythyrau yn mysg y milwyr a'r morwyr yn unig. 6ed. Y *Society for the Support and Encouragement of Sunday Schools*, 1785, a osododd yn amcan iddi ei hun i ledaenu y Beibl yn rhad yn Ysgolion Sabbathol Cymru a Lloegr. Hefyd, nid oedd yr Iwerddon yn ol; yn Dublin, sefydlwyd, yn 7ed, yr *Association for Discountenancing Vice, and Promoting the Knowledge and Practice of the Christian Religion*, 1792, i'r dyben o ddosbarthu y Beibl yn mysg y tlodion. Ac yn 8fed, yn yr un flwyddyn, sefydlwyd *Cymdeithas Feiblaidd Ffrancaeg*, i'r dyben i ddwyn allan argraffiad o'r Beibl yn yr iaith hono; ond o herwydd trychineb yr amseroedd, methwyd dwyn y cynllun i weithrediad, a rhoddwyd yr arian a gasglwyd i ddybenion crefyddol yn yr Iwerddon.

Ond er ymdrechiadau y cymdeithasau hyn i ddosbarthu yr Ysgrythyrau, nid oeddynt yn ddigonol i gyfarfod yr angen a'r alwad gyffredinol. Nid oedd yr alwad yn uwch o un man nag ydoedd o Gymru. Yr oedd Thomas Charles, o'r Bala, sir Feirionydd, wedi bod yn teithio am ugain mlynedd i bregethu, ac i lafurio gyda'r Ysgolion Sabbathol a dyddiol trwy y Dywysogaeth, ac felly wedi deffro syched mawr am Air yr Arglwydd—yr oedd plant a phobl yn ymdrechu â'u gilydd pwy a allai ddysgu fwyaf o hono allan. Yr oedd y cyflenwad o hono yn llawer rhy fyr i gyfarfod yr angen; ac yn yr amgylchiadau, nid yw y chwedl a adroddir yn annhebyg, fod llawer yn gorfod teithio milltiroedd er mwyn cael cyfle i ddarllen y llyfr sanctaidd. Yn 1796, cafwyd argraffiad o ddeng mil o gopïau gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol; ond buan y pwrcaswyd y cyfan. Yn ei anallu i gael argraffiad newydd o'r gymdeithas hon, a methiant ei ymdrech i sicrhau hyny trwy danysgrifiadau, aeth ei hun i Lundain yn Rhagfyr, 1802, pryd y daeth i'w feddwl gynllun am gymdeithas neillduol i Gymru. Hysbysodd hyn i'w gyfaill, Mr. Farn; a thrwyddo ef, fel ysgrifenydd cynnorthwyol Cymdeithas y Traethodau, cafodd y cyfleusdra i osod achos ei gydwladwyr i lawr o flaen pwyllgor y gymdeithas hono. Gwnaeth ei ddysgrifiad o'r angen am y Beibl yn ei wlad enedigol argraff ddwys ar feddyliau y rhai oedd yn bresennol, ac yn enwedig ar feddwl Joseph Hughes, un o weinidogion y Bedyddwyr, ac un o ysgrifenyddion Cymdeithas y Traethodau, yr hwn a ddywedodd, "yn ddiau y gellid sylfaenu cymdeithas i'r dyben; ond os i Gymru, pa ham nad i'r deyrnas yn gyffredinol, ac i'r byd." Beiblau i Gymru oedd cais Mr. Charles; ond *Beiblau i'r holl fyd* oedd atebiad y Parch. Joseph Hughes. O hyny allan, cymmerwyd yr achos i fyny gan aelodau Cymdeithas y Traethodau; a thrwy lafur diflino, casglwyd yn nghyd yr elfenau oedd yn angenrheidiol i lunio y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor.

Oddi wrth hyn, gwelwn fod ein cydwladwr, Mr. Charles, yn un o'r prif offerynau yn ffurfiad y gymdeithas. Ar yr un pryd, na feddylied neb mai efe oedd yr *unig* offeryn yn y gwaith. Yr oedd llafur y Parch. T. Jones, offeiriad Creaton, sir Northampton, wedi parotoi y ffordd, rai blynyddoedd cyn hyny, trwy ei ymdrechion diflino i gael Beiblau i'w gydwladwyr o'r Gymdeithas er lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, a thrwy lunio cynllun i gael argraffiad mawr, ar lwybr arall,

Digitized by Google

mewn canlyniad i fethiant neu wrthodiad y gymdeithas hono i roddi cyflenwadau chwanegol. Cynllun Mr. Jones oedd, cael Beiblau i Gymru, wedi eu hargraffu yn Nghaerlleon, trwy danysgrifiadau haelionus, er mwyn eu gwerthu am bris isel i'r tlodion. Yn ngwyneb methiant y cynllun hwn, ac o blegid fod y galwad am Feiblau yn cynnyddu beunydd trwy lwyddiant yr Ysgolion Sabbathol a'r ysgolion cylchynol ar hyd yr wythnos, penderfynodd Mr. Charles wneyd cynnygiad yn Llundain, trwy osod achos ei wlad o flaen ei gyfeillion yno.

Mewn cyfeiriad at ddechreuad y gymdeithas, y mae y diweddar Barch. Richard Jones, o'r Wern, wedi ysgrifenu—

"Yn mhlith ei frodyr draw yn Llundain dref,
Disgynodd tân o eirias fawr y nef;
Disgynodd, do, i enaid *Charles* ei hun,
Nes ennyn trwy ei frodyr yno'n un:
Hwy yno'n un, â'u llais fel taran gref
A siglodd Lundain fawr - adseiniodd nef,
Cyfododd Rwssia fawr, a chlybu Almaen hyn:
Aeth swn a nerth drwy'r byd fel daiar-gryn."

Y peth cyntaf i'w wneyd oedd creu teimlad o blaid yr achos, a chasglu gwybodaeth am yr angen o Feiblau, yn gartrefol a thramor. Cynnygiodd Dr. Steinkopff, gweinidog yn perthyn i'r Eglwys Lutheraidd, ei hun i'r gorchwyl olaf. Cyhoeddodd Joseph Hughes draethawd ar *Ragoriaeth yr Ysgrythyrau yn ddadl dros eu lledaeniad cyffredinol.* Efe hefyd a dynodd allan gynllun y gymdeithas, fel un "i ymddibynu ar gynnorthwy *Cristionogion yn gyffredinol.*" Yn unol â'r cynllun hwn, ymgyfarfu ar y 7fed o Fawrth, 1804, tua 300 o gyfeillion y gymdeithas newydd mewn cyfarfod cyhoeddus yn y London Tavern. Yr oedd y cyfarfod hwn yn gynnwysedig o ddynion o wahanol enwadau crefyddol; ac yn eu mysg, er mawr syndod, yr oedd rhai o'r Crynwyr, y rhai a dybid yn anmhleidgar i ledaeniad yr Ysgrythyrau, a'r rhai a ymgadwent oddi wrth bob cydweithrediad crefyddol, oddigerth yr ymdrech i ddifodi y gaethfasnach. Felly, o'r dechreuad yr oedd y gymdeithas hon yn ganolbwynt undeb i'r gwahanol bleidiau crefyddol. Eto, nid heb beth petrusder yr oedd gweinidogion Eglwys Loegr yn gweled eu llwybr yn glir i ymuno âg Ymneillduwyr. Ond gorchfygodd dysgrifiad syml a theimladwy Dr. Steinkopff o'r angen am yr Ysgrythyrau mewn gwledydd tramor, a'i appeliad dros ei gydwladwyr yr Almaeniaid, John Owen, un o weinidogion Eglwys Loegr, a dygodd ef i deimlo nad ellid cael un moddion mor effeithiol i uno Cristionogion â'u gilydd a Beibl Gymdeithas. Wrth edrych yn ol ar y cyntaf, y mae Owen yn dyweyd, "fod yr holl luaws o un enaid ac un galon." Yr oedd eiddigedd Owen yn foddion i ennill lluaws o'i frodyr yn Eglwys Loegr, ac yn eu mysg Porteus, esgob Llundain. Dewiswyd pwyllgor, yn gynnysedig o 36 o lëygwyr; yr hwn, drachefn, a ddewisodd ddau ysgrifenydd sef J. Hughes, a Josiah Pratt, ysgrifenydd y Gymdeithas Genadol Eglwysig, i le yr hwn, yn mhen ychydig wythnosau, y daeth John Owen; a dewiswyd Dr. Steinkopff i ofalu yn benaf am weithrediadau y gymdeithas mewn gwledydd tramor. Gwnaed Arglwydd Teignmouth, yr hwn oedd wedi bod yn llywydd yr India Ddwyreiniol, yn llywydd y gymdeithas. Ymunodd â hi Dr. Warren, esgob Bangor; a Dr. Burgess, esgob Tŷ Ddewi; esgob Durham, ac esgob Exeter, ac hefyd rhai o'r dynion mwyaf eu dylanwad yn y wlad, megys Wilberforce, a Granville Sharp; a Henry Thornton oedd y trysorydd cyntaf.

Ar y cyntaf, ffurfiwyd math o fraslun yn cynnwys y RHEOLAU SYLFAENOL; ac yn raddol, dygwyd hwynt i'w ffurf bresennol. Yn unol â'r rhai hyn, DYBEN y gymdeithas ydyw lledaenu yr Ysgrythyrau Sanctaidd heb nodiad nac esboniad, yn y deyrnas gyfunol, yn y cyfieithiad awdurdodedig; ac hefyd, helaethu eu dylanwad i wledydd ereill—Cristionogol, Mahometaidd, a Phaganaidd. Fod llywodraethiad achosion y gymdeithas i fod yn nwylaw un ar bymtheg ar ugain o lëygwyr, o ba rai y mae chwech yn dramorwyr, yn byw yn Llundain neu ei chyffiniau, a phymtheg yn aelodau o Eglwys Loegr, a phymtheg yn perthyn i enwadau ereill. Trwy rinwedd eu swydd, perthyna, heb law y llywydd, yr islywydd, y trysorydd, a'r ysgrifenyddion, i'r cyfeisteddfod. Y mae pob tanysgrifiwr o un gini yn flyneddol, yn aelod; ac y mae gan bob gweinidog sydd yn cyfranu gini yn flyneddol hawl i bleidleisio yn nghyfarfodydd y cyfeisteddfod.

Yn ein gwlad ein hunain y mae ei gweithrediadau yn cael eu dwyn yn mlaen yn benaf trwy offerynoliaeth CYMDEITHASAU CYNNORTHWYOL A CHANGENOL; aelodau pa rai sydd yn cael yr un rhagorfreintiau a phe byddent yn aelodau o'r fam gymdeithas. Y mae cymdeithasau cyffelyb wedi eu ffurfio mewn gwledydd ereill hefyd; rai o honynt, megys yn y trefedigaethau Prydeinig, mewn cyssylltiad uniongyrchol â'r gymdeithas yn Llundain; tra y mae ereill, megys Beibl Gymdeithas America, yn annibynol, ac yn dwyn yn mlaen eu gwaith trwy offerynoliaeth eu swyddogion eu hunain.

O fewn y Deyrnas Gyfunol yn unig, y mae 3,313 o gymdeithasau cangenol mewn cyssylltiad â'r fam gymdeithas, ac yn trefedigaethau y mae 574 yn chwaneg. Y mae y cymdeithasau hyn yn anfon eu casgliadau i Lundain, ac yn cael eu diwallu â'r Ygrythyrau o'i hystorfeydd. Mae y cymdeithasau a alwyd i fodolaeth trwy esampl a chymhorth y gymdeithas yn Llundain, ond sydd yn awr yn annibynol arni, yn hanner cant o rifedi, a phob un o'r rhai hyny, er's blyneddoedd bellach, yn fam gymdeithas, ac yn gweithredu ar yr un cynllun a'r gymdeithas yn y wlad hon. Tybir fod yn gartrefol ac yn dramor, o ddeutu 8,000 o gymdeithasau tuag at ddwyn yn mlaen ledaeniad yr Ysgrythyrau Sanctaidd; a'r cwbl o honynt wedi eu ffurfio o fewn y ganrif bresennol.

Ffrwyth cyntaf gweithrediad y gymdeithas oedd parotoi ar gyfer angen Cymru, drwy argraffu 20,000 o Feiblau, a 5,000 o Destamentau.

Y mae tywysogaeth CYMRU wedi cael eisoes, yn iaith y trigolion, 933,222 o gyfrolau o'r Ysgrythyrau; a phe rhenid y rhai hyn yn gyfartal, byddai genym ddau Feibl neu Destament ar gyfer pob tri o'r preswylwyr. Ond pan ystyriom fod o leiaf un o bob tri o'r trigolion yn analluog i ddefnyddio llyfr Cymraeg, nid oes amheuaeth nad yw y gymdeithas hon yn unig wedi darparu dau gopi o Air Duw yn Gymraeg ar gyfer pob un sydd yn deall ac yn defnyddio yr iaith hono! Er hyny, y mae y galwadau am Feiblau Cymraeg yn cynnyddu, tra y mae haelioni y bobl at y gymdeithas yn chwanegu yn flyneddol.

Y mae ucheldiroedd ac ynysoedd SCOTLAND wedi tynu sylw y gymdeithas er yn fore, ac y mae 145,645 o gopiau o'r Beibl neu y Testament Newydd yn yr iaith Gaelaeg wedi eu hargraffu eisoes, a derbynir hwynt yn dra diolchgar. Yr oedd y Beibl wedi myned mor brin yn yr ucheldiroedd, fel nad oedd un i'w gael dan bum swllt ar ugain. O fewn y blyneddoedd diweddaf y



Digitized by Google

mae cyflenwadau tra helaeth wedi eu hanfon i'r ardaloedd mwyaf angenus; ac oddi wrth yr ymdrechion a wneir i lesoli y bobl, yn dymmorol ac ysbrydol, gellir dysgwyl am alwadau helaethach eto.

O'r dechreuad y mae cyflwr gresynus yr IWERDDON wedi deffroi cydymdeimlad y gymdeithas. Gweithredir yn y wlad hono yn benaf trwy gyfrwng y Feibl Gymdeithas Wyddelig, a chymdeithasau addysgiadol. Heb law y cannoedd o filoedd a anfonwyd i'r chwaer-ynys yn y blyneddoedd blaenorol, chwanegwyd hanner can mil o gopïau fel anrheg benodol ar flwyddyn y Jubili. Oddi wrth adroddiadau blyneddol y cymdeithasau hyn, deallir nad yw yr Ysgrythyrau yn cael eu lledaenu yn ofer. Y mae Beibl-gludaeth (*colportage*) wedi cychwyn yn llwyddiannus, ac mewn naw mlynedd, y mae 220,000 o gopïau o'r gair sanctaidd wedi eu lledaenu yn y llwybr hwn, trwy ddeg ar ugain o siroedd yr Iwerddon. Y mae yr Iwerddon wedi cael 1,769,708 o gopïau o'r Ysgrythyrau, ac o honynt yr oedd 117,543 yn yr iaith Wyddelaeg—yr iaith a ddefnyddir eto mewn rhanau helaeth o daleithiau Munster a Connaught.

Y mae y cymdeithasau Beiblaidd ar GYFANDIR EWROP, er cymmaint o rwystrau a gawsant oddi wrth anffyddiaeth a Phabyddiaeth, wedi bod, er hyny, yn fwy llwyddiannus na'r dysgwyliad. Y mae cymdeithasau Beiblaidd Ewrop wedi lledaenu o'r dechreuad o ddeutu wyth miliwn o gopïau mewn gwahanol ieithoedd. Yn y blyneddoedd cyntaf yr oedd y cymdeithasau hyn yn cael cynnorthwy arianol gan y fam gymdeithas yn Llundain; ond am eu bod yn parhau i argraffu a lledaenu yr *Apocrypha*, y mae pob cyssylltiad rhyngddynt wedi ei dori.

Ffurfiwyd Cymdeithas Feiblaidd Genedlaethol yn RWSSIA, trwy ymdrechion y Doctoriaid Patterson a Pinkerton, dan nawdd uniongyrchol yr ymherawdwr Alexander. Diddymwyd y gymdeithas hon gan ei olynwr, Nicholas. Ar y pryd hwnw, yr oedd gan Feibl Gymdeithas Rwssia 289 o gangenau, ac yr oedd wedi argraffu 861,105 o gyfrolau o'r gair sanctaidd, yn gyfangwbl neu mewn rhan, a hyny mewn saith ar ugain o wahanol ieithoedd. Rhoddodd y gymdeithas yn Llundain gynnorthwyon arianol i ddwyn y gwaith yn mlaen, byd at 16,833*p.* 14*s.* 9*c.* Ar ol diddymiad y Gymdeithas Feiblaidd Rwssiaidd, cafwyd caniatad i sefydlu Beibl Gymdeithas Brotestanaidd, a lledaenodd 267,456 o gopïau. Yn ddiweddarach, y mae ychydig gyfeillion yn St. Petersburgh wedi ffurfio eu hunain yn gyfeisteddfod mewn cyssylltiad uniongyrchol â Llundain, i gydweithredu â goruchwyliwr y gymdeithas; ac yn y modd hyn y mae 362,990 o gopïau o air yr Arglwydd wedi eu lledaenu eisoes, mewn ugain o ieithoedd gwahanol. Y mae 60,000 o deuluoedd hollol amddifad o air Duw wedi cael eu diwallu â'r Testament Newydd yn Finland yn unig; ac yn yr un wlad, y mae o gwbl 120,000 o Feiblau a Thestamentau wedi eu gwasgaru.

Yn yr INDIA, sefydlwyd cymdeithasau Beiblaidd — yn Calcutta, 1811; Agra, a Ceylon, 1812; Bombay, 1813; Madras, 1820; ac y maent wedi bod yn offerynol i ledaenu 2,163,960 o gopïau o'r Beibl, y Testament Newydd, a llyfrau unigol o'r gair sanctaidd, mewn uwch law deg ar ugain o ieithoedd. Oddi eithr y cyfieithiad diwygiedig yn y Tamul a'r Malay, y maent oll yn gyfieithiadau newyddion, a'r nifer mwyaf wedi eu gwneuthur gan genadau y Bedyddwyr yn Serampore. Mae y gwaith yn yr India yn unig wedi costio i'r gymdeithas o'r dechreuad y swm o 222,968*p.* 14*s.* 0*c.* O'r swm hwn, caniatawyd i Dr. Carey, a'i gydlafurwyr yn Serampore, 27,230*p.* tuag at gyfieithu ac argraffu yr Ysgrythyrau.

Y mae CHINA, â'i thri chan miliwn o eilunaddolwyr, wedi cael sylw a chymhorth y gymdeithas er yn fore. Parotowyd dau o gyfieithiadau—un yn yr India, gan Dr. Marshman; a'r llall yn China, gan Dr. Morrison. Argraffwyd y ddau, a lledaenwyd miloedd o gopïau, yn enwedig o'r olaf, yn mhlith y Chineaid, trwy offerynoliaeth y cenadau. Ond fel pob cyfieithiad cyntaf, gwelwyd yr angenrheidrwydd o adolygu a gwellhau cyfieithiad y Dr. Morrison; nid am ei fod yn anffyddlawn neu yn gyfeiliornus, ond er mwyn ei wneud yn fwy cydweddol â dullwedd yr iaith, ac felly yn fwy dealladwy i'r werin gyffredin. Y mae hyn wedi ei wneyd gan y cenadau Protestanaidd yn China, ac argraffiadau mawrion wedi eu dwyn trwy y wasg eisoes ar draul y gymdeithas. Yn ddiweddar, y mae cynhyrfiadau gwladol yn China wedi rhoddi gobaith am lwyddiant chwanegol ar ledaeniad y Beibl; ac mewn cyssylltiad â blwyddyn y Jubili, defnyddiwyd mesurau i gael miliwn o Destamentau yn iaith China. Llwyddwyd i gael y swm oedd yn angenrheidiol at ddwy filiwn o gopïau; ac y mae prysurdeb mawr yn nglŷn â'u hargraffu a'u lledaenu yn Shanghai, Canton, Hong Kong, a lleoedd ereill. Mewn dwy o ieithoedd ereill a leferir yn ymherodraeth China —y Mantchou, a'r Mongolian—y mae cyfieithiadau wedi eu gwneyd a'u hargraffu ar draul y gymdeithas. Y mae y Dajaks yn ynys fawr Borneo wedi cael y Testament Newydd.

Yn ieithoedd MADAGASCAR, ZEALAND NEWYDD TAHITI, RAROTONGA, SAMOA, FEEJEE, TONGA, a rhai ynysoedd ereill yn Môr y Deheu, y mae cyfieithiadau wedi eu gwneyd gan y cenadau; ac y mae y gymdeithas wedi argraffu yn yr ieithoedd hyn 206,514 o gopïau.

Yn AFFRICA hefyd, y mae y gwaith o gyfieithu ac argraffu wedi ac yn cael ei ddwyn yn mlaen yn llwyddiannus. Y mae y Namacquas, y Bechuaniaid, a'r Caffrariaid, yn y deheu—y Mandingoes, y Bulloms, a'r Yorubans, yn y gorllewin —y Berbers, ac ereill, wedi cael y dadguddiad dwyfol yn eu hiaith. Y mae hen eglwys wrthgiliedig Abyssinia wedi cael argraffiad o Lyfr y Salmau, a'r Efengylau, yn yr Ethiopaeg. Yn yr Amharaeg, iaith gyffredin y bobl, y mae y gymdeithas wedi parotoi yr holl Feibl. Ar gyfer yr Aiphtiaid, y mae y pedair Efengyl, a Llyfr y Salmau, wedi eu hargraffu yn y Goptaeg a'r Arabaeg. Yn Penrhyn Gobaith Da, a thrwy yr holl drefedigaeth, y mae y cenadau wedi bod yn dra llwyddiannus i greu hiraeth am yr Ysgrythyrau; a'r canlyniad yw, fod cyflenwadau helaeth wedi eu hanfon yno yn y Seisoneg a'r Dutch— yr ieithoedd a ddefnyddir yn gyffredin gan y trefedigion. Yn y Mauritius, sylfaenwyd cymdeithas yn 1812; wedi hyny, un yn St. Helena, 1814; yn Sierra Leone, 1818; yn Capland, 1820.

Trwy holl drefedigaethau Prydain Fawr, yn NGOGLEDD AMERICA, AWSTRALIA, ac INDIA'R GORLLEWIN, y mae y Beibl wedi ei ledaenu yn dra chyffredin trwy lafur y cymdeithasau cangenol sydd wedi eu sefydlu yno; ac y mae y gwaith yn yr holl leoedd uchod wedi adfywio yn fawr trwy ymweliadau goruchwylwyr penodol ar achlysur y Jubili.

Digitized by Google

Y mae un rhan o waith y gymdeithas heb ei grybwyll eto—yr hyn a wneir trwy offerynoliaeth ei goruchwylwyr mewn modd uniongyrchol. Mewn llawer o wledydd, y mae yn anmhosibl sefydlu cymdeithasau rheolaidd, o ddiffyg rhydd-id, ac o blegid prinder dynion galluog ac ewyllysgar i ymroddi i'r gorchwyl. Yn y cyfryw wledydd, gosodir goruchwyliwr penodol ar waith, ac ymddiriedir yr holl ofal i bersonau cymhwys, dan arolygiaeth y cyfeisteddfod yn Llundain. Nid oes un dosbarth o lafur y gymdeithas wedi bod yn fwy llwyddiannus; ac y mae yn bur amlwg y byddai chwanegiad at rif y goruchwylwyr tramor yn chwanegiad at ddefnyddioldeb y gymdeithas.

Yr oedd llafur y Feibl Gymdeithas yn Paris yn gyfyngedig i Brotestaniaid, gan adael yn hollol ddisylw y dosbarth lluosocaf o drigolion Ffraingc—y Pabyddion a'r anffyddwyr. Y goruchwyliwr cyntaf yn Paris oedd Proffessor Kieffer, yr hwn a lwyddodd i anfon allan 730,650 o gopïau o'r gair sanctaidd. Canlynwyd ef, yn y flwyddyn 1833, gan M. De Presennsè, y goruchwyliwr presennol; ac o'r pryd hwnw hyd yn awr, y mae wedi llwyddo i ledaenu o ystorfa y gymdeithas yn Paris, 2,940,218 o gopïau o'r Beibl neu y Testament Newydd. O fewn y blynyddoedd diweddaf, y mae M. De Presennsè wedi ei awdurdodi i gymmeryd i'r gwasanaeth nifer o Feibl-gludwyr, er mwyn rhoddi cyfleusdra i drigolion Ffraingc yn gyffredinol i feddiannu yr Ysgrythyrau, trwy eu pwrcasu am bris isel. Y mae y Beibl-gludwyr yn teithio trwy yr holl daleithiau; ac er y gwrthwynebiad a geir oddi wrth yr offeiriaid Pabaidd, a'r anhawsderau a osodir ar eu ffordd gan y llywodraeth, y mae y llafurwyr hunan-ymwadol hyn wedi llwyddo i wasgaru trwy werthiant 1,818,149 o gopïau o'r gair sanctaidd yn Ffraingc yn unig. Mewn ugeiniau o drefydd a phentrefydd, y mae temlau, ac ysgolion, a chynnulleidfaoedd Protestanaidd i'w gweled fel ffrwyth y lledaeniad hwn o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, tra y mae yr hen eglwys ddiwygiedig yn y wlad hono yn cydnabod ei hun yn ddyledus i'r Feibl Gymdeithas am y graddau sydd o adfywiad ar grefydd efengylaidd yn eu plith.

Yn Frankfort hefyd, un o brif ddinasoedd yr Almaen, sefydlwyd Dr. Pinkerton, fel goruchwyliwr y gymdeithas. Yr oedd hyn yn angenrheidiol, o blegid anewyllysgarwch cymdeithasau Beiblaidd yr Almaen i ledaenu y Beibl heb yr *Apocrypha*. O'r flwyddyn 1830 hyd yn bresennol, y mae yn ymddangos fod 1,419,950 o gopïau o'r gair sanctaidd, yn benaf yn yr Almaenaeg wedi eu lledaenu, ac yn ddiweddar, trwy ddefnyddio cymhorth nifer o ddynion fel Beibl-gludwyr, y mae y lledaeniad wedi helaethu yn y gwledydd sydd dan ofal y Dr. Pinkerton.

Dechreuwyd cynllun cyffelyb yn Awstria, yn y flwyddyn 1850; ac mewn llai na dwy flynedd, anfonwyd allan 41,659 o gopïau o'r gair sanctaidd yn yr Almaenaeg, Bohemiaeg, a'r Hungariaeg. Trwy ddylanwad y Jesuitiaid Pabaidd, cyfododd gwrthwynebiad i'r gwaith—gorchymynwyd Mr. Millard allan o'r wlad, a'i holl Feiblau gydag ef. Symmudodd o Vienna i Breslau, yn Prwssia; ac oddi yno, y mae wedi lledaenu eisoes fwy na 70,000 o Feiblau a Thestamentau.

Yn Belgium, sydd yn hollol Babyddol, y mae y goruchwyliwr ffyddlawn, Mr. Tiddy, wedi bod yn offerynol i wasgaru yn mysg y trigolion tywyll a choelgrefyddol, 210,659 o gopïau o'r gair sanctaidd. Y mae awydd am feddiannu gair Duw wedi cynnyddu yn Holland; ac heb law a wnaethpwyd yno gan Gymdeithas Feiblaidd yr Iseldiroedd, y mae y Feibl Gymdeithas, trwy offerynoliaeth Mr. Tiddy a'r Beibl-gludwyr, wedi lledaenu 374,938 o gopïau mewn llai na deng mlynedd. Y mae Cologne wedi myned yn ganolbwynt gweithrediadau Beiblaidd; ac er nad oedd caniatad i weithio yno hyd y flwyddyn 1848, y mae y lledaeniad eisoes wedi cyrhaedd yn agos i 500,000 o Feiblau a Thestamentau.

Yn Stockholm, y mae gan y gymdeithas ohebwyr ffyddlawn, y rhai sydd wedi ymffurfio yn bwyllgor, i gymmeryd gofal y gwaith yn Sweden a Finland, trwy lafur pa rai y mae miloedd o deuluoedd hollol amddifaid wedi cael eu diwallu â'r Ysgrythyrau. Yn Sweden, fel yn Prwssia, y mae y gymdeithas yn cael nodded y brenin a'r teulu breninol. Oddi ar y flwyddyn 1832, y mae 638,233 o gopïau o'r gair dwyfol wedi cael eu lledaenu yn y wlad hono. Y mae y cyffelyb fesurau yn cael eu mabwysiadu tuag at helaethu gweithrediadau y gymdeithas yn Norway, trwy ffurfio pwyllgorau yn y prif drefydd, megys Christiania, Drontheim, Stavanger, Bergen, a Christiansand.

Ychydig, mewn cymhariaeth, sydd wedi ei wneyd yn Yspaen, a Portugal—gwledydd sydd wedi eu gordoi gan dywyllwch Pabyddiaeth; ac eto, gellir dywedyd fod y Beibl wedi gweithio ei ffordd i ddwylaw amryw yn y teyrnasoedd hyn. Mewn ychydig o amser, llwyddwyd i ledaenu yn nghylch 14,000 o Feiblau a Thestamentau, a hyny trwy werthiant yn benaf.

Y mae Switzerland—mewn rhan yn Babaidd, ac mewn rhan yn Brotestanaidd—wedi bod yn faes llafur y gymdeithas am rai blyneddoedd; ac yn awr wedi ei gosod dan arolygiaeth yr isgadben Graydon. Y mae Italy ogleddol wedi ei chwanegu at ddosbarth yr un goruchwyliwr; ac eisoes, y mae y trigolion wedi cael 123,502 o gopïau o'r gair sanctaidd yn y Ffrangcaeg a'r Italaeg.

Yn Twrci, a Thir Groeg—lle y bu Cristionogaeth gynt yn flodenog, ond sydd yn awr yn sathrfa gan gau grefydd Mahomet, a choelgrefydd Eglwys Groeg—y mae gweithrediadau y Feibl Gymdeithas wedi gwasgaru goleuni y dadguddiad dwyfol. O'r gwahanol ystorfeydd, y mae 289,000 o gopïau wedi myned allan yn y Twrcaeg a'r Groeg. Y canlyniad o hyn ydyw, yr adfywiad dymunol sydd yn hen eglwys lygredig Armenia, a ffurfiad cynnulleidfaoedd Protestanaidd mewn yn agos i ugain o leoedd o fewn ymherodraeth Twrci. Ni bu y gwaith o ledaenu gair Duw yn hen wledydd y dwyrain erioed mor rymus a gobeithiol ag ydyw yn yr amser presennol. Y mae Caer Cystenyn wedi myned yn ganolbwynt gweithrediadau Mr. Barker, ac oddi yno yr anfonir allan gyflenwadau parhaus a chynnyddol o'r Ysgrythyrau trwy wahanol daleithiau Twrci yn Ewrop ac Asia.

Ni ddylid anghofio y weithred haelionus a gyflawnodd y gymdeithas ar yr amser y rhyddhawyd caethion India y Gorllewin. Cyflwynwyd y pryd hwnw, yn anrheg, 102,904 o gopïau o'r Testament Newydd, yn nghyd â Llyfr y Salmau, i'r Negroaid ar eu rhyddhad o gaethiwed. Y mae y gwaith yn yr amrywiol ynysoedd yn cael ei ddwyn yn mlaen yn barhaus trwy gymhorth cymdeithasau cynnorthwyol Jamaica, Antigua, &c.

Ychydig sydd i'w ddywedyd mewn perthynas i America Ddeheuol, Mexico, a gwledydd cyfagos. Adroddiadau y gymdeithas a grybwyllant

Digitized by Google

am ymdrechion yn y gwledydd hyn, ag sydd wedi bod yn llwyddiannus i raddau bychain. Lledaenwyd llawer o Feiblau gan y diweddar Dr. Thomson yn y gwledydd hyn, a pharheir i wneyd rhyw ychydig o flwyddyn i flwyddyn trwy offerynoliaeth marsiandwyr a theithwyr sydd yn ffafriol i'r gwaith.

Yn AMERICA: yn Philadelphia, sylfaenwyd cymdeithas yn 1818, yn ol cynllun y gymdeithas Brydeinig, a'r Gymdeithas Americanaidd, yn Nghaerefrog Newydd, 1816—o amgylch yr hon, y mae, erbyn hyn, 2,800 o gangenau, a'u dosbarthiadau o air yr Arglwydd wedi cyrhaedd eisoes hyd at ddeng miliwn o rifedi!

Nid ymledaenodd cymdeithas erioed mor gyflym a hon; ond nid heb rwystrau o wahanol natur. Yr oedd yn anhawdd iddi gael mynedfa i lawer o wledydd; yr oedd llawer o rwystrau yn nglŷn â chyfieithu yr Ysgrythyrau; ac heb law hyny, gwnaed ymosodiadau penderfynol yn ei herbyn. Yr ymosodiad cyntaf a wnaed arni oedd, yn ei dechreuad, mewn cyssylltiad âg arolygiaeth y cyfieithiad Cymraeg, er mwyn ei barotoi i'r wasg. Ond buan y chwythodd yr ystorm hon heibio. Gwnaed ymosodiad arni yn fuan drachefn, mewn llythyr at arglwydd Teignmouth, o herwydd ei bod wedi ei chyfansoddi o wahanol enwadau crefyddol. Yn 1806, gwnaed ymdrech i ddylanwadu ar yr East India Company i attal gweithrediadau y gymdeithas yn y gwledydd dan eu nawdd hwy. Yn 1809, dygwyd yn mlaen drachefn gan y Dr. Wordsworth achwynion a wnaed yn y dechreu; sef ei bod yn niweidio y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, er fod cyllidau y gymdeithas hon yn helaethach nag oeddynt yn 1804; ac hefyd, o herwydd ei bod yn cael ei dwyn yn mlaen trwy gydweithrediad Eglwyswyr ac Ymneillduwyr. Torodd allan yn ddadl frwd, yn Caergaint, ar y pen hwn, lle yr amddiffynwyd y gymdeithas gan y Peirch. Simeon, Venn, Milner, ac ereill, yn erbyn ymosodiadau y Dr. Marsh. Yn y ddadl hon, gwnaeth Vansittart - yr hwn, wedi hyny, dan yr enw Arglwydd Bexley, a fu yn llywydd y gymdeithas—wasanaeth da, trwy ddangos mor annoeth fyddai i Eglwyswyr adael y gymdeithas yn hollol yn nwylaw Ymneillduwyr; ac mor angenrheidiol, mewn gwlad rydd, lle nas gellir dwyn pawb i fod o'r un farn, ydyw ymdrechu dwyn pawb i fod o un galon. Dygid ei hegwyddor sylfaenol, sef ei bod yn lledaenu yr Ysgrythyrau heb nodiad nac esboniad, yn fynych i ddadl; gan fod hyn, meddai ei gwrthwynebwyr, yn tueddu i fagu penboethni yn mysg yr annysgedig, a bod yr Ysgrythyrau yn rhy anhawdd i'w deall heb y cyfryw gynnorthwy. Ond yr oedd hanes ei gweithrediadau yn fwy effeithiol na dim arall i ddystewi ei gelynion. Yn yr ugain mlynedd cyntaf o'i hanes, dangosodd nad ydoedd yn niweidio llwyddiant un gymdeithas arall—fod cydweithrediad gwahanol enwadau crefyddol i un amcan mawr, nid yn unig yn angenrheidiol, ond, ar egwyddor eang y gymdeithas hon, yn bosibl hefyd.

Yn y flwyddyn 1825, cododd dadl arall, yr hon a barhaodd am ddwy flynedd—bwysicach nag un flaenorol—ac a ddygwyd yn mlaen gyda'r fath boethder, fel yr ofnid am undeb y gymdeithas. Yn mlyneddoedd cyntaf ei hanes, ni ddygwyd yr *Apocrypha* o gwbl dan ystyriaeth. Dywedai Owen, yn ei gyfarchiad ar sefydliad y gymdeithas, mai ei hamcan ydoedd lledaenu y "llyfr ysbrydoledig;" ac nid oedd gan y dynion a ffurfiodd y rheolau, sef Owen, Hughes, Pratt, a Zachary Macaulay, un meddwl wrth hyn ond y llyfrau canonaidd. Nid yw y rheol wedi ei geirio yn ddigon penderfynol i gau allan y posiblrwydd o ddadl wrth lefaru am amcan y gymdeithas i lledaenu yr "Ysgrythyrau Sanctaidd, heb nodiad nac esboniad;" ac hefyd, i'w lledaenu yn y "Deyrnas Gyfunol, yn y cyfieithiad awdurdodedig;" ac "iddi, yn ol ei gallu, helaethu eu dylanwad i wledydd ereill hefyd." Gan mai y cyfieithiad awdurdodedig oedd i gael ei gyhoeddi ganddi yn y Deyrnas Gyfunol, gallesid casglu mai y Beiblau oedd yn cael eu harfer mewn gwledydd tramor a argraffai hefyd. Yr oedd y Beibl Almaenaeg (un Canstein) wedi ei sicrhau i'r gymdeithas, gyda'r *Apocrypha*, heb gyffroi dim gwrthwynebiad yn y dechreu. Yn 1811, galwyd sylw y cyfeisteddfod at yr *Apocrypha* oedd yn y Beibl Almaenaeg; a phenderfynwyd i annog y cymdeithasau cynnorthwyol y perthynai hyny iddynt, i adael allan yr unrhyw. Ond cafwyd ei fod yn anhawdd, os nad yn anmhosibl, i roddi y penderfyniad mewn grym ar y Cyfandir; ac felly, yn Mehefin, 1813, galwyd ef yn ol. Pan, yn 1819, y daeth y Beibl Pabaidd allan, yn ieithoedd Italy, Yspaen, a Portugal, gyda'r *Apocrypha*, dangoswyd anfoddlonrwydd yn erbyn y cyfeisteddfod, y rhai a addefent mai peth annymunol ydoedd. Ond gwelent hefyd fod perygl mewn cyfnewidiadau byrbwyll, ac nad oedd i'w wneud ond ymdrechu newid yn raddol. Yr oedd y gwrthwynebwyr yn gofyn am ymwrthodiad dioed â'r *Apocrypha*, hyd yn oed pe byddai cylch gweithrediadau y gymdeithas yn cael ei gyfyngu. Penderfynodd y cyfeisteddfod, yn Awst, 1822, i gymmeryd llwybr canol, trwy ddefnyddio cyllidau y gymdeithas i argraffu y llyfrau canoniadd, ac i'r cymdeithasau cynnorthwyol a alwent am yr *Apocrypha* i ddwyn y gost chwanegol o'i argraffu. Ond yn erbyn y penderfyniad hwn, anfonodd cymdeithas Edinburgh wrthdystiad cryf, Ionawr 17eg, 1825, yn yr hwn y condemnir yr *Apocrypha* yn gwbl, ac y beiir yn fawr ar reol hannerog cyfeisteddfod Llundain. Bygythiai aelodau Edinburgh attal y casgliadau, a defnyddio eu dylanwad hefyd i ennill ereill i wneud yr un modd. Yr oedd hyn yn ddechreuad brwydr a barhaodd am ddwy flynedd, ac a ddybenodd yn ffafriol i wrthwynebwyr yr *Apocrypha*. Y prif ymosodwyr ar y cyfeisteddfod ydoedd Haldane a Gorham, tra yr amddiffynwyd hwy gan Venn, Simeon, a Steinkopff. Dadleuai y Scotiaid mai y llyfrau canonaidd yn unig sydd yn ysbrydoledig, ac yn wir air Duw; ac nad yw yr *Apocrypha* ond casgliad o ysgrifeniadau dynol, yn llawn o anwireddau, cyfeiliornadau, coelgrefydd, ac anghyssonderau â hwy eu hunain, ac â gair Duw, [*1st Statement of the Com. of the Edin. Bible Society.*] Yn y gwrthwyneb i hyn, dywedwyd [*Remarks in the Eclectic Review*] nad oes un rhestr ysbrydoledig o'r llyfrau canonaidd, ac nad yw y canon yn un o erthyglau ffydd, ac y dichon ei fod yn ammheus a ydyw bod yn y canon a bod yn ysbrydoledig yn hollol yr un peth. Cyttunai y ddwy blaid nad oedd yr *Apocrypha* yn ysbrydoledig, ond amrywient o barth i'w werth. Ymwrthodai y Scotiaid âg ef yn y modd mwyaf penderfynol, a chyhuddent y cyfeisteddfod, nid yn unig o fod wedi lledaenu yr *Apocrypha* mewn cyssylltiad â gair Duw, ond eu bod hefyd wedi esgeuluso yr adeg i ddysgu gwledydd tramor pa lyfrau sydd yn cyfansoddi y gyfrol ddwyfol. Appeliai amddiffynwyr y cyfeisteddfod, ar y llaw

Digitized by Google

arall, at y Diwygiad yn Lloegr a'r cyfandir pryd y cyfieithwyd llyfrau yr *Apocrypha*, mewn rhan er mwyn cael derbyniad rhwyddach i'r Beibl, ac mewn rhan er mwyn y pethau da sydd ynddynt hwy eu hunain; cyfeirient hefyd at y parch a delir i'r *Apocrypha* yn Eglwys Loegr; ond yn benaf, dadleuent yr anmhosiblrwydd o ledaenu y Beibl heb yr *Apocrypha*, lle yr oedd yr angen am dano fwyaf. Addefai y gwrthwynebwyr fod lledaenu Beiblau, yn y rhai y mae yr *Apocrypha* ar wahan, ac yn dal lle is na'r llyfrau canonaidd, yn haws i'w amddiffyn, na chyhoeddi Beiblau Pabyddol, yn y rhai nid oes gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall—nad yw hyn yn amgen na chyhoeddi canon cyfeiliornus, ac aberthu y gwirionedd i'r hyn a dybient yn llesâd.

Ymdrechwyd cael llwybr canol rhyngddynt, ond yr oedd y teimlad cyffredinol yn erbyn yr *Apocrypha;* ac felly, yn Mai, 1826 ac 1827, penderfynwyd fod egwyddor y gymdeithas yn cau allan yr *Apocrypha*, ac nad yw cyllidau y gymdeithas i gael eu defnyddio i gynnorthwyo na chymdeithas na pherson unigol i'w ledaenu. Gyda hyn y diweddodd y ddadl. Y canlyniad fu, i gymdeithasau y Cyfandir, o ba rai yr oedd y Frytanaidd wedi sefydlu dros hanner cant, ymddidoli oddi wrthi hi. Yn annibynol ar un Llundain, sefydlwyd yn Paris gymdeithas dramor (1833); yn Belgium, hefyd, sefydlwyd cymdeithasau yn Brussels, Antwerp, a Ghent (1834). Ymddidolodd hefyd oddi wrth gymdeithas Llundain y nifer mwyaf o gymdeithasau cynnorthwyol Scotland, gyda chymdeithas Edinburgh, ac ymffurfiasant yn gymdeithasau annibynol. Ar ol hyn, yr oedd yn angenrheidiol i gymdeithas Llundain agor ffyrdd newyddion i ledaenu yr Ysgrythyrau ar y Cyfandir, yr hyn a wnaeth trwy sefydlu *goruchwylwyr*, a defnyddio Beibl-gludwyr, o ba rai y mae ganddynt yn awr yn Ffrainc tua thri a phedwar ugain.

Pan ddaeth yr adeg o amgylch, penderfynodd y cyfeisteddfod yn Llundain, a chydsyniodd y cangenau trwy yr holl wlad, i gadw y ddegfed flwyddyn a deugain fel *blwyddyn Jubili*, i gydnabod daioni yr Arglwydd yn codi, yn cadw, ac yn llwyddo y gymdeithas; ac i lunio mesurau tuag at effeithio lledaeniad helaethach nag erioed o'r Ysgrythyrau yn ein gwlad ni a gwledydd ereill. Gwnaed hysbysiad o'r amcan drwy yr argraffwasg, o'r areithfa, ac ar esgynlawr mwy na phedair mil o gyfarfodydd cyhoeddus. Yr oedd dechreuad blwyddyn y Jubili yn wahanol iawn i ddechreuad y gymdeithas. Nid oedd nac esgob na phendefig yn nghyfarfod cyntaf y y gymdeithas, ar y seithfed o Fawrth, 1804; ond ar yr un diwrnod, yn 1853, yr oedd miloedd o bobl oreu ein gwlad, ac amryw o esgobion a phendefigion, yn bresennol yn Exeter Hall; a'r iarll Shaftesbury, un o ddynion penaf yr oes, yn llywydd y cyfarfod. Ac ar y dydd canlynol, traddodwyd pregeth y Jubili gan archesgob Caergaint, yn Eglwys gadeiriol St. Paul, o flaen tyrfa o Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, yn weinidogion a lleygion—oll yn mwynhau y cynnydd, y llwyddiant, a'r fuddugoliaeth a ganiatawyd i'r gymdeithas trwy ofal a bendith yr Arglwydd. Cadwyd cyfarfodydd cyffelyb trwy y deyrnas hon, a gwledydd ereill; a thrwy y teimladau a gynnyrchwyd, hawdd oedd gan gyfeillion y Beibl ddwyn anrhegion arbenig i'r gymdeithas ar gyfnod mor hynod yn ei hanes.

Cyrhaeddodd Trysorfa y Jubili y swm anrhydeddus o 108,547*p.* 13*s.* 2*g.* Yn y cyfanswm hwn y cynnwysir hefyd yr anrhegion at y miliwn Testamentau i China, yn cynnwys 38,346*p.* 0*s.* 6*c.* Dywedir fod y tanysgrifiadau hyn wedi dyfod oddi wrth gyfoethogion a thlodion—o'r frenines ar ei gorsedd, hyd at y plentyn amddifad yn yr ysgol garpiog: oddi wrth ddynion o bob plaid mewn gwlad-ddysg, a phob credo mewn crefydd; oddi wrth Esgobyddion, Henaduriaethwyr, Annibynwyr, a Threfnyddion—oll o un galon ac un genau, yn cymmeryd mantais ar yr achlysur i godi y gymdeithas i safle uwch nag erioed mewn urddas a defnyddioldeb.

Nid oes ond un o sylfaenwyr y gymdeithas yn fyw yn bresennol, sef y Dr. Steinkopff. Bu farw Owen yn 1822; a'i ganlynwr fel ysgrifenydd, sef Brandrum, yn 1850; Joseph Hughes, ac arglwydd Teignmouth, yn 1834; ac arglwydd Bexley (Vansittart), ei ganlynwr yn y llywyddiaeth, yn 1851. I fedrusrwydd a gweithgarwch diflino y dynion hyn, y mae y gymdeithas, dan fendith y nefoedd, yn ddyledus am y llwyddiant mawr sydd wedi ei dilyn am yr hanner can mlynedd cyntaf o'i banfodiad.—(*Adroddiadau Blynyddol; Owen's History of the Origin, &c.;* gwahanol ysgrifeniadau ar ddadl yr *Apocrypha.*)

BEIBL, CYFIEITHIADAU Y. Tarddodd yr angenrheidrwydd am gyfieithiadau o'r Beibl o ddau amgylchiad. Yn gyntaf, mewn cyssylltiad â'r Hen Destament, yr oedd bod yr Iuddewon yn colli eu hiaith yn gwneyd yn angenrheidiol, mewn trefn iddynt allu deall geiriau a manau anhawdd, i gael cyfieithiad. Yr oedd ymledaeniad Cristionogaeth yn peri fod lluaws o gyfieithiadau mewn gwahanol ieithoedd o'r Testament Newydd yn ymddangos yn fore: y mae yr un angenrheidrwydd wedi achosi eu lluosogiad o hyny hyd yn awr. Y mae hen gyfieithiadau o werth neillduol i feirniadaeth ac esboniadaeth Ysgrythyrol, o gymmaint a'u bod wedi cael eu gwneyd yn foreuach na'r ysgriflyfrau sydd yn awr ar gael o'r Ysgrythyrau, ac felly yn gwasanaethu i ddangos pa beth oedd ansawdd y testyn yn agos i'r amser yr ysgrifenwyd ef dan ysbrydoliaeth dwyfol; ac hefyd gwasanaethant yn fynych i daflu goleu ar eiriau ac adnodau tywyll. Nid yw y manteision hyn i'w cael yn y cyfleithiadau diweddaraf; o ba herwydd cyfyngir yr erthygl hon, yn benaf, at yr hen gyfleithiadau. Gellir eu dosbarthu yn gyfleus i gyfleithiadau *uniongyrchol* ac *anuniongyrchol.* Gwnaed y cyntaf oddi wrth yr iaith wreiddiol. ond yr olaf oddi wrth gyfleithiad blaenorol. Nid yw y rhai hyn yn meddu yr un gwerth a'r rhai blaenorol yn eu cyssylltiad â'r testyn gwreiddiol, o gymmaint ag nad ydynt yn ei ddangos ond ail law trwy gyfrwng y cyfleithiad cyntaf. Mae dosbarthiad o honynt, yn ol y gwahanol ieithoedd ac amseroedd y gwnaed hwynt, o ddyddordeb nid bychan; am ei fod yn dangos ansawdd llenyddiaeth yn mysg cenedl benodol, ac mewn cyfnod neillduol. Os dosberthir y cyfleithiadau hyn yn ol yr ieithoedd y maent ynddynt, gellir hefyd nodi eu hoed, yn nghyd â dangos pa un a wnaed hwynt o'r testyn gwreiddiol ai ynte oddi wrth gyfleithiad blaenorol. Nodir yn gyntaf—

CYFIEITHIADAU YR HEN DESTAMENT.

I. O'r rhai hyn, yr hynaf ydyw y cyfieithiadau Groeg; ac o honynt, y mae y lle cyntaf yn perthyn i—

1. Cyfleithiad y Deg a Thrigain=y *Septuagint.* dynodir ef hefyd wrth y llythyrenau LXX. Y cyfleithiad hynaf o unrhyw ran o'r Ysgrythyrau ydyw y cyfleithiad hwn o'r Hen Destament i'r

Digitized by Google

Groeg. Gelwir ef y Deg a Thrigain oddi wrth y dybiaeth ei fod wedi ei gymmeradwyo gan y Sanhedrim Iuddewig, yr hon oedd yn gynnwysedig o 72 o aelodau, neu oddi wrth yr adroddiad Iuddewig iddo gael ei wneyd gan 72 o gyfieithwyr. Gelwid ef yn achlysurol gynt, y Deuddeg a Thrigain. Mae y cyfieithiad hwn o bwys arbenig, nid yn unig ar gyfrif ei hynafiaeth, ond hefyd ar gyfrif ei dderbyniad cyffredinol gan Iuddewon a Christionogion. Y mae y dyfyniadau o hono yn y Testament Newydd yn lluosocach na'r dyfyniadau o'r Hebraeg gwreiddiol; yr hyn a ddengys fod iddo ledaeniad bore, ac y cyfrifid ef ar y cyfan yn gyfieithiad ffyddlawn. Bu tarddiad a hanes y Deg a Thrigain yn hir mewn dadl; er, yn bresennol, y gellir meddwl fod unfrydedd wedi ei gyrhaedd o barth iddynt. Mae yr hen draddodiad am ei darddiad yn seiliedig ar hysbysiad Aristeas, ysgrifenydd sydd yn proffesu bod yn genedl-ddyn, ac yn swyddog yn llys Ptolemy Philadelphus, yn yr Aipht. Y mae yr hysbysiad mewn llythyr at ei frawd, Philocrates, ac o ran cynnwysiad, fel y canlyn:—fod Ptolemy Philadelphus, y brenin, pan yn sefydlu llyfrgell gyhoeddus yn Alexandria, wedi anfon, ar gais Demetrius Phalereus, y llyfrgellydd, at yr archoffeiriad yn Ierusalem, i'r dyben i gael copi o'r cyfreithiau Iuddewig. Ond yn gyntaf oll, fe ryddhaodd yr holl Iuddewon a gymmerwyd yn gaethion gan ei dad a chanddo ei hun. Yna fe anfonodd Aristeas ac Andreas gyda rhoddion gwerthfawr, ac â llythyr at yr archoffeiriad, i erfyn arno i anfon deuddeg a thrigain o gyfieithwyr i Alexandria. Anfonwyd deuddeg a thrigain o henuriaid, gyda chopi o'r gyfraith "ar femrynau gwahanol, ar y rhai yr oedd y gyfraith wedi ei hysgrifenu mewn aur, ac â llythyrenau Iuddewig." Ar ol eu gwledda, cymmerodd y brenin hwynt i ynys, yr hon, yn ol y dysgrifiad, oedd Pharos, yn mhorthladd Alexandria. Yma y trigianent gyda'u gilydd mewn tŷ gorwych, a gorphenasant eu gwaith mewn deuddeg a thrigain o ddyddiau. Casglwyd yr Iuddewon a'u penaethiaid i'r tŷ i wrandaw darllen y cyfieithiad; cymmeradwywyd ef, a chyhoeddwyd melldithion ar bawb a ryfygai chwanegu ato neu dynu oddi wrtho. Ac anfonwyd yr henuriaid yn ol gyda gwobrau gwerthfawr iddynt eu hunain ac i Eleazar yr archoffeiriad. Yn ol Usher, ac ereill, cymmerodd hyn le 277 cyn Crist.

Adrodda Josephus yr un hanes, gan gyfeirio at lythyr Aristeas. Gwahaniaetha Philo mewn ychydig bethau oddi wrth yr hanes uchod. Dywed ef fod y cyfieithwyr dysgedig a anfonwyd o Ierusalem wedi cyfansoddi gwahanol gyfieithiadau, y rhai, o'u cymharu, a gafwyd yn cytuno air yn ngair, er nad oedd y cyfieithwyr wedi ymgynghori â'u gilydd. Derbyniwyd hyn fel prawf eu bod dan arweiniad yr Ysbryd Glân. Chwanega fod yr Iuddewon Aiphtaidd a Groegaidd yn cadw gwyl bob blwyddyn ar yr ynys yn goffadwriaeth o'r gwaith. Ond ni chrybwylla am y llythyrenau euraidd, nac am y nifer deuddeg a thrigain, &c.

Gwnaed amryw gyfnewidiadau yn y traddodiad gan ysgrifenwyr diweddarach; ac yn y ffurf yna y daeth i lawr, gan gael ei dderbyn yn gyffredin hyd yr eilfed ganrif ar bymtheg, pryd yr ammheuwyd dilysrwydd llythyr Aristeas gan amryw: ac ar ol ymchwiliad trwyadl, profwyd i foddlonrwydd beirniaid, gan Hody, ei fod yn cynnwys pethau annhebygol ac anghysson â hanesiaeth: ac iddo gael ei ysgrifenu, nid gan awdwr cyfoesol, ond gan Iuddew *ar ol* yr amser y proffesa gael ei ysgrifenu; ond eto, gan ei fod yn adnabyddus i Josephus, rhaid ei fod wedi ymddangos yn foreu. Ond er fod beirniaid yn awr yn ymwrthod â'r traddodiad fel chwedl, eto y mae Dr. Davidson yn dadleu fod peth gwir ynddo. Mae parodrwydd Josephus i'w dderbyn yn awgrymu fod rhai o'r amgylchiadau yn adnabyddus eisoes; a chyfeiria yr ŵyl flyneddol at ryw darddiad cyffelyb. Gwir hefyd ydyw fod Demetrius yn gwneyd ymdrechion i luosogi y llyfrgell Alexandriaidd; ac ni allasai fod dim yn fwy naturiol nag i ddyn oedd yn ymhyfrydu mewn ymchwiliadau ymarferol, dysgedig, a gwladeiddiol, ddymuno cael gwybodaeth o gyfreithiau yr Iuddewon, y rhai oedd, hyd hyny, yn anadnabyddus iddo. Yn ol pob tebygolrwydd, gwnaed y cyfieithiad hwn ar orchymyn un o freninoedd yr Aipht; ond Ptolemy Lagus ydoedd, ac nid Philadelphus. Ond nis gellir dyweyd pa un ai oddi ar gymhelliad crefyddol, politicaidd, ynte llenyddol y gwnaeth hyn. Ond yr hyn sydd yn sicr am y cyfieithiad hwn yw, (1.) Ei fod wedi ei wneyd gan amryw ddynion, yn gwahaniaethu yn eu gwybodaeth o'r Hebraeg a'r Groeg, ac o wahanol nawss a thueddiad meddyliol. Ymddengys hyn wrth gymharu cyfieithiad y gwahanol lyfrau â'u gilydd. Ni ddichon fod llai na phump neu chwech o gyfieithwyr; ac nis gellir eu rhoddi oll yn yr un cyfnod. Fod rhan fawr wedi ei wneyd tuag amser Ptolemy, y mae pawb yn cytuno: a bod y gweddill wedi ei wneyd yn raddol, fel erbyn ychydig ar ol canol yr ail ganrif cyn Crist, nad oedd un llyfr heb ei gyfieithu. (2.) Cytunir mai pum llyfr Moses a gyfieithwyd yn gyntaf. Yr oedd amgylchiadau yr Iuddewon oedd yn byw allan o'u gwlad yn gwneyd hyny yn angenrheidiol iddynt hwy, am fod iaith eu gwlad yn myned yn annealladwy iddynt. (3.) Yr oedd y cyfieithwyr yn Iuddewon Alexandriaidd. A hyn, cytuna y traddodiad; a dyben y cyfieithiad, sef rhoddi Ysgrythyrau yr Hen Destament i'r rhai oedd yn anwybodus o honynt; yn nghyd âg addysg Roegaidd y cyfieithwyr. Cyfieithiad Pum Llyfr Moses a ystyrir y goreu o ran cywirdeb a ffyddlondeb i'r gwreiddiol. O'r llyfrau hanesiol, dau lyfr y Cronicl sydd wedi eu troi i'r Groeg gyda mwyaf o fedr a gofal; a llyfrau Samuel a'r Breninoedd ydynt y rhai sydd yn dangos mwyaf o anwybodaeth a diofalwch. Yr oedd cyfieithwyr y llyfrau prophwydol yn ddiffygiol yn y cymhwysderau angenrheidiol i gyfieithu llyfrau mor anhawdd. Ieremiah sydd wedi ei gyfieithu oreu. Amos ac Ezeciel sydd yn sefyll nesaf. Mae y cyfieithiad o Esaiah yn hollol annheilwng o'r gwreiddiol; ac nid yw Daniel ddim gwell. Yr oedd cyfieithydd y Salmau hefyd yn fyr o wybodaeth gywir o'r Hebraeg a'r Groeg, ac yn hollol amddifad o chwaeth ac ysbryd barddonol. Llyfr y Diarebion, ar y cyfan, sydd wedi cael ei ganmawl fel y goreu o'r llyfrau prophwydol ac addysgiadol.

Y farn gyffredinol yn mysg y tadau Cristionogol, hyd amser Jerome, oedd, fod cyfieithiad y Deg a Thrigain o awdurdod cyfuwch â'r Hebraeg gwreiddiol; a derbynient y traddodiad am ei darddiad gwyrthiol fel prawf ei fod yn ysbrydoledig fel cyfieithiad. Y mae y farn hon wedi cael ei hamddiffyn yn ddiweddar gan E. W. Grinfield, yr hwn a hòna le iddo yn nghanon yr Hen Destament, yn gyfartal â'r gwreiddiol. Yn y geiriau canlynol, y mae y Dr. Davidson yn dadgan ei syniad cyffredin o barth i'w deilyngdod yn mysg

Digitized by Google

beirniaid yn awr. "Nid yw mewn un modd yn gyfleithiad llythyrenol a ffyddlawn; ond eto y mae ei deilyngdod yn fawr. Dengys i ni pa beth oedd ansawdd y testyn gwreiddiol yn yr Aipht, ac fe ddichon yn Asia Leiaf hefyd, yr amser y gwnaed ef. Hefyd, dengys pa fodd y deallid ystyr y testyn gwreiddiol y pryd hwnw. Yr oedd y cyfleithwyr yn byw yn agos i'r amser yr oedd yr Hebraeg mewn arferiad cyffredin, ac yn meddu gwell manteision i'w hadnabod......ond y mae y rhyddid a gymmerai y cyfleithwyr gyda y testyn yn tynu oddi wrth ei werth *beirniadol.* Fe fydd o fantais i'n galluogi i gael allan y geiriau gwreiddiol lle y mae ammheuaeth wedi codi trwy esgeulusdra copïwyr, ond nid cymmaint ag y gallasem feddwl. Ni wâd neb ei werth, er y gwahaniaetha dynion am *faint* ei werth."

Dengys y chwedl yn nghylch ei darddiad ei fod o fri mawr yn mysg yr Iuddewon Groegaidd. Ac fel prawf nad oedd yn nemawr llai yn mhlith Iuddewon Palestina, defnyddiai Josephus fwy arno nag a wnai ar y Beibl Hebraeg, er ei fod yn gydnabyddus â'r Hebraeg. Ond tua dechreu yr ail ganrif, ac yn ddiweddarach, pan gododd dadleuon rhwng Iuddewon a Christionogion, ac i'r Iuddewon deimlo eu bod yn cael eu gorchfygu yn eu happeliadau at eu cyfleithiadau eu hunain, dechreuasant edrych ar y Deg a Thrigain gydag ammheuaeth; gwadent ei fod yn cytuno â'r Hebraeg, ac aethant i'w gasäu. Mewn canlyniad i hyn, dywed y *Talmud* fod ympryd wedi cael ei gadw ar yr wythfed o fis Thebet, i gadw coffa o ddiwrnod mor anffodus a'r diwrnod y cyfleithwyd y gyfraith i'r Groeg.

Yr oedd yr Iuddewon yn gweled y gwahaniaeth rhwng yr Hebraeg a'r Deg a Thrigain; ond nid oedd y Cristionogion. A phan ddeuent âg adnod yn erbyn yr Iuddew, dywedai yntau mai nid felly yr oedd yn yr Hebraeg; ac yn fynych yr oedd hyn yn foddion i ddystewi y Cristion.

Penderfynodd ORIGEN wneyd y diffyg i fyny, hyd y gallai, drwy arolygu a chywiro y testyn Groeg. Ymgymmerodd i'w gymharu â'r Hebraeg, ac â chyfleithiadau Groeg ereill, er mwyn ei wneyd yn fwy dealladwy. I barotoi ar gyfer y gwaith mawr hwn, treuliodd wyth mlynedd ar ugain yn teithio yn y dwyrain i gasglu defnyddiau. Wedi cael y cyfleithiadau Groeg a grybwyllir isod, sef eiddo Aquilla, Symmachus, a Theodotion, yn nghyd â thri ereill, ymneillduodd i Cesarea (o 228 hyd 231, B. A.) i ochel erledigaeth Decius; ac yma y trefnodd ei ddefnyddiau, ac y parotodd ran o'i waith mawr, yr hwn, gyda'i gilydd, a wnaeth *ddeg a deugain* o gyfrolau. Adnabyddir ef wrth yr enw *Hexaplar Origen,* o herwydd ei fod yn *chwe cholofnog,* yn cynnwys ochr yn ochr yr Hebraeg, mewn llythyrenau Hebraeg, yr unrhyw mewn llythyrenau Groeg, Aquilla, Symmachus, y Deg a Thrigain, a Theodotion. Aeth y gwaith hwn, a gostiodd lafur cynnifer o flyneddoedd i Origen, ar goll yn ninystr Cesarea, gan y Saraceniaid, B. A. 653. Ond yn ffodus, yr oedd Eusebius wedi adysgrifio y golofn a gynnwysai y Deg a Thrigain, gyda gwelliadau a chwanegiadau Origen o gyfieithwyr ereill. Cyhoeddwyd y testyn Hexaplaraidd hwn, fel y gelwir ef, yn Paris, yn 1714, gan Montfaucon. Y mae dau ysgriflyfr o werth mawr ar gael yn awr o'r Deg a Thrigain; un, y *Vatican* (B), yr hwn sydd yn dilyn y cyfleithiad gwreiddiol; a'r *Alexandriaidd* (A), yr hwn sydd yn cynnwys llawer o ddarlleniadau yr *Hexaplar,* ac yn cyfateb yn nes i'r Hebraeg.

2. Yr ail gyfleithiad Groeg o'r Hen Destament ydoedd yr un gan AQUILLA, brodor o Sinope, yn Pontus, a pherthynas yr ymherawdwr Hadrian, oddi wrth yr hwn y derbyniodd awdurdodiad i fyned i Ierusalem pan adeiladwyd hi dan yr enw Ælia Capitolina. Ac yma, ar ol mabwysiadu Cristionogaeth yn gyntaf, cofleidiodd Iuddewiaeth drachefn yn ei lle. Dywedir iddo ymroddi i ddeall yr iaith Hebraeg yn drwyadl; ac er mwyn cynnorthwyo yr Iuddewon yn eu dadleuon â'r Cristionogion, y rhai a barchent yn fawr y Deg a Thrigain, iddo wneuthur cyfieithiad o'r Hebraeg mor llythyrenol ag y gallai. Rhoddai yr Iuddewon y flaenoriaeth i'w gyfieithiad ef ar bob un arall, a galwent ef y *Gwiredd Hebreig.* Nid yw yn gofalu am briod-ddull y Groeg, ond am gyfatebiad gair yn ngair â'r Hebraeg. Ac yn hyn y mae ei werth yn benaf i feirniaid. Yn ol tystiolaeth Jerome, parotodd ddau argraffiad, pe gellid son am argraffu pan nad oedd llyfrau ond mewn ysgrifen; a dywed fod yr ail yn fwy caeth i'r llythyren na'r cyntaf.

3. Y trydydd cyfleithiad Groeg ydyw un THEODOTION, proselyt Iuddewig o Ephesus, yn ol Irenæus, ac yn Ebioniad, neu hanner Cristion. Nid oes ond ychydig o'i gyfieithiad ar gael yn bresennol; ond yn ol tystiolaeth y rhai y bu ganddynt y fantais i'w ddarllen, tybir mai ei amcan oedd, nid rhoddi cyfieithiad hollol newydd, ond dilyn y Deg a Thrigain mor bell ag y mae hwnw yn cyfateb yn gywir i'r Hebraeg, a gwyro oddi wrtho pan y tybiai nad ydoedd hwnw yn rhoddi ystyr y gwreiddiol. Dengys y camgymmeriadau sydd ynddo nad oedd ei wybodaeth o'r Hebraeg yn fanwl. Yr oedd y cyfieithiad hwn yn cael derbyniad gwell gan Gristionogion nag un Aquilla a Symmachus. Ni wyddys yn iawn pa bryd y bu efe byw: ond gan yr enwir ef gan Irenæus, rhaid ei fod cyn B. A. 177; ac hefyd cyn 160, gan fod Justin Ferthyr yn ei enwi.

4. SYMMACHUS oedd awdwr y cyfleithiad nesaf yn Groeg. Samariad dysgedig ydoedd, yn byw yn amser yr ymherawdwr Severus (B. A. 193—211). Dysgrifiad yr hen awduron o'r cyfleithiad hwn ydyw, ei fod yn rhydd, a bod yr awdwr wedi amcanu rhoddi y synwyr yn hytrach na'r geiriau, a hyny mewn iaith eglur a dealladwy. Fod hwn yn gyfleithiad diweddarach nag un Theodotion sydd amlwg, am na Sonia Irenæus am dano. Crybwylla Jerome am ail gyhoeddiad o'r cyfleithiad hwn. Dywed Dr. Davidson, nad oes dim ammheuaeth nad oedd y tri chyfieithiad hyn yn rhagori ar y Deg a Thrigain am ffyddlondeb i'r testyn gwreiddiol, a'u bod hefyd yn cytuno â'u gilydd yn fynych, pan yn anghytuno â hwnw.

5. Pan oedd Origen yn casglu defnyddiau yn ngwledydd y dwyrain i ffurfio ei *Feibl Amlieithog* (*Polyglot*), cafodd allan dri o gyfleithiadau ereill yn Groeg, nas gwyddid gan bwy na pha bryd y gwnaed hwy. Gelwir hwynt y *pummed,* y *chweched,* a'r *seithfed,* oddi wrth eu cyflead yn ngholofnau cyfochrog gwaith Origen. Nid yw y cyfleithiadau hyn yn gaeth, ond yn cyfranogi yn hytrach o natur aralleiriad. Nid oes sicrwydd a oeddynt yn cyrhaedd dros ond ychydig o lyfrau yr Hen Destament. Bernir fod y tri yn ddiweddarach nag eiddo Aquilla, Theodotion, a Symmachus.

Yn chwanegol at y rhai hyn hefyd, y mae gweddillion o gyfleithiadau ereill ar ymylau ysgriflyfrau o'r Deg a Thrigain a'r *Hexaplar.* Yr HEBRAIOS ydyw un, a chynnwysa sylwadau

Digitized by Google

beirniadol Jerome yn benaf, lle y tybia efe fod y Deg a Thrigain yn gwyro oddi wrth y gwreiddiol.

Cafwyd cyfleithiad arall yn llyfrgell St. Marc, Venice, o amryw o lyfrau yr Hen Destament, nid yn foreuach na'r wythfed ganrif, ac felly nid o gymmaint gwerth i'r beirniaid a'r rhai a wnaed yn foreuach. Y mae yn hollol lythyrenol, yn annibynol ar bob un blaenorol, ac yn fwy caeth nag un Aquilla. Gelwir ef y cyfleithiad *Groeg-Venetiaidd;* a'i awdwr ydoedd Iuddew o Gaer Cystenyn, a barnu wrth yr iaith.

Y mae yn debygol hefyd fod cyfleithiadau ereill i'r Groeg wedi myned ar goll.

II. Y cyfleithiadau CALDEAIDD, y rhai a ymddangosasant ar wahanol adegau o ddechreuad y cyfnod Cristionogol hyd y ddeunawfed ganrif, ac a wnaed yn ddigyfrwng o'r Hebraeg. [Gwel TARGUM.]

III. Y cyfleithiadau SYRIAIDD. O'r rhai hyn, yr hynaf a'r pwysicaf ydyw y cyfleithiad a elwir y PESHITO; hyny yw, y *syml;* am ei fod yn ymgadw yn hollol at yr ystyr lythyrenol, gan ymwrthod â chyfleithiadau allegawl. Un o'r cyfleithiadau cyntaf a wnaed gan Gristionogion ydyw, ac fe'i olrheinir yn ol i'r ail ganrif. Barna Michaelis iddo gael ei wneyd yn y cyntaf, tra y mae traddodiadau y Syriaid eu hunain yn priodoli hynafiaeth llawer uwch i'r cyfleithiad o'r Hen Destament; sef i amser Solomom a Hiram: ond nid oes dim sail i hyn. Yr awdwr cyntaf sydd yn enwi y cyfleithiad hwn ydyw Ephraem Syrus, yr hwn a fu farw yn 376. Yn ei amser ef, yr oedd wedi cyfarfod â derbyniad cyffredinol yn eglwysi Syria, ac fe'i gwnaeth ef yn sail ei esboniadau ar y Beibl. Ni chynnwysai y Peshito ddim ond llyfrau canonaidd yr Hen Destament ar y cyntaf; ac er i'r *Apocrypha* gael ei gyfleithu yn fore i'r Syriaeg, ni chyfrifid ef yn ganonaidd. Nid yw yr awdwr yn adnabyddus; ond y tebygolrwydd ydyw ei fod yn Gristion, er fod rhai wedi dadleu mai Iuddew ydoedd. Gwnaed ef yn uniongyrchol o'r Hebraeg; ac o ran cywirdeb a ffyddlondeb i'r gwreiddiol, cyfrifir hwn y goreu o'r hen gyfleithiadau. Y mae yn amlwg, ar yr un pryd, fod y cyfleithydd yn gydnabyddus â'r Deg a Thrigain. Hyd y chweched ganrif, y Peshito oedd y cyfleithiad awdurdodedig trwy holl Syria ddwyreiniol a gorllewinol. Ond fel yr oedd y dadleuon rhwng y Monophysiaid a'r Nestoriaid yn cynnyddu, gwnaed amryw adgyweiriadau o'r hen gyfleithiad, a chyfeithiadau newyddion. Yr oedd gan y Nestoriaid gyhoeddiad o hono wedi ei arolygu yn eu ffafr hwy. Llefara Bar Hebræus hefyd am yr adgyweiriad *Carcaphensiaidd*, yr hwn a berthynai i'r Monophysiaid. Y mae y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor wedi dwyn y draul o gyhoeddi y Beibl Syriaidd, wedi ei barotoi ar gyfer Cristionogion Syria, yn Malabar, dan arolygiad Dr. S. Lee. Yn yr argraffiad hwn yr arolygwyd y testyn gyntaf ar awdurdod ysgriflyfrau.

IV. Y mae hefyd gyfleithiad i'r briod-ddull SAMARIAEG o Bum Llyfr Moses, heb law yr adgyweiriad Samariaidd o'r testyn Hebraeg. Y mae y cyfleithiad hwn yn dilyn yn gywir y copi Hebraeg oedd gan y Samariaid. Y mae ei awdwr a'i amseriad yn anadnabyddus. Gan fod tadau y drydedd a'r bedwaredd ganrif yn crybwyll am y testyn Samariaidd, y mae yn debygol iddo gael ei wneyd yn yr ail ganrif, pan yr oedd sel cyfleithu yn fawr iawn.

V. Yr AIPHTAIDD. Yn niwedd y drydedd, neu ddechreu y bedwaredd ganrif, ymledaenodd Cristionogaeth i'r Aipht; ac yn fuan, ymddangosodd cyfleithiad yn iaith y trigolion. Yr enw cyffredin ar yr hwn a wnaed i drigolion yr Aipht Isaf, ydyw, y Coptaidd, neu y Memphisiaidd; ac i'r Aipht Uchaf, y Sahidiaidd, neu y Thebaiiaidd; a'r hwn a wnaed i drigolion talaith y Delta, a elwir Baschmuraidd, sydd yn derbyn ei enw oddi wrth y dalaeth.

VI. Y cyfleithiad ETHIOPAIDD. Cyfeiria Chrysostom at gyfleithiad o'r Ysgrythyrau oedd yn mysg yr Ethiopiaid yn ei amser ef; a thebygol yw, iddo gael ei wneuthur yn y bedwaredd ganrif, pan oedd Cristionogaeth yn ennill ei ffordd yn eu mysg. Y mae wedi ei ysgrifenu yn yr hen iaith gyssegredig, a elwir y *Gheez:* ac er iddo gael ei wneuthur gan y Cristionogion, fe'i defnyddiwyd gan yr Iuddewon Ethiopaidd. Cyfieithwyd ef o'r Deg a Thrigain. [Gwel ABYSSINIA.]

VII. Yr ARABAIDD. Tybir fod y cyfleithiad yn yr Arabaeg wedi ei wneyd yn ddiweddarach nag amser Mahomet, er fod yr efengyl wedi cael ei chyhoeddi yn fore yn Arabia, a chymdeithasau yn proffesu credu dwyfol awdurdod yr Ysgrythyrau wedi eu sefydlu. Ond ar ol buddugoliaethau y Saraceniaid, pan y defnyddiwyd yr Arabaeg mewn gwledydd Cristionogol, y galwyd am gyfleithiadau ynddi. Y cyfleithiad cyntaf o unrhyw ran o'r Beibl a wnaed gan Warka yr hwn a fu farw dair blynedd ar ol i Mahomet wneyd ymhoniad i allu prophwydol. Trwy gyfrwng y cyfleithiad hwn, y mae yn debygol, y cafodd Mahomet ei wybodaeth o'r Beibl. Gwnaed amryw gyfleithiadau i'r Arabaeg; tri yn uniongyrchol o'r Hebraeg, ereill o'r Peshito, ac amryw o'r Deg a Thrigain.

VIII. Yr oedd cyfleithiad yn y PERSIAEG yn fore, a chrybwyllir am dano gan Chrysostom a Theodoret. Y mae tystiolaeth fod Pum Llyfr Moses yn yr iaith yn mhell cyn amser Mahomet. Gwnaed y cyfleithiad sydd yn *Beibl Amlieithog Llundain,* ar ol hyny, fel y mae yn amlwg oddi wrth fod Babel (*Gen.* xi. 9) yn cael ei droi yn Bagdad.

IX. Cyfleithiadau LLADIN. Y mae cyfleithiad Lladin o'r Hen Destament wedi bod yn yr eglwys er yn fore iawn; ond y mae yn anmhosibl gwybod gan bwy, na pha bryd y gwnaed ef. Barn Eichhorn ydyw, nad oedd ond un, yn groes i Jahn, Hug, a Van Ess; ac i hwnw gael ei wneyd yn Affrica yn y ganrif gyntaf. Y mae Tertullian yn cyfeirio at y *Vetus,* neu yr hen gyfleithiad yn niwedd yr ail ganrif; felly, tybir mai yn yr hanner diweddaf o'r ganrif hon y mae ei amseriad. Yr oedd Lladin yn gyffredin yn Affrica yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth; tra yn Italy, yr oedd y Groeg, mewn llawer man, yn cymmeryd y flaenoriaeth ar y Lladin: felly, nid annhebyg yw mai o Affrica y daeth. Dengys y gweddillion o hono sydd ar gael yn awr, iddo gael ei gymmeryd oddi wrth y Deg a Thrigain, cyn i Origen wneyd ei adgyweiriad; o herwydd y mae holl wallau y Deg a Thrigain yn yr hen gyfleithiad Lladinaidd. Yn y flwyddyn 382, ar gais y pab Damasius, ymgymmerodd Jerome â'r gwaith o arolygu ac adgyweirio y cyfleithiad hwn, yr hwn oedd wedi cael ei newid nes myned yn dra llygredig. Yn gyntaf, arolygodd y *Salmau,* yr hwn wedi hyny a alwyd y *Salmydd Rhufeinig.* Arolygodd ef eilwaith, gan symmud ymaith chwaneg o'r gwallau oedd ynddo, yn ol testyn *Hexaplar* Origen. Galwyd hwn y *Salmydd Gaulaidd;* o herwydd ei ddefnyddio yn Gaul neu Ffrainc, fel yr oedd y blaenaf yn arferedig yn

Rhufain. Aeth yn mlaen yn raddol drwy holl lyfrau yr Hen Destament; ond y cyfan sydd wedi dyfod i lawr i'n hamser ni ydyw y ddau Salmydd a Llyfr Iob.

Tra yr oedd Jerome yn arolygu yr hen gyfieithiad Lladin, dechreuodd, ar gais ei gyfeillion, i wneyd un newydd o'r Hebraeg. Yr oedd hwn ganddo hefyd mewn golwg i roddi cymhorth i'r Cristionogion yn eu dadleuon yn erbyn yr Iuddewon. Tua'r flwyddyn 385, dechreuodd ar y *Vulgate;* yr hwn oedd i fod, nid cyfieithiad o gyfeithiad, fel yr hen *Italaidd*, ond yn uniongyrchol o'r Hebraeg. Yr oedd cymhwysderau Jerome i'r gwaith yn uwch na neb arall yn ei oes; a dygodd allan gyfieithiad a ragorai ar bob cyfieithiad blaenorol, am gywirdeb yr ystyr a phriodoldeb y geiriad. Y mae y llyfrau hanesyddol yn dra rhagorol, felly hefyd Iob a'r prophwydoliaethau. Ond o herwydd amryw amgylchiadau, nid oedd mor gywir nac mor werthfawr ag y gallasai fod. Nid oedd gan Jerome y fantais o destyn Hebreig pwyntiedig, yr hyn sydd o fantais fawr i ddangos yr ystyr. Nid oedd ei wybodaeth o'r Arabaeg a'r Syriaeg—ieithoedd yn perthyn i'r Hebraeg, ac yn gynnorthwyol i'w deall - ond bach. Yr ydoedd hefyd dan rwymau, gan ragfarn yr oes, i ddilyn mor agos ag y gallai yr hen gyfieithiad Lladin; ond er ei holl wyliadwriaeth, a theilyngdod mawr ei waith, cyfarfyddodd â derbyniad anffafriol yn yr Eglwys Ladinaidd:—galwyd ef yn heretic. Annogai hyd yn oed Awstin ef i ymattal, yr hwn oedd yn bleidiol iddo cyn i deimlad cryf y cyffredin gael ei amlygu. Canfyddai ychydig o feirniaid cymhwys ei werth o'r dechreuad, a defnyddient ef yn eu gweithiau eu hunain; yr hyn a barotodd y ffordd i'w dderbyniad cyffredinol yn ddiweddarach. Ennillodd ei ffordd yn raddol nes y daeth yn unig gyfieithiad mewn ymarferiad, heb unrhyw gadarnhad swyddogol hyd amser Cymmanfa Trent. Mewn amser, daeth cyfieithiad Jerome yn dra llygredig, trwy gymmysgedd o'r hen gyfieithiad, a darlleniadau o'r gwasanaeth eglwysig. Sylwai Charlemagne fod gwahaniaeth yn y llithoedd a ddarllenid yn yr eglwysi; a rhoddodd orchymyn i'w gyfaill Alcuin i adgyweirio yr Hen Destament a'r Newydd. Mae ysgriflyfr yn y British Museum yn awr, a elwir *Beibl Charlemagne*, ac a gyflwynid i'r ymherawdwr, meddir, gan Alcuin ei hun. Gwnaed amryw adgyweiriadau diweddarach o'r *Vulgate*—un yn yr unfed ganrif ar ddeg, dan arolygiad Lanfranc, archesgob Caergrawnt; ac un arall yn y ddeuddegfed ganrif. Ar ol y ddeuddegfed ganrif y dechreuwyd yr arferiad o ysgrifenu darlleniadau gwahanol ar ymyl y dalenau (*correctoria biblica*), dan nawdd cymdeithasau dysgedig a chrefyddol. Y *Vulgate* oedd y llyfr cyntaf a argraffwyd erioed; a daeth allan yn fynych ar ol hyny heb amseriad nac enw lle. Yr argraffiad cyntaf yr oedd amseriad iddo a gyhoeddwyd yn Mentz, yn y flwyddyn 1462; a dilynwyd hwn yn fuan gan luaws o rai ereill, Erbyn hyn, yr oedd y llygriadau oedd wedi dyfod i mewn i'r testyn yn bur amlwg. Cardinal Ximenes oedd y cyntaf a wnaeth ymdrech i gywiro testyn y *Vulgate*, drwy ei gymharu âg ysgriflyfrau; ac felly ffurfiwyd y *Beibl Amlieithawg Complutensiaidd.* Dygwyd allan argraffiadau beirniadol gan Isidore, Clarius, Robert Stephens, ac ereill. Yn 1546, cyhoeddodd Cymmanfa Trent ei phenderfyniad o barth y *Vulgate;* sef, "ei fod i gael ei ddefnyddio mewn pob gwasanaeth cyhoeddus, dadleuon, pregethau, ac esboniadau, yn awdurdodedig, ac nad oes neb i ryfygu ei wrthod ar unrhyw gyfrif pa bynag." Trwy y gorchymyn yma, gwnaeth Eglwys Rhufain y *cyfieithiad hwn*, ac nid y Beibl yn yr ieithoedd gwreiddiol, yn awdurdodedig yn mhob achosion a dadleuon. Gwnaed amryw ymgeisiadau ar ol hyn i arolygu a chywiro y testyn. Cyhoeddwyd dau argraffiad dan awdurdod y Pab. Dygwyd y cyntaf allan dan nawdd Sixtus v.; a chyhoeddir testyn yr argraffiad hwn yn *wir, yn ddilys, ac awdurdodol*, a bygythir pawb a ryfyga ei gyfnewid âg anfoddlonrwydd Duw.

Ond yn fuan ar ol hyny, daeth allan un arall dan nawdd Clement VIII, yn gwahaniaethu mewn dwy fil o fanau oddi wrth yr argraffiad Sixtaidd, fel y gelwir yr un blaenorol. Ond yn unol â'r argraffiad Clementaidd, y mae pob argraffiadau diweddarach wedi eu gwneyd hyd at yr un a gyhoeddwyd gan Leander Van Ess, yn 1826, drwy awdurdod Leo XII. Y mae llawer o ddadleuon wedi bod yn mhlith y Pabyddion eu hunain o barth i werth y cyfieithiad hwn. Hòna rhai o honynt fod y cyfieithydd wedi ei arwain gan Ysbryd Duw, fel nad oes ynddo ddim gwallau; tra yr addefa y rhai mwyaf cymmedrol o honynt fod camgymmeriadau ynddo. Addefa beirniaid ei fod yn gyfieithiad o werth mawr, fel tyst o ansawdd y *testyn* yn fore; ac hefyd o'r ystyr yn mha un y deallwyd ef; ond fod ei gyflwr anmherffaith yn awr yn tynu oddi wrth ei werth.

CYFIEITHIADAU O'R TESTAMENT NEWYDD.

I. Y cyfieithiadau SYRIAIDD. O'r rhai hyn, y mae y lle cyntaf yn perthyn i'r cyfieithiad *syml*, neu *ffyddlawn*, sef y PESHITO; a enwyd yn mhlith cyfieithiadau yr Hen Destament. Y mae hwn yn meddu yr un arbenigrwydd yn mhlith cyfieithiadau y Testament Newydd, ag y mae y Deg a Thrigain yn mhlith cyfieithiadau yr Hen. Ni gawn yn y ddau ddangosiad hynach o'r testyn gwreiddiol nag a geir mewn un ysgriflyfr sydd yn awr ar gael. Y Deg a Thrigain ydyw y cyfieithiad hynaf o'r naill, a'r Peshito o'r llall. Ond y mae y cyfieithiad Syriaidd yn fwy cywir o'r ddau. Yr oedd y Syriaeg hefyd yn iaith adnabyddus i ysgrifenwyr y Testament Newydd, os nad hono oedd eu hiaith arferol. Yn y cyfieithiad hwn, gadewir allan eiriau sydd yn cael eu hegluro yn y Testament Groeg ac yn y Gymraeg, am eu bod yn eu deall heb hyny; megys y rhai canlynol:—

*Mat.* xxvii. 46; "Yr Iesu a lefodd â llef uchel, Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaist ?"

*Marc* vii. 11; "Os dywed dyn wrth ei dad neu ei fam, Fy rhodd, trwy ba beth bynag y ceit les oddi wrthyf fi." *Adn.* 34; "A chan edrych tua'r nef, efe a ocheneidiodd, ac a ddywedodd, Ymagor."

*Rhuf.* viii. 15; "Trwy yr hwn yr ydym yn llefain, Tad, ein tad!"

1 *Cor.* xvi. 22; "Od oes neb nid yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, bydded felldigedig: y mae yr Arglwydd yn dyfod."

Y mae tystiolaeth y cyfieithiad hwn o bwys mawr mewn beirniadaeth ysgrythyrol, lle y dygwyddo fod rhyw wahaniaeth mewn gwahanol ysgriflyfrau Groeg. Er anghraifft:—

*Mat.* xxvii. 9; "Yna y cyflawnwyd yr hyn a lefarwyd trwy y prophwyd;" gan adael allan enw Ieremias, yn bur briodol, o herwydd yn Zecharïas y mae y brophwydoliaeth.

*Luc* ii. 14; "I ddynion newydd da."

*Act.* viii. 37; Heb fod i fewn.

*Act.* xx. 28; "Eglwys Crist." Y mae Lee yn

Digitized by Google

darllen "eglwys Dduw," ac yn rhoi y llall ar ymyl y ddalen.

1 *Tim.* iii. 16; "Mawr yw dirgelwch duwioldeb yr *hwn* a ymddangosodd yn y cnawd," &c.

*Heb.* vi. 4; "Canys anmhosibl yw i'r rhai a *fedyddiwyd* unwaith;" yn lle "a *oleuwyd* unwaith."

1 *Ioan* v. 7. Y mae yr adnod hon heb fod i mewn yn y cyffredin o'r argraffiadau.

2. Gwnaed cyfieithiad diweddar i'r Syriaeg, yr hwn a elwir y PHILOXENAIDD; i'w wahaniaethu oddi wrth yr hen gyfieithiad Syriaidd, neu y Peshito. Esgob o'r enw Philoxenus, yn Syria, a gynhyrfodd i'w gael, ac a roddodd ar Polycarp, is-esgob, i'w wneyd. Gorphenodd yr Efengylau yn y flwyddyn 508, ac a'u cyflwynodd i Philoxenus, ac felly y cafodd yr enw. Nodweddiad y cyfieithiad hwn ydyw, ei fod yn hollol lythyrenol, yn cadw y priod-ddull a'r gystrawen Groeg, ac felly o werth mawr mewn beirniadaeth. Heb law y rhai hyn, y mae ychydig weddillion o ddau hen gyfieithiad ereill.

II. Y cyfieithiad AIPHTAIDD neu GOPTAIDD. Cymmysgedd o hen iaith yr Aipht a'r Groeg, a ddygwyd i mewn dan y Ptolemiaid, ar ol Alexander Fawr, ydyw y Goptaeg. Gelwir hi felly oddi wrth enw y brif ddinas yn yr Aipht Uchaf, sef Coptos. Disodlodd y Goptaeg y Groeg ar ol marwolaeth y Ptolemiaid, ac felly y cododd yr angenrheidrwydd am yr Ysgrythyrau yn yr iaith hono. Ymddangosodd y Testament Newydd, fel yr Hen, yn nhair o gangenieithoedd yr Aiphtaeg neu y Goptaeg; sef yn y *Sahidig*, yn niwedd yr ail ganrif; y *Memphitig*, yn niwedd y drydedd; ac ychydig o wedddillion yn y *Baschmurig*.

III. Yr ARMENIAIDD. Ymledodd Cristionogaeth i Armenia yn yr ail ganrif, ond yn nechreu y bummed y cawsant yr Ysgrythyrau trwy Mesrol, yr hwn a ddarganfyddodd yr egwyddor, ac a ddechreuodd eu llenyddiaeth. Cyn hyny, defnyddient y llythyrenau Persiaidd a Syriaidd.

IV. Y cyfieithiadau ARABAIDD; y rhai a wnaed mewn rhan oddi wrth y testyn gwreiddiol, y Peshito, y Coptaeg, a'r Vulgate; ac o ganlyniad, a gyfrifir ond o ychydig neu o ddim gwerth mewn beirniadaeth.

V. Y cyfieithiad i'r GOTHAEG; yr hwn a wnaed gan Ulphilas, yr hwn a ordeiniwyd yn esgob cyntaf y Gothiad, ac a fu yn bresennol yn Nghynghor Caer Cystenyn, yn 359. Gwnaed y cyfieithiad hwn o'r Groeg, a gosodir cryn werth arno; ond nid oes ond ychydig o hono ar gael. Yr ysgriflyfr gwerthfawrocaf o hono yw y *Codex Argenteus*="y llyfr euraidd," wedi ei ysgrifenu mewn llythyrenau aur, ac a gedwir yn bresennol yn llyfrgell Upsal, yn Sweden. Ni chynnwysa ond y pedair efengyl.

VI. Y cyfieithiad SCLAVONAIDD. Perthynai hwn i'r trigolion a ymsefydlasant yn fore ar ddau du y Danube. Tybir iddo gael ei wneyd gan ddau fab Leo, boneddwr Groegaidd, yr hwn a bregethodd yr efengyl gyntaf i'r Sclavoniaid. Yn yr Hen Destament, dilynwyd y Deg a Thrigain, ac yn y newydd, y gwreiddiol. Tybir fod darlleniadau o'r cyfieithiad Lladinaidd ynddo. Y mae yr amgylchiad hwn, yn nghyd â'r ffaith ei fod yn un lled ddiweddar, sef yn perthyn i'r nawfed ganrif, yn gwneyd ei werth beirniadol bron yn ddim. Argraffwyd yr holl Feibl yn Poland, yn 1581; ac wedi hyny yn Moscow, yn 1663.

VII. Cyfieithiadau LLADIN. Y mae gwahaniaeth barn yn bod mewn perthynas i gyfieithiadau Lladin o'r Testament Newydd, fel o'r Hen. Llefara Awstin a Jerome fel pe buasai chwaneg nag un cyfieithiad Lladin er yn fore. Barn Davidson ydyw, mai un cyfieithiad yn unig oedd —yr un ag oedd mewn arferiad yn mhell cyn amser Awstin a Jerome. Y tebygolrwydd ydyw iddo gael ei wneyd yn Affrica, yn yr ail ganrif. Ond yn fuan, gwnaed cyfnewidiadau ynddo, trwy ymdrechion gwahanol ddynion i wella y cyfieithiad. Y cyfieithiad cyntaf, sef yr un a wnaed yn Affrica, a elwir y *Versio Vetus*= yr *hen gyfieithiad*: ond er mwyn symmud ymaith yr amrywiaeth darlleniadau oedd wedi dyfod i mewn, arolygwyd ac adgyweiriwyd ef; a gelwid yr adgyweiriad o hono a ddefnyddid yn ngogledd Italy, yr *Itala*, neu y cyfieithiad Italaidd. Yn ol archiad Damasias, arolygodd Jerome y Testament Newydd, yn gystal a'r Hen; ac er mwyn gwahaniaethu y testyn adgyweiriedig oddi wrth y ffurf hynaf o hono, rhoddid yr enw *Versio Vulgata*, neu *communis*=*cyfieithiad cyffredin*, ar y blaenaf. Wrth y *Vulgate*, fel y gelwir ef yn awr, y meddylir, cyfieithiad Lladin Jerome o'r Hen Destament, a'i adgyweiriad o'r hen gyfieithiad Lladin, a ddefnyddid o'i flaen ef gan y Tadau Lladinaidd, o'r Testament Newydd. Priodolir gwerth mawr, gan feirniaid, i'r testyn cyntaf. ac i'r un adgyweiriedig, o'r cyfieithiad Lladin. Dangosant pa fodd yr oedd yr ysgriflyfrau Groeg yn agos iawn i'r amser apostolaidd.

Yn niwedd y rhestr hon o'r cyfieithiadau hynaf, gellir sylwi na chyfrifir dim gwerth beirniadol —hyny yw, y fath ag a'n galluoga i gyrhaedd sicrwydd o barth i eiriad yr Ysgrythyrau, fel y llefarwyd hwynt dan ysbrydoliaeth dwyfol—ond i'r cyfieithiadau a wnaed yn uniongyrchol o'r gwreiddiol. Y cyfieithiadau gwerthfawrocaf, yn yr ystyr dan sylw, ydynt y Syriaidd, y Lladin, yr Aiphtaidd, yr Ethiopaidd, a'r Gothaidd. Ac o'r rhai hyn, y goreu ydyw y Syriaidd a'r Lladin.

CYFIEITHIADAU DIWEDDAR.

Er nad yw y rhai hyn yn meddu un gwerth yn meirniadaeth testyn gwreiddiol yr Ysgrythyrau, eto y maent yn meddu ar ddyddordeb mewn hanesiaeth eglwysig, fel yn dangos lledaeniad Cristionogaeth trwy wahanol wledydd Ewrop, yn y lle cyntaf; ac yn nesaf, ei lledaeniad trwy gymdeithasau Beiblaidd a chenadol, trwy wledydd tywyll y byd yn gyffredinol.

Ar ol cwymp yr ymherodraeth Rufeinig, ac ar ol i wahanol wledydd Ewrop beidio defnyddio yr iaith Ladin, cyfieithwyd yr Ysgrythyrau i holl ieithoedd diweddar Ewrop. Cyfieithwyd y Salmau i'r SAXONAEG, gan Adhelm, esgob cyntaf Sherbon, yn y flwyddyn 706; ac hefyd, y Pedair Efengyl, gan Egbert, esgob yr Ynys Sanctaidd. Yn y flwyddyn 735, cyfieithodd Bede yr holl Feibl. Ymgymmerodd y brenin Alfred â chyfieithu y Salmau; ond bu farw (B.A. 900) ar ganol ei waith. Y cyfieithiad SEISONEG cyntaf y gwyddys am dano ydyw yr un y crybwylla Usher am dano; a thybir iddo gael ei wneyd yn y flwyddyn 1290. Y mae tri o ysgriflyfrau o hono yn awr ar gael. Y cyfieithiad nesaf i'r Seisoneg, a wnaed gan yr hyglod Wickliffe, yn y flwyddyn 1380; ond yn ddiweddar yr argraffwyd copi cyflawn o hono am y waith gyntaf. Am wahanol gyfieithiadau ac argraffiadau o'r Beibl yn yr iaith Seisoneg, gwel SEISONEG.

Y cyfieithiad hynaf i'r Ffrancaeg, a wnaed gan Peter de Vaux, blaenor y Waldensiaid, yr hwn a fu byw tua'r flwyddyn 1160. Gwnaed cyfieithiad arall gan Raoue de Presle (1380). Heb law y rhai hyn, y mae amryw o hen gyfieithiadau o ranau o'r Ysgrythyrau.

Digitized by Google

Y Beibl Italaidd cyntaf, a gyhoeddwyd 1471. Cyfieithiad mynach, o'r enw Nicholas Malermi, ydoedd. Cyfieithiad Martini ydyw yr un a arferir yn awr gan Babyddion yn Italy. Y mae gan y Protestaniaid hefyd eu Beiblau Italaidd.

Y Beibl cyntaf yn yr Yspaenaeg, y gwyddys am dano, a gyhoeddwyd yn 1478.

Y Beibl Germanaidd hynaf, adnabyddus, a gyhoeddwyd yn 1446. Cyhoeddwyd cyfieithiad arall, gan John Eckius, 1537. Ond y cyfieithiad pwysicaf a wnaed o'r Ysgrythyrau i'r Germanaeg ydyw cyfieithiad Luther, y diwygiwr enwog, yr hwn a fu am un mlynedd ar ddeg yn ei gwblhau. Cyhoeddwyd y Testament Newydd, yn 1522; ac yn 1530, gorphenwyd ei gyhoeddi.

Gwnaed cyfieithiad i'r Gwyddelod, yn yr Erse, yn y drydedd ganrif ar ddeg; yn y Pwylaeg, i Poland, yn yr unfed ganrif ar ddeg; yn yr Icelandaeg, yn yr unfed ganrif ar bymtheg; yn y Bohemiaeg, gan y Moraviaid, yn 1488; yn y Belgaeg, neu y Fflemaeg, yn 1518. Yn yr America, gwnaed y cyfieithiadau canlynol:—

Yn New England-Indian (yr holl Feibl) gan Elliot, yn 1663.
I'r Mohawks (cyfran fechan), yn 1769.
I Greenland (y Testament Newydd), gan Hans Egede a Fabricus, yn 1799.

ASIA.

Yn Turkish-Tartar, gan Scaman, yn 1666.
Karite-Tartar, yr amser yn anhysbys.
Yn yr Arabaeg (yr holl Feibl), yn 1700.
Yn y Tamilaeg, gan Schultze, yn 1724.
Yn y Malayaeg (yr holl Feibl), gan Leidekker, yn 1733.
Yn y Singalaeg (y pedair efengyl), yn 1739.
Yn y Calmuc (amrywiol ranau), yn 1750.
Yn yr Hindwstanaeg, gan Schultze, yn 1758.
Yn y Bengalaeg, gan Dr. Carey, ac ereill, yn 1801.

Oddi wrth y taflenau canlynol, gwelir fod nifer y cyfieithiadau o'r Beibl, neu ranau o hono, wedi cynnyddu yn ddirfawr er pan sefydlwyd y Feibl Gymdeithas. Y mae yn awr *gant a deg a deugain* o ieithoedd, neu gangen-ieithoedd, yn y rhai y mae wedi cynnorthwyo lledaeniad, argraffiad, neu gyfieithiad yr Ysgrythyrau: yn uniongyrchol mewn 99 o ieithoedd neu gangen-ieithoedd; ac yn gynnorthwyol, mewn 51; gan wneyd yn y cyfan, 150.

Yn y golofn ganol, gwelir pa faint o'r Ysgrythyrau Sanctaidd sydd wedi eu hargraffu gan y gymdeithas, yn y gwahanol ieithoedd. Y mae yr hyn a ganlyn yn grynodeb:—

| | | |
|---|---|---|
| Yr holl Feibl | mewn 58 | o ieithoedd. |
| Y Testament Newydd | 56 | — |
| Rhanau o'r Hen Destament, neu o'r Newydd | 36 | — |
| Cyfanswm | 150 | |

Y nifer o *gyfieithiadau*, a gadael allan y rhai a argreffir mewn llythyrenau gwahanol yn unig, yw 177. O'r rhai hyn, y mae 123 yn gyfieithiadau na buont yn argraffedig erioed o'r blaen. Gwelir fod y cyfieithiadau yn amlach na'r ieithoedd; o blegid fod mwy nag un cyfieithiad weithiau yn yr un iaith.

## CYFIEITHIADAU NEWYDDION A WNAETHPWYD, NEU A ARGRAFFWYD, ER Y FLWYDDYN 1804, TRWY GYNNORTHWY Y FEIBL GYMDEITHAS.

### GORLLEWIN EWROP.

| Cyfieithiadau. | Yr hyn a argraffwyd. | Lle eu dosbarthwyd, neu ar gyfer pwy eu bwriadwyd. |
|---|---|---|
| FFRAINC. | | |
| Y Llydawaeg—yr Hen Destament wedi ei gyfieithu, ond heb ei argraffu. ... | Y Testament Newydd. ... | Talaeth Llydaw |
| YSPAEN A PORTUGAL. | | |
| Catalan—Llyfrau Moses a'r Salmau, heb eu hargraffu eto. ... ... | Y Testament Newydd. ... | Taleithiau Catalonia a Valencia. |
| Spanish Basque, neu Escuara. ... | Efengyl Luc ... ... | Taleithiau Biscay, Guipuscoa, ac Alva. |
| Judæo-Yspaenaeg. ... ... ... | Y Testament Newydd. ... | Iuddewon Yspaenaidd yn Twrci, &c. |

### CANOLBARTH EWROP.

| | | |
|---|---|---|
| Germanaeg, dau gyfieithiad—Gosner a Kistemaker. ... ... ... | Y Testament Newydd. | Ar gyfer Pabyddion Germany. |
| Eto, cyfieithiad Van Ess. ... .. | Eto, gyda'r Salmau. | |
| Germanaeg, mewn llythyrenau Hebraeg. ... ... ... ... | Y Testament Newydd. ... | Ar gyfer Iuddewon Germanaidd. |
| Y Samogitian. ... ... ... ... | Y Testament Newydd. ... | Mewn tair o ardaloedd Wilna. |
| Judæo-Pwylaeg ... ... ... | Y Testament Newydd. ... | Ar gyfer Iuddewon Pwylaidd. |
| Hungarian-Wendish. .. ... ... | Test. Newydd a'r Salmau. | Ar gyfer y Vandaliaid Protestanaidd yn Hungary a Carniola. |

### DEHEUBARTH EWROP.

| | | |
|---|---|---|
| ITALY A SWITZERLAND. | | |
| Piedmontese. ... ... ... .. | Y Testament Newydd. ... | Piedmont. |
| Eto (gyda 'r Italaeg). ... .. | Salmau. ... ... ... | Eto. |
| Eto (gyda 'r Ffrancaeg). ... ... | Efengylau.... ... ... | Eto. |
| Vaudois (gyda 'r Ffrancaeg).... | Efengylau Luc a Ioan. ... | Ar gyfer y Vaudois, neu y Waldensiaid. |
| TIR GROEG A THWRCI. | | |
| Groeg diweddar. ... ... ... | Yr holl Feibl. ... .. | Ar gyfer y Groegiaid yn gyffredinol. |
| Albanian (gyda 'r Groeg diweddar).... | Y Testament Newydd. .. | Talaeth Albania, ar Fôr Adria. |
| Y Twrcaeg. ... ... ... ... | Yr holl Feibl. ... ... | Y Tyrciaid yn gyffredinol. |
| Eto, mewn llythyrenau Groeg. ... | Eto. ... ... ... | Ar gyfer y Cristionogion Groegaidd yn arferyd yr iaith Dwrcaeg. |

Digitized by Google

| Cyfieithiadau. | Yr hyn a argraffwyd. | Lle eu dosbarthwyd, neu ar gyfer pwy eu bwriadwyd. |
|---|---|---|
| Y Twrcaeg, mewn llythyrenau Armeniaidd. ... ... ... ... | Y Testament Newydd. ... | Ar gyfer y Cristionogion Armeniaidd yn arferyd yr iaith Dwrcaeg. |
| Servian, neu Serbian. ... ... *R* | Y Testament Newydd. | Yn Servia, a rhai o daleithiau cyffiniol Awstria. |
| Eto, (gan Wuk S. Karadschitsch) ... | Eto. ... ... | |
| Bulgaraeg. ... ... ... ... | Eto. ... ... ... | Y tiriogaethau Twrcaidd i'r dwyrain a'r deheu o Hungari. |
| **RWSSIA.** | | |
| Rwssiaeg, diweddar. ... ... *R* | Yr wyth llyfr cyntaf o'r Hen Dest., y Salmau, a'r Testament Newydd. | Rwssia yn gyffredinol. |
| Sclavonaeg a'r Rwssiaeg (mewn colofnau). ... ... ... *R* | Y Testament Newydd. .. | Eto. |
| Karelian. ... ... ... *R* | Efengyl Matthew. ... | Llwyth o Ffiniaid yn llywodraeth Tver. |
| Zirian, neu Sirenian. ... ... *R* | Eto. ... ... | Eto, yn llywodraeth Vologda. |
| Mordivinian, neu Morduin. ... *R* | Y Testament Newydd. ... | Ar gyfer llwyth o Ffiniaid ar lenydd yr Oka a'r Volga. |
| Tscheremissian. ... ... *R* | Eto. ... ... .. | Eto, ar lenydd y Volga a'r Kama. |
| Tschuwaschian. ... ... *R* | Y pedair Efengyl. ... | Ar gyfer llwyth o Ffiniaid ar fynyddoedd Kasan, Nische-Novogorod, ac Orenburgh. |
| Orenburgh Tartar. ... ... *R* | Y Testament Newydd. ... | Ar gyfer y Tartariaid yn nghymmydogaeth Orenburgh. |
| Karass neu Turkish Tartar (amrywiol o lyfrau ereill yr hen Destament wedi eu cyfieithu). ... *R* | Eto, a'r Salmau. ... | Ar gyfer y Tartariaid yn Llywodraeth Astrachan. |
| **CAUCASIA A'R GWLEDYDD CYLCHYNOL.** | | |
| Ossitinian (yn yr ystorfa Rwssiaidd) *R* | Y pedair Efengyl, ond erioed heb eu dosbarthu. | Tiriogaethau canolbarthol y Caucacus. |
| Yr Armeniaeg ddiweddar, gyda yr hen yn gyfochrog. ... ... ... | Y Testament Newydd. ... | Armenia Briodol: ond hefyd yn barotoedig ar gyfer Armeniaid Caer Cystenyn, Calcutta, &c. |
| Ararat Armeniaeg. ... ... ... | Y Testament Newydd a'r Salmau. ... ... ... | O amgylch Mynydd Ararat, i'r deheu i Georgia. |
| Trans-Caucasian Tartar. ... ... | Efengyl Matthew. ... | Grusina. |
| **PERSIA.** | | |
| Persiaeg (Henry Martin). ... ... | Y Testament Newydd. ... | Ar gyfer y Mahometiaid, y Parsees, a Phersiaid yr India. |
| Eto (yr Archddiacon Robinson). ... | Yr Hen Destament. | Persia Briodol. |
| Eto (Dr. Glen). ... ... ... | Eto. ... ... | |
| Eto (Mirza Ibrahim). ... ... | Esaiah. ... ... | |
| Eto (Mirza Jaffier). ... ... .. | Genesis. ... ... | |
| Judæo-Persic (y Bersiaeg mewn llythyrenau Hebreig). ... ... .. | Y pedair Efengyl. ... | Yr Iuddewon yn Persia. |
| Pushtoo, neu Affghan. ... *S* | Y llyfrau hanesiol, a'r Testament Newydd. .. | Affghanistan. |
| Belochee, neu Bulochee. ... *S* | Tair Efengyl. ... ... | Belochistan, y deheu i'r Indus, ar Fôr Arabia. |
| **INDIA.** | | |
| Sanskrit, neu Sungskrit. ... *S* | Yr holl Feibl. ... : | Iaith gyssegredig a dysgedig y Brahminiaid trwy India. |
| Hindwstani neu Urdu (H. Martyn)... | Y Testament Newydd. | Ar gyfer Mahometiaid India, ac ereill: y mae yr iaith yn cael ei deall yn gyffredinol yn yr holl drefydd mwyaf. |
| Eto (Mr. Thomason, ac ereill). ... | Yr holl Feibl. ... | |
| Eto (cyfieithiad Serampore). ... | Eto ... ... | |
| **GOGLEDD A CHANOLBARTH INDIA.** | | |
| Bengali.... ... ... ... *S* | Yr holl Feibl. ... | Talaeth Bengal. |
| Eto, daugyfieithiad (Ellerton a Yates) | Y Testament Newydd. | |
| Eto (mewn llythyrenau Rhufeinaidd) | Eto ... ... | |
| Eto (gyda'r Seisoneg). ... .. | Eto ... ... | |
| Maghudna. ... ... ... *S* | Eto ... ... | |
| Uriya, neu Orissa. ... ... ... | Yr holl Feibl. ... ... | Talaeth o Behar ddeheuol, yn awr, rhan o dalaeth Bengal. |
| Hinduwee, neu Hindooee. ... ... | Eto. ... ... ... | Talaeth o Orissa, y rhan fwyaf o ba un sydd yn nglŷn wrth Bengal. |
| Eto (yr hwn a elwir Hindee) yn llythyrenau Nagree a Kythee. *S* | Eto. ... ... ... | Ar gyfer Hindwstan, neu daleithiau uchaf llywyddiaeth Bengal. |
| *Cangen-ieithoedd yr Hinduwee.* *S* | | |
| Bughelcundee. ... ... ... | Y Testament Newydd. ... | Ardal rhwng talaeth Bundelcund, a ffynonellau yr afon Nerbudda. |
| Bruj, neu Brij-bhasa. ... ... *S* | Eto. ... ... ... | Tiriogaeth Agra. |
| Canoj, neu Canyacubja. ... *S* | Eto. ... ... ... | Yn Doab, y Ganges, a Jumna. |
| Kousulu, neu Koshala. ... *S* | Efengyl Matthew. ... | Y rhan orllewinol o Oude. |

Digitized by Google

| Cyfieithiadau. | | Yr hyn a argraffwyd. | Lle eu dosbarthwyd, neu ar gyfer pwy eu bwriadwyd. |
|---|---|---|---|
| *Eto ar gyfer canolbarth India neu Diriogaethau Rajpoot.* | | | |
| Harrotte. ... ... ... | S | Y Testament Newydd. ... | Talaeth i'r gorllewin i Bundelcund. |
| Oojein, neu Oujjuyunee. ... | S | Eto. ... ... ... | Talaeth o Malwah. |
| Oodeypoora. ... ... ... | S | Efengyl Matthew. ... | Talaeth o Mewar, neu Oodeypoor. |
| Marwar. ... ... ... | S | Y Testament Newydd. ... | Talaeth o Joudpoor, neu Marwar, i'r gogledd o Mewar. |
| Juyapoora. ... ... ... | S | Efengyl Matthew. ... | Talaeth o Joypoor, i'r dwyrain o Marwar a'r gorllewin o Agra. |
| Bikaneera. ... ... ... | S | Y Testament Newydd. ... | Talaeth o Bikaneer, i'r gogledd o Marwar. |
| Buttaneer, neu Virat. ... | S | Eto. ... ... ... | Talaeth o Buttaneer, i'r gorllewin i Delhi. |
| Sindhee. ... ... ... | S | Efengyl Matthew. ... | Talaeth Sindh, i'r dwyrain i'r Indus. |
| Moultan, neu Wuch, neu Ooch. | S | Y Testament Newydd. ... | I'r gogledd o Sindh, rhwng yr Indus, Chenaub, ac afonydd Gharra. |
| Punjabee, neu Sikh. ... ... | S | Yr holl Feibl. | Talaeth Lahore. |
| Dogura, neu Jumboo. ... ... | S | Y Testament Newydd. ... | Mynyddoedd neu ardaloedd gogleddol Lahore. |
| Cashmerian. ... ... ... | S | Llyfrau Moses, y Llyfrau Hanesiol, a'r Testament Newydd. ... ... | Cashmere, i'r gogledd o Lahore. |
| *Cangen-ieithoedd Gorkha.* | | | |
| Nepalese, Khaspoora, neu Parbutti. | S | Y Testament Newydd. | Teyrnas Nepaul, o amgylch Katmandha. |
| Eto (y Parch. W. Start) ... ... | | Efengyl Luc, ac Actau yr Apostolion | (Teyrnas Nepaul, o amgylch Katmandha.) |
| Palpa. ... ... ... ... ... | S | Eto. ... .. ... | Taleithiau bychain i'r gogledd o Oude, islaw yr Himalayas. |
| Kumaon. ... ... ... | S | Eto. ... ... ... | Talaeth Kumaon, i'r gorllewin o Palpa. |
| Gurwhal, neu Schreenagur. ... | S | Eto. ... ... ... | Talaeth Gurwhal, i'r gollewin o Kumaon. |
| | | **INDIA DDEHEUOL.** | |
| LLYWYDDIAETH MADRAS. | | | |
| Telinga, neu Teloogoo. ... .. | | Llyfrau Moses, a'r Testament Newydd. | Circars gogleddol, Cuddapah, Nellore, a'r rhan fwyaf o Hydrabad, neu Telingana. |
| Eto (cyfieithiad Vizagapatam). ... | | Y Testament Newydd, a rhan fawr o'r Hen Destament. ... | (Circars gogleddol, Cuddapah, Nellore, a'r rhan fwyaf o Hydrabad, neu Telingana.) |
| Karnata, neu Canarese. ... ... | | Y Testament Newydd. | Trwy y Mysore, hefyd yn nhalaeth Cinara, a chyn belled i'r gogledd a'r afon Kistna. |
| Eto (cyfieithiad Bellary). ... ... | | Yr holl Feibl. ... | (Trwy y Mysore, hefyd yn nhalaeth Cinara, a chyn belled i'r gogledd a'r afon Kistna.) |
| Malayalim. .. ... ... ... | | Eto. ... ... ... | Travancore a Malabar. |
| LLYWYDDIAETH BOMBAY. | | | |
| Kunkuna. ... ... ... | S | Llyfrau Moses, a'r Testament Newydd. ... ... | Y Concan, yn benaf y rhan ddeheuol, yn mysg y werin. |
| Mahratta. ... ... ... | S | Yr holl Feibl. ... | Y Concan, a thrwy diriogaeth Mahratta. |
| Eto (cyfieithiad Bombay). ... ... | | Eto. ... ... | (Y Concan, a thrwy diriogaeth Mahratta.) |
| Gujerattee. .. ... ... | S | Y Testament Newydd. | Surat, a thalaeth Gujerat. |
| Eto (cyfieithiad Surat). ... ... | | Yr holl Feibl. ... | (Surat, a thalaeth Gujerat.) |
| Cutchee, neu Catchee. ... ... | | Y Testament Newydd yn cael ei barotoi, a pheth o hono wedi ei argraffu. | Talaeth Cutch, rhwng cyfyngfor Cutch a'r Indus. |
| | | **CEYLON.** | |
| Pali (mewn llythyrenau Burmese). ... | | Y Testament Newydd. ... | Ieithoedd cyssegredig a dysgedig Ceylon, a'r cenedloedd Indo-Chineaidd. |
| Singhalese. ... ... ... ... | | Yr holl Feibl. ... ... | Y rhan ddeheuol o'r ynys, o Battycola, ar y dwyrain i'r afon Chilaw, ar y gorllewin, ac yn y canolbarth. |
| Indo-Portuguese (yr Hen Destament yn cael ei barotoi). ... ... ... | | Llyfrau Moses, y Salmau, a'r Testament Newydd. | Ar gyfer y sefydlwyr Portugeaidd a'u hiliogaeth yn Ceylon, ac amrywiol ranau o'r moroedd Indiaidd. |
| | | **Y GWLEDYDD INDO-CHINEAIDD.** | |
| Assamese. ... ... ... | S | Yr holl Feibl. ... ... | Assam, yn ddarostyngedig i lywyddiaeth Bengal. |
| Munipoora. ... ... .. | S | Y Testament Newydd. ... | Munipoor, ar y deheu i Assam. |
| Cassiaeg (y Testament Newydd wedi ei gyfieithu). .. ... ... .. | | Y pedair Efengyl, ac Actau yr Apostolion. ... | Gwlad Cassia, i'r dwyrain i fryniau Garrow. |
| Siamese, neu Thay (y Testament Newydd wedi ei gyfieithu). ... | | Efengyl Luc ac Efengyl Ioan. ... ... ... | Teyrnas Siam. |
| | | **YMHERODRAETH CHINA.** | |
| Chinaeg (cyfieithiad Morrison). ... | | Yr holl Feibl. ... | China Briodol, ac yn mysg y Chineaid yn yr ynysfor Indiaidd. |
| Eto (cyfieithiad Marshman). ... | | Eto. ... ... | (China Briodol, ac yn mysg y Chineaid yn yr ynysfor Indiaidd.) |
| Eto (bwrdd o arolygwyr). ... ... | | Eto. ... ... | (China Briodol, ac yn mysg y Chineaid yn yr ynysfor Indiaidd.) |
| Manchoo. ... ... ... ... | | Y Testament Newydd. ... | Manchuria: yr hon hefyd yw iaith y llys yn Pekin. |

Digitized by Google

| Cyfieithiadau. | Yr hyn a argraffwyd. | Lle eu dosbarthwyd, neu ar gyfer pwy eu bwriadwyd. |
|---|---|---|
| Buriat, neu Mongolian Ddwyreiniol. | Yr holl Feibl. | Ar gyfer y Buriats o amgylch llyn Baikal, yn Siberia, yn nghyd â llwythau Kalka yn Mongolia. |
| Calmuc, neu Mongolian Orllewinol... | Y Testament Newydd. | Ar gyfer y Calmuciaid, ar y Don a'r Volga yn Rwssia; yn nghyd â'r Eluthiaid Calmuciaid, a'r Soungariaid, yn Mongolia. |
| | **POLYNESIA AGOSAF.** | |
| Malaeg, Isel. | Y Testament Newydd. | Batavia, a'i chymmydogaeth. |
| Javanaeg (yr Hen Dest. yn cael ei barotoi gan Gymdeithas yr Iseldiroedd). | Eto. | Ynys Java. |
| Dajak, neu Dyak. | Eto. | Borneo. |
| Japanaeg (y Testament Newydd wedi ei gyfieithu). | Efengyl Ioan. | Japan. |
| Loochooaeg. | Luc, a'r Actau, yn cael eu hargraffu. | Loochoo. |
| | **POLYNESIA BELLAF.** | |
| Tahitaeg. | Yr holl Feibl. | Georgia, a'r ynysoedd ereill yn Môr y Deheu. |
| Rarotongaeg. | Eto. | Ynysoedd Hervey, eto. |
| Marquesaeg. | Rhanau wedi eu rhoddi: cyfieithiad cyflawn yn cael ei barotoi. | Ynysoedd Marquesa, eto. |
| Tongaeg (yr Hen Destament yn cael ei barotoi). | Y Testament Newydd. | Ynysoedd Tonga, eto. |
| Maori, neu New Zealand. | Llyfrau Moses, Iosuah, y Salmau, a'r Testament Newydd. | New Zealand. |
| Malagassaeg. | Yr holl Feibl. | Madagascar. |
| Samoaeg. | Llyfrau Moses, y Salmau, a'r Testament Newydd. | Navigator's Islands. |
| Feejeeaeg. | Y Testament Newydd. | Ynysoedd Feejee. |
| Mare. | Rhanau wedi eu rhoddi: cyfieithiadau cyflawn yn cael eu parotoi. | Ynys Mare. |
| Caledoniaeg newydd | Eto. | Caledonia Newydd. |
| Papuaeg. | Efengyl Matthew yn cael ei hargraffu. | Hebrides Newydd. |
| | **AFFRICA.** | |
| Amharaeg. | Yr holl Feibl. | Abyssinia. |
| Kinika (efengyl Ioan, yr Epistolau at y Rhufeiniaid a'r Ephesiaid wedi eu cyfieithu). | Efengyl Luc. | Llwytha Wuanika, yn Affrica Ddwyreiniol. |
| Berber (yr Efengylau a Llyfr Genesis wedi eu cyfieithu). | Rhan o Efengyl Luc. | Yr Oases yn anialwch Arabia, o Fynydd Atlas i'r Aipht. |
| Bullom (gyda'r Seisoneg). | Efengyl Matthew. | O amgylch Sierra Leone, ar yr arfordir gorllewinol. |
| Mandingo (y pedair Efengyl wedi eu cyfieithu). | Eto. | Gwlad Mandingo, i'r deheu i'r afon Gambia. |
| Accra. | Efengyl Matthew ac Ioan. | Gold Coast, Affrica Orllewinol. |
| Yoruba. | Chwe' llyfr o'r Testament Newydd. | Llwyth Yoruba, Affrica Orllewinol. |
| Namacqua. | Efengyl Luc, &c. | I'r gogledd i afon Orange, Deheudir Affrica. |
| Sechuana. | Y Testament Newydd, a'r Salmau, Diarebion, Pregethwr, ac Esaiah. | Bechuana, i'r dwyrain o Namacqua. |
| Caffre. | Y Testament Newydd, a rhanau o'r Hen. | Caffraria, arfordir dwyreiniol Deheudir Affrica. |
| Sesuto (yr Efengylau wedi eu hargraffu gan Gymdeithas Genadol Ffraingc). | Y Salmau. | Ar gyfer y Basutos, yn Neheudir Affrica. |
| | **AMERICA.** | |
| Esquimaux. | Genesis, Salmau, Diarebion, y Prophwydi, a'r Testament Newydd. | Labrador, i'r cenadon Moraviaidd. |
| Mohawk (llyfrau Moses a'r Salmau wedi eu cyfieithu). | Esaiah, Efengyl Luc, ac Efengyl Ioan. | Y cenedloedd Indiaidd, i'r gorllewin i raiadr y Niagara. |
| Mic-Mac. | Efengylau Matthew a Luc, ac Actau yr Apostolion. | Ar gyfer yr Indiaid Mic Macaidd, yn Nova Scotia. |
| Chippeway, neu Ojibway. | Efengyl Ioan. | Ar gyfer Indiaid Chippeway, neu Delaware |
| Cangeniaith Negroaidd Surinam. | Y Testament Newydd a'r Salmau. | Surinam, Dutch Guiana. |
| Aimara (gyda'r Yspaenaeg). | Efengyl Luc. | Bolivia. |
| Mexican. | Eto. | Mexico. |

Y llythyrenau *R* ac *S* a ddynodant gyfieithiadau y Feibl Gymdeithas Rwssiaidd, a Chenadaeth Serampore, y rhai a gawsant gynnorthwyon helaeth, mewn blynyddoedd blaenorol, gan Gymdeithas y Beiblau.

Digitized by Google

Y mae y rhestr flaenorol yn cynnwys yr holl gyfieithiadau a wnaed o 1804, sef blwyddyn sefydliad y gymdeithas, hyd 1862. Ond ni a roddwn yma restr lawn o'r holl gyfieithiadau y mae y gymdeithas wedi eu cyhoeddi ei hun o'r dechreu, ac wedi cynnorthwyo cymdeithasau eraill i'w cyhoeddi, hyd Mawrth 31ain, 1889. Gwnaeth hyny yn y nifer canlynol o ieithoedd a thafodieithoedd:—

| | |
|---|---|
| Yn uniongyrchol mewn | 225 o achosion |
| Yn anuniongyrchol mewn | 65 ,, |
| Y cyfan yn ... | 290 |

Heb law yr uchod, cynnorthwyodd y gymdeithas hefyd mewn amryw ffyrdd, gyhoeddiad y Beibl, neu ranau o hono, mewn 74 o enghreifftiau eraill; yr hyn sydd yn gwneyd cyfanrif o 364 o ieithoedd a thafodieithoedd yn mha rai y bu y gymdeithas ragorol hon yn foddion i fendithio y byd â Gair Duw.

Y mae y rhestr ganlynol yn cynnwys yr holl ieithoedd (sef 290) y cyfeiriwyd atynt uchod. Ceir ynddi enwau yr ieithoedd, a'r rhanau o'r byd lle y mae y trigolion yn byw sydd yn eu siarad; er esampl, '1. *Acrâ*, neu *Ga:—Arfordir yr Aur;*' h.y., y rhan o'r byd y mae y bobl yn byw sydd yn siarad yr *Acrâ*, &c. Gwelir yn y rhestr hefyd enwau yr un iaith amryw weithiau, am fod trigolion gwahanol wledydd yn meddu tafodieithoedd neillduol o'r un iaith. Heb law hyny, ymddengys y geiriau *llythyrenau cyffredin, llyth. cyff.*, *ll. cyff.*, ac *ll.c.*, wrth enwau ieithoedd; yr hyn sydd yn golygu fod y Beibl wedi ei argraphu â'n llythyrenau cyffredin ni, yn gystal ag â'r llythyrenau neillduol a arferir gan y gwahanol genedloedd, fel y gwelir yn Rhif 26, 27, &c. Y mae yn sicr fod hwn yn symmudiad rhagorol, gan y byddai manteision lawer yn sicr o ddilyn pe y gellid cael holl genhedloedd y byd i ddefnyddio yr un llythyrenau i osod allan y geiriau ag a ddefnyddiwn ni, a gwledydd Ewrop ac America yn gyffredinol. Yn y rhestr, ceir ffigyrau ynglŷn â'r argraphiadau a berthynant i'r cenhedloedd pwysicaf yn y byd, fel y gwelir yn 41, 65, 86, 109, 111, ac 113, &c. Dangosant y nifer o Feiblau, a Thestamentau, a rhanau o'r Ysgrythyr, a anfonwyd o'r swyddfa yn yr ieithoedd hyny, drwy yr holl flynyddoedd, hyd Mawrth 31ain, 1889. Dyma y rhestr:—

1. Acrâ, neu Gâ:—Arfordir yr Aur. 2. Ainu:—Yesso, Japan. 3. Albania (Gheg):—Gog. Albania. 4. Albania (Tosk):—De Albania. 5. Amharig:—Abyssinia. 6. Aneiteum:—Hebrides Newydd. 7. Aniwa:—Hebrides Newydd. 8. Api, Epi, neu Baki:—Hebrides Newydd. 9. Arabaidd:—Arabia, Syria, a'r Aipht, &c. 10. Armeniaidd (yr hen iaith grefyddol. 11. Armeniaidd (Ararat):—Trans-Caucasia. 12. Armeniaidd (diweddar):—Asia Leiaf, Caer Cystenyn, &c. 13. Armeno-Turki:—Ymherodraeth y Twrc. 14. Assam. 15. Aymara:—Peru.

16 Badaga:—Bryniau Nilgiri. 17. Baluchi:—Baluchistan. 18. Basque, Ffraingc (Labourd):—Pyrenees a Navarre. 19. Basque, Ffraingc (Souletin):—Pyrenees a Navarre. 20. Basque, Yspaenaidd:—Biscay, Guipuscoa, ac Alava. 21. Basque, Yspaenaidd (Guipuscoaidd):—Biscay, Guipuscoa, ac Alava. 22. Batta (Mandailing):—Batta o Dde Sumatra. 23. Batta (Toba):—Batta o Gog. Sumatra. 24. Batta, Toba (llythyrenau cyffredin). 25. Beaver Indiaidd:—Indiaid ger y Llyn Beaver. 26. Bengâli. 27. Bengâli (llythyrenau cyffredin). 28. Berber:—Algeria, &c. 29. Bogos:—Llwyth y Bilin, Gog. Abyssinia. 30. Bohemiaidd. 31. Bohemia (llythyrenau cyffredin. 32. Bondei:—Gog Zanzibar. 33. Breton:—Llydaw. 34. Bulgaria. 35. Bullom:—Sierra Leone, &c. 36. Burmese.

37. Carshuni:—Mesopotamia, &c. 38. Catalan:—Yspaen Ddwyreiniol. 39. Chamba (Thakri):—Teyrnas Chamba, Panjâb. 40. Cheremiss:—Ffiniaid ar y Volga. 41. Chinaeg:—Trwy holl China. Anfonwyd o'r swyddfa hyd Mawrth 31ain. 1889. 3,981,147:—42. Amoy Brodorol:—Amoy a'r gymmydogaeth. 43. Canton Brodorol:—Canton a'r gymmydogaeth. 44. Canton Brodorol (llyth. cyff.). 45. Fuh-chow Brodorol:—Fuh-chow a'r gymmydogaeth. 46. Fuh-chow Brodorol (ll. cyff.). 47. Hainan Brodorol:—Ynys Hainan. 48. Hakka Brodorol:—Kwangtung. 49. Hakka Brodorol:—etto (ll. cyff.). 50. Nanking (Mandarin y De) Brodorol:—Nanking a'r gymmydogaeth. 51. Ningpo Brodorol:—Ningpo a'r gym. 52. Peking (Mandarin y Gog.) Brodorol. 53. Peking (Mandarin Gogleddol):—(ll. cyff.). 54. Shanghae Brodorol:—Shanghae a'r gymmydogaeth. 55. Swatow Brodorol:—Swatow a Chao-Chow.—56. Chipewya:—O Churchill i Athabasca. 57. Chuâna:—Bechuana, Affrica Dde. 58. Chuvash:—Kazan, &c., yn Rwssia. 59. Coptaidd:—Coptiaid yr Aipht. 60. Corea. 61. Cree, Dwyreiniol (syllabaidd):—Machwy Hudson. 62. Cree, Gorllewinol (ll. cyfl.):—Machwy Hudson. 63. Crim Turki. 64. Croat:—Servia. 65. Cymraeg. Anfonwyd o'r swyddfa yn Llundain hyd Mawrth 31, 1889. 2,531,335 o Feiblau, a rhanau o'r Beibl, yn Gymraeg; Cymraeg a Saesneg, 105,991; Cymraeg, i'r deillion, 200:—y cyfan, 2,610,529.

66. Dâkhani (Hindustani Madras). 67. Daniaidd. 68. Daniaidd (ll. cyff.). 69. Dualla:—Cameroons, Gor. Affrica. 70. Ynys y Duc o Gaerefrog:—De o'r Iwerddon Newydd. 71. Dutch. 72. Dyak:—Borneo.

73. Eromanga:—Hebrides Newydd. 74. Eskimo (ll. cyff.):—Labrador, &c. 75. Eskimo:—Labrador, 76. Esthoniaidd (Dorpat):—De. Esthonia. 77. Esthoniaidd (Reval):—Gog. Esthonia. 78. Ethiopaidd:—Abyssinia. 79. Ewé:—Arfordir yr Aur, Gor. Affrica.

80. Falasha, neu Kara:—Iuddewon Metammeh, Abyssinia. 81. Fanti:—Penrhyn Gobaith Da. 82. Faté:—Hebrides Newydd. 83. Fiji:—Ynysoedd Fiji. 84. Finniaeg:—Finland. 85. Ffleminiaeg:—Flanders a Belgium. 86. Ffrangcaeg. Anfonwyd o gopiau o ystordy y gymdeithas hyd Mawrth 31, 1889, 10,979,935. 87. Fris:—Friesland. 88. Futuna:—Hebrides Newydd.

89. Gaelaidd:—Ucheldiroedd Ysgotland. Anfonwyd o gopïau o ystordy y gymdeithas hyd Mawrth 31, 1889, 161,136. 90. Galla:—De. Abyssinia. 91. Galla (ll. c.):—De. Abyssinia. 92. Galla (Ddeheuol):—De. Abyssinia. 93. Ganda (Lu-Ganda):—Gog. Victoria Nyanza. 94. Georgia (ll. gwladol):—Georgia a'r Caucasus. 95. Germanaidd:—15,356,271. 96. Gitano. 97. Gogo:—Dwyr. Affrica ar y cyhydedd. 98. Gond:—Canolb. India. 99. Groeg-Tyrcaidd. 100. Groeg (Henafol):—220,004. 101. Groeg (Diweddar):—641,585. 102. Groeg (Diweddar (ll. c.). 103. Greenland. 104. Guarani:—Paraguay. 105. Gujarati:—Gor. India. 106. Gujarati (Parsi):—Preswylwyr Parsi, Gor. India. 107. Gwamba:—Y Transvaal, a'r dwyr. o'r Limpopo.

108. Hausa:—Hausa, Dwyr. Affrica. 109. Hebraeg:—973,678. 110. Hereró:—De-ddwyr. o Affrica. 111. Hindi, neu Hindui:—Gog. India—630,915. 112. Hindi (Kaithi):—Gog. India—317,800. 113. Hindustâni, neu Urdu:—India—tua 1,000,000 mewn gwahanol dafod-ieithoedd. 114. Hungariaidd, neu Magyar.

115. Ibo:—Niger Isaf, Gor. Affrica. 116. Ynysoedd yr Iâ. 117. Indo-Portugeaidd:—Trefedigaethau Portugal yn Ceylon, &c. 118. Iroquois:—Indiaid yn Quebec aç Ontario. 119. Italaidd:—3,008,831. 120. Ittu-Galla:—Harar, De. Abyssinia.

121. Jaghatai Turki (Tekke Turkománaidd). 122. Japan—y Kata-Kana; sef, y wyddor a arferir fwyaf yn awr—199,155. 123. Japan—y Kana-Majiri; *h.y.*, llyth. Chineaidd. 124. Jatki (Multani). 125. Jatki (Multani)—cyfieithiad Serampore. 126. Java. 127. Jolof:—Llwyth ger Bathurst, Gambia. 128. Judæo-Arabaidd:—Iuddewon yr Aipht, Syria, &c. 129. Judæo-Germanaidd:—Iuddewon Germany—60,000 130. Judæo-Germanaidd (Pwylaidd)—149,441. 131. Judæo-Persiaidd:—Iuddewon yn Persia. 132. Judæo-Yspaenaidd:—Iuddewon Yspaenaidd yn Twrci.

133. Kabyle:—Algeria. 134. Kafir, neu Xosa:—Kafirland)—50,328. 135. Kaguru:—Dwyr. Affrica, ar y cyhydedd. 136. Kalmuk:—Mongol Gor. 137. Kalmuk (cyf. Pozdnejeff). 138. Kalmuk (cyf. Schmidt). 139. Kanariaid:—Mysore, &c. 140. Karass Twrci. 141. Karel. 142. Karen (Bghai):—Burmah. 143. Karen (Pwo):—Burmah. 144. Karen (Sgau):—Burmah. 145. Kashmiri. 146. Kazan Twrci. 147. Khasi:—Bryniau Khasia, Dwyr. India. 148.

Digitized by Google

adolygiad gynnwys y darlleniadau ar ymyl y ddalen, a gwelliantau yn y testyn, fel y gwelid hyny yn angenrheidiol; ond ni olygid gwneuthur cyfieithiad newydd o'r Beibl, nac unrhyw gyfnewidiad yn yr iaith, ond yn unig lle y byddai hyny yn angenrheidiol, yn ol barn y dysgedigion mwyaf galluog. Penderfynwyd hefyd i beidio newid yr arddull. Ynglŷn â hyn, pennodwyd nifer o aelodau y Gymmanfa i ymgymmeryd â'r gwaith; a bod ganddynt ryddid i wahodd cydweithrediad dynion o enwogrwydd mewn dysg perthynol i unrhyw genedl neu enwad crefyddol.

Ar y 25ain o Fai, 1870, cyttunodd y pwyllgor perthynol i'r Gymmanfa ar y rheolau a'r penderfyniadau canlynol; yn ol pa rai yr oedd pwyllgorau yr Hen Destament a'r Newydd i weithredu gyda'u gwaith:—

1. Eu bod i ddwyn i mewn can lleied o gyfnewidiadau ag y byddai modd i'r testyn awdurdodedig, ond gofalu am gywirdeb.

2. Y dylent gyfyngu, hyd y byddai modd, y geiriad o'r cyfryw gyfnewidiadau i iaith y cyfieithiad awdurdodedig, ynghyd â chyfieithiadau boreuol eraill.

3. Fod pob pwyllgor i fyned ddwywaith dros y rhanau yr oeddynt i'w hadolygu—unwaith yn rhagbarotoawl, a'r ail waith yn derfynol.

4. Eu bod i fabwysiadu y testyn y byddai y profion gorbwysol yn ei ffafr: a phan y byddai y testyn a fabwysiedid felly yn gwahaniaethu oddi wrth yr un y gwnaed y Cyfieithiad Awdurdodedig oddi wrtho, fod y cyfnewidiadau i gael eu nodi ar ymyl y ddalen.

5. Na ddylent wneuthur na chadw unrhyw gyfnewidiad yn y testyn, ar yr ail adolygiad terfynol, os na byddai dwy ran o dair o'r rhai fyddent yn bresennol yn ei gymmeradwyo. Ond ar yr adolygiad cyntaf, yr oedd pob cyfnewidiad i'w benderfynu gan fwyafrif yn unig.

6. Yn mhob amgylchiad ag y byddai cyfnewidiad yn cael ei gynnyg, ar yr hwn y codai dadl, yr oedd y pleidleisio i'w oedi hyd y cyfarfod nesaf, os byddai y drydedd ran o'r rhai fyddent yn bresennol yn gofyn hyny; a bod y cyfryw bleidleisiad bwriadol i gael ei gyhoeddi yn y rhybudd am y cyfarfod dilynol.

7. Yr oedd 'cynnwysiad' y pennodau, aryssgrifau y tudalenau, y gwahanranau, llythyrenau Italaidd, a'r attalnodau, i gael eu hadolygu oll.

8. Ar ran y pwyllgor, pan yr ystyrid hyny yn ddymunol, yr oedd golygiadau duwinyddion, dysgedigion, a llenorion, i'w ceisio, pa le bynag y preswylient—ai yma, ynte mewn gwledydd tramor.

Hysbysodd yr adolygwyr eu bod wedi ymdrechu dilyn y rheolau uchod yn ffyddlawn a chysson; ond eu bod wedi barnu, gyda golwg ar 'gynnwysiad' y pennodau, a'r hyn a ddodir uwch ben y tudalenau, y buasai eu hadolygu yn cynnwys o angenrheidrwydd math o esboniadaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol; a'u bod, o herwydd hyny, wedi barnu mai gwell oedd eu gadael allan yn gwbl.

Yn y drafodaeth a gymmerodd le rhwng y pwyllgorau a'r Cyfeisteddfod Americanaidd, arferwyd pob doethineb, arafwch, a boneddigeiddrwydd ar bob tu. Anfonodd y pwyllgorau i'r Cyfeisteddfod Americanaidd y cyfnewidiadau a farnent hwy yn angenrheidiol i'w gwneyd y tro cyntaf; ac felly yr ail dro—a'r diweddaf hefyd; ac anfonasant gyda hyny yr Adolygiad o'r Cyfieithiad fel y mae yn orphenol. Y mae ffrwyth beirniadaeth ac awgrymiadau y Cyfeisteddfod Americanaidd, lle nad oedd y pwyllgorau Saesnig yn cyttuno â hwynt, wedi eu cyhoeddi fel Attodiadau i'r ddau Destament.

Y Testament Newydd.—Gan mai hwn a gyhoeddwyd gyntaf, ni a roddwn y manylion canlynol am dano:—

Cymmerodd yr adolygiad hwn ddeng mlynedd a hanner i'w gwbl orphen. Cymmerodd yr adolygiad cyntaf tua chwe blynedd—yr ail, tua dwy flynedd a hanner—a threuliwyd y gweddill i ystyried awgrymiadau y Cyfeisteddfod Americanaidd, ynghyd â manylion eraill. Fel rheol, ymddengys fod eisteddiad o bedwar diwrnod wedi cymmeryd lle bob mis o'r dechreu (oddi gerth yn misoedd Awst a Medi), bob blwyddyn er Mehefin, 1870. Y nifer yn bresennol ar gyfartaledd yn mhob eisteddiad ydoedd 16, allan o 25. Yr oedd yr holl nifer yn 25. Gofynwyd i dri eraill gynnorthwyo; ond gwrthododd dau, am nas gallent fod yn bresennol, ac un o herwydd afiechyd; a bu farw cyn cymmeryd rhan yn y gwaith, fel mai 25 oedd nifer y gweithwyr. Symmudwyd tri trwy farwolaeth cyn gorphen y gwaith.

Yn y Rhagymadrodd i'r Adolygiad, rhoddir hanes cryno am fanylion y gwaith—o berthynas i'r testyn gwreiddiol, yr adolygiad, yr iaith, a'r nodiadau ar ymyl y dalenau.

Yn fuan wedi dechreu, cyttunasant â Phrif Ysgolion Rhydychain a Chaergrawnt am yr hawl *(copyright)* i'r cyfieithiad; a thrwy hyny, gwnaed darpariaeth ddigonol at y draul oedd ynglŷn â'r gorchwyl.

Yr Hen Destament.—Yr oedd y pwyllgor hwn yn gynnwysedig o 27 o bersonau; y rhai a bennodwyd i gyflawni y gwaith, ac i weithredu yn unol â'r penderfyniadau a welir uchod. Buont bedair blynedd ar ddeg wrth y gorchwyl. O'r nifer a ddechreuasant y gwaith, nid oedd ond pymtheg yn ei orphen. Bu deg feirw, a rhoddodd dau eu lleoedd i fyny. Llanwyd lleoedd y rhai a gollwyd o bryd i bryd gan bersonau eraill; ond o Hydref, 1875, ni phennodwyd neb o'r newydd i lenwi gwaglëoedd. Gorphenwyd yr adolygiad mewn pump a phedwar ugain o eisteddiadau—y diweddaf o ba rai a gynnaliwyd Mehefin 20, 1884. Yr oedd y nifer fwyaf o'r eisteddiadau yn ymestyn dros ddeng niwrnod bob un, ac eisteddai y pwyllgor yn gyffredin am tua chwe awr bob dydd. Gorphenwyd y gwaith mewn 792 o ddyddiau.

Ni a roddwn yma y modd y gweithredai y pwyllgor hwn, yn ol fel yr hysbysir ni yn y Rhagymadrodd i'r argraphiad o'r Hen Destament; oddi wrth yr hyn y gwelir y gofal neill duol a gymmerwyd i sicrhau y cywirdeb mwyaf yn yr holl fanylion.

Aeth y pwyllgor ddwy waith dros yr Hen Destament. Yn yr adolygiad cyntaf, gweithient fel y canlyn:—Darllenai yr ysgrifenydd bob adnod drosodd unwaith yn yr iaith wreiddiol; ac ar ol hyny, yn y testyn awdurdodedig. Yna, cymmerid y cynnygion am gyfnewidiadau dan sylw:—yn gyntaf, y rhai a dderbyniwyd mewn ysgrifen oddi wrth aelodau absennol; ac ar ol hyny, y cyfnewidiadau a gynnygid gan yr aelodau presennol. Byddai pob cyfnewidiad yn cael ei gynnyg i sylw y cyfarfod; ac os eilid ef, yna byddai yn cael ystyriaeth gan y pwyllgor, a phleidlais yn cael ei gymmeryd arno. Os mwyafrif yn unig fyddai yn bleidiol iddo, derbyniai gymmeradwyaeth y pwyllgor.

Digitized by Google

Os cynnygid gwelliant, ac na byddai neb yn ei eilio, ni wneid sylw pellach o hono. Dyna y drefn a arferid gyda'r adolygiad cyntaf.

Yn yr ail adolygiad, byddai yr ysgrifenydd yn darllen y cyfnewidiadau a wnaed yn yr adolygiad cyntaf, y naill ar ol y llall. Os na chynnygid gwelliant, ystyrid hyny yn brawf eu bod yn foddhaol. Os cynnygid gwelliant, derbyniai ystyriaeth y pwyllgor; ond byddai yn angenrheidiol fod dwy ran o dair o'r aelodau presennol yn bleidiol iddo cyn y derbynid ef. Yn yr ail adolygiad hwn, ni oddefid i unrhyw gynnygion newydd gael eu cyflwyno i ystyriaeth heb ganiatâd neillduol y pwyllgor; a chyfyngid hwynt, mor bell ag oedd yn bossibl, i achosion eithriadol.

Yn yr adolygiad diweddaf—yr hwn nid oedd, mewn gwirionedd, ond gorpheniad ar yr ail adolygiad—gwaith y pwyllgor oedd taflu golwg gyffredinol ar yr hyn yr oeddynt wedi ei gyflawni, a phenderfynu yn derfynol ar gwestiynau oedd wedi eu gadael i ystyriaeth pellach, cyssoni anghyssonderau, ystwytho brawddegau, a symmud cyfnewidiadau diangenrhaid, a rhoddi gwedd o ryw fath o orpheniad ar y gwaith. Yr oedd pob cwestiwn yn cael ei benderfynu yn yr adolygiad diweddaf hwn gan bleidlais mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodau y pwyllgor.

Pwyllgorau America ar y ddau Destament.—Pennodwyd 13 ar bwyllgor y Testament Newydd, a 14 ar yr Hen Destament yn y wlad hono; ac ymroddasant i gyflawni eu gwaith gyda phenderfyniad teilwng o'i bwysigrwydd.

Yr oedd y pwyllgor oedd yn adolygu yr Hen Destament yma wedi myned ddwywaith drwy Bum Llyfr Moses cyn sicrhau cydweithrediad y pwyllgor Americanaidd. Ond yn mhob amgylchiad, fe gafodd yr awgrymiadau a dderbyniwyd oddi yno yr un ystyriaeth a'r rhai a gynnygiwyd gan aelodau pwyllgor y wlad hon; a chawsant eu derbyn, neu eu gwrthod, ar eu teilyngdod. Yr oedd yn rhan o'r cyttundeb a wnaed gyda'r pwyllgor Americanaidd—ac fe welir ei fod wedi ei gario allan fod pob dim y byddai gwahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd yn parhau, ar ol ei ystyried yn llawn, yn cael ei gyhoeddi gyda'r gwaith. Ac y maent i'w cael felly yn niwedd yr Hen Destament—a'r Testament Newydd yr un modd, fel yr eglurwyd yn barod.

Ymddengys i ni fod rhan fawr o'u cyfnewidiadau hwy, sydd yn y ddau Destament, yn rhai angenrheidiol a da yn mhob ystyr, ac y buasai llawer o eiriau ac ymadroddion Beiblaidd yn eglurach i'r cyffredin pe buasai yn wiw gan y mwyafrif o aelodau y pwyllgor Saesneg eu mabwysiadu. Ceir ynddo rai geiriau, mae'n wir, ag sydd yn fwy aneglur, neu, o leiaf, yn fwy anfanwl, na'r rhai a fabwysiadwyd; ac y maent felly o fwriad y cynnygwyr. Am hyny, cyhuddodd y wasg Saesnig y pwyllgor Americanaidd o fod yn rhy fursenaidd. Ond rhaid addef y gallai yr Americaniaid ddwyn rhesymau golygus, os nad grymus hefyd, i gyfiawnhau eu gwaith. Y mae yr Americaniaid yn cael eu cyhuddo o ddwyn i mewn i'r cyfieithiad ormod o Americaniaeth: a dichon fod y diwygwyr Saesnig hefyd wedi dwyn iddo dipyn o Saesnigaeth.

Erbyn cyfrif yr holl nifer fu yn cydweithredu, mewn rhan, neu yn gwbl, gyda'r gwaith rhagorol hwn, yn y wlad hon ac yn America, yr ydym yn cael fod eu nifer yn 101. Bu amryw o'r rhai a bennodwyd gyntaf feirw cyn gorphen y gwaith, a phennodwyd eraill yn eu lle. Yn eu mysg yr ydym yn cael llawer o'r ysgolheigion Beiblaidd uchaf a'r esbonwyr goreu a feddai y prif enwadau Protestanaidd yn y ddwy wlad.

Y cyfnewidiad cyntaf y sylwir arno, mae'n debyg, gan bersonau pan y byddant yn chwilio ei dudalenau am y tro cyntaf, fydd, nad ydyw gwahanol lyfrau y Beibl wedi eu rhanu yn bennodau ac yn adnodau, fel o dan yr hen drefn. Hwyrach mai araf y cynnefina yr hen bobl â'r cyfnewidiad hwn, er ei fod yn sicr yn welliant dirfawr. Y mae y rhaniadau sydd yn y pennodau a'r adnodau yn tori yn aml ar yr ymresymiad, ac weithiau yn rhwystr mawr, yn enwedig yn epistolau Paul, i ddeall cynllun yr awdwr ysbrydoledig i drin ei bwngc. Y mae y diwygwyr wedi trefnu yr oll o'r llyfrau yn awr yn wahanranau *(paragraphs)*, yn ol y pyngciau fydd dan sylw. Ac wedi ychydig o ymarferiad, bydd yn llawer hawddach i'r darllenwyr ddilyn cwrs unrhyw hanes neu ymresymiad nag yr oedd yn yr hen gyfieithiad. Er hyrwyddo cymmhariaeth, ac osgoi trafferth, y mae y pennodau a'r adnodau yn cael eu dangos gan rifnodau ar ben, ac ar ymyl y dalenau.

Y mae y 'cynnwysiad' a arferai fod ar ddechreu pob pennod wedi ei adael allan, o herwydd y rheswm y cyfeiriwyd ato.

Cydnabyddir gan bawb nas gellir bod yn rhy ofalus gyda Gair Duw. A chan fod gwallau yn y testyn gwreiddiol, ar ba un y seiliwyd yr hen gyfieithiad, a gwallau hefyd yn ngwaith y cyfieithwyr, gwell ar bob cyfrif oedd eu cydnabod a'u cywiro. Nid yw y parch ofergoelus a geir weithiau i lythyren y cyfieithiad Saesneg awdurdodedig, a garai lonyddwch yn hytrach na chywirdeb, yn unrhyw fantais i neb sydd yn ei goleddu i gyfarfod âg ysbryd ymchwilgar yr oes hon. Os oedd ammheuaeth am ryw adnod nad ydyw yn gosod allan feddwl y gwirionedd yn gywir, neu ynte fod rhyw ran o'r gwreiddiol y cafwyd sicrwydd nad oedd yn meddu awdurdod digonol o'i blaid, gwell oedd cywiro y naill, a thynu ymaith y llall. Cymmerir felly lawer testyn gwawd o law ammheuwyr rhodresgar ac anffyddol, a chynnorthwyir yr ymchwilydd gonest hefyd i ddyfod i afael a sicrwydd i'w feddwl am wirionedd Duw.

Cymmhorth nid bychan i ddarllenwyr ydyw cael y rhanau barddonol wedi eu hysgrifenu mewn ffurf fel ag i'w gwahaniaethu oddi wrth ryddiaeth, ac i ddangos y cyfartaledd ymadroddol sydd yn cyfansoddi mydr a chynghanedd Hebreig. Caiff y darllenwyr gryn lawer o oleuni yn y sylwadau, ac yn yr amrywiol gyfieithiadau, sydd ar ymylon y dalenau.

Y mae enwau y gwŷr a ffurfient y pwyllgorau diwygiadol yn y ddwy wlad yn ddigon o sicrwydd fod pob gofal ag oedd yn bossibl wedi ei gymmeryd o gywirdeb y testyn gwreiddiol, a'r cyfieithiad hefyd, y waith hon; a bod pob goleuni y gellid ei daflu ar y Gyfrol Sanctaidd gan y ddysgeidiaeth uchaf a'r darganfyddiadau diweddaraf wedi cael ei le. Nid ydyw y diwygwyr, er hyny, yn proffesu fod eu gwaith yn berffaith; ond yn ddiddadl, y mae ysgolheigion a duwinyddion galluocaf y byd o'r farn fod y gwaith wedi cael ei gyflawni yn rhagorol, a bod yr argraphiad hwn o'r Beibl yn tra rhagori yn mhob ystyr ar y cyfieithiad Saesneg blaenorol. I'r darllenwyr nad ydynt yn deall yr iaith wreiddiol—ac yn wir, i'r rhai sydd yn ei deall yn dda—bydd y cyfieithiad diwygiedig hwn yn fantais o'r pwysigrwydd mwyaf.

Digitized by Google

**BEIBL, BEIRNIADAETH Y,** [*Biblical Criticism*]. Yr hyn sydd yn dyfod o fewn cylch beirniadaeth Ysgrythyrol, yn ol y dybiaeth gyffredin, ydyw sylwadau beirniadol ar *ystyr* yr ysgrifeniadau sanctaidd, neu esboniadaeth yn ei ystyr fanylaf. Ond nid yn gyfystyr â hyn y defnyddir y geiriau hyn gan feirniaid eu hunain; ond fynychaf am yr ymchwiliadau blaenorol sydd yn angenrheidiol i benderfynu *pa beth yw y geiriau* a lefarwyd dan ysbrydoliaeth dwyfol. Ymddengys i'r cyffredin fod hyn yn orchwyl hollol afreidiol; o herwydd ni raid ond agor y Beibl, neu o'r hyn lleiaf y Beibl yn yr ieithoedd yr ysgrifenwyd ef, i weled pa beth ydynt. Ond y mae natur ymchwiliadau Beiblaidd yn awr y fath fel na chymmerir yn ganiataol fod geiriau, neu fel y dywedir *testyn* yr Ysgrythyr, yn hollol fel y daeth oddi wrth yr ysgrifenwyr ysbrydoledig, heb allu *profi hyny*. Ni chymmerir hyn ar goel—rhaid ei *ddangos*—a'r ymchwiliad angenrheidiol i wneuthur hyny sydd fynychaf yn myned dan yr enw *beirniadaeth Ysgrythyrol*. Ar ol cael sicrwydd fod y geiriau sydd genym yn awr yn yr ieithoedd gwreiddiol yr *un* ag a lefarwyd dan ysbrydoliaeth dwyfol, yna ni a allwn fyned yn mlaen gyda phob hyder i'w hesbonio. Y mae beirniadaeth yn yr ystyr hwn gan hyny yn myned *o flaen* esboniadaeth. Yn yr erthygl bresennol, ni a ddefnyddiwn y geiriau mewn ystyr ychydig eangach, a hyny er mwyn cyfeirio at y gwahanol erthyglau gwasgaredig yn y gwaith hwn ar ymchwiliadau Beiblaidd, y cyfryw a gynnwysir yn y Seisoneg a'r Germanaeg mewn llyfrau a elwir *Introductions*, megys *Horn's Introduction*, *Davidson's Introduction*, yn gystal a'r hyn a geir mewn llyfrau ar feirniadaeth Ysgrythyrol yn ei ystyr gyfyngaf, am burdeb y testyn, megys, *Davidson's Biblical Criticism*. Er mwyn gwneuthur yr amcan yn fwy eglur, gellir dosbarthu yr holl ymchwiliadau rhagarweiniol sydd yn bosibl o barth i'r Ysgrythyrau dan y penau canlynol.

1. A oes genym sicrwydd eu bod wedi eu hysgrifenu yn yr oes a chan y personau y priodolir hwynt iddynt?

2. A ydyw yr adroddiadau o ffeithiau a gynnwysant yn wirionedd?

3. Pa bryd ac ar ba sail y casglwyd hwynt i'r ffurf y maent ynddo yn bresennol?

Mae yr ymofyniadau hyn yn dwyn perthynas â gwahanol ranau yr Ysgrythyrau fel *llyfrau*. A ysgrifenwyd y gwahanol lyfrau sydd yn gwneyd i fyny y gyfrol sanctaidd gan yr *awduron* y priodolir hwynt iddynt? Ymofyniad ydyw hwn am *awduriaeth* neu *awduroldeb* (*genuineness*) yr Ysgrythyrau. Yr ail ymofyniad yw, A gynnwysa y llyfrau hyn yr hyn a gredai eu hawduron oedd yn wirionedd? Ymofyniad ydyw hwn o barth i'w *dilysrwydd* (*authenticity*). Y trydydd yw, A ydynt yn *ganonaidd?* Ymofyniad ydyw hwn i'w derbyniad fel llyfrau awdurdodedig yn yr eglwysi Iuddewig a Christionogol.

Ond at y rhai hyn, y mae tri ymofyniad arall; sef,

1. A ydyw y llyfrau yn cynnwys yr hyn a ysgrifenwyd yn wreiddiol, heb ddim wedi ei chwanegu atynt na'i dynu oddi wrthynt? Ymofyniad ydyw hwn o barth i *gywirdeb presennol y testyn*.

2. Pa beth yw ystyr yr hyn a ysgrifenwyd? Y mae hyn yn arwain at *esboniadaeth y testyn*.

3. Pa beth ydyw yr awdurdod a berthyn iddo: neu, a ydyw y cynnwysiad wedi ei ysgrifenu dan *ysbrydoliaeth dwyfol*.

I gymmeryd esampl neillduol i egluro hyn, gellir ymofyn am Actau yr Apostolion:—A ysgrifenwyd ef gan Luc, i'r hwn ei priodolir? Ai hanes gwirioneddol, ac nid ffugiol, yw? A dderbynir ef gan Gristionogion yn gyffredinol fel llyfr canonaidd? Yna yr ydym i ymofyn yn mhellach, Pa fodd y cyrhaeddir sicrwydd pa beth a ysgrifenodd Luc? Pa fodd yr ydym i gael allan ystyr yr hyn a ysgrifenodd? Ac i ba raddau yr ydym i edrych ar yr hanes fel yn meddu yr awdurdod uchaf; hyny yw, wedi ei ysbrydoli?

Daw yr holl ymofyniadau hyn i mewn dan y cyfenwad *Beirniadaeth Ysgrythyrol*, mewn ystyr eang o'r gair. Ond yma cyfyngir y gair at yr egwyddorion cyffredinol sydd yn llywodraethu ymchwiliadau i awduroldeb, dilysrwydd, a chywirdeb testyn yr Ysgrythyrau, gan gyfeirio at Ysbrydoliaeth, Esboniadaeth, a Canon, am y materion ereill.

Gan mai yr un egwyddorion sydd yn penderfynu awduriaeth, gwirionedd, a phurdeb yr ysgrifeniadau a briodolir i Dafydd, Solomon, Esaiah, Ioan, a Paul, ag sydd yn penderfynu yr un cwestiynau am y cyfansoddiadau llenyddol a briodolir i Plato, Demosthenes, Cicero, a Tacitus, ni a edrychwn arnynt yn gyntaf oll yn eu cyffredinolrwydd, er mwyn i ni allu gweled eu grym yn well yn eu cymhwysiad at yr Ysgrythyrau. Yn y teimlad o annrhaethol ragoriaeth y gyfrol ddwyfol ar holl gyfansoddiadau athrylith dyn, a drosglwyddwyd i ni ar hyd ffrwd amser o'r hen amseroedd, y mae yn bosibl anghofio mai yn yr *un* dull, a thrwy yr *un* egwyddorion, y profir yn mha oes yr ysgrifenwyd y naill fel y llall—pwy a'u hysgrifenodd—y sicrwydd sydd genym eu bod yn adrodd yr hyn a gredent hwy oedd yn wirionedd—ac hefyd fod eu llyfrau yn cyfateb yn awr i'r hyn oeddynt pan ddaethant o'u dwylaw hwy.

Y mae yr ymofyniad hwn, gan hyny, yn gynnwysedig o ddwy ran hollol wahaniaethol y naill oddi wrth y llall. Mae y cyntaf yn gwneuthur ymofyniad am hynafiaeth, awduriaeth, a phurdeb ysgrifeniadau sydd ar gael yn awr: a'r gosodiad sydd i'w brofi ydyw, fod y llyfrau dan sylw wedi cael eu hysgrifenu yn yr oes y dywedir iddynt gael, a chan yr awduron y priodolir hwynt iddynt, ac nad oes cyfnewidiadau neu lygredigaeth o bwys wedi dyfod i mewn iddynt wrth gael eu copïo a'u trosglwyddo o oes i oes.

Yr ail ran o'r ymchwiliad ydyw barth i'r ymddiried a ellir ei roi i'r cyfansoddiadau hyny sydd yn proffesu rhoddi adroddiad o ffeithiau: a'r gosodiad i'w gadarnhau ydyw, fod yr awduron dan sylw wedi ysgrifenu yr hyn yr oeddynt hwy yn credu oedd yn wirionedd, a bod ganddynt wybodaeth gredadwy am yr hyn yr ysgrifenent.

Mae y gosodiadau hyn nid yn unig yn wahaniaethol, ond hefyd yn annibynol ar eu gilydd. Mae yn bosibl i lyfr gynnwys hanes gwir, ac etto heb fod wedi ei ysgrifenu gan yr hwn a dybir yn gyffredin ydyw ei awdwr, nac ychwaith yn yr oes y priodolir ef iddo. Neu, ar y llaw arall, gall fod yn gyfansoddiad yr hwn y mae ei enw arno, ac eto heb deilyngu crediniaeth fel hanes credadwy o ffeithiau. Fel anghraifft, priodolir y *Cyropædia*, ar y seiliau goreu, i Xenophon fel ei awdwr; eto ni chredir fod seiliau digonol i edrych arno yn ddim uwch na ffugchwedl hanesyddol. Y mae awduriaeth y llyfr yn sicr; ond y mae ei wireddolrwydd, neu ei wirionedd fel hanes, yn cael ei ammheu. Ond y mae y cyntaf o'r gosodiadau hyn yn fwy annibynnol ar yr ail, nag ydyw yr ail ar y cyntaf: o herwydd pan brofir hynafiaeth ac awduriaeth cyfansoddiad hanesyddol, nid yw yn anhawdd penderfynu pa faint o ymddiried

sydd yn deilwng i'r awdwr, neu i benderfynu ar ba bethau y mae lle i ammheu ei eirwiredd, cywirdeb ei farn, a sicrwydd ei wybodaeth. Gellir profi

HYNAFIAETH AC AWDURIAETH

yr Ysgrythyrau, neu unrhyw gyfansoddiadau sydd wedi dyfod i lawr i ni o'r oesoedd gynt, mewn tair o wahanol ffyrdd, hollol annibynol ar eu gilydd; fel, pe byddai unrhyw gyfansoddiad yn ddiffygiol o brofion mewn un neu ddwy o'r ffyrdd hyn, gallai y profion o'r natur arall fod yn hollol benderfynol. Ond y mae undeb y tri dosbarth hyn o brofion yn rhoddi y cadarnhad uchaf y mae yn bosibl i ffeithiau o'r fath gael.

Y mae y dosbarth cyntaf o brofion yn codi o hanes yr hen gopïau o'r gwaith sydd yn awr mewn bod.

Mae yr ail yn olrhain hanes y gwaith yn y cyfeiriadau sydd ato mewn ysgrifeniadau dilynol.

Y trydydd a gesglir oddi wrth hanes adnabyddus yr *iaith* yn mha un y mae y llyfr wedi ei gyfansoddi.

Pe byddai ond un copi i'w gael yn bresennol o waith rhyw awdwr yn ei lawysgrifen ef ei hun, a phe gellid profi y ffaith mai ei lawysgrifen ef ei hun fyddai, byddai y gwaith o olrhain ei hynafiaeth, ei awduriaeth, a'i burdeb, ar ben, a phob prawf arall yn afreidiol. Ond anfynych y mae gwaith diweddar i'w gael yn llawysgrifen yr awdwr ei hun; ac nid oes un o'r cyfryw i'w gael o eiddo un awdwr hynafol. Ond eto y mae amgylchiadau cadwraeth a throsglwyddiad ysgriflyfrau (*manuscripts*), neu gopïau o'r ysgrif wreiddiol, y fath yn fynych ag i brofi hynafiaeth ac awduriaeth y llyfr gydag ond ychydig llai o sicrwydd na phe buasai yr ysgrif wreiddiol mewn bod. Gwaith cyntaf cyfreithiwr medrus, os rhoddir ysgrif yn ei law yn proffesu bod yn ewyllys un, ydyw chwilio yn fanwl i'w ddyddiad, nod y papyr (*paper mark*), lliw yr inc; a oes arwyddion o chwanegiadau rhwng y llinellau, neu o rywbeth wedi ei ddileu; pa beth yw enwau yr ewyllysiwr a'r tystion:—mewn gair, nid oes dim a all arwain i'r dybiaeth ei fod yn dwyll, neu wedi ei lygru, nad yw yn gwneyd ymchwiliad iddo, cyn addef ei fod yn ewyllys gwirioneddol y neb y proffesa ei fod, ac hefyd ei fod yn gwbl fel yr ysgrifenwyd ef yn wreiddiol.

Ond os copi, ac nid yr ewyllys wreiddiol, a roddir yn ei law, y mae yr ymchwiliad yn myned yn fwy cwmpasog a dyrus; eto gellir ei ddwyn i derfyn perffaith foddhaol. Gelwir tystion yn mlaen, ac erbyn casglu a phwyso eu tystiolaeth, cynnyrchir argyhoeddiad trwyadl, er fod yr ewyllys gwreiddiol wedi colli, fod yr ysgrif dan sylw yn gopi cywir o hono. Ymchwiliadau o'r natur yma, yn eu cymhwysiad at lyfrau yr Ysgrythyrau, ydyw amcan beirniadaeth ysgrythyrol. Y mae yr ysgrifau cyntaf wedi myned ar goll, yn anadferadwy. Y mae yn ddiau mai yr hyn sydd genym yn awr ydyw copïau o gopïau hynach o'r ysgrifau gwreiddiol hyny—yr ieuengaf o ba rai fyddai yn awr yn agos i ddeunaw can mlwydd oed, a'r hynaf dros dair mil.

Ar y *ffaith* hon—nad yw ysgrifeniadau gwreiddiol yr ysgrifenwyr ysbrydoledig ddim mewn bod yn awr—y mae rhagluniaeth yn peri i ni godi y gyfundraeth o feirniadaeth ysgrythyrol. Ac oddi yma y mae hi yn cychwyn, ac yn myned rhagddi gam a cham, nes rhoddi yr un boddlonrwydd i ddeall a rheswm dyn, fod yr ysgrifeniadau sydd yn myned dan yr enw, Llyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, wedi deilliaw mor wirioneddol oddi wrth yr awduron y mae eu henwau wrthynt, a'u bod yn cynnwys *geiriau* yr ysgrifenwyr hyny yn eu purdeb gwreiddiol, fel ag i osod allan yn berffaith bob athrawiaeth, pob egwyddor foesol, a phob ffaith hanesyddol.

Y mae yn wir fod ffeithiau yr Ysgrythyrau yn gofyn cael eu derbyn trwy ffydd, ond nid yn yr ystyr y maent yn dyfod dan ein sylw yn yr erthygl hon, mwy nag ydyw ffeithiau hanesiaeth gyffredinol, neu egwyddorion sicraf unrhyw wyddoriaeth ddynol. Y mae y profion o honynt o'r un natur, yn meddu yr un sicrwydd, ac i'w canfod trwy yr un cynneddfau naturiol ag ydyw ffeithiau bywyd Julius Cæsar, neu Alfred, brenin Lloegr, neu unrhyw ffeithiau ereill, y sicraf a'r cadarnaf a gredir gan ddyn ar seiliau synwyr a rheswm. Y mae ffydd yn angenrheidiol i dderbyn yr hyn sydd uwchlaw terfynau y greadigaeth weledig; ond y mae y ffeithiau, er iddynt fod yn wyrthiol, sydd yn cael eu gwirio yn unol âg egwyddorion prawf yn gyffredinol, yn gorwedd o fewn cylch pethau gweledig, mor wirioneddol ag ydyw pethau mwyaf cyffredin bywyd. Fel ffeithiau, neu bethau *wedi cymmeryd lle*, y maent mor ddealladwy ar dir synwyr cyffredin, neu egwyddorion cyffredin deall a rheswm dyn, a'r dygwyddiadau mwyaf hysbys. A'r dyn sydd yn eu gwrthod, nid dangos diffyg ffydd y mae, o herwydd nid oes angen am ffydd i'w derbyn, ond diffyg synwyr cyffredin, trwy sathru dan draed y deddfau sydd yn llywodraethu dynion yn eu hymwneyd â'r gyfundrefn bresennol o bethau. Natur gwyrth ydyw appelio, yn gyntaf, at egwyddorion cyffredinol ein natur, mewn trefn, *wedi hyny*, i ofyn am ein ffydd mewn cyssylltiad â ffeithiau sydd yn gorwedd y tu allan i gylch pethau gweledig.

Ond yn unol â'r rheol gyntaf a enwyd i benderfynu hynafiaeth ac amseriaeth unrhyw gyfansoddiad hynafol, ni a gyfeiriwn at

HYNAFIAETH YR YSGRIFLYFRAU

sydd yn awr ar gael. Nid yw yn angenrheidiol olrhain hanes yr ysgriflyfrau hyn yn nes at ein hoes ni na'r bymthegfed ganrif; o herwydd argraffwyd y pryd hwnw y rhan fwyaf o'r llyfrau sydd wedi dyfod i lawr i ni o'r oesoedd gynt, ac yn eu mysg, yr Ysgrythyrau. Y mae y ddyfais o argraffu yn sicrhau tu hwnt i ammheuaeth fod y fath lyfr ar gael y pryd hwnw, ac hefyd yn amddiffyn y testyn rhag i neb wneyd unrhyw gyfnewidiad ynddo. Nis gellir gwneyd cyfnewidiad mewn llyfr argraffedig â *phin*; y mae yr amseriad sydd arno yn sicrhau ei oed, a'r gwahanol argraffiadau sydd yn dyfod allan mewn gwahanol fanau yn ei ddiogelu rhag unrhyw dwyll yn yr amseriad, ac hefyd yn mhurdeb y testyn, am y byddai y naill yn dyst yn erbyn y llall. Y mae copïau yn awr ar gael o'r *Rhyfel Peloponnesaidd*, wedi eu hamseru "Venice, 1502;" rhai ereill o'r un gwaith, wedi eu dyddio "Florence, 1506;" ereill drachefn, "Basil, 1540;" ac ereill wedi eu hargraffu o fewn ychydig flyneddoedd i'r un amser yn Paris a Vienna. Wrth eu cymharu â'u gilydd, y mae yr argraffiadau hyn yn cytuno mewn pob peth o bwys, ac eto y mae mawr wahaniaethau yn y llythyreniad, yn y gystrawen, ac hefyd yn y geiriad—geiriau yn cael eu sillebu yn wahanol, eu cyssylltu â'u gilydd yn wahanol, ac hefyd geiriau cyfystyr yn cael eu rhoddi y naill am y llall. Prawf yr argraffiadau hyn fod y gwaith mewn bod yn nechreu yr unfed ganrif ar bymtheg; eu bod wedi eu hargraffu oddi wrth ysgriflyfrau gwahanol, ac nid eu copïo y naill oddi

wrth y llall, ac hefyd nad yw y testyn yn yr argraffiadau diweddar wedi cael ei lygru nemawr ddim yn y pedwar can mlynedd diweddaf.

Pe na byddai genym un ffordd i benderfynu pa bryd yr ysgrifenwyd llyfr, ond oddi wrth hynafiaeth yr ysgriflyfr sydd yn ei gynnwys, yr amcan fyddai dangos i ba oes y gellid ei olrhain, a gwneyd rhyw gasgliadau oddi wrth amgylchiadau yr achos o barth i ysbaid yr amser y gallasai fod yn cael ei gopïo a'i drosglwyddo.

Gan y rhoddir hanes cyflawn am YSGRIFLYFRAU dan y gair hwnw, ni roddir yma ond yn fyr pa fodd y mae beirniaid yn penderfynu eu hamseriad. *Yn gyntaf*, Gwybyddir am rai eu bod wedi cael eu cadw am gannoedd o flyneddoedd yn y llyfrgelloedd y maent ynddynt yn bresennol. *Yn ail*, Y mae rhan fawr o'r ysgriflyfrau sydd ar gael yn bresennol wedi eu dyddio gan law y copïwr, fel nad oes ammheuaeth am eu hoed. *Yn drydydd*, Y mae mewn llawer o honynt nodiadau ar ymyl y dalenau, wedi eu chwanegu gan law ddiweddarach, yn cynnwys cyfeiriadau at bersonau a dygwyddiadau, arferion neillduol, a dulliau o ymadrodd, sydd yn profi fod y nodiadau yn hen, ac felly fod y testyn yn hynach. *Yn bedwerydd*, Y mae hynafiaeth ysgriflyfr yn cael ei benderfynu yn y modd mwyaf boddhaol trwy ei ganfod *dan* ysgrifen arall ar hen femrwn. Gelwir y memrynau hyn y crafwyd yr ysgrifeniad cyntaf oddi arnynt, yr ysgrifenwyd arnynt drachefn, *palimpests*=crafysgriflyfrau, neu adysgriflyfrau. Yr oedd memrwn bob amser yn ddrud, ond cododd llawer yn ei bris pan y dechreuodd y papyr a wneid o bapyr-frwyn neu *bapyrus* y Nile fyned yn brin, a chyn dyfeisio y llwybr o wneuthur papyr o gotwm. Yn fynych, gan hyny, y byddai y copïwr, yn enwedig y mynachod, yn crafu neu yn golchi ymaith yr ysgrifen wreiddiol oedd ar eu hen femrynau, i ysgrifenu arnynt fywydau y saint, ffugchwedlau, neu unrhyw beth arall oedd yn boddio archwaeth yr oesoedd hyny. Ond yn fynych, cadwai yr hen groen yr ysgrifen gyntaf fel ag i fod yn ddarllenadwy. Y mae yr adysgrifau hyn yn cynnwys prawf deublyg o hynafiaeth y gwaith oedd arnynt gyntaf; o herwydd, yn fynych, y mae yr ysgrifen fynachaidd yn perthyn i'r deuddegfed, ac weithiau i'r nawfed ganrif. Rhaid, gan hyny, fod yr ysgrifen *gyntaf* yn llawer hynach, o herwydd y mae yn fwy tebygol mai y memrwnlyfrau hynaf a ddefnyddient i'w crafu, ac nid y rhai diweddaraf. Y mae llawer o ysgriflyfrau anmhrisiadwy o'r Ysgrythyrau, ac hefyd, gweddillion gwerthfawr o lenyddiaeth glasurol, wedi eu dwyn i'r goleu yn y modd hyn. *Yn bummed*, Yn fynych, hefyd, gellir penderfynu oed ysgriflyfr trwy nodau o'r natur ganlynol:—natur ac ymddangosiad yr inc; natur y defnydd, sef pa un ai lledr meddal, ai memrwn, ai *papyrus* yr Aipht, ai papyr cotwm ydyw; o herwydd dilynodd y rhai hyn eu gilydd mewn arferiad er adegau sydd yn adnabyddus: hefyd, ffurf, maintioli, a natur, yr ysgrifen; o herwydd y mae profion digonol o drefn reolaidd yn y dulliau o ysgrifenu trwy bob oes o'r amseroedd boreuaf: hefyd, dull yr addurniadau (*illuminations*) yn fynych a ddangosant oed ysgriflyfr.

Oddi wrth nodau fel hyn, gellir olrhain yn ol i wahanol ganrifoedd ac oesoedd, o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd y bedwaredd ganrif, yn yr ysgriflyfrau sydd yn awr ar gael yn ngwahanol lyfrgelloedd Ewrop. Ychydig sydd mor hen a'r bedwaredd ganrif; ond gellir olrhain lluaws o honynt i'r seithfed, nifer mwy i'r ddegfed ganrif, a chyfartaledd mawr o honynt i'r pedwar can mlynedd dilynol. Ond y mae rhai ysgriflyfrau a ysgrifenwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg, yn dwyn profion mewnol eu bod wedi eu copïo oddi wrth ysgriflyfrau hynach na'r rhai sydd mewn bod yn awr.



Fel hyn y mae llyfrau clasurol ac ysgrythyrol yn cael eu holrhain i fyny trwy gyfnod hirfaith o anwybodaeth sydd yn gwahanu goleuni a gwareidd-dra yr hen oesoedd, oddi wrth oleuni a gwareidd-dra yr oesoedd diweddaraf hyn. Y pryd hwnw yr oeddynt mewn arferiad cyffredinol, yn adnabyddus i bron bawb, yn cael eu dyfynu yn barhaus; ac o ganlyniad, olrheinir hwynt i'r oesoedd pryd y gellir casglu hanes pob llyfr oddi wrth dystiolaethau ysgrifenwyr cyfoesol a dilynol.

Pe buasai yr ysgriflyfrau o weithiau clasurol ac ysgrythyrol wedi myned ar goll, a'r ffeithiau blaenorol mewn perthynas iddynt yn anadnabyddus, eto gellid profi yn y modd mwyaf penderfynol hynafiaeth ac awduriaeth y llyfrau dan sylw drwy

GYFEIRIADAU ODDI WRTH Y NAILL AT Y LLALL.

Nid yw un cyfeiriad mewn llyfr at lyfr arall yn ddigon i brofi fod y llyfr y cyfeirir ato mewn bod pan wnaed y cyfeiriad; o herwydd, fe *all* un neu ddau, neu amryw gyfeiriadau, fod yn ffug chwanegiadau. Ond fe fyddai cyfeiriadau mynych mewn lluaws o lyfrau ar wahanol faterion, a chan wahanol awduron, yn brawf sicr o hanfodiad y cyfryw lyfr, ac yn foddion effeithiol i brofi mai yr un ydyw ag sydd yn ein dwylaw dan enw y llyfr mewn cwestiwn. Y mae yn bosibl i lyfr fod wedi ei ysgrifenu gan yr awdwr y priodolir ef iddo, ac yn yr oes y proffesa ei fod wedi ei ysgrifenu, ac heb y cyfeiriadau hyn ato. Y mae llenyddiaeth Groeg a Rhufain yn cael eu gwirio yn y modd yma, drwy y dyfyniadau a'r dysgrifiadau sydd i'w cael mewn llyfrau ereill. Ychydig o lyfrau sydd nad ydynt yn cyfeirio at lyfrau ereill; fel y mae yr oll o lenyddiaeth hynafol yn cynnwys prawf ynddi ei hun o awduriaeth pob rhan. Y mae arwyneb y cyfeiriadau hyn yn eangu yn raddol; yn y dechreu nid oeddynt ond ychydig, ond yn raddol cynyddasant nes gorchuddio holl wyneb llenyddiaeth.

Y mae Awstin, yn y flwyddyn 400, yn gosod i lawr yr egwyddor fod awduriaeth yr Ysgrythyrau i'w brofi yn gymhwys yn yr un modd ag awduriaeth llyfrau cyffredin. Dywed fod llyfrau wedi eu gwneyd a'u priodoli i ryw ddynion, sydd ar ol hyny wedi cael eu gwrthod fel ysgrifeniadau ffugiol:—a pha ham? Am nad oedd y cyfryw lyfrau yn meddu y profion allanol o'u hawduriaeth, sef heb gyfeiriad atynt gan ysgrifenwyr oedd yn byw yn yr un oes a hwy, a chan awduron dilynol; ac hefyd, am fod eu cynnwysiad yn cynnwys pethau oedd heb fod yn unol â'r awdwr y priodolid y llyfr iddo, neu â'u llyfrau adnabyddus, neu â'r oes yr ydoedd yn byw ynddi. Y mae hon yn rheol eglur a gwahaniaethol, o eiddo Awstin, i wrthod ysgrifeniadau ffugiol.

Am ysgrifeniadau dilys, nid rhaid ond cymhwyso y gwrthosodiad i'r rheol uchod. Gofyna Awstin, Pa fodd yr ydym i brofi fod y llyfr a'r llyfr yn gyfansoddiad dilys Hippocrates? Ei ateb ydyw—"Am fod nifer o ysgrifenwyr olynol, o amser Hippocrates ac yn mlaen hyd at ein dyddiau ni, wedi ei briodoli iddo; ac fe fyddai ammheu yn arwydd o ddiffyg synwyr. Pa fodd y mae dynion yn gwybod pa ysgrifeniadau sydd yn eiddo Plato, Aristotle, Cicero, a Varro, ac

Digitized by Google

awduron cyffelyb, ond drwy olyniad tystolaeth o'r un natur o oes i oes."

Y mae Awstin yn ysgrifenu yn yr ymresymiad hwn yn erbyn Faustus y Manichead—y cyntaf am yr hwn y dywedir iddo ammheu awduriaeth yr Efengylwyr. Yna cymhwysa yr un rheol at y ddadl oedd rhyngddynt eu dau ar y pryd. "Pa ham y rhaid i ni fyned yn ol mor bell? Edrychwn ar y llythyrau hyn sydd yn ein dwylaw; ac os bydd i ryw un ar ol ein marwolaeth wadu fod y rhai yna wedi eu hysgrifenu gan Faustus, a'r rhai hyn genyf fi, pa fodd yr argyhoeddir ef ond drwy fod y rhai sydd yn gwybod y pethau hyn yn trosglwyddo eu cydnabyddiaeth o'r ffeithiau i'r oes nesaf, a'r oes hono i'r nesaf, ac felly yn mlaen." [*Contra Faustum*, i. 33.] Mae Awstin yn gwthio ei reol yn rhy bell drwy ddyweyd mai hon ydyw yr unig ffordd i brofi awduriaeth llyfr; eto, y mae hyn yn sicr, nas gall llyfr fod yn ffugiol sydd yn cael ei wirio yn y modd uchod. Pwy, yn mhen unrhyw nifer o oesoedd, pe dygwyddai i bob copi argraffedig o *Hymnau Williams*, Pant-y-celyn, fyned ar goll, a allai ammheu hanfodiad y fath lyfr, a'i wir awduriaeth. Y mae holl lenyddiaeth grefyddol Cymru, o'r amser y cyhoeddwyd hwy gyntaf hyd yn awr, yn brawf nas gall un twyll-reswm ei ysgwyd am fynyd. Mae bron bob cyhoeddiad cylchynol, pob traethawd neu hanes crefyddol, a phob cyfrol o bregethau, yn cynnwys cyfeiriadau, dyfyniadau, a beirniadaeth arnynt; cymmaint felly, fel, nid yn unig i sicrhau eu bodolaeth a'u hawduriaeth, ond hefyd i alluogi oes ddyfodol i gasglu rhan fawr o honynt at eu gilydd.

Gellir dosbarthu dan y penau canlynol, y cyfeiriadau hyn, o'r naill awdwr i'r llall, er dangos natur, eangder, a grym y prawf hwn.

1. Dyfyniadau yn ngeiriau yr awdwr, pa un bynag a enwir ef neu beidio. Gwasanaetha hyn yr amcan i brofi fod y llyfr mewn bod pan wnaed y dyfyniad o hono, ac hefyd i brofi mai yr un un ydyw, ac hyd yn oed i adgyweirio y testyn wrtho pe byddai rhyw ammheuaeth am ei burdeb. Gellid defnyddio *Hymnau Williams* yn eglurhad ar hyn. Y mae cynnifer o gyfnewidiadau wedi eu gwneyd mewn lluaws o honynt, fel pe buasai y copïau gwreiddiol i gyd wedi myned ar goll, Y ffordd debycaf i'w hadferu i'w ffurf gwreiddiol, fyddai casglu y dyfyniadau boreuaf a ellid. Yn ddiweddarach y daeth rhan fawr o'r cyfnewidiadau i mewn.

2. Cyfarfyddir â chyfeiriadau damweiniol, naill ai at eiriau neu ystyr awdwr, yn ddigon eglur i ddangos fod y naill yn adnabyddus i'r llall. Yn yr hen haneswyr clasurol, y mae anghreifftiau o ddau ysgrifenwr, heb enwi eu gilydd, yn adrodd yr un ffeithiau gyda chymmaint o gydgordiad rhyngddynt mewn dull, amgylchiadau, addurniadau, a sylwadau, ag i symmud ymaith bob ammheuaeth fod y ddau wedi dilyn yr un cynllun, neu fod y naill wedi copio oddi wrth y llall.

3. Y mae prif awduron hynafiaeth wedi cael eu henwi yn benodol, eu beirniadu, a'u dysgrifio gan ysgrifenwyr diweddarach. Y mae rhestr o'u llyfrau, yn nghyd â chrynodeb o'u cynnwysiad, wedi eu rhoi; ac ysgrifenwyd esboniadau arnynt, trwy ba rai y gellir cymharu pob rhan o'r gwaith gwreiddiol â'r copïau sydd yn ein meddiant yn awr. Y mae llyfrau yn bod hefyd sydd yn cynnwys hanes hen ysgrifenwyr, yn nghyd â rhestr o'u gweithiau.

4. Y mae dadleuon llenyddol, gwleidyddol, a chrefyddol, wedi achlysuro lluaws o ddyfyniadau o bob math o lyfrau.

5. Nid oes dim yn fwy penderfynol o barth i hynafiaeth ac awduriaeth hen lyfrau, na chyfieithiadau boreuol o honynt. Os gellir profi fod y cyfryw gyfieithiadau wedi cael eu gwneyd yn agos i'r amser a briodolir i'r gwaith gwreiddiol; os ydynt yn gyfieithiadau lled gywir; os ydynt wedi treiglo i lawr i amseroedd diweddar, yn hollol annibynol ar y gwaith gwreiddiol; ac hefyd, os oes cyfieithiadau o'r un gwaith mewn *gwahanol ieithoedd* ar gael, nis gellir cael un math o rawf yn fwy perffaith ac anffaeledig. Yn y fath amgylchiad, gellid gwneyd heb un math arall o brawf. Y mae hen gyfieithiadau, hefyd, yn gwasanaethu i brofi cywirdeb cymhariaethol gwahanol ysgriflyfrau. [Gwel CYFIEITHIADAU Y BEIBL.]

Er fod y rhan fwyaf o gyfansoddiadau llenyddiaeth hynafol yn cael eu profi o awduriaeth dilys trwy gyflawnder afreidiol o dystiolaethau o'r natur a ddysgrifir, eto, y mae i'w ddysgwyl fod rhyw ychydig o anghreifftiau, er eu bod o *ddilysrwydd tebygol*, eto mor amddifaid o brofion allanol, fel y mae yn rhaid iddynt aros dan ammheuaeth; a rhyw ychydig, er eu bod yn *ffugiol, yn ol pob tebygolrwydd*, eto yn meddu cymmaint o ymddangosiad o brawf o'u dilysrwydd, ag i'w cadw ar dir dadleuaeth. Y mae y ddau yn nghyd, gan hyny, yn sicr o gynnyrchu ychydig o anghreifftiau ammheus. Ond y mae y dadleuon sydd wedi bod o barth i'r cyfryw, yn dangos mor annhebyg ydyw y gall gwaith ffugiol basio heb gael ei ammheu a'i brofi felly.

Ond drachefn, y mae

HANES YR IAITH

yn mha un yr ysgrifenwyd llyfrau hynafol, yn brawf o'u hynafiaeth a'u hawduriaeth. Y mae iaith yn gyfrwng perffaith i drosglwyddo ffeithiau hanesyddol i oesoedd dyfodol. Y mae yn bosibl ysgrifenu a chyhoeddi llyfr dan ffug enw, ond y mae iaith yn beth nas gellir ei ffugio. Y mae hanfodiad iaith, er iddi beidio a bod yn gyfrwng cymdeithas rhwng y byw, yn profi, mewn sylwedd, y cwbl a all hanesiaeth ei drosglwyddo i ni. Nis gall cofadeiladau o un math adlewyrchu holl ansoddau neillduol a gwahaniaethol cenedl mor gywir a'u hiaith:—gwelir eangder eu gwybodaeth, a ffurf eu gwareiddiad, yn rhestr y geiriau a arferent. Y mae holl weithrediadau y meddwl, a holl ffurfiau y byd allanol, yn cael eu cynnrychiolwyr priodol mewn iaith:—yma, cyfarfyddir â gwrthddrychau natur, neillduolion hinsawdd, cynnyrchion celfyddyd, arferion bywyd teuluaidd, sefydliadau gwladol, syniadau ac arferion crefyddol—athroniaeth, barddoniaeth, a chelfyddyd.

Y mae meddu ar wybodaeth gyflawn o iaith—ei geiriau, rheolau ei chystrawen, ei phriod-ddull, a'r cyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle o oes i oes yn ystyr y geiriau, a'r dull o eirio—yn rhoddi i ddyn gynnifer a hyny o ffeithiau a rheolau i farnu hynafiaeth a dilysrwydd unrhyw lyfr sydd yn gwneuthur ymhoniadau iddynt. Dysgwylir i'r neb sydd yn ysgrifenu yn ei iaith gynnwynol, gydymffurfio â'i rheolau, a phriod-ddull ac arferion neillduol yr oes yr ysgrifena ynddi: ac hefyd, y bydd geiriau yr iaith wrth ei orchymyn, yn ol angenion ei fater. Y mae yn wir fod yn bosibl cyrhaedd y fath gydnabyddiaeth âg iaith farw, ag i alluogi ysgrifenydd i gydymffurfio â hi mor bell ag i beri petrusder i'r ysgolheigion goreu: ond y mae yr anhawsder i ysgoi pob

Digitized by Google

ymadroddion diweddarach, a geiriau mewn ystyr nad oeddynt yn perthyn iddynt pan yn gyfrwng ymddyddanion byw, mor fawr, fel mai ychydig ydyw y gobaith i allu diange rhag dynoethiad. Y mae pob iaith yn myned trwy gyfnewidiadau parhaus, oddi wrth gyfnewidiadau yn y gwrthddrychau a ddynodir trwy eiriau, neu yn sefyllfa y bobl a'u defnyddiant: a chan fod yr amgylchiadau sydd yn peri y fath gyfnewidiadau mewn iaith yn ddigon adnabyddus, gellir, gyda graddau mawr o sicrwydd, benderfynu oed unrhyw lyfr trwy gydymffurfiad yr awdwr âg ansawdd yr iaith yn y cyfnod hwnw. Daw cyfnewidiadau i mewn i iaith, heb un rheswm drostynt ond ymweithiad byw a chynnyddol y genedl a'i defnyddia. Rhydd y Dr. Johnson, yn y rhagymadrodd i'w *Eiriadur*, anghreifftiau o'r iaith Seisoneg o ddechreuad ei llenyddiaeth, er mwyn dangos y cyfnewidiadau yr aeth drwyddynt gyda threigliad amser. Hefyd, y mae yn ddigon adnabyddus fod lluaws o eiriau yn arferedig yn y Gymraeg, yn ystod yr hanner can mlynedd diweddaf, nad oeddynt mewn arferiad yn flaenorol; tra y mae rhan fawr o'r geiriau a ddefnyddid ychydig ganrifoedd yn ol yn anadnabyddus i'r oes bresennol. Cydymffurfiad awdwr â'r cyfnewidiadau hyn, a rydd fodd i oes ddyfodol i benderfynu pa bryd yn hanes yr iaith y defnyddiwyd hi ganddo ef. Y mae y dull hwn o brofi hynafiaeth ac oes llyfr, yn dwyn yr un berthynas â *llyfrau*, ag y mae y cyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle yn y dulliau o ysgrifenu yn eu dwyn âg oed *ysgrif-lyfrau.*

GWIRIONEDD LLYFRAU HANESYDDOL.

Os bydd y llyfrau y ceir y profion uchod—neu yr hyn a dybir yn ddigonol o honynt i brofi iddynt gael eu hysgrifenu yn yr oes a chan y personau a broffesant—yn llyfrau *hanesol*, yr ymofyniad nesaf ydyw, Pa sicrwydd sydd genym y gallwn dderbyn eu tystiolaeth fel tystiolaeth gredadwy am yr hyn a adroddant? Ac yma, fel mewn amgylchiadau cyffredin, pan elwir arnom i bwyso tystiolaeth, y mae yn naturiol ystyried yn

I. A ydyw y tystion yn meddu ar alluoedd cymhwys i wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau; ac hefyd a ydyw eu nodweddiad y fath ag y gallwn ddysgwyl iddynt ddyweyd y gwir?

II. Pa beth oedd eu manteision i gyrhaedd gwybodaeth gywir?

III. Amser ac amgylchiadau cyhoeddiad cyntaf yr hanes.

IV. Cyssondeb eu tystiolaeth â phrofion ereill hollol annibynol.

Y mae y rheolau hyn, wrth ba rai y mae yn rhaid barnu a ellir rhoi crediniaeth mewn adroddiad hanesyddol, yn hollol benderfynol.

Am y I, Y mae cywirdeb personol pob dyn yn cael ei brofi yn fwy effeithiol trwy amgylchiadau anghyffredin nag mewn un ffordd arall; ac felly, os gwybyddir am hanesydd ei fod wedi dal y prawf yma, nis gall fod gwell sail i'n hymddiried. Ond os bydd amgylchiadau bywyd ysgrifenydd yn hollol anadnabyddus i ni, y mae bron pob ysgrifenydd yn gadael yn ei waith amlygiadau o'i nodweddiad moesol. Mae amlygiadau o onestrwydd yn ddigon amlwg mewn cyfansoddiad, fel mewn ymddygiad, i sicrhau ymddiried. Ac nid oes anghraifft o efelychiad o'r priodoliaethau hyn wedi sefyll prawf amser trwy holl gylch llenyddiaeth. Ond os na bydd nodweddiadau geirwiredd a didwylledd yn ddigon amlwg mewn hanesydd, gall ei gymhwysderau meddyliol fod y fath ag i'n cyfiawnhau i ymddiried y bydd iddo ddewis y gwir o flaen y gau. Am wirionedd y mae y meddyliau cryfaf a chliriaf yn ymofyn fel trwy nerth greddf. Os bydd y deall mewn cyflawn weithrediad, synwyr da, ucheledd teimlad, a chymhwysder neillduol yn yr hanesydd i adrodd ffeithiau, gellir derbyn yr ansoddau hyn fel gwystl o eirwiredd yr awdwr, hyd yn oed os na bydd ei dueddiadau moesol yn dyfod i wyneb ei adroddiadau.

Am yr II, O barth i foddion gwybodaeth yr haneswyr, y mae yn angenrheidiol gwahaniaethu rhwng y dygwyddiadau yr oeddynt eu hunain yn dystion o honynt, neu yn mhlith pa rai yr oeddynt yn byw; a'r rhai hyny nad oedd ganddynt ond gwybodaeth draddodiadol o honynt. Am y rhai cyntaf, os oes genym sicrwydd am eirwiredd a chymhwysder yr ysgrifenydd, nid oes un sail resymol i ammheu cywirdeb yr hanesion dros ba rai y mae efe yn gwystlo ei gymmeriad. Ond am y defnyddiau a dderbyniodd oddi wrth ereill, pa mor uchel bynag y gallwn feddwl am eirwiredd a barn yr ysgrifenydd, nis gallwn roddi ond ymddiried ammodol, yn ol y syniad fydd genym am gywirdeb yr hysbysiadau y mae efe yn eu dilyn. Yn unol â hyn, gellir edrych ar holl gorff hanesiaeth hynafol yn gynnwysedig o ddau fath, sef y *gwreiddiol* a'r *casgledig*. Yn y dosbarth cyntaf y mae yn gynnwysedig nid yn unig adroddiadau personol, megys hanes dychweliad y deng mil Groegiaid gan Xenophon, a chofnodiadau Cæsar, ond hefyd y rhai sydd yn hysbysu ansawdd a dygwyddiadau gwlad ac oes yr ysgrifenydd, am ba rai yr oedd ganddo y moddion mwyaf uniongyrchol a diammheuol i gyrhaedd sicrwydd. Y cyfryw ydyw hanes Thucydides am ryfel y Pelloponnesiaid, hanes cydfradwriaeth Catiline gan Sallust, hanesion Tacitus, a hanesion Burnet am ei amseroedd ei hun. Yr amlygiadau o eirwiredd, didueddrwydd, a synwyr, sydd i'w canfod yn y gwaith sydd yn penderfynu pa mor bell y mae yr hanesion a gynnwysir ynddo yn gredadwy. Y mae pob darllenydd o Thucydides yn teimlo y gall rhoddi cyflawn ymddiried yn nilysrwydd ei hanes;—y mae gwyliadwriaeth a diwydrwydd parhaus yr awdwr yn chwilio i wirionedd yr hyn a ddywed, ei fanylwch mewn amgylchiadau dibwys, ei degwch a'i synwyr amlwg, ac ucheledd ei ddull, oll yn ymuno i argraffu sel gwirionedd ar ei waith. Mewn pob hanesion *gwreiddiol* y mae gwirionedd yr adroddiad a geirwiredd yr ysgrifenydd yn gyssylltiedig anwahanol â'u gilydd:—rhaid addef y ddau, neu wadu y ddau.

Ond i'r *ail* ddosbarth y mae y rhan fwyaf o bob hanesiaeth yn perthyn; ac eto yn mhlith gweithiau sydd heb fod ond *casgliadau*, y mae ychydig yn meddu ar brofion o'u gwirionedd sydd bron, os nad yn hollol, mor benderfynol a hanesion gwreiddiol; tra y mae llawer yn syrthio lawer islaw i hyn. Nid yw pob rhan o'r un gwaith sydd yn seiliedig ar awdurdod ail llaw ddim yn meddu hawl gyfartal i grediniaeth. Nid yw holl adroddiadau Herodotus a Diodorus yn meddu yr un awdurdod a'u gilydd. Er iddynt ymweled â'r gwledydd y llefarant am danynt, chwilio i mewn i'w coflyfrau, craffu ar eu cofadeiladau, ymddyddan â'u dynion dysgedig, a chasglu llyfrau yn nghyd, eto nid oeddynt yn arfer yr un gwyliadwriaeth bob amser yn newisiad eu hawdurdodau; ac felly y mae diffyg barn yn yr ysgrifenydd yn galw am fwy o ymbwylliad yn y darllenydd.

Am y III reol, Y mae amser ac amgylchiadau

Digitized by Google

cyhoeddiad gwaith hanesyddol o bwys i benderfynu pa faint o ymddiried sydd i'w roddi ynddo. Os bydd i hanes gael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu yn gyffredinol yn yr oes y mae y prif ffeithiau yn meddu arbenigrwydd, a phan y mae llawer o'r mân amgylchiadau yn adnabyddus i gyfoeswyr yr ysgrifenydd, a llawer o honynt hefyd yn dwyn perthynas â hwy, ac i'r cyfan gael ei dderbyn yn ddiwrthwynebiad, y mae y seiliau goreu i ymddiried yn ngwirionedd a chywirdeb yr hanes. Byddai yn anmhosibl, trwy unrhyw ddamwain neu ymdrech, i adroddiad dychymygol hollol anwireddus yn ei brif ffeithiau, ac anghywir yn ei amgylchiadau, wedi ei gyhoeddi dan yr amgylchiadau a nodwyd, ennill derbyniad cyffredinol a pharhaus fel hanes diledryw. Nid allai y fath lyfr ddal ymchwiliad cyfoeswyr ammheus a gwrthwynebus; ac nid allai ddal ei gymmeriad yn yr oes ganlynol, wedi i deimlad a rhagfarn farw, a'r moddion eto ar gael i gyrhaedd y gwirionedd. Yma eto gellir dosbarthu hanesiaeth i ddau fath :—*yn gyntaf*, y rhai yr oedd cyfoeswyr yr hanesydd yn farnwyr cymhwys o'u cywirdeb : ac *yn ail*, y rhai yr oedd y defnyddiau wedi eu casglu at eu gilydd trwy lafur dysgeidiaeth, ac yn dwyn perthynas â dygwyddiadau pell o ran amser a lle ; ac o ganlyniad y cyfryw nad allasai ond dysgedigion roddi barn arnynt. Mae gwaith o'r natur cyntaf yn appelio at wybodaeth pawb oedd yn fyw, ac o fewn y cyfleusdra pan gyhoeddwyd ef, dros ei wirionedd; o herwydd nid yw gwaith felly amgen na chrynoad o wybodaeth cenedl o bob tystiolaeth gyffredinol, wedi ei gasglu a'i drefnu gan un sydd yn ymgais at sylfaenu ei gymmeriad fel awdwr ar gydsyniad ei gyfoeswyr. Wrth fyned trwy ddinas, clywir yr un adroddiad o ran sylwedd am ddygwyddiad cyhoeddus a diweddar oddi wrth fil o wahanol bersonau, a chan bleidiau gwrthwynebol. Neu, fe ddarllenir adroddiad o'r un dygwyddiad gan ysgrifenydd ar y pryd, geirwiredd yr hwn a gydnabyddir yn ddystaw neu mewn geiriau gan yr un rhai. Mae grym y dystiolaeth yn gyffelyb yn y ddau amgylchiad, ond efallai yn fwy manwl a chysson yn yr olaf. Mae prif ffeithiau llyfrau diweddar yn meddu cydsyniad y rhai oedd yn gydnabyddus â'r ffeithiau, fel sel eu gwirionedd. Ond y mae hanes Thucydides yn meddu hawl uwch i dderbyniad anwadadwy, o gymmaint a bod y dygwyddiadau yn fwy diweddar pan gyhoeddwyd y gwaith ; ac o herwydd y buasai yr eiddigedd cenedlaethol, a'r anghydfod chwerw oedd rhwng yr Atheniaid a'r Lacedæmoniaid ar y pryd yn llethu yn y fan unrhyw gamddarluniad. Mae hanes Groeg gan Xenophon yn meddu mewn rhan hawl i grediniaeth ar yr un tir. Ond i'r gwrthwyneb, y mae ei hanes am Cyrus yn amddifad o'r prawf hwn o'i wirionedd; o herwydd nad oedd y Groegiaid yn gyffredin, pan gyhoeddwyd ef, yn gymhwys i farnu am wirionedd y chwedl. Y mae gweithiau Sallust, Cæsar, Tacitus, Suetonius, a Polybius, wedi cael eu gwirio yn y modd uchod trwy gael eu derbyn gan y rhai oedd yn gymhwys i farnu am eu gwirionedd.

Am y IV reol, Y mae amryw ffyrdd annibynol, drwy ba rai y gellir profi cywirdeb hanesydd, y rhai y gellir eu dosbarthu yn y modd canlynol :—

1. Gweddillion llenyddiaeth y gwledydd a'r oesoedd y proffesa yr hanesydd ddysgrifio. Mae cyfarfod â chyfeiriadau mewn ysgrifenwyr annibynol, megys beirdd, areithwyr, ac athronwyr, at yr un enwau, arferion, a sefydliadau, ag a geir yn yr haneswyr cyfoesol, yn taraw y meddwl yn rymus o blaid gwirionedd yr olaf. Pe cymherid haneswyr unrhyw wlad â'u hysgrifenwyr ereill, y mae cymmaint o gydgordiad mewn cynnifer o fân gyfeiriadau, nad allasai dim ei beri ond eu bod wedi tyfu o'r un gwreiddyn cyffredin o ffeithiau gwirioneddol. Ac nid yn unig ceir gydgordiadau manwl ar bethau penodol, ond y mae eu holl ddysgrifiadau o'r genedl y perthynant iddi, yn ei hansawdd grefyddol, gymdeithasgar, a gwladeiddiol, yn cydseinio â, ac felly yn cadarnhau, adroddiadau yr haneswyr.

2. Y mae arysgrifiadau amseryddol yn safon i brofi cywirdeb yr hanesydd mewn llawer o amgylchiadau. Nid oedd yr hen haneswyr yn talu cymmaint o sylw i amseryddiaeth ag a ofynir gan haneswyr yn awr; ac felly y maent wedi gadael i lawer o dywyllwch amgylchu amseriad yr hyn a adroddant. Ond eto, nid yw prif linellau amseryddiaeth yn anmhenderfynol. Gwel AMSERYDDIAETH.

3. Gwasanaetha ffeithiau daiaryddol ac anianyddol i wirio dysgrifiadau yr hanesydd. Y mae cyfeiriad afonydd, a neillduolrwydd cynnyrchion anifeilaidd a llysieuol pob gwlad, er nad yn anghyfnewidiol, eto yn ddarostyngedig ond i gyfnewidiadau bach iawn mewn oesoedd lawer. Felly y mae yr un creigiau, moroedd, ac afonydd, yr un golygfeydd ac ymddangosiadau naturiol, yn awr ag a ddysgrifiwyd neu y cyfeiriwyd atynt ugain canrif yn ol. Ac mor bell ag y cawn eu dysgrifiadau yn cytuno âg ansawdd presennol y gwrthddrychau sefydlog hyn, gallwn dderbyn hyny fel gwystl o'u cywirdeb cyffredinol; o herwydd, os oedd hanesydd yn ofalus i sicrhau cywirdeb mewn pethau nad oeddynt mewn cyssylltiad uniongyrchol â'i fater, gallwn ddysgwyl o leiaf y bydd mor ofalus i gyrhaedd cywirdeb yn mhrif ffeithiau ei hanes. Y mae cywirdeb daiaryddol Herodotus, nid yn unig yn ei ddysgrifiadau o'r golygfeydd yr ydoedd yn fwyaf adnabyddus o honynt, ond hefyd o wledydd pellenig, y fath ag a ddangosant i ni ei fod wedi eu teithio.

Y mae parhad enwau lleoedd dan gyfnewidiadau yn eu llythyreniad, yn foddion i brofi cywirdeb haneswyr. Enwau presennol mân drefydd a phentrefydd yn Asia Leiaf, Armenia, Persia, Arabia, Palestina, a'r Aipht, a alwant i gof yr enwau y cyfarfyddir â hwynt mewn hen haneswyr. Ni buasai yr enwau hyn byth i'w cael mewn hanesion sydd wedi treiglo i lawr drwy ganrifoedd lawer, oni buasai eu bod wedi eu cymmeryd trwy adnabyddiaeth personol, neu ynte o adroddiadau awdurdodedig.

4. Y mae cymhariad o'r dysgrifiadau a roddir gan haneswyr o neillduolrwydd corfforol, ac arferion cenedloedd, a'r ffeithiau cyfatebol a ganfyddir yn eu mysg yn awr, yn safon i brofi eu cywirdeb. Er nad yw arferion cenedlaethol mor barhaus ag ydyw golygfeydd gwlad a chynnyrchion y tir, eto, goroesant gyfnewidiadau mawr. Y mae yn wir fod gwybodaeth a gwareiddiad yn cynnyrchu cyfnewidiad hollol bron yn amgylchiadau ac arferion dynion ; ond er hyny, fe erys digon o gyffelybrwydd i dynu sylw, ac i brofi mai yr un genedl ydyw dan wahanol ddylanwadau. Yn erthyglau y gwaith hwn ar yr AIPHT, ARABIA, CANAAN, a rhai cyffelyb, ceir eglurhad digonol ar y pen hwn.

5. Y mae gweddillion celfyddyd hynafol yn brawf o wirionedd hanesiaeth. Cadarnheir ffeithiau penodol, weithiau, drwy y gweddillion hyn; a phryd arall, rhoddant y fath brawf i ni o

Digitized by Google

gyfoeth, gallu, a sefyllfa gwybodaeth, yn mysg y cenedloedd y perthynant iddynt, ag a'u galluoga i ddywedyd a ydyw y dysgrifiadau hanesyddol a geir o honynt yn lled gywir. Y mae cyflawnder y defnyddiau hyn y fath, a'u tystiolaethau mor ddiammwys, ag i roddi i ni hysbysiadau sydd yn teilyngu yr enw *hanesiaeth*, yn fwy o lawer na'r gyfres noeth o enwau breninoedd sydd yn fynych yn myned o dan yr enw. Gwelir anghreifftiau lluosog o hyn yn hanes yr AIPHT ac ASSYRIA.

Fel hyn, er mwyn cyrhaedd sicrwydd hollol diammheuol am ddilysrwydd hanesiaeth hynafol yn gyffredinol, neu am ffeithiau neillduol gallwn gymharu tystiolaeth haneswyr y naill â'r llall, ac â chyfeiriadau damweiniol ysgrifenwyr cyfoesol mewn rhywogaeth arall o lenyddiaeth; neu, gallwn gymharu y dysgrifiadau a rydd haneswyr o wrthddrychau neillduol, neu nodweddiad cenedlaethol, â'r un gwrthddrychau neu yr un nodwedd fel y maent yn hanfodi yn bresennol; neu fe ellir cymmeryd llwybr mwy sicr a phenderfynol eto, trwy ddarllen cofnodau yr un digwyddiad, neu enwau yr un personau ag a gawn gan haneswyr, ar farmor, neu bres, neu aur, neu arian, wedi eu cuddio am oesoedd yn y ddaiar. I'r dyben hwn, y mae yr hen adfeiliau sydd wedi eu hagor y blyneddoedd diweddaf yn Assyria, a'r ogofeydd sydd wedi eu chwilio yn yr Aipht, mor werthfawr, am eu bod yn cynnwys cynnifer o gyfeiriadau at ffeithiau, personau, ac arferion, y crybwyllir am danynt yn yr Ysgrythyrau.

Ar egwyddorion fel y rhai a eglurwyd uchod y mae awduroldeb a dilysrwydd hanesiaeth hynafol yn seiliedig. Ond y mae yn angenrheidiol sylwi nad yw yr holl gyflawnder hwn o brofion yn angenrheidiol i gynnyrchu argyhoeddiad yn meddwl un cymhwys i farnu fod llyfr penodol wedi ei ysgrifenu yn yr oes a ddywedir, a'i fod yn cynnwys adroddiad cywir o ffeithiau. Mae anghreifftiau o lyfrau nad ydynt i'w cael ond mewn un ysgriflyfr, a hwnw yn cael cyfeirio ato ond gan un neu ddau o hen ysgrifenwyr; ac eto, heb fod un petrusder yn meddyliau dysgedigion o barth i'w awdwr na'i oes. Y mae neillduolrwydd yr iaith, y cyfeiriadau, a chyssonedd y cyfan â'r hyn a broffesa fod, yn gyfryw ag i symmud ymaith bob ammheuaeth o feddwl pawb sydd yn gymhwys i deimlo y math yma o brawf. Y mae o'r un natur a'r sicrwydd a deimlai yr hen deithiwr sydd wedi treulio ei oes i deithio o wlad i wlad. Pan y cyferfydd estroniaid ar heolydd Llundain, ni raid iddo ei ofyn o ba genedl y maent; y mae eu gweled yn ddigon o brawf iddo ef. Yn y modd uniongyrchol hwn y mae y rhai sydd yn gyfarwydd â'r cyfryw lyfrau ac ymchwiliadau yn teimlo eu bod yn cael eu priodoli yn iawn i'w gwahanol awduron, a'u bod yn adlewyrchu lliw neillduol yr oes hono. Ar y tir hwn, pe na ddaethai i lawr i'n hoes ni ond un ysgriflyfr o *Actau yr Apostolion* ac *Epistolau Paul*, ac heb un cyfeiriad atynt mewn ysgrifenwyr diweddarach, ni allasai rhai cymhwys i farnu ammheu nad ydynt y peth a ymddangosant ac a broffesant. Ac heblaw hyny, y mae yr aneirif fân gydgordiadau sydd yn cyfarfod ymchwilwyr trwyadl iddynt o'r natur a eglurir yn *Horæ Paulinæ Paley*, yn profi awduriaeth a gwirionedd y ddau yn hollol annibynol ar brofion allanol. Cyflwynir yr ystyriaethau hyn i sylw yn yr erthyglau ar wahanol lyfrau y Beibl.

Yn nesaf, cymherir *Ysgrythyrau yr hen Destament a'r Newydd*, âg *awduron Groeg a Lladin*, dan rai o'r prif reolau a enwyd uchod, er mwyn rhoddi rhyw syniad o nerth y prawf allanol neu hanesiol o'u hawduroldeb a'u dilysrwydd:—

1af. Yn nifer yr ysgriflyfrau hynafol sydd wedi dyfod i lawr i ni. Tua phymtheg o ysgriflyfrau o'r hanesydd Herodotus sydd adnabyddus i feirniaid, ac o'r rhai hyn y mae amryw heb fod yn hynach na'r bymthegfed ganrif. Y mae un yn llyfrgell yr ymherawdwr yn Ffrainc, yn perthyn i'r deuddegfed; ac yn llyfrgell y pab, yn Rhufain (y Vatican), y mae un yn perthyn i'r ddegfed; a thybir fod un sydd yn Caergrawnt yn bur hen. Tua'r nifer hwn, ond weithiau mwy ac weithiau llai, o ysgriflyfrau o'r awduron clasurol sydd ar gael.

Byddai yn anmhosibl enwi nifer yr ysgriflyfrau sydd ar gael o'r Ysgrythyrau. Ar adferiad dysgeidiaeth yn y bymthegfed ganrif, yr oeddynt i'w cael yn mhob man lle yr oedd llyfrau wedi eu casglu yn nghyd. Wrth chwilio i restrau llyfrgelloedd mynachdai—ac ynddynt hwy, yn benaf, y cedwid llyfrau trwy yr oesoedd tywyll—gwelir fod y nifer mwyaf yn weithiau y tadau, neu ysgrifenwyr y canoloesoedd:—yn nesaf o ran nifer, y mae yr Ysgrythyrau; weithiau yn gyfain, ond gan amlaf yr Efengylau, yr Actau, yr Epistolau, neu y Salmau, ar wahan:—y nifer lleiaf fyddai yr awduron clasurol; o ba rai ni byddai yn fynych ond tri neu bedwar, allan o lyfrgell yn cynnwys cant neu ddau o gyfrolau. Nifer yr ysgriflyfrau sydd hyd yma wedi eu cael o'r Testament Groeg, neu o ranau o hono, sydd dros bum cant.

Os ydyw ugain, neu yn wir bump, yn ddigon o ysgriflyfrau o awdwr Groeg neu Lladin i roddi boddlonrwydd, gwelir fod amryw gannoedd dros ben yr hyn sydd yn angenrheidiol i osod y Beibl felly, fel llyfr, yn mhell uwch law holl gynnyrchion llenyddiaeth glasurol, o ran diogelwch ei drosglwyddiad i ni. Y mae gwerth cynnifer o ysgriflyfrau yn gynnwysedig yn y fantais a roddant i adferu testyn yr Ysgrythyrau i'w ffurf gyntefig:—y mae eu nifer yn berffaith ddiogelwch yn erbyn unrhyw gyfnewidiadau neu lygriadau pwysig. [Gwel BEIBL.]

2il. Hynafiaeth rhai o'r ysgriflyfrau hyn. Y mae copi o *Virgil*, yn y Vatican, yn perthyn i'r bedwaredd ganrif. Mae ychydig o anghreifftiau cyffelyb; ond priodolir y nifer mwyaf o ysgriflyfrau o'r awduron Groeg a Lladin i'r cyfnod rhwng y ddegfed a'r bymthegfed ganrif. Nid yw y gymhariaeth, yn yr ystyr yma eto, yn anffafriol i'r Ysgrythyrau. Y mae ysgriflyfrau o Bum Llyfr Moses yn cael eu holrhain i'r ail a'r drydedd ganrif; amryw o'r Efengylau yn perthyn i'r drydedd a'r bedwaredd; ac amryw o'r holl Destament Newydd wedi eu hysgrifenu cyn yr wythfed. Ond gan fod profion ereill yn ein cludo i fyny yn uwch na'r ysgriflyfrau hynaf, nid yw eu hynafiaeth yn meddu yr un pwysigrwydd ag o ddyddordeb i chwilfrydedd.

3ydd. Lledaeniad bore y gwahanol lyfrau hyn. Yr oedd llyfrau Groeg i'w cael mewn llyfrgelloedd cyfoethog yn ddiau, yn union ar ol eu cyhoeddiad, trwy Groeg i gyd, a llawer o'i threfedigaethau; ond yn ddiweddarach, ac fel yr oedd yr ymherodraeth ddwyreiniol yn cael ei chyfyngu, nid oeddynt i'w cael ond yn y gwledydd a'r ynysoedd o amgylch Caer Cystenyn. Pa mor eang bynag oedd lledaeniad Llyfrau Lladin mewn ysgriflyfrau am dair neu bedair o ganrifoedd, bu agos i ymgyrch y cenedloedd gogleddol eu

Digitized by Google

hysgubo oll ymaith—collwyd y golwg ar lawer o honynt am ganrifoedd.

Y mae genym dystiolaeth ddiammheuol hanesiaeth i ddangos fod yr Iuddewon gyda'u llyfrau, wedi ymledaenu dros y rhan fwyaf o wledydd Asia, deheudir Ewrop, a gogledd Affrica, cyn dechreu y cyfnod Cristionogol; ac nid yw yn llai sicr fod Cristionogaeth wedi dilyn Iuddewiaeth i bob man lle yr ydoedd. Ymwthiodd Cristionogion y ganrif gyntaf a'r ail tu hwnt i derfynau ymherodraeth Rhufain, a sylfaenasant eglwysi mewn gwledydd anadnabyddus i arglwyddi y byd. Ac nid yn unig lledaenwyd yr Ysgrythyrau Sanctaidd dros wyneb eangach o'r ddaiar na dim llyfrau ereill, ond yr oeddynt hefyd yn nwylaw y cyfoethog a'r galluog, ac yn adnabyddus i'r lluaws, y rhai a'u gwerthfawrogent yn uwch na dim daiarol. Yr oedd y lledaeniad eang a chyflawn yma ar yr Ysgrythyrau yn eu cadw nid yn unig rhag myned ar goll, ond hefyd rhag cael eu llygru.

4ydd. Y pwysigrwydd a briodolid i'r llyfrau, a'r gwerth a roddid arnynt. Y mae yn wir fod crefydd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid wedi ei hymgorffoli yn llyfrau eu beirdd; ond er hyny nid oedd teimladau y bobl yn cyssylltu eu crefydd â'r llyfrau hyn fel rheol awdurdodedig eu ffydd. Ond yr oedd Iuddewiaeth a Christionogaeth yn seiliedig ar ffeithiau hanesyddol. Nid oedd yr athrawiaethau a'r deddfau ond casgliadau yn codi yn naturiol o'r ffeithiau hynod oedd wedi cymmeryd lle. Yr oedd llyfrau yr Iuddewon a'r Cristionogion yn ffynnonell eu cysur ac yn sail eu gobaith yn nghanol gwawd ac erlidigaeth. Nid oedd eu llyfrau i'r Groegwr a'r Rhufeinwr ond megys teganau; ond i'r Iuddew, a'r Cristion, yr oedd eu llyfrau hwy yn freintlen eu rhagorfreintiau yma, a'u hapusrwydd ar ol hyn. I'r teimlad hwn o'u gwerth, y mae yn rhaid priodoli eu diogeliad gofalus yn amser erlidigaeth, ac ymdrech pob dosbarth i'w lledaenu wedi i'r ystorm chwythu drosodd.

5ed. Y parch a delid iddynt gan y rhai oedd yn eu copïo mewn oesoedd diweddarach. Trwy y canoloesoedd, yr oedd, yma ac acw, ryw ychydig bersonau oedd yn gwerthfawrogi ac yn darllen awduron clasurol, ac yn defnyddio digon o ddylanwad i'w trosglwyddo yn ddiogel i amseroedd diweddar. Ond yn yr ystyr hwn etto, yn gystal a'r un blaenorol, yr oedd gan ysgrifeniadau yr Hen Destament a'r Newydd fantais annhraethol. Yr oedd gortanylwch yr Iuddew gyda'r llythyren, yn peri nad oedd cymmaint ag "un iod o'r gyfraith" yn cael ei dibrisio. Nid yn unig cyfrifai, fel y Groegwr, yr adnodau yn mhob llyfr, ond nifer y llythyrenau a'r geiriau—nodai y llythyren ganol yn mhob llyfr, fel ag i'w gwneud yn fath o gareg gloi i'r gyfran hono o'r gyfrol ddwyfol. Y mae y manylwch digyffelyb hwn yn ddigon o brawf o drosglwyddiad y testyn yn ddilwgr i'n hamser ni.

Nid oedd un ganrif o'r oesoedd tywyllaf, nac un hanner canrif ychwaith, nad oedd llawer o barch yn fyw yn nghalonau Cristionogion i lyfrau y Testament Newydd. Heblaw hyny, yr oedd llawer yn y mynachdai yn ei dybied yn waith trwy ba un y gallent feddu teilyngdod personol mawr, sef gwneyd copïau cywir a hardd o'r Ysgrythyrau. Yn chwanegiad at hyn, yr oedd ysgrifenwyr Cristionogol y canrifoedd cyntaf yn eiddigeddus rhag i lygriadau ddyfod i mewn, a thros attal cynnydd y rhai a ddeuent i mewn yn anfwriadol. Y rhai a enwogasant eu hunain fwyaf yn y gorchwyl hwn oedd Origen, Jerome, Eusebius, ac Awstin.

6ed. Y gwahaniaethau mawr, a'r elyniaeth, a hanfodent rhwng y rhai yr oedd y llyfrau hyn yn eu meddiant. Y mae yr ystyriaeth hon o bwys mawr, ac yn gosod cadwedigaeth ddilwgr yr Ysgrythyrau ar sail eangach a mwy sylweddol na'r hyn a ellir ei hòni o blaid unrhyw lyfrau heblaw y rhai hyn. O'r braidd yr oedd yr awduron Lladinaidd yn wasgaredig dros yr oll o'r ymherodraeth Rufeinig; ac ni buont erioed yn nghadwraeth pleidiau gelynol. Yr oedd llyfrau Groeg, y mae'n wir, yn nghadw gan rai o'r cenedloedd gorllewinol yn y canoloesoedd, ac hefyd gan yr Arabiaid; ond ni buont erioed yn cael appelio atynt gan genedloedd neu gymdeithasau gwrthwynebol.

Ond y mae y genedl Iuddewig wedi bod bron trwy holl ysbaid ei hanesiaeth yn wahanedig o ran lle, ac yn rhanedig o ran crefydd. Y mae llyfrau Moses wedi bod yn nghadw gan y Samariaid, *ar wahan* oddi wrth yr Iuddewon, am ysbaid hynach na hanesyddiaeth cyffredin. Yn ddiweddarach, hefyd, y mae rhwyg hollol wedi bod rhwng y Kariaid a lluaws y genedl. Mae Cristionogion, hefyd, o ddechreu eu hanes wedi bod yn rhanedig i wahanol bleidiau. Ac y mae y sicrwydd a rydd hyn o burdeb yr Ysgrythyrau gan nad allasai un blaid wneyd cyfnewidiad na chawsai ei ddynoethi gan y llall, yn ddigon i gymmodi y meddwl â hwynt. Y mae amddiffynwyr boreuaf Cristionogaeth yn gwneuthur defnydd o hyn fel prawf o burdeb dilwgr y Beibl.

7fed. Effeithiau gweledig y llyfrau hyn o oes oes. Ar y pen hwn eto, nid yw effeithiau llenyddiaeth Groeg a Lladin ond cysgod gwan, o'u cymharu â'r amlygiadau trwy ba rai y gellir olrhain dylanwad ac effeithiau yr Ysgrythyrau i fyny i'r oesoedd boreuaf ar ol eu cyhoeddiad. Nid oedd y blaenaf i'w cael mewn un man ond mewn ysgolion, a sefydliadau dysgeidiaeth: am llawn mil o flynyddoedd, ni welodd y byd mo honynt—nid oeddynt yn sylfaen eu sefydliadau, nac yn wrthddrych ei fendith. Ond mor wahanol y ffeithiau sydd yn ymgynnyg o blaid yr Ysgrythyrau! Y mae yr Iuddewon, yn ngolwg holl genedloedd y ddaiar, am ddwy fil a phum cant o flynyddoedd, wedi arddangos cynllun byw o'r geiriau a draddodwyd iddynt, a pha rai a berchir ganddynt yn awr: ac er eu bod, er hir dymmor, wedi eu hamddifadu o'r hyn oedd yn fawreddog, ac wedi eu gwahanu oddi wrth yr hyn oedd yn weledig yn eu crefydd, etto, y maent yn dal eu gafael yn ddiysgog yn mhlisgyn y gyfundrefn a ddysgir yn eu llyfrau.

Y mae llyfrau y Testament Newydd wedi gadael eu hol, nid yn unig ar grefydd, neu ddysgeidiaeth, neu wladyddiaeth, ond ar holl gyflwr moesol, meddyliol, a gwladyddol, holl genedloedd Ewrop, o'r bron. Nid yw hanesiaeth un cyfnod er pan y cyhoeddwyd y llyfrau hyn, yn ddealladwy hebddynt. Wrth edrych yn ol, am ddeunaw can mlynedd, ni a welwn gynnydd rhyw ddylanwad sydd weithiau i'w ganfod mewn ffrydiau o waed, weithiau mewn tân, weithiau trwy gwymp temlau eilunod, a chyfodiad temlau ereill yn eu lle; ac y mae yn annhosibl esbonio yr ysgogiad mawr hwn, ond trwy wybod fod y llyfrau a dderbynir genym yn awr fel rhai sanctaidd, yn myned dan wraidd eilun-addoliaeth.

8fed. Y casgliad o gyfeiriadau a dyfyniadau. Y mae cyfeiriadau yr awduron Groegaidd at eu gilydd, er yn ddigon i brofi hynafiaeth y gweithiau

Digitized by Google

y cyfeirir atynt, yn annigonol i sicrhau purdeb y testyn, ac i'w ddiwygio lle y dichon fod yn wallus. Nid yw rhan fawr o'r cyfeiriadau hyn ond at enw yr awdwr yn unig, gyda rhyw ddyfyniad o'r ystyr sydd yn amddifadu y cyfryw ddyfyniadau o'u gwerth i ddybenion beirniadaeth. Ond eto, er darostwng eu gwerth gymmaint ag a ellir ar y cyfrifon hyn, y mae pob darllenydd o honynt yn teimlo argyhoeddiad anorchfygol nas gall y rhwydwaith hwn o gyfeiriadau cyfoesol a dilynol darddu o ddim ond dilysrwydd a gwirionedd, a'i fod yn brawf nas gellir byth ei ddattroi, o awduroldeb rhan fawr o lenyddiaeth hynafol.

Ond y mae y math hwn o brawf, yn ei gymhwysiad at Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, mor gyflawn, fel, nid yn unig i brofi eu hynafiaeth a'u hawduriaeth, ond yn ddigon cyflawn a manwl i sefydlu cywirdeb neu burdeb yr *holl destyn* drwy y cyfan o honynt. Oddi wrth aralleiriadau y Rabbiniaid, ac o weithiau ysgrifenwyr Cristionogol y canrifoedd cyntaf, gallesid adferu yr holl Ysgrythyrau, pe buasai copiau cyflawn o honynt i gyd wedi myned ar goll. Dilynwyd yr Ysgrythyrau, nid yn unig â llenyddiaeth o'r un natur, ond rhoddasant fod i gorff o ysgrifeniadau oedd â'u hunig amcan i'w hegluro, a hyny trwy bob ffurf; weithiau, trwy esboniadau ar ranau neillduol o honynt; weithiau trwy ymresymiad ar bwnc, yr hyn a ofynai gasgliad o adnodau; a phryd arall yn y ffurf o esboniadau cyflawn, yn y rhai y mae yr oll o'r awdwr yn cael ei adrodd. Dan y pen hwn, gwel CANON; BEIBL.

9fed. Y cyfieithiadau boreuol o'r Ysgrythyrau. Er mwyn profi hynafiaeth, awduroldeb, a phurdeb testyn yr Ysgrythyrau, nid oes angenrheidrwydd am un prawf arall ond a geir yn y cyfieithiadau hynaf o honynt: o herwydd pan y ceir yr un ysgrifeniadau mewn gwahanol ieithoedd, heb fod yn dwyn cyssylltiad â'u gilydd, ac mewn ieithoedd hefyd sydd wedi syrthio allan o arferiad yn mysg y byw er's oesoedd, yn cytuno â'u gilydd, y mae yn rhaid fod pob math arall o brawf yn amlwg afreidiol. Yn y golygiad hwn, nid oes bron unrhyw gymhariaeth rhwng yr awduron clasurol a'r Ysgrythyrau; gan, o'r braidd, y mae dim ar gael yn teilyngu cael ei alw yn gyfieithiad o honynt hwy, a gyflawnwyd yn *fore iawn* ar ol eu cyhoeddi. Nid oedd galwad ychwaith am danynt. Ac mewn gwirionedd, y gwerth mawr a roddwyd ar yr Ysgrythyrau gan Iuddewon a Christionogion, a syched y tlawd a'r annysgedig am eu meddu yn eu hiaith eu hunain, oedd yr hyn a arweiniodd at y syniad a'r arferiad o wneuthur cyfieithiadau cyflawn a ffyddlawn o honynt. Y mae yr Hen Destament i'w gael yn annibynol ar yr Hebraeg gwreiddiol, yn nghyfieithiad Groeg y Deg a Thrigain, yn nghyfieithiad Aquilla, Theodotion, a Symmachus, yn y cyfieithiadau Caldeaidd neu y Targums, yn y cyfieithiad Syriaidd a Lladin, yn yr Arabaidd a'r Ethiopaidd, heb law rhai ereill ychydig yn ddiweddarach.

Trosglwyddwyd y Testament Newydd i'n hamseroedd ni yn yr ieithoedd canlynol:—y Syriaeg, y Coptaeg, ac amryw gyfieithiadau Arabaidd, yn yr Ethiopaeg, yr Armeniaeg y Persiaeg, y Gothaeg, ac yn y cyfieithiadau Lladin. [Gwel CYFIEITHIADAU Y BEIBL.] Fel hyn, y mae *pob gwlad,* i iaith yr hon y cyfieithwyd yr Ysgrythyrau yn fore, yn brawf annibynol o'u trosglwyddiad diogel atom ni.

10fed. Difodiad yr ieithoedd neu briodieithoedd, yn mha rai yr ysgrifenwyd yr Ysgrythyrau, fel ieithoedd byw ac arferedig gan ddynion. Collodd yr Iuddewon yr Hebraeg bur yn amser eu halltudiad o'u gwlad, fel y bu raid deongli yr Ysgrythyrau iddynt byth wedi hyny; ac nid oedd y Rabbiniaid, na neb o'r genedl, yn gallu nac yn proffesu y gallent, ei hysgrifenu mewn un oes ddiweddarach; ac yn mhriodieithoedd yr oes yn yr hon yr ysgrifenent y cyfansoddent eu hesboniadau, y rhai oeddynt yn wahanol i'r Hebraeg wreiddiol. Dyma brawf penderfynol fod llyfrau yr Hen Destament wedi eu cyfansoddi cyn y caethgludiad, o herwydd ni bu neb wedi hyny yn gallu ysgrifenu yr iaith. Y mae yr un sylw yn wir am Groeg y Testament Newydd, yr hwn sydd yn gwahaniaethu yn amlwg oddi wrth Groeg yr awduron clasurol, ac hefyd oddi wrth iaith yr awduron Cristionogol oedd yn ysgrifenu yn yr oesoedd nesaf at yr efengylwyr a'r apostolion. Tarddodd priodiaith y Testament Newydd allan o amgylchiadau ac addysg neillduol yr ysgrifenwyr, a gwahaniaetha oddi wrth bob un arall; ac y mae ei neillduolrwydd y fath fel yn fuan y diflanodd. Fel hyn, y mae hanes yr ieithoedd yr ysgrifenwyd yr Ysgrythyrau ynddynt yn brawf allanol o wirionedd eu tystiolaeth eu hunain o barth i'w hoed ac amgylchiadau eu hysgrifeniad. Am hanes yr ieithoedd hyn, gwel GROEG; HEBRAEG.

11eg. Cymhariaeth yr ysgrifeniadau hyn â llyfrau ffugiol, neu lyfrau yr amcenid iddynt ennill yr un awdurdod a hwynt. Y mae efelychiadau da neu ddrwg yn fanteisiol i osod allan weithiau gwreiddiol mewn goleuni cryfach. Y mae yr efelychiadau o briod-ddull Cicero, sydd wedi ymddangos o oes i oes, wedi bywiogi beirniaid i'r fath raddau fel ag i gryfhau yn fawr y profion o'i weithiau diledryw ef ei hun. Y mae yr efelychiadau sydd yn awr ar gael o Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd y fath ag a wnant yn amlwg yn y modd cryfaf y gwahaniaeth mewn symledd, ucheledd, a chyssonedd, rhwng y gwir a'r gau. Gellir canfod hyn wrth gymharu yr *Apocrypha* â llyfrau yr Hen Destament; ac hefyd wrth gymharu yr Efengylau â'r actau ffugiol sydd yn myned dan wahanol enwau, megys Actau y Saint, Actau Pilat, &c.; ac Efengylau Pedr, Iudas, Nicodemus, Thomas, Barnabas, &c., âg ysgrifeniadau y Testament Newydd. [Gwel yr enwau y cyfeirir atynt yma.]

12fed. Grym y casgliad oddi wrth awduriaeth neu awduroldeb y llyfrau at eu gwirionedd neu eu dilysrwydd. Os profir hynafiaeth ac awduriaeth llyfr, nid oes dim yn fwy sicr a diammheuol na'r casgliad ei fod yn wir. Os gellir profi fod areithiau Cicero yn erbyn Catiline, a hanes Sallust o gydfradwriaeth Catiline, wedi eu hysgrifenu gan yr awdwyr y priodolir hwynt iddynt; neu, pe gellid profi eu bod yn adnabyddus yn amser Augustus Cæsar, a'u bod y pryd hyny yn cael eu priodoli iddynt hwy, a'u bod yn cael eu cydnabod fel adroddiadau cywir o ffeithiau; ac os ydyw yr un ffeithiau yn cael cyfeirio atynt gyda mwy neu lai o eglurdeb gan ysgrifenwyr yr oes hono a'r oesoedd dilynol, nid oes un dybiaeth arall ond gwirionedd yr hanes a all egluro y cyfan. Dichon fod Sallust wedi lliwio rhai pethau gan ragfarn, ac wedi camgyfleu rhyw fân amgylchiadau; a dichon fod Cicero yn ngwres ei hyawdledd wedi myned yn rhy bell; ond wedi tynu ymaith y pethau hyn, y mae y casgliad yn aros yn ddiammeuol, *os ysgrifenwyd y llyfrau hyn gan y*

Digitized by Google

*personau ac yn yr amgylchiadau a ddywedir, y mae yr hanes yn wir.* Yn mhen rhyw nifer o oesoedd, fe fydd yn ddigon o brawf o wirionedd hanfodol yr adroddiadau a gynnwysir yn *Methodistiaeth Cymru*, neu *Hanes Annibyniaeth Cymru*, neu *Wales*, gan Sir Thomas Phillips, eu bod wedi eu cyhoeddi gan ddynion yn meddu cyfleusderau i gael y gwir, ac yn cael eu cyhoeddi a'u derbyn fel gwirionedd mewn oes, pan y mae tystion afrifed yn fyw a allent ac a wnaent eu dynoethi pe na byddent yn wirionedd. Y mae yr egwyddor ar ba un y mae y casgliad hwn yn seiliedig yn gymhwysiadwy at bob cyfnod o hanesiaeth; ac nis goddef unrhyw eithriad, ac nid oes yn hanes y byd un anghraifft sydd yn ymddangos yn debyg i eithriad.

Ar sail y gymhariaeth uchod, gellir dywedyd fod genym ddengwaith mwy o brofion o awduriaeth a dilysrwydd yr Ysgrythyrau nag sydd genym o blaid dim ysgrifeniadau ereill sydd wedi treiglo i lawr ffrwd amser. Nid oes un math o brawf y gallasem ei ddymuno yn eisieu i brofi fod y Beibl yn cynnwys ffeithiau hanesyddol; a phe gwrthodid ei dderbyn fel y cyfryw, nid oes un math o dystiolaeth arall y gellid ei derbyn. Nid yw yn ddichonadwy, er enghraifft, cael uwch na chryfach profion o wirionedd yr Efengylwyr nag sydd genym.

Y mae yn canlyn, gan hyny, fod Cristionogaeth fel y mae wedi ei sylfaenu ar ffeithiau ymgnawdoliad, a marwolaeth, ac adgyfodiad Mab Duw—pa beth bynag ydyw ei hathrawiaethau a'i dyledswyddau—*o angenrheidrwydd yn wir.* Y mae ei gwirionedd yn ffaith brofedig mewn hanesiaeth.

Dylid cofio nad yw *natur* y ffaith a brofir yn gwneyd un gwahaniaeth: gall fod yn hollol amddifad o bwysigrwydd, neu gall fod o'r canlyniadau mwyaf. Os ydyw y prawf hanesyddol yn ddigonol, nis gall dim ystyriaethau ereill ei wrthbwyso. Nid tebygolrwydd hanesyddol sydd genym, ond sicrwydd diammheuol a phrofedig.

Nid yw unrhyw anhawsderau neu anghyssonderau tybiadol yn effeithio mwy ar ddilysrwydd yr hanes sanctaidd nag y maent ar wirionedd ysgrifenwyr ereill. Mae yr anhawsderau hyn yn fynych yn *ymddangosiadol;* ac os nad ydym ni yn canfod y llwybr i'w symmud, gallwn fod yn sicr y gellir. Ond, heb ddibrisio ymdrechiadau i symmud ymaith anhawsderau, dylid cofio fod cyfoeswyr yr ysgrifenydd wedi ei dderbyn fel y mae, a'u bod hwy wedi ei drosglwyddo i ni fel gwirionedd; yr oeddynt hwy yn gydnabyddus â'r holl ffeithiau, ac y mae hyn yn brawf i ni o'u gwirionedd, nas gall unrhyw wrthddadleuon eu dattroi. Fel hyn, ar sail *trosglwyddiad hanesyddol* gellir symmud ymaith wrthddadleuon hyd yn oed cyn eu hesbonio.

Dymunem alw sylw neillduol at y profion blaenorol o wirionedd ffeithiau Cristionogaeth. Y mae GWIRIONEDD HANESYDDOL Cristionogaeth yn beth gwahaniaethol oddi wrth YSBRYDOLIAETH y llyfrau sydd yn ei chynnwys. Yn y sylwadau blaenorol, ni phrofir fod Cristionogaeth yn wir am fod yr efengylau a'r epistolau yn ysbrydoledig. Cymmeryd eu gwirionedd yn ganiataol a fyddai hyny. Ond gosodir eu gwirionedd yn gymhwys ar yr un seiliau a ffeithiau hanesiaeth yn gyffredinol; a dangosir nad oes un ffaith trwy holl gylch hanesiaeth wedi ei gwirio gyda y fath orgyflawnder o brofion, nac un casgliad trwy holl gylch y gwyddorion yn fwy anwadadwy, na phrif ffeithiau Cristionogaeth. Y mae o bwys cadw gwirionedd Cristionogaeth, ac ysbrydoliaeth llyfrau y Beibl ar wahan, yn enwedig wrth ymwneyd ag anffyddwyr; o herwydd y mae anffyddiaeth yn seilio ei gwrthddadleuon diweddar ar gamsyniadau am natur ysbrydoliaeth. Ond os ydyw Cristionogaeth a'i gwyrthiau yn wir ar seiliau hanesyddol, ac os cyfododd Crist oddi wrth y meirw, yn ol yr Ysgrythyrau, yna y mae yr ysgrifeniadau sydd yn hysbysu y ffeithiau hyn yn cael y fath *awdurdod* ar y meddwl a'r gydwybod ag sydd yn sefydlu ein ffydd, ac yn dylanwadu ar ein hymarweddiad i'r un graddau, yn mron, mewn ymarferiad, pa syniad bynag a fabwysiedir am ysbrydoliaeth. Nid yw ysbrydoliaeth llyfrau yr Hen Destament a'r Newydd yn fater dibwys: ac o'r syniadau gwahanol sydd wedi cael eu hamddiffyn o barth iddo, y maent yn mhell o fod ar yr un tir o ran eu gwerth; eto y mae gwirionedd Cristionogaeth yn annibynol ar y gwahaniaeth hwn.

CYWIRDEB Y TESTYN.

Trosglwyddwyd llyfrau yr Ysgrythyrau Sanctaidd, fel gweithiau yr hen awduron yn gyffredinol, i lawr i ni mewn ysgrifiyfrau. Nid oes genym yr ysgrifeniadau gwreiddiol o gymmaint ag un hen awdwr; yr ydym yn ddyledus i gopiwyr am yr ysgrifau sydd ar gael. Wrth gopio unrhyw ysgrifen, y mae yn bosibl i gamgymmeriadau gael eu gwneyd; a pha amlaf yr adysgrifenwyd unrhyw waith, mwyaf oll oedd y perygl i'r cyfnewidiadau hyn gael eu lluosogi, ac i'r testyn amrywio oddi wrth y testyn gwreiddiol. Hawdd tyddai i eiriau ac ymadroddion cyffelyb gael eu rhoddi y naill am y llall; i eiriau, ac efallai i frawddegau, gael eu gadael allan: gallai y copiwyr hefyd roddi i mewn yn y testyn ryw nodiad a welent ar ymyl y ddalen; neu, efallai, geisio cywiro yr hyn a dybient yn anghywir: ac fel hyn, er y byddai y gwaith yn sylweddol yr un, heb, fe ddichon, un camgymmeriad o bwys drwyddo oll, eto gallai mân gyfnewidiadau ddygwydd.

Y mae hyn wedi dygwydd gyda llyfrau y Beibl fel gyda llyfrau ereill. Yn awr, fe ymddengys ar unwaith nas gall hyn effeithio dim ar ddilysrwydd a gwirionedd y *llyfrau* hyn, mwy nag ar ddilysrwydd unrhyw lyfr arall sydd wedi ei drosglwyddo mewn modd cyffelyb. Y mae y rhai sydd yn caru taflu ammheuaeth ar yr oraclau dwyfol yn ceisio chwyddo nifer a phwysigrwydd y cyfnewidiadau hyn. Yn yr erthygl hon, yr ydym yn edrych ar yr Ysgrythyrau yn ngwyneb rheolau cyffredin beirniadaeth hanesyddol a llythyrenol—y cyfryw ag a gymhwysir at bob ysgrifeniadau ereill. Ond nid yw neb yn dychymygu fod llygriadau o'r fath yn effeithio dim ar wirionedd hanesion ysgrifeniadau Groeg a Rhufain: a phwy a ddychymygai fod y darlleniadau gwahanol, sydd mor luosog yn Shakspeare a *Hymnau Williams*, Pant-y-celyn, yn effeithio dim ar eu hawduriaeth na'u dilysrwydd. Nid yw y darlleniadau gwahanol a geir mewn argraffiadau gwahanol o'r Beibl Cymraeg yn newid dim ar ansawdd neu sylwedd y llyfr.

Yn gyfatebol i'r gwerth a roddir ar ysgrifeniadau y bydd y gofal i'w hadferu i'w purdeb neu eu cywirdeb gwreiddiol, fel na byddo na gair na llythyren, hyd y gall y gofal a'r diwydrwydd mwyaf, ond fel y daethant oddi wrth eu hawdwyr. Y mae mwy o ofal a llafur beirniadol wedi bod uwchben y gyfrol ddwyfol, er mwyn sicrhau fod y geiriau a'r llythyrenau yn gyfryw ag yr ysgrifenwyd hwynt ar y cyntaf, nag a fu gyda chyfansoddiadau gwerthfawrocaf y Groegiaid a'r Rhufeiniaid gyda'u gilydd. A'r llafur hwn i gael

Digitized by Google

allan pa gyfnewidiadau a wnaed yn ngeiriau y Beibl trwy ei drosglwyddiad o oes i oes, a'r ymdrechiadau i adferu y cyfan yn ol hyd y gellir i'w ansawdd gwreiddiol, ydyw cylch beirniadaeth Feiblaidd yn ei ystyr cyfyngaf.

Rhoddir yma anghreifftiau o wahanol ddarlleniadau:—

1. Y mae lluaws yn cyfodi oddi wrth debygolrwydd sain, neu ffurf llythyren, neu air. Yn *Gen.* xiv. 5, y mae yr Hebraeg, y Samariaeg, a'r Deg a Thrigain, yn darllen "gyda hwynt" (בהם =*behem*); yn Gymraeg, Seisoneg, ac ychydig o ysgriflyfrau Samariaidd, "yn Ham" (בחם=*becham*), ydyw y darlleniad. Yn *Barn.* viii. 16, y mae rhai ysgriflyfrau Hebreig, a'r Seisoneg, a'r Cymraeg, yn darllen "a ddysgodd" (ירע=*yadah*); ond y mae lluaws o ysgriflyfrau, y Deg a Thrigain, y Caldaeg, yr Arabaeg, y Syriaeg, a'r Vulgate, yn darllen, "a rwygodd" (ירש=*yadash*), yr hyn sydd yn amlwg gywir. Yn 1 *Bren.* i. 18, y darlleniad Cymraeg a Seisoneg ydyw, "ac yr awr hon" (ועתה=*veätta*); ond y mae dau gant o ysgriflyfrau, a'r Caldaeg, yn darllen, "a *thithau*" (ואתה=*veatta*), fel yn *adn.* 20; "Tithau fy arglwydd frenin."

Yn *Ionah* i. 9; "*Hebread* ydwyf fi" (עברי=*Ivri*) ydyw y darlleniad yn y nifer mwyaf o ysgriflyfrau: ac yn y Seisoneg a'r Gymraeg: ond darlleniad y Deg a Thrigain, a rhai ysgriflyfrau, ydyw (עבדי=*Ivdi*) "gwas Iehofah."

Y mae לא (*lo*=nis) wedi ei roddi bymtheg o weithiau yn yr Hen Destament am לו (*lo*=wrtho ef); ac i'r gwrthwyneb ddwy waith. Y mae ein cyfieithiad ni yn gywir yn y manau hyn, oddigerth yn 2 *Bren.* viii. 10; yn lle y darlleniad presennol, "Dos, a dywed wrtho, Diau y gelli fyw," dylid darllen fel yr Hebraeg, "Dos, a dywed wrtho ef, *Nis* gelli fyw."

Dan y pen hwn hefyd y gellir rhoddi anghreifftiau o drawsnewidiad llythyrenau, neu eiriau, megys "Salmai," *Neh.* vii. 48, am "Samlai," *Ezra* ii. 46. Yn 1 *Bren.* x. 11, rhoddir "coed almugim," yn lle "coed algummim;" 2 *Cron.* ix. 10. Yn 2 *Sam.* vi. 5, y mae y geiriau, "a phob offer o goed ffynidwydd," yn gwahaniaethu yn yr Hebraeg oddi wrth 1 *Cron.* xiii. 8, "â'u holl nerth, ac â chaniadau," drwy roddi un llythyren yn lle un arall o lun cyffelyb, a thrwy drawsnewidiad un arall.

Ni byddai yr Iuddewon byth yn seinio yr enw *Iehofah:* ond pan gyfarfyddent âg ef, darllenent *Adonai* neu *Elohim.* Rhoddir y rhai hyn i mewn yn yr ysgriflyfrau yn fynych yn lle y blaenaf.

Y mae camgymmeriadau yn agored iawn o gael eu gwneuthur mewn rhifyddiaeth yn yr ieithoedd dwyreiniol; yn enwedig gynt, pan yr oedd y llythyrenau yn debycach i'w gilydd nag y maent yn awr.

Yn yr Hebraeg, y mae א yn 1; א̈ yn 1,000: y mae ב yn 2; כ yn 20: y mae ז̈ yn sefyll am 7,000; ן am 700: ac y mae rhoddiad y naill yn lle y llall o'r llythyrenau hyn wedi achosi anghyssonderau ymddangosiadol; megys yn 2 *Sam.* viii. 4, lle y dywedir "saith *gant;*" ond yn 1 *Cron.* xviii. 4, "saith *mil.*" Y mae camgymmeriad cyffelyb yn 2 *Sam.* x. 18; 700 (ן): ond yn 1 *Cron.* xix. 18, y nifer yw 7,000 (ן̈). Drachefn, yn 1 *Bren.* iv. 26, "deugain mil" (ארבעים̈=40,000): yn 2 *Cron.* ix. 25, "pedair mil" (ארבעת̈=4,000). Yn 1 *Bren.* ix. 23, "pum cant a deg deugain" רב=550): yn 2 *Cron.* viii. 10, "dau cant a deg a deugain" (ר̈נ=250). Yn 1 *Bren.* ix, 28, "pedwar cant ac ugain" (ת̈כ=420): yn 2 *Cron.* viii. 18, "pedwar cant a deg a deugain" (ת̈נ=450). Yn 2 *Bren.* viii. 26, "mab dwy flwydd ar ugain" (כב=22): yn 2 *Cron.* xxii. 2, "mab dwy flwydd a deugain" (מ̈ב=42). Y mae y rhifnodau yn Josephus yn anghywir yr un modd.

2. Yr oedd tebygolrwydd mewn terfyniad gair neu ymadrodd weithiau yn peri camgymmeriad. *Mat* xxviii. 9; "Ac fel yr oeddynt yn rhedeg i fynegu i'w ddysgyblion ef:" yr hyn sydd yn terfynu fel diwedd *adn.* 8—"rhedasant i fynegu i'w ddysgyblion ef." Gadewir dechreu *adn.* 9 allan mewn lluaws o ysgriflyfrau, ac hefyd yn y Vulgate, Syriaeg, Coptig, Persiaeg, Arabaeg, Chrysostom, Jerome, ac Awstin; ond y mae i'w gael yn y nifer mwyaf o ysgriflyfrau. Y mae y geiriau olaf yn 1 *Cor.* x. 28; "Canys eiddo yr Arglwydd y ddaiar a'i chyflawnder," wedi eu gadael allan yn rhai o'r prif ysgriflyfrau (A, B, D) yn y cyfieithiadau hynaf, ac mewn awduron ereill. Y tebygolrwydd yw iddynt gael eu rhoddi i mewn yn y lleill oddi wrth *adn.* 26.

3. Y mae darlleniadau gwahanol yn codi hefyd o eiriau cyfystyr; megys, "efe a lefarodd," am "efe a ddywedodd." "Hwy a gawsant,' am "hwy a welsant;" mewn rhai ysgriflyfrau, yn *Mat.* ii. 11 (εὑρον yn lle ἰδὸν). Y mae ysgriflyfrau yn gwahaniaethu yn *Mat* xii. 32; rhai yn rhoi "y byd hwn," fel y Gymraeg; ac ereill, "y byd presennol:" hefyd, "cenadau Ioan," am "ddysgyblion Ioan," yn *Luc* vii. 24.

4. Yr oedd llawer o gopiwyr yn gydnabyddus â ieithoedd dwyreiniol heb law yr Hebraeg; ac â phriod-ieithoedd gwahanol heb law yr un sydd yn y Testament Newydd; ac felly, cododd gwahaniaeth mewn sillebu geiriau pan nad oes darlleniad gwahanol.

5. Yn yr hen ysgriflyfrau, nid oes dim attalnodau, ac nid yw y geiriau chwaith wedi eu dosbarthu [gwel ADNOD]. Achlysurai hyn gamgymmeriadau weithiau, ond yn bur anfynych. Yn *Salm* xlviii. 14, y mae rhai ysgriflyrau o'r Deg a Thrigain yn darllen y geiriau sydd yn Gymraeg "hyd angeu," drwy eu cyssylltu, "hyd byth."

6. Weithiau, y mae talfyriadau wedi eu camddeall. י̈ (I), ydyw y talfyriad Hebraeg am "Iehofah;" arwydda hefyd *fy:* fe bair hyn gamgymmeriad weithiau. Yn y Deg a Thrigain —*Ier.* vi. 11, cyfieithir "llid yr Arglwydd" "fy llid." Yn 1 *Pedr* ii. 3, am "dirion," yr hwn a dalfyrir weithiau ΧΣ (Χρηστος), darllenai rhai o'r tadau "Grist" (Χριστος), yr hwn a dalfyrir yr un modd ΧΣ.

7. Yn ysgriflyfrau yr Hen Destament, ni renir gair os bydd yn rhy hir i'r llinell, ac ni adewir lle gwag chwaith yn niwedd y llinell; ond mynychir rhyw lythyren, neu rhoddir y llythyren gyntaf o'r gair nesaf, gan ei rhoddi eilwaith yn y llinell nesaf. Y mae "o'u plegid," yn anghraifft o hyn: *Esa.* xxxv. 1.

8. Weithiau, rhoddid nodiadau ymyl y ddalen i mewn yn nghorff yr ysgrif, er mwyn ei gywiro, neu ei egluro. Tybir fod y geiriau "gwellt yn ddiau yn y bobl" (*Esa.* xl. 7), yn anghraifft o hyn: ni cheir y geiriau yn y Deg a Thrigain. Tybia Jahn, fod y nifer 50,000, a grybwyllir yn 1 *Sam.* vi. 19, yn anghraifft arall.

Yn *Marc* i. 16, yn lle "ei frawd," darllenir mewn

Digitized by Google

ein bod ni wedi meirw. Gwreiddyn y gwahaniaeth hwn ydyw *o* yn lle *e* yn y Groeg.

Yn *pen.* xi 6, gadewir allan yr hanner olaf mewn rhai ysgriflyfrau; "Ac os o weithredoedd, nid yw o ras mwyach; os amgen, nid yw gweithred yn weithred mwyach."

Yn *pen.* xii. 12, darllenir, mewn rhai ysgriflyfrau, yn lle "Arglwydd," "amser" (καιρῳ, yn lle Κυριῳ).

Yn *pen.* xvi. 5, rhoddir "Asia" yn lle "Achaia."

Dyma yr unig gyfnewidiadau sydd yn effeithio ar yr ystyr, ac y mae y rhai hyn yn ddibwys. Ac er mwyn canfod y rhai hyn, cymharwyd ugeiniau lawer o ysgriflyfrau, a gafwyd yn wasgaredig dros ran fawr o Ewrop ac Asia.

Yn yr Epistol at y Galatiaid, tri gwahaniaeth o bwys yn unig sydd.

*Pen.* iv. 17; yn lle "eich cau *chwi* allan," y mae rhai yn darllen "*ni*."

*Pen.* iv. 26; gadewir allan y gair "oll" gan rai.

*Pen.* v. 19; nid yw y gair "godineb" i'w gael mewn rhai ysgriflyfrau.

Nid yw y cyfnewidiadau hyn yn effeithio dim ar yr ystyr.

O'r 7,959 o adnodau sydd yn y Testament Newydd, nid oes fwy na deg neu ddeuddeg â darlleniadau gwahanol ynddynt o bwys mawr; ac nid yw y rhai hyn yn effeithio dim arathrawiaethau y Beibl, ond yn unig ar nifer yr adnodau y gellir eu defnyddio i brofi rhyw athrawiaeth.

Ond er mwyn rhoddi mantais i'r darllenydd ei hun i farnu am danynt, rhoddir yma, yn mlaenaf, ychydig o hanes y prif ysgriflyfrau o'r Testament Newydd sydd yn awr ar gael. Rhydd rhestr o honynt, hefyd, brawf digonol pa fodd y trosglwyddwyd yr Ysgrythyrau Sanctaidd i lawr i ni. Gellir eu dosbarthu i ddau ddosbarth:—1af. Y rhai hynaf, a ysgrifenwyd o'r bedwaredd ganrif hyd y ddegfed, y rhai sydd ysgrifenedig mewn llythyrenau mawr (*uncial manuscripts*). 2il. Y rhai a ysgrifenwyd yn ddiweddarach, o ddiwedd y nawfed ganrif hyd yr unfed ar bymtheg, ac mewn llythyrenau mân (*cursive manuscripts*). Y nifer o'r dosbarth cyntaf sydd yn adnabyddus yn bresennol ydyw un a deugain. Gellir penderfynu eu hoedran gyda gradd mawr o sicrwydd. Er mwyn cyfeirio atynt yn y ffordd feraf, y mae beirniaid yn cytuno i'w dynodi a'u gwahaniaethu trwy lythyrenau Rhufeinaidd. Nid yw trefn y llythyrenau yn dangos eu pwysigrwydd a'u gwerth. Defnyddir *yr un lythyren* mewn *gwahanol* ranau o'r Testament Newydd i ddynodi gwahanol ysgriflyfrau. Nid yw yr ysgriflyfrau hyn yn cynnwys, fynychaf, ond rhanau o'r Testament Newydd:—

O'r 4edd ganrif, y mae 1, a elwir B.
„ 5ed „ „ 4—C, A, I, T.
„ 6ed „ „ 9—N, P, Q, R, Z, D, yn cynnwys yr Efengylau a'r Actau; D, Paul; E, Actau; H, Paul.
„ 7fed „ „ 2—F, Θ.
„ 8fed „ „ 7—$W^a$, $W^b$, Y, Λ, E, Efengylau; L, Efengylau; B, Dadguddiad.
„ 9fed „ „ 13—M, O, X, V, Γ, Λ, F, Efengylau; K, Efengylau; F, Paul; G, Paul; H, Actau; K, Paul; L, Actau, a Paul.
O'r 10fed ganrif, y mae 5—S, U, G, Efengylau; M, Efengylau; E, Paul.

Nid oes ond tri yn cynnwys yr oll o'r Testament Newydd, ac y mae ychydig o ddiffygion yn y rhai hyn; sef A, B, C.

Rhoddir yma ychydig yn mhellach o'u hanes:—

A, a elwir, yn gyffredin, yr Ysgriflyfr Alexandriaidd (*Codex Alexandrinus*). Y mae yn nghadw yn y British Museum. Anfonwyd ef i Loegr, yn 1628, i Charles I; gan batriarch Caer Cystenyn, Cyril Lucarius. Ar ol yr Hen Destament, y mae y Newydd yn dechreu yn *Mat.* xxv. 6; ac oddi eithr y diffygion canlynol—*Ioan*, o'r vi. 50, i'r viii. 52; a 2 *Cor.*, o iv. 13, hyd xii. 6—cynnwysa yr oll o'r Testament Newydd. Heb law y rhai hyn, y mae y llythyrenau, mewn ychydig fanau, ar yr ymyl oddi allan, wedi colli. Cyhoeddwyd ef, mewn llythyrenau cyffelyb (*fac simile*), gan Woide, yn 1786. Ymddengys iddo gael ei ysgrifenu yn hanner diweddaf y bummed ganrif.

B, a elwir Ysgriflyfr y Vatican (*Codex Vaticanus*); sef palas y pab, yn Rhufain. Heb law yr Hen Destament, ar sail yr hwn y dygwyd allan yr argraffiad Rhufeinaidd o'r Deg a Thrigain, dan Sixtus V; cynnwysa yr oll o'r Testament Newydd, hyd at *Heb.* ix. 14. Hwn ydyw yr ysgriflyfr hynaf a phwysicaf sydd ar gael o'r Testament Newydd. Y farn debycaf yw, ei fod wedi ei ysgrifenu yn y bedwaredd ganrif. Cymharwyd y testyn cyffredin âg ef gan Bartolocci, Birch, Richard Bentley, a Hug, yr hwn a ysgrifenodd draethawd dysgedig, yn 1801, mewn perthynas i'w hynafiaeth. Yn 1843, cymharwyd ef gan Tischendorff.

C, a adwaenir wrth yr enw Ysgriflyfr Ephraem (*Codex Ephraemi*, neu y *Parisian Palimpsest*). Cedwir ef yn llyfrgell ymherodrol Paris, rhif 9. Y mae yn debyg iddo gael ei ysgrifenu yn y bummed ganrif—yn foreuach nag ysgriflyfr A. Gwnaed rhai cyfnewidiadau ynddo mor ddiweddar a'r nawfed ganrif. Yn y deuddegfed ganrif, golchwyd ymaith yr holl ysgrifen, er mwyn cael y croen i ysgrifenu arno draethodau mynachaidd o eiddo Ephraem Syrus. Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, canfyddwyd nad oedd yr hen ysgrifen wedi ei hollol ddileu; ac ymgymmerodd Wetstein â'r gwaith o'i gymharu, hyd yr ydoedd yn ddarllenadwy. Yn 1834 a 1835, cymhwyswyd cymmysgedd fferyllaidd ato, er mwyn gallu codi yr hen ysgrifen yn well. Yn 1840—42, darllenodd Tischendorff y cwbl o hono; yr hyn sydd yn gwneyd i fyny dros yr hanner o'r Testament Newydd, ac hefyd, bron y cyfan o weddillion yr Hen Destament ag oedd heb eu colli; ac yn 1843—45, cyhoeddwyd ef mewn llythyrenau cyffelyb. Tybir iddo gael ei ysgrifenu yn yr Aipht.

D, a elwir, yn gyffredin, ar ol enw Beza, yn Ysgriflyfr Beza (*Codex Bezæ*), am ei fod yn rhodd oddi wrtho ef i Cambridge, yn 1581. Gydag ychydig o eithriadau, cynnwysa yr Efengylau ac Actau yr Apostolion, Groeg a Lladin. Ysgrifenwyd ef tua chanol y chweched ganrif. Ymddangosodd argraffiad *fac simile* o hono yn 1793.

D, ysgriflyfr, o Epistolau Paul, yr hwn a fu unwaith yn meddiant Beza; ac a elwir, oddi wrth fynachdy Clermont, yr Ysgriflyfr Claromontanaidd (*Codex Claromontanus*). Y mae yn awr yn llyfrgell ymherodrol Paris, rhif 107. Cynnwysa Epistolau Paul; ac yn eu mysg, yr Epistol at yr Hebreaid, yn gyflawn, oddigerth ychydig adnodau. Mae wedi ei ysgrifenu yn Groeg a Lladin.

Digitized by Google

Y mae y testyn Lladin yn cynnwys y ffurf hynaf o'r cyfieithiad Lladin. Perthyna i'r wythfed ganrif.

E, Ysgriflyfr Basle, yn cynnwys y pedair Efengyl, yn gyflawn hyd at ychydig adnodau. Ysgrifenwyd ef yn yr wythfed ganrif.

E, ysgriflyfr o'r Actau, yn llyfrgell Bodleiaidd Rhydychain—rhodd Archesgob Laud. Daeth o Sardinia i Loegr, a defnyddiwyd ef gan Beza. Ysgrifenwyd ef tua diwedd y chweched ganrif; a chyhoeddwyd ef yn 1715, gan Thomas Hearne.

F, a elwir Llawysgrif Boreeli, yn awr yn llyfrgell prifysgol Utrecht, yn cynnwys y pedair Efengyl, ond nid yn gyflawn:—yn perthyn i'r nawfed ganrif.

Y mae un arall yn adnabyddus wrth y llythyren F, yn cynnwys, mewn Groeg a Lladin Epistolau Paul, yn Trinity College, Cambridge, yn perthyn i ddiwedd y nawfed ganrif.

G, H: ysgrifau o'r efengylwyr, a ddygwyd o'r dwyrain. Y mae G yn y British Museum, ac H yn Hamburgh, yn llyfrgell y ddinas. Ysgrifenwyd hwynt yn y degfed ganrif.

Rhoddir yn mhellach olwg gyflawn ar yr ysgriflyfrau hynaf, yn ol y rhanau o'r Testament Newydd a gynnwysant:—

Y rhai hynaf sydd yn cynnwys yr *Efengylau* ydynt—

Ysgriflyfr y Vatican, B, yn Rhufain.

Ysgriflyfr Ephraem, C, yn Paris.

Yr Ysgriflyfr Alexandriaidd, A, yn y Bristish Museum.

Ysgriflyfr Beza, D, yn Canterbury.

Gweddillion o Efengyl Matthew, Z, yn Dublin.

Gweddillion, P a Q, yn Wolfenbüttel.

Gweddillion, I, N, Γ, yn y British Museum, Vienna, a Rhufain.

Gweddillion o Efengyl Ioan, T, yn y Propaganda, yn Rhufain.

Ysgriflyfrau hynafol ereill yn cynnwys yr Efengylau:—E, yn Basle; F, yn Utrecht; G, yn y British Museum; H, yn Hamburgh; K, L, M, yn Paris; S, yn y Vatican; U, yn Venice; V, yn Moscow; X, yn Munich, Δ, yn St. Gallen; ac hefyd y gweddillion O, R, W, Y, Θ, Λ.

Yr ysgriflyfrau hynaf sydd yn cynnwys yr *Actau* ydynt—

A, B, C, D, a enwyd o'r blaen.

Ysgriflyfr Laud, E, yn Rhydychain.

G, yn mynachdy Awstin yn Rhufain.

H, yn Modena.

O'r ysgriflyfrau hyn, y mae A, B, C, yn cynnwys yr Epistolau Cyffredinol, y rhai a gynnwysir hefyd yn K, ysgriflyfr o Moscow.

Yr ysgriflyfrau hynaf o Epistolau Paul ydynt—

A, B, C, fel o'r blaen.

Yr ysgriflyfr Claromontanaidd, D, yn Paris.

Gweddillion, H, yn Paris.

Hefyd, o amseriad diweddarach, F, yn Canterbury; G, yn Dresden; E, yn St. Petersburgh; I, yn Rhufain (yr ysgrif a nodir G yn yr Actau); a K, yn Moscow.

O Lyfr y Dadguddiad, nid oes ond tri o hen ysgriflyfrau; A a C, a enwyd o'r blaen, ac hefyd yr ysgriflyfr Basilianaidd, yn awr yn y Vatican, ac a nodir B: ond nid yr un ydyw a'r ysgriflyfr Vaticanaidd a nodir B.

Y mae yr ysgriflyfrau diweddaf a ysgrifenwyd, o ddiwedd y nawfed ganrif hyd ddechreuad yr unfed ar bymtheg, mewn llythyrenau mân (*cursive*, neu *minuscular*). Ac o'r Efengylwyr, tua phum cant o nifer. O'r Llithiau o'r Efengylau (*Evangelistaries*), y mae dros ddau cant. Y mae lluaws o'r rhai hyn mewn llythyrenau mawr, ond y mae y rhan fwyaf wedi eu hysgrifenu o'r ddegfed hyd y ddeuddegfed ganrif. O'r Actau, a'r Epistolau Cyffredinol, y mae ysgriflyfrau mewn llythyrenau mân, dros ddau cant. O Epistolau Paul, tua thri chant; ac o'r Dadguddiad, gant. Olyfrau eglwysig, yn cynnwys llithiau o'r Actau a'r Epistolau (*Lectionaries*), y mae trigain yn adnabyddus, y rhai a ysgrifenwyd ar ol y ddegfed ganrif.

RHEOLAU BEIRNIADAETH.

Ymofyniad o ddyddordeb mawr ydyw—Pa fodd y mae penderfynu pa un ydyw y darlleniad goreu, neu y tebycaf o fod y darlleniad gwreiddiol, pan y mae yr ysgriflyfrau yn gwahaniaethu? Cydnabyddir yr egwyddorion canlynol fel rhai cywir, gan feirniaid yn gyffredinol. Ceir hwy yn gyflawn yn *Prolegomena Griesbach*, neu wedi eu talfyru yn *Planck's Sacred Philology*; a dyfyniad o honynt yn y *Prolegomena* i *Alford's Greek Testament*, cyf. ii. Ceir eu sylwedd hefyd yn *Davidson's Biblical Criticism*, *The Bible Hand-Book*, ac mewn llawer o lyfrau beirniadol ereill.

Dosberthir defnyddiau beirniadaeth i gywiro ac i brofi cywirdeb testyn yr Ysgrythyrau fel y canlyn:—

I. Hen gyfieithiadau. Gwel Cyfieithiadau y Beibl.

II. Ysgriflyfrau.

III. Dyfyniadau o'r Ysgrythyrau mewn ysgrifenwyr boreuol.

IV. Adranau cyffelyb o'r Ysgrythyrau.

V. Ystyriaeth o briodoldeb y darlleniad (*critical conjecture*).

1. Pan y bydd ysgriflyfr, a'r dyfyniadau o hen awduron, yn cytuno mewn darlleniad, y mae y prawf ALLANOL o'i gywirdeb yn berffaith: a phan y bydd y darlleniad hwn yn cytuno â natur yr iaith, yr ystyr, cyssylltiad y ffeithiau hanesyddol, ac adnodau cyfeiriadol, y mae y prawf TUFEWNOL yn berffaith.

2. Yn gyffredin, y mae gwerth darlleniad yn gyfatebol i oed ysgriflyfr; o herwydd po hynaf y bo, lleiaf oll ydyw y tebygolrwydd ei fod yn adysgrif o lawer o adysgrifau blaenorol; er fod ysgriflyfr diweddar wedi ei gopïo oddi wrth un hen iawn, yn meddu mwy o werth nag un heb fod mor ddiweddar. Hefyd, y mae gwerth y darlleniad yn gyfatebol i nifer yr ysgriflyfrau y ceir ef ynddynt; i'r teulu y perthyna iddo—rhai, fel Griesbach, yn rhoddi y flaenoriaeth i'r Alexandriaidd; ac ereill, fel Scholz, i un Caer Cystenyn;—ac hefyd, i'r gofal gyda pha un y mae yr ysgriflyfr wedi ei wneyd.

Gwahaniaethir yr ysgriflyfrau Hebreig wrth y gwledydd lle yr ysgrifenwyd hwynt;—rhai Yspaen, Italy, Germany: ac yn y drefn yma y mae eu gwerth beirniadol hefyd.

Gellir gosod i lawr y rheolau canlynol i benderfynu ar werth darlleniad:—

1af. Pan y bydd y profion allanol a thufewnol yn groes i'w gilydd, dylid, *yn gyffredin*, ddewis y blaenaf; o herwydd y mae y darlleniad cywir yn dibynu yn fwy ar awdurdodau allanol, nag ar resymau tufewnol.

2il. Eto, fe all y prawf tufewnol fod mor gryf, fel ag i orbwyso yr allanol;—hyny yw, pan y bydd y darlleniad yn amlwg anghywir, neu pan y gellir esbonio pa fodd y dechreuodd rhyw ddarlleniad.

3ydd. Mae darlleniadau yn sicr o fod yn gywir, pan y mae y nifer mwyaf o'r ysgriflyfrau hynaf o'u plaid—y cyfieithiadau hynaf, y dyfyniadau, yr adnodau cyfeiriadol, a'r ystyr—er na bydd y

Digitized by Google

cyfryw ddarlleniadau yn yr holl ysgriflyfrau, nac yn y cyfieithiad cyffredin.

4ydd. Y mae yn fwy tebygol fod darlleniad yn gywir, pan y mae ychydig o hen ysgriflyfrau, yr hen gyfieithiadau, y dyfyniadau, yr adnodau cyfeiriol, a'r ystyr, o'i blaid, er na bydd yn y *nifer mwyaf* o ysgriflyfrau. Yn *Eph.* v. 9, yn lle "ffrwyth yr Ysbryd," y mae yr ysgriflyfrau goreu—*h. y.*, hynaf—A, B, D, E, F, G, a'r cyfieithiadau Syriaidd, Coptig, Ethiopaidd, a'r Vulgate, yn darllen, "ffrwyth y *goleuni.*"

5ed. Y mae cydgordiad yr ysgriflyfrau hynaf â'r ystyr, yn ddigonol, weithiau, i brofi fod darlleniad yn gywir.

6ed. Y mae cydgordiad y cyfieithiadau hynaf â'r ystyr, neu adnod gyfeiriol, yn dangos fod darlleniad yn gywir. *Salm* lxviii. 18; "*Derbyniaist* roddion i ddynion," ydyw y darlleniad; ond yn *Eph.* iv. 8, "ac a *roddes* roddion i ddynion." Y mae gwahanol ymgeisiadau wedi bod i esbonio yr amrywiaeth hwn. Esboniad Eadie, ac ereill, ydyw, fod "y rhoddi" yn rhagdybied "y derbyn;" a bod y gair Hebraeg yn arwyddo y ddau, sef "derbyn er mwyn rhoddi mewn canlyniad."—*Hengstenberg*. Y mae y Targum, y Syriaeg, yr Ethiopaeg, yr Arabaeg, a rhai o'r tadau, yn darllen geiriau y Salm—"Ti a roddaist roddion i ddynion." Y gair Hebraeg yma ydyw לקחת = *lacachta*; ac y mae trawsnewidiad y llythyrenau yn esbonio y gwahaniaeth — חלקת = *chalacta*. *Esa.* lix. 20; darllenir, "Ac i'r rhai a droant oddi wrth anwiredd yn Iacob." Ond y mae y cyfieithiadau o *Rhuf.* xi. 26, yn darllen, "Ac a dry ymaith annuwioldeb oddi wrth Iacob."

Y mae yn fwy anhawdd penderfynu pan y mae y profion yn gyfartal dros ddau ddarlleniad, ac felly yn peri ei fod yn ammheus. Ond—

1.) O ddau ddarlleniad ag y mae y profion allanol yn gyfartal drostynt, yr un sydd yn fwy cysson â'r synwyr, neu yr un y buasai yn fwy anhawdd ei roddi i mewn trwy gamsyniad, ydyw y tebycaf i fod yn gywir.

2 *Cor.* v. 14; "(Os) bu un farw dros bawb." Nid yw yr *os* (*ει*) i mewn mewn llawer o ysgriflyfrau; ond y mae yn angenrheidiol i'r synwyr; a gallesid yn hawdd ei adael allan o flaen *eis*. 2 *Cor.* v. 3; "Os hefyd wedi ein gwisgo" (*ἐνδυσαμενοι*). Y mae ereill yn darllen, "Os hefyd wedi ein dadwisgo (*ἐκδυσαμενοι*), nid yn noethion y'n ceir."

2.) O ddau ddarlleniad, sydd y naill mor debygol a'r llall, yr un cyflawnaf yw y tebycaf i fod yn gywir, os nad oes rhyw reswm i ammheu bod chwanegiad wedi bod. Yn 1 *Cron.* xi. 32, y mae "Abiel;" ond yn 2 *Sam.* xxiii. 31, "Abi-albon." Gallasai y sill olaf yn hawdd gael ei adael allan. Felly, yn *Mat.* ii. 1, gadewir allan, "yn nyddiau Herod," mewn ychydig o ysgriflyfrau; ond eto, y mae yn gywir.

Ond os oes rhywbeth yn y testyn yn peri ammheu chwanegiad, y mae y rheol i'r gwrthwyneb; am fod y copiwyr yn debycach o chwanegu, na gadael allan o fwriad: ond yr oeddynt yn debycach i adael allan, na chwanegu o ddamwain.

*Act.* viii. 37; "A Phylip a ddywedodd, Os wyt ti yn credu â'th holl galon, fe a ellir. Ac efe a atebodd ac a ddywedodd, Yr wyf fi yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw."

Y farn gyffredin yn mhlith beirniaid yn awr ydyw, nad yw yr adnod hon yn rhan ddilys o'r Ysgrythyr. Ymddengys y profion allanol yn ei herbyn yn hollol benderfynol. (1.) Nid ydyw i'w chael yn yr ysgriflyfrau canlynol:—A, B, C, G, H. Enwir tua thrigain o ysgriflyfrau ereill sydd yn ei gadael allan. (2.) Nid ydyw yn y cyfieithiadau Syriaidd, Coptig, ac Ethiopaidd 3.) Y mae Chrysostom yn myned heibio iddynt ddwywaith heb eu crybwyll. Ond, ar y llaw arall, y maent, (1.) Yn ysgriflyfr E, ac mewn amryw o ysgriflyfrau diweddar. (2.) Yn y Vulgate, yr Armeniaidd, ac mewn cyfieithiad Arabaidd, ond un diweddar. (3.) Y mae yn ysgrifeniadau Irenæus, Œcumenius, Theophylact, Cyprian, Jerome, Awstin, a Bede, yr hwn a ddywed nad ydoedd yn y Groeg. Ond heb law ei bod wedi ei gadael allan yn yr ysgriflyfrau a'r cyfieithiadau goreu; y mae amrywiaeth mawr yn yr ysgriflyfrau a'r awduron lle y cyfarfyddir â hi, yr hyn sydd yn cryfhau y dybiaeth mai chwanegiad ffugiol ydyw. [Gwel Bedydd.]

3.) O ddau ddarlleniad—un yn fwy clasurol, a'r llall yn fwy dwyreiniol ei briod-ddull, yr olaf ydyw y tebycaf i fod yn gywir.

4.) O ddau ddarlleniad—un yn hawdd, a'r llall yn anhawdd, yr olaf sydd i'w ddewis yn gyffredin. Y mae yr holl feirniaid yn gosod pwys mawr ar y rheol hon. Pan y bydd y profion allanol yn gyfartal, prif reol Bengel ydyw hon—

*Proclivi scriptioni præstat ardua.*

Wrth ddarlleniad anhawdd y meddylir, rhyw neillduolrwydd yn y gair, yr ymadrodd, neu y gramadeg—y fath ag y buasai copïwr yn debyg o geisio ei newid.

5.) O ddau ddarlleniad mor debyg a'u gilydd, dylid rhoddi y flaenoriaeth i'r un sydd yn cytuno oreu â phriod-ddull yr ysgrifenydd, ei amcan, a'r cyd-destynau.

*Iudas* 1: "A *sancteiddiwyd* gan Dduw Dad," sydd yn debycach i fod yn gywir nag "a *garwyd* gan Dduw Dad," am ei fod yn fwy arferedig yn nechreuad epistolau.

Y mae "o un gwaed" (*Act.* xvii. 26) yn well darlleniad nag "o un" (*Rhuf.* ix. 10), oherwydd ei fod yn briod-ddull Hebreig. Dylid rhoddi y flaenoriaeth i "Tydi wyt y Crist, *Mab* y Duw byw" (*Ioan* vi. 69—*υιος*), ar "Tydi wyt *Sanct* Duw" (*αγιος*); am nad yw yr olaf i'w gael ond unwaith yn yr Efengylwyr, sef yn nghyffes y lloerig. Yn *Marc* i. 2, y mae y darlleniad "yn y prophwydi," yn ol y Gymraeg, yn well nag "yn y prophwyd Esaiah," yn ol darlleniad Griesbach, a Mill; am fod geiriau Esaiah *a* Malachi yn cael eu dyfynu: *Esa.* xl. 3; *Mal.* iii. 1.

6.) Dichon i ddarlleniadau tybiol (*conjectural*) fod yn unol â'r synwyr, ac âg adnodau cyfatebol: ond nid ydynt i'w derbyn yn awdurdodedig, er iddynt feddu tebygolrwydd, heb iddynt gael eu cadarnhau â phrofion pendant.

Y mae yr ymadrodd, "A Duw a welodd mai da oedd," heb fod yn niwedd gwaith yr ail dydd (*Gen.* i. 8); ond y mae yn *adn.* 10, yn nghanol gwaith y trydydd. Tybir, gan hyny, fod yr ymadrodd wedi cael ei symmud o'i le, yn enwedig gan fod y Deg a Thrigain yn ei ddarllen yn *adn.* 8. Yn *Ios* xxiv. 19, y mae y geiriau "ni ellwch wasanaethu yr Arglwydd" (לא תוכלו), yn ymddangos yn annaturiol yn niwedd annogaeth i'w wasanaethu. Nid yw yn annhebyg mai y gwir ddarlleniad ydyw, "na pheidiwch a'i wasanaethu ef" (לא תכלו). Ond nid oes brawf o hyn.

Yn y Testament Newydd, gan fod yr ysgriflyfrau yn lluosog ac amrywiol, ni ddylid un amser caniatau darlleniadau tybiol; ac anfynych, a chyda'r gochelgarwch mwyaf, yn yr Hen Destament.

Y mae dau neu ragor o ddarlleniadau, mewn ychydig o adnodau, a'r oll yn unol â'r synwyr,

Digitized by Google

ac yn cael eu cadarnhau gan yr ysgriflyfrau, y dyfyniadau, a'r cyfieithiadau. Yn yr amgylchiadau hyn, y mae y tebygolgrwydd yn ymddibynu yn hollol ar y prawf neu yr awdurdod sydd dros y naill neu y llall; ac mewn trefn i benderfynu y gwir ddarlleniad, y mae barn a gofal mawr yn ofynol.

CYMHWYSIAD O'R EGWYDDORION BLAENOROL.

Y tair adnod sydd wedi peri mwyaf o ddadleu yn eu cylch, o herwydd eu pwysigrwydd *duwinyddol*, yw y rhai canlynol:—1 *Ioan* v. 7; 1 *Tim.* iii. 16; *Act.* xx. 28.

Y mae dilysrwydd 1 *Ioan* v. 7, wedi bod yn destyn dadleuon maith. Mae yr adnod yn sefyll fel hyn; a'r geiriau sydd rhwng cromfachau yw y rhai y gwedir eu dilysrwydd; "O blegid y mae tri yn tystiolaethu [yn y nef, y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân: a'r tri hyn un ydynt. Ac y mae tri yn tystiolaethu ar y ddaiar], yr ysbryd, y dwfr, a'r gwaed, &c. Nid yw symmudiad yr adnod hon o'r Beibl yn effeithio dim ar yr athrawiaeth o Drindod mewn Undod, sydd yn cael ei dysgu mewn cynnifer o wahanol ffyrdd; eto, tra byddo rhywbeth i'w ddyweyd o blaid ac yn erbyn ei chadw yn rhan o'r testyn sanctaidd, gellir dysgwyl iddo gael ei ddywedyd drachefn a thrachefn.

Y mae yr adnod hon yn argraffedig yn yr argraffiadau Clementaidd o'r Vulgate, yn y testyn Complutensiaidd o'r Groeg, ac yn nhrydydd argraffiad Erasmus; ac felly y daeth i destyn cyffredin Stephens, Beza, ac Elzevir, ac i'r cyfieithiadau Cymreig a Seisonig, &c.

Yn erbyn ei hawduriaeth, neu ei bod yn rhan o Lythyr Ioan, fel y daeth yn wreiddiol o'i law ef, y mae y rhesymau canlynol:—

1. Nad oes un ysgriflyfr Groeg, a wnaed yn foreuach na'r bymthegfed ganrif, yn ei chynnwys. Y mae pedwar cant a phedwar ar ddeg a thrigain o ysgriflyfrau mewn llythyrenau mân, yn ei gadael allan; ac hefyd A, B, G, H.

2. Y mae yr holl hen gyfieithiadau, ond y Lladin, yn ei gadael allan; ac nid yw yn yr ysgriflyfrau hynaf o'r Vulgate, nac mewn un o flaen y nawfed ganrif. Y mae y ddau Syriaidd, yr Arabaidd, y Coptig, yr Ethiopaidd, yr Armeniaidd, a'r Sclafoniaidd, yn ei gadael allan; er fod ychydig argraffiadau *printiedig* o'r ddau olaf, ac o'r Peshito, yn ei chynnwys.

3. Nis gellir ei chael yn holl weithiau y tadau Groegaidd. Y mae *adn.* 6, 8, 9, wedi eu dyfynu fwy nag unwaith; ond ni cheir *adn.* 7 unwaith.

4. Y mae yr argraffiadau beirniadol goreu o'r Testament Newydd yn ei gadael allan:—argraffiadau cyntaf ac ail Erasmus, Aldus, Harwood, Matthæi, Griesbach, Lachmann, Scholz, Tischendorff, Hahn, a Tregelles. Gwrthododd Luther ei rhoddi i mewn yn ei gyfieithiad ef o'r Testament i'r Germanaeg. Ond rhoddwyd hi i mewn ar ol ei farwolaeth, yn groes i'w ddymuniad ef ei hun yn y rhagymadrodd i'r argraffiad olaf a ddaeth allan yn ei fywyd. Ar y llaw arall, y mae Mill, a Bengel, yn ei chadw.

O blaid ei hawduriaeth gellir dywedyd:—

1. Y mae i'w chael mewn ychydig o ysgriflyfrau. Ond o'r rhai hyn y mae un yn ffugiol; un arall yn ei rhoddi, nid yn y testyn, ond ar ymyl y ddalen; ond y mae tri ereill yn perthyn i'r bymthegfed ganrif, ac felly yn awdurdod diweddar.

2. Y mae i'w chael yn yr hen gyfieithiadau Lladin, oddi eithr y copïau a wnaed yn Affrica. Nid yw hyn ond ffurf arall o'r hyna ddywedwyd uchod:—gwel rhif 2.

3. Tybir iddi gael ei dyfynu gan Tertullian, Cyprian, a Fulgentius; ond nid yw yn amlwg a ydyw y dyfyniad o'r seithfed adnod, ai ynte o'r chweched a'r wythfed.

4. Y mae i'w chael mewn *Cyffes Ffydd* a geir yn hanes erlidigaeth y Vandaliaid yn Affrica; a dywedir i'r gyffes hon gael ei chyflwyno i gorff o Gristionogion yn 484. Ond y mae ammheuaeth am wirionedd y ffaith hon; a phe na buasai yn ammheus, ni byddai yn ddigonol i osod o'r neilldu y profion pendant uchod.

Gwelir fod y profion allanol a hanesol yn hollol benderfynol yn erbyn dilysrwydd y geiriau hyn. Y mae y rhai sydd yn ei gwrthwynebu fel rhan o'r Ysgrythyr Lân o'r farn, hefyd, fod profion tufewnol yn ei herbyn. gan fod y cyssylltiad a'r ystyr yn eglurach hebddi. Dadleuir, yn (1.) Nad yw Ioan byth yn defnyddio "y Tad" a'r "Gair" fel geiriau cydberthynasol, ond "y Tad" a'r "Mab." Felly hefyd drwy yr holl Destament Newydd. Y mae geiriad yr adnod dan sylw, gan hyny, yn ddyeithriol i arferiad y Testament Newydd. (2.) "Heb yr adnod dan sylw, y mae y crybwylliad am y dwfr, y gwaed, a'r ysbryd, yn *adn.* 6, yn cael ei ddilyn gyda phriodoldeb mawr gan yr un geiriau yn *adn.* 8; ac y mae yr ail grybwylliad o honynt yn meddu grym neillduol, trwy ddwyn yr ysbryd, y dwfr, a'r gwaed, yn mlaen fel tystion."—*Porson's Letters*, td. 397. (3.) "Gan mai holl amcan yr apostol yma ydyw profi i ddynion trwy dystion wirionedd dyfodiad Crist yn y cnawd, gellir gofyn, Pa fodd y mae tystiolaeth 'y tri yn y nef' yn gwasanaethu yr amcan hwn? Os na roddir eu tystiolaeth i ddynion, pa fodd y mae yn profi gwirionedd dyfodiad Crist? Ond os ydynt yn tystiolaethu wrth ddynion, pa fodd y gwahaniaethir y dystiolaeth yn y nef oddi wrth y dystiolaeth ar y ddaiar? Yr un ysbryd sydd yn tystiolaethu yn y nef ac ar y ddaiar. Os ydyw yn tystiolaethu i ni ddynion fel tyst yn y nef ac ar y ddaiar, pa wahaniaeth sydd rhwng ei waith yn tystiolaethu yn y nef ac ar y ddaiar? Os nad yw ei dystiolaeth i ddynion fel tyst nefol, i bwy y mae yn tystiolaethu? Ac i ba ddyben? A pha fodd y mae ei dystiolaeth yn gwasanaethu amcan Ioan? Gwnaed y rhai hyny ystyr o hono sydd yn teimlo y gallont; am danaf fy hun, nis gallaf wneyd dim."—*Syr Isaac Newton, Opp.*, cyf. v, td. 528, 529, argraffiad Horsley. (4.) Gan y crybwyllir yn *adn.* 6 am y dwfr, y gwaed, a'r ysbryd, gallesid dysgwyl i'r tystion daiarol gael eu henwi yn gyntaf, a'r tystion nefol drachefn, ac nid yn y drefn bresennol. Ac felly y maent yn y copïau hynaf o'r Vulgate sydd yn eu cynnwys.

Yn 1 *Tim.* iii, 16, y mae tri o ddarlleniadau:—"*Duw* (Θεος) a ymddangosodd yn y cnawd:"—"yr *hwn* (ὁς) a ymddangosodd :"—"yr *hyn* (ὁ) a ymddangosodd," &c.

Yma, yr ymofyniad yw, pa un ai y sylweddair *Theos* (Θεος), ai ynte un o ddau ragenw, *hos* (ὁς), neu *ho* (ὁ) ydyw y darlleniad sydd yn meddu mwyaf o brawf drosto.

Dros awduriaeth *Theos* y mae genym y profion canlynol:—

1. Yr ysgriflyfrau I, K, ac hefyd D (ond y mae ol llaw ddiweddar ar yr ysgrif hon), a holl gorff yr ysgriflyfrau sydd mewn llythyrenau mân: hyny yw, y mae tri o'r ysgriflyfrau hynaf, a'r holl ysgriflyfrau mwyaf diweddar, gydag ychydig iawn o eithriadau.

2. Y cyfieithiadau Arabaidd (sydd yn y Beibl

Digitized by Google

**Amlieithawg) a'r** Sclafonaidd, y rhai a wnaed yn ddiweddarach na'r seithfed ganrif.

3. Y mae *Theos* hefyd i'w gael yn argraffiadau diweddar rhai o'r tadau Groegaidd; ond y mae lle i feddwl mai wedi cael ei roddi i mewn yn yr argraffiadau diweddar y mae. Ond y tadau a enwir fel yn bleidiol i'r darlleniad hwn ydynt Didymus, Dionysius o Alexandria, a Theodoret, ond nid gyda hollol sicrwydd; ac yn ddiweddarach, John Damascenus, Theophylact, ac Œcumenius. Nid yw Cyril o Alexandria, na Chrysostom, yn perthyn i'r nifer hwn.

4. Yn annibynol ar brofion allanol, dywedir fod *Theos* yn gysson â'r cyd-destynau, ac yn gochelyd yr anhawsderau sydd yn nglŷn â'r darlleniadau ereill.

O blaid y darlleniad *hos=yr hwn*, y mae y rhesymau canlynol:—

1. Y mae yr ysgriflyfrau A, C, F, G, a dau neu dri o ysgriflyfrau mewn llythyrenau mân; hyny yw, dau neu dri o'r ysgriflyfrau diweddaraf.

2. Y mae y cyfieithiadau canlynol o blaid y rhagenw *hos* neu *ho*:—yr hen Lladin, y Vulgate, y Peshito, a chyfieithiad Syriaidd arall, sef un Heracleus, y Memphisaidd, y Thebariaidd, y Gothaidd, yr Armeniaidd, a'r Ethiopaidd; hyny yw, yr *holl* hen gyfieithiadau a wnaed cyn y seithfed ganrif. Nis gellir ammheu nad oes grym mawr yn nhystiolaeth unedig yr holl gyfieithiadau hyn yn erbyn fod *Theos* yn yr adnod pan wnaed hwy. Dylid sylwi yma fod rhai o'r cyfieithiadau hyn yn analluog i ddangos pa un ai *hos*, ai *ho*, ydyw y darlleniad; o herwydd na feddant wahaniaeth rhywiau yn y rhagenwau.

3. Y mae yn sicr fod rhai o'r tadau yn darllen *hos;* sef, Theodorus, Cyril o Alexandria, Epiphanius, a'r tadau Lladinaidd yn gyffredinol (hyny yw, Hilary, Awstin, &c.), a ddefnyddiant *quod,* y rhagenw.

4. Y mae *dystawrwydd* y tadau o barth i *Theos*, yn y bedwaredd ganrif, pan yr oedd y dadleuon am y Drindod a pherson Crist mor gyffredinol, ac mor frwd, yn rheswm yn erbyn y dybiaeth ei fod yn adnabyddus.

5. Y mae yr hanes canlynol wedi cael ei roddi o barth i'r cyfnewidiad. Amddifadwyd Macedonius, patriarch Caer Cystenyn, o'i swydd, gan yr ymherawdwr Anastatius, yn y flwyddyn 506, am lygru yr Ysgrythyrau (a elwir yn yr hanes gwreiddiol, "*Evangelia*," fel enw cyffredinol am yr holl Ysgrythyrau), yn enwedig trwy newid un llythyren, a gwneyd O yn Θ, ac felly gwneyd ΟΣ (*hos*) yn ΘΣ, y talfyriad am *Theos*. Trwy hyn y mae y geirau "yr *hwn* a ymddangosodd yn y cnawd," &c., yn cael eu newid i "Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Y cyfryw ydyw tystiolaeth Liberatus Diaconus, yn mhen hanner can mlynedd ar ol y dygwyddiad.

6. *Hos* ydyw y darlleniad anhawddaf. Gwneir hyn yn ddadl dros *Theos* gan rai: ond ymddengys yn hytrach fod hyn yn ddadl yn ei erbyn; o herwydd, os *Theos* oedd y darlleniad gwreiddiol, yna y mae yn rhyfedd pa ham y rhoddai neb yn ei le, *hos* neu *ho*, yr hyn sydd yn gwneyd yr adnod yn fwy anhawdd i'w hesbonio. Yr ochr arall, os y rhagenw oedd y gwreiddiol, yr oedd yn ddigon naturiol i ryw un roi *Theos* ar ymyl y ddalen i'w egluro, ac felly i adysgrifwr diweddarach ei roi i mewn yn y testyn, er mwyn gwneyd yr adnod yn fwy dealladwy.

Y mae gwahanol esboniadau o'r adnod ar y dybiaeth mai *hos* ydyw y darlleniad cywir. Cyfeiria rhai y rhagenw "yr *hwn* a ymddangosodd," at y "Duw byw," yn yr adnod flaenorol. Ereill a gyfeiriant y rhagenw at y gair "dirgelwch:"—"Mawr yw dirgelwch duwioldeb." Pwy, neu pa beth ydyw?—"Yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd," &c. Yn erbyn y gwrthwynebiad nad yw *mustêrion* (μυστηριον—y Groeg am ddirgelwch) yn cytuno o ran cystlen â *hos*, dywedir ei fod yn cytuno âg *ystyr* y gair, er nad â'i ffurf. Esboniad arall ydyw, "Yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd (yw yr hwn) a gyfiawnhawyd," &c. Dull arall o ddarllen y geiriau i ddwyn allan yr un ystyr ag uchod, ydyw, "Mawr yw dirgelwch duwioldeb; (sef), Efe, yr Hwn a ymddangosodd yn y cnawd, a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd, a welwyd gan angelion," &c. Y mae yr adnod gyda'r darlleniad hwn yn gosod o'n blaen holl ogoniant person Crist; a gellir gofyn, Os nad yw yn oruwchddynol, pa fodd y gellir dyweyd am dano ei fod wedi *ymddangos yn y cnawd?*

Y mae y profion dros *hos* (yr hwn), yn hytrach na *ho* (yr hyn), yn ddiammheuol. Profion yr ysgriflyfrau Groegaidd yn unig a all benderfynu rhyngddynt; o herwydd y mae y cyfieithiadau, gan mwyaf, yn ammwys. Dros *hos*, y mae yr ysgriflyfrau canlynol—A, C, F, G, a thri o ysgriflyfrau mewn llythyrenau mân, ac hefyd dyfyniadau o Cyril, a thadau Groegaidd ereill: tra nad oes dros *ho*, ond yr ysgriflyfr D, a chopïau oddi wrtho. Felly, gwelir mai rhwng *Theos* a *hos*, y mae dewis, gan nad yw y profion dros *ho* ond bach iawn.

Y mae y beirniaid canlynol wedi penderfynu yn ffafr *hos*, fel yn meddu y profion allanol cryfaf—Griesbach, Lachmann, Tischendorff, De Wette, a Tregelles: dros *Theos*, y mae Scholz, Hahn, Matthæi, Leo, Mack, ac ereill.

Yn *Act.* xx. 28, y mae dau ddarlleniad sydd yn meddu profion allanol drostynt digon cryf i beri petrusder pa un o'r ddau i'w ddewis. Un ydyw, "eglwys *Duw*" (Θεου); a'r llall ydyw, "eglwys yr Arglwydd" (Κυριου). Y mae amryw ddarlleniadau ereill, heb ond ychydig o brofion drostynt; megys, "eglwys yr Arglwydd a Duw," "eglwys yr Arglwydd Dduw," ac "eglwys Crist."

"Dros "eglwys Dduw," mae y profion canlynol:—Y mae i'w gael yn ysgriflyfr B, ac mewn ugain o ysgriflyfrau mewn llythyrenau mân; ac yn y cyfieithiadau canlynol; sef, y Vulgate, a chyfieithiadau Syriaidd Heracleus. Ac hefyd yn y tadau canlynol: — Epiphanes, ac ysgrifenwyr Groeg diweddarach; Ambrose, a Lladinwyr ereill; hefyd, mewn rhai ysgriflyfrau o waith Athanasius. Nid oes hollol sicrwydd a ydyw Chrysostom o'i blaid ai peidio. Y mae i'w gael ddwy waith yn Cyril o Alexandria.

Yn ffafr "eglwys yr Arglwydd," mae y profion canlynol:—yr ysgriflyfrau A, C, D, E; a phedwar ar ddeg o ysgriflyfrau mewn llythyrenau mân; a'r cyfieithiadau canlynol, sef yr hen Lladin, yr Aiphtaidd, a'r Armeniaidd; ac yn yr awduron canlynol, sef Irenæus, Eusebius, y cyfansoddiadau Apostolaidd, yn Athanasius unwaith, yn Chrysostom unwaith, ac yn Theophylact deirgwaith; ac yn amryw yn mhlith y Lladinwyr, megys Jerome, Awstin, &c.

Gan fod y prawf allanol yn bwysig dros y ddau ddarlleniad, *Theou* (Θεου), a *Kuriou* (Κυριου), y mae penderfynu i ba un y rhoddir y flaenoriaeth yn gorphwys yn benaf ar brawf tu mewnol. Rhoddir yma ymresymiad Alford [*Greek Testament*] ar hyn. Wrth benderfynu rhyngddynt, y mae eisieu pwyso yr ystyriaethau canlynol:—

Digitized by Google

1af. Os *Arglwydd* oedd y darlleniad gwreiddiol, yr oedd yn bur bosibl (1.) y gallasai rhyw gopïwr ysgrifenu *Duw* ar ymyl y ddalen, gan fod yr ymadrodd "eglwys Dduw" yn ysgrifeniadau Paul. Ac wedi i hyn gael ei wneyd unwaith, nid yw yn annhebygol y cedwid ef, ac yn raddol y rhoddid ef yn lle *Arglwydd*, o herwydd y gwasanaethai mor dda i brofi dwyfoldeb Crist, neu o'r hyn lleiaf y cedwid y ddau yn y testyn, fel y mae mewn cryn nifer o ysgriflyfrau (G, H, &c.) (2.) Ar y dybiaeth mai *Arglwydd* ydyw y darlleniad gwreiddiol, gallasai "eglwys yr Arglwydd" gael ei newid yn uniongyrchol i "eglwys Dduw." gan fod yr ymadrodd hwn ddwywaith yn ysgrifeniadau Paul. Neu (3.), yr hyn sydd yn ymddangos er hyny yn annhebygol, gallasai rhywun, er mwyn gwneyd yr adnod yn fwy penderfynol o blaid Duwdod Crist, wneyd y cyfnewidiad er mwyn hyny. Ar y llaw arall, os *Duw* oedd y darlleniad gwreiddiol, nid oes ond *un* rheswm a allasai fod yn gymhelliad i'w newid i *Arglwydd;* ac y mae yn ddiau y buasai llawer yn teimlo ei rym, sef yr awydd, er mwyn cynnal Ariaeth, i newid ymadrodd sydd mor benderfynol yn erbyn yr heresi hwnw. Mae yn annhebygol y buasai neb sydd yn credu yn Nuwdod Crist yn ei newid i *Arglwydd;* ond y mae bron yn sicr y gallasai rhywun ag oedd yn wrthwynebol i'r athrawiaeth hon, wneyd yr ymgais.

2. Dylid rhoddi pwys priodol ar ddull Paul o eirio. Y mae yr adnod hon yn nghanol araeth sydd yn llawn o'i ymadroddion neillduol ef. A ydyw yn debygol y buasai yn defnyddio ymadrodd nad yw yn ei ddefnyddio mewn un arall, ac hefyd nad yw un o'i gydoeswyr yn ei ddefnyddio? Ac heb law hyny, y mae yr ymadrodd "eglwys Dduw" yn cael ei ddefnyddio ganddo mewn amgylchiadau o bwysigrwydd neillduol (1 *Cor.* x. 32; xv. 9; *Gal.* i. 13; 1 *Tim.* iii. 5, 15), y fath ag sydd yma; ac y mae y darlleniad cyffredin yn gryfach nag "eglwys yr Arglwydd," ac yn debyeach i eiriad cyffredin Paul.

3ydd. Ar y cyfan, gan hyny, wrth bwyso y profion o bob tu—gan fod y cyfnewidiad i *Arglwydd* yn debyeach nag i *Dduw;* a chan fod yn fwy tebyg y buasai Paul yn defnyddio *Duw* nag *Arglwydd*, yr hyn hefyd a fuasai yn fwy cydunol â phwysigrwydd yr araeth—penderfynir o blaid y darlleniad cyffredin, "eglwys Dduw."

Ni ddylai neb betruso, yn ngwyneb hanes fel hwn, o barth i awdurdod dwyfol y Beiblau sydd ganddynt yn eu dwylaw: yn hytrach, profi y mae, mewn ffordd nas gallasai dim arall wneyd, mor ofalus ac effeithiol y mae y cadwraeth sydd wedi bod ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd, trwy yr holl ganrifoedd y trosglwyddwyd hwynt mewn ysgrifen o oes i oes. O herwydd, er holl ymchwiliadau beirniaid, a'r argraffiadau beirniadol sydd wedi dilyn eu gilydd mewn canlyniad i flynyddoedd o lafur diwyd, nid oes dim gwelliadau wedi eu gwneyd mewn testyn y sefydlwyd arno mor ddamweiniol, i ymddangosiad, a'r testyn cyffredin, ond y cyfryw welliadau y cyfarfyddir â hwynt ar ymyl y dalenau yn ein Beiblau cyffredin. Y mae yr argyhoeddiad trwyadl o hyn i bob un sydd yn caru y Beibl, yn werth llawer mwy na'r holl lafur trwy yr hwn y mae wedi ei gyrhaedd. Y mae yr argyhoeddiad hwn o burdeb hanfodol yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn anmhosibl i'w gyrhaedd, ar dir rheswm, ac yn ngwyneb gwrthwynebiadau, ond trwy radd o gydnabyddiaeth â llafur beirniaid ysgrythyrol. Nid oes dim ond hyn a wna barch y genedl i'r gyfrol ddwyfol yn warogaeth rhesymol, ac ufudd-dod i'w awdurdod yn wasanaeth rhesymol.—(*Taylor on Ancient Books; Historic Evidence, by Tregelles; Restoration of Belief; Tischendorff on the Text of the New Test.: Davidson's Biblical Criticism; Tregelles on the History of the Printed Text; Introduction by Hartwell Horne, Hand-book of the Bible, by Angus; Greek Testament, by Alford; Journal of Sacred Literature*; ac erthyglau y gwaith hwn ar Adgyweiriad; Beibl, &c., a'i wahanol lyfrau).

**BEIBL: Y GWAHARDDIAD I'W DDARLLEN YN EGLWYS RHUFAIN.** Am hyn, fel am lawer o bethau ereill, y mae gwahaniaeth barn yn Eglwys Rhufain, dan y fantell o undeb ac unffurfiaeth allanol. Mae arferiad yr eglwys hon wedi amrywio mewn gwahanol oesoedd a gwledydd o barth i'r rhyddid a ganiatawyd i lëygwyr i ddarllen yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Er mwyn cael syniad eglur ar hyn, byddai yn fuddiol i daflu golwg hanesyddol dros y mater. Haera Bellarmin [*De verbo Dei;* llyfr ii. pen 15], nad oedd yr Ysgrythyrau yn adnabyddus yn oesoedd cyntaf Cristionogaeth ond yn yr ieithoedd Hebraeg, Groeg, a Lladin. Pe byddai hyny yn wir, buasai eu lledaeniad yn fawr trwy gyfrwng y ddwy iaith olaf. Ond y mae genym y profion mwyaf sicr eu bod wedi eu cyfieithu i lawer o ieithoedd o ddiwedd yr ail ganrif ac yn mlaen. [Gwel Cyfieithiadau y Beibl.] Yr oedd yr ymdrechiadau i gyfieithu y Beibl i wahanol ieithoedd, er mwyn ei ddwyn o fewn cyrhaedd trigolion gwahanol wledydd, yn gysson âg annogaethau ysgrifenwyr cyntaf Cristionogaeth i'w ddefnyddio. Nid yn union yr anghofiwyd gorchymyn Crist (*Ioan* v. 29), a chanmoliaeth y Bereaid (*Act.* xvii. 11), ac hefyd arferiad cyffredin yr apostolion, y rhai a gyfeirient eu hepistolau at yr eglwysi. Y mae amryw lyfrau wedi eu cyhoeddi, yn cynnwys detholiadau o ysgrifeniadau y tadau apostolaidd, a dysgawdwyr ereill y cynoesoedd, i ddangos yr angenrheidrwydd a'r buddioldeb i bawb ddarllen y Beibl; un gan Leander Van Ess, yn 1808. Yn nadleuon yr ail ganrif, pan y defnyddiai y Gnosticiaid eu holl gyfrwysdra i wyrdroi yr Ysgrythyrau o blaid eu cyfundrefn anghristaidd, nid oedd ysgrifenwyr Cristionogol yn cymmeryd mantais o hyn i annog y bobl i beidio darllen y Beibl, fel y gwnaed mewn oesoedd diweddarach. Yr ydym yn cael hanes fod Pamphilus, y merthyr, cyfaill Eusebius, yn rhoddi copïau o wahanol ranau o'r Ysgrythyrau i'r rhai oedd yn sychedu yn fawr am danynt. Annogai Jerome ei ferch ei hun, Gandentius, i ddysgu allan yn gyntaf y Salmau, ac yna i ddarllen yr Efengylwyr, yr Epistolau, a'r Prophwydi. Cynghorai Demetrius hefyd gyssegru rhai oriau bob dydd i ddarllen y Beibl, wrth geryddu yr abad Theodosius am esgeuluso darllen yn ddyddiol rhyw gynnifer o eiriau ei Waredwr. Ni gawn fod Gregory I., neu Gregory Fawr, yn cyfeirio at arferiad llëygwr claf o'r parlys, yr hwn nid allai ddarllen ei hun, ond a geisiai ereill i ddarllen iddo mor fynych, fel yr ydoedd wedi dysgu rhan fawr o'r Ysgrythyrau allan. Nid oedd ysgrifenwyr boreuaf Cristionogaeth, na chwaith y rhai a gyfrifir yn brif sylfaenwyr Pabyddiaeth, yn gweled un rheswm i wahardd y Beibl i'r bobl gyffredin, o herwydd ei fod yn cynnwys cynnifer o bethau anamgyffredadwy iddynt. Dywed Awstin [*De Genesi ad literam*, llyfr v. pen. 3], fod yn yr Ysgrythyrau ddefnyddiau meddwl i'r galluoedd cryfaf, ond fod ynddynt hefyd ymborth

Digitized by Google

i blant. Yn un o'i bregethau [56 *Sermo de tempore*] y mae yn dadgan ei ofid fod mor lleied o bobl yn meddu yr Ysgrythyrau, tra y mae copïau o honynt i'w cael yn mhob man. Mewn llythyr o eiddo Leander, archesgob Seville, cymherir yr Ysgrythyrau i afon; yr hon, mewn rhai manau, sydd mor fas fel y gall ŵyn gerdded drwyddi, ond mewn manau ereill sy'n ddigon dofn i nofio neu foddi elephant. Yn y 15fed Homili ar Ezeciel, y mae yn annog lleygwyr i ddarllen y Beibl. Ac yn y 3edd Homili ar hanes Lazarus, fe ddywed, "Yr wyf yn eich annog, nid yn unig i sylwi pa beth a ddywedir yn yr eglwys, ond hefyd i ddarllen eich Beiblau gartref. Ac na ddyweded neb, Nid fy ngwaith i ydyw darllen yr Ysgrythyrau; ond y rhai hyny sydd yn byw ar wahan oddi wrth y byd, ar benau y mynyddoedd, gan arwain bywyd mynachaidd. Pa beth? a ddywedi, fy nghyfaill, mai nid dy ddyledswydd ydyw darllen yr Ysgrythyrau, o herwydd fod gofalon aneirif yn terfysgu dy feddwl? O gymmaint a hyny y mae yn fwy dyledswydd arnat ti nag ar y mynach." Gwelir oddi wrth hyn fod difaterwch y bobl am ddarllen eu Beibl yn fwy yn amser Gregory I. nag oedd gwrthwynebiad yr offeiriaid iddynt ei ddarllen. Am yr esgus nad oeddynt yn ei ddarllen o herwydd ei fod yn cynnwys pethau uwch law eu deall, fe ddywed mai cochl diogi ydyw. Yr ydoedd efe mor bell oddi wrth briodoli dechreuad a chynnydd heresiau i'r arferiad o adael rhyddid cyffredinol i ddarllen y Beibl, fel yn hytrach i'r gwrthwyneb y dywedai mai hyn oedd yr unig amddiffyniad rhagddynt.

Yn y canoloesoedd hefyd, nid oedd un ymgais er attal y bobl i ddarllen y Beibl: y mae yn wir fod hyn yn afreidiol, o herwydd yr anwybodaeth cyffredinol, a'r analluog canlynol i'w ddefnyddio. Mae yn hysbys fod sefydliad y cenedloedd barbaraidd ar adfeiliau yr ymherodraeth Rufeinig wedi cael ei ddilyn â chyfnod hirfaith o dywyllwch, yn yr hwn y collwyd bron yr holl ddysgeidiaeth oedd wedi ei thrysori yn yr ieithoedd Groeg a Lladin, yr hon a elwir yn ddysgeidiaeth hynafol neu glasurol. Parhaodd y cyfnod hwn am tua phum can mlynedd, o'r chweched hyd yr unfed ganrif ar ddeg. Yn y cyfwng hwn yr oedd pob gwybodaeth wedi ei gyfyngu bron yn hollol i'r mynachdai. Yn flaenorol i hyn, yr iaith Ladin oedd mewn arferiad cyffredinol trwy ran orllewinol yr ymherodraeth; ond cyfyngwyd hi yn yr adeg hon bron yn hollol i wasanaeth yr eglwys; tra y ffurfiwyd yn raddol yn y gymmysgedd, trwy y gwahanol lygriadau oedd yn cymmeryd lle yn y Lladin—yr Italaeg, yr Yspaenaeg y Ffrancaeg, a llawer o briodieithoedd ereill. Y cyhuddiad a ellir ei ddwyn hyd hyny yn erbyn Eglwys Rhufain ydyw, nid ei bod wedi gwahardd darlleniad y Beibl i'r werin, ond na wnaeth nemawr o ymdrechiadau i'w wneyd yn ddealladwy iddynt yn eu hieithoedd eu hunain ar ol iddynt golli y Lladin. Yn fuan hefyd cymmerodd yr ysbryd Pabyddol fantais o'r amddifadrwydd hwn i attegu ei uchelgais ei hun. Ni chawn Johann VIII. yn caniatau dwyn y gwasanaeth eglwysig yn mlaen mewn iaith ddealladwy i'r bobl: ond cymmerai Gregory VII. dramgwydd mawr wrth hyn, fel peth nad oedd i'w oddef mewn un modd; a dywedai mai ewyllys Duw oedd i'r Ysgrythyrau fod yn anadnabyddus ond trwy gyfrwng y Lladin, fel na byddai perygl iddynt gael eu diystyru na'u camddeall, ac felly arwain y bobl i gyfeiliornadau.—*Llythyr Gregory* VII., *y fl.* 1080; llyfr vii., 11.

Yn ystod y cyfnod tywyll hwn, ni gawn rai anghreifftiau prydferth o gariad at y Beibl hyd yn oed yn mynwes Pabyddiaeth. I'r ynysoedd Prydeinig y perthyn yr anrhydedd o fod wedi gwrthsefyll yr anwybodaeth hon gyntaf. Mor fore a'r chweched ganrif, yr oedd rhai pelydrau o oleuni yn ganfyddadwy yn mynachdai yr Iwerddon; ac yn y seithfed, pan yr oedd yr Ital a Ffrainc wedi suddo mewn anwybodaeth dyfnach, yr oedd y chwaer ynys yn parotoi efrydwyr yn ei hysgolion, ac yn anfon allan i'r Cyfandir ysgolheigion ac offeiriaid o enwogrwydd y pryd hwnw. Ond enw yr "hybarch Bede" sydd yn rhagori ar bob un arall yn hanes llenyddol Prydain yn y canrifoedd dan sylw. Yr oedd yr Ysgrythyrau yn hoff destyn ei efrydiaeth: cyfeiriai archesgob York at Timotheus a Titus am reolau ymddygiad i weinidogion yr efengyl. Ac yn ei oriau diweddaf, tra yn cyfieithu yr adnod olaf o *Ioan* xx, dywedodd un o'i ddysgyblion wrtho, "Y mae y gwaith wedi ei orphen, meistr." "Wedi ei orphen," meddai yntau, "codwch fy mhen, i mi gael eistedd yn fy nghell, yn y fan lle yr wyf wedi gweddïo mor fynych:" ac yna bu farw gyda'r gorchwyl o gyfieithu yr Ysgrythyrau. Yr oedd hyn yn foreu yn yr wythfed ganrif. Yn niwedd y nawfed ganrif, yr oedd y brenin Alfred yn gyfieithydd yr Ysgrythyrau. Pan oedd yn ddeuddeg oed, nid allai gael neb yn holl Wessex i ddysgu Lladin iddo; ond dan deimlad o'i anwybodaeth ei hun a'i bobl, penderfynodd gasglu dysgawdwyr cymhwys o'i amgylch. Cytunodd Asser o Fynwy, ysgolhaig blaenaf Cymru, a dyn crefyddol, i aros yn ei lys am chwe mis o'r flwyddyn. [Gwel ASSER.] Dysgodd y brenin Ladin gan Asser, trwy gadw yn ei fynwes ysgriflyfr bychan, yr hwn a gynnwysai bob adnod o'r Beibl a'i boddiai yn fwy na chyffredin, wedi ei rhoddi i lawr a'i chyfieithu gan ei gyfaill. Y llyfr hwn oedd cydymaith gwastadol y brenin, ac ysgrifenai ei gynnwysiad yn fynych ei hun. Bwriadai gyfieithu y Beibl i gyd er lleshâd ei ddeiliaid; ond cyfran o hono yn unig a gyflawnodd. Yr ydoedd yn cyfieithu y Salmau pan y bu farw.

Yn y nawfed ganrif, deng mlynedd ar ugain cyn genedigaeth Alfred, gwnaed Claude, brodor o Yspaen, yn esgob Turin. Yr ydoedd yn ddiwygiwr; astudiai a phregethai yr Ysgrythyrau. Gorchymynai fwrw allan a llosgi y delwau oedd yn llenwi yr eglwysi: dadleuai mai ffydd yn unig sydd yn achub. Gosododd y dyn hwn i lawr sylfeini y diwygiad a gymmerodd le saith gant o flyneddoedd ar ol hyny. Gelwid ef yn "esgob y dyffrynoedd;" ac addefa y Pabyddion fod ei syniadau yn ffynu trwy y nawfed a'r degfed canrif yn nyffrynoedd Piedmont, y rhai a berthynent i esgobaeth Turin.

Y ddeuddegfed ganrif, cododd ysbryd gwrthwynebol i Babyddiaeth, yr hwn oedd i'w ganfod mewn parch i'r Ysgrythyrau, ac ymdrechiadau i'w cael i iaith y bobl, a'u lledaenu yn eu mysg. Tua'r flwyddyn 1151, ymddangosodd nifer o fân gymdeithasau, yn gynnwysedig o ddynion tlodion a gweithwyr cyffredin, gan mwyaf yn wahaniaethol oddi wrth Eglwys Rhufain, y rhai a ddysgent lawer o'r Hen Destament a'r Newydd allan yn y cyfieithiad Rhomaunt. Yr oedd y cyfieithiad hwn yn lled debyg i'r Lladin: y mae yn anghraifft o lygriad y Lladin i'r Ffrancaeg. Yr oedd fel y canlyn:—"*In principio erat verbum, et verbum erat apua Deum, e Deus era la parula. Aiso era el comanzament amb Deu;*" *Ioan* i. 1, 2. Yr oedd y



Digitized by Google

dynion hyn yn ymledaenu dros holl Ewrop: yn Ffrainc, galwyd hwy yn "Tisserands," neu gwehyddion, "Dynion tlodion Lyons," "Waldensiaid," ac "Albigensiaid." Yn Germany, galwyd hwy "Cathari." Yr oeddynt i'w cael yn Yspaen, Naples, ac yn mhob man yn nghymmydogaeth yr Alps. Yn y dull canlynol y lledaenent eu hopiniynau:—dangosent nwyfau ar werth, megys modrwyau a gwisgoedd; os gwerthent y rhai hyn, ac os gofynid iddynt a oedd ganddynt chwaneg ar werth, atebent, "Y mae genym berlau llawer gwerthfawrocach na'r rhai hyn, y rhai a roddwn i chwi os na fradychwch ni." Ar ol cael addewid o ddiogelwch, dywedent, "Y mae genym gem yn dysgleirio oddi wrth Dduw mor danbaid fel ag i gynneu cariad Duw yn nghalonau y rhai sydd yn ei feddu." Yna darllenant ryw bennod o'u hysgriflyfr o'r Efengylau; ac yn bur fynych gadawent ef gyda'u gwrandawyr.

Pridolir dechreuad yr eglwysi mân hyn, ond nid yn gywir, i Peter Waldo [gwel WALDENSIAID]; ond efe ydoedd y cyntaf a gyfieithodd ranau o'r Ysgrythyrau i iaith y bobl, ar ol i'r Lladin gael ei chyfyngu yn hollol i ddysgedigion. Esboniai yr Ysgrythyrau i'r bobl dlodion a ymgasglent o'i amgylch. Galwyd ef "marsiandwr da Lyons:" ond gadawodd ei fasnach, rhoddodd ei gyfoeth i'r tlawd, ac ymroddodd i ddeall yr Ysgrythyrau ei hun, ac i ddwyn ereill i adnabyddiaeth o honynt. Bu farw yn ffoadur yn Bohemia, yn 1179, [Gwel WALDO]. Yr oedd y Waldensiaid yn fwy nodedig na dim pobl ereill ar wyneb y ddaiar am drysori y Beibl yn eu cof. Yn yr 11eg a'r 12fed ganrif, ni allesid cael copi cywir o'r Ysgrythyrau am lai na thrigain punt o'n harian ni am yr ysgrifen yn unig; ac ni allasai copïwr celfyddgar ysgrifenu un mewn llai o amser na deng mis. Yr oedd pob copi, gan hyny, yn dra gwerthfawr, yn enwedig i bobl dlodion.

Pan welodd yr offeiriaid Pabaidd fod dynion cyffredin yn fwy hyddysg yn y Beibl na hwy eu hunain, a'u bod yn beiddio ffurfio barn am ei gynnwys, priodolent bob cyfeiliornad i waith y werin yn ei ddarllen, a meddylient ei bod yn llawn bryd i gymmeryd rhyw lwybr i'w hamddifadu o hono. Ar y cyntaf, ymddangosai Innocent III. yr hwn oedd yn bab ar y pryd, yn lled dyner at yr arferiad o ddarllen y Beibl; ond yn fuan, dywedai fod ei ddyfnderoedd mor fawr fel nad allai doethion a dysgedigion ei amgyffred, ac appeliai at benderfyniad yr Hen Destament, "Os bwystfil a gyffyrddai â'r mynydd, efe a labyddir." Felly, disgynodd ar eglwysi y dyffrynoedd holl gynddaredd Innocent. Sefydlodd y chwil-lys er mwyn gwneyd yn fwy sier o'i amcan. Erbyn hyn, yr oedd Pabyddiaeth wedi myned yn hollol benderfynol yn erbyn pob ymdrafod â phethau crefyddol yn iaith y werin. Yn Toulouse, yn 1229, cyhoeddwyd y gwaharddiad cyntaf i'r cyffredin feddu yr Hen Destament na'r Newydd, trwy ddyweyd, "Yr ydym yn gwahardd i'r bobl gyffredin feddiannu unrhyw ran o lyfrau yr Hen Destament neu y Newydd, oddi eithr y *Psalter* (Llyfr y Salmau), neu y *Breviary* (ffurf gwasanaeth Eglwys Rhufain), neu *Oriau y Fendigedig Fair*, a chwennychai rhai o ddefosiwn eu cael; ond yr ydym yn gwahardd yn gaeth na chyfieithir hyd yn oed y rhai hyn i iaith y cyffredin." Yn Tarracona, yn 1234, gyrchymynwyd dwyn pob copi o'r cyfieithiad a arferai y Waldensiaid at yr esgobion, o fewn wyth niwrnod, i gael eu llosgi; a phwy bynag a anufuddhâai, gŵr lleyg neu lên, cyfrifid ef yn heretic. Yr oedd pob ymdrech at ddwyn i mewn ddiwygiadau newyddion, neu at roddi y Beibl yn nwylaw y bobl, yn cyffroi mwy o eiddigedd yn yr Eglwys Babaidd yn eu herbyn. Treuliodd John Wickliff ran fawr o'i oes i gyfieithu, yn gyntaf, y Testament Newydd, ac wedi hyny yr Hen, o'r Lladin i'r Seisoneg. Ar Mai 17eg, 1378, pan oedd Richard II. ond dwy ar bymtheg oed, y diwrnod ar ol gwrthryfel Wat Tyler, ymgyfarfyddodd cynghor o esgobion a doctoriaid cyfraith a duwinyddiaeth, saith a deugain mewn nifer, i gondemnio Wickliff a'i ganlynwyr. Attaliwyd ef i bregethu yn Rhydychain: ond rhoddodd hyny iddo fwy o amser i orphen ei gyfieithiad; yr hyn a wnaeth yn 1380, pedair blynedd cyn ei farwolaeth. Efe oedd y cyntaf a barotodd gyfieithiad cyflawn o'r Beibl yn y Seisoneg. Deng mlynedd ar ol marwolaeth Wickliff, dygwyd mesur o flaen Tŷ yr Arglwyddi i wahardd darllen y Beibl Seisoneg. Pedair ar ugain o flyneddoedd ar ol ei farwolaeth (1408), penderfynwyd mewn cymmanfa yn St. Paul, na byddai caniatad i ddarllen un llyfr o eiddo Wickliff, dan boen esgymundod. Hefyd, yn yr un flwyddyn, penderfynwyd yn Rhydychain na byddai caniatad i neb gyfieithu yr Ysgrythyrau heb ganiatad esgob neu gymmanfa. Pedair a deugain o flyneddoedd ar ol ei farwolaeth, cyhoeddodd Cynghor Constance orchymyn i godi esgyrn Wickliff, a'u llosgi: yr hyn a wnaed, a thaflwyd eu llwch i'r afon sydd yn rhedeg heibio ei eglwys yn Lutterworth. Mae y pwlpud y pregethai ynddo, y bwrdd yr ysgrifenai arno, y gadair yn yr hon yr eisteddai, a'r wisg *velvet* a wisgai (ond y mae yn garpiau yn awr), i'w gweled yn bresennol. Gwel WICKLIFF.

William Sawtre oedd y cyntaf a losgwyd yn fyw yn Lloegr: gweinidog yn Llundain ydoedd, a bu farw yn 1400, o herwydd ei benderfyniad i bregethu y gair. Y wraig gyntaf a fu farw yn ferthyr yn Lloegr oedd Lady Jane Boughten, yn bedwar ugain oed, am ddarllen yr Ysgrythyrau. Bu farw ei merch o'r un farwolaeth greulawn, gyda'r un penderfyniad a'i mam. Gwel LOLLARDIAID.

Os edrychwn ar y pum mlynedd ar ugain cyntaf yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ni a welwn Lefevre yn Ffrainc, Zwinglius yn Switzerland, Luther yn Germany, a Tindal yn Lloegr, i gyd gyda'r un gorchwyl, sef cyfieithu yr Ysgrythyrau, yn annibynol ar eu gilydd, i wahanol ieithoedd. Yr oedd hefyd ychydig o ysgrifenwyr Pabaidd yn argymhell darllen y Beibl ar y werin, ac yn amddiffyn yr arferiad. Gwnaeth Erasmus hyny yn ei ragymadrodd i'w *Aralleiriad o'r Testament Newydd*. Gwnaed hyny hefyd gan dduwinydd o Yspaen, yr hwn a safai yn uchel yn ffafr Charles V. Ond er hyn, parhau mewn grym yr oedd y gwaharddiad i ddarllen y Beibl. Cyhoeddwyd cyfres o lyfrau gwaharddedig yn 1559, gan Paul IV. Mae y gyfres (*index*) hon yn cynnwys yr holl Feiblau oedd mewn ieithoedd diweddar, gan enwi *wyth a deugain* o argraffiadau. Cadarnhawyd hefyd y gwaharddiadau blaenorol yn Nghynghor Trent, yn y deg rheol a wnaed o barth i lyfrau gwaharddedig (*index librorum prohibitorum*), y rhai a dderbyniodd awdurdodiad Pius IV., yn y flwyddyn 1564. Yn y drydedd reol, caniateir i ddynion duwiol a dysgedig ddarllen cyfieithiadau hereticaidd o'r Hen Destament; ond eto yn unig ar yr ammod y bydd hyny yn gymmeradwy gan yr esgob. Ond ni chaniateir i neb ddarllen cyfieithiadau hereticaidd o'r Testament Newydd. Yn y bedwaredd reol, ni chaniateir darllen yr Ysgrythyrau yn iaith y werin, gan fod

Digitized by Google

hyny, yn gyffredin, yn fwy niweidiol na buddiol, heb i'r offeiriad roddi ei farn mewn ysgrifen y gallant wneyd hyny er cynnydd ffydd a duwioldeb. Ac yn hyn, golygir y cyfieithiadau a gymmeradwyir gan Eglwys Rhufain ei hun. Ni chaniateir ychwaith i'r cyfryw gael eu gwerthu, ond trwy gydsyniad yr esgob. Y mae y rheol hon yn parhau mewn grym hyd yn awr, gyda chwanegiad o eiddo Gregory xv, ac Urban viii., fod i sylwadau o'r tadau eglwysig gael eu rhoddi i mewn, fel na byddai ammheuacth pa fodd y mae yr eglwys yn deall yr Ysgrythyrau. Gwelir mai barn Eglwys Rhufain y pryd hyny oedd, yn ngeiriau Cardinal Hosius, fod rhoddi yr Ysgrythyrau yn nwylaw y werin yr un peth a rhoddi gemau o flaen moch.

Yn nghanol yr eilfed ganrif ar bymtheg, cododd plaid yn mynwes Eglwys Rhufain, sef y Janseniaid, sydd yn ymffrostio yn yr enwau uchaf mewn athrylith a dysgeidiaeth, sef Arnauld, Pascal, Nicole, De Sacy, &c. Rhwng y Janseniaid a'r Jesuitiaid yr oedd gelyniaeth marwol. Yr oedd yr olaf yn amddiffynwyr awdurdod y Babaeth yn ei gerwinder mwyaf; ochrai y blaenaf mor agos at Brotestaniaeth ag y gallent, ond parhau mewn cyfundeb proffesedig â Rhufain. [Gwel Janseniaid.] Amlygent yr elfen Brotestanaidd, yn enwedig yn eu parch i'r Ysgrythyrau. Cyfieithwyd hwynt gan un o honynt, sef De Sacy, i'r Ffrancaeg. Dechreuodd ar ei waith, fel Luther, tra yr ydoedd yn y carchar dan gyhuddiad o heresi; ac wedi dyfod allan, ar ol bod dair blynedd yn un o gelloedd y Bastile, yn Paris, gorphenodd ef trwy gynnorthwy ei gydlafurwyr. Ysgrifenodd Arnauld i amddiffyn lledaeniad yr Ysgrythyrau yn mysg y werin; tra yr oedd Fenelon, un o'r enwau dysgleiriaf am ddysgeidiaeth a duwiolfrydedd yn rhestr gwroniaid Rhufain, yn petruso yn nghylch ei briodoldeb, gan roddi, fel ei reswm, y byddai y ddadl rhwng Paul a Phedr (*Gal.* ii.) yn faen tramgwydd iddynt. Mewn canlyniad i ymdrech y Janseniaid, cyhoeddodd offeiriad o'r enw Quesnel y Testament Newydd yn Ffrainc, gyda nodiadau, yn 1699, gan amddiffyn ei ledaeniad yn mysg y werin. Ei amddiffyniad oedd—fod y Beibl yn llyfr i Gristionogion yn ddiwahaniaeth; ei fod yn fuddiol, ïe yn angenrheidiol, iddynt, ac yn beryglus eu hamddifadu o hono; nad yw yr athrawiaethau dyfnion sydd ynddo yn rheswm digonol dros hyny; y dylai pawb sancteiddio y Sabbath trwy ddarllen y gair; fod y gair fel llaeth yn meithrin credinwyr yn y ffydd; a bod gwaharddiad i'w ddarllen yn waharddiad i Grist lefaru wrth ddynion. Parodd cyhoeddiad y fath egwyddorion, yn nghyd â dylanwad darlleniad y Beibl i ennill dynion i ymwrthod â Phabyddiaeth, i Clement xi. wneyd ymdrech i'w gwrthsefyll trwy gyhoeddi sel-warant (*bull*) i'r perwyl. Parhaodd dylanwad y Janseniaid, er y cwbl, i liniaru syniadau llawer un o fewn cylch yr eglwys. Cawn hyd yn oed Pius y vi, yn defnyddio y geiriau canlynol, wrth ysgrifenu at yr abad Martin, yr hwn wedi hyny a wnaed yn archesgob Florence—"Ti a wnei yn dda i annog y ffyddloniaid i ddarllen y Beibl, fel ffynnonell buraf moesau ac athrawiaeth." Y mae ymdrechiadau godidog y Feibl Gymdeithas yn y ganrif bresennol wedi cyfarfod gwrthwynebiad penderfynol y pabau. Y mae y pedwar pab diweddaf wedi cyhoeddi eu hanathemau yn ei herbyn. Pius vii. yn y flwyddyn 1816, Leo xii. yn 1824, Gregory xvi. yn 1832; y mae y pab presennol hefyd, Pius ix., wedi dilyn eu hesampl. Mewn cyfeiriad at gylch-lythyr Leo xii, dywed chwech ar ugain o esgobion yr Iwerddon, wrth gyfarth eu praidd, "Y mae ei Sancteiddrwydd yn sylwi yn ddoeth fod mwy o niwed nag o les yn tarddu oddi wrth ledaeniad cyffredinol yr Ysgrythyrau. A'r syniad hwn o eiddo ein pen yr ydym yn cydsynio. O herwydd hyn y mae y cyfryw lyfrau wedi cael eu melldigo (*execrate*) bob amser gan yr Eglwys Gatholig; a hyn a wna rhagllaw. A hyn yw y rheswm dros y cyfreithiau a'r sefydliadau doeth, trwy ba rai y mae hi wedi gwahardd i'w phlant eu darllen a'u cadw, ïe yn fynych hefyd wedi gorchymyn iddynt eu taflu i'r tân." Yn unol â hyn, llosgwyd nifer o gopïau o'r Beibl y flwyddyn ddiweddaf, 1855, ar orchymyn offeiriad Pabaidd yn Kingstown, yn yr Iwerddon. Er gwadu fod yr offeiriad yn gwybod fod Beiblau yn mysg "y llyfrau anfoesol" a orchymynodd eu bwrw i'r tân, eto fe ddywed y *Catholic Standard* am Tachwedd 14eg, "O'n rhan ni, os ydyw dyn wedi cael ei demtio i'r pechod o feddu Beibl Protestanaidd, nis gallwn weled pa beth gwell a ddichon iddo wneyd na llosgi y llyfr sydd yn ymddangos ar yr olwg allanol yn debyg i un." Gwelir mai yr esgus dros y gelyniaeth hwn yn erbyn y gyfrol sanctaidd ydyw, ei fod yn gyfieithiad Protestanaidd. Ond erbyn ystyried fod y cyfieithiadau hyn yn cynnwys, ar y cyfan, arddangosiad ffyddlawn a chywir o'r gwreiddiol, a bod duwinyddion Pabyddol eu hunain yn addef nad ydyw eu heglwys hwy yn gwneyd ymdrech i ddwyn y Beibl i feddiant y bobl gyffredin, y mae yn eglur fod y gwrthwynebiad yn gwbl i'r Beibl dan rith gwrthwynebiad i gyfieithiadau Protestanaidd o hono. Addefir drachefn fod ambell un perthynol i'r Eglwys Babaidd wedi annog y werin i ddarllen cyfieithiad a gymmeradwyid gan yr eglwys hon ei hun.

Gwelir, oddi wrth yr holl hanes hwn, fod Eglwys Rhufain yn cydnabod nad yw yn ddyledswydd ar y cyffredin i ddarllen y Beibl, nad oes un angenrheidrwydd iddynt wneyd, ac nad yw y buddioldeb a ellir ddysgwyl oddi wrth hyny, hyd yn oed mewn cyfieithiadau awdurdodedig ganddi ei hun, ond bychan iawn. Byddai yr addefiad o'r ddyledswydd i ddarllen y Beibl yn hollol groes i'w hegwyddor sylfaenol. Yn unol â'i chyfundraeth hi, y mae undeb pechadur â Christ yn cymmeryd lle trwy gyfrwng yr eglwys a'r sacramentau, ac nid yn uniongyrchol trwy y gair a ffydd. Rhaid i Eglwys Rhufain gyfaddef fod ynddi lawer o elfenau nad ydynt gynnwysedig yn yr Ysgrythyrau; ac y mae ei hegwyddor sylfaenol yn caniatau iddi gyfaddef hyn heb deimlo ei bod yn gwyro oddi wrth y gwirionedd, o herwydd nid yw y Beibl iddi hi yn unig ffynnonell, rheol, a safon gwirionedd mewn crefydd. Felly, rhaid iddi fod yn wyliadwrus rhag, trwy argymhell darllen yr Ysgrythyr fel dyledswydd gyffredin y Cristion, iddi newid perthynas y Beibl â'r eglwys, a'i fyned dan yr holl draddodiadau sydd wedi ymgasglu o'i mewn er yr oesoedd boreuaf. O ganlyniad, y mae hi yn teimlo yr angenrheidrwydd am gadw yn ei llaw yr awdurdod i roddi caniatad i ddarllen y Beibl, ac nad oes gan neb hawl i wneyd hyny heb y caniatad hwnw: felly, pan y mae hi yn deall fod perygl i'r werin ddyfod i ganfod yn y gwirionedd fod perthynas y Cristion yn *gyntaf oll* â Christ, ac wedi hyny â'r eglwys, yna y mae yn cyhoeddi gwaharddiadau llymdost yn erbyn ei ddarllen. Hyn yw yr achos nad yw yr esgobion a'r offeiriaid sydd heb annog y bobl i ddarllen y cyfieith-

Digitized by Google

iadau a gymmeradwyir gan yr eglwys, byth yn cyffroi anfoddlonrwydd y rhai sydd mewn swyddau uwch. Nid oes byth anghraifft o'r fath beth i'w gael yn ei hanes: ond i'r gwrthwyneb, os bydd i rywun godi i wrthwynebu ffurfioldeb mewn addoliad, ac i gyfeirio meddyliau dyn oddi wrth y saint at Grist, oddi wrth weithredoedd meirwon at ffydd fywiol, y mae yn syrthio dan gyhuddiad o heresi. Nid oes dim ag y mae yr Eglwys Babaidd yn fwy hael o honynt nag o lythyrau maddeuant: cyfrenir hwynt am bob math o beth—am fyned trwy ryw ddefodau dibwys, am bererindod i edrych ar yr hugan sanctaidd, am gyfrif paderau, a llawer o'r fath bethau; ond ni chlywir byth ei bod yn addaw maddeuant i neb am ddarllen yr Ysgrythyrau hyd yn oed am un diwrnod, a hyny yn ei chyfieithiadau hi ei hun. Onid yw hyn yn fath o gyfaddefiad dystaw nad yw ei llythyrau maddeuant yn cydsefyll â'r Ysgrythyrau Sanctaidd? Ac onid yw yn rhyfedd hefyd fod yr Eglwys Babaidd yn caniatau pob rhyddid i gynnifer o ofergoelion, heb byth deimlo pryder yn nghylch diogelwch eneidiau y rhai sydd dan ei dylanwad. Ond os ceir neb yn darllen cyfieithiad Protestanaidd o'r Beibl, nad allant hwy eu hunain brofi ei fod yn cynnwys gŵyrdroad o'r Ysgrythyrau mewn un dim, ar unwaith amlygir y fath bryder dwys rhag i'r cyfryw dderbyn niwed wedi syrthio i'r fath ddirfawr berygl.

Er amser Awstin, y mae hi yn cyd-ddwyn â llawer o bethau nad ydynt uniawn a da, yn ol ei gyfaddefiad ef; ond y mae yr arferiad o ddarllen y Beibl yn fuan yn cyfarfod â'r llymdoster mwyaf. Y mae yr ofergoelion ynfytaf yn peryglu llai ar egwyddor Pabyddiaeth nag y mae darllen gair Duw.

Y mae yn wir fod arferiad Pabyddiaeth mewn gwahanol fanau ac ar wahanol amserau yn amrywio. Mewn un wlad, ni bydd y Beibl yn adnabyddus yn mron wrth ei enw i'r bobl; ond mewn gwlad arall, ceir esgobion ac offeiriaid unigol yn annog ei ddarllen mor bell ag y caniateir iddynt gan yr eglwys. Llywodraethir hi i fesur mawr gan amgylchiadau. Y mae yn fwy peryglus i wahardd y Beibl yn Germany, nag yn yr Ital ac Yspaen; yn Lloegr, nag yn yr Iwerddon.

Y mae yn deilwng o sylw hefyd fod syniadau cyffelyb i eiddo y Pabyddion o barth i ddarllen y Beibl yn mhlith y rhai a elwir yn Rhesymolwyr. Nid ydynt yn anffyddwyr proffesedig, ond gosodant i fyny reswm fel yr awdurdod uchaf mewn crefydd; ac yn unol â hyn, dysgant nad yw yn ddyledswydd i ddarllen y Beibl. Y rhai cyntaf o'r rhai hyn oedd Semler a Lessing yn Germany, yn y ganrif ddiweddaf. Felly y mae y Pabyddion yn gosod yr *eglwys*, a'r Rhesymolwyr yn gosod *rheswm*, yn brif awdurdod mewn crefydd yn lle gair Duw.

Y mae crybwylliadau i'w cael ar fater yr erthygl hon yn wasgaredig yn y gwahanol hanesion eglwysig; *The Book and its Story*; *Hallam's History of Lit.*; *Real. Encycl.*; *Münscher Cöln; Lehrbuch der Dogmeugesch.*

## Y BEIBL:—YR HEN DESTAMENT.

### HANES Y TESTYN YSGRIFENEDIG.

Dosberthir hanes testyn yr Hen Destament i bedwar cyfnod:—

Yn *gyntaf*, o amser ysgrifeniad pob llyfr, hyd yr amser y gorphenwyd y canon, tua 200 mlynedd c. c.

Yn *ail*, o amser gorpheniad y canon, hyd at ddinystr Ierusalem;—o tua 200 c. c., hyd 70 B. A.

Yn *drydydd*, o amser dinystr Ierusalem, hyd sefydliad cyflawn a hollol y testyn Masoretaidd.

Yn *bedwerydd*, o amser sefydliad y testyn Masoretaidd, ac ymadawiad Iuddewon dysgedig o'r dwyrain, hyd argraffiad cyntaf rhan o'r Beibl;—B. A. 1040, hyd 1477.

Am y cyfnod *cyntaf*, ni cheir dim hysbysiadau o barth i ffurf ac ansawdd y testyn ond a geir yn yr Hen Destament ei hun, a Phum Llyfr Moses yn y Samariaeg.

Yn yr *ail*, y mae cyfieithiad y Deg a Thrigain yn rhoddi mantais i farnu am y testyn gwreiddiol. I'r cyfnod hwn hefyd y perthyn yr ysgrifenwyr Philo, Jonathan, ac Onkelos.

Yn y *trydydd*, y mae Josephus, Acwila, Theodotion, a Symmachus; y Peshito, neu yr hen gyfieithiad Syriaidd; y Mishna, neu destyn y Talmud; Origen, a Jerome; y Gemara, neu esboniadau y Talmud; y Masorah; a chasgliadau o wahanol ddarlleniadau yn argraffiadau Bomberg a Buxtorff o'r Beibl Hebraeg.

Yn y *pedwerydd* cyfnod, ysgrifeniadau y Rabbiniaid yn unig a roddant gymhorth i farnu am sefyllfa y testyn.

Gwelir oddi wrth hyn, mai y trydydd cyfnod ydyw y cyfoethocaf o ddefnyddiau hanesiaeth y Beibl Hebraeg, o ran ei ffurf a'i ansawdd fewnol.

Addefir yn gyffredinol yn awr, nad yw yr Hen Destament wedi dyfod i lawr ffrwd amser yn hollol a pherffaith rydd oddi wrth bob mân gyfnewidiadau a changymmeriadau—y cyfryw ag yr oedd hen lyfrau yn ddarostyngedig iddynt trwy gael eu copïo drachefn a thrachefn.

Nid allasai ond gwyrth ei gadw oddi wrth y mân gamgymmeriadau y mae adysgrifwyr yn syrthio iddynt; ac y mae ffeithiau yn dangos nad oeddynt hwy, fel yr ysgrifenwyr gwreiddiol, dan ddylanwad ysbrydoliaeth anffaeledig. O barth i'r amrywiaeth darlleniadau a gyfododd yn y modd hwn, a'r egwyddorion a ddefnyddir i'w symmud ymaith, ac i adferu y testyn i'w burdeb cyntaf, gwel BEIRNIADAETH Y BEIBL.

Am ansawdd y testyn cyn gorpheniad y canon, ni wyddys ond ychydig gyda sicrwydd. Pa fodd y cedwid llyfrau yr Ysgrythyrau, er mwyn diogelu purdeb y testyn—pa mor fynych y copïwyd hwy, a chyda pha ofal—y mae yn dra anhawdd penderfynu. Ond gallwn yn rhesymol dybied fod yr Iuddewon, er eu bod ar brydiau yn gwrthgilio oddi wrth yr Arglwydd, eto yn meithrin parchedigaeth i'w llyfrau sanctaidd, ac yn gofalu yn gyfatebol am danynt. Pum Llyfr Moses, fel yn cynnwys y ddeddf, a berchid, fe ddichon, uchaf, ac a gedwid ganddynt gyda mwyaf o ofal.

Ond o'r braidd y gellir casglu fod ysgrifeniadau yr Hen Destament yn berffaith rydd oddi wrth gyfnewidiadau yn yr amseroedd boreuaf, cyn eu casglu yn un gyfrol. Y mae mân wallau o bwysigrwydd mwy neu lai yn ymwthio i bob ysgrifen o ychydig oed. Felly, heb arweiniad anffaeledig, nid allesid dysgwyl i lyfrau cyssegredig yr Iuddewon ddianc. Ond wrth ystyried nifer llyfrau yr Hen Destament, y maent yn ychydig o nifer, ac yn ddibwys o ran eu natur. Am y gwahaniaeth rhwng yr Hebraeg a'r Samariaeg, gwel SAMARIAEG PUM LLYFR MOSES.

Nid yw yn hollol eglur pa bryd y casglwyd llyfrau yr Hen Destament at eu gilydd, ac y cwbl orphenwyd y canon. Ond y mae yn rhesymol meddwl, pan ymgymmerodd Ezra a Nehemiah âg adferu crefydd ac addoliad eu tadau, iddynt hefyd edrych i ansawdd y llyfrau sanctaidd oedd

Digitized by Google

wedi eu cyfansoddi cyn, ac yn, eu hamser hwy. Y mae yr awgrymiadau a geir yn Ezra a Nehemïah, yn nghyd â thraddodiadau yr Iuddewon, yn cadarnhau y dybiaeth hon. Ond er fod pob tebygolrwydd ddarfod i'r ddau ddiwygiwr hyn dalu sylw neillduol i'w llyfrau sanctaidd, eu casglu at eu gilydd, a'u hadgyweirio, eto nid oes sierwydd i'r gwaith gael ei orphen yn eu hamser hwy. Y mae dynion o enw uchel mewn llenyddiaeth Feiblaidd, megys Hengstenberg, Haverniek, a Stuart, yn hòni hyn; y mae ereill, megys Davidson yn cymmeryd golwg arall, na orphenwyd mo hono hyd tua 200 mlynedd c. c. Gwel CANON.

Y mae Kennicott, ac ereill, yn dywedyd fod Ezra, Nehemïah, a phrophwydi dilynol, wedi gadael llyfrau yr Hen Destament yn hollol ddiwallau. Hòna yr Iuddewon, yn eu traddodiadau, fod Ezra, dan arolygiaeth anffaeledig ysbrydoliaeth, yn casglu at eu gilydd, ac yn puro y llyfrau sanctaidd oddi wrth bob math o gyfnewidiadau oedd wedi ymlithro i mewn yn ystod y caethglud. Y mae yn ddiau fod pob ymdrech wedi ei wneyd ganddo ef, a chan bawb oedd a wnelent ddim â chasglu y llyfrau yn un gyfrol, i edrych fod y copïau wedi eu hadysgrifo yn gywir, ac i gael allan y gwallau, a'u symmud ymaith, lle y dygwyddent fod. Ond nid allasent fod yn hollol sicr o bob llythyren, sill, a gair, heb i wyrth gael ei gwneuthur:—ac o hyn nid oes prawf.

Nis gellir penderfynu, gyda sicrwydd, pa beth oedd ansawdd y testyn pan wnaed cyfieithiad y Deg a Thrigain; o herwydd fod y cyfieithiad hwnw wedi bod am gynnifer o ganrifoedd yn agored i helyntion a gwallau adysgrifiad. Y mae y cyfieithiad yn amrywio mewn manau oddi wrth y Beibl Hebraeg; ond nis gellir casglu oddi wrth hyn fod yr amrywiaeth hwn yn cyfodi o ansawdd yr ysgriflyfrau Hebreig pan wnaed y cyfieithiad.

Nid oes defnyddiau ereill yn y cyfnod hwn, i roi goleu ar sefyllfa y Beibl Hebraeg. Ni ddefnyddiodd Philo ond y Deg a Thrigain yn unig; ac yn ei amser ef, yr oedd yr Hebraeg, fel testyn astudiaeth, yn cael ei hesgeuluso yn Alexandria. Nid oedd y testyn Hebraeg a ddefnyddiodd Jonathan, ac Onkelos, tuag amser ein Iachawdwr, yn sail eu hesboniadau Caldeaidd ar yr Hen Destament, yn amrywio mewn dim o bwys, nac ond mewn ychydig fanau, oddi wrth y testyn a elwir y Masoretaidd, yr hwn sydd mewn arferiad yn bresennol.

Ar ol dinystr Ierusalem y gwnaed y cyfieithiadau Groeg y rhoddir eu hanes yn yr erthygl ar GYFIEITHIADAU Y BEIBL; ac y mae y rhai hyn yn nes i'r Hebraeg na'r Deg a Thrigain.

Ar ol i'r Iuddewon golli eu teml a'u rhyddid, yr oedd eu llyfrau sanctaidd eto yn eu meddiant fel eu hunig drysor. O hyny allan, daethant yn brif destyn gofal ac astudiaeth eu dysgedigion. Yr oedd pob llythyren, gair, a brawddeg, yn sanctaidd yn eu golwg. Yr oedd y genedl yn gyffredinol yn myned yn fwyfwy eiddigeddus dros gywirdeb a pherffeithrwydd y testyn. Cyfrifent yr adnodau, y geiriau, a'r llythyrenau; chwilient bob gwallau, er mwyn eu symmud ymaith; a gosodent i lawr reolau i ddiogelu cywirdeb y testyn.

Yr oedd athrofa nodedig gan yr Iuddewon yn Tiberias, lle yr oedd yr Hebraeg yn brif destyn efrydiaeth. Meithrinwyd beirniadaeth Feiblaidd yno tu hwnt i ddim a wnaed erioed o'r blaen. Cymharent ysgriflyfrau; chwilient i mewn i eiriau, gramadeg, ac ystyr yr ysgrifeniadau dwyfol. Trosglwyddwyd eu sylwadau trwy *draddodiad*, yn gyntaf; ac wedi hyny mewn ysgrifen. Hyn oedd yr achos i alw y casgliad hwn o sylwadau yn *Masorah*—מָסֹרָה=*traddodiad;* a'r rhai a'u gwnaethant, neu a'u casglasant, yn *Masoretiaid.* Y mae y rhan fwyaf o'r sylwadau hyn yn cyfeirio at *y testyn*, ac yn cynnwys cyfarwyddiadau pa fodd i'w gadw yn bur oddi wrth wallau a chyfnewidiadau. Tybiai rhai o'r Iuddewon mai Moses oedd awdwr y Masorah, a phriodolai llawer ei ddechreuad i Ezra, a'r synagog fawr. Ond ymwrthodir yn awr â'r tybiau hyn. Y mae rhan o hono yn hynach na'r Talmud: ond o amser cyfansoddiad y gwaith hwn, yr oedd y sylwadau yn chwyddo o ganrif i ganrif, nes, tua dechreu y chweched ganrif, y casglwyd hwynt yn nghyd gan Iuddewon Tiberias. Mae beirniaid diweddar yn priodoli gwerth mawr i'r Masorah, yn ei gyssylltiad â chywirdeb a pherffeithrwydd testyn y Beibl Hebraeg, er y cynnwysa lawer o bethau diwerth ac ynfyd.

Fel hyn y ffurfiwyd, yn ystod rhai canrifoedd, yr hyn a elwir y testyn *Masoretaidd.* Cwbl sefydlwyd ef tua diwedd yr unfed ganrif ar ddeg. Cyfrifwyd ef gan yr Iuddewon fel yr unig destyn cywir. Esgeulswyd hen gopïau o'r Ysgrythyrau, a dygwyd y copïau Masoretaidd i arferiad yn gyhoeddus ac yn ddirgel. Y mae pob ymchwiliadau diweddar wedi cryfhau y grediniaeth yn ei gywirdeb.

Fel yr oedd yr Iuddewon yn cael eu gwasgaru trwy ddylanwad Mahometiaeth, yr oedd eu dynion dysgedig yn ymsefydlu yn Yspaen, yr Ital, a chanolbarthau Ewrop, ac yn cymmeryd y testyn Masoretaidd o'r Ysgrythyrau gyda hwynt, ac yn eu copïo i gyfarfod angenion y genedl. Yr oedd gwerth y copïau hyn yn ymddibynu ar y gofal gyda pha un yr oeddynt yn cael eu hysgrifenu. Yr ysgriflyfrau Yspaenaidd ydynt yn gyffredin y cywiraf; y nesaf mewn cywirdeb ydyw ysgriflyfrau yr Ital; ac yn ddiweddaf rhai Germany.

Mae testyn yr Hen Destament yn aros hyd yn awr heb ddim cyfnewidiadau o bwys ynddo, yn y ffurf y gadawyd ef gan y Masoretiaid. Gellir dosbarthu yr ysgriflyfrau trwy ba rai y trosglwyddwyd y testyn hwnw i'r oes bresennol i ddau ddosbarth, sef y rhai a berthynent i'r synagogau, a'r rhai a berthynent i bersonau unigol. Arolygid gwneuthuriad y blaenaf gyda'r fath ofal nad oes braidd yn bosibl i unrhyw wall, pa mor fychan bynag, ddyfod i mewn. Ysgrifenid hwynt yn yr hen ffurf o rolau o femrwn a lledr. Ond heb law y ffurf yma, defnyddiwyd hefyd i wasanaeth personol y ffurf o lyfr wedi ei wneuthur o bapyr. Yr oedd un copi yn gyffredin yn gynnyrch gwahanol ddwylaw: ysgrifenai un y cydseiniaid, un arall y llafarnodau, y trydydd y nodiadau Masoretaidd, ac felly yn y blaen. Olrheinir yr ysgriflyfrau hynaf i'r flwyddyn 1106, ac nid oes ond ychydig yn perthyn i'r ganrif hono, sef y ddeuddegfed; ac yn y drydedd ar ddeg y mae o ddeutu hanner cant; ac felly, cynnydda eu nifer yn mhob canrif olynol. Yn gyffredin, y rhai hynaf yw y rhai cywiraf; yr oedd mân wallau hefyd yn fwy tueddol i ymwthio i'r ysgriflyfrau nad oeddynt dan arolygiaeth y synagog. Yr oedd dysgedigion Iuddewig y canoloesoedd yn cadw eu golwg yn barhaus ar burdeb y testyn; ac yn fynych cymharent yr ysgriflyfrau â'u gilydd er mwyn sierhau hyn. Hefyd, y mae enwau amryw ysgriflyfrau (yn awr ar goll) o burdeb a chywirdeb arbenig yn adnabyddus, â pha rai y cymherid rhai newyddion a

Digitized by Google

ysgrifenid. Ar ol darganfyddiad y gelfyddyd o argraffu, cafwyd llwybr sicr i fynychu copïau o'r Ysgrythyrau yn berffaith rydd oddi wrth bob gwall ond y cyfryw a fyddent yn y copïau ysgrifenedig eu hunain. A lleihau neu hollol symmud ymaith y rhai hyn ydyw amcan beirniadaeth Ysgrythyrol. Yn yr argraffiadau cyntaf, dilynwyd ychydig o'r ysgriflyfrau oedd yn dygwydd bod yn gyfleus. Rhanau o'r Hen Destament a argraffwyd gyntaf; a'r Salmau oedd y gyfran a roddwyd gyntaf yn yr argraffwasg, yn y flwyddyn 1477. Y copi cyflawn cyntaf o'r Beibl a argraffwyd oedd yn Soncino, yn 1488, mewn rhan oddi wrth ysgriflyfrau, ac mewn rhan oddi wrth y llyfrau unigol oedd yn argraffedig yn flaenorol. Dygwyd allan argraffiad gan Gerson, yn Brecia, 1494, yn yr hwn ni ddilynwyd y testyn Masoretaidd yn gaeth, gan fod ynddo ddarlleniadau neillduol iddo ei hun. Copi o'r argraffiad hwn a ddefnyddiodd Luther i wneyd y cyfieithiad Germanaeg. Hyd yn hyn, Iuddewon yn unig oedd wedi arolygu y gweithrediadau o barth i ddygiad allan y Beibl Hebraeg. Yr argraffiad cyntaf a ddygwyd allan gan Gristionogion ydyw yr un sydd yn y *Beibl Amlieithog Complutensiaidd* (1514—17). Yr oedd hwn yn argraffiad annibynol ar y rhai blaenorol, wedi ei gymmeryd oddi wrth ysgriflyfrau na ddefnyddiwyd i'r perwyl o'r blaen. Ennillodd Daniel Bomberg glod mawr am ei lafur yn dwyn allan argraffiadau o'r Ysgrythyrau Hebreig. Cyhoeddodd wyth o argraffiadau—y cyntaf yn 1518—yn mharotoad pa rai, defnyddiodd ysgriflyfrau newyddion. Dilynir yr argraffiad Complutensiaidd, ac un Bomberg, i ffurfio *Beibl Amlieithog Antwerp* (1569—72); yr hwn drachefn a ddilynwyd yn *Beibl Amlieithog Llundain* (1657); ac un Paris (1629); ac un Leipzic (1750). Cyhoeddodd y Buxtorf hynaf, yr hwn y mae ei enw yn sefyll yn uchel mewn llenyddiaeth Hebreig, argraffiad bychan, ac un mawr rabbinaidd, yn 1618. Dilynai ef y Masorah, a gwerthfawrogir ei *Feibl Rabbinaidd* ef yn mysg cyfarpariadau beirniadol. Yn nesaf, ni gawn enwau Münster, Athias, Van der Hooght, Michaelis, a Houbigant, fel arolygwyr argraffiadau o'r Beibl Hebraeg; ac yn enwedig Kennicott, yr hwn a gymharodd, mewn rhan, 615 o ysgriflyfrau, a 52 o argraffiadau blaenorol, a'r Talmud, i barotoi ei argraffiad ef. Amcanai Kennicott ddwyn allan argraffiad o'r Hen Destament gyda'r un gofal a llafur ag eiddo Walton, Fell, a Mill, o'r Testament Newydd. Cyhoeddwyd ef mewn dwy gyfrol, yn Rhydychain, yn 1776—1778. Yn 1784—88, cyhoeddodd De Rossi argraffiad, yn yr hwn yr aeth heibio i Kennicott, ar sail ei lafur ef. Cymharodd yntau hefyd 731 o ysgriflyfrau, a 300 o argraffiadau yn cynnwys hen gyfieithiadau; a hwn a gyfrifir y casgliad goreu o wahanol ddarlleniadau sydd ar gael. Yn 1810, daeth allan argraffiad, mewn rhanau, dan arolygiad Boothroyd, yn swydd York, o'r Beibl Hebraeg, heb lafarnodau, yn ol testyn Kennicott a De Rossi.

Ar y cyfan, gellir edrych ar destyn Van der Hooght fel y *testyn derbyniedig*, fel y mae eiddo Elzevir yn *destyn derbyniedig* y Testament Newydd.

Nid yw beirniadaeth yr Hen Destament ond yn ei babandod, mewn cymhariaeth i'r Newydd. Y mae ysgriflyfrau yr Hen Destament hefyd yn ddiweddarach nag ysgriflyfrau y Newydd. Dywed Dr. Davidson, "fod yn llawn bryd gwneuthur ymdrech mwy penderfynol i buro testyn yr Hen Destament. Ni wna yr Iuddewon hyny:—attelir hwy gan barch i'r Masorah. Ond ni raid i Gristionogion deimlo llyfetheiriau parch gormodol i'r doctoriaid Masoretaidd.........Pwy bynag a ddwg allan argraffiad o'r Beibl Hebraeg tebyg i eiddo Griesbach o'r Newydd, a haedda ac a dderbyn ddiolchgarwch pawb sydd yn teimlo dyddordeb mewn cynnydd gwybodaeth Feiblaidd." Wrth i hyn fyned i'r wasg, yr ydym yn gweled hysbysiad fod Davidson ei hun wedi anturio ymaflyd yn y gorchwyl. Gwel HEBRAEG; MASORAH; TALMUD.—(*Kennicott's Dissertations; Bishop Marsh's Michaelis; Dr. Davidson, &c.*)

## Y BEIBL:—Y TESTAMENT NEWYDD.

### HANES Y TESTYN YSGRIFENEDIG.

Y mae pob olion o ysgrifeniadau gwreiddiol llyfrau y Testament Newydd wedi myned yn hollol ar goll. Er fod chwedl wedi ei thaenu yn y bummed ganrif, gan un Theodorus Lector, fod ysgrif wreiddiol Efengyl Matthew wedi ei chael, yr ydoedd yn hollol ddisail. O natur gyffelyb yr oedd y chwedl am ddarganfyddiad Efengyl Ioan, ac am ei chadwraeth yn eglwys Ephesus. Mor ddiweddar a diwedd y ganrif ddiweddaf yr oedd rhai yn dadleu fod hen ysgrif Ladin o Efengyl Marc ar gael, wedi ei hysgrifenu gan yr efengylwr ei hun. Prawf penderfynol fod yr ysgrifau gwreiddiol wedi eu colli yn bur fore ydyw hyn:—pan wnaed cyhuddiad yn erbyn Marcion o fod wedi llygru y testyn, nid oedd neb yn meddwl am brofi hyny trwy appelio at yr ysgrifeniadau gwreiddiol; hefyd, nid allasai Origen gael testyn hynach o Efengyl Ioan nag *Exemplar Heracleon.*

Pe gofynid pa fodd yr aeth ysgrifeniadau mor werthfawr ar goll mor fuan, dylid ystyried y defnyddiau ar ba rai yr ysgrifenent. Mae yn debygol, yn ol arfer yr amseroedd hyny, eu bod wedi eu hysgrifenu ar y papyrfrwyn (χαρτης); 2 *Ioan* 12. Ac os ar unrhyw achlysur y defnyddient sylwedd arall, y tebygolrwydd ydyw mai memrwn (*parchment*) tyner (*μεμβρανος*: 2 *Tim.* iv. 13) yr amser hwnw ydoedd. Yr oedd yn rhaid gan hyny eu bod wedi eu gwisgo allan yn fuan trwy y defnydd parhaus oedd yn cael ei wneyd o honynt, a'u trosglwyddiad o law i law. Y mae yn wir fod ysgriflyfrau ar bapyrfrwyn a memrwn ar gael yn bresennol, a ysgrifenwyd dros fil o flynyddoedd yn ol; ond heb law eu bod o natur mwy parhaol, nid ydynt wedi bod mewn arferiad beunyddiol; ond yn hytrach am lawer o honynt ni ddefnyddiwyd hwynt o gwbl. Gellir meddwl fod ysgrifeniadau gwreiddiol y Testament Newydd ar rolau o bapyrfrwyn wedi eu hysgrifenu yn golofnau gyda phwyntel (*calamus*) ac inc du (*δια μελανος και καλαμου*: 3 *Ioan* 13, 2 *Ioan* 12). Yr oedd yr ysgrifen ei hun yn y llythyren fawr (*uncial*), ac heb fod mor brydferth ar bapyrfrwyn ag yw yr hen ysgriflyfrau memrwn hynaf. Am y dull o ysgrifenu, gwel ADNOD.

Hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif, pan gasglwyd yr ysgrifeniadau sanctaidd at eu gilydd yn un gyfrol, nid oedd odid un copi i'w gael yn cynnwys yr oll o'r Testament Newydd. Yn ddiweddarach, yr oedd copïau felly yn brin, a'r ychydig oedd o honynt a gynnwysent hefyd yr Hen Destament yn y Groeg (megys y *Codex Vaticanus*, a'r *Codex Alexandrinus*); ac hefyd cynnwysai yr ysgriflyfrau hynaf o'r natur hwn ysgrifeniadau ereill yr oedd dadl yn nghylch eu hysbrydoliaeth, megys dau epistol Clemens Romanus, a gafwyd yn niwedd yr ysgrif Alexandriaidd. Y pedair efengyl fyddai yn cael eu copïo amlaf.

Digitized by Google

Yr oedd epistolau Paul yn cael eu copïo yn amlach na'r epistolau cyffredinol: ac yn fwyaf cyffredin byddai yr olaf mewn un gyfrol gydag Actau yr Apostolion; er yn fynych ceid yr holl epistolau yn rhwym gyda'r Actau. Y Dadguddiad fyddai yn cael ei gopïo anamlaf o holl lyfrau y Testament Newydd. Yr oedd trefn yr efengylwyr er yn fore yr un a'r drefn bresennol, fel y gwelir oddi wrth Melito, Irenæus, Origen, Awstin, a Jerome. Ond o'r copïau Lladin, ac hefyd un Groeg-Lladinaidd [*Codex Cantabrigiensis*] y mae amryw o'r rhai hynaf yn rhoi Ioan ar ol Matthew, ac yna Luc a Marc. Ar ol Actau yr Apostolion, safai yr Epistolau Cyffredinol; ac felly y mae y drefn nid yn unig yn y tri ysgriflyfr hynaf, yn ol esamplau Athanasius, a Cyril o Ierusalem, ond hefyd yn agos yr oll o'r copïau Groegaidd. Eusebius a roddodd epistolau Paul ar ol yr Actau, ac yn hyn dilynwyd ef gan yr Eglwys Ladinaidd. Yn nhrefn epistolau Paul yr oedd amrywiaeth mawr; y llawysgrifau hynaf a gytunant âg Athanasius i roddi yr epistol at yr Hebreaid ar ol yr Ail Epistol at y Thessaloniaid. Mae yr ysgrif Roeg-Ladinaidd [*Codex Claromontanus*] ar y llaw arall yn dangos mai arferiad boreuol a chyffredinol yr Eglwys Ladinaidd oedd rhoddi yr Hebreaid ar ol Philemon. Rhoddwyd yr Epistolau Cyffredinol, mor fuan ag y derbyniwyd hwynt i'r canon, yn y drefn y ceir hwynt yn bresennol, yn ol tystiolaeth Athanasius, Cyril o Ierusalem, Epiphanius, a Chynghor Laodicea. Ond yn y canonau epistolaidd, trefnir hwynt fel y canlyn:—Pedr, Ioan, Iago, Iudas. Athanasius yw y cyntaf sydd yn rhoddi Llyfr y Dadguddiad i lawr mewn rhestr gyflawn o lyfrau y Testament Newydd; ac, fel mewn oesoedd dilynol, rhoddwyd ef ganddo yn olaf.

Mor fore a'r canrifoedd cyntaf o'r cyfnod Cristionogol, daeth memrwn i arferiad, yn lle papyrfrwyn; ac yn gyffredin, po hynaf y byddai, teneuaf y byddai. O'r bedwaredd hyd yr unfed ganrif ar ddeg, braidd y defnyddid dim arall; ond o'r cyfnod diweddaf yn mlaen, daeth papyr cotwm i arferiad yn lle memrwn, ac yn fuan wedy'n papyr llian. Am fod memrwn yn brin, arferent yn fynych olchi neu grafu yr hen grwyn, i ddileu hen ysgrifeniadau oddi arnynt er mwyn eu hysgrifenu drosodd eilwaith. Fynychaf, y Beibl a orchuddiwyd yn y modd yma âg ysgrifeniadau y tadau, ac nid hen ysgrifeniadau ereill â'r Beibl. Pan beidiwyd ag arfer papyrfrwyn, peidiwyd hefyd a gwneyd llyfrau ar ffurf rhol, a dygwyd i mewn y ffurf o lyfr, fel yn bresennol. Yr oedd y llyfrau gan mwyaf yn gynnwysedig o dri neu bedwar o bapyrlenau dwbl (*τρισσα και τετρασσα; Euseb. Vit. Constant.*, iv. 37). Dosbarthwyd hwynt yn amryw golofnau yn y dechreu, ond yn fuan daeth hyny yn fater dibwys. Y llythyren fawr (*uncial characters*) a ddefnyddiwyd trwy yr holl eiriau, ac nid ar ddechreu ambell air; ac hyd y seithfed ganrif, yr oeddynt yn hollol amddifad o acceniadau, er fod y chwern-seiniau weithiau yn cael eu defnyddio. O'r seithfed a'r wythfed ganrif, rhoddir yr acceniadau, ond yn bur ddireol yn fynych. Yn y ddegfed ganrif, yr oedd y lythyren fechan wedi dyfod i arferiad cyffredinol, yn raddol, trwy newid ffurf yr un fawr o'i llun ysgwâr cyntefig.

Yn yr eglwysi cyntaf, tra yr oedd yr apostolion gyda hwynt, nid oeddynt yn teimlo angenrheidrwydd i fod mor eiddigeddus dros lythyren y dadguddiad ag y daethant ar ol hyny, pan nad oedd ganddynt un cyfrwng arall i drosglwyddo meddwl Duw iddynt, ac i benderfynu pob dadleuon a gyfodent yn eu mysg. Heb law hyny, yr oedd yr ysgriflyfrau cyntaf yn cael eu gwneyd yn ol dymuniadau ac angenion personau unigol, yn hytrach na than arolygiad eglwysi neu gymdeithasfaoedd cyffredinol. Felly, yn lluosogiad yr ysgriflyfrau, er eu gwneuthur gyda'r gofal mwyaf, yr oedd mân wahaniaethau yn ymlithro i mewn, heb neb mewn awdurdod i'w cywiro nac i dynu sylw atynt. Wrth gael eu gadael iddynt eu hunain, nid rhyfedd fod y copïwyr, weithiau, yn syrthio i ddiofalwch. Cwynai Cicero o herwydd hyn yn ei amser ef. Yr oedd yn bosibl i gopïwr gam glywed yr hyn a ddarllenid iddo, neu gam weled ei hunan, neu gam ddeall. Yr oedd camgymmeriadau trwy y golwg yn haws syrthio iddynt, o gymmaint ag nad oedd y geiriau yn cael eu gwahanu, ond y cyfan yn rhedeg i'w gilydd; yr oedd yn hawdd rhoi y naill lythyren yn lle y llall; gadael gair allan, ei ail ysgrifenu, ei drosglwyddo o'i le; neu yr hyn a allasai ddygwydd mewn unrhyw amgylchiad, gam ddosbarthu y llythyrenau. Pan ysgrifenai un, tra y byddai un arall yn darllen iddo, gallesid cymmeryd geiriau o swn cyffelyb y naill am y llall. Arweiniai diffyg deall i amrywiaeth llythyreniad; ac yn ddiweddarach, yr oedd talfyriadau yn agored i'w cymmeryd y naill yn lle y llall. Nid yw yn annhebyg [y buasai cyfeiliornwyr yn ymdrechu gwneyd cyfnewidiadau ffafriol i'w syniadau eu hunain. Dywed Eusebius [*Hist. Eccles.*, iv. 27] am Tatian, "fod rhai yn hysbysu am dano, ei fod yn newid geirau yr apostol, gan newid trefn yr ymadrodd." Nid yw yn debygol, ar yr un pryd, fod hyn wedi effeithio nemawr ar y copïau o'r Ysgrythyr oedd yn wasgaredig yn yr eglwysi ac yn mysg Cristionogion. Ni phetrusai rhai, oedd yn eiddigeddus dros ieithwedd bur, wneyd cyfnewidiadau, er mwyn cywirio, fel y tybient hwy, y gystrawen, neu er mwyn gwneyd y testyn yn fwy tarawiadol, yn fwy eglur, neu yn fwy dillyn. Dywed Jerome, mewn llythyr i Damascus, fod cyfnewidiadau wedi eu gwneyd yn enwedig yn yr efengylwyr, wrth geisio eu cydgordio:—os tybient fod y naill yn dywedyd llai na'r lleill, trwy chwanegu ato; neu os mwy na'r hwn a gymmerid yn safon, trwy ei gwtogi. Gwnaed yn gyffelyb gyda dyfyniadau o'r Hen Destament, trwy geisio eu cyssoni â'r Deg a Thrigain. Yr ydoedd yn arferiad cyffredin i ysgrifenwyr heb fod dan arweiniad dwyfol gyfansoddi hanes y dygwyddiadau a adroddir yn yr efengylwyr; ac y mae yn debygol fod llawer o'r adroddiadau hyny yn gorphwys ar dystiolaeth gredadwy, er nad oeddynt yn dwyn sel un o'r apostolion. Y mae yn bosibl y gallai rhai, weithiau, geisio cyssoni yr efengylwyr â'r ysgrifeniadau diawdurdod hyn, a gwneyd rhyw gyfnewidiad yn llythyren y gair ysbrydoledig, er mwyn cael y ddau yn debycach i'w gilydd. Yr oedd rhai dynion dysgedig yn gwneyd nodiadau ar ymyl eu hysgriflyfrau. Gallai copïwyr diweddarach ddychymygu eu bod yn welliadau, neu wedi eu bwriadu i fod yn chwanegiadau, ac felly eu rhoi i mewn.

Am y copïwyr eu hunain, yr oedd gwahaniaeth rhwng y rhai dysgedig ac annysgedig o honynt. Yr anhawsder i ochelyd camgymmeriadau yn hollol oedd yr achos fod dynion o ddysgeidiaeth yn ymgymmeryd â'r gorchwyl. Crybwyllir am ddynion, megys Pamphilus [*Eusebius' Hist. Eccles.*, vi. 32], mewn hen hanesiaeth eglwysig, a ymroddodd gyda chlod mawr i'r gwasanaeth hwn. Ar ol i amrywiaeth unwaith ddechreu ymddangos yn y copïau, gallasai ysgrifenwyr dysg-

Digitized by Google

edig ac annysgedig wneyd cyfnewidiadau pellach —un dosbarth trwy anwybodaeth a diofalwch; a'r llall trwy eu heiddigedd i gael y testyn gwreiddiol yn bur. Y copïwyr enwocaf am brydferthwch, rheoleidd-dra, a destlusrwydd eu copïau, oedd yr Alexandriaid; ac o'u dwylaw hwy y daeth y rhan fwyaf o'r hen gopïau prydferthaf mewn llythyrenau mawr, yn Groeg a Lladin; eto. o herwydd eu diffyg o berffaith hyddysgrwydd yn y naill a'r llall, y mae eu hysgriflyfrau hwy yn wallus. Ac er ei fod yn arferiad i roddi pob copi, wedi ei orphen, i arolygiad un a benodid o herwydd ei gymhwysder i hyny, yr hwn a elwid *diorthôtês* (διορθωτης), eto, gallai nad oedd hwnw yn gofalu ond am gywirdeb yr ysgrif yn ol y cynllun (*exemplar*) oedd o flaen yr ysgrifenydd.

Yma, y mae yn naturiol gofyn, Oni wnaeth tadau dysgedig yr eglwys rywbeth penderfynol a thrwyadl tuag at adferu y testyn gwreiddiol, neu, o'r hyn lleiaf, i sefydlu testyn mor rydd oddi wrth y gwallau lleiaf ag yr oedd yn ddichonadwy, fel y gwnaeth amryw o honynt gyda chyfieithiad Groeg yr Hen Destament? Mor fore a'r drydedd ganrif, y mae genym hanes tri a ymgymmerodd â'r cyfryw lafur; sef Origen, Hesychius, esgob yn yr Aipht, a Lucian, henadur yn Antioch. Jerome sydd yn hysbysu am y ddau olaf eu bod wedi ffurfio math o adgyweiriad o'r Testament Newydd: ond pa lwybr a gymmerwyd ganddynt at hyny, nid yw yn dyweyd, ac nid yw yn amlwg chwaith pa beth oedd dylanwad eu hymdrechiadau. Enwogodd Origen ei hun tu hwnt i neb arall yn y canrifoedd boreuol hyny mewn beirniadaeth Ysgrythyrol; ac y mae ei ysgrifeniadau o bwys mawr, hyd yn awr, i'r rhai sydd yn llafurio i sierhau testyn cywir o'r Testament Newydd. Ond er yr amrywiaeth oedd wedi ymlithro i wahanol gopïau ysgrifenedig o'r Testament Newydd, eto fe ymddengys, mor fore a'r bedwaredd a'r bummed ganrif, y gellesid dosbarthu yr ysgriflyfrau hyn yn ol eu tebygrwydd i'w gilydd. Yr oedd tebygolrwydd i'w ganfod yn y copïau, yn ol y wlad yr ysgrifenwyd hwynt ynddi—yr oedd copïau yr un wlad yn debycach na chopïau gwahanol wledydd—ac hefyd, i fesur, yn ol y dylanwadau gwahanol yr ysgrifenwyd hwynt danynt. Yn ol y tebygolrwydd oedd rhyngddynt â'u gilydd, gellid, gyda llawer o gywirdeb, eu dosbarthu i ysgriflyfrau dwyreiniol a gorllewinol; neu, a gwneyd dosbarthiad manylach, gellid dywedyd fod testyn Alexandriaidd neu Aiphtaidd, a ddefnyddid, y mae yn debyg, gan Iuddewon Cristionogol y dwyrain, y rhai oedd yn defnyddio y testyn Groeg o'r Hen Destament. Hwn hefyd oedd testyn Cristionogion dysgedig Alexandria a'i threfedigaethau. Hefyd, canfyddir nodwedd neillduol yn y dosbarth Lladin, o blaid ysgrifau, yr hyn a ddylanwadodd ar y copïau Groeg a ddefnyddiai y Lladinwyr. Yr oedd hefyd ddosbarth Asiaidd; a ddefnyddid, yn benaf, gan y rhai oedd yn enedigol o Groeg, ac a breswylient yn eu gwlad eu hunain, neu yn Asia Leiaf. Ac yn ddiweddaf, y testyn Bysantiaidd, yr hwn a ddefnyddid yn Eglwys Sefydledig Caer Cystenyn. Yn y rhai olaf yn unig y mae math o unffurfiaeth awdurdodedig, a hwy yn unig a ledaenid yn y canrifoedd diweddaf o ymherodraeth Caer Cystenyn. Y rhai hyn yn unig sydd yn bresennol i'w cael yn gyflawn; ac y mae ynddynt brawf mewnol fod y testyn hwn wedi ei ffurfio trwy ymuniad graddol y lleill, tra y mae y testyn Asiaidd i'w ganfod amlycaf. Nid yw nodwedd neillduol y testynau ereill i'w ganfod yn bresennol yn hawdd, o herwydd eu dylanwad ar eu gilydd.

Yma, cyfeiriwn at yr hen ysgrifenwyr, oedd naill ai yn gwasanaethu i gadw y testyn yn ddilwgr, neu, trwy eu defnydd parhaus o'r Ysgrythyrau yn eu hysgrifeniadau, yn dystion pa beth ydoedd yn eu hoes a'u gwlad hwy. Y cyntaf mewn trefn a gawn a wasanaethodd yr amcan olaf oedd Irenæus, yr hwn oedd yn byw yn hanner diweddaf yr ail ganrif. Ar ei ol ef, yr oedd Clemens Alexandrinus. Ond am wybodaeth feirniadol, rhagorai Origen ar y ddau, yr hwn a fu fyw trwy yr hanner cyntaf o'r drydedd ganrif.

Ar ei ol ef, y beirniad pwysicaf o'r testyn ydoedd Jerome, yr hwn ydoedd awdwr y Vulgate, y cyfieithiad a ddefnyddir gan Eglwys Rhufain o'r holl Feibl. O'r drydedd hyd y bummed ganrif, y mae yr ysgrifenwyr canlynol yn mysg y Groegiaid yn dystion dros ansawdd y testyn:—Athanasius, Eusebius, Epiphanius, y ddau Cyril, Chrysostom, a Theodoret; ac hefyd, Ephraim Syrus, o herwydd i'w weithiau ef gael eu cyfieithu i'r Groeg yn fuan ar ol eu cyfansoddi. Ac yn mhlith y Lladinwyr, am yr un cyfnod, Cyprian, Tertullian, Lucifer, Hilary o Poictiers, Hilary y diacon, Ambrose, Awstin, a Rufinus; ac hefyd, gwaith Irenæus, yr hwn a gyfieithwyd o'r Groeg i'r Lladin. Yn y chweched ganrif, gwnaed esboniad ar y Dadguddiad gan Andrew o Cappadocia, ac un Lladin, gan Primasius. Yn yr wythfed ganrif, cymmerodd Bede lafur gyda thestyn Actau yr Apostolion; ceir llawer o ddyfyniadau yn Johannes Damascenus; ac yn ol gorchymyn Charles Fawr (Charlemagne), gwnaeth Alcuin ymdrechiadau mawr gyda'r testyn Lladinaidd. Yn y nawfed ganrif yr oedd Photius, ac yn y ddegfed, Suidas, yn llafurio yn yr un maes. Yn y canrifoedd canlynol, ymddangosodd esboniadau dysgedig ar y Testament Newydd, gan Theophylact, Œcumenius, ac Euthymius Zigabenus, yn y *Correctoria Bibliæ*, a ddaeth allan yn y drydedd ganrif ar ddeg. Gwnaed ymdrech i adgyweirio y Vulgate, yn unol âg ysgriflyfrau Groegaidd. Yn y bymthegfed ganrif, galwodd Laurentius Valla sylw neillduol at yr ysgriflyfrau Groegaidd, er symmud ymaith y gwallau y tybiai efe oedd yn y cyfieithiad Lladin. Am restr o'r ysgriflyfrau sydd wedi eu trosglwyddo i ni trwy y canoloesoedd, gwel BEIRNIADAETH Y BEIBL.

### HANES Y TESTYN ARGRAFFEDIG.

Yr oedd yr argraffwasg wedi bod mewn gwaith am hanner can mlynedd cyn i ymgais gael ei wneuthur i argraffu y Testament Newydd. Pe buasai ysgrifeniadau yr apostolion eu hunain ar gael, ac yn adnabyddus, buasai argraffiad o honynt hwy, yn cynnwys geiriau yr ysgrifenwyr sanctaidd, yn hollol rydd oddi wrth wallau o bob natur. Ond nid oeddynt ar gael; ac heb law hyny, yr oedd y copïau o honynt oedd wedi cael eu gwneuthur, yn wasgaredig yn gannoedd trwy holl Asia ac Ewrop; ac o angenrheidrwydd, gan nad oedd yr holl gopïwyr yn anffaeledig, fel yr ysgrifenwyr ysbrydoledig eu hunain, rhaid fod llawer o fân wahaniaethau rhyngddynt a'u gilydd. Er mwyn meithrin hyder yn mhurdeb dilwgr y Testament Newydd, yn mhob peth o bwys mewn athrawiaeth a hanesiaeth, nid oes dim yn fwy effeithiol na sylwi pa fodd y mae y gwahanol argraffiadau beirniadol o'r Testament Groeg wedi cael eu parotoi. Wrth son am argraffiad beirniadol, nid ydys yn meddwl argraffiad wedi ei gymmeryd oddi wrth, ac yn dilyn mor fanwl ag y gellir, ryw argraffiad blaenorol;—ond un wedi

Digitized by Google

ei barotoi yn hollol, neu mewn rhan, yn annibynol ar bob un arall, ac oddi wrth ysgriflyfrau na ddefnyddiwyd o'r blaen i'r un perwyl, neu oddi wrth rai a chwiliwyd ac a gymharwyd o'r newydd. Nid yw yr holl Feiblau Seisonig a Chymreig sydd yn arferedig yn y wlad hon, ond copiau argraffedig o'r *un* Testament Beirniadol; a hyny ydyw yr achos eu bod yn berffaith unffurf, heb y gwahaniaeth lleiaf rhyngddynt a'u gilydd.

Yma, y mae yn naturiol gofyn, A oes rhyw ragoriaeth, neu uchafiaeth awdurdod, yn perthyn i'r testyn gwreiddiol sydd yn sail i'r copiau a ddefnyddir yn gyffredin genym, ar bob un arall? A chan fod pob Testament Newydd beirniadol yn ffrwyth llafur annibynol ar wahanol ysgriflyfrau, a ydyw y gwahaniaeth rhyngddynt yn fawr? Y mae y ddau ymofyniad hyn yn ein harwain at hanes byr o'r gwahanol argraffiadau beirniadol; yr egwyddorion ar ba rai y ffurfiwyd hwynt; ac hefyd, y gwahaniaeth rhyngddynt.

Argraffwyd yr oll o'r Testament Newydd gyntaf ar draul Cardinal Ximenes, gyda'r Hen Destament, yn Hebraeg, Groeg, a Lladin; ac fe'i galwyd, yr *Argraffiad Amlieithog Complutensiaidd.* Pa ysgriflyfrau a ddefnyddiwyd fel sail yr argraffiad hwn? Nid oedd un ymchwiliad blaenorol wedi bod i gael y rhai hynaf, na'r rhai cyflawnaf, na'r rhai oedd yn meddu ar unrhyw ragoriaeth arall; ond defnyddiwyd y rhai oedd yn dygwydd bod yn nghymmydogaeth arolygwyr y gwaith. Cafwyd amryw o lyfrgell y pab; ac enwir y llawysgrif a elwir y *Codex Venerandæ Vetustatis*, yr hwn sydd wedi bod ar goll o hyny hyd yn awr. Y farn gyffredin ydyw, mai ychydig oedd nifer yr ysgriflyfrau a ddefnyddid, a bod y rhai hyny hefyd yn rhai diweddar. Gallesid dysgwyl, gan nad oedd ysgrifeniadau gwreiddiol yr apostolion ar gael, y buasent yn gwneyd ymdrech i sierhau y copiau hynaf, agosaf at oes yr apostolion, a allasent; ond, yn ol pob ymchwiliad sydd wedi ei wneyd, ychydig o ysgriflyfrau diweddar o lyfrgell y pab a ddefnyddiwyd, a rhai na chyfrifir hwynt o werth mawr gan arolygwyr beirniadol. Y mae pob sicrwydd nad oedd yr ysgriflyfr tra gwerthfawr a elwir y *Codex B*, neu y *Vaticanus*, yn eu mysg. Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn yn 1520, er ei fod wedi ei orphen yn 1514. Felly, yr argraffiad cyntaf a *gyhoeddwyd* oedd un Erasmus, yn Groeg a Lladin, yn 1516.

Yr oedd argraffiad Erasmus yn hollol annibynol ar un Ximenes, ac wedi ei barotoi oddi wrth ysgriflyfrau gwahanol, a'r rhai hyny yn ychydig o nifer, ac yn rhai diweddar hefyd. Dau oedd ganddo o'r efengylwyr, dau o'r Actau a'r epistolau, ac un o'r Dadguddiad, yr hwn oedd yn fyr o'r chwe adnod olaf, y rhai a gymmerodd o'r cyfieithiad Lladin, sef y Vulgate. Daeth allan ail argraffiad, cyffelyb o ran maint i'r cyntaf, ond wedi ei newid mewn rhai cannoedd o fanau, yn 1519; ac yn 1522, daeth allan y trydydd argraffiad, yn yr hwn y rhoddes i mewn gyntaf 1 *Ioan* v. 7, o'r *Codex Montfortinus*, a ysgrifenwyd yn y bymthegfed ganrif, sydd yn awr yn University College, Dublin. Daeth allan bedwerydd argraffiad, yn 1527, gydag ychydig gyfnewidiadau, yn enwedig yn y Dadguddiad, yn ol y testyn Complutensiaidd. Yn 1535, daeth allan drachefn, heb braidd un newidiad. Nid allasai Testament Newydd Erasmus, gan hyny, fod o awdurdod uchel fel gwaith beirniadol, oddi wrth nifer nac oed yr ysgriflyfrau a ddefnyddiodd, nac ychwaith yr amser a roddodd i'w barotoi. Cynnygiwyd ef iddo gan yr argraffydd, yn Ebrill, 1515, a gorphenwyd ef, medd y tanysgrif, yn Chwefror, 1516. Parhawyd i gyhoeddi y testyn a sefydlwyd yn yr argraffiad Complutensiaidd, ac hefyd un Erasmus, yn hir, heb ond ychydig o gyfnewidiadau. Ac fel y dangosir yn yr erthygl ADGYWEIRIAD, y mae y *testyn derbyniedig*, neu yr un mewn arferiad cyffredin, yn seiliedig ar y ddau hyn. Cymmerir ef yn benaf o drydydd argraffiad Robert Stephens, argraffydd dysgedig Paris, a gyhoeddwyd yn 1550, wedi ei newid mewn ychydig fanau gan Beza; a chymmerwyd hwn drachefn oddi wrth bummed argraffiad Erasmus, ac yn y Dadguddiad, oddi wrth yr argraffiad Complutensiaidd. Gan hyny, y mae awdurdod y testyn sydd mewn arferiad cyffredin yn gorphwys ar yr ysgriflyfrau mwyaf diweddar oedd yn dygwydd bod o fewn cyrhaedd arolygwyr yr argraffiadau hyn. Yn 1633, y cyhoeddwyd y *textus receptus*=*y testyn derbyniedig*; hyny yw, y testyn sydd wedi bod o hyny hyd yn awr mewn arferiad cyffredin trwy holl wledydd cred: ac ar hwn y mae cyfundraethau o dduwinyddiaeth, esboniadau, a llyfrau dysgedig ereill, wedi eu seilio; ac oddi wrth hwn y mae cyfieithiadau diweddar wedi eu gwneyd i luaws mawr o ieithoedd.

Yr oedd yn naturiol dysgwyl y buasai ereill, naill ai dan gymhelliad chwilfrydedd neu barch i'r Ysgrythyrau, yn chwilio allan ysgriflyfrau ereill, adnabyddus i arolygwyr argraffiad Ximenes, ac hefyd i Erasmus, a'u cymharu, a chyhoeddi argraffiadau newyddion o'r Testament Newydd yn unol â hwy. Felly y gwnaed yn ystod y can mlynedd cyntaf ar ol i'r testyn cyffredin gael ei gydnabod fel yn awdurdodedig. Ymddangosodd tri argraffiad gwerthfawr, yn cynnwys hysbysiad o'r gwahanol ysgriflyfrau, cyfieithiadau, a dyfyniadau o'r tadau, a ddefnyddiwyd i'w parotoi [*Apparatus criticus*=*Cyfarpar Beirniadol*]. Ymddangosodd y cyntaf yn *Meibl Amlieithog Brian Walton.* Yn y bummed gyfrol y mae y Testament Newydd, wedi ei argraffu yn Groeg, Lladin, Syriaeg, Arabaeg, ac Ethiopaeg—yn cynnwys y testyn cyffredin. Yn y chweched gyfrol, y mae y darlleniadau gwahanol a gafwyd wrth gymharu un ar bymtheg o ysgriflyfrau. Ymddangosodd gwaith Walton yn y flwyddyn 1657. Yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1675, ymddangosodd argraffiad newydd, dan arolygiad y Dr. J. Fell, esgob Rhydychain, gyda darlleniadau gwahanol o dros gant o wahanol ysgriflyfrau a chyfieithiadau=*Ex plus centum MSS., Codicibus, et Antiquis Versionibus.* Y trydydd a'r pwysicaf oedd gwaith y Dr. John Mill; yr hwn a gyhoeddwyd yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1707. Yr oedd hwn yn waith deng mlynedd ar ugain:—gorphenwyd ef ond pedwar diwrnod ar ddeg cyn ei farwolaeth. Casglodd yn nghyd yr holl ddarlleniadau gwahanol oedd wedi eu nodi cyn ei amser ef; a chwanegodd atynt trwy lafur annibynol ar ysgriflyfrau a chyfieithiadau oedd heb eu cymharu o gwbl neu ond mewn rhan o'r blaen. Daeth allan argaffiad o waith Mill, yn Amsterdam, gan L. Küster, gyda darlleniadau o ddeuddeg o ysgriflyfrau newyddion.

Y nesaf ar faes beirniadaeth ysgrythyrol ydyw Bengel; yr hwn a gyhoeddodd ei argraffiad ef yn y flwyddyn 1734. Y mae yn hyfryd cyfarfod âg efrydiau beirniadol mewn cyssylltiad â gair Duw, yn cael eu dwyn yn mlaen gan y rhai sydd yn adnabod gwerth ysbrydol y gyfrol sanctaidd eu hunain. Y mae hyn yn rhoddi dyddordeb neill-

Digitized by Google

duol yn llafurwaith Bengel. Fe roddai ef y darlleniadau gwahanol, a'r sylwadau arnynt, yn y *Cyfarpar Beirniadol*, yn niwedd y gyfrol. Gwnaeth, hefyd, yr hyn a esgeuluswyd yn hir gan arolygwyr diweddarach; sef, rhoddi profion *dros* ac yn *erbyn* pob darlleniad. Dilynai Bengel destyn yr argraffiadau blaenorol, gan ddefnyddio yr ysgriflyfrau hefyd yn y Dadguddiad. Yr oedd y darlleniadau gwahanol erbyn hyn wedi cynnyddu i gymmaint nifer, fel yr ymdrechai Bengel rwyddhau y defnydd o honynt, drwy eu dosbarthu yn ddau deulu—yr Asiaidd, a'r Affricanaidd.

Gwnaeth J. J. Wetstein lawer drwy argraffiad a gyhoeddodd yn y flwyddyn 1751 a 1752, i alw sylw ar y mater hwn. Y mae ei *Gyfarpar* ef—a ffurfiwyd o hen ysgriflyfrau, y cyfieithiadau, a'r tadau, yr hwn a chwyddwyd hefyd gan sylwadau ymchwilwyr hen a diweddar—yn parhau yn drysorfa o ddefnyddiau beirniadol ac esboniadol, ac yn dangos ymroddiad a dysgeidiaeth na welir ond yn anfynych mewn un dyn. Y mae ei gasgliad o ddarlleniadau, yn nghyd â'r awduron drostynt, yn lluosocach ac yn fwy gwerthfawr na dim a gasglwyd o'r blaen;—y cyfan yn ffrwyth deng mlynedd ar ugain o lafur. Teithiodd am ddefnyddiau i'r Almaen, Ffrainc, Holland, a Lloegr; ond yn llyfrgell freninol Paris y cafodd fwyaf. Cymharodd ddeugain o ysgriflyfrau na ddefnyddid o gwbl, neu ond yn anmherffaith iawn, o'r blaen: a hyn yn annibynol ar ffrwyth ymdrechiadau ereill. Efe a ddechreuodd yr arferiad o ddynodi yr ysgriflyfrau mewn llythyrenau mawr â *llythyrenau*, a'r rhai mewn llythyrenau bach â *rhifnodau*. Ei amcan oedd dwyn allan destyn hollol annibynol ar yr un cyffredin; ond o herwydd gwrthwynebiad, ni wnaeth ond dynodi ar ymyl y ddalen y cyfnewidiadau a gymmeradwyai efe. Ond yn Llundain, yn y flwyddyn 1763, cyhoeddodd Bowyer, argraffydd dysgedig, Destament Groeg, yn unol â syniadau Wetstein.

Y mae Dr. John James Griesbach wedi ennill enwogrwydd mawr yn hanes beirniadaeth y Testament Newydd. Newidiodd ef y testyn cyffredin, nid ar dybiaeth, nac ar sail cyfieithiadau na dyfyniadau y tadau, ond yn unig ar sail yr ysgriflyfrau. Mabwysiadodd syniad Bengel a Semler am deuluoedd o ysgriflyfrau, a gweithiodd ef allan gyda gallu mawr. Defnyddiodd lafur Mill, Wetstein, a Bengel, ond cywirodd lawer o gamgymmeriadau a wnaethant yn eu dyfyniadau, a chwanegodd atynt hefyd ffrwyth ymchwiliad i naw o ysgriflyfrau a gafodd yn Lloegr a Ffrainc, heb law rhai ereill. Hyn oedd blaenffrwyth ei lafur, yr hyn a ffurfiodd gyfnod pwysig yn meirniadaeth y Testament Newydd. Ond yn y cyfamser, cyhoeddodd C. F. Matthæi, cadeirdraw yn Moscow, argraffiad o ran fawr o'r Testament Newydd, seiliedig ar ysgriflyfrau a gafwyd yn Moscow, y rhai a gymharwyd ganddo ef am y waith gyntaf. Defnyddiodd tua chant o ysgriflyfrau o fwy neu lai o'r Testament Newydd: yr oedd rhai o honynt o gryn oedran, megys V, a ysgrifenwyd yn yr wythfed ganrif. Yr ydoedd yn wrthwynebydd i ddosbarthiad adgyweiriadol o'r ysgriflyfrau: hefyd, ni roddai werth mawr ar eu hynafiaeth, yn enwedig ar y *Codex Cantabrigiensis* (D), ac ar ddyfyniadau o'r tadau. Casglodd Birch, yr hwn oedd yn gadeirdaw yn Copenhagen, lawer o ddefnyddiau newyddion tua'r un amser yn ei argraffiad o'r pedair efengyl. Yr holl nifer o Rufain, Yspaen, Venice, a manau ereill, oedd 120. Efe hefyd oedd y cyntaf a gymharodd y *Codex Vaticanus*, oddi eithr yn Luc a Ioan, yr hyn a wnaed o'r blaen i Dr. Bentley. Yn hyn y mae prif ragoriaeth ei waith ef yn gynnwysedig.

Gyda yr holl ddarlleniadau blaenorol a allai gael, ac a farnai o bwys, ymbarotodd Griesbach i gyhoeddi ei ail a'i brif argraffiad. Nid ei amcan ef oedd gosod o'r neilldu lafur Wetstein, a beirniaid blaenorol; ond dethol o honynt oll y darlleniadau pwysicaf a gwerthfawrocaf, a chyhoeddi argraffiad cyfleus i'r llogell—testyn diwygiadol, gyda *Chyfarpar Beirniadol*, fel ag i alluogi efrydwyr y Testament Newydd i ffurfio barn am ffrwyth yr holl lafur blaenorol. Y mae wedi dynodi trwy lythyren lai y manau y mae efe yn gwahaniaethu oddi wrth y testyn cyffredin; a thrwy wahanol ddyfeisiau y mae yn dadgan ei farn am gywirdeb pob darlleniad. Cyhoeddodd hefyd ragarweiniad (*prolegomena*), a fernir yn anhebgorol i bob beirniad.

Y nesaf mewn pwysigrwydd oedd y Testament Newydd a gyhoeddodd Dr. J. M. A. Scholz, cadeirdraw Pabyddol yn Bonn. Y mae prif werth hwn yn dibynu ar y nifer mawr o ysgriflyfrau a ddefnyddiwyd yn ei barotoad, o ba rai y cymharwyd 343 gan ereill, a 331 gan Scholz ei hun. Ymddibynai ef yn benaf ar yr ysgriflyfrau oedd i'w cael yn Mhatriarchaeth Caer Cystenyn, yn y rhai y mae cyffelybrwydd mawr. Felly, mewn lluaws o fanau lle y canlynai Griesbach y darlleniadau hynaf, ymddibynai Scholz ar y rhai diweddaraf, ac felly daeth yn nes i'r testyn cyffredin. Gwerthfawrogwyd testyn Scholz yn fawr gan y rhai oedd yn ofni cyfnewidiadau. Gwrthwynebai ef hefyd adgyweiriad Griesbach, gan gynnyg ei hun ddosbarthiad deublyg yn ei le. Nid yw gwaith Scholz yn meddu yr un awdurdod yn mhlith beirniaid ag eiddo Griesbach. Ac er y rhoddir y flaenoriaeth yn hytrach i'w ddosbarthiad ef o ysgriflyfrau—yn yr hwn y geilw y rhai hynaf, sef y cyfieithiadau Lladin, y ddau gyfieithiad Aiphtaidd, a'r Ethiopaeg, yn *Alexandriaidd*; a'r rhai diweddaraf, yn nghyd â'r cyfieithiadau Syriaidd, y Gothig, y Georgiaidd, a'r Sclavonaidd, ac hefyd rhai o'r tadau o'r bedwaredd ganrif yn mlaen—eto, o herwydd ei ddiffyg mewn medr beirniadol, craffder, canfyddiad manwl o fân wahaniaethau, a barn gywir, o'i gymharu â Griesbach, nid yw ei destyn ef yn ogyfuwch mewn gwerth.

Yn nesaf, ymddangosodd Lachmann, yr hwn a gymmerodd lwybr hollol groes i Scholz. Penderfynodd osod o'r neilldu y testyn cyffredin o gwbl, a dechreu o newydd, fel pe na buasai hwnw mewn bod. Penderfynai hefyd ddefnyddio ond yr ysgriflyfrau hynaf, fel yr oedd Scholz wedi defnyddio y rhai diweddaraf. Y prif ysgriflyfrau a ddefnyddiodd ydynt A—y *Codex Alexandrinus*; B—y *Vatican*; C—y *Codex Ephraemi*; D—y *Codex Cantab.*, yn yr Efengylau a'r Actau; Δ—y *Codex Claromontanus*, yn epistolau Paul; ac H, P, Q, T, Z, ac ereill, y rhai oedd yn cynnwys y testyn oedd mewn arferiad yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif: ond ni ddeuai i lawr yn mhellach na hyny. Cyfyngai ei hun hefyd at y tadau hynaf, Irenæus, Origen, Cyprian, Hilary, esgob Poictiers, a Lucifer, esgob Caligari. Proffesai roddi testyn y pedair canrif gyntaf o ysgriflyfrau dwyreiniol —y rhai a alwyd gan ereill yn Alexandriaidd a gorllewinol—heb roddi yn y testyn ond y darlleniadau y gellid rhoddi prawf hanesyddol drostynt. Y gwrthwynebiadau sydd wedi cael eu gwneyd yn erbyn argraffiadau Lachmann ydynt—

Digitized by Google

nad oes un rheswm neillduol dros dynu y llinell rhwng yr ysgriflyfrau *hen* a diweddar yn niwedd y bedwaredd ganrif: na ddylasai gyfyngu ei hun at mor lleied o dystion, a'r rhai hyny o un dosbarth: nad oes un rheswm digonol dros ymwrthod yn llwyr â phob ystyriaeth o *natur* y darlleniadau, ac â'r rhesymau mewnol dros y naill yn hytrach na'r llall, trwy ymddiried yn hollol ar awdurdod allanol. *Ond er hyny,* CHARLES LACHMANN *a ddygodd allan yr argraffiad cyntaf o'r Testament Newydd, wedi ei seilio yn hollol ar dystiolaeth yr ysgriflyfrau hynaf, yn hollol annibynol ar draddodiadau diweddar.* Ymddangosodd argraffiad bychan yn 1831; a'r gyfrol gyntaf o argraffiad mawr yn 1842, a'r ail gyfrol yn 1850.

Yn 1849, cyhoeddodd Tischendorff ail argraffiad o'i Destament Newydd, yn yr hwn y mae y testyn fel yr eiddo Lachmann, yn hollol annibynol ar y testyn derbyniedig, ac wedi ei seilio yn unig ar yr ysgriflyfrau hynaf, yn ol yr egwyddor ganlynol:—os bydd amrywiaeth yn y darlleniadau, y mae yn rhoddi y flaenoriaeth i'r ysgriflyfrau Groeg hynaf, y cyfleithiadau hynaf, a'r tadau, ond fod awdurdod y tadau i gael ei gyfyngu gan amryw reolau sydd yn ymddangos yn rhesymol. Rhoddir y rhai hyn eto cyn diwedd yr erthyglau hyn. Y mae Tischendorff wedi teithio deirgwaith drwy Ffrainc, Lloegr, Holland, Switzerland, Italy, a'r Dwyrain: ei gartref ydyw yr Almaen, dan nawdd tywysog breninol Saxony. Ac yn y teithiau hyn, y mae wedi cymharu y cyfan o'r ysgriflyfrau mewn llythyrenau mawr sydd yn adnabyddus, oddigerth saith; y mae wedi cyhoeddi amryw o honynt fel y maent, ac wedi cymharu y cyfieithiadau Lladin.

Yr olaf a enwn ydyw Dr. S. P. Tregelles, yr hwn sydd wedi dwyn allan argraffiad o'r Dadguddiad, ac hefyd, hanes y testyn argraffedig, yn rhagbarotoawl i argraffiad mawr beirniadol o'r Testament Groeg, yn yr hwn y dysgwylir, gan y rhai sydd yn ei adnabod, fwy o gywirdeb yn ei ymchwiliadau i ysgriflyfrau, a mwy o ffyddlondeb i roddi ffrwyth y llafur hwnw, nag a geir yn y rhai sydd hyd yma wedi enwogi eu hunain ar y maes hwn; sef Mill, Wetstein, Griesbach, Scholz, Lachmann, a Tischendorff.—(*Tischendorff on the Text of the New Testament; Tregelles' History of the printed Text; Dr. Davidson's Biblical Criticism; Bloomfield and Alford on the Greek Testament.*)

**Y BEIBL.** Dangosir yn nechreu yr erthygl ar FEIRNIADAETH Y BEIBL fod genym brofion cryfach a mwy cyflawn dros wirionedd y prif ffeithiau—bywyd, angeu, adgyfodiad, a gwyrthiau Crist—ar egwyddorion cyffredin ymchwiliadau hanesyddol, nag sydd genym dros unrhyw ffeithiau ereill yn holl hanesiaeth hynafol. Fod y pethau hyn yn ffeithiau, yn bethau a gymmerodd le—y mae anffyddwyr, fel Cristionogion, yn awr yn cyfaddef. Os oes rhywbeth yn wir, y mae y ffeithiau hyn yn wir. Y mae gelynion yn gystal a chyfeillion Cristionogaeth wedi cynnorthwyo i symmud ymaith y defnyddiau anmherthynasol oedd yn cau i fyny yr olygfa rhag i brif golofnau ein crefydd gael eu gweled yn eu cadernid a'u gogoniant. Os yw y Testament Newydd yn cynnwys ffeithiau - ac os nad yw, y mae y fath beth a phrofi ffaith yn anmhosibl—yna y mae holl wyrthiau a phrophwydoliaethau y llyfr yn brawf ei fod yn cynnwys dadguddiad dwyfol. Gwel GWYRTHIAU; PROPHWYDOLIAETHAU.

Y mae Crefydd a Hanesiaeth wedi eu cyssylltu gan Dduw ei hun, ac nis gall dyn eu dadgyssylltu. A thrwy rinwedd y cyssylltiad hwn y mae yr holl sicrwydd sydd yn perthyn i hanesiaeth yn perthyn hefyd i'r grefydd sydd yn sylfaenedig ar ffeithiau hanesyddol. Ni ddywedir yma mai sicrwydd hanesyddol ydyw yr unig sel o'i gwirionedd sydd gan Gristionogaeth; ond yn hytrach dymunir galw sylw neillduol at hyn—fod pa sicrwydd bynag sydd yn perthyn i hanesiaeth wedi ei wirio yn y modd cryfaf, trwy yr ymchwiliadau llwyraf a mwyaf diarbed, yn perthyn i grefydd y Beibl. Nis gall unrhyw gasgliadau oddi wrth yr hyn a dybir yn rheswm osod o'r neilldu yr hyn a wybyddir fel ffaith. Nid oes dim yn fwy anghysson ac ansicr na chasgliadau gwahanol oesoedd a chenedloedd o barth i'r hyn sydd reswm ac athroniaeth. Ond yn ngoleuni tystiolaeth ddiamwys a digonol, nis gall fod petrusder o barth i ffaith. Dywedwn eto nad oes yn hanes y byd un ffaith wedi ei gwirio yn well ar sail tystiolaeth hanesyddol, na *Christionogaeth fel crefydd wedi ei rhoddi oddi wrth Dduw i ddynion.* Ni wneir yr honiad hwn o barth i wirionedd hanesyddol yr efengyl, ar y dybiaeth fod y Beibl yn llyfr ysbrydoledig. Honiad ar sail honiad fyddai hyny:—ond gwneir ef ar sail yr egwyddorion naturiol sydd yn llywodraethu pob ymchwiliad hanesyddol. Dylid sylwi mai nid natur y ffaith sydd yn rhoi grym i dystiolaeth. Pa un bynag ai pwysig ai dibwys, gwyrthiol ai cyffredin, fyddo ffaith, y mae y dystiolaeth yr hyn ydyw, yn annibynol hollol ar nodweddiad yr hyn a dystiolaethir. Os yw y dystiolaeth hon i bwyso arni pan yn tystio fod Iesu Grist wedi ei groeshoelio, y mae hi yn meddu yr un grym pan yn tystio ei fod wedi adgyfodi; os yw y dystiolaeth yn gredadwy wrth dystio fod yr Iesu yn ddysgawdwr, y mae yr un mor gredadwy pan yn tystio ei fod wedi cyflawnu gweithredoedd na wnaeth arall, i brofi gwirionedd ei genadwri. Yr oedd y lluaws Cristionogion oedd yn fyw pan ysgrifenwyd llyfrau y Testament Newydd wedi bod yn dystion o'r arwyddion a'r rhyfeddodau a wnaeth yr apostolion yn enw Iesu o Nazareth.

Yn y fan yma, gan hyny, ni a allwn ofyn pa beth y mae y Beibl yn ei ddywedyd am dano ei hun. Wedi cael tystiolaeth deunaw cant o flynyddoedd o blaid hynafiaeth, awduriaeth, a dilysrwydd y llyfrau sydd yn gwneyd i fyny y Testament Newydd, a thystiolaeth y canrifoedd hyn yn codi yn y dechreu o gyfaddefiad unfrydol ac annibynol cyfeillion a gelynion gwledydd mwyaf goleuedig yr ymherodraeth Rufeinig, ac yn y cyfnod mwyaf goleuedig yn hanes yr ymherodraeth hono, fe'n trosglwyddir i bresennoldeb Crist a'i apostolion:—ffurfia y dystiolaeth hon dramwyfa i'n cludo o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i oes Augustus a Tiberius, Herod a Pilat; ac fe rydd yr un sicrwydd i ni o enedigaeth Iesu Grist yn Bethlehem, ei wyrthiau yn Iudea a Galilea, ei groeshoeliad ar le y benglog, ei adgyfodiad y trydydd dydd, ac am bregethau, gwyrthiau, a dyoddefiadau yr apostolion, ag sydd genym fod y fath ymherawdwyr wedi bod yn eistedd ar orseddfainc Rhufain, ac wedi cael eu cynnrychioli yn Iudea gan y fath lywodraethwyr. Mae tystiolaeth y Testament Newydd am dano ei hun gan hyny yn cael ei roddi dan sel ei wyrthiau a'i brophwydoliaethau, a chydag awdurdod un na lefarodd neb yn debyg iddo.

Ar sail dilysrwydd a gwirionedd profedig yr Ysgrythyrau yr ydym yn ymofyn yn nesaf i awdurdod y Beibl. Pa beth ydyw—a pha beth yr hona fod—y mae yn rhaid i ni gasglu yn y lle

Digitized by Google

cyntaf allan o hono ef ei hun. Y briodoledd gyntaf a hòna y Beibl iddo ei hun ydyw.

AWDURDOD DDWYFOL.

Ychydig o ystyriaeth a brawf y gosodiadau canlynol:—

I. Y mae yr Ysgrythyrau yn dysgrifio cenadwri yr Arglwydd Iesu Grist yn un ddwyfol. Y mae efe ei hun yn proffesu ei fod yn un wedi ei anfon oddi wrth Dduw, ac mai ei neges ydoedd rhoddi ei fywyd dros iachawdwriaeth y byd: *Ioan* viii. 42; vii. 16; xvii. 8; iii. 14—18. I brofi ei anfoniad, fe gyflawnodd luaws o wyrthiau, ac a ddangosodd ei fod yn gydnabyddus â gweithrediadau dirgel y galon, ac â dygwyddiadau dyfodol: *Mat.* xi. 2—6; *Ioan* v. 36; xv. 24; vi. 64; xvi. 30; *Mat.* xx. 17—19; *Luc* xix. 42—44.

Yr oedd y rhai a'i hadwaenai oreu, ac a deimlent yn fwyaf gwrthwynebol iddo, yn analluog i esbonio ei weithredoedd nerthol, a doethineb ei eiriau, ar egwyddorion naturiol: *Marc* 27; *Luc* iv. 22; *Ioan* vii. 15.

Ymddygai yn mhob amgylchiad yn ddiargyhoedd, ac ni wnai ddim er ei lesâd ei hun ond er llesâd ereill: 1 *Pedr* ii. 22, 23; *Mat.* xxvii. 13. 14; *Act.* x. 38; *Ioan* iv. 34; vi. 15; vii. 18.

Rhoddwyd ef i farwolaeth yn ol ei ragfynegiad ei hun, am ei wneuthur ei hun yn ogyfuwch â Duw—yr hyn ni wadodd; ac ar ol ei farwolaeth, fe adgyfododd o'r bedd: *Luc* xxiii. 70; *Ioan* xx. 17; *Act.* i. 3.

O herwydd y rhesymau hyn yr ydym yn casglu fod ei eiriau i'w derbyn fel geiriau dwyfol.

II. Derbyniodd yr apostolion awdurdod ddwyfol. O'r wyth o ysgrifenwyr y Testament Newydd, yr oedd pump—Matthew, Ioan, Pedr, Iago, a Iudas—yn apostolion, i ba rai y rhoddodd Crist awdurdod i gyflawnu gwyrthiau, ac i gyhoeddi ei efengyl i'r byd: *Mat.* x. 1—4; *Luc* ix. 1—6.

Efe a addawodd iddynt ar bedwar o achlysuron gwahanol, yr Ysbryd Glân, i ddwyn ar gof iddynt yr hyn a glywsant ganddo ef, ac i roddi iddynt wybodaeth gyflawnach a mwy parhaol o'r gwirionedd am dano: *Mat.* x. 19, 20; *Luc* xii. 12; *Marc* xiii. 11; *Luc* xxi. 18, 20; *Marc* xvi. 20; *Act.* i. 4; xxi. 4; 1 *Pedr* i. 12.

Cyflawnodd yr apostolion wyrthiau yn enw Crist i brofi gwirionedd eu hanfoniad. Yr oedd ganddynt awdurdod hefyd i gyfranu doniau goruwchnaturiol i ereill: *Act.* iii. 16; *Heb.* ii. 4; *Act.* v. 12, 15; *Marc* xvi. 17, 18; *Act.* viii. 17—19. Seliasant eu tystiolaeth â bywyd o'r hunan-ymwadiad, y llafur, a'r dyoddefiadau mwyaf; a bendithiwyd eu gweinidogaeth â llwyddiant buan, yr hyn sydd, ar egwyddorion dynol, yn anesboniadwy: *Act.* iv. 16; v. 29; ii. 41; xii. 2. Yr ydym yn casglu, gan hyny, fod geiriau Matthew, Ioan, Pedr, Iago, a Iudas, yn ddwyfol.

Yr oedd Marc a Luc yn gymdeithion i'r apostolion. Dychwelwyd Marc trwy weinidogaeth Pedr: 1 *Pedr* v. 13. Yr oedd Luc yn gyfaill anwyl gan Paul. Llefara Papias, yn y flwyddyn 110; a Justin, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 164; Irenæus, yn y flwyddyn 180; ac Origen, am Efengyl Marc, fel wedi ei derbyn yn awdurdodol yn yr holl eglwysi yn eu hamser hwy, ac wedi ei hysgrifenu yn nghymdeithas Pedr. Preswyliai Luc a Paul yn Ierusalem am ddwy flynedd, buont yn gymdeithion drwy ran fawr o deithiau Paul, a buont gyda'u gilydd am ysbaid carchariad Paul yn Rhufain: *Act.* xxi. 17; xxviii. 16; *Col.* iv. 14; 2 *Tim.* iv. 11.

Dyfynir *Luc* x. 7, fel rhan o'r Ysgrythyr yn 1 *Tim.* v. 18. Llefara Irenæus, Tertullian, ac Origen, am Efengyl Luc fel mewn derbyniad cyffredinol, ac wedi derbyn cymmeradwyaeth Paul.

III. Llefara yr Ysgrythyr am Paul fel un wedi derbyn awdurdodiad dwyfol. Galwyd ef i'r swydd apostolaidd, hònai hawl apostolaidd, amddiffynai ei hawl trwy wyrthiau, cyfranai i ereill ddoniau gwyrthiol, cydnabyddid ef gan yr apostolion ereill, profodd ddidwylledd ei ymroddiad trwy y dyoddefiadau chwerwaf, a bu yn nodedig o lwyddiannus. Hònai yr awdurdod o lefaru yn enw Crist, a bod ei eiriau yn ddwyfol: 1 *Cor.* xv. 8; *Act.* xxvi. 12—17; ix. 13—17; 2 *Cor.* xi. 5; *Gal.* i. 1—12; ii. 8; 1 *Cor.* ii. 10—13; vii. 40; *Rhuf.* xv. 18, 19; 2 *Cor.* xii. 12; *Act.* xix. 6; 2 *Tim.* i. 12, 14; 2 *Cor.* xi. 7; i. 5; *Gal.* ii. 7—9; 2 *Cor.* xii. 14—16; v. 18—20; 1 *Thes.* ii. 13.

IV. Llefarant am ysgrifeniadau yr apostolion yn gyffredinol fel yn cynnwys geiriau dwyfol. Llefarai yr apostolion mewn canlyniad i orchymyn dwyfol, a thrwy rinwedd eu hawdurdodiad dwyfol: 1 *Thes.* iv. 15; 1 *Tim.* iv. 1; *Dad.* i. 19; *Ioan* xx. 31; 1 *Ioan* v. 31; 1 *Cor.* xiv. 37.

Yr un dyben oedd gan yr apostolion wrth ysgrifenu ac wrth bregethu: *Iudas* 3; *Heb.* xiii. 22; 1 *Ioan* ii. 1—14.

Hònant i'r ddau yr un awdurdod: *Eph.* iii. 3—5; 1 *Ioan* i. 1—5; ii. 12—14; *Ioan* iv. 31; 2 *Pedr* i. 15; iii. 1, 2; 2 *Thes.* ii. 15; iii. 14; 1 *Cor.* xv. 1.

Yr oedd ysgrifeniadau yr apostolion yn cael eu derbyn gan y Cristionogion cyntaf o gyfuwch awdurdod â'u pregethau, a chynnyrchent yr un effeithiau: *Act.* xv, 19—31; xvi. 4; 2 *Cor.* vii. 8—10; 2 *Thes.* ii. 2.

O'r dechreu yr oedd ysgrifeniadau yr apostolion yn cael eu derbyn o gyfuwch awdurdod a'r Hen Destament; a chyfeirid atynt fel geiriau Duw: 2 *Pedr* iii. 15, 16; *Iago* iv. 5 (cymharer *Gal.* v. 17—21); *Iago* ii. 8 (cymharer *Mat.* xxii. 39.)

V. Llefara y Testament Newydd am y grefydd Iuddewig, ac Ysgrythyrau yr Hen Destament, fel o darddiad, ac yn meddu awdurdod, ddwyfol. Priodolir yr awdurdod ddwyfol hon iddynt gan Grist a'i apostolion: *Ioan* iv. 22; *Act.* iii. 13; *Rhuf.* ix. 4.

· Cydnabyddant darddiad dwyfol y dadguddiad a roddwyd i Abraham a Moses: *Ioan* viii. 56; *Act.* iii. 25; *Gal.* iii. 18; *Marc* xii. 26; *Ioan* i. 17; 2 *Cor.* iii. 7.

Cydnabyddant awdurdod ddwyfol y ddeddf foesol, a tharddiad dwyfol yr addoliad Iuddewig, a chyfreithiau gwladol deddf Moses: *Mat.* xv. 4; 1 *Pedr* i. 15, 16; *Rhuf.* vii. 22 (gwel *adn.* 7, 12); *Luc* xxii. 15, 16; *Ioan* xix. 36; 1 *Cor.* ix. 8, 9.

Dangosant Gristionogaeth fel cyflawniad y gyfraith, a'r prophwydi. Dywed ysgrifenwyr yr Hen Destament eu bod hwy yn llefaru ac yn ysgrifenu yr hyn a roddwyd iddynt gan Dduw: *Mat.* v. 17; xxvi. 54—56; *Act.* x. 43; *Eph.* ii. 20; *Rhuf.* iii. 21; 2 *Cor.* iii. 6—14; *Exod.* iv. 12, 15, 16; *Deut.* xviii. 18; *Ier.* i. 9; *Amos* iii. 7.

Honant awdurdod yr Hen Destament dan y dosbarthiad triphlyg—y Ddeddf, y prophwydi, a'r Salmau—ac hefyd dan enwau ereill, gan briodoli y cyfan i'r Ysbryd Glân: *Mat.* xxii. 31; *Heb.* xiii. 5; *Act.* xxviii. 25; *Mat.* xxii. 43; *Rhuf.* iii. 12; *Ioan* x. 35; *Gal.* iii. 8; *Heb.* iii. 7 (cymharer *pen.* iv. 7); 1 *Pedr* i. 11.

Casgliad y cyfan ydyw, fod y Beibl yn proffesu bod yn llyfr oddi wrth Dduw, ac yn llefaru gydag awdurdod ddwyfol, ac yn gorchymyn ein hymostyngiad. Dyma yr unig lyfr sydd yn hònni "Duw fel ei awdwr, gwirionedd digymmysg fel ei

Digitized by Google

gynnwysiad, ac iachawdwriaeth fel ei ddyben." Os addefir awdurdod ddwyfol yr Arglwydd Iesu Grist fel dysgawdwr, y mae awdurdod y Beibl yn safadwy. Ond hona y Beibl, yn mhellach, ei fod *yr unig awdurdod ddwyfol.* Ni ddywedir ond yr un peth, mewn ffurf arall, trwy ddywedyd'fod

Y BEIBL YN YSBRYDOLEDIG.

Nis gallwn gael gwybodaeth ar hyn ond o'r Ysgrythyrau eu hunain. Nid yw hyn yn ymresymu mewn cylch; fel pe byddem yn profi dwyfoldeb yr Ysgrythyrau trwy ddyweyd eu bod yn ysbrydoledig, ac yna yn profi eu bod wedi eu hysbrydoli â geiriau yr un Ysgrythyrau. Yr ydys yn profi, yr un modd ag y profir pob ffeithiau ereill, fod hanesion y Beibl yn wir; o ganlyniad, er ei fod yn rhan o gyfryngiad gwyrthiol, a bod yr ysgrifenwyr yn meddu awdurdodiad dwyfol, a bod y Beibl ei hun yn ddadguddiad dwyfol. Os addefir y *ffaith* hon, rhaid i ni ymostwng i dderbyn ei eiriau ei hun o barth i'w ysbrydoliaeth.

Dyma ddynion ag y mae eu hanfoniad a'u hawdurdodiad gan Dduw wedi eu profi. Y mae yn rhaid y gwyddent hwy yn well na neb arall beth oedd natur yr arweiniad dwyfol yr oeddynt dano. Y mae y nifer mwyaf o'r adnodau a ddyfynwyd eisoes yn gosod allan y gwirionedd dan sylw; sef, *fod meddwl yr ysgrifenwyr sanctaidd dan arweiniad dwyfol i'r graddau a osodir allan yn gyffredin trwy y gair ysbrydoliaeth.* Y mae yr holl dystiolaethau sydd yn dangos fod yr addysg a gyfrenir gan yr ysgrifenwyr sanctaidd i'w dderbyn fel gwirionedd digymmysg oddi wrth Dduw, heb ddim cymmysgedd o ffaeledigrwydd dyn, yn brawf o'r gosodiad dan sylw. Fod y gwirionedd hwn yn rhedeg trwy yr oll o'r Ysgrythyrau, sydd yn eglur i bawb sydd yn gydnabyddus â hwynt.

Y mae yr Arglwydd wedi trosglwyddo ei feddwl trwy ddynion: y mae y gwirionedd oddi wrth Dduw, ond cyfrwng ei drosglwyddiad ydyw y ddynoliaeth. Hyn sydd wedi achlysuro yr anhawsderau a deimlir mewn cyssylltiad âg ysbrydoliad yr Ysgrythyrau. Pan y mae yr Arglwydd yn defnyddio dynion i draddodi ei genadwri, nid yr un peth ydyw a phan yr amlygodd ei ewyllys ar y pared i Belsassar, na phan yr ysgrifenodd y gyfraith ar ddwy lech faen, na phan y parodd i asyn Balaam geryddu ynfydrwydd y prophwyd. Ni ddylid anghofio fod elfen ddynol yn gystal a dwyfol yn y Beibl: y mae anghofio hyn wedi achlysuro cyfeiliornadau pwysig. Nid defnyddio yr ysgrifenwyr sanctaidd fel peiriannau yr ydoedd yr Ysbryd Glân. Y mae yn wir y gall efe wneyd hyny, a'u hanrhydeddu wrth ei wneuthur. Pan lefarai dynion ar dafodau nas gallent eu deongli, yr oeddynt wedi eu hysbrydoli *heb eu gwybodaeth;* pan fendithiodd Balaam, yn lle melldithio, yr oedd wedi ei ysbrydoli yn annibynol *ar ei ewyllys:* pan brophwydodd Caiaphas am aberth Crist, heb un dyben ganddo ef ei hun ond sicrhau ei farwolaeth, ac y llefarodd, nid o hono ei hun, yr oedd wedi ei ysbrydoli yn annibynol *ar ei wybodaeth a'i ewyllys.* Yn yr anghreifftiau hyn, nid oedd dynion ond fel peiriannau; ond pan y sylwir yn fanwl ar yr Ysgrythyrau, gwelir nad yw hyn yn ddangosiad cywir o weithrediad yr Ysbryd wrth ysbrydoli yr ysgrifenwyr sanctaidd i draddodi ei ewyllys. Y mae mwy o'r elfen ddynol i'w chanfod mewn rhai manau o'r Ysgrythyr na'u gilydd; ereill yn cynnwys amlygiadau cryfach o ddylanwad dwyfol. Ond nis gallwn ddarllen y Beibl, nac un llyfr o hono, heb ganfod Duw a dyn: Duw yn ysbrydoli, a dyn yn ysbrydoledig; Duw yn awdwr, a dyn yn ysgrifenydd; Duw yn rhoddi y mater, a dyn yn rhoddi y ffurf. Y mae y gair ysgrifenedig, fel Mab Duw neu y Gair mewn cnawd, yn ddwyfol ac yn ddynol, ac eto yn un.

Nid oes dim yn y Beibl i egluro *dull* gweithrediad yr Ysbryd. Am wahanol esboniadau dynion ar hyn, gwel YSBRYDOLIAETH. Ond gellir sylwi mai tuedd bresennol duwinyddion ydyw edrych ar y cwestiynau o barth i ddulliau a graddau ysbrydoliaeth fel cwestiynau dibwys, er mwyn rhoddi arbenigrwydd i'r un erthygl fawr o ANFFAELEDIGRWYDD y Beibl.

Er mwyn synio yn glir ar hyn, y mae yn angenrheidiol gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd yn y Beibl fel *hanes*, a'r hyn sydd ynddo fel *gwirionedd ysbrydoledig.* Y mae dynion drwg yn llefaru yn y Beibl yn gystal a dynion da; ïe, caniateir i Satan lefaru ynddo; a llefarant oll yn unol â'u nodweddiad eu hunain. Nid yw y *cyfan* y mae dynion da yn ei ddyweyd yn ddoeth nac yn wirionedd. Y mae llawer o syniadau cyfeiliornus yn areithiau cyfeillion Iob, ac y mae y patriarch ei hun yn melldithio dydd ei enedigaeth. Y mae gwahaniaeth pwysig, gan hyny, rhwng yr hyn a gynnwysir yn y Beibl fel rhan o hanesiaeth yn unig, a'r hyn a gynnwysir fel dysgeidiaeth dynion dan arweiniad anffaeledig. Nid yw yn cymmeradwyo yr holl eiriau a adroddir ynddo, mwy nag y mae yn cymmeradwyo yr holl weithredoedd a adroddir. Y mae llawer o wrthddadleuon anffyddwyr yn codi oddi ar eu bod heb sylwi ar y gwahaniaeth eglur hwn.

Nid yw yn angenrheidiol fod holl ymadroddion y Beibl ar y *gwyddonau naturiol* yn unol â darganfyddiadau diweddar. Yma eto y mae eisieu gwahaniaethu rhwng yr hyn a ddywed yr ysgrifenwyr sanctaidd fel syniadau cyffredin yr oes yr oeddynt yn byw ynddi a'r hyn a ddywedir ganddynt *ar eu hawdurdod eu hunain fel gwirionedd a ffaith.* Am ymddangosiadau gwrthddrychau naturiol, yr oedd yn angenrheidiol i'r Ysgrythyr lefaru yn iaith yr oesoedd hyny i fesur mawr. Pe buasent yn llefaru mewn iaith celfyddyd ddiweddar ar y pethau hyn, nid allasent gael derbyniad yn mhlith y bobl yr ysgrifenwyd hwynt iddynt gyntaf, ac felly nid allasent ddyfod i lawr atom ni. Nid oedd yn bosibl y gallasai dysgrifiadau yn unol â darganfyddiadau diweddar fod yn gredadwy nac yn ddealladwy i'r amseroedd hyny. Y mae yn ddiau fod hanes y greadigaeth a'r dylif yn unol â gwirionedd hanesiol â chrefyddol; ond y mae'n lled aneglur i ni, o herwydd ei fod wedi ei gyfaddasu yn y lle cyntaf i ddynion ag oedd o olygiadau tra gwahanol i ni ar y fath bethau. Dynion oedd Moses a'r prophwydi, wedi eu cynhyrfu a'u harwain gan yr Ysbryd anffaeledig i ddysgu crefydd; ac er mwyn hyn, nid oedd yn angenrheidiol iddynt ddadguddio dirgelion natur, y rhai y gallai dynion, yn yr ymarferiad o'u galluoedd naturiol, eu cael allan mewn amser. Ond er mai arferiad y Beibl ydyw llefaru am wrthddrychau naturiol yn ol eu hymddangosiadau, o herwydd nid ei amcan ydyw dadguddio gwyddoniaeth a chelfyddyd, eto, ar y materion hyn y mae rhyw gyrhaedd pellach yn ei eiriau nag oedd yn meddiant yr athronwyr doethaf yr amser y llefarwyd hwynt.

Yr oedd syniadau hen ddysgawdwyr a hen grefyddau yr oesoedd hyny mor afresymol am *natur* ag am *grefydd.* Yn athroniaeth Groeg a Rhufain, dysgrifiwyd y nefoedd fel cronglwyd sylweddol uwch ben y ddaiar. Credai doethion yr Aipht,

Digitized by Google

fod y byd wedi ei ffurfio trwy ysgogiad yr awyr, ac chediad y tân tuag i fyny. Dywedai Plato mai creadur byw ydoedd. Daliai Empedocles fod dau haul: a Zeniciphus, fod y ser yn cael eu cynneu trwy eu hysgogiadau, a bod eu gwres yn diwallu yr haul. Credai yr holl genedloedd dwyreiniol, fod y cyrff wybrenol yn llywodraethu achosion a thynged dynion â'u dylanwad; a bod holl natur yn gynnwysedig o bedair elfen—tân, awyr, daiar, a dwfr—sylweddau y gwyddys yn awr nad ydynt elfenol. Yn yr athroniaeth Hindwaidd, dysgrifir y ddaiar fel yn wastad, a thrionglog, ac yn gynnwysedig o saith uchder; a'r cyfan yn gorphwys ar benau elephantiaid, y rhai pan ysgydwant a barant ddaiargrynfäau. Dysgai Mahomet fod y mynyddoedd wedi eu creu i gadw y ddaiar yn sefydlog, megys âg angorau a chadwynau. Dysgai "tadau yr eglwys" bethau heb fod yn llawer llai afresymol. Nid oes neb, medd Lactantius, mor anwybodus fel y cred fod y ddaiar yn gron.

Nid oes un o'r hen gau grefyddau nad ellir eu dadsylfaenu trwy y cymmysgedd o syniadau cyfeiliornus am natur sydd yn gymmysgedig â hwy. Onid yw yn addysgiadol i gymharu hyn â'r ffaith nodedig nad oes un o'r deugain o ysgrifenwyr y Beibl, er eu bod yn byw yn nghymmydogaeth y naill neu y llall o'r cenedloedd hyn, wedi ysgrifenu cymmaint ag un linell i ffafrio tybiau fel y rhai uchod. Pa beth ond arweiniad dwyfol a allasai eu cadw rhag hyny?

Ond heblaw hyn hefyd, y mae *cyssondeb y Beibl â darganfyddiadau diweddar* yn beth nodedig i sylwi arno. Llefara yr Ysgrythyrau am y ddaiar fel *cylch* neu *glôb*, am "amgylchoedd y ddaiar," a'i bod wedi ei chrogi ar ddiddym: *Esa.* xl. 22; *Iob* xxvi. 7—10; *Diar.* viii. 27. Gwahaniaethant rhwng creadigaeth y nefoedd a'r ddaiar, a llysiau ac anifeiliaid: *Gen.* i. 1, 2. Priodolant darddiad diweddar i ddyn; yr hyn sydd yn gysson â'r gweddillion anifeilaidd a llysieuol a geir yn nghrystyn y ddaiar, ac â chofadeiladau hynafiaeth. Dysgrifiant y nefoedd fel *eangder diderfyn*, ac nid fel cylch neu gronglwyd galed: a'r goleuni hefyd, fel elfen annibynol ar yr haul, ac mewn bod o'i flaen—yr hyn sydd yn cytuno â syniadau ymchwilwyr diweddar. Wrth lefaru am yr awyr, priodolir *pwysau iddo;* yr hyn a brofwyd gan Galileo: ac am y môr, dywedir fod *mesur* iddo; hyny yw, fod cyfartaledd rhwng y dwfr a'r tir sydd yn angenrheidiol i fywyd anifeilaidd a llysiau. Lleferir am ddyfroedd "ar y ffurafen:" yr hyn sydd yn ffaith bwysig yn ngoleu gwyddoniaeth ddiweddar, pan y dangosir fod miliynau o dynelli o ddwfr yn esgyn i'r awyr bob dydd o Brydain mewn tarth. Olrheiniant yr hil ddynol i un ffynnonell, ac undeb y byd i undeb gwreiddiol mewn un neu ddwy o ieithoedd: ffeithiau sydd wedi eu cadarnhau gan ymchwiliadau yn annibynol ar y Beibl, er cael eu hammheu yn hir. Pan lefarant am yr haul yn sefyll, y mae y lleuad yn sefyll hefyd: yr hyn ni buasai yn angenrheidiol ond ar y dybiaeth fod y ddaiar yn troi bob dydd ar ei hechel—yr hyn oedd yn ddarganfyddiad diweddar. Pan lefarant am y ser, dywedant eu bod yn aneirif: ac nid fel y dywedai yr hen seryddwyr, eu bod tua mil o nifer:—dywedai Hipparchus, mai 1022 oedd eu rhifedi, a Ptolemy, mai 1026. Y mae seryddwyr diweddar wedi profi mor gywir ydyw iaith yr Ysgrythyrau. "Y mae Duw," medd Syr John Herschell, "wedi eu gwasgar fel llwch yn yr eangder."

Y mae yr anghreifftiau hyn yn ddigon i ddangos fod yr ysgrifenwyr sanctaidd yn offerynau i drosglwyddo doethineb uwch nag a feddai y byd hwn, a bod hyn yn cael ei amlygu wrth lefaru am yr hyn oedd yn annherthynasol i brif amcan eu cenadwri.

Er mwyn ceisio profi nad yw y Beibl yn anffaeledig, y mae dynion wedi dadleu yn erbyn ei *foesoldeb.* Fe addefir nas gall yr un llyfr fod yn wir o ran crefydd ac athrawiaeth sydd heb fod yn uniawn o ran ei foesoldeb. Un ddadl yn erbyn moesoldeb y Beibl ydyw, fod ynddo anghreifftiau o anfoesoldeb. Yn ngwyneb hyn, y mae y gwahaniaeth a nodwyd o'r blaen yn benderfynol, sef nad yw y Beibl yn gyfrifol am yr hyn y mae yn ei gynnwys, ond am yr hyn y mae yn ei *gymmeradwyo.* Nodir allan y drwg er mwyn ei gondemnio. Gwrthddadl arall yn erbyn ei foesoldeb ydyw y gorchymyn i'r Israeliaid ladd y Canaaneaid. I wrthddadleuon o'r natur yma y mae yr egwyddor ganlynol yn cynnwys ateb cyflawn. Pa beth bynag y gwelir Duw *rhagluniaeth* yn ei wneyd, gallasai Duw *dadguddiad* hefyd ei wneuthur; a pha beth bynag y gall Duw dadguddiad ei wneuthur yn gysson â'i natur fe all beri iddo gael ei *ysgrifenu;* a pha beth bynag y mae efe yn gorchymyn ei ysgrifenu, fe all beri i hyny gael ei wneuthur dan ddylanwad *ysbrydoliaeth.* Ni raid ond cymhwyso yr ymresymiad hwn at y ffaith fod cenedloedd o ddynion yn cyfarfod â dinystr yn fynych yn nhrefn rhagluniaeth i weled fod ymddygiadau Duw yn ei ragluniaeth ac yn y Beibl yn gyffelyb.

Mae yn angenrheidiol galw sylw at ystyriaeth arall sydd wedi cael ei defnyddio yn erbyn *perffaith* anffaeledigrwydd y Beibl, sef yr *anghysonderau* a dybir sydd i'w canfod ynddo. Duwinyddion Germany yn benaf sydd wedi defnyddio yr wrthddadl hon, gydag ychydig yn Lloegr sydd wedi eu dilyn. Addefant ddwyfoldeb y Beibl; ond tybiant fod hyn yn gysson â gwadu ei burdeb a'i anffaeledigrwydd perffaith. Dyma yr anghreifftiau a ddefnyddia Dr. Tholuck fel sail ei honiad—nad oedd yr ysgrifenwyr sanctaidd yn cael eu cadw rhag rhyw gamgymmeriadau dibwys. Rhoddir Abiathar yn lle Abimelech (*Marc* ii. 26); Ieremïah am Zecharïah (*Mat.* xxiii. 9—10); Barachïah am Iehoiadah (*Mat.* xxiii. 35), ac y mae Paul yn rhoddi 23,000 (1 *Cor.* x. 8) yn lle 24,000.

Nid ydyw mewn un modd yn angenrheidiol, er mwyn amddiffyn crediniaeth onest yn anffaeledigrwydd y Beibl, i allu egluro pob anghraifft o anghyssondeb ymddangosiadol o'r natur yma. Mewn rhai amgylchiadau, y mae anhawsderau yn parhau er ymdrechiadau i'w symmud. Mewn llyfrau mor luosog ag sydd yn gwneyd i fyny y gyfrol ddwyfol, mor hen hefyd, yn y rhai y gallasai camgymmeriadau ddyfod i mewn trwy gopïo, yn enwedig mewn enwau a rhifnodau—y syndod ydyw, nid fod cynnifer o wir anhawsderau, ond fod can lleied; ac y gellir cael cynnifer o dybiau mor resymol yn mhob amgylchiad i'w cyssoni. Dylid cymmeryd yr anhawsderau hyn yn gymhelliad i ymchwiliadau newyddion, ac nid fel rheswm dros wrthod tystiolaethau mynych ac eglur yr Ysgrythyrau. Am yr anhawsderau uchod, gwel y geiriau priodol yn y gwaith hwn, ac hefyd BEIRNIADAETH Y BEIBL; ESBONIADAETH Y BEIBL.

Ar ol galw sylw at y profion *hanesiol* o ddilysrwydd a gwirionedd y Beibl, ac hefyd at ei awdurdod a'i anffaeledigrwydd, fel yn seiliedig ar y gwirionedd profedig hwnw, gwneir ychydig o sylwadau ar

Digitized by Google

NODWEDDIAD Y BEIBL FEL DADGUDDIAD DWYFOL.

Ond yn gyntaf oll, y mae yn angenrheidiol cofio mai

*Casgliad o wahanol lyfrau ydyw.*

Mae ei fod wedi ei rwymo yn gyffredin mewn un gyfrol yn peri nad yw dynion yn teimlo ei fod wedi ei wneyd i fyny o wahanol ysgrifeniadau. Ac eto y mae y ffaith hon yn bwysig, o gymmaint ag y dengys nad ellid gwrthbrofi y Beibl trwy daflu ammheuaeth ar, neu wrthbrofi rhan o hono. Fel y dangosir yn yr erthygl CANON, y mae pob llyfr yn y gyfrol sanctaidd wedi ennill ei le trwy brofion annibynol; o ganlyniad, pe gellid dangos fod un o'r llyfrau sydd yn ei wneyd i fyny yn amddifad o brofion digonol drosto, nid yw hyny yn dinystrio awdurdod yr holl Feibl. Mae personau unigol ac eglwysi wedi dadgan ammheuaeth o barth i lyfrau unigol, ac y mae anffyddwyr cyn hyn wedi defnyddio yr ystyriaeth yma yn destyn ymffrost, fel pe byddai hyny yn taflu ammheuaeth ar yr holl Feibl. Y mae dynion wedi edrych yn ddrwgdybus ar efengylau Marc a Luc, am nad oeddynt hwy yn perthyn i'r apostolion, i ba rai y rhoddwyd yr addewid am arweiniad anffaeledig yr Ysbryd. Er fod y profion dros dderbyniad yr efengylau hyn yn hollol foddhaol; eto, pe addefid nad ydynt, nid effeithiai hyny ddim ar hawl Matthew a Ioan i gael derbyniad. Felly gwelir mai nid gwaith hawdd fyddai i anffyddiaeth gael ymadael â'r Beibl. Mae bywyd annibynol yn mhob rhan o hono, ac fe fyddai raid dinystrio pob un cyn y dinystrid y cwbl. Rhydd yr ystyriaeth o fod y gyfrol sanctaidd yn gasgliad o wahanol gyfansoddiadau, wedi eu hysgrifenu mewn gwahanol oesoedd, yn ymestyn dros bymtheg cant o flynyddoedd, a chan ddynion o amgylchiadau a chymhwysderau meddyliol tra gwahanol, rym mawr i'r ffaith fod

*Llyfrau y Beibl yn gysson â'u gilydd.*

Cyfeiriwyd o'r blaen at yr anghyssonderau a dybir sydd ynddynt. Er gwneyd y mwyaf o honynt, nis gellir eu chwyddo ond i ryw ddeg neu ddwsin, allan o ddeugain o wahanol lyfrau, yn ymestyn dros fil a hanner o flynyddoedd, ac wedi eu trosglwyddo i ni mewn ysgrifen am yn agos i ddwy fil o flynyddoedd ar ol cyfansoddiad yr olaf o honynt [cyfrif Coleridge ydyw; *some half-score apparent discrepancies in the Chronicles and memoirs of the Old and New Testament*]: ond am yr anghreifftiau o'u cyssondeb â'u gilydd, y maent yn afrifed, ac o natur nad allasai ond gwirionedd eu cynnyrchu. Mae yr ysgrifenwyr sanctaidd yn amrywio yn eu dull o adrodd yr un hanes. Felly, gyda chyssondeb hanfodol yn yr holl brif ffeithiau a adroddir ganddynt, y mae amrywiaeth mewn mân amgylchiadau. Os cymherir ymddyddanion, gwyrthiau, temtiad, prawf, croeshoeliad, ac adgyfodiad Crist, gwelir fod y dystiolaeth yn debyg i dystiolaeth tystion cywir ac annibynol, yn cytuno, ac eto yn amrywio mewn pethau dibwys. Y mae hyn wedi cael ei ddefnyddio, ac y mae yn brawf cryf o'u cywirdeb hanesyddol. A phe na buasent felly, dywedasai anffyddwyr mai prawf o gydsyniad i dwyllo fuasai hyny. Yn yr amrywiaeth hwn y mae cyssondeb difwriad i'w ganfod, sydd yn hynod darawiadol i'r meddwl a chwilia i mewn iddo. Neillduolrwydd y cyssondeb difwriad hwn ydyw ei fod yn gofyn ymchwiliad i'w gael allan. O ran ei natur a'i gyflawnder, y mae y fath na ddichon twyll na chydfwriad ei gynnyrchu.

Dr. Paley a dynodd sylw neillduol at y prawf hwn, yn nghyfansoddiad Actau yr Apostolion ac epistolau Paul, yn y llyfr hynod hwnw, ei *Horæ Paulinæ*. Pe meddylid ein bod yn hollol amddifad o bob gwybodaeth allanol o berthynas i'r llyfrau hyn, y fath ag a ddefnyddir i brofi awduriaeth a dilysrwydd llyfrau, y mae yr anghreifftiau lluosog o gyssondeb, mewn amgylchiadau mân a dibwys sydd yn gorwedd islaw wyneb yr hanes, yn gyfryw ag a brofant eu bod yr hyn y proffesant fod; sef yn hanesion didwyll o bethau a gymmerasant le fel yr adroddir hwynt. Ar ol amser Paley, y mae yr un ymresymiad wedi cael ei gymhwyso at wahanol ranau yr Ysgrythyrau; sef, at bedwar llyfr olaf Moses,[1] ac hefyd at yr efengylau a'r Actau, yn nghyd â chyssondeb y ddau â Josephus.[2] Mae grym yr ymresymiad hwn yn cyfodi, nid oddi ar esampl neu ddwy, ond oddi ar fod yr holl hanes yn ei ddangos; o ganlyniad, nis gellir yn yr erthygl hon ond cyfeirio ato.

Hyd yma, nid ydym wedi cyffwrdd â

NATUR Y DADGUDDIAD

a gynnwysir yn yr Ysgrythyrau. Gellir edrych ar yr Ysgrythyrau mewn gwahanol olygiadau; ond y pwysicaf oll ydyw yr hwn sydd yn arddangos y Beibl i ni fel dadguddiad o Dduw a dyn;—o Dduw yn ei berthynas â dyn, ac o ddyn yn ei berthynas â Duw, ac o'r ddau yn eu perthynas â gwaith yr Arglwydd Iesu Grist. Y mae ynddo ddadguddiad o Dduw yn ei briodoliaethau a'i ewyllys: ac o'r natur ddynol, yn mhob ffurf —mewn personau unigol, ac mewn cenedloedd; yn sanctaidd, yn demtiedig, yn gwympedig, yn llygredig, ac wedi ei phrynu trwy Grist, a'i hadferu trwy yr Ysbryd Glân. Trysorfa o wirionedd ysbrydol ydyw. Rhydd wybodaeth sicr i ni am hanes y byd, o'r amseroedd boreuaf—y cyfryw ag y mae ysgrifeniadau dynol yn hollol ddystaw am danynt, neu heb ddim gwell na chwedlau i'w cynnyg. Yma y ceir hanes achlysur y pechod cyntaf, a'i ganlyniadau uniongyrchol; tarddiad cenedloedd, ac amrywiaeth ieithoedd. Fel hyn, gellir olrhain yr egwyddorion hyny, yn unol â pha rai y mae dyn wedi cael ei lywodraethu o'r dechreu, a chasglu y profion o ddoethineb, sancteiddrwydd, a thrugaredd, sydd wedi hynodi holl ymddygiadau Duw tuag ato. Yma ceir hanes y ddynoliaeth yn ei chynnydd a'i dirywiadau, yn ei nerth a'i gwendid; a dadleniad graddol trefn rasol Duw i'w hadferu. Ceir yma yr holl gwestiynau pwysig o barth i ffeithiau—megys creadigaeth y byd, unoliaeth yr hil ddynol, &c. — ac i ddyledswydd, sydd wedi tynu sylw y dynion doethaf, wedi eu penderfynu ar awdurdod egwyddorion nas gellir appelio yn eu herbyn. Rhoddir i ni benderfyniadau y Duw anfeidrol ddoeth yn rheol ein barn a'n hymddygiadau, a'i addewid yn sail ein gobaith.

Nid oes, gan hyny, un gyfran o'r Beibl, nas gellir gofyn yn briodol yn ei chylch, Pa beth y mae yn ei ddysgu i ni am Dduw? a pha beth am ddyn? a pha beth am drefn ryfeddol y prynedigaeth, ac adferiad dyn i'w ogoniant a'i ddedwyddwch cyntaf?

Wrth edrych ar y Beibl yn y golygiad hwn, ceir esboniad ar un neillduolrwydd sydd ynddo—ei gyflawnder ar bob peth cyssylltiedig â'i brif amcan, sef Duw yn ei berthynas â dyn, a dyn yn ei berthynas â Duw, a Christ a'i waith yn eu perthynas â'r ddau; ac hefyd ei grybwylliadau byrion ar bethau dibwys i'r amcan hwnw. Hanes

[1] *Graves' Lectures on the four last books of the Pentateuch.*
[2] *The Veracity of the Gospels and Acts, from their coincidences with each other and Josephus.*

Digitized by Google

ysbrydoledig crefydd ydyw; hyny yw, o ddyn yn ei berthynas â Duw, ac â phethau ereill yn ol fel y gwasanaethant i egluro hyny. Rhoddir crybwylliadau am genedloedd eilunaddolgar; ond gwneir hyny o herwydd eu dylanwad ar eglwys Dduw, neu o herwydd dylanwad eglwys Dduw arnynt hwy. Nodwedd neillduol hanesiaeth y Beibl ydyw, ei fod yn cynnwys hanes y byd "fel byd Duw." Dangosir i ni mai efe a'i gwnaeth, ac mai efe sydd yn ei lywodraethu: ac yn yr holl ddiwygiadau sydd yn cymmeryd lle trwy offerynoliaeth dynion, olrheinir y cyfan i fyny yn mhellach na'u teimladau a'u hegwyddorion hwy, at ddaioni a chyfiawnder gorchymyn a goddefiad Duw. Y mae yn amlwg mai amcan y Beibl ydyw cyfleu gwirionedd ysbrydol a chrefyddol, a chyda y dyben o dderbyn y cyfryw y dylid ei astudio. Rhoddir hanes dyn yn ei gyssylltiad â *phechod* ac *edifeirwch*; a Duw fel Duw *sanctaidd* a *thrugarog*; ac am Grist fel *iawn* am bechod, ac fel *esampl* i'w ddilyn.

Y mae yr un nodwedd moesol yn perthyn i brophwydoliaethau y Beibl. Gallasai prophwydoliaeth fod yn brawf allanol o'i ddwyfoldeb, pe buasai wedi ei ddefnyddio ond yn unig i ragfynegu pethau dyfodol. Ond y mae addysg foesol a rhagfynegiadau dyfodol wedi eu huno â'u gilydd. Y mae y prophwyd yn ddysgawdwr. Nid i foddio chwilfrydedd, ond i annog at sancteiddrwydd, y cyfranwyd y ddawn brophwydol. Felly y mae hanesiaeth y dyfodol (yr hyn ydyw prophwydoliaeth), fel hanesiaeth yr hyn oedd wedi myned heibio, yn gwasanaethu teyrnas Crist, a llesâd ysbrydol dynion. Y mae yr holl hanesion a thystiolaethau am Grist yn sail gwahoddiadau ato.

Y mae chwilio am athroniaeth naturiol a chelfyddyd ddynol yn yr Ysgrythyrau, yn chwilio, fel y dywed Francis Bacon, am y meirw yn mhlith y byw; o herwydd dadguddiad o wirionedd crefyddol, a gwirionedd cyfaddas i ddyn fel creadur aflan ac euog, ydyw. Y mae pob gwybodaeth yn fuddiol, ond y mae y wybodaeth hon yn angenrheidiol; "Ymafael ynddi, canys dy fywyd yw hi."

Neillduolrwydd arall ynddo ydyw, ei fod yn cynnwys

DADGUDDIAD GRADDOL A CHYNNYDDOL.

Nid yn y gwirioneddau eu hunain y mae y cynnydd, ond yn y dadguddiad o honynt. Rhoddi goleuni cynnyddol ar wirioneddau a bwriadau oedd mewn bod o'r blaen y mae yr Ysgrythyr. Y mae anffyddwyr, yn fynych, yn gwrthwynebu yr Hen Destament, yn enwedig y llyfrau cyntaf, trwy ddyweyd eu bod yn cynnwys amlygiadau o Dduw sydd yn anghysson â Bod anfeidrol. Yn yr amlygiadau o hono ei hun i Adda ac Abraham, y mae yn ymddangos mewn gwedd ddynol, ac yn llefaru iaith ddynol; y mae yn caniatau i ddynion ymresymu âg ef, ac ymdrechu âg ef; y mae yn newid ei fwriad mewn attebiad i weddi; yn digio, ac yn cael ei ddyhuddo; mewn gair, yn teimlo ac yn meddwl i fesur mawr yn debyg i ddynion. Fod yr Hen Destament yn llefaru fel hyn am y Duw a wnaeth y nefoedd ydyw un o wrthwynebiadau anffyddwyr yn ei erbyn, a'r ffafr gyda pha un yr edrychant ar y Testament Newydd mewn cymhariaeth i'r Hen. Y mae yn amlwg fod y dull hwn o lefaru am y Duw sydd yn ysbryd pur, anghyfnewidiol, yn ddull ffugrol, ond ai nid y dull ffugrol hwn oedd y llwybr tebycaf i gyfranu gwybodaeth gywir, yn y fath amgylchiadau, yn enwedigol. Nis gall ein syniadau uchaf ni am y natur ddwyfol fod ond anmherffaith ar y goreu; ac y mae hanes dyn yn mhob oes yn dangos mai deddf ei natur ef ydyw dringo trwy y gweledig at yr anweledig. Y syndod yw, nid fod y Creawdwr yn ymostwng i ganiatau i'w weision i feddwl am dano mewn ffurfiau wedi eu benthyca oddi wrth eu natur eu hunain, ond ei fod yn rhoddi iddynt y fath amlygiadau o'i fawredd a'i ysbrydolrwydd ag oedd o angenrheidrwydd, bron, yn cadw ei addolwyr rhag edrych arno yn debyg iddynt hwy eu hunain. [Gwel ANTHROPOMORPHIAETH.] Yn raddol y dadguddiodd Duw ei hun i'w weision. Dysgodd iddynt synied yn gywir yn gyntaf am unoliaeth ei natur, er fod ymadroddion i'w cael yn y Beibl o'r dechreu sydd yn gysson â'r gwirionedd a ddadguddiwyd yn eglurach trwy y prophwydi diweddaraf, ac a ddadguddir yn gyflawn yn y Testament Newydd; sef fod lluosogrwydd o bersonau yn y Duwdod. Y mae yr un sylw yn wir am waith a phersonoliaeth yr Ysbryd Glân; ac yn arbenig felly am yr Arglwydd Iesu, a'i swyddau. Weithiau, lleferiram y dadguddiad graddol hwn o ewyllys Duw, fel goruchwyliaethau olynol: pryd y deallir wrth oruchwyliaeth yma, llwybr Duw i ymwneyd â dynion, neu i ddadguddio ei ewyllys iddynt, a'r sefydliadau trwy ba rai y mae yn gorchymyn cael ei addoli. Gwel CYFAMMOD; GORUCHWYLIAETH.

Y mae y neillduolrwydd hwn sydd yn perthyn i'r dadguddiad dwyfol yn dangos y pwysigrwydd o astudio gwahanol ranau yr Ysgrythyrau yn y drefn y maent wedi eu hysgrifenu. Y mae trefniad amseryddol o'r hanes sanctaidd, y Salmau, a'r prophwydi, yn angenrheidiol er mwyn cael esboniad cyflawn o'r gwahanol ranau, ac er mwyn deall yn well ddadleniad graddol y nodweddiad a'r bwriadau dwyfol. [Y mae *Hanes y Prynedigaeth*, gan Jonathan Edwards, yn gorff o dduwinyddiaeth ar y cynllun hwn.] Gwasanaetha astudiaeth amseryddol o'r Ysgrythyrau y dyben o'n galluogi i ddeall eu cynnwysiad yn well hyd yn oed pan na bydd dadguddiad graddol eu gwirioneddau yn destyn myfyrdod. Wrth gymharu epistolau cyntaf Paul, sef y cyntaf a'r ail at y Thessaloniaid, â'r rhai diweddaf, sef y cyntaf a'r ail at Timothëus, gwelir pa faint o gyfnewidiadau oedd wedi cymmeryd lle yn yr eglwysi; a pha faint o gyfnewidiad a wnaeth ychydig flynyddoedd o lafur yn ei deimlad. Y mae y gyfres o ddyoddefiadau yr apostol yn 2 *Cor*, xi., yn ddigon o brawf o'i ymroddiad hunanymwadol, a gwirionedd yr hyn y dyoddefai drosto. Ond dengys trefn amseryddol ei ysgrifeniadau fod hyn o flaen ei garchariad yn Iudea a Rhufain. Y mae dwy flynedd o garchariad, llongddrylliad, a charchariad arall, ac yn ddiweddaf, merthyrdod, i'w chwanegu at y gyfres hono.

Y mae Pabyddiaeth wedi camddefnyddio y gwirionedd o ddadguddiad graddol ewyllys Duw, a thrwy hyny yn ceisio cyfiawnhau y chwanegiadau y mae hi wedi eu gwneyd at yr Ysgrythyrau. Fel yr oedd pob dadguddiad newydd yn taflu goleuni chwanegol ar ddadguddiad blaenorol, ac yn gysson âg ef, felly y mae yr Eglwys Babaidd yn dadleu fod ganddi hi gymhwysder ac awdurdod i daflu goleuni chwanegol ar rai o athrawiaethau mwyaf aneglur y Testament Newydd, a gwneyd cymhwysiadau pellach o honynt; hyny yw, yn yr iaith a arferir ganddi, a'u dadlenu. [Gwel DADLENIAD.] Yn unol â hyn, dywedant fod addoliad y saint yn codi yn naturiol o'r gwynfydedigrwydd a gyhoeddir ar y

Digitized by Google

meirw sydd yn marw yn yr Arglwydd. Ac mai cnewullyn trawssylweddiad, ac addoliad y bara yn y cymun, ydyw yr addewid am bresennoldeb Crist yn y cymun. Ac yn gyffelyb am addoliad angelion, a dwyfoliad Mair y Forwyn. Ond y mae hyn oll yn ddisail, ac yn gamddefnyddiad o ddull yr Ysbryd yn dadguddio ewyllys Duw. Nis gall dadleniad graddol y gwirionedd yn yr Ysgrythyrau, a chan yr Ysbryd Glân, fod yn sail i ddynion ffaeledig wneyd y chwanegiadau a farnont hwy yn gymhwys, a hyny wedi i'r gyfrol sanctaidd gael ei chwblhau a'i selio â melldith Duw ar y rhai a chwanego at, neu a dyno oddi wrth, eiriau y llyfr.

UNOLIAETH Y BEIBL.

Nid llai addysgiadol ydyw olrhain yr unoliaeth sydd yn rhedeg trwy yr oll o'r Ysgrythyrau. Y mae yn meddu yr arbenigrwydd hwn a berthyn i lyfr mawr—unoliaeth amcan, a'r amcan hwnw yn cael ei gadw mewn golwg trwy yr oll o hono. Fel y sylwyd yn flaenorol, nid yw yr unoliaeth hwn yn gynnwysedig mewn bod yn gynnyrch yr un awdwr, na'r un oes. Y mae cynnifer a deugain a wahanol ysgrifenwyr wedi ei gyfansoddi, a chyfrif y rhai sydd wedi ysgrifenu mân ranau o hono.

Mae tueddiadau a galluoedd naturiol yr ysgrifenwyr hefyd yn cael eu gadael yn rhydd yn eu gwahanol weithrediadau, heb eu darostwng i unffurfiaeth dull. Wrth amlygu ewyllys Duw yn y modd mwyaf anuniongyrchol, amlygent neillduolrwydd eu meddyliau a'u calonau eu hunain. Yn y pethau uchaf, dangosent bresennoldeb archwaeth a thymmer naturiol. Canfyddir hyn yn yr amlygiadau mwyaf ysbrydol. Gwahaniaetha Ioan a Iago, Pedr a Paul, wrth arddangos "dirgelwch duwioldeb" ei hun. Edrychant arno o wahanol fanau, a thrwy wahanol gyfryngau. Cymmer un yr olwg allanol, y llall y tu mewnol; un yr athrawiaethol, y llall y moesol. Yr efengyl ydyw y goleuni, a'r apostolion sydd yn ei adlewyrchu megys i'w wahanol liwiau. Felly hefyd o ran arddull eu hysgrifen, llefarasant "megys y cynhyrfwyd hwynt gan yr Ysbryd Glân;" ond "cynhyrfwyd" hwy i weithredu, ac yn ngweithrediad eu galluoedd naturiol. Nid oes yr un dau yn gyffelyb; y mae hyd yn oed y prophwydoliaethau, wrth ysgrifenu pa rai yr oedd yr ysgrifenwyr yn cael eu cipio uchaf hwnt iddynt eu hunain, eto yn dwyn argraff dullwedd personol. Yr oedd yr ysgrifenwyr yn cael eu gadael i weithrediad rhydd eu teimladau a'u galluoedd ymresymiadol. Gwelir hyn yn y Salmau; a'r un peth yn yr epistolau. Yn yr un llythyrau ag a gynnwysant "fawr amryw ddoethineb Duw," ac y gorchymynir yr ufudd-dod llwyraf, ni a gawn agosrwydd gohebiaeth gyfeillgar. Ni gawn yr apostolion hefyd yn cyfranu addysg, nid yn unig mewn ffordd o dystiolaeth ac awdurdod yn unig, ond hefyd trwy ymresymiad a thystiolaethau yr Ysgrythyrau ereill. Ni gawn hefyd, yn gymmysgedig â thystiolaethau dwyfol, ymadroddion sydd yn amlygu gwendid dynol. Yr oedd Ieremïah, Ionah, a Habacuc, yn brophwydi ysbrydoledig, ond ni gawn ynddynt ddangosiadau o wendid pechadurus.

Ond yn nghanol yr amrywiaeth hwn, y mae *un amcan a thuedd foesol* i'r cyfan. Hanes dyn yn ei berthynas â Duw ydyw; dyn yn bersonol; dynion yn deuluoedd, ac yn genedloedd; ac yna yn y gymdeithas eangach o eglwys. Gwelir y nodweddiad hwn sydd yn perthyn i'r Beibl yn sefyll allan gydag arbenigrwydd neillduol, wrth gymharu y dadguddiad dwyfol â dadguddiadau proffesedig ereill. Ynddynt hwy y traethir ar darddiad y greadigaeth, megys yn Shastars yr Hindŵaid; neu ar natur anianyddol sefyllfa ddyfodol, megys yn Alcoran Mahomet; neu ar bethau nas gallant mewn modd yn y byd fod o un defnydd ymarferol, megys chwedlau y Talmud ac Eglwys Rhufain, a gweledigaethau Swedenborg. Ond yn y Beibl, nid oes dim mythoniaeth, na chwedloniaeth, na darddansoddiaeth; dim gwyrthiau, heb fod i ddyben moesol; na dim cynlluniau dychymygol o berffeithrwydd heb drefn i'w cyrhaedd—yn ei hanesion, ei fywgraffiadau, ei brophwydoliaethau, a'i Salmau. Y mae un amcan yn y cyfan; a hyny ydyw, mewn un gair—*iachawdwriaeth*.

Y mae yn *un yn ei athrawiaethau*. Dan bob goruchwyliaeth, y mae egwyddorion mawr Cristionogaeth wedi cael eu cydnabod. Y mae crefydd yn du mewnol, trwy bob rhan o'r Beibl, yr un, sef ffydd ac ufudd-dod; ac yn allanol, fel cyfundrefn o wirionedd, y mae wedi bod yn ddigyfnewid. O'r amseroedd boreuaf, ni gawn grediniaeth yn unoliaeth Duw—yn nghreadigaeth a chynnaliaeth pob peth trwy allu dwyfol—mewn rhagluniaeth gyffredinol a neillduol—mewn cyfraith ddwyfol yn sefydlu yn ddigyfnewid y gwahaniaeth rhwng rhinwedd a bai—yn nghwymp a llygredigaeth dyn—mewn iawn trwy aberth meichnïol—mewn effeithioldeb a dyledswydd gweddi—mewn dylanwad uniongyrchol oddi wrth Dduw—cyfrifoldeb dyn—a'r angenrheidrwydd am sancteiddrwydd.

Yr oedd y ddeddf, fel y rhoddwyd hi gan Moses, yn llawn o seremonïau, ac wedi ei chyfaddasu at un genedl neillduol. Y mae yr efengyl mor nodedig am ei symlrwydd, ac yn gyfaddas i holl ddynolryw, pa beth bynag ydyw eu hamgylchiadau. Ond er mor wahanol ar yr olwg gyntaf, eto y mae y ddwy yn hanfodol yr un. Yr un golygiadau am Dduw ac am ddyn sydd ynddynt; a dadguddir yr un gwirioneddau, a chynnyrchir yr un teimladau trwyddynt.

Oddi wrth y ffeithiau hyn, fe welir mai UN dadguddiad sydd yn y Beibl, ac nid amryw ddadguddiedigaethau olynol. Ceir profion yn yr Hen Destament o, a gwahanol ddulliau o eglurhau, gwirioneddau a ddadguddir yn y Testament Newydd. Y mae y naill yn gyflawniad o'r llall. Un, y cysgod daiarol; a'r llall, y sylwedd nefol. Ac yn barhaus y mae dull arwyddol a chysgodol yr Hen Destament yn angenrheidiol i ddysgu personau unigol, a chenedloedd, fel yr ydoedd yn angenrheidiol i ddysgu yr hil yn gyffredinol trwy un genedl neillduol. Hyd yn awr, yn mhlith cenedloedd paganaidd, y mae rhai o hanesion ac ymarferiadau yr hen oruchwyliaeth yn cyfleu syniadau eglurach am sancteiddrwydd Duw, a dyledswydd dyn, nag y mae amlygiadau cyflawnach y newydd.

Rhydd hyn, hefyd, gynnorthwy i benderfynu pa beth sydd wirionedd, ac i ddangos gwerth cymhariaethol gwahanol wirioneddau. Pe dywedid nad yw aberth ac offeiriadaeth Crist wedi eu dadguddio yn y Testament Newydd, neu eu bod yn wirioneddau heb feddu cymmaint o arbenigrwydd, edrychwn i oruchwyliaethau blaenorol:—ac yna rhaid addef, naill ai fod eu defodau hwy yn wag a diystyr; neu, os oedd ystyr iddynt y pryd hwnw, ac yn awr wedi ei ddileu, y mae cyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn egwyddorion llywodraeth Duw.

Nid yw y Beibl yn dadguddio gwirionedd mewn ffordd o

GYFUNDREN NEU REOLAU PENDANT

Ni chynnwysa grynodeb o wirioneddau ar ddull credo neu holwyddoreg, na chwaith rheolau pendant ar ddyledswyddau y bywyd Cristionogol. Y mae hyn i sylwi arno yn fwy, o gymmaint a'i fod yn groes i ddull cyffredin llyfrau crefyddau gau. Y mae rhan fawr o'r Beibl yn hanesiol. Y mae llawer o hono yn hanes uniongyrchol, yn adroddiad o ddygwyddiadau. Gellir edrych ar brophwydoliaethau yn fath o hanes y dyfodol. Y mae y Salmau, a chyfansoddiad profiadol, yn hanes tu mewnol—yn hanes y meddwl a'r galon. Cynnwysa yr epistolau luaws mawr o gyfeiriadau at ddygwyddiadau ac amgylchiadau ymarferol, at ba rai y cymhwysir yr athrawiaethau a'r cynghorion. Felly y mae egwyddorion llywodraeth a gras Duw yn cael eu cyflwyno i'n sylw, nid mewn geiriau noethion, ond mewn gweithrediad. Nid eu darllen yn gymmaint yr ydym, ond eu gweled wedi eu sylweddoli:—nid ffurf allanol y gwirionedd a geir yn yr Ysgrythyrau, ond ei sylwedd a'i nerth. Cyffröir cydymdeimlad; ac yr ydym yn gweled pethau Duw trwy bethau dyn, yn cael y gwirionedd, nid yn unig ynddo ei hun, ond yn ei gymhwysiadau, ac yn dysgu nid yn unig ei adnabod ond ei ddefnyddio. Y mae prif egwyddorion yr efengyl yn derbyn arbenigrwydd neillduol, ac weithiau cynnwysir hwynt mewn ychydig eiriau; ond os myn dyn ddeall "holl gynghor Duw," rhaid iddo ddarllen drwyddynt lawer o lyfrau gwahanol—hanesiaeth, barddoniaeth, addysgiadau athrawiaethol, a llythyrau. I ba ddyben y mae hyn? *Er mwyn cyffroi ymchwiliad, a gwobrwyo llafur.* Fel y gwerthfawrogir yr hyn y llafurir am dano, y deallir yr hyn yr ymchwilir iddo, ac fel y mae o bwys mawr nid yn unig i gael gwirionedd, ond hefyd i amaethu ein cynneddfau, am hyny y mae y gwirionedd wedi ei roddi yn y Beibl, fel mewn natur, "ychydig yma ac ychydig acw."

*Yn y Beibl, y mae egwyddorion tragwyddol mewn cyssylltiad â ffurfiau amserol.* Mae iddo hanfod diddiwedd, ond mewn cyssylltiad âg ymddangosiadau tymmorol. Y mae y llythyren nid yn unig yn lladd, ond y mae ei hunan yn ddiflanedig; y mae yr Ysbryd nid yn unig yn rhoi bywyd, ond yn dragwyddol. Y mae gwirionedd Duw wedi dyfod at ddyn mewn gwahanol amgylchiadau—mewn amgylchiadau bywyd Hebreaidd, Rhufeinaidd, a Groegaidd:—ac hefyd, fel y sylwyd o'r blaen, yn raddol, yn gyfatebol i sefyllfa gynnyddol y ddynoliaeth. Peth o bwys mawr wrth ymwneyd â'r Beibl ydyw gallu gwahaniaethu yr hyn sydd yn neillduol oddi wrth yr hyn sydd yn gyffredinol, y tymmorol oddi wrth y tragwyddol. Y mae y sylw hwn yn meddu cymhwysder neillduol at yr Hen Destament. Mewn rhyw ystyr y mae a wnelom ni lai âg ef nag oedd a wnelo yr Iuddewon; ond mewn ystyr arall, y mae a wnelom fwy âg ef. Yn ngoleuni y Testament Newydd yr ydym yn mwynhau mwy o ryddid, o ran arferion bywyd a theimlad, ond yr ydym yn gallu deall yn well yr egwyddorion oedd yn rhoi ac yn cynnal bywyd yn y ffurfiau hyny. Yr oedd hanes a chyfundrefn grefyddol yr Iuddewon yn cynnwys egwyddorion anghyfnewidiol, er nad oeddynt hwy eu hunain i barhau ond "hyd amser y diwygiad." Yn erbyn yr Hen Destament y mae anffyddwyr y dyddiau presennol yn gwneyd yr ymosodiad penaf. Haerant nad yw cyfraith, a chrefydd, a hanes yr Iuddewon, yn ddwyfol, am nad ydynt yn cynnwys dadguddiad o wirionedd ond trwy gysgodau ac elfenau tlodion y byd hwn. Wrth ddyweyd hyn, anghofir fod yn rhaid i ddadguddiad fod yn raddol. Rhaid i Dduw lefaru yn y fath fodd ag y gellir ei ddeall. Nid trwy lefaru am ei ysbrydolrwydd pur yr ydym yn cyfranu addysg i blant am Dduw. Ni byddai hyny yn addysg iddynt—nis gallent ei ddeall. Pa fodd y gellir dadguddio y nefoedd i ni, ond trwy gyfrwng ein meddyliau, ein teimladau, a'r dulliau o weithredu sydd genym yn y fuchedd hon? Pa fodd y gallasai fod yn amgen? Y mae yn hytrach yn brawf o wirionedd y Beibl, ei fod yn dysgrifio Duw yn llefaru wrth ddyn yn gyfatebol i'w gymhwysder i ddeall ei leferydd.

*Y mae tystiolaeth y Beibl i'w derbyn, am mai tystiolaeth y Beibl ydyw.* Pa beth bynag sydd yn amlwg yn y llyfr dwyfol, sydd i'w dderbyn *am ei fod yno*, ac nid o herwydd ein bod ni yn gallu ei amgyffred. "Os tystiolaeth dynion yr ydym yn ei derbyn, y mae tystiolaeth Duw yn fwy." Yr ydym i gredu Duw ar ei air. Fel hyn yr ydym yn ymddwyn at dystiolaeth ddynol. Yr ydym yn credu dynion yn barhaus. Nid allem wneyd am ddiwrnod heb weithredu ffydd yn eu geiriau. Ar ffydd y mae cymdeithas ddynol wedi ei sylfaenu fel ar ei chareg sylfaen. Pa beth fyddai hanes y byd i ni, heb ffydd? Pa beth fyddai y gwyddonau naturiol i'r lluaws, heb ffydd mewn dynion cyfarwydd â hwynt? Nid ydym chwaith yn ei wneuthur yn ammod angenrheidiol i'n ffydd, fod dynion yn tystiolaethu wrthym yn unig am y pethau y gallwn ni farnu am eu tebygolrwydd, neu am y pethau yr ydym ni yn gydnabyddus â hwy. Yr ydym yn caniatau i dystiolaeth ddynol ein hysbysu am bethau na welsom eu cyffelyb erioed o'r blaen. Os ydym yn derbyn tystiolaeth dynion, oni ddylem dderbyn tystiolaeth Duw.

Y mae y ffaith fod Duw wedi rhoddi dadguddiad i ni, yn cynnwys nad ydym, ac nas gallwn, ddeall pob peth. Y mae yn dyfod atom fel rhai anwybodus, ac ar gyfeiliorn, ac yn cynnyg ein harwain i'r gwirionedd. Y mae y Beibl yn proffesu bod yn ddadguddiad oddi wrth Dduw. Yr ydym wedi cyffwrdd â rhai o'r profion dros hyny; ac o ganlyniad, yr ydym yn dyweyd fod hanfodiad y fath lyfr yn ein parotoi i ddysgwyl am yr hyn nad allasai rheswm ei hun ei amlygu i ni. Os ydyw Duw wedi llefaru, y mae yn dywedyd wrthym yr hyn na wyddem o'r blaen, a'r hyn y mae o bwys i ni ei wybod.

Ond yn y fan hon, y mae llawer yn barod i wrthddadleu:—Pe na buasem yn alluog i'w gael allan heb y Beibl, eto gallem ei ddeall wedi iddo gael ei ddadguddio. Os nad allwn ei amgyffred, a gweled ei resymoldeb, ar ol iddo gael ei amlygu, onid yw hyn yn brawf nad oddi wrth Dduw y mae y dadguddiad? Y mae llawer yn addef yr angenrheidrwydd am ddadguddiad o'r nef, ond dywedant yr un pryd nas gall un dadguddiad felly gynnwys yr hyn nad yw yn gysson â chasgliadau ein rheswm ni wedi i'r dadguddiad gael ei wneyd. Mewn atebiad i hyn, gellir dyweyd fod syniad am Dduw, ac am y fath Dduw ag a ddadguddir yn y Beibl, yn ei ganmawl ei hun i feddwl y lluaws ar unwaith pan wneir ef yn hysbys iddynt. Ond er addef hyn, nid yw yn angenrheidiol addef fod meddwl dyn yn alluog i amgyffred holl gynnwysiad y Beibl, fel na raid iddo dderbyn dim o'i gynnwysiad ar awdurdod y llyfr ei hun. Y mae llawer o bethau tu hwnt i gyrhaedd ein rheswm a'n profiad ni. Ië, onid yw yn unol â rheswm i ddysgwyl y buasai gan Dduw bethau i'w dywedyd wrthym am dano ei hun a'i

Digitized by Google

ffyrdd, y byddai yn anhawdd i ni eu deall? Y mae efe yn llywydd—yr ydym ni yn ddeiliaid. Y mae efe yn llywodraethu yr holl greadigaeth —yr ydym ni yn byw ar y ddaiar. Y mae ei oruchwyliaethau yn cynnwys yr oll o amser a thragwyddoldeb—nis gallwn ni weled ond "rhanau ei ffyrdd ef." Ysbryd pur ydyw ef—yr ydym ni yn byw mewn byd daiarol anianol; y mae ein henaid yn byw mewn corff, ac yn derbyn holl elfenau ei wybodaeth trwy y corff. Tystiolaetha y Duw mawr wrthym, yn benaf, yn yr Ysgrythyrau, am dano ei hun, ei natur, ei berffeithiau, ei weithredoedd, ei berthynas â'r greadigaeth, a'i fwriadau sydd yn cyssylltu y diddechreu a'r diddiwedd yn un. A ydyw yn rhyfedd, gan hyny, fod dirgeledigaethau yn y Beibl? Nis gallwn ddianc rhag dirgeledigaethau. Hollbresennoldeb a thragwyddoldeb Duw—Pwy a all eu sylweddoli? Pwy all ffurfio unrhyw ddrychfeddwl am danynt? Maent yn cynnwys anhawsderau anorfod i reswm dyn. Y mae pob ymgais i'w hysgoi yn aneffeithiol. Ac eto, nis gallwn ddianc rhagddynt: o herwydd pe gwadem fod Duw, y mae eangder anfeidrol, parhad tragwyddol, a hanfodiad anachosedig, wedi hyny—anhawsderau mor fawr, ac yn yr olwg ar bob peth, mwy nag o'r blaen. Ynfydrwydd ydyw i greadur sydd wedi ei amgylchynu â dirgeledigaethau feddwl fod yn rhaid i holl gynnwys y dadguddiad dwyfol fod yn ddealladwy iddo ef.

Mewn dadguddiad oddi wrth Dduw, gallwn ddysgwyl y bydd llawer o hono yn mhlith y pethau amlwg. Heb fod mewn cydymffurfiad â'n cyfansoddiad o ran deddfau cyffredinol, nid allai weithredu arnom. Ac i ryw raddau, rhaid i ni wneuthur cynnwysiad dadguddiad proffesedig yn safon ei wirionedd. Pe deuai cenadwri atom, yn proffesu bod oddi wrth Duw, ac eto yn gorchymyn lladrad, anwiredd, ac aflendid, fel rhinweddau moesol, nid allem lai na'i wrthod. Ond y mae hyn yn beth tra gwahanol i ddyweyd, Os na chydsynia y Beibl â'n rheswm ni yn y cymhwysiad o egwyddorion moesol yn llywodraeth Duw, nid allwn ei dderbyn. Un peth ydyw gwahaniaethu am hanfod moesoldeb; a pheth arall am y dull priodol o weinyddu llywodraeth foesol.

Yn mhellach, nid yw y Beibl yn gyfrifol am lawer o'r anhawsderau y mae dynion yn eu canfod ynddo. Y mae llawer o anhawsderau yn dyfod, nid oddi uchod, ond oddi isod; nid oddi wrth yr hwn sydd yn ei roddi, ond oddi wrth y rhai y mae yn dyfod atynt. Heb ymfoddloni i dderbyn tystiolaethau y Beibl am ffeithiau, y mae dynion yn fynych yn ceisio esbonio y modd y maent, ac yn gosod eu hesboniadau eu hunain ar yr un tir a geiriau Duw. Felly hefyd, tynant gasgliadau oddi wrth y ffeithiau hyn, a gosodir y rhai hyn ar yr un tir a geiriau y Beibl. Yr un modd hefyd, ceisir uno, a chyssoni, a gwneyd cyfundrefn o'r ffeithiau hyn, a gosodir y cyfundrefnau hyn ar yr un tir a gair Duw. Mor fynych y mae y gwahaniaethau yn mysg Cristionogion yn cyfodi, nid oddi ar eiriau neu ffeithiau pendant y Beibl, ond oddi ar wahaniaethau am ryw bethau ereill—y rhesymau drostynt, y modd y maent, a'u cyssondeb â'u gilydd.

**BEIBLIGION**, [*Biblici*]: oeddynt ddosbarth o dduwinyddion yn y ddeuddegfed ganrif. Rhoddid arnynt amrywiol enwau ereill; megys *Dogmatici Positivi* = duwinyddion athrawiaethol *didactic divines*); a *Veteres*=hynafiaid. Gelwid hwy wrth yr enwau hyn, am eu bod mewn gwrthwynebiad i'r Ysgolwyr (*Scholastici*); ac yn ol esampl yr hen ddysgawdwyr, yn casglu eu cyfundraith dduwinyddol o'r Ysgrythyrau, fel yr eglurir hwynt yn ngweithiau y tadau. Yn y pwnc diweddaf hwn, gwahaniaethent oddi wrth y Waldensiaid—duwinyddiaeth pa rai oedd yn gwbl wedi ei gasglu o'r Ysgrythyrau. Yr oeddynt, hefyd yn wrthwyneb i'r Cyfrinwyr (*Mystics*). Eisteddle eu dylanwad oedd Paris, i'r lle y cyrchai efrydwyr o bob parth o Ewrop i dderbyn addysg gan brif athrawon y tair plaid dduwinyddol—y Beibligion, y Cyfrinwyr, a'r Ysgolwyr. Yr hyn a wahaniaethai y Beibligion oddi wrth yr Ysgolwyr, oedd, eu hymwrthodiad â chymhorth rheswm ac athroniaeth i esbonio yr Ysgrythyrau a chrefydd. Yr oedd eu sylwadau eglurhaol, fel y gallesid dysgwyl oddi wrth ansawdd beirniadaeth yr oesoedd hyny, gan mwyaf yn dra chymmysglyd ac anmhwrpasol. Yn y drydedd ganrif ar ddeg, adfeiliasant yn fawr. Ymddengys fod cryn debygolrwydd rhwng eu hegwyddorion a'u hamcan âg eiddo y Duwioliaid (*Pietists*) yn yr ail ganrif ar bymtheg. Yn mysg y Beibligion, rhifid Bernard; Pedr, a gyfenwir y Cantor; Walter, o St. Victor, ac ereill. Eu prif gynlluniau, oedd, Anselm, archesgob Canterbury; Lanfranc; a Hildebert; y rhai oeddynt yn byw yn y canrifoedd blaenorol.

**BEICHIOG—I**, [*baich*]: Gr., *εν γαστρι εχειν*. *Mat.* i. 18, 23; xxiv. 19; *Marc* xiii. 17; *Luc* xxi. 23; 1 *Thes.* v. 3; *Dad.* xii. 2. Felly y Deg a Thrigain am הרה, yn *Gen.* xvi. 4; xxxviii. 25; 2 *Bren.* viii. 12.

Cospai cyfraith Moses yr hwn a darawai wraig feichiog, fel ag i beri niwed iddi, fel y gosodai gŵr y wraig arno: *Exod.* xxi. 22.

"Wele, efe a ymddwg anwiredd, ac a *feichiogodd* ar gamwedd, ac a esgorodd ar gelwydd;" *Salm* vii. 14. Darllena Hengstenberg fel y canlyn— "Wele, y mae mewn gwewyr ar ddrygioni, ac yn feichiog ar drueni, ac yn esgor ar gelwydd." Y mae y Salmydd yn gweled pa fodd y mae cynllwynion maleisus a drygionus er dinystr y cyfiawn yn cael eu diddymu, ac yn troi allan yn ddinystr iddynt eu hunain. Darllena Luther y geiriau,—"Wele, y mae drygioni yn ei galon, y mae yn feichiog ar aflwydd, ond esgora ar ddim;" ac yn debyg De Wette, Hitzig, &c.

"Beichiogasom, gofidiasom, oeddym fel ped esgorem ar wynt;" *Esa.* xxvi. 18. "Siomwyd hwynt am y llwyddiant a ddysgwylient. 'Beichiogasom,' bu genym ddysgwyliad mawr am waredigaeth brysur a dedwydd, yr oeddym yn llawn gobeithion; a phan 'ofidiasom'—neu pan oeddym mewn gwewyr, ymgysurem â'r meddwl y byddai i enedigaeth gysurus beri i ni anghofio ein gofid; ond, 'yr oeddym fel ped esgorem ar wynt,' bu ein poenau yn debycach i boenau marwolaeth nag i boenau esgor. Trodd ein holl ymgeisiadau yn aflwyddiannus; 'ni wnaethom ymwared ar y ddaiar' i ni ein hunain nac i'n cynghreiriaid; a 'phreswylwyr y byd ni syrthiasant' ger ein bron yn eu gallu na'u gobaith; ond y maent yn awr mor uchel ag o'r blaen."—*M. Henry.*

"A hi yn *feichiog*, a lefodd, gan fod mewn gwewyr a gofid i esgor;" *Dad.* xii. 2. Dywedir hyn am yr eglwys, o dan yr arwyddlun o wraig. Yn unol âg amryw ranau o'r Hen Destament, y mae y cyfyngderau trymion a ragflaenasant lwyddiant yr eglwys yn cael eu gosod allan yma dan y gymhariaeth o boenau esgor llymion yn syrthio ar Sion—eglwys Dduw. Cymharer *Micah*

Digitized by Google

iv. 9, 10; "Canys gwewyr a'th gymmerodd (merch Sïon) fel gwraig yn esgor;" *Ier* iv. 31; "Clywais lef megys gwraig yn esgor, cyfyngder fel benyw yn esgor ar ei hetifedd cyntaf." Wrth gymharu y rhanau hyn, a'r cyffelyb, y mae yn amlwg mai wrth y gofidiau hyn y meddylir, fel y dywed Bengel, "yr hiraeth pryderus, yr ocheneidiau, y gweddïau, a'r dysgwyliad cryf sydd yn mynwesau y saint am deyrnas Dduw." "Y mae yn nddeddf dragwyddol," medd Hengstenberg [d.g.], "â'r hon y mae Duw yn llywodraethu ei eglwys ar y ddaiar, fod poen yn rhagflaenu llawenydd, a thrueni yn rhagflaenu iachawdwriaeth;—fel Israel yn yr Aipht, i'r rhai y daeth gwaredigaeth pan y cyrhaeddodd eu dyoddefiadau i'w uchder mwyaf." Tra y mae beirniaid yn cytuno mai yr eglwys a feddylir wrth y wraig, y mae cryn wahaniaeth yn eu golygiadau o barth i'r amser y cyfeirir yma ato, ac i arwyddocad y "mab gwryw," yn y darluniad. Barna Moses Stuart, a Hengstenberg, mai Iesu Grist a feddylir wrth y "mab gwryw;" a'i fod wedi cyfodi o'r eglwys o ran y cnawd. "Y mae yr hyn a ddywedir am dano yn y bummed adnod,—'Yr hwn a fugeilia yr holl genhedloedd â gwialen haiarn,'—yn dangos pa beth oedd achos gofidiau yr eglwys cyn ei ddyfodiad. Arwydda fod yr eglwys yn flaenorol yn ddarostyngedig i lywodraeth y paganiaid. Y mae y brophwydoliaeth am Ramah, 'wylofain mawr yno,' a 'Rahel yn wylo am ei phlant,' i'w deall, nid yn unig mewn cyfeiriad at lofruddiad plant Bethlehem, ond yn arddangos Sïon yn ei chyflwr o ddarostyngiad dan y Rhufeiniaid, Herod, y ddraig, &c. Pa fodd yr oedd Sïon y pryd hyny yn llefain mewn gofidiau esgor, gan ddyheu am waredigaeth, a ddangosir yn fywiog yn nghân Zacharïas."—*Hengstenberg*, d. g. Ond y golygiad mwyaf naturiol, efallai, ac a bleidir gan y nifer mwyaf o'r esbonwyr, ydyw, mai yr Eglwys Gristionogol a feddylir, a bod y gymhariaeth o wraig yn feichiog, ac yn esgor ar fab gwryw, yn dynodi yr eglwys mewn cyflwr cynnyddol. Y mae y golygiad hwn yn cytuno yn well âg iaith gyffredin yr Ysgrythyrau wrth osod allan gynnydd yr eglwys: *Esa.* liv. 1: lxvi. 7. "Ystyr y darluniad," medd Barnes, "ydyw dangos peryglon yr eglwys o ddeutu yr amser yr oedd arwyddion o helaethiad mawr arni, oddi wrth gyfodiad gelyn ofnadwy a safai yn ei hymyl, yn barod i'w dinystrio. Yr wyf, felly, yn cymmeryd y darluniad fel yn cyfeirio at gyfodiad y Babaeth, pan y gallesid dysgwyl, oni buasai am gyfodiad y gallu hwnw, i'r eglwys ymeangu dros y byd." Y prif beth a arwyddoceir yma ydyw ffrwythlonder, yn dynodi y dychweledigion a ennillai yr eglwys yn nghanol ei dyoddefiadau." —*Boothroyd.* "Cyfeiria y mab gwryw at waredigaeth yr eglwys trwy Cystenyn." — *Esgob Newton.* "Arwydda y Crist dirgeledig, Crist yn ei aelodau."—*Gill* a *Faber.* "Tybiwyf fod yr enw, 'mab gwryw,' yn arwyddlun o'r fath oreu o dduwiolion, sef cyffeswyr a merthyron."—*D. Davidson.*

BEL, [בל, בעל; Deg a Thrigain, Βηλ, Βηλος]: prif eilundduw y Babiloniaid (*Esa.* xlvi. 1; *Ier.* l. 2), ac a gydnabyddid gan amryw genedloedd ereill o dan yr enw Baal. Myn rhai fod y ddinas Babilon, neu Babel, yn cael ei galw felly oddi wrth y gair באב בל=*llys* neu *ddinas Bel.* mewn cyfeiriad at y duw hwn. Dywed rhai mai mab oedd Bel, neu Belus, i Osiris yr Aiphtiaid a'i fod yn frenin yn Babilon tua deunaw can mlynedd cyn dyddiau Semiramis. Barna ereill mai Nimrod, ac ereill drachefn mai mab Semiramis, ŵyr Nimrod, ydoedd. Geilw Herodotus ef yn Iau Bel=Διος Βηλου [*Clio.* i. 181]; a thybia llawer mai yr un ydoedd a Iau y Groegiaid; bod yr enw Baal a Bel yn cynnrychioli y blaned hono, am fod eilunaddoliaeth y Babiloniaid yn cyfeirio at y ser; mai Bel y gelwir y blaned hono hefyd yn y llyfrau Tsabiaidd; a bod y Rhufeiniaid yn galw yr eilundduw Babilonaidd Bel yn Iau: ond dadleuir o'r ochr arall ei fod yn cael ei addoli gan y Phœniciaid a'r Canaaneaid mewn cyfeiriad at yr haul, yr hwn a ystyrid yn brif dduw cenedloedd y dwyrain yn gyffredinol. Gwel BAAL; TWR BABEL.

Y mae y darlun canlynol wedi ei gymmeryd oddi wrth gerflun Babilonaidd, ac yn gosod allan yr haul-dduw, ac un o'i offeiriaid. Y mae y seren a'r hanner lleuad, oll yn meddu arwyddocad penodol.



Dar. 130.

Rhagfynegwyd y dirmyg a deflid ar Bel yn ninystr Babilon: *Esa.* xlvi. 1; *Ier.* l. 2; li. 44. Gwel BELTEIN.—*Lemp.'s Clas. Dict.; Roll.'s Anc. Hist.; Rel. Cycl.*)

1. BELA, [*distrywiwr*]: mab Beor, brenin yn Edom: "enw ei ddinas ef oedd Dinhabah:" *Gen.* xxxvi. 32, 33.

2. BELA: penteulu yn llwyth Beniamin: *Num.* xxvi. 38, 40.

3. BELA. Gwel BALAH; SOAR.

BELGIUM. Gwlad yn Ewrop, yn gorwedd rhwng 49° 31′ a 51° 27′ lled. gog.; a rhwng 2° 37 a 6° o hyd. dwyr. Ei hyd mwyaf yw 173 o filltiroedd Seisonig, a'i lled mwyaf yw 112 o filltiroedd=yr hyn sydd yn gyfartal i 8,044,323 o erwau Seisonig, neu 12,569 o filltiroedd ysgwâr. Y mae trigolion y wlad hon mewn rhan yn Germaniaid, mewn rhan yn Geltiaid; ac yn ddiweddarach, y mae elfen Rufeinig wedi ymgymmysgu â hwy. Dywedir fod Cristionogaeth wedi dyfod i'r wlad yn yr oes apostolaidd, ac mai y cenadwr cyntaf a ymwelodd â hi oedd Eucharius, un o'r deg disgybl a thrigain, ac ysgolhaig yr apostol Pedr, yr hwn a ddaeth yn y flwyddyn 42 gyda Valerius a Maturnus o Rufain. Ond yr hwn a anrhydeddir uchaf fel gwir apostol y Belgiaid ydyw Maturnus—yn ol y traddodiad, mab y wraig weddw o Nain—yr hwn a bregethodd yr efengyl trwy yr holl wlad, a adeiladodd amryw eglwysi, ac a fu farw B. A. 130. Ond er y traddodiad hwn, nid oes hysbysiad am un o'r enw yn genadwr yno yn foreuach na'r bedwaredd ganrif. Y mae anwybodaeth hollol bron o barth i hanes eglwysig Belgium o flaen amser Cystenyn Fawr, pryd y ceir hanes am raniad y wlad i bedair esgobaeth. Ar ol dychweliad Clovis, brenin Ffrainc, at Gristionogaeth, amgylchiad a effeithiodd yn fawr ar hanes

Digitized by Google

Ewrop, daeth proffesu Cristionogaeth yn arferiad gyffredin: ond yn Belgium, anurddwyd y broffes yn fawr trwy gymmysgedd o foesau ac arferion paganaidd. Dan y breninoedd Merovingaidd, enwogodd amryw o offeiriaid eglwysig eu hunain, megys St. Amaud, apostol Flanders a Brabant; St. Aubert, esgob Cambray; St. Cloy, esgob Tournay; St. Lambert, a St. Hubert. Dan Charlemagne a'i olynwyr, rhoddwyd deddfau yr eglwys mewn grym gyda mwy o lymdoster, ac adeiladwyd llawer o fynachdai ac eglwysi. Ar ol amser Charlemagne, gwnaeth y Normaniaid eu rhuthriadau, pryd y gorfu ar y Cristionogion ffoi o fynachdy i fynachdy, ac i lawer o honynt gael eu rhoddi i farwolaeth. Wedi i'r Normaniaid ymsefydlu mewn cyrau o Ffrainc, fel cyd-ddinasyddion a chydgyfranogion o'r un ffydd, gwnaeth yr Hungariaid eu rhuthrgyrch ysbeilgar mor bell a Lothringen. Ond yn fuan adferwyd heddwch a llwyddiant dan lywodraeth gwahanol dywysogion. Ac er fod y rhai hyn yn cweryla yn fynych â'u gilydd, eto trwy fasnach a diwydrwydd yr oedd trigolion y trefydd yn casglu cyfoeth, ac yn dyfod yn raddol i ddeall gwerth rhyddid. Yn rhyfeloedd y groes, y mae enwau rhai o dywysogion Belgium yn adnabyddus, yn enwedig Gottfried, o Bouillon; Robert, o Flanders; a Baldwin, o Hennegan. Yn llywodraethiad y wlad, nid oedd yr offeiriaid yn cael un rhan, er y meddent ddylanwad mawr; ac yn y bymthegfed ganrif, derbyniodd rhai o'r uchoffeiriadon eisteddle yn mysg cynnrychiolwyr y bobl. Effeithiodd y rhyfeloedd rhwng Ffrainc a Lloegr yn ddrwg ar foesau ac arferion Belgium. Yn y wlad hon y dechreuodd ac y sefydlwyd gyntaf gymdeithasau rhydd y Beghariaid a'r Begwiniaid [gwel erthyglau]. Yn nechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg yr ymledaenodd y Lollardiaid o Antwerp. Ychydig cyn y Diwygiad Protestanaidd, sefydlodd Gerhard Groot gymdeithas i ledaenu egwyddorion ymarferol Cristionogaeth, dan yr enw *Brodyr Unedig*, neu *Brodyr y Bywyd Cyffredin* [gwel erthygl]. Fel rhagflaenor y Diwygiad, er mewn ffordd yn erbyn ei ewyllys, ni ddylid gadael Erasmus o Rotterdam heb ei enwi yn y fan hon. Condemniwyd syniadau Luther yn Louvain, ond eto yn mysg yr urdd Awstinaidd yn yr Iseldiroedd y derbyniasant gymmeradwyaeth. Yr oedd gelynion y Diwygiad yn gwawdio, sychedai y bobl am yr athrawiaeth newydd, a thybiai yr ynadon heddwch eu bod hwy yn cyflawnu eu dyledswydd wrth wahardd pob ymryson yn nghylch Luther a'i athrawiaethau. Ond defnyddiodd Charles v. o Yspaen fesurau llymdost i gadw y ddysgeidiaeth hereticaidd rhag ymledaenu yn ei diriogaethau treftadol: felly yn Brussells y llosgwyd merthyron cyntaf y Diwygiad, sef Henry Voes a John Esch, y rhai a berthynent i'r urdd Awstinaidd fel Luther ei hun. Yr oedd hyn ar yr 21ain o Mehefin, 1523. Nid oedd bywyd y ddau ferthyr hyn yn ddigon i ddyhuddo y nwydau digofus oedd wedi deffro, parhaodd erlidigaeth, a pharhaodd y Diwygiad hefyd i gynnyddu. Ymddangosodd hefyd yn eu mysg amryw sectau penboeth, megys *Brodyr yr Ysbryd rhydd* [gwel yr erthygl]; a'r Ailfedyddwyr a olrheinient eu tarddiad i'r Waldensiaid a hanfodent yn flaenorol yn Belgium. Yn mhlith ymlynwyr y Diwygiad, y Calviniaid yn raddol a ennillodd y llaw uchaf. Gobeithiai Philip ii. o Yspaen attal eu llwyddiant, a'u hollol ddarostwng trwy greulonderau y chwil-lys, sefydlu esgobaethau newyddion, a themtasiynau bydol. Ymdrechai y Diwygwyr ar y llaw arall i newid meddwl Philip am danynt; ac i'r dyben cyfansoddwyd y *Gyffes Belgiaidd* (*Confessio Belgica*) yn 1562; ond ni dderbyniai ef ond ymostyngiad diammodol i benderfyniadau Cynghorfa Trent. Torodd digllonedd y bobl allan yn erbyn yr eglwysi a'r delwau, am yr hyn y bu raid iddynt hwythau ddyoddef yn dost. Ymddangosodd Alva—ymffrost yr hwn ydoedd, y byddai yn well ganddo hollol ddiboblogi y wlad na gadael ynddi un heretic—gyda ei fyddin; ac ar ei air torwyd miloedd i lawr; ond achosodd hyn y rhyfel a derfynodd yn rhyddhad saith o'r taleithiau oddi wrth eu gormes. Yn 1579, ffurfiodd pum talaeth—sef Holland, Zealand, Utrecht, Guelderland, a Friesland—Undeb Utrecht, sydd mor hyglod mewn hanesiaeth, yn yr hwn y dadganent eu hannibyniaeth ar Yspaen. Ar ol hyny ymunodd dwy dalaeth ereill â hwy, a ffurfiasant y werin-lywodraeth sydd wedi cyrhaedd enwogrwydd mawr dan yr enw "Y Saith Dalaeth Unedig" (*Seven United Provinces*), ond a alwyd wedi hyny yn Holland, oddi wrth y dalaeth eangaf a chyfoethocaf. Mae y Saith Dalaeth Unedig, neu Holland, yn parhau yn Brotestaniaid hyd yn awr; ond diwreiddiwyd Protestaniaeth yn llwyr o'r taleithiau ereill, sef Belgium, ac ymsefydlodd Jesuitiaid yn St. Omar, a Douay; a thrwy eu hymdrechiadau hwy y cedwid y wlad mewn rhagfarn Babyddol o'r fath gryfaf.

Dechreuodd dadl yn Louvain hefyd rhwng y rhai a ddalient egwyddorion Awstin, neu Galviniaeth, ac amddiffynwyr Lladin Pelagiaeth yn Eglwys Rhufain, ac yn benaf y Jesuitiaid. Ond yn Ffrainc y bu y ddadl hon boethaf. Gwel Janseniaid.

Yn 1781, pasiwyd deddf goddefiad, i ganiatau i'r Protestaniaid adeiladu addoldy yn Brussells. Gwnaed llawer o ddiwygiadau ereill oedd yn tueddu i gwtogi dylanwad yr offeiriaid. Dygwyd y cyfan oddi amgylch gan Joseph ii., brawd i Marie Antoinette, yr hwn, er ei fod yn Babydd, a hynododd ei hun fel diwygiwr. Cafodd wrthwynebiad cryfaf yr offeiriaid, a chorff ei ddeiliaid; a dywedir iddo dori ei galon oddi wrth fethiant ei gynlluniau. Adferwyd y cyfan gan ei frawd a'i olynwyr ar yr orsedd, Leopold ii., i'r sefyllfa yr oeddynt ynddi yn amser eu mam, Marie Theresa. Wedi i'r diwygwyr golli eu hamddiffynydd ar yr orsedd, llwyddodd yr offeiriaid a Leopold i ddarostwng y cyfan yn ol dan orthrwm Pabaidd. Yr oedd y blaid oedd o duedd ddiwygiadol yn ffafriol i'r chwyldroad yn Ffrainc, 1795; a bu y taleithiau mewn undeb â Ffrainc am beth amser, dan yr enw *Batavian Republic.* Arweiniodd hyn i ryfel rhwng Lloegr a Ffrainc; o herwydd yr oedd Lloegr yn eiddigeddus dros undeb Belgium â Holland, fel teyrnas unedig, i fod yn attalgaer i Ffrainc. Ar ol cwymp Napoleon, unwyd y saith talaeth ogleddol, a'r deg deheuol, â'u gilydd, dan yr enw Teyrnas yr Iseldiroedd (*Kingdom of the Netherlands*), ar ol ysgariad o ddau cant o flynyddoedd. Yr ammodau ar ba rai y ffurfiwyd yr undeb oedd, "fod rhyddid i broffesu pob syniadau crefyddol;" ac hefyd, "nad oedd neb i gael ei gau allan o swyddau gwladol ar gyfrif gwahaniaeth barn ar faterion crefyddol." Ni pharhaodd yr undeb hwn ond am bymtheng mlynedd, er ei fod yn cynnyrchu daioni i Belgium a Holland, yn enwedig i'r blaenaf. Ond yr oedd ammod yr undeb yn iau rhy drom i Belgium Babaidd allu ei dyoddef. Ac erbyn i chwyldroad Mehefin, 1830, gymmeryd lle yn Paris,

Digitized by Google

yr oedd Belgium yn fflam—mynai gael bod yn wladwriaeth annibynol ar wahan oddi wrth Holland. Caniatawyd hyn iddi, a gosodwyd Leopold, gŵr y ddiweddar Dywysoges Charlotte, yn frenin, dan nawdd galluoedd mawr Ewrop.

Y mae yr ystadegau a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1846, yn dangos fod nifer y trigolion yn 4,337,196; ac o'r rhai hyn, nid oes ond 10,323 heb fod yn Babyddion. Ac yn mhlith y nifer bychan hwn, y mae gwahanol bleidiau Protestanaidd; o ba rai, y brif blaid ydyw yr Undeb Protestanaidd. Nid yw blaenoriaid yr Undeb Protestanaidd yn ffafriol i'r Gymdeithas Efengylaidd sydd wedi ei ffurfio yn Brussels, yn ol cynllun Cymdeithas Efengylaidd Paris a Geneva. Prif lys yr Undeb hwn ydyw y synod, cynnwysedig o un pregethwr, ac o ddau i dri o is-swyddogion o bob eglwys; ac ymgyfarfyddant unwaith bob blwyddyn. Nifer yr eglwysi a berthynant i'r Undeb ydyw saith neu wyth; ac o'r rhai hyn, dwy sydd yn olrhain eu hanes i ddyddiau y Diwygiad. Y mae eglwysi Seisonig hefyd yn Belgium, gyda phedwar o weinidogion—dau yn Brussels, un yn Ostend, ac un yn Antwerp. Y mae gan y gymdeithas Efengylaidd bump o orsafau, a deg o ysgolion.

BELIAL, [בליעל; Βελιαλ]: a arwydda, yn ol rhai, *drygioni, un drwg, un diddaioni;* yn ol ereill, *un diog*, neu, *i beidio a chodi drachefn;* ac yn ol ereill, *un heb iau*, neu, *un heb ddysgyblaeth, heb attalfa.* Y mae yr anghytundeb yma yn nghylch ei ystyr yn codi oddi ar fod beirniaid yn gwahaniaethu yn nghylch tarddiad y gair Hebraeg. Cyfieitha y Deg a Thrigain ef yn 1 *Sam.* xxv. 25, a manau ereill, τὸν ἀνθρωπον τον λοιμὸν τοῦτον; a'r Vulgate, "*virum istum iniquum*"="y dyn drygionus hwn." Mae yr ymadroddion "meibion Belial," "y gŵr Belial," a "merch Belial," yn arwyddo rhai wedi ymroddi i ddrygioni, ac yn cyfeirio at y cymmeriadau gwaethaf. *Barn.* xix. 22; xx. 13; 1 *Sam.* i. 16; ii. 12; xxv. 17, 25. Cyfieithir ef "y fall," yn 2 *Sam.* xvi. 7; 1 *Bren.* xxi. 10; 2 *Cron.* xiii. 7, a manau ereill. Arwydda "y diafol," yn 2 *Cor.* vi. 15; "A pha gyssondeb sydd rhwng Crist a Belial?"

BELLARMINE, ROBERT: un o amddiffynwyr galluocaf Pabyddiaeth, yr hwn a ymddangosodd yn niwedd y ganrif y torodd y Diwygiad Prostestanaidd allan. Yr oedd Luther a'i ganlynwyr wedi gwneyd rhwyg anfeddyginiaethol yn Eglwys Rhufain ar y cyfandir: ond yn fuan, ymddangosodd y Jesuitiaid, gwrthwynebwyr mwyaf galluog a phenderfynol y diwygiad; ac i'r urdd hon y perthynai Bellarmine. Ganwyd ef yn Monte Pulciano, yn Tuscany, yn y flwyddyn 1542. Yn wrthwynebol i benderfyniad ei dad, ymgyflwynodd y bachgen i wasanaeth yr eglwys. Yr oedd yr urdd Jesuitaidd y pryd hwnw, dan lywyddiaeth Lainez, cyfaill Loyola y sylfaenydd, yn ei gwresogrwydd cyntaf, ac yn ennill dylanwad yn fwy trwy hunanymwadiad a llafur yr aelodau, yn nghyd â'u hymdrechiadau i sylfaenu ysgolion. Nid oedd nodweddau neillduol ei duwinyddiaeth wedi ymagor eto, fel y gwnaeth yn y ganrif ganlynol yn Ffrainc.

Daeth Bellarmine yn hyddysg â'r Lladin yn fore, fel ag i'w defnyddio gyda'r un rhwyddineb ag iaith ei fam, sef yr Italaeg. Yn ddiweddarach, cyfansoddodd rai o Hymnau Eglwys Rhufain. Ymroddodd i efrydu duwinyddiaeth yn Padua, yn 1567 hyd 1868. Enwogodd ei hun fel pregethwr cyn cyrhaedd yr oedran i dderbyn urddau offeiriadol. Ond yn 1569, ordeiniwyd ef gan yr enwog Jansenius, yn Ghent; ac yn y flwyddyn ganlynol, gwnaed ef yn athraw duwinyddol yn Louvain. Efe oedd y dysgawdwr cyntaf o'r urdd Jesuitaidd a draddododd ddarlithiau ar ysgrifeniadau Thomas Aquinas [*Summa Theologiæ*], yr hwn, yn nesaf at Awstin, oedd yr enw uchaf ei awdurdod yn yr eglwys. Ennillodd Bellarmine gryn glod trwy y darlithiau hyn a'r pregethau Lladin y cyfeiriwyd atynt. Ymroddodd hefyd i ddysgu yr Hebraeg, a chyhoeddodd ramadeg o'r iaith, yn yr hon yr ymdrechai wneyd y dull o'i ddysgu yn fwy syml.[1] Yn ystod ei arosiad yn yr Iseldiroedd, rhoddodd lawer o'i amser i ddarllen y tadau eglwysig, ac ysgrifenwyr y canoloesoedd; ac fel ffrwyth y llafur hwn, cyhoeddodd gyfrol o hanes llenyddiaeth Gristionogol.[2] Nid yw y gwaith hwn i'w gymharu â gweithiau cyffelyb a gyhoeddwyd yn yr ail ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif; ond meddai gryn deilyngdod y pryd y cyhoeddwyd ef. Dygodd ei arosiad am saith mlynedd yn yr Iseldiroedd ef i gyffyrddiad nes â Phrotestaniaeth, ac i adnabyddiaeth o'r ddadl fawr oedd yn myned yn mlaen—y fath nad allasai gael yn Italy. Yr oedd y ddwy blaid, yn enwedig yn y gwledydd hyny, yn barod i amddiffyn eu hopiniynau â'r cleddyf. Gwelodd Bellarmine ddechreuad y rhyfel a dorodd allan mewn canlyniad i benderfyniad ac ymddygiadau creulawn Alva, erlidiwr creulonaf yr unfed ganrif ar bymtheg, a'r hyn a achosodd ryfel annibyniaeth Holland, yr hon a barhaodd am wyth a thrigain o flyneddoedd, ac a ddybenodd yn nidoliad y saith dalaeth unedig oddi wrth Yspaen. Ar ddynesiad William o Orange, blaenor y Protestaniaid, gyda'i fyddin, bu raid i Bellarmine ffoi, gyda'r offeiriaid Pabaidd ereill, o Louvain i Douay. Pan ydoedd gartref, er mwyn adferiad iechyd, yr hwn oedd wedi ammharu trwy efrydiaeth a'i fywyd meudwyol, derbyniodd orchymyn oddi wrth Gregory XIII, i fyned i Rufain i draddodi darlithiau, yn y coleg oedd newydd ei sylfaenu, ar y dadleuon rhwng Pabyddion a Phrotestaniaid. Cyssegrodd ddeuddeng mlynedd o'i fywyd at hyn; ac fel ffrwyth y llafur hwn, cyhoeddodd y gwaith mawr[3] sydd wedi ennill iddo y clod o fod yn amddiffynydd dadleuol galluocaf Rhufain, a duwinydd dysgedicaf yr urdd Jesuitaidd. Cynnwysa y gwaith hwn holl byneiau y ddadl yn erbyn hereticiaid Protestanaidd yr oes hono, wedi eu cyfleu gyda y deheurwydd a'r ddysgeidiaeth fwyaf. Meddai yr un arbenigrwydd yn nuwinyddiaeth Rhufain, ag a briodolid i waith hanesyddol Baronius yn ei hanesiaeth eglwysig; a chyfaddaswyd y ddau i gyfarfod ag amgylchiadau yr oes. Amcanai y ddau, fel y gwnai ysgolorion mawr y canoloesoedd, i amgyffred holl gylch gwybodaeth a dysgeidiaeth, a'u cyssegru i dduwinyddiaeth. Yr ydoedd Bellarmine i'w oes, yr hyn ydoedd Bossuet, a Möhler i oes ddiweddarach. Nid ydoedd yn meddu ar gyfoeth athrylith y rhai hyn; ond heb ei waith mawr ef, nid allasent hwy wneuthur cymmaint mewn dadleuon diweddarach. Dysgrifiad Du Pin, hanesydd Pabaidd, o'i waith ydyw—"Nad yw yn fynych yn ymresymu, ond yn ymddiried i awdurdod yr Ysgrythyrau, y cynghorfäau, y

[1] *Institutiones linguæ Hebraicæ et exercitatio grammatica*, Rom. 1578.
[2] *De Scriptoribus Ecclesiasticis*, &c. Rom. 1613.
[3] *Disputationes de controversiis Christianæ fidæ adversus hujus temporis hæreticos.*

tadau, a chydsyniad duwinyddion: rhydd• y gwrthddadleuon yn deg, ac etyb hwy mewn ychydig eiriau. Gwyddai yn dda pa beth oedd daliadau Protestaniaid, a geiria hwynt yn deg, heb ddefnyddio enllibiadau personol, yr hyn sydd mor gyffredin yn mysg ysgrifenwyr dadleuol." Gosodai allan syniadau Protestanaidd gyda'r fath degwch, fel, am hir amser, nad yn foddlawn iawn yr edrychai llys Rhufain ar ledaeniad ei waith yn Italy. Ond dywedai ei wrthwynebwyr, ac nid yw yn hollol anghredadwy, medd Hallam, mai ei ymgais ydyw twyllo y darllenydd.

Y mae duwinyddion Protestanaidd wedi cydnabod ei allu, nid yn unig trwy ganmoliaeth uniongyrchol, ond hefyd yn eu heiddigedd i'w wrthwynebu ef fel prif amddiffynydd Pabyddiaeth. Gelwir mwy na hanner dwsin o lyfrau, yn yr hanner can mlynedd cyntaf ar ol iddo ysgrifenu, yn *Anti-Bellarminus*. Y mae *Corff Duwinyddiaeth* [*Loci Theologici*] eang Gerhard wedi ei ffurfio gyda'r bwriad i wrthwynebu Bellarmine. Ar y llaw arall, dywedir fod yr ysgrifenwyr Pabaidd yn cymmeryd benthyg pob peth o Bellarmine, fel y gwna y beirdd o Homer.

Yn 1590, dechreuodd y cyfnod yn hanes bywyd Bellarmine, y defnyddiwyd ei wasanaeth mewn amgylchiadau o bwysigrwydd eglwysig a gwladwriaethol, ac y cyrhaeddodd yr anrhydedd uchaf. Sixtus v. a Chlement viii. oedd y ddau bab a ganfuasant ei werth i'r dyben hwnw. Yr oedd y llys Pabaidd wedi ei garthu y pryd hyn oddi wrth lawer o anfoesoldeb; ac, yn chwanegol at fwy o erwinder arferion, wedi ei feddiannu gan fath o argyhoeddiad fod y Babaeth i adennill yr awdurdod cyflawn hwnw a weinyddwyd gan Gregory vii. ac Innocent iii. Yr oedd amgylchiadau yn ffafrio y gobaith y gallasai eto gyrhaedd y mawredd a fu ganddi unwaith. Dysgrifia Ranke, yn *Hanes y Pabau*, yr ysbaid hwn fel math o adferiad y canoloesoedd. Bellarmine oedd un o lywodraethwyr galluocaf y cyfnod, o ran athrylith a phob cymhwysder meddyliol. Gwnaed ef yn gardinal, yn 1599,—anrhydedd y buasai yn well ganddo fod hebddo: ac ni dderbyniodd ef, ond ar orchymyn y Pab, yr hwn a ddymunai gael un dyn a ddywedai y gwir wrtho yn nghanol gweniaith y llys. Rhoddodd Bellarmine ei gynghor iddo yn ddigêl, o barth i uchelgais a chybydd-dod yr esgobion a'r cardinaliaid; ac ymddangosai Clement fel o ddifrif yn ceisio rhoddi y gwelliantau mewn ymarferiad. Bu Bellarmine o wasanaeth mawr i'r pabau yn eu hymrysonau â'r galluoedd gwladwriaethol. Ar ol cael allan Frad y Pylor Gwn (*Gunpowder Plot*) yn Lloegr, gwnaed deddf i orfodi y Pabyddion i gymmeryd llw o ffyddlondeb i'r brenin, yn cynnwys hefyd wadiad cryf y gallai deiliaid ddiorseddu neu roddi i farwolaeth eu llywodraethwyr, mewn canlyniad i esgymundod gan y pab. Cymmerodd y rhan fwyaf o Babyddion Lloegr y llw gofynedig i Iago i, ac ysgrifenodd y brenin ei hun amddiffyniad i'r ddeddf, dan yr enw *Apology for the Oath of Allegiance*. Meddyliodd Iago fod yn amddiffynwr y ffydd, fel y bu Harri viii., yn erbyn Luther. Atebodd Bellarmine ef yn y flwyddyn 1610, dan yr enw Matthew Tortus. Dyrchafai awdurdod y pab uwch law pob awdurdod daiarol, yn yr ysbryd Ultramontanaidd a anadalai trwy ei oes. Yr oedd y syniadau hyn mor annerbyniol yn Eglwys Babaidd Ffrainc ag yn Mhrydain. Yr oedd Barclay, cyfreithiwr, o deulu Ysgotaidd, wedi hir amddiffyn iawnderau coron Ffrainc yn erbyn pob gwrthwynebwyr. Cyhoeddwyd ei draethawd yn Llundain yn 1609: yn y flwyddyn ganlynol, ysgrifenodd Bellarmine atebiad iddo; ond ni oddefai senedd Paris iddo gael ei werthu yno. Tua'r un amser, bu brwydr boeth rhwng y pab Paul v. a llywodraeth werinol Venice, o barth i'r un cwestiwn ag sydd wedi bod mewn dadl y blyneddoedd hyn rhwng y pab a llywodraeth Sardinia; sef rhyddhad yr offeiriaid oddi wrth y rhwymedigaeth i ufuddhau i gyfreithiau y wlad. Yn y ddadl hon, daeth un dyn mawr i'r amlwg yn erbyn y pab, sef Paulo Sarpi, yr hwn oedd y cyntaf mewn oesoedd diweddaraf, ac mewn gwlad Babaidd, a ysgydwodd sylfeini gormes Pabyddol, ac annibyniaeth a dylanwad offeiriadol. O blaid y pab yn y ddadl, yr oedd Baronius a Bellarmine. Athrawiaeth Bellarmine oedd y dylasai llywodraethwyr y ddaiar ymostwng i Grist; a chan fod y pab yn gynnrychiolwr gweledig iddo ar y ddaiar, y dylasent ymostwng yr un modd iddo yntau. Ffrwyth yr athrawiaeth hon oedd, erlidigaethau creulawn a brwydrau dychrynllyd. Yr oedd Bellarmine yn gyfranog o'r euogrwydd o honynt, er ei fod ef ei hun yn ddyn o duedd heddychol.

Treuliodd ei flyneddoedd olaf yn ngholeg y Jesuitiaid, yn Rhufain; ac yno y cyfansoddodd amryw o draethodau addysgiadol, *Am esgyniad y meddwl at Dduw; Pa fodd i farw yn ddedwydd; Am dragwyddol ddedwyddwch y Saint*, ac ereill.[1] Yno hefyd y bu farw, yn 79 mlwydd oed, yn y flwyddyn 1621. Dywed hanesyn, iddo wrth farw, orchymyn ei enaid—hanner i'r Forwyn Fair, a'r hanner arall i'r Gwaredwr. Bwriadwyd amryw weithiau ei seintioli, ond yr oedd gwrthwynebiad Ffrainc yn rhwystr; ac yn y ddeunawfed ganrif, yr oedd casineb cynnyddol y Pabyddion eu hunain at y Jesuitiaid yn lluddias hyny.

BELSASSAR. Yn ol *Dan*. v. 10, 13, 18, 22, mab ydoedd i Nebuchodonosor (cymharer hefyd *Baruch*. i. 11, 12, lle yr ymddengys fel ei olynwr ar yr orsedd), a'r brenin diweddaf o'r ymherodraeth Galdeaidd yn Babilon. Dan ei deyrnasiad ef y cymmerwyd Babilon mewn un noswaith, tra yr ydoedd y llys a'r ddinas wedi ymroddi i loddest (*Dan*. v. 1, 30; *Esa*. xxi. 5), gan Cyrus, brenin ieuanc Persia (*Ier*. l. 44; *Esa*. xlv. 1; xlvii. 1), a'i ewythr, Cyaxares, yr hwn a elwir yn y Beibl Darius, brenin y Mediaid, a'r hwn ydoedd ar y pryd yn 62 mlwydd oed. Dysgrifir Belsassar yn Daniel fel brenin balch, afradlawn, a gwan galon, yr hwn a halogodd lestri y deml a gymmerwyd o Ierusalem. Teyrnasodd o'r hyn lleiaf dair blynedd (*Dan*. viii. 1); a rhoddwyd ef i farwolaeth y noswaith y cymmerwyd y ddinas: *Dan*. v. Dywed Herodotus, i frenin olaf Babilon, yr hwn a eilw efe Labynetus, gyfarfod â'i ddiwedd, ac i'r ddinas gael ei chymmeryd, ar adeg gwledd, yn y nos [*Herod*. i. 191], yr hyn a gadarnheir hefyd gan Xenophon, yr hwn a'i geilw yn "frenin annuwiol" (ανοσιος βασιλευς), ond heb ei enwi [*Cyrop*. vii. 5, 15]. Yn mhellach hefyd, dywed Herodotus, mai mab ydoedd i'r frenines Nitocris, yr hon a gymmerodd y llywodraeth bron yn hollol i'w dwylaw ei hun yn ystod teyrnasiad ei mab afradlawn [*Herod*. i. 186]. Cytuna hyn â'r hysbysiad am y frenines yn *Dan*. v. 10, yr hon sydd yn ymddangos yn yr hanes yn debycach i fam nag i wraig y brenin.

[1] *De ascensione mentis in Deum; Ars Bene Moriendi; De æterna felicitate Sanctorum; De Septem verbis Christi; De gemitu Columbæ.*

Digitized by Google

Ymddengys anghyssondeb rhwng hanes Daniel, yr hwn a lefara am Belsassar fel olynwr uniongyrchol Nebuchodonosor, a 2 *Bren.* xxv. 27; *Ier.* lii. 31, lle yr ymddengys Efil-merodach yn teyrnasu fel ei olynwr uniongyrchol. Ond o ran dim sydd yn Daniel, gallasai llawer o bethau gymmeryd lle rhwng yr hanes yn *pen.* iv. a'r hanes yn *pen.* v., y rhai ni pherthynant i amcan Daniel i wneuthur un crybwylliad amdanynt. Crybwyllir am Efil-merodach gan Berosus, hanesydd Caldeaidd, yn *Joseph. Com. Ap.* i. 20; a dysgrifir ef yn dywysog diffaith; a rhoddwyd ef i farwolaeth yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad. Ar ei ol ef, daeth y llywodraeth i ddwylaw Laborosoarchod, ac oddi wrtho i Nabonnedus, yn ol Berosus, i Labynetus, yn ol Herodotus; a Belsassar, yn ol Daniel.

Yn ol yr amseryddiaeth cywiraf, cymmerodd marwolaeth Nebuchodonosor le, yr hwn a deyrnasodd am 43 o flyneddoedd, yn y flwyddyn 561 c.c., a chymmeriad Babilon gan y Mediaid yn y flwyddyn 538: felly, yr oedd tair ar ugain o flyneddoedd rhyngddynt. O'r cyfwng yma, yn ol Berosus, teyrnasodd Efil-merodach ddwy flynedd; Neriglissor bedair; a Laborosoarchod o ddeutu blwyddyn; ac felly, yn gadael un ar bymtheg o flyneddoedd i deyrnasiad Belsassar. Cyrhaeddodd ef yr orsedd trwy ymgynghreirio yn erbyn y brenin Laborosoarchod, yn y flwyddyn 555 neu 554 c.c., a pharhaodd i deyrnasu hyd yr eilfed flwyddyn ar bymtheg, pryd y cymmerwyd ei ddinas ac y dinystriwyd ei ymherodraeth. Esgynodd yr orsedd tua chwe blynedd ar ol marwolaeth Nebuchodonosor; ac felly, nid yw yn annhebygol nad un o'i feibion ieuengaf ydoedd. Cadarnheir y dybiaeth hon, trwy fod ei fam, Nitocris, yn frenines: yr hyn nid allasai fod heb ei bod yn un o wragedd Nebuchodonosor.

Y mae hanes Belsassar yn *Dan.* v. yn llawn o addysg a dyddordeb. Hynodrwydd y wyrth a gyflawnwyd; y rhan a gymmerodd Daniel yn y dygwyddiadau; a'r enwogrwydd a gyrhaeddodd; nid allasent lai na throi meddyliau dynion at y genedl Iuddewig, ac at Iehofah fel ei brenin. Gwasanaethai hefyd i weinyddu cynnaliaeth a gobaith i'r Hebreaid yn eu caethglud; ac i ogwyddo meddwl y buddugoliaethwr yn gryf tuag atynt. Fel y cymmerwyd hwy yn gaethglud yn ol bygythiad y brophwydoliaeth (*Esa.* xiii, xxi), felly yr oedd y waredigaeth addawedig yn ymddangos wrth law. A chan nad allasai ond caethwas Hebreaidd ddeongli yr arwyddion dirgelaidd oedd yn rhagddangos cwymp ymherodraeth fawr a galluog, gallasai Cyrus yn naturiol feddwl mai doethineb fyddai iddo ryddhau yr Iuddewon mewn gobaith y buasai hyn yn foddion i ennill ffafr y Bod Mawr a wasanaethent.

BELSHAM, THOMAS: a anwyd Ebrill 15, 1750. Yn y flwyddyn 1766, derbyniwyd ef i athrofa oedd yn Daventry, y pryd hwnw o dan olygiaeth y Dr. Ashworth, pan yn un ar bymtheg oed. Ordeiniwyd ef yn weinidog Ymneillduol ar gynnulleidfa yn Worcester, yn 1778; ond yn mhen tair blynedd, symmudodd oddi yno i gymmeryd gofal yr eglwys yn Daventry. Erbyn y flwyddyn 1789, yr oedd ei syniadau wedi cyfnewid i'r fath raddau, fel yr addefai ei hun yn Undodiad, o'r un egwyddorion a Priestley. Rhoddodd ei le i fyny yn Daventry, ac ymgymmerodd âg arolygiaeth coleg Undodaidd Hackney. Wedi bod yn athraw yno am un mlynedd ar bymtheg ymadawodd yn 1805, ac aeth i weinidogaethu yn nghapel Essex street, Llundain, yn olynydd i Dr. Disney a Mr. Lindsey. Yr oedd yn ddyn mor fanwl yn mhob peth, a'r gydwybod mor dyner, fel nad yw yn ymddangos iddo fwynhau llawer o dawelwch meddwl ar hyd ei oes, gan nad oedd ei syniadau yn caniatau iddo dderbyn cysur oddi wrth aberth ac iawn Crist—y gwaed sydd yn puro y gydwybod oddi wrth weithredoedd meirwon—a dylanwadau sancteiddiol yr Ysbryd ar y galon. Ennillodd gymeradwyaeth mawr yn mysg ei gyfeillion trwy yr amrywiol lyfrau a ysgrifenodd, a chyfrifid ef yn flaenor Undodiaeth yn Lloegr wedi marwolaeth Dr. Priestley. Ei weithiau mwyaf adnabyddus ydynt, *Calm Inquiry; Evidences of Christianity; Review of Wilberforce*; a *Memoirs of Lindsey*, yr hwn sydd yn cynnwys hanes Undodiaeth yn yr America. Bu farw yn y flwyddyn 1830.

BELTEIN, neu BELTANE: oedd fath o ŵyl a gynnelid gynt, os nad ydyw yn parhau eto, yn yr Iwerddon, a rhai parthau o'r Alban, ar y dydd cyntaf o Fai. Ystyr y gair *Beltein* yw, *tân Baal;* a chan fod Baal neu Bel yn dduw yr haul, tybir fod y tân a gynneuid ar yr ŵyl hono wedi ei fwriadu er anrhydedd y duw Baal, pan y byddo yr haul yn dychwelyd yn ei ddylanwad ar gynnyrch y ddaiar yn nechreu yr haf. Mewn parthau yn ngorllewin yr Alban, cynnelir hi ar y nawfed ar ugain o Fehefin; ond yn yr Iwerddon cynnelir dwy, un ar y dydd cyntaf o Fai, a'r llall ar yr unfed ar ugain o Fehefin. Tybir gan rai mai dyma a roddodd ddechreuad i gynneu coelcerthi ganol yr haf a chalangauaf mewn parthau ereill yn Lloegr a Chymru. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg mai gweddillion Derwyddiaeth ydyw yr arferiad; ac nid yw yn annhebyg iddo gael ei sefydlu i ryw ddybenion coelgrefyddol, er anrhydedd rhyw dduw, fel cydnabyddiaeth, wedi cael cynnyrch y ddaiar i ddiddosrwydd, yn enwedig galan gauaf.

Mewn hen eirlyfr Gwyddelaeg a Seisoneg, ceir yr hanes a ganlyn am yr ŵyl hon:—"*Beáltine*, neu *béil-tine*, ignis Beli Dei Asiatici; *h. y., tine-Beil*. Dydd Calanmai a elwir felly oddi wrth y tanau mawrion a arferai y Derwyddon eu cynneu ar benau y bryniau uchaf, trwy y rhai y gyrent eu hanifeiliaid, gan gyflawnu, ar yr un pryd, amrywiol ddefodau i wneuthur iawn am bechodau y bobl. Y mae y ddefod baganaidd o gynneu y tanau hyn, er anrhydedd y duw Asiaidd Bel, wedi rhoddi ei henw ar holl fis Mai, yr hwn a elwir yn yr iaith Wyddelig hyd heddyw *mi na Beal-tine*." Dywed Dr. Keating, wrth son am dân Baal, y gyrid y gwartheg drwyddo, ond nad oeddynt yn cael eu haberthu; ac mai yr amcan penaf yn hyny oedd cadw oddi wrthynt bob afiechyd heintus am y flwyddyn hono: a dywed hefyd fod holl drigolion yr Iwerddon yn diffodd eu tanau y dydd hwnw, ac yn eu cynneu drachefn â pheth o'r tanau hyny. Dywed awdwr arall, eu bod yn gwneuthur i bob aelod o'r teulu fyned trwy y tanau hyn, am eu bod yn ystyried y ddefod hon yn angenrheidiol i sicrhau llwyddiant iddynt drwy y flwyddyn ddyfodol. "Ar y dydd hwnw," y cyntaf o Fai, medd Vallancey, "gyrai y Derwyddon eu holl wartheg trwy y tanau, i'w cadw oddi wrth afiechyd y flwyddyn ddyfodol. Y mae y ddefod baganaidd hon yn cael ei harfer eto (1772) yn Munster a Connaught, ac y mae y bythynwyr tlotaf, os bydd yn werth buwch a thusw o wellt, yn cadw yr un ddefod ar y dydd cyntaf o Fai, oddi ar yr un syniadau coelgrefyddol."

Dywed gweinidog o swydd Perth, yn yr Alban,

Digitized by Google

wrth son am "ddefodau neillduol" yr Ysgotiaid, yn y flwyddyn 1794:—"Ar y dydd cyntaf o Fai, yr hwn a elwir Beltane, neu ddydd Beltein, bydd holl blant cwmmwd neu bentref yn cyfarfod yn y rhosydd. Torant gylch crwn yn y tir glas, digon i gynnwys pawb a fydd wedi cyfarfod. Yna cymmerant dân, a darparant wledd o wyau a llaeth, wedi eu gwneuthur yn debyg i geulfwyd (*custard*), a phobant deisenau o flawd ceirch, y rhai a gresir ar gareg ar y marwor. Ar ol bwyta y ceulfwyd, torant y deisen yn gynnifer o ddarnau ag a fydd rhifedi y cynnulliad, ac mor debyg i'w gilydd o ran ffurf a maint ag a ellir. Wedi hyny, rhwbiant un o'r darnau â golosg nes y bydd yn berffaith ddu, a rhoddant holl ddarnau y deisen mewn penwisg, yna tyn pob un, wedi gorchuddio ei lygaid, ddarn allan, a chaiff y neb a fydd yn dal y benwisg y dernyn olaf. Yr hwn a dyno allan y dernyn du yw y person diofrydedig i gael ei aberthu i Baal, i'r dyben i atolygu ei nodded, trwy beri i'r flwyddyn fod yn gynnyrchiol o gynnaliaeth dyn ac anifail. Nid oes un ammheuaeth na bu yr aberthau creulawn hyn yn cael eu hoffrymu unwaith yn y wlad hon yn gystal ag yn y dwyrain, er na wneir yn bresennol ond yn unig gorfodi y person diofrydedig i neidio dair gwaith trwy y fflamau, gyda'r hyn y terfyna defodau y wledd." Rhydd gweinidog arall o'r un sir hanes cyffelyb am ei blwyf yntau. "Cedwir yr ŵyl hon yn benaf," meddai, "gan y bugeiliaid gwartheg; y rhai a ymgasglant wrth yr ugeiniau i'r meusydd i ddaparu ciniaw iddynt eu hunain o laeth ac wyau berwedig, yr hyn a fwytânt gyda theisenau wedi eu darparu i'r perwyl. Hwyrach y gallai y deisen fod yn offrwm i ryw dduw gynt yn nyddiau Derwyddiaeth."

Dywed Pennant fod y bugeiliaid yn mhob pentref yn ucheldiroedd yr Alban yn cynnal eu Beltein. "Torant ffos betryal yn y ddaiar gan adael y tyweirch yn y canol, yn yr hwn y cynneuant dân coed, ac y gwnant fath o succan, o wyau, ymenyn, blawd ceirch, a llaeth; bydd ganddynt hefyd gyflawnder o gwrw a *whiskey*, o blegid rhaid i bawb gyfranu rhywbeth at y ddarpariaeth. Dechreuir y ddefod trwy dywallt peth o'r succan ar y ddaiar, mewn ffordd o ddiodoffrwm; wedi hyny, cymmer pob un deisen wedi ei gwneuthur o flawd ceirch, ar yr hon y bydd naw o gnyciau pedair ongl, a phob un o'r cnyciau hyn yn gyssegredig i ryw dduw neillduol, yr hwn y tybir ei fod yn amddiffyn eu deadelloedd, neu i ryw greadur penodol a ystyrir yn eu dyfetha. Try pob un ei wyneb at y tân, tyr un o'r cnyciau hyn, a theifl ef dros ei ysgwyddau, gan ddywedyd, 'Hwn a roddaf i ti—cadw di fy ngheffylau;' 'Hwn i ti—cadw di fy nefaid,' ac felly yn mlaen. Wedi hyny, eir trwy yr un ddefod gyda chyfeiriad at greaduriaid ysglyfaethus; 'Hwn a roddaf i ti, O lwynog!—arbed di fy ŵyn;' 'Hwn i ti, O fran gwccyllog!' 'Hwn i ti, eryr!' Ar ol i'r ddefod fyned drosodd, bwytânt y succan; ac wedi darfod y wledd, cuddir y gweddill gan ddau ddyn penodedig i'r dyben hwnw; ond ar y Sabbath canlynol, ymgynnullant drachefn i wledda ar y gweddill." Cynneuir tanau mawrion yn Sweden, gan bobl y wlad, ar benau y mynyddoedd, er nad o dan yr enw Beltein, ar y dydd olaf yn Ebrill, a threulir y noswaith hono mewn saethu.—(*Sir J. Sinclair's Stat. Acc. of Scotland*; Edinburgh, 1749; *Vallancey's Essay on the Ant. of the Irish Lang.*; *Jamieson's Etym. Dict. of the Scot. Lang.*; *Pennant's Tour in Scotland*; *Penny Cyclopædia.*)

**BELTESASSAR.** Yr oedd yn arferiad yn ngwledydd y dwyrain, ac y mae yn parhau hyd heddyw mewn amryw wledydd, ar neillduad rhai i swyddau pwysig yn y llywodraeth, i fabwysiadu enwau newyddion iddynt, yn cynnwys cyfeiriad at natur eu swydd, fel yr adnabyddid eu hawdurdod yn eu sefyllfa newydd gan y wladwriaeth, ac fel y cynhyrfid hwythau i sel a ffyddlondeb yn y cyflawniad o'u swydd.

Yn fuan ar ol caethgludiad Iehoiacim a mawrion Iudea i Babilon, penderfynodd Nebuchodonosor gadarnhau ac addurno ei orsedd, yn nghyd â lliniaru digofaint yr Iuddewon, trwy ddethol bechgyn da yr olwg arnynt, a deallgar yn mhob doethineb, &c., o'r teulu breninol, ac o blith y tywysogion, er eu dwyn i fyny yn holl ddysgeidiaeth y Caldeaid, a'u cymhwyso i sefyll ger bron y brenin; hyny yw, i gyflawnu swyddau pwysig yn y llys. Gwyddai brenin Babilon yn dda hanes preswylwyr Iudea—fod gwybodaeth a doethineb yn eu plith, a bod Duw y nefoedd wedi dadguddio pethau mawrion iddynt drwy y prophwydi. Credai hefyd, yn ddiau, mai yn mhlith y teulu breninol, a'r mawrion, y byddai yn debyg o gael gafael yn y talentau gloewaf, er ei fod am gael ereill a fyddent yn meddu yr un cymhwysderau. O'r holl fechgyn a ddetholwyd, yr oedd pedwar yn tra rhagori ar y lleill i gyd. Rhagorasant gymmaint, fel na chlywn byth air o son am y lleill; er, yn ddiau, fod y rhai hyny wedi dyfod i raddau o fawredd. Am y pedwar hyn, dywed yr hanes sanctaidd fod Duw wedi rhoddi iddynt wybodaeth a deall yn mhob dysg a doethineb. Wedi dyfod o'r amser penodol i fyned â hwy ger bron y brenin, cafodd hwynt yn ddeg gwell na'r holl ddewiniaid a'r astronomyddion oedd o fewn ei holl freniniaeth ef. Ar y neillduad hwn, penderfynent eu gwneyd yn Galdeaid perffaith, o ran eu personau a'u henwau. Daniel oedd y blaenaf yn y rhestr, ac iddo ef y rhoddwyd yr enw *Beltesassar*. Y mae yn debyg y gwyddai y brenin ystyr ei enw cynhenid, sef, "Barnwr Duw;" neu, yn ol rhai, "Duw fy Marnwr." Gan hyny, penderfynai fod ei enw newydd yn gyfryw ag a ddyddyfnai ei feddwl oddi wrth Dduw y nefoedd, ac a barai iddo anghofio gwlad ei dadau, a gwasanaeth y deml yn Ierusalem; fel, trwy hyn, yr ennillid ef i ymgyssegru, yn holl nerth ei ddoniau a'i fawredd, i wasanaetha y llys yn Babilon, ac eilunaddoliaeth y Caldeaid. Ystyr yr enw Beltesassar yw, "Tywysog, neu Drysorydd Bel," neu Baal, prif dduw y Caldeaid. Trwy yr enw hwn, gallai ystyried ei hun, a chael ei ystyried yn y llys, fel prif gyfaill y duwiau, ac un yn byw yn eu cyfrinach. Y mae yn eglur mai amcan neillduol gan Nebuchodonsor oedd, effeithio gwrthgiliad hollol yn meddwl y llanc oddi wrth ei wlad a'i grefydd. Beth bynag oedd ei amcan ef, yr oedd amcan Duw yn wahanol. Trwy i'r brenin gael ei gynllun i weithrediad, gofalodd Brenin y nefoedd am gael ei amcan yntau. Yn lle anghofio a gwadu ei wlad a'i Dduw, cafodd ei gymhwyso i sefyll yn wrolach dros ei enw, ac i amddiffyn ei gymmeriad gyda mwy o nerth.

Nid yw yn ymddangos fod Daniel yn gosod fawr o werth ar ei enw newydd, o blegid wrth ei enw cynhenid y mae yn dyfod i'r golwg yn yr holl hanes am ei weithredoedd nerthol a rhyfedd. Ni wadodd ei Dduw na'i wlad. Daniel oedd efe yn ei dŷ, Daniel yn y llys, Daniel yn mysg y tywysogion, a Daniel yn ffau y llewod: ac fel Daniel y daeth oddi yno, er siomedigaeth i'w

Digitized by Google

elynion. Galwai ei fradychwyr ef, "y Daniel hwn," er ei ddifrïo, gan feddwl mai yn Beltessasar yr oedd y bri. Ond efe a ofnai Dduw y nefoedd, gan daflu dirmyg ar holl rwysg eilunaddoliaeth. Wrth ei enw cynhenid y dygir y gwr mawr a rhyfedd hwn i sylw eto. Gwel DANIEL.

BELUS: afon yn Syria, a elwid felly, yn ol tyb rhai, am ei bod yn cael ei hystyried gan y Phœniciaid gynt yn gyssegredig i Baal. Crybwyllir am dani gan Josephus dan yr enw Belcus, a dywed Dr. Kitto mai yr un ydyw a'r hon a elwir yn bresennol Nahr Kardanus. O dywod yr afon hon, medd Pliny, y gwnaed gwydr gyntaf, yr hyn a ddarganfyddwyd wrth gynneu tân ar ei glanau i goginio ymborth; ac yr oedd y llestri yn parhau i gyrchu ei thywod i Italy a Genoa i wneuthur gwydr, mor ddiweddar a chanol yr ail ganrif ar bymtheg.—(*Physical. Geog. of the Holy Land; Rel. Cycl.*)

BEN, [בֵּן; mewn cystrawen בֶּן, neu בֵּן=*mab*]: y sill cyntaf mewn enwau Hebreig; megys Morri*son*, a John*son*, yn Seisoneg; ac *Ap* Harri, yn Gymraeg. Gwelir anghreifftiau yn y geiriau canlynol.

1. BENAIAH, [בניה=*mab yr Arglwydd*]: mab Iehoiadah o Cabseel, dinas yn neheubarth llwyth Iudah; gŵr grymus, a diysgog yn ei ffyddlondeb i deulu breninol Dafydd. Crybwyllir am dair gweithred ddewr, a ennillodd iddo enw yn mhlith tri chedyrn Dafydd (2 *Sam.* xxiii. 22), y rhai a safent wrth ei ochr. Efe a laddodd ddau o gedyrn (ar ymyl y ddalen, dau "lew Duw o Moab") Moab, y rhai, y mae yn ddiau, a enwogasant eu hunain yn y rhyfel: 2 *Sam.* viii. 2, 18. Ac efe a aeth i waered, ac a laddodd lew mewn pydew yn amser eira. Ac efe a darawodd Aipht-ddyn, gŵr golygus o faint......ac a'i lladdodd â'i waewffon ei hun: 2 *Sam.* xxiii. 20, 21. Dygwyddodd hyn, fe ddichon, yn y rhyfel yn erbyn yr Edomiaid, yn yr hon y cymmerai yr Aiphtiaid ran.

O blegid ei wasanaeth mewn rhyfel, gosododd Dafydd ef yn benaeth "ar ei wŷr o gard," ei gorff-osgordd: 2 *Sam.* xxiii, 23:—swydd y bu efe ei hun ynddi yn foreuach yn ngwasanaeth Saul. Yr oedd y Cerethiaid a'r Pelethiaid [gwel yr erthyglau] hefyd dan Benaiah. Gelwid corff-osgordd, neu osgorddlu personol, y brenin, yn "rhedegwyr" (רצים, *ratism*); ac fel y gellir casglu oddi wrth 2 *Sam.* xv. 1, a 1 *Bren.* i. 5, ei fod yn gynnwysedig o leiaf o "ddengwr a deugain," y rhai, fel y dywedir, a redent o'i flaen. Prif orchwyl Benaiah oedd cyflawnu gorchymynion dedfrydol y brenin: 1 *Bren.* ii. 25, 30, 35. O herwydd ei ffyddlondeb i Solomon (1 *Bren.* i. 8), cafodd ei osod yn benaeth ar y filwriaeth, ar ol i Ioab gael ei roddi i farwolaeth: 1 *Bren.* ii. 39. Yn amser Dafydd, heb law bod yn ben ar y gard, yr oedd hefyd yn dywysog ar 24,000 o wŷr: 1 *Cron.* xxvii. 5, 6. Ar ol marwolaeth Ahitophel, cymmerwyd ef yn un o gynghorwyr y brenin, yr hyn a ymddengys oddi wrth 1 *Bren.* i, a 1 *Cron.* xxvii. 34. Felly, ymddyrchafodd y dyn hwn o swydd i swydd, nes cyrhaedd y gris uchaf yn y deyrnas.

Yr oedd amryw ereill o'r enw hwn:—

2. BENAIAH: o Pirathon, o lwyth Ephraim: 2 *Sam.* xxiii. 30.

3. BENAIAH: offeiriad a osodwyd yn ngwasanaeth y deml gan y brenin Dafydd: 1 *Cron.* xv. 18, 20, 24.

4. BENAIAH: Lefiad, blaenor ar y degwm a'r blaenffrwyth: 2 *Cron.* xxxi. 13.

5. BENAIAH: tad un o dywysogion y bobl, yn amser y prophwyd Ezeciel.

6. BENAIAH: pedwar o wŷr yn amser Ezra, a ddychwelasant gyda'r gaethglud: *Ezra* x. 25, 30, 35, 43.

BEN-AMMI. Gwel AMMON—IAID.

BENDECAR, [בן דקר—*mab gwanwr*], neu "mab Decar;" un o'r deuddeg swyddog a osododd Solomon ar holl Israel, "y rhai a barotöent luniaeth i'r brenin a'i dŷ: mis yn y flwyddyn yr oedd ar bob un ddarparu;" 1 *Bren.* iv. 9.

BENDIFADDEU, [*ban*=arbenig, hynod]: yn benaf, yn enwedigol. *Act.* xxvi. 3. Gr. *μαλιστα*; Seis., *especially.*

BENDIGEDIG, [Gr., *ευλογητος μακαριος*; Llad., *benedictus, venerandus*=bendigaid, gwynfydedig] Nid yw y gair *ευλογητος* yn cael ei gymhwyso at neb yn y Testament Newydd ond Duw: *Marc* xiv. 61; *Luc* i. 68; *Rhuf.* i. 25; ix. 5; 2 *Cor.* i, 3; xi. 31; *Eph.* i. 3; 1 *Pedr.* i. 3. Yn y Deg a Thrigain, cymhwysir ef ychydig o weithiau at ddynion: *Deut.* xxxiii. 24; *Ruth* iii. 10. Arwydda, fod Duw yn deilwng o barch oddi wrth ei greaduriaid. Y mae y cyfieithiad Lladin yn cadw y meddwl yn y gair *venerandus*=*to be, or should be, venerated.* Y mae *μακαριος* yn cael ei arfer am y Creawdwr a'r creadur, yn ddiwahaniaeth: ac yn arwyddo *dedwydd, hapus, gwynfydedig*;—am Dduw, yn 1 *Tim.* i. 11; vi. 15: am ddynion, *Mat.* v. 3, &c.; *Luc* i. 45; *Rhuf.* iv. 7: am obaith, *Tit.* ii. 13. Pan gymhwysir ef at Dduw, dynoda ei ddedwyddwch a'i wynfydedigrwydd tragwyddol ynddo ei hun; tra y dynoda *ευλογητος* y gwynfydedigrwydd hwnw fel yn teilyngu cydnabyddiaeth a mawl oddi wrth y creadur.

"Yr hwn sydd fendigedig (*ευλογητος*) yn dragwyddol;" *Rhuf.* i. 25. Y mae mawl-gân o'r natur yma yn beth cyffredin yn ysgrifeniadau Paul: gwel *Gal.* i. 5; *Rhuf.* ix. 5; 2 *Cor.* xi. 31. Y mae y rabbiniaid Iuddewig, er yr hen amseroedd, yn arfer chwanegu mawl-gân neu foleb fel hon pa bryd bynag y byddai ganddynt achlysur i ddyweyd unrhyw beth a ymddangosai yn ddirmyg ar y Duwdod. Benthyciodd y Mahometiaid yr arferiad oddi wrthynt, a gwnaent ddefnydd helaeth o honi. Crybwylla Tholuck am ysgriflyfr Arabaidd yn llyfrgell Berlin, yn cynnwys hanes heresiau o barth i Fahometiaeth; ac mor fynych y mae yr ysgrifenydd yn enwi unrhyw sect gyfeiliornus, y mae yn ebrwydd yn chwanegu, "Dyrchafer Duw uwch law yr oll a ddywedant." Yr un modd y mae Paul yma yn gwneyd cyferbyniad rhwng anghof y byd paganaidd o Dduw, a'i anmharch ato, a'r mawl a'r anrhydedd y mae yn ei haeddu oddi wrth ei greaduriaid.

"Yr hwn sydd uwch law pawb, yn Dduw *bendigedig* yn oes oesoedd;" *Rhuf.* ix. 5. Y mae y geiriau hyn yn cadarnhau Duwdod Iesu Grist mor eglur, fel nad yw yn rhyfedd fod pob ymgais annheg wedi ei wneyd gan y rhai a wadant yr athrawiaeth i wanychu, neu i ddiddymu, y prawf o honi sydd yn y frawddeg hon. Gwnaed amryw o ymgeisiadau i hyn; megys, 1af. Trwy gau allan "Duw" o'r testyn. 2il. Trwy ei esbonio mewn ystyr israddol, fel yn lle "Arglwydd." 3ydd. Trwy gyfnewid y darlleniad presennol, gan roddi *ων ο* yn lle *ο ων*. 4ydd. Trwy gyfnewid y

Digitized by Google

gwahannodiad, fel ag i beri i'r geiriau fod wedi eu llefaru am y Tad, fel moleb iddo, fel pe buasent yn rhedeg fel hyn, "Bydded i Dduw, yr hwn sydd uwch law pawb, fod yn fendigedig yn oes oesoedd."

Gyda golwg ar gau allan Θεος o'r testyn, nid oes ond ychydig o'r Sociniaid eu hunain yn ceisio ei wneyd. Nid oes un ran o'r Ysgrythyr yn meddu proflon cryfach o'i dilysrwydd, gan fod y gair i'w gael yn yr holl hen ysgriflyfrau a darlleniadau, ac yn yr oll o'r tadau, oddi eithr ychydig eithradau. O barth i gymmeryd Θεος yn lle Κυριος, y mae yr esgob Middleton wedi llwyr ddinystrio y dybiaeth. Ac am y drydedd ffordd i ochel yr anhawsder, y mae heb gymmaint ag un ysgriflyfr yn ei bleidio: fel ag y darfu hyd yn oed i Belsham ei hun addef nas gellir ei chymmeradwyo; ac fel y dywed Middleton, buasai cyfnewid lle y geiriau "yn dwyn i mewn ymresymiad annhebygol i wirionedd, ac iaith nas gallai fod yn gywir." Y mae yr awdwr hwn hefyd wedi dangos yn anatebadwy nas gellir cymmeryd y frawddeg fel moleb chwaith

Dywed Ruckert ac Usteri, nad oes un ffordd i ymwrthod â dar'leniad cyffredin y testyn, yn unol âg egwyddorion cyffredin yr iaith. Ac y mae y ddau feirniad hyn yn ammheuwyr, ar yr un pryd o Dduwdod Iesu Grist. Gwrthddadleua Wetstein a Koppe i'r darlleniad cyffredin, am fod mor ychydig o'r tadau yn defnyddio y frawddeg fel prawf o Dduwdod Crist. I hyn, atebir, pe buasai yn bod felly, eu bod yn ofalus rhag dyfynu adran ag y gallesid ei gwyrdroi i amddiffyn cyfeiliornad, sef Sabeliaeth. Ond nid ydyw yn bod felly; o blegid, fel y dengys Dr. Burton, y mae y frawddeg yn cael ei defnyddio i brofi Duwdod Crist gan Irenæus, Tertullian, Hippolytus, Cyprian, Athanasius, &c.

Y mae yn annaturiol meddwl fod y frawddeg wedi ei bwriadu yn foleb i Dduw Dad. Y mae hyd yn oed Crellius yn addef hyn. Y mae yr apostol, yn y rhanau blaenorol, yn dangos gofid a phryder dwfn ei feddwl, am fod y genedl, trwy ei hanghrediniaeth, wedi fforffedu y rhagorfreintiau uchel a fuasai yn eu mwynhau, a gwneyd ei hun yn agored i'r farnedigaeth fwyaf ofnadwy; a buasai ymdori allan mewn mawl yma yn debyg i ddyweyd, "Y mae camymddygiad at, a chamddefnyddiad o'r, rhagorfreintiau hyn, wedi gwasanaethu i ddwyshau euogrwydd a chospedigaeth y genedl Iuddewig; bendigedig a fyddo Duw am roddi iddynt y fath ragorfreintiau!" Nid yw molebau, fel y dywed Stuart, yn briodol i ranau fel hyn, sydd yn rhoddi hanes am ragorfreintiau wedi eu camddefnyddio, a chospedigaeth wedi ei haeddu. Gellir sylwi hefyd fod ευλογητος, bob amser yn y Testament Newydd, ac felly yn y Deg a Thrigain, yn ol dull yr Hebraeg, yn myned o flaen y gair Θεος, mewn molebau, yr un modd a'r Cymraeg, "Bendigedig a fyddo;" ond yma y mae Θεος yn gyntaf. Felly, y mae yn ddiammheuol fod "Duw bendigedig yn oes oesoedd," yn yr adran hon, yn cyfeirio at Iesu Grist, ac yn sefyll mewn cyferbyniad i'r frawddeg flaenorol, "o'r rhai yr hanodd Crist yn ol y cnawd."—(*Olshausen; Stuart; Bloomfield.*)

BENDITH—IO—ION, [Gr., ευλογεω, ευλογια]. Llefarir yn yr Ysgrythyrau am ddynion yn bendithio Duw, am Dduw yn bendithio dynion, ac am ddynion yn bendithio eu gilydd. Pan sonir am ddynion yn bendithio Duw (*Salm* ciii. 1, 2), nid ydym i dybied fod yn bosibl i'r Duwdod, yr hwn sydd yn "fendigedig" mewn modd arbenig, dderbyn un chwanegiad at ei ddedwyddwch; am hyny, pan y mae dynion yn ei fendithio, yr oll y maent yn ei wneyd ydyw cydnabod ei berffeithrwydd. Cynnwysa fawrygiad o hono yn ei arddderchogrwydd dwyfol, a diolchgarwch iddo am ei ffafrau: *Salm* civ. 1; xvi. 7. Ond pan y dywedir fod Duw yn bendithio ei bobl (*Gen.* i. 22; *Eph.* i. 3), y meddwl yw, ei fod yn rhad roddi ei drugareddau iddynt, pa un bynag ai rhai tymmorol ai rhai ysbrydol fyddant, a thrwy hyny, yn cyfranu iddynt radd o'r gwynfydedigrwydd y mae efe ei hun yn ei fwynhau *Iago* i. 17; *Salm* civ. 24, 28. Pan y dywedir fod dynion yn bendithio eu gilydd, y meddylir, dymuniad o'r eiddynt am i'r hwn y dymunir drosto fod yn fendigedig gan Dduw, neu ragfynegiad y byddai i Dduw ei fendithio: *Gen.* xiv. 19; xlix; *Deut.* xxxiii. Er yr amser yr aeth Duw i gyfammod âg Abraham, ac yr addawodd fendithio ei hiliogaeth, ymddengys ei bod yn arferiad yn eu mysg i'r penteulu alw ei blant ato, cyn ei farwolaeth, i'w bendithio; yr hyn a gynnwysai ddymuniad am nawdd Duw Abraham eu tad drostynt, a llwyddiant iddynt, yn nghyd â rhagfynegiad o'r modd y byddai i fendith Abraham ddisgyn arnynt. Meddyliodd rhai yn mysg pob cenedl, fod yr enaid ar fin ei ymadawiad â'r corff, yn cael ei gynnysgaethu â math o olygiant ar bethau i ddyfod. Ceir y syniad hwn mor fore ag amser Homer [llyfr xvi. 852; a xxii. 358]; o blegid dysgrifia ef Patroclus, wrth farw, yn rhagfynegu tynged Hector; a Hector, drachefn, wrth farw, yn rhagfynegu diwedd Achilles. Y mae Socrates hefyd, ychydig cyn ei farwolaeth, yn dyweyd yr un syniad. "Yn awr," meddai wrth yr Atheniaid, "yr wyf yn awyddus i brophwydo i chwi, y rhai a'm condemniasant, pa beth a gymmer le ar ol hyn. O blegid yr wyf yn awr wedi dyfod i'r ystâd hono ag y mae dynion yn prophwydo mwyaf—pan y maent yn agos i angeu." "Y mae yr enaid," medd Aristotle, "yn rhagweled dygwyddiadau dyfodol, pan y mae ar fin cael ei ysgaru â'r corff yn angeu." Ond y mae yn debygol mai yr hyn a roddes fod i'r dybiaeth oedd, y traddodiad am y patrieirch yn eu horiau olaf yn rhagfynegu cyflwr dyfodol eu hiliogaeth. Yr oeddynt hwy, ar y pryd, mae yn ddiammheu, wedi eu cynnysgaethu â gwybodaeth uwchnaturiol am dynged eu had. Felly, bendithiodd Isaac Iacob ac Esau (*Gen.* xxvii); Iacob ei ddeuddeg mab (*Gen.* xlix); a Moses genedl Israel (*Deut.* xxxiii). Pan fendithiodd Melchisedec Abraham, cynnwysai y fendith, nid yn unig fynegiad o ddymuniadau daionus ar ran Abraham, ond hefyd erfyniad at Dduw am gadarnhad a chyflawniad o'r dymuniadau hyny.

Yr agwedd gorfforol a fyddai ar un yn bendithio oedd â'i ddwylaw wedi eu dyrchafu. Dyrchafodd Iesu Grist ei ddwylaw i fendithio ei ddysgyblion. Pan fyddai cledr y llaw i fyny, arwyddai hyny ymbiliad rhag melltith neu niwed; ond pan dröid y llaw i wared, arwyddai ymbiliad am fendith neu ddaioni.

1 *Cor.* x. 16; "Ffiol y fendith, yr hon a fendigwn." Gelwir hi yn "ffiol y fendith," medd Olshausen, ac ereill, am ei bod yn ffiol sydd "*yn dwyn bendith.*" Dealla Calvin, Beza, a Doddridge, yr ymadrodd mewn dull Hebreaidd, am y "*ffiol fendigaid.*" Esbonia Alford, ac ereill, yn fwy naturiol, "*uwch ben yr hon yr ydym yn cyhoeddi bendith,*" neu "*am yr hon yr ydym yn diolch:*"—sef, cyfeiriad at yr arferiad, wrth gadw y Pasc, i

Digitized by Google

berchenog y tŷ *roddi diolch* am ffrwyth y ddaiar. Wrth sefydlu Swper yr Arglwydd, rhoddodd yr Arglwydd Iesu *fendith* (εὐλογήσας), neu fe *roddodd ddiolch* (εὐχαριστήσας); yr hyn a arwyddai yr un peth; o herwydd yr ydoedd, wrth edrych i'r nefoedd, a diolch, yn bendithio. "Yr hon a fendigwn;" hyny yw, "yr hon a gyssegrwn â gweddi o ddiolchgarwch." Sylwer, mai y person cyntaf lluosog a ddefnyddir trwy yr adnod, wrth fendigo y cwpan a thori y bara; ac felly, nad yw cyssgegriad yr elfenau *yn weithred y gweinidog, trwy rinwedd unrhyw awdurdod briodol iddo ei hun, ond yn unig fel cynnrychiolydd yr holl Eglwys Gristionogol—y "ni oll," sydd yn gyfranogion o'r un bara.*

Ni byddai yr Iuddewon na'r Cristionogion boreuol byth yn bwyta heb ofyn bendith, neu ddyweyd gweddi fer. Cyhoeddid bendithion hefyd trwy arddodiad dwylaw yn mhlith Iuddewon a Christionogion. Ar ol i symlrwydd yr addoliad Cristionogol gael ei lygru, chwanegwyd arwydd y groes.

Y mae bendithio yn SEREMONI EGLWYSIG, trwy yr hon y neillduir neu y cyssegrir peth at wasanaeth sanctaidd. Golyga y Pabyddion fod hyn yn cynnwys trosglwyddiad o rinwedd sancteiddiol, a bod y weithred i gael ei chyflawnu trwy wneyd arwydd y groes, gweddïo ar yr Ysbryd Glân, arddodiad dwylaw, eneiniad, taenelliad dwfr sanctaidd, &c., a defnyddiad o'r geiriau penodedig. Gwahaniaetha ysgrifenwyr Pabaidd rhwng dau fath o fendithio (*benedictio constitutiva*, ac *invocativa*). Y mae y cyntaf yn fath o gyssegriad sydd yn perthyn yn unig i'r esgob neu i'r offeiriaid, trwy ragorfraint neillduol: perthyna y llall, meddant, i'r offeiriaid yn gyffredinol.

Ar sail *Heb.* vii. 7, "Ac yn ddiddadl, yr hwn sydd leiaf a fendithir gan ei well," dywed y *Sefydliadau Apostolaidd*, llyfr viii. 28—"Y mae yr esgob yn bendithio, ac yn derbyn bendith oddi wrth esgobion ereill, ond nid oddi wrth henuriaid. Y mae yr henadur yn bendithio ac yn derbyn bendith oddi wrth esgobion a'i gydhenuriaid, ond nid oddi wrth ddiaconiaid. Nis gall y diacon fendithio, neu gyfranu bendith i arall; ond fe ddichon dderbyn oddi wrth esgobion a henuriaid." Fel rhan o'r un syniad, os cyffyrddir â dwylaw cyffredin â phethau neu bersonau wedi eu neillduo oddi wrth wasanaeth cyffredin, trwy gael eu bendithio, y mae y cyfryw yn ddarostyngedig i gosp.

Y Fendith Briodasol ydyw y seremoni a gyflawnir gan yr offeiriaid wrth briodi.

**BENEDICT.** Y mae y llinach Babaidd yn cynnwys nid llai na phedwar ar ddeg o'r enw uchod; ond nid oes llawer o hynodrwydd oddi eithr yn yr olaf, a'r goreu o honynt, sef Benedict XIV., yr hwn oedd yn hynod hyd yn oed yn mysg y pabau. Ei enw priodol, pan yn gardinal, oedd Prospero Lambertini, o Bologna. Dilynodd Clement XII. i'r gadair Babaidd, yn y flwyddyn 1740. Yr oedd ei enw eisoes yn dra adnabyddus fel gŵr dysgedig iawn, a boneddigaidd mewn tymmer a moesau. Dechreuodd ei oruchwyliaeth Babyddol trwy roddi terfyn ar yr anghydfod maith a hanfodai rhwng y Babaeth a llywodraeth Sardinia, yn nghylch penodiad swyddogion i amryw o'r mynachdai a'r personoliaethau, &c.; yn nghyd â'r ymrafael rhyngddi â Portugal a Sicily. Meddai lygad i weled fod yr amseroedd wedi newid, ac mai ofer oedd i eglwys a llywodraeth Rhufain ddirgymhell a dirgeisio hawliau Gregory VII., ac Innocent III.; ac mai y llwybr goreu, yn enwedig yn ei drafodaeth â llysoedd ereill, oedd gosod allan ei honiadau mewn dull cymmedrol. Canlynodd ei olynwyr ei esampl i fesur mawr hyd y dydd hwn. Yr oedd teimlad gwrth-Babyddol gwledydd Ewrop yn yr amser hwn yn gwneyd ymddygiad o'r fath a'r eiddo Benedict XIV. yn llwyr angenrheidiol er diogelwch y Babaeth. Yr oedd galluoedd cryfaf Ewrop wedi troi yn wrth-Babyddol, ac yr oedd gormes a dichell y Jesuitiaid yn mron wedi creu chwyldroad yn y mwyafrif o'r gwledydd Pabyddol; a chyda hyny yr oedd Rhufain mewn penbleth dost âg amryw o'i phlant mwyaf ffyddlawn. Yr oedd Prydain a Phrwssia wedi ymysgwyd o'i chrafangau, ac ymherawdwr Rwssia wedi sefydlu Eglwys Groeg yn Poland trwy ormes; a Sardinia, Yspaen, Naples, Ffrainc, a Parma, yn ymwingo yn enbyd. "Nis gallaf wadu," meddai teyrngenad Venice (Mocenigo, 1737), "nad oes rhyw beth annaturiol yn yr olwg ar holl deyrnasoedd Pabaidd Ewrop yn ymgecru mor boethlyd â'r llys Rhufeinig: y mae yn edrych yn dra thebyg fod galluoedd Ewrop yn ymdrechu yn brysur am ddiosg y Babaeth o'i holl hawliau tymmorol."—*Ranke's History of the Popes*, td. 322. Cafwyd yn Benedict XIV. lygad a welai pa beth oedd sefyllfa y Babaeth, a barn ddigonol i wneuthur a chaniatau yr hyn oedd yn ofynol i adferu heddwch—canfyddai beth oedd yn angenrheidiol ei ollwng, a pha beth oedd yn bosibl ei gadw. Ond yr oedd yntau yn bab rhy drwyadl i gymmeryd ei arwain yn rhy bell yn y llwybr blaenaf. Y weithred hynotaf yn ystod ei deyrnasiad oedd y cytundeb a wnaeth â llywodraeth Yspaen, trwy yr hwn y gollyngodd hawl yr hir ddadleuwyd yn ei chylch, sef penodiad i bersonoliaeth amryw o'r bywioliaethau bychain yn y wlad hono (1753); ond gofalodd am gymmesuro colled yr Eglwys, trwy gadw yr hawl i benodiad 52 o'r cyfryw yn nwylaw y pab, fel y medrai eu rhoddi i'w weision mwyaf ffyddlawn. Ymrwymodd y brenin hefyd i dalu y swm mawr o 1,143,330 o *scudi* i'r un perwyl; llôg pa swm, yn ol 3 y cant, oedd yn ateb iddo. Caniataodd Benedict i ryw fesur yr un hawl i frenin Portugal.

Yn 1741, llawarwyddodd gytundeb â Charles, brenin Naples, trwy yr hŵn y lleihaodd gamdreuliad o lawer o gyllidau yr eglwys, y caniataodd i feddiannau yr eglwys gael eu trethu, y prinhaodd urddau offeiriaid, ac y cyfyngodd awdurdod y llys eglwysig, &c.; lleihaodd nifer y gwyliau i'r dosbarth gweithiol, ac amcanodd roddi attalfa ar ddichellwaith y Jesuitiaid, trwy gydsynio â galwad Ffrainc, Yspaen, Portugal, a Naples, i gyhoeddi diddymiad yr urdd hono. Bu farw yn fuan iawn ar ol hyny. Cyhoeddwyd ei ysgrifeniadau mewn deuddeg cyfrol 4plyg, y rhai sydd eto mewn bri mawr. Bu farw yr hen ŵr yn bedwar ugain mlwydd oed, yn 1758; a dilynwyd ef gan Clement XIII.

Daeth Rhufain yn ei amser ef yn eisteddle gwybodaeth a chelfyddyd. Sefydlodd luaws o athrofäau yno; ac yn mhlith llawer o sefydliadau daionus, penododd fwrdd i ymchwilio i nodweddiad a chrefydd ymgeiswyr am swyddau eglwysig. Yn ystod y deunaw mlynedd y bu yn llywodraethu yn Rhufain, mwynhaodd y ddinas hono heddwch, llawnder, a llwyddiant, y fath na welwyd yn Rhufain byth ar ol hyny. Yr oedd ei egwyddorion rhydd tuag at Brotestaniaid yn dra hysbys, yn gymmaint felly nes dwyn arno gryn erlidigaeth oddi wrth goleg ei gardinaliaid. Tra na ddangosai ddifaterwch am athrawiaethau yr

Digitized by Google

eglwys ar yr hon yr oedd yn ben, dangosai haelfrydedd a chyfeillgarwch tuag at Gristionogion o bob gradd a ymwelent â'r brif ddinas. Ennillodd hyn iddo barch mawr yn mhlith Protestaniaid Germany. Yn ei holl drafodaeth â Ffrainc, ymattaliodd yn ofalus rhag, mewn un modd, ail ennyn nac achlesu yr erlidigaeth yn erbyn Protestaniaid Languedoc.—(*Ranke on the Lives of the Popes*, &c.)

**BENEDICT O NURSIA, a'r BENEDICTIAID.** Yn y dwyrain yr ymunodd mynachaeth â Christionogaeth gyntaf; a thrwy awdurdod ac ysgrifeniadau Athanasius y dygwyd ef i wledydd y gorllewin. Ond gwahaniaetha mynachaeth y dwyrain a'r gorllewin yn fawr oddi wrth eu gilydd. Yn y gorllewin, yr ydoedd yn fwy ymarferol, yn gofalu yn fwy am gyflawniad manwl o ddyledswyddau a defodau llymdost; yn gorchymyn gwaith caled bob yn ail âg adroddiad o ffurflau penodedig: tra yr oedd mynachod y dwyrain yn breuddwydio eu hamser ymaith mewn diogi, neu yn synfyfyrio mewn dystawrwydd; ac ni ddeffröent, ond i ddadleu rhyw bwnc duwinyddol â'u gilydd. Ymledaenodd mynachaeth yn foreu trwy y gorllewin. Ceir hanes eu hymguddfeydd yn nghilfachau yr Apennines, mewn ynysoedd cuddiedig ar hyd cyffiniau Italy, yn Ffrainc, yn yr Iwerddon, yn Mhrydain yn foreuach nag ymgyrch y Saxoniaid, ac hefyd yn Nghymru lle yr oedd sefydliadau enwog, megys Bangor Is y Coed.

Ond i Benedict o Nursia y mae priodoli prif nerth ac unffurfiaeth ymledaeniad mynachaeth trwy y gorllewin, a'i ymgorffoliad dan reolau pendant. Ei fywyd ef, o'i febyd hyd ei farwolaeth, yw yr esampl berffeithiaf o'r cymhelliadau oedd yn gweithio ar feddyliau dynion y pryd hwnw, ac yn eu didoli oddi wrth orchwylion a dyledswyddau bywyd; ac, fel yr ofer dybient hwy, oddi wrth nwydau a phechodau dynion. Dywedid fod Benedict wedi ei eni y pryd hwnw fel haul, i ymlid ymaith y tywyllwch tew oedd yn gorchuddio gwledydd cred, ac i anadlu bywyd newydd i fynachaeth, yr hwn oedd wedi colli yr ysbryd cyntefig a berthynai iddo. Yr oedd yr holl fyd wedi ei anrheithio gan ruthrgyrchoedd y buddugoliaethwyr gogleddol; llanwyd gorseddfeinciau y teyrnasoedd newyddion a sefydlwyd yn y gorllewin ar adfeiliau yr ymherodraeth Rufeinig, â hereticiaid barbaraidd; ac yr oedd y dwyrain wedi ei rwygo yn wahanol bleidiau gan ddadleuon crefyddol. Cydnabyddid Benedict fel yr anghraifft berffeithiaf o'r rhyw puraf o grefydd yn yr oes hono, ac yr oedd dylanwadau yr oes wedi ymgorffoli ynddo ef.

Prif nodwedd yr oes oedd troi dygwyddiadau cyffredin bywyd yn wyrthiau. Sefydlai dynion o duedd grefyddol eu meddyliau yn hollol arnynt eu hunain—eu hunig orchwyl oedd gwylio eu teimladau, a phriodoli eu hymdrechiadau i alluoedd neu fodau annibynol o'u mewn.

Ymguddiai dynion mewn diffeithleoedd, dan y grediniaeth fod enaid pob dyn mewn perygl, nid oddi wrth ddylanwadau moesol ac ysbrydol, ond oddi wrth ymosodiadau bodau yn preswylio mewn cyrff, neu o'r hyn lleiaf yn meddu llywodraeth ar sylweddau corfforol ac ar drefn natur. Cyfyngai y mynachod eu darllen i wyrthiau yr Arglwydd Iesu a'i apostolion, yn nghyd â chwedlau y seintiau. Ymprydient er mwyn bwrw allan ysbrydion drwg; a chadwent wyliau 'er anrhydedd i'w saint amddiffynol. A phan edrychent allan o honynt eu hunain, ni wnaent hyny gyda y parch addolgar ag sydd yn tarddu o ganfod Duw yn mhob peth, ond gyda y fath anwybodaeth synllyd ag a barai iddynt ddysgwyl gwyrthiau yn barhaus. Dewisent ymguddfeydd, y fath a gryfhäent y duedd hono—dyeithrol, diffaith, tywyll, a brawychus. Poblogai eu dychymyg y rhai hyn â phob math o ddrychiolaethau ac ysbrydion. Yr oedd yr agwedd meddwl hwn yn heintus. Amgylchynid hwy â dynion gwledig, anwybodus; synent at eu gerwinderau, parchent eu sancteiddrwydd. Pan ymadawai y mynach o'i ymguddfa, dilynid ef i'r byd gan glod ei sancteiddrwydd a'i wyrthiau. Yr oedd dynion yn dysgwyl rhyfeddodau;—a phwy bynag sydd yn edrych am danynt, yn gyffredin, a'u cyferfydd,

Ysgrifenwyd bywyd Benedict gan Gregory Fawr, tua hanner can mlynedd ar ol ei farwolaeth, mewn dau lyfr o ymddyddanion; ond gwnaed llawer o chwanegiadau diweddar a hollol ddisail at adroddiadau Gregory. Cyfansoddwyd ei hanesion ef hefyd, nid i oes ammheugar ac anghrediniol, er y proffesa ei fod wedi derbyn y cyfan oddi wrth bedwar cyfaill Benedict—Constantius, Valentinianus, Simplicius, a Honoratus, a dynion credadwy ereill. Yr oedd y duedd i chwilio am ryfeddodau yn rhy gref yn Gregory i'w gymhwyso i fod yn hanesydd. Heb law hyny, ei amcan oedd dyrchafu Benedict, a lledaenu ei urdd. A thybiai nad allasai wneyd hyny yn ddyladwy heb ei ddysgrifio yn cyflawnu gweithredoedd fel yr eiddo Moses, Dafydd, Elias, Eliseus, a Phedr.

Rhaid i hanesiaeth, i fod yn wir, ymostwng i lefaru iaith ffug-chwedlau; y mae crediniaeth yr amseroedd yn rhan o hanes yr amseroedd; felly, yr oedd nodweddau gwyrthiol Benedict yn rhan hanfodol o'i bersonoliaeth yn nrych yr amseroedd y dylanwadodd efe arnynt, ac yn brif nerth yn ymledaeniad yr urdd Fenedictaidd. Rhoddir yma ei hanes yn ol traddodiadau yr oes hono, er mwyn amlygu ei phrif nodweddau, a'r teimladau oedd yn ei hysgogi.

Ganwyd ef yn y flwyddyn 480, yn Nursia, yn nhalaeth Valeria, yn bresennol Norica, yn Naples, o rieni parchus. Anfonwyd ef i Rufain, yn ol hen arfer cannoedd o flyneddoedd, i gael ei addysgu yn y celfau breiniol. Ond nid allai ei ysbryd pur oddef llygredigaeth y brif ddinas, a dewisai aberthu ei efrydiau peryglus am anwybodaeth sanctaidd. Diangodd o gyfeillach ei gymdeithion, ac o dŷ ei rieni, y rhai oedd wedi ei hebrwng i Rufain. Y forwyn a ofalai am dano a ddeallodd ei fwriad, ac a'i dilynodd. Cymmerodd i fyny ei loches mewn pentref bychan, a elwid Effide.

Ennillodd ffafr y trigolion trwy ei fwyneidddra a'i dduwiolfrydedd, a chaniatasant iddo drigo mewn cell yn gyfagos i'r eglwys. Yma y cyflawnodd ei wyrth gyntaf. Yr oedd ei forwyn ffyddlawn, Cyrilla, wedi cael benthyg gogr careg, a arferid yn gyffredin yn y wlad hono i wneyd bara. Syrthiodd o'i dwylaw, a thorodd yn ddau. O gydymdeimlad â hi yn ei thrallod, rhoddodd y darnau at eu gilydd, gweddïodd uwch eu pen, a chyfanwyd y llestr drachefn. Dywedir fod y trigolion synedig wedi crogi y gogr uwch ben drws yr eglwys. Ond ciliai ei feddwl tyner ef rhag clod, fel rhag anfoes Rhufain; a chwiliodd am unigrwydd mwy neillduedig. Trwy gyfarwyddyd mynach o'r enw Romanus, cafodd ogof mewn lle gwyllt ac anhygyrch; ac yn y lle tywyll ac oer hwn y bu y bachgen, a fagwyd yn dyner, am dair blynedd allan o olwg dynion. Porthid ef gan Romanus, yr hwn a ranai âg ef o'r ychydig

Digitized by Google

oedd ganddo ef ei hun. Yr oedd yr ogof wrth droed y bryn, ar ben yr hwn y safai y mynachdy lle y preswyliai ei gyfaill trugarog, ond nid oedd un llwybr i lawr y graig serth. Gollyngid yr ymborth i lawr wrth raff, a chlymid cloch fechan wrth y rhaff, i roi arwydd ei fod yn dyfod. Unwaith, fe dorodd y cythraul y rhaff, ond ni allasai ddyrysu gweithrediad cymmwynasgarwch Romanus. I ddychymyg wedi ei barotoi yn y modd hwn, pa olygfa a allasai fod yn fwy cyfaddas i feithrin y duedd at weledigaethau a rhyfeddodau na'r gymmydogaeth fawreddog a gwyllt o ddeutu Sublaco? Dangosir ogof Benedict yn awr, ar grib clogwyn uchel—yr Anio yn rhuthro yn ffrochwyllt trwy y glyn islaw, â'i hochrau wedi eu gwisgo â choedwig tew. Hanner y ffordd i fyny y llwybr igam-ogam y mae mynachdy chwaer Benedict, St. Scolastica. Yr oedd ymneillduedd Benedict oddi wrth y byd mor llwyr, fel yr anghofiai, nid yn unig i gyfrif amser cyffredin, ond hefyd gwyliau ac ymprydiau yr eglwys. Yr oedd rhyw offeiriad wedi parotoi iddo ei hun ymborth mwy ammeuthyn nag arferol ar gyfer y Pasc. Tarawodd ei galon ef na ddylasai ymborthi ar foethau, tra yr oedd gwas Duw yn dyoddef gloesion newyn. Pwy oedd y gwas nefol hwn, nac yn mha le yr oedd yn trigo, nis gwyddai yr offeiriad; ond arweiniwyd ef trwy y llwyni dyrus, a thros y creigiau geirwon, i ogof Benedict. Ni wyddai Benedict mai amser y Pasc oedd; ac hyd nes y sicrhawyd ef o hyny, ni dderbyniai y wledd a anfonwyd mor wyrthiol iddo.

Fel hyn y dadguddiwyd ei ymguddfa. Tybiai rhai o'r bugeiliaid oedd wedi ei weled mewn gwisg flewog, yr hyn nid oedd amgen na chroen dafad, mai creadur gwyllt ydoedd; ond pan nesasant ato, toddwyd hwy gan dynerwch ei hyawdledd; ymagorodd eu calon i gariad a ffydd Crist. Ond ni ddiangodd y meudwy ieuanc sylw a chenfigen gelyn dynolrywi. Un diwrnod, ymddangosodd Satan, ar lun aderyn du, a tharawodd ef uwch ben ei lygaid â'i adenydd, fel y bu agos iddo ei ddallu. Ond ymddangosodd mewn dull mwy peryglus:—cymmerodd ffurf merch ieuanc brydferth, a adwaenai Benedict pan yn Rhufain; ond er mwyn gorchfygu y demtasiwn, rhuthrodd Benedict allan, ac ymdreiglodd ei gorff noeth ar bigau y mieri, ac ar ochr flaenllym y graig. Dywedai wrth ei gyfeillion, iddo, trwy hyny, ennill goruchafiaeth am byth ar chwantau cnawdol. Temtiwyd ef yn nesaf i uchelgais crefyddol. Penderfynodd mynachod y gymmydogaeth ei ddewis yn ben arnynt, o herwydd y clod oedd iddo am ei sancteiddrwydd. Rhoddodd hwynt ar eu gocheliad, os gwnaent, y byddai raid iddynt ymostwng i'r rheolau mwyaf llymdost. Ond ei ddewis a fynent; ac yn fuan, cyffrodd ei lymdoster eu digofaint—dilynwyd eu cariad a'u parch gan gasineb. Gwnaethant ymgais i'w wenwyno; ond torodd y cwpan yn nwylaw Benedict. Argyhoeddodd hwynt, gyda thynerwch o'u trosedd, gweddïodd am faddeuant iddynt, a chiliodd yn ol i'w neillduedd mwy dedwydd.

Ond nid ydoedd yn unigrwydd yn hwy. Yr oedd sancteiddrwydd Benedict, a chlod ei wyrthiau, yn tynu ato lawer a ddymunent efelychu ei rinwedd, a mwynhau tawelwch ei fywyd meudwyaidd. Yn fuan, ymgodai yn y fro farddonol hono, ar gribau y creigiau agenog, dan gysgod y derw a'r castanwydd, ddeuddeg o fynachdai, a phob un yn cynnwys deuddeg mynach. Tybiai Benedict fod mwy neu lai na'r nifer hwn yn arwain i annhrefn. Dengys enwau llawer o'r glywsdai hyn eu sefyllfa fynyddig:—Mynachdy yr Ogof; St. Ioan ar y Ffrwd; St. Victor wrth droed y Mynydd; Bywyd Tragwyddol, neu y Dyffryn Sanctaidd. Yn fuan, cyrhaeddodd clod y sefydliadau hyn y brif ddinas. Anfonodd llawer o rieni eu plant yno i dderbyn addysg grefyddol, ac ymunodd rhai pendefigion â'r sefydliadau ieuainc hyn. Yn barod, yr oedd gwaddoliadau mewn tiroedd ac eiddo arall yn cael eu gadael gan rieni a chyfeillion, fel prawf o'u diolchgarwch a'u duwiolfrydedd. Un o'r pendefigion ieuainc hyn oedd Maurus—ar ol hyny St. Maur—yr hwn a ddaeth cyn hir yn gyfaill, yn gynnorthwywr, ac yn olynydd i Benedict; a dywedir iddo gyfranogi o'i allu gwyrthiol, yn gystal ag o'i sancteiddrwydd. Er fod ffynnonau o ddyfroedd wedi ymagor ar benau y mynyddoedd, ar weddi Benedict, nid oeddynt bob amser yn llawn nac wrth law. Syrthiodd pendefig ieuanc, pymtheg oed—Placidus, wrth ei enw—i lyn, o'r hwn y ceisiai dynu dwfr, a golchwyd ef gan y tonau yn mhell oddi wrth y lan. Gwaeddodd Benedict ar Maurus i'w gynnorthwyo: rhuthrodd Maurus i mewn, a chan rodio ar wyneb y dwfr, tynodd ef allan erbyn ei wallt. Priodolai Maurus y wyrth i sancteiddrwydd ei feistr; ond Benedict, yr hwn ni fynai fod yn ol mewn gostyngeiddrwydd, a'i priodolai i hunan-ymwadiad Maurus. Penderfynwyd y ddadl gan y llanc, yr hwn a ddywedai iddo weled croen y ddafad a wisgai Benedict fel clog yn hofran uwch ei ben.

Ceir esamplau o'r troseddau duaf mewn cysylltiad â'r sancteiddrwydd uchel hwn. Teimlai Florentius, offeiriad cyfagos, yn genfigenllyd wrth Benedict, a cheisiodd ei wenwyno, trwy fara a anfonodd iddo yn rhodd. Gan na lwyddodd yn ei ymgais ar fywyd yr athraw, gwnaeth ei oreu i demtio ei ddysgyblion, trwy anfon saith o enethod, yn y modd mwyaf dengar, i ardd y mynachdy. Penderfynodd Benedict ymadael â'r gymmydogaeth beryglus. Yr oedd wedi cychwyn ar ei daith, pan y daeth Maurus o hyd iddo, gydag arwyddion o lawenydd, i hysbysu iddo fod Florentius, yr offeiriad maleisddrwg, wedi cael ei gladdu yn fyw yn ei ystafell, trwy fod y rhan o'r tŷ lle yr oedd efe wedi syrthio, tra yr oedd pob man arall yn sefyll. Wylai Benedict uwch ben tynged ei elyn, a gorchymynodd benyd ar ei ddysgybl am ei lawenydd pechadurus yn ninystr hyd yn oed yr annuwiol.

Aeth Benedict yn ei flaen, yn ol y chwedl mwyaf barddonol, dan arweiniad dau angel gweledig, i Monte Cassino. Ar y mynydd hwn, yr oedd yn aros eto deml i Apollo, yn nghanol llwyn cyssegredig, i'r hon y byddai trigolion paganaidd cyrau mwyaf anghysbell y wlad yn cymmeryd eu hoffrymau i'w hen dduw, er fod y wlad i gyd, ond y cyrau hyn, wedi ei meddiannu gan Gristionogaeth. Ond yn ddiwrthwynebiad, dinystriodd y meudwy eiddigeddus yr adeilad orwych, ond pechadurus—drylliodd y ddelw a'r allor, a thorodd i lawr y llwyn. Yn ewyllysgar, derbyniodd y bobl grefydd Crist o wefusau hyawdl Benedict: a chodwyd eglwys Gristionogol, cyssegredig i St. Martin; ond nid heb waethaf yr un drwg. Ni symmudai y ceryg ystyfnig, ond wrth weddïau Benedict—syrthient, a chloffent yr adeiladwyr, y rhai a wellhawyd trwy ei weddïau ef. Yma y cwympodd amddiffynfa olaf paganiaeth, a chodwyd mynachdy Benedictaidd yn ei le. Yma y sefydlwyd y gymdeithas a fu yn gynllun ac a roddodd reolau i holl fynachaeth y gorllewin.

Y casgliad goreu o reolau yr urdd ydyw un a

Digitized by Google

gyhoeddwyd gan Edmund Martene,[1] yn gynnwysedig o ragymadrodd, a thair ar ddeg a thrigain o bennodau.

Tair rhinwedd sydd yn cyfansoddi swm y ddysgyblaeth Benedictaidd:—Ufudd-dod, yr hwn, yn ol iaith y rheolau, sydd i gyrhaedd at bethau anmhosibl: dystawrwydd, hyd yn oed am bethau da, sanctaidd, a buddiol: a gostyngeiddrwydd, yr hwn a ddysgrifir gan Benedict yn cynnwys deuddeg o risiau, ar hyd pa rai y gall y mynach gyrhaedd i'r nefoedd. Didolir dyn oddi wrth ei ryw, i gyrhaedd perffeithrwydd ar ei ben ei hun. Nid oes le i rinweddau cymdeithasgar na gwladol —sefydlir holl feddwl y dyn arno ei hun.

Tri gorchwyl bywyd oedd addoli Duw, darllen, a' hwsmonaeth. Deilliodd llawer o fanteision oddi wrth y sefydliadadau hyn, na ddychymygodd y sylfaenydd am danynt. Nid amcan y mynach oedd gwneyd i'r anialwch flodeuo, na dwyn celfau a meithriniaeth bywyd gwareiddiedig i blith trigolion anwaraidd. Yr amcan wrth ymostwng i drin y ddaiar oedd, defnyddio yr amser nad ellid ei dreulio mewn efrydiaeth ac addoliad crefyddol mewn rhyw orchwyl a gymmerai eu bryd.

Codai y mynachod ganol nos i addoli; dychwelent i orphwys drachefn, a chyfodent yn fore eilwaith. Ar ol y weddi foreuol, treulient eu hamser i ddarllen, myfyrio, a chanu salmau. Ond gweithient am rai oriau bob dydd. Ar amser cynauaf, ni ddychwelent adref ganol dydd, ond cyflawnent y gwasanaeth crefyddol priodol i'r amser ar y maes.

Yr ymborth arferol oedd cawl o lysiau, bara, ac ychydig win. Ymattalient oddi wrth gig yn hollol, oddi eithr yn achlysurol y bwytäent gig adar. Cadwent eu hymprydiau yn fanwl. Cynnwysai y mynachdy o fewn ei furiau bob peth angenrheidiol i fyw; megys melin, a phobty. Ni chaniateid iddynt fwyta ond yn y tŷ; ac os byddai y mynach yn absennol trwy y dydd ar ryw orchwyl, y gorchymyn ydoedd iddo ymprydio, yn hytrach na chymmeryd dim allan.

Er y dywed rhai fod Benedict yn addurno ei ddyddiau olaf âg amlygiadau o allu gwyrthiol, nid oedd ei loches ar Monte Cassino heb deimlo oddi wrth yr amseroedd a'r byd, pan oedd yr unbenaeth Gothig yn cael ei dadymchwelyd, ac Italy yn cael ei hail ennill gan yr ymherawdwr dwyreiniol. Nid oedd rhyfel yn parchu cyssegredigaeth ei ymneillduad. Gwelodd Benedict, mewn gweledigaeth brophwydoliaethol, ddinystr ei sefydliad; ond cysurwyd ef gan weledigaethau o ledaeniad ei urdd trwy Ewrop, ac o adeiladiad mynachlogydd blodeuog yn mhob cwr o'r gorllewin.

Ni bu Benedict fyw i weled dinystr Monte Cassino; a bu farw ei chwaer, St. Scolastica, ychydig ddyddiau o'i flaen ef. Benedict fenywaidd oedd Scholastica; mor dduwiolfrydig a'i brawd, ac mor nerthol ei dylanwad i ennill ac i lywodraethu meddyliau ei rhyw ei hun. Pan aeth Benedict i ymweled â hi, mae yn debygol am y tro olaf, dymunodd arno aros noswaith gyda hi; ond nid oedd Benedict, medd ei reolau ei hun, erioed wedi bod noswaith allan o'i fynachdy, ac yr oedd eu bod yn frawd a chwaer, o ryw gwahanol, yn ddigon o reswm dros iddo beidio cydsynio â'i chais. Ond dywedir fod y nef yn fwy tosturiol na'r mynach. Gogwyddodd Scolastica ei phen mewn gweddi ddwys. Gorchuddiwyd y ffurfafen, saethodd y mellt, rhuodd y taranau, a syrthiodd y gwlaw yn llifogydd. "Yr Arglwydd a drugarhao wrthych, fy chwaer —pa beth a wnaethoch?" "Chwi a wrthodasoch fy nghais, ond y mae yr Arglwydd yn fy ngwrandaw; ewch yn awr, os gellwch." Treuliasant y noswaith mewn cymdeithas nefolaidd. Yn mhen tridiau, gwelodd Benedict enaid ei chwaer yn esgyn i'r nef ar lun colomen. Yn fuan wedi hyny cymmerwyd Benedict yn glaf o afiechyd marwol. Chwe diwrnod cyn ei farwolaeth gorchymynodd agor ei fedd: ac yn ei ddiwedd, anadlodd allan ei enaid mewn gweddi. Dadguddiwyd ei ymadawiad i fynach yn ei gell ar Monti Cassino, ac hefyd i St. Maurus, yr hwn oedd yn Ffrainc yn sefydlu rheolau ei feistr yno. Gwelodd Maurus lwybr wedi ei orchuddio â gwisgoedd, ac wedi ei oleuo â lampau, yr hwn oedd yn arwain o gell Benedict i'r nefoedd. "Cynnorthwyed Duw ni," meddai, "i ddilyn ein meistr ar hyd y llwybr hwn." Claddwyd Benedict yn nghafell Ioan Fedyddiwr, yr hon a safai ar y fan lle yr oedd teml Apollo.

Cyflawnwyd dymuniadau Benedict am ledaeniad cyffredinol ei urdd gyda chyflymdra oedd yn rhyfeddol y dyddiau hyny. Llanwyd Italy yn fuan, o Calabria i'r Alps, â mynachdai Benedictaidd. Ymddangosent ar ael bryn uchel, ac weithiau yn y dyffrynoedd tawel. Cynnyddai yr adeiladau mewn maintioli a gwychder. Ymsefydlent hefyd yn y dinsaoedd. Nid oedd ond ychydig os dim o'r trefydd mawrion heb fynachdai Benedictaidd. Anfonai bob mynachdy drefedigaeth fechan allan. Lluosogai y mynachod yn gyflymach na thrigolion y dinasoedd mwyaf poblog, fel y byddai raid iddynt anfon lluaws o'u brodyr i chwilio am orsafleoedd newyddion. Heidient, yn ol eu hiaith eu hunain, fel gwenyn. Pa le bynag yn trigiannai dyn, yr oedd yno gartref gan y meudwyaid hyn; a pha le bynag yr ymneillduent i'r anialwch gwyllt, ymgasglai dynion crefyddol o'u hamgylch i gyfranogi o'u sancteiddrwydd a'u diogelwch. Yn Ffrainc, lledaenwyd yr urdd gan St. Maur, yn Sicily, gan St. Placide, yn Italy gan St. Gregory Fawr, sylfaenydd mewn rhan fawr o uchafiaeth yr Eglwys Babaidd, a phrif awdurdod y canoloesoedd. Daeth urdd Benedict drosodd i Loegr gydag Awstin Fynach. Ac yn lle alltudio eu hunain, neu gael eu halltudio i rosydd gwyllt, neu i gribau y mynyddoedd, dewiswyd iddynt, neu caniatawyd iddynt ddewis y llanerchi mwyaf blodeuog i ymsefydlu ynddynt. Yn mhob dyffryn cyfoethog, ac ar lan pob afon, cyfodai mynachdy Benedictaidd. Yn gyffredin trwy Loegr, yr oeddynt i'w cael yn y manau mwyaf cyfleus, ffrwythlawn, a dedwydd. Prif fynachdai Lloegr oeddynt Canterbury, Westminster, Glastonbury, a St. Albans; ac yn y gogledd, Wearmouth, Yarrow, Lindisfarn.

Yr oedd y mynachdai yn annibynol, a nerthol eu dylanwad yn y wladwriaeth. Tarddai hyn o waedoliaeth uchel a meddiannau eang y rhai oedd yn eu preswylio; o herwydd pendefigion bron yn hollol a ymgyrchai iddynt, ac yn wir i'r cyfryw yn unig yr oedd derbyniad. Yn eu meddiant hwy yn mron yn gwbl yr oedd dysgeidiaeth a chrefydd yr oes. Yn y sefydliadau hyn yr oedd y doethineb a'r rhinwedd i'w cael sydd yn ennill dylanwad yn mysg dynion. Ynddynt hwy hefyd yr oedd dysgeidiaeth glasurol a Christionogol yn cael ei hunig feithrinfa. Oddi rhwng y muriau hyn y byddai cenadon yn myned allan ac yn cludo i blith barbariaid anwaraidd fendithion gwareiddiad a Christionogaeth, er nad o'r

[1] *Commentarius in regulam S. P. Benedicti, literalis moralis, historicus.* Paris, 1690.

Digitized by Google

natur bur hono sydd yn tarddu o adnabyddiaeth gyffredinol o'r Beibl. Yr oedd lledaeniad y mynachdai yn anffafriol i gymmeriad yr offeiriaid gweithiol (*secular clergy*) am grefydd yn mysg y werin. Ni edrychid ar ddim ond mynediad i'r mynachdy yn wir ddychweliad (*conversio*); a bywyd o fewn ei furiau yn unig oedd yn grefydd (*religio*) y mynachod gan mwyaf a wnaed yn esgobion; ac i'r esgobion yr oeddynt yn ddarostyngedig, heb fod un berthynas uniongyrchol rhyngddynt a'r offeiriaid.

Dosberthir yr urdd Fenedictaidd i luaws o adraniadau, y rhai a wahaniaethir oddi wrth eu gilydd trwy wahaniaeth lle, neu ryw neillduolrwydd mewn gwisg neu ddysgyblaeth. Nid oedd y Carthusiaid, y Cisterciaid, y Juniaciaid, &c., ond gwahanol gangenau o'r cyff mawr Benedictaidd.

Gwnaed ymchwiliadau manwl i hanes yr urdd gan y Pab Ioan XXII., a fu farw yn 1334; a chafwyd, er pan sefydlwyd yr urdd, fod 24 o babau wedi codi o honi, yn agos i 200 o gardinaliaid, 7,000 o archesgobion, 15,000 o esgobion, 15,000 o abadau, dros 4,000 o seintiau, heb law ei bod wedi sefydlu 37,000 o fynachdai. Y mae o'r urdd hon hefyd 20 o ymherawdwyr wedi bod, 10 o ymherodresau, 47 o freninoedd, a 50 o freninesau, heb law tywysogion a thywysogesau o bob gradd yn aneirif. Gwel MYNACHAETH.

BENGEL, JOHN ALBERT. Ychydig o dduwinyddion Germany sydd wedi dylanwadu yn fwy ar Gristionogion y wlad hon na Bengel. Ychydig sydd wedi darllen ei weithiau; ond y mae yr ychydig hyny wedi effeithio ar lawer. Tystiolaeth yr archddiacon Hare am dano yw, "fod Bengel wedi rhoddi mwy o feddwl mewn un linell yn fynych nag y mae ysgrifenwyr ereill mewn tudalenau." "Mewn craffder manwl i ganfod edafedd pwysig y meddwl (*important fibres of thought*), nid oes un esboniwr a adwaen i yn dyfod yn agos i Bengel."—*Mission of the Comforter.* Dywed John Wesley, yn ei nodiadau esboniadol ar y Testament Newydd, a gyhoeddwyd yn 1755, mai ei benderfyniad oedd rhoddi ei nodiadau ei hun ar y Testament Newydd; ond wedi iddo ddyfod yn gydnabyddus â'r goleuad mawr hwnw o'r byd Cristionogol, fel y geilw ef, meddyliodd nad allai wneyd gwasanaeth mwy i achos crefydd na chyfieithu nodiadau Bengel, y rhai ydynt, gan mwyaf, yn gwneyd i fyny yr *Expository Notes on the New Testament*, gan Wesley. Wrth gydnabod ei rwymedigaeth iddo, yn nghyfansoddiad ei wahanol esboniadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, dywed Dr. John Brown, "Y mae yn llawenydd genyf ddeall fod cyfleithiad Seisoneg yn dyfod allan yn fuan o'r llyfr tra hynod hwnw; sef, *Gnomon*, Bengel.

Ganwyd ef Mehefin 24, 1687, mewn tref fechan yn Würtemberg. Yr oedd ei dad yn ddyn duwiol a dysgedig: gweinyddai y swydd o ddiacon yn yr Eglwys Lutheraidd, bu farw yn 43 mlwydd oed, o glefyd a gafodd mewn canlyniad i gyflawniad ffyddlawn o ddyledswyddau ei swydd, a hyny pan yr oedd ei fab yn yfed elfenau dysgeidiaeth yn gyflym dan ei ofal. Ychydig fisoedd ar ol marwolaeth ei dad, trwy ruthr y Ffrancod ar ei dref enedigol, collodd ei fam ei chartref, yn nghyd â llyfrgell a berthynai i'w dad. Ond cymmerodd cyfaill i'w dad Bengel ieuanc ac a'i rhoddodd mewn ysgol yn Stuttgard, lle y cafodd fwynhau arolygiad dysgawdwr medrus mewn Lladin a Groeg, ac hefyd mewn celfyddydau rhif a mesur, am bedair blynedd. Trwy ail briodas ei fam, galluogwyd ef i fyned i'r brif ysgol yn Tübingen, lle yr ymroddodd yn benaf i astudio duwinyddiaeth, gan ei fod eisoes wedi cyrhaedd hyddysgrwydd mawr mewn ieithoedd. Er yn foreu iawn, gwyddai am argraffiadau tyner ar ei feddwl; a thra yn rhagori yn yr ysgol, amlygodd hoffder anghyffredin at y Beibl, llyfrau crefyddol, a hymnau. Ar ol tymmor o bryder mawr llanwyd ei feddwl â rhyw brofiadau uchel y waith gyntaf y gwnaeth gof am angeu ei Waredwr. Yr Ysgrythyrau yn y testyn gwreiddiol oedd prif wrthddrych ei efrydiaeth yn y brif ysgol, eto ni esgeulusodd athroniaeth: ymddengys yn hytrach iddo ymdrechu yn galed i feistroli rhesymeg yr archammheuwr hwnw, Spinoza; a dywed i lawr o bicellau fyned trwy ei galon, y rhai, o herwydd anaddfedrwydd ei oedran, a barasant iddo deimladau chwerw.

Y Testament Groeg a ddefnyddiai pan yn Tübigen oedd un Rhydychain, gan esgob Fell [Rhyd., 1675, 12plyg], yn yr hwn yr oedd llawer o ddarlleniadau gwahanol, heb unrhyw gymhorth i benderfynu y gwir ddarlleniad. Achosodd hyn lawer o anesmwythder meddwl iddo; ac ar ol ymdrechu yn aneffeithiol i'w symmud ymaith, taflodd o'r neilldu yr argraffiad hwnw o'r Testament. Nid oedd beirniadaeth Ysgrythyrol y pryd hwnw ond yn ei fabandod; ac yr oedd ei deimladau ef ei hun yn ddangosiad o'r pryder yr oedd efe i'w achlysuro ar ol hyny yn meddyliau llawer o'i gydwladwyr ar yr un pwnc. Yr oedd llawer o bobl dduwiol yn penderfynu peidio credu yr hyn oedd yn ymddangos iddynt hwy yn anghysson âg ysbrydoliaeth ac awdurdod yr Ysgrythyrau, ac felly gwadent fod amrywiaeth i'w gael mewn gwahanol ysgriflyfrau o'r gyfrol sanctaidd. Ond nid allai Bengel esmwythau ei feddwl felly. Iddo ef yr oedd ffeithiau yn ffeithiau, i ba gasgliadau bynag yr arweinient. Ond yn ei anallu i daflu goleu ar y mater y pryd hwnw, gwnaeth ef yn destyn gweddi, a chafodd esmwythdra i'w feddwl ar y pryd, a phenderfyniad i'w chwilio yn drwyadl wrth ei hamdden. Yn yr olwg ar yr ymdrech hwn, yn nghyd â rhai ereill yr aeth drwyddynt yn ystod ei efrydiaeth, y cyfryw ag y mae efrydwyr difrifol a thrwyadl yn eu profi yn fynych, y dywed, "y pwysicaf o bob dadleuon yw y rhai a brofom ein hunain; i ba rai nid oes dim diwedd nes y bydd y meddwl wedi myned trwy gyfnewidiad, a'r holl ddyn wedi ymorchestu i fywyd newydd."

Ffurfiwyd yn mhlith yr efrydwyr tra yr oedd Bengel yn Tübigen, gymdeithas i feithrin crefydd ymarferol yn eu mysg eu hunain. Parhaodd y gymdeithas hon yn ddifwlch trwy yr oll o'r ganrif ddiweddaf; ac mor hyfryd oedd adgofion Bengel am dani ddeng mlynedd ar ugain ar ol ei sefydliad, fel, wedi clywed fod diwygiad wedi tori allan yn mysg ei haelodau, aeth yno i ymweled â hwynt, ac i gymmeryd rhan yn y gwasanaeth crefyddol. Yn 1705, bu ar fin y bedd, gan afiechyd trwm a maith; ond cynnaliwyd ei feddwl gan y geiriau, "Ni byddaf farw, ond byw; a mynegaf weithredoedd yr Arglwydd;" *Salm* cxviii. 18. Cryfhaodd yn raddol dan ofal ei rieni; a chyda nerth newydd, ac yn gyfoethocach o brofiad, dychwelodd eilwaith at ei efrydiau. Yn chwanegol at yr efrydiau rhagbenodedig mewn esboniadaeth, duwinyddiaeth, a hanes eglwysig, &c., fe ddarllenodd hefyd y llyfrau goreu ar y cangenau hyn. Darllenodd hefyd y Beibl Hebraeg a'r Testament Groeg amryw weithiau drostynt, a chyda hyny amryw o gyfleithiadau. Pan yn ugain oed, wedi myned trwy yr holiadau

Digitized by Google

angenrheidiol, ordeiniwyd ef, nid yn gynnorthwywr, yn ol y drefn arferol, ond ar eglwys yn nghymmydogaeth Tübingen. Ni bu yno ond am flwyddyn; ond eto yr oedd y flwyddyn hono o werth mawr iddo—ymroddodd i bregethu, i holwyddori, ac ymweled, a chafodd eu bod yn fuddiol i dynu ymaith sawyr ei lyfrau oddi ar ddwfr y bywyd. Yn yr ysbaid hwn hefyd, dysgodd Bengel *iaith* i drosglwyddo y gwirionedd, nad yw i'w chael mewn llyfrau, sef *iaith bywyd cyffredin;* a gwyddai pa fodd i'w gwerthfawrogi. Sylwai,—"wedi i un fod yn mysg y bobl gyffredin am dymmor, nes cael yr archwaeth wledig, a dysgu eu syniadau, y mae yn fuddiol i fyned i'r athrofa eilwaith i fyned trwy ail gylch duwinyddol. Y mae hyn yn debyg o roi i ni fwy o brofiad." Yn niwedd y flwyddyn, galwyd ef yn ol i Tübingen, i fod yn un o'r athrawon duwinyddol. Fel prawf fod Bengel wedi ennill serch ei gynnulleidfa wledig, ymwelodd amaethwr âg ef wedi iddo gyrhaedd enwogrwydd, gan ewyllysio gweled ei hen weinidog. Derbyniwyd ef i'w dŷ; ar ol dyledswydd deuluaidd, aeth Bengel eilwaith at ei lyfrau a'i bapyrau, ac ymguddiodd yr amaethwr er mwyn ei weled yn myned ar ei liniau wedi gorphen y cwbl. O'r diwedd symmudodd Bengel ei lyfrau, tynodd ei spectol, a chododd ei lygaid tuag i fyny, a dywedodd—"Arglwydd Iesu Grist, y mae hi arnom fel cynt." Fel hyn y byddai Bengel yn fynych yn dyrchafu ei enaid at ei Waredwr. Yn 1713, wedi iddo fod ond blwyddyn neu ddwy yn athraw yn Tübingen, penodwyd ef yn brif athraw duwinyddol i athrofa yn Denkendorf, a sefydlwyd ac a gynnaliwyd gan y llywodraeth, yn rhagbarotoawl i'r brif ysgol. Ond cyn dechreu ar orchwylion ei swydd, gyda pha rai y treuliodd wyth ar ugain o flynyddoedd, bu yn teithio am chwe mis ar draul y llywodraeth, i ymweled â sefydliadau o'r fath trwy yr oll o Germany, i gymhwyso ei hun yn well i'r swydd y penodwyd ef iddi. Mae y dyddlyfr a gadwodd ar y daith hon yn dangos pa faint o fudd a dderbyniodd i'w ddeall a'i galon. Ymwelodd â phob math o sefydliadau—eiddo y Jesuitiaid, yn gystal ag eiddo y Protestaniaid—lle y meddyliai y gallai ddysgu rhywbeth. Arosodd am wythnosau mewn rhai manau, gan nodi i lawr bob peth o bwys a welodd ac a glywodd. Yn Leipzig, bu yn ymddyddan am lenyddiaeth Hebreig; yn Heidelberg, am ganonau neu reolau esboniadaeth ysgrythyrol; mewn rhai manau, am y dull goreu i ddysgu Lladin a Groeg; ond yn enwedigol yn Halle y mwynhaodd wythnosau o gymdeithas rydd gyda Franke, Anton, Laye, J. H. Michaelis, &c. "Yr hyn," meddai, wrth ysgrifenu oddi yno mewn llythyr Lladin, "sydd yn fy moddhau yn fawr yn y dynion hyn ydyw yr undeb a gedwir i fyny yn eu mysg trwy gyfarfodydd gweddi." Yr effaith fwyaf a gafodd ei ymweliad â Halle ar ei feddwl, oedd y gogwydd a dderbyniodd i sylwi yn fanylach ar y prophwydoliaethau, ac yn enwedig ar Lyfr y Datguddiad. Yr oedd Dr. Anton yn darlithio ar y Datguddiad, a chafodd hefyd ymddyddanion ar yr amlygiadau o deyrnas Crist yr oeddynt hwy yn barnu oedd yn agoshau. Arweiniodd y cyfan i'r golygiadau gyhoeddodd ar ol hyny ar y Datguddiad.

Ar ol ei ddychweliad, yn Tachwedd, 1713, wedi ei adfywio mewn ysbryd, a'i gyfoethogi mewn defnyddiau meddwl a gweithrediad, dechreuodd ar ei waith yn Denkendorf. "Yr hyn a basiodd rhwng fy enaid a Duw," meddai yn ei ddyddlyfr, "y noswaith gyntaf o'm harosiad yno, a roddes sail hyder i mi trwy holl ystod fy nghyssylltiad â'r lle." Testyn ei ddarlith agoriadol oedd, mai diwydrwydd gyda chrefydd ydyw y moddion mwyaf effeithiol i gyrhaedd gwir ddysgeidiaeth. Y dosbarthiadau dan ofal Bengel oedd yr un rhai tra y bu yn y sefydliad; sef y rhai ieithyddol, yn benaf, gyda chymmaint o resymeg a hanesiaeth a fernid yn angenrheidiol yn y cylch rhagbarotoawl hwn. Hyddysgrwydd mewn Lladin oedd y peth cyntaf yr amcanai ddwyn ei ddysgyblion i'w feddu, fel ag i'w galluogi i osod allan eu meddyliau eu hunain yn yr iaith. Darllenai y Testament Groeg drosodd yn y dosbarth bob dwy flynedd, gan amcanu dwyn y myfyrwyr i allu ei gyfieithu yn rhwydd ac yn ddifyfyr i'r Lladin cyn diwedd y tymmor. Heb son am ddylanwad hyn ar feddyliau y dysgyblion, yr arferiad hwn oedd sail ei enwogrwydd ei hun fel beirniad ysgrythyrol. Gofalai fel tad dros y dynion ieuainc a ymddiriedid iddo, a suddai y cynghor a roddai iddynt ar nos Sadyrnau, ar ol y weddi deuluaidd (sef "*colligate animos*"=gwnewch eich meddyliau yn dawel) yn ddwfn i galonau llawer o honynt.

Yn ystod ei arosiad yn Denkendorf y dechreuodd ar ei awduriaeth ffrwythlawn a gweithgar. Ei gyhoeddiad cyntaf oedd argraffiad o lythyrau Cicero; at yr hwn, heb law talu sylw manwl i'r testyn, y chwanegodd nodiadau gwerthfawr, o natur hanesyddol, hynafiaethol, ac ieithyddol. Y mae sylwadau teilwng o sylw yn y bedwaredd bennod, er mwyn rhoi ei ddarllenwyr ar eu gwyliadwriaeth rhag i ysbryd paganiaeth hynafol, cynnwysedig mewn teimlad o hunan ddigonolrwydd, balchder, ac ymhyfrydiad anianol, i wenwyno teimladau duwiolfrydig. Dylid gofalu rhag i'r fantais a ennillir mewn astudrwydd, craffder meddwl, a pharodrwydd ymadrodd, trwy efrydiau clasurol, ein difateru at bethau uwch. Pan ddechreuwyd darllen y tadau yn yr athrofa, cyhoeddodd yn 1722 waith ar Origen, mewn Groeg a Lladin. Yn 1725, daeth allan *Draethawd Chrysostom ar yr Offeiriadaeth.* Yn nglyn â'r olaf, cyhoeddodd yr hyn a eilw yn *Rhagredegwr i'r Testament Newydd.*

Crybwyllwyd yn flaenorol fod Bengel yn teimlo petrusder pan yn Tübingen o barth i ddarlleniadau gwahanol y Testament Newydd, a'i fod wedi oedi y mater hyd amser dyfodol.

Y pryd hwnw y daeth allan yn Rhydychain [2 gyfrol unplyg, 1707] argraffiad beirniadol ardderchog o'r Testament Groeg—ffrwyth llafur deng mlynedd ar ugain, gan Dr. Mill; ac ni orphenwyd ef ond pedwar diwrnod ar ddeg cyn ei farwolaeth. Dywedir fod 30,000 o wahanol ddarlleniadau ynddo. [Gwel ADGYWEIRIAD.] Gwnaeth Dr. Whitby ymosodiad dysgedig, ond annheg, arno, yn ei *Examen Millii,* yr hwn a geir yn yr ail gyfrol o'i *Esboniad.* Achlysurodd y ddadl gyffro mawr ar y Cyfandir, ac yn Lloegr, a dychrynodd pobl weiniaid eu meddyliau, fel pe buasai Mill wedi dyfod â *deng mil ar ugain* o dystion yn erbyn cywirdeb eu Testamentau. Gwelodd Bengel, gyda'i graffder arferol, pa beth oedd eisieu ei wneyd; a chyda phenderfyniad digyffro ymosododd i'w gyflawnu, pa beth bynag fyddai y draul a'r llafur. Gan nad allasai ond gwyrth barhaus ac afreidiol gadw yr holl ysgriflyfrau o'r Testament Newydd, oedd yn wasgaredig trwy y byd, yn berffaith debyg i'w gilydd, ac mai yr argraffiadau anmherffeithiaf o'r awduron clasurol ydyw y rhai nad ces ond ychydig ysgriflyfrau o honynt ar gael—gwelodd mai y gwasanaeth goreu a allasai gyflawnu i'r Testa-



Digitized by Google

ment Newydd oedd—yn chwanegol at gasglu ffrwyth yr holl gymhariaethau blaenorol a wnaed o'r ysgriflyfrau o hono—cymharu ysgriflyfrau oedd eto heb eu chwilio, a gwneyd ymchwiliad i'r rheolau wrth ba rai y mae penderfynu y gwir ddarlleniad. Yn fuan wedi ymsefydlu yn Denkendorf yr ymosododd ar ei orchwyl. Anfonodd i'r holl brif ysgolion hysbysiad o'i fwriad i ddwyn allan argraffiad beirniadol o'r Testament Groeg, gan erfyn am ysgriflyfrau a allent fod yn llechu ynddynt. Ac ystyried ei sefyllfa ddiddylanwad, derbyniodd fwy na'i ddysgwyliad o hen gopïau ysgrifenedig o'r testyn Groeg. Yn 1734, ar ol cymharu nifer o ysgrifau—7 o Strasburg, 4 o Ffrainc, 3 o Basle, 1 o Presburg, 1 o Moscow, 8 o Caer Cystenyn, ac amryw o gopïau Lladin—â gwahanol gyfieithiadau, cyhoeddodd ei argraffiad, gyda thraethawd beirniadol, yn yr hwn yr eglurai ei egwyddorion beirniadol, gwerth cymhariaethol y defnyddiau oedd yn ei law, a'r gwahanol ddarlleniadau, yn ol trefn y llyfrau a'r pennodau. Ei reol wrth benderfynu y darlleniad cywir o blith amryw oedd, DEWIS Y DARLLENIAD ANHAWDDAF O FLAEN DARLLENIAD HAWS; o herwydd nid allasai fod un demtasiwn i adysgrifiwr roddi cystrawen galed yn lle un hawdd, ond gallasai gael ei demtio i roddi yr hawdd yn lle yr anhawdd. Amcanai ragflaenu y gwrthwynebiad a ddysgwyliai i'w ymdrech i sicrhau testyn mor bur ag y gallai o'r Testament Newydd, ond yn ofer — difrïwyd ef fel gelyn i'r Ysgrythyrau. Ond yr oedd cymmeriad uchel Bengel am dduwioldeb a doethineb yn dŵr o nerth iddo erbyn hyn. Ennillwyd lluaws drwy hyny i ddarllen ei Destament Groeg a'i draethawd beirniadol; ac wedi eu chwilio, i fabwysiadu ei olygiadau. Dywed Michaelis—un o'r tystion goreu ar hyn—"Cafodd ysgrifeniadau Bengel fwy o ddarllenwyr nag eiddo beirniaid yn gyffredin, ac yr oedd ei ddarllenwyr yn gyffredin yn dyfod yn gyfeillion ac yn ddisgyblion iddo."

Gwnaeth Bengel yr hyn, efallai, na allasai un dyn arall ei wneyd y pryd hwnw. Yr oedd beirniadaeth anffyddol yn dyfod i mewn yn genllif, ac yn bygwth yn fuan ysgubo ymaith hen derfynau. Yn yr olwg ar hyn, yr oedd eisieu i ddyn o dduwioldeb tu hwnt i ammheuaeth, o gymhwysderau digon uchel, a chalon ddigon gwrol i sefyll yn y cyfwng, i wneyd rhedle clir i ddwfr y bywyd, na allai holl ddysgeidiaeth afiach rhesymolwyr ei gau i fyny. J. A. Bengel a wnaeth hyn: ac y mae wedi cael ei wobr yn y tystiolaethau sydd wedi eu dwyn, nid yn unig i'w dduwioldeb, ond i'w allu beirniadol, hyd heddyw. Addefai Wetstein, ei gydoeswr, a llafurwr mewn cylch cyffelyb, mai ei Destament Groeg ef oedd y goreu a gyhoeddwyd erioed. Rhydd Semler y flaenoriaeth iddo mewn barn ar Mill a Wetstein. Felly y gwna Michaelis, y Pabydd Hug, a beirniaid yn gyffredin, hyd y diweddaraf.

Tra yr oedd Bengel yn llafurio i ddwyn allan Destament, yn yr hwn y byddai y geiriau, hyd y gallai, yr un yn hollol ag a ddaethant o law yr ysgrifenwyr sanctaidd, yr oedd ganddo mewn golwg hefyd i ddwyn allan nodiadau byrion arno. Tynodd allan ei gynllun, 1722, a llafuriodd wrtho yn ddiwyd am ugain mlynedd; ac yn 1742, cyhoeddodd ef, dan yr enw *Gnomon Novi Testamenti* = *Mynegfys y Testament Newydd*. Ystyr yr enw *gnomon* ydyw, "mynegfys deial;" ac yn ol ei syniad ef am esboniad ar yr Ysgrythyr, *mynegfys* a ddylai fod, i nodi allan ei *symledd*, ei *ddyfnder*, ei *gyssylltiad*, a'i *iachusrwydd*. Cyn ei ymddangosiad, yr oedd yn alluog i'w gyfoethogi â ffrwyth ei ymchwiliadau i burdeb y testyn, ac â'i olygiadau mwyaf addfed ar ranau prophwydol y Testament Newydd. Yn ei *Gnomon*, gan hyny, ni a gawn Bengel ar unwaith fel beirniad Ysgrythyrol, deonglwr, ac efrydydd y prophwydoliaethau. Y mae hwn yn waith hollol ar ei ben ei hun. Am agor trysorau y Testament Newydd, mewn ychydig eiriau, nid oes mo'i fath. Mae esbonwyr pob gwlad wedi gwneyd defnydd helaeth o hono, a lluaws o honynt wedi rhoi y ganmoliaeth uchaf iddo.

Yn 1741, ymddangosodd traethawd Bengel ar Amseryddiaeth, yn ei gyssylltiad â hanesiaeth y Beibl ac â'i brophwydoliaethau. Egwyddor sylfaenol y gwaith hwn ydyw—fod prophwydoliaethau yn cynnwys holl oesoedd amser, a bod y cyfnodau lluosog sydd yn yr Ysgrythyrau yn dibynu ar eu gilydd, ac yn cyfeirio at yr un diweddnod, sef ail ymddangosiad Crist. Cyfrifai Bengel o'r greadigaeth hyd y dylif, 1625 o flyneddoedd; oddi yno hyd yr ymadawiad o'r Aipht, 811; oddi yno hyd orpheniad adeiladu y deml, 478; ac o Adda hyd Grist, 3940. Ei farn ef—ar sail *Heb.* ix. 26; 1 *Cor.* x. 11; 1 *Pedr* i. 20; iv. 7—oedd, na byddai parhad goruchwyliaeth y Testament Newydd ddim cyhyd a'r hen. Gwna Luther sylw cyffelyb ar 1 *Pedr* iv. 7. O ganlyniad, ni byddai parhad y byd ar yr hwyaf, a chaniatau i'r oruchwyliaeth newydd fod yr un hyd a'r hen, ond 7880 o flyneddoedd. A chan fod 5690 o flynyddoedd er y greadigaeth hyd amser Bengel (B. A. 1740), ac yn ol *Dad.* xx. fod dwy fil o flyneddoedd—un tra fyddai Satan yn rhwym; ac ar ol gollyngdod byr, mil arall o deyrnasiad y saint yn y nefoedd—nis gallasai fod, erbyn rhoi 2,000 a 1740 at eu gilydd=3740, ond 200 o flynyddoedd cyn y dechreua prophwydoliaeth y bennod hono, sef rhwymo Satan, gael ei chyflawnu. Ond gan fod cynnifer o gyfnodau y Beibl yn gynnwysedig mewn *saith*, pe meddyliid fod parhad y byd yn gyssylltiedig â'r nifer *saith*, a chymmeryd y nifer cynnwysedig o seithiau agosaf at y nifer uchod (7880), sef 7777, i ddynodi parhad y byd, yna nid oes ond 97 o flyneddoedd i gynnwys yr holl ddygwyddiadau sydd i gymmeryd lle cyn dechreu y ddwy fil o flyneddoedd, yr hyn, a chyfrif o'r amser a ysgrifenodd Bengel (1740) a derfynai yn 1837. Yr oedd ganddo hefyd resymau oddi wrth nifer y bwystfil i gadarnhau mai yn 1837 yr oedd adeg rhwymo Satan i ddechreu. Afreidiol yw dyweyd, pa mor benderfynol bynag yr ydoedd o'u cywirdeb, fod amser wedi ei brofi ef, fel llawer ereill, yn gamsyniol yn eu cyfrifon prophwydoliaethol. Ysgrifenodd Bengel esboniad ar y Dadguddiad, yn unol â'r egwyddorion uchod: ac er iddo wneuthur camsyniad am yr amser y byddai i'r ddwy fil o flynyddoedd ddechreu, eto fe wnaeth luaws o sylwadau a wiriwyd yn hanes Ewrop yn y can mlynedd diweddaf—y byddai i ammheuaeth ac anffyddiaeth gynnyddu—y dyrchefid nerth rheswm mor uchel nes y byddai dynion yn analluog i ddeall pa beth sydd i'w feddwl wrth ffydd a phethau goruwchnaturiol—y codai ymherawdwr ac ymherodraeth yn Ffrainc—y byddai yr athrawiaeth am y gair tu mewnol, yn enwedig yn llaw athroniaeth, yn foddion i wneuthur drwg mawr—y byddai dynion yn galw am y cnewyllyn heb y plisgyn; *h. y.*, am Grist heb y Beibl—ac y byddai i lawer syrthio yn ol at Babyddiaeth.

Yn niwedd ei oes gwnaed ef yn esgob yn Würtemberg. Yr oedd yn ddarostyngedig yn fynych i ymosodiadau afiechyd, yn enwedig yn ei flyn-

Digitized by Google

eddoedd olaf. Daeth yn arfer ganddo i edrych ar fywyd fel rhedfa barhaus tuag angeu, ac ymdrechai gynnefino ei hun â'r meddwl am farw; ond ni chydsyniai â'r duwinyddion hyny sydd yn edrych ar yr oll o grefydd yn ddim amgen na ffordd i ddysgu marw. Yn ol Bengel, y mae y Cristion, nid i ddysgwyl cymmaint am farw, ond am ymddangosiad Iesu Grist; a'r peth mwyaf i bob dyn ydyw dyfod allan o gyflwr o gondemniad i gyflwr o ras, ac yna dysgwyl, nid am angeu, ond am ei Arglwydd. Nid oedd i angeu le yn nghyfansoddiad cyntaf pethau. Ni ewyllysiai farw mewn rhwysg ysbrydol, ond mewn dull cyffredin; a hyd y diwedd yr oedd yn brysur gyda'i brawfleni. Yr ydoedd fel pe galwesid ef o'i ystafell ar ganol oriau gwaith. Ar yr 2il o Dachwedd, 1751, bu farw, gan ddywedyd, "Arglwydd Iesu, i ti yr wyf yn byw, i ti yr wyf yn marw—byw a marw eiddot ti ydwyf."

Ymddangosodd bywgraffiad o hono yn y trydydd argraffiad o'r *Gnomon*, gan ei fab. Yr hanes cyflawnaf o hono a ymddangosodd yn 1831, gan ei orŵyr Burk, gweinidog yn Würtemberg, ac a gyfieithwyd i'r Seisoneg gan Walker, 1837.

Dodwn yma ychydig o'i frawddegau, er mwyn dangos yn mhellach ei nodweddiad:—

"Nid oes un prawf cryfach o wirionedd yr Ysgrythyrau, ac o bob perthynas, athrawiaeth, addewid, a bygythiad, o'u mewn, na'r Ysgrythyrau eu hunain. Y mae gwirionedd yn ein cymhell ni i'w dderbyn; yr wyf yn adnabod llawysgrifen cyfaill heb i'r genad ddyweyd oddi wrth bwy y mae. Nid ydyw yr haul yn cael ei ganfod wrth oleuni lamp, neu wrth oleuni corff nefol arall, ond trwy ei belydrau ei hun, er nas gall dyn dall amgyffred pa fodd y mae hyn."

"Y mae effaith gair Duw yn oruchnaturiol; y mae weithiau yn gorchfygu, yn swyno, ac yn cenedlu ffydd yn y galon, cyn i'r dyn feddwl pa beth ydyw ffydd, a pha ham y mae yn ei gredu. Y mae hyn yn beth gwahanol i gael ein hargyhoeddi o wirionedd hanesyddiaeth neu y gwyddonau naturiol. Dylai pob un ymwneyd â gair Duw, gan dderbyn y gwirionedd fel peth dymunol ynddo ei hun, am ei fod yn wirionedd. Y mae y rhai sydd yn ufuddhau iddo, yn gweddïo am arweiniad, yn ymdrechu cynnyddu mewn gwybodaeth o'r Arglwydd, a'i dangos i ereill, yn cael sicrwydd iddynt eu hunain (*Ioan* vii. 17; viii. 31, 32; *Rhuf.* xii. 2), gwir ddoethineb, cymdeithas â Christ, sel yr Ysbryd Glan, a blaenbrawf o lawenydd tragwyddol."

"Dylid darllen mwy ar yr Ysgrythyrau yn ein haddoldai. Nid ydyw drychfeddyliau cywrain, cymhariaethau prydferth, geiriau hedegog cryfion, a chasgliadau cofn, ond o ychydig rym; o herwydd os ydyw adeiladaeth yn gynnwysedig mewn mwynhad o ddyfeisiau cywrain, mewn pleser i'r chwaeth, a boddhad i'r glust, gwneir, yn ol geiriau Paul, croes Crist yn ddirym."

"Y mae yr Ysgrythyrau yn cynnwys, heb law sylfeini ein hiachawdwriaeth, lawer o bethau gwerthfawr. Ni ddylid edrych ar y Beibl yn gasgliad o adnodau neu esamplau yn unig, nac fel gweddillion hynafiaeth, ond fel un oruchwyliaeth neu gyfundrefn ddwyfol tuag at ddynolryw—yn dechreu gyda dechreuad y byd, ac yn diweddu gyda diwedd pob peth. Er fod pob llwybr yn y Beibl yn gyflawn ynddo ei hun, ac er fod i bob awdwr ei briod-ddull ei hun, eto un ysbryd ac un meddylddrych sydd yn rhedeg trwy y cyfan, ac y mae y naill ysgrifenydd yn taflu goleu ar y llall.

1. BENHADAD: mab Tabrimmon, fab Hezion a brenin Syria. Barna rhai mai yr un yw yr Hezion uchod a Rezon, mab Eliada, am yr hwn y darllenwn yn 1 *Bren.* xi. 23,24, i Dduw ei gyfodi yn wrthwynebwr yn erbyn Solomon,—"A Duw a gyfododd wrthwynebwr arall yn ei erbyn ef, Rezon mab Eliada, yr hwn a ffoisai oddi wrth Hadadezer brenin Soba ei arglwydd. Ac efe a gynnullodd wŷr ato, ac a aeth yn dywysog ar fyddin, pan laddodd Dafydd hwynt o Soba; a hwy a aethant i Damascus, ac a drigasant ynddi, ac a deyrnasasant yn Damascus." Os cywir yw y golygiad uchod, yr oedd y Benhadad hwn yn ŵyr i ail sefydlydd y freniniaeth, ac yn drydydd o freninoedd Syria a deyrnasasant yn Damascus, wedi bod yn y wlad hono, dan deyrnged i Dafydd (2 *Sam.* viii. 6). Gwrthwynebasai ei daid Solomon; ond ymddengys i heddwch gael ei wneyd wedi hyny rhwng y ddwy deyrnas, yn gystal a rhwng Syria a theyrnas Israel. Yr oedd breninoedd Syria mewn cyfammod âg eiddo Iudah, ac ar yr un pryd mewn cyfammod â'r eiddo y deg llwyth. Pan aeth Baasa, brenin Israel, i fyny yn erbyn Iudah, ac y dechreuodd adeiladu Ramah, cymmerodd Asa aur ac arian o drysorau tŷ yr Arglwydd a thŷ y brenin, ac a anfonodd at Benhadad, gan ddywedyd, "Cyfammod sydd rhyngof fi a thi, rhwng fy nhad i a'th dad di; wele, mi a anfonais i ti anrheg o arian ac aur; tyred, diddyma dy gyfammod â Baasa, brenin Israel, fel y cilio efe oddi wrthyf fi." Gwrandawodd Benhadad ar lais Asa;—golygai yr arian a'r aur yn rhesymau anwrthwynebol dros wneuthur felly. Nid yw mor ryfedd i Benhadad dderbyn y wobr, ag i Asa, yr hwn oedd yn adnabod yr Arglwydd, a'r hwn oedd wedi ei waredu o'r blaen o berygl mwy nag oedd yn ei fygwth yn bresennol, ei chynnyg. Ymosododd Benhadad ar Baasa; gorfu arno ef, o ganlyniad, roddi i fyny adeiladu Ramah. Cyrhaeddodd Asa felly ei amcan; ond cafodd achos i edifarhau am iddo wneuthur drwg fel y deuai daioni.

2. BENHADAD: mab, y mae yn debygol, i'r un uchod, a'i olynydd ar orsedd Syria. Daeth i fyny yn erbyn Samaria, ac anfonodd genadau i'r ddinas at Ahab, yn hòni hawl i gymmaint oll ag a feddai. Mynai i Ahab ei gydnabod ef fel ei arglwydd, a gwir berchenog ei holl gyfoeth. Yr oedd Israel, y pryd hwn, wedi ei darostwng i iselder mawr, a llu Benhadad yn fawr iawn; o ganlyniad, ymostyngodd Ahab i honiadau trahausfalch ei orthrymydd. Anfonodd yn ol iddo yn atebiad—"Yn ol dy air di, fy arglwydd frenin, myfi a'r hyn oll sydd genyf, ydym eiddot ti." Yr oedd Ahab yn foddlawn i gydnabod ei hun o dan deyrnged i Benhadad. Gobeithiai y byddai i hyny lwyddo i beri iddo droi ymaith, a'i adael ef mewn meddiant o'i orsedd. Ond nid oedd hyny yn ddigon i foddloni Benhadad. Anfonodd genadau eilwaith at Ahab, yn hysbysu iddo y byddai iddo ef a'i weision ddyfod i mewn i'r ddinas dranoeth, a chwilio tŷ Ahab, a thŷ ei weision; a chymmeryd ymaith gyda hwynt bob peth dymunol yn ei olwg ef. Cyffrôdd hyn ysbryd llwfr Ahab; galwodd yn nghyd henuriaid y wlad, gosododd yr achos ger eu bron, a chynghorasant hwy ef i beidio ymostwng yn mhellach i'r ymosodwr trahausfalch. Dywedasant wrtho, "Na wrando ac na chytuna âg ef." Yn gydweddol â'r cynghor hwn, anfonodd at Benhadad i'w hysbysu ei fod yn parhau yn foddlawn i wneyd yr hyn a ofynasai efe ar y cyntaf; "ond nid allaf," ebe fe, "wneuthur y peth hwn." Cyffroid llid

Digitized by Google

Benhadad wrth weled yr arwydd lleiaf o wrthwynebiad o du yr hwn a dybiai ef ei fod yn gwbl yn ei law, ac wrth ei drugaredd; ac anfonodd at Ahab i'w hysbysu, gyda llw, nad oedd holl bridd Samaria yn ddigon i'r gwŷr oedd yn ei ganlyn ef i gael pob un ei ddyrnaid. I'r genadwri ffrostgar yma, dychwelodd Ahab atebiad synwyrol; "Nac ymffrostied yr hwn a wregyso ei arfau fel yr hwn sydd yn eu diosg." Y mae yn rhy gynnar i ymffrostio cyn dechreu ymladd. Nid cyn, ond ar ol y frwydr y gwybyddir eiddo pwy fydd y fuddugoliaeth. Pan ddaeth y genadwri hon at Benhadad, yr oedd ef yn yfed yn y pebyll gyda'r deuddeg brenin ar ugain a arweinient ei lu. Nis gallai ddal chwaneg—yr oedd ei falchder naturiol yn ddigon i ennyn ei lid, ac yr oedd ei nwydau bellach wedi eu tanio gan win; a rhoddodd orchymyn i'w lu i ymosod ar unwaith yn erbyn y ddinas. Tosturiodd yr Arglwydd wrth adfyd Israel; ac anfonodd brophwyd i galonogi Ahab, er mai Ahab annuwiol ydoedd. "Daionus yw efe i'r rhai anniolchgar a drwg." Er nad oedd holl wŷr Israel ond saith mil, yn cael eu harwain gan wŷr ieuainc, tywysogion y taleithiau, nifer pa rai oedd dau cant a deuddeg a thrigain, trôdd y fuddugoliaeth o'u tu hwy—gorfu ar Benhadad, yn feddw fel yr oedd, ddianc am ei fywyd ar farch gyda'r gwŷr meirch, a lladdwyd y Syriaid â lladdfa fawr.

Naturiol oedd i'r Syriaid gasglu gan eu bod hwy, a hwythau y fath nifer, wedi eu taraw o flaen y fath ychydig, fod yno rywun mwy na dynion; a'u penderfyniad oedd eu bod wedi camsynio yn ddirfawr wrth ymosod ar Israel ar fynydd; "Duwiau y mynyddoedd," meddent, "yw eu duwiau hwy, ac am hyny trech fuant na ni; ond ymladdwn â hwynt yn y gwastadedd a threch fyddwn na hwynt." Yn mhen y flwyddyn gan hyny daethant eilwaith yn erbyn Israel yn Aphec. Mynai yr Arglwydd eu hargyhoeddi hwy ei fod ef yn Dduw y dyffrynoedd, yn gystal a'r mynyddoedd; o ganlyniad, bu yr ymosodiad hwn yn fwy dinystriol i'r Syriaid na'r cyntaf. Syrthiodd Benhadad ei hun i ddwylaw Ahab, a gorfu ar y gorchfygwr ffrostgar syrthio wrth draed, a thaer ddeisyf cael byw oddi ar law yr hwn, flwyddyn yn ôl, a lwythasai â chymmaint o anmharch. Cynnygiodd i Ahab yr ammodau mwyaf manteisiol; bu yntau mor ynfyd a'i ollwng ar yr ammodau hyny, ond talodd yn ddrwg am hyny. Rhaghysbyswyd iddo gan ŵr Duw mai felly y buasai. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, O herwydd i ti ollwng ymaith o'th law y gŵr a nodais i'w ddyfetha, dy einioes di fydd yn lle ei einioes ef, a'th bobl di yn lle ei bobl ef;" 1 *Bren.* xx. 42. Yn mhen y tair blynedd, cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon. Aeth Ahab i fyny yn erbyn y Syriaid i Ramoth-Gilead. Ymddengys fod Benhadad, wedi cael ei ryddid, yn gwrthod cyflawnu yr ammodau a wnaethai yn ei gyfyngder. Yr oedd Ramoth-Gilead yn un o'r dinasoedd a ddygasai y Syriaid oddi ar Israel. Er mwyn ei orfodi trwy orthrech i wneyd yr hyn ni wnai yn ewyllysgar, aeth Ahab i ryfel yn ei erbyn yno, ac yn y frwydr hono collodd ei fywyd.

Yn mhen o ddeutu pedair blynedd wedi hyny, gwnaeth Benhadad ryfel drachefn yn erbyn Israel; ond deallodd fod ei gynlluniau yn cael eu dadguddio i frenin Israel. Ofnai, ar y cyntaf, fod rhai o'i bobl ei hun yn ei fradychu; ond rhoddwyd ar ddeall iddo mai Eliseus oedd yn dywedyd y cwbl wrth frenin Israel. Penderfynodd, gan hyny, ar fynu gafael ar y prophwyd: anfonodd lu mawr i Dothan i'w ddal—tarawodd y prophwyd hwynt â dallineb, cymmerasant eu harwain ganddo ef lle y mynai; y phan agorwyd eu llygaid, cawsant eu hunain, er dychryn nid bychan idddynt, yn nghanol Samaria. Ar ddymuniad y prophwyd, rhoddodd brenin Israel ymborth iddynt, a gollyngodd hwynt yn rhydd i fyned tua'u gwlad. Bu hyn yn foddion i lonyddu ysbryd rhyfelgar Benhadad am ychydig; ond yn mhen tua dwy flynedd, daeth i fyny drachefn, a gwarchaeodd ar Samaria. Darostyngodd hi i gyfyngderau dirfawr; ond parodd yr Arglwydd i'r Syriaid glywed trwst cerbydau, a thrwst meirch, a thrwst llu mawr iawn; tybiasant fod brenin Israel wedi cyflogi galluoedd afrifed i ddyfod yn eu herbyn—"Am hyny, hwy a gyfodasant, ac a ffoisant ar lasiad dydd, ac a adawsant eu pebyll, eu meirch, a'u hasynod, sef y gwersyll fel yr ydoedd, ac a ffoisant am eu heinioes;" 2 *Bren.* vi. vii. Diwedd Benhadad fu, cael ei lofruddio gan Hazael, ei was, yr hwn a deyrnasodd yn ei le ef: 2 *Bren.* viii. 15.

3. BENHADAD: mab yr Hazael uchod, oddi ar ba un y dygodd Ioas, brenin Israel, yr holl ddinas a ddygasai Hazael oddi ar ei dad ef. Gorchfygodd Ioas ef dair o weithiau, a gwnaeth iddo roddi i fyny yr holl diroedd a'r dinasoedd y tu hwnt i'r Iorddonen, a berthynent i lwythau Gad, Reuben, a Manasseh: 2 *Bren.* xiii. 25.

BENHAIL, [*mab nerthoedd*]: oedd un o'r rhai a anfonodd Iehosaphat i'r dinasoedd oedd yn ei lywodraeth i addysgu y bobl, ac i'w troi oddi wrth eilunaddoliaeth: 2 *Cron.* xvii. 7.

BENHINNON neu BENHENNON, neu GEH-HINNON, neu GEH-BENI-HINNON, [*dyffryn meibion Hinnon*, neu *fab galar dwys*]: oedd yn y deheu-ddwyrain i Ierusalem. Bernir mai hi oedd dyfr-ffos gyffredin y ddinas, a'i bod hefyd yn arwyddlun o uffern, yr hon a elwir Gehenna [gwel GEHENNA]. Gelwid hi hefyd Tophet [gwel TOPHET].

BENIAMIN, [בנימין; Deg a Thrigain, *Βενιαμιν*]; mab ieuengaf Iacob a Rahel: *Gen.* xxxv. 18. Ganwyd ef ar y ffordd o Mesopotamia, yn agos i Ephrata, neu Bethlehem: *Gen.* xxxv. 16, 17. Bu farw ei fam yn ebrwydd ar ol ei eni; ac yn ei mynydau diweddaf, galwodd ef בן עני—*Benoni*=*mab fy nga'ar*, neu *mab fy ngofid*; ond newidiodd Iacob ef am yr enw *Beniamin*, yr hwn sydd enw braidd o'r un swn, ond o ystyr dra gwahanol—*mab fy neheulaw*. Rhoddes yr enw hwn arno, y mae yn debygol, oddi ar y dysgwyliad a goleddai am nawdd a hyfrydwch oddi wrtho ef, ei fab ieuengaf, yn ei hen ddyddiau. Ymddengys hyn yn naturiol wrth feddwl am yr anmharodrwydd oedd yn ei dad i ymadael âg ef, wedi hyn, mewn amgylchiadau oedd yn gwneyd hyny yn angenrheidiol: *Gen.* xliii. Ni choffeir dim am Beniamin ar ol yr hanes am dano ef a'i frodyr gyda Ioseph yn yr Aipht: *Gen.* xliii.

BENIAMINIAID: hiliogaeth Beniamin. Yn *Gen.* xlvi. 21, rhoddir plant Beniamin yn ddeg o nifer; ond yn *Num.* xxvi. 38—40, ni chrybwyllir ond am saith, a rhai o honynt dan enwau gwahanol. Yr unig ffordd i gyssoni hyn ydyw, fod rhai o honynt wedi meirw, naill ai yn ieuainc neu yn ddiblant. Rhifedi llwyth Beniamin yn y dyfodiad o'r Aipht oedd pymtheg ar ugain o filoedd a phedwar cant o wŷr parod i ryfel, ac uwch

Digitized by Google

**law** ugain oed: *Num.* i. 36; ii. 22: a chynnyddodd yn yr anialwch i bum mil a deugain a chwe chant. Eu tywysog oedd Abidan, mab Gideoni; a'u hysbïwr, Patti, mab Raphu. Gwersyllai y llwyth y tu ol i'r babell, gydag Ephraim. Yr oedd ei etifeddiaeth, yn Nghanaan, o du y gogledd-ddwyrain i Iudah, a chylchynid hi gan randiroedd Dan, Ephraim, a Iudah, yn nghanolbarth Gwlad Canaan: *Num.* i. 11, 36, 37; *Ios.* xviii. Y mae terfynau y rhandir yn cael eu nodi allan yn *Ios.* xviii. 12—50, yr hyn a ddengys nad oedd yn eang; ond yr oedd yn ffrwythlawn yn naturiol, ac wedi ei drin yn dda. Cynnwysai chwech ar ugain o ddinasoedd, a'u pentrefydd (*Ios.* xviii. 21—28), y mwyaf enwog o'r rhai oedd Ierusalem, Iericho, Ramah, Gibeath, Bethel, a Gibeon. Daeth Ierusalem, mewn amser, yn brif ddinas yr holl freniniaeth; ond yr oedd, ar ol rhaniad y wlad, yn meddiant y Iebusiaid, ei hen breswylwyr. Ymladdodd Iudah yn ddewr yn eu herbyn, ac ennillasant ran o'r ddinas; ond ni yrodd llwyth Beniamin hwynt o'r rhanau uchaf a chadarnaf, a buont yn meddiant y Iebusiaid, hyd oni ennillwyd hwy gan Dafydd: *Barn.* i. 8, 21; 2 *Sam.* v. 6. Yn amser y Barnwyr, aeth y Beniaminiaid, o herwydd amddiffyn trueiniaid Gibeah, i ryfel â'r holl lwythau ereill. Diweddodd y rhyfel hwn braidd yn ninystr llwyr y Beniaminiaid: nid oedd ond chwe chant o honynt yn aros, y rhai a ffoisant i graig Rimmon, yn nghyd âg ychydig o wragedd. A gwnaeth y llwythau hefyd lw, na roddent eu merched yn wragedd i'r Beniaminiaid; ond pan liniarodd eu hysbryd dialgar, cawsant ffordd i ochel llythyren y llw, trwy roddi iddynt wyryfon o Iabes Gilead, a Siloh, yn wragedd: *Barn.* xxi. 12—21. Fel hyn, adferwyd y llwyth mor gyflym, fel yn amser Dafydd, y rhifai bedair ar bymtheg a deugain o filoedd a phedwar cant a phedwar ar ddeg ar ugain o wŷr parod i ryfel (1 *Cron.* vii. 6—12); yn amser Asa, dau cant a phedwar ugain o filoedd (2 *Cron.* xiv. 8); ac yn amser Iehosaphat, dau can mil (2 *Cron.* xvii. 17.)

Un o'r llwyth hwn oedd Saul, brenin cyntaf ar Israel: 1 *Sam.* ix. 1, 2. Wedi marwolaeth Saul, ymlynodd wrth ei fab, Isboseth: 2 *Sam.* ii. 8. Yr oedd Iudah a Beniamin, o herwydd agosrwydd eu rhandiroedd i'w gilydd, yn dra chyfeillgar ac unedig. Pan ranwyd y freniniaeth, wedi marwolaeth Solomon, ymunodd y llwyth hwn â Iudah, a ffurfiasant yn nghyd lywodraeth annibynol ar y deg llwyth. Gelwir y ddau lwyth wrth yr enw *Iudah*, ar gyfrif eu cyssylltiad agos â'u gilydd: 1 *Bren.* xi. 13; xii. 20.

**BENI CAIBR**, [*Beni Khaibr*]: meibion Kaber, hiliogaeth Rechab, i'r hwn yr addawsid (*Ier.* xxxv. 19), "Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd Duw Israel, Ni phalla i Ionathan, mab Rechab, wr i sefyll ger fy mron i yn dragywydd." Dygwyd hwy i sylw gyntaf, mewn amseroedd diweddar, gan Samuel Brett, yr hwn a ysgrifenodd hanes cynghor mawr yr Iuddewon yn Hungary, B. A. 1650. Dywed am blaid y Rechabiaid, eu "bod yn cadw eu hen reolau a'u harferion - nad ydynt yn hau, yn planu, nac yn adeiladu tai; ond yn byw mewn pebyll, ac yn ymadael yn fynych o'r naill le i'r llall, gan ddwyn eu teuluoedd a'u heiddo i'w canlyn." Crybwyllir am danynt hefyd gan Niebühr. Rhydd Mr. Wolff, Iuddew dychweledig, yr hanes canlynol am danynt [*Meth. Mag.*, *Nov.*, 1822]. Ymofynodd â'r Rabbiniaid yn Ierusalem, am yr Iuddewon crwydrol hyn, a derbyniodd y wybodaeth a ganlyn:—"Y mae Rabbi Moses Sewt yn gwbl sicr mai disgynyddion y Rechabiaid ydyw y Beni Caibr: nid ydynt yn awr yn yfed gwin, ac nid oes ganddynt winllanoedd, na meusydd, na grawn; ond trigant, fel yr Arabiaid, mewn pebyll, a llwythau crwydrol ydynt. Derbyniant a chadwant gyfraith Moses trwy draddodiad, o blegid nid ydynt yn feddiannol ar y gyfraith ysgrifenedig." Ymwelodd Mr. Wolff wedi hyny ei hun â hwynt, a gwelodd eu bod yn aros fel cofadail o gyflawniad manwl prophwydoliaethau Duw; ac yn aros yn ddigyfnewid yn nghanol cyfnewidiadau oesoedd a chenedloedd.

**BENONI**: enw a roddid gan ei fam ar Beniamin: *Gen.* xxxv. 18. Gwel BENIAMIN.

**BENSON, JOSEPH, A. C.** Ganed ef yn nghymmydogaeth Temple Sowerby, yn swydd Westmoreland, Ionawr 25ain, 1748; ac yn dra boreu, cafodd ei ennill i fod yn ddysgybl i Iesu Grist. Ar ddymuniad y Parch. John Wesley, aeth yn athraw clasurol yn ysgol Kingswood; a thra y bu yn aros yno, efe a ddechreuodd gyhoeddi y newyddion da am iachawdwriaeth i'r glowyr yn y gymmydogaeth. Yn y flwyddyn 1770, cafodd ei appwyntio yn ben athraw coleg yr arglwyddes Huntingdon, yn Nhrefecca, swydd Frycheiniog, lle yr oedd cryn lawer o wŷr ieuainc yn cael eu parotoi i'r weinidogaeth. Tra yn y sefyllfa hon, efe a roddes ei enw i mewn yn Rhydychain, gyda golwg ar fyned yn weinidog yn yr Eglwys Sefydledig; ac am beth amser wedi gadael Trefecca, efe a gadwodd ei dymmorau yn gysson yn Rhydychain: ond yn y flwyddyn 1771, penderfynodd fyned yn bregethwr teithiol yn nghyfundeb Mr. Wesley. O'r amser hwnw, efe a barhaodd yn y weinidogaeth gyda sel a ffyddlondeb mawr, hyd y flwyddyn 1803, pryd y cafodd ei appwyntio i fod yn olygydd y llyfrau yn swyddfa y cyfundeb. Bu yn cyflawnu gorchwylion y swydd hono am bedair blynedd ar bymtheg. Bu yn llywydd y Gynnadledd Drefnyddol ddwy waith, sef yn 1798, ac yn 1810. Yr oedd yn dra hyddysg yn y gweithiau clasurol, yn y Groeg, a'r Lladin, ond y Beibl ydoedd ei brif fyfyrdod. Fel ysgrifenydd, yr oedd yn hynod o gywir, eglur, a rhesymiadol; a'i *Esboniad ar yr Hen Destament a'r Newydd* a erys yn hir yn drysor gwerthfawr. Ei ddoniau fel pregethwr oeddynt yn nodedig; ac yr oedd ei boblogrwydd a'i ddefnyddioldeb yn fawr iawn. Yr oedd ei agwedd yn fynych yn yr areithfa, fel cenad o'r byd tragwyddol; ac ychydig o weinidogion, yn yr amseroedd diweddar, a fu mor llwyddiannus yn nychweliad pechaduriaid. Bu farw Chwefror 16eg, 1821, yn 73 mlwydd oed.

1. **BEOR**: tad Belah; un o gynfreninoedd yr Edomiaid, cyn teyrnasu brenin ar feibion Israel: *Gen.* xxxvi. 32; 1 *Cron.* i. 43.

2. **BEOR**: tad y dewin Baalam, a brodor o Pethor, yn Mesopotamia: *Num* xxii. 5; *Deut.* xxiii. 4; *Ios.* xiii. 22. Yn y Testament Newydd, gelwir ef Bosor: 2 *Pedr* ii. 15.

**BERA**, [*ffynnon*]: brenin Sodoma, pan oedd Lot yn cyfanneddu yn y gwastadedd annuwiol hwnw: *Gen.* xiv. 2.

**BERACHIAH**, [*dywedyd yn dda am yr Arglwydd*]: tad Asaph, y cerddor medrus, a'r bardd enwog: 1 *Cron.* vi. 39.

Digitized by Google

**BERAIAH**, [בראיה = *meithriniaeth yr Arglwydd*]: un o benau cenedl llwyth Beniamin: 1 *Cron*. viii. 21.

**EREA**, [*pwysig*]: dinas o Macedonia, yr hon a gyfleïr gan Pliny yn y rhan ogleddol o'r dalaeth hono, a chan Ptolemy yn y rhan hono o honi a elwid Æmathia. Bernir gan y teithwyr diweddar mai yr un ydoedd ag a elwir yn bresennol Caraveria; ac os felly, yr oedd tua 35 milltir i'r gorllewin o Thessalonica. Bu Paul yn pregethu yr efengyl yma, â llwyddiant mawr ar ei lafur; canys dywedir ddarfod i'r preswylwyr boneddigaidd dderbyn y gair gyda phob parodrwydd meddwl, ac i lawer o honynt gredu: *Act*. xvii. 10—13.

Y mae bathodyn o Berea eto ar gael, yr hwn sydd yn nodedig am fod yn gerfiedig arno, "O'r ail Facedonia;" ac hefyd am ei fod yr unig fathodyn Macedoniaidd o'r amseriad A.U.C. 706, wedi ei argerfio âg enw y ddinas lle ei gwnaed.

**BEREAID**: sect fechan o ymneillduwyr oddi wrth Eglwys Ysgotland, y rhai a gymmerent eu henw sectaidd oddi wrth yr hen Bereaid, gan gymmeryd arnynt eu bod yn dilyn eu hesampl canmoladwy, trwy oruchadeiladu eu ffydd a'u hymarferiad ar yr Ysgrythyrau yn unig, yn annibynol ar bob awdurdod dynol. Mr. Barclay, gweinidog o Eglwys Ysgotland, oedd seilydd y sect hon; ac ymgynnullasant fel cynnulleidfa o Gristionogion neillduol gyntaf yn Edinburgh, yn y flwyddyn 1773. Cytuna y Bereaid âg eglwysi sefydledig Lloegr ac Ysgotland mewn perthynas i'r Drindod, rhagarfaethiad, ac etholedigaeth; er eu bod yn dadleu nad yw yr athrawiaethau crybwylledig yn cael eu dysgu gyda chyssondeb gan y naill na'r llall o'r eglwysi uchod. Ond y maent yn gwahaniaethu oddi wrthynt mewn amrywiol bethau:—

1. Maent yn llwyr ymwrthod â'r oll o grefydd naturiol, gan farnu ei bod yn niweidiol i achos crefydd ddadguddiedig, ac yn ei gwneuthur megys yn afreidiol.

2. Y maent yn ystyried ffydd yn Nghrist, a sicrwydd o iachawdwriaeth, yn anysgaredig. Gan fod Duw wedi dyweyd na chollir pwy bynag a gredo ynddo ef, ond y caiff efe fywyd tragwyddol, y maent yn barnu gan hyny fod yn afresymol i'r dyn a gredo y dystiolaeth yna ammheu ei iachawdwriaeth ei hunan. Fel hyn y dywed Mr. Barclay, "Trwy ba brawf bynag yr ydwyf fi yn credu adgyfodiad yr Iesu, yr ydwyf trwy yr unrhyw brawf yn hollol yn rhwym i gredu fy mod wedi fy nghyfiawnhau, canys y mae Duw wedi tystiolaethu y naill fel y llall." Ond y mae Mr. M'Lean yn sylwi ar hyn yna fel y canlyn:—"Y mae yr adgyfodiad yn wirionedd annibynol ar fy nghredu i, ac yn destyn tystiolaeth uniongyrchol; ond ni chyhoeddir fy nghyfiawnhad yn wirionedd hyd oni chredwyf y blaenaf; ac nid yw yn cael ei ardystio yn benderfynol, ond ei addaw ar yr ammod hwnw—'Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi;' *Rhuf*. x. 9." Ymddengys mai dyma y golygiad mwyaf peryglus a ddelir gan y Bereaid, yn gymmaint a'i fod yn gwneyd ffydd o ddychymyg, gan nad ydyw yn ddim amgen na hyn—Os darbwyllaf fy hunan fy mod yn gredadyn, yna yr ydwyf yn un.

3. Dywedant nad yw y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân ddim amgen nag anghrediniaeth; ac nad yw yr ymadrodd hwnw, "Ni faddeuir iddo, nac yn y byd hwn nac yn y byd a ddaw," yn arwyddo dim heb law na faddeuir i'r sawl a fyddai farw mewn anghrediniaeth dan yr oruchwyliaeth flaenorol, gan Moses, nac o dan oruchwyliaeth yr efengyl; yr hon, gyda golwg ar oruchwyliaeth Moses, oedd fath o fyd i ddyfod.

4. Y maent yn ystyried holl brophwydoliaethau yr Hen Destament, ac yn enwedig Llyfr y Salmau, yn gysgodol neu brophwydoliaethol am Grist, ac nid ydynt un amser yn eu cymhwyso at brofiadau Cristionogion yn gyffredin.

5. Y maent yn dal allan benarglwyddiaeth Duw, ac etholedigaeth ddiammodol, yn yr iaith gryfaf.

Mae y Bereaid yn bedyddio babanod, ac yn gweinyddu Swper yr Arglwydd yn fisol; ond nid ydynt yn gofyn adroddiad o brofiad personol, fel y gwna llawer o eglwysi, cyn derbyn i gymundeb; ond, wedi rhybudd dyledus, y maent yn cau aelodau annheilwng o gymundeb am fucheddu yn anfoesol, er nad ydynt yn cymmeryd arnynt eu traddodi i Satan, fel y gwnelai yr apostolion.

Mae yn perthyn i'r cyfundeb amryw gynnulleidfaoedd yn yr Alban, yn nghyd âg ychydig yn Lloegr a'r America.—(*Dr. Gardner's Chris. Cyc.*)

**BERED**, [*cenllysg*]; lle yn anialwch Sur, ar y tu deheuol i Cades-barnea: *Gen*. xvi. 14. Efallai mai yr un ydoedd a Hasar-Adar: *Num*. xxxiv. 4.

**BERENGARIAID**: cyfundeb crefyddol yn yr unfed ganrif ar ddeg, a elwid felly am eu bod yn ymlynu wrth olygiadau Berenger. Yr oeddynt yn amrywio yn eu barn am y cymun. Gwel BERENGER.

**BERENGER**, [BERENGARIUS]: un o'r duwinyddion a'r dadleuwyr mwyaf enwog yn yr unfed ganrif ar ddeg, oedd frodor o Tours. Derbyniodd ei addysg yn Chartres, dan Fulbert; a thynodd sylw yn fuan fel dyn o athrylith gref, a meddwl manwl ac ymchwilgar. Wedi marwolaeth Fulbert, dychwelodd i Tours, a dewiswyd ef yn llywydd ar ysgol gyhoeddus St. Martin; ac yn ganlynol, yn drysorydd yr eglwys. Wedi hyny, gwnaed ef yn archddiacon Angers. Berenger, Lanfranc, ac Anselm, oeddynt y rhai a adferasant resymeg ac uchanianaeth yn Ewrop, yr hyn a wnaethant trwy gymhorth gweithiau Aristotle, y rhai a ddygwyd i Ffrainc o ysgolion yr Yspaen. Ac ennillodd Berenger gyfeillion a dysgyblion trwy holl Ffrainc, trwy yr awyddfryd a ddangosai i gynnal a chefnogi egnion pawb a chwiliasant am wybodaeth. Gwrthwynebid ef a'i ysgol, mae yn wir, am ei fod yn dangos cymmaint o duedd i ymadael â'r dulliau arferol, a'i fod yn mhob peth yn chwilio am lwybr newydd iddo ei hun, mewn materion bydol ac eglwysig; ond profa hyn ei annibyniaeth barn yn nygiad yn mlaen ei holl ymchwiliadau. Ceisiodd hyd yn oed wneyd gwelliadau mewn gramadeg, a dwyn dull newydd o bwysleisio y Lladin. Dadleuai ef, yn nghyd â Lanfranc, dros yr egwyddor o undeb rhwng ffydd a rheswm, crefydd ac athroniaeth; ac iddynt hwy yn benaf y cyfrifir lledaeniad duwinyddiaeth yr Ysgolwyr, yr hon a ddaeth mor gyffredin yn yr ysgolion yn ystod y canoloesoedd. Hyd yn hyn nid oedd ei iawngrededd yn cael ei ammheu, na'r parch a haeddai yn gymmaint yn cael ei attal oddi wrtho. Ymddengys hyn oddi wrth waith mynachod y dalaeth neu y dosbarth y trigai ynddo, yn erfyn

Digitized by Google

arno gyfansoddi "traethawd annogaethol" i wasanaeth eu hurdd. Ac y mae y traethawd hwn, medd Neander (cyf. vi., td. 223), yn ysgrif lled bwysig, ar gyfrif y goleuni y mae yn ei roddi ar gymmeriad Berenger. Dengys mewn graddau helaeth y bywiogrwydd a'r eglurder a hynodent ei arddull, rhagor y dull cyffredin o ysgrifenu yn yr oes hono; ac nad oedd ei holfder at bob gwybodaeth wedi oeri na chymylu ei gariad at grefydd. Dengys hefyd ddoethineb a chymmesuredd mawr yn ei olygiadau ar y bywyd mynachaidd. Myntumiai yr un golygiadau ag Awstin am athrawiaeth gras, y rhai a ystyriai yn hollol angenrheidiol er cynnydd crefydd yn yr enaid.

Yn benaf, mewn cyssylltiad â'r ddadl o barth i natur *Presennoldeb Crist yn y Sacrament*, y mae enw Berenger yn hòni lle mewn hanes eglwysig. O'r amser boreuaf, yr oedd sacrament Swper yr Arglwydd wedi cael ei hamgylchynu â'r dirgelwch mwyaf. Ystyrid hi megys Sanctaidd Sancteiddiolaf crefydd: a'r farn gyffredin oedd, fod gwir bresennoldeb Crist, mewn rhyw fodd annysgrifiadwy, ynddi. Ond dan y syniad hwn, ymgyfarfyddai y barnau mwyaf amrywiol am y dull. Golygai rhai fod yr elfenau yn wir gorff a gwaed Crist, ar ol y cyssegriad: yn marn ereill, nid oeddynt ond arwyddion yn unig: a rhwng yr eithafoedd hyn, yr oedd lluaws yn edrych ar y cyfan gyda math o arswyd, gan ei deimlo yn rhyfyg i geisio treiddio i'r dirgelwch. Am ganrifoedd, ni chymmerodd unrhyw amgylchiad le i orfodi yr eglwys i gyhoeddi barn bendant ar y mater. "Paschasius Radbert," medd Bellarmine. "oedd y cyntaf a ysgrifenodd yn rheolaidd ac yn gyflawn (*serio et copiose*) o barth i wirionedd corff a gwaed yr Arglwydd yn y Swper." Yr oedd Radbert yn dduwinydd o gryn enwogrwydd, mewn mynachdy Benedictaidd, yn Corbey, lle y darlithiai i ddosbarth o efrydwyr ymchwilgar; ac er mwyn cyfarfod gofyniadau y rhai hyn, cyfansoddodd draethawd, yn 1831, *Ar Sacrament Corff a Gwaed Crist.* Efe oedd y cyntaf a ddefnyddiodd y gair trawssylweddiad—sydd yn cynnwys y syniad fod y bara a'r gwin yn cael eu cyfnewid, yn y cyssegriad, mewn dull anianyddol, i gorff a gwaed Crist, yn y rhai y croeshoeliwyd ef. Felly, yn lle y dirgelwch a dybid oedd yn y sacrament, y mae Radbert yn hòni fod ynddi wyrth. Creodd y gair wrthweithiad a chynhwrf yn mysg y duwinyddion Ffrengig. Gorchymynodd y brenin i ddau ysgrifenu adolygiad ar y gwaith. Y rhai hyn oeddynt, Ratram, cydfynach yn Corbey; a John Scotus Erigena, unig feddyliwr mawr y cyfnod hwnw, yr hwn oedd gymmaint o flaen ei oes mewn dealltwriaeth athronyddol, fel yr oedd yn annealladwy iddi. Y mae dylanwad Ratram wedi bod yn fawr ar dduwinyddiaeth Prydain, trwy yr effaith a gafodd ar y Saxon Ælfrid, yr hwn a fabwysiadodd ei syniadau, yn mron i'r lythyren; a thrwy y cyfnewidiad, a weithiodd ei syniadau yn yr esgob Ridley, y diwygiwr, yn mhen canrifoedd wedi hyny. Gyda golwg ar y ddadl hon, gellir edrych ar Ratram fel Ridley y nawfed ganrif; ac ar Scotus, fel ei Zuinglius—diwygiwr mawr Switzerland.

Daeth Berenger dan ddylanwad syniadau Ratram a Scotus, yn enwedig yr olaf. Amddiffynai hwynt gydag eofndra; ac nid heb radd o falchder, fel un yn meddu ar eglurder meddwl a nerth ymresymiadol cryfach na'i gydoeswyr. Hònai mai gwir athrawiaeth yr eglwys oedd yr hyn a ddysgid gan ei athraw Erigena; sef, fod presennoldeb Crist yn wirioneddol yn y sacrament, ond ei fod felly mewn modd ysbrydol. Gallasai fod dynion yn yr eglwys yn meddu ar gywreinrwydd meddyliol Berenger, ond yn ei theimlo yn ddyledswydd i gadw y rheswm gwrthryfelgar mewn ufudd-dod. Y cyfryw oedd Lanfranc, ei gyfaill, yr hwn, wedi hyny, a gyrhaeddodd brif archesgobaeth Lloegr. Dysgwyliai Berenger am wrandawiad ffafriol oddi wrth Lanfranc; ond synai yn aruthr wrth weled dyn o'i ysbryd a'i alluoedd ef yn amddiffyn golygiadau Radbert mor eiddigeddus, ac yn ystyried yr eiddo John Scotus yn gyfeiliornus; ac ysgrifenodd ato i'w annog yn daer i astudio y pwnc yn fwy manwl, gan chwanegu ei fod, os oedd yn barnu Scotus yn heretic, yn rhwym o ystyried Ambrose, Jerome, Awstin, ac ereill, yn hereticiaid yr un modd, gan ei fod ef a hwythau yn meddu yr un golygiadau ar y sacrament. Gan fod Lanfranc ar y pryd yn Rhufain, syrthiodd y llythyr i ddwylaw ereill. Daeth ei gynnwysiad yn hysbys yn Rhufain; ac mewn cynghor a gynnaliwyd yno gan Leo IX., yn 1050, dygwyd y mater yn mlaen i'w ddadleu. Tybiwyd, oddi wrth dôn y llythyr, fod Lanfranc ei hun yn gyfranog â Berenger yn yn yr heresi; ond ymryddhaodd yn gwbl oddi wrth y cyhuddiad. Ar ol darllen y llythyr yn y cynghor, a'i anghymmeradwyo, esgymunwyd Berenger, a hyny yn ei absennoldeb. Gan nad oedd y pab yn dawel o barth i reoleidd-dra ac uniondeb dygiad pethau yn mlaen yn y cynghor hwn, gwysiodd Berenger i ymddangos o flaen cynghor oedd i'w gynnal yn nghorff yr un flwyddyn o dan ei arolygiaeth ei hun yn Vercelli. O herwydd rhyw resymau, ni ddaeth Berenger yno ei hun, ond ymddangosodd dau gyfaill fel amddiffynwyr iddo. Ni chawsant seibiant i lefaru nemawr; condemniwyd Berenger, a llyfr Scotus ar yr un pryd; a rhoddodd Eglwys Rhufain ei hun i fyny i athrawiaeth trawssylweddiad. Yn y cyfamser, yr oedd Ffrainc wedi ei chynhyrfu drwyddi gan y ddadl; ac i'r dyben o'i thawelu, darfu i Henry I. alw cynghor yn yr un flwyddyn yn Paris, yr hwn hefyd a gondemniodd Berenger, ac a'i gosododd dan orfod i ddadgyffesu, dan boen marwolaeth. Ni roddes y cyhuddedig ei bresennoldeb yn y cynghor hwn chwaith; o blegid, pan ar ei ffordd yno, deallodd fod rhai o'i elynion yn cynllwyn hyd yn oed yn erbyn ei fywyd, fel y cafodd sail deg i gasglu yn ganlynol oddi wrth lymder y ddedfryd a roddwyd arno. Gan fod y ddadl yn parhau heb ei phenderfynu, a Berenger yn dylanwadu fwyfwy ar feddyliau y bobl, cymhellid y pab, Victor II., i wneuthur rhyw symmudiad mwy effeithiol tuag at roddi terfyn arni. Trefnwyd i gynghor gael ei gynnal yn Tours, yn 1055, yn yr hwn yr arlywyddai Hildebrand—wedi hyny, Gregory VII.—yr hwn oedd yn feddiannol ar yni a phenderfyniad mawr, ac yn ddyn na fynasai gael ei reoli gan lais y lluaws. Caniataodd i Berenger wrandawiad astud—yr hyn a ommeddwyd iddo o'r blaen. Argyhoeddwyd y llywydd fod golygiadau Berenger wedi cael eu camddarlunio. Eglurodd, er boddlonrwydd iddo, ei fod yn ystyried y bara a'r gwin, ar ol cael eu cyssegru, yn gorff a gwaed Crist; a gwnaeth lw i gadarnhau ei fod yn traeth u ei wir feddwl. Mae rhai haneswyr eglwysig yn ystyried hyn yn ddadgyffesiad o eiddo Berenger: ond ymddengys hyn yn gamddarluniad; o blegid nid y pwnc o ddadl oedd, pa un a oedd y bara a'r gwin yn gorff a gwaed Crist, ond yn hytrach, yn mha ystyr yr oeddynt felly. Addefai ef y

Digitized by Google

presennoldeb gwirioneddol, yr hyn a ystyrid yn wahanol oddi wrth y presennoldeb corfforol. Felly, pan aeth yn mlaen ar ol hyn i amddiffyn ei olygiadau yr un modd ag o'r blaen, cyhuddwyd ef o wadu ei gyffes, o fod yn euog o anudoniaeth, ac o syrthio yn ol i'w hen gyfeiliornad. Felly, ni pharhaodd y tawelwch ond dros ennyd bychan; ac yn 1058, gwysiwyd ef gan Nicholas II. i ymddangos yn Rhufain. Cadwyd cynghor mawr ar ei achos yno. Siomwyd ef am y nodded a ddysgwyliasai oddi wrth Hildebrand. Yr oedd y blaid wrthwynebus yn rhy gref iddo yn Rhufain. Yr oedd y frawddeg, "Cyfranogiad ysbrydol o gorff Crist," yn cynhyrfu y lluaws gelynol i'r cynddeiriogrwydd eithaf. Am na therfynwyd y mater y tro presennol, gorfu arno yr un flwyddyn ymddangos o flaen cynnadledd o 113 o esgobion. Tynwyd cyffes ffydd gan y cardinal Humbert, un o'r penboethiaid mwyaf rhagfarnllyd, a gosodwyd ef ger bron Berenger. Yr oedd y gyffes wedi ei geirio yn y fath fodd fel ag i gau allan bob ymgais i ymnoddi yn y golygiad o bresennoldeb ysbrydol. Yr oedd yr ystyr fel y canlyn:—"fod y bara a'r gwin, ar ol y cyssegriad, nid yn unig yn sacrament, ond yn wir gorff a gwaed Crist; bod corff Crist yn cael ei deimlo a'i dori gan ddwylaw yr offeiriad, a'i falu gan ddannedd y ffyddloniaid, nid yn unig mewn modd sacramentol, ond yn wirioneddol." Yn awr, fel y cyfaddefa ei hun, meddiannwyd ef gan ofn marwolaeth; bwriodd â'i ddwylaw ei hun ei ysgrifeniadau i'r tân. Ymdaenodd y newydd am ei ddadgyffesiad trwy Germany, Ffrainc, ac Italy, a'r holl fanau yr oedd ei athrawiaeth yn hysbys ynddynt, gyda chyflymder mawr.

Ar ol dychwelyd i Ffrainc, dechreuodd addysgu ei athrawiaeth gyda'r un hyfder ag o'r blaen. Ni chymmerodd y pab un sylw mwyach o hono; ac ni wnaeth ei olynwr, Alexander II., ddim yn mhellach nag anfon llythyr tyner ato i'w annog i newid ei farn. Gan nad oedd dim yn tycio i laesu brwdaniaeth y pleidiau, barnodd Hildebrand—yn awr Gregory VII.—yn ddoeth anfon am Berenger eilwaith i Rufain. Daeth yno yn 1078, a gwnaeth gyffes i'r perwyl fod Crist yn wirioneddol bresennol yn y sacrament; nid aeth mor bell a'r presennoldeb corfforol. Ond ni foddlonai ei gyffes ei wrthwynebwyr, am ei bod yn amwys; ac am y gwyddent fod Berenger yn ffafr Gregory, drwgdybid yntau o ogwyddo at ei syniadau. Gorfodid y pab, gan hyny, i wneyd cais arall; a galwyd cynghor yn Rhufain, yn 1079. Ardystiodd Berenger ffurf arall o gyffes o flaen y cynghor hwn, yn cynnwys fod presennoldeb Crist yn hanfodol a sylweddol: ar yr un pryd, gadewid athrawiaeth trawssylweddiad heb ei phenderfynu. Ar ol dychwelyd i Ffrainc, teimlai ei wrthwynebwyr yn anfoddlawn yn ei gylch; ac yn 1080, galwyd ef i gynghor yn Bordeaux, i roddi cyfrif am ei ffydd. Hwn oedd ei ymddangosiad cyhoeddus olaf. Treuliodd y gweddill o'i flyneddoedd mewn neillduedd, yn ynys St. Cosmos, yn agos i Tours; a bu farw yno, Ionawr 6ed, 1088, yn nghylch deg a phedwar ugain oed.

Er mwyn deall un o resymau Berenger yn erbyn trawssylweddiad, dylid sylwi mai yr hyn a ddysgid oedd, fod hanfod y bara a'r gwin yn cael eu newid, ond fod yr ansoddau teimladwy yn parhau yr un. Yr ateb i hyn oedd, ei fod yn anghysson â gwirionedd Duw, yr hwn sydd yn uno y sylwedd â'i ansoddau yn anwahanadwy; ac felly, nis gall fod ymddangosiadau allanol bara, heb sylwedd bara. Y mae y Beibl hefyd yn ei erbyn:—Nid am y sacrament yr ymdrinir yn *Ioan* vi., ond am dderbyniad ffydd o rinwedd aberth Crist, mewn iaith ffugrol. Fod cymhariaethau cyffelyb yn yr Ysgrythyrau, megys pan y dywedir, "A'r Graig oedd Crist." Yn yr un ystyr y mae deall geiriau y cyssegriad. Y mae corff y Gwaredwr yn y nefoedd: byddai yn anmharchus dychymygu ei fod yn dyfod i'r ddaiar bob tro y gweinyddir y cymun. Dylid hefyd, yn Swper yr Arglwydd, wahaniaethu, megys y gwnai Awstin, rhwng yr elfenau cyssegredig (*sacramentum*), a'r hyn a arwyddid trwyddynt (*res sacramenti*). Pe byddai corff a gwaed Crist yn wirioneddol ar yr allor, yn lle y bara a'r gwin, collid y syniad am sacrament. Y mae y bara a'r gwin yn arwydd a sel o'r iachawdwriaeth a bwrcasodd trwy ei angeu. Y mae ffydd yn esgyn i'r nefoedd, ac yn cael mwynhad ysbrydol; ac felly, i gredinwyr, y mae yr elfenau yn rhywbeth mwy na bara a gwin. Credai Berenger fod rhyw nerth yn cael ei gyfranu i'r bara a'r gwin, yn fwy nag sydd yndynt yn naturiol, fel y gellir dyweyd fod rhyw gyfnewidiad (*conversio*) ynddynt; ond nid difodiad (*corruptio*) eu hanfod. Yn yr ystyr hwn, tybiai y gellid galw yr awyddion yn wir gorff a gwaed Crist. I gredinwyr yn unig y mae hyn - i anghredinwyr, nid ydynt ond arwyddion, bara a gwin, a dim mwy.—(*Mosheim's Ecc. Hist.*; *Neander's Hist. of the Church*; *Hagenbach's History of Doctrines*; *Cave's Hist. Lit.*

BERESCHITH, בראשית; *εναρχῃ = yn y dechreuad*]: yw yr enw Hebraeg a roddir ar Lyfr Genesis. *Bereschith* yw y gair cyntaf yn y llyfr.

BERI: mab Sopnah, o lwyth Aser: 1 *Cron.* vii. 36.

BERIAH: mab Aser, a thad Heber a Malchiel (*Gen* xlvi. 17); a phen tylwyth y Beriaid· *Num.* xxvi. 44.

BERITH neu BARATRES: dinas o Phœnicia, rhwng Biblos a Sidon. Y mae yn ansicr, medd Calmet, a sonir am y lle hwn yn yr Ysgrythyrau. Barna rhai mai yma yr addolid Baalberith, ac mai oddi wrth yr eilun y cafodd y ddinas ei henw. Deillia yr enw gan ereill oddi wrth Beroe, merch Venus ac Adonis, y duwdodyn a addolid yn fwyaf yn y wlad hono; ereill, o'r gair *Beroth*=ffynnonau; ac ereill, o'r gair *Berith*=cyfammod. Y mae amryw ddinasoedd o'r enw yn Palestina. Dygodd Dafydd swm mawr o bres o drefi Betah a Berothai, yn Syria: 2 *Sam.* viii. 8.

BERKELEY, GEORGE: athronydd enwog, yr hwn a anwyd yn yr Iwerddon yn 1684. Derbyniodd ei ddysg yn Trinity College, Dublin. Gwnaed ef yn esgob Cloyne yn 1733; ac a fu farw yn Rhydychain yn 1753. Yr hyn sydd wedi rhoddi ei brif enwogrwydd i'r dyn hwn ydyw ei gyfundrefn athronyddol. Yr ydoedd, trwy ansoddau ei feddwl a'i galon, wedi ennill parch ei gydoeswyr; a cheir beirniaid mor wahanol eu tymmerau a'u chwaeth ag ydoedd Swift, Addison, a Clark, yn cydsynio â Pope i briodoli i Berkeley bob rhinwedd dan y nefoedd="*every virtue under heaven.*"

Dywedai Atterbury, yr hwn a edrychai ar bawb gyda llygad craff a dirmygus, "Ni feddyliais, hyd nes y gwelais y gŵr hwn, fod cymmaint o ddysgeidiaeth, o wybodaeth, o ddiniweidrwydd, ac o ostyngeiddrwydd, i'w cael ond yn mhlith

Digitized by Google

angelion." Yn 1724, gwnaed ef yn ddeon Derry. Yr oedd hyn yn werth un cant ar ddeg o bunnau yn y flwyddyn iddo. Tua'r amser hwn yr ydoedd wedi gosod ei fryd ar gynllun i efengyleiddio barbariaid America Ogleddol, trwy offerynoliaeth coleg neu sefydliad cenadol, yr hwn a gynnygiai godi yn Bermudas. Yn 1725, cyhoeddodd ei gynllun yn Llundain, a thaflodd i fyny ei ddeoniaeth, i gyssegru ei fywyd i ddysgu llwythau anwaraidd, ar 100*p.* y flwyddyn. Yr oedd tri o gymmrodorion (*fellows*) Trinity College, Dublin, wedi cydsynio i fyned gydag ef am 40*p.* yn y flwyddyn bob un.

Trwy ddangos y manteision gwladwriaethol fyddai yn debygol o ddeilliaw o'r cynllun, cafodd freintlen i'w goleg, ac addewid am ugain mil o bunnau gan y prifweinidog. Gwrthododd esgobaeth yn Lloegr a gynnygiodd y frenines Caroline iddo; ac er iddo briodi, yn 1728, merch Mr. Forster, llywydd Tŷ Cyffredin yr Iwerddon, ni chymmerai ei droi oddi wrth ei amcan trwy unrhyw fanteision a allasai y fath gyssylltiad ddwyn iddo. Hwyliodd yn nghanol y mis canlynol i Rhode Island gyda'i wraig, dau neu dri o gyfeillion, llyfrgell werthfawr, a swm mawr o'i eiddo personol. Ymsefydlodd yn Newport, Rhode Island; ac am yn agos i ddwy flynedd, ymroddodd i gyflawnu ei amcanion haelionus. Ond siomwyd ef gan y llywodraeth gartref; ac ar ol treulio saith mlynedd o flyneddoedd goreu ei oes, rhwng ei lafur rhagbarotoawl cyn cychwyn, ac yn America, bu raid iddo roddi ei gynllun Cristionogol i fyny, a dychwelyd yn ol i Loegr. Ond cyn cychwyn, rhoddodd ei lyfrau i gyd i weinidogion y dalaeth; ac wedi dychwelyd, cymmerodd holl golled yr anturiaeth yn gyfan arno ei hun, trwy roddi yn ol y cyfraniadau a dderbyniasai tuag ati. Derbyniwyd ef yn ol yn groesawgar gan y frenines, yr hon a ymhyfrydai yn fawr yn nghymdeithas dynion o duedd athronyddol. Trwy ei dylanwad, dyrchafwyd ef i esgobaeth Cloyne, yn ei wlad enedigol. Nid oedd ei gymmwynasgarwch Cristionogol wedi ei ddihysbyddu, na'i deimladau wedi eu chwerwi, trwy y siomedigaeth a gafodd yn ei ymdrech o blaid yr Americaniaid brodorol; ond edrychai gyda'r un tosturi ar frodorion tlodion yr Iwerddon. Gofynai, "Oni ddylid gosod rhyw gynllun ar droed i lesoli y wlad yn gyffredinol?" Ysgrifenai anerchiadau at yr offeiriaid Pabaidd, i'w hannog i ddangos yr angenrheidrwydd am ddiwydrwydd i'w praidd, am ba rai y derbyniodd eu diolchgarwch. Yn un o honynt, crybwylla wrthynt ddywediad y caethion Negroaidd:—"Pe na byddai y Negro, byddai y Gwyddel yn Negro."

Y mae ysgrifeniadau Berkeley yn cael eu cyfeirio yn benaf yn erbyn y syniadau anffyddol oedd wedi dechreu ffynu cyn ei amser ef. Yr oedd cyfansoddiad ei feddwl ef yn ei gymhwyso i wneyd ymchwiliadau i egwyddorion cyntaf gwybodaeth. Ac er y cyssylltir ei enw fynychaf â chyfundrefn athronyddol sydd yn gwadu hanfodiad annibynol sylweddau neu ddefnyddiau y byd allanol a gweledig, eto, y mae yn ddiau iddo ef wneyd chwanegiadau pwysig at ystôr gwybodaeth ddynol.

Yn mhlith y rhai hyn, y mae y lle cyntaf yn perthyn i'r eglurhad newydd a roddodd ar welediad [*New Theory of Vision*] a gyhoeddwyd yn 1709. Mae y traethawd hwn yn cynnwys darganfyddiad mawr mewn athroniaeth y meddwl. Y syniad cyffredin cyn ei amser ef oedd, fod "y llygad yn barnu yn naturiol am lun, a maint, a sefyllfa, a phellder gwrthddrychau." Prif amcan Berkeley ydyw gwahaniaethu rhwng gwrthddrychau uniongyrchol a naturiol y golwg, a'r *casgliadau* y mae profiad ac arferiad yn ein dysgu i'w tynu oddi wrthynt. Ond gwneir y casgliadau hyn mor gyflym, fel y tybir yn gyffredin ein bod yn eu *gweled*, ac nid yn eu *casglu* trwy arferiad. Dangosir ganddo nad ydym yn gweled pellder yn uniongyrchol, ond fod gwahaniaeth pellder gwahanol wrthddrychau yn cynnyrchu teimladau gwahanol pan yr edrychir arnynt, a'n bod yn casglu y pellder oddi wrth y teimlad. "Pe agorid llygaid dyn wedi ei eni yn ddall, ni byddai ganddo un ddirnadaeth yn y dechreu am bellder trwy ei lygaid. Ymddangosai yr haul, y ser, y gwrthddrychau pellaf yn gystal a'r rhai agosaf, yn ei lygaid, neu yn hytrach yn ei feddwl" Nid yw yr holl glod am wreiddiolder yr esboniad hwn yn perthyn i Berkeley: ceir yr un egwyddorion yn Locke, ond dilynir hwy i'r canlyniadau eithaf gan Berkeley, a gosodir y cyfan allan mewn goleu mor eglur nes ei wneyd yn ddealladwy i bob darllenydd ystyriol. Y mae yn briodol sylwi, er fod golygiadau Berkeley wedi cael derbyniad cyffredinol yn mysg athronwyr, eto, fod Syr David Brewster yn ddiweddar wedi ammheu eu cywirdeb. Yn 1710, cyhoeddodd Berkeley ei draethawd ar *Egwyddorion gwybodaeth ddynol, yn yr hwn y gwneir ymchwiliadau i brif achosion Atheistiaeth ac anghrefydd.* Er mwyn deall y gyfundrefn athronyddol a ddysgir yn y traethawd hwn, y mae yn angenrheidiol adgofio y syniadau cyfeiliornus oedd yn ffynu ar y pryd o barth i'r dull trwy ba un yr ydym *yn gwybod*—hyny yw, trwy gyfrwng delw neu ddelwad peth yn y meddwl. Y grediniaeth oedd, fod y meddylddrych, trwy yr hwn yr ydym yn gwybod, a'r peth a wybyddir drwyddo, yn ddau beth gwahanol. Tybid fod y meddylddrych yn fath o ddelw neu gynllun yn y meddwl o'r gwrthddrych allanol a fyddai o'i flaen. Pan edrychai dyn ar goeden, neu dŷ, neu fynydd, y syniad oedd, fod delw y goeden, y tŷ, neu y mynydd, yn meddwl yr edrychydd, ac mai y ddelw oedd y gwrthddrych uniongyrchol i'r meddwl, ac nid y gwrthddrych allanol. Hyn oedd esboniad cyffredin athronwyr am y dull trwy ba un yr ydym yn canfod pethau sydd o'r tu allan i ni. Yn unol â hyn, *unig wrthddrychau* gwybodaeth ydyw meddylddrychau, neu y delwau hyn yn y meddwl. Nis gall dyn wybod dim ond sydd yn ei feddwl, ei deimladau a'i syniadau, neu yn y geiriau uchod, ei ddelwau meddyliol ei hun. Derbyniodd Berkeley yr esboniad hwn am y dull yr ydym yn gweled gwrthddrychau allanol. Dechreuodd ymresymu oddi wrtho yn y modd canlynol:—Y mae ein gwybodaeth o'r *meddwl* a'i weithrediadau yn dyfod i ni ar unwaith, yn uniongyrchol, ac nid trwy gyfrwng dim arall. Y canlyniad ydyw, fod ein gwybodaeth o ysbryd a'i weithrediadau yn gyfryw nas gellir ammheu ei gywirdeb. Ond am y corff, gellir gofyn, Os y drychfeddyliau yn unig a wyddom yn uniongyrchol, pa sail sydd genym i gredu fod dim arall yn hanfodi? Nid oedd yn taflu un ammheuaeth ar hanfodiad y teimladau a elwir yn deimladau corfforol, megys caled a meddal, oer a chynhes, lliw a llun—y rhai hyn yn yr annhraethol amrywiaeth a berthyna iddynt ydyw y delwau meddyliol o ba rai yr ydym yn meddu gwybodaeth uniongyrchol. Gan nas gwyddom ddim am y byd allanol yn mhellach na'r teimladau hyn, a bod y teimladau, yn ol addefiad pawb, yn y meddwl, pa sail sydd genym i gasglu fod dim heb law y teimladau yn

Digitized by Google

hanfodi. Gwyddom fod y teimladau hyn yn cael eu cylymu â'u gilydd gan ddeddf, dilynant eu gilydd yn unol â threfn, ac y mae y dref hon yn rhan o ordeiniad penodedig y greadigaeth. Pan y profom un o'r teimladau hyn, yr ydym yn gyffredin yn profi un arall. Ond nid yw deddf sefydledig yn eu cyssylltu â'u gilydd yn gofyn, medd Berkeley, o angenrheidrwydd, fod rhyw sylwedd (*substratum*) oddi danynt i'w cynnal. Y farn gyffredin ydyw, fod defnydd yn meddu ansoddau, y rhai sydd yn gwneyd eu hunain yn adnabyddus yn ein teimladau; o herwydd nis gallwn wybod dim am danynt ond fel yr ydym yn eu teimlo; ac hefyd ryw sylwedd dan yr ansoddau hyn, nas gwyddom ddim am dano ond ei fod. Y sylwedd anweledig, cynnaliol, hwn, a welir gan Berkeley. Os gofynir, pa fodd yr ydym yn derbyn y teimladau a briodolir i wrthddrychau allanol fel eu hachosion cynnyrchiol? ei ateb ef yw, fod gallu Duw yn gweithredu yn ddigyfrwng ar y meddwl i'w cynnyrchu. Yn ol y syniad cyffredin, y mae dau sylwedd gwahanol—ysbryd a chorff, neu ddefnydd; ond athrawiaeth Berkeley ydyw nad oes ond *un* sylwedd, a hwnw yn *ysbryd*. A chan y gellir esbonio yr holl syniadau a theimladau corfforol trwy y dybiaeth o'r un sylwedd hwn, yn unol â rheol sylfaenol mewn athroniaeth, "ni ddylid lluosogi sylweddau yn ddiachos." Mae y neb sydd yn credu mewn Creawdwr hollalluog yn addef y gall efe ein cynnysgaethu yn uniongyrchol â'r syniadau sydd genym am lun, lliw, a chaledwch, &c., ac yn y pethau hyn y mae y byd defnyddiol yn gynnwysedig i'n teimlad ni:—y cwestiwn yw, Pa fodd y gwyddom nad ydyw? Os oes sylwedd defnyddiol, trwy gyfrwng yr hwn y mae y Creawdwr yn cynnyrchu y teimladau a'r syniadau hyn, gallem ddychymygu iddo gael ei ddifodi, ac i'r teimladau barhau yr un fath, ac yn yr un drefn ag yn bresennol:—pa fodd y gallem wybod iddo gael ei ddifodi? Byddai gwybodaeth o'r fath yn anmhosibl. Ac ar hyn gellir dywedyd fod Berkeley yn anatebadwy.

Yr oedd atheistiaeth yr hen sectau athronyddol yn seiliedig ar y dybiaeth fod defnydd yn dragwyddol—y gallasai hanfodi heb un Duw—neu ochr yn ochr megys â Duw, ond yn annibynol arno. A'i grediniaeth ef oedd, "ond i'r egwyddorion y dadleuai efe drostynt gael eu derbyn, y syrthiai atheistiaeth ac ammheuyddiaeth o honynt eu hunain." Nid yw yn angenrheidiol i addef casgliadau athronyddol Berkeley er mwyn cyfarfod âg atheistiaeth. Gwel GWYBODAETH; DUWINYDDIAETH NATURIOL]. Ymosodiad Berkeley ar y byd allanol a fu yn achlysur i Hume wneyd ymosodiad cyffelyb ar y byd ysorydol. Amddiffynir yr un syniadau mewn tri ymddyddan rhwng Hylas a Philonous, a gyhoeddwyd yn 1713.

**BERNARD** o Clairvaux: un o seintiau Eglwys Rhufain, oddi wrth yr hwn y galwyd y Cisterciaid, yn Ffrainc, yn Fernardiaid, a'r hwn oedd y dyn mwyaf enwog a chyhoeddus yn y ddeuddegfed ganrif. Efe oedd y trydydd mab i Tecelinus, boneddwr o Fontaine, yn Burgundy, pa le y ganwyd ef yn 1091. Parwyd dylanwad iachusol ar ei feddwl yn fore, gan ei fam, Aleth, neu Adelaide, yr hon oedd yn arbenig mewn duwioldeb; a meithrinwyd ynddo, pan yn ieuanc, ogwydd cryf at y bywyd mynachaidd. Wedi marwolaeth ei fam, yr hyn a ddygwyddodd pan oedd efe yn bymtheng mlwydd oed, syrthiodd i gyfeillachau a effeithiasant i anmharu tuedd grefyddol a meudwyaidd ei ysbryd; ond o herwydd fod y duedd hon wedi ei meithrin ganddo yn mlyneddoedd boreuaf ei oes, ac wedi ymaflyd yn ddwfn yn ei feddwl, bu yn llwyddiannus i ymryddhau yn gwbl ac am byth oddi wrth ddylanwad hudolion ofer y byd, a phenderfynodd ymgymmeryd â'r bywyd mynachaidd yn ei lymder mwyaf: ac yn 1113, aeth, gyda deg ar ugain o gyfeillion, i fynachdy Cisteaux.

Ymgymmerodd â'i fywyd newydd â'i holl enaid. Mor fawr oedd ei awyddfryd a'i ddifrifwch, fel y penderfynodd ennill ei holl frodyr, oeddynt mewn oedran priodol, i ddilyn ei esampl; a bu ei ymdrech yn llwyddiannus. Ceisiai, mewn llafur corfforol, ac ymarferion crefyddol, ymgyrhaedd at yr hyn yr edrychai arno fel perffeithrwydd mynachaeth—a'r ffurf hwnw o'r bywyd hwn ag a'i gwnai yn wrthodedig gan y lluaws oedd yn cyfansoddi y swyn ynddo i feddwl nerthol Bernard. Ni hoffai fynachaeth, ond yn ei gwedd fwyaf gerwin ac annymunol. Ar yr un pryd, cawn ei fod ef ei hun, mewn blyneddoedd mwy sobr, yn gofidio am iddo, trwy lafur gormodol, ac ymattaliad, anmharu ei natur, gan fod hyny wedi troi yn anfantais iddo gyflawnu dyledswyddau ei swydd yn barhaus. Ond dengys ei ymdrechion dirfawr i ba raddau y gall meddwl penderfynol—meddwl wedi ei ddwyn dan deyrnged i'r ystyriaethau mwyaf pwysig—wneyd defnydd o gorff eiddil ac afiachus. Ennillodd gymmaint o barch yn ystod y tair blynedd o'i arosiad yn Cisteaux, fel y gosodwyd ef, yn yr oedran ieuanc o bump ar ugain, yn llywydd ar y mynachdy. Yn 1115, gwnaed ef yn abad mynachdy Clairvaux, yr hon a ddaeth yn eisteddle llafur ei oes, ac o'r hon yr ymledodd ei ddylanwad trwy holl Ewrop. Daeth mynachdy Clairvaux yn fuan yn gynllun o braidd yr holl fynachdai; ac yr oedd dylanwad ei habad mor fawr, fel y cynnyddodd nifer y mynachdai a ystyrid yn ddarostyngedig i'w awdurdod i saith a thrigain. Ymddengys eangder ei ddylanwad oddi wrth y ffaith fod meistr y Temlwyr (*Knights Templars*) wedi ceisio ganddo gyfansoddi corff o reolau i'r urdd hono. Daliai yr urdd hono gyssylltiad agos â Rhyfeloedd y Groes:—eu hyrwyddo hwy oedd amcan ei sefydliad.

Pan ddyrchafwyd Eugenius, un o hen ddysgyblion Bernard, i gadair y Babaeth, cymmerodd yr abad fantais, oddi wrth ei gydnabyddiaeth âg ef, i draethu ei syniadau wrtho gydag eofndra nas gallasai neb arall ei arfer. Annogodd ef i buro yr eglwys oddi wrth yr arferion llygredig oeddynt, trwy ddylanwad bydolrwydd, wedi dyfod mor gyffredinol ynddi. "Mor awyddus," meddai, "yr wyf yn dymuno am i ti gymmeryd gair yr apostol yr eisteddi yn bresennol yn ei gadair yn arwyddair mawr dy fywyd—'Bydded dy arian gyda thi i ddystryw.' O! na byddai i holl elynion Sïon grynu o flaen y gair ofnadwy hwn, a chilio yn ol, wedi eu gorchuddio â chywilydd!"

Pan fwriedid dwyn ail Ryfel y Groes yn mlaen, cymmerodd Bernard ran fawr yn y drafodaeth. Trwy lythyrau ac areithiau, llanwai y gwledydd â brwdfrydedd o'i phlaid. Gosodai hi allan fel moddion o ordeiniad Duw i ddyrchafu y bobl oedd wedi suddo mewn llygredigaeth—i'w galw i edifeirwch — a thrwy eu gwaith yn cofleidio yr amcan, fel parotoad arnynt i dderbyn maddeuant o'u pechodau. Yn ei lythyr at offeiriaid a phobl dwyreindir Germany, annoga hwynt yn wresog

Digitized by Google

i ymaflyd yn y cyfleusdra. Dywed fod yr Hollalluog wedi ymostwng i wahodd llofruddion, godinebwyr, anudonwyr, a'r pechaduriaid gwaethaf i'w wasanaeth, yn gystal a'r rhai cyfiawn. Cymhellai hwynt i beidio ymryson mwyach â'u gilydd, ond i ymuno o un galon yn yr un "ymladdfa sanctaidd hon." "Yma, ryfelwr gwrol," meddai, "y mae genyt faes y gelli ymladd heb un perygl; yma, y mae buddugoliaeth yn ogoniant, a marwolaeth yn ennill. Cymmer arwydd y groes, a thi a dderbyni faddeuant o'r holl bechodau na chyfaddefaist erioed gyda chalon ddrylliedig." Cludid y bobl ymaith gan lifeiriant ei hyawdledd, a dylanwad anorchfygol ei ddifrifwch. Teithiodd, er ei eiddilwch corfforol, trwy Ffrainc a Germany, ac effeithiai ei eiriau tanllyd fwy hyd yn oed na'i lythyrau. Ymddengys fod rhyw swyn arbenig yn nhôn ei lais; ac yr oedd ei eiriau a'i ysgogiadau, wrth lefaru yn peri i'r bobl deimlo fel pe buasent dan ddylanwad gwir ysbrydoliaeth. Yr oedd ei enaid cryf a difrifol wedi ei lyncu yn llwyr gan y pwnc. Effeithiai ei areithyddiaeth gymmaint ar rai hollol anghyfarwydd â'i iaith, fel y gwelid hwy yn curo eu dwyfronau, ac yn tywallt dagrau. Yr oedd yr effeithiolrwydd a deimlid pan fyddai Bernard yn llefaru mewn iaith ddyeithr, yn ddwysach na phan gyfieithid ei eiriau i iaith ddealladwy. Dygid ato gleifion i ymofyn iachâd; a byddai nerth ei ffydd, a'r hyder a gynnyrchai yn meddyliau dynion, yn peri, ar amserau, effeithiau rhyfeddol. Unai Bernard, pa fodd bynag, â'r brwdfrydedd hwn, fesur mawr o ddoethineb a gwyliadwriaeth. Rhybuddiai y Germaniaid rhag cymmeryd eu harwain gan ddynion anghyfarwydd â threfniadau rhyfel; daliai ger eu bron esampl Pedr y meudwy; a dangosai anghymmeradwyaeth mawr o gynnygiad rhyw fynach a ewyllysiai fyned at Ierusalem gyda mintai o rai cyffelyb iddo ei hun— "O blegid," meddai, "y mae mwy o eisieu ymladdwyr dewr yno, na mynachod defosiynol." Mewn cynnulliad yn Chartres, cynnygiwyd ar fod iddo ef gymmeryd llywyddiaeth y fyddin; ond gwrthododd yn y fan, gan fynegu fod hyny uwch law ei allu, yn gystal ag yn wrthwyneb i'w swydd.

O'r amser y cymmerodd ymraniad le yn Rhufain, trwy ddewisiad dau bab ar unwaith—sef Innocent II. ac Anacletus II.—i lenwi yr orsedd Babaidd, enw a dylanwad Bernard sydd yn ffurfio bron yr oll o hanes Ewrop orllewinol hyd ddydd ei farwolaeth. Penderfynodd efe ar unwaith yn ffafr Innocent. Gan fod cyfeillion galluog Anacletus yn rhy drech i Innocent yn Rhufain, ymneillduodd i Ffrainc: ac yno, trwy ddylanwad Bernard, ennillwyd y brenin a'r offeiriaid, mewn cynghor yn Etampes, i'w gydnabod yn bab. Trwy ymweliad personol â Harri I., brenin Lloegr, yn Chartres, llwyddodd mynach sanctaidd Clairvaux i'w ddwyn yntau i gydnabod awdurdod Innocent, er gwaethaf gwrthwynebiad yr esgobion Seisonig. Iaith Bernard wrth frenin Lloegr oedd, "Yr wyt ti yn ofni y pechod o gydnabod Innocent: ateb di am dy bechodau ereill, bydded hwnw ar fy mhen i." Yr un modd, gosododd Bernard ei arswyd ar Lothair, ymherawdwr Germany, nes ei ddwyn i wneuthur cydnabyddiaeth ddiammodol o'r pab a ddewisai efe. Ymrwymodd yr ymherawdwr i roddi Rhufain yn meddiant Innocent trwy rym arfau. Aeth yr ymherawdwr, y pab, a Bernard, i Italy. Ciliodd Anacletus dros y Tiber, a chymmerodd feddiant o'r Vatican, a Chastell St. Angelo. O ddau du yr afon yr oedd pab y naill yn cyhoeddi ei anathemau yn erbyn y llall. Bu Lothair gyda'i fyddin wrth furiau Rhufain fwy nag unwaith, ond yr oedd Anacletus yn ddiogel yn ei amddiffynfa yn St. Angelo; ac yno y bu farw gan adael Innocent yn unig ganlynwr Pedr ar y pryd. Yn mhen dau fis, etholwyd gwrth-bab arall; ond ni bu yn ei anrhydedd ond am ddau fis. Yr oedd Innocent wedi dychwelyd i Rufain, gyda Bernard wrth ei ochr. Y pryd hwn, efallai, yr ennillodd hyawdledd Bernard ei fuddugoliaethau mwyaf. Llwyddodd i ddarostwng ymraniadau Rhufain, ac uchelgais yr offeiriaid. Ymwrthododd Victor II.—felly y gelwid ail wrthwynebydd Innocent ar yr orsedd Babaidd—â'i anrhydedd, ac ymunodd Rhufain oll i gydnabod pab Bernard.

Yn amser Bernard, cymmerodd dau ysgogiad grymus ereill le, y rhai a aflonyddasant holl wledydd cred, ac a beryglasant undeb a chadernid y Babaeth. Yr oedd un yn ymdrechfa i ennill rhyddid ac annibyniaeth meddwl—o'r hwn yr oedd Abelard yn arweinydd ac yn gynnrychiolwr. Yr oedd y llall yn wrthryfel mwy poblogaidd, a thra y parhaodd, yn fwy peryglus yn erbyn holl gyfundrefn yr Eglwys Babaidd:—arweinydd yr ysgogiad hwn oedd Arnold o Brescia. [Gwel ARNOLD O BRESCIA.] Yr oedd y cynghrair rhwng ymherawdwr galluog a'r pab yn angenrheidiol i'w ddarostwng. Yr oedd y cyntaf yn wrthryfel athroniaeth, neu reswm, yn erbyn awdurdod mewn athrawiaethau crefyddol; a'r ail yn ymdrech i ysgwyd ymaith iau awdurdod mewn trefniadau eglwysig. Bernard oedd prif amddiffynydd yr eglwys yn erbyn y ddau.

Yr oedd Bernard ac Abelard o dueddiadau hollol wahanol; ac yn eu dull o ymdrin â gwirioneddau crefydd, yr oeddynt yn ddangosiad o dueddiadau gwahanol eu hoes. Yr oedd Abelard yn hynod trwy ei waith yn addysgu duwinyddiaeth trwy gynnorthwy manylwch athronaidd a rhesymeg gywrain cyfundraeth yr Ysgolwyr. Yr oedd Bernard yn bleidiwr gwresog i ddull y tadau—yr hyn sydd yn rheswm paham y gelwid ef y diweddaf o honynt. Yr oedd ei ddull yn fwy ymarferol; o ba herwydd yr oedd ei feddwl yn anghymhwys i wneyd ymchwiliadau i gyfundraeth ei wrthwynebwr, ac, efallai, hyd yn oed i'w deall yn drwyadl. Cyhuddai ef o gyfeiliornadau peryglus; a chan fod ei ddylanwad yn llawer mwy nag eiddo yr athronydd, condemniwyd opiniynau y diweddaf gan Gyngor Sens; ac nid oedd ganddo ddigon o wroldeb i'w hamddiffyn. Y mae yn ddiammheu nad oedd ymddygiadau yr abad yn y drafodaeth hon yn ganmoladwy; am ei fod yn dra eiddigeddus o ddylanwad cynnyddol Abelard, dangosodd deimlad personol yn ei erbyn, er y ceisiai wneyd hyny dan rith eiddigedd dros y gwirionedd ei hun.

Dosbartha Bernard wybodaeth grefyddol yn dair rhan: — tyb, ffydd, a dirnadaeth ddeallol (=*opinio*, *fides*, *intellectus*). Deillia dirnadaeth ddeallol o wybodaeth resymol; gorwedd ffydd ar awdurdod; dibyna tyb yn gwbl ar y tebygol. Y mae y ddwy gyntaf mewn meddiant o'r gwirionedd, ond mewn ffyrdd gwahanol: y mae y gwirionedd gan ffydd, ond yn guddiedig dan orchudd; y mae y deall (*intellectus*) yn ei feddu yn ddiorchudd ac yn eglur. Nid oes dim yr hiraethwn ei wybod yn fwy na'r hyn yr ydym eisoes yn ei wybod trwy ffydd; am hyny, yr ydym yn dymuno ar fod i eglurder gwybodaeth gael ei chwanegu at y sicrwydd a feddwn trwy ffydd. Ni bydd dim yn eisieu i wneyd ein

Digitized by Google

dedwyddwch yn gyflawn na bod yr hyn sydd yn awr yn sicr genym trwy ffydd yn cael ei weled genym heb un gorchudd." Dengys y dyfyniad hwn nad oedd Bernard, fel y darluniwyd ef gan rai, yn wrthwynebwr i bob math o ymestyniad am wybodaeth. "Yr hyn a dra hynodai y dyn mawr hwn," medd Neander [cyf. vii., td. 358], "oedd, fod gweithgarwch dyfal gyda materion allanol, a meddwl dwfn fyfyriol, a phrofiad cyfoethog, yn cydgyfarfod yn ei gymmeriad." Gan fod ei wybodaeth grefyddol ef yn deilliaw o brofiad dwfn, ymdrechai i arwain ei ddysgyblion a'i gydoeswyr at y ffynnonell hon o wybodaeth am bethau dwyfol, fel yn wrthwyneb i duedd gynnyddol yr oes at wybodaeth orfanwl duwinyddiaeth athronaidd. Prisiai fynachaeth mor uchel, am yr edrychai arni fel ysgol i ddysgu duwinyddiaeth y galon. Fel hyn yr ysgrifenodd at dduwinydd ysgolaidd, a chwennychai ddyfod yn fynach: "Tydi, yr hwn wyt yn ddyfal i geisio deall y prophwydi, a wyt yn dirnad yr hyn a ddarlleni? Os wyt yn deall, yna ti a wyddost mai Crist ydyw ystyr y prophwydi; ac os myni ei gael ef, gwybydd fod hyny yn llawer haws trwy ei ganlyn ef na thrwy ddarllen. Pa ham y chwili yn y gair am y Gair hwnw sydd yn sefyll eisoes ger dy fron fel 'y Gair a wnaethpwyd yn gnawd.' Yr hwn sydd ganddo glustiau, gwrandawed arno ef yn llefain yn y deml, 'Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed.' O! pe bait yn profi blas y grawn sydd yn digoni y Ierusalem nefol! pa mor lawen y gadewit i'r ysgrifenyddion Iuddewaidd fân dori eu crystiau. Cred yr hwn a gafodd brawf o'r peth—ti a gei fwy yn yn y coedwigoedd nag mewn llyfrau. Dysg ceryg a choed i ti lawer o bethau nas gelli eu dysgu gan athrawon." Un o brif syniadau Bernard, fel y mae yn hawdd gweled, oedd, mai o brofiad o argraff y dwyfol ar dueddiadau y meddwl y mae gwir wybodaeth am bethau dwyfol yn deilliaw. Un o'i hoff adnodau oedd, "Ofn yr Arglwydd ydyw dechreuad doethineb." "Y mae gwybodaeth," meddai, "yn gwneyd dynion yn ddysgedig; ond y mae tueddiad yn eu gwneyd yn ddoeth. Nid yw yr haul yn cynhesu pawb y mae yn tywynu arnynt; felly, nid yw doethineb yn cynhyrfu pawb y mae yn eu dysgu pa beth i'w wneyd â'r dymuniad i'w wneyd. Un peth ydyw gwybod am lawer o drysorau, peth arall yw eu meddiannu; nid y wybodaeth, ond y meddiant, sydd yn gwneyd dynion yn gyfoethog. Felly, gwybodaeth am Dduw sydd un peth, ei ofni sydd beth arall; ac nid y wybodaeth yn unig ond yr ofn sydd yn effeithio ar y galon."

Rhoddai Bernard arbenigrwydd mawr i gariad —cariad pur, anhunangar, at Dduw. Am hanfod y cariad hwn, dywed, "Nid yw Duw yn cael ei garu heb wobr; er y dylai gael ei garu heb fod gan y meddwl un olwg ar y wobr. Y mae gwir gariad yn meddu digon ynddo ei hun—y mae ganddo wobr; ond nid yw yn ddim amgen na'r gwrthddrych a gerir." Noda hefyd bedair o yrfaoedd y mae cariad yn myned drwyddynt. Y gyntaf ydyw, pan y mae dyn yn cael ei ddwyn oddi wrth amcanion hunanol, trwy offerynoliaeth hunan-gariad, i garu Duw. Pan y mae Duw yn rhoddi rhyw waredigaeth i ddyn, ac i'r waredigaeth hono fod yn fendithiol i dyneru ei galon at Dduw, yn awr y mae yn ei garu am ei waredigaeth iddo. Ond yn fuan tynerir ei galon yn gymmaint fel y mae yn dechreu caru Duw er ei fwyn ei hun. Y drydedd radd ydyw, caru Duw, nid yn unig o herwydd y modd yr amlygodd ei hun i ni, ond er ei fwyn ei hun—ei garu fel y cerir ni ganddo. Ac o hwn esgyna yr enaid i'r radd uchaf, lle y mae hunan-gariad yn cael ei lyncu gan gariad Duw, a'r dyn yn caru ei hun mwyach er mwyn Duw. "Nis gwn," ebe Bernard, "a gyrhaeddwyd y radd hon erioed gan ddyn yn y bywyd hwn. Gadawaf i'r rhai a wnaeth ddywedyd hyny: ond ymddengys i mi yn anmhosibl. Diammheu y cyrhaeddir hi y pryd y bydd y gwas da a ffyddlawn yn myned i mewn i lawenydd ei Arglwydd."

O barth i gymmeriad Bernard, addefir ei fod y dyn mwyaf ei ddylanwad yn ei oes; o feddwl gwrol, cryf, a difrifol; yn fwy arbenig am nerth na manylwch. Tueddai at eithafion yn ei holl olygiadau. Nid oedd i'w ganmawl am ryddfrydigrwydd; ac nis gallai yn hawdd oddef dynion a ddygwyddent feddwl yn wahanol iddo. Nid oedd ganddo lygaid a fedrai wahaniaethu rhwng gwendid a phechod; ac ni ystyriai nemawr ar wahaniaeth amgylchiadau, a chymhellion nas gallasai gydymdeimlo â hwynt. Ar yr un pryd, gellid meddwl fod ei erwinder yn cyfodi yn fwy oddi ar gamsyniadau a rhagfarnau, nag oddi ar duedd a thymmer naturiol; ac y mae yn rhyfedd na buasai wedi gwyro mwy yn hyn, wrth gofio mai "pechod parod i amgylchu" y neb a ennillodd ddylanwad dirfawr fel ei eiddo ef ydyw. Ond wedi tynu hyn oll allan o'i gymmeriad, diammheu fod yno gymmaint o wir ragoriaeth yn aros ag yn nghymmeriad neb yn ei oes; a digon i ennill parch a syndod oddi wrth ba oes bynag. Seintiwyd ef gyda rhwysg mawr yn mhen ugain mlynedd ar ol ei farwolaeth, a neillduwyd yr 20fed o Awst yn gof-ddydd iddo. Dywedai Luther am dano, "Os bu erioed fynach duwiol, yr hwn a ofnai Dduw, St. Bernard ydoedd hwnw; i'r hwn y mae genyf fwy o barch nag i holl fynachod ac offeiriaid y byd."

Daeth ei weithiau trwy fwy o argraffiadau na gweithiau un o'r tadau. Dysgrifir ei arddull yn hapus, bywiog, a manwl. Y mae nerth a melusder yn cyfarfod y darllenydd ar ol eu gilydd. Yr oedd ei feddwl wedi ei drysori â'r Ysgrythyrau, ac y mae ei ysgrifeniadau yn dangos mai y Beibl oedd prif lyfr ei astudiaeth. O'r tadau, Ambrose ac Awstin a hoffai fwyaf. Gwel CANOLOESOEDD. — (*Mosheim's*, *Du Pin's*, a *Neander's Eccl. Hist.*; *Neander's Bernard and his Times*; *Hagenbach's History of Doctrines*; *H. J. Rose's Biog. Dict.*)

BERNARDIAID: oedd gangen o'r urdd Fenedictaidd, a elwir yn fwyaf cyffredin, y Cisterciaid. Cafodd yr enw *Bernardiaid* oddi wrth Bernard, abad Clairvaux (B. A. 1115), yr hwn oed yn gefnogydd gwresog iddi. Derbyniodd yr enw *Cisterciaid*, oddi wrth Cistertium, neu Cisteaux, yn esgobawd Châlons, yn Burgundy, y lle y sylfaenwyd hi, yn y flwyddyn 1098, gan Robert, abad Molesme, yn y dalaeth hono. Ar ol i'r gŵr hwnw ymarfer ei holl ymadferthoedd i adnewyddu crefydd yn ei fynachdy, a cheisio dwyn y deiliaid i ymarweddu yn fwy cydffurf â rheolau Benedict, ond yn gwbl ofer, ymneillduodd gydag ugain o fynachod, y rhai ni halogwyd i'r un graddau a'u brodyr yn gyffredin âg arferion anfoesol yr amser, i'r lle anial hwn—Cisteaux; ac yno, yn mysg drain a mieri, mewn diffaethle hollol, y sylfaenodd urdd enwog y Cisterciaid, yr hon a wnaeth gynnydd hynod o gyflym, a ymledodd trwy y nifer mwyaf o wledydd Ewrop yn y ganrif canlynol, ac a gyfoethogwyd â gwaddolion

Digitized by Google

helaeth, nes o'r diwedd yr ennillodd fath o ddylanwad ar yr holl urddau mynachaidd. Sylwai gyda'r manylder mwyaf ar reolau Benedict; a chwanegwyd at y rhai hyny amryw reolau a dueddent i goledd iawn drefn a dysgyblaeth yn yr urdd. Yr oedd y rheolau hyn, a chwanegwyd ganddi at y rhai blaenorol, o'r fath fwyaf manwl a llym—bron yn rhy gaethiwus i natur eu goddef —ond ystyrid hwynt yn anhebgorol angenrheidiol gan luaws mawr yn yr oes ofergoelus hono. Ni ddarfu iddynt, pa fodd bynag, er mor lymdost oeddynt, sicrhau purdeb ac iawn drefn yn mysg y deiliaid: o blegid nid hir y bu cyn i dwyll cyfoeth, ac ariangarwch, ei llygru a'i darostwng i'r un annhrefn ag urddau cyfoesol ereill. Llaciodd yn fuan yn ei rheolau, a daeth mor esgeulus a didrefn ag urddau ereill y Benedictiaid. Adferwyd hi i raddau, yn ei threfn a'i dysgyblaeth, gan Stephen Harding, brodor o Loegr, yr hwn oedd y trydydd abad ar fynachdy Cisteaux, ac a ystyrir gan rai fel prif sylfaenydd y Bernardiaid. Gelwid hwy yn Fynachod Gwynion, oddi wrth liw eu dillad.

Adeiledid mynachdai yr urdd hon, yn gyffredin, mewn lleoedd anial a diffaeth, yr un modd a'r mynachdy cyntaf a berthynai iddi; a chyflwynid hwynt i'r Forwyn Fair. Yr oedd yn rheol gan y Bernardiaid i beidio caniatau i un tŷ, hyd yn oed o'u hurdd eu hunain, gael ei adeiladu yn agos at eu mynachdy. Dywed Stevens, fod ganddi—os rhoddwn gred i haneswyr yr urdd—rhwng pob gwlad, chwe mil o dai yn ei meddiant a'i gwasanaeth. Ac adeiladodd Bernard ei hun drigain o abattai. Dygwyd y Bernardiaid i Brydain o Abatty Aumone, yn Normandy, yn 1128, gan Walter Giffard, esgob Caerwynt, yr hwn a'u gosododd yn Abatty Waverley, yn Surrey.

Yn nheyrnasiad Harry VIII., yr oedd yn y deyrnas hon drigain a phymtheg o fynachdai, a chwech ar ugain o leiandai, yn perthyn i'r urdd hon; ac yr oedd cyllid yr holl sefydliadau hyn yn gymmaint a 18,691*p.* 12*s.* 6*c.*

Tynwyd rheolau cyntaf yr urdd gan Alberic, yr hwn a ddaeth yn abad Cîsteaux, yn 1099. Y mae yn y British Museum gyfrol mewn llawysgrif, o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn cynnwys casgliad arall o reolau i'r urdd, a wnaed yn y blyneddoedd 1289 a 1300. Gwel BERNARD.

BERNICE, [Βερνικη]: un o wragedd Ptolemy I., brenin yr Aipht, a mam Ptolemy Philadelphus. Buasai ganddi fab o ŵr blaenorol, yr hwn a ddaeth yn frenin Cyrene.

2. BERNICE: merch Ptolemy Philadelphus ac Arsinoe. Rhoddwyd hi yn wraig i Antiochus II., brenin Syria, yr hwn a fwriodd ymaith ei wraig Laodice ar yr achlysur. Ar ol marwolaeth Philadelphus, bwriodd Bernice ymaith, a chymmerodd Laodice yn ol, yr hon a wenwynodd ei gŵr, ac a roddodd Bernice, a mab oedd ganddi o Antiochus, i farwolaeth. I ddial marwolaeth ei chwaer, goresgynwyd Syria gan Ptolemy III., rhoddwyd Laodice i farwolaeth, a thaflwyd y Seleucidiaid o'r llywodraeth.

3. BERNICE: gwraig Ptolemy III. Dywedir am dani, ei bod wedi gwneyd adduned o'i gwallt tra yr oedd ei gŵr yn ymladd yn Asia. Yn ol yr adduned, gosodwyd ei gwallt ar nen teml Gwener, o'r lle y dygwyd ef; a dywed Conon o Samos, ei fod wedi ei gymmeryd i'r ffurfafen, a'i osod yn mhlith y saith seren yn nghynffon y llew. Ysgrifenodd Callimachus ganig dlos ar yr achlysur, yr hon sydd yn adnabyddus yn awr yn unig trwy gyfieithiad Catullus o honi.—*De Coma Berenices.* Dygwyddа enw Bernice yn y bummed linell yn ngharreg Rosseta, yn y British Museum, gyda ffurf fenywaidd enw ei gŵr, 'Euergetes."

4. BERNICE: unig blentyn cyfreithlawn Ptolemy VIII.—a deyrnasodd chwe mis. Llofruddiwyd hi, medd Porphyry ac Appian, gan ei gŵr, Alexander II., yn mhen deunaw niwrnod ar ol eu priodas.

5. BERNICE: merch Ptolemy IX., a chwaer i Cleopatra. Ymbriododd yn gyntaf â Seleucus, mab honedig Antiochus Eusebes, yr hwn oedd ddyn eiddil, ac a dagwyd yn ol ei gorchymyn hi; priododd wedi hyny âg Archelaus, yr hwn hefyd a roddwyd i farwolaeth ar adferiad ei thad i'r orsedd.

6. BERNICE: merch hynaf Agrippa I., a chwaer Herod Agrippa II.: *Act.* xxv. 13, 23, 26, 30. Priododd â Herod, brenin Chalcis, ei hewythr: ar ol ei farwolaeth, er mwyn dianc rhag y dybiaeth o gyfeillach anghyfreithlawn gyda ei brawd, daeth yn wraig i Polemon, brenin Cilicia. Torwyd yr undeb hwn yn fuan, a dychwelodd at Agrippa. Yn ganlynol, ymserchodd Titus, mab Vespasian, ynddi. Ar ol dinystr Ierusalem, daeth i Rufain; a dywedir fod Titus mor hoff o honi fel yr addawodd ei phriodi. Ond ar farwolaeth ei dad, anfonodd hi o Rufain, yn dra anewyllysgar, am fod yr undeb bwriadol yn anfoddhaol i'r bobl.

BEROSH, [ברוש]: y gair Hebraeg am "ffynidwydd" mewn amrywiol ranau o'r Ysgrythyr; megys yn 2 *Sam.* vi. 5; 1 *Bren.* v. 8; vi. 15, 34; ix. 11; 2 *Bren.* xix. 23; 2 *Cron.* ii. 8; iii. 5; *Salm* civ. 17; *Esa.* xiv. 8; xxxvii. 24; xli. 19; lv. 13; lx. 13; *Ezec.* xxvii. 5; xxxi. 8; *Hos.* xiv. 8; *Nah.* ii. 3; *Zech.* xi. 2. Yn *Can.* i. 17, y mae y gair *Beroth*, yr hwn, fel y tybir, nid yw namyn y dull Arameaidd o gynanu yr un gair, yn cael ei gyfieithu "ffynidwydd;" "Swmerau ein tai sydd gedrwydd: ein distiau sydd ffynidwydd." Yn y rhan fwyaf o'r adnodau ereill, y mae *eres* a *berosh*, a gyfieithir "cedrwydd" a "ffynidwydd," yn cael eu crybwyll yn nghyd; megys 1 *Bren.* v. 8; "A Hiram a anfonodd at Solomon, gan ddywedyd, mi a wnaf dy holl ewyllys di am goed cedrwydd, a choed ffynidwydd:" ac *Esa.* xiv. 8; "Y ffynidwydd hefyd, a chedrwydd Libanus, a lawenhasant yn dy erbyn." Ond y mae Rosenmüller yn sylwi, "Yn y rhan fwyaf o'r ymadroddion lle y dygwydda y gair Hebraeg, fe'i darllenir yn y cyfieithiadau Groegaidd a Syriaidd hynaf, *cypreswydden.*" Ond ar y llaw arall, barnai Celsius, fod *berosh* yn dynodi cedrwydd Libanus, a bod *eres*, yr hwn a gyfrifir yn gyfystyr yn fynychaf, yn dynodi y pinwydd cyffredin. Meddylia ereill, mai y bocs, yr onen, y ferwydden, &c., a ddynodir dan yr enw *berosh.*

Y mae y gair *berosh*, neu *beroth*, yn cael ei amrywio ychydig yn y cyfieithiadau Syriaidd a Chaldeaidd: yn y cyntaf, fe'i ysgrifenir *berutha*, a *berath* yn yr olaf. Y mae y rhai hyn oll yn dwyn perthynas agos â *bruta*, enw y planigyn eithinaidd, a elwid gan y Groegiaid, *brathu*, *brathun*, a *barathous*; a'r hwn a gyfnewidiwyd gan yr Arabiaid i *burasee* a *buratee.* Fe'i cynrhwysir ganddynt hwy at rywogaeth o ferwydden, yr hon a alwant *abhul*, ac *arus* neu *orus.* Ymddengys i ni fod yn rhaid ystyried amryw o'r enwau yma yn gynrywiol, yn hytrach na hysbysol, yn ol yr ystyr ddiweddar, pan arferir y fath ofal er

Digitized by Google

gwahaniaethu rhywiau gyda manyldra. Fel hyn, y mae *arus*, a gymhwysir gan yr Arabiaid at ferwydden, yn dynodi pinwydden yn yr Ysgrythyr, pa un bynag a wnawn ai dilyn y golygiad cyffredin, a'i ystyried yn arwyddo y cedrwydd, neu gymmeradwyo golygiad Celsius, mai y binwydden gyffredin a ddynodir. Felly, gallasai *buratee* fod yn cael ei gymhwyso gan yr Arabiaid, &c., nid yn unig at yr amrywiaethau o feryw, ond hefyd at blanwydd cyffelyb iddynt, megys y cypreswydd. Gan hyny, mewn amryw o'r amgylchiadau hyny, lle nis gallwn ganfod unrhywiaeth trwyadl, neu gyffelybrwydd enw, rhaid i ni gymmeryd ein harwain gan natur y coed, y gwasanaeth i'r hwn eu defnyddid, a'r sefyllfaoedd yn y rhai y dywedid eu cael. Felly, gan ein bod yn canfod yr *eres* a'r *berosh* wedi eu cyssylltu mor gysson yn yr Ysgrythyrau, gallai fod y cyntaf yn dynodi y gedrwydden a'r binwydden wyllt, tra y gallai fod yr olaf yn cynnwys cenedl y merwydd a'r cypreswydd.

Y mae rhai llysieuwyr wedi rhestru yr amrywiol rywiau o feryw dan y *cedr*, gan wahaniaethu y gwir rywogaeth dan yr enw *cedrus baccifera* =cedr eirinog; a'r pinwydd dan yr enw *cedrus conifera*=cedr conwyddol. O'r meryw, a elwir *arceuthos* gan y Groegiaid; ac *abhul*, neu *habhel*, gan yr Arabiaid, y mae amryw rywogaethau yn Syria. O'r rhai hyn, y mae y ferywen gyffredin yn dra gwasgaredig, ac i'w chanfod yn Ewrop ac Asia—yn nyffrynoedd y lledredau gogleddol, a mynyddoedd y deheubarth—yn ffurfio math o fanwydd isel; ond, mewn rhai manau, o 15 i 30 troedfedd o uchder. Fe'i canfuwyd gan M. Bouè ar fynydd Libanus. Y mae rhywogaeth arall, a elwir y ferywen anffrwythol (*juniperus drupacea*), yr hon a ddygwyd i Ewrop o'r dwyrain dan yr enw Arabaidd, *habhel*, ar y cyntaf. Brodor o fynydd Cassius yw y rhyw yma, a thybir mai yr un ydyw a'r ferywen fwyaf, yr hon a ganfu Belon ar fynydd Taurus, ac a ddarlunir ganddo fel yn ymddyrchafu i uchder y cypreswydden. Y ferywen Phœniciaidd yw merywen fawr Dioscorides, yr hon sydd yn frodorol o ddeheubarth Ewrop, Rwssia, a Syria. Y mae ei dail yn gafnbeithynaidd, ac y mae yn tebygu i'r gypreswydden, ac yn cyrhaedd 20 neu 30 troedfedd o uchder. Y mae rhai rhywogaethau coraidd ereill o'r ferywen, o'r rhai nid oes un angenrheidrwydd i gynnyg rhoddi dysgrifiad yn yr erthygl hon; canys yr unig rywogaethau a allent fod yn *berosh* yr Ysgrythyr yw y ferywen gedr-bigog (*j. oxycedrus*) neu y ferywen Phœniciaidd. Ac y mae rhai o'r farn mai pren y ferywen gedr-bigog, yn hytrach na'r rhai a elwir cedrwydd Libanus, yw y coed cedr oeddynt mor enwog gynt am eu parhad, ac a ddefnyddid ar y cyfrif hwnw, i wneyd delwau; ac at goed rhyw fath o ferywen, y cymhwysir yr enw coed cedr yn neillduol yn bresennol.

*Cupressus*, neu *cuparissos* y Groegiaid, a *suroo* yr Arabiaid, yr hon a alwant hefyd *shujrut-alhyat*, neu bren y bywyd, yw *cupressus sempervirens*, neu gypreswydden irfyth, y llysieuwyr. Adwaenir y pren yma wrth ei ffurf bigfain, am fod ei gangenau yn tyfu yn unionsyth, ac yn agos i'r cyff; yn ei ymddangosiad cyffredinol, y mae yn tebygu cymmaint i boplys Lombardy, fel y camgymmerir y naill am y llall yn fynych, pan eu canfyddir mewn darluniadau dwyreiniol. Tyf y pren hwn i'r uchder o hanner cant neu drigain troedfedd, yn gyffredin, mewn lledredau deheuol. Gorchuddir ei gangenau yn drwchus â dail rhychog mân iawn, y rhai a arosant ar y pren dros bump neu chwe blynedd. Dywed Du Hamel, ei fod ef wedi sylwi fod gronynau mân o ryw sylwedd gludiog ar risgl cypreswydd ieuainc, ac iddo weled gwenyn yn cymmeryd llawer o drafferth i ryddhau y cyfryw ronynau; yr hwn, efallai, a ddefnyddid ganddynt i ffurfio eu crwybrau. Y mae y gypreswydden yma yn frodor o'r Ynysfor Groegaidd, yn enwedig o Candia (yr hen Crete), a Cyprus, ac o Asia Leiaf, Syria, a Phersia. Gellir ei gweled ar arfordir Palestina, yn gystal ag yn y berfedd-wlad, gan fod y Mahometiaid yn arfer ei phlanu yn eu claddfeydd. A chan fod y gypreswydden mor gyffredin fel hyn, nyni a allem ddysgwyl crybwylliadau mynych o honi yn yr Ysgrythyrau; ond nid felly y mae, os barnwn ni wrth ein cyfieithiad awdurdodedig, lle ni chyfarfyddwn â'r enw ond unwaith, yn *Esa.* xliv. 14; "Efe a dỳr iddo gedrwydd, ac a gymmer y cypreswydden, a'r dderwen," i wneuthur eilunod. Y gair a gyfieithir "cypreswydden" yma yw *tirza;* ac ni feddwn unrhyw awdurdod arall dros farnu mai yr un ydoedd a'r cypreswydd.

Y mae coed y cypreswydd yn galed, yn beraroglaidd, o lin agos a thlws, yn dra pharhaus, ac o ruddliw hardd, yr hwn ni chyll byth, medd Pliny. Barnai yr hynafiaid fod coed y gypreswydden yn dra pharhaus; er prawf o hyn, gellid crybwyll fod Pliny yn tystio am ddelw Iau yn ei deml yn Rhufain, a elwid y Capitol, yr hon a wnelsid o'r coed hyn, ei bod wedi ei gwneyd er's mwy na chwe chan mlynedd, ac nad oedd yr argoel lleiaf o adfeiliad ynddi; a bod dorau teml Diana yn Ephesus, y rhai a wnelsid o'r coed hyn, yn ymddangos yn hollol newydd, pan yn bedwar can mlwydd oed. Defnyddid y coed hyn i amrywiol ddybenion; megys, i wneyd gwingafnau, tylathau, cledrau, &c. Gan hyny, y mae yn amlwg y cyfateba y gypreswydden yn drwyadl i'r holl ddysgrifiadau a gawn ni yn yr Ysgrythyrau o *berosh*, a'r defnydd a wnelid o hono; canys y mae yn gymhwys i'w defnyddio mewn adeiladaeth, ac o sylwedd tra pharhaus; ac am hyny buasai yn dra thebyg o gael ei defnyddio yn adeiladaeth y deml, ac i wneuthur ei dorau a'i lloriau, ac i wneuthur byrddau llongau, ac hyd yn oed offerynau cerdd, a gwaewffyn. Tybiai J. E. Faber, fod yr enw Hebraeg, *berosh*, yn cynnwys tri rhyw o goed, y rhai a feddent debygrwydd i'w gilydd; sef y gypreswydden irfyth, y *thyine*, a'r *savine*. Y mae yr olaf, neu y ferywen Sabinaidd, mor debyg i'r gypreswydden, fel y gelwid hi dan yr enw hwnw yn fynych gan yr hynafiaid; ac yn mysg y Groegiaid y mae y ddau bren yn myned dan yr hen enwau dwyreiniol, *beros*, *beroth*, *brutha*, neu *brathy*.

**BEROTHA**, neu **BEROTHAI** [*ffynnon yr Arglwydd*]: un o ddinasoedd y Syriaid, a oresgynwyd gan Dafydd, ac o'r hon y cymmerth efe "lawer iawn o bres." Efallai fod y lle yn enwog am ei fwngloddiau pres. Perthynai i freniniaeth Sobat. Barna rhai mai yr un ydoedd a Bir yr oesoedd diweddar; ac ereill mai yr un ydoedd a Beyrout; ac â'r golygiad olaf y cytunai Rosenmüller. Gelwir y ddinas hon hefyd Chun (1 *Cron.* xviii. 8) oddi wrth eilun a addolid yno, yr un fel y bernid a Sadwrn y Groegiaid.

**BERYL**: maen gwyrddlas, tryloew, gwerthfawr. Dyma yr enw a roddir iddo yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain a'r Vulgate; ond ei enw

Digitized by Google

Hebraeg oedd *iasphe.* Fe'i ceir yn yr India ddwyreiniol, Peru, Siberia, a Thartary. Y mae o ymddangosiad dysglaer, ac yn dryloew yn gyffredin. Hwn oedd y degfed maen a berthynai i ddwyfroneg yr archoffeiriad: *Exod.* xxviii. 26; a'r wythfed yn seiliau yr Ierusalem nefol: *Dad.* xxi. 21.

BERYLIAID: plaid grefyddol o bobl, a gyfenwid felly oddi wrth un Beryllus, esgob Arabaidd dysgedig yn y drydedd ganrif. Efe a ddysgai nad oedd Crist yn bod cyn Mair; ond ddarfod i Ysbryd oddi wrth Dduw ei hunan, cyfran o'r natur ddwyfol gael ei uno âg ef ar ei enedigaeth. Ond dywedir iddo ymostwng o flaen ymresymiadau Origen, a dychwelwyd yn ol i fynwes yr Eglwys Gristionogol.

BESOR, [בשור=*newydd da*]: afon a grybwyllir yn 1 *Sam.* xxx. 9, 21. Barnai Sanutus ei bod yn cyfodi yn Ngharmel, y berfedd-wlad, yn agos i Hebron, a'i bod yn ymarllwys i Fôr y Canoldir, yn agos i Gaza. Mr. Richardson a farnai mai hon oedd yr un a groesai efe wrth fyned o'r deheu tua Gaza, yr hon a alwai efe Oa di Gaza=*Wady Gaza.* Yr oedd gwely yr afon yma yn ddeg llath ar ugain o led; ond yr oedd wedi sychu i fyny yn gynnar yn Ebrill. Barna Meistri Bonar a M'Cheyne, mai yr un ydoedd a'r afonig a elwir yn awr Wady Salga; a'u prif reswm dros farnu felly ydoedd y cyffelybrwydd tra nodedig rhwng arwedd y wlad o'i hamgylch, a'r crybwyllion a wneir gan yr ysgrifenwyr sanctaidd mewn cyssylltiad âg afon Besor, megys 1 *Sam.* xxx. 15, lle yr addawai yr Aiphtddyn wrth Dafydd ei arwain at wersyll yr Amaleciaid, gan ddywedyd, "Mi a äf â thi i waered at y dorf hon;" a chan fod Dafydd a'i wŷr yn dyfod o'r gogledd, yn gywir y dywedid eu bod yn cael eu dwyn i *waered.* A thrachefn y dywedir am yr Amaleciaid, "Wele hwynt wedi ymwasgaru ar hyd wyneb yr holl dir;" *adn.* 16. Yr oeddynt yn wasgaredig ar hyd wyneb y meusydd agored a'r dyffrynoedd hyny, yn eu mwynhau eu hunain yn ddiofal. Y prif amgylchiad a barodd grybwyll yr afon hon yn yr Ysgrythyrau oedd, mai yn agos iddi y goddiweddodd Dafydd yr Amaleciaid, wedi eu bod yn anrheithio Siglac, ac yn dwyn gwragedd a phlant Dafydd, a'i wŷr, yn garcharorion.

BETAH, [בטח=*hyder*]: un o ddinasoedd Syria, o'r hon y dug Dafydd oddi ar Hadadezer, brenin y Syriaid, "lawer iawn o bres;" 2 *Sam.* viii. 8. Mewn man arall, fe elwir y ddinas hon *Tibhath:* 1 *Cron.* xviii. 8.

BETEN, [בטן=*bol*]: tref o fewn tiriogaeth Aser, yr hon a grybwyllir yn *Ios.* xix. 25; a barna llawer mai yr un ydoedd a'r *Betah* a grybwyllwyd uchod. Dywed Reland ei bod yn gorwedd tuag wyth milltir o Ptolemais, neu Acre. Eusebius a'i geilw Batfai; ac a chwanega, ei bod yn awr yn cael ei galw yn Bethlehem, yn llwyth Aser. Yr oedd tiriogaethau llwyth Aser yn fynyddig, a thybia rhai fod y ddinas hon yn gorwedd mewn ceunant, neu *fol,* rhwng y bryniau; ac mai oddi wrth hyny y cafodd ei henw. Y mae yr enw Arabaidd yn arwyddocau *dwfn,* neu *isel,* ac yn gyfystyr â'r gair Groeg κοιλο (*cœlo*), oddi wrth yr hwn y deillia *Cœlo Syria,* neu Syria yn y ceuedd, neu y bol, sef bol Libanus, am ei bod yn gorwedd rhwng y mynyddoedd Libanus ac Anti-Libanus.

BETONIM, [*coed cnau,* neu *y boliau*—o *Beten*]: dinas berthynol i lwyth Gad, yr hon a orweddai yn rhan ogleddol tiriogaethau y llwyth hwnw, yn agos i fliniau Manasseh: *Ios.* xiii. 26. Gan mai y rhif lluosog o'r gair *Beten* yw yr enw hwn, y mae Calmet yn tueddu i farnu fod y lle wedi cael ei enw oddi wrth amledd o goed cyll a allasent fod yn y gymmydogaeth, gan mai anfynych y mae un dref yn cymmeryd i fyny amryw bantiau, neu nentydd; a chyfrifid cynnyrchion y coed hyn, sef *cnau,* yn mysg dewisol ffrwythau Canaan, y rhai a anfonid yn anrhegion i wŷr mawr. Gwel *Gen.* xliii. 11.

BETH, [בית=*tŷ*]: blaenddod mewn amryw enwau priodol lleol yn y Beibl, megys Bethania, Bethel, &c. Cyfarfyddir â'r gair unwaith fel enw priodol lleol, heb fod mewn cyfansoddiad, ond ei fod yn y disgyniad anymddibynol (*absolute state*) —בית—ac felly, yn cael ei ddarllen *Baith* yn y Gymraeg: *Esa.* xv. 2. Amrywiol ydynt y golygiadau a goleddir am yr enw hwn. Kimchi a dybia y dylai gael ei gyfieithu yn *deml;* â'r hwn hefyd y cytuna Barnes. Dywed Gesenius mai enw un o ddinasoedd Moab ydoedd. Tybia Vitringa ei bod yr un a Beth-meon (*Ier.* xlviii. 23), neu Beth-Baal-meon (*Ios.* xiii. 17). Gan fod cystrawiad y disgyniad meddiannol (*genitive case*) yn y Gymraeg yr un fath ag yn yr Hebraeg, hawdd yw i Gymro ddeall ystyron yr enwau ag y mae *Beth* yn flaenddod iddynt, ond iddo chwilio beth yw ystyr y rhan neu y rhanau diweddaf o'r gair. Gan mai meddwl y gair *Beth* yw *tŷ, lle, teml,* ac ystyr y gair *el* (אל) yw *Duw,* ystyr yr enw *Bethel,* yw TY DDUW.


BETHABARA, neu BETH-BARAH, [Gr. Βηθαβαρά; Heb. בית ברה=*lle y rhyd*]. Cyfarfyddir â'r gair hwn yn *Barn.* vii. 24, ac amlwg yw ei fod yn nghymmydogaeth yr Iorddonen, nid yn mhell o dir Midian. Bernir mai yr un yw a Bethabara yn *Ioan* i. 28, lle yr oedd Ioan yn bedyddio. Y mae agos yr oll o'r ysgrifiyfrau a'r cyfieithiadau hynaf yn darllen *Bethania* yn lle Bethabara, yn yr adnod hon; ac am hyny, bernir yn gyffredin yn awr mai dyma y darlleniad cywir. Dywed Dr. E. Robinson, "Ymddengys i'r darlleniad *Bethabara* godi trwy dybiaeth o eiddo Origen, yr hwn, gan nas gallai gael yn ei amser ef y fath le a Bethania, ond a ganfu dref a elwid Bethabara, lle y dywedid i Ioan fod yn bedyddio, am hyny, a gymmerodd y rhyddid i newid y darlleniad." Yr oedd yno un Bethania, tua dwy filltir i'r dwyrain o Ierusalem; ond yr oedd un arall yn llwyth Reuben, ar yr ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen, tua deuddeng milltir uwch law Iericho. Meddylia rhai y gelwid y lle hwn wrth y ddau enw—*Bethabara* a *Bethania;* a thrwy hyny, gellir yn hawdd cyfrif am y traddodiad a ffynai yn amser Origen, fod Ioan yn bedyddio yn Bethabara; a chan mai yr enw hwn yn unig a ddefnyddid am y dref yn ei amser ef, iddo gyfnewid y darlleniad yn *Ioan.* Tardda rhai y gair *Bethania,* o בית אניה=*lle y llongau:* os felly, canfyddir fod llawer o gyd-darawiad ystyr rhyngddo a Bethabara=*lle y rhyd.*—(*Robinson's Greek Lex.,* d.g. Βηθανία.)

BETHACEXEM, [*tŷ y winwydden*]: un o ddinasoedd Iudah, a orweddai ar fryn heb fod yn mhell o Tecoa: *Ier.* vi. 1. Bu Malchïah, mab Rechab, yn dywysog y lle hwn: *Neh.* iii. 14. Dywed y Dr. Pococke, fod y bryn ar yr hwn y

Digitized by Google

tybir fod y ddinas yma yn gorwedd, yn dra uchel; a bod dwy amddiffynfa gron ar ei ben; ac wrth ei droed, ar y tu gogleddol, adfeilion eglwys ac adeiladau ereill. Y mae cenadau Eglwys Ysgotland yn ei grybwyll fwy nag unwaith yn eu teithlyfr difyrus, dan yr enw "Mynydd Ffranc," ac yn dyweyd ei fod y lle cymhwysaf a ellid gael i godi ffagl arno, fel arwydd o berygl i'r wlad.

BETHANIA, [Βηθανια, בית היני=*tŷ y palmwydd*]: pentref yn gorwedd yn nghylch pymtheg ystad (gwaith cerdded tri chwarter awr, medd Robinson), i'r dwyrain-dde oddi wrth Ierusalem; mewn Wady neu ddyffryn bras, ar lechwedd dwyreiniol mŷnydd yr Olewydd, ac ar y ffordd o Ierusalem i Iericho: *Ioan* xi. 18; *Marc* xi. 1; *Luc* xix. 29. Yn y pentref hwn y cartrefai Lazarus a'i chwiorydd, y teulu dedwydd y crybwyllir mor fynych am danynt yn hanes dyoddefiadau yr Iachawdwr: *Mat.* xxi. 17; xxvi. 6; *Marc* xi. 1, 12; *Luc* xxix. 29. Nid oedd un lle yn fwy priodol na Bethania i fod yr ysmotyn yr esgynai yr Iesu oddi arno at ei Dad (*Luc* xxiv. 50); o herwydd yma yr adnabyddid ef yn dda, ac yma yr ydoedd cyfeillion a ddymunent yn fawr gael yr olwg olaf arno â'u llygaid eu hunain. Yn Bethania yr oedd tŷ Simon y gwahanglwyfus, lle yr enneiniwyd yr Iesu (*Ioan* xii. 1); yma hefyd y claddwyd Lazarus: *Ioan* xi. Nid oes gyfeiriad at y pentref hwn yn yr Hen Destament.



DAR. 131 BETHANIA.

Y mae yr olwg arno yn bresennol yn dlodaidd; yn cynnwys o ugain i ddeg ar ugain o deuluoedd —Arabiaid a Christionogion yn gymmysg. Addurnir y gymmydogaeth yn awr fel cynt â'r ffigysbren a'r olewydden. Yn rhai o'r tai, canfyddir arwyddion o hynafiaeth. Y gwrthddrych amlycaf ydyw tŵr adfeiliedig, wedi ei adeiladu o geryg petryal mawr; ac yma y tystiai y trigolion Mahometaidd yr oedd trigfan Lazarus. Dangosir ei feddrod hefyd yn nghŵr gogleddol y pentref. Ymddengys yn ogof naturiol, wedi ei addurno â dwylaw dynion. Dywed Robinson yn benderfynol, "nad oes y tebygolrwydd lleiaf mai hwn oedd bedd Lazarus." I'r gwrthwyneb, y mae Dr. Olim yn tueddu yn gryf i roi ymddiried yn y traddodiad. Mae y fynedfa yn dair troedfedd a hanner o uchder, a dwy droedfedd o led, mewn craig galch; ac o hwn y mae disgynfa trwy saith ar ugain o risiau i ystafell dywyll, naw troedfedd petryal. Arweinir o hon i ystafell arall wyth troedfedd wrth naw. Mae hon yn gyffelyb o ran ei ffurf i hen feddrod Iuddewig. Yr enw presennol ar y pentref ydyw el-Azirezeh, y ffurf Arabaidd o enw Lazarus. Ond er fod yr enw yn wahanol, nid oes ammheuaeth nad y lle hwn ydyw yr un a Bethania gynt. Yn y flwyddyn 333, yr oedd beddgell Lazarus yn cael ei dangos. Yn y bedwaredd ganrif, adeiladwyd eglwys i drosti. Yn y ddeuddegfed ganrif, daeth yn safle mynachdy pwysig. Yn 1484, yr oedd yr eglwys uwch ben y bedd mewn bod. Er hyny, y mae Bethania wedi dirywio yn barhaus. Y farn gyffredin yw, y dylid darllen Bethania yn *Ioan* i. 28, yn lle Bethabara. Yr oedd y Bethania hon yn ail le o'r un enw, a orweddai y tu dwyreiniol i'r Iorddonen. Gwel BETHABARA.

BETH-ARBEL, [בית ארבאל]. Ni chrybwyllir am y lle hwn ond yn unig yn *Hos.* x. 14; ac ymddengys ei fod yn cael ei grybwyll yno fel amddiffynfa gadarn ac anorchfygol; ac am hyny cadarnheir y dybiaeth mai yr un ydoedd a'r Arbela y sonir am dani gan Josephus. Pentref ydoedd yn Galilea, yn agos i'r hwn yr oedd amrywiol ogofeydd amddiffynedig. Crybwyllir am danynt gyntaf mewn cyssylltiad â gorymdaith Bacchides i Iudea, yn ystod pa amser yr oedd nifer mawr o'r ffoedigion yn llochesu ynddynt; ond darfu i'r cadfridog Syriaidd wersyllu yno nes eu darostwng [*Hen. Jos.* xii. 11. 1; 1 *Mac.* ix. 2]. Mewn amseroedd diweddarach, daeth yr ogofeydd hyn yn lleoedd i ysbeilwyr ymgilio iddynt, y rhai a flinent y trigolion yn fawr. Yn ol y Talmud, yr oedd Arbel yn gorwedd rhwng Sepphoris a Tiberias [*Lightfoot's Chor. Cent.* c. 85]. Rhydd y dysgrifiad a gawn o Arbela yn Galilea le cryf i

Digitized by Google

ammheu mai yr un ydoedd a'r lle a adnabyddir yn bresennol wrth yr enw Kulat ibn Maan, ac adfeilion cyfagos Irbid (llygriad, efallai, o Irbil—ffurf Arabaidd o'r gair Arbela). Tybia Pococke [ii. 58] mai yn y lle olaf hwn y safai Bethsaida, lle y canfu golofnau ac adfeilion eglwys helaeth, gydag ymylddor o fynor gwyn. Y dysgrifiad goreu o'r ogofeydd hyn a geir gan Burckhardt [td. 331], yr hwn a gyfrifa y gallent gynnwys amddiffynfa i o ddeutu chwe chant o wŷr. Gwel BETHEL.

BETH-AFEN, [*tŷ eilunod*]: enw dirmygus a roddwyd ar Bethel, o herwydd iddi ymlygru gydag addoliad y lloi aur: *Hos.* iv. 15. Yr oedd tref hefyd o'r un enw, nid yn mhell oddi wrth Bethel, ar y tu dwyreiniol iddi (*Ios.* vii. 2; 1 *Sam.* xiii. 5), yr hyn a achosodd, efallai, i'r enw gael ei roddi ar Bethel. Yr oedd anialwch hefyd o'r enw hwn: *Ios.* xviii. 12.

BETHASMAFETH. Gwel ASMAFETH: 4.

BETH-BAAL-MEON, [*tŷ Baal-meon*]: *Ios.* xiii. 17: a elwir hefyd *Baal-meon*, yn *Num.* xxxii. 38; a *Beth-meon*, yn *Ier.* xlviii. 23. Un o ddinasoedd y Moabiaid, a roddwyd i'r Reubeniaid ydoedd. Dygwyd hi oddi ar y Reubeniaid drachefn, ac adfeddiannwyd hi gan ei hen berchenogion, y Moabiaid, yn meddiant pa rai yr oedd, dybygid, yn amser Ezeciel: *Ezec.* xxv. 9. Cyfleir y lle hwn gan Eusebius a Jerome, tua naw milltir o Hesbus, neu Hesbon, wrth droed mynydd Abarim; ond canfu Burckhardt olion tref a elwid *Myoun*, neu yn ol y Dr. Robinson, *Mâ'în*, o fewn dwy filltir i'r de ddwyrain o Hesbon.

BETH-DAGON, [*tŷ yr ŷd*, neu *y ffrwythau;* neu yn hytrach, *teml Dagon*]: dinas yn nhiriogaethau llwyth Aser: *Ios* xix. 27. Yr oedd dinas arall o'r un enw yn perthyn i lwyth Iudah. Efallai iddynt gael yr enwau yma, o herwydd fod temlau ynddynt i'r eilun-Dduw Dagon, cyn eu meddiannu gan yr Israeliaid.

BETH-DIBLATHAIM, neu BETH-DIBLAIM, [*tŷ y ffigys sychion*]: un o orsafau yr Israeliaid, ar eu taith i Ganaan, yr hon hefyd a elwir *Almon-Diblathaim*, a *Diblath*: *Ier.* xlviii. 22; *Num.* xxxiii. 46, 47; *Ezec.* vi. 14.

BETHEL, [בית אל; Deg a Thrigain, Βαιθηλ=*tŷ Dduw*]: a elwid yn gyntaf Luz—oedd ddinas yn sefyll yn y gorllewin i Ai. Crybwyllir am y lle yn fynych yn yr Ysgrythyrau. Ar y mynydd yn gyfagos i Bethel yr estynodd Abraham ei babell, ar ei ddyfodiad i'r wlad y waith gyntaf, ac yr adeiladodd allor, ac y galwodd ar enw yr Arglwydd (*Gen.* xii. 8). Yma, yn mhen 156 o flynyddoedd ar ol hyny, y cafodd Iacob weledigaeth yr ysgol, y derbyniodd yr addewidion, y gwnaeth gyfammod â Iehofah, y cymmerth y gareg y gorweddasai arni, ac a'i cyfododd yn golofn goffadwriaethol, ac a dywalltodd olew arni (*Gen.* xxviii. 11—19). Rhoddodd hefyd yr enw Bethel ar y fan; yr hwn mewn amser a ddaeth i arferiad yn lle Luz. Barna Havernick [*Intro. to the Pentateuch*], ac amryw ereill, yr hyn a ymddengys y mwyaf tebygol, nad oedd yno ddinas y pryd hyny. Sonia yr hanesydd, a Iacob ei hun, am Bethel fel *lle;* ond cyn amser Moses yr oedd yno ddinas yn adnabyddus wrth yr enw Luz, a breswylid gan y Canaaneaid; ond pan feddiannwyd y wlad gan Israel, adferwyd i'r ddinas hen enw cyssegredig y lle y safai arno. Ar ol dychweliad Iacob o Mesopotamia, pabellai yn fynych yn Bethel, adeiladodd yno allor, claddodd Deborah, derbyniodd yr enw Israel yr ail waith, a chyflawnodd yr adduned a wnaethai yno y waith gyntaf (*Gen*, xxviii. 20—22; xxxii. 28; xxxv. 1—15). Crybwyllir am Bethel, yn amser goresgyniad y wlad, fel un o ddinasoedd breninol Canaan (*Ios.* xii. 16). Safai ar derfynau rhandiroedd Beniamin ac Ephraim, ond perthynai i'r cyntaf (*Ios.* xvi. 1, 2; xviii. 13, 22); ac ennillwyd hi o law y Canaaneaid gan feibion Ioseph (*Barn.* i, 22—26). Yn Bethel y bu arch y dystiolaeth, ac efallai y tabernacl, yn gorphwys am dymmor (*Barn.* xx. 26, 27; cymharer 1 *Sam.* x. 3); ac yma, yn nghyd â Gilgal a Mispah, y cadwai Samuel ei frawdlysoedd (1 *Sam.* vii. 16). Ar ol ymraniad y genedl yn ddwy freniniaeth, perthynai Bethel i Israel; yr hyn sydd yn dangos ei bod wedi ei meddiannu gan Ephraim, am mai y llwyth hwn a'i hennillodd o law y Canaaneaid, wedi bod yn perthyn yn wreiddiol i lwyth Beniamin. Halogwyd Bethel gan eilunaddoliaeth y lloi a gyfodasai Ieroboam yno, ac yn Dan; ac ymddengys mai yn Bethel yr oedd prif eisteddle yr eilunaddoliaeth hwn (1 *Bren.* xii. 28—33). Tybir mai yr achos y dewiswyd Bethel i hyn oedd, am fod y lle wedi ei gyssegru gan y patrieirch, a chan y tabernacl. Llefara y prophwydi gydag adgasrwydd am dani, o herwydd yr halogiad hwn; a newidia Hosea ei henw o Bethel=tŷ Dduw, i Bethafen=tŷ eilunod: *Hos.* iv. 15; v. 8; x. 5, 8. Cymmerwyd y ddinas oddi ar Ieroboam gan Abïah, brenin Iudah: 2 *Cron.* xiii. 19. Wedi caethgludo Israel gan yr Assyriaid, dilewyd pob olion o'r eilunaddoliaeth gan Iosïah, brenin Iudah, yr hwn, drwy hyny, a gyflawnodd y brophwydoliaeth a wnaed i Ieroboam dri chant a hanner o flynyddoedd cyn hyny: 1 *Bren.* xiii. 1, 2; 2 *Bren.* xxiii. 15—18. Crybwyllir am y lle ar ol dychweliad y gaethglud o Babilon, ac yr oedd y pryd hyny yn meddiant y Beniaminiaid: *Ezra* ii. 28; *Neh.* vii. 32. Adgyfnerthwyd y ddinas gan Bacchides, y cadfridog Syriaidd, yn amser y Maccabeaid. Ni cheir un crybwylliad am dani yn y Testament Newydd, ond y mae yn eglur oddi wrth yr hyn a ddywed Josephus [*Hyn.* xiii. 1, 13], ei bod mewn bod y pryd hyny; a chymmerwyd hi gan Vespasian yn y rhyfeloedd Iuddewig. Dysgrifir hi gan Eusebius a Jerome fel pentref bychan yn eu hamser hwy; a dyma y crybwylliad diweddaf a geir am dani fel dinas gyfanneddol. Y mae yn wir y sonir am dani gan ysgrifenwyr yn amser rhyfeloedd y groes, ond yn unig fel lle adnabyddus mewn hanes ysgrythyrol. Y mae yr adfeilion presennol o honi yn dangos y cafodd ei hadnewyddu ar ol dyddiau Jerome; o blegid bu yn fwy na phentref bychan, fel y mae ef yn ei gosod allan; a thybir oddi wrth yr adfeilion eglwysig sydd yno, y bu yn dref lled enwog mor ddiweddar a'r canoloesoedd. Yn y canrifoedd diweddaf. chwilid am Bethel yn agos i Sichem; ond yn y blynyddoedd diweddaf, cafodd y cenadau Protestanaidd yn Ierusalem fod ei henw a'i sefyllfa yn adnabyddus yn mysg trigolion y wlad. Credir yn gyffredin ei bod yr un a Beitin, yn mynyddoedd Ephraim, yn nghylch deuddeng milltir i'r gogledd o Ierusalem, ac ychydig i'r dwyrain o'r ffordd sydd yn arwain trwy Samaria i Galilea. Safai ar dafod o dir rhwng dau ddyffryn, y rhai a ymunant islaw iddi, ac a redant i'r de-ddwyrain tua'r Iorddonen.



Digitized by Google

Y mae yma weddillion cronfa (*reservoir*) fawr, o ddeutu 314 o droedfeddi o hyd, a 217 o led. Y mae y wlad o amgylch yn dir da i'w bori a'i aredig.


Y mae gan y Rabbiniaid draddodiad fod y gareg y cysgodd Iacob arni wedi ei gosod yn nghyssegr teml Zorobabel; mai arni hi y gorphwysai arch y cyfammod; a bod yr Iuddewon, ar ol y dinystr, yn arfer sefyll arni i alaru o herwydd eu trallodion cenedlaethol. Credai y Mahometiaid fod eu teml yn Mecca wedi cael ei sylfaenu ar y gareg hon.

BETHELIAD: brodor o Bethel. "Hiel, y Betheliad, a adeiladodd Iericho;" 1 *Bren.* xvi. 34.

BETHEMEC, [*tŷ y dyfnder*]: oedd ddinas yn Zabulon, ac yn derfyn rhwng rhandiroedd Naphtali ac Aser: *Ios.* xix. 27.

BETHER, [*rhaniad*]: ni chrybwyllir am fynyddoedd Bether ond yn unig yn *Caniad Solomon* ii. 17; viii. 14. Darllena y Vulgate, "mynyddoedd y perlysiau" yn y ddau fan; a'r Cymraeg yr un modd yn y lle diweddaf: gan y Deg a Thrigain, "mynyddoedd cafnog" (*κοιλωματων*) yn y cyntaf, a "mynyddoedd perlysiau" (*αρωματων*) yn y diweddaf. Bether (בתר) ydyw yn y ddau le yn yr Hebraeg. Y mae amryw ddarlleniadau Lladin yn rhoddi "Bethel." Y mae yn eglur, gan hyny, fod cryn ansicrwydd yn bod o barth i'r hyn a feddylir wrthynt. Y farn fwyaf gyffredin yw, mai Betheron a feddylir, yr hon a elwir gan Eusebius, Bether; a chan Josephus, Bethara. Tybia ereill, mai yr un oedd a Betheron, a orweddai yn rhandir Ephraim [*Kitto's Scrip. Lands*]. Barna Parkhurst nad oedd Bether yn enw priodol ar un lle; ond mai yr ystyr yw, "mynyddoedd ysgythrog," ac mai ystyr y gair ydyw, "rhanu," neu "gwahanu."

BETHESDA, [*Βηθεσδα*; yn Syriaeg, בית חסדא =*tŷ* (*lle*) *trugaredd* neu *dosturi*]: llyn (*Ioan* v. 2) "wrth borth y defaid"—*ἐπι τῇ προβατικῇ*; dealler *πυλη*=*porth*, fel yn *Neh.* iii. 1, 32; xii. 39; nid oes un gair yn cyfateb i *farchnad* yn y gwreiddiol. Nid yw sefyllfa y porth hwn yn adnabyddus. Tybir, ar sail traddodiad, mai yr un ydyw a'r porth a elwir yn bresennol, porth St. Stephen; ond yn anghywir, o herwydd nid oedd un mur yn y cwr hwnw o'r ddinas hyd amser Agrippa



Dar. 132.

[*Robinson*, i. 472]. Yr un modd, yr arferiad ydyw, er's rhai canrifoedd, tybied mai y ceudwll mawr yn ymyl porth St Stephen ydyw Bethesda y Testament Newydd. Yr oedd dyfnder y ceudwll hwn, sef pymtheg troedfedd a thrigain, wedi dyrysu llawer; ond ni wnaeth neb ymchwiliadau manwl yn flaenorol i Dr. Robinson—yr awdurdod diweddaraf, ac ar y cyfan y goreu ar y fath bethau. Ei dystiolaeth ef ydyw "nad oes y prawf lleiaf i feddwl mai yr un ydyw a Bethesda." Nis gellir, eb efe, olrhain y traddodiad yn uwch na'r drydedd ganrif a'r ddeg. Nid yw yr hyn a dybid hyd yma yn Bethesda ond y clawdd a amddiffynai ochr ogleddol tŵr Antonia. Barn Robinson ydyw, er nad yw mor benderfynol ar hyn, fod y gwir Bethesda yr un a ffynnon uchaf Siloam, yr hon sydd yn myned yn awr wrth yr enw "Ffynnon y Forwyn."

Y mae petrusder mewn perthynas i ddilysrwydd diwedd y drydedd adnod, a'r bedwaredd, sef a ysgrifenwyd hwy gan Ioan ai peidio. Yn nhestyn Griesbach, nodir y geiriau fel yn ammheus. Y mae De Wette, Lücke, a Luthardt, yn anmherderfynol. Gwrthodir hwy gan Tischendorff a Meyer. Y mae Lachmann yn eu derbyn. Os ydynt yn chwanegiad diweddar at eiriau Ioan, gwnaed y chwanegiad yn foreu, o herwydd cyfeiria Tertullian atynt mewn modd sydd yn dangos eu bod yn y testyn yn ei amser ef.

Os ydynt yn chwanegiad, dangosiad ydynt o grediniaeth yr Iuddewon o barth i darddiad rhinwedd gwyrthiol y llyn, a'r grediniaeth hono wedi ei derbyn yn yr Eglwys Gristionogol, a'i gosod yn y lle cyntaf ar ymyl y ddalen, ac yn ddiweddarach yn y testyn. Esbonia hyn yr amrywiaeth sydd yn y gwahanol ysgriflyfrau yn y geiriau hyn. [Gwel Beirniadaeth.] Os geiriau Ioan ei hun ydynt—ac nid oes ynddynt ddim anghysson â'r dybiaeth hon, ac y mae amrywiaeth yr ysgriflyfrau yn ddigon hawdd i'w esbonio—dadganiad gan yr apostol ydynt o'r grediniaeth gyffredin—ond nid am hyny yn anghywir—am darddiad rhinwedd iachaol y llyn ar gynhyrfiad y dwfr. Nid yw yr hanes yn cynnwys fod yr angel yn *weledig*. Yn y cyssylltiad dwfn sydd rhwng achosion ac effeithiau mewn natur, y mae gosodiad a chyfryngiad Dwyfol bob amser yn bresennol i feddwl y Cristion; a chan ei fod yn credu fod yr angelion sanctaidd yn weinidogion Duw, ac yn cyflawnu ei ewyllys, ni theimla unrhyw betrusder i dderbyn yr hanes fel rhan o'r Ysgrythyr.

Prawf, medd Stier, o ddilysrwydd y geiriau, ac o natur wyrthiol y cyfan, ydyw, fod cynnifer o *gleifion o wahanol glefydau* yn gorwedd yno; a rheswm arall, medd De Wette, ydyw, fod cyssondeb yr hanes yn gofyn y geiriau hyn; o herwydd pa ham y buasai cleifion yn gorwedd yno, a pha ham y buasai y dyn mor awyddus i gael ei roddi i mewn, *oni buasai rhyw effaith adnabyddus yn dilyn cynhyrfiad y dwfr.*

BETH-ESEL, [*tŷ cymmydog*]: meddylir mai yr un lle a olygir wrth yr enw yma a Bethel. Cyfarfyddwn â'r enw yn unig yn *Micah* i. 11.

BETH-HOGLA: yr oedd dwy ddinas o'r enw yma yn cael eu crybwyll yn yr Ysgrythyrau; un yn llwyth Iudah (*Ios.* xv. 6), a'r llall yn llwyth Beniamin: *Ios.* xviii. 21.

BETH-HORON, neu BETHORON (*tŷ y digofaint*). Crybwyllir dwy ddinas o'r enw yma, y rhai a adeiladwyd gan Seerah, ŵyres Ephraim: 1 *Cron.* vii. 24. Gelwir hwynt yn Beth-horon

Digitized by Google

uchaf, a Beth-horon isaf. Barnai Dr. Clarke fod y pentref presennol, a elwir Beit-Ur, o fewn tua deuddeng milltir i Ierusalem, yn gorwedd ar hen orsaf Beth-horon uchaf. Y mae Beit-Ur isaf ar ben rhyw drum isel, yr hon a ysgerir gan ddyffryn cul oddi wrth y mynydd ar yr hwn y gorweddai Beit-Ur uchaf. Rhwng y ddwy ddinas yma yr oedd y bwlch a elwid rhiw Beth-horon, ffordd yr elid o ardal Gibeon, tua'r dyffryn gorllewinol: *Ios.* x. 10, 11; 1 *Mac.* iii. 16, 24. I'r rhiw hwn yr ymlidiai Iosuah bum brenin yr Amoriaid: *Ios.* x. 11, Cadarnhaodd Solomon y ddwy dref yma: 1 *Bren.* ix. 17; 2 *Cron.* viii. 5. Yn un o honynt yr ymosodwyd ar Nicanor, gan Iudas y Maccabeaid; ac wedi hyny fe'i cadarnhawyd gan Bacchides: 1 *Mac.* vii. 39; a ix. 50; a *Jos. Hyn. Iudd.*, xii. 10, 5; a xiii. 1, 3. Cawn hanes hefyd am Cestius Gallus, rhaglaw Rhufeinaidd Syria, iddo, ar ei gâdgyrchiad o Cesarea i Ierusalem, wedi llosgi Lydda, esgyn y mynydd ger Beth-horon, a gwersyllu yn Gibeon [*Josephus Rhyf. Iudd.*, ii. 19. 1]; ac y mae Dr. Robinson yn casglu oddi wrth y crybwylliadau hyn fod y brif ffordd o Ierusalem tua glân y môr, yn yr hen amseroedd, fel yn yr oesoedd diweddar hyn, drwy fwlch Beth-horon. Ac er nad yw y pentrefi crybwylledig ond bychain yn bresennol, y mae o'u deutu adfeilion seiliau hen furiau ac amddiffynfeydd cryfion, y rhai a gyfodid gynt i warchod y bwlch yma.

Y mae Wylie, yn ei waith, *Modern Judea*, yn rhoddi y dysgrifiad canlynol o'r lle:—"Y mae yn gyflëedig ar uchelfa, o'r lle y gwelir dyffrynoedd breision a gwrteithiedig ar bob llaw: y bryniau ydynt wedi eu gorchuddio gan olewydd a ffigyswydd; a'r dyffrynoedd ydynt wedi eu tryfritho gan feusydd ŷd a gwinllanoedd; ac ambell i lanerch o gyttir anniwylliedig sydd yn cael ei orchuddio gan y derw pigog prydferth, a blodau gwylltion. Y mae yr ysmotyn yma yn dysgleirio fel gem yn nghanol anghyfannedd-dra Iudea."

BETH-IESIMOTH, [*tŷ yr anghyfannedd-dra*]: dinas berthynol i lwyth Reuben (*Ios.* xiii. 20); a feddiannwyd wedi hyny gan y Moabiaid. Rhagfynegwyd dinystr hon, a dinasoedd ereill Moab, gan Ezeciel: *pen.* xxv. 8. Cyflëid hi gan Eusebius, ddeng milltir oddi wrth yr Iorddonen."

BETH-LEBAOTH, [*tŷ y llewesau*]: a elwid hefyd ambell i waith, *Lebaoth.* Enw tref oedd wedi cael ei rhoddi ar y cyntaf i lwyth Iudah (*Ios.* xv. 32); ond wedi hyny, a roddwyd i lwyth Simeon: *Ios.* xix. 6.

1. BETHLEHEM, בית לחם=*tŷ bara*, neu *dŷ rhyfel*]: tref fechan, yn rhandir Iudah, sydd yn ddigon hysbys fel lle genedigaeth yr Iachawdwr. Gelwir y dref hon, ambell i waith, yn Bethlehem Iudah, i'w gwahaniaethu, y mae yn debyg, oddi wrth dref o'r un enw yn rhandir Zabulon: *Ios.* xix. 15; *Micah* v. 2. Gelwir hi hefyd Bethlehem Ephratah, oddi wrth Ephrath, neu Ephratah, ei henw cyntefig—ystyr yr hwn yw, *cyflawnder, dygydd ffrwyth*, neu *cynnyddol.* Y mae yn sefyll ar godiad tir, uwch ben dyffryn ffrwythlawn, tua chwe milltir i'r deheu o Ierusalem, ar y ffordd i Gaza. Ni bu erioed yn dref fawr, nac yn un bwysig; ac ni bu ychwaith erioed yn hynod am luosogrwydd ei phreswylwyr, nac am gyfoeth y rhai a drigent ynddi; ond ganwyd ynddi rai dynion enwog cyn genedigaeth y Ceidwad ynddi, megys Ibzan, Elimelech, Boaz, a Dafydd—dyna pa ham y mae yn cael ei galw "dinas Dafydd;" *Luc* ii. 11. Ond yr hyn sydd wedi anfarwoli Bethlehem Iudah yw genedigaeth Crist yr Arglwydd ynddi.

Yn agos i'r lle yma, yr hwn y pryd hyny a elwid Ephrath, y bu farw Rahel, hoff wraig Iacob, pan oedd y patriarch yn teithio o Bethel: *Gen.* xxxv. 19; xlviii. 7. Wedi hyny, nid oes un son am y dref ond yn amser genedigaeth Ibzan, un o farnwyr Israel, hyd amser Boaz, pan y darfu i Naomi ddychwelwyd yno gyda Ruth: *Ruth* i. 19. Yn y dref hon y cyflawnodd Samuel y seremoni bwysig o eneinio Dafydd yn frenin ar Israel: 1 *Sam.* xvi. 4—13. Yr oedd hefyd yn un o'r manau a amgaerodd Rehoboam, wedi gwrthryfeliad y deg llwyth: 2 *Cron.* xi. 6.

Yr oedd Bethlehem wedi cael ei rhagfynegu gan y prophwyd Micah, fel lle genedigaeth y Messïah, saith gan mlynedd cyn i hyny gymmeryd lle: *Micah* v. 2. Meddylia y dywediad "bychan yn mhlith miloedd Iudah," yn mhlith teuluoedd a dinasoedd Iudah; ac y mae yn cael ei gymmeryd oddi wrth raniad cyntaf y bobl i filoedd, cannoedd, a rhaniadau israddol ereill. Yr oedd pob llwyth wedi cael ei ranu i filoedd, dros y rhai y llywyddai arweinydd i'w llywodraethu mewn rhyfel. Nid oedd Bethlehem yn ddigon poblogaidd i gael ei chyfrif fel un o'r miloedd yma, nac i gael ei rhifo ar ei phen ei hun yn erbyn y gelyn. Yr oedd yr Iuddewon yn cofio prophwydoliaeth Micah yn barhaus, fel y gwelir oddi wrth yr ateb a gafodd Herod gan yr archoffeiriaid ac ysgrifenyddion y bobl, pan yr ymofynodd efe â hwynt pa le y genid Crist:—"Bethlehem Iudah: canys felly yr ysgrifenwyd trwy y prophwyd"—dyna oedd yr ateb parod a gafodd: *Mat.* ii. 4, 5, 6.

O h rwydd yr anrhydedd yma a roddwyd ar Bethlehem, daeth yn lle o enwogrwydd nid bychan; a hyd heddyw, y mae llawer iawn o bererinion yn talu ymweliad â hi. Dywedir fod yr ymherawdwr Hadrian wedi ceisio halogi y lle unwaith, trwy gyfodi teml, a sefydlu defodau y cyfrinion Rhufeinig, ar neu yn agos i'r man lle y ganed Crist; ac o'i ddyddiau ef hyd ddyddiau Cystenyn, meddai Jerome—sef cyfnod o wyth gant a phedwar ugain mlynedd—yr oedd Bethlehem yn cael ei mantellu â chysgod Thammuz, sef Adonis; ac yn yr ogof lle y dywedir i'r Messïah ymddangos yn faban, gwelid canlynwyr Venus. Darfu i Helena, mam Cystenyn, symmud yr adeilad yna, ac adeiladu eglwys dra phrydferth dros y gafell lle y dywedir i'r Iachawdwr gael ei eni; ac y mae hi yn aros hyd y dydd heddyw. Yn y mynachdy perthynol i'r eglwys yma, y treuliodd Jerome ran fawr o'i oes; ac yn y gafell a ddangosir fel ei areithfa, y dywedir iddo orphen y cyfieithiad Lladin o'r Ysgrythyrau a elwir y *Vulgate.*

Nid oes un lle yn Palestina a berchir yn fwy na Bethlehem, ond y Bedd Sanctaidd yn Ierusalem; ac fel y gellid dysgwyl, y mae lleoedd traddodiadol yn cael eu dangos o'u cwmpas, yr hyn sydd yn dangos fod darfelydd yr hen fynachod mor doreithiog yma ag yn y manau ereill sydd wedi cael eu cyssegru gan hanes prynedigaeth dyn a chofnodion yr eglwys. Wrth fyned yn mlaen o Bethlehem, wrth y glwyd, yn agos i balas Dafydd, y mae y ffordd yn myned dros ddyffryn Hinnom, ac yn croesi y bryn gyferbyn a Sïon, ar y deheu. Ar y ffordd yma y mae Cafell Elias, o ddeutu taith awr o'r ddinas. Perthyna i fynachod Groegaidd; ac y mae offeiriaid yr urdd

Digitized by Google

hono, rhag bod ar ol y Pabyddion—y rhai sydd yn dangos mewn cymmaint o fanau ol dwylaw, traed, bodiau, a bysedd Crist—yn dangos yma ol *corff cyfan* Elias mewn careg galed! Oddi yma yr ydym yn myned i ddyffryn Rephaim, yr hwn sydd wedi cael ei enwogi fel maes buddugoliaethau Dafydd; ac y mae ystori neillduol yn ei gyssylltu â gweinidogaeth yr Iachawdwr. Y mae dywediad traddodiadol fod yr Iachawdwr yn myned heibio yno un diwrnod, ac iddo weled dyn yn hau. Gofynodd iddo pa ham yr oedd efe yn hau. Atebodd y dyn yn wawdus ei fod yn hau ceryg bychain. "Yna," ebe yr Iesu wrtho, "tydi a gei fedi yr un hadau ag a heuaist"—yr hyn a wireddwyd yn llythyrenol, gan mai cnwd mawr o geryg oedd cynnyrch y maes! Wrth agosau at Bethlehem, ychydig oddi wrth y ffordd, dangosir bedd Rachel; ond y mae man ei chladdedigaeth wedi ei guddio yn awr gan adeilad Fahometaidd, cyffelyb i feddfeini y saint a thywysogion yn yr Aipht ac Arabia—yn lle colofn, fel y dywed Moses, bychan, a phedaironglog ydyw; ac y mae cromen (*dome*) uwch ei ben. Perchir yr adeilad yn ogymmaint gan Iuddewon, Cristionogion, a Mahometiaid; ac nid annhebyg yw mai amcan yr adeiladaeth oedd, amgau colofn, neu ddarn o golofn, ar y man y dywed traddodiad y safai colofn bedd Rachel. Ar ochr orllewinol y pentref, dangosir ffynnon Bethlehem, yr hon a elwir "ffynnon Dafydd;" o herwydd syched mawr Dafydd am ei dwfr, i gyrhaedd yr hon yr aeth tri o'r prif ryfelwyr trwy wersyll y Philistiaid: 2 *Sam.* xxiii. 15. Ychydig yn mhellach, y mae gweddillion hen ddyfrffosydd, ag oedd, meddant, yn waith y brenin Solomon, i gario dwfr o'r llynoedd a elwir ar ei enw i Ierusalem. Dywed Maundrell, mai tri o lynoedd yw y rhai hyn, a'u bod wedi cael eu llunio uwch law eu gilydd, fel y gallai y dwfr ddisgyn o'r naill i'r llall. Y mae y ffynnon ag sydd yn diwallu y llynoedd yma tua chant a deugain o latheni oddi wrthynt; a haera y mynachod mai hon yw y "ffynnon seliedig" a grybwyllir yn Nghân y Caniadau (iv. 12).

Ar y ffordd sydd yn myned i Bethlehem, dengys y mynachod, heb sail yn y byd, yr ystabl y ganwyd Crist ynddi, yr hon sydd o dan graig fawr, â'r eglwys a grybwyllwyd eisoes wedi ei hadeiladu arni. Yn y dref, dangosir tŷ Simon, a'r tŷ o'r hwn y rhybuddiwyd Ioseph i ffoi tua'r Aipht rhag llid Herod. Yn y gymmydogaeth, dangosir yr ogof yn yr hon y torodd Dafydd gŵr mantell Saul; anialwch Ioan Fedyddiwr; a maes y bugeiliaid. Ychydig ffordd o'r fan hon, dangosir preswylfa y bugeiliaid, yr hwn sydd yn gynnwysedig o nifer o ogofäau, y rhai hyd heddyw sydd yn cael eu defnyddio fel cysgodle nosawl gan fugeiliaid y wlad, a chan y praidd hefyd. Adeiladwyd eglwys yma gan Helena; ond nid oes dim olion o honi i'w gweled yn bresennol. Dangosir yn Bethlehem hefyd gafelloedd neu gapeli St. Ioseph; capeli y Diniweidiaid Sanctaidd, a adeiladwyd uwch ben lle eu claddedigaeth; capeli St. Eusebius, o Cremona; capeli St. Paula, a St. Eustasia, y fam a'r ferch Rufeinig ag oeddynt ddisgynyddion oddi wrth Gracchus a Scipio. Yn mhalmant Capel yr Enedigaeth, dangosir seren ddarnseidiog, yr hon, meddir, sydd yn nodi man cywir genedigaeth Crist, ac yn gorphwys yn gymhwys dan y pwynt hwnw o'r nefoedd lle y safodd seren y dwyrain ar ei thaith, er cyfarwyddo y doethion at wrthddrych eu hymchwillad. Dadleua y Pabyddion, gyda llawer o ynfyd bethau ereill, mai yma y syrthiodd y seren o'r nefoedd, gan suddo i'r ddaiar. Dywedir fod lle cyfatebol i hwn yn cael ei ddangos gynt rhwng Bethlehem a Ierusalem, lle yr ail welodd y doethion y seren ar ol ei cholli, yr hwn oedd wrth y fan lle y cymmerodd yr angel Habaccuc gerfydd gwallt ei ben i gario bwyd i Daniel, pan yn ffau y llewod?

Y mae Bethlehem o hyd yn cadw ei hen enw, yr hwn a gynanir fel hyn gan yr Arabiaid—*Beitlaheim*, neu *Beital-heim*. Saif mewn man prydferth iawn, ar godiad tir, fel y sylwyd eisoes, yr hwn sydd gyfansoddedig o farmbridd (*chalky soil*); ac ystyrir awyr y lle yn iachus iawn gan y trigolion. Y mae y wlad oddi amgylch wedi cael ei gwisgo yn gyfoethog gan olewydd, ffigyswydd, a gwinwydd; ac y mae afonig fechan yn rhedeg trwy y dyffryn is law. Y mae llethrau y bryn, ar yr hwn y saif y pentref, wedi eu britho â gwinllanoedd, y rhai sydd yn cynnyrchu grawnsypiau mawrion, o archwaeth ddymunol iawn. Y mae peth ŷd yn cael ei godi yn y dyffrynoedd; ac y mae y bara a wneir o hono, wedi ei grasu ar lechau poethion, yn flasus iawn. Nid oes yn y pentref ond un heol, yn ymestyn ar draws y llethr; ac y mae yn edrych yn lanach a mwy cysurus na phentrefydd cyffredin y dwyrain. "Y newyddbeth cyntaf oll braidd a'm tarawodd i wrth fyned i'r lle," meddai Mr. Buckingham, "oedd gweled y Cristionogion—am nad oedd un Mahometiad, braidd, yn trigo yn agos atynt—yn gwisgo penrwymau gwynion ac amliwiedig yn hollol ddigosp; tra, yn Ierusalem, ni feiddiai un o ddeiliaid Cristionogol Twrci wisgo dim ond glas, heb fod mewn perygl o golli ei ben."

Poblogrwydd Bethlehem, yn ol Ali Bey, yw chwe chant o ddynion cymhwys i ddwyn arfau. Rhifai Parsons fil o Babyddion yno—yr un nifer o Gristionogion Groegaidd; ac ychydig o Armeniaid a Thyrciaid.

Y mae Bethlehem, fel rhan o'r "Lleoedd Sanctaidd," wedi bod yn destyn llawer o siarad, dadleu, a rhyfel hefyd. Y mae Eglwys Groeg ac Eglwys Rhufain wedi bod yn eiddigeddus iawn y naill o'r llall, o herwydd arian y pererinion; ac yn fynych iawn, cyn hyn, wedi lliwio cafell genedigaeth Tywysyg Heddwch â gwaed eu gilydd! Yn Nghafell yr Enedigaeth, y mae cawell cyssegredig, sef cafn o farmor gwyn; ac uwch ben yr allor, yr oedd seren arian, na wyddid er's pa bryd, â'r geiriau yma arni:—*Hic, de Virgine Maria, Jesus Christus natus est*=Yma, o'r Forwyn Fair, y ganwyd Iesu Grist. Yn y flwyddyn 1847, pan oedd dadleu mawr am y gafell, tra yr oedd y Groegiaid yn ei meddiannu, collwyd y seren yma yn ddisymwth; a'r Lladinwyr a gyhuddasant y Groegiaid o'i lladrata. Buasai hyn oll, efallai, yn terfynu fel llawer ffrwgwd arall rhwng y ddwy eglwys, oni buasai fod Ffrainc yn pleidio y Lladinwyr, a Rwssia yn pleidio y Groegiaid, ac wedi cymmeryd y mater i fyny yn lled boeth. Cyrhaeddodd i raddau mor uchel yn 1850, nes iddo dynu sylw Ewrop, ac i'r Sultan roddi seren arian newydd yn Nghafell yr Enedigaeth, a gwneuthur ei oreu i foddloni Ffrainc a Rwssia. Methodd, a thorodd allan y rhyfel a gofir yn ein hanes am byth.

"O Beth'lem fach! er nad oedd genyt ti
Y tyrau uchel, a'r amgaerog fri,
A greant urddas y dinasoedd mawr,
A frithant furiau y daiarol lawr—
Mwy yw dy fri na Rhufain fawr ei dawn,
Ac Athen hefyd, a'u hynodion llawn:—
Caed ynot orchest a'u try oll i wawd—
Anfeidrol orchest—sef ein Duw mewn cnawd!"

Digitized by Google

2. BETHLEHEM: tref yn perthyn i lwyth Zabulon (*Ios.* xix. 15), sefyllfa yr hon nid yw yn awr yn adnabyddus.

BETHLEHEMIAID: dinasyddion neu frodorion Bethlehem, megys "Elhanan, mab Iaareoregim, y *Bethlehemiad*, a darawodd frawd Goliath y Gethiaid;" 2 *Sam.* xxi. 19.

BETH-MANS: pentref o Galilea, rhwng Sephoris a Tiberias. Dywed Josephus ei fod bedair ystâd o'r olaf. Meddylia Dr. Lightfoot mai yr un a Beth-Meon y *Talmud* ydyw.

BETH-NIMRAH, [*tŷ y llewpart*]: enw lle a amgaerwyd gan lwyth Gad: *Num.* xxxii. 36. Safai i'r dwyrain oddi wrth yr Iorddonen, ac o ddeutu pum milltir o Betharan. Dywed Calmet mai yr un a Nimrim ydoedd—tref a elwid felly oddi wrth afonig o'r enw hwnw, a grybwyllir gan Ieremïah (*pen.* xlviii. 34); a gosodir hi ganddo bum milltir o Bethsaida.

BETHPEOR, [*tŷ yr agoriad;* neu *deml Peor*]: dinas yn rhandir llwyth Reuben: *Deut.* iv. 46. Arwydda Peor, *agen, hollt, agoriad.* Gallasai gael yr enw hwn oddi wrth agen mewn mynydd neu fryn cyfagos; neu oddi wrth agen yn y ddaiar, cyffelyb i'r agen y sonia Lucian am dani yn nheml Hierapolis. Yr oedd yn arferiad blynyddol i dywallt i'r agen hon, medd yr hanesydd, swm mawr o ddwfr, er coffadwriaeth, fel y tybir, am y dylif. Yr oedd hefyd agen o'r fath yn nheml Apollo yn Delphi, o'r hon y cyfodai y mygdarth a drosglwyddai ysbrydoliaeth y duw i'r offeiriades a eisteddai uwch law iddo.

BETHPHAGE, [Βηθφαγη=*tŷ ffigys*]: pentref bychan ar y ffordd o Iericho i Bethania: *Mat.* xxi. 1; *Luc* xix. 29. Gorweddai, y mae yn debygol, yn gyfagos i'r lle diweddaf, ychydig islaw iddo i'r dwyrain. Gellid tybied, oddi wrth *Luc* xix. 29, fod Bethphage a Bethania yn lled agos i'w gilydd, am mai i Bethphage y deuai yr ymdeithydd gyntaf wrth fyned o Iericho i Ierusalem. Felly, y mae Calmet ac ereill yn camsynied wrth roddi Bethphage rhwng Bethania a Ierusalem. Dywed Epiphanius [*Adv. Hæres.*] fod hen ffordd i Ierusalem o Iericho trwy Bethphage a Bethania, a Mynydd yr Olewydd. Dygwydda yr enw yn fynych yn y Talmud; ac y mae yr esbonwyr Iuddewig wedi tueddu Lightfoot ac ereill i dybied ei fod yn barth o wlad, yn ymestyn o droed Mynydd yr Olewyddd hyd derfynau Ierusalem, yn yr hwn yr oedd pentref o'r un enw. Ond diammheu fod hyn yn anghywir.

BETH-PHELET, neu BETH-PALET, [*tŷ y rhyddhad*]: enw dinas yn Iudah: *Ios.* xv. 27: *Neh.* xi. 26. Mae cyseiriad yn yr enw, medd Calmet, at naill ai teml rhyddhad gwragedd yn esgor, neu deml yr ymnoddai ffoaduriaid, a rhai ar ddarfod am danynt, ynddi; ac felly ei bod yn arwyddo "teml y Duw sydd yn gwaredu rhag dinystr;" neu, efallai, "teml y duw a waredwyd rhag dinystr," sef Noah.

BETH-REHOB, [*tŷ rhyddid*]: a elwir hefyd Rehob; oedd bentref ar derfyn gogleddol Palestina (*Num.* xiii. 21), heb fod neppell o Dan (*Barn.* xviii. 27, 29). Rhoddwyd ef i lwyth Aser (*Ios.* xix. 28); a pherthynai i'r Lefiaid (*Ios.* xxi. 31; 1 *Cron.* vi. 75. Nid ymddengys fod yr Israeliaid wedi cael meddiant o honi erioed. Cymh. *Barn.* i. 31, â 2 *Sam.* x. 6. 8.

BETHSAIDA, [*tŷ pysgota*]. Y farn gywiraf ydyw fod dau le o'r enw. Addefir fod anhawsderau anorfod yn ein cyfarfod yn y crybwyllion Ysgrythyrol am Bethsaida, oddi eithr credu hyn. Yr oedd un Bethsaida yn sefyll ar ochr orllewinol llyn Tiberias, ac heb fod yn mhell o Capernaum: *Marc* vi. 45; viii. 22. Hon oedd ddinas Andreas a Phedr, a Phylip, a'r hon y trigai yr Iesu ynddi yn fynych. Dywedir hefyd fod Iesu Grist wedi porthi y pum mil mewn lle anghyfannedd yn perthyn i'r ddinas a elwir Bethsaida (*Luc* ix. 10); ond y mae yn eglur (cymharer *Mat.* xiv. 13; *Marc* vi. 42, 45) fod y dygwyddiad hwn wedi cymmeryd lle, nid yn Galilea, ond ar ochr ddwyreiniol y llyn. Y mae y gyntaf, dinas Andreas a Phedr, yr hon a gynnwysid yn nhynged Capernaum a Chorazin, heb ddim o'i holion. Helaethwyd y ddiweddaf gan Phylip y tetrarch, yn fuan ar ol amser genedigaeth Crist; a hi a dderbyniodd yr enw Julias, er anrhydedd i Julia, merch Augustus. Cafwyd ei gweddillion yn agos i ben gogleddol llyn Tiberias. Gorchuddir y lle gan adfeilion mawrion, ac edrychir arno fel math o brif ddinas gan yr Arabiaid cymmydogaethol. Nid ydyw yr hen enw yn arferedig yn bresennol. Y mae yn fater teilwng o ystyriaeth, gan mai wrth yr enw Julias y gelwid y Bethsaida hon yn nyddiau ein Harglwydd, pa ham nad enwir hi felly yn yr efengylau; gan fod eu hysgrifenwyr yn dangos y wybodaeth fwyaf manwl am amgylchiadau yr oes. Yr atebiad yw hyn—er fod Phylip wedi ei helaethu o fod yn bentref bychan i fod yn ddinas led enwog, a'i galw Julias, er anrhydedd i Julia, merch Augustus, eto, cyn pen llawer o flynyddoedd, alltudiwyd Julia o'i gwlad gan ei thad ei hun. Daeth aflendid y ferch hon mor ysgeler a chyhoeddus, fel yr oedd anrhydedd Augustus, a gafodd glwyf mor ddwfn trwy hyn yn ei wneyd yn bryderus am i'r byd anghofio ei bod yn ferch iddo. Ac wedi marwolaeth ei thad traddodwyd hi gan Tiberius, i'r hwn y buasai yn wraig, i'r sefyllfa fwyaf isel. Ac fel hyn, oddi ar barch i'r ymherawdwr, ymwrthodasant a'r enw Julias am ddau deyrnasiad, a galwyd hi wrth yr hen enw Bethsaida. Mewn amseroedd diweddarach adferwyd yr enw Julias, fel y gwelir oddi wrth y rhestr a rydd Pliny o enwau dinasoedd Iuddewig.

BETH-SEAN, [בית שאן=*tŷ gorphwysfa;* yn ol Calmet, *tŷ ifori*]: dinas yn nghylch pymtheg a thrigain o filltiroedd o Ierusalem, yn sefyll mewn dyffryn yn y gorllewin i'r Iorddonen. Y mae ar y ffordd o Ierusalem i Damascus, yn nghylch dwy filltir o'r Iorddonen, a deunaw o filltiroedd o gŵr deheuol llyn Tiberias. Gelwid hi hefyd Scythopolis, am, efallai, fod y Scythiaid wedi ymsefydlu yno yn amser Iosïah, ar eu ffordd trwy Palestina tua'r Aipht. Cadarnheir y dybiaeth hon gan y crybwylliad a wneir yn 2 *Mac.* xii. 30, am Iuddewon a drigent yn mysg y Scythiaid yn Beth-sean; a chan ddarlleniad y Deg a Thrigain o *Barn.* i. 27; "Beth-sean, yr hon yw dinas y Scythiaid" (Σκυθων πολις). A bernir fod y dybiaeth fod Scythiaid yn trigo yn Palestina yn gwneyd *Col.* iii. 11, y lle yr enwir y Scythiaid gyda'r Iuddew a'r Groegwyr, yn fwy dealladwy. Ond gan fod Succoth yn gorwedd yn rhywle ar y dwyrain i'r Iorddonen, ac heb fod yn mhell o Beth-sean, y mae rhai, ac yn eu plith Reland a

Digitized by Google

y caniateir ei fywyd i'n gweddïau." Hyny a fu. Yn fuan wedi hyn, cyhoeddodd Beza draethawd i amddiffyn yr arferiad o gospi hereticiaid â marwolaeth.

Yn flaenorol i hyn, yr oedd rhai duwinyddion Prostestanaidd, ac Erasmus hefyd, wedi gwrthwynebu y syniad fod gan yr awdurdodau gwladol hawl i gospi hereticiaid â marwolaeth. Yr oedd Luther a Zuinglius wedi dwyn eu tystiolaeth yn erbyn hyny. Ond rhoddiad Servetus i farwolaeth gan ustusiaid Geneva, yn unig am ei opiniynau crefyddol, a wnaeth fwy na dim arall i ddwyn dynion i ystyried egwyddorion rhyddid cydwybod. Y mae Melancthon, er ei fod o duedd oddefol ei hun, ac wedi cael aflonyddu ei heddwch ei hun gan ysbryd erlidigaeth, eto, mewn llythyr at Beza, yn dadgan ei gymmeradwyaeth o farwolaeth Servetus, er ei fod yn addef fod rhai yn gweled yr amgylchiad mewn goleuni arall. Cyhoeddodd Calvin amddiffyniad o ymddygiadau ustusiaid Geneva tuag at yr heretic hwn. Ond mewn atebiad i Calvin, beiddiodd un, Sebastion Castallio, gyhoeddi traethawd bychan mewn perthynas i'r modd y mae ymddwyn tuag at hereticiaid [*De Hæreticis quomodo cum iis agendum sit variorum sententiæ.*] Cynnwysa y traethodyn hwn ddyfyniadau o'r tadau, ac o awduron diweddar ffafriol i oddefiad, heb law llythyr o'i eiddo ei hun, cyfeiriedig at Duc Würtemberg, yr hwn sydd yn fwy gwerthfawr na'r cyfan, ac yn cynnwys y rhesymau sydd erbyn hyn wedi ennill buddugoliaeth yn mhob rhan bron o Ewrop. Dengys yn eglur yr anmhosiblrwydd i orfodi crediniaeth, mor ddibwys ac aneglur ydyw llawer o'r cwestiynau sydd mewn dadl, a'r cydymdeimlad y mae gwroldeb hereticaidd yn ei gynnyrchu, yn nghyd âg ystyriaethau ereill. Cynnyrchodd y traethawd hwn deimlad dwys yn erbyn y rhai oedd yn amddiffyn erlidigaeth mewn unrhyw amgylchiad. Ymgymmerodd Beza, yr hwn fyddai yn fynych yn Geneva yn ymweled â Calvin, i amddiffyn ei gyfaill a'i achos, yr hyn a wnaeth mewn traethawd llawer mwy na'r eiddo Castalio. [*De Hæreticis a Civili Magistratu puniendis.*] Ei ymresymiad ydyw, "Fod llofruddiaeth, lladrad, a throseddau cyffelyb, yn niwediol yn unig i gymdeithas, a bod y niwed yn derfynol; ond bod yr hyn sydd yn ymdrechu i lygru addoliad a gwirionedd Duw yn cynneu tân a lysg yn ninystr tragwyddol myrddiynau o eneidiau." Ymresymai Awstin yn gyffelyb; yr oedd efe yn ei osod yn y ffurf ganlynol:— "Fod llygru Cristionogaeth yn ffynnonell i bob pechod arall, ac o ganlyniad ei fod yn haeddu cosp gyfatebol." Ac yn y ffurf yma fe ddichon y mae twyll yr ymresymiad i'w ganfod amlycaf; o herwydd y cwestiwn yw, "A ydyw y llywodraeth wladol wedi ei galw i sychu i fyny ffynnonell pechod? ac hefyd, A oes ganddi y moddion i wneyd hyny? Yn ddiweddarach yn ei oes, cyhoeddodd Beza draethawd ar hawl yr awdurdod wladol [*De Jure Magistratuum*, 1572], yn yr hwn y mae yn gosod i lawr egwyddorion rhyddid gwladol a chrefyddol, ac iawnderau cydwybod. Yn ystod ei arosiad yn Lausanne, ysgrifenodd amryw bethau ereill; ac i'r ysbaid hwn y perthyna hefyd ei gyfieithiad Lladin o'r Testament Newydd, yr hwn a orphenwyd yn 1556, ac a argraffwyd yn Paris yn 1557, gan R. Stephens. Ystyrir argraffiad Caergrawnt, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1642, y goreu. Cynnwysa hwn esboniad Camerarius, heb law lluaws o nodiadau gan y cyfieithydd ei hun.

Yn 1559, gadawodd Beza Lausanne, ac aeth i Geneva i fyw.

Ar adnabyddiaeth gwell o Calvin, cynnyddodd ei barch iddo yn fawr. Anfynych yr ymadawai o'i gyfeillach; a dysgodd lawer ganddo mewn duwinyddiaeth a threfniadau eglwysig. Tua'r pryd hwn yr ordeiniwyd ef yn weinidog; ac ar ddymuniad Calvin, cafodd ei wneyd yn ddinesydd o Geneva. Cafodd ei benodi hefyd i gynnorthwyo Calvin, trwy roddi darlithau duwinyddol; ac ar ymwrthodiad Calvin â'r swydd, gwnaed ef yn llywydd yr athrofa neu y brifysgol a sefydlwyd gan y llywodraeth. Ar gais Protestaniaid Ffrainc, cymmerodd daith i Nerac, er mwyn ennill brenin Navarre at Brotestaniaeth—neu, o'r hyn lleiaf, i'w noddi yn ngwyneb erlidigaethau. Llwyddodd yn ei ymdrech; a pharhaodd yno i bregethu hyd ddechreu y flwyddyn 1561: ac yn Awst y flwyddyn hono, ar ddymuniad brenin Navarre, aeth i gynnadledd Poissy, i geisio cymmodi eglwysi Pabaidd a Phrostanaidd Ffrainc. Beza a gymmerai y blaen ar ran yr olaf; ac ymddengys iddo wneyd argraff ffafriol ar Catherine de Medici, a Cardinal Lorrain. Ceisiodd Catherine ganddo aros yn Ffrainc, o herwydd y tybiai y byddai ei bresennoldeb yn foddion i gadw heddwch, a bod gan ei wlad enedigol yr hawl oreu i'w wasanaeth. Cydsyniodd; ac ar ol cyhoeddiad o ddeddf goddefiad, yn 1562, pregethai yn fynych yn nghymmydogaeth Paris. Ond nid oedd y goddefiad hwn ond o fyr barhad; rhoddwyd terfyn iddo trwy gyflafan Vassy, a'r rhyfel cartrefol a ddilynodd. Yn niwedd y rhyfel, dychwelodd Beza i Geneva. Yn 1564, ar farwolaeth Calvin, penodwyd ef yn athraw duwinyddiaeth; a chymmerodd un i'w gynnorthwyo, megys y bu yntau yn gynnorthwy i Calvin:—yn ddiweddarach, Antoine La Faye a gyflawnodd y swydd hon. Ysgrifenodd yn ddiwyd, a chyhoeddodd lawer am ychydig flynyddoedd wedi ei ddychweliad i Geneva. Cafodd, nid yn unig le, ond dylanwad Calvin; ac o hyny allan, ystyrid ef yn arweinydd Eglwys Geneva. Yn 1571, dymunwyd arno fod yn bresennol yn nghymmanfa gyffredinol Protestaniaid Ffrainc, yn Rochelle: dewiswyd ef yn llywydd; ac yn y Gymmanfa hono ffurfiwyd Cyffes Ffydd Eglwys Brotestanaidd Ffrainc. Cymmerodd Beza ran mewn amryw gymmanfaoedd ereill, nad yw yn angenrheidiol eu henwi, gan nad ydynt yn gyssylltiedig â chanlyniadau pwysig.

Ar ol cyflafan St Bartholomew, yn 1572, dangosodd Beza ei hun yn barod i gynnorthwyo y Protestaniaid a ffoisant i Geneva. Cynnaliodd, medd La Faye, ddeg a deugain o weinidogion, heb law ereill, am dair blynedd, trwy y rhoddion a gasglodd yn Lloegr, Germany, a Ffrainc. Bu farw ei wraig gyntaf, yn 1588; ac yn mhen ychydig fisoedd, priododd eilwaith, i'r hyn yr oedd yn ddyledus am lawer o gysuron yn ei flyneddoedd olaf. Yn 1598, rhoddodd i fyny ei swydd yn yr athrofa; a phregethodd y tro diweddaf, Ionawr 13, 1600. Lledaenodd y Jesuitiaid y chwedl ei fod wedi marw, a hyny mewn cymmod â'r Eglwys Babaidd. Atebodd yntau mewn dwy gân—un yn erbyn yr urdd yn gyffredinol, a'r llall yn erbyn y person neillduol y tybiai efe oedd wedi dyfeisio y chwedl. Dywed La Faye, fod dau o weinidogion Geneva yn ymweled âg ef bob dydd, tua diwedd ei oes, o barch iddo; ac y byddai holl gorff y gweinidogion yn gwneyd hyny weithiau. Bu farw Hydref 13, 1605. Am gyrbwylliad o'r ysgriflyfr sydd yn myned ar ei enw, sef y *Codex Cantabrigiensis* [C], yr hwn a gafodd

Digitized by Google

yn y dyddiau yma, yn ei gyssylltiad â'r rhyfel presennol, fel nawddle y milwyr archolledig.

BLAENFFRWYTH. Heb law y ddegfed ran o ffrwyth y ddaiar ag oedd wedi ei neillduo gan Dduw at gynnaliaeth y Lefiaid, yr oedd wedi gorchymyn i gyntafanedig dyn ac anifail, a blaenffrwyth eu coed, a chynnyrch eu tir, i fod yn gyssegredig i'w hoffrymu iddo, mewn coffadwriaeth am y dinystr a fu yn yr Aipht cyn ymadawdiad Israel oddi yno, pryd "y lladdodd yr Arglwydd bob cyntafanedig yn Ngwlad yr Aipht, o gyntafanedig dyn hyd gyntafanedig anifail;" ac fel cydnabyddiaeth mai pobl neillduedig iddo ef oedd y genedl, ac mai ei eiddo ef oedd y tir a roddwyd iddynt i'w feddiannu: *Exod.* xiii. 12, 15; *Num.* xviii. 12, 13, 15. Gwel CYNTAFANEDIG. Yr oedd y degwm i fod at wasanaeth y Lefiaid yn gyffredinol, ond yr oedd y blaenffrwyth i fod yn eiddo i'r offeiriaid, meibion Aaron, yn neillduol: *Num.* xviii. 7, 21. "Holl oreuon yr olew, a holl oreuon y gwin a'r ŷd, sef eu blaenffrwyth hwynt, yr hwn a roddant i'r Arglwydd, a roddais i ti;" *Num.* xviii. 12; *Deut.* xviii. 4. Yr hyn a roddid yn offrwm i'r Arglwydd o ffrwyth y coed oedd cynnyrch y bedwaredd flwyddyn, a'r bummed flwyddyn yr oeddynt i gael eu defnyddio ganddynt eu hunain. Am y tair blynedd cyntaf yr oedd ffrwyth y tir i gael ei gyfrif yn "ddienwaededig;" *Lef.* xix. 23—25. Tybia rhai fod y ddeddf hon wedi ei gosod mewn gwrthgyferbyniad i genedloedd eilunaddolgar a arferent offrymu ffrwythau blynyddoedd cyntaf eu coed yn nhemlau eu gau dduwiau, i'r dyben i sicrhau nawdd eu duwiau ar y coed, rhag iddynt ddiflanu a phallu rhoi ffrwyth rhag llaw. Dywed ereill fod buddioldeb y ddeddf hon yn amlwg, am nad yw ffrwythau coed rhy ieuainc yn iachus i'w bwyta; ac hefyd, am fod gadael iddynt ffrwytho yn y tair blynedd cyntaf yn niweidiol i'r coed eu hunain, gan ei fod yn eu gwanychu fel na bydd iddynt gynnyddu mor gyflym, na dwyn ffrwyth mor doreithiog yn y blynyddoedd dyfodol; mai y peth goreu yw tynu ymaith y blodeu, a bod yr ymadrodd, "cyfrifwch yn ddienwaededig ei ffrwyth ef," yn rhoddi amnaid o'r priodoldeb o hyny.

Yr oedd blaenffrwyth y coed i gael ei offrymu gan bob un a'u perchenogai ar ei ben ei hun, ond un ysgub blaenffrwyth yr ŷd a offrymid yn gyhoeddus dros yr holl genedl, a hyny ar yr ail ddydd, "tranoeth wedi y Sabbath," o ŵyl y bara croyw, yn nechreu cynauaf yr haidd: *Lef.* xxiii. 10, 11. Wedi medi ysgub o haidd ar y diwrnod hwnw, dygid hi i'r cyntedd nesaf allan i'r babell, neu y deml wedi hyny, lle y dyrnid hi; yna cymmerid llonaid omer o'r grawn, a chresid ef; yn ganlynol, melid ef, a chymmysgid olew a thus âg ef; wedi hyny, cyhwfanid ef ger bron yr Arglwydd tua'r pedwar gwynt, a chymmerai yr offeiriad ddyrnaid o hono, a llosgai ef ar yr allor bres; a byddai y gweddill yn eiddo ef ei hun: *Lef.* ii. 14—16. Ar y dydd y cyhwfanid yr ysgub, offryment hefyd "oen blwydd, perffaith gwbl, yn boeth offrwm i'r Arglwydd,' yn nghyd â bwyd offrwm "wedi ei gymmysgu âg olew," "a diod offrwm o win;" *Lef.* xxiii. 10—13. Wedi hyn, yr oedd rhyddid i bawb ddechreu ar eu cynauaf. Dywedir fod cyhwfanu neu ysgwyd y blaenffrwyth tua'r pedwar gwynt yn gydnabyddiaeth mai eu Duw hwy oedd Arglwydd yr holl ddaiar. Tranoeth wedi y seithfed Sabbath, yn mhen deng niwrnod a deugain wedi dwyn "ysgub y cyhwfan," yr oedd yn rhaid iddynt offrymu "bwyd offrwm newydd i'r Arglwydd." Yr oedd hyn yn cymmeryd lle yn niwedd y cynauaf, fel cydnabyddiaeth o ddaioni Duw. Dyma oedd Gŵyl y Pentecost, yr hon a elwir yn yr Hen Destament yn Wyl yr Wythnosau: *Exod.* xxxiv. 22; *Deut.* xvi. 10—17: Gŵyl y Cynauaf: *Exod.* xxiii. 16: a Dydd y Blaenffrwythau: *Num,* xxviii. 26. Offrymid y pryd hwn "yn flaenffrwyth i'r Arglwydd" "ddwy dorth gyhwfan," wedi eu pobi yn lefeinllyd; a "chyda'r bara saith oen blwyddiaid, perffaith gwbl, ac un bustach ieuanc, a dau hwrdd," "yn nghyd â'u bwyd offrwm a'u diod offrwm: *Lef.* xxiii. 15—18. Dywed Scott, fod yr offrwm o flaenion y toes a orchymynir yn *Num.* xv. 20, i gael ei gyflwyno gan bob un a fedai gynauaf; fod yn rhaid rhoddi cyfran o hono yn offrwm dyrchafael cyn cymmeryd dim ei hunan, a'i fod i gael ei roddi i'r offeiriaid yn eu gwahanol ddinasoedd, ac nid ei ddwyn i'r tabernacl.

BLAENOR—I—AID, [*blaen*]: tywysog, arweinydd, llywydd, bugail: 2 *Cron.* vi. 5, 6; 1 *Sam.* ix. 16; x. 1; 2 *Sam.* v. 2; *Ier.* xxv. 35, 36; *Act.* i. 16; *Col.* i. 18.

"Yr offeiriaid, a blaenor y deml, a'r Saduceaid;" *Act.* iv. 1; v. 24, 26. Gr. *στρατηγος του ιερου.* Tybia rhai mai swyddog Rhufeinig, ac arolygydd adeiladau y deml oedd hwn; ond y farn gyffredin yw, mai yr hwn oedd wedi ei osod mewn awdurdod ar y Lefiaid, i'w harolygu, a'u trefnu yn eu cylchoedd, ydoedd: a gelwir gwasanaeth y deml wrth enw milwraidd (צבא=*milwriaeth*): *Num.* viii. 24, 25. Sonir (*Luc* xxii. 3) am "flaenoriaid," y rhai, y mae yn ddiammheu, oeddynt dan awdurdod y "blaenor" y lleferir am dano yn *Act.* iv. 1. Iddynt hwy yr ymddiriedwyd cadw trefn a thawelwch yn nghyffiniau y deml. [Cymharer *Josephus Hynaf.*, xx. 6. 2; *Bell.* ii. 12, 6; 2 *Mac.* iv. 40—y lle y gelwir ef *προστατες*]. Nodir yma dri dosbarth a gymmerent dramgwydd ar Pedr ac Ioan, am eu bod yn pregethu Crist a'r adgyfodiad; —yr offeiriaid, blaenor y deml, a'r Saduceaid—a dywed Bengel, fod yn eglur mai achos y casineb a'r rhagfarn yn mhob un o'r tri oedd, rhyw deimlad yn cyfodi oddi ar beth personol. Anfoddlonid yr offeiriaid am fod dynion anllythyrenog —dynion heb gyfodi o un ysgol—yn ymwneyd â'r gwaith o addysgu yn gyhoeddus, a thrwy hyny yn darostwng uchafiaeth ac urddas yr offeiriadaeth. Y mae "blaenor y deml," yn lle edrych i mewn i natur y peth, yn cael ei ddylanwadu gan yr ymddangosiad, ac yn gweled fod y cynhwrf a wnaed gan bresennoldeb yr apostolion yn mhlith y bobl yn arwyddo yn anffafriol i ddiogelwch a heddwch y cyffredin. Ac y mae y Saduceaid, yn lle talu sylw i'r profion o adgyfodiad Crist, yn ymgadarnhau yn eu hanghrediniaeth, ac yn ceisio dystewi y tystion o blaid yr athrawiaeth a wadent.

Yr oedd y swydd hon yn bod yn amser Dafydd: 2 *Cron.* viii. 14. Yr oedd gwylwyr neu flaenoriaid yn offeiriaid, wedi eu gosod mewn tri man; a gwylwyr y Lefiaid mewn tri ar ugain. Gelwid swyddwyr y Lefiaid, *porthorion;* ac yr oedd ar bob gwyliadwriaeth flaenor neu dywysog, ac arnynt oll bentywysog, neu gadben (*αρχηγος*). Perthynai yr holl warchodlu i lwyth Lefi, y rhai a wylient y deml a'i hamgylchoedd nos a dydd; ac y mae cyfeiriadau lluosog at y drefn hon yn y Salmau a'r prophwydi. Yr oedd swydd y "blaenor" yn cael ei hystyried yn nesaf o ran

Digitized by Google


urddas i swydd yr archoffeiriad. Heb law y blaenoriaid hyn, yr oedd gwarchodlu Rhufeinig yn nhŵr Antonia, wedi ei sefydlu yn wyliadwriaeth ar y deml: *Act.* xxi. 31, 34. Rhai o'r gwarchodlu hwn, y mae yn debyg, oedd yn cadw bedd ein Harglwydd. Y mae yr enwau a roddir ar y swyddogion hyn yn wahanol, megys *φρουαρχοι*, gan Josephus, *χιλιαρχος*, yn *Act.* xxi. 32. A'r swyddogion Iuddewig yr oedd a fyno Iudas; ond y mae yn eglur fod milwyr Rhufeinig hefyd yn dal yr Iesu oddi wrth fod y geiriau milwraidd Rhufeinig yn cael eu harfer yn yr hanes.

"Yn rhoddi parch, yn blaenori eich gilydd;" *Rhuf.* xii. 10. Y meddwl yw, medd Mede—na ddysgwyliwch barch oddi wrth ereill, ond rhoddwch ef yn gyntaf:—*προηγεομαι* a arwydda, cymmeryd y blaen, rhoddi esampl. Y meddwl, felly, yw, medd Stuart, y dylai pawb ymorchestu am ragoriaeth yn y peth hwn—rhoddi parch i ereill.

BLAGUR—O—YN, [a gyfnewidiwyd, medd Dr. Pughe, o *balgur*, o *bal*=yr hyn sydd yn taflu allan]: planigyn, eginyn. Gelwir Iesu Grist yn "Flaguryn yr Arglwydd" (*Esa.* iv. 2); "Blaguryn o wraidd Iesse" (*Esa.* xi. 1); "Blaguryn cyfiawn" (*Ier.* xxiii. 5; xxxii. 15); "a'r gŵr a'i enw Blaguryn" (*Zech.* vi. 12). Fel y mae prenau yn iaith yr Ysgrythyr yn dynodi gwŷr mawrion, a thywysogion, felly y mae blagur neu gangenau, yn dynodi eu hiliogaeth. Arferid yr un gyffelybiaeth, yn yr un ystyr, gan yr hen feirdd, megys Sophocles, Homer, Pindar, ac ereill; ac y mae y gair Saxonaidd, *imp*, yn yr iaith Seisonig, mewn arferiad cyffelyb. Y mae yr enw *blaguryn*, ar y Messïah, yn arwyddo iselder ei ymddangosiad ar y ddaiar. Nid oedd, i olwg dynol, ond fel planigyn gwan, hawdd i'w dori. Lleferir am elynion yr eglwys (*Esa.* x. 33), fel cangenau cryfion ac ardderchog, y rhai ni thorir i lawr, ond trwy lawer o nerth. Ond edrychir ar Iesu Grist fel blaguryn tyner, a phlanigyn bychan; ond er hyny, yn fuddugoliaethus ar ei holl elynion. Dywedir mai blaguryn o wraidd Iesse (*Esa.* xi. 1) ydyw, ac nid o wraidd Dafydd; yr hyn a gyfeiria y mae yn ddiammheu, at sefyllfa isel y Messïah yn ei ymddangosiad; o blegid bu Iesse fyw a marw mewn ystâd anenwog ac anghyhoedd: a gelwid Dafydd weithiau, mewn dirmyg, yn "fab Iesse;" 1 *Sam.* xxii. 7. Dywedir, "a Blaguryn a dyf o'i *wraidd* ef;" sef pan oedd gwedd isel ar dylwyth Dafydd—yr holl gangenau mawrion wedi eu cymynu ymaith, a dim yn aros ond yr hen foncyff noeth. Cymhwysa rhai y geiriau hyn at Hezecïah; ond dylid cofio fod Hezecïah, pan lefarwyd y brophwydoliaeth, wedi ei eni; na wasgarwyd gwybodaeth am Dduw yn ei deyrnasiad ef yn mhlith y Cenedloedd; ac na bu un cynnulliad neillduol ar bobloedd yn ei ddyddiau.

Y mae blaguryn (*Ezec.* viii. 17) yn arwyddlun o eilunaddoliad. "Ac wele hwy yn gosod blaguryn wrth eu trwyn." Tybir, medd A. Clarke, y cyfeirir yma at ryw gangau a garient yn eu dwylaw er anrhydedd i'w heilun, â'r rhai y gorchuddient eu hwynebau, neu y sugnent arogl dymunol. Dywed Strabo, y byddai addolwyr y tân, yn Persia, yn dal llonaid eu llaw o blanigion; ac efallai yr arferai paganiaid ddwyn gyda hwynt, pan yn addoli, gangenau o'r prenau a gyssegrwyd i'w duwiau.

BLAIDD, [Heb., זְאֵב; Gr., λυκος; Llad., *lupus*]: cidwm, gwyddgi; math o greadur pedwar troediog, rheibus, cigysol, a chreulawn iawn, o rywogaeth y ci. Y mae mor debyg i'r ci, yn ei ranau mewnol, fel nad yw y difynwyr goreu yn gallu ond yn brin eu gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd: ac i'r anghyfarwydd, o ran yr olwg allanol, y mae y blaidd yn aml yn debycach i'r ci nag ydyw y naill gi i'r llall. Y tebygrwydd cryf hwn a arweiniodd rai naturiaethwyr i edrych arnynt fel yr un a'r unrhyw, heb fwy o wahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd nag sydd yn y ffaith fod un yn wyllt a'r llall yn wâr. Y mae ymchwiliadau manylach, pa fodd bynag, wedi peri i awduron mwy diweddar eu gosod yn hollol ar wahan. Yn mhlith pethau ereill, ystyrir yr elyniaeth farwol a hanfoda rhyngddynt, yr amser chwanegol a gymmer i'r naill ragor y llall ddwyn eu rhai bach, yn nghyd â'r gwahaniaeth yn hyd eu hoes, yn rhesymau digonol dros eu cadw byth ar wahan oddi wrth eu gilydd.



Dar. 133. Blaidd Aiphtaidd.

Y mae y blaidd, yn ei gyflawn faint, a mesur o'r gynffon i flaen y trwyn, yn agos i dair troedfedd a saith modfedd o hyd; ac o ddeutu dwy droedfedd a phum modfedd o uchder. Ei liw sydd lwyd-wineu. Mae ei flew yn hirion, ac yn arw; ond yn nesaf i'r croen y mae mân-flew sydd gryn lawer yn fwy masw. Gwna ei flew iddo ymddangos yn fwy nag ydyw; ond y mae hefyd yn fwy ac yn gryfach na'r ci cyffredin mwyaf yn ein gwlad ni. O'i gymharu â'r ci—y milgi, er esampl—dywedwn fod ei goesau yn fyrach, ei ben yn fwy, ei lygaid yn llai ac yn bellach oddi wrth eu gilydd, ei glustiau heb fod mor hirion ond yn fwy syth. Y peth mwyaf neillduol yn ei ymddangosiad, yn ei wahaniaethu oddi wrth y ci, ydyw y llygad, yr hwn sydd yn agor yn gyfochrol i fyny yn yr un cyfeiriad a'r trwyn. Y mae lliw y llygaid hefyd—gwyrdd tanllyd—yn gwneyd i'r creadur hwn ymddangos mewn gwirionedd y peth ydyw—yn arswydol greulawn a pheryglus.

Fel creadur ysglyfgar, y mae natur wedi cynnysgaethu y blaidd â nerth, cyfrwysdra, a chyflymdra, yr hyn sydd anhebgorol iddo er sicrhau ysglyfaeth i dori ei angen. Nid peth anfynych ydyw iddo, er hyny, farw o newyn. Gan fod dyn wedi hir nodi y blaidd i ddinystr, y mae dan orfod i chwilio am ddiogelwch mewn coedwigoedd, ac yn mhell yn yr anialwch, lle y mae creaduriaid ereill naill ai yn rhy brin i ddiwallu ei raib, neu yn abl i wrthsefyll ei ymosodiad. Dywedir am dano, ei fod yn naturiol hurt a llwrf, nes iddo gael ei wasgu gan newyn: yna y mae eisieu yn ei wneyd yn graff, a rhaid yn ei wneyd yn wrol. Pan yn newynog, y mae yn ddigon anturiaethus i feiddio unrhyw berygl yn ei ffordd, ac i ymosod ar ei ysglyfaeth er iddo fod dan amddiffyniad dyn. Rhuthra yn ddiarbed ar ŵyn a defaid, ac hyd yn oed cwn, gan y gall yn rhwydd eu cludo ymaith. Unwaith y gwna yr hynt yma

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Google

Digitized by Google